UNIVERSITY OF WISCONSIN LIBRARY

From the Library of

The Rev. John J. Roberts
1846–1890

The Rev. John R. Jones
1890–1917

Who served 71 years as ministers
in Columbus, Wisconsin

Digitized by Google

MAR 22 1955

Ismael Parry

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google



Drawn by Wm Simpson. Engraved by Chas Lawrie

ABERYSTWITH.

FROM PEN DINAS.

BLACKIE & SON, LONDON, GLASGOW & EDINBURGH.

Digitized by Google

# CYMRU:

## YN HANESYDDOL, PARTHEDEGOL,

## A BYWGRAPHYDDOL.

Digitized by Google

# CYMRU:

## YN HANESYDDOL, PARTHEDEGOL, A BYWGRAPHYDDOL.

DAN OLYGIAD Y

PARCH. OWEN JONES.

---

YN ADDURNEDIG Â MAPIAU, A THIR-DDARLUNIAU.

---

CYFLYFR I.

LLUNDAIN:
BLACKIE A'I FAB, PATERNOSTER BUILDINGS, E.C.;
GLASGOW AC EDINBURGH.
1875.

Digitized by Google

GLASGOW:
W. G. BLACKIE AND CO., PRINTERS,
VILLAFIELD.

Digitized by Google

PB
2344
.J6
1

905538

# RHAGYMADRODD.

Y GWAITH hwn, sydd weithian wedi ei orphen, a amcanwyd i wasanaethu fel llyfr cyflawn o hyfforddiad cyffredinol ar bob peth o ddyddordeb dwfn mewn cyssylltiad â'r Dywysogaeth, dan y penau o Hanesyddiaeth, Parthofyddiaeth, a Buchofyddiaeth.

Mewn HANESYDDIAETH, cynnwysa eglurhad byr a dyddorawl ar yr holl amgylchiadau mwyaf cyhoeddus yn Hanesiaeth Wladol a Milwraidd, Crefyddol a Chymdeithasol y Genedl; ac yn wasgaredig trwy y rhai hyn, neu dan benau annibynol, rhoddir adroddiadau helaeth am frwydrau, Cylafareddau, Henafiaethau, Defodau ac Arferion, Iawnderau a Rhagorfreintiau, Sefydliadau Cyhoeddus, Urddasau ac Uchel-swyddau Gwladol ac Eglwysig—mewn gair, pob peth pwysig sydd yn cyfansoddi yr hyn a elwir yn gyffredinol HANESYDDIAETH.

Mewn PARTHOFYDDIAETH, rhoddir darluniad gwahanredol o holl siroedd Cymru, Dinasoedd, Bwrdeisdrefi, a Threfydd Corphoriaethol a Marchnadol, Plwyfau, Capeloriaethau, a Threfgyrdd; ac mewn cyssylltiad â'r rhai hyn, rhoddasom eglurhâd ar y lluaws Gweddillion Henafiaethol a ffurfiant arweddau mor hynod mewn llawer parth o'r wlad; ac o amgylch pa rai y cyd ymdyrra adgofion o ddyddordeb llëol a chyffredinol tra mawr;—o'r cyfryw y mae Meini Derwyddol, Hen Gladdfeydd, Amddiffynfeydd, Cestyll, Gwersylloedd, Mynachlogydd, Palasau, &c.

Mewn BUCHOFYDDIAETH, rhoddwyd hysbysiaeth am y rhai enwocaf a addurnasant frutiau y Dywysogaeth, ar y Maes ac yn y Cynghor-lys, yn yr Eglwys a'r Wladwriaeth; ac yn llwybrau Llenoriaeth; yn enwedig mewn Barddoniaeth a Cherddoriath. Rhoddir hysbysrwydd hefyd am hen deuluoedd pendefigaidd Cymru, a'u trâs.

Yn yr amryfal Ddosparthiadau hyn, cawsom gynnorthwy amryw o brif Lênorion y Genedl, megys y diweddar Barch. J. Emlyn Jones, LL.D.; y Parch. Richard Parry (Gwalchmai); y Parch. Thomas Levi; y Parch. J. Spinther James; Mri. D. W. Jones (Dafydd Morganwg); J. Jas. Hughes (Alfardd); W. C. Davies, &c. &c.

Byddai enwi yr holl lyfrau yr ymgynghorwyd â hwy yn mharottöad y Gwaith hwn, yn gofyn mwy o ofod nag a allwn ei hebgor; digon yw dywedyd, nad esgeuluswyd yr un o unrhyw deilyngdod, y gwyddem am danynt, ar y gwahanol destunau.

Gan fod rhai cyfeillion galluog, y rhai ar gyfrif manteision arbenig a feddent, a gymhellasid i ysgrifenu ar destunau neillduol, ac a addawsent wneyd hyny, wedi eu lluddias gan ryw achosion i gyflawni eu haddewidion o fewn unrhyw yspaid rhesymol,

Digitized by Google

bu raid i'r Golygydd o'r herwydd adael allan ychydig erthyglau oeddynt yn ei Gynllun ar y dechreu, megys *Esgobyddiaeth* a *Methodistiaeth Wesleyaidd yn Nghymru.*

Gan na chyhoeddwyd Gwaith cyffelyb i hwn o'r blaen yn yr iaith Gymraeg, nid yw yn rhyfedd os canfyddir fod yma rai diffygiadau, ac weithiau fe ddichon, gamgymeriadau; ond yr ydys yn hyderus nad ydynt yn lluosawg, nac yn bwysig.

Gan fod y Gwaith hwn wedi ei amcanu mewn rhan i fod yn Gronfa o ddefnyddiau at wasanaeth Haneswyr dyfodol, y mae yn llawen genym gael lle i gredu, trwy hysbysiadau a'n cyrhaeddasant o wahanol gyfeiriadau, ei fod eisoes wedi bod yn foddion i gymhell amryw i gymeryd mwy o ddyddordeb yn Hanes eu Cenedl, a Henafiaethau eu Gwlad; fel y mae lle i obeithio y bydd i lawer o'r Olion henafiaethol ydynt yn wasgaredig dros wyneb y Dywysogaeth, ond hyd yma yn ddi sylw, gael eu dwyn i oleuni, a thrwy eu holrhain yn ofalus, y gallant wasanaethu i egluro ein Hanesiaeth foreuol yn gyflawnach a mwy boddhaol.

Y GOLYGYDD.

Digitized by Google

# RHESTR O DDARLUNIAU.

## CYFLYFR I.


| | | TUD. |
|---|---|---|
| Parthlen arweiniol o Gymru, | Clue Map of Wales, | 1 |
| Aberystwyth, o Ben Dinas, | Aberystwith, from Pen Dinas, | *Frontis.* |
| Tref a Chastell Aber-Conwy, | Conway, Town and Castle, | 10 |
| Map o Swydd Aberteifi, | Map of Cardiganshire, | 67 |
| Map o Swydd Frycheiniog, | Map of Brecknockshire, | 189 |
| Caerdydd, o Lechwydd, | Cardiff, from Leckwith, | 216 |
| Map o Swydd Gaerfyrddin, | Map of Carmarthenshire, | 219 |
| Map o Swydd Gaer yn arfon, | Map of Carnarvonshire, | 244 |
| Castell Caer yn arfon, | Carnarvon Castle, | 256 |
| Map o Swyddi Ddinbach a Fflint, | Map of Denbigh and Flint, | 424 |
| Dinbach, o'r Cloddfeydd Cerryg, | Denbigh, from the Quarries, | 431 |
| Glyn Lledr a Moel Siabod, | Glyn Lledr and Moel Siabod, | 441 |


## CYFLYFR II.


| | | |
|---|---|---|
| Tref Mynwy, o'r Dwyrain, | Monmouth, from the East, | *Frontis.* |
| Map o Swydd Faesyfed, | Map of Radnorshire, | 236 |
| Map o Swydd Feirionydd, | Map of Merionethshire, | 254 |
| Afon Menai, | View of the Menai Straits, | 260 |
| Map o Swydd Fôn, | Map of Anglesea, | 301 |
| Map o Swydd Forganwg, | Map of Glamorganshire, | 327 |
| Map o Swydd Fynwy, | Map of Monmouthshire, | 349 |
| Map o Swydd Benfro, | Map of Pembrokeshire, | 406 |
| Castell Rhuddlan, | Rhuddlan Castle, | 476 |
| Map o Swydd Drefaldwyn, | Map of Montgomeryshire, | 537 |


Digitized by Google

Digitized by Google

# CYMRU:

## YN HANESYDDOL, PARTHEDEGOL, A BYWGRAPHYDDOL.

DAN OLYGIAD Y

## PARCH. OWEN JONES.

YN CAEL EI GYNNORTHWYO GAN Y

PARCH. J. EMLYN JONES, LL.D.
PARCH. RICHARD PARRY (GWALCHMAI).
PARCH. ROGER EDWARDS.
PARCH. ROBERT ELLIS (CYNDDELW).
PARCH. DANIEL ROWLAND, M.A.
PARCH. E. STEPHEN.
PARCH. J. SPINTHER JAMES.
PARCH. WM. REES, D.D., LIVERPOOL.
PARCH WM. DAVIES, D.D., BANGOR.
PARCH. THOMAS REES, D.D., ABERTAWE.
PARCH. THOMAS LEVI, ABERTAWE.
"DAFYDD MORGANWG."

AC AMRYW ERAILL.

---

AMCAN Golygydd y Gwaith hwn ydyw cynnyrchu llyfr cyflawn o gyfarwyddyd cyffredinol ar bob peth o ddyddordeb dwfn mewn cyssylltiad â'r Dywysogaeth, yn y dosbarth-ranau o Hanesyddiaeth, Parthedegaeth, a Buch-draithyddiaeth.

HANESYDDIAETH.—Cynnwysa erthyglau cryno a dyddorol ar yr holl amgylchiadau mwyaf nodedig yn Hanesiaeth Wladol a Milwraidd, Crefyddol a Chymdeithasol y Wlad; ac yn wasgaredig trwy y rhai hyn, neu dan benau annibynol, rhoddir mynegiadau helaeth am Frwydrau, Cylafareddau, Henafiaethau, Defodau ac Arferion, Iawnderau a Rhagor-freintiau, Sefydliadau Cyhoeddus, Urddasau ac Uchel-swyddau, Gwladol ac Eglwysig—mewn gair, pob peth pwysig sydd yn cyfansoddi yr hyn a elwir yn gyffredinol—HANESYDDIAETH.

PARTHEDEGAETH.—Rhoddir darluniad ar wahan o'r holl Wledydd, Dinasoedd, Bwrdeis-drefi, a Threfi Corphoriaethol a Marchnadol, Plwyfau, Capeliaethau, a Thref-lanau; ac mewn cyssylltiad â'r rhai hyn, rhoddir eglurhad ar y lluaws Gweddillion Henafiaethol a ffurfiant arweddau mor nodedig mewn llawer parth o'r wlad, ac o amgylch pa rai y cyd ymdyrra adgofion, o ddyddordeb lleol a chyffredinol tra mawr;—o'r cyfryw y mae Meini Der-

Digitized by Google

wyddol, Hen Gladdfeydd, Amddiffynfeydd, Cestyll, Gwersylloedd, Mynachlogydd, Palasau, &c.

BUCH-DRAITHYDDIAETH.—Y mae Cymru yn oludog yn ei Henwogion, y rhai a addurnasant ei brutiau ar y Maes ac yn y Cynghor-lys, yn yr Eglwys a'r Wladwriaeth; ac yn llwybrau Llenoriaeth, yn arbenig mewn Barddoniaeth a Cherddoriaeth. Rhoddir hysbysrwydd am y rhai mwyaf enwog o'r rhai hyn; ac am hen Deuluoedd Pendefigaidd y Genedl a'u Trâs.

Hyderir y gellir cynnyrchu Gwaith, yn ol y cynllun uchod, a werthfawrogir, nid yn unig gan bob un yn y Dywysogaeth, ond hefyd gan bawb sydd yn gyfarwydd â'r yr hen iaith Gymraeg.

Y mae y Golygydd wedi bod yn ddiwyd yn casglu defnyddiau at y cyfryw Waith a hwn yn ei deithiau drwy hŷd a lled y Dywysogaeth, dros lawer o flyneddoedd; ac yn ffodus, y mae efe wedi llwyddo i sicrhau cynnorthwy amryw o Lênorion blaenaf y Genedl, megis y Parch. J. Emlyn Jones, LL.D., Parch. Richard Parry (Gwalchmai), Parch. Roger Edwards, Wyddgrug, Parch. Robert Ellis (Cynddelw), Parch. Daniel Rowland, M.A., Parch. E. Stephen, Parch. J. Spinther James, Parch. William Rees, D.D., Liverpool, Parch. William Davies, D.D., Bangor, Parch. Thomas Rees, D.D., Abertawe, Parch. Thomas Levi, Abertawe, "Dafydd Morganwg," &c., &c., &c., fel y mae efe yn dra hyderus y bydd y Gwaith hwn, yr hwn a drefnir yn wyddorawl, yn deilwng o gael ei alw, "GEIRIADUR CENEDLAETHOL CYMRU."

Addurnir y Gwaith â *Mapiau* o bob un o'r Siroedd; ac â *Map* cyffredinol o Gymru; ac â Darluniau o leoedd pwysig yn y Dywysogaeth; a chyrhaedda i tua 22 o ranau, 2 swllt yr un.

---

LLUNDAIN:
BLACKIE A'I FAB, PATERNOSTER BUILDINGS, E.C.;
GLASGOW AC EDINBURGH.

Digitized by Google

# WALES,

## HISTORICAL, TOPOGRAPHICAL, AND BIOGRAPHICAL.

EDITED BY THE

## REV. OWEN JONES.

ASSISTED BY

REV. J. EMLYN JONES, LL.D.
REV. RICHARD PARRY (GWALCHMAI).
REV. ROGER EDWARDS.
REV. ROBERT ELLIS (CYNDDELW).
REV. DANIEL ROWLAND, M.A.
REV. E. STEPHEN.
REV. J. SPINTHER JAMES.
REV. WM. REES, D.D., LIVERPOOL.
REV. WILLIAM DAVIES, D.D., BANGOR.
REV. THOMAS REES, D.D., SWANSEA.
REV. THOMAS LEVI, SWANSEA.
"DAFYDD MORGANWG."

&c., &c., &c.

---

THE aim of the Editor of this Work is to produce a complete book of general reference on all matters of chief interest connected with the Principality in the departments of History, Topography, and Biography.

HISTORY.—It will contain concise and interesting articles on all the prominent events in the Civil and Military, Religious and Social History of the Country; and interspersed through these, or under independent headings, full and ample notices of Battles, Treaties, Antiquities, Manners and Customs, Rights and Privileges, Public Institutions, Dignities, Civil and Ecclesiastical—in short, all important matters which go to form the sum of what is usually called HISTORY.

TOPOGRAPHY.—The Counties, Cities, Boroughs, Corporate and Market Towns, Parishes, Chapelries, and Townships, will each be described separately; and along with them will be given notices of the Ancient Remains, which form marked features in many parts of the country, and around which cluster associations of great local and general interest, such as Druidical Stones, Barrows, Forts, Castles, Camps, Abbeys, Mansions, &c.

BIOGRAPHY.—Wales is rich in Worthies who have adorned her annals by their eminence on the Field and in the Cabinet; in the Church and in

Digitized by Google

Civil Life, and in the walks of Literature, more especially in Poetry and Song. Notices of the most eminent of these will be given, and also of the principal Families, and of the Old Welsh Nobility and their Pedigrees.

It is hoped by these means to produce a Work which will be prized, not only by every one in the Principality, but by all who are acquainted with its ancient Celtic tongue.

The Editor has been diligently preparing materials for such a Work as this, in his travels through the length and breadth of the Principality, and he has fortunately secured the assistance of several Welshmen of highest literary fame, such as the Rev. J. Emlyn Jones, LL.D., Rev. Richard Parry (Gwalchmai), Rev. Roger Edwards, Rev. Robert Ellis (Cynddelw), Rev. Daniel Rowland, M.A., Rev. E. Stephen, Rev. J. Spinther James, Rev. William Rees, D.D., Liverpool, Rev. William Davies, D.D., Bangor, Rev. Thomas Rees, D.D., Swansea, Rev. Thomas Levi, Swansea, "Dafydd Morganwg," &c., &c., &c., so that he is confident the present Work, which will be arranged alphabetically, will be worthy of being called a "NATIONAL DICTIONARY OF WALES."

The Work will be illustrated by Maps of each of the Counties, and a General Map of Wales, and by Views of important Places in the Principality; and will extend to about 22 parts, price 2*s.* each.


---

LONDON:
BLACKIE & SON, PATERNOSTER BUILDINGS, E.C.;
GLASGOW AND EDINBURGH.

Digitized by Google

Digitized by Google


CLUE MAP OF WALES
IRISH SEA
CARNARVON BAY
Tremadoc Bay
LANCASHIRE
CHESHIRE
SHROPSHIRE
ANGLESEA (SWYDD FON)
CARNARVON (SWYDD CAERYNARFON)
DENBIGH (SWYDD DINBYCH)
FLINT
MERIONETH (SWYDD FEIRIONYDD)
MONTGOMERY (SWYDD DREFALDWYN)
Part of FLINT
LIVERPOOL
Birkenhead
Warrington
Widnes
Neston
CHESTER
River Mersey
River Dee
Holyhead
Holyhead Id (Caer Gybi)
Amlwch
Llanerchymedd
Llangefni
BEAUMARIS
Beaumaris Bay
Bangor
CARNARVON
Gt Ormes Head
Llandudno
Conway
Rhyl
Rhuddlan
St Asaph
Holywell
DENBIGH
Ruthin
Llanrwst
Abergele
Mold
Wrexham
Holt
Llangollen
Corwen
Bala
Bala L.
Harlech
Barmouth
DOLGELLY
Dinas Mowddwy
Cader Idris
Machynlleth
Llanfyllin
Welshpool
Llanfair (Caer Einion)
Newtown
MONTGOMERY
Bishops Castle
Oswestry
Ellesmere
Whitchurch
Wem
SHREWSBURY
Snowdon
Llanberis
Tremadoc
Portmadoc
Criccieth
Pwllheli
Nevin
Braich y pwll
Ynys Enlli or Bardsey I.
Porth Dinllaen
Porth Nigel
Penkilan Hd
Aberdovey
Towyn
R. Dovey
Plynlimmon




BLACKIE & SON. LONDON. GLASGOW & EDINBURGH.

Digitized by Google

Digitized by Google

# GEIRIADUR CENEDLAETHOL CYMRU:

## HANESYDDOL, PARTHEDEGOL, A BYWGRAPHYDDOL.

---

**ABBATTY CWM HIR:**—Plwyf, yn cynnwys treflan Cefn Pawl, yn nghantref CEFN LLYS; a threflan Gollon, yn nghantref TREF Y CLAWDD, swydd FAESYFED, Deheubarth Cymru: 6 *milldir* i'r gog. ddwyr. o Raiadr Gwy.

Cafodd y lle yma ei enw oddiwrth Abbatty a adeiladid yn y llannerch anhygyrch hon gan Cadwallon ab Madoc, yn y flwyddyn 1143; yr hwn ar y dechreu a fwriadai gyfodi mynach-lys digon ehang i gynnwys triugain o frodyr o'r urdd a elwid "Y *Cistersiaid*:[1] ond, nid yw yn ymddangos i'r lle gael ei orphen i'r maintioli hyny byth.

Yr oedd y crefydd-dy yma mewn cwm hynod o gèledig, rhwng mynyddoedd uchel-grib; ac yn cael ei amgylchynu yn yr oesoedd boreuol, gan goedwigoedd mawrion, o hen dderw cauad-frig; fel y cyfrifid y lle yn encilfa dra diogel yn yr amseroedd terfysglyd hyny: ond, yn y flwyddyn 1231, darfu i un o'r brodyr perthynol i'r Mynachdy hwn, achlysuro gorchfygiad gwarchodlu Seis'nig Trefaldwyn, gan Llewelyn ab Iorwerth, tywysog Gwynedd; trwy roddi cam hysbysiad i'r Saeson am sefyllfa y tywysog Cymreig, a'i fyddin: am ba achos, darfu i'r brenin HARRI YR AIL, ar ei ddynesiad gyd a'r fyddin Seis'nig, roddi ydlan y Fynachlog ar dân, er dial am fradwriaeth y Mynach; ac efe a fuasai yn llosgi y Fynachlog hefyd, oni buasai i'r Abbad brysuro i ddyhuddo ei ddigofaint, gan dalu tri chant o Farciau,[2] yn lle iawn i'r Brenin.

Cafodd y lle yma ei anrheithio yn dost gan Owain Glyndwr hefyd, yn ei gad-ruthrau gwrhydrus yn erbyn arglwyddi y cyffindiroedd: ac ar ddad-gorphoriad y mynachlogydd yn amser HARRI YR WYTHFED, ni chynnwysai y frawdoliaeth grefyddol yn y lle hwn, namyn tri mynach, a'u gweinidogion; a chyllid y Tŷ a gyfrifid yn £28, 17*s.* 4*d.*

Yn y flwyddyn 37 o deyrnasiad Harri VIII., dyroddwyd y lle i Walter Henley, a John Williams; ac wedi hyny daeth i feddiant tylwyth y *Fowlers,* trwy bryniad mae yn debyg; ac y mae yn nghangell yr eglwys bresenol ddau o gof-feini; un i *Syr Hans Fowler;* a'r llall, i aelod arall o'r un tylwyth. Daeth yr ettifeddiaeth wedi hyny i feddiant Thomas Wilson, Ysw., trwy bryniad; ac efe a adeiladodd yma balas bychan hardd, â defnyddiau a gymerasid gan mwyaf o adfeilion yr hen Abbatty.

Mae yr hen adfeilion a adawwyd, yn gynnwysedig gan mwyaf o ddarnau o bedwar mur-adail ehang, 238 *tr.* o hyd, wrth 64 *tr.* o led, ac yn amrywio mewn uchder, o bedair, i ddeuddeg troedfedd uwchlaw wyneb y ddaiar: a bernir mai gweddill mûr yr eglwys yw hwn; ond y mae y lluaws drylliau o feini naddedig, a ganfyddir yn amgylchoedd yr adfeilion hyn, yn brofion digonol, fod yma adeilad ysplenydd unwaith; a chesglir fod yr holl adeiladau perthynol i'r crefydd-dy hwn, pan oedd efe yn ei rwysg, yn gorchuddio erw o dir o leiaf.

Wedi chwalu yr hen Fonachlog, cyfodwyd addoldy bychan yn agos i'r fan lle y safai; yr hwn, fel yr hen eglwys, a gyflwynid i'r Forwyn Fair; ond a elwid gan y cyffredin ar y cyntaf,—"Capel yr Abbatty;" a hyd yn ddiweddar fe'i hystyrid fel Capel cynnorthwyol, yn perthyn i blwyf Llanbister: ond, yn bresenol, fe'i cyfrifir megis plwyf gwahanol. Curadiaeth wastadol yw y fywioliaeth eglwysig, yn Archddiaconiaeth Brycheiniog ac Esgobaeth Tŷ Ddewi.

Y mae y Carneddau perffeithiaf sydd o fewn swydd Faesyfed, yn agos i Abbatty Cwm Hir, ac ar Fryn Gwastedyn, yn agos i'r Rhaiadr. Y carneddau hyn a gyfodid yn aml gan y Cymry ar gyrph eu pennaethiaid, yn y fan lle y cwympent yn lladdedig yn y frwydr: maintioli carnau o'r natur yma, sydd yn gyffredin tua 60 troedfedd o dryfesur; a thua 7 troedfedd o ddyfnder yn y canol; ac oddi tan y canol, y mae gweddillion y trancedig yn gorwedd mewn math o arch-faen yn gyffredin; neu ar un cyfnod llosgid y corph, a chesglid y lludw yn ofalus i briddlestr, yr hwn a roddid mewn cell o lechfeini, er ei gadw rhag ei chwilfriwio; yna crynhoid carn arno.

[1] Cyfodwyd yr urdd hwn gan Robert, Abbad Molême, yn Ffrainc; yr hwn o'r blaen a berthynai i urdd y Myneich duon, y rhai a elwir *Benedictiaid.* Y Robert uchod, gan chwenychu dyfod dan ddysgyblaeth fwy tostlym, a gafodd ganiattad y Pab i dori yr addunedau a wnelsai efe fel *Benedictiad,* ac ymgymeryd a rhai llymach: yna efe a ymneillduodd, ac un ar hugain o fyneich i'w ganlyn, i goedwig *Citeaux,* neu, fel ei hysgrifenid gynt, *Cisteaux,* ac yn Lladin, *Cistercium,* lle yr adeiladodd efe abbatty ac eglwys: ac efe a etholwyd yn abbad cyntaf yr urdd newydd yma. Gelwid yr urdd yma weithiau "*Y Bernardiaid,*" oddiwrth St. Bernard, abbad *Clairvaux,* yr hwn a fu yn Ddiwygiwr enwog yn eu mysg: ac weithiau "Y myneich gwynion;" am yr arferent wisgo math o fantell wen pan yn gwasanaethu; ond pan elent oddiallan i'r crefydd-dy gwisgent wisg ddu.

[2] Yr oedd y *Marc* Seis'nig yn werth 13*s.* a 4*c.*

**ABER**; a elwid weithiau ABER-GWYN-GREGYN; Plwyf yn nghantref ARLLECHWEDD UCHAF, swydd GAERYNARFON, GOGLEDD CYMRU: 6 *m.* i'r dwyr. og. ddwyr. o Fangor, ar ochr y brif ffordd o Gaerlleon i Gaergybi; ac ar lan Traeth y lafan.

Yr oedd y lle hwn gynt yn un o drigleoedd tywysogion Gwynedd: ac ar fryncyn celfyddydol yn y nant hon adeiladai Llewelyn Fawr gastell cryf, er cadw meddiant o'r bwlch pwysig yma, trwy yr hwn y croesid y mynydd tua Chynwy neu Gaer Rhun. Nid oes dim o olion y castell ar gael yn bresenol, oddieithr y bryncyn, ar yr hwn ei hadeiladid, yr hwn sydd tua 60 troedfedd o dryfesur, a 24 tr. o uchder; ac nid ydys yn gallu olrhain dim o olion y llys tywysogaidd i sicrwydd boddhaol ychwaith: ond yn ddiweddar gellid canfod olion y ddyfr-ffos a gludai ddwfr o'r afon i'r castell.[1] Pa hyd y bu y fan hon yn drigle i dywysogion Gwynedd nid yw yn hawdd penderfynu efallai; yr oedd y sefyllfa yn dra chyfleus i'r perwyl, gan ei bod yn gorwedd yn agos i'r canol, rhwng dau lŷs arall, yn y rhai y trigent yn achlysurol, sef Aberffraw yn Mon, a Maes Mynnan yn swydd Fflint.

Mae yn ymddangos fod y lle hwn mewn cryn rwysg yn amser y ddau Lewelyn, ac efallai mai dyma lle yr oedd eu prif drigias. LLEWELYN AB IORWERTH, yr hwn hefyd a gyfenwir "LLEWELYN FAWR," oedd fab i Iorwerth Drwyndwn, yr hwn, gan ei fod yn fab hynaf i Owain Gwynedd, oedd ettifedd cyfiawn gorsedd Gwynedd; ond efe a roed o'r neilldu ar gyfrif yr anaf oedd ar ei wyneb, trwy gydsynied cyffredinol pendefigion y dalaith; a'i frawd Dafydd a alwyd i'r orsedd; â'r hyn y cydsyniodd Iorwerth yn dawel, ac ymroddai i fyw bywyd neillduedig: ond y mae yn ymddangos fod Dafydd ab Owain yn dra eiddigeddus o'i frodyr, ac yn ymddwyn yn dra chreulawn a gorthrymus tuag attynt, gan ddwyn eu tiroedd oddiarnynt, a'u carcharu hwythau. Yr ettifeddiaeth a adawsid i Iorwerth Drwyndwn, at ei gynhaliaeth ef a'i deulu, oedd cantrefi Nanconwy yn swydd Gaerynarfon, ac Ardudwy yn Meirionydd; a'i breswylfod oedd castell Dolyddelen; yn yr hwn, ond odid y ganwyd ei fab enwog, LLEWELYN FAWR. Ond, bu raid i Iorwerth druan ffoi rhag creulonder ei frawd Dafydd, i'r Pennant Melangell, lle yr ydoedd cyssegrfa a noddfa hynod; a dywaid traddodiad iddo gael ei lofruddio yn lled agos i'r gyssegrfa grybwylledig, mewn lle a elwir hyd heddyw "*Bwlch Croes Iorwerth.*" Y mae yn y fynwent uchod faen cerfiedig, a llun dyn arfog arno, yn dwyn tarian, a'r geiriau canlynol oddi tano, "HIC JACET EDWART." Wedi marw Iorwerth, ei frawd Rhodri ab Owen Gwynedd, yr hwn a garcharasid yntau gan ei frawd Dafydd, a ddiangasai o'r carchar, ac a gymerasai feddiant o holl ynys Fon, ac Arfon debygid hefyd, hyd at afon Gonwy,—a gymerodd ei nai, Llewelyn, ettifedd cyfiawn y goron, dan ei nawdd; ac nid yw yn annhebyg bod gan Llewelyn lŷs yn Aber, pan yn wr ieuanc dan nawdd ei ewythr, *Rhodri*, yr hwn a wnelai ei oreu i gadw ei frawd *Dafydd* a'i luoedd, yr ochr arall i afon Gynwy. O'r diwedd, LLEWELYN, fel yr oedd efe yn aeddfedu mewn oedran; wrth weled fod creulonderau ei ewythr *Dafydd* wedi gwanhau ei ddylanwad ar bendefigion Gwynedd; ac yn hyderus y derbyniai gefnogaeth gref o Bowys, yn gymmaint a bod ei fam Marged, yn ferch i Madog ab Meredydd, tywysog Powys; a roes allan ei fod ef yn hawlio tywysogaeth Gwynedd; a'r pendefigion gyda llawer o barodrwydd, a'i cydnabuant fel eu tywysog cyfreithlawn; ac efe a ddechreuodd lywodraethu yn y flwyddyn 1194. Yn mhen tair blynedd daeth ei ewythr a byddin gref o Gymry a Saeson dan ei lywyddiaeth, i ymdrechu adennill y dalaith oddiar Llewelyn; ond y gwron ieuanc o Aber a ennillodd y fuddugoliaeth yn drwyadl; ac a gymerodd ei ewythr yn garcharor: ond tua'r flwyddyn 1204 efe a roddes ei ryddid iddo, gan ddysgwyl yn ddiammeu, na buasai efe yn cyfodi terfysg drachefn; eithr can gynted ag y cafodd yr hen Dywysog ei ryddid, efe a giliodd yn lladradaidd i Loegr eto, a llwyddodd i gael byddin drachefn, â'r hon y gwnelai ail gais i ddwyn Gwynedd oddiar ei nai; eithr LLEWELYN a'i llwyr orchfygodd drachefn; ac yn fuan ar ol y frwydr hon, efe a'i rhoddes ef a'i fab Owain i farwolaeth, yn Aberconwy.

Yn y flwyddyn 1202, hawliodd LLEWELYN wriogaeth oddiwrth holl dywysogion Cymru, fel penteyrn, yn ol cyfreithiau Rhodri Fawr, a Hywel Dda; a'r rhan fwyaf o honynt a gydnabuant ei uchafiaeth yn ewyllysgar. Yr un flwyddyn hefyd, efe a briododd dywysoges Seis'nig, sef Joanna, merch y brenin JOHN, a chafodd yn gynnysgaeth i'w chanlyn, arglwyddiaeth Ellesmere, yn y cyffindiroedd: fel yr oedd boreu Llewelyn yn ymddangos yn glaer a gobeithiol dros ben: ond, y mae yn ymddangos fod y brenin wedi myned yn eiddigeddus o'i fawredd, a thrwy ddichell a thrais, wedi llwyddo i gael gan Gwenwynwyn tywysog Powys, yr hwn a fuasai y cyndynaf o'r tywysogion Cymreig i gydnabod

[1] Tybia rhai mai yn y fan lle y mae "Pen y bryn," Aber, yr oedd yr annedd dywysogaidd yn sefyll; dywaid *Leland* am dano fel hyn;—"Yr oedd gan Llewelyn ab Iorwerth dy ar fryn mewn coed yn mhlwyf Aber:" ond, y mae yn debyg mai y castell ar y bryn a elwir "y Mwd," oedd hwnw. I fynu yn y Cwm, y ffordd yr eir tua Bwlch-y-ddeufaen, yn agos i odreu y "Foel dduarth," y mae adfeilion hen adeilad fawr, ar ran o ba un y saif ammaethdy bychan yn bresenol, a elwir "Hafod y Garth;" y mae yn debyg mai dyma y fan lle y safai yr hen lys tywysogaidd, a elwid "Hafod-Garth-Gelyn:" o'r lle y dyddiai Llewelyn amryw o'i Lythyrau, ac ysgrifau eraill: ac o fewn ychydig gannoedd o latheni i'r llannerch grybwylledig, rhyngddi âg Aber, canfyddir olion hen adeilad, a llannerch o dir a fuasai unwaith yn gauedig, yn ei hamgylchynu; ac y mae traddodiad yn mysg hen drigolion yr ardal, mai dyna lle y gorweddai y Llan a elwid Aber-garth-gelyn: a nodir llwybr yn cyfeirio oddiyno tu a'r Gyrn, Llanllechid, a elwir hyd heddyw, "Llwybr Gwilym, Offeiriad;" ffordd yr elai Offeiriad oddiyma, tua Bwlch yn Ylchi, lle debygid yr oedd eglwys arall, yn yr hon y gwasanaethai: ac y mae yn y fan hono adfeilion pentref lled fawr, yn uchel yn y mynydd-dir. Mewn perthynas i Ben y Bryn, fe ddywedir fod un o henafiaid y diweddar Mr. Thomas, Coedalun, neu, "Goed Helen," gerllaw Caer-yn-Arfon, wedi cael arglwyddiaeth Aber, a'r tiroedd cylchynol, yn wobrwy am ei wroldeb yn mrwydr Zutphen; ac i'w fab adeiladu Pen y Bryn yn breswylfa iddo ei hun, yn ol rhyw gynllun tramor a dynasai ei sylw. Efe hefyd, meddir, a roddes y tir sydd yn perthyn i bersondy Aber, i fod at wasanaeth offeiriaid y lle hyd byth. Ond, dywedir fod Syr Richard Bulkeley, yr hwn oedd yn uchel yn ffafr y frenines Elizabeth, wedi trawsfeddianu y faenoriaeth yma oddiar y perchenogion cyfiawn, trwy ryw ystrywiau. Canfyddwn yn achau boneddwyr Coed Helen, enw un, "Syr William Thomas, o Aberglasney, Marchog o Ryfel;" wrth yr hyn efallai, yr awgrymir ei fod wedi cael yr anrhydedd hwnw, fel gwobrwy rhyw orchestwaith milwraidd. Yr oedd y boneddwr uchod yn Siryf swydd Gaerynarfon yn y flwyddyn 1539. Ei fab, Rhys Thomas, Ysw. a briododd Jane, ferch Syr John Pulestone, Marchog, a gweddw Edward Gruffydd, Ysw., o'r Penrhyn, gerllaw Bangor; ac efe a fu yn Siryf swydd Gaerynarfon yn y flwyddyn 1574.

Digitized by Google

uchafiaeth Llewelyn, i drosglwyddo yr wriogaeth hono iddo ef (y brenin John): a hyn a arweiniodd i ymrafael blin rhwng LLEWELYN a'r brenin. Y brenin a arweiniodd fyddin gref hyd at Gaerlleon ar Ddyfrdwy, lle yr ymunai minteioedd mawrion o Gymry dan ei luman, wedi eu casglu gan y pendefigion Cymreig, oedd a rhyw ddant ganddynt yn erbyn Llewelyn, yn mysg pa rai yr enwir Gwenwynwyn, tywysog Powys; Hywel ab Gruffydd ab Cynan ab Owain Gwynedd, yr hwn a alltudiasai Llewelyn am ei wrthryfel blaenorol; Madawg ab Gruffydd, Maelawr; Meredydd ab Rhotbert o Gedewin; a Maelgwyn, a Rhŷs Grug, meibion yr Arglwydd Rhŷs. Yr oedd y brenin yn dra phenderfynol i lwyr anrheithio Gwynedd, ac i dori nerth Llewelyn yn y cadgyrchiad yma: ond, nid oedd y gwron Cymreig yn segur na diofal, ac felly efe a anfonodd frŷs genhadon trwy y berfeddwlad, sef swyddi Dinbach a Fflint, i erchi i'r trigolion fudo, yn nghyd a'u holl anifeiliaid, i froydd Eryri: a'r brenin a arweiniodd ei fyddin fawr trwy Ruddlan, ar hyd glan y mor hyd gastell Dyganwy, lle yr ymwersyllodd efe ar lan yr afon, Cynwy: ac yno y gwarchaeid arno mor gyfyng, ac ei blinid mor ddibaid, gan wŷr Llewelyn, fel y bu agos i'r fyddin freninol anferth gael ei llwyr ddyfetha: a bu mor gyfyng arnynt gan newyn, fel y bwyttaent gig eu meirch eu hunain, gan ei gyfrif yn foethus. Yr oedd bod ei lŷs yn Aber, a'i brif orsaf filwraidd gerllaw, yn llawer iawn o fantais i Llewelyn i wasgu ar y fyddin freninol, a'i blino yn barhaus, tra y gwersyllai mor agos i Eryri a glanau afon Gynwy.

Bu raid i'r Brenin encilio yn ol yn warthus ac afflwyddiannus hollol o'r cadgyrchiad yma; ond fe barai hyny y fath friw i'w falchder, fel yr ymgynddeiriogai mewn nwyd-wylltedd, ac y penderfynai dywallt ei ddialedd ar Llewelyn a'i wlad y flwyddyn ganlynol: ac felly efe a barottodd fyddin gref iawn drachefn; a'r unrhyw bendefigion Cymreig a'i cynnorthwyent y tro hwn eto: ac ar yr achlysur yma, y mae yn ymddangos ddarfod iddo groesi afon Cynwy, a'r Brenin ei hun, a arhosodd yn Aber, yn nghyda rhan o'i fyddin; ond y rhan arall, a anfonodd ef yn mlaen, dan dywysiad y pendefigion Cymreig, i ymosod ar ddinas Bangor; gan ddysgwyl, efallai, fod Llewelyn yno. Y mae yn ymddangos ddarfod i'r fyddin hon losgi Bangor, a chymeryd yr Esgob, "Robert o'r Mwythig" yn garcharor, yr hwn a ddygasant at y Brenin.

Mae yn debyg fod Llewelyn wedi ei oddiweddyd yn hollol anmharod, gan ddychweliad disymwth y Brenin y tro hwn; fel y gwelai mai ynfydrwydd a fuasai iddo geisio ei wrthsefyll. Yr oedd hi y pryd hwn yn agos i adeg cynhauaf; ac wedi enciliad y Brenin o Deganwy, y mae yn debyg i Lewelyn ollwng y rhan fwyaf o'i wyr i'w cartrefi i barottoi llafur y ddaiar at gynhaliaeth y genedl; ac fe ddichon nad oedd gan Llewelyn ddim ond rhyw warchodlu bychan yn Aber ar y pryd, pan y derbyniodd y newydd fod y Brenin gyda byddin anferth, yn cyfeirio tua Bwlch-y-ddeufaen: gan hyny nid oedd ganddo ddim i'w wneyd, ond encilio can gynted ag y gallai i ganol y mynyddoedd; ac mewn tua dwy awr o amser gallasai ef a'i deulu fod wedi ymlochesu yn ddiogel yn Cwm y Gasseg, neu y Nant Bach, tra yr esgynai ef ei hun a'i wylwyr i ben y clogwyn, a elwir efallai, er cof am y tro, "Carnedd Llewelyn." Y mae yno ben adfeilion ar ben y Garnedd hyd heddyw, y rhai debygid, ydynt olion gwersylliad gwŷr Llewelyn yno.

Gallwn gasglu oddiwrth sylw yn un o Frudiau *Rhys Goch Eryri*, Bardd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, fod yma Garnedd wedi ei chyfodi gynt ar fedd Rhitta Gawr, ac i Lewelyn ddefnyddio y lle, fel Gwylfa fanteisiol ar yr achlysur dan sylw;—

"Llewpart yssigddart seigddur,
Llewelyn, frenin gwyn gwyr;
Ar ben trum oer tramawr;
Yno gorwedd Rhitta gawr.
Coronog oediog ydwyt,
Cwyn o fan oer, cynnefin wyt:
Llys y gwynt, lluosog wedd,
A'r lluwch yn mol y llechwedd."

Mae yn ddiau y buasai y fan uchel hon yn lle tra annghyfleus i wersyllu ynddo ar rai adegau ar y flwyddyn, gan ei noethed a'i oered; ond deallwn mai tua chanol mis Awst, oedd yr adeg y meddiannai y Brenin Aber; ac yr anrheithid Bangor gan ei wŷr ef. Gallasai Llewelyn o'i orsaf ddyrchafedig weled dinas Bangor yn cael ei llosgi, ac y mae bron yn sicr ei fod yn edrych ar y goddaith; a chan dosturio wrth gyflwr ei wlad, pryd nad oedd ganddo ef fodd i wrthsefyll y fath gyngrhair grymus ag a ymosodai arno ef a'i wlad y pryd hwn, efe a anfonodd ei wraig, y dywysoges *Joanna*, at ei thad, i geisio ammodau heddwch ganddo, yn yr hyn y bu ei hymdrech yn llwyddiannus hefyd: ond, yr oedd yr ammodau yn dra chelyd i Lewelyn druan. Yr oedd yn rhaid iddo dalu deugain o feirch, ac ugain mil o dda corniog[1] at draul y rhyfel; a chaniattau i'r Brenin gael meddiannu y berfedd-wlad, sef swyddi Dinbach a Fflint; ac yr oedd yn rhaid iddo roddi wyth ar hugain o feibion ei brif bendefigion i fynu i'r Brenin, fel gwystlon y byddai iddo gadw ei gyfammod.

Ond, yn fuan wedi hyn, tynodd y brenin ddigofaint Eglwys Rhufain yn ei ben, fel yr esgymunwyd ef ganddi; a'r Pab Innocent, yn y flwyddyn 1213, a ryddhaodd y Tywysog *Llewelyn*, yn nghyda *Gwenwynwyn*, a *Maelgwyn* oddiwrth eu llwon o ffyddlondeb a wnaethid ganddynt i'r Brenin; ac erchid iddynt ei flino hyd eithaf eu gallu, fel gelyn i'r Eglwys; a hyny dan addewid o faddeuant o'u pechodau, os cyflawnent y gorchwyl yn ffyddlawn; a than fygythiad o felldith, os y pallent. Y canlyniad o hyn a fu, i *Lewelyn* roddi cais eto ar waredu ei wlad oddi tan iau estroniaid; ac wedi llwyddo i gael gan Gwenwynwyn a Madog ab Gruffydd Maelor, tywysogion Powys; Maelgwyn ap Rhŷs o'r Deheubarth, a Meredydd ab Rhotpert, o Gedewin, ymgyfarfod ag ef, i gynnadleddu yn achos cyflwr eu gwlad, efe a ddangosodd iddynt fel yr oedd swyddogion a chastellwyr y brenin yn blino, ac yn gorthrymu eu cydgenedl, ac mai i'w hanffyddlondeb hwy, mewn amser mynedol, yr oedd hyny i'w briodoli: yna efe a'u cymhellai yn daer i ymuno fel un gwr, ac i ymroddi a'u holl egni, unwaith eto, i fwrw iau gorthrymder oddiar eu gwarau, ac adfeddianu eu rhyddid a'u breintiau; ac annibyniaeth eu gwlad a'u cenedl.

Ei resymau cedyrn, a'i wladgarwch gwiw, a'u gorchfygodd hwynt; ac yn wir, yr oedd trahausder

[1] *Tair mil*, medd rhai, yr hyn sydd yn fwy rhesymol.—*Woodward's Wales*, p. 351.

Digitized by Google

swyddogion y brenin wedi eu parottoi i hyny; fel y darfu iddynt adnewyddu eu llw o ffyddlondeb i Lewelyn, eu hunig benteyrn cyfiawn: ac yntau wedi derbyn yr adgyfnerthiad yma, a ddechreuodd ymosod yn ddisymwth ar y gormeswyr Seis'nig, gan adfeddiannu yr holl amddiffynfeydd a ddaliai y brenin trwy ei diriogaethau; oddieithr cestyll Deganwy a Rhuddlan, y rhai, gan eu cadarned, ni's gellid eu cymeryd yn rhwydd.

Y brenin John, wedi ei gythruddo yn ddirfawr trwy anrheithiad y Cyffin-diroedd gan y Cymry, a barodd grogi yr wyth ar hugain gwystlon oeddynt yn ei feddiant, yn ngwydd ei lygaid, ac yn mhresenoldeb ei fyddin, yn nhref Nottingham; gan ymhyfrydu yn edrych ar drane y rhai diniwed: ac oddeutu yr un pryd, Robert Vepont, un o brif swyddogion y brenin, a barodd grogi Rhŷs ab Maelgwyn, plentyn dan saith mlwydd oed, yn y Mwythig. Yr holl wystlon uchod, oeddynt feehgyn ieuaine, cangenau o'r teuluoedd mwyaf pendefigaidd trwy Gymru.

Ond, tra yr oedd y brenin dan ddylanwad y gynddaredd ddialgar yma, yn parottoi cadgyrchiad arall i Gymru, efe a frawychid trwy hysbysiaeth oddiwrth frenin yr Alban, ac oddiwrth ei ferch, gwraig Llewelyn, yn ei rybuddio fod cydfrad peryglus yn erbyn ei fywyd, yn cael ei ffurfio gan ei bendefigion ef ei hunan; a bod Llewelyn, a'r tywysogion Cymreig, yn debyg o ymuno yn y cyd-frad; a hyn, yn nghyd a'r ystyriaeth, fod melldith y Pab yn gorwedd arno, a barai iddo lwfrhau, a dychwelyd yn ol o Gaerlleon, heb gyflawni ei fwriad creulawn, o arllwys ei ddialedd ar Gymru.

Erbyn hyn yr oedd amryw o Farwniaid Lloegr wedi ymgyngrheirio i fynu mesur o ymwared oddiwrth dra arglwyddiaeth y Pennadur, a rhyw weithred gadarn er sicrhau rhyddid cyffredinol y deiliaid; ac yn yr ymdrech yma, fe'u cefnogid yn bybyr a chywir gan LLEWELYN, ac amryw o'r tywysogion Cymreig; ac felly cawsom yr anrhydedd fel cenedl, o fod a llaw fawr, os nad y fwyaf, yn mynu cael y Freinlen Fawr, ("*Magna Charta:*") o'r hon yr ymogonedda Prydain gymaint.

Gwnaeth y brenin ymdrechion egniol i ddarostwng y Barwniaid Seis'nig eto, a dirymu y Freinlen Fawr a ganiattasai efe iddynt; ac fel yr oedd efe yn llwyddo, a'r Pab yn cymeryd ei blaid, ac yn ysgymuno ei wrthwynebwyr, efe a'u gorthrymai yn dostach nag erioed: ac yn y cyfwng yma, bu dewrder a dianwadalwch Llewelyn o'r gwerth mwyaf i'r Barwniaid, er eu galluogi i gadw meddiant o'r *Magna Charta* wedi ei gael. Yn nghanol yr helyntion hyn bu farw y brenin John, yn *Newark-upon-Trent*, wedi treulio oes druenus, a'i wneyd ei hun yn wrthddrych dygasedd a dirmyg ei gymmydogion a'i ddeiliaid, trwy ei nwydau afreolus, ei ymddygiadau twyllodrus, a'i ysbryd gorthrymus; a'i fab a goronwyd yn frenin yn ei le, yn Eglwys Gadeiriol Caerwynt, ar yr 28ain o Hydref, 1216, dan yr enw Harri III. Nid oedd y pennadur hwn namyn naw mlwydd oed pan fu farw ei dad; a'i deyrnas mewn cyflwr hanerog a chythryblus; ac ni fu Llewelyn yn esgeulus o'r cyfryw gyfleustra i helaethu ei diriogaethau, a chadarnhau ei lywodraeth; a dïau pe y buasai y Barwniaid Seis'nig wedi bod mor ffyddlawn i gyflawni eu hymrwymiadau iddo ef, ag y buasai efe i gyflawni ei ymrwymiadau iddynt hwy, y buasai rhanau helaeth o Loegr wedi eu huno â Chymru dan ei arglwyddiaeth: ond bu Iarll Penfro, Gwarcheidwad y brenin ieuanc, yn llwyddiannus i yru y tywysog Louis o Ffrainc, yr hwn a feddiannasai y brif ddinas, o'r deyrnas, i dori nerth y gwrthryfelwyr yn Lloegr, ac i orfodi y Barwniaid anfoddawg i dalu eu gwarogaeth i'r brenin Harri; a than yr amgylchiadau hyn, bu raid i Lewelyn fyned i gyfammod a'i frawd yn nghyfraith breninol; ac i'r perwyl hyn hwy a gynhaliasant gynnadledd yn Worcester, yn yr ail flwyddyn o deyrnasiad y brenin Harri, pan y gwnaed cyfammod rhyngddynt, yn yr hwn yr ymrwymai Llewelyn i roddi cestyll Aberteifi a Chaerfyrddin, y rhai a berthynent i Iarll Penfro, i fynu, ac na roddai achles i neb o elynion y brenin: ac o'r tu arall, caniatteid i Lewelyn gyflawn arglwyddiaeth ar yr holl diriogaethau a berthynent i Gwenwynwyn, hyd oni ddeuai ettifeddion y tywysog hwnw i gyflawn oedran; a Llewelyn o'i du yntau a ymrwymai i roddi cynhaliaeth resymol i'r ettifeddion hyny, pa un bynag a'i yn Lloegr neu yn Nghymru y byddent dan addysg, ac i dalu ei gwaddol i Margaret, ferch Rhŷs ab Gruffydd, Arglwydd y Deheubarth, a gweddw Gwenwynwyn.[1]

Buasid yn dysgwyl y buasai heddwch yn ffynu rhwng Lloegr a Chymru am gryn yspaid yn y canlyniad i'r ymgyfammodiad uchod: ond hên elyniaeth rhai o'r Arglwyddi cyffindirawl at Lewelyn a dorrodd allan, ac felly ail ennynodd y fflam yn fuan, ac ni bu Llewelyn yn fyr o dalu y pwyth iddynt am eu ffalsder; eithr ni oddef cynllun y gwaith hwn i ni roddi hanes manol o'r cadgyrchiadau a ganlynodd. Ond oddeutu yr adeg yma, dygwyddodd un amgylchiad neillduol, ag y mae cof traddodiadol am dano, yn nghadw yn nghymmydogaeth Aber hyd y dydd hwn. Mewn rhyw ysgarmes a fu rhwng Llewelyn a gwyr y brenin, yn y flwyddyn 1228, yn nghymmydogaeth Trefaldwyn, lle yr oedd anwylddyn y brenin, y prif farnydd Hubert de Burgh yn adeiladu castell newydd, cymerasai Llewelyn, bendefig Seis'nig ieuanc, o'r enw William de Breos, neu *Bruce*, yn garcharor; ac efe a'i dug ef i'w gastell yn Aber, lle yr ymddygai tuag atto â haelfrydedd neillduol; ac ar ol bod yn garcharor dros ryw yspaid, efe a gafodd ei ryddid i ddychwelyd adref, ar yr ammod o roddi castell Buallt i ddwylaw Llewelyn, a thalu tua thair mil o farciau yn arian. Ond, wedi ei ollwng ymaith, cludwyd yr hysbysiad i Lewelyn, fod *de Breos*, tra yn Aber, wedi llithio y Dywysoges i gyfeillach anweddus, yr hyn a'i cythruddodd ef yn ddirfawr; ac felly, gan benderfynu dial y fath sarhad, y Tywysog a anfonodd i wahodd y pendefig Seis'nig ar ymweliad cyfeillgar i'w lŷs, yr hwn a ddaeth, a chryn nifer o geraint a chyfeillion i'w ganlyn; ond wedi i Lewelyn eu gwledda yn groesawus, heb amlygu unrhyw arwyddion o'i ddigofaint, yn nghorph y noswaith hono, efe a barodd garcharu holl ganlynwyr W. de Breos, a'i grogi yntau ar bren, mewn lle a elwir "Gwern y Grogfa," ar gyfer y llŷs tywysogaidd. Y mae traddodiad yn yr ardal, fod y Dywysoges ar ei mynediad allan y boreu dranoeth, wedi cyfarfod yn ddamweiniol â'r Bardd teuluaidd; yr hwn, gan ei fod yn deall nad oedd hi yn gwybod dim am yr hyn a gymerasai le yn nghorph y nos, a'i cyfarchai gan ddywedyd:—

"Diccyn doccyn, Gwraig Llewelyn,
Beth a roit ti am wel'd Gwilym?"

I'r hyn yr attebai hithau fel y canlyn:—

[1] *Rymer's Foedera*, vol. ii. p. 227.

Digitized by Google

"Cymru, Lloegr, a Llewelyn,
A rown yn nghyd am weled Gwilym."

Yna y bardd, gan gyfeirio a'i fŷs at y fan lle yr oedd ef yn hongiaw gerfydd ei wddf wrth bren, a ddywedai, "Dacw efe!" Dywaid traddodiad hefyd i'w gorph gael ei gladdu mewn ogof, yn y maes a elwir "Cae Gwilym Ddu." Eraill a farnant mai yn y lle a elwir Braich y Bedd, yn agos i Hafod Garth Gelyn ei claddwyd: ac y mae traddodiad yn ein hysbysu fod Eglwys yn agos i'r lle hwnw yn yr hen amseroedd; ac y mae yno lannerch yn myned hyd heddyw dan yr enw "Hen Fonwent." Nid oes dim yn anhygoel yn hyn, yn gymmaint a bod genym seiliau i gredu fod un o hâf-lysoedd y tywysogion Cymreig yn y fan grybwylledig.

Bu farw y Dywysoges Joanna, yn mhen saith neu wyth mlynedd ar ol y trychineb uchod; a hi a gladdwyd yn ol ei dymuniad ei hun, yn Llanfaes, gerllaw y Beaumaris, lle yr oedd crefydd-dy perthynol i'r urdd mynachaidd a elwir y Dominiciaid, neu y Brodyr Duon; a Llewelyn a adeiladodd Gapel costus ar ei bedd, yr hwn a gyflwynid i St. Francis, ac a gyssegrid gan Howel, Esgob Bangor.—Gwel Llanfaes.

Yn yr un flwyddyn ag y bu farw Joanna, sef 1237, Llewelyn a wysiodd holl dywysogion a phendefigion Cymru i'w gyfarfod ef yn Mynachlog Ystrad Fflur, ac a barodd iddynt adnewyddu eu llwon o ffyddlondeb, a chydnabod hawl ei fab Dafydd o'r llywodraeth ar ei ol ef: ei fab o'r dywysoges Seis'nig, yn hyttrach na Gruffydd, ei fab henaf, o'i wraig gyntaf Tangwystl. Yr oedd ganddo ferch hefyd o Joanna, o'r enw Gwladus, yr hon a briododd â Syr Ralph Mortimer.

O'r pryd hyn hyd ddiwedd ei oes, yr oedd teimladau mwy cyfeillgar yn ffynu rhwng y tywysog Llewelyn a'i frawd-yn-nghyfraith, brenin Lloegr. Yr oedd Llewelyn bellach mewn gwth o oedran, ac wedi treulio oes egniol a hunan-ymwadol annghyffredin, ac efallai fod hyny yn peri iddo fod yn dra awyddus am ychydig o seibiant a gorphwysdra bellach: ac heblaw hyny, efallai ei fod ef yn fwy awyddus am sicrhau i'w fab Dafydd, ewyllys dâ, a chefnogaeth ei ewythr, brenin Lloegr; fel, pan na byddai efe mwyach, y gallai ei fab Dafydd esgyn i'r orsedd yn fwy tangnefeddus. Ac ar yr 11eg o Ebrill, 1240, bu farw Llewelyn ab Iorwerth, ac efe a gladdwyd yn mynachlog Aber Cynwy. Yr oedd efe yn un o'r Tywysogion mwyaf doniol, dewr, a llwyddiannus, o holl Dywysogion Cymru; bu yn teyrnasu chwe blynedd a deugain, ac yn yr yspaid hyny ehangodd lawer ar derfynau ei wlad: ond, yr oedd surdoes estronaidd wedi llygru amryw o'r pendefigion a'r offeiriaid i'r fath raddau, fel na's rhoddent i Lewelyn y gefnogaeth a'r cydweithrediad hwnw oedd yn angenrheidiol tuag at sicrhau ei hannibyniaeth a'i rhyddid.

Tua chwe blynedd y bu Dafydd fyw ar ol dylyn ei dad yn y llywodraeth, ac arnodid hyny o dymhor â llawer o anwadalwch tymher; ac â gormod o ddelw ei daid, y brenin John. Gorchwyl olaf ei oes, sef y gwrthsafiad dewr a ddaliodd efe i Harri y Trydydd, gerllaw Deganwy, a adlewyrchodd y pelydr mwyaf gogoneddus ar ei deyrnasiad;[1] ac yn fuan wedi dychweliad gwarthus Harri o'r cadgyrchiad colledus hwnw, dychwelodd Dafydd, yn doredig ei ysbryd i'w lŷs ei hunan, yn nghastell Aber, lle y bu efe farw, yn Ngwanwyn y flwyddyn 1246, ac efe a gladdwyd gyd a'i dad yn Aber Conwy. Bu farw Dafydd ap Llewelyn yn ddiblant; yr oedd ei unig frawd ef, Gruffydd ap Llewelyn, wedi torri ei wddf wrth geisio dianc o'r Twr Gwyn, ac efe yn dew ac yn drwstan. Gadawsai Gruffydd ap Llewelyn feibion ar ei ol, sef Owain, Llewelyn, a Dafydd. Yr oedd Owain, yr hwn a elwid Owain Goch, wedi bod er amser ei gaethgludiad gyd a'i dad i Lundain, dan gadwraeth y brenin yn Lloegr; ond, pan glybu efe am farwolaeth ei ewythr, efe a giliodd yn ddirgelaidd oddiyno, ac a ddaeth i Wynedd, gan ddysgwyl ei gelwid gan y pendefigion i'r orsedd dywysogaidd, fel ei hettifedd cyfiawn. Yr oedd Llewelyn trwy ystod teyrnasiad ei ewythr, yn aros yn ei lŷs ei hun, Maesmynan, gerllaw Caerwys: a dywedir ei fod yn meddiannu cantrefi Rhos, a Rhufoniog, a Dyffryn Clwyd, a Thegeingl. Ni's gwyddom pa le yr anneddai y brawd ieuangaf Dafydd ab Gruffydd y pryd hyn; pa fodd bynnag, fe ymddengys ei fod naill ai yn rhŷ ieuainc, neu ddinod, i feddwl bod yn ymgeisydd am arglwyddiaeth Dywysogaidd: ac felly, trwy gyngor pendefigion y wlad, gosodwyd Owain a Llewelyn yn dywysogion ar dalaith Gwynedd. Cyd deyrnasodd y brodyr yn dawel a chyttun, am yspaid yn y dechreu; ond yn mhen tua saith mlynedd, amlygai Owain Goch anfoddlonrwydd i fwynhau y naill hanner o'r Dywysogaeth; a llithiodd ei frawd Dafydd, i gyduno ag ef i geisio dwyn cyfran Llewelyn oddiarno; ac efallai eu bod wedi ymhyfau i wneyd y cais yma, am fod brenin Lloegr wedi dwyn y berfedd-wlad, lle y cynnwysid ettifeddiaeth Llewelyn, oddiar y Cymry: ond, tra yr oeddynt hwy yn casglu eu lluoedd yn nghyd i geisio dihawlio Llewelyn, a'i fwrw o'r arglwyddiaeth, casglai yntau fyddin o'i gefnogwyr i'w gwynebu, ac ar *Fryn Derwyn*, ychydig oddiar Glynnog, y cyfarfuant, a chyn pen awr o frwydro, cymerwyd Owain yn garcharor, a Dafydd a ffôdd am ei einioes. Fe'n hysbysir ddarfod i Lewelyn gadw ei frawd Owain yn garcharor yn nghastell Dolbadarn am dair blynedd ar hugain.

Yn y flwyddyn 1255, y pendefigion Cymreig, y rhai ni's gallent oddef y camwri â pha un eu gorthrymid gan y tywysog Edward, ac arglwyddi y cyffindiroedd yn hwy, a anfonasant gennadwri at Llewelyn i attolygu arno amddiffyn eu cam; ac yntau fel Tywysog dewr-wych, ni bu yn annyben i gyfarfod â'u dymuniadau; ac wedi crynhoi byddin led gref yn nghyd, efe a ymosododd gyda chad-ruthriad chwyrn a chyflym ar y tiriogaethau a drawsfeddiannasid gan y Saeson; ac mewn llai nag wythnos efe a ennillodd yr holl Berfedd-wlad a Meirionydd. Yna efe a adenillodd y tiroedd a drawsfeddiannasai y tywysog Edward yn Ngheredigion, ac a'u rhoddodd i Meredydd ab Owain ab Gruffydd. Rhoddodd hefyd ardal Buallt i Meredydd ap Rhŷs Gryg, gan erlid ymaith Rhŷs Fychan ap Rhŷs Mechell, heb gadw dim iddo ei hun, ond yn unig ennill clod am ei wrolder a'i haelioni. Ar ol hyny, efe a aeth, ac a ennillodd iddo ei hun ardal Gwrthrynion allan o feddiant Syr Rosser Mortimer; ac yn mhen ychydig, sef yn 1256, efe a aeth tua Phowys gyda Meredydd ap Rhŷs, a Meredydd ap Owain, a llawer o bendefigion eraill, yn erbyn Gruffydd ap Gwenwynwyn, yr hwn oedd yn pleidio y brenin, ac efe a ennillodd oddiarno y cyfan o Bowys, oddieithr y Castell Coch, ac ychydig o'r wlad, ar ymyl Hafren. Ac o'r flwyddyn hon hyd y flwyddyn 1267, efe a barhaodd i ymladd

[1] Gwel Eglwys Rhos, a Llanrhos.

Digitized by Google

yn erbyn y Tywysog Edward, â dewrder dihafal, gan fuddugoliaethu weithiau, a cholli y dydd bryd arall: ond, yn y flwyddyn olaf a nodwyd, bu raid iddo ymostwng o flaen gallu gor-nifeiriol y Saeson; a derbyn ammodau heddwch yr hwn oedd yn fwy manteisiol ac anrhydeddus nag y gallesid dysgwyl. Gan i Llewelyn omedd talu gwarogaeth i Edward ar ei esgyniad i orsedd Lloegr, goresgynai y pennadur hwnw ei diriogaethau ef â byddin gref iawn yn y flwyddyn 1277, gan yr hon ei newynid i ymostyngiad o'r diwedd, ac ei gorfodwyd i ymheddychu ar ammodau, trwy y rhai ei difeddiannid o'r rhan fwyaf o'i diriogaethau.

Yn y flwyddyn 1282, ymarfogai y Cymry drachefn i ysgwyd ymaith iau y gorthrymwyr oddiar eu gwarau, ymosodasant ar y gwarchodluoedd, a gorchfygasant amryw o ran-fyddinoedd y gelyn: ond, daeth Edward ei hunan i Wynedd drachefn, a lluoedd mawrion ganddo; ac efe a benderfynai lwyr ddarostwng Cymru cyn dychwelyd y tro hwn; ond, efe a gyfarfu â mwy o anhawsderau nag a fuasai yn eu dysgwyl, a chafodd ei wŷr eu baeddu yn dost mewn llawer brwydr â'r mynyddwyr glewion; felly yn yr Hydref, efe a ddychwelodd i Gastell Rhuddlan, o'r lle yr anfonodd wŷs-lythyrau i grynhoi ei brif gynghorwyr, er cynllunio rhyw foddion mwy effeithiol er cwblhau yr amcan oedd ganddo mewn golwg. Yn fuan ar ol hyn, cyfeiriai y brenin tuag Ynys Fon, ac wedi croesi yr Afon Cynwy ar bont o fadau, gyda rhan o'i fyddin, tra yr anfonai y rhan arall o honi mewn llongau i'r Ynys; a'r rhai hyn a gawsant feddiant o ran o'r Ynys, pa fodd bynnag yn rhwydd, gan fod rhai o ddynion penaf yr Ynys wedi cymeryd llw o ddeiliadaeth i'r Brenin. Y rhan hon o'r fyddin, er gallu cydweithredu â'u cyfeillion a ddeuent ar hyd ymylau Arfon, a wnaethant bont o fadau dros y Menai, gerllaw Moel y Don, yn ddigon llydan i driugain o wyr ei cherdded yn gyfochrog. Yna, cyn i'r fyddin gyffredinol gychwyn i groesi y bont, ac yn wir, debygid, yn mhell cyn i'r Brenin a'r fyddin a'i canlynai, ddyfod yn agos i'r lle, darfu i Syr William Latimer, a llu nifeiriol o'r milwyr gorau, a Syr Lucas Thany, Rhaglaw Gwasgwyn, gyd a'i Wasgwynwys a'r Yspaeniaid oeddynt yn ngwasanaeth y brenin, fod mor eofn a myned tros y bont ar amser trai i'r ochr arall i'r Menai; a thros ennyd, ni chyfarfuasant ag un gwrthladdiad, ac nid ymddangosai eu bod mewn unrhyw berygl: ond, pan ddaeth y llanw i mewn, fel yr oedd rhan o'r môr rhyngddynt a'r bont, yn ei gwneyd yn anfanteisiol iddynt ei hadennill, rhuthrai y Cymry dan dywysiad Rhisiart ap Walwyn arnynt yn ddisymwth, fel y gorfu i'r rhai a allent, ddianc tu ag at y bont; ond y rhai a ddiangasant rhag arfau y Cymry, a foddasant wrth geisio cyrhaedd y bont, a dywedir na ddihangodd o honynt ond Syr William Latimer, yr hwn trwy gryfder ei farch a lwyddodd i gyrhaedd y bont. Felly yn y tro yma, collodd y Saeson, rhwng lladd a boddi, bymtheg marchog, deuddeg ar hugain o ysweiniaid, a mil o filwyr cyffredin. Yn mhlith y lladdedigion yr oedd Syr Lucas de Thany, Syr William Dodingeseles, a Syr William de la Zouch. Parodd y fuddugoliaeth hon lawenydd mawr i'r Cymry, ac o'r tu arall, dyrysodd amcanion Iorwerth, fel na ddaeth yn mlaen yn ol ei fwriad, i geisio cau ar Lewelyn yn mylchau Eryri, ond y dychwelodd yn ol i gastell Rhuddlan. Dywedir fod Llewelyn wedi gwneyd gwledd i'w gyfeillion yn Aber, brydnhawn y fuddugoliaeth uchod, a than symbyliad y llawenydd cyffredinol, iddo gyfansoddi yr englyn canlynol:—

"Mae'n don llawer bron llu'r brenin—heddyw
Er hawdded ein chwerthin;
Llawer Sais, leubais libin
Heb un chwyth fyth o'i fin."[1]

Cymerodd y frwydr uchod le ar y 6ed o Dachwedd, 1282; ond byr iawn a fu parhad y gorfoledd uchod yn llysoedd y Cymry; ac nid yw yn annhebyg mai yr un a nodwyd uchod oedd y wledd olaf a gynhaliwyd yn llŷs tywysogaidd Aber; canys Llewelyn, yn lle gorphwyso yma ar ol deall fod y brenin Edward wedi encilio i auafu yn nghastell Rhuddlan, a adawodd ei frawd Dafydd i gadw ardaloedd Eryri, ac efe ei hun a aeth â byddin gref tua Deheubarth Cymru, i gyfnerthu ei gyfeillion, ac i ymddial ar ei wrthwynebwyr, a chan ymosod ar Geredigion, gwlad Rhŷs ab Meredydd, yr hwn a fuasai gan amlaf yn fradwr i'w genedl, efe a'i diffeithiodd yn dost.

Oddiyno efe a aeth tua Llanfair yn Muallt, i ymgynghori â rhai o bendefigion yr ardaloedd hyny, ac i geisio ffurfio cyngrheiriad tuag at wrthladd yr ormes Seis'nig yn fwy effeithiol. Pa lwyddiant a fuasai yn dilyn yr ymdrech hwn o'i eiddo, pe y cawsai einioes i gario allan ei gynlluniau, ni's gallwn ni ddyfalu: ond dygwyddodd amgylchiad ar y pryd hwn, a roes derfyn bythol ar ei holl gynlluniau gwladgar, a'i ymdrechiadau gorchestol; ac a lwyr ddiffoddodd annibyniaeth cenedlaethol y Cymry. Mae yn ymddangos iddo gael ei drywanu gan un *Adam de Ffrancton*, tra yr oedd o'r neilldu encyd oddiwrth ei wŷr; a'i ben a ddygwyd i'r Brenin Edward, i gastell Rhuddlan, ac oddiyno fe'i hanfonwyd i'r brif ddinas, ac a'i gosodwyd ar bicell haiarn, ar un o dyrau uchaf y Twr Gwyn.—Gwel Buallt, &c.

Ei frawd Dafydd a'i deulu, y rhai a heliasid o gwm i glogwyn, a gymerwyd yn garcharorion, tra yr oeddynt yn llechu yn nghwr cors, gerllaw Mynydd y Bere, ryw ddwy neu dair milldir oddiar bentref Aber; ac efe a roddid i farwolaeth yn y modd creulonaf trwy orchymyn y brenin.

Ychydig oddiar y pentref hwn y gwelir gweddillion hen amddiffynfa Brydeinaidd grêf ar fryn uchel; a gelwir y llannerch "Maes y Gaer." Gallem feddwl fod yr amddiffynfa hon tua chyfoed a'r amddiffynfa grêf sydd ar yr ochr arall i'r mynydd, yn mhlwyf Llanbedr y Cennin, yr hon a elwir Pen caer Elen; neu, yn fwy cywir, efallai, Pen caer Belin: ac nid yw yn annhebyg fod y ddwy hen amddiffynfa uchod wedi eu bwriadu i gadw y fynedfa trwy Fwlch y Ddeufaen.

Y mae yma lannerch yn y plwyf hwn a elwir Bryn y Meddyg, lle yr oedd yr yspytty efallai, i'r milwyr cleifion neu archolledig, pan fyddai annedd y tywysog yn Aber.

Yr oedd hen balasdy gynt yn y plwyf hwn, a elwid y Wig, lle y mae annedd hardd Mr. Atkinson yn sefyll; ac y mae y chwedl ddyddorol a ganlyn yn gyssylltiedig a'r lle. Dywedir fod y lle yn perthyn gynt i arglwyddi Gwydir, gerllaw Llanrwst; a darfod

[1] Y mae eraill yn haeru mai Cadwgan Ffôl a ganodd yr englyn pan y daeth y Saeson trwy Gonwy i ymladd â'r Cymry, ac eu boddwyd ger Deganwy; ac mai fel hyn yr oedd yr englyn:—

"Llawer brân sy'n eisiau i'r brenin heddyw;
Hawdd gallwn chwerthin;
Llawer Sais, leu-bais libin,
A'r grô yn dô ar ei din."

Digitized by Google

i Syr John Wynne ar un achlysur, beri i'w was gymeryd y forwyn Catharine (yr hon oedd yn feichiog o'i meistr), dros y mynydd i'r Wig, i orwedd i mewn; ond fel yr oeddynt ar y mynydd, yn agos i'r Foel Wynion, daeth yn dywydd mawr arnynt, a deallai y llances bod pangfäau esgor wedi ei goddiweddyd; ac felly troisant i ryw hafotty bychan ar y mynydd, lle y ganwyd mab iddi; yr hwn wedi hyny a fu mor hynod, dan yr enw "Twm Siôn Catti." Ni's gwn a yw y chwedl hon yn gywir am le genedigaeth *Twm;* ond y mae hen furddyn ar y mynydd, yn cael ei alw "Hafotty y Famaeth" hyd heddyw; ac y mae y traddodiad uchod yn cael ei gadw yn fyw gan fugeiliaid y fro, o oes i oes; ac yn eithaf cydweddol a buchedd ramantus y dyn hynod hwnw.

Mae yma le arall yn y plwyf o gryn henafiaeth hefyd, sef Bodsilin: a deallwn i linach ucheldras fod yn cyfanneddu ynddo dros oesoedd. Dyma achau y teulu, fel eu cawn yn ngwaith Lewys Dwnn, yr hwn a gyhoeddwyd dan olygiad Syr Samuel Rush Meyrick; ac oddiwrth y gwaith hwnw, casglwn fod gan y teulu hwn annedd arall yn Nhre 'r Gof, plwyf Hen Eglwys, Môn.

"Robert, mab ac aer Owen ab Robert ap John a Meirig ab Llewelyn ab Hwlcyn ab Howel ab Iorwerth ddu ab Iorwerth ab Gruffydd ab Iorwerth ab Meredydd ab Methusalem ab Hwfa ab Cynddelw, o Gwmmwd Llifon. Syr Owen Archddiacon Mon, yr hwn a ddyrchafwyd i'r urddas hwnw ar farwolaeth Nicolas Robinson, Esgob Bangor, yn y flwyddyn 1584. Yr oedd efe hefyd yn beriglor Burton Latimers, yn swydd Northhampton, ac yno ei claddwyd ef, Mawrth 21, 1592.

Syr William Owen, o'r cyff hwn a ddyrchafwyd i beriglioriaeth yr Hen Eglwys, Medi 25, 1583; ond efe a'i rhoddes i fynu Hydref 17, 1605. John Owen, oedd yn Ysgrifenydd i Syr Francis Walsingham, ag oedd yn fyw Chwefror 19 y nawfed flwyddyn i Iago I. (1611–12), fel y gwelwn wrth amseriad Gweithred a lawnodwyd ganddo. Yr oedd ei wraig ef yn aeres Porkington, neu, yn Gymraeg, Brogyntyn, gerllaw Croesoswallt, a'r Cleneney yn Eifionydd; ac yr oedd Mary Jane, gwraig y diweddar William Ormsby Gore, Ysw., A.S., yn chweched mewn disgyniad o'r John Owen hwn, ac Ellen, ei wraig. Yr oedd iddynt ddwy chwaer hefyd, y rhai a briodasant i deuluoedd parchus. Eu mam, gwraig yr Owen ab Robert uchod, oedd Angharad, merch, ac un o dair aeres i Ddafydd ab William ab Gruffydd ab Robin o Gwchwillan. Mam Angharad oedd Gwen, ferch Morys ab John ab Meredydd ab Ieuan ab Howel ab Dafydd ab Gruffydd ab Cariadog ab Thomas ab Rhodri ab Owain Gwynedd. Mam Owen ab Robert, a'i frawd Howel, oedd Gwenhwyfar, ferch William ab Meredydd ab Rhys ab Ieuan Llwyd ab Gr: ab Gronwy ab Howel ab Cynwrig ab Iorwerth ab Iarddur. Mam hono oedd Anngharad, ferch o'r Cryngae yn Sir Gaer. Mam Robert ab John, oedd Anngharad, ferch Gruffydd ab Howel ab Madoc ab Ieuan ab Einion. Mam Meirig[1] oedd Mali, ferch, ac unig aeres i Ifan Llwyd ab Gr: ab Gronwy, o Fodsilin; ac oddiwrthi hi Cadfad Bodsilin. Mam John ab Meirig, Margaret, ferch Ieuan Fychan ab Ieuan ab Adda. Plant y Robert Owen uchod oeddynt John, yr hwn a fu yn wastrawd i Dywysog Condè, a'r hwn a werthodd ettifeddiaeth Bodsilin: *Thomas, Robert, Owen,* a *William;* ac o ferched, *Ellen,* yr hon a briododd Owen ab Huw ab Rhys ab Ieuan ab Dafydd Fychan.—*Alis,* yr hon a briododd William Bould ab Thomas Bould, o Gaer yn Arfon.—*Mallt, Gras,* ac Elsbeth. Mam John, Thomas, Ellen, Alis, a Mallt, oedd Annes, ferch Sion Wyn ab Ieuan ab Sion ab Meredydd. Mam hono, Mallt, ferch Rhydderch ab Dafydd ab Ieuan ab Ednyfed. Mam y plant eraill oll ydoedd Lowry, ferch William Coetmor, ab William ab Pyrs ab Rhys ab Robert ab Ieuan Fychan. Mam hono, Siân, ferch William ab William ab William ab Gruffydd ab Robyn o Gwchwillan.

Arfau Robert Owen o Bodsilin oedd Pais Hwfa ab Cynddelw.—2 pais Cwchwillan.—3 pais Iarddur. Oddiwrth yr achau uchod gwelwn fod gwaedoliaeth uchaf Gwynedd yn cyfarfod yn hen foneddigion plwyf Aber.

Nid yw y pentref hwn ond bychan; na'r rhan fwyaf o'r anneddau ond salw yr olwg arnynt: ond y mae yn gorwedd yn ngenau glyn prydferth iawn, trwy yr hwn y mae yr afon Gwyngregyn yn llifeiriaw, gan ymarllwys i'r môr, ryw haner milldir islaw y pentref. Oddiyma ceir golygfa swynol ar Landudno, Ynys Seiriol, Penmon a'i Briordy henafol, y Ffriars, Barnhill, Palas Syr Richard Bulkeley, Tref Beaumaris, a'i hen gastell; Dinas Bangor, a Chastell ysplenydd y Penrhyn: ac afon Menai, yn dryfrith gan agerfadau, a llestri hwylio o bob maintioli.

O'r tu ol i'r pentref, y mae y glyn yn ymestyn am oddeutu milldir a haner, rhwng bryniau uchel i fynwes mynydd-res fawreddog Eryri, ac o ganol y mynydd ceuawl sydd yn mhen uchaf y nant, y mae rhaiadr ardderchog yn disgyn ar ddau godwm: yr uchaf a dorir yn amryw ffrydiau, gan ei fod yn cwympo ar draws ysgythrau y graig; a'r isaf sydd yn ymdywallt yn un len lydan o driugain troedfedd o uchder.

Y mae eglwys y Plwyf yma yn gyssegredig i Sant Bodfan, ac y mae yn hen adeilad eang, a chlochdy, nendwr petryal da iddi. Y fywioliaeth sydd bersonoliaeth, yn Archddiaconiaeth ac Esgobaeth Bangor. Noddwr, Syr R. B. Williams-Bulkeley, Bar. Mae yma Ysgol ddyddiol berthynol i'r Eglwys, yn cael ei chynnal mewn Ysgoldy cyfleus, yr hwn a adeiladwyd yn y flwyddyn 1833. Y mae yn ddigon eang i gynnwys 67 o blant i dderbyn addysg: ond nid yw y nifer cyffredin yn haner hyny, na'r addysg a gyfrenir ynddi ond lled salw, fel y gwelir wrth Adroddiad Dirprwywyr Addysg.

Y mae dau Addoldy Ymneillduol hefyd yn y pentref bychan hwn, yr isaf, yr hwn hefyd yw y mwyaf, yn perthyn i'r Trefnyddion Wesleyaidd; a'r uchaf, i'r Trefnyddion Calfinaidd. Nid yw y cynnulleidfaoedd yn lluosog yn y naill na'r llall; ac ni's gellir dysgwyl iddynt fod ychwaith, gan nad yw poblogaeth y lle, ond ychydig.

Ymddangosai Cân i'r Plwyf hwn, mewn rhifyn diweddar o'r "BRYTHON;" gan frodor o'r lle, debygem; yr hon y'n cymhellir i'w dodi i fewn yma, o herwydd ei bod yn cynnwys darluniad tra cywir o'r ardal.

"O ABER! mae d'enw mor swynol i'm henaid;  
O'm calon y'th garaf tra b'wyf yn y byd:  
Dy lethrau dryfrithir â gwaith ein henafiaid,  
Gwrthgloddiau a chaerau, a chestyll tra chlyd.

[1] Bu Meirig ab Llewelyn farw yn y flwyddyn 1530. Cynnrychiolid ef a'i dad, a'u gwragedd mewn gwydr lliwiedig yn ffenestr Eglwys Ael, neu Langadwaladr, yn Mon.

—Ei bannawg fynyddau,—noddfäau 'r hen Gymry,
Sy'n orwych ymgodi i'r cymmyl di ri;
—Y Llwydmor a'r Bere, mynyddoedd anwyl-gu,
Sy'n addurn i Aber, i brofi ei bri.
Helyntion fy maboed ymwthiant i'm golwg,
Nes berwi fy mynwes gan hiraeth yn gry;
A'm hanwyl gyfoedion sy'n huno mewn trymgwsg,
Gynt chwerais a neidiais ar hyd y Ffrith Ddu:
Y campau bachgenaidd, a'r amryw wrhydri,
A wnaethum trwy gydol foreuol fy oes;
Y bryniau anwylgu, a'r creigiau uchel-fri,—
Y cyfan er's blwyddi o'm golwg a ffoes.

Ac yno mae palas yr hen Dywysogion
Fu'n llywio y Cymry er's cannoedd cyn hyn;
Llewelyn Fawr, enwog, hen Gymro twym galon,
A Dafydd ein brenin, fu'n hen Ben y Bryn;—
A dyma oedd palas ein T'wysog Llewelyn,
Llyw olaf y Cymry, hen elyn i drais;
Ond ga'dd ei fradychu yn Muallt:—Ow! gresyn,
A'i ladd yn y dyffryn gan gleddyf y Sais!

Uwchlaw y rhaiadrau, gwel, dacw y *Bera*,
Lle llechai ein Dafydd rhag cleddyf a brad;
Ond hela ein gwron â gwaedgwn wnaed yma,
A'i grogi, a'i ddarnio, ger gwydd yr holl wlad;
Yspeilio y Palas, a'n gwawdio ni gwedy'n,
Anrheithio ein broydd, a'n gosod yn gaeth:
Pa Gymro all garu hil Hengist fynydyn,
*Pwy?* ettyb yr adsain, tra 'r eigion yn hallt!

Os oes i feib Hengist enwogrwydd a moliant,
Gwroldeb, beiddgarwch, nes synu y byd;
Mae hil yr hen Frython yn uwch mewn gogoniant;—
O Aber! ti fegaist wroniaid i gyd!
Beiddgarwch y Cymry sy'n destyn ymddyddan.
A'u penderfynolrwydd sy'n syndod o hyd;
Dewr y'nt a diysgog ar faes y gyflafan,
*Mae* Cymry, *bydd* Cymry yn enwog trwy 'r byd.

Dy raiadr fawreddog, a'th ddyfroedd grisialog,
Sy'n llamu 'n fwaog, gan ddyrnu y nant;
A dyfnder ar ddyfnder, sy'n galw 'n fawreddog,
Ryw fil-fil o leisiau, o fryn ac o bant;
A minnau wrth wrando y lleisiau lluosog,
Yn boddi mae f'enaid yn nghanol y cor,
Ne's chwenych ymddiosg o'r babell ogwyddog,
A hedfan mewn nwyfiant i nefoedd fy Ior.

A Maes y Gaer enwog, a'r breichiau ysgythrog,
Sy'n dyrchu'n fawreddog i entrych y ne';
A rhwng eu cesseiliau rhed afon risialog,
Gan sisial, a gweini i bawb yn y lle:
A'i meusydd mawreddog ddwg gynnyrch toreithiog;
Da corniog, a'i defaid o'r bron yn ddi ri':
Hirhoedlog ei meibion, a'r Duw Hollalluog
Roes arni yn enwog, o'i fawredd a'i fri.

A'r Domen henafol, lle bu ei thrigolion,
Yn chwareu eu campau difyrol heb ri';
A'r Eglwys a'r gladdfa, lle gorwedd ei meibion,
Sydd le cyssegredig ac anwyl i mi:
A Llyn Nant yr afon, a'i bysgod melynion,
Sy'n denu boneddion, finteioedd i'r fan,
I yfed ei ddyfroedd, a'i falmaidd awelon,
A gweled amrywion ddillynion ein Llan.

Dy geinion, O Aber! sy'n swyno fy nghalon,
Ti fegaist hoff feibion yr Awen yn wir;
A chewri o ddynion, fu'n sugno dy ddwyfron,
Sy'n awr dros yr eigion, yn addurn i'th dir.
Ar wyneb Amerig, mae rhai sy'n dy garu,
Ac yn Califfornia, rai ffyddlon a phur;
A thraw yn Awstralia, mae plant wnest eu magu,
Mae'th fechgyn, O Aber! ar wasgar yn wir.

O'r Mŵd a'i choed derw, ce's gân gan y cwcw,
A'r fwyalch fwyn hoyw, delora uwch ben;
A'r hen "Wern Grogedig," y lle neillduedig
Y bu yn grogedig, un Gwilym ar bren:
Ac anedd fy rhiaint, lle cefais fy magu
Yn dyner ac anwyl, heb brofi dim cam;—
A phan fyddwyf farw, O! doder fi i gysgu,
Dan gangau yr ywen, ger beddrod fy mam.

O Aber garth gelyn! meillionog ei dyffryn,
Hen gartref y delyn a'r awen yn wir;
Dy erddi toreithiog, a'th ddeildai goludog,
Palasau mawreddog sy'n addurn i'th dir;
Addoldai godidog i Dduw Hollalluog,
Moesoldeb a chrefydd, fo'n llenwi y fan;
Brawdgarwch ac undeb a fyddo'n flodeuog,
Dedwyddwch a heddwch byth, byth yn ein Llan.

Dy raiadr a'th geinion, sy'n denu boneddion,
Rhianod glan tirion, a Beirddion i'r fan:
A phenau coronog o'u llysoedd mawreddog,
I dalu ymweliad a llethrau ein Llan.
Pwy faidd fy nirmygu am i mi fawr garu,
Y fro ce's fy magu, a'm noddi rhag nam?
Boed llygaid y Duwdod yn gwylio fy ngwely,
Tra fyddwyf yn cysgu ger beddrod fy mam!

*Glan Traeth Wylofain.* HU ERYRI.

**ABERAERON**: tref fechan, a phorthladd, rhan o ba un sydd yn mhlwyf *Hen fynyw;* ond, y rhan fwyaf, yn mhlwyf *Llanddewi Aberarth*, y rhan isaf o gantref *Ilar*, swydd ABERTEIFI, neu GEREDIGION; Deheubarth Cymru: 16 *m. de or.* wrth *dde.* o ABERYSTWYTH; a 23 *m. dwyr. og. ddwyr.* o ABERTEIFI.

Mae y pentref hwn yn gorwedd mewn llannerch ddifyr, ar y ffordd fawr o Aberteifi i Aberystwyth; yn ngodreu dyffryn Aeron, (ystlysau yr hwn a wisgir a choedwigoedd heirdd, a pherllanau ffrwythlawn;) ar lan y mor, lle mae yr Aeron yn arllwys ei dyfroedd gloywon i'w fynwes. Y mae yr afon Aeron yn y lle hwn yn ffin plwyfi Henfynyw a Llanddewi, ac felly, y mae y pentref hwn yn gorwedd mewn rhan yn y ddau blwyf. Gwasanaetha dyfroedd yr afon hon i droi amryw felinau ydynt wedi eu cyfodi ar ei glennydd; ac y mae yn dra enwog am ei gleisiaid a'i brithyll.

Mae y dref hon yn ddyledus am ei dechreuad i'r diweddar Barch. Alban Thomas Jones Gwynne, o'r Tŷ Glynne, yr hwn yn y flwyddyn 1807, a gafodd Weithred Seneddol, dan awdurdod yr hon yr adeiladodd efe ddau for-fur, ar enau yr afon Aeron, ac y darparodd efe lwythfeydd, llwythbeiriannau, ac ystordai cyfaddas, gan fyned i chwe mil o bunnau o draul. Mae y morfur gorllewinol yn gan llath o hyd; a'r llall yn ddeg a phedwar ugain; y ddau wedi eu hadeiladu o feini: ond, oblegyd sefyllfa agored y lle, yr oeddynt yn annigonol i ddyogelu llestri rhag y gwyntoedd gogleddol, a gogleddorllewinol; am hyny barnwyd yn ddoeth estyn y morfur gorllewinol tua chan llath yn mhellach.

Bernir fod y Mynachdy, preswylfa y Milwriad Gwynne yn y gymmydogaeth yma, wedi bod yn hen sefydliad eglwysig yn amser rhwysg Pabyddiaeth; ond, ni ellais gael dim o'i hanes. Yn agos iddo y mae tomenydd, a elwir "*Yr Hen Gastell;*" ond ni's gwyddys gan bwy, neu pa bryd ei hadeiladwyd: efallai ei fod yn un o'r hen amddiffynfeydd Prydeinaidd, cyn y cyfnod Rhufeinaidd. Yn agos i'r dref, ar lan y mor, y mae amddiffynfa fechan, a elwir "*Castell Cadwgan;*" yr hon, fel y bernir, a adeil-

Digitized by Google

adwyd gan *Cadwgan ab Bleddyn*, tu a'r flwyddyn 1148; a chredir fod yr amddiffynfa hon yn cael ei defnyddio gan y Normaniaid, er amddiffyn eu glaniad, neu eu henciliad, pan yn amser *William Rufus*, y cyfeirient eu llynges tu a'r parth hwn, er ymosod ar ororau Ceredigion, yr hon a anrheithiasant yn dost.

Y mae dau Addoldy ymneillduol helaeth yn y dref fechan hon; y *Tabernacl*, yr hwn a berthyna i'r Trefnyddion Calfinaidd, a gyfodwyd gyntaf yn y flwyddyn 1809; a'r addoldy arall, *Peniel*, yr hwn a berthyna i'r Annibynwyr, a gyfodwyd gyntaf yn y flwyddyn 1832.

Heblaw hyny, y mae yma Ysgol Frutanaidd, yr hon a gynhelir yn gyfangwbl gan yr Ymneillduwyr, ac yn yr hon y mae oddeutu 60 o blant tlodion yn cael addysg rad.

**ABERAFON**, neu ABERAFAN, porthladd bychan, bwrdeis-dref, a phlwyf, yn Nghantref NEDD, SWYDD FORGANWG, ar y ffordd o *Abertawe* i *Gaerdydd;* 5½ milldir i'r De Ddwyrain o *Gastell Nedd*, a 196 milldir i'r Gorllewin o LUNDAIN. Mae y lle hwn wedi derbyn ei enw oddiwrth ei sefyllfa ar enau yr *Afon*, neu *Afan*:[1] ac y mae yn ymddangos ei fod yn lle o henafiaeth nodedig, a bod amryw ragorfreintiau pwysig yn perthyn iddo gynt, y rhai ni's mwynheir, ac ni's cydnabyddir erbyn hyn. Yn rhaniad y wlad, yr hyn a gymmerodd le ar ei goresgyniad gan *Fitz Hammon*, yr anturiaethwr Normanaidd, gwnelai i fynu ran o'r tiriogaethau a ddyroddid gan y Cad-lywydd hwnw i *Caradawg*, fab *Iestyn ab Gwrgant*, y Tywysog a ddiorseddasid, yr hwn yn y canlyniad a wnelai ei drigle yn Aberafan; a bernir mai efe a adeiladodd yr hen gastell, o seiliau yr hwn y gwelir olion yn y maes gerllaw y fynwent. Er nad oedd y castell hwn yn fawr, yr oedd wedi ei gyfleu yn dra manteisiol i amddiffyn yr Aber; ac yr ydoedd yn ddigon cryf i fod yn wrthddrych o gryn bwysigrwydd yn y rhyfeloedd mynych a ffynent yn y wlad y pryd hyny.

Dylynid *Caradawg* yn ei arglwyddiaeth gan ei fab *Morgan*, yr hwn yn marn amryw Haneswyr cyfrifol, sydd yn deilwng i'w olygu yn seilydd Abbatty tywysogaidd Margam, o'r hon y mae cryn lawer o olion yn aros eto.

Tua'r flwyddyn 1150, darfu i Madog ab Meredydd, tywysog Powys, wneyd cad-gyrchiad i swydd Forganwg, gan flaenori byddin gref; ac efe a anrheithiodd diriogaethau Morgan ab Caradawg ab Iestyn, ac a gymmerth gastell Aberafon, gan ei ddryllio hyd lawr. Ar yr achlysur yma, gan fod Morgan yn analluog i wrthladd y fath gadernid ag a ddygid i'w erbyn, efe a ffodd, a'i ganlynwyr yr un ffunud, i'r Eglwysydd a'r Mynachlogydd am nodded, ar y cyntaf: ac yna, efe a'i rhoddes ei hun a'i wŷr, dan nawdd a diffyniad *William*, Iarll Caerloyw, ac Arglwydd Morganwg.

Yn y flwyddyn 1349, yr oedd Thomas, fab Syr John de Afon wedi dyfod i feddiant o arglwyddiaeth Aberafon; ac efe a ganiattaodd freinlen i Abbatty Margam, yn yr hon y cadarnheid yr holl roddion a'r rhagorfreintiau a ganiattasid iddi o'r blaen, ac y caniatteid i drigolion y fwrdeisdref hawl a rhyddid i ymarfer yr holl ragorfreintiau a ganiattasid iddynt i'w mwynhau, gan eu cymmwynaswyr tywysogaidd, mewn oesoedd blaenorol.

Yn ystod llywodraethiad Cromwell, deallai Maer y dref fod swyddogion yr Arglwydd Ddiffynydd, fel ei gelwid, yn nesau tua'r dref; ac er mwyn diogelu y Freinlen, ac ysgrifeniadau pwysig eraill a berthynent i'r fwrdeisiaeth, efe a'u cuddiodd mewn dernyn garw o dderw, yn yr hwn y cafnasai geuedd i'w derbyn; a phan ddaeth y swyddogion i fewn i'w dŷ, hwy a'i cawsant ef yn cymmynu coed ar y pren crybwylledig, fel pe na buasai yn ddim amgen na phlocyn cyffredin. Trwy y ddichell yma, cadwyd y papurau gwerthfawr yn ddiogel: ac y mae yr hen ddernyn derw, a nodau y fwyall yn weledig arno hyd y dyddiau hyn, yn cael ei gadw gyda gofal mawr, fel cist gorphoriaethol bwrdeisiaid Aberafon.

Mae y dref hon yn gorwedd yn lled agos i lan ddwyreiniol crigyll Abertawe, wrth odreu rhês o fryniau uchel; gan y rhai ei cysgodir yn effeithiol rhag yr oerwynt gogleddol; ond, trwy ei bod mor gyfagos i'r morfa, y mae yn ddarostyngedig i awyr laith, a niwl oer yn aml, yr hyn a achosa i'r cryd, ac anhwylderau eraill, ffynu yn dra chyffredin yn mysg y trigolion. Y mae tiroedd isel y gymmydogaeth yn cael eu gorlifo yn aml hefyd, gan gyfodiad dyfroedd yr *Afon*, yr hon sydd yn gorwedd ar y tu dwyreiniol i'r dref. Ar y 25ain o Orphenaf, 1768, bu gorlifiad tra dinystriol, pan y llifeiriai y dwfr i'r Llan, neu yr Eglwys, ac i bob tŷ yn y dref; gan gyfodi mewn amryw fanau, cyfuwch a phump neu chwe throedfedd, er perygl mawr i fywydau y trigolion. Llwyr anrheithid meusydd cyfain o ŷd, oedd ar lennydd yr Afon. Ysgubai y llifeiriant bont Aberafon, a phontydd eraill, o'i flaen; gan gludo swm dirfawr o wair, coed, a defnyddiau ysgeifn eraill yn ei gol i'r cefnfor; ac erbyn i'r llifeiriant gilio, yr oedd y dref a'i hamgylchoedd wedi eu gorchuddio gan dom a llaid, yr hyn a ddystrywiai yr holl ddefnydd ymborth yn y lle, fel y bu yn gyfyng iawn y tymhor canlynol, ar lawer o'r trigolion tlottaf; a diau y buasai amryw o honynt yn trengu gan newyn, oni buasai haelioni digyffelyb a thra chanmoladwy Thomas Mansel Talbot, Ysw.

Wedi hyny, adeiladwyd pont hardd, o un bwa maen, dros yr *Afon*, gan y Pont Adeiladydd enwog, William Edwards o Eglwys Ilan, yn swydd Forganwg. Y mae y lle hwn, a'r Cwm a ymestyna oddiwrth y dref rhwng y mynyddoedd, yr hwn a elwir Cwm Afon, yn dra phoblogaidd, yn gymmaint o bod yma weithfeydd glo a haiarn, yn y rhai y mae miloedd o ddynion yn cael gwaith. Y mae yma Eglwys led newydd, yn yr hon y gallai uwchlaw dau cant ymgynnull i addoli yn gysurus. Cyllid y Ficer, yn ol Adroddiad y Dirprwywyr yn 1836, oedd £184. Heblaw hyny, y mae gan y Bedyddwyr Addolfa yma a gyfodwyd yn 1827: ac y mae gan yr Annibynwyr ddau Addolfa yn y plwyf, sef *Moriah*, a adeiladwyd yn y flwyddyn 1844; a'r *Tabernacl*, a adeiladwyd yn y flwyddyn 1828: y mae gan y Trefnyddion Calfinaidd, ddau addolfa yn y plwyf, sef *Carmel*, yr hwn a gyfodwyd gyntaf yn y flwyddyn 1808, ac Ysgoldy Cwm Afon, a gyfodwyd yn y flwyddyn 1841: ac y mae gan y Trefnyddion Wesleyaidd addolfa hardd, a chyfleus, a gyfodwyd yn y flwyddyn 1847.

Y nifer dan addysg yn yr Ysgolion Sabbathawl yn y plwyf hwn yn y flwyddyn 1847, pan wnaeth Dirprwywyr Addysg eu Hadroddiad, oedd;—mewn

[1] Dywed rhai mai Afan oedd yr hen enw, o *A*, a *ban*, am ei bod yn gylchynedig gan fynyddoedd uchel, a bod yr afon a aberа ynddi, yn tarddu o un o'r mynyddoedd hyny, am hyny ei gelwir Aber-afan.

Digitized by Google

cyssylltiad â'r Eglwys Sefydledig, 50: ac mewn cyssylltiad â'r amrywiol gynnulleidfaoedd Ymneillduol, 488, dan addysgiad 67 o Athrawon, a 22 o Athrawesau. Poblogaeth y Plwyf tua'r adeg hono, oedd o ddeutu 1300; ond, y mae yn llawer mwy erbyn hyn.

ABERBAIDON, treflan yn mhlwyf *Llanelli*, Cantref CRUG HYWEL, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUBARTH CYMRU; 3½ *mill.* i'r *gor.* wrth *og.* o ABERGAFENNI.

Mae y lle hwn wedi cael ei enw oddiar ei fod yn gorwedd ar ymuniad afonig o'r enw y *Baidon*, neu y *Baiden* â'r Wŷsg. Rhenir y dreflan gan yr afon Clydach, yr hon sydd yn llifeiriaw ar hyd nant ddofn, hyd ei huniad â'r Wŷsg; ac yn ei gyrfa, yn ffurfio amryw reieidr heirdd, yr hynottaf o ba rai a elwir "Pwll y Cŵn." Y mae dyfrffos (*canal*), yn cael ei gludo dros yr afon yma, ac y mae yn 84 troedfedd uchlaw gwely yr afon. Y rhan fwyaf o'r trigolion ydynt yn cael eu bywioliaeth mewn cyssylltiad a'r Gweithfeydd calch, glo, a haiarn: ydynt yn y gymmydogaeth. Gwelir olion hen amddiffynfa Brydeinig gref, a elwir "Y Gaer," ar lechwedd deheuol bryn, yn gyfagos i'r lle hwn, godreu yr hwn a olchir gan yr afon Clydach. Mae yn debyg i'r hen amddiffynfa hon gael ei ffurfio gan ein hynafiaid dewrion, tua'r adeg yr oedd y Rhufeiniaid yn ymwthio i'r broydd hyn; ac, efallai cyn i'r dynion hyny ffurfio eu gorsaf ysplenydd yn Risca.

ABERCONWY; neu, fel ei gelwir yn fwyaf cyffredin, CONWY, sydd borthladd, bwrdeisdref, tref farchnad, a phlwyf, yn Nghantref ARLLECHWEDD ISAF, swydd GAERYNARFON, GOGLEDD CYMRU: 24 *mill.* i'r *dwyr. og. ddwyrain*, o Gaerynarfon; a 236 mill. i'r *gog. orll.* wrth *orllewin*, o Lundain; ar y brif ffordd o Gaerlleon i Gaergybi.

Mae y dref hon yn cael ei henw oddiwrth yr afon CONWY, yr hon sydd yn fordwyol hyd Drefriw, sef tua deng milldir o ffordd, i lestri yn cludo triugain tunnell o lwyth; ac ar ychydig iawn o draul, y gallesid ei gwneyd yn fordwyol hyd dref Llanrwst, yr hyn yn ddiau a fuasai o wasanaeth mawr i'r trigolion. Haera rhai Geir-darddwyr mai CYNWY, yr afon benaf, neu y brif wy, yw yr iawn enw; ac eraill a fynant mai CAINWY, neu, *yr afon deg, hardd*, ydyw ei arwyddocâad; ac yn wir, am a wn i, na byddai y naill enw mor ddynodawl a'r llall o'r afon hon; canys y mae hi yr afon *benaf* a gair o enau y Dyfrdwy i ben Tir Lleyn; canys nid *afon* ydyw Menai yn briodol; ond morgainc, neu *gulfor:* ac y mae teithwyr craffus yn addef, ei bod hi yn un o'r afonydd mwyaf *cain, teg*, neu *hardd*, o'i *hŷd*, yn Ewrob.

Y mae yn ymddangos bod *Publius Ostorius*, yr hwn a bennodwyd yn Rhaglaw ar Frydain tua chanol y ganrif gyntaf o'r cyfnod Cristionogol, a chyd a'r hwn y daeth y ddegfed Leng drosodd i'r Ynys hon, gan ei fod yn dra phenderfynol i ddarostwng yr holl Ynys dan arglwyddiaeth Rhufain, wedi ymwthio mor ddioed ag y gallai i diroedd y Gordofigwys a'r Cangwys; ac nid yw yn annhebyg mai efe a ffurfiodd yr orsaf Rufeinaidd, "*Conofium*," ar lan yr afon Conwy, yn y lle a adwaenir yn bresenol dan yr enw "*Caer Hen*," neu "*Caer Rhun*." Efallai, mai i wylio yr ysgogiad yma o eiddo y Rhaglaw Rhufeinig, y gwnaed yr hen amddiffynfa Brydeinaidd a elwir "PEN CAER ELEN," yr hon sydd yn mynyddoedd Eryri, yn union oddiar yr hen GONOFIUM; ac oddeutu yr un amser efallai, y cyfodwyd yr hen amddiffynfa fawr a chref, a orweddai ar "Fynydd y Dref," oddiar y fan y mae tref bresenol Conwy yn gorwedd; ac a elwid "Caer Sëon," neu "Gaer Llïon." Yr oedd yr amddiffynfa hon mewn lle tra manteisiol i wylio gororau y wlad, a'i hamddiffyn rhag anrheithiad estroniaid. O'r fan yma gallesid gweled arwyddion o berygl, oddiar y mynydd o'r tu ol i Gaergybi, neu oddiar yr Amddiffynfa gadarn a elwid "Bwrdd Arthur," neu "Dinsylwy," yn Mon, ac heblaw hyny yr ydoedd yn cael ei hamgylchu gan dair dinas arall, sef "Dinas Tudno," "Dinas y Penmaen Mawr," a "Phen Caer Elen," neu "Caer Belin," uchlaw Caer Rhun.[1] Y mae yn amheus pa un ai *Caer Sëon*, ynte *Caer Llëon*, ydoedd hen enw y Gaer ar Fynydd y Dref. "Castell Caer Llion," ei gelwir gan Pennant: ac os dyna yr iawn enw, dyna dair Caer Llëon oedd yn yr hen amser; sef Caer Llëon ar Wysg, Caer Llëon ar Ddyfrdwy, a Chaer-Llëon ar Gonwy. Mae amryw Henafiaethwyr wedi bod yn dadleu, mai "*Caer y Lleng*" oedd yr enw Caer Lleon ar y dechreu; am fod rhyw un o'r Llengau Rhufeinaidd yn gwersyllu yn y fan:— Ond, onid "*Llïon Hen*" y galwai yr hen Gymry y Dylif, neu Dduw y Dylif?[2] A chan fod pob un o'r lleoedd crybwylledig, wedi eu hadeiladu ar lanau afonydd, pa annhebygrwydd sydd, nad *Caer Llïon* ydoedd yr enw ar y cyntaf. Y mae yr Athraw, W. O. Pughe, yn dweyd fod y gair *Llïon* yn arwyddocau cynnulliad o lifau, a bod yr ymadrodd "Llyn Llïon," yn arwyddocau Llyn yr afonydd, neu gyd gynnulliad anhysbyddadwy o ddyfroedd, yr hwn yn ol y dŷb boblogaidd, oedd ar y ddaiar, ac yn darddell y mor, a'r afonydd, a'r ffynhonau. "Torriad Llyn Llïon," oedd gyfeiriad traddodiadol gan y beirdd at ryw drychineb trwy ddylif.[3] Dywedir fod Llyn bychan yn agos i Gas Gwent, a elwir Llyn Llifon, yr hwn sydd yn treio ac yn llenwi yn wrthwyneb i'r mor-lifau. Eto "*Caer Sëon*" y gelwir y lle gan yr Ysgrifenwyr henaf y cair crybwylliad o enw y lle yn eu hysgrifeniadau. Y mae Iorwerth Beli, yn ei Awdl Foliant i Esgob Bangor, yn dweyd fel y canlyn:—


"Pan aeth Maelgwn Hir o dir mab Don duedd  
O wledd Gwalch Gorsedd i Gaer Sëon;  
A dwyn gyd ag ef gofion dan orchest  
Oedd o gerdd arwest ar gerddorion,  
A pheri iddynt ffyrfeiddion lawer  
I bawb o'r nifer nofio 'r afon;  
Pan ddaethant i dir, terfyn môr ar drai,  
Dimai ni's talai'r telynorion:—  
Tyst yw Duw ar hyn, tystion a'i gwybydd  
Herwydd hardd gynydd gyneddf doethion  
Cystal y prydai'r Pryddion a chynt  
Er a nofiesynt, helynt haelion."

Yr oedd y Bardd uchod, Iorwerth ab Beli yn ei flodau, yn nghanol y bedwaredd ganrif ar ddeg; ac felly gwelwn fod y lle yn cael ei alw Caer *Seion*, neu *Sëon*, tua phum can mlynedd yn ol. Y mae hefyd hen bryddest a briodolir i Taliesin Ben beirdd, yn cynwys "Ymddiddan rhwng Ugnach ab Mydno o Gaer Sëon, a Thaliesin, o Gaer Deganwy," yn yr hon y cawn y cyffelyb enw yn cael ei roddi ar y lle, er's mwy na deuddeg can mlynedd yn ôl.

Bernir fod Maelgwyn Gwynedd wedi adeiladu

[1] Gwel CAERHUN. [2] Davies's *Antient Mythology*, p. 417.
[3] Dr. W. O. Pughe *in loc.*

Digitized by Google



Drawn by W. Hutcheson from a Photograph by Frith. Engraved by P. Dawson

CONWAY_TOWN AND CASTLE.

FROM THE WEST.

BLACKIE & SON LONDON, GLASGOW & EDINBURGH

Digitized by Google

amddiffynfa fechan yn ochr Eryri i'r afon Conwy, tu a'r chweched ganrif; yr hon a elwid Caer Cyffin; ond, nid oes genym ddim o hanes y llannerch ar gael, o'r oesoedd boreuol hyny; ond toir y gymmydogaeth gan dywyllwch dudew, hyd oddeutu y flwyddyn 1185, pan y cyfarfyddwn ni â Llewelyn ab Iorwerth, tywysog Cymru, yn adeiladu Monachlog ysplenydd ar enau yr afon hon, at wasanaeth y brodyr a elwid y Bernardiaid, neu y Brodyr Gwynion; a thrwy ei freinlen iddi, efe a'i gwaddolodd â llawer o diroedd yn Mon, Arfon, a Dinbych; ac heblaw hyny, a ganiattaodd iddynt amryw ragorfreintiau gwerthfawr; gan eu rhyddhau yn barhaus oddiwrth amryw dollau dyledus oddiwrth y deiliaid i'r tywysog, megys cadw gwŷr, meirch, cŵn, neu hebogiaid at ei wasanaeth; neu ei roesawi ef, neu unrhyw Leygwr arall ar gyfrif defod. Caniatteid iddynt hefyd ddewis eu Habbadau eu hunain, heb unrhyw ymyriad o'r eiddo y tywysog, nac unrhyw wr llëyg arall. Yr oedd pob llong-ddrylliadau a gymerent le ar eu tiroedd hwy, i fod yn eiddo iddynt; ond, os y byddai i rai o'u llongau hwy gael eu gyru yn ddrylliau ar diroedd y tywysog, gallent hawlio eu hadferiad. Yr oeddynt hwy a'u gwasanaethyddion, a pha beth bynag a brynid, neu a werthid ganddynt, i fod yn rhydd oddiwrth bob tollau; ac yr oeddynt hwy, a'r eiddynt, i gael eu trosglwyddo yn rhad, dros afonydd Conwy, Menai, Abermaw, ac Aberdyfi. Nid oeddynt i gael eu dwyn i brawf yn llysoedd y tywysog am unrhyw drosedd; ond i'w profi yn ol eu rheolau eu hunain yn unig. Nid oeddynt i gael eu blino am dderbyn neb un i'r Fynachlog, nac am roddi nawdd ac achles iddo yn eu sefydliad; ac os byddai i unrhyw Fynach fenthyca arian heb gydsyniad yr Abbad, ni byddai y Fynachlog yn gyfrifol am danynt.

Y breiniau uchod ac amryw eraill, cyffelyb o ran eu natur, a gadarnhawyd i'r Fynachlog hon, mewn Breinlen, a amserwyd yn Aberconwy, Ionawr, 1198, ac a law-nodwyd ar ran y tywysog gan Iorwerth Gam; Gwŷn ab Ednewain y Don, ei Gaplan; a Madoc ab Cador.

Rhaid fod gan y grefydd hon gryn ddylanwad ar bendefigion a thywysogion Cymru, pan y caniattäent y fath ragorfreintiau i'r crefydd-dai hyn yn y wlad: a gallwn gasglu fod crefydd-dy a fwynhai y fath fanteision a chyfoeth, yn attynu iddo ei hun amryw o wyr enwog am eu dysgeidiaeth; deallwn hefyd y perthynai i'r Fynachlog hon, Lyfrgell dra gwerthfawr; ac yr oedd pob peth pwysig a gymerai le yn Nghymru wedi amser Howel Ddâ, yn cael ei gofrestru, a'i roddi i'w gadw yn Mynachlogydd Aber Conwy yn Ngwynedd, ac Ystrad Fflur yn y Deheubarth: a phob trydedd flwyddyn, cydmerid cof-lyfrau y ddwy Fynachlog yn ofalus, gan y Beirdd perthynol i'r ddau grefydd-dy, neu, o leiaf i'r ddwy dalaith, pan elent ar eu cylchoedd clera; a'r arfer hon a ddaliwyd i fynu hyd oddeutu y flwyddyn 1270, ychydig cyn marw Llewelyn ab Gruffydd, tywysog olaf y Cymry, yr hwn a laddwyd yn Muallt.

Anrhydeddwyd y Fynachlog hon trwy ei gwneyd yn gladdfa amryw o urddasolion Cymru; megys Gruffydd ab Cynan ab Owain Gwynedd, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1200, ac a gladdwyd yma mewn penwisg mynach, yr hwn ddull o gladdu a drosglwyddasid yn ddiweddar o Loegr, ag ydoedd mewn cryn arferiad yn mysg y graddau uchaf, y rhai oeddynt yn ddigon ofergoelus i gredu y buasai y cwcwll mynachaidd yn drwydded effeithiol iddynt i gyrhaedd a mwynhau dedwyddwch mewn byd arall. Yn wir, mae yn ymddangos bod defodau coel grefyddol eglwys Rhufain yn enill tir yn brysur yn Nghymru tua diwedd y ddeuddegfed ganrif, gan lygru yr hen Eglwys Gymreig yn fawr. Yn y flwyddyn 1230 bu farw Llewelyn ab Maelgwyn ab Owain Gwynedd, ac efe a gladdwyd yn Mynachlog Aber Conwy. Dafydd hefyd, mab i Lewelyn Fawr, a fu farw yn ei lŷs, yn Aber, ac a gladdwyd yn y Fynachlog hon, yn y flwyddyn 1246. Yn agos i'r un adeg, y bu farw Howel, fab Gruffydd ab Cynan ab Owain Gwynedd; a chladdwyd yntau hefyd yma. Gruffydd, mab i'r Tywysog Llewelyn ab Iorwerth, o'i wraig gyntaf, Tangwystl, a roddasid i fynu yn garcharor i Frenin Lloegr, gan ei hanner brawd, Dafydd ab Llewelyn ab Iorwerth, o Joanna, ferch y Brenin John, o Loegr; hwn, wrth geisio dianc o'r Twr Gwŷn yn Llundain, a gwympodd, ac a dorodd ei wddf, fel y bu efe farw o'r codwm; ond, trwy eiriolaeth Abbadau Ystrad-fflur ac Aberconwy, llwyddwyd i gael caniattad Brenin Lloegr, i ddwyn ei gorph i Wynedd, i'w gladdu yn meddrod ei dadau, yn y Fynachlog hon, yr hyn a gymerth le yn y flwyddyn 1248. Tuag wyth mlynedd cyn hyny y buasai farw ei dad, Llewelyn Fawr; ac efe a gladdesid yma mewn maen-arch, yr hon a welir eto yn hen eglwys Llanrwst.

Tu a'r flwyddyn 1282, pan oedd Archesgob Caergaint, fel genau Eglwys Rhufain, wedi cyhoeddi Llewelyn a'i gefnogwyr yn ysgymunedig, arweiniodd y Brenin Edward y Cyntaf, fyddin grêf i Wynedd, ac wedi anfon rhan o honi ar hyd y môr i gymeryd meddiant o Ynys Fon cyn y cynhauaf, er mwyn attal defnydd ymborth oddiwrth Lewelyn a'i wŷr, y rhai tra y gwersyllent yn Eryri, a ymddibynent ar gynnyrch yr Ynys hono am eu bara, efe a gymerth y rhan arall o'i fyddin, ar bont o fadau i Aberconwy, lle yr ymwersyllodd, er mwyn cael y fantais o letty cysurus iddo ei hun a'i brif swyddogion efallai, yn y Fynachlog. Pa fodd y trodd y cad-gyrchiad yma allan, a hysbysir yn hanes Aber. Yn agos i ddiwedd y flwyddyn hon y lladdwyd Llewelyn ab Gruffydd yn Muallt; a dygwyd ei ben i'r Brenin, yr hwn oedd eto yn aros yn Monachlog Conwy, tra yr oedd ei feirch-filwyr yn gwersyllu ar y gwastadedd, gerllaw y Fynachlog, a'i draed-filwyr wedi eu trefnu yn fanteisiol ar lethrau y bryniau, yn nghysgod y coed. Y brenin a ymorfoleddai yn fawr yn nghwymp Llewelyn; ac efe a orchymynodd anfon ei ben i Lundain, lle ei derbynid gyda gorfoledd mawr, a'r dinasyddion a'i dygent ar flaen picell mewn gorymdaith trwy *Cheapside*, wedi ei addurno â choron o arian: yna fe'i dodid yn y pilwri, er porthi ysbryd ymddial y lluaws anwaraidd; ac yn ddiweddaf oll, fe'i sicrhawyd ar flaen pawl, ar fan uchaf y Twr Gwyn. Dyna a fu diwedd y Tywysog urddasol hwn, yr hwn a deilyngai ei gystadlu ag enwogion penaf Groeg a Rhufain, am fawr-frydigrwydd meddwl yn cyfarfod peryglon, a doethineb a dewrder i fyned trwyddynt. Efe oedd yr unig Dywysog yn ei oes, a deyrnasai ar genedl rŷdd; yr unig faner ar wyneb y ddaiar a arddelwai ryddid y bobl, ac a ddaliai allan yr amnaid lleiaf o galondid i genedloedd gorthrymedig Ewrob, i obeithio am waredigaeth oddi tan draed haiarnaidd y bendefigaeth;—sef y Ddraig Goch, yn mynyddoedd Eryri. Achos rhyddid ac annibyniaeth oedd achos y Cymry; ac am hyny, yr oedd yn achos

Digitized by Google

dynoliaeth. Dros hyn yr ymladdasant mor wrol, dan amgylchiadau mor anfanteisiol, dros gynifer o ganrifoedd; a phan gwympasant, ni ddisgynasant i gyflwr o gaethwasiaeth, ond yn hytrach o ymddibyniad, a hwnw yn ymddangos yn fwy tebyg i fod yn effaith uniad na gorchfygiad: ac yn mhen tua dau can mlynedd wedi coroni pen Llewelyn mewn gwawd yn Llundain, y gwisgid coron y Deyrnas Gyfunol mewn rhwysgfawredd gan un o'i olynwyr a'i deyrnach, yn mherson Harri y Seithfed.

Ni chyfodwyd yr un golofn i'w goffadwriaeth; ef allai na fuasai y Brenin Edward yn caniattau hyny yn yr oes hono; ond, ei fod ef yn dymuno, ac yn amcanu claddu yn adfeilion rhyddid, bob arwyddion a fuasent yn tueddu i gadw i fynu goffadwriaeth o enwogrwydd dihafal Llewelyn. Ond, ni's gallasai diolchgarwch dalu teyrnged fwy gwerthfawr na dagrau cenedl yn eneinio bedd ei phenteyrn cwympedig. A chan i mi esgeuluso gwneyd hyny dan y penawd Aber, caniattaer i mi yma roddi ger bron ein cydgenedl, y llinellau teimladwy a ganlyn o'i Farwnad, gan Gruffydd ab yr Ynad Coch.

"Llawer deigr hylithyr yn hwyliaw—ar rudd,
Llawer ystlys rhudd, a rhwyg arnaw;
Llawer gwaed am draed gwedi ymdreiddiaw,
Llawer gweddw, a gwaedd y am danaw,
Llawer meddwl trwm yn tomrwyaw,
Llawer mab heb dad gwedi ei adaw,
Llawer hendref fraith, wedi llwybr goddaith,
A llawer diffaith drwy aurhaith draw.
Llawer llef druan, fal ban fu'r Gamlan,
Llawer deigr dros ran wedi'r greiniaw,
O leas gwanas gwanar eurllaw,
O laith Llewelyn, cof dyn ni'm daw.
Oerfelawg calon, dan fron o fraw
Rewydd fal crinwydd y sy'n crinaw.
Pa'm na welwch chwi hynt y gwynt a'r gwlaw?
Pa'm na welwch chwi'r derw yn ymdaraw?
Pa'm na welwch chwi'r môr yn merwinaw'r tir?
Pa'm na welwch chwi'r gwir yn ymgyweiriaw?
Pa'm na welwch chwi'r haul yn hwylaw'r awyr?
Pa'm na welwch chwi'r sŷr wedi syrthiaw?
Pa'm na chredwch chwi Dduw ddyniadon ynfyd?
Pa'm na welwch chwi'r byd wedi bydiaw?
Och! hyd attad Dduw na ddaw mor dros dir,
Pa beth yn gedir i ohiriaw?
Nid oes le y cyrcher rhag carchar braw,
Nid oes le y triger, och o'r trigaw!
Nid oes na chyngor—na chlo nag egor
Unffordd i esgor brwyngyngor braw!
Pob teulu teilwng oedd iddaw,
Pob cedwyr cedwynt y danaw,
Pob dengyn a dyngynt o'i law,
Pob gwledig, pob gwlad oedd iddaw,
Pob cantref pob tref ynt yn treiddiaw,
Pob tylwyth, pob llwyth y sy'n llithraw,
Pob gwan, pob cadarn cadwed o'i law,
Pob mab yn ei gryd y sy'n udaw,
Bychan lles oedd ym am fy nhwyllaw,
Gadael pen arnaf heb pen arnaw.
Pen, pan lâs, ni bu gas Gymraw;
Pen, pan lâs, oedd lesach peidiaw;
Pen milwr, pen moliant rhagllaw,
Pen dragon, pen draig oedd arnaw,
Pen llu, deg dygn o fraw—i'r byd
Bod pawl haiarn drwyddaw;
Pen arglwydd, poen dygn gwŷdd amdaw,
Pen f'enaid, heb fanag arnaw,
Pen a fu berchen a'r barch naw can-wlad
A naw can-wledd iddaw.
Penteyrn, heiyrn heid o'i law,
Penteyrnwalch balch bwlch ei ddeifniaw,
Penteyrnaidd flaidd flaengar gantliaw,
Pen teyrnef nef ei nawdd arnaw,
Gwyndeyrn ortheyrn wrthaw
Gwendorf gorff gorfynt hynt hyd Lydaw,
Gwir freiniol Frenin Aberffraw
Gwenwlad nef, boed addef iddaw."

Wedi i'r Brenin Edward ddarostwng dewrion Eryri, y rhai yn awr ni's meddent flaenor teilwng i'w tywys i'r gâd, efe a ymroddes i sicrhau ei berchenogaeth o Wynedd, a thynhau ei gadwynau am y brodorion; ac i'r perwyl hyny, efe a ranodd Wynedd yn Siroedd, ac a drefnodd frawdlysoedd ynddynt yn ol y dull Seis'nig, gan osod y Swyddogion priodol trwy y gwledydd, er gorfodi ufudd-dod oddiwrth ei ddeiliaid anfoddawg.

Ac, er gallu cwblhau ei amcanion yn llwyrach, cymerodd y Brenin ei gartref dros dymhor yn Nghastell Rhuddlan, a thra fu efe yno, parodd gyhoeddi corph o gyfreithiau a adweinir dan yr enw "Deddfau Rhuddlan;" ac anfonodd "Gyhoeddiad" allan at holl drigolion Cymru, o'r hen gastell hwnw, yn yr hwn yr ymrwymai i'w cymeryd dan ei amddiffyniad, gan eu sicrhau y caent hwy fwynhau eu hen ettifeddiaethau a'u breiniau megys cynt; gan gadw iddo ei hunan yn unig, yr unrhyw ardrethion, tollau, a gwasanaeth, ag a hawliai tywysog Cymru. Ond, prin y gellir meddwl iddo fod cystal a'i air; canys cyn pen nemmawr o amser, nyni a ganfyddwn ei fod wedi rhoddi rhanau helaeth o'r tiroedd goreu yn y Dywysogaeth, i'w ganlynwyr; arglwyddiaeth Ruthin a roddes efe i Reginald de Grey, ac arglwyddiaeth Dinbach, i Iarll Lincoln; a'i holl brif Swyddogion eraill a wobrwywyd yn haelionus, âg ettifeddiaethau gwerthfawr, a ddygasai y Brenin, dan ryw rith-esgus, ar draws ei air a'i lŵ, oddiar y pendefigion Cymreig.

Ac er cadarnhau ei awdurdod yn Ngwynedd, y Brenin a adeiladodd dair o drefi milwraidd yn nghyffiniau Eryri; sef Caerynarfon, Beaumaris, a Chonwy, yn y rhai y gellid cadw gwarchodluoedd milwraidd cryfion, y rhai a allent ddiffodd tân gwrthryfel yn y fan, os gwelid argoelion ei fod yn dechreu ennyn, yn Mon neu Arfon. A chan fod y Brenin wedi dewis Aberconwy yn orsaf un o'r cyfryw ddinasoedd milwraidd, efe a symmudodd y Fynachlog, trwy gydsynied y Myneich, medd efe, ac awdurdodiad y Pab, i Dre Faenan, yn agos i Lanrwst, gan roddi Tre Faenan at ei chynnaliaeth yn ychwanegol at ei meddiannau a'i rhagorfreintiau blaenorol. Mae yn ymddangos nad oes dim gweddillion o adeilad hen Fonachlog Aber Conwy yn aros yn weledig heddyw. Y mae yn yr ochr ogleddol i'r fynwent, fedd-faen, a'r groes arno; ond heb ddim llythyrenau; ac fe gaed un cyffelyb, a chroes ddiaddurn wedi ei thorri ynddo, wrth wneyd rhyw gyfnewidiadau, yn muarth Gwesty y Castell, yn y fl. 1832; ac ar yr un pryd, deuwyd ar draws sylfeini amryw ranau o'r hen Fynachlog, fel y tybir; trwy yr hyn y cawn ni ryw synied am y llannerch y gorweddai yr hen grefydd-dŷ arno, a'r lle y claddwyd cynifer o dywysogion Gwynedd.

Y mae Castell Conwy yn un o'r adfeilion mwyaf ysplenydd a fedd Ewrob efallai: a phrin y gellir canfod yr un dref filwraidd o'r canol oesoedd, a'i chaerau a'i thyrau mewn cyfanach a gwell cadwr-

Digitized by Google

aeth. na thref Conwy. Y mae nerth a mawredd i'w canfod yn Nghestyll Beaumaris, a Chaernarfon: ond, ni ddaliant i'w cystadlu am deleidrwydd, â Chastell Conwy. Y mae y tri chastell a grybwyllwyd, yn enwedig un Caerynarfon ac un Conwy, yn dwyn arnynt lawer o arweddau amddiffynfeydd Syria, a Phalestine; ac nid yw yn annhebyg fod HENRY DE ELLERTON, Archadeiladydd y Brenin Edward, wedi bod gyd a'i Dywysog yn y gwledydd hyny, pan fuasai efe yno yn y Croes-gadau; a'i fod wedi cael llawer o gymhorth oddiwrth yr hyn a welsai ef yno, i gynllunio yr adeiladau ysplenydd hyn. Adeiladwyd y Castell hwn yn y flwyddyn 1284; ac ar gyfrif ei gryfder anianyddol a chelfyddydol, gallesid meddwl y buasai yn ddigon dyogel yn erbyn pob ymosodiad a allesid ei wneyd arno, dros ystod parhad y dull o ryfela oedd mewn arferiad pan ei hadeiladwyd; canys nid oeddynt y pryd hyny, wedi cael allan nerth aruthrol pylor, ac arfau tân. Ni allasid gorfodi gwarchodlu ffyddlawn a fuasent mewn meddiant o hono, i'w roddi i fynu, ond yn unig trwy warchaead digon manol a maith, fel y buasent yn cael eu newynu. Y mae ei furiau o ddeg i ddeuddeg troedfedd o drwch; ac yr oedd dyfrffos ddofn a llydan gynt, ar y tu gorllewinol, a gogledd-orllewinol iddo, tra yr ymgurai tonau y môr yn erbyn ei furiau ar yr ochrau dwyreiniol a deheuol. Mae y castell bron yn hirgrwn, ac wedi ei adeiladu ar graig, ar un gongl o'r llannerch dri-onglawg a gynnwysir o fewn caerau y dref. Y mae wyth o dyrau mawrion, deugain troedfedd o dryfesur, yn ymddyrchafu o'i ddeutu, pedwar ar bob ochr: ac yr oedd esgynfa droellog o fewn twr llai, a gynnwysid yn mhob un, a'r rhai yn y pedwar nesaf i'r afon, ydynt yn ymgyfodi amryw droedfeddi yn uwch na'r rhai trwchus, ac yn peri fod yr ymddangosiad yn hardd dros ben; ac o ben y tyrau hyn, ceir golygfa dra manteisiol ar y wlad o amgylch. Adeiladwyd y caerau a amgylchant y dref, ar yr un adeg a'r Castell; ac y mae un ar hugain o dyrau ar y caerau, heblaw tri phorth i'r dref, ar ben pob un o ba rai, yr oedd dau dŵr cryfach. Yn yr ongl isaf i'r caerau, yn gyfredol a'r afon, yr oedd saith o dyrau, a phorth, a elwir "Y Porth Isaf;" a rhwng hwnw a'r Castell, yr oedd trwyfa gul arall, a elwid "Y Porth Bychan;" ond heb dyrau arno. Oddiwrth gongl ogleddol y gaer, yr oedd tramwyfa gad-gysgodawl, yn ymestyn tua 70 llath hyd i'r afon, ac ar ei phen eithaf yr oedd tŵr mawr, yr hwn sydd wedi ei ddystrywio er's llawer dydd. Yr oedd hwn yn cyfatteb i dŵr arall islaw y castell. Gelwid y fynedfa gad-lenawl yna, "Porth yr Aden." Yr oedd dyfodfa arall i'r dref o'r wlad, bron ar gyfer y Porth Isaf, a hono a elwid "Y Porth Uchaf;" a pherthynai crogbont i hwn, i groesi dros y ddyfrffos. Y trydydd porth sydd ar yr ochr ddeheuol, ac a elwir "Porth y Felin." Yr oedd yr holl ranau i'r dref nad oedd yn ymylu ar y môr, yn cael eu hamddiffyn â dyfrffos ddofn a llydan.

Yn awr, awn i fewn i'r Castell, a cheisiwn roddi darluniad i'r darllenydd o'r adfeilion godidog hyn. Yr oedd y brif fynedfa iddo o'r dref, ar yr ochr orllewinol, ar grogbont, dros ddyfrffos ddofn: yna esgynid ar hyd ychydig risiau, i uchrodfa ehang, yr hon a ddiffynid gan bump o dyrau bychain, a magwyrydd o'r naill i'r llall. Oddiyma awn i fewn trwy borth a ddyogelid gan borth-gwlas, i'r cyntedd mwyaf. Ar yr ystlys ddeheuol i hwn, yr oedd y neuadd ardderchog, yr hon oedd yn 130 troedfedd o hyd, 32 troedfedd o led, a thua 30 troedfedd o uchder. Yn mhen dwyreiniol y neuadd hon yr oedd Capel, a ffenestr fawr a godidog iddo. Cynhelid y nen gan wyth o fwäau Gothaidd ardderchog; pedair o ba rai sydd yn aros eto.

Yr oedd i'r neuadd hon dri lle tân; un mawr, yn y naill ben iddi, a dau eraill, llai, un ar bob ystlys iddi; ac yr oedd iddi chwech o ffenestri tu a'r wlad, a thair o rai mwy, tu a'r cyntedd. Odditani yr oedd y cromgelloedd ehang, yn y rhai yr ystorid yr arlwyon rhyfel, at wasanaeth y gwarchodlu.

Yn y pen dwyreiniol i'r cyntedd yma, y mae y ddyfr-gronfa, yn 15 troedfedd o dryfesur, ac ugain o ddyfn; a dywedir fod y dwfr yn cael ei gludo iddi, mewn pibellau tan-ddaiarol, o ffynon uchlaw y Tŷ Gwŷn. Canfuwyd rhanau o'r pibellau, meddir, wrth aredig y maesydd yn y gymydogaeth hono; ac y mae traddodiad yn ein hysbysu, ddarfod i'r gelyn, ar un achlysur, trwy ddarganfod y pibellau hyn, ac attal y dwfr i'r castell, orfodi y gwarchodlu i'w roddi i fynu. Yr oedd y dwfr yn dyfod i fewn i'r gronfa hon trwy ddwy bibell, ar yr ochr ddeheuol; ac ar gyfer y rhai hyn yr ydoedd pibell arall i gymeryd y dwfr o'r gronfa i'r ddyfrffos, pan fyddai yn cyfodi yn rhy uchel yn y gronfa.

Mae y fynedfa i'r cyntedd nesaf i fewn, trwy fûr cadarn, deg troedfedd a haner o drwch, oddiallan i ba un yr ydoedd lluest Gwyliedydd, yr hwn trwy fein-dwll, a allai ganfod dynesiad pawb oddiwrth y prif borth. Ar y llaw ddeau i'r cyntedd hwn y mae un o'r teyrn-ystafelloedd, yn 29 *tr.* o hyd, wrth 22 *tr.* o led; ac y mae un o'r bwäau meini ysplenydd, a gynhalient y nen, yn aros yn gyfan eto: ond, y mae un arall, a wasanaethai i'r un perwyl, wedi ei lwyr ddinystrio er ys amser maith. Gollyngid y goleuni i'r ystafell freninol hon, trwy ffenestri o'r cyntedd; a rhwng yr ystafell hon a'r tŵr a elwid "Tŵr y Brenin," yr oedd ystafell wely y Brenin; a thramwyfa o honi i ystafell y frenines, ar yr ochr gyferbyniol; a gelwir y tŵr gogleddol, "Tŵr y Frenines;" ac yn yr ystafell, ar y llofft gyntaf o'r tŵr hwnw, yr oedd encilfa a gymerasid o'r mûr, yr hon yw yr unig le o ymddangosiad gwir addurniadol o fewn y castell.—Fe'i ffurfir gan saith o fwäau pigfain, a gwerddyrawg, yn ymgyfarfod yn y nen; a bwäau eraill oddi tanynt, yn nghyda seiliad cain o amgylch. Yr ystafell a'r encilfa yma, meddir, ydoedd Capel y Frenines, yn yr hwn y cyfleid bwrdd yr allor, ac y mae twll o bob tu, trwy y rhai y gellid cynal cymundeb â'r ystafelloedd oeddynt ar bob ystlys i'r Capel. Cadarnheir y dyb, mai dyma ydoedd dyben y lle hwn, drwy y ffaith mai dyma yr unig ystafell yn yr un o'r tyrau, oddi ar y llawr isaf, sydd heb le tân ynddi.

Tryfesur y tyrau oddi fewn, sydd oddeutu 18 *tr.*, a chynnwysent yn gyffredin ddwy lofft, oddiar eu gilydd, heblaw y lloriau isaf, y rhai a ddefnyddid yn gyffredin i gadw ystorfeydd. Yr oedd ystafell gref iawn oddi tan Dŵr y Brenin, i'r hon nid oedd namyn un fynedfa, a hono trwy frâd-ddor; ond, yr ail Dŵr ar yr ystlys ddeheuol, a elwir "Tŵr y Carcharorion," yr hwn sydd yn gydiedig a'r Neuadd; ac o'r hon y mae mynedfa trwyddo i ben y muriau.

Y mae rhodfa arall, ar yr ochr ddwyreiniol, yn cael ei diffynu gan dri o dyrau, a muriau, lle yr oedd ail ddyfodfa i'r Castell; yr hon oedd o'r afon, trwy droell esgynfa, cysgodol gan fûr, yn nghyda

Digitized by Google

thŵr crogedig bychan; ac yr ydoedd tŵr crwn arall ar ei phen eithaf, er attal dynesiad y gelyn ar drai; ond, y mae y rhanau hyn o'r hen adeilad, wedi llwyr ddiflanu erbyn hyn.

Y tŵr nesaf i "Dŵr y Brenin," a elwir "Tŵr Darn;" o herwydd fod darn anferth o honaw wedi cwympo; mewn canlyniad i gybydd-dra rhyw rai o'r trigolion, yn cloddio y graig ar yr hon ei seiliasid, er mwyn cael cerryg, tra na buasai raid iddynt fyned oddiar ychydig gannoedd o latheni, i'w cael o gloddfa ragorol.

Un o'r hen Feirdd Cymreig a ganai i'r Castell hwn yn y flwyddyn 1480; ac oddiwrth y llinellau canlynol yn y Cywydd, gwelwn na's gallai ein tadau edrych gyd ag unrhyw hoffder ar yr adeiladau aruthrawl hyn, na chofio am gwymp eu Llewelyn, heb fod eu holl natur yn ymgynhyrfu yn erbyn y goresgynydd.

"P'le dan gel, bu 'r Fad felen
O Ros! Yn mha ffos ei phen?
Na fuasai 'n fyw i osod,
Ar Iorwerth, i'w nerth, ei nod,
A chadarn edrych arno,
Er rhoi gloes, drwy dwll rhyw glo;
Cyn iddo 'r Ci anaddwyn,
A'i fawr fost, yn dost ein dwyn,
Dan ei ormes, afles oedd,
Du i'w lid, mal diawl ydoedd;
Cyn yngod, cwyno angau,
Llewelyn, y mwyn-ddyn mau."

Tu a'r flwyddyn 1294, dechreuai hen wroniaid Gwynedd anesmwytho dan iau haiarnaidd yr estron, yr hwn a'u gorthrymai yn dost â'i drethi cynnyddol er cynnal ei gad-gyrchoedd: a chan gyhoeddi Madoc ab Llewelyn yn Dywysog Cymru, hwy a ymosodasant ar Gaerynarfon, ac a laddasant luaws mawr o'r Saeson a gyrchasent yno i ffair. Hwy a gymerasant feddiant o'r Castell, ac wedi yspeilio y dref, hwy a'i rhoisant ar dân: ac mor beryglus y cyfrifai Edward y gwrthryfel yma, fel y prysurodd efe i Wynedd, gyda byddin gref oedd ganddo wedi ei pharottoi i fyned ar gad-gyrchiad i'r Cyfandir. Yn y cyfamser, Henri Lacey, Iarll Lincoln, ac Arglwydd Dinbach, a brysurasant gyd a'r flaen-fyddin hyd at Gastell Dinbach, er mwyn cadw yr amddiffynfa hono rhag cwympo i ddwylaw y Cymry; ond Madoc a'i wroniaid, ddaethant yn ddisymwth ar warthaf y fyddin freninol, dan lywyddiaeth brawd y Brenin; sef Edmwnt, Iarll Lancaster; ac a'i gorchfygasant. Yna y Brenin ei hunan a arweiniodd ei fyddin fawr i Wynedd; ac wedi croesi afon Conwy gyda rhan o'i fyddin, efe a'u cymerodd i'r castell cadarn yma. Y Brenin a gollodd y rhan fwyaf o'i glûd wrth groesi yr afon; ac yn y fan, erbyn iddo gael yn brin i fewn i'w gastell, fel llwynog i'w ffau; gosodai Madoc a'i wŷr warchaead arno; a'r llifeiriant disymwth a gyfodasai yn yr afon, a'i gwnelai bron yn anmhossibl i'r ôl-fyddin, dan lywyddiaeth Iarll Warwick, i groesi yr afon, (er cynnorthwyo y Brenin, trwy guro y gwarchaewyr oddiwrth y Castell,) dros rai dyddiau. Yn y cyfamser, yr oedd hi yn galed iawn ar y Brenin a'i wŷr yn y castell, am ymborth; ond, er holl ymdrechion Madoc i gymhell lleiddiad ei dad, i'w gyfarfod mewn ymdrech dêg ar faes, gomeddai Edward syflyd oddiallan i furiau ei gastell. O'r diwedd llwyddodd Warwick i fudo ei fyddin dros yr afon; ac yna yr oedd Madoc a'i wŷr rhwng dau lû, pob un o ba rai a gynnwysai gynnifer ddwy waith o arfogion ag a feddai efe; gan hyny, nid oedd ganddo ddim i'w wneyd, ond encilio i fylchau yr Eryri, fel y gwnelsai ei dâd dewrwych lawer gwaith o'i flaen; a'r Brenin a'i wŷr wedi ail-feddiannu Mon ac Arfon, a llwyr ddarostwng y gwrthryfel, a gadwasant wyliau y Nadolig mewn rhwysg mawr yn y Castell hwn; a chyn ymadael o Gonwy y tro hwn, gorchymynodd y Brenin adeiladu castell cryf y Beaumaris; er cadw glewion Mon yn fwy llwyr oddi tan ei balfau; a rhoddodd finteioedd lawer ar waith, i dorri y coed trwy Fon ac Arfon, fel na byddent yn lloches i'r brodorion i gynllwyn.

Yr amgylchiad nesaf mewn Hanesyddiaeth, y dylid ei grybwyll mewn cyssylltiad â Chonwy a fydd ymweliad y Brenin Rhisiart yr Ail a'r lle, a'i fradychiad i ddwylaw y Duc o Lancaster, a adwaenid hefyd wrth yr enw Henry Bolingbroke. Tra fu y Brenin Rhisiart ar gadgyrchiad yn yr Iwerddon, dychwelodd y Duc o'i alltudiaeth, a chynullodd ei gyfeillion yn nghyd, gan ffurfio byddin gref, i'r perwyl o ddwyn gorsedd a choron Prydain oddiarno. A'r Brenin pan glybu y newydd yma yn yr Iwerddon, a anfonodd Iarll Salisbury drosodd i Gonwy, fel y cyfodai efe fyddin o'r Cymry, yn barod i'w gynnorthwyo i ddarostwng gwrthryfel y Duc: ond efe ei hunan, gan wrando ar gynghorwyr ffeilsion, a esgeulusodd ei ddilyn yn brydlawn yn ol ei addewid; gan hyny, er i'r Iarll gasglu tua deugain mil o wyr dan arfau, i gefnogi y Brenin, mewn ychydig ddyddiau; wedi ymwersyllu o honynt ar faes yn agos i Gonwy amryw ddyddiau, a'r Brenin yn oedi dyfod yn ôl ei addewid; hwy a ofnasant ei fod wedi cael ei ladd, ac yr ymddygai Bolingbroke attynt hwythau fel teyrn-fradwyr, gan eu bod yn clywed ei fod ef yn awr wedi enill holl Loegr i'w bleidio; am hyny hwy a ymwasgarasant, bawb i'w fan. O'r diwedd, y Brenin wedi hir oedi, a hwyliodd drosodd i Aberdaugleddyf; ac oddiyno, wedi gadael ei fyddin, ac ymddyeithrio mewn gwisg mynach llwyd, efe a farchogodd i Gonwy, yn cael ei ddilyn yn unig gan y Duciaid o Exeter a Surrey, Iarll Caerloyw, Esgobion Lincoln, Ty Ddewi, a Charlisle, ac Owain Glyndwr, yr hwn oedd yn gyfaill mynwesol i Rhisiart yr Ail.

Pan ddeallodd Bolingbroke fod y Brenin yn Nghonwy, efe a anfonodd Iarll Northumberland, a nifer o wŷr arfog, i'w ddal ef trwy dwyll, neu drais: a'r hen bendefig dichellgar hwnw, wedi cuddio ei wŷr arfog mewn cornant yn nghymydogaeth Penmaen Rhos, yn agos i'r lle y saif pentref Colwyn yn bresenol, a aeth tua Chonwy dan rith cenad hedd dros y Duc at y Brenin; ac er tawelu meddwl y Brenin, mai hyny ydoedd ei unig neges, efe a gymerth ei lŵ, a'i law ar yr offeren. Y mae yn ymddangos fod ein cydwladwr, "Owain Glyndwr," yn ofni fod brad ar droed, ac iddo gynghori y Brenin gyda phob taerni i encilio i Ffrainc hyd oni chyfodai gwell gwawr ar ei achos: ond y Brenin, yn anffodus, a wrthodai y cyngor doeth yna; a chan ymddiried yn y bradwr, efe a gychwynodd gyd ag ef i gyfarfod y Duc o Lancaster yn nghastell y Fflint: ond ar y ffordd, y milwyr a gyfleasai Northumberland mewn cynllwynfa, a amgylchynasant y Brenin, a'r pendefigion oeddynt gyd ag ef, yn ddisymwth, ac a'u cymerasant yn garcharorion; a'r canlyniad fu i'r anffodus Rhisiart golli ei goron, a'i ben hefyd yn fuan wedi hyny; a'r Duc o Lancaster, dan yr enw

Digitized by Google

Harri IV., a drawsfeddiannodd yr orsedd; ac â hwn y bu Owain Glyndwr, yn brwydro dros bedair blynedd ar ddeg ar ol hyn.

Yn fuan iawn wedi i ryfel "Owain Glyndwr" dorri allan, darfu i ddau o'i geraint, sef William ab Tudur, a'i frawd Rhŷs, a gyfenwid "Rhŷs Ddu yr Arddreiniog," a hwy o brif bendefigion Ynys Fon, ac o hen gŷff tywysogion Gwynedd, a'u dewrder yn ddiarhebol, gymeryd meddiant o gastell Conwy, yn fuan ar ol iddynt roddi curfa dost i'r Brenin a chwe mil o'i filwyr dewisol ar y Rhos Fawr, yn Môn; a hwy a gadwasant feddiant o'r castell hwn dros amryw fisoedd, er fod mab henaf y Brenin, a Henry Percy yn gwarchae arno.

Bu llawer o ymrysonau gwaedlyd yn amgylchoedd y castell hwn, nid yn unig yn amser Owain Glyndwr; ond hefyd yn ystod yr ymryson maith a blin, a fu rhwng teuluoedd York a Lancaster, am goron Lloegr; canys yr oedd y Cymry yn ymbleidiol yn yr helynt yna. Er enghraifft, fe'n hysbysir, fod cefnogwyr un blaid wedi meddiannu y castell, tra yr oedd teulu dylanwadol Gruffydd Gôch, ac amryw deuluoedd galluog ereill o'r gymydogaeth, dan arfau dros y blaid arall; a dygwyddodd fod Rhŷs, mab Gruffydd Goch, yn sefyll ar Dal y Sarn, ar gyfer y castell, yr ochr arall i'r afon, pan ei lladdwyd â saeth a ollyngasid oddiar fwa o'r castell, gan Lewelyn o Nannau: ond, yn mhen ychydig nosweithiau ar ol hyny, Robyn ab Gruffydd Goch o'r Graianllyn, a'i frawd Hywel, yn nghyda nifer o ganlynwyr dewrion, a groesasant yr afon, er dîal gwaed eu brawd Rhŷs; ac wedi ysgolodi muriau y castell, hwy a dorasant ben y cadben.—"O'r tu uchaf i Gonwy," medd yr hanes, "y saethasai Llewelyn o Nannau y bicell hon, a llâs Rhŷs dros Gonwy; a llyma un o'r ergydion pellaf y llâs dyn erioed."[1] Yr oedd y Saethyddion Cymreig yn dra enwog er yn forau, fel y dengys y crybwyllion canlynol:—Giraldus wrth grybwyll am wŷr Gwent, hen diriogaeth yr enwog Garadawg, a ddywaid:—"Y mae yn deilwng o sylw fod gwŷr Gwent yn fwy ymarferol â rhyfela, yn fwy enwog am eu dewrder, ac yn fwy medrus mewn saethyddiaeth, na thrigolion un parth arall o Gymru. Yr enghreifftiau canlynol a brofant wirionedd yr haeriad hwn. Yn yr ymosodiad olaf ar gastell Abergafenni, yr hyn a gymerodd le yn ein dyddiau ni; fel yr oedd dau filwr yn myned dros bont at dŵr a adeiladasid ar grugyn o bridd, er cymeryd y Cymry o'r tu ol, eu saethyddion, y rhai a'u canfuant, a yrasant eu saethau drwy ddôr dderw, yr hon oedd yn bedair modfedd o drwch; ac er cof am y fath orchest, cedwir y saethau eto yn y ddôr, a'u blaenau heiyrn yn weledig o'r tu arall. Tystia Gwilym de Breos hefyd, ddarfod i un o'i farchogion ef, tra yn ymladd â'r Cymry, gael ei archolli â saeth, yr hon gan dreiddio drwy ei lurig, yr hwn oedd yn wisgedig â haiarn o bob tu, a aeth trwy ei forddwyd, i gefn y cyfrwy, a thrwy hwnw a archollodd ei farch yn farwol. Marchog arall, yr hwn oedd yr un ffunud yn ddiffynedig gan lurig ar ei forddwydydd, a drywanwyd gan saeth i'r cyfrwy; a chan droi o'i farch o amgylch, efe a dderbyniodd ergyd gyffelyb ar ei forddwyd arall, trwy yr hyn ei hoelid o bob tu, megys wrth ei gyfrwy![2]

Y mae Syr John Wynne, yn Hanes Teulu Gwydir, yn sylwi fod yr holl wlad oddiamgylch yn cael ei hanrheithio gan gefnogwyr y ddwy blaid grybwylledig, a bod yr Arglwydd Herbert, Iarll Penfro, yn enwedig, wedi peri galanastra mawr yn y cymydogaethau hyn. Yn y flwyddyn 1466, ei arglwyddiaeth a archodd dori pen Thomas ab Robyn, o Gochwillan, yn agos i'r castell hwn, am ei ymlyniad ffyddlawn wrth y Lancasteriaid, a dywedir i'w wraig, Gwenhwyfar, dderbyn ei ben i'w harffedog, a'i ddwyn ymaith.

Yn y flwyddyn 1607 bu agos i'r dref hon gael ei gwneyd yn anghyfanedd gan y plâ a dorrodd allan ynddi; a chladdwyd lluaws mawr o'r trigolion dan yr heolydd, ac oddi allan i furiau y dref. Rai blyneddoedd yn ol, (tua 1795,) fel yr oeddid yn ail balmantu y rhan isaf o'r heol fawr, deuid ar draws esgyrn lluaws mawr o ddynion, yn gorwedd ochr yn ochr ar hyd y ffordd: dywedir fod llawer o'r esgyrn yn fawrion iawn, a dywedir fod clicciad gên ambell un o honynt yn rhychwant, (tua 9 modfedd) o hŷd o'r naill eithaf i'r llall. Sylwir fod y pla wedi torri allan yma o fewn tair wythnos i adeg ei ymddangosiad yn Llundain: a rhaid priodoli ei ymweliad buan â'r lle hwn, i'r drafodaeth fawr a ffynai rhwng trigolion y dref â Lloegr yn yr oes hono.

Pan dorodd y rhyfel cartrefol allan, yn amser Siarl y Cyntaf, daeth Conwy yn orsaf ymdrechion gwaedlyd drachefn; ac un o enwogion penaf yr oes hono, ac a gyfranogodd yn helaeth o'i helyntion blinion, oedd frodor o'r dref hon, sef y Dr. John Williams, Archesgob Caerefrog, am yr hwn y dylem roddi hanes led fanol yn nglŷn a'r dref hon.

Ei dad oedd Mr. Edmund Williams, o Aberconwy, yr hwn oedd fab i William Williams, Ysw., o Gochwillan, o'i wraig Dorothy, ferch i Syr William Gruffydd o'r Penrhyn. Y dywededig Edmwnd Williams a briododd Mary, ferch i Owen Wynne ab John Owen, o'r Creuddyn, medd un hanes; o'r Eglwys Fâch, medd un arall. Dywaid Williams yn ei Hanes Aberconwy, y bu i Edmwnt Williams saith o blant, sef pum mab, a dwy ferch; ond yn Achlyfr Lewis Dwnn, ni enwir namyn pedwar, sef Robin, Siôn, Dorti, ac Elin. Yr ieuangaf o'i feibion oedd John, yr hwn a gyrhaeddodd y fath enwogrwydd. Efe a dderbyniodd ei addysg foreuol yn Ysgol Ramadegol Ruthin, lle y gwelid argoelion y pryd hyny o'i fawredd dyfodol. A'i gâr, Dr. Fychan, yr hwn wedi hyny a fu yn esgob Llundain, wedi ei lwyr argyhoeddi o'i alluoedd ysplenydd, a ofalodd am gael ei symmud yn fuan i brif ysgol Caergrawnt, lle ei cyflwynodd i ofal neillduol Mr. Owen Gwynne o Goleg St. Ioan, yr hwn oedd, nid yn unig yn Gymro, ond yn gâr hefyd i'r Ysgolor ieuanc, ac yn meddu ar lawer iawn o gymhwysderau i fod yn Athraw iddo.

Yr oedd John Williams y pryd hwn yn un flwydd ar bymtheg oed, o brydweddiad goleu a thêg iawn, fel yr ymddangosai yn ieuangach nag ydoedd mewn gwirionedd; a'r olwg blentynaidd oedd arno, yn nghyd a'i dafodiaith dra Chymreigaidd, a barai i rai o fechgyn direidus y brif-ysgol, arfer cryn hyfdra arno, a chynyg gwneyd gwawd o hono; ac y mae yn ymddangos ei fod ef yn dra Chymreigaidd ar ei ddyfodiad cyntaf i Gaergrawnt; canys y rhai a'i hadwaenent oreu, a ddywedent iddo ddwyn llawer mwy o Roeg a Lladin ganddo i'r brif-ysgol, nag a feddai o Saes'neg da: ond, tra na's dirmygai efe ei iaith ei hun, gan ei chyfrif, megys y gwna rhai, fel rhyw rwystr annymunol ar ei ffordd i ddyrchafiad, efe a benderfynai na chai ei anhyddysgrwydd yn yr iaith Seis'nig, fod

[1] Gwel *Cylchgrawn*. Cyf. I. tudal. 255.
[2] Syr S. R. Meyrick's *Ancient Armour*."

Digitized by Google

yn anfantais iddo ychwaith: a chan ochelyd cwmniaeth ei wawdwyr direidus, ymroddes i ddilyn ei efrydiaeth gyda diwydrwydd anghyffredin, fel y daeth efe yn feistr trwyadl ar gynnwys a chynaniaeth y Saes'neg yn dra buan: ac yr oedd nifer y llyfrau a ddarllenodd efe yn ystod y pedair blynedd cyntaf hyn o'i arhosiad yn y Coleg, bron yn annghredadwy; yn enwedig pan ystyriom nad rhedeg drwyddynt yn arwynebol a wnelai efe; ond llwyr feistroli eu holl gynnwys. Mae yn wir y rhaid i ni addef ei fod ef yn feddiannol ar fanteision anarferol i hyny, yn un peth, am nad oedd raid iddo ef er ei iechyd, am fwy na thair awr o'r pedair ar hugain at gŵsg. Yr hyn sydd yn byrhau oes dyn yn ddirfawr ydyw cŵsg; yr hwn, fel trethwr haerllug sydd yn cymeryd yn agos i haner ein hamser oddi arnom yn doll a theyrnged: ond, ni thalai y gwr ieuanc dan sylw, namyn treth ysgafn iawn, i'r pen publican hwn o eiddo Anian; a chadwai gymaint o amser ar dreigl yn ei wasanaeth ar hyd ei oes, fel y gellir dweyd iddo fyw cyhyd ddwy waith a'r cyffredin o'i gyd-ddynion. Ac heblaw hyny, yr oedd efe yn nodedig am ei allu i gofio unrhyw beth a ddarllenai, fel y byddai ganddo yn gyflawn at ei wasanaeth ar unrhyw achlysur drachefn; ac yn fuan edrychid arno fel ysgolor oedd ar y brif ffordd i enwogrwydd a dyrchafiad yn ei Goleg. Efe a gyrchai yn fynych i gynnulleidfa yr Annghydffurfiwr enwog William Perkins yn y blyneddoedd hyn, ac er y gwyddai fod y cyfryw ymddygiad o'i eiddo, megys mŵg yn ffroenau yr Uchel eglwyswyr, ac yn peri i lawer o urddasolion y Coleg gilwgu arno, yr oedd efe, er ei ieuenged, mor hoff o Ddwyfyddiaeth gref a chlaer y Meistr hwnw yn Israel, fel y parhaodd efe yn wrandawr cyson arno hyd farwolaeth yr hen Dduwinydd galluog, yr hyn a gymerodd le yn y flwyddyn 1602.

Tua diwedd teyrnasiad y freniues Elizabeth, y graddiwyd Mr. Williams yn Wyryf yn y Celfyddydau; ac yn mhen tua mis ar ol hyny, efe a etholwyd yn Gymrawd o Goleg Sant Ioan. Wedi y dyrchafiad yma, yn lle ymollwng i dreulio y tair blynedd a feddai cyn y gallai gymeryd ei rådd o Athraw yn y Celfyddydau, mewn segurdod a diofalwch, fel y gwna llawer o wŷr ieuainc dan amgylchiadau cyffelyb, efe a gyssegrodd ei holl amser i gyfoethogi ei feddwl â gwybodaeth fuddiol; gan ymroddi i ddarllen yr Awdwyr goreu, gwrando y Pregethwyr a'r Darlithwyr goreu, a chyfeillachu â'r cymdeithion gorau; ac er ieuenged ydoedd, cyflawnai ddyledswyddau ei sefyllfa fel Cymrawd o'r Coleg, mor fedrus, fel yr oedd pawb a fwynhäent y cyfle i'w wrando, yn synu, ac yn rhagfynegu yn ëofn, fod dyrchafiadau llawer uwch eto yn ei aros, na dim a allai Coleg St. Ioan ei roddi iddo.

Yn y cyfnod yma, efe a ymroddodd i berffeithio ei adnabyddiaeth o'r Groeg a'r Hebraeg, dan gyfarwyddyd yr Athrawon Downes a Lively; a Mesuroniaeth, dan Mr. Edward Briggs; ac astudiai Ddwyfyddiaeth dan gyfarwyddyd Dr. Overal, am yr hwn y siaradai yn wastadol gyda pharch mawr, fel yr Athraw Duwinyddol galluocaf a adnabu efe erioed. Ac yn y tymhor yma hefyd, efe a lafuriodd i ymgydnabod â'r Ffrancaeg, er ei alluogi i ddefnyddio yr Awdwyr goreu yn yr iaith hono. Heblaw hyny, neillduai ambell awr i efrydu Cerddoriaeth; ac mewn gair, gellid dywedyd fod y tair blynedd yma yn un cyfnod didor o lafur caled, er cyfoethogi ei feddwl.

Tua'r adeg yma, symudwyd ei Noddwr, Dr. Fychan, o esgobaeth Caerlleon, i esgobaeth Llundain, a thros y tair blynedd y cafodd y gwr da fyw wedi ei ddyrchafiad, efe a anfonai am ei gâr ieuanc o Gaergrawnt i dreulio ychydig wythnosau bob blwyddyn, yn ei lŷs ef yn *Fulham*, fel y gallai ymgydnabod mwy ag arferion y brif ddinas, a chael mantais i ddyfod i sylw pendefigion y deyrnas. Ar yr achlysuron yma y daeth efe i gydnabyddiaeth â John, Arglwydd Lumley, chwaer yr hwn a ymbriodasai a'r Henafiaethydd enwog, Wmphrey Llwyd, Ysw., o *Fox Hall*, ger Dinbach.

Yr oedd Arglwydd Lumley yn wr tra dysgedig ei hunan, ac yn feddiannol ar un o'r llyfrgelloedd gwerthfawrocaf yn y Deyrnas, yr hon a gasglesid trwy lafur y dywededig Wmphrey Llwyd. Y pendefig hwn a hoffai ein Hefrydydd ieuanc yn fawr; ac a roddai iddo amryw lyfrau gwerthfawr, rhai o honynt yn gyflyfrau argraffedig, a rhai yn gynnwysedig o hen gyfysgrifau prinion; o'r rhai yr oedd efe yn falch dros ben: ac heblaw hyny, cyfranai ei Noddwr pendefigaidd gryn lawer o'i *aur* iddo o bryd i bryd, fel na's byddai ei logell yn ysgafn tra yn y Coleg.

Yn y flwyddyn 1605, efe a raddiwyd yn Athraw yn y Celfyddydau; ac ar yr achlysur hwnw, efe a wnaeth wledd fawr i'w gyfeillion, fel pe buasai ei briodas-wledd. Ond, wedi cymeryd y râdd yma eto, yr oedd efe mor bell o laesu dwylaw yn ei lafur llenyddol, fel ei hychwanegai yn hytrach, gan ymroddi i ddarllen gweithiau y Tadau, a'r Ysgolwyr (*Schoolmen*), ac astudiai Hanesyddiaeth Eglwysig gyda manylrwydd neillduol; ac, fel na byddai i'r naill efrydiaeth rwystro y llall, efe a'u cymerai i fynu bob yn ail fis; a pharhaodd i ddilyn y drefn hono o efrydu, dros oddeutu tair blynedd ar ddeg, sef hyd oni luddiwyd ef gan ei drafferthion gwleidyddol; a thrwy y llafur dybryd yma, efe a ddaeth yn un o'r rhai mwyaf cyfarwydd yn holl gylch Hanesyddiaeth eglwysig, a llenoriaeth grefyddol.

Ei gynnydd anarferol mewn gwybodaeth a dawn, a barodd iddo gael ei gyfrif yn deilwng, pan yn wr ieuanc pump ar hugain oed, i'w ymddiried i gyflawni negeseuon pwysig ar ran ei Goleg; trwy yr hyn ei dygwyd i sylw Iarll Salisbury, Cangellwr y brif ysgol, a'r Archesgob Bancroft, ffafr yr hwn a ennillodd efe mor fawr ar ei amryfal gyfymweliadau âg ef, fel yr anfonodd efe am dano, ddwy flynedd cyn ei raddio yn Wyryf Dwyfyddiaeth, i'w ddyrchafu yn Archddiacon Ceredigion, yr hyn a roddai iddo hawl i eistedd yn y Gymanfa Eglwysig, (*Convocation.*) Anfonwyd ef hefyd yn Genhadwr dros ei Goleg ar ryw achos pwysig at yr Arglwydd Gangellwr Egerton, ac at ei fawrhydi y Brenin, a chyflawnodd ei negeseuon ar yr achlysuron hyn yn y fath fodd, ag i ennill ymddiried cyflawn y rhai a gynnrychiolai, a thŷb dda yr Arglwydd Gangellwr a'r Brenin am dano. Efe a gafodd ei ordeinio yn offeiriad, pan yn 27ain mlwydd oed, a chymerth fywioliaeth fechan o'r enw Fakenham, yn swydd Norfolk, yr hon nid oedd yn rhy bell o Gaergrawnt, i allu o hono farchogaeth yno i gyflawni y gwasanaeth yn rheolaidd; a gallasai cymaint a hyny o ymarferiad corfforol fod yn dra gwasanaethgar i'w iechyd, heb ddrygu ei efrydiaeth. Nid oedd y lle yma namyn Ficeriaeth dlawd, a diau na buasai gwr ieuanc o alluoedd a chyfrifoldeb Mr. Williams yn ei cheisio er mwyn hyny o elw a ddeilliai oddiwrthi; ond yn hytrach er mwyn y cyfleusdra i geisio gwneyd

Digitized by Google

daioni i eneidiau dynion; ac, fel y caffai ei ymarfer ei hun i bregethu ar y dechreu, mewn lle gwledig ac anmhoblogaidd: ond, yr oedd efe yn feddiannol ar ddoniau rhŷ ysplenydd i'w gwastraffu yn hir ar wladwyr di ddysg Fakenham, a buan ei galwyd i bregethu o flaen dysgedigion y brif ysgol, yn *St. Mary*, Caergrawnt; a dywedir iddo draddodi pregeth yno, yn y flwyddyn 1610, oddiar Luc xvi. 22, "A bu i'r cardotyn farw, a'i ddwyn gan angelion i fynwes Abraham," yn yr hon y traethai am anfarwoldeb yr enaid, dedwyddwch presenol y rhai ydynt yn marw yn ffafr Duw, eu derbyniad i'r nefoedd, gweinidogaeth angelion, &c., gyd a'r fath oleuni a nerth, nes peri i'r gynnulleidfa ddysgedig hono, synu yn aruthrol, nid yn unig at ei ddysgeidiaeth ddofn, a'i grebwyll goethedig; ond yn neillduol, at ei gymhwysderau dihafal, o ran pereidd-dra llais, cymhwysder gosgedd, a bywiogrwydd tymer ac agwedd, i fod yn siaradwr cyhoeddus poblogaidd.

Yn mhen tuag wyth mis ar ol hyn, efe a alwyd i bregethu o flaen y Brenin Iago, a'r Tywysog Henry, yn Royston; a rhyngodd bodd i'w fawrhydi ddatgan iddo gael ei foddhau yn fawr wrth ei wrando; a'r tywysog a dystiai am dano, ei fod yn anrhydedd i genedl y Cymry; ac addawai ofalu am iddo gael ei wobrwyo yn deilwng o'i dalentau ysplenydd; a'r addewid hon a wiriwyd iddo yn fuan.

Dygid ei alluoedd rhagorol i sylw yr Arglwydd Ganghellwr Egerton tua'r pryd hwn; a'r pendefig hwnw, yr hwn oedd yn hynod am ei noddaeth i Ddwyfyddion galluog, a anfonodd am dano, ac a'i pennododd yn Gapelwr iddo ei hun; ond efe a daer ddymunai am ganiattâd ei arglwyddiaeth i aros un flwyddyn yn hwy yn Nghaergrawnt, gan ei fod i ddechreu gweini ei swydd fel cynfaer (*provost*), y Coleg am flwyddyn, o'r Gwyl Mihangel dyfodol, a'i fod yn ystyried rhwymedigaethau y swydd yn rhŷ ddifrifol i'w gweinyddu trwy ebrwyad; â'r hyn y cydsyniodd ei arglwyddiaeth, wedi peth ymresymu.

Efe a weinyddodd ei swydd bwysig yn y Coleg, y flwyddyn hono gyda gonestrwydd neillduol; a'i ymddygiadau llednais a doeth ar ymweliad y Duc o Wittemberg â'r brif ysgol, yn gystal ag ar etholiad Canghellydd newydd i'r Athrofa, a chwanegodd yn fawr at ei anrhydedd: ac ar derfyn ei flwyddyn swyddol, efe a aeth, yn ol ei ymrwymiad, i gartrefu yn llŷs a gwasanaeth yr Arglwydd Ganghellydd Egerton, yr hwn a ganfu yn fuan y gallai efe ymddiried yr holl drafodaeth eglwysig, a berthynai i'w swydd bwysig, dan ddwylaw ei Gapelwr ieuanc; a thrwy hyny daeth cyfran helaeth o noddaeth eglwysig i'w law ef yn mhell cyn ei ddyrchafu i'r orsedd esgobawl. Gwelodd yr Arglwydd Ganghellwr yn fuan fod ein cydwladwr ieuanc yn meddu cymhwysderau neillduol i farnu amgylchiadau dyrus, a gyfodent yn fynych mewn cyssylltiad a'r ddwy brif ysgol, yn enwedig Rhydychain; ac mor drwyadl yr ymddiriedai ei arglwyddiaeth drefniad y materion hyn iddo, fel yr arferai Dr. King, esgob Llundain, alw WILLIAMS mewn digrifwch yn "Ganghellydd Rhydychain." A chan fod ei arglwyddiaeth yn gweled ei fod yn meddu cymaint o wybodaeth gyfreithiol yn barod, efe a ddefnyddiodd bob cyfle i'w hyfforddi yn mhellach mewn materion cyfreithiol, fel y cynnyddai gyda chyflymder dirfawr yn y gangen yma o wybodaeth; ac wedi ei chyrhaedd, efe a wnaeth ddefnydd da o honi er cynnorthwyo rhai gorthrymedig: canys byddai lluaws o lenorion, pan mewn penbleth gyfreithiol, yn achos eu bywiolaethau, eu cyllid, &c., yn arfer dyfod i ymgynghori âg ef, i'r rhai y dangosai efe yn mha le y byddai gwendid eu hachos, a pha fodd y byddent yn fwyaf tebyg i gael unioni eu cam; ïe, amryw o'r esgobion, mewn amgylchiadau dyrus, a osodent eu hachosion ger ei fron, er cael ei farn a'i gyngor; ac yn dra anfynych y byddai y sawl a ymgynghorent âg ef yn aflwyddiannus. Llwyddodd hefyd trwy ei ddylanwad gyd a'r Arglwydd Ganghellwr, i gael amryw fywioliaethau gwerthfawr a ddisgynent i ddwylaw ei arglwyddiaeth, i Ysgolorion angenog, ond gwir deilwng; y rhai a fuasent wedi cael eu dyrchafu yn gynt, pe buasai ganddynt ryw gyfaill dylanwadol i gymeryd eu hachos i fynu; ac yn y canlyniad, efe a gyfrifid yn brif noddwr y cyfryw Ysgolorion tlodion. Ond, ni bu ef mor ffol a gofalu am ranau da i eraill, a bod yn ddiddarbod drosto ei hun: canys yn ystod y pum mlynedd y bu efe yn ngwasanaeth yr Arglwydd Ganghellydd, efe a gafodd amryw fywioliaethau ei hunan, o elw ac anrhydedd,—megys personoliaeth plwyf Walgrave yn swydd Northampton; personoliaeth Grafton Underwood yn yr un sir;—Cor-berigloriaeth yn eglwys gadeiriol Lincoln, a Chantoraeth yn yr un eglwys; yn nghyda Chor-berigloriaethau eraill yn eglwysi cadeiriol Peterborough, Henffordd, a Thy Ddewi, heblaw rhyw fywioliaeth ddiwaith o gryn elw, yn rhywle yn Nghymru.

Yn mis Hydref, 1616, cymerid yr Arglwydd Ganghellydd yn glâf, a gwelid yn amlwg fod henaint, a phwysau llafur yn ei dori yn brysur; ac er sirioli ei ysbryd, pan wnelid y tywysog ieuanc, gyda llawer o rwysg, yn Dywysog Cymru, yn Nhachwedd y flwyddyn hono, dyrchafwyd ei arglwyddiaeth i fod yn Is Iarll Brackley, ar y 7fed o'r mis hwnw: ond parhau i wanhau yr oedd yr hen bendefig anrhydeddus er pob peth; fel nad oedd ganddo nemawr o flas yn ymddiddan â neb ond â'i Gapelwr; a'r holl drafodaeth fawr a ddygid yn mlaen rhwng ei arglwyddiaeth, fel Arglwydd Ganghellydd â'r Brenin, a weinyddid yn bresenol trwy offerynoliaeth MR. WILLIAMS; ac ar yr achlysuron hyny, gwelai ei Fawrhydi yn amlwg, fod ei arglwyddiaeth yn dysgyblu ei Gapelwr yn effeithiol, i fod yn Wladweinydd galluog a gwerthfawr, drwy ymddiried iddo gyfrinachau penaf y Deyrnas; a'i ymddygiad llednais a synhwyrol yntau ar bob achlysur, a barai i'r Brenin goledd syniadau uwch fyth am ei ragoriaethau: ac y mae yn ddïau i hyn rwyddhau llawer ar ei ffordd i'r sefyllfa uchel a gafodd efe yn mhen ychydig flyneddoedd yn y llŷs.

Bu farw yr Arglwydd Ganghellydd ar y 15fed o'r mis Mawrth canlynol; ac ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth, efe a anfonodd am ei Gapelwr atto, ac a ddywedodd wrtho—"Od oes arnoch eisiau arian, myfi a adawaf i chwi gyfryw gymmun-rodd yn fy ewyllys ar a'ch galluoga i ddechreu eich byd fel gwr bonheddig." I'r hyn yr attebai MR. WILLIAMS yn wŷlaidd—"Fy arglwydd, gwnaethoch fy phiol i yn llawn eisoes, fel yr ydwyf yn mhell o fod mewn eisiau dim oddieithr eich cyfarwyddyd am y modd goreu i fyned trwy y byd yma, os bydd i mi eich gorfucheddu." "Myfi a wn," medd ei arglwyddiaeth, "eich bod chwi yn weithiwr medrus; cymerwch yr arfau yna i weithio â hwy: dyna y rhai goreu sydd genyf fi." Felly ei arglwyddiaeth a roddes iddo amryw lyfrau, a phapurau a ysgrifenasai â'i law ei hunan, tra yn gweini swyddau uchel yn y wladwr-



Digitized by Google

iaeth, y rhai a fuant o wasanaeth mawr i WILLIAMS ar ol hyny.

Ar farwolaeth yr Arglwydd Ganghellydd Egerton, rhoddwyd y swydd bwysig hono i Syr Ffrancis Bacon; ac efe a fu yn daer iawn ar *Williams* i aros gyd ag ef, yn yr un swydd ag a weiniasai efe mor anrhydeddus dan ei ragflaenor: ond, efe a wrthododd y cynnygiad hwn mewn modd tra moesgar, gan amlygu ei benderfyniad i fyned i wasanaethu ei blwyf, sef Walgrave, yn swydd Northampton; a phan welodd Syr Ffrancis na's gallai ei droi oddiwrth ei benderfyniad, efe a'i gwnaeth ef yn un o hedd-ynadon y sir hono; ac felly hwy a ymadawsant yn dra chyfeillgar.

Ond, cyn iddo adael y brif ddinas, anfonodd y Brenin am dano, a pharai ei dyngu yn un o Gapelwyr ei fawrhydi yn y fan, trwy yr hyn ei rhwymid i dreulio mis Chwefror yn y llŷs yn flyneddol; ac yn mhellach, archai ei fawrhydi iddo ymbarottoi yn ddioed i ddyfod i'w ganlyn ef ar ei daith ogleddol yn mis Ebrill, yr hwn oedd gerllaw; a chan wenu, y Brenin a'i sicrhai *y gallai efe ddysgwyl ceiniog y llafurwr can gynted a rhai a fuasent yn ngwasanaeth ei fawrhydi yn hwy nag ef.* Ond, ar gais Esgob Caerwynt, cafodd Mr. WILLIAMS ei esgusodi rhag myned ar y daith hon, am fod dysgedigion Caergrawnt yn awyddus am allu dangos y brif ysgol yn ei gwisg oreu ar yr achlysur o ymweliad yr Archesgob Spalatto â'r lle, yr hyn oedd i gymeryd lle yn y mis Gorphenhaf canlynol: a chan eu bod yn ddigon profedig o fedrusrwydd ddihafal Mr. WILLIAMS, dymunent iddo ef fod yn Ymgeisydd am ei raddiaeth o Ddoctor Dwyfyddiaeth ger bron y llenor dysgedig hwnw; ac fel hyn cafodd arfod tra manteisiol eto, i amlygu ei alluoedd annghyffredinol, ger bron pendefigion a dysgedigion blaenaf y Deyrnas.

Wedi cymeryd y raddiaeth yma, efe a ymneillduodd yn siriol o fysg y mawrion rhwysgfawr a'i hamgylchynent yn Nghaergrawnt, i'w blwyf gwledig, yn swydd Northampton, lle y treuliodd efe yn agos i bedair blynedd mewn happusrwydd mawr, gan efrydu yn galed, bucheddu yn ddichlynaidd, a llafurio yn y weinidogaeth yn ddiwyd, gan gyflawni gwasanaeth crefyddol, a phregethu ddwy waith yn yr wythnos, a dwy waith ar y Sabbath, naill ai yn ei eglwys ei hun, neu yn un o'r eglwysydd cymydogol, a chyrchai lluoedd mawrion i'w wrando o'r holl amgylchoedd. Yr oedd hefyd yn dra diwyd a ffyddlawn yn y cyflawniad o'i swydd fel hedd-ynad, i'r hyn yr ydoedd ei hyddysgrwydd yn y gyfraith yn ei gymhwyso tu hwnt i neb arall debygid, a eisteddai ar y fainc ynadol yn y wlad hono.

Yn y flwyddyn 1619, efe a elwid i bregethu o flaen y Brenin yn Theobalds, yr hyn a wnaeth efe oddiar Mat. xi. 8.—Boddheid ei Fawrhydi yn gymaint yn y bregeth hon, fel yr archai efe iddi gael ei hargraffu.

Tra yr oedd efe yn aros yn Walgrave, bu farw Dr. Gordon, Dëon Salisbury, a mawr oedd yr ymgais am y swydd urddasol ac enillfawr hono; a chan bob un o'r ymgeiswyr trachwantus ryw bendefig dylanwadol i'w gefnogi. Yr oedd un ymgeisydd yn enwedig, yn dra hyderus y llwyddai, gan ei fod ef wedi cael gan Ardalydd Buckingham, anwyl-ddyn y Brenin, gymeryd ei achos mewn llaw; ond ni wrandawai y Brenin ar neb, eithr o hono ei hunan, heb unrhyw gymhelliad, anfonodd am y Dr. WILLIAMS, yr hwn oedd ar y pryd yn Lincoln, ac a'i hanrhydeddodd â'r dyrchafiad eglwysig yma, fel arwydd o'i edmygedd o'i alluoedd cryfion, a'i gyrhaeddiadau gwerthfawr.

Yr oedd Ardalydd Buckingham, fel yr awgrymwyd uchod, yn arglwyddiaethu ar serchiadau y Brenin; fel y bernid yn gyffredin, fod dyrchafiad a darostyngiad pawb yn uchel leoedd y Deyrnas, yn ei ddwylaw ef, ac am hyny yr oedd yn cael ei amgylchynu gan luaws o wenieithwyr; ond, nid oedd Dr. WILLIAMS o nifer y cyfryw; ni cheisiai ymweithio i sylw ei arglwyddiaeth, nac enill ei ffafr; a'r agwedd ddyeithriol ac annibynol yma, a barai i Buckingham falch deimlo yn lled dramgwyddedig wrtho, fel na roddai air da iddo gyd â'r Brenin un amser: ond, yr oedd ei fawrhydi ei hunan wedi cael digon o gyfleusderau i adnabod rhagoriaethau WILLIAMS, fel y dymunai ei ddyrchafu, a sicrhau ei wasanaeth i'r llŷs a'r llywodraeth; ac am hyny rhoddai ei fawrhydi amnaid iddo, ei fod ef yn dymuno iddo geisio enill ewyllys dâ Buckingham; ac fel y rhoddai gyfleusdra yn ei ffordd i ddechreu, y brenin a anfonodd y Dëon ieuanc ar ryw neges at yr Ardalydd, a dull moesgar a doeth y *Doctor* yn cyflawni ei neges, ar y naill law, a dull llednais yr Ardalydd yn ei dderbyn ar y llaw arall, a fu yn ddechreuad cyfeillgarwch rhyngddynt; a dygwyddodd amgylchiad yn lled fuan, yn yr hwn y cafodd y *Doctor* gyfleusdra i wneyd gwasanaeth tra gwerthfawr i'r Ardalydd. Yr amgylchiad oedd fel y canlyn—Yr oedd yr Ardalydd yn wr ieuanc heb briodi, ac wedi rhoddi ei fryd yn fawr ar foneddiges o waedoliaeth uchel, ac ettifeddiaeth ehang, sef yr arglwyddes Catherine Manners, merch Ffrancis, Iarll Rutland; ond, er ei fod yn wr ieuanc, prydferth o berson, ac yn feddiannol ar ettifeddiaeth fawr,—a'r hyn, debygasid, a fuasai yn fwy yn ei ffafr, yn anwyl-ddyn y Brenin,—yr oedd dau rwystr mawr yn ei ffordd i gael y ferch ieuanc a chwennychai yn wraig. Un peth oedd, fod yr hen bendefig, ei thad, wedi digio wrth yr Ardalydd, o herwydd rhyw ymddygiad anweddaidd o'i eiddo, fel na's gwrandawai ar unrhyw resymau a ddefnyddid o'i blaid; ond yr oedd Dr. WILLIAMS wedi cael achlysur lawer gwaith, yn ei gyssylltiad ag Eglwys Gadeiriol Lincoln, i ymwneyd a'r Iarll, yr hwn oedd Arglwydd Raglaw swydd Lincoln; ac ar yr achlysuron hyny, parasai i'r hen bendefig goledd meddyliau tra uchel am dano, fel gwr doeth a chywir odiaeth: ac yn awr, wele gyfleusdra iddo i wasanaethu Buckingham, yr hyn a wnaeth efe mor effeithiol, fel y gwahoddid yr Ardalydd yn fuan i adnewyddu y garwriaeth; ac ymddiriedwyd i'r *Doctor* dynu i fynu y Weithred briodas rhyngddynt, yr hyn a wnaeth efe er boddlonrwydd trwyadl i'r ddwy blaid. Ond, yr oedd un rhwystr arall ar ffordd y briodas; canys yr oedd teulu y foneddiges yn Babyddion; a hithau ei hunan wedi ei dwyn i fynu yn y grefydd hono; ond, ni fynai y brenin Iago, i un y gwyddai y wlad yn gyffredin ei fod yn gyfaill mor fynwesol i'w fawrhydi, ymbriodi â Phabyddes, gan ei fod yn ofni y buasai hyny yn peri anfoddlonrwydd mawr trwy y Deyrnas. Gan hyny, dodid y *Doctor* ar waith i ymresymu â'r bendefiges ieuanc, er ceisio ei darbwyllo i ymuno âg Eglwys Loegr; ac efe a fu yn llwyddiannus yn hyn hefyd; ac o'r diwedd, efe a'u priododd hwy, ar yr 16eg o fis Mai, 1620.

Tua'r pryd hwn, dyrchafwyd Dr. Tolson, Dëon Westminster, i esgobaeth Salisbury; ac ar yr achlysur hwnw, symudwyd Dr. WILLIAMS o Ddëoniaeth Salisbury i Ddëoniaeth Westminster, fel y byddai

Digitized by Google

yn nes i'r llŷs yn wastadol: a chan ddilyn siampl un o'i ragflaenoriaid enwog, Dr. Andrews, efe a gymerai ddyddordeb neillduol yn yr Ysgol Fawr oedd yno, gan ymholi yn fanol i hynt yr Ysgolorion, gwobrwyo eu diwydrwydd, a chyfarwyddo yr Athrawon am y modd gorau i gyfranu addysg iddynt. Arlwyodd ddarbodaeth hefyd at gynnal pedwar o Ysgolorion yn ychwanegol at y deugain blaenorol oedd yno, gan drefnu iddynt gael eu hanfon i Goleg St. Ioan, Caergrawnt, i orphen eu haddysg. Efe a adgyweiriodd yr hen Eglwys Gadeiriol hefyd ar ei draul ei hunan; gofalodd am gael y Cerddorion gorau i'r Côr yno: talodd dri chant o bunnau o ddyled a orweddai ar yr eglwys; a ffurfiodd lyfrgell yno, i'r hon y llwyddodd efe i gael llyfrfa werthfawr Mr. Baker, at yr hyn yr ychwanegai y cyfysgrifau gorau a gwerthfawrocaf a feddai efe ei hunan.

Ar y 30ain o'r mis Ionawr canlynol, cyfarfu y brenin â'i Senedd newydd yn Westminster, wedi cyfwng o saith mlynedd, yr hyn a roddai lawer o foddhad i'r wlad, gan fod y bobl yn dysgwyl y buasai i'w cynnrychiolwyr fynu ymwared iddynt oddiwrth amryw feichiau annghyfiawn y gruddfanent danynt: ac y mae yn debyg nad oedd y Brenin heb ofni hyny hefyd: ond, yr oedd ei arian wedi darfod; ac yr oedd rhyw annghyttundeb wedi tori allan rhyngddo âg Awstria; a Brenin yr Hispaen hefyd a ymddygai yn lled daeog: ond ni feiddiai Iago fyned yn mhell i ymrafael â'r cyfryw elynion cryfion, cyn cael cymeradwyaeth y Senedd, a'i haddewid am arian i gynnal y rhyfel. Ond yr oedd plaid grêf iawn yn Nhŷ y Cyffredin, y rhai ni chymerent eu llygad-dynu gan helynt y rhyfel, eithr a gwynent yn groyw o herwydd ymddygiad y Brenin a'i Weinidogion, yn caniattau gorfaelion a llwgr-wobrwyon, ac arferion drygionus eraill, y rhai oeddynt wedi myned i eithafion annyoddefol.

Yr oedd Buckingham yn neillduol yn cael ei feïo ganddynt; ac ni's gwyddai efe na'i feistr pa fodd i ymdaro yn wyneb y dyryswch yma. Rhai o wŷr y llŷs a geisient ddarbwyllo ei fawrhydi i ddadgorphori y Senedd yn hytrach nag aberthu ei Weinidogion i'w cynddaredd; a chyfodi y trethi gofynol trwy ei hawl-fraint freninol ei hunan, yn hytrach na bod yn ddyledus i'r Senedd am ryw rôdd grintachlyd: ond prin yr oedd y Brenin na Buckingham yn ddigon rhyfygus i anturio ar ymddygiad felly. Pa fodd bynag, daeth i feddwl Buckingham un diwrnod, i ymgynhori â'r Dr. Williams yn y cyfyngder hwn, yr hwn a ddywedai wrth ei arglwyddiaeth yn onest, nad oedd y Senedd yn ceisio dim ond yr hyn oedd gyfiawn, a'r hyn a ddysgwyliai y wlad iddynt ei wneyd fel eu cynnrychiolwyr; ac nad oedd eu cais mewn un modd yn drais ar uchel-fraint yr orsedd; gan hyny mai y cyngor gorau a allai efe ei roddi i'w arglwyddiaeth, oedd, ar iddo nofio gyd â'r llif, gwrando ar lais y wlad, a chydsynio â chais y Senedd. Yr Ardalydd yn gweled fod ei gyngor yn ddoeth, ac yn onest, a'i dug ef at y Brenin, fel yr ymddiddanai ei fawrhydi âg ef yn nghylch yr helynt ddyrus; a'r canlyniad fu, i'r Brenin wneyd yn ol cyngor y Dëon, gan roddi Cyhoeddiad breninol allan, yn yr hwn y diddymid 37 o'r cyfryw orfaelion ar unwaith; a rhoddwyd rhyw gosbedigaeth lem ar Syr Giles Mompesson a Syr Francis Mitchell, y rhai oeddynt wedi bod â llaw benaf yn y gorfaelion dywededig.

Syr Edward Villiers hefyd a anfonwyd o'r Deyrnas; a'r Arglwydd Ganghellydd Bacon, yr hwn a dynasai ŵg y Senedd yn ei ben am na buasai wedi bod yn fwy gonest yn ngweinyddiad ei swydd, i attal yr annghyfiawnderau hyn, a ddiswyddwyd; ac fel hyn, adgyweirid y rhwyg mawr yn brydlawn y tro hwn, mewn modd tra boddhaol i'r wlad, yr hyn a barai y fath ddywenydd i'r Ardalydd, fel y tystiai nad ymgynghorai efe â neb mwyach mewn dyryswch, ond â'r Dëon: a chymaint oedd cymeradwyaeth y Brenin o'i wasanaeth hefyd, fel ei galwodd yn y fan i fod yn aelod o'i gyfrin-gyngor; ac felly, efe a dyngid i'r swydd urddasol hono ar y 18fed o Fehefin, 1621.

Wedi diswyddo yr Arglwydd Ganghellydd Bacon, yr oedd lluaws o ymgeiswyr trachwantus, yn ymryson am swydd o'r fath fri ac elw, fel y gallesid dysgwyl, yn mysg y pendefigion a drôent o amgylch y llŷs; ond rhoddid y seliau ar y cyntaf i ofal pedwar o Ddirprwywyr, hyd oni wnelid ewyllys y Brenin yn hysbys:—Y Dirprwywyr hyn oeddynt, Yr Arglwydd Drysorydd Montague, Duc Lenox, Iarll Penfro, ac Iarll Arundel: a phenodid Syr Julius Caesar, a rhyw rai o'r prif farnwyr gyd ag ef, fel math o ddirprwyaeth i wrandaw cynghawsau cyfreithiol a ddygid ger bron y llŷs.

Dysgwyliai amryw y buasai Syr Lionel Cranfield yn cael ei bennodi yn Arglwydd Ganghellydd; ond er syndod aruthrol i'r holl bendefigion, a siomedigaeth i amryw, y Brenin a enwai y Dëon Williams i'r swydd bwysig; ac ar y 10fed o Orphenaf, 1621, efe a dyngid yn *Geidwad Sêl Fawr y Deyrnas.* Ar yr achlysur yma gwnaeth y Dëon araeth hyawdl ger bron ei Fawrhydi, gan gydnabod ei ddiolchgarwch diffuant am y fath anrhydedd, a datgan ei ofnau o'i annigonolrwydd i weini swydd mor bwysig ac urddasol yn deilwng. Ond, y Brenin a'i hattebai, gan ddywedyd, "Mae fy newisiad yn foddhaol genyf, ac nid oes arnaf yr ofn lleiaf ddarfod i mi gamgymeryd fy ngwrthddrych."

Dyma ni bellach wedi olrhain camrau cyflym y Cymro clodwiw hwn, yr holl ffordd i fynu, hyd y dyrchafiad mwyaf digyffelyb y mae genym hanes am i odid ddyn erioed ei gael, yn enwedig mewn yspaid mor fyr; fel nad oedd efe yn llawn deugain mlwydd oed, pan ei gwnelid yn Arglwydd Ganghellydd y Deyrnas: ac yn ystod yr un mis eto, efe a ddewiswyd yn esgob Lincoln; a chan nad oedd elw yr esgobaeth hono ond bychan, a bod treuliadau ei sefyllfa bresenol yntau yn ddirfawr, caniatteid iddo barhau i fwynhau pob un o'r meddiannau ei gwnelsid ef yn berchenogol o honynt o'r blaen.

Yn y fan, wedi ei ddyrchafiad i'r swydd uchel o Arglwydd Ganghellydd, efe a ymroddodd yn egniol i'w ddarparu ei hun at ddyledswyddau llafurus ei sefyllfa newydd, y rhai y bernid yn naturiol na allesid eu cyflawni gan un a ddygasid i fynu i'r weinidogaeth eglwysig; ond, yr oedd efe wedi ei gynnysgaeddu â doniau annghyffredin, fel na theimlai efe gymaint oddiwrth yr anfantais.

Pan yn myned i ymddangos y waith gyntaf yn y Llŷs Canghellol, efe a ymwrthododd â'r holl rwysg a arferid ar y cyfryw achlysuron; a chan gymeryd gyd ag ef ychydig o is-farnwyr y Llŷs, efe a aeth yn ddirgelaidd trwy gynteddau y Fonachlog, ac wrth fyned trwy Gapel Harri y Seithfed, efe a ddisgynodd ar ei liniau, ac a barhaodd mewn gweddi am oddeutu chwarter awr; ac yna, efe a aeth rhagddo i'r llŷs, mewn difrifwch a gwŷlder; ac yr oedd yno dyrfa fawr yn dysgwyl am ei ymddangosiad, y rhai a

Digitized by Google

gyfarchai efe mewn araeth lawn o synwyr da, ac mewn agwedd wŷlaidd a dirodres.

Yr Wyl Fihangel ganlynol, ymgyfarfu y Senedd; ac yna yr oedd ei lafur yntau yn chwanegu, fel mai prin y caffai hamdden i fwytta nac i gysgu; canys rhwng ei oruchwylion yn y Llŷs, ac yn y Senedd, efe a fyddai ar waith o rhwng pump a chwech y boreu, hyd ddau neu dri y boreu canlynol, a hyny yn barhaus pan fyddai yn adeg o brysurdeb: ac efe a gyflawnai ei holl oruchwylion gyd â'r fath fedrusrwydd, fel yr oedd pob anhawsderau megys yn diflanu o'i flaen. Ni oddefai i'r cyfreithwyr dreulio amser drwy ofer siarad am yr hyn na thueddai i roddi penderfyniad uniongyrchol ar yr achos a fyddai dan sylw; a phan draddodai efe ei ddedryd, ni's gallai neb ei gyhuddo o ffafriaeth na thoster. Ei areithiau yn y Senedd hefyd oeddynt mor hyawdl a goleu-bwyll, fel nad oedd yn hawdd ei wrthwynebu, a'i holl benderfyniadau cyfreithiol oeddynt mor gywir a chedyrn, fel mai prin y gallwyd dymchwelyd yr un o honynt gan y Swyddogion a ddaethant ar ei ol ef.

Fel hyn, efe a aeth yn mlaen yn ddi lwfr a diduedd, gan gyflawni goruchwyliaethau pwysig ei swyddogaeth yn y modd mwyaf synhwyrol, a hyny yn yr amgylchiadau mwyaf dyrus; o ba rai y cyfododd amryw yn ystod ei swyddogaeth, y rhai yr oedd yn rhaid am y callineb mwyaf i fyned drwyddynt heb gyfeiliorni ar y naill law neu y llall; naill a'i trwy ollwng gafael yn ormodol o hawlion y goron, neu trwy gyfyngu yn ormodol ar ragorfreintiau y deiliaid; a'r hyn y cafodd efe yr anhawsder mwyaf i'w gwblhau, oedd attal i ymrafael dori allan rhwng y Brenin a'r Senedd: ond, trwy ei ymdrechion doeth a dyfal, fe lwyddodd yr Arglwydd Ganghellydd yn hyn, tra fu efe yn ei swydd, er iddo trwy hyny gynhyrfu dygasedd rhai o'i gyd-swyddogion yn ei erbyn; y rhai oeddynt yn dra chenfigenus atto yn barod, ar gyfrif ei gymeriad uchel gyd â'r Brenin. Un o'r rhai hyny ydoedd yr Arglwydd Cranfield, yr hwn tu a'r adeg dan sylw, a wnaed yn un o Arglwyddi y Trysorlys; a'r hwn o herwydd i WILLIAMS wrthsefyll un o'i ddichellion, a lawn fwriadodd ei andwyo, os y gallai; ac i'r dyben hyny, efe a gasglodd luaws o gam-gyhuddiadau yn ei erbyn, oddiwrth y rhai ni bu WILLIAMS nemawr o amser yn profi ei fod yn ddi euog; ac yn fuan ar ol hyn daeth Cranfield ei hun i'r rhwyd; ac efe a ddyfernid gan y Senedd i gael ei ddiswyddo, a'i ddirwyo i fil o bunau, heblaw ei gymeryd yn garcharor i'r Tŵr Gwyn; yr hyn a gymerodd le ar yr 20fed o Fai, 1624. Ond, yr hwn a droes allan yn brif elyn i WILLIAMS, ydoedd y Dug o Buckingham, i'r hwn y buasai efe yn gymmwynaswr mor fawr, fel y dangoswyd eisoes.

Yr oedd y pendefig hwnw yn dra anwadal ei dymherau; weithiau ni thybiai un ffafr yn ormod i'w wneuthur i WILLIAMS, yr hwn o herwydd llawer o gymmwynasau a dderbyniai trwy ei offerynoliaeth, fel yr oedd yn anwyl-ddyn y Brenin, ydoedd yn wastad yn awyddus i ad-dalu y cyffelyb garedigrwydd iddo yntau, hyd y gallai wneuthur hyny yn gydwybodol: ond, wrth ei gynghori yn ffyddlawn am yr hyn oedd oreu er ei lês, os na fyddai y cynghorion hyny yn gyttunol â mympwy hunanol y Dug, efe a lenwid o ddigofaint at y sawl a'u rhoddai; a'r llid a feithrinai yn ei fynwes, a gronai i'r fath rym o'r diwedd, fel y penderfynai wneyd hyny a allai o niweid i WILLIAMS, ac yn enwedig, ddefnyddio ei ddylanwad mawr gyd â'r Brenin, er peri i hwnw wgu ar yr Arglwydd Ganghellydd; ond ofer a fu ymgais pawb i iselu ei gymeriad yn ngwydd y Brenin Iago, tra fu efe byw; yr hyn, fel yr oedd waethaf y ffawd, ni fu yn hir ar ol hyn; canys tua dechreu y flwyddyn 1625, ei Fawrhydi a deimlai fod ei iechyd yn pallu, a chan obeithio y gwnelai newid awyr, lês iddo, ymsymmudai i Theobalds: ond, ni thyciai hyny, ac ar yr 22ain o fis Mawrth, derbyniai yr Arglwydd Ganghellydd lythyr, yn cynwys hysbysiad fod afiechyd y Brenin yn debyg o derfynu yn angeuol; a phan ddeallodd ei arglwyddiaeth hyny, efe a aeth at ei Fawrhydi yn ddioed, ac yn fuan wedi iddo gyrhaedd yno, efe a gauodd lygaid y Brenin trengedig â'i law ei hun. Bu farw y Brenin Iago yn Theobalds, ar y 27ain o Fawrth, 1625, a chladdwyd ef yn Westminster; a'r Esgob WILLIAMS a draddododd ei bregeth angladdol ef oddiar 2 Cr. ix. 29–31; a chyhoeddwyd y bregeth drwy yr argraff wasg yn fuan, dan y teitl, "*Solomon Prydain Fawr.*"

Mab y Brenin Iago a esgynai i'r orsedd freninol yn ddioed, dan yr enw Charles y Cyntaf; ac yr oedd y Dug mewn llawn cymaint ffafr gyd â'r Brenin newydd ag y buasai gyd â'i dâd; ond nid felly yr oedd WILLIAMS, fel y gwelwn yn fuan.

Y Brenin newydd a chwenychai wŷsio y Senedd i ymgyfarfod yn ebrwydd, ac i'r perwyl hwnw galwai am yr Arglwydd Ganghellydd i'w wyddfod, er rhoddi gorchymyn iddo i anfon y gwŷsiadau arferol allan; ac ar ei ddyfodiad i fewn, cafodd ei Fawrhydi a'r Dug gyd â'u gilydd, yn dyfal ymgynghori ar ryw achosion pwysig; a'r Arglwydd Ganghellydd a anturiai roddi ei gyngor i'r Brenin yn nghylch cynnulliad y Senedd, fel yr arferai roddi i'w dad o'i flaen ef; ond ei Fawrhydi a gymerai y cyngor yn dra oeraidd, gan droi o'r neilldu, fel pe y buasai yn chwenych i'r Canghellydd fyned ymaith; a'r Dug hefyd, o hyn allan a ymddyeithriai i'w Arglwyddiaeth hyd y gallai; oddiwrth yr hyn y casglai WILLIAMS fod tymhestl yn agosau; ac yn wir, fe fynegwyd iddo yn fuan, ddarfod i'r Dug ddatgan yn nghlyw amryw, y byddai i'w Arglwyddiaeth gael ei ddiswyddo ar fyrder: ond, nid oedd y fradwriaeth wedi llawn aeddfedu eto: eithr cyfododd achlysuron newyddion yn fuan i brysuro y trychineb. Ar y 23ain o Fai, rhoddai y Brenin orchymyn i'r Arglwydd Ganghellydd, am dynu ysgrif allan o dan y Sêl Fawr, i benu dwy fil o bunau yn y flwyddyn i'r Arglwydd Conwy, am un flynedd ar hugain. Ond, rhag bod dim camgymeriad yn yr achos, aeth WILLIAMS at y Brenin, a thrwy ryw ymresymaeth a fu rhyngddo a'i Fawrhydi, attelid yr ysgrif; a gellir casglu, pa mor onest a gwladgar bynag oedd ymddygiad yr Arglwydd Ganghellydd yn y drafodaeth hon, iddo wneyd yr Arglwydd Conwy yn un o'i elynion.

Ar y 18fed o Fehefin, ymgyfarfyddai y Seneddwyr; ond, gan fod y plâ mawr yn y brif ddinas ar y pryd, bernid yn well iddynt fyned i eistedd yn Rhydychain; ond cyngor WILLIAMS ydoedd, ar fod i'r Senedd gael ei gohirio hyd onid ymadawai y plâ; eithr yr oedd y Dug yn wrthwyneb ei farn iddo ar y pen yna; ac i Rydychain yr aed. Yn gynnar yn yr eisteddiad yma, dygid achwyniad yr erbyn yr Arglwydd Ganghellydd, ei fod ef yn bleidiol i'r Pabyddion; ond erbyn chwilio i'r achwyniad, gwelid ei fod yn llwyr ddi sail; mai y Dug o genfigen a barasai ei ddwyn yn mlaen, er cael achlysur yn erbyn y Canghellydd; a phan welodd ei hun wedi methu yn

Digitized by Google

hyn, a thynu seniadau llymion rhai o'r Seneddwyr ar ei ben trwy y tro; efe a haerai fod WILLIAMS yn ceisio annog y Senedd yn ei erbyn ef, tra mewn gwirionedd yr oedd ei Arglwyddiaeth yn gwneyd ei oreu i'w amddiffyn ef rhag anfoddlonrwydd y Brenin, a'r Senedd hefyd: ond ni fynai y Dug trahaus-falch goelio hyn, er i WILLIAMS egluro y peth iddo â dagrau yn ei lygaid; ond y Brenin a gydnabyddai fod y Canghellydd yn hollol ddieuog yn hyn hefyd; ac felly, efe a adawwyd yn ei swydd rai wythnosau yn hwy. Eithr ni orphwysai Buckingham nes ei gael o'r ffordd; ac yn fuan daeth cenad oddiwrth y Brenin i gymeryd y Sêl Fawr oddiarno; yr hyn a gymerodd le ar y 25ain o Hydref, 1625, ar ol bod o hono yn Arglwydd Geidwad Cyfrin Sêl Prydain, tua phedair blynedd a chwarter; a phennodid Arglwydd Coventry i'w olynu yn y swydd bwysig.

Pan ddeallodd WILLIAMS ei fod i gael ei ddiswyddo, efe a erfyniodd am ganiattâd i ymddiddan â'r Brenin, yr hyn a gafodd; ac yna, efe a ymbiliodd ar ei Fawrhydi, os oedd yn penderfynu cymeryd y Sêl Fawr oddiarno, gyflawni yr addewidion a wnelsai ei freninol dad iddo, sef, yn mysg pethau eraill, ganiattau iddo fwynhau yr amrywiol fywiolaethau eglwysig oeddynt yn ei feddiant eisoes, a phennodi iddo esgobaeth well, neu archesgobaeth, pan ddelai cyfleusdra i hyny. Ymrwymai y Brenin i gyflawni yr addewidion hyn, ac amryw yn chwaneg, yn ffyddlawn; ac ar ymadawiad WILLIAMS, estynai ei Fawrhydi ei law iddo i'w chusanu, gyda llawer o hynawsedd. Er hyn oll, ni chyflawnwyd nemawr o'r addewidion uchod; ond goddefid i'w elynion ymddial arno, fel pan ymneillduodd efe i'r Palas esgobawl yn Lincoln, yr anfonid ysbïwyr ar ei ôl, i wylio ar ei ymddygiadau, ac i geisio ei rwydo yn ei ymddyddanion. Gwaherddid iddo ef fod yn bresenol, fel yr Esgobion eraill, ar goroniad y Brenin, nac i eistedd ar y faine Esgobawl yn Nhŷ yr Arglwyddi, a hyny dan yr esgus ei fod ef yn ei wneyd ei hun yn rhŷ gariadus yn mhlith yr Aelodau Seneddol; a thra ei cyhuddid mor ddiweddar o fod yn rhŷ bleidiol i'r Pabyddion, efe a gyhuddid yn awr o fod yn rhŷ ffafriol i'r Puritaniaid, ac o ymdebygoli gormod iddynt, trwy bregethu mor fynych, &c.

Er hyn oll, ni phallai yr esgob a gwneyd pob cymwynas yn ei allu, i'r Brenin ac i'r Dug, drwy eu cynghori a'u rhybuddio yn ffyddlawn, pan eu gwelai mewn perygl, neu gyfyng gynghor; a gorchfygai hyny eu dygasedd gymaint weithiau, fel y cydnabyddent eu rhwymedigaethau iddo; ac ar un achlysur neillduol o'r fath, cyffesai y Dug ei fod yn maddeu y cwbl iddo; er, fe allai nad oedd hyny namyn gweniaith, er sicrhau ychwaneg o'i wasanaeth yn y Senedd, mewn amser dyfodol. Ond, yn ystod hyn o adeg gyfeillgar, cymerid ymaith einioes y Dug, drwy lofruddiaeth annaturiol, ar y 23ain o Awst, 1628.

Gallesid dysgwyl y cawsai WILLIAMS fwy o heddwch bellach, wedi symmudiad ei brif elyn; ond nid felly y bu; canys yr oedd ganddo elynion eraill, llawn cenfigen tuag atto, y rhai a ymdrechent i'w flino a'i niweidio yn ddiorphwys: ac i'r perwyl hyny adnewyddent ryw hên gam-gyhuddiad yn ei erbyn, sef ei fod wedi datguddio cyfrinach y Brenin; ac ar y sail anghyfiawn yma, dygasant ef i brawf ar yr 11eg o Orphenaf, 1637, a rhoddasant ddedryd yn ei erbyn, gan ei ddyfarnu i ddirwy o ddeng mil o bunnau, ac i gael ei ddiosg o'i holl raddau urddasol, a myned ei hunan i garchar! Ac, er chwanegu ei ofidiau yno, aeth ei gaseion, a chymerasant ymaith yr hyn oll a feddai yn ei lŷs esgobawl, ac o'i amgylch, dan yr esgus o dalu y dirwy i'r Brenin, er na ddefnyddiwyd dim o honynt i'r perwyl hwnw, ac ni roddwyd byth un math o gyfrif am yr eiddo ychwaith! Er hyn oll, amlygai WILLIAMS yr amynedd a'r dyoddefgarwch siriolaf, a hyny a gynhaliai ei ysbryd rhag ymollwng, a'i iechyd rhag adfeilio, fel nad oedd ei wedd nemawr yn waelach, wedi bod dair blynedd a haner yn garcharor yn y Tŵr Gwyn. Ond, wedi bod yn garcharor tua thair blynedd, efe a ysgrifenai ei hunan-amddiffyniad mewn ugain o bapur-leni, gan fwriadu ei ddodi ger bron y Senedd a ymgynnullai ar y 13eg o Ebrill, 1640; eithr gan na pharaodd yr eisteddiad yma namyn tua thair wythnos, llesteirid ei amcan hyd oni ddaeth y Senedd yn nghyd drachefn ar y 3ydd o Dachwedd, pryd y cyflwynai ei Erfyniad am ryddhad, trwy gyfryngiad y Frenines; ond gwrthwynebid ei gais gan yr Arglwydd Ganghellydd Finch, a'r Archesgob Laud. Ond, wedi hyn, darfu i Dŷ yr Arglwyddi eiriol drosto gyd â'r Brenin, yr hwn a ganiattäodd ei ryddhad iddo, fel ar yr 15eg o Dachwedd, y cyrchid ef o'r Tŵr i'r Senedd, lle yr eisteddai drachefn yn mhlith yr Esgobion.

Dysgwyliai y Senedd yn naturiol, y buasai WILLIAMS, a gawsai driniaeth mor annghyfiawn oddiar law y Brenin a'i lyswyr, yn eu cefnogi hwy yn eu hymrafael â'r Brenin; ond, er syndod i bawb, amlygai yr Archesgob y ffyddlondeb mwyaf i'w Fawrhydi, drwy yr holl drallodau a'i cyfarfu, gan dalu dâ am ddrwg i'w gaseion a'i erlidwyr: a'r Brenin wedi ei lwyr orchfygu gan y fath fawrfrydigrwydd dihafal; a'i argyhoeddi o'r camwri a wnelsai â'r doethaf a'r cywiraf o'i gynghorwyr, a wnaeth ryw gymaint o daledigaeth iddo ar gyfer ei golledion mawrion, ac a orchymynodd i bob cyhuddiadau oedd yn ei erbyn gael eu dystrywio, gan gredu bellach, debygid, nad oeddynt yn seiliedig mewn gwirionedd; ac yn fuan ei Fawrhydi a'i trosglwyddodd i ARCHESGOBAETH CAEREFROG, gan ei adael i fwynhau Dëoniaeth Westminster hefyd, am dair blynedd yn hwy. Ond, er hyn oll, nid oedd fawr o argoel y caniatteid i WILLIAMS rhyw brydnhawnddydd einioes tawel a chysurus: yr oedd yr Archesgob Laud, a blaenoriaid eraill y blaid uchel eglwysig, yn nghyda Chynghorwyr gwenieithus y Brenin, wedi achlysuro i'r rhwyg fyned mor fawr rhwng y Senedd a'r Llŷs, fel yr oedd y deyrnas wedi ymranu yn ddwy blaid; a phob un yn ymfyddino, gan benderfynu terfynu eu hymrafael ar faes y gwaed; a mawr a maith a fu y terfysg, fel y mae hanesion yr amseroedd hyny yn dangos; a chafodd WILLIAMS ei ran yn helaeth o'r blinderau cyssylltiedig â'r ymrafael. Ni oddefai ei alluoedd cryfion, a'i dymher fywiog, iddo ef ymneillduo i ddinodedd, ar y fath adeg a hyn yn enwedig; ac y mae yn ymddangos ddarfod iddo trwy ei bybyrwch yn dadleu dros ragorfreintiau y *Meitr* a'r *Goron*, ei wneyd ei hunan yn nod dygasedd arbenig y blaid Seneddol: ac fel yr oedd efe yn nghastell Cawood, dygid gair iddo yn nghanol y nôs, fod byddin y Senedd yn dyfod i gymeryd y castell, ac i dori ei ben yntau boreu dranoeth! Am hyny, bu raid iddo ffoi yn llwm ac yn llesg, ac efe a gyfeiriodd tu a'i wlad enedigol; ac a gyrhaeddodd yn ddiogel i Aberconwy, o'r lle y buasai yn absenol dros yn agos i hanner càn mlynedd, oddi-

Digitized by Google

gerth ambell ymweliad achlysurol. Erbyn i'r Archesgob gyrhaedd i Gonwy, efe a welai yn fuan fod yr ymbleidiaeth wladwriaethol y diangasai efe rhagddi o Loegr, wedi cyrhaedd i Gymru; ac am hyny efe a ymroddes yn dra diesgulus i gadarnhau ei gyd-genedl yn eu penderfyniad i sefyll yn mhlaid y Brenin; ac efe a roddes ddynion ar waith yn ddioed i adgyweirio y Castell, ac amddiffynfeydd y dref; ac a gododd wŷr ac arian i'w harfogi, er amddiffyn achos y Brenin yn y parthau hyn o'r Dywysogaeth: ac er gwneuthur o hono hyn ar ei draul ei hun, ac heb gael unrhyw orchymyn, pan glybu y Brenin am ei deyrngarwch, efe a ysgrifenodd amryw lythyrau caredig atto: a chan fod un o honynt yn dwyn perthynas neillduol â'r castell hwn, nyni a'i dodwn i fewn yma:—

"Siarl Frenin,—Barchedicaf Dad yn Nuw, &c. Fe'n hysbysir gan ein gwas Orlando Bridgman, nid yn unig o'r calondid a'r cynnorthwy daionus a roddasoch chwi iddo ef yn ein gwasanaeth; ond hefyd o'ch ymdrechion personol ac egniol chwi eich hun i'n gwasanaethu. Ac er ein bod wedi cael hir brawf o'ch ffyddlondeb, eich parodrwydd a'ch pybyrwch, yn yr hyn a berthyn i ni, eto ni's gall lai na bod yn dra chymeradwy i ni, eich bod yn rhoddi achlysuron adnewyddol i ni i'w gofio. Ac yr ydym yn attolwg ar i chwi barhau i roddi pob cynnorthwy dichonadwy i'n gwasanaethwr dywededig. Ac yn gymaint a'ch bod chwi yn awr yn breswylydd yn ein tref, Aberconwy, lle y mae castell, yr hwn gynt a berthynai i'n coron, ac yn awr a berthyna i'r Arglwydd Conwy, yr hwn y mae yn hawdd ei wneuthur yn ddiffynadwy ar ychydig draul: ond, gan fod Arglwydd Conwy yn ngharchar gan rai o'n deiliaid gwrthryfelgar, ac yn analluog i'w arlwyo, fel y mae yn ofynol er ein gwasanaeth, ac amddiffyniad y parthau hyny; a chan eich bod chwi wedi dechreu adgyweirio yr unrhyw ar eich traul eich hunan; yr ydym ni o galon yn dymuno i chwi fyned yn mlaen yn y gwaith hwnw, gan eich sicrhau pa arian bynag a rodder allan genych ar gadarnhad y cyfryw gastell, y bydd iddynt gael eu had-dalu i chwi, cyn y byddo i'w gadwraeth gael ei roddi yn nwylaw neb heblaw yr eiddoch eich hun, neu y sawl a bennoder genych chwi."—*O Rydychain, Awst* 1, 1643.

Ar gefn y llythyr hwn, yn unol ag addewid y Brenin, ysgrifenasai yr Archesgob y nodyn a ganlyn: —"Myfi John, Archesgob Caerefrog, a bennodais fy nai, William Hooks, Ysw., Henaduriad Conwy, i feddu cadwraeth y castell hwn, a grybwyllir yn llythyr ei Fawrhydi, dan ei sêl ef, hyd oni addaler i mi yr arian, a'r gwerth arian a dreuliwyd genyf fi yn ei adgyweiriad, trwy rinwedd y *Warrant* hon. A phe y dygwyddai ei farw ef, yr ydwyf yn pennodi fy nai Gruffydd Williams i'r un perwyl.—Ion. 2, 1643."

Yn mhen peth yspaid ar ol hyn, cafodd yr Archesgob ei wŷsio i ymddangos yn Nghyngor-lys y Brenin, yn Rhydychain, lle y cyrhaeddodd yn mis Ionawr, 1644; ac er i'r amgylchiadau a gymerasant le ar ol hyny, brofi doethineb ei gyngor, ni's gallodd lwyddo gyd â'r Brenin i gael ganddo weithredu wrth ei gynlluniau ef; ac felly, gan ei fod yn gweled y gallai efe fod o fwy o wasanaeth i achos y Brenin yn Nghymru, efe a ddychwelodd i Aberconwy yn y Gwanwyn. Fel yr oedd y rhyfel cartrefol yn ymledu dros yr holl deyrnas, teimlai boneddigion Conwy a'i hamgylchoedd, yn dra phryderus yn nghylch eu meddiannau; gan hyny, ar ddychweliad yr Archesgob o Rydychain, hwy a attolygasant iddo ganiattau iddynt gyfleu eu llestri aur ac arian, a'u trysorau gwerthfawrocaf, yn y castell er diogelwch, â'r hyn y cydsyniodd ei arglwyddiaeth, gan beri ysgrifenu mewn llyfr, restr fanol o'r trysorau a ddygid yno gan bob un, a rhoddi eiliad o'r cyfryw restr i'r perchenog.

Yn mhen tua blwyddyn ar ol hyn, darfu i Syr John Owen, o'r Cleneney, yn Eifionydd, yr hwn oedd yn Filwriad yn y fyddin freninol, lwyddo i gael gan y tywysog Rupert ei bennodi ef yn llywydd y castell, er fod gan yr Archesgob awdurdodiad dan law a sêl y Brenin, i ddal meddiant o hono, hyd oni byddai yr arian a dreuliasai efe ar yr amddiffynfeydd, wedi eu talu iddo: cyttunasai y tywysog ei hunan hefyd â'r trefniad yma, ac hyd yn nod rhoddasai orchymyn trwy lythyrau i bob swyddogion ar dir a môr, gynnorthwyo yr archesgob i wneyd y lle gadarned ag y gellid. Ond, er pob peth, Syr John Owen a ruthrodd ar y lle, ac a'i cymerodd trwy drais; ac mewn canlyniad i hyny, anfonai yr Archesgob y genadwri ganlynol at y Brenin i Rydychain, trwy law un Cadben James Martin.

1. "Ar y nawfed o Fai, 1645, darfu i Syr John Owen, llywydd Conwy, tua saith o'r gloch yn y prydnhawn, cyn i'r nos-warchlu gael eu hanfon i'r castell, y meddiant o'r hwn a ddodasid gan y Brenin yn nwylaw Archesgob Caerefrog a'i ddirprwywyr, ar gyfrifon o werth mawr, trwy ei lythyrau graslawn, a than law a sêl ei Fawrhydi, dyddiedig yn Rhydychain, Awst 1af, 1643,—â throsolion heiyrn, a gwŷr arfog, dori y cloion a'r dorau, a myned i mewn i'r castell dywededig; gan gymeryd meddiant o'r lle, yr arlwy, pylor, arfau, a chad-ddarpariadau, a osodasid i fewn yno gan y dywededig archesgob, ar ei draul ei hunan, heb y cynnorthwy lleiaf oddiwrth y Brenin, na'r wlad; er amddiffyniad y lle, ac er gwasanaeth y Brenin, a'r wlad ddywededig.

2. "Pan y ceisiodd yr archesgob iddo ganiattau i ddau o wŷr y dywededig archesgob gael bod yno gyd a'i giwed o wastrodion, a gwerinos, i ofalu am eiddo y wlad, fel eu diogelid rhag eu chwiw-ladratta, a'r arlwyon a'r câd-ddarpariadau, rhag cael o honynt eu treulio a'u darn-guddio, Syr John mewn nwydau cyffrous a'i llwyr omeddai, er fod pawb oeddynt yn bresenol yn dymuno arno ef i wneyd hyny er mwyn ei ryddhau ei hunan oddiwrth gyfrifoldeb, eto, efe a omeddai wrando ar unrhyw reswm; ond yn unig addawai y byddai iddo ganiattau i restreb o'r cyfan gael ei chymeryd dranoeth, ac i'r Arglwydd Archesgob gymeryd ymaith yr hyn a fynai, a Syr John yn cydnabod mai eiddo ef oedd yr holl feddianau, a'r câd-ddarpariadau.

3. "Dranoeth, efe a dynai yn ôl oddiwrth hyn oll; ni chaniattai ar daer ddymuniad ei gefndyr, esgob Llanelwy, i neb o ddynion yr archesgob fyned i edrych ar ol y meddiannau; ac ni oddefai i weision ei arglwyddiaeth fyned i fewn i gyrchu dim at wasanaeth eu meistr, yr hwn a fuasai yn hir nychu, mewn afiechyd a gwendid mawr, gymaint âg ychydig win, a'i hen gwrw ei hunan at ei wasanaeth, yr hyn a gyfrifid yn greulondeb anwar gan yr holl wlad.

4. "Mae y dywededig Syr John yn parhau i grwydro o le i le, ac yn cadw gafael yn barhaus ar holl feddiannau y wlad a drysorasid yn y castell hwn, dan yr ystyriaeth ei fod yn meddiant yr Archesgob, yr hwn oedd yn debyg i fod yn gyfrifol am

Carnarvon

Digitized by Google

danynt, ac o'u dychwelyd yn ofalus mewn blynyddoedd eraill: ac y mae efe yn bygwth cymeryd meddiant o'r llestri aur ac arian i'w wasanaeth ei hun; ymddygiad mwy treisgar ni allesid ei ddysgwyl oddiwrth unrhyw wrthryfelwr neu elyn.

5. "Mae yr Archesgob yn dymuno ar i'w fawrhydi roddi ail feddiant iddo ef o'r hawl i'r castell hwn, yn ol y dyroddiad a wnaed gan ei fawrhydi o'r blaen, fel cydnabyddiaeth o'r draul fawr yr aethai efe dani. Ac os ewyllys ei fawrhydi yw, fod i'r dywededig Syr John Owen, neu unrhyw ddyn arall, mwy cymedrol, a llai byrbwyll, fod yno, iddo ddyfod dan appwyntiad yr Archesgob, fel y mae yn gyfiawn, ac fel yr oedd y Milwriad Ellis a Mr. Chichely yn foddlawn i wneuthur, ac y gwnaethant. I'r rhai yr oedd yr Archesgob yn barod i roi ffordd yn wastad, fel y gall y Milwriad Ellis, a Syr William Legg dystio.

6. "A pha fodd bynag, ar i holl eiddo yr archesgob, ei ddäoedd, ei holl gyflegrau, arfau, cad-ddarpariadau, pylor, arlwyon mewn biff, cwrw, gwin, caws, ymenyn, blawd ceirch, ac ŷd, gael eu dychwelyd iddo yn ddioed: a bod Syr John yn rhwym o atteb iddo ef am yr hyn a fyddo wedi ei dreulio neu ei gymeryd ymaith: a hefyd, bod i holl drigolion y wlad hon a'r un gymmydogawl, gael eu meddiannau o'r castell yn ddioed, cyn iddynt gael eu treulio a'u lladratta.

7. "Neu ynte, bod i'w fawrhydi, a'i raglaw, y tywysog Rupert, ganiattau a goddef yn raslawn i'r dywededig archesgob, a phobl y wlad, gael dyfod i gyflwyno eu cwynion i'r gymmanfa yn Rhydychain ac i'r pwyllgor yno, yn erbyn y gorthrymderau hyn, a llawer eraill o'r eiddo y dywededig Syr John Owen, dan y rhith o fod yn llywydd y dref hon, i'r hyn ni's medd hawl trwy unrhyw swyddogaeth o'r eiddo."

Ond ni chafodd y gŵyn yma unrhyw effaith; a'r unig atteb a roddid i'r cadben Martin oedd, a hyny ar ol oediad o amryw wythnosau, y byddai iddo gael ei gymeryd i ystyriaeth pan geffid hamdden.

Aeth pymtheng mis drosodd ar ol hyn, heb fod unrhyw iawn nac ymwared yn cael ei wneyd i'r archesgob; pan y deuai y Milwriad Mitton, yn tywys byddin o filwyr y Senedd, o Gaerlleon tua Chonwy; a chan fod ei fyddin yn rhŷ gref i'r rhai oeddynt yn bleidwyr y Brenin allu ei wrthsefyll; penderfynodd yr Archesgob a'r rhai yr oedd eu meddiannau yn y castell, i ddyfod i gyttundeb âg ef; a chan ei hysbysu o'r modd y darfuasai Syr John Owen gymeryd y castell trwy drais, a gomedd iddynt gael eu meddiannau, hwy a gynnygiasant ymuno ag ef i gymeryd meddiant o'r lle, ar yr ammod y byddai i bob un gael yr hyn a berthynai iddo, os y gallai brofi ei hawl yn ol rhestreb yr archesgob, a'r hyn a fyddai yn weddill heb eu hawlio, yr ydoedd i'w gymeryd ganddo ef ei hunan. Wedi cyttuno ar hyn, darfu i fyddin Mitton, yn cael ei chynnorthwyo gan yr Archesgob ei hunan, a'i geraint, yn nghyda boneddwyr Cymreig eraill, dori y pyrth, a chymeryd y dref drwy ruthr-gyrch, ar y 15fed o Awst, 1646, a'r holl Wyddelod a gaed yn y dref, a rwymwyd gefn-gefn, trwy orchymyn Mitton, ac a fwriwyd i'r afon. Mae yn ymddangos i'r Archesgob gael ei archolli yn ei wddf yn yr ysgarmes yma. Ar y degfed o'r mis Tachwedd canlynol, rhoddwyd y castell i fynu, a chyflawnodd Mitton ei addewid yn anrhydeddus, trwy adferu i i bob un, y trysorau a ymddiriedasent i gadwraeth yr Archesgob. Yn y canlyniad i ymddygiad yr Archesgob ar yr achlysur yma, caniattäodd y Senedd faddeuant cyffredinol iddo, yn nghyda rhyddâd oddiwrth bob dedryd o ddi-feddianiad a gyhoeddasid yn ei erbyn.

Y mae rhai Haneswyr o'r un ysbryd a Laud, wedi ceisio gwarthruddo cymeriad ein cydwladwr ar gyfrif ei ymddygiad ar yr achlysur uchod; ond, ni's gallant brofi fod ganddo ef un amcan i gynnorthwyo y Senedd yn erbyn y Brenin; canys y mae holl weithredoedd ei oes yn profi ei ffyddlondeb i'r Brenin, a'i ymlyniad wrth yr Eglwys Sefydledig; er iddo ef gael y cam mwyaf oddiar law y Brenin, ac amryw o urddasolion yr Eglwys, yn enwedig Laud, yr hwn oedd yn ddyledus i WILLIAMS am ei ddyrchafiad i'r faine esgobawl; ond a wnaeth bob peth yn ei allu yn y canlyniad, i flino, a dystrywio ei gymwynaswr. Ond, yn gymaint a bod y tywysog Rupert wedi ymddwyn mor annghyfiawn tu ag atto, a bod y Brenin a'i gefnogwyr, yn awr mewn cyflwr mor anobeithiol; nid oedd ganddo ddim i'w wneyd ar ddynesâd byddin Mitton tua Chonwy, ond gwneyd yr ammodau gorau a allai er sicrhau dychweliad meddiannau ei gymydogion, a ymddiriedasid i'w gadwraeth yn y castell, i'w perchenogion cyfiawn.

Pan y clywodd efe am farwolaeth y Brenin, efe a ymofidiai mor ddwys, fel y dywedir yr arferai efe byth ar ol hyn gyfodi o'i wely ganol nos, ac wedi plygu ar ei liniau noethion, parhai mewn gweddi daer, am o bymtheg i ugain mynyd, cyn dychwelyd i'w orphwysfa yn ol: a'i ysbryd bywiog, yr hwn a ddaliasai yn grŷf dan ei holl brofedigaethau blaenorol, a lwyr lethwyd yn awr; a'i gyfansoddiad a nychodd yn gyflym; ac efe a fu farw yn Ngloddaeth, ar y 25ain o Fawrth, 1650, pan yn cael pen ei wythfed flwydd a thriugain oed. Cludid ei gorph i'r Penrhyn, a chladdwyd ef yn eglwys Llandegai. Y mae ei gymeriad wedi ei ddarlunio yn gryno gan ei Fywgraphydd, yn yr ymadroddion canlynol:—"Mor annghyffredin oedd nerth ei gyfansoddiad, mor fanol a fuasai ei addysgiant, mor ddiflin ydoedd ei ddiwydrwydd, ac mor ddihafal oeddynt ei alluoedd, fel y mae yn anhawdd penderfynu i ba un o'r holl bethau hyn yr oedd efe yn fwyaf dyledus am ei holl ddoniau annghydmarol. Yr oedd ei ddysgeidiaeth yn eang, ei farn yn safadwy, ei amgyffrawd yn glaer a threiddiol, ei ymadrodd yn fywiog ac effeithiol, a'i barabledd yn esmwyth a mawreddawg. Yr oedd ef yn ddarostyngedig i nwydau cyffrous; ond nid i'r fath raddau ag i golli llywodraeth arno ei hun un amser; canys ar y cyfryw amserau, efe a ymresymai gyda phob manylrwydd a phwyll."[1]

Ryw bryd, yn ystod yr adeg hon y bu yr Archesgob yn ei sefyllfa encilliadol yn Nghymru, dros wyth mlynedd olaf ei fywyd, efe a fu yn aros ryw gymaint debygid yn Ty'n-tŵr, yn mhlwyf Llandegai; yr hwn dŷ a elwir hyd yr oes bresenol, *Tŷ John o Iorc*:" ac o'i flaen, mewn lle a elwir "Cae'r-berllan," yr oedd colofn wedi ei chodi; a gwnaed grisiau i esgyn i fynu tu a'i phen uchaf, yr hwn oedd wedi ei naddu a'i gymhwyso i ddal y Beibl; a gelwid y gwaith hwn, yn "*Bwlpud John o Iorc.*" Efallai y byddai efe yn pregethu yma, yn yr awyr agored yn y tymhor haf; ond, ymddengys iddo gyfodi addoldy bychan erbyn tymhor tymhestlog, yr hwn sydd ar ei draed eto, ac a adweinir wrth yr enw "*Capel Cwtta.*"

Yr oedd y Dr. John Williams yn ddyn annghyff-

[1] Gwel ei Fuchdraeth gan Phillips, t. d. 307. Ysgrifenwyd Cofiant helaeth i'r Archesgob, gan yr Esgob Hacket, yr hwn a gyhoeddwyd yn gyf. unplyg yn 1693.

Digitized by Google

redin, ac efallai na chyfododd un dyn galluocach nag ef o fysg ein cenedl ni mewn unrhyw oes; am am hyny yr ydys yn hyderus yr esgusodir ni am roddi hanes mor faith am dano yn y gwaith hwn; a hyderwn y bydd ei ddarllen yn symbyliad cryf i rai o ieuenctyd ein gwlad, i ymegnio yn eu llafur am wybodaeth a dysg, a chwennychu enw dâ, yn fwy nag enaint gwerthfawr.

Y mae gwyddfa ysplenydd i'r Archesgob, yn eglwys Llandegai, yr hwn a gyfodwyd gan ei nai a'i ettifedd Syr Gruffydd Williams; a beddargraph dawnus yn Lladin arno, o gyfansoddiad yr Esgob Hacket, yr hwn a fuasai yn Gaplan i'w arglwyddiaeth.

Ni bu yr Archesgob yn brïod, ac ar ei farwolaeth, aeth ettifeddiaethau teuluaidd y Penrhyn a'r Cochwillan, y rhai a brynasai efe, i'w nai Gruffydd Williams, yr hwn a wnaed yn Farwniad yn y flwyddyn 1661.

Cyfododd rhai gwyr enwog eraill o dref Aberconwy, y rhai yn wir y dylaswn eu dwyn ger bron yn gynt yn yr erthygl yma: yn awr gwnaf grybwylliad byr am Dr. Nicholas Robinson, yr hwn a anwyd yn y dref hon yn agos i ddechreu yr unfed ganrif ar bymtheg. Mab oedd efe i John Robinson, Ysw., o'i wraig Ellin, ferch William Brickdale, Ysw. Yr oedd ei deulu wedi ymsefydlu yn Aberconwy er's amryw genhedlaethau; a hwy a ddaethent i'r dref hon, fel llawer eraill ar y cyntaf, megys trefedigion Seis'nig. Ei dad ydoedd fab i Henry Robinson, mab Robin Norris, mab ieuengaf Syr William Norris, o Speak, yn swydd Gaerhirfryn.

Derbyniodd Nicholas Robinson ei addysg yn *Queen's College*, Caergrawnt, lle ei graddiwyd yn G.C. yn y flwyddyn 1547; ac yn y flwyddyn ganlynol, efe a etholwyd yn Gymmrawd o'r Goleg. Efe a ordeiniwyd yn offeiriad gan yr Esgob William Glyn, yn Mangor, a hyny trwy drwydded oddiwrth Cardinal Pole. Y mae yn ymddangos iddo ef amlygu gogwyddiad at egwyddorion Protestaniaeth yn fuan, a chafodd ei ran o ddyoddef adfyd dros y gwirionedd, dan deyrnasiad y frenines Mari: ond, ar farwolaeth ei mawrhydi, ac esgyniad Elisabeth i'r orsedd, efe a wnaed yn Gaplan teuluaidd i Dr. Parker, archesgob Caergaint. Ar y 5ed o Awst, 1562, efe a ddyrchafwyd i Archddïaconiaeth Meirionydd, yn esgobaeth Bangor; ac ar y 26ain o'r un mis, efe a gafodd fywioliaeth Llaneurgain, yn esgobaeth Llanelwy: ac ar farwolaeth yr esgob Meirig, efe a ddyrchafwyd i esgobaeth Bangor, ac a gyssegrwyd Hydref 20, 1566; ac yn yr un flwyddyn hefyd y cymerth efe ei radd o D.D. Yr oedd efe yn wr dysgedig a diwyd, ac yn llywodraethu ei esgobaeth yn ganmoladwy. Efe a ysgrifenodd amryw lyfrau; ond, nid ydym yn deall eu bod wedi eu cyhoeddi. Yn eu mysg, yr oedd casgliad mawr o ddefnyddiau Hanesyddol, mewn perthynas i eglwys a gwladwriaeth y Brythoniaid a'r Cymry. Yr oedd yr hen Ysgrif-lyfr yma, yn llaw ysgrifen yr esgob ei hunan, yn llyfrgell Hengwrt, hyd yn ddiweddar; a hefyd, Buchedd Gruffydd ab Cynan, brenin Cymru, wedi ei gyfieithu ganddo o'r Cymraeg gwreiddiol, i'r Lladin. Wedi ei fod yn meddiannu gorsedd esgobaeth Bangor am ddeunaw mlynedd, efe a fu farw Chwefror 13, 1584-5, ac a gladdwyd ar y tu dehau i'r allor fawr, yn eglwys gadeiriol Bangor; lle y mae bedd-faen a delwadau cerfiedig arno yn dynodi y fan; ond fe dorwyd ymaith y ddalen brês a'i haddurnai, yn amser y rhyfel cartrefol.

Efe a fu yn briod â Jane, ferch Randle Brereton, Ysw., o Mari, ferch "Syr William Gruffydd, o'r Penrhyn, Marchog, a Siamberlen, Gogledd Cymru." O honi y ganwyd mab i'r esgob, sef William Robinson, o'r Gwersyllt, yn agos i Wrexham, tad y Milwriad John Robinson, cefnogwr dewr a phybyr i'r Brenin a'i achos, yn amser y rhyfel cartrefol; a phan roddwyd Siarl y Cyntaf i farwolaeth, bu raid i'w gefnogwr hwn gilio o'r wlad, yr hyn a wnaeth efe yn gyntaf i Ynys Manaw, ac yna i Ffrainc. Cafodd ei ettifeddiaeth ei dirwyo gan y Werin lywodraeth a'i gwerthu; ond ar yr adferiad, dychwelwyd ei ettifeddiaeth iddo; a thŷ da wedi ei adeiladu arni gan y trawsfeddiannwyr.

Cafodd y Milwriad Robinson ei ethol i gynnrychioli Beaumaris yn y Senedd, yr hyn a wnaeth efe o'r flwyddyn 1661 hyd y flwyddyn 1679: ac yr oedd efe yn Is-lyngesydd Gogledd Cymru. Efe a fu farw yn mis Mawrth, 1680, ac a gladdwyd yn eglwys Gresford. Bu i'r esgob amryw feibion eraill, megys Wmphre, Herbert, Pierse, a'r Dr. Hugh Robinson, pen athraw ysgol Caerwynt. Heblaw hyny, yr oedd ganddo ferch hefyd, o'r enw Margared, yr hon a briododd âg Edward Price, Ysw., o'r Faenor, Swydd Drefaldwyn.

Yn y flwyddyn 1665, darfu i Iarll Conwy, dan y rhith o wasanaethu y Brenin, anrheithio castell Conwy, gan ddwyn yr holl goed, haiarn, a phlwm, ar a allai o hono, gyd a'r bwriad o'u defnyddio mewn adeiladau ar ei ettifeddiaethau ei hun yn y wlad hono; ac felly y gwnaed yr hen adeilad ardderchog yma, yn gyfryw adfail llwm ag ei gwelir yn bresenol. Darfu i amryw o foneddwyr gwladgarol y gymmydogaeth, ymdrechu i roddi attalfa ar y cyfryw anrheithiad digywilydd, ond yn hollol aneffeithiol.

Mae yn debyg mai y dernyn o faen adeilad henaf yn y dref yn bresenol, yw y lle a elwir "y Coleg," yn yr hwn y mae ffenestr hynod, yn wynebu i Heol y Castell. Yn mysg y cerfiadau ydynt islaw y ffenestr, y mae delwad eryr yn disgyn ar blentyn, a phais arfau berthynol i dylwyth urddasol y Stanleys, ac eraill. Bernir fod hwn wedi ei adeiladu yn nheyrnasiad y Frenines Elisabeth; ond nid oes unrhyw weithredoedd a daflant oleuni ar ei hanes ar gael. Fe allai fod yma le i gyfranu addysg i ieuenctyd wedi ei adeiladu yn y llannerch hon mor foreu ag amser Llewelyn ab Iorwerth, mewn cyssylltiad â'r Fynachlog, a darfod i Edward y Cyntaf ail adeiladu y lle fel Coleg, pan symudodd efe y Fonachlog i Maenan, gerllaw Llanrwst.

Yr oedd gynt dŷ tra henafol, yn gymwys ar gyfer ffenestr y Coleg, a elwid "Plas Porter," lle y cyfanneddai prif borthor y dref, neu y castell, efallai. "Y Plas Mawr," a adeiladwyd gan Robert Wynne, mab John Wynne ab Meredydd, o Wydir, ac ewythr i Syr John Wynne, yr Hanesydd. Yr oedd y gwr hwn yn Siryf Swydd Gaerynarfon, yn y flwyddyn 1591, ac efe a fu farw yn y flwyddyn 1598. Mae yn ymddangos ddarfod iddo adeiladu yr annedd hon yn flwyddyn 1585, sef tair blynedd ar ddeg cyn ei farwolaeth. Hen dŷ arall yw yr un ar gyfer addoldy y Trefnyddion Wesleyaidd, lle y ganwyd yr Archesgob Williams; ac y mae yn debyg i'r Archesgob ei helaethu a'i gymhwyso yn drigle iddo ei hun, pan yr enciliodd efe i Gonwy yn ei hen ddyddiau, am yr hyn yr adroddasom yn barod; canys fe welir yn un o'r ystafelloedd, uwchben y lle tân, y llythyrenau

Digitized by Google

"J. Y." am JOHN OF YORK yn ddiau, a'r allweddau yn groesion, yn nghyd a'r amseriad "1642." Yr Hen Blas a adeiladwyd yn amser Iago I.

Bu y dref hon yn hollol Seis'nig am flyneddoedd lawer, gan fod Pennaduriaid Lloegr yn caniattau rhagorfreintiau neillduol i Saeson a ymsefydlent yma, er sicrhau cadwraeth y Cymry danodd; ac felly yr oedd enwau holl hen drigolion y dref o'r bron yn estronol; megys Acley, Acton, Aldersley, Barker, Brown, Byrches, Brickdale, Holland, Hookes, Peake, Peicke, Lee, Maderer, Salisbury, Scherman, Bobinson, Totte, Mellers, &c.; a thrwy y rhagorfreintiau masnachol a fwynhaent, aeth amryw o honynt yn dra goludog, fel y dywaid Syr John Wynne, o Wydir, y byddai trigolion y tair tref gaerog a Seis'nig yma, yn cael eu cyfenwi ychydig dros ddau càn mlynedd yn ol—"Cyfreithwyr Caerynarfon, Masnachwyr Beaumaris, a Boneddigion Conwy." Dros dalm o amser, cynhelid y brawdlysoedd mawrion am Sir Gaerynarfon a Meirionydd, bob yn ail, yn Nghonwy a Chaerynarfon.

Cyn agoryd y brif ffordd trwy Gapel Curig, yr oedd y ffordd o'r Amwythig i Gaergybi, yn myned trwy Gonwy, ac yr oedd hyny yn fantais led werthfawr iddi; ond, pan agorwyd y ffordd hono, aeth teithio trwy Gonwy yn llawer llai am amryw flyneddoedd. Yr oedd yr afon hon yn anhwylus a pheryglus i'w chroesi yn aml; a'r Cychwyr yn ddiarhebol am eu llwon, eu meddwdod, a'u trachwant: a chymerth llawer damwain ofidus le yma; yn enwedig ar ddydd Nadolig, 1806, fel yr oedd y bâd a gludai y llythyr-god Wyddelig yn croesi, dymchwelodd y bâd, a chollodd tri ar ddeg o'r mynedolion eu heinioes; dau yn unig, o bymtheg o ddynion oeddynt yn y bâd, a ddaethant i'r lan yn fyw; ac un o honynt, Mr. Edmund Roberts, o'r Ucheldref, Caergybi, yr hwn oedd wedi ei fagu ger glan y môr, yn nghymmydogaeth yr Aberffraw, ac o ganlyniad yn nofiwr dà, gan ganfod y llythyr-godau yn cael eu cymeryd gyd â'r llif, a wnaeth ymdrech egnïol i'w cyrhaedd, ac a'u dygodd i'r lan yn ddiogel. Efallai i'r amgylchiad yma effeithio i alw sylw y Llywodraeth at yr angenrheidrwydd i wneyd rhywbeth er osgoi y fath drawwyfa beryglus. O'r diwedd cymerodd y Llywodraeth feddiant ar y Borthfa, trwy dalu iawn i'w pherchenog, ettifedd y Marl: ac ar y 3ydd o fis Ebrill, 1822, dodid carreg gyntaf y pentanau at y bont grogedig; ac yr ydoedd wedi ei gorphen erbyn Gorph. 1, 1826. Adeiledid y bont hon ar yr un egwyddor ag a ddefnyddiasid mor lwyddiannus i weithrediad, er cael pont ar Fenai. Ei hyd rhwng y pentanau, yw 326 troedfedd; uchder goruwch llinell pen gorllanw, 18 troedfedd; hyd y mor-glawdd dwyreiniol, 2013 troedfedd, ac uchder y pentanau, 42 troedfedd; trwch ger wyneb y ffordd, 32 troedfedd. Yn y ddau ben, y mae y cadwynau, o ba rai y mae wyth mewn nifer, wedi eu cyfansoddi o luaws o dorchrwyau, ffurfiedig o farau heiyrn, bob un yn 3½ modfedd o lêd, a 1½ mod. o drwch, wedi eu diogelu yn y graig oesol; ac ar yr ochr orllewinol, y maent wedi eu cymeryd haner càn troedfedd oddi tàn y castell. Y dollfa sydd wedi ei wneyd i fynu o ddau dŵr cylchgrwn crŷf, 42 troedfedd o uchder, ac yn cyfatteb yn arddull eu hadeilwaith i'r hen gastell.

Gerllaw i'r grog-bont hardd a grybwyllwyd, bu raid codi pont arall yn mhen ychydig o flyneddoedd, er gwasanaethu i amcanion Rheilffordd Caerlleon a Chaergybi. Dechreuwyd y gwaith ar y 15fed o Fehefin, 1846, ac yr oedd y ddwy geuffordd haiarnaidd wedi eu cyfodi i'w lle, erbyn y 12fed o Hydref, 1848. Hŷd pob un o'r ceubynt haiarnaidd hyn, yw 412 troedfedd, eu llêd 14 troedfedd; uchder, 22½ tr. yn y ddau ben; 25½ tr. yn y canol. Pwysau, 1300 o dunelli.

Er pan y mae y Rheilffordd wedi ei gwneyd i ddyfod trwy Gonwy, y mae y dref wedi bywiogi llawer iawn; lluaws o hen adeiladau gwaelion ac atluniaidd wedi eu tynu ymaith, ac adeiladau newyddion prydferth wedi eu cyfodi yn eu lle; dyeithriaid yn crynhoi yma yn yr haf o bob rhan o'r deyrnas, i fwynhau awelon iachus, a golygfeydd swynol glanau Conwy. Heblaw Eglwys y Plwyf, y mae yma addolfeydd cyfleus yn perthyn i'r Trefnyddion Calfinaidd a Wesleyaidd, a'r Annibynwyr.

Yr oedd tiriogaeth fawr yn perthyn i Gorphoraeth y dref hon unwaith, trwy ddyroddiad y brenin; ond o oes i oes, y mae wedi cael ei leihau yn ddirfawr mewn cydmariaeth i'r hyn ydoedd gynt. Y mae Mynydd y Dref, Y Morfa, Y Morfa-bâch, Y Twt-hill, ac un neu ddwy o Ffermydd, ychydig o erddi, a rhai llannerchau o dir o ddeutu y dref, yn eu meddiant eto; ond, y mae llawer o'r tiroedd dywededig yn osodedig ar brydlesau.

Iddynt hwy hefyd y perthyna Melin Cyffin. Yr oedd ganddynt ddwy felin ar yr afon hon unwaith, ond, y mae y rhai hyny wedi eu dystrywio yn awr. Y felin isaf, a elwid Y Felin Heli, a adeiladasid oddi tan y castell, lle y mae Pont y Sarn yn bresenol; ac yr oedd rhyw gymaint o'r adfeilion yn weledig yn ddiweddar: yr oedd melin frâg yn gydiol â hon. Y Felin-uchaf ydoedd gryn lawer yn uwch i fynu ar yr afon, mewn lle a elwir hyd heddyw Pen y Felin, islaw yr Hendref. Gosodid dau swyddog yn rheolaidd, y rhai a dyngid i gadw cyfrifon y melinau, ac a elwid yn Wardeniaid y Melinau, neu Ystiwardiaid y Melinau. Rhoddid y Melinydd yntau ar ei lw hefyd i weini y ddwy felin fel y gweddai i Felinydd cywir wneuthur; gan falu ŷd pob un yn ei drô, fel ei dyger i fewn, yn ol yr hen ddefod; ac na's byddai yn absenol ar adeg malu; ond y byddai efe yno, neu ryw un drosto ar yr adeg hono, ac yn gofalu am fod y doll yn cael ei chodi ar bob sach a chŵd, a'i roddi i'w gadw yn yr arch yn ddioed; a bod iddo falu yn gywir i bawb, heb dwyll na cham.

Er nad oes unrhyw addurniadau yn perthyn i adeilwaith yr eglwys, y mae yn hen adeilad dra ehang. Y mae hi yn lled afreolaidd yn ei ffurf, ac yn gynnwysedig o gorph yr eglwys, a dwy ystlysfa, yn gynnaliedig gan ddwy rês o golofnau, o ba rai, y mae yr ystlysfa ogleddol yn bedwaredd ran ferach na'r un ddeheuol; ac i'r olaf hon yn unig y mae croes-adail. Ysgerir y gangell oddiwrth gorph yr eglwys gan hen wasgodfa ysplenydd, o goed derw, addurniedig gan gerfiadau cywrain; oddiar yr hon yr oedd llofft yr organ, sydd wedi cael ei symud yn ddiweddar. Hyd yr eglwys, o ben eithaf y gangell, yw 116 troedfedd; a'i lled, yn 58 troedfedd; mae y gangell yn 37 troedfedd o hŷd, wrth 25 *tr.* o lêd. Mae yr areithfa a'r ddarllenfa yn dra hardd, wedi eu gwneyd o bren *mahogany* da. Y bedydd-faen sydd dra oedranus, wedi ei naddu o faen mynor du, a'i gerfio yn dra chywrain, a grisiau yn amgylchynu ei osail. Bu yr eglwys hon gynt yn perthyn i'r Fynachlog, a chafodd amryw o urddasolion ein cenedl eu claddu yma yn nghyfnod ei rhwysg, fel y sylwasom yn

Digitized by Google

barod. Ond, nid yw y coflechau ydynt yn yr eglwys yn bresenol namyn diweddar mewn cydmariaeth. Efallai mai un o'r rhai mwyaf cywrain ydyw yr eiddo Nicholas Hookes, yr hwn a gladdwyd yn y gangell, ag y sydd yn enghraifft o ffrwythlonedd annghyffredin. Fel hyn y mae yr argraff ar y gofle ch:—"Yma y gorwedd gorph Nicholas Hookes o Gonwy, Boneddwr, yr hwn oedd yn 41ain plentyn i'w dad William Hookes, Ysw., o Als ei wraig, a thad i 27ain o blant: yr hwn a fu farw yr 20fed dydd o Fawrth, 1637."—D.S. Cafodd y garreg hon ei hadnewyddu yn y flwyddyn 1720, ar draul John Hookes, Ysw., ac wedi hyny gan Thos. Bradney, a W. Archer, Ysw."

Yn agos i hwn y mae delw wedi ei thorri mewn carreg, er cadw coffadwriaeth am Mary, mam yr Archesgob Williams, yr hon a fu farw ar enedigaeth gefeilliaid, Hyd. 10, 1585. Yn nghongl dde ddwyreiniol y gangell, y mae gwyddfa fwäog, a'r argraff canlynol arno—"Robert Wynne, Yswain, a gladdwyd y 30ain o Dachwedd, O. C. 1598."—"Yma y gorwedd corph Robert Wynne, Rhag-faer Conwy, Ysw., mab i Thomas Wynne; yr hwn a fu farw yr 16eg o Dachwedd, 1664." Ar goflech uwch ben yr allor—"John Wynne, Ysw., a gladdwyd y 19eg o Dachwedd, O. C. 1637." Yr oedd efe yn Siryf swydd Gaerynarfon yn y flwyddyn 1635. Ar fedd-faen o farmor du, yn y gongl ogledd ddwyreiniol, y darllenwn—"Yma y gorwedd gorph John Williams, o'r Brynmor, Ysw., pedwerydd mab Syr Gruffudd Williams o'r Penrhyn, Barwniad, yr hwn a ymadawodd a'r fuchedd hon, y 25ain o Orphenaf, yn y 63ain o'i oedran, a blwyddyn ein Harglwydd, 1706."

Y mae amryw argraphiadau cofiannol hefyd yn y Capel, yr hwn a ffurfia y draws adail ddeheuol: ond ni chymerwn ni amser, na gofod, i groniclo mwy o honynt yma.

Yr oedd gynt bedair o glychau yn y clochdy; ond nid oes namyn yr ail, a'r gloch fawr yn unig yn aros: dystrywiwyd y gyntaf er's llawer o flyneddoedd yn ol, a'r drydedd ar y diwrnod yr oedd y diweddar Syr Thomas Mostyn, Barwniad, yn cyrhaedd ei gyflawn oedran. Mae yr argraff canlynol ar y gloch leiaf, "Gloria in Deo. 1634." Y gloch fawr sydd a sain ragorol iddi: ei hamgylchedd ar ei hymyl allanol, sydd yn ddeuddeg troedfedd; ei huchder yn dair troedfedd: ac arni y mae y geiriau canlynol yn gerfiedig, yn yr hen lythyrenau blewog, "ave fidelis dia werburga santissyma felix in choro virginum." Islaw, yr argraff canlynol, "ora pro novis dominum;" ac o dan hyn "johes burchynshaw abbas cestre." Mae yn debyg fod y gloch hon wedi ei dwyn yma o Fonachlog St. Werburgh yn Nghaerlleon, ar ddadgorphoriad y crefydd-dai Pabaidd.

Gwnaed John Burchenshaw yn Abbad yn y flwyddyn 1493; ac yn mhen tua deuddeng mlynedd ar ol hyny, efe a symudwyd o'i swydd, o herwydd rhyw ymbleidiaeth; ond efe a ail osodwyd yn ei swydd yn y flwyddyn 1530, ac a barhaodd i'w gweini hyd ei farwolaeth, yn y flwyddyn 1535. Cenir y gloch hon trwy offerynoliaeth olwyn, deg troedfedd ar hugain o gylchfesur. Ficeriaeth yw y fywioliaeth, yn rhoddiad tylwyth y Plas Isaf, y rhai a gynnrychiolir yn awr, gan weddw y diweddar Syr David Erskine, Barwn.

Nid yw y plwyf hwn yn fawr: canys fe'i ffinir ar y dehau gan yr afon Cyffin; ar y de orllewin, y mae y ffin yn gadael yr afon rhwng Bryn y Gunog a'r Hendref, a chan groesi Mynydd y Dref, y mae yn cyfeirio i'r mor trwy Safn y Cristion, lle y mae yn ffinio ar blwyf Dwygyfylchi.

Yr oedd amryw ddefodau digrifol yn cael eu cynnal yn y dref hon; un o honynt yn enwedig a gynhelid hyd yr oes hon, dan yr enw "*stocsio*." Ar ddydd Sul y Pasg, arferai minteioedd o fechgyn a dynion, fyned mewn gorymdaith i ben y Twt-hill, a banerau o eithin yn eu dwylaw, i gyhoeddi yno y deddfau a'r rheolau a ddylynid y boreu dranoeth. Ymofynid am y priodfab a gawsai ei briodi ddiweddaf, i gyflawni swydd y cyhoeddwr: yr hwn wedi esgyn i ben pentwr o gerrig, a alwai sylw ei wrandawwyr, y rhai a'i gwrandawent yn astud, wedi dynoethi eu penau ger ei fron; ac efe a gyhoeddai hysbysiadau i'r perwyl a ganlyn: Fod yr holl ddynion islaw triugain mlwydd oed, i ymddangos yn yr heol cyn chwech ar gloch y boreu dranoeth, a phawb dan ddeugain, cyn pedwar; ac na byddai i neb dan ugain oed i fyned i'r gwely o gwbl y noson hono, dan y perygl o gael eu rhoddi yn y cyffion. Wedi cyhoeddi y rhybuddion hyn a'r cyffelyb, rhoddid banllefau mawrion, ac yna, ymwasgarai y gynnulleidfa, yr ieuenctyd i ffurfio eu cynlluniau o ddigrifwch a direidi dros y nos, a'r rhai oeddynt yn berchenogion certwyni, neu unrhyw gerbydau eraill, i'w sicrhau â chadwyni ac â chloion, gan eu bod yn gwybod yn dda y byddai gofyn am danynt dranoeth. Ar awr foreuol dranoeth, cyfleid y cyffion yn mhen isaf yr heol; ac elai mintai yn cael eu blaenori gan chwibanogl a thabwrdd, ac â chertwyn ganddynt i gludo y troseddwyr i le y gosbedigaeth, rhyngddynt a'r tŷ, yn yr hwn y byddai y gwrthddrych priodol yn preswylio; ac wedi cyrhaedd y lle, ymdrechai yr ymosodwyr yn mhob rhyw fodd yn eu gallu, i gael i fewn i'r tŷ; ac yn y cyffredin hwy a lwyddent, naill ai drwy ddringo gydag ysgolion i'r ffenestri, neu trwy wthio drysau y cefn i fewn. Wedi cymeryd y troseddwr i ddalfa, a chaniattau amser iddo i ymwisgo, os yn y gwely ei delid, dodid ef yn y gertwyn, a chyflymid âg ef i'r cyffion, un o honynt a roddai ddarlith iddo ar ysgelerder ei ymddygiad yn coledd segurdod, ac yn tori ar hên ddefod sefydledig. Ac wedi hyny, gan gymeryd gafael yn ei ddeheulaw, gofynai amryw gwestiynau iddo, tebyg i'r rhai canlynol:—Pa un hoffaf ganddo, y feistres neu y llawforwyn? Cwrw, neu laeth enwyn? Pa un a elai efe trwy glwyd os byddai yn agored, i faes, neu dros y gamfa? &c. Os yn ei attebion, y nodai efe yr hyn a fyddai yn amlwg y mwyaf dymunol, yna dwbid ei law yn drwchus â rhyw laid budr, a gollyngid ef yn rhydd, yn nghanol banllefau y lluaws. Dylynid y digrifwch yma hyd oni byddai tu ag wyth yn y boreu; a'r gweddill o'r dydd a dreulid yn gyffredin i chwareu pêl yn y castell. Bu yr unrhyw ddefod yn cael ei harfer ar ddydd Llun y Sulgwyn hefyd, yn yr hen amserau. Ond, y mae y cyfryw ddefodau ynfyd wedi eu llwyr ddifodi o'r dref hon er's llawer o flyneddoedd, a hyny yn benaf oll trwy ymdrechiadau egnïol y Trefnyddion Calfinaidd.

**ABERDAR**;—Plwyf, yn cynwys tref boblogaidd iawn, yn gorwedd mewn dyffryn, ar ochr ogleddol swydd Forganwg, Deheudir Cymru; ac yn cael ei amgylchynu ar y tu deheuol, gan blwyf Llanwynno; ar y tu gorllewinol gan blwyf Ystrad-ddyfodog, ac ar y tu gogleddol, gan blwyf Penderyn, yn swydd Frycheiniog. Y mae hyd y plwyf tua saith milldir

Digitized by Google

a haner, o Nant-y-bwlch, ar yr ochr orllewinol i'r plwyf, hyd Nant-y-ffrwd, lle y mae y ffin rhwng y cwr de-ddwyreiniol o blwyf Aberdâr, a phlwyf Llanwynno; a'i led sydd tua chwe milldir o Bont lluest wen, ar y deau-orllewin, a ffynnon Bryn-y-badell ar y tu dwyrain ogleddol o'r plwyf.

Y mae ffiniau plwyf Aberdâr fel y canlyn:—Y ffrwd, cornant fechan sydd a'i rhediad yn agos o'r dwyrain i'r dehau, oddiar Ben-rhiw'r-Porthmon, ac yn ffinio rhwng Aberdâr a phlwyf Llanwynno, gan ymarllwys i Gynon, ychydig uwchlaw Pont-Mynydd-y-Gerdinen, a elwir *Mountain-Ash*:—eto, yr ochr ddwyreiniol i'r plwyf, dros y gefnffordd, neu gefn y mynydd, o Riw 'r-Porthmon, dros Bant y pwll dwfr, a thros Ben y Ddysgwylfa:—eto yr ochr ddwyreiniol, i Garn Gwersyll y Meibion, a thros y Twyn Melyn, a thros Dwyn y glog, tua deg llath yr ochr ddwyreiniol i Garn Pen tylau hir, dros Waun y Gwair, dros yr ochr ddwyreiniol i Garn y frwydr, a thros yr ochr ddwyreiniol i Garn Gwenllïan Dociar; trwy ffynon Bryn y badell, yr hon sydd a'i dwfr yn rhedeg i'r ddau blwyf, sef Aberdâr a'r Merthyr: yna, â y terfyn yn mlaen dros Fryn y Gwyddel, a thros Fedd y Cawr, hyd Garn y ffwlbert, a thros y Twyn du i'r Maen brych yr hwn sydd yn terfynu rhwng y tri phlwyf, Aberdâr, Merthyr, a Phenderyn, a rhwng y ddwy Sir, Morganwg a Brycheiniog. Yna y mae cornant fechan o'r enw Nant y deryn, yn cymeryd ei thaith agos yn orllewinol oddiwrth y Maen brych, ac yn ymarllwys i Nant y Rhaiadr, ar goed cae Hendre 'r Baili, dros beth yspaid yn ffurfio y ffin rhwng Aberdâr a Phenderyn; yna y mae y ffin yn dilyn y Nant hir, yr hon sydd yn rhedeg yn agos o'r gogledd i'r dehau, tua dwy filldir, ac yn ymarllwys i Gynon, ar gyfer tir y Gamlyn isaf; ond, Nant y llech raiadr, yw yr enw priodol. Y ffin nesaf yw afon Cynnon, yr hon sydd yn ffinio rhwng Aberdâr a Phenderyn, tua milldir a haner, hyd Nant y bwlch, ychydig uwchlaw ffwrneisiau y Meistri Crawshay, ar Hirwaun. Nant y bwlch yw y ffin nesaf, yr hon a wahana rhwng Aberdâr a rhandir y Rhigos, a rhwng Aberdâr a phlwyf Ystrad ddyfodog. Gelwir hon yn Nant y bwlch, am ei bod yn dechreu ei gyrfa dan Fwlch lled y rhiw, yr hwn a elwir yn bresenol Bwlch y lladron; bwlch serth a chul yw hwn, fel mai prin y gellir arwain ceffyl mewn llaw, drwyddo. Y ffin nesaf yw cornant fechan, yr hon sydd yn dechreu ei gyrfa oddiar ben y rhiw yma, ac yn llifeirio yn agos o'r gogledd i'r deau-orllewin, gan ffinio rhwng Aberdâr a phlwyf Ystrad ddyfodog, ac ymarllwys i'r Rhondda fach; y ffin nesaf yw y Rhondda, yr hon sydd yn rhedeg yn agos o'r gorllewin i'r dwyrain, o dan Bont y lluest wen, ac yn ffinio rhwng Aberdâr a phlwyf Ystrad ddyfodog, tua phum milldir, i le a elwir y Ffaldau. Y ffin sydd oddiyma yn gwahanu plwyf Aberdâr oddiwrth blwyf Llanwynno, yw cornant fechan, yr hon sydd yn cyfeirio yn agos o'r dwyrain i'r dehau, o lidiart y Bedw-lwyn i'r Ffaldau; ac yna y mae y ffin yn cymeryd cyfeiryd dros gefn y mynydd, yn agos i'r dehau, rhwng mynydd Blaen llechau a Darwynno, a mynydd Pwllfaen, hyd le a elwir Clydach; ac yna, o Clydach hyd at y Maen tri gwr, yr hwn, meddir, a gafodd yr enw oddiwrth yr amgylchiad o fod tri wyr, oeddynt berchenogion tair ettifeddiaeth a ffinid gan y maen dywededig, yn arfer dyfod unwaith yn y flwyddyn, i eistedd ar y maen, a thra yr eisteddai y tri ar yr un maen, yr oedd traed pob un yn ei ettifeddiaeth ei hunan. Y ffin o'r Maen tri gwr, yw y ffagwyr sydd rhwng Blaen cwm y bwcci ag Aber cwm y bwcci uchaf; ac yna rhwng Craig y Darren lâs, a'r Graig isaf hyd Gynnon, ychydig o latheni o'r tu uchaf i Bont mynydd y gerdinen. Dyma gyffiniau priodol plwyf Aberdâr.

Y mae plwyf Aberdâr wedi ei ddosparthu i bedair rhandir, fel y canlyn:—Y gyntaf, yw Gafael y Pennar, yr hon sydd yn cyrhaedd o Nant y ffrwd i Nant y wenallt, ar yr ochr ddwyreiniol i afon Cynnon. Yr ail, yw Rhandir Llwydcoed, yr hon a gyrhaedda o Nant y wenallt i Nant y rhaiadr, ar yr ochr ogleddol i'r afon Cynnon. Y drydedd yw Rhandir Dâr, yr hon sydd yn cyrhaedd o Nant y bwlch i'r afon Dâr, ar yr ochr orllewinol i'r afon Cynnon. Y bedwaredd yw Rhandir Amman, yr hon sydd yn cyrhaeddyd o'r Dâr i'r Amman, ac i'r Rhondda fach, ar yr ochr ddeheuol i'r plwyf.

Y mae rhai wedi bod yn dadleu mai Aberderw oedd enw y lle yma ar y dechreu; ond, y mae yn dra eglur mai oddiwrth yr afon *Dâr* y mae y lle wedi cael yr enw. Efallai mai enw prïodol yr afon yw *Dyar*, yr hyn sydd yn arwyddo trwst, neu swn mawr, fel yr hyn a achosir gan raiadrau dwfr. Y mae yr afon hon yn tarddu o dan Darren-y-bwllfaen, ac y mae ychydig ddwfr yn rhedeg iddi dros yr ochr orllewinol i'r Darren, lle y mae rhaiadr deg llath o uchder. Y mae rhaiadr arall gerllaw Melin-y-Cwm, a elwir yn bresenol Pwll-y-Gerwyn; ac amryw raiadrau eraill yn ymdywallt iddi. Y mae yr afon Dâr yn cyfeirio o'r rhan dde orllewinol i'r plwyf, i'r rhan dde ddwyreiniol, ac y mae yn afon o rediad chwyrn a thrystiog, yr hyn a fu yn achos i'r hen Gymry ei galw yr afon *Dyar*, neu *Dâr;* a'r gymydogaeth o'i hamgylch yn Rhandir Dâr; a chan fod y Pentref wedi ei adeiladu ar y dechreu efallai, yn agos i'r fan yr ymarllwysa y Dâr i'r Gynnon, galwyd y lle yn ABERDAR.

Y mae Aberdâr yn gorwedd yn y rhan uchaf o Gantref Misgyn, swydd Forganwg, Deheudir Cymru; pum milldir i'r De Or. wrth Or. o'r Merthyr Tydfil, ac 21 milldir i'r Gog. Or. wrth Og. o Gaerdydd.

Y prif amgylchiad a roddes enwogrwydd henafiaethol ar y plwyf hwn, efallai, ydyw ei fod wedi bod yn ddrychfa brwydr waedlyd, yn amser Gwilym Gôch, y Goresgynydd, yr hyn a gymerodd le ar Rôs Hirwaun, tua dwy filldir i'r gogledd o bentref Aberdâr, rhwng byddinoedd Rhŷs ab Tewdwr, tywysog y Deheubarth, â'r eiddo Iestyn ab Gwrgan, yn cael ei gynnorthwyo gan fyddin o anturiaethwyr Normanaidd, dan lywyddiaeth Robert Fitz Hamon.

Yr oedd Rhŷs ab Tewdwr Mawr, yn un o dywysogion enwocaf y Deheubarth, ac yn hanu yn uniongyrchol o âl dywysogaidd Cymru, fel y gwelir yn yr achres ganlynol:—"Rhŷs ab Tewdwr Mawr ab Einion ab Owain ab Hywel Ddâ ab Cadell ab Rhodri Mawr, ab Merfyn Frŷch ab Gwriad ab Elidr ab Sandde ab Alser ab Tegid ab Gwyer ab Dwywg ab Llywarch Hên ab Elidr Lydanwyn ab Meirchion Gûl ab Grwst Ledlwm ab Ceneu ab Coel Codebog." Efe a dreuliodd lawer o flyneddau ei einioes yn Llydaw, lle yr enciliasai am nodded rhag tywysogion Morganwg, y rhai a draws-feddiannasent arglwyddiaeth y Deheubarth. Yn y flwyddyn 1077, efe a ddychwelodd o'i ddëoliad, lle y buasai dros fwy na haner can mlynedd, sef er pan laddesid ei dad, ac fel hyn y crybwyllir ei ddychweliad yn y *Brut:*—

Digitized by Google

"O.C. 1077, daeth Rhys ab Tewdwr o Lydaw, ac a ddodes hawl ar Dywysogaeth Deheubarth megys ettifedd cyfiawn, a llawer iawn o wŷr goreu y wlad a gymmhleidiasant ag efe; canys mawr oedd y gair iddaw am ddoethineb a gwybodau Llywodraeth; ac efe yn ei lawn henaint a'i bwyll a gafawdd ewyllys da goreugwyr y wlad; canys nid oedd a garai Iestyn ab Gwrgan a'i wehelyth, achaws y cerynt ryfel yn well na heddwch, yn amgen nag a wnelynt eu cynneifiaid o'r Welygordd hono, ac yna diogelwyd Rhŷs yn ei Lywodraeth."

Yn y flwyddyn 1080, efe a ffurfiodd gyngrhair â Gruffydd ab Cynan, ettifedd cyfiawn talaith Gwynedd, yr hwn oedd yntau wedi bod ar ddëoliad yn y Werddon am flyneddoedd lawer, tra yr oedd ei ettifeddiaeth wedi ei thrawsfeddiannu gan Trahaearn ab Carawdawg. Yn awr, yr oedd Gruffydd ab Cynan, yr hwn a brïodasai dywysoges o'r Werddon, wedi dyfod drosodd i geisio adfeddiannu ei Dywysogaeth, a chanddo fyddin led gref o Wyddelod a Chymry, a Rhŷs ab Tewdwr a unodd ei luoedd â'r eiddo Gruffydd ab Cynan er gwrthladd y trawsfeddiannwr; ac yn mrwydr waedlyd Carno, hwy a orchfygasant Trahaearn, ac a'i lladdasant, ac felly sicrhawyd gorsedd y Deheubarth i Rhŷs, a gorsedd Gwynedd i Gruffydd, yr ettifeddion cyfiawn. Yn yr un flwyddyn, goresgynodd Rhŷs diriogaethau Iestyn ab Gwrgant, gan ddystrywio cestyll Denis Powys, Llanilltyd, a Dindryfan: ac Iestyn a ad-dalodd iddo trwy anrheithio Ystrad Towy, a Brycheiniog, o'r lle y dychwelodd efe âg yspail fawr ganddo. Yn y flwyddyn 1087, darfu i Cadwgan, Madog, a Rhiryd, meibion Bleddyn ab Cynfyn, gynllunio gwrthryfel yn erbyn Rhŷs, yr hwn, gan ei fod yn anmharod i'w gwrthladd, a orfu ffoi i'r Werddon; ond, efe a ddychwelodd yn fuan i'r Deheubarth, a chanddo lynges grêf, a llawer o'i ddeiliaid a ymgynullasant dan ei luman yn ddïoed, ac yn y frwydr a ddylynodd, yn Llechryd, swydd Aberteifi, lladdwyd Madog a Rhiryd; a Chadwgan a ffodd o'r maes, gan adael Rhŷs yn fuddugoliaethwr trwyadl, yr hwn ar hyny a wobrwyodd ei gynnorthwywyr Gwyddelig yn haelionus, ac a'u gollyngodd i'w cartrefi.

Yn y flwyddyn 1088, darfu i Llywelyn ac Einion, meibion Collwyn, Arglwydd Penfro, gyfodi mewn gwrthryfel yn erbyn Rhŷs, a phendefig dylanwadol arall, o'r enw Gruffydd ab Meredydd, a ymunodd â hwy; ond, fe'u llwyr orchfygwyd gan Rhŷs yn Llandudoch, swydd Benfro; a Gruffydd a gymerwyd yn garcharor, ac a roddwyd i farwolaeth fel bradwr; ond y ddau bendefig ieuainc eraill a ddïangasant. Einion a giliodd at Iestyn ab Gwrgant, yr hwn oedd y pryd hyny dan arfau yn erbyn Rhŷs, ac er ei alluogi i ddwyn y rhyfel yn mlaen yn y modd tebycaf i fod yn llwyddiannus, efe a anfonodd Einion i lŷs breninol Lloegr, i geisio llogi cynnorthwy y Normaniaid. Cyttunodd Robert Fitzhamon, yr hwn oedd yn gâr agos i'r Brenin, Gwilym y Goresgynydd, i ddwyn byddin o filwyr Normanaidd yn gynnorthwy i Iestyn; ac yn y flwyddyn 1089 arweiniodd Iestyn ei wŷr, yn cael ei gynnorthwyo gan Fitzhamon, a deuddeg o farchogion Normanaidd eraill, a'u gwŷr, yn erbyn Rhys ab Tewdwr, yr hwn wedi brwydr galed, a orchfygwyd, ac a laddwyd.[1] Fel hyn y crybwyllir am y frwydr hon yn rhai o'n hen groniclau:—"Einion a fuasai yn wr swydd yn rhyfela gyda brenin Lloegr a'i farchogion, yn Ffrainc, a gwledydd eraill, a chariad mawr rhyngddo â'r brenin a'i farchogion. Ac Iestyn wedi gwybod hyny a addunedwys i Einion ei ferch yn brïod-wraig, os efe a ddygai gyfnerth iddaw o Loegr yn erbyn Rhys ab Tewdwr, a chyda y ferch hono yn gyfoeth, Arglwyddiaeth Meisgyn. Myned i Lundain a orug Einion ac amodi â Rhobert fab Amon, tywysog y Corbwyl yn Ffrainc, a chefnderw y Brenin Coch, i ddyfod yn gyfnerth i Iestyn yn Morganwg. A Rhobert a weithiawdd ar ddeuddeg eraill o Farchogion urddasawl, nes eu henill o'i blaid, yn un ansawdd ag yntau.

"Dyfod a wnaethant i Forganwg ar frys, ac unaw lluoedd âg Iestyn, a myned i wledydd Rhys ab Tewdwr, a lladd a llosgi, cyfled a'r tir a gerddynt.

"A phan glybu Rhŷs hyny, myned yn eu herbyn; a chyfarfod y ddau lu gerllaw Brecheiniawg, yn y lle a elwir Hirwaun Wrgan, a brwydr waedlyd fawr a fu rhyngddynt, lle gorfu ar Rhŷs ffoi. A'i ymlid a wnaeth Iestyn, a'i ddal yn Nglyn Rhodneu, a lladd ei ben: ac enw y lle bu hyny, *Pen Rhŷs*."[2]

Gadawn y darluniad hynafol yna o'r frwydr, a chwanegwn y darluniad canlynol o waith Awdwr diweddar a chyfarwydd â'r lle, o honi:—"Bu brwydr waedlyd rhyngddynt, ar y mynydd, rhwng Merthyr ac Aberdâr, oddeutu y fan a elwir yn bresenol Carn-y-frwydr, oddiwrth yr hyn y cafodd y garn grybwylledig ei henw. Dywedir i Iestyn ab Gwrgant, a Rhys ab Tewdwr ddwyn eu byddinoedd i wersyllu gerllaw y ddwy Neuadd, yr hyn a barodd iddynt gael eu galw yn y canlyniad, Cadlys isaf, a Chadlys uchaf; ac y mae y rhiw sydd oddiwrth y Camwrdy isaf, heibio y Gadlys uchaf, i Hirwaun Wrgant, yn cael ei alw *Rhiw yr ochain*. Y mae hen draddodiad, neu Lên Gwerin yn dywedyd i'r ddwy fyddin gyfarfod â'u gilydd mewn gwaun yn agos i bentref Aberdâr, ac iddynt ladd a chigyddio eu gilydd yn y fath fodd, nes oedd y gwŷr o bob tu yn rhwyfan yn ngwaed eu cyd-ddynion; a gelwir y fan yn Gwaun-y-rhwyfan hyd heddyw; a'r hen drigolion a alwent y Waun gerllaw iddi, yn Faes y gwaed; ond Maes y dref ei gelwir yn bresenol.

Wedi hir ymdrybaeddu, gorfu i fyddin Rhys encilio i'r lan tua haner milldir; lle y trefnasant eu hunain i wneuthur gwrthsafiad adnewyddol; ond daeth byddin Iestyn yn mlaen yn fuan, a buant yn ymladd yno drachefn, nes cochi y llanerch gan waed dynol; fel y gelwir y lle hyd y dydd hwn yn *Dwyn gôch;* a'r Waun gerllaw, a elwir *Y Waun gôch*. Ond, trwy gynnorthwy y Normaniaid, yr oedd byddin Iestyn yn llawer cryfach na byddin Rhŷs; ac am hyny, gorfu i'r hen wron encilio drachefn, tua milldir a haner yn uwch i'r lan, ac yno hwy a godasant faneri gwynion, yn arwydd eu bod yn deisyf cael amodau heddwch: a gelwir y fan hono hyd y dydd hwn, yn *Fryn Gwyn*, neu *Fryn y banieri gwynion:* ond ni chaniattai Iestyn heddwch iddynt, yr hyn a' barodd iddynt encilio o'i flaen tua thair milldir yn uwch i'r lan, i Randir y Rhigos, yr hon sydd yn mhlwyf Ystrad-dyfodog; ac yno bu brwydr waedlyd arall rhyngddynt, ar lan nant, a elwir byth er hyny, *Nant yr ochain*."

Dywaid Caradawg o Lancarfan, fod Rhys yn 81 mlwydd oed, 82 medd eraill, pan yn ymladd y frwydr hon, ac iddo gael ei ymlid gan Iestyn a'i wŷr hyd Gwm Rhondda, lle ei cymerwyd i ddalfa, ac efe a ddihenyddiwyd trwy dori ei ben, mewn lle a elwir

[1] Eminent Welshmen, *in loco Rhys ab Tewdwr*, t. d. 445.

[2] *Hanes Cymru*, gan y Parch. T. Price; t. d. 483.

Digitized by Google

hyd heddyw, er coffa am y weithred ysgeler, PEN RHYS.

Y mae olion amryw hen orsafau milwraidd yn y plwyf hwn a'i amgylchoedd, o'r hyn y mae enwau lleoedd, a rhai olion, yn cadw y coffadwriaeth yn llwydaidd hyd heddyw.—Dyna dyddyn a elwir "*Y Werfa*," yn yr oes hon; ond ei hen enw oedd "Tir y Wersyllfa," yr hwn enw a roed arno, am fod gwersyllfa filwraidd yn yr hen amser, ar y mynydd, oddiar y tyddyn hwn; ac er fod yn debyg fod yma wersyllfa filwraidd yn adeg gynhyrfus y Dywysogaeth, dan y mân dywysogion Cymreig, eto nid yw yn annhebyg fod y traddodiad llëol yn gywir, i fyddin o wyr y Senedd fod yn gwersyllu yma yn nyddiau Olifer Cromwell: a dywedir fod magnelau wedi bod ar Fynydd Craig y Gilfach, ac i brofi y ffaith yma, dywedir i wr gael pelen magnel wrth ddigoedi tir, o fewn tua milldir i'r llanerch ddywededig, o fewn oes yn ol.

Lle arall, a elwir "*Castell y Nôs*," ar lan y Rhondda Fach. Gellir barnu wrth yr olwg arno mai gwaith natur ydoedd; ond y mae yn debyg i ddynion gymeryd mantais ar natur, i'w wneyd yn amddiffynfa ddiogelach fyth, mewn amseroedd cythryblus, ac y mae yma ryw gymaint o olion gwersyllfa filwraidd i'w gweled arno hyd heddyw. Y rheswm am ei alw Castell y *Nôs*, medd rhai, yw am fod y lle yn dra enwog yn yr oesoedd gynt, fel cyrchle teithwyr iddo i lettya y nôs, pan nad oedd nemawr o anneddau dynol i gyrchu iddynt i lettya, yn y gymydogaeth hon; a phan oedd bleiddiau, a bwystfilod rheibus eraill yn lluosog yn y broydd hyn.

Yn agos i Hirwaun Wrgant y mae bryn a elwir "Y Ddysgwylfa ar Graig y Bwlch;" ac ar Gefn y Penor, y mae dau fryn arall, a elwir, y naill "Y Ddysgwylfa Bach," a'r llall, "Y Ddysgwylfa Fawr." Ar y rhai hyn y byddai Gwylwyr milwraidd yn cael eu cyfleu mewn amseroedd terfysglyd, er gwylio ysgoriadau y gelynion; a gellir cymhwyso geiriau y diweddar EBEN FARDD attynt, pan ddarluniai ei hunan yn eistedd ar uchelfan gerllaw Jerusalem, ar adeg ei dinystr:—

"Golygaf, ac âf o'm cell,
Allan, caf weled well-well,
Dila drefn yr holl luoedd draw,
Ba ddynion sy'n byddinaw."

Y mae traddodiad ar gael fod y plwyf hwn yn hynod am ei foch gwylltion ar un adeg; a dywedir fod Ysgottyn o'r enw ROBERT, yn byw ryw amser ar Gefn-y-penor, a bod ganddo gi tra rhagorol, trwy gymhorth yr hwn y darfu iddo ddal pedwar ar hugain o foch, y gauaf cyntaf wedi iddo ddyfod i fyw i'r lle, fel yr oedd wyth hanerog a deugain yn sychu ar unwaith yn ei dŷ; a gelwir y fan lle yr oedd efe yn byw, ar ei enw, "Tyle Robert," hyd heddyw. Y mae yr hen annedd wedi cael ei falurio ar ol ei adeiladydd, gan ddwylaw dinystriol amser; ond, y mae rhai hen bobl yn fyw, sydd yn cofio gweled yr hen fwthyn yn gyfan. Dywedir i'r moch gwylltion yma ladd dŷn wrth y lle a elwir "Tarren y Bwlch;" ac y mae traddodiad yn nodi Banwain y Bwlch, fel y lle y lladdwyd yr olaf o'r moch hyn yn Nghymru.

Mae y plwyf hwn yn dra goludog mewn carneddau, a chistfeini; ond nid oes nemawr ddim yn gyssylltiedig â hwynt er adlewyrchu goleuni ar hanesiaeth yr hen oesoedd. Cafwyd amryw gistfeini yn ystod y ganrif ddiweddaf, ar y mynydd, rhwng y Merthyr âg Aberdâr: un o honynt a gafwyd ar dir Mr. Edward Thomas, Cefn y Penor; un arall ar fynydd Hywel ab Ifor: ond, pwy oedd yr Hywel ab Ifor yma; a pha ham y gelwir y mynydd hwn ar ei enw, ni's meddwn un sicrwydd. Efallai mai rhyw dywysog Cymreig ydoedd, a gwympodd mewn brwydr ar y mynydd hwn, ac a gladdwyd yn y gistfaen grybwylledig. Bu Ifor ab Cedifor, neu Ifor Bâch, pendefig tra rhyfelgar tua diwedd yr unfed ganrif ar ddeg, yn ymladd llawer ag Arglwyddi y Cyffindiroedd yn yr ardaloedd hyn; ac efallai mai ei fab ef oedd yr Hywel hwn.

Cafwyd cistfaen arall o dan garn fawr o geryg ar dir "Blaen nant y wenallt;" ac y mae hwn i'w weled yn bresenol gerllaw tafarndy Blaen y nant. Yn y flwyddyn 1778, cafodd dau ammaethwr o'r enw Morgan Richard, a John Morgan, gistfaen yn "Ngharnborth-maen;" a mawr oedd eu balchder ar y cyntaf, wrth feddwl eu bod wedi taro ar drysor gwerthfawr mewn ystenau pridd; ond erbyn iddynt eu hagor, ni chynnwysent namyn lludw, a mân esgyrn golosgedig rhyw hen Frython.

Y mae amryw garneddau eto, ar y mynydd, rhwng Aberdâr a'r Merthyr, a rhai o honynt o fantioli aruthrol; a'r hyn sydd debygol yw, eu bod yn cynwys cistfeini yr un ffunud a'r rhai a agorwyd. Eu henwau ydynt fel y canlyn:—"Carn gwersyll y meibion,"—"Carn pen tylau hir,"—"Carn Gwenllïan Dociar,"—"Carn y frwydr,"—a "Charn y ffwlbert:" ac y mae carnedd fawr hefyd ar fynydd Dâr, gerllaw Castell y Nos; a lluaws o garneddau eraill ar y mynyddoedd yn y gymydogaeth hon, heb enwau neillduol arnynt, y rhai y mae yn dra thebyg, oeddynt gladdfeydd hen wroniaid a gwympasant mewn brwydrau yma, ar ryw gyfnod tra boreuol.

Y mae chwedl dra dyddorol yn gyssylltiedig â Charn Gwenllïan Dociar, yr hyn a deifl oleu ar yr achlysur o roddi yr enw presenol ar y Garn; ond nid ar ei chyfodiad. Yr oedd dyn yn byw yn Mhant y gerdinen, yn yr ail ganrif ar bymtheg, a adwaenid dan yr enw Howel Gwyn y gôf; a dywedir ei fod yn un o berchenogion tawdd-dŷ y Dyffryn, i'r hwn yr oedd yr hen fardd Edward Evan o'r Ton goch yn orwyr. Yr oedd gan Howel Gwyn, ferch o'r enw Gwenllïan, ac yn amser terfysgoedd y rhyfel cartrefol, pan oedd gwŷr y Senedd yn anrheithio amryw ardaloedd Cymru, cymerth Howel Gwyn ei ferch Gwenllïan, a hi yn enethig fechan, gydag ef yn y nos, i guddio llonaid bottas o aur yn y garnedd hon; a pha beth a ddaeth o Howel Gwyn ar ol hyn ni's gwyddom; y mae yn debyg ei farw cyn bod y terfysgoedd hyn drosodd: ond mewn amser, ei ferch GWENLLIAN a briododd yn y Bont faen, â gwr o'r enw DOCIAR; ac ar ryw achlysur hi a fynegodd i'w gwr, ei bod yn meddu rhyw gof brithlwyd iddi weled ei thad, pan ydoedd hi yn enethig fechan, yn cuddio swm o aur, mewn carn o gerrig ar Fynydd Aberdâr, yr hyn a barodd iddynt ddyfod gyd a'u gilydd i ymofyn am y Garn, ac wedi chwilio peth ynddi, hwy a gawsant y trysor a guddiasid yno gan yr hen Howel, a hyny a barodd i'r lle gael ei alw "Carn Gwenllïan Dociar" hyd y dydd hwn. Dywedir fod Aberdâr wedi cael ei boblogi o flaen y Merthyr, ac fel prawf o hyny, yr oedd dau fasnachdy yn Aberdâr yn y flwyddyn 1750, a byddai y dynion a breswylient yn y Merthyr, yn dyfod dros y myn-

Digitized by Google

ydd i Aberdâr, i brynu bwyd a dillad yn y masnachdai crybwylledig, am nad oedd cyfleusdra i'w cael yn y Merthyr; eto, y mae yn amlwg nad oedd namyn ychydig iawn o dai annedd yn Aberdâr, chwech ugain mlynedd yn ol; ac nid oedd y rhai hyny namyn rhai lled salw. Ychydig dros gan mlynedd sydd er pan adeiladwyd y Dyffryn, anneddle gain H. A. Bruce, Ysw., A.S. yn bresenol; ac enw yr hen annedd blaenorol yno, oedd Aber-penor, ac yno y ganwyd yr hen fardd enwog Ieuan Ddu ab Dafydd ab Owain, yr hwn oedd yn ei flodau tua chanol y bymthegfed ganrif, ac yr oedd efe yn noddwr haelfrydig i'r beirdd; disgynodd yr ettifeddiaeth i'w hiliogaeth, a chyfnewidiodd y cyfenw mewn amser i *Jones*, un o ba rai a'i gwerthodd i William Bruce, Ysw., yn y flwyddyn 1748.

Dywedir fod Dafydd ab Ieuan Ddu, yn fardd lled awenyddol, ac y mae y penill canlynol o'i gyfansoddiad wrth weled tân mewn eithin, ar lafar gwlad hyd heddyw:—

"Goddeith a roir mewn eithin,
Y Gwanwyn cras, drwy'r gwynion crin:
Anodd fydd ei diffoddi,
Ond un dyn a'i henyn hi."

Yr oedd y gwr uchod yn fyw yn y flwyddyn 1553, a dywedir iddo ef brynu yr ettifeddiaeth, yr hon oedd yn gynwysedig o'r Dyffryn, Gelli-ddu-isaf, Aberffrwd, Ton coch, ac Aber-cwm-boy, am y swm o gan punt!

Un arall o'r un gwehelyth, sef John Jones, a anwyd yn y Dyffryn tu a'r flwyddyn 1677, oedd yntau yn un o ffraeth feibion yr awen, yr hyn a welir yn y penill canlynol a gyfansoddai efe i'r wasanaethferch, yr hon a roddasai ei serch ar un J. Jones, o bentref Aberdâr:—

"Mae yma fenyw ffrolig
Ac arni wlan sidan-frig,
Sy gwedi rhoddi ei serch yn gu
Ar Hwrddyn du mynyddig."

Yn y flwyddyn 1791 yr adeiladwyd y palas hardd sydd yn nghanol dyffryn Cynon, sef Aberaman, gan foneddwr o'r enw Anthony Bacon, Ysw. Y lle hwn a fuasai dros ganrifoedd cyn hyny yn eisteddle tylwyth anrhydeddus y Matthewsiaid, o'r hwn dylwyth yr hanai "*Father Matthew,*" a fu mor enwog yn ei gyssylltiad â'r Diwygiad Dirwestol yn Iwerddon. Gwnaed amryw gynnygion at ddefnyddio y mŵn haiarn sydd mor helaeth yn y plwyf hwn, yn foreu, fel y tystiolaetha gweddillion hen dawdd-dai a ganfyddir mewn gwahanol fanau; o ba rai, yr oedd un yn mlaen Cwm Dâr, gerllaw y Bwllfa; un arall ar Gae Liws, yn Llwydcoed; un arall yn Nghwm Cynon, yn agos i'r Dyffryn; un arall mewn lle a elwir yn bresenol Ffwrnes y Garn, gerllaw Bryn defaid; ac un arall yn Nghwm Aman, yr hwn yw yr henaf y mae genym hanes am dano.

Cafodd yr olaf hwn ei adeiladu gan dri brawd o Wyddelod, y rhai oeddynt yn dilyn y gorchwylion canlynol:—un yn saer maen, y llall yn ôf, a'r llall yn droellwr. Yr oedd y ffwrnes yn cael ei chwythu gan ddau ddyn â meginau gofaint: ond nid attebodd y gwaith i'r draul, ac am hyny fe'i rhoed i fynu, a'r saer a'r gof a adawsant y gymydogaeth, i chwilio am waith mewn rhyw le mwy manteisiol i wneyd eu bywioliaeth; a'r trydydd brawd, yr hwn a elwid PETER HUGHES, a ddychwelodd at ei droell, gan ail gydio yn y gorchwyl o durnio, a gwneyd cadeiriau addurnedig, o ba rai y mae amryw yn aros yn mhlwyf Aberdâr hyd y dydd hwn: y mae un gadair o'i waith, yr hon sydd ddernyn tra chywrain, yn nhy Rhŷs H. Rhŷs, Ysw., Llwydcoed, a dywedir mai cadair yr Ynad Jones o'r Dyffryn oedd hon. Y mae amryw o honynt hefyd yn mhlwyf Llanwynno; ac yr oedd un o honynt yn y Maerdŷ, i ba un y canai ei pherchenog, Mr. Evan Llewelyn, fel y canlyn, tu a'r flwyddyn 1830, oddiwrth yr hwn y cawn ni ryw awgrymiad am yr adeg, tua pha un yr adeiladwyd y tawdd-dŷ:—

"Hen gadair lle bu llawer codi—yn ystwyth
'N ol eiste 'i ddifyru;
Wedi ei dirwyn o'r deri,
Dros dri chan mlynedd ryfedd ri."

Felly oddiwrth yr awgrymiad uchod yr ydym yn casglu fod y tawdd-dŷ dan sylw, wedi ei adeiladu tu ar flwyddyn 1520. Y Peter Hughes uchod a dreuliodd weddill ei ddyddiau yn mhlwyf Llanwynno, a'r lle y cyfanneddai, a elwir hyd heddyw, "Lletty y Turnor."

Adeiladwyd tawdd-dŷ ar Hirwaun hefyd yn y flwyddyn 1666, gan foneddwr o'r enw MAYBERY; golosg goed oedd y tanwydd a ddefnyddid ato, a'r ychydig fŵn oedd yn eisiau, a gludid ar gefnau ceffylau; a chwythid ffwrnes y tawdd-dŷ hwn hefyd, gan ddau ddyn â meginau gofaint. Y swm o haiarn a wnelid o hono, oedd UN *dunell* yn yr wythnos. Y lefel gyntaf a agorwyd yn mhlwyf Aberdâr i geffyl fyned i mewn iddi, sydd ar Hirwaun Wrgant, ac at Weithfa Hirwaun: a dechreuwyd ei hagoryd tu a'r flwyddyn 1786; ac fe'i hadweinir hyd y dydd hwn dan yr enw, "Y Lefel Fawr." Ceir y rhan fwyaf o'r mŵn a'r glo sydd yn angenrheiddiol at waith Hirwaun, yn mhlwyf Aberdâr, a'r ceryg calch a geir yn mhlwyf Penderyn.

Y tawdd-dŷ nesaf y cair hanes am dano, yw tawdd-dŷ Ffwrnes y Garn, yr hwn a gafodd ei enw oddiwrth Garn-borth-maen, ac a adeiladwyd yn y flwyddyn 1773 gan foneddwr o'r enw BOWNSER; ond methasant ei thwymno i'r gradd angenrheidiol er gwneuthur haiarn, am fod yr ager-beiriant oedd yn ei chwythu yn rhŷ wan, felly ni attebodd ddyben ei gyfodiad. Y tawdd-dŷ nesaf a adeiladwyd yn Llwydcoed, yn y flwyddyn 1799, ac fe'i gwelir ar waith eto. Adeiladwyd y tawdd-dŷ cyntaf yn Abernant yn y flwyddyn 1800, gan foneddwr o'r enw BIRCH; ond yn lled fuan, bu raid iddo ef ei werthu i FRANCIS TAPITON, Ysw., a chymeryd y swydd o arolygu y gwaith drosto ef; agorwyd *lefel* fechan ar dir Ifan-bach-draws, yn Nghwm Dâr at dawdd-dŷ Abernant, a buwyd yn cludo mŵn ar gefnau ceffylau o'r lefel hon at y tawdd-dŷ. Wedi hyny buwyd yn codi mŵn ar dir yr Ynys Lwyd, mewn lle a elwir yn bresenol "Y Darren," gerllaw pentref Aberdâr, ac yn ei gludo yn yr un dull at y tawdd-dŷ uchod. Yn y flwyddyn 1823, yr adeiladwyd gefeildy Abernant, gan berchenogion gweithiau haiarn Aberdâr; ac yn y flwyddyn 1827 yr adeiladwyd tawdd-dŷ y Gadlys. Yn y flwyddyn 1844 y daeth CRAWSHAY BAILEY, Ysw., o Nant y glô i Aberdâr, a'r un flwyddyn y dechreuwyd agor y pwll glô cyntaf yn Ngwaith Aberamman, ac yn y flwyddyn 1848 yr adeiladwyd y tawdd-dŷ cyntaf yno, yr ail yn 1849, a'r trydydd yn 1850; ac adeiladwyd gefeildy rhagorol yno hefyd; felly bu dyfodiad y boneddwr uchod

Digitized by Google

i'r gymydogaeth o les anrhaethol iddi, gan iddo roddi symbyliad mor fawr i waith a masnach y plwyf, fel y cynnyddodd y boblogaeth mewn wyth mlynedd wedi ei ddyfodiad ef yma, gymaint ag a gynnyddasai mewn pum mlynedd ar hugain cyn hyny: ac er dangos y cynydd dirfawr a gymerasai le yn nghynnyrchiad cyfoeth yn y lle hwn, mewn tymhor byr iawn, ychwanegaf y mynegiad canlynol ar y Gweithfeydd haiarn, a wnaed tua diwedd y flwyddyn 1852—"Y swm o haiarn a wneir yn wythnosol yn Ngweithiau Mr. FOTHERGILL, sef o dri tawdd-dŷ yn Abernant, a thri yn Llwydcoed, yw, o *wyth* i *naw cant* o dunelli; eto, yn ngwaith y Gadlys o ddau dawdd-dŷ, o 95 i 100 o dunelli; ac yn Nghwaith CRAWSHAY BAILEY, Ysw., Aberaman, o dri thawdd-dŷ, 351 o dunelli yn wythnosol."

Mewn Adroddiad arall, cawn yr ystadegaeth ganlynol o gynnydd gweithfäol a thrafnidiol y lle:—

| | Tunell. |
|---|---|
| "Yn y flwyddyn 1815, gwnaed o haiarn yn y plwyf i gyd, | 20,800 |
| Yn 1853, gwnaed yn Ngweithiau Aberdâr yn unig, | 35,202 |
| Gwnaed o haiarn yn yr holl blwŷf, yn 1841, | 25,000 |
| Eto. yn 1852, | 82,000 |
| Anfonwyd o lô allan yn 1841, | 12,000 |
| Eto. 1852, | 500,000 |

A chyn bo hir bydd Gweithfeydd Aberdâr yn anfon allan yn flyneddol y swm mawr o 1,000,000 o dunelli!

Mae glô y Cwm hwn yn cael ei ystyried gyd a'r goreu, ac y mae yn cael ei anfon yn gyson i Benrhyn Gobaith Da, yr India Ddwyreiniol, China, i Ogledd a Deheubarth America, Porthladdoedd Adelaide, a Melbourne, &c."

Y mae y rhandir fwnawl werthfawr hon, yn cynwys rhan o haen-bant fŵnawl Morganwg, a Glo-facs Deheubarth Cymru, ac yn ymledu dros arwynebedd o 16,307 o erwau o dir.

Y gwythieni o lô a cherrig haiarn a ddarganfuwyd, ag a weithir yn y gymydogaeth hon, a adnabyddir wrth yr enw Gwythienau llinellawl, y rhai a gair rhwng y graig a elwir Craig Pennant, â'r Galchgraig Ufulddwyn (*Carboniferous Limestone*), ar yr hon y gorwedda yr haenau hyn, ac eu ffurfir o fewn cyfwng o tua dau can llath o ddyfnder. Y mae y gwelyau o gerrig haiarn yn gynnwysedig yn y gyfres isaf, ac oddeutu 60 modfedd o drwch, at eu gilydd. Y Gwythīenau Glô Agerawl, ydynt yn y canol, ac ydynt at eu gilydd, yn cyfansoddi tuag 36 tr. o drwch.

A chymeryd yn ganiattäol, fod 170, 144 tunnell o gerrig haiarn yn cael eu treulio yn flyneddol yn mhlwyf Aberdâr, gellir dysgwyl iddynt barhau am tua 350 o flyneddoedd.

Yn nechreu yr oes ddiweddaf, nid oedd Aberdâr namyn Pentref bychan di sylw, a thrysorau anrhaethol y dyffryn, a'r mynyddoedd cylchynol yn guddiedig;—y trigolion oll oeddynt ammaethwyr bychain, ond cyfrifol iawn, gan fod amryw o honynt yn preswylio ar eu tiroedd eu hunain, ac eraill yn dal eu tiroedd ar brydles am eu hoes, dan ardrethion hynod o isel: a chan nad oedd yma y pryd hyny namyn ffyrdd culion, carregog, ac anwastad, nid oedd nemawr gertwyn yn y plwyf; ond cludid pob peth trwm ar gefnau anifeiliaid: yn wir felly y cludid llafur, glô, a mŵn haiarn, a chalch, yn nghôf rhai sydd eto yn fyw.

Esgusoda y Darllenydd ymchwilgar ni am gymeryd cymaint o'n gofod i fynu gyd a'r adroddiad uchod, am mai dyma ein cyfle cyntaf yn y Gwaith hwn i roddi darluniad o gynnydd cyflym rhai o ardaloedd poblogaidd y Gweithfeydd haiarn; a gellir cymeryd yr hyn a ddywedwyd am Aberdâr, yn ennghraifft gywir o gynnydd gweithfäol a thrafnidiol trefydd mawrion eraill, Mynwy a Morganwg.

Nid yw yn hawdd rhoddi darluniad cywir o sefyllfa crefydd, ac ansawdd addysg yn y lle, gan mor gyflym y mae pob peth yn myned rhagddo yma.

Y mae traddodiad ddarfod i hen drigolion yr ardal hon geisio adeiladu Llan, neu Eglwys, fel ei gelwir, yn y llanerch lle y saif y Tŷ Draw, ar randir Cefnpennar, a bod yr hyn a adeiladid y dydd yn syrthio y nos; ac y mae tair ywen i'w gweled yn y fan hono yn bresenol; a dywedir yn mhellach, iddynt yn y canlyniad, ei hadeiladu yn nghongl cae a elwir yn awr, Gwaun Glyn Neuadd, o fewn 400 llathen i'r Tŷ Draw, tua milldir i'r dwyrain o'r hen eglwys bresenol; ac yr oedd rhan o weddillion yr hen adeilad hono yn cael ei ddefnyddio yn feudy, tua dechreu y ganrif hon (1800). Y mae yr hen eglwys blwyfol bresenol, wedi ei hadeiladu yn agos i'r man lle y mae yr afon Dâr yn arllwys i'r Gynon. Dywedir iddi gael ei hadeiladu yn amser Harri yr Wythfed; ac fe'i cyflwynwyd i St. Ioan, neu Sant Ieuan, ac am hyny ei gelwid "Eglwys Ifan;" yr oedd ffynnon hefyd wedi ei chyssegru at yr eglwys, a elwid "Ffynon Ifan." Barna rhai mai capel cyssylltiedig â Llanwynno oedd yr eglwys hon ar y dechreu; ond dywedir ei bod yn eglwys sefydlog yn y man ei gwelir heddyw, er's mwy na thri chant o flyneddoedd, ac y mae llwch cenhedlaethau o hen drigolion yr ardal hon, yn gorwedd gerllaw iddi, hyd ddydd brawd.

Gellir casglu nad oedd yr un gloch yn eglwys Aberdâr cyn y flwyddyn 1633; o leiaf, mae yn ymddangos mai dyna y pryd y caed yr un sydd yno yn bresenol; canys dyna yr amseriad sydd wedi ei gerfio arni. Adeilad syml a gwledig neillduol yw hon, ac y mae yn ddiau ei bod yn cyfatteb yn rhagorol i arwedd y gymydogaeth a dullwedd y trigolion, am y canrifoedd cyntaf wedi ei hadeiladu: ond, o fewn yr haner olaf o'r ganrif hon y mae yma amryw eglwysi newyddion heirdd wedi eu cyfodi; un o honynt yn enwedig sydd yn un o'r rhai harddaf yn y Dywysogaeth, wedi ei hadeiladu gan mwyaf o gerryg Caerbaddon, a'i thwr uchel yn ymddyrchafu 189 troedfedd o'i sylfaen, ac yn ddigon helaeth i gynwys *mil* o wrandawwyr; ac yn ddiweddar darfu i'r bendefiges haelfrydig H. Clive, adeiladu eglwys ar ei thraul ei hun yn Heol y Felin, gwerth dwy fil a haner o bunnau, a digon helaeth i gynwys tua phum cant o wrandawwyr; ac yn ddiweddar, cyfodwyd un arall, led fawr, ond diaddurn, yn Hirwaun.

Nid oes genym hanes bod unrhyw blaid ymneillduol yn y dyffryn hwn cyn y flwyddyn 1751, pan y darfu i ychydig o Henaduriaid a arferent gyrchu dros y mynydd i hen dŷ cwrdd Cwm y Glô, yn agos i Ferthyr, adeiladu addoldŷ tua godre Hirwaun, yn agos i Heol y Felin, yr hwn a adweinir bellach dan yr enw—"Hen Dŷ Cwrdd." Meddylir mai y Gweinidog cyntaf a fu yn y lle hwn, oedd y Parch. Owen Rees, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1766. Wedi hyny bu un Edwards yn gweinidogaethu yma; ac ar ei ol ef un Mr. David Evans; ond, ni bu tymhor gweinidogaethol y ddau olaf ond tua chwe mlynedd.

Digitized by Google

Yn ganlynol i hyny, urddwyd yr enwog Edward Ifan, Ton gôch, yn Weinidog y lle, a bu ef yn gweinidogaethu yma am oddeutu pum mlynedd ar hugain. Yr oedd hwn yn dduwinydd galluog, ac yn fardd chwaethol, a dywedir ei fod yn wir gyfrifol a pharchus, ar gyfrif ei ymddygiadau moesol a chrefyddol.

Tu a'r flwyddyn 1799 yr aeth un William Siencyn, siopwr o Aberdâr, i Gyfarfod Misol, i ymofyn am i rai o Weinidogion y Trefnyddion Calfinaidd ddyfod i bregethu i Aberdâr, ac efe a lwyddodd yn ei gais i gael gan dri o honynt addaw dyfod yno i bregethu ar ddydd gwaith—Edward Coslet, a Thomas Edwards Caerphily, oedd dau o honynt; ni chawsom enw y trydydd: yn yr awyr agored, ar y pentref, y cynhelid y cyfarfod pregethu hwn, i'r hwn y daethai rhai Trefnyddion o Ferthyr a Llanwynno. Yn ystod y flwyddyn hon, dechreuwyd cynnal Cyfarfodydd gweddiau yn nhŷ Mr. Wm. Jenkins, y siopwr; a chyn diwedd yr un flwyddyn, cynhelid y Cyfarfod Eglwysig cyntaf, yn Llaethdy Tŷ'r hewl. Pump o grefyddwyr oedd yn gwneyd y gymdeithas i fynu, sef Morgan William o'r Hewl, a Margaret ei wraig; ac Ifan Sion, yn Drefnyddion, a Lewis Lawrence, a Timothy Davies, yn Annibynwyr; ond aethant ar gynnydd yn fuan, a llwyddent i gael ymweliad ambell i bregethwr yn lled fynych, ac yr oedd llwyddiant amlwg yn dilyn eu gweinidogaeth. Ond yn mhen ychydig flyneddoedd, barnodd yr Annibynwyr a'r Trefnyddion mai doethach a fuasai iddynt ymwahanu; ac felly, yn y canlyniad, cynhaliai yr Annibynwyr eu cyfarfodydd yn nhŷ Mr. Timothy Davies, olynydd William Jenkin yn y Siop; a'r Trefnyddion a ymgynnullent yn nhŷ un William Pugh, yn Llwydcoed: ac yn y flwyddyn 1806, adeiladodd y Trefnyddion eu haddoldy cyntaf yn Aberdâr, ar Bentwyn bach. Y pryd hyny yr oedd nifer eu haelodau yn 30ain: ond erbyn hyn y mae ganddynt tua naw o addoldai ehang a chyfleus yn y plwyf hwn, ac y mae eu haelodau yn rhai miloedd mewn rhifedi!

Yr Annibynwyr hefyd a adeiladasant addoldy cyfleus ar Heol y Felin, yr hwn a alwyd "Ebenezer," ac yn mhen ychydig amser, urddwyd Mr. David Jones yn Weinidog i'r eglwys; ond yn mhen tair neu bedair blynedd, gan fod teulu Mr. Jones yn amlhau, ac amgylchiadau yr eglwys yn isel, bu raid iddo ymadael, ac efe a ymsefydlodd yn y Tai hirion: ond, erbyn heddyw, y mae yr eglwys oedd haner can mlynedd yn ol, yn rhŷ dlawd i allu cynnal un Gweinidog, wedi ymganghenu yn naw neu ddeg o gynnulleidfäoedd, yn cynnal tua chynnifer a hyny o Weinidogion yn gysurus; eu haddoldai yn werth amryw filoedd o bunau; a'u haelodau, mae yn debyg, yn rhifo o ddwy i dair mil o eneidiau!—"O'r Arglwydd y daeth hyn, a rhyfedd yw yn ein golwg ni!"

Bu ambell un o'r Bedyddwyr yn pregethu yn achlysurol yn Aberdâr er tu a'r flwyddyn 1795; ond yn y flwyddyn 1810 yr adeiladasant eu tŷ cwrdd cyntaf, dan yr enw "*Salem*," Pen y pound. Ni's meddwn ystadegau manol am yr Enwad yma; ond deallwn fod llwyddiant neillduol wedi bod arnynt yn y plwyf hwn, a bod yn perthyn iddynt saith neu wyth o gynnulleidfäoedd cryfion, a Gweinidogion hynod o dalentawg.

Tu a'r flwyddyn 1821 y dechreuodd ychydig o Drefnyddion Wesleyaidd ymgyfarfod gyntaf wrthynt eu hunain, i gynnal gwasanaeth crefyddol yn y plwyf hwn, a hyny mewn annedd-dŷ yn Abernant, lle y cynhelid y gwasanaeth yn Saesneg, am mai Saeson oeddynt gan mwyaf. Yn y flwyddyn 1824, yr adeiladwyd yr addoldy cyntaf gan y rhan Gymreig o honynt, ar Hirwaun: ac erbyn hyn y mae yn perthyn i'r blaid yma tua chwech neu saith o gynnulleidfäodd.

Heblaw hyny y mae yma luaws o Ysgolion dyddiol o bob math, a Neuadd Ddirwestol dda, yn yr hon y traddodir Darlithiau ar destynau dyddorol, ac addysgiadol; ac y ceir cyfleusdra i weled lluaws o brif Newyddiaduron y deyrnas, &c.

**ABERDARON**, plwyf yn Nghwmmwd Cymmytmaen, yn Lleyn, Swydd Gaerynarfon, Gogledd Cymru. Y mae ei sefyllfa tua 18 milldir i'r Gor. Dde Or. o Bwllheli; ar drwyn eithaf Lleyn, yr hwn a alwai PTOLEMY, "*Promontorium Langanum.*"

Cafodd ei enw presenol oddiwrth yr afon fach DARON, yr hon a ymarllwysa i'r môr yma, ar gyfer Ynys Enlli. Llan y plwyf ydoedd yn gyssegredig i St. Hywyn, neu "HEFIN SANT," yr hwn, meddir, a fu unwaith yn aelod o Gor Illtud, ac wedi hyny, yn esgob yn Enlli. Cyfarfyddwn â'r crybwyllion canlynol am dano yn "Achau Saint Ynys Prydain:" —"Hefin ab Gwyndaf Hên, o Lydaw, Periglawr Cadfan a'i saint, yn Mangor Enlli."[1] A thrachefn, "Hewnin, mab Gwyndaf ab Emyr Llydaw, sant o Gor Illtud; a gwedi hyny Escob yn Enlli."[2] Bernir ddarfod i'r gwr hwn pan ydoedd yn Esgob yn Enlli, adeiladu crefydd-dŷ yn Aberdaron at wasanaeth y pererinion lluosog a gyrchent i "Ynys y Saint," ac mewn amser, fe sefydlwyd y lle yn eglwys golegawl, gan gydio â hi ragorfraint "noddfa," yn y canlyniad i'r hyn yr aeth y myneich a berthynent i'r lle yma, yn dra chyfoethog a rhwysgfawr; fel y cawn enghraifft yn hanes Gruffydd ab Cynan; yr hwn wedi ei waredu o gastell Caerlleon ar Ddyfrdwy, lle y buasai yn garcharor am flyneddoedd, trwy offerynoliaeth Cynrig Hir o Edeyrnion, a gyfeiriodd ei gamrau tuag Aberdaron, lle y cafodd swcwr gan y Canonwyr, y rhai a'i cynnorthwyasant i fyned drosodd i'r Iwerddon a Llychlyn, i gyflogi cynnorthwywyr er adenill ei wlad oddiar y trawsfeddianwyr Normanaidd; ac nid yw yn anhebyg iddynt ei gynnorthwyo âg arian hefyd yn ei gyfyngder hwn.

Yn y flwyddyn 1115, daeth Gruffydd ab Rhŷs, tywysog y Deheubarth, i ymofyn am nodded yn y crefydd-dŷ hwn, gan ei fod yn ofni i'w gâr Gruffydd ab Cynan, at yr hwn y ffoisai am achles o'r Deheudir, gael ei ddenu, neu ei orfodi i'w roddi i fynu i ddwylaw Harri I., brenin Lloegr. Pan ddëallodd Gruffydd ab Cynan fod y tywysog ieuanc wedi ffoi i Aberdaron, efe a anfonodd ei swyddwyr yno, i erchi i'r Canonwyr ei roddi i fynu i ddwylaw y penadur, neu ynte bod iddynt ei gymeryd trwy drais; ond y myneich a amddiffynent eu cyssegrfa mor bybyr, fel na's gallai cenhadon arfog Gruffydd ab Cynan, gyflawni ei eirchion, a'r tywysog ieuanc a'i ganlynwyr, a gymerwyd o hyd nos mewn bâd, i'r Deheubarth, ac wedi glaniaw, hwy a gyfeiriasant tua choedwig fawr Ystrad Towy; o'r lle yr anfonodd efe wŷs i'w geraint a'i gyfeillion i ymgynull dan ei luman, a'i gynnorthwyo i adenill ei dreftadaeth; ac wedi derbyn cyfnerthiad calonog, efe a ymosododd ar y Saeson, y Normaniaid, a'r Fflandrwysiaid, gan eu baeddu mewn amryw frwydrau, ac ni roddes ei

[1] Iolo MSS. t. d. 108. [2] Ib. t. d. 132.

arfau i lawr, hyd oni ddaeth brenin Lloegr yn awyddus i ymheddychu ag ef.

Y mae gweddillion amryw gapelau yn y gymydogaeth hon, megys Capel Odo, Capel Anelog, Capel Bodferyn, Capel Cwm Dylif, a Chapel Mair. Yr amrywal Gapelau hyn a adeiladid yn ddiameu at wasanaeth y lluaws pererinion a gyrchent y ffordd hon, yn yr oesoedd tywyll, i ddiweddu eu heinioes yn Enlli; a'r rhai, ar rai tymhorau o'r flwyddyn a orfyddent aros wythnosau ar y penrhyn yma, yn dysgwyl am hin ffafrawl, i gyflawni y fordaith beryglus i'r ynys.

Cynhelid Maenorlys Enlli yn yr oesoedd gynt mewn tŷ yn mhlwyf Aberdaron, a elwir hyd heddyw "Y Cwrt;" ac y mae, neu yr oedd yn ddiweddar, garchardy yn weledig yno; a'r bryn sydd ar gyfer y tŷ, a elwir "Bryn y Crogbren." Gelwir tŷ arall yn y gymydogaeth yn "*Secar*," yr hyn fel y tybir sydd yn llygriad o'r gair Saesonaeg *Exchequer*.

Ar lan y môr, rhwng creigiau serth, islaw y lle a elwir "Maen Melyn," y mae ogof a elwir "Ogof Mair;" ac yn yr ogof y mae ffynnon gyssegredig i'r Wyryf fendigedig, yr hon a elwir "Ffynnon Fair," ar yr hon y rhoddid mawr fri gan Babyddion ofergoelus y canol oesoedd; a dangosent hefyd dyllau yn y graig, y rhai a alwent yn "Ol traed ceffyl Mair."[1] Y mae gweddillion yr hen grefydd-dŷ a elwir "Eglwys Fair," a'r Maen melyn, rhwng y mynydd a elwir Uwch mynydd, a Mynydd y Gwyddel: ac y mae yma fryn arall, a elwir Mynydd Mochestyn, neu yn hytrach Moch-ystum, efallai; ac islaw y bryn hwnw yn gymwys, y mae craig serth, a elwir "Pared gallt Uffern:" lle enwog gynt am amledd y llwynogod a lochesent yno. Yr oedd Eglwys Fair yn ddeuddeg llath o hyd, wrth bump o led, ac yn gorwedd ar wastadedd isel, lle y dywedir fod peth tir ynddo, yn perthyn i bob boneddwr yn Lleyn.

"*Capel Anelog*," sydd un arall o adfeilion yr hen grefydd-dai yn y gymydogaeth hon; a barnai y diweddar Efan Pritchard o Fryncroes ("Ieuan Lleyn"), mai "anelwog" oedd ei enw, am nad oedd dim gwaddoliad at ei gynhaliaeth, oddieithr ewyllys da yr addolwyr. Darganfuwyd yn yr adfeilion, hen goflechau i rai o'r clerigwyr a gladdesid yno; ar un yr oedd yn gerfiedig, "*Verecius—Prs.—Hic Jacit;*" ac ar un arall, "*Senacüs—Prsr.—Hic Jacit.*" Yn lled agos i'r hen gapel hwn y mae ffynon a elwir "Ffynon y Saint;" o'r hon y mae afon fechan a elwir "Afon Saint," yn codi. Nid nepell oddi yma y mae hen balas a elwir Methlam, lle genedigol HENRY MAURICE, un o'r Gweinidogion Anghydffurfiol, yn amser Siarl yr Ail; ac ychydig islaw iddo, y mae lle a elwir "Porthorion."

"*Capel Odo*," y gelwid hen Lan arall oedd ar lechwedd y bryn a elwir Mynydd Moelfre, neu Mynydd yr Ystum, ond o'r hwn nid oes yn awr ond yr enw ar gael: ond ychydig oddiarno, ar yr un bryn, y mae gwedillion hen amddiffynfa, neu gyssegrfa Dderwyddol, o ddull crwn, tryfesur caer dufewnol yr hon sydd yn haner cant o latheni; a'r ffos rhwng y gaer dufewnol a'r un allanol, yn bymtheg llath o lêd, ac yn ddofn. Y mae amryw gloddiau o fewn y gaer, tebyg i'r hen adfeilion a ganfyddir yn fynych ar ucheldiroedd Gwynedd, dan yr enw "Cyttiau Gwyddelod;" ac yn y canol, y mae clawdd uniawn, pedair llath ar ddeg o hyd, yr hwn a elwir "*Bedd Odo.*" Y mae y Parch E. Davies, yn ei Draethawd ar Gyfriniaeth a Defodau yr hen Dderwyddon, yn dadleu yn gryf fod rhai o'u hen demlau yn cael eu galw "GODO," am eu bod yn ddiffynedig â chaerau, ond heb dô arnynt, fel y byddai y gwasanaeth crefyddol a ddygid yn mlaen ynddynt, "Yn wyneb haul, a llygad y goleuni:" ac y mae efe yn profi fod Sawdwrn, yn cael yr enw, "Porthawr Godo." Ac felly ni's gwyddom yn amgenach, nad edrychid ar y llanerch yma, rai canrifoedd yn ôl, â llawer o ddyddordeb a pharch, fel cyssegrfa arbenig; ac fel y cyfryw, ei bod wedi bod yn gladdfa enwogion y genedl mewn rhyw adeg foreuol; canys y mae esgyrn dynol i'w cael yno yn garneddau.

Y mae ogof gerllaw Aberdaron, a elwir "Ogof Leuddad," er cof am Leuddad fab Alan ab Emyr Llydaw, yr hwn, meddir, oedd yn Sant o Gor Illtyd, tua chanol y chweched ganrif; ac ar farwolaeth Cadfan, efe a benodwyd yn Abbad Enlli, am ba achos ei gelwir yn ESGOB hefyd weithiau. Y mae "Gardd Leuddad" yn ynys Enlli, a "Ffynon Leuddad" yn mhlwyf Bryncroes, heblaw yr ogof hon, yn cadw ei enw i fynu hyd heddyw mewn cyssylltiad â'r cymydogaethau hyn. Ac yn mysg "Chwedlau y Doethion," y mae y dywediad canlynol o'i eiddo ar gadw: —"A glywaist ti chwedl Lleuddad, er athraw, gwr anynad!—*Digared pob digariad.*" Ai tybed nad yw yr hen ddernyn yna yn bwrw ychydig o oleuni ar gymeriad neu dymher Lleuddad, gan awgrymu ei fod ef o dymher anniddig, anhynaws, er ei fod yn athraw crefyddol, ac nid annghyson â hyny yw yr arwyddair a dadogir arno, "Di gared pob di gariad."

Ychydig oddiar bentref Aberdaron y mae taren o dir a elwir Pen y caerau, a thŷ gerllaw, a elwir y Castell; ac y mae traddodiad yn dweyd fod yno dref gynt; ond ni's gwn am unrhyw gofiannau yn tueddu i gadarnhau gwirionedd y cyfryw draddodiad.

Mae yr afon Daron yn dylifo trwy y glyn a elwir Nant Bodwrdda, gerllaw yr hon y mae hen balas godidog a elwir Bodwrdda, yr hwn a adeiladwyd yn y flwyddyn 1621; hyny yw, yr adeilad bresenol; ond y mae yn amlwg fod palas yn Modwrdda cyn yr un presenol; canys mewn rhestr o Uchel Siryddion swydd Gaerynarfon, cawn enw un "John Wynne ab Hugh ab Richard, o Bodwrda," fel un a weiniai y swydd mor foreu a'r flwyddyn 1584; ac yn y flwyddyn 1606, ar yr un restr, y cawn ni enw "Hugh Bodwrda, o Fodwrda;" ac yn 1630, tua naw mlynedd wedi adeiladu y tŷ presenol, canfyddwn ar y rhestr, "John Bodurda, o Fodurda." Gellir meddwl fod y lle wedi cael yr enw ar y dechreu oddiwrth "DURDAN," neu DWRDAN, fel y mae eraill yn ei ysgrifenu, Sant a ddylynai Gadfan i Frydain meddir, ac a dreuliai weddill ei ddyddiau yn mynachlog Enlli.

Ar odreu Mynydd y Rhiw, y mae hen balas mawr a elwir Meillionydd, ar dir yr hwn y mae Cwm Dylif, o'r lle y mae dwfr yn dyfod oddi tan y ddaear, yn ffrwd lifeiriol, o gafn tebyg i wneuthuriad dyn, er nad ydyw namyn gwaith natur: ac ar fryn gerllaw y mae olion yr hen Gapel a elwid "Capel Cwm Dyli." Ar ochr Mynydd y Rhiw, y mae hen adfail a elwir "Castell y Caerau," yr hwn sydd yn hirgrwn, ac yn mesur tua chan llath o hyd, a deugain o lêd; ac o'r naill du iddo, yn gydiol âg ef, y mae

[1] Un o'r defodau ofergoelus, cyssylltiedig a'r llannerch yma, a gadwyd ar gôf a llafar gwlad hyd heddyw, ydyw, y bydd i'r neb a ddygo lonaid ei safn o ddwfr Ffynnon Fair, yn ei enau i ben y bryn ar hyd llwybr troellog a pheryglus, gael cyflawniad o ba ryw ddymuniad bynag a goleddont.

buarth, yn driugain llath o hyd, a deunaw o lêd. Is law i'r Mynydd, tu a'r gogledd, y mae lle a elwir "Tir y Dref," ac arno lawer o hen furiau drylliedig, a elwir "Cwmwd Dindywydd:" ar dir Coch y Moel y mae yr hen adfeilion crybwylledig, ac y mae traddodiad ar lafar gwlad, mai ar dân yr aeth y dref, o achos i'r trigolion omedd rhoddi lletty i ryw hen brydydd, yr hwn heb fod yn meddu ar nemawr o'r grâs a elwir maddeugarwch, a'i melldithiodd fel hyn:—

"Dinas sy fry ar y fron—ag ynddi
Ganoedd o drigolion.
I'r ulw hyll yr elo hon,
A diango dŷ Eingion."

Os bu rhyw ffeithiau o'r natur y cyfeirir attynt yn y traddodiad, yn sail i'r chwedl, yr ydym yn casglu oddiwrth arwedd yr Englyn uchod, ei fod wedi ei gyfansoddi ganoedd o flyneddoedd yn ddiweddarach na'r amgylchiad y cyfeiria atto.

Ar gyfer y llanerch y dywedir fod y dref yn gorwedd, y mae lle a elwir "Y Faerdref," ac yn agos atti y mae lle a elwir "Cromlech," a llannerch gerllaw, a elwir "Hen Fonwent," yn yr hon y cafwyd amryw o gyrph, wedi eu dodi mewn priddlestri, wrth gloddio rai blyneddau yn ôl; yr hyn a gadarnhai y traddodiad, fod yma le poblogaidd, os nad tref, mewn adeg foreuol iawn.

Efallai na byddai yn annymunol gan y rhan amlaf o'n darllenwyr gael ychydig o hanes y Parchedig Henry Maurice, yr hwn a hanai o hen dylwyth Methlam, yn enwedig, gan nad oes dim o'i hanes hyd y gwn i wedi ymddangos o'r blaen yn Gymraeg.

Mr. Henry Maurice ydoedd fab ieuangaf i Mr. Gruffydd Maurice, o Fethlam, ac yn hanu o dylwyth tra chyfrifol yn swydd Gaerynarfon, fel y gwelir oddiwrth yr âch-restr ganlynol, o gasgliad y diweddar Fardd a Hynafiaethydd, Owen Gruffydd o Lanystumdwy.

"Gruffydd ab Morus ab Gruffydd (gwr Mary Wyn o Foduan), ab Ieuan ab Morus ab Gruffydd ab Ieuan ab John Careg, ab Dafydd ab Ifan ab Dafydd ab Trahaiarn Goch, o Leyn, &c.—Gwraig Ieuan ab Morus oedd Blanche, ferch Arthur Williams o Feillionydd. Gwraig Morus Gruffydd ab Ieuan, oedd Margaret, ferch Rowland ab Robert, o Felltyrn. Gwraig Gruffydd ab Ifan, oedd Elizabeth, ferch Gruffydd ab Dafydd Fychan. Gwraig Ieuan, oedd Gwen, ferch Morus Gruffydd ab Ieuan o'r Plas Du."

Cafodd Henry Maurice y manteision addysg goreu a ellid eu cael yn yr oes hono, ac efe a raddiwyd yn anrhydeddus yn mhrif Ysgol Rhydychain: a phan y dechreuodd bregethu yn gyhoeddus, fe'i canmolid yn fawr fel gwr ieuanc talentog neillduol, yr hyn oedd yn ymborth hynod o flasus i'w ysbryd balch ac uchel-geisiol ef. Efe a gydffurfiodd yn y flwyddyn 1662, yn Brompfield, swydd Henffordd: ond yn lled fuan wedi hyny, efe a ddyrchafwyd i fywioliaeth gyfoethog Stretton,[1] lle yr oedd persondy ysplenydd, lle yr arhosodd hyd oni ryngodd bodd i Dduw ymweled a'r dref â chlefyd tra heintus, trwy yr hwn y bu farw lluaws mawr o'r plwyfolion: a bu yr oruchwyliaeth ddifrifol yma o eiddo rhagluniaeth Ddwyfol, yn foddion effeithiol i ddeffroi meddwl y periglor, i ystyried ei sefyllfa, a'i ddwyn i bryderu yn ddwys yn nghylch ei gyflwr tragywyddol, tra yr oedd angeu megys yn hylldremu yn ei wyneb. Yn wyneb hyn dechreuodd deimlo yn dra anesmwyth o herwydd ei gydymffurfiad, fel y daeth i'r penderfyniad i roddi ei fywioliaeth i fynu, er ei fod ar y pryd dan dri chant o bunau o ddyled, yr hon yr aethai iddi yn benaf, trwy chwanegu rhyw adeiladau at y persondy.

Efe a gadwasai ei drallod meddwl yn gyfrinachol iddo ei hunan, hyd ryw ddiwrnod, pan y daeth ei wraig atto i'w efrydfa (*study*), gan ddywedyd ei bod yn penderfynu na symudai oddiwrtho am un mynyd, hyd oni fyddai iddo ei hysbysu o'r achos o'i drallod meddwl. Yna efe a'i hysbysodd na's gallai gael ei feddwl yn dawel i aros yn hwy yn Stretton, fel gweinidog yr Eglwys Sefydledig, a'i fod yn pryderu yn fawr gyda golwg ar ei chynhaliaeth hi a'u plentyn yn y canlyniad. Yna hi a ddymunodd arno weithredu mewn ufudd-dod i lais ei gydwybod, gan ei sierhau y gallai hi ei rhoddi ei hun a'i phlentyn i fynu i ragluniaeth Duw, yn ngofal yr hwn nid oedd yn anymddiried yn y radd leiaf. Yr atteb hwn o eiddo ei wraig, a'i cynhaliodd ac a'i calonogodd ef yn fawr. Yna efe a aeth ac a fynegodd ei drallod meddwl i *Mr. Quarrel*, yr hwn a fwriasid allan o'r Eglwys Sefydledig ei hunan: a hwn a'i cyngorai yn onest i fwrw y draul, cyn ymgymeryd a'r fath sefyllfa o galedi a chyfyngder ag a fyddai yn sier o ddyfod i'w ran, os y rhoddai ei fywioliaeth i fynu. I'r hyn yr attebodd Mr. Maurice, os y byddai iddo gydffurfio yn hwy, na's gallai gael heddwch gan ei gydwybod mewn un modd: ac efe a draddododd ei bregeth ymadawol oddiar Lu. xxiii. 3. Ar hyny, anfonodd Canghellwr yr esgobaeth wŷs-lythyr iddo, gan ei gyhuddo o feio ar lywodraethiad yr eglwys: i'r hyn yr anfonodd yntau atteb, nad amcan y sylwadau a wnaethai efe oedd beio ar neb, nac achlysuro i neb gael ei ddifrio; ond tawelu eri cydwybod wedi ei dihuno. Efe a roddes ei holl feddiannau personol yn llwyr i'w ofynwyr, y rhai a gymerasant y cyfan ymaith; a'r rhai oeddynt yn aros heb gael eu cyflawn dalu, a'i bwriasant ef i garchar yr Amwythig: ond, tra fu efe dan yr amgylchiadau profedigaethus hyn, efe a gynnorthwywyd mewn modd hynod, lawer gwaith, trwy offerynoliaeth dynion hollol anadnabyddus iddo ef. Cafodd gwraig Ceidwad y carchar, yr hwn ar y dechreu a ymddygai yn arw atto, ei hargyhoeddi trwy ei offerynoliaeth ef. O'r diwedd rhai o'i gyfeillion a feichnïasant drosto, i dalu ei ddyledion, ac felly efe a ryddhawyd o garchar; wedi yr hyn yr arhosodd efe dros dalm o amser yn yr Amwythig; ac yna, efe a symudodd i'r Fenni. Yn fuan efe a ddewiswyd yn weinidog i gorph lled luosawg o bobl yn *Llanigon* a'r *Merthyr Cynog*, o fewn ychydig filldiroedd i'r dref hono. Ond, ni chyfyngai efe ei lafur iddynt hwy yn unig; canys mynai ei enaid mawr gael troi mewn cylch llawer ehangach. O'r pryd y daeth efe i'r parthau hyn, cyhyd ag y bu yn alluog, efe a dreuliai ei amser yn teithio dros holl Gymru, fel yr oedd pregethu Crist yn y parthau tywyll hyny, yn orchwyl beunyddiol iddo: a darfu i'w Arglwydd fendithio ei lafur mewn modd neillduol, er argyhoeddiad a dychweliad eneidiau lawer. Teithiai y bobl dlodion ffordd bell i wrandaw y Gair, a byddai torfeydd lluosawg yn gwrandaw arno, â difrifwch annghyffredin. Efe a ddyoddefodd lawer o galedi, gan dramwyo ardaloedd

[1] Mae yn debyg mai Church Stretton, yn Sir y Mwythig, ydoedd.

Digitized by Google

mynyddig Cymru ar bob hin, a chael lletty ac ymborth digon tlawd ac annghysurus yn fynych.

Ei arfer gyson, gartref ac oddi cartref, oedd darllen, ac esponio yr Ysgrythyrau, foreu a hwyr; ac fe fu yr arferiad yma o'i eiddo yn dra bendithiol. Os gwyddai fod rhyw un mewn teulu, neu gynnulleidfa, pe na buasai ond plentyn, heb ddeall yr iaith yn yr hon y byddai efe yn gorfod llafaru er mwyn y lleill oll, efe a arferai, pa un bynag ai wrth weddïo, esponio, neu bregethu, draddodi rhan mewn un iaith, a rhan yn yr iaith arall; "canys," medd efe. "Ni's mynwn i gymaint ag un enaid, golli buddioldeb un ddyledswydd."

Bu ei elynion yn cynllwyn iddo lawer pryd, er ceisio ei ddal; ond efe a guddid yn ngheudod llaw Duw! Chwilid ei dŷ am dano unwaith; lle yr oedd efe newydd fod yn pregethu; ond ni allai ei erlidwyr ganfod drws y ddirgelfa (*closet*), lle yr oedd efe, yn gydiadol â'r ystafell yn yr hon y buasid yn cynal y cyfarfod. Bryd arall, daeth ceisbwl i fewn i'r ystafell lle yr oedd efe yn pregethu, gan erchi iddo dewi: yntau â gwrolder digryn, a edrychodd ar y swyddog, ac a archodd iddo yn enw y Duw mawr, Gair yr hwn yr oedd efe yn ei bregethu, i ochel ei lesteirio ef, fel un i roddi cyfrif yn y dydd mawr. Ar hyny, y swyddog a eisteddodd i lawr yn grynedig, a'i gwrandawodd yn llonydd hyd y diwedd, ac yna a ymadawodd heb gynyg gwneyd niwed iddo. Unwaith y cymerwyd Mr. Maurice i ddalfa, a'r pryd hyny cymerwyd machnïaeth drosto; ac ar ei ymddangosiad o flaen y brawdlys, efe a ryddhawyd trwy ffafr rhyw foneddigion oeddent yn hedd-ynadon, y rhai hefyd oeddynt yn gyfeillion a cheraint iddo ef.

Bu yn gyfyng iawn arno weithiau, tra yn cyfaneddu yn yr Amwythig. Un tro, pan ydoedd yn dra phryderus, wedi iddo fyned ar ei liniau i weddïo gyd a'i deulu, gan gyfaddasu rhyw ddeisyfiadau at eu cyflwr angenog; curid y drws gan un o'r cludwyr (*carriers*), yr hwn a ymofynai am dano ef, ac a gyflwynai ddyrnaid o arian, heb ddweyd y swm iddo, gan ei hysbysu mai anrheg oddiwrth gyfeillion oeddynt; ond ni's dywedai pwy oeddynt ar un cyfrif. Ac ar adeg arall, daeth yr un gwr a chodaid o arian iddo yr un ffunud, pan oedd eu gwir angen arno.

Yr oedd gan ei wraig ettifeddiaeth o ddeugain punt yn y flwyddyn, yr hon y dylasai trwy gyfiawnder ddyfod i feddiant o honi yn fuan ar ol iddynt ymadael o Stretton; ond fe'i cadwyd oddiwrthynt yn annghyfiawn, am ddeng mlynedd. Ond, yr oedd hi yn llafurio yn ddiwyd mewn gorchwylion isel. gyda phob sirioldeb, ac yn ymfoddloni ar y fywioliaeth gynnilaf, heb ofalu am ddim, ond ceisio gwneyd a allai i dalu eu dyledion, er rhyddhau y meichiafon, yr hyn, trwy gydweithrediad rhagluniaeth Duw, a'u cynildeb a'u diwydrwydd hwythau, a gwblhawyd; a chafodd Mr. Maurice yr hyfrydwch o fyw i weled hyny; ond efe a fu farw yn fuan wedi hyny.

Os oedd efe yn ddyn coeg-falch yn moreu ei ddyddiau, yr oedd efe yn hynod yn niwedd ei oes am ei hynawsedd, ei ostyngeiddrwydd, ei ddyoddefgarwch, a'i ymostyngiad i'r Ewyllys Ddwyfol, a'i dosturi at ei elynion a'i erlidwyr; fel mai prin y gellir meddwl i oruchwyliaethau grasol Ysbryd Duw, wneuthur cyfnewidiad mwy trwyadl yn nhymer a nodwedd neb nag a wnaed yma. Yn lle bod gwaradwyddiadau ei elynion yn cynhyrfu nwydau digofus ynddo attynt, ni's gwnaent namyn rhoddi achlysur iddo i dosturio wrthynt, a gweddïo drostynt. Yr oedd ei sirioldeb a'i dawelwch dan ei holl ddyoddefiadau, pa un bynag a'i oddiwrth ddynion, neu yn fwy digyfrwng o law Duw ei hunan, mor nodedig, fel na pharai unrhyw brofedigaeth i gwmwl ymddangos ar sirioldeb ei wyneb-pryd. Meddai lywodraeth ryfeddol arno ei hun; fel, er fod ei dymer naturiol yn fywiog, a chryn gymysgfa o afrywiogrwydd ac annynadrwydd ynddi, yr oedd grâs wedi ei alluogi i'w llywodraethu fel y gweddai i ddyn, i Gristion, a Gweinidog y Gair. Yr oedd efe yn hynaws a charedig i bawb, yn llawn o ymysgaroedd tosturiaethau i'r tlawd a'r adfydus, yn gyfaill cywir a dianwadal, ac yn serchog yn ei holl gylchoedd perthynasol. Yr oedd efe yn deall egwyddorion physygwriaeth yn dda, a gweinyddai i'w gymydogion yn y cymeriad hwnw yn fynych, yr hyn a roddai gyfleusdra yn aml iddo i'w cyfarwyddo at y Meddyg a ddichon yn gwbl iachau; o'r hyn y crybwyllwn un enghraifft. Efe a alwyd at eneth saith mlwydd oed, yr hon oedd yn efrydd, merch i wr bonheddig, yr hwn er nad oedd yn ffafrawl i'r Ymneillduwyr, ni's gallai lai na meddwl yn dda am Mr. Maurice; ac er na fu efe yn llwyddianus i wellau ei haelodau, efe a fu yn fendithiol mewn modd neillduol i'w henill i gofio ei Chreawdwr a'i Phryniawdwr, yn ei hieuenctyd. Byddai Mr. Maurice yn amcanu yn ei holl bregethau i gyfeirio meddyliau ei wrandawwyr at y gwirioneddau sylfaenol am drefn iachawdwriaeth trwy Grist Iesu. Yn y rhan gyntaf o'i bregeth yn gyffredin, eglurai ryw bwnc sylfaenol o athrawiaeth yr efengyl, a dygai bethau ymarferol crefydd dan sylw yn y cymhwysiad: a phan y dyfynai ryw ran o'r Ysgrythyr, ni's gadawai i'r cyfle fyned heibio, heb ei hegluro yn bwyllog, fel y gallasai ei wrandawwyr ei deall, a chanfod pa fodd yr ydoedd yn profi y pwnc dan sylw ar y pryd: ac yr oedd efe yn dra goludog mewn cyfeiriadau tarawiadol, a chydmariaethau cymwys i egluro ei bethau. Yr oedd efe yn fedrus annghyffredin i olrhain meddyliau, a gweithrediadau tufewnol calonau dynion, a'i gymhwysiadau at gydwybodau ei wrandawwyr, oeddynt yn dra miniog yn y cyffredin.

Pan oedd ei gyfeillion, wrth ganfod ei gyfansoddiad egwan yn gwywo oddi tan ei lafur dybryd, yn ei gynghori i'w arbed ei hun, efe a ddywedai wrthynt —"Pan fyddo dyn wedi segura y rhan oreu o'i ddiwrnod, a'r prydnhawn yn nesau arno, y mae yn bryd iddo ddyblu ei ergydion." O'r diwedd llethwyd ei natur, a chyflymwyd terfyn ei ddyddiau gan y fath lafur caled: ond yr oedd ei ymddygiad ar ei wely cystudd yn gyfattebol i'r hyn a fuasai yn ei fywyd:—amlygai deimlad dwys o'r daioni Dwyfol tuag atto ef a'i eiddo.

Pan sylwai ei wraig wrtho unwaith, ei fod wedi cael noswaith flin, efe a attebodd, "Pa beth os cefais? fe gafodd Job lawer o nosweithiau blinion." Wrth weled y bobl yn wylo o'u hamgylch, efe a ddywedai wrthi, "A welwch chwi garedigrwydd yr Arglwydd tuag attom, ddyeithriaid tlodion, fod yn cyfodi cynifer o gyfeillion i ni? Y mae cariad Duw yn Nghrist, yn lloni fy enaid yn ddirfawr! Bendigedig a fyddo Duw, yr hwn a'th wnaeth di a minnau yn gyfranogion o'r un grâs!" Yr oedd efe yn mhell o feddwl yn uchel am ei deilyngdod ei hunan, ac er hyny efe a ymlawenychai yn nhystiolaeth ei gydwybod. "Nid oes genyf fi ddim i ymddiried ynddo

Digitized by Google

o ran fy ngwaith a'm llafur," eb efe, "ac eto, myfi a gâf lawenydd o hyny hefyd."

Efe a fu farw yn mis Gorphenaf, 1682, pan oedd tua deugain mlwydd oed.

Cymeriad hynod arall yn dwyn perthynas âg Aberdaron, ydyw RICHARD ROBERT JONES, neu, fel ei gelwir yn gyffredin, "DIC ABERDARON." Ganwyd ef o rieni tlawd, yn y plwyf hwn, tu a'r flwyddyn 1780; ac er nad oedd yn ymddangos ei fod yn feddiannol ar synwyr cyffredin mewn llawer o bethau, amlygai athrylith gref i ddysgu ieithoedd o'i ieuenctyd; a chyrhaeddodd hynodrwydd nid bychan yn hyny, er pob anfanteision.

Nid yw pentref ABERDARON ond bychan; a'r rhan fwyaf o'r preswylwyr ydynt bysgodwyr; ac yn gymaint a bod y pentref mewn sefylla mor annghysbell, a'r diffyg o ffyrdd da yn y parth hwnw o'r wlad, ychydig iawn o ymdrafod a fydd rhwng y trigolion â phobl ardaloedd eraill, oddieithr y cyrcha llawer iawn oddi yma i farchnadoedd Pwllheli yn yr haf, o'r lle eu cyflenwir â llawer o'u hangenrheidiau; ac y mae cryn dramwyad rhwng y lle a Liverpool, ar hyd y môr, lle yr hwylia llestri o'r parth yma yn wythnosol, gyda moch, dof-ednod, ac wyau, gan ddwyn glô yn ol, at wasanaeth yr ardaloedd cymydogol.

Ficeriaeth yw y fywioliaeth eglwysig yma, a churadiaeth wastadol Llanfaelrhys yn gydiedig a hi, yn archddiaconiaeth, ac esgobaeth Bangor, yn gyfrifedig yn llyfrau y brenin yn 3*p.* 9*s.* 4½*c.*, ac wedi ei gwaddoli a 200 punt, mewn dyroddion personol, a 200 punt o ged-rodd breninol; ac y mae noddogaeth y plwyf yn perthyn i Esgob Bangor: y mae periglor-iaeth ddiswydd yn perthyn i'r plwyf, ac yn noddogaeth Llywydd a Chymrawdwyr Coleg St. Ioan, Caergrawnt; y rhai yn gyffredin a'i rhoddant i Gymrawd o'r Coleg hwnw. Ymddengys fod yr eglwys hon yn adeilad dra ysplenydd unwaith, yn yr hen arddull o adeilwaith Seis'nig, ac y mae, neu, o leiaf, yr oedd yn ddiweddar, ryw ychydig weddillion o gadeiriau yr hen ganonwyr yn weledig yn y gangell: ond, gan fod yr holl blwyfolion o'r bron wedi cefnu ar yr Eglwys Sefydledig, ac ymlynu wrth Ymneillduaeth Protestanaidd er's ugeiniau o flynyddoedd bellach, gollyngwyd yr hen adeilad i fyned i gyflwr tra adfeiliedig. O'r diwedd, tu a'r flwyddyn 1840, darfu i rai o'r tir-feddiannwyr eglwysyddol, gan gasglu mai un rheswm, os nad y penaf, o annghyfannedd-dra trwyadl eglwys y plwyf, oedd ei bod gymmaint ar y naill gwr i'r plwyf, gyfodi adeilad yn ei lle, yn agos i ganol y plwyf, a hyny ar fwy na thair gwaith y draul a fuasai yn adgyweirio yr hen eglwys yn dda; gan adael yr hen lan i fyned yn garnedd adfeiliedig, a goddef i'r môr dynu magwyr y gladdfa i lawr, ac hyd yn nod olchi y cyrph o'r beddau. Ond, yn mhen rhai blyneddoedd, darfu i Olygydd dysgedig yr ARCHÆOLOGIA CAMBRENSIS, alw sylw at gyflwr adfeiliedig yr hen eglwys; a dangos mor dra diffygiol o chwaeth yn ei chynlluniad ydoedd yr eglwys newydd, fel y dihunodd amryw o garedigion yr eglwys, i ymdrechu yn egniol er cael adgyweiriad teilwng ar yr hen gyssegrfa.

Cynhelid ysgol ddyddiol er addysgu plant tlodion yr ardal, yn mhentref Aberdaron, bob pedwaredd flwyddyn, ar gylch gyda Llanfaelrhys, Bryn-croes, a'r Rhiw; a thelid cyflog yr athraw o ardreth tyddyn yn Mryncroes.[1] Darfu i'r Dr. HENRY ROWLANDS, Esgob Bangor, yr hwn y mae ei goffadwriaeth mor barchus, ar gyfrif ei haelfrydedd canmoladwy, sefydlu Elusendy yn ninas Bangor, yn y flwyddyn 1616, i chwech o hen lanciau, dau o ba rai ydynt i fod o blwyf Aberdaron.

Mewn tŷ yn y plwyf hwn, y cynhelid cyrtiau maenor Ynys Enlli yn yr hen amser, ac y mae y tŷ yn dwyn yr enw *Cwrt* hyd heddyw, a gelwir bryn cyfagos iddo yn "Fryn y Crogbren," ar yr hwn, debygid, y rhoddid drwg weithredwyr i farwolaeth.

Y mae amryw addoldai yn y plwyf hwn gan y Trefnyddion Calfinaidd, ac heblaw hyny y mae yma addoldai perthynol i'r Annibynwyr, y Bedyddwyr, a'r Trefnyddion Wesleyaidd. Yn y flwyddyn 1847, pan fu Dirprwywyr Addysg yn ymweled â Chymru, cawn yn eu Hadroddiad fod 350 yn perthyn i'r Ysgol Sabbathawl yn y Plwyf hwn; ond, nid oedd prin y *degwm* yn perthyn i Ysgol Sabbathawl yr Eglwys Sefydledig!

**ABER-DAU-GLEDDYF.** Bwrdeisdref, tref farchnad, a phorthladd, yn mhlwyf STEYNTON, Cantref y RHOS, Swydd BENFRO, DEHEUBARTH CYMRU; *chwe* milldir i'r gogledd-orllewin o Benfro; *wyth* i'r de dde-orllewin o Hwlffordd; a 256 m. i'r gorllewin o Lundain.

Cafodd y lle ei enw Cymreig oddiwrth y ffaith o fod dwy afon o'r enw Cleddau yn cyfarfod yma, ac yn ffurfio yr angorfa ysplenydd hon: gelwir yr afonydd hyn weithiau, "Y Cleddau fawr," a'r "Cleddau fach;" bryd arall, "Y Cleddy Ddwyreiniol," a'r "Cleddy Orllewinol." Ei henw Seis'nig, "MILFORD," a gafodd, meddir, oddiwrth ffrwd ddwfr a droai felin berthynol i'r Priordy, yr hon oedd o fewn tua milldir i'r dref bresenol, ac i groesi yr hon yr oedd rhŷd cyn adeiladu y bont yn y lle hwn: am hyny y gelwid y lle *Milford*, sef RHYD-Y-FELIN. Mae y cyfyngfor a ffurfir gan gydiad y ddwy afon hyn, tua deng milldir o hyd; ac y mae ynddo bum morgilfach, deg o ebyr, a thair-ar-ddeg o angorfeydd. Y cyfan yn gweini y lle mwyaf manteisiol i'r llongau mwyaf i angori, a chael cysgod dâ ar bob rhyw wyntoedd; a chan nerth a dyfnder y teidau, gellir myned allan i'r môr o'r porthladd hwn ar unrhyw wyntoedd, yn gyflymach nag o'r un porthladd mawr arall yn y deyrnas. Mae ei hŷd mordwyol, i fynu y brif aber, a'r Cleddy Orllewinol, hyd Hwlffordd, yn un filldir ar hugain: neu o'i enau, gan fyned i fynu ar hyd y porthladd, a'r Cleddy Ddwyreiniol, hyd bont Canaston, tuag ugain milldir. Dywedai un swyddog o'r llynges, a fu yma yn preswylio unwaith, fod y lle hwn yn gymhwys i dderbyn ar unwaith, fil o longau y gâdres, mil o longau haner cân gwn, mil o frigads, mil o gad-longau un hwyliar, a mil o drosglwydd-longau, heb y perygl lleiaf eu bod yn ffordd eu gilydd; ac y gellid dwyn cant o longau y gâdres, i ymosod ar unwaith ar unrhyw nifer o longau a gynnygient ddyfod i fewn i'r porthladd.

O'r porthladd enwog hwn yr hwyliodd Harri yr Ail gyd a'r fyddin a gynnullasai efe i oresgyn yr Iwerddon; ac yma y glaniodd efe drachefn ar ei ddychweliad o'r cad-gyrchiad hwnw. Yn nheyrnasiad Harri y Pedwerydd, glaniodd byddin o ddeuddeng mil o wyr, a anfonasid o Ffrainc, er cynnorthwyo Owain Glyndyfrdwy yn ei wrthryfel yn erbyn y pennadur dywededig, yn y porthladd hwn; ac oddiyma aeth rhagddi i warchae ar Hwlffordd yn gyntaf,

[1] Y mae dwy ysgol yn bresenol, y naill yn Mryncroes a'r llall yn Aberdaron; a'r Waddol uchod yn rhanedig rhyngddynt.

Digitized by Google

ag yna, ar Gaerfyrddin. Yn y porthladd hwn hefyd y glaniodd Iarll Richmond, yn cael ei osgorddio gan ryw gorfflu bychan iawn o Ffrancod, heb eu harfogi yn ddâ, na'u dysgyblu yn deilwng, i ymgymeryd âg antur mor fawr ag y daethai efe drosodd o'i herwydd; a cherllaw i'r fan hon ei cyfarfuwyd gan Rhŷs ab Thomas â byddin luosawg o wyr wedi eu dysgyblu yn barod i ryfel, a dywedir i'r olwg ar y rhai hyn galonogi cymaint ar yr Iarll, fel yr aeth rhagddo yn ddioed ar ei anturiaeth beryglus. Dywedir am Syr Rhŷs ab Thomas ei fod wedi sicrhau y brenin Rhisiart cyn hyn, os byddai i neb rhyw un gelynol i'w fawrhydi a'r llywodraeth, feiddio glanio ar y gororau hyny lle yr oedd efe yn dal swydd dan y brenin, y byddai raid i'r cyfryw benderfynu gwneyd ei ffordd dros ei gorph ef; gan hyny, er cadw at lythyren ei ymrwymiad, efe a aeth dan bont fechan, tra yr elai yr Iarll drosti.

Can gynted ag y glaniodd Iarll Richmond, ac efe wedi cael ei galonogi mor fawr trwy garedigrwydd Syr Rhŷs ab Thomas, efe a anfonodd genadwri at eraill o'i gefnogwyr yn ngwahanol barthau y wlad, i erchi arnynt ddyfod i'w gyfarfod ef yn yr Amwythig, a chymmaint o allu milwraidd ganddynt ar a allent ei gyfodi. Yna, efe a drefnodd ei fyddin fechan yn ddwy fintai, un o ba rai a lywyddai ei hunan, gan ei chymeryd drwy Geredigion; a'r llall a roddai efe dan lywyddiaeth Syr Rhŷs ab Thomas, i'w harwain drwy Sir Gaerfyrddin, ac i gasglu cynnifer o Gymry at ei luman ar a allai, wrth fyned rhagddo; ac i ymuno â'r Iarll gerllaw yr Amwythig.

Yn nheyrnasiad y Frenines Elisabeth, pan fygythid y wlad hon â'r goresgyniad Hispaenaidd, anfonwyd peiriannydd o'r enw Ivy, i gyfarchwylio y llong-borth hwn, ac i wneuthur adroddiad i'r Llywodraeth o'r hyn ydoedd yn angenrheidiol i'w wneuthur er ei amddiffyn rhag y gelyn; ond ei ymddygiadau a barai y fath anfoddlonrwydd i drigolion y parth yma o'r arfordir, fel y tynwyd i fynu gofeb rymus, yr hon a law-nodwyd gan Esgob Tŷ Ddewi, a phrif fonedd a hedd-ynadon y wlad, ac a gyflwynwyd i'r aelodau blaenaf o'r Cyfrin-Gynghor. Yn y gofeb yma, hwy a ddangosent mor dra phwysig ydoedd i'w Mawrhydi a'r deyrnas, fod llong-borth Aber-dau-gleddyf, wedi cael ei ddiffynu yn gyfaddas ac effeithiol, a dymunent am i ryw beiriannydd profiadol, gael ei anfon i lawr i'r perwyl hyny. Mewn canlyniad i'r ymliwiad yn y gofeb grybwylledig, neu i adroddiad Mr. Ivy am y moddion angenrheidiol er amddiffyn a dyogelu y lle, anfonwyd archwysau allan i adeiladu dwy amddiffynfa, yn agos i safn y llong-borth, y rhai y dechreuwyd eu hadeiladu mewn sefyllfäoedd tra annghyfaddas; ond, ni chwblhawyd mo honynt byth; ac y mae eu hadfeilion yn weledig eto, dan yr enwau, Dale, a Nangle. Ar doriad allan y rhyfel âg America, penderfynodd y Llywodraeth ffurfio llong-orsaf yn Nayland, ar lan ogleddol y porthladd, ac ychydig i'r dwyrain o'r dref bresenol; a phrynwyd tir yn-y gymmydogaeth er adeiladu caerfeydd a magnelfeydd i'w hamddiffyn: ond, wedi adeiladu dwy long yno; a phan oedd un o'r amddiffynfeydd wedi ei hadeiladu mewn rhan, rhoddwyd yr amcan i fynu, wedi treulio arno yn agos i ugain mil o bunau. Y diweddar lyngesydd Arglwydd Nelson, yr hwn wedi brwydr y Nile, a ymwelodd a'r lle yn nghwmni y diweddar Syr William Hamilton, ei berchenog y pryd hyny, a gyfrifai long-borth Aber-dau-gleddyf, y porthladd ehangaf a gorau yn y byd adnabyddus, ac yn alluog i fod yn nawfle ddïogel i holl lynges Brydain Fawr. Pan oedd y brenin Sior y Pedwerydd yn dychwelyd o Ddulyn, yn y flwyddyn 1821, goddiweddwyd y gad-lynges freninol gan dymhestl-wynt yn agos i ben tir Lloegr, fel y bu raid iddi droi i fewn ddwy waith i'r llong-borth yma; a'r ail waith, glaniodd ei Fawrhydi yn Aber-dau-gleddyf, ac yn y diwedd, efe a aeth oddiyno i Lundain, ar hyd y tir. Er cof am yr amgylchiad yma, rhoddwyd cof-lech, tua chwe throedfedd o uchder, wedi ei haddurno â cherfluniau cywrain, ar dalcen adeilad gyhoeddus, yn agos i borth-dwyn Aber-dau-gleddyf, gan yr Anrh. Robert Fulke Greville, ar yr hon y cofnodid amgylchiadau y dygwyddiad hwnw mewn arysgrifen faith.

Nid yw y dref bresenol namyn o ddechreuad tra diweddar; ac y mae yn ddyledus am ei chyfodiad a'i phwysigrwydd i'r Anrh. Mr. Greville, nai y diweddar Syr William Hamilton, yr hwn a ddaeth yn etifedd y lle, ar farwolaeth ei ewythr. Y boneddwr hwn, tra yr oedd Syr William eto yn fyw, gan ragweled y manteision a allasent ddeillio oddiwrth sefyllfa y lle, a geisiodd ddeddf Seneddol, yn y flwyddyn 1790, er galluogi Syr William Hamilton a'i ettifeddion, i wneuthur llong-orsafau, ffurfio glanfeydd, sefydlu marchnadoedd, yn nghyda ffyrdd a mynedfeydd i'r porthladd, trefnu hedd-lywiaeth, a gwneuthur y lle hwn yn orsaf, er cludo y llythyrgodau i Waterford, y rhai o'r blaen a orfyddent aros yn Hwlffordd, wyth milldir o'r lle eu dodid ar fyrddau y llongau. I'r trefniad yma y mae yn rhaid priodoli dechreuad y dref, yr hon y penderfynwyd ei hadeiladu ar gyfer yr angorfa oreu yn y parth hwnw o'r llong-borth, a elwid Angorfa y Cadlongau. Yr adeilad gyntaf a gyfodwyd ar y llannerch hon, oedd gwest-dy mawr a chyfleus, at wasanaeth teithwyr, ac yn fuan iawn, adeiledid tref yma, yr hon a drodd allan yn un dra llwyddiannus. Yr ymsefydlwyr cyntaf yn y dref newydd, oeddynt deuluoedd o Ynys Nantucket, ar arfordir Gogledd America, o ba rai, y cyntaf oedd deulu yn dwyn y cyfenw Starbuck, ac wedi hyny, deulu o'r enw Rotch, y rhai a ddaethant ar wahoddiad y Llywodraeth, i sefydlu pysgodfa morfilod y Deheu-for yn y lle; ond rhoddwyd hyny i fynu drachefn, wedi ei ddwyn yn mlaen yn llwyddiannus dros rai blyneddoedd. Gwnaeth cynnydd prysur y boblogaeth, beri fod yn angenrheidiol sefydlu marchnad yma yn fuan, i gynnal pa un yr adeiladwyd Tŷ marchnad dâ; a chynnydd trafnidiaeth yn y lle, a achlysurodd i gyllid-dy gael ei adeiladu yma yn y flwyddyn 1823.

Ychwanegwyd llawer at lwyddiant a phwysigrwydd y lle hwn, trwy ddwyn cynllun Arglwydd Spencer i weithrediad, gan sefydlu llong-orsaf frenhinol yn y porthladd hwn, yr hyn a gymerodd le tua dechreu y ganrif bresenol, pan adeiladwyd ffreigad o ddeugain gwn yma, a llong un hwylbren, yn cario deg ar hugain o ynau, y rhai a droisant allan y llongau gorau o'u gwahanol ddosparthiadau yn y llynges. Yn y flwyddyn 1809, gwthiwyd y gad-long "Milford" i'r môr yma, yr hon a ddygai 74 o ynau. Yn y flwyddyn 1813, cyflwynwyd deiseb i Dŷ y Cyffredin yn gofyn caniattad ac awdurdodiad, i adeiladu pont ar draws un o'r môr-gilfachau o'r llong-borth i bentref Haking, i gael ei adeiladu yn y fath fodd, fel ag i wneyd y fôr-gilfach yn llong-

Digitized by Google

orsaf nofiol, o dri ugain crw o fesuriad. Dan yr amgylchiadau manteisiol hyn, yr oedd golwg dra gobeithiol y buasai y dref yn cynnyddu yn fuan i bwysigrwydd mawr; ond, fe roddwyd attalfa ar ei chynnydd pellach, trwy symmud y llong-orsaf frenhinol, a'r ystordy arfau, i Pater-church, neu Pembroke Dock, yr hyn a gymerodd le yn y flwyddyn 1814.

Y mae tref Aber-dau-gleddyf, neu MILFORD (Rhyd-y-felin), yn gorwedd mewn sefyllfa brydferth, bump neu chwe milldir oddiwrth enau y llong-borth, ar esgair o dir yn gogwyddo i waered tu ar dwfr, â'r hwn ei cylchynir yn agos. Y mae y dref yn cael ei hystyried yn hynod o iachus; a'r golygfeydd o'i hamgylch yr amrywiol, a thra swynol. Am y llong-borth yma, gellir dweyd ei fod yr ehangaf a'r dyogelaf yn y Deyrnas Gyfunol, os nad yn yr holl fyd. Fe'i ffurfir trwy gydiad yr afonydd a elwir y Cleddyf Gorllewinol, a'r Cleddyf Dwyreiniol, o safnau y rhai yr ymestyna yn agos i ddeng milldir o hyd, tra y mae o filldir i ddwy o led; ac y mae iddo bum machwy (*bays*), deg cilfach, a thair-ar-ddeg o angorfeydd (*roadsteads*), oll yn meddu angor-draethau dâ, a chysgod dïogel i longau o'r maintioli mwyaf, y rhai ar gyfrif cryfder a dyfnder y morlifau, a allant fyned allan i'r môr ar unrhyw wyntoedd, gyda mwy o gyflymder nag o unrhyw borthladd arall ar arfordir Prydain.

Y mae trafnidiaeth a phwysigrwydd presenol y dref yn cyfodi oddiar y ffaith fod y lle yn gyrchfa cynnifer o longau, a hyny yn benaf ar gyfrif cyfleusdra y llong-borth i longau droi i fewn am loches oddiwrth dymhestloedd. Yr alwedigaeth benaf yma yw saernïaeth llongau; ac y mae amryw longau yn cael eu hadeiladu, ac eraill yn cael eu hadgyweirio yma yn barhaus. Y mae yma addoldai perthynol i'r Eglwys Sefydledig, y Bedyddwyr, yr Annibynwyr, y Crynwyr, a'r Trefnyddion, Calfinaidd a Wesleyaidd.

**ABERDYFI.** Porthladd bychan, ac ymdrochle, yn mhlwyf y TOWYN, Cantref *Ystum Maenor*, swydd FEIRIONYDD, GOGLEDD CYMRU; bedair milldir i'r de dde-ddwyrain o DOWYN MEIRIONYDD.

Mae y dref fechan hon mewn sefyllfa ddymunol, ar yr ochr ogleddol i safn yr afon Dyfi, yr hon sydd yn ymarllwys i'r môr yma, oddiwrth yr hyn y mae y dref yn cael ei henw. Y mae y brif ffordd, o Fachynlleth i'r Towyn, yn myned trwyddi; ac felly hefyd y mae Rheil-ffordd Glanau Cymru; ac y mae y dref wedi dyfod i gryn sylw yn y blynyddoedd diweddaf hyn, fel ymdrochle cyfleus, a chyrchfa lluaws yma o ganol y wlad, yn yr haf, i gael mwynhau awel y môr, ac ymdrochi yn y dwfr hallt; yr hyn sydd wedi peri i amryw o dai dâ gael eu hadeiladu yma yn y blynyddoedd diweddar, er gweini llettyau cysurus iddynt. Mynychir y porthladd hwn gan lawer o lestri bychain, yn y rhai y cludir glô, cerrig calch, priddfeini, a choed, yn gystal a nwyddau cyffredin y siopwyr; a'r rhai a lwythir ar eu dychweliad â phlwm, llechi, rhisgl derw, a choed crynion at wasanaeth gweithydd glo, &c. Mae yr afon yn fordwyol can belled a'r Dderwen-lâs, ac fe'i croesid mewn bâd, yn agos i'r dref hon, i swydd Aberteifi, cyn gwneuthur y Rheil-ffordd newydd. Yn y flwyddyn 1827 yr agorwyd y brif-ffordd o Pennal i'r Towyn, trwy y dref hon, y ffordd grybwylledig a wnaed ar hyd glan ogleddol y Dyfi, ac wrth ei theithio, mwynheir y golygfeydd mwyaf swynol; y mae y rhan fwyaf o'r ffordd, o Pennal i'r dref hon, wedi ei thorri trwy y graig, ac oddiamgylch iddi, y mae y llechweddau wedi eu haddurno â choed amrywiol, yr hyn sydd yn gwneyd yr olygfa fyth yn fwy hyfryd i'r llygad. Pan oeddid yn gwneyd y ffordd hon, cafwyd llestr, yn yr hwn yr oedd nifer fawr o hen fatholion Seis'nig; a chaed addurn-gawg, ar ddull y rhai Tuscanaidd, yr hwn a allasai gynnwys swm tua dau chwart; y llestr cywrain yma a gaed ar y traeth, ar gyfer y dref, yn y flwyddyn 1824. Yr oedd wedi ei wneyd o glai crasedig, a'i addurno âg amwisg o gregyn morawl.

Brodor o'r lle hwn oedd "Ieuan Dyfi," bardd enwog, yr hwn oedd yn ei flodau yn agos i ddiwedd y bymthegfed ganrif; ac y mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael mewn hen ysgrif-lyfrau.

Bernir fod y rhandir a elwid "Cantref y Gwaelod," am yr hwn y dywaid traddodiad ei orlifo gan y môr, yn gorwedd rhwng y lle hwn a Harlech; a dywedir am dani, ei bod yn rhandir nodedig o ffrwythlawn a phrydferth: a dywedir yn mhellach, y cynnwysai un-ar-bymtheg o ddinasoedd, a threfi amddiffynedig, dan arglwyddiaeth tywysog o'r enw Gwyddno Goron Hir. Y gorlifiad crybwylledig a gymerth le oddeutu y flwyddyn O.C. 500.

Y mae tua phedair milldir rhwng y dref hon âg Eglwys y plwyf; gan hyny fe adeiladwyd Eglwys gynnorthwyol yn y plwyf trwy danysgrifiadau ewyllyswyr dâ, er's blyneddau yn ol: ac y mae yma addoldai heirdd a chyfleus hefyd i'r Trefnyddion Wesleyaidd a Chalfinaidd.

Heblaw hyny y mae yma gynnulleidfa fechan o'r bobl a ymgyfenwant yn "Frodyr Cristionogol;" ond, a adnabyddir yn well dan yr enw "*Plymouth Brethren*," wedi ei chrynhoi yn benaf trwy lafur Dr. Pughe, Hedd-ynad, boneddwr tra dysgedig a llafurus.

Cynhelir Cyfarfodydd Ustusiaid y Cantref, bob yn ail mis, yn y lle hwn, ac yn Mhennal.

**ABEREDWY,** plwyf yn Nghantref COLWYN, swydd FAESYFED, DEHEUDIR CYMRU; 4½ milldir i'r de ddwyrain o FUALLT. Y mae y lle hwn yn cael ei enw oddiwrth yr afon EDWY, yr hon wedi llifeirio trwy y plwyf, sydd yn ymarllwys i'r afon WY, yr hon yn y fan hon yw y ffin rhwng swyddi Maesyfed a Brycheiniog. Nid yw yr EDWY namyn ffrwd fechan, enwog am ei brithyll a'i llyswenod. Mae arwyneb y plwyf yn greigiog ac anwastad, a'r olygfa yn ddymunol a phrydferth; yr olygfa a geir o'r fynwent sydd yn enwedig yn hardd a swynol. Y fywioliaeth Eglwysig sydd Rectoriaeth, yn Archddïaconiaeth Brycheiniog, ac Esgobaeth Tŷ Ddewi; ac y mae y noddogaeth yn perthyn i Esgob Tŷ Ddewi. Mae yr Eglwys yn gyssegredig i Sant Cewydd fab Caw, yr hwn oedd yn ei flodau tua dechreu y chweched ganrif, a thrwy lafur yr hwn, debygid, y ffurfid cynnulleidfäoedd Cristionogol rheolaidd gyntaf yn Aberedwy, a'r Disserth, yn swydd Faesyfed, ac yn Llan Gewydd, gerllaw Pen-y-bont, yn swydd Forganwg. Ar un ystlys i'r fynwent y mae diphwys serth, gyda godreu yr hwn y llifeiria yr Edwy; ac oddiyma hi a ddolena trwy nant neu gwm cyfyng, rhwng creigiau ysgythrog, y rhai a ymddyrchafant hyd dri chan llath o uchder mewn manau: weithiau gwelir craig ddanneddawg, yn crogi dros ei throed, ac fel pe y byddai yn bygwth treiglo ar y teithydd; yna y mae megys magwyr syth o graig, tua chan troedfedd o uchder, a'i

Digitized by Google

hwyneb wedi ei orchuddio â mwsogl ac âg eiddew; yn llethrau yr hon y nytha adar ysglyfaethus. Yn nghanol y creigiau hyn y mae math o ogof a elwir "Ogof Llewelyn," lle y dywedir yr arferai yr hen dywysog dewr-wych, Llewelyn ab Gruffydd, lechu yn achlysurol, tra yr ymdrechai yn ganmoladwy i amddiffyn rhyddid ac annibyniaeth ei genedl, yn erbyn byddinoedd cryfion Iorwerth y Cyntaf. Yr oedd gan Llewelyn gastell ychydig i'r gogledd orllewin o'r fynwent, yn mlaen y cwm prydferth yma, ac y mae rhanau o'i adfeilion yn weledig eto ar lan yr afon Wy. Yn ystod ei ryfel ddiffynol yn erbyn y penadur Seis'nig, Llewelyn a wysiai ei gefnogwyr i'w gyfarfod mewn cynnadledd gyfrinachol yn y castell hwn; ond, y mae yr adroddiadau a feddwn am ganlyniad andwyol yr ysgogiad yma, yn gwahaniaethu cryn lawer. Mr. Theophilus Jones, hanesydd swydd Frycheiniog, a ddywaid, i Lewelyn ddyfod i Aberedwy gyda byddin fechan o arfogion, ar y neges a nodwyd uchod; ond ddarfod i rai o drigolion y gymmydogaeth roddi hysbysiad o hyny i flaenoriaid y fyddin elynol, yr hon oedd yn y cyffiniau, sef yn swydd Henffordd; ac ar hyny Edmund Mortimer, a John Giffard, a ddygasant eu byddinoedd tu a'r lle ar frys, ac a'i hamgylchynasant yn ddisymwth â chryfder llawer mwy nag a feddai y tywysog Cymreig i'w gwrthsefyll. Yn wyneb yr ymosodiad annysgwyliadwy yma, ffoai Llewelyn a'i fyddin fechan tua Buallt; a chan fod y ddaear yn orchuddiedig gan eira ar y pryd, efe a barodd droi pedolau ei farch, y tu ol yn mlaen, er cam-arwain ei erlynwyr: ond, fe ddywaid traddodiad, ddarfod i'r gôf a wnelsai y gorchwyl, hysbysu yr ystryw hon eto i'r gelyn. Wedi i Lewelyn gyrhaeddyd y Bont ar Wy, efe a roddes orchymyn i'w dystrywio yn y fan, cyn i'w erlynwyr gyrhaeddyd yno; y Saeson, wedi cyfarfod a'r attalfa yma, a ddychwelasant at y rhŷd, oedd wyth milldir yn is ar yr afon, yr hwn oedd yn hysbys i rai o honynt; ac yno yr aethant trwy yr afon. Yn y cyfamser, yr oedd Llewelyn wedi cyrhaeddyd hyd Fuallt, lle yr oedd yn dysgwyl y cawsai ryw gymaint o adgyfnerthiad i'w fyddin fechan, o'r gwarchod-lu oedd yno; ond gomeddwyd ei gais; yna, efe a aeth rhagddo tu a'r gorllewin, ar hyd Glyn Irfon, ar y tu deheuol i'r afon, dros oddeutu tair milldir; ac efe a groesodd yr afon, ychydig o'r tu uchaf i eglwys Llanynys, dros bont a elwid Pont y Coed, ac a gyflëodd ychydig filwyr a'i dylynasent, mewn sefyllfa gyfleus ar ochr ogleddol yr afon hono, er cadw meddiant o'r bont. Pan ddaeth y Saeson i fynu, hwy a geisiasant ei hennill; ond, wedi methu yn yr amcan hwnw, hwy a ganfuant rŷd heb fod yn mhell, lle y croesodd rhan o'u byddin yn ddirgelaidd, gan ddyfod ar y Cymry, o'u hôl, yn annysgwyliadwy, a'u gyru i ffoi, a'r Tywysog ei hunan a laddwyd mewn lle a elwir hyd heddyw "Cwm Llewelyn," o fewn ychydig gannoedd o latheni o'r fan lle yr ymladdesid y frwydr flaenorol, gan un o'r milwyr Seis'nig, o'r enw Adam de Ffrancton, yr hwn a drywanodd ei bicell drwyddo, yn ddiarwybod o urddas y gwr a wânai, ac a frysiodd rhagddo i ymuno a'i fintai, yn yr erlyniad ar ol eu gelynion ffoëdig. Yn mhen ychydig, pan ddychwelodd Ffrancton yn ôl, i ymofyn am yspail ar y lladdedigion efallai; efe a ddeallodd ei fod ef mewn gwirionedd, wedi lladd y Tywysog Cymreig yn ei anwybodaeth, pen yr hwn a dorrodd efe ymaith, i'w anfon i Frenin Lloegr, yr hwn ar y pryd oedd yn aros yn Nghastell Rhuddlan, neu Fynachlog Aber Conwy. Llusgid y corph gwaedlyd i fan lle y mae y ffordd i Fuallt yn fforchi mewn dau gyfeiryd; y naill yn arwain i Lanafan-fawr, a'r llall i Langammarch; ac yno ei claddwyd, mewn lle a elwir hyd heddyw, "Cefn Bedd Llewelyn." Dywedir fod trigolion Aberedwy, mewn canlyniad i'w hymddygiad gwarthus uchod at y gwron Cymreig, wedi cael yr enw dirmygus gan Lewelyn ei hunan, o "Fradwyr Aberedwy;" ac y mae yr enw yn glynu ar eu hiliogaeth hyd heddyw.

ABERERCH; plwyf, mewn rhan yn Nghantref Dinllaen, ac mewn rhan yn Nghantref Eifionydd, swydd Gaerynarfon, Gogledd Cymru; milldir a hanner i'r dwyrain ogledd ddwyrain o Bwllheli, ar y ffordd i Griccieth, neu Grugarth. Mae y plwyf bychan yma yn gorwedd mewn sefyllfa deg, ar lan y môr, yn agos i safn, neu aber yr afon Erch. Yr eglwys, yr hon sydd gyssegredig i Sant Cawrdaf, sydd yn hen adeilad fawr, yn arddull adeilad-waith Seis'nig diweddar. Y mae yma addolfeydd cysurus hefyd gan y Trefnyddion Calfinaidd a Wesleyaidd, a'r Annibynwyr. Darfu i'r Parch. Mr. Conwy, Ficer diweddar y plwyf, adael tyddyn bychan, o werth tua chwe phunt yn y flwyddyn, at wasanaeth tlodion y plwyf, a'r arian hyny, yn nghyd ag ychydig ddyroddion elusenawl ereill, a renir rhyngddynt yn flyneddol, ar ddydd gwyl Domos. Yn Adroddiad Dirprwywyr Addysg, yr hwn a wnaed yn y flwyddyn 1847, cawn fod yn perthyn i Ysgol Sabbathawl yr Eglwys, yn y plwyf hwn, 25 o feibion dan 15 oed,—20 o ferched; 10 o feibion uwchlaw 15 oed, a 5 o ferched, yn gwneyd yn y cyfan driugain ar eu llyfrau. Yn addolfa y Bedyddwyr, yr hwn a elwir "Tyddyn Sion," yr oedd o feibion, dan 15eg oed, 30; o ferched, 30; ac uwchlaw 15 oed, o feibion, 20; ac o ferched, 20; felly, yr oedd y nifer ar y llyfrau, yn *gant* o ysgolorion. Yn addoldy yr Annibynwyr, yr hwn a elwir *Ebenezer*, yr oedd, o feibion, dan bymtheg oed, 9; o ferched, 12; o feibion uwchaw 15 oed, 18; o ferched, 27; yn arfer cyfarfod yno yn y cyffredin, 55; ar y llyfrau, 66. Mae pedwar addoldy yn y plwyf hwn yn perthyn i'r Trefnyddion Calfinaidd;—sef, y Capel Isaf, yn y pentref; *Four Crosses*, Yr Ysgoldy, a Llwyn Dyrus. Y cyfrifon o'r Capel Isaf oedd, athrawon, 11; athrawes, 1; meibion dan 15 oed, 12; merched, 8; meibion dros 15 oed, 23; merched, 17. Yn arfer bod yn yr Ysgol, 60; yn bresenol pan ymwelai y Dirprwywyr â hi, 50; o ba rai, nid oedd namyn 6 mewn Ysgol Ddyddiol.—*Four Crosses* 15 athraw; 9 athrawes; dan 15 oed, o feibion, 35; o ferched, 42. Dros 15 oed, o feibion, 50; o ferched, 48. Yn bresenol yn yr Ysgol, pan ymwelai y Prwywyr a hi,—o feibion, 85; o ferched, 90: yn y cyfan, 175, o ba rai yr oedd 15 dan addysg ddyddiol.—*Llwyn Dyrus*, 14 o athrawon; 2 athrawes. Ysgolorion dan 15 oed, o feibion, 26; o ferched, 27: dros 15 oed, o feibion, 28; o ferched, 20. Yr oedd yn bresenol ar ymweliad y Prwywyr â'r Ysgol, 68 o feibion, a 49 o ferched; yn y cyfan, 117.—*Ysgoldy Pen Cae Newydd*, 12 o athrawon. Ysgolorion, dan 15 oed, o feibion, 12; o ferched, 20; uwchlaw 15 oed, o feibion, 18; o ferched, 6. Y nifer ar lyfrau yr Ysgol, 32 o feibion; a 24 o ferched: yn y cyfan, 56. Felly, perthynai i'r Ysgolion Sabbathawl yn y plwyf hwn, yn y flwyddyn 1847, 634.

ABERFFRAW; plwyf, a thref, mewn rhan yn Nghantref Menai; ond, gan mwyaf yn Nghantref

Digitized by Google

Malltraeth, swydd Fon, Gogledd Cymru: 13 mill. i'r de-ddwyr. wrth dde. o Gaergybi. Mae yn gorwedd ar aber yr afon fechan "ffraw," oddiwrth yr hyn y cymer ei henw. Hynodwyd y lle hwn er yn foreu, fel prif drigle hen dywysogion Gwynedd: ac mewn hen ysgrif-lyfr, a elwid "Llyfr Coch Asaph," yr ydys yn cael y darluniad canlynol o honi:—"Aberffraw a elwir felly, o'r afon sy'n ei hymyl, lle rhoedd gynt lŷs enwog i Ddwysog Gwynedd, a'r afon hono a elwir Ffraw," &c. Mae yr Eglwys yma yn gyssegredig i goffadwriaeth Beuni ab Hugi ab Gwynlliw, seilydd mynachlog Clynog Fawr yn Arfon; a'r hwn hefyd a seiliodd Glynog Fechan, yn Môn, tu a'r flwyddyn 616.

Dywaid rhai Awduron, bod gan Caswallon Law Hir, lŷs yma; ond, os ydoedd ganddo ryw fath o lŷs ar yr ochr hon i'r Ynys, ymddengys mai ar yr ochr arall i'r Ynys, ar lethr y bryn a adwaenir er's llawer o oesoedd bellach, dan yr enw "Mynydd Eilian," yr ydoedd ei brif drigias; lle yr oedd hen furddyn helaeth, o fewn côf yr Awdwr, yn myned dan yr enw "Llŷs Caswallon:" ac am yr hen dywysog uchod, dywedai un o'r gogynfeirdd, mewn Cywydd a wnaeth efe i Elian Sant, hoff weinidog, neu Gapelydd Caswallon—

"Eilian wnaeth i rai wylo,
O lid am ei fuwch a'i lô:
Fe wnaeth yn ddall Gaswallon,
Arglwydd mawr, ar *Ogledd Mon.*"

Yr oedd Caswallon yn teyrnasu yn Môn, o'r flwyddyn 440, i'r flwyddyn 515: ond os bu iddo ef a'i feibion, drigias i ryw berwyl, a thros ryw yspaid o'i deyrnasiad, yn y lle hwn, mae yn amlwg na sefydlwyd prif lŷs tywysogion Gwynedd yn yr Aberffraw, hyd oddeutu y flwyddyn 870, pan y sefydlodd Rhodri Fawr ei brif lŷs barn yma, ar ol iddo gael y fuddugoliaeth hygof ar Burchred, brenin y Mersiaid. Fel hyn y cawn grybwylliadau am dano yn y Brut:—

"843, Rhodri Mawr ab Merfyn Frŷch a ddechreuwys wladychu ar y Cymry, a gorfod amddifadu ar Bryttaniaid ag oeddynt yn byw yn Lloegr, a myned yn un â'r Saeson a wnaethant hwy: a rhyfel mynych a mawr a fu rhwng Rhodri a Berthwryd brenin y Mers, yr hwn Ferthwryd a fynwys gynnorthwy gan Ithelwlff ei frawd, ac a ddaeth â llu dirfawr i Fôn, gan ddiffeithiaw gwlad y ffordd y cerddynt, fal y gwnai y paganiaid, di gred a bedydd. Myned a wnaeth Rhodri yn eu herbyn, a llu dewisol o'r Cymry gyd ag ef; ac yn gynnorthwy iddo y daeth Meuryg ab Hywel, brenin Morganwg, â llu cadarn: a'r Meuryg hwnw a laddwyd yn y frwydr hono: eithr gyru ffo ar y Saeson o'r diwedd, gwedi ymladd tost a chreulawn." . . .

"872, y bu Waith Bangolau, yn Mon, lle gorfu Rhodri a'r Cymry ar y Paganiaid duon mewn brwydr galed; a gwedi hyny, yr un flwyddyn, Gwaith Manegid yn Mon, lle difethwyd y paganiaid duon.". . .

"873," neu, yn ol eraill,—"877, y bu Waith Dyw Sul yn Mon, ac yn hono y llas Rhodri Mawr, a Gwriad ei frawd, a Gweirydd, mab Owain Morganwg, gan y Saeson: ac yna, yn eu llawn angerdd, y cymerth gwragedd Môn arfau, ac a ruthrasant ar y Saeson, a'u lladd yn greulawn, oni orfu arnynt ffoi." . . .

Ac mewn rhan arall o *Frut y Tywysogion*, cawn y crybwylliad canlynol am dano:—"Rhodri Mawr a roddes drefn newydd ar lywodraeth Cymru, hyd y cerddai ei fraint ef; nid amgen,—*Ceredigion*, a Cadell ei fab hynaf a'i cafas; ac iddaw ei lŷs yn Ninefwr:—*Gwynedd*, i Anarawd ei fab, ac iddaw ei lŷs yn Aberffraw, yn Môn:—*Powys* a roddes i Ferfyn ei fab, ac iddaw lŷs yn Mathrafael: ac yr hynaf o honynt deyrnged i frenin Llundain; ac i'r hynaf deyrnged gan y ddau eraill: a'r tri Tywysawg taleithiawg eu gelwid, am iddynt yn anad neb a fu o'u blaen hwynt, wisgo taleithiau am eu coronau, fal y gwnelai freninoedd yn Ngwynedd; eraill ni wisgent namyn hualeu euraidd."

Gyda golwg ar y deyrnged ddywededig, dywaid yr Henafiaethwr trylen, Fychan o'r Hengwrt, ei bod i'w thalu yn y modd canlynol:—Tywysogion Gwynedd oeddynt i dalu 63p. i goron Llundain; a thywysogion Powys oeddynt i dalu pedair tunnell o flawd, a thywysogion Ceredigion, bedair tunnell o fêl, i dywysogion Gwynedd.[1] Wrth gydmaru amrywiol gofiannau eraill, yr ydwyf yn cael lle i gasglu, fod cyfeiliornad wedi ymlithro i fewn yn rhyw fodd i'r dernyn a ddyfynwyd uchod o'r Brut, pan y dywaid am Cadell, mai efe oedd mab henaf Rhodri: canys yr ydym yn cael fod Anarawd wedi ei benodi yn ettifedd union-gyrchol yn y linell frenhinol, neu dywysogaidd, dan yr enw, "Brenin Cymru oll:" ac i dderbyn teyrnged gan ei frodyr, dros y taleithiau eraill: ac y mae y diweddar Robert Fychan, yn y gwaith a grybwyllwyd eisoes, yn dwyn rhesymau cryfion yn mlaen, er profi mai Anarawd oedd yr hynaf.

Bu prif frawdlys Gwynedd yn cael ei gynal yn yr Aberffraw, dros oddeutu pedwar cân mlynedd, sef hyd gwymp Llewelyn, yn y flwyddyn 1282: a phan y gwnaed y crynhöad enwog o gyfreithiau, a adweinir hyd heddyw dan yr enw "Cyfreithiau Hywel Dda," tu a'r flwyddyn 940, parid i dri ciliad teg o honynt gael eu hysgrifenu, a threfnwyd bod i un o honynt gael ei gadw yn wastad yn yr Aberffraw.

Yn y flwyddyn 966, goresgynwyd Ynys Fôn gan lu o Wyddelod, y rhai a ddinystriasant yr Aberffraw, llŷs breninol tywysogion Gwynedd, ac ar yr achlysur hwn y lladdwyd Rhodri fab Idwal.[2] Yr oedd Gwynedd wedi ei gwanychu yn ddirfawr yn ystod ychydig flyneddoedd rhagflaenorol i hyn; canys fe'n hysbysir i Edgar brenin Lloegr oresgyn Gwynedd, gan anrheithio y wlad yn ddiarbed, tra yr oedd Môn eto heb ymuniawni oddi tan effeithiau anrheithiad ofnadwy yr Ynys gan Bloic, brenhin yr Iwerddon, a'i feibion. Dywedir mai yr hyn a barodd i Edgar wneyd fel hyn, oedd esgeulusdra tywysog Gwynedd i dalu y dreth osodedig arno i frenin Lloegr. O'r diwedd ymheddychwyd, ar yr ammod fod i dywysog Gwynedd dalu i frenin Lloegr, dri chant o fleiddiaid yn flyneddawl; o herwydd bod y creaduriaid hyny yn dra dinystriol a gormesol y pryd hyny trwy Gymru a Lloegr; ac y mae Caradog o Lancarfan, yn dywedyd i'r dreth hon gael ei thalu yn rheolaidd am ddwy flynedd; ond erbyn y drydedd flwyddyn, nad oedd yr un o honynt i'w gael yn un ran o'r Ynys; ac felly y rhyddhawyd tywysog Gwynedd yn y canlyniad, rhag talu unrhyw gydnabyddiaeth i frenin Lloegr.[3]

Mewn hen ysgrif arall, cawn y mynegiad canlynol:—"O.C. 962, y diffeithiwyd Gwynedd, gan Edgar brenin y Saeson, ac y dodes ef Gwŷr Denmarc

[1] *British Antiquities Revived*, pp. 39, 40.
[2] *Llyfr Du*, Basing.
[3] *Hist. of Wales*, by Caradoc of Llancarfan, 8vo. ed. 1812, p. 57.

Digitized by Google

yn ynys Fôn, lle y gwledychasant er gwaetha Gwŷr y wlad."—"A'r un flwyddyn y daeth Edgar hyd yn Nghaerllion ar Wŷsg, ac y trefnwyd heddwch cadarn ryngtho a Morgan, tywysawg Morganwg, ac ammod i Forgan dalu canmuw gyflith (*cant buwch flith*), i Edgar bob blwyddyn; ac am hyny ymrwymaw i Edgar gyfnerthu Morgan yn Mraint Teyrnedd Morganwg; ac yno y daeth Owain ab Hywel Dda, ac ymrwymaw o hono dalu cêd i Edgar bob blwyddyn, yn ol y doded ar Dywysawg Dinefwr yn Nghyfraith Hywel Dda. Gwedi hyny myned i Wynedd, a chael atto Iago ab Idwal, a gyru arnaw yn lle teyrnged a ddyli'r o hen ddeddf, Tri chan pen blaidd yn y flwyddyn; a rhydd lle mynynt eu lladd, yn holl Ynys Prydain: ac o hyny y cad heddwch yn Ngwynedd. A'r deyrnged hono a dalwyd yn Ngwynedd dros bum mlynedd a deugain, hyd na's gellid blaidd yn holl ynys Prydain. Gwedi hyny troes Brenin y Saeson y Deyrnged yn aur ac ariant, a gwartheg, fel y buasai gynt."[1]

Gellir casglu bod un o'r porthladdoedd mwyaf cyfleus, a chysgodol yn y lle hwn gynt; yr hyn, efallai, oedd y prif reswm am ei ddewis yn eisteddle llywodraeth Gwynedd. Erbyn hyn, y mae yr holl fawredd a fu unwaith yn perthyn i'r Aberffraw wedi darfod; ac nid oes dim o'i olion wedi ei adael, oddieithr rhanau o furiau ysgubor, a gardd llŷs y Tywysog, ar yr ochr orllewinol i'r dref. Bernir fod yr hen lŷs yn gorwedd yn y lle a adweinir yn yr oes hon dan yr enw Cae Tyddyn Hwrdd, yn agos i ardd y Plâs Coch, yr hon a elwir "Gardd y Llŷs" hyd heddyw; ac yr oedd rhodfa, debygid, yn myned i waered o'r llys, yn nghyfeiriad y lle y saif Addoldy y Trefnyddion Calfinaidd yn bresenol; a gelwir y llannerch eto, yn "Dalar Rodio." Ond, am yr hen lŷs ei hunan, nid oes erbyn hyn garreg ar garreg wedi ei adael o hono; a'r traddodiad yw, ddarfod i'w adfeilion gael eu cludo ymaith er's oesoedd bellach, i adeiladu yr hen Bersondy, a'r Ysgubor Ddegwm: ond erbyn yr oes hon, y mae yr adeiladau hyny hefyd wedi cael eu chwalu, a'u cludo ymaith; fel nad oes ond y lle yr oeddynt, er's llawer blwyddyn. Y mae bryn yn sefyll o fewn tua chwarter milldir i bentref yr Aberffraw, yn y cyfeiriad gorllewinol, a elwir "Bryn Llewelyn," a'r traddodiad yn yr ardal yw, iddo gael ei alw felly, am mai oddiarno yr arferai Llewelyn gyfodi ei luman, yn arwydd i alw ar ben-llywydd y fyddin, yr hwn a gyfanneddai yn Nhrefeilir, pan fyddai arno eisiau iddo ddyfod i'r llŷs, i ymgynghori âg ef. Gerllaw iddo, y mae "Ogof Bryn Llewelyn," yr hon a ddarganfuwyd tu a'r flwyddyn 1833, wedi ei chau i fynu â phridd ac â cherryg; a bu amryw o drigolion y pentref yn ei hagor, a hwy a weithiasant eu ffordd i waered iddi am gryn bellder, nes i ddwfr cryf dorri arnynt; yna rhoddwyd y gorchwyl heibio, a chauwyd yr ogof i fynu drachefn. Y grêd gyffredin yw, mai ffordd dan-ddaiarol o'r llŷs tywysogaidd ydoedd, er galluogi y teulu i ffoi, pe y buasai y gelynion wedi gwarchae ar y dref a'r llŷs. Ac y mae yn deilwng o sylw, fod hên ogof yn Rhos Tre Hwfa, yn agored tua dechreu y ganrif hon, am yr hon y dywedai yr hên bobl, ei bod yn myned o dan garreg aelwyd Trefeilir; ond, gan fod defaid ammaethwyr y gymmydogaeth yn colli ynddi yn fynych, cauwyd hono, er's mwy na haner can mlynedd yn ol; efallai fod hon wedi ei bwriadu at wasanaeth cyffelyb, yn yr amseroedd blinion a fu ar ein gwlad.

[1] *Hanes Cymru*, gan Carnhuanawc, t. d. 413.

Yn y flwyddyn 1729, darfu i Syr Arthur Owen, o Bod Owen, adgyweirio hên adfail a elwid "Eglwys y Baili," a'i gwneyd yn Ysgoldy, gan ei gwaddoli a phedair punt yn y flwyddyn, tuag at ddysgu chwech o blant tlodion y plwyf, i ddarllen Cymraeg. Y mae yn debyg mai rhyw gapel ydoedd hwn a gyfodasid ar wyddgrug neu garnedd, naill ai at wasanaeth y llŷs tywysogaidd mewn rhyw oes foreuol, neu at wasanaeth gwarchod-lu y Tywysog. Yn agos i'r ysgubor a grybwyllwyd uchod, cafwyd modrwyau gwydr, a elwid "Glain Neidr;" ac y mae un dra henafol a chywrain, ar lun neidr, a'i llosgwrn yn ei safn (arlun o dragwyddoldeb), yn meddiant Miss Angharad Lloyd, merch y diweddar hynafiaethwr enwog, y Parch. John Lloyd, o Gaerwys. Y cywrein-beth Derwyddol uchod, yn nghyda rhyw gragen dra hynod a gafwyd mewn hên garnedd. Yn y gymmydogaeth hon hefyd, ac nid yn Nghaerhun, fel y camsyniai y diweddar Thomas Pennant, Ysw., y caed y deisen efydd gywrain hono, sydd yn nghadw yn awr yn Llyfrgell Mostyn. Y mae yn dwyn arni yr arysgrif Socio Romæ: fel y mae yn debyg ei bod wedi ei gwneyd gan y Rhufeiniaid, o efydd a gloddiasid ganddynt o'r mynydd a elwir Mynydd Parys. Yr hynafiaethydd enwog, Edward Llwyd, mewn llythyr a ysgrifenai efe at gyfaill, yn y flwyddyn 1694–95, a ddywaid, ar awdurdod y Parch. G. Davies, person Niwbwrch, iddi gael ei darganfod tua haner càn mlynedd cyn hyny; a bod Owen Wynne, Ysw., o Rosmor, wedi ei rhoddi i'r Archesgob Williams, yr hwn a'i rhoddodd drachefn i'r bendefiges Mostyn,—Mary, ferch Syr John Wynne o Wydir, tra yr oedd efe yn ei gystudd diweddaf, yn cael nawdd ac ymgeledd garuaidd ganddi yn Ngloddaeth, lle y bu ei arglwyddiaeth farw. Pwysa y deisen efydd hon, 42 ps.

Y mae olion hen amddiffynfa, o'r enw "Din Dryfal," yn gorwedd ar dyddyn o'r un enw, tua thair milldir o bentref Aberffraw; ac y mae yn debyg bod yr amddiffynfa hon wedi bod yn noddfa bwysig i'r hen frodorion lawer gwaith, pan fyddai estroniaid yn ymosod ar eu gwlad, ac yn ei hanrheithio. Amddiffynfa dri-ongl oedd hon, fel y mae ei henw yn arwyddocau. Y Gwyddelod, wedi cael eu curo gan feibion Cunedda Wledig, o lawer o ranau o Wynedd a draws-feddiannasid ganddynt, a adgynnullasant eu holl gadernid yn Môn, ac a wersyllasant yn agos i'r hen amddiffynfa hon; a bu brwydr galed rhwng gwŷr Môn a hwy, mewn lle a elwir hyd heddyw yn "Gerrig-y-Gwyddyl;" a llawer o'r Cymry a laddwyd yn y llannerch yma, tra yn ymdrechgar i gadw meddiant o'r hên amddiffynfa hon; ond o'r diwedd, daeth Caswallon Law Hir a'i wŷr, yn gyfnerthiad i'r Monwysion, a gwnaethant ymosodiad ffyrnig ar y Gwyddelod, gan eu curo, a'u hymlid hyd gwr eithaf yr Ynys, ac yno y lladdwyd Serigi, gan Caswallon yn bersonol: a Chaswallon a adeiladodd addoldy ar y fan lle yr ennillasai y frwydr, ac a'i galwodd "Llan y Gwyddel;" ond yn awr, gelwir y lle Caer Gybi, neu, yn hytrach, Cor Cybi.

Ar y cwr gogleddol i Dowyn Aberffraw, wrth yr afon dryloew Ffraw, ac ar gyfer Bwlan, y mae llannerch a elwir "Croes Ladys:" neu yn fwy cywir, debygid, "Croes Wladys." Fe ddichon fod rhyw fenyw rinweddol o'r enw Gwladys wedi cael ei llofruddio yn y lle, yn yr oesoedd tywyll; ac i groes gael ei chyfodi ar y fan lle y cyflawnid y gyflafan,

Digitized by Google

yn ol arfer yr oesoedd hyny; fel y byddai i'r fforddolion weddïo dros ei henaid. Yn lled agos i'r llannerch yna, y mae bryn bychan, wrth ochr y ffordd sydd yn croesi o'r ABERFFRAW i LANGADWALADR, yr hwn a elwir "Bryn Fendigad;" ond, y mae yn anhawdd penderfynu erbyn hyn pa beth a barai iddo gael y fath enw; y mae traddodiad yn dywedyd mai dyma y fan lle y dihenyddid drwg-weithredwyr yn amser preswyliad Tywysogion Gwynedd yma; ac wrth arloesi y lle i godi cerryg yn ddiweddar, cafwyd amryw esgyrn dynol o faintioli mwy na chyffredin yr oes hon; oddiwrth yr hyn y gallwn gasglu mai yno y cleddid y drwg-weithredwyr hyny hefyd. Yr ochr arall i'r ffordd, gyferbyn a'r bryn uchod, y mae ffynnon o ddwfr mwnawl, a elwir "Ffynnon Bryn Fendigad." Syr Arthur Owen, o Fod Owen, a adeiladodd fur o'i hamgylch yn y ddeunawfed ganrif; ond bu i esgeulusdra yr ardalwyr ei goddef i syrthio i gyflwr adfeiliedig, a bu y ffynnon yn orchuddiedig gan dywod am lawer blwyddyn. Yn ddiweddar, aeth amryw o drigolion y pentref yn nghyd â'r gorchwyl o'i hail agoryd; ac y mae yn resyn na byddai i ryw Fferyllydd dâ ymgymeryd a'r gorchwyl o ddadansoddi y dwfr, a rhoddi cyfarwyddiadau eglur pa fodd i'w ddefnyddio; ac at ba ryw anhwylderau, &c.

Y mae pedwar o dyddynod yn y plwyf hwn yn myned dan yr enw "*Henllys*," sef "Henllys Fawr," "Henllys Groes," "Henllys Wen," a "Pen Henllys," a'r traddodiad poblogaidd ydyw, iddynt gael yr enwau hyn am eu bod yn rhyw fath o lysoedd, yn amser y tywysogion.

O fewn tua haner milldir i'r ABERFFRAW, mewn cyfeiriad gogleddol, y saif y CLAFDY, yr hwn a elwir felly oblegyd mai yno yr oedd yspytty gan y tywysogion. Y mae traddodiad yn yr ardal, y bu palas unwaith yn agos i'r Clafdy, yr hwn a elwid BARON HILL; neu llŷs y breyr: ac y mae un o gaeau y Clafdy yn cael ei alw "Cae y *Baron Hill*;" ac felly bernir mai ar dir y *Baron Hill* yr oedd y Clafdy wedi ei gyfodi ar y dechreu; ond, y mae yr hen Farwndy wedi ei chwalu a'i gario ymaith er's llawer oes, fel nad adweinir ei le mwyach.

Y mae y plwyf hwn yn cynnwys tua chwe mil a dau cant o erwau o dir, yr hwn, oddieithr ychydig erwau o gyttir, sydd yn gauedig, a than driniaeth dda. Cyfodir cnydau rhagorol o haidd a cheirch yn y plwyf, a megir yma luaws o anifeiliaid dâ. Y pentref a saif ar lechwedd hyfryd a ffrwythlawn, yn wynebu tua chodiad haul: ac oddi tano yr ymddolena y Ffraw dryloew tu a'r môr: ac o'r ochr arall i'r afonig, y mae tywyn mawr, llydan, yr hwn a ymddengys i'r llygad ar ddiwrnod hafaidd, yn ddysglaer fel yr eira gwyn. Ac y mae yn debyg mai oddiwrth y tywyn crybwylledig, y galwodd un bardd hi yn Aberffraw wen:"—

"Onid Aberffraw wen hynod yw hon,
Lle tirion ar lan afon;
Lle ucha ei bri ar ochr bron?"

Ar hin oleu, ac awyr glaer, ceir golygfa ysplenydd oddi yma, ar fynyddoedd uchel-gribog Arfon, yn dyrchafu eu penau i'r nen; ac ar Fôr y Werydd ar y llaw arall, yn cludo llongau, bychain a mawrion ar ei fynwes.

Yr afon Ffraw, oddiwrth yr hon y mae y lle hwn yn cael ei enw, sydd yn dyfod o "Lyn Coron," yr hwn sydd yn agos i dair milldir i'r dwyrain o'r pentref hwn. Y mae y llyn hwn tua dwy filldir o amgylchedd, ac yn enwocaf yn Môn am amledd ei bysgod, am ba achos y bydd llawer iawn o foneddigion, o Loegr, a manau eraill, yn ymweled ag ef yn yr haf, er mwyn y difyr-waith o bysgotta, neu enweirio. Adeiladwyd Eglwys y Plwyf y tro cyntaf tu a'r flwyddyn 616, ac fe'i cyssegrwyd i goffadwriaeth Beuno Sant. Periglorìaeth yw y fywioliaeth eglwysig yma, yn Archddiaconiaeth Môn, ac Esgobaeth Bangor; ac yn noddogaeth Tywysog Cymru. Mae yr eglwys yn hên adeilad fawr, ac wedi bod yn dra ysplenydd unwaith; ond, yn lled adfeiliedig yn bresenol. Ac heblaw hon, ac "Eglwys y Beili," yr oedd un arall, gyssegredig i'r Forwyn Fair, yn sefyll gynt yn y rhandir a elwir Tre Ddegwm Dindryfal; ac fe'i gelwid "Capel Mair:" ond, nid oes gymaint o'r hen adail hono wedi ei gadael hyd ein hoes ni, ag a arweiniai yr ymofynydd i wneyd penderfyniad lled sicr a dibetrus, am y fan lle y gorweddai.

Dywedir mai yn yr ABERFFRAW y cynhelid yr Eisteddfodau, neu gymmanfäoedd tair-mlwyddol Beirdd Gwynedd, cyhyd ag y parhäodd yn brif breswylfa dywysogaidd: ac er mor ddinod yw y llannerch yn bresenol, fe fagwyd llawer glew-ddyn ar ei bronau, o oes i oes. Yn amser Gruffydd ab Llewelyn ab Seisyllt, parodd Macbeth, brenin yr Alban, lofruddio pendefig o'r enw BANCHO; a mab y pendefig llofruddiedig a ffodd am nodded i Gymru, at Gruffydd ab Llewelyn, yr hwn a'i derbyniodd yn lletygar, ac a roddes bob croesaw iddo yn ei lŷs yn Aberffraw: enw y pendefig ieuanc hwn oedd FFLEANCE; ond efe a wnaeth gam ddefnydd o garedigrwydd y Tywysog Cymreig, ac a feichiogodd ei ferch ef: a'r canlyniad fu, geni mab o'r gyfathrach annghyfreithlawn hono, yr hwn a alwyd Gwallter. Pan wybu yr hen Dywysog am yr hyn a gymerasai lê, efe a drodd ei ferch dros y drws, gan ei rhybuddio na's delai byth mwyach o fewn llŷs ei thad, ac a roddodd FFLEANCE i farwolaeth, fel un euog o uchelfradwriaeth o'r fath waethaf: ond Gwallter a ddygwyd i fynu dan addysg deilwng i'w dras tywysogaidd, ac yn y llŷs tywysogaidd. Pan aeth Gwallter i oedran gwr, efe a aeth i'r Alban, lle y bu i'w ymddygiad clodwiw beri i'r brenin yn fuan ei bennodi ef yn Oruchwyliwr, neu Arglwydd Stewart y deyrnas, ac oddiwrth hyny, cafodd ef a'i hiliogaeth y cyfenw o "Stiwart," ac yn gymaint ag iddo ddyfod i gyfathrach â theulu breninol yr Alban, efe a osododd sylfaen teyrnllwyth y Stiwartiaid.—Yr oedd Meilir, Gwalchmai, ac Einion, o Drefeilir, yn dylwyth o feirdd pendefigaidd, o'r ardal hon, a fuant yn coledd yr awen am gyfnod lled faith, a Howel ab Owain Gwynedd, oedd yn dywysog awenyddol. Dywaid rhai hynafiaethwyr mai brodor oddiyma oedd y Bardd enwog GRUFFYDD GRUG: ond y mae crybwylliadau eraill yn awgrymu mai yn Mhen y Mynydd yr oedd efe yn byw; ac y mae yn fwyaf tebyg mai hyny sydd gywir.

**ABERGAFENNI**, tref farchnad a phlwyf, mewn rhan yn rhan-barth uchaf; ond yn benaf yn rhanbarth isaf, Cantref ABERGAFENNI, swydd FYNWY, 16eg i'r gorllewin wrth ogledd, o Dre Fynwy, a 145ain milldir i'r gorllewin wrth ogledd, o Lundain, ar y ffordd i Aber-dau-gleddyf.

Yma yr oedd *Gobannium*, Antoninus; gorsaf Rufeinaidd a elwid felly oddiwrth yr afon *Gobannius*, a elwir yn awr "Y Gafenni," oddiwrth yr hon y ffurfir enw y dref bresenol, trwy rag-ddodi yr enw

Digitized by Google

"*Aber*" wrth enw yr afon, er dynodi ei sefyllfa, gerllaw safn yr afon hono. Adeiladwyd castell yn y fan hon, yn fuan ar ol y Goresgyniad, gan Hameline de Balun, neu Baladun; un o'r anturiaethwyr Normanaidd a ddaethent drosodd gyda Gwilym y Goresgynydd; yr hwn hefyd a sefydlodd Brïordy yma i fyneich o urdd Sanct Benedict, er anrhydedd y Forwyn Fair; cyllid yr hwn grefydd-dy, a gyfrifid ar y dadgorfforiad, yn £59, 4*s*. Safai yn Heol y Mynach (Monk Street); lle y saif yr adeilad ddiweddar, a elwir "Y Prïordy." Yr unig weddillion o'r castell sydd yn aros, ydynt y muriau allanol, y rhai a adeiladwyd, fel yr ymddengys, yn amser Harri yr Ail, wedi ei ddystrywio gan y Cymry; ac oddi fewn i'r rhai hyn y mae adeilad ddiweddar, gyfleus a destlus, wedi ei chyfodi yn breswylfod boneddwr. Y mae y dref yn gorwedd mewn sefyllfa dra phrydferth, ar derfyn bwlch, lle y mae y mynyddoedd yn terfynu yn ddisymwth; ac fe'i dyfrheir gan yr afonydd Usc, Gafenni, a'r Cybi, dros y gyntaf o ba rai y mae pont henafol hardd, o bymtheg bwa.

Y mae yr heolydd yn lled gyfyng, a'r tai wedi eu hadeiladu yn afreolaidd; ond y mae llawer o welliannau wedi eu dwyn yn mlaen yma yn ddiweddar; yn enwedig er pan ddygwyd y rheil-ffyrdd i wasanaethu iddi. Y mae iachusrwydd yr awyr, a phrydferthwch y golygfeydd, yn gwneyd y lle yn gyrchfa lluaws o ymwelwyr yn misoedd yr hâf. Y mynyddoedd yn y gymmydogaeth, ydynt yn gyfoethog mewn glô a haiarn, yn y rhai y mae gweithfeydd mawrion a thra llwyddiannus wedi eu sefydlu. Cynhelir y marchnadoedd ar ddyddiau Mawrth a Sadwrn: yr olaf yn farchnad ŷd yn benaf. Yn misoedd Mehefin a Gorphenaf, dygir llawer iawn o wlan i'r farchnad yma, lle y bydd prynwyr lluosog yn cyrchu, o amryw barthau o Loegr. Cynhelir y ffeiriau yma ar y trydydd dydd Mawrth yn mis Mawrth; Mai 14, yr hon yw y ffair fwyaf yn y flwyddyn; Mehefin 24; yr ail ddydd Mawrth o flaen Gorphenaf yr 20fed; Medi 25; a Thachwedd y 19eg.

Gan fod Breinlen Corphoriaeth y dref wedi ei gymeryd oddiarni yn amser William y Trydydd, y mae yn bresenol o fewn brawdwriaeth hedd-ynadon y Sir, y rhai a gynhaliant gyfarfod Ustusiaid yma bob dydd Mawrth. Y mae y fywioliaeth Eglwysig yma, yr hon sydd yn Archddiaconiaeth ac Esgobaeth Llandâf, yn noddogaeth Charles Kemys Tynte, Ysw. Yr eglwys, yr hon sydd gyssegredig i Sant Mair, sydd yn adeilad ehang, yn yr arddull Normanaidd o adeiladwaith. Y mae yma luaws o addoldai, perthynol i'r Bedyddwyr, yr Annibynwyr, y Trefnyddion Wesleyaidd, a'r Pabyddion. Yr Ysgol Ramadegol Râd, a sefydlasid gan Harri VIII., yn y flwyddyn 1543, ac ydoedd gynt dan arolygaeth y Corphoriaeth Ddinesig; pan fforffedwyd eu Breinlen hwy, a gyflewyd dan lywyddiaeth athraw, a Chymrodorion Coleg yr Iesu, Rhydychain, y rhai a bennodant yr athraw, gan roddi y flaenoriaeth i ryw Gymrawd o'r coleg hwnw. Yr Ysgoldy ydoedd eglwys blwyfol Sant Ioan gynt, ac fe'i tröed i'r gwasanaeth hwn tuag adeg Dadgorphoriad y Crefydd-dai. Tua chanol y ganrif ddiweddaf, fe'i hail adeiladwyd; ond y mae ei dŵr mur-ganllawiol, yn rhoddi gwedd adail eglwysig arno eto. Yn y flwyddyn 1623, darfu i un William Pritchard, sefydlu Ysgoloriaeth yn Ngholeg yr Iesu, Rhydychain, yr hon y gallasai bechgyn wedi derbyn eu haddysg yn yr ysgol yma, ei gyrhaedd. Heblaw hyny y mae yma Ysgol Lancasteraidd enwog wedi bod dros hir amser, ac amryw Ysgolion Sabbathawl, yn y rhai y mae llafur mawr yn cael ei amlygu, i gyfranu addysg grefyddol i ieuenctyd y dref.

Cafwyd amryw fathodynau Rhufeinaidd yn y dref hon; ac yn eu mysg, fathodyn aur i Otho; rhai priddfeini yn dwyn arnynt yr argraff, "Leg. II. Aug." a chwŷs-dŷ; ac o fewn tua haner milldir i'r dref, y mae olion gwersyll Rhufeinaidd, yn agos i ba un yr oedd capel yn yr hen oesoedd, yr hwn sydd wedi ei droi yn ammaeth-dŷ er's rhai oesoedd bellach. Y mae ffynnon fŵnawl yn y Llwyn-dû, yr hon sydd yn cael y gair o fod yn dra effeithiol i wellau y mânwynau. Y mae Abergafenni yn dyroddi y teitl o iarll i deulu y Nevilles. Yr iarllaeth sydd yn urddas lleol, fel eiddo Arundel, ac yn gyssylltiedig â pherchenogaeth y castell; a'r olaf, meddir, o'r barwniaethau, â'r rhai y gwobrwyid y milwyr Normanaidd, a gymerasent ran bwysig yn narostyngiad Cymru.

Yr hysbysiad canlynol a gafwyd o hen ysgrif-lyfr, oedd yn meddiant y diweddar Filwriad Johnes, o'r Hafod; ac a waredwyd rhag cael ei ddifa yn y tân dinystriol a fu yno, yn y flwyddyn 1807.

Gwelir yr âch-draith yma yn Lladin, mewn hen lyfr:—"Yr oedd gan Dru, arglwydd Baladon dri mab,—Hamelin, Winnock, a Winnebald; a thair merch,—Emma, Lucia, a Beatrix. Hamelin a'i frawd a ddaethant gyda Gwilym Fastardd i Loegr; ac wedi buddugoliaeth y Normaniaid, efe a fu yn arglwydd cyntaf Gwent Uchaf; ac efe a adeiladodd gastell mewn hen lannerch gerllaw y Fenni, lle yr adeiladasai y'cawr Agreus gastell o'r blaen yn yr hen amser.

Bu Hamelin fyw holl ddyddiau Gwilym Fastardd, ac efe a fu farw ar y 3ydd, o Nawiau Mawrth,[1] yn amser Gwilym Goch; ac y mae yn gorwedd yn gladdedig yn Mhriordy y Fenni, yr hwn a seiliasai ef ei hunan; a chan na adawai ettifeddion o'i gorph ei hun, efe a roddes y castell dywededig, a thiroedd Gwent Uchaf, i Bricut, mab Iarll y tir hwnw, yr hwn oedd yn nai iddo, fab ei chwaer Lucia.—Bricut a fwynhaodd y castell a'r tiroedd hyny, holl amser Gwilym Goch, ac a genhedlodd ddau fab, y rhai gan eu bod wedi myned yn wahanglwyfus, a gyfleodd efe yn y Priordy crybwylledig yn Abergafenni; gan roddi tiroedd, a thai, a degwm y castell dywededig, at eu cynnaliaeth hwy, ac eraill a folianent Dduw yno; fel y mae yn ysgrifenedig yn Nghoflyfrau y Myneich yno. O'r diwedd, Bricut a gymerodd ei groes, ac a aeth i'r Tir Sanctaidd, gan adael tiroedd Gwent Uchaf i'w gâr Gwallter, Cwnstabl holl Loegr, yr hwn yn amser Harri y Cyntaf, oedd yn meddu cadwraeth Cestyll Caerloyw a Henffordd, ac sydd yn gorwedd, wedi ei gladdu yn anrhydeddus yn y Capel, yn Mhriordy Llanthony.

Yr ydoedd i'r Gwallter uchod fab a elwid Milo, yr hwn a grewyd yn Iarll Hereford gan Harri y Cyntaf; ac ychwanegwyd at ei feddiannau Wigfa Dean. Y Milo hwn a gymerodd yn wraig, Sibyl, ettifeddes gyfreithlawn holl wlad Brycheiniog, merch Bernard ac Agnes, o'r Farchnad Newydd; o'r hon y bu iddo bump o feibion,—yr Iarll Rossier, Henri, Gwallter, Maiel, a William; a thair merch, Margery, Berta,

[1] "Y Nawiau," oedd yr enw a roddai y Rhufeiniaid gynt i'r pummed o Ionor, Chwefror, Ebrill, Mehefin, Awst, Medi, Tachwedd, a Rhagfyr; a'r seithfed o Fawrth, Mai, Gorphenaf, a Hydref.

Digitized by Google

a Lucia. Ond y Gwallter dywededig uchod, tra yr ydoedd ei fab Milo eto yn fyw, a roddes i Harri, ail fab y dywededig Milo, Gastell Abergafenni, yn nghyda holl diroedd Gwent Uchaf, y rhai a fwynhaodd Harri, dros holl amser ei daid, Gwallter y Cwnstabl, a holl ddyddiau ei dâd Milo, a'i frawd, yr Iarll Rossier. Bu yr Iarll Rossier farw yn ddi blant, a'r dywededig Harri a fwynhaodd ei holl diroedd a'i dyddynod, fel ei ettifedd nesaf, yr hwn yn fuan wedi hyny a laddwyd gan un o warch-lu Seisyllt fab Dunwall, yn agos i Gastell Arnold, yn Ngwent Uchaf, ac y mae yn gorwedd yn gladdedig yn Mhriordy Llanthony. Ond, gan i Gwallter, Maiel, a William, brodyr y dywededig Harri, farw yn fuan ar ol hyny, yn ddi blant, eu chwiorydd, Margery, Bertha, a Lucia, a ddaethant i'w hettifeddiaeth. Margery a brïododd a Sieffrey Bohun, ac a ddug Iarllaeth Henffordd iddo, fel ei gwaddol. Bertha a brïodwyd a Phylip Brewys, arglwydd Buld:[1] a'i gwaddol hi ydoedd holl wlad Brycheiniog, Gwent Uchaf, a Browyr. Lucia a brïodwyd â Herbert fab Herbert; a'i gwaddol hi oedd Coedwig Dean. Yr Herbert uchod, ar gyfrif rhyw droseddau a gyflawnasid yn erbyn y brenin Harri, a roddes Goedwig Dean i fynu i'r brenin yn ddihawliad. Y Phylip Brewys uchod a fwynhaodd holl diroedd Brycheiniog, Gwent Uchaf, a Browyr, ei holl einioes, ac efe a genedlodd fab,—William, i'r hwn y disgynodd yr ettifeddiaeth ar ol ei dâd. Y William hwn a brïododd Mauld, o Sant Waldric, o'r hon y cenedlodd efe dri mab,—William Gam, Egidius esgob Henffordd, a Regniold; ac a gyflawn fwynhaodd y tiroedd dywededig trwy ystod teyrnasiad Harri yr Ail, holl ddyddiau y brenin Rhisiart, ac yn nechreuad teyrnasiad y brenin Ioan, heb unrhyw lesteiriad. Ond y brenin Ioan a alltudiodd y dywededig William, ac a gymerodd ei diroedd a'i gestyll, yn ol ei ewyllys ei hun, ar y 6ed o Galan Mai, 1208; ac a garcharodd Mauld ei wraig, a William ei fab ef, yn nghastell Corfe, lle y buant feirw yn ngharchar, a'r dywededig William Brewys a fu farw yn Ffrainc, o fewn corph yr un flwyddyn. Yr ydoedd i'r dywededig William Gam, a fu farw yn ngharchar yn Corfe, fab o'r enw John, a gyfenwid Tadey, neu Tâd-cû, yr hwn a ddygid i fynu yn ddirgel yn Mrowyr, gan foneddwr o Gymro. Mai, 1215, Egidius Brewys, esgob Henffordd, a ddug oddiar Peter, fab Herbert, yr holl diroedd a'r tyddynod a berthynent o'r blaen i'r dywededig Herbert.

Wedi deoliad William Brewys o Loegr, hyny yw, o'i diroedd yn Nhalgarth, Egidius esgob Henffordd, a gymmodwyd â'r brenin Ioan yr un flwyddyn; a'r brenin Ioan a adferodd iddo ef yr hawl a'r teil i diroedd ac ettifeddiaethau ei dâd, y rhai a fwynhaodd efe dros ei holl einioes, yn gyflawn a thangnefeddus; ac efe a fu farw yn y flwyddyn 1219; ac wedi ei farwolaeth ef, ei frawd Reignold a ettifeddodd y cyfryw diroedd. Yn y flwyddyn 1222, Peter, fab Herbert, a adenillodd ei diroedd yn Nghymru, sef Talgarth a Blaen Llyfni, y rhai a ddygasid oddi arno gan yr esgob Egidius. Ac ar hyny, efe a brïododd ferch William le Bruere, o'r hon y cenedlodd efe fab, yr hwn a alwyd William Brewys, yr ieuangaf.

"Reignold hefyd a fu byw wedi marwolaeth ei frawd, naw mlynedd; ac efe a fu farw yn y flwyddyn 1228, a'i fab William a'i holynodd ef yn ei ettifeddiaeth, ac a briododd Efa, ferch William Marshall, o'r hon y cenedlodd efe bedair o ferched, sef Isabell, Mauld, Efa, ac Eleanor.

Isabell a brïodwyd â Dafydd ab Llewelyn, tywysog Cymru. Mauld a brïodwyd â Rossier Mortimer, yn nghyda thiroedd Maesyfed, a thiroedd eraill yn Lloegr a Chymru. Efa a brïodwyd a William o Cantilup, yn nghyda thiroedd Gwent Uchaf, a thiroedd eraill yn Lloegr a Chymru. Eleanor a brïodwyd âg Wmphre Bohun, yn nghyda thiroedd Brycheiniog, a thiroedd eraill yn Lloegr a Chymru. Y William uchod oedd yr un a fu yn garcharor gan y Cymry yn Eryri, ac a ryddhawyd gan Llewelyn yn y flwyddyn 1229. Ond y flwyddyn ganlynol, efe a wahoddwyd gan y tywysog Llewelyn, i wledd yn Aber; ac a laddwyd yno mewn rhyw derfysg. William Cantilup, yr hwn a brïodasai Efa, ferch William Brewys, a genedlodd fab o honi, yr hwn a alwyd Sior (George), a dwy ferch, Joanna, a Milicent; a'r dywededig William a fu farw yn y flwyddyn 1254. Efa, ettifeddes gyfreithlawn y dywededig William, a fwynhaodd diroedd Gwent Uchaf, a'r Fenni, wedi marwolaeth ei gwr, ac a fu farw yn 1255. George Cantilup, mab William Cantilup ac Efa, a fu yn garcharor gan Harri y Trydydd, ac wedi hyny a ddaeth i feddiant o diroedd Gwent Uchaf, ac a fu farw yn ddi blant, yn y flwyddyn 1273. Joanna, ei chwaer, a brïodwyd â Henry de Hastings, ac a gafodd trwyddo ef ddau fab, John ac Edmwnd; a thair merch, sef Anne, Love, a Joanna. Milicent a brïodwyd âg Iuan de la Zouch. Y dywededig H. Hastings, a Joanna ei wraig, a fuant feirw, tra yr ydoedd George ei brawd eto yn fyw; a John eu mab a gedwid mewn dalfa gan Harri y Trydydd; ac wedi ei ddyfod i'w gyflawn oedran, efe a ddaeth i ettifeddiaeth ei ewythr George, yn nhiroedd Gwent Uchaf a'r Fenni, a thiroedd eraill yn Lloegr, ar ei ran ei hunan. A'r Milicent uchod a gafodd gestyll Totness, Eason, Haringsworth, a thiroedd eraill yn Lloegr, o ettifeddiaeth y dywededig George. Y rhag-grybwylledig John de Hastings, a fwynhaodd diroedd Gwent Uchaf dros lawer a flyneddoedd, ac a briododd Isabell, ferch William de Valence, Iarll Penfro, o'r hon y cafodd efe dri mab, sef William, John, a Henry; a thair merch, sef Joanna, Elizabeth, a Margaret."[2]

**ABERGELEY**, neu ABERGELE, tref farchnad, a phlwyf, yn Nghantref IS-DULAS, swydd DINBACH, GOGLEDD GYMRU; 12 milldir i'r gogledd orllewin o Ddinbach; 20 milldir i'r gogledd orllewin o Ruthin, a 224 milldir i'r gogledd orllewin o Lundain; ar y brif-ffordd o Gaerlleon ar Ddyfrdwy, i Gaergybi. Y mae y plwyf hwn yn cael ei enw oddiwrth ei sefyllfa yn agos i safn yr afon Gele, yr hon sydd yn ymarllwys yma i Fôr y Werydd. Mae y dref wedi ei hadeiladu mewn dyffryn prydferth, o fewn haner milldir i'r mor, yr hwn a ffurfia ffin ogleddol y plwyf; ac y mae iachusrwydd yr awyr, a hyfrydwch sefyllfa y dref, yn nghyda rhagoriaeth ei thraeth fel ymdrochle, wedi ei gwneyd yn gyrchle arbenig pobl o'r ardaloedd cylchynol er's blynyddoedd yn misoedd yr hâf; ond, er pan agorwyd y rheilffordd o Gaerlleon i Gaergybi, yr hon sydd yn gyfredol a glan y môr ar hyd y plwyf hwn, y mae lluaws o foneddigion o wahanol barthau y Deyrnas,

[1] Efallai mai Buallt a feddylir.

[2] *Ex antiquo Exemplari in Llwydiarth exscript: per Johan David Rhŷs.*

Digitized by Google

yn arfer cyrchu yma yn misoedd yr hâf, ac y mae lluaws o dai dâ a chyfleus i'w llettya yn gysurus, wedi eu hadeiladu yn y blyneddoedd diweddar, mewn lle a elwir Pen y Sarn, yn agos i orsaf y rheil-ffordd. Y mae amgylchoedd y dref yn cynnwys y golygfeydd mwyaf swynol a rhamantus, a gall y dyeithriaid ymddifyru, ac ymofyn adloniant a nerth, drwy ddringo i lethrau y bryniau ar draed, neu trwy gymeryd gwib-deithiau byrion mewn cerbydau, i wahanol gyfeiriadau; ac y mae yn nghymmydogaeth y dref helaethrwydd o fanteision, i'r llysieuydd, y daiaregydd, neu yr hynafieithydd, ddilyn eu hoff efrydiaeth, a chwanegu at eu hystorfeydd blaenorol o wybodaeth.

Y mae traddodiad cryf yn y gymmydogaeth, fod llawer mwy o dir rhwng y dref a'r môr, lawer o flyneddoedd yn ol; ond bod y môr garw a gynnyrchir gan ystormydd mawrion y Gogledd, wedi bod yn araf fwyta y tir meddal ac isel, drwy yr oesoedd; ac fel rhyw gadarnhad o hyn, gellir crybwyll fod cof-lech yn mur gogleddol y fynwent, ar yr hwn y mae math a bennill lled annghelfydd wedi ei dorri, yr hwn sydd yn debyg i hyn:—

"Yma mae'n gorwedd
Yn mynwent Mihangel,
Wr oedd a'i annedd,
Dair milldir i'r gogledd."

Mae y môr o fewn llai na milldir i'r gogledd o'r fynwent grybwylledig yn bresenol: ond, y mae hên breswylwyr y dref yn dystion fod y môr wedi ennill peth ar y tir yn eu hamser hwy; a dywaid rhai o honynt iddynt glywed eu rhïeni yn dywedyd eu bod yn cofio tai a thiroedd diwylliedig, lle y mae y môr yn bresenol: ac ar drai isel, ceir mewn traethell a wneir i fynu o dywod-glai, hên goed derw mawrion yn eu corpholaeth o'r bron, ond wedi meddalu llawer; yr hyn sydd yn brawf diamheuol fod yma goedwig fawr rai canrifoedd yn ol, lle y chwery y pysg yn eu helfen yn awr. Yr afonig fechan sydd yn dyfrhau y dref bresenol, a ymlithrai yn arafaidd trwy y goedwig, ar hyd y gwastadedd maith, a'i llifiad mor araf a digyffro, fel yr oedd o'r bron yn geledig; yr hyn, efallai, a barai i blant natur ei galw, "y Gele;" a'i genau, neu ei harllwysiad i'r môr, a elwid ABER-GELEU.

Mae eraill yn dadleu mai oddiwrth y creadur a elwir "y gele," y cafodd y dref a'r ardal yr enw; ac er prawf o hyny, dywedant fod yr afonig hon o fewn oes gwr yn ôl, yn agos i'w haber yn enwedig, yn feithrinfa i luaws o gelëod; a gallasai hyny fod yn hawdd, pan nad oedd yr afon yn cael ei chadw mor lân, na'r tir oddeutu ei glenydd yn cael ei ddiwyllio, fel y gwneir yn awr.

Mae yn debyg fod y llanerch hon yn lle o gryn enwogrwydd yn lled foreu; canys yr oedd yn gorwedd yn agos i'r ffordd Rufeinaidd a arweiniai o Gaerlleon ar Ddyfrdwy, trwy Bodffari, tua Chaerhun; neu, y Gaer hên, a Chaer Seiont; a thebygol fod yr hen brif-ffordd Brydeinaidd a wnaed gan Beli ab Dyfnwal Moelmud, ac a elwid "Y Sarn ar y môr," yn dyfod yn agos yma. Yn agos i'r dref hon, y mae hen amddiffynfa filwraidd, a elwir "Castell mawr;" neu, yn ol rhai, "Castell Gawr." Yr oedd yr ochr ogleddol i'r hen amddiffynfa hon yn ddiphwys serth, 196 troedfedd o uchder, a'r ystlysau a ofynent am gadernid celfyddydol, oeddynt wedi eu hamddiffyn â muriau cedyrn, a ffosydd dyfnion; ac ar y tu gorllewinol, y mae agorfa fawr, rhwng dwy dommen o bridd a cheryg, tu hwnt i'r hon y mae ffos arall, ddyfnach a llettach, a elwir gan rai, "Ffos y Rhufeiniaid," a chan eraill, "Ffos y Bleiddiaid." Efallai mai dyma lle yr oedd gorsaf ganol y Rhufeiniaid, rhwng *Bod variis* a Chaerhen, neu *Conovium*. Nid yw yn annhebyg i ymladd taer fod yma rhwng y Rhufeiniaid,—arglwyddi y byd, —a'n henafiaid dewr-wych, ar y llanerch hon; a bod llwch lladdedigion y ddwy-blaid, wedi bod yn cyd-ymgymysgu yn y fan lle y cwympasant yn yr ymrysonfa angeuol, ddeunaw can mlynedd yn ol. Cafwyd llawer o hen arian Rhufeinaidd yn y gymmydogaeth yma rai blyneddau yn ol, yr hyn sydd brawf diamheuol fod y bobl hynod hyny wedi bod yn aros yn y gymmydogaeth hon.

Yn y flwyddyn 1848, caed naw pwys a fathodynau, mewn llestr pridd Rhufeinaidd o wneuthuriad tra chywrain, mewn cae perthynol i Fron y Berllan, yn agos i Glan y Weirglodd. Yn eu mysg, yr oedd rhai yn dwyn delw ac argraff Phylip o Macedonia, Caisar Nero, Trajan, Antoninus Pius, &c. Ac yn y flwyddyn 1862, fel yr oedd ammaethwr yn aredig mewn llanerch led uchel, tua milldir a haner i'r dehau o Abergeley, efe a ddaeth ar draws swm o "hên grochanau a phadellau rhydlyd," y rhan fwyaf o ba rai yn ffol a werthwyd ganddo fel hen fettal, am ychydig sylltau; ond yn ffodus llances o forwyn iddo, a ddymunai gadw rhai darnau, trwy yr hyn y cadwyd o'r tawdd-lestr, rai o'r llestri pres coginiaw Rhufeinaidd, mwyaf gwerthfawr yn ngolwg yr henafiaethydd, sydd ar gael yn bresenol. Dywedir bod o honynt ar y dechreu, tua haner cant mewn nifer, o bob math, o ba rai nid oes namyn tua haner dwsin wedi eu gadael, y rhai a ysgwriwyd â phridd-fein-lwch, er eu glanhau oddiwrth y rhwd oedd arnynt; ac erbyn hyn y mae un o'r nifer fychan yma wedi myned ar goll. Y pump sydd ar gael ydynt yn gynnwysedig o'r rhestr ganlynol:—

1. Cwpan, modfedd a haner o uchder, a thair modfedd o draws-fesur, a gynnwysa ddwy owns a haner o wlybyr.

2. Dysgl, agos i fodfedd o ddwfn, a 6¼ mod. o draws-fesur, ar draws yr ymyl, a 5¼ mod. ar draws y gwaelod; cynnwysedd o naw i ddeg owns.

3. Hidl-ledwad (*strainer ladle*); neu, hidlyr, 12 modfedd o hyd; y gawgen yn 3¾ modfedd o draws-fesur, a dwy fodfedd o ddwfn.

4. Sosban, dwy fodfedd o uchder, wrth 4½ mod. o led, a'i goes yn 4 mod. o hyd; cynnwysa ynddo tuag 11 owns o wlybyr.

5. Un arall, o faintioli cyffelyb i'r un blaenorol, ond wedi ei addurno yn wahanol. Y mae rhifyn 3 o'r llestri uchod, yn meddiant John Jones, Ysw., Jessamine Villa, Abergeley; a'r lleill, yn meddiant Mrs. E. M. Humphries, o'r Cambrian Arms, Pensarn.

Y mae cyfeiriad yn y *Greal*,[1] at yr hen amddiffynfa hon, debygid, dan yr enw "Caer Dinhengroen;" a "Thref Dinhengroen," y gelwir y Dref Ddegwm yn yr hon y mae yn gorwedd, hyd y dydd hwn. Ac mewn cyssylltiad â hyn, efallai y goddefir i mi grybwyll un casgliad y mae fy nychymyg yn fy nghymell i'w wneyd oddiwrth yr enw uchod. Yn "Mabinogi Cilhwch ag Olwen" cyfarfyddwn a'r enw HENGROEN yn cael ei grybwyll fel y canlyn:—"A Cynwyl Sant, y trydydd dyn a ddihangodd o frwydr Camlan,

[1] *Y Greal*, t. d. 240.

Digitized by Google

a'r diweddaf a ymadawodd ag Arthur, ar HENGROEN ei farch."[1] Yr oedd Cynwyl yn ei flodau tu a'r chweched ganrif: mab ydoedd i Dunawd Ffur, o Ddwywe, ferch Gwallawg ab Llëenawg, a brawd i Deiniol. Seilydd ac Abbad Bangor Fawr yn Arfon. I goffadwriaeth Cynwyl y mae dwy eglwys yn swydd Gaerfyrddin; ac Aber-y-Porth, yn Ngheredigion; a Phenrhos yn agos i Bwllheli, yn swydd Gaerynarfon, yn gyssegredig.

Yn un o'r Trïoedd, cawn y dystiolaeth ganlynol am y rhai a ddiangasant o "Gâd Gamlan:"—"Tri wyr dïanc o Gâd Gamlan a fu:—Morfran ab Tegid, rhag ei hagred; sef y tybiai pawb mai cythraul o uffern ydoedd, ac y ffoynt rhagddo:—Sandde bryd angel, rhag ei hardded, ei laned, ac ei deced; ac ni chodai neb law yn ei erbyn, gan dybied mai angel o nef ytoedd:—a Glew-lwyd Gafael-fawr, rhag ei faint ac ei gryfdwr; nad oedd a safai o'i flaen; a phawb a ffoynt rhagddo: sef namyn y tri gŵr hyny, ni ddihangodd neb o'r Gad Gamlan." Efallai mai y meddwl yw, na ddihangodd o'r gâd ddinystriol hono, namyn tri o bendefigion, neu brif swyddogion Arthur. Efallai fod Cynwyl yn y frwydr hon fel gweinidog crefyddol yn ngosgordd y penteyrn Arthur: a chan fod y brenin wedi cael ei glwyfo yn farwol yn y frwydr uchod, onid eithaf cyson a'r cyfryw syniad yw dywediad y Mabinogi, mai Cynwyl ydoedd y diweddaf i ymadael âg Arthur. Fe'm tueddir i feddwl mai enw ar y cawr nerthol "Glew-lwyd," ydyw "Hengroen" yn y Mabinogi: a'i fod ef wedi rhuthro trwy ganol y derfysg, i'r man lle yr oedd Cynwyl yn ceisio gweini cysuron crefydd i'r Penteyrn archolledig; ac wrth weled fod y Brenin mewn cyflwr anobeithiol, iddo gipio Cynwyl ar ei ysgwyddau grymus, a'i ddwyn yn ddïogel o'r maes dinystriol; am ba achos ei gelwid yn "farch Cynwyl."

Os yw y dychymyg uchod yn gywir, gallem feddwl i'r hen wron enwog fod ar ryw adeg yn cadw yr amddiffynfa hon: ac yn wir, y mae y dŷb yna yn dra chyson â'r enw cyffredin a roddir ar y lle gan werin yr ardal hyd heddyw, sef "Castell Gawr:" canys y mae yr enw "Glew-lwyd Gafael-fawr" (*The Hoary Hero with the Strong Grasp*), yn awgrymu ei fod yn un grymus o ewynau, a phenderfynol o feddwl.

Dywedir fod yma frwydr galed wedi ei hymladd rhwng Gruffydd ab Llewelyn ab Seisyllt, tywysog Gwynedd, â Harallt fab Goodwin, penllywyddwr Edward y Cyffeswr, yn agos i ganol yr unfed ganrif ar ddeg; ac er fod Gruffydd wedi bod yn dra llwyddiannus yn ei gad-gyrchiadau yn erbyn y Saeson hyd yn hyn, y mae genym seiliau i gasglu, nad ennillodd efe fawr yn y gâd ger Abergeleu; canys o'r pryd hwn y dechreuodd seren y tywysog Cymreig fachludo, hyd oni laddwyd ef yn fradychus gan ei ddeiliaid ei hun, yn y flwyddyn 1064.

Yn nheyrnasiad Gwilym y Goresgynydd, bu y llanerch yma yn gemmaes ymladdfa waedlyd arall, rhwng y Cymry a byddin gref o Normaniaid a Sacsoniaid, dan dywysiad "Huw Frâs," Iarll Caer, yr hwn a gyfenwid "Y Bleiddyn;" a dywedir i un cant ar ddeg o'r Cymry gael eu gadael yn lladdedig ar y maes.

Gallem feddwl mai tu a'r flwyddyn 1096 y bu y galanasdra hwn; canys yr ydym yn cael crybwyllion, ddarfod i Huw Frâs o Gaer, a Huw Gôch o'r Amwythig, a byddin dra grymus dan eu tywysiad, oresgyn Ynys Fon, o fewn corph y flwyddyn hono, pan yr ymddygasant at drigolion yr Ynys â chreulonderau ofnadwy, heb arbed hen nac ieuanc, llën na llëyg; ac er cadarnhau eu meddiant o'r Ynys, hwy a adeiladasant gastell Lleiniog, neu "Aber-lleianawg," yn mhlwyf Penmon, ac heb fod yn mhell oddiwrth safn yr afon Menai, lle y buasai gyfleus iddynt i anfon adgyfnerthion ac arlwy i'r gwarchod-lu, ar hyd y dwfr, os byddai angen, o Gaerlleon. Y prif achos o aflwydd y Cymry y pryd hwn fel llawer pryd arall, oedd annghydfod a bradwriaeth y pendefigion Cymreig eu hunain. Gruffydd ab Cynan oedd tywysog Gwynedd y pryd hwn; ac er i ddechreuad ei oes gyhoeddus fod yn dra chymylog, trodd yn oleuach ar ei amgylchiadau tua chanol dydd ei deyrnasiad. Efallai na byddai yn anmhrïodol i mi roddi bras-lun o hanes ei fywyd yn y fan hon, gan y teifl hyny beth goleuni ar hanes ein cenedl yn yr adeg hono.—Yr oedd efe yn fab i Cynan ab Iago ab Idwal, yr hwn oedd yn meddu hawl gyfreithlawn i orsedd Gwynedd; ond fe'i traws-feddiannwyd gan bendefig o'r enw Gruffydd ab Llewelyn ab Seissyllt; a gorfu i'r gwir etifedd, Cynan, ymddeol i'r Iwerddon, lle y ganwyd ei fab Gruffydd, ac yno y cafodd ef ei ddwyn i fynu, gyda theulu ei fam, yr hon oedd yn bendefiges o'r wlad hono. "Wedi i Gruffydd ab Llewelyn gael ei fradychu gan ei ddeiliaid ei hunan, i ddwylaw Harallt, dodwyd ei frodyr un fam, Bleddyn ab Cynfyn, a Rhiwallon, yn dywysogion Powys a Gwynedd, a hyny drwy gydsyniad Harallt, brenin y Saeson; ond yn fuan, cyfododd Meredydd ac Ithel, meibion Gruffydd ab Llewelyn, wrthryfel erŷf yn eu herbyn; ac mewn brwydr waedlyd a gymerodd le rhyngddynt, lladdwyd Rhiwallon o'r naill du, ac Ithel ab Gruffydd o'r tu arall; a gorfu ar Faredydd ffoi, a Bleddyn a'i dilynws yn dra chaled, gan ei yru i'r mynyddoedd anialaf yn Nghymru, lle y bu efe farw o newyn ac anwyd. Y frwydr uchod a ymladdwyd yn Mechain, swydd Drefaldwyn, yn y fl. 1068:"—"Yn y flwyddyn 1072, daeth Rhys ab Owain ab Edwin o Fanaw, lle y buasai ar gïl, ac a gynhullwys lu mawr o wŷr Ystrad Tywi a Brycheiniawg, a dodi câd ar faes yn erbyn Bleddyn ab Cynfyn, a'i ladd. Ond, er bod gan Fleddyn amryw feibion, ni hawliodd un o honynt yr orsedd ar y pryd hyn, ond ei gadael hi idd eu cefnder yn ddiwrthwynebiad, sef Trahaern ab Caradoc, yr hwn yn wir oedd bendefig o waedoliaeth tywysogaidd, ac yn wr call a dewrfrydig iawn; er fod amryw yn nês ettifeddion i goron Gwynedd nag ef. Erbyn hyn yr oedd yr ettifedd nesaf yn ei hawl, sef Gruffydd ab Cynan, yn dechreu codi ei ben, ac aeddfedu mewn oedran: a cheraint ei fam, yn awyddus am iddo enill meddiant o ettifeddiaeth ei dadau, a'i cynnorthwyasant â llu mawr o'r Iwerddon; ac wedi glanio o honynt yn Môn, trodd llawer o bobl yr Ynys hono o blaid eu tywysog cyfreithlawn yn ewyllysgar. Ond, fel yr oedd efe yn myned rhagddo, gan oresgyn Gwynedd, efe a gyfarfuwyd gan Trahaern ab Caradawg, a byddin gref o Gymry dan ei dywysiad: ac wedi brwydr galed, mewn lle a elwir Bron yr Erw, yn agos i Harlech, gorchfygwyd Gruffydd ab Cynan, a bu raid iddo ffoi yn ôl i'r Iwerddon. Ond, yn y blyneddoedd hyn daeth Rhŷs ab Tewdwr ab Einion ab Owen, ab Hywel Dda, ettifedd cyfreithlawn y Deheubarth, drosodd o Lydaw, lle y buasai yn neol dros haner càn mlynedd, sef er pan laddesid ei dad; a'r wlad a'i derbyniodd yn ewyllysgar; yn gymaint a bod y bobl wedi llwyr

[1] *Cymru Fu*, p. 57.

flino ar y traws-feddianwyr o deyrn-llwyth Iestyn ab Gwrgant."

Yn y flwyddyn 1080, daeth Gruffydd ab Cynan yr ail waith i Gymru, a chydag ef lu mawr o Ysgodogion y Werddon, a Rhŷs ab Tewdwr a gymerodd ei blaid yn erbyn Trahaern ab Caradog; ac wedi un o'r brwydrau mwyaf cyndyn a gwaedlyd, yn yr hon y lladdwyd dros rif o wŷr y ddwy blaid, ennillodd Gruffydd y maes, a gorsedd ei dadau, a gadawodd y traws-feddiannydd Trahaern, a'i brif gefnogwyr, Gruffydd, a Meilir, meibion Rhiwallawn ab Gwyn ab Collwyn, yn lladdedig ar y maes; ac fel hyn dychwelwyd Deheubarth a Gwynedd i feddiant eu cyfiawn ettifeddion unwaith eto. Ond, cyn iddo gael mwynhau nemawr ar ei ettifeddiaeth wedi ei henill, efe a fradychwyd gan un o'r enw Meirion Gôch, yn nghoed Rhagatt, i ddwylaw Huw Gôch a Huw Frâs, Ieirll Caerlleon a'r Amwythig, y rhai a'i dygasant i Gastell Caer, lle ei cadwyd yn garcharor am un ar bymtheg o flyneddoedd; a'r Saeson yn y cyfamser yn traws-feddiannu ei diriogaethau! O'r diwedd, efe a ryddhawyd gan un o'i ddeiliaid ffyddlawn.—Cynrig Hir o Edeyrnion, yr hwn wedi gwylio ei arfod, pan oedd swyddogion y Castell yn gloddesta, a'i cymerth ar ei gefn yn ei gadwynau; a thros rai dyddiau, efe a'i porthodd dan gêl, yn ei dŷ ei hun; ac oddiyno, efe a ddygwyd ar hyd nôs i Ynys Fôn, lle ei cynhaliwyd dros rai dyddiau, gan Sandde fab Aerc; hyd oni chafodd long i fyned drosodd i'r Werddon: ond gwynt tymhestlog a'i gyrodd i Borth Hodni, yn y Deheubarth, lle y bu mewn perygl mawr am ei fywyd. Ac o'r diwedd, wedi bod yn crwydro yn hir o lê i lê, yn cael ei hela fel carw blin gan y Normaniaid; ac yn ymguddio mewn ogofäau diffaith, efe a gyrhaeddodd Aberdaron yn Lleyn, lle y cafodd noddfa gan y Myneich yn eu crefydd-dy; ac mewn bâd rhwyf y dihangodd ef a'i ganlynwyr ffyddlawn oddiyno i'r Werddon. O'r diwedd, wedi amryw ymdrechion caledion, efe a adenillodd arglwyddiaeth Gwynedd yn drwyadl; a bu fyw, hyd nes oedd wedi cyrhaedd yr oedran teg o bedwar ugain a dwy flwydd; a'r gyfran olaf o'i deyrnasiad ydoedd yn heddychlawn a llwyddiannus, fel ein hysbysir gan hên Fynach Cymreig a ysgrifenodd ei fuchedd:—"A gwedi hyny y gwladychws Gruffydd lawer o flyneddoedd yn hyrwydd gywaethoc, gan arafwch a heddwch; ac yn arfer o gymydogaeth y breninoedd nesaf iddo yn gyfun; nid amgen Henri, frenin Lloegr, a Mwrchath, frenin Iwerddon, a brenin Ynysoedd Denmarc, a hannoeit amlwg fu; ac yn y teyrnasoedd pell iwrthaw, ac yn y rhai agos iddaw: ac oddiyno yr amlhaws pob cyfryw dda yn Ngwynedd; ac y dechreuasant y ciwdawtwyr adeilat eglwysseu, yn mhob cyfeir ynddi, a hau coedydd, ac eu planu; a gwneuthur perllaneu murddin ac ymborth, o ffrwythau y ddaear o ddefawt gwŷr Rhufain," &c. Y mae un amgylchiad neillduol yn deilwng o'i goffau yn y fan hon, gan fod yn debyg iddo feddu dylanwad mawr er cadarnhau Gruffydd ab Cynan yn ei lywodraeth dros y rhan olaf o'i einioes.—Tra fu Iarll Caer, a Iarll y Mwythig yn nghastell Aberllïenawg yn Môn, wedi y frwydr gerllaw Tan-yr-ogof, yn y plwyf hwn, lle y lladdwyd un cant ar ddeg o'r Cymry, y rhai a'u gwrthsafent yn y bwlch hwnw, arferasant y creulonderau mwyaf anwar at y trigolion; gan osod crogbrenau ar fryn uchel oddiar eu castell, yr hwn o'r herwydd, a elwir "Marian y Crogwydd" hyd heddyw, lle y rhoddent i farwolaeth bwy bynag o'r Ynyswyr a ddrwg-dybid o fod yn deyrngarol i'w pennadur cyfiawn: ac nid arbedent, hyd yn nod y gwŷr llên, canys yr ydym yn cael hanes neillduol am eu creulonderau dihafal at un offeiriad yn y fan hon. Ond ymddangosodd Magnus, brenin Llychlyn, gyda llynges gref, ar oror Ynys Fôn, ar y bwriad o ddïal sarhadau Gruffydd; ac fel yr oedd efe yn hwylio i fewn i afon y Menai, yr Ieirll a ymfyddinent er attal ei laniad: a bu brwydr daer ar lan yr afon, goris y castell dywededig, yn yr hon yr ydoedd Huw Gôch, Iarll y Mwythig, ar ei farch, yn llwyr orchuddiedig oddieithr ei lygaid, gan ei arf-wisg: ond Magnus, yr hwn oedd yn un o saethyddion enwocaf ei oes, gan sefyll ar ben blaen ei long, a'i hergydiodd yn ei lygad, fel y syrthiodd efe yn farw yn y fan. Credodd y Cymry fod cyfryngiad goruwch-naturiol yn y trô, er eu gwaredu oddiwrth un o'u prif orthrymwyr: ac ymroddent yn y canlyniad yn fwy penderfynol i lynu wrth eu tywysog cyfiawn.

Y cyfnod pwysig nesaf yn ein hanes genedlaethol a ddygir dan ein sylw drwy olion yn y gymydogaeth hon, yw y gwrthsafiad dewrwych a wnaed gan Owain Gwynedd, i gad-gyrchiadau Harri yr Ail.—Owain Gwynedd ydoedd fab henaf Gruffydd ab Cynan, o Anngharad, ferch Owain ab Edwyn, o Degeingl. Amlygodd y tywysog hwn lawer o wrhydri cyn marw ei dad, yn enwedig yn un o'i gad-gyrchoedd i'r Deheubarth, er cynnorthwyo ei gâr Gruffydd ab Rhŷs, i adenill ei diriogaethau yn Ngheredigion, oddiar y Normaniaid a'r Fflandrwysiaid; yr hwn gad-gyrchiad a fu yn llwyddianus dros ben: ac er coffadwriaeth ddïolchgar am hyny, gwnaeth Gruffydd ab Rhŷs wledd odidog, yn Ystrad Tywi;—"lle y gwahoddes attaw bawb a ddeuent yn heddwch, o Wynedd, a Phowys, a Deheubarth, a Morganwg, a'r Mers: a pharottoi pob moethus o fwydydd a dïodydd; a phob ymryson doethineb; a phob diddanwch cerdd arwest a cherdd dannau; a chroesawi prydyddion a cherddorion; a chynal pob chwareuon hûd a lledrith; a phob arddangos; a phob campau gwrolion. Ac i'r wledd hono y daeth Gruffydd ab Cynan, a'i feibion; a llawer o'r pendefigion yn mhob ardal yn Nghymru; a chynal y wledd dros ddeugain niwrnod: ac yna, gollwng pawb tu a'u cartrefi; a dodi rhoddion anrhydeddus i a'u dirperynt, o feirdd, a cherddorion, a doethion, a champusion o bob rhyw."

Yn y flwyddyn 1136, neu 1137, bu farw Gruffydd ab Cynan, wedi cyrhaedd ei ddwy flwydd a phedwar ugain oed, a bod yn bennadur Gwynedd, oddeutu haner càn mlynedd; a'i fab Owain, a gyfenwid "Owain Gwynedd," a ddaeth i'r llywodraeth yn ei le ef.

Tu a'r flwyddyn 1148, llwyddodd Ranwlff, Iarll Caerlleon, i berswadio Madawc ab Meredydd, tywysog Powys, i ymuno âg ef, er blino Owain, a cheisio ei ddarostwng; a dechreuasant ymosod ar ei diriogaethau. Ond nid oedd Owain yn wr a ganiattai i'w elynion gael mantais ar ei segurdod ef; ac am hyny, efe a'u cyfarfu mewn lle a elwir Cwnsyllt, yn agos i Fflint; ac fel yr oedd byddin ei elynion yn lluosocach na'r eiddo ef, ac yn meddu gwell arfogaeth hefyd, efe a gafodd waith caled y diwrnod hwnw; ond, efe a'u gorchfygodd o'r diwedd mor drwyadl, fel y darfu iddynt daflu eu harfau o'u dwylaw, er bod yn ysgafnach i ffoi: ond y Cymry a'u hymlidiasant mor bybyr, fel na ddihangodd o honynt, i adrodd chwedl eu trychineb, ond y rhai a gymerwyd

Digitized by Google

y.a garcharorion, a'u swyddogion, y rhai a achubasant e.i hunain trwy gyflymder eu meirch.

O'r diwedd, gwelodd Harri yr Ail, brenin Lloegr, yr hwn oedd yn bennadur tra galluog, egnïol, ac uchel-frydig, fod Owain yn dywysog mor ddewr-fryd a galluog, fel ag yr oedd yn deilwng iddo roddi ei holl ymadferthion ar waith i geisio ei ddarostwng: ac er y cwbl, buasai y gorchwyl ar y calettaf iddo, pe buasai y Cymry yn fwy difrad i'w gilydd; ond, fel yr oedd yn waethaf, yr oedd Cadwaladr, brawd Owain: a'i gâr, Madog ab Meredydd, tywysog Powys, yn eiddigeddus o'i lwyddiant a'i boblogrwydd ef; ac felly yn fradwrus, hwy a annogent y brenin Harri i ymosod ar Wynedd, gan addaw ei gyfnerthu: ac yn y flwyddyn 1157, Harri a gynnullodd lu mawr iawn o filwyr, a llynges gref dros ben, gan fwriadu llwyr ddarostwng Gwynedd; ac mor benderfynol oedd efe y byddai yn llwyddianus yn ei gad-gyrch-iad hwn, fel yr ychwanegodd ef y drydedd ran at ei fyddin flaenorol; ac arweiniodd y llu mawr yma hyd Forfa Caer, lle ei gwersyllodd, o fewn tua milldir i'r dref. Ac Owain Gwynedd, yn ol ei ddewrder arfer-ol, yn lle ymostwng i geisio ei heddwch ar ammodau annheilwng; neu gilio o'i gyrhaedd, i gilfachau anhygyrch yr Eryri, a gadael y rhan frasaf o'i dir-iogaethau yn ysglyfaeth iddo,—a brysurodd i arwain ei fyddin i'w gyfarfod, ac a ymwersyllodd ar y Maes Glâs, yn agos i Dreffynnon; gan amcanu dysgwyl yn y fan hono am ddynesâd y fyddin Seis'nig. Pan glybu y brenin hyny, efe a ddetholodd y goreuon o'i filwyr, a chan eu rhoddi dan lywyddiaeth rhai o'i brif arglwyddi, efe a'u hanfonodd i wneyd eu goreu er tynu Owain o'i wersyllfan yn y Maes Glâs, tra yr arweiniai y brenin ei hun, gorph mawr ei fyddin gyda glan yr afon, gan obeithio y gallai felly fyned o'r tu cefn i Owain, a thori rhyngddo a'i wlad ei hun, a'i adnoddion: ond, erbyn i'r flaen-fyddin Seis'nig gyrhaedd i'r lle a elwir "Coed Eflo," rhwng Pen yr halawg a'r Wyddgrug, fe'u cyfarfuwyd gan Dafydd a Chynan, meibion Owain; a than eu tywysiad, ni-fer o wyr dewisol, y rhai a wnaethant y fath ym-osodiad pybyr ar y Saeson, fel y bu raid iddynt gilio yn ol i'w hen wersyllfa ar y Morfa, wedi eu colledu yn ddirfawr, a'u brawychu dros fesur, gan wrhydri milwraidd eu gelynion.

Wedi i'r brenin gael hamdden i ail drefnu ei fyddin, a chael lle i feddwl fod gwŷr Owain wedi dychwelyd i'r gwersyll ar y Maes Glâs, efe a ym-symudodd yn ochelgar gyda glan yr afon hyd at Flint, ac yna, cyfeiriai ar hyd Nant y Flint, tua Mynydd Helygain; gan amcanu trwy yr ystryw yma eto, gael y fantais ar y tywysog Cymreig, a chan ei adael ar ei law ddehau, dreiddio i'r berfedd-wlad ar hyd ffordd ferach: ond, tra yr oedd y fyddin freninol yn y Nant ddywededig, rhuthrai gwŷr Owain arnynt mor annysgwyliadwy, fel eu llanwyd â dychryn annrhaethadwy; a'r prif lumanwr, Henry de Essex, yr hwn a gyfrifid yn filwr gwŷch, a daflodd y lluman breninol o'i law, gan floeddio yn frawychus, bod y brenin wedi ei ladd; a thrwy ymdrechion dirfawr y llwyddodd y brenin i gadw ei fyddin rhag cael gorthrechiad llwyr yn y cyfwng yma, gan godi ei helm, a dangos ei wyneb i'w wŷr, er eu hargy-hoeddi ei fod yn fyw, ac yn ddianaf; ac o'r diwedd, efe a lwyddodd i grynhoi ei filwyr allan o'r coed, i lanerch agored, yr hon oedd gerllaw Cwnsyllt, fel y bernir; ac efe a wersyllodd yno dros amser, i ail drefnu ei fyddin, o'r hyn y mae côf hyd heddyw, yn yr enw "y Gadlys," yn mhlwyf Llaneurgain. Yn yr ysgarmes hon, collodd y brenin amryw o'i brif swyddogion, megys Eustace Fitz-John, a Robert de Cowrcey, &c.

Yr anffodau blaenorol a gythruddent ysbryd y brenin yn ddirfawr, a theimlai ei hunan yn rhwym i ddarostwng y fath elyn âg Owain, er unrhyw draul; felly, efe a ranodd ei fyddin yn ddau lu, gan ben-derfynu, os oedd bossibl, amgylchynu Owain yn ei wersyll, a'i orfodi i ymladd â holl gadernid Lloegr, dan yr anfantais fwyaf: ond Owain, gan ddirnad ei ystryw, a symudodd ei fyddin ar frŷs, i le a elwir "Cil Owain," er cof am y tro, yn nghymydogaeth Llanelwy; ac wedi gwersyllu yno dros ryw yspaid, pan y deallodd fod y brenin wedi cyrhaedd Rhuddlan, ac yn ymroddi i adgyweirio y castell, a chadarnhau ei amddiffynfeydd, gan grynhoi llynges gref, a byddin luosog yno, yr hyn a argyhoeddai Owain, o bender-fyniad y brenin i'w lwyr lethu, a goresgyn ei wlad, y tywysog Cymreig a symudodd ei wersyll i "Lwyn Tal y Pinau," neu, fel ei gelwir yn bresenol, "Bryn y Pin," a threfnodd ei wersyll yn ddoeth, mewn sefyllfa hynod o gadarn, sef "Pen Parc y Meirch," yn agos i'r dref hon Abergeley, lle y gwelir olion ei wersyll hyd heddyw. Yr oedd yr orsaf yma yn un dra manteisiol i Owain ar lawer o gyfrifon; gan y meddai y fantais oreu i wylio ar holl ysgogiadau y fyddin a'r llynges freninol, o bellder priodol oddi wrthynt, fel ag i roddi hamdden gwerthfawr iddo i wrthweithio y naill neu y llall. Hefyd, yr oedd yma le manteisiol iddo i gadw cymundeb agored a'i wlad ei hunan; ac i ddefnyddio unrhyw fantais i ddrygu byddin y brenin, gan ruthro arno yn y bylchau cyfyng, os cynnygiai ymwthio yn mhellach i'w diriogaethau ef.

Tra yr oedd Owain a'i wŷr yn aros yn yr orsaf hon, a'r brenin a'i fyddin yn Rhuddlan, gorchymynodd Harri i'r llynges gref a ddarparasai, hwylio tuag Ynys Fôn, o dan lywyddiaeth Madoc ap Meredydd, tywysog Powys; ac y mae yn debyg i'r brenin ei hunan arwain ei fyddin gyda glan y môr, fel pe y buasai am gydweithio a'i lynges; gan farnu y buasai hyny yn attal Owain i anfon cyfnerthiad i'w wŷr yn Môn, ac mai ar yr achlysur yma y bu y frwydr waedlyd yn Mwlch Tan yr Ogof, yn yr hon y dywedir i Owain orchfygu byddin y brenin, a'i gyru yn ol, wedi lladd llawer o'i wyr. Yn y cyfamser, cyr-haeddai Madoc ab Meredydd, gyd a'i lynges gref i gul-for y Menai, ac wedi cyrhaedd yn agos i Aber-menai, efe a laniodd ei wŷr, y rhai a ddechreuasant anrheithio y wlad yn nghyfeiriad Rhosfair (Niw-bwrch), lle yr oedd llŷs gan y tywysog Owain: a hwy a yspeiliasant eglwysi Mair a Phedr, y rhai oeddynt yn y dref hono y pryd hwnw, yn nghyd ag amryw eglwysi eraill yn y cyffiniau hyny: ond, ni buant yn hir cyn derbyn taledigaeth gyfiawn; canys erbyn tranoeth yr oedd meibion Owain Gwynedd wedi cyrhaedd yno, a gwŷr yr Ynys wedi ymgrynhoi yn arfogion dan luman eu tywysog; ac yna dodwyd cád ar faes yn erbyn gwŷr y brenin Harri, a bu brwydr galed iawn yn agos i Dal y foel; ond yn y diwedd, y Cymry a orthrechasant eu gelynion yn drwyadl, fel na ddiangodd o'r estroniaid ond yr ychydig a allasant gyrhaedd eu llongau a hwylio ymaith. Lladdwyd llawer o swyddogion y fyddin Seis'nig yn y frwydr hon; a diau na ddiangodd y Cymry heb golledion trymion yn y fath frwydr: canys rhaid fod yr ymdrech yn dra ffyrnig, yn enw-

Digitized by Google

edig tua glan yr afon, pan oedd y Saeson yn ceisio myned i'w llongau, ac yn eu hamddiffyn eu hunain a'u llestri, tra yn ymbarottoi i hwylio ymaith; canys dywaid Bardd oedd yn un o brif swyddogion y Cymry, yn ei ddarluniad o'r frwydr,—fod y Menai yn goch gan waed; ac er mai gormodiaith farddonol a arferai, pan y dywedai fod y trai yn attaliedig gan faint y gwaed-ffrwd, y mae yn rhaid mai nid galanastr fechan a barai i'r fath lynges gadarn, ddychwelyd yn orthrechedig at y brenin, nac a gyfiawnhai waith y bardd yn arfer y fath ormodiaith i'w ddarlunio. A ganlyn ydyw y cyfansoddiad barddonol y cyfeirir atto; a'i awdwr ydoedd un o brif swyddogion milwraidd Owain Gwynedd, sef Gwalchmai ab Meilir, o Drefeilir a Threfwalchmai, yn Môn:—

"Aerdwyreaf hael o hil Rodri
Ardwyad gorwlad, gwerlin teithi,
Teithiawg Prydain,
Twyth arfdwyth[1] Owain,
Teyrnain ni grain,
Ni grawn rëi.

"Teir lleng y daethant liant lestri,
Teir praff brif lynges wybres brofi
Un o'r Iwerddon
Arall arfogion,
O'r Llychlynigion,
Llwrw hirion lli.

"A'r drydedd dros fôr, o Norddmandi,
Ar drafferth anferth, anfad iddi,
A draig Môn mor ei eisillydd yn aer,
A bu terfysg taer i haer holi;
A rhagddaw rhewys dwys dyfysci,
A rhewin, a thrin, a thranc Cymri;
A'r gâd gâd greuddc,
A'r gryd gryd graenddo
Ac am Dal Moelfre
Mil fanieri.

"A'r ladd ladd lachar, ar bar beri
A ffwyr ffwyr ffyrfgawdd ar ffawdd foddi,
A Menai heb drai, o dra llanw gwaedryar
A lliw gwyar gwŷr yn heli;
A llurygawr glâs, a gloes trychni,
A thrychion yn nhud rhag rheidrudd ri,
A dygyfor Lloegr, a dygyfranc a hi,
Ag ei dygyfwrw yn astrusi,
A dygyfod clod cleddyf difri
Yn saith ugain iaith wy faith foli."

Gellid rhoddi arall-eiriad rhwydd fel y canlyn, o'r Awdl uchod, mewn cynghanedd gyffredin, ac iaith ddiweddar; a hyderwn na bydd yn flin gan ein darllenwyr:—

"Clodforaf wron haelfri,
O eppil Rhodri Fawr;
Prif amddiffynydd Gwynedd,
A'n hurddasolaf gawr,
Gogoniant Ynys Prydain,
Yw Owain wiw ei waith;—
Ni phlŷg i'w alon enbyd;—
Ni erbyd olud chwaith.

"Tair lleng mewn llongau hirion,
Yn ëon ar y lli;—
Tair llynges arfog ddaethant,
Rhuthrasant arnom ni:—
Un o'r Iwerddon ddaethai,
A'r llall a hwyliai 'n hir,
I Fenai o Fôr Llychlyn,
Er dychryn yn ein tir.

"Y drydedd ddygwyd yma
Dros Fôr Normania draw;—
Ei châd-gyrch blin ni lwyddodd,
Dychwelodd,—mwy ni ddaw.
Mewn aerfa flin, mor ddewrion,
Caed meibion Arglwydd Môn!
Am eu gorchestion grymus,
Trwy 'r ynys y mae sôn.

"Y gâd yn wir fu greulon
Ymryson gwŷr mewn gwaed;
Banerwyr fil ar Foel-fro,
Yn bloeddio'n erch a gaed.
Pentyrid gwŷr lladdedig
Trwy 'r ffyrnig ymgyrch hon;
Torfeydd i'r dwfr ymlidiwyd,
Fe'u claddwyd dan y don.

"Hen Fenai a annghofiai
Bryd trai, gan lif-waed gwŷr;
A'i hwyneb glâs a wridai,
Ardystiai ddwyster cûr:
Ein dewr Deyrn welwai ddewrion
Arfogion Lloegr, a'r llu
O'i flaen fel mwlwg chwelid,
Mewn ing a gofid du.

"Am ymgyrch Lloegr i'n bröydd,
A'i haflwydd, mwy bydd sôn;
A dewr orchestion Owain
Ar lenydd mirain Môn;
Yn tori danedd gwaed-gwn;
Dyroddwn fanllef gref.
Mewn saith ugein-iaith sonir
Am hyn;—a molir ef."

Wedi y fuddugoliaeth ysplenydd uchod, gallwn farnu i Owain ddychwelyd ar frŷs at y fyddin a adawsai efe tua Phen parc y meirch, lle y derbynid y gwron gyda banllefau o groesawiad mor galonog, na's gwyr namyn Cymry pa fodd i'w rhoddi, nes oedd creigiau Cegidog ac Abergeley yn diaspedain, ac yn gwrthdaflu y banllefau fel ergydion magnelau, ar glustiau rhag-wylwyr y brenin; a dychweliad y gweddill o'i lynges anrheithiedig i'r Foryd, a chwanegai y sicrwydd galaethus iddo, fod Owain wedi ei lwyr orthrechu unwaith eto. Yn y canlyniad i hyn, efe a gynnygiodd ymheddychu â'r tywysog Cymreig ar yr amod fod Cadwaladr, brawd Owain, i gael ei adferu i'w ffafr, ac ail feddianu ei ettifeddiaethau; ac wedi cadarnhau cestyll Rhuddlan a'r Maes Glâs, a chyfleu gwarchod-luoedd cryfion ynddynt, efe a ddychwelodd i'w wlad ei hunan; gan fostio o lwyddiant ei gad-gyrchiad, fel y gallwn gasglu oddiwrth ryw ddywediadau o'r eiddo Matthew Paris; eto, yn ddiamheuol yn teimlo yn ddwys mai aflwyddiannus hollol a fuasai; ac y mae yn anhawdd credu na byddai aml bangfa flin yn myned trwy ei fynwes, wrth adgofio am lewod Gwynedd; ac yn wir efe a ddug dystiolaeth dra anrhydeddus i wroldeb dihafal y Cymry yn fuan ar ol hyn, pan yn ysgrifenu at yr Amherawdwr Groegaidd, *Emmanuel Commenus.* Fel hyn y dywedai:—"Nid arswyda y Cymry ymladd yn anarfog, â gelynion mewn cyflawn arfogaeth, gan dywallt eu gwaed yn ewyllysgar yn achos eu gwlad, a phwrcasu gogoniant ar draul eu heinioes."—*Lord Lyttleton's History of Henry II.*

Canfyddwyd yn achlysurol fŵn plwm, efydd, al-

[1] Neu, *afrdwyth.*

can (*tin*), a chlaerwydrai (*manganese*), yn y plwyf hwn; a gwnaed amryw ymdrechion, ond heb gael eu dilyn a llwyddiant cyfattebol, i ddarganfod gwythienau digon cryfion i dalu i'r anturiaethwyr am eu gweithio. Y mae cyflawnder o greigiau calch, o ansawdd ragorol, yn y fynydd-res brydferth sydd ar y tu deheuol i'r dref, ac o bryd i bryd y mae cannoedd lawer o ddynion wedi bod yn cloddio cerryg calch yma, ac yn ei anfon mewn llongau i Liverpool a pharthau eraill o'r deyrnas, cyn agor y rheil-ffordd drwodd yma.

O fewn llai na dwy filldir i'r gorllewin o'r dref, y mae Cefn Ogof, sef calch-graig uchel a serth, yn yr hon y mae amryw ogofeydd; ac yn enwedig un o'r rhai naturiol ehangaf a mawr-wychaf yn Ewrob. Y mae yn lled uchel yn wyneb y graig, yn wynebu yn gymhwys i'r môr. Y mae y fynedfa iddi dan fath o fwa uchel, a thra rheolaidd, wyth droedfedd a deugain o uchder. Yn fuan wedi yr eler i fewn iddi, ymgyfyd colofn-graig uchel, yr hon a ymddengys yn debyg i golofn nâdd led annghelfydd, gan yr hon y rhenir yr ogof megys yn ddwy ystafell: y mae yr encilfa ar yr aswy yn terfynu yn lled fuan, ond yr un ar y llaw ddehau sydd yn ymagor i ystafell ehang, deg troedfedd ar hugain o uchder, a mynedfa o honi na's gwyddys pa mor bell, i ymysgaroedd y mynydd. Ychydig flyneddoedd yn ol, yr oedd ystlysau a nen yr ogof ryfedd hon wedi eu boglynu a dibgolfain crogedig prydferth, yn amryw droedfeddi o hyd, wedi eu cyfrestru ar bob ystlys, yn y drefn ymddangosiadol berffeithiaf, fel pibellau organ, ac yn adlewyrchu y cyfliwiau perlawg mwyaf dysglaer; ond y mae yr ymwelwyr lluosog a'i mynychent yn y blyneddoedd diweddar, wedi ei hysbeilio o'r cyfryw addurniadau.

Bryn-ffanigl, yn y plwyf hwn, oedd trigle Marchudd ab Cynan, pen un o bymtheg llwyth pendefigaidd Gwynedd, yr hwn oedd yn cydoesi a Rhodri Fawr; ac yma wedi hyny y bu un o'i ddisgynyddion, yr enwog Ednyfed Fychan, maes-lywydd, a phrif weinidog Llewelyn ab Iorwerth, yn cyfaneddu. Y mae amryw o deuluoedd parchus Gwynedd yn hanu o'r hen gŷff pendefigaidd hwn, megys Wyniaid Dyffryn Aled, a Throfarth; Ffoulkiaid yr Erivied, Jones ac Ellis, o Gwernaffield, Llwydiaid y Wyddgrug, a Roberts o'r Gwysaney; ac yn llinell Ednyfed Fychan, yr oedd y brenin Harri y Seithfed yn hanu, Oweniaid Pen mynydd, teuluoedd y Williamsiaid, o Cochwillan, y Penrhyn, Ystum Colwyn, y Faenol, y Wig, y Bryn-mor, y Marl, Meillionydd, yr Eirianws; Gruffydd y Plas Newydd yn Môn, Blocksame, a Nannerch, Porth yr aur, Caerynarfon; Roberts, Tref Castell; Morgans, Golden Grove; Llwydiaid o Ginmael a Llanferrers, &c.

Cynhelir marchnad Abergeley ar ddydd Sadwrn, a cheir ynddi gyflawnder o ŷd, a phob arlwyon ymborth; a'i ffeiriau, y rhai oeddynt yn enwog gynt am werthiad anifeiliaid, a gynhelir yn flynneddol ar Chwef. 12, Ebrill 2, Noswyl y Dyrchafael, Mehefin 18, Awst 20, Hyd. 9, a Rhag. 6.

Y fywioliaeth sydd Ficeriaeth yn Archddiaconiaeth ac Esgobaeth Llanelwy, ac yn noddogaeth Esgob Llanelwy. Yr eglwys, yr hon sydd gyssegredig i St. Mihangel, sydd adeilad isel a hir, heb nemawr wychder yn perthyn iddi, a thŵr petryal, lled uchel ar ei phen gorllewinol. Y mae yma leoedd addoliad cyfleus, yn perthyn i'r Annibynwyr, y Bedyddwyr, a'r Trefnyddion Calfinaidd a Wesleyaidd. Perthyna i'r plwyf ryw gymaint o arian, a adawwyd tuag at roddi addysg râd i blant tlodion, ac at ranu elusenau i dlodion y plwyf.

Ymddengys fod un o'r enw Lewis Anwyl yn Ficer y plwyf hwn, o'r flwyddyn 1742 hyd 1777. Gwr nwyfus a llawen oedd efe, tra hoff o gwmni ac oferedd; ac fe'i cyfrifid yn fardd lled barod ei awen. Bu yn hir yn cyfeillachu â merch y Tyddyn Uchaf ger y dref hon, lle y mae ystafell yn myned eto dan yr enw "Llofft Gwen." Yn ystod y garwriaeth, gwnaeth Lewis Anwyl gân i Gwen, yr hon wedi hyny a gyhoeddwyd, ac a fu yn hynod boblogaidd yn mysg gwerin y Dywysogaeth; a chan fod mesur o gywreinrwydd yn y cyfansoddiad, fe'i dodir yma.

"Cathal y Gair Mwys.

"Hi aeth f' Anwylyd yn G'lan gaua
Ti wyddost wrth y rhew a'r eira;
D'wed i mi yn ddi gyfrinach,
Pa'm na wisgi *Lewis* bellach?

"Gwelais gan-waith, *lewis* gwynion,
Gan gyffredin a bon'ddigion;
Am dy weled mi rown fawr-bris,
Yn dda dy lê, yn *ddû* dy *Lewis*.

"Arferol i bob merch a welis,
Am eu breichiau wisgo *llewis;*
I'r gwrthwyneb dyro dithau,
Am dy *Lewis* gwisg dy freichiau.

"Rhai ro'nt *lewis* am eu breichiau,
Rhai ro'nt *lewis* wrth eu cefnau;
Cymer ffasiwn newydd Gwen-fron,
Dyro *Lewis* wrth dy ddwy-fron.

"Gwelais lawer merch na rusai,
Yn ei *llewis* blanu pinau;
Tithau aethost yn fwy dibris,
Saethau blenaist yn dy *Lewis*.

"Oer yw 'r ty heb dân y Gaua
Oer yw 'r cenllysg, oer yw 'r eira,
Oer yw 'r hin pan fo hi 'n rhewi,
Oer yw merch heb *Lewis* ganddi.

"Bydd di fwyn a rhwydd dy galon,
Paid ag edrych arnai 'n ddigllon;
Rhag ofn dyfod angau dibris,
Ac ymaflyd yn dy *Lewis*.

"Mae dy siwt ei gyd yn gryno,
Ond un peth sydd eisiau eto;
Nid yw hyn ei gyd mor llawer,
Ond dwy lath o *Lewis* ofer.

"Ar dy *Lewis* pe cait gynnyg,
Gwn y gwerthit am ychydig;
Pe bait unwaith wedi ymarfer,
Ni chym'rit am dy *Lewis* lawer.

Yn y dref hon y bu yr hybarch Thomas Lloyd, yn gweinidogaethu gyd a'r Trefnyddion Calfinaidd, ac yn cadw ysgol barchus, dros tua haner can mlynedd; a thrwy ei lafur dyfal a diflin, trowyd allan oddi tan ei addysgiaeth, gannoedd o ysgolorion tra rhagorol, llawer o ba rai ydynt eto yn troi mewn cylchoedd pwysig, ac yn llanw sefyllfeydd anrhydeddus, yn ngwahanol siroedd Gwynedd, a threfydd Lloegr. Er na theithiodd Mr. Lloyd nemawr o'i wlad ei hun i bregethu, nid oedd neb yn fwy cyson a diwyd gyda holl gylchoedd crefydd yn ei gartref, nag oedd ef. Y mae yn debyg na welwyd neb o fewn Abergeley mwy diargyhoedd a duwiol-frydig na Mr. Lloyd; na neb a

Digitized by Google

fu o gymaint o wasanaeth i achos gwir grefydd yn y lle. Brodor ydoedd o blwyf y Gyffylliog, tua phum milldir o Ruthin, lle ei ganwyd yn y flwyddyn 1776. Cafodd fanteision addysg rhagorach nag a roddid i feehgyn cyffredin o'r un gradd ag ef yn y dyddiau hyny; gan fod ei rieni, debygid, yn bwriadu iddo dderbyn urddau eglwysig; ond efe a ymlynai wrth y Trefnyddion Calfinaidd, y rhai oeddynt y pryd hyny yn waradwyddedig ac erlidiedig; a chafodd yntau ei gyfran yn helaeth o'u gwarth a'u herlidigaeth. Pan oedd yn ddeunaw mlwydd oed, tueddwyd ei feddwl at gadw ysgol yn hytrach na dim arall; ac efe a ddechreuodd ar y gorchwyl hwnw yn Llansant-Sior, o fewn dwy filldir i Abergeley, lle y bu dros bum mlynedd; ac oddiyno, efe a symudodd i'r dref, lle y treuliodd y gweddill o'i oes, a bu ei lafur cyson, a'i rodiad sanctaidd yn dra gwasanaethgar i beri i Drefnyddiaeth Galfinaidd enill dylanwad mawr yn Abergeley. Y mae gan yr Annibynwyr Seis'nig addolfa hardd iawn yn dref hon; ac yn lled ddiweddar, cyfodwyd addolfa hardd, a chostus gan y Trefnyddion Calfinaidd, gerllaw y dref, yn nglŷn a pha un y mae claddfa ehang a chyfleus.

Yn lled agos i'r dref hon, y mae Castell Gwrŷch, yr hwn sydd yn un o'r adeiladau harddaf yn y Dywysogaeth, ac y mae yr adeilad hardd, yn nghyd a'r gerddi a'r planfeydd tlysion a berthynant iddo, yn tynu sylw, ac yn cynnyrchu edmygedd y miloedd a deithiant heibio yma yn barhaus, gyd a'r rheilffordd, neu ar hyd yr hen brif-ffordd, o Gaerlleon i Gaergybi.

Ar yr 20fed dydd o fis Awst, 1868, cymerodd damwain ofnadwy le yn agos i'r dref hon, trwy yr hyn y gwnaed enw Abergeley yn hysbys trwy yr holl fŷd gwareiddiedig. Ar y diwrnod crybwylledig daeth cerbyd-res gyflym yr *Irish Mail*, i wrthdarawiad â nifer o dryciau wedi eu llanw âg olew hylosg y *petroleum*, rhwng gorsaf Abergeley â gorsaf Llanddulas; a'r canlyniad fu i ffrwydriad, ac ymlosgiad ofnadwy gymeryd lle mor ddisymwth, fel y collodd tuag un ar ddeg ar hugain eu bywyd yn y fan; a'u cyrph wedi eu llosgi mor drwyadl fel nad oedd fodd gwahaniaethau y naill oddiwrth y llall. Yn eu mysg yr ydoedd Arglwydd ac Arglwyddes Farnham; y Parch. Syr Nicholas Chinnery, Bar., a'i bendefiges; y Barnwr Berwick; y Milwriad Edwards ac eraill, o fonedd a bri, heblaw rhai canol-radd, a gwasanaethyddion. Yr oedd y trychineb mor ddisymwth ac arswydus, fel y taflwyd yr holl deyrnas i fraw a syndigaeth. Wedi casglu hyny a ellid o'r gweddillion yn nghyd, a'u dodi mewn eirch, cynhaliwyd trengholiad ar y trancedigion, o flaen Dr. Pierce, Dinbach, y corph-ynad, yn cael ei gynnorthwyo gan Mr. Ellis Eyton, Flint; ac yna fe'u claddwyd yn mynwent Abergeley, gerllaw y llannerch lle y claddesid amryw a gollasent eu bywyd ar yr achlysur o losgiad yr "Ocean Monarch," ar gyfer y lle hwn, rai blynyddoedd o'r blaen.

**ABERGWAUN,**—tref farchnad, a phlwyf, yn nghantref Cemmaes, swydd Benfro, Deheudir Cymru; 16 milldir i'r gogledd o Hwlffordd; 26 milldir i'r gogledd o Benfro; a 249 milldir i'r gorllewin wrth ogledd o Lundain. Cafodd ei henw Cymreig oddiwrth ei sefyllfa yn agos i enau, neu aber yr afon "Gwaun," neu "Gwain." Y mae yma long-borth ehang, yn mesur 2400 troedfedd o hŷd, wrth 1160 tr. o lêd. Hwn yw yr unig long-borth o'r Mersey i'r Hafren, i'r hwn y mae mynedfa ehang a dïogel, heb ei attal na'i beryglu gan draethau symudol; a dywedai y peiriannydd enwog Mr. Rennie y buasai môr-fur o werth tua phedwar ugain mil o bunnau, yn ei wneyd y mwyaf dïogel a chyfleus yn yr holl gyffiniau hyn.

Y mae y dref yn gynwysedig o ddwy ran, a elwir "Yr Uchaf," a'r "Isaf." Y gyntaf sydd yn gorwedd gryn uchder oddi ar y llong-borth; ac ynddi y mae yr eglwys, y farchnadfa, a'r masnachdai penaf; a'r rhan isaf sydd yn perthyn yn naturiol i'r porthladd, ac yn gorwedd ar yr ochr ddwyreiniol i'r afon, dros yr hon y mae pont faen o bum bwa. Y mae yma angorfa ddâ, i longau o'r maintioli mwyaf, lle y gallant fod yn eithaf dïogel oddiwrth ystormydd o bob cyfeiriad, oddieithr y gogledd a'r gogledd-ddwyrain. Y mae yr angorfa tua thair milldir o hŷd, o ddwyrain i orllewin, a milldir a thri chwarter, o ogledd i ddehau, ac yn amrywio yn nyfnder y dwfr, o ddeg troedfedd ar hugain, i ddeg a thriugain.

Y mae y tiroedd cymmydogaethol wedi eu hammaethu yn dda, ac ar y cyfan yn dra chynnyrchiol, a'r golygfeydd cylchynol, yn amrywiol a phrydferth; ac y mae ei hinsawdd yn hynod o iachus, fel y gwelir oddiwrth hir-hoedledd y trigolion yn gyffredinol, yn yr hyn y dywedir fod y dref hon yn rhagori ar bob tref arall yn y Deyrnas Gyfunol, o gyffelyb faintioli.

Er yr holl fanteision lleol a berthynant i Abergwaun, ehangder ei phorthladd, a rhagoroldeb ei hangorfa, nid yw ei thrafnidiaeth ond bychan: y mae yn gynnwysedig yn benaf, mewn allforiad ŷd ac ymenyn, i Bristol a Liverpool; a dygiad i fewn nwyddau siopau, glô, a chwlm, o Aber-daugleddyf, Abertawe, y Câs Newydd, a Chaerdydd, yn nghyda cherrig calch, a choed. Y mae cyflawnder o lechi, o ansawdd led dda yn y gymmydogaeth; a darganfuwyd gwythieni o blwm yn y plwyf, ond nid yn y fath gyflawnder, nac o'r fath ansawdd, ag i dalu am ei gloddio.

Cynhelir y farchnad ar ddydd Iau, a chyflenwir hi yn dda âg ŷd, ac â phob arlwyon ymborth. Y ffeiriau a gedwir ar Chwef. 5, Dydd Llun y Pasg, Dydd Llun y Sulgwyn, Gorph. 23, a Thachwedd 17.

Meddylir fod Abergwaun yn fwrdeisdref unwaith, ac y mae traddodiad yn mysg y trigolion eu bod unwaith yn feddiannol ar Freinlen, a ddyroddid iddynt gan y brenin John, ond ei bod wedi ei cholli yn ystod y rhyfel gartrefol, yn yr ail ganrif ar bymtheg; ac y mae llanerch yn y plwyf a adwaenir hyd heddyw dan yr enw "Y Fwrdeisdref."

Y mae y dref hon yn awr, mewn undeb a Hwlffordd a Narberth, yn meddu hawl i ddychwelyd cynnrychiolydd i'r Senedd: ac y mae hefyd wedi ei phennodi yn un o'r lleoedd i bleidleisio yn etholiad marchog dros y sir.

Yr eglwys, yr hon sydd wedi ei chyssegru i'r Forwyn Fair, sydd mewn sefyllfa ddifyr, yn y Dref Uchaf; y mae wedi ei hadgyweirio yn ddiweddar, ac yn adeilad fechan hynod o hardd, ond heb feddu dim hynodrwydd yn ei hadeiladwaith. Dywedir fod y dref cyn adeiladu yr eglwys bresenol yn cynwys dau blwyf, y rhai a ffurfiant un plwyf yn unig yn bresenol; a gellir olrhain adfeilion tri o hen gapelau eto, y rhai a elwir Llanfihangel, Llan Fartin, a Llan Ist; y mae yn debyg fod dau o'r rhai hyn yn llanau plwyfol, a'r trydydd yn gapel cynnorthwyol mewn cyssylltiad âg un o honynt. Y mae yn y dref addolfeydd perthynol i'r Bedyddwyr, yr Annibynwyr, a'r Trefnyddion Calfinaidd. Periglориaeth yw y fywioliaeth eglwysig, mewn cyssylltiad â Llan-

Digitized by Google

mihangel, yn archddiaconiaeth ac esgobaeth Llandâf.

Nid yw y dref bresenol yn hên, ond y mae y plwyf yn cynwys amryw o olion henafiaethol lled hynod. Yr hen weddillion Derwyddol sydd mor luosog yn y bryniau a amgylchynant y dref, ydynt brofion yr arferai yr hen frodorion gyrchu i'r gymydogaeth hon yn foreu, i gyflawni defodau ofergoelus y grefydd hono. Ac mewn un ran o'r plwyf, canfyddir olion hen adeiladau mawrion, a elwir "Y Caerau," y rhai y deuir ar eu traws yn fynych gan yr arddwyr wrth drin y ddaear, ac y mae amledd ac ehangder yr olion hyn yn profi fod yma boblogaeth grêf ar adeg dra boreuol. Ac yn ol FELTON, hanesydd swydd Benfro, yr oedd yma sefydliad gan yr hen Gymry, oesoedd cyn i'r Rhufeiniaid oresgyn Ynys Brydain, a bod y Rhufeiniaid ar ol gwladychu yma, wedi sefydlu gorsaf yn rhywle yn gyfagos i'r dref hon, efallai, yn y lle a elwir "y Caerau," am yr hwn y crybwyllwyd uchod; a chadarnhawyd y cyfryw dŷb i fesur, trwy ddarganfyddiad amryw fathodynau Rhufeinaidd yn agos i'r hen adfeilion crybwylledig. Heblaw hyny, fe ddarganfuwyd claddfeydd yn y gymydogaeth, o amryfal gyfnodau, y cyn-Rufeinaidd, y Rhufeinaidd, a'r Cristionogol.

Yn y gymydogaeth hon hefyd, y tybir fod Dyfrig, cyn ei ddyrchafiad i archesgobaeth Caerlleon ar Wŷsg, yn cadw ysgol, neu fath o athrofa, i'r hon y cyrchai lluaws o drigolion y wlad, ydoedd newydd eu deffroi i fywyd ysbrydol, i wrando ar yr athraw enwog, yn egluro gwirioneddau mawrion datguddiad Dwyfol. Y mae yr hen Hanesydd BALE yn ei alw *Gwynianus*, am fod ei drigias ar lan yr afon Gwaun, os nad oedd efe hefyd yn frodor o Lyn Gwaun; ac y mae cell yr hen athraw, yr hon sydd ychydig yn fwy na'r lleill, mewn lle neillduedig a chysgodol, ac wedi ei gorchuddio âg eiddew, yn cael ei dangos hyd y dydd hwn, ac y mae llawer o barch yn cael ei dalu i'r llanerch hyd heddyw; o fewn oes neu ddwy yn ôl, arferid cynnal y Gwyl-mab-sant ar y gwastadedd islaw iddi, ar yr adeg appwyntiedig gan Eglwys Rhufain, fel cof-wyl Sant Dyfrig. Ac yr ystyrid y llanerch hon yn gyssegredig, yn hir wedi amser Dyfrig, sydd sicr, canys fe adeiladwyd capel yn foreu iawn, ychydig oddiar y glyn a elwir "Pwll Dyfrig," yr hyn a gedwir mewn cof hyd heddyw trwy yr enw "Yr Hen Fynwent," ac y mae anwastadrwydd wyneb y tir, yn tueddu yr edrychydd i feddwl fod yno hen adfeilion adeiladau wedi eu claddu. Efallai mai hwn ydoedd hen gapel Llanfihangel, am yr hwn y crybwyllwyd eisoes.

Heblaw yr olion henafiaethol uchod, y mae rhyw fath o domenydd, neu fryncynau crynion bychain, yn agos i'r dref, y rhai a elwir "Y Cestyll." Y mae yn dra thebyg fod y rhai hyn wedi eu cyfodi fel math o amddiffynfeydd bychain, mewn adeg dra boreuol. Barnai *Fenton* fod ein cymydogion gogleddol yn arferol o wneyd cád-ruthrau yspeilgar ar ororau yr ynys hon, oesoedd cyn y cyfnod Rhufeinaidd, y rhai gan gymeryd mantais ar arferiad y brodorion o fyw ar benau y bryniau, a llechweddau y mynyddau, a feddiannent yr isel-diroedd a'r dyffrynoedd, o'r lle yr elent allant i yspeilio y trigolion o'u hanifeiliaid; ond y brodorion a'u gwrthladdent, ac a'u cosbent yn gyfiawn am eu traha, ac fe fernir fod y tomenydd amgaeredig hyn, yn nodi y llannerchau lle yr ymladdwyd brwydrau gwaedlyd rhwng y brodorion â'r cyfryw estroniaid yspeilgar.

Nid oedd Abergwaun namyn pentref dystadl, a gyfanneddid gan ychydig bysgodwyr, pan oresgynid Lloegr gan Gwilym o Normandi: ac yn fuan wedi hyny, darfu i un o'r pendefigion Normanaidd,—*Martin de Tours*, yr hwn, am ei wasanaeth dan y Goresgynydd, a wobrwyasid âg etifeddiaeth o diroedd yn swydd Dyfnaint, ar lan môr Hafren,—yn ei drachwant i ychwanegu at ei etifeddiaeth, barottoi llynges i ymosod ar y cyfryw barth o Gymru a ymddangosai yn fwyaf diamddiffyn: ac wedi hwylio heibio i benrhyn de orllewinol y wlad, efe a lwyddodd i lanio ei filwyr yn lled ddiwrthwynebiad yn y lle hwn, ac i feddiannu yr ardal a ffurfiai hen arglwyddiaeth Cemmaes, wedi hyny.

Yn y rhaniad a wnaeth "Martin de Tours," neu "de Turribus," fel ei gelwir weithiau, ar y tiriogaethau goresgynedig hyn rhwng ei ganlynwyr, efe a roddes Abergwaun i un "Jordan de Cantington," yr hwn a gyfleodd drefedigaeth Seis'nig ynddi, gan y rhai y gelwid y dref yn *Fish Garth*, h.y. "Gored y pŷsg," llygriad o'r hyn yw ei henw Seis'nig diweddar, *Fishguard*.

Wedi i Jordan de Cantington ymdrechu llawer i gael gan ei ddeiliaid Cymreig a Seis'nig, gyd fyw yn heddychol dan ei awdurdod, a bod yn hollol aflwyddianus yn ei holl ymdrechion, efe a roddes y cyfan i fynu i Fonachlog Llandudoch, yr hon a seiliasid gan ei noddwr, Martin de Tours; ac yn meddiant y Fonachlog hono y bu y tiroedd hyn, hyd y dadgorphoriad cyffredinol ar y crefydd-dai Pabaidd, pan eu dyroddwyd i John Bradshaw, yr hwn a gladdwyd yn nghangell eglwys Llandudoch, yn y flwyddyn 1588.

Yn yr unfed ganrif ar bymtheg, ymwelwyd â Threfdraeth, pen tref arglwyddiaeth Cemmaes, â haint tra dinystriol, yr hyn a barodd i'r trigolion gilio o honi, i ymofyn am ddyogelwch yn mhob cyfeiriad; a llawer o honynt, gan sylwi ar sefyllfa agored Abergwaun, a phurdeb ei hawyr, a gyrchasant yno, lle yr ymsefydlasant, ac ni chyffyrddodd y plâ a chymaint âg un o honynt yma. I'r amgylchiad uchod y priodola y cyffredin, ddechreuad cynnydd a llwyddiant presenol y dref hon; ond, yn agos i ddiwedd y ddeunawfed ganrif y cafodd ei gwneyd yn dref farchnad, trwy ymdrechion canmoladwy William Knox, Ysw.

Yn y flwyddyn 1797, cymerodd amgylchiad le, a gyfeiriodd sylw yr holl deyrnas at y lle bychan a dinod yma, sef glaniad tuag un cant ar ddeg o Ffrancod, ar yr arfordir cyfagos, dan lywyddiaeth y Cadfridog TATE, o fewn plwyf Llanwnda, lle y buasai yr enwog GIRALDUS CAMBRENSIS yn gweinidogaethu gynt.

Ar ddydd Mawrth, yr 20fed o Chwefror yn y flwyddyn uchod, yr hwn oedd yn ddiwrnod teg a thawel, digyffelyb o'r bron, ar yr adeg hono o'r flwyddyn, gwelid tair cad-long yn nesau at lenydd creigiog Llanwnda; ond y trigolion diniwed a feddylient ar y cyntaf, mai llongau masnachol mawrion, o Lynlleifiad oeddynt, yn nesau i angori yn nghysgod y tir, hyd oni chaent gymhorth y *tide*, neu wynt teg, i hwylio rhagddynt ar eu mordaith; ond, pan eu gwelid yn dyfod yn llawer nês nag arferol, ac nag y bernid yn ddyogel i lestri mor fawrion ddyfod, at y tir, dechreuodd y preswylwyr frawychu; a'r braw a chwanegid yn fuan, pan y gwelid cychod yn ymwneyd tu a'r lan oddi wrth eu hystlysau, yn llwythog o ddynion; ac eraill yn eu dilyn, wedi eu llwytho

Digitized by Google

yn gyffelyb, gyd a'r fath gyflymder, fel nad oedd unrhyw amheuaeth mwyach, nad byddin o elynion oeddynt, yn dechreu goresgyn y wlad; a pharhasant gyd a'r gorchwyl o lanio eu gwŷr a'u harlwyon rhyfel, yn ddiwrthwynebiad hyd haner nos; a chan fod y noswaith yn hynod dywell, ni's gellid dyfalu eu nifer i fanylrwydd, fel y taenid y chwedl trwy Abergwaun a'r amgylchoedd yn fuan, fod yno lawer o filoedd o Ffrancod, wedi glanio gerllaw: a'r rhan fwyaf o'r trigolion a gyfanneddent agosaf i'r fan lle y glaniasent, a adawsant eu tai mewn dychryn, gan feddwl na chaent byth mwyach ddychwelyd iddynt; ond tra yn eu golwg, dysgwylient eu gweled yn cael eu ffaglu.

Ac er fod tref Abergwaun rai milldiroedd oddiwrth y fan lle y glaniasai y gelynion, llenwid y trigolion â braw, a gwnaethant bob brŷs i symud y gwragedd a'r plant i'r wlad, fel na syrthient mor rwydd yn ysglyfaeth i'r goresgynwyr.

Can gynted ag y glaniodd y Ffrancod, dechreuasant dori i'r tai mwyaf yn y gymydogaeth, i yspeilio cymaint ar a allent gael, o fwyd a diod; ac yn fuan iawn yr oedd yr holl fintai yspeilgar yn ymdrybaeddu mewn meddwdod; canys yr oedd cyflawnder o win, yn holl dai y gymydogaeth, wedi ei gael o lestr lwythog o win, a ddrylliasid ar y creigiau gerllaw, ychydig ddyddiau cyn hyny. Yr oedd hyn yn drugaredd fawr i drigolion y wlad; canys oni buasai ymollyngiad y goresgynwyr i borthi eu trachwant, trwy lythineb a meddwdod, gallasent yn hawdd yspeilio tref a phorthladd Abergwaun, ac anrheithio yr holl wlad hyd Hwlffordd, cyn y gallasid cael unrhyw nerth digonol i'w gwrthladd: ond, gan eu bod wedi hurtio mewn meddwdod, ni allai y cadfridog gael un lywodraeth arnynt; yr hyn yn nghyd ag ymddygiad gwrol a phenderfynol Arglwydd Cawdor, dan lywyddiaeth yr hwn yr oedd tua chwe chant o filwyr cartrefol, wedi eu crynhoi ar ffrwst, a barodd i'r cadfridog Tate gyttuno i'w roddi ei hun a'i fyddin i fynu, yn garcharorion rhyfel i'w arglwyddiaeth; ac ar draeth Goodic y rhoddasant eu harfau i lawr. Dros lawer o flyneddoedd ar ol hyny buwyd yn arfer cadw cyfarfodydd crefyddol ar y traeth crybwylledig, fel cof-wyl y waredigaeth hon.

Ar y gwastadedd, gerllaw y traeth uchod, yr ymladdwyd y frwydr hygof rhwng Trahaern ab Caradog, tywysog Gwynedd, a Rhŷs ab Owain, yr hwn yn nghyd a Rhydderch ab Caradawg, a drawsfeddiannasai arglwyddiaeth y Deheubarth; ond, y pryd hyny, a lywodraethai y dalaeth hono ei hunan. Trahaern yn hysbys o gyflwr egwan Rhŷs ab Owain, yr hwn oedd newydd gael curfa dost gan feibion Cadwgan, a anfonai fyddin i Benfro: ond Rhŷs yn eofn a gynnullodd ei holl allu i'w gyfarfod ar y gwastadedd yma; ac wedi brwydr galed, efe, a gweddill ei fyddin a yrwyd ar ffô; ond gwŷr Gwynedd a'i hymlidiasant yn bybyr, ac wedi ei ddal ef, a'i frawd Howel, Trahaern a barodd eu rhoddi i farwolaeth.—Ar hyn, gwir ettifedd llywodraeth y Deheudir, sef Rhŷs ab Tewdwr ab Einion ab Howel Dda, a ddaeth yn mlaen i arhoni ei hawl; a'r bobl yn gyffredinol a'i cefnogent ef; a chan uno ei fyddinoedd â'r eiddo Gruffydd ab Cynan, yr hwn oedd ganddo gyffelyb hawlion ar orsedd Gwynedd, hwy a gyfarfuant a Thrahaern ar fynyddoedd Carno, lle, mewn cad dra gwaedlyd y llwyr faeddasant y trawsfeddiannydd, ac yn y canlyniad, adferwyd i bob un o'r ddwy dalaeth, ei thywysog cyfiawn, wedi eu bod dros hir amser yn meddiant traws-honwyr.

**ABERGWILY,**—plwyf yn y rhanbarth isaf o gantref ELFED, yn swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU; dwy filldir i'r dwyrain wrth ogledd, o dref Caerfyrddin; ar y ffordd o'r dref hono i Landeilo Fawr. Y mae y pentref yn cael ei enw oddiwrth ei orsaf ar lan yr afon Gwily, yn agos i'w hymuniad â'r Towy. Tu a'r flwyddyn 1020, ymladdwyd brwydr galed yn agos i'r pentref hwn, rhwng Llewelyn ab Seisyllt, tywysog Cymru, a Rhûn, anturiaethwr Ysgottaidd, yr hwn gan gymeryd arno ei fod yn fab i Meredydd ab Owain, a gawsai gynnorthwy amryw o bennaethiad galluog Deheubarth Cymru, y rhai nid oeddynt yn ddeiliaid teyrngarol i Llewelyn ab Seisyllt; ac a gynnullasai fyddin gref, gyd a'r bwriad o ddwyn y dalaeth oddiar ei thywysog cyfiawn. Ond Llewelyn yn dychwelyd o Wynedd, gyd a'i fyddin, a brysurodd i ymosod ar y gwrthryfelwyr, ac wedi brwydr faith a chaled, a ennillodd fuddugoliaeth drwyadl arnynt, ac wrth eu hymlid, a laddodd eu blaenor.

Y mae sefyllfa y pentref hwn ar wastadedd teg a bras; a'r gweirgloddiau o'i amgylch a ddyfrheir gan yr afonydd y Towy a'r Gwily, dros yr olaf o ba rai, y mae pont faen hardd, o dri bwa. Y mae cyflawnder o lechi toi dâ yn cael eu cloddio yn y plwyf, yr hyn sydd yn rhoddi gwaith i laweroedd, ac yn cyflenwi angen adeiladwyr yr ardaloedd cymydogaethol.

Yr eglwys, yr hon sydd wedi ei chyssegru i St. Maurice, sydd yn gorwedd yn agos i lan yr afon Towy; ac yn y flwyddyn 1287, fe'i gwnaed yn eglwys Glasgorawl, gan Dr. Beck, esgob Tŷ Ddewi,—i ddau ar hugain o gor-berigloriaid, neu, brebenduriaid, pedwar o offeiriaid, pedwar o gor-geiniaid, a dau gofiadur. Yn y flwyddyn 1334, gwnaed rhyw gyfnewidiadau gan yr Esgob Gower, yr hwn a ychwanegodd flaen-geiniad, canghellydd, a thrysorydd; a'r sefydliad, cyllid yr hwn oedd yn ddwy bunt a deugain yn y flwyddyn, a symudwyd yn y diwedd gan Harri yr Wythfed, i'w glasgor newydd yn Aberhonddu. Y fywioliaeth eglwysig yma sydd Ficeriaeth, yn Archddiaconiaeth Caerfyrddin, ac Esgobaeth Tŷ Ddewi. Y mae yma addoldai, perthynol i'r Bedyddwyr, yr Annibynwyr, a'r Trefnyddion. Gadawodd rhyw gymwynaswr anadnabyddus, waddoliad o chwe phunt yn y flwyddyn, at addysgu deuddeg o blant tlodion y plwyf.

Yn y plwyf hwn y mae llŷs esgobawl Esgob Tŷ Ddewi, yn gorwedd mewn sefyllfa ddifyr, ar lan yr afon Towy; ac y mae yn un o'r llysoedd esgobawl goreu yn y deyrnas; heblaw hyny, y mae amryw balasau prydferth eraill yn y gymydogaeth, trwy y rhai yr ychwanegir at harddwch yr olygfa.

Yn lled agos i bentref Abergwily, ac o fewn tua phedair milldir i Gaerfyrddin, y mae "Llwyn Myrddin," yn agos i'r lle a elwir "Y Felin Wen;" lle y dywedir y cyfanneddai yr hen ddewin enwog, "Myrddin Wyllt;" a lle y dywaid traddodiad iddo gael ei gladdu hefyd.

Er mai Deon a Chynonau Windsor yw perchenogion y fywioliaeth hon, fe ganiatteir i Esgob Tŷ Ddewi bennodi y neb a fyno efe i'r Ficeriaeth, o herwydd bod Llŷs Esgobawl ei arglwyddiaeth yn y plwyf.

Y mae yr Eglwys wedi ei chymhwyso i gynnwys 750 o addolwyr; ond y mae poblogaeth y lle tua dwy fil yn chwaneg. Cyllid y Ficeriaeth, yn ol

Digitized by Google

Adroddiad 1831, oedd 104 punt, yn nghyda phrebendwriaeth yn Eglwys Golegawl Aberhonddu. Y mae eglwys arall mewn rhan o'r plwyf, a elwir "Llanfihangel-Uwch-Gwily," yr hon oedd unwaith yn Gapel Cynnorthwyol i Abergwily; ond yn ddiweddar a waddolwyd â deuddeg can punt o ddyroddiad Breninol, ac a wnaed yn guradiaeth wastadol, yn noddaeth Ficer *Abergwily*.

Yn Adroddiad y Dirprwywyr Addysg, a dynwyd i fynu yn y flwyddyn 1847, fe'n hysbysir fod deg o Ysgolion Sabbathawl yn mhlwyf *Abergwily;*—sef dwy yn perthyn i'r Eglwys Sefydledig; un yn Abergwily, a sefydlwyd yn y flwyddyn 1823, yn cynnwys tua chant o ysgolorion, dan addysg 8 athraw, a 5 athrawes; a'r llall yn Llanfihangel Uwch Gwily, yn cynnwys ugain o ysgolorion, dan addysg tri athraw. Yr oedd yma yn perthyn i'r Bedyddwyr, Ysgol Sabbathol, yn cael ei chadw yn eu haddolfa, *Glan-yr-annell, Felin Wen;* yr hon a sefydlwyd yn y flwyddyn 1826, yn cynnwys 30 o ysgolorion, dan ofal chwe athraw, a dwy athrawes. Perthynai i'r Annibynwyr yn y plwyf hwn, bump o Ysgolion Sabbathawl;—un a gynhelid yn eu haddoldy, *Ebenezer,* a sefydlwyd yn y flwyddyn 1812; ac a gynnwysai tua 70 o ysgolorion, dan hyfforddiad deg athraw, a dwy athrawes. Un arall yn y *Pant Teg,* a sefydlwyd yr un flwyddyn, a gynnwysai 112 o ysgolorion, dan ofal deuddeg o athrawon.—*Penuel,* a sefydlwyd yn y flwyddyn 1816, a gynnwysai 188 o ysgolorion, dan ofal 18 o athrawon. *Nebo,* a sefydlwyd yn y flwyddyn 1831, a gynnwysai 43 o ysgolorion, dan addysg 4 athraw, a 2 athrawes.—*Quarry Lodge,* a sefydlwyd yn y flwyddyn 1845, a gynnwysai 50 o ysgolorion, dan ofal 8 athraw, a 2 athrawes.

Meddai y Trefnyddion Calfinaidd ddwy Ysgol Sabbathawl yn y plwyf; y naill a gynhelid ganddynt yn Nghapel *Salem,* "Pant Gwyn," a sefydlwyd yn y flwyddyn 1798, yr hon a gynnwysai tua 70 o ysgolorion, dan addysg 12 athraw, a 2 athrawes. Y llall a gynhelid ganddynt mewn tŷ annedd yn "Nant Gwily," a sefydlwyd yn y flwyddyn 1820; ac a gynnwysai tuag 20 o ysgolorion, dan addysg 4 o athrawon. Perthynai felly i'r Eglwys Sefydledig yn y plwyf hwn, 136, dan addysg grefyddol ac ysgrythyrol ar y Sabbath; ac i'r Ymneillduwyr 667;—sef, Bedyddwyr, 38; Trefnyddion Calfinaidd, 108; a'r Annibynwyr, 521.

Mewn Adroddiad Seneddol diweddarach fyth, a gaed yn y flwyddyn 1851, ar gais y diweddar Arglwydd Llanofer, cawn yr hysbysiadau canlynol.

Plwyf *Abergwily,*—dau wasanaeth Eglwysig, yn Gymraeg.—Lleoedd addoliad perthynol i'r Ymneillduwyr, a'r nifer o wrandawwyr a gyrchent iddynt:—

| | | |
|---|---|---|
| Penuel,—Annibynwyr | | 500 |
| Pant Têg, | eto | 400 |
| Nebo, | eto | 60 |
| Ebenezer, | eto | 200 |
| Felin Wen,—Bedyddwyr | | 80 |
| Pant yr Wyn,—Trefn. Calfinaidd | | 150 |
| Nant Garedig, | eto | 350 |

Felly, yr oedd o'r boblogaeth yn gwrando gyd a'r Ymneillduwyr y Sabbath hwnw, 1740.

Yn Adroddiad y Dirprwywyr Addysg, y mae "Nant Garedig" wedi ei restru gyda phlwyf "Llanegwad," a dangosir ynddo, y perthynai i'r gynnulleidfa hono tua 150 o ysgolorion yn yr Ysgol Sabbathawl, dan ofal 21 o athrawon, ac 11 o athrawesau.

**ABERHAFESP,**—plwyf yn rhanbarth uchaf cantref y Dref Newydd, swydd Drefaldwyn, Gogledd Cymru; tair milldir i'r gorllewin wrth ogledd o'r Dref Newydd, ar y ffordd i Fachynlleth. Y mae y lle hwn yn cymeryd ei enw oddiwrth y ffaith ei fod yn gorwedd yn agos i gyfarfyddiad yr afon Hafesp â'r Hafren: ac y mae yn cael ei hynodi yn benaf trwy ei gyfagosrwydd i'r ffordd Rufeinaidd o Gaersws i *Mediolanum,* yr hon oedd yn myned trwy y plwyf, a gellir dilyn olion o honi eto, ar dyddyn a elwir Llwyd Coed. Yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i St. Gwynog, sydd yn gorwedd ar lannerch ddifyr, yn agos i'r afon. Y mae gan y Bedyddwyr a'r Annibynwyr hefyd leoedd addoliad yn y plwyf. Perigloriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn Archddiaconiaeth ac Esgobaeth Llanelwy. Yn y parth de-ddwyreiniol o'r plwyf, y mae ffynon feddygol, a elwir "Y Ffynnon Ddû," yr hon a gyfrifir yn dra rhinweddol i iachau y manwynau; ac y mae llawer o gyrchu iddi gan drigolion yr ardaloedd cylchynol.

Cyllid blyneddol y fywioliaeth hon, yn ol Adroddiad y Dirprwywyr Eglwysig yn 1831, oedd 304 punt. Yn ol Adroddiad Dirprwywyr Addysg, perthynai Ysgol Sabbathawl, cynnwysedig o tua 30, i'r Eglwys Sefydledig yma; a chynnaliai yr Annibynwyr un yn eu haddoldy, "Bwlch y ffridd," yr hon a gynnwysai gant o ysgolorion, dan addysg 10 athraw, a 2 athrawes. O Adroddiad Seneddol 1851, cawn hysbysiad mai dau wasanaeth Seis'nig yn unig a gynhelid yn wythnosol yn Llan y plwyf, a'r rhai hyny ar y Sabbath: ond, bod yno bum gwasanaeth yn cael eu cynnal yn addolfeydd yr Ymneillduwyr ar y Sabbath, a thri ar nosweithiau yr wythnos, lle y mae tua phum cant yn ymgynnull i wrando pregethiad yr efengyl. Yr Annibynwyr a feddant gynnulleidfa o dri chant yn "Mwlch y ffridd," lle y cynhelir dau wasanaeth Seis'nig ar y Sabbath, ac un yn yr wythnos; ac yn *Bethel,* meddant gynnulleidfa o ddeugain, lle y cynhelir un gwasanaeth Cymreig ar y Sabbath, ac un ar noson waith. Y mae gan y Bedyddwyr hefyd gynnulleidfa o 150, yn eu haddoldy yn "Rhyd y Felin," lle y cynhelid dau wasanaeth Cymreig ar y Sabbath, ac un ar noson waith.

**ABERHONDDU;** bwrdeisdref a thref farchnad, yn meddu brawdwriaeth neillduedig, yn gorwedd yn nghantrefi Merthyr Cynog, Pencelly, a Defynog, yn swydd Frycheiniog, Deheudir Cymru; 171 o filldiroedd i'r gorllewin wrth ogledd o Lundain, ar y ffordd i Milffwrd, neu Aber-dau-gleddyf, yn cynwys y rhan fwyaf o blwyfi Sant Ioan yr Efengylwr, a Sant Dewi, neu Lanfaes, yn nghyda chapeliaeth St. Mair, yn y rhan-barth isaf o'r blaenaf, a'r rhanau gweddill o'r amryfal blwyfau, ydynt o fewn cantrefi Merthyr Cynog, Defynog, a Phencelly, a rhandir anmhlwyfol y Castell, a Choleg Eglwys Crist.

Yr oedd gan yr hen Frythoniaid ddinas, neu amddiffynfa yn lled agos i'r fan lle y saif y dref bresenol, yn dra boreu, a gellid barnu oddiar ei sefyllfa ar fryn, yn agos i gyfarfyddiad yr afonydd Yscir a'r Wŷsg, ei bod yn lle cadarn a phwysig yn yr amseroedd boreuol. Yn agos i'r lle hwn y darfu i Ostorius Scapula, y maes-lywydd Rhufeinaidd cyntaf a dreiddiodd i'r rhan yma o'r wlad, sefydlu ei orsaf, a adwaenid wedi hyny dan yr enw "Caer Bannau," a

Digitized by Google

gweddillion yr hon a adwaenir dan yr enw "Y Gaer." Yr oedd y *Via Julia Montana* yn myned y ffordd hon, ac yn cael ei chroesi yma gan y ffordd Rufeinaidd a arweiniai o Gastell Nêdd i Gaerlleon, yr hon a elwir yn gyffredin "Sarn Helen." Yr oedd ffordd arall yn cydio Caer Bannau, â'r orsaf a elwid *Tibia Amnis,* yr hon oedd yn agos i'r lle y gorwedd Caerdyf yn bresenol. Y mae hanes y lle hwn dan arglwyddiaeth y Rhufeiniaid, a thros gryn yspaid wedi eu hymadawiad hwy o Frydain, yn gladdedig mewn tywyllwch, gan nad oes nemawr o amgylchiadau pwysig mewn cyssylltiad â hi wedi eu croniclo. Yn y bummed ganrif yr ydoedd dan arglwyddiaeth un o fân dywysogion Cymru, sef Brychan, enwog yn y Cofiannau Cymreig, yn benaf ar gyfrif nifer, dysgeidiaeth, a duwioldeb ei blant; ac oddiwrtho ef y cafodd y wlad yr enw "Brycheiniog."

Yn nheyrnasiad William Rufus, neu Gwilym Goch, y Goresgynydd, darfu i un Bernard Newmarch, wedi ei galonogi trwy lwyddiant ei gydwladwr Robert Fitz-Hamon yn ymsefydlu yn Morganwg; arwain ei fyddin yn erbyn Bleddyn ab Maenarch, yr hwn ydoedd yn dywysog Brycheiniog y pryd hyny; ac wedi brwydr gyndyn a gwaedlyd yn agos i Gaer-fong, neu Gaer Ban, gerllaw y fan lle y mae y dref hon, yn yr hon y lladdwyd y tywysog Cymreig, efe a feddiannodd ei diriogaethau. Ond gan nad oedd Bernard yn hoffi sefyllfa prif ddinas y rhandir a draws-feddianasai, efe a ddifrododd Gaer Bannau, ac â'r defnyddiau a adeiladodd gastell, tua thair milldir yn is, ar yr afon Wŷsg, yn agos i gydiad yr Honddu â hi; gerllaw yr hwn yn rhawd amser y cyfododd tref, yr hon a alwai y Cymry ar gyfrif ei sefyllfa, Aberhonddu; a daeth hon yn fuan yn ben tref hen dywysogaeth Brycheiniog. Wedi i Bernard orphen y castell hwn, efe a'i gwnaeth ei brif gartrefle; a gorsaf ei arglwyddiaeth gyffin-dirawl. Y dref hefyd, yr hon a adeiladasid â defnyddiau yr hen ddinas, a amgylchynwyd â muriau, yn amgaeru llanerch hir-gron, o tua 1070 o latheni o gylch-fesur; yn ddiffynedig gan ddyfr-ffos ddofn, trwy yr hon, yn nghyd a'r afonydd yr Honddu, a'r Wŷsg, ei gwnelid yn llwyr ynysig.—Cadarnheid y muriau â deg o dyrau, o fewn pellder cyfartal yn agos, ond yn amrywio mewn ffurf, gan fod rhai o honynt yn grynion, ac eraill yn betryal; ac yr oedd i'r dref bum porth; o ba rai yr ymddengys bod dau, ydynt yn aros mewn rhan eto, yn arwain i'r Prïordy. Ond, er yr holl ofal a gymerid i amddiffyn y dref, yr ydoedd yn anfanteisiol i'w dïogelu, ar gyfrif ei sefyllfa; gan ei bod yn cael ei chylchynu gan amryw fryniau, oddiar ba rai y gellid ergydio tafl-arfau o bob math yn ei herbyn, yn dra effeithiol; ac am hyny, galluogid Bernard i gadw meddiant o'r diriogaeth a oresgynasai, yn hytrach trwy ei gyfrwysdra, yn cymeryd yn wraig iddo ei hunan dywysoges Gymreig o'r enw Nêst, wyres i Gruffydd ab Llewelyn. Dywedir fod Bernard wedi cadw Gwrgan, mab henaf Bleddyn, yn garcharor yn ei gastell yn Aberhonddu, heb ganiattau iddo fyned allan ar un cyfrif, oddieithr dan ofal dau o'i farchogion Normanaidd; er hyny efe a roddodd iddo ef, ac i'w frawd Caradog, randir oedd yn ngweddill wedi rhoddi o hono eu hettifeddiaethau i'w ganlynwyr Normanaidd. Y diriogaeth ddywededig oedd yn Maesyfed, y canlyniad o'r hyn ydoedd yr ychwanegiad o Elfel yn y wlad hono, at ei arglwyddiaeth ef. Wedi y pethau hyn, y mae yn ymddangos fod Bernard wedi cyssegru y gweddill o'i ddyddiau i wneuthur iawn am greulondeb ac annghyfiawnder y rhan flaenaf o'i oes: a thrwy gynghor ei gyffeswr, Rosier, mynach o Abbatty Battle, yn Sussex, efe a adeiladodd o'r tu allan i furiau y castell, brïordy i fyneich o'r urdd Benedictaidd, gan ei chyssegru i Sant Ioan yr Efengylwr, ac efe a'i gwnaeth yn guddigl berthynol i'r Abbatty crybwylledig. Efe a'i gwaddolodd â meddiannau helaeth; gan gynnwys capel o fewn y castell, ac eglwysi, tiroedd, degymau, ac amrywiol gyllidau eraill, mewn gwahanol wledydd; ac a'i dododd dan lywyddiaeth Gwallter, cyfaill mynwesol i Rossier, a mynach yn yr unrhyw Abbatty; yr hwn pan orphenwyd yr adeiladau, a wnaed yn Brïor, neu Bennaeth y Prïordy; a rhwymid ef i dalu ugain swllt yn y flwyddyn, fel arwydd o'i ymddarostyngiad i Abbatty Battle; i Abbadaeth yr hon yr oedd Pennaethiaid Prïordy Aberhonddu yn etholadwy; ac yn etholiad yr hwn i'r urddas hwnw, y meddai brodyr o'r prïordy hwn hawl i bleidleisio.

Bu farw Bernard Newmarch yn nheyrnasiad Harri I.; ac efe a gladdwyd yn nghlasrawd eglwys gadeiriol Caerloyw. Ei fab yn nghyfraith a'i olynydd, Milo Fitz-Walter, a gyfanneddai yn benaf yn Nghaerloyw; ac anfynych yr ymwelai a'i feddiannau yn Nghymru; ond ei fab henaf, Rosier, wedi olynu o hono i arglwyddiaeth Brycheiniog, a fu yn gymmwynaswr haelionus i fyneich y prïordy hwn; i ba rai y rhoddodd efe bump o Freinleni, y rhai ydynt ar gael eto, trwy y rhai y sicrheid iddynt amryw roddion gwerthfawr, a rhagorfreintiau pwysig. Yn mysg y blaenaf, yr ydoedd gorsaf *Vasta Civitas*, sef, yr hen "Gaer Bannau," a'i thiriogaethau dibynol, yn ymestyn hyd at lan ogleddol yr afon Wŷsg, oddi wrth yr Yscir hyd y Cilieni; perchenogaeth dieithriad yr holl felinau yn mhlwyf Aberhonddu, a'r hawl gyflawn i attal cyfodiad yr un arall; a degwm yr holl anifeiliaid "a roddid o garedigrwydd neu ewyllys da y Cymry;" yr enw, ar yr hwn y galwai yr arglwyddi Normanaidd y dreth o nifer bendant o anifeiliaid, a gyfodent yn ddiarbed, o flwyddyn i flwyddyn, ar eu tir-ddeiliaid Cymreig. Wedi marw y lleill o feibion Milo Fitz-Walter, aeth castell ac arglwyddiaeth Aberhonddu, gyd a'i ferch, trwy brïodas, yn eiddo i Phylip de Breos, arglwydd Buallt, hynaif yr hwn a ganlynasai y Gorchfygwr i Loegr. Bu Phylip farw yn nheyrnasiad Harri yr Ail; a gadawodd ei ettifeddiaethau i'w fab, William de Breos; gwr o nodwedd gynhyrfus a chreulawn; yr hwn oddiar y parch a deimlai i Brïordy St. Ioan, yn Aberhonddu, a ddyroddodd i bawb a berthynai iddi, yn gystal bwrdeisiaid ag eraill, ryddhad oddiwrth bob trethi, a chyfraniadau taladwy i ben cwnstabliaid, ac oddiwrth bob dirwyon am droseddau a diffygion cyffredin; ac i fyneich y sefydliad hwnw, ddiâ oedd a meddiannau symudol drwg-weithredwyr; gan gadw iddo ei hun, ac i swyddogion ei lŷs, yr hawl i benderfynu a chyhoeddi pob dedryd a effeithiai ar fywyd neu aelod. William de Breos a anfonodd wŷs i Trahaearn Fychan, gorwyr Bleddyn ab Maenarch, ac arglwydd Llangors i'w gyfarfod ef mewn cynnadledd yn Aberhonddu, yn y flwyddyn 1198; â'r hyn yr ymbarottodd y pendefig Cymreig i gydffurfio yn ddïoed; ond William de Breos a barodd ei ddal ef trwy frâd ar y ffordd; a chan ei rwymo wrth gynffon march, efe a barodd ei lusgo trwy heolydd Aberhonddu; ac wedi hyny archodd dori ei ben, a pharodd grogi ei gorph yn waradwyddus,

Digitized by Google

gerfydd ei draed, dros dri diwrnod. Yr oedd y pendefig hwn mewn amrafael gwastadol a'r brenin John hefyd; i'r hwn, wedi hir oediad i dalu swm mawr o arian, y gorfodwyd ef i roddi ei gestyll yn Aberhonddu, y Gelli, a Maesyfed, i fynu; ond wedi hyny, efe a gynnullodd fyddin o wŷr yn frysiog; ac a'u cymerodd yn ol trwy ruthr-gyrch. Ac wedi gwneyd llawer o ddifrod ar y wlad gyfagos, efe a erlyniwyd yn dost gan luoedd y brenin: ac o'r diwedd efe a enciliodd i'r Iwerddon, lle yr ymgyfeillachodd â gelynion y penteyrn Seis'nig. Wedi hyny, efe a ffugiodd ymostwng i'r brenin, yr hwn oedd yn gwneuthur parottoadau i hwylio drosodd i'r Iwerddon; ond, wedi cyffroi terfysg yn Nghymru drachefn, bu raid iddo o'r diwedd ffoi i Ffrainc, lle y bu efe farw yn alltud, a'i ettifeddiaethau a ddirwywyd i'r goron. Ond y castell, ac arglwyddiaeth Aberhonddu, yn nghyd a'r rhan arall o'i ettifeddiaethau yn Nghymru, a adferwyd gan y brenin Ioan, i Giles, Esgob Hereford, a mab i William de Breos, ar farwolaeth yr hwn yn y flwyddyn 1215, y daethant i'w frawd Rheinallt, yr hwn wedi prïodi merch i Llywelyn ab Iorwerth, tywysog Cymru, a aeth gyd a'i dad yn nghyfraith i'r cydfrad a ffurfid gan y pendefigion Seis'nig anfoddog, yn erbyn y pennadur hwnw. Ar ol hyny, adferwyd y rhan Seis'nig o ettifeddiaeth ei dadau i Rheinallt, gan Harri y Trydydd, â'r hwn yr ymgyngrheiriasai. A Llewelyn, er dïal ar Rheinallt am gefnu ar ei gyngrheiriaid blaenorol, a warchaeodd ar Aberhonddu, gan fwriadu ei difrodi; ond, ar gais ostyngedig y trigolion, yn cael ei gefnogi gan eiriolaeth daer ei nai Rhŷs, efe a arbedodd y dref; ac wedi cymeryd gwystlon am ymddygiad y bwrdeisiaid rhagllaw; a chan marc, fel taledigaeth i'w filwyr, efe a dynodd yn ol oddiwrth y dref, ac a groesodd y mynyddoedd i Frowyr. Bu farw Rheinallt yn y flwyddyn 1228, ac efe a gladdwyd yn eglwys y prïordy, yn Aberhonddu, a'i ettifeddiaethau a ddisgynasant i'w fab, William de Breos, yr hwn a gynnorthwyai y pennadur Seis'nig ar ei gad-gyrchiad i Ogledd Cymru, ond efe a gymerwyd yn garcharor gan Llewelyn; ac ni's rhyddhawyd ef gan y tywysog Cymreig, ond ar daledigaeth swm mawr o arian. Gwel Aber.—Yn ystod cad-gyrch Llewelyn i'r cyffindiroedd, pan estynai efe ei ddifrodiadau can belled a Chaerlleon, y mae yn ymddangos iddo gymeryd meddiant o'r dref hon a'r castell. Ond, mewn cadgyrchiad arall o'r eiddo, tua dwy flynedd yn ddiweddarach; efe a fu yn aflwyddiannus i gymeryd y castell trwy ruthr-gyrch; ac wedi gwarchae arno yn aflwyddiannus dros oddeutu mis o amser, efe a roddes y dref ar dân, ac a ddychwelodd gyd a'i yspail i Ogledd Cymru.

Ar farwolaeth William de Breos, aeth yr arglwyddiaeth a'r castell i feddiant Humphrey de Bohun, chweched Iarll Henffordd, yr hwn a brïodasai ferch de Breos. Yn ei ddyddiau ef, daeth Llewelyn ab Gruffydd, tywysog Gwynedd, i Aberhonddu, ar wahoddiad y preswylwyr, y rhai yn wirfoddol a ymostyngasant iddo: ac er fod Humphrey de Bohun, a Llewelyn ab Gruffydd yn cydweithredu â'r gwrthryfelwyr dan Simon de Montford, eto yn y flwyddyn 1267, ar derfyniad yr heddwch rhwng Harri III. a Llewelyn, caniatteid yn y cyfammod i'r olaf gadw meddiant o arglwyddiaeth a chastell Aberhonddu. Ond Humphrey de Bohun, mab ac olynydd yr iarll blaenorol, a'u hadennillodd, heb nemawr o wrthwynebiad ymddangosiadol oddiwrth y trigolion; ac yn y bedwaredd flwyddyn i Edward I., efe a gadarnhaodd y rhagorfreintiau a roddasai ei dad i'r bwrdeiswyr, ac a ychwanegodd lawer attynt; gan roddi y cyffelybrydd-freiniau iddynt ag a roddasai i ddinaswyr Henffordd o'r blaen. Llettygarwch diarhebol y pendefigion hyn (*de Bohuns*); y rhai oeddynt yn byw mewn ysplander a rhwysg mawr yn y castell, yr hwn yn nheyrnasiad Edward III., a helaethwyd, ac a brydferthwyd yn arddull goreu yr oes hono; y caniattad i gynnal ffair flyneddol am un diwrnod ar bymtheg;—gan ddechreu wyth niwrnod cyn, a pharhau wyth niwrnod wedi gwyl St. Leonard; cyrchiad mawr pobl i'r castell; a'r galwad mawr am bob math o arlwyon ar eu cyfer, a wnelent dref Aberhonddu yn llawer mwy blodeuog nag y buasai erïoed; ac a'i gwnelai yn brif farchnadle Deheubarth Cymru. Ar ddyrchafiad y Dug o Henffordd i'r orsedd, yn y flwyddyn 1399, dan y teitl o Harri IV.; daeth arglwyddiaeth Aberhonddu yn berchenogaeth y goron, yn y canlyniad i brïodas flaenorol y pennadur hwnw âg ettifeddes y teulu yma; ac yn ystod y rhyfel a ddygid yn mlaen gan Owain Glyndwr, yn y flwyddyn 1404, pennodwyd John Touchet, Arglwydd Audley, a Rhisiard Beauchamp, Iarll Warwig, ac Arglwydd y Fenni, i amddiffyn castell, tref, ac arglwyddiaeth Aberhonddu, dros un flwyddyn gyfan; ac i'r perwyl hwnw, rhoddid cant o wŷr arfog, a thri chant o saethyddion ar feirch, yn nghyda darpariaeth gyfaddas at gyflog iddynt, dan eu hawdurdod. Yn y bedwaredd flwyddyn ar ddeg o'i deyrnasiad, rhoddodd Harri IV. i'r bwrdeisiaid, y freinlen freninol gyntaf erioed ar a gawsant: cadarnhawyd hon, ac ychwanegwyd at eu rhydd-freiniau gan ei fab a'i olynydd, Harri V. Wedi marwolaeth Arglwyddes Waddolog Henffordd, yr hon dros ei hoes a berchenogai arglwyddiaeth Aberhonddu yn weithredol, fe'i dyroddwyd gan Harri i Anne, gweddw Edmwnd, Iarll Stafford; yr hon, can gynted ag y daeth i feddiant o honi, a'i difreiniodd, gan ddirymu yr holl frein-leni a roddasid o'r blaen i'r bwrdeisiaid, a llwyr ddirymu eu rhagor-freintiau. Ei mab, yr hwn a'i holynodd yn yr ettifeddiaethau hyn yn 1439, ac a wnaed yn Ddûg Buckingham, gan Harri VI., yn y drydedd flwyddyn ar hugain o'i deyrnasiad, a roddes freinlen newydd i'r bwrdeisiaid, yn yr hon yr enwid tua phymtheg a thriugain o honynt, i'r rhai "fel Saeson, ac i'w hettifeddion a fyddont yn Saeson, o du eu tad, ac o du eu mam," y cyfyngid y rhagor-freintiau; trwy yr hyn y dangosir yn amlwg mai amcan y Llywodraeth ydoedd cau y preswylwyr Cymreig o'r ymarferiad o bob awdurdod ddinesig. Y dûg, yr hwn ydoedd feistr tra-arglwyddiaethol iawn ar ei ddeiliaid Cymreig, gan eu beichio a threthi trymion, a'u gorthrymu yn dost mewn amryw ffyrdd, a laddwyd yn mrwydr Northampton, tra yn ymladd yn mhlaid Harri VI.; ac efe a olynwyd gan ei ŵyr, Harri, yr hwn oedd dan oedran y pryd hyny; ond, yr hwn wedi cyrhaedd ei gyflawn oed, a fu byw mewn neillduaeth yn y castell, dros y rhan fwyaf o deyrnasiad Edward y Pedwerydd; ac wedi marwolaeth y pennadur hwnw, efe a ddaeth yn gynghorwr ymddiriedol Dûg Caerloyw, ac yn brif gefnogwr ei amcanion uchel-geisiol. Ac yn addaledigaeth am ei wasanaeth, pan ddyrchafwyd Richard i'r orsedd, efe a'i pennododd ef yn llywydd yr holl gestyll breninol yn Nghymru; goruchwyliwr y Maenorau breninol yn swyddi Henffordd a'r

Digitized by Google

Mwythig, Prif Farnwr ac Ystafellydd Gogledd a Deheubarth Cymru; ac Arglwydd Uchel Gwnstabl Lloegr. Ond, ar yr amrafael a dorrodd allan rhwng Rhisiart â'r Dûg, enciliodd yr olaf o'r llŷs i'w gastell yn Aberhonddu, yn yr hwn hefyd y carcharid John Morton, Esgob Ely, yr hwn o'r dechreuad a fuasai yn gefnogwr gwresog i'r blaid Lancasteraidd; ond yr hwn wedi cael maddeuant gan y blaid arall, a lynodd wrth deulu Edward ac a gyflwynasid gan y brenin i gadwraeth y Dûg o Buckingham. Y mae Cronielau *Stowe* a *Speed* wedi cofnodi ymddiddan hynod a gymerodd le rhwng y Dûg a'i garcharor. yn y canlyniad i'r hyn yr ymadawodd Morton i'r Cyfandir, er cyttuno â'r Iarll Richmond gyda golwg ar gynllun i rwyddhau ei ffordd ef i orsedd Brydain, trwy gynhyrfu gwrthryfel cartrefol yn ei ffafr. Y mae yn ymddangos fod y brenin Rhisiard naill ai wedi darganfod y brâd, neu amheu fod rhyw beth o'r fath ar droed; canys efe a wŷsiodd y Dûg i ymddangos yn y llŷs; a chan nad ufuddhai i'r wŷs, efe a anfonai orchymyn i Syr Thomas Fychan, o Tre'r-twr, i beri iddo gyfodi y wlad, ac ymosod ar gastell Aberhonddu, gan ei anrheithio. Y Dûg gan hyny wedi crynhoi ei ddeiliaid, a chyfodi hyny o fyddin ar a allai, a roddodd allan gyhoeddiad angerddol yn erbyn y brenin Rhisiard; ac a gychwynodd o Aberhonddu, â byddin luosog, ond tra annrhefnus, o filwyr, ar ei gad-gyrchiad i barthau de orllewinol Lloegr, a fu mor andwyol i'w obeithion, ac angeuol iddo ef ei hunan. Ar ei ddïenyddiad, pennodwyd Syr James Tyrrel yn brwyadur ar ei ettifeddiaethau dirwyedig yn Nghymru; a gosodwyd Syr Ralph Ashton yn rhag-ddyheddwr (*vice constable*) Lloegr, a chanddo awdurdod fawr, i brofi rhai trwy holi tystion, neu i gyhoeddi dedryd heb brawf, ar bwy bynag a geffid yn euog; neu, a ddrwg-dybid eu bod yn euog o uchel-fradwriaeth, a phawb a fuasent yn gyfranog mewn unrhyw radd yn y gwrthryfel; heb gymeryd namyn ysgrifenydd i'w ganlyn, i gof-nodi ei weithrediadau.

Ar esgyniad Harri VII., cafodd yr arglwyddiaeth a'r castell, yn nghyd ag ettifeddiaethau eraill, ac urddau y diweddar Ddûg, eu hadferu i'w fab henaf, Edward; yr hwn a adgyweiriodd y castell yn ddirfawr, ac a adferodd i'r bwrdeisiaid y breiniau a fwynhaent dan eu brein-leni blaenorol. Yn y teyrnasiad canlynol, cafodd y dûg hwn ei roddi ar ei brawf, am ryw ymadroddion anochelgar o'r eiddo, o barth i'w hawl i'r orsedd, pe y buasai Harri farw yn ddiblant; ac wedi ei gael yn euog, torwyd ei ben. Gan fod ei drosedd yn effaith ysmalwch byrbwyll, yn hytrach na malais bwriadol, prïodolai y bobl, gan y rhai ei cerid yn fawr, y gomeddiad i roddi maddeuant iddo, i elyniaeth Wolsey, a'i ysbryd ymddialgar. Gyd ag ef y darfu am y swydd o Uchel Ddyheddwr Lloegr, yr hon a fuasai yn dreftadawl yn ei deulu; ac ni chafodd ei hadnewyddu byth mwyach. Yr arglwyddiaeth a ddychwelodd i feddiant y goron, i'r hon y mae wedi perthyn byth er hyny; ond fe'i rhoddwyd ar bryd-les i amryfal foneddigion o bryd i bryd; ac os nad ydym yn camgymeryd, fe'i delir yn awr gan Arglwydd Tredegar. Yn nheyrnasiad Elizabeth, pennodwyd Mr. Harri Fychan, o Moccas, yn rhaglaw a goruchwyliwr ei Mawrhydi, ar y castell a'r arglwyddiaeth; yn ystod rhaglawiaeth yr hwn, fel yr ymddengys oddiwrth hen gyfysgrif Gymreig sydd eto ar gael, y torrodd gwrthryfel yn mysg pobl y wlad, y rhai a ddarlunir yn dyfod i waered o'r bryniau, hyd y nifer o ddeuddeg cant, wedi ymarfogi â chrymanau a glaifiau, gan wneyd ymosodiad ar y castell; ond yn aneffeithiol, am na's meddent offerynau na pheiriannau cymhwys i wneyd unrhyw argraff effeithiol arno. Ymddengys oddiwrth ysgrif yn yr Amgueddfa Brydeinig, gan un Mr. Simmons, yr hwn y tybir ei fod yn swyddog yn y fyddin freninol, fod y preswylwyr yn ystod y rhyfel rhwng y Senedd â'r brenin, wedi dinystrio y castell, yr hwn, er pan diddymasid arglwyddiaethau y cyffin-diroedd, a ollyngasid i adfeilio,—a llwyr ddymchwelyd caerau ac amddiffynfeydd y dref, fel na byddai iddynt gael eu beichio â chynnaliad gwarch-lu, a gorfod sefyll gwarchaeedigaeth. Aeth y brenin Charles trwy y dref hon yn ei ffoedigaeth wedi brwydr Naseby, yn y flwyddyn 1645, ac efe a arhosodd un noswaith yn y Prïordy, oedd y pryd hyny yn meddiant Mr. Price, wedi hyny Syr Herbert Price, un o gyfeillion ffyddlonaf ei fawrhydi; ac oddiyno efe a anfonodd lythyr at Dywysog Cymru, yr hwn oedd yn Nghernyw ar y pryd; neu, ar y ffordd oddiyno i Gaerodor.

Y mae y dref yn gorwedd mewn llannerch ddifyrus, ar gyfarfyddiad yr afonydd Honddu a'r Tarell, â'r Wŷsg. Yn y flwyddyn 1794, lledwyd y bont dros yr afon Wŷsg; y bont hon sydd o faen-waith cadarn, ac yn gynnwysedig o saith bwa hardd. Ar hyd-ddi yr eir i blwyf Sant Dewi, a elwir yn gyffredin Llanfaes, haner yr hwn sydd yn gwneyd i fynu ddinas-ran isaf y fwrdeisdref. Ar y cwr gorllewinol, croesir yr afon Tarell, gan bont faen hardd, o un bwa mawr, yr hon a adeiladwyd yn y flwyddyn 1829; y fwrdeisdref a'r sîr yn cyd ddwyn y draul. Y mae tair o bontydd dros yr afon Honddu, oddiar y rhai y cair golwg fanteisiol ar adfeilion yr hen gastell, a'r llwyni perthynol i'r Prïordy. Y gyntaf, yr hon sydd o faen, a ail adeiladwyd yn y flwyddyn 1813; ac y mae ei chadwraeth mewn cywair da yn rhwymedig ar breswylwyr y fwrdeisdref. Yr ail, yr hon gynt a arweiniai i'r castell, sydd yn gynwysedig o ddau fwa, rhwng y rhai y mae atteg-bill hynod o drwchus, ar yr hwn gynt y cynhelid ysgrogell; y drydedd, yr hon sydd yn agos i gydiad yr Honddu a'r Wŷsg, sydd hen bont faen, gynnwysedig o dri bwa trwm. Y mae ymddangosiad Aberhonddu yn dra ardebaidd; ac yn hynod o hyfryd i'r llygaid. Yr afonydd a gyd gyfeiriant iddi, megis i gronfa gyffredinol, a'u gwahanol bontydd, a'r amryfal felinau ar eu glanau; adfeilion llwydion ei hen gastell, a'i dyrau braisg, a'i furiau eiddior-wisg; tŵr gwalciog, a chynteddfa Prïordy Sant Ioan yr Efengylydd, a'i choed-lwyni mawrion a hydyfawl, yn ymylu glan yr Honddu, ac yn ymddangos mewn manau, megys yn cyfodi o honi; a'r tirwedd mynyddig ardderchog i'r tu dehau i'r dref, a'r amrywiaeth diderfyn o uchel-diroedd a'i hamgylchynant ar bob tu, a gydunant i gyfansoddi un o'r golygfeydd prydferthaf a ganfyddir yn yr ochr yma i'r Dywysogaeth. Y mae y dref yn gynnwysedig yn benaf o dair o brif heolydd; wedi eu gwneyd i fynu o dai dâ, ac o ymddangosiad cyfrifol. Un o'r prif heolydd a gyfeiria yn orllewinol, trwy Lanfaes, tua Chaerfyrddin; un arall a gymera gyfeiriad dwyreiniol, bron yn gyfredol â'r Wŷsg, tuag Abergafenni, a Llundain; tra y mae y drydedd yn cyfeirio yn ogledd-ddwyreiniol, tu a'r Gelli a Henffordd. Yr heolydd eraill ydynt yn y cyffredin yn gulion; er eu bod yn cynnwys rhai tai dâ. Dechreuwyd adeilad

Digitized by Google

hardd yn mhen dwyreiniol y dref, yn y flwyddyn 1805, ar draul y Llywodraeth, at gadw arfau; a thros rai blyneddau bu dros bymtheng mil o arfau yn cael eu hystorio yno. Yn mhen yspaid o flynedd-oedd, fe symudwyd yr arfau oddiyno, a throed yr adeilad yn lluesty milwraidd; ond er fod traul yr adeilad ar y dechreu uwchlaw pymtheng mil o bunau, a bod swm mawr wedi ei dreulio yn ychwanegol arno, er ei gyfnewid a'i wellau, ni chynnwysa eto oddiar chwech ugain o filwyr: ond, y mae fel adeilad, yn addurn i'r rhan o'r dref y mae yn gorwedd ynddi. Ar hyd glanau y Wŷsg, ac yn gymhwys goris muriau yr hen dref, y mae rhodfa brydferth wedi ei ffurfio, oddiar yr hon y mwynheir golygfa eang ar y wlad ar y tu deheuol i'r afon hono: ac y mae rhodfa arall, fwy dirgeledig, wedi ei gwneyd gyda chwaeth hynod o ganmoladwy, trwy goed y Priordy; gan ymestyn ar hyd llechwedd bryn sydd yn ymddyrchafu oddiwrth lan yr afon Honddu; oddiar yr hon y mwynheir rhai o'r golygfeydd prydferthaf yn yr amgylchoedd. Y mae tlysni tufewnol y dref, hyfrydwch ei sefyllfa, iachusrwydd yr awyr, a'r gwibdeithiau dyddorol a ellir eu cymeryd yn y wlad gylchynol, yn ei gwneyd yn breswylfa ddymunol, i'r hon y mae llawer o deuluoedd cyfoethog a thra pharchus wedi encilio. Y mae cymdeithas yma yn dra etholedig, ac y mae ei dylanwad ar y dosbeirth is-raddawl yn dra amlwg, yn eu moesau da, a'u hymddygiadau canmoladwy. Prif fasnach y dref yn bresenol, sydd mewn gwlân, lledr, a hopys; a chyflenwi angenion yr ardaloedd cymmydogawl a'r amryfal nwyddau angenrheidiol er eu cynhaliaeth; ac y mae ei masnach wedi cynnyddu yn ddirfawr, er pan y gwnaed dyfr-ffos Aberhonddu a'r Fenni, yr hon a orphenwyd yn y flwyddyn 1811, ag sydd yn ymuno â dyfr-ffos swydd Fynwy; ac yna, trwy y Casnewydd a Chaerodor, a rhanau eraill o'r Deyrnas Gyfunol. Y mae y ddyfr-ffos yna yn bum milldir a deugain o hyd, y rhan fwyaf o lawer, yn gorwedd mewn gwastadedd teg; o fewn ychydig filldiroedd i'r dref hon y mae yn myned trwy dwnnel, agos i chwarter milldir o hyd, wedi ei thorri trwy fryn.—Ac oddiwrth ben y ddyfr-ffos yn y dref hon, gwnaed tramrawd i Kington yn swydd Henffordd, bymtheng milldir ar hugain o hŷd, er cludiad glô, calch, a nwyddau trymion eraill. O fewn tua thair milldir i'r dref, y mae yn myned trwy geu-ffordd, wyth gan llath o hyd, yr hon a dorrwyd trwy graig galed. Cynhelir marchnad ddwy waith yn yr wythnos, sef ar ddydd Mercher a dydd Sadwrn;—y gyntaf sydd yn benaf am gig, a llysiau; a'r llall, yr hon yw y brif farchnad, yw yr un am ŷd ac arlwyon: ac y mae brein-len y fwrdeisdref hon yn caniattau marchnad arall, ar ddydd Gwener. Y ffeiriau a gynhelir ar y Mercher cyntaf yn mis Mawrth, Mai 4, Gorph. 5, Medi 9, a Thachwedd 16, yn y rhai y masnachir yn benaf mewn ceffylau, gwartheg, defaid, cynnyrchion ammaethyddol, hopys, gwlân, lledr, a mân nwyddau. Y mae ffeiriau Mai a Thachwedd hefyd, yn ffeiriau gosodedig i gyflogi gwasanaethyddion.

Dros ystod parhad arglwyddiaeth y cyffin-diroedd yn Aberhonddu, yr oedd y preswylwyr yn cyfranogi yn y rhagorfreintiau a ddyroddid o bryd i bryd gan arglwyddi y cyffin-diroedd, i Brioriaid Sant Ioan yr Efengylwr: ond ni ddaethant i feddiant o unrhyw rydd-freiniau neillduol o'r eiddynt eu hunain, hyd oni oni ddaeth de Bohun, chweched Iarll Henffordd i'r arglwyddiaeth, yn nheyrnasiad Harri III. Y pendefig hwn a'u corphorodd hwynt yn gyntaf, ac a roddes frein-len iddynt, yr hon a gadarnhawyd ac a changwyd gan ei fab a'i olynydd, yr hwn yn y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad Edward I., a ganiattaodd iddynt ragor-freintiau cyfartal i'r rhai a fwynheid gan ddinas Henffordd. Cafodd y frein-len hon ei hadnewyddu a'i chadarnhau gan ei fab Wmphre de Bohun, yn nheyrnasiad Edward II.; ond ei olynydd a'i dirymodd yn y deyrnasiad nesaf, ac am ryw drosedd, efe a ddifreiniodd y bwrdeisiaid, ac a'u cadwodd mewn cyflwr o gaeth-ddeiliadaeth dros weddill ei oes. Ei nai, a'i olynydd, a adferodd iddynt eu rhagor-freintiau blaenorol, yn y 39ain o deyrnasiad Edward III., ac a roddes freinlen newydd iddynt, yr hon a fu mewn grym hyd esgyniad Harri IV., yr hwn yn y 14eg o'i deyrnasiad, a ddyroddodd eu brein-len freninol gyntaf iddynt. Y frein-len hon a ddiddymwyd gan Anne, pendefiges waddolog Stafford, yr hon pan y cafodd feddiant o'r arglwyddiaeth, a ddifreiniodd y bwrdeisiaid; ond fe'i hadferwyd yn 1448, gan ei mab, y cyntaf o'r teulu hwnw a ddaeth yn Ddûg Buckingham. Ymddengys y byddai y llywodraeth ddinesig, neu gorphoriaethol, dan y brein-leni uchod, yn cael ei gweinyddu gan Faer, a phedwar ar hugain o'r bwrdeisiaid penaf; a hyd yr uniad â Lloegr, ymddengys mai yr arglwydd a bennodai y maer; ac efe hefyd a bennodai siryf y fwrdeisiaeth, yr hwn a ddaliai y swydd am ei oes. Yr oedd gan y maer hawl i bennodi rhaglaw, a chrybwyllir am "faer teithiol;" ond, nid yw yn eglur pa ddyledswyddau a berthynent i'w swydd; eithr tybir eu bod yn gynnwysedig mewn arolygu llywodraethiad ddinesig rhan o blwyf Llywel, yr hwn er ei fod un filldir ar ddeg o bellder, sydd o fewn brawdwriaeth y corphoraeth;—ac i gasglu dirwyon, a chyllidau eraill y fwrdeisdref. Yr oedd yma bump o gorphoriaethau masnachol gynt;—sef, y gwehyddion, panwriaid, teilwriaid, cryddion, a menigwyr, neu grwynwyr. Arferai y pedwar cyntaf o'r rhai uchod gynnal eu cyfarfodydd am lawer o ganrifoedd, yn eu hamrywiol gapelau, yn eglwysi Sant Ioan a Sant Mair. Gan fod amryw gyfreithiau Cymreig wedi cael eu difodi yn nheyrnasiad Harri VIII., a hyny wedi peri lleihad mawr ar gyllid y gorphoraeth, hwy a gawsant ostyngiad gan y frenines Mari, trwy gyfryngiad Iarll Penfro, o gan punt yn y flwyddyn, yn ardreth faenorol y fwrdeisdref, yr hyn cyn hyny oedd yn chwech ugain punt yn y flwyddyn: a thrwy ddylanwad yr un pendefig, yn yr ail a'r drydedd flwyddyn o deyrnasiad Phylip a Mari, cafwyd y freinlen, dan ba un y llywodraethir y dref yn bresenol, a'r hon debygid, a estynai ffiniau y fwrdeisdref, fel ag i gynnwys amgylchoedd y priordy, a phlwyf St. Dewi, can belled a'r afon Tarrell; tra yr ymddengys nad oedd ffiniau y fwrdeisdref dan ei hen arglwyddi yn cynnwys namyn y llannerch o fewn y muriau. Yn ol y freinlen hon, y mae y llywyddiad yn gorwedd mewn maer, cofiadur, dau henadur, a phymtheg o brif fwrdeisiaid, gan gynnwys y maer a'r henaduriaid, yn cael eu cynnorthwyo gan ysgrifenydd, dau ystafellydd, dau ferllysgwr, a swyddogion eraill. Y maer a'r henaduriaid a ddewisir yn flyneddol o fysg y prif fwrdeisiaid, gan y bwrdeiswyr yn gyffredinol, ar y dydd Llun nesaf o flaen y 29ain o Fedi; ac a dyngir i'w swydd ar y dydd Llun canlynol. Y prif fwrdeisiaid a ddewisir o fysg y bwrdeisiaid, trwy

Digitized by Google

fwyafrif o'u corph eu hunain; a'r cofiadur, yr ysgrifenydd trefol, a'r ystafellyddion, a bennodir gan y gorphoraeth yn gyffredinol; gan ba rai hefyd y dewisir y bwrdeisiaid. Y mae y bwrdeisiaid, nifer y rhai yn awr nid ydynt namyn dau ar bymtheg, gan gynnwys y prif fwrdeisiaid, yn rhydd oddiwrth alwad i fod yn drethwyr, neu yn gasglwyr y trethi dyledus i'r goron allan o ffiniau y fwrdeisdref, ac oddiwrth dalu toll trwy yr holl deyrnas; ac y mae y cyfryw o honynt sydd yn byw o fewn y fwrdeisdref, yn esgusodawl hefyd rhag gwasanaethu fel rheithwyr am y sir; a rhag y gorfodaeth o ymddangos oddiallan i furiau Aberhonddu, o flaen unrhyw farnwr neu ynad, gosodedig gan y goron, oddieithr prif farnwr y wlad yn unig. Cafodd y fwrdeisdref yr ethol-fraint yn gyntaf, yn y seithfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad Harri yr Wythfed, ac er y pryd hyny y mae hi wedi parhau i ddychwelyd un aelod i'r Senedd. Yr oedd yr ethol-fraint gynt yn gyfyngedig i'r maer, yr henaduriaid, a'r bwrdeisiaid. Y mae yr hawl i ddyroddi rhyddid y fwrdeisdref i ryw un o'r preswylwyr, ar eu gwaith yn cymeryd eu llw yr ufuddhant i'r swyddogion dinesig yn mhob peth cyfreithlawn, ac yr amddiffynant iawnderau a breintiau y fwrdeisdref hyd eithaf eu gallu, yn gorwedd yn y gorphoraeth. Y mae y fwrdeisdref yn rhanedig i ddeuddeg cymharth, o ba rai y mae un-ar-ddeg yn y dref a'r gymydogaeth gyfnesol, ac yn cynnwys ffiniau prïordy Sant Ioan yr Efengylydd; a'r ddeuddegfed, a elwid cymharth Tre-castell, yn ffurfio y rhan hono o blwyf Llywel, yr hwn sydd yn gorwedd o'r tu gogleddol i'r afon Wŷsg, sydd un filldir ar ddeg o bellder, yn nghantref Defynog. Y maer, y cofiadur, a'r henaduriaid, ydynt yn ustusiaid heddwch o fewn y fwrdeisdref, ac ni fedd ynadon y sir gyd frawdwriaeth, oddieithr yn y llwyr ddiffyg o ustusiaid bwrdeisdrefol. Y fwrdeisiaeth a gynnalia frawd-lysoedd chwarterol, i farnu pob troseddau na byddont yn brif droseddau; yn y rhai y llywydda y cofiadur; a chynnelir y coflys bob dydd Llun a dydd Iau, er penderfynu cynghawsau, a chaffaeliad dyledion o unrhyw swm, ar y rhai y llywydda y maer, y cofiadur, a'r henaduriaid, neu unrhyw ddau o honynt, a chanddynt awdurdod i anfon gyr cyfreithiol i rwymo un mewn machniaeth, mewn achosion o ddyled; ac o fewn un mis wedi gwyl Mihangel, cynhaliant gantref-lys, fel arglwyddi y faenoriaeth, gyda golwg ar rydd-wystl, yn yr hwn hefyd y pennodir dau gwnstabl am bob un o'r deuddeg cymharth. Y brawd-lysoedd am y sir, ac etholiad marchog dros y sir, a ddygir yn mlaen yn Aberhonddu, fel pen tref y sir.

Bywioliaeth St. Ioan sydd Ficeriaeth rŷdd, â'r hon y mae curadiaeth barhaol Llanfair yn gydiedig, yn archddïaconiaeth Brycheiniog, ac esgobaeth Tŷ Ddewi, ardrethedig yn llyfrau y frenines yn 6*p.* 13*s.* 4*c.*, wedi ei gwaddoli â 200 punt trwy haelioni personol a 200 punt o arian-rodd breninol; yn noddogaeth archddïacon Brycheiniog. Yr eglwys, yr hon gynt ydoedd gapel y prïordy, a adeiladwyd, yma gan Bernard Newmarch, sydd hen adeilad croesddulliog hybarchus, yn benaf yn yr hen arddull o adeiladaeth Seis'nig foreuol, ac addurnog; a thŵr isel, braisg yn y canol, ar uchel-dir prydferth, ar y lan orllewinol i'r afon Honddu, ar yr ystlys ogleddol i'r dref, yn agos i goed y prïordy; ond y mae wedi myned trwy gymaint o adfeiliad anocheladwy, a chynifer o gyfnewidiadau, fel mai ychydig o'r nodwedd cyntefig sydd yn aros. Yn gydiedig â'r gangell, y mae capel mawr, a edmygir yn ddirfawr am brydferthwch ei adeil-waith; yr hwn a adeiladwyd yn fuan ar ol corfforiad y dref, gan un o deulu Hafard o Bontwilym; a thros y tri chan mlynedd diweddaf a gafodd yr enw "Capel y Ficer." Am yr ystlysgelloedd croesion, yr ogleddol a elwir "Capel Gwŷr Battle;" am ei fod yn neillduedig at wasanaeth preswylwyr pentref cymmydogol Battle, cyn dyfod y lle hwnw yn blwyf gwahanol; y mae hwn yn ddeg troedfedd ar hugain a haner o hŷd, a naw ar hugain o led; tra y mae y deheuol, a elwir "Capel y Cochiaid," sef y Normaniaid, o'r un lled a'r llall; ond yn ddeunaw troedfedd ar hugain a thair modfedd o hŷd. Y mae bywioliaeth Sant Dewi, neu Lanfaes, yn Ficeriaeth rŷdd; ardrethedig yn llyfrau y Frenines yn 5*p.* 15*s.* 7½*c.*, wedi ei gwaddoli a 400 punt, trwy haelioni personol, ac â 400 punt o arian-rodd breninol; ac yn noddogaeth Archddïacon Brycheiniog. Y mae yr eglwys, yr hon nid yw ond adeilad fechan, ar ystlys ddeheuol yr afon Wŷsg. Bywioliaeth eglwysig *St. Mary*, neu Llanfair, sydd guradiaeth wastadol, gyssylltiedig â Ficeriaeth St. Ioan yn Archddïaconiaeth Brycheiniog, ac esgobaeth Tŷ Ddewi; wedi ei gwaddoli â 400*p.* o elusen bersonol, a 600 punt o arian-rodd freninol. Y mae y capel, yr hwn oedd gynt yn eglwys blwyfol, a'i sefyllfa yn nghanol y dref, ac fe'i hail adeiladwyd yn nheyrnasiad Harri yr Wythfed. Y mae yn adeilad eang a hardd-wych, yn yr arddull Seis'nig ddiweddar o adeiladaeth, a thwr petryal canllawiog iddi, tua deg a phedwar ugain troedfedd o uchder, yn yr hwn y mae wyth o glychau. Adeiladwyd hwn yn y flwyddyn 1515. Yr oedd capel yn sefyll gynt yn agos i Llwch, o fewn capeliaeth Llanfair, wedi ei gyssegru i St. Elyned; ac yn agos i ben dwyreiniol y dref, y mae un a elwir Capel Sant Catrin; ac un arall yn nglŷn a'r carchar bwrdeisiol; ond, nid oes dim o olion y rhai hyn yn bresenol.—Y mae yma amryw addoldai Ymneillduol, perthynol i'r Bedyddwyr, y Cynnulleidfawyr, y Trefnyddion Calfinaidd, a'r Trefnyddion Wesleyaidd. Y mae rhai gwaddoliadau gwerthfawr yn perthyn i hen addoldy yr Annibynwyr, a elwir "Capel y Plough;" un sydd dyddyn dâ yn mhlwyf Merthyr Cynog, o'r enw Ty'n rhŷd y maen, a gymun-roddwyd yn y flwyddyn 1689. gan Richard Williams, o'r Glewdy, yr hwn a gynnyrcha dros ugain punt yn y flwyddyn; a'r llall sydd yn gynnwysedig o dai a thiroedd, yn nhref Aberhonddu, ac a elwir "y Plough," yn cynnyrchu tua deg punt ar hugain yn y flwyddyn. Y mae tyddyn bychan hefyd, o'r enw "Bola Maen," yn mhlwyf Llanfihangel Nant Brân, wedi ei adael gan ryw gymwynaswr anadnabyddus, at gynhaliad offeiriad Pabaidd yn y dref hon, er nad oes yma namyn dyeithriaid a dyfodiaid, yn Babyddion.

Yn maes-dref Llanfaes, y mae "Coleg Eglwys Crist" yn sefyll, ar orsaf hen grefydd-dy a berthynai i'r Brodyr Pregethol, sef y Dominiciaid, yr hwn oedd mewn bod yma cyn y Diwygiad Protestanaidd,—eglwys yr hwn, cyssegredig i Sant Nicholas, oedd yn adeilad fawr, fel yr ymddengys oddiwrth olion ei sylfeini,—agos i ddau can troedfedd o hŷd. Fe'i dinystriwyd yn nheyrnasiad Siarl y Cyntaf, gan y dirprwywyr Seneddol; y rhai a gymerasant feddiant yn nghyllidoedd y sefydliad. Gellir priodoli ei seiliad i'r Dr. Thomas Beck, esgob Tŷ Ddewi, yr hwn yn y flwyddyn 1283 a gynlluniodd sefydliad

Digitized by Google

cyffelyb yn Llangadoc, yn swydd Gaerfyrddin, yr hyn a lesteiriwyd trwy ei farwolaeth. Adnewyddwyd y bwriad cyntefig yn y flwyddyn 1331, gan ei olynydd, yr Esgob Gower; yr hwn, gan gymeryd i fynu yr un cynllun, a wnaeth eglwys Abergwili yn glasgorol i'r perwyl hyny. Parhaodd y sefydliad wedi ei sylfaenu fel hyn yn Abergwili, hyd y flwyddyn 1531, pan, trwy ddylanwad yr Esgob Rawlins, ei trawsfudwyd i Aberhonddu gan Harri VIII., yr hwn a roddodd hen fonachlog Sant Nicholas yn orsaf i'r coleg, ac a roddodd gyllid y sefydliad hwnw, yn ychwanegol at ei fedd-iannau eraill, er cynnaliaeth gwell iddo; gan ordeinio bod i'r lle gael ei alw o hyny allan, "Coleg Crist yn Aberhonddu." Y rhesymau dros ei symudiad a roddir yn mreinlen Harri VIII. ydoedd, annghyfaddasrwydd ei sefyllfa flaenorol; a'r anadnabyddiaeth o'r iaith Saes'neg a flynai yn mysg trigolion y parth hwnw o'r Dywysogaeth, yr hyn a barai nad oeddynt yn deall, nac o ganlyniad, yn ufuddhau i gyfreithiau y deyrnas. Y mae y frein-len hefyd yn ordeinio bod esgobion Tŷ Ddewi yn Ddeoniaid y gwaddoliad newydd; a'u bod i bennodi athraw, ac is-athraw, darlithydd dwyfyddiaeth, a phregethwr, i'w talu allan o gyllidau y coleg, am weini addysg râd i blant y fwrdeisdref. Cyfan-swm yr ardrethion neillduedig i'r corgyfranau yw 387*p.* 2*s.* yn y flwyddyn; o'r hyn y telir yn flyneddol, 30*p.* 18*s.* 4*c.* i'r darlithydd dwyfyddol; ac 20*p.* 1*s.* 9*c.* i'r athraw. Y mae y sefydliad yn gynnwysedig yn bresenol, o Esgob Tŷ Ddewi, yr hwn a lywydda fel Deon; blaen-geiniad, trysorydd, canghellydd, a phedwar-ar-bymtheg o gorfuddogion. Arferid derbyn gwyr ieuainc gynt i urddau cyssegredig, o Ysgol Rammadegol y Coleg, heb fod yn rhaid iddynt gymeryd eu gradd yn yr un o'r prif ysgolion; ond y mae wedi ei hamddifadu o'r rhagorfraint bwysig hon er pan sefydlwyd Coleg Dewi, yn Llanbedr, Ceredigion.

Wedi yr Adferiad, darfu i Dr. William Lucy, yr hwn a bennodasid yn Esgob Tŷ Ddewi, a Deon Coleg Crist, adferu, ac ail adeiladu rhan o'r eglwys, fel yr ymddengys yn bresenol; cynnwysedig yn unig o'r côr-gell a'r gangell, wyth droedfedd a thriugain o hŷd, a chwech ar hugain o lêd; yn yr hon, ar ddwy ystlys y fynedfa, y mae cor-gadeiriau y Deon a'r Cor-weinyddwyr. Y mae y ffenestr ddwyreiniol yn un fawr a hardd iawn; ac ar yr ystlys ogleddol i'r adeilad, y mae rhês o ddeg o ffenestri hir bigfain. Yn gydiol â'r ongl ogledd-orllewinol y mae gweddillion Capel Aubrey, yr hwn a berthynai i hen eglwys St. Nicholas; ac yn y pen dwyreiniol, y mae croes-faen hardd-wych, a symudwyd i'r sefyllfa hono yn y flwyddyn 1806, o adfeilion Capel Aubrey. Cafodd yr Esgob Bull ei gladdu yn yr eglwys hon, yr hon a gynnwys gof-adeiladau i amryw eraill o Esgobion Tŷ Ddewi, y rhai a gladdasid o fewn ei muriau. Ond, yr ar-ysgrif henaf sydd yn aros yw yr un ar garreg sydd yn awr yn ffurfio trothwy y drws; er côf am dad yr enwog Syr Dafydd Gam, yr hwn a gyfanneddai yn *Newton* (Dre-newydd), yn mhlwyf Sant Dewi, ac a gladdwyd yma ryw bryd yn nheyrnasiad Harri V.; er nad oes un amseriad ar y maen coffa. Y mae yma gof-adail i'r Esgob Lucy.—Ond y mwyaf drud-fawr ydyw allor-wyddfa, yn dwyn arno ddelwau lled-orweddol Richard, mab henaf yr esgob uchod, canghellwr yr eglwys, a'i wraig; yn nghyd a'u mab, wedi ei wisgo yn arddull Iago II., ar lech-faen wrth eu traed. Y mae hefyd o fewn ffiniau y coleg, dŷ a fu yn drigle amryw o esgobion; a rhai anneddau eraill, yn nghyda rhai gweddillion o'r hen adeiladau mynachlogaidd; yn mysg y rhai y mae rhan o'r hen gynteddfa, a'r ystafell giniawa. Ysgol Elusenol Boughrood, a gynhelir yn y Struet, yn nhŷ y meistr, yr hwn a dderbynia ugain gini yn y flwyddyn o gyflog, a thŷ a gardd yn ddi ardreth, am ddysgu haner cant o fechgyn. Fe'i sefydlwyd dan ewyllys y Parch. Rees Powell, gynt Ficer Boughrood, yn Maesyfed, dyddiedig yn y flwyddyn 1686, trwy yr hwn y cymmun-roddai efe arglwyddiaethau Elfel Uchaf, Aberedwy, a'r Garreg, a chastell, cyttir, a choedwig Colwyn, oll yn swydd Faesyfed; ac yn flyneddol, 262p. 4s. 4c., at amryfal amcanion elusenol, a enwir yn yr ewyllys; yn mysg y rhai, heblaw cynnaliaeth yr ysgol ddywededig, yr oedd ugain punt yn y flwyddyn at roi plant tlodion, ganedig o dref a bwrdeisdref Aberhonddu, neu blwyfi Sant Ioan yr Efengylwr, Sant Dewi, ac Aberyscir, i ddysgu rhyw alwedigaethau cyfreithlawn yn nhref Aberhonddu; deg punt yn flyneddol tuag at ffurfio trysorfa, er sefydlu y cyfryw blant tlodion mewn amser dyfodol yn y cyfryw alwedigaethau; a phedair punt ar hugain yn y flwyddyn i benaeth, neu rag-benaeth Coleg yr Iesu, Rhydychain, at gynnaliaeth ysgolorion tlodion, neu dan-raddogion yno, brodorion o Siroedd Maesyfed a Brycheiniog; gan roddi y flaenoriaeth i'r rhai a fyddont o garenydd y rhoddwr. Gan fod cyllid yr elusen yma wedi cynnyddu yn fawr, y mae yr hyn sydd dros ben, yn cael ei ddefnyddio gan yr ymddiriedolwyr, naill ai i estyn yr elusen i fwy o nifer o blant nag a nodir yn y weithred wreiddiol; neu i chwanegu y symiau a nodir ynddi. Sefydlwyd dwy ysgol Lancasteraidd yn y dref yn y flwyddyn 1810, er côf am y ddegfed flwydd a deugain o deyrnasiad Siôr III., un o honynt i fechgyn, a'r llall i enethod. Yn y flwyddyn 1722, rhoddodd Nicholas Sieffrey gan punt, gan erchi bod i'w llog gael ei ddefnyddio at wasanaeth ysgol râd bechgyn y gwisgoedd gleision. Yn 1724, rhoddodd Mrs. Games dri chant o bunau, i brynu tiroedd, o ardrethion pa rai, yr oedd dwy bunt yn flyneddol i gael eu rhoddi at ysgol elusenol y genethod, a'r gweddill i gael ei ranu mewn bara yn feunyddiol, dan gyfarwyddyd yr ymddiriedolwyr; ac yn 1794, Mrs. Mary Williams a gymmun-roddodd lôg can punt, i gael ei gymhwyso yn flyneddol tuag at gynhaliaeth ysgol elusenol Aberhonddu. Y mae yr amryfal gymmun-rodion hyn wedi eu huno yn bresenol, a'u cynnyrchion, yn nghyd a'r cyfroddion blyneddol, a chymmun-rodd Mrs. Collinson a gymhwysir at gynnaliaeth yr Ysgolion Elusenawl; neu, yr "Ysgolion Lancasteraidd," fel eu gelwir, gan ffurfio trysorfa, o'r hon y telir cyflogau yr athraw a'r athrawes. Y mae yma elusendy hefyd, i ddeuddeg o fenywod oedranus a llesg, wedi ei sefydlu yn y flwyddyn 1721, trwy haelioni Mrs. Catherine Games, a Mrs. Walker, y rhai a roddasant 620p. i'w rhoddi allan mewn pryniad tiroedd at ei waddoliad, ac fe'i dodwyd dan arolygaeth perchenog ettifeddiaeth Pen y Bont. Y mae yr anneddau, yn nglŷn a phob un o ba rai y mae gardd ddâ, yn mhlwyf Llanfaes. Treuliwyd y gwaddol i brynu ettifeddiaeth o'r enw Hepstè, yn mhlwyf Cantref; ond ni thelir namyn llog y swm gwreiddiol i'r tlodion, yn ol deg swllt a deugain yn y flwyddyn, bob un, ac nid ardreth y tir a brynwyd. Ond fe ychwanegwyd at y blwydd-dal uchod yn ddiweddar, trwy fod Mr. Sybil Collinson, gynt o Aberhonddu, wedi gadael yn ei hewyllys bûm punt

Digitized by Google

ar-hugain yn y flwyddyn; o ba rai y mae deuddeg punt yn y flwyddyn i gael eu rhanu yn gyfartal rhwng y rhai a fyddont yn cyfanneddu yn yr elusendy: a'r cyffelyb swm i gael ei roddi at gynnal yr Ysgolion Lancasteraidd yn Aberhonddu; a'r bunt weddill, at garchar y sir. Y mae amryw gymmunroddion eraill wedi eu gadael o bryd, at wasanaeth tlodion y lle. Yn y flwyddyn 1581, rhoddes Mrs. William Thomas gân punt i'w benthyca i bump o wehyddion, a phump o banwyr, heb lôg, am yr yspaid o dair blynedd, dros byth; tua diwedd y bymthegfed ganrif, neu ddechreu yr unfed ganrif ar bymtheg, rhoddes Mr. Peter Body, dŷ a gardd, yn ardrethu punt yn y flwyddyn, i'w rhanu rhwng y tlodion. Mr. Lewis Meredydd, a roddes dŷ a gardd, o'r unrhyw ardreth blyneddol, i'w rhanu yn y cyffelyb fodd; ac Evan William Siencyn, a roddes ddwy bunt yn flyneddol i'r tlodion. Yn y flwyddyn 1612 Syr Dafydd Williams, o Wern-nyfed, yn mhlwyf Glâsbury, a gymmun-roddodd ddegwm Gwendwr, yn y sir hon, at ryw amcanion elusenol neillduol, yn mysg y rhai yr oedd deugain swllt yn y flwyddyn, i dlodion plwyf Sant Ioan yr Efengylwr, yn y dref hon; yr hon gyfran, trwy gynnydd yn ngwerth tir, sydd yn awr yn cynnyrchu dros wyth gini yn flyneddol; a'r dyroddiad o ddeg swllt yn y flwyddyn gan yr un cymmwynaswr, i'w talu am bregeth i'w thraddodi yn flyneddol yn y lle hwn, sydd wedi cynnyddu i ddeuddeg swllt ar hugain a thair ceiniog yn y flwyddyn. Yr un flwyddyn, rhoddodd Mr. Howel Thomas bunt y flwyddyn i'r tlodion. Yn y flwyddyn 1657, rhoddodd Mr. Thomas Davies arian at geisio pedwar pâr o ddillad i bedwar o grefftwyr tlodion yn flyneddol, ar wyliau y Nadolig; ac oddeutu yr un amser, rhoddodd Mr. John Williams chwe phunt yn y flwyddyn, i dri o bobl dlodion Aberhonddu, dros byth; a Mr. Tobias Williams, bunt yn y flwyddyn i'r tlodion, a deg swllt am bregeth, ar ddydd gwyl Fair y Canhwyllau, yn flyneddol. Yn y flwyddyn 1674, darfu i Edmund Jones, o Buckland, drosglwyddo tŷ, ystabl, buarth, a beudy, yn yr Heol Uchaf, i ymddiriedolwyr, at roddi bechgyn tlodion, ganedig o'r fwrdeisdref hon, yn egwyddor-weis ynddi, ac y mae y meddiannau hyny yn awr yn cynnyrchu 33p. yn flyneddol. Yn y flwyddyn 1675, Mr. Rossier Boulcot a roddes dŷ a gardd, gwerth saith swllt a chwecheiniog yn y flwyddyn, i'r tlodion, am fil o flyneddoedd. Yn 1683, Mr. William Thomas a roddodd haner cant o bunnau, gan orchymyn bod eu llog i gael ei ranu rhwng y tlodion yn flyneddol, ar wyliau y Nadolig; ac yn y flwyddyn 1685, rhoddes Mr. Richard Jones ddeugain punt i brynu tir, a Mr. William Phillips, henaf, ddeg punt ar hugain; cynnyrch y ddau swm i gael ei dalu yn flyneddol i'r tlodion, wyliau y Nadolig. Yn y flwyddyn 1698, Mrs. Mary Powell a roddes flwydd-rodd o chwe phunt, i'w talu o ettifeddiaeth Tan y Parc, yn mhlwyf Llandefally; y naill haner at roddi tri o blant yn freint-weision, a'r haner arall i'w rhanu rhwng chwech o'r teuluoeddesau tlottaf; gan roddi y flaenoriaeth i rai gweddwon. Yn 1710, rhoddes Henry Jones ddeg swllt yn y flwyddyn, tuag at ddilladu dau o dlodion dros byth. Yn 1712, Mr. Thomas Phillips a roddodd haner cant o bunnau; ac yn 1721, Mr. William Phillips a roddodd ugain punt, llog blyneddol y rhai sydd i'w ranu rhwng y tlodion. Mrs. Elisabeth Sieffrey, yn y flwyddyn ddiweddaf a nodwyd, a adawodd flwydd-rodd o chwe phunt; o'r rhai yr oedd deg swllt a deugain i gael eu rhoddi yn flyneddol i ddeg o ddynion tlodion, a'r cyffelyb swm i ddeg o ferched tlodion, deg swllt am bregeth; a'r deg swllt gweddill i gael eu rhanu wrth farn yr ymddiriedolwyr. Yn y flwyddyn 1726, Matthias Berrow a gymmun-roddodd ddwy bunt yn flyneddol allan o ardreth rhyw feddiannau yn Heol y Mynydd, tuag at freint-wasu plant tlodion; ac yn y flwyddyn 1826, Mr. John Jones, gynt o'r Cwm, yn mhlwyf Sant Ioan yr Efengylwr, a gymmun-roddodd i ofal ymddiriedolwyr y swm o haner cant o bunnau, wedi eu diogelu ar weithydd dwfr Aberhonddu, gan drefnu bod i'w llog gael ei dalu yn flyneddol i bump o weddwon tlodion, a enwid yn yr ewyllys, ac wedi hyny i eraill a gyfanneddent yn y rhan uchaf o'r plwyf, na byddent yn cael eu cynnal yn y tlotty. O'r cymmun-roddion hyn, y mae y corphoraeth yn talu yn flyneddol ryw faint dros haner cant o bunnau; a Chofiadur y fwrdeisdref, ac arolygwyr tlodion y plwyf, a'r Wardeiniaid eglwysig, a ranant y gweddill sydd mewn gafael yn bresenol.

Am yr hen gastell, yn yr hwn y tybir y cynllunîwyd uniad tai Caerefrog a Chaerhirfryn, gan y Dûg o Buckingham, a Morton, Esgob Ely, yr hwn oedd y pryd hyny yn garcharor yn nghadwraeth y Dûg, y mae ychydig weddillion yn aros; y rhai ydynt yn gynnwysedig yn benaf o gadarnfa y castell, yn yr hwn yr oedd yr esgob dywededig yn garcharor, ac o'r herwydd, a elwir, "Tŵr Ely;" ond y mae y rhan fwyaf o lawer wedi cwympo yn adfail; ac y mae gwesty a elwir "Gwesty y Castell" wedi ei adeiladu ar ran o'i orsaf. Ymddengys fod ei rag-furiau, seiliau y rhai ydynt yn weledig eto, yn amgau llannerch betryal, gân llath o hŷd, wrth bedwar ugain o lêd; ac yn cael ei amddiffyn gan ddau warch-dwr ar bob un o'r conglau: ar yr ystlys ogleddol, y mae olion hen ddyfr-ffos yn weledig; ac yn mhellach i'r gogledd, y mae cornant ddofn, wedi ei bwriadu i gludo dyfroedd yr afon Honddu yn y cyfeiriad hwnw, er gwneyd holl orsaf y castell yn ynysawl. Y mae yr olygfa ar y gweddillion, er mor dra adfeiliedig ydynt yn bresenol, yn darawiadol iawn; gan eu bod yn cymeryd i fynu lechwedd bryn tra serth, ar ochr ogleddol yr afon Wŷsg, goruwch ei chydiad â'r Honddu, yr hon a ysgarai rhwng yr Honddu â'r rhan gaerog o'r dref. Y gweddillion o Brîordy Benedictaidd Sant Ioan yr Efengylwr, seiliedig gan Bernard Newmarch, yn nheyrnasiad Harri I., sydd yn gynnwysedig yn benaf o eglwys Sant Ioan, am yr hon y crybwyllwyd yn barod; rhan o'r muriau allanol, ac o'r cynteddfa, neu, y porth, ac ychydig o'r adeiladau a berthynent i'r crefydd-dŷ, ond ydynt yn awr yn feudai perthynol i dyddyn. Yr oedd cyllid y sefydliad hwn ar y dad-gorfforiad, yn 134*p.* 11*s.* 4*c.* Dyroddwyd y lle i Syr John Price, brodor o'r wlad hon, a chyfreithiwr enwog, yr hwn a bennododd Harri VIII., yn aelod o gyngor yn llŷs y Cyffin-diroedd; a'r hwn a fu yn dra offerynol i ddwyn oddi amgylch yr undeb rhwng Lloegr a Chymru. Prynwyd yr ettifeddiaeth wedi hyny, oddiar un o'i hiliogaeth gan Syr John Jeffreys, wyres yr hwn a'i trosglwyddodd trwy brîodas i John Pratt, Ysw., o'r Anialwch, yn swydd Caint, unig fab yr hwn a fu farw yn ddi blant, ac a'i cymmunroddodd i'r Anrhydeddus Ardalydd Camden. Treuliodd y brenin Siarl I. noswaith yn y Prîordy, ar ei ffoedigaeth o frwydr anffodus Naseby; a bu y brenin Sior IV. yma noswaith, ar ei ddychweliad

Digitized by Google

o'r Iwerddon, yn y flwyddyn 1821. Y mae amryw hen balasau eraill yn y gymmydogaeth: ond y rhai na's cyfanneddir mwyach gan deuluoedd pendefigaidd: o'r rhai hyn, yr oedd Hoelfannog; neu, yn fwy priodol, "Ael-fannog," sef, yr "Ael uchel," a Newton, neu y "Dref newydd," y ddau yn mhlwyf Llanfaes, a berthynent i'r Hafardiaid: y teulu pendefigaidd hwnw hefyd, oeddynt berchenogion Pont Wilym, hên balas a orweddai ar yr ochr gyferbyniol i'r dref, yr hwn sydd yn dyddyn-dŷ yn bresenol, a Llŷs Lion Young, yr hwn a safai gerllaw y ffordd o Aberhonddu i Battle; o'r hwn nid oes prin ddim olion yn aros.

Y mae pentref y Fenni Fach, yn mhlwyf Sant Ioan, o fewn yr hwn yr oedd yr hen ddinas Rufeinaidd, a phrif ddinas Brydeinaidd Brycheiniog, yr hon a elwir yn awr, "y Gaer," yn gorwedd, mewn sefyllfa hynod o brydferth, goris bryn coediog y Fenni, ac heb fod yn mhell oddiwrth yr afon Wŷsg. Yr oedd yr hen orsaf Rufeinaidd yn gorwedd ar ongl, rhwng yr afonydd Yscir a'r Wŷsg. Y mae yr hen wrthgloddiau yn weledig eto, yn amgau llannerch betryal, o tuag wyth erw o dir; yn ymestyn mewn hyd, o ddwyrain i orllewin, chwe chant a phedair ar hugain o droedfeddi; ac mewn lled ar ei thraws, bedwar cant ac un ar bymtheg a deugain. Y mae sylfeini y muriau a'i hamgylchent yn gyfan eto; ac mewn rhai lleoedd, yn enwedig ar yr ystlysau gogleddol a deheuol, y mae rhanau o'r muriau yn aros, o dair i chwe throedfedd o uchder, a saith droedfedd a haner o drwch, a'u gwyneb-waith eto yn berffaith, yn gynnwysedig o feini ysgwâr, troedfedd o dryfesur; a'r canol wedi ei lenwi a mân gerrygos a chymmrwd; y cyfan yn gyffelyb o ran adeilwaith i Gaerlleon-ar-Wŷsg, a Chaer Went, yn swydd Fynwy. Y mae Tŷ Ammaethwr, a'r adeiladau cyssylltiedig ag ef, wedi eu cyfodi â'r defnyddiau a gaed o adfeilion yr hen Gaer, gweddillion yr hon sydd wedi eu gorchuddio o'r bron mewn amryw fanau gan ordyfiant prysgoed. Yr oedd yr holl lannerch yn orchuddiedig gan ddrylliau o bridd-feini rai blynyddau yn ol, ac fe gafwyd amryw fathodynau, a lluaws o hynafiaethau Rhufeinaidd eraill, o fewn y Gaer, ac yn ei hamgylchoedd; yn eu mysg yr oedd lluniau cerfiedig o feini, gwrnau yn cynnwys lludw, ac esgyrn dynol golosgedig, a chreiriau eraill. Mewn lle a elwir "Pen y Crug," tua milldir o'r "Gaer," a thu a'r un pellder i'r gogledd orllewin o Aberhonddu, y mae gwaith milwraidd Prydeinaidd arall o'r un dosbarth, ac un o'r gweddillion mwyaf cywrain, a goreu eu cadwraeth yn y Dywysogaeth: ei ffurf sydd hir-grwn, ei draws-fesur mwyaf yn chwe chan troedfedd, a'i draws-fesur byraf yn bedwar cant a deg ar hugain; y mae y llannerch yn gylchynedig gan dri amglawdd, wedi eu cyfodi i'r uchder o tua deunaw troedfedd. Ar fryn cyferbyniol, a elwir "Slwch," ac weithiau "Pen Cefn y Gaer," neu "Esgair y Gwersyll," y mae gwersyll Prydeinaidd arall, cyffelyb mewn ffurf; ond heb fod mor chang, yn gylchynedig gan ddwy ffos, y rhai ydynt agos a chael eu dystrywio mewn manau. Y mae olion gwarchgloddiau Prydeinaidd eraill yn y gymmydogaeth; ond yn llawer llai na'r rhai uchod. O'r ffyrdd Rhufeinaidd lluosawg, a gyd gyfeirient i'r pwynt yma, yr unig olion a ganfyddir, ydyw sarn sydd yn cyfeirio mewn llinell agos yn gywir-ongl â rhawd yr Yscir; yr hon y bernir ei bod yn gangen o'r *Via Julia;* dywedir bod hon ar y cyntaf, tua deugain troedfedd o led, wedi ei chyfodi yn uwch nag arwynebedd y tir cyfnesol, a'i gwneyd o grynfeini llyfnion, o amryfal faintioli, y rhai fe ddichon a gasglwyd o welyau yr afonydd cymmydogaethol. Er fod y ffordd hon yn dra adfeiliedig, ac wedi ei gorchuddio a phrysgwydd, gellir ei dilyn yn rhwydd eto; ac arni y mae maen nodedig (a ddygwyd i sylw cyhoeddus gyntaf gan yr hynafiaethydd enwog Mr. Lhuwyd, yn ei gyfraniadau i argraffiad yr esgob Gibson o *Camden's Britannia*), yr hon yn ddiameu sydd yn ddernyn o hynafiaethau Rhufeinaidd. Y mae yn chwe throedfedd o uchder, ac arni yn gerfiedig mewn bas-ddelwad, lun dyn a dynes, tua thair troedfedd o uchder, y rhai y tybia y werin yn gyffredin, eu bod yn cynnrychioli dwy fenyw, ac am hyny galwant y garreg "Maen y Morwynion." Y mae arysgrifen Lladin ar y garreg, yr hon sydd mewn rhan wedi ei dileu. Y darlleniad a ddyru rhai iddo sydd fel y canlyn:—"ALANCINA CIVIS ET CONJUNX EJUS, H. S. EST;"—ac oddiwrth hyny yr ydys yn barnu bod y maen wedi ei gyfodi er coffadwriaeth am ryw ddinesydd Rhufeinaidd, a'i wraig. Gellir crybwyll hefyd fod y ffordd Rufeinaidd a elwid *Via julia Montana* yn croesi gorsaf bresenol tref Aberhonddu, yn yr hen amser, yn y cyfeiriad y mae yr heol a elwir oddiwrth yr amgylchiad uchod yn "Ystrud," yn ei gymeryd: a thua dwy filldir i'r de ddwyrain o'r dref bresenol, darganfuwyd gweddillion baddon Rhufeinaidd, yn y flwyddyn 1783, mewn cae yn mhlwyf Llanfrynach.

Cyfododd amryw enwogion o'r gymmydogaeth hon; yn mysg y rhai y gellir enwi Syr Dafydd Gam, yr hwn a ddilynodd Harri V. i frwydr Agincourt; efe a gyfanneddai yn Newton, yn mhlwyf Llanddew. Hwn a amlygodd y dewrder mwyaf yn ystod y frwydr hono, yn yr hon y dywedir iddo achub bywyd ei frenin, trwy aberthu ei fywyd ei hun, a'r eiddo ei fab yn nghyfraith, ac un o'i geraint: ac efe a urddwyd gan y brenin yn farchog, ar faes y frwydr, fel yr oedd y gwron yn marw o'i archollion. Dr. John David Rhŷs, awdwr y *Linguæ Cymraecæ Institutiones*, a breswyliai yma dros y rhan ddiweddaf o'i oes, mewn tŷ o'r enw Clyn Hir, goris Ban Brycheiniog, ac yn agos i'r llyn bychan a elwir Llyn Cwm Llwch. Mab i fasnachwr o'r dref hon, ydoedd yr enwog Dr. Hugh Price, seilydd Coleg yr Iesu, Rhydychain. Efe a gymmerth ei radd yn Rhydychain, yn y flwyddyn 1525, yn D. C. L.; ac wedi hyny efe a wnaed yn brebendur Rochester, a thrysorydd Tŷ Ddewi. Efe a fu farw yn 1574, ac a gladdwyd yn eglwys Sant Ioan yr Efengylwr. Y chwareuyddes ddigyffelyb, y ddiweddar Mrs. Siddons, a anwyd yma Gorph. 14, 1755, tra yr oedd ei rhieni ar gylch-daith broffeswriaethol; a Mr. Theophilus Jones, awdwr craffus a llafurus hanes swydd Frycheiniog, tad yr hwn oedd y Parch. Hugh Jones, a fu yn olynol yn Ficer Llangammarch a Llywel, yn y swydd hon; ac yn brebendur eglwys Golegawl Aberhonddu.

ABERLLYFNI;—neu, ABERLLYNFY;—plwyf yn nghantref TALGARTH, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU;—bedair milldir i'r de orllewin wrth orllewin o'r Gelli. Y mae y lle yn gorwedd mewn gwlad hynod o brydferth, ar gydiad yr afon Llyfni â'r Wŷ, ar lan ddeheuol yr afon olaf, lle y mae y ddaear yn frâs, a'r ddrychfa yn dra amrywiadol a difyrus. Y mae wedi pallu ag ymarfer ei hawlion eglwysig fel plwyf er ystalm: a'r trigolion a briod-

Digitized by Google

ant, ac a gladdant eu meirw yn Glasbury, oddiwrth yr hyn y barnodd llawer mai Capeliaeth perthynol i'r plwyf hwnw oedd Aberllyfni; eto nid ydyw trigolion Aberllyfni yn cyfranu at dreth eglwys Glasbury, yr hyn ydyw y nod arferol o ddibyniaeth. Oddiwrth ewyllys William Fychan, o'r Maes-lwch, dyddiedig yn 1582, ymddengys fod glwys-noddogaeth y lle yn eiddo y boneddwr hwnw, yr hwn a'i cymmun-roddodd i'w ferch, Catharine Fychan, neu Vaughan, a'r eiddo Llŷs-wen yr un modd. Fe'i nodir ar wahan oddiwrth Glasbury hefyd yn mhrisiad y plwyfi a wnaed trwy orchymyn y Pab Nicholas; lle y prisir Aberllyfni yn 4*p.* 6*s.* 8*c.*—Ymddengys fod yr eglwys wedi myned a'i phen ynddi tua chanol y ganrif ddiweddaf, a thu a'r un adeg fe beidiwyd a chynnal gwasanaeth crefyddol ynddi; ac nid ymarferwyd y noddogaeth yma mwyach; ac ni thalwyd degwm yma o fewn cof neb sydd yn fyw. Cyn y pryd hyny, yr ydys yn barnu fod gwasanaeth rheolaidd yn cael ei gynnal yn yr eglwys; ac y mae rhai yn fyw sydd yn cofio cerrig beddau yn y fynwent. Y mae hen ywen yn dynodi y fan lle y gorweddai yn bresenol, a gwigfa o brenau ffawydd. Y mae bedydd-faen wyth ongl mewn rhyw ammaethdy cyfagos, yn dwyn arno yr amseriad 1635. Y mae Aberllyfni a phentref y Felindre, yn derbyn 6*p.* 8*s.* 3*c.* yn y flwyddyn, oddiwrth gymmun-rodd a addawodd Syr David Williams, i'w rhanu rhwng y tlodion.

**ABERMAW**: "Y Bermo."—Porthladd bychan, a thref farchnad, yn mhlwyf LLANABER, yn nghantref ARDUDWY, Swydd FEIRIONYDD, GOGLEDD CYMRU;—10½ mill. i'r gor. wrth ddc. o Ddolgelleu; a 222 milldir, gor. og. or. o Lundain. Y mae enw y lle yn dynodi ei sefyllfa ar safn yr afon MAW; neu, y MAWDDACH. Y mae y dref yn gorwedd mewn sefyllfa brydferth, ar ochr ogleddol yr afon, yn agos i'w harllwysiad i fachwy Ceredigion. Y mae morgainc y Maw, yr hon a ffurfia ei phorthladd, tua milldir o lêd ar y llanw; y traeth sydd dywodle llyfn ac esmwyth, yn ymestyn o'r porthladd, i'r gogledd, hyd Draeth Artro, lle y mae yr afonig Artro yn ymarllwys i'r môr, ac y mae yn meddu llawer o fanteision rhagorol fel ymdrochle. Y mae awyr y lle yn dyner ac iachus, yn gymaint a bod y dref yn cael ei chysgodi yn dda gan y bryniau sydd o'r tu cefn iddi, oddiwrth wyntoedd oerion y gogledd, a'r gogledd ddwyrain. Y mae yr olygfa oddiar y traeth yn hynod o fawreddawg; gwelir y bryniau uchel ar lenydd cyferbyniol swydd Gaerynarfon, yn y pellder, tu a'r gorllewin; a thu a'r gogledd, terfynir y môr gan fynyddoedd uchel, y rhai a ymddangosant megys pe y ffurfient warch-gloddiau mawreddawg er amddiffyn y forlan; a thu hwnt i'r rhai, pan fyddo yr wybren yn glaer, y gellir gweled copa y Wyddfa yn ymddyrchafu goruwch y lleill. Y mae ymddangosiad y dref, fel ei gwelir oddi ar y môr, yn dra rhamantus; gan fod y tai wedi eu hadeiladu yn rhestrau, y naill goruwch y llall, ar lechwedd mynydd-graig serth. Yr oedd y lle hwn wedi dyfod yn gyrchle dyeithriaid yn ymofyn am iechyd ac adnewyddiad i'w hiechyd yn misoedd yr hâf er's llawer o flynyddoedd; ac erbyn hyn y mae yma bob darpariadau ar gyfer cysuron y cyfryw ymwelwyr; a'r cyfleusderau i gyrhaedd yno ydynt wedi eu hychwanegu yn ddirfawr, trwy y rheil-ffyrdd a agorwyd i'r parthau hyn yn y blyneddoedd diweddar. Mor-gilfach perthynol i borthladd Aberystwyth yw yr Abermaw; a chyn y rhyfel maith rhwng y deyrnas hon â Ffrainc, yn nechreu y ganrif hon, arferai y trigolion ddwyn yn mlaen drafnidiaeth fasnachol â'r Iwerddon, yr Hispaen, a'r Eidal. Y mae y porthladd yn cael ei ffurfio, trwy fod safn yr afon Maw yn gauedig mewn rhan gan ynys fechan, a elwir "Ynys y Brawd" (am ei bod wedi bod unwaith, efallai, yn encilfa rhyw hen Fynach);—a beis-don farianawg, tu a'r dehau; y mae yr ynys grybwylledig yn ei gysgodi rhag tonau y cefn-fôr; ac yn yr amser gynt, porfelid defaid a gwartheg arni; ond, trwy symudiad y tywod, y mae i fesur mawr wedi ei gorlifo yn bresenol; ac y mae y traethau symudol hyn yn gwneyd y fynedfa i fewn i'r porthladd yn anhawdd a pheryglus; ac ni all llestri trymion fyned i fewn nac allan dros "y bariau" hyn, oddieithr ar ben gorllanw. Yn y flwyddyn 1802, gwellhawyd y porthladd yn fawr, trwy adeiladu morglawdd bychan o waith maen, ar y draul o 1660 punt; yr hyn a chwanegodd at ddyfnder y dwfr, ac a wnaeth lawer o hwylusdod i lwytho llongau. Y mae yr afon Maw yn fordwyawl i gychod dan ugain tunnell, hyd o fewn dwy filldir i Ddolgelleu. Y mae yma ddwy farchnad yn wythnosol ar ddyddiau Mawrth a Gwener; a chynhelir ffeiriau yma ar ddydd Llun Ynyd, dydd Llun Sulgwyn, Hydref 7; Tach. 21. Yn y flwyddyn 1830, adeiladwyd eglwys yma, yr hon sydd yn adeilad hardd, ac yn cynnwys eisteddleoedd i 470; y naill haner o ba rai sydd i fod yn rhŷdd, ar gyfrif rhodd o dri chant o bunnau, a gafwyd oddiwrth y Gymdeithas Gorphoredig er adeiladu, helaethu, ac adgyweirio eglwysi a chapelau; ac y mae yma addoldai da gan yr Annibynwyr, a'r Trefyddion Calfinaidd, a Wesleyaidd. Gwel "LLANABER."

**ABERNANT**,—plwyf yn rhan-barth uchaf cantref ELFET, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUBARTH CYMRU, 5 milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Gaerfyrddin. Y mae y pentref mewn sefyllfa hyfryd, ar lanau yr afon Cowin, tua dwy filldir i'r gorllewin o'r brif-ffordd sydd yn arwain o Gaerfyrddin i Gastell Newydd yn Emlyn, ac Aberteifi; ac arferai gynt fod yn gyrchle tra chyffredinol, ar adeg meirchredegfeydd Caerfyrddin, y rhai a gymerent le am lawer o flyneddoedd o fewn y plwyf hwn, ar redegfaes a ddelid ar bryd-les, dan Lewis Evans, Ysw., Pant y Cendy; ond a gedwid wedi hyny ar yr ochr arall i'r afon Towy. Cynhelir yr is-frawdlysoedd am y rhan-barth yma yn fisol, a'r cantref-lŷs (*court-leet*), a gynhelir yma bob yn ail a'r Bwlch Newydd, yn mhlwyf yr Eglwys Newydd. Ficeriaeth ydyw y fywioliaeth eglwysig, a churadiaeth barhaol Cynwil yn Elfet, wedi ei chydio wrthi, yn archddiaconiaeth Caerfyrddin, ac esgobaeth Tŷ Ddewi. Y mae mwy o dir eglwysig yn perthyn i'r fywioliaeth yma, nag i'r un arall yn y Dywysogaeth. Y llan, yr hon sydd yn gyssegredig i Sant Lleurwg, sydd adeilad fechan, hardd, mewn llannerch neillduedig a thawel. O fewn tua haner can mlynedd yn ol, cafwyd tri ugain o ddarnau arian yma, o deyrnasiad Elizabeth, Iago I., a Siarl I. Fe'u canfuwyd gan ryw blant wrth chwareu, yn agos i'r Ficerdy; ac wrth adgyweirio y ffordd yn agos i Bant y Cendy, cafwyd gwrn Rufeinaidd, rai troedfeddi islaw wyneb y tir, yn cynnwys lludw, yr hwn hefyd a gyfliwiasai gryn lawer ar y pridd o amgylch y lle; ond ymfaluriodd y llestri yn chwilfriw ar eu symudiad.

Er nad oes un crybwylliad ar gael mewn unrhyw hanes, fod un math o sefydliad Rhufeinaidd wedi bod yn y lle hwn, ac na's gellir canfod unrhyw

Digitized by Google

olion o wersyll milwraidd yn y gymydogaeth, eto dywaid traddodiad fod brwydr wedi cael ei hymladd rhwng y Rhufeiniaid a'r Cymry yn y gymmydogaeth yma: er prawf o'r hyn y mae maen a gyfodwyd er coffadwriaeth am Severin, y maes-lywydd Rhufeinaidd, yn aros hyd y pryd hwn; ac nid yw yn annhebyg fod y llanerch wedi bod yn gladdfa rhai o'r lladdedigion a gwympasant yn y frwydr; ac y mae hyny yn fwy tebyg fyth, am fod yr hen ffordd Rufeinig o "Maridunum" (Caerfyrddin), i dref Abergwaun, yn myned yn gyfagos i bentref Abernant. Y mae goresgyniad y rhan yma o'r wlad yn cael ei brïodoli i *Julius Frontinus*, tu a'r flwyddyn 70; ac oddiwrth y llywydd hwnw, gelwid y ffordd Rufeinaidd a'i croesai o'r dwyrain i'r gorllewin, yn *Julia Strata* (Ystrŷd Julia); neu *Via Julia Maritima*. Y mae yma addoldy cyfleus yn perthyn i'r Annibynwyr.

**ABERPERGWM**, hen balas anrhydeddus y Williamsiaid, yr hwn sydd yn gorwedd yn mhlwyf Cadoxton, yn nghantref Nedd, *swydd* Forganwg, Deheudir Cymru.—Yr oedd Olifer Cromwell yn hanu o'r hen deulu anrhydeddus a fuant yn cyfanneddu yma dros oesoedd; a dywedir ei fod ef wedi gorsafu ei fyddin gerllaw y lle hwn, ar ei gad-ymdaith i Aberdau-gleddyf, pan ydoedd yn myned i hwylio am yr Iwerddon; ac iddo anfon cennad i hysbysu y teulu o'i ddyfodiad, ac i ofyn eu hewyllys da i'w gynnorthwyo ar ei gad-gyrchiad, gan eu hysbysu ar yr un pryd ei fod ef o'u carenydd. Ond gan na chafodd unrhyw gefnogaeth gan yr hen deulu anrhydeddus, y rhai oeddynt yn ymlynwyr selog wrth achos y brenin, efe a barodd danio rhai ergydion dros ben yr hen balas, er eu brawychu, ac aeth rhagddo heb ormesu yn mhellach arnynt. Cafwyd rhyw gymaint o gadarnhad i'r traddodiad uchod yn y flwyddyn 1831, trwy ddarganfyddiad rhai pelenau magnel, wrth aru tir yn agos i'r palas. Y mae capel anwes i eglwys y plwyf yn gorwedd o fewn ceu-faes y palas enwog hwn. Ar fryn oddiar y palas hwn y mae olion y ffordd Rufeinig o Aberhonddu i Nêdd, y *Via Julia Montana*, i'w gweled. A cherllaw y ffordd hon yr oedd maen, yn dwyn arysgrif Rhufeinaidd, yr hwn a ddarllenai Mr. Llwyd fel y canlyn: —*Marci Caritini fili Berici*. Y mae wedi ei symmud yn bresenol, a'i chyfleu mewn gardd-ogof berthynol i Gastell Gnoll. Ar yr unrhyw fryn, ac yn agos i'r bryn lle yr oedd y garreg uchod, y mae dwy hen garnedd, yn cael eu hamgylchynu gan ffosydd; yn y rhai yn ddiammeu y cleddid rhai o enwogion y cyn-oesoedd.

Y mae teulu Aberpergwm wedi bod yn ganmoladwy er ys oesoedd am eu gwladgarwch, a'u parodrwydd diarhebol i gefnogi llenorion a llenoriaeth eu cenedl.

**ABERPORTH**; neu, Aber y porth; plwyf yn y rhanbarth isaf o gantref Troed yr Aur, swydd Aberteifi, Deheubarth Cymru; 5½ milldir i'r gogledd ddwyrain o Aberteifi. Y mae y plwyf hwn mewn sefyllfa brydferth a difyrus, ar lan machwy Ceredigion, mewn cilfach fechan yn agos i enau yr afon Howni; ac yn ffurfio porthladd bychan, ond tra chyfleus. Y mae amryw fân longau yn perthyn iddo, y rhai ydynt ar waith yn benaf yn cludo cerryg calch o swydd Gaerfyrddin a swydd Benfro; a glô, o swydd Forganwg, ac o Lerpwl. Y mae y plwyf yn gynnwysedig o ddwy dreflan; un o ba rai a elwir Llanannerch, lle yr oedd capel yn yr hen amser, medd traddodiad; ond, nid oes dim o'i olion ar gael yn bresenol. Cynnwysa y plwyf o'i fewn dri chant ar ddeg a phymtheg a thriugain o erwau o dir; tua chan erw o ba un sydd yn gorsog ac oer; tra y mae y gweddill, gan mwyaf yn farl-dir a chlai mewn rhan; ac mewn rhan yn fariandir a mawndir, yr hwn pan ei gwrteithir yn ddâ â chalch a thywod, a thail, wedi eu cymmysgu, a gynnyrcha gnydau toreithiog o haidd a cheirch; ond ni cheir namyn cnydau gwaelion o wenith yma. Y mae arwyneb y tir yn fryniawg, ac ychydig ddyffrynoedd, y rhai a draws-dorrir gan ffrydiau gwylltion; y benaf o ba rai a elwir yr Howni. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglоriaeth, yn archddïaconiaeth Ceredigion, ac esgobaeth Tŷ Ddewi. Yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i St. Cynwyl, sydd adeilad fechan ddiaddurn, ac o oedran mawr: wedi ei hadeiladu ar lannerch led uchel, tua milldir oddiwrth y pentref, oddiwrth yr hon y cair golygfa ardderchog ar y môr: y mae yr adeilad yn gynnwysedig o gorff a changell, y rhai a gydir â bwa pig-fain; a mesura 45 troedfedd o hyd, wrth 22 tr. o lêd; a'i huchder sydd ddeg troedfedd ar hugain, heblaw y clochdy, yr hwn sydd bymtheg troedfedd yn uwch.

**ABERTAWE**, neu Eglwys Fair Abertawy; plwyf yn cynnwys y rhanbarthau Uchaf ac Isaf, a Breindir Abertawe, yn cynnwys y fwrdeisdref, y dref farchnad, a'r porthladd pwysig o'r enw hwnw, yn nghantref Abertawe; a threflan St. Thomas, yn nghantref Llangyfelach, swydd Forganwg, Deheubarth Cymru; 44 milldir i'r gorllewin wrth ogledd o Gaerdydd, 68 milldir i'r dwyrain wrth ddehau o Aber-dau-gleddyf; a 209 milldir i'r gorllewin o Lundain. Y mae wedi cael yr enw uchod oddiwrth ei sefyllfa gerllaw genau yr afon Tawe, neu Tawy, yr hon sydd yn ymarllwys i'r môr yma. Yr enw Seis'nig *Swansea* sydd lygriad o *Swinesea*, enw a roddid ar y môr hwn, medd Camden, am fod yma luaws o'r pysg mawrion a elwir môr-foch, neu, llam-hidyddion (*porpoises*). Wedi gorchfygiad Rhŷs ab Tewdwr, gan fyddinoedd unedig Iestyn ab Gwrgant, Tywysog Morganwg, a'r Normaniaid dan lywyddiaeth Fitz Hamon, Conan, mab o ordderch i Rhŷs, wedi dianc o faes y gwaed, gyda rhai o'i filwyr, a foddwyd yn llyn Cremlyn, yr hwn a orweddai rhwng y lle hwn a Britton Ferry, yn ei ffoedigaeth tua swydd Gaerfyrddin. Dywaid Caradoc o Lancarfan, i gastell Abertawe gael ei adeiladu yn y flwyddyn 1099, gan Henry Beauchamp, Iarll Warwick, er dïogelu y meddiant o'r tiriogaethau hyny yn nhalaith Browyr, yr hon a ddygasai efe drwy drais oddiar feibion Caradoc ab Iestyn; ac wedi gorphen yr amddiffynfa, dywedir fod y dref wedi cael ei hadeiladu gan yr un pendefig; yr hwn wedi darostwng yr holl dalaith ar ol hyny dan ei arglwyddiaeth, a ddug yno drefedigaethau o Normaniaid a Fflandrwysiaid, i amddiffyn yr amryfal gestyll a gyfodasai efe i'w chadw. I'w weinidogion hyn efe a roddes diriogaethau helaeth; a'u hiliogaeth, y rhai a barhant i ettifeddu y cyfryw diroedd hyd y pryd hwn, oeddynt yn hawdd i'w gwahaniaethu trwy eu hiaith a'u defodau, oddiwrth y cyn-drigolion hyd yn ddiweddar, â'r rhai ni chymmysgent nemawr trwy brïodasau. Trwy fanteision neillduol ei sefyllfa, a'i phwysigrwydd mewn ystyr fordwyol, daeth y dref yn fuan yn ben tref talaith Browyr; a'i phreswylwyr a fwynhaent lawer o ragorfreintiau gwerthfawr, y rhai a ddyroddid iddynt gan yr arglwyddi

Digitized by Google

Normanaidd boreuol; a thros ryw yspaid, hi a barhaodd i flodeuo mewn llwyddiant cynnyddol; ond ei phwysigrwydd, a'r ffaith ei bod yn cael ei chyfrif megis yr allwedd i'r meddiannau Seis'nig yn Morganwg, a'i darostyngodd i holl ddychrynfeydd rhyfel-gyrchoedd mynych; fel y cafodd ei difrodi yn aml. Yn y flwyddyn 1113, gwnaeth Rhŷs ab Gruffydd ymosodiad ffrochwyllt ar y lle, yr hwn wedi amryw ymdrechiadau aflwyddianus i gymeryd y castell, a roddes y dref ar dân; ac a anrheithiodd y wlad o'i hamgylch. Ond gwnaed ymosodiad mwy llwyddianus ar y lle yn gynnar yn y drydedd ganrif ar ddeg, gan Rhŷs Fychan; yr hwn yn cael ei gynnorthwyo gan Llewelyn ab Iorwerth, a lwyddodd o'r diwedd i ddinystrio yr holl amddiffynfeydd a gyfodasid gan y Normaniaid o fewn talaith Browyr. Ac mewn cyfeiriad at yr anrheithiad a ddyoddefodd Abertawe ar yr achlysuron hyn, y mae Llywarch ab Llywelyn mewn "Canu" i'r buddugoliaethwr, yn defnyddio yr ymadroddion cryfion a ganlyn:—

"Torreist Gaerfyrddin torfoedd ar ffreinc
Llawer ffranc ar adwedd;
Ac Abertawy tref di hedd,
Tyryoedd briw a heddyw neud hedd,
A Saint Clêr a'r claer wyndiredd
Nid Saeson y maon a'u mêdd.
Yn Abertawy terwyn allwedd Lloegyr,
Neud elwyr weddw y gwragedd, &c."

Ond. ni fu y dref yn hir heb gael ei hadnewyddu drachefn o'r cyflwr anrheithiedig yma; ac yn y flwyddyn 1260 fe'i gwarchaewyd drachefn, gan Llywelyn ab Gruffydd, Tywysog olaf y Cymry, yr hwn a ddaeth yn ei herbyn â byddin gref, ac a lwyr ddifrododd y castell, yr hwn yn ol tystiolaeth y rhan fwyaf o haneswyr, a orweddodd yn garnedd adfeiliedig o'r pryd hwn hyd pan oedd Henry Gower yn esgob Ty Ddewi, yr hwn a'i hadferodd, heblaw adeiladu y llŷs esgobol yn Nhŷ Ddewi, a helaethu ac addurno y breswylfa esgobol yn Lamphey, neu, "Llamfa." Y mae y cyffelyb arddull mewn adeiladwaith ac addurniadaeth yn ganfyddadwy yn y tri adeilad yma.

Yn y flwyddyn 1331, darfu i'r Esgob Gower, yr hwn ydoedd yn frodor o'r dalaith yma, fel y mae ei gyfenw yn arwyddocau, seilio yspytty yn y lle hwn, er anrhydedd i Dewi Sant, yr hon a barhaodd yn flodeuog hyd ddadgorfforiad y crefydd-dai, pan y cyfrifid ei chyllid yn 20 punt yn y flwyddyn. Wedi marwolaeth yr esgob uchod, gan fod Abertawe mor bell oddiwrth y llŷs esgobol, ac nad oedd dim llai na saith o balasau mewn gwahanol fanau yn perthyn i'r esgobaeth, esgeuluswyd y castell gan ei olynydd yn yr esgobaeth, ac adfeiliodd yn dra chyflym.

Yn nheyrnasiad Harri IV., dyoddefodd y dref lawer yn ystod gwrthryfel Owain Glyndŵr, gan yr hwn ei llosgwyd, a'r wlad oddiamgylch iddi a anrheithiwyd. Yn ystod y rhyfel Seneddol, yn nheyrnasiad Charles I., ymwelodd Olifer Cromwell a'r lle hwn, ar ei ffordd i hwylio am yr Iwerddon, a dywedir ei fod wedi gwneyd ei drigias mewn tŷ yn *High Street*, oedd yn cael ei ddefnyddio yn addoldy gan y Trefnyddion Wesleyaidd hyd yn ddiweddar.

Y mae y dref yn gorwedd ar lannerch fanteisiol a thra phrydferth, mewn ongl, rhwng dau fryn uchel, ar y lan orllewinol i'r afon Tawy, yr hon sydd yn fordwyol yma i longau mawrion, ac wrth ben angorfa ardderchog. o'r un enw, yr hwn sydd tua naw milldir o led, o'r dwyrain i'r gorllewin; ac yn cael ei gysgodi rhag y gwyntoedd mwyaf anffafrawl, gan amddrychfa o fryniau. Y brif heol sydd dros fwy na milldir o hŷd, yn gyfredol â'r afon; a'r heolydd a gyfeiriant o honi, ydynt yn lluosog; ac yn y cyffredin yn llydain, ac wedi eu palmantu yn ddâ. Y mae y tai wedi eu hadeiladu yn sylweddol ac yn ddestlus, yn enwedig y rhai yn yr Heol Fawr, Heol y Castell, a Heol y Gwynt, y prif heolydd yn y dref. O'r rhai hyn y mae lluaws o heolydd llai yn ymgangenu i wahanol gyfeiriadau, rhai o honynt yn arwain i ranbarth boblogaidd tu a'r gorllewin, yn nghymmydogaeth y farchnad newydd. Yn mysg y lluaws adeiladau mewn rhanau mwy neillduedig o'r dref, y mae y lle a elwir *Belle Vue*, cynnullfa o faenordai hynod o hardd, ar lannerch ddyrchafedig a difyrus, o'r lle y ceir golygfa ddymunol ar y môr, ac ar lenydd pellenig Gwlad yr Hâf a Dyfnaint;—y *Barrows*, lle y mae lluaws o dai da wedi eu hadeiladu yn ddiweddar, y rhai a gyfanneddir gan deuluoedd cyfrifol; a lluaws o dai heirdd gerllaw y ffordd uchaf a'r ffordd isaf i'r *Mumbles*, pentref prydferth ychydig filldiroedd o'r dref. Y mae ychwanegiadau mawrion wedi cael eu gwneyd at y dref o fewn yr ychydig flyneddoedd diweddar; gan fod amryw heolydd newyddion wedi eu ffurfio, yn gystal a phalasau teg yn amgylchoedd y dref. Mewn gair, y mae y dref hon wedi cyfodi gyda chyflymdra digyffelyb o'r bron, o fod yn lle dinod mewn cydmariaeth, i radd o bwysigrwydd masnachol a gweithfaol, a bâr ei bod yn teilyngu cael ei hystyried, nid yn unig yn brif dref Morganwg, ond hefyd yn brif ddinas Deheubarth Cymru. Tua chan mlynedd yn ôl, nid oedd y porthladd yma namyn môr-gilfach ymddibynol ar borthladd Caerdydd, a'r unig beth a all-forid o hono oedd glô, yr hwn a gludid yn bynau ceffylau i'r llestri yma, o ryw weithfeydd glô bychain oeddynt yn y gymmydogaeth; ac mor gryf oedd rhagfarn y preswylwyr y pryd hyny, o blaid eu dull arferol hwn o gludo y glô i'r porthladd, fel pan ddechreuodd un gwr anturiaethus ei gludo mewn pedrolfenni, tua dechreu y ganrif ddiweddaf, y bygythiasant ddwyn cwyn cyfraith yn ei erbyn; gan haeru fod mudiadau ei beiriannau trymion yn terfysgu y cwrw yn eu selerydd. Y mae y lle hwn yn ddyledus am ei chynnydd cyflym, a'i llwyddiant masnachol digyffelyb, i'r trysorau mŵnawl gwerthfawr sydd yn ei chymmydogaeth, a'i sefyllfa arforawl fanteisiol. Y mae llawer iawn o arian wedi eu treulio o fewn y ganrif bresenol er gwellau porthladd Abertawe. Y cais pwysig cyntaf o'r natur yma a wnaed dan awdurdod gweithred Seneddol, a gaed yn y flwyddyn 1791, galluoedd cyntefig yr hon a helaethwyd trwy ddeddfau eraill, a gaed wedi hyny. Dan ddarpariadau y deddfau Seneddol hyn, gwnaed dau fôr-fur meini mawrion ar enau yr afon; y naill ar yr ochr orllewinol, yn dri chan llath o hŷd; a'r llall ar yr ochr ddwyreiniol, yn chwe chan llath o hŷd; gan adael y ddyfodfa i fewn rhyngddynt, yn bedwar ugain llath o lêd. Ar ben y môr-fur gorllewinol, y mae goleu-dŷ, yr hwn a ddengys oleuni yn y nôs, a phelen ddu y dydd, cyhyd ag y byddo dyfnder o wyth droedfedd o ddwfr ar y *bar*. Ar y llanw, y mae y porthladd yn ffurfio nawf-le ardderchog ac ehang, digonol i gynnwys lluaws mawr o lestri yn cario llwythi trymion; ond ar y trai, y mae agos yn sŷch, fel y gellir rhydio yr afon. Yn mysg amryw welliannau eraill a gymerwyd mewn llaw, er cefnogi llwyddiant masnachol y



Digitized by Google

dref, gwnaed llawer er dwfnhau a helaethu y porthladd.

Ar y tu gogledd ddwyreiniol i'r porthladd, y mae "Porth Tennant," a elwid felly er cof am y boneddwr a'i cynlluniodd gyntaf, ac ar draul yr hwn ei gwnaed, yn y flwyddyn 1826; cynnwysa ddwy long-orsaf ehang, yn y rhai y mae digon o ddyfnder dwfr i lestri yn cario dau gan tunnell o lwyth; yn agored ar y naill law i'r llong-le, ac ar y llaw arall i gamlas gydiol Abertawe a Chastell Nêdd, yr hwn hefyd oedd eiddo H. T. Tennant, Ysw., o *Cadoxton Lodge*. Y mae yr afon Tawy yn fordwyol am ddwy filldir o'i genau, i lestri yn dwyn tri chan tunnell o lwyth; ac am filldir yn mhellach i *sloopiaid* a chychod. Ar yr ochr orllewinol i'r afon, y mae llwythfeydd ac ystorfeydd ehang a chyfleus; ystorleoedd i goed, llong-orsaf sŷch, a phob manteision gofynol at waith.

Cynhelir y marchnadoedd ar ddyddiau Mercher a Sadwrn; yr olaf a gyfrifir yn farchnad ŷd yn benaf; ond dygir iddi gyflawnder o bob arlwyon. Cynhelir ffeiriau yma yn flyneddol, ar Mai 2; Gorph. 2; Awst 15; a Hyd. 30. Agorwyd tŷ marchnad newydd tra chyfleus a hardd yma, yn y flwyddyn 1830, traul adeiladu yr hwn oedd uwchlaw ugain mil o bunnau.

Y mae Abertawe yn fwrdeisdref trwy hir feddiant; a'r amryfal ragorfreintiau a gafodd ar wahanol amserau, a gadarnhawyd ac a estynwyd trwy freinlenau olynol, o amser Harri III., gan yr hwn y dyroddwyd y freinlen freninol o gydgorfforiad gyntaf, hyd deyrnasiad Iago II., trwy freinlen yr hwn y gosodwyd llywodraethiad y fwrdeisdref mewn porth-faer, cofiadur, deuddeg o henaduriaid, a nifer anmhennodol o fwrdeisiaid, yn gynnorthwyedig gan dref-ysgrifydd, a dau gyfreithiwr, y rhai yn nghyd a weithredant fel ystafellydd, dau fŷr-llysgwr, a swyddogion eraill. Y porth-faer, yr hwn hefyd sydd yn oruchwyliwr y farchnad, a etholir yn flyneddol ar ddydd gwyl Mihangel, gan oruchwyliwr arglwydd y faenor, yr hwn a bennoda i'r swydd hono un o ddau ymgeisydd, a gyflwynir iddo gan y bwrdeisiaid yn gyffredinol, ac a ddetholir ganddynt hwy allan o bedwar o wŷr a enwir i'r perwyl hyny gan yr henaduriaid. Gall y porth-faer, dan arlwyon deddf Seneddol a wnaed yn y flwyddyn 1791, ei gymhwyso ei hun i fod yn hedd-ynad o fewn y fwrdeisdref; ond nid ydyw yn ustus heddwch yn rhinwedd ei swydd. Y mae gan y gorfforiaeth feddiannau helaeth mewn tiroedd; a hawliant hefyd yr holl diroedd gores (*waste lands*), o fewn y fwrdeisdref, a meddant hawl i ryw dollau defodawl, ydynt wedi eu cyfreithloni trwy arferiad er cyn côf; y rhai a gynnyrchant o saith i wyth gan punt yn flyneddol, y rhai a dderbynia y porth-faer am yr amser, tuag at ddwyn treuliadau achlysurol ei swydd. Gwnaed y fwrdeisdref hon, yn nghyd ag Aberafon, Pont Fôn, Cenfig, Llantrisant, Llwchwr, a Nêdd, yn gyfranogol â bwrdeisdref Caerdydd, pen tref y sir, mewn dychweliad un aelod i'r Senedd, trwy y 27ain i Harri VIII., gan roddi yr hawl i bleidleisio yn y bwrdeisiaid yn gyffredinol. Yn ystod llywodraethiad Cromwell, anfonai un aelod i'r Senedd, yn annibynol ar y bwrdeisdrefi eraill; fel yr ymddengys fod William Fox, un o farnwyr brawdlysol Cromwell ar gylchdaith Brycheiniog, wedi cael ei ddewis i gynnrychioli Abertawe yn unig yn y flwyddyn 1658–9. Wedi adferiad Siarl yr Ail i'r orsedd, hi a ddychwelodd yn ôl i'w chymeriad blaenorol, fel bwrdeisdref gyfranogol; ac felly y parhaodd i gyfranogi â bwrdeisdrefi eraill yn yr anrhydedd o anfon un cynnrychiolydd i'r Senedd. Trwy ddeddf ddiweddar a wnaed er gwellau y gynnrychiolaeth, gwnaed Abertawe yn ben dosbarth newydd o fwrdeisdrefi, yn cynnwys Abertawe, Aberafon, Cynffig, Llantrisant, Cas Llwchwr, a Chastell Nêdd.

Ettifeddir rhagorfreintiau y fwrdeisdref gan holl feibion bwrdais, a aner wedi ei dderbyniad ef i fod yn fwrdais; fe'i hennillir trwy briodi merch i fwrdais, a thrwy wasanaethu saith mlynedd o brentisiaeth gyda bwrdais yn byw yn y dref; neu, trwy gyflwyniad rheithwyr o fwrdeisiaid. Cynhalia y Gorphoriaeth lŷs cynghaws, neu ddef-lys, bob mis, trwy hen hawl-fraint, yr hon a gydnabyddir trwy ddeddfiad y 34ain a'r 35ain i Harri VIII., er cyfodi dyledion uwchlaw deugain swllt, yn yr hwn y llywydda y porth-faer, naill ai yn bersonol, neu trwy raglaw, yn nghyd a'r cofiadur, neu oruchwyliwr arglwydd y faenor. Medda y llŷs hwn hawl i roddi gyr, er dal un yn rhwym i fachniaeth, mewn cynghaws am ddyled, lle na byddo y swm yn llai nag ugain punt; yn ol cyfnewidiad a wnaed trwy ddeddfiad y 7fed a'r 8fed i Sior IV.—Goruchwyliwr y faenor hefyd a gynhalia lŷs barwn bob tair wythnos, er cyfodi dyledion dan ddeugain swllt, brawdwriaeth yr hwn lŷs sydd yn cyrhaedd dros arglwyddiaeth Browyr, a Maenoriaeth Cilvey.

Y mae hen eglwys y plwyf yn gyssegredig i'r Forwyn Fair, am ba achos ei gelwid gan y Cymry, "Eglwys Fair Abertawy." Cwympodd yr hen adeilad yn y flwyddyn 1739, ac yn y canlyniad fe'i hail adeiladwyd bron yn gyfan. Y gangell yw yr unig ran o'r hen adeilad sydd yn aros, yn yr hon y mae ffenestr ddwyreiniol yn yr arddull addurniadol. Y mae yr allor wedi ei haddurno â *Madonna* (darlun o'r Forwyn Fair), tra gwerthfawr, a roddwyd yn anrheg i'r plwyf gan y diweddar Thomas Bowdler, Ysw., Golygwr y "Shakspeare Teuluaidd;" yr hwn y tybiai y rhoddwr, ei fod yn baentiad gwreiddiol gan *Sassaferat;* ond y mae amryw feirniaid yn y gelfyddyd, yn ei briodoli i *Ludovico Caracci.* Y mae trefniad tufewnol yr adeilad hon wedi ei gwneyd yn gymhwys i dderbyn cynnulleidfa luosog; ond cynnydd cyflym y boblogaeth, a'i gwnaeth yn hollol annigonol at wasanaeth y plwyfolion er ystalm. Y mae eglwys plwyf "Sant Ioan ger Abertawy" hefyd o fewn y dref; a chan fod y gwasanaeth yn cael ei gyflawni ynddi yn yr iaith Gymraeg cystal ag yn Saes'neg, y mae o wasanaeth mawr i drigolion y rhan hon o'r dref, y rhai gan mwyaf a arferant yr iaith Gymraeg. Heblaw y llanau, y mae yma luaws o gapelau mawrion a heirdd at wasanaeth yr amryfal enwadau o Ymneillduwyr Protestanaidd, Cymreig a Seis'nig, capel Pabaidd, a synagog Iuddewig.

Yr Ysgol Ramadegol Râd, a sefydlwyd yn y flwyddyn 1682, gan y Parch. Hugh Gore, D.D., Arglwydd Esgob Waterford a Lismore, yr hwn a'i gwaddolodd â thiroedd yn mhlwyf Llandyfodog, yn y swydd hon, a'r rhai a gynnyrchant yn bresenol uwchlaw can punt yn y flwyddyn; at yr hyn yr ychwanegir deugain punt yn y flwyddyn gan y Gorfforiaeth. Yr esgob a appwyntiodd Bussey Mansel, o'r Britton Ferry, Ysw., yn ymddiriedolwr a noddwr yr ysgol, a hawl ganddo i bennodi a symud yr athraw; yr hwn hawl a wnaeth efe i aros yn

Digitized by Google

Digitized by Google



Digitized by Google




Digitized by Google

Digitized by Google

wastadol yn mherchenogion yr ettifeddiaeth hono, a thra y byddent dan oed, yn Esgob Tŷ Ddewi. Y mae yr athraw yn cael ei annghymwyso i'w swydd, cyn gynted ag y caffo fywioliaeth eglwysig. Y mae yr ysgol yn agored i roddi addysg râd i ugain o fechgyn, meibion y bwrdeisiaid tlottaf; ac os cymerai dadgorfforiad le ar y Corfforiaeth, i feibion rhai o breswylwyr tlottaf y dref. Heblaw hyny, y mae yma amryw o sefydliadau gwerthfawr eraill, er gweini addysg râd i blant tlodion y dref.

Yn y flwyddyn 1817, sefydlwyd claf-dŷ yma, at wasanaeth cleifion a chloffion, o bob parth o'r deyrnas, anhwylderau y rhai fydd yn gofyn cynnorthwy ymdrochiad mewn dwfr môr, oer neu gynes; ac fe'i cynhelir yn benaf trwy gyfroddion gwirfoddol. Y mae amryw sefydliadau elusenawl eraill yn y dref, y rhai ydynt o wasanaeth mawr i'r amryfal ddosbarthiadau o dlodion y lle.

Y mae gweddillion yr hên gastell yn gorwedd ar fryn, yr hwn sydd yn bresenol yn agos i ganol y dref, wedi ei amgylchynu âg adeiladau, fel na's gellir gweled nemawr o honynt i fantais, heblaw un tŵr crwn uchel, oddiar yr hwn y ceir golygfa hardd ac eang ar angorfa Abertawe, a'r wlad oddi amgylch. Ar y tu dwyreiniol i'r tŵr crybwylledig, y mae gweddillion enfawr o'r hen ystafelloedd mawrwych, yn cael eu harnodi gan fur-ganllawiau agored ceinwych; y rhai a ddefnyddiwyd yn yr oesoedd diweddaf hyn i garcharu dyledwyr. Yn agos i'r castell yr oedd adfeilion hên lŷs arglwyddi Browyr, yr hwn gynt a gymerai i fynu lannerch betryal, trwy yr hon y gwnaed heol, gan adael namyn ychydig weddillion yn unig, y rhai yn brin a ddynodent ehangder yr adeiladau. Yr oedd hên yspytty yn y fan hon gynt, yn gyssegredig i Sant Dafydd, ac wedi ei gwaddoli i ddeuddeg o hên bobl dlodion, sefydliad yr hwn a briodolir gan rai ysgrifenwyr i'r Esgob Gower; a chan eraill, i Eleanor de Breos, yn nheyrnasiad Edward II.: fe'i gwaddolid â degwm plwyf, yn nghyd ag arglwyddiaeth Brynafael; ac â thiroedd a thai yn nhreflan *Sketty*, yn mhlwyf Abertawe, ac yn nghyffiniau y dref.

Cafodd amryw wŷr tra enwog eu geni yn mhlwyf Abertawe, ac arglwyddiaeth Browyr; megis Henry Gower, D.D., Esgob Tŷ Ddewi, yr hwn oedd yn enwog am ei chwaeth goethedig, a'i gefnogaeth haelfrydig i'r celfyddydau:—John Gower, y bardd, yr hwn oedd yn ei flodau yn agos i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg. Y ddau wr enwog hyn oeddynt yn hanu o hen bendefig Cymreig enwog, Gruffydd de Gower, yr hwn oedd yn hynod ar gyfrif ei gyfoeth a'i ddylanwad yn y drydedd ganrif ar ddeg.—Henry de Swinesey, Abbad Glastonbury, a anwyd yn y dref hon. Richard Nash, a'i henwogodd ei hun fel meistr y defodau yn Nghaer Baddon, a anwyd mewn tŷ yn Heol yr Afr, yn y dref hon, yn y flwyddyn 1673; ac a fu farw yn Nghaer Baddon, yn y flwyddyn 1760.

**ABERTEIFI**: Sir—gwlad arforawl yn Neheubarth Cymru, yn ffiniedig ar y tu gogleddol gan for-gainc Aberdyfi, a swydd Feirionydd; ar y gogledd ddwyrain gan swydd Drefaldwyn; ar y dwyrain, gan gwr gogledd orllewinol swydd Faesyfed, a rhanau gogleddol swydd Frycheiniog; ar y dehau, gan swydd Gaerfyrddin; ar y de-orllewin, gan swydd Benfro; ac ar y gorllewin a'r gogledd-orllewin, yn ei holl hŷd, gan Fachwy Ceredigion: y mae yn ymestyn o 51° 55′ hŷd 52° 27′ lledred gogleddol; ac o 3° 45′ hŷd 4° 51′ hydred gorllewinol; ac yn cynwys arwynebedd, yn ol Mr. Carey, o 590 milldiroedd ysgwar; neu 377,600 o erwau.

Y Dyfedwys oeddynt hen frodorion Prydeinaidd y wlad hon, y rhai hefyd a feddiannent y ddwy wlad gyfnesol, swydd Benfro, a swydd Gaerfyrddin; ac fe'u darostyngid dan yr iau Rufeinaidd gan *Julius Frontinus*, tu a'r flwyddyn o.c. 70. Tra dan arglwyddiaeth Rhufain, cynnwysai orsaf *Loventium*, yr hon, yn ol barn Syr Richard Colt Hoare, a hynafiaethwyr diweddar, oedd yn gorwedd lle y mae Llanio, tua saith milldir uwchlaw Llanbedr, yn nyffryn Teifi. Ymddengys hefyd fod y ffordd Rufeinig fawr a elwid y *Via Occidentalis* (y Ffordd Orllewinol), yn ei chroesi ar ei hyd; yr hon a gydiai orsaf *Loventium* a *Segontium*, gerllaw Caerynarfon, ac â'r un yn *Pennal*, neu Penallt, yn swydd Feirionydd; *Menapium* yn swydd Benfro, a *Maridunum*, ger Llanfair-ar-y-bryn, yn swydd Gaerfyrddin.

Enw arall a roddir ar y wlad yw Ceredigion, oddi wrth un Ceredig, fab Cunedda Wledig, pendefig o Frydain Ogleddol, yr hwn a'i henwogodd ei hun trwy ei ymdrechiadau gorchestol a llwyddiannus i yru y traws-feddianwyr Gwyddelig o Gymru, a gwaredu y bobl oddi tan eu gorthrymder, tua chanol y bummed ganrif, ac a dderbyniodd yn wobrwy am ei wasanaeth, randir yn y Deheubarth a elwid y Tyno Coch, neu, y "Dyffryn Coch," yr hwn a alwodd efe "Ceredigion," sef gwlad Ceredig. Y mae yn anmhossibl gwybod i sicrwydd erbyn hyn pa faint o'r wlad a gynnwysid yn y rhandir hon; ond, ar adeg ddiweddarach, gwyddys fod arglwyddiaeth, neu dywysogaeth Ceredigion yn cynnwys y rhan fwyaf o swydd Gaerfyrddin, heblaw swydd Aberteifi. Ychydig a wyddys am olynwyr Ceredig yn yr arglwyddiaeth, heblaw eu henwau. Brothen, y trydydd mewn olyniad, a wnaed yn sant gan Eglwys Rhufain. Yr unfed ar ddeg oedd Gwgan, yr hwn a foddwyd yn ddamweiniol yn y flwyddyn 870, wedi yr hyn y daeth Rhodri Fawr, pennadur Gwynedd a Phowys, i feddiant o'r dywysogaeth hon, yn hawl ei wraig Angharad, yr hon oedd yn ferch i Gwgan. Wedi dyfod o hono yn benteyrn holl Gymru fel hyn, efe a ddosbarthodd ei diriogaethau yn dair rhan, gan gynnwys Ceredigion yn mreniniaeth y Deheudir, eisteddle llywodraeth pa un oedd yn Dinefwr, yn swydd Gaerfyrddin, a'r rhan yma o Gymru a gafodd Cadell ar farwolaeth ei dâd. Yn yr ymrysonau a gyfododd yn fuan rhwng meibion Rhodri, Anarawd brenin Gwynedd, yn cael ei gynnorthwyo gan gyngrheiriaid Seis'nig, a arweiniodd fyddin gref i Ddeheubarth Cymru, yn y flwyddyn 892, ac a anrheithiodd y wlad yn ofnadwy, gan losgi y tai, a dystrywio yr ŷd. Iefaf ac Iago, tywysogion Gwynedd, a ddaethant i feddiant o'u tref-dadaeth, wedi marwolaeth Hywel Ddâ, gan yr hwn y cauasid hwy allan o honi yn annghyfiawn; ac yn fuan hwy a hawliasant benteyrniaeth Cymru oll; a chan arwain eu lluoedd i Geredigion yn y flwyddyn 949, hwy a orchfygasant feibion Hywel, y rhai a ranasent Ddeheubarth a Phowys rhyngddynt; ac yna, hwy a anrheithiasant Ddyfed. Y flwyddyn ganlynol, hwy a arweiniasant eu lluoedd i Ddyfed drachefn; ond Owain, mab Hywel, a'u gwrthladdodd yn egnïol, ac a'u gorfododd i encilio gyd a'r fath frŷs, fel y boddwyd rhan fawr o'u byddin yn yr afon Teifi. Owain a'i frodyr, yn eu tro, a arweiniasant eu byddinoedd i Wynedd, lle yr ymladdasant frwydr waedlyd â

Digitized by Google

lluoedd Iago ac Iefaf, ond heb nemawr fantais i'r naill blaid mwy na'r llall; a'r flwyddyn ganlynol tywysogion Gwynedd a oresgynasant Geredigion drachefn; ond a wrthladdwyd â cholled fawr; ond yn y diwedd hwy a orchfygwyd gan dywysogion Gwynedd, y rhai a sefydlasant eu harglwyddiaeth ar holl Gymru. Yn y flwyddyn 987, y Daniaid a anrheithiasant arfordir y wlad hon yn dost, gan losgi eglwysi Llanbadarn a Llanrhystyd, a pheri y fath ddifrod ar ŷd a dâ, fel ag i gynnyrchu newyn cyffredinol, yr hwn a ddinystriodd ran fawr o'r boblogaeth. Ar yr achlysur hwnw, bu raid i Meredydd ab Owain, yr hwn oedd yn benteyrn Cymru y pryd hwnw, brynu gwaredigaeth ei wlad, trwy dalu teyrnged drom i'r goresgynwyr am encilio o'r wlad; a'r deyrnged hon a elwid "teyrnged y fyddin ddu." Ond prin yr oedd Meredydd wedi cael ymwared oddiwrth y gelynion estronol hyn, pan ddarfu i Edwin, mab henaf ei frawd Einion, yr hwn a'i cyfrifai ei hun yn cael ei ddifeddiannu yn annghyfiawn o'r Deheubarth, ac yn cael ei gynnorthwyo gan luaws o'r Saeson a'r Daniaid, oresgyn y wlad hon, a myned rhagddynt hyd yn Nyfed.

Tu a'r flwyddyn 1068, y Normaniaid, wedi llwyddo i oresgyn Lloegr, a ddaethant yn llu cadarn i wneyd ymosodiad ar arfordir gorllewinol Deheubarth Cymru; ac a anrheithiasant Geredigion a Dyfed: ond Caradoc, tywysog y Deheubarth, a ymosododd arnynt yn bybyr, ac a'u gorfododd i ollwng eu hysglyfaeth megis oddi rhwng eu dannedd, a dychwelyd yn ol i'w llongau. Yr yspeilwyr hyn a ddychwelasant drachefn yn mhen y tair blynedd, sef yn y flwyddyn 1071; ond ni buant lwyddianus, mwy na'r tro o'r blaen, gan iddynt gael eu gorchfygu â lladdfa fawr, gan Rhydderch, mab ac olynydd Caradoc. Yn y flwyddyn 1087, darfu i feibion Bleddyn ab Cynfyn, gyfodi gwrthryfel grymus yn y Deheubarth, yn erbyn awdurdod Rhŷs ab Tewdwr, tywysog llywodraethol y wlad hon, yr hwn a orfodasant i ffoi i'r Iwerddon. Ond, wedi ei gefnogi â llu mawr o filwyr Gwyddelig, gan ei frawd yn nghyfraith, brenin Dulyn, dychwelodd Rhŷs yn fuan, a lluaws o'i gyfeillion a ymgynnullasant dan ei luman; a meibion Bleddyn, gan ofni y buasai oediad yn chwanegu nerth eu gwrthwynebwr, a brysurasant i roddi brwydr iddo. Y byddinoedd gwrthwynebol a gyfarfuant mewn lle a elwir Llêchryd, a brwydr waedlyd a gymerth lê, yn yr hon y llwyr orchfygwyd meibion Bleddyn, a dau o honynt a laddwyd. Cyflewyd maes y frwydr hon gan rai haneswyr yn swydd Faesyfed; ond y mae amryw resymau yn ein tueddu yn hytrach i farnu mai yn Llechryd, ychydig filldiroedd o dref Aberteifi, ei hymladdwyd, yn hytrach nag yn y rhan bellaf oddiwrth Fôr y Werydd o'r Dywysogaeth, yr hon ni allasai Rhŷs ei chyrhaedd, ond trwy dywys ei fyddin i bellder o driugain milldir, ar draws gwlad oedd i fesur mawr yn anialwch, ac agos yn anhygyrch.

Yr oedd Ceredigion yn un o'r taleithiau Cymreig a ddarostyngwyd yn gyntaf gan yr arglwyddi Normanaidd, yn fuan wedi iddynt gael eu calonogi gymaint yn eu bwriad i oresgyn y wlad, trwy lwyddiant anturiaeth Fitz-Hamon yn Morganwg: a gwnelai Rossier de Montgomery, Iarll y Mwythig, wrïogaeth am dani, i Gwilym Gôch, tua diwedd yr unfed ganrif ar ddeg: a'r Barwn hwnw, er diogelu ei fuddugoliaethau, a adeiladodd gastell Aberteifi yn gyntaf; yr hwn a fu mor enwog yn hanes y Cymry wedi hyny. Ond yr oedd yn rhaid i'r ymsefydlwyr Normanaidd gynnal rhyfel galed â'r tywysogion brodorawl yn wastadol, yn yr hon eu gorchfygid yn fynych, ac eu gyrid o'r diriogaeth a draws-feddiannasid ganddynt. Yn y flwyddyn 1093, darfu i Cadwgan ab Bleddyn, Tywysog Powys a Deheubarth, yru y goresgynwyr hyn o'r wlad, a chymeryd meddiant o gastell Aberteifi. Wedi i Gilbert Strongbow, mab Rhisiard, Iarll Clare, gael caniattad Harri I., o Loegr, i ddwyn cymaint o diroedd Cadwgan ar a allai oddi arno, efe a ddaeth â byddin fawr ganddo i dalaeth Ceredigion, ac a'i darostyngodd heb lawer o anhawsdra; ac wedi meddiannu y wlad fel hyn, ei ofal pennaf oedd i gyfodi cestyll er amddiffyn ei feddiannau; ac un o'r penaf o'r rhai hyn oedd castell Aberystwyth.

Gruffydd ab Rhŷs, mab gorfucheddol henaf Rhŷs ab Tewdwr, a ddechreuodd ar gyfundrefn o ymosodiadau yspeilgar ar arglwyddi y cyffin-diroedd yn swydd Gaerfyrddin; a'i lwyddiant a barodd i amryw o'r pennaethiaid brodorawl ymuno ag ef; ac felly efe a alluogwyd yn fuan, i ddwyn ei weithrediadau yn mlaen ar raddfa ehangach, ac adfeddiannu rhan fawr o diriogaethau ei dâd, er y gwrthwynebiad a gyfodid i'w erbyn, gan y pennadur Seis'nig, Harri I. Daeth pendefigion brodorawl Ceredigion yn mlaen i'w gynnorthwyo, gan ymostwng i'w arglwyddiaeth, a'i gyfrif yn warcheidwad eu gwlad; ac felly hwy a'i cymhellasant i'w gwaredu oddi tan iau orthrymus a gwarthus yr estroniaid. Gruffydd ar hyny a aeth i diriogaethau y pendefigion crybwylledig, gan y rhai ei derbyniwyd yn groesawus a pharchus. Wedi dyfod yn ddisymwth i Iscoed Ceredigion, efe a warchaeodd ar amddiffynfa a gyfodasai Iarll Strigyl yn Blaen Porth Gwythan, yn nghymydogaeth y lle hwnw; yr hwn wedi amryw ruthr-gyrchoedd ofnadwy, a gymerodd efe o'r diwedd, ac efe a'i llosgodd hyd lawr. A'r cyffelyb ddifrod a wnaed ar dai y preswylwyr Seis'nig, can belled a Phenwedig: a'r Saeson, wedi eu llanw â braw, a ffoisant rhag cynddaredd y lluoedd brodorawl. Yn nesaf, Gruffydd a warchaeodd ar gastell a elwid Strath Peithyll, yn y wlad hon, yr hwn a berthynai i oruchwyliwr Iarll Strigyl, ac efe a gymerodd y castell hwn trwy ruthr-gyrch, gan roddi yr holl warchod-lu i'r cleddyf. Oddiyno, efe a aeth rhagddo hyd y Glasgrug, lle y gwersyllodd efe ei filwyr, i roddi diwrnod o orphwysdra iddynt. Ond ei gad-gyrchiad llwyddiannus hyd yma, a gafodd attalfa lem-dost, mewn aflwyddiant trychinebus o flaen castell Aberystwyth, yr hwn a berthynai y pryd hyny i Gilbert, Iarll Clare, lle y bu lladdfa mor fawr ar ei filwyr, fel y bu raid iddo gilio o'r dalaeth.

Ar ddechreuad teyrnasiad y pennadur Seis'nig, Stephan, yn y flwyddyn 1135, darfu i Owain Gwynedd a Chadwaladr, tywysogion o Ogledd Cymru, anrheithio talaeth Ceredigion yn ddiarbed; gan gymeryd cestyll Aberystwyth, Dinarth, a Chaerwedros, a dwy amddiffynfa arall, a berthynent, y naill i Gwallter Espec, a'r llall i Rhisiard de la Marc, y rhai oeddynt yn gedyrn iawn, ac yn meddu gwarchluoedd cryfion. Ar derfyn y flwyddyn ganlynol drachefn, daeth y tywysogion cyngrheiriol i'r diriogaeth hon, a chanddynt dan eu llywyddiad, bedair mil o wŷr traed, a dwy fil o feirch-filwyr, heblaw y byddinoedd cynnorthwyol a arweinid gan eu cyngrheirwyr Gruffydd ab Rhŷs, a phennaethiaid enwog eraill, y rhai hefyd a arlwyent lawer o ymborth i'r

Digitized by Google

brif fyddin; a thrwy rym anwrthwynebol, hwy a ddarostyngasant yr holl dalaeth, hyd dref Aberteifi, gan gymeryd a difrodi yr holl gestyll a feddiannai yr arglwyddi Seis'nig. I wrthladd y cad-gyrchiad grymus yma, yr oedd holl luoedd y Normaniaid, y Fflandrwysiaid, a'r Saeson, yn Nghymru, ac ar y cyffin-diroedd, wedi ymuno dan dywysiad amryw farwniaid galluog, y rhai er hyny a lwyr orchfygwyd, mewn brwydr gyndyn a gwaedlyd, yn yr hon y collasant dair mil o wŷr; a'r gweddill o'r fyddin orchfygedig, y rhai a ffoisant i'w cestyll am ddiogelwch, a ymlidid mor bybyr, fel y gwnaed llawer o honynt yn garcharorion, a nifer fawr o honynt a foddwyd yn y Teifi, trwy ddrylliad pont a groesai yr afon hono, yr hon oedd bron yr unig foddion o ddiangfa iddynt. Wedi dyfod trwy eu cad-gyrchiad mor lwyddianus, tywysogion ieuainc Gwynedd a ddychwelasant i'w gwlad eu hunain; gan ddwyn gyda hwy, fel ffrwyth eu buddugoliaeth, feirch ac arfogaeth, ac yspail fawr o bethau gwerthfawr eraill, y rhai a gymerasent oddi ar y gelynion. Yn ystod yr helyntion hyn, cafodd Rhisiard, Iarll Clare, i'r hwn y rhoddasai y brenin diriogaeth Ceredigion, ei lofruddio gan Gymro o'r enw Iorwerth, fel yr oedd efe yn marchogaeth trwy goedwig; ac wedi hyn, ei wraig, yr hon oedd yn chwaer i Iarll Caer, a ymneillduodd i un o'i gestyll yn y wlad hon, lle y gwarchaewyd arni gan y Cymry, ac y bu yn y perygl mwyaf i syrthio i'w dwylaw; ond o'r diwedd, hi a waredwyd o'r sefyllfa beryglus hono, gan Milo Fitz Walter, Arglwydd Brycheiniog; yr hwn gyda nifer o filwyr dewisol, a aeth ar y cadgyrchiad rhamantus, gan dramwy ffyrdd anhygyrch, ac a waredodd yr arglwyddes a'i gosgordd, yn ddiarwybod i'r gwarchaewyr.

Yn ystod teyrnasiad mab Gruffydd, ac olynydd Rhŷs, ymgymerodd Owain Gwynedd a chadgyrchiad yn erbyn y Normaniaid a'r Fflandrwysiaid, yn Ngheredigion a'r tiriogaethau cydiedig ar y dehau; a dywedir iddo ar yr achlysur yma, ddymchwelyd cestyll Aberystwyth, Ystrad Meurig, a Phont Stephan, neu Lanbedr, yn y wlad hon; gan gymeryd i'w feddiant ei hunan holl dalaeth Ceredigion, a gorfodi trigolion swydd Benfro, i dalu teyrnged iddo; yna efe a ddychwelodd i'w diriogaethau ei hun. Yn mhen ychydig o flyneddoedd wedi hyn, Hywel a Chynan, meibion annghyfreithlawn Owain Gwynedd, a wnaethant gad-ruthriad arall i Ddeheubarth Cymru, ac wedi cyfarfod â byddin o Normaniaid, hwy a'u gorchfygasant, ac a gymerasant feddiant o dref Aberteifi. Yn y flwyddyn 1150, Cadell, Meredydd, a Rhŷs, meibion Gruffydd ab Rhŷs, a oresgynasant Geredigion, ac a ddrylliasant gastell Aber Rheidiol, ac amddiffynfeydd eraill yn y rhan ogleddol o'r dalaeth; ac yna, gan fyned rhagddynt tu a'r dehau, hwy a gymerasant gastell Aberteifi, yr hwn a ddelid y pryd hyny gan Hywel, mab tywysog Gwynedd; ac felly darostyngasant yr holl dalaeth, oddieithr un amddiffynfa yn ei rhan ogleddol; ac mor ddirfawr y cythruddid y tywysogion ieuainc hyn, am golli o honynt y dewraf o'u milwyr yn ngwarchaead y lle, fel pan gawsant feddiant o hono, y rhoddasant yr holl warchodlu i'r cleddyf; a hwy a gadarnhasant gastell Ystrad Meurig, yr hwn a gymerasant yn nesaf; ac wedi gosod gwarchodluoedd yn yr amddiffynfeydd hyn, hwy a ddychwelasant i swydd Gaerfyrddin, yn llwythog o yspail gwerthfawr. Yn gynnar yn nheyrnasiad Harri II., aeth Gilbert, Iarll Clare, i Geredigion, drwy gydsyniad y pennadur hwnw, i geisio ail feddiannu yr etifeddiaethau a gymerasid oddi ar ei deulu yn ystod y teyrnasiad blaenorol; ac efe a adenillodd gastell Ystrad Meurig, a rhyw leoedd eraill; ac a aeth rhagddo i ymosod ar diriogaethau Rhŷs ab Gruffydd; ond y tywysog hwnw a oresgynodd holl Geredigion, gan wneuthur yr holl gestyll a berthynent i'r Saeson yn gyd-wastad a'r llawr. Yn mhen ychydig flynyddoedd wedi hyn, wedi ei gythruddo trwy lofruddiaeth ysgeler ei ddau nai, y rhai a roddasai efe fel gwystlon i Harri II., gan eu ceidwad, Iarll Caerloyw, cymerodd Rhŷs arfau drachefn, a chan ymosod ar feddiannau Iarll Caerloyw yn Ngheredigion, efe a gymerodd ac a ddystrywiodd gastell Aber Rheidiol, ac amddiffynfeydd eraill; yna, gan fyned tu a'r dehau, efe a gymerodd gastell Aberteifi; ac wedi hyny efe a wnaeth gyrch i swydd Benfro. Ar encilIiad Harri II., wedi aflwyddo yn ei gais i oresgyn Gogledd Cymru, yn yr hyn ei gwrthleddid gan Rhŷs, mewn undeb a thywysogion Cymreig eraill; ar ei ddychweliad i'r Deheubarth, Rhŷs a warchaeodd ar gastell Aberteifi, yr hwn a ddaethai i feddiant y Saeson eto, ac a'i cymerodd; a gwnaeth ei hun yn feistr ar gastell Cilgeran, yr hwn a dorrodd ef hyd lawr; ac yna efe a aeth rhagddo i'w diriogaethau ei hun yn swydd Gaerfyrddin. Wedi hyn darfu i Harri II. ganiattau i'r tywysog hwn, yr oll o Geredigion, yn nghyda thiriogaethau eang eraill; ac efe a gynhaliai wledd ardderchog yn nghastell Aberteifi, yr hon a glodforir yn nghyfansoddiadau amryw o'r beirdd.

Bu Rhŷs farw yn y flwyddyn 1196, ac efe, yn nghyd ag amryw o'i olynwyr yn arglwyddiaeth Dinefwr, a gladdwyd yn mynachlog Ystrad Fflur, yn y rhan ddwyreiniol a mynyddig o'r wlad. Ei fab Gruffydd ab Rhŷs a'i holynodd yn arglwyddiaeth y Deheubarth, yn nghyd a'r holl diriogaethau a ddelid gan ei dâd ar adeg ei farwolaeth: ond ei frawd, Maelgwyn, yn cael ei gynnorthwyo gan Gwenwynwyn, mab Owain Gyfeiliog, arglwydd Powys, a ymosododd arno yn annysgwyliadwy yn ei gastell yn Aberystwyth, yn fuan wedi ei ddyfod i'w etifeddiaeth, ac a'i gwnaeth yn garcharor. Yna Maelgwyn a aeth yn erbyn rhai o amddiffynfeydd eraill Gruffydd, ac a'i gwnaeth ei hun yn arglwydd ar holl dalaeth Ceredigion yn fuan. Yn y flwyddyn ganlynol (1198) rhyddhawyd y tywysog Gruffydd ab Rhŷs o garchar gan yr arglwyddi Seis'nig, i ofal y rhai ei traddodasid gan Gwenwynwyn; a chan i'w gyfeillion ddyfod allan i roddi cefnogaeth rymus iddo, efe a aeth i fewn i'r diriogaeth hon, ac a ail berchenogodd ei holl feddiannau ynddi, oddieithr cestyll Aberteifi ac Ystrad Meurig. Trwy gyfryngiad cyfeillion y pleidiau gwrthwynebol, ymgyfammododd Maelgwyn i roddi castell Aberteifi i fynu i Gruffydd, ar yr ammod y rhoddai Gruffydd wystlon iddo ef er sicrhad ei ddiogelwch personol; ond, ar roddiad y rhai hyn, Maelgwyn a'u hanfonodd yn garcharorion at Gwenwynwyn; ac a gadarnhaodd y castell iddo ei hunan: ac yn y flwyddyn ganlynol, efe a ddug gastell Dinarth oddiar ei frawd, ac a roddodd y gwarchlu i'r cleddyf; ond Gruffydd yntau, tu a'r un amser, a feddiannodd amddiffynfa bwysig Cilgeran, ar lan y Teifi, yn nghymydogaeth Aberteifi. Wrth ganfod nerth Gruffydd yn y gymmydogaeth yn myned ar gynnydd, ofnai Maelgwyn na's gallai gynnal yr ymryson i fynu nemawr yn hwy;

Digitized by Google

ac am hyny efe a werthodd gastell Aberteifi i'r Normaniaid, rhag cwympo o hono i ddwylaw ei frawd: ond bu Gruffydd farw yn y flwyddyn 1202, ac efe a olynwyd yn ei urddau a'i feddiannau gan ei fab Rhŷs, tiroedd yr hwn yn Ngheredigion a oresgynwyd yn fuan gan ei ewythr Maelgwyn, yn cael ei gynnorthwyo gan ei gyfaill Gwenwynwyn.

Wedi i Llewelyn ab Iorwerth, Tywysog Gwynedd, gymeryd meddiant o diriogaethau Gwenwynwyn, yr hwn oedd ar y pryd yn garcharor yn Lloegr, yn y flwyddyn 1208, efe a arweiniodd ei fyddin i'r Deheubarth, yn erbyn Maelgwyn, yr hwn, gan ei fod yn analluog i wrthsefyll y fath allu, a ddinystriodd ei gestyll, ac a giliodd o'r ffordd; a Llewelyn a ailadeiladodd gastell Aberystwyth, yn yr hwn y rhoddodd efe warchod-lu o'i filwyr ei hun; ond efe a roddes gantref Penwedig, yr hwn a ffurfia y rhan ogleddol o swydd Aberteifi yn bresenol, a thiroedd eraill a orweddent rhwng yr afonydd Dyfi a'r Aeron, i Rhŷs ab Gruffydd, a'i frawd Owain. Ar hyn talodd Maelgwyn ei wrïogaeth i'r pennadur Seis'nig *John*, yr hwn yn y canlyniad a roddes gorph mawr o filwyr Seis'nig iddo, er ei gynnorthwyo i adfeddiannu ei diriogaethau yn y parth yma; a chan dywys y fyddin hon i Geredigion, Maelgwyn a wersyllodd yn Nghilcennin, yn nghantref Penwedig. Ei neiaint, Rhŷs ac Owain, y rhai ni's meddent gryfder digonol i'w gyfarfod ar y maes agored, a ddaethant yn ddirgel i gymmydogaeth ei wersyll, a mintai ddewisedig o dri chant o wŷr gyda hwynt; a chan ruthro i fewn iddo ganol nos yn annysgwyliadwy, hwy a ymosodasant ar eu gelynion â llymder mawr, ac a roddasant lawer o honynt i farwolaeth â min y cleddyf, tra y gorfodasant y gweddill i ffoi am eu heinioes, yn mŷsg y rhai yr ydoedd Maelgwyn ei hun.

Pan y darfu i'r brenin John, yn y flwyddyn 1212, orfodi Llewelyn ab Iorwerth, a phrif dywysogion eraill Cymru, i wneuthur gwrïogaeth iddo, gomeddai Rhŷs ac Owain wneyd hyn ar y dechreu; ond wedi eu bygwth yn fuan, â byddin gref Ffoulke, Is-iarll Caerdydd, gwarcheidwad y cyffin-diroedd y pryd hyny, yr hwn a gynnorthwyid gan eu hewythryd, Maelgwyn a Rhŷs Fychan, hwy a ymbiliasant am heddwch, ac a geisiasant sicrhad o fynediad diogel i Lundain, lle y cawsant dderbyniad grasol gan y brenin; ac ar eu gwaith yn gwneyd gwrïogaeth iddo, ac yn rhoddi i fynu eu meddiannau rhwng y Dyfi a'r Aeron, rhoddwyd caniattad iddynt i gadw y gweddill o'u tiriogaethau. Y maes-lywydd Seis'nig a gadarnhaodd gastell Aberystwyth ar yr achlysur yma, ac a roddes wŷr y brenin i'w gadw. Wedi ymadawiad Ffoulke, darfu i Maelgwyn a Rhŷs Fychan, wedi cythruddo efallai am yr ammodau tyner a roddasid i'w neiaint, â'r rhai y buasent hwy yn elynion cyhyd, wrthryfela yn erbyn y pennadur Seis'nig, gan gymeryd castell Aberystwyth, a'i anrheithio: ac felly roddi cyfle i Rŷs ac Owain i ddïal ar eu hewythryd, dan y rhith o gynnal awdurdod brenin Lloegr: felly hwy a aethant i diriogaethau Maelgwyn, y rhai a yspeiliasant yn ddiarbed; ond y mae yn ymddangos fod y pennaethiaid ieuainc hyn wedi cael eu dïosg yn fuan o'u holl ettifeddiaethau o'r bron gan eu hewythryd; a thrwy gynnorthwy milwyr y brenin John, yn cael eu llywyddu gan yr unrhyw arglwydd Ffoulke, y rhai a orchfygasant Rŷs Fychan, mewn brwydr a ymladdwyd yn swydd Gaerfyrddin, y darfu iddynt eu hadennill: a Rhŷs Fychan, wedi ei ymlid o'i holl amddiffynfeydd yn y wlad hono, a symudodd ei deulu i Aberystwyth, ac a enciliodd i'r parthau mwyaf anhygyrch o'r wlad gymmydogol.

Yn mhen rhyw yspaid o amser wedi yr amgylchiadau hyn, tywysodd Llewelyn ab Iorwerth fyddin fawr i'r Deheubarth, er ymosod ar diriogaethau y caeth-ddeiliaid Seis'nig; ac yn nghwrs y cad-gyrchiad (yn yr hwn ei cynnorthwyid gan fyddinoedd Rhŷs ab Gruffydd, ei frawd Owain, a'u dau ewythr, y rhai oeddynt oll wedi cymmodi yn awr), efe a gymerth gastell Aberteifi, ac fel hyn unwaith drachefn, llwyr ymlidiwyd y Saeson o'r wlad.

Yn mhen ychydig wedi hyn, daeth Llewelyn drachefn i Geredigion, yn y cymeriad o ben-teyrn Cymru, i derfynu amrafael a gyfodasai rhwng Rhŷs ab Gruffydd a'i frawd Owain ar y naill ochr, a'u hewythryd ar yr ochr arall, mewn perthynas i ddosparthiad y diriogaeth a adenillasid; yr hwn a derfynodd efe i foddlonrwydd y gwahanol bleidiau. Yn fuan wedi hyn efe a gyfleodd warchod-lu cryf yn nghastell Aberteifi; a dywaid rhai haneswyr iddo ganiattau i Rhŷs ab Gruffydd wneuthur gwrïogaeth i frenin Lloegr am rai o'i diroedd tu a'r pryd hwn.

Yn y flwyddyn 1220, darfu i Fflandrwysiaid swydd Benfro, y rhai yn ddiweddar a ymostyngasent i Llewelyn fel eu pen-teyrn, wrthryfela yn ei erbyn, ac ymosod ar gastell Aberteifi, a'i gymeryd; ond y Tywysog Cymreig a'i cymerodd yn ol oddi arnynt yn fuan, ac a'i dymchwelodd hyd lawr; ac yna, efe a oresgynodd y rhan fwyaf o swydd Benfro. Pan ganfu Rhŷs fod Llewelyn yn bwriadu cadw castell Aberteifi oddi wrtho ef, er ei fod wedi ei drefnu iddo ef yn y dosbarthiad diweddar, efe a ymunodd â gelyn Llewelyn, William le Mareschal, Iarll Penfro; a Llewelyn a gospodd ei anffyddlondeb, trwy attafaelu ei gastell yn Aberystwyth, a'r tiriogaethau perthynol iddo; ond, gan i'r brenin Harri III. ymyraeth, ar gŵyn Rhŷs, terfynwyd yr ymrafael yn heddychol. Yn ystod yr un flwyddyn, bu farw Rhŷs, a'i feddiannau a ranwyd rhwng ei frawd Owain, a'i ewythr, Maelgwyn.

Gan ddarfod i Llewelyn yn ystod absenoldeb Iarll Penfro yn Iwerddon, gymeryd dau o gestyll y pendefig hwnw, ymroddodd yntau ar ei ddychweliad i ad-dalu ar ddeiliaid a meddiannau Llewelyn, gan gymeryd meddiant o gastell Aberteifi yn mysg manau eraill. Bu farw Maelgwyn ab Rhŷs yn y flwyddyn 1230, a disgynodd ei feddiannau i'w fab Maelgwyn, yr hwn can gynted ag y daeth i'w ettifeddiaeth, efe a brysurodd yn erbyn Aberteifi, ac a losgodd y drêf: ond gan ddeall fod ei fyddin ei hun yn annigonol i gymeryd y castell, yr hwn oedd yn dra chadarn, efe a geisiodd gynnorthwy ei gefnder Owain, a rhai o swyddogion Llewelyn; ac wedi cael yr adgyfnerthion hyn, efe a ddystrywiodd y bont dros y Teifi; ac wedi gwarchaead byr efe a gymerth feddiant o'r castell. Tu a'r flwyddyn 1233, bu farw Rhŷs Fychan, fab Rhŷs, tywysog olaf y Deheubarth; ac yn fuan ar ei ol, bu farw ei nai, Owain ab Gruffydd, meddiannau yr hwn a ettifeddwyd gan ei fab Meredydd; tra y rhanwyd yr eiddo Rhŷs rhwng ei feibion Meredydd a Rhŷs. Ail gymerwyd castell Aberteifi gan Gilbert le Mareschal, neu Marshal, Iarll Penfro, yn y flwyddyn 1240, wedi marwolaeth Llewelyn ab Iorwerth.

Gan fod y tywysog Edward, wedi hyny Edward I., o Loegr, wedi cymeryd meddiant trwy drais, o ettifeddiaethau rhai o'r pendefigion Cymreig yn Nghe-

Digitized by Google

redigion, y dyoddefwyr a achwynasant wrth Llewelyn ab Gruffydd, tywysog newydd Gwynedd, yr hwn ar hyny a arweiniodd ei fyddin i'r dalaeth hon, a adenillodd y tiroedd, ac a roddes y rhan fwyaf o honynt i Meredydd ab Owain, yr hwn a fu farw yn 1268.

Yn fuan ar ol esgyniad Edward I. i'r orsedd, ar yr un pryd ag yr arweiniai efe fyddin i Wynedd yn bersonol, efe a anfonodd fyddin gref i'r Deheubarth, dan dywysiad Payne de Chaworth, llwyddiant yr hwn a ddylanwadai yn fawr i gymedroli ammodau y cyttundeb a wnaed gan Llewelyn â'r brenin Edward yn fuan ar ol hyny. Cyn ei ddychweliad o'r cadgyrchiad mawr yma, y pennadur Seis'nig a ail adeiladodd gastell Aberystwyth, er dïogelu y manteision a enillasai efe trwy y cyfammod crybwylledig; ond, gan fod gorthrymiadau swyddogion y brenin yn dyfod yn annyoddefol, gwrthryfelai trigolion y wlad gylchynol, a chan gael eu blaenori gan Rhŷs ab Maelgwyn, a Gruffydd ab Meredydd, hwy a gymerasant yr amddiffynfa newydd hon.

Ychydig cyn ei farwolaeth, aeth Llewelyn ab Gruffydd, tywysog olaf Gwynedd, i'r dalaeth hon, ac a ddifrododd feddiannau gweision brenin Lloegr ynddi; yn enwedig yr eiddo Meredydd ab Rhŷs, yr hwn ychydig cyn hyn a adawsai faner Llewelyn; ac oddiyma efe a arweiniodd ei fyddin tua Buallt, yn swydd Frycheiniog, yn agos i'r hwn le ei lladdwyd. Yn ol y cyfreithiau a'r rheolau a wnaed gan Edward I., er llywodraethiad Cymru, llwyr ddarostyngiad yr hon a gymerodd le yn fuan ar ol cwymp Llewelyn, y tiriogaethau a berthynasent yn ddiweddar yn fwyaf neillduol i dywysogion o dylwyth Dinefwr, ac oeddynt y pryd hwn yn meddiant y goron, a ffurfiwyd i'r ddwy sir, Aberteifi a Chaerfyrddin, i'r rhai y pennodwyd siryfion, yr un modd a siroedd Lloegr, yn ddïoed. Yn mhen ychydig flynyddoedd wedi hyny, aeth Edward rhagddo hefyd i drethu ei ddeiliaid newyddion; ond y Cymry eto yn dra awyddus am adennill eu hannibyniaeth a gollasent, a wrthryfelasant; a Maelgwyn Fychan yn arwain corph cryf o anfoddogion swydd Aberteifi, a oresgynodd ac a yspeiliodd y wlad hono a swydd Benfro.

Yn ystod gwrthryfel y Cymry dan Owain Glyndŵr, yn erbyn Harri IV., cymerwyd ac adgymerwyd castell Aberystwyth, gan y gwahanol bleidiau, lawer gwaith.

Wedi glaniad Iarll Richmond yn Aber-dau-gleddyf, gyd a'r amcan o ddwyn coron Lloegr oddiar y trawsfeddiannydd, Rhisiard III., efe a aeth trwy y wlad hon gyd a'i bleidwyr, a'i fyddin yn cynnyddu yn barhaus fel yr elai rhagddo, ar ei ffordd tu a'r Mwythig, lle ei cyfarfuwyd gan yr enwog Rhŷs ab Thomas, yr hwn a gymerasai ffordd wahanol i gyrchu o'r lle y glaniai yr Iarll, i'r man y cyttunasid arno i gyfarfod ynddo.

Nid ydyw yn ymddangos fod trigolion y wlad hon wedi cymeryd rhyw ddyddordeb neillduol yn rhyfel gartrefol yr eilfed ganrif ar bymtheg. Gosodasid gwarchod-lu yn nghastell Aberteifi, i'w gadw dros y brenin, ac ymosodwyd arno, ac o'r diwedd fe'i cymerwyd trwy ruthr-gyrch gan fyddin y Senedd, dan y Maes-lywydd Lacharn; a chastell Aberystwyth hefyd, yr hwn a ddelid gan blaid y brenin, a roddwyd i fynu yn lled ddiwrthwynebiad. Ymddengys hefyd fod swydd Aberteifi wedi bod yn faes rhai ysgarmesau rhwng y maes-lywydd Seneddol, Milwriad Horton, a'r Milwriad Poyer, blaenor y blaid freninol, wedi brwydr fawr Sant Ffagan, yn Morganwg, yr hon a fuasai mor andwyol i filwyr y Brenin.

Y mae y wlad hon yn esgobaeth Tŷ Ddewi, ac archesgobaeth Caergaint, ac yn nghyd a rhai o'r rhanau cyfnesol o siroedd Caerfyrddin a Phenfro, ffurfia archddïaconiaeth Ceredigion, ac a gynnwysa o fewn ffiniau swydd Aberteifi ddeoniaethau Is Aeron ac Uwch Aeron: rhif y plwyfi yw pump a thri ugain. I amcanion llywodraeth wladol, y mae wedi ei dosbarthu yn bump o gantrefi, sef Genau'r Glyn, Ilar, Moythen, Penarth, a Throed yr Aur; pob un o ba rai a ddosberthir drachefn yn rhanbarthau uchaf ac isaf. Cynnwysa fwrdeisdrefi, marchnad-drefi, a phorthladdoedd Aberystwyth ac Aberteifi, yr olaf o ba rai yw pen tref y sir, tra y mae y flaenaf yn fwy enwog fel ymdroch-le boblogaidd;—bwrdeisdref a marchnad-dref Llanbedr Pont Stephan; bwrdeisdref fechan Atpar, porthladd Aberaeron, a thref farchnad Tregaron. Dychwelir marchog i'r Senedd dros y sir, a chynnrychiolydd dros Aberteifi a'r bwrdeisdrefi eraill; y ddau aelod Seneddol hyn a etholir yn Aberteifi. Cynhelir y brawd-lysoedd hefyd yn Aberteifi, ac yno hefyd y mae carchar y sir.

Y mae arwyneb y wlad hon bron yn gyfan, yn gynnwysedig o fynyddoedd a bryniau uchel, yn nghyd a'u glynoedd cyfattebol, heb nemawr o wastadedd o unrhyw feithdra. Ei pharthau gogleddol yn neillduol sydd dra mynyddig, gan ei bod yn gyfansoddedig yn gwbl, o ran o'r ucheldir a amgylchyna y Plinlimon enwog, ar derfyn de orllewinol swydd Drefaldwyn. Yn Ngheredigion, ymgangena y bryniau hyn yn amryfal gadwaen-resi hirion; yr hynottaf o ba rai, gan ymestyn tu a'r dehau ar hyd ei ffin ddwyreiniol, a derfyna Ddyffryn y Teifi ar y tu dwyreiniol, ac wedi hyny a ymestyna trwy swydd Gaerfyrddin i swydd Benfro. Y mae un gangen yn ymestyn tu a'r gorllewin, rhwng yr afon Rheidiol a'r afon Dyfi; ac un arall, rhwng y Rheidiol a'r Ystwyth; ffinir trydedd gangen ar y gogledd-orllewin gan yr Ystwyth; ac ar du y dwyrain gan y Teifi, a chan gyfeirio i'r de-orllewin, terfyna ger yr afon Aeron; ac y mae pedwaredd, bron yn gyfredol â'r ddiweddaf, ar yr ochr orllewinol, a gogledd-orllewinol i'r Teifi, yn nghyfeiriad Aberteifi. Heblaw hyn, y mae amryw fryniau annghyssylltiedig lled uchel, yn wasgaredig mewn amryfal gyfeiriadau. Y maent oll yn y cyffredin yn amddifaid o goed, ac y mae eu harwedd yn dra noeth-lwm, cethin, ac annifyr, gan nad oes braidd unrhyw wrthddrych yn weledig, er amrywio yr olygfa garregog a noeth-lwm. Ond y diweddar Thomas Johnes, Ysw., o'r Hafod, a wisgodd amryw o'r llethrau uchaf a noethaf, ar yr ochr hon i'r Plinlimon, yn agos i darddell yr Ystwyth, â gwigfeydd llarwydd.

O'r nifer fawr o byllau naturiol a llynau bychain, y mae y rhai penaf o honynt yn y rhan fwyaf uchel o'r wlad, yn agos i drum y fynydd-res, ger ffin swydd Faesyfed, yn nghymmydogaeth Ystrad Fflur. Y mae yno luaws o honynt, y penaf o ba rai ydyw Llyn Teifi, ffynonell yr afon Teifi, yr hwn sydd tua milldir a haner o gylch-fesur; ac ni's gwyddys eto pa mor ddwfn ydyw. Fe'i hamgylchynir gan grib uchel a serth; ac y mae y creigiau ysgythrog, a'r cerrig mawrion, a orweddant yn wasgaredig o'i amgylch yn mhob cyfeiryd, yn peri fod yr holl olygfa yn orwyllt a diffaith. Oddiar ucheldir cyfagos, gellir

Digitized by Google

gweled pedwar o lynau eraill, o fewn ychydig lathenau y naill i'r llall; y mwyaf o ba rai sydd agos yn gymaint â llyn Teifi, tra y mae y lleiaf, yr hwn sydd grwn, tua thri chwarter milldir o gylch-fesur, ac ar y llanerch uchaf yn y sîr. Y mae sefyllfa uchel y llynoedd hyn, yn eu gwneyd yn ddarostyngedig i gynhyrfiadau ofnadwy gan y gwyntoedd. O fewn ychydig bellder, y mae chweched llyn; ac un arall, a elwir Llyn Fathey Cringlas, sydd rhwng Pentre Rhŷd Fendigaid a Chastell Einion. Heblaw hyny, y mae amryw eraill tu a'r un parth; megis Llyn Helygen, Llyn Gorlan, Llyn Crwn, Llyn Gwerryddonfawr, Llyn Dû, Llyn Gynfelyn, Llyn y Rhydau, Llyn y Cregnant, Llyn Du arall, Llyn y Gorres, Llyn Gynon, a Llyn Cerrig Llwydion; ac o fewn cylch haner milldir o Lanbedr, y mae Llyn Llanbedr; ac y mae llynoedd bychain eraill, mewn mannau uchel, yn ngwahanol barthau y wlad, ac amryw o honynt yn darddellau afonydd.

Hyd yr arfordir, o safn y Dyfi, ar y tu gogleddol, i safn y Teifi ar y tu deheuol, sydd oddeutu chwe milldir a deugain; ac y mae y tir yn uchel ar hyd yr holl linell, oddieithr gerllaw genau yr afonydd, lle y mae y dyffrynoedd yn disgyn hyd lan y môr. Dyffryn Aeron yw y mwyaf nodedig ar gyfrif ei faintioli a'i ffrwythlonedd: yn nghymmydogaeth yr Ystrad y mae yn lled lydan, ac yn cynnwys amryw ffermydd breision, ac wedi eu hammaethu yn dda. Y mae y tirweddau gyda cherhynt yr afonydd eraill yn dra amrywiol, o eithaf mawr-wychedd clegyrog ac aruthrol, hyd frasder a phrydferthwch y dyffryn ffrwythlawn. Er fod yr olaf yn cynnyddu mewn llêd a ffrwythlonedd wrth ddynesu tu a'r môr, nid oes ond ychydig o honynt, hyd yn nod yn eu parthau isaf, yn llwyr amddifad o'r nodwedd ardebaidd hono, sydd mor fynych yn hynodi eu rhanau uchaf, ac a ychwanegir yn gymaint gan fawrwychedd eu rheieidr. Y mae y tirweddiad ar lanau y Teifi yn dyfod yn hardd a dyddorawl dros ben, o'r tu isaf i Lanbedr, a'r golygfeydd oddeutu Llandyssul, Castell Newydd yn Emlyn, Llechryd, a Chilgeran, ydynt yn deilwng o sylw neillduol, fel rhai na's ceir eu rhagorach, fe ddichon, ar lanau yr un afon yn y Dywysogaeth. Nodweddir yr Ystwyth gan ddyddordeb rhamantus yn ei cherhynt trwy y golygfeydd prydferth oddeutu yr Hafod yn enwedig, lle y cymhwyswyd celfyddyd mor effeithiol er addurno natur, gan y diweddar Mr. Johnes.

Uchder rhai o'r prif fryniau yn y wlad sydd fel y canlyn:—Bryn Tregaron, 1747 troedfedd goruwch lyfel y môr; Tal y Sarn, 1142 troedfedd; Capel Cynon, 1046 *tr.*; ac Aberystwyth, 496 *tr.* Y mae y ddwy gors fwyaf yn Neheudir Cymru yn y wlad hon; un o honynt a elwir "Y Gors Goch ar Deifi," yr hon a gyrhaedda o Dregaron i Ystrad Fflûr, tua phum milldir o hŷd, ac oddeutu milldir a hanner o led; y mae yr afon Teifi heb fod yn neppell oddiwrth ei tharddell yn ymdroelli drwyddi. Y llall sydd yn gorwedd yn mhen deheuol y sîr, ger genau yr afon Dyfi, a glan y môr; yr hon sydd rhwng naw a deng mil o erwau o fesuriad arwynebol; ac fe'i hadwaenir dan yr enw "Cors Fochno."

Dywedir fod llannerch fawr o dir bras, a elwid "Cantre y Gwaelod," yn gorwedd lle y mae y rhan ogleddol o Fachwy Ceredigion (*Cardigan Bay*) yn gorwedd yn bresenol; a'i fod wedi ei ddiffynu rhag y môr, â dyfr-gloddiau celfyddydol, y rhai a ymollyngasant, fel ei gorlifwyd, tua diwedd y chweched ganrif; ac y mae traddodiad yn dywedyd mai Gwyddno Goron Hir oedd arglwydd y diriogaeth ar y pryd; a gwelir hyd heddyw, yn y môr, tua saith milldir i'r gorllewin o Aberystwyth, gasgliad o gerrig diaddurn, a elwir "Caer Wyddno;" ac yn ymestyn oddi wrthi, mewn cyfeiriad gogledd-ddwyreiniol, tua safn y Dyfi, y mae olion y môr-fur dwyreiniol, a elwir "Sarn Gynfelyn;" y mae y gwrthddrychau hynod hyn yn weledig ar drai isel.

Y mae hinsawdd y mynyddoedd gan mwyaf yn oer, gwlŷb, a thymhestlog; ac nid yw hinsawdd y dyffrynoedd mor laith ag ydyw yn Sir Gaerfyrddin, gan eu bod yn agored i lai meithder o fôr, a bod y mynyddoedd sydd yn ysgaru rhwng dyffrynoedd y Towi a'r Teifi, yn attal y gwlawogydd o'r dehau yn fynych, y rhai oni buasai hyny, a ymarllwysent ar y wlad hon. Y mae tymheredd yr amawyr yn fwy cyfartal, fel y gellid dysgwyl, yn nghymmydogaeth glan y môr, nag yn ardaloedd canol y wlad. Anaml y dechreua y cynhauaf gwenith cyn y drydedd wythnos yn Awst, oddieithr mewn un neu ddwy o lannerchau mwy rhywiog a chynnyrchiol na chyffredin, y rhai ydynt yn eithriadau i'r hinsawdd gyffredin: y llannerch a gynnyrcha y cnydau cynnaraf, ydyw Lleiniau Llan Non, llannerch hynod am gynnyrchiad haidd, lle ar dymhorau ffafrol y byddys yn cynhauafu y grawn hwnw rhwng y 10fed a'r 20fed o Orphenaf. Y mae y gwerydau yn amrywio mwy ar gyfrif gwahaniaeth eu sefyllfa nag ar gyfrif yr is-weryd. I'r rhan fwyaf o'r tiroedd uchel y mae priddyn llwyd, ysgafn, yn gymmysgedig â thywod yn achlysurol, ac yn amrywio mewn dyfnder, o ychydig fodfeddi i droedfedd. Ond, y mae mawn yn gyffredin yn y ceu-leoedd, ac ar lethrau y mynyddoedd weithiau; ac y mae clai yn helaeth yn agos i'r wyneb mewn rhai manau, yr hwn y mae yn angenrheidiol am draul fawr i'w wneyd i unrhyw radd yn gynnyrchiol, a hyny yn fwy, o herwydd y pellder mawr oddiwrth greigiau calch. Y mae yr holl wlad o fewn rhandir fawr llech-faen a chlei-lech Deheubarth Cymru; a pho glasaf y llech-faen, neu y clei-lech, tlottaf yw y gweryd (*soil*) arno: ceir y gweryd mynyddig mwyaf dymunol ar y fynydd-graig lwyd afreolaidd, a'r gleigraig lwydlas, oddieithr lle y mae y sefyllfa yn rhŷ uchel a noeth-lwm. Y mae gwerydau y dyffrynoedd, yn gymaint ag mai llorion o'r tiroedd uchel ydynt, yn cynnyddu mewn brasder fel y maent yn dynesu tu a'r môr, pan y mae llifiad yr afonydd trwyddynt yn dyfod yn llai chwyrn: ac felly y mae llyfelau isaf y Teifi, yr Aeron, yr Ystwyth, a'r Rheidiol, &c., yn meddu amrywiaeth o farl-briddau breision, o ddwfn mawr yn fynych; yn wir y mae glanau y môr yn gyffredin yn meddu gwerydau ysgeifn, cynar ragorol, y rhai a fuant yn enwog er's oesoedd am gynnyrchu haidd, gydag onid ychydig, ac mewn rhai manau, heb ddim cyfnewidiad am gnydau eraill: ac yn y rhan fwyaf o leoedd, y mae y gwerydau hyn wedi eu gorchuddio, i fesur mwy neu lai, â cherrig llwydion ıan-dyllog, y rhai y gwyddys bod eu presenoldeb yn dra ffafrawl i dyfiant ŷd, trwy gadw lleithder oddi tanynt, ar adeg o sychder, a gweini cynnesrwydd rheolaidd i'r egin fel y tyfont; y mae helaethrwydd o'r cerrig hyn yn y caeau gwair hefyd, y rhai ni chaniatta yr ammaethwyr eu symmud ar un cyfrif. Is-weryd y tiroedd hyn, yn y parthau de orllewinol o'r wlad, yw math o briddyn teneu, ysgafn, wedi ei gyfliwio â haiarn-rwd, yn gorwedd

Digitized by Google

ar welyau trwchus o farl, dan yr hwn y canfyddir math o glei-lech meddal.

Y mae yn anhawdd gwneyd amcan-gyfrif pa faint o dir âr sydd yn y wlad hon: y mae rhyw gymaint yn mhob tyddyn, yn amrywio yn ol natur eu gweryd a'u sefyllfa. Y cnydau mwyaf cyffredin, yw gwenith, haidd, a cheirch du. Ar y gwerydau goreu y mae y cynnyrch o wenith tua 25 bwsiel yr erw; ac y mae y gwenith a gyfodir yn nyffryn yr Ystwyth yn hynod o drwm, o 64ps. i 67ps. y bwsiel Caerwynt. Nid yw y cynnyrch o haidd mor doreithiog yn aml ag y gallai fod, pe y cyfodid cnydau gleision bob yn ail yn fwy nag y gwneir. Meithrinir ceirch yn dra helaeth, ac mewn lleoedd tra uchel, y blew-geirch a heuir yn amlaf; ond y ceirch dû yw y mwyaf cyffredin o'r holl gnydau, ar diroedd uchel. Yn y parthau mwyaf gogleddol o'r wlad, cynnyrchir llawer o rŷg,—yn y tiroedd uchel wrtho ei hunan, ond, yn nghymmydogaeth Aberystwyth, yn aml yn gymmysgedig â gwenith; ac y mae y cymmysgedd hwn yn gwneyd bara dâ, pereiddiach ac ystwythach na'r bara a wneir o wenith ei hunan; a'r rhai a ymarferasant âg ef, a'i dewisant o flaen pob bara arall. Y cnydau gleision a feithrinir fynychaf, ydyw pŷs, ffâ, a maip. Y rhywogaeth o bŷs a gyfodir yn gyffredin, yw y rhai a elwir "pŷs llwydion bach;" y rhai nid ydynt yn nodedig am eu ffrwythlondeb, ac er eu hau yn gynnar yn Chwefror, nid aeddfedant yn gyffredin hyd yn ddiweddar yn Medi: ond ar weryd tlawd, y mae eu llwyddiant yn fwy sier na'r eiddo pŷs llwydion mawr, y rhai a gyfodir weithiau yn y dyffrynoedd, fel y cyfodir pŷs gwynion hefyd mewn ychydig lannerchau mwyaf ffafrawl.

Y mae yr oll o Sir Aberteifi, mewn golygiad ddaiaregawl, yn gorwedd o fewn rhandir fawr Deheubarth Cymru, o greig-lech a chlei-faen; a chloddir o honi mewn amryw fanau, lechi toi, o amryfal ansoddion, llechi llorio, &c., heblaw math o gerryg adeiladu, celyd ragorol, o'r rhai y ceir ennghreifftiau dâ yn nhai Aberystwyth; a math o dywod-faen rhagorol a gair yn mhlwyf Pen-y-bryn. Yr haeniad sydd gan amlaf yn dra afrëolaidd: y gris-greigiau mynyddig llwydion, o'r rhai y ceir y cerryg adeiladu rhagorol a grybwyllwyd uchod, a gyfeiriant yn llinellau amlwg, o'r gogledd ddwyrain i'r de orllewin, y llettaf yn cyfansoddi rhestrau o fryniau, goludog o wythienau mŵnawl. Y mae eu haeniadau mewn manau yn dra afreolaidd, tra mewn manau eraill yr arddangosant golofnau pedrystlysol rheolaidd, o gyfansoddiad tra durfing; y cloddfeydd mwyaf o honynt sydd ar Fryn Llanwenog, yn agos i Lechryd, o'r tu gorllewin i Lanbedr, ac yn agos i Ben-y-bryn. Y llechi toi, y rhai a amrywiant mewn lliw, o'r llwyd i'r glâs, a rynghaenir weithiau â chlei-lechfaen o gyfansoddiad meddalach, y rhai a ymfaluriant yn fuan yn yr awyr agored. Cloddir y llechi toi goreu yn yr Ynys Hir, yn agos i Gors Fochno; ac y mae amryw lech-gloddfeydd eraill i'w canfod ar hyd yr arfordir; ond y mae y llechi yn y cyffredin yn llai, ac yn waelach na'r rhai a gloddir yn swydd Gaernarfon. Y mae cerryg adeiladu rhagorol hefyd i'w cael mewn amryw fanau yn y llech-graig lâs, o'r hyn y ceir ennghreifftiau dâ yn ngharchar y sir, a chlochdy eglwys Aberteifi. Y mae gwythieni mawrion o gris-faen gwyn, hynod o galed, i'w canfod yn aml yn mysg haenau eraill. Yr haen agosaf i'r wyneb, yn y rhan dde orllewinol o'r wlad, sydd yn gynnwysedig o glai-bridd, yr hwn a ddefnyddir weithiau yn wrtaith: yr haenau uchaf o hono, sydd o liw gwineu, ac o ansawdd waelach; y rhai isaf ydynt yn lâsaidd, ac yn frasach, gan ei fod yn gorwedd yn ddigyfrwng ar yr haen llechog a grybwyllwyd o'r blaen. Y mae ffin ddwyreiniol a gogleddol y rhandir yma o glai-bridd, yn croesi y Teifi i'r wlad hon o gymmydogaeth Penboyr, yn swydd Gaerfyrddin; ac yn dolenu i'r gogledd orllewin tuag Aberaeron; gan ffurfio rhan o amgant cylch, o fewn yr hwn y mae yr holl ran dde orllewinol o'r wlad: o'r pridd-glai yma y cyfansoddir y clogwyn sydd oddiar y môr, rhwng Llanina a'r Cei Newydd, gan mwyaf; ac yno y mae yn amrywio mewn dwfn, o chwech, i ugain troedfedd, ac uchod.

Y mae Sir Aberteifi yn ffurfio un o'r maesydd mŵnawl mwyaf ehang a goludog yn Mrydain. Y gwythienau yn y cyffredin a gyfeiriant o'r dwyrain i'r gorllewin, gyd ag ychydig o eithriadau, lle y cair croes-wythienau, yn cyfeirio o'r gogledd i'r dehau. Y mae y wlad hon wedi bod yn dra enwog er's oesoedd lawer, am ei chynnyrch o arian cystal ag o blwm. Y mae henafiaethwyr yn dweyd bod olion o weithiau yr hen fŵn-gloddwyr Rhufeinaidd a Danaidd i'w canfod yn y wlad hon, trwy yr hyn y profir fod yr anturiaethwyr boreuol hyny wedi bod yn chwilio am drysorau cuddiedig yn ei hymysgaroedd. Dros yspaid maith wedi goresgyniad Brydain Ddeheuol gan y Normaniaid, hawliai y pennadur berchenogaeth yr holl fŵn-gloddiau; ac ni allai neb gloddio am fŵn, hyd yn nod ar ei ettifeddiaeth ei hun, heb ganiattad neillduol oddiwrth y goron. Caniattawyd braint-lythyr gan y Frenines Elizabeth, yn y flwyddyn 1563, i Thomas Thurland a Daniel Houghsetter, dau anturiaethwr Ellmynaidd, a fferylltwyr; yn rhoddi iddynt ar ammodau neillduol, "yr holl fŵn-gloddiau breninol o aur, arian, efydd, ac arian byw," o fewn amryw o siroedd Lloegr, a enwir yn y cyfryw fraint-lythyr, a Thywysogaeth Cymru: ac oddiar hyn y ffurfiwyd corphoriaeth yn 1567, yn gynnwysedig o bedwar ar hugain o bersonau, yn mysg y rhai yr ydoedd amryw bendefigion: y gorphoriaeth hon a elwid "Cymdeithas y Mŵn-gloddiau Breninol," o fewn yr amryfal randiroedd a ddynodid yn y freinteb grybwylledig. Gweithiwyd mŵn-gloddiau goreu Sir Aberteifi dros ryw yspaid, ar draul ac i elw cyfartal y cwmni hwn; ond y mae lle i gasglu mai prin yr oedd yr elw yn ddigonol i ddwyn y draul, gan fod y Gymdeithas wedi cael ei thueddu o'r diwedd, i osod y cyfan o honynt i Mr., wedi hyny Syr Hugh Myddleton, am yr ardreth blyneddol isel o bedwar cant o bunnau; a'r boneddwr hwnw a ennillodd gyfoeth dirfawr trwy yr anturiaeth, yr hwn gyda haelfrydedd ardderchog, a dreuliodd efe yn gyfan, ar y gorchwyl gwir bwysig o wneuthuriad yr Afon Newydd, er cyflenwi Llundain â dwfr. Mŵn-glawdd Cwm Symlog oedd y mwyaf gwerthfawr o'r rhai a weithid ganddo, mŵn yr hwn a gynnyrchai ddeugain wns o arian am bob tunnell o blwm. Wedi ei farwolaeth ef yn 1631, rhoddwyd pryd-lês ar fŵn-gloddiau breninol Sir Aberteifi i Syr Francis Godolphin, Bar., o Gernyw, a Thomas Bushel, Ysw.; ac ar farwolaeth y blaenaf, daeth eu holl lywyddiaeth i ddwylaw yr olaf, yr hwn a weithiai tua chwech o honynt. Yn y flwyddyn 1637, caniattaodd Siarl I., drwydded i'r boneddwr hwn i fathu cynnyrch ei fŵn-gloddiau arian yn Aberystwyth, i geiniogau, dwy geiniogau, chwecheiniogau, sylltau, a haner coronau, yn lle ei gludo, ar

Digitized by Google

draul fawr a pherygl, megys o'r blaen i'r bathdy yn Nhŵr Llundain: y bathiad hwn a wahaniaethid trwy ei arnodi â phluen yr estrys, yr hon a ffurfia helm-addurn Tywysog Cymru. Canniattawyd Ynys Lundy hefyd, yn Môr Hafren, i Mr. Bushel, fel ystorfa i gynnyrch ei fŵn-gloddiau. Gyd a'r manteision neillduol hyn, casglodd y boneddwr hwn gyfoeth dirfawr yn dra chyflym; â'r hwn, ar doriad allan y rhyfel cartrefol, yn yr ail ganrif ar bymtheg, ei galluogid i wneyd gwasanaeth mawr i'w gymwynaswr breninol, trwy ddilladu ei holl fyddin, a rhoddi benthyg deugain mil o bunnau iddo: ac wedi hyny efe a gyfododd gattrawd o'i fŵnwyr ei hun, y rhai a gynhaliodd efe ar ei draul ei hunan, hyd derfyn y rhyfel.

Gan nad ystyrid Aberystwyth yn lle digon dïogel, fe allai, i gadw yr arian-dalp (*bullion*), ar yr adeg derfysglyd hono, fe'i trosglwyddid i'w fathu yn yr Amwythig; ac ar adferiad heddwch, newidiodd Mr. Bushel faes ei weithrediadau mŵnawl, o'r wlad hon i galch-greigiau Mendip, yn Ngwlad yr Hâf; ac o'r pryd hyny, y mae yn ymddangos fod y gweithydd yn Sîr Aberteifi wedi adfeilio yn raddol. Cyhoeddodd Mr. Bushel amryw draethodau bychain, o'r flwyddyn 1642 hyd y flwyddyn 1649, yn y rhai y rhoddai efe adroddiad am fŵn-gloddiau y Darren Fawr, Bryn-llwyd, Tal-y-bont, Goginan, a Chwm Erfin, yn y wlad hon. Nid yw yn ymddangos yn debyg ei fod ef wedi byw yn ddiweddarach nag adeg yr Adferiad; canys ar y pryd hwnw daeth mŵngloddiau breninol Sîr Aberteifi yn feddiant i gwmni, o'r hwn yr oedd Syr John Pettus, awdwr y *Fodinæ Regales*, yn aelod. Ac er fod y perchenog blaenorol wedi rhoddi mŵn-glawdd Cwm Symlog i fynu, am rai eraill yn y gymmydogaeth, mwy ennillfawr, daeth yn fŵn arian lled fawr eto dan y cwmni hwn; a'r un modd, gweithiau y Darren Fawr, Cwm Erfin, y Goginan, Tal-y-bont, Cwm Ystwyth, Tre'r Ddôl, Trawsgoed, a'r Rhôs Fawr. Yr oedd tawdddai a choethfeydd y cwmni yma, wedi eu sefydlu yn gyfleus at all-foriad, ar lan yr afon Dyfi, yn nhreflan Ysgubor y Coed, yn mhlwyf Llanfihangel Genau'r Glyn; ac ar gyfrif y defnydd a wnelid o honynt, fe'u gelwid yn gyffredin, "Melinau Arian." Parodd yr ymarferiad o uchel-fraint y goron, yn hawlio yr holl fŵn-gloddiau, o fŵn y rhai y gellid tynu digon o arian i dalu am y draul o'i dynu allan, fel mŵngloddiau breninol, a'r golled ar blwm a geffid yn y gorchwyl hwnw, i ymgyfreithio costus a blin gymeryd lle lawer gwaith, rhwng perchenogion y mŵngloddiau â breintebwyr y goron; yr olaf o ba rai a fu mewn perthynas i wythïen dra goludog a ddarganfuwyd yn y flwyddyn 1690, ar Fwlch yr Esgair Hîr, perchenogaeth Syr Carberry Prŷs, a alwyd yn gyffredin wedi hyny, y Potosi Cymreig. Cymerai Syr Carberry y Duc o Leeds, ac amryw bendefigion galluog eraill, yn gyfranogion ag ef yn ei fŵn-glawdd newydd, a thrwy eu dylanwad hwy, efe a lwyddodd i gael deddf 6ed i William a Mary, a gyfenwir, "Gweithred er attal Dadleuon ac Ymrysonau mewn perthynas i Fŵn-gloddiau Breninol," yr hon a ddyroddai y trysorau mŵnawl i fod yn hawl perchenogion y tiroedd, gan gadw i'r goron yr hawl i ragbrynu am brisiau pennodol, yn ol gwerth y mŵnau. Darfu i un Waller, goruchwyliwr i gwmpeini anturiaethwyr mŵnawl Lloegr, gyhoeddi llyfryn, tua diwedd yr ail ganrif ar bymtheg, er hysbysiaeth i'w feistriaid, yn yr hwn y rhoddai olygiad tra ffafrol ar drysorau mŵnawl y wlad hon; ac efe a ysgrifenodd yn mhellach ar y testun yn y flwyddyn 1700, pan y cyhoeddodd hanes mŵn-gloddiau Sîr Aberteifi, yn nghyda *map* o'r rhandir fŵnawl, a darluniau (*plans*), o naw o weithiau gwahanol; yr hyn a ddylynwyd yn yr un flwyddyn gan "Adroddiad cryno o ansawdd bresenol y mŵn-gloddiau, yn Mwlch yr Esgair Hîr, &c." Wedi marwolaeth Syr Carberry Pryse, daeth ei ettifeddiaethau mŵnawl, trwy aeres, i feddiant Syr Wmphre Mackworth, yr hwn yn y flwyddyn 1700, mewn cyssylltiad ag aelodau eraill o'r cwmni a ffurfiasid gan Syr Carberry, a gymerasant bryd-les dros namyn un, can mlynedd, ar diroedd a elwid Cwm Erfin, Pwll yr Ynad, a'r Goginan, ac wedi hyny dygwyd yn mlaen weithfeydd mŵnawl tra chang ar y tiroedd hyn ac mewn manau eraill. Ond tu a'r flwyddyn 1700, cyfododd ymrafael rhwng y cyd-berchenogion, yr hyn a fu yn ddinystr yn y diwedd i'r gweithfeydd mŵnawl yn y wlad hon. Yn y flwyddyn 1744, rhoddwyd yr Esgair Hîr, Tal y Bont, Cwm Symlog, a'r rhan fwyaf o brŷd-lesoedd eraill yn y wlad, i fynu; delid gafael yn mhrŷdlesoedd y Goginan, Cwm Erfin, a Bryn-pica; ond ni's gweithid hwynt; tra mai yr unig fŵn-gloddiau a weithid, oeddynt Pen craig ddû, Gröau Gwynion, Cwm Ystwyth, a'r Eurglawdd; a thros hir amser wedi hyny, ni bu rhyw lewyrch mawr ar fŵn-gloddio yn y wlad hon, oddieithr dros ryw dymhor byr, dan gyfarwyddyd yr enwog fardd a hynafiaethwr, Lewis Morys, Ysw. (Llewelyn Ddû, o Fôn); yr hwn yn y flwyddyn 1750, a bennodwyd yn oruchwyliwr ac arolygwr y mŵn-gloddiau breninol yn Nghymru. Y mae lluaws o fŵn-gloddiau yn cael eu gweithio yn bresenol, ac y mae y rhai hyny yn nghyd a'r rhai a adawyd i sefyll, yn gwneyd i fynu tua hanner cant mewn nifer; y rhan fwyaf o honynt a orweddant yn y rhandir sydd yn cyrhaedd o lanau y Dyfi, ar draws y Rheidiol a'r Ystwyth, hyd darddell y Teifi; a'r rhan fwyaf o'r gweddill, mewn llinell ar hyd glan ddwyreiniol yr afon olaf. Yn mŵn-glawdd Cwm Syflog, ceid deugain owns o arian yn mhob tunnell o blwm; yn mŵn-glawdd y Darren Fawr, pymtheng owns ar hugain, o'r dunnell; ac yn mŵn-glawdd Llanfair, can owns o'r dunnell; ac ystyrid hwn rai blyneddau yn ôl y mwyaf cyfoethog yn Sîr Aberteifi. Cafwyd ychydig efydd hefyd o'r gwaith hwn, megys y cafwyd hefyd o weithiau yr Ynys Gynfelyn a'r Eurglawdd yn agos i Dal-y-bont. Buwyd yn cyfodi llawer o fŵn efydd amryw flyneddoedd yn ol, yn lled agos i fŵn-glawdd plwm Cwm Ystwyth; ond ni wneir dim o hono y blyneddoedd hyn.

Y prif law-weithfeydd yn y sîr, ydyw hosanau breision, a gwlaneni at wasanaeth cartrefol. Y mae gwlân Ceredigion wedi bod mewn bri mawr er's amser maith am ei gymhwysder i wneyd brethyn llawban, yr hyn, yn nghyda helaethrwydd a rhadlonrwydd mawn yn danwydd, sydd wedi peri fod gweithfeydd hetiau yn dra lluosog yn y wlad hon; ac yma y gwneir bron y cyfan o'r hetiau cyffredin a wisgir yn Neheudir Cymru, y rhai ydynt yn gryfion a thra pharhaus. Gwlân cneifiad Gwyl Mihangel a gyfrifir yn oreu i'r perwyl uchod; ac yn wir y mae agos yr holl wlân a gynnyrchir yn y wlad, yn cael ei ddefnyddio yn y gweithfeydd crybwylledig.

Nid yw y pysgodfeydd, y rhai ar un adeg a fuant yn dra phwysig, yn cael eu dwyn yn mlaen ar raddfa mor helaeth y blyneddoedd hyn, er fod amrywiaeth, a helaethrwydd mawr o bysgod yn machwy Ceredig-

Digitized by Google

ion. Y rhai yr ymofynir mwyaf am danynt, ac y delir mwyaf o honynt, ydyw y penwaig, a'r gleisiaid, gan ychydig gychod perthynol i Aberystwyth, a'r porthladdoedd bychain eraill: ceir y penwaig yn agos i'r glenydd hyn, o ganol, i ddiwedd mis Medi. Delir llawer iawn o leisiaid yn yr afon Teifi, i'r hyn y bydd o leiaf gant o gwrwglau ar waith yn brysur, am oddeutu dwy filldir o'r rhan fordwyol o'r afon, ar dymhorau. Y mae hawl y bysgodfa, can belled ag y cyrhaedda y llanw, sef hyd argae Llechryd, yn perthyn i'r goron: a chaniattawyd pryd-les ar y rhan hono o'r afon, dro yn ol; ond yn ofer, gan fod y werin yn ei hawlio, trwy hir-feddianniad er cyn cof.

Y mae y wlad hon, nid yn unig yn cynnyrchu digon o ŷd bara er cynhaliaeth ei thrigolion ei hunan; ond hefyd yn all-forio llawer iawn o haidd a cheirch i wledydd gorllewinol a deheuol Lloegr. Eto, nid yw ei thrafnidiaeth ond cyfyng: y prif nwyddau a all-forir o honi, ydyw ei chynnyrch mŵnawl, o blwm, copras gwŷn, a llechi toi; gwartheg, defaid, a moch, ac ymenyn; a gwlân, a anfonir yn benaf i weithfeydd Gogledd Lloegr; hetiau, i wledydd eraill Cymru; a lledr i Fristol; a'r prif ddadforion iddi yw glô, a chalch.

Rhwyddheir trafnidiaeth allanol Sir Aberteifi yn fawr, trwy ei sefyllfa arforawl, a lluosogrwydd ei phorthladdoedd, y rhai a fynychir gan hwyl-lestri bychain. Y mwyaf deheuol o'r rhai hyn, sef porthladd Aberteifi, a ffurfir gan safn yr afon Teifi; ond y mae y ddyfodfa i fewn i'r afon yn cael ei wneyd yn anhawdd, trwy draethell, neu far, ar yr hwn y mae o ddeg troedfedd a haner, i un droedfedd ar ddeg o ddwfr, ar lanw marw-ddwfr; ac ar ben gorllanw cyffredin, o bymtheg i un droedfedd ar bymtheg. Aber-y-Porth sydd ychydig filldiroedd yn fwy dwyreiniol, ac y mae yno angorfa ddiogel; ac y mae i Lanina, neu y Cei Newydd, borthladd rhagorol a chysgodol, a môrfur bychan. Y mae porthladd bychan yn Aberaeron; i'r hwn y mae dau forfur, y bar ar draws yr hwn a fydd yn sych ar y trai. Porthladd bychan Aberarth, yr hwn sydd yn agos i'r llall, sydd a bar iddo yr un ffunud, yr hwn a fydd yn sŷch ar y trai. Y mae porthladd Aberystwyth, trwy ei fod yn hynod agored i'r gwyntoedd de orllewinol, yn cael ei dagu gymaint gan dywod, fel ag i analluogi llestri yn cario llwythi trymion, i fyned i fewn iddo, oddieithr ar ben gorllanw, pan fydd tua phedair troedfedd ar ddeg o ddwfr ar y bar. Y mae porthladd i longau bychain yn Aberdyfi hefyd.

Y mae yr afonydd, a gymerant bob un ei chyfeiriad annibynol i'r môr, yn dra lluosog mewn cyfartaledd i faintioli y wlad; y rhai penaf ydynt y Teifi, yr Ystwyth, a'r Rheidiol. Y Teifi sydd yn tarddu allan yn ffrwd ddisylw, o lyn a elwir "Llyn Teifi," yr hwn sydd yn agos i grib uchaf y mynyddoedd, yn y parth dwyreiniol o'r wlad, ac yn llifeirio i'r dehau dros wely carregog, i gymmydogaeth hen fonachlog adfeiliedig Ystrad Fflûr; ac oddiyno ymddolena, yn orllewinol ar y cyntaf, yna yn ddeheuol, i Dregaron, gan dderbyn yn y rhan hon o'i gyrfa, y Meurig, y Marchnant, y Camddwr, a ffrydiau bychain eraill: yna, llifeiria i'r dê-dde-orllewin o Dregaron, tua Llanbedr; ac ychydig oddiar y dref olaf, pan yn un filldir ar ddeg oddi wrth ei tharddell, y mae yn dyfod yn ffin iddi, dros y gweddill o'i rhawd, gan ei hysgaru yn gyntaf am saith milldir ar hugain oddiwrth Sir Gaerfyrddin, ac yna, oddiwrth Sir Benfro. Ychydig islaw Tregaron, y mae y ffrŵd fynyddig a elwir y Berwyn, yn ymarllwys i'r Teifi; a thrachefn, cyn cyrhaedd Llanbedr, y mae yn derbyn y Brefi a'r Clywedog. O'r tu isaf i Lanbedr, y mae yn llifeirio gan mwyaf yn orllewinol, hyd, wedi derbyn o honi yn olynol, o'r gogledd, ddyfroedd y Croyddyn, y Crannell, y Clettwr, y Cerdyn, a'r Ceri, yn nghyda rhyw ffrŵd fechan arall, yn agos i Aberteifi, y mae yn troi i gyfeiriad gogleddol o'r bron, ychydig islaw y dref a grybwyllwyd olaf, ac yn llifeirio yn afon fawreddawg, nes arllwys ei dyfroedd i fachwy Ceredigion, wedi rhediad o dair milldir ar ddeg a deugain. Y mae y Teifi yn fordwyol hyd dref Aberteifi, i longau yn cario yn hytrach fwy na dau can tunnell; a hyd bont Llechryd, lle y cyrhaedda y llanw, i gychod. Y mae yr afonydd a ymarllwysant iddi, yn lluosog; ond nid yn fawrion; a'r rhan fwyaf o'i rhediad, trwy lynoedd mynyddig culion. Y mae gleisiaid y Teifi mewn bri neillduol, fel rhai hynod hardd a blasus; delir a sychir llawer iawn o honynt bob blwyddyn, y rhai a anfonir i Lundain, a marchnadoedd eraill yn Lloegr. Dyma yr afon Gymreig fwyaf gogleddol, yn yr hon y cair y pysgodyn a elwir "y sewin." Dywaid Giraldus Cambrensis fod y llostlydan, neu yr afanc, yn cyfanneddu yr afon hon yn ei amser ef; a gwneir mwy o ddefnydd o gwch pysgotta bychan a elwir "y corwgl," ar yr afon hon, na'r un afon arall yn Nghymru. Y mae y corwgl yn gyffredin oddeutu pump i chwe throedfedd o hŷd, a thua phedair troedfedd o lêd; wedi ei ffurfio yn debyg i fasged, a'i orchuddio oddi allan, weithiau â chroen ir; ond, yn fwy cyffredin â gwlanen frâs gref, wedi ei phygu yn ddâ, fel y dalio ddwfr: a dodir bwrdd cul ar draws ei ganol, ar yr hwn yr eistedda y pysgodwr, gan lywio ei lestr fechan a math o rwyf. Pan yn myned at ei orchwyl, neu yn dychwelyd, bydd y pysgodwr yn cymeryd ei gorwgl, yr hwn yn y cyffredin nid yw oddiar ddeugain neu haner can pwys, ar ei gefn, gan ei ddiogelu â charrai ledr gref, yr hon a fydd yn gydiol â'r eisteddle.

Y mae tarddell yr Ystwyth yn y mynyddoedd sydd ar ffiniau Siroedd Trefaldwyn a Maesyfed; ac wedi rhuthro tu a'r gorllewin, mewn llifeiriant chwyrnwyllt, heibio i fŵn-gloddiau Cwm Ystwyth, trwy anoddyn dwfn a chyfyng, y mae yn llifeirio dros wely mwy gwastad, trwy diroedd prydferth yr Hafod; ac wedi gyrfa o tua dwy filldir ar hugain, y mae yn ymarllwys i fachwy Ceredigion, ychydig i'r dehau o Aberystwyth, oddiwrth yr hyn y mae y dref yn cael ei henw.

Y Rheidiol, neu, "y Rheidol," sydd yn tarddu o lyn bychan a elwir "Llygad Rheidiol," ar lethr orllewinol mynyddoedd Plumlimon, yn agos i dardd-ellau yr Hafren a'r Wŷ. Yn y dechreu, cyfeiria i'r de-orllewin, heb fod unrhyw arwedd hynod yn perthyn iddi; ond, fel y dynesa at Ysbytty Cenfaen, y mae yn treiglo dros wely creigiog anoddyn dwfn, rhwng ystlysau ysgythrog, ofnadwy yr olwg arnynt, lle yr ymdeifl dros glogwyni anferth, i dyllau dyfnion, gyda rhuthr arswydus, nes ewynu o'i dwfr megis mewn crochanau berwedig; a phan islaw y gwest-dŷ a elwir *Hafod Arms*, y mae yn derbyn o'r dwyrain, afon lai, o'r enw y Mynach, yr hon gan ymsaethu drwy agen gyfyng yn y graig, islaw Pont ar Fynach, a ymdeifl i'r Rheidiol, dros aelgerthau ofnadwy, bron mewn un rhaiadr didor; ac wedi ei chwyddo

Digitized by Google

fel hyn, llifeiria y Rheidiol tu a'r gorllewin, heibio i Lanbadarn Fawr, islaw yr hon y trŷ tu a'r dehau, heibio i dref Aberystwyth, ac ymarllwysa i'r môr, yn agos i enau yr Ystwyth. Cafodd tref Aberystwyth ei henw, ar gyfrif ei sefyllfa yn agos i gydiad yr Ystwyth a'r Rheidiol; gan fod y ddwy afon hyn wedi cael eu gwahanu rai oesoedd yn ol, trwy weithrediad y llifogydd, fel yr ymarllwysent ar wahan i fachwy Ceredigion, fe'u hail unwyd yn ddiweddar, trwy lafur celfyddydol, fel y byddai i gyd-lifogydd y ddwy, fod yn fwy effeithiol i gadw safn y porthladd yn agored.

Y Dyfi, afon sydd yn perthyn i Sir Feirionydd a Sir Drefaldwyn, a ffurfia ffin ogleddol y wlad hon, am oddeutu saith milldir, o'r Llyfnant i'w haber; ac y mae yn fordwyol ar hyd y rhan yma o honi. Y prif afonydd rhwng y Dyfi a'r Rheidiol, a ymarllwysant i'r môr, ydynt y Clarach a'r Leri. O'r tu deheuol i'r Ystwyth y cyfarfyddwn yn olynol â'r Gwŷrai, yr hon sydd yn cyfodi yn agos i Lanfihangel Lledrod, a chan lifeirio yn ddeorllewinol trwy y rhan-barth o Geredigion sydd mor enwog am gynnyrchu haidd, ymarllwysa i'r môr yn Llanrhystyd;—yr Arth, yr hon sydd yn cychwyn o lyn bychan yn y rhan uchaf o gantref Penarth, i'r hwn y dyru ei enw, gan gyfeirio yn gymhwys i'r gorllewin, a ddisgyna i'r môr yn Aberarth;—a'r Aeron, yr hon sydd yn nesaf mewn maintioli, i'r prif afonydd a ddarluniwyd uchod, ag a ddyfrhâ y dyffryn brâs i'r hwn y dyry ei enw. Y mae tarddell yr afon hon mewn llyn bychan, a elwir Llyn Aedwen, yn mhlwyf Llanrhystyd, o'r lle y llifeiria yn ddeheuol i Langeitho, ac oddiyno mewn rhawd hynod o drofaus, heibio i Dal y Sarn, a Thŷ Glyn, i'r môr ger Aberaeron. Y mae amryw ffrydiau llai hefyd, yn cymeryd bob un gyfeiriad ar wahân i fachwy Ceredigion. Yr afon enwog Tywy, neu, y Towy, y rhan fwyaf o rawd pa un sydd yn Sir Gaerfyrddin, a dardda o siglen fawr yn nghwm Berwin, yn agos i Lyn Teifi; yna cyfeiria i'r dehau ar y dechreu, drwy ardal erwin, lom ac annghyfannedd, ac yna, trwy ddyffryn cul, rhamantus, wedi ei brydferthu mewn manau â choedwigoedd, nes ei myned i fewn i Sir Gaerfyrddin, yn agos i Ystrad Ffin, tuag un filldir ar ddeg o'i tharddell: y prif afonydd a ymunant â'r Towy o'r wlad hon, yw y Camddwr, y Dethia, a'r Pysgottwr. Yr afon fechan Claerwen, yr hon a ddaw allan o'r llyn a elwir Llyn Rhuddon Fâch, yn y mynyddoedd ydynt ar derfyn dwyreiniol y sir, wedi ei hysgaru dros rai milldiroedd oddiwrth Sir Frycheiniog, sydd yn myned i'r wlad hono yn ei rhawd i'r Irfon. Yr Elain, yr hon sydd yn cyfodi yn agos i gopa y mynyddoedd ychydig i'r dehau o Gwm Ystwyth, a lifeiria yn ddwyreiniol, tu a'r afon Wŷ, â'r hon yr ymuna ychydig filldiroedd goris y Rhaiadr, yn swydd Faesyfed.

Y mae y ffyrdd yn y wlad hon wedi eu gwella yn fawr yn ystod y ganrif bresenol; fel nad yw tramwyad o'r naill dref neu bentref i'r llall, yn agos mor anhawdd yn bresenol ag ydoedd rai blynyddoedd yn ol. Y defnyddiau o ba rai eu gwneir ac eu hadgyweirir, ydyw craig lwyd y mynydd, a'r haen galettaf o'r llechfaen. Y mae dwy brif-ffordd o Loegr yn croesi Ceredigion, o ddwyrain i orllewin. Y ffordd o Lundain i Aberteifi, ac a estynwyd yn mlaen i Dŷ Ddewi, a ddygwyd dros y Teifi, o Lanymddyfri, yn Sir Gaerfyrddin, a thrwy Lanbedr, ar hŷd dyffryn yr afon hono i Aberteifi, o'r lle y croesa y Teifi drachefn i Sir Benfro. Y brif-ffordd o Lundain i Aberystwyth sydd yn dyfod i fewn i'r wlad hon o Raiadr yn Sir Faesyfed, ac yn cyfeirio yn gymhwys i'r gorllewin hyd y dref hono: y ffordd o Lundain i Dregaron yn y wlad hon, sydd yn ymganghenu yn Llanandras, swydd Faesyfed, ac yn cyfeirio trwy dref Maesyfed a Llanfair yn Muallt. Y mae ffordd arall, o Aberystwyth i'r Amwythig, tros Bont ar Fynach; ond nid oes cymaint o deithio ar hyd-ddi er pan wnaed ffordd wastattach ar hyd Dyffryn y Rheidiol i Eisteddfa Gurig, lle y mae yn dyfod i'r hen ffordd dros Bont ar Fynach: y ffordd hon a agorwyd yn ngwanwyn y flwyddyn 1831, ac y mae yn gaffaeliad pwysig i'r wlad. Heblaw hyny y mae ffordd dda arall o Aberystwyth i Fachynlleth: ac yn ddiweddarach fyth, agorwyd Rheil-ffordd Glanau Cymru, trwy Aberystwyth i Landyssul: ac estynwyd Rheil-ffordd Machynlleth i'w chyfarfod, yr hyn sydd o wasanaeth annrhaethol i drigolion y wlad hon.

Y mae y wlad hon yn dra chyfoethog mewn gweddillion henafiaethol o amryfal gyfnodau. Yn mynwent Yspytty Cynfyn y mae pedair o gerryg hirion mawrion, y rhai a ffurfient ran o gylch Derwyddol. Yn agos i Garrog, ychydig filldiroedd o Lanllwch-haiarn, y mae dau faen hir, oddeutu deg troedfedd o uchder, a phump o drŵch, y rhai y mae lle i gasglu oddiar ymddangosiad y tir gerllaw iddynt, a ffurfient ran o gylch arall cyffelyb; ac y mae gweddillion cylch Derwyddol arall ar fryn a elwir yr Allt-goch, yn agos i Lanbedr. Ar fynydd a elwir Pen-Sarn-Ddû, yn mhlwyf Llanfihangel Genau'r Glyn, y mae "Gwely Taliesin," neu, "Bêdd Taliesin;" y mae yn gynnwysedig o fath o gist-faen arw, wedi ei ffurfio o bump o gerryg, ac un arall fwy, i ffurfio y clawr, yn mesur tua chwe throedfedd wrth dair; yr oedd y gist hon wedi ei chyfleu yn nghanol carnedd o waith dynol; ac yn cael ei amgylchynu gan ddau gylch cysbellawl o feini, y mwyaf tua deg troedfedd ar hugain o draws-fesur, a'r lleiaf oddeutu saith ar hugain. Yn Llanio Isaf, tua saith milldir oddiar Lanbedr, yn Nyffryn y Teifi, darganfuwyd gweddillion mawrion o hen adeiladau Rhufeinaidd, y rhai y barnai Syr R. C. Hoare, ac eraill, eu bod yn dynodi gorsaf yr hen *Loventium*, a lle y mae yn eglur y bu sefydliad Rhufeinaidd pwysig; y mae y tir dros fesur mawr yn daenedig gan falurion pridd-feini, a llestri pridd; ac mewn un man, olrheiniwyd sylfeini adeilad, gant a haner o droedfeddi o hŷd, a deuddeg a thriugain o lêd; cafwyd amryw fathodynau yma hefyd, a cherryg yn dwyn arnynt ryw gerfiadau.

Y mae gwersyll Rhufeinaidd bychan hefyd, yn nghymydogaeth Llanbedr, yn agos i lan yr afon fechan Dulais; ac y mae amgloddiau petryal, a ffurfiwyd debygid gan yr unrhyw fuddugoliaethwyr, yn weledig ar dir y Tŷ Cam, yn mhlwyf Llanwenog. Y mae gweddillion y *Via Occidentalis*, a'i changenau yn y wlad hon, yn cael eu galw Sarn Helen yn mhob man; ac efallai mai llygriad yw y cyfryw enw o "Sarn y Lleon," neu, y Lleng. Gan ddyfod i fewn i'r wlad hon ar y tu gogleddol, o orsaf Penal, neu, Penallt, yn agos i Fachynlleth, y mae y brif ffordd yn myned mewn llinell union-syth i Loventium yn Llanio, ac y mae ei holion yn weledig hyd heddyw, yn gyntaf, ar dyddyn a elwir Llwyn Rhingyll, yn mhlwyf Llanbadarn Fawr, ac wedi hyny, ar un arall a elwir y Brenau, yn mhlwyf Llanfihangel y Creuddyn; a cherllaw ei rhawd, yn Nyffryn y

Digitized by Google

Teifi, goris Tregaron, y mae bryncyn celfyddydol a elwir Tommen Llanio, gorsaf Gwylfa Rhufeinaidd efallai. O'r orsaf grybwylledig uchod, yr ydoedd y *Via Occidentalis* yn cyfeirio yn gymhwys i *Menapia*, ar derfyn gorllewinol swydd Benfro; ac fe'i dilynwyd islaw Llanbedr, yn dilyn yn gyfochrog â'r afon Teifi, yr hon a groesai yn agos i Pencarreg, ac y mae yn weledig drachefn ar ochr Sîr Gaerfyrddin i'r dyffryn, ar hŷd yr hwn yr â rhagddi trwy blwyfydd Llanllwny a Phenboyr, ac yn y plwyf olaf, y mae rhyw ranau o honi yn aros yn gyfan heddyw. Gellir olrhain cangen o'r ffordd hon mewn llawer o fanau eto, yn croesi y Teifi, ger pentref Llanfair, uwchlaw Llanbedr, ac yn esgyn i'r mynyddoedd yn mhlwyf Cellan, yn ei rhawd i'r orsaf yn Llanfair ar y Bryn, swydd Gaerfyrddin. Y mae cangen arall o honi, yn cyfeirio o gymmydogoeth Llanbedr, i'r orsaf yn Nghaerfyrddin.

Y mae llawer o hen amddiffynfeydd Prydeinaidd yn Ngheredigion: un o'r rhai henaf, ac yn ddiameu y mwyaf nodedig, sydd ar dyddyn a elwir "Ciliau," yn nghymmydogaeth Llandysilio Gogo; math o genfaes crwn ydyw, tuag wyth lath a thriugain o draws-fesur, wedi ei ranu yn dair adeil-ran, ac yn cael ei gylchynu gan ragfuriau annghelfydd o gerryg, oddiwrth yr hyn y cafodd yr enw, "Y Garn Wen." Yn agos i eglwys yr un plwyf, y mae hen amddiffynfa gron, a elwir "Castell Llwyn Dafydd," ac weithiau, "Castell Caerwedros," neu, "Caerwaredros," tua dau can troedfedd o draws-fesur; yn ddiffynedig â dwy ffos ddofn, a rhagfuriau o uchder cyfattebol. Y mae gwersyllfa Brydeinaidd fawr iawn, yn mhlwyf Llanfihangel Penbryn, a elwir "Castell Nadolig," wedi ei ffurfio â thair ffos, ac argloddiau; yn agos i'r hwn y mae tommen fawr; ac o fewn tua haner milldir y mae un arall, cyffelyb mewn maintioli a chadernid, a elwir "Castell Pwntan."

Yn agos i bentref Blaen y Porth, y mae gwersyllfa a elwir "Y Gaer;" a dau eraill, a elwir, y naill "Caer Lonydd," a'r llall Castell Tudyr, yr olaf hwn sydd ar lan y môr. Y mae amryw hen warchgloddiau o fewn terfynau y wlad; un a elwir "Cribyn Clottas," sydd yn mhlwyf Llanfihangel Ystrad; un arall, o gryn faintioli, a elwir "Castell Moeddyn," yn mhen deheuol plwyf Llanarth; ac un arall a elwir Pen y Gaer yn yr un gymmydogaeth; a phedwerydd, yn agos i'r palas a elwir Llwyn Dyrus, ar lanau y Teifi, yn agos i'r hwn y mae bryncyn celfyddydawl mawr, neu wyddgrug; y mae amryw yn mhlwyf Llanbedr, un o ba rai sydd ar yr un uchelfa a'r meini Derwyddol tybiedig, a grybwyllwyd uchod; a lluaws o rai bychain ar y bryniau yn mhlwyf Cellan. Ychydig i'r gogledd orllewin o Dregaron, y mae amgloddiau o gryn faintioli, yn ffurfio cylch-ran, ac mewn sefyllfa hynod o gadarn, yn nghanol siglen ddofn; fe'i gelwir yn gyffredin "Castell y Ffleming," am ei fod yn cael ei ystyried yn y cyffredin, yn waith rhai o'r Ffflemingiaid a geisiasant oresgyn y wlad; ond, y mae yr henafiaethwyr mwyaf craffus yn barnu mai adeilwaith yr hen Frythoniaid ydyw. Y mae plwyf Tregaron yn cynnwys lluaws o garneddau a gyfodwyd ar gyrph meirw rhyw hen enwogion; ac heblaw hyny y mae yma arglawdd pridd mawr, tra hynod, yn cyfeirio o ddwyrain i orllewin, ac yn amryw filldiroedd o hŷd, a elwir "Cŵys Ychain Bannog," oddiar ryw draddodiad ffug-chwedlonol sydd yn ffynu yn y gymmydogaeth. Barnai Dr. Meyrick, hanesydd y sîr hon, mai gweddill hen ffordd Brydeinaidd ydyw. Y mae hên amddiffynfa a elwir Plâs Crûg, ar ben bryn mewn gwastadedd corsawg, gerllaw Llanbadarn. Yn agos i *Wervil Brook*, yn nghymmydogaeth Llandysilio Gogo, y mae amryw garneddau, y rhai a gyfodwyd ar feddau rhyw hen wroniaid enwog, oesoedd cyn cof; ac eraill cyffelyb, yn mhlwyf Llanfihangel Pen y bryn; a cheir llawer o'r cyfryw ar y mynyddoedd yn mhlwyf Cellan, yr hwn sydd yn dra goludog mewn olion henafiaethol. Ar wyddgrug gron, neu garnedd, yn cael ei chylchynu â ffosydd, gerllaw yr afon fechan a elwir "Y Ffrŵd," yn y plwyf hwn, y mae maen mawr, un droedfedd ar ddeg o dryfesur, a elwir "Llêch Gynon," yn nodi, fel y bernir, fedd rhyw wron o'r enw hwnw; ac adwaenir yr afonig hefyd, wrth yr enw "Ffrŵd Gynon." Ac ar y mynydd, y tu gogleddol i'r Ffrŵd, y mae amryw gistfeini a elwir "Beddau; ac ar yr ochr ddeheuol, y mae dwy eraill, un o ba rai a elwir "Bedd y Forwyn." Dywaid Meyrick iddo agoryd y ddau fedd hyn (ac y maent oll yn gyffelyb; eu dull sydd hir-grwn, a phob un yn cynnwys pedair carreg; ac yn y canol wyddgrug, neu garnedd, o bridd a cherryg, wedi ei chyfodi); ar ol glanhau yr ysbwrial, daethant at haen o dywod; ac islaw hyny, haen arall o dywod manach; ac wedi eu myned trwy hwnw, daethant at ludw esgyrn, a choed, yn gorwedd ar wely o glai, yr hwn oedd yn daenedig ar y graig. Nid oedd y carneddau hyn dros lathen o ddyfnder. Efallai mai bedd Cynon, mab Clydno Eiddyn, ydoedd yr un a ddarluniwyd uchod, am yr hwn y cawn y crybwylliad canlynol yn englynion beddau milwyr Prydain;—

"Pîeu y bedd dan y bryn?
Bedd gwr gwrdd yn Nghyfysgyn;—
Bedd Cynon, mab Clydno Eiddyn."
Bedd gwr gwawd Urddin,
Yn uchel tyddin,
Yn isel gweliddin;
Bedd Cynon, mab Clydno Eiddin."

Y mae Aneurin, yn y *Gododin*, yn ei ddarlunio fel un o'r gwroniaid a ymladdent yn mrwydr ddinystriol Cattraeth; ac un o'r pedwar pendefig a ddiangodd yn fyw o'r gâd ofnadwy hono. Deallwn oddiwrth y Trioedd, a chyfeiriadau a wneir ato gan rai o'r hen feirdd, ei fod yn hynod yn moreu ei oes, am angerddolder ei serch at Forfydd, ferch Urien, yr hwn tua diwedd y bummed ganrif a deyrnasai ar Reged, y wlad a orweddai rhwng y Tawe a'r Towy, llŷs tywysogaidd yr hwn oedd yn Nghastell Aberllyw, yn Mrowyr.

Heblaw y carneddau ydynt ar y mynyddoedd hyn, yr oedd yma amryw feini enfawr; o ba rai y mae un neu ddwy yn aros eto. "Byr-faen" y gelwir un o honynt, yr hon sydd wedi cwympo ar lan yr afonig uchod, a mesura bymtheg troedfedd o hŷd, a phedair o lêd. Y llall a elwir "Hir-faen Gwyddog;" ac y mae yn sefyll eto, ac yn mesur un droedfedd ar bymtheg, oddiar wyneb y ddaear. Ar wyddgrug arall, yn gylchynedig â ffos, y mae maen mawr, un droedfedd ar bymtheg o hyd, a 24ain troedfedd o gylch-fesur, yn gorwedd; yr hwn a elwir "Maen y pren-fol," ac weithiau, "Maen prenfol Gwallt Gwyn;" ac yn agos iddo, ar yr un domen, y saif maen arall, wyth droedfedd o uchder, oddiar wyneb y ddaear. Efallai fod yr enw "Maen prenfol," yn awgrymu fod y sawl a gleddid dano, wedi ei gladdu

Digitized by Google

mewn coffr o bren, yr hyn oedd yn anrhydedd annghyffredin yn yr oesoedd boreu hyny.

Y mae llawer o feini côf mawrion yn sefyll yn agos i Landdewi Brefi, oll yn dwyn arnynt ryw argraff, yr hon sydd erbyn hyn yn annarllenadwy. Y mae y cyffelyb faen coffa hefyd, mewn cae a elwir "Maes Mynach," yn mhlwyf Llanfihangel Ystrad; ac un arall tra hynod, wedi ei addurno â cherfiadau Rhwnegaidd (*Runic*), ond heb lythyrenau. Yn agos i Lanwenog, y mae gwyddgrug fawr, a elwir "Crûg yr Udon;" ac yn agos i'r rhŷd dros yr afon Clettwr, a elwir "Rhŷd Owain," y mae tommen a elwir "Tommen Rhŷd Owain;" ac ar ben bryn yn nghymmydogaeth Llangranog, y mae trydedd, oddiwrth yr hwn y mae y lle y saif arno yn cael ei alw, "Pen Moel Badell."

O fewn tua chwe milldir i Lanrhystyd, y mae mynydd uchel, a elwir "Mynydd Trichrug," am fod tair o dommenydd, neu garneddau yn agos i'w grib. Y mae rhai bryncynau celfyddydol, y rhai y gellid tybio eu bod yn hên orsafau amddiffynfeydd, ar Fryn Castell, yn agos i'r fan lle y mae y ffordd o Aberystwyth i'r Rhaiadr, a'r un o Fachynlleth i Dregaron a Llanbedr, yn croesi eu gilydd; ac ychydig i'r gogledd o Lanbedr, yn agos i lan y Teifi, yn mhlwyf Llanwenog; ac y mae amryw hefyd yn mhlwyf Llanbadarn Fâch, yn agos i'r Mynachdŷ, y rhai a elwir "Yr Hên Gastell."

Ar adeg dadgorphoriad cyffredinol yr hen grefydddai Pabaidd, yr oedd priordy bychan i'r Benedictiaid yn Aberteifi; a choleg o offeiriaid yn Llanddewi Brefi; a lleiandŷ yn Llanleir. Yn Ystrad Fflûr yr oedd mynachlog fawr; ac y mae rhyw ddarnau o'i muriau yn aros eto, trwy y rhai y gellir olrhain ei gorsaf. Y mae ychydig weddillion hen fonachlog yn aros gerllaw tŷ yn nhref Llanbedr, a elwir "y Prîordy." Yr ennghreifftiau mwyaf nodedig o adeilwaith eglwysig yn y sir, ydyw yr Eglwys Newydd, gerllaw yr Hafod, Llanarth, Llanbadarn Fawr, Llanddewi Brefi, Llandyssul, Llansantffraid, a Thregaron. Y mae hefyd yn aros weddillion hynod o gestyll Aberteifi ac Aberystwyth, Castell Gwallter, ar gopa bryn uchel, yn agos i eglwys Llanfihangel Genau'r Glyn, ac Ystrad Meurig. Heblaw hyny, y mae ychydig weddillion o hen amddiffynfa a elwir Castell Cadwgan, yn Aberaeron; Castell Ysteffan, yn Llanbedr; a hen amddiffynfa ar fryn, yn agos i eglwys Llandyssul, a elwid gynt Castell Gwynionydd; ond a elwir yn awr, Castell Coed-fon; ac o hen amddiffynfa yn agos i Aberystwyth, a elwir Castell Llanychaiarn. Yr oedd amddiffynfa gref iawn yn yr hen amseroedd, ar ben bryncyn yn agos i bentref Blaen-porth; a bryn wedi ei gylchynu â ffos, yn agos i'r afon Clettwr, gerllaw ammaethdŷ a elwir Castell Howel, a ddynoda orsaf hen amddiffynfa gaerog o'r un enw. Mewn lle a elwir Cil y Graig, yn mhlwyf Llandyssul, y mae bryncyn celfyddydol, gorsaf castell, a elwir yn yr hen gofiannau Cymreig, Castell Abereinion; yn agos i eglwys Bangor, y mae bryn amgloddedig, a elwir Castell Pistog; ac yn agos i bentref Trefilan, y mae bryncyn uchel, ar yr hwn y gorweddai Castell Trefilan gynt; er fod Meyrick wedi cyfleu gorsaf yr amddiffynfa hon, ar y mân gloddiau a elwir yr Hên Gastell, yn mhlwyf Llanbadarn Fach, am y rhai y soniwyd yn barod. Y mae ychydig ddarnau yn weddilledig o hên gaerau Aberteifi.

Y mae y wlad hon yn cynnwys lluaws o hên balasau nodedig; ac ar y rhan ddwyreiniol o'r Teifi, islaw Llanddewi Brefi, y mae adfeilion hen balas ysplenydd, a elwid oddiwrth y plwyf yn yr hwn y gorweddai, "Plas Llanfair Clywedogau," yr hwn a fu unwaith yn breswylfod hynafiaid y diweddar Thomas Johnes, Ysw., o'r Hafod. Y palasau diweddarach, mwyaf teilwng o sylw, ydynt Alderbrook Hall, yn mhlwyf Troed yr Aur; Blaenpant, yn mhlwyf Llandygwydd; Bronwydd, yn mhlwyf Llangunllo; Coedmawr, yn mhlwyf Llechryd; Trawsgoed, preswylfa Iarll Lisburne; Derry Ormond, yn mhlwyf Bettws Bledrws; Falcon Dale; Gallt yr Odyn, yn mhlwyf Llandyssul; Gernos, yn mhlwyf Llangunllo; Hafod Uchtryd; Llannerch Aeron; Llanlear, yn mhlwyf Ystrad Meurig; Mabws, yn mhlwyf Llanrhystyd; Y Neuadd, Llanarth; Neuadd Trefawr, yn mhlwyf Llandygwydd; Pigeon's Ford, yn mhlwyf Llangranog; Tŷ Glyn, yn mhlwyf Llanddewi Aberarth, &c. &c.

Y mae gwelliannau mawrion iawn wedi cymeryd lle yn ymddangosiad a chyfleusderau ammaethdai y wlad hon o fewn yr oes ddiweddaf; ond y mae lle i wellau llawer eto ar anneddau y gweithwyr.

Cynnwysa y wlad hon amryw ffynhonau mŵnawl, yr hynottaf o ba rai ydyw Ffynnon y Graig, yn agos i Lyn Teivi; a Ffynnon feddygol Aberystwyth. Prif ryfeddodau naturiol eraill Ceredigion, ydyw ei rhaiadrau; o ba rai yr hynottaf, heblaw y rhai o brydferthwch rhamantus yn agos i'r Hafod, ydynt y rhai ar yr afon fechan, y Mynach, ychydig islaw Pont ar Fynach, o ba rai y mae pedwar; y cyntaf yn ugain troedfedd, yr ail yn driugain, y trydydd yn ugain, a'r pedwerydd yn gan troedfedd, o ddisgyniad union-syth. Heblaw hyny, y mae rhai tra ardderchog ar yr afon Rheidiol; ac eraill ar gangen sydd yn ymarllwys i'r Teifi, a elwir "Ffrydau Henllan."

**ABERTEIFI**—porthladd, bwrdeisdref, tref farchnad, a phlwyf, yn rhan-barth isaf cantref TROED YR AUR, swydd ABERTEIFI, DEHEUBARTH CYMRU; 232 milldir i'r gor. wrth og. o Lundain. Rhoddir yr enw *Aberteifi* iddi ar gyfrif ei sefyllfa yn agos i safn yr afon Teifi; ac y mae yn debyg i'r llannerch gael ei ddethol yn orsaf tref mewn adeg foreu iawn; am ei fod yn lle tra manteisiol i fasnachu o hono â pharthau pellenig o'r wlad: ond ychydig iawn a wyddys am ei sciliad cyntaf, nac am ei chyn-drigolion; ac ni's meddwn gofiannau ysgrifenedig na thraddodiadol o'i hanes cyn goresgyniad y rhan yma o'r wlad gan y Normaniaid, y rhai a gyfodasant amddiffynfa yn y lle hwn, er cadw y meddiant o'r afon, ac er eu diogolu eu huuain yn y meddiant o'r tiroedd a ddygent trwy drais, o bryd i bryd, oddiar y perchenogion brodorawl. Ymddengys mai tu a'r adeg hono y daeth hi gyntaf dan y nodweddiad o dref reolaidd, ac wedi hyny hi a ddaeth yn ben tref talaith Ceredigion, yr hon a gynnwysai, yn ychwanegol at swydd Aberteifi bresenol, yr hon a elwir Ceredigion, diriogaeth ehang, yr hon ar y dechreu a gyfansoddai wlad y Dyfedwys; ac a ddyroddwyd tua chanol y bummed ganrif i Caredig mab Cunedda Wledig, oddiwrth yr hwn y cafodd yr enw Ceredigion, llygriad o ba un yw ei henw Seis'nig presenol, *Cardigan.*

Y mae y lle hwn yn cael ei ddarlunio yn y Cofiannau Cymreig, fel y llannerch ar yr hon yr ymladdwyd rhai o'r brwydrau mwyaf gwaedlyd yn

Digitized by Google

Neheudir Cymru, o fewn y tair canrif cyntaf wedi y goresgyniad Normanaidd. Fel yr oedd Roger de Montgomery, yr hwn a wnelai wriogaeth i Gwilym Gôch, yn 1091, am dalaith Ceredigion, yn cael ei argyhoeddi beunydd o'i analluogrwydd i gadw meddiant o'r castell, yn erbyn y tywysogion brodorawl, efe a'i rhoddes i fynu i Cadwgan ab Bleddyn, Tywysog Powys; gwr o uchel-gais ëofn ac anturiaethus, yr hwn a hawliai benteyrniaeth y Deheubarth; ac a gynhaliai ryfel barhaus, nid yn unig â'r arglwyddi Normanaidd, y rhai a wasgent ar ei diriogaethau; ond hyd yn nod â phennadur Lloegr ei hunan. Cadwgan a barhaodd i gadw meddiant o'r castell, ac wedi marwolaeth Gwilym Gôch, efe a wnaeth gyngrhair â'r brenin Harri I. Ymddengys fod castell Aberteifi y pryd hwn yn lle tra phwysig, ac yn un o lysoedd tywysogaidd Cadwgan, yr hwn a gynhaliodd wledd ysplenydd ac Eisteddfod farddonol yma, ar y Nadolig, 1107, yn yr hon, yn ol rhai hanesion, yr enynwyd trachwant ei fab Owain, trwy y desgrifiadau bywiog a roddid gan rai o'i gymdeithion, o brydferthwch Nêst, gwraig Gerald de Windsor, fel y penderfynodd ei dwyn trwy drais, o gastell ei gŵr yn Nyfed. Y mae eraill yn olrhain y dirdreisiad crybwylledig i wledd a roddid yn nghastell Eare Weare, yn mhlwyf Amroath, ar arfordir gorllewinol swydd Benfro.

Pa fodd bynag, y weithred ysgeler a dynodd ddigofaint y brenin Harri ar ben ei deulu; yr hwn wedi ceisio yn ofer gan Owain roddi y bendefiges i fynu, a annogodd bendefigion Powys i ddial y sarhad; a gorfodwyd Cadwgan ac Owain i adael eu gwlad, ac ymofyn am nawdd yn yr Iwerddon.

Dychwelodd y blaenaf yn y flwyddyn ganlynol, ac wedi rhoddi boddlonrwydd i'r brenin o'i ddiniweidrwydd, adferwyd ei feddiannau iddo; ond gan i'w fab fod yn aflwyddianus i ail enill ffafr y brenin, efe a barhaodd i wneyd cyrchiadau i Ddyfed, gan yspeilio y wlad, a dwyn y trigolion yn garcharorion; a pheri i'w perthynasau eu prynu yn ol ganddo, neu ynte eu hanfon yn rhwym i'r llongau, y rhai a ddaethent gyd ag ef o'r Iwerddon.

Yn mhen ychydig, amlhaodd ei ganlynwyr yn fawr, a dygodd yn mlaen ei anrheithiadau yn fwy egniol nag o'r blaen, heb wrando ar rybuddion ei dâd, na gofalu am waharddiadau na bygythion brenin Lloegr.

Tra yr oeddynt yn dilyn y fuchedd yma, dygwyddodd fod gwr pendefigaidd o'r Fflandrwysiaid, o'r enw William de Brabant, ar ei daith trwy y wlad; a rhai o wŷr Owain oeddynt yn gwarchadw y ffordd; a hwy a'i lladdasant ef a'i ganlynwyr. A phan glybu Cadwgan, a Iorwerth ei frawd hyn, hwy a aethant i lŷs y brenin, i gyfiawnhau eu hunain, fel na chyhuddid hwynt o fod yn gyfranogion yn yr ysgelerwaith; ond brawd i'r gwr a laddesid a ddaeth yn mlaen, ac a fynegodd i'r brenin am holl amgylchiadau y gyflafan. Ar hyny, y brenin a ddywedodd wrth Cadwgan,—gan nad allai efe attal ei fab i gyflawni y cyfryw droseddau, nac arbed ei wlad rhag y cyfryw ormesiadau, y rhoddai efe ei feddiannau ef i arall, yr hwn a'u cadwai. Ac felly, dododd ar Gadwgan, na chai efe ddychwelyd yn ol i Gymru, heb ei ganiattad ef; ond y byddai yn rhydd i fyned i unrhyw le arall, ac y cynhelid ef gan y brenin; ac efe a roddodd ei diriogaethau i Gilbert Strongbow, os y byddai yn alluog i'w hennill: a hwnw a gynnullodd fyddin gref, ac a aeth i Geredigion, ac a oresgynodd y wlad; ac yno yr adeiladodd efe ddau gastell cryf, y naill yn Aberystwyth, a'r llall gerllaw Aberteifi, mewn lle a elwir Dingeraint (Cilgeran, efallai), lle yr oedd Rossier de Montgomery wedi dechreu castell o'r blaen.

Ar farwolaeth Cadwgan, yr hwn a lofruddiwyd gan Madawg ab Rhiryd, yn y flwyddyn 1110, cymerodd y brenin Harri benteyrniaeth y Deheubarth i'w law ei hun, yr hwn a gadwodd efe am rai blynyddoedd, hyd oni ddarfu i Gruffydd, mab Rhŷs ab Tewdwr, yn cael ei gynnorthwyo gan Owain a Chadwaladr, meibion Gruffydd ab Cynan, pennadur Gwynedd, ail feddiannu holl dalaeth Ceredigion, ac arwain eu byddin hyd at byrth Aberteifi, lle yr ymladdwyd brwydr waedlyd, yn yr hon y llwyr orchfygwyd yr estroniaid, gan adael tair mil o honynt yn lladdedig ar y maes, a boddwyd lluaws mawr o honynt yn afon Teifi, trwy i'r bont ymollwng danynt, wrth ffoi o honynt drosti. Y castell hefyd a syrthiodd i ddwylaw y Cymry; ond nid yw yn ymddangos iddynt gadw meddiant o hono yn hir; canys yn y flwyddyn 1144, cawn fod Howel, a Chynan, meibion Owain Gwynedd, wedi cyfodi byddin grêf, ac ennill buddugoliaeth hynod ar y Normaniaid a'r Fflandrwysiaid, yn Aberteifi, ac wedi ail gymeryd y dref a'r castell; ac wedi rhoddi gwarchod-lu cryf yn y castell, hwy a ddychwelasant i'w gwlad eu hunain, yn llwythog o anrhydedd ac o yspail. Cadarnhawyd y castell wedi hyny gan Rossier, Iarll Clare, oddiar yr hwn ei cymerwyd drachefn, yn y flwyddyn 1165, gan Rhŷs ab Gruffydd, tywysog y Deheubarth, yr hwn a'i gwnaeth yn gyd wastad a'r llawr. Y mae amryw haneswyr yn dywedyd ei ail adeiladu y flwyddyn ganlynol, gan Gilbert de Clare, ond i Rhŷs ei gymeryd drachefn, yr hwn yn fuan wedi hyny a ymheddychodd â'r brenin Harri yr Ail, fel y cafodd gadw ei feddiannau yn y Deheubarth; ac efe a gadwodd y castell hwn yn ei ddwylaw ei hun hyd ddydd ei farwolaeth. Yn y flwyddyn 1171, anfonodd Rhŷs osgordd o chwech a phedwar ugain o feirch, o'r lle hwn i Benfro, ac a'u cyflwynodd yn anrheg i'r pennadur hwnw, pan oedd efe ar ei gadymdaith i'r Iwerddon; a phan orphenodd efe adgyweiriadau y castell hwn, yn y flwyddyn 1176, efe a wnaeth wledd odidog, ac a gynhaliodd Eisteddfod ynddo, o'r hyn y rhoddasid rhybudd un dydd a blwyddyn o'r blaen, yn Lloegr, Ysgotland, Iwerddon, a Chymru; ac yr oedd lluaws o wahoddedigion o'r holl deyrnasoedd hyny, a holl feirdd Cymru yn bresenol, yn y wledd a'r Eisteddfod hono. Wedi arddangosiad o amryw orchestion milwraidd, cynnullwyd y beirdd i'r neuadd fawr, a dyfarnwyd gwobrau i'r rhai medrusaf o honynt; ac yn yr ymgystadleuaeth yma, beirdd Gwynedd a ennillasant y gwobrau, ac yn mysg y cerddorion, caniatteid mai rhai teuluaidd y tywysog Rhŷs a ragorent.

Yn y flwyddyn 1188, gwnaeth Rhŷs wledd odidog i roesawi Baldwin, Archesgob Caergaint, gyd a'r hwn yr oedd Giraldus Cambrensis y prŷd hyny, yn pregethu y Croesgadau trwy Gymru,—ar y cyntaf yn Mhriordy Llandudoch, yn swydd Benfro, a thranoeth yn ei gastell ei hun yn Aberteifi.

Wedi marwolaeth Rhŷs, yn y flwyddyn 1198, ymosodwyd ar y castell, yr hwn oedd y pryd hyny yn meddiant ei fab Gruffydd, gan ei frawd Maelgwyn, yr hwn hefyd a'i cymerodd; ond, o fewn yr un flwyddyn, Gruffydd a lwyddodd i ail feddiannu holl ettifeddiaethau ei dad, oddieithr y castell hwn, a

Digitized by Google

chastell Ystrad Meurig, y rhai oeddynt eto yn meddiant ei frawd; ond efe a gyttunodd i roddi y blaenaf i fynu i Gruffydd, ar yr ammod iddo roddi gwystlon iddo o ddiogelwch i'w berson; ond, can gynted ag eu cafodd, efe a adgyweiriodd y castell, a gyfnerthodd y gwarchodlu, ac a roddodd y gwystlon yn nwylaw ei gymhlaid Gwenwynwyn, tywysog Powys, oddiar yr hwn y diangasant; a gwrthododd roddi y castell i fynu; ond cadwodd feddiant o hono hyd y flwyddyn 1200, pan yn gweled na's gallai ei amddiffyn yn hwy yn erbyn gallu Gruffydd, yr hwn oedd yn myned ar gynnydd yn feunyddiol; efe a'i gwerthodd am swm bychan i'r Normaniaid, fel na syrthiai i ddwylaw ei frawd.

Yn y flwyddyn 1215, rhoddodd y gwarchodlu Normanaidd yr amddiffynfa hon i fynu i Llewelyn ab Iorwerth, Tywysog Gwynedd, yr hwn a ddychwelodd i Aberteifi y flwyddyn ganlynol, i geisio unioni amrafaelion oeddynt wedi cyfodi rhwng pennaethiaid brodorawl y Deheubarth, a rhanu rhyngddynt y tiriogaethau a gyd ennillasent oddiar y goresgynwyr Normanaidd; ac yn y rhaniad crybwylledig, disgynai y castell hwn i ran Owain ab Gruffydd; ond, er anfoddlonrwydd mawr i'r pendefig hwnw, efe a'i cadwodd yn ei feddiant ei hun, ac yn y cyngrhair a wnaeth efe a'r pennadur Seis'nig, yr hwn a law-nodwyd yn Nghaerloyw, yn y flwyddyn 1218, efe a ymrwymodd i ddychwelyd y castell hwn, a'i diriogaethau dibynol i'r Saeson. Yn y flwyddyn ganlynol, gan fod Llewelyn yn gwrthod cwblhau ei ymrwymiad, ac yn ofni i'r Saeson ymosod ar y lle, efe a'i cadarnhaodd, ac a chwanegodd at ei warchodlu. Ond ni wnaed unrhyw ymosodiad arno hyd y flwyddyn 1220, pan y darfu i'r Fflandrwysiaid a ymsefydlasent yn swydd Benfro, ac a gymerasent lŵ o ffyddlondeb i Llewelyn yn ddiweddar, wrthryfela yn ei erbyn, gwneyd cad-gyrchiad yn erbyn Aberteifi, a chymeryd meddiant rhwydd o'r castell: ond fe'i cymerwyd yn ôl gan Llewelyn yn fuan ar ol hyny; ac efe a laddodd yr holl warchod-lu â'r cleddyf.

Wedi hyny, gan fod Rhŷs ab Gruffydd ieuanc yn barnu fod Llewelyn yn ei amddifadu ar gam o feddiant o'r castell hwn, efe a aeth drosodd at y Saeson, gan ei roddi ei hun dan nawdd Iarll Penfro, yr hwn wedi terfynu yr ymrafael rhwng Rhŷs a Llewelyn yn heddychlawn trwy gyfryngiad brenin Lloegr, a gymerodd feddiant o'r castell; ond yn ystod ei absenoldeb ef, fe'i cymerwyd yn ôl drachefn gan Llewelyn, yr hwn a roddodd ei warchod-lu i'r cleddyf. Ond, pan ddychwelodd yr Iarll o'r Iwerddon yn y flwyddyn 1223, efe a ddygodd fyddin gref i Aberteifi; ac wedi gwarchae ar y castell, efe a orfododd y gwarchod-lu i'w roddi i fynu, ac a wnaeth yn gyffelyb â hwy ag y gwnelsai Llewelyn â'i filwyr ef o'r blaen, gan roddi y gwarchod-lu Cymreig i farwolaeth.

Yn y flwyddyn 1231, darfu i dywysog Cymreig o'r enw Maelgwyn ab Maelgwyn, wneyd cad-ruthriad ar Aberteifi, a rhoddi y trigolion i farwolaeth â'r cleddyf; ac wedi anrheithio y dref, ac agos ei llwyr ddifrodi, efe a attalid yn ei gyrch dinystriol, yn unig trwy amddiffynfeydd y castell, yr hwn a gyfrifid yn anorchfygol. Ond, gan i Owain mab Llewelyn ab Iorwerth, Tywysog Gwynedd, a rhai o swyddogion goreu y tywysog hwnw, ddyfod yn gynnorthwy iddo, efe a ddychwelodd i warchae ar y castell, ac wedi torri y bont, efe a'i hamgylchynodd mor drylwyr, ac a ergydiodd arno, ac a'i tan-gloddiodd, fel y gorfuwyd y gwarchod-lu i'w roddi i fynu, wedi gwrthsafiad tra ystyfnig. Gorweddodd y castell yn y cyflwr anrheithiedig i'r hwn ei darostyngwyd fel hyn, am agos i naw mlynedd, hyd esgyniad Dafydd ab Llewelyn ab Iorwerth i benteyrniaeth Cymru, yn y flwyddyn 1240, pan ddarfu i Gilbert Marshall, Iarll Penfro, ymgalonogi yn wyneb gwendid y tywysog, a chyflwr ansefydlog y Dywysogaeth, fel y cymerodd efe yr amddiffynfa hon, yr hon a adgyweiriodd ac a gadarnhaodd efe yn ddirfawr. O'r pryd hwn ymddengys fod y castell wedi parhau yn meddiant y Saeson, ac ni chanfyddir unrhyw grybwylliad am dano mwyach yn y cofiannau Cymreig. Wedi i Edward y Cyntaf lwyr orchfygu y wlâd, efe a fu yn aros am fis o amser yn y castell hwn, tra yr oedd efe yn trefnu helyntion y Dywysogaeth.

Harri y Seithfed a ddyroddodd yr arglwyddiaeth, y castell, a'r dref, i Catharine o Arragon, ar ei dyweddiad i'w fab henaf, Arthur, Tywysog Cymru, fel rhan o'i gwaddol. Yn fuan wedi dechreu y rhyfel Seneddol, cawn fod castell Aberteifi yn nwylaw gwŷr y Senedd; ac yr oedd dau o oruchwylwyr y blaid Seneddol yn cyfanneddu yn y priordy yn y dref hon: ond fe'i cymerwyd gan y Maes-lywydd Girard, yr hwn a osododd warchod-lu ynddo i'w gadw dros y brenin: eithr gwŷr y Senedd, dan y Maes-lywydd Laugharne, a warchaeasant arno eilwaith; ac wedi ei dân-belenu dros dri diwrnod, hwy a'i cymerasant trwy ruthr.

Y mae y dref yn gorwedd mewn sefyllfa ddifyr, ar lan ogleddol yr afon Teifi, dros yr hon y mae hên bont faen, o bum bwa, yn cydio siroedd Aberteifi a Phenfro: y mae yn gynnwysedig o un brif heol, yn cyfeirio o'r bont, ar hyd y brif ffordd tuag Aberystwyth, o'r hon y mae un arall yn cyfeirio tu a'r dwyrain, ar hyd y ffordd i Gastell Newydd yn Emlyn. Yn y flaenaf y mae y prif fasnachdai, ac y mae rhai tai dâ yn y ddwy. Y mae y porthladd yn meddu brawdwriaeth ar Drefdraeth ac Abergwaun, yn sir Benfro i'r gorllewin; a thu a'r gogledd, ar Aber-y-porth, y Cei Newydd, ac Aberaeron; ac y mae llawer o drafnidiaeth arforawl yn cael ei ddwyn yn mlaen oddiyma, ac ychydig â gwledydd tramor. Y prif allforion ydynt ŷd (ceirch yn benaf), i Gaerodor a Lle'rpwll, ymenyn, rhisgl derw, a llechi, yr hyn yw nwydd penaf y gymmydogaeth, er nad ydynt o ansawdd dda iawn; ac na chyrhaeddant nemawr fwy na haner pris llechi sir Gaerynarfon. Y prif ddadforion, ydyw coed, o Lychlyn, a Gogledd America; glô, yn benaf o L'erpwll, ac weithiau o Ddeheudir Cymru, a swydd Stafford; glô cwlwm, o Ddeheudir Cymru; cerryg calch o swydd Benfro, &c. Y mae yr afon Teifi yn fordwyol i fynu hyd y bont, i lestri yn cario o dri i bedwar can tunnell ar ben gorllanw; ond y mae y ddyfodfa i'r porthladd yn cael ei rhwystro gan far peryglus, ar yr hwn nid oes namyn dwy droedfedd ar hugain o ddwfr ar ben gorllanw y teidiau uchel, a gostyngiad o un droedfedd ar bymtheg, gan adael ar amserau ddim mwy na chwe throedfedd o ddwfr; ac nid yw y cyfodiad a'r gostyngiad, yn ddim mwy nag un droedfedd ar ddeg ar farw-ddwfr; fel y mae trafnidiaeth gyffredin y porthladd yn cael ei gyfyngu i lestri o bymtheg i gan tunnell.

Y mae pysgodfa gleisiaid ehang ac ennillgar iawn yn cael ei dwyn yn mlaen yn afon Teifi, yn ystod yr hâf; a physgodfa benwaig, yr hon ambell

Digitized by Google

flwyddyn a fydd yn dra chynnyrchiol, a ddyru waith i lawer yn y gauaf. Bydd golwg hynod ar yr afon yn yr hâf, gan y nifer fawr o gwrwglau a welir ar ei hwyneb.

Cynhelir y farchnad yma ar ddydd Sadwrn; a'r ffeiriau a gynhelir yn flyneddol ar Chwef. 13; Ebrill 5; Medi 8; a Rhagfyr 19.

Corphorwyd y fwrdeisdref yn gyntaf gan Edward I.; wedi iddo lwyr ddarostwng Cymru, a'r freinlen a ganiattawyd iddi gan y pennadur hwnw, a gadarnhawyd ac a helaethwyd gan amryw o'i olynwyr. Trwy y freinlen sydd mewn grym yn awr, yr hon a ddyroddwyd gan Harri yr Wythfed, yn y bedwaredd flwydd ar bymtheg o'i deyrnasiad, y mae llywodraethiad y dref yn gorwedd mewn Maer, dau geisbwl, corff-ynad, deuddeg o dref gynghorwyr, a nifer anmhenodol o fwrdeisiaid, yn cael eu cynnorthwyo gan dref-gofiadur, ac is swyddogion: ac y mae y freinlen hon mewn rhan yn dyrchafu y fwrdeisdref hon i gyfranogi mewn rhyw hawlion siryddol, trwy ganiattau, "bod ein bwrdeisiaid hyn, a'u holynwyr hyd byth, yn meddu cynnyrch ein holl ysgrif-wŷsau, a holl gynghawseddau ein hettifeddion, yn mha ddadleuon bynag, treftadol neu bersonol, ac o bob cyflwrw arall o fewn y ddywededig dref Aberteifi; fel na all unrhyw ddirwywr, siryf, ceisbwl, neu weinidog o'r eiddom ni ddyfod i mewn, neu ymyraeth mewn dim, o fewn y dref a'r fwrdeisdref rag-enwedig." Y Maer, yr hwn sydd yn etholadwy o fysg y tref-gynghorwyr, a'r ceisbyliaid, a'r corff-ynad, o blith y bwrdeisiaid, a etholir yn flyneddol ar y dydd Llun cyntaf ar ol Gwyl-fihangel; y cynghor trefol a lanwant bob gwag-leoedd fel y cymeront le, o'r bwrdeisiaid; a'r bwrdeisiaid a enwir gan ddeuddeg o reithwyr, allan o fysg y preswylwyr, yn llŷs y corphoraeth. Yn mysg rhagorfreintiau bwrdais, y mae ei fod yn rhŷdd oddiwrth dollau o amryw fath, drwy y deyrnas, ac y gall hawlio rheithwyr o Saeson yn gwbl, ar ei brawf.

Y mae y fwrdeisdref hon yn nghyd a Thref-hedyn, Aberystwyth, a Llanbedr, yn meddu hawl i ddychwelyd un aelod i'r Senedd. Yr oedd yr etholfraint gynt yn perthyn i'r bwrdeisiaid yn gyffredinol; ond, trwy ddeddf y Diwygiad Seneddol, a gadarnhawyd yn 1831, y mae yn gorwedd yn y bwrdeisiaid preswyliedig ynddi, os y byddant yn meddu y cymhwysderau gofynol yn y ddeddf; ac yn mhob gwryw o gyflawn oed, a fyddo yn meddu neu yn dal fel tir-ddeiliad dan yr un perchenog, dai neu diroedd o'r gwerth blyneddol o ddeg punt. Y mae yn gydiol a'r dref, tua thri chan erw o gyttir agored, tir o'r fath oreu, yr hwn a berthyna i'r bwrdeisiaid yn gyffredinol.

Y fywioliaeth eglwysig yma sydd ficeriaeth, yn archddiaconiaeth Ceredigion, ac esgobaeth Tŷ Ddewi, yn noddogaeth Tywysog Cymru. Yr eglwys, yr hon sydd gysegredig i Sant Mair, sydd yn adail ehang, cynnwysedig o gorff, cangell, a phorthfa ddeheuol; yn nghyda thŵr petryal canllawiog ar y pen gorllewinol. Y gangell, yr hon yw y rhan henaf o'r adail, a'r mwyaf ceinwych, sydd yn yr arddull addurnog, ac oddiallan y mae wedi ei hadduro â chaer-ganllawiau, a'i chadarnhau âg attegion, oddiar y rhai yr ymddyrcha pinaclau ysgeifn heirdd. Y porthfa, neu y cyntedd, a ail-adeiladwyd yn yr arddull ddiweddar, yn y flwyddyn 1639; a'r corff-eglwys yn y cyffelyb arddull, yn 1703; a'r tŵr, yr hwn a gwympodd yn y flwyddyn 1705, a ail adeiladwyd mewn rhan yn 1705, ac a orphenwyd yn 1748. Y mae ymddangosiad tufewnol yr adeilad wedi ei niweidio yn fawr trwy gyfodiad gwasgodfa gerfiedig uwch ben yr allor, o'r arddull Groegaidd; yr hon nid yw yn cyfatteb yn dda i arddull cyffredinol yr adeiladaeth. Y mae y ffenestr ddwyreiniol yn cynnwys rhyw ranau o'r gwydr lliwiedig oedd yn yr hen ffenestr ar y dechreu; y bedydd-faen, yr hwn sydd dra oedranus, sydd wyth-onglog, ac wedi ei gerfio yn ardderchog; ac yn ongl dde-ddwyreiniol yr adeilad, y mae dau fwa maen, dan bob un o ba rai y mae cof-adail mynoraidd, a wnaed tua chanol y ganrif ddiweddaf. Dywedir fod Mathaiarn, un o feibion Brychan, Tywysog Brycheiniog, yr hwn a ymgyssegrodd i fuchedd grefyddol tua chanol y bummed ganrif, wedi cael ei gladdu yma.

Y mae yma leoedd addoliad cyfleus hefyd, gan y Bedyddwyr, yr Annibynwyr, y Trefnyddion Calfinaidd, a'r Trefnyddion Wesleyaidd. Yr Ysgol Rammadegol Râd, sydd sefydliad trwyddedol, a sefydlwyd tu a'r flwyddyn 1760, gan y Bendefiges Laetitia Cornwallis, o Abermarlais, yn swydd Gaerfyrddin; yr hon a'i gwaddolodd âg arian yn y tair punt y cant, yn cynnyrchu cyllid yn bresenol o 21*p.* 10*s.* 6*c.* yn y flwyddyn, at roddi addysg râd i chwech o blant tlodion y dref hon. Cyn sefydlu Coleg Dewi yn Llanbedr, byddai gwŷr ieuainc yn cael eu hordeinio o'r ysgol hon, i weinidogaethu yn yr Eglwys Sefydledig. Fe ddywedir fod pedair ysgoloriaeth yn perthyn iddi ar un adeg; ond nid ydynt yn gaffaeledig y pryd hwn, ac ni ellir cael sicrwydd am y manylion cyssylltiedig a'u sefydliad.

Ar gwr dwyreiniol y dref, tua'r afon, safai priordy bychan gynt, am amser sylfaeniad yr hwn ni's gellir cael sicrwydd; cuddigl berthynol i Fonachlog Chertsey ydoedd; ac ar ddadgorphoriad y crefydd-dai, cyfrifid ei gyllid blyneddol yn 32*p.* Fe'i dyroddwyd gan Harri yr Wythfed, fel amryw feddiannau eraill a berthynent i Chertsey, i Fonachlog Bisham; ac wedi hyny, fe'i rhoddwyd gan yr un pennadur, i William Cavendish, Ysw. Bu y priordy wedi hyny yn breswylfa yr enwog Catharine Philipps, merch Mr. John Fowler, o Lundain, a gwraig James Philipps, Ysw., a adwaenir yn well wrth ei henw barddonol, "Orinda," awdures rhai darnau barddonol poblogaidd, a llyfryn bychan a elwir "Llythyrau oddiwrth Orinda at Poliarchus," yr hwn enw a roddid ar ei chyfaill a'i noddwr boreuol, Syr Charles Cottrell. Y mae palasdŷ prydferth yn awr wedi ei gyfodi ar orsaf yr hen adeilad.

Nid oes yn aros yn bresenol ddim o weddillion yr hen gaerau a amgylchynent y dref unwaith. Yr oedd y castell, trwy ei sefyllfa, yn dra manteisiol i'w amddiffyn, ac yn hynod gyfaddas i gadw y ddyfodfa i'r rhan orllewinol o'r Dywysogaeth, fel ei cyfrifid megys yr allwedd iddi. Yr ydoedd yn gorwedd ar ucheldir, yn ymgyfodi oddi ar yr afon, ac yn ngolwg yr holl dref, a rhan fawr o'r wlad agored. Nid oes ond ychydig weddillion o hono yn aros. Y mae palasdy yn gorwedd yn bresenol ar hen orsaf ei warchdwr, selerydd yr hwn a wneir i fynu o'i hen ddaiargelloedd, muriau y rhai, mewn manau, oeddynt o naw i ddeg troedfedd o drŵch. Y mae y dref hon yn rhoddi y teitl o Iarll i deulu Brudenell.

**ABERTEIFI**, Ynys.—Nid yw Ynys Aberteifi ond bechan o faintioli, sef tua deugain erw o dir. Y mae yn sefyll ar yr ochr ogleddol i enau y Teifi, oddeutu dwy filldir oddiwrth aber yr afon; er hyny



Digitized by Google

nid ydyw oddiar chwarter milldir oddiwrth y tir a elwir Dalfa Clun yr Ynys. Y mae yn dra thebygol ei bod ar un adeg yn gydiol â Cheredigion, er nad oes unrhyw draddodiad o'r cyfryw beth ar gael hyd y gwyddys. Y mae ar y Ddalfa olion grynau, neu gefnau a rhychau, ac ar yr Ynys olion rhai eraill yn cyfatteb iddynt. Y mae y Ddalfa, sef y tir sydd gyferbyn a'r Ynys, yn mhlwyf y Ferwig, y tir diffrwythaf a ellir ei weled; ac o'r tu arall, y mae yr Ynys yn nodedig o ffrwythlawn; ac ystyrir cig y defaid a fegir arni, yn tra rhagori ar unrhyw gig arall yn y farchnad. Y mae yn llawn porfa feithrinol ar y tymhor sychaf yn y flwyddyn; ac y mae ffynon o ddwfr diball yn ei chanol at ddisychedu y pedwar carnoliaid a'i cyfaneddant. Y mae ei harwyneb yn lled anwastad, rywbeth yn debyg i dorth geirch, ys dywed y bobl. Yn y gauaf, bydd yn cael ei chyfaneddu gan luaws o adar, gwyddau a hwyaid gwylltion, cyffylogod, ac ymnoddwyr eraill. Nid oes genym hanes i dŷ fod arni erioed. Meddylia rhai mai am dani hi y mae y crybwylliad yn Llyfr Llandaf, dan yr enw "Ynys Teithi;" yr hyn, efallai, nad yw namyn camgymeriad am yr enw *Teifi*, wedi ymlithro i fewn i'r ysgrif-lyfrau: ond, y mae eraill yn barnu mai Ynys Barri, yn Môr Hafren, a olygir yn yr ysgrif grybwylledig.[1]

**ABERTHAW**; neu, ABERDDAW (Ddwyreiniol), porthladd bychan, a threflan yn mhlwyf PEN MARC, cantref DINAS POWYS, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU; saith milldir a haner i'r de dde ddwyrain o BONT-FÔN (Cowbridge). Y mae y lle hwn yn gorwedd ar y lan ddwyreiniol, ac yn agos i enau yr afon "Ddaw," oddiwrth yr hon y mae y lle yn cael ei enw. Yr oedd capel yma gynt; ond y mae hwnw yn furddyn er ystalm. Nid yw y porthladd ond bychan, i'r hwn y daw ychydig fân lestri yn unig, y rhai a gludant gynnyrchion yr ardal i leoedd eraill; yn enwedig cerryg calch Aberddaw, o'r rhai y gwneir defnydd mawr i wneyd cymrwd tra gwerthfawr i weithiau dan ddwfr.

**ABERTHAW**; neu, ABERDDAW (Orllewinol); porthladd a threflan fechan, yn mhlwyf ST. ATHAN, cantref PONT-FÔN, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU; saith milldir i'r de dde ddwyrain o Bont-fôn. Y mae y lle hwn yn gorwedd ar lan arall yr afon Ddaw; ar gyfer y lle blaenorol.

**ABERYSCIR**; neu ABER-ESGAIR, plwyf yn nghantref MERTHYR CYNOG, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUBARTH CYMRU; 3½ milldir i'r gorllewin ogl. or. o Aberhonddu. Y mae mewn sefyllfa ddifyrus, ar lan yr afon Yscir, neu Esgair, yn agos i'w harllwysiad i'r afon Wŷsg, ac oddiwrth yr amgylchiad hwnw y mae yn cael ei henw. Croesir y flaenaf o'r afonydd hyn gan ddwy bont yn y gymmydogaeth, sef "Pont ar Esgair," ar y tu gorllewinol i blwyf Battle; a "Phont ar Frân," ar y ffordd tu a'r Trallong; a chroesir yr olaf gan "Bont Aber-brân;" a chan bont faen hardd gerllaw y palas a elwir Penpont; a phont arall gerllaw Abercamlas. Delid is faenoriaeth Aberyscir yn yr hen amserau dan arglwyddi Cantref Selyf; ac yn cael ei hysgaru gan yr Yscir yn unig oddiwrth hen dref adfeiliedig Caer Bannau, pen tref y wlad hono unwaith; ac fe'i dyroddwyd gan Bernard Newmarch i Syr Hugh Surdwal, neu "Syr Huw o Lyn y Meudwy," annedd yr hwn, medd traddodiad, oedd yn agos i gydiad y ddwy afon, lle y mae ammaethdŷ mwy diweddar, yn gorwedd yn awr. Y mae y rhan fwyaf o'r plwyf hwn yn dir âr, cymhwys i gynnyrchu maip, haidd, a meillion. Y fywioliaeth Eglwysig yma, sydd berigloriaeth, yn archddiaconiaeth Aberhonddu, ac esgobaeth Tŷ Ddewi. Y Llan, yr hon a berthynai gynt i Briordy Malvern, sydd yn gyssegredig i Sant Mair, medd rhai; neu, yn ol eraill, i Sant Cynidr. Y mae mewn llannerch hynod o brydferth a difyrus, ar lan orllewinol yr afon Yscir; ond nid yw yr adeilad namyn hynod o seml, a di addurn. Ar yr ochr ddwyreiniol i'r Yscir, bron ar gyfer y Llan, y mae olion yr hen orsaf Rufeinig a elwir "Y Gaer," neu "Gaer Bannau," o'r hon y cyfeiria Sarn Helen yn ei rhawd tua Nedd (*Nidum* y Rhufeiniaid); ac yn ymuno heb fod yn bell o'r fan yma â'r *Via Julia Maritima;* croesai yr Yscir, ychydig o'r tu uchaf i'r eglwys, ac elai drwy y plwyf hwn, agos yn nghyfeiriad y brif-ffordd bresenol i Aber-brân. Y mae bryncyn celfyddydol yn agos i'r afon Wŷsg, yn cael ei amgylchynu gan ddyfrffos, ar yr hwn y mae yn debyg y gorweddai yr amddiffynfa a berthynai i hen lŷs y Surdwaliaid.

O'r teulu yma yr hanai Hywel Surdwal, un o feirdd ac achyddwyr Cymru, yr hwn oedd yn ei flodau tua diwedd y bymthegfed ganrif, ac a roddwyd ar waith gan y brenin Edward y Pedwerydd, i chwilio allan achyddiaeth Iarll cyntaf Penfro, o dylwyth yr Herbertiaid.

Y mae Lewis Glyn Cothi yn crybwyll y plwyf hwn yn ei awdl i Gruffydd ab Nicolas, Dosp. 2, Awdl 1.

"Ni âd hwn â'i wŷr, un lle o Lan Llŷr
I Aber Ysgyr heb oresgyn;
Nofies Dinefwr yni aeth yn wr,
Fal y gwnaeth Tewdwr, mewn twr meinin."

**ABERYSTWITH**, neu, ABERISTWITH; ac yn ol eraill, ABERYSTRUTH; plwyf yn rhan-barth uchaf cantref ABERGAFENNI, swydd FYNWY; wyth milldir i'r de orllewin wrth orllewin o Abergafenni. Y mae y plwyf yn cael ei enw oddiwrth yr afonig Istwyth, neu Ystruth, yr hon sydd yn disgyn o nant goediog, ac yn ymuno yn fuan a'r Ebbwy Fach. Y mae y pentref yn fwy adnabyddus yn awr dan yr enw "Blaenau Gwent." Y Llan sydd adeilad hardd, yn yr arddull Gothig, a thŵr petryal iddi; gorwedda yn agos i gyfarfyddiad y ddwy afon, sef yr "Istwyth," neu, fel ei gelwir gan rai awduron, "Yr Ystruth," â'r "Ebbwy Fach," ar lannerch o dir dyrchafedig. Gellir casglu iddi gael ei hadeiladu tuag amser teyrnasiad Harri V. Fe'i gorphenwyd yn mis Chwefror, ac ar ei hagoriad, fe'i cyssegrwyd, nid i Dduw, ond i'r apostol Pedr; darlun o'r hwn oedd wedi ei dynu ar y mur, oddifewn, a'r allwedd wrth ei ystlys, i ollwng pobl i'r nefoedd; yr hyn a roddes achlysur i un o ffraethebau J. D. Meirig, yr hwn, gan edrych ar y darlun, a ofynai i ryw un, pa beth oedd ei ystyr; ac wedi ei hysbysu, mai darlun o'r Apostol Pedr ydoedd, a'i allwedd wrth ei ystlys, i ollwng dynion i'r nefoedd, a attebodd, nad oedd neb wedi myned i'r nefoedd er ys talm, gan fod allwedd yr apostol yn ymddangos yn dra rhydlyd. Gynt arferid cadw dydd gwyl cyssegriad y Llan yma, neu "y Gwyl-mabsant," yn mis Chwefror; ond yn yr oesoedd diweddar hyn, fe'i cyfnewidiwyd am ddydd gwyl Pedr, yn mis Mehefin; ond yn lle bod cof-wyl y cyssegriad yn cael ei gadw yn grefyddol, fe'i treulid yn mhob rhyw rysedd annuwiol.

Ymddengys i ymryson mawr fod yn y gymmydog-

[1] Gwel y *Brython*, Cyf. III., t.d. 114.

Digitized by Google

aeth ar y dechreu, yn nghylch y lle yr adeiledid y Llan hon. Bwriedid unwaith ei hadeiladu ar gern y mynydd, yn gymhwys ar gyfer y lle y mae y Llan bresenol. Dechreuwyd parottoi lle i'r adeilad yn y fan hono; ac fe'i gelwir hyd heddyw, "LLE YR EGLWYS." Ond, y mae yn amlwg fod y cyfryw le yn dra annghymwys ar lawer golygiad; ac felly rhoddwyd y bwriad i fynu yn fuan. Y lle arall, yn yr hwn y bwriedid ei hadeiladu unwaith, oedd yn Nyffryn Tilery, mewn lle a elwir "TY LLAWN BWN MARCH;" lle y dywedir fod ôl troed march yn y garreg yn yr hen amserau; a'r traddodiad ydyw, fod y cyfryw farch wedi dwyn pwn o arian yno, at adeiladu yr eglwys yn y fan hono. Y mae yn dra thebyg mai rhyw ystryw offeiriadol a roddes sail i'r traddodiad hwn, er ceisio dylanwadu ar y trigolion i adeiladu y Llan yn y fan hono, er atteb rhyw amcanion hunanol, y mae yn debyg; efallai fel y byddai yr offeiriad yn nes i wasanaethu Llanithel hefyd.

Er fod y plwyf hwn yn cynnwys 11,788 o erwau o dir, nid oedd y boblogaeth onid oddeutu 800, yn nechreu y ganrif hon; ond trwy fod gweithfeydd haiarn a glo newydd, wedi cael eu hagoryd yn y plwyf, a'r hen rai wedi helaethu, y mae y boblogaeth wedi cynnyddu yn ddirfawr, fel yr oeddynt erbyn y Ddeiliadeb ddiweddaf, wedi cyrhaedd uwchlaw *pymtheng mil o eneidiau!* Can mlynedd yn ôl yr oedd y plwyf yma yn dra annghysbell, a'i drigolion yn hynod o ofergoelus, fel y buasai pawb a gyfarfyddech yma o'r bron, yn barod i'ch sicrhau o ymddangosiad ysbrydion, a champau tylwyth teg, bron ar bob llanerch o'r plwyf; ond erbyn hyn y mae ysgolion dyddiol a Sabbathawl, wedi ymlid y cyfryw ddrychiolaethau yn llwyr o'r ardaloedd hyn.

**ABERYSTWYTH,**— porthladd, bwrdeisdref, a thref farchnad, a chapeloriaeth, yn mhlwyf LLANBADARN-FAWR; yn rhan-barth isaf cantref GENAU'R GLYN, swydd ABERTEIFI, DEHEUBARTH CYMRU; 38 milltir i'r gogledd ddwyrain o Aberteifi; a 288 milltir i'r gorllewin-ogledd-orllewin o Lundain, yn cynwys poblogaeth o 5641. Y lle hwn a elwid yn yr hen amser, "Llanbadarn Gaerog," am ei fod wedi ei wneud yn amddiffynfa filwrol, yn dra boreuol, a'i fod yn ffurfio rhan o hen blwyf Llanbadarn Fawr, tra yr oedd hen bentref Aberystwyth, yn gorwedd ar y tu gorllewinol i'r amddiffynfa, ar lannerch sydd yn orchuddiedig gan y môr yn bresenol, ar lan yr afon Ystwyth, i'r hon yr ymarllwysai yr afon Rheidiol, ychydig bellder o'r môr. Y mae yr afonydd hyn yn uno yn y dref yn bresenol, ac yn eu genau yn ffurfio porthladd diweddar Aberystwyth; gan fod rhediad y ddwy afon wedi newid, o herwydd y llifeiriai yr Ystwyth gyda godreu bryn Pen-dinas yn uniawn syth i'r môr, cyn newid ei gwely, yr hyn a wnaed er cryfhau llifeiriad y Rheidiol, er golchi ymaith y *bar* ar enau y porthladd. Ar farwolaeth Richard de Clare, arglwydd Normanaidd talaith Ceredigion, yr hwn a laddwyd mewn coedwig a elwid "Coed Gronw," yn swydd Fynwy, gan fintai o Gymry a gynllwynent iddo; ei fab, Gilbert de Strongbow, a adeiladodd gastell yma, yn y flwyddyn 1109, er amddiffyn ei feddiannau, y rhai trwy ganiatad y brenin Harri I., a ddygasai efe yn ddiweddar oddiar Cadwgan ab Bleddyn. Yn y flwyddyn 1114, Gruffydd ab Rhys, yr hwn oedd dywysog Cymreig, ac a ddygodd yn mlaen, am beth amser, gyda chryn lwyddiant, yn swydd Gaerfyrddin, ryfel barhaol yn erbyn goresgynwyr Normanaidd y Deheubarth, a ymosododd ar gastell Ystrad-peithill, gerllaw Aberystwyth, yn ol y dystiolaeth a rydd Caradog o Lancarfan, yn ei hanes am Dywysogion Cymru, wedi cael ei wahodd gan drigolion talaeth Aberteifi, i daflu ymaith iau y Normaniaid, ac efe a ddarostyngodd y lle, ac a wersyllodd yn Glascrug, tua milltir ar yr ochr ddwyreiniol i eglwys Llanbadarn Fawr, gyda bwriad i ymosod ar gastell Aberystwyth y bore dranoeth. Ond arlywydd y castell, wedi clywed am ei fwriad, a anfonodd i'r castell cymydogaethol yn Ystrad-Meirig, am gynhorthwy, yr hwn a ddaeth yn brydlon, yn ysdod y nos; ac yn y bore, Gruffydd, heb wybod am hyny, ac yn hyderus yn ei lwyddiant, a aeth rhagddo i le a elwid Ystrad Antaron, gyferbyn a chastell Aberystwyth, lle y gwersyllodd, ac y cynhaliodd gyngor rhyfel. Ond gan nad oedd efe yn cadw trefn briodol yn mysg ei filwyr, cymerodd y Normaniaid fantais ar eu hannhrefn, drwy anfon rhai saethyddion â bwa, i'w denu i led-frwydr, ac i'w tynnu drwy enciliad ffugiol tu a'r bont oedd dros y Rheidiol; ac ar yr un pryd, gosodai blaid o'r meirch-filwyr goreu mewn ymguddfa o'r tu cefn i fryn y castell. Ymlidiodd y Cymry y saethyddion hyn yn egnïol hyd at y bont, dros yr hon y denwyd hwy, drwy ddichell ychwanegol o eiddo y gelyn, gan eu dilyn o'r braidd hyd ymyl pyrth y castell, pan yr ymosododd y gwyr meirch oedd yn llechu yn nghysgod y bryn ar ystlys eu byddin, ac y bu i'r rhai a ymlidient, droi i ymosod arnynt yn y wyneb, fel y dinystriwyd yr holl Gymry oedd wedi croesi y bont yn llwyr, ac y gorfu ar Gruffydd encilio gyda gweddill ei fyddin, a rhoddi yr ymgyrch i fynu yn gwbl oll. Yn y flwyddyn 1135, gwnaeth Owain Gwynedd, a Cadwaladr, meibion Gruffydd ab Cynan, ymosodiad llwyddianus ar y castell, yr hwn a gymerasant, gan ei lwyr ddinystrio, a rhifo i'r cleddyf yr holl Normaniaid a'r Sacsoniaid oedd yn cyfaneddu yn y parth hwn o'r Dywysogaeth, gydag eithriad o'r ychydig nifer a ffoisant gyda'r môr i Loegr. Pa fodd bynag, Cadwaladr, yn fuan ar ol hyny, wedi priodi Alis, merch Richard, Iarll Clare ac Arglwydd Aberteifi, a ail-adeiladodd y castell, ac a'i gwnaeth yn brif le ei breswyliad; ond ymosododd Owain Gwynedd ar y lle, wedi ei ddyrchafiad i arglwyddiaeth Gogledd Cymru, mewn dialedd ar gyndynrwydd ei frawd, ac a'i llosgodd hyd y llawr, yn 1142. Parhaodd y lle hwn am lawer o flynyddoedd wedi hyn i brofi y dinystr sydd yn canlyn rhyfeloedd ysglyfaethus a difaol, ac yn fynych a ddistrywiwyd ac a ail-adeiladwyd drachefn yn yr ymrysonau am oruchafiaeth a fu y naill bryd ar ol y llall, nid yn unig rhwng y Saeson a'r Cymry, ond hefyd rhwng tywysogion ymrysongar y wlad a'u gilydd. Yn ysdod y tymor hwn, crybwyllir am ddinystrio castell Aber Rheidiol, yn 1164, gan Rhys ab Gruffydd, yn ei ymosodiad ar diriogaethau Iarll Gloucester, yr hwn amgylchiad sydd wedi arwain i dybiaeth, fod castell arall ar lan y môr, yn gyfagos i'r lle hwn, ond nid yw yn annhebyg y gallasai fod castell Aberystwyth yn cael ei alw yn achlysurol felly, yn yr amser hwnw.

Gwedi ymadnewyddu ar ol yr amrywiol ddinystriadau fu arno, yn 1207, fe'i dinystriwyd gan Maelgwn, penaeth treisgar o'r Deheubarth, yr hwn oedd ryw bryd yn flaenorol, wedi adferu a sicrhau y castell, er mwyn cynal i fynu ei awdurdod yn y rhan hon o'r Dywysogaeth, ond a welodd yn fuan nad oedd ef yn

Digitized by Google

abl i'w ddal yn erbyn Llewelyn, Tywysog Gogledd Cymru, yr hwn oedd yn dyfod i ymosod arno. Llewelyn, ar ei ddyfodiad i Aberystwyth, a adgyweiriodd y castell, ac a osododd warchodlu i'w ddiogelu, ac a gymerodd feddiant o'r holl diriogaeth eang sydd yn gorwedd rhwng afonydd Aeron a Dyfi, yr hwn a roddodd ef i fynu, wedi hyny i Rhys ac Owain, meibion Gruffydd ab Rhys, a neiaint Maelgwn. Y brenhin John, yn ewyllysio ychwanegu talaeth Aberteifi, at ei fuddygoliaethau eraill yn Nghymru, a anfonodd Ffoulc, Is-iarll Caerdydd, goruchwyliwr y cyffiniau, i orfodogi meibion Gruffydd i'w gydnabod ef fel eu harglwydd, yn yr hyn yr unai Maelgwn a'i frawd Rhys Fychan. Bu raid i'r ddau nai, gan eu bod yn analluog i wrthsefyll y fath allu nerthol, wneyd yr ymostyngiad gofynol, a rhoddi i fynu bob hawl yn y tiriogaethau a ganiatawyd iddynt gan Llewelyn; a Ffoulc, wedi adgyweirio a chadarnhau gwerthyroedd y castell, a osododd warchodlu galluog i'w amddiffyn dros y brenhin. Maelgwn a Rhys Fychan, wedi cael eu siomi yn eu gobaith o feddianu y tiriogaethau a gymerwyd oddiar Rhys ac Owain, a warchaeasant ar gastell Aberystwyth, yr hwn y llwyddasant i'w gymeryd, wedi amddiffyniad dewr, ac a'i dinystriasant hyd y llawr. Er hyny, ymddengys iddo gael ei adgyweirio braidd yn ddioed; o blegid, yn 1214, cymerodd Rhys Fychan noddfa ynddo, gyda Maelgwn, wedi ei orchfygu gan Ffoulc, yn swydd Gaerfyrddin, ac a ddygodd ei wraig a'i blant yno. Yn nheyrnasiad Harri III., yr oedd y castell yn meddiant Rhys ab Gruffydd, yr hwn, yn y flwyddyn 1223, a unodd â phlaid Iarll Penfro; ac o herwydd hyny, cymerodd Llewelyn ab Iorwerth, Tywysog Gwynedd, feddiant o hono, ac o'r holl derfynau cysylltiedig ag ef; ond trwy i Rhys wneud achwyniad wrth y brenhin yn erbyn hyn, ac erfyn ei amddiffyniad rhag yr ymosodiad hwn, gorchymynodd Harri i Llewelyn ymddangos ger ei fron yn yr Amwythig, a thrwy i'r tywysog ufuddhau i'r alwad, penderfynwyd yr ymrafael yn foddhaol. Yn nheyrnasiad Iorwerth I., gwarchaeodd Gruffydd ab Meredydd ab Rhys ar gastell Aberystwyth, ac a'i cymerodd, yr hwn a ddelid ar y pryd gan Llewelyn ab Gruffydd, Tywysog Gogledd Cymru, ac yn fuan a syrthiodd i ddwylaw y Saeson; ac Iorwerth, i'r dyben o sicrhau cyflawniad yr amodau o heddwch y cytunwyd arnynt gyda Llewelyn, a'i had-adeiladodd yn 1277, ac wedi gosod gwarchodlu nerthol yno, a ddychwelodd i Loegr. Darfu i ymddygiad gormesol swyddogion Iorwerth, yn y parth hwn o'r wlad, arwain y bobl i dori yr heddwch y cytunwyd arno yn ddiweddar, ac un o brif weithredoedd y Cymry a anfoddhawyd, yn eu gwrhydri, oedd cymeryd y castell hwn drwy arweiniad Rhys ab Maelgwn a Gruffydd ab Meredydd; ond er hyny, hwy a orfuwyd i'w roddi i fynu i'r byddinoedd Seisnig; ac ar ol hyn, nid ymddengys fod dim o bwys mewn perthynas iddo wedi cymeryd lle, hyd amser teyrnasiad Harri IV., pan yr ymosodwyd arno, ac ei cymerwyd, yn 1404, gan Owain Glyndwr, yn meddiant yr hwn yr arosodd am dair blynedd, pan y rhoddwyd ef i fynu, ar delerau penodol i'r Tywysog Harri. Cafodd Owain adfeddiant o hono drachefn yn fuan, drwy gyfrwysdra; eto, goresgynwyd ef yn gwbl oll, gan y Saeson, yn y flwyddyn 1408, y rhai a gadwasant feddiant tawel o hono, heb aflonyddwch pellach; ac yn y 35ain flwyddyn o deyrnasiad Harri VIII., penodwyd William Herbert, Iarll Penfro, gan y brenhin hwnw, yn llywydd castell a thref Aberystwyth. Yn 1631, Mr. Bushel, yr hwn a olynodd Syr Huw Middleton yn meddiant mŵnau y llywodraeth yn swydd Aberteifi, wedi cael caniatad gan Siarl I., a sefydlodd fathiant yn y castell, er cyfleusdra i dalu cyflogau y gweithwyr yn y mŵnau. Darganfyddwyd amryw o'r bathodau arian, gydag addurn-nod Tywysog Cymru arnynt, y rhai a guddiwyd yno, mae'n debygol, yn amser trallodion y teyrnasiad hwnw. Yn amser dechreuad y cyffroadau hyn cafodd y castell ei gadarnhau a'i gyfnerthu â gwerthyroedd ychwanegol, ac â gwarchodlu galluog dros y brenhin. Cadwodd y breiniolwyr feddiant ynddo hyd tua y flwyddyn 1647, pan y gwarchaewyd arno, ac y cymerwyd ef gan y blaid seneddol, ac yn fuan efe a adfeiliwyd gan lawer ystorm.

Y mae y dref, yr hon a adeiladwyd o'r dechreuad, o blegid codiad y castell yno, yn cael ei darlunio gan Leland, yn cael ei chylchynu gan furiau, gweddillion pa rai a symudwyd ymaith, rai blynyddoedd yn ol; dywed hefyd, ei bod yn ei amser ef yn rhagori fel marchnadfa ar Aberteifi; a dywed Camden hefyd, yr hwn a briodola adeiladaeth ei muriau i Gilbert de Clare, a elwid yn gyffredin Strongbow, ei bod y dref luosocaf ei phoblogaeth yn y wlad. Er yr amser hwnw, y mae y dref wedi cynnyddu yn fawr, mewn eangder a phwysigrwydd; a gellir ei hystyried hyd yn hyn, fel y lle mwyaf blodeuog yn y parth hwn o Ddeheudir Cymru. Y mae ei sefyllfa, yn y parth isaf o ddyffryn prydferth y Rheidiol, rhwng bryniau crib-uchel, ac ar fryn dyrchafedig, manteisiol i gael golwg ar fay Aberteifi, yr hwn a ffurfia ei therfyn ar un ochr, tra y mae yn cael ei chylchynu ar yr ochr arall gan y Rheidiol, dros yr hon y mae pont o bump o fwäau-meini, yn ffurfio mynedfa iddi o'r dehau. Y mae yn gynwysedig, yn benaf, o ddwy o heolydd hirion, o'r rhai y mae eraill yn ymganghenu, mewn onglau uniongyrch, yn cyfeirio i waered at lan y môr. Y mae y tai, ar y cyfan, o adeiladaeth ragorol, a lluaws o honynt yn brydferth iawn, yn enwedig yr adeiladau diweddar, y rhai sydd o feini teg; y mae yr heolydd wedi eu cynllunio yn drefnus—wedi eu palmantu yn briodol â cheryg glan y môr, y rhai a geir mewn cyflawnder yno. Ystyrir y prif-ffyrdd toll-borthol sydd yn arwain i'r dref, yn mhlith y goreuon yn y Dywysogaeth. Y mae y trigolion yn cael eu cyflenwi â dyfroedd o'r afonydd Ystwyth a Rheidiol.

Yn y cyfwng rhwng yr afon Rheidiol ar y dde, ac afon Dyfi ar y gogledd, y mae nifer o olion gwersylloedd ac amddiffynfäau milwrol, sydd yn arddangos medr a rhagolygon celfyddydol trigolion boreuol y parthau hyn. Y maent wedi eu trefnu mewn modd effeithiol i rag-achub ymosodiadau drwy allu mordwyol; gwelir hyn yn amlwg, pan y cymerir arsylliad o wersyllfa Bwa-drain, mewn llinell hyd y goleuni ar fryn Carn-wen: y mae eu nifer a'u sefyllfa yn dangos fod y trigolion yn golygu fod eu prif berygl drwy ymosodiadau o lan y môr. Nid oes ond ychydig iawn o'r cyfryw weddillion i'w canfod yn nherfynau mewnol y wlad. Arweinir yr hynafiaethydd yn naturiol i olrhain yr olion hyn drwy ddechreu yn Dinas, ar yr ochr ddeheuol i Aberystwyth a'r Rheidiol. Y mae yr amddiffynfeydd hyn, sydd oll yn weledig o'r Dinas, wedi eu codi, gan mwyaf, o feini rhyddion, mewn cyflead hirgrwn; ac felly, yn eglur y gwelir hwy yn Bron-castellau, Pwllglas, Allt Goch, Lletty Llwyd, y Darren, a'r Bwa

Digitized by Google

Drain, yn gystal a'r ddwy werthyr a elwir Dinas. Nid oes yr un o honynt yn onglog; ac y mae hyny ynddo ei hun yn profi mai nid gwaith y Rhufeiniaid ydynt, ond yn hytrach mai adeiladaeth yr hen Frutaniaid oedd y cyfan, a hyny, y mae yn debygol, yn mhell cyn dyfodiad y Rhufeiniaid i'r frô. Nid oes iddynt ond dau neu dri mynediad i mewn, ac y mae hyny yn cadarnhau y dŷb mai gwaith yr hen Gymry oeddynt. Bernir mai Dinas oedd y brif amddiffynfa, gan ei bod yn sefyll 412 troedfedd uwchlaw y môr, ac yn rhoddi golygiad ar ddeng milltir ar hugain o'r tir, ar y gogledd-ddwyrain a'r deau. Bernir mai ar y bryn uchaf, lle y saif cof-adail Wellington yn awr, y dechreuid goleuo y tânau rhybuddiol, rhag ymgyrch y goresgynwyr; fel y cyflwynid y newyddion o'r naill fryn a chymydogaeth i'r llall. Y mae pob tebygrwydd fod gwerthyrfa y Darren yn lle diogel iawn. Yn y terfyn amddiffynol y mae tri mynedfa, un o'r dyffryn sydd yn arwain i Peithill ar yr ochr dde-orllewinol, ac un arall tua Caenant a Cwmsymlog, a'r trydydd yn y ffordd sydd yn cyfeirio gyda Gogerddan tua'r môr. Ar yr ochr ddeheuol i'r Darren, y mae carnedd uchel eto yn aros, a elwir gan hynafgwyr y fro, Carn Penmorem; gan eraill Carn Moel Fren, neu Frenin; ond gan Llewelyn Ddu, gelwid hi Bryn Gwerfyl. Y mae yr holl werthyroedd hyn yn dwyn y fath debygrwydd i'w gilydd, fel nad oes lle i amheuaeth nad gwaith yr un bobl, yn yr un oes, ydynt oll.

Y mae y porthladd o bwysigrwydd mawr i fanteision y dref a'r cymydogaethau o amgylch. Nid yw ond cul a chyfyng, ar y cyfan, ond y mae gwelliannau diweddar wedi ei hyrwyddo i raddau mawr. Y mae yn cael ei ffurfio drwy ymarllwysiad y Rheidiol, cyn ymuno â'r Ystwyth, ac y mae yn cael ei amddiffyn ar ochr y môr gan draeth a elwir Ro-fawr, yn ymestyn ar yr ochr dde oddiwrth y castell tua genau y Rheidiol, am tua 500 llath. Rhwng pont y dref a Penhucyn, yn agos i'r lle yr una y ddwy afon, y mae tuag ugain erw o dir yn cael ei orchuddio gan y gorllanw. Y mae y Rheidiol, wrth ddyfod i mewn i'r porthladd dan y bont, yn rhedeg i'r ochr gyferbyniol, ac yno, wrth gyfarfod â'r traeth, yn troi i'w rhedfa, gyda yr ochr orllewinol, i bwynt Penhucyn. Y mae gwelliant wedi ei drefnu yma, drwy ddarparu lle i'r ddwy uno yn eu grym i agor y bar, yn eu hymarllwysiad i'r môr, a thrwy hyny y mae mordwyaeth wedi ei hyrwyddo yn y lle. Y mae y morglawdd, o gynlluniad Mr. Nimmo, a gwneuthuriad Mr. Bush, ac a gwblhawyd yn ddiweddar, wedi bod yn amddiffyniad i reolaeth y llifeiriant, ac felly yn wasanaethgar iawn, yn nyfnhau ffordd y cymlawdd, ac yn y canlyniad, i lwythiad a dadlwythiad y llongau, o bob math o eiddo. Cyn y gwelliannau hyn, nid oedd y tollau yn gosod yn ddim uwch na 260p. y flwyddyn, tra y maent yn awr yn cyrhaedd dros 2000p. Prif nwyddau yr allforiad yma ydynt, mŵn plwm, a barnais du, &c., i Gaerodor, neu byrth yr afon Dyfrdwy; ychydig o fŵn efydd i Abertawy; rhisgl derw i'r Iwerddon, a choed i Fynwy a Morganwg. Y mae y nwyddau a ddygir yma o wahanol barthau y byd, o bob math. Y mae nifer y llongau sydd wedi eu cofrestru yma, o ddau i dri chant; ac y mae yn borthladd rheolaidd, gyda tholldŷ y llywodraeth, bellach er y flwyddyn 1762, gyda therfynau eang, ar lanau y cyffiniau, yn perthyn iddo gyda'r môr.

Y mae manteision Aberystwydd, yn ei sefyllfa iachusol, a'i bay agored, purdeb ei hawyr, ac effeithiolaeth rhai o'r ffynonellau mŵnol, sydd yn y gymydogaeth, wedi enill sylw, fel màn priodol o ymdrochle yn yr haf, ac o gyrchfa y gweiniaid a'r llesg, am adloniant ac adnewyddiad iechyd. Tua dechreuad y ganrif ddiweddaf, dywedir ei bod wedi ei dwyn i sylw y gwledydd cymydogaethol, fel lle defodgar a pharchus i ddieithriaid i ymweled ag ef. Y mae yn cynnyddu felly yn barhaus, gyda phob gwelliant a wneir yno o bryd i bryd. Y mae glan y môr, er ei fod yn raianog, yn rhodfa ddengar a chysurus. Trwy fod y llethr ar y traeth yn gymhedrol, nid yw y llifeiriant yn rhedeg yn mhell, ac y mae hyny yn gwneyd cyfleusderau ymdrochi i barhau drwy y dydd, oddigerth ar y marwddwr. Er mwyn cyfleusderau i'r nifer cynnyddol o ddieithriaid sydd yn cyrchu yno, y mae nifer o letyau teilwng, mewn adeiladau gorwych, ar y *Marine Terrace*, yn ymyl y bay, yn rhoddi golygfa ardderchog ar yr holl le o amgylch. Y mae dyfodiad y rheil-ffordd yn ddiweddar i'r lle, wedi bod fel creadigaeth newydd yn yr holl gymydogaeth. Yn ychwanegol at y Belle Vue, y Castle House, &c., y mae nifer o dai cyhoeddus yn mhob man cyfleus gofynol, wedi eu codi. Adeiladwyd y Castle House ar y dechreu fel preswylfod neillduol Syr Uvedale Price, Barwn, o Foxley Hall, yn swydd Henffordd. Gerllaw Bryn y Castell, yn ymyl y fynwent, y mae ystafelloedd cyhoeddus enwog, wedi eu hadeiladu yn ol y cynllun Groegaidd, ar dir o roddiad W. E. Powell, Ysw., o Nant Eos, arglwydd raglaw y sir. Codwyd yn ddiweddar adeilad ardderchog yn y dref, gyda'r draul o 80,000p., ar y bwriad o'i ddefnyddio fel gwesty cyhoeddus enwog iawn; ond y mae erbyn hyn wedi ei werthu gan y cwmni a'i hadeiladodd, am 10,000p., i'r dyben o fod yn Brif Athrofa i Dywysogaeth Cymru. Y mae ei safle yn dra manteisiol at yr amcan, yn gymaint a bod Aberystwyth yn lle canolog rhwng De a Gogledd. Dywedir fod natur ei gynlluniad yn ei wneyd yn gymhwysach at Golegdy na Gwesty. Cynnwysa yn agos i ddau cant o ystafelloedd; y rhan fwyaf o honynt, fel pe buasent wedi eu bwriadu ar gyfer yr efrydwyr, a'r lleill yn dra eang ac addas i fod yn ddarlithfaoedd, tra y mae un ystafell yn 120 o droedfeddi o hyd, a wna ystafell westa ardderchog, ac un arall dra rhagorol i fod yn llyfrgell genedlaethol i'r wlad yn gyffredinol. Gyda golwg ar yr addysg a gyfrenir, bwriedir iddo fod o'r gradd uchaf, ac i gynnwys y gwahanol ganghenau o wybodaeth, a fyddo yn angenrheidiol i ddarparu dynion ieuangc at bob math o sefyllfa mewn bywyd; ac na chaiff yr holl addysgiad a roddir, gostio mwy na deg punt yr un, yn y flwyddyn.

Y mae dwy farchnad wythnosol yn y dref, yn cael eu cynal ar ddyddiau Llun a Sadwrn; y gyntaf at ŷd, ymenyn, caws, ffrwythydd, adar dofion, &c., mewn ystafell yn llysdy y dref; a'r llall at gig anifeiliaid, mewn marchnadfa, 104 o droedfeddi o hyd, a 31 o led, a adeiladwyd yn 1822. Cynhelir y ffeiriau ar y Llun o flaen Ionawr 5ed; Llun nesaf o flaen y Pasg; Llun y Sulgwyn; Mai 14eg; Mehefin 24ain; Medi 16eg; a'r Llun o flaen Tachwedd 11eg; y Llun cyntaf ar ol y 12fed o Dachwedd, a'r 12fed o Fai, a elwir gan y brodorion, "Dydd Llun Cyflogi;". ar y dyddiau hyn y mae lluaws mawr o amaethwyr ac eraill yn ymgyfarfod, i'r dyben o gyflogi eu gweision a'u morwynion. Y mae nifer y gwell-

Digitized by Google

iannau diweddar yn lluosog iawn, fel y gellid cyfeirio at y Llythyrdy; y Farchnadfa Yd, a'r Pysgod; y Meddygdy; yr Ariandy Cynilo; Gweithdy yr Undeb; y gwaith Nwy, a'r Dwfr; y Baddonle Cyhoeddus; a'r holl gyfleusderau yn mhob cyfeiriad.

Y mae Aberystwyth yn fwrdeisdref, a'i llywodraethiad yn awdurdod maer, cofnodydd, a nifer anmhenodol o fwrdeiswyr cyffredin; yn cael eu cynorthwyo gan ysgrifenydd y dref, a'r swyddogion is-raddol. Y mae y maer yn cael ei ethol yn flynyddol gan reithwyr yn y llŷs; ac y mae yn hedd-ynad yn y fwrdeisdref, terfynau yr hon sydd yn ogyfled a'r capeloriaeth. Y mae yn un o fwrdeisdrefi cydranol y sîr, sydd yn ymuno i ddychwel un aelod i'r Senedd; yr oedd yr hawl o bleidleisio gynt gan yr holl fwrdeiswyr yn gyffredinol; ond y mae yn awr gan y bwrdeiswyr trigianol, a chan bawb a fyddo yn dal, fel etifeddion neu ddeiliaid, feddianau o werth deg punt yn y flwyddyn, os byddant wedi eu cofrestru yn ol gofynion y Weithred Seneddol. Y mae hyn wedi ei newid gan ddarpariadau y Weithred ddiweddaf. Y mae nifer yr etholwyr ar gynnydd parhaus er yn ddiweddar. Nid yw y carchardy yn adeilad eang, fel y mae yn fwyaf o anrhydedd i gymeriad y dref, a'r wlad. Y mae y fywoliaeth eglwysig yn guradaeth sefydlog, yn arch-ddeoniaeth Aberteifi, neu Ceredigion, ac Esgobaeth Tŷ Ddewi; wedi ei gwaddoli â 600*p.* o rodd frenhinol, a 400*p.* o rodd seneddol, ac yn noddogaeth Ficer Llanbadarn Fawr. Y mae y Capel wedi ei gyflwyno i St. Michael, ac wedi ei adeiladu drwy gydroddion, yn y flwyddyn 1787; y mae ar gynllun dengar a dysyml, o fewn terfynau y castell, ac yn cael ei wahanu oddiwrth y rhodfeydd o amgylch yr adfeiliau, â mur cerig, wedi ei adeiladu ar draul y trigolion; y mae yn mesur 60 troedfedd o hyd, a 26 o led. Adeiladwyd oriel yn y pen gorllewinol yn 1790 ar y draul o 104*p.* 14*s.*, yr hyn a delid gan Mrs. Margaret Price. Y mae y gwasanaeth yn cael ei gyflawni fore a hwyr, yn yr iaith Saesoneg; ac yn y prydnhawn, yn Gymraeg. Fel yr oedd y boblogaeth yn cynnyddu, a'r ymwelwyr a'r lle, yn yr haf, yn amlhau, gwelwyd yr angenrheidrwydd o adeiladu lle arall, yr hyn a wnaed drwy haelioni y cyhoedd, yn cael ei gefnogi gan rodd seneddol o 1000*p.*, a 400*p.* oddiwrth y Gymdeithas er Adeiladu a Helaethu Eglwysydd a Chapeli. Cwblhawyd y cyfan am 3500*p.*: gyda'r bwriad o ychwanegu twr, priodol i gymeriad yr adeilad. Y mae gan y Trefnyddion Calfinaidd ddau addoldy eang a hardd yma, un a elwir "y Tabernacl," yn Heol y Felin, a'r llall a elwir "Shiloh," yn mhen isaf rhodfa glan y môr. Y mae gan y Trefnyddion Wesleyol, ddau; un yn Queen Street, a'r llall at wasanaeth y Saeson yn Lower Terrace. Y mae dau gan yr Annibynwyr, un i'r Cymry yn Penmaesglas, a'r llall yn nes at y môr, i'r Saeson, yn Portland Street. Y mae gan y Bedyddwyr addoldy yn Heol Uchaf Portland, gyda chladdfa yn gysylltiedig â'r lle. Y mae Ysgolion Sabbathol yn perthyn i bob un o'r addoldai hyn, a changenau mewn lleoedd cymydogaethol. Y mae Ysgoldy Gwladwriaethol, a adeiladwyd yn 1819, yn gyfagos i'r Tollborth gogleddol, i fechgyn a genethod; y mae y tŷ perthynol i'r ysgol wedi ei godi ar dir o roddiad awdurdodau y dref, drwy gyfryngiad Pryse Pryse, Ysw., A.S.; a 200*p.* at yr adeilad, gyda 5*p.* yn flynyddol tuag at gynhaliaeth y sefydliad. Enwir y Parch. Thomas Richards, o Carrog, fel cyfranydd haelionus a phleidiwr gwresog i'r ysgol. Codwyd ysgoldy ychwanegol yn ddiweddar, yn yr hwn y cynhelir ysgol fabanol, yn ol cynlluniau priodol gan Mr. H. Kyrke Penson. Y mae holl olion muriau a phyrth y dref, wedi eu colli yn llwyr erbyn hyn. Yr oedd y Porth Tywyll Mawr yn yr heol sydd yn arwain at Lanbadarn Fawr; un arall yn gyfagos i'r lle y mae Capel y Bedyddwyr; a'r trydydd gyferbyn a'r Bont. Y mae gweddillion y castell, yr hwn sydd ar grib uwchaf craig, gyferbyn a'r bay, yn gynwysedig o ranau o dyrod; y mae y prif borth, a gweddillion y muriau, yn ffurfio pentwr o adfeilion o gryn hynodrwydd, ac yn dangos fod y terfynau ar y cyntaf yn eang iawn; ond fel y maent yn awr wedi eu gwisgo ymaith i raddau mawr gan donnau y môr: y mae y muriau hyn yn bresenol wedi eu trefnu yn rhodfeydd, a phleserfa ddengar, yn dangos chwaeth goethedig y diweddar Mr. Probart, o'r Amwythig, i'r hwn y cyflwynwyd y lle mewn prydles gan Col. Johnes, o'r Hafod. Darganfyddwyd bathodion hynafiaethol yn Pendinas, drwy gloddio ychydig yn y tir. Y mae holl ragolygon y dref ar hyn o bryd, yn ffafriol iawn, ac yn dangos arwyddion gobeithiol am gynnydd a llwyddiant parhaus.

**ABOVE-SAWDDY** (Sawddy Uchaf), neu yn hytrach *Sawddwy* Uchaf, pentref yn mhlwyf Llangadog, rhanbarth isaf cantref Perfedd, swydd Gaerfyrddin, yn y Deheubarth. Y mae y pentref hwn wedi ei gyfleu rhwng yr afonydd Sawddwy a Sefin, yn agos i lethr orllewinol y Mynydd Du; ac yn cynwys rhai planwyddfeydd cynhyddol, a rhai anneddau rhagorol. Cyfrifid y draul flynyddol yno, at gynhaliaeth y tlodion yn ddiweddar, tua 353*p.* 6*s.* Poblogaeth y dreflan hon yn 1861, oedd 746.

**ABWRTHIN**, yn Nghwmwd Pen-y-bont, cantref Cron Nedd (yn awr a elwir cantref Pont-y-Fon), yn swydd Forganwg, Deheudir Cymru; yn mhlwyf Pont-y-fon, tua milltir a haner o'r dref. Y mae y pentref hwn mewn sefyllfa tra neillduedig a hyfryd.

**ACTON**, yn Nghwmwd Maelor Gymraeg (Bromfield), yn swydd Ddinbych, milltir a haner o Wrecsam, ar yr ochr ogleddol. Yr oedd Parc Acton gynt yn feddiant a phreswylfod teulu y Jeffreys, o'r rhai yr hanodd yr ynad nodedig o'r enw hwnw, yn nheyrnasiad Iago yr Ail. Y mae yn eiddo Syr Foster Cunliffe, Barg., trwy bryniant, er 1785, oddiwrth ymddiriedolwyr Ellis Tonge, Ysw., gan yr hwn yr adgyweiriwyd y palas, ac yr addurnwyd y tir; y mae y sefyllfa ar ychydig o godiad bryniol, o'r lle y ceir golwg darawiadol ar Wrecsam, a'r wlad o amgylch. Yr oedd yr hen linell derfyn a elwid Ffos Wat, yn rhedeg trwy y dosparth hwn, yn yr amser gynt. Poblogaeth Acton yn 1861, oedd 220.

**AEDDAN**,—mab Blegwryd, ac wyr i Morgan Mawr, tywysog Morganwg. Yn y flwyddyn 998, ar ol marwolaeth Meredydd ab Owen, tywysog Deheubarth, ac i Idwal, mab Meurig, tywysog Gwynedd, gael ei ladd mewn brwydr gan Harold, a phan nad oedd yr un o honynt wedi gadael mab ar ei ol mewn oedran i gymeryd rheolaeth y Dywysogaeth, yr ymddengys Aeddan, mab Blegwryd, am y waith gyntaf ar dir hanesiaeth, yn arwain byddin o'r Daniaid trwy Sîr Benfro, yn ol cyfarwyddyd Iestyn ab Gwrgant, gan ladd a difrodi y cwbl ar eu ffordd; llosgasant ddinas Tŷ Ddewi, a lladdasant Morgeneu yr esgob.

Ac oddi yno efe a gymerodd ryfelgyrch trwy Sîr Aberteifi, ac a ymosododd ar Ogledd Cymru. Yno

Digitized by Google

bu câd ar faes rhyngddo ef a Cynan ab Howel, yr hwn a honai hawl i dywysogaeth Gwynedd, ond efe a syrthiodd yn y frwydr, ac felly daeth Aeddan yn ben llywodraethwr ar holl Gymru yn y flwyddyn 1003. Ond am nad oedd ond trawsfeddianydd o'r orsedd, ni bu iddo ei hir fwynhau.

Oblegid yn y flwyddyn 1015 yr ydym yn cael i Llewelyn ab Seisyllt, yr hwn, trwy linach ei fam, oedd yn disgyn o Rhodri Mawr, ac hefyd wedi priodi Anngharad, etifeddes Meredydd ab Owen, tywysog Deheubarth, ac felly yn etifedd cyfreithlawn i orsedd Cymru, ddyfod allan, gyda llu mawr, yn ei erbyn ef, ac yn y frwydr hono lladdwyd Aeddan a'i bedwar nai; ac felly ail unodd Llewelyn y tair talaeth â'u gilydd unwaith yn rhagor, a theyrnasodd arnynt am gyfnod, mewn llwyddiant mawr.

**AEDDAN FOEDDOG,** Sant, yr hwn oedd fab Caw ab Geraint; bu fyw yn y rhan gyntaf o'r chweched ganrif. Yr oedd yn ddysgybl i Dewi Sant, yn Nhŷ Ddewi. Oddi yno efe a ymadawodd i'r Iwerddon, a chafodd ei benodi yn esgob cyntaf Ferns; a'r amgylchiad hwn a barodd i offeiriaid Tŷ Ddewi mewn amser diweddarach, honi fod esgobaeth Ferns unwaith yn ddarostyngedig i archesgobaeth Tŷ Ddewi.

Geilw y Gwyddelod ef Moedog, a Madog; a geilw Giraldus ef, Maidocus. Ond John o Teignmouth a ddywed am dano:—"Gelwir y person sanctaidd hwn 'Aidamus' yn mywyd Dewi Sant; ond yn ei fywyd ei hun, 'Aidus;' ac yn eglwys Tŷ Ddewi gelwir ef Moedok, yr hwn sydd enw Gwyddelig, a chedwir ei ddydd gwyl mewn parch mawr yn y lle hwnw."

Adrodda Giraldus hanes rhyfeddol am y modd y cariodd Aeddan haid o wenyn i'r Iwerddon; oblegid ni welwyd erioed y fath greaduriaid yn y wlad hono o'r blaen, ac ni welwyd yn Nhŷ Ddewi wedi hyny.

Mae olion coffadwriaethol o Aeddan ar gael yn awr yn Sir Benfro, gan y tybir mai efe yw sylfeinydd Llaniaden, yn y sir hono, a phriodolir iddo eglwysi Nolton a West-Harolstone, dan yr enw Madog. Cynhelir ei wyl ef ar y 31ain o Ionawr.

**AFAON;**—mab Taliesin. Cyfeiria y Trioedd ato fel un a hynododd ei hun mewn rhyfeloedd dros ei wlad. Ac yn yr ystyr hono gelwir ef yn un o'r "Tri tharw unben," ac yn "un o'r rhai a barhasant i lâdd ar eu beddau." Ac ymddengys hefyd fod Afaon wedi etifeddu cyfran o awen ei dad, canys y mae dywediad o'i eiddo ar gael yn yr englynion clywed:—

"A glywais ti a gant Afaon
Fab Taliesin gerdd gyfion?
Ni chêl grudd, gystudd calon."

**AFARWY,** mab Lludd, brenin Prydain, ac un o'r "Tri Carnfradwyr." Bu farw ei dad cyn iddo ddyfod i'w oed, a Chaswallon, ei ewythr, a gymerai arno y llywodraeth, yr hwn a roddodd Lundain a iarllaeth Kent i Afarwy, a Chornwal i'w frawd Teneufan. Ond bu ar ol i Caswallon gael brwydr fuddugoliaethus ar y Rhufeiniaid, iddo wahodd ei holl oreugwyr a'i dywysogion i wledd fawreddog, yn ystod yr hon, digwyddodd i Hirlas, nai y brenin, a Cyhelin, nai Afarwy, ymrafaelio â'u gilydd, ac ymladd ornest; a syrthiodd Hirlâs o flaen ei wrthwynebydd. Cynddeiriogodd hyny Caswallon i'r fath raddau nes penderfynu dwyn y llofrudd i brawf, ond Afarwy, yn rhagweled y canlyniad, a ffodd gyda'i nai i ddinas Llundain, a dygodd hyny Caswallon a'i luoedd i ymosod ar y ddinas. Afarwy, wedi methu enill cymod y brenin, a anfonodd yn fradwrus at Julius Cæsar i ddyfod drosodd i'w gynorthwyo; gan addaw y buasai iddo yntau gynorthwyo Cæsar i ddarostwng Prydain i'r Rhufeiniaid. Ond gwrthodai Cæsar gymeryd Afarwy ar ei air, heb iddo anfon gwystl. Ac yno efe a anfonodd iddo ei fab ei hun, yn nghyda deuddeg ar hugain o feibion ei benaethiaid, a daeth Cæsar a'i alluoedd drosodd. Unodd Afarwy a'i alluoedd â'r eiddo ef, a hwy a orchfygasant Caswallon.

Ond Afarwy, heb ewyllysio i'r Brythoniaid gael eu darostwng yn mhellach, a hudodd Cæsar i arwyddo heddwch ar y telerau fod y Brythoniaid i dalu iddo dair mil o aur ac arian, yn deyrnged flynyddol. Ac yn yr haf canlynol, aeth Afarwy drosodd i Rufain i gynorthwyo Cæsar yn erbyn Pompey, a thra y bu yno, bu farw Caswallon, a Teneufan, ei frawd ieuangaf, a esgynodd i'r orsedd ar ei ol.

Gosoda y Trioedd Afarwy allan yn un o "Dri Charnfradwyr Ynys Prydain," am iddo fod yn un achos i ddwyn y wlad hon o dan deyrnged i'r Rhufeiniaid; yr hyn a ddarlunir yn hapus gan Ceiriog yn y llinellau canlynol:—

"O flaen Caswallon, yr 'unben rhaith,'
Caisar orchfygwyd bedair gwaith;
Y pumed tro, i'w erbyn daeth
Afarwy a Chaisar, a cholli wnaeth

"Huned Caswallon yn Efrog fro,
Huned Afarwy lle bynag y bo;
Afarwy'r bradwr, mae'n un o'r Carn
Daw dydd a'i cyfyd, a Duw a'i barn."

**ALBALANDA,** neu WHITELAND ABBEY, yn Nghwmwd WYDIGADA, Cantref Mawr (a elwir yn awr, Cantref Derllys), swydd GAERFYRDDIN, Deheubarth, yn mhlwyf LLAN GAN; tu 15 m. ar ochr orllewinol Caerfyrddin. Sylfaenid Monachlog yma, yn ol barn rhai, gan Rhys, fab Tewdwr, Tywysog y Deheubarth, yn amser y brenhin William y Gorchfygwr; ond yn fwy tebygol, gan Bernard, Esgob Tŷ Ddewi, yn 1143; yr oedd wedi ei chysegru i Mair; yr oedd yno wyth o Fonachod; ac yn amser Harri VIII. yr oedd y lle yn werth 135*p.* 3*s.* 6*c.*, yn ol Dugdale, 153*p.* 17*s.* 2*c.*, yn ol cofnodiad Speed; ac a gyflwynwyd (36 Harri VIII.) i Henry Audley a John Cordel.

**ALBAN,** SANT: y merthyr cyntaf yn Mhrydain, am yr hwn y dywed Fortunatus yn ei *Praise of Virgins*:—

"Prydain ffrwythlon a gynnyrchodd yr ardderchog
Alban."

Ganwyd ef yn Verulam, a elwir yn awr St. Alban, yn haner olaf y drydedd ganrif. Ymddengys iddo, yn ol arferiad y dyddiau hyny, newid ei enw Prydeinig, beth bynag ydoedd, am yr enw Albanus, ar adeg ei droedigaeth.

Enillwyd ef at Gristionogaeth gan yr enwog Amphibalus. Aeth y ddau gyda'u gilydd i Rufain yn nyddiau eu hieuenctyd, a gwasanaethodd Alban yn myddin Dioclesian am saith mlynedd. Ac wedi dychwelyd adref, efe a ymsefydlodd yn ei dref enedigol, lle y bu byw mewn parch mawr, hyd oni thorodd y Ddegfed Erledigaeth allan, o dan Dioclesian a Maximian, pan y darfu i Alban, a llawer eraill o Gristionogion Prydeinig, ogoneddu eu Duw trwy ddyoddef merthyrdod yn y flwyddyn 303.

Digitized by Google

Dywed Bede i Alban, cyn iddo wneyd proffes gyhoeddus o Gristionogaeth, ddirgelu ei gyfaill Amphibalus yn ei dŷ, ac i'r rhaglaw Rhufeinig anfon milwyr yno i'w ddal. Pan welodd Alban hyny, efe a osododd am dano wisg ei letywr, ac a gyflwynodd ei hun yn ei le. Ond digwyddodd fod y rhaglaw, pan ddygwyd Alban o'i flaen, yn aberthu i'w dduwiau, a chan na chydunai efe, mwy na Daniel gynt, yn yr addoliad, ond cyffesu ei fod yn Gristion, gorchymynwyd ei ddienyddio yn uniongyrchol. Ond bu ei wroldeb yn ei ferthyrdod yn foddion i ddylanwadu mor ddaionus ar yr edrychwyr, fel yr enillwyd llawer o honynt at Gristionogaeth. Cymerodd ei ferthyrdod le ar y degfed dydd o Orphenhaf, 303.

Bu ei goffadwriaeth yn fendigedig am ganrifoedd. Adeiladwyd eglwys ar y llecyn y dienyddiwyd ef yn lled fuan ar ol ei farwolaeth, ac ystyrid hi unwaith yn un o'r eglwysi harddaf yn Lloegr.

**ALBANACTUS**, yn ol chwedlonaeth, oedd un o dri mab Brutus o'i wraig Inogen,—Locrin, Camber, ac Albanactus. Ar ei farwolaeth, efe a ranodd ei deyrnas rhwng ei feibion. I Locrin y rhoddodd efe y rhan ganol a'r oreu, a elwir oddiwrth ei enw ef Lloegr, i Camber y rhoddodd efe y rhan orllewinol, a elwir oddiwrth ei enw ef, Cymru, ac i Albanactus y rhoddodd efe yr holl wlad i'r gogledd o Humber, yr hon a elwir oddiwrth ei enw ef, Alban, ond nid yw y cyfan a adroddir am dano ond chwedlonaeth, ac nid hanesiaeth.

**ALED**, Tudur. Theodor Aled, Bencerdd, bardd Cadeiriog Eisteddfod gyntaf Caerwys, 1525.

Preswyliai yn Garth Geri, Chwibren, yn Llansanan, ar fin yr afon Aled; oddiwrth yr hon y cymerodd ei enw barddonol. Efe oedd prif-fardd addefedig ei oes yn Ngwynedd a Phowys, ar ol marwolaeth ei ewythr a'i athraw, Dafydd ab Edmwnd.

Yr oedd yn Babydd selog, fel pawb o feirdd yr oes hono; ac yn mhellach na hyny, yr oedd efe yn fynach o urdd Sant Ffransis. Ar dderbyniad yr urdd hono efe a ganodd yr englyn canlynol:—

"Brawd i Sant Ffransis, na bo brych—f'wyneb
Pan fyner ei edrych;
Yn ei grefydd yn gryf-wych,
Yn ei wisg wyf yn was gwych."

Yn y flwyddyn 1490 yr adeiladwyd Capel Gwenfrewi, yn Nhreffynon. Yr oedd enwogrwydd y Santes, a rhinwedd y ffynon, yn tynu llawer o sylw, ac o bererinion yno yn y dyddiau hyny; a chan fod Tudur Aled, fel y nodwyd eisoes, yn llawn o frwdfrydedd Pabyddol, efe a gyfansoddodd Gywydd Gwenfrewi. Mae ein darllenwyr yn gyfarwydd â'r chwedl, y modd y darfu i'r tywysog Caradog lofruddio y wyryf ieuanc Gwenfrewi, am na chydsyniasai hi â'i drachwant halogedig; ac y tarddodd ffynon enwog Treffynon allan yn y llecyn lle y syrthiodd pen y Santes. Dyma engreifftiau o'r Cywydd:—

"Cariadog lawog o lid
Hyd ei theml daeth i'w hymlid;
Lladdodd Wen lle'dd oedd unawr,
Llyn tawdd a'i llyncawdd i'r llawr.

"Gwae'r ynfyd er gwirion-fun,
O'i lladd hi, collodd ei hun;
Trwy 'i mwnwgl taro meinwen
Treiglo 'r arf trwy goler wen."

Am darddiad y ffynon a'i rhinweddau, y dywed:—

"Arwain afon o'r nefoedd,
A chwys gras o'i chysegroedd,
Dy deyrnged pan goded Gwen,
Tarddu enaint Iorddonen;
* * * *
Arogl o nef i'r glyn yw."

Yr oedd Tudur Aled yn bleidiwr selog i Syr Rhŷs ab Thomas yn ei ymdrech lwyddianus o osod Iarll Rismwnt, sef Harri Tudur o Benmynydd, Mon, ar orsedd Lloegr.

Canodd hefyd lawer o glod i Syr Rhŷs am ei wrhydri milwraidd, ac i anog y Cymry i'w gynorthwyo. Dyma un o'r penillion:—

"Aeth d' arwydd arnynt o waith d' arddyrnau,
A'th law mewn irwaed, a'th lu manerau,
A throi gwayw 'n waedwyllt, a'th rwyg-waniadau,
A thrwy fâel fflemig Arthur fel fflamau,
Anfon drwy Dduw Ion un o'r ddau,—o'th waith,
Ai nhw'n feirw unwaith, ai ni'n hen freiniau."

Ar Tudur Aled y disgynodd y gorchwyl o gadarnhau pedwar mesur ar hugain Cerdd Dafod Dafydd ab Edmwnd, ei ewythr, a'i hen athraw, yn Eisteddfod gyntaf Caerwys, yn Sir Fflint; lle yr aeth efe yn rheolaidd drwy holl ddeddfau a defodau yr eisteddfod, ac y cafodd ei urddaw yn athraw cadeiriawg i arwain ariandlws, fel y byddai i'r dalaeth, o hyny allan, ei gymeryd ef yn athraw yn ei gelfyddyd. A chan fod cymaint o ansicrwydd yn bodoli o barth y flwyddyn y cynnaliwyd yr Eisteddfod hono, a bod rhai yn ysgrifenu 1523; eraill 1524; ac eraill 1525; ni a roddwn yma hen englyn a gyfansoddwyd gan Gruffydd Hiraethog, dysgybl barddonol Tudur Aled, yn yr hwn mae y flwyddyn 1525 wedi ei chynganeddu; a gellir ystyried hwn yn rhoi terfyn bythol ar y pwnc:—

"Mil pum cant rhifnant y rhed—a rhagor
Pum ar hugain, rhodded
Yn ddeddf bwys Beirdd Caerwys ged,
Rheolau Tudur Aled."
*Gruffydd Hiraethog a'i Cânt.*

Yr oedd Tudur Aled yn fardd o radd uchel, fel y dengys yr ychydig o'i gyfansoddiadau sydd wedi eu cadw yn "Ngorchestion Beirdd Cymru," ac y mae rhai o'i englynion wedi dyfod yn ddiarebion teuluaidd, megys:—

"Mae'n wir y gwelir argoelyn—difai
Wrth dyfiad y brigyn;
A hysbys y dengys dyn
O ba radd y bo 'i wreiddyn."

Ond feallai nad oes dim o'i waith mor debyg o gludo ei enw i lawr trwy 'r oesau a ddel, a'r chwedl gyfoethog hono a elwir "Tudur Aled a'r Bysgodwraig."

**ALLT-MAWR** (Allt-fawr—*The Great Woody Mount*), yn Nghwmwd Isorewyn, Cantref Buallt, Swydd Frycheiniog, Deheubarth; 4 milldir o Buallt, ar yr ochr dde-ddwyreiniol. Y mae y plwyf hwn, er nad yw ond bychan, yn cynwys mynydd eang, wedi ei orchuddio â choed, fel yr awgryma ei enw, yn cael ei derfynu ar y gogledd gan yr afon Wy, ac yn cael ei groesi gan y Ffordd-dollborthawl o Buallt i'r Gelli. Y mae yr olygfa ar geulan yr afon, ac yn y gymydogaeth, yn dra hynod a rhamantus, ac y mae yr olygfa o Allt-Mawr House, preswylfod George Holford, Ysw., yn un o'r rhai mwyaf dymunol yn y

Digitized by Google

rhan hon o'r Dywysogaeth. Y mae arwynebedd yr ardal gan mwyaf yn donweddog; y mae y pridd yn gyffredin yn gleilyd; ac y mae yr haen deneu o dir graianog sydd yn ei wisgo, yn fanteisiol i dyfiant y derw sydd yno mewn cyflawnder. Y mae y fywioliaeth yn weinidogaeth barhaol, mewn cysylltiad â ficeriaeth Llanbadarn Fawr, yn arch-ddeonaeth Brycheiniog, yn esgobaeth Tŷ Ddewi, wedi ei gwaddoli ag 800*p*. o rodd frenhinol, a 200*p*. o rodd seneddol. Y mae yr eglwys, yr hon sydd wedi ei chysegru i St. Mauritius, yn cynwys côr a changell, wedi eu haddurno â nenfwd. Nid yw yr adeilad ond bychan o faintioli, eto yn dra dengar yr olwg arno.

**ALMEDHA**;—Santes, oedd yn ol traddodiad, y drydedd ferch ar hugain i Brychan Brycheiniog. Geilw rhai awdwyr hi Elevetha, Aled, ac Elmed, a dywed eraill mai yr un oedd hi ag Eluned; os felly, y bumed ferch oedd hi, ac nid y drydedd ar hugain. Ond geilw Giraldus hi Almedha, a dywed ei bod yn gyflwynedig i grefydd o'i hieuenctyd; iddi wrthod llaw tywysog yr hwn a'i ceisiai mewn priodas, ac iddi yn y diwedd ddyoddef merthyrdod dedwydd ar ben bryn Penginger, gerllaw Aberhonddu. Adeiladwyd yno eglwys i'w choffadwriaeth, a chedwid ei gwyl ar y cyntaf o Awst.

**ALUN** (Tref-Alun, Allington), trefgordd yn mhlwyf Gresffordd (*y Groesffordd*), mewn rhan yn nghantref Maelor Gymraeg, swydd Ddinbych; ac mewn rhan yn nghantref Maelor, yn swydd Fflint, Gogledd Cymru, 6 milltir ar yr ochr ogledd-ddwyreiniol o Wrecsam. Yr oedd yma gynt gapel ychwanegol, perthynol i eglwys y plwyf, ond nid oes dim ychwaneg o'r olion ar gael yn awr, na'r gladdfa. Y mae yma le o addoliad gan y Trefnyddion Calfinaidd. Yn y dref-ddegwm hon y saif palas anrhydeddus y Treforiaid, o'r rhai y disgynai Syr Richard, cof-adail yr hwn sydd yn eglwys y plwyf, yr hwn a hynodai ei hun yn fawr yn rhyfeloedd yr Iwerddon, tua diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, pan y daliai arglwyddiaeth Newry, a siroedd Armagh a Down. Y mae ei ddarlun yn y llys, gyda ei lyfr-gweddi yn ei law, mewn agwedd fyfyriol; a'i lurig arfogaeth o'r tu cefn, gydag arwyddluniau cyfeiriol at ranau boreuol a hwyrol ei oes, ac yn dyrchafu ei fawl i Dduw am ei ddaioni i blant plant ei blant.

**AMLOD** (Tref-amlod—*Ambleston*), plwyf yn Nghwmwd Dau-Gleddau, swydd Penfro, Deheubarth; 8 m. o Hwlffordd yn y gogledd ogledd-ddwyrain. Dywedir mai dyma y lle a adnabyddir fel yr orsaf Rufeinig *Ad Vigesimum*, a grybwyllir yn yr "*Itineraries*," fel yr orsaf gyntaf o *Maridunum*, neu Gaerfyrddin, gan fod y pellder yn cyfateb yn hollol i'r hyn a nodir yn yr "*Itinerary*." Gwnaed y darganfyddiad hwn, ac ymddengys oddiwrth amryw dystiolaethau unedig ei fod yn wirioneddol, gan Mr. Fenton, awdwr "Y Daith Hanesyddol drwy Swydd Benfro," gyda'r hwn y bu Syr Richard Colt Hoare, Barg., yn teithio, tra y bu yn casglu y defnyddiau at y gwaith hwnw. Y mae ffurf yr orsaf, yr hon sydd o fewn tua milltir i'r ochr ogledd-ddwyreiniol i'r eglwys, agos yn berffaith bedeir-ongl, a'r ochrau wedi eu crynhau, ac yn cynwys gofod, dau gant a thriugain o droedfeddi mewn maintioli. Gellid canfod olion y mur oedd yn ei gau allan eto, er ei fod wedi ei wisgo ymaith i raddau mawr gan driniaeth y tir yno; ac y mae y *Via Julia*, oedd yn arwain o *Maridunum* i *Menapia*, yn rhedeg drwy y fan. Gelwir y wersyllfa gan y trigolion *Castell Fflemish*, o blegid i'r lle fod wedi hyny yn cael ei feddianu gan y Fflemingiaid, y rhai a diriasant yn y rhan hon o'r Dywysogaeth, ac a arosasant yma i'r dyben o ddarostwng y brodorion; ac y mae ffordd Rufeinig arall, yn nes i'r gogledd, ac wedi hyny yn uno â'r *Via Julia* yn agos i Dŷ Ddewi, yr hon am yr un rheswm a elwir *Via Flandrica*, neu Ffordd y Fflanderiaid. Y mae priddfeini Rhufeinig wedi eu darganfod o fewn cylch yr orsaf, gyda chymrwd; llawr calchaidd, a chareg deneu, yn cynnwys argraph, sydd erbyn hyn ar goll, gydag amryw olion Rhufeinig eraill. Yn gyfagos i'r lle, ac yn agos i bentref y Rhŷd, y mae olion gwersyllfa arall, lai o faintioli, ond yn amlwg o wneuthuriad Rhufeinaidd, ac y mae yn lled debygol mai hi ydoedd *Campus Aestivus* yr orsaf; ac yn yr un gymydogaeth, yn 1806, darganfyddwyd gweddillion o dwymdy, neu odyn Rufeinig, chwe throedfedd o ddynfnder, ac wyth droedfedd o hyd, wedi ei gwynebu ar y naill ochr a'r llall, â cherig teneuon, gyda chymrwd, o'r hon yr oedd yn dyfod ddwy simfa, o droedfedd a phedair modfedd o agoriad, ac yn lledu tu ag i fynu, ac yn codi mewn cysondeb graddol hyd y wyneb; yr oeddynt wedi eu ffurfio o bridd-feini Rhufeinig rhesog. Y mae y tir yn y parth hwn oll o'r braidd, wedi ei gau allan, ac y mae ar y cyfan, yn dra ffrwythlawn. Y mae y fywoliaeth yn ficeriaeth wahanedig, yn arch-ddeoniaeth ac esgobaeth Tŷ Ddewi; yn cael ei drethu yn ol llyfrau'r brenhin yn 3*p*. 19*s*. 4½*c*.; wedi ei waddoli â rhodd frenhinol o 600*p*., a 200*p*. o rodd Seneddol, ac yn nhadogaeth y pennadur, fel Tywysog Cymru. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i Mair. Y mae capel ychwanegol yn perthyn i'r plwyf, a elwir Capel Rinaston. Y mae gan y Trefnyddion Calfinaidd le o addoliad yma. Yr oedd y trethiad plwyfol tu ag at gynaliaeth y tlodion yn flynyddol yn ddiweddar yn 163*p*. 9*s*; y boblogaeth yn 1861 oedd 524.

**AMLWCH**, bwrdeis-dref, porthladd, a phlwyf, yn Nghwmwd Twr Celyn, swydd Fon, Gogledd Cymru; 20 milldir i'r gogledd orllewin o'r Beaumaris, a 266 milldir i'r gogledd orllewin wrth orllewin o Lundain, yn cynnwys tua chwe mil o drigolion. Nid oedd y lle hwn rai oesoedd yn ol, namyn pentref salw, a di nod, yn cael ei gyfanneddu gan ychydig bysgodwyr; ond trwy yr helaethrwydd o drysorau mŵnawl a ddarganfuwyd yn y gymmydogaeth, daeth yn dref boblogaidd a blodeuog. Barna rhai iddi gael ei henw oddiwrth y ffaith ei bod wedi ei hadeiladu ar benrhyn cylchynedig gan y môr gogleddol; neu, ar lan traeth tywodlyd; ond, y mae yr ystyriaethau canlynol yn ein tueddu yn hytrach i farnu, mai enw y lle ar y dechreu oedd *Aml Och*:—Mewn hen gof-lyfr a elwir *The Extent of Wales*, a wnaed yn y 26ain i Edward III., y mae y lle yn cael ei alw "*Amel-ogh*." Y mae yn wir nad oes nemawr o bwys i'w roddi ar y dull y ceir enwau lleoedd yn y cyfryw hên lyfrau, gan mai Saeson Normanaidd, cwbl estronaidd i'n hiaith a'i llythyraeth, a'u hysgrifenent gan amlaf, oddi ar lafar y brodorion; er hyny, gall y gwahanol ddulliau o ysgrifenu enwau lleoedd, ar wahanol adegau, fod yn gynnorthwy i gael allan wir ystyr enw lle, pan fyddo yn anhawdd canfod priodoldeb yn yr enw a fydd yn cael ei arfer mewn oesoedd diweddarach.

Y mae lle cryf i feddwl y byddai y Gwyddelod a'r Daniaid, yn eu mynych ymosodiadau ar Fon, yn arfer cyfeirio eu llyngesau i rai o'r cilfachau ar yr

Digitized by Google

ochr hon o'r ynys, er glanio eu byddinoedd yspeilgar; ac y mae yn amlwg fod rhai brwydrau tra thrychinebus, wedi cael eu hymladd yn y rhan hon o'r ynys, o'r hyn y mae amryw enwau yn y gymmydogaeth yn cadw rhyw gof brith-lwyd hyd heddyw, megis y Gadfa, Cerryg y llefau, Rhyd y Galanastra, Bryn y Cyrph, Rhyd gwaed gwŷr, Mynydd y Tristlwyn, Maes y Llwyn, y Werthyr, Pen bod ail ffrae, Carreg y Gâd, &c.; a gwelir olion gwersyllfeydd milwraidd lluosog o fewn y plwyf; fel nad yw yn annhebyg i'r lle gael ei alw "Aml-och," oddiwrth yr helyntion blinion a fu yma yn yr oesoedd boreuol cynhyrfus.

Y mae plwyf Amlwch yn agos i saith milldir o hŷd, ac yn cynnwys o'i fewn yr holl ran ogledd-ddwyreiniol o Lanerch-y-medd. Ei fesuriad arwynebol yw 9,221 o erwau; a holl nifer yr adeiladau cyfanneddol, o fewn bwrdeis-dref Amlwch yn unig, yn annibynol ar ranau eraill o'r plwyf, pan wnaed y ddeiliadeb yn 1861, oedd 825, a rhif y trigolion yn 3207; ond, y mae ugeiniau o dai newyddion wedi cael eu hadeiladu er y pryd hyny, a'r trigolion wedi cynhyddu llawer mewn nifer yn ddiameu.

Y fywoliaeth eglwysig yma sydd Guradiaeth Wastadol, yn noddogaeth Esgob Bangor; ac yr oedd gynt dri lle yn gydiedig â hi, i gael eu gwasanaethu gan offeiriad Amlwch; sef Llan-lleiana, Llangadoc, a Llanwenllwyfo. Gorweddai Llanlleiana tua phedair milldir i'r gorllewin o Amlwch; lle yr ydoedd Lleiandŷ lled bwysig yn amser Pabyddiaeth; ond nid oes yno namyn ychydig o sylfeini yr hên eglwys, a rhanau o'r gladdfa yn weledig, erbyn hyn. Llangadoc, neu, Capel Cadoc Sant, oedd yn gorwedd oddeutu pedair milldir i'r dehau o Amlwch, nid yn mhell o'r pentref a elwir yn bresenol *City Dulas;* ond a elwid yn yr hen gof-lyfrau "Ais Dulas;" neu, yn hytrach, Is Dulas: yr oedd y llan hono a'i thô arni tu a'r adeg yr oedd yr hyglod fardd a henfiaethydd, Llewelyn Ddu, yn ymgartrefu yn Mhentref Erianell, tua chan mlynedd yn ol. Y mae Llanwenllwyfo yn aros eto; ac o herwydd ei hagosrwydd i Lys Dulas, fe'i cedwir mewn cywair dâ.

Yr hyn a ddylanwada fwyaf ar boblogaeth Amlwch, a'i llwyddiant, ydyw ansawdd y gweithfeydd yn y mŵn-gloddiau cyfagos. Pan agorwyd y mŵn-gloddiau hyn tua chan mlynedd yn ol, buant yn achlysur o gynnulliad pobloedd lawer i'r gymmydogaeth; ac yr oedd y swm o efydd a fwrid i'r farchnad ar un adeg, o'r mŵn-gloddiau hyn, dros ddeuddeng mlynedd olynol, sef o'r flwyddyn 1773 hyd y flwyddyn 1785, yn gyfryw, fel ag i beri gostyngiad ar y nwydd hwnw drwy holl Ewrob, ac i fygwth dystrywio yr holl fŵn-gloddiau tlottach drwy y deyrnas. Ymddengys mai hen enw yr ucheldir y cloddiwyd cymaint cyfoeth o hono, oedd Mynydd y Trysglwyn, neu, yn ol rhai hên awduron, "Mynydd y Tristlwyn;" ond, er's oddeutu pedwar can mlynedd bellach, fe'i hadweinir dan yr enw "MYNYDD PARIS." Dywedir iddo gael yr enw presenol oddiwrth un Robert Paris, yr hwn oedd yn un o'r dirprwywyr pennodedig gan y brenin Harri IV., i wneyd ymchwiliad cyfreithiol, a phenderfynu ar y dirwyon a osodid ar foneddigion Mon, am eu gwaith yn pleidio Owain Glyndwr. Y Robert Paris uchod, ydoedd Ystafellydd Caerlleon a Gogledd Cymru. Deallwn fod 2112 o foneddigion Mon wedi eu dirwyo i amryfal symiau, wrth farn y gwr uchod; ac yn eu mysg yr oedd Llewelyn, ficar Amlwch, a 33 o offeiriaid eraill. Mewn canlyniad i'r gwasanaeth uchod, rhoddwyd Mynydd y Trysglwyn, a thiroedd eraill, i Robert Paris, gan y brenin. Ar ol marwolaeth Robert Paris, ei weddw, Sioned, ferch Syr William Stanley o Hooton, a briododd William Gruffydd o'r Penrhyn, mab yr hwn, William Gruffydd Fychan, a wnaed yn Ystafellydd Gogledd Cymru; ac yn hawl ei fam, efe a ettifeddodd "Dir Paris," fel ei gelwid; a dyna ddechreuad yr enw "Mynydd Paris."

Darganfyddwyd arwyddion amlwg fod mŵn efydd wedi cael ei gloddio o'r mynydd hwn, mor foreu a'r cyfnod Rhufeinaidd, os nad yn foreuach, gan fod y cloddfeydd wedi eu gweithio yn amlwg cyn darganfyddiad pylor, trwy dori rhychau â chynion yn y graig, a chynneu tân arni i'w phoethi; yna tywelltid dwfr oer i lenwi y rhychau poethion, yr hyn a barai i'r graig ymagor, neu hollti. Cafwyd teisen o efydd, yn pwyso dros haner can pwys, a nod arni, cyffelyb i'r llythyren Rufeinaidd L, yn mhlwyf Llanfaethlu, yn Mon, tu a'r flwyddyn 1757, a llawer o olosg a sorod efydd, y rhai a droir i fynu yn aml wrth aredig y maesydd yn y gymmydogaeth; yr hyn a rydd sail i gasglu fod gan yr hen genedl anturiaethus hono, weithfeydd yn y llannerch grybwylledig, i doddi y mŵn a gyfodid o'r mynydd hwn, cyn ei lwytho yn eu llongau, i'w allforio. Ond ychydig a ddychymygwyd am y cyfoeth dirfawr oedd yn nghadw yn ymysgaroedd Mynydd Paris hyd y flwyddyn 1762, pan ymwelodd Mr. Alexander Frazer, brodor o Ysgotland, âg Ynys Fon, ar ei hynt ymchwiliadol am fŵnau. Hwn, wedi ei argyhoeddi fod argoelion gobeithiol am dorraeth o efydd yn y mynydd, a ddarbwyllodd Syr Nicholas Bayley, perchenog rhan o'r mynydd, i roddi dynion ar waith i gloddio am y trysorau y tybid eu bod yn geledig yn ei geudod. Darganfuwyd mŵn ynddo yn fuan; ond cyn cael nemawr o hono allan, aeth y dwfr yn drêch na'r gweithwyr, a rhoddwyd terfyn ar yr anturiaeth, dros amser y pryd hyny. Eithr yn mhen tua dwy flynedd, ceisiai Mri. Roe a'u Cyf., o Macclesfield, brydles gan Syr Nicholas ar fŵn-glawdd y Penrhyn Du, yn Lleyn; ond cyn y rhoddai y boneddwr hono iddynt, fe'u gorfodid, yn groes i'w hewyllys, i gymeryd prydles ar ran o'r mynydd hwn, a gyru lefel iddo, er mwyn gwneyd prawf teg arno. Felly gwnaed y prawf, a darganfyddwyd helaethrwydd o fŵn; ond yr oedd y draul o'i gael allan yn fwy na'r ennillion oddiwrtho; ac wedi parhau i'w weithio dros amser i'w colled fawr, daethant i'r penderfyniad o'r diwedd, i roddi yr anturiaeth i fynu, a rhoddasant orchymyn i'r perwyl hyny i'w goruchwyliwr; ond y gwr hwnw, yn awyddus i wneuthur un cais ychwanegol, a ranodd ei ddynion yn ddêg o gwmnïau gwahanol, o dri neu bedwar yn nghŷd; gan adael iddynt gloddio mewn amryfal fanau, tu ag wyth gan llath i'r dwyrain o'r llannerch a elwir y "Fentar Aur," ar y dŷb fod ffynnon a darddai o le yn agos i'r llannerch hono, yn rhwym o fod yn dyfod o gorph o fŵn; ac yn mhen tua dau ddiwrnod, daethant o hyd i'r corph crŷf o fŵn, a weithiwyd i'r fath fantais wedi hyny, o fewn tua saith droedfedd i'r wyneb. Y dydd y gwnaed y darganfyddiad ffodus yma, oedd Mawrth 2il, 1768.

Yn fuan wedi hyny, dechreuwyd ar anturiaeth arall gan y Parch. Edward Hughes, perchenog rhan o'r mynydd yn hawl ei wraig, ettifeddes Llŷs Dulas; ac efe a lwyddodd i ddarganfod corph cryf arall o'r

Digitized by Google

mŵn gwerthfawr hwn, trwy yr hyn y gosodwyd sail cyfoeth enfawr teulu Cinmael. Yn lled fuan wedi gwneuthur y darganfyddiadau uchod, darfu i berchenogion y mynydd, yn ffodus a doeth, ymddiried arolygaeth yr holl waith i Mr. Thomas Williams, brodor o Fon, yr hwn wedi hyny a gafodd gyfran led dda o'r gwaith yn eiddo iddo ei hunan; a thrwy ei ddiwydrwydd, ei onestrwydd, a'i gallineb, bu llwyddiant digyffelyb o'r bron arno. Y Thomas Williams uchod, a anwyd yn mhlwyf Llanidan, ar gulfor y Menai, yn Mon, o deulu cyffredin ei sefyllfa. Gwasanaethodd yr amser arferol fel breint-was i gyfreithiwr yn y Beaumaris; ac wedi hyny ymarferodd â'r alwedigaeth hono ei hunan, gyda mesur mawr o lwyddiant. Cyfododd y gwaith i fri llwyddiannus dan ei oruchwyliaeth ef, nes yr oeddid yn codi pedair mil o dunnelli o efydd yn flyneddol. Sefydlwyd todd-dai mewn amryw fanau yn y deyrnas; ac yr oedd gwerth yr holl drafodaeth yn llawn filiwn o bunnau yn y flwyddyn; a goruwch-lywyddid y cyfan gan Mr. Williams ei hunan. Am beth amser, bu ymryson rhyngddo a Chymdeithwys Gweithiau Cernyw, yr hyn o'r diwedd a derfynodd mewn math o gydweithrediad cyfammodol. Yr oedd y fath gydweithrediad rhwng pleidiau mor gryfion, yn tueddu i ddinystrio yr holl fân gymdeithwysau trwy y deyrnas; a dygwyd ysgrif i'r Senedd er attal y gribddeiliaeth hon; ond methwyd ei chadarnhau yn gyfraith. Symbylodd hyn gwmnïau Birmingham i ymuno a phrynu mŵn-gloddiau yn Nghernyw, ac adeiladu tawdd-dai yn Abertawy, yr hyn a barodd i'r cyfammod rhwng perchenogion Mynydd Paris, gael ei roddi i fynu. Yr oedd Mr. Williams yn meddu deall cyflym, a llygad craff at fasnach; ac yr ydoedd yn dra phenderfynol a di ymdroi yn nygiad ei gynlluniau i weithrediad, fel yr oedd pob peth a gymerai mewn llaw yn dra llwyddianus; a gadawodd ar ei ol gyfoeth o tua chwarter miliwn o bunau. Y mae ei enw a'i fri yn cael eu cynnrychioli yn bresenol yn nheulu parchus Craig y Don. Bu farw yn Nghaerbaddon, Tachwedd 30ain, 1801, a chladdwyd ef yn Llanidan, ei blwyf genedigol.[1]

Er dangos mor oludog ydoedd y mŵn-glawdd hwn, gellir crybwyll am ddwy "fargen," o dri mis bob un, a wnaed yn y flwyddyn 1787, heb son am lawer o "fargeinion" llai a wnaed yn yr un adeg. Caed o un o'r rhai hyn, o fewn yr ystod crybwylledig, 2931 o dunelli o fŵn efydd; a dim ond 92 tunell o *waste;* ac o'r llall, 488 tunell o fŵn da, a 267 tunell o *waste.* Buwyd am flyneddoedd yn troi allan o dair i bedair mil o dunelli o efydd yn flyneddol; ïe, ar yr adeg fwyaf blodeuog ar y gwaith, cyfrifid y byddai tua phedwar ugain mil o dunelli o fŵn copr yn cael ei gloddio o'r mŵn-glawdd hwn bob blwyddyn; a gwelwyd ystôr o gymaint a phedair mil a deugain o dunelli o fŵn copr, yn gorwedd ar y mynydd hwn ar yr un pryd!

Darganfuwyd amryw fwneion eraill yn y mynydd hwn, a gwely o glai melyn seimlyd, yn amrywio o un i bedair llath o drwch, yn gorwedd uwchlaw y mŵn efydd, ac heb fod yn fwy na dwy droedfedd islaw yr arwyneb, yn cynwys plwm yn y cyfartaledd o rhwng chwe chant a mil o bwysau yn y dunell; ac o bob tunell o'r *metal,* tynid dim llai na phum deg a saith bwys o arian. Yn gymmysgedig â'r priddyn hwn, canfyddir cyfranau o liw y sinobr, sef mŵn arian byw: ac wedi adfeiliad y fasnach mewn efydd, gwnaed ymdrech i ddefnyddio y mŵn yma, gan adeiladu tawdd-dai pwrpasol atto; ond wedi myned i lawer o draul, gwelwyd na's gellid gwneyd masnach ennillgar o hono, a hyny yn benaf, o herwydd drudaniaeth y glo erbyn ei gludo yma, felly rhoddwyd yr anturiaeth hon i fynu; ac erbyn y blyneddoedd hyn, y mae gweithfeydd Mynydd Paris yn dra adfeiliedig, a thlodi mawr yn y canlyniad, yn ffynu yn y gymmydogaeth.

Adeiladwyd Eglwys bresenol Amlwch (yr hon sydd yn gyssegredig i goffadwriaeth Sant Elaeth ab Meurig ab Idno), yn y flwyddyn 1800, ar draul perchenogion gwaith Mynydd Paris y pryd hwnw; a dywedir fod y draul o'i hadeiladu, erbyn ei llawn orphen, yn llawn pedair mil o bunnau.[2] Y mae iddi dŵr petryal, lled uchel, ac wedi ei goroni â phinaclau. Yr oedd yr Elaeth uchod yn ei flodau o'r flwyddyn 640 i'r flwyddyn 700; ac mewn rhai ysgrifeniadau fe'i gelwir "Elaeth Frenin," yr hyn a bair i ni farnu ei fod yn hanu o deulu urddasol; ac iddo, fel Pabo, dreulio y rhan flaenaf o'i oes yn rhwysg y llŷs, a chynwrf y fyddin; ond ei fod wedi cyssegru gweddill ei oes, i wasanaeth crefydd.

Yn y flwyddyn 1689, darfu i Edward Kynnier, Ysw., gyflwyno mewn gweithred gyfreithiol, 311 o bunnau, gan erchi fod i'r llôg gael ei neillduo at dalu i athraw am ddysgu plant tlodion y plwyf hwn; a chedwid yr ysgol hono i fynu yn rheolaidd, hyd y flwyddyn 1821, pan y sefydlwyd Ysgol Genedlaethol yn y plwyf, at wasanaeth yr hon yr adeiladwyd Ysgoldy, ar y draul o ddeuddeg can punt; ac yna, trowyd hon, sef llôg rhodd Mr. Kynnier, at gynnal yr ysgol hono.

Y mae llôg yr amrywiol roddion elusenawl a adawodd amryw gymmwynaswyr i'r plwyf hwn, yr hyn sydd yn cyrhaedd i bedair punt a deugain yn y flwyddyn, yn cael eu rhanu i dlodion y plwyf, bob Nadolig, gan yr offeiriad a'r wardeniaid. Curadiaeth barhaol, fel y crybwyllwyd, yw y fywoliaeth eglwysig, â'r hon y mae Llanwenllwyfo yn gydiedig, yn arch-ddeoniaeth Môn, ac esgobaeth Bangor. Y mae wedi ei gwaddoli â dau gan punt o roddion personol, dau gan punt o'r gêd-rodd freninol, ac un cant ar ddeg o bunnau, o roddiad Seneddol; ac y mae yn nawddogaeth Esgob Bangor, gan yr hwn y glwys-berchenogwyd y degwm, yn nheyrnasiad Iago y Cyntaf; sef tua thri chan mlynedd yn ôl.

Ymddengys fod amryw hen grefydd-dai yn y plwyf hwn, pan oedd Pabyddiaeth yn ei rhwysg. Un o honynt, o'r enw Llanlleianau, oedd yn agos i'r pen eithaf i'r plwyf, lle y terfyna ar blwyf Llanbadrig. Mynachlog i fenywod crefyddol, a garent ymneillduo o'r byd, oedd hono; ac y mae rhanau o furiau yr hen adeilad, a'r gladdfa, yn weledig eto. Yr oedd yma grefydd-dy arall hefyd, a elwid "Capel Naw Saint;" ac un arall yn Ngwredog, yn gyssegredig i'r Forwyn Fair; a'r "Gyf-eglwys" hefyd, neu y "Bettws," yn agos i'r fan lle y saif yr ammaethdy a elwir "y Bettws Fawr."

Gerllaw Llanlleianau y mae hen amddiffynfa Brydeinig,—y fwyaf yn Môn, os nad yn Nghymru oll. Gelwir y lle "Dinas," neu "Pen dinas;" a gallem feddwl mai ei hen enw oedd "Dinas Cynfor," canys y mae cilfach yn ymagor i'r môr ar un pen iddi, a elwir "Porth Cynfor." Ni's gellir penderfynu pa un ai Cynfor ab Tudwal Mwynfawr ab Cadfan, hendaid Arthur frenin, oedd y gwron a roddes ei

[1] Gwel y "*Brython,*" cyf. iii., t. d. 147.

[2] Gwel Anngharad Lloyd's "*History of Mona,*" p. 186.

Digitized by Google

enw ar y lle, neu ynte rhyw Gynfor boreuach na hwnw. Pa fodd bynag, yr oedd yr amddiffynfa hon yn un fawr a chref iawn. Bryn hir-grwn, lled uchel ydyw, a'r esgyniad iddi ar yr ochr dde orllewinol yn lled serth; ac wedi ei hamddiffyn â dau ragfur pridd crŷf, oddi fewn i'r uchaf o ba rai yr oedd ffos ddofn; ac ar yr ochr ogledd ddwyreiniol, sef y nesaf i'r môr, yr ydoedd yn anhygyrch, gan fod gwyneb y graig yn serth, ac yn ugeiniau o latheni o ddwfn. Ar y ddau ben i'r Ddinas yr oedd dwy fôr-gilfach, yn y naill neu y llall o ba rai, y gallasai nifer o gychod, neu longau bychain, y fath ag a arferid yn yr oes-oedd boreuol hyny, gael dyogelwch ar ystormydd o o unrhyw gyfeiriad; enw y naill o'r môr-gilfachau crybwylledig, yw "Porth Lleian," ac enw y llall, yw Porth Cynfor. Y mae tua thriugain erw o dir o fewn yr hen amddiffynfa hon; a gellir crybwyll un ffaith hynod mewn cyssylltiad â hi, sef bod cerrig llyfnion glan y môr, o ddeg i bymtheg pwys yr un, yn daenedig ar hyd gwaelod y ffos sydd o fewn y rhagfur uchaf, ond yn orchuddiedig yn bresenol gan droedfedd neu fwy o bridd. Y mae yn ymddangos yn lled sicr fod y cerrig crybwylledig wedi eu cludo yno gan y gwarchodlu a gadwent yr amddiffynfa ar ryw adeg foreuol, a'u cyfleu ar hyd y ffôs, fel y gallasai y gwarchaedig eu lluchio at unrhyw fintai a fuasai yn meiddio gwneyd rhuthr-gyrch i gymeryd yr amddiffynfa; ac y mae yn ddiamheu mai arfau dinystriol ofnadwy a fuasent, i'w defnyddio o'r fath sefyllfa fanteisiol, cyn dyfeisio arfau tân.

Mewn pantle lled gysgodol, yn agos i ben dwy-reiniol yr amddiffynfa, y mae gweddillion magwyr, a amgylchynai lannerch betryal, tua deugain llath o draws-fesur; a bernir y gellir olrhain hen lwybr cysgodol, yn arwain oddiyno i waered i Borth Cynfor. Efallai mai o fewn y llannerch gysgodol hono yr oedd lluestai y swyddogion, eu gwragedd, a'u plant; a bod y ffordd geledig uchod wedi ei bwriadu i'w galluogi i encilio i'w cychod, yn ddiarwybod i'w gelynion, ar adeg o galedi.

Yr oedd ffordd wedi ei gwneyd o'r Ddinas, yn nghyfeiriad yr Aberffraw, wedi ei phalmantu â cherrig lled fychain; ac y mae rhanau o honi yn weledig hyd heddyw, mewn amryw fanau. Gwelir rhanau o'i holion gerllaw Cemmaes Fawr, a thrachefn yn agos i Pant Heilyn, Llanfechell, ac amryw fanau eraill. Y mae yn debyg fod hon yn ffordd filwraidd, ar yr adeg yr oedd y llŷs tywysogaidd yn yr Aberffraw. Yr ydoedd twr wedi ei gyfodi ar y bryn yn agos i'r lle a elwir "Bryn Llewelyn," lle y byddai gwyliedyddion yn sefydlog ddydd a nos. Yn agos i'r lle hwnw, y mae "Peibron," neu, yn fwy priodol, "Bedd-fron." O fewn oes yn ôl, yr oeddid yn cludo pridd o ardd, perthynol i dŷ a elwid Pen yr orsedd bâch, ar dir y Glasgrug fawr; yr oedd yno dros ddwy lath o ddwfn o bridd da; ac o dan hyny yr oedd rhesi o botiau pridd, wedi eu llenwi â lludw a golosg esgyrn dynol.

Yr oedd Porth Llechog, neu, yn ol yr *Extent*, "Porth lle och," yn lle pwysig tu a'r un cyfnod ag yr ydoedd Dinas Cynfor, a'r Werthyr, felly. Y mae olion dwy amddiffynfa fawr ar dir Llechog, yn agos i'r lle a elwir Glan y don. Y mae un yn agos i'r hen odyn galch; ac yr oedd natur a chelfyddyd wedi bod yn gweithio yno. Gellir olrhain y gwrthfur a'r ffosydd yno eto, er bod cannoedd o dunelli o'r pridd wedi ei gludo ymaith, ac amryw o'r tyllau wedi eu cau, er mwyn ychwanegu y tir pori, a gwneyd y lle yn llai peryglus i'r anifeiliaid. Yn mhen uchaf y cae agosaf i dir Glan y don, y mae hen amddiffynfa wedi ei chyfodi yn bonc gron, tua deg llath ar hugain ar ei thraws, ac o dair i bedair llath o uchder; ac mewn bryncyn arall, yn agos iddi, y mae gwrth-fur crŷf wedi ei gyfodi, a lle dwfn wedi bod o'i fewn, lle y gallasai y dynion ymguddio, a chael cyfle i encilio, os y buasai angenrheidrwydd. Y mae traddodiadau cyffredin y gymmydogaeth yn tystio mai hen amddiffynfeydd milwraidd oeddynt, ac mai â bwäau y byddent yn arfer ergydio o honynt at y gelynion, ar eu glaniad yn Mhorth Llechog. Bernir fod perthynas rhwng amddiffynfeydd Porth Llechog â Dinas Gynfor; ac yr oedd tŵr wedi ei gyfodi tu a'r fan y saif Capel y Wesleyaid yn y Burwen yn bresenol; am ba achos y mae y lle yn cael ei alw "Pen tŵr;" a'r traddodiad yw, y byddai gwylwyr gwastadol yno, o'r lle y gallasent weled y rhan fwyaf o'r ochr hon i'r wlad, a'r môr oddi tanodd.

Y mae lle i gasglu fod brwydr galed wedi ei hymladd o Lanwenllwyfo hyd y Ddwygir; ac efallai mai yn hon y cwympodd Rhodri Fawr, a'i frawd Gwriad, a Gweirydd, fab Owain Morganwg: ac nid yw yn annhebyg mai cofion aneglur am y frwydr hon, ydyw yr enwau y Gadfa, Cerrig y bloeddiau, Rhyd y Galanastra, Cerrig y gâd, Ponc y cyrph, Rhyd gwaed gwŷr, &c.

Nid ydyw porthladd Amlwch yn agos mor helaeth ag y byddai yn ddymunol ei fod, yn enwedig gan y bydd yma gynifer o longau yn gorwedd dan adgyweiriad ynddo ar hyd y flwyddyn. Y mae cynnifer a 78 o longau yn perthyn i'r porthladd hwn, y rhai a amrywiant yn eu maintioli, o'r smack fechan, i'r rhai mawr tri hwylbren, a gariant dros fil o dunelli o lwyth, a bydd rhai o honynt yn hwylio i bob parth ar y byd.

Y mae amryw feini hirion yn y plwyf hwn, y rhai mae yn debyg a gyfodwyd ar gyrph rhai o'r hen enwogion boreuol. Y mae un gerllaw Bod Dunod, lle, efallai y bu Dunawd Fawr, mab Pabo, yn cyfanneddu ar un adeg; ac heb fod yn neppell o'r un fan, y mae "Cadair Iolyn." Yn agos i'r Werthyr, y mae maen hir arall, yr hwn sydd oddeutu tair llath o uchder oddiar wyneb y tir; ac yr oedd un arall yn agos atto tua deng mlynedd ar hugain yn ol; a gwelir un arall o'r hen feini coffa hyn yn agos i Wredog. Yr oedd yma ffynnon sanctaidd hefyd, yr hon a elwid "Ffynnon Elaeth," mewn bri mawr yn yr oesoedd tywyll, pan ydoedd rhyw rai yn byw yn agos iddi, yn cymeryd arnynt arfer dewiniaeth; a mawr a fyddai y cyrchu atti gan bobl o wahanol wledydd. Yr oedd llysywen yn cael ei chadw yn y ffynnon; a chymerai ceidwaid y ffynnon arnynt roddi barn ar yr achos a fyddai dan sylw, yn ol yr ystum a fyddai ar y llysywen, pan ymddangosai gyntaf i'r ymofynwyr. Ar rai amserau, byddai y creadur o'r golwg am ddyddiau, a byddai raid i'r ymofynwyr, o ba le bynag y byddent wedi dyfod, aros yno hyd oni wnelai ei hymddangosiad; ac fel hyn, gwnaeth rhai o hen breswylwyr y lle, fasnach enillgar ar draul ofergoeledd eu cydoeswyr tywyll.

Y mae gan y Trefnyddion Calfinaidd ddau addoldy cyfleus yn y dref; sef y "Capel Mawr," yn y pen gorllewinol, a "Chapel y Borth," yn y pen dwyreiniol. Cynhelir gwasanaeth crefyddol yn rheolaidd yn y ddau ar y Sabbathau, a nosweithiau yr wythnos; ac y mae Ysgolion Sabbathawl blodeuog yn perthyn i'r ddau. Ac heblaw y rhai hyn, y mae

Digitized by Google

gan yr un Cyfundeb, bedwar o gapelau, a dau ysgoldy eraill yn yr un plwyf; sef, Capel y Burwen, Capel Moriah, Capel Penmynydd, a Chapel y Gors-lwyd; ac Ysgoldy Llaeth-dy bach, ac Ysgoldy Ty'n y lôn, Gwredog; yn y rhai hefyd y pregethir yn achlysurol. Y mae gan y Bedyddwyr hefyd gapel helaeth yn y rhan ddeheuol o'r dref, o'r enw Salem, a chladdfa yn perthyn iddo; ac un arall yn Rhos y bol. Yr Annibynwyr hefyd a feddant ddau gapel yma; un mawr a hardd yn y Borth, a'r llall a elwir "Saron," yn Pen rhyd y galanastra. Perthyna i'r Trefnyddion Wesleyaidd ddau gapel yn y dref; y naill at gynnal gwasanaeth Seis'nig ynddo; a'r llall at y gwasanaeth Cymreig; a meddant un arall yn y Burwen, yr hwn a elwir Capel Sion.—Mewn gair, y mae yn y plwyf yma 15 o addoldai Ymneillduol, a Llan y Plwyf, fel nad oes prinder o addysg grefyddol i'r trigolion; ac y mae yma ddwy o Ysgolion Cyhoeddus yn y dref, sef yr Ysgol Wladwriaethol, a sefydlwyd yn y flwyddyn 1821, a'r Ysgol Frutanaidd, a adeiladwyd yn fwy diweddar, a gallai tua phum cant o blant y plwyf gael addysg elfenol werthfawr yn y ddwy ysgol yma: ac y mae Ysgol Frutanaidd flodeuog arall, mewn rhan boblogaidd o'r plwyf, a elwir Rhos y bol.

Cynhelir marchnad Amlwch ar ddydd Sadwrn; ac yn ol yr Almanaciau, y mae pedair o ffeiriau i fod yma yn flyneddol; ond nid ydym yn meddwl eu bod yn cael eu cadw yn rheolaidd. Y mae y dref hon tua milldir a chwarter o hŷd; ond wedi ei hadeiladu yn lled afreolaidd.

**AMPHIBALUS.** Merthyr enwog a anwyd, yn ol Giraldus, yn Nghaerlleon ar Wysg, yn y drydedd ganrif. Efe a fu yn offerynol i enill Alban i'r ffydd Gristionogol, gan yr hwn y cafodd ei ddiogelu pan anfonodd y rhaglaw Rhufeinig filwyr i'w ddal; cyflwynodd Alban ei hun i'r milwyr, yn ngwisg ei gyfaill, ac felly cafodd Amphibalus gyfle i ffoi. Dychwelodd i Gaerlleon ar Wŷsg, a phregethodd gyda'r fath lwyddiant nes y trodd llawer i'r ffydd. Ond yn yr argyhoeddiad a gymerodd le yn adeg merthyrdod Alban, yn agos i Verulam, teithiodd tua mil o'r trigolion i Gymru, i gael eu dysgu yn fanylach yn ffordd yr Arglwydd, a derbyniodd Amphibalus hwy trwy fedydd, i Eglwys Crist, yn Nghaerlleon. Pan wybu trigolion Verulam fyned o'u cyd-drefwyr ar ol Amphibalus i Gymru, hwy a lanwyd â chymaint cynddaredd fel y cymerasant arfau, gan eu dilyn i Gymru, a'u lladd a'u darnio yn y modd mwyaf gwaradwyddus. Cymerasant Amphibalus mewn cadwynau gyda hwy yn ol i Rudburn, tair milldir o St. Alban, a llabyddiasant ef yno, â cherig i farwolaeth.

**AMROTH** (AMBROTH neu *Ambroath*), plwyf yn Nghwmwd Talacharn, Cantref Arberth, neu Narberth, swydd Penfro, Deheubarth Cymru; 7 m. deddwyrain o Narberth, yn cynwys 685 o drigolion yn y fl. 1801. Y mae y plwyf hwn, sydd ar yr ochr orllewinol i draeth Caerfyrddin, yn llawn o'r mŵn glo goreu, yr hwn sydd yn llosgi yn lân, heb fwg nac unrhyw arogl annymunol; yr hwn sydd mewn galwad mawr at sychu brag a hopus; i'r dyben hwn, y mae swm mawr yn cael ei lwytho mewn llongau, mewn lle a elwir Wiseman's Bridge, a'i anfon i Fryste a manau eraill, ar derfynau yr Hafren. Y mae y rhan hwn o'r bay yn hynod am yr eog neu y gleisiad, a physg eraill a ddelir yno mewn cyflawnder, ac a anfonir i farchnad Dinbych y pysgod. Yr oedd mŵn haiarn yn cael ei godi mewn cyflawnder yma, yn amser Cwmni Haiarn Penbre, ond nid yw y gwaith ar gerdded yn awr. Y mae y fywoliaeth yn ficeriaeth wahanedig, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Tŷ Ddewi; yn cael ei phrisio yn llyfrau y brenhin yn 3*p.* 18*s.* 6½*c.*, wedi ei gwaddoli â 600*p.* o rodd frenhinol, a 600*p.* o rodd seneddol, ac yn nhadogaeth Charles Poyer Callen, Ysw. Y mae yr eglwys wedi ei chysegreu i St. Elidyr; yn adeiladaeth hynafol, o'r cynllun Seis'nig boreuol, gyda thwr pedeir-ongl uchel, ac yn dra chymwys at wasanaeth y plwyfolion. Y mae ysgol, gyda darpariaeth i ddysgu unrhyw nifer o blant, o'r ddau ryw yma, ac wedi ei gwaddoli drwy gymun-rodd gan y diweddar D. Rees, Ysw., o Lundain, yr hwn a roddodd 20*p.* yn flynyddol i'r plwyf hwn; o ba swm, y mae 5*p.* i gael eu rhanu yn flynyddol rhwng y teilyngaf o'r tlodion, a'r gweddill at gynal yr ysgol. Y mae amryw balasau prydferth yn y gymydogaeth hon, dau o ba rai sydd yn mhlwyf Amroth. O'r rhai hyn, golygir fod Castell Amroth yn breswylfod Cadwgan ab Bleddyn, Tywysog Powys, neu o leiaf y lle yr oedd ei balas ynddo; ac wedi hyny yn breswyl y teulu a elwid Elliot, sef yr amser y gelwid ef Eare Weare; ac yn ddiweddar a ad-drefnwyd yn balas castellaidd; ac y mae yn awr yn drigfa y Parch. Thomas Strapnell Biddulph. Yn y lle hwn, yn ol tystiolaeth rhai ysgrifenwyr, y rhoddodd Cadwgan ab Bleddyn wledd ddanteithiol i'r pendefigion cymydogaethol, yn mhlith y rhai yr oedd Gerald de Windsor, arglwydd Carew, a'i wraig Nesta, yr hon y dywedir i fab Cadwgan wedi hyny ei dwyn trwy drais o gastell Carew. Y mae Colby Lodge, annedd Cadben Protheroe, wedi ei gyfleu mewn lle sydd yn agor ar olygfa brydferth ar y môr, a'r golygfeydd cymydogaethol prydferthaf yn y rhan hon o'r wlad; ac felly yn ffurfio y lle mwyaf dymunol er enciliad i dawelwch a mwynhad neillduedig. Poblogaeth y plwyf hwn yn y fl. 1861, oedd 889.

**ANARAWD**; mab hynaf Rhodri Mawr, a Thywysog Gogledd Cymru. Ar ei farwolaeth rhanodd Rhodri Mawr ei deyrnas rhwng ei dri mab; rhoddodd Gwynedd i Anarawd; y Deheudir i Cadell; a Phowys i Merfyn. Gelwid y rhai hyn "Y Tri Thywysog Talaethiog;" am fod pob un o honynt yn gwisgo ar ei helm fath o dalaeth aur lydan, wedi ei haddurno â meini gwerthfawr. Trigai Tywysog Gwynedd mewn palas a adeiladodd ei dad iddo yn Aberffraw; Tywysog y Deheudir, yn Dinefawr; a Thywysog Powys, yn Mathrafael. Ac ar yr amod hon y cawsant eu talaethau:—"Fod i'w fab hynaf Anarawd, a'i olynwyr, barhau i dalu y deyrnged henafol i goron Lloegr; a'r ddau eraill, eu hetifeddion a'u holynwyr, gydnabod penaduriaeth Tywysog y Gogledd; ac ar unrhyw ymosodiad arnynt gan estroniaid, i gynorthwyo ac amddiffyn y naill y llall."

Dechreuodd Anarawd deyrnasu yn y flwyddyn 877; ac felly, bu am bedair blynedd ar ddeg, yn cyd deyrnasu ag Alfred Fawr, brenin Lloegr.

Tua dechreuad ei deyrnasiad ef ymfudodd lluaws mawr o Frutaniaid Gogleddol Stradclwyd a Cumberland, lle yr oeddynt yn cael eu poeni a'u gwanychu yn barhaus gan y Daniaid, y Sacsoniaid a'r Scotiaid, a daethant i Ogledd Cymru at Anarawd; rhoddodd yntau ganiatad iddynt i ymsefydlu yn yr holl wlad rhwng Caer a Chonwy, ar yr amod fod iddynt yru allan y Mersiaid oeddynt newydd gymeryd meddiant o'r wlad hono. Ond nid cynt yr oeddynt wedi ymgartrefu yn y wlad, nac y daeth Eadred, Dug y

Digitized by Google

Mersiaid, a elwir gan y Cymru, "Edryd Wallt hir," â byddin allan yn eu herbyn, gan benderfynu ail feddianu y wlad. Ond y Brutaniaid, wrth weled hyny, a anfonasant eu hanifeiliaid dros afon Gonwy, er mwyn dyogelwch, ac ymarfogasant yn ei erbyn; a chynnullodd Anarawd ei nerthoedd yn nghyd i le a elwir Cymryd, yn agos i dref Conwy. Efe a ymladdodd yno â'r Sacsoniaid, ac a enillodd fuddugoliaeth drylwyr. Gelwir y fuddugoliaeth hono gan rai, "Gwaith Cymryd Conwy," ond Anarawd a fynai ei galw, "Dial Rhodri," am mai yno y dialodd efe farwolaeth ei dad, yr hwn a laddwyd gan y Sacsoniaid yn y frwydr a elwir, "Gwaith Duw Sul yn Mon." Ac fel aberth diolchgarwch i Dduw am y fuddugoliaeth hon efe a gyflwynodd symiau lled helaeth, o diroedd a meddianau, i eglwysi Colegawl Bangor, a Chlynog Fawr yn Arfon. Ond yn y cyfamser yr oedd Cadell, Tywysog y Deheudir, yn ei awydd am ragor o derfynau, wedi tori ewyllys ei dad, a thrawsfeddianu talaeth ei frawd, Merfyn. Ac yn y flwyddyn 893, aeth Anarawd, a llu mawr o Sacsoniaid yn ei gynorthwyo, allan i ddial cam Merfyn, ar Dywysog y Deheudir; ac ysbeiliasant Geredigion ac Ystradgwy. Tua'r flwyddyn 900 bu farw Cadell, ac o hyny allan daeth Anarawd yn Dywysog ar holl Gymru, a theyrnasodd arni hyd ei farwolaeth, yn 913, gan adael ar ei ol dri mab, Idwal Foel, Elis, a Meurig.

**ANDREAS** (St. Andrew's), plwyf yn Nghwmwd Is-caeth, cantref brenhinol, yn awr a elwir Dinas Powys, swydd Forganwg, Deheubarth Cymru; 6 m. de orllewin o Gaerdydd. Y mae natur y pridd sydd yn y plwyf hwn yn goch, sych, cryf, a chymwys iawn i gynnyrchu ŷd o bob math, cloron, &c.; y mae y rhan arall yn glai trwm, priodol at dyfu ffa, &c., a rhyw gyfran yn lled laith, i gynyrchu gwair a phorfa. Y mae cyflawnder o gerig calch drwy y wlad, wrth gloddio pa rai y mae llawnder o waith i'r bobl gyffredin. Y mae digonedd o *magnesia* yn y plwyf hwn. Y mae y tir yn ymgodi yn fryniau, yn ochr ogleddol y plwyf, ac yn wastad ac isel fel y mae yn tueddu at afon Bryste, neu yr ochr ddeheuol, ac weithiau yn agored i gael ei orlifo gan ffrwd a elwir Afon Dinas Powys, sydd yn rhedig drwy ochr ddeddwyreiniol rhan o'r plwyf, tu a'r de, ac yn ymarllwys i afon Bryste, rhwng plwyfi Cadoxton, a Sully, sydd yn gorwedd rhwng St. Andreas a'r ysianel. Y mae y fywoliaeth yn berigloriaeth yn archddeoniaeth ac esgobaeth Llandâf, a brisir yn llyfrau y brenhin i 14*p.* 13*s.* 1¼*c.*, ac yn noddogaeth yr Ardalydd Bute. Gelwir y pentref, Dinas Powys, oddiwrth hen amddiffynfa a fu yno, yr hwn hefyd a roddodd yr enw ar y cantref. Nid oes dim hynodrwydd arbenig yn perthyn i adeiladaeth yr eglwys; yn mhen dwyreiniol yr ystlys-gell ogleddol, yn gyfochrog â'r gangell, y mae capel teuluol a chladdfa a berthynai gynt i dylwyth cyfrifol a elwid Howel, ond sydd yn awr wedi colli, a fu yn preswylio yn Bouville, ac yn feddianol ar ran fawr o'r plwyf, yr hwn a gedwir mewn adgyweiriad gan Henry Lee, Ysw., meddianydd presenol etifeddiaeth Bouville. Y mae careg yn llawr y capel hwn yn cynwys yr argraph canlynol—"Yma y gorwedd corph John Gibson James, yr hwn a gladdwyd 14eg o Awst, 1601. A Margaret Matthew, ei wraig, a gladdwyd Ionawr 8, 1631. Efe yn naw a phedwar ugain oed, a hithau yn gant a phedair ar hugain." Y mae Persondy helaeth a chyfleus wedi ei adeiladu yno yn ddiweddar gan y Parch. William Richards. Y mae yma addoldy gan y Trefnyddion Calfinaidd. Y mae amryw roddion tu ag at gynorthwyo y tlodion, mewn symau bychain, wedi eu gadael yma; 2*p.* gan Willian David, a 10*p.* gan Thomas Stephens, yn 1669; 5*p.* gan Edward Howel, yn 1709; 5*p.* gan William Morgan, yn 1718; a 5*p.* gan Thomas Thomas, yn 1729; y mae y symau hyn wedi eu diogelu mewn ymddiried i arolygwyr y tlodion; ond nid oes crybwylliad am eu defnyddiad at ddybenion elusenol, ond yn unig at bryniad tŷ, a feddienir yn awr gan y tlodion yn ddi-ardreth. Ar ran o balas Bouville, sydd yn mhen gogledd-orllewinol y plwyf, y mae amaethdy a adeiladwyd gan R. F. Jenner, Ysw., un o hynafiaid yr hwn oedd wedi prynu y lle; y mae olion yr hen adeilad cyntefig yn aros eto. Yr oedd amddiffynfa Dinas Powys wedi ei hadeiladu yn ochr ogleddorllewinol y plwyf; dywedir iddi gael ei chodi gan Iestyn ab Gwrgant, yr hwn a ddaeth i feddiant o arglwyddiaeth Morganwg yn 1043, ac a ddaeth i feddiant o'r dosparth a elwir Tref Esyllt drwy briodas â Denis, merch Bleddyn ab Cynfyn, Tywysog Powys, yn ol enw yr hon y daeth y lle i gael ei alw Denis Powys; ond dichon nad yw y tadogaeth hwn o'r gair yn gywir, gan mai Dinas Powys y gelwid y lle er cynt, ac mai i anrhydedd ei dad yn nghyfraith y cedwid yr hen enw i barhau. Nid yw yn ymddangos oddiwrth yr olion, iddo gael ei gynllunio i fod yn lle o breswylfod sefydlog, ond yn hytrach fel noddfa i'r trigolion yn amser rhuthr-gyrchoedd y dyddiau gynt. Y mae yr adfeiliau yn gynwysedig o bedwar mur, tua deg ar hugain neu ddeugain troedfedd o uchder, a chwe throedfedd o drwch, wedi eu hadeiladu o gerig geirwon, gyda chanllawiau o tua phum troedfedd o uchder, ac esgynlawr dair troedfedd o led o fewn, yn cau allan gyntedd pedeirongl deg llath a thriugain, wrth bymtheg ar hugain o faintioli, i'r hwn y mae dau fynedfa, un, yr hwn yn eglur oedd y prif fan, yn yr ochr ddwyreiniol, ac yn awr, drwy ymollyngiad y mur, nid yw yn ddim amgen nag adwy lydan, a'r llall ar yr ochr ogleddol, tua naw troedfedd o uchder, a chwe throedfedd o drwch, gyda bwa-maen o gerig geirwon, heb erioed eu naddu. Yn y ddau fur ar y terfyn, ac yn y mur gogleddol, y mae rhes o dyllau pedeirongl, naw modfedd o agoriad, wedi eu gwisgo â chymrwd, tua phump neu chwe troedfedd o bellder oddiwrth eu gilydd, a thair troedfedd yn syth ar i fynu, er mwyn awyriad y lle; o fewn y cyntedd y mae carnedd yn codi yn raddol, o bridd a meini, hyd uchder y mur; ac yn agos i'r pen eithaf, y mae seiliau rhai o'r muriau yn aros, lled anhawdd eu holrhain, y rhai a ymddangosant fel yn ffurfio dau gyntedd bychain ar wahan. Ar yr ochr allanol i'r mur mawr, yn y gongl ogledd-orllewinol, y mae tomen lai o adfeiliau, megis gweddillion twr mewn cysylltiad â'r castell, a drws rhyngddynt, er tramwyfa o'r naill i'r llall; ac o fewn cof rhai sydd eto yn fyw, yr oedd mynedfa dan-ddaearol, yn cychwyn yn ochr y bryn creigiog, yn ffurfio sylfaen castell, yn ei gyfeiriad at y twr hwn, ond sydd yn awr wedi ei gau i fynu. Y mae yr adfeiliau hyn yn meddiant Mr. Lee, yr hwn a adgyweiriodd rai o'r muriau, i atal dinystr ychwanegol. Dywed rhai cofnodau fod yr hen gastell unwaith yn meddiant Arglwydd Brook, ac wedi hyny iddo fod yn eiddo gweddw William Hurst, Ysw. Nifer y boblogaeth yn y flwyddyn 1861, oedd 5.

**ANDREAS** (St. Andrew's), Leiaf, plwyf yn

Digitized by Google

Nghwmwd Maenor Glyn Ogwr, cantref Cron Nedd, a elwir yn awr OGMORE, Swydd Forganwg, Deheubarth Cymru, 4½ m. gogledd-orllewinol o Bont-y-fon. Y mae y plwyf hwn yn cymeryd ei enw oddiwrth gysegriad yr eglwys i St. Andreas, ac a wahaniaethir gan yr ychwanegiad *Lleiaf* oddiwrth Lan-Andreas Dinas Powys, yn yr un sir. Y mae mewn lle dymunol yn nyffryn eang Morganwg, yn mharth deddwyreiniol y swydd, yn gyfagos i draeth afon Bryste. Nid ydyw ond bychan o faintioli; y mae o fewn un etifeddiaeth a elwir Clementston, yn meddiant T. Franklin, Ysw. Y mae Clementston House, yr hwn a eangwyd ac a adgyweiriwyd yn drwyadl yn ddiweddar, i fod yn breswylfod i'r boneddwr, yn balas ardderchog iawn, wedi ei gynllunio yn drefnus. Y mae y fywoliaeth yn archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf, ac yn nawddogaeth T. Franklin, Ysw., o Clementston, yr hwn, fel meddianydd sydd yn talu i'r gweinidog y swm o 5*p*. Y mae y Llan yn adfeiliau ar hyn o bryd. Deuddeg oedd nifer y boblogaeth yn y flwyddyn 1861.

**ANEURIN GWAWDRYDD**, un o'r rhai enwocaf o'r cynfeirdd, awdwr Y GODODIN,—arwrgerdd Cattraeth. Mab ydoedd i Caw ab Geraint, Arglwydd Cwm Cowlyd, yn y lle a elwid gynt *Ottadini*, ac yn awr Northumberland. Oesai yn gynar yn y chweched ganrif, yn yr adeg gynhyrfus hono ar y wlad, pan oedd llwythau o Sacsoniaid, y naill ar ol y llall, yn dyfod drosodd i Brydain, ac yn ffurfio mân deyrnasoedd yma a thraw; fel yr ydym yn cael, erbyn y flwyddyn 582, bod yr *Heptarchy*, sef y saith deyrnas Sacsonaidd, Kent, Sussex, Wessex, Essex, Anglia ddwyreiniol, Northumberland, a Mercia, wedi eu sefydlu yn Mhrydain. Ac fel yr oedd y rhai hyn yn cael eu sefydlu, yr oedd y brodorion, un ai yn gorfod ymdawelu o dan eu llywodraeth, neu gilio ymaith i Gymru, Cornwall (*Cernyw*), ac Ystrad-clwyd, parthau mwyaf pellenig yr ynys. Ac yn y cyfnod yna yr ydym yn cael bod llawer o frodorion y Gogledd, o herwydd gormesu arnynt gan yr Engyl, y Gwyddyl, a'r Sacsoniaid, yn gadael eu gwlad, ac yn dyfod i lawr i Gymru, ac yn eu plith Cynfarch Oer, tad Urien Rheged, Tywysog Moray; Llywarch Hen, mab Elidir Lydanwyn, Tywysog Argoed; a Caw ab Geraint, Arglwydd Cwm Cowlyd, tad Aneurin Gwawdrydd. Sefydlodd Caw yn Nghwmwd Twr Celyn, yn Môn, ar dir a gafodd gan Faelgwyn Gwynedd. A dywed yr *Iolo* MSS. i Caw ddyfod a'i feibion gydag ef i Gymru, ac yn eu plith enwir Aneurin. Felly rhaid fod brwydr Cattraeth wedi cymeryd lle cyn i Caw a'i feibion ddyfod i Gymru, ac mai o achos y galanastra hwnw y daethant; neu ynte bod Aneurin, fel Llywarch Hen, ac Urien Rheged, wedi dychwelyd eilwaith i'w wlad, gyda'r amcan o wrthsefyll y gelynion, ac adenill ei derfynau. Ond y mae yr amgylchiadau hyny yn gorwedd o dan gynifer o flyneddoedd, fel nad oes obaith bellach i neb allu eu chwilio allan. Mae cymaint o hanes Aneurin ag sydd ar gael, wedi ei gadw yn *Y Gododin*, ac ychydig o *Drioedd*. Yr oedd yn mrwydr drychinebus Cattraeth, un ai fel bardd, neu fel milwr; am yr hon y dywed:—

"Dyfforthes meiwyr molud Nyfed,
Baran tan terydd ban gyneued;
Dyw Mawrth gwisgasant eu gwrm dudded,
Dyw Mercher priddaint eu calchdoed,
Difiau bu diau eu difoed,
Dyw Gwener celanedd a ymddyged,
Dyw Sadwrn bu difrwn eu cydweithred,
Dyw Sul eu llafnau rhudd ymddyged,
Dyw Llun hyd ben clun gwaedlyn gweled;
Neus adrawdd Gododin gwedi lludded,
Rhag pebyll Madawg pan adgoried
Namyn un gwr o gant yno ddeled."

Mae yn amlwg fod y Cymry wedi myned i'r gâd yn feddwon:—

"Gwyr a aeth Gattraeth oedd ffraeth y llu,
Glasfedd eu hancwyn a'u gwenwyn fu.
Gwin a medd o aur fu eu gwirawd.
Gwyr a grysiasant, buant gydnaid,
Hoedl fyrion, meddwon uwch medd hidlaid."

Trodd y frwydr mor llwyr yn eu herbyn, er fod

"Tri wyr a thri ugaint a thri chant eurdorchawg,"

yn myned i'r maes bore "Dyw Mawrth,"

"Ni ddiengis ond tri o wrhydri ffosawd,
Dau gadgi Aeron, a Chynon daerawd,
A minau o'm gwaedffrau, gwerth fy ngwenwawd."

Diangodd y bardd, fel Horace gynt, oblegid gwerth ei wenwawd—ei *gân wen;* ond er hyny cafodd ei ddal, a'i gadwyno mewn daeardy:—

'Estynawg fy nglin yny ty daiarin,
Cadwyn haiernin am ben fy neulin."

Ond achubwyd ef oddi yno, gan Cenau ab Llywarch Hen:—

"O nerth y cleddyf claer ym hamag
O garchar anwar daiar ym dug,
O gyfle angau, o angar dud
Cenau fab Llywarch dihafarch drud."

Ac wedi cael ei draed yn rhydd o'r carchar, efe a ddaeth i Gymru, ac a ymnoddodd yn Nghôr Cattwg, yn Llanfeithin, Morganwg; lle y cyfansoddodd ei *Ododin*, ac mae yn dra thebyg, oddi wrth y penill canlynol, fod Taliesin yno ar y pryd:—

'Mi wnaf fi, Aneurin, ys gwyr Taliesin,
Ofeg gyfrenin, ganig Ododin,
Cyn gwawr dydd dilin."

A dywed traddodiad i Eiddyn, mab Eingan, daro y bardd â bwyall ryfel yn ei ben, ac mai dyna fu ei ddiwedd. A hyny a eilw y *Trioedd* yn un o "Dair anfad fwyellawd Ynys Prydain."

*Y Gododin* yw y gân feithaf ac enwocaf o holl hen ganiadau y Cymry. Ei sylfon yw brwydr Cattraeth, a gellir ei hystyried yn fath o arwrgerdd, neu yn fwy priodol, fe allai, yn luaws o fawl-gerddi, a galargerddi byrion, i'r gwroniaid a syrthiasant yn y gyflafan ofnadwy hono. Mae llawer o annghydwelediad yn bodoli am ystyr yr enwau, *Gododin*, a *Chattraeth;* ond y mae yn ddilys mai enw y gân yw *Gododin*, ac mai enw y frwydr, yr hon mae y gân yn gofnodi, yw *Cattraeth;* ac ymddengys i'r gân gael ei henwi oddiwrth y llwyth ag y bu y frwydr hono yn ddinystr arno yn Ngogledd Prydain.

Mae yn wybodus mai *Ottadini*, oedd enw y llwyth Prydeinaidd, ag oedd gynt yn preswylio y lle a elwir yn awr Northumberland, a bod yr enw yn deilliaw o *Gododini*,—gair yn arwyddo, yn yr hen Gymraeg, bobl yn preswylio parthau ar derfynau cysgodwydd, yr hyn sydd yn hollol ddysgrifiadol o'r wlad dan

Digitized by Google

sylw. Ac mae hanes fod Cunedda Wledig "wedi dyfod ar y cyntaf o'r parth Gogleddol, o'r ardal a elwir *Manau Gododin.*" Felly mae yn amlwg mai *Gododin*, oedd enw adnabyddus y llwyth Prydeinaidd, ag oedd yn preswylio y parthau hyny. Ac o ganlyniad yr oedd yn ddigon naturiol i'r bardd gymeryd enw y llwyth ar ei gân, gân mai yn y frwydr, yr hon mae y gân yn adrodd ei hanes, y difodwyd y llwyth hwnw, fel llwyth; ac y collodd cenedl y Cymry "deyrnedd y Gogledd" am byth.

Tybia Thomas Stephen i'r frwydr hono gael ei hymladd yn y lle a alwai y Rhufeiniaid Cataracton, y Catterick presenol; ond tybiai Ab Ithel, mai Catrail sydd yn cynddrychioli y lle; tra mai y Celtic Davies yn rhoi i'r enw ystyr farddawl, gan farnu mai Cadeiriaith, neu yn dalfyredig Cadriaith, yw ei ystyr. Ond dywed John H. Parry bod yn ddiamau mai *Cad* a *Traeth* (*the Battle-Strand*), yw ei ystyr; a bod amryw awgrymiadau yn y gân, yn dangos i'r frwydr gael ei hymladd ar draeth y môr. Ac y mae amryw yn barnu mai yn nghymydogaeth Alnwick, neu rhwng Alnwick ar môr, y cymerodd hyny le.

Nid yw yn wybodus pwy oedd yn arwain y byddinoedd yn Nghattraeth, na pha flwyddyn y cymerodd y frwydr le. Tybia Parry mai Ida, brenin ofnadwy Northumberland, yr hwn a eilw y Cymry Fflamddwyn, oedd yn arwain y Saeson; ac mai Urien Rheged, oedd yn arwain y Cymry; ac i'r frwydr gael ei hymladd tua'r flwyddyn 540. Ac y mae Taliesin, yn un o'i ganiadau, yn galw Urien Rheged yn "Llyw Cattraeth;" yr hyn sydd yn myned yn lled bell i brofi bod tybiaeth Parry yn gywir.

Y mae hanes am Urien Rheged, ac Owain ei fab, a Llywarch Hen, a'i feibion yntau, yn fuan ar ol brwydr Llongborth yn 530, yn ymgyngrheirio â'u gilydd, ac yn dychwelyd i'r Gogledd, i ymladd ag Ida. A dywedir mai dyna'r pryd y lladdwyd Urien yn fradwrus, tra yn gwarchae Deorie, mab Ida, yn Ynys Lindisfarne, a elwir yn awr *Holy Island*, ar dueddau Northumberland. Ai nid hono oedd brwydr Cattraeth? Mae yn dra sicr fod pedwar o feibion Llywarch Hen wedi syrthio yn y gyflafan hono; a thybia Parry fod penill yn *Y Gododin*, yn awgrymu bod yr hen ryfelwr ei hun hefyd o dan arfau yn yr un frwydr. Dyma ei gyfieithiad ef o'r penill:—

> "Grievously would I be afflicted, for
> Fondly would I cherish,
> The illustrious solitary one;
> And the men of Argoed."

A dywed nad yw braidd yn bossibl i gymwyso yr ymadrodd "*the illustrious solitary one*," pan yn gyssylltiedig a "*the men of Argoed*," at neb ond Llywarch. Ond dywed *Y Gododin* na ddiangodd neb o Gattraeth ond, "dau gadgi Aeron, a Chynon daerawd," yn nghyd ag Aneurin ei hun; ac mae hanesiaeth yn dywcyd bod Llywarch Hen wedi dianc o frwydrau y Gogledd, i Lys Cynddylan, ac oddi yno i Lanfor, ger y Bala; lle bu farw yn y flwyddyn 646, yn 150 mlwydd oed. Felly nis gallasai efe fod yn Nghattraeth, neu y mae yn rhaid penderfynu fod *Y Gododin* yn annghywir.

Ond y gred gyffredin yw, mai Owain ab Urien oedd yn arwain y Cymry yn Nghattraeth, ac mai efe yw y "Cu Cyfaillt Owen" y sonir am dano yn y gân. Mae yn amlwg mai dyna syniad Lewis Glyn Cothi, pan y dywed:—

> "Bwriodd Owain ab Urien
> Y tri thwr yn Nghattraeth hen;
> Ofnodd Arthur fel goddaith
> Owain, ei frain, a'i ffon fraith."

Ond yn marwnad Owain ab Urien, yr hon a briodolir i Taliesin, dywedir mai efe a laddodd Ida, brenin Northumberland, yn y flwyddyn 560. Ac os cywir hyny, yna rhaid, un ai mai nid efe yw Owain brwydr Cattraeth, neu ynte, mai ar ol lladd Ida, ac fel y tybia Ab Ithel, mai tua y flwyddyn 570, y cymerodd hono le. Ac yna mae yn canlyn eto, mai nid Ida oedd yn arwain byddin y Saeson ar y pryd hwnw. Fe allai bod yn annichonadwy i neb yn awr allu taflu goleuni ar yr anhawsderau hyn, ond nid yw hyny yn amharu dim ar ddilysrwydd *Y Gododin;* yr hyn y mae arddull y cyfansoddiad, nodwedd yr iaith, a ffyddlondeb yr adroddiad i gyflwr cythryblus yr oes hono, wedi ei osod tu hwnt i bob amheuaeth. Mae y gân, yn argraffiad Llanymddyfri, o dan olygiaeth Ab Ithel, yn cynwys dros 900 o linellau, ar fesurau amrywiol, ac wedi ei dosranu i 97 o benillion. Ond dywed traddodiad ei bod, pan yn ei chyflwr cyntefig, cyn cael ei hamharu a'i hacru gan adysgrifenwyr, yn cynwys tri chant a thriugain a thri o benillion, sef penill ar gyfer pob un o'r aurdorchogion a gychwynasant i Gattraeth; ac y mae lle i gredu ei bod y pryd hwnw yn gyfansoddiad cywrain, a hynod o orchestol.

Ond er gwaethaf anffodion deuddeg cant o flynyddoedd, mae *Y Gododin* yn parhau i fod yn un o ganiadau gwerthfawrocaf yr iaith, nid oblegid ei theilyngdod barddonol yn unig, er nad yw hwnw mewn un modd yn isel; ond oblegid ei hoedran mawr, a'r ffeithiau hanesyddol y mae yn gynwys. Mae yn dyfod atom megis o'r cynfyd pell, ac yn profi bod cenedl y Cymry y pryd hwnw, er yn analluog i wrthsefyll eu gelynion lluosocach ar faes y gwaed, eto wedi cyrhaedd y fath radd o ddadblygiad meddyliol, ag oedd yn eu galluogi i gynnyrchu cyfansoddiadau barddonol, y fath nad oedd gan eu gorchfygwyr, y pryd hwnw, nac mewn chwe chant o flynyddau ar ol hyny, ddim a ddeil ei gydmaru â hwynt.

Mae yn wir nas gellir gosod *Y Gododin* ochr yn ochr a'r *Iliad*, neu'r *Æneid;* ond dylid cofio nad oes dim ond *un Iliad*, ac *un Æneid* yn y byd: a bod pellder anrhaethol rhwng yr iselaf o honynt a'r *Canterbury Tales*—engraifft uwchaf y Saeson yn y bedwaredd ganrif ar ddeg!

Mae rhai henafiaethwyr enwog, megis Iolo Morganwg, a Dr. Owen Pughe, wedi cael eu harwain i dybied mai yr un person oedd Aneurin, a Gildas, yr hanesydd. Ond ystyrir bod anianawd a chymeriad gwahanol y ddau, yn profi yn derfynol nad oes sail ddigonol i'r fath dybiaeth. Yr oedd Aneurin yn llawn o ysbryd gwladgarol a barddonol, tra yr oedd Gildas yn cael ei nodweddu gan ysbryd meudwyaidd a sarug, yn beio ei genedl, ac yn diraddio y beirdd. Bu farw Gildas yn ei feudwyfod yn Ynys Afallon, a llofruddiwyd Aneurin yn Llanfeithin, Morganwg.

**ANGLE**, neu NANGLE, sydd yn Nghwmwd Coed yr Haf (a elwir yn awr Castle Martin), Swydd Benfro, yn y Deheubarth. Y mae y plwyf hwn yn mhen de-orllewinol y sir, ac mewn ongl o borthladd Aberdau-gleddau, ac yn angorfa fanteisiol i longau yn y bay. Y mae cerig calch, o rywogaeth ragorol, i'w cael mewn cyflawnder yma, ac fel y mae eu gwyneb yn hawdd i'w gaboli, defnyddir hwy yn fynych at

Digitized by Google

fantellu simfäau, ac y mae swm mawr yn cael ei losgi at wrteithio yma. Y mae nifer o'r merched yn y gorchwyl o blethu gwellt at foneti a matiau yma, yn ystod y tymor; a nifer o'r meibion yn y gwaith o gasglu llymeirch ar y traeth. Y mae y fywiolaeth yn bersonoliaeth ar wahan, gyda ficeriaeth, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Tŷ Ddewi, yn cael eu trethu yn llyfrau y brenhin, y naill i 10*p.* 10*s.* a'r llall i 3*p.* 19*s.* 2*c.*; y blaenaf yn nawddogaeth y Goron. ac y mae wedi ei waddoli â 400*p.* o rodd frenhinol, a'r olaf yn nawddogaeth Esgob Tŷ Ddewi; y mae dwy ran o dair o'r degwm yn cael ei gyflwyno at y bersonoliaeth, a'r drydedd ran at y ficeriaeth. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i Mair. Y mae yma ysgol er addysgu tua phump ar hugain o enethod tlodion, ar draul Mrs. Mirehouse, o Brownslade, yn mhlwyf Castle Martin. Y mae yn agos i'r fynedfa i'r hafan, weddillion o hen adeilad, a elwir y Block House, am ddechreuad a dyben yr hwn nid oes yr un hanes ar gael; oddiwrth ei sefyllfa, tybir iddo gael ei adeiladu tuag amser Harri VIII., neu Elisabeth, fel amddiffyniad i'r fynedfa. Y mae palas yn gyfagos i'r eglwys, a elwir *Yr Hall*, eiddo John Mirehouse, Ysw., o Brownslade, i'r hwn y perthyna meddiant yr holl blwyf, yn awr yn nghymeriad deiliad. Y mae y plwyf yn cynwys tua 1200 o erwau o dir, o'r hyn y mae tua 200 heb ddyfod dan wrteithiad. Dywedai Lewis Morris, fod y lle hwn yn fanteisiol iawn i ddiogelwch y llongau rhyfel mawrion. Y boblogaeth yn 1861, oedd 512.

**ANNGHARAD**, unig ferch ac etifeddes Meredydd ab Owain, a phriod Llewelyn ab Sitsyllt, tywysog holl Gymru. Yn rhinwedd ei briodas âg Anngharad daeth Llewelyn i feddiant o Ddeheubarth a Phowys, yn y flwyddyn 998; ac wedi iddo ladd Aeddan ab Blegwryd, yn 1015, fe ddaeth i feddiant o holl Gymru.

Mae hanes Anngharad wedi ei gydwau â hanes ei phriod, fel y mae yn anhawdd eu gwahanu. Ond dywedir mai dan eu teyrnasiad hwy y gwelodd Cymru y llwyddiant cenedlaethol mwyaf. Bod y tir yn rhoddi cnwd dauddyblyg, y trigolion yn amlhau, yr anifeiliaid yn lluosogi, a'r bobl yn llwyddo yn eu hamgylchiadau, fel nad oedd un yn cardota ei fara trwy holl Gymru, o fôr y Dëau hyd fôr y Gogledd; eithr yr oedd gan bawb lawnder—pob tŷ aneddwyr, a phob tref drigolion. A sicrheir bod gan Anngharad law neillduol yn nygiad yn mlaen y llywodraeth a gynnyrchai y fath lwyddiant. Yr oedd tuedd naturiol Llewelyn a'i dywysoges, at feithrin heddwch yn y wlad, a noddi y celfyddydau ymarferol yn mhlith eu deiliaid. Hwy a adeiladasant Gastell Rhuddlan, ac a'i gwnaethant yn drigfa frenhinol.

Ganwyd iddynt un mab, yr hwn a elwir Gruffydd, dan deyrnasiad yr hwn, yn ol y chwedl, y cafodd llinach y *Stuardiaid* ei dechreuad yn Nghastell Rhuddlan. Gwel GRUFFYDD AB LLEWELYN AB SITSYLLT.

Yn y flwyddyn 1021, syrthiodd Llewelyn i law y llofrudd a roddasid ar waith gan Madog Min, esgob Bangor. Ac wedi hyny priododd Anngharad Cynfyn Hirdref, mab Gwerystan, arglwydd Cibwyr, yn Ngwent, ac o'r briodas hono, ganwyd Bleddyn, tywysog Gwynedd a Phowys o 1062 hyd 1072.

**ANNGHARAD**, merch Owen ab Edwyn, arglwydd Tegeingl, a gwraig Gruffydd ab Cynan, tywysog Gwynedd, oedd foneddiges o waedoliaeth isel, ond nodedig oblegid ei phrydferthwch, ei doethineb, a'r gorthrymderau yr aeth trwyddynt, yn yr oes gythryblus a bradwrus hono. Gwel GRUFFYDD AB CYNAN.

**ANNGHARAD**, Y LLEIAN, yn ol traddodiad, ydoedd unig ferch Ifor Hael, arglwydd Maesaleg. Dywedir mai arni hi y rhoddodd y cariad-fardd, Dafydd ab Gwilym, ei serch gyntaf; ac mai hi oedd "Dyddgu, a'r gwallt gloywddu glân," i'r hon y canodd efe wyth cywydd; ond gwastraff fu ei gariad a'i gywyddau; gan nad oedd y tad yn foddlawn i'r garwriaeth, efe a ddanfonodd ei ferch i Leiandy yn Mon, ac ni chlybuwyd am dani mwy.

**ANNIBYNIAETH**; enw arferol i ddynodi plaid grefyddol, a greda fod hawl gan bob eglwys, dan y Testament Newydd, i farnu drosti ei hun, yn ol gair Duw, am bethau crefyddol; ac i weithredu yn ol ei barn, heb fod yn gyfrifol i yr un person, llŷs, cymanfa, cynghor, senedd, nac awdurdod unrhyw eglwys arall ar y ddaear am hyny. Defnyddir amryw enwau eraill i ddynodi y blaid hon, nad oes iddi fwy o hawl ynddynt na rhai enwadau eraill; ac na ddewiswyd ganddi hi ei hun erioed, eto, rywfodd yn anghyfrifol, a ddaethant i ymarferiad cyffredin, megis Ymneillduwyr, Anghydffurfwyr, Ardystwyr, Gwirfoddolwyr, &c. Efallai mai yr enw mwyaf priodol i'r aelodau ar y cyfan ydyw *Cynulleidfawyr*, neu *Cynulleidfaolwyr*, er nad ydyw yr ymadrodd yn ddigon nodweddiadol i'w darlunio yn drwyadl. Y mae eglwysi eraill yn Annibynol, ond rhai o honynt heb fod yn Gynulleidfaol; ond nid oes yr un eglwys Gynulleidfaol heb fod yn Annibynol. Mewn ymarferiad cyffredin, yn Nghymru, pan yr enwir "*Dissenters*," meddylir y blaid hon, ac nid yr un arall. Gwel CYNULLEIDFAOLAETH.

**ANWYL**, PARCH. LEWIS, gynt gweinidog Ysbyty Ifan, ac wedi hyny, Abergele; ac awdwr y llyfrynau canlynol:—"Y Nefawl Ganllaw, neu'r uniawn ffordd i fynwes Abraham." "Myfyrdodau Wythnosawl, sef myfyrdod am bob dydd yn yr wythnos, yn enwedig amser y Grawys." "Cyngor yr Athraw i Rieni yn nghylch dwyn eu plant i fynu, yn cynwys rhai meddyliau neillduol ar y testyn hwnw." "Hyfforddiadau eglur i'r ieuanc a'r anwybodus; yn cynwys eglurhad hawdd a chryno o Gatechism yr Eglwys, wedi ei gymwyso i ddeall a choffadwriaeth y rhieni o'r synwyr iselaf."

Symudodd i ficeriaeth Abergele yn 1742, gan gymeryd ei anedd yn Nhyddyn Forgan; ac yno y bu hyd ei farwolaeth. Claddwyd ef yn agos i'r fedyddfaen, yn llawr ei Eglwys, Chwefror 27, 1776.

Mae traddodiad yn nghymydogaeth Abergele, mai efe yw awdwr "Cathl y Gair Mwys." Gwel ABERGELE.

**ARDDUR** (ARDDAU), trefgordd yn mhlwyf Llanbedr-y-cennin, Cantref Llechwedd Isaf, swydd Gaernarfon, Gogledd Cymru, 4 m. o Lanrwst, yr ochr ogledd orllewinol, yn cynwys trefgordd Dol-y-Garrog. Y mae ei sefyllfa rhwng afonydd Dolgarrog a Dulyn, yn hen arglwyddiaeth Arddur, yn rhan o feddianau plwyfol Abad-dŷ Maenan.

**ARGOED** sydd drefgordd gysylltiedig ag YSTRAD, yn mhlwyf Tregaron, Swydd Aberteifi, yn y Deheubarth. Y mae yr enw yn arwyddo lle cysgodol yn mysg y coed;—yn nyffryn Teifi. Y mae tref farchnad Tregaron ar lan y Berwyn, yn agos i'w huniad a'r afon Teifi, yn y drefgordd hon.

**ARTHOG** (CAPEL ARTHOG) sydd bentref yn nhrefgordd Cregennan, yn mhlwyf Llangelynin,



Digitized by Google

Cantref Tal y bont a Mawddwy, yn Meirionydd, Gogledd Cymru, 6½ m. (gorllewin-dde-orllewin) o Ddolgelley. Y mae y lle hwn ar y ffordd o Dolgelley i Lwyngwril, ar yr ochr ddeheuol i'r afon Maw, neu Mawddach. Yn agos i'w hymarllwysiad i fay Abermaw y mae mawnogdir, o'r lle y cloddir llawer o fawn, a anfonir mewn badau i Abermaw a Llanelltyd, ac yn mlaen mewn menau i Ddolgelley, a'r cymydogaethau, at danwydd yn y plwyf hwn. Y mae palas Arthog yn adeilad gwych, ar y cynllun Seisnig, ar lechwedd dderchafedig, yn cael ei gysgodi gan fryniau uchel, ar ochrau pa rai y mae planwyddfeydd eang, yn rhoddi golygfa brydferth ar fay Abermaw, a dyffryn Mawddach, can belled a Dolgelley. Y mae ar y terfynau, raiadr rhamantus iawn, a elwir Afon Cregennan. Codwyd capel yma, rai blynyddau yn ol, ar draul dau o feddianwyr dilynol etifeddiaeth Arthog. Y mae y fywoliaeth yn nawddogaeth Reginald Fowden, Ysw., y meddianydd. Y mae gan y Trefnyddion Calfinaidd le o addoliad ac Ysgol Sabbathol yma.

**ARTHUR,** Frenin, yr hwn hefyd a elwir Arthur Gawr, a anwyd yn niwedd y bumed ganrif. Mab ydoedd i Uthr Bendragon, o Eigr, gwraig Gorlais, tywysog Tintagell, yn Nghernyw, a merch Amlawdd Wledig, yr hwn y sonir am dano yn Mabinogi Cilhwch ac Olwen. Taflodd Dr. Owen Pughe amheuaeth ar hyn unwaith, trwy ddyweyd mai mab ydoedd i Meirig ab Tewdrig, tywysog Deheubarth: ond ymddengys ddarfod i Pughe gamgymeryd Arthur ab Uthr, am Arthrwys, neu Arthruis ab Meirug, yr hwn oedd yn byw tua'r un amser, ond yn berson hollol wahanol.

Mae yn amhossibl bron i neb yn awr allu treiddio at wir ffeithiau hanes bywyd un sydd wedi bod yn destyn cynifer o gerddi, mabinogion, a rhamantau, ag ydyw Arthur; yr hwn oedd yn byw mewn oes nad oedd yr un hanesydd yn cofnodi ei helyntion. Llywarch Hen yw yr unig un o'i gydoeswyr, ag sydd yn crybwyll am ei enw; ac fe gyduna y beirniaid bod dilysrwydd llawer o'r gweithiau sydd ar enw yr hen fardd hwnw, yn bwnc nas gall neb ei brofi. Felly i Nennius, yr hwn a ysgrifenodd ei *Historia Brittonum,* yn yr wythfed ganrif, yr ydym yn ddyledus am y ffeithiau cyntaf a gawn yn hanes Arthur Frenin. O ganlyniad gallwn ddisgwyl yn naturiol, bod hanes a adawyd am ddwy ganrif, i nofio mewn traddodiadau ar hyd wyneb y wlad, ac i gael ei drin a'i foldio gan ddychymyg di lywodraeth y werin hygoelus, ac a syrthiodd wedi hyny, yn y ddeuddegfed ganrif, i'r fath ddwylaw a'r eiddo Sieffre o Fynwy, a Robert o Gaerloyw, ac a ledaenwyd, fel ar edyn cyfaredd, mewn pob math o chwedlau a rhamantau, dros holl Ewrob ac Asia, ac a arferid ei goginio at archwaeth y fath gymeriadau a Harri yr Wythfed ac Elizabeth, i'w difyru mewn gwleddoedd—yn rhwym o fod wedi cael ei ddirywio i'r fath raddau, nes y mae yr Arthur gwirioneddol wedi ei golli mor llwyr yn Arthur y rhamantwyr, fel o'r braidd y gellir credu fod y fath berson erioed wedi bodoli, yn un lle ond yn nychymyg chwedlonwyr.

Ond y mae pob un a gymero y drafferth i chwilio i'r pwnc, yn gweled ar unwaith fod seiliau mor gedyrn i fodolaeth Arthur, ag sydd i fodolaeth unrhyw un arall o frenhinoedd Cymru; neu i fodolaeth Cerdic, yr hwn oedd yn arwain byddinoedd y Saison i ryfela ag Arthur; ac na wnaeth rhamant gyda chymeriad Arthur, ddim ond yr hyn ag mae yn arferol o wneyd gyda phob person a fyno hi ei anrhydeddu, sef adeiladu teml ëang a gorwych, ar sylfaen syml gwirionedd. Ac mae y ffaith ei bod wedi gwneyd cymaint o gymeriad Arthur, yn profi ar unwaith fod ynddo ryw lawer o ragoriaethau ag oedd yn ei nodi allan o blith ei gydoeswyr, fel gwrthddrych cymwys i ramant liwio ac addurno pob rhan o'i hanes.

A chan na buasai yn deilwng o grebwyll rhamantwyr, iddynt adael i Arthur ddyfod i'r chwareufwrdd fel marwolion eraill, dywedant i Uthr Bendragon syrthio mewn serch angerddol âg Eigr, gwraig Gorlais, arglwydd Tintagell, yn Nghernyw; ac iddo gael gan Myrddin Ddewin, trwy hud a lledrith, ei drawsffurfio ef i wedd Gorlais, er twyllo y wraig, ac mai felly y ganwyd Arthur. Y mae yn ffaith fod murddyn hen Gastell Tintagell, yr hwn a saif yn Nghantref Llys Newydd (*Lesnewth,*) yn Nghernyw, yn dangos iddo fod gynt yn lle o fawr gadernid ac enwogrwydd. Saif ar ben craig uchel, yr hon a ymestyna allan i'r môr, nes y mae braidd a chael ei hamgylchu gan ddyfroedd. A sonia Carew, Norden, a Leland am dano, fel lle dirgel, a hynod o anhygyrch. A chan mai ar hwn y mae traddodiad yr oesau wedi ymsefydlu fel lle genedigaeth Arthur, oferedd bellach fyddai i neb geisio ei aflonyddu.

Nid oes genym un wybodaeth am ddyddiau mebyd Arthur, ond ymddengys iddo, mewn adeg o gyfyngder, gael ei ethol trwy gydsyniad cenedlaethol, ac efe eto yn lled ieuanc, i fod yn benteyrn ynys Prydain. Nid yw haneswyr yn cytuno ar y flwyddyn y cymerodd hyny le. Dadleua Dr. Owen Pughe dros y flwyddyn 517, a Whittaker dros 508; ond dywed chwedloniaeth iddo gael ei goroni gan Archesgob Llandâf, yn y flwyddyn 506, pan yn bymtheg oed. Fel hyn y dywed Llyfr Llandâf:—"Yn y flwyddyn 506, darfu i Dyfrig, Archesgob Llandâf, goroni yr enwog Frenin Arthur, yn ninas Cirencester, yn y bymthegfed flwydd o'i oedran. Ac wedi i glod ei ryddfrydigrwydd a'i rinwedd, ymdaenu dros barthau pellaf y byd, ac iddo ddarostwng amrywiol genhedloedd, trwy ryfeloedd gwaedlyd a llafur, efe a achosodd i Archesgobion, Esgobion, Brenhinoedd, Tywysogion, a Phenaethiaid, a ddarostyngwyd ganddo, i ymgynull yn Ninas y Llengoedd (*Caerlleon ar Wysg*), ac yno i gadw gwyl fawr y Sulgwyn; y rhai, wedi cael anfon am danynt, a chyrhaeddyd yno, a orchymynwyd i ddangos ufudd-dod iddo, oblegid ei urddasolrwydd, ac yntau a waddolodd bob un o honynt yn haelfrydig; ac wedi iddynt dderbyn caniatad, hwy a ddychwelasant oll mewn llawenydd." Fel y canlyn y dywed Nennius am dano, ac am y brwydrau a ymladdodd:—"Y pryd hwnw [wedi son am Hengist] yr ymladdodd y rhyfelgar Arthur, yn nghyda milwyr a breninoedd Prydain, yn eu herbyn hwynt [y Saison]; ac er bod amryw o haniad ardderchocach nag ef, eto bu ddeuddeg gwaith yn dywysog rhyfel, ac yn orchfygwr y brwydrau. Y frwydr gyntaf yn eu herbyn, a ymladdodd gerllaw yr afon a elwir Glain. Yr ail, y drydedd, y bedwaredd, a'r bumed, ar afon arall, yr hon yn yr hen Frythonaeg a elwir Dulas, yr hon sydd yn ardal Linnius. Y chweched frwydr a fu wrth yr afon a elwir Bassas. Y saithfed frwydr a ymladdodd yn eu herbyn, yn Nghoed Celyddon, hono yw Câd Coed Celyddon. Yr wythfed frwydr a ymladdodd yn erbyn y Barbariaid, gerllaw Castell Gwynion, yn yr hon y cludai Arthur ar ei ysgwyddau ddelw Croes Crist, a'r Sant-

Digitized by Google

aidd Fair, y wŷryf wastadol; a'r holl ddiwrnod hwnw, y gyrwyd y paganiaid i gilio; llawer a syrthiasant; a lladdfa fawr a wnaethpwyd arnynt, trwy rinwedd ein Harglwydd Iesu Grist, a'i fam santaidd Ef. Y nawfed frwydr, a ymladdodd efe yn Ninas y Lleng, yr hon yn iaith y Brython, a elwir Caerlleon. Y ddegfed frwydr, a ymladdodd efe ar lan yr afon a elwir Rhybrwyd. Yr unfed frwydr ar ddeg a fu yn y mynydd a elwir Bregwyn, lle y gyrwyd hwynt ar ffo, yr hon yr ydym ni yn ei galw Câd Bregwyn (Cat Bregion.) Y ddeuddegfed frwydr, a hono o'r fath ffyrnicaf, a ymladdodd Arthur yn Mynydd Badon, yn yr hon y syrthiodd yn yr un amser, naw cant a deugain o wŷr, trwy ei ruthr ef ei hun, heb neb o'r Prydeiniaid yn ei gynorthwyo. Yn yr holl frwydrau rhagenwedig, dywedir ei fod yn fuddugol bob amser, fel y bu amryw eraill o filwyr y Prydeiniaid. Eithr nid oes un dewrder na challineb a lwydda yn erbyn ewyllys Duw. Po fwyaf lleddid o'r Saison mewn brwydrau, mwyaf oll y chwanegid atynt o'r Almaen, gan Saison eraill, yn ddibaid; a hwy a wahoddasant freninoedd a blaenoriaid atynt, oddiwrth yn agos yr holl ardaloedd hyny. A hyn a wnaethant hyd yr amser y teyrnasodd Ida."

Dyna gymaint a ddywed Nennius ar y pwnc, a gellir ystyried cymaint a hyna yn hanesiaeth. Ond y mae enwau y lleoedd a'r afonydd uchod wedi eu colli mor llwyr, fel nad oes gan neb yn awr ond damcaniaeth wan am eu lleolaeth.

Ymdrecha Whittaker, yn Hanes Manchester, brofi bod un ar ddeg o'r brwydrau uchod wedi eu hymladd yn Swydd Lancaster, a'r Gogledd; ond y mae yr hen draddodiadau Cymreig yn gosod y rhan fwyaf o honynt yn y Deheubarth, a thybiwn yn sicr mai yr hen draddodiadau sydd agosaf at y gwir.

Sonia Llywarch Hen am frwydr a ymladdodd Arthur wrth afon *Llawen*, a thybia rhai mai yr un yw *Llawen* a'r *Glain*, ac felly mai hono yw y frwydr gyntaf yn nghofres Nennius.

A chrybwylla Llywarch Hen am frwydr arall a ymladdodd Arthur yn *Llongborth*, yn yr hon yr oedd efe ei hun yn wyddfodol, pan y syrthiodd ei gyfaill, Geraint ab Erbin, i'r hwn y cyfansoddodd efe farwnad. Ond mae lleolaeth *Llongborth* wedi ei gamgymeryd gan yr holl haneswyr hyd y dydd hwn. Digwyddodd Dr. Owen Pughe ryw dro, yn ei anwybodaeth, ddyweyd bod Llongborth yn rhywle yn neheubarth Lloegr, tuag ardal Portsmouth, ac felly dilynodd yr haneswyr ef, y naill ar ol y llall, heb gymeryd trafferth i edrych i mewn i'r pwnc; pan mewn gwirionedd fod digon o sicrwydd mai yn mhlwyf Penbryn, Swydd Aberteifi, y mae. Mae yno amaethdŷ henafol o'r enw *Llanborth*, a lle yn ymyl o'r enw Aberporth; ac mae yn yr ardal hono lawer iawn o olion hen ryfeloedd, ac arwydd sicr mai yno y syrthiodd Geraint, yr hwn a ymladdai yn mrwydr Llongborth, oblegid mae yno fêdd henafol, yr hwn a elwir "Bêdd Geraint" hyd y dydd hwn. Pan agorwyd ef yn niwedd y ganrif ddiweddaf, cafwyd ynddo amryw esgyrn dynol, a modrwy aur, anghyffredin o faint. Yno hefyd y mae afon o'r enw Dulas, a "Chilfach Rhodri," lle yr oedd hyd yn ddiweddar fedd-faen Rhodri Mawr, yr hwn a gymerodd rhyw amaethwr i wneyd pont dros yr afon.

Y frwydr nesaf, a'r olaf a ymladdodd Arthur, yw brwydr alaethus Camlan. Priodola y *Trioedd*, a'r *Chwedlau* yr achos o'r frwydr hon i fradwriaeth Medrod, mab Llew ab Cynfarch, a nai fab chwaer i Arthur, yr hwn wedi methu yn ei amcanion, a alwodd am gymorth y Saison, y Ffichtaid, a'r Ysgotiaid, i ymladd âg Arthur. Cyfarfu y byddinoedd ar faes Camlan, lle y lladdwyd Medrod, ac y derbyniodd Arthur archoll farwol. Cymerwyd ef oddi yno i Ynys Afallon (Glastonbury), lle y bu farw ac y claddwyd ef. Ac yn marwolaeth Arthur syrthiodd annibyniaeth Ynys Prydain. Fel y dywed Gwallter Mechain:—

> "Nid estrawn fu ei distryw,
> Ond trefwr—gwladwr—a glyw!
> Ym mhob oes, er croes, er crain
> Bradwyr a friwent Brydain."

Mae dyddiad a safle y frwydr uchod yn anmhenderfynol. Y dyddiad cyffredin a roddir iddi yw 542; ond, y mae yr *Annales Cambriæ* yn ei rhoi bum mlynedd yn gynarach:—"537, Gwaith Camlan, yn yr hwn y cyd syrthiodd Arthur a Medrawd; ac y bu marwoldeb mawr yn Ynys Prydain ac Iwerddon." Gesyd rhai Camlan, yn Kirby Lonsdale, Westmoreland, eraill a'i lleolant yn agos i Camelford, ar lan yr afon Camel, neu Alan, yr hon yn ol Camden a elwid gynt *Camblan*. Ond tueddir ni yn gryf i dybied mai yn agos i Aberangell, swydd Drefaldwyn, y cafodd y frwydr ei hymladd. Mae yn yr ardal hono leoedd sydd yn dwyn yr enwau canlynol hyd y dydd heddyw—Camlan, Maes Camlan, Bron Camlan, Pont y cleifion, Brithdir coch, yn nghyd ag amryw eraill, sydd yn profi i'r lle hwnw fod yn faes rhyw frwydr neillduol. A chan nad oes dim yn yr hanes yn ffafrio y Gogledd, na Chernyw, na dim yn arwyddo mai afon ydyw Camlan; a chan y dywedir i Medrod fyned i ymofyn cymorth y Saison, y Ffichtaid a'r Ysgotiaid; y mae yn naturiol meddwl i'r rhai hyny ymgynull yn nghyd yn rhywle yn nghanolbarth Lloegr, ac iddynt oddi yno ymdeithio tua Chymru, ac i Arthur a'i wŷr eu cyfarfod yn y bwlch, rhwng mynyddoedd Meirion a Threfaldwyn, ac mai ar y llecyn, sydd yn cadw yr enw Maes Camlan hyd y dydd heddyw, y derbyniodd Arthur ei glwyf angeuol, ac y syrthiodd "Teyrnedd Ynys Prydain." Ond pa fodd bynag, yr ydym yn taflu yr awgrymiad allan am ei werth, gan fod yn gwbl sicr fod mwy o frwydrau Arthur wedi eu hymladd tu fewn i derfynau Cymru, nag a feddylir yn gyffredin.

Taenwyd y chwedl yn mhlith y Cymry na bu farw Arthur, ond y daw drachefn i gyflawni gwroldeb mawr, ac i wared ei genedl oddi tan iau yr estron. Dyna y syniad a gyflea yr hen Englyn Milwr canlynol:—

> "Bedd i March, bedd i Gwythur,
> Bedd i Gwgan Gleddyfrudd;
> Anoeth byd, bedd i Arthur."

Dichon i'r grediniaeth uchod gael ei dechreuad ar faes Camlan, drwy i'r cadfridogion, fel y gwnaed yn fynych ar ol hyny, gadw clwyf angeuol y brenin yn ddirgel oddi wrth y milwyr, rhag eu digaloni yn y frwydr; ac wedi dechreu taenu y chwedl nad oedd Arthur wedi marw, ond yr ymddangosai drachefn i amddiffyn ei wlad, cadwyd y ffug i fyny gan benaethiaid y genedl, er atal y bobl i ymostwng i lywodraeth y Saison. Ac adeiladodd y rhamantwyr chwedloneg brydferth iawn ar y sylfon uchod, yr hon sydd yn rhedeg fel hyn:—Arthur, wedi iddo ddeall ei fod wedi derbyn clwyf marwol gan Fedrod,

Digitized by Google

a orchymynodd i Syr Bedwyr, un o'i farchogion urddol, gymeryd ei gleddyf Caledfwlch, a'i daflu i'r llyn a enwai efe iddo. Bedwyr, ar hyny, a gymerodd y cleddyf, ac a aeth tua'r llyn a enwasid iddo; ond wrth edrych ar y cleddyf godidog hwnw, a chanfod ei wŷchder, a sylwi fod ei garn wedi ei harddu a meini gwerthfawr, a fu anfoddlawn ei daflu i'r llyn, ond cuddiodd ef dan bren, a dychwelodd, gan ddywedyd daflu ohono y cleddyf i'r llyn. Gofynodd y brenin iddo pa beth a welsai yno? atebodd yntau na's gwelsai ef ddim ond y dwfr a'r tonau. Ar hyn dywedodd y brenin ei fod yn ei dwyllo; a gorchymynodd iddo fyned yr ail waith, a thaflu y cleddyf i'r llyn. Aeth Bedwyr; ond eto nis gallasai glywed ar ei galon daflu y fath gleddyf gwerthfawr i'r llyn; a dychwelodd â'r un atebion i Arthur. Yna cyhuddodd y brenin ef o frâd a thwyll, ac o chwenychu y cleddyf o herwydd ei werthfawredd; a pharodd iddo fyned drachefn, a chyflawni ei orchymyn. Aeth Bedwyr y tro hwn, safodd yn ymyl y llyn, ac â'i holl nerth taflodd y cleddyf iddo, cyn belled ag y gallai. Ac fel yr oedd Caledfwlch yn disgyn i'r dwfr, wele law, a braich yn dyfod allan o'r llyn, ac yn ymaflyd yn ei garn ef, a chan ei ysgwyd dair gwaith mewn dull milwraidd, yn ei dynu i lawr dan y dwfr, ac ni welwyd ef mwyach. Pan ddychwelodd Bedwyr, a mynegu hyn i'r brenin, efe a orchymynodd iddo ei ddwyn ef at y llyn, a phan ddaethant yno, gwelent wrth yr ymyl, fâd bychan, ac amryw rianod ynddo, oll mewn gwisgoedd duon; ac yn eu plith yr oedd brenines. Pan welsant hwy Arthur, wylasant oll, a llefasant a llef uchel. Yna gorchymynodd Arthur i Bedwyr ei osod yn y bâd, a'r tair brenines a'i derbyniasant ef, ac un o honynt a'i cyfarchodd ef, gan ei alw yn frawd. Hon oedd *Margam la Ffai*, chwaer Arthur; a'r ail oedd frenines Gwynedd; a'r drydedd oedd frenines y Tiroedd Anial. Ac yno hefyd yr oedd *Nimwe*, prif arglwyddes y llyn, yr hon a briodasai un o farchogion Arthur. Ac ar ol myned o Arthur i'r bâd, rhwyfodd y rhianod oddi wrth y tir; a dywedodd Arthur wrth Bedwyr ei fod yn myned i Ddyffryn Afallon, i gael gwella ei glwyf. A Bedwyr, wedi çolli golwg ar y bâd, a aeth ymaith i'r goedwig.

A thyma chwedloneg arall wedi ei hadeiladu ar yr un sylfon, ac y mae hon yn aros eto ar lafar gwlad mewn amryw fanau yn y Deheubarth:—Yr oedd Cymro, ryw dro, yn myned dros Bont Lundain, a chanddo ffon gollen yn ei law. A daeth rhyw Sais ato, gan ofyn o ba le yr oedd yn dyfod. "Yr wyf yn dyfod o'm gwlad fy hun," ebai y Cymro, yn bur swta. "Paid a thramgwyddo, fy nghyfaill," ebai y Sais, "am i mi ofyn hyna i ti. Os atebi di fi, a gwneyd fy nghyngor, gall fod yn fwy o les i ti nag wyt yn feddwl. Mae y ffon yna sydd genyt yn dy law, wedi tyfu ar lannerch lle mae trysorau lawer, o aur ac arian; ac os gelli di gofio y fan lle y toraist hi, a'i ddangos i mi, mi a'th roddaf mewn meddiant o honynt." Gwybu y Cymro ar unwaith, mai dyn hysbys oedd yr hwn a siaradai ag ef; ond gan y gwyddai ei fod mewn cyfrinach âg ellyllon, ofnai fyned gydag ef. Ond o'r diwedd, efe a ymfoddlonodd i fyned. Arweiniodd ef i Gymru, ac at Graig y Dinas, a dangosodd iddo yr hen foncyff oddi ar yr hwn y torasai efe y ffon. Ac wedi gweled fod y boncyff hwnw yn cuddio geneu ogof fawr, symudasant ef ymaith, ac aethant i mewn i'r ogof, ill dau yn nghyd. Ond yn nghanol y fynedfa yr oedd cloch fawr, yn hongian wrth linyn coch, a'r dyn hysbys a rybuddiai y Cymro am beidio cyffwrdd â'r gloch wrth iddo fyned heibio. A phan gyrhaeddasant y gwaelod, daethant i ystafell enfawr, yn yr hon yr oedd miloedd o ryfelwyr yn cysgu yn drwm; gan ffurfio math o gylch, eu traed at eu gilydd, a'u penau tuag allan, a'u gwisgoedd milwrol am danynt; a'u cleddyfau, a'u tarianau, a'u harfau eraill, yn gorwedd yn eu hymyl, fel gallent afael ynddynt mewn eiliad, pe clywent y gloch yn canu. Ac yn mhlith y milwyr yr oedd *un*, yn dirfawr ragori arnynt oll, o ran agwedd ac arfau; ac yr oedd coron aur, wedi ei harddu â meini gwerthfawr, yn gorwedd yn ei ymyl. Ac yn nghanol yr ystafell, gwelent ddau bentwr o aur ac arian, a dywedai y dyn hysbys wrth y Cymro, y gallai gymeryd ei faich o *un* o honynt, ond nid o'r ddau. Yna y Cymro a orlwythodd ei hun â'r aur, ac wrth ddyfod allan, rhybuddiai y dyn hysbys ef am beidio cyffwrdd â'r gloch, onite y gallai ddyfod yn ddrwg arno; oblegid y buasai un o'r rhyfelwyr yn codi ei ben ac yn gofyn *a ydyw hi'n ddydd?* Ac os dygwyddai i hyny gymeryd lle, am iddo yntau ateb ar unwaith, "Nag ydyw eto. Cysga ymlaen;" ond pa fodd bynag, wrth iddynt ddyfod i fyny, methodd y Cymro, yr hwn oedd wedi gorlwytho ei hun âg aur, a phasio y gloch heb ei chyffwrdd—canodd hono—a chododd un o'r rhyfelwyr ei ben, a gofynodd, "A ydyw hi'n ddydd?" "Nag yw eto," ebai'r Cymro yn y fynyd; "Cysga ymlaen." Yna efe a orweddodd eilwaith ac a gysgodd drachefn. Felly hwy a ddaethant allan o'r ogof, a gosodasant y gareg drachefn ar ei geueu, a'r boncyff collen yn ei ol fel o'r blaen.

Yna y dyn hysbys, cyn ymadael â'i gydymaith, a'i cyngorai ef i fod yn gynil o'i drysorau, fod ganddo ddigon yn awr dros ei oes, ond iddo eu harferyd gyda doethineb; ond os dygwyddai iddynt ddarfod, am iddo fyned i'r ogof drachefn, ond iddo ofalu am y gloch, a rhoi yr ateb priodol. A dywedodd hefyd mai y rhyfelwyr hyny a welodd efe yn yr ogof, oedd Arthur Frenin, a'i filwyr; eu bod yn cysgu yno, a'u harfau yn eu hymyl, gan ddisgwyl i'r wawr dori, pan y bydd i'r Ddraig Goch, a'r Ddraig Wen, fyned i ryfel, a swn eu cyd-darawiad yn crynu y ddaear, nes bydd y gloch yn canu yn hyglyw, ac Arthur a'i filwyr yn deffro,—yn rhuthro allan, ac yn dinystrio holl elynion y Cymry; y rhai, wedi hyny, a adfeddianant Ynys Prydain, ac a ail sefydlant eu brenin a'u llywodraeth yn Nghaerlleon ar Wŷsg, lle y cant eu llywodraethu mewn cyfiawnder, a'u bendithio â heddwch tra byddo y ddaear yn para.

Ymddengys bod yr hygoeledd uchod am Arthur yn ffynu mor gryf yn Nghymru yn y 12fed ganrif, fel y tybiodd Harri II. y gallasai ei droi i amcan gwleidyddol pwysig, trwy argyhoeddi y Cymry, y rhai oeddynt yn peri iddo y fath anesmwythdra parhaus, *fod Arthur wedi marw* mewn gwirionedd, yr un fath a dacarolion eraill; ac nad oedd dim gobaith y deuai ef byth i'w gwaredu oddi tan lywodraeth y Seison.

Dywedir i Harri, pan ar ymweliad â hen Gastell Cilgeran, glywed mai yn Ynys Afallon yr oedd Arthur wedi ei gladdu; ac iddo mewn canlyniad, roi gorchymyn am i ymchwiliad gael ei wneyd am y bedd, pan y cawsant hen fedd-faen, saith droedfedd yn y ddaear, a chroes blwm wedi ei suddo iddi o'r tu isaf, ac arni y geiriau hyn mewn llythyrenau *Gothic*, anghelfydd:—

Digitized by Google

"Hic Jacet sepultus Inclytus Rex
Arthurius In Insula Avalonia."

Yr hyn o'i gyfieithu yw:—"Yma y gorwedd yn gladdedig, y clodfawr Frenin Arthur, yn Ynys Afallon." Ac ar ol iddynt dirio naw troedfedd yn mhellach i lawr, daethant o hyd i esgyrn dynol, anarferol o fawr, wedi eu hamgau mewn boncyff derwen, ac ar y penglog arwyddion deg o glwyfau; ac un ohonynt yn llawer lletach a dyfnach na'r lleill, yr hwn a dybient oedd ei glwyf angeuol. Gorchymynodd Harri i'r gweddillion hyn gael eu rhoddi mewn cist farmor orwych, a'u dwyn i Fynachdy Afallon, gyda'r rhwysg a'r defodaeth ag oedd yn briodol i'r amgylchiad. Ac ymddengys i'r ddyfais hono gymeryd mor dda, fel na ddarfu i ysgrifenydd o graffder Giraldus Cambrensis, feddwl am ameu dilysrwydd y darganfyddiad, na dychymygu y gallasai y cyfan fod yn ddim amgen na chast gwleidyddol o eiddo Harri, i geisio tawelu y Cymry o dan ei lywodraeth.

Yn fuan ar ol marwolaeth Arthur, enillodd y Seison oruchafiaeth ar yr ynys hon; llethwyd ei rhyddid, darostyngwyd ei thrigolion, distawyd llais ei beirdd, ac ymdaenodd tywyllwch y nos, dros holl Ewrob, a pharhaodd felly, o'r chweched hyd y ddeuddegfed ganrif. Ac yna yn ddisymwth y mae deffroad cyffredinol yn cymeryd lle; y meddwl yn ymddiosg o rwymau cwsg, yn ymhoywi, ac yn ymddyrchafu ar adenydd dychymyg a darfelydd. Ac yn union-gyrchol, y mae golygfa yn cymeryd lle nad oes ei chyffelyb yn holl hanes llenyddiaeth. Y mae Arthur, a Marchogion y Ford Gron, yn ymgodi ar unwaith i sylw, ac yn dyfod yn destyn lluoedd aneirif o chwedlonau a rhamantau; y rhai gan darddu o Gymru, a Llydaw, a ymdaenant megis ar edyn yr awelon, dros yr holl fyd; fel gyda phriodoldeb y dywed Alan de Insulis, ysgrifenydd o'r cyfandir, yn y 12fed ganrif:—"Canys i ba le ni ddygwyd ac ni chyhoeddwyd enw Arthur y Prydeiniaid, gan glodforedd hedegog, cyn belled ag y cyrhaedd ymerodraeth Gristionogol? Pwy, meddaf, nad yw yn siarad am Arthur, gan ei fod braidd yn fwy adnabyddus i genhedloedd Asia, nag i'r Prydeiniaid eu hunain, megis y treithir i ni gan ein pererinion a ddychwelant o'r parthau dwyreiniol? Y Dwyreinwyr a siaradant am dano, ac felly hefyd y Gorllewinwyr; er cael o honynt eu gwahanu oddiwrth eu gilydd gan holl led y ddaear. Yr Aifft a sieryd am dano, a'r Bosphorus nid yw yn ddystaw; Rhufain, arglwyddes y dinasoedd, a gân ei orchestion; ac nid yw rhyfeloedd Arthur, guddiedig i Carthage, ei chydymgeisydd yn y dyddiau gynt. Molienir ei weithredoedd ef gan Antiochia, Armenia, a Phalestina."

Yn y rhamantau a'r chwedlonau hyn, yr ydym yn cael Arthur, nid yn flaenor ar ryw lwyth bychan o bobl, mewn cwr pellenig o'r byd; ond yn benadur goruchel, ac yn ymerawdwr mewn enw ac awdurdod; yn cadw ei lys yn Nghaerlleon ar Wŷsg, gyda'i wraig, Gwenhwyfar,—y brydferthaf o ferched y ddaear; yn byw mewn rhwysg a gorwychder anghymarol, yn cael ei amgylchu gan ganoedd o farchogion a boneddesau, y rhai a wasanaethent fel cynllun o wrhydri, moes, a lledneisrwydd, i holl wledydd y byd. Deuddeg o ba rai, a'r dewraf o honynt i gyd, a ffurfient ganolbwynt ei osgorddlu, ac a eisteddent gyd ag Arthur o amgylch y Ford Gron. Yr oedd ei lŷs yn ymgynullfa i ddewrion pob gwlad, a'i Farchogion ef y dewraf o'r dewrion, ac yntau ei hun yn rhagori arnynt oll, mewn pob peth a ystyrid yn anrhydedd yn yr oesau gwrhydraidd. O'i lŷs ef yr âi marchogion allan i bob gwlad, i amddiffyn menywod, i ryddhau y rhai swynedig, i rwymo cewri a chorachod maleisddrwg, a phob rhyw gyffelyb wrhydri ag oedd yn gofyn gwroldeb ac anturiaeth. Ac weithiau yr ydym yn cael Arthur ei hun, yn nghymdeithas dewiniaid, ellyllon, elfodau, a'r Tylwyth Teg, yn sychu afonydd, dryllio creigiau, diwreiddio mynyddoedd, a phethau rhyfedd cyffelyb, na ddigwyddodd erioed i ran daearolion.

Y cyfryw yw y defnyddiau a ffurfiant y Mabinogion, a'r rhamantau Arthuraidd, a weithiasant eu ffordd oddi yma i Ffrainc, yr Almaen, yr Hispaen, Provence, yr Eidal, a'r Iseldiroedd; ac wedi galw allan i'w gwasanaethu y fath alluoedd cynyrchiol ag eiddo Wolfram, Gottfried, Hartman, a Wirt, &c., dychwelasant yn ol, ac ail blanwyd hwy yn Mrydain, dan yr enwau canlynol:—"*The Prophecies of Merlin*," "*The Guest of St. Graal*," "*The Romance of Sir Lancelot of the Lake*," "*The History of Sir Tristram, Morte d'Arthur*," a'u cyffelyb; fel yr ydym yn canfod eu delweddau yn "*Shakespeare's Plays*," "*The Fairy Queen*," "*Gierusalemme Liberata*," "*Paradise Lost*," "*The Divine Comedy*," "*Idylls of the King*," "*The Holy Grail*," a lluoedd eraill; mewn gair, y mae eu hysbryd a'u delweddau wedi trwytho holl lenyddiaeth Ewrob, wedi anfarwoli llawer awdwr, a gwneyd ffortun llawer llyfrwerthydd.

Y casgliad goreu o'r Chwedlonau Arthuraidd a gyhoeddwyd yn y wlad hon, yw:—"*The Byrth, Life and Actes of Kyng Arthur; of his Noble Knyghtes of the Round Table*," &c., yr hwn a gyhoeddwyd yn 1817, yn 2 gyfrol, 4to, gydag arweiniad a nodiadau, gan Robert Southey.

**ARTHUR**, GALFRAI, NEU GRUFFYDD AB, yr hwn a elwir yn gyffredin *Sieffre o Fynwy*, oedd hen hanesydd Cymreig enwog, yn nechreu y ddeuddegfed ganrif. Mab-maeth ydoedd i Uchtryd, esgob Llandaf, a nai iddo fab brawd, yr hwn a ddilynodd i'r esgobaeth hono yn y flwyddyn 1152.

Dywedir iddo dderbyn ei addysg foreuol mewn hen fynachdy Benedictaidd, yn agos i Drefynwy, yn adfeilion pa un y dangosir myfyrgell Gruffydd hyd y dydd hwn. Mae braidd bob hanesydd diweddar wedi syrthio i'r amryfusedd o'i gamgymeryd ef am Godfrey, neu Geffrey, yr hwn a benodwyd i esgobaeth Llanelwy yn y flwyddyn 1152, ac wedi hyny yn abad Mynachlog Abingdon, yn 1165. Tra y mae ei gydoeswr enwog, Caradog o Lancarfan, un o haneswyr mwyaf credadwy Cymru, yn dyweyd am dano fel hyn:—"Yn y flwyddyn 1152 Galffrai ab Arthur, caplan William ab Robert, a wnaed yn esgob, eithr cyn cymeryd meddiant o'i swydd, bu farw yn ei dŷ yn Llandâf, a chladdwyd ef yn yr eglwys hono. Anhawdd oedd cael ei gymar fel dyn dysgedig a gwyddorus, meddianol ar bob cyneddf ddaionus. Yr oedd yn fab maeth i Uchtryd, archesgob Llandaf, ac yn nai iddo fab brawd; ac oblegid ei wybodaeth a'i ddysg, rhoddwyd iddo archddeoniaeth eglwys St. Teilo, yn Llandâf, lle yr addysgai wŷr dysgedig a phendefigion." Ac yn y "*Chronological Series of the Bishops of Llandaff*," dywed Rees:—"Galfrid, nai Uchtryd, a benodwyd i'r esgobaeth, ond a fu farw yn Llandâf, yn 1153, cyn iddo allu myned i'w swydd. Efe oedd yr hanesydd

Digitized by Google

Cymreig enwog a elwir *Sieffre o Fynwy*, a *Galffrai*, a *Gruffydd ab Arthur*."—*Liber, Landavensis, tud.*628. Daeth Gruffydd ab Arthur yn enwog trwy holl Ewrob, drwy ei waith yn cyfieithu y *Brutiau Cymreig* i'r Lladin; ond gan fod y gwaith hwnw mor llawn o chwedlau rhamantus ac anhygoel, condemnia llawer ef fel ffug dychymygol o ddyfeisiad *Sieffre o Fynwy*. Ond nis gall hyny fod yn gywir, gan fod y *Brut* gwreiddiol eto ar gael. Ac y mae hanes hwnw yn rhyfedd iawn. Walter de Mapes, archddeon Rhydychain, a gafodd afael ynddo gyntaf yn Llydaw, tra ar daith trwy y wlad hono. Ac ar ddiwedd adysgrif o'r gwaith yn y *Myv. Arch.* dywed yr archddeon:—"Myfi, Walter, archddeon Rhydychain, a droais y llyfr hwn o'r Gymraeg i'r Lladin, ac yn fy henaint o'r Lladin i'r Gymraeg."

Y tebygolrwydd yw, ddarfod i Gruffydd wneyd defnydd o gyfieithiad yr archddeon, ac ychwanegu llawer ato; ac mai y gwaith diwygiedig hwnw a adgyfieithodd yr archddeon i'r Gymraeg; a hwnw yw yr ail *Frut* argraffedig yn y *Myv. Arch.*, dan y teitl *Brut Gruffydd ab Arthur*. Mae arddull hwn yn dwyn mwy o ôl llafur, a'r adroddiad yn helaethach, ac yn cytuno yn lled agos â chyfieithiad *Sieffre*. Cyfieithwyd y *Brut* gwreiddiol, yr hwn a elwir *Brut Tysilio*, gan y Parch. Peter Roberts; a chyhoeddwyd ef yn Llundain yn 1811. Mae amryw argraffiadau o *Frut Gruffydd ab Arthur* ar gael yn y Lladin, y boreuaf o ba rai, a argraffwyd yn Mharis yn 1508; ac a ail argraffwyd yn 1517. Cyhoeddwyd cyfieithiad Seisonig o hono, gan Aaron Thompson yn 1718; ac argraffiad diwygiedig Dr. Giles, yn 1842.

Mae cyfysgrifau o hono mewn amryw lyfrgelloedd, a rhai bron mor hyned ag amser yr awdwr i'w gweled yn Hen Lyfrgell Freiniol yr Amgueddfa Brydeinig; ond y *copi*, a berthynai gynt i Fonachlog Margam, a ystyrir yn oreu.

**ARWYSTLI HEN**, yn ol *Achau y Saint*, oedd frodor o'r Eidal, ac a ddaeth gyda Bran ab Llŷr i Ynys Prydain, tua'r flwyddyn 70, i ddysgu i'r Cymry y ffydd yn Nghrist. Bernir yn gyffredin mai yr un yw ag Aristobulus, yr hwn y sonia Paul am dano yn ei lythyr at y Rhufeiniaid, xvi. 10; os felly, mae tystiolaethau yr ysgrifenwyr boreuol yn lluosog, ei fod wedi ei anfon yma gan yr Apostolion i bregethu i'r Prydeiniaid. Yn ol Merthyroliaeth Roegaidd, a ddyfynir gan Usher, penodwyd ef gan Paul yn weinidog i'r Prydeiniaid. Cadarnha Cressey hyny, a dywed, mai efe fu yr esgob cyntaf yn Mrydain, ac iddo farw yn Ynys Afallon yn y flwyddyn 99. Ond dywed Heleca, mai ei ferthyru a gafodd, yn yr ail flwyddyn o deyrnasiad Nero.

**ASAPH**, ar enw yr hwn y gelwir Llanelwy, yn yr iaith Seisoneg, oedd fab i Sawyl Benuchel, mab Pabo Post Prydain, o Gwensaeth, ferch Rhufon Rhufoniog, o Ddyffryn Clwyd. Dygwyd ef i fyny dan ddysgeidiaeth Cyndeyrn, un o Gymry Gogledd yr Alban, a yrwyd gan y rhyfeloedd o'i wlad ei hun, i chwilio am loches yn Nghymru, yn y 6ed ganrif. Cyndeyrn a sefydlodd goleg neu Fonachdy yn Llanelwy, yn y flwyddyn 545, a bu yno yn llafurio hyd 560, pan y cafodd alwad i ddychwelyd i'w wlad ei hun; yna efe a benododd Asaph, ei ddysgybl, i'r esgobaeth, a llywyddiaeth y fynachlog yn ei le.

Yr oedd Asaph yn ddyn da, ac yn bregethwr enwog. Ysgrifenodd lyfrau buddiol at wasanaeth myfyrwyr ei goleg, ac hefyd "*Fuchedd Cyndeyrn Sant*," ei hen athraw, a'i ragflaenydd.

Bu farw Calan Mai, 596; a chadwyd ei wyl yn Llanelwy am lawer o flynyddoedd.

Mae un dywediad o'i eiddo ar gael a chadw:—"Y neb a wrthsafant bregethiad yr efengyl, a warafunant iachawdwriaeth dynion." Yr hyn a drodd rhyw fardd i'r gwpleg ganlynol:—

"Y neb a ludd ddysgu crefydd,
Trwy genfigen ettyl rybudd."

**ASCLEPIODOTUS**, iarll Cernyw, yr hwn a ddewisodd y Prydeiniaid yn frenin arnynt pan yn cael eu gormesu gan Allectus, tua'r flwyddyn 302. Dan ei arweiniad ef aethant i fyny i Lundain; ac Allectus, yr hwn oedd ar y pryd yn aberthu i'w dduwiau, a dorodd i fyny y gwasanaeth, ac a aeth allan i'w cyfarfod. Cymerodd brwydr waedlyd le rhyngddynt, pryd y lladdwyd Allectus, ac y gwasgarwyd ei ganlynwyr. Yna Livius Gallus, gan feddwl achub y ddinas, a gauodd y pyrth; ond Asclepiodotus a'i ryfelwyr a warchaeasant arni, tra yn anfon adref am adgyfnerthion. Yna rhuthrasant arni, a'r holl Rufeiniaid oedd yn y ddinas a roddasant i'r cleddyf. Trwy y fuddugoliaeth hon sicrhaodd Asclepiodotus ei hun yn y freniniaeth; ac efe a deyrnasodd ddeng mlynedd, pryd y lladdodd Coel Codebog ef mewn rhyfel, ac y cymerodd yr orsedd yn ei le.

**ASER MENYW**, neu Aser Menevensis, ydoedd fynach dysgedig ac enwog, yn niwedd y nawfed ganrif. Dywedir mai mab ydoedd i Tudwal, mab Rhodri Mawr, a dysgybl i Ioan Erigena, yn mynachlog Ty Ddewi, lle y derbyniodd urdd St. Benedict, ac y mabwysiadodd y cyfenw Menyw, oddiwrth enw henafol Swydd Benfro. Tua'r flwyddyn 880, clywodd Alfred Fawr, brenin Lloegr, son am ei enwogrwydd, ac yn uniongyrchol efe a anfonodd genhadau ato i'w wahodd i dalu ymweliad â'i lŷs, yr hwn y pryd hwnw oedd yn Dene, Swydd Wilts. Ac yn unol â'r gwahoddiad, prysurodd Aser i'r llŷs, ac yn fuan ffurfiwyd cyfeillgarwch mor sylweddol a chynes rhwng Mynach Ty Ddewi a Brenin Lloegr, fel nad oedd dim a foddlonai y brenin, ond, naill ai i Aser aros yno yn gyfangwbl, neu ynte iddo ranu ei amser rhwng y llŷs a'i fynachlog. Ond ni's gallai Aser addaw iddo y naill na'r llall, heb iddo yn gyntaf gael ymgynghori â'i frodyr yn Nhy Ddewi. Ac i'r perwyl hwnw, efe a gychwynodd tuag adref, ond pan yn Nghaer Wynt, cymerwyd ef yn glaf iawn, fel na fedrodd symud oddi yno am flwyddyn ac wythnos, ond wedi iddo gael adferiad, aeth yn ei flaen i Dy Ddewi, a rhoddodd y pwnc i ystyriaeth ei frodyr; y rhai, gan farnu bod hwnw yn gyfle rhagorol iddynt i enill nawdd Alfred Fawr i fynachlog Ty Ddewi, a'i amddiffyniad iddynt rhag rhuthriadau yspeilgar rhyw Hemeid, neu Hyfaidd, ag oedd yn eu gormesu ar y pryd, a'i cyngorasant ef yn unfrydol i gydsynio ag ewyllys y brenin; ond iddo ranu ei amser bob yn ail tri mis rhwng y llŷs a Thy Ddewi. Yna efe a ddychwelodd at y brenin, yr hwn ar y pryd oedd yn aros mewn lle o'r enw Leonford, a chafodd dderbyniad cynes a chyfeillgar, ac arosodd gydag ef am wyth mis.

Ar y nos Nadolig canlynol, anrhegodd Alfred ef â mynachlogydd Amsbry, yn Swydd Wilts, a Banuwille, neu Banwell, yn Ngwlad-yr-haf, ac hefyd ag urddwisg sidan werthfawr, yn nghyd a chymaint ag a fedrai dyn cryf ei gario o arogldarth,—yn cael eu canlyn gan lythyr, yn hysbysu nad oedd hyny ddim ond ernes o'r hyn oedd i ddilyn.

Digitized by Google

Ac yn bur fuan ar ol hyny efe a ddyrchafwyd i esgobaethau Caeresg, a Sherburn; ond dywedir iddo roddi yr olaf i fyny yn y flwyddyn 883, er iddo barhau i gadw yr enw Esgob Sherburn hyd ei fedd.

Ar ol ei ddyrchafiad, ymddengys iddo dreulio y rhan fwyaf o'i amser yn y llŷs, yn fath o athraw a chydymaith i'r brenin. A thyna y pryd y cynorthwyodd efe Alfred i gyfieithu Llythyr Bugeiliol Gregory i'r iaith Seisoneg, yn nghyd a hen Gyfreithiau Dyfnwal Moelmud, ar ba rai y sylfeinodd Alfred y dosbarth enwog o gyfreithiau, ag sydd yn trosglwyddo ei enw i lawr o oes i oes.

Y mae y ffaith uchod yn rhoddi eglurhad ar yr hyn sydd wedi ymddangos i lawer yn ddirgelwch anesboniadwy yn y Cyfreithiau Seisoneg, sef y tebygolrwydd neillduol sydd rhyngddynt â Chyfreithiau yr hen Gymry. Ond pan ddeallir mai cyfreithiau Cymru, y rhai oeddynt ffrwyth doethineb a phrofiad aeddfed cenedl, ag oedd wedi cyrhaedd safle uchel mewn gwareiddiad, pryd nad oedd eu cymydogion ond megis cychwyn allan o dywyllwch barbariaeth, fu yn sylfon ac yn gynllun i Alfred i ffurfio y cyfreithiau hyny ag sydd mewn cyssylltiad a'i enw, y mae y cyfan yn ymddangos yn eithaf dealladwy a rhesymol.

Ac nid yn y gelfyddyd o ddeddfwriaeth yn unig y dygodd Aser wareiddiad rhagorach gwlad ei dadau, i lesoli ei wlad fabwysiedig; ond y mae digon o brawfion mai trwy ei ddylanwad uniongyrchol ef y darfu i Alfred ymgymeryd at noddi addysg ei ddeiliaid. Dyna y pryd y dechreuodd pendefigion Lloegr ddysgu darllen, ac y sefydlwyd Prif Ysgol Rhydychain, yn ol cyfarwyddyd a than arolygiaeth y Cymro o Dŷ Ddewi; yr hwn a ddygodd ei wybodaeth o reolau a dysgyblaeth sefydliadau enwog ei wlad ei hun i roddi cychwyniad effeithiol i sefydliad cyffelyb yn mhlith y Seison. Efe a ddosbarthodd wahanol gangenau dysgeidiaeth, o dan eu penau priodol, yn *Glassics*, *Gwyddonau*, a *Duwinyddiaeth*. Efe ei hun oedd yr athraw mewn Gramadeg a Rheitheg; Ioan, mynach o Dŷ Ddewi, mewn Seryddiaeth a Daear-fesuriaeth; Ioan, o Dy Ddewi eto, mewn Rhesymeg, Cerddoriaeth, a Rhifyddiaeth; a Neotus a Grimbold, mewn Duwinyddiaeth.

Felly y cafodd y Brif Ysgol enwog hon, ei gosod ar ei thraed trwy gymorth meibion athrylithgar Cymru; a byddai yn burion pe byddai modd gwneyd y ffeithiau hyn a'u cyffelyb, yn hysbys i lawer ysgoegyn ffromfalch ag sydd yn y papyrau Seisoneg y dyddiau hyn, yn ceisio ysgrifenu i lawr y Cymry a phob peth a berthyn iddynt, fel gweddillion barbareiddiwch, i gael gweled a oes modd iddynt wrido yn ngwyddfod eu hanwybodaeth a'u haerllugrwydd.

Y mae diwedd oes a marwolaeth Aser, yn aros yn anhysbys; dywed *Brut y Tywysogion* yn bendant, iddo farw yn y flwyddyn 906; tra y dywed Croniel y Seison mor bendant a hyny, mai yn y flwyddyn 910 y cymerodd hyny le; ond ni noda yr un o honynt y lle y bu farw, na'r fan lle gorphwys ei weddillion. Mae yn amlwg fod Aser yn awdwr o gryn fri ac enwogrwydd; ond nid yw y beirniaid yn cyduno ar rifedi y llyfrau a ysgrifenodd.

Myn rhai mai efe yw awdwr y chwech llyfr canlynol:—1. *The Annals of Alfred's Life and Reign.* 2. *The Annals of Britain.* 3. *The Enchiredion,* &c. 4. *A Commentary on Boethius.* 5. *A Collection of Homilies.* 6. *A Collection of Epistles.* Nid oes ambeuaeth nad efe yw awdwr y cyntaf; a thybir bod arwyddion mewnol yn profi y gellir tadogi iddo yr ail, a'r trydydd hefyd; ond mae y dystiolaeth dros y tri olaf yn bur ddiffygiol. Cydunir yn gyffredin yn awr mai yr un person oedd Aser y Mynach, Aser yr Esgob, ac Aser Archesgob y Prydeiniaid; ond mai nid yr un oedd efe a Geraint Fardd Glas, yr hwn hefyd a elwir "Y Bardd Glas o'r Gadair."

**ASTON**, trefgordd yn Nghwmwd Merffordd, Cantref Uwch Nant (a elwir yn awr Cantref Wyddgrug), Swydd Callestr, Gogledd Cymru, 2 f. yr ochr ogledd orllewinol o Ben ar lâg.

**ASTON**, trefgordd yn Nghwmwd Ystrad Marchell, Cantref Ystlyc (a elwir yn bresenol Rhanbarth Isaf Cantref Trefaldwyn), Swydd Drefaldwyn, Gogledd Cymru. Yr oedd y drefgordd hon, sydd ar derfynau Amwythig, gynt yn ffurfio rhan o faenoriaeth Teirtref, neu y tair trefgordd, i'r rhai y perthynai capel; ond wedi hyny dosbarthwyd y faenoriaeth hon, a chysylltwyd Aston â phlwyf Lydham, y rhan fwyaf o ba un sydd yn Nghantref Purslow, yn swydd Amwythig. Y mae yn awr yn ffurfio un o'r deunaw plwyf a threfgordd sydd yn Forden wedi eu corphori i gynnal eu tlodion yn eu Gweithdy.

**ATHAN** (St. Athan), yn Nghwmwd Maenor Glyn Ogwr, Cantref Cron Nedd, Swydd Forganwg, Deheubarth, 5 m. o Bontfaen. Dywed Dr. Malkin fod y lle yn cymeryd ei enw oddiwrth St. Fathan, nai ac un o ddysgyblion Illtyd, yr hwn a fu yn byw yma mewn neillduedd tua dechreuad y chweched ganrif, ac a sylfaenodd eglwys y plwyf yn y man, wedi dychwelyd o ymdaith o gartref am dymor. Yma y bu farw ac y claddwyd ef, ac i'w enw ef y cysegrwyd y Llan. Y mae yn y parth hyfrydaf a ffrwythlonaf o fro Morganwg, ar derfyn afon Brystc, yn ymestyn hyd bentref Aberthaw, yr hwn sydd gilfach o borthladd Caerdydd. Y mae yr awyr yma yn dra iachus, a'i olygfa yn amrywiaethol iawn, o fryn a dôl. Y mae cerig calch mewn cyflawnder yn y fan, cloddio y rhai sydd yn rhoddi gwaith a chynhaliaeth i nifer mawr o'r trigolion, y rhai nad ydynt yn cymeryd gorchwylion amaethyddol, ac y mae agosrwydd y lle i'r porthladd, yn hyrwyddo anturiaethau masnachol i raddau mawr. Y mae y fywoliaeth yn bersonoliaeth yn archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf, ac yn nawddogaeth Robert Jones, Ysw. Y mae yma le o addoliad gan y Trefnyddion Wesleyaidd. Ar lethr uchel, yn y plwyf hwn, y mae sylfaeni hen gastell gwŷch "Perllan Ddwyreiniol," a godwyd gan Roger Berkrolles neu Berclos, un o'r deuddeg Barwnig a ddaeth i'r wlad hon gyda y Normaniad anturiaethus Fitz-Hamon, i'r hwn y cyflwynwyd yr arglwyddiaeth hon yn amser y Gorchfygiad. Y mae ffrwd ddisglaer yn cylchynu terfynau bryn y castell, ac y mae golwg fawreddig ar ei hen furiau, wedi ei amwisgo âg eiddaw. Dywedir i Berclos rannu yr etifeddiaeth â'i meddianydd gwreiddiol, ac â'r haner oedd iddo a roddodd fodd i deuluoedd eraill ymgynal, oeddynt wedi colli eu meddianau drwy y gorchfygiad Normanaidd.

**ATPAR**, neu Drephedyn, yn Ngwmwd Gwynionydd, Cantref Syrwen (a elwir yn awr Cantref Troed yr Aur), Swydd Aberteifi, Deheubarth Cymru; yn mhlwyf Llan-Dyfriog, cysylltiedig â thref Castell Newydd Emlyn. Yr oedd y lle hwn gynt yn un o'r bwrdeisdrefi unedig yn y sîr, i anfon aelod i'r senedd; ond yn ol tystiolaeth Dr. Meyrick, collodd y fraint drwy gamymddygiad, ar bleidlais Tŷ y Cyffredin yn 1742; ond er hyny, adferwyd y lle i'w hawl o'r fraint

Digitized by Google

flaenorol, drwy ddarpariad deddf newydd y gynnrychiolaeth, yn Lloegr a Chymru, a thrwy gydweithrediad ag Aberystwyth a Llanbedr, y mae yn gydgyfranog ag Aberteifi yn nychweliad un aelod; ac y mae y ddeddf newydd wedi dwyn i mewn y darpariadau sydd yn mraint yr holl wlad. Maer Aberteifi ydyw y swyddwr awdurdodol yn rheolaeth yr etholiad. Yr oedd fel bwrdeisdref yn cael ei llywodraethu gynt gan lywydd, cofnodydd, a dau geidwad; yr oedd y bwrdeiswyr yn cael eu cyflwyno gan reithwyr a meddianwyr, ac mewn hawl i bleidleisio, pa un bynag a fyddent yn breswylwyr ai peidio. Y mae y bobl yn y lle o'r farn fod gweithred eu breinlen dinesig wedi ei llosgi, er ys amryw flynyddau yn ol. Y mae Atpar wedi ei chodi ar fryn gogleddol i'r afon Teifi, ac y mae yn cael ei chysylltu â Chastell Newydd Emlyn gan bont-feini. Y mae yn y lle balas dengar yr olwg, a elwir Atpar Hill, eiddo John Beynor, Ysw.

# B.

**BACH**, mab Carwed, tywysog Gogleddol, a ddaeth i drigo i Wynedd yn y seithfed ganrif, ac a gyflwynodd ddiwedd ei oes i grefydd.

Dywed traddodiad mai efe a sylfaenodd yr Eglwys Fach, ar lan afon Conwy, yn Swydd Dinbych, a bod clochdy yr Eglwys hono yn rhan o'i anedd-dy. Dywedir hefyd, iddo ladd bwystfil gwyllt ag oedd yn gwneyd niwaid mawr yn yr ardal; ac mai enw y bwystfil, math o faedd gwyllt, oedd Carrog, ac mai oddi wrtho ef y cafodd Nant Carrog ei henw; ac y mae pentwr, neu grugyn, yn aros ar y fan, a elwir "Bedd Carrog," hyd y dydd heddyw.

**BACHELLDREF**, yn Nghwmwd Ystrad Marchell, Cantref Ystlyc (a elwir yn awr Rhanbarth Isaf Cantref Cawr), Swydd Drefaldwyn, Gwynedd, yn mhlwyf Church Stoke.

**BACHYMBYD**, yn Nghwmwd Cynmeirch, Cantref Ystrad (a elwir yn awr Cantref Is-Aled), Swydd Ddinbych, Gwynedd; o fewn 2 m. i Ruthin. Y mae yn sefyll ar geulan chwith yr afon Clywedog, yr hon sydd yn ymarllwys i'r afon Clwyd, nid yn neppell o'r fan. Y mae gan Arglwydd Bagot balas godidog yma, rhagorol am brydferthwch ei sefyllfa, ac eangder ei goedwigoedd; daeth yr etifeddiaeth i'r teulu enwog hwn drwy briodas Syr Walter Bagot â Jane, merch ac etifeddes Charles Salusbury, Ysw.

**BACH YNYS**, yn Nghwmwd Carnwyllion, Cantref Eginog, Swydd Gaerfyrddin, Deheubarth Cymru, yn mhlwyf Llan Elli. Y mae yn sefyll ar ymyl afon Bury. Dywed Tanner am y lle, "Tybir mai yr ynys hon yw y fan lle yr adeiladodd St. Piro Fonachlog, tu a'r flwyddyn 513, ac yr olynwyd ef gan Samson hynaf."

**BADDY**, Thomas, oedd ysgolhaig rhagorol, o Ogledd Cymru, wedi ei ddwyn i fyny, meddir, dan ofal y Parch. Samuel Jones, Brynllywarch, ac efe a ymsefydlodd yn weinidog yr Eglwys Bresbyteraidd, yn Dinbych, tua'r flwyddyn 1693; a pharhaodd i lafurio yno hyd ei farwolaeth, yn 1729. Dywedir ei fod yn well ei amgylchiadau bydol na'r cyffredin o'i frodyr; a'i fod yn arfer gwisgo ysbardynau arian am ei sodlau, yr hyn, unwaith, a barai gryn ofid i'w gyfeillion, am eu bod yn ei weled yn rhy debyg i feilchion y byd. Ond pan hysbyswyd ef o hyny, dywedai fod yn ddrwg ganddo eu bod hwy yn rhoddi yn eu calonau i'w blino, yr hyn ag oedd ef yn roddi am sodlau ei draed. Dywedir ei fod yn weinidog diwyd a thra gostyngedig o ysbryd; ac efe a wasanaethodd ei genedlaeth trwy ysgrifenu a chyfieithu y llyfrau canlynol:—1. "Hymnau Sacramentaidd, 1703;" 2. "Doolittle ar Swper yr Arglwydd, 1703;" 3. "Wadsworth ar Hunan-Ymholiad, 1713;" 4. "Cynganeddiad o Ganiadau Solomon, gyda Nodiadau Eglurhaol, 1725;" 5. "Dr. D. Williams, ar Wagedd Mebyd ac Ieuenctyd, 1727."

**BADLAND**, trefgordd gysylltiedig â Kennerton, yn mhlwyf Hen Faesydd, o fewn terfynau bwrdeisdref Maesyfed Newydd, swydd Faesyfed, Deheubarth Cymru.

**BAGLAN**, yn Nghwmwd Rhwng Nedd ac Afan, cantref Cron Nedd, yn swydd Forganwg, Deheubarth Cymru. Curadaeth berthynol i ficeriaeth Aber Afan, yn nhadogaeth Arglwydd Vernon. Y mae yr eglwys wedi ei chyssegru i St. Baglan. Y mae yn sefyll o fewn 4 milltir i Nêdd, ar y ffordd i Gaerdydd. Y mae y plwyf hwn, er nad yw yn cynwys dros ddwy fil a phum cant o erwau o dir, mewn sefyllfa dra hyfryd a ffrwythlawn, gyda golygfeydd tarawiadol; yn cael ei derfynu ar un ochr gan lethrau coediog, gyferbyn a bay Abertawy. Y mae hynodrwydd iachusol y lle, wedi bod yn anogaethol i adeiladaeth amryw balasau, ac anneddau rhagorol yno. Y mae y pentref yn lle tawel a dymunol; a natur y tir yn amrywiaethol, gyda gweirgloddiau a thir ŷd cynhyrchiol iawn; y mae y rhan fwyaf o'r tir yn fynyddog, ond yn borfa ragorol er cynhaliaeth defaid; y mae yn dywodog ar yr ochr nesaf i'r môr. Y mae yma amryw wythienau glo, a chyflawnder o glai, cymwys at lestri-pridd a chymrwd tân, yr hwn a gludir i'r gweithfeydd cymydogaethol. Y mae cilfach ar lan y môr, sydd yn gyfleus iawn i lwytho y llongau, a elwir Baglan Pill, yn agos i Briton-Ferry. Y mae y fywoliaeth yn ficeriaeth, mewn cyssylltiad ag Aberafon, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Y mae dwy bunt yma yn cael eu cymeryd o gynyrch y tollborth, i gynorthwyo y tlodion yn flynyddol. Yn mhlith y palasau sydd yn addurno y lle, y mae y rhai canlynol—Baglan House, eiddo Iarll Jersey; preswylfod Watcyn Homfray, Ysw., yr hwn a fu unwaith yn gartref y Parch. William Thomas, yr hwn a'i hadeiladodd. Yr oedd efe yn hen gyfaill i Mason a Gray, y rhai a arferent ymweled ag ef yn achlysurol; Baglan Hall, llŷs Gruffydd Llewelyn, Ysw.; Baglan Cottage, a Greenfield Lodge, dau annedd dengar ar ochr y brif-ffordd; a Baglan Lodge, eiddo y Parch. Edward Thomas. Y mae Mynydd y Gaer o fewn y plwyf hwn, a hen amddiffynfa Frydeinig.

Ychydig flyneddoedd yn ol, yr oedd carreg yn magwyr y fonwent hon, a'r groes Roegaidd wedi ei cherfio yn gywrain, a'r enw "Brancuf" wedi ei dori yn y garreg, ar un cwr iddi: ond pwy oedd y "Brancuf" hwn, ni's gwyddom; efallai mai un o'r pendefigion Saesonaidd, neu Normanaidd ydoedd; canys

Digitized by Google

y mae lle i gasglu bod y cerfiadau wedi eu gwneyd yn y nawfed, neu y ddegfed ganrif.

**BAGILLT** sydd drefgordd yn mhlwyf Treffynon, rhanbarth o gantref Coleshill, swydd Fflint, yn Ngwynedd, 3 m. yr ochr dde-ddwyreiniol o Dreffynon. Y mae y lle hwn, sydd yn cael ei ddosparthu yn Bagillt Fechan a Bagillt Fawr, ar yr ochr ddeheuol i draeth yr afon Dyfrdwy, ar y brif-ffordd o Gaerlleon i Gaergbi. Tardda yr enw o Bu a Geillt —Gelltydd y Buchod. Y mae mynydd Helygen, yr hwn sydd yn gyfoethog o fŵnau, yn codi ar y deorllewin, ac ar y gorllewin y mae yr hen linell derfyn adnabyddus, Watt's Dyke, yn rhedeg drwy y drefgordd hyd yr afon Dyfrdwy, yn agos i Fonachlog y Maes-glâs. Y mae yma lawer o weithydd glo, y rhai sydd yn rhoddi gorchwyl i lawer iawn o weithwyr: anfonir y glo oddiyma gyda y llongau a'r rheilffordd, mewn cyflawnder mawr, yn mhob cyfeiriad. Y mae yma dri chwmni ar wahan yn cario yn mlaen waith toddi a phuro meteloedd: ac y mae yma drefniant celfyddydol i dynu allan yr arian, a geir mewn mân ronynau yn y plwm. Gweithir y plwm yma yn bibellau, dolenau, a bariau, at wasanaeth amrywiaethol y gwledydd; ac y mae y lle yn cynnyddu yn gyflym yn ei boblogaeth. Y mae yma le o addoliad gan yr Annibynwyr, y Trefnyddion, a'r Wesleyaid. Y mae rhwng Gadlys a Pentre Bagillt le a elwir "Bryn Dychwelwch," oddiar draddodiad mai yno yr oedd y lle y gorchymynodd Harri II. i'w fyddinoedd encilio o frwydr Counsyllt.

**BAKER**, David, a anwyd yn Abergavenny, yn 1576. Yr oedd ei dad yn oruchwyliwr i Arglwydd Abergavenny, a'i fam yn chwaer i'r Dr. David Lewis, barnwr y Mor-lys. Cafodd ei addysg yn *Christ's Hospital*, yn Llundain, ac oddi yno efe a symudodd i *Broadgate Hall*, Rhydychain, yn 1590. Bwriadai ei dad ei ddwyn i fyny yn offeiriad i Eglwys Loegr; ond gan i ryw rwystrau ddyfod ar y ffordd, anfonodd ef i'r *Middle Temple*, i efrydu y gyfraith, yr hyn a wnaeth gyda llwyddiant mawr, ac argoelion am fywoliaeth gysurus. Yr oedd ar y pryd hwnw yn cael ei flino gan syniadau Atheistaidd; ond yn mhen amser ar ol hyny, cafodd waredigaeth ragluniaethol oddiwrth ryw berygl anfad, a darfu i hyny weithio ynddo y fath gyfnewidiad, fel y bu yn nodedig am ei ymroddiad crefyddol o hyny hyd ddiwedd ei oes. Trwy i ryw lyfrau Pabyddol syrthio i'w ddwylaw, efe a ddygwyd i gofleidio Pabyddiaeth; ac wedi cyfarfod â rhai mynachod Benedictaidd yn Llundain, efe a aeth gydag un o honynt i'r Eidal; ac yn Padua, yn y flwyddyn 1605, derbyniodd Abad St. Justina ef yn aelod i Eglwys Rufain, pan newidiodd ei enw David, am Augustine Baker. Ond cyn iddo orphen ei ymbrawf, gorfodwyd ef gan afiechyd i ddychwelyd adref, pan y cafodd ei dad yn gorwedd ar ei wely angau, ac efe a lwyddodd i'w enill i gofleidio Pabyddiaeth. O hyny allan, daeth yn aelod gweithgar o'i urdd, a gwnaed ef yn offeiriad a phenaeth ar fynachlog Dieulward, yn Lorraine. Yn 1624, aeth i Douay, a gwnawd ef yn gyfarwyddwr ysbrydol, a chyffeswr, i'r Mamau Benedictaidd Seisonig yn Cambray; a bu yn y swydd hono am naw mlynedd. Treuliodd lawer o flyneddoedd i olrhain hen gofnodion ei urdd, ac ysgrifenodd lawer o lyfrau. Gadawodd mewn llaw-ysgrifen, naw cyfrol unplyg mawrion ar dduwinyddiaeth, yn Lleiandy Cambray. Gadawodd hefyd chwe chyfrol mewn llaw-ysgrifen ar "Hanesiaeth Eglwysig," defnyddiau pa rai a gasglodd efe o'r llyfrgelloedd goreu, a chynorthwywyd ef yn hyn gan Camden, Cotton, Spelman, Selden, ac Esgob Goodwin; ac o'r casgliadau hyn y cawd defnyddiau yr "Apostolatus Benedictinorum in Anglia," a gyhoeddwyd gan Reyner; a hefyd ddefnyddiau "Hanes Eglwysig Llydaw," a gyhoeddwyd gan Cressy, yr hwn hefyd a gyhoeddasai cyn hyny y "Sancta Sophia," wedi ei dynu allan o fwy na deugain o draethodau a ysgrifenasid gan Baker. Cyfieithodd Baker hefyd lawer o weithiau awdwyr crefyddol o'r Lladin; y rhai oeddynt yn nghadw mewn tair cyfrol unplyg mawr, ond a ddinystriwyd yn anrheithiad Capel Pabyddol St. Ioan, yn Clerkenwell, yn y flwyddyn 1688. Bu farw yn Holborn, yn Awst 1641, yn 66ain oed, a chladdwyd ef yn Eglwys Sant Andreas.

**BALA**, yn Nghwmwd Mignant, cantref Pen-Llyn, yn mhlwyf Llanycil, swydd Feirionydd, Gogledd Cymru; 18 m. gogledd-ddwyrain o Dolgelley, 204 m. o Lundain. Ystyr y gair Bala, yn ol Dr. Pim, ydyw "toriad allan, blaguriad, ymlifiad." Y mae y dref wedi ei hadeiladu ar derfyn ymlifiad yr afon Dyfrdwy, o Lyn Tegid. Y mae ei hanesiaeth foreuol wedi ei chylchynu â llawer o dywyllwch ac aneglurdeb. Y mae bryn celfyddydol uchel, a elwir Tommen y Bala, ar derfyn de-ddwyreiniol y dref, yn waith a briodolir yn gyffredin i'r Rhufeiniaid, y rhai a adeiladasant amddiffynfa fechan ar y grib, i ddiogelu y fynedfa tua'r môr, a chadw y brodorion cynhyrfus mewn ymostyngiad; ac ar amser diweddarach, gwnaeth y Cymry y lle hwn yn un o'r rhes o werthyrau a godasant ar draws y rhan hon o'r Dywysogaeth, yn dilyn hyd lan y môr yn nherfynau swydd Fflint, i'r dyben o'u hamddiffyn eu hunain yn erbyn ymosodiadau arglwyddi y cyffiniau. Adeiladwyd castell yma yn 1202 gan Llewelyn ab Iorwerth, Tywysog Cymru, ar, neu yn agos, yn ol barn Pennant, i sylfaeni amddiffynfa arall henach, a elwid "Castell Gronw Befr o Benllyn," ac y mae ychydig o'i olion eto i'w canfod ar yr ochr ddwyreiniol i'r Dyfrdwy, gerllaw y fan y mae yr afon yn ymarllwys o'r llyn. Yr oedd y Bala, mae'n debygol, yn dibynu ar Gastell Harlech, ac yn nheyrnasiad Iorwerth II. fe'i cyflwynwyd i Einion de Staneson, ceidwad y castell; ac yn amser Iorwerth III. rhoddwyd y lleoedd hyn at wasanaeth Walter de Mauni, Cadfridog enwog, yr hwn a benodwyd yn siryf y swydd am ei oes.

Y mae y dref yn cael ei ffurfio gan mwyaf o un heol hir. gydâg un arall lai. Y mae ar y ffordd o Ddolgellau i Gorwen, yn agos i ben gogledd orllewinol y Llyn, ac er nad ydyw, hyd yn ddiweddar, wedi meddu manteision teithiol llawer man, eto nid oes ond ychydig o drefi yn y Dywysogaeth yn rhagori mewn golygiad arni. Y mae y gymydogaeth yn dangos llawer o arwylltedd naturiaethol, mewn llethrau uchel, a dyffrynoedd isel; o herwydd hyn, y mae wedi bod yn lle o gyrchfa mynych y boneddion sydd yn hoff o saethu y gieir-mynydd. Sefydlwyd llyfr-gymdeithas yma yn 1828. Y mae y dref a'r gymydogaeth wedi eu hynodi, er yn gynar, am wau hosanau gwlan, a menyg; ond y mae y gwaith hwn wedi lleihau i raddau mawr yno erbyn hyn. Yn y flwyddyn 1839, gwnaed yma ddeuddeng mil ar hugain o ddwsinau o barau o hosanau, deng mil o ddwsinau o barau o socs, a phum mil a phum can nwsin o barau o fenyg. Y mae yr hosanau yn nodedig am ystwythder eu teimlad, ac yn cael eu har-

Digitized by Google

ganmol yn fawr gan y meddygon, am iachusrwydd eu gwisgiant. Y mae y farchnad, yr hon a gynhelir ar y Sadwrn, yn lluosog o bobl o'r holl gymydogaethau o amgylch; cynhelir y ffeiriau ar Sadwrn cyn Mercher y lludw, yn benaf er cyflogi gweision a morwynion, a Mai 14; Gorphenaf 10fed; Hydref 24ain; a Tachwedd 8fed, yn benaf er gwerthiant anifeiliaid byw. Y mae ffair Gorphenaf yn cael ei neillduo yn benaf at fasnach mewn wyn. Yr oedd y Bala, yn yr amser boreol, yn cael ei llywodraethu gan ddau geidwad, a chyngor cyffredin; y mae yn awr dan frawdwriaeth ynadon y sir. Y mae sesiwn y Gwanwyn, a chwarter sesiwn y gauaf, a'r haf, dros y swydd, yn cael eu cynal yma; ac y mae llys y sir yn cael ei gynal yma neu yn Dolgellau, yn fisol. Y mae llysdy y dref yn adeilad diaddurn, yn sefyll yn y brif heol, dan reolaeth yr ynadon yn y cantref; y carchardy sydd yn lled fychan o faintioli, yr hyn a ddywed rywbeth dros foesgarwch y fro. Codwyd capel ychwanegol yma, drwy gydroddion gwirfoddol yn 1811. Y mae yma gapeli Ymneillduol eang ac ardderchog, gan y Trefnyddion Calfinaidd, a'r Annibynwyr, gydag ysgol Sabbathol mewn cysylltiad a'r naill a'r llall. Sylfaenwyd a gwaddolwyd Ysgol Ramadegol yma yn 1712, gan Dr. Edmund Meyrick, canghellydd Tŷ Ddewi; yr hwn a adawodd gymunrodd mewn ymddiried i brif-athraw ac ysgolwyr Coleg Iesu, yn Rhydychain, o dir gwerth 15*p.* y flwyddyn, y pryd hyny, er addysgu plant; y mae deg ar hugain o fechgyn yn awr yn cael eu dilladu a'u haddysgu am bedair blynedd ar y sail; ac y mae yr athraw, yr hwn sydd yn derbyn tua 40*p.* y flwyddyn, gyda lle i gyfaneddu yn rhad, yn cael ei benodi gan swyddogion Coleg Iesu. Y mae y swm o 60*p.* yn flynyddol yn myned at ddilladu y plant. Y mae cangen o'r ffordd Rufeinig yn cychwyn o'r *Mediolanum*, yn sir Drefaldwyn, hyd yr *Hieri Mons* neu Dommen y Mur, ger llaw Ffestiniog, yn myned drwy dref y Bala, ac yn mhen uwchaf y Llyn y mae gweddillion o orsaf Rufeinig, a elwir Caer Gai, yr hwn sydd mewn lle eglur iawn, ac y mae llawer o bridd-feini Rhufeinig i'w canfod yn wasgaredig ar hyd y lle hyd yn awr. Yma y bu prif gyfaneddiad yr anfarwol Barch. Thomas Charles, gynt o Goleg yr Iesu, Rhydychain. Yr oedd yn un o'r rhai blaenaf, os nid y cyntaf, o gwbl oll, a fu yn offerynol yn ffurfiad y Fibl Gymdeithas Frutanaidd a Thramor, sydd yn estyn ei bendithion dros y byd erbyn hyn. Angen y Cymry fu yn achlysur i roddi bodolaeth i'r gymdeithas; a Chymro a fu yn foddion i'w dwyn i ffurf gweithrediad ymarferol:—

"Cenhedlwyd Tywysog yn Lloegr,
A fagwyd yn Nghymru mewn bri,
Cenhedlwyd T'wysoges yn Nghymru,
Ond Lloegr i'w magu ga'dd hi,
Ar derfyn ei dengmlwydd a deugain,
Y daeth y D'wysoges i'w hoed
A heddyw mae'n eiste' ar orsedd
Y benaf Frenhines fu 'rioed!"

Bu Mr. Charles yn llafurus iawn fel pleidiwr Ysgolion dyddiol a Sabbathol, ac yn hyfforddiad y genedl ieuangc; ac y mae y "Geiriadur Ysgrythyrol" yn un o drysorau llenyddol penaf y genedl. Y mae y dref hon yn ymgodi i enwogrwydd yn nifer a chymeriad ei moddion addysg. Y mae y Trefnyddion Calfinaidd wedi codi a gwaddoli Colegdy ardderchog, ar gwr y dref, mewn sefyllfa dderchafedig a iachus; lle y mae nifer o efrydwyr ieuaingc yn cael eu parotoi at y weinidogaeth yn mysg yr enwad, gan y llywydd, Dr. Edwards. Y mae yr Annibynwyr yn awr ar y gwaith o dynu allan eu cynlluniau, ar gyfer codi colegdy teilwng o'r oes a'r enwad, dan arweiniad yr athraw, y Parch. M. D. Jones, lle y bwriedir rhoddi addysg gyflawn i'r pregethwyr ieuangc, ar gyfer gwaith y cyssegr, a phob arwyddion ar hyn o bryd y dygir yr amcan i gwblhad buan.

Y mae Llyn Tegid yn rhoddi cryn enw i'r dref a'r gymydogaeth hon. Y mae hwn y mwyaf yn Nghymru; tua phedair milltir o hyd, ac mewn rhai manau yn agos i filltir o led; y mae ei ddyfnder mwyaf, yr hyn sydd gyferbyn a'r Bryn Goleu, tua chwe llath a deugain. Y mae ei orlifiant, pan y byddo y gwyntoedd yn rhuthro yn nerthol o'r mynyddoedd yn y cwr uchaf, yn peri dinystr mawr weithiau: derbynia nifer o ffrydiau o'r bryniau ar bob ochr ar ystorm, fel y mae yn codi o saith i wyth troedfedd uwchlaw ei arwynebedd cyffredin, ac yn gorchuddio rhanau helaeth o ddyffrynoedd Penllyn ac Edeyrnion; ac ar ambell dro fel pe byddai yn bygwth ymosod ar ddiogelwch y dref. Y mae yr afon Dyfrdwy, neu y Dwyf, yn cychwyn o'i ffynhonell, dan Aran Penllyn, mynydd uchel wrth ben y llyn, drwy yr hwn y dywedai Giraldus Cambrensis, Drayton, ac eraill, ei bod yn rhedeg heb ymgymysgu â'r dyfroedd, fel y dywed y chwedl am y Rhone, ei bod yn myned drwy lyn Geneva, Alpheus, a'r môr Adrian. Sylfaenir y dybiaeth hon ar yr ystyriaeth o fod yr eogiaid neu y gleisiaid, y rhai sydd mewn llawnder yn yr afon, heb fod byth i'w canfod yn y llyn; ac nad yw y gwyniaid, sydd i'w canfod mewn cyflawnder yn y llyn, o'r braidd byth i'w gweled yn yr afon. Ond haera rhai nad yw hyn yn brawf digonol, ac nad yw y naill na'r llall yn gwneud dim mwy na thynu at y lle sydd fwyaf naturiol i'w mwynhad a'u cysgodiad. Y mae y llyn yn llawn o'r ysgin, y rhwyad, y brithyll, a'r gwyniaid. Yr oedd yr hawl o bysgota yn y drydedd ganrif ar ddeg yn perthyn i abad a monachod y Maes-glâs; y mae y cyfan yn awr yn meddiant Syr Watkin W. Wynn, Barn., gan yr hwn y mae palas prydferth o'r enw Glan Llyn yn ymyl y dwfr. Y mae yr olygla ar y llyn o ben Tommen y Bala, yn y pen gogledd-ddwyreiniol, yn dra ardderchog: ar un ochr y mae yn cael ei ymylu â llain o weirgloddiau ffrwythlon, ac ar y chwith y mae y bont, dan yr hon y rhed yr afon Dyfrdwy. Y mae bryn uchel creigiog, wedi ei orchuddio â choed prydferth, yn ymgodi fel i daflu ei gysgod arno; o'r cefn y mae yr Aranau crib uchel yn tremio ar yr edrychydd; Aran Mawddwy, a Phenllyn; at y gogledd orllewin y mae yr Arenig Fach, a'r Fawr yn ymsythu, gyda chadair Idris, a'r niwl yn dorch am ei gwddf, yn terfynu yr olygfa. Y traddodiad chwedleuol yn y gymydogaeth hon, fel ar derfynau yr holl lynau mawrion yn y Dywysogaeth, ydyw fod y llyn yn meddianu gorsaf y buasai palas, a gerddi, a rhodfeydd rhyw dywysog rhwysgfawr, ffroen uchel, ac annuwiol, ac wedi casglu ei gyfoeth dirfawr drwy orthrwn a thrais, ac yspail a mwrddrad, nes o'r diwedd, trwy ddiystyru pob rhybudd a chyngor, y tynodd arno ei hun anfoddlonrwydd, dialedd, a chosp cyfiawnder Dwyfol; ac felly ar wyl fawr a gwledd loddestol genedigaeth etifedd ei fab hynaf, yn nghanol arglwyddi a boneddion y wlad, oedd wedi eu gwahodd i gymeryd rhan yn y llawenydd, y

Digitized by Google

llyngcwyd i fynu i waelodion y ddaear y palas, a'r tiroedd, a'r preswylwyr, a'r ymwelwyr, oll ar unwaith, i ddifancoll; ac y bu i'r fan gael ei orchuddio yn ddioed â'r llen o ddyfroedd, sydd hyd yn hyn yn orchudd ar y cyfan oll. Dywedir yn ychwanegol, fod y pysgodwyr am rai oesau dilynol, ar bob noswaith loergain lleuad yr elent allan gyda'u cychod, yn gweled tyrau y castell suddedig, yn ddigon amlwg. Y mae nifer o blanwyddfeydd prydferth wedi eu gwneyd yn yr oes hon, i addurno llawer ar y gymydogaeth hon, ar derfyn y Cyffdy, Caer Lleon, a Tal y bont, a manau eraill, gan W. M. Thackery, Ysw. Efallai y byddai adrodd rhyw droion digrif, diniwaid, a gymerodd le yn mhlith yr hen drigolion, yn lled ddyddorol yma. Ar amser rhew caled, tua deng mlynedd a thri ugain yn ol, Sion Wmffra y gwydrwr, a osododd gwarel o rew yn ffenestr gwesty y "Tarw Mawr," yn lle gwydr, ac felly cafodd yr enw "Sion gwydr rhew" am ysdod ei oes. Aeth Sion i efail Moses y Gof, ar ddiwrnod oer a rhewlyd, yn cwyno nas gallai gael dim gwaith, hyd yn oed i gael pres i brynu myglys. "Pam na thori di ffenestr rhywun; felly mae gwneud," meddai y gof. "Diolch i ti," meddai'r gwydrwr; "ond ffenestr pwy a doraf?" "Pw, ni waeth am hyny," meddai y gof, "gan y bydd raid ei thrwsio." Ymaith a'r gwydrwr at ffenestr ty'r gof, gan ei chwilfriwio â'i ffon onen; rhedodd yn ol i'r efail, gan adrodd y chwedl yn llawen i'r gof, yr hwn a ofynodd, "Ffenestr pwy a doraist?" "Dy ffenestr di," meddai'r gwydrwr. Yna'r gof, gan edrych yn syn, a ddywedodd," Wel, dos a thrwsia hi; yr oedd mwy o fai arnaf fi na thi." Dywedir hefyd i ddieithr-ddyn ddyfod ar draws Llyn Tegid, pan oedd wedi rhewi, a'r eira wedi ei orchuddio. Wedi cyrhaedd o hono i'r dref, gofynai pwy oedd perchen y ddôl, fawr, deg, a gerddasai cyn dyfod i'r dref? Ac ar ol iddo wybod ei fod wedi cerdded dros Lyn Tegid, iddo dori ei galon yn y fan. Pa bryd y bu hyn, ni wyddir, ond y mae hen benill ar gael, o waith rhyw un, yn cyfeirio at yr amgylchiad:—

> "Tebyg ydwyf fel y tybid,
> I'r dyn gerddodd dros Lyn Tegid,
> O edifeirwch am a wnaethai,
> E dorai'i galon ar dir goleu!"

Coffeir am lawer o feirdd ac awdwyr teilwng wedi eu geni a'u magu yn y gymydogaeth hon, Rowland Fychan o Gaer Gai; Robert Williams, Pandy Mawr, Tre Rhiwaedog; Sion Roberts, gerllaw y dref; Rowland Huw, o'r Graienyn; a Morys Rhobert; oeddynt feirdd o gryn fri, ac y mae rhai darnau o'u gwaith eto ar gael.

**BANAEL**, yn Nghwmwd Merffordd, cantref Uwch Nant (a elwir yn awr cantref Wyddgrug), Swydd Fflint, Gogledd Cymru; 3 m. de-dde-orllewin o Benarlâg, neu Ben ar halawg.

**BANGOR**, neu Ban Cor, *The choir on the steep hill*, yn nghwmwd Gwynionydd, cantref Syrwen (a elwir yn awr Cantref Troed yr Aur), Swydd Aberteifi, Deheubarth Cymru; 5½ m. dwyreiniol o Gastell Newydd Emlyn. Y mae y plwyf hwn mewn sefyllfa hyfryd, ar derfyn yr afon Teifi, ac yn arddangos golygfa darawiadol iawn ar yr holl fro. Y mae y tir, yr hwn sydd mewn cyflwr uchel o wrteithiad, yn gymwys i gynhyrchu cnydau rhagorol o ŷd. Y mae Blaen Dyffryn, yr hwn a ddaeth yn etifeddiaeth i John Lloyd Davies, Ysw., drwy briodas â Miss Price, nith y meddianydd blaenorol, mewn parth prydferth o'r plwyf. Y mae y fywoliaeth yn berigloriaeth mewn cyssylltiad â Henllan, yn archddeoniaeth Aberteifi ac esgobaeth Tŷ Ddewi; ac yn cael ei phrisio yn llyfrau y brenhin yn ol 5*p*. 6*s*. 8*c*., ac wedi ei gwaddoli â rhodd frenhinol o 200*p*., ac yn nhadogaeth Esgob Ty Ddewi. Y mae yr eglwys, yr hon sydd wedi ei chysegru i St. Dewi, yn sefyll mewn man dengar uwchlaw yr afon. Y mae hen amddiffynfa gerllaw, a elwir Castell Pistog, yr hwn y dywedir ei fod ar y cyntaf yn sail palas a berthynai i deulu o'r enw hwnw. Y mae agorfa ar y grib, lle y dywedir y byddai Pistog yn gwahodd ei holl ddeiliaid ar amserau nodedig, i'w croesawu mewn gwledd, o dan len o wlanen wedi ei threfnu fel nen, er cysur a diogelwch. Yn ol hen gofnodiad eglwysig, ag sydd eto ar gael, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1809, yr oedd gwerth y fywiolaeth rhwng pob elw cysylltiedig tua 137*p*. 13*s*. y flwyddyn.

**BANGOR**; adnabyddus yn gyffredin wrth yr enw Bangor Fawr yn Ngwynedd; dinas, porthladd, a phlwyf, yn Nghantref Is Gwyrfai, yn swydd Gaernarfon; 9 m. yn ogleddol o Gaernarfon, a 243 o Lundain, ar y brif-ffordd i Gaergybi, yn cynwys 10,662 o drigolion. Y mae dechreuad y ddinas bwysig hon, o ran ei hanes, yn cael ei gylchynu â chryn dywyllwch. Dywed Leland, oddiar awdurdod John Harding, cyn sefydliad Cristionogaeth yn Mrydain, fod Condage, tywysog y Brython boreuol, wedi adeiladu teml yma, a'i chyssegru i Minerfa, neu *Min-arfau*. Ar gywirdeb y dystiolaeth hon y sylfaenir y gred, fod y lle mewn bod yn amser y Rhufeiniaid; a'r dystiolaeth o'i bod yn meddiant y Rhufeiniaid, a gadarnheir drwy ddarganfyddiad careg rud, wedi ei naddu, dair troedfedd a phedair modfedd o hyd, a deunaw modfedd o led, yn y *Tŷ Coch*, o fewn y plwyf hwn, gyda cherfiad arni, o anrhydedd i Antonius. Yr hanesiaeth awdurol gyntaf sydd ar gael am y lle hwn, ydyw y cofnodau am sefydliad crefyddol a seiliwyd yma, yr hwn a ddechreuwyd gan Deiniol, neu Daniel mab Dunawd, neu Donothus, abad monachlog Is-Coed, yn swydd Fflint, yr hwn a gododd goleg yma i hyfforddi yr ieuaingc, a chynal yr offeiriaid, yn Ngogledd Cymru, tua'r flwyddyn 525. Yr oedd y coleg hwn yn parhau i ddibynu ar y sefydliad yn Bangor Is-Coed, o'r lle y derbyniodd ei enw, hyd y flwyddyn 550, pan y darfu i Maelgwn Gwynedd, Tywysog Gogledd Cymru, a elwid gan Gildas, "Maglocunus," waddoli y lle â thiroedd, a lluaws o freintiau eraill; a'i dderchafu yn ddinas esgobol, yn yr hon y cyssegrwyd Deiniol, yr esgob cyntaf, gan Dyfrig, Archesgob Caerlleon. Bu Deiniol farw yn mhen tua phedair blynedd ar ol ei gysegriad, ac efe a gladdwyd yn ynys Enlli, y fan oedd megis wedi ei neillduo fel claddfa dynion o enwogrwydd mawr mewn crefydd. Yn ol rhai awdurdodau eraill, ymddengys fod Dyfrig, abad Bangor Is-Coed (yr hwn yn y flwyddyn 597 a flaenorai genhadaeth o ddynion dysgedig i fyned i gyfarfod Awstin, yr hwn a anfonai y Pab Gregory i Frydain, i ledaenu egwyddorion y ffydd Gristionogol), wedi ffurfio sefydliad bychan yn y man lle y saif yr Eglwys Gadeiriol yn awr, megis cangen berthynol i Abaddy Bangor Is-Coed; a gosod monachod o'r sefydliad hwnw yno. Daeth y lle hwn wedi hyny yn fath o noddfa i'r ychydig frodyr a ffoisant o gyflafan monachod Bangor Is-Coed, gan Ethelffrith, brenhin Northumberland, yr hwn yn 607 a ddaethai i Gaerlleon ar Ddyfrdwy, a elwir yn awr Caer, yn erbyn y

Digitized by Google

Brytaniaid, byddin y rhai a orchfygodd efe mewn brwydr drychinebus; ac efe a syrthiodd mewn dialedd diarbed ar fonachod Iscoed (y rhai oeddynt wedi ymgynnull yn y lle, i gefnogi eu gwladwyr â'u gweddiau), ac a roddodd ddeuddeg cant o honynt i farwolaeth; tua haner cant o honynt yn unig a achubasant eu hunain, drwy ffoi i'r mynyddoedd, ac a unasant â'r cyfeillion oeddynt yma, i ffurfio sefydliad crefyddol, i'r hwn y cyflwynasant enw yr hen fonachlog, oedd erbyn hyny wedi ei throi i adfeiliau; ac wedi hyny, oblegid ei phwysigrwydd cynnyddol, a alwyd yn *Ban Cor*, neu "brif gymdeithas," neu *Bon Côr*, "y cor daionus." Pa fodd bynag am ansicrwydd dechreuad y frawdoliaeth grefyddol yn Mangor, ymddengys fod y lle wedi ei dderchafu yn ddinas esgobol tu a'r flwyddyn 550, ac mai Deiniol oedd yr esgob cyntaf, er iddi barhau yn Is-esgobaeth, mewn ymostyngiad i archesgobaeth Caerlleon; ond, nid oes un crybwylliad am olyniad o esgobion yno am dros ysbaid o dri chan mlynedd. Y cyntaf a gofnodir i fod wedi olynu Deiniol, oedd Elfod, yr hwn, yn ol yr *Annales Menevenses*, a fu farw yn 811; a dywedir fod yr esgobaeth wedi cael ei gwaddoli yn ychwanegol gan Rhodri Mawr, ac wedi hyny gan ei fab a'i ddilynydd, Anarawd, mewn math o ddiolgarwch am ei fuddugoliaeth ar y Saeson, ar lannau afon Cynwy, sef yn y frwydr a elwir hyd heddyw "Dial Rhodri." Yn 925 darfu i Seisyllt ab Clydau gyflwyno tiroedd i'r eglwys, a dywedir fod y Brenhin Athelstan drachefn, wedi cyfoethogi yr esgobaeth. Dywedir i Mordaf, esgob Bangor, gyda Chebar, esgob Llanelwy, yn 940, fyned gyda Hywel Dda, Brenhin Cymru, i Rufain, i ofyn caniattad i'w ddeddfau gwladol rhagorol, gael eu cyfreithloni.

Yn 973, darfu i Iago, brenhin Gwynedd, wneud apeliad at Edgar, brenhin Lloegr, am gynorthwy yn erbyn tywysog arall o'r enw Hywel, a hwnw, yn ewyllysio gyru yr ymryson yn mhellach, a aeth gyda byddin i Fangor, ac a orfodogodd Hywel i ranu y frenhiniaeth gydag ef. Darfu i'r brenhin Seisnig, tra bu yn aros yn y ddinas hon, ymhoni i awdurdod brenhinol yn Nghymru; cadarnhaodd freintiau yr esgobaeth, ac eangodd ei meddianau, drwy roddion o diroedd a chyfoeth, ac adeiladu ar ochr ddeheuol y brif eglwys, gapel a gysegrwyd i St. Mair, yr hwn, yn ol tystiolaeth Browne Willis, a ddefnyddid fel eglwys blwyfol, hyd amser Harri VII. Yn 1071, gwnaed difrod mawr ar y ddinas a'r eglwys, gan fyddin Seisnig a ruthrasant ar y Dywysogaeth; a thua'r flwyddyn 1080, Huw Lupus, Iarll Caerlleon, i'r dyben o rwyddhau ei ffordd i ymosod ar Ynys Fôn, a sicrhau y buddugoliaethau oedd ef wedi eu dechreu eisoes yn Ngogledd Cymru, a adeiladodd gastell o fewn tua chwarter milltir, ar y naill du i'r ddinas, ar grib y bryniau sydd yn ymylu y dyffryn. Nid oes yr un cofnodiad am ddim neillduol wedi cymeryd lle mewn cysylltiad â'r castell hwn, yn hanesion y Dywysogaeth; y mae yn debygol mai ar adferiad Gruffydd ab Cynan i'r orsedd, o'r hon yr oedd yr Iarll wedi ei ymlid ymaith, y goddefwyd iddo ymollwng yn raddol i adfeiliau. Yr oedd y ddinas wedi ei hadgyweirio erbyn hyn, ond yr oedd y brif eglwys wedi ei gollwng i gyflwr isel iawn, hyd tua 1102, pan y cynaliwyd cynadledd yn Westminster, er diwygio yr eglwys, lle yr oedd Anselm, Archesgob Caergrawnt yn llywyddu, ac yn cael ei gynorthwyo gan Girard, Archesgob Caerefrog; yr oedd Roger, Esgob Salusbury, ac eraill yn bresenol; a chyda hwy yr oedd Herfe neu Herfeus, Esgob Bangor—yr esgob Cymreig cyntaf erioed, yr hwn a gysegrwyd gan Thomas, Archesgob Caerefrog. Aelodau y cyngor hwn, mewn galar o blegid dirywiad crefydd yn y rhan hon o Ogledd Cymru, yr hyn a briodolent fel achos, i'r dinystr a wnaed ar yr Eglwys Gadeiriol, a gyfranasant symau mawrion, er ei hadgyweiriad. Giraldus, yr hwn a ddaethai gyda Baldwin, Archesgob Caergrawnt, ar ei daith trwy Gymru, i bregethu dros Ryfel y Groes, a hysbysai, yn eu cylchdeithiau, eu bod wedi ymweled â Bangor yn 1188, ac iddynt gael derbyniad croesawgar gan esgob y dosparth hwnw, gyda'r hwn y buant yn lletya am un noswaith; a thranoeth, wedi cyflawni yr uchel wasanaeth eglwysig, gan Archesgob Caergrawnt, argymhellwyd Gwion, Esgob Bangor, i gymeryd y groes, yr hyn a wnaeth yn erbyn ewyllys ei bobl. O'r amser hwn, ymddengys fod Bangor wedi parhau mewn cyflwr llwyddianus, hyd y flwyddyn 1211, pan y daeth y brenhin John, ac a oresgynodd Ogledd Cymru, ac a wersyllodd gyda'i filwyr ar geulanau afon Cynwy; efe a anfonodd ran o'i fyddin i osod y ddinas hon ar dân, yr hyn a wnaethant, ac wedi myned i mewn i'r brif-eglwys, hwy a gymerasant Robert, yr esgob (yr hwn a ddaethai i feddiant o'r esgobaeth ar farwolaeth yr esgob a etholasid yn lle Giraldus, yr hwn a wrthodai y swydd, oddiwrth yr allor), ac a'i gwnaethant yn garcharor; ond hwy a'i gollyngasant yn rhydd drachefn, ar daliad swm mawr fel iawn. Yn ystod y teyrnasiad hwn, dioddefodd Bangor anrheithiad mawr, yn y rhyfeloedd a ddygid yn mlaen rhwng y brenhin John, â Llewelyn; ac yn nheyrnasiad Harri III., bu difrod mawr ar y lle, drwy yr ymrysonau a fu rhwng y teyrn hwnw a Dafydd ap Llewelyn, yr hwn y darfu i Richard, oedd y pryd hwnw yn Esgob Bangor, ac yn bleidiwr gwresog i'r brenhin, ei ysgymuno. Yn ystod y rhyfeloedd hyn, dinystrwyd yr Eglwys Gadeiriol i raddau mawr, fel y bu raid i'r esgob droi i Loegr am noddfa, a bu am yn agos i ugain mlynedd yn cael ei ddiogelwch a'i gynhaliaeth yn monachlog St. Albans.

Ar gwbl ddarostyngiad Cymru, gan Iorwerth I., daeth cymydogaeth Bangor yn un olygfa o ddinystr ofnadwy, pan y lladdwyd pymtheg barwnig, deuddeg ar hugain o ysweiniaid, a mil o filwyr, gan y fyddin Gymreig, dan Richard ab Walwyn, wedi croesi y Menai, ar drai, gyda phont o gychod. Yn yr amser hwn, cafodd Anian, esgob Bangor, yr hwn oedd mewn ffafr uchel gyda'r brenhin, adferiad o'i holl waddolion, y rhai a gollasid yn ystod y teyrnasiad blaenorol, gyda rhoddion a breintiau ychwanegol; cafodd hefyd yn rhodd Dŷ Bangor, yn Shoe-lane, yn Llundain, fel preswylfod i'r esgobion yn y brifddinas, pan y byddent yn cyflawni eu dyledswyddau yn y llŷs. Er mwyn cynal yr esgobaeth mewn mwy o urddas, cafodd awdurdod oddiwrth y goron, ar ddychweliad pob gwŷsiau, a rheolaeth o fewn ei derfynau, ac yn enwedig yn nhreflanau Tregaian, Abydon, a Bodychan. Yn 1284, wedi cael yr anrhydedd o fedyddio y tywysog ieuangc, Iorwerth, yr hwn a anwyd yn y flwyddyn hono yn Nghastell Caernarfon, efe a dderbyniodd rôdd o borthfäau Porthaethwy a Chadnant, a maenorau Bangor, Castell-Mawr, a Garthgogo, yn swydd Gaernarfon, gyda chantref Treffos, yn Môn; ac yn mhen dwy flynedd ar ol hyny, cafodd gyflwyniad iddo ei hun a'i olynwyr, o'r drydedd ran o'r degymau oedd yn codi oddiwrth feddianau y brenhin, y melinau, a'r mŵn plwm, yn

Digitized by Google

Lloegr a Chymru. Pan y gwnaeth Iorwerth I., ei Derfynaeth (*extent*), neu arfesuriad, dros gyllidau Tywysog Cymru, llwyddodd esgob Bangor i gael swyddwyr o'r Ganghellaeth i wneud ymofyniad dros holl ddeiliadaeth yr esgobaeth, a elwid Terfynaeth Llyfr yr Esgob, yr hwn sydd ar gael yn mhlith ysgrifau yr *Harleian Library*, yn yr Amgueddfa Frytanaidd. Yn 1329, cafodd Matthew de Englefield gyfreithlondeb i gynal Ffair St. Luc a St. Trillo. Yn nheyrnasiad Harri IV., wedi i John Swaffham ysgrifenu llyfr i wrthbrofi athrawiaethau Wickliffe, cafodd ei ddyrchafu i'r esgobaeth, fel gwobr am ei wasanaeth; ac yn ystod gwrthryfel Owain Glyndwr, Llewelyn Biffort, Cymro, yr hwn a godwyd i'r esgobaeth gan y blaenor hwnw, heb genad y brenhin na'r Archesgob, a gafodd ei gau allan o nodded y gyfraith yn 1406, o blegid y rhan a gymerasai efe yn y gwrthryfel, ac a wnaed yn garcharor yn 1408, gan fyddin y brenhin, mewn brwydr a ymladdwyd yn Sir Gaerefrog, yn yr hon y lladdwyd Iarll Northumberland. Dywedir fod y fradwriaeth a gynhyrfodd Owain yn erbyn gormes Harri, wedi ei llunio, yn benaf, yn nhy Dafydd Daron, Deon Bangor, yr hwn hefyd a gauwyd allan o amddiffyn y gyfraith gan y brenhin. Bu yr esgobaeth a'r eglwys gadeiriol, mewn difrod mawr am dymor hir wedi hyn. Pa fodd bynag, dywed rhai hanesion fod yno ddinystr gwaeth na dim a wnaethai Owain, wedi ei wneud drachefn, trwy ddwylaw un esgob Bulcley, yn 1541, yr hwn, nid yn unig a'i difeddianodd o diroedd a berthynai i'r esgobaeth, ond hefyd a werthodd holl addurniadau yr eglwys, a hyd yn oed y cloïau; gan logellu yr arian ei hun. Adgyweiriwyd y lle drachefn gan Esgob Dean, neu Denny; ac ar ei ddyrchafiad i esgobaeth Salisbury, wedi ail adeiladu y Cor, efe a adawodd ei feitr a'i fugeil-ffon, oedd o werth mawr, i'r esgob dilynol, ar yr ammod i'w olynwr gwblhau y gwaith a ddechreuasai efe. Yn nheyrnasiad Richard III., Dean Kyffin, a sefydlwyd yn 1480, ac ydoedd bleidiwr gwresog i Iarll Rismwnd, wedi i'r tywysog hwnw ddyfod i'r goron dan y titl Harri VII., a gafodd roddion o diroedd i'r esgobaeth, ac a wnaeth welliannau yn yr adeilad, ac ychwanegodd aden newydd yno, lle y claddwyd ef. Yn ystod y cythrwfl yn amser Siarl I., daeth y ddinas dan ddifrod mawr drachefn; gohiriwyd y gwasanaeth yn yr eglwys; defnyddiwyd y lle fel ystabl i feirch milwyr y Senedd; anurddwyd y cofadeiliau, a diraddiwyd yr holl le, a chollwyd y cyllidau arferol. Yn amser Iago I. cafodd Humphrey Lloyd, esgob y lle, hawl i adferu y lle, a'r cyfoeth a berthynai iddo. Yma y dechreuodd y dadleuon rhwng Hoadley a Sherlock, y rhai a barhasant am gryn dymhor. Y mae y manylion yn annyddorol, ar y cyfan.

Y mae y ddinas yn sefyll mewn dyffryn prydferth, yn cael ei ymylu ar y dde gan fynyddoedd uchel, ac ar yr ochr ddwyreiniol y mae golygfa ardderchog yn agor ar y Fenai, ac yn ymestyn hyd fay Biwmares, a'r traeth a'r dref yn derfyn. Y mae y ddinas yn gynwysedig gan mwyaf o un heol, tua milltir o hyd, o'r hon y mae nifer o rai eraill yn ymganghenu. Y mae y gymydogaeth yn orlawn o olygfeydd tarawiadol iawn: mynyddau Arfon ar un llaw, a glanau Môn ar y llall. Y mae nifer o rodfeydd a llwybrau rhamantus yn yr ardal. Y mae y porthladd yn fanteisiol iawn i allforio llechau Bethesda a Chwarel Braich y Cafn. Y mae y farchnad ar y Gwener, ac yn yr haf ar y Mawrth, yn ychwanegol. Cynhelir y ffeiriau ar Ebrill 5ed; Mehefin 25ain; Medi 16eg; a Hydref 25ain. Y mae ffeiriau gwartheg yn y "Borth," ger Pont Menai, yn y plwyf hwn, Awst 26ain; Medi 26ain; Hydref 24ain; a Rhagfyr 14eg. Y mae Bangor yn un o'r chwe bwrdeisdref yn y sir, sydd yn cyd-anfon un aelod i'r senedd. Yr oedd adeiladaeth y Bont-gadwynol dros y Menai, ar y brif-ffordd o Lundain i Gaergybi, tua chan llath o agored dros y lli, yn ychwanegiad dirfawr at ddyddordeb y gymydogaeth, ac yn enw bythol i Telford y cynllunydd. Y mae y pen yn ochr Môn, ar graig gadarn a elwir "Ynys y Moch," a'r pen arall mewn diogelwch ar y traeth, yn ochr Arfon.

Y mae y ddinas esgobol yn hynafiaethol iawn, a'r llywodraeth yn cynwys yr oll o Fôn, yr oll o Arfon, gyda'r eithriad yn unig o bedwar plwyf yn y Creuddyn; tua haner Meirionydd; deoniaeth Dyffryn Clwyd yn Ninbych, a saith blwyf yn sir Drefaldwyn. Y mae wedi ei dosparthu yn dair archddeoniaeth, sef Môn, Bangor, a Meirionydd. Y mae y sefydliad eglwysol yn cynwys esgob, deon, cangellydd, cyflwynydd, trysorydd, archddeon, dau brebendari, tri chanon, dau ficer corawl, organydd, dau ysgrifenydd lleygol, coryddion, a nifer o swyddogion eraill. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Daniel. Cafodd ei dinystro, a'i hadeiladu, a'i hadgyweirio lawer gwaith drosodd. Y mae enwau Dean a Skeffington yn sefyll yn uchel yn hanes y gwelliannau a wnaed ar yr hen adeilad gorwych. Y mae yn ddau cant a phedair ar ddeg o droedfeddi o hyd; a'i lled yn yr adenydd croesion ydyw, un droedfedd ar bymtheg a phedwar ugain. Y mae y tŵr yn dri-ugain troedfedd o uchder. Y mae y sail i'r holl adeilad yn y dull croesawl. Y mae rhai cof-adeilau o hynodrwydd yn y lle. Y mae beddrod Gruffydd ab Cynan, brenhin Gwynedd, ar yr ochr chwith i'r allor. Y mae yma gerflun o Owain Gwynedd, o wneuthuriad rhagorol. Claddwyd amryw o'r esgobion yma. Y mae yma gareg i ddynodi bedd William Wynne, M.A., yr hanesydd enwog, yr hwn a wnaeth y defnydd goreu o ysgrifau Caradog o Lancarfan. Y mae yma lyfrgell, yn yr hon y mae llaw-ysgrif o eiddo Esgob Anian, a elwir *Liber Pontificales Dui Aniani Bangor Episcopi*, yn cynnwys amrywiaeth, ac yn hynafiaethol iawn, wedi ei ysgrifenu yn 1291. Y mae y palas esgobol wedi bod dan amryw adgyweiriadau, o bryd i bryd. Unwyd plwyf Bangor â Phentir yn flaenorol i'r flwyddyn 1402, pan y dadgyssylltodd Abad Valle Crusis hwy, ond a orfu eu hadferu drachefn yn 1444; eto hwy a ddadgyssylltwyd eilwaith yn amser y Diwygiad. Pa fodd bynag, mewn cynghaws a brofwyd yn yr Amwythig yn 1657, hwy a ad-unwyd drachefn yn un plwyf, ac ni ystyrir Pentir yn awr, yn ddim amgen na threfgordd, a'r eglwys fel capel ychwanegol. Y mae yn y dref amryw gapeli Ymneillduol, pump gan y Methodistiaid, dau gan yr Annibynwyr, dau gan y Bedyddwyr, a phedwar gan y Wesleyaid. Y mae eglwys newydd wedi ei hadeiladu yn ddiweddar yn Bangor Uchaf, ac y mae yn adeilad hywel; fel y mae yma dair eglwys, ac un capel pabaidd. Y mae yma Goleg Normalaidd wedi ei godi yn ddiweddar ar egwyddor rydd, ac yn adeilad gwych; yn adlewyrchu parch ar gofion llafur y diweddar John Phillips. Y mae yn y dref ysgoldai eang, yn perthyn i'r ddau drefniant, y Cenedlaethol a'r Brytanaidd. Y mae yn y dref amgueddfa, o gryn hynodrwydd, wedi ei

Digitized by Google

chodi gan Cadben Jones, yn cynwys gwrthrychau o hynafiaeth, a chywreinrwydd mawr, a derbyniad i mewn am bris bychan, wedi ei hamcanu er manteision adloniant i'r cyhoedd.

Y mae Bangor yn lle canolaidd o ran sefyllfa, fel man manteisiol i hyrwyddo masnach a chroesawu teithwyr. Y mae y Penrhyn Arms yn westy ag sydd wedi tynu cryn sylw, ac yn un o'r rhai eangaf yn Ngogledd Cymru. Y mae y Castle, y Liverpool Arms, y Royal Oak, a'r George, sydd gerllaw y dref, yn cael eu tra mynychu gan deithwyr, a phob cyfleusderau teithiau ar bob llaw. Rhaid fod y gwahaniaeth yn fawr wrth gymharu ansawdd y lle ar hyn o bryd, â'r hyn ydoedd pan yr ymwelai Dr. Johnson, yn nghwmni Mr. a Mrs. Thrale â'r lle, ac y dywedai, yn hanes ei daith, "Ar awr led hwyrol daethom i Bangor, lle y canfyddasom westy cyffredin iawn, ac y cawsom gryn drafferth cyn cael lle i letya. Gorphwysais i mewn ystafell lle yr oedd gwely arall, a dau yn cysgu ynddo." Y mae yma amryw adeiladau eraill o gryn hynodrwydd a henafiaeth o fewn terfynau y gymydogaeth, y rhai a ddeuant dan sylw yn eu cysylltiadau priodol. Sylfaenwyd yma "Dy y Mynachod Duon" gan Tudyr ap Goronwy, o Benmynydd a Threcastell, yn 1311. Ar y sail lle y safai yr adeilad hwnw, y cododd Dr. Jeffrey Glynn, wedi hyny, Ysgol Rydd a Rhad ar gyfer rhoddi addysg i blant tlodion, fel y mynegir yn ei lythyr-cymun, dyddiedig Gorphenaf 8, 1557: y mae yr ysgol hon yn dal mewn cyfrifiad uchel hyd y dydd hwn. Y mae y ddinas ar gynnydd parhaus, ac yn cael ei hystyried fel un o brif drefydd Gwynedd.

**BANGOR-IS-COED** sydd blwyf yn cynwys trefgorddau Eyton, Pickhill, Ryton, a Segswick, yn Nghantref Bromfield, yn swydd Ddinbych, a threfgordd Bangor, yn nghantref Maelor, swydd Fflint, Gogledd Cymru, 5 milltir o Wrecsam, ar ffordd Whitchurch. Y lle hwn a ddynodir ag *Iscoed*, er ei wahaniaethu oddiwrth Bangor yn Arfon. Yma yr ydoedd gorsaf *Banchorium*, Richard o Cirencester, ac fe dybir yn gyffredin mai hi ydoedd *Borium*, neu *Bonium* Antonine. Yma yr ydoedd y fonachlog hynaf ac eangaf yn Mhrydain; ac fel yr ydoedd wedi ei bwriadu i fod yn ysgol er addysg grefyddol, hi a ddaeth i fod yn brif-athrofa, oddiwrth yr hyn y dywedir iddi gael ei sylfaenu gan Lleirwg, Brenhin Brydain, dan nawdd yr hwn y sefydlwyd Cristionogaeth yn y rhan hon o'r wlad; ac oddiwrth yr un golygiad y galwyd y lle, mewn ffordd o anrhydedd, yn *Ban Gor*, yr hwn enw a gyfnewidiai y Saeson yn fuan i *Banchorra-byrig;* gair yn arwyddo fod y fan yn dref freintiedig. Yma y derbyniodd Morgan neu Pelagius ei addysgiant, yn ol amryw Haneswyr, a daeth yn abad yn y fonachlog hon yn nechreuad y bumed ganrif. Gwrthwynebwyd cyfeiliornadau Morgan yn effeithiol iawn gan St. Garmon, yr hwn a wnaeth lawer o welliannau yn y sefydliad hwn. Pan yr anfonwyd Awstin gan y Pab Gregory, i adsefydlu Cristionogaeth yn Lloegr, drwy ddychwelyd y Saeson i'r ffydd, ymdrechodd i helaethu gallu eglwys Rhufain, drwy arosod ei awdurdod dros esgobion Brydain. Ond gan iddynt hwy ymwrthod â'i draws-arglwyddiaeth, galwyd cyngor cyhoeddus o'r offeiriaid, yn mha un yr oedd saith o esgobion, ac amryw wŷr dysgedig eraill, yn bresenol. Parhaodd y cenhadau Brytanaidd yn ddiysgog yn eu penderfyniad i wrthod ymostwng i awdurdod Awstin, ac i beidio ei gynorthwyo yn nychweliad y Saeson. O herwydd hyn, darfu i'r cenhadwr rhwysgfawr, mewn cryn ddigllonedd, gyhoeddi melldith Duw arnynt, gan ragfynegi iddynt, Gan na fynent heddwch gyda'u brodyr Cristionogol, y caent ryfel yn fuan gan eu gelynion Paganaidd, ac y caent wybod beth oedd min y cleddyf yn eu dinystr, gan y rhai y gwrthodent bregethu gair y bywyd iddynt. Cwblhawyd y bygythiad hwn ychydig o flyneddoedd wedi hyn, yn mrwydr Caerlleon, pan y llofruddiwyd un cant ar ddeg a haner, o'i deuddeg cant o fonachod, oeddynt wedi myned allan i weddio am lwyddiant eu cyd-wladwyr, y Cymry, yn erbyn Saeson Northumbria, y rhai, dan nawdd Ethelfrid, oeddynt wedi ymosod ar y ddinas henafiaethol hono. Daeth y Saeson, wedi buddugoliaethu ar eu gwrthwynebwyr, a chymeryd meddiant o Gaerlleon, yn mlaen i Fangor, lle y dinystriasant yr hen fonachlog yn hollol, ac y cyflwynwyd y llyfrgell werthfawr oedd yno i'r fflamau. Bwriadent, mewn canlyniad, fyned rhagddynt, a goresgyn Gymru oll, ond gwrthwynebwyd iddynt groesi yr afon Dyfrdwy, yn y lle hwn, gan Brochwel Ysgythrog, Tywysog Powys, yr hwn a wrthwynebodd eu holl ymosodiadau yn llwyddianus, ac yn fuan a gafodd gynhorthwy Cadfan, Brenhin Gwynedd; Maredydd, Brenhin y Deheubarth, a Bledrws, Brenhin Cernyw. Galwodd y tywysogion unedig am wasanaeth Dunawd, abad Bangor, un o'r deg a deugain monachod a ffoisent o afael eu gelynion, yn ninystr cyffredinol eu brodyr, yr hwn a draddododd anerchiad i'r fyddin, ac a derfynodd drwy anog y milwyr i gusanu y llawr cyn dechreu y frwydr, fel coffadwriaeth o gymundeb corph Crist, a chodi dwfr a'u llaw o'r afon Dyfrdwy, a'i yfed mewn coffadwriaeth am ei waed sanctaidd. Cynnyrchodd dyhewyd y weithred hon yni y Cymry, oeddynt eisioes wedi eu tanio ag ysbryd dialedd am y camwri oeddynt newydd ei brofi, a hwy a lwyr orchfygasant yr ymosodwyr, gan eu rhifo i'r clêdd hyd ddeng mil o nifer, a gorfodwyd Ethelfrid, gyda'r gweddill o'i fyddin, i ffoi ymaith i'w wlad ei hun. Oddiwrth y dinystr ofnadwy hwn, ni lwyr adferwyd Bangor byth mwy; gwasgarwyd y gweddill o'r monachod, a ddiangasent yn fyw, drwy ganolbarthau y wlad, gan mwyaf yn Ngogledd Cymru, ac eraill i wasanaeth y weinidogaeth yn y Deheubarth, ac yn Llydaw. Dywedir fod yn y sefydliad hwn unwaith, ddim llai na dwy fil a phedwar cant o frodyr, o'r rhai yr oedd cant yn gwasanaethu ar gylch am un awr, ac felly yn cynal gwasanaeth rheolaidd, ddydd a nos, a'r lleill yn cyflwyno eu llafur yn ngwasanaeth y cymundeb, mewn rhyw ffordd neu gilydd. Nid oes ond ychydig o olion yr adeiladau eang yn weledig; maent i'w canfod ar geulanau dwyreiniol yr afon, ar ffyrdd Overton a Wrecsam, ac y mae enwau dau o'r pyrth, sef "Porth Cylis," a "Phorth Wgan," yn aros hyd y dydd hwn.

Y mae y pentref mewn sefyllfa brydferth, ar lan y Ddyfrdwy, yr hon sydd yn fordwyol hyd y fan hon, lle y mae pont, o bump o fwäau-meini, yn uno siroedd Dinbych a Fflint. Cynhwysa y plwyf tuag wyth gan erw o dir dâ; y mae tua dwy fil o erwau yn agored i orlifiad yr afon. Y mae y fywoliaeth yn bersonoliaeth, gyda churadaeth Overton, yn esgobaeth ac archddeonaeth Caerlleon, ac yn noddogaeth Ardalydd Westminster. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Dinoth, yr hwn oedd yn abad y fonachlog pan y tiriodd Awstin yn Lloegr. Y mae

Digitized by Google

y bwrdd cymundeb, yr hwn sydd o farmor gwyn, a'r llawr yno, o farmor gwŷn a du, o roddiad un Mr. Lloyd. Y mae yma amryw gof-golofnau, a bedyddfaen o hynafiaeth mawr. Sylfaenwyd yma ysgol rad, blwyfol, yn 1728, gan Arglwyddes Dorothy Jeffreys, gweddw y Prif-Ynad Jeffreys, yr hwn a gyflwynodd 500*p.*, i addysgu a dilladu plant tlodion y plwyf. Y mae amryw waddolion eraill yn perthyn i'r lle, 60*p.* o rodd Thomas Lloyd; 50*p.* gan Mr. Price; 50*p.* gan y Parch. Huw Morris; 40*p.* gan Thomas Tunna; darn o dir gan Margaret Lloyd, a 200*p.* gan Peter Lloyd. Yr oedd y ffordd Rufeinig i *Banchorum*, yn rhedeg drwy y pentref. Daw y Bangorau eraill dan sylw yn lleoedd eu cysylltiadau priodol.

**BARDDONIAETH.** Y mae y cyffredin yn cytuno yn eu darluniad o natur Barddoniaeth, mai iaith teimlad cyffrous ydyw, wedi ei gosod allan mewn dychymygiad dyrchafedig, â llinellau mesuredig, at lais cân. Yr oedd *Trioedd Cerdd* ein cyndadau yn eglurhâd tarawiadol ar ei hathrawiaeth:—"Tri phrif anhebgor Awen: llygad yn gweled anian; calon yn teimlo anian; a glewder a faidd gydfyned âg anian." Y mae syniadau y Bardd i fod yn wreiddiol ac amrywiaethol. Y mae yn ofynol fod ei feddyl-ddyrchau yn eglur, ei deimladau yn fywiog, a'i ddarluniadau yn naturiol. Y mae ei holl gynlluniau i fod yn seiliedig ar anian, a'i holl linellau wedi eu haddurno gan gelfyddyd. Y mae natur yn darparu y corph, a chelfyddyd yn cynnyrchu y wisg. Y mae llygad y Bardd i dremio ar holl olygfeydd natur, ac y mae ei ddeall i adnabod holl nwydau a thymerau y ddynoliaeth. Y mae ei feddwl i fod yn drysorfa i holl gyfoeth anian, ac y mae yn rhaid i'w glust fod wedi ei chymhwyso i wrando ei chân, a'i dafod i ddatgan ei seiniau.

Y mae y dalent hon yn henafol iawn yn mysg dynion. Y mae hanesion boreuol pob gwlad a chenedl wedi eu trosglwyddo drwy yr oesau gan yr awenydd. Nid oes yr un fro ar wyneb daear, o'r bron, wedi suddo gan ddyfned mewn anwybodaeth a dideimladrwydd, fel nad yw yn gwybod rhywbeth am fesur cerdd. Y mae y ddawn i'w chanfod, nid yn unig yn mysg y pendefigion a'r cyfoethogion, ond hefyd yn mhlith y werin, o bob gradd—yn y bwth mwyaf gwledig, yn gystal ag yn y palas mwyaf anrhydeddus. Y mae yn un o ddoniau mwyaf arbenig natur. Y mae prydyddiaeth mor naturiol i ddynoliaeth, fel y clywir y fyd-wraig sydd yn gwylio cwsg y plentyn, yn ei defnyddio i'w süo i dawelwch; ac y clywir y bychan syml yn ei ddifyru ei hun â'i seiniau, pan y delo gyntaf yn alluog i dori geiriau, ac i daro ei fys ar linynau blaenaf offeryn cerdd. Y mae yr ystyriaethau hyn yn dangos pa mor agos yw y berthynas sydd rhwng barddoniaeth a cherddoriaeth; y maent fel chwiorydd o efeilliaid, mor agos yr un oedran ag dichon bod, fel y gellir dywedyd na anwyd mor penill ond i'r dyben o gael ei ddatganu.

Y mae y fath hoffder, gan ddyn wrth natur, at farddoniaeth, fel y mae pob gradd, oedran, ac ystlen mor barod i'w meithrin a'u gilydd. Y mae yn hawlio meddiant mor drwyadl ar gôf a theimlad pawb, fel y clywir ei seiniau mor groew, gan y brenhin sydd yn gorchymyn, a'r deiliad sydd yn gwrando; gan y cadfridog sydd yn arwain, a'r milwr cyffredin sydd yn ufuddhau; gan y cadben sydd yn cyfarwyddo, a'r morwr sydd yn codi yr hwyl; gan yr amaethwr sydd yn cynllunio, a'r llafurwr sydd yn cydio yn nghorn yr aradr. Y mae mor naturiol i'r barbariad sydd yn rhodio neillduedd y maes, a'r adar sydd yn adseinio y goedwig. Y mae yn gydblethedig â holl deimladau tyneraf ein natur, fel y mae yn lleddfu dioddefaint y trallodus, yn gystal ag ysprydoli yni y llawen a'r hoew. Dichon fod yr hyfrydwch a gyflwyna yn tarddu o'r gwahanol ffynonellau a fyddo yn codi o'r un tueddiadau, ac i'w cael yn nghyd-gyfarfyddiad teimladau cyffelyb o ran eu hansawdd naturiol. Y mae yn cael ei chynnyrchu yn naturiol o gyd-gordiad meddwl, sain a mesur; oddiar amrywiaeth boddhâol darluniadau; ac oddiar gysondeb ffurfiad swynol y cylymau mydryddol. Efallai mai dyma y rheswm a ellir ei roddi am yr effeithioldeb boddhâol sydd yn y gynghanedd, rhagor iaith rydd. Os na bydd barddoniaeth yn fwy tarawiadol ar y teimlad nag iaith rydd, nid barddoniaeth ydyw. Y mae "yspryd y peth byw," sydd mewn gwir awenydd, mor sicr o gael gafael ar ryw linyn cyfatebol sydd yn nghlust a chalon yr anwariad mwyaf gwledig, ag ar galon y llenor mwyaf diwylliedig yn yr holl fyd.

Y mae yn amlwg mai amcan Barddoniaeth ydyw "goleuo a boddhau." Y mae yn gyffelyb i Gerddoriaeth yn hyn, drwy fod yn gynnorthwy effeithiol i'r côf. Y mae yn offeryn ag sydd, nid yn unig yn foddion er cyflwyno syniadau eglur i'r meddwl, ond hefyd i gymhwyso y geiriau a'r ymadroddion mwyaf priodol at bob amgylchiad. Y mae clust wrandawgar, a meddwl ystyriol, yn sicr o allu gwahaniaethu rhwng ffurfiad pob math o ymadroddion at syniadau a theimladau, mewn perffaith gysondeb â synhwyrau naturiaethol pawb. Eto y mae yn rhaid addef fod llawer barddoniaeth, gwir deilwng, na chynhyrcha yr effeithioldeb tarawiadol y cyfeiriwn ato, o ddiffyg y teimlad hwnw ag sydd yn ofynol i gyfarfod calon llawer un, wrth ei darllen neu ei gwrando. Bydd hyny yn wastadol fel arwydd o ddiffyg mewn rhyw ragoriaeth neu gilydd yn y gwaith. Y mae y cymhariaethau a'r ffugyrau sydd yn elfenau hanfodol yn ei hathrylith i fod wedi eu cyfaddasu ar gyfer eu gilydd, fel y byddo iddynt orphwys yn naturiol ar deimlad pawb. Pan y byddo yr holl gynheddfau hyn wedi cyd-gyfarfod, bydd eu natur hwy yn sicr o daro natur a theimlad, pob dyn a'u hadroddo neu a'u gwrandawo.

Y mae Barddoniaeth pob gwlad yn meddu ar ei chymeriad priodol a neillduol ei hun. Y mae gan ansawdd naturiaethol pob bro, ddylanwad arbenig ar natur ei hawenydd. Y mae barddoniaeth y gwledydd breision, gwastad, tawel, llonydd, yn dwyn llawer o ddelw y wlad yn mhob man. Felly y mae gan y cymydogaethau mynyddog, pig-dyrawl, uchel, gyda'u copïau gwynion, eu hafonydd gloewon, eu rhaiadrau gwylltion, eu llynau disglaer, a'u dyffrynoedd ffrwythlon, ddylanwad o natur gyffelyb ar feddyliau y trigolion, ac ar eu dull o ymadrodd. Y mae arwynebedd y fro yn sicr o adael ei argraph ar gymeriad y bobl. Ni ellir disgwyl y fath amrywiaeth yn anianawd athrylith trigolion gwastad-dir Lloegr, ag a ddisgwylir yn Nghymru gribog; a phob gwlad arall yn gyffelyb, mewn cyfartaledd, er fod eithriadau yn hyn fel pob peth arall. Y mae y naill a'r llall i'w hadnabod, yn ol natur y lle y mager ac y meithriner eu talentau?

Wrth edrych dros gynnyrchion yr hen awdwyr, yn gystal a'r rhai diweddar, yn ein gwlad ein hunain, yr ydym yn cyfarfod â darnau teilwng o bob

Digitized by Google

cymeriad, yn awr ac eilwaith, o'r bron, yn mhob cyfnod, mewn graddau mwy neu lai. Os dosperthir hwy yn ol y dull cyffredin, i'r *arwrol, y telynegol, y galarnadol, y bugeiliol, y darluniadol,* neu y *duchanol,* neu ynte i ba gymeriad bynag y caffont eu cymhwyso, cawn y naill a'r llall yn eu disgleirdeb teilwng. O'r holl fathau amrywiaethol o farddoniaeth sydd genym, addefir yn gyffredinol mai yr Arwrol ydyw y mwyaf arddunol a gorchestol mewn cyfansoddiad. Y mae yr *arwrgerdd* yn creu edmygedd, ac y mae y *drom-arawd* yn codi teimlad galarus, ac yn tynu allan ddagrau. Y mae y *cymwawd* yn creu ysgafnder chwareus; y mae y *bugeiliol* yn cynnyrchu teimladau o hynawsedd a thawelwch boddhâol. Yr un sylw a ellir ei wneud am yr holl elfenau ereill. Ychydig o arwrgerddi boreuol sydd genym; gellid cyfeirio at y *Gododin,* a rhai darnau ereill, sydd fel olwynion bychain yn perthyn i beiriant mawr ar wahan. Y mae y dinystr a fu ar yr hen ysgrifau Cymreig, o bryd i bryd, yn rhoddi cyfrif am hyn er ein galar. Y mae yr Arwrgerdd yn wastadol yn traethu ar destynau aruchel o ran eu natur, ac yn adrodd am orchestion gwroniaid, a'r holl ranau mewn cyfatebrwydd priodol i'w darluniadau cyfochrog, wedi eu gwisgo â delweddau cymhwysiadol, llawn o addysgiadau drwy y cyfan. Disgwylir i'r gân hon gludo y darllenydd, yr adroddwr, neu y gwrandawr gyda hi bob cam, mewn hyfrydwch esmwyth, ac heb deimlo dim a fyddo yn ymylu ar faich neu flinder, ac yn cymeryd meddiant hollol o'i feddwl a'i reswm, mewn mawrhâd a chymeradwyaeth trwyadl. Y mae yr holl olygfeydd amrywiaethol a ddarlunir, i fod mewn perffaith gysylltiad â phrif wrthrych y gân; a'r holl symudiadau yn yr arddangosiad, fel pe na byddent wedi eu trefnu i ddim arall, heblaw rhoddi bywyd ac ymadferth yn y gwaith i gyd. Dylai fod pob chwedl, o leiaf, yn seiliedig ar wirionedd, a phob dychymyg yn cyd-daro â ffaith. Y mae y llinell fewnol i fod yn gysson â hanesiaeth brofedig, a'r amlin i fod yn ffrwyth tybiaeth a chyffelybrwydd rhamantus; y mae yr ystlys-gânau hefyd i fod oll yn ddarostyngedig i'r prif wrthrych, a'r cyfan yn cydgyfarfod i oleuo, i hyfrydu, ac adeiladu y meddwl. Ni a gawn yr egwyddorion hyn yn eglur iawn yn Marddoniaeth y Cymry. Diau na chawn y Caniadau hyn yn eu cyflawnder, ond yn hytrach mewn darnau ar wahan, fel gweddillion dinystr yr oesau wedi eu cadw ar gôf ac ysgrifen, ar hyd a lled y wlad.

Nid oes yr un awdwr o gyfrifoldeb ar sydd yn gwadu awdwriaeth Barddoniaeth Hynafiaethol y Cymry. Yr oedd y Derwyddon wedi sefydlu Barddas, neu yr athrawiaeth Farddol, fel cyfran hanfodol o'u trefniant. Yr oeddynt yn ystyried gwirionedd o'r fath bwys ac urddas, fel nad oedd iaith gyffredin yn ddigon cysegredig yn eu golwg i'w gyflwyno, ac felly yr oeddynt yn gwisgo eu holl foes-wersi mewn barddoniaeth, a'u holl hanesion cyffredin mewn iaith rydd. Nid oeddynt byth yn cyflwyno "Hud a Lledrith" i wisg arddunol yr awen. Nid oes sail eglur i'r dŷb hono a luniwyd oddiwrth ychydig o eiriau gan Caisar, nad oeddynt yn arfer llythyrenau, nac yn cyflwyno eu diarhebion i ysgrifen. Y mae yn wir nad oeddynt yn caniatau i'w hoffeiriaid ddibynu ar ddarllen y *Llyfr-Pren,* neu y *Beithynen;* yr oedd raid iddynt ymroddi i'r llafur o gyflwyno eu hathrawiaethau i'r côf, ac i'w hadrodd, pan y byddai achos, ar dafod leferydd. Yr oedd "y gwir yn erbyn y byd" yn arwydd-air sylfaenol eu holl gyfundrefn.

Y mae llawer cais wedi ei wneud, o bryd i bryd, i roddi ger bron eglurhâd ar wreiddyn neu dadogaeth yr enwau "*Bardd*" a "*Derwydd.*" Y mae yn haws rhoddi boddlonrwydd am yr olaf nac am y cyntaf. Y mae darnodiad y gair Derwydd i'w gael yn lled eglur oddiwrth y "dâr," neu "derw," yn ei gysylltiad â'u haddoliad yn y llwyni derw; yn enwedig pan yr edrychir arno yn yr arferiad lluosog, "Derwyddon"—gwyddoniaid y derw, neu "Derwyddon." Am wreiddyn y gair *bardd,* ceir llawer iawn o wahaniaeth barn a thyb. Ceir rhai a ddadleuant mai o'r gair "*bar*" (*agitation, impulse*), y tardda, a bod hyny yn gyson âg yni meddwl yr awenydd, neu ymadferth a theimlad y bardd. Dywedai Dr. Puw fod yn debycach mai o'r gair *bar,* sef pen, coppa, coryn, crib, neu top, y deillia, a bod hyny yn gyson â'r syniad uwchaf a reola ei feddwl a'i deimlad yn mhob amgylchiad. Dadleua ereill mai o'r gair "*par*" y tardda, yr hwn air a olyga wrthrychau wedi eu cysylltu yn nghyd, megis "y pâr priodasol," "pâr o durturod," a'r cyffelyb; ac fel ei gwelir mewn geiriau cyferbyniol, megis "pardwn," &c., datod neu ryddhau rhwymau cysylltiedig; a bod gwaith y bardd i'w gael mewn cysylltu neu rwymo llinellau yn nghyd, mewn rheolaeth briodol at amcan barddoniaeth. Mynai Rowlands mai ystyr y gair yw gwahaniad neu ddosparthiad, fel y mae *pared* yn gwahanu yr amrywiol ystafelloedd mewn adeilad. Dichon yr erys y pwnc eto yn llawn mor agored i olrheiniad pellach. Yr oedd y Derwyddon yn dal allan fod barddoniaeth yn gymhorth i'r côf, ac felly yn cysylltu eu llinellau yn gof-weithiau neu gywyddau. Gan nad yw yn hawdd penderfynu y pwnc, dichon nad oes dim yn well na gadael y cwlwm i bob darllenydd i'w ddatod oreu y gallo. Pa fodd bynag, y mae y cyffredin yn cytuno mai dyma yr enw boreuol oedd gan yr hen Gymry i ddynodi yr awenydd, a bod yn rhaid iddo darddu o un o wreiddiau yr hen iaith gyfoethog; ac mai Bardd y gelwid pob un o aelodau proffesedig y sefydliad, i ba ddosparth bynag y perthynai, mewn gwleidyddiaeth, gwyddoniaeth, llenyddiaeth, neu grefydd.

Yr oedd yr Eisteddfod, yr Orsedd, a'r Cadeiriau mewn bri boreuol iawn yn mysg ein hynafiaid. Y mae gan bob gwlad ei defodau a'i harferion neillduol. Pa un bynag ai er da neu er drwg y caffont eu meithrin, amlwg yw fod yn anhawdd iawn eu diwreiddio na'u bwrw ymaith. Un o'r rhai boreuaf yma ydyw cynulliad y beirdd, y cerddorion, a'r gwladgarwyr. Y rhai hyn oeddynt Olympau y Brython. Ymddengys eu bod wedi eu cydwau â theimladau y genedl. Y mae llawer o ddefodau ereill a fu yn uchel eu rhwysg yn ein gwlad, wedi eu rhifo gyda y pethau a fu, ond y mae yr englyn a'r delyn yn aros, ac nid oes gan yr un dyn, na phlaid o ddynion, ddigon o ddylanwad i'w rhoddi i lawr. Y mae o bwys i'r genedl fod cyfeiriad priodol yn cael ei roddi i'r nerthoedd sydd ynddynt. Y mae y Dderwen wedi ei phlanu mor foreu, ac wedi tyfu mor iach, fel na ellir ei diwreiddio ar fyrder.

Y prif awdurdodau sydd genym i ymgynghori â hwy, am hanes a chynneddfau yr awen Gymreig, ydyw *Trioedd Ynys Prydain.* Nid yw yn hawdd rhoddi cyfrif am y modd y mabwysiadwyd rhifiant y "Trioedd" o'r dechreu, ragor rhyw rif nod arall i

Digitized by Google

wisgo gwersi eu hathroniaeth. Pa fodd bynag, ni a'i cawn o'r braidd yn mhob peth, o'r nod cyfrin, i ffurfiad y delyn. Yr oedd gan yr hen ddoethion nifer o honynt, sef "Trioedd Cerdd," "Trioedd Barddas," "Trioedd Doethineb," "Trioedd Braint a Defod," "Trioedd Cyfraith," a "Thrioedd Ynys Prydain;" a daw nodiadau mwy cyfeiriol atynt yn eu lleoedd priodol yn y Gwaith hwn.

Mewn perthynas i gymeriad cyffredinol Barddoniaeth y Cymry, gellid sylwi mai yn y cynoesoedd y dysgleiriai eu hawenydd brydferthaf. Nid o ran tlysni perseiniol eu hymadroddion, yn gymaint a'u nerth a'u hymadferth, a'r gallu neillduol oedd ganddynt i grynhoi llawer o feddwl mewn ychydig o eiriau. Yr oeddynt yn fynych dan amgylchiadau ag y byddai raid iddynt arfer damhegion, i osod allan eu syniadau, mewn ffordd o awgrymiadau, er cuddio eu hamcanion oddiwrth eu gormeswyr creulon. Yr oedd enwau yr adar a'r anifeiliaid, weithiau, yn gysgod manteisiol iddynt. Pan y cyfeirid at Llewelyn, y "Llew" fyddai yn y gân. Sonid am Bleddyn dan gysgod y "Blaidd;" yr "Arth" am Arthur, a'r "Gwalch" am Gwalchmai, &c., er gochel y perygl amheuol. Yr oedd "Gwylan" yn fynych ganddynt wrth gyfeirio at fenyw; yr oedd yr "Eryr" yn cynnrychioli yr Eryri a'r Wyddfa. Y mae cymeriad eu barddoniaeth i'w ganfod yn mhellach wrth adolygu yr hyn sydd ar gael o'u cynnyrchion, wedi eu cadw o bryd i bryd. Nid yw yn rhesymol i ni ddysgwyl eu cael yn eu purdeb cyntefig, o blegid y cyfnewidiadau sydd wedi dyfod i mewn wrth gopio ac adgopio, a phob cofiadur yn arosod ei welliant ei hun, yn ol ei fympwy, ar y gwaith. Yr oedd y beirdd, fel dosparth, yn meddu dylanwad cryf ar athrylith a llenoriaeth y genedl, ac yn gallu rhoddi ffurf a bywyd i'w defodau. Yr oedd ganddynt ddoniau neillduol i danio eu hysbryd milwrol; yn eu cyfnerthu ar faes y gwaed; ac yn derchafu eu hanrhydedd llinachol, yn mhob oes. Yr oedd eu penillion yn cynal ar gôf a chadw, weithredoedd gorchestol y Tywysogion. Y mae Diodorus Siculus, yn mysg y rhai boreuaf, yn tystio fod y beirdd yn cyfansoddi eu cerddi yn gyfaddas at eu datganu gyda'r delyn, er moli eu gwroniaid, a gwarthruddo eu gelynion. Y mae Ammianus Marcellinus yn dywedyd, fod datgan rhagoriaethau eu blaenoriaid, yn rhan arbenig o'u swydd. Y mae Possidonius yn dyfynu o waith Athaeneus, i brofi eu bod yn arwain y byddinoedd fel llywyddion i'r frwydr, fel y gwnai y Tywysogion Celtaidd yn gyffredin. Dywed nad oeddynt byth yn ymostwng i wenieithio iddynt, ac na wastraffent byth mo'u doniau i argan-mol neb, ond lle y byddai gwir deilyngdod yn cyfiawnau hyny. O dan ymosodiadau rhyfelgyrchol y Pictiaid, y Scotiaid, a'r Saeson, dinystrwyd llawer o'u hysgrifau boreuol. Y mae Nennius, yr hwn a flodeuai yn y nawfed ganrif, sef yn amser teyrnasiad Merfyn, yn cyfeirio at weithiau gorchestol y beirdd. Dywed fod Talhaearn yn enwog am ei awenydd. Dyga dystiolaeth benodol am ragoriaethau Taliesin, Aneurin, Llywarch Hên, Myrddin Wyllt, ac Afan Ferddig, yn y chweched ganrif. Prif ragoroldeb eu barddoniaeth oedd nerth, bywiogrwydd, nwyd, teimlad, a darluniad cyffrous ac effeithiol.

Dywed Ieuan Brydydd Hir, yn ei *Dissertatio De Bardis*, nad oedd y beirdd diweddar yn meddu gwir ragoriaethau y rhai boreuol. "E ddichon rhai o honoch, ysgatfydd," eb efe, "ofyn, Pa ham na buaswn yn cyfieithu rhai o'r Beirdd godidog diweddar, a ysgrifenasant wedi diwygio yr hen gynghanedd? I'r rhai'n yr wyf yn ateb, fod y Beirdd yn amser y Tywysogion yn fwy ardderchog a mawreddog yn eu gwaith, ac yr oeddynt eu hunain rai o naddynt yn Dywysogion, ac yn wyr dyledogion; yn enwedig Owain Cyfeiliog, Tywysog Powys; a Hywel ap Owain Gwynedd, bardd a rhyfelwr godidog, ac felly yr oeddynt yn fwy penigamp na'r beirdd diweddar, fel y mae Sion Dafydd Rhys yn achwyn arnynt, yn gwenieithio i'r gwyr mawr, ac yn dywedydd celwydd ar eu cân, ac yn haeru iddynt dori cestyll, lladd a llosgi, pryd nad oeddynt ond cysgu yn eu gwelyau." Y mae y dystiolaeth hon yn profi fod barddoniaeth wedi ymddirywio yn fawr er amser y cynfeirdd. Dros dymor hir, bu yr awen Gymreig megis dan gwmwl. Torodd gwawr i dywynu arni drachefn tuag amser Owain Glyndwr, a dyfodiad Harri y Seithfed i'r orsedd. Bu yr adnewyddiad megis bywyd o feirw i awen a llenoriaeth y genedl, ac adgynheuwyd y gwres yn adeg y cynhwysiadau a gafwyd yn amser Elisabeth i gynal Eisteddfodau rheolaidd, a rhoddi clera a chymhortha oferwyr i lawr.

Wrth gymeryd golygiad ar ansawdd Barddoniaeth ein gwlad, y mae dau beth yn sicr o daro teimlad pob darllenydd di-ragfarn, sef ei gwreiddioldeb â'i neillduolrwydd cenedlaethol. Y mae y profion o'i dilysrwydd awdurol yn ddiymwad; gwyr pawb mai nid dynwarediad nac alleiriad ydyw. Y mae delweddau Aneurin yn eglur yn holl linellau y *Gododin*, —ei eiddo ef, ac nid neb arall, ydynt. Y mae y teimladau cyffrous oedd yn ei fynwes ar y pryd, yn cael eu gosod allan yn naturiol iawn. Yr oedd adgofion o sefyllfa anffodiog ei wlad, yn cael eu darlunio yn berffaith gydnaws â'r teimlad oedd yn gorlenwi ei galon. Yr un peth a ellid ei nodi am Llywarch Hên, a'i gydoeswyr. Yr oedd arddull y Farddoniaeth Gymreig yn neillduol iddi ei hun, ac yn dra gwahanol i bawb eraill. Awen y mynydd-dir ydoedd. Dichon nad ydoedd ei gwisg mor sidanaidd a'r eiddo rhai lleoedd eraill; ond yr oedd yn wir sylweddol bob amser. Yn ofer, mae'n wir, yr edrychwn am arucheledd unffurf-rediadau hirfaith, cyson, dilynol, Homer ynddi, mwy nag arddunedd mawreddig Fyrsel, yn ei chynnyrchion, eto ni chawn byth ein siomi am ei theithi priodol hi ei hunan. Yr oedd yr Awen Gymreig yn amrywio wrth natur, a'i chymharu â'r eiddynt hwy, nid am na feddai gyflawnder o gyfoeth crebwyll hedegog, a theimlad tyner, gydag addysgiadau moesol cyfaddas, ond am nad oedd yn amcanu at gynal cyd-ddilyniad parhaus, di-ysgog, yn ei llinellau byw. Yr oedd yn debycach i doriad allan y daran, mewn sydynrwydd,—i rwygo yr awyr, ac ymrolian yn gyffrous yn y nen; neu y fellten ddisymwth, yn neidio ac adneidio o begwn i begwn, nag i ddylifiad gwastad yr afon, sydd yn gweithio ei ffordd mewn distawrwydd tywysogaidd, drwy wastadedd y ddôl. Yr oedd yn llawer tebycach i Pindar a Gray, nac i Miltwn a Lucretius. Nid ydym yn honi ei bod wedi cynnyrchu dim i'w gyfartalu â hynodrwydd Groegaidd na Rhufeinaidd, ond yr ydym yn dal allan ei bod wedi enill ei lle, mewn amlygrwydd teilwng yn nheml enwogrwydd y byd, yn ei dosparth ei hun, fel nad oes neb yn ofni yn awr ei gweled yn cael ei thaflu i'r cysgod ar frys. Yr oedd "amledd yn gryno" fel arwyddair ganddi; a gwelir hyn yn eglur

iawn yn nghyfieithiadau y dysgedig Davies, yn ei *Celtic Researches*, o ganiadau Taliesin, yr hwn oedd yn gallu gwisgo syniadau dirgeledig Barddas mewn ymadroddion cryno iawn, eto yn berffaith o ran eu cynhwysiad. Efallai mai dyma yr achos fod gan y Cymry drysorfa lawnach o amrywiaeth mesurau nag yr un genedl arall, y rhai a gynnyddasant, yn raddol, o oes i oes, nes o'r diwedd gyrhaedd yr hyn a ystyrient yn gyflawnder digonol. Yr oedd eu hymlyniad wrth "wirionedd," fel y crybwyllwyd, yn eu cymhwyso i fod yn gefnogwyr swyddogol holl ddeddfwriaeth y llysoedd gwleidyddol, yn gystal a hanes eu gorchestion cenedlaethol, o bryd i bryd. Ni a gawn lawer o amlygiadau o natur eu hawenydd, yn ei chysylltiad â cherddoriaeth y wlad, yn y cylchoedd cymdeithasol a theuluaidd. Yr oedd y bardd yn gyffredin yn gerddor, ac yr oedd hyn yn rhoddi croesawiad i'r delyn yn mhob annedd; ac yr oedd llawer o'r tywysogion urddasol eu hunain yn dra hoff o feithrin y ddwy dalent.

Dyma y modd y cododd llenyddiaeth farddonol ein gwlad, o radd i radd, nes cyrhaedd i'w safle bresenol. Addefir yn gyffredin fod Goronwy Owen, Evan Evans, Lewis Morys, ac eraill, ychydig gyda chanrif yn ol, wedi creu cyfnod newydd yn hanesiaeth yr awen; a bod yr Eisteddfodau diweddar wedi bod yn gyfodiad effeithiol i feithriniaeth y ddawn, ar hyd a lled y Dywysogaeth. Wedi tywyniad haul arni, am ryw dymhor, y mae ychydig o gymylau yn gorchuddio ei nen, yn gyffredin, am dro, yn nadl y mesurau. Y mae hyn wedi bod yn niwaid weithiau, ac yn lles bryd arall. Y mae codiad yr "ysgol newydd," fel ei gelwir, wedi bod yn achlysur o gryn ymryson droiau; ond wedi rhoddi teilyngdod yddwy ochr yn y prawf, ac o gymaint a hyny yn lles. Y mae llawer o enwau genym i ddynodi y gwahanol fesurau hyn; weithiau y "mesurau caethion," "mesurau cynghaneddol," "mesurau Cymreig," &c. Yr un modd am y lleill, "y mesurau rhyddion," "y mesurau Seisonig," &c. Y mae y pwyllog a'r ystyriol, o'r ddwy blaid, yn dewis meithrin y naill fel y llall; ac wedi i wres y dadleuon fyned ymaith, i'r un man y rhed y teimladau drachefn. Pa un bynag ydyw yr oreu, fel dwy ffordd o gyfansoddi, oes y Gymraeg fydd oes y gynghanedd. Y mae hi yn elfen fyw yn anianawd yr iaith; y mae yn rhan a chyfran o honi; y mae pob llefarwr mewn iaith gyffredin, yn llithro yn anfwriadol iddi; y mae yr ysgrifenydd mewn iaith rydd, yn ymddilladu yn fynych yn ei gwisgoedd tynaf, heb deimlo dim o'i chaethiwed, mor naturiol ag y gwisga y gwlith am lysiau yr ardd. Gellir profi hyn yn ddigon eglur, drwy gyfeiriad at amryw ymadroddion yn y Bibl Cymraeg. Y mae yn wir mai Beirdd, o'r dosparth uwchaf, oedd y cyfieithwyr, eto nid oedd dim yn eu meistrolaeth ar y cynghaneddion, yn llywodraethu eu hysgrifellau yn y gwaith hwnw. Nid oedd dim a wnelai yr awen, o ran ei gwisg allanol â geiriau ac ymadroddion yr Ysgrythyr Lân; eto, ni a gawn y gynghanedd yn ei phlethiadau prydferthaf, wedi ei chyd-wau â'u llinellau, megis:—

"Daioni 'r tir a fwytewch."
"Hwn ni wel pan y del da."
"Fel hwylbren yn mhen mynydd."
"Ffrwynau yn mhenau y meirch."
"Rhai a glywant byddant byw."
"O ba grefft bynag y bo."
"Yn nghanol ei heol hi."
"Yn awr ydyw eich awr chwi."
"Neu allu y tywyllwch."
"Yn barod yn y bore."
"Y gogledd ar y gwagle."
"Alltudion fel ein holl dadau."
"Gynnen neu wag-ogoniant."
"Abr'am, Isaac, a Jacob."
"Gauodd y môr â dorau."
"Yr Iesu, Pedr, ac Iago."
"A Brenhin y brenhinoedd."
"Ac Arglwydd yr arglwyddi."
"Ar ol yr Arglwydd yr ewch."

Y mae yr ychydig ddyfyniadau uchod, o blith lluaws, yn ddigon o eglurhad ar y pwnc. Am deilyngdod cymhariaethol yr Awdl a'r Bryddest, nid ydym yn ymyryd dim, ond yn hytrach "adrodd y peth yn helaeth fel y mae." Can belled ag y mae a wnelo yr Eisteddfod Genedlaethol â'r pwnc, a dyma yr unig awdurdod addefedig sydd mewn bodolaeth, y mae y ddadl, pa un ai yr Awdl ai y Bryddest a gaiff y gadair, wedi ei phenderfynu, sef fod yr Awdl i gadw ei lle, megis yr oedd o'r blaen, er ys cannoedd o flynyddoedd. Y mae dros bedwar cant o flynyddoedd er pan aeth Dafydd ab Edmwnd a'r gadair o Gaerfyrddin i'r Gogledd, ac y mae wedi ei chadw yn ei hurddas, gydag ychydig o eithriadau, hyd y dydd hwn.

Y mae caniadaeth gyssegredig ein gwlad yn uchel. Y mae nifer o'n hemynau wedi eu trosglwyddo i ieithoedd eraill, ac y mae yr awen Gymreig yn anadlu yn ebyrth moliant cenhedloedd eraill. Y mae gwasanaeth y mawl yn ein bro, yn ymgodi ac yn ymburo yn gyflym. Y mae pob oes, o'r braidd, wedi cymeryd ei rhan yn y gwellhâd, ac y mae ein hen fynyddau a'n bryniau, fel pe byddent yn dechreu ateb i'r alwad. Y mae ein gwlad wedi ei chyfoethogi, i raddau mawr, â llyfrau emynau at wasanaeth y deml. Y mae gan yr Eglwys Sefydledig, a'r gwahanol enwadau Ymneillduol, oll eu hawdwyr galluog. Y mae enwau Williams Pant-y-celyn, Anne Griffiths, Edmwnd Prys, Benjamin Francis, Edward Jones Maes-y-plwm; Williams, Bethesda'r-fro, a lluaws eraill, yn hysbys iawn i bob dosparth trwy y Dywysogaeth. Diau mai gan y Cristion y mae testynau uwchaf moliant. Niwl a thywyllwch, a dystawrwydd y nos sydd yn gordoi y gwledydd Paganaidd, ac yn briodol i au-grefyddau, ac ofer-goeledd o bob math. Y mae adseiniau o gyngherdd "sêr y bore," a "gorfoledd holl feibion Duw," mor naturiol iddi ag anadlu yn yr awyr. Nid yw y farddoniaeth gynghaneddol Gymreig, mor gydweddol at foliant y cysegr a'r penillion cyffredin, oddigerth y gynghanedd sain yn unig, a hono yn y llinell olaf o'r cwlwm, ac yn terfynu mewn unsill. Y mae hyn yn cael ei brofi yn y flaenoriaeth a roddir i Salmau Edmwnd Prys ragor Gwilym Ganoldref. Nid yw y gynghanedd groes a'r draws, a arfera yr olaf, mor naturiol at y mawl. Edward Jones, Maes y plwm, oedd un o'r rhai hapusaf yn y ddawn o ddwyn y gynghanedd at ystwythder yr emyn, er y dichon y buasai yntau yn rhagori pe cadwasai ar dir rhyddach. Y mae tônau yn gystal ag emynau pob bro, yn dwyn delw eu gwlad.

Y mae Barddoniaeth Foesol a Bugeiliol ein gwlad wedi ymgyfoethogi yn fawr yn ddiweddar. Y mae llawer o olynwyr i'r dysyml Ficer o Lanymddyfri wedi codi, a llawer "Canwyll y Cymry" wedi ei

Digitized by Google

goleu i lewyrchu ar gymoedd tywyllaf y fro, ac y mae mantell Richards wedi disgyn yn ei phrydferthwch ar lawer prydydd yn ein mysg; ac y mae y dosparth hwn wedi cael cefnogaeth effeithiol yn y Cyfarfodydd Adroddiadol yn mhob gwlad a thref. Nid oes ond ychydig o'r caneuon masweddol ar gael; buont yn eu dydd yn gymhelliad i lawer un ddysgu darllen, cyn bod ysgolion Sabbatholna dyddiol ar gael. Y mae meithriniaeth yr awen yn nodwedd neillduol ac amlwg yn nghymeriad trigolion Gwyllt Walia.

**BARELAND**, cyd-dreflan a BORFA yn mhlwyf MAESYFED HEN, o fewn cylch bwrdeisiol MAESYFED NEWYDD, swydd FAESYFED, DEHEUBARTH CYMRU. Y mae yn gorwedd ar ffiniau swydd HENFFORDD.

**BARRY**, plwyf yn nghantref DINAS POWYS, swydd FORGANWG, DEHEUBARTH CYMRU; 9 milldir i'r de orllewin o Gaerdydd, mewn sefyllfa ddifyrus iawn, ar lan Môr Hafren, gan yr hwn ei terfynir ar y dehau. Y mae y golygfeydd cylchynol yn brydferth, a'r wlad gyfnesol yn ddyddorol. Y fywoliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Llandâf. Nifer y trigolion yn 1861 oedd 87.

**BARRY** (YNYS), yn y plwyf uchod, sydd ynysig fechan a ysgerir oddiwrth y cyfandir gan leindir cul, yr hwn a adewir yn sych ar y trai. Y mae tua milldir a haner o gylch-fesur, ac yn cynnwys tua thri chan cyfair o dir; y rhan fwyaf o honi sydd wninger, yn yr hon y mae y cwningod yn dra lluosog. Dywedir y buwyd gynt yn cael plwm a mwnau eraill yn mysg y galch-graig, o'r hon y mae yr ynys yn gynwysedig. Meddylir ei bod wedi cael ei henw oddiwrth St. Baruch, dysgybl i Gisalch, yr hwn a gladdwyd yma yn y flwyddyn 700; ac mewn amseroedd diweddarach, bu yn meddiant teulu de Barri, aelod enwog o ba un oedd Giraldus de Barri, a gyfenwid "Cambrensis," yr hwn a anwyd yn Manorbeer, yn swydd Benfro, lle y gellir gweled gweddillion eu castell hyd heddyw. Ymsefydlodd rhai o hiliogaeth y teulu hwn yn yr Iwerddon wedi hyny, lle y cyrhaeddasant i'r bendefigaeth. Yn amser Leland, yr ydoedd Capel bychan hardd yn sefyll yn nghanol yr ynys, wedi ei gyssegru i Sant Baruch, neu Barroc, i'r hwn y byddai llawer yn cyrchu ar bererindod. Ar yr ochr orllewinol i'r ynys, ar gyfer adfeilion castell Barri, y mae ychydig olion adeilad gyffelyb, a dau hên gapel, yn un o ba rai y claddesid y meudwy St. Baruch.

**BASSALEG**, plwyf, mewn rhan yn rhan-barth isaf, ond yn benaf yn rhan-barth uchaf cantref GWENTLLWG, swydd FYNWY, 2¾ i'r gorllewin o'r Casnewydd, yn cynwys treflanau y Dyffryn, y Graig, a Rotherstone. Ficeriaeth yw y fywoliaeth eglwysig, yn arch-ddeoniaeth ac esgobaeth Llandâf, ac yn nawddogaeth esgob Llandâf. Y mae y Llan yn gyssegredig i goffadwriaeth St. Basil. Poblogaeth y treflanau uchod a roddir fel y canlyn yn y Ddeiliadeb am 1861:—Dyffryn, 275; Graig, 684; Rotherstone, neu Rogerstone, 1210;—holl boblogaeth y plwyf, 2169. Y mae yr afon Ebwy, a dyfr-ffos swydd Fynwy, yn myned trwy y plwyf, yr hwn a ffinir mewn rhan gan yr afon Hafren. Sefydlwyd priordy yn y lle hwn yn y flwyddyn 1101, yn perthyn i'r urdd Benedictaidd, neu y brodyr duon, yr hon a wnaed yn gell o fonachlog Glastonbury, i'r hon, medd *Tanner*, y rhoddid yr eglwys gan Robert de Haye, a Gundreda, ei wraig, rhwng 1101 a 1120. Ymddengys fod y gell hon, yr hon oedd gyssegredig i St. Basil, wedi adfeilio cyn dad-gorfforiad cyffredinol y crefydd-dai. "Y mae yn debyg," medd efe, "fod y myneich wedi cael eu galw yn ol yn fuan i Glastonbury; canys yr ydym yn cael fod yr Abbad Michael, yr hwn a ddyrchafwyd i'r urddas hwnw yn y flwyddyn 1235, yn gosod eglwys Basselech dan ardreth, yr hyn sydd yn ymddangos yn brawf cryf nad oedd yr un o'u myneich hwy eu hunain yn aros yno y pryd hyny."

Nid oes dim o weddillion yr hen brïordy ar gael yn Bassaleg erbyn hyn; ond y mae hên furddyn o fewn tua milldir, mewn nant goediog, heb fod yn mhell o'r Rumney, ar ffiniau plwyf Machen, lle y barna rhai fod yr hen gell. Gelwid y goedwig hon, "Coed y Monachdy." Y mae yr eglwys bresenol yn adeilad hardd, ac onid oedd yn perthyn i'r gell, cafodd ei henw oddiwrthi, ac y mae yn gyssegredig i goffadwriaeth yr un sant. Ymddengys oddiwrth y bedd-argraffiadau yma fod y cangenau anuniongyrchol o deulu y Morganiaid, a gartrefent yn Ngwern y Cleppa a Chastell Rogestone, wedi eu claddu yn yr eglwys yma; ac y mae y diweddar Syr Charles Gold Morgan wedi symud claddfa teulu Tredegar, o eglwys Machen, i'r lle hwn.

Tua milldir o Bassaleg, a chwarter milldir o'r brif-ffordd, y mae "Craig y Saeson," gwersyllfa gron, ar ael bryn, gorchuddiedig gan goed. Tybiodd rhai oddiwrth yr enw mai gwersyllfa y Saeson oedd yma; ond ni ellir cael un sicrwydd am hyny. Rhwng y gwersyll a'r ffordd y mae llanerch dêg, a elwid "Maes Arthur." Tua milldir yn mhellach, yn agos i'r brif-ffordd, ar y llaw aswy, y mae gwersyll cyffelyb, ar fryn gwastad, a elwir Pen y Parc Newydd.

**BASSETT**, CHRISTOPHER, A.C., ydoedd fab i Christopher Bassett, Ysw., ac Alice ei wraig, o Aberddawen, yn mhlwyf Penmarc, swydd Forwanwg. Ganwyd ef tua'r flwyddyn 1753, a derbyniodd ei addysg foreuol dan ofal yr athraw enwog, Mr. Thomas Williams, yn y Bontfaen. Wedi iddo orphen ei ysgol yno, gofynodd ei dad iddo, Pa un fuasai oreu ganddo, ai myned i Rydychain, neu ynte byw ar ei dir ei hun, yn y wlad a ddewisai efe. "Yr wyf yn gobeithio," atebai yntau, "y caf dreulio fy mywyd i ddyweyd y gwir dros Dduw wrth fy nghydgreaduriaid, er gogoniant i Iesu Grist, a thragywyddol ddaioni i ddynion." Parodd yr atebiad yna i'w dad benderfynu ei ddwyn i fynu i'r weinidogaeth; ac felly anfonodd ef i Goleg yr Iesu, i Rydychain, lle yr arosodd nes graddio yn A.C. Yn fuan derbyniodd alwad i fod yn gurad i'r efengylwr enwog, William Romaine, yn St. Anne's, Blackfriars, ac urddwyd ef i'r weinidogaeth gan Esgob Llundain. Ac yn y cyfamser etholwyd ef yn ddarlithydd i Eglwys St. Ethelburg, lle yr ymagorodd ei dalentau yn gyflym, ac y tynodd sylw neillduol fel gwr ieuanc o ddoniau a duwioldeb.

Ond pan yn nghanol ei lwyddiant, cafodd dwymyn drom, yr hon a adawodd ei heffeithiau arno hyd ei fedd; ac mewn canlyniad, efe, ar gais ei rieni, a adawodd y Brif-ddinas, ac a ddychwelodd i Gymru. Ac yn y flwyddyn 1778, agorodd drws defnyddioldeb o'i flaen yn ei fro enedigol, pan y cafodd fyned yn gurad eglwys St. Ffagan, gerllaw Caerdydd. Yma daeth i'r golwg yn ei gymeriad, nodwedd newydd, yr hon sydd wedi rhoddi bri ac anfarwoldeb i'w enw. Buasai enw Christopher Bassett, fel enwau y gweddill o guradiaid y dyddiau hyny, wedi ei adael i suddo i dir angof, oni buasai y cydymdeimlad a'r

Digitized by Google

unoliaeth ysbryd a ddangosodd efe at y Methodistiaid Calfinaidd, y rhai oeddynt y pryd hwnw yn cychwyn yn y wlad. Yr oedd enaid Bassett mor llawn o frwdfrydedd a gweithgarwch crefyddol, fel na chyfyngai ei ymdrechion tufewn i furiau ei eglwys, ac erchwynion plaid; ac o herwydd cydnawsedd ysbryd gweinidogion y Methodistiaid ag eiddo y curad ieuanc, enynwyd y fath serch rhyngddynt, fel na bu cywilydd ganddo eu galw hwy yn frodyr, a chael ei alw ei hun yn "Fethodus," os gallai trwy hyny enill eneidiau at y Gwaredwr. Cymerodd dŷ dan ardreth gan un Bartholomew Howell, i gynal moddion gras; yn y tŷ hwnw yr arferai ieuenctyd y pentref ymgyfarfod i ganu a dawnsio; ond trwy offerynoliaeth Mr. Bassett, trowyd ef at wasanaeth Methodistiaid St. Ffagan, lle y parhausant i ymgyfarfod i addoli Duw, hyd y flwyddyn 1837, pan adeiladasant y capel sydd yn eu gwasanaeth yn bresenol. Gofalai Mr. Bassett gymaint am achos Duw yn yr ystafell hono, ag am ei guradiaeth. Ar ei gais ef, deuai rhai o'r brodyr mwyaf enwog yn yr enwad yno yn eu tro i bregethu; pregethai yntau yno yn fynych ei hun, ac hefyd mewn capeli eraill yn ngwahanol barthau y Dywysogaeth, am ba achos gelwid ef gan ei frodyr eglwysig, yn "Fethodist," ac ymddygid tuag ato yn dra anngharedig gan lawer o honynt. Ond er hyny i gyd, daliai ef ei ffordd yn ddianwadal, gan wybod nad oedd y gwas i ddysgwyl gwell triniaeth na'i Arglwydd. Ymddengys iddo, o leiaf unwaith, gymeryd taith trwy Ogledd Cymru, a hyny, efallai, yn nghwmni yr enwog Jones, Llangan. A phan yn Llandyrnog, Dyffryn Clwyd, torodd y dyrfa allan i orfoleddu o dan y bregeth, a dywedir fod y Parch. Christopher Bassett, A.C., o sir Forganwg, yr hwn oedd ar y pryd a'i wallt melyn wedi ei blethu megys cynffon laes ar ei gefn, yn ol arfer boneddigion uchelwaed yr oes hono, yn mysg eraill, "yn neidio ac yn moli Duw," gan ganu y penill hwnw:—

"Yn y rhyfel mi arosaf,
Yn y rhyfel mae fy lle;
Boed fy ngenau wrth y ddaear,
Boed fy llygaid tua'r ne;
Doed y goncwest pryd y delo,
Dysgwyl wrth fy Nuw a wnaf;
Nes o'r diwedd wel'd yn trengu 'r
Pechod ydoedd bron a'm lladd."

Ond ychydig cyn diwedd ei oes fer, efe a roddodd guradiaeth St. Ffagan i fyny, ac ymgymerodd â gwasanaeth yr eglwys oedd yn Mhorthcerri, ar fin y môr, ac yn agos i dŷ ei dad; ac yma yr addfedodd efe i ogoniant. Yn haf 1783, pan yn pregethu yn Nghapel Crai, swydd Frycheiniog, y dyrfa yn fawr, a'r hîn yn boeth iawn, teimlodd ei nerth yn pallu yn dra disymwth, a rhyw boen dieithriol yn gafael yn ei ranau bywydol. Ac er pob ymdrech feddygol, newid awyr, a gofal a thiriondeb cyfeillion, profodd yr afiechyd hwnw yn farwol iddo. Ond yn ystod ei afiechyd, profodd lawer o'r diddanwch sydd i'w gael mewn llawn sicrwydd ffydd, a rhoddodd dystiolaethau eglur o hyny i'w dâd, a'i chwaer, ac i'r hybarch Jones, Llangan. Ac ar yr 8fed o Chwefror, 1784, bu farw yn nhŷ ei chwaer, yn Redcliffe St., Caerodor, yn 31 mlwydd oed. Dygwyd ei gorff dros y môr i dŷ ei dad, yn Aberddawen, a chladdwyd ef yn meddrod y teulu yn mynwent St. Athan. Y Sabbath canlynol, traddododd y Parch. David Jones, Llangan, ei bregeth angladdol, oddiar adnod a adroddai yn fynych yn ystod ei glefyd, sef, "Nid wyf yn dywedyd wrthyt hyd seithwaith, eithr hyd ddengwaith a thriugain seithwaith," Mat. xviii. 22; a Ioan ab Gwilym, yr hwn oedd yn un o'r gwrandawyr, a ganodd ar ei ffordd adref y penill canlynol:—

"Y deg a thriugain saith o weithiau,
Dyma rif na dderfydd byth;
Maddeu'r hwyr a maddeu'r bore,
Maddeu beiau rif y gwlith;
Dw'r a gwaed yw 'r afon yma,
Ddaeth o ôl y wayw ffon;
Hi dorodd allan ar Galfaria,
Par tra paro 'r ddaear hon."

**BATTLE**, plwyf yn nghantref MERTHYR CYNOG, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU; 2¾ milldir i'r gogledd orllewin wrth orllewin o Aberhonddu, yn cynwys, yn ol Deiliadeb 1861, 118 o drigolion. Dywaid traddodiad i'r lle yma gael ei enw oddiwrth frwydr, yn yr hon y gorchfygwyd ac y lladdwyd Bleddyn ab Maenyrch, yr olaf o'r tywysogion Brychanaidd, gan Bernard de Newmarch; ond, y mae yn fwy tebyg i'r plwyf gael ei enw er anrhydedd i fonachlog Battle, yn swydd Sussex, o'r hon y gwnelsid priordy Aberhonddu yn gell, gan ei seilydd, Bernard Newmarch, gan fod yr oll, neu y rhan fwyaf o'r plwyf hwn yn perthyn i'r priordy dywededig. Cyn dechreu y bedwaredd ganrif ar ddeg, yr ydoedd yn dreflan yn mhlwyf Sant Ioan yr Efengylwr, yn nhref Aberhonddu. Y mae y pentref yn gorwedd yn agos i'r afon Yscir, yr hon sydd yn arllwys i'r Wŷsg, ger Aberyscir. Y mae tirweddau tra rhamantus, amrywiol a phrydferth yn y gymmydogaeth, yr hon sydd wedi ei thyfritho â phalasau heirdd. Curadiaeth barhaol ydyw y fywoliaeth eglwysig, yn arch-ddeoniaeth Aberhonddu, ac esgobaeth Tŷ Ddewi. Yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i St. Cynog, a adeiladwyd, fel y bernir, gan Brior a monachod Sant Ioan, Aberhonddu, tua dechreu y bedwaredd ganrif ar ddeg, pan ei gwnaed yn blwyf gwahanol gyntaf. Adeilad fechan, ddiaddurn ydoedd, yn gorwedd ar dir lled uchel, oddiar yr Yscir. Y mae amryw wrthddrychau yn y gymmydogaeth y rhai y tybir fod eu henwau yn cyfeirio at y frwydr rag-grybwylledig, megis "Heol y Cymry;" "Cwm Gwŷr y Gad;" a "Ffynon Pen Rhŷs," yn agos i'r hon y dywedir i'r anffodus Rhŷs ab Tewdwr golli ei ben, pan newydd ffoi o frwydr Hirwaun Wrgant, lle ei gorchfygasid gan Robert Fitz-Hamon. Y mae yma *faen hir* hefyd yn sefyll ar y tu deheuol i'r eglwys; a gellir olrhain gweddillion gwersyll Rhufeinaidd yn y plwyf hefyd, yn yr hwn y cafwyd darnau o arfau milwraidd, ac amryw fathodynau Rhufeinaidd o bryd i bryd.

**BAUSELEY**, treflan yn y rhan hono o blwyf ALBERBURY, yr hwn sydd yn y rhan-barth isaf o gantref DEYTHUR, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU; 8 milldir i'r gogledd ddwyrain wrth ddwyrain o'r Trallwm. Y mae y dreflan hon yn gorwedd ar ffiniau Sir Amwythig.

**BAXTER**, WILLIAM, yr ysgrifenydd ieithyddol enwog, a nai ac etifedd Richard Baxter, awdwr "Gorphwysfa 'r Saint," a anwyd o rieni parchus, ond o amgylchiadau isel, yn Llanllugan, swydd Drefaldwyn, yn y flwyddyn 1650. Ni chafodd ddim addysg hyd nes oedd yn ddeunaw mlwydd oed, pan yr aeth i'r ysgol yn Harrow, heb wybod llythyren

Digitized by Google

ar lyfr, na deall gair o un iaith ond y Gymraeg. Ond trwy ymdrech a dyfalbarhad, efe a ddaeth yn dra enwog fel ieithydd a henafiaethwr; ac ysgrifenodd amryw lyfrau, yn y Lladin yn benaf, ar y cangenau hyny o wybodaeth. Yn 1679 cyhoeddodd ei lyfr cyntaf, dan yr enw, *De Analogia seu Arte Latinæ Linguæ Commentariolus.* Yn 1695 ymddangosodd ei argraffiad newydd a diwygiedig o *Anacreon*, gyda nodiadau, yr hwn a ail argraffwyd yn 1710, gyda diwygiadau ac ychwanegiadau helaeth. Yn 1701 cyhoeddodd argraffiad o Horace, yr hwn a ail argraffwyd yn 1725. Yn 1719 cyhoeddodd ei Eiriadur cywrain a dyfnddysg o henafiaethan Prydeinig, dan yr enw. *Glossarium Antiquitatum Britannicarum, sive Syllabus Etymologicus Antiquitatum veteris Britanniæ atquæ Hiberniæ temporibus Romanorum.* Ei waith nesaf oedd *Glossarium Antiquitatum Romanorum*, yr hwn a gyhoeddwyd ar ol ei farwolaeth, gan y Parch. Moses Williams, yn 1726, ac a ail argraffwyd yn 1731. Ond nid yw yn cyraedd yn mhellach na'r llythyren A., ac mae y rhan fwyaf o'r erthyglau yn faith a dysgedig. Yr oedd yn feirniad galluog yn y Gymraeg a'r Wyddelaeg, ac yn dra hyddysg yn yr ieithoedd Gogleddol a Dwyreiniol, yn nghyd a'r Groeg a'r Lladin. Gohebai â dynion dysgedicaf ei oes, ac yn neillduol gyda'i gydwladwr enwog, Edward Llwyd. Cadw ysgol oedd ei waith drwy y rhan fwyaf o'i oes. Bu yn cadw ysgol fyrddiol am flynyddau yn Tottenham, yn Middlesex, a dewiswyd ef oddi yno, i fod yn athraw ar y Mercers' School, Llundain, lle y parhaodd dros ugain mlynedd, ac hyd oni roddodd y swydd i fyny ychydig cyn ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le yn Mai, 1723, pan oedd efe yn 73 mlwydd oed.

**BAYLY,** Lewis, D.D., a anwyd yn nhref Caerfyrddin, a derbyniodd ei addysg athrofäol yn Ngholeg Exeter, Rhydychain. Yn nghofnodau Rhydychain, ymddengys ei enw yn y flwyddyn 1611, fel gweinidog Evesham, yn swydd Caerwrangon (*Worcester*); caplan i'r Tywysog Harri, a gweinidog Eglwys St. Matthew, yn Friday Street, Llundain. Yr oedd ei boblogrwydd fel pregethwr y pryd hwnw mor fawr, fel y gwnawd ef yn gaplan i Iago I., yr hwn a'i dyrchafodd yn fuan yn Esgob Bangor, ac urddwyd ef i'r swydd yn Lambeth, ar yr 8fed o Ragfyr, 1616. Ar y 15fed o Mehefin, 1621, traddodwyd ef i garchar y Ffleet, am ryw drosedd anadnabyddus; ond tybir mai rhywbeth mewn cyssylltiad â phriodas y Tywysog Harri gyd a'r Infanta, o'r Yspaen, oedd yr achos o'i garchariad. Ond pa fodd bynag, rhyddhawyd ef yn fuan, ac ymaflodd yn ei ddyledswyddau fel cynt. Efe a ysgrifenodd draethawd rhagorol dan yr enw, *The Practice of Piety*, yr hwn a aeth drwy 59 o argraffiadau erbyn y flwyddyn 1734. Cyfieithwyd ef i'r Gymraeg, yn 1630, dan yr enw *Ymarfer o Dduwioldeb;* ac ail argraffwyd ef amryw o weithiau ar ol hyny. Cyfieithwyd ef i'r Ffrancaeg yn 1633, a'r fath oedd ei boblogrwydd yn y wlad hono fel y cwynai John d' Espagne, awdwr Ffrengig, a phregethwr yn Somerset House, yn 1656, fod y rhan fwyaf o'r bobl gyffredin yn edrych arno mor uchel a'r Bibl ei hun. Bu farw Dr. Bayly Hydref 23, 1631, a chladdwyd ef yn Eglwys Gadeiriol Bangor. Gadawodd ar ei ol bedwar mab, Nicholas, John, Theodore, a Thomas.[1]

**BAYLY,** Thomas, D.D., ydoedd fab ieuangaf Dr. Lewis Bayly, Esgob Bangor. Addysgwyd ef yn Nghaergrawnt, ac wedi iddo yno gael ei raddio yn y Celfau, rhoddodd y brenin iddo, yn 1638, is-ddëoniaeth Wells.

Yn 1644, efe a enciliodd gydag offeiriaid eraill i Rydychain, lle y graddiwyd ef, yn Awst y flwyddyn hono, yn A.C., ac yn fuan ar ol hyny yn D.D.

Yn 1646, cawn ef gyda Iarll Caerwrangon yn Nghastell Ragland, yn amddiffyn y castell dros y brenin, yn erbyn y Gwerinwyr. Yna aeth i Ffrainc a gwledydd eraill; ac wedi marwolaeth Siarl I. dychwelodd i Loegr, a chyhoeddodd lyfr dan yr enw, *Certamen Religiosum; or, a Conference between King Charles and Henry, late Marquis of Worcester, Concerning Religion, in Ragland Castle*, 1649. Condemnid yr awdwr yn uchel oblegid y llyfr hwn, am ei fod yn gogwyddo at Babyddiaeth. Yn yr un flwyddyn, cyhoeddodd Bayly ei *Royal Charter granted unto Kings by God himself;* ac yn nglyn â hwnw, *A Treatise, wherein is Proved that Episcopacy is Jure Divino.* Am y gwaith hwn traddododd y Werinlywodraeth ef i garchar Newgate. Tra yn y carchar, ysgrifenodd lyfr dan yr enw, *Herba Parietis; or, The Wall Flower, as it grows out of the Stone Chamber belonging to the Metropolitan Prison, which is partly true, partly romantic, and morally divine*, 1650. Gyda ei fod wedi cyhoeddi y llyfr hwn llwyddodd i ddianc o'r carchar, a ffodd i Holland, lle yr addefodd ei hun yn Babydd. Sefydlodd wedi hyn yn Douay, a chyhoeddodd, *The End to Controversie between the Roman Catholic and Protestant Religions*, 1654. Aeth o Douay i'r Eidal, a bu farw yno mewn dirfawr angen, tua'r flwyddyn 1659.[2]

**BEAUFORT,** Edward Somerset, ail Ardalydd Worcester, ydoedd fab henaf Henry Somerset, pumed Iarll Beaufort, a'r Ardalydd cyntaf. Efe a briododd Elizabeth, merch i Syr William Dormer; ac yn ail, Margaret, merch i Iarll Thomond. Ymlynodd y pendefig hwn, fel ei dad, wrth y blaid freninol yn selog, yn amser y rhyfel wladol; ac efe a bennodwyd gan Siarl I. yn arglwydd raglaw Gogledd Cymru, ac fe'i cyferchid gan ei fawrhydi, fel Iarll Morganwg, hyd oni lwyddodd i gael ei urddau ettifeddol. Cyhuddid y brenin Siarl o anfon y pendefig hwn (crefydd yr hwn, medd Arglwydd Clarendon, oedd o'r fath hono o Babyddiaeth ag oedd gasaf gan y bobl, gan ei bod y fwyaf Jesuitaidd), i gyttuno â'r Pabyddion Gwyddelig a gwrthryfelgar, a dwyn corff mawr o honynt i wasanaeth y brenin; a chwynai y bobl yn fawr o'r herwydd, ar yr hyn y gwadai y brenin ei fod wedi rhoddi yr Iarll ar waith. Bu yr achos hwn mewn dadl yn hir; ond taerid yn gyffredin fod gan y brenin law ddirgel yn y cyfan.

Gadawodd ei arglwyddiaeth gyfansoddiad llenyddol ar ei ol, dan y teitl—"A centuary of the names and scantlings of such inventions as at present I can call to mind to have tried and perfected; which, my former notes being lost, I have at the instance of a powerful friend, endeavoured now, in the year 1665, to set these down in such a way, as may sufficiently instruct me to put any of them in practice." Argraffwyd y Gwaith hwn gyntaf yn 1663, yr hwn waith a ddarlunia nerth a chymhwysder ager-beiriant. Bu farw Ebrill 3, 1675.

**BEAUFORT,** Henry Somerset, ydoedd bumed Iarll Beaufort, a mab i Edward, y pedwerydd Iarll o Ragland, yn swydd Fynwy; efe a alwyd i Senedd

[1] Wood's *Ath.*, Oxon.

[2] Wood's *Ath.*, Oxon.

Digitized by Google

gyntaf Iago y Cyntaf. Cymerodd ran neillduol yn mhlaid Siarl I., ac amddiffynodd ei gastell yn Ragland âg wyth gant o wŷr, o'r flwyddyn 1642 hyd y flwyddyn 1646, heb godi treth ar y wlad: ond bu raid iddo ei roddi i fynu o'r diwedd, i Syr Thomas Fairfax. Hwn ydoedd y castell diweddaf yn y deyrnas a barhaodd i wrthsefyll y gwerinwyr. Wedi ei ddi doi, fe'i dinystriwyd, a thorwyd y coed yn y parc, y rhai a werthwyd gan bwyllgor yr attafaeliad, yr hyn a fernid yn golled i'r perchenog o gan mil o bunnau. Dyrchafwyd yr Iarll hwn i'r urddas o Ardalydd Worcester, Tach. 2, 1642. Ei wraig oedd Anne, unig ferch i John, Arglwydd Russell. Bu farw yn 1646.

**BEAUMARIS**: porthladd, bwrdeis-dref, tref farchnad, a chapeloriaeth, yn meddu brawdoliaeth neillduol; yn mhlwyf LLANDEGFAN, yn Nghantref Tyndaethwy, swydd FÔN, GOGLEDD CYMRU, 6 milldir i'r gog. og. ddwyr. o ddinas Bangor; a 249 i'r gog. or. wrth or. o ddinas Llundain, ac yn meddu poblogaeth o 2210, yn ol y Ddeiliadeb a gymerwyd yn y flwyddyn 1861. Y lle hwn, yr hwn yw pen tref Sir Fôn, a elwid mewn oesoedd tra boreuol, "Porth Gwygyr," neu "Porth Wgyr;" a dywedir fod yn agos i'r lle a elwir "Y Bryn," neu, "Bryn y Brython," yn nghyfeiriad y lle y saif y felin ddwfr, bentref o'r enw "Bonofer," cyn adeiladu y dref bresenol. Y dref hon a adeiladwyd gan Edward y Cyntaf, tu a'r un pryd ag y parodd y Penteyrn hwnw adeiladu y castell yma, yr un modd ag y parodd efe adeiladu tref Conwy, mewn cyssylltiad â'r castell hwnw, ac at wasanaeth y gwarchod-lu. Ond yr oedd y lle wedi cyrhaedd mesur helaeth o bwysigrwydd ac enwogrwydd fel porthladd, lawer o ganrifoedd cyn hyny, dan yr hen enw, "Porth Gwygyr;" ac mewn Ysgriflyfr tra boreu, fe'i gelwir "Caer Athrwy." Bernir mai Edward I. a roddodd ei henw presenol iddi, am ei bod wedi ei hadeiladu ar wastadedd tra phrydferth, yr hwn oedd yn forfa y pryd hwnw, ac am hyny ei galwai ar enw yn dynodi "Y Morfa Teg." Meddylir mai at y lle hwn y mae cyfeiriad yn yr hen Drïad canlynol:— "Tair porthladd freiniawl Ynys Prydain: Porth Ysgewin yng Ngwent; Porth Wygyr ym Mon; a Phorth Wyddnaw yng Ngheredigion."

Yn y flwyddyn 818, neu, yn ol eraill, 819, ymladdwyd brwydr dra gwaedlyd yn y gymydogaeth hon, rhwng y Cymry a'r Sacsoniaid Gorllewinol, dan dywysiad eu brenin Egbert, yr hwn oedd wedi goresgyn holl Wynedd yn y cad-gyrchiad yma; ac yn y frwydr hon, efe a lwyr orchfygodd y fyddin Gymreig, ac yn y canlyniad a gymerth feddiant o holl wlad Fôn, ac a archodd ei galw *Anglesey*, sef "Ynys yr Eingyl," ac a osododd ddeddf gaeth ar y trigolion, i beidio dysgu Cymraeg mwyach i'w plant. Ond ni fu yr Ynys yn hir yn meddiant y Saeson; canys y tywysog Cymreig, Merfyn Frŷch, trwy ei ymdrechiadau diwyd ac egniol, a barhaodd i flino y Saeson mor fawr, fel y bu raid i Egbert a'i fyddinoedd encilio yn ystod y gauaf canlynol, a dychwelyd i'w wlad ei hun. Y mae yn debyg i un o brif swyddogion Egbert, o'r enw Alhstan, gwympo mewn brwydr yn agos i Lysfaen, ar y cad-gyrchiad yma; canys cafwyd modrwy aur emliwiedig, ac o wneuthuriad cywrain, ar y mynydd, oddiar eglwys Llŷsfaen, tua diwedd y ganrif o'r blaen, neu yn gynar yn y ganrif bresenol. Yr ydoedd yn pwyso tu ag owns; ac o'i mewn yr oedd enw Alhstan wedi ei gerfio. Yr ydoedd y fodrwy ddywededig yn meddiant un Mr. Walker, o Gaerlleon, tua deugain mlynedd yn ol, ac y mae yn debyg ei bod gan rai o'r teulu eto.

Yn y flwyddyn 1096, darfu i Iarll Caerlleon, ac Iarll yr Amwythig, ymgyngrheirio, ac uno eu galluoedd milwraidd, i ymosod ar Wynedd, gan benderfynu yn ddiammeu ei thraws-feddiannu yn gyflawn; ac wedi glanio byddin gref yn Nghadnant, hwy a anrheithiasant y gymmydogaeth hon, hyd Benmon; ac yno adeiladasant gastell Aberllïenawg, a elwir yn awr "Castell Lleiniog," er cadw y ddyfodfa i afon Menai; a darostyngasant yr ynyswyr i'r cyflwr isaf o gaeth-ddeiliadaeth, gan gyflawni y creulonderau mwyaf ysgeler ar lawer o honynt. Y pryd hyn yr oedd Gruffydd ab Cynan, brenin Gwynedd, yn ffoadur yn yr Iwerddon; ond yn y cyfamser, daeth Magnus fab Harold, diweddar frenin Lloegr, a chanddo lynges gref dan ei lywyddiaeth, i'r parthau hyn, gan fwriadu adfeddiannu breniniaeth Lloegr oddiar y trawsfeddianwyr Normanaidd; eithr efe a orfodwyd gan wyntoedd croesion i droi i afon Menai, a bwriadai lanio yn Môn, oni buasai fod y fyddin Seis'nig wedi ei threfnu ger castell Aberllïenawg i attal ei laniad: ond yn yr helynt yma, Magnus a glwyfodd Huw, Iarll yr Amwythig, yn ei wyneb (efe a'i saethodd yn ei lygad, medd rhai), a bu farw yr Iarll o'r clwyf hwnw; ac ar hyny, y ddwy fyddin a adawsant yr ynys yn ddisymwth; a'r Saeson, ar eu dychweliad i Loegr, a bennodasant Owain ab Edwyn, yr hwn oedd yn nai i Gruffydd ab Cynan, ac a fuasai yn brif Gyngorwr iddo, ond yn fradwrus a wahoddasai y Saeson drosodd,—yn dywysog ar y wlad. Ond ni chafodd Owain hir fwynhad o'r Dywysogaeth, yr hon a gawsai efe trwy y fath ffalsder; canys yn y Gwanwyn canlynol, dychwelodd Gruffydd ab Cynan, a Chadwgan ab Bleddyn o'r Iwerddon; ac wedi gwneyd cyttundeb heddwch â'r Normaniaid am ranau o'u tiroedd, ymsefydlodd Gruffydd yn Môn, a Chadwgan a gafodd Geredigion, a rhan o Bowys.

Ar ol hyn, nid oes dim o bwys hanesyddol wedi ei gofnodi mewn cyssylltiad â'r lle hwn, hyd amser Edward I., pan ddarfu i'r pennadur hwnw, wedi darostwng holl Gymru dan ei awdurdod, ac adeiladu cestyll ysplenydd Caer-yn-arfon, ac Aberconwy, ei gael ei hun eto yn analluog i gadw meddiant tawel o'r tiriogaethau a drawsfeddiannasai, gan ei fod mewn perygl parhaus i gael ei flino gan wrthryfeloedd a gyfodid gan y tywysogion a'r pennaethiaid brodorawl. Ynys Fôn oedd prif gyrchle yr holl bendefigion Cymreig y pryd hwn; y rhai, er eu bod wedi ymostwng yn ffurfiol i awdurdod y brenin Edward, oeddynt yn ymdrechu yn barhaus i fwrw yr iau Seis'nig oddiar eu gwarrau: a gwelai Edward ei bod yn anmhossibl darostwng y gwrthryfeliadau hyn, tra fyddai Môn heb yr un gwarchodlu Seis'nig ynddi, yn lle mor fanteisiol i ffurfio cyfuniadau, a bergylent ddïogelwch ei lywodraeth yn Nghymru. Gan hyny, efe a'i gwelai yn angenrheidiol iddo adeiladu castell, cyfartal mewn cadernid a phwysigrwydd â'r rhai a adeiladasai efe eisoes yn Nghaer-yn-arfon ac Aberconwy, a chyfleu ynddo warchodlu digon lluosog a grymus, i frawychu yr Ynyswyr, a llethu ysbryd anmhlygedig y pendefigion Cymreig. I'r perwyl yma, efe a ddetholodd Borth Gwygyr, yr hwn ar y pryd oedd yn myned dan yr enw Bonofr, neu, Bonofer, ag ydoedd yn dra chyfaddas ar gyfrif ei sefyllfa, i arglwyddiaethu ar yr ynys; ac oddiar

Digitized by Google

y sefyllfa isel a morfaog, ar yr hon ei hadeiladwyd, rhoddes Edward yr enw *Beaumaris* iddo. Gan fod y tir ar yr hwn yr adeiladwyd y castell, yn feddiant personol, y brenin a roddes diroedd eraill, llawn cymaint, neu fwy eu gwerth, yn gyfnewid am dano i'w berchenogion: a'i sefyllfa isel, ar wastadedd, ger glan y môr, a'i gwnelai yn gyfleus i'w amgylchynu â ffos ddofn, yr hon y gellid ei llenwi ar unrhyw adeg â dwfr o'r môr, ac i dori camlas hyd at fur y castell, fel y byddai yn gyfleus i ddadlwytho y llestri i'r castell. Y teuluoedd a berchenogent y rhandir hon yn flaenorol, oeddynt hiliogaeth Gweirydd ab Rhŷs Goch, y rhai a symudwyd trwy ysgrifwys o gyfnewidiad (Writ of Excambias), i Fodlewydden; a rhanwyd trefgordd yr Erianell a Thre'rddol rhwng y gweddill, yn rhydd oddiwrth ardreth a gwasoliaeth.

Gorphenwyd adeiladu y castell hwn yn y flwyddyn 1296; ac yn yr un flwyddyn, corphorodd y brenin Edward breswylwyr y dref trwy freinlen, trwy yr hon y sicrheid iddynt lawer o ragorfreintiau gwerthfawr a phwysig; a phenododd bod i gwnstabl y castell, fod yn bennaeth y dref hefyd. Y mae amryw ysgrifenwyr yn awgrymu mai yn y canlyniad i gyfodiad y castell hwn, y gwnaed y dref; ond y mae lle cryf i gasglu oddiwrth gof-lyfrau y gorphoriaeth, ei bod wedi cyrhaedd gradd helaeth o bwysigrwydd fel tref, cyn y pryd hyny; a'r hyn sydd yn fwyaf tebygol yw, fod Edward, ar ol adeiladu ei gastell, wedi cyfodi caerau o amgylch y dref, a rhoddi breinlen i'w phreswylwyr, yr hyn a barai iddo gael ei ystyried fel ei seilydd. Y cyntaf a osodwyd yn llywydd y castell, oedd farchog Gwasgwynaidd, o'r enw Syr William Pickmore; cyflog blyneddol yr hwn, oedd deugain marc, yr hyn wedi hyny a gyfodwyd i 40 punt yn y flwyddyn. Ac fel llywydd y dref, yr oedd i gael 12 punt, 3 swllt, a 4 ceiniog yn y flwyddyn. Anfonwyd yma warchodlu bychan hefyd, o bedwar ar hugain o arfogion a saethyddion, er amddiffyn yr adeilad anorphenol, a'r crefftwyr oeddynt ar waith arno, a'u cyflog oedd pedair ceiniog yn y dydd. Y draul flyneddol, heblaw traul y llafur, oedd 145 o bunnoedd.

Rhisiard yr Ail, a roddes gadwraeth y castell i Goronw ab Tudur; ac y mae yn debyg mai yn nghadwraeth y pendefig hwn yr oedd Castell Beaumaris, pan ymweiodd y pennadur anffodus hwnw â'r lle, tu a'r flwyddyn 1399; ac wedi i Harri Bolingbroke, ddyfod i orsedd Prydain, dan yr enw Harri IV., efe a roddes lywyddiaeth castell a thref Beaumaris, ac arglwyddiaeth holl wlad Fôn, i'r enwog Henry Percy, a gyfenwid Hotspur; a'r pendefig hwnw a osodai Syr John de Pulle, i weithredu fel ei raglaw, a thano 15 o ysweiniaid, a 140 o saethyddion, ar y draul o 986*p.* 10*s.* 10*c.* yn y flwyddyn. Y pryd hwn cyfrifid y castell yma mor gadarn, fel y dywedai un o bendefigion Ffrainc am dano, "Dyma gastell na allasid ei gymeryd mewn deng mlynedd, pe y byddai yn meddu arlwyon digonol am gymaint a hyny o amser, ac ychydig o amddiffynwyr da."[1] Ac efallai mai hyny a ellir ei roddi yn un rheswm, pa ham na bu, hyd y gwyddom ni, ddim ymosod arno, yn adeg gythryblus gwrthryfel Owain Glynŵr, na'r blyneddoedd dylynol i hyny, pan oedd yr holl deyrnas yn rhanedig rhwng teuluoedd Caerefrog a Lancaster. Mae yn wir fod un o geidwaid Castell Conwy, mewn llythyrau ydynt eto ar gael, a ysgrifenid yn adeg cyfodiad Owain Glyndwr (1404), yn sicrhau fod holl sir Gaerynarfon, yn bwriadu myned i Ynys Fôn gyda phob brys a allent; ond, nid i wneuthur cad-ruthriad ar gastell Beaumaris, eithr yn hytrach, i gael yr holl wŷr a'r anifeiliaid oddi yno, fel na byddai i'r Saeson gael eu cynnorthwyo drwyddynt.

[1] Gwel Parry's *Royal Visits*, &c., p. 198.

Ymddengys fod Henry Percy wedi talu ymweliad personol i'r cestyll yn Nogledd Cymru, ychydig cyn toriad allan ei wrthryfel ef ei hun; ac nid yw yn annhebyg mai ar y daith hon, tra yn cymeryd arno ymweled â chastell Beaumaris, ac eraill o gestyll Gwynedd, y cyfarfu ef âg Owain Glyndwr, a Syr Edmwnd Mortimer, yn nhŷ Dafydd Daron, Deon Bangor; pan y gwnaethant gyfammod difrifol i gyd ymdrech i ddwyn y deyrnas oddiar ei thrawsfeddiannydd, Harri IV., a'i rhanu rhyngddynt eu tri: ond brwydr aflwyddiannus yr Amwythig, a ddyrysodd eu cynlluniau.

Yr oedd y gwarchodlu yn gyffredin yn gynwysedig o bedwar ar hugain o wŷr, ac nid anfynych y byddent yn ymrafaelio â rhai o bobl y dref, ac weithiau â rhai o foneddigion Cymreig y wlad, a ddelent ar eu tro i'r dref. Y mae yn ymddangos bod yr Ynyswyr yn cael eu trethu at ddwyn y draul o gynnal gwarchodlu y castell hwn, hyd amser Harri Seithfed, yr hwn, gan ei fod o waedoliaeth Gymreig, ac yn fwy o ddyledwr i'r Cymry nag i neb arall am ei roddi ar yr orsedd, a wnaeth lawer er ysgafnhau eu beichiau. Y segur-ddynion moethus, a osodid i gadw y castell, a ymddygent yn dra sarhaus a gorthrymus at y Cymry, a phan gyfodai y bobl mewn hunan-ddiffyniad yn eu herbyn, os gwelent eu bod mewn pergyl i gael eu trechu, rhedent i'r castell, gan dynu y porthcwlas i lawr, ac yna ysgyrnygu ar eu gelynion glewion, rhwng y barau heiyrn. Fe'n hysbysir am un ysgarmes a fu rhyngddynt â nifer o wŷr y wlad ar ddiwrnod marchnad, yr hon a elwir "Y ffrae ddu yn y Beaumaris," yn yr hon y lladdwyd boneddwr o'r enw Dafydd ap Ifan ap Hywel, arglwydd Llwydiarth, ac amryw eraill. Cymerodd hyn le dan deyrnasiad Harri VI.; ac er i'r trigolion anfon deisebau afrifaid o'r bron, at y penteyrniaid o bryd i bryd, y mae yn ymddangos nad oedd un sylw yn cael ei roddi i'w cwynion na'u ceisiadau, hyd oni feddiannwyd yr orsedd, gan un oedd yn hanu, fel yr awgrymwyd yn barod, o genedl y Cymry, ac o Ynys Fôn, yn mherson Harri y Seithfed, ŵyr Syr Owain Tudur, o Benmynydd, yn y sir hon.

Mewn hen ysgrif yn yr *Harleian Collection*, rhif 433, fe'n hysbysir fod y brenin Rhisiard y Trydydd, yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad, wedi pennodi Syr R. Huddleston yn gwnstabl a chadben castell a thref Beaumaris; ac yn mis Rhagfyr, yn yr ail flwyddyn o'i deyrnasiad, y mae y cofnodiad canlynol:—"Y mae gan Syr Rhisiart Huddleston bedwar ar hugain a filwyr yn y Beaumaris; talwyd y draul arferol am yr haner blwyddyn, yn nghyd a'r cyflogau yn ol 4 ceiniog y dydd, i bob milwr."

Yn ysgrif-lyfrau Lleweni cair hysbysiad fod Harri y Seithfed, yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad, wedi pennodi ei fab o orddereh, Syr Roland Villeville, yn gwnstabl a chadben y lle hwn; ond bod ymddygiad y gwarchodlu mor dramgwyddedig i'r gymydogaeth, fel y rhoddes y brenin orchymyn i'w symud. Y pendefig uchod a'i cyfenwai ei hun, "Rowland Britany;" am mai yn Llydaw ei ganesid. Ei

Digitized by Google

ferch a'i ettifeddes a briododd Tudur ab Robert o'r Beren, yn mhlwyf Llannefydd, swydd Dinbach; ac felly yr oedd eu merch, yr hynod "Catrin o'r Beren," yn orwyres i Harri y Seithfed, o du ei mam; ac yn hanu o'r un cŷff Cymreig a'r brenin, sef o Ednyfed Fychan, o du ei thad, trwy y Tuduriaid.

Parhaodd Syr Roland Villeville yn ei swydd fel cwnstabl y castell hyd ddiwedd ei oes; ond nid ydyw yn ymddangos fod yno yr un gwarchodlu milwraidd, o deyrnasiad Harri y Seithfed hyd deyrnasiad Siarl y Cyntaf.

Yn y ddegfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad Harri yr Wythfed, anfonid gwŷs-lythyr at swyddogion y goron am Ogledd Cymru, yn yr hwn y cwynid fod castell Beaumaris mewn cyflwr tra adfeiliedig; ac yr erchid iddynt edrych am ei adgyweirio yn ddioed; ond nid ydym yn hysbys pa adgyweiriadau a wnaed arno dan awdurdod yr ysgrifwys ddywededig.

Yn nheyrnasiad y Frenines Elizabeth, pan oedd yr Arf-lynges Yspaenaidd, a gyhoeddasid gan y Pab yn anorchfygol, yn bygwth goresgyn Ynys Brydain, darfu i Pierce Gruffydd o'r Penrhyn, Ysw., yr hwn oedd yn foneddwr tra galluog, o gorph a meddwl, brynu llong, a'i pharottoi yn mhorthladd Beaumaris, â phob arlwyon rhyfel, er gwneyd ei ran dros ei frenines, a'i wlad; ac ar yr 20fed o Ebrill, 1588, efe a hwyliodd allan o'r porthladd hwn, a nifer o wirfoddolion glewion dan ei lywyddiaeth; a chyrhaeddodd i Plymouth ar y 4ydd o'r mis canlynol, i ymuno â'r llynges Seis'nig oedd yn cael ei chrynhoi yno ar y pryd. Ar ei gyrhaeddiad i Plymouth, Syr Henry Cavendish a anfonodd i wahodd y Cymro gwladgarol a dewr-fryd, i giniawa ar fwrdd llong y llyngesydd enwog Syr Ffrancis Drake, lle ei hanrhydeddid, ac ei canmolid yn fawr am ei deyrngarwch a'i wroldeb. Efe a ganlynodd y llywyddion uchod hyd oni orchfygwyd yr Arf-lynges ofnadwy; ac yna, efe a aeth gyda Drake a Raleigh, i wib-hwylio gyda glenydd y tiriogaethau Hispaenaidd; ac wrth enau Culfor Magellan, efe a adawodd Syr Ffrancis Drake, yr hwn a roddid ar waith i wneyd archwiliadau. Yn nheyrnasiad y Brenin Iago, dygid amryw achwyniadau yn ei erbyn o flaen y Weinyddiaeth Seis'nig, gan y Count Gondamor, y llys-genadwr Hispaenaidd, yr hwn a feddai ddylanwad mawr yn y llŷs Seis-nig ar y pryd. Dygid achwyniadau yn ei erbyn, ei fod wedi parhau ei for-ladradaeth ar ol cyhoeddi heddwch rhwng y deyrnas hon a'r Hispaen; ac mor fawr ei blinid âg erlyniadau ar y cyfrifon hyny, fel y bu raid iddo werthu ei ettifeddiaeth, er achub ei fywyd.

Yn y flwyddyn 1642, darfu i Thomas Cheadle, Ysw., rhaglaw Iarll Dorset, yr hwn ar y pryd oedd yn gwnstabl y castell hwn, beri ei arlwy â gwŷr ac arfau, at wasanaeth y brenin Siarl y Cyntaf. Mewn hen ysgrif yn meddiant Mr. Wynne o Beniarth, yn cynwys "adroddiad byr am y gwrthryfel yn Ngogledd Cymru, yn amser Olifer Cromwel," fe'n hysbysir fod gwŷr Môn, ar y 14eg o Orphenaf, 1648, wedi llaw-nodi Cofeb a dynasid i fynu gan Syr John Owen (o'r Clenennau), "yn erbyn yr ysgelerder o wrthryfel." Ac ymddengys fod trigolion yr Ynys yn gyffredin, yn gweithredu yn gyson â'r cyfryw wrthdystiad teyrngarol, trwy ddefnyddio pob cyfleusdra i flino a dyrysu y blaid wrthryfelgar.—"Tra yr oedd y Cadben Sontley a'i wŷr yn Nolgellen, yn mis Gorphenaf, darfu i rai o wŷr Môn, wedi deall bod mintai o wŷr y Senedd yn llettya yn Mangor, ddyfod dros yr afon yn y nos; ac yn y boreu, hwy a gymerasant rhwng deg ar hugain a deugain o honynt yn garcharorion, gerllaw Aber: yna Sontley a'i wŷr a aethant tu a'r Bala, ar foreu Sabbath. Yn Sir Gaerynarfon, darfu i wŷr y Senedd yspeilio y Clenennau, a nifer fawr o dai boneddigion yn Lleyn. Yn fuan wedi hyny, daeth gwŷr Môn drosodd i Gaerynarfon, ac a gymerasant rai gwŷr, a meirch, oddeutu Clynog, ac wedi clywed fod y Maes-lywydd Mytton, a'r Milwriad Jones yn Mhwllheli, hwy a ddychwelasant i Fôn."

Mewn Arddawd o eiddo y diweddar Mr. Richard Llwyd, i'w Bryddest y "*Beaumaris Bay*," cawn yr Adroddiad dyddorawl a ganlyn, am helyntion blinion yr amser terfysglyd dan sylw, yn eu cyssylltiad a gwlad Fôn, ac yn enwedig â thref Beaumaris:—"Yn nechreu y flwyddyn 1648, darfu i bobl dda y wlad, y rhai oeddynt yn gruddfan dan ormesiadau Senedd a byddin wrthryfelgar, ddyfod i'r penderfyniad i wneyd rhyw ymdrechion i ryddhau y brenin, yr hwn oedd y pryd hyny yn garcharor yn Nghastell Carisbrook, ac i'w rhyddhau eu hunain o gaethwasiaeth a thraws-lywodraeth; ac felly, cyfododd gwŷr Caint, dan Goring, Iarll Norwich; gwŷr Essex, dan Lucas a Lisle; gwŷr Deheubarth Cymru, dan Langhorne, Powell, a Poyer; a gwŷr Gogledd Cymru, dan Syr John Owen; a'r Ysgotiaid, dan y Duc o Hamilton: ac felly, gan fod ynyswyr Môn yn meddu cystal hawl o'u brenin, ac mor awyddus am fwynhau eu hen freinniau dan unbennaeth, a neb o'u cyd ddeiliaid, ni fynent fod ar ol yn eu hymdrechiadau dros adferiad; hwythau hefyd a ymarfogasant dan Thomas, Arglwydd Bulkeley, y Milwriad Richard Bulkeley ei fab, a boneddigion teilwng eraill o'r Sir; â'r rhai yr ymunai Cadben Thomas Symkis, llywydd Castell Beaumaris, a'r holl warchodlu o'r bron. Ac mewn rhyfel-gyngor, barnwyd yn gymwys dynu i fynu Ardystiad, i gael ei law-nodi gan yr holl ynyswyr, o un ar bymtheg, hyd dri ugain mlwydd oed, er cydio bonedd, a gwreng, a milwyr, yn fwy trwyadl, ac er amlygu eu hegwyddorion teyrn-garol i'r byd;"—ac y mae yn ymddangos mai Mr. Michael Evans, capelwr Arglwydd Bulkeley, a Mr. Robert Morgan, periglor Llanddyfnan, a ffurfiasant y cyfryw Ardystiad; yr hwn oedd fel y canlyn:—

"Nyni, preswylwyr ynys Fôn, y rhai y mae ein henwau wedi eu tanysgrifio isod, ar ol ystyriaeth bwyllog, a galw o'r galon ar enw Duw, am gyfarwyddyd a chynnorthwy, ydym yn gwrth-dystio, ac yn datgan i'n cyd ddeiliaid a'n cymydogion pwy bynag y perthyn iddynt, ein bod ni yn ol ein dyledus rwymedigaeth a'n gwarogaeth, wedi cadw yr ynys ddywededig, mewn ufudd-dod dyledus i'n goruchaf benteyrn, yr Arglwydd Frenin Siarl, drwy ystod y rhyfel gartrefol, a'r gwrthryfel presenol, a thrwy fendith Duw ar ein hymdrechiadau gofalus, yr ydym wedi amddiffyn yr unrhyw, hyd onid yw y gelyn wedi traws-feddiannu yr holl deyrnas oddieithr ychydig o amddiffynfeydd yn unig, gan mai dyma yr unig Sir yn Lloegr na Chymru, dros ddau fis yn nghyd, a gadwyd yn gyfan dan awdurdod a llywodraeth ei fawrhydi; a chan ein bod y pryd hyny, trwy y nifer mawr o draed-filwyr a meirchfilwyr, y bygythid eu tywallt arnom (heb ganfod un sail gobaith am ymwared), yn gorfod ymostwng i'r gallu a ffynai y pryd hyny, yr ydym yn awr, o gydwybod i Dduw, a theyrngarwch i'w eneiniog ef,

Digitized by Google

gyda phob goetyngeiddrwydd, yn ein rhoddi ein hunain, ein bywydau a'n meddiannau, wrth draed ei fawrhydi, gan benderfynu, hyd berygliad eithaf yr oll ydym, neu a feddwn, i gadw yr ynys ddywededig, yn nghyd a'r castell a'r amddiffynfeydd sydd ynddi, mewn dyledus ufudd-dod i'w fawrhydi cysegredig, ei ettifeddion, a'i olynwyr cyfreithlawn, yn erbyn pob gwrthwynebwyr gwrthryfelgar, a goresgynwyr, pwy bynag a fyddont; ac yr ydym hefyd, a chalon ddiffuant, yn proffesu y bydd i ni, yn ol ein gwahanol raddau, lleoedd, a galwedigaethau, amddiffyn y wir grefydd Brotestanaidd, sefydledig trwy gyfraith, uchelfraint breninol ei Fawrhydi, cyfreithiau adnabyddus y tir, rhagorfreintiau cyfiawn y senedd, yn nghyd a'n meddiannau a'n iawnderau cyfreithlawn ein hunain, a'r eiddo ein cyd ddeiliaid. Ac yr ydym yn mhellach yn datgan ac yn gwrthdystio, ein bod, ac y bydd i ni, gyfrif pawb a safant mewn gwrthwynebiad i hyn, yn elynion ac yn fradwyr i'w brenin a'u gwlad, ac i ymddwyn yn eu herbyn yn gyfattebol, gan fod yn eithaf parod i roddi ein galluoedd gorau ar waith i'w darostwng, ac i adferu ein grasusaf benadur, (yr hwn a ddioddefodd drawslywodraeth a gorthrymder ei elynion anwar a gwaedlyd er ys hir amser bellach), i'w iawnderau, ei urddas, a'i arglwyddiaeth, yn ol ysplander ei hynafiaid gogoneddus. Rhoddwyd dan ein dwylaw, y 14eg o Orphenaf, 1648."

Llaw-nodwyd yr ysgrif uchod, gan brif-fonedd y wlad, megis yr Arglwydd Bulkeley, ei fab Richard Bulkeley, William Griffith, John Bodfel, Henry Owen, Owen Holland, Richard Meyrick, Henry Lloyd, Richard Roberts, &c. &c.

Wedi llawnodi y cyhoeddiad yma, ymroddodd yr holl ynys i ymarfogi ac ymfyddino; a llawer o foneddigion o wledydd eraill, â gwŷr, meirch, ac arfau, a gyrchent yno, megis Syr Arthur Blayney ac eraill, o Sir Drefaldwyn; yr Uch-gadben John Doulben, Cadben Charles Chambers, Cadben Robert Hughes, Cadben William Eyton, Cadben Richard Parry, ac eraill o Sir Ddinbach; yr Uch-gadben H. Pennant, Mr. Thomas Griffith, Mr. Thomas Davenport, ac eraill o Sir Fflint; Cadben John Morgan, ac eraill o Sir Feirionydd; y Rhag-filwriad Hugh Hooks, ac eraill o Sir Gaerynarfon; Syr Faithful Fortescue, Barg., Samuel Singleton, a llawer yn ychwaneg, a ddaethant o leoedd eraill i Fôn, megis i ddinas noddfa. Trefnwyd ymgynnullfa o'r holl gad-luoedd ar y Talwrn Mawr, yr hwn oedd gyttir eang yn nghanol yr ynys; lle y darllenwyd y cyhoeddiad blaenorol yn Gymraeg i'r Cymry, gan y Parch. Robert Morgan a grybwyllwyd uchod, yr hwn a'i cefnogodd mewn araeth faith; a dilynwyd hyny â banllefau uchel, ac âg addewidion i sefyll yn unfrydol dros achos y brenin, ac er amddiffyn yr ynys yn erbyn pob rhyw oresgynwyr.

Yn y cyfamser nid oedd y Senedd yn esgeulus yn ei darpariadau i ddarostwng yr ynys; ond pennodai bump o ddirprwywyr i ofalu am y gwasanaeth hwnw; sef Syr Thomas Myddleton, Barg., yr Is-lywydd Mytton, Thomas Myddleton, Ysw., Symon Thelwall, Ysw., a'r Milwriad Jones.

Y dirprwywyr hyn a gasglasant eu Câd-luoedd i ymgyfarfod yn Nghonwy, lle y darparasant gychod, a chawsant wr o Fôn, yr Is-gadben Richard Cheadle, i arwain y cyfryw gychod ar hyd y môr i Fangor; tra yr oedd corph mawr eu byddin, tua phymtheg cant o wŷr traed a meirch-filwyr, yn cyfeirio yno ar hyd y tir. Can gynted ag yr ymddangosodd y cychod a'r fyddin tu a'r Penmaen Mawr, o fewn golwg oddiar laslanerch y Beaumaris, dechreuai pobl Môn ymgynhyrfu;—curid y tabyrddau, seinid yr udgyrn, gollyngid amryw ergydion allan ar y *Green*, Beaumaris, a thanid yr holl gyflegrau oeddynt ar y castell, o'r hyn ni chymerai y gelynion nemawr, neu ddim sylw. Y noson hono cyrhaeddodd y gelynion i Fangor, lle yr arhosasant am bedwar neu bum diwrnod; ac yna aethant dros yr afon, yn eu cychod, i Gadnant yn Môn, yn mrig yr hwyr, ar y 15fed o Fedi, 1648, gan gael eu harwain gan un John Wiggins, o Fangor.

Ychydig, neu ddim gwrthwynebiad a wnaed i'w glaniad; yn unig ymddangosai yr Is-gadben Hugh Pennant a'i fintai, gerllaw Cadnant; ond y gelynion a dywalltasant eu hergydion arno, o'r gwrychoedd, ac o lochesau y creigiau, fel y bu orfod iddo encilio. Gerllaw Porthaethwy, o fewn llai na milldir i Gadnant, yr oedd gwarchodlu cryf o draed-filwyr wedi eu cyfleu, dan lywyddiaeth dau o swyddogion; ond y rhai hyny a ffoisant yn warthus, nid heb fod amheuaeth cryf am danynt, eu bod yn euog o fradwriaeth; canys yr oedd y gair ar led yn gyffredin ar ol hyny, bod un o honynt wedi derbyn haner cant o bunnau gan y Maes-lywydd Mytton, yn mlaenllaw, am fradychu yr ynys; a bod haner cant arall mewn addewid iddo, wedi ei bradychai; ond, na thalwyd y rhai hyny byth, fel y mae bradwyr yn cael eu twyllo yn gyffredin gan y rhai a'u rhoddant ar waith; gan ei fod yn fath o arwydd-air yn mysg gelynion eu hunain, i "garu y brâd, ond casau y bradwyr."

Y mae yr enw Cadnant, yn dyfod o Nant y Gâd, lle yr ymddengys fod rhyw fyddin yn flaenorol wedi glanio, neu wersyllu; a dewisodd y fyddin hon hefyd wersyllu yn yr un lle, neu yn agos iddo.

Dranoeth, wedi glanio yn Nghadnant, hwy a ymluyddasant ar Orsedd Migin, ac oddiyno cychwynasant tua Beaumaris, ar hyd ffordd Parc yr Allt Gôch, ac a ymffurfiasant yn barod i frwydr ar y bryn: a gwŷr yr ynys, dan lywyddiad y Milwriad Bulkeley fel Maes-lywydd, a'r Milwriad Roger Whiteley, fel Is-gadfridog, a ymluyddasant ar y maesydd goris y bryn, a elwir Caeau Mair. Catrawd traed-filwyr y Milwriad Bulkeley, ydoedd ar Gae y Delyn; cattyrfa y dref, dan lywyddiaeth un Cadben Sanders, ac eraill, ydoedd ar Gaeau yr Allt Gôch. Y meirch-filwyr oeddynt wedi eu trefnu yn wasgaredig, rhai yn y ffordd tu a'r Elusendy, rhai gerllaw tŷ Mr. R. Vaughan (Tros yr Afon), a rhai ar diroedd y dref, a manau eraill.

Tua thri o'r gloch yn y prydnhawn, dechreuwyd yr ymosodiad gan y gelyn, ac fe'u gwrthsafid yn ddewr gan y Cadben Sanders, a chattyrfa y dref, o'r gwrychoedd yn Nghae y Delyn; ond y gwŷr traed yn y caeau eraill, a ffoisant oll mewn annrhefn.—Ymosododd yr Is-gadben Pennant a'i wŷr ar y gelyn, ar y ffordd yn dyfod i waered o'r Parc tua Thros yr Afon, a bu agos iddo gymeryd y Milwriad Louthian yn garcharor; Syr Arthur Blaney a'i wŷr a ymosodasant ar y gelyn yn Nghaeau Cefn y dref, ac efe a archollwyd yn dost yn ei fraich, gan i'w benelin gael ei ddryllio yn chwilfriw. Y Milwriad Bulkeley a'i fintai, yr hon oedd yn gynwysedig o foneddigion, a ymladdasant yn ddewr â'r Cadben Benbow a'i wŷr, ar y Caeau Bricks; ond gan eu bod yn cael

Digitized by Google

eu trechu gan eu gelynion, y rhai oeddynt yn llawer lluosoccach na hwy, bu raid iddynt encilio i'r lluestdai, yn agos i dŷ "Mary Ned," lle y bu ymladd taer drachefn, pan y cafodd y Cadben Benbow, a Fafassor Powell (pregethwr milwraidd), o du y Senedd, eu clwyfo; ac o du y blaid freninol, yn agos i'r un fan, cafodd un Mr. Price, Ficer Bettws Abergeley, yn swydd Dinbach, ei glwyf marwol: ar yr un pryd, un Cadben Llwyd, o Benhenllys, yr hwn a gawsai orchymyn i warchod yr eglwys, a glôdd ei wŷr i fewn ynddi, ac a redodd ymaith ei hun, gan gymeryd yr allwedd yn ei logell; am ba achos ei gelwid "Cadben Church," hyd ddydd ei farwolaeth. Y gwŷr hyn a ymosodent yn dra phybyr ar y gelynion, gan saethu arnynt tra y parhaodd eu hergydion, oddiar y clochdy, ac oddiar ben yr eglwys, ac eraill o ardd y Plas Mawr, fel y lladdwyd amryw o wŷr y Senedd, yn y pyllau clai, (a elwir yn gyffredin, *clay pits*), a'r heolydd gefn; ac yn eu mysg, y Cadben Hancock, o gattrawd y Milwriad Louthian. Yr oedd yr ynyswyr mor dra annrhefnus yn y frwydr hon, pe y gellid ei galw yn frwydr, fel eu gyrid ar ffô, ac eu gwasgerid yn rhwydd; a'r Milwriad Bulkeley, y Milwriad Whiteley, a'r rhan fwyaf o'r swyddogion, a enciliasant i'r castell: ond dylid crybwyll fod rhan fawr o luoedd yr ynys, sef gwŷr Talybolion a Llifon, y ddau gwmmwd pellaf o'r ynys, dan lywyddiaeth y Milwriad John Robinson, heb gyrhaedd i faes y frwydr y dydd hwn; ond ar eu cadgyrchiad tu a'r Traeth Coch, pan y clywsant fod eu cymdeithion wedi eu gorchfygu yn Beaumaris, hwy a ddychwelasant i'w cartrefi. Fe laddwyd tua deugain o wŷr y Senedd, y dydd hwn, ac oddeutu deg ar hugain o blaid y brenin; ond cymerwyd tua phedwar cant o honynt yn garcharorion: ac wedi i'r Cadfridog Mytton eu gyru o'r maes, a chyrhaedd i'r dref, efe a anfonodd dabyrddwr at y castell, i ofyn cyrph y Milwriaid Bulkeley a Whiteley; gan ychwanegu, os na roddid hwynt i fynu, y rhoddai efe yr holl garcharorion oedd ganddo i farwolaeth; ac ar hyny, y ddau filwriad a'u rhoddasant eu hunain i fynu, er mwyn attal tywallt ychwaneg o waed, ac fe'u cadwyd yn garcharorion yn yr Hen Blâs, hyd oni thalwyd eu pridwerth.

Ar hyny, gwasgarwyd gwŷr yr ynys; ac ni welai boneddigion y wlad unrhyw ymwared arall, ond trwy ymostwng i'r Cadfridog Mytton, a'r dirprwywyr eraill; ac am hyny hwy a gyrchasant ar frys i'r Beaumaris, ac a gyttunasant ar yr ammodau canlynol, Hyd. 2, 1648:—

"Gwnaed, a chyttunwyd ar yr ammodau canlynol, ar yr ail dydd o Hydref, 1648, rhwng Syr Thomas Myddelton, Marchog, y Meigadfridog Mytton, Thomas Myddelton, Ysw., Symon Thelwall, Ysw., a'r Milwriad John Jones, ar un llaw; a Thomas, Is-iarll Bulkeley, Hugh Owen, Owen Wood, Dr. Robert White, Richard Prytherch, Dr. William Gruffydd, Rowland Bulkeley, Owen Holland, William Bold, Richard Owen, Owen Wynne, Henry Owen, Richard Meyrick, Pierce Lloyd, John Bodville, William Bulkeley, Ysw., Henry Wynne, John Williams, Randulph Wally, John Owen, a Howell Lewis, boneddwyr, ar eu rhan eu hunain a'r rhelyw o drigolion Ynys Fôn, ar y llaw arall:—*Yn gyntaf.* Cyttunir gan, a rhwng y pleidiau dywededig, fod yr Is-iarll Bulkeley, &c., ar eu rhan eu hunain, ac ynys Fôn, yn ymrwymo ac yn addaw talu i'r Milwriad George Twistleton, y trysorydd gosodedig i'r gwasanaeth hwn, y swm o 7000 o bunau o arian Prydain, o fewn y pedwar niwrnod ar ddeg nesaf, fel iawn, tuag at daliad dau fis o gyflog i'r swyddogion a'r milwyr a roddwyd ar waith yn y cad-gyrchiad yma, a chostau achlysurol eraill. Ac ar y cyfrif hwnw, y maent hwy, y dywededig Thomas Myddleton, &c., yn ymrwymo i gyfryngu yn effeithiol gyd a'r Senedd, ar fod i ettifeddiaethau personol yr holl drigolion o fewn i'r ynys ddywededig, gael eu rhyddhau oddiwrth orfodogaeth, ac oddiwrth unrhyw dreth am y bumed ran ar hugain, &c., yn ei pherthynas â thir ettifeddol y cyfryw rai o'r trigolion dywededig ag sydd yn dyfod o fewn cylch deddf y gorfodogaeth; ac y maent hwy, y dywededig Syr Thomas Myddleton, &c., yn ymrwymo, yr un ffunud, i gyfryngu yn effeithiol gyd a'r Senedd, ar iddynt gael caniattad i gyfran-dalu am yr unrhyw, yn ol gwerth dwy flynedd, am bob ettifeddiaethau treftadol, ac yn gyfattebol am bob ettifeddiaethau eraill llai. Er tystiolaeth o'r hyn yr ydym yn gydgyfnewidiol yn llawnodi hwn, ar y 9fed dydd o Hydref, 1648."

Crybwyllwyd o'r blaen, mai Syr John Boteler ydoedd Cwnstabl y castell yn amser Harri y Chweched, a Thomas Norris, Ysw., Henadur Beaumaris, ydoedd Llywydd y dref. Y teulu parchus yma, a gyfenwid "Norris," a gyfanneddent yn yr hen balas ardderchog a elwir "Hafotty Ardderch," tua thair milldir i'r gogledd-orllewin o'r dref. Y mae yr hen ystafell wledda, yr hon sydd yn gegin yn yr hen ammaethdŷ yn bresenol, yn werth ymweliad i'r hoff o hynafiaethau; gan fod hen fantell fwäog y simnai yn aros yn gyfan yno eto, wedi ei haddurno âg amryw gerfiadau herodrol cywrain, yn nghyd â'r arwydd-air, "Os yw Duw trosom, pwy a all fod i'n herbyn? Amen." Wedi hyny, gwerthwyd yr ettifeddiaeth hon gan Syr William Norris.

Wedi i'r Senedd lwyr ddarostwng yr holl barthau hyn o Ogledd Cymru, ymddiriedwyd gofal y cestyll yma i'r Cadfridog Mytton, yr hwn a enwodd y Cadben Evans fel ei raglaw, yn llywyddiaeth castell a thref Beaumaris. Mewn cyssylltiad â'r amgylchiadau hyn, bu ymrafael rhwng Thomas Cheadle, Ysw., o Leiniog, â'i gâr, y Milwriad R. Bulkeley, a'r canlyniad fu iddynt ymladd gornest, ar Draeth y Lafan, ar y 19eg o Chwefror, 1649, yn yr hon y lladdwyd y Milwriad Bulkeley, a Thomas Cheadle a ffodd; ond efe a ddaliwyd mewn gwestdŷ yn Nantwich. Yr achos o'r ymrafael uchod, medd rhai haneswyr, oedd rhoddiad y castell i fynu i wŷr y Senedd, gan y Milwriad R. Bulkeley.

Y mae yn ymddangos i foneddigion Môn orfod gwneyd cyfran-dalion am eu hettifeddiaethau, yn ol y cyttundeb blaenorol, fel y canlyn:—Y cyfran-dal cyntaf, oedd i gael ei dalu i'r Milwriad George Twistleton, oedd yn saith mil o bunnau. Ac ymddengys oddiwrth hen ysgrif sydd eto ar gael, yn mysg hen ysgrifau y Plasgwyn, eu bod wedi gorfod talu yr ail gyfran-dâl o naw mil o bunnau, yn mhen ychydig fisoedd ar ol y gyntaf, yn y modd canlynol: —Arglwydd Bulkeley a'i fab, y Milwriad Bulkeley, 1000*p.*; Hugh Owen, 700*p.*; Owen Wood, 500*p.*; Dr. Whyte, 1000*p.*; Mr. Bold a'i Nai, 500*p.*; Mr. Pierce Lloyd, 500*p.*; Mr. John Bodvel, 600*p.*; Owen Holland, 200*p.*; William Trefarddw, 50*p.*; John Owen, Maethlu, 50*p.*; William Owen, Trefeilir, 50*p.*; Lewis Llwyd, Cadben y Menai, 60*p.*; Henry

Digitized by Google

Lloyd, Penhenllys, Cadben Tindaethwy, 16*p.*; Henry Dafydd, Cadben Twr Celyn, 50*p.*; Richard Bodychain, 80*p.*; Henry Owen Mosoglen, 50*p.*; Dr. Williams, 50*p.*; John Wynn, y Chwaen, 50*p.*; William Bulkeley, Coedana, 200*p.* 5*s.* 2*c.*; Richard Prytherch a'i fab, 200*p.*; yr Uch-gadben Pugh, 20*p.*, &c. &c.

Wedi marwolaeth y Cadfridog Mytton, rhoddwyd cwnstabliaeth y castell i Hugh Courtney, Ysw.; a chan iddo ef roddi y swydd i fynu yn fuan, fe'i holynwyd yn y swydd gan yr Is-gadfridog Jones, a adwaenir yn well dan yr enw, y Milwriad John Jones, a fu wedi hyny yn un o brwyaduron y Senedd, yn llywodraethiad yr Iwerddon. Ar ei ol ef, cafodd Syr John Carter, (perchenog Cinmael trwy ei briodas â'r ettifeddes, Miss Holland,) ei bennodi yn gwnstabl y castell. Yr oedd hwn yn wr bonheddig tra chymedrol yn ei olygiadau gwleidyddol; a bernir mai y wybodaeth o hyny a dueddai y Cadfridog Monc i'w bennodi ef i'r swydd, fel parottoad i adferiad Charles yr Ail, yr hwn a ail osododd yr Arglwydd Bulkeley yn gwnstabl castell Beaumaris, yn y flwyddyn 1661.

Yr oedd traul cynnaliaeth gwarchodlu yn y castell hwn yn costio i'r llywodraeth, yn y flwyddyn 1653, y swm o 1703*p.*

Y diweddar Arglwydd Bulkeley, yr hwn a fu farw yn Mehefin y flwyddyn 1822, a brynodd y castell hwn gan y Goron, a chan i'w arglwyddiaeth farw yn ddi blant, efe a adawodd y castell hwn, yn nghyd â'i feddiannau eraill, i Syr Richard Williams Bulkeley, ei nai, fab ei haner brawd, y diweddar Syr Robert Williams, Barwnig, o'r Ffriars, tad y Barwniad anrhydeddus presenol.

Ymddengys fod y rhan fwyaf o fonedd a chlerigwyr Ynys Fôn yn parhau yn dra gelynol i'r Senedd, a'r Arglwydd Amddiffynydd Cromwell; ac nad oedd deiliaid ffyddlawn y llywodraeth newydd, ond ychydig mewn nifer, ac isel eu sefyllfa mewn cydmariaeth; ac am hyny yr ydoedd yn gyrchfa gyffredinol yr anfoddogion o bob parth. Fe'n hysbysir fod yma gynnifer a phump o Esgobion ar yr un pryd, a fwriasid o'u hesgobaethau, sef Esgobion Litchfield a Coventry, Bangor, Llanelwy, Ossory, a Chaerloyw; a thyrfa fawr o offeiriaid a fwriasid allan o'u bywiolaethau, y rhai a enciliasent i Ynys Fôn, fel eu dinas noddfa.

Y mae yn dra thebygol mai Henry de Elreton, arch-adeiladydd y brenin Edward, a fu yn arolygu adeiladaeth castell Beaumaris, yr un ffunud a chestyll Caer-yn-arfon a Chonwy; ond o herwydd fod y castell hwn yn sefyll ar wastadedd mor ehang, a'i furiau mor isel a thrwchus, nid yw mor olygus a'r cestyll hyny. Cynwysa amddiffynfa neu gaer allanol, oddi fewn i ba un y saif y castell. Ar y gaer allanol y mae deg o dyrau crynion, y rhai, er nad oeddynt yn uchel, oeddynt yn drwchus a chedyrn. Yr oedd dau borth i'r gaer hon, un yn ddwyreiniol a'r llall yn orllewinol; ac y mae y tu dwyreiniol a gorllewinol wedi eu hadeiladu o gerrig o wahanol liwiau. Amgylchynid y castell gynt gan ddyfr-ffos fawr, yr hon y gellid ei llenwi yn rhwydd â dwfr o'r môr y pryd hyny; ac fe'i defnyddid i gludo mân longau at byrth yr adeilad, fel y gallent ddadlwytho eu cynwysiad. Yr oedd rhan o'r hen ffos, a adwaenid dan yr enw "Llyn y Green," yn weledig o fewn yr oes hon.

Y mae y castell hwn yn betryal, ac ar bob congl iddo, saif tŵr crwn, ac un arall yn y canol. Mesura o'r ochr ddeheuol hyd yr ogleddol, 57 o latheni; ac o'r ddwyreiniol hyd yr orllewinol, 60 llath. Ar y llaw ddehau y mae capel o wneuthuriad cywrain, a'i ystlysau wedi eu haddurno yn brydferth â bwäau Gothaidd. Nen yr adeilad hon a gynhelir gan fwäau godidog, rhwng pa rai y mae ffenestri culion. Yr ydoedd gynt esgynfa o risiau cyfleus i'r capel hwn; ond erbyn hyn y maent naill ai wedi adfeilio gan amser, neu wedi eu difrodi gan anrheithwyr. Oddi tano y mae daiargell, yn yr hon, medd traddodiad, y cuddiwyd llawer o arian a thrysorau gwerthfawr, mewn amseroedd terfysglyd; a thrwy yr ymchwiliadau a wnaed yma o bryd i bryd am y cyfryw drysorau cuddiedig, y mae yr hen lawr wedi ei droi drosodd a throsodd lawer gwaith: ac y mae chwedl yn cael ei chredu gan hen drigolion y dref yn gyffredinol, fod rhyw ŵr, oes neu ddwy yn ôl, wedi darganfod llestr pres yma, yn llawn o aur. Pa beth bynag am wirionedd y chwedl, y mae yn ffaith i'r gŵr hwnw fyned yn lled gyfoethog mewn ychydig o amser, mewn modd na's gallai ei gymydogion roddi un cyfrif arall am dano. Oddiamgylch i furiau y castell yr oedd rhodfa gul, yn mesur dwy lath o led; ac ar ganol y cyntedd yr ydoedd, hyd yn ddiweddar, ffynon ddofn; ond yn bresenol, y mae wedi ei llenwi â cherrig, a phob math o ysbwrial.

Y mae y dref yn gynwysedig o amryw heolydd, o ba rai y mae yr un sydd yn arwain oddiwrth y castell tua phen y dref, yn un lydan a hardd, gan gynwys ynddi amryw dai dâ; ac y mae rhai o'r heolydd eraill wedi eu lledu, a'u gwasdadhau, ac amryw dai da wedi eu hadeiladu, o fewn y ganrif bresenol; fel y mae yn dref hynod o lanwaith, hardd, ac iachus, ac yn gyrchfan led boblogaidd i ymwelwyr dyeithr yn yr haf. Y mae rhai rhanau o'r hen gaerau a amgylchynent y dref, yn aros eto; ond, ar yr ochr nesaf i'r môr, fe dynwyd rhan fawr i lawr yn haf y flwyddyn 1831, er cael ddefnyddiau i adeiladu gwestdŷ mawr, a gwneyd gwelliannau eraill yn y dref. Yn gymhwys ar gyfer y dref y mae y *bay* agored hardd, a elwir y *Beaumaris Roads*, lle y mae angorfa dra dïogel i'r lluaws mân lestri a fynychant yr afon Menai; ac y mae glan yr afon yma yn gyfansoddedig o dywod mân, caled a llyfn, yr hwn a ffurfia laswyrfa arforawl dra difyrus ac iachus, a fynychir yn fawr gan y trigolion, a'r dyeithriaid a ymwelant yn lluosawg â'r lle yn misoedd yr haf, er mwyn y cyfleusdra i ymdrochi yn y môr, i'r hyn y mae pob cyfleusderau wedi eu darparu.

Y mae sefyllfa ddifyr y dref, iachusrwydd yr awyr, a'r golygfeydd amrywiol a digyffelyb o'r bron a gair oddiyma, wedi gwneuthur Beaumaris er's hir amser bellach, yn hoff drigfa lluaws o deuluoedd boneddigaidd, yn misoedd yr haf. Y mae yr olygfa oddiar y *Green*, yn un o'r rhai mwyaf mawr-wychawl, yn y Dywysogaeth. Yn mysg y gwrthddrychau hynod a lluosog a gymera i fewn, y mae Môr y Werydd, mor-gainc ardderchog y Menai, Angorfa Beaumaris, Castell y Penrhyn, a Phorthladd y Penrhyn, Dinas Bangor, y Pontydd godidog dros y Menai, Pentref a Rhaiadr Aber, Pen Gwygarth, y Penmaen Mawr, ac amryw eraill o fynyddoedd uchel-grib Eryri, Ynys Seiriol, y Trwyn-dû, a Phriordy Penmon, a'r Friars Llanfaes, Cestyll Beaumaris ac Aberlleiniog, Coedwigoedd bras-dyfol y Baron Hill, yr Henllys, yr Allt-Gôch, ac amryw balasau eraill yn y gymydogaeth; yr holl wrthddrychau hyn, a lluaws yn ychwaneg nag y meddwn ni ofod i'w

Digitized by Google

crybwyll, a gydunant i wneyd yr olygfa yn un o'r rhai mwyaf swynol ar a ganfyddir mewn unrhyw wlad.

Y mae rhan fawr o'r *bay* yn cael ei adael yn sych ar y trai, a'r llanerch hon, yr hon a ymestyna am lawer o filldiroedd gyd a'r lan gyferbyniol, a elwir "Traeth y Lafan;" ac fe dybir yn gyffredin mai dyffryn bras a chyfanneddol ydoedd unwaith, cyn i'r môr dori drosto yn y chweched ganrif. Dywedir mai ei hen enw ydoedd "Traeth y Wylofain," talfyriad, neu lygriad o'r hyn ydyw ei enw presenol; a bernir iddo gael yr enw oddiwrth waith y trigolion yn wylo pan orlifwyd eu tiroedd, ac y difrodwyd eu meddiannau. Yr ydoedd porthfa dros y traeth yma i Aber, yn swydd Gaer-yn-arfon, pellder o bedair i bum milldir. Perthynai i'r Goron ar y dechreu; ac yn nheyrnasiad Edward yr Ail, rhoddid gorchymyn i Robert Power, ystafellydd Gogledd Cymru, i archwilio ansawdd y bâd, yr hwn oedd ar y pryd yn adfeiliedig, ac un ai ei adgyweirio, os gellid gwneyd hyny, ar draul y cantref; neu adeiladu bâd newydd, ar draul y Goron. Ymddengys y byddai y trigolion yn talu deg swllt ar hugain yn y flwyddyn i'r Trysorlys, am y fraint o gael y borthfa hon, yr hon a ddyroddwyd i'r gorphoriaeth, trwy freinlen y frenines Elizabeth, yn y bedwaredd flwyddyn o'i theyrnasiad. Y mae y traeth yma ar drai isel, yn galed dan draed, a diogel i'w groesi; ond ar ryw adegau ar y teidau, y mae yn dra pheryglus, fel y mae gofal mawr yn ofynol i'w groesi yn ddïogel. Gellir ei groesi yn y cyfwng rhwng dwy awr cyn, a dwy awr wedi, iseldrai; ond ar amserau eraill, nid ydyw yn ddi berygl; a chollodd llawer un ei fywyd wrth wneyd y cais ar adegau anmhrïodol. Ar niwl tew, cenid cloch fawr Aber, er cyfarwyddo y rhai a fyddent yn croesi y Traeth, i ba bwynt i gyfeirio, y rhai oni buasai hyny a fuasent mewn perygl i ddyrysu, a chael eu goddiweddyd gan y llanw.

Y porthladd yma ydoedd yr uchaf ei awdurdod yn Ngogledd Cymru, a meddai yngneidiaeth dros borthladdoedd Aberconwy, Abermaw, Amlwch, Caergybi, Caer-yn-arfon, a Phwllheli; a'r holl borthladdoedd eraill yn y parth hwn o'r Dywysogaeth, nid oeddynt namyn môr-gilfachau o fewn ei derfynau. Y mae sefyllfa y porthladd yn dra manteisiol i drafnidaeth; ei sefyllfa ganol-barthol gyda golwg ar yr oll o Ogledd Cymru; ei gyssylltiad agos â Llerpwll, a'r holl ardaloedd llaw-weithyddol, a'i gyfagosrwydd i arfordir yr Iwerddon, a roddai fanteision rhagorol iddo i helaethu ei faelieraeth; ond, er pan gynnyddodd Lle'rpwll fel porthladd, y mae trafnidiaeth y porthladd hwn wedi cilio, ac y mae lluosogiad y rheilffyrdd, ac amryw gyfleusderau eraill yn y blyneddoedd diweddar hyn, wedi dwyn masnach o'r lle hwn bron yn llwyr. Gall llestri yn cludo pedwar can tunnell o lwyth, ddyfod i fewn i'r porthladd ar isel-drai; ac y mae yma angorfa dda a diogel i'r lluaws llestri a fyddant yn troi i fewn yma am loches rhag yr ystormydd ffyrnicaf. Y mae y gyllidfa yn agos i lan y dwfr, ac y mae yn adeilad digon cymwys i'w amcan. Y marchnadoedd, yn y rhai y bydd cyflawnder o ŷd, a defnyddiau cyffredinol ymborth, am brisiau rhesymol, a gynhelir ar ddydd Mercher a dydd Sadwrn; a chynelir yma bedair o ffeiriau yn flyneddol, i werthu gwartheg, a nwyddau masnachol cyffredinol eraill, ar Chwef. 13eg, Iau Derchafael, Medi 19eg, a Rhag. 19.

Derbyniodd preswylwyr y dref hon eu breinlen gyntaf yn yr un flwyddyn ag y gorphenwyd y castell, gan y brenin Edward y Cyntaf, yr hwn a ddyroddodd amryw ragorfreintiau iddynt, ac a drosglwyddodd i'r gorphoriaeth ettifeddiaethau pedwar o'r prif berchenogion tiroedd, y rhai a symudasai efe trwy gyfnewidiad, ar adeiladiad y castell, i'w dal ganddynt yn ddi gyfrwng oddiwrth y brenin; ac yn mysg amryw ragorfreintiau eraill, efe a ganiattai iddynt garchar breiniol o fewn y castell, yn nghyda disgyniad meddiannau i'w hettifeddion, pa un bynag a fyddent hwy wedi gwneyd llythyr cymun cyn marw, neu na fyddent. Cadarnhawyd, ac ychwanegwyd at freinlen Edward y Cyntaf, mewn un arall a roddwyd gan y frenines Elizabeth, yn y bedwaredd flwyddyn o'i theyrnasiad, dan yr hwn y trefnwyd llywodraethiad y dref, mewn maer, cofiadur, dau feili, ac un ar hugain o fwrdeisiaid, yn cael eu cynnorthwyo gan dref-ysgrifydd, corph-ynad, goruchwyliwr y farchnad, maer y dwfr, dau brysgyllwr, dau geisbwl, a swyddogion eraill. Y maer, a'r ddau feili, ydynt i gael eu dewis yn flyneddol, o fysg y bwrdeisiaid, gan y corphoriaeth, ar y dydd Llun o flaen Gwyl Mihangel, ac i gael eu tyngu i'w swydd y dydd Llun canlynol; a chyd a'r eithriad o'r cofiadur, yr hwn sydd yn dal ei swydd am ei oes, y mae yr holl swyddogion eraill i gael eu pennodi gan y corphoriaeth ar yr un pryd. Dyroddwyd yr hawlfraint etholiadol iddynt, yn y seithfed flwyddyn ar hugain o deyrnasiad Harri yr Wythfed; a'r etholiad gyntaf a wnaed yn y 33ain o'r un teyrnasiad, mewn cyssylltiad a Niwbwrch, i'r hon dref yr ydoedd brawdlysoedd y Sir wedi eu symud yn nheyrnasiad Harri y Seithfed, ar gam hysbysiad a roddasid i'r pennadur hwnw, wedi eu bod yn cael eu cynal yn y Beaumaris dros ddau gant a haner o flyneddoedd yn flaenorol. Yn yr ail flwyddyn o deyrnasiad Edward y Chweched, rhyddhawyd Niwbwrch oddiwrth y ddyledswydd o gyfranu at gynal cynnrychiolydd Seneddol, ac felly cyfyngid y fraint hon i'r Beaumaris yn unig; a thrwy ddeddfau o'r 2 a'r 3 i'r pennadur hwnw, symudwyd yr amryfal frawdlysoedd am Sir Fôn yn ol i'r dref hon, wedi eu bod yn cael eu cynnal yn Niwbwrch dros bum mlynedd a deugain. Ond er hyny hawliai bwrdeisiaid Niwbwrch eu braint i gyfranogi yn nychweliad aelod dros Beaumaris; ond nid ymddengys iddynt ymarfer y cyfryw fraint o hyn allan; ac yn y flwyddyn 1709, penderfynwyd gan Dŷ y Cyffredin, fod yr hawl yma yn perthyn i faer, dau feili, a phrif fwrdeisiaid Beaumaris yn unig. Trwy y Weithred er diwygio cynnrychioliad y bobl yn Lloegr a Chymru, a gadarnhawyd yn 1832, ychwanegwyd Amlwch, Caergybi, a Llangefni, fel bwrdeisdrefi cyfranogol, at Beaumaris, yn meddu yr hawl-fraint i ethol un aelod Seneddol. Y mae y maer, y cofiadur, a'r ddau feili, yn ustusiaid heddwch, ac yn gweinyddu brawdwriaeth annghyfrannogol o fewn y fwrdeisdref a'i chyffiniau cyfryddidawl, y rhai a gynwysant, heblaw capeloriaeth Beaumaris, holl blwyf Llanfaes, tua haner plwyf Llaniestyn, a rhanau o blwyfi Llanddona, Penmon, a Llanfihangel Din Sylwy. Cynaliant frawdlysoedd chwarterol, i farnu pob troseddau a gyflawnir o fewn y fwrdeisdref, oddieithr y prif achwyniadau; ac yn achlysurol cynhaliant lŷs y cofiadur, i farnu dadleuon ac adferu dyledion o unrhyw symiau, yn yr hwn y bydd y maer a'r ddau feili yn llywyddu, ac yn cael eu cynnorthwyo gan ysgrifenydd y dref; a meddant awdurdod i rwymo

Digitized by Google

i fachniaeth am unrhyw swm mewn cwynion cynghaws am ddyled. Llŷs y Dref, yr hwn a gyfodwyd gan y gorphoriaeth, yn y flwyddyn 1790, yn Heol y Castell, sydd yn adeilad hardd a chyfleus. Llŷs y Sir, yr hwn a adeiladwyd yn y flwyddyn 1614, sydd adeilad fechan a di addurn; ond trwy ryw welliannau ar y neuadd hon yn ystod y ganrif bresenol, y mae yn llawer mwy cyfleus i gynnal y brawdlysoedd ynddi, nag ydoedd o'r blaen. Carchar cyffredin y Sir sydd yn adeilad fawr a chyfleus, wedi ei chyfodi yn y flwyddyn 1828; ond, er clod i foesau y wlad hon, ni bydd yma lawer o garcharorion un amser: a'r rhan fwyaf o'r rhai hyny yn fynych, ydynt estroniaid o genedloedd a gwledydd eraill.

Yr oedd hen gapel, cyssegredig i Sant Meugan, yn gorwedd ar y gwastadedd yr adeiladwyd y castell a'r dref bresenol ar ran o hono; ond pan adeiladodd y brenin Edward y castell a'r dref, efe a adeiladodd gapel newydd yn y dref, yr hwn a gyflwynodd efe i'r Forwyn Fair. Y mae hwn yn adeilad ehang a hardd, yn arddull ddiweddar adeiladaeth Seis'nig, ac iddo dŵr, neu "gloch-dy" petryal uchel, wedi ei goroni â phinaclau cryg-addurnawl. Y mae yn gynwysedig o gorff eglwys, cangell, ac asgellfa ogleddol a deheuol; ac fe'i haddurnwyd yn fawr yn y flwyddyn 1825. Y mae pob un o'r ystlys-gelloedd yn ysgaredig oddiwrth gorff yr eglwys, gan rês hardd-wych o golofnau magwyog uchel, a bwäau pigfain teleidiog; ac y mae ffenestr ddwyreiniol y gangell, o gynllun tlysgain a chywrain, ac wedi ei haddurno â rhai gweddillion prydferth o hen wydr lliwiedig. Yr ystlys-gell ogleddol a elwir Capel St. Mair, a'r ddeheuol, St. Nicholas. Yn y flaenaf y mae maenfedd alloraidd ysblenydd, yn cynnal delwau lledorweddol, o farchog a'i bendefiges, mewn gleinfaen; a symudwyd o briordy Llanfaes ar ddadgorfforiad y crefydd-dy hwnw: y mae y beddfaen wedi ei addurno â delwau coraidd, o fyneich a marchogion, wedi eu cerfio yn gelfydd, ac yn dwyn tarianau arflenawl; ond y mae yr arflenau wedi eu treulio allan mor lwyr gan amser, fel na's gellir cael unrhyw fantais oddiwrthynt i benderfynu coffadwriaeth pwy a fwriedid ei gadw drwyddynt. Ar y tu deheuol i'r allor, y mae cofiech i Syr Henry Sidney, Arglwydd Raglaw yr Iwerddon, yr hwn a fu farw yn 1586; Syr Anthony St. Ledger, yr hwn hefyd a fu yn Arglwydd Raglaw, ac eraill;[1] ac uwchlaw iddo, y mae cofiech furawl, o farmor du, er coffadwriaeth am Thomas, chweched mab Syr Julius Cæsar, Ceidwad y Coflyfrau, yr hwn oedd yn beriglor Llanrhuddlad, yn Môn, ac a fu farw yn y flwyddyn 1632.

Yn Brown Willis ar Esgobaeth Bangor, gellir gweled eiliad o ddyroddiad glwysnoddogaeth Llandegfan, a'i chapel Sant Mair, yn y Beaumaris, gan y brenin Harri yr Wythfed, i'w gâr, Syr Richard Bulkeley, a'i ettifeddion dros byth; yr hyn a brisid y pryd hyny yn 23*p.* 6*s.* 8*c.*

Heblaw yr eglwys, y mae yma addoldai cyfleus gan y Trefnyddion Calfinaidd, a'r Trefnyddion Wesleyaidd, yr Annibynwyr, a'r Bedyddwyr; ac yn ddiweddar adeiladwyd addoldy Seis'nig hynod o hardd gan y Trefnyddion Calfinaidd, ar orsaf yr Hen Blâs, anneddle y Bulkeleys gynt, cyn adeiladu y Baron Hill. Y llanerch gyfleus a gwerthfawr hon, a roddwyd iddynt i'r perwyl uchod, trwy haelioni y Barwnig anrhydeddus, Syr R. B. Williams Bulkeley.

Nid oes nemawr o hen balasau y dref hon yn aros yn bresenol, gan fod adeiladau mwy diweddar, a mwy yn arddull yr oes hon, wedi eu cyfodi ar eu gorsafau. Yn Heol y Castell, ac heb fod yn mhell oddiwrth Borth y Castell, y safai Palas Syr Roland de Villeville, mab o ordderch i'r brenin Harri y Seithfed. Yn yr un heol hefyd yr oedd y "Cwrt Mawr," palas boreuol teulu y Bulkeleys; "Llŷs Fletcher," a "Phlas Berw," a berthynai i Hollandiaid, Berw. Yn Heol yr Eglwys, yr oedd yr "Hen Blas," preswylfa ddiweddarach i'r Bulkeleys, ar orsaf yr hwn y mae y capel Seis'nig a grybwyllwyd uchod, wedi ei gyfodi; a'r "Plas Coch," tref-annedd teulu y Cheadles.

Yr Ysgol Ramadegol Râd, sydd yn gorwedd yn ngwaelod "Rating Row," ac yn agos i furiau y castell, a sylfaenwyd yn y flwyddyn 1609, gan David Hughes o Woodrising, yn swydd Norfolk, yr hwn a roddes y tŷ a adeiladasai efe yn ddiweddar yn Beaumaris, at gadw ysgol ramadegol, ac a'i gwaddolodd â'r holl diroedd a feddai efe yn swydd Fôn, at dalu cyflogau athraw ac is-athraw, cynal yr ysgolorion yn y sefydliad, a chadw yr adeilad mewn cywair dâ; gan drefnu ar fod i'w Ymddiriedolwyr, neillduo y gweddill i roddi un neu ddau o ysgolorion yn mhrif ysgol Rhydychain, neu Gaergrawnt, ac i adeiladu Elusendy i wyth o dlodion, y rhai a fyddent i gael dwy ystafell bob un, a chymhorth o chwe swllt yn yr wythnos bob un, a chwe llath o frethyn tew-ban bob un yn flyneddol, ar ddydd Gwyl Domos; tri o'r rhai a fyddont i gyfranogi o'r elusen hon i gael eu dewis o blwyf Llantrisaint, lle y ganwyd y rhoddwr; dau, o blwyf Rhodwy-geidio; dau, o blwyf Llechgynfarwy; ac un, o blwyf Ceidio: ac wedi darpar ar gyfer y rhai hyn, efe a drefnai, os byddai dim yn ngweddill, ar iddo gael ei ranu rhwng tlodion Llantrisaint. Dygwyd amcanion y seilydd, gyda golwg ar anfon bechgyn i'r brif ysgol i weithrediad gan yr Ymddiriedolwyr, y rhai a dalent ugain punt gyda phob ysgolor a elai i fewn yno, ac hefyd hwy a rwymasant amryw yn freintweis, hyd y flwyddyn 1826, pan y cymerwyd amgylchiadau yr elusen hon o dan archwiliad y Canghell-lŷs. Y pryd hyny yr ydoedd cyllid blyneddol yr elusen hon yn chwe chant o bunnau, o'r hyn y telid cyflogau yr athraw a'r isathraw, a'r athraw ysgrifenu: yr oedd yno dri ugain o fechgyn ar y gwaddoliad, y rhai a ddysgid yn rhad, yn yr ieithoedd uch-awdurol, ac mewn ysgrifenyddiaeth a rhifyddiaeth, ac oeddynt yn etholadwy i un o ddwy gymrodoriaeth, seiliedig yn Ngholeg yr

[1] Y mae y gofiech uchod yn cynwys coffadwriaeth am Syr Henry Sidney, Anthony St. Ledger, Francis Agard, Edward Waterhouse, a William Thwaytes. Yn yr ail a'r drydedd i Phylip a Mary, gwnaed Henry Sydney, tad yr enwog Syr Phylip Sydney, yn Llywiawdwr Cyffredinol holl gyllidau y brenin a'r frenines o fewn breniniaeth yr Iwerddon; ac yn mhen tua dwy flynedd wedi hyny, yn Arglwydd Brif Ynad yr Iwerddon. Yn yr ail flwyddyn i'r frenines Elizabeth, efe a bennodwyd yn Benllywydd Cyngor y Cyffindiroedd. Dywaid Hollingshead am dano, mai ei Ysgrifenydd ar ei bennodiad y waith gyntaf yn Rhaglaw yr Iwerddon, oedd Mr. Edward Waterhouse, yr hwn a wnaed yn farchog, ac yn aelod o gyfrin-gyngor ei fawrhydi am yr Iwerddon. Ac y mae yr un awdwr yn ychwanegu, "fod ganddo ddau gynghorwr teilwng a thra dewisol, y rhai ar gyfrif eu ffyddlondeb i'r wladwriaeth mewn cyngor, eu hewyllys dâ, a'u cyfeillgarwch tuag ato ef, a'u cywirdeb, a'u huniondeb yn mhob modd, a garai efe yn fawr, ac y rhoddai ymddiried trwyadl ynddynt; un o'r rhai hyn ydoedd Mr. Francis Agard, yr hwn a alwai ef yn gyffredin, ei 'gydymaith ffyddlawn.'" Y mae yn debyg mai ar draul Syr Edward Waterhouse y cyfodwyd y gofiech hon.

Digitized by Google

Iesu, Rhydychain, gan Dr. Henry Rowland, Esgob Bangor, yn y flwyddyn 1616;—i ryw lênfuddion o ddeg punt yn y flwyddyn bob un, am bedair blynedd, seiliedig gan Dr. Lewis, ac i eraill, seiliedig gan Dr. Meyrick, yn Ngholeg yr Iesu, Rhydychain; i'r holl gyfryw fuddiannau, rhoddid y flaenoriaeth i fechgyn o'r ysgol hon.

Sefydlwyd Ysgol Genedlaethol yn y dref hon yn y flwyddyn 1816, yr adeiladau a gyfodwyd ar ddarn o dir rhoddedig gan y diweddar Arglwydd Bulkeley i'r perwyl, a thra fu ei arglwyddiaeth fyw, efe a gynhaliai yr ysgol ei hunan; ond wedi ei farwolaeth fe'i cynhelid trwy gyfroddion gwirfoddol, y benaf o ba rai sydd rodd o ddeg punt ar hugain yn y flwyddyn, a gyfrenir gan Syr R. B. Williams Bulkeley, Barwnig. Dygir yr ysgol hon yn mlaen yn y modd mwyaf canmoladwy; ac y mae llawer o gannoedd o blant y dref hon a'r amgylchoedd, wedi cael addysg dda iawn yma, a hyny yn rhadlawn, yn ystod yr haner can mlynedd diweddaf; ac y mae yn gweddu i ni gydnabod ymddygiad teilwng y Barwnig anrhydeddus o'r Baron Hill, yn ei gefnogaeth haelionus i'r ysgol hon, a'i ymdrech wastadol i'w chadw yn rhydd a diormes, i blant Ymneillduwyr, cystal a phlant Eglwyswyr.

Yn y flwyddyn 1780, darfu i Mrs. Elizabeth Gould, gymmun-roddi haner cant o bunnau, gan drefnu bod i'w llog gael ei ranu yn flyneddol rhwng gweddwon oedranus ac angenog Beaumaris; ac y mae amryw ddoniadau a chymmun-roddion eraill wedi eu gadael, y rhai a renir rhwng y tlodion yn ol amcanion yr amryfal gymwynaswyr. Yn mysg y cêd-gymdeithasau lluosawg a sefydlwyd yn y dref hon, y fwyaf hynod ar gyfrif ei chedion elusenol helaeth ydyw Cymdeithas yr Hen Dderwyddon, a sefydlwyd yma yn y flwyddyn 1772, ac a noddir gan lawer o'r prif bendefigion, clerigwyr, a bonedd y gymydogaeth. Cynwysa Arch-dderwydd ac Is-dderwydd, y rhai a etholir yn flyneddol, a nifer anmhenodol o frodyr; y rhai a gynaliant eu cylchwyl flyneddol yn mis Medi; ac ar yr achlysuron hyny, pleidleisiant amryfal symiau o arian i amcanion elusenol; y penaf o ba rai ydynt ddoniadau i'r gwananol glafdai elusenol yn y gwledydd cymydogol, o Gymru a Lloegr; breint-obrau o flaen bechgyn tlodion, i'w dwyn i fynu i ryw alwedigaethau buddiol; gwobrwyon am ymdrechiadau teilwng i waredu bywydau a meddiannau rhag dinystr mewn llong-ddrylliadau; ac amryw amcanion canmoladwy eraill. Y mae y gymdeithas ganmoladwy hon wedi cyfranu i'r cyfryw amcanion yn yr haner can mlynedd diweddaf, amryw filoedd o bunnau o'i thrysorfa!

Y Baron Hill, palas Syr R. B. Williams Bulkeley, Barwnig, a adeiladwyd ar y cyntaf yn y flwyddyn 1618, gan Syr Richard Bulkeley, yr hwn oedd foneddwr, nid anenwog, yn nheyrnasiad Iago y Cyntaf; ac a helaethwyd ac a wellhawyd yn ddirfawr wedi hyny, gan ei berchenog diweddar, dan arolygaeth y diweddar Mr. Samuel Wyatt, arch-adeiladydd. Y mae yn gorwedd ar lechwedd teg, uchlaw y dref, ac yn cael ei gysgodi gan goedwigoedd prydferth. Y mae yr olygfa o'r palas hwn, yn cael ei hystyried yn un o'r rhai teccaf yn y Dywysogaeth; gan ymestyn dros angorfa Beaumaris, ac agorfa odidog Culfor y Menai, yn cael ei ffinio gan gyfres ardderchog o greigiau a mynyddau, yn ymddyrchafu fel amddrychfa ehang, ac yn cynwys rhai o brif fynyddoedd Eryri, cribau amrywiol y rhai a ymgyfodant i entrych awyr mewn mawreddusrwydd rhamantus goruwch yr ucheldiroedd cylchynol iddynt, godreuon gwyrddleision a diwylliedig y rhai a ymlithrant hyd at ymyl y dwfr. Ac y mae clogwyni carregog y Penmaen Mawr, a Phen-Gwygarth, neu Fynydd Llandudno, yn taflu y fath amrywiaeth i'r olygfa, fel y mae yn un swynol dros ben; ac y mae yn dda genym gael y cyfle i hysbysu fod y Barwnig anrhydeddus, yn ol ei haeledd arferol, yn rhoddi caniattad i drigolion y dref, a'r dyeithriaid a fyddont ar ymweliad ynddi, i fwynhau y rhodfeydd prydferth a difyr, ydynt yn y coedwigoedd uchod, ac oddeutu y palas. Wrth dramwyo y rhodfeydd hyn, cair golwg ar arch-faen y dywysoges Joanna, merch y brenin John, yr hon a fu yn briod â Llewelyn ab Iorwerth, tywysog Gwynedd; ac a gladdwyd yn mhriordy Llanfaes. Buasai yr arch hon dros dalm o amser wedi dadgorfforiad y mynachdai, yn gafn dwfr i anifeiliaid, heb fod neb yn gwybod i ba beth ei gwnelsid ar y cyntaf; ond, fel yr oeddid yn chwalu rhyw hen adfeilion, er gwneuthur rhyw gyfnewidiadau, ac adgyweiriadau, tu ar *Friars*, amryw flyneddoedd yn ôl, darganfuwyd cauad yr arch, ac yna deallwyd mai arch y dywysoges, ydoedd y cafn dwfr; a'r diweddar Arglwydd Bulkeley, a adeiladodd deml yn ei barc, er anrhydedd i goffadwriaeth y dywysoges, yn yr hon y parodd efe gyfleu yr arch, i'w chadw yn ddiogel ac yn barchus.

Y mae amryw balasau prydferth eraill yn y gymydogaeth hon, megis yr "Allt Goch," lle y bu teulu y Sparrowes yn cyfanneddu dros hir amser; yr "Henllys," yr hwn a ail adeiladwyd yn ddiweddar; palas hardd a difyr yr Hamptons, a hen drigfa Gweirydd ab Rhŷs Gôch, pen un o bymtheg llwyth Gwynedd; a bu ei hiliogaeth yn cyfaneddu yma, hyd oni oresgynwyd Cymru gan Edward y Cyntaf, yr hwn a'u symudodd i Fodlewydden, yn swydd Fflnt, yn nghyd ag amryw hen rydd-ddeiliaid eraill, trwy gyfnewidiad tiroedd, gan roddi eu hettifeddiaethau hwy i gorphoriaeth Beaumaris. Y Friars hefyd, lle y preswyliai y diweddar Syr Robert Williams, Barg., tad Syr R. B. Williams Bulkeley, Barwnig. Y mae y palas hwn wedi ei ail adeiladu yn ddiweddar, ac yn un o'r rhai harddaf o'i faintioli yn yr Ynys. Y mae lluaws eraill o balasau tra phrydferth ger glanau y Menai, na's goddef ein gofod i ni eu darlunio yma. Poblogaeth Beaumaris, yn ol Deiliadeb 1861, oedd 2210.

**BEDDGELERT**, neu BETHGELART, plwyf, mewn rhan yn nghantref EIFIONYDD, rhan-barth Eifionydd; mewn rhan yn nghantref ISGWYRFAI, rhan-barth Arfon, yn swydd GAERYNARFON; ac mewn rhan yn nghantref ARDUDWY, swydd FEIRIONYDD, GOGLEDD CYMRU, 16 milldir i'r de ddwyrain wrth ddehau o Gaerynarfon, ac yn cynwys, yn ol y Ddeiliadeb a gymerwyd yn 1861, gan gymeryd Nanmor i fewn, 1375 o drigolion; a chynwysa arwynebedd o 26,716 o erwau cyfreithiol o dir. Y mae y rhan o'r plwyf a elwir Nanmor, neu Nant y môr, yn gorwedd yn nghwmmwd Ardudwy Uwch Artro, Meirion; yr ochr orllewinol i'r afon Golwyn, yn Eifionydd; y rhan ogleddol, yn Uwch gwyrfai; a'r rhan eithaf dwyreiniol, yn Arllechwedd. Fel hyn y mae y plwyf yn sefyll mewn dwy Sîr, sef Arfon a Meirion; ac mewn pedair deoniaeth, sef Ardudwy, Eifionydd, Arfon, ac Arllechwedd. Y mae yn terfynu o du y gogledd a gogledd ddwyrain, â phlwyfydd Bettws Garmon a Llanberis; o du y dwyrain, â Llandegai,

Digitized by Google

Llanrhochwyn, a Dolwyddelen; o du y dehau, â Ffestiniog a Llanfrothen; o du y gorllewin, â Phenmorfa, Llanfihangel y Pennant, Llanllyfni, Llandwrog, a Llanwnda. Ei hŷd eithaf, o orllewin i ddwyrain, sef o Ddrws y Coed hyd i Fwlch Hediad, ydyw wyth milldir a haner; a'i lêd o ddehau i ogledd, sef o Geryg y Rhyd Ddwfr hyd i'r Clogwyn Côch yn yr Wyddfa, sydd oddeutu wyth milldir.

Mewn plwyf Cymreig mor eang ei arwynebedd a hwn, y mae yn naturiol dysgwyl cael amrywiaeth mawr; ac felly cawn fod rhai o'r mynyddoedd uchaf yn Nghymru o fewn y plwyf yma. Gan fod y llinell derfyn rhwng plwyf Beddgelert a phlwyf Llanberis yn rhedeg yn gymhwys o'r Llyn Glâs, yn nghwm Tre Weirydd hyd gopa Crib y Distyll, y mae yn cau y rhan uchaf o'r Wyddfa o fewn y plwyf hwn. Uchder y Wyddfa, yn ol y mesuriad mwyaf awdurdodedig, ydyw 3571 troedfedd; ac y mae yn y plwyf amryw fynyddoedd eraill tra uchel, megis Crib y Distyll, 3550; y Llechog, 3000; y Lliwedd, 2900; Moelhebog, 2671; y Garn, 2362; yr Aran, 2472; ac amryw eraill nad ydynt yn rhyw lawer îs eu penau na'r rhai uchod, megis y Cnicht, Moel y Meirch, y Foel Lefn, y Graig Ddu, a'r Wenallt, yn nghyd ag amryw fryniau rhŷ luosog i'w henwi. Ac y mae yn gorwedd rhwng y fath drumau lluosog amryw gymoedd, o wahanol faintioli a golygweddau; rhai yn ddinod, dawel, ddystaw, heb ddim ond sŵn fwyn y ffrydlif arianaidd wrth ymlithro ar hyd eu gwaelodion graianog, ac ambell frefiad y ddafad unigol, i dori ar eu tawelwch neillduedig; eraill yn wyllt, rhamantus, ac aruthrol; y clegyr erch yn dyrchu frŷ i'r nen, ar y naill ochr a'r llall; a natur wedi eu diosg yn noeth, fel y dangosant eu hysgythredd, y naill ar gyfer y llall, mewn llymder gwatwarus: a rhyngddynt ymhyrddia yr afonig ddiball dros ei gwely creigiog, gyda thrwst diaspad, nes cynhyrfu yr holl fangre i fywyd anhunawl. Heblaw y cymoedd hyn, y mae y mynyddau yn rhanu y plwyf yn naturiol i dair o nentydd ehang ac isel; sef Nant colwyn, Nant hwynain, neu, Nant Gwynant, a Nant môr. Ac y mae y plwyf hwn mor hynod ar gyfrif ei lynau lluosawg ag ydyw ar gyfrif ei fryniau cribawg. Yn Nant Colwyn, cawn y llynau canlynol:—Llyn Glâs, Llyn Côch, a Llyn y Nadredd, y rhai ydynt yn Nghwm Tre Weirydd, a Glan yr Afon; Llyn y Dywarchen, yn Nrws y Coed, a Llyn y Gadair. Yn Nanhwynain y mae Llyn y Ddinas, Llyn Gwynant, Llyn Teyrn, Llyn Llydaw, Llyn Ffynon Las, Llyn Edno, a Llyniau y Cŵn, o ba rai y mae tri. Ac yn Nanmor, y mae Llyn yr Adar, Llyn Llagi, a Llyniau yr Arddu, o ba rai y mae tri; yn gwneuthur yn y cyfan ugain o lynau o fewn y plwyf, yn amrywio mewn mesur, o chwarter milldir i ddwy filldir a haner o hyd, a'u llêd oddeutu y drydedd ran o'u hŷd at eu gilydd. Y mae pymtheg o'r ugain llyn uchod, yn cynwys pysgod rhagorol.

O herwydd fod arwynebedd y plwyf mor fynyddog a chreigiog, nid ydyw ei werth ardrethol ond ychydig mewn cyfartaledd i'w faintioli. Ei werth ardrethol, yn ol prisiad trethol a wnaed yn ddiweddar, ydoedd 2200 o bunau. Y mae y plwyf yn cynwys 21,000 o erwau o dir degymol, a'r dirprwywyr a bennodwyd yn y flwyddyn 1841, a brisient y degwm yn 130*p.* yn y flwyddyn.

Hen enw y plwyf hwn oedd Llan Ybor, neu, Llan y Porth; ond pa ham ei gelwid felly, ni's meddwn unrhyw sicrwydd, heblaw casgliad a ellir wneyd oddiwrth enwau lleoedd eraill yn y gymmydogaeth. Y mae traddodiad yn yr ardal y gelwid y Gymwynas mewn oesoedd boreuol yn "Borth," ac Aberglaslyn yn "Aber y Porth;" ac y mae ammaethdy yn agos i'r pentref, a elwir hyd heddyw yn "Hafod y Porth." Am ei enw presenol, barnai y diweddar Barch. P. Bailey Williams, awdwr *Hanes Sir Gaerynarfon*, fod rhyw Feudwy mewn oes dra boreuol wedi ymsefydlu yn y llanerch neillduedig hon, a chyfodi bwth yn breswylfa iddo ei hun; ac yn mhen encyd o amser i eglwys gael ei hadeiladu yn y fan lle y safai bwth y gwr sanctaidd, yr hon a alwyd "Bwth Cilfach Garth," ac a dalfyrid weithiau yn "Bwth Cilarth," nes dyfod o'r diwedd yn Bethcelert; ac y mae bryniau bychain, heb fod yn mhell o'r pentref, a elwir "Y Geirth." Y diweddar Mr. William Williams, Llandegai, awdwr y *Sylwadau ar Eryri*, a farnai i'r lle gael ei ei enw oddiwrth St. Celer, nawddsant Llangeler, yn swydd Gaerfyrddin. Felly hefyd, gallem feddwl y barnai Llewelyn Ddu o Fon, yr hwn a wnaethai y *Casgliad o Fonedd y Saint*, a welir yn y *Myfyrian Archaiology of Wales*. Ond, y mae Mr. William Jones, brodor o'r lle hwn, yn ei Draethawd Arobryn rhagorol ar y plwyf, a ymddangosodd yn y *Brython* am y flwyddyn 1861, yn rhoddi awgrymiad ar hyn sydd yn rhŷ werthfawr i'w ollwng yn ddisylw yn y Gwaith hwn.[1] Dywaid fod bryncyn gerllaw y fan a nodir fel bedd y ci, ar ben yr hwn yr adeiladwyd beudy yn agos i gan mlynedd yn ôl; a'r bryncyn hwnw a elwir er cyn côf, yn "Fryn y Bedd." Yr oedd y bryn ar ganol gwastadedd teg, wedi ei ffurfio o gerryg afon llyfnion, yn cael eu gorchuddio gan gaenen o bridd, yr hyn, yn nghyd a'r enw, sydd yn rhoddi sail gref i farnu mai carnedd ydoedd, a gyfodasid ar fedd rhyw dywysog, neu bendefig enwog. Ond attolwg *bedd* pwy ydoedd? Ai bedd *Ci Llewelyn*, yn ol y chwedl boblogaidd a gredir gan lawer? Credwn nad yw chwedl y ci yn teilyngu y grediniaeth leiaf. Ond, fe ddywedir yn yr hen gofion Cymreig, fod llu o Wyddelod wedi dyfod i'r wlad hon, tua dechreu y bedwaredd ganrif, o dan dywysiad Don, brenin Llychlyn a Dulyn; ac iddynt trwy dwyll gael gan y Rhufeiniaid arglwyddiaeth Môn ac Arfon, a Cantref Dunodig; ac ymddengys fod Dinas Ffaraon, o fewn y plwyf hwn, yn un o'u prif orsafau. Gelwir Serigi Wyddel, yr olaf o'u tywysogion yn y wlad hon, yr hwn a laddwyd gan Caswallon Law Hir, yn Nghերyg y Gwyddel, sef y man lle y saif Caergybi yn bresenol, yn "Serigi Wyddyl ab Brynach Wyddel o Ddinas Ffaraon." Ac yn un arall o'r mân gofion, cawn y gofestr ganlynol o achau y tywysogion Gwyddelig hyn:—"Serigi Wyddel ab Mwrchan, ab Eurnach Hên, ab Eilio, ab Rhechgyr, ab Cathbalug, ab Cathal, ab Machno, ab Einion, ab *Celert*, ab Math, ab Mathonwy, ab Trathol, ab Gwydion, ab Don," &c.[2] Ai tybed nad bedd y Celert hwn oedd yr hen garnedd grybwylledig uchod? Ac onid yw yn naturiol casglu mai oddiwrth hyny y cafodd y lle ei enw? Fel prawf fod rhyw gymaint o wirionedd o leiaf yn y traddodiadau, neu y "Mân gofion" uchod, cawn le yn Arfon yn myned dan yr enw "Bryn *Gwydion*," ac heb fod yn mhell o'r tu arall i hen ddinas Ffaraon, cawn "Pen *Machno*," ac yn Nanhwynain,

[1] Yr ydym yn ddyledus am lawer o ddefnyddiau yr Erthygl hon i'r awdwr ymchwilgar uchod.

[2] *Iolo MSS.*, t.d. 78, 81, 82.

Digitized by Google

y mae ammaethdy a elwir "Bwlch *Murchan*," ac yn y gymmydogaeth hefyd y mae "Moel *Eilo*"—oll yn dwyn enwau rhai yn deillio o'r un linach a Gelert.

Ymddengys fod Prïordy wedi ei sefydlu yn y llanerch hon yn dra boreu; canys yr ydym yn cael fod Anian, esgob Bangor, yn dywedyd mewn llythyr a ysgrifenai yn amser Edward y Cyntaf, mai tŷ y fendigedig Fair" oedd yr hynaf yn holl Gymru, oddi gerth "Enlli Ynys y Saint." Ond y mae hanes sefydliad cyntaf y crefydd-dy hwn, fel rhai eraill yn Nghymru, yn hollol anhysbys, fel nad oes genym ond ymbalfalu mewn cryn dywyllwch wrth geisio olrhain eu dechreuad. Yr ydoedd sefyllfa y lle, ar fin y ffordd a arweiniai o'r hen orsaf Rufeinaidd yn Segontium, trwy Mons Herrirri, tua Mediolanum, ac Uriconium; a'r pellder o'r gyntaf yn gyfryw, fel y gallasai fod yma safle o bwys yn ystod y cyfnod Rhufeinaidd: a chan mai trwodd yma yr oedd y brif-ffordd o Loegr i'r Iwerddon, mewn oesoedd diweddarach, nid yw yn annhebyg bod llawer o bererinion yn myned trwodd yma, i'r rhai yr oedd sefydliad o fath y prïordy yn dra manteisiol. Y mae crybwylliad yn yr *Iolo MSS.*, am un Brynach Wyddel, o Ddinas Ffaraön, yr hwn a dderbyniodd "y ffydd yn Nghrist" yn amser Macsen Wledig; am yr hwn yr ychwanegir—"Ac efe a wnaeth eglwysydd gyntaf yn Ngwynedd, ac a fynes ddodi crêd a bedydd ar Gymry a Gwyddelod y gwledydd hyny."[1] Dinas Ffaraon, y gelwid Dinas Emrys, gerllaw Beddgelert, yn yr oesoedd boreuol hyny. Ai annghredadwy gan hyny yw, i'r tywysog Cristionogol hwnw sefydlu crefydd-dy Cristionogol yma yn gyntaf? Neu ynte, a ydyw y dybiaeth ganlynol yn fwy rhesymol? Yr ydoedd meudwyaeth neu fonachaeth wedi dechreu yn mysg y Cristionogion Dwyreiniol mor foreu a'r drydedd ganrif; ac fe ymledodd yr ysbryd hwn drwy holl wledydd crêd yn lled fuan, fel yr ydoedd monachaeth wedi dyfod yn gyfundrefn reolaidd a sefydledig, hyd yn nod yn Mrydain, mor foreu a diwedd y chweched, neu ddechreu y seithfed ganrif. Y dosbarth cyntaf o feudwyod yn y wlad hon, oedd y rhai a elwid y Celedei (gair yn arwyddo neillduedig i Dduw). Cyfododd y blaid hon yn y bummed ganrif, ac yr oeddynt yn gynwysedig o leygwyr, ac megis yn sefyll rhwng meudwyod a mynachod. Etholent un yn bennaeth y gymdeithas o'u mysg eu hunain; ac ymofynent am y lleoedd mwyaf neillduedig i sefydlu eu bythod ynddynt: a dywedir y byddent yn dra gofalus am fod yn agos i ffynon o ddwfr bywiol, yr hon wedi hyny a elwid yn yr oesoedd canol, yn "Ffynon Fair," i'r hon y priodolai y monachod sancteiddrwydd a rhinwedd arbenig, a thrwy ddyfroedd rhinweddol yr hon y cymerent arnynt wneyd gwyrthiau meddygyniaethol. Y dosbarth yma o feudwyod a sefydlasant fonachlog Enlli, cyfoed a pha un y rhestrai yr esgob Anian Brïordy Beddgelert; ac nid yw yn annhebyg mai y dosbarth yma o feudwyod a gyfodasant eu bythod yn y fan hon, yn agos i'r ffordd ar hyd yr hon y cyrchai llawer o'r pererinion boreuol hyny, o bob cwr o'r ynys tuag Enlli. Y mae ffynon heb fod yn neppell o'r pentref, a elwir yn "Ffynon Fair;" a gelwid y Fonachlog, "Tŷ y Fendigedig Fair." Dywaid Pennant fod ganddo yn ei feddiant ddarlun o sêl y Prïordy, dyddiedig 1531; ar yr hon yr oedd delw y Forwyn, a'r baban sanctaidd; a'r unig ran o'r arysgrif arni, oedd y gair BETHKELE.

[1] Ibid, t.d. 84, 85.

Y mae un ffaith mewn cyssylltiad a henafiaeth y Sefydliad, y dylid ei chof-nodi:—yn y flwyddyn 1830, pan y tynwyd llawer o furiau yr hen Briordy i lawr, er adgyweirio yr Eglwys bresenol, cafwyd carreg yn mûr yr ochr ddeheuol, ar yr hon yr oedd rhyw eiriau wedi eu tori. Achubwyd y garreg hon rhag cael ei dinystrio gan y diweddar Mr. John Jones, Glan gwynant, yr hwn, er na allai ddarllen yr argraff ei hun, a farnai ei fod o gymaint pwys, fel y dylasai gael ei chadw yn ofalus; a dug hi gyd ag ef i'w gartref, lle y bu hyd oni ddaeth rhyw foneddwr heibio, a gymerai ddyddordeb mewn hynafiaethau, i'r hwn ei dangoswyd. Dywedai y gwr hwnw mai cofnodi sefydliad y Prïordy, yn y seithfed ganrif yr ydoedd; ac efe a'i cymerodd ymaith, gan roddi pennadur i Mr. John Jones, am ei chadw mor ofalus.[2] Ymddengys fod y Sefydliadau monachol yn yn dra isel a llygredig, yn Nghymru fel mewn gwledydd eraill, yn ystod y cyfnod tywyll a therfysglyd, o ddiwedd y seithfed ganrif, hyd ddechreu yr unfed ganrif ar ddeg: ond, yn yr unfed ganrif ar ddeg, pan oedd gwawr gwareiddiad yn dechreu ail ymdori ar Ewrob, cymerodd symudiad diwygiadol le yn y mynachlogydd, yr hyn a fu yn ddechreuad cyfnod newydd yn eu hanes; dygwyd y myneich dan ddysgyblaeth fanylach, a dechreuasant ymroddi i goledd gwybodaeth a dysg; a'r canlyniad fu i'r wlad ddyfod i werthfawrogi y sefydliadau, ac i foneddigion a thywysogion y ganrif nesaf, eu gwaddoli â'u meddiannau. Ac yn mhlith eraill o'r Sefydliadau hyn a ddaethant i sylw yn y cyfnod yma, yr ydym yn cael fod "Prïordy Mair, yn Eryri," wedi enill sylw a gofal y tywysogion Cymreig. Ymddengys mai y cyntaf a waddolodd y Prïordy hwn, oedd Owen Gwynedd, yr hwn a ddechreuodd deyrnasu ar Wynedd yn y flwyddyn 1137; ac efe a roddes Freinlen i'r lle hwn, o barth yr holl dreflan yr hon a elwir Tref y Beirdd yn Nghwmwd Menai. Wedi hyny Llewelyn ab Iorwerth a roddes Freinlen i'r un lle, o barth holl dir Cyndewewic ab Rennant; a thrachefn, Llewelyn ab Gruffydd a roddes amryw Freinlenau i'r Sefydliad yma, yn cynwys gwaddoliad o amryw diroedd; a'r tywysog Dafydd hefyd, a roddasai amryw diroedd at wasanaeth yr unrhyw Brïordy. Yn y flwyddyn 1283–4, fe lwyr ddinystriwyd yr holl adeiladau perthynol i'r Sefydliad, gan dân; ac yn yr oddaith, darfu am y breint-ysgrifau oeddynt yn sicrhau y gwaddoliadau: ac er fod Anian, neu Einion, esgob Bangor, yn ei eiriolaeth dros y lle gyd a'r brenin Edward y Cyntaf, yn dywedyd mai "trwy dân damweiniol yn amser llettygarwch" y bu hyn, y mae yn fwy tebyg mai rhai o fyddinoedd Edward ei hunan a roddasent y lle ar dân, pan oeddynt yn tori y coedwigoedd yn y nentydd hyn, ac yn llosgi y coed o amgylch y Prïordy; rhag eu bod yn rhwystr ar ffordd eu symudiadau, ac yn lloches i'r Cymry i gynllwyn yn eu herbyn; ac efallai mai dyna y rheswm cryfaf a barodd i'r brenin Edward, ail adeiladu y Prïordy ar ei draul ei hun. Yn ei eiriolaeth rag-grybwylledig, dywedai yr esgob fel y canlyn:—"Am hyny gwybydded pawb mai y dywededig Dŷ y Fendigedig Fair, ydyw y crefydd-dy hynaf yn Nghymru (oddieithr Enlli, ynys y Saint), a'r rhagoraf am ei lettygarwch, a chynniweirfa mwyaf cyffredin y tlawd, a'r ymdeithwyr Seis'nig a Chymreig, a ânt o Loegr, a Gorllewin Cymru, i Ogledd Cymru; ac o'r Iwerddon, a Gogledd Cymru, i Loegr."

[2] Y *Brython*, cyf. iv., 1861, t.d. 170.

Digitized by Google

Bu y Prïordy hwn mewn cyflwr tra blodeuog hyd amser Harri yr Wythfed, yr hwn a'i cyssylltodd â Monachlog Chertsey, yn swydd Surrey; ac wedi hyny, rhoddwyd y Prïordy hwn, a'r Fonachlog uchod, gan yr un pennadur, i Abbatty Bisham, yn swydd Berks: ei chyllid, ar adeg dadgorfforiad y monachlogydd, ydoedd 69*p.* 3*s.* 8*c.* Nid oes dim o weddillion yr adeilad yn aros yn bresenol, fel y mae yn anhawdd dyfalu dim am faintioli, nac arddull yr hen Brïordy. Y mae traddodiad yn y gymmydogaeth, ei fod wedi myned ar dân eilwaith, yn yr unfed ganrif ar bymtheg, ac wedi ei lwyr ddinystrio o'r bron y pryd hyny: ond, ni's gwyddom ai gwir hyny ai peidio; yn unig y mae rhai sydd yn fyw yn y lle, yn cofio gweled tori bedd ar yr ochr ddeheuol i'r Eglwys, pryd yr aed trwy ddwy haen o olosg coed; yr uchaf o ba rai oedd o fewn troedfedd i wyneb y tir, ac oddeutu chwe modfedd o drwch; a'r llall oddeutu chwech, neu naw modfedd yn îs, ac yn droedfedd o drwch. Fe allai mai olion y ddau losgiad a ddygwyddodd i'r Prïordy, ydoedd yr haenau golosg hyn. Tua dechreu y ganrif hon, yr oedd darn o hên furddyn ëang, yn sefyll ar yr ochr ddeheuol i'r Eglwys, yr hwn a elwid "Plâs Prïor," yr hwn yn ol pob tebyg oedd yn gyssylltiol â'r Eglwys; canys pan oeddid yn tori sylfaen i fagwyr y fonwent, yn y flwyddyn 1850, fe aed trwy sylfeini tri o furiau, yn cyfeirio o'r dehau i'r gogledd. Yn yr un flwyddyn hefyd, pan yn tori bedd yn y fonwent, o flaen porth yr Eglwys, ac yn nghyfeiriad un o'r muriau crybwylledig, fe gaed darn o hen sylfaen mur, wedi ei weithio â chymrwd calch, o dan ba un y caed pedwar ar hugain o ddarnau arian, o ddyddiad y brenin Rhisiart yr Ail, y rhai a ddodasid yno ond odid, yn ol hen ddefod, pan ychwanegwyd y rhan hwn at y Prïordy. Oddeutu deugain mlynedd yn ol, pan yn diwreiddio coeden yn y cae, cydrhwng dau o'r muriau a grybwyllwyd uchod, fe ddarganfuwyd grisiau ceryg mawrion, yn arwain i ddiodgell; ond er daddorchuddio pedwar o'r grisiau, ni chafwyd yno ddim neillduol. Wrth fesur hyd a lled y tir y caed yr adfeilion hyn ynddo, sef o fur Côr Mair yn yr ochr ogleddol, hyd yr hen sylfaen yn yr ochr ddeheuol; ac o'r sylfaen a gaed yn y cwr gorllewinol, hyd dalcen dwyreiniol yr Eglwys, yr ydym yn cael fod adeiladau y Prïordy yn gorchuddio 35 llath wrth 45 llath o dir! Ond, pa mor ardderchog bynag ydoedd yr adeilad enfawr yma unwaith; yr ydoedd wedi ei lwyr ddinystrio er cyn côf; yr oll a adawwyd oedd yr Eglwys; yr hon cyn ei chwalu yn y flwyddyn 1830, oedd yn gryno a chyflawn; ac o herwydd ei harddull neillduol a henafol, yr oedd yn un o'r Eglwysi gwledig, prydferthaf yn y Sir. Yr oedd ei ffurf allanol yn dra syml; a mesurai 32 llath o hŷd, wrth 16 o lêd. Un tô oedd iddi, a hwnw yn hynod uchel a sŷth; ond, yr oedd yn ddwbl oddifewn, ac yn gynwysedig o ddau Gôr; y mwyaf, sef corff yr Eglwys, yr hwn oedd ar yr ochr ddeheuol, a fesurai tua deg llath o lêd; a'r llall, a elwid Côr Mair, oddeutu pedair llath a haner. Gwahenid y ddau Gôr hyn gan ddau fwa ysplenydd, yn yr arddull pigfain henafol, y rhai a welir eto yn mur gogleddol yr adeilad presenol. Goleuid y pen dwyreiniol i gorff yr Eglwys, gan dair o ffenestri uchel, fflaimffurf, y rhai yn amlwg oeddynt yn llawer henach na'r gweddill o'r adeilad; ac y mae yn debyg eu bod yn rhanau o'r hen Brïordy. Yn yr ochr ddeheuol, yn agos i'r pen dwyreiniol, yr oedd ffenestr fawr betryal, o bedwar goleu; ac yn yr un ochr, yn agos i'r pen arall, yr oedd drws, yr hwn a elwid "Drws Gwŷr Nanmor ac Ardudwy;" ac uwch ben y drws hwn, yr oedd dwy ffenestr gûl, fflaim-ffurf. Yn y pen gorllewinol yr oedd un ffenestr bigfain, o un goleu; ac yn yr ochr ogleddol, yr oedd ffenestr betryal fawr, o bedwar goleu, yn goleuo i Gôr Mair. Yr oedd y ffenestri hyn oll o wydr lliwiedig ysplenydd. Yr oedd yr adeilad o'r tu fewn, yn brydferth hynod; y nen-fwd wedi ei orchuddio â choedwaith cerfiedig, a'r ystlysau â cherf-luniau amryfath. Ond y rhan harddaf o'r Eglwys, ydoedd yr un a elwid "Côr Mair." Yno yr ydoedd y prif eisteddleoedd; ac yr oedd ochrau y rhai hyn yn uwch na phen yr eisteddydd; ond, yr oedd twll crwn gyferbyn a phen pob eisteddydd, yn wynebu at "fwrdd y cymmun." Yr oeddynt wedi eu gwneyd o hen dderw dû caboledig; ac wedi eu cerfio yn gywrain drostynt. Yr oedd yma hefyd ysgrin ardderchog o'r unrhyw bren, ac wedi ei cherfio yn gyffelyb. Y mae yn sicr fod y cerfiadwaith hwn, pan ddisgynai goleuni y ffenestri arliwiedig arnynt, yn brydferth dros ben, ac yn tueddu i lanw y meddwl coethedig âg edmygedd crefyddol, wrth fyned i fewn i'r lle cyssegredig: ond yn creu rhyw fath o arswyd coelgrefyddol, yn meddyliau y werin anwybodus.

Yn y flwyddyn 1830, fel y crybwyllwyd yn flaenorol, fe dynwyd y rhan fwyaf o'r adeilad i lawr, i'w hadgyweirio; ond y fath adgyweiriad, ni allasai y meddwl mwyaf anniwylliedig ddychymygu ei wrthunach! Tynwyd y Côr lleiaf i lawr yn hollol, gan ei uno â'r fonwent; a llanwyd y bwäau oedd yn terfynu rhwng y ddau Gôr i fynu, i ffurfio yr ochr ogleddol i'r Eglwys bresenol: a chauwyd i fynu ranau helaeth o'r ffenestri hir-fain prydferth, oeddynt yn y talcen dwyreiniol. Ac am y coedwaith cerfiedig oedd o'r tu fewn i'r Eglwys, yn nghyd a'r ffenestri amliwiedig, y mae yn alaethus gorfod cofnodi eu tynged. Fe werthwyd yr holl goed a'r cerfiadau i bobl yr ardal; llawer o honynt i'w llosgi, ac eraill i wneyd dodrefn; fel y mae gan y rhan fwyaf o deuluoedd y plwyf, ryw ddodrefnyn o goed yr Eglwys. Y ffenestri a werthwyd i ryw Sais, i'r dyben, meddir i gael arian i dalu traul yr adgyweiriad! Cyn y flwyddyn 1850, nid oedd y fonwent ond bechan, ac yn gorwedd ar y tu allan i ben gorllewinol yr Eglwys. Yn y flwyddyn hono, rhoddodd y diweddar Walker Jones, Ysw. o Gaerynarfon, perchenog y tiroedd cylchynol, ddarn helaeth o dir oddeutu yr Eglwys, yn rhad i'r plwyfolion, er helaethu y fonwent, fel y mae yn bresenol yn un o'r rhai helaethaf a welir mewn lleoedd gwledig. Amgylchynid yr hên fonwent, yn nghyd a'r Eglwys, â choed ynn mawrion, y rhai yn nghyd a'r ywen henafol sydd yn nghanol y fonwent, a roddant wedd swynol ar y llanerch.

Curadiaeth barhaol yw y fywoliaeth eglwysig yma, yn archddeoniaeth Meirionydd, ac esgobaeth Bangor, wedi ei gwaddoli ag 800 punt o rodd freninol, ac yn noddogaeth teulu o'r cyfenw Priestley. Dylasem grybwyll yn gynt, fod Edward y Chweched, yn yr ail flwyddyn o'i deyrnasiad, wedi dyroddi yr holl diroedd yn swydd Gaerynarfon a berthynent i'r Prïordy hwn, i Robert, a Henry Bodville.

Darfu i W. Wynne, Ysw., gymmun-roddi ardreth blyneddol o 2p. 13s., at ddarparu huganau, (coats), i chwech o ddynion tlodion y plwyf, ac amcanion eraill; Morus Wynne a roddodd y cyffelyb swm yn



Digitized by Google

flyneddol, at addysgu un bachgen tlawd yn Ysgol Bangor; ac un Mrs. Jones, yn y flwyddyn 1743, a gymmun-roddodd haner cant o bunau; gan gyfarwyddo bod i'w llog gael ei ranu yn flyneddol, rhwng deg o weddwon tlodion y plwyf.

Ychydig i'r dehau o'r pentref, ac yn agos i Bont Aber Glaslyn, darganfuwyd helaethrwydd o fŵn copr, a buwyd yn ei gloddio dros amryw flyneddoedd: ond, yr ydoedd mor gymysgedig â mŵneion eraill, fel yr oedd yn dra anhawdd ei lanhau gyda nemawr o fantais i'r perchenogion; ac felly rhoddwyd y gwaith i sefyll dros yspaid. Tu a'r flwyddyn 1800, darfu i bris uchel mŵn efydd, dueddu rhyw anturiaethwyr i ail gychwyn y Gwaith, o'r hwn y cloddiwyd swm mawr o fŵn, dros rai blyneddoedd: ond fe'i rhoddwyd i fynu drachefn, ac fe'i gadawyd mewn cyflwr esgeulusedig hyd y flwyddyn 1819, pan agorwyd y gweithydd hyn drachefn: ac er y pryd hyny, buwyd yn codi canoedd o dunelli yn flyneddol, o fŵn efydd yn y gymydogaeth, am dymhor maith. Heblaw y gwaith mŵn ger pont Aberglaslyn, yr oedd un arall llawer mwy, yn Nrws y Coed, ar odreu y Mynydd Mawr, lle y mae llawer iawn o ddynion yn cael gwaith yn barhaus.

Crybwyllasom yn barod, fod rhan fawr o'r plwyf hwn yn cael ei gymeryd i fynu o dair nant, sef Nant y Colwyn, Nant Gwynant, a Nant y Môr; ac efallai na byddai yn annifyr gan ein darllenwyr ein dilyn ar wib-daith fer, trwy bob un o'r Nentydd hyn, fel y caffom hamdden i ymgomio am rai o'r pethau teilyngaf o sylw ynddynt.—Nant Colwyn, neu "Nant y Ceulwyn," y gelwir yr un y cyfeiria y brif-ffordd drwyddi, o Beddgelert i Gaer-yn-Arfon.—Gyferbyn a'r Persondy, ar yr ochr ddeheuol i'r afon, yn nhir Cwm clôch, y mae llwyn o goed, a elwir "Llwyn Gwion;" ac yn mhen uchaf y llwyn hwnw, ar lan afon Cwm clôch, yr oedd tomen, neu garnedd fawr, rhan o'r hon sydd yn aros eto, a elwid "Bedd Gwïon." Ar ochr Moel Hebog, yn agos i'r grib, ac mewn cyfeiriad union-syth o Gwm clôch uchaf, y mae hafn serth, yn nannedd clogwyn erchyll, yr hwn a elwir "Simnai y Foel," i fynu pa un y dywaid traddodiad, i Owain Glyndwr ddringo unwaith, pan yn ffoi o flaen ei ymlidwyr; am fanylion o'r hyn, gweler ychwaneg dan enw y gwron hwnw. Y mae ogof yn Niffwys Meillionen, yn dwyn ei enw arni, am ei fod wedi bod yn llechu yno dros ryw yspaid, yn ol llen gwerin; ac yn y Cwm, islaw y Diffwys, y mae ffynon arianaidd, a elwir hyd heddyw, "Ffynon Owain Glyndwr." Efallai mai at yr amgylchiad yma yn oes gythryblus yr hen arwr enwog, y cyfeiriai y Bardd o Hiraddug pan ddywedai;—

"Cael a wnawn wrth ein coel ni,  
Cyw 'r Eryr acw o'r Yri;  
Llew du-lwyd, llaw dïalwr,  
Owain a *gûdd*, enwog wr."

Yn mhen isaf Cwm y Diffwys y mae amryw "Gyttiau Gwyddelod," o wahanol faintioli; y rhan fwyaf o honynt a fesurant o ddeutu pedair llath o dryfesur; ond, y mae yno un yn mesur tua deuddeg llath, yr hwn, efallai, ydoedd anneddle y pennaeth. Wedi disgyn o'r Cwm, ar lethr yr allt, ychydig oddi ar fagwyr y mynydd, y mae hen furddyn hynod, a elwir "Hafod Ernallt," yr hwn a fesura 16 llath o hŷd, wrth 4½ llath o led, ac wedi ei ranu yn dair ystafell. Nid oedd ond un drws iddo, yr hwn oedd yn y pen deheuol, ac yn agor i'r ystafell fwyaf; yr oedd yr ail ystafell oddeutu haner maint y gyntaf, a'r drydedd yn llai na hono. Un peth hynod yn yr olaf ydoedd, ei bod yn hollol dywell, heb un ffenestr iddi; a'r fynedfa iddi, yr hon oedd o'r ail ystafell, heb fod uwchlaw 30 modfedd o uchder. Y mae buarth eang amgauedig, o'r tu allan i'r pen deheuol, yn yr hwn y mae adfeilion cyttiau petryal i'w gweled. Y mae traddodiad yn yr ardal, fod yr hen lanciau oeddynt yn byw yn Meillionen tua chan mlynedd yn ôl, wedi cael tua thriugain pwys o hen aur ac arian mewn llestr, dan gareg yn y murddyn hwn: ac y mae yn hysbys i hen drigolion yr ardal, eu bod wedi myned yn dra arianog yn lled ddisymwth; a phriododd un o honynt yn fuan; ac y mae ei hiliogaeth yn troi yn mysg bonedd y wlad hyd heddyw. Cafwyd hen darian bres hynod hefyd, yn guddiedig gyd a'r trysor uchod, yr hon, yn ol *Pennant*, a fesurai ddwy droedfedd a dwy fodfedd ar ei thraws, ac a bwysai bedwar pwys. Y mae yn debyg ei bod eto yn meddiant teulu parchus Craig y don, Môn.[1] Yn mhen uchaf y Cwm, y mae murddyn cyffelyb i Hafod Ernallt; ac yn union oddiar y murddyn hwn, yn nannedd clogwyn certh, y mae "Ogof Filen," neu yn hytrach, "Ogof Elen," lle y bu Ieuan ab Rhobert o'r Gessail Gyfarch yn llechu, yn amser rhyfeloedd teuluoedd Yorc a Lancaster.[2] Yr ydoedd Ieuan yn ymladdwr dewr, ac yn gefnogwr gwresog i deulu Lancaster; a gwnaeth ef a'i gyfeillion o Nanteonwy, ruthr-gyrch anrheithus ar diroedd Duc Caerefrog yn nghymydogaeth Dinbach: ond brenin Lloegr a anfonodd fyddin gref, dan William Herbert, Iarll Penfro, i ddial ar yr anrheithwyr yn y flwyddyn 1468; ac efe a ddaeth trwy Nanteonwy hyd Ddolyddelen, gan ladd a llosgi yr oll o'i flaen.

Yn mhen gogleddol y Cwm, y mae "Bwlch y Saeson," trwy yr hwn y daeth byddin Edward y Cyntaf i'r ardal hon yn amser Dafydd ab Gruffydd. Ar yr ochr ddehau i'r ffordd, i fynu yn y mynydd, o'r tu uchaf i'r Wern-las-deg, y mae "Pant y Garnedd," lle yr ydoedd carnedd fawr rai blyneddoedd yn ôl, wedi ei chyfodi ar gelain rhyw hen wron Cymreig, mae yn debyg; ond ni feddwn y fantais leiaf i wybod pwy ydoedd. Yn yr ochr aswy i'r ffordd, ac ar dir Hafod Ruffydd, gerllaw Glan y Gors, y mae darn o'r hen ffordd Rufeinig, a elwid "Ffordd Elen," i'w gweled yn amlwg. Rhan ydyw o'r brif ffordd oedd yn cyfeirio o Gaer Seiont i Domen y Mur. Yr oedd y ffordd hon yn cychwyn yn Nghaer yn Arfon, ac yn dyfod trwy y Waen Fawr, gan ddilyn yr ochr ddwyreiniol i'r afon Wyrfai, hyd Felin y Rhyd, yn Nant y Bettws, lle y croesai i'r ochr orllewinol i'r afon; yna yn dal yn lled agos i'r afon, islaw Castell Cidwm, ac i fynu i Allt y llyn, lle y mae ei gwely yn amlwg eto, gan ddal ar yr ochr orllewinol i Lyn y Gadair, heibio i Geryg Huon, ac i waered y Gadair, hyd Glan y Gors. Yma, yr ydym yn colli pob olion o honi, a barna rhai ei bod yn croesi yr afon Golwyn, yn agos i Bont ar Golwyn, ac yn dyfod i waered hyd i'r Pentref ar yr ochr aswy i'r afon; ond, y mae eraill yn dadleu ei bod yn dilyn ar yr ochr dde i'r afon, ac yn myned heibio i Meillionen, lle y mae rhanau o hen ffordd yn weledig yn bresenol; ac oddiyma trwy y Gymwynas, gan groesi yr afon ar bont, dros y lle a adnabyddir wrth yr enw "Llyn yr hen Bont," lle y mae adfail hen bentanau yn weledig eto. Oddiyma yr oedd yn

[1] Pennant's *Tours in North Wales*, 8vo Ed. Vol. 2, p. 362.  
[2] Gwel *History of the Gwydir Family*.

Digitized by Google

myned at Ben y groes, lle yr oedd Croesffordd yn rhanu i ddwy gainc; un yn cyfeirio trwy y gwastadedd, tuag at y Penrhyn Deudraeth, a'r llall yn esgyn i fynu, gan gyfeirio tua Thomen y Mûr.

Ychydig uwchlaw Glan y Gors, ar glogwyn ar fin y ffordd, y mae y geiriau "Llam Trosgol" wedi eu dodi; ac ar graig gyferbyn, o'r tu arall i'r afon, y mae llun troed enfawr, wedi ei wneyd.—Dywedir wrth ddyeithriaid ymofyngar a dramwyant y ffordd hon, i ddau gawr ar ryw adeg fyned i ymryson neidio, ac i un o honynt lwyddo i neidio o ben y clogwyn sydd uwchlaw y ffordd, hyd y llun troed, pellder o 25 llath!—Ond, nid yw yn ymddangos fod y traddodiad annaturiol hwn yn hên; eithr y mae ar lafar gwlad yn y gymydogaeth, chwedl henach, ac un a ddyru well rheswm am yr enw. Ychydig uwchlaw y llun troed, y mae yr afon Colwyn wedi gweithio ei ffordd trwy agen gul yn y graig, yr hon nid yw ragor na thair neu bedair troedfedd o led, ac yn disgyn i gorbwll du dwfn. Yn yr hen amser, pryd nad oedd pont ar y Golwyn, o bont-bren Meillionen hyd Nant yr Aran, yr oedd y llwybr yn myned heibio y fan hon, ac yn myned dros yr agen gul a nodwyd, yr hwn a elwid yn "Llam dros Golwyn;" o'r hyn y llygrodd y "Llam Trosgol." Y chwedl sydd fel hyn;—Ryw dro er's amryw oesoedd yn ôl, yr oedd llanc ieuanc o'r Pennant, yn cyfeillachu â morwynig dlos o Nant y Colwyn, ac wedi myned mor bell, nes penderfynu ar ddydd eu priodas: ond yn yr ysbaid rhwng dydd y cyttundeb a dydd y briodas, fe faglwyd y llencyn ieuanc gan gariad angerddol at ferch ieuanc o'i ardal ei hun; ac er ei fod yn ymdeimlo ei fod dan rwymedigaeth gyssegredig i'r forwynig o Nant y Colwyn, nid allai ymryddhau o'r hud serch-swynol er dim a wnelai, fel o'r diwedd y penderfynodd na fynai ei ddyweddi o Nant y Colwyn yn wraig. Ond, pa fodd y gallai ymryddau o'i gyfamod priodasol? Oni ddeuai yn mlaen yn ol ei ymrwymiad priodasol, byddai brodyr a theulu y forwynig, yn sicr o ddial arno, oblegid y cleddyf, neu y pastwn, a fyddai yn terfynu ymrysonau o'r fath yn yr oes hono. O'r diwedd efe a benderfynodd pa beth i'w wneyd; ac ar nawn y dydd blaenorol i'r briodas fwriadedig, efe a ddaeth i gartref ei ddarpar wraig yn llawen a chariadus ei wêdd, gyd ag anrhegion cyfeillion at y neithior; ac yn mrig yr hwyr, efe a gychwynai yn ol tuag adref, a'i anwylyd serchog a'i hebryngai yn ddiniwed ar hyd y llwybr a gyfeiriai dros y Golwyn yn y fan hon; yma, efe a fynai iddi ddyfod drosodd, a hithau yn chwareus ddiniwed, a gyd lamai yr afon law-law âg ef; eithr pan ar y llam, efe a roddai hergwd iddi, i lawr i'r corbwll dû islaw, ac a redodd ymaith! Yr oedd llifeiriant cryf yn yr afon ar y pryd, ac o herwydd bod y graig ar y ddwy ochr yn serth ac uchel, ac na allai y llances nofio, hi a foddwyd! Dros flyneddoedd lawer bu yr hen bobl ofergoelus, yn credu bod drychiolaethau arswydus yn ymrithio, a chwynfanau torcalonus i'w clywed, oddeutu y pwll hwn ar ryw awr neillduol o'r nos; ac yn wir, nid rhyw amser tra maith y sydd, er pan y collodd "Bwgan Pen Pwll Coch" ei ddylanwad brawychus ar amaethwyr yr ardal hon. Oddi tan y Ffridd Uchaf, ar yr ochr aswy i'r ffordd, y mae twr o geryg, wedi eu gosod gan natur neu gelfyddyd yn y fath fodd, fel os edrychir arnynt o ochr Caerynarfon, y maent fel llechwedd dyn; a'r Saeson a'u galwant Pen Pitt, (*Pitt's Head*), ar gyfrif eu tebygolrwydd i lechwedd y gwlad-weinydd enwog hwnw: ond, eu hen enw Cymreig o'r cyn-oesoedd, oedd "Ceryg Collwyn."

Ychydig gyda milldir oddiar y Ffridd, yn nghyfeiriad y Wyddfa, canfyddir llanerch o dir gwastad, ar ben bryn bychan, ar yr hwn y mae dau furddyn lled helaeth, y rhai a adweinir wrth yr enw "Mur Murianau;" ac wrth sylwi yn fanol o'u hamgylch, gwelir adfeilion amryw gyttiau crynion, neu anneddau y cyn-frodorion; a gellid casglu wrth yr olwg a gair ar olion hen fagwyrydd, fod yma lanerch amgauedig ar un cyfnod, o tua 60 llath o hŷd, a 40 o led; ac y mae lle cryf i farnu hefyd, fod yma dair o gromlechau yn adeg Derwyddiaeth. Traddodiad yr ardal am y lle ydyw, mai hen deml enwog oedd y murddynod hyn. Ar yr ochr arall i'r Nant, y mae Mynydd y Gadair, a Llyn y Gadair, ac ar ystlys y Gadair, y mae lluaws mawr o adfeilion, ac yn nghwr uchaf buarth hir betrual, y mae maen mawr, yr hwn a ymddengys yn debyg i gromlech wedi ei thaflu oddi ar ei hattegion, fel y gellir barnu fod yma ryw sefydliad pwysig ar ryw gyfnod tra boreuol. Yr oedd hen dŷ yn sefyll yn y llanerch hon gynt, a elwid "Ceryg Huan," neu "Huon;" ac y mae yn dra sicr fod yr hen dŷ wedi bod dros oesoedd, yn cadw i fynu enw yr hen sefydliad adfeiliedig gerllaw; ac onid yw yr enw, a'r olion cyfagos, yn rhoddi sail led gref i ni i gasglu, bod yn y llanerch hon hen deml gyssegredig i addoliad yr haul, yn y cyfnod cyn-hanesiol?

Ar ochr Mynydd Drws y Coed, y mae Cwm a elwir "Cwm y Farchnad;" a'r rheswm cyffredin a roddir am yr enw yw, mai yma y byddai y Cymry yn cyfarfod â'r Saeson i farchnatta, ar ol y goresgyniad. Oddiar y Cwm hwn ar ben y Garn, y mae dwy garnedd fawr o geryg, oddiwrth y rhai y mae y mynydd yn cael ei enw: agorwyd un o honynt flyneddoedd yn ôl, a chafwyd cist-faen fawr ynddi, yr hyn sydd yn brawf mai gwyddfaau rhyw hen wroniaid ydynt.

Ar lan Llyn y Gadair, yn yr ochr nesaf i'r ffordd, y mae bryn bychan a enwogir yn hen draddodiadau ffug-chwedlonawl ein gwlad; canys dywedir i helgwn rhyw foneddwr, pan yn hela y carw coch yn Eryri, godi rhyw angenfil dyeithr yno, yr hwn o ran ffurf ei gorff oedd yn debyg i ŷch gwyllt, a chudynau o flew euraidd yn gorchuddio ei gorff drosto, y rhai a ddathlent yn llachar pan dywynai yr haul arnynt; am ba achos ei gelwid "Aur-wrychyn." Ymlidiai yr hel-gwn ef ar draws y Gors, a thrwy Ddrws y Coed, i ymyl Bala Deulyn, lle ei daliasant, ac wrth iddynt ei ladd, efe a roddodd floedd mor ddiasbad, nes rhwygo y creigiau; yr hyn a barodd alw y lle o hyny allan, yn Nant y llef, neu "Nantlle."

Y bwlch rhwng y Garn a'r mynydd Mawr, ydyw "Drws y Coed." Yn agos i ben y bwlch y mae tŷ Drws y Coed, yr hwn a adeiladwyd tua chan mlynedd yn ôl, gan un William Gruffydd, yr hwn oedd yn wr o dueddiadau lled grefyddol, fel y gellir casglu oddiwrth gerf-lech a osodwyd uwch ben ei ddrws, ar yr hon y mae yr argraff ganlynol;—

> "Ewyllys calon yr Adeiladydd,
> Yr hwn a'i gwnaeth o ben bwygilydd;
> Fod yma groeso i Dduw a'i grefydd,
> Tra bo careg ar eu gilydd."

O'r tu cefn i'r ty hwn y mae Llyn y Dywarchen,

Digitized by Google

am yr hwn y crybwyllai Giraldus Cambrensis yn ei Deith-lyfr, fod ynys nofiadwy ynddo.

Wrth droed y Mynydd Mawr y mae Llyn Tardd-eni, a elwir yn bresenol "Llyn Cywellyn," enw a roed arno fel y canlyn; Yn mhen uchaf y Llyn y mae ammaethdy o'r enw "Cae uwch y llyn." Oddeutu 150 mlynedd yn ôl, mabwysiadodd y teulu oedd yno yn byw, enw y fferm yn enw teuluol, wedi ei dalfyru yn "Cywellyn;" ac am fod y llyn mewn rhan yn ettifeddiaeth y Cywellyniaid, galwyd ef yn Llyn Cywellyn. Yn amser Leland, fe'i gelwid yn Llyn Tarddeni. Ar ben y llyn, y mae clogwyn uchel, a elwir "Castell Cidwm;" ac y mae y chwedl ganlynol ar lafar gwlad mewn cyssylltiad a'r lle, a'i enw;—"Pan oedd Elen Lueddog a'i mab ieuangaf, yn arwain ei llu o Gaer Seiont i Gaer Eryri, trwy Beddgelert; yr oedd mab iddi o'r enw "Cidwm," un afradlawn a drwg, mewn eiddigedd dwfn tuag at ei frawd ieuangaf, ac yn cynllwyn yn wastad am ei fywyd. Yr oedd hwn wedi ymguddio yn y clogwyn hwn, o dan bwys yr hwn yr oedd y ffordd Rufeinig yn dyfod, i'r dyben o wylio ei fantais i saethu ei frawd, pan y byddai yn myned heibio y clogwyn gyd a'r fyddin. Yr oedd Elen yn arwain blaen y fyddin ei hunan, a'i mab, yr ol-fyddin; a phan oedd hi yn gorphwys wrth ffynon loyw ar fin y ffordd, yn mhlwyf Llanfrothen, a'i mab yn dilyn gyd a'r ol-fyddin yn Nant y Bettws, gwelai un o'r milwyr *Cidwm* yn cyfodi o'i guddfa, gan anelu yn bwyllog tua bôn y fyddin. Y milwr a'i hadnabu, a chan ei fod yn deall ei fwriad, efe a floeddiodd y rhybudd,—"Llêch yr Olaf!" yr hyn a attebid yn ddïoed gan yr holl fyddin; ond, cyn i'r olaf lechu, yr oedd saeth y brawd-leiddiad wedi ei wanu yn farwol. Trosglwyddwyd y newydd galarus yn ddioed gan y fyddin i'w fam; yr hon pan ei clywodd, a ddyrchafodd ei dwylaw, gan ddywedyd yn ing ei henaid, "*Croes awr i mi!*" a "Ffynon Croesawr" y gelwir y ffynon hono, a'r cwm yn yr hwn y mae, a elwir "Cwm Croesawr" hyd heddyw: a'r bryn, lle y llechai Cidwm, a elwir yn "Gastell Cidwm," ac y mae ammaethdy bychan yn Nant y Bettws, a elwir "Llech yr Olaf." Pa faint o wirionedd hanesyddol sydd yn y chwedl uchod, a'i chyffelyb, ni's gwyddom; efallai fod ffeithiau yn seiliau iddynt, ond bod y rhai hyny wedi eu gwisgo a haenau o ddychymygion, gan fyneich yr oesoedd tywyll.

Islaw y Rhyd ddu, fe welir murddyn hen dŷ, ar ben bryn bychan oddiar y nant, yr hwn a elwid "Clogwyn y Gwin." Yr oedd yr hen deulu a gyfanneddent yn y fan hon o fewn oes yn ôl, yn hynod am eu direidi cellweirus. Yr oeddynt mewn gwirionedd, yn gewri o ddynion o ran maintioli corfforol; mesurai un o'r llanciau saith droedfedd o uchder, a deuddeng modfedd ar hugain ar draws ei ysgwyddau; ac yr oeddynt mor hynod am eu nerth-oldeb ag oeddynt am eu maintiolaeth; ac yr oedd iddynt chwaer, oedd yn 6 throedfedd a thair modfedd o uchder, a chan gryfed a nemawr ddyn yn y plwyf; ac y mae aml un yn fyw, sydd yn cofio ei gweled, a'i barf frith-laes, gyd a'i chŵn a'i phastwn hir, yn bugeilio ar lethrau y Wyddfa.

Yr ail Nant yr addawsom gymeryd gwib-daith frysiog ar hyd-ddi gyd a'n Darllenwyr, yw "Nanhwynan." Y mae hon yn dechreu yn y pentref, ac yn ymdroelli rhwng y bryniau, am wyth milldir o ffordd, gan ddiweddu yn Mhen y Gwrhyd. Y mae ei sefyllfa yn isel, a'i gwedd yn amrywiol, fel y dywed Glaslyn gyda phriodoldeb neillduol;—

"Ceir yma amrywiaeth a syna 'r edrychydd;—
Clogwyni gwyneblwyd, a thywyll-brudd greigydd,
Y marian gwasgarog, a'r pawr-las lanerchydd,
A welir yn gorwedd yn ymyl eu gilydd.
* * * * * * * * *
"Lle'r praidd a gyd borant ar drylas lanerchydd,
Lle'r geifr a ymborthant ar estyll y creigydd;
Lle difyr chwedleua y crwydrawl fugeiliaid,
Am gampau eu cor-gwn, a helynt eu defaid."

Cychwynwn trwy fwlch cul yn ymyl Pont y Felin; ac oddiyno y mae yn ymledu yn ddyffryn bychan prydferth, oddeutu milldir a chwarter o hyd. Ar y naill ochr iddo, y mae craig goch fwnawl y Sygun; ac ar yr ochr arall, y mae yr Aran werdd-las; yn ei ben eithaf, y mae Dinas Emrys, a thrwy ei ganol y dolena "Afon y Nant."

Ar ol myned trwy y dyffryn hwn, y mae y nant yn cael ei gwasgu i fwlch cul drachefn: ond pan gyrhaeddir i'r bwlch hwn, y mae golygfa ysplenydd yn ymagor o'n blaen;—islaw i ni y mae Llyn y Ddinas, yr hwn sydd oddeutu milldir o hyd, a thua haner milldir o led: ar ein llaw aswy y mae gallt uchel-serth y llyn, yr hon sydd orchuddiedig â grug, ac wedi ei britho â choed ffawydd, deri, cyll, ac ynn; ar y dde, y mae mynydd teg y Llyndy: yn mhen uchaf y llyn, y mae dolydd prydferth, y rhai a amgylchir â bryniau coediog; ac o dan wasgawd un o'r bryniau coediog hyn, ar fryncyn gwyrdd-las o flaen y Llyn, y mae palas bychan prydferth, yr hwn a elwir "Plas Gwynant." Gwesgir y Nant i fwlch cul yma eto, ac y mae yn troi ar y chwith ychydig: wedi yr eler trwy y bwlch hwn, yr ydym mewn dyffryn bychan o'r fath fwyaf rhamantus; yn sefyll ger seiliau y mynyddoedd uchaf yn y plwyf:—o'n blaen y mae y Lliwedd; ar ein llaw aswy y mae y Geuallt, a rhwng y ddau hyn y mae y nant a gyfeiria i Gwm llan, pen eithaf yr hon a lenwir gan y Wyddfa. A y Nant yn mlaen oddiyma, gan gulhau yn raddol eto, i fwlch bron mor gyfyng a'r ddau gyntaf, lle y deuwn i olwg llyn arall, mwy prydferth na'r cyntaf; sef "Llyn Gwynant." Ar yr ochr aswy iddo, y mae mynydd uchel, yn ymddyrchafu yn serth o'i ddyfroedd, yr hwn sydd wedi ei fritho i'w haner â chyll ac yspyddaid; ac ar ei glogwyni ysgythrog, y gwelir y geifr brithion megis yn ym-falchïo yn nrych ei ddyfroedd gloywon islaw. Ar ein dehau y mae gelltydd coediog, lle y mae hafottai prydferth Mr. Vawdrey, a Mr. Wyatt. Ar ol myned heibio y llyn hwn, y mae y nant yn troelli trwy ddolydd triniaethol hyd i Ben y Gwryd.

Yr oedd yr holl Nant hon yn eiddo i fonachod Aberconwy, fel y gwelir oddiwrth Siartr Llewelyn ab Iorwerth i'r Fonachlog hono.[1] Un o brif wrth-ddrychau hynafol y Nant hon yw Dinas Emrys, yr hon sydd yn enwog yn ei chyssylltiad â Merddin Emrys, y dewin; ac â Gwrtheyrn Gwrthenau, arch-fradwr y Prydeiniaid. Yr oedd y Ddinas hon yn gorwedd ar fryn crwn, a ymddyrcha oddiar y gweir-gloddiau, ac a ymddengys fel pe yn cau y dyffryn yn hollol. Y brif fynedfa iddi oedd o'r ochr ogleddol; ond, yr oedd esgynfa arall hefyd, o'r ochr orllewinol, ar hyd pa un y cynnygiwn arwain y darllenydd i'r hen Ddinas. Ar ol esgyn tua haner y ffordd i fynu, deuwn at olion hen ragfur, o gryn gadernid, yr hwn sydd yn ymestyn ar draws yr ystlys hon, o glogwyn serth yn yr ochr ddeheuol, hyd glogwyn cyffelyb yn yr ochr ogleddol; ar y tu

[1] Williams' *History of Aberconway.* The Appendix.

Digitized by Google

uchaf i'r rhagfur, y mae llain o dir lled wastad, lle debygid, y safai yr amddiffynwyr. Yna, ychydig yn uwch, deuwn at ragfur arall, ydoedd yn llawer cadarnach na'r cyntaf; ac y mae hwn hefyd yn rhedeg o'r unrhyw glogwyni a'r cyntaf; ac ychydig yn uwch na hwn, nyni a ddeuwn at y brif fagwyr, yr hon oedd yn amgylchynu y grib o gylch y Ddinas, gan ganlyn min y dibyn yn mhob man. Yr ydoedd y Ddinas yn hollol anhygyrch ar yr ochr ddeheuol, oddieithr mewn un parth; ond yr oedd y lle hwnw wedi ei ddiffynu yn gadarn â thri o furiau, y naill uchlaw y llall, fel yn yr ochr orllewinol. Yr ochr ogleddol oedd yn gyffelyb wedi ei hamddiffyn yn naturiol gan serthdra y clogwyni; ond, yn yr ochr hon yr ydoedd y prif borth. Yr oedd y ffordd i'r Ddinas, yn dyfod o gyfeiriad y Dwyrain, i'r ochr ogleddol, a chan dori mynedfa heibio i glogwyn union-syth o dan fur y Ddinas, y mae yn esgyn i fynu yr ochr hono. O fewn y Ddinas, y mae adfail hen dŵr, yn y cwr dwyreiniol o honi, yr hwn sydd o ffurf hir-betrual, ac yn mesur 12 llath wrth 8 llath. Yr ydoedd hwn yn lle cadarn, ac wedi ei weithio yn dda; a'i furiau o'r tu fewn can llyfned a mur tŷ cyffredin yn yr oes hon, yr hyn a ddengys ei fod wedi ei weithio wrth linyn a phlymen; ond, nid oes calch yn ei wneuthuriad, nac onid ychydig iawn o bridd: ac y mae y muriau yn llathen a haner o leiaf o drwch. Islaw y twr hwn y mae pantle cysgodol, yn yr hwn y mae ffynon o ddwfr yn bwrlymu yn wastadol; ac y mae gwrym crwn o amgylch y ffynon, tebyg i adfail mur, yr hwn sydd yn ddeuddeg llath o draws-fesur. Hon oedd ffynon gyfriniol Merddin Emrys, a'r man yn ol traddodiad ffug-chwedlonaeth, lle y cuddiwyd Dreigiau y brenin Lludd. Yr oedd yr ochr ddwyreiniol yn cael ei hamddiffyn â mur cryf, wedi ei weithio ar y graig; ac ymddengys fod y pen yma yn cael ei gryfhau hefyd gan y tŵr a nodwyd, gan fod ei sefyllfa yn gyfochrog â'r mur.

Ymddengys fod yma amddiffynfa bwysig yn mhell cyn amser Merddin Emrys, a'i bod dros ryw yspaid cyn hyny o leiaf, yn myned dan yr enw Dinas Ffaraon, at yr hon y mae cyfeiriadau mynych yn ffug-chwedlonaeth y Cymry; ac allan o amryw, gallwn ddyfynu yr un canlynol, —"Eurnach Hen a fu yn ymladd gledd yn nghledd ag Owain Finddu ab Macsen Wledig, yn Ninas Ffaraon, efe a laddodd Owain. Owain a'i lladdodd yntau."

Y mae yn debyg i Owain gael ei ladd yn y flwyddyn 390; ac yr oedd ei fedd yn aros yn weledig hyd yn ddiweddar, yn agos i Ddinas Emrys, ac yn cael ei adwaen dan yr enw "Bedd Owain;" ac y mae Rhys Goch Eryri yn cyfeirio ato mewn Cywydd a gyfansoddid ganddo, yn agos i bum can mlynedd yn ôl;—

> "Lle mae pen brawd Cystenyn
> Fendigaid, lafn drafn y drin?
> Yngwyl derw angel deurudd,
> Yn Nghoed Pharaon yn nghudd."

Mae coffadwriaeth am frwydr Eurnach ac Owain, yn aros yn y plwyf hwn trwy "Chwedl y Cawri," yr hon a adroddir ar lafar gwlad yn debyg i hyn;— "Ryw bryd yn yr hen amser, pan oedd cawri yn byw yn yr Ynys hon, yr oedd cawr hynod yn byw yn Ninas Emrys, yr hwn oedd a'i glod yn adnabyddus trwy yr holl wlad, am ei faintioli ai gryfder dihafal; ond ryw ddiwrnod, fe ddaeth rhyw gawr arall, o'r enw Owain, yr hwn a glywsai am orchestion cawr y ddinas, yno i ymryson nerth âg ef; a hwy a aethant i waered i gae yr Ysgubor, i ymryson eu gwrol-gampau. Y peth cyntaf a wnaethant oedd 'Tynu'r dorch;' ond wedi hir dynu, a thori coed can braffed a swmer tŷ, fel priciau crinion, ni threchodd un o honynt. Ar fryncyn cyferbyniol, yr ochr arall i'r afon, fe welai Owain faen anferth, ac ar 'hwb, a cham, a naid,' efe a aeth yno, a thaflodd y maen drosodd, fel y disgynodd wrth draed Cawr y Ddinas; yr hwn a ymaflodd ynddo, ac a'i taflodd yn ol yn gymhwys i'w le ei hun; felly ni threchodd y naill y llall yn hyn drachefn. Yna hwy a aethant i ymaflyd codwm; ac fel yr oedd Owain yn methu taflu y Cawr, efe a wylltiodd, ac a'i disodlodd, nes disgyn o hono ar ei gefn ar draws maen, yr hwn a chwilfriwiodd dan bwys ei godwm, ac aeth darn o'r maen i'w gefn, ac a'i lladdodd; ond, yn ei boenau angeuol, efe a wasgodd Owain â'r fath nerth, fel y bu yntau farw; a chladdwyd Owain yn y fan hono; a'r Cawr a gladdwyd ar fryncyn lle yr oedd y maen a daflasai, a dodwyd y maen ar ei fedd." Fel y crybwyllwyd eisoes, yr oedd bedd Owain yn aros yn y cae, ger "Beudy bedd Owain;" ac y mae amryw yn fyw yn cofio gweled y maen ar y bryn yr ochr arall i'r afon, yr hwn a elwid "Maen y Cawr," ond a ddrylliwyd pan yn gwneyd y ffôs i gludo dwfr at y felin cfydd. Yn y *Cambrian Journal* am 1859, t. d. 209, cawn adroddiad gwahanol o'r un chwedl, a ysgrifenwyd gan Edward Lhwyd, yn agos ddau can mlynedd yn ol, fel y canlyn;—"A rhwng y Dinas a'r llyn, y mae bedd Syr Owain y Mhaxen, yr hwn a fu yn ymladd a'r cawr â phellenau dur: mae pannylau yn y ddaear, lle yr oedd pob un yn sefyll, i'w gweled etto. Mae rhai eraill yn dywedyd, mai ymladd â saethau yr oeddynt; a'r pannylau a welir heddyw yno, oedd lle darfu iddynt gloddio i amddiffyn eu hunain: ond ni esgorodd yr un mor trô. Pan welodd y marchog nad oedd dim gobaith iddo fyw nemawr yn hwy, fe ofynwyd iddo pa le y mynai gael ei gladdu, ac efe a archodd ergydio saeth i'r awyr, a'r lle y disgynai hi, y gwnaent ei fedd ef yno."

Y mae y bryn y cyfeirir ato yn y chwedl hon, ar yr ochr bellaf i'r afon o'r ddinas, ac yn nes i'r llyn; ymddengys yn debyg i domen wneuthuredig, anferth o faint; ac y mae carneddau, neu gylchau crynion o geryg ar ei phen, yn aros eto; ac yn ei chwr dwyreiniol, y mae bedd mawr i'w weled yn eglur, yr hwn sydd tua phedair llath o hyd, a llathen a haner o led. Ar y weirglodd sydd goris y bryn hwn, y mae yn aros weddillion hen garnedd helaeth, ar ben yr hon yr oedd maen anferth yn gorwedd, yn nghof amryw sydd yn fyw yn bresenol; ond daeth hwn i'r un dynged a maen y Cawr, canys fe'i dinystriwyd, fel nad oes yn aros erbyn hyn, ond darn bychan o hono.

Y dygwyddiad nesaf o ddyddordeb mewn cyssylltiad â'r hen Ddinas hon, ydyw dadguddiad y Dreigiau gan Myrddin, yn amser Gwrtheyrn Gwrthenau: ond y mae y rhan yma o'i hanes, fel yr un flaenorol, yn llawn o draddodiadau, ffeithiau, a ffug-chwedlau, wedi eu cymhlethu a'u gilydd yn nhreigliad yr oesoedd, fel y mae yn ormod o orchwyl i ni geisio eu dadgyssylltu; ond rhoddir yr hanes fel y mae wedi dyfod i lawr i ni, dan yr enwau Emrys, Gwrtheyrn, a Merddin.

Gerllaw Capel Bethania, y mae croesffordd yn cyfeirio at Hafod y Llan; ac oddiyma gellir esgyn i fynu i Gwm Tregalan, yn yr hwn y dywedir y bu

Digitized by Google

tref enwog yn yr amser gynt; ac y mae llen gwerin yn dywedyd mai wrth gymeryd y dref hon y lladdwyd y Brenin Arthur. Y chwedl sydd fel y canlyn:—"Pan oedd y Brenin Arthur yn ymlid ar ol ei elynion yn mynyddoedd Eryri, efe a glywodd yn Ninas Emrys, eu bod yn gwersyllu yn llu cadarn, o fewn caerau Tregalan; a bod yr holl fylchau yn amddiffynedig. Ar hyny, efe a gynullodd ei holl fyddin yn nghyd, ar y gwastadedd o flaen Dinas Emrys, ac a etholodd fyddin gref o'i wŷr glewaf, i fyned i Gwm llan, dros fynydd Hafod y Porth. Ar ol brwydr ddychrynllyd, gyrodd Arthur y gelynion o'r dref, i fynu y bwlch tua Chwm Dylif, gan eu hymlid yn dost; ond pan oedd blaen ei fyddin ar ben y bwlch, y gelynion a ollyngasant gawod o saethau attynt, ac Arthur a glwyfwyd yn farwol; a chladdwyd ei gorff ar ben y bwlch, fel na ddychwelai un gelyn heibio y lle, tra byddai llwch Arthur yno."—Dyna y chwedl, fel y mae ar lafar gwlad yn mysg bugeiliaid y gymmydogaeth; ac y mae carnedd o geryg yn aros ar y bwlch hyd heddyw, yr hon a elwir "Carnedd Arthur," a'r bwlch a elwir "Bwlch y Saethau:" a gelwir y gwastadedd, lle y dywedir i Arthur ddidoli ei wŷr cyn cychwyn, "Gwaun y Gwehilion," am mai yno y pabellai y gwehilion a adawyd yn ôl. Y mae rhyw gyssondeb nodedig i'w ganfod rhwng y chwedl lëol uchod, â'r Trïad canlynol, o "Drioedd Ynys Prydain."—"Tair brad gyfarfod Ynys Prydain;—Cyfarfod Afarwy ab Lludd ac y gwŷr difrawd, a roddynt le ar dir i wŷr Rhufain yn Ynys Prydain, ym Mhwyth Mein a Glas, ac nid mwy; a'r diwedd o hyny fu ynnill o wŷr Rhufain Ynys Prydain.—Ail, Cyfarfod Goreu-gwyr y Cymry, ac Arddelwyddiaid y Saeson, ar wastadedd Caer Caradawc, lle bu Frad y cyllyll hirion, o frad Gwrtheyrn Gwrthenau; sef o'i gynghor ef yn gyfrin a'r Saeson, y llâs Dyledogion y Cymry agos oll yno.—Trydydd, *Cyfarfod Medrawd ac Iddawc Corn Prydain, a'u gwŷr, yn Nanhwynain, lle y gwnaethant frâd Arthur; ac o hyny, cadernyd i'r Saeson yn Ynys Prydain.*"[1] Y mae *Edward Lhwyd* yn yr hen ysgrif grybwylledig o'r blaen, yn gwneyd y cofnodiad canlynol am feddau oeddynt gerllaw Llyn Dinas yn ei amser ef;—"Yng nglan Llyn Dinas y mae tri bedd, a elwir beddau 'r tri llanc, a'r tri gwr, a'r tri milwr (sef milwyr Arthur), a Beddau 'r Gwŷr hirion: a dau fêdd, a elwir Bedd y crythor a'i wâs, neu Fedd y crythor du, a'i was."[2] Yr oedd y beddau hyn o fewn y weirglodd fechan sydd yn mhen isaf y llyn; ond wrth wneyd y brif ffordd bresenol, fe aed ar eu traws, fel nad oes i'w weled y pryd hwn ond rhan fechan o ddau o honynt, y rhai sydd yn agos i ben isaf y Rhiw.

Yn agos i Hafod y Llan, y mae yr afon "Ferch" yn ymuno a'r "Llem;" ac ychydig latheni oddiar y lle yr ymunant, y mae yr afon Ferch yn chwyrndreiglo dros glogwyn lled uchel, gan ddisgyn i gorbwll du, dwfn, wrth ei droed. Yn y fan hon, sef o dan y rhaiadr, neu y pistyll hwn, y mae "Ogof y Gwr blewog," am yr hwn yr adroddir chwedlau rhyfedd yn Nanhwynan. Dywedir fod pobl dda y Nant hon yn cael eu blino yn dost ar ryw adeg bell yn ol, gan ryw ysbeiliwr beiddgar ac anadnabyddus, yr hwn a fyddai yn tori i'r tai yn y nos, gan eu hysbeilio o'r ymborth, a phethau eraill, heb i neb ei weled na'i glywed; byddai y geifr a'r gwartheg wedi eu godro yn llwyr erbyn y boreu, mewn ambell i fuches; ac yn fynych collid y defaid brasaf o'r corlanau, er pob gwyliadwriaeth. Buwyd felly am amser maith, yn methu gwybod pwy oedd y lleidr, nac o ba gyfeiriad y deuai: eithr rhyw ddiwrnod, pan oedd un o fugeiliaid y "Bwlch" yn disgyn o'r mynydd; efe a welai glamp o ddyn mawr, yr hwn oedd wedi ei orchuddio a hir-flew cochion, yn eistedd ar fryn, oddiar y Bwlch; ac fel pe y buasai yn gwylio ar y tŷ. Tybiodd y bugail yn y fan, mai yr yspeiliwr oedd efe, a chan fyned yn llechwraidd i'r ty, efe a hysbysodd y teulu o'i ddarganfyddiad, ar hyny rhedasant allan oll i geisio dal yr yspeiliwr; ond, mor fuan ag eu gwelodd hwynt, llamodd ymaith â chyflymder yr ewig, dros fryniau a phantiau, o'u golwg mewn eiliad. Wedi i drigolion y Nant gael trywydd arno unwaith, hwy a'u gwyliasant yn ddyfal; ac un diwrnod hwy a'i gwelsant yn ymheulo ar lethr y Lliwedd, a gollyngasant y cŵn ar ei ol; ond efe a'u gadawai fel ysgyfarnog; a chollasant ef a'i drywydd yn ddïoed. O'r diwedd, aflwyddiant eu mynych geisiadau i'w ddal, a barodd iddynt dybied mai rhyw ellyll diriad ydoedd, fel y rhoddasant i fynu bob ymgais i'w ddal. Yr oedd y pryd hyny ammaethdy lled fawr uwchlaw Hafod y llan; ac ar ryw noswaith, yr oedd gwraig y ty wedi aros ar ei thraed i wylio, gan ei bod yn fenyw o feddwl gwrol, a'i hysbryd wedi ei gynhyrfu gan y mynych golledion a gawsai o bryd i bryd; ac oddeutu canol nos, hi a glywai ryw drwst tua ffenestr y gegin; â dynesodd yn ddystaw tuag yno, a'r fwyall yn ei llaw, a chanfu y Gwr Blewog wedi haner dyfod i mewn trwy y ffenestr; ond mor fuan ag y canfu efe hi, efe a giliodd yn ei ol yn chwim, eithr nid cyn derbyn bwyellawd gan y wraig, nes ydoedd ei law ddehau i ffwrdd oddiwrth ei fraich! Y boreu dranoeth, aed i chwilio am yr yspeiliwr anafus, a dilynwyd ei waed hyd at y pistyll, ac ar ochr y graig, hyd odditan y pistyll, lle y caed fod ogof, yr hon oedd yn anhysbys iddynt o'r blaen. Ni welwyd dim oddiwrth yr yspeilydd ar ol hyn; a bernir iddo farw o'i glwyf yn ei loches, yr hon a elwir hyd heddyw yn "Ogof y Gwr Blewog;" neu, "Ogof Owain Lawgoch."

Y mae yr afon "Ferch," yn dyfod i waered o "Gwm Merch," yn y Lliwedd: ac y mae y chwedl ramantus a ganlyn yn cael ei hadrodd am y Cwm hwn yn Nanhwynan:—"Yr oedd 'Noswaith Lawen' ar ryw achlysur, yn cael ei chadw yn y Bwlch, pan oedd ieuenctyd y gymmydogaeth wedi ymgynnull, hyd onid oedd y tŷ yn orlawn; ond fe ddygwyddodd i'r noswaith droi allan yn dra ystormus; ac yn y canlyniad, o herwydd ffyrnigrwydd arswydus y dymhestl o'r tu allan i'r tŷ, nid oedd yn noswaith mor lawen o'r tu fewn ag y dysgwylid: yr oedd chwiban cwynfanus y gwynt wrth gael ei wasgu trwy furiau hynafol y tŷ—dygyfor di dor y llyn, a churiad trwm y dyfroedd chwyddedig, a godid yn lluwch yn erbyn y ffenestri, yn boddi sain y delyn, yn creu arswyd yn mynwesau y rhianod, ac yn rhoddi gwedd a thuedd bruddglwyfus i ganeuon a chwedlau y llanciau, fel y penderfynwyd i dori y cyfarfod i fynu yn gynnarach nag arferol. Ond, cyn ei dorri i fynu, fe ddarfu i hen wr y Bwlch, er mwyn cael gweled pwy o'r llanciau oedd y dewraf, roddi herfeiddiad i un o honynt fyned i'r Hafotty yr awr hono, a dyfod a'r aerwy pellaf ynddo i lawr iddynt hwy, cyn i'r cwmni ymwahanu.

[1] *Myvyrian Archaiology*, argraffiad Dinbych, t. d. 403.
[2] *The Cambrian Journal for 1859*, p 209.

Digitized by Google

"Yr oedd tua milldir a haner o ffordd i'r Hafotty, a'r llwybr yn gul a charegog; ac o herwydd ei bod yn noswaith mor erchyll, nid oedd un o'r llanciau yn teimlo nemawr o barodrwydd i fyned, hyd oni edliwiodd y rhianod eu hanwroldeb; pryd y derbyniodd llencyn o Nanhwynan yr her-feiddiad, ac aeth i fynu tua'r Hafotty, trwy yr ystorm erchyll, a'r tywyllwch dudew, ar hyd y llwybr troellog, tros glogwyni clegyrog, ac uchlaw dibynau certh, hyd i'r Cwm. Wedi myned yno, efe a welai oleu yn yr Hafotty, yr hyn a barai syndod iddo, gan ei bod yn rhŷ hwyr ar y flwyddyn i neb fod yno yn hafotta; a bod y lle yn rhy annghysbell i neb dyeithr fod wedi cyfeiliorni; ond efe a aeth yn mlaen yn ddi arswyd; ac fel yr oedd yn myned, efe a glywai adsain dolefau cwynfanus yn taro ar ei glyw;—gwrandawai yn fwy astud,—efallai mai suadau y gwynt yn nghilfachau y creigiau ydoedd; ond, fel yr elai yn mlaen, yr oedd y dolefau yn dyfod yn fwy amlwg; a deallodd mai cri aethus benyw mewn dirfawr boenau oeddynt; prysurodd tu a'r drws, yr oedd hwnw wedi ei folltio oddi fewn; edrychodd heibio i'r ystlys-bost, ac er ei ddychryn, efe a welai fenyw wedi ei rhwymo o flaen eirias o dân anferth, yn cael ei rhostio yn fyw! ciliodd yn ol mewn eiliad, ac âg un hyrddiad egnïol, taflodd y drws i ganol yr hafotty, a rhuthrodd yn haner gorphwyllog i dynu y fenyw o'i phoenydle; yna efe a edrychodd am y ddeu-ddyn a welsai yn ei phoenydio; ond nid oeddynt i'w canfod, oblegid ffoisent ymaith am eu bywyd, ar ei ruthriad disymwth ef i fewn, gan na's gwyddent yn amgenach nad oedd llawer yn ei ddilyn. Gan hyny, efe a gymerodd y fenyw yn ei gôl, ac a'i dygodd i waered i'r Bwlch, ac a'i cyflwynodd i'r hen wr, gan ddywedyd, 'Dyma yr aerwy a gefais yn yr Hafotty. A ydych chwi yn ei adnabod?' Yna, efe a adroddodd yr hanes i'r cwmni; ac ar doriad dydd dranoeth, hwy a aethant i fynu i'r mynydd, i chwilio am y ddau greulonddyn, a chawsant gyrph dau ddyn, wedi cwympo dros glogwyn serth, ac yn hollol feirw! Tybid eu bod wedi cyfarfod marwolaeth anamserol, trwy i'r naill ymlid y llall yn y tywyllwch, nes cwympo o honynt dros y clogwyn! Gwellaodd y fenyw yn fuan, a dywedir iddi gymeryd ei gwaredwr yn wr priod, ac mai disgynyddion o'r briodas hono, yw llawer o drigolion presenol Nanhwynan."

Yn debyg i hynyna yr addroddir y chwedl yn y Nant; a gelwir y Cwm hyd heddyw, yn "Cwm Merch;" a'r afonig a dreigla drwyddo, yn "Afon y Ferch."

Ychydig o'r tu draw i Hafotty prydferth Mr. Wyatt, ar y llaw ddehau, y mae coedlan fechan, lle gynt y safai hen "Gapel y Nant." Y mae hanes y sefydliad hwn, fel yr eiddo y priordy, yn guddiedig yn nhywyllwch ebar-gofiant. Yr oedd y tiroedd cylchynol iddo, fel y gwelir oddiwrth hen Freinlen sydd ar gael, wedi eu rhoddi i fonachod Aberconwy, yr hyn sydd yn rhoddi sail i gredu, mai i'r fonachlog hono y perthynai; ac mai brodyr oddiyno a weinyddent ynddo. Y mae llen gwerin yr ardal yn priodoli ei sefydliad i Madog ab Owain Gwynedd, yr hwn y dywedir iddo fod yn trigiannu yn yr ardal hon. Ymddengys iddo syrthio i adfeiliad ar ol dadgorfforiad y Mynachlogydd; ac y mae *Syr John Wynne* yn ei "Hanes o Deulu Gwydir," yn dywedyd ddarfod i Syr John Williams, Eurych o Lundain, yr hwn oedd frodor o'r ardal hon, ei ail adeiladu ar ei draul ei hun, a rhoddi pum punt yn y flwyddyn i offeiriad Beddgelert, am wasanaethu ynddo. Pan oedd yr henafiaethydd, Edward Lhwyd, o Rydychain, yn yr ardal hon, yn y flwyddyn 1693, yr oedd y Capel yn sefyll yn gyfan; ond, ymddengys ei fod heb ei gyssegru y pryd hwnw;—"Tair gwaith y sylfaenwyd Cappel Gwynen, ag yn ol darogan Rhobin (ne Ddafydd) Ddû, y mae ef etto, ag a fydd byth yn anorphen, sef heb ei gyssegru."[1] Dywedir na chladdwyd ond un corph ynddo erioed, sef corph rhyw hunanleiddiad, yr hyn sydd yn profi dywediad Lhwyd. Tua chan mlynedd sydd er pan ddinystriwyd yr hen Gapel hwn. Y mae chwedl ar lafar gwlad mewn cyssylltiad a'r Capel hwn, yr hon efallai na ddylid ei gollwng i ebargofiant:—"Yr oedd y Capel wedi ei adael i fyned yn adfeiliedig er's amser maith, fel yr oedd y defni yn dyfod trwy ei dô, y coed a'r seddau yn pydru, a'r llyfrau oll wedi eu cymeryd ymaith i Eglwys Beddgelert, oddieithr y Beibl mawr yn unig, yr hwn a adawsid ar y Ddarllenfa. Dygwyddodd i hen wr Clogwyn, Nanmor, o'r enw R. Roberts, fyned heibio i'r Capel ryw ddiwrnod gwlawog; ac efe a drodd i fewn i'r porth, i ochel y gwlaw; aeth i'r Capel, ac yno efe a welai y Beibl yn gen gwyn o lwydni! Wrth ei weled yn pydru, ac yn llwyr ddi les yno, efe a'i cymerodd adref, lle mae yn debyg y cafodd lawer o bleser ac adeiladaeth wrth ei ddarllen. Bu yr hen wr farw yn mhen ychydig flynyddoedd wedi hyn, a dechreuodd rhywbeth flino y teulu yn erwinol yn ddïoed; byddid yn gweled yr hen wr yn ymrithio yn feunosol o amgylch y tŷ, ar y llwybrau, ac yn y caeau. Bu yn cythryblu yn dost felly, hyd oni chafwyd rhyw un digon gwrol i fyned i ymddiddan ag ef; pryd y deallwyd mai y Beibl mawr oedd yn blino ysbryd yr hen Robert: felly, rhoed y Beibl mewn cŵd, ac anfonwyd ef yn ol gyd ag un o'r merched y boreu dranoeth, i'w roddi ar y Ddarllenfa, o'r lle ei cymerasid." Dyma enghraifft nodedig o anwybodaeth ac ofer-goeledd trigolion Gwynedd, ychydig gyda chan mlynedd yn ôl!

Ychydig uwchlaw Llyn Gwynant, ar yr ochr ddehau i'r ffordd, y saif Hafod Lwyddog, (neu "Lwyfog," oddiwrth y coed Llwyfanau a dyfent yno, medd Edward Lhwyd); yr hwn sydd hen adeilad o'r ail ganrif ar bymtheg. Y mae y glaslenyrch ydynt oddeutu y tŷ, a'r olion o rodfeydd celfyddydol sydd ar hyd-ddynt, (er fod rhaib amser, a rhwysg gwladeiddiwch y deiliaid yn y ganrif ddiweddaf, bron wedi eu llwyr ddinystrio), yn tystio fod y lle wedi bod yn drigfa i ryw un o chwaeth goethedig. Y mae *Evans*, yn ei "Hanes o Ogledd Cymru," yn dywedyd mai yma y ganwyd John Williams, yr Eurych, neu y Gof aur, yr hwn oedd yn fab i John Coetmor, trydydd mab ar hugain i Meredydd ab Ieuan ab Rhobert, o Wydir, ger Llanrwst. Efe a aeth i Lundain, ac a gasglodd gyfoeth mawr yno. Yr oedd efe yn Henafiaethydd enwog yn ei oes; ac efe a gynnysgaeddodd *Drayton* a llawer o fanylion perthynol i Gymru, o'r rhai y gwnaeth y bardd ddefnydd helaeth yn ei *Polyolbion*. Efe a roddodd lestri cymmuno i Eglwys Beddgelert, yn gynnwysedig o gwpan a mail arian. Ar y gwpan y mae yr ysgrif hon;—"Donum Johanis Williams Aurificus regis, 1610." Ac o dan y fail, y mae ei arf-bais wedi ei cherf-lunio. Dywedir ddarfod iddo hefyd anrhegu Coleg yr Iesu, Rhydychain, a llawer o lyfrau a llaw-ysgrifau gwerthfawr. Ganwyd iddo

[1] *Cambrian Journal for 1859*, p. 210.

Digitized by Google

dri o feibion, sef Syr John Williams, Barwniad, o Ynys Thanet; Syr Edmwnd Williams, Barwniad, o Marne Hall, swydd Dorset, yr hwn a grewyd yn Farwn yn y flwyddyn 1642; a Syr Maurice Williams, Physygwr i'r Frenines. Fe ddywed *Evans*, ddarfod iddo tua diwedd ei oes, ddychwelyd adref i Gymru, lle y bu farw; ond, gan nad oes yn y plwyf hwn unrhyw gofnod na thraddodiad am dano yn aros, y mae yn debyg nad yn y plwyf hwn y dygwyddodd yr amgylchiad hwnw.

Yn amser Olifer Cromwel, yr oedd un o'r enw Ifan Llwyd yn byw yn yr Hafod, yr hwn oedd yn bleidiwr cryf i'r brenin a'i achos. Dyn mawr, esgyrniog ydoedd, a gwrol i'r eithaf. Un diwrnod daeth haid o filwyr y Senedd heibio i'r Hafod, a throisant i fewn i chwilio am yspail ac ymborth. Yr oedd Ifan Llwyd allan ar y pryd, a phan ddaeth i fewn, efe a ganfu wŷr y Senedd yn eu helpio eu hunain yn rhŷ rwydd yn ei dŷ: yr oedd eu harfau wedi eu rhoddi ar y bwrdd; cymerodd yntau afael yn y rhai hyny yn bwyllog, aeth a hwynt allan, ac a'u taflodd i lawr y rhiw ger y tŷ; yna dychwelodd, ac â'i ddyrnau moelion efe a ymosododd arnynt, ac a'u curodd yn ddi arbed, fel y bu yn dda ganddynt ddianc ymaith, a'u bywydau yn unig yn ysglyfaeth ganddynt! Merch yr Ifan Llwyd hwn, neu wyres iddo, oedd Lowri, gwraig Ellis Wyn, o Las Ynys, awdwr y Bardd Cwsg. Bu farw y Cymro gwrol hwn yn y flwyddyn 1678, yn 78 mlwydd oed, fel y gwelir oddiwrth y gof-lech sydd am dano yn Eglwys Beddgelert.

Wedi ymdroi yn y Nant swynol hon, lawer yn hwy na'n bwriad ar y dechreu, awn rhagom trwy y Pentref i Nanmor, neu Nant y Môr. Y mae y ffordd o'r pentref i Nanmor trwy fwlch rhamantus y "Gymwynas;" a cherllaw y ffordd yn y Gymwynas, ychydig yn nes i'r pentref na'r "Lyfel Goch," yr oedd yn aros gynt, Gadair Rhŷs Goch o Eryri. Yr oedd y gadair yn wneuthuredig o faine gareg, ddigon helaeth i dri wŷr eistedd ochr yn ochr arni; yr oedd ei dwy ochr o ddau faen mawr, wedi eu gosod ar eu penau, a maen cyffelyb, yn ffurfio cefn iddi; ac ar ben y meini hyn, yr oedd maen anferth wedi ei osod, yr hwn oedd yn ffurfio capan diddos uwch ben yr eisteddydd; yr oedd hefyd esgynfa o dri grisyn iddi o'r hen ffordd. Dywedir y byddai Rhys Goch yn dyfod yma beunydd i gyfansoddi ei Gywyddau; a pha le a allasai bardd ei gael yn fwy dymunol, wedi ei gau allan o swn y byd,—yn nghanol gwylltineb anian; ac heb ddim i'w aflonyddu ond ymdwrdd dyddan yr afon Glaslyn wrth ymrolio dros y ceryg, a chwiban süol y gwynt yn agen y Gymwynas, y rhai ydynt yn ddigon i ddeffroi yr awen fwyaf llwfr a dïog!

Yn mhen isaf Rhiw y Gymwynas, y mae llwyn bychan o goed; yn y fan hóno yr oedd y ffordd Rufeinig yn croesi yr afon. Y mae darn o bentan y bont yn aros eto heb ei lwyr ddinystrio. Gelwir y pwll ar ei gyfer, yn "Llyn yr Hen Bont," hyd heddyw.

Bellach dyma ni gerllaw Pont Aber-Glaslyn, ac yn y fan hon y mae Nanmor yn dechreu. Y mae hon yn llettach na'r ddwy Nant eraill; ond nid ydyw y plwyf hwn yn cyrhaedd yn isel i waered iddi: ei derfyn eithaf ydyw afon "Careg-hell-drem," yr hon sydd tua dwy filldir goris Aberglaslyn. Y mae terfyn y plwyf yn rhedeg o'r afon uchod, ar hyd gwely y Dili, hyd i ben y Cnicht, sef, y mynydd pig-fain a welir yn dyrchu i fynu o'r tu cefn i'r Arddu.

Y mae arwynebedd Nanmor yn hynod o fryniawg a charegawg. Yr iseldir sydd yn fras a ffrwythlawn; ond y llechweddi yn garegawg; a'r bryniau a orchuddir gan mwyaf â choed, y rhai ydynt, yn enwedig y derw, o rywogaeth, ac ansawdd ragorol. Tua haner can mlynedd yn ôl, planodd Dr. Thackeray o Gaerlleon, amryw filoedd o goed ffawydd ar dir y Ddol-frïog, y rhai a ffynasant yn rhagorol; ac y maent erbyn hyn yn addurn nodedig i'r Nant.

Cyn gwneuthur Morglawdd Madawg, yr ydoedd y llanw yn dyfod hyd o dan Bont Aberglaslyn; ac y mae yr englyn a ganlyn o waith Dafydd Nanmor, ar gôf a llafar, yr hyn a eglura amserau y gorlanw yn Aberglaslyn:—

> "Yn nydd lloer newydd, ar naw—o'r gloch,
> Y gwlŷch y llanw eithaw;
> Y llawn ddydd y llanw a ddaw
> I'r un nod a'r newidiaw."[1]

Ac er mwyn y rhai hyny a fyddent yn croesi y Traeth Mawr, y mae yr englyn a ganlyn yn nodi yr amserau y byddai y llanw yn wyllt a pheryglus:—

> "Lleuad yn Nwyrain, neu Orllewin—llon,
> Wna'r llanw du ysgethrin;
> Deau a Gogledd, medd y min,
> Trŷ ffrydiau trai cyffredin."

Yr oedd Gorad gynt, yn mhen uchaf Llyn y Bont, yr hon oedd yn feddiant i'r Tywysogion Cymreig; ac yr ydoedd yn cael ei dal dan y goron, gan deulu Cesail Gyfarch, hyd amser Harri yr Wythfed, pan yr aeth, yn nghyda meddiannau yr hen Brïordy, yn feddiant personol i'r tir-feddianwyr cyffiniol. Yr oedd hon, yn nghyda "Gorad Sion Wyn" yn uwch i fynu, yn cael eu dal dan ardreth hyd wneuthuriad y Mor-glawdd; pan aethant yn ddi werth, ac eu gollyngwyd i adfeiliad.

Oddiar y bont, ar ben y bryn, ar y ddehau, y mae adfail hen bentref y cyn-frodorion, lle y gellir olrhain naw neu ddeg o anneddau crynion, tua deuddeg troedfedd o draws-fesur; ac y mae yno adfail un hen adeilad hir-gul, fawr, led debyg i furddyn Hafod Ernallt. Ychydig gor-îs y bont y mae hen bentref yr Aber, yr hwn oedd yn lle o bwys pan oedd y môr yn dyfod yno; gan mai yno yr oedd y prif borthladd ar y Traeth Mawr; ac yma yr adeiladid y rhan fwyaf o'r llongau a berthynent i'r Traeth. Yr ydoedd yn lle nodedig am Nwydd-redwyr (*Smugglers*), a'u cuddfa oedd hen ogof ddofn yn agos i Hafod y Llyn, a elwir hyd heddyw, "*Ogof y Smugglers.*"

Un o'r lleoedd a alwant am ein sylw yn mlaenaf yn y Nant hon, ydyw Hafod Garregog, hen annedd Rhŷs Goch o Eryri. Nid oes dim o hen Blâs y Bardd yn aros yn bresenol, ond dywedai yr hen bobl a'i cofient yn agos i ddiwedd y ganrif o'r blaen, ei fod yn dŷ helaeth, wedi ei adeiladu yn yr arddull croes. Yr oedd y gegin yn fawr iawn; a'r ystafelloedd eraill yn eang, ond eu bod yn lled isel. Pan brïododd aeres yr Hafod, sef Jane Wynn, â'r Parch. Saccheus Hughes, o Drefan, hi a ymadawodd o'r Hafod, gan gymeryd pob peth o nod gyda hi i Drefan; ac yn mhlith pethau eraill, hen ddodrefnyn teuluaidd, sef gwely yr hen Fardd enwog; a gadawyd

[1] Sylwer y byddai y gorllanw yn hwyrach yn Aberglaslyn oddeutu tri chwarter awr nag yn Mhorth y Gest, yr hwn fyddai tua chwarter wedi wyth o'r gloch.

Digitized by Google

i'r hen balas syrthio i adfeiliad. I fynu, ychydig oddiar yr hen ffordd, ac oddeutu milldir o Bont Aberglaslyn, y mae lle a elwir y Tŷ Mawr. Gerllaw hwn y mae hen adeilad, a ddefnyddir yn bresenol, mewn rhan yn feudy, ac ysgubor, a thŷ annedd: yr adeilad hwn ydyw hen Gapel Nanmor; ac ni's gallwn lai na theimlo yn ofidus, wrth ganfod yr hen gyssegrfa wedi ei halogi yn y fath fodd. Maint y Capel hwn o'r tu fewn i'r muriau, sydd oddeutu wyth lath wrth chwech. Yr oedd y prif ddrws yn yr ochr ogleddol, yr hwn oedd yn yr arddull pig-fain henafol; yr oedd ffenestr hefyd yn yr un ochr, o gyffelyb ffurf; ac un arall yn y pen gorllewinol; a dwy ffenestr gyffelyb, yn nghyd a drws bychan yn yr ochr ddeheuol. Ymddengys fod y rhan yma o blwyf Beddgelert, yn perthyn i Lanfair yn Ardudwy, ar adeg dra boreuol; ac felly, Capel perthynol i Lanfair ydoedd hwn. Yr ydoedd drws yn hen Eglwys Llanfair, a elwid "Drws Gwŷr Nanmor;" ac yr ydoedd drws yn ochr ddeheuol Eglwys Beddgelert, a elwid "Drws Gwŷr Nanmor ac Ardudwy."

Y mae llen gwerin yn Nanmor yn rhoddi y rheswm canlynol am uniad Nanmor â phlwyf Beddgelert. Yr oedd Nanmor, fel y dywedwyd, yn perthyn i blwyf Llanfair; ac am hyny, yr oedd holl dir-ddeiliaid Nanmor, yn rhwym o fyned i Lanfair i gymmuno ar bob Sul Pasg. Un tro, yr oeddynt wedi myned gyd a'u gilydd tuag yno, a phan aethant at lan y Traeth Bach, yr ydoedd yn llenwi yn brysur, fel na allent fyned trwodd; ond hwy a ymresymment a'u gilydd, os elent trwy Faentwrog, y byddent yn rhŷ hwyr i'r gwasanaeth; ac felly hwy a gyttunasant i geisio rhydio y Traeth, trwy ymaflyd y naill yn nwylaw y llall, a myned trosodd yn rhês; ond, pan ar ganol y Traeth, hwy a gollasant eu traed, a boddodd pob un o honynt! O herwydd y dygwyddiad galaethus hwn, fe unwyd Nanmor a phlwyf Beddgelert; ac o hyny allan, Offeiriaid Beddgelert a wasanaethent yn Nghapel Nanmor.

Y mae chwedl wahanol ar hyn yn cael ei hadrodd yr ochr arall i'r Traeth. Dywedir yno y byddai Offeiriad Llanfair yn myned i wasanaethu yn Nghapel Nanmor, un Sul o bob mis. Eithr rhyw dro yn y Gauaf, yr oedd yr Offeiriad yn dychwelyd adref, wedi bod yn lled hwyr yn y gosper, fel yr ydoedd wedi myned yn nos arno cyn cyrhaedd o hono y Traeth Bach. Efe a aeth dros y Traeth yn ddïogel; ond erbyn iddo gyrhaedd at y gamlas sydd rhwng Cefn Trefor a Phen-bryn-isaf, yr oedd y ffrwd sydd yn rhedeg o Lyn Tecwyn wedi codi, a'r gamlas wedi chwyddo yn uchel; ac yntau, heb wybod am y chwyddiad, a aeth trwodd yn ol ei arfer; ond y cerhynt a'i hysgubodd ef a'i farch, fel y boddasant! O herwydd yr anffawd hon, meddynt hwy, y rhoddwyd Capel Nanmor yn gyfnewid i Briordy Beddgelert, am ddarn o dir oedd yn mhlwyf Llanenddwyn yn perthyn i'r Prïordy, yr hwn a adweinir wrth yr enw,—"Y Parsel tu hwnt i'r Bont."

Y mae y gamlas lle y dywedir i'r Offeiriad foddi ynddi, yn cael ei galw hyd heddyw, yn "Gamlas yr Offeiriad." Efallai fod y ddau amgylchiad anffodus a grybwyllwyd uchod wedi cymeryd lle, a bod y naill a'r llall wedi bod yn achlysur i uno Capel Nanmor â Beddgelert.

Ychydig yn mhellach na'r Ty Mawr, ar y llaw aswy i'r ffordd, yn ymyl Adwy y Ddôl, y mae murddyn yr hen Ddol-frïog yn aros, cartref "Gwen o'r Ddôl," cymmydoges serchog Dafydd Nanmor a Rhŷs Gôch; at yr hon y mae cyfeiriadau mynych yn eu cyfansoddiadau barddonol.

Yn uwch i fynu, y mae Hafotty prydferth Mrs. Jackson, a chyferbyn ag ef, ar yr ochr arall i'r afon, y mae "Cae Dafydd Nanmor," dysgybl enwog ac awenyddawl Rhŷs Gôch. Cafodd y ty hwn ei adnewyddu yn ddiweddar gan Mr. Priestley o Hirdrefaig, i'r lle y bydd y teulu yn dyfod i drigiannu am ryw yspaid yn achlysurol. Y mae traddodiad yn dywedyd fod Tan y Rhiw, a Chae Ddafydd, yn rhan o ettifeddiaeth yr Hafod Garegog gynt; a darfod i Rŷs Gôch anrhegu Dafydd Nanmor â hwynt. Gwel DAFYDD NANMOR, RHYS GOCH.

**BEDO AB HYWEL BACH**, bardd a flodeuai yn nechreu yr ail ganrif ar bymtheg.

**BEDO AEDDRAN**, neu AURDREM, neu, yn ol Edward Lhwyd, AYRDRAIN, oedd fardd o gryn enwogrwydd, ac yn ei flodau rhwng 1480 a 1510. Mae llawer o'i ganiadau ar gael mewn ysgrifau, ac ymddangosodd enwau a llinellau cyntaf, un ar ddeg o honynt ar amlen *Greal* Llundain, yn y flwyddyn 1806.

**BEDO HAFHESP** ydoedd fardd, fel y tybir, o swydd Drefaldwyn, ac a adawodd ar ei ol rai ysgrifau, a gyfansoddwyd yn ol y *Cambrian Biography*, tua 1500; ond yn ol *Welsh Bards* (Jones), yn 1590 y cyfansoddwyd hwynt.

**BEDO PHYLIP BACH**, bardd a flodeuai tua 1480. Mae amryw o'i ganiadau ar gael mewn casgliadau ysgrifenedig; ac ymddangosodd enwau a llinellau cyntaf naw o honynt, ar amlen *Greal* Llundain.

**BEDWAS**, SANT, oddiwrth yr hwn y tybir fod Llan Bedwas, yn swydd Fynwy, wedi cael ei henw, er fod Baroc yn cael ei gyfrif yn gyffredin fel ei nawdd-sant. Yn ol achau y Saint Cymreig, yr oedd Bedwas yn un o ddeuddeg meib Helig ab Glanawg, y rhai mewn canlyniad i orlifiad tiroedd eu tad gan y môr, a ymroddasant i fuchedd grefyddol, ac a ymneillduasant o'r byd, yn Mangor Fawr yn Maelawr; ac wedi hyny, rhai o honynt a aethant i Fangor Cadfan, yn Enlli. Yr ydoedd Bedwas a'i frodyr, yn byw yn amser Rhun ab Maelgwyn.

**BEDWINI**, a grybwyllir yn y Trïoedd, fel Archesgob y Gelliwig, yn Nghernyw, yr hon yn nghyda Chaerlleon ar Wŷsg, a Chaer Rhianedd yn y Gogledd, a ffurfient dair archesgobawd Prydain yn amser y brenin Arthur. Y mae dywediad o'i eiddo ar gôf a chadw, yn Englynion y Clywed:—

"A glyweist ti a gant Bedwini,
Oedd esgob doniawg difri?
'Rhagreithia dy air cyn noi ddodi.'"

**BEDWYR**, un o ryfelwyr dewraf Arthur, oedd fab Pedrawg, yn ol y Trïoedd; neu "Bedrawd," fel ei hysgrifenir yn Mabinogi Geraint ab Erbin; neu "Pedrod," yn ol y Brut. Ymddengys ei fod yn y swydd o ben-trulliad yn llŷs y pennadur hwnw. Yn ol Chwedloneg, yr ydoedd yn un o'r ddau farchog a ddetholai Arthur i'w ddilyn ef i Fynydd St. Michael, yn Normandi; i ddïal marwolaeth Helen, nith Hywel ab Emyr Llydaw, yr hon a ddygasid ymaith, ac a lofruddiasid gan gawr o faintioli anferth; ac wedi gorchfygu o Arthur holl Ffrainc, efe a roddes Iarllaeth Normandi i Fedwyr. Wedi hyny, dywedir ei fod ef yn llywyddu aden o'r fyddin, yn y frwydr enwog yn yr hon y gorchfygodd Arthur y Rhufeiniaid, dan Lucius, yn nyffryn y Seine, ac yn y frwydr

Digitized by Google

hono y lladdwyd Bedwyr, wedi ei drywanu â phicell gan Bocchus, brenin Media, yr hwn a gymerwyd yn garcharor yn fuan wedi hyny; ac efe a roddwyd i farwolaeth ar gorff Bedwyr. Efe a gladdwyd yn Bayeux, dinas a seiliasai ef ei hunan, i fod yn ben tref ei Iarllaeth o Normandi. Dyna yr hanes a roddir am dano yn y Brutiau Cymreig, y rhai ydynt yn gwahaniaethu oddiwrth ffughanesion eraill, y rhai a ddarluniant Bedwyr yn fyw, pan oedd Arthur ar farw, a'i fod wedi ei ddewis gan y brenin i fwrw ei gleddyf i'r llyn. Crybwyllir Bedwyr yn y Trïoedd hefyd, lle wrth son am Trystan ab Tallwch, Huail ab Caw, a Cai ab Cynyr, fel "tri thaleithiawc câd," y priodolir i Bedwyr oruchafiaeth ar y tri:—"Ac un oedd daleithiawc arnaddynt wynteu ell tri; Bedwyr, mab Pedrawc oedd hwnw." Crybwyllir y man ei claddwyd hefyd yn Englynion y Beddau; ac nid yw hyn ychwaith yn cyttuno a'r hanes a roddir yn y Brutiau:—

"Bedd mab Osfran yn Nghamlan,
Gwedi llawer cyflafan:
Bedd BEDWYR yn Allt Tryfan."

BEDYDDWYR CYMRU.—Mae y Bedyddwyr yn mhob gwlad ac yn mhob oes yn ymgyfarfod fel corff crefyddol ar yr egwyddor fawr hon, sef, *Mai eglwys weledig Iesu Grist, wedi ei gwisgo mewn ffurf efengylaidd, yw y deyrnas a sefydlodd efe ar y ddaear; a bod hon, fel gwir gorff Crist, yn cael ei gwneyd i fyny o wir aelodau; fel ei braidd, o werth ei waed; fel ei ddyweddi, o wrthddrychau penaf ei gariad; ac fel ei deyrnas, o ddeiliaid ufudd iddo: a bod ei hordinhadau i gael eu gweinyddu, ei hymarferiadau i gael eu rheoleiddio, a'i dysgyblaeth i gael ei chario yn y blaen, yn ol ei Air ef yn unig.* Credant mai hwy yw y *blaid* a sefydlodd Crist a'i apostolion; felly eu bod yn hŷn na dim crefyddwyr eraill, ac na's gallant fod yn ymneillduwyr oddi wrth neb, ond mai oddiwrthynt hwy yr aeth pob plaid arall allan, ac mai dirywiad oddi wrth egwyddorion y Bedyddwyr, yw pob ffurf arall o Gristionogaeth. Adweinid hwynt mewn gwahanol oesoedd ac mewn gwahanol wledydd wrth wahanol enwau, megis, Montaniaid, Novatiaid, Donatiaid, Manicheaid, Pauliaid, Waldensiaid, Albigensiaid, Cathariaid, Gundulphiaid, Berengariaid, Paterniaid, Petrobrusiaid, Arnoldiaid, Hussiaid, &c. &c.: a rhwymyn eu hundeb yn mhob oes, oedd ffydd yn Nghrist, a'r ffydd hono yn cael ei hamlygu yn gyhoeddus, mewn ymostyngiad gwirfoddol i'w awdurdod a'i athrawiaeth yn y *bedydd.* Am hyny gelwid hwy hefyd, yn lled foreu, yn "Ail-fedyddwyr," ac wedi hyny yn "Wrthwynebwyr bedydd plant." Ond nid yw y Bedyddwyr eu hunain erioed wedi arddel un o'r ddau enw. Gwrthodant y cyntaf, am nad ydynt byth yn *ail-fedyddio* neb, os bydd wedi ei fedyddio yn iawn y waith gyntaf; a gwrthodant yr ail, am nad yw gwrthwynebu bedydd plant, yn gwneyd i fyny un rhan o'u cyfundrefn, ond fel ag y mae yn dyfod yn achlysurol ar eu ffordd, wrth amddiffyn bedydd y crediniol. Oblegid gwrthwynebant fedydd yr oedranus, yr un modd a bedydd plant, os na byddant yn proffesu ffydd yn Nghrist.

Dywed Bedyddwyr presenol Prydain ac America, y gellir olrhain eu hanes hwy yn ol trwy yr Anghydffurfwyr, y Puritaniaid, y Lolardiaid, y Waldensiaid, y Pauliaid, ac eraill, at yr Apostolion. A dwg Mosheim, y gweinidog Lutheraidd, a'r hanesydd enwog, ei dystiolaeth i wirionedd hyny yn y geiriau canlynol:—"Gellir sylwi, yn gyntaf, nad yw y Mennoniaid yn hollol gamsynied pan yr ymffrostiant yn eu disgyniad o'r Waldensiaid, Petrobusiaid, a hen sectau eraill, y rhai a arferir ystyried fel tystion y gwirionedd yn yr amseroedd o dywyllwch a choelgrefydd cyffredinol. Cyn cyfodiad Luther a Chalfin, gorweddai yn guddiedig, bron yn holl wledydd Ewrop, yn enwedig yn Bohemia, Morafia, Switserland, a Germani, lawer o bersonau, y rhai a ymlynent yn afaelgar wrth yr athrawiaeth ganlynol, yr hon a ddaliai y Waldensiaid, Wickliffiaid, a'r Hussiaid—rhai dan fwy o orchudd, eraill yn fwy agored a chyhoeddus; sef, Mai cynulleidfa o wir a sylweddol saint yw teyrnas Crist, neu yr eglwys a sefydlodd efe ar y ddaear, ac y dylai am hyny fod yn anhygyrch i'r drygionus a'r annghyfiawn, ac yn rhydd hefyd oddiwrth yr holl sefydliadau a ddyfeisiodd doethineb ddynol er attal cynydd anwiredd, neu geryddu a diwygio y troseddwyr. Yr egwyddor hon yw gwir ffynonell yr holl neillduolion a geir yn athrawiaeth a dysgyblaeth y Mennoniaid, ac mae yn eithaf sicr, y cymeradwyid y rhan fwyaf o'r neillduolion hyn gan lawer o'r rhai, cyn gwawr y Diwygiad, a goleddent y farn a nodwyd eisoes am eglwys weledig Crist. Ysbrydoedd ymollyngol y bobl hyn, y rhai a wasgarasid trwy wledydd lawer, ac a erlidid yn mhob lle gyda'r llymder eithaf, a adfywiasant pan glywsant fod Luther, trwy gymorth llawer o bersonau enwog mewn duwioldeb, wedi cynyg yn llwyddianus, ddiwygiad yn yr eglwys." (*Eccles. Hist.*, Cent. xvi., chap. iii.)

Felly mae yn canlyn o angenrheidrwydd, gan nad wrth ba enwau yr adweinid yr hen Gristionogion, ag oeddynt, cyn cyfodiad Luther a Chalfin, "yn cael eu hystyried yn dystion i'r gwirionedd yn yr amseroedd o dywyllwch ac ofergoeledd cyffredinol," oddiwrth ba rai hefyd y derbyniodd y Mennoniaid holl neillduolion eu hathrawiaeth a'u dysgyblaeth grefyddol, "y rhai," medd Mosheim mewn lle arall, "ni dderbynient neb i'r ordinhad o fedydd ond a fyddai wedi dyfod i gyflawn ddefnydd o'u galluoedd rhesymol,"—mae yn canlyn, meddwn, eu bod yr un, o ran eu hathrawiaeth a'u dysgyblaeth, a'r Bedyddwyr presenol; ac am hyny mae yn rhaid mai yr un cyfenwad oeddynt.

A phan darfu i Frenin Holand benodi dau ddyn tra dysgedig a galluog, sef Dr. Ypeig, Proffeswr Duwinyddiaeth yn Mhrif Ysgol Gronigen, a Dr. J. J. Durmont, Ysgrifenydd Cymanfa Gyffredinol yr Eglwys Ddiwygiedig yn yr Iseldiroedd, i chwilio i mewn i hanes a tharddiad y Bedyddwyr Ellmynaidd, cyhoeddasant eu gwaith yn Breda, yn 1819, a thyma eu casgliad:—"Yr ydym yn awr wedi canfod mai y Bedyddwyr, y rhai gynt a elwid Ail-fedyddwyr, ac mewn amseroedd diweddarach, Mennoniaid, oedd y Waldensiaid gwreiddiol, y rhai am gyhyd o amser, a dderbyniasant yn haeddianol y fath anrhydedd yn hanes yr eglwys. Ar gyfrif hyn gellir ystyried y Bedyddwyr fel yr unig blaid, neu gyfundeb Cristionogol, sydd wedi parhau er dyddiau yr apostolion, ac fel cymdeithas Gristionogol sydd wedi cadw athrawiaethau yr efengyl yn bur trwy yr holl oesoedd. Tuedda trefniant allanol a mewnol perffaith gywir enwad y Bedyddwyr, i gadarnhau y gwirionedd a amheuir gan Eglwys Rhufain, fod y diwygiad a ddygwyd oddiamgylch yn y graddau mwyaf uchel yn angenrheidiol, ac ar yr un pryd, â i'ddym-

Digitized by Google

chwelyd tybiaeth gyfeiliornus y Pabyddion mai eu cymundeb hwy yw yr un mwyaf henafol."

Y mae llu mawr o ysgrifenwyr o bob tu i'r werydd, yn hawlio i Gymru yr anrhydedd o fod wedi cadw Cristionogaeth yn ei phurdeb apostolaidd, yn hwy nag un wlad arall yn Ewrob. Fel hyn y geiria G. Smith, F.A.S., y syniad hwn yn ei *Religion of Ancient Britain*:—"Mae un amgylchiad, fodd bynag, yn ymddangos yn sicr, sef fod Cristionogion Prydain, yn ystod y ganrif gyntaf a'r ail, yn mwynhau eithriad dedwydd oddiwrth gyfeiliorniadau athrawiaethol ag oeddynt yn poeni rhanau eraill o'r eglwys. Fe gyfododd amryw hereticiaid yn Asia, ac yn yr Aifft, y rhai a ddygasant i mewn amryw ddaliadau crefyddol a fuont yn rhwystrau ar ffordd mynediad yr Efengyl yn mlaen; ond fe gafodd Cristionogion Prydain eu cadw rhag y pethau hyn, o herwydd eu pellder mawr oddi wrth y lleoedd hyny, yn nghyd a'u sefyllfa ynysawl. Parhausant yn hir i fwynhau goleuni yr Efengyl yn ei burdeb cyntefig; ac yr oedd hyn yn gynorthwy nid bychan i lwyddiant mewnol, yn nghyda diogelwch allanol yr eglwys ieuanc yn Mhrydain, ac i'w chadw rhag llawer o'r gofidiau a syrthiasant i ran eglwysi eraill, y rhai a lygrwyd trwy yr heresiau hyn." Ac ar y ffaith fawr hon mae dosbarth pwysig o haneswyr yn sylfeinu eu prawf mai eglwysi Bedyddiedig oedd holl eglwysi boreuol Prydain; hyny yw, eu bod yr un, o ran barn ac ymarferiad am ddull a deiliaid Bedydd, â Bedyddwyr yr oes bresenol. Nis gallwn hebgor lle, ond yn unig i'r prif ffeithiau, y rhai sydd yn gwneyd i fyny gadwen yr ymresymiad:—

1. Bod perffaith sicrwydd bod Cristionogaeth wedi dyfod i Brydain yn yr oes Apostolaidd; ac felly ganrifoedd cyn i Rufain Babaidd drawsfeddianu yr awdurdod eglwysig uwchaf, a llygru ordinhadau yr efengyl. Profir hyn gan Tertullian, yr hwn a flodenai tua chanol yr ail ganrif, a'r hwn wrth enwi y gwahanol genedloedd ag oeddynt y pryd hwnw wedi derbyn Cristionogaeth, sydd yn nodi "terfynau yr Yspaeniaid, holl genedloedd gwahanol Gaul, ar parthau hyny o Brydain ag oeddynt yn annghyraeddadwy i'r Rhufeiniaid."

Origen, hefyd, yr hwn a flodenai yn nechreu y drydedd ganrif, wrth ddangos cyflawniad y prophwydoliaethau am Grist, a ofyna, "Pa bryd cyn dyfodiad Crist, y darfu i wlad Prydain gyduno yn addoliad yr un Duw?"

Theodoret, yn nechrau y bumed ganrif, wrth siarad am y Cenedloedd a dderbyniasant yr efengyl gan yr Apostolion, a enwa yn eu plith, "Y Prydeiniaid, y Cimmeriaid ar Germaniaid; fel y gellir dywedyd mewn un gair," meddai, "bod holl lwythau gwahanol dynoliaeth, wedi derbyn deddfau y Croeshoeliedig!"

A'n cydwladwr Gildas, yr hwn a ysgrifenodd yn y chweched ganrif, a'n sicrha bod yr efengyl wedi dyfod i Brydain tua'r flwyddyn 61. Ar ol dangos y sefyllfa druenus yr aeth y Cymry iddi mewn canlyniad i'w gwrthryfel o dan Buddug, tua O.C. 61, efe a ddywed:—"Yn y cyfamser, Crist, y gwir Haul, a dywynodd ei belydrau, hyny yw, gwybodaeth o'i orchymynion i'r Ynys hon, yr hon oedd yn crynu mewn oerni rhewllyd." Felly, os daeth Cristionogaeth yma mor foreu a hyny, mae yn rhaid ei bod wedi dyfod yma yn ei phurdeb cyntefig.

2. Ei bod yn ffaith hanesyddol, tuhwnt i bob dadl, mai trochiad credinwyr yn Nghrist oedd rheol sefydlog yr holl fyd Cristionogol yn yr oes hono.

3. Mai yn Affrica, yn y drydedd ganrif, y dechreuodd bedydd plant, a'i fod yn un o ffrwythau uniongyrchol yr heresi Babyddol o ailenedigaeth yn y bedydd. Canys dywed Hippolytus, dysgybl Irenæus, ac esgob Portus, llyfr yr hwn "Ar bob Heresiau" a ddarganfyddwyd yn ngwyryfdy mynydd Athos, yn 1842; ac a ysgrifenwyd yn y drydedd ganrif, (225–230) "Ni wnaethom yn ein dyddiau ni amddiffyn bedydd plant, yr hwn yn unig *yn fy nydd i a ddechreuodd* gael ei arfer mewn rhai manau; ond fel eithriad a newydd-beth. Nid ydym yn adnabod bedydd *babanod*." Ac ychwanega Chevalier Bunsen, ei gyfieithydd, "Yr oedd bedydd babanod yn ei ystyr ddiweddar, gan olygu bedydd babanod newydd eni, gydag addewidion dirprwyol rhieni neu feichniaid eraill, yn hollol anadnabyddus i'r eglwys foreuol, nid yn unig i lawr i ddiwedd yr ail ganrif, ond yn wir hyd ganol y drydedd." Cyf iii., tud. 180.

4. Mae yn ffaith na chydnabyddwyd bedydd babanod gan un Gyngorfa yn Ewrob, hyd oni wnawd hyny yn yr Yspaen, yn nechreu y chweched ganrif. Er iddo gael ei gydnabod gan saith a thriugain o esgobion yn Nghyngorfa Carthage, yn Affrica, yr hon a alwyd yn nghyd gan Cyprian yn y flwyddyn 257; a derbyn sel Cystenyn Fawr, yn y bedwaredd ganrif, pan y cyflwynodd ef ryddid i'w gaethion ar yr amod iddynt gymeryd eu bedyddio, a gwobr arianol i eraill am iddynt gofleidio Cristionogaeth, fel y cawn i 12,000 o ddynion, heb law gwragedd a rhai dan oed (*minors*) gael eu bedyddio yn yr un flwyddyn; er i Gregory, esgob Caergystenyn, esbonio y pwnc, a dyweyd:—"Ond dywed rhai, pa beth yw eich barn am fedydd babanod nad ydynt yn gallu barnu am ras bedydd nac am y niwaid a oddefir yn ei absenoldeb? A fedyddiwn ni hwy hefyd? *Yn ddiau os bydd perygl ymddangosiadol;* oblegid byddai yn well eu santeiddio heb yn wybod iddynt, nag iddynt farw heb eu santeiddio a'u dwyn i mewn. O barthed *eraill*, rhoddaf fy marn, pan fyddont dair blwydd oed, neu gerllaw hyny (oblegid y pryd hwn byddant yn alluog i wrando ac ateb rhai o'r geiriau dirgelaidd; ac er nad ydynt yn eu cwbl ddeall, gallant dderbyn argraffiadau), gellir eu santeiddio gorff ac enaid trwy ddirgelwch mawr y dygiad i mewn;" ac er i ddeddf, a melldith yn nglŷn a hi, gael ei chyhoeddi gan Gyngor Mela (Affrica, unwaith eto!) yn y flwyddyn 417, sef, "Hefyd ewyllys yr esgobion yw gorchymyn pwy bynag a wado fod babanod newydd eni o'u mamau i gael eu bedyddio, neu a ddywedo fod bedydd i gael ei weinyddu iddynt er maddeuant o'u pechodau eu hunain, ac nid ar gyfrif y pechod gwreiddiol deilliedig trwy Adda, ac i gael ei lanhau trwy olchiad yr adenedigaeth—bydded felldigedig;" er y cyfan meddir, mae yn ffaith na fabwysiadwyd bedydd babanod gan un Gyngorfa yn Ewrob hyd y flwyddyn 417, pan y cytunodd saith gweinidog yn Ninas Gerona, yn yr Yspaen, ar ddeg o reolau dysgyblaeth, ac un o honynt oedd, "Eu bod yn cydsynio i fedyddio y rhai oedd dan arholiad (*Catechumens*) yn unig ar y Pasg a'r Sulgwyn, oddi eithr mewn amgylchiad o afiechyd. A chyda golwg ar fabanod os byddent yn *glaf, ac yn gwrthod sugno llaeth eu mamau*, ac os cynygid hwy iddynt, eu bod i'w bedyddio, pe buasai hyny ar y dydd y ganwyd hwynt." Dyma y cydnabyddiad cyntaf o fedydd babanod yn Ewrob.

5. Nad oes un engraifft wedi ei darganfod yn

Digitized by Google

hanes yr hen eglwysi Cymreig am y pedair canrif gyntaf ag sydd yn ymylu ar ddim sydd yn debyg i fedydd babanod. Nid oedd un cyfathrach wedi bod rhwng eglwysi Cymru ar Babaeth hyd oni anfonwyd Garmon a Bleiddian yma yn 429, i'r dyben o ddiwreiddio Morganiaeth, a sefydlu Esgobiaethau; a pha un bynag a oedd llaw gan Awstin a'r Pab yn anfoniad y cenadon hyn, fel y myn Ysgrifenwyr Pabaidd fod, ai ynte nad oedd, fel y ceisia Dr. Stillingfleet brofi, y mae yn ddigon sier mai trwyddynt hwy y dygwyd Mynachlogydd, Esgobaethau, a Ffurfweddiau (*Liturgies*) gyntaf erioed i'r Ynys hon; ac fe ddichon mai hwy fu yr offerynau i ddwyn bedydd babanod yma hefyd.

Ond oddiwrth y ffaith uchod fe welir nad yw yr hyn a ddywed dosbarth o Ysgrifenwyr am *Pelagius y Mynach*, yr hwn a eilw y Cymry, Morgan, a'i berthynas â Bangor-Iscoed, yn ddim ond chwedl ddisail. Oblegid yr oedd Pelagius yn Rhufain yn cael ei gyhuddo o heresi yn y flwyddyn 394, yn ol Bede, neu 405, yn ol Vossius ac Usher; ac yr oedd hyny yn agos i gan mlynedd cyn i Bangor-Iscoed gael ei sylfeinu gan Dunod Fawr. Y mae yn aros i'w brofi eto a oedd rhyw gyssylltiad rhwng Pelagius a Chymru o gwbl. O'r hyn leiaf, mae y fath dywyllwch yn gorchuddio ei hanes fel nad yw yn ddiogel i neb ddilyn Calamy a Wall i edrych arno fel engraifft o olygiadau y Cristionogion Prydeinig ar yr ordinhad o fedydd.

6. Mae pob tebygoliaeth yn dangos na chydymffurfiodd nifer luosog o'r Eglwysi Prydeinig erioed a Phabyddiaeth. Ar y tir hwn yn unig y gellir rhoddi cyfrif am waith Mynachod Bangor-Iscoed, tu a'r flwyddyn 603 yn dewis marw yn hytrach nag ymostwng i awdurdod y Pab, a derbyn ei ddefodau, Un o ba rai oedd, "Gweinyddu bedydd trwy yr hwn ein hail-enir i Dduw yn ol arferiad Eglwys Santaidd Apostolaidd Rhufain." Yr hyn yn ol Fabian a Thierry, y ddau awdurdod uwchaf ar y pwnc hwn, a olygai, "Fod iddynt roddi Cristionogiad i'w plant." Ond gan na phlygai yr hen Gristionogion Cymreig i awdurdod yr adyn ffromfalch hwn, efe a anogodd y Seison arfog i ymosod arnynt, fel y rhifwyd dros ddwy fil o honynt i'r cleddyf, ac y llwyr ddinystriwyd y Fynachlog a'i llyfrgell werthfawr!

Ond er i'r grefydd Babaidd gael ei gwthio ar Gymru trwy gleddyf y Seison, eto hi a fethodd gael gafael ar y wlad am yn agos i gant a haner o flynyddoedd ar ol hyn; megis y profa y llythyr rhyfedd a ddanfonodd y Gymanfa Babyddol yn Lloegr at Geruntius, tywysog Cernyw, yn y flwyddyn 692, i ddeisyf arno i arferyd ei ddylanwad i ddwyn gweinidogion Deheubarth Cymru i gydymffurfio a thraddodiadau a defodau Eglwys Rhufain.[1] Ac ni chafodd byth afael mor llwyr fel nad oedd yma rai o hyd yn parhau i ymlynu wrth yr hen egwyddorion, megis y profa gweithiau y Beirdd, y rhai medd Peter Roberts, a wrthsafasant drawsfeddiant y Babaeth o amser Taliesin hyd y Diwygiad; ac ynddynt hwy y gwelir yn amlwg fod y syniad Apostolaidd am ddull a deiliaid bedydd yn parhau yn Nghymru trwy yr holl oesau tywyll i gyd. Cawn y llinellau canlynol ar enw Taliesin, 6ed ganrif:—

"Gwae a *gymerth* fedydd
A chred a chrefydd
Onis *tystia*."

[1] Cressy *Ch. Hist.*, B. xix., chap. 17. *Hanes Crefydd Yn Nghymru*, tud. 212.

Ionas Mynyw, yn y 13eg ganrif a ddywed:—

"Pan ydoedd ein Rhen
Hyd dros ei ddwyen
Yn nwfr Urddonen
Yn nirwestfa."—

Gwalchmai ab Meilir yn yr un ganrif, a ddywed:—

"Aeth i gymryd Bedydd—
Diau Fab Duw nef yn nwfr echwydd."—[h.y. Llonydd.]

Y Ficer o Lanymddyfri (dechreu 17eg ganrif) yn ei agoriad i *Catechism Glwys Loegr*, a ddywed:—

Holiad.—Beth yw y nod gweledig, a'r arwydd digon tebyg
Yn y bedydd o'r tu fa's yn selio 'r gras arbenig?
Ateb.—Y dwr yn y bedyddfan, lle trochir y dyn bychan
Yn enw 'r Tad ar Mab dri phryd, a'r Santaidd Ysbryd purlan."

A dywed Syr John Floyer yn y *Treatise on Cold Bathing*, a gyhoeddodd o gylch y flwyddyn 1701, "I'r Cymry adael trochiad yn y bedydd yn ddiweddar, ac i rai canol oedran ddyweyd wrtho ef eu bod yn cofio yr arferiad o drochiad." Ac ebe fe yn mhellach:—"Rhoddais yn awr y dystiolaeth a ellais gael mewn hen lyfrau Seisonig i brofi yr arferiad gwastadol o drochiad, o'r amser y dechreuwyd gan y Prydeiniaid a'r Seison hyd ddyddiau y brenin Iago (yr hwn a ddechreuodd deyrnasu yn 1603, ac a ddiweddodd yn 1625) pan ddechreuodd pobl rwgnach yn erbyn pob hen ddefod; a thrwy hoffi rhyw beth newydd, tynerwch rhieni, a chymeryd arnynt fod yn fwy gweddaidd, rhoddasant heibio drochiad; ond ni wnaed hyn erioed trwy un weithred yn Eglwys Loegr; eithr y mae trefn ein Heglwys ni mewn bedydd yn *gorchymyn byth i drochi yn ddiesgeulus a darbodus*."

Tybir gan hyny bod yr amrywiol ffeithiau uchod yn cyfiawnhau y casgliad canlynol yn ngeiriau Dr. Benedict:—"Fod gan y Bedyddwyr Cymreig yr ymddiried llwyraf, bod eu syniadau bob amser wedi cael eu cadw yn fyw yn eu henciliadau mynyddig, o oes yr Apostolion hyd yn bresenol. Yr oedd eu gwlad yn eu cyfrif hwy fel Piedmont arall, lle yr oedd y tystion dros y gwirionedd yn cael lleoedd i lechu ac ymguddio yn yr amseroedd tywyll ac ofergoelus cyffredinol." Ar y tir hwn yn unig y mae yn ddichonadwy i roddi cyfrif am yr ymddangosiadau achlysurol o unigolion o Fedyddwyr yn nhywysogaeth Cymru yn flaenorol i'r Diwygiad. Ni's gellir disgwyl cael hanes *cynulleidfa* yn gwahaniaethu yn ei barn a'i harferion oddi wrth yr "Eglwys Wladwriaethol" yma yn yr oesau tywyll. Os oedd rhai yn bodoli rhwng mynyddau Cymru, yr oeddynt yn gorfod cadw eu hunain yn berffaith ddirgel, ac ni's gallent ddyfod yn wrthddrychau hanesiaeth heb iddynt ddyfod i'r golwg fel troseddwyr y gyfraith wladol. "Y mae genyf yn awr ger fy mron," ebe Robinson, "goflyfr Gray, esgob Ely, mewn Ysgrifen, yr hwn sydd yn profi bod cynulleidfa o Fedyddwyr, yn 1457, yn cyfarfod yn ddirgel i addoli Duw yn y pentref hwn, Chesterton, lle yr wyf fi yn byw. Cafodd chwech o honynt eu cyhuddo o heresi ger bron gorthrymwyr yr ardal, a'u condemnio i wadu eu heresi, a dwyn eu penyd yn haner noeth, ffagodau ar eu cefnau, canwyllau cwyr yn eu dwylaw, yn march-

Digitized by Google

nadoedd cyhoeddus Ely a Chaergrawnt, ac yn mynwent Great Swaffham"—Claude's *Essay*, cyf. ii., tud. 54. Aethai hanes y rhai hyny ar goll, neu yn hytrach, ni ddaethent byth yn wrthdrychau hanesiaeth, oni buasai iddynt gael eu rhoddi yn llys yr esgob am ddyweyd "mai cythreuliaid mewn cnawd oedd yr offeiriadau." Ac nid oes neb a wyr faint o hanesion cyffelyb a ddichon fod yn guddiedig yn nghoflyfrau llysoedd esgobion ac ynadon Cymru. Ni chymerodd un hanesydd erioed y drafferth i'w chwilio; ac hyd oni ddygir eu cynwysiad i oleuni, ni bydd yn ddichonadwy i neb allu ysgrifenu hanes Bedyddwŷr Cymru.

Yr engraifft gyntaf o eglwys gorffoledig yn Nghymru yw Olchon, yn swydd Henffordd, yr hon a elwir Capel-y-Ffin, yn bresenol. Barna Joshua Thomas iddi gael ei ffurfio tua 1633; ac ychwanega "Pa bryd y cawsant eu bedyddio a'u ffurfio yn eglwys o Fedyddwyr, nid wyf erioed wedi cael allan i foddlonrwydd, er i mi chwilio mor ofalus am haner can mlynedd." Y gweinidog cyntaf a glywais i am dano yn Olchon, oedd Mr. Howel Vaughan; a dywedir mewn Ysgrifen ag sydd genyf, ei fod yno yn amser Charles I. neu cyn y flwyddyn 1640; ond yr wyf yn barnu na bu y gwr hwn erioed yn Rhydychain, nac yn un brif Ysgol, eithr gwr duwiol, gwledig, cydwybodol, ond hyfforddus a deallus yn yr Ysgrythyr ydoedd; ac o herwydd hyny, a'i ddawn gweinidogaethol, cafodd ei ddewis i borthi yr ychydig bobl hyny a gwybodaeth ac a deall. Hyn sydd sicr; yr oeddid flynyddau lawer ar ol hyn, yn cyfrif Olchon yr eglwys fwyaf rheolaidd trwy Gymru." Ac fel y canlyn y dywed yr un hanesydd am yr erlidigaethau a ddyoddefai y saint hyn:—"Yr oeddynt yn gorfod cyfarfod yn eu tai eu hunain, trwy lawer o bryder, a threfnu pethau mor ddoeth ag y medrent, weithiau ar hyd y nos, ac weithiau ar hyd y dydd. Mynych y cyfarfyddent yn y lle mwyaf dirgel ag a allent, mewn rhyw gwm neu gilfach ar hyd y mynyddau mawrion gerllaw, y rhai a elwir yn gyffredin, Y Mynydd-du; ond byddai rhaid iddynt newid eu lle ar y mynydd yn fynych, canys pan y deuai yr erlidwyr i wybod am y lle, hwy a ddeuent i amcanu eu dal yno; felly pan y byddai y gelynion yn disgwyl ac yn gobeithio eu cael mewn un man, hwy a fyddent mewn lle arall. Ond er maint eu gofal a'u doethineb, hwy a ddelid ar brydiau, ac a gurid ac a anmherchid, a gosodid arnynt ffeiniau mawrion, ac oni thelid y rhai hyny, codid ymaith eu da, neu ddodrefn eu tai."

Ymddengys yn dra sicr mai Olchon yw yr Eglwys Ddiwygiedig, Ymneillduol, a Bedyddiedig, gyntaf yn y Dywysogaeth. Yn mhen chwe mlynedd ar ol hyn, sef yn 1639, y ffurfiwyd eglwys Mr. Wroth yn Llanfaches; ac yr oedd hono yn gynwysedig o Fedyddwyr ac Annibynwyr. Yn awr, y gofyniad yw, o ba le y tarddodd y Bedyddwyr henafol hyn ag oedd yn gwneyd i fyny eglwys Olchon? Fel y canlyn y cynygia yr haneswyr ei ateb:—Bod sicrwydd bod egwyddorion Wickliffe yn cynyrchu Bedyddwyr; a bod y Lolardiaid—enw Dutchaidd—yn golygu mae yn debyg, efrau yn mhlith y gwenith Cristionogol, y rhai yr oedd yn rhaid eu casglu a'u llosgi, yn gwrthod bedydd babanod, fel seremoni ddisail. Bod Olchon wedi bod yn drigle i'r Wickliffiaid ar Lolardiaid, mor foreu, o leiaf, ar flwyddyn 1380. Brodor oddi yma oedd Syr John Oldcastle, Arglwydd Cobham, yr hwn oedd yn Gymro ac yn Lolard, ac yn cynal lluaws mawr o bregethwyr i ddysgu egwyddorion y Diwygiad ar hyd y wlad, ac mae yn dra thebyg na esgeulusodd efe ei ardal enedigol. Gosododd erlidigaeth ei lygad arno, ffodd yntau i dalaeth Powys, ond cafodd ei ddal yn agos i'r Llyn Du, rhwng Meifod a Chegidfa, yn y flwyddyn 1417, *a'i rostio i farwolaeth wrth dân araf!* Un arall o ddysgyblion neillduol Wickliffe, a brodor o'r ardal hon, oedd Walter Brute. Yr oedd yn byw yn nechreu y 14eg. Canrif. "Efe," medd Titus Lewis, "oedd y Cymro cyntaf a ddechreuodd ddiwygio ei gydwladwyr o dywyllwch Pabyddiaeth; yr oedd yn barnu y dylai *ffydd fod o flaen bedydd, ac nad oedd iachawdwriaeth dynion yn gorphwys ar yr ordinhad hono.*"

Yr oedd William Tyndale hefyd, cyfieithydd cyntaf y Testament Newydd i'r iaith Seisneg yn frodor o gyffiniau Olchon. Ganwyd ef yn 1480, sef tair blynedd o flaen Luther, a merthyrwyd ef yn 1536. Mae yn dra thebyg mai oddiwrth Wickliffiaid ei fro enedigol y derbyniodd efe ei oleuni uwchraddol. Ac y mae ei Ysgrifeniadau yn profi ei fod o ran barn yn Fedyddiwr. Dywed Joshuah Thomas, bod Llewelyn Tyndale, ac Hezekiah, ei fab, yn aelodau cyfrifol yn eglwys Llanwenarth tua'r flwyddyn 1700, a thybiai ef mai disgynyddion oeddynt o William Tyndale.

Y casgliad gan hyny, oddiwrth y ffeithiau uchod yw, gan nad yw yn rhesymol tybied i lafur y diwygwyr enwog fyned yn ofer, mai yr eglwys fechan yn Olchon, yr hon sydd yn dyfod i'r golwg yn 1633, heb neb yn gwybod pa bryd y ffurfiwyd hi, na phwy fu yr offerynau i hyny, yw yr unig olion, a geir yn Nghymru o ffrwyth yr egwyddorion, ag y treuliodd yr enwogion uchod eu bywyd i'w lledaenu, a pha rai, hefyd yn y diwedd, a seliasant â'u gwaed.

Mae genym engreifftiau eraill o Fedyddwyr yn Nghymru yn y cyfnodau dan sylw. Dywed Malkin, ar awdurdod Iolo Morganwg, mae'n debyg, bod Thomas Llewelyn, o Lyn-eithinog, Rhegoes, yr hwn, fel y tybir oedd hen-daid yr enwog Ddoctor Thomas Llewelyn, yn cyflawni gwasanaeth dwyfol yn fynych mewn tai anedd, yn ogystal ag mewn eglwysi, ac wedi ffurfio llawer o gymdeithasau crefyddol bychain. Cafodd y rhai hyny eu drwgdybio a'u herlid gan yr archesgob Laud ai blaid, a'r canlyniad fu i hyny eu gyru i ymneillduo y naill oddiwrth y llall, a mabwysiadu gwahanol farnau yn eu plith eu hunain. "Rhai oeddynt faban-fedyddwyr a ymunasant â'r Presbyteriaid; *eraill a unasant â'r rhai oedd yn arfer bedyddio rhai mewn oed.*" Gellir meddwl, felly, bod Presbyteriaid a Bedyddwyr i'w cael yn yr ardaloedd hyny cyn i ddysgyblion Thomas Llewelyn ymuno â hwynt; canys ni's gellir ymuno a phleidiau nad ydynt mewn bodolaeth.

Yr oedd Thomas Llewelyn, yn ol Dr. Owen Pugh, yn ddysgybl barddonol i Lewys Morganwg, yn 1520. A dywed yr Iolo MSS. mai mab oedd Lewys Morganwg i Rhisiart ab Rhys Brydydd, neu yr Hen Fardd Llwyd o Forganwg, ac felly yn nai, fab brawd, i Ieuan ab Rhys, yr hwn, yn yr haner cyntaf o'r bymthegfed ganrif a gafodd ei droi allan o Fargam oblegid iddo gofleidio Lolardiaeth. Ac wedi hyny, medd *Lleyn MSS.*, cafodd ei ddilyn a chyfraith, a'i droi o'i fferm gan Syr Mathew Cradoc, yr hwn oedd babydd selog, "*oblegid crefydd ei fam.*" Yr oedd ei fab yntau hefyd, Thomas ab Ieuan ab Rhys, neu fel y gelwid ef gan y werin safnrwth,

Digitized by Google

"Twm y Celwydd Teg," yn Lolard selog, ac am hyny cafodd yntau, fel ei dad, ei ysgymuno o Fynachlog Margam, ai garcharu yn Nghastell Cynffig, gan Syr Mathew Cradoc; ac wedi hyny yn ngharchar Abertawy, gan Syr George Herbert. Rhisiart ab Rhys Brydydd, tad Lewys Morganwg, oedd Athraw Iorwerth Fynglwyd. Ac yr oedd Iorwerth yn gyfaill mawr i Rhys ab Sion, yr hwn, oblegid iddo goflcidio "y grefydd newydd," cyfeirio yn fynych at yr Ysgrythyrau, a son am "farw dros y ffydd," a daflwyd i garchar Abertawy, gan Syr Mathew Cradoc. Ac ysgrifenodd Iorweth ddau gywydd at Syr Mathew, i eiriol drosto, ac i ddeisyfu ei ryddhad. Dengys y tremwydd sydd genym ar y ffeithiau uchod bod "y ffydd newydd," fel ei gelwid, wedi gwreiddio mewn rhai parthau o'r Dywysogaeth, heblaw yn Olchon, er yn foreu iawn. Ymddengys yn sicr fod Ieuan ab Rhys wedi ei ysgymuno o Fargam rywbryd cyn 1474, a dywedir iddo gael ei erlid "oblegid crefydd ei fam;" rhaid felly fod ei fam, yr hon a allai fod yn cydoesi a Walter Brute, a Wickliffe, wedi mabwysiadu ei "chrefydd" yn foreu yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yr oedd yr Hen Fardd Llwyd a'i wraig, crefydd yr hon a sonir am dani uchod, yn byw yn Mlaen Cynllan, plwyf Llanharan, Morganwg; ac yn rhyfedd o gyd darawiadol, yn Llanharan yr ydym yn cael y Bedyddwyr yn dyfod i'r golwg gydag un o'r lleoedd cyntaf yn Nghymru. Nid yw Joshua Thomas, er ei holl graffder, wedi gallu dyfod o hyd i'w dechreuad yno. Ac ymddengys nad yw Llyfr Eglwys Ilston, yr hwn a ystyrir yw y Cynysgrif hynaf, a'r awdurdod uwchaf ar ddechreuad eglwysi y Bedyddwyr yn Nghymru, yn taflu dim goleuni ar y pwnc. Ond mae yn ffaith bod yn Llanharan eglwys gorffoledig yn 1650; oblegid yn y flwyddyn hono yr ydym yn cael y tair eglwys, Ilston, y Gelli, a Llanharan, yn ymffurfio yn Gymanfa, a hono yw y gymanfa gyntaf o eiddo y Bedyddwyr, ag mae genym hanes am dani. Ac o hyny hyd Ddeddf yr Unffurfiaeth yn 1662, yr ydym yn cael y gymanfa yn cael ei chynal bron bob blwyddyn, a'r eglwysi yn cynyddu mewn rhif a dylanwad. Yn Nghymanfa y Fenni, yn 1653, yr oedd nifer yr eglwysi yn bump. Yn Nghymanfa Aberhonddu, yn 1656, yr oedd nifer yr eglwysi yn wyth. Ond yn fuan daeth Charles II. i'r Orsedd, a dechreuodd yr erlidigaeth ofnadwy yr hon a barhaodd yn ei chynddeiriogrwydd am tuag wyth mlynedd ar hugain. Yn 1660 cyhoeddodd Charles, y trydydd argraffiad o Lyfr y Chwareuon, gyda gorchymyn caeth i'w arferyd yn mhob plwyf; ac nid oedd yr esgobion a'r offeiriaid yn ddim ond offerynau yn llaw y brenin i lygru y wlad, a difetha o'r tir y rhai oedd yn ofni yr Arglwydd, ac yn ceisio ei addoli yn ol ei Air.

Yn 1664 pasiwyd y *Conventicle Act*, yr hon oedd yn gwneyd i bump a fyddent wedi cyfarfod yn rhywle i addoli Duw, heblaw yn yr Eglwys Wladol, yn fod agored i ddirwy o 5*p*. yr un, neu dri mis o garchar; a 10*p*. yr un yr ail waith, neu chwe mis o garchar; a 100*p*. yr un, y drydedd waith, neu saith mlynedd o alltudiaeth. Yr oedd hyny i gael ei benderfynu hefyd heb un *trial* na *jury*—dim ond llw y cyhuddwr, a hwnw i gael y drydedd ran o'r ddirwy, yn wobr am ei waith melldigedig. Yna adnewyddwyd hen *Act* ag oedd wedi ei gwneyd yn amser Elizabeth, yr hon oedd yn gosod dyn yn agored i alltudiaeth, am beidio myned i'r Eglwys. Yn 1665, pasiwyd y *Five-mile Act*—yn 1670 gwnawd y *Conventicle Act* yn fwy caethiwus a chospawl. Yn 1673 gwnawd y *Test Act*—yn 1681 daeth gorchymyn y brenin i gadw y *Conventicle Act* i'r llythyren, yn y carcharu a'r dirwyo yn ddidrugaredd. Ar ol marw Charles, daeth Iago i'r orsedd, a dechreuodd yntau erlid yn ofnadwy yn 1685. O amser gorthrymus ar Eglwys Dduw!! Fel hyn y dysgrifia Vavasor Powell, yr hwn a gafodd ei ran yn helaeth o'r dymestl hono, ddyoddefiadau ei frodyr yn Nghymru:—"Wedi hyn bu gorthrymder tra blin, yn enwedig mewn rhai siroedd yn Nghymru; lle y llusgid dynion diniwaid a heddychol allan o'u gwelyau, heb barchu rhyw nac oedran, ond eu gyru, rhai o honynt ar eu traed, ugain o filldiroedd i garchar; a'u gorfodi yn ngwres yr haf, i gydredeg a meirch a milwyr, nes pothellu eu traed, a hwythau yn lluddedig ac yn barod i syrthio i'r llawr, ac eto eu ffonodio a'u curo yn y blaen yr oeddid.

Eraill yn Sir Feirionydd, megis pe buasent amfeiliaid, a yrwyd i'r ffaldiau, neu bitffaldiau y plwyfau, lle y cedwid hwy amryw oriau, a'u gelynion yn y cyfamser yn yfed cwrw yn y dafarn, ac yn gorfodi y bobl ddiniwaid i dalu am dano, ac heb gael dim i'w yfed eu hunain. Wedi hyny dygwyd hwy i lan y môr, a gadawyd hwy yno drwy y nos, mewn perygl o gael eu llyncu gan y dyfroedd; gan ddywedyd wrthynt mewn gwawd, mai ei oedd gyda hwy, oedd yr Ysbryd a'u harweiniodd y ffordd hono. Eraill a roddwyd yn ngharchar, wrth ewyllys eu herlidwyr, ac a gadwyd yno amryw fisoedd; a chymerwyd hefyd eu gwartheg a'u defaid, dros chwe chant mewn rhifedi. Eraill, pan y cymerid hwynt i'r brawdlyoedd chwarterol, oeddynt yn gorfod cerdded yno mewn cadwyni, yn groes i'r gyfraith. Eraill, wedi cyfarfod yn ddi swn, fel yr oeddynt wedi gwneyd amryw flynyddoedd, i addoli Duw, ac adeiladu eu gilydd, a fwriwyd i garchar heb gymaint a'u holi, na dangos yr achos paham, yn groes i gyfraith y wlad hon, a gwledydd eraill."

Y cyfryw oedd parodrwydd anuwiolion y wlad i ymosod ar grefyddwyr fel "y Sabboth cyntaf ar ol derbyn cyhoeddiad y brenin, darfu i swyddogion un dref, lusgo a thynu ar eu hol i'r tafarn, wragedd tylodion, ag oeddynt yn gwrando Gair Duw, a chadwasant hwy yno hyd wedi nos, ac hyd oni thalasant am eu cwrw hwynt."

Dyma eto ddarlun o'r un cyfnod gan Fedyddiwr arall:—

"Etto creulon ddig swyddogion, ddalient ddynion mawr eu bri,
I'w carcharu 'n ddidosturi; mynych gwnu dwbl *fee*;
Fe gai fwrdrwr, lleidr, bradwr, fwy o ffafr yn eu gwydd,
Na rhyw Gristion diddrwg, ffyddlon—mor annghyfiawn oedd eu swydd!

Rhai ni feiddient fyn'd i'r farchnad, er mawr alwad iddynt fyn'd,
Na bai Ceisbwl wrth eu sawdl, i roi trwbl yn ddiffrynd;
Rhaid gwobrwyo 'r gwyr a'u boddio, cyn cael myn'd o'u dwylo 'n rhydd;
Gwnaneus, chwanog, llym i'r geiniog;—gwylio 'r sglyfaeth nos a dydd.

Rhoi eu henwau mewn ar lyfrau, yn eu cwrtiau 'n llawer man,
Llys Cabidwl,[1] gwaeth na'r cwbl yn cyhoeddi 'n llwyr i'r llan

[1] Llys yr Esgob.

Ysgymundod fawr ddisberod, lawer pryd heb wybod pam,
Eisiau, porthi a'u digoni byth ag arian,—dyna gam.

Wedi yno ysgymuno, delai 'n rhuo'r *writ* i maes,
I law'r Siryf arfog heinyf, hwnw 'n erlid, nid yn llaes [h.y. llac],
Y gwirioniaid, yn dra diriaid. Os eu dala, mynd i'r *jail*,
I greulon ddyoddau am hir amserau, dim ni thalai gynnyg *bail*.

Afresymol oedd y bobol gyffredinol, fel o'u pwyll
Yn cyhuddo pawb heb geisio; hawdd gweld yno, hud a thwyll,
Malais dirgel lechai 'n ddyogel, dan fradychus gesail rhai;
Rhai ddymunen o gynfigen, bigo eu codau heb ddim llai."

Er mor echrydus yw y darluniau uchod, mae yn dra sicr eu bod yn mhell o fod yn gyfartal â'r gwreiddiol. Nid oes dim ond goleuni y farn a ddengys faint a ddyoddefodd Bedyddwyr ac Annibynwyr Cymru, o 1661 hyd 1689, sef trwy deyrnasiad Charles II. a Iago II. hyd nes y cyhoeddwyd y *Toleration Act*.

"Yr oedd yn rhyfedd," medd y Parch. William Roberts (Nefydd), "na fuasai y fath driniaethau a deddfau ofnadwy, yn difodi holl Ymneillduaeth y wlad yn llwyr; ond nid felly y bu. Cyfarfyddent mewn dirgel fanau, weithiau i gyd addoli, a chyflwyno diolchiadau i Dduw am ryw waredigaethau; brydiau eraill i gyd gymysgu eu dagrau mewn wylofain a chydymdeimlad, o herwydd fod rhyw frawd anwyl wedi syrthio yn ysglyfaeth i'r erlidwyr. Fel hyn y mae genym achos i ddiolch i Dduw am gadw ei anwyliaid heb wadu eu hegwyddorion, neu aberthu eu crefydd er mwyn heddwch. Nid yn unig cadwasant eu crefydd ond parhasant yn fywiog a selog. Pe na buasent felly o 1661 hyd 1689, buasent yn ddiau wedi lleihau mewn nifer yn fawr, canys yr oedd 28ain oflynyddau wedi dyfod a tho newydd o drigolion i'n byd ni.

Awdwr cofiant Daniel Rowlands, a ddengys yn ei daflen, na wyddai ef ond am bump o bregethwyr yn Nghymru yn 1660; ac felly hefyd Mr. Johnes (yn ei draethawd ar *Causes of Dissent in Wales*). Ni wyddent hwy am un o'r dynion mwyaf galluog a gweithgar, John Myles o Llanilltyd, (Ilston) yr hwn a aeth yn fuan ar ol hyny i'r Amerig, gydag agos ei holl eglwys; nac am ddau eraill, o'r un enw, sef Morgan Jones, oeddynt yn yr un eglwys a Myles; nac am William Thomas, a lafuriodd yn Nghaerfyrddin a Llantrisant; na Jenkin Jones, a elwid weithiau Capten Jones, o herwydd iddo fod yn y fyddin. Dygwyd ef i fyny yn Rhydychain; yr oedd yn bregethwr enwog, a llafuriodd mewn amryw fanau o Gymru" (yr oedd enw Jenkin Jones gyda Vavasor Powel yn yr "*Act for the better Propagation of the Gospel in Wales*," 1669). "Ond am ei fod yn Fedyddiwr, ni wyddai yr awdwyr uchod ddim am dano; nac am Henry Williams, o'r Drefnewydd; na Hugh Evans, o Faesyfed; nac Anthony Harry, o'r Fenni; na Thomas Proude, un arall or *ejected Ministers;* na Thomas Joseph a Thomas Jones, o Llantrisant; na Howel Thomas, a David Davies, o Gelligaer; na Walter Prosser, o'r Gelli; na Hywel Vychan, o Olchon; ac Evan Bowen, o Lanafan. Mae agos yr holl rai uchod, a rhai a enwir eto yn mlaen, yn cael eu nodi, yn gystal a Vavasor Powell, gan Drs. Calamy a Walker. Bu yr 16eg uchod, a rhai gweinidogion eraill, perthynol i'r Bedyddwyr, a phregethwyr cynorthwyol, feirw yn amser yr erlidigaeth o 1661 hyd 1689. Y rhai canlynol a fuant fyw yr holl amser terfysglyd uchod. Dr. Christopher Price, a W. Prichard, o'r Fenni; Thomas Watkins, o'r Gelli; Lewis Thomas, o Abertawy; Robert Morgan, o Gaerfyrddin; Griffith Howells, a W. Jones, o Sir Benfro; Thomas Quarrel, o Ogledd Cymru; Thomas Evans, a Henry Gregory, o Faesyfed; Francis Giles, a John Edwards, o Lanwenarth; Thomas David Rees, o Sir Aberteifi; Thomas Parry, a William Williams, o Langwm, &c. Mae yn debyg fod y pymtheg uchod, a dau neu dri yn rhagor, wedi llafurio fel pregethwyr, a gweinidogion yr efengyl, cyn 1660 ac yn mlaen hyd 1686, a rhai o honynt am amser maith ar ol hyny. Mae genym eto restr o tua deuddeg o weinidogion, a ddechreuasant bregethu yn yr amser blin ac erlidigaethus uchod, dan Charles II., sef James James, George Jones, Samuel Jones, John Jenkins, Richard Williams, a Morgan Griffiths, oll o gylchoedd Dyfed; Nathaniel Morgan, Abel Morgan, Evan David, Joseph Price, David Thomas, ac Evan Llywelyn, o ranau eraill o Ddeheubarth. Dyna ni wedi nodi dros ddeugain o weinidogion, a dim ond Vavasor Powell allan o'r oll o honynt a gafodd ei daflenu gan y Parchedig John Owen. A oedd hyn oblegid nad oedd Mr. John Owen yn adnabyddus o'r ffeithiau hyn? Ynte oblegid fod y gweinidogion uchod yn Fedyddwyr? Erys y gofyniad hwn heb atebiad."—Llythyr Cymanfa Mynwy. 1857.

Yn 1689, cyhoeddwyd y *Toleration Act*, a chynaliwyd cymanfa gan y Bedyddwyr yn Llundain y flwyddyn hono, i drefnu cynlluniau er llwyddiant crefydd, &c. Ac yr ydym yn cael saith o eglwysi Cymru yn cael eu cynddrychioli yno. Er fod deng mlynedd ar hugain wedi myned heibio, er pan fu cymanfa yn Nghymru, eto nid oedd ond un eglwys wedi colli yn ystod yr erlidigaeth, sef eglwys Ilston a'i gweinidog, y rhai a ymfudasent i'r America, ac a sefydlasent yn agos i Boston; ond yr oedd y saith eraill wedi dal eu tir, ac wedi cynnyddu mewn rhifedi er gwaethaf y dymestl. O 1689 hyd 1695 yr oedd yr eglwysi Cymreig yn anfon eu cenadon bob blwyddyn i'r Cymanfaoedd Seisnig. Yn 1695, adeiladwyd Capel Llanwenarth; hwn oedd y Capel, priodol cyntaf, er fod yn y Gelli ryw fath O "Dy Cyfarfod," mor foreu a 1646:—"Yr hwn o bosibl," medd Joshua Thomas, "oedd y tŷ cyntaf yn Nghymru." Yn 1700, cynhaliwyd cymanfa yn Llanwenarth, sef y Gymanfa Gymreig gyntaf ar ol yn erlidigaeth; yr oedd yno wyth o eglwysi yn cael eu cynddrychioli; ac o hyny allan, ni pheidiodd y Gymanfa a chael ei chynal, o fan i fan, yn rheolaidd bob blwyddyn; a chymerodd diwygiadau nerthol le yn llawer o'r eglwysi, yn ystod yr ugain mlynedd dyfodol.

Yn y flwyddyn 1717, dygwyddodd amgylchiad, a wasanaetha i ddangos beth oedd sefyllfa wladol a chymdeithasol yr aelodau a ffurfient yr eglwysi yn y dyddiau hyny. Gofynodd y Llywodraeth, yn y flwyddyn hono, am i'r gweinidogion perthynol i'r holl enwadau, anfon cyfrif i mewn o'r rhai oedd yn arfer gwrando o dan eu gweinidogaeth yn gyffredin, yn nghyd a'u sefyllfa yn y wlad. A thyma *returns* eglwys y Bedyddwyr yn Mlaenau Gwent, yn nghyd a'i changenau; ac ystyrir fod hon yn engraifft deg

Digitized by Google

o'r eglwysi eraill:—Y rhai oedd ganddynt *vote* yn nhref Fynwy (*country voters*), 123; y rhai oedd ganddynt vote dros y Fwrdeisdref (*burgesses*), 26; y rhai oedd yn dal tiroedd, 98; Crefftwyr, 55; Gweithwyr cyffredin, 246;—yr uchod, yn nghyda'u gwragedd a'u merched, yn rhifo tua *mil*.

Yn 1736, sef y flwyddyn yn mha un mae Methodistiaeth Galfinaidd yn dyddio ei dechreuad, yr oedd gan y Bedyddwyr Cymreig 16eg o eglwysi corffoledig, a digymysg; sef y Dolau a'r Pentref, yn Maesyfed; Olchon, yn Henffordd; Hengoed, Abertawy, a Phenyfal, yn Morganwg; Moleston a Chilfowyr, yn Mhenfro; Llanwenarth, Llangwm, Blaenau, a Phenygarn, yn Mynwy; Rhywilym, Castell newydd, a Llanelli yn Nghaerfyrddin; a Maesyberllan yn Mrycheiniog. Ac heblaw yr 16eg uchod. Yr oedd y rhai canlynol yn gweithredu yn mhob peth fel eglwysi, ond yn unig fod y weithred o gorffoli heb gymeryd lle arnynt;—Llangloffan, Penycoed, Aberduar, Maesaleg, Casbach, Ffynon-Henry, a Ffynongwell-na-buwch:—yr oeddynt oll yn gweinyddu yr ordinhadau, a phob dysgyblaeth yn eu plith eu hunain er's blynyddau. Ac yr oedd gan yr eglwysi uchod nifer mawr o gangenau, a lleoedd pregethu yn perthyn iddynt, fel yr oeddynt rhwng y cyfan yn rhifo o 60 i 70.

Y Gweinidogion a lafuriasant yn yr eglwysi a'r cangenau uchod, o'r flwyddyn 1700, hyd 1737, neu nifer o flynyddoedd, ond nid llai na phump, o'r cyfnod yna, oeddynt John Jenkins, Griffith Howells, David James, Samuel John, Thomas Mathias, Philip John, Griffith Williams, John James, Evan David, James James, Nathaniel Jenkins, Rees Jones, David Owen, Enoch Francis, John David Nicholas, Thomas David, Griffith Thomas, David Richard, Evan Thomas, Thomas David Evan, James Williams, John Richard, Daniel Garnon, David Evans, &c.—oll yn y rhanau Gorllewinol o Gymru. Ac yn y parthau dwyreiniol a deheuol, yr oedd William Meredith, Joshua James, Roger David, John Harrhy, Nathaniel Morgan, Griffith Jones, Morgan Jones, William Davies, Griffith Davies, Lewis Thomas, John Davies, Miles Harry, Caleb Evans, John Evans, Richard Williams, Thomas Lewis, Roger Walker, Nathan Davies, &c.—oll, yn rhifo o 40 i 50. Ac yr oedd amryw o'r rhai uchod yn bregethwyr poblogaidd, ac yn awdwyr o gryn fedrusrwydd.

Mae yn deilwng o'i gofnodi yma hefyd, i'r Bedyddwyr sefydlu Athrofa yn Nhrosnant, yn ymyl Pontypool, yn y flwyddyn 1730, i addysgu dynion ieuainc oeddynt yn ymgyflwyno i'r weinidogaeth, yr hon a barhaodd yn dra gwasanaethgar i'r enwad, hyd oni sefydlwyd Athrofa Stokescroft yn 1770. Yr athraw cyntaf yn Nhrosnant oedd John Griffiths, Penygarn; dilynwyd ef gan Thomas Philips, Rhydwilym; John Mathews, Abertawy; Rees Evans, Pentrefnewydd; a Miles Harry, Penygarn. O dan arolygiaeth y pump uchod addysgwyd o 80 i 50 o ddynion ieuainc i waith y weinidogaeth; ac yn eu plith yr enwogion Timothy Thomas, Aberduar; Morgan Edwards, M.A.; Morgan Jones, LL.D.; Thomas Llewelyn, LL.D.; Benjamin Francis; David Jones, Pontypool; Miles Edwards, &c. &c. A dywed Dr. William Roberts (Nefydd) yr hwn a ystyrir yn awdurdod uchel ar hanesiaeth eglwysig, mai "y sefydliad hwn yn Nhrosnant, oedd yr athrofa *reolaidd* gyntaf yn mhlith y Bedyddwyr yn Nghymru a Lloegr; a bod yn dra thebygol, bod yr 'Argraffwasg newydd' yr hon oedd yn Mhontypool y pryd hwnw, o dan nawdd y Bedyddwyr."

Yn 1779, cadwyd y Gymanfa yn Glyn ceiriog, Swydd Dinbych—y Gymanfa gyntaf a gynaliwyd yn y Gogledd; a bedyddiwyd pymtheg yn Mon, y rhai a gorffolwyd yn eglwys, dan yr enw *Ebenezer*, yn Llangefni.

Yn 1790, cynaliwyd y Gymanfa yn y Dolau. Yr oedd yno 46 o eglwysi yn cael eu cynddrychioli. Bedyddiwyd yn ystod y flwyddyn 544; bu farw 84, diarddelwyd 101; adferwyd 42, derbyniwyd trwy lythyrau 7, gollyngwyd 1, Cynnydd 407.

Yn ei *Register* am y flwyddyn hono gwna Dr. Rippon y sylw canlynol ar eglwysi a gweinidogion y Bedyddwyr Cymreig.—"Mae rhif y gweinidogion sydd yn gwasanaethu yr eglwysi Cymreig, yn ymddangos yn ddyeithr i'r darllenydd Seisneg, hyd nes y deallo fod rhai o'r eglwysi hyn yn meddu amryw gangenau, ag sydd yn ymgynull ar yr un amser, eithr mewn lleoedd ac ardaloedd gwahanol. Dyna eglwys Aberduar, a phedwar o weinidogion, a phedwar ty cyfarfod, lle maent yn pregethu yn gyson, ac yn gweinyddu yr ordinhadau yn rheolaidd; ac yn y rhif luosocaf o'r eglwysi hynaf, a ymddengys yn y Gyfres Gymreig, y mae yn perthyn iddynt ddau, tri, pedwar, a phump o gapeli, y rhai a ystyrir fel cangenau, lle mae gwasanaeth yn cael ei ddwyn yn mlaen, mor gyson a rheolaidd ag yn y fam eglwys."

Yn y gynadledd y flwyddyn hono penderfynwyd, mewn heddwch a brawdgarwch, i ranu y Gymanfa yn dair; y rhai a elwid, y Gymanfa Ogleddol, yn cynwys 9 o eglwysi; y Gymanfa Dde-ddwyreiniol yn cynwys 19 o eglwysi; ar Gymanfa Dde-orllewinol, yn cynwys 18 o eglwysi.

Yn 1800, yr oedd yr eglwysi yn y tair Cymanfa yn 86, a'r aelodau yn ymylu ar 12,000. Ond yn mhen ugain mlynedd, sef yn 1820, yr oedd yr eglwysi yn 152; ac yn mhen deng mlynedd yn mhellach, sef yn 1830, yr oedd yr eglwysi yn rhifo 215, a chanddynt 190 o weinidogion yn fugeiliaid arnynt. Ac erbyn 1869, mae gan y Bedyddwyr yn Nghymru 11 o Gymanfaoedd; 575 o eglwysi, yn nghyda 330 o gangenau, a lleoedd pregethu,—oll yn 905; 450 o weinidogion, 200 o bregethwyr cynorthwyol,—oll yn 650; 68,071 o gymunwyr, 69,492, o wrandawyr; a 57,014, yn perthyn i'w Hysgolion Sabbothol.[1]

Mae gan y Bedyddwyr yn Nghymru, dair o Athrofeydd mewn cyflwr llewyrchus a gweithgar:—sef Pontypool, yr hon a sefydlwyd yn y Fenni yn 1807, ac a symudwyd i Bontypool yn 1836; mae ynddi 3 o Athrawon, ac 20 o Fyfyrwyr, gyda derbyniadau blynyddol o 967*p.* 18*s.* 6*c.*; Hwlffordd, a sefydlwyd yn 1839, ac ynddi 2 Athraw, ac 21ain o Fyfyrwyr, gyda derbyniadau blynyddol o 810*p.* 18*s.* 7*c.*; ac Athrofa y Gogledd, a sefydlwyd yn Llangollen yn 1862, ac ynddi 2 Athraw, a 12 o Fyfyrwyr, gyda derbyniadau blynyddol o 544*p.* 15*s.* 11*c.* Mae ganddynt hefyd Drysorfa Adeiladu, yr hon a sefydlwyd yn 1862, gyda'r cyfanswm o 6932*p.* 11*s.* 5*c.*; Saith o gymdeithasau Cenadol Cartrefol, a phump o Gyhoeddiadau:—un wythnosol, sef *Seren Cymru*, a phedwar misol, sef *Y Greal*, *Yr Athraw*, *Y Gwyliwr* ar *Medelwr Ieuanc*.—*Hanes y Bedyddwyr*, gan Joshua Thomas. *Hanes y Bedyddwyr*, gan D. Jones; *Hanes y Bedyddwyr*, gan Robert Ellis;

[1] Traethawd Y Parch. John Rowlands Cwmafon, ar Hanes y Bedyddwyr Cymreig, 1869.

Digitized by Google

*Hanes y Bedyddwyr Cymreig*, gan J. Rowlands; *Y Bedyddwyr, eu Hanes a'u Hawliau yn mhlith Enwadau Crefyddol Cymru, yn yr oesoedd gynt*, gan Dr. Roberts, &c. &c.

**BEGELLY**, neu BUGELLY, yr hwn ambell i waith a elwir yn BUGELI hefyd, sydd blwyf yn undeb plwyfol a chantref NARBERTH, neu ARBERTH, yn swydd BENFRO, DEHEUBARTH CYMRU, 3 m. i'r De o Arberth, ar y ffordd i Dinbych-y-Pysgod. Y mae'n sefyll mewn lle dymunol, ac y mae glofeydd mawrion yn y gymmydogaeth. Y mae y glô a godir yma yn un tra rhagorol, ac y mae galw mawr am dano gan frâgwyr a darllawyddion. Y mae yn cael ei weithio gan gwmpeini o dân Syr R. B. P. Philipps, Barwnig, a J. M. Childe, Ysw., y rhai ydynt brif berchenogion y tir. Y maent hwy yn cael un ran o chwech o'r cynnyrch, ond y mae yma dir-feddiannwyr llai yn cael un ran o bump, ac hyd yn nod un ran o bedair, ond nid llawer o weithio sydd ar y tiroedd bychain hyny. Y mae haiarn i'w gael yma hefyd, uwchlaw ac islaw yr haenau glô, a bu yn cael ei weithio yn llwyddiannus gan Gwmpeini Pembrey, ond oddiar attaliad y gweithfeydd hyny, nid oes yma ddim ymchwil am dano. Y mae'r teneu-faen ag sydd i'w gael gyda'r glô, yn cynnwys engrheifftiau dyddorol o'r rhedyn a'r cyrs, gyda thanfaen haiarnol. Y mae rheilffordd yn cysylltu y lle â Saundersfoot, yr hon sydd wedi bod o fawr gaffaeliad i'r lle. Y mae y rectoriaeth wedi ei huno â ficeriaeth Trewilym, ac yn werth 216*p.* y flwyddyn, yn rhodd Syr R. B. P. Philipps, Barwnig. Y mae'r eglwys yn adeilad pur hen, gyda chlochdy uchel, ac yn yr arddull Seisnig. Y mae capel yma gan y Trefnyddion Calfinaidd, a chynnelir un ysgol ddyddiol yn y lle, yn yr hon yr addysgir tua 40 o blant. Y mae gweddillion hen gromlech gerllaw y persondy, ac y mae carnedd heb fod yn neppell, yr hon a gyfodwyd ar fedd rhyw bennaeth anadnabyddus. Y mae trethoedd y plwyf hwn tua 100*p.* y flwyddyn, ac y mae'n mesur 3878 erw, gyda phoblogaeth o 1311, yn ol deiliadeb 1861.

**BEGUILDY**, neu LLANFIHANGEL BUGEILDY, plwyf yn nghantref TREF-Y-CLAWDD (*Knighton*), swydd FAESYFED, DEHEUBARTH CYMRU, 7 m. i'r Gogledd Orllewin o Dref-y-Clawdd. Y mae yn cael ei ranu i'r UCHAF, a'r ISAF, ac yn cynnwys pedair treflan, sef Bugeildy, Crug-y-byddar, Mudwalledd, a Phennant. Y mae rhan o fwrdeisdref Cnwclas yn y plwyf hwn, ac y mae y rhan arall o honi yn mhlwyf Heyop. Y mae'r afon Teme yn rhedeg drwyddo, ac y mae yn bur fynyddig ar y cyfan, ond y mae yma un llain o dir tra ffrwythlawn. Nid yw y mynyddau yn noethlwm, ac y mae llawer iawn o ddefaid yn cael eu magu arnynt, ar y rhai y mae'r ffermwyr yn ymddibynu yn benaf, canys nid oes yma ond ychydig o dir ŷd. Y mae y parthau gogleddol o hono yn gorwedd ar ffiniau swydd Drefaldwyn, ac y mae y golygfeydd o gwmpas yn hynod o ddymunol. Y mae yma weddillion hen wersyllfa Brydeinig, yr hon a berthynai i Uthr Bendragon, ac wrth droed y bryn, y mae lle a elwir Maes-y-gwaed, ar yr hwn yr ymladdwyd brwydr waedlyd, ond rhwng pwy ni wyddis. Yn y plwyf hwn hefyd y mae adfeilion castell Cnwclas, y rhai sydd yn sefyll ar fryn cônaidd gwneuthuredig. Y mae 10*p.* y flwyddyn wedi cael eu gadael yma at gynnal ysgol râd, gan y diweddar Arglwydd Robert Wharton, y rhai a dêlir o ystâd Maesgwyn, yr hon oedd yn perthyn gynt i deulu awrhydeddus Harley, ond gwerthwyd hi er ys ychydig amser yn ol gan y diweddar Iarll Rydychain. Y mae yma ysgol ddyddiol arall, a chapel yr un gan y Trefnyddion Wesleyaidd a'r Bedyddwyr. Gadawodd y Parch. John Davies 100*p.* i fod ar lôg at wasanaeth tylodion y plwyf hwn, yn 1741, y rhai sydd wedi eu sicrhau yn fferm Penygareg. Yn yr un flwyddyn, gadawodd y Parch. Vavasour Griffiths y swm o 20*p.* i'r un amcan, ac y mae yma ychydig o elusenau plwyfol ereill. Y mae yr eglwys wedi cael ei chyssegru i Michael Sant, ac nid oes dim yn neillduol yn ei harddull adeiladol. Y mae y fywioliaeth eglwysig yn ficeriaeth ollyngol, ac yn cael ei threthu ar lyfr y brenin yn 7*p.* 15*s.* 7½*c.* Ei gwerth presenol yn 164*p.* y flwyddyn, ac y mae yn rhodd Esgob Tyddewi, ond meddianwyr llêygol y degwm, yw Dëon a Chabidwl Tyddewi. Y mae trethoedd y plwyf hwn tua 600*p.* y flwyddyn, o'r rhai y mae dros 400*p.* yn myned at gynnal y tylodion; y mae'n mesur 16,645 erw, gyda 1203 o drigolion, yn ol Deiliadeb 1861.

**BELI**, brenin Prydain, oedd fab henaf Dyfnwal Moelmud, ar farwolaeth yr hwn y cyfododd ymryson tost rhyngddo ef a'i frawd Brân, yr hyn, wedi cryn derfysg, a derfynwyd trwy gynghorion pwyllog y pendefigion; a chytunwyd bod i'r deyrnas gael ei rhanu rhwng y ddau frawd; Beli i gael y rhan ddeheuol o Brydain, a Brân i gael y cyfan o'r tu gogleddol i'r afon Humber, yn ddarostyngedig i benteyrniaeth Beli. Parhaodd pethau yn dawel dros bum mlynedd yn y wedd yma, pan geisiodd Brân ferch brenin Llychlyn yn wraig, er mwyn sicrhau cynnorthwy y pennadur hwnw, i ymryson eto â'i frawd, am benteyrniaeth Ynys Prydain; ar yr hyn y croesodd Beli yr Humber, ac y cymerodd feddiant o'i ddinasoedd a'i gestyll; gan orchfygu y milwyr tramor a ddygasai Brân drosodd i'w gynnorthwyo. Erbyn hyn, gan fod Beli bellach yn bennadur ar holl Frydain, efe a ddechreuodd ymroddi yn egnïol i drefnu helyntion ei lywodraeth; ac yn enwedig ymroddodd i wneyd ffyrdd ar draws y wlad, y rhai wedi eu gorphen, a wnaeth efe yn gyssegredig, gan ddyroddi yr hawl-fraint o noddfa arnynt. Ond wedi mwynhau rhai blyneddoedd o heddwch, bu raid iddo ymbarottoi i gyfarfod â'i frawd mewn brwydr drachefn; yr hwn a ddygasai fyddin fawr drosodd o Gaul, i ymosod arno: ond pan oedd y ddau frawd wedi trefnu eu byddinoedd yn barod i frwydr, daeth eu mam Corwena rhwng y byddinoedd, ac a athrywynodd mor effeithiol rhwng ei meibion, fel y llwyddodd i gael ganddynt ymheddychu. Nid oes unrhyw hanesydd, hyd yr ydym yn cofio, wedi rhoddi yr awgrymiad lleiaf i ni, tua pha barth o'r Ynys yr oedd y byddinoedd hyn wedi cyfarfod, ac y bu athrywyniad y fam mor effeithiol i roddi attalfa ar dywallt gwaed; ond y mae bŷs traddodiad yn lled gyfeirio at y llannerch.—Dywaid llên gwerin, fod dau frawd mewn rhyw adeg dra boreuol, wedi arwain eu byddinoedd i gyfarfod â'u gilydd rai milldiroedd i'r gorllewin o Gorwen; a bod y ddwy fyddin wedi ymwersyllu ar gyfer eu gilydd un prydnhawn, y naill yn lled agos i'r lle a elwir "y Maes Mawr," a'r llall yn yr ucheldir, tua "Llys Dinmael;" ond bod y brawd y gwersyllai ei fyddin ar y tir isaf, yn gweled ei anfantais i ymladd yn y fan hono, wedi symud ei fyddin oddiyno ar hyd nos yn ddirgelaidd, ac ymwersyllu erbyn y boreu ar fryn sydd ar gyfer tref bresenol Corwen; ac wedi ei dyfod yn ddydd, ac i'r brawd arall ddeall pa beth a gymerasai le, efe a



Digitized by Google

dywysodd ei fyddin ar ffôs ar ei ôl, gan lawn fwriadu ymosod arno yn ddiarbed; ond pan oedd y ddwy fyddin ar ruthro i'r gâd, i'w mam gyrhaedd yno, ac athrywynu yn effeithiol rhyngddynt; er côf am yr hyn y gelwir y bryn "Moel athrywyn" hyd y pryd hwn; a'r dref, gerllaw, a elwir "Corwen," er côf am eu mam glodforus, "Corwena." Pa faint o wirionedd sydd yn y traddodiad, ni's gwyddom, yn unig yr ydym yn ei roddi yma, ar gyfrif y cyddarawiad hynod sydd rhyngddo a'r hen hanesiaeth. Pa fodd bynag am hyny, fe'n hysbysir yn mhellach, fod y ddau frawd mewn canlyniad i'r ymheddychiad yma, wedi uno eu lluoedd, a hwylio drosodd i Gaul, yr hon a oresgynasant, gan orchfygu pawb o'u blaen, nes cyrhaedd o honynt i Rufain; a'r Rhufeiniaid yn ewyllysgar a wnaethant gyfammod heddwch â hwynt, gan dalu swm mawr o arian iddynt ar y pryd; ac addaw teyrnged flyneddol drom iddynt: a rhoddasant bedwar ar hugain o wystlon iddynt y byddai iddynt gyflawni eu hymrwymiad. Oddiyno hwy a droisant eu harfau tu a'r Almaen; ond wedi deall bod y Rhufeiniaid yn ymddwyn yn ffeilsion, gan anfon cynnorthwy i'r Ellmyn, hwy a ddychwelasant ac a osodasant warchae ar Rufain, yr hon a gymerasant yn fuan; a choronwyd Bran yn amherawdwr ar Rufain. Yna ei frawd Beli a'i wŷr, a ddychwelasant i Frydain, yr hon a lywodraethodd efe yn dangnefeddus hyd derfyn ei einioes. Y Beli hwn, meddir, a adeiladodd Gaerlleon ar Wysg, a phorth mawrwych yn Llundain hefyd, yr hwn a elwir ar ei enw, yn Borth Belin (*Belin's Gate*), oddiar yr hwn y parodd efe adeiladu tŵr uchel, gan orchymyn pan y byddai farw, i'w gorph gael ei losgi; yr hyn a wnaed, a dodwyd ei ludw mewn llestr aur celfydd, i'w gadw ar nen y tŵr.

**BELI**, mab Benlli Gawr, rhyfelwr enwog yn Ngogledd Cymru, tua diwedd y bumed ganrif. Meddylir mai yn Llanarmon yn Iâl ei claddwyd, ar sail yr hyn a ddywedir yn Englynion y Beddau:—

"Pïeu y bedd yn y Maes Mawr?
Balch ei law ar ei lafnawr;—
Bedd Beli, fab Benlli Gawr."

**BELI** (Mawr), mab Manogan, yr hwn yn ol y Brutiau, a olynodd i benteyrniaeth Prydain ar farwolaeth ei dad; ac yn ol yr unrhyw awdurdod, efe a fu yn teyrnasu am ddeugain mlynedd; ac a ddilynwyd yn y freniniaeth gan ei fab Lludd.

**BELI**, mab Rhun ab Maelgwyn Gwynedd, a olynodd ei dâd fel pen tywysog Gwynedd, yn y flwyddyn 586, ac a fu farw yn y flwyddyn 599; pan ei holynwyd yn y llywodraeth gan ei fab Iago.

**BELYN**, o Leyn, a grybwyllir yn y Trïoedd, fel pen un o'r "Tri Hueilogion Teulu Ynys Prydain." Fe'u gelwid felly, o herwydd eu bod wedi eu rhwymo eu hunain yn nghyd, â hualau eu meirch, er gwrthladd ymosodiad Edwin yn Mryn Ceneu, a alwyd wedi hyny, Bryn Edwin yn Rhos; a hyn a fu, tu a'r flwyddyn 620. Y ddau deulu eraill, oeddynt yr eiddo Caswallon Law Hir, a Rhiwallon ab Urien. Yn wobrwy am eu gwroldeb, caniatteid i'r llwythau hyn wisgo rhwymynau aur, ac "nad oedd na phen na theyrnedd arnynt hyd y cerddei braint eu Teuluoedd a'u Cyfoeth, cyt bei a holid o fewn y terfyneu hyny, namyn Rhaith Gwlad a Chenedl."

**BENLLI** (Gawr), oedd dywysog ar randir helaeth, sydd yn bresenol yn ffurfio rhanau o swyddi Fflint a Dinbach; ac yr oedd yn ei rwysg tua chanol y bumed ganrif. Meddylir fod ganddo lŷs, tu a'r fan lle y saif y Wyddgrug; ond ei amddiffynfa filwraidd ydoedd ar fryn, o'r hwn y gallai weled ei holl etifeddiaeth, ac a elwir ar ei enw, "Moel Fenlli." Mewn cyssylltiad ag ef, y mae yr amgylchiad a ganlyn yn deilwng o'i goffau. Tu a'r flwyddyn 1836, darganfyddwyd hen gadbais, neu frondor Brydeinaidd o aur, yn agos i'r Wyddgrug, yn swydd Fflint, o dan garn o gerig, a elwid "Bryn Ellyllon;" pan oedd y gweithwyr yn symud y cerig, er eu cael i adgyweirio y ffyrdd, hwy a ddaethant ar draws esgyrn-glwm dynol, asgwrn penglog yr hwn ydoedd o faintioli cawraidd, ac esgyrn cluniau yr hwn oeddynt yr eiddo dyn o faintioli mwy na chyffredin. Yr oedd y frondor yn gorwedd ar ei fynwes, wedi ei boglynu drosti â dau neu dri chant o glain-wefrau hardd neillduol, ac wedi ei chroesi â math o waith mân-edafeddog o aur coeth; y cwbl yn weithiedig ar aur pur. Ei hyd eithaf, sydd yn dair troedfedd a saith modfedd, wedi ei gwneuthur, fel yr ymddangosai, i fyned oddi tan y breichiau, ac i gyfarfod tua chanol y cefn; a'i lled, o'r tu blaen, lle y mae wedi ei cheuaw i dderbyn y gwddf, tuag wyth modfedd. Pwysau y crair dyddorawl hwn, yw dwy owns ar bymtheg, a'i gwerth gwirioneddol, tua thri ugain punt. Y mae yn nghadw yn bresenol yn yr Amgueddfa Brydeinaidd.

Gwnaed y sylwadau canlynol gan y diweddar athraw W. O. Pughe ar y testun, ac y mae pob amgylchiad cyssylltiedig â'r darganfyddiad, yn gadarnhaol o'r drych-feddwl, mai Benlli Gawr a gladdesid yn y fan hono:—"Y mae yn debyg y rhaid mai wedi ymadawiad y Rhufeiniaid o'r wlad hon, y claddwyd yr hwn a orweddai dan y garnedd hon, pe amgen, y mae yn debyg y buasai y corph wedi cael ei losgi; a phe y buasai yn oesi tu a'r seithfed ganrif, buasai yn cael ei gladdu yn un o'n Llanau. Dan yr amgylchiadau hyn, ni's gallwn fod yn bell o'n lle, wrth brïodoli adeg oesiad y bod hynod hwn, i'r chweched ganrif, neu y rhan olaf o'r bumed. Ond yn awr, pwy a allasai efe fod? Pwy a allasai fod y fath ddynsawd urddasol, ag y buasai ei ganlynwyr yn bwrw y fath garnedd anferth o bridd a main ar ei fedd, ddydd ei arwyl; ac i goffadwriaeth yr hwn y buasai y fath deyrnged o barch yn cael ei thalu? Neb amgen, yr ydym yn credu, na Benlli Gawr ei hunan, yr hwn oedd a'i gyfeillion a'i ganlynwyr o'i amgylch yn ei amddiffynfa gref, ar y bryn a elwir ar ei ôl, 'Moel Fenlli,' ac yn ngolwg ei breswyl, a elwir y Wyddgrug, cystal ag yn ngolwg Dyffryn Clwyd, ar y llaw arall."

**BERRIEW**, neu Aber-riw, plwyf mewn rhan yn nghantref *Cawrse*, o fewn terfynau bwrdeis-dref y Trallwm; ond yn benaf yn y rhanbarth isaf o gantref y Dref Newydd, swydd Drefaldwyn, Gogledd Cymru, bum milldir i'r De dde orllewin o'r Trallwm; ac yn cynwys poblogaeth o 2155, yn ol y Ddeiliadeb a wnaed yn 1861.

Y mae y lle yma wedi cael ei enw oddiwrth ei sefyllfa yn agos i ymuniad yr afon Rhiw a'r Hafren. Y mae y pentref tua thri chwarter milldir o'r fan lle y mae y Rhiw yn ymarllwys i'r Hafren, ar y ffordd rhwng y Trallwm a'r Dref Newydd. Y mae y plwyf yn bur fawr, ac wedi ei ddwyn oll dan ddiwylliant, gan fod y cyttiroedd, o ba rai yr oedd yma tua phymtheng mil o gyfeiriau yn Maenoriaeth Cedewain, wedi eu dyranu yn ol Deddf Seneddol a gafwyd yn y flwyddyn 1796. Y mae Dyfr-ffos swydd

Digitized by Google

Drefaldwyn yn myned drwy y plwyf, ac fe'i cludir dros yr afon Rhiw yn agos i'r pentref, ar awell o bedwar bwa. Y mae yr uchel-diroedd, yn enwedig y Byrwydd, tua thair milldir i'r gogledd orllewin o'r pentref, yn fanteisiol i gael golygfeydd tra ehang ac amrywiadol oddiarnynt, ar ddyffrynoedd breision yr Hafren, Trefaldwyn, yr Amwythig, a Manafon, yn cael eu dyfrhau gan eu hamryfal ffrydiau, a'u tryfritho gan bentrefi a phalasau lluosog, a rhai o'r prif fynyddoedd yn Ngogledd Cymru, Sir yr Amwythig, &c. Y mae golwg brydferth a difyrus ar y pentref, yr hwn a gynnwysa amryw dai dâ a heirdd. Y mae hen balas y Faenor mewn sefyllfa dderchafedig, yn cael ei gylchynu gan barc coediog. Y mae amryw balasau heirdd eraill yn y plwyf, megis Glan Hafren, Bod Heilyn, ac eraill. Cynhelir Cyfarfod Ustusiaid am y rhan isaf o'r cantref, yn y Berriw, y dydd Sadwrn cyntaf yn mhob mis.

Ficeriaeth ydyw y fywioliaeth eglwysig, yn Archddeoniaeth ac esgobaeth Llanelwy. Y llan, yr hon sydd yn gyssegredig i Sant Beuno, sydd adeilad ddiweddar hardd, a thwr petrual iddi, yn addurnedig â phinaclau. Y mae yma addolfeydd hefyd yn perthyn i'r Annibynwyr, y Trefnyddion Calfinaidd, a'r Trefnyddion Wesleyaidd. Darfu i Humphrey Jones, Ysw., o'r Garthmael, mewn ewyllys, dyddiedig Chwefror 26, 1652, gymun-roddi i ymddiriedolwyr, beriglorìaeth y Bettws, a thai a thiroedd adnabyddus dan yr enw, Cwm Madoc Ucheldref, yn mhlwyf Tregynon, yr hwn a ddaliai yn wystl am bedwar cant o bunnau a roddasai ar dir-wystl, at seilio a gwaddoli ysgol râd yn y Berriw; ond, os y byddai i'r arian oeddynt ar y tir gael eu talu, efe a orddeiniai i'r swm dywededig o arian, gael eu rhoddi allan ar diroedd eraill i'r perwyl hyny. Gan i hyny gymeryd lle, defnyddiwyd y swm o bedwar cant o bunau, yn y flwyddyn 1754, yn nghyda haner can punt, a berthynent i'r tlodion, i brynu etifeddiaeth a elwid Penarth, yn mhlwyf Llanfair, yr hon a gynnyrcha yn bresenol tua deg punt a thriugain yn y flwyddyn, at yr elusen uchod. Gan fod yr hen Ysgoldy wedi myned i gyflwr adfeiliedig, fe'i tynwyd i lawr yn y flwyddyn 1819, a chyfodwyd adeilad gref a hardd, ar y draul o 1400*p*, a ddygwyd mewn rhan trwy gynnyrch yr elusen, a chwyddasai yn ystod attaliad yr ysgol dros dymhor, ac mewn rhan trwy gyfroddion gwirfoddol. Y mae tua 40 o blant dan addysg yn y sefydliad hwn yn bresenol. Y mae amryfal gymun-roddion eraill wedi eu gadael at wasanaeth y tlodion, i'w cymhwyso mewn rhanu bara a dillad, ac mewn dwyn plant i fynu mewn gwahanol alwedigaethau.

Y mae hwn yn un o'r plwyfi a gorfforwyd trwy Weithred Seneddol a gadarnhawyd yn y 32ain o deyrnasiad Sior III., er cynal eu tlodion mewn Tŷ diwydrwydd, a gyfodasid yn Forden. Yn nhrefgordd yr Allt, rhwng y ffordd i'r Trallwm a'r gamlas, y mae tomen, tua 35 llath o draws-fesur, ac agos yn gron; ond gan ei bod wedi cael ei mynych aredig, nid ydyw yn uchel; dim mwy nag wyth neu naw troedfedd efallai, yn y fan uchaf, uchlaw lyfel gyffredin y maes. Gan fod yr ammaethwr yn bygwth ei chwalu, er mwyn hwylusdod i drin y maes yn yr hwn y gorweddai, ymwelwyd a'r lle gan rai o aelodau Cymdeithas Hynafiaethol Cymru, y rhai wrth ymchwilio a gawsant dri o feini o fewn y cyffelyb bellder i'w gilydd, yn ffurfio math o haner cylch. Yr oedd dau o'r rhai hyn o bum troedfedd i bump a haner o hyd; ond y trydydd ydoedd ychydig yn llai na'r ddau arall. Ac y mae yn deilwng o sylw, mai math o gris-graig neu biler-graig, oedd pob un o'r meini hyn, y rhai yr oedd yn rhaid eu bod wedi eu cludo yma o gryn bellder;—o graig Trefaldwyn debygid. Peth arall a ganfuwyd yma wrth agor ffosydd trwy y bryncyn, oedd ychydig olosg a lludw; oddiwrth yr hyn y casglid bod cyrph dynol wedi cael eu llosgi yno ar ryw adeg dra boreuol. Nid oes unrhyw enw hanesyddol ar y maes yn yr hwn yr oedd y domen; ond y mae traddodiadau y gymydogaeth yn nodi y llanerch, fel maes brwydr yn yr hen oesoedd, er na ellir penderfynu rhwng pa genedloedd. Yr hyn sydd fwyaf tebyg ydyw, fod rhai o'r prif swyddogion wedi cwympo yn y frwydr, a bod eu gwŷr wedi llosgi eu cyrph, a'u claddu dan y domen hon. Dywedai un hen lafurwr oedd yn bresenol pan oeddid yr archwilio y domen, y byddai ammaethwr tra oedranus, gyda'r hwn y gweithiai efe pan yn llencyn ieuanc, yn arfer dweyd fod rhyw gamwri wedi ei wneyd yn y lle hwnw, yn yr hen amser gynt; ac yr arferai yr hen bobl edrych ar y domen, fel lle a wylid gan ryw ellyll. Y mae dwy neu dair o domenydd o gyffelyb ymddangosiad, i'w canfod yn y maesydd cylchynol.

Yn lled agos i'r maes a grybwyllwyd uchod, y saif maen hir garw, a elwir "Maen Beuno;" ac y mae hyn eto yn tueddu i gadarnhau y traddodiad uchod, fod yma frwydr wedi cael ei hymladd ar ryw adeg dra boreuol; canys fe gydnabyddir yn gyffredin, fod meini hirion yn nodi beddau rhyw enwogion: ond nid yw yn hawdd penderfynu paham y cydiwyd enw St. Beuno â'r cyfryw faen. Dywaid T. O. Morgan, Ysw., fod y maen ar y ffin rhwng y ddwy dref ddegwm i'r rhai y rhenir y plwyf; a barnai efe i'r maen gymeryd ei enw oddiwrth y ffaith o fod llan y plwyf yn gyssegredig i goffadwriaeth y sant hwnw. Y mae y maen hwn yn sefyll agos yn y ffos, ger ochr y ffordd, ac yn lled-ogwyddedig; ac os bu yma domen, neu garnedd, o'i amgylch unwaith, y mae pob olion o'r cyfryw wedi eu llwyr ddileu er ys llawer blwyddyn, wrth wneuthur y ffordd, a'r cloddiau o'i deutu.

**BERSHAM DRELINCOURT**, capeloriaeth yn y rhan hono o blwyf Gwrecsham sydd yn nghantref Bromfield, swydd Dinbach, Gogledd Cymru; dwy filldir i'r Gorllewin wrth Ogledd o Wrecsham, ac yn cynwys poblogaeth o 3073, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae melinau papur mawrion yn y Gapeloriaeth hon, ar yr afon Clywedog, yn y rhai y mae llawer yn cael gwaith; ac y mae yr holl ardal yn gyfoethog mewn mwngloddiau glô, haiarn a phlwm; a chloddfeydd o geryg adeiladu rhagorol, yr hyn, yn nghyd âg agoriad rheilffyrdd trwy y wlad, sydd wedi peri cynnydd cyflym ar y boblogaeth. Y fywioliaeth eglwysig sydd guradiaeth barhaol, yn arch-ddeoniaeth ac esgobaeth Llanelwy, wedi ei gwaddoli ag 16*p*. yn y flwyddyn o ddyroddiad personol, 600*p*. o rodd freninol, a 600*p*. o rodd seneddol; ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Y capel, yr hwn a adwaenir yn y gymydogaeth, dan yr enw "Capel Madam," sydd yn gorwedd ar derfyn de-orllewinol trefgordd Broughton. Y mae ysgol yn gydiol ag ef, i addysgu, dilladu, a chynal, deg o enethod tlodion; yr hon a sefydlwyd yn y flwyddyn 1762, gan Anne, yr Anrhydeddus Is-iarlles Waddolog Primerose, yr hon a'i gwaddolodd a thiroedd, &c., yn y gymydogaeth, dan arolygaeth ymddiriedolwyr, yn mysg y rhai y mae

Digitized by Google

esgob Llanelwy, Goruchwylwyr ced-rodd y Frenines Anne, ac eraill. Y mae Clawdd Watt yn myned trwy y gymydogaeth hon, mewn cyfeiriad yn agos o ddehau i ogledd, ac mewn cyflwr lled gyfan.

**BERWIC**, neu Y FERWIG, treflan yn mhlwyf LLANELLI, cantref CARNWALLON, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUBARTH CYMRU, yn cynwys poblogaeth o 895, yn ol Deiliadeb 1861.—Gwel LLANELLI.

**BERWYN.** Y mae rhês o fynyddau o'r enw yma yn rhedeg drwy swydd FEIRIONYDD, GOGLEDDBARTH CYMRU, at y rhai y cyfeiriai y bardd pan yn cyfansoddi y deuair cywydd yma:—

"Gwr oerach nag Eryri
A Berwyn wyf, i'm barn i."

Y mae treflan o'r enw yma hefyd yn mhlwyf TREGARON, rhandir uchaf cantref PENARTH, swydd ABERTEIFI, DEHEUBARTH CYMRU, 3 m. i'r De Ddw. o Dregaron, yr hon sydd wedi cael ei huno â threflan Croes, a chyda'u gilydd y maent yn rhifo 308 o drigolion. Gorwedda mewn parth mynyddig a gwyllt, ac y mae yn cynnwys llŷn bychan, yr hwn a elwir Llŷn Berwyn, o'r hwn y rheda afonig o'r un enw, yr hon, wedi uno â'r afonig Croes, sydd yn aberu yn y Teifi, ychydig islaw Tregaron. Y mae y dyffryn ar hyd glânau yr afonig hon, yn hynod o ddymunol, ac y mae y lle wedi cael ei fytholi yn mugeileg awenyddfawr Edward Richards, Ystradmeurig. Efelychiad campus ydyw'r fugeileg o un o fugeilegion tynerfwyn y Bardd Lladinaidd *Virgil*, a dyma bennill y Berwyn:—

"Mae'n bwrw'n NGHWM BERWYN,
Mae'r cysgod yn esgyn,
Gwna heno fy mwthyn yn derfyn dy daith;
Cei fara-chawl erfin
Iachusol a chosyn,
A'menyn o'r enwyn ar unwaith."

Y mae mynydd o'r enw yma hefyd yn swydd DREFALDWYN, ar yr hwn y tyfa mwyar a elwir "Mwyar Dogfan" a "Mwyar Berwyn"—*cloudberries*. Yr oedd Dogfan yn cael ei alw yn sant, ac yr oedd yn fab i'r Sant-Dywysog Brychan Brycheiniog. Iddo ef y mae eglwys Llanrhaiadr-yn-Mochnant wedi cael ei chyssegru.

**BETTESFIELD**, trefgordd yn mhlwyf HANMER, yn nghantref MAELOR, swydd FFLINT, GOGLEDD CYMRU; 4 mill i'r dwyrain ogledd ddwyrain o Ellesmere. Y mae yn gorwedd ar ffiniau swydd yr Amwythig; ac y mae y ffordd o Ellesmere i'r Eglwys Wen yn myned trwy y lle hwn. Dyma lle yr oedd hen breswylfa yr Hanmeriaid, ac yma y ganwyd Syr Thomas Hanmer, Llefarydd Tŷ y Cyffredin yn amser y Frenines Anne, yr hwn a fu farw yn mis Mai, 1746, ac a gladdwyd yn nghladdfa y teulu, yn eglwys Hanmer, lle y mae gwyddfa hardd wedi ei gyfodi i'w goffadwriaeth. Darfu i Syr John Hanmer Barwnig, yn y flwyddyn 1624, gymun-roddi degymau Bettesfield at gynhaliaeth pregethwr dysgedig yn eglwys plwyf Hanmer.

**BETTWS**, plwyf yn undeb LLANELLI, cantref ISCENNEU, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUBARTH CYMRU, 7m. i'r De o Landilo-fawr, bron ar ymyl y ffordd o'r lle hwnw i Abertawy. Y mae tua 5milldir ei hyd o'r Dwyrain i'r Gorllewin, a thua milldir a hanner ei led; neu yn 6456 erw, gyda 1547 o drigolion, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae yn fynyddig iawn gan mwyaf, a dywedir fod ynddo gyflawnder o lô, ond ychydig o hono sydd wedi cael ei weithio hyd yma. Y mae yr eglwys wedi cael ei chyssegru i Dewi Sant, ac y mae y ficeriaeth wedi cael ei gwaddoli âg 800*p*. o rodd freninol, a 1000*p*. o rodd seneddol, yr hyn sydd yn ei gwneuthur yn werth 98*p*. y flwyddyn. Y mae ysgol Sul luosog yn cael ei chynal yma. Y mae'r trethoedd dros 150*p*. y flwyddyn, o ba rai y mae tua 100*p*. yn myned i gynal y tylodion. Ystyr y gair yw *Bead-house*—tŷ rhifo y *beads*—tŷ y paderau.

**BETTWS**, plwyf yn undeb PENYBONT-AR-OGWY, a'r BONTFAEN, cantref CASTELLNEWYDD-AR-OGWY, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, 4 milldir i'r Gogledd o Benybont. Y mae yn gorwedd mewn parth dymunol ar làn yr afon Ogwy, nid pell oddiwrth aberiad yr afon hono yn yr Hafren, ac y mae yn cael ei ffinio gan y nentydd Llynfi a Garw. Y mae y golygfeydd yn arddunol iawn, ac y mae yma amryw blasdai. Y mae Coytrehen, plas M. Popkin Treharne, yswain, yn un ardderchog iawn, ar lethr dymunol, goruwch yr Ogwy, ac yn cael ei amgylchynu gan goedwigoedd prydferth a chauadfrig. Perthynai gynt i deulu o'r enw Powel, ond drwy brïodas, y mae gwedi dyfod yn feddiant i deuluoedd Popkin a Treharne, y rhai ydynt gyda'r mwyaf cyfrifol yn Morganwg. Y mae gwlatty prydferth gerllaw i'r plâs yma, yn yr arddull adeiladol a elwir Elizabethian, yr hwn a adeiladwyd gan Mr. Treharne i'w chwaer, gweddw y diweddar George Jenner, Yswain, o'r Doctors' Commons. Y mae y plwyf yn llawn glô, ac y mae'r rheilffyrdd newydd sydd wedi cael eu hagor yma, yn sicr o fod yn gynnorthwy iddo gael ei weithio yn amgen nag y gwnaed hyd yma. Hyd yn ddiweddar, nid oedd ond un wythien o honaw yn cael ei weithio, yr hon a berthynai i John Edwards Vaughan, Yswain, Rheola, Glyn Nedd. Y mae capeli yma gan yr Undodiaid a'r Bedyddwyr, ac y mae ychydig waddol yn perthyn i'r capel Undodaidd. Y mae yr eglwys wedi cael ei chyssegru i Dewi Sant, ond nid oes dim ardderchawgrwydd yn perthyn iddi. Y mae awelfynag cywrain ar ben y cloch dy, yr hwn sydd ar lun pysgodyn, ac y mae pob bedd yn y fonwent dlos, wedi ei orchuddio â'r planigyn teim. Y mae y ficeriaeth wedi ei huno â ficeriaeth Castellnewydd-ar-Ogwy, ac y mae y ficeriaeth hono gwedi cael ei gwaddoli â'r degymau rectoraidd. Y mae yma ysgol ddyddiol, yn yr hon yr addysgir ychydig blant. Y mae 2*p*. y flwyddyn yn daledig i'r tylodion oddiwrth ystâd Goytrehen, ac y mae 1*p*. 10*s*. i'r un perwyl blynyddol, yn ddyledus oddiwrth ymddiriedolwyr ffordd fawr Penybont-ar-Ogwy. Y mae amryw Eisteddfodau, hen a diweddar, wedi cael eu cynnal ar Dòn y Bettws, ac y mae rhai o feirdd Tir Iarll wedi cael eu geni yma. Yn Ty'nton, yn y plwyf hwn hefyd, y ganwyd y duwinydd anghydffurfiol enwog hwnw, y Dr. Richard Price, yn mis Chwefror, 1723; bu farw yn Hackney, Llundain, Ebrill 19, 1791, a chladdwyd ef yn Bunhill-Fields. Ysgrifenodd lawer ar foeseg a llywod-ddysg, ac yr oedd yn gyfaill calon i ryddid gwladol a chrefyddol. Dangosodd hyny gyda medrusrwydd mawr yn ei ysgrifau galluog ar y Chwyldroadau yn Ffrainc ac America, yr hyn a gydnabyddwyd gan amryw gymdeithasau cyhoeddus, ac y mae ei ysgrifau ar dduwinyddiaeth ac arddansoddiaeth, yn dangos yr un gallu meddyliol. Yr oedd trethoedd y plwyf hwn dros 150*p*. y flwyddyn, yn ddiweddar, 100*p*. 5*s*. o ba rai a roddid i gynnal y tylodion; y mae yn mesur 5086 erw, ac yn cynnwys 371 o drigolion, yn ol Deiliadeb 1861.

Digitized by Google

**BETTWS**, trefgordd yn mhlwyf LLANFAWR, cantref PENLLYN, swydd FEIRIONYDD, GOGLEDD CYMRU.

**BETTWS**, plwyf yn rhanbarth uchaf cantref y DREF NEWYDD, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU; 4 milldir i'r gogledd wrth ddwyrain o'r Drefnewydd, yn cynwys poblogaeth o 730, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae y plwyf hwn mewn sefyllfa ddifyrus, ar lan yr afonig "Bechan," yr hon sydd yn ymarllwys i'r Hafren yn Aber-Bechan. Y mae y gangen orllewinol o gamlas swydd Drefaldwyn i'r Drefnewydd, yn myned trwy y rhan ddwyreiniol o'r plwyf, yr hwn hefyd a drawsir gan y brif-ffordd o'r dref hono i'r Trallwm; ac y mae ffordd arall o'r Berriw i Lanwnog, yn myned trwy y pentref. Cynwysa y plwyf tua chwe mil o gyfeiriau o dir, yr hwn sydd yn gauedig oll, gan fod y cyttiroedd wedi eu rhanu dan ddeddf Seneddol a gafwyd yn y flwyddyn 1796, er cau y tiroedd gorest, oeddynt o fewn maenorau Cedewain, Hopeton, a'r Gorddwr Uchaf. Y mae y ffordd sydd yn cyfeirio o Bont Brynderwen i'r Garthmael yn cynwys rhai o'r golygfeydd mwyaf swynol; yr ucheldiroedd ar yr ochr ogleddol, ydynt orchuddiedig gan goed a phlanwydd amryfath, y rhai ydynt mewn cyflwr tra ffyniannus, ac y mae y tirweddiad yn cael ei sirioli trwy droelliadau yr Hafren, a'r gamlas, yn y dyffryn-dir. Ficeriaeth ydyw y fywioliaeth eglwysig, yn archddiaconiaeth ac esgobaeth Llanelwy; ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Y Llan, yr hon sydd yn gyssegredig i goffadwriaeth Beuno, sant o'r chweched ganrif, a berthynai gynt i hen Leiandy Llanllugan, a seiliasid cyn y flwyddyn 1290, ac a waddolid â chyllid, a gyrhaeddai ar adeg y dadgorfforiad, i'r swm o 22*p.* 14*s.* Adeilad hardd, ddi addurn ydyw, a thŵr golygus iddi, a adeiladwyd yn y flwyddyn 1531, gan John ab Meredydd, darlun o'r hwn wedi ei gerfio ar ddalen bres, yn dwyn arysgrif Lladin, sydd yn addurno taflen o faen myldardd (*porphyry*), a gyfodwyd i'w goffadwriaeth, ar ystlys ogleddol y gangell. Y mae yma addoldy perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd. Yn y flwyddyn 1709, seiliwyd a gwaddolwyd elusendy i bedwar o dlodion y plwyf hwn, ac i bedwar o'r plwyf nesaf, Tregynon; gan Arthur Weaver, Ysw., yr hwn hefyd a adawodd bedair punt yn y flwyddyn, tuag at ei gadw mewn cywair dda, ac i brynu tanwydd i'r rhai a fyddont ynddo. Tua haner milldir i'r gogledd orllewin o'r pentref, y mae Pen y Gaer, hên wersyll Prydeinaidd, yn ddiffynedig âg amgloddiau triphlyg; ac y mae amryw wersyllfeydd llai hefyd, mewn amryfal barthau o'r plwyf. Ar ben bryn pigyrnaidd, uchel a serth, o'r hwn y ceir golygfa eang ar ddyffryn yr Hafren, a'r wlad oddi amgylch, y mae "Castell Dôl y Forwyn." Tybir fod cyfeiriad yn yr enw at y chwedl draddodiadol am Hafren, ferch Locrinus, fab Brutus, Brenin cyntaf Prydain, o Essyllt, ferch Brenin yr Almaen; yr hon a gymerasai Locrinus fel un o'i garcharorion rhyfel, yn ystod ei ryfeloedd yn erbyn Humyr, Brenin yr Huniaid. Wedi i Locrinus ddyweddio Essyllt, ar draws ymrwymiad a wnelsai â Gwenddolau, ferch Corineus, yr hwn a ddaethai gyda Brutus i Prydain, efe a orfodwyd dan berygl i ryfel gael ei gyfodi yn ei erbyn, i gyflawni ei ymrwymiad â Gwenddolau; ac wedi celu Essyllt, yr hon y cymerai arno ei fod wedi ei dëol o'r deyrnas, efe a brïododd Gwenddolau, yn ol ei addewid. Ond, ar farwolaeth Corineus, yr hyn a gymerodd le yn fuan wedi hyny, efe a ysgarodd Gwenddolau, ac a gyhoeddodd Essyllt yn frenines; eithr, ar farwolaeth Locrinus, cymerodd Gwenddolau afael ar y llywodraeth eto, ac mewn ymddial, hi a barodd i Essyllt, a'i merch Hafren, gael eu boddi yn yr afon. Oddiwrth yr amgylchiad hwn y tybia rhai i'r afon gael ei henw "Hafren;" neu, ar y cyntaf, "Ys Hafren," a thrwy gwttogiad, "Y Safern," oddiwrth yr hwn y deillia yr enw Lladinaidd "*Sabrina*," a'r enw Seis'nig, "*Severn*." Dywaid *Camden* i'r castell hwn gael ei adeiladu ar y cyntaf, gan y tywysog Bleddyn ab Cynfyn, rhwng y blyneddoedd 1063, a 1073; ond barnai *Dugdale* mai gan Dafydd ab Llewelyn ei hadeiledid, tu a'r flwyddyn 1245. Dywedir yn yr hen Gronicl Cymreig a elwir "Brut y Tywysogion," fod Llewelyn ab Gruffydd wedi ei gymeryd yn y flwyddyn 1269. Yn y flwyddyn ganlynol, fe'i gwarchaeid gan Iarll Lincoln, a Roger Mortimer, i'r rhai y darfu i'r gwarchodlu, gan fod wedi eu gorchfygu gan brinder dwfr, ei roddi i fynu. Yn y flwyddyn 1278, rhoddid y castell hwn, yn nghyda chestyll Cedewain a Cherri, gan y brenin Edward y Cyntaf, i Rossier Mortimer. Yr oedd y castell o ffurf betryal, oddeutu deg llath a deugain o hŷd, a phump ar hugain o led; ac wedi ei adeiladu â'r bril-feini a ganfyddir yn ddi brin yn yr ardal: ond nid oes ond ychydig iawn o hono yn aros. Y mae y bryn, ar yr hwn yr adeiladwyd y castell, wedi ei amddiffyn ar yr ystlysau mwyaf hygyrch, âg amgloddiau dyfnion, wedi eu torri yn y graig sylweddol; ac y mae ceunant ddofn yn amgylchynu ei waelod, yn yr hon y mae coedwig drwchus yn bresenol. Cafwyd crochan pres, ystên bridd, a rhyw greiriau henafol eraill, allan o'r adfeilion rai blyneddoedd yn ôl, y rhai a gedwir yn y Gregynog. Y mae ffynon o ddwfr mŵnawl yn nhref-gordd Dolforwyn, yr hon a gyfrifir yn dra effeithiol i wellhau anhwylderau croen-darddawl. Yn hen balas y Gregynog, yn y gymydogaeth hon y cyfaneddai Arthur Blayney, Ysw., yr hwn oedd yn enwog am ei lettygarwch i ddyeithriaid o bob gradd, ei ymdrechiadau diball i sicrhau llwyddiant a chysur ei dir-ddeiliaid, a'i gefnogaeth rydd-frydol i bob rhyw ysgogiad a dueddai i lesau y wlad yn gyffredinol. Byddai ei dŷ yn agored yn wastadol, i lettya ac ymgeleddu teithwyr; cefnogai a chynnorthwyai ei dir-ddeiliaid yn mhob rhyw ymdrechion cyfaddas i wellau eu tyddynod, y rhai a osodid yn ddi eithriad am ardrethion rhesymol; a gofalid am eu cysur a'u cyfleusdra, trwy adeiladu ac adgyweirio eu hanneddau, a lluest-dai eu hanifeiliaid; yr oedd tai y llafurwyr ar ei ettifeddiaeth yn gysurus ac iachus, a dernyn o dir yn perthyn i bob un, i fod yn borfa buwch yn yr haf; a gofalai am roddi digon o wair iddynt i'w porthi y gauaf; gwellhaodd y ffyrdd yn y gymydogaeth yn ddirfawr, ac adgyweiriodd ac addurnodd y llanau plwyfol yn y rhan yma o'r wlad; ac mewn gair, defnyddiai ei gyfoeth a'i ddylanwad i wneyd ei gymydogion a'i gydwladwyr yn ddedwydd hyd eithaf ei allu, i liniaru pangfeydd cyfyngder, cefnogi ac annog diwydrwydd a darbodaeth, ac annghefnogi segurdod a gwastraff. Bu y gwladgarwr cymwynasgar yma farw yn y Gregynog, wedi cyrhaedd oedran teg, yn y flwyddyn 1795.

**BETTWS-BLEDRWS**, plwyf yn undeb LLANBEDR-PONT-STEPHAN, yn mharth uchaf cantref MOYDDYN, yn swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU, 3 milldir i'r Gogledd Ddwyrain o dref Llanbedr, ar y ffordd yr elych i Dregaron. Bron yn ymyl y ffordd hono y mae plâs hardd y Jonesiaid, yr hwn a

Digitized by Google

elwir Deri Ormond, a adeiladwyd yn y flwyddyn 1827. Safa ar lethr dymunol, mewn lle prydferth neillduol, ac yn nghysgod bryn uchel a choediog. Y mae y tir oddiamgylch wedi cael ei drefnu yn ddestlus iawn, ac y mae yn cynnwys llŷn addurniadol, yr hwn a ddylenwir gan nant fechan, a chroesir y nant hon gan bont o ddyfeisiad ac adeilwaith telaid iawn. Nid yw plâs y Dderi yn un mawr iawn, ond y mae yn un o'r rhai goreu yn swydd Aberteifi, ac y mae yn ffurfio un o arweddau mwyaf dyddorol y parth hwn o'r wlad. Adeiladwyd y plâs hwn gan y diweddar John Jones, Yswain; ac yn mhen ychydig amser wedi hyny adeiladodd yr un boneddwr dŵr crwn, uchelwych, ar y bryn sydd gerllaw y plâs, o'r hwn y ceir golwg ar y môr, a'r holl barthau ëangfawr o gwmpas. Costiodd arian mawr i Mr. Jones, a'r maensaer cywrain oedd Mr. David Morgan, Brynmaen, Llandewi-Brefi. Ei enw priodol yw "Tŵr Dewi Sant," ond ei enw ar lafar gwlad yw "Tŵr y Dderi." Y mae y Parch Daniel Silvan Evans, B.D. Llanymowddy, yn dywedyd fel hyn am y Tŵr:—

"Prif goron a gogoniant—y gwledydd,
A'u gloewdeg addurniant,
Porth y mawl, parth y moliant,
Ydyw syw Dwr Dewi Sant."

Gan fod y plwyf hwn mor agos i weithfeydd plwm, bernir fod mŵn plwm i'w gael yma hefyd, ond nid oes un ymgais at ei gloddio wedi cael ei wneuthur hyd yma. Rectoriaeth ryddhaol yw y fywioliaeth eglwysig, ac y mae yn cael ei threthu ar lyfrau y brenin yn 4*p.* 7*s.* 8½*c.*; y mae gwedi ei gwaddoli â 400*p.* o rodd freninol, a'i gwerth blynyddol presennol yw 143*p.*; y mae yn rhodd Esgob Tŷ Ddewi. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i Bledrws Sant, ac wedi cael ei chyfnewid a'i hadgyweirio yn ddestlus yn 1831, at yr hyn y cyfranodd y diweddar Mr. Jones o'r Dderi, yn haelionus iawn. Y mae ysgol ddyddiol yma, ac Ysgolion Sabbothol mewn cyssylltiad â chapeli y Methodistiaid a'r Bedyddwyr. Rhwng plâs y Dderi a'r afon Teifi, ar fferm y Goettref, y mae hen amgaer a elwir Castell Goettref. Y mae cyfartaledd trethoedd y plwyf tua 60*p.* y flwyddyn, tua 40*p.* o ba rai a roddir at gynnal y tylodion; y mae y plwyf yn mesur 2216 erw, ac yn ol Deiliadeb 1861, y mae ei boblogaeth yn 222.

**BETTWS-CLYRO**, neu CLAERWY, yr hwn hefyd a elwir CAPEL-BETTWS, capeliaeth yn mhlwyf CLAERWY, undeb y GELLI, cantref CASTELL Y PAUN, swydd FAESYFED, DEHEUDIR CYMRU, 3½ milldir Gogledd wrth Orllewin o dref y Gelli. Y mae y golygfeydd dymunol sydd yma, o'r un natur a'r golygfeydd hyny a hynodant y parth yma o'r wlad, yn dlws ac yn amrywiol, ac yn cael eu sirioli â ffrydiau dolenog yr afon Wy. Y mae y capel tua 2 filldir o eglwys Claerwy. Trethir y gapeliaeth ar ei ben ei hunan, ac y mae cyfartaledd y trethoedd tua 120*p.* y flwyddyn, o'r rhai y mae tua 100*p.* yn myned at gynnal y tylodion; y boblogaeth yn ol Deiliadeb 1861 yw 188.

**BETTWS-DISERTH**, plwyf yn undeb LLANFAIR-YN-MUALLT, cantref COLWYN, swydd FAESYFED, DEHEUDIR CYMRU, 7 milldir i'r Gogledd Ddwyrain o dref Llanfair, ar ymyl y ffordd o'r dref hono i Kington. Y mae yn gorwedd mewn lle dymunol, bron wrth darddle yr afon Edw neu Edwy, ac y mae yn mesur 1855 erw. Y mae ansawdd y tir yn amrywiol, ond y mae ar y cyfan yn ffrwythlawn a chnydfawr; barna rhai mai glô yw yr is-heiniau, ac ar sail y farn hono sinciwyd pwll dwfn iawn, ychydig amser yn ôl, ar fferm Tyn y coed, ond ni chafwyd o hyd i ddim glô. Y mae'r golygfeydd oddiamgylch yn ddymunol iawn, ond nid oes dim ynddynt yn eu hynodi oddiwrth y rhai cymmydogaethol. Y mae yr eglwys wedi cael ei chyflwyno i Fair Forwyn, ac y mae y ficeriaeth wedi ei huno âg un Diserth. Cynnelir ysgol ddyddiol yma, ac y mae hwn yn un o'r plwyfi o ba rai y dewisir plentyn yn flynyddol, i gael ei brentisio, yn ol ewyllys y Parch. Rhys Pywel, Bachryd (*Boughrood*), yr hwn sydd wedi gadael 5*p.* yr un tuag at yr amcan. Y mae yma 1*p.* y flwyddyn wedi cael ei gadael at wasanaeth y plwyf gan ryw un anadnabyddus; gadawodd un Mrs. Elizabeth Jones, yn 1746, 40*p.* o arian i'r un perwyl, llôg y rhai a dalwyd am rai blynyddau, ond y mae'r llôg a'r corff wedi myned i golli er ys amser bellach. Yn ychwanegol at hyn, gadawodd Mrs. Elizabeth Lewis, yn 1746 hefyd, rentdal o 2*p.* y flwyddyn ar fferm Wernfawr, yn y plwyf hwn, y rhai sydd yn cael eu rhanu rhwng y tylodion, wrth ddewisiad gweinidog y plwyf, a chwech o'r prif breswylwyr. Y mae rhai ffynnonau sulpheraidd yn y plwyf hwn, ond gan nad ydynt yn rhyw gryf iawn, nid oes defnydd meddygol yn cael ei wneuthur o honynt. Y mae cyfartaledd y trethoedd yn rhyw 90*p.* y flwyddyn, tua hanner y rhai sydd yn myned at gynnal y tylodion; mesura 1855 erw, ac y mae ei boblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, yn 130.

**BETTWS GARMON**, plwyf yn nghantref IS-GWYRFAI, swydd GAER-YN-ARFON, GOGLEDD CYMRU; bedair milldir i'r de ddwyrain o Gaer-yn-arfon, ar y ffordd i Beddgelert, yn cynwys poblogaeth o 94, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae y golygfeydd yn y gymydogaeth yma yn fawreddawg dros ben, ac yn hynod o amrywiol; y mae rhan o odreu y Wyddfa o fewn ffiniau y plwyf; a chyn gwneuthur y ffordd newydd i Lanberis a Chapel Curig, o'r lle hwn yr oedd y brif esgynfa i'r mynydd hwnw. O'r tu cefn i Lan y plwyf, y mae y mynydd a elwir "Moel Eilio," yr hwn sydd yn ymddyrchafu i'r uchder o 2377 o droedfeddi goruwch lyfel y môr; ac ar y tu deheuol iddi y mae "Mynydd Mawr," yr hwn nid ydyw yn llawn mor uchel, er ei fod yn ymddangos i fwy o fantais o'r ffordd. Y mae helaethrwydd o fwn copr yn y ddau fynydd hyn; ond trwy fod y dwfr mor grŷf, cafwyd fod y draul o'i godi yn rhŷ fawr i allu cael elw o'i weithio. Y mae gweddillion hen wylfeydd ar gopäau pob un o'r mynyddoedd hyn, y rhai a gyfodwyd yn foreu er amddiffyn y bwlch; ac wrth droed y Mynydd Mawr, y mae clogwyn craig, a elwir "Castell Cidwm," lle y tybia rhai, fod trigfa rhyw hen bennaeth Prydeinaidd, mewn amserau tra boreuol. Y mae yma amryw Lynau, y rhai a chwanegant yn fawr at harddwch y ddrychfa, megis y Ffynon Lâs, y Llyn Côch, Llyn y Nadroedd, a Llyn Ffynon y Gwas, y rhai ydynt brif darddellau yr Afon, neu y Tarddeni; ac y mae Llyn Cawellyn hefyd, un o'r Llynau enwoccaf yn y parth yma o'r dywysogaeth, mewn rhan yn y plwyf hwn; ac yma hefyd y mae Melin y Nant, nodedig am ei rhaiadr prydferth, o'r hon y mae darluniau aneirif wedi eu cymeryd gan rai o brif arlunwyr y deyrnas.

Cynhelir Ffeiriau yma ar yr 17eg o Awst, a Medi yr 22ain. Y fywioliaeth eglwysig, a elwir yn gyffredin Curadiaeth barhaus, sydd ficerawl, yn archddiaconiaeth ac esgobaeth Bangor, wedi ei gwaddoli â 600 punt o ged-rodd freninol, a 200 punt o ddy-

Digitized by Google

roddiad Seneddol; ac yn nawddogaeth Arglwydd Newborough.

Yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i goffadwriaeth Sant Garmon, sydd yn adeilad fechan a di addurn; ond mewn sefyllfa dra rhamantus, mewn dyffryn bychan, yn cael ei gylchynu gan fynyddoedd uchel-grib. Ar lethr bryn, tua milldir i'r gorllewin o Lan y plwyf, y mae ffynon gref, a elwir "Ffynon Garmon," i'r hon y priodolir rhinwedd tra effeithiol i wellau y cryd cymalau, ac anhwylderau croen-darddawl.

Yr oedd llinach o bobl a gyfanneddent yr ardaloedd oddeutu godreu y Wyddfa, rai oesoedd yn ôl, a adnabyddid wrth y llŷsenw *Pelling*, ac y mae amryw o'u hiliogaeth yn adnabyddus eto. Adroddir y chwedl ganlynol fel eglurhad ar ddechreuad yr enw;—Dywedir y byddai y Tylwyth Teg yn arfer ymgynnull i ddawnsio ar nosweithiau lloergan teg, mewn gweirglodd a berthynai i'r "Ystrad," yn y plwyf hwn. Ar un prydnhawn, darfu i'r gwr ieuanc oedd yn ettifedd yr "Ystrad," ymguddio mewn llwyn yn agos i'r lle yr arferent chwareu; ac yn fuan, deuent yno yn ol eu harfer; a phan oeddynt ar ganol eu digrifwch penaf, efe a neidiai yn ddisymwth o'i loches, a daliai un o'u rhīanod; y lleill oll a ymwasgarasant, ac a ddiflanasant yn y fan. Er cymaint a wingai ac a ysgrechai yr un dêg, efe a'i cludai i'w gartref, lle yr ymddygai efe mor garedig tuag atti, fel ag y daeth hi yn foddlawn i fyw gyd ag ef, fel ei law-forwyn; ond ni's gallai lwyddo i gael ganddi ei hysbysu pa beth oedd ei henw. Ryw bryd ar ol hyn, efe a ddygwyddai weled y Tylwyth Têg wedi ymgynnull ar yr unrhyw lanerch; ac wedi myned mor agos attynt ag y gallai heb dynu eu sylw, efe a glywai un o honynt yn dywedyd, "Y tro diweddaf y buom yn y fan hon o'r blaen, y cipiwyd ein chwaer *Penelope* oddiarnom gan un o'r marwolion. Yn llawen, o herwydd cael o hono wybod enw y Rhīan deg, efe a ddychwelodd, a chan ei bod yn fenyw dra hawddgar, a hynod o weithgar a medrus, efe a gynnygiodd iddi gael bod yn wraig iddo; â'r hyn ni's mynai gydsynio dros hir amser: ond, trwy ddyfal-barhau yn ei daerni, efe a lwyddodd o'r diwedd i gael ei chydsynied ar yr ammod canlynol: "Os byth ei tarawai â haiarn, ei gadawai ef, ac na ddychwelai ato mwyach." Buant yn cydfyw yn ddedwydd dros lawer o flyneddoedd, ac efe a gafodd fab a merch o honi; a thrwy ei diwydrwydd a'i hyswīaeth gall, efe a ddaeth yn un o'r dynion cyfoethoccaf yn y wlad; ac heblaw ei dir rhydd-ddaliadol ei hunan, efe a ddaliai yr holl diroedd ar yr ochr ogleddol i Nant y Bettws, hyd at grib y Wyddfa, a holl Gwm Brwynog yn mhlwyf Llanberis, yn cynwys tua phum mil o Gyfeiriau, neu fwy.

Yn anffodus, aeth Penelope gyd a'i gwr i'r cae i ddal y ceffyl un diwrnod; a'r gwr yn ei gynddaredd at yr anifail yr hwn a redai oddiarno, a daflai y ffrwyn oedd yn ei law ato, yr hon fel y bu waethaf, a ddisgynodd ar Penelope druan! Hi a ddiflanodd yn y fan, ac ni's gwelodd ei gwr hi mwyach; ond clybu ei llais yn ffenestr ei ystafell un noswaith ar ol hyn, yn dymuno arno i gymeryd gofal o'r plant yn y geiriau hyn;—

"Rhag bod anwyd ar fy mab,
Yn rhodd rhowch arno gob ei Dâd;
Rhag bod anwyd ar liw 'r càn,
Rhoddwch arni bais ei Mam."

Y plant hyn, a'u hiliogaeth, medd traddodiad, a elwid *Pellings;* llygriad, fel y tybir, oddiwrth enw eu Mam, *Penelope.*

Y mae yn anhawdd penderfynu i sicrwydd, pa beth a allasai fod yr achlysur dechreuol i'r fath chwedl a hon. Cyn y Diwygiad Protestanaidd, pan oedd caddug Pabyddiaeth ac ofer-goeledd yn toi y wlad, heb neb yn ammeu bodolaeth Tylwyth Teg, ac ymddangosiad ysbrydion, a phan oedd heidiau o segurwyr, dan yr enwau clerwyr yn cael eu goddef i dramwy y wlad, gellir tybied fod gan y crwydriaid hyn ryw fath o reol, neu lywodraeth yn eu mysg eu hunain, fel y gwybyddir fod gan y rhai a elwir "Sipsiwns" yn y dyddiau hyn. Gallasai y cyfryw rai, ar amserau gosodedig, tu a'r llawn lloer, ymgynnull mewn rhyw lanerchau anhygyrch, i drefnu eu hachosion tywyll, a rhanu yr yspail; ac yno fyned trwy ryw gampau gorphwyllog, er dychrynu y trigolion diniweid, rhag dynesu o honynt attynt, a darganfod o honynt eu hystrywiau twyllodrus. Gallasai fod y gwr hwn o'r Ystrad, yn llai ofergoelus, a mwy dewr-frydig na'r cyffredin o'i gymydogion; a thybier fod y cyfryw un yn dyfod yn ddisymwth ar warthaf yr wtreswyr nosawl hyn, dīau y buasai yn peri braw ofnadwy yn eu mysg: ac wrth ganfod o hono fenyw deg yn eu mysg, nid yw yn annaturiol i ni ddychymygu y buasai efe yn ei chipio, a'i chymeryd gyd ag ef i'w gartref, megis y gwnelai yr hen wroniaid gynt o'i flaen ef,—ac mewn amser yn ei phrīodi; ond bod iddi hi ddianc oddiwrtho drachefn yn mhen yspaid, ar gyfrif rhyw amrafaelion teuluaidd, a dychwelyd at ei chymdeithion a'i hymarferion blaenorol. Neu fe ddichon fod y gwron hwn o'r Ystrad wedi cyfarfod a benyw ddyeithr, o ryw deulu isel a di nod, ac o'r diwedd wedi ei phrīodi, ac yna wedi dallu meddwl y werin anwybodus ac ofergoelus â'r chwedl hon, fel na's gwybyddid, ac nad ymholid i waeledd ei haniad. Pa ddeongliad arall a ellid ei roddi i'r fath chwedl, ni's gwn. Gellir barnu yn rhesymol, fod y chwedl hon, a lluaws o rai cyffelyb, a draddodir o oes i oes, yn ardaloedd mynyddawl Cymru, wedi eu seilio ar ryw gymaint o wirionedd, cyn eu llunio a'u gwisgo yn eu gwedd ffug chwedlonol, gan feirdd a myneich y canol oesoedd.

Y mae traddodiad arall yn cael ei ddwyn yn mlaen fel eglurhad neu reswm am alw y bobl hyn yn *Pellings.* Dywedir fod yr enw wedi cyfodi oddiwrth dylwyth o'r cyfenw *Ellis,* oedd yn perchenogi yr Ystrad, efallai; ac i'r hiligaeth gael eu galw "Ap Ellis," a thrwy hir arferiad, i'r gair gael ei fyrhau yn PELLIS, fel y mae ap Harri, yn Parri; ap Hugh, yn Pugh, &c., ac yn rhawd amser i'r terfyniad Seis'nig *ings,* gael ei atddodi iddo, fel ag i'w wneuthur yn *Pellings.*[1]

**BETTWS**, plwyf yn nghantref GWENT-LLWG, swydd FYNWY, DEHEUBARTH CYMRU; 3 milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Gas Newydd ar Wŷsg. Poblogaeth yn 1861, 84. Curadiaeth barhaol ydyw y fywioliaeth eglwysig, mewn cyssylltiad a Ficeriaeth Sant Woollos, yn archddiaconiaeth ac esgobaeth Llandâf. Y mae yr eglwys yn gyssegredig i Dewi Sant.

**BETTWS GWERFYL GOCH**, plwyf yn nghantref EDEYRNION, swydd FEIRIONYDD, GOGLEDD CYMRU; 6¼ milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Gorwen, yn cynwys yn ol Deiliadeb 1861, boblogaeth o 258. Y mae sefyllfa y pentref ar y ffordd o'r

[1] *Observations on the Snowdon Mountains, &c.,* by W. Williams, page 38.

Bala i Ruthin, ac ar yr afonig Alwen, dros yr hon y mae pont o dri bwa maen yn y lle. Y mae glyn Alwen yn ddymunol o ardebol, yn enwedig oddeutu "Llyn y Gigfran," lle y mae y bryniau oddeutu yr afon wedi eu gwisgo, o'r gwadn i'r coryn â gwigfeydd trwchus a harddwych; croesir yr Alwen yno ar bont o un bwa maen llydan. Y mae y plwyf tua deng milldir o gylchfesur; ac y mae rhanau helaeth o hono heb ei ddwyn dan ddiwylliad. Y mae y plwyf hwn yn rhan o wlad sydd wedi bod yn enwog am wau hosanau gwlân. Y mae tyddyn o'r enw Bottegir yn swydd Dinbach, o fewn ffiniau y plwyf hwn; ac yno y cartrefai y Milwriad William Salusbury, yr hwn a amddiffynodd gastell Dinbach gyda dewrder dihafal, dros bedair wythnos ar ddeg, yn erbyn byddin Seneddol a warchaeai arno dan y Maeslywydd Mytton; ac yna a'i rhoddes i fynu yn unig ar yr ammodau mwyaf anrhydeddus. Cynhelir ffeiriau yma, Mawrth 16; Mehefin 22; Awst 12; Medi 16; a Rhagfyr 12: yn y rhai y gwerthir dâ corniog, ceffylau, defaid, a môch: ac y mae y ffair yn Awst yn un o'r ffeiriau wyn mwyaf yn Ngogledd Cymru. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorìaeth yn arch-ddeoniaeth ac esgobaeth Llanelwy, ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Y Llan, yr hon sydd gyssegredig i'r Forwyn Fair, sydd yn yr arddull Seis'nig foreuol o adeiladaeth. Y mae ffynon yn agos i'r eglwys, a elwir "Ffynon Fair."

Yr oedd yn y Llan hon hen gerf-waith mewn coed, yn cynrychioli y croeshoeliad, yr hwn a fu lawer o flyneddoedd yn hoeliedig ar y mur gogleddol, yn oriel y cantorion. Yr ydoedd yn gynnwysedig o chwech o ranau, wedi eu gosod mewn ystram (*frame*), annghelfydd, o saerniaeth diweddar; yn y gwahanol ranau hyn, cynnrychiolid ein Harglwydd ar y groes, y Forwyn Fair, Sant Ioan, offerynau y Poenydiad, a rhyw ennghreifftiau o flodau arabaddurnawl. Bu y dernyn ar yr hwn y cerfiasid cynnrychioliad o'r Croeshoeliad, ar goll rai blyneddoedd yn ôl; ac wedi ymchwiliad dyfal, fe'i cafwyd yn gladdedig gyda llawer o ysbwrial, yn y twll dan y grisiau. Darfu i aelod o Gymdeithas Henafiaethol Cymru, gymeryd gofal o'r crair gwerthfawr hwn, gan wneyd a ellid i'w lanhau, a'i drwsio. Y mae wedi ei gyfleu uwch ben yr allor yn bresenol, yn ei gyflwr adferedig; ac oddiwrth y llythyrenau sydd yn aros eto; "Ecce Homo—Maria—Johannes," gallem farnu fod y cerfiad wedi ei wneyd tu a'r bedwaredd ganrif ar ddeg, neu y bymthegfed ganrif."

**BETTWS-IEUAN**, neu Bettws-Ifan, plwyf yn undeb Castellnewydd-yn-Emlyn, parth isaf cantref Troedyraur, swydd Aberteifi, Deheudir Cymru, 5 milldir i'r Gogledd o Gastellnewydd. Amaethwyr yw yr holl drigolion, ac y mae yma beth tir lled gnydfawr. Independiaid ydynt gan mwyaf, ac wedi cael eu magu yn grefyddol gan hen eglwys barchus y Drewen, neu un o'r cangenau. Y mae yr eglwys wedi cael ei chyflwyno i Ioan Sant, ac wedi cael ei hadgyweirio er ys ychydig flynyddau yn ol, at yr hyn y rhoddes y Gymdeithas Gorffoledig at adeiladu ac helaethu eglwysi 25*p*. Curadiaeth barhaus ydoedd, ond yn ol deddf ddiweddar, gelwir hi yn ficeriaeth, a chyda phlwyf cyffiniol Brongwyn, y mae gwedi ei huno â ficeriaeth Penbryn, yr hon sydd yn gorwedd rhyngddi a'r môr. Y mae cyfartaledd trethoedd y plwyf hwn yn 200*p*. y flwyddyn, o ba rai y mae tua 180*p*. yn myned i gynnal y tylodion; mesura 2640 erw, a'i boblogaeth yn ol Deiliadeb 1861 yn 419.

**BETTWS-LLEUCU**, capeliaeth blwyfol yn mhlwyf Llanddewi-Brefi, cantref Moyddyn, swydd Aberteifi, Deheudir Cymru, 7 m. Gogledd wrth Orllewin o Lanbedr-pont-Stephan. Y mae yn gorwedd yn nyffryn tlws yr Aeron, ac ar lân aswy yr afon brydferth hono. Y mae y ficeriaeth wedi cael ei gwaddoli â 1000*p*. o rodd freninol, ac y mae ei gwerth blynyddol yn 50*p*. Y mae yn rhoddiad ficar Llanddewi-Brefi, a chynnelir ysgol Sul yn y capel. Y mae y gapeliaeth yn cynnal ei thylodion ei hunan, yr hyn sydd yn costio tua 80*p*. y flwyddyn, ac y mae yn cyfranu tua 5p. y flwyddyn at y trethi Sirol; a mesura 2342 o Gyfeiriau; y boblogaeth yn 1861, oedd 349.

**BETTWS NEWYDD**, plwyf yn rhanbarth isaf cantref Rhaglan, swydd Fynwy, Deheubarth Cymru; 4 milldir i'r gogledd, ddwyrain o'r Usk, neu Fryn byga; yn cynwys poblogaeth o 129, yn ol Deiliadeb 1861. Curadiaeth barhaus yw y fywioliaeth eglwysig, wedi ei chyssylltu â Ficeriaeth Llanarth, yn archddiaconiaeth ac esgobaeth Llandâf, a'i gwaddoli â dau gan punt o ged-rodd freninol. Y mae yn deilwng o sylw, fod yr hen grog-loft yn gyfan yn y Llan hon, a chroes fawr o bren yn ei phen dwyreiniol; ac y mae cerf-waith lled gywrain ar yr oriel.

**BETTWS Y COED**, neu Bettws Wyrion Iddon; plwyf yn nghantref Nant Conwy, swydd Gaer-yn-Arfon, Gogledd Cymru, tua 3 milldir i'r dehau o Lanrwst, ar y brif ffordd i Gaergybi; yn cynwys yn ol Deiliadeb 1861, boblogaeth o 509; ond gan fod y Rheilffordd wedi ei gorphen hyd yma, ac amryw dai cyfleus at lettya ymwelwyr dyeithr yn misoedd yr haf, wedi eu hadeiladu yn y Pentref, er pan gymerwyd y Ddeiliadeb hono, y mae yn ddîau fod y boblogaeth wedi cynnyddu llawer erbyn hyn. Cafodd y plwyf hwn ei enw oddiwrth y ffaith o fod yma hen grefydd-dy wedi ei sefydlu yn forau, gan hiliogaeth un "Iddon," yr hwn a elwid "*Beadhouse* Wyrion Iddon;" neu "Bader-dy wyrion Iddon." Pan oedd Eglwys Rhufain wedi dyfod i feddu cryn ddylanwad ar genedl y Cymry, ac i'r ordinhad o weddio dros y meirw gael ei derbyn yma yn lled gyffredinol, arferai gwyr goludog a duwiolfrydig, gyfodi y cyfryw grefydd-dy, yn agos i ryw brif-ffordd yn gyffredin; lle y byddai bwyd a diod ar y bwrdd yn wastadol, a chyflawn groesaw i deithwyr droi i fewn i gyfranogi o hono, heb unrhyw dâl yn ofynol oddiwrthynt, ond bod iddynt offrymu cynnifer o weddîau dros enaid yr ymadawedig a goffeid mewn cyssylltiad a'r lle. Pwy oedd yr "Iddon" hwn, y darfu i'w "wyrion" gyfodi crefydd-dy yn y fan hon i'w goffadwriaeth, nid yw yn hawdd penderfynu: y mae ein Cofiannau cenedlaethol yn crybwyll am ddau wr cyhoeddus o'r enw, sef "Iddon ab Ner," pendefig tywysogaidd oedd yn oesi yn y chweched ganrif, a'r hwn a laddwyd mewn brwydr gan Maelgwyn Gwynedd, yr hwn amgylchiad a gofnodir yn y Trîoedd, wedi achosi "un o dri budr Hafren." Y ddau eraill a achlysurid mewn cyssylltiad â Chadwallawn ab Cadfan, ac â Golyddan. Gwel *Myfyrian Archaialogy*.

Y nesaf o'r enw yma y cawn ni son am dano, yw "Iddon ab Ynyr, Gwent," tywysog o Ddeheubarth Cymru, yr hwn a'i hynododd ei hunan trwy orchfygu y Sacsoniaid a oresgynasent ei diriogaeth. Mewn diolchgarwch i Dduw am y fuddugoliaeth hon, efe a ddyroddodd Lanarth a'r holl diroedd yno, a Llandeilo Porthhalawg, a'r holl diriogaeth berthynol iddi, a rhyw diroedd yn Llandeilo Cresseney, oll yn swydd

Digitized by Google

Fynwy, i esgobaeth Llandâf. Cyssegrodd weddill ei oes i wasanaeth crefydd, a chyfrifir ef, a'i frodyr Ceidio, a Chynheiddon, yn mysg y saint Cymreig. Efallai mai gan hiliogaeth y blaenaf a nodwyd uchod, sef Iddon ab Ner, y sefydlwyd y crefydd-dy hwn; ar orsaf yr hwn mewn oesoedd diweddarach yr adeiladwyd yr eglwys bresenol. Nid oedd y plwyf hwn ar y dechreu, namyn tref ddegwm o blwyf Llanrhychwyn, oddiwrth yr hwn ei hysgarwyd yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Y mae y pentref yn gorwedd mewn dyffryn prydferth a difyrus, yn gylchynedig ar bob llaw gan fynyddoedd Arfon a Dinbach, ac yn agos i gyfarfyddiad yr afonydd Llugwy a'r Conwy. Tua haner milldir uwchlaw yr eglwys, y mae pont haiarn ardderchog dros yr afon Conwy, o un bwa mawr, wedi ei haddurno yn ysplenydd, ac arysgrif mewn prif lythyrenau Rhufeinaidd, yn hysbysu ei bod wedi ei hadeiladu yn y flwyddyn yr ymladdwyd brwydr Waterloo; ac am hyny ei gelwir "Pont Waterloo;" ac y mae pont o adeilwaith hynod dros yr afon Llugwy, cynwysedig o bedwar bwa, yn gorwedd ar dalpiau anferth o greigiau, o'r ymddangosiad mwyaf rhamantus; gelwir hon "Pont y pair." Dywedir fod y bont hynod hon wedi cael ei chynllunio a'i chyfodi mewn rhan gan un Howel, saer maen o Penllyn, yr hwn tu a'r flwyddyn 1468, a gyfodasai bont o'r blaen dros yr afon Lleder, neu "Lled-oer," mewn man lle ei lluddiasid i groesi gan y llifeiriant, tra ar ei daith i frawdlys Meirionydd, yr hon a gynhelid y pryd hyny yn Aberconwy; i'r hwn le y symudodd, a chan ei fod wedi adeiladu y bont ar ei draul ei hun, caniatteid iddo dderbyn rhoddion gwirfoddol teithwyr a dramwyent y ffordd hono: yn mhen amser efe a symudodd i'r lle hwn, lle y dechreuodd efe adeiladu Pont y pair, ond cyn ei gorphen, efe a fu farw. Y mae y tirweddiad o amgylch y Llanerch hon yn gynwysedig o fynyddoedd creigiog, wedi eu sideru â choedwigoedd harddwych, a glynoedd breision, ar hyd pa rai yr ymdroella yr afonydd gloywon. Y mae y tair afon, y Conwy, y Llugwy, a'r Lledoer, yn ymuno o fewn y plwyf hwn; ac yn eu rhawd trwy yr ardaloedd mynyddig hyn, ffurfiant amryw raiadrau mawreddawg, am y rhai y mae y plwyf yma yn hynod. Y penaf o'r rhai hyn ydynt raiadrau y Conwy, y Machno, a'r Llugwy: y gyntaf, gan ruthro yn ffrochwyllt trwy greigiau o uchder aruthrol, y rhai a gyfyngant fynedfa y dyfroedd, wedi disgyn o uchder dirfawr, a ffurfia bedwar o reicidr llai, y rhai a welir o'r un man, yn olynu eu gilydd; ac ychydig goris ymuniad y Conwy a'r Lledr, y mae dernyn o ddwfr llonydd, llydan, a dwfn, a elwir "Llyn yr Afanc," a elwir felly, meddir, am y byddai yn gyrchle y creadur hwnw, yn yr hen oesoedd gynt, croen yr hwn a werthfawrogid yn fawr gan yr henafiaid. Tua dwy filldir o'r pentref, ar ffordd Capel Curig, y mae cwymp hynod yn yr afon Llugwy, a elwir "Rhaiadr y Wennol," a chan y Saeson, "*The Swallow Falls:*" ond ei enw priodol, yw "Rhaiadr Ewynol" (*the foaming cascade*), am fod gwrth-hyrddiad y dwfr yn erbyn y creigiau, yn cyfodi ewyn gwastadol ar y dwfr. Bydd miloedd o ddyeithriaid yn cyrchu i'r ardal bob haf, er mwynhau y golygfeydd mawreddawg hyn.

Y mae ffurf allanol a mewnol eglwys y plwyf hwn yn dra syml; a dywedir ei bod wedi ei hadeiladu tu a'r flwyddyn 1219, a'i chyssegru i goffadwriaeth Sant Mihangel. O'i mewn, ar yr ystlys ogleddol, ac yn y pen dwyreiniol iddi, y mae beddrod "Gruffydd ab Dafydd Goch," o'r Fedw dêg, ar yr hwn y mae ei ddelw wedi ei gwneyd o gareg nâdd; yn ei arfwisg, a'i gyflawn arfogaeth am dano; a'r geiriau canlynol yn gerfiedig ar ochr ei glun,—"HIC JACET GRUFFYDD AB DAFYDD GOCH AGNES DEI, MISERE MEI."—Yr ydoedd y dywededig Gruffydd Goch, yn dad i Rhŷs Gethin, a Howel o Goetmor; ac yn fab i Dafydd Goch, Arglwydd Penmachno, yr hwn oedd yntau yn fab i Dafydd ab Gruffydd, Arglwydd Dinbach, brawd y tywysog Llewelyn ab Gruffydd.

Y mae traddodiad yn yr ardal, i wŷr Cromwell fod yma, a darfod iddynt lettya am noswaith neu ddwy yn yr eglwys, a chynneu tân ynddi; a haera y trigolion fod ôl y tan hwnw i'w weled ynddi mor ddiweddar a'r flwyddyn 1843, pan y gwnaed rhyw adgyweiriadau arni.

Y mae hwn yn bentref hardd, fel y sylwyd yn barod, a chynwysa yn bresenol tua 60 o dai, at nifer y rhai yr ychwanegir yn flyneddol yn ddiweddar. Un ar ddeg oedd nifer tai y pentref hwn tua haner can mlynedd yn ôl; ac yn wir, nid ydyw y pentref presenol yn sefyll yn yr un man ag y safai yr hen bentref, yr hwn oedd o fewn can llath i'r fonwent, ac yn gynwysedig yn unig o naw o dai; dau o ba rai oeddynt ammaethdai, a dau eraill yn dafarnau; ond erbyn hyn, nid oes ond un neu ddau o'r hen dai hyny yn sefyll.

Y mae amryw dai lled henafol yn y plwyf hwn, o ba rai y gellir nodi tri ydynt yn neillduol felly, sef, y Pentre Du, y Ty Mawr, a'r Hafodlas. Y mae penau cyplau y tri hyn yn cyffwrdd y llawr; ac fe ddywedir fod Harri IV., yn adeg gwrthryfel Owain Glyndwr, wedi ordeinio na byddai i un Cymro adeiladu tŷ uwch nag y cyffyrddai eu cyplau y ddaear; ac oddiar hyn fe gesglir fod y tri thŷ uchod, wedi eu hadeiladu yn lled gynar yn y bymthegfed ganrif. Y dull o'u hadeiladu ydoedd fel y canlyn; chwilid y gwigfeydd am bren yn meddu cangen yn taflu allan âg ongl osgoawl, tebyg i gwppwl tŷ; torid y cyfryw bren yn y bôn, yna fe'i plenid ar ei ben, lle y byddai y ty i fod, a'r gangen gam yn cyfeirio i fynu at le y grib, fel cwppwl. Wedi y ceffid digon o'r cyfryw brenau, fe'u plenid yn gyfochrog yr un modd; ac wedi hyny adeiladid mur ceryg am danynt: a thrwy y ddyfais hon osgoid rhyw gymaint ar lymder y gyfraith farbaraidd uchod, a cheid tai helaethach a mwy cyfleus.

Tua chanol y bymthegfed ganrif, yr oedd yr ardal hon, a'r ardaloedd cyfnesol, yn cael eu blino yn dost gan wylliaid yspeilgar, fel yr oedd yn beryglus i un dyn fyned allan o dŷ, heb ei fod wedi ei arfogi yn dda; ac er hyny ni byddai yn ddi berygl os y byddai wrtho ei hunan, gan y byddai y gwylliaid crybwylledig yn tramwy yr ardaloedd yn finteioedd, dan dywysiad rhyw flaenor beiddgar. Blaenorid un o'r cyfryw finteioedd gan arch-yspeilydd hynod o'r enw Howel ab Ifan ab Rhŷs Gethin, o'r Bettws; a'r Howel hwnw a wnelai ei gartref dros yspaid yn nghastell Dolwyddelen; ac wedi hyny yn Nghwm Penamman. Yr oedd hyn tua dechreu teyrnasiad Edward IV., pan oedd y deyrnas yn dra rhanedig gan yr ymrysonau cartrefol rhwng teuluoedd Caerefrog a Chaer-hirfryn (*York and Lancaster*), a adwaenir gan Haneswyr dan yr enw "Rhyfeloedd y Rhosynau;" a'r canlyniad oedd, nad oedd nemawr o drefn cyfraith a gwladoldeb mewn llawer cymydogaeth; yn enwedig rhai lled anhygyrch, fel yr ardaloedd hyn. Yn erbyn gorthrymder Howel ab Ifan,

Digitized by Google

cyfododd un Dafydd ab Sieneyn, i ymryson ag ef am yr arglwyddiaeth ar y wlad; ac o'r diwedd, wedi gosod cynllwyn iddo, efe a'i daliodd yn ei wely gyd a'i orddereh-wraig, yn Mhenamman, ac a'i dug ef yn garcharor i gastell Conwy. Cadwyd meddiant o'r wlad hon, sef Nantconwy, gan Dafydd ab Sieneyn, yr hwn oedd yn gadben dan y blaid Lancasteraidd, dros bymtheng mlynedd wedi esgyniad Edward y Pedwerydd i orsedd Lloegr. Ac er i'r penteyrn hwnw anfon amryw o'i swyddogion dewraf amryw weithiau, i warchae ar yr herwr, efe a lechai yn ddïogel mewn ogof yn Nghareg y Gwalch, o'r lle yr elai allan pan y gwelai ei gyfleusdra, i ymofyn am ystôr o ymborth, o'r hwn nid oedd byth yn brin.

Yn fuan ar ol hyn, darfu i Meredydd ab Ieuan ab Robert, o Eifionydd, brynu hawl ettifeddion Syr Ralph Berkolles i Ddolwyddelen, a'r castell; ac am fod y rhan hon o'r wlad mor gythryblus a di gyfraith, (fel y dangosir yn helaethach yn yr erthyglau ar DOLWYDDELEN, PENMACHNO, ac YSBYTTY IEUAN), efe a ymroddodd i grynhoi o'i amgylch nifer fawr o saethyddion cryfion, er amddiffyn ei berson a'i feddiannau: I'r perwyl yma, efe a sefydlodd yn y cymydogaethau hyn, y dynion talaf a grymusaf ar a allai ei gael, hyd onid oedd ganddo o'r diwedd, saith ugain o fwawyr galluog a medrus, oll wedi eu cyflawn arfogi yn arfogaeth yr oes hono, mewn llurig ddur dda, cleddyf byr, a gwaywffon, yn nghyd a'u bwäau a'u saethau. Yr oedd gan amryw o honynt feirch, a chaeth-ddeiliaid ymlidiawl, y rhai oeddynt i fod at alwad y "Corn gwlad" ar unrhyw achlysur. Cyfleodd Meredydd un o'r cyfryw farchogion yn "Mheneraig Inco" yn y plwyf hwn. Enw hwnw oedd William ab Robert, a'r ardreth a dalai efe am Beneraig, oedd 10*s.* 4*c.* yn y flwyddyn, tra y mae ardreth y lle yn bresenol dros haner can punt yn y flwyddyn. Y mae y lle uchod yn bresenol yn meddiant un o ddisgynyddion y dywededig William ab Robert, sef Robert O. Davies, Ysw., o'r Cyffdy.

Y mae llen gwerin yr ardal hon wedi cadw traddodiad am un o'r teulu, a fu yn byw yn Mheneraig Inco amryw oesoedd yn ôl, o'r enw William Owen, ei fod wedi tynu gŵg y Llywodraeth arno ryw fodd; ac fel yr oedd efe un diwrnod ar neges yn Nghonwy, daeth cyfaill ato, ac a'i hysbysodd fod Swyddogion y Llywodraeth yn y dref yn ymofyn am dano, i'w gymeryd i ddalfa; a chan ei fod yntau yn gwybod fod llong yn y porthladd, ar hwylio allan i un o'r gwledydd tramor, efe a aeth i'w bwrdd yn ebrwydd, ac felly a ddïangodd o gyrhaedd ei ymlidwyr. Treiglodd amryw flyneddoedd drosodd, heb i neb o'i deulu na'i gydnabod glywed gair am dano; fel y daethant i benderfyniad o'r diwedd, nad oedd efe ar dir y rhai byw, neu y buasai wedi anfon cenadwri yn rhywfodd i'w hysbysu pa le yr ydoedd. O'r diwedd yr oedd gobaith pawb wedi pallu; ïe, hyd yn nod yr eiddo ei wraig, fel y darfu iddi gydsynio i brïodi ag un arall; a phennodwyd ar ddiwrnod y brïodas. Ond, yn y cyfamser, dychwelodd William Owen i'r wlad; ac wedi cyrhaedd i Bettws y Coed, efe a drodd i dŷ tafarn, fel gwr dyeithr ar ei daith; ac wedi eistedd yn mysg y cwmni, i bawb o ba rai yr ydoedd yn hollol anadnabyddus, er ei fod ef yn eu hadnabod hwy oll, efe a ddechreuodd ymholi pa newydd oedd yn yr ardal; ac yn mysg pethau eraill, gofynodd pwy oedd yn byw yn Mheneraig Inco? I'r hyn ei hattebwyd, mai un o'r enw Mrs. Owen, a'i bod i gael ei phrïodi dranoeth, gyda Mr. —— Aeth y gair hwn at ei galon, er iddo ymgadw rhag ei fradychu ei hun iddynt; a chyn y nos efe a gyfododd ac a aeth ymaith, gan gyfeirio ei gamrau dros y bryniau, tua Pheneraig; ac wedi cyraedd y lle yn mrig yr hwyr, a churo y ddôr, efe a ofynodd yn wylaidd am letty noswaith, yr hyn a ganiattawyd iddo yn ol arfer letteugar cenedl y Cymry yn yr oesoedd hyny; ac felly efe a aeth i fewn i'r gegin, lle y gwelai yn y fan bod y gwasanaeth-ferched yn brysur yn parottoi at y wledd brïodas oedd i fod dranoeth.

Yr oedd y teulu hwn yn dra hoff o Gerddoriaeth genedlaethol, ac yr oedd William Owen ei hun yn delynor mawr, a byddai yn arfer cyfansoddi tonau i'w chwareu ar ei delyn; ond, er pan aethai ar ddifancoll, gallesid dweyd fod ei delyn ef yn nghrog ar yr helyg, heb fod neb byth wedi cyffwrdd a hi. Gan fod y teulu hwn bob amser mor hoff o gerddoriaeth, arferent achlesu clerwyr cerddorol, gan y rhai y byddai telyn i'w canlyn yn wastadol; ac yr oedd rhai o'r cyfryw dylwyth yn Mheneraig y noswaith hono, a chwareuent amryw geineiau ar y delyn. Yn mhen ychydig wedi i William Owen fyned i fewn, ac eistedd gyda hwy, efe a ofynai yn ostyngedig i'r hwn a chwareuai y delyn, a ganiatteid iddo yntau wneyd cais i chwareu tôn arni, â'r hyn y cydsyniwyd; ac wedi cael y delyn i hwyl, efe a darawodd ei hoff dôn arni, yr hon a adwaenir yn y wlad hyd heddyw, dan yr enw "Conceit William Owen Peneraig." Yr ydoedd Mrs. Owen ar y pryd mewn rhyw ystafell gyfagos, a chlywai yr hen dôn yn cael ei chwareu, yr hon ni chlywsai byth er pan adawsai William Owen y wlad mor ddisymwth. Yna daeth i'r Gegin yn gyffrous, a chan gyfarch y telynor dyeithr, dywedai, "Pe buasai William Owen yn fyw, buaswn yn taeru mai efe oedd yma yn chwareu y dôn yna!" Ar hyny dyrchafai yntau ei olygon arni, a dywedai gyda dwyster, "Efe sydd yma!" Erbyn hyn yr ydoedd yn gyffro mawr trwy y tŷ; yr hwn a gollasid wedi ei gael, a'r hwn a fuasai farw wedi dyfod yn fyw drachefn. Ac yna, nid oedd dim i'w wneyd, ond anfon at y darpar ŵr, a'r gwahoddedigion, i'w hysbysu o'r ffaith ryfedd.

Y mae ffug-chwedl o arwedd y cyfnod Derwyddol, yn cael ei hadrodd yn y gymydogaeth, mewn cysylltiad a "Llyn yr Afanc," sefyllfa yr hwn sydd ar yr afon Gonwy, tua milldir i'r de ddwyrain o'r pentref. Dywedir fod yn y Llyn crybwylledig, ar ryw adeg dra boreuol, greadur anferth o faintioli, a elwid yr Afanc, yr hwn a barai nid ychydig o flinder i drigolion Nant Conwy a phen isaf Dolwyddelen. Gwnaed llawer cais i'w ladd, ond ni ellid gyru na phicell na saeth trwy ei groen; gan hyny, am nad oedd yn bossibl ei ladd yn y ffordd hono, penderfynwyd ei lusgo oddiyno, a'i gymeryd i le dyogel i'w gadw; ac yn Llyn Ffynon Las, yn Nghwm Dyli, plwyf Beddgelert, y barnwyd fod y lle dyogelaf i'w gadw: wedi penderfynu ar y lle, darparwyd tidau cryfion, a chwiliwyd yr holl wlad, am ddau o'r ychain cryfaf; ac wedi sicrhau y tidau am yr anghenfil, llusgwyd ef allan o'r Llyn; ac arferai hen drigolion hygoelus y Bettws yr oes o'r blaen, ddywedyd yn ddifrifol eu bod hwy wedi gweled ôl traed yr ychain hyn yn y graig gerllaw y Llyn, gan yr egni a roddent i'w dynu allan. Wedi llwyddo i'w gael allan, llusgid ef ar hyd plwyf Dolwyddelen, a thrwy Fwlch y Cribau, yr hwn a elwir hyd heddyw yn "Fwlch Rhiw yr Ychain," hyd y Waun, gerllaw Gwastad Annas; ac yn y Waun hono syrthiodd llygad un o'r ychain o'i

Digitized by Google

ben, gan yr egni a roddai i lusgo yr anghenfil, am ba achos y gelwid y lle o hyny allan, "Waun llygad ŷch." Achosai colli ei lygad boen mor arteithiol i'r ŷch, fel yr wylodd gymaint o ddagrau o'r herwydd, nes ffurfio pwll yn y Waun, a elwir "Pwll llygad ŷch" hyd heddyw. Trwy ddirfawr lafur a phoen, llusgwyd yr Afanc i fynu i Gwm Dylif, hyd Lyn y Ffynon lâs, lle ei gollyngwyd yn rhydd, ac yntau a neidiodd yn ebrwydd i'r llyn. Dywedir y byddid yn ei weled ar amserau yn cynhyrfu y llyn yn ofnadwy, ac iddo ddystrywio yr holl bŷsg o hono yn fuan: ond, o hyny allan, cafodd trigolion Nantconwy lonyddwch ganddo, a gwaredigaeth lwyr oddiwrtho.

Tua milldir a haner o'r pentref, yn Ffridd y Mynydd bychan, y mae adfeilion hen balas, neu hen Westdy, medd rhai, yr hwn a elwid "Tai yn y Bylchau." Tua dwy neu dair oes yn ol, yr oedd yn cyfanneddu yno hen lanc o'r enw Rhŷs ab Huw, ond a lys-enwid, "Rhŷs y Ceiliogod." Dywedir mai un tra chybyddlyd oedd Rhŷs, a'i fod yn dra hoff o ymladd ceiliogod. Arferai fyned i Gapel Garmon, ac amryw fanau eraill i ymladd ceiliogod; ac yr oedd efe mor fedrus ar y gwaith, fel y byddai yn enillwr yn fwyaf cyffredin, yr hyn a barai i'w gyd chwareuwyr gythruddo i'w erbyn yn ddirfawr, fel y penderfynasant oni's gallent ei drechu yn y "*cocking*," yr ymddialent arno ryw ffordd arall; a thra yr oeddynt yn gwylio am amser cyfaddas, hwy a ddeallasant ei fod ef a'i wasanaeth-ferch, wedi myned ryw brydnhawn i "Noswaith Lawen," oedd i gael ei chynal yn Nhafarn y Bettws. Ar hyny, ei elynion a aethant at "Tai yn y Bylchau," ac a roddasant yr annedd ar dân; a phan oedd yr hen lanc a'r forwyn yn dychwelyd adref, tua haner y nos, erbyn iddynt gyrhaedd Pen yr Allt, i olwg y tŷ, hwy a'i gwelent yn wen-fflam, ar yr hyn y dechreuodd Rhys a'r forwyn ddyrchafu eu llef mewn wylofain, nes diaspedain yr holl Nant, a hyny a barodd i'r llanerch hono gael ei galw hyd heddyw yn "Rhiw gri."

Yr ydoedd hen draddodiad yn yr ardal hon er's oesoedd, fod "trysor cuddiedig," neu "arian daear," mewn lle yn agos i Gwm y celyn, ar yr ochr ddeheuol i'r plwyf, wedi eu claddu yno gan ryw rai ar eu ffoedigaeth, yn amser terfysglyd rhyfel; ond, nid oedd nemawr o bwys yn cael ei roddi ar yr hen draddodiad, hyd o fewn ychydig flyneddoedd yn ol, pan ddarfu i ddau ŵr a adeiladent fagwyr derfyn y mynydd, gael amryw hen ddarnau bathol yn mysg y ceryg a gyfodent i wneyd y fagwyr. Yr oeddynt o faintioli dernyn deuswllt yr oes bresenol, bob un, ond eu bod yn deneuach; a dywedir bod yn anhawdd deall i sicrwydd dan deyrnasiad pwy y cawsent eu bathu.

Y mae lle o'r enw "Cromlech Hwfa," i'w ganfod ar dir Pen yr Allt, yn y plwyf hwn, oddeutu chwarter milldir i'r gogledd oddiar afon Lligwy. Nid ydyw y lle hwn o'r un ffurf a'r hyn a elwir "Cromlechau" yn gyffredinol: ond math o loches o dan graig ydyw, ac ychydig geryg wedi eu dodi fel cysgod o un ochr iddi; a'r traddodiad yn ei chylch ydyw, mai yma y bu "Hwfa ab Cyfnerth ab Rhyddon" yn llechu, pan yr oedd Gwilym ab Herbert, Iarll Penfro, yn anrheithio Nant-Conwy; am yr hwn y dywedir, iddo "lwyr anrheithio holl Nantconwy, hyd blwyf Dolwyddelen, er dial ar gefnogwyr yr Iorciaid. At yr anrheithiad hwn y cyfeiriai un o'r Beirdd yn y llinellau canlynol:—

"Harddlech, a Dinbech, pob dôr,
Yn cynneu,
Nantconwy yn farwor,
Mil a phedwar cant mae Ior,
A thri-ugain, ac wyth rhagor."

Y mae amryw ddarnau o'r hen ffordd a elwir "Ffordd Ellen," i'w gweled yn y plwyf hwn a'i amgylchoedd. Cyfeiria o "Domen y Mur," yn agos i Drawsfynydd, trwy Fwlch Careg y Fran, a Chwm Penamman, i blwyf Dolwyddelen, a chan fyned heibio i eglwys a chastell Dolwyddelen, croesa dros odrau Moel Siabod, a thrwy y Cefn Glas i waered i dir Bryn y Gefeiliau, lle y croesai yr afon Lligwy i dir Glyn Lligwy, a thrwy goed Cae'r Hyddig oddiar Raiadr y Wenol, â heibio hen fonachlog Penceraig Inco, ar hyd tir Penceraig, ac i lawr heibio i Lyn Coetmor, yna i fynu i Ffridd Coetmor, ac yn mlaen i Fynydd Bwlch yr Heiyrn, a thros lechwedd uchel y tir oddiar Drefriw a Llanbedr, ac i waered i Gaerhun, neu yr hen *Conovium*.

Y mae cloddfa lechi yn y gymydogaeth lle y mae llawer o'r trigolion yn cael gwaith; ac yr ydys o bryd i bryd wedi cloddio llawer o blwm o'i mynyddau. Cynhelir Ffeiriau yma yn flyneddol ar Mai 15, a Rhagfyr 3. Curadiaeth barhaus neu ficeriaeth ydyw y fywioliaeth eglwysig, yn archddiaconiaeth ac esgobaeth Bangor, wedi ei gwaddoli ag 800 punt o ged-rodd freninol, a 200 punt o rodd Seneddol; ac yn noddogaeth teulu Gwydir. Y mae gan y Trefnyddion Calfinaidd a'r Annibynwyr leoedd addoliad cyfleus yma, ac y mae yma dair Ysgol Rad yn y plwyf, lle y mae cyfleusdra i holl blant y plwyf gael addysg fuddiol.

**BETTWS YN RHOS**, a elwir hefyd Bettws Abergeley, plwyf yn nghantref Isdulas, swydd Dinbach, Gogledd Cymru; pedair milldir i'r de ddc orllewin o Abergeley, yn cynwys poblogaeth o 838. Y mae y pentref mewn sefyllfa ddifyrus, wrth odrau mynydd uchel, gan yr hwn ei cysgodir ar un ochr, ac yn agored tu a'r gogledd; fel y cair llawn olwg ar Fôr y Werydd o hono. Yn y plwyf hwn y mae y palas ysplenydd a elwir y Coed Côch, lle yr annedda Lloyd Wynne, Ysw. Yr oedd gan Ednyfed Fychan, prif weinidog a maeslywydd Llewelyn ab Iorwerth, lŷs o'r enw Bryn ffanigl yn y gymydogaeth hon. Cynhelir ffeiriau yma Chwefror 20, Mai 8, Awst 15, a Thachwedd 20. Ficeriaeth ydyw y fywioliaeth eglwysig, yn archddiaconiaeth, ac esgobaeth Llanelwy, ardrethedig yn llyfrau y brenin, yn 12*p.* 15*s.* 5*c.*, ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Yr eglwys, yr hon sydd gyflwynedig i Sant Mihangel, ydoedd yn gapel anwes i Abergeley. Y mae yma leoedd addoliad perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd a Wesleyaidd; ac y mae yma Ysgol Wladwriaethol dda, yn yr hon y mae plant y plwyf, ac amryw o'r plwyfau cyfagos, yn derbyn addysg elfenol.

**BETHESDA**, sydd dref farchnad eang, yn mhlwyf Llanllechid, cwmwd Llechwedd Uchaf, cantref Aber, swydd Caerynarfon. Saif o fewn 5 milltir i dref Bangor fawr yn Ngwynedd, ar ffordd Amwythig, fel ei gelwir; ar geulanau afon Ogwen. Cymer y lle ei enw oddiwrth Addoldy yr Annibynwyr, a elwir felly; ac a adeiladwyd yn 1819, pan nad oedd ond ychydig o dai bychain o fewn y terfynau. Y mae yn sefyll ar le prydferth, wrth droed Carnedd Dafydd, ac yn cael ei gylchynu gan y clogwyni uchel eraill. Y mae Cloddfa Lechi eang "Cae Braich y Cafn" o fewn milltir i'r lle. Wedi agor y "ffordd fawr," at y "gloddfa fawr," yr oedd yn

Digitized by Google

naturiol i'r byd ddisgwyl gweled "tref fawr," yn cael ei chodi ger llaw. Y mae yn debyg nad yw yn ormod i'w addef, fod sefyllfa bresenol y dref fawr a phoblog hon, yn ddyledus am ei dderchafiad i ddylanwad y Gloddfa; cynnyddodd i'w chyflwr presenol yn raddol, eto yn gyflym iawn. Y mae y rhan fwyaf o diriogaeth Nant Afancon yn perthyn i etifeddiaethau yr Anrhydeddus Arglwydd Penrhyn, o'r Castell Penrhyn, ac y mae trysorau y "Clogwyn Glas" wedi cyfoethogi y meddianau hyny yn ddirfawr. Darganfyddwyd y Llechfaen, mor foreu âg amser teyrnasiad y Frenhines Elisabeth, ond ni bu y Gloddfa yn cael ei gweithio yn llwyddianus, nac er elw i'r meddianydd, hyd amser y diweddar Arglwydd Penrhyn, pan y cymerwyd gofal y gwaith i bwrpas gan Mr. Dawson, ewythr i Iarll Portarlington, drwy anturiaeth o draul fawr, i'w hagor yn briodol. Y mae y cyfan yn awr dan lywyddiaeth y Goruchwyliwr, Mr. Wyatt. Dywedir fod dros dri ugain mil o dunelli o lechi, yn cael eu danfon i bob parth o'r byd, oddi yma bob blwyddyn, yr hyn sydd yn werth dros ddau cant a haner o filoedd o bunau. Y mae yn y gwaith dros dair mil o ddynion, mewn gorchwylion parhaus. Dywedir fod dros ddeuddeng mil o boblogaeth, a chymeryd y gwragedd a'r plant i'r cyfrif, yn cael eu cynhaliaeth oddiwrth y Gwaith hwn.

Y mae tref Bethesda yn cynwys dros chwe mil o drigolion, ac y mae ar gynnydd parhaus. Y mae heolydd newyddion yn cael eu cynllunio, ac anneddau ardderchog yn cael eu codi, yn ddilynol i'w gilydd. Y mae yn ymestyn yn gyflym, ar i fynu yn nghyfeiriad y "Carneddi." Y mae yma nifer mawr o dai addoliad. Y mae gan y Methodistiaid gapel eang yn y dref, un arall, mor eang yn y Carneddi, un arall yn y Gerlan, ac un agos cymaint a'r lleill, yn y Bryn Teg; ac ysgol Sabbathol lewyrchus yn perthyn i bob un o honynt. Y mae gan yr Annibynwyr dri, sef Bethesda, Treflys, a Salem. Y mae y tri hyn yn adeiladau ardderchog, a phob un yn meddu ei ysgol Sabbathol. Y mae gan y Wesleyaid un, a'r Bedyddwyr un, gyda'u hysgol, yr un modd. Y mae yr Eglwys Wladol wedi codi teml orwech yma yn ddiweddar, a elwir "Glan Ogwen." Adeiladwyd y lle hwn ar draul Arglwydd Penrhyn, ac a gostiodd, o leiaf 6000*p.*; cynysgaeddodd hi hefyd a mynwent helaeth, ac â gwaddoliad haelionus; ac y mae yn eglwys i bob dyben plwyfol, ond yn unig gofalu am y tlodion. Cyssegrwyd hi gan yr Esgob Bethel. Barna y celfyddgar mai y bai mwyaf yn y cynlluniad, ydyw bod y pigdwr yn rhy fyr i ateb i uchder y twr pedeirongl sydd dano. Nid ydynt yn gydraddol. Gelwir y lle, "Glan Ogwen." Gwnaed cais yn ddiweddar, i ddodi enw yr eglwys ar y dref, yn lle "Bethesda," ond yr oedd dau rwystr ar y ffordd; yr oedd y weithred Seneddol berthynol i'r dref, wedi ei thynu allan, wrth yr enw Bethesda; ac yr oedd arferiad a theimlad y gymydogaeth, wedi gwreiddio yn rhy ddwfn, megis atalfa arall, fel nad oedd digon o ddylanwad ar y ddaear, i symud yr hen derfynau. Y mae nifer o eglwysi neu lannau gwladol eraill, yn y gymydogaeth, yn gystal ag o gapeli ymneillduol; y rhai y sylwir arnynt yn eu cysylltiadau priodol.

Y mae nifer o ysgolion dyddiol a Sabbathol yn y gymydogaeth o amgylch. Y mae eiddigedd pleidiol yn rhedeg yn lled gryf yma weithiau, ac yn peri gradd o anghydfod yn yr ardal. Y mae yma luaws o Ymneillduwyr, bawb am eu ffordd ddewisol eu hunain, ac eraill, o gryn ddylanwad bydol, yn anghytuno. Prin y cedwir y teimladau hyn heb ymwthio i'r gloddfa. Ystyrir Arglwydd Penrhyn yn foneddwr haelfrydig ac anrhydeddus, fel yr ewyllysiai y cymydogion ei weled yn cymeryd llywodraeth yr etifeddiaeth yn fwy i'w law ei hun.

Nid yw y dref yn arddangos nemawr o ddengarwch yn ei chynlluniad, er fod yma amryw fasnachdai rhagorol, ac anneddau prydferth. Y mae y Sadwrn cyntaf wedi y talion yn y gloddfa, yn fath o ffeiriau cyhoeddus yn y dref, bob mis, ag sydd yn tynnu lluaws o'r wlad a'r trefydd yma at ddybenion masnachol, ac y mae y lle, ar y cyfan yn edrych i fynu, ac ar gynnydd parhaus. Gwel LLANLLECHID.

BEUNO, SANT, ydoedd fab i Hywgi neu Buwgi ab Glywis, o Perfferen neu Beren, ferch Llewddyn Lueddog, o Ddinas Eiddyn, yn y Gogledd. Oesai yn niwedd y chweched, a dechreu y saithfed ganrif: ac fel holl seintiau yr oes hono, mae ei enw wedi ei gyssylltu wrth gynifer o chwedlau anhygoel am wyrthiau a rhinweddau, fel ag mae ei hanes gwirioneddol wedi ei golli yn y ffug. Dywedir iddo gael ei eni mewn atebiad i weddi ei fam, ac mai yn Mhowys y cymerodd hyny le; ac iddo gael ei anfon, pan yn dra ieuanc, i Fangor Caer Went, o dan hyfforddiad Tangwn, lle y daeth efe i gydnabyddiaeth gyfeillgar âg Ynyr Gwent, o dan nawdd yr hwn yr oedd Bangor Dathan ar y pryd. Trwy ddylanwad crefyddol Beuno, trodd Ynyr ei fryd yn llwyr at grefydd, ac mewn canlyniad, efe a anrhegodd y Sant a modrwy a choron aur, a thiroedd hefyd; ac a ymroddodd o hyny allan i fywyd santaidd. Beuno, ar ol iddo adeiladu eglwys Llanfeuno, ar lan ddeheuol yr afon Gwy, yn swydd Henffordd, a adawodd Euas, ac a ymfudodd i Wynedd; a thra ar bererindod yno, y cyflawnodd efe y wyrth o adferyd bywyd Gwenfrewi yn y fan lle yn awr, y mae Ffynon Treffynon (*Gwel Gwenfrewi*). Trwy y wyrth ryfedd hono efe a enillodd gyfeillgarwch neillduol Cadfan, brenin Gwynedd, yr hwn, ychydig amser cyn hyny, gyda Brochwel Ysgythrog, tywysog Powys; Meredydd, brenin Dyfed; a Bledrws, tywysog Cernyw; a ddialasai waed mynachod Bangor Iscoed, ar Ethelfrith, brenin Deifr a Brynaich, y rhai a lofruddiasai efe am na phlygent i awdurdod y pab, Gregory Fawr, ac Awstin, archesgob Caergaint. Wedi marwolaeth Cadfan, ac esgyn o Cadwallon, ei fab, i orsedd Gwynedd ar ei ol, daeth angen ar Beuno am dir i adeiladu arno grefydd-dy, neu Fangor; a rhoddodd Cadwallon iddo randir yn Arfon, a elwir Gwaredog, am yr hwn y rhoddodd Beuno iddo yntau, fwyall aur, yr hon a gawsai efe gan Cynan ab Brochwel, ar ei farwolaeth, a gwerth triugain muwch lawn oedd hi, ond tra yr oedd y Sant a'i wŷr yn adeiladu yno eglwys, daeth gwraig heibio, a phlentyn ar ei braich, yr hwn a nadai yn ddiball, a gofynai i'r Sant fendithio ei phlentyn. Yntau a ofynai paham yr oedd y plentyn yn wylo felly, "Onid oes achos ebe'r fam, y tir hwn, yr wyt ti yn ei feddianu ac yn adeiladu arno; onid ei dreftadaeth ef ydyw?" Bu ddrwg iawn gan Beuno hyn, ac efe a orchymynodd i bawb atal eu dwylaw oddi ar y gwaith, tra byddai efe yn bedyddio y plentyn; ac wedi cyflawni hyny, efe a aeth gyda'r wraig at y brenin, i Gaersaint, (Caerynarfon), a gofynodd iddo, "Paham y rhoddaist imi dreftadaeth nad oedd eiddot?" Cadwallon ni fynai wrando, ac ni roddai y fwyall aur yn ol ychwaith, ond edrychai yn

Digitized by Google

ffrom a thrahaus. Am hyny digiodd Beuno wrtho yn aruthr, gadawodd ef o dan felldith, ac aeth ymaith dros afon Saint. Ond yr oedd i'r brenin gefnder, o'r enw Gwyddneint, yr hwn, pan welodd sut yr ymddangosai pethau, a aeth ar ol y Sant, a goddiweddodd ef yn eistedd ar gareg ar fin yr afon; a rhoddes i Dduw a Beuno, dros ei enaid ei hun, ac enaid Cadwallon ei gefnder, dreflan Clynog Fawr, yn Arfon, yn etifeddiaeth dros byth; heb na mael nac ardreth arni, ac a wnaeth iddo hawl dda o honi. Yna adeiladodd Beuno Fynachlog Clynog, a bu yn dra llafurus i ddysgu cred a Bedydd i'r trigolion. Bu farw, medd Cressy, yn y flwyddyn 660, a chladdwyd ef yn Ynys Enlli, yn ol arfer yr oes.

Ond ymddengys i Fynachod Clynog, yn yr oesau dilynol, er mwyn gwneyd elw o'i lwch ef, un a'i symud ei weddillion yn ol i fynwent y Fynachlog, ac adeiladu Capel y Bedd uwch ben y fan lle dodwyd hwynt, neu ynte broffesu gwneyd hyny, er mwyn denu pererinion yno i offrymu eu harian. Oblegid yr oedd hyd yn ddiweddar, Feddfaen o gerig nadd anferth yn y Capel hwnw, yr hwn a elwid Bedd Beuno. Ac mae yno hyd y dydd hwn, *Gyff* neu goffr o wneuthuriad rhyfedd, yn yr hwn y byddai y Mynachod yn derbyn offrymau y pererinion. Ac yr oedd gan *Nod Beuno* ar yr anifeiliaid, sef hollt naturiol yn y glust, yr hyn oedd yn eu nodi allan fel meddiant ac offrymau priodol i'r sefydliad, y fath swyngyfaredd ar feddyliau yr ardalwyr, fel ag yr oedd yn cynyrchu elw mawr i'r offeiriaid. Fel y canlyn y dywed Eben Fardd yn *Nghyff Beuno*, am y naill a'r llall o honynt.—"Un darn o bren yw y Cyff, wedi ei gafnu yn geudod eang oddimewn, a rhan o'i arwynebedd uchaf wedi ei lifio allan i wneyd cauad, a thwll ynddo, i fwrw darnau arian yr offrymau i mewn drwyddo. . . . Cedwid ynddo gynt werth yr anifeiliaid a fyddent yn dwyn arnynt Nod Beuno, sef hollt naturiol yn y glust; y rhai oeddynt trwy gyfiawn hawl yn offrymau priodol i'r Sefydliad. Yr oedd heblaw hyn offrymau gwirfoddol yn cael eu bwrw i mewn yn achlysurol; a byddai ambell un yn dyfod yma o bell ffordd yn nghof y rhai sydd yn awr yn fyw, i fwrw ynddo offrwm gwirfoddol, er mwyn ystyriaeth o lwyddiant eu da." Mae y pethau uchod yn profi, fath ddyn bynag oedd Beuno tra yn fyw, bod ei enw wedi bod o wasanaeth dirfawr i dwyll-offeiriadaeth Babyddol, trwy gydol yr holl oesau tywyll yn Nghymru. Mae llu mawr o eglwysi wedi eu cyflwyno iddo ar hyd y wlad, megis Clynog Fawr, Carngiwch, Pistyll, a Phenmorfa, yn Arfon; Aberffraw, a Threfdraeth yn Mon; Gwyddelwern, a Llanycil, yn Meirionydd; Berriw a'r Bettws yn Maldwyn; a Llanfeuno, fel y nodwyd eisioes, yn Henffordd. Ei ddydd gwyl yw Ebrill 21ain. Y mae y dywediad canlynol o'i eiddo, wedi ei gorffori yn Englynion y Clywed:—

"A glywaist ti a gant Beuno?  
Cân dy bader a'th Gredo,  
Rhag angau ni thycia ffo."

**BEVAN**, Madam, ydoedd un o brif gefnogwyr yr enwog Gruffydd Jones, o Landdowror, i ddwyn yn mlaen yr Ysgolion Elusengar yn Nghymru; ac fel y cyfryw, mae ei henw wedi ei gyssylltu â'r eiddo ef, mewn anrhyddedd ac anfarwoldeb.

Ei henw gwyryfol oedd Miss Bridget Vaughan, merch y Derllys, yn mhlwyf Merthyr, ger Caerfyrddin.

Yr oedd o deulu parchus, ac yn ferch landeg, a synwyrol iawn. Dychwelwyd hi at grefydd trwy weinidogaeth Gruffydd Jones, pan yn pregethu yn achlysurol yn Llanllwch. Ac wedi iddi briodi Arthur Bevan, Ysw., o Lacharn, arferai fyned bob Sabboth i wrando Mr. Jones, naill ai i Landdowror, neu i Landeilo Abercowyn; ac er gwaethaf llawer o wawd a dirmyg, parhaodd cyfeillach neillduol o dduwiol rhyngddynt tra bu efe byw.

Pan ddechreuodd Gruffydd Jones osod i fyny ei ysgolion, tua'r flwyddyn 1737, efe a gafodd yn Madam Bevan gynorthwy ffyddlawn ac effeithiol.

Cynyddodd yr Ysgolion hyny gyda'r fath gyflymdra, fel yr ydym yn cael eu bod, yn y flwyddyn 1761, pan fu farw Mr. Jones, yn 210 o Ysgolion, gydag 8023, o ysgolheigion. Dywedir bod 10,000 wedi bod yn dysgu ynddynt mewn un flwyddyn; a bod 150,212, o rai rhwng 6 a 70 mlwydd oed wedi dysgu ynddynt i ddarllen eu Bibl Cymraeg, mewn pedair blynedd ar hugain!

Ar ol marwolaeth Gruffydd Jones, syrthiodd y gwaith o ddwyn yr Ysgolion ymlaen, ar Madam Bevan yn benaf, a chynorthwyid hi gan Dr. Stonehouse, a T. Jones, Ysw.

Amcan proffesedig yr ysgolion hyn, oedd dysgu trigolion Cymru i ddarllen eu Biblau Cymreig, a'u sefydlu yn dda yn nyledswyddau ac egwyddorion crefydd, yn ol athrawiaeth a defod eglwys Loegr. Yr oedd yr athrawon yn genadon llafurus, ac yn gynorthwywyr gweithgar i offeiriaid y plwyfau, ac yn cael eu symud yn rheolaidd bob tri, neu chwech mis. Dyma eu cynllun a'u hamcan yn ngeiriau Gruffydd Jones ei hun:—"Yn ddi eithriad derbynir pob dyfodiaid, dynion anwybodus, a phlant o bob math ac enwad, a ddymunant gael eu dysgu yn rhad, a hyfforddir hwynt i ddarllen a gweddio, a chanu Salmau o fawl i Dduw—i ymddwyn yn weddus yn yr addoliad Dwyfol, ac i ddyweyd y gwrthebion yn ddefosiynol; rhybuddir hwy yn fanwl yn erbyn prif bechodau yr amser a'r ardal; ac egwyddorir hwynt ddwywaith yn y dydd fel y byddont wedi eu sefydlu yn dda yn nyledswyddau ac egwyddorion ein crefydd santaidd yn ol athrawiaeth a defod Eglwys Loegr. Nid yw y tylodion na neb arall i ddysgu ysgrifenu na rhifyddiaeth, fel y byddo i'r athrawon ymarfer eu holl nerth, a threulio eu holl amser a'u dawn i'w hyfforddi yn y Catecism, ac yn egwyddorion crefydd, ac i ddarllen yr Ysgrythyrau, mor fuan ag sydd bosibl; oblegid gan fod y rhan fwyaf o honynt yn dylawd iawn, ni's gallant aros llawer o amser yn yr ysgol; ac heblaw hyny, nid dyben elusen grefyddol yw gwneyd boneddwyr, ond Cristionogion o honynt, ac etifeddion y bywyd tragywyddol." Er fod yr amcan yn dra chanmoladwy, ac yn cyfateb i ran o angen mawr yr oes, eto yr oedd y gyfundrefn yn rhy ffurfiol a difywyd, i allu, nac i haeddu parhau yn hir; a'r canlyniad fu i'r sefydliad syrthio i warth, a myned yn fwy diddefnydd i'r genedl.

Gadawodd Gruffydd Jones 7000*p*. i Madam Bevan tuag at ddwyn yn mlaen yr ysgolion hyn; a gadawodd hithau ar ei hol 10,000*p*. er mwyn eu bytholi yn Nghymru. Ond yn fuan ar ol ei marwolaeth, cyfododd Lady Stepney, y gymyn-weinyddes, yn nghyd ag etifeddion cyfreithlawn y foneddiges, *gyngaws* yn erbyn yr ewyllys; ataliodd hyny ei gweinyddiad am flynyddoedd. O'r diwedd rhoddwyd yr achos yn Llys yr Arglwydd Gangellydd, yr hwn, ar ol llawer o amser, a benderfynodd yr achos mewn

Digitized by Google

dull ag sydd yn debyg o fod yn gwbl ddifudd i Gymru, ac yn hollol groes i'r amcan a'r dull y dygwyd yr ysgolion y mlaen gan eu sylfeinwyr gwladgarol.

BIBL CYMRAEG: Y CYFIEITHIAD.—Y mae pawb yn ystyried yr "Ysgrythyr Lân" fel Llyfr y llyfrau, a thrysor penaf y byd, o blegid fod ganddo Dduw yn awdwr, iachawdwriaeth yn ddyben, a gwirionedd yn gynwysiad. Eto, ar yr un pryd, addefir mai llyfr seliedig ydyw, cyhyd ag y parhäo heb ei gyfieithu i ieithoedd y cenhedloedd hyny nad ydynt yn deall y tafodau, yn mha rai yr ysgrifenwyd ef ar y cyntaf. Nid yw ei drysorau yn agored, nac o fewn cyrhaedd eu defnyddio, hyd nes y clywo pob un yn yr iaith y ganed ef, trwy gyfieithiad teg, "fawrion weithredoedd Duw." Gwnaed llawer cynnygiad gwerthfawr, o bryd i bryd, tu ag at wellhau cyflwr gwladol a moesol cenedl y Cymry, ond y rhodd fwyaf bendithiol a gafodd erioed, ydoedd yr Oraclau Dwyfol, wedi eu cyfieithu a'u hargraphu yn eu hiaith eu hunain. Y mae digon o brofion diymwad ar gael, fod Cristionogaeth wedi ei dwyn i'n gwlad, os nid mor fore a'r oes apostolaidd, yn fuan iawn ar ol hyny. Dywedir yn y *Trioedd*, fod yr efengyl wedi ei dwyn i'n plith, ar y cyntaf, gan deulu Bran Fendigaid; a bod bedd petryal i Bronwen, un o'r tylwyth, ar lan afon Alaw, yn Mon; ac yr oedd darganfyddiad y bedd hwnw yn ddiweddar, yn nghyd a'r gwrn, lle y dodasid ei llwch, yr hon sydd yn awr yn yr Amgueddfa Frytanaidd, yn profi yn ddigon eglur, mai nid chwedlau disail a gofnodid yn y brut hwnw, ond gwirioneddau hanesol, o awdurdod uchel. Ac wedi i'r foneddiges nefol hono, sef Cristionogaeth, roddi ei throed i lawr unwaith ar derfynau Gwyllt Walia, ni ymadawodd eto â'r fro, a diau nad ymedy oddiyma byth mwy. Eto, y mae yn eglur fod yr anhawsderau i ledaenu ei hegwyddorion pur, wedi bod yn ddirfawr. Yr oedd y rhyfel-gyrchoedd allanol, a'r ymrysonau mewnol a brofai y genedl, yn ataliad effeithiol iawn i feithriniad crefydd a llenoriaeth yn y wlad; fel y parhäodd ei thywyllwch yn hir, er maint a fu rhagoriaethau ei dysgeidiaeth gynt, dan ormes y Rhufeiniaid am dymhor maith, ac ymosodiadau cenhedloedd eraill, o bryd i bryd, nes ddyfod Pabyddiaeth Rhufain o'r diwedd, i'w gordoi â lleni tywyllwch; ac yr oedd ei thrueni mor fawr y pryd hwnw, fel y gallesid dywedyd am dani, ei bod yn "gorwedd yn mro a chysgod angau" a bod cyfnod cyfieithiad y Bibl i'r iaith gysefin, fel ymweliad codiad haul o'r uchelder arni, wedi yr oesau galarus, yn flaenorol i'r Diwygiad Ardystiol, ac na bydd oesau y byd yn ddigon o hyd, i ddiolch i Ragluniaeth y nef, am y fath fendith fawr.

Y mae amryw gofnodau ar gael am y gwahanol ysgogiadau a wnaed, o oes i oes, tu ag at gael cyfieithiad cyflawn o'r Bibl, i'w argraphu yn y Gymraeg. Ymdrechir gosod ger bron, grynhoad byr o'r hyn sydd fwyaf perthynol i'r amgylchiadau. Yn y flwyddyn 1768, cyhoeddodd y dysgedig Dr. Thomas Llewelyn, draethodau hanesol a beirniadol, yn cynwys nodiadau lled fanwl am y cyfieithiadau a'r argraphiadau Cymreig o'r Ysgrythyrau; ac y mae ganddo amryw awgrymiadau tra tharawiadol, am ansawdd y wlad yn flaenorol i'r Diwygiad; a gwna sylwadau tra phriodol ar yr anhawsderau oedd ar y ffordd tu ag at ddwyn yr amcan clodfawr i ben, o blegid y petrusder oedd yn mynwesau lluaws o bobl ar y pryd, am y priodoldeb o feithriniad a pharhad yr iaith Gymraeg. Sylwodd y diweddar Barch. Thomas Charles, o'r Bala, yn lled fanwl ar y cyfieithiadau Cymreig, a'r gwahanol argraphiadau. Traddododd y Parch. J. Elias, o Fon, araeth gynnwysfawr iawn yn Llundain, mewn cyfarfodydd cyhoeddus, ar y testyn. Ysgrifenodd Ioan Tegid yn lled helaeth ar y pwnc, ar yr achlysur o osod i fynu fedd-faen coffadwriaethol am Dr. Davies, Esgob Ty-ddewi; bu Gohebydd yn yr *Eurgrawn Cynulleidfäol* yn lled fanwl yn ei nodiadau ar yr hanes; ac y mae nifer yn ychwanegol wedi bod yn gynorthwyol tu ag at ddwyn yr amgylchiadau i oleuni; a defnyddir rhyw gymaint o bob un o honynt, yn y nodiadau hyn.

Y mae digon o dystiolaethau hanesol fod rhanau o'r Ysgrythyr wedi eu cyfieithu i'r Gymraeg yn yr oesoedd boreuol. Pan feddyliom am ddysgeidiaeth Cor Illtyd, a Bangor-is-Coed, y mae yn naturiol i ni gasglu fod yno luaws o wyr galluog, a pharod i wasanaethu eu cenhedlaeth, drwy gyfieithu yr hyn a dybid yn fwyaf angenrheidiol ei wybod o'r Ysgrythyrau. Dywed y Dr. Davies, yn ei Ragymadrodd i Destament William Salesbury:—"Y mae cenym ni yno Gymraeg amryw ymadroddion a diarhebion yn aros fyth mewn arfer, a dynwyt o berfedd yr 'Scrythyr 'Lân, ac o ganol Efengil Christ. Yr hyn sydd profedigaeth digonawl vot yr 'Scrythyr 'Lân yn gyffredin, ym mhen pob bath ar ddyn, pan i ddechrewyt, a phan y dychwyt i arfer cyffredinol. Myfi a nota ac a ddyga ar goedd yt rai o honynt. Yn sathredic y doydir, 'A Duw a digon: heb Dduw heb ddim.' O ble y cait hyn o ddysgeitiaeth, ple mae i wreiddyn a'i warant? onit hyn yw gyriad a chloedigaeth yr 'Scrythyr 'Lân? onit hyn i mae'r prophwydi, a'r Psalme, a'r Testament Newydd trwyddynt yn i ddysgu i Gristionoddyn. Nid rhait yma i fanyl chwilio am testiolaeth: rheitiach yw, can y bod mor amyl, edrych pa rai a ddewiser; a pha rai i geisio byrhau y tracthawt, a adawer." Yr oedd y parch cyffredinol oedd yn y wlad i air Duw fel sylfaen y gwirionedd, yn cadarnhau y dystiolaeth hon, fel mai terfyniad pob dadleuon a fyddai "Gair Duw yn uchaf." Ond y mae tystiolaeth yr un gwr am ranau o'r Ysgrythyr a welsai ef ei hun, yn cadarnhau yr hanes yn eglurach fyth. Dyma ei dystiolaeth:—"Dierth yw genyf glowet fot dy ffydd di ay hanes o'r Testament Newydd a gair Duw: can ys ni welast irioed y Bibl neu'r Testament yn Gymraeg, nac mewn ysgrifen nac mewn print. Yn lle gwir ni ffynodd genyf fi irioet gael gwelet y Bibl yn Gymraeg; eithr pan oeddwn fachgen, cof yw cenyf welet pump llyfr Moesen yn Gymraeg, o fewn tŷ cwythr ym oedd wr dyscedic: ond ni doedd neb yn ystyr y llyfr, nac yn prisio arno. Peth amheus ydiw (ir a wn i) a ellir gwelet yn oll Gymru un hen Bibl yn Gymraeg, i'r pan golletwyt ac i speiliwyt y Cymy oy oll lyfray, mal y doydais o'r blaen: Eithr diameu yw cenyf, fot cyn hyny y Bibl yn ddigon cyffredin yn y Gymraeg." Rhaid, yn ol y dystiolaeth hon, fod y cyfeithiad Cymreig hwnw wedi ei wneud yn mhell cyn gwneud yr un Saesoneg. Dywed un hanesydd fod Dr. Davies yn chwech a thri-ugain oed pan yr ysgrifenodd y llythyr uchod; a phe tyned haner canrif o hyny, i'w ddwyn i oedran "*bachgen*," rhaid ei fod, yn y man diweddaraf, wedi ei wneud tuag amser teyrnasiad Harri VIII.; ac yr oedd hyny yn flaenorol i bob argraphiad Saesoneg a wnaed o'r Bibl. Ni ddywed efe pwy oedd y cyfieithydd, ac efallai mai ofer fyddai ceisio llunio tybiau. Ni byddai yn anmhriodol

Digitized by Google

crybwyll yma, mai brodor o Cymru oedd Tyndal, y Protestant cyntaf a gyfieithodd Air Duw i iaith y Saeson. Yr oedd yn hen Eglwys Gadeiriol Llanelwy, gyfieithiad Cymraeg o'r Efengylwyr, sef Matthew, Marc, Luc, a Ioan, hyd amser teyrnasiad Elisabeth. Yr oedd mewn cyfrifiad mawr yn amser Iorwerth laf. Cludid ef mewn gorymdeithiau drwy heolydd y Prif-ddinasoedd, trwy orchymyn Archesgob Caergaint, yn 1282—amser cwymp Llewelyn fel gwrthddrych o barch cyssegredig—Dywedir fod Esgob Goldwell, oedd yn Esgob Llanelwy yn amser Elisabeth, yn tueddu at Babyddiaeth, ac iddo, ar ei ddiswyddiad, ffoi i Rufain; a dyna yr amser y collwyd yr "Evagelion," fel ei gelwid, a thybir iddo ei ddwyn gydag ef ymaith, a barna rhai y gallai fod yn mysg trysorau y Vatican yn awr. Y mae ger ein bron yn awr, lyfr o ysgrifen-law y Dr. Davies, o Fallwyd, yn yr hwn y mae amryw o'r Salmau yn Gymraeg, y rhai y dywed ef iddo eu copio o wahanol hen goflyfrau; ac y mae y cyfieithiad yn gwahaniaethu oddiwrth yr un sydd mewn arferiad yn awr, a thybir felly, fod y darnau hyn yn henafol iawn.

Yn y flwyddyn 1551, argraphwyd llyfr o'r cynwysiad canlynol, *Kynifer Llith a Ban o'r Ysgrythyr ag a ddarllenir yn yr Eccleis pryd Commun, Suliau, a'r Gwyliau, trwy'r flwyddyn, o Gambreiciat William Salisbury.* Yr oedd pethau erbyn hyn, yn dechreu ymagor er rhwyddhau y ffordd at gael y Gair Dwyfol i'n hiaith; a thua y flwyddyn 1562, neu 1563, penderfynwyd, trwy weithred Seneddol, "Fod y Bibl, yn cynwys yr Hen Destament a'r Newydd, yn nghyd a Llyfr y Weddi Gyffredin, a Gweinyddiad y Sacramentau, i gael eu cyfieithu i iaith y Brython, neu y Gymraeg, a'r gwaith i gael ei olygu, ei ddefnyddio a'i gydnabod, gan Esgobion Llanelwy, Bangor, Tŷ Ddewi, Llandaf, a Henffordd, a'i arferyd yn yr Eglwysi, erbyn y laf. o Fawrth, 1566, dan ddirwy, yn niffyg o hyny, o ddeugain punt ar bob un o'r Esgobion uchod."

"Fod un adgraff (byrhad o adargraph, neu cyfargraff) o leiaf ar gyfer pob eglwys blwyfol, &c., yn Nghymru, i gael ei ddarllen gan yr offeiriaid, yn amser dwyfol addoliad, a phrydiau eraill, er lles ac arferiad pawb a hoffont fyned i'r eglwys i'r perwyl hwnw.

"Hyd oni byddo i'r cyfieithiad hwn o'r Bibl a'r Llyfr Gweddi Gyffredin gael ei orphen a'i gyhoeddi, fod i'r offeiriaid yn y wlad honno ddarllen, yn amser addoliad cyhoeddus, yr Epistolau, a'r Efengylwyr, Gweddi yr Arglwydd, Erthyglau y Ffydd Gristionogol, y Litani, a'r cyfryw ranau eraill o'r Llyfr Gweddi Gyffredin, yn yr iaith Gymreig, yn ol cyfarwyddiad yr esgobion uchod.

"Fod nid yn unig yn ysdod y cyfwng hwn, ond dros byth wedi hyny, Fiblau a Llyfrau Gweddi Gyffredin Saesonig, i fod yn mhob eglwys a chapel yn y wlad houno."

Mewn canlyniad i'r ddeddf uchod, cafwyd y Testament Newydd i'r iaith Gymraeg, yn mhen blwyddyn ar ol yr amser a nodid, wedi ei argraphu yn llyfr pedwar-plyg, yn cynwys 399 o du-dalenau, gyda llythyrenau duon; ac wedi ei ddosparthu yn llyfrau, a phenodau; ond nid yn adnodau, oddigerth ychydig tua'r diwedd. Yr oedd gwahanol bersonau wedi cymeryd rhan yn y gorchwyl ardderchog hwn. Yr oedd Llyfr y Datguddiad wedi ei gyfieithu gan T. H., C. M., sef *Thomas Huet, Canghellwr Menyw,* neu Dy Ddewi, fel y mae yn debygol. Yr oedd yr ail lythyr at Timotheus, yr Epistol at yr Hebreaid, Llythyr Iago, a dau Lythyr Pedr, wedi eu cyfieithu gan D. R. D., M., sef Dr. Richard Davies, Menevensis, neu Dy Ddewi. (Efe hefyd a gyfieithodd y llyfrau canlynol o'r Bibl Saesoneg, sef Joshua, Ruth, Barnwyr, laf Samuel, a'r ail Samuel). Yr oedd y gweddill oll wedi ei gyfieithu gan W. S., neu William Salsbri, yr hwn oedd wr o euwogrwydd mawr yn ei ddydd yn mysg ei genedl, o ran ei ddiwydrwydd, ei ddysgeidiaeth, a'i dduwioldeb. Argraphwyd y Testament hwn yn y flwyddyn 1567, gan Humphrey Toy. Terfyna y llyfr gyda'r argraph ganlynol —"Imprinted at London, by Henry Denham, at the costes and charges of Humphrey Toy, dwelling in Paules Churchyarde, at the sign of Helmet, cum privilegio ad imprimendum solum. Anno 1567, Octob. 7." Y mae y Calender, a chyflwyniad o hono i'r Frenhines Elisabeth, yn Saesoneg, wedi eu cysylltu wrtho, gan y prif gyfieithydd; yn nghyd â llythyr maith yn Gymraeg, gan Esgob Ty Ddewi, at ei gydwladwyr. Oddiwrth yr anerchion, gyda'r ddalen enwawl, deallir fod y cyfieithiad wedi ei wneud o'r iaith Roeg, yn nghyd a'r Lladin, gyda ffyddlondeb a diwydrwydd; a bod y cyfan o'r llafur wedi ei gwblhau, dan olygiad William Salsbri, ac yn enwedig arolygiaeth yr argraphiad o hono, drwy ei benodiad, fel y dywed ef ei hun, gan yr Esgobion.

Dyma y llusern mawr wedi ei gael; ond eto nid oedd y Datguddiad Dwyfol yn gyflawn yn yr Omeraeg; ac ni chafwyd argraphiad o'r Hen Destament hyd yn mhen un mlynedd ar hugain wedi hyn. Y mae yn syndod meddwl fod cymaint o amser wedi myned heibio, cyn cwblhau yr amcan gogoneddus, ac y mae yr achos o'r oediad wedi bod yn destyn dadleuon, ymofyniadau, a thybiau lawer. Dywed rhai mai yr achos oedd, am na phenodasai y Weithred Seneddol, neb yn neillduol ac arbenig i ymaflyd yn y gorchwyl, ac nad oedd penodiad yr esgobion yn golygu dim yn mhellach nac edrych dros y gwaith, a'i gydnabod; ac mai nid diffyg digon o ddynion galluog a pharod at yr orchest, a fu yr achos o'i adael cyhyd heb ei gyflawni. Ond nis gall hyn fod yn gywir, o blegid yr oedd y gorchymyn yn eu rhwymo i gwblhau y gwaith, neu fforffedu 40*p.* yr un o ddirwy. Dywed eraill fod yr amser a ganiatawyd yn rhy fyr, sef o dair, i bedair blynedd. Cymerodd cyfieithiad y Bibl Almaenaidd, gan Luther, ddeng mlynedd o amser, sef o 1522 hyd 1532. Dywed cyfieithwyr y Testament Cymraeg ei fod wedi ei wneud gyda phob *diwydrwydd*, eto buwyd o bedair i bum mlynedd wrth y gorchwyl. Cymerodd cyfieithiad Bibl Saesonaeg Parker, naw mlynedd o amser i'w gyflawni, a Bibl y Brenhin Iago, yr un modd, naw mlynedd; ac nid oedd y ddau ddiweddaf yn ddim amgen nag adgyweiriad ar gyfieithiadau blaenorol, ac felly, yr oedd y llafur yn llawer llai. Dichon mai nid anmhriodol fyddai crybwyll, yn y fan hon, am reswm arall o'r oediad, y cyfarfyddir ag ef yn achlysurol, sef bod i gyfieithiad yr Hen Destament gael ei oedi am beth amser, o blegid dadl a fu rhwng Salsbri a'r Esgob Davies, yn nghylch ystyr y gair *eglwys*. Os oedd Salsbri yn gweithredu dan gyfarwyddyd yr esgobion, efallai fod rhyw sail i'r amheuaeth hwn. Ond prin y gallwn gredu mai dan arweiniad y boneddigion urddasol hyny yr oedd ef yn gweithredu; yr oedd o feddwl digon gwrol ac annibynol i farnu drosto ei hun. Nid ydym yn

Digitized by Google

barnu fod un iota o brawf, heblaw geiriau Salsbri, a grybwyllwyd yn flaenorol, yn dangos, fod dim a fynai yr esgobion â'r mater hwnw o gwbl oll; o leiaf, nid oes yr un cofnodiad ar gael, er profi y pwnc.

Yma y mae gofyniad naturiol yn codi, Beth a fu yr achos o'r annibendod a'r arafwch a gymerodd le, am gynnifer o flynyddoedd, heb ddwyn allan gyfieithiad ac argraphiad cyflawn o'r Bibl Cymraeg? I hyn y mae llawer wedi cynyg rhoddi atebion; eto dichon nad yw yr holl amgylchiadau wedi eu dwyn i oleu dydd hyd yr awr hon. Dywed rhai mai yr achos ydoedd, am na wnaethai y llywodraeth ddarpariadau priodol ar gyfer cydnabod y llafur, gyda chynhaliaeth y llafurwyr ar y pryd; ac mai cymaint o gefnogaeth a gawsant, oedd addewid o fywioliaethau gwell ar gyflawniad eu gwaith. Dywed eraill, mai y gwir achos oedd, dirgel gasineb yr esgobion Seisnig, at fodolaeth yr iaith Gymraeg, ac mai hyny oedd gwraidd y drwg. Pa fodd bynag, priodolir cyflawniad y gwaith yn fwy i ysbryd cenhadol y cyfieithwyr, nac i ddarpariadau y Llywodraeth. Fel hyn y dywed y dysgedig Dr. Thomas Llewelyn, yn ei *Gofnodau Hanesol* am Gyfieithiadau y Bibl Cymraeg:—"Am dros ddeng mlynedd a thri-ugain wedi sefydliad y Diwygiad gan y Frenhines Elisabeth—dros gan mlynedd wedi ymryddhad Brydain oddiwrth Eglwys Rhufain,—nid oedd Biblau yn Nghymru, ond yn unig yn yr Eglwysi Cadeiriol, a'r eglwysi a'r capeli plwyfol. Nid oedd yr un ddarpariaeth ar gyfer y teuluoedd, a'r genedl yn gyffredinol. Yr oedd yr awdurdodau yn ymddwyn fel pe na buasent yn bwriadu i'r werin gael y Bibl yn llyfr teuluaidd. Ni weithredwyd yn unol ag ysbryd na llythyren y ddeddf gyhoeddedig i'r perwyl. Cyfieithwyd a chyhoeddwyd y Testament gan y boneddwr Salsbri, o fewn cylch yr amser penodedig, gyda chymhorth yr Esgob Davies, ond ni chafwyd cyfieithiad nac argraphiad o'r holl Fibl, am dros ugain mlynedd wedi y cyhoeddiad; a hyny, nid trwy argymhelliad yr esgobion, ond trwy ymroddiad personol Dr. William Morgan, ficer Llanrhaiadr Mochnant, yn Sir Ddinbych, enw yr hwn a fydd mewn urddas yn nheimlad pob Cymro, tra y byddo yr iaith ar lafar. Cyhoeddwyd yr argraphiad hwn yn 1588. Y mae efe wedi datgan iddo gael cryn gefnogaeth gan esgobion Llanelwy a Bangor. Yn ei gyflwyniad Lladin o'r argraphiad i'r Frenhines Elisabeth, dywed Morgan mewn gair, mai yr achos o'r oediad oedd "difaterwch, a diogi." Ni chafwyd yr un argraphiad ychwanegol am deuddeng mlynedd ar hugain wedi hyny. Ond yn y flwyddyn 1620, dygodd Dr. Richard Parry, Esgob Llanelwy, argraphiad newydd allan. Ymddengys mai gweithred o gariad, ac nid o drefniad y Llywodraeth, oedd gwasanaeth y gwr da hwn; o blegid dywed yn ei Ragymadrodd fod yr argraphiad blaenorol wedi ei wisgo ymaith o'r braidd, os nid yn llwyr; ac nad oedd neb, hyd y gwyddai ef, yn meddwl nac yn gofalu am gael argraphiad ychwanegol, er cyflawni y diffyg. Yr oedd yr argraphiad newydd hwn yn cael ei ddarparu yn unig ar gyfer y llanau. Dywed Dr. Llewelyn fod yr anrhydedd o wneyd y ddarpariaeth gyntaf ar gyfer diwallu anghenion trigolion Cymru, yn ddyledus i rai o ddinaswyr Llundain, ac yn enwedig i *Mr. Alderman* Heylin, gwr o linach Gymreig; a Syr Thomas Middleton, yr hwn oedd yntau yn frodor o'r Dywysogaeth, ac yn *Alderman* yn Llundain. Am yr haner can mlynedd dilynol, ni chyhoeddwyd ond un argraphiad o'r Bibl Cymraeg gan yr Eglwyswyr, o 1000 o nifer, at y Llanau a'r capelau yn unig. Ond yn yr ysdod hwn, cyhoeddodd yr Anghydffurfwyr erlidiedig—Walter Cradog, Vavasor Powell, Stephan Huws, Thomas Gouge, a Dafydd Jones—ddim llai na naw o argraphiadau, yn cynwys 30,000 o gopiau o'r holl Fibl, a thros 40,000 o'r Testament Newydd, ar wahan. Yn ysdod yr haner canrif dilynol, sef o'r flwyddyn 1718 hyd 1769, cafwyd tri argraphiad helaeth gan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol, dau o honynt drwy anogaeth y Parch. Griffith Jones, Llanddowror; a'r llall drwy gymhelliad Dr. Llewelyn. Y mae argraphiadau Cromwell, yr hwn ydoedd yntau o linach Gymreig, yn deilwng o grybwylliad; a'r eiddo Moses Williams, ficar Defynog; yn gystal a'r rhai gan y Morysiaid o Fon, ac eraill, sydd wedi bod o wasanaeth mawr. Y mae y rhestr ardderchog o enwau sydd yn disgleirio yn nghanol yr hanes, yn teilyngu coffadwriaeth, ond fel nad yw ein gofod yma yn caniattau i ni fanylu arnynt oll. Pa beth bynag a ellir ei ddywedyd, mewn ffordd o gasgliad am syniadau yr Esgobion Seisnig, a'u dirgel gais i wasgu y Gymraeg allan o derfynau iaith lafar, rhaid addef fod amryw o honynt wedi bod yn wasanaethgar iawn, nid amgen Archesgob Caergrawnt; esgobion Llanelwy, a Bangor (Dr. Huws, a Dr. Bellot); Dr. Gabriel Goodman, Deon Westminster; Dr. Dafydd Powel; Edmwnd Prys, Arch-ddiacon Meirionydd; awdwr y *Salmau Can;* Mr. Richard Vaughan, Periglor Lutterworth; ac wedi hyny, esgob Bangor, Caerlleon, a Llundain.

Y mae amryw gynnygion eraill, ag y dylid crybwyll am danynt, er nad oes genym hanesion cyflawn, mewn tystiolaethau boddhaol yn eu cylch;—cyhoeddwyd rhyw ddetholion o'r Ysgrythyr yn amser Iorwerth vi., yn 1551, i'w darllen yn yr Eglwysydd, am yr hwn lyfr y crybwylla Ames yn ei hanesion. Efallai mai yma y dylid cyfeirio at amgylchiad arall, mewn cysylltiad â chyfeithiad y Testament Newydd, ag sydd wedi bod yn achlysur o ymchwiliad a dadl, sef yr honiad a wnaeth Iolo Morganwg, ar ran Thomas Llewelyn o'r Rhigos, am gyfieithiad yr hwn, os ydyw yn gywir, na edy ond ychydig o glod i Salsbury. Ceir yr hanes yn ngwaith Benjamin Heath Malkin, Ysw., sef ei *Hanesiaeth am Ddeheubarth Cymru.* Fel hyn y dywed ef ar y pwnc:—"Mewn tŷ heb fod yn mhell, a elwir Clyn Eithinog, yr oedd Bardd Cymreig enwog yn byw yn amser Iorwerth vi. ac Elisabeth, yr hwn a adawodd o'i ol gryn lawer o farddoniaeth Gymraeg dda, mewn ysgrifenlyfr. Ei enw ydoedd Thomas Llewelyn, ac yr oedd yn Brotestant o nodwedd uchel, duwioldeb mawr, a moesoldeb manwl. Cyfieithodd y Bibl i Gymraeg dda, o gyfieithiad Saesoneg Tyndal, o gylch 1540; yr hyn oedd dros ddeugain mlynedd cyn i'r cyfieithiad Cymraeg, a arferir yn awr, gael ei wneud gan Dr. William Morgan. Os nad yw cyfieithiad Thomas Llewelyn ar gael yn awr mewn ysgrifen-lyfr, yr oedd yn ddiweddar iawn. Trwyddedwyd ef i bregethu gan yr Archesgob Grindal, yn amser y Frenhines Elisabeth, a daeth yn boblogaidd iawn. Yr oedd yn aml yn myned drwy y gwasanaeth dwyfol mewn tai anghyhoedd, yn gystal ag mewn eglwysi: a ffurfiodd lawer o gymdeithasau crefyddol bychain. Nid oedd y rhai hyn ar y cyntaf wedi eu ffurfio gydag un bwriad i ymneillduo oddiwrth yr

Digitized by Google

Eglwys Sefydledig. Yr oeddynt mewn llawer o bethau yn debyg i'r Methodistiaid presenol, ac yn gosod eu hunain allan fel aelodau o'r Sefydliad, fel y mae y blaid ddiweddar yn parhau i gymeryd arnynt eu bod yn perthyn iddo. Yr oeddynt braidd bob amser yn arfer y gwasanaeth cyhoeddus, ond darfu i'w hafreoleidd-dra, yn cyfarfod mewn tai cyffredin, yn nghyd a'u gweddiau a'u pregethau anysgrifenedig yn achlysurol, roddi lle i waradwydd a thramgwydd. O herwydd hyn, drwg-dybiwyd hwy yn afreidiol o fod yn elynol i'r eglwys, a dioddefasant ryw radd o erlidigaeth oddiwrth yr Archesgob Laud. Darfu i hyn eu dwyn i beidio cyd-ffurfio; ac yn fuan ar ol hyn, dechreuasant ymranu, ac i ddewis gwahanol enwadau yn eu mysg eu hunain. Yr oedd rhai yn Fedyddwyr Babanod, ac ymunasant â'r Presbyteriaid, ymunodd eraill a'r rhai a arferent fedydd yr oedranus. Gelwid trydedd plaid yn Anfedyddwyr; a phan ffurfiodd George Fox ei ddysgyblion yn blaid wahanol, ychwanegwyd eu rhifedi gan yr Anfedyddwyr Cymreig hyn, y rhai a gyfarfyddent i addoli yn Mynwent y Crynwyr. Pan ddechreuasant syrthio oddiwrth eu duwioldeb brawdol cyntaf, ac ymwasgaru yn bleidiau, sefydlodd y Presbyteriaid eu prif gynullfa yn Merthyr Tydfil, lle y maent eto yn parhau, ac yn anfon eu heidiau yn achlysurol allan i lenwi cychod eraill o Ymneillduaeth luosog a nerthol. Sefydlodd y Bedyddwyr yn Hengoed, yn y Gelligaer. Mae yr Anfedyddwyr, neu y crynwyr, bron wedi dyfod i'r dim. Yn yr hanes hwn am Thomas Llewelyn a'i ddysgyblion di-feddwl-drwg, yr ydym yn cael hanes dechreuad yr Ymneillduwyr Cymreig. Gorchymynodd Laud eu hesgymuno. Hyd yn hyn, gweinidogion yr Eglwys Sefydledig oedd bron yr unig bregethwyr yn eu cyfarfodydd, a'r gwrandawyr oeddynt rai yr oedd ganddynt chwech, wyth, neu ddeng milltir o ffordd i fyned i'w heglwysi plwyfol. Ond gwaharddodd Laud i'r holl offeiriaid rheolaidd barhau yr ymarferiadau crefyddol hyn, ac esgymunodd rai oedd wedi anufuddhau i'w orchymynion. Yn eu mysg yr oedd y Parch. William Erbury, Periglor St. Mair, Caerdydd; y Parch. Walter Cradoc, o Lanbedr-y-fro, ac amryw ddynion parchus eraill. Wedi eu gadael fel hyn, fel defaid heb fugail, darfu i'r cymdeithasau anwybodus ac annghraffus, wahodd i'w cynorthwyo flaenoriaid y pleidiau oedd wedi ymddangos yn amser terfysglyd a phenboeth Siarl I. Fel hyn y torwyd adwyon drwy ddiofalwch, fel y mae yn ymddangos, y rhai ni chauwyd hyd yma, ond ydynt yn myned yn lletach letach yn feunyddiol, yn y rhan hon o'r wlad. Pe buasai sêl plaid Laud wedi cael ei defnyddio i gymodi, yn hytrach nac i ranu a rhwygo, mewn ysbryd trais a gorthrymder, ni's gallaf lai na meddwl y buasai hyny yn y diwedd yn fwy llwyddianus i'w hamcan o unffurfiad. Ond y mae hanes yr holl fyd yn profi mai anfynych yr ymadewir a chyfeiliornadau, nes y bydd yn rhŷ ddiweddar. Eto gallasem, hyd yn ddiweddar, feddwl wrth rydd-frydedd ymddangosiadol yr oes bresenol, mai tuedd barn y cyhoedd, fuasai cymeryd i mewn yn hytrach nac esgymuno, a hyny heb gymeradwyo cyfnewidiadau anystyriol a chyflym, can belled ag y gallwn mewn un modd dreiddio i ddyfnderoedd rhagluniaeth ddwyfol, gallasem feddwl yn naturiol y buasai amrywiaeth crefyddol, gydag offeiriaid cymhedrol a chall, a phobl yn cynhyddu yn raddol mewn gwybodaeth a chariad, yn gwanhau yn eu grym, ac o'r diwedd yn ymollwng, os nad i gydffurfiad gweithredol drwy yr ymerodraeth, eto o leiaf, i gyd-ddygiad, heddwch, a chydsyniad caredig.

"Rhigos y gelwir yr holl bentref, ac yn wir yr holl gymydogaeth. Mae llythyr mewn ysgrifen yn llyfr-gell Syr Thomas Mostyn, yn swydd Fflint, oddiwrth Thomas Llewelyn o'r Rhigos, at Richard Davies, ail esgob Protestanaidd Ty Ddewi, yn ei anog i gyfieithu y Bibl i'r iaith Gymraeg, ac yn rhoddi rhyw hanes am ei ymgais ei hun. Darfu i'r esgob parchedig, drwy gynhorthwy William Salsbri, Ysw., o Lansannan, yn swydd Fflint, gyfieithu a chyhoeddi y Testament Newydd. Yr wyf yn tueddu i feddwl na bu fyw i wneud rhagor. Ni hysbysir i ni, i Dr. Davies a Mr. Salsbri wneud defnydd o gyfieithiad Thomas Llewelyn; ond y mae rhesymau cedyrn dros gredu hyny. Os na chamarweinir fi gan fy hysbysydd, y mae Cymraeg eu cyfieithiad mor hollol a neillduol yn nhafodiaeth Morganwg neu Essyllwg, yn holl briodoleddau cystrawiad, fel na's gellir llai na rhyfeddu, pa fodd y derbyniodd y fath gymeriad, os na arferwyd ac na ddilynwyd cyfieithiad yr hen fardd yn fanwl iawn. Yr oedd Dr. Richard Davies a William Salsbri, eu dau yn frodorion o Ogledd Cymru, ac heb fod erioed yn trigo yn Mynwy, Morganwg, nac un ran arall o'r Dywysogaeth, lle yr arferir y dafodiaith Essyllaidd. Yr oedd, ac y mae y cyfieithiad argraphedig hwn o'r Testament Newydd, yn dra annealladwy i drigolion Gogledd Cymru."

Yn awr, dyna dystiolaeth a syniadau Malkin, ar awdurdod Iolo Morganwg, yn gyflawn ger bron. Rhaid i ni addef nad ydym yn gweled achos eglur ar ran Llewelyn, nac yn erbyn Salsbri yn y cyfan. Nid oes yr un dystiolaeth allanol ac amgylchiadol yn dwyn prawf digonol yn mlaen; os oes sail i'r syniad o gwbl oll, rhaid ei fod yn nghymeriad mewnol ieithwedd y cyfieithiad. Nid yw bod llythyr yn llyfrgell Gloddaeth neu Fostyn yn yr achos, yn un math o dystiolaeth, tra nad yw ei gynhwysiad wedi ei amlygu. Gallai fod Llewelyn wedi cyfieithu, ac ysgrifenu at Davies; eto nid oes yma ddim i brofi ei fod wedi galw sylw Davies na Salsbri at y cyfieithiad. Y mae yn dra annhebyg na buasai Salsbri yn gwneud y defnydd lleiaf o gyfieithiad un arall, heb addef hyny; o blegid crybwyllodd yn ddigon gofalus am ei holl gydlafurwyr. Nis gallwn gredu y buasai ef a Davies, yn gadael ymdrech mor glodfawr yn ddisylw, canys dywed yr olaf yn ei lythyr at y "Cembru" o flaen Testament Salsbri, fel y crybwyllwyd:—"Yn lle gwir, ni ffynodd cenyf irioed gael gwelet y Bibl yn Gymraeg, &c." Fel y canlyn y dywedai y diweddar Walter Davies ar yr achos hwn:—"Cyhuddiad trwm yw yr un uchod, ped gwir. A ydyw yn hawdd coeliaw y gwnaî gwyr mor ddysgedig a chyfarwydd yn yr ieithoedd gwreiddiawl, ag y gwyddis fod yr Esgob Davies, a W. Salsbri, adael o'r neilldu eu talentau eu hunain, a chymeryd gafael yn ngwaith pellenigyn, nad oedd yn ymhonni mewn un dawn rhagorach, (am a wyddom ni,) na'i fod yn medru cyfieithu i'r Gymraeg Destament Saesoneg William Tyndal? Dynion llawn o sêl yn ngwinllan eu Harglwydd oedd William Tyndal, a Thomas Llewelyn,—goleuadau disglaer yn ffurfafen yr efengyl, heb yr achos lleiaf i yspeiliaw hanfodau eraill o'u pelydrau, i'w tra-ordywynu hwynt. Na chenfigened Gwent wrth Wynedd, ac na chyfynged Gwynedd ar Went. Os yw cyfieithiad Thomas



Digitized by Google

Llewelyn ar gael, fel y tybir, dyger ef i'r goleu, a bydded i ddysgedigion Gwent a Morganwg eu hunain farnu, ai gweddus ai anweddus yw yr haeriad uchod. Os oedd y cyfieithiad mewn bod, onid yw yn achos o syndod na soniodd Dr. Llewelyn, ei wyr, gymaint ag un gair am dano!"

Dichon i'r nodyn canlynol, yn *Ngeiriadur Dr. Puw*, dau y gair "Celydd Ieuan," gryfhau y dyb yn meddwl Iolo:—"Enw tŷ yn Morganwg, treftadaeth teulu sydd mewn meddiant o ysgrif-lyfr Cymraeg o'r ysgrythyrau, wedi ei gyfieithu gan un o'u hynafiaid, o gylch can mlynedd cyn y cyfieithiad argraphedig." Am y dybiaeth o fod cyfieithiad Salsbri yn dwyn nodau amlwg o'i dafodiaith Essyllawg, nid yw y cyffredin wedi cael digon o brofion. Yr oedd yr hen Gyfieithwyr yn glynu yn lled gaeth wrth y gwreidd-eiriau, ac o blegid hyny yr oedd ychydig o glogyrnwch yn eu gwaith. Yn lle ysgrifenu "yn nghyd," arferai Salsbri "y-cyt;" yn lle "fy mys," "fy bys;" yn lle "fy nhraed," "fy traed;" yn lle "fy ngherddediad," "fy cerddet," &c., ac ar yr un egwyddor "fy calon," "fy gelynion," &c. Y mae yn amlwg fod yr holl gyfieithwyr, yn cynwys Salsbri, Morgan, a Parry, wedi goddef i ieithoedd eraill ormesu i raddau ar y Gymraeg. Pa un bynag ai priod-ddull Hebreig ydyw "gan farw ti a fyddi farw," a'i peidio, y mae yn berffaith naturiol i'r Gymraeg. Ni wyddir am ddim esmwythach nag ymollwng gyda'r Roeg i arfer "angel," "apostol," "efengyl," "eglwys," &c. Ond peth afreidiol oedd anurddo y darlleniad â geiriau Lladin megis "appelio," "condemnio," "actau," &c., pan yr oedd cyflawnder o rai cymhwysach at law, o Gymraeg pur; a'r un sylw a ellir ei wneud am y geiriau "comfforddus," "concwerwr," &c., wedi eu dwyn yn ddirgelaidd o'r Saesonaeg. Haerodd rhai, yn hollol ddisail, fod Morgan yn cyfieithu o'r testyn Saesoneg, drwy iddo ddefnyddio "crythau," am Phialau (φιαλαι) o'r Roeg; ond y gwirionedd ydyw fod y gair "crwth" yn cael ei arfer am "gelwrn" neu lestr bychan, yn gystal ag am yr offeryn cerdd o'r enw hwnw. Gallwn derfynu y nodiadau hyn mewn cyfeiriad at bob un o'r cyfieithwyr, yn ymadroddion Walter Davies am Salsbri—"Cwsg dithau Salsbri ardderchawg, hyd wawriad y bore mawr, pan y croesewir di a yr anerchiad cysurlawn, "Da was, da a ffyddlawn!"

Torodd y wawr ar Gymru ar adeg y dywyll-nos ddu. Ymwrthododd yr eglwysi Cymreig yn ddewr â holl ymyraeth Pabyddion Rhufain, er yn fore iawn; ond erbyn y cyfnod hwn, yr oeddynt can ddiogeled a neb yn eu crafangau. Anwybodaeth y werin ydoedd tŵr cadarn Pabyddiaeth; ond yr oedd llawer o'r Cymry y pryd hwn, dan ormod o leni tywyll i obeithio am waredigaeth, ac hyd yn oed gan rai o honynt hwy eu hunain, yn wrthddrychau syndod, o blegid dyfnder eu darostyngiad. Ceryddai Sion Cent hwy am eu difaterwch, pan nad oedd

"Son am Lythyren Syl,
Na chyffes mwy na cheffyl."

Y mae Dr. Davies yn ei lythyr, wedi gwneud cryn sylw o'r hyn a elwid yn brophwydoliaeth Taliesin, i ddangos fel y bu yr hen Gymry yn ymwarchod rhag y Pabyddion yn yr amser gynt—"Mae cenif fi (eb efe) ddarn o waith Taliesin ben beirdd, a ddychin goffau i ti beth o'r hen fyd a fu gynt; ac efe oedd yn amser Arthur, ac yn amser Maylgwn Gwynedd; wedi Arthur rhwn ytoedd frenin Brytain, pan oedd oed Crist 550; Fel hyn i dywait ef.—"Gwae'r effeiriet byt, nis anghreifftia gwyt, ac ni phregetha. Gwae ni cheidw ei gail, ac ef yn fugail, ac nis areulia. Gwae ni cheidw ei ddefait, rhag bleiddie Rhufeinieit, ai ffon gnwpa." Ni wyddir yn iawn gair pwy ydyw, nac yn mha bryd y cyfansoddwyd y cerydd hwn, ond y mae yn dangos yn eglur nad oedd y Cymry yn foddlon ar eu gormes estronol.

Y mae enwau yr hen ysgolheigion a'r gwladgarwyr hyn, yn aros yn serchus iawn yn ein gwlad hyd heddyw; y mwyaf cyffredin ar dafod y werin, ydyw Dr. William Morgan, genedigol o Ewybrnant, neu Gwiber-nant, yn mhlwyf Penmachno, Sir Gaerynarfon. Ni wyddir yn iawn pa fodd y daeth Morgan i fod yn gyfieithydd i'r Bibl Cymraeg, ond gwyddir yn burion fod hyny i'w briodoli yn fwy i'w ysbryd cenhadol ef ei hun, nac i unrhyw benodiad na chefnogaeth â gafodd gan neb arall, yn yr Eglwys Sefydledig, nac yn y Llywodraeth wladol. Y mae cofnodau y llafurus Strype, am Rowland Heylin, wedi cadw enw y gwr haelionus hwnw yn gynhes iawn yn serch ei wlad. Y mae enw Charles Edwards, awdwr *Hanes y Ffydd*, yr hwn a fu yn offerynol i gael argraphiad o chwe mil o gopïau o'r Bibl yn 1654, yn uchel yn y rhestr; yr hwn a gefnogid gan Cromwell yn y flwyddyn gyntaf o'i Ddiffynaeth. Bu Llyfr y Ficar o Lanymddyfri, fel "Canwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll iawn," yn ei hadeg. Yr oedd y Dr. John Davies, awdwr dysgedig y *Dictionarum Latino-Britanicum*, yn gapelydd i'r Esgob Parry; ac yn ei Ragymadrodd i'w lyfr, dywed ei fod wedi bod er ys deng mlynedd ar hugain yn myfyrio ac yn olrhain iaith ei wlad, ac wedi bod â rhyw law ganddo yn nghwblhad y ddau gyfieithiad o'r Bibl Cymraeg. Fel hyn, wedi hir oediad, o radd i radd y cafwyd cyfieithiad o air Duw i iaith y Brython, hen epil y Derwyddon, yn gyflawn; ac y dylifodd ffrydiau yr afon bur o ddwfr y bywyd, disglaer fel y grisial, o orfeddfainge Duw a'r Oen, rhwng mynyddoedd a bryniau Cymru, nes diwallu a di sychedu yr holl genedl o'r bron.

Ond er pob cais a wnaed tuag at ddiwallu angenion y Dywysogaeth, ni chafwyd cyflawnder ar gyfer pob eglwys, pob capel, pob tŷ, pob ysgol Sabbathol a dyddiol, pob teulu, a phob gwr a gwraig, a phlentyn, yn mhob gwlad a thref, hyd godiad y Gymdeithas Feiblau Frytanaidd a Thramor. Y mae amryw gysylltiadau Cymreig yn cylymu teimladau y genedl â'r sefydliad ardderchog hwnw;—Angen Cymru a fu yn achlysur o'i ffurfiad, eiddigedd Cymro a fu gyda'r blaenaf yn ei dwyn i weithrediad; ac y mae y Cymry, yn ol eu gallu, ac uwchlaw eu gallu, wedi bod yn cyfranu i'w thrysorfa; ac y maent yn ystyried cael bod yn gynorthwyol iddi, yn wir fraint. Pan y daeth y Gymdeithas i'w chyflawn oed, cynhaliodd ei gwyl Jubili, fel brenines, yn Nghastell Caernarfon, lle y ganwyd Iorwerth yr Ail! Dichon y byddai y llinellau canlynol, ar y berthynas sydd rhwng "GLANAU CYNWY A'R BIBL CYMRAEG," yn derfyniad digon priodol i'r erthygl hon:—

"Draw yn nharddiad bychan cyntaf
Afon Gynwy 'n ael y bryn,
Lle gadawai lethrau Meirion,
Ac y treiglai tu a'r glyn.
Rhedai'r enwog DOCTOR MORGAN
At ei dyfroedd gloewon hi,
O *Ewybrnant*, a'i ysgrifell
Er ei wlychu yn y lli.

"Wrth gyfieithu'r Ysgrythyrau
O drysorau'r iaith Hebraeg,
Er cyflwyno i'w gydwladwyr
Feibl cyflawn yn Gymraeg,
Yna'n mlaen drwy'r nentydd llifai'n
Dawel, heb na thôn na thrwst,
Nes ymchwyddo 'n afon nerthol
Ar y dyffryn hyd Lanrwst.

"Yma rhedai WILLIAM SALSBRI,
O'r *Plas-isaf* gyda 'i bin,
Am ei dwfr i ysgrifenu
Y gwirionedd, lin ar lin,
Pan y rhoddai'r anrheg gyntaf
O efengyl nef i ni,
Ac y gwna'i â gwaed ei galon
Inc o'i dyfroedd disglaer hi.

"Yna'r DOCTOR RICHARD DAVIES,
Cyn ei harllwys draw i'r môr,
O'r *Plas Person* yn y *Gyffin*,
Redai dan arweiniad Iôr,
Gyda 'i bin-sgrifenu fuan
At ei ffrydiau, droent eu lliw,
Ar ei amnaid, er darlunio
Ar ddalenau, eiriau Duw.

"A! 'r hen afon—'r wyf yn amheu
P'un a gawsit lifo 'rioed,
Dros y mynydd, yn rhaiadrau
Hyd y ceunant, wrth ei droed,
Oni buasai iti 'n barod
Droi yn inc o'r dua 'i liw
I roi ar y memrwn oesol
Yn ein hiaith oraclau Duw.

"Rhyfedd, fel mae pob cym'dogaeth
Yn ymffrostio o'u gwyr mawr;
Nid oes odid ardal ddinod
Ar na fagodd enwog gawr;
Clywch Philistia, gyda Thyrus,
Ethiopia hefyd, gwn,
Oll yn dwedyd am eu campwr—
Cofiwch, 'Yno ganwyd hwn!'

"Os eir heibio tref y Bala,
Clywir yno cyn bo hir
Am Gymdeithas fawr y Biblau,
Anwyd ar ei breiniol dir;
Ac os holir am ei hanes,
Yna etyb pawb o'r bron,
Am yr hyn sy'n ei hynodi—
Cofiwch, 'Yno ganwyd hon!'

"A! 'r hen afon—pan ofynir
Eto ar dy lannau llaith,
P'le y ganwyd y cyfieithydd
Roes y Bibl yn ein hiaith—
Ninnau a'th dderchafwn dithau
Uwch afonydd byd yn grwn,
Ac wrth enwi *Glannau Conwy*
D'wedwn, 'YNO GANWYD HWN!'"

GWALCHMAI.

**BICNOR GYMREIG**; plwyf yn rhanbarth isaf cantref YSCENFRITH, swydd FYNWY, 7 milldir i'r de-orllewin o Ross; yn cynwys 80 a boblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861. Fe'i gelwir "Bicnor Gymreig," er ei gwahaniaethu oddiwrth "Bicnor Seis'nig," yn nghantref Sant Briavell, swydd Gaerloyw. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn arch-ddiaconiaeth ac esgobaeth Henffordd, trethedig yn llyfrau y pennadur yn ol 4*p*. 6*s*. 8*c*. yn y flwyddyn; ac yn nawddogaeth y goron. Y mae yr eglwys yn gyssegredig i St. Margaret; ac y mae ynddi gwpan gymun henafol, yr hon y dywedir ei bod wedi cael ei dwyn i Ewrob gyd a'r Saraceniaid; y mae y cauad o arian gyredig, ac y mae arwyddion eraill o henafiaeth tra mawr arni. Y mae Capel Pabaidd yn Courtfield, hen balas o fewn tua haner milldir i'r Llan hon; ac y mae traddodiad yn dywedyd, mai yno y magwyd y brenin Harri V., dan ofal yr Iarlles Salisbury; yr hon medd y cyffelyb awdurdod, a gynnrychiolir drwy ddelw faen led-orweddol sydd yn yr eglwys. Cylchynir agos yr holl blwyf gan yr afon Wy.

Y mae y *Parch. William Coxe*, yn dywedyd fod yn debyg mai yr un a gladdesid yno, ydoedd Margaret, ferch ac ettifeddes Thomas, arglwydd Monthermer; hi a fuasai yn wraig i Syr John de Montacute, ail fab William, Iarll cyntaf Salisbury, a daliai faenor Bicnor Gymreig hyd ei marwolaeth, yr hyn a gymerodd le yn y flwyddyn 1395. Ganwyd Harri y Pumed yn Nhref Fynwy, a chan ei fod yn blentyn afiachus, y mae yn debyg iddo gael ei anfon i Courtfield yn y plwyf hwn, er newidiad awyr, dan ofal y bendefiges Montacute, yr hon oedd ei hunan, yn gystal a'r baban pendefigaidd, yn hanu o Edward y Cyntaf. Er nad oedd hi yn Iarlles Salisbury ei hunan, eto, gan ei bod yn ferch yn nghyfraith i un Iarll, chwaer yn nghyfraith i un arall, a mam i drydydd, gallasai yn rhwydd gael ei chamgyfenwi ar y teitl hwnw. Y mae y ddelw yn cyfatteb i arddull y cyfnod yn yr hwn y bu farw Margaret. Yr oedd goresgyneb (*livery*), ei holl diroedd, yn mysg y rhai yr oedd maenoraeth Bicnor Gymreig, gan ei mab Syr John de Montacute, pan wnelai wrîogaeth: ac ar farwolaeth ei ewythr William, yn ddi blant, yn 1397, efe a olynodd i Iarllaeth Salisbury, ac a bennodwyd yn Iarll gwaladr Lloegr, a daeth yn bennaeth y Lollardiaid; a llofruddiwyd ef yn y flwyddyn 1400 gan bobl Cirencester, am gais tybiedig i adferu Rhisiard yr Ail i'r orsedd. Gan iddo gael ei euog-farnu, attafaelwyd ei feddiannau, a disgynodd maenor Bicnor Gymreig, a'i feddiannau eraill, i'r goron. Fe'u hadferwyd wedi hyny i'w deulu, ac fe'u trosglwyddwyd trwy ei wyres Alis, i'w mab Rhisiard, yr enwog Iarll Warwig, a Salisbury. Yn ystod y difwyniadau a'r dirwyadau mynych a orlethasant ei deulu anffodus, bu Bicnor Gymreig bob yn eilchwyl, yn meddiant y goron, a'r eiddo ei hiliogaeth ef. Yr olaf o'r llinach uchel-waed yma a grybwyllir gan Dugdale yn perchenogi Bicnor Gymreig, ydyw Margaret, ferch dug Clarence, a gwraig Syr Richard Pole, arglwydd Montague; ac am hon, wedi iddi fod yn dŷst o garchariad, collfarniad, a dîenyddiad ei brawd Iarll Warwig, a'i mab Henry, arglwydd Montague, cafodd hithau dori ei phen, yn y flwyddyn 1541; ond yn y flwyddyn 1553, ei hwyresau a adferwyd mewn gwaed ac urddas. Y teulu yma a ddisgynent linolin, o'r brenin Edward y Cyntaf, a'i wraig Eleanora; ac y mae yr adroddiad byr uchod yn dangos mor gythryblus ac annîogel, oedd cyflwr cymdeithasol pendefigion y deyrnas hon, yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, a'r ddwy ganrif ddylynol i hyny.

O'r pryd hwn (medd yr Hanesydd uchod), ni ellais ganfod unrhyw dystiolaethau ysgrifenedig mewn perthynas i Bicnor Gymreig, hyd oni chanfyddais fod y faenor, a phalas Courtfield yn meddiant teulu y Fychaniaid.[1] Ymddengys oddiwrth ach-

[1] Ni cheisiaf olrhain ach-draith foreuol y teulu yma; yn

Digitized by Google

draith yn Swyddfa yr Heroduriaid, bod John Vaughan (neu Fychan), o Clifford Park yn swydd Henffordd, yn arglwydd Bicknor Gymreig, yn amser y Frenines Elisabeth. Efe a brïododd Anne, ferch John Powell o'r Berth hir, ac a adawodd un mab, Rhisiard, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1697, yn 96 mlwydd oed, a'r hwn a attaliodd ddifodiant y teulu trwy gymeryd ail wraig yn yr oedran mawr o 75 mlwydd; mewn cyssylltiad â'r hyn yr adroddid chwedl ddigrifol yn y teulu. Yr oedd ei unig fab, yr hwn a ymsefydlasai yn Huntsholme, wedi bod yn hir yn brïod, ond heb gael plant; a mynych y byddai ei dad yn ei led wawdio o'r herwydd. Fel yr oedd efe yn rhodio yn y maesydd gyd ag ef un diwrnod, efe a ddywedai, "Fy mab, gadewch weled a ellwch chwi neidio dros y glwyd hon?" ceisiodd y mab, ond ni lwyddodd; ar hyny, neidiai yr hen foneddwr drosti yn hoyw, a dywedai, "Fel y bu raid i mi neidio y glwyd hon drosoch, yr ydwyf yn credu y bydd raid i mi ddarpar ettifedd i chwi." Ac yn fuan wedi hyny efe a gyflawnodd ei addewid, ac a brïododd Agatha, ferch John Berrington, Ysw., o *Cowarne Court*, yn swydd Henffordd, o'r hon y bu iddo dair o ferched, ac un mab o'r enw John, yr hwn trwy farwolaeth ei frawd henaf, a ddaeth yn unig ettifedd, ac a adawodd hiliogaeth o'i ail wraig, Elisabeth, ferch Phylip Jones, Ysw., o *Lanarth Court*. O'i ail fab ef, Rhisiard, yr hwn oedd yn gadfridog yn y gwasanaeth Hispaenaidd, y disgynai William Vaughan, Ysw., perchenog diweddar Courtfield."

**BISHOPSTON.** Gwel LLANDEILO FERWALLT.

**BISHTON,** plwyf yn rhanbarth isaf cantref CALDICOT, swydd FYNWY; 4 milldir i'r de ddwyrain wrth ddwyrain o Gaerlleon; ac yn ol Deiliadeb 1861, yn cynwys poblogaeth o 188. Curadiaeth barhaol yw y fywiolaeth eglwysig, yn arch-ddiaconiaeth ac esgobaeth Llandâf; wedi ei gwaddoli â mil o bunau o gedrodd freninol; ac yn nawddogaeth Arch-ddiacon Llandâf. Y mae y Llan yn gyssegredig i goffadwriaeth Sant Cadwaladr.

**BLACKWELL,** JOHN, B. A. (*Alun*), bardd a llenor poblogaidd, golygydd *Cylchgrawn* Llanymddyfri, ac awdwr *Ceinion Alun*. Ganwyd ef mewn pentref o'r enw Pontarwyl gerllaw y Wyddgrug, yn y flwyddyn 1797. Glowr oedd ei dad, a rhwymwyd John yn egwyddorwas o gr̂ydd, pan yn unarddeg oed, a gweithiodd wrth yr alwedigaeth hono, gan ymdrechu, ar draws pob anfantais, diwyllio ei feddwl âg addysg, heb i'r wasg, na'r cyhoedd, wybod dim am ei enw, hyd nes oedd yn bump ar hugain oed.

Yn 1823, arweiniodd ei alluoedd barddonol ef, i gael ei benodi yn fardd i Gymdeithas Gymreigyddol Ruthin; ac yn Eisteddfod y Gymdeithas hono, ar ddydd Gwyl Dewi, enillodd ddwy wobr, un am yr awdl oreu ar "Enedigaeth Edward II.," ar llall am yr araeth oreu ar "Ragoriaethau yr Iaith Gymraeg." Yn mis Mai yr un flwyddyn, enillodd ddwy wobr am Draethawd, a Chân, yn Eisteddfod Caerwys; ac yn Awst canlynol, einllodd Gadair Eisteddfod y Wyddgrug, am Awdl ar "Faes Garmon;" a gwobr am yr Araeth oreu ar "Undeb a Brawdgarwch." Dygodd hyn ef i sylw Arglwydd Mostyn, yr hwn oedd Gadeirydd yr Eisteddfod hono, yn gystal ag i ffafr Archddeon Clough, ficer y Wyddgrug; y rhai a benderfynasant, yn unol a'i ddymuniad, ei ddwyn i fyny i'r offeiriadaeth.

Yn 1824, anfonwyd ef i Berriew, Maldwyn, dan ddysgeidiaeth y Parch T. Richards. Yma y daeth i gyfeillgarwch âg Ifor Ceri, a Gwallter Mechain; ac y cyfansoddodd Draethawd ar yr Iaith Gymraeg, yr hwn a enillodd y wobr yn Eisteddfod y Trallwm, Medi 1824. Ar derfyn y flwyddyn hono, aeth i Goleg yr Iesu, Rhydychain; lle yr arosodd hyd 1828, ac y daeth allan gyda y radd o B.A. Yn ystod y flwyddyn gyntaf yn y coleg, ymgeisiodd am y Cyfieithiad goreu o "Messia" Pope, yn Eisteddfod Rhuthin, a rhanwyd y wobr rhyngddo ef a Bardd Nantglyn. Yn Awst 1828, enillodd wobr am ei Alarnad enwog ar Farwolaeth esgob Heber. Yn Ionawr 1829, urddwyd ef yn gurad Treffynon, lle yr enillodd yn fuan boblogrwydd mawr fel pregethwr.

Yn 1832, enillodd wobr yn Eisteddfod Beaumaris, am Englynion ar briodas Syr Richard Bulkeley, ac arwisgwyd ef gan y Dywysoges (yn awr y Frenines) Victoria. Dygodd ei enwogrwydd ef i sylw yr arglwydd gangellydd Brougham, yr hwn, yn 1833, a roddodd iddo fywioliaeth Manor Deifi, yn swydd Benfro. Yn fuan ar ol ei sefydliad yn Manor Deifi, penododd y "Gymdeithas er lledaenu Gwybodaeth Fuddiol," ef yn Olygydd Misolyn Cymraeg, ar gynllun y *Penny Magazine*, tan yr enw *Cylchgrawn;* yr hwn a gyhoeddwyd am un flwyddyn gan y Meistri Rees, Llanymddyfri. Ond trodd yr anturiaeth allan yn fethiant, a defnyddiwyd y ffaith hono gan "Wŷr y Llyfrau Gleision" i brofi na roddai y Cymry ddim cefnogaeth, ond i lenyddiaeth sectol a chrach-ddadleuol!

Bu Mr Blackwell farw Mai 19, 1840, yn 43ain oed, a chladdwyd ef yn mynwent Manor Deifi, lle y mae colofn hardd yn dangos ei fedd.

Cyhoeddwyd ei gynyrchion llenyddol, yn nghyda hanes ei fywyd, dan yr enw *Ceinion Alun*, o dan olygiad y Parch. Griffith Edwards, Minera, argraffedig yn Rhuthin, yn y flwyddyn 1851.

**BLAENAERON,** treflan yn mhlwyf TREGARON, yn mharth isaf cantref PENARTH, swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU, 2¼ milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Dregaron. Y mae Llyn Aeron (neu Lyn Adwedd, fel ei gelwir weithiau) yn gorwedd gerllaw yma, yn nghanol mawnogydd y Mynydd Bach, yn mharth uchaf plwyf Llanrhystud. O'r Llŷn hwn y cyfyd yr afon Aeron, ac wedi gyrfa drofaus tua Llangeitho, "araf lithra rhwng glâs gangau'r gwydd" trwy Ddyffryn Aeron, ac ymarllwysa i Fôr Iwerddon, yn Aberaeron. Y mae ei holl redfa yn agos i 20 milldir. Cyfrifir Dyffryn Aeron, yn ol ei faint, yn un o'r dyffrynoedd prydferthaf a ffrwythlonaf yn Neheudir Cymru, ac y mae yn frith o blasau boneddigion, sef Llanerch-aeron. Monachdy, &c.

**BLAENAFON,** Capeliaeth plwyfol yn nghantref ABERGAFENNI, swydd FYNWY; yr oedd y lle hwn ar un adeg yn rhan o blwyf Llanofer; ond yn y flwyddyn 1860, fe'i gwnaed yn rhandir eglwysig, neu blwyf gwahanol. Y mae yn gorwedd mewn ardal fynyddig, ac y mae yma weithfeydd haiarn mawrion; ac y mae cloddfeydd cerrig calch, a gweithydd glo mawrion yn y gymydogaeth, yr hyn sydd wedi peri fod y lle yn dra phoblogaidd. Curadiaeth barhaus ydyw y fywioliaeth eglwysig, yn arch-ddiaconiaeth

unig sylwaf, fel yr oedd y Fychaniaid o Clifford, cystal a Fychaniaid Bredwardin, Hergest, Clyro, Llewes, Tretwr, a Thalgarth, yn disgyn o Syr Rossier Fychan, gwr cyntaf Gwladys, ferch Syr Dafydd Gam; ac yn gymaint a bod perchenogion presenol Courtfield, eto yn meddiannu Clyro a rhan o Llewes, bod y Fychaniaid o Courtfield yn disgyn o'r un cyff urddasol.

Digitized by Google

ac esgobaeth Llandaf; wedi ei gwaddoli â 400 punt o ged-rodd freninol, a 2000 o bunnau o rodd Seneddol. Y mae y lle wedi cael ei enw ar gyfrif y ffaith ei fod yn gorwedd yn agos i darddell yr Afon Lwyd. Tu a'r flwyddyn 1789 yr agorwyd y gweithfeydd mŵn yma ar raddeg helaeth, ac yn fuan cynnyddodd poblogaeth y lle yn ddirfawr, fel yr oedd cwyn fawr ar un adeg am brinder anneddau yn y lle, a llawer o deuluoedd a wnelent eu trigleoedd mewn tyllau yn y creigiau; ond erbyn hyn y mae yma luaws o dai o adeilwaith ragorol, a chyfrifir fod poblogaeth y gymydogaeth yn agos i chwe mil o eneidiau. Yn y flwyddyn 1816 darfu i Mrs. Hopkins waddoli Ysgol yn y lle, i gyfranu addysg dda i blant y mwngloddwyr, lle y mae amryw gannoedd o fechgyn a genethod, dan addysg yn barhaus. Y mae yma amryw addoldai cyfleus yn y lle, yn perthyn i'r gwahanol Enwadau Ymneillduol.

**BLAENAU**, treflan yn mhlwyf LLANFIHANGEL-CWMDU, cantref CRUGHYWEL, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU, 6 milldir i'r Gogledd wrth Ddwyrain o dref Crughywel. Y mae yn gorwedd yn mhen uchaf dyffryn tlws Cwmdu, wrth droed y Mynyddau Duon. Y mae ei phoblogaeth yn cael ei gyfrif gyda'r Dyffryn, ac yn ol Deiliadeb 1861, y mae yn 3045. Amaethyddol ydyw yn gyfangwbl, ac y mae amryw o'r amaethwyr yn rhyddfeddianwyr.

**BLAENAU**, treflan yn mhlwyf LLANON, yn nghantref CARNWALLON, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, 11 milldir i'r De Ddwyrain wrth Ddwyrain o dref Caerfyrddin, poblogaeth yr hon sydd yn cael ei roddi gyda'r plwyf. Gorwedda gerllaw llethrau deheuol y Mynydd Mawr, bron wrth darddiad yr afonig Gwili, ac y mae'r brif-ffordd o Lanelli i Landeilo-Fawr yn myned drwyddi. Y mae cyflawnder o lô yn y gymmydogaeth, ac y mae hen reilffordd yn rhedeg drwy ei pharth gorllewinol, o'r Mynydd Mawr i'r morlan.

**BLAENAU**, treflan unedig âg un Tir Rosser, plwyf LLANDYBIE, cantref ISCENNEN, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, 7 milldir i'r Deau Ddeau Orllewinol o Landilo-fawr, poblogaeth yr hon a roddir gyda'r plwyf. Y mae parth dwyreiniol y Mynydd Mawr, yn y dreflan hon, yr hwn barth sydd yn llawn glô a chalch, ac y mae llawer iawn o'r mwnau hyny yn cael eu cloddio yma. Dyfrheir y lle gan afonig fechan ag sydd yn aberu yn yr afon Llwchwr, ac y mae glànau yr afonig yn dlws dros ben, ac yn cael eu britho gan aml i fwthyn gwyngalchedig, a bryniau coedog.

**BLAENAU**, treflan unedig âg un Llan, yn mhlwyf LLANGYNDEYRN, cantref CYDWELI, yn swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, 3¼ milldir i'r De Ddwyrain wrth Dde o dref Caerfyrddin, poblogaeth yr hon a roddir gyda'r plwyf. Y mae'r brif-ffordd o Gaerfyrddin i Langyndeyrn yn myned drwyddi.

**BLAENAU**, BLAENAU GWENT, neu fel y mŷn y postmeistr cyffredinol ei alw-BLAENA, sydd blwyf yn mharth uchaf cantref Y FENNI, undeb BEDWELLTY, swydd FYNWY, 8 milldir i'r De Orllewin wrth Orllewin o dref y Fenni. Gelwid y plwyf hwn gynt yn Aberystruth (Gwel ABERYSTWITH neu ABERYSTRUTH). Y mae yn hytrach yn fynyddig, ond y mae dyffrynoedd yr Ebwy Fach, a'r Ebwy Fawr, yn rhai dymunol iawn, er nad ydynt ond culion; ac y mae llethrau y bryniau a'u cysgodant, wedi cael eu mantellu gan goed amrywiol. Y mae rhai o'r bryniau yma yn bur uchel, megys y Begwn, y Domen fawr, y Twyn gwyn, &c., ac y mae cilfachau dymunol yn llechu yn eu cyseiliau; y maent hefyd yn llawn haiarn a glô, ond nid oes calchfaen yma. Y mae rheilffordd Cwmpeini Camlas Mynwy yn rhedeg iddo, gan ei uno â Chasnewydd-a'r-Wysg; y mae'r rheilffordd hon yn fforchogi yn ngorsaf Aberbîg, un gangen yn rhedeg drwy ddyffryn yr Ebwy Fach i Nant y glo, a'r llall drwy ddyffryn yr Ebwy Fawr i Ben y cae. Y mae llawer iawn o dorchau haiarn wedi eu cael yma o bryd i bryd yn y dyddiau gynt; a dywedir eu bod o ffurfiad Prydeinig, ac yn cael eu defnyddio gan ein hynafiaid yn lle arian bathol. Nid oes yn y plwyf hwn ddim gweddillion hynafiaethol o fath yn y byd. Y mae hen enwau yma, ag sydd yn profi fod crefydd wedi ymweled â'r parth hwn o dir Gwent yn gynar iawn, megys Nant y llan, Nant y groes, &c., ond nid oes genym gofnodion am, na gweddillion o, groes na llàn yma, hyd deyrnasiad Harri I., pan adeiladwyd eglwys y plwyf. Adeiladwyd hi yn yr arddull Gothig, ac y mae gwedi ei chyflwyno i St. Pedr. Niweidiwyd yr hen eglwys gan dân yn 1844, ac yn 1845 adeiladwyd un arall yn yr arddull Normanaidd, yr hon a adgyweiriwyd ac a addurnwyd yn ardderchog er ys ychydig amser yn ol. Y mae'r ficeriaeth yn werth 265*p*. Yr oedd yma goed ŷw mawreddog yn tyfu,

> "Ac arwyddion cur oeddent,
> Neu fawr gwyn am feirw Gwent,"

ond y maent gwedi gwywo agos oll erbyn heddyw. Gadawodd y Parch. Anthony Bonner, rector Llanwenarth, 2*p*. y flwyddyn i dylodion y Blaenau, y rhai sydd i gael eu tâlu allan o rent cae yn mhlwyf Llanwenarth. Gadawodd un Richard Edmund, Cwm Myddfe, Ebwy Fawr, 2*p*. arall y flwyddyn iddynt. Y mae ysgolion da gwedi bod ac yn bod yn y plwyf hwn. Cynnelid ysgol ragorol yma yn y ganrif ddiweddaf gan Syr Howell Prosser, genedigol o Langynidr, Brycheiniog, yr hwn a fu yn gurad yma am flynyddau lawer. Dysgwyd llawer o ddynion defnyddiol yma, ac yr oedd ysgoleigion yn dyfod o bell ffordd atto. Y Syr Howell hwn oedd y diweddaf o offeiriaid y Blaenau, ar a ddefnyddiodd *Syr* o flaen ei enw, pan y gadawyd yr hen arferiad Pabyddol, ac y defnyddiwyd y gair "Parch." yn lle "Syr"—dau frawd ydynt, modd bynag. Y mae amryw ysgolion yn y plwyf yn bresenol; y rhan fwyaf o honynt mewn cyssylltiad â'r gweithfeydd mawrion ag sydd yma; ond y maent yn ganmoladwy o ansectaraidd, ac y mae'r plant yn cael eu cwestiyno yn flynyddol gan yr arholwyr Cenedlaethol, a'r rhai Prydeinig hefyd.

Digon anwaraidd oedd rhai o drigolion y plwyf hwn yn y ganrif ddiweddaf; eto, yr oedd llawer o honynt yn ddynion da, ond yr oeddent oll yn ofergoelus, ac yn credu yn Mendith y Mamau, Tylwyth Têg, rhagarwyddion, &c. Wedi cyfieithiad y Beibl i'r Gymraeg, dechreuodd amserau gwell yma. Ar làn ddwyreiniol y nant fechan Tylerwy, tua hanner milldir o'i haberiad yn yr Ebwy Fechan, y mae tyddyndy bychan a elwir Gelli'r grug, o'r hwn yr aeth gair yr Arglwydd allan gyda nerth mawr. Preswylid ef gan hen filwr o'r enw Ioan ab Ioan, yr hwn oedd wedi bod yn hir wasanaethu yn myddin y Senedd, ac wedi cael ei ddychwelyd i'r ffydd trwy ryw weinidog Puritanaidd yn Lloegr. Brodor o Lanithel oedd Ioan, ac wedi cymmeryd Castell Raglan, gan fyddin y Senedd, o dàn Syr Thomas Fairfax, Awst 16eg., 1646, dychwelodd Ioan i'w

Digitized by Google

ardal enedigol, a thrigodd yn Ngelli'r grug, lle yn ddioed y dechreuodd gyhoeddi Gair y bywyd. Sefydlodd eglwys yn ei dŷ, a gosodwyd ef yn bregethwr cynnorthwyol gan y Profwyr. Yr oedd eglwys Gelli'r grug yn eglwys gymmysg, yn cynnwys Annibynwyr a Bedyddwyr, a mawr yr erlid a'r blino fu ar y ddiadell fechan hon, wedi amser y Weriniaeth. Daliodd yn wrol, a'r fechan hon yw mam yr holl eglwysi hynafol ag sydd yn y cylchoedd yma. Ymadawodd y Bedyddwyr â Gelli'r grug, ac wedi bod yn pregethu mewn annedd-dai cymmydogaethol, adeilasant addoldy wrth droed mynydd Gelliau, yr hwn a elwir Blaenau Gwent, ac yno y mae eu holynwyr hyd heddyw. Bu pregethwyr goreu y wlad yn traddodi y genadwri yma, ac yr oedd ychydig ddiwygiad yma yn ngwanwyn 1738, pan yr anfonodd yr enwog Edmund Jones, gweinidog yr Annibynwyr, am Hywel Harries; yr hwn a ddaeth, a'r fath oedd nerth ei weinidogaeth, fel nad oedd nemawr i dŷ yn y plwyf heb fod un, neu ragor wedi cael eu hargyhoeddi. Y mae'r plwyf yn bresenol yn llawn capeli perthynol i'r Bedyddwyr, yr Independiaid, y Methodistiaid, a'r Wesleyaid, ac y mae amryw o eglwysi adranol yma. Y mae dymuniad yr hen Batriarch Edmund Jones, ar ddiwedd ei Hanes Seisneg o'r plwyf hwn, wedi cael ei gyflawni hyd yma:—

"O may the true religion flourish
Still in Aberystruth parish;
And flourish till the end of time—
I say it both in prose and rhyme."

Yn nechreu y ganrif bresennol, nid oedd yma ond rhyw 150 o dai, ac o'r braidd y rhifid 500 o breswylwyr yma; er ei fod yn mesur 11,788 erw; ond yn awr y mae yma lawer o blasdai gorwych, miloedd o annedd-dai, ac 16,055 o drigolion, yn ol Deiliadeb 1861. Tir pori ydoedd gan mwyaf y pryd hwnw, ond yr oedd gwair a cheirch yn cael eu codi yma, gydag ychydig haidd, a gwenith. Yn awr, modd bynag, y mae llethrau y porfeydd wedi cael eu rhwygo, a'r dolydd wedi cael eu gorchuddio âg yspwrial; yn lle suadau swyngar cilfach amaethyddol, clywir tarawdrwst y morthwylfeydd lluosog; ac yn lle gweled yr amaethwr yn myned a gwerth dwy geiniog o lô, ar gefn ei ferlyn bach, gwelir peirianau Stephenson, yn llusgo gwerth miloedd o bunnau, yr hwn a ŷrir i bob parth o'r ddaear. Yma y mae'r gweithfeydd helaethaf a mwyaf goludog yn mynyddoedd Gwent, er mai cynnyrch y ganrif bresenol ydynt gan mwyaf; y mae yn wir fod yma ychydig weithio yn y ganrif flaenorol, ond yn y ganrif hon y cyrhaeddasant eu pwys a'u maintioli presenol. Y mae gweithfeydd haiarn Nant y glo yn feddiant i Crawshay Bailey, Yswain, ac etifeddion ei ddiweddar frawd, Syr Joseph Bailey, Barwnig, o Gastell Glânwysg, ger Crughywel; y rhai ydynt hefyd yn berthynasau i deulu Crawshay, Castell Cyfarthfa, Merthyr Tydfil. Y mae y teulu hwn, fel y rhan amlaf o'n haiarn-feistri boreuol ni yn y ganrif hon, yn dyfod yn wreiddiol o Ogledd Lloegr, a llawer o honynt o swydd Gaerefrog (*York*). Nid o deuluoedd cyfoethog y chwaith yr hanent, ond dynion o ewyllys haiarnaidd oeddent, yn penderfynu gweithio eu ffordd drwy bob rhwystrau, fel y dengys yr hanesyn gwirioneddol a ganlyn. Yn 1806 yr oedd Mr. Wayne, goruchwylydd ffwrnais Cyfarthfa, ac un Mr. Knowles, yr is-oruchwylydd, wedi gyru i lawr mewn cerbydyn i Fonwent y Crynwyr, pentref rhwng Merthyr Tydfil a Phontypridd; gadawsant y cerbydyn yn ngofal un o'r bechgyn wrth y drws, ac aethant i'r gwestty i gael lluniaeth. Tra yno, daeth rhyw hoglanc o deithiwr blinedig i'r drws, heb un esgid ar ei droed; yr oedd yn garpiog hefyd, ac yr oedd "Newyn yn ei wedd." Gofynai yn wylaidd a fyddent hwy mòr garedig a'i gyfarwyddo ef i'r lle yr oedd Mr. Crawshay, y meistr haiarn mawr yn byw. Gwnaent, bid sicr, ond beth oedd ef yn ceisio â Mr. Crawshay? "Wel" ebe'r hoglanc tylawd ei edrychiad, "y mae efe yn ewythr i mi, ac yr wyf wedi cerdded ar draed o Ogledd Lloegr, i chwilio am dano, ac i edrych a allwn i gael gwaith o ryw fath ganddo." Edrychai y ddau ŵr o'r cerbydyn ar eu gilydd, dipyn yn synfawr, a phenderfynasant fyned â'r teithiwr ieuanc gyda hwynt i Ferthyr Tydfil, gan ei hysbysu mai gweithwyr Mr. Crawshay oeddent. Wedi cyrhaedd Cyfarthfa, hysbyswyd yr amgylchiad i Mr. Crawshay, holwyd y llanc, ac wedi gweled ei fod yn dywedyd y gwir, cafodd le yn y gwaith. Yr oedd yn llanc diwyd a sobr, ennillodd ymddiried ei ewythr, a'r llanc di esgid yma, oedd Syr Joseph Bailey, Barwnig. Wedi marwolaeth ei ewythr, prynodd weithiau Nant y glo gan Gwmpeini Haiarn Blaenafon; ac yr oedd Mr. Wayne yn rhanol âg ef; ond gwerthodd Mr. Wayne ei ran ef, ac yna ymunodd ei frawd Crawshay, â Joseph, a gwnaethant eill dau ffortun ardderchog oddiwrth y gweithfeydd hyn. Yr oedd gan Syr Joseph yn ei feddiant pan y bu farw, diroedd ëang yn swyddi Brycheiniog, Henffordd, Maesyfed, Morganwg, Mynwy, a siroedd eraill, a gadawodd ar ei ol, bedair miliwn o bunau. Y mae Crawshay Bailey yn feddiannol ar dir lawer hefyd, ac y mae yn sicr fod ganddo arian nid ychydig, canys nid yw gwedi bod yn byw mòr helaethwych a'i frawd, er ei fod wedi colli cryn dipyn yn meth-daliant dinystriol y blynyddau diweddaf hyn. Y mae gweithfeydd Nant y glo gwedi cael eu cario yn mlaen yn llwyddianus, drwy yr holl flynyddau, gan yr un perchenogion. Gweithfeydd haiarn ennillfawr ereill yn y plwyf hwn, yw rhai Glŷn Nant y glo (*Coalbrook Dale*), yn Nghwm Ebwy Fychan. Y mae erthygl alluog iawn yn y *Westminster Review* am Hydref, 1848, ar weithfeydd haiarn Deheudir Cymru, yr hon, meddir, a ysgrifenwyd gan G. T. Clark, Yswain, Dowlais, Morganwg; yn yr hon y mae'r awdwr yn dangos mai yn Nglŷn Nant y glo, yn nghanol y ddeunawfed ganrif, y gwnaethpwyd haiarn gyntaf gyda glô. Yr oedd yn cael ei barotoi cyn y pryd hwnw, gyda golosg coed, yr hyn oedd yn gostfawr iawn, ac yr oedd bwyaill y golosgydd yn medi fforestydd o goed gwerthfawr o'i flaen. Gwnaethpwyd profion amrywiol o dân mawn, ond yn aflwyddiannus, ac hyd 1740 golosg coed a arferid yn gyffredinol; ond llwyddwyd yn y gweithfeydd yma, i ddefnyddio glô, ac y mae gwelliannau darbodus ereill wedi cael eu gwneuthur yn y darganfyddiad rhagorol yma. Gweithfeydd mawrion ereill, yw gweithfeydd haiarn a glô Glyn Ebwy Fawr, (*Ebbw Vale*), y rhai oeddent yn enwog iawn gynt am eu haiarn gwaith, yr hwn a adnabyddid yn y wlad wrth y llythyrenau E.V. Bu yn meddiant yr Harfordiaid, cwaceriaid enwog, am flynyddau; ond o herwydd rhyw anghytundeb rhwng y teulu hwnw, gwerthwyd y gweithfeydd yn rhâd iawn i Thomas Brown, Yswain, a'r Darbys. Prynodd y Darbys Mr. Brown allan, ac y maent hwythau yn ddiweddar wedi ffurfio *Joint-Stock Company*, y rhai sydd yn

Digitized by Google

cario y gweithfeydd yn mlaen yn llwyddiannus, o dan arolygiaeth Mr. Abraham Darby. Gweithfeydd llewyrchus ereill oedd rhai y Blaenau, y rhai oeddent yn feddiant i'r Meistriaid Levick a Simpson, ond yn anffortunus y mae y rhai yma wedi bod yn segur yn ddiweddar am flynyddau; ac hyd yn hyn, y maent yn mhell o fod mewn cyflawn waith. Y mae gweithfeydd haiarn yn Nghwmcelyn hefyd, ac y mae yma lawer iawn o weithfeydd glô. Y mae gweithiau Alcan yn Abertylerwy, yr hwn sydd wedi dyfod yn bentref mawr a harddwych, ac y mae'r oll gyda'u gilydd, wedi dyrchafu Blaenau Gwent yn blwyf o enwogrwydd nid bychan. Nid oedd y plwyf hwn yn perthyn i dir-feddiannwyr pendefigaidd, fel rhai o diroedd ereill Gweithfeydd Gwent a Morganwg; megys Ardalydd Bute, Arglwydd Dynefor, &c., ond perthynai i rydd-feddiannwyr bychain, gan mwyaf, y rhai oeddent yn y plwyf "erioed, erioed." Gwerthasant eu hawliau etifeddiaethol am lawer llai na'u gwerth, gwariodd amryw o honynt eu harian yn afradlon, ac y mae plant eu plant yn gweithio y dydd heddyw, mewn sefyllfaoedd cyffredin, o dan y rhai a brynasant y tiroedd.

**BLAEN-CARON**, treflan yn mhlwyf TREGARON, parth uchaf cantref PENARTH, yn swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU, pedair milldir i'r Dwyrain Ogledd Ddwyrain o Dregaron. Derbynia yr enw o herwydd fod tarddle yr afon Caron gerllaw. Y mae'r boblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, yn 99.

**BLAENEGAL**, treflan unol â Chaegurwen, plwyf LLANGIWC, cantref LLANGYFELACH, yn swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, 7½ milldir i'r Gogledd o Gastellnedd. Y mae cyfrif y boblogaeth yn cael ei roddi gyda'r plwyf.

**BLAENGLESYRCH**, neu BLAEN-GLAS-ERCH, treflan yn mhlwyf LLANWRIN, cantref MACHYNLLETH, yn swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU, 6 milldir i'r Gogledd Ogledd Ddwyrain o dref Machynlleth. Y mae yn gorwedd mewn man dymunol a bryniog, ar lân afonig o'r enw Glesyrch, bron ar fin y Dyfi, ac y mae golygfeydd prydferth a dymunol i'w gweled oddiar yr ucheldiroedd cymmydogaethol. Y mae'r afonig a rydd yr enw iddi yn aberu yn y Dulais, ychydig filldiroedd cyn fod yr afon hono yn ymarllwys i'r Dyfi.

**BLAENGLOWON-FACH**, treflan ag sydd yn ffurfio parth uchaf plwyf LLANDYSILIO-GOGO, yn rhandir isaf cantref MOYDDYN, swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU, 12 m. Gorllewin wrth ogledd o Lanbedr-Pont-Stephan. Y mae'n gorwedd ar lan yr afonig Cletwr, yr hon sydd yn llawn brithyllod, ac y mae cyfrif poblogaeth y dreflan yn cael ei roddi gyda'r plwyf. Y mae trigfanau dymunol ar hyd ei glânau, ac y mae'r tir bryniog o gwmpas, yn dra chnydfawr.

**BLAEN-GLYN-TAWY**, neu CAPEL-CALLWEN, capeliaeth ag sydd yn perthyn i blwyf DEFYNOG, cantref DEFYNOG, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU, 15 milldir i'r Gorllewin De Orllewin o Aberhonddu. Y mae yn gorwedd yn mharth de-orllewinol plwyf ëang Defynog, mewn dyffryn cysgodfawr bron wrth darddiad y Tawy; ac y mae yn cael ei amgylchynu gan fynyddoedd ysgythrog ac uchel, yr hyn sydd yn gwneuthur llawer o'r golygfeydd yn dra rhamantus. Y mae'r creigiau calchfaen yn rhai uchel iawn, a chan nad oes dim yn tyfu arnynt mewn rhai manau, ymddangosant fel hen adfeilion castellog. Y mwyaf hynodol o honynt yw craig y Gribarth, yr hon sydd yn dyrchafu o'r dyffryn i uchder mawr, a chan ei bod yn sefyll wrthi ei hunan, heb ddim cyssylltiad âg unrhyw graig arall, y mae yr olwg arni yn fawreddog i'r eithaf. Wrth ddisgyn i'r dyffryn hwn drwy Fforest Fawr Defynog, y mae clytyn o ffynidwydd o dyfiant da i'w weled wrth droed uchelfa arddunol, o gwmpas yr hwn y mae amryw fythynod gwyn-galchedig, ac y mae'r fath olygfa yn nghanol gwylltdiroedd diffaeth, yn dlws ac yn ddymunol iawn. Wrth edrych ar y bythod yma, o'r braidd nas gellid tybio mai un o honynt oedd mewn golwg gan y bardd yn ei gân—"Gwyngalch Cymru:"—

"O dacw fwth bychan ar grogfan rhyw graig,
Yn gwynu o hirbell dàn wrychell y wraig;
Ar fin Bro Morganwg mae'r olwg mor hardd
A mur gwyn rhyw fouwent, sy'n ngwlad Gwent fel gardd."

Y mae cwlwm (*culm*), haiarn-geryg, a chyflawnder o galch yn y gapeliaeth hon; ac y mae rheilffordd wedi cael ei gwneuthur ar hyd ochrau y mynyddoedd, yr hon a elwir rheilffordd Christie, er mwyn cludo ymaith y cynnyrchion yma. Y mae'r ficeriaeth wedi cael ei gwaddoli a rhodd freninol o 800*p.*, at yr hyn y mae'r senedd wedi ychwanegu 200*p.*, yr hyn sydd yn gwneuthur y fywioliaeth yn werth 56*p.* y flwyddyn, ac y mae yn rhodd ficar Defynog. Y mae'r boblogaeth ychydig dros 100.

**BLAEN GWRACH**, capeliaeth yn mhlwyf GLYNCORWG, undeb a chantref NEDD, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, 10 milldir i'r Dwyrain o Gastellnedd. Y mae'r pentref yn sefyll yn mhen uchaf Dyffryn Nedd, yr hwn sydd i'w weled yma yn ei holl brydferthwch rhamantus ac amrywiol. Y mae nodwedd darawiadol yr olygfa, yr hon sydd yn gyflawn o wyrddlesni brasdyfiannol, yn cael ei fwyhau wrth ei gyferbynu â chribyn diffrwyth mynydd uchel, yr hwn sydd yn dyrchafu goruwch y bryniau cylchynol; y mae llethrau creigiog y mynydd hwn wedi cael eu rhwygo gan amryw agenau, drwy ba rai, wedi gwlawogydd mawrion, neu dawddiadau buain, y rhuthra y dyfroedd yn llifeiriant gorwyllt, gan arddangos golygfa o ardderchawgrwydd ac arucheledd ofnadwy:—

"Swn y rhieidr sy'n rhuo
Dros y graig ar draws y gro."

Y mae'r afonig Gwrach, oddiwrth yr hon y mae'r gapeliaeth wedi derbyn ei henw, yn llifo dros ei cheulanau ar adegau fel hyn, ac yn gorchuddio yr holl ddolydd. Y mae gwlatty tlws iawn yma, yr hwn a elwir Ynys lâs, ac o'r hwn y ceir golwg ar holl Ddyffryn Nedd; adeiladwyd ef gan y diweddar Anrhydeddus W. H. Wyndham Quin, yr hwn a grewyd yn Iarll Dunraven, a bu y boneddwr hwnw yn preswylio yma. Y mae'r fywioliaeth eglwysig wedi ei huno â ficeriaeth Glyn corwg, ac wedi ei gwaddoli âg 800*p.* o rodd freninol. Bu yma eglwys flodeuog gan yr Independiaid, yr hon, fel Cwm llynfell, Gelly onen, Mynyddbach, neu Ty'rdwncyn, oedd yn gangen o eglwys Castellnedd. Yn yr ystadegion cywirgraff a gasglwyd gan y Doctor John Evans, yn 1715, o dàn y penawd "Neath, Ty'rdwncyn, a Blaengwrach," yr ydym yn cael fod nifer y cynnulleidfaoedd yn 1006, ac fod yn eu plith 50 o etholwyr, a llawer o honynt yn meddiannu pleidlais dyblyg. Tra y mae'r eglwysi eraill a enwir yn parhau yn

Digitized by Google

eglwysi Annibynol blodeuog iawn, y mae eglwysi Blaen gwrach a Gelly onen wedi troi yn Undodiaid, tua diwedd y ganrif ddiweddaf. Un oddiyma oedd yr enwog Lewis Rees, gweinidog yr Independiaid, yr hwn yn ei oes hir a wnaeth fwy o lês i grefydd nâ neb o'i gydoeswyr; yn enwedig yn Ngogledd Cymru. Dyoddefodd erlidigaethau chwerwon, a bu droion mewn perygl o golli ei fywyd; ond, fel apostol difefl, adfywiodd eglwys Llanbrynmair, a'r ychydig eglwysi Annibynol eraill ag oedd yn y Gogledd; planodd eglwysi newyddion hefyd, megys Llanuwchlyn, &c.; a chyhoeddodd Air y Bywyd mewn cannoedd o gilfachau anghysbell. Yr oedd annuwioldeb yn uchel iawn ei ben y pryd hwnw yn y Gogledd; ond gorfu iddo ymgrymu o flaen nerth gweinidogaeth Lewis Rees, ac wedi llafur o 25 mlynedd, dychwelodd i'r Deheudir, a chymerodd ofal eglwys Mynydd bach, gerllaw Abertawy. Ganwyd ef yn Glanrhwydre, Mawrth 2, 1710, a bu farw Mawrth 21, 1800, wedi bod yn y weinidogaeth am 65 o flynyddoedd. Bu iddo chwech o blant, a'r ail o honynt oedd yr enwog Dr. Abraham Rees, golygydd dyfnddysg yr "Encyclopædia," yr hwn yw y gwaith helaethaf, efallai, ar a olygwyd erioed gan un dŷn. Rhif poblogaeth y gapeliaeth hon, yn ol Deiliadeb 1861, yw 280.

**BLAENHONDDAN**, treflan yn mhlwyf CADOXTON, undeb a chantref NEDD, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, tua 2f. i'r Gogledd o Gastellnedd, Y mae'n sefyll mewn man prydferth, ar finion gorllewinol yr afon Nedd, yn mhlith golygfeydd boddus o ddymunol. Y mae yma lawer o blasdai dymunol. Y mae llawer o weithfeydd o gylch y lle, ac y mae y rhan fwyaf o'i trigolion yn ŵnwyr; eu rhif, yn ol Deiliadeb 1861, yw 1661.

**BLAENPENAL**, capeliaeth yn mhlwyf LLANDDEWI-BREFI, undeb TREGARON, yn rhanbarth isaf cantref PENARTH, swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU, 10½ milldir i'r Gogledd wrth Ddwyrain o Llanbedr-pont-Stephan, a 6 milldir i'r Gogledd Orllewin o Dregaron. Y mae yn gorwedd yn nghŵr eithaf Dyffryn Aeron, ac yn cael ei amgylchynu gan blasdai heirdd ac addurnedig. Y mae'r ficeriaeth, yr hon cyn y cyfnewidiadau diweddar a elwid yn guradiaeth barhaus, wedi cael ei gwaddoli âg 800*p.* o rodd freninol, a 200*p.* o rodd seneddol, ac yn werth 84*p.* y flwyddyn. Y mae yn rhodd Iarll Lisburne, Trawsgoed, a boneddwr arall, ar yn ail. Y mae'r eglwys wedi ei chyflwyno i Dewi Sant. Y mae'r boblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, yn 522. Y mae capel yma gan y Methodistiaid, er ys blynyddau lawer.

**BLAENPORTH**, plwyf yn rhanbarth isaf cantref TROED YR AUR, undeb a swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU, 5 milldir i'r Dwyrain o dref Aberteifi, ar y brif-ffordd o'r lle hwnw i Aberystwyth. Adran amaethyddol hollol ydyw, ac y mae'r tir yn cael ei wrteithio yn dda. Tua dau can' llath oddiwrth yr eglwys y mae gweddillion hen gaer a elwir Castell Gwythan, yr hon a wnaethpwyd gan Gilbert, Iarll Clare, a'r Ffleminiaid a sefydlodd yn y parth yma o'r dywysogaeth, disgynyddion y rhai sydd wedi aros fyth yn yr ardal. Gwarchaewyd y gaer hon, a chymerwyd hi hefyd, gan Rhys ab Gruffydd, Tywysog y Gogleddbarth, yn y flwyddyn 1116, pryd na chollodd y Tywysog ond un o'i wŷr. Gan mai o goed yr oedd y gaer wedi ei gwneuthur, fel y rhan amlaf o gaerau yr oes hono, llosgwyd hi i'r llawr. Yr oedd caer lawer llai gerllaw y gaer yma, yr hon a elwir Caer Sonydd; ac y mae un arall ar lân y môr, yr hon oedd yn bur gadarn, er nad oedd ond bechan, a gelwir hono yn Gastell Tudur. Y mae ffynnon ddurol (*chalybeate*) gerllaw plâs Tyllwyd, eithr nid oes ond ychydig yn defnyddio ei dwfr iachäol. Y mae capel yma gan y Methodistiaid. Yr oedd y fywioliaeth gynt yn gor-gyfran (*prebend*) yn Ngholeg Dewi Sant, Llanddewi-Brefi, a threthir hi fel y cyfryw, ar lyfr y frenines, yn 6*p.* Y mae gwedi ei gwaddoli âg 800*p.* a rodd freninol, ac â'r un swm o rodd seneddol, yr hyn sydd yn ei gwneuthur yn werth 97*p.* y flwyddyn. Y mae, ar yn ail, yn rhodd Iarll Lisburne a boneddwr arall, y rhai ydynt feddiannwyr llëygol degymau y plwyf; ac y maent mor haelionus a rhoddi 8*p.* y flwyddyn i'r ficer. Gyda chorff yr eglwys, yr hon sydd wedi cael ei chyflwyno i Dewi Sant, y mae yma gangell a phorth, ac y mae cloch yn y mur gorllewinol. Bu y Parch. Alban Thomas, yr hwn oedd yn enedigol o'r ardal hon, yn beriglor y plwyf hwn o'r flwyddyn 1722 hyd y flwyddyn 1740, o leiaf. Yn oedd Mr. Thomas yn hanu o deuluoedd enwog, mewn llinach gywir o Arglwyddi clodadwy y Tywyn, ger Aberteifi, a'r rhai hyny yn tarddu o gŷff clodfawr Llewelyn Fychan o Emlyn. Clod penaf Mr. Thomas, modd bynag, oedd ei fod yn ysgolaig, yn fardd, yn wladgarwr, ac yn Gristion gweithgar. Efe fu yn offeryn i osod i fyny yr argraffwasg *sefydlog* gyntaf yn Nghymru; drwy gymhorth Parry, Neuadd Trefawr; a Lloyd, Coedmor. Gosodwyd yr argraffwasg hon i fyny yn Nhrefhedyn Emlyn, nid pell o Blaenporth, ac argraffwyd yno, yn 1719, "Eglurhad o Gatecism Byraf y Gymmanfa." Yn 1722 argraffwyd yno lyfr a elwid "Dwysfawr Rym Buchedd Grefyddol," yr hwn a ysgrifenwyd yn Saesneg gan William Melworth, Yswain, Lincoln's Inn, Llundain, yr hwn oedd yn dad i gyfieithydd Pliny a Cicero. Priodolid awduraeth y llyfr hwn, gan Walpole, ac eraill, i Iarll Egmont, a gwerthwyd 22,000 o hono yn fuan iawn yn Lloegr—awdwr y cyfieithiad Cymraeg oedd Mr. Thomas, ac argraffwyd ef gan Isaac Carter, yn Nhrefhedyn, wedi ei gyflwyno i'r Meistriaid Parry a Lloyd. Gadawodd Mr. Thomas weddillion llenyddol lawer ar ei ol, ac efe oedd awdwr "Sèn i'r Tobacco," "Cywydd Marwnad Hector Morgan, Yswain, Plâs Aberporth," a "Chywydd Marwnad Ifan Gruffydd, Twrgwŷn, plwyf Troed yr aur, swydd Aberteifi, yr hwn oedd yn fardd ac yn ysgolor enwog. Dechreua Cywydd marwnad yr Ifan fel hyn:—

"Wele y gân ar gil gwŷdd,
Wele gwyn—wyla gwaenydd."

Y mae poblogaeth Blaenporth, yn ol Deiliadeb 1861, yn 732.

**BLAENSAWDDE**, neu BLAENSAWDDWY, treflan yn mhlwyf LLANDDEUSANT, rhanbarth isaf cantref PERFEDD, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, 6½ milldir i'r De Ddwyrain o Llangadog. Y mae'r afonig Sawddwy, yr hon sydd yn rhedeg drwy y dreflan hon, yn tarddu o lyn prydferth ar lethrau y Mynydd Du, gerllaw cyffiniau swydd Frycheiniog. Y mae'r boblogaeth yn cael ei chyfrif gyda'r plwyf.

**BLAIDD RHUDD** ydoedd benaeth ar un o'r pum costoglwyth yn ardal y Gest, ger Penmorfa, yn Arfon, yn y 12fed ganrif. Y pedwar llwyth arall oeddynt Adda Fawr, Alo, Gwenwys, a Heilyn.

Digitized by Google

Gelwid hwy y pum costoglwyth, neu lwythau gwerinol, mewn cyferbyniad i'r pum breninllwyth.

Blaenor, neu benaeth ar un o'r llwythau gwerinol hyn oedd Blaidd Rhudd, a gelwid y llwyth ar ei enw; ac efe yw y cyff o'r hon y mae llawer o foneddigion yr ardal yn olrhain eu hachyddiaeth.

Ymddengys fod trigolion y Gest yn rhai anhawdd iawn i'w gorchfygu, ac oblegid hyny, caethion, neu *villaines*, yr ystyrid hwynt yn amser Edward III.

**BLEDRI**, esgob Llandaf, o'r flwyddyn 983 hyd 1022. Rhoddwyd y ffon fugeiliol iddo yn y llys breninol, gan Etheldred, brenin y Saeson; ac Alfric, Archesgob Caergaint. Gelwir ef yn *Mrut y Tywysogion* yn "Ysgolhaig penaf Gwlad Cymru, achaws hyny y gelwid ef Bledri ddoeth, a chystal y carai wybodau, fal y dodes ar yr offeiriaid gynal addysg llyfrau llên, bob un yn ei eglwys, mal y gwypai bawb a ddylynt, parth Duw a dynion."

Yn *Llyfr Llandaf*, adroddir amgylchiad mewn cysylltiad â'r esgob ag sydd yn taflu llawer o oleuni ar gyflwr ac arferion y oes hono, yn wladol ac yn grefyddol. Dywedir i ymrafael dori allan rhwng teulu Edwyn ab Gwriad, tywysog Gwent, a theulu Bledri, esgob Llandaf; a bod yr ymrafael yn cael ei gario ymlaen gyda'r fath ddigllonedd a thywallt gwaed o bob ochr, fel y darfu i'r esgob ei hun, yr hwn oedd yn ddi amddiffyn, ac yn bresenol er ceisio heddychu y pleidiau, gael ei glwyfo, nes oedd ei waed yn llifo, gan ryw ddihiryn o deulu y tywysog. Wedi terfynu yr ymrysonfa, galwodd yr esgob holl offeiriaid ei esgobaeth yn nghyd, i gymanfa yn Llandaf, ac yno efe a esgymunodd y tywysog a'i holl deulu; yr hwn mewn canlyniad a orfu ymadael o Went o dan felldith, heb fedydd, ac wedi ei ymddifadu o bob cymundeb Cristionogol; a'r canlyniad fu i Edwyn a'i bobl, ddyfod i Landaf i erfyn maddeuant o'u pechodau, trwy ddwyn y penyd a roddid arnynt; yr hyn a dderbyniasant mewn cymanfa gyflawn.

Ac Edwyn, er mwyn cael ei gyflawn glirio oddiwrth y trosedd, a roddodd i Bledri, yn iawn am ei waed a dywalltwyd, bentref Junabic, yn nghyd a thri mesuriad (*modii*) o dir a'i holl ryddid, am byth. —*Llyfr Llandaf.*

**BLEDRI AB CADIFOR** oedd arglwydd Gwydigada, ac Elfed, yn swydd Gaerfyrddin. Claddwyd ef yn Llangadog yn 1119.

**BLEDDYN AB CYNFYN**, trwy gymorth Edward, y brenin Saxonaidd, a esgynodd i orsedd Gwynedd ar farwolaeth Gruffydd ab Llewelyn, ei haner brawd, yn y flwyddyn 1062, a Rhiwallawn ei frawd ar yr un pryd, a esgynodd i orsedd Powys. Ond yn 1068, daeth Meredydd ac Ithel, meibion Gruffydd ab Llewelyn, allan yn eu herbyn i frwydr, yn yr hon y lladdwyd Rhiwallawn; ond trwy gymorth y Saxoniaid, daeth Bleddyn yn orchfygwr; ac o hyny hyd ei farwolaeth, efe a deyrnasodd ei hunan ar Wynedd a Phowys. At hyny y cyfeiriai hen fardd yn y gwpleg ganlynol:—

> "Bleddyn ab Cynfyn bob cwys
> Ei hun biodd hen Bowys."

Yn "1073, daeth Rhys ab Owain ab Edwin, o Fanaw, a chan gael ei gynorthwyo gan luaws o bendefigion Ystrad Tywi a Brycheiniog, efe a barodd lofruddiad y tywysog Bleddyn ab Cynfyn, trwy gweryl cyfrinachol yn Nghastell Powys."

Yr oedd cymeriad Bleddyn ab Cynfyn yn enwog fel gwleidyddwr, yn yr oes yr oedd efe yn byw ynddi. Gwnaeth ymdrech mawr i ddiwygio a ffurfio cyfreithiau ei wlad, ac adgyweirio defodau y beirdd. Gadawodd ar ei ol chwech o feibion,—Meredydd, Llywarch, Cadwgan, Madawg, Rhyrid, ac Iorwerth. Ac olrheiniai ei linach ei hun yn ol i Manogan, brenin Ynys Prydain fel y canlyn:—Bleddyn ab Cynfyn ab Gwerystan, arglwydd Cibwyr yn Ngwent, ab Gweithfoed, ab Gloddien, ab Grwydyr hir, ab Caradawg, ab Llew Llawddeawg, ab Ednyfed, ab Gwineu, ab Gwaenog goch, ab Crydion, ab Corf ab Cynawg, ab Iorwerth Hirflawdd, ab Tegonwy, ab Teon, ab Gwineu dda ei freuddwyd, ab Bywlew, ab Bywdeg, ab Rhun Rhudd-baladr, ab Llary, ab Casnar Wledig, brenin Gwent, ab Gloyw gwlad lydan, arglwydd Caerloyw, ab Lludd, ab Beli mawr, ab Manogan brenin Ynys Prydain.—*Myv. Arch.* ii. 516.

**BLEDDYN DDU.** Bardd a flodeuai tua 1090. Mae dau Gywydd o'i eiddo ar gael mewn llawysgrifen yn y Llyfr Coch o Hergest; un "I Dduw," ar llall "I Abad Aberconwy."

**BLEDDYN FARDD**, a flodeuai rhwng 1250 a 1290. Efe oedd bardd "Llywelyn ein Llyw Ola'." Mae 13eg o'i gyfansoddiadau yn nghadw yn y *Myv. Arch.*

**BLEGWRYD AB OWAIN**, ydoedd ysgolhaig a chyfreithiwr enwocaf ei oes; am hyny gelwid ef, "Pencyfeistedd."

Yr oedd yn frawd i Morgan, brenin Morganwg, yn archddeon Llandaf, ac yn athraw yn y gyfraith wladol ar gyfraith eglwysig. Bernir mai efe yw yr hwn a elwir yn *Llyfr Llandaf* "yr enwog Blegwryd ab Eineon" yr hwn a rwystrodd i ddialwyr gwaed *un* Merchytir dori eglwys St. Jerman a St. Febric, er mwyn dwyn allan Ilsi ab Beli, y Deon, a'i roddi i farwolaeth.

Yn y flwyddyn 926 dewiswyd ef gan Martin, esgob Ty-Ddewi; Mordaf, esgob Bangor; a Marchlwys, esgob Llandaf, i fyned gyda Hywel Dda i Rufain, i "ymgynghori a Doethion, y modd y gwellheid cyfreithiau Gwlad Cymru." A phan alwodd Hywel Dda y cyfeisteddiad o wyr doethion yn nghyd, i'r Ty Gwyn-ar-Daf, i wellhau y cyfreithiau, Blegwryd oedd yr ysgrifenydd; a bernir mai iddo ef yn benaf y perthyn y clod, am y doethineb ar syberwyd a amlygir yn y cyfreithiau, a roddasant anfarwoldeb i enw Hywel Dda.

**BLEGWRYD FRENIN**, yn ol y *Brut Cymreig*, a ddilynodd Seisyllt fel Brenin Prydain. Yr oedd yn enwog mewn peroriaeth leisiol ac offerynol; am hyny gelwid ef "Duw y gwareu."

**BLEIDDIAN** y galwai yr hen Gymry Lupus, esgob Troyes, yn Ffrainc, yr hwn ar gais yr eglwys Brydeinig, a anfonodd y Gymanfa Ffrengaidd yma gyda Garmon, i ddarostwng heresi Morgan, yn y flwyddyn 429. Ymddengys na bu ei arosiad yn y wlad hon ond byr, ac nid yw yn debyg iddo ddyfod yn nes i Gymru na Verulam, lle y cynaliwyd y Gymanfa i wrthwynebu Morganiaeth; er hyny y mae dwy eglwys yn Morganwg wedi eu cyssegru iddo, sef Llanfleiddian Fawr, a Llanfleiddian Fach. Ei ddydd gwyl yw Gorphenaf 29ain. Gwel GARMON.

**BLEIDDYD**, yn ol y *Brut Cymreig*, oedd fab Rhun Paladr-fras, a brenin Prydain, o'r flwyddyn c.c. 839 hyd 859. Dywed y *Brutiau* lawer o bethau anhygoel am dano; megys mai efe a adeiladodd Gaerfaddon (*Bath*), lle y dyfeisiodd efe yr hylif poeth yn feddyginiaeth barhaol i'r afiachus; mai efe

Digitized by Google

hefyd a ddygodd y gelfyddyd o swyno, i Brydain; ac na pheidiodd ei ddarganfyddiadau gwyddonol, hyd oni ddyfeisiodd efe bar o adenydd, wrth hedeg a pha rai, efe a syrthiodd ar deml Appollo yn Llundain, lle y drylliwyd ef yn gant o ddarnau.

Dywedant hefyd mai mab iddo ef oedd y brenin Llyr—*King Lear*, Shakspeare.

BLEIDDYD, yn ol y *Brut Cymreig*, oedd y 53ain frenin Prydain. Canlynodd Meiriawn i'r Orsedd tua'r flwyddyn c.c. 266, a bu farw, ar ol teyrnasu tair blynedd.

BLEIDDYD, yn ol y *Myv. Arch.*, oedd olynydd Joseph, i esgobaeth Ty Ddewi, yn y flwyddyn 1061, a bu farw yn 1070.

BLETHERSTON, plwyf yn undeb ARBERTH, cantref DUNGLEDDY, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU, 5 m. i'r Gogledd Orllewin o Arberth. Y mae yma ystâd yn perthyn i Esgob Tyddewi, ac y mae'r ficeriaeth wedi ei huno âg un Llawhaden. Cafwyd o hyd i lawer o arian bathol yma 30 mlynedd yn ol, ond gan iddynt gael eu gwerthu a'u toddi yn ddioed yn Hwlffordd, ni wyddis i deyrnasiad pwy y perthynent. Y mae'r boblogaeth ychydig dros 300.

BLETHFA, neu BLEDDFA, plwyf yn undeb TREF-Y CLAWDD (*Knighton*) mewn rhan yn nghantref TREF-Y CLAWDD, ac mewn rhan yn nghantref CEFN Y LLYS, swydd FAESYFED, DEHEUDIR CYMRU, 6 milldir i'r De Orllewin o Dref y clawdd. Y mae'r plwyf hwn y tu fewn i gyffiniau hen fforest Bleddfa, ac yn agos i lân yr afon Llug; y mae'r prif-ffyrdd o Drefyclawdd a Llanfair-yn-Muallt i'r Drenewydd, swydd Drefaldwyn, yn myned drwyddo; ac y mae rheilffordd unionsyth y London a'r North Western, o'r Craven Arms i Landilo-fawr, yn rhedeg gerllaw iddo. Mynyddig ydyw, ar y cyfan, ond y mae llawer iawn o ddefaid yn cael eu magu yma. Y mae'r rectoriaeth yn cael ei threthu ar lyfr y frenines yn 10*p.* 12*s.* 1*c.*, ac yn werth 181*p.* y flwyddyn. Y mae yn rhodd Esgob Tyddewi. Nid oes unrhyw harddwch adeiladaethol yn perthyn i'r eglwys, ond y mae yn lled fawr, ac wedi cael ei chyssegru i'r Forwyn Fair. Cynnelir yma ysgol ddyddiol, ac y mae'r boblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, yn rhifo 250.

BLETHYN, WILLIAM, oedd frodor o Gymru, a derbyniodd ei addysg yn New Inn, neu Broadgate's Hall, Rhydychain. Cymerodd ei raddio yn y gyfraith yn 1562, ac wedi hyny gwnawd ef yn archddiacon Aberhonddu, a chor-beriglor Osbaldkirke, yn eglwys gadeiriol Caerefrog. Wedi hyny efe a gafodd gor-beriglloriaeth St. Dyfrig yn Llandaf, a bywioliaethau Rogyet, yn swydd Fynwy; a Sunningwell, yn swydd Berk; a derbyniodd esgusodeb i ddal gwag fywioliaethau, yn nghyd ag esgobaeth Llandaf, i'r hon y cysegrwyd ef Ebrill 17, 1575. Bu farw yn 1590, a chladdwyd ef yn eglwys Mathern, swydd Fynwy, yn agos i'w ragflaenoriaid, yr esgobion Ketchen a Jones.

BODA, SANT, oedd un o feibion Helyg ab Glanawg, arglwydd Tyno Helig, yr hwn a orlifwyd gan y mor yn y saithfed ganrif. Dywedir iddo ef a'i frodyr, mewn canlyniad, arwedd bywyd mynachaidd, a dyfod yn aelodau o golegau Enlli a Bangor. Ond nid oes dim o'i dreigliad yn adnabyddus.

BODAIOCH, treflan yn mhlwyf TREF EGLWYS, yn rhanbarth uchaf cantref LLANIDLOES, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU, 5 m. i'r Gogledd Ogledd Ddwyrain o Lanidloes. Y mae yn gorwedd ar lân yr afonig Tarannon, yr hon sydd yn aberu yn yr Hafren, ychydig bellder oddiyma. Y mae cyfrif y boblogaeth yn cael ei roddi gyd a'r plwyf.

BODEDERN, neu yn hytrach BODEDEYRN; plwyf yn nghantref LLIFON, yn swydd FÔN, GOGLEDD CYMRU; 8 milltir o Gaergybi. Y mae y plwyf hwn yn cael ei enw oddiwrth ei fod rywbryd yn breswyfa bardd o'r enw hwnw, yn y seithfed ganrif; yr hwn, wedi mabwysiadu buchedd grefyddol, a lywyddai ar yr eglwys yn y lle hwn. Y mae y pentref, yr hwn sydd yn un o'r rhai mwyaf yn Mon, yn sefyll mewn man prydferth, ar hen brif-ffordd Caergybi; y mae y golygfeydd yn y gymydogaeth yn dra dengar ac amrywiaethol. Y prif balasau yn y plwyf ydynt, Presaddfed, yr hwn sydd annedd ardderchog teulu a'i dalient, ar amod i wasanaethu yn nghoroniad Tywysogion Cymru, gyda chynal yr orchudd-len ar y ddeau, ar yr uchel-wyl hono; a Thre Iorwerth, eiddo, a phreswylfod y Parch. H. Wynne Jones; yr hwn sydd yn balas gwych, yn sefyll mewn lle prydferth, yn nghanol planwyddfa iraidd a ffrwythlon. Y mae Llyn Llywenau yn agos i'r olaf, o'r hwn y rhed ffrwd, ar geulanau yr hon, o fewn y plwyf, y mae gweddillion dwy gromlech yn wasgaredig. Y mae gwaith nyddu edafedd gwlan, yn cael ei ddwyn yn mlaen yma, mewn dwy felin, a'u holwynion yn cael eu troi gan ddwfr y ffrwd hon; mewn cysylltiad a'r rhai y mae lliwdy, a phandy. Y mae y ffeiriau yn cael eu cynal, yn benaf at werthiant gwartheg, Mawrth 13eg, Ebrill 16eg, Mai 5, Mehefin 9fed, Mawrth y Sulgwyn (at gyflogi gweision) Awst 16eg, Medi 14eg, a Rhagfyr 1af a'r 22n. Y mae cyfarfod yr ynadon am y dosparth, yn cael ei gynal yma yn fisol, ac ar achosion mwy cyhoeddus, yn chwarterol. Y mae y fywoliaeth yn guradiaeth barhaol, yn archddeoniaeth Môn, ac esgobaeth Bangor, ac wedi ei gwaddoli â 400*p.* o rodd frenhinol, a 600*p.* o rodd seneddol, ac yn nawddogaeth Prif athraw, a Chymrawdwyr ysgoldy yr Iesu yn Rhydychain. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Edeyrn, ac yn arddangos amryw ragoriaethau adeiladol, ac amryw gofgolofnau perthynol i deuluoedd Presaddfed, a Threiorwerth. Y mae y llan wedi ei dosbarthu yn gorff a changell, gyda phorthfa dros y drws, a thwr y gloch ar y talcen gorllewinol. Y mae y gwaith o gynllun boreuol y bymthegfed ganrif, gyd ag oriel yn y pen gorllewinol, y mae y ffenestr ddwyreiniol o dri goleu. Y mae y bedyddfaen yn wythongl, ar ddau ris, wrth y mur gogleddol. Y mae yn y pentref addoldy gan bob un o'r pedair plaid ymneillduol. Y mae yma Ysgoldy Cenedlaethol a adeiladwyd yn 1822, drwy roddion haelionus boneddion y gymydogaeth; ac yn cael ei chynal ar yr egwyddor wirfoddol; y mae tua deg a thriugain o blant y plwyf yn cael addysg rad yma. Gadawodd Dr. Wynn ran o ddegwm, gwerth 2*p.* 10*s.*; a Mr. Edmund Griffith a Mrs. Jane Wynn ddarnau o dir, a Mrs. Roberts haner llog 100*p.* i dlodion y plwyf; y rhai a ddosberthir yn flynyddol yn ol cyfarwyddyd y cymunroddwyr. Bu yma argraphwasg gan Lewis Morys, cyn bod argraphu yn beth cyffredin yn y wlad. Y mae yn debygol mai yn Nghaergybi y gosodwyd y Wasg i fynu gyntaf, ac iddi gael ei symud yma.

BODEWRYD sydd blwyf yn nghantref Twrcelyn, swydd Fon, yn Ngogledd Cymru, 3 milltir o Amlwch; yr oedd y plwyf bychan hwn gynt, mewn cysylltiad â Llaneilian, ond a wahanwyd tua haner canrif yn ol, ac a ffurfiwyd yn blwyf ar ei ben ei hun. Nid yw yn cynwys chwaneg na dau dyddyn; yr oedd

Digitized by Google

un o honynt, amser yn ol, yn annedd deuluaidd tylwyth y Wyniaid, a'u gwahanol dyddyndai; nid oes swyddogion plwyfol yn perthyn i'r lle, na gwladol nac eglwysig; mewn rhwymau i dreth y sir, y mae mewn cysylltiad â Gwredog, ac yn cael ei ystyried fel pedwerydd dosparthiad, at y tri cynnwysedig yn mhlwyf Amlwch. Y mae y fywoliaeth yn guradiaeth barhaol, yn archddeonaeth Mon, ac esgobaeth Bangor; wedi ei gwaddoli yn 1722 â chwech ugain ac un erw o dir, gydag ardreth o 2*p.* gan Dr. Wynn, Canghellwr Henffordd, ac wedi hyny, âg 800*p.* o rodd frenhinol, ac yn nawddogaeth Arglwydd Stanley, o Alderley. Y mae yr eglwys yn adeilad fechan, gyssegredig i St. Mair, ac yn cynwys amryw o gofadeiliau perthynol i deulu y Wynniaid, perchenogion y plwyf; ac y mae yno ar ddalen bres, gofnodiad o haelioni Dr. Wynne, yr hwn a gladdwyd yn yr eglwys. Y mae yma Ysgol blwyfol wedi cael ei sefydlu gan y foneddiges Stanley, er addysgu genethod y plwyf hwn, a'r rhai cymydogaethol.

**BODFAEN**, neu Bodfuan, yn *Lleyn;* plwyf yn nghantref Dinllaen, dosparth Lleyn, o swydd Gaernarfon, Gogledd Cymru, 3½ milltir o Bwllheli. Y mae y plwyf bychan hwn yn sefyll mewn gwastadedd eang, yn agos i odreu Carn Bodfuan, ac yn orlawn o faeniadau, o ba rai y mae symau mawrion, o gregin llymeirch a gwichiaid, i'w canfod, wedi ymuno mewn craig galch feddal, yn agos i'r eglwys, mewn cyflwr hynod o berffaith. Y mae Bodfaen Hall, yn awr yn eiddo, a phreswylfod achlysurol Arglwydd Newborough, yn balas hardd, mewn lle dymunol, o fewn y terfynau hyn. Y mae y fywoliaeth yn Berigloriaeth wahanedig, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Bangor, yn cael ei phrisio yn llyfrau y brenhin yn 6*p.* 6*s.* 8*c.*, wedi ei gwaddoli â 200*p.* o rodd frenhinol, ac yn nawddogaeth Esgob Bangor. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i St. Buan, ac yn adail brydferth yn ol y cynllun Groegaidd, wedi ei chodi yn 1765 ar draul Cathrine ac Elizabeth Wynne, o Bodfaen Hall, ac yn cynwys rhai cofadeiliau i wahanol aelodau o'r teulu hwnw. Y mae gan y Trefnyddion Calfinaidd le o addoliad yma. Gadawodd William Lloyd, Ysw., yn 1784 gymunrodd o 100*p.* tu ag at addysgu plant tlodion y plwyf, o ba rai, y mae pump ar hugain yn cael addysg rad yma, yn ysdod misoedd yr haf.

**BODFAN**, Sant, yn ol *Bonedd y Saint*, oedd fab arall i Helyg ab Glanawg. Ond tybia rhai mai yr un oedd ef a Boda. Mae eglwys Aber, yn Arfon, wedi ei chyflwyno iddo; Saif hono ar fin *Traeth y lafan*, yr hwn, o flaen y gorlifiant a ffurfiai ran o diriogaeth ei dad.

**BODFARI**; sydd blwyf mewn rhan yn nosparth Caerwys o gantref Rhuddlan; yn sir Fflint, ac yn cynwys trefgordd Aber-Chwiler, yn nghantref Rhuthin, yn sir Ddinbych, Gogledd Cymru; 4 milltir o Ddinbych, ar y ffordd o Dreffynon i'r dref hono. Y lle hwn, fel y tybir wrth yr enw, ydoedd yr orsaf Rufeinig, a elwid *Varis;* ac y mae y dyb wedi cael ei chadarnhau yn ddiweddar, drwy ddarganfyddiad o amryw gelyrnau, addurniadau, a darnau o arfau, a gweddillion eraill o olion Rhufeinig henafol, yn nhiroedd Pontryffydd; a rhai bathodion, gerllaw cysylltiad yr afonydd Clwyd a'r Chwiler, lle tybir fod yr orsaf yn sefyll gynt. Y mae y dybiaeth yn cael ei chadarnhau yn mhellach, drwy gyfeiriad y ffordd Rufeinig o Gaerlleon, yr hon, drwy ymuno â changen ogledd-ddwyreiniol Heol Watling, sydd yn ymestyn i Bodfari, ac yna, wedi croesi sir Ddinbych, sydd yn myned rhagddi dros y Gynwy i Gaerhun. Y mae y pentref yn sefyll mewn lle hyfryd, yn gyfagos i ymuniad y ddwy afon, ac y mae yr olygfa ar y wlad oddiamgylch, yn dra hynod a tharawiadol. Y mae y fywoliaeth yn Berigloriaeth ar wahan, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Llanelwy, ac yn cael ei phrisio yn llyfrau y Brenhin yn 9*p.* 5*s.* 2½*c.*, ac yn nawddogaeth Esgob Llanelwy. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i St. Stephan, ac yn sefyll ar lethr dymunol, ac yn adeilad prydferth, gyda thwr pedeir-ongl uchel; y mae y lle yn dra gorphenol o fewn, ac wedi ei addurno yn briodol; y mae yr areithfa a'r ddarllenfa wedi eu gwneuthyr o'r hen dderw du, gyda cherfiadau cywrain, ac ar y wyneb, y dyddiad 1754. Ar yr ochr ddwyreiniol i'r pentref, y mae Moel y Gaer, yr hwn a ymddengys yn waith yr hen Frython, ac a godwyd, mae'n debyg, er amddiffyn y fynedfa drwy fynydddoedd Dyffryn Clwyd. Drwy y bwlch yma, yr hwn sydd yn cael ei hynodi fel yr unig doriad yn y gadwyn hon o fynyddoedd am ugain milltir, mewn cyfeiriad o ogledd i ddc, y rhed afon Chwiler; yn agos i geulan yr hon, y mae ffordd ragorol wedi ei hagor, yn dirwyn i fynu gyda godreu bryn, a elwir Moel y Parc, ac yn cysylltu siroedd Dinbych a Fflint. Y mae degymau trefgordd Aber-Chwiler yn perthyn i Esgob Bangor.

**BODFERIN**, sydd blwyf yn nghantref Commitmaen, yn nosparth Lleyn o sir Gaernarfon, Gogledd Cymru, 14 milltir o Bwllheli. Y mae y plwyf hwn yn sefyll ar lan mor y Werydd, o faintioli bychan. Y mae yn cynwys o fewn ei derfynau, ddau gilfach bychan, a elwir Porth Ferin, a Phorth Iago, ac y mae yno ffynon a elwir Ffynon Bibau, yn agos i Trefgraig, yr hon ydyw ffynhonell afon Daron. Y mae y fywoliaeth yn guradaeth barhaol, mewn cysylltiad â phersonoliaeth Llaniestyn, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Bangor. Syrthiodd yr hen eglwys i adfeiliau, wedi amser y Diwygiad; ac y mae y lle yr ydoedd yn sefyll, wedi ei gwbl ddileu gan yr aradr, er ei fod yn weledig ac amlwg ychydig o flynyddau yn ol. Y mae y Llan wedi ei chysegru i St. Merin. Y mae y trigolion sydd yn cyfaneddu yma, yn myned i eglwys Llangwnadl, lle y mae y gwasanaeth eglwysig yn cael eu cyflawni. Ar ochr bryn, a elwir Mynydd Moelfre, neu Mynydd yr Ystum, y mae adfeiliau hen gapel boreuol, a elwid Capel Odo, ac yn y gymydogaeth, y mae murdomen, a elwir Bedd Odo, yr hwn sydd yn cuddio gweddillion cawr o'r enw hwnw, yn ol y traddodiad.

**BODIDRIS** (Bod Idris), sydd drefgordd yn mhlwyf Llanarmon, mewn rhan yn nghantref Wyddgrug, sir Fflint, ac mewn rhan yn Iâl, swydd Ddinbych; 10 milltir o Wrecsam. Y mae y lle hwn yn cael ei enw oddiwrth Idris, mab Llewelyn Aur-dorchog, un o arglwyddi boreuol Iâl. Yr oedd y palas, yr hwn sydd eang a hynafiaethol iawn, gynt yn breswylfod y Llwydiaid, a'r olaf o honynt, sef Sir Evan Llwyd, yn marw heb etifedd o fab, disgynodd yr etifeddiaeth i Evan Lloyd Vaughan, Ysw., drwy hawl ei fam, merch Syr Evan, ac wedi hyny i Syr Thomas Mostyn, Barwnig; ag yntau yn marw heb olynydd, disgynodd ei holl feddianau i fab ei chwaer, Edward Mostyn Lloyd Mostyn, Ysw. Y mae yma ysgol rad, ond heb unrhyw waddoliad iddi.

**BODWROG**, neu Bod Twrog, sydd blwyf yn nghantref Llifon, yn swydd Fôn, Gogledd Cymru, 3 milltir o Langefni. Y mae y fywoliaeth yn gur-

Digitized by Google

adiaeth barhaol yn archddeoniaeth Môn ac esgobaeth Bangor, ac yn nawddogaeth Prif athraw, a Chyfeillion Coleg yr Iesu, Rhydychain, i'r lle y cyflwynwyd y degymau a'r clw, gan Dr. Wynne, Cangellwr Llandaf, yn 1648, yn ddarostyngedig i daliad o 1*p.* 5*s.*, yn y flwyddyn, i dlodion y plwyf, ac yno y penodir un o'r ysgolheigion i'r fywoliaeth. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i St. Twrog, ac ar lethr deg, ond mewn lle go anghyfannedd. Gadawodd Mr. John Lloyd 12*p.* er lles y tlodion yma. Y mae yn ffenestr ddwyreiniol y Llan, ddarlun o dri phen tarw, yr hyn sydd yn arwyddo fod yma ryw berthynas i deulu y Bwlcciod o Beaumaris.

**BOLD**, William, Ysw., o Dre'r Ddol, ydoedd Sirydd Mon yn y blynyddoedd 1644, '49, '55.

Yr oedd yn swyddog yn myddin Charles II. yn y rhyfeloedd gwladol, yn y rhai yr enwogodd ei hun, fel y bwriedid ei anrhydeddu, yn 1660, â'r urdd o Farchog y Dderwen Freiniol. Mae amryw o'i ddisgynyddion yn preswylio ar lanau Conwy, ac un o honynt, o leiaf, yn cadw yr enw Bold, sef Dr. K. Bold, Williams, Llandudno.

**BONVILSTON**, Bolston, neu Dre-Simwn, plwyf yn nghantref Dinas-Powis, swydd Forganwg, Deheudir Cymru, 4 milldir i'r Dwyrain o'r Bontfaen, gerllaw y brif-ffordd oddiyno i Gaerdydd. Amaethwyr yw yr holl drigolion, ac y mae yma gyflawnder o galchfaen. Y mae gweddillion hen gastell yma, ac y mae hen anneddle teulu Basset yn y pentref prydferth. Y mae llôg y symiau canlynol wedi cael ei adael i'r tylodion:—100*p.* gan Mrs. Grace Aubrey yn 1678; 50*p.* gan Mrs. Loughor yn 1776; a 10*p.* gan Mr. David John, yn yr un flwyddyn—cyfanswm 160*p.* Y mae ysgol ddyddiol yma, at yr hon y cesglir 10*p.* y flwyddyn yn y gymmydogaeth, ac y mae'r Bedyddwyr yn pregethu yn achlysurol mewn annedd-dy yn y pentref. Y mae'r ficeriaeth yn cael ei threthu yn llyfr y brenin yn 6*p.* 9*s.* 1*c.*, ac y mae gwedi cael ei gwaddoli â degymau bychain o 15*p.* y flwyddyn, 200*p.* o roddion personol, 200*p.* o rodd freninol, a 500*p.* o rodd seneddol, yr hyn sydd yn ei gwneuthur yn werth 83*p.* y flwyddyn. Y mae yn nawdd, ac yn meddiant lleygol, teulu y Basset. Y mae'r eglwys, yr hon sydd wedi cael ei chyflwyno i'r Forwyn Fair, yn adeilad pur ddestlus. Y mae'r boblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, yn 291.

**BORFA**, cyttreflan â Barcland, yn mhlwyf Maesyfed Hen, bwrdeisdref Maesyfed Newydd, swydd Faesyfed, Deheudir Cymru, 5½ milldir o Faesyfed Newydd. Y mae cyfrif y boblogaeth yn cael ei roddi gyda threflanau Evenjobb a Newcastle. Y mae'r dreflan hon yn gorwedd ar gyffiniau swydd Henffordd, ac yn hynod o goedog. Y mae Clawdd Offa yn rhedeg drwyddi, gerllaw yr hwn y mae gweddillion hen wersyllfa.

**BORRAS**, neu Bwrras sydd drefgordd yn cynwys rhaniad Borras-Bofa, yn mhlwyf Gwressam a'r rhan o Borras Rifrai, yn y rhan honno o blwyf Gresffordd, sydd yn nghantref Bromfield, yn swydd Ddinbych, Gogledd Cymru; 3 milltir o Wrecsam. Y mae y drefgordd hon o gymeriad amaethyddol, ac yn sefyll yn agos i'r afon Dyfrdwy.

**BOSERSTON**, neu Bosherston, plwyf yn nghantref Castellmartin, undeb a swydd Benfro, Deheudir Cymru, 6 milldir i'r De o Benfro. Y mae'n gorwedd mewn lle dymunol ar làn Môr Hafren, ac y mae'r creigiau ar ei làn wedi cael eu treulio gan y tonau, yn ogofau dyfnion a rhamantus. Un o'r hynotaf o'r rhai yma yw Llyn Bosherston—*Bosherston Meer*, tua chwarter milldir o làn y môr. O flaen ystorm, y mae'r awyr amgauedig yn cael ei mawr gynhyrfu, ac y mae'r godyrddau mwyaf arswydlawn yn taranu o'r ogof, y rhai a glywir bellder mawr o ffordd. Pan y chwytha y gwynt o'r De, teflir y dwfr drwy dwll ag sydd yn yr ogof, i uchder mawr iawn, ac os bydd anifail gerllaw, y mae yn sicr o gael ei dynu i'r sugnbwll. Y mae y rhan fwyaf o'r tir o dan wrteithiad, ond y mae yma beth morfeydd. Ychydig i'r de o Lyn Bosherston, mewn lle gwyllt a rhamantus, y mae meudwyfa St. Gofan, neu St. Gawen, yr hon sydd tua hanner y ffordd o'r crilyn i'r gwaelod. Y mae grisiau geirwon wedi cael eu naddu yn y graig, ar hyd y rhai y mae'r fynedfa iddi; y mae yn mesur 20 troedfedd o hyd, wrth 12 troedfedd o led; ac y mae yn cynnwys bwrdd gareg fawr. Y mae drws ar un tu o'r feudwyfa, yr hwn sydd yn arwain i gell fechan ar lun corff dynol, ac yma, meddynt, yr oedd llechfa unigol St. Gawen. Islaw y feudwyfa, yr hon hefyd a elwir yn gapel, y mae ffynnon St. Gawen, i'r hon y priodolid rhinwedd gwyrthiol yn y dyddiau gynt: ac y mae mewn bri mawr hyd heddyw gan yr ardalwyr. Dywed llên gwerin nad oes neb a all rifo grisiau ffynnon St. Gawen yr un fath wrth fyned a dyfod —y byddant yn sicr o fod yn fwy neu yn llai, y naill ffordd neu'r llall. Y mae pentir mawreddog gerllaw, yr hwn a elwir *St. Gawen's Head.* Nid oes sicrwydd pwy oedd y Gawen hwn, ond y mae Hoole, yn un o'i nodiadau i'w gyfieithiad o Orlando Furioso, yn dywedyd mai Sir Gowaine, nai y brenin Arthur ydyw, un o Farchogion y Ford Gron, ac iddo gael ei gladdu yma. Y mae ysgol ddyddiol fechan yma, ac y mae plant tylodion y plwyf yn cael eu derbyn i ysgol a gynnelir ar draul Iarll Cawdor, yn mhlwyf Stackpwl-Elidur. Y mae y rectoriaeth yn cael ei threthu yn llyfr y frenines yn 11*p.* 6*s.* 8*c.*, y mae yn werth 153*p.* y flwyddyn; ac yn rhodd Iarll Cawdor. Y mae yr eglwys wedi cael ei chyflwyno i St. Michael, ac y mae gwedi cael ei haddurno yn brydferth, gan un o deulu pendefigaidd Cawdor. Rhif y boblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, yw 200. Cynnelir Ysgol Sul yma.

**BOTTWNOG**, neu Bodwynog, sydd blwyf yn nghantref Gaflogion, yn nosparth Lleyn, o sir Gaernarfon, Gogledd Cymru; 8 milltir o Bwllheli. Y mae y pentref yn sefyll mewn gwastadedd eang, ond nid oes yn y lle, na'r amgylchoedd, ddim o hynodrwydd i dynu sylw neillduol. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, mewn cysylltiad â pheriglorïaeth Mellteyrn, yn archddeconaeth ac esgobaeth Bangor. Y mae yr eglwys, yr hon sydd wedi ei chyflwyno i St. Beuno, yn adeilad bychan, mewn cyflwr lled adfeiliedig. Y mae yma le o addoliad gan yr Annibynwyr, a'r Methodistiaid. Sylfaenwyd yr ysgol Rammadegol yma yn 1616, gan Dr. Henry Rowlands, esgob Bangor, yr hwn a'i gwaddolodd, â fferm o'r enw Llyslew, yn Mon, a'r hon sydd yn cynhyrchu ardreth o 200*p.* yn y flwyddyn; o'r hyn y mae 100*p.*, yn flwyddol, yn cael eu talu i'r athraw (yr hwn y mae yn rhaid iddo fod yn Sais, yn ol ewyllys y sylfaenydd, wedi cymeryd y graddiad o athraw yn y celfyddydau yn mhrif ysgol Rhydychain), a 40*p.* i is athraw; ac y mae 10*p.* yn cael eu cyflwyno at lô; ac y mae y gweddill yn cael eu crynhoi; fel erbyn hyn, y mae yn drysorfa fawr. Y mae pedwar ar ddeg a deugain, o fechgyn yn cael eu dwyn i fynu ar y sylfaeniad, y rhai sydd yn cael eu

Digitized by Google

hyfforddi yn nhrefn addysg Seisnig, ac yn y clasuron, pan elwir am hyny. Darfu i'r Esgob Rowlands hefyd adael yn ei lythyr cymun, i Brif-athraw a chyfeillion Coleg yr Iesu yn Rhydychain, diroedd yr Eirianell, yn Mon, er sylfaenu dwy frodoriaeth yn y coleg hwnw, un brawd i fod o ysgol Bottwnog, a'r llall o Bangor, neu Beaumaris; a rhoddodd daliad o 6p. yn y flwyddyn o Dyddyn yr Arddreiniog, i ddau fachgen yn ysgol Bottwnog. Adeiladwyd yma dŷ da, fel preswylfod i'r athraw, ac ystafell ysgol, a thy i'r is-athraw, mewn adgyweiriad da yn 1817.

**BOUGHROOD**, neu Bachryd, plwyf yn undeb Y Gelli (*Hay*), swydd Faesyfed, Deheudir Cymru, 6 milldir i'r Gorllewin o'r Gelli. Y mae yn hollol amaethyddol, ac yn gorwedd mewn un o'r manau mwyaf arddunol, ar lân ddwyreiniol yr afon Wy, yr hon a groesir yma gan bont gadarn o geryg, a chan bont goed gywrain ar reilffordd Aberhonddu a Llanfair-yn-Muallt; ac y mae gorsaf yma ar y rheilffordd hono. Y mae yma ddau neu dri o byllau dàn rydiau yr Wy, yn y rhai y daliant lawer iawn o eogiaid. Y mae'r afon yn rhoddi tro pedolaidd, neu *fachog*, prydferth iawn yma, ac y mae'r dyffryn yn cael ei furio gan fryniau ag sydd wedi cael eu mantellu i'w cribau, gan goedydd gwerthfawr. Croesid yr afon yma gynt, mewn bâd a dynid gan geffyl, ac y mae'r afonig Bachwy yn aberu yn yr Wy, gerllaw y pentref. Y mae yma amryw wlattai dymunol iawn, ac yr oedd yma gynt anneddle gastellog, a elwid Castell Bachryd, ychydig weddillion o'r hwn sydd yn aros hyd heddyw. Adeiladwyd plâs mawr gerllaw iddo, gan un Francis Fowkes, Yswain, yr hwn a'i gwerthodd i Walter Wilkins, Yswain, Castell Maesllwch yn nghyd â'r ystâd a berthynai iddo. Y Wilkins yma oedd y banciwr; o Aberhonddu; a chyfenw presenol y teulu, yw De Winton. Y mae dwy ysgol ddyddiol yma, ac y mae capel yn y pentref gan y Wesleyaid. Ficeriaeth ollyngol yw'r fywioliaeth, ac y mae gwedi ei gwaddoli â'r degymau rectoraidd; trethir hi ar lyfrau y frenines yn 12*p*. 6*s*. 8*c*., ac y mae yn werth 213*p*. y flwyddyn. Y mae yn rhodd Esgob Ty Ddewi, yr hwn hefyd sydd yn rhoddi corgyfran Bachryd yn Ngholeg Crist, Aberhonddu. Y mae'r eglwys wedi cael ei chyflwyno i Cynog Sant, ac y mae yn cael ei chadw yn lân ac yn gryno. Rhif y boblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, yw 292.

**BOULSTON**, neu Bulston, plwyf yn undeb Hwlffordd, cantref Dungleddy, swydd Benfro, Deheudir Cymru, 3 milldir i'r De o dref Hwlffordd. Bu teulu o'r enw Wogan yn byw yn y plwyf hwn am ganrifoedd, ac y mae gweddillion eu hen blâs i'w gweled hyd heddyw. Bernir taw rhai o'r teulu hwn a adeiladodd yr eglwys gyntaf yma, canys y mae arfbais y teulu uwchben ffenestr canghell yr hen eglwys bresenol, ac y mae ynddi lawer o gof-golofnau i wahanol aelodau o hono. Y mae yn gorwedd mewn lle prydferth, ar lân yr afon Cleddy neu Cleddau, yn nghanol golygfeydd prydferth, ac y mae llawer iawn o goed oddiamgylch. Y mae cyflawnder o gwlwm (*culm*) yn y plwyf hwn, ac y mae gwythien o fŵn haiarn wedi ei darganfod yma, ond nid oes gweithio ar y naill na'r llall o honynt. Y mae amryw hen garneddau yma, un o ba rai a agorwyd gan Mr. Fenton, awdwr hanes Seisneg lled dda o sir Benfro. Yr oedd yn y garnedd hono gistfaen, neu arch, ceryg-yslabiau geirwon, yn yr hwn yr oedd esgyrn dynol wedi eu haner llosgi, ac yr oedd golosg coed yn gymmysgedig â hwynt. Y mae yma blas newydd hardd, ar lan yr afon, gerllaw adfeilion hen blâs y Woganiaid, yr hwn a fu yn breswylfod i'r diweddar R. J. Ackland, Yswain. Etifeddion y boneddwr hwn yw meddiannwyr lleygol degymau y plwyf, ac yn eu rhodd hwy y mae'r ficeriaeth, yr hon sydd yn werth 25*p*. y flwyddyn. Rhif y boblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, yw 254.

**BOWEN**, Evan, oedd bregethwr enwog gyda'r Beddyddwyr yn swydd Frycheiniog, yn nyddiau y Werin lywodraeth. Yn Chwefror 1649 gwnawd yr "*Act for the Better Propagating of the Preaching of the Gospel in Wales, and for Ejecting Scandalous Ministers and Schoolmasters, and for Redress of some Grievances.*" Yr oedd y gyfraith hono yn awdurdodi y Dirprwywyr a enwir ynddi, neu unrhyw bump o honynt i symud yr offeiriaid anwybodus, diffrwyth, ac anfoesgar, allan o'u bywioliaethau, a gosod pregethwyr o ddawn, gwybodaeth, a buchedd, yn eu lle. Y personau ag yr oedd y Dirprwywyr i ymgyngori a hwynt ac i weithredu yn ol eu hawgrymiadau yn nghyflawniad y ddyledswydd bwysig hon, oedd y rhai canlynol:—Henry Walter, Walter Cradoc, Richard Simonds, Roger Charnock, Jenkin Lloyd, Morris Bidwel, David Walter, William Seaborn, Edmund Ellis, Jenkin Jones, George Robinson, Richard Powell, Thomas Ewen, John Miles, Oliver Thomas, Doctor John Ellis, Ambrose Mostyn, Stephen Lewis, Morgan Lloyd, William Jones, Richard Edwards, Vavasor Powell, Richard Swain, Rowland Nevet. Gan fod pregethwyr y Presbyteriaid, yr Annibynwyr, a'r Bedyddwyr, yn gymeradwy gan Senedd Cromwell, cafodd cynifer o honynt ag oedd yn foddlawn i derbyn tal y llywodraeth, eu gosod yn lle yr offeiriaid yn yr eglwysi plwyfol. A chan nad oedd unrhyw gaethiwed yn cael ei osod ar eu golygiadau a'u harferion crefyddol, bod y Llyfr Gweddi Cyffredin wedi ei osod or naill du, a bod rhyddid iddynt ddwyn y gwasanaeth yn mlaen fel y gwna Ymneillduwyr y dyddiau hyn; edrychai y rhan fwyaf ar y cynygiad fel cyfleusdra gwerthfawr i wneuthur daioni i'w cydgenedl, ac i sefydlu egwyddorion gwir grefydd yn y wlad; a derbyniasant ef heb unrhyw betrusder ac yn eu plith Evan Bowen, yr hwn a osodwyd i mewn yn eglwys y plwyf, Llanafan fawr, ar y 12ed o Mawrth, 1653, yn lle un *William Williams*, M.A., yr hwn, oblegid ei annghyfaddasrwydd i'w swydd, a fwriwyd allan gan y Dirprwywyr. Mae yn amlwg fod Evan Bowen yn bregethwr galluog a phoblogaidd; er fod Dr. Walker yn ceisio ei ddirmygu, eto y mae yn cyfaddef ei fod yn bregethwr teithiol (*itinerant*) ac yn derbyn tâl y llywodraeth am hyny; a bod ganddo 4000 o eneidiau o dan ei ofal.

Nid oedd Evan Bowen, na'i eglwys, mewn undeb a chymanfa y Bedyddwyr, am y rheswm, mae yn debyg, ei fod yn arfer *cymundeb cymysg;* yr hyn a ystyrid yn drosedd ar un o reolau sylfeinol y Gymanfa.

Nid yw ei ddyoddefiadau na'i farwolaeth yn hysbys. Ond ymddengys mai efe oedd un o gyndeidiau Carnhuanawc.

**BOWEN**, Cadben James, Llwyngwair, yn nghymydogaeth Trefdraeth, ydoedd foneddwr cyfoethog, ac aelod defnyddiol gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn adeg eu hymneillduad oddi wrth yr eglwys wladol. yn 1811. Pan gollodd yr enwad, yn y cyffro hwnw, gapel Trefdraeth, rhoddodd Mr. Bowen iddynt ddarn o dir i godi capel arall arno, yr hwn a agorwyd yn

Digitized by Google

y flwyddyn 1815. Ac yn fuan ar ol hyny, efe a fu farw; a theimlodd achos ymneillduaeth yn yr ardal, golled drom ar ei ol.

**BOWEN,** Dr. John, a anwyd Tachwedd, 1815, yn y Cwrt, ger Abergwaun, swydd Benfro. Mab ydoedd i gadben yn y fyddin. Derbyniodd ei addysg elfenol yn Hwlffordd; ac wedi gorphen ei dymor yno, dewisodd, yn hytrach na myned i Gaergrawnt, ymfudo i Canada, ac ymsefydlodd yno fel amaethwr ar lan Llyn Erie. Yma y dychwelwyd ef at grefydd; ac wedi blino ar Canada, daeth yn ol i'w wlad, gan benderfynu ymroddi i waith y weinidogaeth. Derbyniwyd ef i Goleg y Drindod, Dublin; ond bu ar fedr gadael y Coleg ar haner graddio, i fyned yn genadwr i Patagonia; ond gan i'r genadaeth hono fethu, ar y pryd, efe a ailymaflodd yn ei efrydiaeth, graddiwyd ef ac ordeiniwyd ef yn gurad Knaresborough.

Ond yn fuan bu farw ewythr iddo, gan ei adael ef yn etifedd Milton, ger llaw Hwlffordd. Rhoddodd hyny gyfleustra iddo i ymgyflwyno yn llwyr i'w hoff waith, sef y Genadiaeth. Rhoddodd ei hun dan gyfarwyddyd Cymdeithas Genadol yr Eglwys Sefydledig; a danfonwyd ef allan i'r Dwyrain. Ymwelodd yn gyntaf â Jerusalem, ac wedi hyny â'r sefydliadau cenadol yn Syria, Cairo, Mosul, Smyrna, &c., a danfonodd hanes dyddorol am sefyllfa crefydd yn y lleoedd hyny adref i'r Fam Gymdeithas yn Llundain. Bu fel hyn yn teithio am ddwy flynedd a haner, heb neb gydag ef ond ei was, heb na chleddyf nac arf, yn nghanol cenedloedd haner gwaraidd. Dychwelodd yn ddiogel i Loegr yn Rhagfyr 1851. Cyn hir derbyniodd bersonoliaeth Orton, ac wedi hyny esgobaeth Sierra Leone yn Affrica. A bu farw yn Awst 1858.

**BOWEN,** Thomas, Ysw. Gwaunifor Aberteifi, oedd foneddwr duwiolfrydig, a noddwr effeithiol i'r achos Methodistaidd yn ei ddechreuad yn yr ardal hono. John Thomas, awdwr "Caniadau Seion," fu yn offerynol i enill ei gydymdeimlad tuag at yr achos, trwy i Miss Bowen dori allan i waeddi o dan y bregeth yn Cefn Llanfair. Dymunodd y foneddiges ieuanc ar i'r pregethwr fyned gyda hi i'r palas. Cafodd felly gyfleustra i ymddiddan a'i thad hi yn nghylch crefydd a duwioldeb; yr hyn a arweiniodd y boneddwr i roddi ysgol rad i blant tylodion yr ardal, ac i John Thomas fod yn athraw iddynt.

Yn y flwyddyn 1760, adeiladodd Mr. Bowen Gapel Gwaunifor, o fewn ychydig i'w balas, yr hwn a roddodd yn ei ewyllys i'r Methodistiaid Calfinaidd am byth. Ac heblaw adeiladu y capel uchod, bu Mr. Bowen a'i briod, a'u merch, yn ymgeledd werthfawr i'r achos, drwy eu lletygarwch, a'u rhoddion haelionus, hyd eu bedd. Ac felly y mae eu coffadwriaeth yn bereraglus.

**BRADFORD,** John (*Ieuan Tir Iarll.*), oedd fardd a henafieithydd enwog yn nechreu y 18fed ganrif. Ganwyd ef tua 1690; ac ymddengys iddo gael ei gysegru i'r awen o'i fabandod, canys dywedir fod "Sion Bradfford yn blentyn" yn un o awenyddion Gorsedd Morganwg, pan oedd Samuel Jones o Frynllywarch yn llywydd; a bu Samuel Jones farw yn 1697. Gwnawd ef yn ddysgybl i'r Orsedd yn 1730, pan oedd Dafydd Hopkin o'r Coetty yn Llywydd; ond yn 1760, efe oedd y cadeir-fardd. Efe, meddir, oedd athraw Iolo Morganwg; a chanddo ef y cafodd Iolo Ysgrif *Cyfrinach y Beirdd* yn ysgriflaw Edward Dafydd, o Fargam; yn hwn a gasglasai efe allan o lyfrau *Lewys Morganwg, Meyryg Dafydd, Dafydd Benwyn, Dafydd Llwyd, Mathew, a Llywelyn Sion o Langewydd.* "Ni welodd fy nhad, medd *Taliesin ab Iolo,*" ond dwy ysgrif o Gyfrinach y Beirdd erioed; un gan John Bradford o'r Bettws, ac un arall yn llyfrgell Llanharan, gerllaw Llantrisant; a'i gred ef oedd, nad oedd rhagor yn bod. Yr oedd y ddwy yn ymryfaelu, rhyw ychydig bach, fel y dengys y nodiadau cwr dalen. Yr oedd y ddwy, mae'n debyg, yn ysgriflaw Edward Dafydd."

Eiddo John Bradford yw y nodiadau beirniadol, arwyddedig gan "J. B.," a welir yn britho *Cyfrinach y Beirdd;* ac y mae y cyfryw yn profi bod ganddo ddeall cryf mewn beirniadaeth Farddonol. Bu farw yn 1780. Ymddengys i'r cyntaf o'r Bradfordiaid ddyfod i Forganwg o Wlad yr Haf, neu Ddyfnaint, fel ffoadur yn yr erlidigaeth o dan "Mari Waedlyd." Panwr ydoedd, o ran ei alwedigaeth, ac ymsefydlodd yn Mettws Tir Iarll, o dan nawdd Lewys Thomas o Gwrt y Bettws, neu fel y gelwid ef yn gyffredin, "Lewys Gig Eidion," am fod digon o gig eidion ar ei fwrdd bob amser, "a digon o roesaw i bob dyn ar air glân a ddelai yno."

**BRAINT HIR,** oedd arglwydd cantref Is-dulas, a phen-cadrawd i Anarawd ab Rhodri Mawr, tywysog Aberffraw. Mae rhai hen deuluoedd yn swyddi Dinbych a Fflint yn parhau i olrhain eu tarddiad iddo. Mae hanes arall, llai credadwy, yn ei osod ddwy ganrif yn foreuach, ac yn dywedyd mai mab ydoedd i Nefyn ab Grenig, a nai i Cadwallon, brenin y Cymry. A dywedir llawer o bethau anhygoel am dano, yn y rhyfeloedd a fu rhwng Cadwallon ag Edwin brenin Northumberland.

**BRAN AB DYFNWAL MOELMUD** ydyw un o'r gwroniaid Cymreig ag mae y darllenydd pwyllog, wrth olrhain ei hanes, yn cael ei dueddu i ofyn yn ddifrifol, a fu y fath berson erioed? Mae ei hanes ef, ai frawd, Beli, yn nghyd a'u tad, Dyfnwal ab Moelmud y deddf wneuthurwr Cymreig cyntaf, a brenin holl Brydain, tua'r flwyddyn o.b. 3529, yn darllen yn llawer mwy tebyg i Ramant gyfoethog, nag i hanes gwirioneddol, ond eto, mae yr argraff dwfn ag mae hanes Beli a Bran wedi ei adael ar y wlad, yn nghyd ar ffaith bod rhanau o'u hanes wedi cael eu trin gan y fath awdurdodau a Justin a Livy, yn mhlith yr hynafiaid, a Rollin a Bell, yn mhlith y rhai diweddar, yn myned yn mhell i brofi bod yna ryw gymaint o wirionedd yn osail i'r holl adeiladaeth.

Mae yn ddiddadl mai yr un yw *Belinus* a *Brennus,* neu *Belgius* a *Brennus,* yr ysgrifenwyr tramor, a *Beli* a *Bran,* yr ysgrifenwyr Cymreig; y rhai a'n sicrhant mai meibion Dyfnwal Moelmud, brenin Prydain, oeddynt, ac iddynt ar farwolaeth eu tad ymrafaelio am y freniniaeth, ond trwy ddoethineb cyfryngwyr, gael eu heddychu trwy ranu y deyrnas rhyngddynt. I Beli, y mab hynaf, y rhoddwyd y Benaduriaeth, ar yr holl wlad o'r tu deheuol i'r Humber; a rhan Bran oedd y cyfan o'r tu gogleddol iddi. Blinodd Bran yn fuan ar ei gyfran, ac aeth drosodd i Norway i sicrhau cymorth tramor. Efe a briododd Anaor, merch Elsing, brenin Llychlyn, yr hon a ddyweddiasid i Guthlac, brenin y Cersoniaid Cymreig (*Denmark*). Yn y cyfamser deallodd Beli, yn Mrydain, beth oedd amcan ei frawd, ac efe a gymerodd feddiant o'i deyrnas ef yn ddioed, gan sicrhau ei holl amddiffynfeydd. Tra'r oedd Bran

Digitized by Google

a'i lynges ar y mor yn dychwelyd yn ol, goddiweddwyd ef gan Guthlac, eithr ataliwyd hwynt i ymladd gan dymestl erwin, yr hon a barhaodd am bum diwrnod. Ond yn anffodus, digwyddodd i'r llong yr oedd Anaor ynddi, syrthio i ddwylaw y goddiweddwr, ac aeth yn llongddrylliad ar y ddau, Guthlac ac Anaor, ar gyfer Bamborough, Northumberland, lle yr oedd Beli wedi gwersyllu, i ddisgwyl glaniad ei frawd. Arweiniwyd hwy yn uniongyrchol ato ef, a chawsant dderbyniad anrhydeddus.

Yn mhen ychydig ddyddiau daeth Bran a'i lynges arfog i mewn i Albania; a phan ddeallodd fod ei wraig yn ngafael ei frawd, cynhyrfwyd ef yn aruthr, a chan deithio ymlaen tua Bamborough, cyhoeddai y byddai iddo ddistrywio yr holl Ynys â than ac â chleddyf, oni adferid iddo ei wraig a'i deyrnas. Ond gan na chydsyniai Beli â'r amodau hyny, cymerodd brwydr le rhyngddynt yn Nghoed *Calaterium*, sef "Llwyn y Caladyr," gyda lladdfa fawr o bob tu, ond collodd Bran y frwydr, a'r rhan fwyaf o'i fyddin hefyd, fel y bu dda iddo gael llong unigol i ddychwelyd i Gal am ei fywyd. A Guthlac, wedi llawnodi cytundeb, drwy ba un y daeth y Gerson Gymroaidd (Dacia, a elwid wedi hyny Denmark), yn rhan o'r Ymerodraeth Brydeinig, a ollyngwyd ymaith gydag Anaor i'w deyrnas ei hun. Ar ol y frwydr hono, daeth y parth hwnw o'r wlad (tywysogaeth Bran), i wisgo yr enw *Brennich*, ac yn Lladin *Bernica*; yr hon, yn nghyda holl Brydain, oedd weithian o dan lywodraeth Beli. Treuliodd Beli y saith mlynedd dilynol mewn heddwch, a chyflwynodd ei holl sylw i ddiwygio y cyfreithiau, a gorphen y prif-ffyrdd a ddechreuwyd gan ei dad, sef "Sarn Gwythelin" a "Sarn Yr Uch-Cyniaid." Y rhai a redent trwy ddau cwr y deyrnas, o for hyd for. Yn y cyfamser, Bran a briododd ferch Seguin, tywysog yr Allobroges, yn Gal, ac a olynodd ei thad i'r orsedd; Yna efe a gasglodd ei nerthoedd yn nghyd, ac a fordwyodd i Brydain, gyda'r amcan i ddial ar ei frawd, ac i adenill ei deyrnas. Cyfarfu y ddwy fyddin, medd traddodiad lleol, yn nghymydogaeth Corwen, neu rhwng Corwen a Llangwm, a'r derfynau Meirion a Dinbych (*Gwel* BELI), ond pan yn ymbarotoi i'r galanas ofnadwy,

"Ar hyn eu mam, Corwena—a'i morwyn
Gymerent eu rhodfa,
Hyd orfod y ddwy dyrfa,
Ymluyddfawr aent i'r ymladdfa.
Hyrddiai a brys i gwrdd a Bran,
I'w hŷ anerch ei hunan,
Ei delw hoff a'i hudol wedd
Adnabu hwn,—dan ei bonedd
Ar ei deulin hardd elai
Mewn ofn, ac ymgrymu wnai.
"Si fawr a dwnad syfrdanol—y llu
Dawai'n llwyr ostegol;
Ust fu enyd,—clustfeiniol
A distaw wrandaw ar ol.
Gwedai hithau, 'Gad weithian
Dy wŷn brwd. Adweinia, Bran
Dy loywddur dialeddol;—o grafanc
Rhyfel annaturiol
Gwylia 'n awr, a galw 'n ol
Dy fwriadau difrodol.
"A raid i feibion fy mru
O frodyr, fradfwriadu!
Dig alw am waed eu gilydd!—addig
Lofruddio'u carenydd!!
Marw eu dau, ym mâr y dydd
Mewn nwyd!! A'u mam annedwydd
Yn fud dyst o'r anfad waith
Welir yn ddiblant eilwaith!!
* * * * * *
"Y mae adeg adgymodi—yn awr
Tyr'd yn nes at Beli;
Llefara hedd, ac enill fri
Drwy Ynys dy Rieni."
—*Elis Wyn o Wyrfai.*

Efeithiodd yr appeliad cynhyrfus hwn ar Bran, fel y taflodd ef i lawr ei helm a'i arfau, ac yn nghanol distawrwydd mawr y ddwy fyddin, aeth gyda'i fam yn ben-noeth at ei frawd; yr hwn pan welodd ef yn dynesu, a daflodd ei arfau i lawr, ac a redodd i'w gyfarfod, ac a'i cofleidiodd ef, yn nghanol banllefau o orfoledd y ddwy fyddin.

Ac wedi ffurfio heddwch, penderfynasant i uno eu byddinoedd yn nghyd, er darostwng holl Ewrop o dan y faner Brydeinig. Ac i'r amcan hwnw trosglwyddasant eu byddin, o 300,000 o wŷr, drosodd i Gal, ac enillasant, mewn byr amser, yr holl wlad Geltaidd o dan eu llywodraeth. Yna y *Britaniaid*, yr *Allobrogiaid* ar *Senoniaid*, oblegid mai yr un pobl oeddynt yn y dechreuad, a ymffurfiasant yn un corff, a than arweiniad y ddau wron, Beli a Bran, a aethant dros fynyddoedd yr Apennine i'r Eidal, a chan ysgubo trwy wlad y Sabiniaid, hwy a safasant ac a orchfygasant y fyddin Rufeinig, ar lan yr afon Allia, lle y mae yn ymarllwys i'r Tiber. Cymerodd y frwydr hon le ar y 6ed o Fehefin 363 A.U., a 490 C.C. Ac yn mhen tri diwrnod ar ol hyny, syrthiodd Rhufain ei hun, oddi eithr y Castell yn unig, i ddwylaw y gorchfygwyr. Safodd y Castell yn erbyn y warchae am chwe mis. Yn ystod y gwarchae hwnw, y digwyddodd yr ymosodiad nosawl enwog, yr hwn a fuasai yn llwyddianus oni buasai i glegr y gwyddau a gedwid yn nheml Juno, ddeffro y gwarchlu. O'r diwedd, gorfu i'r Rhufeiniaid roddi i fyny, a phrynu eu heddwch â mil o bwysau o aur. Pan oedd yr aur yn cael ei bwyso yn mhresenoldeb y gwahanol gadbeniaid, taflodd Bran ei wregys, a'i gleddyf i ben arall y glorian. "Beth yw ystyr y weithred yna?" gofynai y prif swyddog Rhufeinig. "Ei hystyr" ebe Bran, "yw, *Gwae y gorchfygedig* (væ victis)." Nid oedd gan y Rhufeiniaid ond goddef y dirmyg gyda distawrwydd. Dywed Polybius a'r Brutiau, i Bran a'i fyddin ddychwelyd gyd a'u hysgyfaeth i Gal, a Beli i Brydain; ond dywed traddodiadau chwedlonol Rhufain, gyda bod y gorchfygwyr yn gadael y ddinas, i Camillus, yr hwn oedd newydd gael ei alw o alltudiaeth, a'i wneuthur yn arlywydd, arwain byddin, ac ymosod arnynt, ac iddo, mewn dwy frwydr waedlyd, eu lladd bob un.

Mae cadfridog Celtaidd arall o'r enw Bran, yn cymeryd safle bwysig mewn hanesiaeth henafol; hanes yr hwn a gymysgir gan amryw, gyda'r eiddo Bran ab Dyfnwal Moelmud, pan y mae pob tebygolrwydd yn dangos, eu bod yn ddau berson gwahanol.

Yn y flwyddyn 279 C.C. arweiniodd hwn fyddin o 150,000 o wyr traed, a 61,000 o wyr meirch, drosodd i oresgyn Groeg. Wedi gorchfygu Macedonia, gweithiasant eu ffordd trwy Thessaly i Thermopylæ; gan groesi ar hyd yr un llwybr ac y croesodd Xerxes cyn hyny. Ffodd y fyddin Roegaidd o'i flaen; brysiodd yntau gyda chatrawd o'r fyddin, ymlaen i Delphi, gyda'r bwriad i yspeilio teml Apollo o'i thrysorau aruthrol. "Mae yn beth rhesymol," ebe fe "i'r

Digitized by Google

duwiau gyfranu peth o'u trysorau i ddynion, y rhai sydd arnynt fwy o'u heisiau na hwy eu hunain, ac a allant eu defnyddio hefyd mewn modd rhagorach." Ond trwy ddewrder y Delphiaid, a dychrynfeydd taranau a daeargryn, yn nghyda chymorth goruwch-naturiol Apollo, yn ol traddodiad, llwyddwyd i yru y Galiaid ar ffô, a chymeryd Bran yn garcharor, yr hwn, ar ol gorchymyn i'w swyddogion ladd yr holl glwyfedigion, a yfodd gymaint o win ag a fedrai, ac wedi hyny a suddodd ddagr i'w fynwes, ac a drengodd yn y fan. Pa fodd bynag am wirionedd hyna, mae yn sicr mai y fintai hono, a aethai allan gyda Bran, a unodd ei nerthoedd wedi hyny yn ngwasanaeth Nicomedes, brenin Bithynia, yr hwn, drwy eu cymorth, a allodd orchfygu Zypetes, ei frawd, ac adenill holl diriogaethau ei dad; ac a roddodd iddynt am eu gwasanaeth iddo, drefedigaeth yn Asia Leiaf, yr hon a alwyd ar eu henwau yn Gallo-Græcia, neu Galatia. Ac at ddisgynyddion y bobl hyn yr ysgrifenodd Paul y llythyr, a elwir, "Yr Epistol at y Galatiaid."

**BRAN FENDIGAID,** yn ol y *Trioedd* a'r *Brutiau Cymreig*, ydoedd fab Llyr Llediaith, a thad Caradog, tywysog Deheubarth. Ac efe, meddant, a ddygodd y ffydd yn Nghrist gyntaf i Genedl y Cymry, o Rufain. Rhed y chwedl am dano fel hyn; —Tua'r flwyddyn o.c. 51, bradychwyd Caradog i ddwylaw y Rhufeiniaid, gan Aregwedd Foeddawg, sef *Cartismandua*, yr Ysgrifenwyr Lladinaidd; yna hwy a'i cymerasant ef, yn nghyda'i wraig, a'i ferch, a'i frodyr, i Rufain, i ymddangos ger bron Claudius, ond bu ymddygiad mawrfrydig ac araeth hyawdl y gwron Cymreig, yn foddion i enill ffafr yr ymerawdwr, ac i beri iddo ef a'i deulu gael eu rhyddhad ar yr amod fod i'w dad, Bran ab Llyr, ddyfod yn *feichiau* drosto. Felly daeth Bran i Rufain yn wystl dros ei fab, a bu yno am saith mlynedd; ac yn y cyfamser, daeth i adnabyddiaeth a'r Apostol Paul, yr hwn oedd ar y pryd yn garcharor yn Rhufain, ac efe a enillwyd ganddo i'r ffydd Gristionogol; ac ar ei ddychweliad adref, efe a gymerodd Arwystli Hen, i ddyfod gydag ef fel Cenadwr, i ddysgu y ffydd yn Nghrist i genedl y Cymry.

Buasai yr hanes uchod yn ymddangos yn gyson a boddhaol, pe gallid profi dilysrwydd y *Trioedd* a'r *Brutiau*. Ond y mae tystiolaethau Tacitus a Dion Cassius wedi taflu llawer o amheuaeth arnynt yn y pwynt hwn, fel llawer o bwyntiau eraill. Dywed Dion Cassius, mai mab i Cynfelyn (Cunobelinus) oedd Caradog, a bod Cynfelyn wedi marw cyn gormes Rhufain, a bod ei ddau fab, Caradog a Thegid (Caractacus a Tegodunnus), wedi ei ddilyn i'w orsedd. Os cywir hyny, dyna'r adroddiadau Cymreig yn dryblith diwerth. Ond ymdrecha amryw awduron Cymreig, brofi mai camsyniad Cassius ydyw hyn, a bod adroddiad y *Trioedd*, a *Bonedd y Saint*, nid yn unig yn gyson a hwy eu hunain ar y pwnc, ond hefyd yn gydunol ag adroddiad Tacitus, yr hwn oedd yn gyfoeswr a Charadog, tra nad ysgrifenai Cassius hyd yn mhen dau can mlynedd ar ei ol.

Dywed "Carnhuanawc," mai yr achos i Dion Cassius syrthio i'r camsyniad hwn, oedd hyn;—Bod deiliaid y diweddar Cynfelyn, o dan deyrnasiad ei feibion, yn ymladd o dan faner Caradog; a bod hyny wedi peri i'r hanesydd estronol, yr hwn a ysgrifenai yn mhen dau can mlynedd ar ol hyny, am bethau oeddynt mor bell oddi wrtho, o ran lle ac amser, dybied bod Caradog yn frawd iddynt, pan y dengys y *Trioedd*, mai cynorthwywyr iddo ef oeddynt: "Tair Gosgordd Addwyn Ynys Prydain; Gosgordd Belyn ab Cynfelyn, yn nghadfel Caradawc ab Bran; a Gosgordd Mynyddawg Eiddin yng Nghattraeth; a Gosgordd Drywon ab Nudd Hael yn Rhodwydd Arderydd yn y Gogledd: sef ydd elei bawb yn y rhai hyny ar eu treul eu hunain heb aros gofyn, ac heb erchi na thâl nag anreg y gan Wlad na chan Deyrn; ac achaws hyny au gelwid hwy y tair Gosgordd Addwyn."

Ond y prif wrthwynebiad i Bran oddi wrth yr haneswyr classurol, yw distawrwydd Tacitus. Mae yr ysgrifenydd hwn yn gwneyd sylw neillduol o'r carcharor breninol, Caradog, ac yn enwi ei *wraig*, a'i *ferch*, a'i *frodyr*, yn bendant; ond nid yw yn crybwyll am ei dad; a dadleuir pe buasai Bran, ei dad, yn mhlith y carcharorion, y buasai yn sicr o'i enwi ef yn anad un o honynt. Mewn atebiad i hyna, dywedir bod y *Trioedd* yn dangos mai nid cael ei ddwyn i Rufain gyda'r carcharorion a wnaeth Bran; ond mai myned yno yn wystl dros ei fab a wnaeth:—"Tri Menwedigion Teyrnedd Ynys Prydain: Bran Fendigaid ab Llyr Llediaith a ddygwys gyntaf ffydd yn Nghrist i Genedl y Cymry o Rufain, lle y bu efe saith mlynedd yn ngwystl ei fab Caradawg a ddug Gwŷr Rhufain yn ngharchar gwedi ei fradychu drwy hud a thwyll Aregwedd Fôeddawg." Felly dadleuir na's gallasai fod yn wystl neu feichiau dros ei fab, pe buasai eisioes mewn gafael fel carcharor. "Ni's gallaf lai na meddwl," meddai Carnhuanawc, "mai carcharor gwirfoddol oedd Bran, wedi rhoddi ei hun i fyny yn wystl." Ac os felly, nid oes dim yn annghyson yn ngwaith Tacitus yn peidio enwi Bran, wrth adrodd hanes ymddangosiad Caradog a'i deulu o flaen Claudius.

Ond yr hyn sydd yn bygwth bod yn fwyaf niweidiol i'r chwedl am Bran ab Llyr, yw y feirniadaeth ganlynol ar yr hanesion Cymreig, gan Mr. Thomas Stephens, Merthyr:—"Gan fod iaith Gymraeg yn anhawsder i ddyeithriaid olrhain hanes Bran ab Llyr, dichon y byddai o fudd imi wneyd hyny, gan fy mod bellach yn bur gyfarwydd a'r Trioedd ynghyd a'r holl ddefnyddiau hanesyddol eraill ag sydd yn yr iaith hono.

Sylwedd fy ymchwiliadau yw yr hyn a ganlyn:—

I. Yr oedd brenin yn yr Iwerddon o'r enw Leogaire, yr hwn, gan fod yr *g* yn ddistaw, a seinid Leary, Lir, neu Lear, fel y ceir ef gan Shakespeare. Cafodd ei orchfygu mewn brwydr, a'i garcharu; a bu farw yn fuan wedi hyny—sef yn y flwyddyn o.c. 458. Yn y canol-oesoedd cymerwyd gafael ar y ffeithiau hyn; plethwyd hwynt â hanes ffugiol y brenin Arthur, ac aeth carchariad Llyr yn un o'r tri hynod garchariadau. Fel hyn yr ymddengys yn y *Mabinogion*, yn y *Romances* Seisonig a Ffrengig, ac yn y Trioedd—pa rai ydynt grynoadau diweddarach na'r *Romances*, ac yn seiliedig arnynt.

II. Yn Ngogledd Cymru yr oedd, yn y chweched ganrif, wr o'r enw Llyr ab Einion Yrth ab Cunedda Wledig: a Llyr arall, fab Brochwel Ysgythrog.

III. Symudwyd amser Llyr gan Sieffrey o Fynwy, yn *Mhrut y Breninoedd*, gymaint o flynyddau cyn Crist, ag oedd yn byw wedi Crist. Yn y dull yma, o gamsyniad i gamsyniad, daeth Bran i gael ei osod yn gyfamserydd i Grist. Cymysgwyd yr hanesion nes aeth carchariad Llyr, yn garchariad Caractacus yn Rhufain, yn amser yr Apostol Paul; ac yn yr unfed ganrif ar bymtheg, am y tro cyntaf yn hanes Cymru, ffugiwyd i Bran fod yn *feichiau* dros Carad-

Digitized by Google

awg, ac iddo ddychwelyd oddi yno ar ryddhad Caradawg, i Ynys Brydain, ac Arwystli Hen fel cenadydd gydag ef. Pe buasai tyfiad y chwedl yn llai amlwg, buasai o werth i mi nodi—1. Fod genym dri chyfeiriad cyfamserol, at frodyr, gwraig, a phlant Caradog, ond fod ei dad sef Cynfelyn wedi marw. 2. Nad oedd un son am ddyn o'r enw Bran. 3. Nad oedd un eisiau meichiau gan fod Caradawg ei hun yn nwylaw y Rhufeiniaid. 4. Nad oedd ei ryddhad ef ond rhyddhad ar *parole*, hyny yw, cenad i fyw yn yr Eidal, ond nid i fyned o honi. 5. Fod tystiolaeth bendant iddo aros yn yr Eidal, efe, a'i wraig a'i blant. Ond bydd yn ddigon ini roddi yr engraifft ganlynol o'r modd y darfu i'r chwedl dyfu i'w ffurf bresenol:—

I. "Tri goruchel garcharawr Ynys Prydain: Llyr Lletieith a fu yn Euroswyd Ygkarchar," &c. *Trioedd, Cyfres* 2.

II. "Tri goruchel garcharawr Ynys Prydain: Llyr Llediaith yn Carchar Oeuroswydd Wledig," &c. *Trioedd, Cyfres* 1.

Yn awr, sylwer ar yr ychwanegiadau a'r cyfnewidiadau yn y Drydedd Gyfres:—

III. "*Tri Theulu Teyrnedd* a ddygid yng ngharchar o'r *gorhendaid i'r gorwyrion, heb adu yn nianc un o honynt.* Cyntaf, *Teulu* Llyr Llediaeth a ddygid yn ngharchar hyd yn Rhufain gan y Caisariaid. Ail, *Teulu* Madawg ab Medron a fuant yngharchar gan y Gwyddyl Ffichti yn yr Alban. Trydydd, *Teulu* Gair ab Geirion, Arglwydd Geirionydd, y gan raith Gwlad a Chenedl yng ngharchar Oeth ac Anoeth; *ac o'r rhai hynny nag un nag arall o honynt yn nianc;* a llwyraf carcharu a wybuwyd erioed, a fu ar y Teuluoedd hynny."

Gwelir fod y carcharorion unigol wedi eu lluosogi i *deuluoedd*, ac Euroswydd Wledig o Gaer-gwyroswydd (Oystermouth), yn agos i Abertawe, wedi rhoddi lle i Gaisariaid Rhufain. Sylwer yn neillduol ar yr haeriad olaf, na ddiangodd neb o honynt; ac yna, yn y cymhariad canlynol, gwelir nad oedd ysgrifenwyr y drydedd gyfres, yn prisio beth a ddywedent:—

Canrif XIII.—I. "Tair gwelygordd Saint Ynys Prydain, plant Brychan, plant Cunedda Wledig, a phlant Kaw o Brydain."—*Cambro-British Saints, tu dal.* 271.

Canrif XV.—II. "Tri Sanctaidd Linus Ynys Prydain; gwelygordd Bran Fendigaid ab Llyr Llediaith, *sef y Bran hwnw a ddug y Ffydd yn Nghrist gyntaf i'r Ynys hon o Rufain, lle bu efe yngharchar drwy frad Aregwedd Voeddawg merch Afarwy ab Lludd.* Ail gwelygordd Cynedda Wledig a roddes Dir a Braint gyntaf i Dduw a'r Saint yn Ynys Prydain. Trydydd, ydoedd Brychan Brycheiniog, a ddug ei blant a'i wyrion ar ddysg a bonedd, fal y gallent ddangos y Ffydd yng Nghrist i Genedl y Cymry, lle ydd oeddent yn ddiffydd."—*Cyfres* 3.

Gwelir yma dyfiad yr haeriad, mai yn ddiweddar y daeth Bran ab Llyr i blith y Seintiau, fod y cwbl yn ymddibynu ar yr haeriad olaf, ac fod dau *driad* y drydedd gyfres yn croesi eu gilydd. Pe bai yn werth beirniadu haeriadau penrydd fel yma, gellid gofyn pa fodd y daeth Bran yn ol, os na ddiangodd nac un nac arall o deulu Llyr? Ond yr ydym wedi gwastraffu gormod o amser eisioes; a gobeithiwn nad yw yn angenrheidiol i amlhâu profion, nad yw y chwedl hon yn meddu un gradd o deilyngdod hanesyddol."—*Sefyllfa Wareiddiol Y Cymry, gan T. Stephens.*

**BRAWDY,** plwyf yn undeb Hwlffordd, cantref Dewisland, swydd Benfro, Deheudir Cymru, 6 m. i'r Dwyrain o Dy Ddewi, drwy yr hwn y mae'r briffordd o'r lle hwnw i Hwlffordd yn rhedeg. Morfeydd a bryniau ydyw gan mwyaf, ond y mae yn cael ei wrteithio yn dda. Y mae'r ficeriaeth wedi cael ei huno âg un Hayscastle, ac yn cael ei threthu ar lyfrau y frenines yn 3*p.* 18*s.* 9*c.*; y mae gwedi cael ei gwaddoli gan 200*p.* o rodd freninol, a 1400*p.* o rodd seneddol, ac y mae yn werth 115*p.* y flwyddyn. Y mae yn rhodd ei meddiannydd, sef Esgob Tŷ Ddewi, ac y mae'r eglwys wedi cael ei chyssegru i Dewi Sant. Y mae pedwar neu bump o gapeli yma gan yr Independiaid, y Methodistiaid, ac enwadau crefyddol ereill, cyd rhynddynt, i'r rhai y mae Ysgolion Sabbathawl blodeuog yn perthyn i bob un o honynt. Y mae dwy ysgol ddyddiol yn y plwyf, un yn cael ei chynnal gan y ficer, a'r llall o dàn nawdd yr Independiaid. Y mae caer, neu wersyllfa Brydeinig, ar dyddyndy Brawdy, yr hon a amddiffynir gan amgloddiau triphlyg. Y mae'r trigolion, yn ol Deiliadeb 1861, yn rhifo 644.

**BRECHFA,** plwyf yn undeb Llandilo-Fawr, cantref Cethinog, swydd Gaerfyrddin, Deheudir Cymru, 10 milldir i'r Gogledd Ddwyrain o dref Caerfyrddin. Y mae'n gorwedd ar làn yr afon Cothi, yr hon sydd yn llawn brithyllodd, ac y mae'r golygfeydd o amgylch yn ddymunol iawn. Y mae'r tir yn gynydfawr, ac yn cael ei wrteithio yn rhagorol o dda. Y mae capel yma gan y Methodistiaid, ac y mae Ysgol ddyddiol yn y lle. Y mae'r Eglwys, i'r hon nid oes na thŵr na chlochdy, wedi cael ei chyssegru i Teilo Sant, ac yn sefyll yn nghŵr eithaf y plwyf, ar làn yr afonig Pib. Y mae y rectoriaeth yn rhydd oddiwrth lyfrau y frenines, ac wedi cael ei gwaddoli â 600*p.* a rodd freninol; y mae yn werth 72*p.* y flwyddyn, ac yn rhodd olynol etifeddion George Morgan, Yswain, a Mrs. Elizabeth Hughes. Yr oedd yma fardd awenyddol, o'r enw Ieuan Brechfa, yn blodeuo tua 1500, yr hwn hefyd a ysgrifenodd "Frut," neu hanes Cymru. Cynnelir ffair anifeiliaid yma bob blwyddyn ar y 3ydd. o Hydref. Poblogaeth y plwyf yn 122, yn ol Deiliadeb 1861. Mesura 530 o erwau.

**BRECHFA,** Ieuan, ydoedd un o wŷr enwocaf ei oes fel bardd, ac hanesydd, arwyddfardd, ac achyddwr. Brodor ydoedd o Brechfa, Swydd Gaerfyrddin, oddi wrth yr hyn y derbyniodd ei enw. Efe a ysgrifenodd am y "Tair Talaeth;" ac mae crynodeb o Hanes Cymru o'i waith, dan yr enw *Brut* Ieuan Brechfa, yn argraffedig yn y *Myf. Arch.* Tybir iddo farw tua 1500.

**BRENDA,** Sant, ydoedd un o feibion Helig ab Glanawg. Nid oes dim o'r hanes ar gael, ond iddo, ar ol i'r mor orlifo tiroedd ei dad, ymroddi i fywyd mynachaidd, a bod y gypleg ganlynol wedi ei chyssylltu wrth ei enw:—

"Gwir a ddywed Sant Brenda,
Nid llai y cyrchir drwg na da."

**BRETTON** sydd drefgordd yn mhlwyf Hawarden, cantref Wyddgrug, swydd Fflint, Gogledd Cymru, 3 milltir o Hawarden. Y mae y drefgordd hon yn sefyll ar y ffordd o Gaerlleon i Fflint; yn gyfagos i'r pentref, y mae y lle a elwid gynt, "Morfa mawr Saltney," sydd yn ymestyn i swydd Gaerlleon, ac a gauwyd i mewn yn ol Gweithred Seneddol yn 1778.



Digitized by Google

**BRIDE**, St. Gwentllwg, neu Llan sant Ffraid Gwentllwg, plwyf yn rhanbarth uchaf cantref Gwentllwg, swydd Fynwy; 5¼ milldir i'r dehau o'r Casnewydd, yn cynwys poblogaeth yn y flwyddyn 1861, o 241. Curadiaeth barhaus yw y fywioliaeth eglwysig, â'r hon y mae Coed Cernyw yn unedig, yn archddiaconiaeth ac esgobaeth Llandâf, ardrethedig yn llyfrau y brenin, i 4*p.* 18*s.* 1½*c.*; a gwaddoledig â 600 punt o ged-rodd freninol, a 200 punt o rodd Seneddol; ac yn noddogaeth esgob Llandâf. Terfynir y plwyf ar y tu dwyrain, gan yr afon Wŷsg; ac ar y tu deheuol, gan Fôr Hafren.

**BRIDE**, St. Netherwent; neu, Llansant-Ffraid Is Gwent, plwyf yn rhanbarth isaf cantref Caldicot, swydd Fynwy; 7 milldir i'r dwyrain ddedwyrain o Gaerlleon, yn cynwys, yn nghyda phentref Llandefeni, boblogaeth o 171. Perigloriaeth ydyw y fywioliaeth eglwysig, yn archddiaconiaeth ac esgobaeth Llandâf, wedi ei gwaddoli â 200 punt o ged-rodd freninol.

**BRIDE**, St., sydd blwyf yn nghantref Rhos, yn Sîr Benfro, Deheubarth Cymru, 11 milltir o Hwlffordd. Y mae y plwyf hwn yn sefyll ar yr ochr dde i fay St. Sior, i'r hwn y rhydd enw, ac mewn gwddf o afon fechan o'r bay, sydd yn rhedeg i fynu agos at y fynwent, ag sydd yn ffurfio yr hyn a elwir yn gyffredin llongborth St. Bride. Bu pysgotta penwaig, amser yn ol, yn helaeth a llwyddianus yma, ond y mae wedi darfod er ys rhai blynyddoedd erbyn hyn; ac y mae eto olion yn aros, o hen gapel ar lan y traeth, yr hwn, yn ol y traddodiad, a ddefnyddid, amser yn ol, i halltu pysgod. Yr oedd amryw eirch cerig yn y gladdfa berthynol i'r capel hwn, amryw o ba rai a olchwyd ymaith gan ymosodiad y môr ar y lle, yr hwn sydd wedi enill cryn dipyn o'r tir i'r traeth, er ys ychydig o flyneddau yn ol, ar dywydd garw; ac wedi dynoethi gwreiddiau coed lawer. Y mae yr olygfa o gylch y lle hwn yn brydferth ac amrywiaethol iawn, ac y mae rhai lleoedd yma yn rhoddi golygfa darawiadol ar y mor, a'r cymydogaethau oll. Y mae y "Bryn," palas ardderchog Charles Philipps, Ysw., wedi ei gysgodi yn brydferth, gan blanwyddfeydd iraidd, yn ymagor yn raddol, gyferbyn a'r ffordd sydd yn disgyn hyd y gilfach, sydd yn cyrhaedd yn agos i'r fynwent. Yr oedd y teulu urddasol hwn yn disgyn o dylwyth Cilsant, ac yn cyfaneddu yn hen balas St. Bride, yr hwn a adawyd yn ddisylw er ys rhai blynyddau, ar adeiladiad y palas gwych presenol. Y mae yn perthyn i'r Bryn, neu yr "Hill," barc, llawn o geirw, yr hyn sydd yn beth dieithr yn awr yn y rhan hon o'r dywysogaeth. Y mae y fywoliaeth yn berigloriaeth wahanedig, yn archddeonaeth ac esgobaeth Tyddewi, yn cael ei phrisio yn llyfrau y Brenhin yn 15*p.* 12*s.* 11*c.*; a bob yn ail, yn nawddogaeth Charles Philipps, Ysw.; W. P. Laugharne, Ysw.; a John Nash, Ysw., y diweddaf fel cynnrychiolydd teulu Philipps, o Fobeston. 'Nid oes dim hynodrwydd yn adeiladaeth yr eglwys i grybwyll am dano.

**BRIDE**, St. Mwyaf, sydd blwyf yn nghantref Ogmore, swydd Forganwg, Deheudir Cymru, yn cynnwys trefgorddau St. Bride ac Ynysawdre, 3½ milltir o Benbont ar Ogwr, ar y ffordd i Lantwit Mwyaf. Y mae y lle hwn yn cynal enw o bwys yn hanesiaeth foreuol y dywysogaeth, ac y mae yn cael ei hynodi fel un o breswylfeydd adnabyddus y tywysogion. Y mae yn sefyll ar geulan yr afon Ogmore, neu Ogwr, yr hon sydd yn ei hymylu ar y gorllewin, ac yn ymestyn yn ddeheuol hyd afon Bryste. Y mae Castell Dunrafen yn adeilad gwŷch ac eang, yn sefyll ar ran uchel o'r plwyf, ac yn cymeryd golygfa eang ar y mor, ac ar amryw o'r terfynau creigiog gyda'r glanau. Codwyd yr adeilad presenol gan Thomas Wyndham, Ysw., yn agos i sylfaen hen adeilad blaenorol, a fu gynt yn breswylfod Caradog, ac a elwid gan y Brython, Din-dryfan, o'r hwn y mae yr enw presenol wedi ei ffurfio. Dywedir fod y gwron Brytanaidd, a'i dad, Bran ab Llyr yn preswylio yma; a dywedid fod yr amddiffyn triphlyg sydd yn ei ddiogelu, ar yr unig ochr ag y gellid cael mynedfa iddo, gweddillion yr hwn sydd eto yn weledig, can hyned ag amser y Rhufeiniaid. Gwedi gorchfygiad Caradog, parhaodd y lle i fod yn breswylfod y tywysogion brodorol, hyd amser Iestyn ab Gwrgant, ar ddiswyddiad yr hwn, gan yr anturiaethwr Normanaidd Fitz-Hamon, y cyflwynodd y penaeth hwnw ef i William de Londres, gyd âg arglwyddiaeth, a chastell Ogwr. Rhoddwyd castell a maenoriaeth Dunrafen gan William de Londres, i'w ddistain (*butler*), fel gwobr am ei wroldeb yn amddiffyn castell Ogwr, yn erbyn ymosodiad gan y Cymry, yn ysdod absenoldeb y boneddwr hwnw; am yr hyn hefyd y cafodd ei godi yn farwnig, gan gymeryd oddiwrth ei swydd, yn ol defod yr amserau, yr enw Syr Arnold Butler, yr hyn a drosglwyddodd efe, gyd a'i etifeddiaeth, i'w olafion, y rhai a barhasant i'w mwynhau am lawer o genedlaethau; a phan y collwyd y llinell wr-rywaidd, trosglwyddwyd y cyfan drwy briodas, i deulu o'r enw Fychan. Yn ol y traddodiad yn y gymydogaeth, yr hyn a ymddengys fel yn cael ei gadarnhau gan ddarganfyddiadau diweddar, yr oedd gan y diweddaf o'r Fychaniaid, a fu yn meddianu y faenoriaeth, yr arferiad creulon, o osod i fynu oleuni ffugiol yn y nos, i gam arwain llongau yn yr afon, er ychwanegu ei gyfoeth, ar draul y Llongddrylliadau; y rhai, fel arglwydd y faenoriaeth, yr oedd efe yn eu meddiannu. Yr oedd yn ngolwg y ty, graig, yr hon oedd yn sech ar amser y trai, i'r hon yr aeth dau o'i feibion i ddifyru eu hunain, ond wedi anghofio diogelu eu cwch, aeth ymaith gyda'r llif, a gadawyd hwy ar y graig, nes i'r mor eu cylchynu, y rhai a foddwyd, er pob ymdrech a wnaed i geisio eu hachub. Yn ysdod y dyryswch a barodd yr amgylchiad galarus hwn yn mysg y teulu, syrthiodd y trydydd mab, yr hwn oedd blentyn yn dechreu cerdded, i gelwrn mawr o faidd, ac a foddwyd; a'r meddianydd, wedi ei adael fel hyn yn ddiblant, a werthodd yr etifeddiaeth i un o hynafiaid y diweddar Thomas Wyndham, Ysw.; unig ferch ac etifeddes yr hwn, a'i cyflwynodd drwy briodas i Windham Henry Wyndham Quin, Iarll Dunraven a Mountearl, y meddianydd presenol; y mae y palas yn bresenol yn neiliadaeth J. W. Bennett, Ysw., yr hwn a briododd weddw y diweddar Mr. Wyndham, a'r hwn sydd yn achlysurol yn preswylio yno. Trosglwyddwyd castell ac arglwyddiaeth Ogwr, drwy briodas âg etifeddes teulu Londres, i Ddug cyntaf Lancaster, ac y mae eto yn ffurfio rhan o'r Ddugiaeth, yn awr yn meddiant y goron. Darlunir y blaenaf fel hyn gan Leland, "Saif Castell Ogwr, ar ochr ddwyreiniol Ogwr, ar wastadedd, milltir uwchlaw genau Ogwr, ac y mae mewn cyflwr da. Bu unwaith yn meddiant Lounder, yn awr gan y Brenhin." Y mae yr adfeiliau, gyda gorsaf, a elwir "Castell Allen," yn sefyll mewn ongl, ag sydd yn ffurfio cysylltiad yr Ewenni ag afon Ogwr; y maent yn

Digitized by Google

eang, ac yn ychwanegu at bwysigrwydd yr olygfa ar y gymydogaeth ddengar hon.

Y mae y fywoliaeth yn ficeriaeth, gyda churadaeth barhaol Wick, mewn, cysylltiad â hi; yn archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf; ac a brisir yn llyfrau y Brenhin yn 9*p*. 16*s*. 5½*c*.; ac y mae yn nawddogaeth Richard Turberville Turberville, Ysw. Y mae yr eglwys yn hen adeilad, ac yn cynwys amryw gofadeiliau prydferth; yn mysg y rhai, y mwyaf hynod ydyw bedd-allor, yn dwyn delwau croes-gadwr a'i foneddiges, o deulu Butler, a chofadail wech, wedi ei gweithio yn hardd, mewn marmor gwyn, gan Gahagen o Bath, i goffadwriaeth y diweddar Thomas Wyndham, Ysw., o Gastell Dunrafen, yr hwn a gynnrychiolodd swydd Forganwg mewn amryw seneddau, ar yr hwn, y mae delw o hono ef, a'i ddau fab, y rhai a fuant feirw yn eu mabandod, mewn gwneuthuriad cywrain. Y mae yma le o addoliad gan y Methodistiaid Calfinaidd. Y mae yma ysgol, yn yr hon yr addysgir deugain o blant o bob ystlen, yn cael ei chynal drwy roddion gwirfoddol prif dir-feddianwyr y plwyf. Y mae ar derfyn gorllewinol y plwyf, yn agos i bentref Ewenni, Ffynhonell gref, a elwir yn y gymydogaeth "*The Shew Well*," gan rai, a "Ffynon Ogwr" gan y lleill, y mae yn rhedeg o dri man mewn craig galchen, ac yn ymuno a'u gilydd, yn afon tua phymtheg llath o led, ond yn fuan yn culhau i ffrwd o saith lath o led, tua throedfedd o ddyfnder, ac o fewn pellder o tua deg ar hugain neu ddeugain llath, y mae yn ymarllwys i'r Ewenni, Dywed rhai ei bod yn rhan o'r afon, sydd yn rhedeg yn dan-ddaearol ychydig yn uwch i fynu; ond y mae elfenau hanfodol y dwfr, yn profi i'r gwrthwyneb; y mae y ddwy ffrwd ddwyreiniol yn dra oer; ac wrth olchi y maent yn ceulo sebon fel surnaws; y mae y llall yn ddwfr tyner, ac a olcha mor feddal â dwfr gwlaw. Y mae yn y cilfachau, agoriadau wedi eu gwneud gan draul y dwfr, ac yn ymestyn i gryn bellder, yn rhedeg gyda'r terfynau, fel nifer o golofnau rheolaidd; y mae yno un wedi treiddio drwy y graig, a elwir "Twll y Gwynt," yn cyrhaedd i ddyfnder mawr, fel ar adegau neillduol ar lanw y mor, y mae y gwynt yn rhuthro gyda nerth anarferol. Yr oedd Robert Thomas y Bardd, yr hwn a flodeuai o'r flwyddyn 1700 i 1750 yn frodor o'r plwyf hwn.

Barna llawer mai yma y pregethwyd yr Efengyl gyntaf yn y wlad hon, ac yn mhlith y llawer hyny y mae haneswyr o enwogrwydd Iolo Morganwg, y Parch. Dafydd Rhys Stephen, y Parch. Thomas Price (Carnhuanawc), y Parch. John Williams, Archddeon Aberteifi, a'r Esgob Burgess. Y mae'r Esgob yn maentumio hefyd, yn y llyfr a elwir "Tracts on the Origin and Independence of the Ancient British Church," mai Paul oedd y pregethwr cyntaf, yr hwn a gyrhaeddodd hyd yma yn ei deithiau gorllewinol, ac a adawodd Phylip ac Aristobulus i ofalu am yr eglwysi Prydeinig, meddai'r Esgob. Yn ei erthygl yn y *Gwyddoniadur* y mae Mr. Thomas Stephen, Merthyr Tydfil, yn barnu mai Aristobulus oedd y pregethwr cyntaf. Y brawd Aristobulus oedd Arwystli Hen y Cymry, ac yr oedd oddi cartref pan yr ysgrifenai Paul at y Rhufeiniaid, ac y dymunai ei gofio at y "rhai sydd o dylwyth Aristobulus" (Rhu. xvi. 10). Yn y wlad hon, meddir, yr oedd Aristobulus y pryd hwnw, ac y mae Eglwys Groeg yn ei alw ef yn Esgob cenadol Prydain Fawr. Y mae traddodiad Morganwg, y Trioedd, ac Achau Saint Ynys Prydain, yn sôn am dano, ac yn dywedyd mai gyda theulu Caradawc, tua'r flwyddyn 60 o.c., ar eu dychweliad o Rufain, y daeth y pregethwyr cyntaf i'r gymmydogaeth hon, yn mhlith pa rai yr oedd Arwystli Hen, Cyndaf, ac Ilid. Y mae Brân ab Llyr yn cael ei alw yn un o "dri gwelygordd (teulu) santaidd ynys Prydain," ac y mae yr Achau yn ei enwi fel hyn, Brân ab Llyr Llediaith, ab Paror, ab Ceri Hir Lyngwyn, &c. Y mae enwau lleoedd yn y gymmydogaeth hon yn bytholi rhai o'r enwau uchod, megis Gwyl Geri, Llanilid, Tre-fran, &c. Bernir mai merch Brân ab Llyr oedd Claudia, gwraig Pudens a mam Linus, am y rhai y crybwylla Paul yn 2 Ti. iv. 21. Yr oedd gan Caradawc ab Brân, ferch o'r enw Eigen, a mab o'r enw Cyllin, y rhai a enwir yn Achau y Saint, ac ŵyr i'r Cyllin hwn, oedd Lleurwg, neu Llés ab Coel, Brenin Prydain Fawr, yr hwn yn gyntaf o holl freninoedd y ddaear, fel y tybir, a fedyddiwyd i'r ffydd yn Nghrist, tua'r flwyddyn 180 o.c.

"Henffych ddedwydd ddydd pan ddaeth—i'n hynys
Wèn anwyl Grist'nogaeth;
Ris yn uwch ein rhesu wnaeth,
A duwioli y dalaeth."

Y mae SANT-Y-BRID, fel yna, gwedi cael ei bendithio yn fore â'r Efengyl, ac nid yw gwedi ei gadael hyd heddyw. Y mae ysgol ddyddiol yn nhreflan Ynysawdre, ac un arall yn y pentref; y mae capel yma hefyd gan y Methodistiaid. Y mae ficeriaeth y Wîg wedi ei huno â'r ficeriaeth hon, ac y mae yn cael ei threthu ar lyfrau y frenines yn 9*p*. 16*s*. 5½*c*. Y mae yn werth 176*p*. y flwyddyn, ac yn rhodd etifeddion Turbeville, Ewenny Abbey; meddiannydd llëygol y degwm, yw Christopher Rice Mansell Talbot, Yswain, A.S. Margam, Arglwydd Raglaw swydd Forganwg. Y mae'r eglwys yn un hen iawn, ac y mae ynddi amryw wyddfâoedd harddwych, yn mhlith pa rai y mae un i grwysgadwr, perthynol i deulu Butler, a'i foneddiges; un arall i'r Thomas Wyndham, Yswain, a enwir uchod, yr hwn a fu yn aelod seneddol dros Forganwg am flynyddau. Rhif y boblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, yw 826. Mesura 6042 o enwau.

**BRIDE**, ST. LLEIAF, sydd blwyf mewn rhan yn nghantref Newcastle, neu cron Nedd, ac mewn rhan yn Ogwr, swydd Forganwg, o fewn 2 filltir i Ben y Bont. Y mae y plwyf hwn mewn sefyllfa brydferth, ar geulan afon Ogwr, yr hon, wedi rhedeg drwyddo tua'r de, sydd yn ymarllwys i'r afon Ewenni, ar ei rhediad i afon Bryste. Y mae y tiroedd, oddigerth ychydig, mewn cyflwr ac amaethiad da, ac y mae y gymydogaeth, yr hon sydd yn lled fryniog, yn arddangos golygfeydd dengar iawn. Y mae y pridd yn amrywiaethol, ac y mae glo mewn rhai parthau, ac yn cael ei gloddio gyda llwyddiant mawr, fel y mae yn gymorth i'r boblogaeth, nad ydynt mewn gorchwylion amaethyddol. Y mae ffordd haiarn yn rhedeg o'r gweithydd drwy y plwyf, i gysylltiad a ffordd Pen y Bont, a Phorthcawl, ac felly yn cael eu cludo i ben eu taith gyda rhwyddineb. Y mae y fywoliaeth yn berigloriaeth wahanedig, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf, ac yn cael ei phrisio yn llyfrau y brenhin i 5*p*. 3*s*. 6½*c*., ac yn nawddogaeth Iarll Dunrafen. Y mae yma le o addoliad gan yr Henaduriaethwyr. Y mae yr eglwys yn brydferth, ac wedi ei chyflwyno i St. Bride.

**BRIDE**, ST. UWCH ELI, sydd blwyf yn nghan-

Digitized by Google

tref DINAS POWIS, swydd FORGANWG, DEHEUBARTH CYMRU, o fewn 5¼ milltir i Gaerdydd. Nid yw y plwyf hwn ond bychan o faintioli; y mae yn sefyll ar geulanau yr afon Eli, ac yn agos i'r dyffryn o'r enw hwnw, y mae yn arddangos golygfa brydferth iawn. Y mae y fywoliaeth yn berigloriaeth ar wahan, wedi ei chysylltu â phersonoliaeth Michaelston uwch Eli, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i St. Mair. Y mae St. Nill, cartref —— Jenkins, Ysw., yn balas eang o fewn y terfynau hyn, ac yn cymeryd golygawd prydferth iawn ar ddyffryn Eli. Poblogaeth y plwyf yn ol Deiliadeb 1861, oedd 122.

**BRIDEL**, neu BRIDELL, sydd blwyf, mewn rhan yn nghantref CEMMAES, ond yn benaf yn CILGERRAN, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU, 2¼ milltir o Aberteifi, ar y ffordd i Narberth. Y mae y tir oll yn y plwyf hwn, wedi ei gau i mewn, ac mewn cyflwr da o amaethiad, a'r pridd yn dra ffrwythlon. Y mae y fywoliaeth yn berigloriaeth wahanedig, yn archddeoniaeth Aberteifi, ac esgobaeth Ty Ddewi, yn cael ei phrisio yn llyfrau y brenhin, i 9*p.*, ac yn nawddogaeth rhydd-ddeiliaid y plwyf. Y mae yr eglwys, yr hon sydd wedi ei chysegru i St. Dewi, yn adeilad henafol, prydferth; mewn sefyllfa yn nghanol coed, y rhai y mae eu brigau deiliog o'r braidd yn ei chuddio o'r golwg. Y mae croes henafol yn sefyll yn y fynwent, o'r natur a elwir wrth yr enw St. Catherine, yn cael ei chynal gan sail ddiaddurn, tua naw troedfedd o uchder, ac heb yr un cerfiad.

**BRIDGEND**, neu PEN-Y-BONT-AR-OGWR, sydd dref farchnad, mewn rhan yn mhlwyf Coyty, ac mewn rhan yn mhlwyf cron Nedd, neu Newcastle, cantref NEWCASTLE, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, 20 milltir o Gaerdydd, a 179 o Lundain. Y mae y dref hon, ag y mae ystyr ei henw mor eglur, yn gorwedd mewn sefyllfa brydferth, tua thri chwarter milltir ar y gogledd i'r ffordd fawr, o Gaerdydd i Abertawe, ar geulanau afon Ogwr, yr hon sydd yn ei dosparthu yn ddwy ran; pentref yr Hen Gastell, yn cymeryd yr ochr ddwyreiniol, a Newcastle, neu y Castell Newydd, yr ochr orllewinol; a thros yr hon y mae dwy bont faen wedi eu codi, un o honynt o adeiladaeth ddiweddar, o dri bwa, ac yn fynedfa deg i'r dref o'r gorllewin. Y mae yn sefyll mewn cymydogaeth ffrwythlon, yn nghanol y wlad, ac yn cynwys un heol afreolaidd; ac y mae ynddi amryw fasnachdai da, gydag amryw anneddau teg gyda'r ymylon. Y mae yma nifer o welliannau diweddar wedi eu cwblhau. Y mae ffordd wedi ei hagor o'r dref i le a elwir Pant y Brocastle, drwy yr hyn y byrhawyd y ffordd i Gaerdydd, o filltir; ac y mae y ffordd agosaf o Gaerdydd i Abertawe, yn rhedeg drwy y dref. Agorwyd gweithfa gwlan yma amser yn ol, ond ni bu mor llwyddianus ag y disgwylid. Y mae yn agos i'r dref, gloddfeydd o gerig nâdd rhagorol. Y mae ffordd haiarn wedi ei hagor, o waith haiarn y Maes Teg, i borthladd bychan Porthcawl, pellder o un filltir ar bymtheg, yr hwn a gostiodd gyda gwellhad y porthladd, tua 100,000*p.* Y mae cangen o ffordd haiarn mewn cysylltiad a'r brif linell, yn cychwyn yn agos i bentref Cefn Cribwr, yn mhlwyf Laleston, ar linell y flaenaf, ac yn ymestyn bedair milltir a haner, mewn cyfeiriad dwyreiniol, i gymydogaeth Penbont; i'r bwriad, yn benaf, i drosglwyddo glo o'r gweithydd mawrion ar y llinell yn Nyffryn Llyfni a'r Porthcawl, i'r dref hon a'r gymydogaeth, ac er cael tramwyaeth rhwng y lle a phorthcawl, yr hwn sydd yn gilfach mewn cysylltiad a phorthladd Abertawe, yr hwn a ystyrir fel llongborth Pen y Bont, sydd bum milltir o bellder oddiyno. Y mae y farchnad ar y Sadwrn; yr hon sydd yn enwog am werthiant yd; ac y mae yma gyflawnder o ddarpariadau cyffredin bywyd. Y mae y ffeiriau ar Iau Derchafael, a Tachwedd 17eg., yn benaf at werthiant gwartheg, a chaws. Y mae y llys ynadol yn cael ei gynal yma bob Sadwrn; ac yma y cymer etholiad Seneddwr dros y Sir le. Y mae y llys-dy yn adeilad teilwng, yn sefyll yn nghanol y dref, lle y cynhelir yr etholiadau, ac achosion cyffredin eraill.

Yn y rhan hono o'r dref, sydd o fewn plwyf Coyty, yn ffurfio pentref Oldcastle, y mae capel Nolton, yr hwn sydd yn gapel cynorthwyol i Coyty, lle y mae addoliad yn cael ei gynal yn rheolaidd; ac yn y parth hwnw sydd o fewn pentref neu dreflan Newcastle, y mae yr eglwys blwyfol yn sefyll. Y mae yma leoedd o addoliad gan y Bedyddwyr, Annibynwyr, Methodistiaid, Wesleyaid, a'r Undodwyr; y mae yr un a berthyna i'r Undodiaid, gydag un arall yn mhlwyf Bettws, yn perthyn i'r un blaid, wedi ei waddoli â thir ac arian, gwerth 40*p.* y flwyddyn, yn benaf gan hynafiaid y duwinydd enwog hwnw, Dr. Richard Price, yr hwn a anwyd yn Tynton, yn nghymydogaeth plwyf y Bettws, yn 1723. Y mae yma Ysgol Genedlaethol, yn yr hon y mae cant o blant, o'r ddau ryw, yn cael eu hyfforddi, ac yn cael ei chynal, yn benaf drwy haelioni y Gwir Anrhyd. Sir John Nicholl, a'i deulu, gyda chymorth pregeth gyhoeddus, a chyfraniadau. Y mae yma ariandy, a meddygdy, wedi eu codi drwy roddion anhawledig o 800*p.*, ac y mae meddygyniaeth rad yn cael ei darparu i dlodion y plwyf, a'r plwyfydd cymydogaethol, na byddont yn pwyso ar blwyf. Cyrhaedd y cydroddion i tua 100*p.* yn y flwyddyn. Y mae hen dreflanau Oldcastle, a Newcastle, yn cael eu henwau oddiwrth ddwy hen amddiffynfa, a adeiladwyd, fel y bernir, gan rai o hen oresgynwyr Morganwg, i sicrhau eu tiriogaethau newyddion, rhag ymosodiadau y penaethiaid brodorol; i'r rhai y buont yn agored i ymosodiad yn hir: yr oedd yr un a roddes enw i'r blaenaf, yn sefyll yn agos i'r lle y mae hen gapel Nolton, y lle ag y mae yr ysgubor ddegwm wedi ei chodi arno; yr oedd yn dibynu ar gastell cymydogaethol Coyty; tra yr oedd y llall ar y bryn uwchlaw yr eglwys. Yr oedd George Cadogan Morgan, nai Dr. Price, athraw clasurol, a darlithydd ar athroniaeth naturiaethol, yn athrofa ymneillduol Hackney, yn Middlesex, yn frodor o'r lle hwn; cyhoeddodd ef ddwy Ddarlith ar Wefryddiaeth, a chyfrol fechan ar addysg, a elwir, "cyfarwyddiadau er defnyddio Tabl celfyddgar, mewn cynull a chymhwyso Gwybodaeth," ac efe a gyflwynodd i'r Gymdeithas Freiniol, draethawd gwerthfawr dan yr enw, "Sylwadau a Phrofion ar oleuni cyrph mewn cyflwr o gyflosgiad," yr hwn a gyhoeddwyd yn y bymthegfed gyfrol a thrugain o'u Holrheiniadau Athronyddol: bu farw yn Southgate, gerllaw Llundain yn 1798.

**BRISGEDWIN**, neu PRYSCEDWIN, sydd dreflan gysylltedig â Thir y brenhin, yn mhlwyf Llandilo, cantref ABERTAWE, swydd FORGANWG, DEHEUBARTH CYMRU, 7 milltir o Abertawe. Y mae yn sefyll ar lethr orllewinol, tir uchel, sydd yn sefyll rhwng y ffordd o Abertawe i Pont ar Dulas, a'r afon Loughor.

**BRITHDIR**, capeliaeth yn mhlwyf mawr GELLIGAER, cantref CAERPHILI, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, 6 milldir i'r De Ddwyrain wrth Ddwyrain,

Digitized by Google

o Ferthyr Tydfil. Y mae yn sefyll mewn dyffryn tlws ar lân yr afonig Rymney, ac y mae yn llawn glô. Oddiyma y mae gweithfeydd mawrion Dowlais yn cael eu glô, ac y mae llawer o hono yn cael ei allforio. Y mae'r Fochriw a'r Deri yn dyfod yn bentrefydd cynyddfawr, ac y mae'r dyffryn yn prysur lanw o anneddai, er fod llawer o'r gweithwyr yn byw yn Merthyr a Dowlais. Heblaw rheilffyrdd y gwahanol lôfeydd, y mae rheilffordd gyhoeddus yn rhedeg drwy y lle, yr hon sydd yn cyssylltu Casnewydd-ar-Wysg â Dowlais. Y mae yma eglwysi adranol, a chapeli heirdd iawn gan y Bedyddwyr, yr Independiaid, a'r Methodistiaid, ac y mae yma amryw ysgolion dyddiol hefyd. Rhif y boblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, oedd 3879; ond y mae gwedi dyblu agos erbyn hyn.

**BRITHDIR** isaf, a Brithdir uchaf, ydynt drefgorddau yn mhlwyf DOLGELLAU, o fewn 2 filltir i'r dref. Y mae yn rhan bwysig o'r gymydogaeth. Yr oedd yma, ar dir fferm a elwir Llety Rhys, hyd yn ddiweddar, un o'r coed Derw enwocaf yn Nghymru. O herwydd ei maintioli a'i harddwch, tybid ei bod o rywogaeth Brenhinbren y Ganllwyd. Y mae yma addoldy gan yr Annibynwyr, gyda chapel arall, a mynwent, a berthynent hyd yn ddiweddar i'r Crynwyr. Claddwyd yr aelod ddiweddaf a berthynai i'r enwad hwnw yn ddiweddar yma. Daeth nifer o'r "Cyfeillion," o Loegr, i dalu eu parch olaf i'w chofion ar ddydd ei chladdedigaeth. Trosglwyddwyd y capel a'r fynwent, am enw o swm, fel pryniant, i'r Annibynwyr, yn feddiant bythol. Y mae y lle yn sefyll mewn man prydferth o'r ardal, ac yn arddangos llawer o ddengarwch yn ei holl derfynau. Dyma le genedigol Ieuan Gwynedd, a fu yn weinidog parchus yn mhlith yr Annibynwyr, ac a adwaenid fel bardd a llenor o fri; Hynododd ei hun yn ei ysgrifau ergydlym ar y Ddirprwyaeth a anfonodd y Llywodraeth, i wneud ymofyniad i ansawdd addysg yn Nghymru, adroddiad o ymchwil pa rai, a gyhoeddwyd yn y cyfrolau a enwid, "Y Llyfrau gleision."

**BRITHDIR**, treflan yn nghantref LLANIDLOES, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU, un ran o dair o ddegwm yr hon, sydd yn perthyn i Syr W. W. Wynne, Barwnig, A.S., o Wynnstay, swydd Dinbych. Cyfrifir y boblogaeth gyd a'r plwyf.

**BRITON FERRY.**—Enw ar blwyf a thref bwysig yn nghantref NEDD, sir FORGANWG, DEHEUBARTH CYMRU, yw Briton Ferry; saif ryw ddwy filldir a haner, de-orllewin wrth dde, o Gastellnedd, ar y brif-ffordd i Aberafon. Mae yn dref borthladdol o gryn bwys, a'i masnach wedi cynyddu yn fawr yn yr ugain mlynedd diweddaf. Deugain mlynedd yn ol, ni chynwysai y plwyf ond 416 o drigolion (Gwel Lewis' Top. Dict. of Wales), ond yn 1861 yr oedd yn rhifo 3870, a cheir gweled yn y ddeiliadeb y flwyddyn hon (1871) fod y trigolion wedi cynyddu yn fawr, o fewn y deng mlynedd diweddaf. Bernir fod y boblogaeth bresenol yn 5000, os nid yn 5500. Hen enw Cymreig y lle, yw Llan Sawyl, ac ar yr enw hwn y gelwir ef yn fwyaf cyffredin gan Gymry y gymydogaeth hyd heddyw. Cafodd yr enw *Briton Ferry* (Rhyd y Brython) oddiwrth glud-fad sydd yn croesi afon Nedd yn ymyl y dref, dros ryd lydan, cyn arllwysiad yr afon i'r *Swansea Bay*. Mae y bad hwn yn bodoli er cyn cof, a gelwid ef am oesau yn Fad y Brenin, ond ni's gwyddis beth a barodd alw y Rhyd ar yr enw Brython. Wrth fyned dros yr afon gyd a'r bad hwn, a chyda glan y mor dros Forfa Crymlyn (Crymlyn Burrows), nid yw y pellder i Abertawy ond o bedair i bum' milldir, tra y mae dros ddeng milldir, wrth fyned ar hyd y brif ffordd trwy Gastellnedd.

Arglwydd tir *Briton Ferry* yw Iarll Jersey, ac y mae yr ardal yn lle o brydferthwch naturiol arbenig. Dywed Donovan, yn ei *Descriptive Excursion of South Wales*, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1804, "Yn ymyl y pentref hwn, mewn ysmotyn neilltuedig, y mae palas prydferth gan Arglwydd Vernon; ac y mae y planigfeydd coed sydd yn gorchuddio cylch eang o gwmpas, ac yn cyflawn brydferthu yr olygfa swynol, yn perthyn hefyd i'w Arglwyddiaeth." Yn wir, y mae y twmpathau uchel coediog, y llanerchau gwyrddlas cysgodol, afon lydan, lonydd, Nedd, yn gorwedd fel drych mawr wrth draed y bryniau, i'w hadlewyrchu, ac amrywiaeth neillduol y golygfeydd, yn rhwym o daro pob perchen llygad hyd heddyw, er cymaint y mae masnach a chelfyddyd wedi anffurfio arno. Prophwydid haner canrif yn ol, y delai yn ymdrochle pwysig i ymwelwyr â glanau y mor, gan ei bod yn ardal mor brydferth, mor gysgodol, yn wynebu y Dehau, a'r hinsawdd mor dyner. Ond daeth twrf masnach a mwg y gweithfaoedd, i groesi hyny. Mae yma Eglwys hynafol mewn man prydferth, rhwng yr afon a'r dref. Curadiaeth barhaol ydyw, wedi ei gwaddoli a 1000*p.*; 400*p.* o rodd bersonol (private), a 600*p.* o rodd freninol. Mae y fynwent a'r eglwys hon wedi eu hanfarwoli â galargerdd odidog o eiddo William Mason y bardd. Byddai Gray a Mason yn arfer talu ymweliadau achlysurol a'r Parch. William Thomas, *Baglan Hall* (ardal brydferth ar y cyffiniau yw Baglan); ac ar un o'r ymweliadau hyn y canodd Mason ei alargerdd. Copiodd Iolo Morganwg hi o lawysgrifen Mason ei hun, a gellir ei gweled yn llawn yn *South Wales Illustrated*, gan Malkin. Y mae yn y gân lawer o gyfeiriadau at arferion y Cymry gyda golwg ar gladdu, ac addurno beddau, &c.; ac mewn un penill cyfeiria at gyfansoddiad poblogaidd ei gyfaill,—Gray's *Elegy*:—

"Yes, had he paced this church-way path along,  
Or leaned, like me, against this ivied wall,  
How sadly sweet had flowed his Dorian song,  
Then sweetest, when it flowed at Nature's call."

Y prif bethau sydd wedi profi yn foddion cynydd a llwyddiant y lle, ydynt y Gamlas, y porthladd, y gweithfaoedd, y Rheilffordd, a'r gwallgofdy. Mae y Camlas yn hen, tua 14eg milldir o hyd ac yn cysylltu y lle a gweithiau glo Cwm Nedd. Mae y lanfa (wharf) ar lan yr afon, ychydig uwchlaw y Bad. Gelwir y fan hono *Giant's Grave*, ac y mae, erbyn hyn, yn bentref, yn cynwys rhai canoedd o drigolion, ac y mae bryn bychan tua haner milldir o led, yn ei wahanu oddiwrth dref Briton Ferry. Er fod cyfleusderau rheilffordd yn rhagorol yma, mae y porthladd yn parhau i gynyddu. Dywed un oedd yn ysgrifenu agos deugain mlynedd yn ol, fod trafnidaeth forwrol y lle yn cynyddu, a bod dros 4000*p.* wedi eu gwario ar y porthladd mewn ychydig flynyddau, y rhai a gasglwyd trwy danysgrifiadau perchenogion y gweithfaoedd, ac eraill a deimlent dros fantais a llwyddiant porthladd Castellnedd, i ba le yr oedd yr afon wedi ei gwneyd yn fordwyol i longau o ddau gant a haner o dunelli. Mae masnach y porthladd wedi cynyddu yn fwy fyth wedi gwneuthuriad y llongborth nofiol, (*floating dock*,) yr hwn sydd yn cymeryd i fyny tua saith erw o dir, a lle y gall llongau o fil o dunelli, nofio. Mae afon Nedd

Digitized by Google

yn fordwyol hyd Gastellnedd, a gweithfaoedd copr, a chynyrchion eraill ar hyd ei glanau. Yn ystod y flwyddyn 1870, daeth 2398 o longau i mewn i'r porthladd hwn. Mae y daflen ganlynol yn dangos masnach porthladdoedd Briton Ferry a Chastellnedd am y flwyddyn yn terfynu Mawrth 31ain 1870; er nad yw hyn ond cyfran fechan o'r fasnach a wneir, gan fod y rheilffordd mor gyfleus i'r ddau le:—

| | Tons. | Dues Paid. | | |
|---|---|---|---|---|
| Coal, Coke, and Culm, ..... | 269,242 | £631 | 0 | 8 |
| Copper Ore, ........................ | 27,941 | 43 | 13 | 1 |
| Copper, ............................. | 623 | 5 | 16 | 7 |
| Iron, .................................. | 44,892 | 187 | 0 | 6 |
| Iron Ore, ........................... | 79,444 | 123 | 3 | 2 |
| Grain and Flour, ............... | 7,608 | 264 | 19 | 2 |
| Tin-plate and Tin, ............ | 5,561 | 52 | 2 | 8 |
| Timber, ............................. | 1,654 | 20 | 14 | 9 |
| Pit and Cord Wood, ......... | 7,585 | 47 | 8 | 1 |
| Miscellaneous, .................. | 13,017 | 180 | 5 | 9 |
| Total, ............................. | 457,567 | £1557 | 4 | 5 |

Mae y gweithfaoedd sydd wedi eu codi yma, wedi anurddo gwedd anianyddol y lle yn fawr, ond y maent yn fforddio defnydd bywioliaeth gysurus i'r lliaws trigolion cynyddol. Mae yma ddwy ffwrnais at doddi haiarn, yn gweithio yn gyson a llwyddianus ys llawer o flynyddoedd; ac y mae yn nglyn a hwynt felinau (forges), i wneyd pob math o haiarn gwaith, o'r rheiliau trymaf hyd at y barau ysgafnaf. Mae yma ddau waith alcan (tin), lle y mae canoedd lawer o weithwyr, sef y *Vernon Tin-plate Works;* a'r *Baglan Tinning Works.* Mae yma *Fuel Works* mawr hefyd, yn awr ar waith, yn perthyn i *Glyncorwg Coal Co.;* sef gwaith at ddirwasgu glo mân, anfarchnadol y glofeydd, yn dalpau celyd, cymhwys i'w cludo mewn llongau, i wahanol wledydd y byd, ac i'w wneyd mor gryf a llosgadwy, a'r glo brasaf. I Briton Ferry y mae arllwysfa y *South Wales Mineral Railway,* o lofeydd Fforchdwm, Avonvale, a mynyddoedd Glyncorwg, lle mae ugeiniau o filldiroedd ysgwâr o arwynebedd o dir glo a mŵn cynyrchiol, heb ond prin dechreu cael ei weithio. Rhwng y cwbl, y mae Briton Ferry yn meddu pob manteision i ddyfod yn lle o'r pwysigrwydd blaenaf.

Hen balasdy ardderchog yn ei ddydd, oedd *Vernon House,* yr hwn a fu am oesau yn eiddo Manselliaid Morganwg; ond priododd un o'r teulu hwn ag Arglwydd Vernon, yr hwn oedd foneddwr enwog am ei haelioni. Bu yn cadw bwrdd rhad, o fwyd a diod am flynyddau, i bwy bynag a droai i mewn i'w mwynhau. Ar ei ol ef, newidiodd y palasdy ei breswylydd droion; hyd oddeutu o 20ain i 25ain mlynedd yn ol, daeth boneddwr o'r enw Mr. Leach drosodd o Devizes, a chymerodd y tŷ i sefydlu nawddle i wallgofiaid ynddo. Llwyddodd yr amcan tu hwnt i bob dysgwyliad; ac y mae y boneddwr hwnw wedi dychwelyd adref ys blynyddoedd, wedi gwneyd ffortun iddo ei hun. Priododd ei ferch âg un Dr. Pegge, ac ymgymerodd ei fab ynghyfraith a'r sefydliad ar ei ymadawiad ef. Pan agorwyd y Gwallgofdy newydd Sirol, yn ymyl Pen y Bont ar Ogwy, symudwyd 250 o'r gwallgofiaid tlotaf yno, a gadawyd tua chant ar ol, yn Briton Ferry—gan mwyaf yn *private patients,* yn cael talu am eu cynaliaeth gan eu perthynasau. Mae y nifer presenol, yn amrywio o'r 100 i'r 150. Perchenog a llywydd presenol y sefydliad hwn, fel y soniwyd, yw Dr. Pegge, ac y mae iddo glod mawr am ei fedrusrwydd, a'i dynerwch tuag at y dyoddefwyr anffodus. Mae y dref yn cael ei llywodraethu gan Fwrdd Iechyd, a nwy yn ei goleuo. Mae yma 8 o addoldai, sef dwy eglwys sefydledig, a chwech o addoldai Ymneillduol. Un fechan ddiaddurn oedd yr hen eglwys blwyfol y soniwyd eisoes am dani, ond adnewyddwyd hi yn ddiweddar ar draul Iarll Jersey. Adeiladwyd yr eglwys arall yn 1866, trwy roddion gwirfoddol, a chostiodd 2500*p.* Am addoldai yr Ymneillduwyr, y mae dau yn perthyn i'r Trefnyddion Calfinaidd, dau i'r Bedyddwyr, un i'r Annibynwyr, ac un i'r Wesleyaid. Adeiladwyd Bethel y Trefnyddion Calfinaidd, Rehoboth y Bedyddwyr, a Bethesda yr Annibynwyr tua'r un amser, sef oddeutu 1848, 9. Mae y ddau olaf wedi eu hail adeiladu yn ddiweddar. Mae capel y Wesleyaid a chapel y Bedyddwyr Seisnig, yn gystal a chapel y Trefnyddion Calfinaidd yn Giants' Grave, yn adeiladau diweddar. Cynwysa y Capelau eisteddleoedd i fwy na 3000, a'r eglwysi i tua 500.

**BROADLANE,** sydd drefgordd yn nghwmwd Merffordd, cantref Uwch Nant, yn mhlwyf Hawarden. Y mae Castell Hawarden, palas Sir Stephen Richard Glynne, Barg., o fewn y drefgordd hon, yr hwn a adeiladwyd gan Sir John Glynne yn 1752.

**BROCHWEL YSGYTHROG,** tywysog Powys, oedd fab i Cyngen ab Cadell Deyrnllwg. Enwogodd ei hun yn mrwydr bythgofiadwy Caerlleon Gawr, wrth ddial gwaed mynachod Bangor Iscoed, ar Ethelffrith, neu Ethelfrid, brenin Northumberland.

Wedi i Awstin fethu yn ei amcan, i gael gan ddysgedigion ac esgobian Cymru dderbyn ei iau ef arnynt, a chydnabod ei feistr, y Pab, yn ben eu heglwys, efe a ddywedodd wrthynt, "Gan nad ydych chwi yn foddlon i ymgyssylltu mewn undeb a'ch brodyr, chwi a gewch ryfel a'ch gelynion, a chan na phregethwch chwi ffordd y bywyd i'r Saeson, chwi a gewch ddyoddef cosp marwolaeth trwy eu cleddyf hwynt." Ac yn unol a'r bygythiad yna, fe ddylanwadodd ef, ac *Ethelbert,* ei noddwr, ar Ethelffrith Wyllt, brenin Northumberland, yr hwn ar y pryd, oedd yn dychwelyd yn fuddugoliaethus gyda byddin gref, o frwydro a'r Ysgotiaid, i ddyfod drosodd i anrheithio gororau Cymru; ac felly arweiniodd Ethelffrith ei fyddin i diriogaethau Brochwel Ysgythrog, yr hwn pan ddeallodd ei nerth, a ddeisyfodd amodau heddwch, ond yr anwariad gwaedlyd ni wrandawai ar hyny, eithr rhuthrodd arno ef a'i fyddin yn agos i Gaerlleon Gawr, fel y gorfu arno ffoi o'r maes, a gadael Mynachlog Bangor Iscoed i drugaredd y goresgynwr; yr hwn pan welodd fintai o'r athrawon a'r efrydwyr, mewn gwisgoedd crefyddol, ac yn anarfog, yn sefyll ger llaw, a ofynodd pwy oeddynt, a pheth oeddynt yn ei wneuthur; ac wedi deall mai gwŷr crefyddol oeddynt, yn gweddio dros eu cydgenedl, a orchymynodd ruthro arnynt, a'u difa yn ddiwahaniaeth, gan ddywedyd, "Mae y rhai hyn yn elynion i ni mor wirioneddol a'r lleill; oblegid y maent yn ymladd yn ein herbyn â'u gweddiau. Rhodder hwynt i'r cleddyf." Felly y dinystriwyd y Fynachlog werthfawr hono, yr hon oedd yn cynwys tuag un cant ar hugain o efrydwyr ac athrawon, fel na ddihangodd o honynt, ond tua haner cant! Cynhyrfodd yr ysgelerder hwn holl Gymru, a daeth y wlad allan fel un gwr i'r dial; Brochwel Ysgythrog, tywysog Powys; Cadfan, brenin Gwynedd; Meredydd, brenin Dyfed; a Bledrws, tywysog Cernyw, a gyfunasant eu byddinoedd yn nghyd ar lan y Dyfr-

Digitized by Google

dwy, ac ymladdfa ddychrynllyd a fu yno; gadawyd deng mil o'r Saeson yn feirwon ar y maes, clwyfwyd Ethelffrith ei hun, ac o'r braidd y dihangodd gyda'i fywyd. Cymerodd hyn le yn y flwyddyn 607, yn ol rhai awdurdodau; neu 613, yn ol eraill.

**BRONCASTELLAN**, treflan yn mhlwyf LLANBADARN FAWR, undeb ABERYSTWYTH, rhanbarth uchaf cantref GENAU'R GLYN, swydd ABERTEIFI, DEHEUBARTH CYMRU, 14 milldir i'r Dwyrain o Aberystwyth. Y mae'n gorwedd mewn parth mynyddig o'r wlad, bron wrth droed mynydd Plynlimon, ac y mae'r brif-ffordd o Aberystwyth i Lanidloes yn myned drwyddi. Y mae'r boblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, yn rhifo 195.

**BRONGWYN**, neu BRYNGWYN, plwyf yn undeb CASTELLNEWYDD, YN-EMLYN, rhanbarth isaf cantref TROEDYRAUR, swydd ABERTEIFI, DEHEUBARTH CYMRU, 1¼ milldir o Gastellnewydd yn Emlyn, ar y brif-ffordd o Aberteifi, drwy Drefhedyn, i Lanbedr-pont-stephan. Amaethyddol hollol ydyw, ac y mae hytrach yn fryniog, ond y mae yn bur gnydiog. Y mae amryw o'r gwragedd yn rai diwyd, ac yn gwneuthur hosanau a gwlaneni, y rhai a werthant yn y Castellnewydd. Mewn ongl a ffurfir gan uniad y Ceri a'r Teifi, ar fryncyn prydferth dros ben, y mae'r diweddar T. Parry Thomas, yswain, Meddyg, wedi adeiladu gwlatty hardd iawn, yr hwn a elwir Aberceri neu Ceri Castle, o'r hwn y ceir golwg hynod o ddymunol ar Ddyffryn Teifi, o'r Gillo-fach i fyny hyd Ben y ddôl, yr hon sydd yn ddrychlen ogoneddus o'r pum milldir mwyaf teleidwych a garai llygad weled. Y mae hen amglawdd cadarn iawn gerllaw yr eglwys, yr hon a elwir Y Gaer. Yn melin Drewen, yn y plwyf hwn, y gânwyd yr enwog Jenkin Thomas. Crydd ydoedd wrth ei alwedigaeth, ond yr oedd yn bregethwr yn hen eglwys Annibynol y Drewen, ac yr oedd yn fardd rhagorol. Yr oedd Shôn Rhydderch, (y bardd, y llenor, a'r argraffydd o'r Amwythig), yn ewythr brawd ei daid iddo, ac mewn gohebiaeth â'i ewythr, y mae ganddo y llinellau canlynol:—

"Siencin gerllaw min y môr,
Ab Tomas ar bob tymor,
Ab Morgan dàn gyfan go',
Ab Rhydderch draserch drwsio,
Ab Dafydd ab Gruffydd graff,
Nôd digrif, ac nid digraff,
Sy'n rhoddi i Shôn Rhydderch
Arwyddion, drwy swynion serch."

Gan fod y Parch. Theophilus Evans, awdwr dysgedig "Drych y Prif Oesoedd," a llyfrau ereill, wedi cael ei eni yn yml y Drewen, sef yn mhlâs Penwenallt, plwyf Llandygwydd; yr oedd Jenkin Thomas ac yntau yn gyfoedion, buont yn cyd-chwareu ar lànau Teifi, ac yn gyfeillion mynwesol drwy eu hoes. Y mae englynion annerchiadol gan Siencin Thomas wedi cael eu hargraffu yn y Drych, ac y mae llawer iawn o'i waith yn "Mlodau Dyfed." Yr oedd yn byw yn y Cwmdû, ar làn yr afonig Ceri, tua milldir o'r Drewen, yr hwn yw un o'r manau mwyaf rhamantus yn swydd Aberteifi. Gânwyd ef tua'r flwyddyn 1688, a bu farw tua'r flwyddyn 1765. Yr oedd ganddo dri mab, sef John, Nathaniel, a Samuel, a'r oll yn gryddion, ac yn feirdd nid anenwog. Symudodd John i Aberteifi, a galwai ei hun yn "Ioan Siencyn o Aberteifi;" gelwid hefyd yn *Shôn Crydd Bach*, ac yr oedd ei lonaid o'r ddawn farddonol. Y mae amryw o'i ganiadau gwedi cael eu hargraffu yn "Mlodan Dyfed," ac yr ydys wedi cael gafael ar amryw ereill o honynt, wedi i'r bardd John Howell argraffu y "Blodau." Gânwyd Shôn, Mawrth 26, 1716, a bu farw o'r caner, Hydref 28, 1796. Claddwyd ef yn mynwent eglwys plwyf Llangoedmôr, a chan nad oes na maen nac arall ar ei fedd, bydd cyn hir wedi myned yn llwyr anghof. Nid oedd Nathaniel yn gymmaint bardd a'i frawd John; ond yr oedd yn ddyn o alluoedd cryfion, ac y mae gwedi gadael amryw ganiadau difyrlawn ar ei ôl, megis "Tiriad y Ffrancod yn Abergwaen," &c. Gânwyd ef tua'r flwyddyn 1722, a bu farw yn nhŷ ei gûr B. Williams, Tafarn-ysgawen, yn 1799. Bu i Samuel fab, a elwid Jenkin Samuel Jenkins, yr hwn oedd ynteu hefyd yn grydd, bardd, ysgolfeistr, a phregethwr. Ymfudodd i America yn 1801, ac wedi gweithio ei grefft yno, a phregethu hefyd am tua 40 mlynedd, bu farw yn Pendleton, Talaeth Carolina Ddeheuol, yn Rhagfyr 1841. Ganwyd mab iddo yn Nghymru, Chwefror 12, 1798, yr hwn a elwid yn Samuel Jenkins, ac y mae yn fyw yn awr. Y mae hwn wedi troi yn Fedyddiwr er yn ieuanc, ac er nad yw awen ei dadau gwedi disgyn arno, y mae yn ysgrifenydd galluog, ac wedi bod o les mawr i Gymry America. Ysgrifenodd gyfres o lythyrau ar Hanes Cymru, i'r *Christian Chronicle*, un o newyddiaduron Philadelphia, yn yr hon ddinas y mae Mr. Jenkins yn preswylio, ac argraffwyd hwy drachefn yn llyfryn, yn 1853, dan yr enw *Letters on Welsh History*, at y rhai y mae gwedi ychwanegu cyfieithiad Seisneg o'r "Trioedd," a Thraethawd ar yr Iaith Gymraeg, gan ei fab, John Samuel. Y mae'r gangen yma o'r teulu, yn troi mewn cylchoedd swyddogol pwysig iawn, a rhai o honynt yn dra chyfoethog; er enghraifft y mae Mrs. Boyd, merch Margaret Siencyn Samuel, yn werth 150,000 o ddoleri. Yr oedd Thomas Jones, crydd, Troedrhiw-shon, yn un o ddisgynyddion y beirdd uchod; yr oedd yn fardd da ei hunan, yn ddyn synwyrgall, ac yn aelod dichlynaidd yn y Drewen. Y mae tri neu bedwar o'i feibion, yn weinidogion parchus gyda'r Annibynwyr. Un o ddisgynyddion y teulu hwn hefyd, yw y Parch. David Davies, (*Dewi Emlyn*), yn awr o'r America. Y mae *Dewi* yn weinidog gyda'r Annibynwyr, ac yn un o feirdd mwyaf coethedig a melusber yr oes hon. Y mae gwedi ysgrifenu hanes ddyddorol anghyffredin, o'r nythed cryddion barddonol yma, i'r "Adolygydd," dàn y penawd "Beirdd Cwmdu."

Yr oedd eglwys Annibynol y Drewen yn un fawr a chyfoethog iawn gynt, ond nid yw mor lluosog ag oedd, am fod amryw gangenau mawrion wedi tarddu o honi. Bu y Parch. Benjamin Evans yn weinidog yma am flynyddau, a bu yn dadleu â'r Dr. Richards o Lyn, ar y pwnc o Fedydd—a dadl ddysgedig oedd hi. Y mae y ficeriaeth, fel eiddo un o'r plwyfi agosaf ato, sef Bettws-Ifan, wedi cael ei huno â ficeriaeth Penbryn; y mae'r eglwys wedi ei chyflwyno i St. Mair. Yr oedd rhif y boblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, yn 339, Mesur y plwyf yn 1620 erw.

**BRONINGTON** sydd drefgordd yn nghwmwd Maelor Saesneg, cantref UWCH NANT, swydd FFLINT, GOGLEDD CYMRU.

**BRONLLYS**, neu BRYNLLYS, ac yn ol rhai, BRWYNLLYS, plwyf yn undeb y GELLI, cantref TALGARTH, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU, 7 milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Aberhonddu, ar y ffordd o'r dref

Digitized by Google

hono i'r Gelli. Y mae'r pentref yn sefyll mewn man prydferth, bron ar lân y Llynfi, gerllaw yr hwn y mae gweddillion hen gastell, am ddechreuad yr hwn nid oes na chof na chadw. Barna Mr. King, yn ei *Munimenta Antiqua*, ei fod wedi cael ei adeiladu rhwng tiriad Iwl Cesar, a theyrnasiad yr Amherawdr Claudius, oddiwrth gynllun Syriaidd, a ddygodd y marsiandwyr Phœnisiaidd i Gernyw, yn yr hon sir y mae tŵr cyffelyb yn sefyll hyd heddyw, mewn lle a elwir Launcestown. Y peth mwyaf tebygol, modd bynag, yw ei fod wedi cael ei adeiladu yn gynar gan y Normaniaid, oddiwrth ryw gynllun dwyreiniol a gawsent hwy yn amser y crwysgadau; ond pa un bynag am hyn, y mae'r hen gastell yn dwyn nodion amlwg o henafiaeth nid bychan. Y crybwylliad hanesyddol cyntaf a gawn ni am dano, sydd yn amser Harri I., yr hwn a'i rhoddodd ef, gyda chastell Llanymddyfri, i Richard Fitz-Pons. Pasiodd wedi hyny drwy deuluoedd pendefigaidd Clifford, Giffard, a de Bohun, i deulu Stafford; a phan ddienyddiwyd Stafford, yr olaf o Dduciaid Buckingham, yn nheyrnasiad Harri VIII., aeth i feddiant y goron. Llosgwyd ef yn ddamweiniol i'r llawr agos, yn y 12fed. ganrif, pan y syrthiodd careg ar ben Mahel, un o neiaint Bernard Newmarch, ac Arglwydd Brycheiniog. Yr oedd Mahel, ar y pryd, yn dygwydd bod ar ymweliad â Walter de Clifford, ac nid oedd yn enwog am ddim, ond ei annuwioldeb. Nid oes ond un tŵr crwn cadarn o hono yn aros heddyw, ac y mae hwnw wedi cael ei adeiladu o geryg mân naddedig. Y mae yma bont gadarn, yr hon a elwir Pont Ithel, yn croesi y Llynfi yn y fan hon; ac y mae'r afonig yn aberu yn yr Wy, gerllaw Glasbury. Y mae yma hen blâs ardderchog o'r enw Pontywal, yr hwn a berthynai gynt i deulu Pabyddol o'r enw Howard. Y mae hen blâs dyddorol arall yma, o'r enw Tref Ithel, yr hwn gynt a berthynai i Ithel, Brenin Gwent, ond y mae yn awr yn amaethdy. Lladdwyd Ithel gan wŷr Brycheiniog, tua'r flwyddyn 846 O.C. Ficeriaeth ollyngol yw y fywioliaeth eglwysig, ac y mae yn cael ei threthu ar lyfrau y frenines yn 4*p.* 16*s.* 0½*c.* Y mae yn rhodd y de Wintons, y rhai hefyd yw meddiannwyr lleygol y degwm. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i'r Forwyn Fair, ac yn un pur fechan; safa y clochdy ychydig ar wahan oddiwrthi, ac y mae yn cynnwys pump o glychau. Y mae llog blynyddol tua 15*p.* wedi ei adael i dylodion plwyf Bronllys. Mewn cae a elwir Croeslechau, ar amaethdy Bryn-y Groes, y mae cromlech fechan. Y mae'r plwyf hwn yn mesur 2109 o erwau, a'r boblogaeth yn ol Deiliadeb 1861, yw 305.

**BRONWEN**, ydoedd ferch Llyr Llediaith, chwaer i Bran Fendigaid, a modryb i Caradog; a chyda'r fath berthynasau byd-enwog, nis gallasai ddianc sylw y chwedlonwyr a'r rhamantwyr. Ond nid yw y ffaith ei bod hi yn arwres rhai o'r *Mabinogion*, yn milwrio yn erbyn dilysrwydd ei chymeriad hanesyddol, ddim mwy nag yw y ffaith bod y Frenhines Elizabeth yn ymddangos yn rhamant Kenilworth, yn profi na bu erioed y fath berson ar orsedd Lloegr. Ac y mae y darganfyddiad diweddar o'i bedd yn *Ynys Bronwen*, yn myned yn mhell i brofi henafiaeth a chywirdeb y Trioedd hanesyddol, a bod hyd yn nod y *Mabinogion*, wedi eu sylfaenu ar ffeithiau. Dywedir yn y Trioedd, i Bronwen dderbyn palfawd (*blow*), yr hwn oblegid ei effeithiau, a alwyd yn "un o dri anfad balfawd Ynys Prydain." Dywed y chwedl, fod Bronwen yn aneddu yn Nghastell Harlech, yn Meirion, yr hwn a elwid gynt, *Twr Bronwen*, ac wedi hyny, *Caer Collwyn;* ac i Matholwch, brenin yr Iwerddon, ei cheisio, a'i chael yn wraig; yr hwn wedi hyny a drodd yn greulawn tuag ati, ac a'i sarhaodd trwy roddi iddi *balfawd* ar ei gwyneb. Dygodd hyny Bran i'r Iwerddon, a bu agos iddo ddinystrio holl drigolion y wlad; a chymerodd ei chwaer tuag adref. "Glaniasant yn Aber Alaw, Talybolion, ac eistedd a wnaethant, a gorphwys. A Bronwen a edrychodd tuag Iwerddon, a thuag Ynys y Cedyrn, ac wedi eu gweled "Gwae fi fy ngeni," ebe hi, "dwy ynys a ddifethwyd o'm hachos," "a chan roddi ochenaid fawr, hi a dorodd ei chalon ac a fu fawr ar hyny. Gwnaethant iddi fedd petrual, a chladdwyd hi ar lan yr Alaw."—*Mabinogi.*

Mae yn y gymydogaeth hono, le o'r enw, Y Werthyr—hen air Cymraeg am *gaer*, neu *amddiffynfa*, ac y mae yn dra thebyg, fod yn y lle ar y pryd hwnw, amddiffynfa filwrol, ac mai dyna y rheswm fod Bronwen yn tynu tuag yno, yn hytrach nag i Gastell Harlech.

Saif y llecyn lle y claddwyd hi, tua deuddeg cam oddi wrth fin yr Alaw, a thua milldir i'r G. Dd. o bentref Llantrisant. Adweinid ef trwy yr oesoedd, wrth yr enw, *Bedd Bronwen*, ac *Ynys Bronwen*, am fod cainc o'r afon unwaith, mae yn debyg, yn rhedeg rhwng y garn a'r tir. Dywedir yn yr ail argraffiad o Camden (1722), "mai y gromlech fwyaf yn Mon ydyw carn Bronwen, ferch Llyr Llediaith, a modryb Caradog." Ac yn y flwyddyn 1813 gwnawd yno y darganfyddiad pwysig a ganlyn. Rhyw amaethwr, ag oedd yn byw ar lanau yr afon Alaw, ac arno eisiau cerig at rywbeth, a aeth i'r crugyn yn ymyl yr afon, ac wedi symud amryw, daeth o hyd i gist o lechfeini geirwon a chauad ar ei gwyneb. Wedi symud y cauad, efe a welai yno wrn (*urn*) o glai garw, haner grasedig, yn gorwedd ar ei gwyneb, yn llawn o ludw ac esgyrn haner faluriedig. Aeth y darganfyddiad yn fuan yn hysbys drwy yr ardal, a daeth y dywediad hwnw o'r hen *Fabinogi* i gof rhai o'r hynafiaethwyr lleol:—

> "Bedd petrual a wnaed i Fronwen, ferch Llŷr
> Ar lan Alaw, ac yno y claddwyd hi."

Gwnawd y peth yn hysbys i Mr. Richard Fenton, hanesydd Swydd Benfro, a thrwyddo ef i Syr Richard Colt Hoare, yr hwn a'i dygodd i'r *Cambro-Briton*, cyf. ii. tud. 71. Anfonwyd yr Wrn i'r Amgueddfa Brydeinig yn 1834; ac wedi ei throsglwyddo hi a'i chynwysiad i brawf gwyddonaeth, cawd allan y ffeithiau canlynol:—Bod yr Wrn yn perthyn i'r dosbarth Lludwaidd, neu Beddrodawl (*Cinerary or Sepulchral Urns*), a arferid i ddal esgyrn llosgedig; ei maint yw—uchder, 12 modfedd; tryfesur yn y man lletaf 11 modfedd; ac yn y genau, 9 modfedd. Ei defnydd yw clai graianllyd, wedi ei haner grasu; ac mae ei hagwedd yn anghelfydd, a hollol syml, heb unrhyw addurn, ond ychydig o fan nodau bychain o amgylch y gwddf a'r genau.

Ac oddi fewn iddi, cawd mân ddarnau o "gwpan yfed" perthynol er pedwarydd dosbarth o'r llestri claddleawl (*mortuary fictilia*). Mae y rhai hyn yn gyffredin yn llestri addurnol, wedi eu gwneyd o glai gweddol deg, a'u crasu yn dda, ac yn cynwys o ddau i dri phint. Ceir y cwpanau hyn yn gyffredin gyda gweddillion na losgasid, ac wedi eu gosod yn agos i'r ysgwyddau. Eu hamcan, mae yn ddiameu, oedd

Digitized by Google

gwasanaethu yr ymadawedig ar hyd ei daith ddychrynllyd, drwy y tywyllwch, i sefyllfa tu draw i'r bedd. Fel y canlyn y dywed yr enwog Broffeswr Owen, am yr esgyrn a gawd yn ngwrn Bronwen:—"Mae y gyfres esgyrn, yn yr hon y mae darnau o esgyrn yr aelodau, a dau ddarn o asgwrn yr ên uchaf, yn perthyn i ddynes, gyflawn, neu yn agos gyflawn oed; Mae y rhai hyn o gorff a gafodd ei losgi. Mae un darn o asgwrn y siol, heb fod o dan effeithiau tan; gallai fod yn rhan o ddynes, ond nid oes un rhwystr iddo fod yn rhan o ddyn ieuanc. Mae hwn yn perthyn i esgyrn-lun gwahanol i'r gweddillion llosgedig."

Dadganai Proffeswr Rolleston ei farn, bod y darn asgwrn siol yn perthyn i ddyn ieuanc, ac nid i ddynes; a chydunai ag Owen, mai esgyrn dynes yw y rhai llosgedig; a darganfu ef ychydig o liw *bronze* ar un o honynt. Ond i derfynu yn ngeiriau Syr Richard, "ni bu erioed ddarganfyddiad mwy dyddorol, gan ei fod yn gwasanaethu i brofi dilysrwydd ein hen ysgrifeniadau Prydeinig, er iddynt gael eu defnyddio i wasanaethu rhamant, fel yn yr engraifft hon; ac i benderfynu amseriad tebygol y claddedigaeth dan sylw, tufewn i ychydig flynyddoedd am yr hyn nad oedd genym obaith byth i gael ein boddhau—amgylchiad at yr hwn yr awgrymir yn brydferth yn niwedd *Barrow Poem* Mr. Bowles." Gwel y pwnc yn cael ei drin yn alluog yn *Archæologia Cambrensis*, vol. xxiv., Third Series.

**BROTHEN**, Sant, ydoedd un o feibion Helig ab Glanawg, yr hwn ar ol i'r mor orlifo tiriogaeth ei dad, a ymroddodd i fywyd crefyddol. Ymsefydlodd yn nghyffiniau Meirion, ac yno yr adeiladodd eglwys, a elwir ar ei enw Llanfrothen. Dydd ei wyl yw Hydref 15ed.

**BROUGHTON**, sydd drefgordd mewn cysylltiad â Brymbo, neu Bryn-bwa, yn y rhan honno o blwyf Gwrecsham, ag sydd yn nghantref Bromfield, swydd Ddinbych, Gogledd Cymru. Y mae yn y gymydogaeth hon gyflawnder o fŵn glo, plwm, a haiarn; ac y mae yma sefydliadau eang, er ys cryn amser, er eu gweithio allan. Y mae y rhai a berthynent i'r diweddar John Wilkinson, Ysw., yr hwn oedd o ysbryd anturiaethus, a medrusrwydd celfydd iawn, ar dir helaeth, gyda pheirianau priodol at hollti, rholio, a dirwasgu; gyda thawddfa gyfleus at lunio bwledi, a magnelau; y rhai a ddefnyddid gan amryw o'r teyrnasoedd, heblaw y wladwriaeth hon. Ond gan fod y gangen hon o'r gwaith, wedi lleihau er ys rhai blynyddoedd, y mae y gorchwylion yma wedi eu troi at olwynion, cledrau ffyrdd, pibellau at sugnedyddion, &c., gydag amrywiaeth o ddefnyddiau cysylltiedig â ffwrneisiau, berwedyddion, &c. Y mae y mŵn haiarn i'w gael yn y bryniau gerllaw, yr hwn a gludir at y tawddfaau gerllaw y gwaith glo, y lle, gyda nerth ager-beiriant, y trefnir yr haiarn yn galenau. Y mae dyfnder y pyllau glo yn amrywio, o gant, i ddeu-cant o latheni, y rhai a weithir gydag olwynion, ac ager-beirianau. Ataliwyd gwaith Brymbo, amser yn ol, drwy ddadl gyfreithiol yn y Ganghellfa, ond y mae y cyfan wedi eu gwastadhau, a'r gwaith yn myned rhagddo yn llwyddianus yn awr. Rhoddodd Thomas, Iarll Arundell, drwy weithred yn 1410, hawl i drigolion Holt, drwy ei oddefiad, i godi glo, a mŵn yn y lle hwn. Y mae yr hen olion o ddiwydrwydd y Saeson, yn adeiladaeth Clawdd Offa, yn rhedeg drwy y gymydogaeth hon, yn agos i Brymbo Hall, lle y mae wedi ei chwalu er gwastadhau y ffordd i'r cledrau, gyda gwaith y glo a'r haiarn. Wrth chwalu rhanau o'r hen glawdd, cafwyd esgyrn ceffylau mewn cadwraeth dda, a phedolau lled eirwon, mewn nifer mawr.

**BROUGHTON** sydd drefgordd yn nghwmwd Merffordd, cantref Uwch Nant, plwyf Pen ar halawg, swydd Fflint, Gogledd Cymru, 2½ milltir o Ben ar halawg. Dywed Pennant, yn flaenorol i'r Gorchfygiad, ei fod yn cael ei ddal gan un Levelot, gwr rhydd-ddeiliadol, ac wedi hyny, y bu yn meddiant un a elwid *Brochetune*, sef Robert de Roelent, neu Rhuddlan, yr hwn a'i daliai dan Huw Lupus, Iarll Caerlleon; gan yr hwn hefyd yr oedd maenor yma, a feddienid unwaith gan Sacsoniad o'r enw Ulmer. Cauwyd i mewn ran o'r Mynydd Cwn-nhinger yma, drwy weithred Seneddol yn 1798. Y mae yma eglwys neu gapel ychwanegol, wedi ei chodi, mewn cysylltiad â pherigloriaeth Pen ar halawg.

**BRUTE**, Walter, o anfarwol goffadwriaeth, er nad yw ei enw wedi ymddangos eto i addurno un Geiriadur Bywgraffyddol, Cymraeg na Seisonig, oedd Gymro o ran tad a mam, a brodor o gymydogaeth Olchon, ar gyffiniau Brycheiniog, a Henffordd. Dygwyd ef i fyny i'r offeiriadaeth, a graddiwyd ef yn Rhydychain, ond ni chymerodd *urddau*. Ymddengys iddo ddewis yn hytrach ddilyn yr alwedigaeth o amaethwr, a phregethu gair y bywyd i'w gydwladwyr, heb urddau offeiriadol; oblegid yn un o'i amddiffyniadau o flaen Esgob Henffordd, y mae yn galw ei hun yn *amaethwr*. Ymddengys iddo gofleidio egwyddorion Wickliffe, pan yn y Brifysgol, a'u cario allan i raddau helaethach nag y meddyliodd Wickliffe ei hun, a'r cyffredin o'i ganlynwyr. Daliai fod llwon, rhyfeloedd, a degymau, yn anngbyfreithlon. Yr oedd yn bleidiwr cyson a gwresog i ryddid gwladol, a chrefyddol, yn nghyda hawl bersonol dyn i farnu drosto ei hun. Wrth rai o'i ddywediadau, ymddengys nad oedd yn credu yr angenrheidrwydd am fedydd dwfr, o leiaf i fabanod, a'i fod yn golygu ffydd a gobaith yn Mab Duw, fel yr unig bethau hanfodol er iechawdwriaeth. Cydunai mewn llawer o bethau a'r bobl dda hyny a ymddangosasant yn y byd yn mhell ar ol ei ddyddiau ef, dan yr enw Crynwyr, ac mewn pethau eraill, cydunai a'r Bedyddwyr. Dywed Titus Lewis, ei fod "yn hynod o ran ei ddysg, ei ddawn, ei wybodaeth, ei sel, a'i ras; ac mai efe, mae yn debyg, oedd y Cymro cyntaf a ddechreuodd ddiwygio ei gydwladwyr o dywyllwch Pabyddiaeth; yr oedd yn barnu y dylai ffydd fod o flaen bedydd, ac nad oedd iechawdwriaeth dynion yn gorphwys ar yr ordinhad hono. Arferai gadw cyrddau yn debyg i'r ymneillduwyr. Credai yn athrawiaeth y Drindod Sanctaidd; digonolrwydd yr ysgrythyr fel rheol ffydd ac ymarferiad; Duwdod Crist; cymod yn ei aberth; gwaith yr Ysbryd Glan," &c.—*Han. Pryd. Fawr, tud.* 137.

Dywed Charles Edwards am dano:—"Yn amser y Wickliffiaid, yr oedd un Cymro nodedig a elwid Walter Brute, o esgobaeth Henffordd, yn hwn oedd ddysgedig, ac yn dyfal gynghori eraill i dduwioldeb, er ei fod ef yn wr llŷg. Argyhoeddodd ei gydwladwyr am swyno drwy eiriau, neu ddwfr bendigaid, gan ddangos "Na leshaodd enw yr Iesu i feibion Scefa." Eglurodd mor wrthwynebol i'r Iesu oedd yr ymarweddiad cyffredin, gan fod Crist yn gorchymyn cariad, nid tywallt gwaed, a bod yr Efengyl wedi diddymu y defodau cnawdol, a bod y Pab yn eu hail osod hwynt i fyny."—*Y Ffydd Ddiffuant, tud.* 281.

Digitized by Google

Ac wrth gofio nodweddau a helyntion yr amseroedd hyny, fe welir pa mor dymoraidd oedd y gwirioneddau uchod, ac mor wronaidd y rhaid fod y dyn a'u traethai, Dyna yr adeg yr oedd yr ymraniad mawr wedi cymeryd lle yn y Babaeth, pan oedd dau Bab, Urban a Chlement, yn ymrafaelio am fod yn ben anffaeledig i'r Eglwys, a'r naill yn dedfrydu y llall i golledigaeth dragwyddol. Yn y flwyddyn 1383 cyhoeddodd y Pab Urban, *Bull*, i alw ar bleidwyr crefydd i gymeryd arfau, a dyfod allan o'i blaid ef yn erbyn Clement, gan addaw i bob un a gymerai ran yn y Rhyfel Sanctaidd hwnw, gyflawn faddeuant o'r holl bechodau, yn nghyda'r holl freintiau a ganiateid i'r croesgadwyr, y rhai a ymladdent dros y Tir Sanctaidd; cyfarfu y *bull* uchod a'r fath lwyddiant yn Lloegr, a hyny yn benaf oblegid i'r Pab ddewis esgob Seisonig, Henry Spencer, Esgob Norwich, i fod yn gadfridog iddo, fel y darfu i haner can mil o wyr traed, a mil o feirch-filwyr, gychwyn allan o dan ei arweiniad, a dechreu gwneyd cryn hafog yn Flanders, a lleoedd eraill, hyd oni roddodd Charles VI. brenin Ffrainc, atalfa effeithiol arnynt. Cynhyrfodd y fath ymddygiad barbaraidd, ysbrydoedd Wickliffe a'i gyfeillion yn y wlad hon, fel y dynoethasant y Babaeth yn y modd mwyaf didderbynwyneb, gan gyhoeddi gwirioneddau yr Efengyl yn eofn a diball. Ac er i Wickliffe ei hun, tra yn fyw, allu dianc rhag cynddaredd y Pab, ni's gallodd amryw o'i ganlynwyr, ac yn eu plith Walter Brute. Dygwyd ef ger bron John Trosnant, Esgob Henffordd, dan y cyhuddiad o fod "wedi haeru yn agored a chyhoeddus, bod y rhai oeddynt yn pregethu, neu yn dewis materion a phardynau croesgadawl (*croised matters and pardons*), (a ganiateid gan yr uchel esgob i'r rhai a gynorthwyent amcan y Parchedig dad, Arglwydd Henry, trwy ras Duw Esgob Norwich, pan yr argymerodd ef a'i daith i ymladd dros y tad sanctaidd, y Pab) yn eglwys-rwygwyr a hereticiaid, ac na's gallai y Pab ddim caniatau y fath bardynau. Hefyd, ei fod yn fynych wedi dyweyd, a haeru yn gyffredin, mai Anghrist oedd y Pab, a cham arweiniwr y bobl, yn hollol groes i gyfraith Crist. Hefyd, ei fod wedi haeru a llafurio i ddysgu y bobl, nad oedd un dyn yn rhwym i dalu degwm nac offrwm; ac os byddai unrhyw ddyn yn ewyllysio gwneyd, y gallai eu rhoddi i'r neb a fynai," &c.

Dyna y prif gyhuddiadau a ddygid yn ei erbyn ef. Ac un arall oedd, "ei fod yn haeru ac yn dysgu, nad oedd sacrament yr allor ddim yn wir gorff Crist, ond coffadwriaethol yn unig."

Dengys yr uchod, y tir yr oedd Brute yn sefyll arno, a pheth oedd cymeriad ei erlidwyr. Cymerodd hyn le, tua'r flwyddyn 1391. Mae yn ymddangos mai hon oedd y waith gyntaf iddo gael ei ddwyn o flaen yr awdurdodau, er ei fod wedi llafurio yn yr ardal hono am amryw flynyddoedd, ac wedi cael ei gyhuddo hefyd rai gweithiau yn flaenorol, wrth Esgob Henffordd, ac Archesgob Caergaint.

Ond profodd cymoedd ac ogofeydd anhygyrch y Mynydd Du, a'r cyffiniau, yn noddfeydd digonol iddo, hyd oni ddarfu i'r esgobion, yr offeiriaid, y mynachod, a holl uchelwyr yr ardal, ag oedd o dan ddylanwad y dwymyn erlidigaethol, gymeryd y pwnc i fyny gyda difrifoldeb; a sicrheir i ni hefyd, bod y brenin (Richard II.), wedi cymeryd rhan arbenig yn ei erlidigaeth. Mae y pethau hyn yn profi, mai nid dyn cyffredin a dinôd yr ystyrid Walter Brute, ond bod ei ddylanwad yn rhwym o fod yn fawr, gan fod ei ofn wedi treiddio trwy yr holl offeiriadaeth, ac hyd yn nod wedi cyrhaedd yr Orsedd Babyddol. Beth a ddaeth o hono ar ol hyn, nid yw yn hysbys. Ond y mae yn sicr bod safle a chymeriad ei elynion y fath, nad oedd fawr obaith iddo am ddim chwareu teg, na chyfleustra i ddianc. Mae enwau dau o'i gyfeillion wedi eu hachub rhag anghof, *William Swinderby*, a *Stephen Bell;* Saeson, mae yn debyg oedd y rhai hyn, a chafodd y cyntaf o honynt ei ferthyru o dan deyrnasiad creulawn Harri IV.! Nid yw yn debyg i lafur y dewrion hyn fyned yn hollol ofer yn Nghymru. Ond nid oes un tremwydd o hono i'w ganfod yn un rhan o Went, oddieithr mai ei ffrwyth ef yw yr eglwys fechan yn Olchon, yr hon sydd yn neidio yn ddisymwth i'n gwydd yn 1633, heb fod neb yn gwybod pwy a'i ffurfiodd, na pha bryd y ffurfiwyd hi.

**BRUTUS**, yn ol yr hanesion ffugiol Cymreig ydoedd fab Sylvius Ascanius, a brenin cyntaf Prydain. Mae ei hanes chwedlonol yn ddyddorol, yn benaf, fel engraifft o'r graddau y gall yr anhygoel a'r rhyfedd, gael ei dderbyn fel gwirionedd. Digwyddodd i Brutus, pan tua phymtheg oed, saethu ei dad pan allan yn hela. Efe, oblegid hyny, a lanwyd o ofid, ac a orchymynwyd gan ei daid allan o'r Eidal. Aeth i dir Groeg, ac wedi dyfod i gymdeithas a rhyw nifer o'r Troiaid, a wasgaresid gan ryfel Caer Droia, a deall mai blagur o'r un boncyff oedd ef a hwythau, efe a ffurfiodd gyda hwynt ryfelgyrch ysbeilgar, ac wedi gorfodi Pandrasus, brenin Groeg, i roddi *Inogen*, ei ferch, iddo yn wraig, a darparu iddo dri chant a phedair a'r hugain o longau, efe a gychwynodd i'r môr. Ar ol cyflawni llawer o orchestion ar hyd cyffiniau Môr y Canoldir, daeth i mewn i Fôr y Werydd, lle yr enillodd fuddugoliaethau enwog ar frenhinoedd Gaul, gan eu hysbeilio o gyfoeth lawer. O'r diwedd, daeth i ryw ynys annghyfaneddol, lle yr oedd teml i'r dduwies Diana, a darbwyllwyd ef gan ei ganlynwyr i ymweled a'r deml, cyflwyno addoliad i'r dduwies, ac i ymofyn a hi, pa wlad oedd wedi cael ei phenodi iddo ef a'i gyfeillion i breswylio ynddi. Felly efe a aeth, gan gymeryd gydag ef Gerion brophwyd, a deuddeg hynafgwr. Wedi cyrhaedd y deml, cyflwynasant eu hunain ger bron yr allor, lle y safai delw y dduwies, i dderbyn addoliad, ac i roddi atebion i'r rhai a ymofynent a hi; hwy a wisgasant lawryfau am eu penau, ac wedi cyneu tân i bob un o'r duwiau, Iau, Mercher, a Diana, hwy a gyflwynasant i bob un, ei aberth. Yna Brutus, gan sefyll ger bron yr allor, a dal yn ei law, lestr cyssegredig, wedi ei lenwi a gwin, yn nghyda gwaed ewig wen, a anerchodd y dduwies fel hyn:—

"Duwies y Coed! yr hon wyt ddychryn byw
I'r Baeddod gwyllt, a'r holl farbaraidd ryw!
Dros yr awyrawl fyd, dy deyrnedd sydd,
A chylchoedd abred pell,—lle nad oes dydd!
Edrycha i lawr ar hwn—dy drydydd fyd—
Datguddia'r wlad, lle cawn breswylio'n nghyd,
A chodi i ti deml, lle trwy hawl
Y gallwn ddathlu iti fythol fawl."

Efe a ail adroddodd y geiriau uchod naw gwaith, wedi hyny rhoddodd bedwar tro o gylch yr allor, tywalltodd y gwin i'r tân, a gorweddodd i lawr ar groen yr ewig, a chysgodd. Ar y drydedd awr o'r nos, gwnaeth y dduwies ei hymddangosiad, a rhagfynegodd iddo ei lwyddiant dyfodol fel y canlyn:—

Digitized by Google

"Brutus! draw, draw yn y Gorllewin Fôr
Ar ynys gain, penodwyd di yn bôr.
Meddianid hi, un waith gan gewri gwrdd,
Y rhai sydd raid iti eu hymlid ffwrdd:
Yno penododd ffawd y bydd iti
Sylfaenu Troia Newydd,—ddeil mewn bri,
Ac ymerodraeth yn dy freiniol lin,
A bâr drwy oesau'r byd o hyd yr un."

O ganlyniad hwy a godasant eu hwyliau, ac wedi iddynt fyned trwy lawer o beryglon ystormydd, a môr-ladron, cyrhaeddasant draeth yr Albion, a glaniasant yn y lle y saif Totness arno yn bresenol, yn swydd Dyfnaint.

Rhanodd Brutus yr ynys rhyngddo ef a Corineus. Difyrwch mawr yr olaf oedd ymryson a chewri; ac yr oedd mwy o'r rhai hyny yn Nghernyw, nag yn un man arall. Yn eu plith yr oedd un anghenfil anferth, o'r enw Gog-Magog, yn ddeuddeg cufydd o uchder, ac mor ofnadwy o nerthol, fel y gallai dynu derwen o'r gwraidd, yr un fath a phe na buasai ond gwialen gollen. Ar ryw ddiwrnod, pan oedd Brutus a'i wŷr yn cynal uchel wyl i'r duwiau, daeth y cawr hwnw, ac ugain o'i gymdeithion, arnynt yn ddisymwth, a gwnaethant hafog ofnadwy, ond yn y diwedd y Troiaid a orfuasant, a lladdasant y cewri i gyd, oddi eithr Gog-Magog, yr hwn a orchymynodd Brutus i'w gadw yn fyw, fel y cai weled ymrysonfa rhyngddo ef a Corineus. Taflodd Corineus ei arfau i lawr, a rhoddodd her iddo i ddyfod i ymgydymu ag ef. Ar ddechreu yr ymrysonfa, Corineus a'r Cawr a safent wyneb yn wyneb, gan afaelyd yn dŷn y naill am y llall, ac ymddyheu yn uchel am eu hanadl; ond dyna Gog-Magog a'i holl nerth yn rhoi y fath wasgfa sydyn i Corineus, nes tori tair o'i asenau. Cynhyrfodd hyny Corineus mor ofnadwy, fel y gafaelodd yn ei wrthwynebydd mewn digofaint, taflodd ef ar draws ei ysgwyddau, rhedodd ag ef i'r traeth agosaf, dringodd i ben clogwyn uchel, a hyrddiodd ef bendramwnwgl dros y creigiau i lawr, nes y disgynodd yn chwilfriw yn y gwaelod, ac y cochwyd y tonau gan ei waed. A gelwir y lle hwnw yn, "Naid Gog-Magog," hyd y dydd heddyw!

Ymddengys bod y chwedl ramantaidd uchod am Brutus, y Troiaid, a'r cewri, wedi bod gymaint yn ffafr trigolion y wlad hon, fel y cafodd ei goddef i ffurfio rhan o'n hanes cenedlaethol am dros bedwar cant o flynyddoedd. Yr amcan o barhau enwogrwydd y chwedl hon, a roddodd fodolaeth i'r ddwy ddelw anferth, o Gog-Magog a Corineus, a gedwir yn awr yn *Guildhall*, Llundain. Yn amser coroniad y frenines Elizabeth, gosodwyd hwynt i sefyll o flaen *Temple Bar*. Arferid gynt eu cludo trwy y ddinas, fel rhan o orwychedd arddangosfa yr Arglwydd Faer. Nid yw yn annhebyg iddynt gael eu bodolaeth mor foreu a'r ddeuddegfed, neu y drydeddganrif ar ddeg, pan oedd *Brut* Sieffre o Fynwy yn cael ei gredu, hyd yn nod gan y bobl fwyaf dysgedig.

Fel y canlyn y sylwa *Speed*, yr hanesydd, ar y chwedl hon, yn nechreu yr ail ganrif-ar-bymtheg:—"Yr olaf, ond y farn *dra chlodfawr*, am feddianiad a phoblogiad yr ynys hon, yw yr un am Brutus, a goleddwyd yn gyffredin am y pedwar can mlynedd hyn, (oddieithr rhyw ychydig o eithriadau), yr hwn gyda'i Droiaid gwasgaredig, a ddaeth i mewn ac a orchfygodd yr ynys, yn y flwyddyn o oed y byd 2887, wedi y diluw 1231, yn y ddeunawfed flwyddyn o offeiriadaeth Eli yn nhir Irael, a chyn ymgnawdoliad Crist, un fil a phedair-ar-bymtheg a deugain." Camden, yr hwn a ysgrifenodd yn niwedd yr unfed-ganrif-ar bymtheg, oedd y cyntaf braidd o'n haneswyr, a anturiodd ameu gwirionedd y chwedl hir-goeliedig uchod. Ac er ei bod yn cael ei gwrthod yn awr, gan bob un ag sydd yn meddu unrhyw hawl i gael ei ystyried yn feirniad mewn hanesyddiaeth, eto y mae amryw yn dal eu gafael ynddi hyd y dydd heddyw.

**BRUTUS** (Darian Las), oedd yr hynaf o ugain o feibion Efrawg, brenin Prydain, yr hwn, medd y *Brutiau*, a ddilynodd ei dad i'r orsedd, yn y flwyddyn o.b. 3009.

**BRWYN**, oedd un o feibion Cunedda Wledig; amddiffynodd ei wlad yn enwog yn erbyn y Saeson, yn y bumed ganrif.

**BRWYNLLYS**, Bedo, a ystyrid yn un o feirdd enwocaf ei oes. Trigai yn Mrwynllys, ar lan yr afon Llyfni, yn Mrycheiniog tua chanol y bymthegfed ganrif. Dywedir iddo gyfansoddi llawer o farddoniaeth, ac ymddangosodd llinellau cyntaf dau ar bymtheg o'i gyfansoddiadau, ar amlen *y Greal*. Efe a gasglodd yn nghyd weithiau Dafydd ab Gwilym, y rhai a gyhoeddwyd gan Owain Myfyr, a Dr. Owain Pughe, yn 1789. Claddwyd ef yn Llanfor.

Yr oedd bardd arall, o'r enw Edward Brwynllys, yr hwn a raddiwyd yn "ddysgybl ysbas" Cerdd Dafod, yn Eisteddfod Caerwys, yn 1567.

**BRWYNOG**, Sion, oedd enw barddonol Sion ab Hywel ab Llywelyn ab Ithel, o Brwynog, ger Llanfflewyn, Mon. Blodeuai rhwng 1520 a 1560. Ymddengys ei fod, nid yn unig yn fardd awenyddol a synwyrlawn, ond hefyd yn bencerdd, a hanesydd o enwogrwydd. Canys dywed Lewis Dwn am dano:—"Sion Brwynog o Ynys Fon, Pencerdd, a ysgrifenodd am y Tair Talaeth." Yr oedd trigolion Mon yn yr oes hono, yn hynod o ofergoelus, ac ar un adeg, o herwydd credu y brudwyr ar daroganwyr, yn disgwyl diwedd y byd, ac yn esgeuluso llafurio a hau y maesydd; am hyny gwnaeth Sion Brwynog yr Englyn canlynol, i geisio eu hargyhoedi o'u hynfydrwydd:—

"Arddwn, gweddiwn bob ddau—yn gefnog;
Nac ofnwn y *Brudiau;*
Tirion hedd, tariwn i hau,
Tra fo un o'n terfynau."

Yr oedd yn wladgarol a brwdfrydig iawn dros frenin-llwyth y Tudoriaid o Benmynydd, Mon.; a chyfansoddodd Awdl Foliant i Harri VIII.; yr hon a ellir weled yn y *Drysorfa Hynafiaethol.*

Gelwid ef weithiau, "y Cardiwr Du;" a bu ymrysonfa farddonol rhyngddo unwaith, a Gruffydd Hiraethog.

Yr oedd bardd arall o'r enw Lewis Brwynog yn byw o 1550 i 1580.

**BRYAN**, John, ydoedd weinidog enwog gyda'r Trefnyddion Wesleyaidd. Ganwyd ef yn Llanfyllin, Swydd Drefaldwyn, yn y flwyddyn 1770. Ymunodd a chrefydd yn Nghaerlleon, ac yr oedd wedi dechreu pregethu pan sefydlwyd y genadiaeth yn Nghymru. Cymerwyd ef i'r genadiaeth hono yn 1801, a bu yn llafurio yn Nghymru hyd 1816, pan symudwyd ef i Loegr, lle y bu yn gweinidogaethu yn yr iaith Seisnig hyd 1824, pan y peidiodd a bod yn weinidog. Yna sefydlodd mewn masnach yn Lloegr, ac wedi hyny yn Nghaerynarfon, hyd ddiwedd ei oes. Yr oedd ei ddoniau pregethu yn boblogaidd, ac yr oedd ganddo fedrusrwydd neillduol i gyfieithu, ac efelychu barddoniaeth Seisnig. Ei gyfieithiadau ef, yw agos yr

Digitized by Google

oll o'r Hymnau Wesleyaidd. Ysgrifenodd lawer i'r *Eurgrawn Wesleyaidd.* Cyfieithodd a chyhoeddodd y llyfrau canlynol:—"Bywyd Mr. John Haime, 1811," "Hanes Bywyd John Nelson, 1812," "Bywyd Iago Arminius," "Wesley ar Iachawdwriaeth Gyffredinol, 1841." Bernir fod ganddo rywbeth i'w wneyd a chyfieithiad y llyfrau canlynol hefyd:—"Gwirionedd Iachawdwriaeth Gyffredinol, gan esgob Beveridge, 1802;" "Yr Arfaeth fawr dragwyddol, 1803;" Etholedigaeth ddiamodol, 1803," &c.

Ymddangosodd un bregeth o'i eiddo yn *y Pymtheg a Deugain o Bregethau Wesleyaidd*, 1842, ac un neu ddwy yn yr *Eurgrawn.* Bu farw yn Nghaernarfon, Mai 28, 1856, yn 87 oed.

**BRYCHAN BRYCHEINIOG** ydoedd un o batriarchiaid Cymru. Tair gwelygordd Santaidd Ynys Prydain, ydoedd eiddo Bran Fendigaid, Cunedda Wledig, a Brychan Brycheiniog. Ganwyd ef yn niwedd y bedwaredd ganrif; ac yn ei oes ef y daeth y ddau bla ofnadwy i mewn i Brydain, y carn-ladron barbaraidd, a elwid y Saeson, a'r Pictiaid; a'r heresi Belagiaidd, y rhai, cydrhyngddynt, a ddifrodent fyd ac eglwys.

Mab ydoedd Brychan i Awlach Mac Gormac, yr hwn hefyd a elwid Anllech Goronawg, mab brenin y Brigantwys yn Iwerddon, o Marchell, unig ferch Tewdrig, tywysog y lle a elwid gynt Garthmadryn, ac yn awr Brycheiniog.

Mae hen Ysgrif yn y Cott. MSS. o'r enw, "Of the Situation of Brecknock," ysgrifenedig, fel y tybir, tua'r flwyddyn 900, yn adrodd ei hanes yn debyg i hyn:—"Derbyniodd Brycheiniog ei henw oddiwrth Brychan. Yn yr hen amseroedd, tiriogaeth Tewdrig ydoedd, yr hwn a ddaethai yn gyntaf i Garthmadryn, ac a symudodd gyda'i deulu wedi hyny i Brancoyn (Bryn Gwyn) ger Llanfaes. Un ferch oedd ganddo, a elwid Marchell, yr hon a garai yn fawr. Tua'r adeg y daeth y dywysoges i addfedrwydd oedran, yr oedd rhyw bla dinystriol yn tramwyo trwy y wlad. Tewdrig, gan hyny, yn ofnus am fywyd ei unig ferch, a ddywedodd wrthi:—"Mae llymder yr oerfel yn effeithio arnat yn fawr, felly byddai yn werth, fy merch, i geisio gwisg fân-flew i'th gadw rhag yr oerfel; ac mi a'th anfonaf gyda thri chant o wyr i'r Iwerddon, at Awlach, ab Coronac, brenin y wlad hono, yr hwn a'th brioda di?" Felly fe anfonodd dri chant o wŷr, a deuddeg morwyn anrhydeddus gyda hi i'w thaith (yr hon yn ol yr hanes, a fu yn dra anffodus). Y noson gyntaf, cyrhaeddodd Lansevin (yn agos i Langadog, Swydd Gaerfyrddin), lle bu farw gant o'r gwyr, o herwydd llymder yr oerfel. A'r ail noson, daeth i Mathrwn (Madrim, Swydd Gaerfyrddin), lle y collodd gant arall, drwy yr un achos. Y drydedd noson a'i dygodd i Porthmawr, yn agos i Dy Ddewi, yr hwn oedd yn fwy tymherus; ac oddi yno, hi a hwyliodd gyda'r cant oedd ganddi yn weddill, drosodd i'r Iwerddon, lle y derbyniwyd hi gyda dawns a llawenydd gan Awlach, yr hwn a'i priododd hi dan yr adduned, os buasai yn dwyn iddo fab, y buasai ef yn dyfod gyda hi i Brydain, fel na buasai y bachgen yn cael ei ymddifadu o'i deyrnas. Wedi yspaid o amser, rhoddodd Marchell enedigaeth i fab, yr hwn a enwyd yn Brychan; a phan oedd Brychan yn ddwy flwydd oed, dychwelodd ei rieni gydag ef i Gymru, a gwnaethant eu cartref yn Benni. Gosodwyd Brychan o dan addysgiaeth hen wr o'r enw Drychan; a phan yn bedair oed, galwyd ef, Brychan Brycheiniog, a dygwyd ef i Garthmadryn, lle yr arferai Tewdrig, ei daid, gadw ei lŷs; a phan yn saith oed, dywedodd Drychan wrtho, 'Dwg i mi fy ngwaywffon;' ac yr oedd Drychan yn ddall yn ei hen ddyddiau, a thra yr oedd efe yn gorwedd i wylio, daeth baedd allan o'r goedwig, a safodd ar lan yr afon Yskir (Usk), ac yn yr afon, o'r tu ol iddo ef yr oedd carw, a physgodyn o dan ei fol, yr hyn oedd yn arwydd o lwyddiant a llawnder i Brychan. Ar lan yr afon uchod hefyd, yr oedd pren ffawydd, lle yr arferai y gwenyn wneuthur mêl, a dywedodd Drychan wrth Brychan ei ddysgybl, 'Wele mi a roddaf i ti y pren hwn sydd yn llawn o wenyn a mêl, ac aur ac arian, a bydded i ras Duw aros gyda thi yma, ac yn y byd a ddaw.' Pan oedd Brychan yn ddyn ieuanc, anfonodd ei dad ef yn wystl i Benlli-gawr, brenin Teyrnllwg (neu Powys), a thra yno efe a halogodd ei ferch ef, a hi a ymddyg iddo ef fab, yr hwn a alwodd efe yn Cynog; ac ar ei fedyddiad ef yn y gwersyll, tynodd Brychan freichled oddi am ei fraich ei hun, a rhoddodd ef am fraich ei fab. Mae y Sant Cynog hwn yn enwog iawn yn Mrycheiniog; ac mae y breichled yn cael ei gadw yno, medd y chwedl yn mysg creiriau gwerthfawr, hyd y dydd hwn." Ymddengys mai y rhinwedd mawr a briodolid i'r breichled oedd hyn, pan ddygid ef i'r frawdlys, na feiddiai neb ddwyn cam dystiolaeth, na thyngu anudon yn ei wydd.

Tua'r flwyddyn 400 daeth Brychan i lawn feddiant o etifeddiaeth Garthmadryn, trwy hawl ei fam; ac o hyny allan, galwyd y wlad ar ei enw ef, yn Brycheiniog. Bu iddo dair o wragedd, Eurbost, Ambrost, a Pharwystry, yn nghyda dwy neu dair o ordderchadon, ac o honynt oll, efe a gafodd medd rhai hanesion, haner cant o blant, sef pedwar ar hugain o feibion, a chwech ar hugain o ferched; y rhai, medd y *Trioedd*, "a ddug efe i fyny ar ddysg a bonedd, fel y gallent ddangos y Ffydd yn Nghrist i Genedl y Cymry, lle ydd oeddynt yn ddi ffydd."

Enwau ei feibion oeddynt Cynog, Cledwyn, Dingad, Arthen, Cyflefyr, Rhain, Dyfnan, Gerwyn, Cadog, Mathaiarn, Pasgen, Nefai, Pabiali, Llechau, Cynbryd, Cynfran, Hychan, Dyfrig, Cynin, Dogfan, Rhawin, Rhun, Cledog, a Cain. Ac enwau ei ferched oeddynt Gwladus, Arianwen, Tangwystl, Mechell, Nefyn, Gwawr, Gwrgon, Eleri, Lleian, Nefydd, Rhieingar, Goleuddydd, Gwenddydd neu Gwawdrydd, Tydiau, Elined, Ceindrych, Gwen, Cenedlon, Cymorth, Clydai, Dwynwen, Ceinwen, Tydvyl, Enfail, Hawystyl, a Tybiau. Amryfeilia rhai awdurdodau gryn lawer oddiwrth y rhestr uchod; a dwg eraill eu nifer i gylch llai, gan ystyried bod amryw o'i wyrion yn cael eu cyfrif yn eu plith. Ond y mae yn wybyddus i'r rhan fwyaf o'i blant ymgymeryd a bywyd crefyddol yr oes, gelwir llawer o eglwysi a phentrefydd ar eu henwau; a deilliodd o honynt amryw Seintiau, Tywysogion, a Beirdd.[1]


Dywed yr hen ysgrif a ddyfynwyd eisioes "Bod Bedd Brychan yn yr ynys a elwir Ynys Brychan, yn agos i Man; bedd Rhun ab Brychan, yn Llandefailiog; bedd Cynog Merthyr (ab Brychan), yn Brycheiniog: a bedd Awlach (tad Brychan), o flaen drws eglwys Llanspyddyd."

**BRYCHAN**, Rhys, bardd, a flodeuai tua y

[1] Dywed Theophilus Jones mai paisarfau Brychan yw y rhai a ddynodant swydd Frycheiniog yn bresenol; a thybia eu bod wedi eu ffurfio er cof am y pla dinystriol y cyfeiriwyd ato eisoes. Gwisgir hwynt yn bresenol gan Gwynniaid, Glanbrân, swydd Gaerfyrddin, a Garth a Buckland, swydd Frycheiniog.

Digitized by Google


BRECKNOCK.
SWYDD BRYCHEINIOG
English Miles
Milldiroedd Seisnig
0 1 2 3 4 5 6
Railways
RADNOR
(SWYDD FAESYFED)
CARDIGAN
(SWYDD ABERTEIFI)
NEW RADNOR
KINGTON
RHAIADR GWY
Nantmel
Llanbadarn fawr
Llandrindod Wells Sta.
Capel nant gwyllt
Llanwrthwl
Doldowlod Sta.
Newbridge on Wye Sta.
Llanfihangel Bryn Pabuan
Llanafan fawr
Builth Road Sta.
Llanelwedd
Llanfaredd
BUILTH
Llanganten
Llanafan fechan
Llanynis
Maesmynis
Llanlleonfel
Llangammarch
Llanwrtyd
Llanddewi Abergwessin
Llanfihangel Abergwessin
Drygarn 2120
Aberedw
Capel Alltmawr
Llangynog
Erwood Sta.
Glanddwr
Crickadarn
Llanstephen
Llowes
Clyro
Clifford
Brilley
Whitney
To Hereford
HAY
Cusop
Boughrood
Glasbury
Llanigon
Llyswen
Merthyr cynog
Capel Dyffryn Honddu
Llandulas
Cefn Llwyd
Cynghordy Sta.
Esgair Garthen
Bryn garw
R. Wye
R. Ithon
R. Elan
R. Towy
R. Arrow
Digitized by Google




BLACKIE & SON, LONDON, GLASGOW & EDINBURGH

Digitized by Google

flwyddyn 1500. Mae ei hanes wedi ei golli; ond dywedir fod peth o'i waith ar gael mewn hen Ysgrifau.

**BRYCHEINIOG**; sydd un o siroedd DEHEUBARTH CYMRU; ei hyd yw 30 m. a'i lled tua 27 m. Y mae yn cael ei therfynu ar y gogledd, gan swydd Faesyfed; ar y gorllewin, gan siroedd Aberteifi a Chaerfyrddin; ar y dde, gan Forganwg a pharthau gorllewinol Mynwy; ac ar y dwyrain, gan swyddau Seisnig Mynwy a Henffordd; ac yn cynwys tuag saith gant, pum deg a phedair milltir ysgwar o dir. Y mae y boblogaeth, yn ol y rhifiant diweddaf, yn 61,627. Y mae yn drydedd o faintioli yn mysg Siroedd y Deheubarth.

Yn amser goresgyniad Brydain gan y Rhufeiniaid, yr oedd y wlad hon yn ffurfio rhan o diriogaethau yr Essyllwyr; y bobl a hynodasant eu hunain, dan eu harweinydd Caradog, yn eu gwrthwynebiad i ymosodiadau y byddinoedd Rhufeinig dan Ostorius Scapula; y lle y bu yr ymdrechion hyny, ydoedd gwlad y Gordofigion, yn awr a gynhwysir, o fewn ychydig yn Ngwynedd; ac ymddengys na bu i'r Rhufeiniaid, er bod yn fuddugol, ymwthio yn mhellach yn mlaen i'r rhan hon o'r wlad, hyd wedi gorchfygiad Caradog. Y mae Mr. Theophilus Jones, hanesydd sir Frycheiniog, yn barnu fod yr adeiladau milwrol, o ba rai y mae ychydig o weddillion yn aros, wedi eu codi, gan mwyaf, yn amser Ostorius; ond nid ymddengys fod yr Essyllwyr wedi eu llwyr orchfygu, hyd wedi dyfodiad Julius Frontinus yma, tu ar flwyddyn 70. Yr oedd gan y Rhufeiniaid ddwy brif orsaf, o fewn terfynau y wlad, un a elwid *Caer*, neu *Caer Bannau*, tua thair milltir o Aberhonddu, a'r un arall a elwid "*Y Gaer*," yn agos i Lanfihangel Cwm dû, yn nghantref Crughywel: y brif ffordd ydoedd *Via Julia Maritima*, yr hon a gyrhaeddai dros y wlad, o ddwyrain i orllewin, ac eraill oeddynt mewn cysylltiad a'r gorsafau. Nid oes dim neillduol wedi cael ei gofnodi mewn perthynas i'r wlad hon yn mhellach, hyd wedi mynediad y byddinoedd Rhufeinig o Frydain, pan y dosbarthwyd y wlad yn fân lywodraethau, yn cael eu rheoli bob un gan ei thywysog ei hun; o ba rai, gyd ag ychydig o amrywiad, yr oedd y sir hon yn ffurfio un, dan yr enw *Brycheiniog;* enw oedd wedi ei gymeryd oddiwrth un o'i thywysogion annibynol cyntaf, a elwid *Brychan*, ac a gyfnewidwyd gan y Cymry, i *Brycheiniawg*, a *Brycheiniog;* a chan y Saeson i *Brecknock*, a *Brecon*. Y mae Brychan yn cael ei hynodi yn benaf yn yr hanesion Cymreig, am nifer, dysgeidiaeth, a duwioldeb ei blant; amryw o ba rai a ddaethant yn saint cyssegrol yr eglwysi plwyfol, a thrwy hyny, a gyflwynasant eu henwau i'r gwahanol blwyfydd. Y mae holl deulu y penadur hwn, yn cael eu dynodi yn Nhrioedd Ynys Prydain, fel un o *dri thylwyth santaidd Prydain.* Wedi ei farwolaeth, rhanwyd ei diriogaethau, yn ol defod etifeddiaeth yn mysg y Brython, yn gyffelyb i gydafaelaeth yn mhlith y Saeson, rhwng ei ddau fab Cledwyn, a Rhain, y rhai nad oeddynt, fel y lleill, wedi myned i urddau cysegredig; ond darfu i Caradog Freichfras, ŵyr i Brychan, yr hwn oedd yn byw tua diwedd y bumed, neu ddechreu y chweched ganrif, ad-uno yr holl dywysogaeth, dan ei lywodraeth ei hun, ac y mae yn cael ei hynodi yn yr hanesion Cymreig, fel un o'r barwniaid a ymladdodd dan y gwron Brytanaidd Arthur; ymddengys fod y blaenor hwn wedi estyn ei lywodraeth dros y tiriogaethau a elwir *Ferregs*, sydd yn gorwedd rhwng yr afonydd Hafren ac Wy, ac yn cynwys sir Faesyfed, fel y mae yn awr. Olynwyd Caradog gan ei fab Cawrdaf, a elwid yn y Trioedd yn *un o dri phrif weinidogion Prydain;* ond ychydig a wyddir am ei ddisgynyddion, a'i olynwyr, hyd amser teyrnasiad Teithwalch; tua dechreuad yr wythfed ganrif; y cyfnod sydd yn hynod yn hanes Deheubarth Cymru, am ei oresgyniad cyntaf gan y Saeson, dan arweiniad Ethelbald, Brenhin Mercia, rhwng yr hwn a'r Brutaniaid y bu brwydr drychinebus, a ymladdwyd yn Ngharno, yn mhlwyf Llangatwg; yr hon a gymerodd le yn ol yr hanesion Cymreig, yn y flwyddyn 728. Olynwyd Teithwalch gan ei fab Tegyd, tiriogaethau yr hwn, pa fodd bynag a leihawyd, drwy y fuddugoliaeth a gafodd Offa, brenin y Sacsoniaid, ar barthau mwyaf ffrwythlon Ferregs; yr hwn a'u dadgysylltodd oddiwrth y rhanau eraill o'r tiriogaethau Brytanaidd, drwy adeiladu y terfyn uchel a elwir Clawdd Offa; yn cyrhaedd yn ogleddol o'r Wy yn swydd Henffordd, ar draws y cyffiniau. Y tywysog nesaf yn Mrycheiniog, am yr hwn y mae unrhyw hanes o bwys, a elwid Hwgan; enw wedi ei Ladineiddio i Huganus, yr hwn, wedi penderfynu cymeryd mantais ar y cyfleusdra a gafodd drwy filwyr Iorwerth yr Hynaf, oedd yn ymdrechu i wrthwynebu goresgyniad a wnaethai y Daniaid, a gynullodd ei holl fyddinoedd yn erbyn y fyddin Sacsonaidd; ond drwy gael ei wrthwynebu yn annisgwyliadwy gan gadrodau nerthol, dan arweiniad chwaer Iorwerth, yr wrol Ethelffleda, yr hon gan gymeryd mantais ar ei llwyddiant, a aeth rhag ei blaen, gyda'r brys mwyaf, i ganol tiriogaethau Hwgan, ac a ymosododd ar y castell, ac a ddygodd ymaith ei wraig a'i weinyddion. Nid ydyw lle y safai y castell hwn, yn adnabyddus yn awr; a elwid gan yr haneswyr Saesonig *Brecenaumere;* ond tybir mai tua Blaenllyfni yr ydoedd, yn agos i Lyn Safaddan. Ffodd y tywysog Cymreig i wersyll y Daniaid yn Derbi, lle y syrthiodd wrth geisio amddiffyn y dref rhag ymosodiadau y byddinoedd Saisonig. Olynwyd Hwgan gan ei fab Dryfin, tiriogaethau yr hwn a oresgynwyd yn llwyddianus gan Athelstan, y llywydd Sacsonaidd: a gwasgwyd ef, nid yn unig i dalu teyrnged, ond difeddianwyd ef hefyd o'r hyn oedd yn weddill ganddo yn ngwlad Ferregs. Tua y flwyddyn 982, goresgynwyd Brycheiniog gan Alfred, Iarll Mersia, yr hwn a ddifrododd yr holl wlad agos i gyd; ond o'r diwedd efe a ymlidiwyd ymaith drwy gymhorth y tywysogion Cymreig eraill. Yn nheyrnasiad Dryfin hefyd, tu a'r flwyddyn 944, gwnaed mesuriaeth ar diriogaeth Brycheiniog, fel pob man arall yn Nghymru, drwy orchymyn Hywel Dda, yr hwn oedd wedi sefydlu penteyrniaeth dros Gymru oll, ac wrth ranu y llywodraeth hon rhwng ei ddau fab, a gynhwysodd y dosparth hwn yn nheyrnas Dinefawr, neu Ddeheudir Cymru. Yr oedd cantref Buallt neu Builth, ryw fodd y pryd hwnw yn perthyn i Brycheiniog. Bleddyn ab Maenarch, ŵyr Dryfin, yr hwn a briododd chwaer Rhys ab Tewdwr, llywydd y Deheubarth, ydoedd tywysog olaf Brycheiniog.

Rhys ab Tewdwr, yn ol barn Mr. Jones, (er fod hyn yn anghytuno, yn nghylch y tywysog hwnw, â'r hyn a ddywed ysgrifenwyr eraill, y rhai sydd yn golygu fod Rhys wedi cael ei ladd yn mrwydr Hirwaen), wedi cael ei orchfygu yn mharth gogleddol Morganwg, yn benaf drwy allu y Normaniaid dan Robert Fitz-Hamon, a ffodd gyda'r ychydig weddill oedd yn ei ganlyn, i diriogaeth ei frawd-yn-nghyfraith

Bleddyn; tra yr oedd llwyddiant y Normaniaid wrth oresgyn sir Forganwg iddynt eu hunain, yn annog eraill o'u cydwladwyr, drwy ganiatad eu penadur, i'r hwn yr oeddynt i dalu gwarogaeth am y tiroedd a enillid fel hyn, i ymgais am ragor o fuddugoliaethau. Un o'r rhai hyn ydoedd Bernard Newmarch, yr hwn yn y flwyddyn 1088, gyda byddin fawr o ganlynwyr, a aeth i diriogaethau Bleddyn, yr hwn, gyd a'i frawd-yn-nghyfraith, a orchfygodd efe mewn brwydr a ymladdwyd gerllaw Caer Bannau, ar lanau yr Wysg; canlyniad yr hon ydoedd yn ffafriol iawn i'r Normaniaid; cafodd Bleddyn ei ladd wrth ei amddiffyn ei hun yn ddewr yn ei lŷs ei hun, a Rhys ab Tewdwr, yn ol yr awdurdod uchod, wrth ffoi. Bernard, wedi cael meddiant hollol ar dywysogaeth hynafiaethol Brycheiniog, a'i dyrchafodd yn gyffiniaeth arglwyddol, gan gyflwyno rhan o honi i'w ganlynwyr, ond y rhan fwyaf iddo ei hun, gydag awdurdod oruchaf dros y cyfan; caniataodd hefyd amryw ranau o dir i feibion Bleddyn, at eu cynhaliaeth, ac a ddangosodd gryn barch i Gwrgant, yr hynaf o honynt; ac er mwyn enill rhyw radd o boblogrwydd, priododd y barwn cyfrwys, wraig o'r teulu brenhinol Cymreig, a elwid Nest, wyres Gruffydd ab Llewelyn, tywysog Gogledd Cymru. Efe a ddinystriodd Gaer Bannau, yr hen brif-ddinas oedd yn perthyn i'w dalaeth newydd, ac a adeiladodd gastell Aberhonddu â'r defnyddiau, yr hwn a sefydlodd fel ei breswylfod, ac a fu mewn canlyniad yn brif eisteddle y llywodraeth. Yn mhlith gweithredoedd diweddaf ei fywyd, efe a wnaeth weithred dda, fel iawn am ei weithredoedd drygionus o ormes, a thrais ac ysbail, drwy gyflwyno rhoddion at adeiladau crefyddol: nid yw amser ei farwolaeth wedi ei gofnodi, ond bernir mai yn nheyrnasiad Harri I., y dygwyddodd, a chladdwyd ef yn eglwys Gadeiriol Caerloew. Difeddianwyd Mahel, ei fab hynaf o'i wraig, drwy iddi gyfaddef yn ngwydd Harri I., mai ordderch ydoedd; a Sybil, ei ferch hynaf, yr hon y sicrhai ei mham, ei bod yn ferch gyfreithlon iddo, a ddaeth i feddiant o arglwyddiaeth Brycheiniog, yr hon a gyflwynodd hi mewn priodas i Milo Fitz-Walter, hedd-geidwad Caerloew, yr hwn, o blegid ei wasanaeth o blaid achos yr Ymerodres Matilda, a ddyrchafwyd yn Iarll Henffordd. Dilynwyd ef yn ei deitl a'i etifeddiaethau, gan ei fab hynaf Rosier, yr hwn a ychwanegodd at ei feddianau ar ol ei dad, diroedd Ewyas yn Sir Henffordd, drwy briodi merch ac etifeddes Payne Fitz-John, arglwydd y tiriogaethau hyny. Bu farw y boneddwr hwn heb blant yn 1156, a meddianwyd ei etifeddiaethau gan ei frodyr, William, Henry, a Mahel, y naill ar ol y llall; ar farwolaeth yr olaf a enwyd, trosglwyddwyd arglwyddiaeth Brycheiniog, drwy hawl ei ail chwaer, i'w gwr, Philip de Breos, neu Braiosa, arglwydd Buallt, teulu yr hwn oedd wedi dyfod gyda William y Gorchfygwr i Loegr, ac a fu farw yn fuan wedi dyfodiad Harri II., i'r orsedd, gan adael ei holl feddianau i'w fab William. Y mae yr olaf wedi gadael ar ei ol enw anghymeradwy iawn mewn hanesiaeth, o blegid ei greulondeb dideimlad; yn gyntaf, trwy lofruddio yn fradwrus rai o'r penaethiaid Cymreig, y rhai a wahoddasai efe i wledd yn nghastell y Fenni, yn sir Fynwy; ac yn ail, am yr un weithred ysgeler ar Trahaearn Fychan, disgynydd o Gwrgan ab Bleddyn, yr hwn oedd wr o ddylanwad uchel yn nhiriogaeth Brycheiniog, yr hwn, tra yn dyfod i gynal cynhadledd â William, trwy orchymyn, a ddaliwyd drwy ei awdurdod, ac a rwymwyd wrth gynffon march, ac a lusgwyd yn y modd dirmygedig hwn drwy heolydd Aberhonddu, ac wedi hyny y torwyd ei ben ymaith; a thrachefn, crogwyd ei gorph a'i draed i fynu. Dialwyd ar y weithred greulon gyntaf, gan wyr Gwent ar gastell y Fenni, a gweinyddwyd y gosp am y weithred olaf, gan Gwenwynwyn, Tywysog Powys, yr hwn a oresgynodd diriogaethau De Breos; ond disgynodd yr ergyd benaf ar ardal sydd o fewn terfynau Sir Faesyfed yn awr. Treuliwyd gweddill oes y barwnig hwn mewn ymrysonau a'r Brenin John, ac ar ei farwolaeth yn 1212, aeth ei etifeddiaeth i'r brenin, gan yr hwn y trosglwyddwyd llawer o diroedd Swydd Frycheiniog, i Peter Fitz-Herbert, wyr Milo Fitz-Walter; ond adfeddianodd y teulu Breos eu tiriogaethau Cymreig, drwy ymdrechion Giles, esgob Henffordd, eu cynnrychiolydd penaf, ar farwolaeth yr hwn y daethant i'w frawd, Reginald de Breos, yr hwn a briododd Gwladys, merch Llewelyn, Tywysog Gogledd Cymru, ac a unodd a'i dad yn nghyfraith i wrthwynebu brenin Lloegr. Pa fodd bynag, cafodd y brenhin gyfle i geryddu ei wasanaethwr am ei ddiffygion, drwy arwain byddin i'w diriogaethau, a llosgi cestyll Maesyfed a'r Gelli; a llwyddodd Harri III., ar ei dderchafiad i'r goron, i ddatod y gyfathrach, drwy ymrwymo i adferu i de Breos, feddianau Seisonig ei deulu, ar yr amod iddo ddychwelyd i'w gyfeillach, a'i wasanaeth. Darfu i Rhys, mab Rhys Fychan, un o benaethiaid y Deheubarth, mewn cyd weithrediad a'i frawd, ymosod ar feddianau Reginald yn Buallt yn ddioed, lle yr unodd Llewelyn â hwy yn fuan; yr hwn, wedi diglloni oblegid ffalsder ei garenydd, a arweiniodd fyddin gref hyd yn Aberhonddu, yr hon dref y bygythiodd ei dinystrio, ond a arbedodd drwy erfyniad ei thrigolion. De Breos, pa fodd bynag, yn ofni effeithiau y digofaint, a ymgymododd ag ef drachefn, gweithred a'i dygodd eilwaith dan ŵg y brenin, yr hwn a'i difeddianodd o arglwyddiaethau Blaenllyfni a Thalgarth, y rhai a roddwyd yr ail waith i Peter Fitz-Herbert. Bu farw Reginald yn 1228, gan adael ei deitlau, a'r gweddill o'i etifeddiaethau yn Nghymru, i'w fab hynaf, William de Breos, yr hwn oedd un o'r rhai blaenaf i gynorthwyo brenin Lloegr, mewn ymgyrch wrol i Wynedd, yn ysdod yr hyn y cymerwyd ef yn garcharor gan y Cymry, ac yn ol y cronicl Cymreig, Brut y Tywysogion, a brynodd ei ryddhad, drwy roddi i fynu gastell a thiriogaeth Buallt, yn ychwanegol at daliad swm mawr o arian. Ymddengys, er hyn oll, ei fod wedi ei roddi i farwolaeth warthus gan Llewelyn, yr hwn, wedi hyny, a oresgynodd ei diroedd, gan eu hanrheithio, ac yn fuan wedi ei ddychweliad, wrth fyned drwy Aberhonddu a Chaerlleon, i Forganwg, efe a ymosododd ar gastell Aberhonddu, ond yn aflwyddianus, ac wedi llosgi y ddinas, a ddychwelodd i Wynedd.

Ar farwolaeth William de Breos, aeth yr arglwyddiaeth, drwy briodas âg Eleanor, ei ail ferch, i Humphrey de Bohun, chweched Iarll Henffordd o'r enw hwnw, yr hwn y cymerwyd cestyll y Gelli ac Aberhonddu oddiarno, gan y Tywysog Iorwerth, mab Harri III., yn 1265; tu a'r amser hwn hefyd, ymddengys fod tiriogaeth Buallt wedi bod yn nwylaw y Cymry, o blegid yn nechreu teyrnasiad Llewelyn ab Gruffydd, Tywysog Gogledd Cymru, fe'i cymerwyd gan y penaeth hwnw oddiar Rhys Fychan, ac fe'i rhoddwyd i'w frawd, Meredydd ab Rhys. Ar farwol-

Digitized by Google

aeth Humphrey de Bohun, disgynodd yr arglwyddiaeth i'w fab Humphrey, yr hwn erbyn hyn a ddaethai yn Iarll Henffordd ac Essecs, ac a ddaeth i ymrafael a Iarll Caerloew, yn achos terfynau uniongyrchol eu tiriogaethau (yr oedd meddianau y boneddwr a enwyd ddiweddaf yn terfynu ar arglwyddiaeth Aberhonddu), trefniant yr hyn a gymerodd y brenin Iorwerth I., arno ei hun, gan orchymyn i'r ddwy blaid ohirio pob ymryson, hyd oni byddai iddo ef gael cyfle i olrhain yr holl amgylchiadau, a therfynu y ddadl. Ond darfu i ddeiliaid a gweision Iarll Caerloew, fyned i diroedd Iarll Henffordd, a chymeryd ymaith wartheg, ac eiddo eraill yn ysbail; a thra yr oeddynt ar y gwaith, daeth gweision Iarll Caerloew yn eu herbyn, ac adfeddianasant yr oll a ysbeiliasid. Darfu i'r brenin, wedi clywed am y trychinebau hyn, anfon swyddogion penodedig i wneud ymofyniad am ymddygiad y pleidiau ymrysongar; a'r canlyniad a fu, iddo orchymyn ar fod tiriogaethau Morganwg a Brycheiniog, i fyned yn feddiant i'r goron, am ysdod oes y meddianwyr, y rhai a wnaeth efe yn garcharorion, tra yr ewyllysiai; ond adbrynwyd yr etifeddiaethau gan Iarll Caerloew am ddeng mil o *marciau*, a chan Iarll Henffordd am un fil. Er fod y boneddwr a enwyd olaf, yn ymddangos yn hanesion ei wlad, fel un o farwniaid mwyaf galluog ei oes, eto nid oes dim o'i weithredoedd eraill yn ei dymor, yn dal un berthynas âg arglwyddiaeth Brycheiniog; yr oedd rhanau gogleddol y sir yn ei amser, yn gemmaes golygfa mor drychinebus yn y gorchwylion a gyflawnwyd, ag un man arall o fewn cylch hanesiaeth Gymreig. Darfu i Llewelyn ab Gruffydd, yr olaf o dywysogion Cymreig eu gwlad, yr hwn a wisgai yr addurniadau brenhinol, wedi goresgyn ac anrheithio tiriogaethau Brenin Lloegr yn Sir Aberteifi, gyfeirio ei ffordd tua Buallt, yn nghymydogaeth yr hon, yr oedd efe wedi amodi i gyfarfod nifer o'i bleidwyr o'r wlad, i gynllunio mesurau priodol ar gyfer eu gweithrediadau rhagllaw. Wedi dyfod hyd geulanau yr afon Edwy, y mae yn debygol iddo gael ei fradychu, hyd yn nod, gan y gwŷr y bwriadai ymgynghori a hwy; o blegid wedi ymadael a'i filwyr, ymosodwyd arnynt gan John Giffard, a Sir Edward Mortimer, gyda byddin nerthol o swydd Henffordd. Ar y gwrthwynebiad annisgwyliedig hwn, ffodd Llewelyn i Buallt; ac wedi methu llwyddo i gael cynhorthwy o'r wersyllfa yno, efe a aeth rhagddo yn y cyfeiriad gorllewinol, i fynu gyda'r afon Irfon, ar yr ochr ddeheuol, tua thair milltir, lle y croesodd yr afon, mewn lle a elwid Pont y coed, ac a osododd yr ychydig filwyr oedd yn ei ganlyn, ar fryn yno, ar ochr ogleddol yr afon, i wylio y fynedfa. Y Saeson wedi methu yn eu hamcan o gael croesi dros y bont, a rydiasant yr afon, mewn lle bas yn gyfagos; a thrwy ddyfod yn mlaen yn ngwrthgefn y Cymry; a ymosodasant arnynt yn annisgwyliadwy. Cyfarfyddodd y Cymry hwy a chawod o saethau, a phob moddion arall oedd gyrhaeddadwy, ond atebwyd hwy gan lu aneirif o saethyddion, ac o wŷr meirch; wedi i'r Saeson ddyfod i fynu i'r bryn, bu yno ymladdfa ofnadwy am dair awr, gydag egni gwrol, nes o'r diwedd y llwyr orchfygwyd byddin fechan y Cymry dewrion, y rhai a ffoisant, gan adael dwy fil, sef y drydedd ran o'u nifer, yn feirw ar y maes. Ymlidiwyd y Tywysog ei hun, gan un Adam de Francton, barwnig Seisnig, yr hwn, wrth ganfod mai Cymro ydoedd, heb wybod am ei urddasolrwydd, a frathodd ei waewffon yn ei gorph, ac yna a aeth rhagddo at ei gyd-filwyr. Wedi i boethder y frwydr fyned drosodd, dychwelodd Adam de Francton i ddiosg y gwr a archollasai; ac wedi deall mai y Tywysog Cymreig ydoedd, efe a dorodd ymaith ei ben, wedi iddo orphen marw, a chludodd ef yn anrheg i Iorwerth I., i abatty Abercynwy, lle yr arosai y brenin ar y pryd. Dywed rhai hanesion, mai ar y 10fed dydd o Ragfyr 1282 y cwympodd Llewelyn, ac mai ar y 26ain sef dydd gwyl Stephan, y cyrhaeddodd Adam i Gynwy, gyda'r pen marw urddasol. Yr oedd y ddaear yn amser ei gwymp yn orchuddiedig gan eira, a gelwir y lle "Cefn y Bedd," neu "Cefn Bedd Llewelyn," hyd y dydd hwn. Y mae traddodiad am yr amgylchiad hwn, sydd yn aros yn y gymydogaeth hyd heddyw, yn gwahaniaethu ychydig oddiwrth yr hanesion cyffredin. Y mae trigolion cymydogaeth Buallt, o herwydd na roddasant y nodded a allasent roddi i'r tywysog, yn cael eu galw "Bradwyr Buallt," a "Bradwyr Aberedwy." Dywedir fod y tywysog yn ei gyfyngder, wedi ymdrechu i osgoi cryfder y gelyn, drwy gael gan ôf oedd gerllaw, droi pedolau ei farch yn y gwrthwyneb, er twyllo ei ymlidwyr, gan fod yr eira ar y ddaear ar y pryd, ond gwnaed yr amcan yn hysbys i'r Saeson, trwy fradwriaeth y gof; ac yr oedd yr ymlidwyr mor agos, fel na chafodd Llewelyn ond prin groesi y bont, oedd yn agor ac yn cau, gerllaw Buallt, nad oedd y fyddin Saesonig ar ei warthaf; y rhai a gyfarwyddid i groesi yr afon, ychydig yn is i lawr, mewn lle a elwid "Cefn Twm Bach," a thrwy hyny daethant rhwng Llewelyn a'i fyddin, yr hon oedd yn gwersyllu yn Mochryd. Nid oedd ganddo wedi hyny, yr un gobaith gwell am ymwared, na cheisio ymguddio oreu y gallai, ond buan ei darganfyddwyd mewn rhyw gysgodle neillduedig, tua thair milltir o Buallt, a phump oddiwrth ei fyddin. Gelwir y lle "Cwm Llewelyn" hyd y dydd hwn! Olynwyd Humphrey de Bohun, Iarll Henffordd, gan ei fab, o'r un enw, yr hwn a hynododd ei hun, mewn gwrthwynebiad i'r teyrn egwan, Iorwerth II., ac a unodd yn y gwrthryfel a gododd amryw o arglwyddi y cyffiniau, i wrthwynebu hawliau y Spencer ieuengaf, i arglwyddiaeth Browyr, yn Morganwg; lladdwyd ef yn mrwydr Borough-bridge, yn 1321; a chollodd yr etifeddion y meddianau yn nhiroedd Cymru, y rhai a roddodd y Brenin i'r Spencer ieuengaf; ar ddienyddiad yr hwn, y dychwelodd y meddianau yn ol i deulu de Bohun, yn mherson John de Bohun; ac wedi ei farwolaeth ef, dychwelodd y cyfan yn olynol i'w frawd, ac i'w nai, y rhai a enwid Humphrey de Bohun; yr oedd yr olaf yn fab i John, brawd William. Gadawodd Humphrey de Bohun ar ei ol ddwy ferch; yr ieuengaf, Mary, a briododd Henry, Iarll Derby, wedi hyny y Brenin Harri IV.; i'r hwn y cyflwynwyd y gweddill o arglwyddiaeth Brycheiniog, wedi marwolaeth Arglwyddes Waddolog Henffordd, ac felly a ddaeth yn eiddo i'r goron.

Dioddefodd y sir hon, yn mysg eraill, lawer oddiwrth y difrodiadau a wnaed yn y Deheudir, yn amser teyrnasiad Harri IV., gan y Pendefig enwog hwnw, Owain Glyndwr, i'r hwn y priodolir dinystr gorphenol castell y Gelli. Yn fuan wedi marwolaeth Arglwyddes Weddw Henffordd, darfu i Anne, merch Eleanor de Bohun, merch hynaf y diweddaf Humde Bohun, yr hon a briododd yn gyntaf â Thomas o Woodstock, chweched mab Iorwerth III., ac wedi hyny âg Iorwerth, Iarll Stafford, ond a oedd y pryd hwn yn weddw, anfon erfyniad at y brenhin, am y

Digitized by Google

rhan o feddianau ei nain, oedd yn dygwydd yn gyfreithlon iddi, a'r hyn oedd yn disgyn i'w hawl hi a'i mab o arglwyddiaeth Brycheiniog. Bu hi farw yn 1439, a throsglwyddwyd ei meddianau i'w mab Harri, Iarll Buckingham; a grewyd wedi hyny, yn y 23n Harri VI., yn Ddue Buckingham, yr hwn a hynodir yn yr hanesion Cymreig, oblegid ei greulondeb gormesol ar ei ddeiliaid yn yr arglwyddiaeth. Lladdwyd y boneddwr hwn, tra yn ymladd o blaid y Lancasteriaid, yn mrwydr Northampton, yn 1460; a'i unig fab Humphrey, Iarll Stafford, oedd wedi cwympo yn flaenorol yn mrwydr St. Albans; olynwyd ef yn Nuciaeth Buckingham, ac yn ei holl deitlau a'i etifeddiaeth, gan ei ŵyr Harri, yr hwn oedd ar y pryd o dan oedran; penodwyd Sir William Herbert, wedi hyny a grewyd yn Iarll Penfro, i fod yn oruchwyliwr arglwyddiaeth Brycheiniog, ac ymddiriedwyd iddo arolygiaeth holl feddianau y duc yn Nghymru. Wedi iddo ddyfod i'w gyflawn oed, daeth y duc hwn, ar farwolaeth Iorwerth IV., yn un o brif bleidwyr Rhisiart III., ond wedi i'r traws-reibiwr hwnw gyrhaedd ei amcan uchelgeisiol, gwrthododd gyflawni ei amodau ag ef, ac o herwydd hyny, enciliodd y duc o'r llŷs, gyda phenderfyniad i ddial. Wedi cyrhaedd i gastell Brycheiniog, rhyddhaodd Morton, Esgob Ely o garchar, yr hwn yr oedd Rhisiart wedi ei garcharu oblegid ei bleidgarwch i achos y tywysogion a lofruddiwyd. Ymadawodd Morton yn ddioed i'r Cyfandir, i hysbysu Iarll Richmond am fwriad Buckingham i'w bleidio, ac am y bwriad i ddiorseddu y trawsreibiwr, ac ar yr un pryd, i lunio mesurau er cyflawni eu cynllun, tra yr oedd Buckingham yn parotoi pethau at yr anturiaeth gartref. Cododd Buckingham fyddin gref o filwyr, oddiar ei arglwyddiaeth, a therfynau eraill, a chyfeiriodd ei gamrau tu a'r Amwythig, i ymuno â phleidwyr eraill i'r un achos yn y lle. Y mae y canlyniad annedwydd a fu i'r amcan hwn, yn ddigon adnabyddus. Yr oedd yr Hafren, wedi chwyddo i uwchder mor anarferol, ac a fu yn ataliol iddo ddyfod rhagddo, a'i fyddinoedd efallai, heb y darpariadau priodol, a lwfrhasant, ac a ffoisant mewn cryn nifer, fel nad oedd ganddo yr un ymwared gwell nag ymguddio, er ei ddiogelwch ei hun; ond trwy gael ei fradychu i ddwylaw yr uchelgeisiol Rhisiart, efe a ddienyddiwyd yn Salisbury, heb un math o brawf, a fforfediwyd ei holl deitlau a'i etifeddiaethau i'r goron. Glaniodd Richmond, gydâg ychydig filwyr yn fuan yn Aber-daugleddyf, ac wedi uno â Rhys ab Thomas, y deiliad galluocaf a mwyaf dylanwadol yn y Deheubarth, yr hwn yn ol cynllun blaenorol, a drefnodd i oleuo yr holl Arwydd-dai, fel rhybudd i'w gyfeillion, fod yr iarll wedi glanio; ac a gyfeiriodd ei ffordd drwy siroedd Caerfyrddin a Brycheiniog, a'i faner yn denu ati adgyfnerthion yn yr holl ffordd lle yr elai. Wedi cyrhaedd Aberhonddu; gwelodd Rhys fod yn ofynol gwneud detholiad o'r lluaws oedd wedi dyfod i'w gylchynu; dewisodd yn gyntaf, gorph, o fil o wŷr meirch, i gael eu harwain ganddo ef ei hun; ac yna corph o bum cant o wyr traed, y rhai a roddodd dan arweiniad ei frodyr ieuengaf, Dafydd, a John, er amddiffyn ei feddianau ef ei hun, a diogelwch personau ac eiddo eraill oedd wedi datgan o blaid yr iarll; y lleill a ollyngodd ymaith gyda diolchgarwch am eu parodrwydd i weinyddu dano; ac yna cychwynodd gyda'i ddewisol lu o ddwy fil gwŷr am yr Amwythig, i aduno a'r iarll oedd wedi cymeryd cyfeiriad arall. Ar ddyrchafiad Iarll Richmond i orsedd Lloegr; dan y teitl o Harri VII., adferodd holl feddianau a thitlau Duc Buckingham, yn cynwys arglwyddiaeth Brycheiniog, i deulu y boneddwr hwnw, yn mherson ei fab Iorwerth, yr hwn, wedi hyny a grewyd yn hedd-geidwad Lloegr, ac efe ydoedd y diweddaf a ddaliodd y swydd hono. Ar ddienyddiad y boneddwr hwn am uchel-fradwriaeth, yn amser Harri VIII., darfyddodd duciaeth Buckingham; ac arglwyddiaeth Brycheiniog, gyda'r holl diriogaethau a'r terfynau oedd yn perthyn iddynt, a ddychwelasant i'r goron, yn y meddiant o'r hon y parhaodd yr hawl felly am dymor hir.

Y mae y sir, yn un o'r rhai a ffurfiwyd, drwy y Weithred 27ain Harri VIII., o'r cyffin-diroedd, neu y terfynau uniongyrchol rhwng Lloegr a Chymru; yr amser hefyd y trefnwyd, yn holl Gymru, fod cyfraith a chyfiawnder i gael eu gweinyddu, yr un modd ag yn Lloegr, tra yr oedd arglwyddi y cyffiniau, y rhai oeddynt o'r blaen yn gweinyddu ar ddull brenhinol, yn cael eu darostwng i gyflwr barwniaid cyffredin. Yn nechreuad rhyfel gartrefol yr ail ganrif ar bymtheg, codwyd byddin o wyr meirch gan un Mr. Jenkin Jones o'r swydd hon, ar ei draul ei hun, er cynorthwyo achos y Senedd. Yn 1617, cyflwynwyd arglwyddiaeth Brycheiniog mewn amodrwym gan Iago I., i Syr Francis Bacon, Syr John Daccombe ac eraill, mewn ymddiried, at wasanaeth y Tywysog Siarl, wedi hyny, y Brenin Siarl I., yr hwn yn y seithfed flwyddyn o'i deyrnasiad, a gyflwynodd yr elw i ymddiriedolwyr, at wasanaeth Syr William Russell, gan gadw i'r goron, ardreth o ddeugain punt a dimai yn y flwyddyn. Gwerthodd Syr William Russell ei hawl i Iarll Penfro, a gwerthodd yntau ei hawl drachefn i William Morgan, Ysw., o'r Dderw, yn swydd Frycheiniog; ar farwolaeth yr hwn fe'i meddianwyd gan ei ferch Blanch, yr hon a'i trosglwyddodd drwy briodas, i William Morgan, Ysw., Tredegar, yn Mynwy, yn nheulu yr hwn y mae wedi aros hyd yn awr; ac y mae heddyw yn meddiant Arglwydd Tredegar. Arglwyddiaeth neu faenoriaeth Brycheiniog ydyw y rhan hono o'r wlad, wedi adeiladaeth Castell Brycheiniog, ag sydd wedi bod yn wastadol mewn cysylltiad a'r amddiffynfa, yn cynwys yr oll o gantref Merthyr, neu Merthyr-Cynog, y rhan hono o blwyf Llywel, sydd yn gorwedd ar ochr ogleddol yr afon Wŷsg, a phlwyfydd Llanspyddid, Ty-ddewi, a Cantref, hyd at afon Cynrig. Y mae arglwyddiaeth y Wig Fawr, neu o leiaf rhan helaeth o honi, yr hyn a feddienid gan olynwyr Bernard Newmarch, yn arglwyddiaeth Brycheiniog, wedi llwyr ddarostyngiad Cymru gan Iorwerth I., heb erioed ei chysylltu â'r cyffin-diroedd, ond hwy a ddelid gan arglwyddi Brycheiniog, fel yr holl diriogaethau eraill yn Nghymru, oddigerth y cyffiniau, dan rwymedigaeth i goron Lloegr. Y mae arglwyddiaeth y Wigfa Fawr yn awr, yn cael ei dal gan Arglwydd Tredegar, mewn amodrwym dan y goron. Tra yr arhosodd y meddianau hyn yn yr un dwylaw, yr oeddynt yn cael eu galw yn nghyd, yn arglwyddiaeth fawr Brycheiniog; ond ar ddarostyngiad yr olaf o deulu Stafford, Duc Buckingham, pan y gwahanwyd hwy, yr oedd cymhwyso yr enw hwn yn anghywir. Y mae arglwyddiaeth y Goedwig yn eangach nac arglwyddiaeth Brycheiniog, a dylid yn hytrach ei galw yn faenorfa y Wig Fawr, neu Wig fawr Defynog, o fewn swydd Frycheiniog. Yn y 10fed Sior I., cyflwynwyd y faenorfa hon gan Dywysog Cymru, i William Morgan, Ysw., o Dred-

egar, i'w dal am un mlynedd ar hugain, am yr ardreth flynyddol o 20*p.* 6*s.* 8*c.*, y mae yr amodrwym hon, wedi cael ei hadnewyddu yn barhaus, ar ei dyfodiad i ben; ac y mae yn cael ei dal drwy gyflwyniad yn ddiweddar oddiwrth y goron, gan Arglwydd Tredegar.

Y mae y sir yn esgobaeth Ty-ddewi, a thalaeth Caergrawnt, ac o fewn archddeoniaeth Brycheiniog, ac yn ffurfio pedair deoniaeth Buallt; a'r rhan gyntaf, a'r ail, a'r drydedd, o'r hyn a berthyna i Frycheiniog, a rhan o'r hyn sydd mewn cysylltiad a'r Gelli; rhifedi y plwyfydd ydynt chwech a thriugain; o ba rai y mae pedair ar hugain yn beriglorïaethau, deunaw ficeriaeth, a'r gweddill yn guradaethau parhaol. Y mae y wlad, er mwyn manteision llywodraethol, wedi cael ei dosparthu i chwe cantref, Buallt, Crughywel, Defynog, Merthyr-Cynog, Pencelli, a Talgarth. Y mae yn cynwys bwrdeisdref a marchnadfa Aberhonddu, a marchnad-drefydd Buallt, Crughywel, a'r Gelli. Y mae un Seneddwr yn cael ei ddychwelyd dros y sir, a'r llall dros fwrdeisdref Aberhonddu. Y mae y swydd o fewn cylchdaith ynadol y Deheudir; y mae yr uchel lysoedd barn, yn cael eu cynal yn Aberhonddu, lle y mae carchar y sir.

Y mae yr holl wlad o'r bron yn fynyddig, gyda'u bryniau llethrog yn gogwyddo hyd yn ddyffrynoedd ffrwythlawn, mewn amrywiol gyfeiriadau; y mae yr ymylau gan mwyaf, ar bob ochr, yn gynwysedig o fryniau uchel, llymion a diffrwyth, oddigerth ar derfynau Maesyfed, ar y gogledd ddwyrain, ar lan yr afon Wŷ. Y mae rhanau iselaf y wlad, lle nad yw y bryniau yn codi yn uchel iawn, yn cael eu gwrteithio a'u hâru hyd yn lled uchel ar y llethrau, a rhai o honynt hyd yn nod at y grib; ond y mae y mynyddoedd uchaf, yn enwedig yn yr ochr ogleddol, yn annhriniedig, yn cael eu gadael yn borfa defaid, ac heb fod ond o ychydig o werth. Y brif gadwyn o fynyddau, sydd yn rhedeg drwy ran fawr o'r wlad, a elwir y "Mynyddau Duon," sydd yn dechreu yn y terfynau gorllewinol, yn y mynyddoedd uchel a elwir Bannau Sir Gaer, ac yn ymestyn o'r ddau fynydd amlwg hyn, ar draws holl wlad Brycheiniog yn ei lled, ac yn terfynu yn Mynwy, ar ochr ddeheuol yr Wŷsg, islaw tref Crughywel, yr hon sydd yn gorwedd yn mharth de-ddwyreiniol y wlad. Y mae y rhan orllewinol o'r ddau fynydd hyn, sydd yn dangos golygfa fawreddog, o ychydig bellder o ffordd, o fewn terfynau Sir Gaerfyrddin, ac yn cael eu gwahanu gan agendor dwfn, oddiwrth yr un yn Mrycheiniog, sydd yn hytrach yn dalach; gelwir yr olaf weithiau Ban Trecastell, oddiwrth bentref Trecastell sydd gerllaw, ac y mae yn codi i uchder o ddwyfil pum cant, naw deg a chwech o droedfeddi goruwch lyfel y mor. Ond y cribau uchaf yn yr holl gadwyn, a'r bannau uchaf yn y Deheudir, ydyw dau fynydd cyfagos, o fewn tua phum milltir i dref Aberhonddu, sydd yn codi eu penau ddwyfil, wyth gant a dwy a thriugain o droedfeddi, uwchlaw y mor, ac yn ymsythu uwchlaw y bryniau sydd yn cylchynu eu godreu, gan weini golygfa ardderchog i bob parth o'r gwledydd o amgylch, gydag amrywiaeth pryddferth iawn. Gelwir y clogwyni uchel hyn weithiau gan y brodorion yn y rhif unigol, "Y Fan," ond yn fwyaf cyffredin, a chyda mwy o briodoldeb, "*Bannau Brycheiniog*," y maent hefyd yn adnabyddus i'r Cymry wrth yr enw "Cader Arthur." Y mae ar y grib, bwll arosol, yr hwn a dartha yn sŷch yn misoedd yr haf, ar dymor sych; ac mewn ychydig o bellder, islaw y llethr gorllewinol, y mae llyn bychan, tua milltir o amgylchedd, a elwir Llyn Cwm Llwch, yr hwn ydyw ffynhonell yr afon Tarrell, ac yn cynwys nifer mawr o bysg, a elwir *Lacerta aquatica*, neu y *water-lizard;* yn ol traddodiad y gymydogaeth, y mae y llyn hwn yn ddwfn anmhlymiadwy. Y mae ar y clogwyn sydd yn grib i'r un a berthyna i Fannau Sir Gaerfyrddin, o fewn terfynau Brycheiniog, lyn cyffelyb, a elwir "Llyn y Fan," yn yr hwn y ceir ffynhonell yr afon Wŷsg; y mae hwn yn eangach na'r llall; sef tua milltir o hyd; y mae golygfa dywell a du ar ei ddyfroedd, ac nid oes pŷsg o'i fewn. O derfyn uwchaf dyffryn Tawe, y mae y gadwyn o gribau, yn cynwys mynyddau y Betws, yn ymestyn ar y dde-orllewin i Sir Forganwg; ac y mae y rhan uwchaf o'r mynyddoedd hyn, sydd yn rhy uchel, creigiog, ac ysgythrog at wrteithiad, yn ffurfio eangder mawr o anialwch a diffeith-dir, ac yn parhau, yn gyffelyb i raddau mawr, ond yn lleihau yn ei uchder, o fesur ychydig, o derfynau y wlad hon, drwy Sir Gaerfyrddin tua genau y Towy. Ar y dde i'r Mynyddau Duon, tu draw i linell o fynyddau cerig calch, o'r rhai y mae y Cribarth yn uwchaf, yr hwn sydd o fewn milltir neu ddwy, uwchlaw pen camlas Abertawe, y mae cryn eangder o fynydd-dir serth a diffrwyth, lle y mae cyfoeth mawr yr haiarnwaith sydd yn cyfoethogi y Deheudir; y mae y bryniau cerig calch a grybwyllwyd, yn rhanau dwyreiniol y sir, yn ffurfio math o ragfur uchel ar ochr ddeheuol dyffryn Wŷsg, yn ymestyn mor bell i'r gorllewin a chreigiau Llangynidr. Yn Talgarth, fel y dynesir at barthau dwyreiniol y sir, y mae cadwyn o fynyddau yn codi, a elwir yn Mrycheiniog, y Mynyddau Duon, ac yn Gymraeg "Mynydd y Gader," ond yn ymestyn yn ddwyreiniol i Henffordd, a elwir yn gyffredin yno, *Hatterell hills;* gelwir yr uwchaf o honynt, yr hwn sydd yn nesaf o ran ei daldra i Fannau Brycheiniog, y Gader Fawr. Y drydedd gadwyn, a'r olaf o'r mynyddau hyn, ag sydd yn gadw am sylw neillduol, ydyw y rhai a elwir "Bryniau Eppynt," y rhai sydd yn ymestyn fel llinell led reolaidd, yn y cyfeiriad o orllewin i ddwyrain, o ranau de-ogleddol Sir Gaerfyrddin; lle y maent yn cael eu cysylltu a'r gadwyn fawr sydd yn gwahanu dyffrynoedd y Towy a'r Teifi, hyd Lyswen, ar lanau yr Wŷ, ac yn gwahanu, o'r bron yr oll o gantref Buallt oddiwrth y rhan arall o'r wlad; y mae y mynydd a elwir Drugarn, yn agos i derfynau Sir Aberteifi, tu a'r gogledd orllewin, yn codi i'r uchder o ddwy fil ac un ar ddeg a thri-ugain o droedfeddi uwchlaw arwynebedd y mor. Y mae bryniau Eppynt yn cael eu cysylltu â mynyddau Plumlumon, ar derfynau de-orllewin Sir Drefaldwyn, drwy gyttyriad o fynyddau croesion, yn ymestyn am lawer o filltiroedd yn mhob cyfeiriad, ac yn ffurfio y rhanau mwyaf anial o diroedd diffrwyth siroedd Brycheiniog, Maesyfed, ac Aberteifi; nid ydynt yn ffurfio cadwyn reolaidd, ac ni ellir gwneyd defnydd o honynt namyn fel porfa anifeiliaid, ac yn enwedig defaid celyd wedi eu cynnefino a lle llwm. Y mae amryw o gadwyni isel o fryniau, yn ymganghenu o'r prif fynyddoedd ar bob cyfeiriad; ond nid oes yr un o honynt yn hynod o eang. Y prif lyn yn y fro, a'r mwyaf yn y Deheubarth, ydyw Llyn Safaddan, ychydig o filltiroedd i'r dwyrain o dref Aberhonddu; y mae y llyn hwn, yr hwn a elwir weithiau yn llyn Llangors, a phryd arall llyn Brycheiniog, tua thair milltir o hyd, ac un o led; ei ddyfnder cyffredin,



Digitized by Google

tua phedair llath, er ei fod mewn rhai manau o ddeuddeg i bymtheg; y prif bysg sydd ynddo ydynt yr ysbin *perch* a'r *pike*, neu y penhwyad; y cyntaf, weithiau yn pwyso deg pwys ar hugain, a'r olaf, o ychydig wnsau i dri phwys; y mae yno lysywod o'r fath faintioli, fel y mae yn ddiareb gyffredin yn y gymydogaeth, "Cyhyd a llysywen Safaddan; y mae y llyn yn dangos arwyneb prydferth drosto, gydag eithrad o un pen iddo, sydd yn gorsawg a brwynog.

Y mae y dyffrynoedd, o blegid eu bod yn ganoldiroedd, yn agored i fod yn oer a diffrwyth, gan rew ac eira yn y gauaf, a chan wres yn yr haf; yn fwy felly o'r braidd na'r un ran arall o'r dywysogaeth. Y mae dylanwad y tymhorau yn effeithio yn fawr ar y wlad; y tarth o'r mor ar y dde-orllewin, a atelir gan y bryniau gorllewinol rhag bod mor niweidiol i'r cnwd: y mae yr ŷd yn llanw yn naturiol yn y dywysen, ac nid oes gymaint o chwyn yn y tir hau. Ond ar y manau uchaf, y mae yr hinsawdd yn oer, gwlŷb a thymestlog. Y mae y tiroedd llechawl ar derfynau Buallt, yn rhan led ddiffrwyth o'r wlad. Y mae cynhauaf y gwenith yn y dyffrynoedd, yn dechreu yn gyffredin tu a'r wythnos gyntaf yn Awst, ac weithiau yn niwedd Gorphenaf. Y mae yma lawer o dir da.

Nid oes yr un wlad yn y dywysogaeth yn cynwys mwy o amrywiaeth yn natur y priddoedd, na Brycheiniog. Y mae y rhan ogleddol o honi, sydd yn gorwedd tu draw i linell a ellid dynu o lanau yr Wŷ, dan rediad yr afon Edw yn Sir Faesyfed, ar draws bryniau Eppynt, hyd Cwm y Dwr, ar y ffordd rhwng Trecastell a Llanddyfri, ar derfynau Sir Gaerfyrddin, yn gynwysedig yn nosparth mawr llechi ag ysial y Deheubarth; yma y mae mawnogydd yn gyffredin yn y bylchau agored, ac weithiau yn llechweddi y bryniau, a dan y rhai, pa fodd bynag, y mae clai, yn gyffredin yn agos i'r wyneb, ac felly yn gwneyd y tir yn wlŷb, fel nad yw yn cynhyrchu dim ond y llysiau mwyaf diwerth. Pa fodd bynag, y mae glanau yr Wŷ a'r Irfon, wedi eu ffurfio o dir llawer brasach, lle y mae pridd sylweddol, o droedfedd i ddwy lath o ddyfnder. Y mae tiroedd y glo, yr hwn sydd yn llain gul drwy holl ochrau deheuol Brycheiniog, gan mwyaf yn dra diffrwyth, ac yn gyffelyb i dir uchel y llechau, gyda chlai yn agos i'r wyneb, yr hwn nad yw yn yfed y dwfr, ac felly yn eu cadw yn wlŷb ac oer; ac y mae eu glaswellt o'r un natur. Y mae lleoedd cleiog y manau olaf a grybwyllwyd, yn haws i'w trafod a'u cyfoethogi at amcanion amaethyddol, ac yn fwy darostyngedig i ddylanwad yr awyr. Y mae tiroedd canolbarthol y wlad, yn tynu at liw coch, oddiwrth y tywodfaen sydd yn haen dan y pridd dros y cymydogaethau hyn; ac y mae ei ddylanwad i'w ganfod yn eglur dan bob cawod drom o wlaw. Y mae y tir coch yn cael ei derfynu ar y gogledd gan linell y llechi, a'r afon Wy, ac ar y dde, gan linell yn rhedeg o ddwyrain i orllewin, yn lledred Glyn Collwyn, i'r dehau o dref Aberhonddu; ac ar y dwyrain a'r gorllewin gan derfynau y sir yn unig: y mae ei lled o ogledd i ddehau, o gapel Llangynog gerllaw Buallt, hyd Glyn Collwyn, yn mesur tua phedair milltir ar bymtheg. Y mae yr Wŷsg, a'r mân afonydd sydd yn rhedeg iddi, yn cael eu cychwyniad o'r tir coch hwn, ac y mae y gwaddodion y maent yn ei gludo, oddiar y tywodfaen coch, yn ffrwythloni dyffryn Wysg i raddau mawr; a thrwy wrteithiad priodol, y mae cnydau trymion o yd a gwair, yn cael eu cynhyrchu, yn enwedig ar haf sych. Darfu i ysgafnder y pridd yn y dyffryn hwn yn 1810, ddarostwng ei gynydau i ddifrodiad y chwilerod lluosog a gynnyrchid yma, fel y collodd y cnydau gwenith yn gyffredin, ac yn arbenig, yn y parthau sydd yn cyrhaedd o ardal Aberhonddu hyd derfynau y wlad; ac y mae y trychfilod oeddynt yn heidio y pryd hwnw, i'w canfod eto ar adegau neillduol. Y mae tiroedd y llethrau yn gyffredin yn gryfach, ac yn cynhyrchu cnydau trymach na'r dyffryn. Fel y mae yr afon Wŷ, a'r ffrydiau sydd yn rhedeg iddi o ranau uwchaf y wlad, yn rhedeg am filltiroedd trwy gymydogaethau yr ysial, y mae y llifeiriant yn dwyn gyda hwy lawer o ddefnyddiau ag sydd yn cyfoethogi y tiroedd tywodog lle y byddo eu cyfeiriad, ac y mae hyn i'w ganfod yn eglur yn y tiroedd islaw Buallt. Y mae y tir gwastad yn nghantref Talgarth, o Lyn Safaddan hyd Aberllyfni, fel y bernir, yn derbyn llawer o'i rinwedd oddiwrth y gwaddodion a adawa y llifeiriant ar eu hol, yn enwedig at gynyrchu gwenith. Y mae y parthau uwchaf o'r tir coch, sydd yn ffurfio Bannau Brycheiniog, a sir Gaerfyrddin, yn llawer cyfoethocach pridd, na'r dosparth llechawg, ac y mae yr effaith a wna ar wlan y defaid a ddygir yno o'r parthau eraill, yn dangos hyn yn eglur iawn. Y mae pridd y rhandir gul ar draws y wlad, o galch-graig, a orwedda rhwng y glô a'r dywodfaen goch, yn ysgafn. O herwydd hyn, ni welir y llysieuyn a elwir y meillionyn gwyn, yn yr ucheldir, ond yn hytrach yn y dyffryn, tua chymydogaethau y Fainor a Penderyn, lle y mae y pridd yn dwyn y llysieuyn peraidd hwn yn naturiol.

Cyhoeddodd Mr. Clark, yn ei adroddiad Amaethyddol am Frycheiniog, a argraphwyd gan y Bwrdd Amaethyddol yn 1794, ei olygiadau, fod agos dwy ran o dair o'r tir, y pryd hwnw wedi ei gau i mewn; ac yn y tiroedd cauedig hyn, fod tir da y swydd, yn cynwys tuag un ran o bedair o'r arwynebedd; y tir gweddol, ychydig mwy nag un ran o bump, a'r tir mynyddig gwael, tua y bumed arall. Er amser y cyhoeddiad hwnw pa fodd bynag, y mae y tiroedd hyn wedi gwellhau llawer, fel y mae yr holl diroedd anial, yn y gwaelodion, wedi eu cau i mewn. Y mae natur y triniaethau a gymhwysir at y lleoedd yn amrywio llawer, fel y gellid disgwyl yn naturiol; ac mewn rhai manau y mae y cynlluniau a fabwysiedir yn rhagorol, ac mewn manau eraill yn dra diffygiol. Y mae'r holl rywiau o rawn yn cael eu meithrin, yn gystal a'r pŷs, y maip, a'r cloron. Nid yw cynyrch gwenith yn y cymydogaethau llechawg ond ysgafn iawn. Nid yw y cynyrch ar ucheldir Llywel ac Eppynt, ond canolig, ond y mae yn rhagori i gryn raddau ar lanau yr afonydd Honddu, Esgair, Bran, &c. Y mae dyffryn yr Wysg yn rhagori ar y rhai blaenaf, ac felly y mae yn ngwastad-dir Talgarth, hyd y bryniau rhwng yr Wŷsg a'r Wy, ac uwchlaw castell Llangoed hyd y Gelli. Nid yw y ceirch yn cael ei feithrin ond yn yr ucheldiroedd. Nid yw y Rhug o'r braidd yn adnabyddus yma. Cludir y cynyrch grawn oddiyma gan mwyaf i Mynwy a Morganwg, ac ychydig haidd i Fryste. Nid oes ond ychydig bys yn cael eu hau yn nyffryn yr Wy, nac yn nghantref Talgarth; y mae y cnydau hyn yn fynychach yn nyffryn yr Wysg. Y mae y cloron yn cael eu meithrin mewn cyflawnder ar ochr ddeheuol y sir, o fewn ac yn agos i gymydogaethau y glo. Y mae yn rhanau isaf dyffryn yr Wy, yn nghymydogaethau y pridd cryfaf, gryn feithriniaeth o'r Hopys. Nid yw y borfa

Digitized by Google

yn hynod o gyfoethog o'r tu uchaf i Aberhonddu hyd o Buckland House; ac o'r tu isaf i'r Bwlch Arllwys, hyd ffiniau Mynwy, ond fel y mae gwrteithiad diweddar yn eu dwyn i gyflwr o wellhad. Y mae peirianau hwsmonaeth yn gwellhau yn eu cymeriad yma yn gyflym iawn; y mae yr erydr, yr ogau, a'r certwyni, o'r fath oreu; ac y mae y gweddoedd yn rhagorol yn mhob man.

Rhywogaeth naturiol y gwartheg, ydyw y rhai bychain celyd duon, y rhai a fegir yn gyffredin ar lethrau y mynyddoedd, yn rhanau gorllewinol y wlad, bron o'r un natur a'r rhai a feithrinir yn y siroedd cymydogaethol, yn Nghaerfyrddin ac Aberteifi; ond yn fynych iawn yn y dyddiau hyn, gwelir y rhai a'r talceni gwynion, o rywogaeth Henffordd, yn Nyffryn Wŷsg, a'r cymydogaethau, can belled ag Irfon a Buallt; ac y mae cymysgedd o'r ddwy rywogaeth, yn dyfod yn fynych i gael eu meithrin, er yn ddiweddar. Y mae y defaid o rywogaethau bychain y mynyddoedd, a'u gwlan yn cyfateb i natur y tiroedd. Y mae y bugeiliaid yn dra medrus yn eu gwyliadwriaeth ar eu praidd, ac yn nghymhwysiad rhai a ddygir yma o wledydd dieithriol, at y cymydogaethau hyn. Y mae cryn sylw yn cael ei dalu gan yr amaethwyr yn magwraeth y rhywogaeth oreu o geffylau, at y cyfrwy, yn gystal ag at y wedd. Y mae y rhywogaeth naturiol yma, yn cael eu croesi yn fynych â meirch Suffolk. Yr oedd aredig gydag ychain yma ychydig amser yn ol yn gyffredin, ond y mae pellder eu sefyllfa oddiwrth y glo a'r calch, wedi peri iddynt, o'r braidd yn mhob man, i roddi y flaenoriaeth i'r meirch.

Y mae Brycheiniog yn lled gyfoethog yn ei pherllenydd yn y dyffrynoedd, y rhai sydd yn dwyn yr afal mewn cyflawnder, ac felly yn anogaethol i gynhyrchu osai (*cider*), yn enwedig at wasanaeth cartrefol. Y mae y pren afalau yn cael eu planu yn fynych, yn rhesi, bob yn ail yn maesydd yr hopus, a'r polion er magwraeth y llysieuyn hwnw. Y coed cyffredin sydd yn naturiol i'r wlad ydyw y derw, a'r onen, a'r gwern, ond y derw sydd fwyaf cyffredin; y mae yma amrywiaeth o goed eraill, llai eu gwerth, ar lethrau y mynyddoedd, megis y bedw, onen wyllt, sycamor, &c. Y mae yma amryw lethrau yn cael ei gorchuddio a'r ffawydd. Y mae y coedydd yn nherfynau Castell Llangoed, yn wigoedd eang iawn; ac y mae ar gyfeiriad Trefecca, Penpont, ac Abercamlais, blanwyddfeydd mawrion o ffawydd yr Alban, o dyfiant rhagorol. Poplys a geir mewn uchder mawr yn nyffryn Wŷsg, ar lanau yr afonydd a'r ffrydiau. Y mae y tiroedd cyffredin, neu gyttiroedd, wedi bod hyd yn ddiweddar, yn cyrhaedd hyd y drydedd ran o'r sir; y mae yr amaethwyr ar derfynau Buallt, yn meddianu nifer mawr o braidd, ac ychydig o anifeiliaid corniog, ar y tiroedd cyffredin. Gellir dosparthu y tir cyhoeddus i dri rhaniad mawr; yn gyntaf, mynyddoedd Duon Talgarth, gyda'u canghenau ar ranau dwyreiniol y sir, yn cael eu cysylltu â Bryniau Hatterell yn Henffordd; y mae y mynyddoedd hyn, sydd yn y sir hon, yn cyrhaedd o'r Gelli, ar yr Wŷ, i Grughywel ar yr Wŷsg, yn uchel ac eang; yn agos i ugain mil o erwau, yn cael eu hawlio fel defeiddir, gan drigolion un plwyf yn unig; y mae eu pridd, sydd yn gorphwys ar y tywodfaen coch, a llinell gul o gerig calch, yn cynhyrchu porfa dda i ddefaid a gwartheg ieuaingc; a'u godreuon yn gymhwys at wrteithiad. Yn ail; y mynyddoedd, sydd yn cynwys cerig calch a thywodfaen coch, yn ymestyn yn orllewinol o Fynydd Blorenge yn Mynwy, ac yn cynwys Bannau Brycheiniog, a Chaerfyrddin, rhanau gorllewinol pa rai a elwir y Mynyddoedd Duon, mae'n debyg, oddwrth yr agwedd dywell a chil-wgus a ddangosant pan na byddo y grug yn eu blodau; y mae godreuon y rhan fwyaf o'r rhai hyn yn gymwys at wrteithiad; ond y cribau yn rhy uchel a chreigiog at driniaeth. Y mae mynyddoedd llinell y glo, ar derfyn deheuol y wlad, yn cynyrchu porfa arw i'r defaid a'r gwartheg. Ar y rhai hyn, a'r rhai a grybwyllwyd yn flaenorol yn y rhanau de-ddwyreiniol o Frycheiniog, ar derfyn siroedd Morganwg a Chaerfyrddin, y gorwedda Coedwigfa Fawr Brycheiniog, tir cyffredin yr hon sydd yn cynwys, yn ol mesuriad, un mil a deugain, tri chant a phedair ar hugain o erwau, ac a werthwyd yn ddiweddar i amryw brynwyr, gan Oruchwylwyr Tiroedd y Goron. Y mae y trydydd rhaniad, yn cynwys bryniau Eppynt, a ddarluniwyd uchod, a'r bryniau tywyll o ysiâl sydd ar y gogledd iddynt. Y mae i'r rhai blaenaf, is-haenau o dywodfeini coch, ac yn cynhyrchu gwell porfa na'r tir ysialaidd glas. Y mae rhanau sychion y lleoedd olaf a enwyd, wedi eu gorchuddio â grûg; a'r gwaelodion, â brwyn ar glai, neu fawn; a'r gwellt sydd yn tyfu ynddo o'r fath arwaf; ac y mae gwlan y defaid sydd yma, yn arw fel y borfa: y mae sefyllfa naturiaethol y lle hwn, yn ei wneud agos yn anmhosibl i'w wrteithio na'i amaethu, o blegid pellder calch, a defnyddiau angenrheidiol eraill at yr amcan hwnw: nid yw yn ddim amgen na rhosdir diffaith. Y mae yn deilwng iw goffhau mai cymdeithas Amaethyddol Brycheiniog oedd y gyntaf o'r fath amcan, a ffurfiwyd yn Nghymru, ac yr oedd yn un o'r rhai blaenaf yn Mrydain. Cyhoeddodd ei herthyglau mor gynar ag Ebrill, yn y flwyddyn 1755.

Y mae ffurfiadau daearegol Brycheiniog yn hynod iawn, a'i hadnoddau mwnawl yn werthfawr; y mae y rhai hyn yn gynwysedig gan mwyaf, o haiarn, glo, calch, a cherrig adeiladu o wahanol fath. Gan ddechreu gyda yr haenau isaf, gellid cyfeirio at yr holl wlad ar y gogledd i fryniau Eppynt, ac y mae gwaelodion y rhai hyny yn cael eu ffurfio o ysial-llechau, a defnyddiau cyffelyb, nad yw o un gwerth ymarferol, cymaint ag i drwsio y ffordd fawr, gan fod pedrolfeni trymion ar dywydd gwlawog yn ei falurio i gyflwr clai. Ond danynt dechreua y meini defnyddiol at adeiladaeth, mewn graddoldeb yn gwellau yn barhaus. Y mae un o'r haenau hyn yn rhedeg i gychwyn o Faesyfed, dan yr Wŷ, nes dyfod i Frycheiniog, yn agos i gysylltiad yr afon hono a'r Elain, ac yn ymestyn ar draws cantref Buallt, hyd yr afon Irfon, ac fe'i gwelir yn eglur rhwng ffynhonau Llanwrtyd âg eglwys y plwyf; y mae y plygion weithiau yn afreolaidd, bryd arall yn gyson; ac yn eu plith y mae haenau o feini defnyddiol. Y mae darluniad manwl o'u hamrywiol naturiaethau, allan o'n terfynau; digon yw dywedyd, eu bod yn cyrhaedd o geulanau yr Wŷ, dan aberoedd yr Edwy, ar osgo dros fryniau Eppynt, yn ogleddol o gapel Llangynog i Gwm y Dwr, ar derfyn sir Gaerfyrddin; ac ar y dde hyd Lanelli, ar y dehau i'r Wŷsg, gerllaw Crughywel, hyd at Fannau Caerfyrddin. Y mae yma lechfeini cochddu, o gryn ddefnyddioldeb, hawdd eu hollti, yn deneuon at orchwylion toi. Y mae rhai o'r clogwyni uwchaf, wedi eu gwisgo â phorfa, tra y mae eraill yn greigiau noethion. Y mae y graig lwyd, a'i phridd o'r un lliw, tua milltir a haner o led yn nyffryn yr Honddu, o'r tu gogleddol i Gastell

Digitized by Google

Madog, hyd ffrwd Tenerddi ar y dde i'r Capel Isaf; y mae yn y lle hwn feini adeiladu gwerthfawr, o'r rhai y gwnaed y tai goreu yn nhref Aberhonddu, a phont Buallt. Y mae haen drwchus o gerig calch yn agos i Clydach, o liw glasach na'r plygion eraill. Defnyddir hwn at gymrwd mewn gwaith o dan ddwfr. Y mae plygion o farmor i'w canfod yn y galchen yn Craig y Nos, yn agos i ben Camlas Abertawy, yn y sir hon. Y mae mewn rhai manau, welyau trwchus yn tueddu at natur y glo, ond heb fod yn werth ei gloddio, ac a elwir gan y cloddwyr brodorol "Cwar Cymraeg," bryd arall Carreg Wyllt, Craig Nicholas, &c.; y maent i'w canfod yn eglur wrth ddilyn ceulanau afon Clydach. Y plyg o haiarn a glo sydd yn brigaw allan yn mharthau deheuawl Brycheiniog, ydynt y rhai isaf sydd yn weledig, a hyny yn y tri lle canlynol, y cyntaf, o'r afon fechan a elwir Twrch, ar draws afon Towi, a mynydd y Drum, hyd Goedwigfa Fawr Brycheiniog; yr ail, congl ó diriogaeth o Flaen Rymni, yn nghysylltiad tair sir Brycheiniog, Morganwg a Mynwy, hyd ochr ogleddol Bryn Oer; a'r trydydd, o Ryd Ebwy, a gwaith haiarn Beaufort, trwy Lyn y Pwll, hyd at y terfyn lle yr una â meddianau mwnyddol Iarll Abergafeni. Gellir cael yr olygfa oreu ar derfynau y glo, yn haenau mwnau Cyfarthfa, a Dowlais, gerllaw Merthyr Tydfil, ar ochr ddeheuol y wlad: y mae yn y cyntaf, ddau ar hugain o welyau o lo, yn amrywio mewn trŵch, o un fodfedd i bymtheg, i naw troedfedd, yn gwneud yn nghyd, ddeunaw troedfedd a deugain, ac wyth modfedd; wyth ar hugain o welyau o fwn haiarn, yn gwneud yn nghyd, dewdwr o naw troedfedd, a thair modfedd; tri gwely o glai tân, yn nghyd yn gwneud saith troedfedd, a phedair modfedd o drwch, a dyfnder mawr o graig rywiog.

Y mae yn Mrycheiniog amrywiol fwnau, ond nid mewn helaethrwydd mawr, yn unman oddigerth o fŵn haiarn. Y mae ychydig o efydd wedi ei ddarganfod yn mhlwyf Llanwrthwl, ar dueddau gogleddol y sir, yn agos i'r man lle cyferfydd yr Elain a'r Wŷ. Canfyddwyd ychydig o arwyddion mŵn plwm yn agos i Graig-calchen Dinas, yn mhlwyf Penderin. Y mae ychydig yn mryniau Llanigon gerllaw y Gelli, ac o'r tu uchaf i Coed y Cymer. Y mae careg ddu wasanaethgar at beirianwaith, a elwir Muchudd Irfon, i'w chael yn nghantref Buallt, o ffynonau Llanwrtyd hyd uniad yr Irfon a'r Wŷ. Ac y mae meini, o wahanol galedwch, i'w canfod mewn amryw gymydogaethau o'r wlad hon.

Y brif gangen o gelfyddydwaith a ddygir yn mlaen yma, ydyw yr un ar yr haiarn. Y mae yma rai gweithydd tua dau can mlwydd oed; ond y mae olion tua chymydogaeth Crughywel, ag sydd yn rhoddi sail i gredu, fod gwaith haiarn wedi bod yn cael ei ddwyn yn mlaen yno, er yr amser yr oedd y Rhufeiniaid yma. Y mae y gweithydd sydd yn awr yn agored, ar derfynau Mynwy, sef y rhai canlynol;— Dyffryn Clydach, yn mhlwyf Llanelli; codir y mwn tua dwy filltir oddi yno, ac a gludir yno ar reilffyrdd; Gwaith Beaufort yn mhlwyf Llangatwg, dygir y mwn yno gyda y rheilffordd o tua haner milltir o hyd; a gweithiau Blaen Rymni, yn mhlwyf Llangynidr; y mae yr oll o'r rhai hyn yn derbyn eu mwnau o feddianau y Duc Beaufort. Y mae dau sefydliad pwysig arall o'r un natur, sef un yn Hirwaen, yn nherfyn deheuol y sir, yn mhlwyf Penderin; a'r llall yn Ynys Cedwin, yn mhlwyf Ystradgynlais. Y mae y mŵn yn cael ei doddi yn y gweithydd hyn yn galenau, a'r rhai hyny yn cael eu gweithio drachefn yn farau a gwiail, &c. Darfu i Gymdeithas Amaethyddol Brycheiniog, am flynyddoedd wedi ei ffurfiad, wneud pob ymdrech i gefnogi gweithydd gwlaneni a llieiniau, ond ni ddaeth yr amcan i lwyddiant mawr. Y mae ychydig o waith gwlaneni a hetiau yn aros o fewn y sir hyd yn awr. Y mae gwaith esgidiau yn Crughywel, a llawer o wau hosanau yn y cymydogaethau. Y mae melin bapyr yn Glan Grwyney, gerllaw Crughywel. Y mae cryn waith mewn trin crwyn yn cael ei ddwyn yn mlaen yn y wlad. Y prif allforiaeth sydd mewn gwartheg a defaid; ac y mae trafnidiaeth y wlad efallai yn benaf yn Mryste, gyda'r cymydogaethau o amgylch.

Prif afonydd y wlad ydynt yr Wŷsg, yr Wŷ, yr Irfon, y Daf, y Nedd, ar Tawy. Y mae y tair olaf, gyda'r ffrydiau sydd yn rhedeg iddynt, yn disgyn yn ddeheuol tu tua Mor Bryste, o gadwyn y Mynydd Du; y mae yr Wŷsg yn cychwyn o'i ffynhonell ar ochr ogleddol Bannau Brycheiniog, rai milltiroedd uwchlaw Trecastell, a chan dderbyn dyfroedd nifer o fân afonydd ar bob ochr, y mae yn llifeirio tua phrif ddinas y sir, at y dwyrain, ac yna i'r dwyrain dde ddwyrain ger tref Crughywel, ac y mae yn myned i Fynwy, gerllaw yno, wedi taith o tua deuddeng milltir ar hugain; y mae ei gwely yn goch, yn yr holl daith yn y wlad hon, tra y mae ei dyfroedd yn llawn o bysg, o amryw rywogaethau, yn enwedig yr eog a'r brithyll. Y prif ffrydiau sydd yn rhedeg i'r Wŷsg, o'r gogledd, ydynt y Cilieni, Brân, Esgair, a'r Honddu; yr olaf, yn ei hymarllwysiad i'r Wŷsg, sydd yn rhoddi yr enw "Aberhonddu" i ben tref y sir; y Rhiangoll; afonig sydd yn rhedeg o ardal ffrwythlon a phrydferth y Cwm Du; ar Grwyney, o Fynyddoedd Duon Talgarth. Y rhai sydd yn dyfod o'r de, ydynt y Crai, y Senni, y Taranell, neu y Tarell, o Lyn Cwm Llwch; y Carfanell, neu Annell, o Glyn Collwyn; y Crafnant; yr Onwy; y Glydach; ac eraill o lai o sylw. Y mae yr Wŷ ramantus yn cyffwrdd a'r sir hon gyntaf, yn ei hymuniad a'r Elain (ffrwd fechan sydd yn ffurfio terfyn gogleddol y swydd, ac yn ei dosparthu oddiwrth Faesyfed ar y gogledd orllewin), ac oddiyma sydd yn ffurfio terfyn gogledd-ddwyreiniol Brycheiniog, oddigerth ychydig yn ardal Glasbury, pentref sydd o fewn sir Faesyfed; y mae yn llifeirio yn gyntaf yn dde-ddwyreiniol gerllaw Buallt, ac yna yn ddwyreiniol tua'r Gelli, lle y mae yn myned i swydd Henffordd, ac yn mlaen i'r Hafren, wedi gwahanu siroedd Brycheiniog a Maesyfed am bellder o tua deng milltir ar hugain. Y brif ffrwd a dderbynia o'r sir hon ydyw yr Irfon, yr hon sydd yn derbyn dyfroedd y Chwefrwy, Dylas, neu Dulas, Camarch, a ffrydiau eraill o'r gogledd, ac yn ffurfio y drwyfa i'r hon y tywelltir, agos yr holl ddwfr arwynebol, yn y parth hwn o'r wlad sydd yn gorwedd ar ochr ogleddol bryniau Eppynt, ac yn uno a'r Wŷ, ychydig uwchlaw tref Buallt, wedi hynt o tuag ugain milltir. Y mae yr Wŷ yn derbyn hefyd o Frycheiniog, ddyfroedd y Dihonwy, Caletwr, a'r Llynfi yr hon sydd yn cychwyn uwchlaw Llyn Safaddan. Y mae y Taf yn cael ei ffurfio o ddwy ffrwd, a elwir Taf Fawr, a Taf Fechan, y rhai ydynt yn disgyn o Fannau Brycheiniog, dros glogwyni cerig calch, ac yn uno ar derfyn deheuol y sir, yn agos i Ferthyr Tydfil, ac yna yn cymeryd ei mynedfa i Forganwg. Y mae y Nedd yn cychwyn ychydig yn fwy i'r gorllewin, a thrwy ychwanegiad amryw eraill sydd yn llifeirio iddi, y mae yn ffurfio afon ar-

Digitized by Google

dlerchog a mawreddig. Y mae y Tawe yn cychwyn o ddwy ffynhonell yn agos i Fan Trecastell, o fewn ychydig o bellder oddiwrth y lle y dechreua yr Wŷsg, gan redeg ar y dde-orllewin, drwy ran o Sir Gaerfyrddin, i Forganwg. Y mae y Rymni hefyd yn cael ei chychwyniad ar derfyn deheuol y sir, yn agos i ymylon Morganwg a Mynwy. Y mae y Mellte a'r Hepste hefyd yn teilyngu sylw yn y cysylltiad hwn, am eu hynodrwydd, a'u nerth am ychydig o ffordd.


Y mae trafnidiaeth y wlad yn cael ei hyrwyddo yn fawr, gan ei chamlesydd. Yn 1792 cafwyd gweithred seneddol i gefnogi lluniad Camlas Brycheiniog a'r Fenni, yr hwn a gynlluniwyd i gyrhaedd o dref Aberhonddu drwy ddyffryn Wŷsg heibio y Fenni, hyd gryfder mordwyol yr afon yn Newbridge, tua phedair milltir islaw tref Wŷsg yn Mynwy; ond trwy amod a wnaed rhwng y perchenogion â meddianwyr Camlas Mynwy, trwy daliad gan yr olaf i'r blaenaf, o dair mil o bunau, trefnwyd i gysylltu y ddwy gamlas yn Pont y Mael, islaw Pont y pwl, a chafwyd gweithred newydd at y perwyl hwnw yn 1793. Y rhan gyntaf a wnaed yn fordwyol, oedd o'r gweithydd glo a chalch yn Clydach, hyd Langynidr, tuag wyth milltir a haner o ffordd; ac oddiwrth bont y lle diweddaf, estynwyd y gamlas yn mlaen hyd Aberhonddu, a chwblhawyd y gwaith yn 1801, ac felly yn ffurfio cludai manteisiol y glo a'r calch hyd y dref honno. Cyflawnwyd yr holl linell o Clydach hyd islaw Pont y pwl, pellder o bedair milltir ar ddeg a chwarter, yr hyn a wnai yr holl hyd yn ddeuddeng milltir ar hugain, erbyn Rhagfyr 1811, drwy y draul o 170,000*p.*, yr hyn oedd agos ddwy waith cymaint a'r prisiad cyntaf. Y mae yn uno masnach Brycheiniog ag afon Bryste; y mae cwympiad tir o Aberhonddu i Clydach o tuag wyth droedfedd a thriugain, yr hyn a wneir i fynu mewn chwech o gloadau; ac yna rhed ar dir gwastad trwy Fynwy; lled y camlas yw deg llath, ac y mae dyfnder y dwfr yn bedair troedfedd a haner; ac y mae y cychod yn llwytho pum tunell ar hugain. Y brif ffrwd sydd yn ei llanw a geir o'r afon Wŷsg. Y mae amryw reilffyrdd mewn cysylltiad a'r gamlas yn cludo defnyddiau o'r gweithydd haiarn o Beaufort hyd ddyffryn Ebwy, i gangen Mynwy. Y mae Camlas Abertawe, a gynlluniwyd yn 1794 yn cyrhaedd o'r dref hono i fynu hyd ddyffryn Tawe, pellder o ddwy filltir ar bymtheg, hyd yr Hen Neuadd yn mhlwyf Ystradgynlais, yn y parth de-orllewinol o'r sir hon, fel y cludir pob math o nwyddau, ol a blaen, rhwng yno ag Ynys Cedwin. Y mae camlas Nedd, a wnaed yn 1790 yn cyrhaedd o nerth mordwyol yr afon Nedd, ychydig islaw y dref, hyd Abergwrelych yn y sir hon, agos can uched a Phont Nedd Fechan. Y mae nifer y cynlluniau a'r gwelliannau a wneir yn y cymydogaethau hyn i hyrwyddo masnach, o'r braidd yn ddi derfyn, ac megis yn uno yr holl gymydogaethau a'u gilydd yn y dywysogaeth, yn gystal a chyfleusderau pellach hyd derfynau Lloegr; ac y mae agoriad y Rheilffyrdd newyddion, gyda'r Agerbeiriant, i raddau mawr yn taflu yr hen gynlluniau i'r cysgodion, ac yn enill dirfawr ar amser, a thraul, a diogelwch, fel y gellid edrych ar y cyfan megis creadigaeth newydd, o'i naill ben i'r llall, drwy y wlad gyfoethog hon.

Y mae yr olion hynafiaethol yn lluosog ac amrywiaethol yma; y maent o bob cyfnod o'r bron, ac o ddyddordeb mawr. Y mae ar y bryn uchel a elwir y "Gader," yn agos i dref fechan Talgarth, rai cylchau Derwyddol, yn cael eu ffurfio o feini yn llunio cylch o tuag ugain llath o amgylchedd, ac amryw gylchau eraill yn gyfagos. Ar y bryn, gorllewinol i bentref Dyfynog, gerllaw y ffordd o Ystradgynlais i Drecastell, y mae cylch Derwyddol, o feini mawrion, a elwir y "Cerig Duon," ac un o honynt o faintioli mwy na'r lleill. Mewn carnedd, ar faes yn mhlwyf Llanelien, ar yr ochr ddwyreiniol i Bronllys, tua dechreu y ganrif hon, cafwyd offeryn o oesau boreuaf hynafiaeth Frydeinig, sef pen gwaewffon, o gareg dân, tua saith modfedd o hyd; cafwyd yn yr un garn hefyd, lestr pridd, o wneuthuriad lled arw. Y mae Cromlech, ar faes a elwir "Croeslechau," tua dwy filltir i'r dwyrain o Talgarth; ac y mae cof-adail o'r un natur, a elwir "Ty Illtyd," ar ben bryn a elwir Mannest, yn mhlwyf Llanhamlech. Y mae olion o ddwy o orsafau Rhufeinig, ond nid yw eu henwau yn adnabyddus; y brif un sydd tua thair milltir uwchlaw tref Aberhonddu, yn agos i uniad yr afonydd Yscir a'r Wŷsg, ac a elwir y Gaer, neu Caer Bannau, ac y mae y gweddillion yn eang iawn, yn ffurfio hir ongl o chwe chant a phedair ar hugain o droedfeddi, wrth bedwar cant ac un ar bymtheg a deugain; y mae y sylfaeni yn eglur, ac y mae yr adfeiliau, mewn rhai manau yn parhau eto tua chwe throedfedd o uchder, er eu bod wedi ei gorchuddio i raddau mawr gan goedwydd ac anialwch; y mae yr ongl ogledd-orllewinol yn ffurfio rhan o amaethdy, a'i ystafelloedd aneddol. Y mae y llawr wedi ei wisgo â phriddfeini; cafwyd bathodion aur ac arian yn y lle, yn dwyn delwau Nero, a Trajan. Y mae llwybr eto yn ganfyddadwy, yn cyrhaedd o'r Gaer gyda chyfeiriad yr Yscir, ac y mae yma faen a cherfiad Rhufeinig arno, a elwir "Maen y Morwynion." Y mae yr orsaf arall, a elwir y "Gaer," yn y fynedfa i ddyffryn, ar ucheldir, goruwch ffrwd fechan, a elwir Ewyn, yn nghymydogaeth Llanfihangel Cwm du, yn nghantref Crughywel, yn agos i'r afon Rhiangoll; y mae yn agos o'r un maintioli a Chaer Bannau, ond o ffurf agos i bedeirongl; y mae y cyntedd yn eglur yn y pen gogledd-orllewin, ac y mae darnau o briddfeini yn wasgaredig dros y lle; darganfyddwyd amryw fathodau Rhufeinig yno; y mae yno faen a cherfiad Rhufeinig arno. Yr oedd y brif ffordd Rufeinig, yn gangen o'r *Via Julia Maritima,* wedi ei ffurfio gan Julius Frontinus, gyda therfynau deheuol Cymru; yr oedd y gainc-ffordd hon yn cyfeirio heibio y *Gobannium* (Abergafeni) o *Isca Silurium* neu *Legionum*, ger Caerlleon, ar draws yr holl wlad, o ddwyrain i ogledd, hyd at y *Maridinum* yn Nghaerfyrddin, ac o blegid uchelder ei sefyllfa fe'i gelwid *Via Julia Montana.* Yr unig olion ychwanegol, heblaw ffordd y Gaer, ydyw careg a ddarganfyddwyd ar fynydd Trecastell, yn agos i westy a elwir Heath Cock, yn dwyn argraph Rufeinaidd. Bernir fod y ffordd hon yn dyfod i Frycheiniog o'r Fenni, ac yn myned drwy Grughywel, a Thretwr, i'r Gaer, gerllaw Llanfihangel Cwm Du, ac yn mlaen drwy y Bwlch, mewn llinell yn ogleddol o'r brif-ffordd bresenol, i dref Aberhonddu; ac y mae yn rhoddi yr enw *Struet* i un o'r heolydd yno; oddiyma elai yn mlaen hyd yr orsaf yn Nghaer Bannau, tu draw i'r hon y croesai yr Wŷsg yn fuan, ac yn mlaen yn orllewinol gyda Rhyd y Briw (lle y gwelwyd rhai o'i holion tua haner canrif yn ol) i sir Gaerfyrddin. Ymddengys fod gorsaf Caer Bannau yn dal cysylltiad a'r gorsafoedd, *Tibia Amnis* yn Nghaerdydd, a *Nidus* yn Nedd, yn Morganwg, ac hefyd gyda'r un oedd yn y Cwm, ar yr afon Ithon yn Maesyfed.

Digitized by Google

Yr oedd yr un oedd yn Nghaerdydd, yn dyfod i'r sir hon yn Bedwellty, yn Mynwy, mewn cyfeiriad agos o dde i ogledd, o le a elwir Bryn Oer, ac yn croesi yr Wŷsg i'r *Via Julia Montana*, yn nghymydogaeth Aberhonddu. Gelwir yr hen orsaf hon yn awr, Sarn Hir. Yr oedd yr un o Nedd, ac a elwir yn awr, Sarn Helen yn cymeryd cyfeiriad gogledd-ddwyreiniol, a gellir ei dilyn yn hawdd yn awr; y mae yn dyfod i Frycheiniog mewn lle a elwir Ton y Fildre, ac yn croesi ffrwd ychydig yn mlaen, a elwir Nant hir, ac â rhagddi i Blaen Nedd, gyda'r ffordd o Pont Nedd Fechan, am tua milltir; ac yna heibio i faen mawr, deuddeg troedfedd o uchder, a deg o led, a elwir Maen Llia, yn agos i grib bryn uchel, ar y gogledd ddwyrain i'r lle olaf a grybwyllwyd, lle y gwelir hi yn disgyn yn raddol ar ochr ddeheuol afon Senni, a'r dyffryn, ac yna collir pob olion o honi am bellder mawr; y mae yn dyfod i'r golwg eilwaith yn Mlaen-gwrthid, yn mhlwyf Llanspyddid, a thybir iddi gael ei mynedfa i ddyffryn Wŷsg, yn agos i Penpont, lle yr ymunai a'r *Via Julia*. Bernir fod ffordd yn dilyn o'r Gaer, a elwir weithiau *Via Devanna*, ac yn cyfeirio rhagddi at orsaf *Deva*, yn Nghaerlleon, gyda ffordd y Cwm, ar geulanau yr Ithon, yn Maesyfed. Oddiwrth ryw olion sydd yn mharthau gogleddol y sir, a ddarganfuwyd yn mhlwyf Eglwys Newydd yn Nhir yr Abbad, bernir fod ffordd yn myned o gyfeiriad gorsaf *Maridunum*, yn Nghaerfyrddin, ger Llanfair-ar-y-Bryn, at yr un ar afon Ithon; ac yn y Caerau yn mhlwyf Llangamarch, y mae mur-domen, tua phedwar ugain llath o amgylchedd, a fernir ydoedd yn safle *arx speculatoria*, neu dŵr gwylio, ar y ffordd hon, er fod rhai hynafiaethwyr o'r farn, ei fod o ddechreuad Prydeinig. Yn agos i bentref Llanfrynach, tua dwy filltir i'r de orllewin, darganfyddwyd amryw faddonau Rhufeinig mewn perffaith gadwraeth yn 1783, a chafwyd yma amryw fathodion ar wahanol amserau, a rhai mewn sylfaeni hen adeiladau, yn agos i'r baddonau. Y mae yn agos i Grughywel, hen amddiffynfa Frytanaidd, a elwir "Crug Hywel;" y mae yn cynwys gwersyllfa eang, o agweddiad tri onglog, yr hon a roddodd yr enw ar y dref; y mae y ffos sydd yn ei chylchynu yn ddofn iawn, ac wedi ei thori gyda llafur mawr yn y graig. Y mae olion gwersyllfa Brydeinig fawr, ar y bryn a elwir Pen-myarth, yn weledig ar y ffordd o Dretwr i Aberhonddu, a'r afon Wysg; yr oedd wedi ei diogelu a meini mawrion anghysylltiedig, ac y mae un arall heb fod yn neppell, ar yr ochr ogleddol. Y mae yn Nghoed y Fenni, yn agos i orsaf Rufeinig Caer Bannau, wersyllfa Frytanaidd, o hynafiaeth mawr, mewn lle a elwir, Pen y Crug; tua milltir oddiwrth hon, a dwy filltir i'r gogledd orllewin o Aberhonddu, y mae amddiffynfa hir-gron eang, chwe chan troedfedd o hyd, a phedwar cant a deg ar hugain o led, ac yn cael ei chylchynu â phedair ffos, deunaw troedfedd o ddyfnder; ac yn agos i hon drachefn, y mae trydedd amddiffynfa Brydeinig, o'r cyffelyb ffurf, ond o faintioli llai, ac heb fod mewn cyflwr cystal o ran cadwraeth. Y mae yn agos i eglwys plwyf Llanfillo olion o wersyllfa Brydeinig, o ffurf hir-gron, dau cant ac wyth llath o hyd, a chwech a deugain o led; ar fryn yn agos i eglwys Glasbury, y mae olion un lai; ar y bryn uwchlaw Aberbran, yn ngolwg dyffryn Wŷsg, y mae gweddillion un fwy, ac ar y bryniau gorllewinol i afon Tawe, y mae olion amryw o amddiffynfeydd Brytanaidd. Y mae yn y lle y bu yr ymladdfeydd trychinebus rhwng y Saeson ar Brython yn 728, yn agos i derfyn de ddwyreiniol y sir, olygfeydd hynod ar ddwy garnedd o gerig, ar agoriad un o honynt, darganfyddwyd cistfaen, neu arch gareg. Y mae carneddau eraill i'w gweled, ar gribau y bryniau sydd yn codi o ddyffryn yr Wŷsg, yn nghymydogaeth Tretwr, ac hefyd ar y bryniau sydd yn codi yn orllewinol i ddyffryn Tawe. Y mae yn mhlwyf Llanwrthwl ar derfyn gogleddol y sir, amryw feini wedi eu gosod yn y ddaear, sydd wedi rhoddi yr enw o Rhos Saith Maen i'r gymydogaeth; ac y mae yn mhlwyf Llangeney, gerllaw Crughywel, gofadail hynod, yn cynwys un maen unionsyth, tua thair troedfedd ar ddeg o daldra; ac y mae amryw o fur-domenau, oeddynt yn fath o amddiffyn, mewn amser boreuol anhysbys, i'w gweled yn agos i'r Dinas, yn nghymydogaeth Llanwrtyd, yn agos i Castell Madog, yn Ystradfellte, ac yn Trecastell.

Dywedir fod pleserdaith o Grughywel i Aberhonddu, mor darawiadol i'r adeiladydd eglwysig, a'r hynafiaethydd Cymreig, ag un man yn y Dywysogaeth, tra y bydd golygfa ar rediad yr Wŷsg, a chysgodion y Bannau, yn sirioli y cyfan. Gydag y byddis wedi gadael y lle blaenaf a enwyd, tu a'r ochr ogleddol, ar y tyddyn a elwir Ty-yn-y-wlad, y mae careg-fedd Turpillus. Fel y deuir yn mlaen am tua dwy filltir, gydag ochr ddwyreiniol yr Wŷsg, gwelir golygfa swynol ar Barc Glan Wŷsg, a phalasau eraill. Ar y chwith, yn fuan, cyrhaeddir pentref Tretwr, lle y mae amryw feini yn dwyn cerfiadau Rhufeinig, yno y mae yr eglwys yn eang, ond yn hynod o gyffredin fel adeilad. Y mae twr y castell yn sefyll yn hywel. Wrth rodio y dyffryn hwn, deuir yn fuan hyd Lanfihangel Cwm du; pentref a hir gofir, o blegid preswyliad yr enwog Carnhuanawc yno. Y mae twr uchel i'r eglwys, wedi ei adgyweirio yn ddiweddar, drwy draul o 2000*p*. Y mae yno gareg a ddarganfyddwyd wrth adgyweirio, ac argraph arni, ond cymaint ag a allwyd ei ddeall ydyw "*Hic Jacet.*" Y mae ar y ddeau i'r eglwys, sail croes henafol, wedi ei gosod i gynal deial. Wedi gadael yr hen orsaf Rufeinig, "Y Gaer," deuir dros y Bwlch, a chyrhaeddir pentref bychan Llan Sant Ffraid, ac yn mlaen hyd Ysgethrog, lle y mae careg wedi ei cherfio a'r enw "Victorinus." Y mae yr eglwys o adeiladaeth wledig. Deuir yn nesaf i bentref Llanhammlwch; ac ar ael y bryn, ac ochr ddwyreiniol y ffordd, ar y *Mannest Court Farm*, y mae cistfaen Ty-Illtyd. Y mae cryn sylw wedi ei wneud gan amryw haneswyr ar y cerfiadau sydd ar y maen hwn, a chryn ddyfalu, pa un a ydynt o ddechreuad Derwyddol, a'i peidio. Wele rai o honynt yn y desgrifiad a ganlyn:—



Y mae sefyllfa y gistfaen, yn nghanol oriel o fynyddoedd sydd yn amgylchu y lle, a Bannau Brych-

Digitized by Google

einiog ar y gorllewin, lle y tybir fod gwyliadwriaeth yn cael ei chadw, er anfon hysbysiad i'r addolwyr mewn amser o berygl. Y mae eglwys Llanhamlwch yn adeilad eang a dysyml. Y mae golwg ardderchog ar yr hen goed Yw sydd yn y fynwent. Mewn clawdd yn agos i'r porth sydd yn arwain i'r Llan, y mae maen hir, o gryn faintioli. Y mae un arall yn y maes sydd ar ochr orllewinol y ffordd fawr, gerllaw y Bwlch. Y mae olion yr hen bersondy, yn dangos ei fod yn adeilad eang a gwych, yn ei amser. Y mae yno amryw feini gydag ychydig o gerfiadau arnynt, mewn llythyrenau Sacsonaidd. Y mae yma faen coffadwriaethol am un "Johannis Moridic," am yr hwn ni wyddir dim yn awr.

Yn amser y dadgorphoriad, yr unig dai crefyddol yn y wlad hon ydoedd priordy a choleg Brycheiniog; ac y mae yr olaf yn sefyll hyd y dydd hwn, a dim ond ychydig o olion y cyntaf yn aros. Ar lethr serth yn nghwr uchaf dyffryn Ystradgynlais, y mae hen annedd meudwy, wedi ei dori yn y graig, a elwir "Eglwys Cradoc." Yr arddulliau hynotaf mewn adeiladaeth, ydynt i'w canfod yn eglwysi St. Ioan, yr Efengylydd, a St. Mair, yn Aberhonddu; eglwys golegol yr un dref; eglwys Crughywel, yr hon yw yr unig un yn Mrycheiniog â chlochdy pigdyrol; a'r rhai yn Llanthew, a Talgarth. Y mae olion hynod yn aros o gestyll y sir, sef Bronllys, Crughywel, Rhyd y Briw (a elwir weithiau castell Dyfynog), a Thre'r twr, yn agos i bentref Tretwr. Y mae rhai darnau yn aros o gastell Dinas, yn mhlwyf Talgarth; ac y mae ychydig o olion castelli Buallt, a Pencelli, gerllaw Llanhamlech; ar fryn uchel, yn codi ar ochr afon Irfon, ychydig uwchlaw ei hymarllwysiad i'r Wy, y mae mur-domen a elwir Castell Caer Beris, yr hwn yr ymddengys iddo fod ryw bryd yn amddiffynfa. Y mae o fewn y wlad hon, luaws o hen balasau, yn awr, neu ynte wedi bod, yn breswylfeydd teuluoedd pendefigol y cymydogaethau. Y rhai teilyngaf o sylw ydynt Carawen, yr nyffryn y Taf fwyaf, palas teulu a elwir Morgan; Castell Madog, ger Llandefailog Fach; Derw House yn mhlwyf Llyswen, yn breesnol yn neiliadaeth amaethwr; Ffrwd-grech; Hoelfannog; a Newton, oll yn agos i Aberhonddu; Lower Trefecca House yn mhlwyf Talgarth; Pont Wilym, sydd yn awr yn amaethdy; a hen balas Scethrog (yn awr a elwir y Twr, a ddelir gan amaethwr) yn agos i bentref Llansantffraid ar Wŷsg; y mae hen balas perthynol i deulu o'r enw Wellington, yn y Gelli. Y mae gweddillion o balas ardderchog yn agos i Grughywel, a berthynai i'r Herbertiaid o'r lle hwnw, yn cynwys y porth a rhan o'r mur. Y mae rhan o borthfa palas Porthaml yn aros, gerllaw Talgarth; ac ychydig o olion palas castellog esgobion Ty-ddewi yn Llanthew. Y mae amryw o adeiladau diweddar o gryn brydferthwch yn y wlad, yn mysg pa rai y mae Glan Wŷsg, preswylfod Joseph Baily, Ysw.; Gwernvale, Penaur, Peterstone, a Phant y wal. Y mae Brycheiniog wedi enill enw am daclusrwydd, hwylusdod, glanweithdra, a phrydferthwch ei hamaethdai, ac y mae hyny i'w briodoli i raddau mawr, i lafur ac ymdrechion Cymdeithas Amaethyddol y Sir. Y mae y bwthynod sydd ar lethrau y mynyddoedd yn wledig, eto yn lanwaith. Y mae y bara a'r enllyn yn dda, drwy yr holl wlad.

Y mae enw ac ymdrechiadau Hywel Harris mor hysbys yn y Dywysogaeth fel na ddylid myned heibio iddo yn ddisylw yma. Efe oedd yr ieuengaf o dri brawd, y rhai a ddaethant oll yn enwog yn eu galwedigaethau. Ganwyd ef yn mhlwyf Talgarth yn 1713. Bwriedid ei ddwyn i fynu i wasanaeth yr Eglwys sefydledig; pan yn ddeunaw oed, derbyniwyd ef fel efrydydd yn Neuadd St. Mair, yn Rhydychain. Ni arosodd yno yn hir. Ymofynodd am urddau, ond ni lwyddodd i'w cael. Yr oedd yn gyfaill mawr i Whitfield, a bu yn un o'r rhai blaenaf yn sefydliad Methodistiaeth yn Nghymru. Pan yr oedd tua phump ar hugain oed, dechreuodd deithio trwy siroedd Cymru, fel pregethwr; cyfarfyddodd a llawer o rwystrau, a gwybu beth oedd bod dan erlidigaeth lem a chwerw; ond aeth rhagddo yn ei lafur diorphwys; teithiai, yn ol y dystiolaeth a roddir yn y rhagymadrodd i'w lythyrau cyhoeddedig, dros lawer o flynyddau, uwchlaw cant o filltiroedd yn yr wythnos, ac ar rai prydiau, fwy na chymaint arall; ac yn pregethu rhagor na dwy waith yn y dydd; a chymeryd y cwbl gyda'u gilydd, dros ysbaid pymtheng mlynedd ac ychwaneg, yr oedd yn cynghori rai prydiau, bump neu chwech o weithiau yn y dydd, yn gyhoeddus ac yn ddirgel. Yn y flwyddyn 1752, gosododd i lawr sylfaen ei dŷ nodedig yn Nhrefecca, yr hwn a adeiladwyd, mewn rhan ar ei draul ei hun, ac mewn rhan drwy gynhorthwy haelionus eraill. Prynodd amryw dyddynod yn y gymydogaeth, a llwyddodd ei gynlluniau yn rhyfeddol dros ysdod ei oes. Cefnogodd Weithfeydd gwlaneni yno, y rhai a anfonid i bob gwlad, ac a gymeradwyid yn fawr o blegid eu rhagoroldeb. Yr oedd yn wr o feddwl teyrngarol iawn, a bu yn swyddwr yn mysg milwyr cartrefol Brycheiniog yn 1759, a theithiodd gyda hwy i amryw barthau yn Lloegr, gan bregethu i'r fyddin yn mhob man lle yr elai. Cefnogwyd ei amcanion yn wresog gan Arglwyddes Huntington, a hi a ffurfiodd goleg yn nhy Trefecca isaf, i'r dyben o barotoi pregethwyr ieuangc mewn addysg at y weinidogaeth. Bu farw Gorphenaf 28, 1773, ac efe a gladdwyd yn Talgarth. Gwel HOWELL HARRIS.

Y mae y gweision yn cael eu cyflogi yn y sir yn gyffredin yn y ffeiriau a gynhelir yn misoedd Mai a Tachwedd; y rhai sydd yn parhau yn fynych dros amryw ddyddiau. Y mae y ffynhonau mwnyddol hynottaf yn Llanwrtyd, ar lannau yr Irfon, yn rhanau uchaf cantref Buallt, a elwid gynt, "Y Ffynon Ddrewllyd;" o blegid fod y dwfr wedi ei lanw â nwyau, o naws yr haiarn a *sulphate of soda,* ac a fernir eu bod o rinweddau meddygol cyfartal â dyfroedd Harrogate. Darganfyddwyd elfenau iachusol y dyfroedd hyn tua'r flwyddyn 1732; y mae y lle yn awr yn denu ei filoedd o ymwelwyr yn misoedd yr haf, ac y mae cyfleusderau teithio gyda y rheilffordd wedi codi y fan i sylw cyhoeddus iawn. Y mae ffynonau y Parc, tua milltir yn orllewinol i Buallt, yn cynwys pedair ffynonell, gyfagos i'w gilydd; un o ba rai sydd yn ddwfr pur, un arall yn halenaidd, y drydedd yn galchaidd, a'r bedwaredd yn tueddu at y sylphur. Y mae amryw ffynonellau cyffelyb, ond heb fod mor effeithiol a'r rhai crybwylledig. Y mae Tarren yr Ogof yn galch-graig yn agos i Capel Callwen, ar geulan orllewinol y Tawe, o'r hon y rhed ffrwd wastadol o ddwfr, sydd yn troi olwyn melin gerllaw; y mae yn chwyddo yn ddirfawr ar ol diwrnod neu ddau o wlaw. Y mae ochrau deheuol y wlad yn brydferth iawn, o blegid amrywiaeth eu golygfeydd, mewn bryniau a dolydd. Y rhaiadrau hynotaf ydynt y Pistyll Mawr, ar yr afon Clydach, yn nghanol llethrau coediog rhamantus; dau o rai tra ardderchog ar afon fechan y Mellte, ychydig

Digitized by Google

uwchlaw ei huniad a'r Hepste; rhaiadr Cil Hepste ar y ffrwd hon, yn disgyn o uwchder o tua haner can troedfedd; rhaiadr nerthol a elwir Ysgwd Einion Gam, ar y Pyrddin, afon sydd yn llifeirio i'r Nedd o'r gorllewin; ac un arall a elwir Ysgwd yr Hen Ryd, ar afon fechan Llech, sydd yn uno a'r Tawe o'r dwyrain, ychydig uwchlaw pentref Ystradgynlais. Y mae y Fellte, cyn ffurfio y rhaiadr crybwylledig, yn rhedeg yn dan-ddaearol am ychydig o ffordd, ac yn gweithio rhagddi drwy geunant cul, a ellir ei olrhain a lanterni pan y byddo y ffrwd yn isel, am gryn bellder o ffordd; y mae y fynedfa, a elwir Porth Ogof tuag ugain troedfedd o uchder, a phump a deugain o led, ac y mae yn ymagor yn eang yn ei ganol, wedi ei addurno â merfeini (*stalactites*); y mae y trwst a'r swn ar y disgyniad weithiau yn hynod iawn. Dywed Malkin fod llifeiriant yr afonydd, toriad yr agenau, ffurfiad y bryniau, a lluniad y llethroedd, yn swyddau tirfewnol Trefaldwyn, Maesyfed, a Brycheiniog, yn dwyn llawer o debygrwydd i'w gilydd, ond fod mynyddau yr olaf, yn codi yn uwch na'r eiddo ei chymydogion, fel o'r braidd y mynai ymgysdadlu, ag Alpau y Gogledd. Dywed yn mhellach, fod golygfa fwyaf hywel y wlad yn fynyddig ac aruchel, ac wedi ei haddurno a gwaith celfyddgar yr amaethydd. Yr hyn sydd yn ei gwahaniaethu yn benaf oddiwrth Forganwg ydyw, fod ei dyffrynoedd yn helaethach, ac yn wastadach, ac heb gael eu hanurddo a chrugiau a chlogwyni. Nid yw y golygfeydd yn newid mor ddisymwth, nac mor fynych, a thrwy hyny, y maent yn creu mwy o fawrhad, a llai o syndod. Y mae y coedwigoedd yn rhagori, ac y mae ceulanau y prif afonydd wedi eu gwisgo a phrenau cyfoethocach ar y cyfan, nag ymylon Morganwg. Ceir manteision ac anfanteision o'r braidd yn mhob gwlad a chymydogaeth. Ni ellir dyfod i ben a manylu drwy gyfeiriad at yr holl barthau, ac ni a derfynwn mewn Efelychiad o linellau ar *Fannau Brycheiniog*, gan awdwr galluog y llinellau ar "Llanthony Abbey:"—

BANNAU BRYCHEINIOG.

Fe ddichon fod mynyddau, a'u cribau'n uwch eu bri
Yn nheyrnas fawr y Wyddfa, dan ei harglwyddiaeth hi;
Meddiana y ddwy Glyder, lywodraeth nen a llawr,
Fel gwyliedyddion arfog, wrth Fwlch Llanberis fawr;
Carneddi'r Teyrn Llewelyn, a Dafydd, sy gerllaw,
Wrth alw am warogaeth, yn rhoi ar Gymru fraw;
Mae cader Idris hithau, gan wisgo, i choron wen
Ar flaenau, i thraed yn codi, er honni bod yn ben,
Mae gwel'd ei llethrau gwylltion, rhamantus ar bob tu,
Mor swynol i deimladau a'r holl rosynau sy;
Mewn rhwysg y cwyd Plumlumon, ei phen i'r uwchaf rod,
Fel mamaeth ein hafonydd, o'i mynwes sydd yn dod,
A'i ffrydiau grisial disglaer, gan suo ar bob bryn,
Nes cyrhaedd hyd y ceunant, i gyd ffrwythloni'r glyn;
Ond eto wrth ardremio, mor dlws yw'r bore wawr,
Yn chwareu rhwng cysgodau y cwmwl hyd y llawr,
Ar Fannau glan Brycheiniog, y rhai mor serchog sydd
Yn iach, heb ymffrost uchel, o dan yr awel rydd;
A'u hael dan feitr eira urddasol, ddwg ein bryd
Yn fwy nac Alpau cribog, Eryri oll yn nghyd!

**BRYCHEINIOG**, GWYNFARDD, oedd fardd lled enwog yn mhlith y gogynfeirdd, rhwng 1160 a 1220. Mae dwy gân o gryn feithder o'i eiddo yn y *Myf. Arch.*, un i'r Arglwydd Rhys ab Gruffydd, a'r llall i Dewi Sant. Fel hyn y dechreua ei gân i Dewi:—

"Am roto dynot dedwyt deweint
Awen gan awel pan del plygeint
Awyt boed kyfrwyt kyfreith bartoni
Kynnelw a Dewi y deukymeint," &c.

**BRYFFWRCH**, SEISYLLT, bardd clodfawr yn mysg y gogynfeirdd, ac yr oedd yn byw o 1160 i 1210. Noddid ef gan Madog ab Meredydd, tywysog Powys Fadog, yr hwn oedd yn cadw yr arferiad cysefin o gynal Pencerdd yn ei lŷs, am yr hon anrhydedd y bu ymrysonfa unwaith, rhwng Seisyllt Bryffwrch a Chynddelw. Mae tri chyfansoddiad byr o'i waith yn y *Myf. Arch.*, Sef Awdl Farwnad Iorwerth Fab Owain, Marwnad Owain Gwynedd, a Chân i'r Arglwydd Rhys, ar fesur Hypynt Byr. Wele engraifft o'r olaf:—

"Duw rym roddwy
Rheiddun arlwy erlid cyngor
Rhodd fodd fedru
Rhif brif brydu, bryddest ragor," &c.

**BRYMBO**, neu BRYN-BWA, sydd drefgordd gysylltedig â Broughton, yn y rhan hono o blwyf Gwrecsam, ag sydd yn nghantref BROMFIELD, swydd DDINBYCH, GOGLEDD CYMRU, 5 milltir o Wrecsam. Y mae gwaith glo a haiarn eang iawn yn y lle hwn. Y mae yma amryw addoldai rhagorol, gan yr Ymneillduwyr. Gwel BROUGHTON.

**BRYN BIGA**, a elwir yn fwyaf cyffredin USK, tref farchnad, a phlwyf, mewn rhan yn adran isaf, ond yn benaf yn adran uchaf, cantref BRYN BIGA, swydd FYNWY; dair milldir ar ddeg i'r de orllewin o Dre Fynwy, a 144 milldir i'r gorllewin wrth ogledd o Lundain; yn cynwys, gan gymeryd pentrefi Glascoed a Gwehellog i fewn, 1781 o drigolion. Y lle hwn, yr hwn yn ddiau sydd o henafiaeth dirfawr, a gyfrifir gan henafiaethwyr yn gyffredin, oedd *Burrium* y Rhufeiniaid; ac fe debygid fod y dŷb hono yn cael ei chadarnhau trwy ei sefyllfa ganolog, rhwng Caerlleon, y Fenni, a Thre Fynwy; a thrwy gyfattebolrwydd manol ei phellder o'r lleoedd hyny, â'r pellder a nodir yn Nheithiaduron Burrium o *Isca Silurum*, *Gobannium*, a *Blestium*. Meddyliodd rhai fod yr hen enw Rhufeinaidd yn deillio oddiwrth yr afonig Byrddin, yr hon sydd yn ymarllwys i'r Wŷsg, tua milldir oddiar y dref: ond y mae eraill yn barnu yn hytrach, mai ei wreiddyn yw *Bwr*, hen air Cymraeg yn dynodi amddiffynfa, fel y gwelir yn y llinellau canlynol gan Einion ab Gwgawn;—

"Ni sefis na thwr, na *bwr*, bu crain,
Nag argoed, na choed, na chadlys drain."

"There stood nor tower, nor *wall*, they prostrate fell; nor abatis, nor wood, nor chevaux de frise" (Dr. W. O. Pughe, *in loco*).

Yr enw *Usk* efallai, a ddeillia o "Wy Ysg," neu "yr Wŷsg," am fod gorsaf y dref ger yr afon Wŷsg.

Y mae yn debyg fod yma hen dref, neu ddin Brydeinaidd ar gopa y bryn, wedi ei hamddiffyn ag amgloddiau o goed a cherig, yn ol dull yr hen Frythoniaid; ac i'r Rhufeiniaid gymeryd meddiant o honi, fel na byddai yn lloches i warchodlu; ond na's defnyddiasant y lle un amser, fel un o'u prif orsafau.

Y mae yn ddiamheuol fod y dref hon yn dra henafol, a'i bod yn gorchuddio llanerch fawr o dir ar un adeg; canys wrth gloddio pydewau, neu sylfeini adeiladau, o bryd i bryd, fe ddarganfuwyd tair rhestr o balmantydd, ac yn y caeau cyfagos, olrheiniwyd ffyrdd pygiedig, y rhai y bernid mai heolydd y dref oeddynt. Tua diwedd y ddeunawfed ganrif, dargan-

Digitized by Google

fuwyd mewn maes a elwir "Cae putta," o'r tu dehau i'r dref, ffordd balmantedig, yn gladdedig; yr ydoedd yn naw troedfedd o led; ac wedi ei gwneyd o gerig nadd, wedi eu dodi ar eu hystlysau.

Yr hen gastell a adeiladasid ar fryn oddiar y dref, oddiwrth yr hwn debygid y mae ei henw Cymreig yn deillio; a bu llawer ymosodiad ar y dref a'r castell, yn ystod y rhyfeloedd blinion a barhasant cyhyd, rhwng y pennaethiaid Cymreig â'r arglwyddi Normanaidd. Crybwyllir bod y castell yn perthyn i Rhisiard de Clare, Iarll Caerloyw a Henffordd, yr hwn oedd yn ei flodau yn nheyrnasiad Harri y Trydydd, ac ar farwolaeth yr hwn yn y flwyddyn 1262, y dyroddid y castell a'r faenor i'w weddw, *Maud*, fel rhan o'i chynnysgaeth. Gan hyny meddwn sail i gasglu, ei fod wedi dyfod yn ettifeddiaeth iddo ef oddiwrth ei hynafiaid, Ieirll Clare, y rhai a oresgynasent Went Isaf. Goresgynwyr cyntaf y parthau hyn, oeddynt Gwallter, a Gilbert de Clare, y rhai oeddynt yn eu blodau yn nheyrnasiad Harri y Cyntaf, a chwblhawyd y goresgyniad gan eu holynwyr union-gyrchol. Ar farwolaeth Gilbert de Clare, Iarll olaf Caerloyw o'r llinach hono, yn y flwyddyn 1314, ei chwaer Elizabeth, a drosglwyddodd gastell Bryn biga, yn nghyd a'i feddiannau mawrion eraill, i'w phriod, John de Burgh, mab Rhisiard, Iarll Ulster. Eu mab William, a adawodd unig ferch, Elizabeth, yr hon a ymbriododd â Lionel, dug Clarence, trydydd mab Edward y Trydydd, a thrwy y briodas hon, a unodd ettifeddiaethau enfawr teuluoedd de Burgh, a Clare.

Ei unig ferch Philippa, a briododd Edmwnd Mortimer, Iarll March, gorwyr Rossier de Mortimer, hoff-ddyn y frenines Isabella, yr hwn a ddienyddiwyd yn y flwyddyn 1330, dan y cyhuddiad o lofruddio Edward yr Ail. Yn y flwyddyn 1369, cafodd Edmwnd feddiant ar ei holl gestyll a'i diroedd. Yr oedd efe yn bendefig galluog, yn arwedd y teitlau o Iarll March ac Ulster, arglwydd Wigmore, Clare, a Chonnaught, a dystain Lloegr. Yn y flwyddyn 1379, efe a wnaed yn arglwydd raglaw yr Iwerddon, ac fel y dywaid *Dugdale*, "Gan hyny, efe a aeth yno, i wneyd ei drigfa yno, ac a ddofodd fileindra y bobl daiogaidd hyny, drwy ddinystrio deg neu unar-ddeg o'u mân freninoedd, o fewn yspaid haner blwyddyn, fel yr adenillodd efe agos ei holl diroedd yn Ulster, y rhai a fwynhasai y Gwyddelod er's amser maith; a chan ymwthio yn mhellach i'r wlad hono, trwy ei ymddygiad doeth, ei hynawsedd tuag at y brodorion, ei garedigrwydd, a'i hyawdledd, efe a ddarostyngodd yr holl barthau hyny i ufudd-dod, o fewn dwy flynedd a haner. Ond yn nghanol ei orchestion, efe a fu farw yn y 29ain flwydd o'i oedran, yn ninas Cork, yn y flwyddyn 1381; a dodwyd ei gorff yn eglwys gadeiriol y ddinas hono, yn ol ei gyfarwyddyd ef ei hunan, hyd oni ddifawyd ei gnawd oddiar ei esgyrn, yna trosglwyddwyd ei esgyrn i Wigmore, yn swydd Henffordd, ac fe'u claddwyd yn anrhydeddus yno gyd a'r arglwyddes Philippa, ei wraig."[1]

Gadawodd Edmwnd ar ei ol, dri mab, a dwy ferch. Ei ail fab, Syr Edmwnd Mortimer, Marchog, a gymerwyd yn garcharor gan Owain Glyndwr, yn y flwyddyn 1403, amgylchiad a barodd lawer o ddyryswch, gan ei fod wedi ei gamgymeryd gan haneswyr, am ei nai. Y mab ieuangaf, Syr John, a garcharwyd yn nhwr Llundain, ac a ddienyddiwyd yn y flwyddyn 1424, dan y cyhuddiad o'i fod wedi ceisio dianc, a chyfodi gwrthryfel yn Nghymru.[2]

Rossier, y mab henaf, a'r ettifedd, a anwyd yn Mryn biga, yn y flwyddyn 1374, ac efe a fedyddiwyd gan William, esgob Henffordd, pan y safai esgob Llandâf, ac Abbad Caerloyw yn dadau bedydd iddo, a phrioress Bryn biga, yn fam fedydd iddo. Ac yn y Senedd a gynhaliwyd yn y flwyddyn 1386, efe a gyhoeddwyd yn ettifedd y goron, yn rhinwedd ei haniad o Lionel, Iarll Clarence. Wedi gwneuthur gwriogaeth, a derbyn meddiant cyfreithiol o'i holl diroedd, yn y flwyddyn 1396, efe a ganlynodd y brenin i'r Iwerddon, â gosgordd o ddau lumanwr, wyth o farchogion, deunaw a phedwar ugain o ysweiniaid, dau cant o saethyddion ar feirch, a phedwar cant o wŷr traed. Yn y flwyddyn 1399, ag efe yn arglwydd rhaglaw yr Iwerddon, efe a laddwyd, fel yr oedd efe yn myned yn anochelgar o flaen ei fyddin, mewn gwisg Wyddelig.

Ei fab henaf, Edmwnd, yr hwn nid oedd namyn chwe mlwydd oed, gan ei fod yn ettifedd cyfiawn y goron, a gedwid mewn dalfa yn Windsor, trwy eiddigedd y penteyrn newydd, Harri y Pedwerydd. Ei ewythr, Syr Edmwnd Mortimer, wedi ei gymeryd yn garcharor gan Owain Glyndwr, a ymgyngrheiriodd â'r gwron hwnw, yn nghyda Henry Percy, i ddiorseddu Harri y Pedwerydd, a dyrchafu ei nai i'r orsedd, a dygwyd yr iarll ieuanc o'r carchar yn lladradaidd; ond efe a gymerwyd i ddalfa drachefn pan ar y daith i Gymru, ac a gadwyd mewn carchariad caethach na chynt. Efe a ryddhawyd o'r cyflwr gwaradwyddus yma, trwy fawrfrydigrwydd Harri y Pummed; yr hwn er ei fod yn hysbys o'i hawl uwch i'r orsedd, nid yn unig a'i rhyddhaodd, ond hefyd a ymddygodd tuag ato yn dra charedig, gan roddi meddiant cyfreithiol iddo o'i holl diroedd, trwy yr hyn ei gwnelid y deiliad galluocaf yn y deyrnas. Dan ddylanwad y profion hyn o garedigrwydd a daioni, darfu i'r Iarll March, gan annghofio ei hawl i'r orsedd, ymroddi i wasanaethu ei bennadur, â ffyddlondeb diball, a'i ddilyn i lawer brwydr gyd a'i gaeth-ddeiliaid arfog lluosawg. Nid hir y gorfucheddodd efe ei gyfaill a'i gymwynaswr breninol; canys efe a fu farw yn y drydedd flwyddyn o deyrnasiad Harri y Chweched, heb hiliogaeth o'i wraig Anne, ferch Edmwnd, Iarll Stafford.

Ei feddiannau helaeth a ddisgynasant i'w nai, Dug Caerefrog, mab ei chwaer Anne, o Rhisiard, Iarll Caergrawnt; a hwn a hoffai gastell Brynbiga, fel ei ddewisol annedd; ac yma y ganwyd dau o'i feibion, a fuant wedi hyny yn freninoedd Lloegr, sef Edward y Pedwerydd, a Rhisiard y Trydydd; ar farwolaeth yr hwn y daeth ei feddiannau, yn nghyda chastell Brynbiga, i feddiant Harri y Seithfed, yn rhinwedd ei briodas â merch Edward y Pedwerydd. Bu y castell hwn wedi hyny yn mherchenogaeth William, Iarll cyntaf Penfro, o'r ail gangen o dylwyth yr Herbertiaid. Gan i Phylip, y pedwerydd disgynydd o hono, farw yn 1683, heb adael mab ar ei ôl, ei unig ferch, a'i ettifeddes, a'i trosglwyddodd drwy briodas, i Thomas, Is-iarll Windsor.

Prin yr oedd yr ettifeddiaethau a berchenogid gan yr ail gangen yma yn swydd Fynwy, yn llai na'r eiddo Iarll cyntaf Penfro o'r linach Herbertaidd. Gallasai Phylip, perchenog diweddaf castell Brynbiga, fyned agos yr holl ffordd, trwy ei faenorau ei hunan, o gymydogaeth Tre Fynwy, hyd *Newton*

[1] Dugdale, vol. i. p. 150.

[2] Rapin, vol. iv. p. 333.

Digitized by Google

*Dorn*, tu hwnt i Bont Fon; pellder o yn agos i drigain milldir. Nid anfynych y gosgorddid ymddiriedolwyr y ferch, yn eu cylch-daith flyneddol, tra yr oedd hi dan oed, gan fwy na phymtheg cant o'i thirddeiliaid, a'i hymddibynwyr, o Gaer Went, i gastell Caerdydd, lle y profid y cyfrifon, ac y derbynid yr ardrethion; oddiwrth yr hyn y gellir ffurfio rhyw synied, am yr ettifeddiaethau eang, a'r dylanwad mawr, a feddiennid unwaith gan Ieirll Penfro, yn swydd Fynwy, er nad ydynt erbyn hyn yn meddu yr un Faenor, neu ettifeddiaeth, yn yr holl wlad. Eu hwyr Herbert, Is-iarll Windsor, a werthodd y castell tua chanol y ganrif ddiweddaf, yn nghyd a'r ettifeddiaethau mawrion a'i hamgylchent. Fe'i prynid gyntaf, yn yr arwerthiad cyhoeddus, gan Valentine Morris, o Piercefield; ond, gan iddo fethu dyfod a'r gwystl-dal yn mlaen, fe'i gwerthwyd i'r arglwydd Clive, oddiar yr hwn ei prynwyd drachefn gan y Dug o Beaufort.

Llywodraethir y dref gan gorfforiaeth, cynwysedig o borth-faer, cofiadur, a bwrdeisiaid, yn cael eu cynorthwyo gan bedwar o geisbyliaid. Y porth-faer a etholir o fysg y bwrdeisiaid, y rhai a ddewisir gan y cofiadur; a'r ceisbyliaid a bennodir mewn bwrdeislys, a gynhelir yn flyneddol: y porthfaer ar ei enciliad o'i swydd, sydd yn dyfod yn henadur. Perthyna awdurdod ynadol i'r porthfaer; a medd yr ynadon sirol gyd frawdwriaeth ag ef. Cynhelir brawdlysoedd chwarterol y Sir, a chyfarfodydd ynadon y rhanbarth, yn y dref hon; a chantreflys unwaith yn y pymthengnos, lle y llywydda y porthfaer, a'r cofiadur. Neuadd y dref sydd adeilad hardd, uwchben y farchnadfa, wedi ei hadeiladu ar draul y Dug o Beaufort.

Ficeriaeth ydyw y fywioliaeth eglwysig, yn archddiaconiaeth ac esgobaeth Llandâf, trethedig yn llyfrau y brenin i 10*p.* 10*s.*; ac wedi ei gwaddoli a 200*p.* o ged-rodd freninol. Ymddengys fod yr eglwys, yr hon sydd gyflwynedig i goffadwriaeth St. Mair, wedi ei hadeiladu gan y Normaniaid Seisnig. Yr ydoedd ar y dechreu yn llawer mwy nag ydyw yn bresenol, ac wedi ei hadeiladu ar ffurf eglwys gadeiriol. Yr ydoedd y tŵr gwalciog, sydd ar y pen dwyreiniol yn bresenol, yn y canol, a mynedfa o hono i'r groes-adail a'r gôr-gell, y rhai nid ydynt mewn bod mwyach; ond olion pa rai a welir oddiallan: er hyny y mae yn adeilad eang a chyfleus eto. Cynwysa amryw gof-adeiladau henafol, a dyddorol; ac un diweddar, a gyfodwyd yn y flwyddyn 1822, er coffau haelfrydedd Mr. Roger Edwards, seilydd yr Ysgol Rammadegol, yr hon a sefydlwyd ac a waddolwyd ganddo yn y flwyddyn 1624. Y mae 70*p.* yn y flwyddyn, o gyflog i'r athraw, a thŷ dâ i fyw. Heblaw hyny, cymmun-roddodd y seilydd, 5*p.* yn y flwyddyn, at anfon un ysgolor tlawd i brif-ysgol Rhydychain. Y mae yma elusendai hefyd i bedwar ar hugain o dlodion, a haner coron yn yr wythnos, at gynhaliaeth pob un.

Yr ydoedd yr eglwys yma yn perthyn i'r priordy gynt, gweddillion yr hwn sydd i'w ganfod eto ar y tu de-ddwyreiniol i'r tŵr. Yr ydoedd y priordy wedi ei sefydlu, yn ol *Tanner*, cyn y flwyddyn 1236, a'i fwriadu i bump o leianod, o urdd St. Benedict, y rhai oeddynt i weddio yn wastadol dros Syr Rhisiard de Clare, a'i fab Gilbert, fel seilwyr y Sefydliad. Yn ol *Dugdale*, yr oeddynt wedi eu gwaddoli â 55*p.* 4*s.* 5*c.* yn y flwyddyn; ac ar ddadgorfforiad y crefydd-dai, dyroddwyd gorsaf y Sefydliad hwn i Rossier Williams o Langibby, taid Syr Trefor Williams. Mewn amser fe'i gwerthwyd gan rai o'i hiliogaeth, ac oddeutu diwedd y ddeunawfed ganrif, yr oedd yn meddiant yr Henadur Hayley. Y mae yr hen adeilad, yn ammaethdy yn bresenol; neu, o leiaf yr ydoedd felly rai blyneddau yn ôl, ac mewn un ystafell yno, yr oedd darluniau o arfbeisiau seilwyr a chymwynaswyr y Sefydliad, neu berchenogion y castell.

Y mae cynhaliad y brawdlysoedd yn y dref, o wasanaeth i'w masnach; ond y marchnadoedd a'r ffeiriau yw ei nerth trafnidiol. Cynhelir y marchnadoedd yma bob dydd Llun.

Heblaw Llan y plwyf, y mae yma amryw addoldai Ymneillduol hefyd. Yr oedd rhan o'r carchardy cyffredinol, yr hwn sydd yn agos i'r bont, yn gapel Pabaidd gynt: y mae y porth Gothaidd, a ffurfiai y fynedfa ddeheuol, yn aros eto; ac y mae porth Gothaidd arall ar y tu gogleddol, wedi ei lanw i fynu.

Y mae amryw gaerfeydd milwraidd, o gyfnod tra boreuol yn nghymydogaeth Bryn biga; megis Craig y Gaercyd, Coed y gwersyll (*Campwood*), a Choed y Bunedd. Crybwyllir Craig y Gaercyd gan rai Haneswyr fel gwersyll Rhufeinaidd; ond yn dra disail debygid. Y mae yn gorwedd tua dwy filldir o'r dref, ar y tu dwyreiniol i ffordd Pont y pool, ar ael bryn serth oddiar yr afon Wŷsg. Gorchuddir yr orsaf â manwydd a mieri; ac y mae yr amgloddiau mewn manau, yn ddeg troedfedd ar hugain o ddwfn. Y mae amryw garneddau ar yr ystlys ogledd orllewinol, rhai o honynt, o 15 i 20 troedfedd o uchder. Nid oes dim yn ffurf y gaerfa hon yn awgrymu ei bod o nodwedd Rufeinaidd; ond, y mae yn fwy tebyg, ei bod yn amddiffynfa Brydeinaidd, cyn i'r Rhufeiniaid erioed droedio yr ynys hon.

Y ddwy gaerfa arall, sydd ar yr ochr arall i'r afon, ar y tu dwyreiniol i'r brif-ffordd sydd yn cyfeirio o Frynbiga i'r Fenni. Coed y Gwersyll, ddwy filldir o'r dref, oddiar gyttir gwyllt a neillduedig Gwhelwg, sydd o ffurf hir-grwn, yn amgylchynedig gan un ffos; ac yn cynwys cylchfesur o tua saith gan llath. Y mae wedi ei llwyr orchuddio a choed, yr hyn debygid, a achlysurodd iddo gael ei alw "Coed y Gwersyll." Caerfa Coed y Bunedd, neu, yn hytrach, "Coed y Bonedd," sydd ar goppa bryn amlwg, tua phedair milldir o Bryn biga, ac ar y tu gorllewinol i'r brif ffordd i'r Fenni. Gwersyll bychan ydyw hwn, 480 llath o gylch-fesur, oddifewn i'r amgaerau, ond yn hynod o gadarn. Yr ydoedd yn gydiedig a'r ddwy gaerfa arall yn yr hen amser, trwy ffyrdd milwraidd, o'r naill i'r llall; ac er mai amddiffynfeydd Prydeinaidd oeddynt ar y dechreu, y mae lle i gasglu bod y Rhufeiniaid wedi eu meddiannu, a gwneyd defnydd o honynt dros ryw yspaid.

**BRYN-CAREDIG**, sydd drefgordd gysylltiedig â Maesmaen-Cymro, yn y rhan honno o blwyf Llanynys, ag sydd yn nghantref RUTHIN, swydd DDINBYCH, GOGLEDD CYMRU, 2 filltir o Ruthin. Planwyd coedwigoedd yn y gymydogaeth hon yn y blynyddoedd 1813 a 1814, gan W. M. Thackery, Ysw., M.D., ac y mae y planwyddfeydd mewn cyflwr cynyddol a blodeuog.

**BRYNCROES** (BRYN-CROES), sydd blwyf mewn rhan yn nghwmwd Cymytmaen, ac mewn rhan yn nghwmwd Gaflogion, yn nosparth Lleyn o swydd CAERNARFON, GOGLEDD CYMRU, 11 milltir o Bwllheli. Y mae y pentref yn sefyll mewn man prydferth gerllaw yr afon Soch; y mae y plwyf, yr hwn sydd

Digitized by Google

yn gwbl amaethyddol, yn cynwys tua 3000 o erwau o dir, yr hwn sydd oll dan driniad priodol. Y mae y fywoliaeth yn guradaeth barhaol, yn archddeonaeth ac esgobaeth Bangor, wedi ei gwaddoli â chyllid o saith bunt o rodd bersonol, 600*p.* o rodd frenhinol, a 1000*p* o rodd seneddol, ac yn nhadogaeth C. G. Wynne, Ysw. Y mae yr eglwys yn adeilad mewn adgyweiriad priodol. Y mae tyddyn yn y plwyf, o werth tua 7*p.* yn y flwyddyn, wedi ei adael, flynyddau yn ol, tu ag at dalu am addysg plant tlodion i ddarllen Cymraeg: nid oes yma ysgoldy, ac y mae y plant, ugain o nifer, yn cael eu hyfforddi yn y Llan. Y mae ardreth tyddyn arall, tua 9*p.* yn cael ei thalu i ysgolfeistr, am gadw ysgol yma bob pedwaredd flwyddyn, mewn cydweithrediad, ar gylch, âg Aberdaron, Rhiw, a Llanfael-rhys. Yr oedd capel a elwid "Ty Fair," yn sefyll yn agos i'r eglwys gynt; ger llaw y fan hefyd y mae "Ffynnon Fair," a "Chae Fair." Darganfyddwyd cistfaen, rai blynyddau yn ol, yn yr hon yr oedd esgyrn a llwch llosgedig, ar dir y Ty Mawr, yn y plwyf hwn; ac yr oedd Cromlech yma, yn agos i dŷ a elwir Monachdy.

**BRYN-EGLWYS** sydd blwyf yn nghantref IAL, swydd DDINBYCH, GOGLEDD CYMRU, 5 milltir o Langollen. Y mae y plwyf hwn yn sefyll, mewn cymydogaeth fynyddig, o amrywiol uchder, ac yn arddangos golygfeydd eofn. Y mae y fywoliaeth yn guradaeth barhaol, yn archddeonaeth ac esgobaeth Llanelwy, wedi ei gwaddoli â rhodd neillduol o 200*p.* ac 800*p.* o rodd frenhinol, ac yn nhadogaeth Esgob Llanelwy. Y mae yr eglwys yn adeilad ddysyml. Y mae yma addoldai gan y Methodistiaid a'r Wesleyaid. Gadawodd Mr. J. Jones ardreth o 6*p.* yn flynyddol, i'w thalu o'i etifeddiaeth, ar Ty yn y Wern, er addysgu plant tlodion y plwyf. Y mae yn agos i Plas yn Ial, yn y rhan fynyddig o'r plwyf, ffynhonell gref, yn cynwys yr un elfenau â dwfr Treffynon, ac yn cynyrchu y mwsogl a elwir *Jungermannia Asplenioides, a Conferva Gelatinosa*, arogledd y rhai sydd yn gryfach na'r rhai yn Ffynnon Treffynon.

**BRYN GWYN**, plwyf yn rhanbarth isaf cantref RHAGLAN, swydd FYNWY; 6½ milldir i'r gorllewin dde orllewin o Dre Fynwy, yn cynwys 313 o drigolion, yn ol Deiliadeb 1861. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth yn archddiaconiaeth ac esgobaeth Llandaf; trethedig yn llyfrau y brenin i 4*p.* 8*s.* 9*c.*, ac yn noddogaeth Iarll y Fenni. Y mae y Llan yn gyssegredig i Sant Pedr.

**BRYN GWYN**, plwyf yn nghantref PAINSCASTLE, swydd FAESYFED, DEHEUBARTH CYMRU; 6 milldir i'r gogledd-og-orllewin o'r Gelli, yn cynwys poblogaeth o 334. Y mae y plwyf hwn yn gorwedd ar yr afonig "Garrow," neu, yr "Arrow;" a chynwysa ranau helaeth o dir tra chynnyrchiol, ac wedi ei ddiwyllio yn dda; a chyfran led helaeth o gyttir, rhan o'r hwn sydd yn fawnog, ac a elwir y Rhos Göch, o'r hon y cloddir mawn rhagorol, hyd bymtheg troedfedd o ddyfnder. Oddi tan y mawn, y mae haen o glai glâs, yn yr hwn y mae helaethrwydd o fôr-gregyn, y rhai a faluriant ar y cyffyrddiad lleiaf. Y mae yr haen tua dwy droedfedd o drwch, ac ymddengys ei fod yn gorwedd ar ddwfr, yr hwn a ymgyfyd trwy yr agenau a wneir yn achlysurol â'r rhaw, gan lenwi yr holl geudwll yn fuan. Perigloriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn archddiaconiaeth Brycheiniog, ac esgobaeth Ty Ddewi; ac yn noddogaeth esgob Ty Ddewi. Ardrethir y fywioliaeth yn llyfrau y brenin yn 11*p.* 6*s.* 8*c.* Y Llan, yr hon sydd yn gyssegredig i Sant Michael, neu Mihangel, sydd yn gynwysedig o gorff-eglwys, a changell, ond, nid oes unrhyw arweddau adeilyddol neillduol yn perthyn iddi, a deilyngant sylw. Yn y flwyddyn 1706 darfu i Mr. Richard Jones, a chymwynaswr arall, anadnabyddus, roddi darn o dir bob un, gan ordeinio bod i'r ardreth gael ei ranu rhwng tlodion y plwyf hwn.

**BRYN GWYN.** Gwel BRONGWYN.

**BRYN MAWR**, tref yn mhlwyf LLANGATTWG, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUBARTH CYMRU, trwy yr hon y mae rheil-ffordd Merthyr Tydfil a'r Fenni yn rhedeg. Y "Waen-helygen" y gelwid y lle hwn gynt, oddiwrth ammaethdy cyfagos o'r enw; ond y mae yn adnabyddus wrth ei enw presenol er's blynyddau weithian. Tref dra newydd ydyw; ac y mae wedi cael ei hadeiladu yn dda ar y cyfan. Goleuir hi a nwy; ac fe'i diwellir a chyflawnder o ddwfr da; ac o'r neilldu iddi y mae claddfa gyhoeddus, wêch a chyfleus. Ymddibyna am ei thrafnidiaeth a'i chynnaliaeth ar Nant-y-glô, a'r Gweithiau mŵn mawrion eraill a'i cylchynant. Y mae yma ddau addoldy hardd yn perthyn i Eglwys Loegr, a chapeli heirdd gan yr amrywiol enwadau, yn perthyn i'r Cymru a'r Saeson. Cynhelir marchnadoedd da yma bob dydd Sadwrn. Poblogaeth yr Is adran, 8, 804.

**BRYN UCHEL**, sydd drefgordd gysylltiedig â Tafolog, yn mhlwyf Cemmaes, Cwmwd Cyfeiliog, cantref MACHYNLLETH, swydd DREFALDWYN.

**BRYN-Y-BEIRDD**, sydd dref-lan yn y rhan hono o blwyf Llandilo Fawr, sydd yn nghantref IS-CENNEN, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUBARTH CYMRU; 4 milltir o Landilo Fawr. Y mae fferm-dy o'r enw Cwrt-Bryn-y-Beirdd yma, ag a dybir ei bod gynt yn breswylfod y Beirdd. O fewn ychydig bellder oddiwrth y lle, y mae ffynhonell yr afon Loughor, neu Llwchwr, sydd yn rhedeg yn ffrwd gref allan o graig; gerllaw y lle, y mae ogof eang, yr hon ni archwiliwyd yn briodol eto: y mae y mynedfa, mewn rhai mannau mor gul, fel nad ellir myned trwyddo, ac mewn mannau eraill, y mae yn ymagor yn gilfachau eang, ac yn arddangos maeniadau cywrain a phrydferth.

**BRYSGEDWIN.** Gwel BRISGEDWIN.

**BUALLT.** Gwel LLANFAIR YN MUALLT.

**BUAN**, SANT, a flodeuai tua chanol y saithfed ganrif. Mab ydoedd i Ysgwn neu Ysgwyn fab Llywarch Hen. Efe a sefydlodd eglwys Bodfuan yn Lleyn; a chedwid ei wyl ef ar y 4ydd o Awst.

**BUDDUG**, sef *Boadicea* yr haneswyr tramor, ydoedd frenines yr Ucheyniaid (*Iceni*), a breswylient gynt y lleoedd a elwir yn awr Norfolk, Suffolk, Caergrawnt, a Huntington. Blodeuai tua chanol y ganrif gyntaf o'r cyfnod Cristionogol, pan oedd y rhan fwyaf o Brydain o dan deyrnged i'r Ymerodraeth Rufeinig; *Nero* ar yr orsedd, *Seneca* yn brif gyngorwr iddo, *Suetonius Paulinus* yn rhaglaw ar Brydain, ac a'i holl egni yn difa Derwyddon Mon, er mwyn llwyr enill yr holl Ynys o dan ei lywodraeth, a *Catus Decianus* ormesol, yn ben casglwr y cyllid dan y Rhufeiniaid; yr hwn, yn ei fariaeth a'i farbareiddiwch, a anrheithiai y wlad, ac a gyflawnai yr anfadwaith mwyaf gwarthus ar y trigolion. I geisio achub ei gwlad rhag y creulonderau hyn, ymddangosodd Buddug, yn arwain ei lluoedd i'r maes yn erbyn y Rhufeiniaid; ac mae ei gwladgarwch, ei hyawdlledd, a'i dewrder yn y cadgyrchoedd gwaedlyd

Digitized by Google

hyny, wedi hawlio iddi le amlwg yn rhestr flaenaf gwronesau y byd. Yr achlysuron o'r gwrthryfel uchod o dan Buddug, a osodir allan fel y canlyn,—yr oedd *Seneca* wedi rhoddi benthyg dwy filiwn o bunau i'r Uch-cyniaid ar sicrwydd eu hadeiladau cyhoeddus;—(Yr engraifft gyntaf o echwyn cenedlaethol mewn bodolaeth), ac yna efe a alwodd am daledigaeth ddisymwth, gan hawlio llôg anferth. Ond tra yr oedd y Cymry yn dadleu yn erbyn y llôg, ac yn hawlio amser rhesymol i dalu, anfonodd *Nero*, ar gais *Seneca*, orchymyn i'r milwyr gymeryd meddiant o'r temlau, y cestyll, ar adeiladau eraill perthynol i'r llywodraeth, yr hyn a gyflawnwyd i'r llythyren, yn ddioed. A thra yr oedd yr Uch-cyniaid yn llosgi o dan yr annghyfiawnder hwnw, bu farw Brasydog (Prasutagus), eu brenin, yr hwn oedd wedi casglu cyfoeth lawer, gan wneuthur yn ei ewyllys, *Nero* yr ymerawdwr, yn gyd-etifedd â'i ddwy ferch, gan feddwl y buasai hyny yn sicrhau i'w deulu, ddiogelwch rhag unrhyw drais a dianrhydedd oddiwrth y milwyr. Ond yn llwyr i'r gwrthwyneb y bu; canys dan yr esgus o gymeryd meddiant o ran yr ymerawdwr, cymerodd y milwyr afael yn holl eiddo Brasydog, gan ymddwyn yn y modd mwyaf barbaraidd at y teulu, ffrewyllasant Buddug, ei weddw, a threisiasant ei ddwy ferch; ysbeiliasant benaethiaid y deyrnas o'u hen etifeddiaethau, a throisant y teulu breninol allan o'u hanedd, &c. Enynodd y trahausder annyoddefol hwn, ysbryd yr Uch-cyniaid i wrthryfel; ac ar yr un pryd, yr oedd y Tranofwysion (*Trinobantes*), llwyth cryf arall o'r brodorion ag oedd yn eu hymyl, yn gruddfan dan yr iau Rufeinig, mor barod a hwythau, ddim ond iddynt gael deall y naill y llall. Fel hyn yr ymresyment,—"Gwelir nad yw ein dioddefgarwch yn enill dim i ni, namyn peri i'n gormeswyr dybied am danom, mai ffyliaid hawdd eu trin ydym; ac am hyny mae ein beichiau yn cael eu hychwanegu beunydd. Gynt, ni osodai y Rhufeiniaid ond un tywysog i arglwyddiaethu arnom, ond yn awr, wele ddau wedi eu gosod i sugno ein gwaed. Y Rhaglaw, a'r Cynullwr trethi: a pha un bynag ai cytuno ai annghytuno a'u gilydd y byddo y penaethiaid hyn, y maent yr un mor niweidiol i ni: y naill yn ein gormesu a'i fyddinoedd, a'r llall a'i orfaeliaeth; fel ag y mae pob peth yn ddi eithriad yn ddarostyngedig i'w cybydd-dod a'u trachwant, a'r hwn a allo ysbeilio fwyaf, a ystyrir y milwr glewaf. Ië, yr ydym wedi myned mor ddiymadferth, fel yr ydym yn goddef i'n tai gael eu tori a'u hysbeilio, gan y dyhirod mwyaf diegwyddor; a'n plant i gael eu dwyn oddi arnom, a'u cyfresu yn myddinoedd ein gelynion, fel pe byddent gymwys i farw rhyw farwolaeth, ond dros eu gwlad eu hunain. Mor deneu fyddai byddinoedd y Rhufeiniaid, pe byddai yr holl Frythoniaid yn ymadael a'u harglwyddi! Mae y Siermaniaid wedi ysgwyd ymaith eu hiau, er mai gan afon yn unig y diffynir hwy, ac nid gan gefnfor, fel nyni: a phaham na's gallwn ninau wneyd yr un peth, y rhai y mae ein hachos yn llawer ardderchocach, sef gwaredigaeth ein gwlad, ein gwragedd, a'n rhiaint? Ac ar du ein gelynion, nis gellir dadleu unrhyw esgusodion ond trachwant ac uchelgais. Pe byddai ini ymdebygu i ddewrder ein hynafiaid, nyni a allem hela y gormeswyr hyn o'r ynys, fel y gwnaeth ein tadau a Chaisar; a phe gallem oddef llymder un neu ddwy o frwydrau, nid oes un amheuaeth na welid dewrder y truenus, a'r diobaith, yn fwy na hyder y beilchion trahaus. Mae y duwiau eu hunain yr awrhon fel pe am amlygu tosturi at y Prydeiniaid, gan eu bod yn cadw y Tywysog Rhufeinaidd a'i fyddinoedd yn ddiogel, ar waith mewn ynys arall, a rhoddi i ni arfod eto, yr hyn yw y ffafr fwyaf, i gyd ymgyngori o barth ein cyflwr, yr hyn, ond ei iawn ddefnyddio, a allai fod o wasanaeth i ni; ond os amgen, cawn weled y bydd yn fwy peryglus i ni ymddiddan am ein hadfyd, nag a fyddai i ni ymdrechu cael ymwared oddiwrtho." Tra yr oedd yr Uch-cyniaid a'r Tranofwysion yn anog eu gilydd â'r cyfryw ymadroddion, yr oedd Derwyddon diamddiffyn Mon yn cael eu medi i'r ddaear gan gleddyf *Suetonius*, a'r holl ynys goediog, yn wenfflam oleu o gŵr i gŵr; swn y creulonderau yn cael ei gludo drwy holl Brydain, arswyd a dialedd wedi gafael yn mhob meddwl, a'r chwedlau mwyaf gorwyllt a dychrynllyd, yn cael eu cario megis ar edyn yr awelon; sef bod delw *Buddugoliaeth*, a gyfodasai y Rhufeiniaid yn Maldon, wedi syrthio o honi ei hun, fel Dagon yn Asdod, a myned yn chwilfriw, bod y waedd ddychrynllyd, "Mae angau yn ymyl," yn adsain trwy heolydd Llundain, bod udiadau dieithriol i'w clywed yn y senedd-dy a'r chwareudy, bod rhyw ddrychiolaeth ofnadwy yn ymddangos ar y Thames, yn rhagfynegi dinystr y wladychfa Rufeinig, a bod y culfor rhwng Dover a Calais, ar lawn llanw, yn goch o waed, &c. Yr oedd Duw, meddai Dion Cassius, yn rhagfynegi trwy yr arwyddion hyn, faint y galanastra oedd yn ymyl. Y chwedlau uchod a galonogent y Prydeiniaid yn ddirfawr, ac ar y llaw arall a lanwent y Rhufeiniaid o fraw.

Yna Buddug, yn awyddus i ddial y traha a gawsai ar ddwylaw y Rhufeiniaid, a aeth allan yn bersonol i flaenori ei lluoedd. Mae y dysgrifiad a rydd *Cassius* o honi yn hynod o ddyddorol:—"Esgynodd Buddug areithfa y cadfridog—yr oedd o gorpholaeth uchel—gwynebpryd gerwin—edrychiad tawel a hunan feddianol—a llais dwfn ac awdurdodol. Yr oedd ei gwallt melyn yn disgyn yn droellau euraidd hyd ei chluniau, ac yn cael ei gynull bob tu i'w thalcen gan dorch aur. Gwisgai am dani wisg groesbwyth, amryliw; yr hon oedd yn dŷn am ei mynwes, ond o'i gwasg i lawr, yn rhydd fel gŵn; a thros hono *chlamys*, neu fantell filwrol drwchus. Hon oedd ei gwisg arferol; ar yr achlysur hwn cariai hefyd waywffon."

Arweiniodd ei lluoedd yn gyntaf i ymosod ar brif orsaf y Rhufeiniaid yn Maldon, a chymerasant hi ar y rhuthr cyntaf; ffôdd y milwyr Rhufeinig i'r *deml*, ond ni bu hono yn noddfa iddynt am ragor na dau ddiwrnod; gwnaeth y Prydeiniaid yr adeilad yn domen, a rhoddasant yr oll oedd ynddi i'r cleddyf. Yna cyfarfuant a *Petilius Crealis*, rhaglaw y nawfed leng, yn prysuro i gynorthwyo gwarchlu Maldon; ymosodasant arno, a lladdasant ei holl wyr traed, gan ei orfodi yntau a'i feirch-filwyr, i ffoi i'w hamddiffynfa am ddiogelwch.

Pan welodd *Catius Decianus*, y Cynullwr, yr holl alanastra hwn, ac yn gwybod yn dda mai efe oedd y prif achos o hono, efe a ffodd i Gâl.

Yr oedd ysbryd y Prydeiniaid erbyn hyn wedi codi i'r fath eithafnod, fel nad oedd arbediad nac iawn yn cael ei roi na'i dderbyn gan un blaid. Rhuthrasant ar Lundain, yr hon ar y pryd oedd yn cynwys tua 50,000 o ddinaswyr Rhufeinig; taniasant ei phedwar cwr hi ar unwaith; ac wedi anrheithio ei holl drysorau, a dinystrio y gwragedd a'r plant, gadawsant hi yn gydwastad a'r llawr.

Digitized by Google

Yr un peth hefyd fu tynged Verulam (*St. Alban*), yr hon oedd ar y pryd yn amddiffynfa Rufeinig; yn nghydag amryw leoedd eraill yn y parthau hyny; canys dywed Tacitus fod 70,000 o Rufeiniaid, a'u cyngreirwyr, wedi syrthio y pryd hwnw, yn y gwarchae, ac ar y maes, cyn y frwydr fawr a ymladdodd *Suetonius Paulinus*.

Nid yw *Tacitus* yn nodi ond dwy frwydr rhwng Buddug a'r Rhufeiniaid; ond noda *Cassius*, yr hanesydd Groegaidd, amryw. Ac mae yn anmhosibl penderfynu yn bresenol yn mha le yr ymladdwyd y frwydr fawr derfynol. Dywed *Tacitus* mai ar fin Epping Forest, yn agos i Lundain, ac i Buddug ar ol colli y frwydr. roddi terfyn ar ei heinioes trwy wenwyn; ond cyfeiria y traddodiadau Cymreig at "Sarn Gwyddelin" yn agos i Gaerwys, yn Swydd Fflint, fel y man y bu farw Buddug; ac yn hyn cefnogir hwy gan *Dion Cassius*, yr hwn a ddywed na enillodd y Rhufeiniaid y frwydr hono mor rhwydd ag y mynai eu haneswyr hwy eu hunain i ni gredu; ond bod y fuddugoliaeth wedi bod am yspaid yn dra amheus, ac i lawer o'r Prydeiniaid ddianc o'r galanastra, ac ymroddi i ryfel a'u gelynion drachefn; ond i Buddug, yn y cyfamser, farw o glefyd, ac i'w chydwladwyr ei chladdu, gyda pharch ac anrhydedd o'r mwyaf. Ond a chaniatau mai yn agos i Lundain y cymerodd y frwydr hono le, nid yw yn ymddangos yn anmhosibl i Buddug, ar ol dianc o'r galanas, ymgilio at y llwythau gorllewinol, ac iddi yn y diwedd, ddyfod at y Gordofigwys, i Ogledd Cymru, yr hwn oedd y llwyth dewraf o'r hen Gymry, a'r olaf i gael ei orchfygu gan y Rhufeiniaid. A dywed rhai haneswyr Cymreig, mai Buddug oedd yn arwain y Gordofigwys yn erbyn Agricola, yn y frwydr alaethus hono yn agos i Foel Fenlli, rhwng Dyffryn Clwyd a Swydd Fflint, yn y flwyddyn 78; pan y torwyd grym y llwyth rhyfelgar hwn yn hollol. Mae yn yr ardal hono, le a elwir "Bwlch Gricil," sef Bwlch Agricola, er côf trwy yr oesoedd fod y Cadfridog hwnw yno; ac mae yn y gymydogaeth amryw hen orsafau milwraidd, Prydeinaidd a Rhufeinaidd; yn nghydag enwau lleoedd, megis "Bryn y Saethau," a "Bryn y Lladdfa;" lle y mae esgyrn dynol yn dyrau mawrion, fel y byddai amaethwyr yr ardal, flynyddau yn ol, yn defnyddio y pridd yn wrtaith; a dywedai gŵr credadwy, ychydig flynyddau yn ol, iddo weled yno raw gyffrédin, yn cael ei suddo dros ei phen i ddim ond pentwr o esgyrn dynol.

Ac heb fod yn neppell oddi yno, mae lleoedd a elwir "Pant y Gwae," "Bryn-y-Côches," "Braich-y-Dadleu, "Pwll-y-Crogwydd," "Coetia yr Orsedd," "Pant Erwin," a "Pwllbalog,"—enwau ag ydynt oll yn dynodi rhyw ymladdfeydd a fu yn y cymydogaethau hyn, yn yr oesoedd gynt.

Ac ar y ffordd i Gaerwys, mae amryw hen garneddi: ac hefyd faengolofn arw, a elwir hyd heddyw, "CAREG BEDD BUDDUG," ac arno yn gerfiedig mewn hen lythyrenau lled annghelfydd, y geiriau hyn yn Lladin:—"HIC JACET ERBO . . . OBIT." neu, yn ol darlleniadau ereill, HIC JACET MULLIER BO . . . OBIIT. Mae y maen hwn yn awr yn Downing. Heblaw yramrywiol olion uchod, ag sydd yn dynodi y lle fel y fan y bu farw Buddug; fe gafwyd yma, rai blynyddoedd yn ol, wddf-dorch aur werthfawr, (*torque*), mewn lle a elwir Bryn-Siôn, a'r dir y diweddar Mr. Thomas, o'r Downing; yr hon a brynwyd gan y diweddar Ardalydd Westminster, am 400*p.*, ac a gedwir yn awr yn Eaton Hall. Dywed *Dion Cassius* fod Buddug yn arfer gwisgo y fath addurn-dorch; a chan fod yr holl bethau hyn yn cyd gyfarfod yn yr un lle, y maent yn myned yn mhell i wirio y traddodiad Cymreig, mai dyma y lle y gorwedd yr wrones fyd-enwog Buddug.

Ond pa fodd bynag, mae un peth yn gysurus iawn mewn perthynas i'r wrones hon. Sef fod ei *bodolaeth hi yn ffaith addefedig;* ac na's gall yr amheuwyr hanesyddol ddim beiddio chwareu yr un ystranciau â hi, ag a chwareuant âg amryw gymeriadau Cymreig. Felly y mae araeth Buddug i'w milwyr, yr hon yw un o'r tair engraifft hynaf o hyawdledd Prydeinig ag sydd mewn bodolaeth, yn orlawn o'r dyddordeb mwyaf; gan ei bod yn ddangosiad o gyflwr gwladol, meddyliol, a moesol Cenedl y Cymry, yn y cyfnod boreu hwnw, pryd nad oedd ond un egwyddor,—sef hawl y cryf ar y gwan, yn llywodraethu holl genedloedd y byd. Ond yn yr araeth ganlynol, fe welir egwyddorion a fyddent yn anrhydedd i bobl unrhyw oes, a ffigyrau ymadrodd, a ffurfiau o appeliad, a fuasent yn addurn i areithyddiaeth Groeg a Rhufain.

Buddug, gan sefyll yn ei cherbyd, a gwaywffon yn ei llaw, a anerchodd ei byddin fel hyn:—"Fy nghyfeillion a'm cymdeithion mewn ffawd!—Ni raid i mi, wrth gymeryd fy safle a'm hawdurdod presenol, ymesgusodi wrthych oblegid fy rhyw, gan nad yw yn anwybodus i chwi, ei fod yn beth arferol gan ein cenedl ni, ryfela o dan arweiniad benyw. Fe allasai fy ngwaed a'm genedigaeth, hawlio rhyw uwchraddoldeb, am fy mod wedi tarddu o'r gwreiddiau mwyaf pendefigaidd; ond gan fod fy anadl wedi ei derbyn o'r un awyr, fy nghorff wedi ei gynal gan yr un ddaear, a fy anrhydedd wedi ei gymylu gan ddirmyg a gwaradwydd, yr wyf yn ymwadu a phob uwchraddoliaeth, ac fel cydymaith mewn caethiwed, yn dioddef iau gormes mor drom a chwithau, os nad yn fwy! Pe buaswn i, fel mam Caisar, wedi cael fy nrwg dybied o fradwriaeth, neu fel y dwyllodrus Cartismandua, wedi halogi fy ngwely, a bradychu brenin ffyddlawn, gallasai fy eiddo gael eu cymeryd oddi arnaf, o dan yr enw dirwyad, a finau dderbyn y ffrewyllau a ddyoddefais, o dan yr esgus o gyfiawnder. Ond paham yr enwaf gyfiawnder yn y rhestri anferth hyn o ormesiadau, gweithredwyr pa rai nid oes ganddynt barch i berson, oed, rhyw, nac achos? Oblegid pa amharch a all fod mor isel, nad ydym ni wedi ei ddyoddef; neu anfri mor waradwyddus, nad ydym ni wedi ei dderbyn? Mae fy fflangelliad i, a threisiad gwaradwyddus fy nwy ferch, yn erbyn cyfraith Duw a dyn, yn tystiolaethu yn eglur pa fath lywodraeth y mae ein gelynion yn fwriadu; ac mae eich cyfoeth, a ddifodir gan eu rhysedd dinystriol, eich teithiau blinderus er cynal eu segurdod hwynt, yn selio diwedd ein blinderau olynol, os na roddir terfyn prydlawn arnynt, gan ein cyd ymdrech cyffredinol. Chwychwi y rhai a brofasoch ryddid bywyd, a gyfaddefwch gyda mi, bod rhyddid, er iddo fod mewn sefyllfa isel, yn well na chaethiwed gyda hualau aur. Ac eto nid oes gan y gyferbyniaeth hon yr un gyfatebiaeth ynom ni; oblegid nid ydym ni yn awr yn mwynhau un etifeddiaeth o gwbl, nid oes dim yn eiddo i ni yn awr, ond a ganiatant hwy, na dim wedi ei adael, a allent hwy gymeryd ymaith, nid oes genym gymaint a'n penau yn rhydd o doll. A ydyw y Nefoedd wedi penodi i ni derfynau y byd, ac heb benodi terfyn i'n gorthrymderau? Neu a ydyw Natur, yn nghanol ein holl weithiau rhydd, wedi ein creu ni y Prydeiniaid i ddim ond i gaeth-

Digitized by Google

iwed? Paham, beth yw y Rhufeiniaid? A ydynt yn fwy na dynion, neu yn anfarwol? Nid yw eu celanedđau lladdedig, a aberthwyd genym ni, a'u gwaed pydredig, a lygrai ein hawyr, yn dyweyd i ni eu bod yn dduwiau. Mae ein personau ni yn dalach, ein cyrff yn gryfach, a'n cymalau wedi eu cyssylltu yn well na'r eiddynt hwy.

"Ond meddwch chwi—hwynt hwy yw ein gorchfygwyr. Yn wir yr ydym wedi ein darostwng, ond genym ein hunain, gan ein hymraniadau ein hunain, gan roi ffordd o hyd i'w trais-oresgyniaeth hwynt. Ai nid oedd gan y penreolwr, ei Mandubrace? Caligula, ei Adminius? Claudius, ei Bericus a Cogidunus? a Nero, ei Gartismandua—y butain hono, sydd o hyd i ni yn gywilydd byw? Offerynau Rhufain ydyw gwiberod Prydain, hebddynt hwy, gallech weled Caisar mewn un frwydr yn colli ei gleddyf, ac wedi hyny yn ffoi o'r wlad; Tiberius yn ymwrthod a'i deyrnged; Claudius yn falch i wneyd heddwch; ac fe allasai Nero hyd eto, ddilyn ei grwth yn Rhufain, oni buasai bod ein annghydgordiad ni gartref, yn gwneyd i fynu fiwsig iddo ef yno. Ein cynenau ni felly, sydd yn eu codi hwy, a'n hamcanion yn cael eu gwanhau gan gynllwynwyr cartrefol. Ychwaith ni bu ein gwrthwynebiad erioed heb haeddu sylw ac anrhydedd; gwnaed eu llawenydd cyhoeddus yn fwy ardderchog gan orchfygiad *un* Prydeiniwr, nag a arferai teyrnasoedd cyfain wneuthur. Fe fuasai Caligula, am yn unig fynu golwg ar ein creigiau ni, yn cael anrhydedd dwyfol; a Chlaudius anghofus, a gawsai i'w gofio i'r oesau dilynol, gyfenw gogoneddus oddiwrthym ni. Mae ein gallu wedi cael ei gydnabod yn brif gynaliaeth gwledydd eraill, ac oni ddefnyddir ef i gynal yr eiddom ein hunain? Y mae genym gymaint i'w gadw ag a roddwyd i ni gan ein genedigaeth-fraint; hyny yw, ein tir, a feddianwyd gan ein hynafiaid er cyn côf: ein heiddo ni trwy etifeddiaeth, eu heiddo hwy (y Rhufeiniaid) trwy oresgyniad;—hawliau mor wahanol yn nghlorianau cyfiawnder, fel mae yn rhaid i'r duwiau eu hunain gael ad-daliad, a gosod y glorian i iawn fantoli. Yr ydym wedi gweled eu dechreuad ffafriol, gan ein gwneuthur ni yn orchfygwyr ar ddeng mil a thriugain o'n gelynion; ac yn yr ymddial, nid lleihau, ond cynnyddu mewn rhif a gallu, a wnaeth ein byddinoedd ni, yr hyn a wasanaetha i'n cysur ni, ond i'w dychryn hwynt. Oni welwn ni fyddin Paulinus yn ymgrymu yn nghyd, fel adar mewn ystorm? Pe byddai ini ond ystyried rhifedi eu byddinoedd, ac egwyddorion y rhyfel, ni a benderfynem orchfygu, neu farw. Mae yn fwy gwerthfawr syrthio er anrhydedd rhyddid, na bod yn agored eto i ysgelerderau y Rhufeiniaid. Dyma fy mhenderfyniad i, yr hon nad wyf ond benyw; ond gallwch chwi, y dynion, os dewiswch, fyw, a bod yn gaethion!"

Cydmarer araeth Agricola i'w filwyr wrth wynebu byddin Gwallawc, âg araeth Buddug. Nid oes yn eiddo Agricola, ddim ond a allasai carn-leidr ddyweyd wrth ei fintai—yr un egwyddor o gyfiawnder, na'r un teimlad teilwng o ddynoliaeth. Ac eto y Caisariaid a'r Agricoliaid hyn, wedi cael eu dysgrifio gan yr hynafiaid, a'u trosglwyddo i lawr i'w holynwyr, ydynt yn cael eu hystyried yn enwogion yr oesau boreuol; pan ag y mae gwroniaid a gwronesau Prydeinig, y rhai oeddynt anrhaethol ragorach na hwynt, mewn nodweddau meddyliol a moesol, un a'i wedi cael eu hangofio, fel nad oes dim yn aros ond eu henwau, neu yntau wedi eu gwisgo a chynifer o chwedlau rhamantus, fel yr ymddangosant yn fwy tebyg i angenfilod, nag i ddynion.

**BUGI**, ydoedd un o feibion Gwynlliw Filwr, arglwydd Gwenllwg, Mynwy. Blodeuai yn y chweched ganrif. Ymgyflwynodd i fywyd crefyddol, a rhoddodd ei holl feddianau i Goleg ei frawd, Cattwg o Lancarfan. Efe oedd tad St. Beuno.

**BULKELEY**, Arthur, LL.D., oedd aelod o dylwyth henafol a phendefigaidd o'r cyfenw yna yn Ynys Fôn. Derbyniodd ei addysg golegawl yn Rhydychain; a thu a'r amser y cafodd ei raddio, cafodd fywioliaeth eglwysig yn ei wlad enedigol. Ei ddyrchafiad cyntaf, ydoedd i berigloriaeth Llanddeusant, yn Môn, tu a'r flwyddyn 1535, ac oddeutu yr un amser, efe a wnaed yn Gynon Llanelwy. Yn y flwyddyn 1531, efe a dderbyniwyd yn beriglor St. James Garlick Hithe, yn Llundain, ar gyflwyniad Abbad a chyfaint Westminster, ac yn y flwyddyn 1541, efe a gyssegrwyd yn esgob Bangor. Y mae amryw amgylchiadau wedi eu coffau mewn hanesyddiaeth, a brofant ei fod wedi cyflawni dyledswyddau ei swydd bwysig, mewn modd canmoladwy, a'i fod yn dra awyddus i wneyd daioni i'r eglwys. Efe oedd yr esgob cyntaf a breswyliodd yn ei esgobaeth dros fwy na chan mlynedd. Bu farw yn Mangor, yn y flwyddyn 1552, ac efe a gladdwyd yn yr eglwys gadeiriol.[1]

**BULKELEY**, Lancelot, D.D., ydoedd fab ieuangaf Syr Rhisiard Bulkeley, ac a anwyd yn Beaumaris, yn y flwyddyn 1568. Pan yn ddeunaw mlwydd oed, efe a anfonwyd i'r *Brasenose College*, Rhydychain, lle yr arhosodd nes cyrhaedd y radd o Wyryf yn y Celfyddydau; yna efe a symudodd i St. Edmund's Hall, a graddiodd yn A.C., yn y flwyddyn 1593. Efe a ordeiniwyd yn ddiacon yr un flwyddyn, gan Hugh Bellot, esgob Bangor, ac a osodwyd yn beriglor Llanddyfnan, yr un diwrnod; ac yn y mis Mawrth canlynol, rhoddwyd bywioliaeth Llandegfan iddo;—y ddau blwyf yn Môn: ac ar y 25ain o Fawrth, 1594, efe a ordeiniwyd yn offeiriad, gan yr un esgob. Wedi hyny efe a symudodd i'r Iwerddon, lle y dyrchafwyd ef i fod yn arch-ddiacon Dublin; a chymerodd ei raddio yn D.D., yn y brif ysgol hono. Efe a wnaed yn archesgob Dublin, trwy fraint-lythyrau, dyddiedig Awst 11, 1619, ac a gyssegrwyd Hydref 3ydd, yr un flwyddyn. Yn fuan wedi hyny, gwnaed ef yn aelod o'r Cyfrin Gyngor, gan Iago I., yr hwn hefyd a roddodd drwydded iddo i ddal rhai glwysfuddiannau dan ymddiried. Yn y flwyddyn 1629, bu ei fywyd mewn perygl, trwy gythrwfl a gyfodasid yn Nulyn, gan y Jesuitiaid, a'r Myneich. Yr oedd yr archesgob wedi cael hysbysiad, eu bod yn ei wneuthur yn arferiad cyson yn eu pregethau, i ddylenwi trigolion Pabaidd Dublin â syniadau bradwrus, ac am hyny efe a anfonodd at yr Arglwyddi Ynadon am arwaesaf, a mintai o fwsgedwyr i ddal y troseddwyr. Y myneich Carmelaidd yn *Cook Street*, a'u cynnulleidfa, a gyfodasant yn unfryd, i wrthsefyll rhoddi yr arwaesaf mewn gweithrediad; ymosodasant ar y milwyr, ac anmharchasant yr archesgob, a'r maer, yn nghyd a'r lleill o'u gosgordd. Bu raid i'r archesgob encilio, ac yn brin y cafodd efe ddianc a'i fywyd ganddo, trwy ymnoddi mewn tŷ. Cyflawnid y weithred hon tua Nadolig y flwyddyn 1629; ac ar y 9fed o Ionawr, anfonai yr Arglwyddi Ynadon adroddiad o'r helynt, i'r Brenin a'r Cynghor yn Llundain; y rhai ar yr 31ain o'r un mis, a anfon-

[1] Browne Willis's *Survey of Bangor;* Wood's *Ath. Oxon.*

Digitized by Google

asant orchymyn allan, i roddi y cyfreithiau mewn gweithrediad, ac a orchymynasant i'r tŷ lle yr ymddangosasai y Myneich dywededig yn eu cyccyllau, a'r lle y derbyniasai yr archesgob a'r maer yr anmharch cyntaf, gael ei anrheithio, a'i adael yn garnedd, er dychryn i wrthwynebwyr awdurdod gyfreithlawn; a bod i dai eraill y cymdeithasau drwgdybiedig hyn, gael eu troi yn garchar-dai, neu eu defnyddio i ryw wasanaeth cyffredinol arall.

Darfu i'r archesgob hwn, adnewyddu yr hen ddadl o barth i'r flaenafiaeth, â'r archesgob Hampton yn gyntaf; ac wedi ei farwolaeth ef, â'r archesgob Usher. Ar y cyntaf o Dachwedd, 1649, efe a draddododd bregeth ymadawol yn eglwys gadeiriol *St. Patrick;* ac ar yr achlysur yma, y darllenwyd y ffurfwasanaeth yn gyhoeddus ddiweddaf hyd yr Adferiad, oddieithr yn nghapel y Coleg. Ond, ni ddiangodd yr amgylchiad yn ddi sylw i'r awdurdodau llywodraethol eiddigeddus, ac ymwelwyd â'r archesgob hybarchus, ac â'r clerigwyr oeddynt yn wyddfodol, â cherydd, ac â charchariad am y trosedd. Wedi ymdreulio gan ofid o herwydd adfydau yr amserau, efe a fu farw yn Tanlaughta, Medi yr 8fed, 1650, yn ddwy flwydd a phedwar ugain oed; o'r lle y trosglwyddwyd ei gorff i Ddulyn, ac efe a gladdwyd dan fwrdd y cymundeb, yn eglwys gadeiriol *St. Patrick.*

**BULKELEY,** Syr Rhisiard, o'r *Baronhill*, yn Môn, oedd yn wr o enwogrwydd arbenig yn ei oes. Y cyntaf o'r teulu anrhydeddus hwn, a ymsefydlodd yn Môn, oedd William Bulkeley, yr hwn a gyfenwid yn arglwydd Hotcroft, swydd Gaerlleon; ac a wnaed yn gwnstabl castell Beaumaris, yn y flwyddyn 1440. Y William Bulkeley uchod, a brïododd Ellen, ferch William Gruffydd o'r Penrhyn, Ysw., a gweddw Robert Paris. Mab iddynt hwy ydoedd Roland Bulkeley, Ysw., Arglwydd Hotcroft, yr hwn a brïododd Als, ferch William Berkinchall, Ysw., o swydd Gaerhirfryn; ac o'r briodas hono bu amryw blant, ac yn mysg eraill Syr Rhisiard Bulkeley, Arglwydd Hotcroft, yr hwn a briododd Catrin, ferch Syr William Gruffyth o'r Penrhyn, marchog. Yr oedd y boneddwr hwn yn Aelod Seneddol dros swydd Gaerynarfon, yn y Senedd a ddechreuai yn y 33ain o deyrnasiad Harri yr Wythfed. (1552); ac efe a bennodasid yn Siryf swydd Gaerynarfon dros ei oes, trwy freintlythyrau, dyddiedig Rhag. 3, 1527, a'r 19eg o deyrnasiad Harri yr Wythfed, yr hon swydd yr oedd efe yn parhau i'w dal yn Ngwyl Mihangel, 1536, pan weiniai William Bulkeley o Borth-aml, Ysw., ei frawd, fel ei Raglaw.

Y mab hena f o'r briodas uchod, oedd Syr Rhisiard Bulkeley, marchog. Efe a wnaed yn Farchog yn Berwick, gan Iarll Warwick, yn y flwyddyn gyntaf o deyrnasiad Edward y Chweched; ac yr ydoedd yn aelod Seneddol dros Fôn, yn ail Senedd y Frenines Elizabeth, yr hon a ddechreuai ar yr 11eg o Ionawr, 1562-3. Yr oedd efe yn Siryf am swydd Gaerynarfon yn 1550, ac yn 1558, ac am Fôn, yn 1561; a bu farw yn 1569. Ei fab hena f, Syr Rhisiard Bulkeley, marchog, oedd yn A. S., dros Fôn, yn y Senedd a ddechreuai ar yr ail o Ebrill, 1571, ac yn y Senedd gyntaf, a'r ail, i Iago y Cyntaf, (1603, 1614). Yr ydoedd yn Siryf Môn am y flwyddyn 1570; ac urddwyd ef yn Farchog yn y *Whitehall,* ar yr 17eg o Chwefror, 1576, y dydd cyn ei briodas. Yr oedd efe hefyd yn Gwnstabl castell Beaumaris, ac y mae y braint-lythyrau a'i pennodent i'r swydd hono, wedi eu hamseru Mai 28, 1561.—Efe a fu yn brïod ddwy waith; y tro cyntaf â Chatharine, ferch Syr William Davenport, o Bramhall, yn swydd Gaerlleon; a'r ail waith, a Mary, ail ferch William, Arglwydd Borough, o Gainsborough, yn swydd Lincoln. Ei ail fab, o'r ail briodas, a wnaed yn bendefig o'r Iwerddon, dan y teitl o Is-iarll Bulkeley, o *Cashell,* ar y 6ed o Fehefin, 1643, yr hwn deitl a derfynodd ar farwolaeth Thomas James, y seithfed Is-iarll, yn y flwyddyn 1822.

Y Syr Rhisiard Bulkeley uchod, a adeiladodd y Baron Hill gyntaf, yn y flwyddyn 1618. Cyn hyny cyfanneddai y teulu yn y Cwrt Mawr, yn nhref Beaumaris; a thrachefn, yn yr Hen Blas. Ymddengys fod y boneddwr hwn yn wr o alluoedd meddyliol cryfion, a chyrhaeddiadau mawrion; ac o ysbryd tra annibynnol. Yr ydoedd ei gyfoeth yn fawr; a meddai galon ewyllysgar i'w gyfranu er lles ei gydwladwyr. Yr oedd y frenines Elizabeth yn dra hoff o honaw; a'i Mawrhydi mewn modd teilwng a chanmoladwy, a'i hamddiffynai rhag cynllwynion bradwrus ei elyn marwol, Dudley, Iarll Leicester. Yr oedd ei fam wedi bod yn un o bendefigesau y llŷs i'r frenines Mary, ac fe ddichon iddi wneyd rhyw wasanaeth pwysig i Elizabeth y pryd hyny, yr hyn a ad-dalai ei Mawrhydi trwy bentyru ffafrau ar ei mab, yr hwn a osododd hi yn Rhaglaw Môn, yn groes i ewyllys Leicester, yr hwn a arglwyddiaethai y wlad â llaw drom, fel cwnstabl Dinbach, a fforestwr Eryri. Yn fuan wedi i'r Iarll gael ei wneyd yn fforestwr Eryri, efe a fynodd gael appwyntio y Dr. Ellis Price o Blas Iolyn yn Siryf Môn; er na's meddai erw o dir yn yr Ynys, gan wybod yn dda fod y gwr hwnw yn ddigon di egwyddor, ac an-wladgar, i wneyd a allai er cyflawni ei amcanion annghyfiawn ef. Ymdrechai yr Iarll i ddwyn y rhan fwyaf o dir rhydd-ddaliadol Môn, Arfon, a Meirionydd o fewn cylch Gwigfa Eryri, arglwyddiaeth yr hon a roddasai y frenines iddo; ac efe a orthrymai drigolion y gwleddydd hyn yn dost; ac nid oedd neb a feddai y gallu, neu y dewrder i'w wrthsefyll, ond Syr Rhisiard Bulkeley, yr hwn o'r diwedd a osododd yr achos o flaen ei Mawrhydi, gan ddangos mor annghyfiawn a gorthrymus yr ymddygid at ei deiliaid teyrn-garol, y Cymru; a llwyddodd i gael gan ei Mawrhydi roddi cyhoeddiad allan yn y flwyddyn 1579, yn dirymu penderfyniad annghyfiawn y Dirprwywyr.

Yr oedd ef yn wr lluniaidd, a thal o gorff, a theg o bryd, ac yn dra chymedrol mewn bwytta ac yfed, yn gymaint felly, fel na chydsyniai byth i yfed llwnc destunau ar unrhyw achlysur; a mwynhaodd iechyd rhagorol hyd hen ddyddiau, o'r hyn y mae yr Hanesyn canlynol yn brawf. Yn y flwyddyn olaf o deyrnasiad Elizabeth, ac yntau ei hun mewn gwth o oedran, yr oedd efe yn wyddfodol yn Nghyngor y Cyffindiroedd, yn Llwydlo, a hyny yn nyfnder y gauaf. Pan elai yr Arglwydd Lywydd Zouch i'r eglwys, neu rywle arall, yn ei gerbyd, arferai Syr Rhisiard farchogaeth ar anifail uchel; ac weithiau elai o'i letty i'r eglwys, mewn rhew ac eira ar ei draed, a'i fantell gwta dros ei ysgwyddau, a hosanau sidan teneuon am ei goesau, a'i gleddyf a'i ddagr wrth ei wregys, ac arhosai dros yr holl weddïau a'r bregeth, ar yr hin oeraf; fel yr arferai yr Arglwydd Zouch ddywedyd, y byddai ef yn oeri wrth ei weled ef.

Efe a arferai gadw ty dâ, a llettya llawer o ddyeithriaid pendefigaidd, yn enwedig y rhai a elent drwodd i'r Iwerddon, neu a ddychwelent oddiyno. Croesawodd Iarll Essecs â rhwysg teilwng, ar ei ffordd

Digitized by Google

i fod yn arglwydd rhaglaw yr Iwerddon. Efe a arlwyai yn mlaenllaw ar gyfer holl angenrheidiau ei fwrdd; gan anfon dwy long i Greenland yn flyneddol am bysgod, y rhai a gyfnewidiai ef yn yr Hispaen am winoedd, o ba rai y meddai ystôr dda yn ei ddiodgell yn wastadol. Yr oedd ganddo ddau barc, yn y rhai y byddai nifer dda bob amser o geirw cochion a llwydion, o'r rhai y caffai ddigon o hydd-gig i arlwy ei fwrdd dair neu bedair gwaith yn yr wythnos yn eu tymhor, heblaw i wneyd anrhegion i gyfeillion. Efe a gadwai amryw Ffermydd at ei law, y rhai a arlwyent y ty a helaethrwydd o gig eidion, myllt, ac wŷn. Yr oedd efe yn farchogwr rhagorol, ac yn ymornestwr medrus, a chadwai luaws mawr o feirch dâ at ei wasanaeth yn wastadol, yn Sir Gaer, ac yn y Beaumaris. Efe a gadwai lawer o weision gosgordd yn wastadol, oll yn ddynion talgryf a hardd yr olwg arnynt. Byddai dau wastrawd mewn gosgordd-wisg, yn rhedeg gyd a'i farch, yn wastadol; ac nid elai oddi cartref un amser, heb fod ugain neu bedwar ar hugain o osgordd i'w ganlyn. Yr ydoedd mewn ffafr uchel gyd a'r frenines Elizabeth, a meddai gyfeillion dylanwadol yn y llŷs breninol; ac yr oedd bonedd a gwerin gwlad Fôn, oll at ei wasanaeth, oddieithr y *Woods* o Rosmor, y rhai oeddynt elynol iddo, am ei fod, yn ol eu tŷb hwy, pan y gelwid arno fel un o Raglawiaid Mon, ar fygythiad y deyrnas hon â'r arf-lynges Hispaenaidd, i drethu y wlad mewn arfau, wedi trethu Mr. Wood o Rosmor yn rhy drwm; yr hwn wedi cythruddo yn ddirfawr, a aeth i fynu i'r llŷs at yr Iarll o Leicester, a chwedl gelwyddog yn ei enau, bod Syr Rhisiard Bulkeley (ychydig cyn euogfarniad a dïenyddiad Thomas Salusbri, mab Catrin y Beren o'i gwr cyntaf, John Salusbri o Leweni, ac un o'r rhai oeddynt yn nghyfrinach Anthony Babington y bradwr, yn 1585), wedi bod yn mynyddoedd Eryri, yn cydymgynghori ag ef, a hyny mewn tyddyn a berthynai i Syr Rhisiard, o'r enw Cwm Eigiau, lle y buant yn aros yn nghyd ddwy neu dair noswaith. Yr Iarll, yn falch o'r hysbysiad yma, a'i datguddiodd i'r frenines a'r Cyngor yn ddïoed. Galwyd Syr Rhisiard i ymddangos o flaen y Cyngor, lle yr holwyd ef yn galed; ond efe a roddai y gwadiad mwyaf trwyadl i'r cyfan; a phan ddirwasgai yr Iarll yr achwyniad yn ei erbyn yn llym-dost, efe a ddywedai yn ei wyneb yn ddifloesgni,—"Bu agos i'ch tad chwi, a'r gwŷr hyn ydynt yn dwyn cam-achwyniad yn fy erbyn i yn bresenol, andwyo fy nhad i; canys ar farwolaeth y brenin Edward y Chweched, trwy fraint-lythyrau oddiwrth eich tad chwi, gorchymynid iddo gyhoeddi y Frenines Jane, a byddinaw y wlad; yr hyn a wnaeth efe yn y canlyniad; ac oni buasai fod fy mam yn un o Forwynion Mygedog y Frenines Mari, efe a ddaethai i drallod a pherygl mawr." Pan glybu y Cyngor y geiriau hyn, dystawodd pawb, a chyfodasant, ac aeth Syr Rhisiard Bulkeley allan. Yr Iarll yntau, wedi ymlenwi o gynddaredd, a aeth at y Frenines ar frys, ac a hysbysodd ei Mawrhydi fod y Cyngor wedi bod yn arholi Syr Rhisiard Bulkeley, mewn perthynas i achosion o deyrnfradwriaeth, a'u bod wedi cael allan ei fod yn ddyn peryglus, a chanfod y dylid ei garcharu yn Nhŵr Llundain, a'i fod yn trigiannu mewn congl ddrwg-dybus o'r bŷd. —"Pa beth! Syr Rhisiard Bulkeley," medd y frenines, "nid amcanodd efe unrhyw niweid i ni erïoed. Nyni a'i dygasom ef i fynu er pan oedd yn fachgen, a chawsom brawf neillduol o'i ffyddlondeb! Ni chewch ei garcharu ef." I'r hyn yr attebodd Leicester, "Y mae gofal eich Mawrhydi arnom ni; ac yr ydym yn gweled mwy o'r dyn, ac yn clywed mwy am dano, nag yr ydych chwi. Y mae efe yn ddyn o feddwl uchel-frydig, ac yn byw mewn lle pellenig." Y Frenines a attebai yn gyffrous, "Nyni a gymerwn ein llw ger bron Duw, ar yr Efengyl Sanctaidd, nad amcanodd efe unrhyw niwaid i ni erïoed," ac yna, hi a redodd at y Bibl, ac a'i cusanodd, gan ddywedyd, "Ni chewch ei garcharu, nyni a'i dygasom ef i fynu er pan oedd yn fachgen." Yna, arglwyddi y Cyngor a ysgrifenasant lythyr at Dr. Bellot, Arglwydd esgob Bangor, i erchi iddo chwilio i fewn i wirionedd yr achwyniad a roddid yn erbyn Syr Rhisiard Bulkeley; a'r esgob a gafodd allan mai llwyr dwyllodrus a chelwyddog ydoedd; ac anfonodd sicrhad o hyny i'r Cyngor; ac ar hyny efe a gyfiawnhawyd, ac a ryddhawyd, er boddlonrwydd mawr i'w Mawrhydi y Frenines,—er llawenydd mawr i'w gydwladwyr yn gyffredinol, ac er anrhydedd mawr i'w enw da ef ei hun. Ac yn y canlyniad i hyny, darfu i amryw o arglwyddi y Cyngor, ysgrifenu llythyrau at farnwyr brawdlysoedd Gogledd Cymru, i erchi iddynt gyhoeddi y camwri a gawsai Syr Rhisiard Bulkeley; a gwneyd yn hysbys i ddeiliaid y Frenines, lwyr ddiniweidrwydd Syr Rhisiard. Ond fel na byddai i Syr Rhisiard gael gorphwyso mewn tangnefedd, darfu i un *Green*, a berthynai i Iarll Leicester, yn enw un *Bromfield*, gobrwas (pensioner), ddyfod ato i'w herio i gyfarfod Bromfield yn y maes. "A oes genych chwi yr un neges arall," medd Syr Rhisiard, "Nag oes," medd Green. Yna Syr Rhisiard a dynodd ei ddagr o'r wain, ac a archollodd ei goryn, gan erchi iddo fyned a hyny fel ei attebiad, fod yn rhŷ ffiaidd ganddo ef gyfarfod a'r fath gnaf ag ydoedd Bromfield. Yr ymddygiad yma at Green, a lidiodd ddigofaint yr Iarll yn aruthrol; a Bromfield, Green, ac eraill o heilyddion yr Iarll, a ddechreuasant gynllunio niweid i berson Syr Rhisiard; ond yr oedd efe ar ei wyliadwriaeth, gan gadw pedwar ar hugain o wyr grymus, a chleddyfau, estylch, a bidogau, i'w amddiffyn yn erbyn eu hymosodiadau. Hurient fadau, a badlongau ar yr afon Tafwys, gyd a'r amcan o foddi Syr Rhisiard ar ei fynediad o Westminster i Lundain: ond, gan ei fod ef wedi cael hysbysiad dirgelaidd o'u hamcan, efe a fenthycodd deyrn-fad (*barge*), Maer Llundain, arlwyedig a gwŷr arfog, a thabyrddau ac udgyrn; a chan rwyfo ar hyd y Tafwys, hwy a aethant dan y bont, ac i waered i Greenwich, lle, yr oedd y Frenines yn cadw ei llys ar y pryd; ac wedi glanio yno, ar gyfer y palas, efe a barodd i'w wŷr ollwng eu hergydion allan, curo eu tabyrddau, a chanu eu hudgyrn. Pan glybu Iarll Leicester hyny, efe a aeth at y Frenines, ac a'i hysbysodd bod Syr Rhisiard Bulkeley, yn fwy tebyg i wrthryfelwr nag i ddeiliad, wedi dyfod i waered â theyrn-fadau, ac arfogion, a pheri gollwng amryw ergydion yn gymhwys ar gyfer palas ei Mawrhydi, er mawr ddychryn i'w llŷs, yr hyn ni ddylasid ei oddef. Anfonodd y Frenines am Syr Rhisiard, ac wedi clywed ei amddiffyniad iddo ei hunan, hi a barodd i'r Iarll ac yntau gymmodi a'u gilydd. Yn mhen rhyw yspaid wedi hyn, yr Iarll a anfonodd am Syr Rhisiard i'w ystafell; ac wedi ei ddyfod yno, dechreuodd yr Iarll ymliw âg ef, o herwydd rhyw fynych gamwri y cymerai arno ei fod wedi ei gael ar ei law ef; a haerai ei fod wedi colli deng mil o bunnau trwy ei wrthwynebiad ef;

Digitized by Google

ond terfynodd yr ymddiddan gyda mwy o hynawsedd; a chyn ymadael, gwahoddai yr Iarll Syr Rhisiard i giniawa gyd ag ef: ond, ni fwyttai, ac nid yfai efe o ddim ond a welai yr Iarll yn cyfranogi o hono yn gyntaf; gan ei fod yn cofio Syr Nicholas Thogmorton, am yr hwn y dywedid iddo gael ffigysen wrth ei fwrdd. Ond, gan i Iarll Leicester farw yn Hydref 1588, cafodd Syr Rhisiard Bulkeley a'i wlad fwynhau heddwch, ac ymwared oddiwrth ei orthrymderau a'i ddichellion; a bu Syr Rhisiard Bulkeley fyw hyd yr 28ain o Fehefin, yn y flwyddyn 1621, pan y bu farw, yn yr oedran teg o wyth a phedwar ugain. Efe a fuasai yn bresenol ar goroniad Mari, Elisabeth, ac Iago: a thalodd am y fantell a wisgai ar goroniad y diweddaf, bum cant o bunnau.

**BURLINJOB**, cyd dreflan â Maesyfed Hên, yn mhlwyf MAESYFED HÊN, o fewn terfynau bwrdeisiol MAESYFED NEWYDD, swydd FAESYFED, DEHEUDIR CYMRU; 4½ milldir i'r de ddwyrain o Faesyfed Newydd. Yr oedd yr hen ffordd Rufeinig o Buallt, yn myned drwy y dreflan hon, a thrwy Faesyfed Hên.

**BURTON**, sydd drefgordd yn y rhan honno o blwyf Gresffordd sydd yn nghantref BROMFIELD, swydd DDINBYCH, GOGLEDD CYMRU, 3 milltir o Hope. Yn y drefgordd hon, yr hon a saif ar derfyn Sir Fflint, y mae sefyllfa Burton Hall.

**BURTON** sydd blwyf yn nghwmwd Is Garn, cantref RHOS, swydd BENFRO, DEHEUBARTH CYMRU, 3 milltir o Benfro, ar y ffordd o'r dref honno i Hwlffordd, trwy Burton Ferry. Y mae y plwyf hwn yn sefyll ar derfyn Aber-dau-gleddyf, ac yn arddangos golygfeydd o brydferthwch mawr. Yn mysg y gwrthrychau hynotaf yn y gymydogaeth, gellir cyfrif gweddillion Castell Benton, ar lan gorllewinol y porthladd, wedi ei adeiladu, yn ol pob tebygolrwydd, gan un o'r Normaniaid, fel amddiffynfa, ar derfyn y diriogaeth oeddynt wedi ei feddianu ar y glannau hyn. Nid ymddengys ei fod yn eang iawn ar y cyntaf; ac y mae golwg hynod ar yr adfeiliau presenol, sydd megis ar enau yr Aber; y maent yn gynwysedig yn benaf, o dŵr crwn, uchel, ag sydd yn ymgodi uwchlaw y planwyddfeydd ffrwythlawn sydd yn y gymydogaeth, ac yn ffurfio gwrthrych hywel iawn yn yr olygfa. Y mae y fywoliaeth yn beriglorïaeth, yn archddeonaeth ac esgobaeth Ty-ddewi, yn cael ei phrisio yn llyfrau y brenhin yn 15*p*. 12*s*. 11*c*.; ac y mae yn nawddogaeth Iarll Cawdor, am ddau dro, ac yn nawddogaeth Sir John Owen, Barwnig, am un tro. Adeiladwyd persondy prydferth yma, gan y Parch. D. Bird Allen. Y mae yma ddau le o addoliad gan y Bedyddwyr, ac un gan y Wesleyaid. Y mae yma ychydig o gymunroddion wedi eu gadael i'r tlodion, yn mysg y rhai y mae 3*p*. o ardreth ar le gan Mr. Morgan Owen, yn 1776, yr hwn a renir rhwng chwech o'r tlodion, mewn symau o ddeg swllt bob un. Y mae porthfa Burton Ferry, neu Penbroke Ferry, fel ei gelwir weithiau, yn cael ei dal dan y goron.

**BUTTINGTON**, a elwir gan y Cymry *Tal-y-Bont*, sydd blwyf yn nghantref *Pool*, neu Ystlyc, cwmwd y Corddwr, o fewn terfynau bwrdeisdref y TRALLWNG, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU; 2 filltir o'r Trallwng, ac yn cynwys trefgorddau Clitterwood, Hope, a Trewern. Yn ystod y cyfnod Sacsonaidd, gelwid y lle hwn *Butdigingtune*, ac y mae yn cael ei hynodi o blegid brwydr drychinebus a ymladdwyd yma, yn 894, rhwng y Saeson a'r Daniaid. Darfu i'r olaf, yn un o'u glaniadau, dan eu blaenor Hesten, wedi tramwy drwy y wlad, o ddwyrain i orllewin, a deall fod Alfred ar ymchwil am danynt, gyda byddin gref, brysuro i encilio o barthau gorllewinol Lloegr tua Chymru, ac wedi eu gorddiwes gan y Sacsoniaid, llechu a wnacthant yn y gymydogaeth hon, lle y cylchynwyd hwy gan eu hymlidwyr, fel y gwasgwyd hwy i gymaint cyfyngder, nes bwyta cig eu ceffylau eu hunain. Wedi eu gwasgu gan anobaith a newyn, ymdrechasant o'r diwedd, i dorri eu ffordd drwy y fyddin Sacsonaidd, pan y bu dinystr ofnadwy arnynt mewn canlyniad; ac y lladdwyd y nifer fwyaf o honynt, ac ni allodd ond ychydig nifer ffoi i'w gwlad eu hunain. Y mae y pentref yn sefyll ar y brif-ffordd o'r Trallwng i'r Amwythig, ar yr ochr ddeheuol i'r afon Hafren; yr hon a groesir ar bont goed o gryn hynafiaeth, ac y mae y llifeiriant yn golchi drosti, ar ol gwlawogydd trymion, ac yn peri cryn golledion, a niwaid i feddianau. Y mae peth o'r tir yn dra ffrwythlon a gwerthfawr, yn enwedig gyda cheulanau yr Hafren. Y mae bryniau Longmynd a'r Breiddyn, mewn rhan o fewn y plwyf hwn. Y mae yr olaf yn cael ei rannu i dri o drumau uchel, a elwir Craig Freuddin (o *Bre* a *Din*, oddiwrth yr amddiffynfa Frytanaidd, sydd eto yn weledig ar y grib) Cefn Cestyll; a Moel y Golfa yr hon yw yr uchaf o honynt. Codwyd Cofadail ar y gyntaf a enwyd, yn 1781; er anrhydedd i wasanaeth llyngesol arbenig y Llyngesydd Lord Rodney, yn y rhyfel yn erbyn Ffraingc, ac yn enwedig ei fuddugoliaeth ar y fyddin Ffrengig, dan arweiniad Count de Grasse, yn yr India Orllewinol; y mae yn gynwysedig, o golofn gron, yn gorphwys ar sail bedeironglog, ac yr oedd yn terfynu, ar y cyntaf, i fynu, mewn pellen, yr hon a darawyd i lawr gan fellten, ac ni ddodwyd mo honi yn ei lle eilwaith; dygwyd y draul drwy gydroddion boneddigion y gymydogaeth. Y mae golygfa brydferth i'w chael, ar ddyffryn ffrwythlon yr Hafren o ben y twr, ac ar y terfynau hyd Amwythig a Chaerlleon, a phrif fynyddau Gogledd Cymru. Y mae llethrau y clogwyni hyn yn eirwon, ond yn cael eu prydferthu âg ambell dyfiant gwyrddlas, tra y mae y godreu yn cael eu haddurno a'r planhigion coediog. Ar wastadedd bychan tua'r dwyrain, y mae craig unigol, yn nghanol Crew Green, a elwir Mynydd Belin, heb fod yn bell oddiwrth y bryniau cylchynol.

Y mae y fywoliaeth yn guradaeth barhaol, yn archddeoniaeth Amwythig, ac yn esgobaeth Henffordd, wedi ei gwaddoli â 1000*p*. o rodd frenhinol, a 600*p*. o rodd seneddol. ac yn noddogaeth Ficar y Trallwng, i'r hwn blwyf, yr oedd y lle hwn gynt yn gapeloriaeth; y mae wedi ei ddadgysylltu oddiwrth y lle, a'i wneud yn blwyf ar wahan er 1759. Y mae y Ficar eto mewn hawl o'r bedwaredd ran o'i holl ddegymau, ac y mae y gweddill yn perthyn i Iarll Powis, fel deiliad dan amodrwym oddiwrth Ddeon a Chanoniaid Eglwys Crist, yn Rhydychain. Y mae yr eglwys, yr hon sydd wedi ei chysegru i'r Holl Saint, wedi ei hadeiladu yn ol y cynllun Seisnig boreuol o adeiladaeth. Y mae olion o amryw Werthyroedd Brytanaidd yn weledig eto, ar y lleoedd uchel yn y plwyf hwn, yr hwn yn ddiau, o blegid ei sefyllfa ar y terfynau, yn yr amser boreuol, ydoedd yn faes llawer o ymladdfeydd, a gorchestion milwrol. Y mae y terfyn-glawdd hynod hwnw, oedd yn ffurfio llinell y gwahaniaeth rhwng y gwledydd, ac a elwir "Clawdd Offa," yn rhedeg drwyddo, hyd lecyn cyfagos i'r eglwys, lle y cyll o'r golwg am bellder o tua phum milltir; ac y mae yr afon Hafren,



Digitized by Google

yn ol pob tebygolrwydd, yn ffurfio parhad o hono hyd blwyf Llandrinio, lle ei gwelir drachefn yn dyfod i'r golwg.

BWNNEIAID, treflan yn mhlwyf St. Harmon, cantref y RHAIADR, swydd FAESYFED, DEHEUDIR CYMRU, 5¼ milldir i'r gogledd ddwyrain o'r Rhaiadr. Y mae y boblogaeth yn cael ei roddi yn nghyda phoblogaeth Clas Garmon. Y mae y dreflan hon yn gynwysedig o randir fynyddig, yn y parth gogledd-ddwyreiniol o'r plwyf, ar derfyn swydd Drefaldwyn. Y mae y brif-ffordd o'r Rhaiadr i Lanidloes yn myned trwyddi.

# C.

CACCA-DUTTON (DUTTON CACCA), treflan yn nghapeloriaeth blwyfol IS Y COED, cantref BROMFIELD, swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU, 4 milldir i'r dwyrain o Wrexham, ac yn cynwys 93 o drigolion yn ol Deiliadeb 1861. Yn ol awdurdodau eraill, fe'n hysbysir mai yn mhlwyf yr HOLT y mae y dreflan hon.

CADAFAEL WYLLT, oedd fab Cynfedw; ac efe a restrir yn y Trïoedd, fel un o dri thywysog o haniad tramor, a etholwyd i'r ben-teyrniaeth ar gyfrif eu dewrder: y ddau ereill oeddynt Gwriad, fab Gwrien, yn y Gogledd, a Hyfaidd, fab Bleiddig, yn Neheubarth Cymru. Gwnaed Cadafael yn frenin ar Wynedd. Yn un arall o'r Trïoedd, dywedir ei fod wedi rhoddi bwyellawd yn mhen Iago ab Beli, brenin Gwynedd.

CADAIR; neu CADER, cyd dreflan a Segrwyd, yn mhlwyf LLANRHAIADR YN NGHINMEIRCH, swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU; 2¼ milldir i'r de wrth orllewin o Ddinbach. Y mae golygfa ardderchog i'w gael ar Ddyffryn Clwyd, o ben craig uchel a elwir "Cadair Gwladys" gan rai, a chan eraill, "Cadair yr Arglwyddes;" ond nid ydym yn gwybod fod unrhyw hysbysrwydd ar gael, pwy oedd yr Arglwyddes grybwylledig. Y mae y galch-graig mewn helaethrwydd mawr yn y gymydogaeth, a llosgir llawer o galch yma i'w gymysgu a phridd, yn wrtaith i'r tir. Wrth droed y graig uchod, ac yn gorfforedig yn y calch-faen a'i cyfansodda, y mae cyrff mawrion o gallestr, yn y rhai, pan eu torir, y canfyddir yn achlysurol, yr agat, y jasper, a'r *chalcedony*. Y mae yr agat a'r *chalcedony* yn enwedig, yn hynod bur, ac yn rhagorol hardd; ac fe ddichon na's ceir hwy yn lluosoccach, nac mewn mwy o amrywiaeth yn un ran o'r byd nag yma. Rhoddir cyfrif y boblogaeth yn yr eiddo y plwyf.

CADAIR (AIL SEITHIN SEIDI), a elwir hefyd "Cadeiriaith Seidi," a "Chadraith ab Porthawr Gadw," a grybwyllir yn y Trïoedd fel un o "dri unben llŷs Arthur," neu, y tri thywysog penteyrnawl, y rhai a ddewisent adael eu tiriogaethau eu hunain, gan ei ystyried eu hanrhydedd mwyaf gael bod yn drigiannol yn llŷs Arthur. Y ddau ereill oeddynt Gronw, fab Echel, a Ffleudur. Cyssylltir Cadair hefyd â Gwalchmai, a Garwy, i ffurfio Triad, fel "Tri Marchog Serchogion Llŷs Arthur, a goreu wrth osb a phellenig, a haelaf o'u rhoddion a'u cymwynas: ac ni's gallei neb naccau a geisiynt rhag eu serchocced, a chymaint eu serch hwy tuag at bob dyn fal na's ceisiynt amgen nog a geisiai gâr y gan a garai yn gywir." *Myf. Arch.*

CADELL, mab Arthfael ab Hywel, brenin Morganwg, a'i henwogodd ei hun yn ddirfawr yn y rhyfeloedd â'r Sacsoniaid, y rhai yn analluog i'w orchfygu yn y maes, a arferasant fradwriaeth, gan beri ei roddi i farwolaeth trwy wenwyn, yn y flwyddyn 940.

CADELL, un o dri mab Rhodri Fawr, rhwng y rhai y rhanwyd tywysogaeth Cymru ar farwolaeth eu tad, yn y flwyddyn o.c. 877. Cadell a gafodd y Deheubarth; ond, gan na foddlonai ar ei ran, efe a ymosododd ar ei frawd Merfyn yn fuan, ac a drawsfeddiannodd dywysogaeth Powys. Bu farw Cadell yn y flwyddyn 900, yn ol Brut y Tywysogion; ond, yn ol ereill, yn y flwyddyn 907; ac efe a olynwyd gan ei fab Hywel Dda. Bu yn destyn dadl rhwng haneswyr Cymreig, pa un a'i Cadell, ynte Anarawd, yr hwn a gawsai dywysogaeth Gwynedd, oedd y mab henaf; ac achlysurodd hyn i draethawd dyddorol gael ei ysgrifenu gan yr henafiaethydd dysgedig Robert Fychan, yr hwn a ddug yn mlaen resymau penderfynol, er profi mai Anarawd oedd mab henaf Rhodri, ac mai iddo ef y perthynai y benteyrniaeth ar holl Gymru.

CADELL, fab Geraint, a olynodd ei dâd ar orsedd Prydain, ac a olynwyd gan Coel. Dywedir ei fod yn ei flodau tua thri chan mlynedd cyn Crist. Un peth a roddes hynodrwydd ar ei deyrnasiad, oedd y cyforddwy (*expedition*), a adawodd Brydain dan Urp Luyddawg, ac a ymsefydlodd yn Groeg (yn ynysoedd Gals ac Afenna), heb ddychwelyd byth. Coffeir hyn yn y Trïoedd.

CADELL, fab Urien, Sant, yr hwn oedd yn byw tua dechreu y seithfed ganrif. Yn ol "Bonedd y Saint," yr oedd efe yn fab i Urien ab Buan ab Ysgwyn ab Llywarch Hen. Yr oedd gynt eglwys yn gyflwynedig i'w goffadwriaeth yn Morganwg, sef Llangadell, yn agos i Bont fôn.

CADELL (DEYRNLLWG), oedd yn dywysog Teyrnllwg, tiriogaeth a gyrhaeddai o'r Amwythig i Gaerlleon ar Ddyfrdwy; ac efe a oesai yn y bummed ganrif. Dywedir yn yr hen achau, ei fod ef yn hanu o bennaduriaid Prydain, a'i fod yn fab i Pasgen ab Rheiddwy, ab Rhuddfedel Frŷch, ab Cyndeyrn, ab Gwrtheyrn; ond, y mae *Nennius* yn dywedyd mai Meichiad ydoedd efe ar y dechreu i Benlli Gawr, arglwydd y tiriogaethau a ettifeddodd ef wedi hyny. Pan ymwelodd Garmon a Chymru ar ei ail genhadaeth, yn y flwyddyn o.c. 447, ymddygwyd ato yn anmharchus gan Benlli; ond efe a lettywyd yn garedig gan Cadell, yr hwn a ddychwelwyd i ffydd yr efengyl drwyddo, ac a fedyddiwyd ganddo. Yr un diwrnod, y gormes-deyrn taiog Benlli a losgwyd, yn nghyd a'i ddinas, â thân o'r nef, a daeth Cadell yn dywysog yn ei le ef. Ond ni's gallasom weled dim mewn hanesiaeth yn tueddu i gadarnhau chwedl Nennius. Pa fodd bynag, parhaodd hiliogaeth Cadell i fod yn dywysogion Powys, dros lawer o oesoedd. Olynwyd Cadell yn yr arglwyddiaeth gan ei fab Cyngen, tad Brochwael Ysgythrog.

Digitized by Google

**CADELL** (Deyrnllwg), un o hiliogaeth uniongyrchol yr un blaenorol, oedd dywysog Powys a Theyrnllwg, ar derfyn yr wythfed ganrif. Yr oedd efe yn fab, neu ŵyr i Elisau ab Cynllaw, yr hwn a olynodd efe yn llywodraeth y dalaith, o.c. 773. Ond y mae rhyw ddyryswch yn ymddangos yn ei achyddiaeth, yr hwn y gellir gwneyd sylw arno yma. Yn ol rhai cofion, dywedir fod Cadell yn fab i Elisau; a'r adroddiad hwn a ddylynai yr hynafiaethydd enwog Robert Fychan o'r Hengwrt, yr hwn a ddyru ei achau fel y canlyn;—"Cadell, ab Elisau, ab Cynllaw, ab Beli, ab Maelmynan, ab Selyf, neu Solomon, ab Cynan, ab Brochwel Ysgythrog, brenin Powys, ac iarll Caer." Ond, yn Mrut y Tywysogion, gelwir Cadell Deyrnllwg yn fab Brochmael Ysgythrog, yr hwn wrth gwrs, ni's gallai fod yr un a ymladdai frwydr Bangor, yn oed Crist, 607, ond arall o'r un enw, a elwir gan *Rowlands*, yn ei Hanes Mona, "Brychfael Ysgythrog yr ieuangaf."[1] Cadarnheir hyn drwy yr arysgrif ar golofn Eliseg, yr hon sydd yn aros eto, yn Nglyn y Groes, yn agos i Langollen, yr hwn a adysgrifiwyd gan yr Henafiaethwr dysgedig, Edward Lhwyd, pan oedd y llythyrenau yn fwy darllenadwy nag ydynt yn bresenol:—Fel hyn ei darllenid ganddo ef;—"Concenn filius Catteli, Catteli filius Brochmail, Brochmail filius Eliseg, Eliseg filius Guoillauc; Concenn itaque pronepos Eliseg edificavit hunc lapidem proavo suo, &c." Wedi pwyso y gwahanol dystiolaethau, y mae yn ymddangos yn fwyaf tebyg i ni, mai mab oedd y Cadell hwn i'r ail Brochmael, yr hwn oedd fab i Eliseg, a'i fod wedi olynu ei daid yn llywodraethiad y dalaith. Bu farw Cadell yn y flwyddyn 804.

**CADFAN**, gwr tra enwog yn mysg y saint Cymreig, ydoedd anedig o Lydaw, gan ei fod yn fab, medd yr Achau, i Eneas Lydewig, o Gwen Teirbron, merch i Emyr Llydaw, un o dywysogion y wlad hono. Efe a ddaeth drosodd i Gymru tu a'r flwyddyn 516, pan lwyddodd y Ffranciaid i sefydlu eu harglwyddiaeth yn Gaul; ac efe a ddylynid gan amryw bendefigion ereill, y rhai mewn canlyniad i golli eu tiriogaethau, a ymroddasant i fuchedd grefyddol. Yn mysg y lluaws a ddaethant drosodd gyd ag ef, fe grybwyllir Cynon, Padarn, Tydecho, Trinio, Dochdwy, Mael, Sulien, Hewyn, Tanwg, Gwyndaf, Eithras, Sadwrn, Llywan, Llynab, Lleuddad, a Maelerw, neu Maelrys. Y rhan fwyaf o'r gwŷr uchod, a seiliasant eglwysi yn Nghymru; ac y mae Llangadfan, yn swydd Drefaldwyn, a'r Tywyn, yn swydd Feirionydd, yn gyssegredig i goffadwriaeth Cadfan, fel eu seilydd. Wedi hyny, efe a ddaeth yn abbad cyntaf monachlog Enlli, pan ei seilid gan Einion Frenin. Cyfrifid Cadfan yn nawdd-sant rhyfelwyr, yr hyn, debygid, sydd brawf tra phenderfynol, ei fod ef wedi bod yn hynod o enwog am ei wrolder yn gwrthsefyll goresgynwyr ei feddiannau tref-dadawl. Y mae dwy golofn ddi addurn, yn aros eto yn mynwent y Tywyn, un o honynt, saith droedfedd o uchder, a elwir "Maen Cadfan." Ar un ochr iddo, y mae llun y groes, ac amryw lythyrenau henafol wedi eu cerfio, ac ar yr ochr arall, y mae rhyw arysgrifen, mewn hen lythyrenau; y rhai a ddeonglwyd ychydig flyneddoedd yn ol, trwy lafur J. O. Westwood, a'r Parch. J. Williams (ab Ithel), yn dynodi y man y claddwyd Cyngen, a Chadfan; a hyny yn yr iaith Gymraeg.[2] Yr oedd Capel Sant Cadfan yn sefyll yn mhen gogledd-ddwyreiniol mynwent y Tywyn, mor ddiweddar a'r flwyddyn 1620.

**CADFAN**, mab Iago ab Beli, a olynodd ei dad fel tywysog ar Wynedd, yn y flwyddyn 603. Wedi ymuno o hono a Brochwael Ysgythrog, a thywysogion ereill Cymru a Chernyw, efe a lwyr orchfygodd Ethelfrith, yr hwn yn greulawn a barasai lofruddio myneich Bangor Is y Coed. Y frwydr hon a ymladdwyd ar lanau y Dyfrdwy, ac ynddi lladdwyd deng mil o Sacsoniaid, a chlwyfwyd Ethelfrith ei hunan, yr hwn a ddïangodd trwy anhawsdra mawr gyda gweddill ei fyddin. Cymerodd hyn le tu a'r flwyddyn o.c. 607. Yn fuan wedi hyny, er fod ereill yn rhoddi yr amseriad yn o.c. 613, etholwyd Cadfan, gan gyssenedd o dywysogion Cymreig a ymgynnullasent yn Nghaerlleon ar Ddyfrdwy, i fod yn benteyrn Prydain. Efe a barhaodd dros weddill ei oes yn dra chyfeillgar âg Ethelfrith, fel ein hysbysir yn y Brutiau Cymreig, argraffedig yn y Myfyrian Archaiology. Bu Cadfan farw yn y flwyddyn o.c. 630, ac efe a gladdwyd yn Eglwys Ael, neu Langadwaladr, yn Môn. Y mae coflech iddo ar gael eto, yr hon sydd yn awr yn hiniog drws deheuol eglwys Llangadwaladr, ar yr hon y mae yr arysgrifen ganlynol mewn hen lythyrenau o'r seithfed ganrif;—Catamanus Rex Sapientissimus Omnium Regum.[3]

**CADFARCH**, Sant, oedd yn ei flodau tua chanol y chweched ganrif. Un o feibion ieuangaf Caradawg Freichfras, tywysog Brycheiniog, oedd efe. Ymddengys fod y pendefig ieuanc hwn wedi ymroddi i fuchedd grefyddol, yn y canlyniad, efallai, i gwymp ei dad yn mrwydr ddinystriol Cattraeth. Efe a gyfrifir yn seilydd eglwys Penegoes, yn swydd Drefaldwyn.

**CADFRAWD**, mab Cadfan ab Cynan ab Eudaf ab Caradawg ab Bran Fendigaid, sant enwog, ac esgob, yr hwn oedd yn ei flodeu yn y rhan gyntaf o'r bedwaredd ganrif. Bernir mai efe oedd *Adelfius*, esgob Caerlleon, yr hwn oedd yn un o'r tri esgob a anfonasid o Frydain i Gynghorfa Arles, yr hon a alwasid gan Cystenyn yn y flwyddyn o.c. 314, er gwrthwynebu cyfeiliornad y Donatiaid. Y mae yr enw Lladinaidd *Adelfius*, bron yn gyfystyr â'r enw Cymreig, *Cadfrawd*.

**CADGYFARCH**, mab Cadfrawd, a brawd Gwrmael, oedd sant a flodeuai yn y bedwaredd ganrif; ond, nid ydym yn gwybod fod unrhyw Lan wedi ei chyssegru i'w goffadwriaeth.

**CADIFOR** (Fawr); fab Collwyn, oedd yn dywysog ar Dyfed, yn Neheubarth Cymru; a chyfarfyddwn a'i enw yn fynych yn achau teuluoedd y wlad hono, fel y cŷff cenedl, o ba un yr hanant. Efe a breswyliai yn Mlaen Cych, swydd Benfro, lle y mae rhai gweddillion o'i lŷs, dan yr enw "Ffwrn Cadifor," yn weledig eto. Efe a brïododd Elinor, ferch Lluch lawen Fawr, arglwydd Cilsant. Bu farw tu a'r flwyddyn 1088.

**CADO**, neu Cataw, sant oedd yn ei flodeu yn gynar yn y chweched ganrif. Yr oedd efe yn un o feibion Geraint ab Erbin, tywysog Dyfneint. Bu yn aelod o gôr Garmon, ac efe a grybwyllir yn y Trïoedd, fel un enwog am ei ddoethineb. "Tri dyn a gafas ddoethineb Addaf,—Cado hên, a Beda, a Sibli ddoeth. Cyn ddoethed oeddynt yll tri, ag Addaf ei hun."—*Myf. Arch.*

**CADOG**, fab Brychan, oedd un o'r saint Cymreig,

[1] *Mona Antiqua*, p. 172.

[2] See *Archæologia Cambrensis*, for 1850, p. 90–100.

[3] Gwel *Archæologia Cambrensis*, vol. i. p. 165.

Digitized by Google

yr hwn oedd yn ei flodeu yn y bummed ganrif. Yn ol Cressy, efe a fu farw o.c. 490; ac y mae ei gofwyl yn y Caliandur, ar Ion. 24. Cyfrifir ef yn seilydd lluaws o eglwysau, y rhai a alwyd ar ei enw, sef Llanspyddyd, yn swydd Frycheiniog; a Llangadoc Fawr, yn swydd Gaerfyrddin; a chapel a elwid Llangadoc, oedd gynt yn mhlwyf Cydwely. Dywedir iddo farw a chael ei gladdu yn Ffrainc.

**CADOG** ab Gwynlliw, a elwir yn gyffredin Cattwg. Gwel CATTWG DDOETH.

**CADOXTON**, neu LLANGATTWG, plwyf yn nghantref NEDD, swydd FORGANWG, DEHEUBARTH CYMRU. —Gwel LLAN GATTWG.

**CADOXTON** ger BARRY, plwyf yn nghantref DINAS POWYS, swydd FORGANWG, DEHEUBARTH CYMRU, 8 milldir i'r de orllewin o Gaerdydd, yn cynwys poblogaeth o 279, yn ol Deiliadeb 1861. Y fywioliaeth eglwysig sydd rectoriaeth ollyngawl, yn arch-ddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf. Y mae y Llan yn gyflwynedig i St. Cadog, neu Catwg. Y mae yma addoldai perthynol i'r Bedyddwyr, ac i'r Trefnyddion Calfinaidd, a'r Trefnyddion Wesleyaidd. Gorwedda y plwyf mewn llanerch ddymunol, ar lan Môr Hafren, a cheir haenau o galch-graig ynddo, yr hwn a losgir i'w ddefnyddio yn wrtaith i'r tir. Y mae yma weddillion hen gastell; ond nid oes nemawr o'i hanes yn hysbys.

**CADROD** (CALCHFYNYDD), pendefig oedd yn byw yn nechreu y bummed ganrif; ac oddiwrth yr hwn y mae rhai hen deuluoedd yn olrhain eu hachau. Mab oedd efe i Cynwyd Cynwydion, a'i wraig oedd Gwrgon ferch Brychan.

**CADROD** (HARDD), arglwydd Talybolion; pendefig galluog, oedd yn ei flodeu yn y ddegfed ganrif, ac yn cyfanneddu yn Modafon, yn Môn; yr hwn le sydd yn meddiant rhai o'i hiliogaeth hyd yr oes hon. Oddiwrtho ef hefyd yr hana teuluoedd Wynstay, Bodlewyddan, ac amryw ereill. Mab oedd efe i Gwriad ab Elidyr, ab Sandde, ab Alser, ab Tegid, ab Dwyar, ab Dwywg, ab Llywarch Hên, ab Elidyr Lydanwyn, ab Meirchion Gul, ab Grwst Ledlwm, ab Ceneu ab Coel. Mab iddo ef oedd Cilmyn Droed-ddu, o'r hwn y mae teulu pendefigaidd y Glynllifon yn olrhain eu hachau.

**CADWALADR**, ail fab Gruffydd ab Cynan, a'i henwogodd ei hun trwy gyfres o fuddugoliaethau ysblenydd ar oresgynwyr ei wlad enedigol, yn y flwyddyn 1135. Wedi cyfodi byddin fawr, aeth ef a'i frawd henaf Owain, i Geredigion, lle yr anrheithiasant y tiroedd a feddienid gan y Normaniaid a'r Fflemingiaid, ac y cymerasant ddau o'u cestyll cryfaf, un a berthynai i Gwallter Espec, a chastell Aberystwyth. Yma, ymunwyd â hwy gan Howel ab Meredydd, a Rhys ab Madawg ab Idnerth, a chan fyned rhagddynt, hwy a gymerasant gastell Rhisiard de la Marc, yn nghyd a Chaerwedros, a'r Dinerth, ac yna hwy a ddychwelasant yn llwythog o yspail. Gan iddynt fod mor llwyddiannus yn y cadgyrchiad yma, hwy a benderfynasant wneyd ymdrech egnïol i waredu y wlad oddi tan orthrymder annyoddefol y gelyn estronol; a daethant drachefn, gyda byddin ddysgyblaidd a phrofiadol, o chwe mil o draed-filwyr, a dwy fil o feirch-filwyr. Wedi i amryw o'r pendefigion brodorawl ymuno â hwy, hwy a gymerasant feddiant o'r holl wlad can belled ag Aberteifi, ac a yrasant yr estroniaid a ymsefydlasent yno dan Iarll Strigyl, o'r wlad. Yn fuan wedi hyny darfu i fyddinoedd unedig y Normaniaid, y Fflemingiaid, a'r Saeson, ymosod ar y Cymry, yn agos i Aberdyfi; ond wedi brwydr galed a gwaedlyd, fe'u gorchfygwyd, a gadawyd o honynt dros dair mil yn lladdedig ar y maes. Y fuddugoliaeth hon a waredodd y wlad dros dymhor, oddiwrth y gormeswyr blinion hyn.

Yn y flwyddyn 1142, cawn Gadwaladr wedi syrthio allan a'i frawd Owain, yr hwn a anrheithiai ei wlad, ac a losgai ei gastell yn Aberystwyth hyd lawr; ar hyny Cadwaladr a ffodd i'r Iwerddon, lle y llogodd efe nifer fawr o Wyddelod ac Ysgotiaid, am ddwy fil o farciau,[1] dan lywyddiaeth Octer; ac efe a laniai gyda hwynt yn Abermenai: ac Owain a arweiniai ei fyddin yn ddïoed i'w gwrthladd; ond cyn ymladd, llwyddodd rhai o ddoethion y genedl i athrywynu rhwng y brodyr, er siomedigaeth fawr i'r milwyr llôg, y rhai a dynasant driniaeth arw yn eu penau; a llawer o honynt a laddwyd.

Yn y flwyddyn 1146, bu ymrafael flin rhwng Cadwaladr â'i neiaint, Howel a Chynan, meibion Owain Gwynedd, y rhai a oresgynasant ei diriogaethau, ac a gymerasant, neu a ddinystriasant ei holl gestyll yn raddol; ac yn y flwyddyn 1149, hwy a gymerasant Cadwaladr yn garcharor. Yn mhen dwy flynedd wedi hyny, efe a ddiangodd o'r carchar, ac a lwyddodd i gael meddiant ar y rhan fwyaf o Fôn; ond, gan nad oedd yn alluog i gyfarfod byddinoedd ei frawd, efe a orfodwyd i encilio i Loegr, i geisio cynnorthwy gan geraint ei wraig, yr hon oedd yn ferch i Gilbert, iarll Clare. Yn y flwyddyn 1156, darfu i Harri yr Ail, wneyd cad-gyrchiad i Gymru, ar gymhelliad Cadwaladr; y canlyniad o'r hyn a fu, heddychiad Owain a'i frawd, a'i adferiad i'w ettifeddiaethau. Efe a derfynodd ei oes gythryblus yn y flwyddyn 1172.

**CADWALADR** ab Rhŷs Trefnant, oedd fardd, yn ei flodau tua chanol yr unfed ganrif ar bymtheg. Y mae amryw o'i gyfansoddiadau ar gael, mewn hen ysgrif-lyfrau.

**CADWALADR** (FENDIGAID), a olynodd ei dad, Cadwallawn ab Cadfan, tu a'r flwyddyn o.c. 634; ac efe oedd yr olaf o'r tywysogion Cymreig a arweddodd y teitl o benteyrn Prydain. Yn y Trïoedd, gelwir ef yn un o "dri aur hualogion Ynys Prydain;" am eu bod yn gwisgo hualau aur am eu gyddfau, eu breichiau, a'u gluniau, yn arwyddion o'r urddas benteyrnawl a berthynai iddynt. Mewn Trïad arall, efe a elwir yn un o'r "Tri menwedigion teyrnedd," ar gyfrif yr amddiffyn a roddai efe i'r Cristionogion ffoedig, pan wedi eu hysbeilio o'u holl feddiannau gan y Sacsoniaid paganaidd. Yr oedd ei deyrnasiad yn dangnefeddus; ac un rheswm fe ddichon, a ellir ei roddi am hyny, ydyw bod ei fam yn chwaer i Penda, brenin y Mersiaid. Yn y flwyddyn 664, torodd pla allan, yr hwn a anrheithiodd Brydain a'r Iwerddon; ac yn mysg y rhai a syrthiasant yn ysglyfaeth iddo, yr oedd Cadwaladr, medd Nennius; ond, y mae yr hanes a roddir yn y Brutiau Cymreig yn gwahaniaethu yn fawr. Yn ol yr hanes a roddir yn y Croniclau hyny, parhaodd y pla am un mlynedd ar ddeg; a chan ei ofn, aeth Cadwaladr drosodd i Lydaw, at Alan, yr hwn oedd yn frenin y wlad hono; gan yr hwn, pan beidiodd y pla, y ceisiodd efe gymhorth i adfeddiannu ei wlad oddiar y Sacsoniaid, y rhai a'i traws-feddianasent tra yr oedd ef yn absenol; ond, efe a rybuddiwyd gan angel nad elai yn mlaen gyd a'r cyfryw fwriad, ond yn hytrach, myned

[1] Yr oedd pob marc yn 13s. 4c.

Digitized by Google

i Rufain, i ddylyn buchedd edifeiriol yno; ac ychwanegai, y byddai i'r Cymry trwy ei haeddiannau a'i weithredoedd da, ail enill penteyrniaeth Prŷdain ar yr amser gosodedig, pan y dygid ei esgyrn ef adref o Rufain. Wedi myned o hono i Rufain, efe a dderbyniwyd gan y Pab Sergius i fysg y saint, a bu farw yn y flwyddyn 688. Gan fod chwedl gyffelyb yn mhob peth yn cael ei hadrodd gan *Bede*, am y brenin Sacsonaidd Ceadwalla yn myned i Rufain, y mae lle cryf i gasglu bod yr haneswyr Cymreig wedi cymeryd y naill enw am y llall, fel y gwnaethant gyfeiliornad arall, trwy brïodoli gwir hanes Ina, brenin Wessex, ac olynydd Ceadwalla, i Ifor, yr hwn a olynodd Cadwaladr. Ac y mae yn debyg mai y cyfeiliornad hwn yn y Brutiau Cymreig, a fu yn achlysur i Cadwaladr mewn oes ddiweddarach, gael ei gyfenwi y "Bendigaid." Y mae pryddestau o'r ddeuddegfed ganrif, yn y "Myfyrian Archaiology," yn cael eu prïodoli i Myrddin, yn y rhai y daroganid y byddai i Cadwaladr ail ymddangos, a dëoli y Sacsoniaid o'r ynys, gan adferu y benteyrniaeth i'r Cymry. Dywedir iddo ail adeiladu Eglwys Ael, yn Môn, lle y claddesid ei daid Cadfan; a'r hon yn y canlyniad a alwyd yn Llangadwaladr. Y mae dwy Lan arall, i'r rhai y mae efe yn nawdd-sant; sef Llangadwaladr yn swydd Dinbach, a Llangadwaladr, neu Bishopston yn swydd Fynwy.

**CADWALADR**, un o feibion Rhŷs ab Gruffydd, tywysog y Deheubarth, am orchestion yr hwn nid oes dim hynod ar gof a chadw. Efe a lofruddiwyd yn y flwyddyn 1186, ac a gladdwyd yn y Ty Gwyn ar Dâf.

**CADWALLAWN** (ab Cadfan), a olynodd ei dad yn mhenteyrniaeth Gogledd Cymru, yn y flwyddyn o O.C. 630. Y mae y Brutiau Cymreig yn cynwys adroddiad manol o'i orchestion milwraidd yn erbyn y Sacsoniaid; ond wedi ei addurno â chynifer o chwanegiadau ffugiol, fel nad yw yn hawdd cael allan y wir hanes. Y mae y Parch. Mr. Price ("Carnhuanawc") wedi chwilio yr holl adroddiadau am dano, gyda llawer o fanylrwydd a medrusrwydd; ac efallai na's gellid gwneyd yn well na rhoddi cynnyrch ymchwiliadau yr Hanesydd galluog hwnw o flaen ein darllenwyr.—"Ar ol marwolaeth Cadfan, ei fab Cadwallawn a ddaeth i orsedd tywysogaeth Gwynedd; ac ysgatfydd y caniattawyd iddo feddiannu trwy etifeddiaeth, y sefyllfa oruchafiaethol o unben Prydain. Yn yr amser hyn, yr oedd ymraniadau yn hanfodi yn mhlith Saeson Deifyr a Bryneich. Yr oedd Ethelfrith wedi llwyddo hyd hyn, i gadw meddiant ar y ddwy dalaeth; gan yru i alltudiaeth, Edwin mab Ella, iawn frenin Deifyr. Eithr hwnw yn y diwedd, a orchfygodd Ethelfrith, yn y flwyddyn 617, ac a ddaeth yn ei le yn frenin Northumbria.

"Y Brut a ddywed i Edwin gael ei fagu yn llys Cadfan, a'i fod yn frawd-maeth i Gadwallawn. Ond ar ol hyn, pan ddaeth i feddiant o'i deyrnas, naill a'i efe a annghofiodd ei ddyledion i fab ei amddiffynwr, neu ynte efe a gynhyrfwyd gan ryw annogiad annghyfiawn ar ran hwnw; ac efe a ddechreuodd ryfel ffyrnig yn erbyn Cadwallawn, ac a lwyddodd i'r fath raddau, ag nid yn unig ei orthrechu mewn brwydr, ond hefyd ei yrru i alltudiaeth; a gorfu ar Gadwallawn ffoi i'r Iwerddon, lle y cafodd noddfa rhag ymlidiad ei elynion, yr hwn a gyrchodd i Gymru, gan anrheithio y wlad yn echrys. Coffeir am yr amgylchiad hyn yn y Trioedd:—

"Tri theulu Diwair ynys Prydain:—Teulu Cadwallawn eil Cadfan, a fuant gydag ef saith mlynedd yn y Werddon, ac yn hyny o amser ni ofynasant na thal nag iawn yn y byd, rhag gorfod arnaddynt ei adaw, ac nis gallai efe'r iawn a ddylesynt."

Cyfeirir atto hefyd, yn y cyfansoddiad a elwir "*Cywryssedd Gwynedd a Deheubarth:*"—

"Pan ddyfu Gatwallawn
Dros eigiawn Iwerddon."

"Tra yr oedd Cadwallawn mewn alltudiaeth, aeth drwodd i Lydaw at Solomon, brenin y wlad hono; ac y mae yn debygol iddo gael cynnorthwy ganddo i ail ennill ei deyrnas, canys yr oedd y Llydawiaid yn wastad yn barod i gynnorthwyo y Cymru, yn eu hymrysonau â'u gelynion Seisnigaidd. Ac yr oedd amryw o'r Cymry yn yr oesoedd hyn, yn ffoi i Lydaw rhag gormes y Saeson yn Mhrydain; ac hefyd y mae yn ddilys mai ar ol dyfodiad y Saeson yma, yr aeth y nifer liosocaf o'r boblogaeth Gymroaidd drwodd, er y gallasai fod sefydliad helaeth yno, er amser Conan Meiriadawc. Ond pa un a'i trwy gynhorthwy Llydawaeg, neu ryw foddion ereill y daeth i ben, ar ol bod saith mlynedd mewn alltudiaeth, Cadwallawn a ddychwelodd iddei feddiannau; ac a ymosododd, nid yn unig i amddiffyn ei wlad, ond hefyd i ymddial ar ei elyn Edwin, yr hyn a wnaeth yn y dull cyflawnaf.

"Yn yr oes hon, yr oedd teyrnas Saesonaidd wedi cyfodi yn Ngorllewin Lloegr, yr hon a elwid *Mercia*, a'r hon a enwyd gan y Cymry, mewn ysgrifau hen, *y Mers*. Brenin yr ardal hon oedd *Penda*, yr hwn oedd yn ŵr o gynheddfau egniol, ac yn cynnal rhyfeloedd yn erbyn rhai o'r brenhinoedd Saesonaeg ereill. Cadwallawn ar ol ei ddychweliad iddei deyrnas, a unodd ei luoedd âg eiddo *Penda;* a hwynthwy ill dau a gyrchasant yn erbyn Edwin, ac a'i gorchfygasant mewn brwydr, gan ei ladd, yn nghyd â'i fab *Osfrith*, ag yn agos y cyfan o'i fyddin. Y frwydr hon a ymladdwyd yn y flwyddyn 632, gerllaw y lle a elwid *Hethfeld;* sef *Hatfield* yn Swydd Gaerefrog, y tybir.

"Ar ol y fuddugoliaeth hon, y ddau frenin,—*Cadwallawn* a *Penda*, a anrheithiasant wlad Northumbria, mewn modd tra enbyd, gan beri i dylwyth Edwin ffoi oddiyno i wlad Caint, a gadael yr orsedd i ereill. Ac Osric, nai i Ella, a afaelodd ar orsedd Deifyr; ac Eanfrid, mab Ethelfrith, a ddaeth i Fryneich.

"Ond nid ydoedd dïaledd Cadwallawn eto gwedi ei ddiwallu; canlynodd y rhyfel yn erbyn ei elynion Saesonaidd, yn nghanol eu gwlad eu hunain. Tra yr ydoedd yn canlyn ei rwysg fuddugoliaethus yn y wlad hon, cymerodd ei sefyllfa yn ninas Caerefrog; ac Osric wedi cynnull byddin gref, a ryfygodd ei warchae yno; eithr Cadwallawn a dorodd allan yn ddisymwth, ac orthrechodd ar ei fyddin, gan ei adael yntau yn farw ar y maes.

"Dros ystod blwyddyn, Cadwallawn a barhaodd i anrheithio gwlad Northumbria; ac yno Eanfrid a ddaeth atto gyda deuddeg o'i ganlynwyr, i geisio sefydlu ammodau heddwch; a dywedir, i Gadwallawn beri eu llofruddio hwy oll, yn y modd annghyfiawnaf, heb y parch lleiaf iddeu sefyllfa a'u neges. Os gwir yr hanesiad hyn, y mae yn dduad gwarthus ar gymeriad y blaenor dewr-wych hwn; ond y mae yn rhaid cofio, fod llawer o'r cyfryw gyhuddiadau, yn cael eu gwneud gan ysgrifwyr gelyniaethol, a

Digitized by Google

hyny yn hollol ddi sail; a'r hyn a elwir yma yn lofruddiad, dichon nad ydoedd ddim arall na gorthrechiad mewn rhyfel, neu ysgatfydd ad-daliad cyfiawn am ryw gamweddau, neu sarhad a gyflawnasid gan y gwŷr hyny; canys ni a wyddom yn dda, fod y Saeson yn eu hymddygiad cyffredinol, o amser Hengist, a Brad y Cyllyll Hirion, yn dangos y fath arnodiadau cenhedlaethol, a gofyn arnom oedi ychydig cyn derbyn y cyfryw gyhuddiad a'r uchod, yn erbyn y blaenor Cymraeg. Ac fe'm cadarnheir yn fy marn, gan yr hyn a draethir gan BEDA, perthynol i'r amgylchiad yma. Ac hefyd, a ail-adroddir gan FORDUN, mewn modd tra phenderfynol. Oblegid yr ysgrifenydd hwnw a ddywed fod y ddau frenin, EANFRID ac OSRIC, ar ol arddel Cristionogaeth, a derbyn bedydd,[1] gwedi gwrthgilio at Baganiaeth, a dechreu canlyn eu hen arferion eilun-addolgar, gan ddïanrhydeddu y ffydd Gristionogol; ac ychwanega, fod eu dyfethiad annrhugar gan y brenin Cadwallawn, yn gyfiawn ddïaledd oddiwrth Dduw.[2]

"Y mae yn wir fod yr awdwr hwn, yn ei ail draethiad o'r hanes, yn arddel annghyfiawnder y weithred (*impia manu*); ond, y mae ar yr un pryd, yn darlunio bucheddau y ddau frenin hyn, yn y cyfryw ddull, a gadael lle i ni dybio na fyddai i'r gwŷr, y rhai a fradychent eu crefydd yn y fath fodd, ymattregu llawer i gyflawni un rhyw ysgelerdra arall, a dwyn arnynt eu tynged, megis cyfiawn gosbedigaeth.

"Tra yr ydoedd Cadwallawn yn cynnal ei rwysg llwyddiannus yn Northumbria, OSWALD, brawd Eanfrid, wedi dyfod i feddiant o'i orsedd, a gynhullodd fyddin, ac a gyfarfyddodd â'r lluoedd Cymraeg mewn brwydr, yn yr hon y syrthiodd Cadwallawn, yn nghyd â rhifedi dirfawr o'i ganlynwyr. Y frwydr a ymladdwyd gerllaw y mur Rhufeinig, a elwid *Thirwall:* sef *Gwal Severus*, yn Northumberland, gerllaw *Denisbourne*, sef Nant Denis. Dygwyddodd o gylch y flwyddyn 634.

"Ysgrif at-ddodawl Nennius a grybwylla am y cyfarfod hwn, wrth yr enw *Brwydr Catscaul*, yr hyn yn ddiamheu nid yw amgen nag enw Cymraeg, yn arwyddocau y sefyllfa gerllaw y mur, sef *Câd-y-wal;*[3] y geiriau ydynt y canlynol;—*Osuuald filius Eldfred,—ipse occidit Catgublaun Regem Guenedotiæ Regionis; in bello Catscaul, cum magna clade exercitus sui.*"—"*Oswald mab Eldfred,—efe a laddodd Cadwallawn brenin ardal Gwynedd yn mrwydr* Catscaul *gyda mawr alanasdra o'i fyddin.*"

"Felly y syrthiodd CADWALLAWN, mewn brwydr ar wyneb y maes, megis amryw o ddewrion ei genedl yn mhob oes. Ac yn mhlith yr ardderchocaf o ba rai, y dylid ei gyfrif yntau. Llywarch Hen, yr hwn oedd gyd oesydd iddo, a grybwylla am ei ymdrechiadau clodwiw yn mhlaid ei wlad; a chyfeiria at yr amrywiol weithiau, yr arweiniodd y llwythau Cymraeg i frwydr yn erbyn y Saeson. Ei dystiolaethau am wrolder y blaenor hwn, ydynt ganfodedig yn y cyfansoddiad a elwir "*Marwnad Cadwallawn, fab Cadfan, Frenin Prydain;*" yr hwn a ddechreua yn y modd canlynol;

> "'Cadwallawn cyn noi ddyfod,
> A'i gorug a'n digonod,
> Pedair prif gad ar ddeg
> Am brif-dêg Prydain,
> A thringain cyfarfod.'"[4]

Y mae pob crybwylliad sydd ar gael am y tywysog hwn, ac yn enwedig ei Farwnad, gan Llywarch Hên, yn profi ei fod yn wr dewr-wych, a thra phenderfynol. Efe a grybwyllir yn y Trïoedd, gyd Rhyod ac Arthur, fel un o'r tri beirdd afreolaidd; am ei fod wedi ei dderbyn i urddas bardd yn ei ieuenctyd, ond bod ei fywyd rhyfelgar yn annghyson âg egwyddorion proffesedig y Beirdd Cymreig.

**CADWALLAWN** (AB IEUAF, neu IEUAN), tywysog Gogledd Cymru. Ar farwolaeth Hywel ab Ieuan, yr hwn a draws-feddiannasai dywysogaeth Gwynedd dros hir amser, ei frawd Cadwallawn, a'i cyfrifai ei hun fel ei olynydd cyfreithlawn; ond er sicrhau iddo ei hunan y benteyrniaeth, efe a benderfynodd lofruddio ei geraint, Ionafal ac Edwal, yr ettifeddion cyfreithlawn. Y blaenaf a syrthiodd yn ysglyfaeth iddo; ond Edwal, y brawd ieuangaf, a ddiangodd yn ddirgelaidd. Y flwyddyn ganlynol daeth Meredydd ab Owain, brenin, neu dywysog y Deheu-barth, â'i holl allu i Ogledd Cymru, ac mewn brwydr, efe a laddodd Cadwallon, a'i frawd Meurig, ac a gymerth feddiant o Wynedd. Cymerodd y frwydr hon le yn y flwyddyn 985.

**CADWALLAWN**, un o feibion Gruffydd ab Cynan, tywysog Gwynedd, enw yr hwn a gofnodir yn hanes filwraidd yr oes hono, fel arweinydd byddinoedd ei dad. Yn y flwyddyn 1125, efe a laddodd ei dri ewythr, Gronw, Rhiryd, a Meilyr, meibion Owain ab Edwin; ond, tu a'r flwyddyn 1130, efe a roddwyd i farwolaeth ei hunan yn Nanheudwy, gan ewythr arall, Einion ab Owain ab Edwin.

**CADWALLAWN**, un o feibion Owain Gwynedd, o'i ail wraig Crisiant, ferch Gronw ab Owain ab Ednywain; dywaid rhai haneswyr iddo fod yn abbad Enlli, tra y mae eraill yn dywedyd iddo gwympo yn rhyfeloedd yr oes hono, yn y flwyddyn 1179. Dywaid "Carnhuanawc," fod y brenin Harri yr Ail, wedi ei gythruddo gymaint gan ei aflwydd ger Aberceiriawg, fel "y darfu iddo yn y modd mwyaf dieflig, beri tynu llygaid y gwystlon, y rhai a oeddynt gwedi eu rhoddi iddaw gynt, a'u hanafu yn echryslawn, sef *Cadwallawn* a *Chynwrig*, dau fab *Owain Gwynedd*, a *Maredydd*, mab yr *Arglwydd Rhŷs*, ac ereill."

**CADWGAN**, mab Bleddyn ab Cynfyn, a olynodd ei dad fel tywysog Powys, yn y flwyddyn 1073. Yn 1094, efe a orchfygodd y Normaniaid yn Neheudir Cymru; ac mewn ail frwydr, efe a drechodd fyddin fawr o'r un bobl, y rhai a oresgynasent Ogledd Cymru; a chymerodd, ac anrheithiodd Henffordd, yr Amwythig, a Chaerwrangon. Wedi sicrhau y meddiant o Geredigion, efe a roddes wledd ysblenydd yn nghastell Aberteifi, ar Nadolig 1107, i'r hon y gwahoddodd efe dywysogion a phendefigion pob parth o Gymru, a'r beirdd a'r cerddorion mwyaf enwog, y rhai a ymgystadleuent yn ol rheolau llŷs Arthur frenin; ac a ollyngwyd ymaith wedi eu gwobrwyo a'u hanrhydeddu yn fawr. Ond, cymerodd am-

[1] Am fedydd Edwin, ymddengys megis pe cawsai ei weini gan fab i Urien Rheged; canys felly y deallaf yr ysgrif, yr hon ar ol crybwyll am ei fedyddiad ef yn nghyd a'i genedl, a ddywed, "*Si quis scire voluerit, quis eos baptizavit, Runmap Urbgen baptizavit eos.*" *Ac os dymuna neb wybod pwy a'u bedyddiodd hwynt*, RHUN MAB URIEN, *a'u bedyddiodd.*

[2] "Qui quidam reges *Andefridus* et *Osricus* utcunque regna receperant, fidem abnegantes catholicam serviendum idolis redierunt," &c.—"Nec mora regem utrumque *Cadwallo* rex Britonum impia manu, sed ultione Dei justa, peremit."

[3] Ymddengys oddiwrth Nennius, fod y mur Rhufeinig, yn cael ei alw yn iaith Frytanaidd (*Britannico Sermone*), GWAL.

[4] *Hanes Cymru*, t.d. 305.

Digitized by Google

gylchiad le ar yr adeg yma, a fu agos a bod yn andwyol i Cadwgan. Yn mysg y gwesteion anrhydeddus, yr oedd Nest, ferch Rhŷs ab Tewdwr, a gwraig Gerald de Windsor, rhaglaw castell Penfro, prydferthion swynol yr hon a orchfygodd yr aflywodraethus Owain, mab Cadwgan, fel y dylynodd efe hi i gastell Penfro, yr hwn a gymerodd efe mewn cad-ruthr; diangodd Gerald trwy anhawsder, ac Owain a gaethgludodd Nest, gan ei dwyn gyd ag ef i Powys. Yr ysgelerder yma a ddygodd drallod nid bychan i ben y tad diniweid, yr hwn yn nghyd a'i fab, a orfu ffoi i'r Iwerddon, gan fod ei neiaint, Ithel a Madawg, meibion Rhiryd ab Bleddyn, drwy gymhelliad a chefnogaeth brenin Lloegr, wedi cyfodi byddin gref i ymosod arno; a chymerasant feddiant o'i diriogaethau. Pa fodd bynag, dychwelodd Cadwgan y flwyddyn ganlynol, ac wedi profi ei ddiniweidrwydd, ecnhadodd y brenin Harri iddo adfeddiannu ei diriogaethau yn Ngheredigion, ar yr ammod iddo dalu can punt, ac ymrwymo na's caniattai i'w fab Owain ddychwelyd. Efe a amddiffynodd ei lywodraeth yn erbyn holl ymdrechiadau ei neiaint, hyd y flwyddyn 1110, pan wnaed ymosodiad disymwth arno yn y Trallwm gan Madawg, ac ei lladdwyd, cyn gallu o hono ddiweinio ei gleddyf, i'w amddiffyn ei hun.

Am yr amgylchiad yma, cawn yr adroddiad canlynol gan Humffrey Lhoyd;—"Yn awr, pan ganfu Madoc fod ei ewythr Cadwgan yn llywodraethu y wlad, efe a ymguddiodd mewn manau anhygyrch a diffaeth; a chan ychwanegu drwg at ddrwg, efe a benderfynodd ei lofruddio hefyd, trwy y naill ffordd neu y llall. Gan hyny, wedi dwyn o Cadwgan y wlad i ryw radd o dawelwch, a gofalu am fod cyfiawnder yn cael ei weinyddu ynddi, gan edrych yn barhaus am dalu parch i'r brenin, efe a ddaeth i'r Trallwng, a henuriaid y wlad gyd ag ef; a chan fwriadu preswylio yno, efe a ddechreuodd adeiladu castell. Yna Madoc pan glybu hyn, a ddaeth arno ef yn ddisymwth; a Chadwgan, heb feddwl fod drwg yn ei aros, a laddwyd, cyn y gallai ymladd na ffoi. Yna Madoc a anfonodd yn y fan at esgob Llundain, rhaglaw y brenin yn y Mwythig, gan attolygu ar iddo gofio yr hyn a addawsai efe o'r blaen iddo ef, pan ymlidiasai efe Owain o'r wlad; canys yr oedd yr esgob yn casau Owain, a Chadwgan, ac efe a roddes yr holl diroedd a fuasent yn meddiant ei frawd Ithel, i Madoc. Yna, pan glybu Meredydd ab Bleddyn am farwolaeth ei ddau frawd, efe a brysurodd at y brenin, ac a ofynodd iddo ganiattau tiroedd Iorwerth iddo ef, y rhai a gawsai Cadwgan yn ddiweddar; a'r brenin a roddodd eu harglwyddiaeth iddo, hyd y cyfryw amser pan y dychwelai Owain ab Cadwgan o'r Iwerddon; yr hwn a ddaeth yn fuan wedi hyn, ac a aeth at y brenin, yr hwn a'i derbyniodd i'w ffafr, ac a roddes ei diroedd iddo: ar yr hyn yr addawodd Owain dalu dirwy mawr i'r brenin, ac y rhoddes wystlon am daliad y cyfryw. Yr un modd y darfu i Madoc hefyd dalu dirwy am heddwch y brenin, ac am diroedd; ond y brenin a archodd iddo ef fod ar ei wyliadwriaeth rhag carenydd y sawl a lofruddiasai, dan ei berygl."

**CADWGAN** (AB CYNFRIG), bardd oedd yn ei flodau tu a'r flwyddyn 1280. Nid oes hyd y gwyddys namyn un englyn o'i waith ar gael, er cof am fuddugoliaeth a enillodd y Cymry ar y Saeson yn Aberconwy. Gwel "y Greal," t.d. 167, lle y gwelwn ei gelwid "Cadwgan Ffol."

**CADWGAN** (AB EDNYFED), bardd, nad oes dim o'i hanes ar gael, heblaw ei enw, a'i fod yn ei flodau tu a'r flwyddyn 1290.

**CADWGAN** (AB OWAIN), oedd fab i Owain, tywysog Ceredigion, ac ŵyr i Hywel Dda. Efe a laddwyd gan y Saeson yn y flwyddyn 949.[1]

**CADWGAN** (HENFOEL), bardd oedd yn ei flodau tu a'r flwyddyn 1380, ond nid oes dim o'i weithiau ar gael.

**CAEGURWEN** sydd dreflan gysylltiedig â Blaenegal, yn mhlwyf Llanguwc, cantref LLANGYFELACH, swydd FORGANWG, DEHEUBARTH CYMRU, 9½ milltir yn ogleddol o Gastell Nedd. Y mae yn sefyll ar derfyn Sir Gaerfyrddin, lle y mae y wlad yn hynod o wyllt a garw, ac yn gyfagos i geulan ddeheuol afon Twrch.

**CAERAU** sydd blwyf yn nghantref CIBWYR, swydd FORGANWG, 3¼ milltir o Gaerdydd. Y mae y plwyf hwn, rhan o ba un a roddwyd gan Fitz-Hamon i Syr John Fleming, un o'r barwnigion Normanaidd, yr hwn a'i canlynai yn muddugoliaethau Cymru, yn ffurfio cor-gyfran yn eglwys gadeiriol Llandaf, yn cael ei brisio yn llyfrau y brenhin yn 3*p.* 10*s.* 7½*c*, ac wedi ei waddoli, nid yn unig â degymau y plwyf hwn, ond hefyd â'r eiddo plwyfydd Penterri a Llandogo, yn swydd Fynwy. Y mae y fywoliaeth yn guradaeth barhaol, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf, ac wedi ei gwaddoli â 1000*p.* o rodd frenhinol, ac yn nhadogaeth Prebendari y Caerau yn Mhrif-eglwys Llandaf. Y mae yr eglwys, yr hon sydd wedi ei chyflwyno i St. Mair, yn cael ei hynodi, yn benaf, o blegid ei sefyllfa, o fewn terfynau gwersyll Rhufeinig, yr hwn sydd yn un o'r rhai eangaf a chyfanaf yn y dywysogaeth. Y mae ei ffurf yn hir-ongl rheolaidd, wedi ei gryneiddio yn y conglau, ac yn amgylchu mesuredd o tua deuddeng erw; y mae yn cael ei amddiffyn ar yr ochr ogleddol, lle y mae yr esgyniad yn sythaf, gan un mur; ac ar y dde, a'r de-orllewin, gan ddau; ac ar yr ochr ddwyreiniol, lle yr oedd y cyntedd, gan dri o furiau. Y mae y cyntedd, yr hwn sydd eto yn weledig, o ffurfiad crwn, yn cael ei ddiogelu gan fur ar y llethr, ac yn cael ei gysylltu a'r gwersyll gan fynedfa gul. O blegid ei sefyllfa ar fin yr afon Eli, ei eangder, dull ei drefniant, a'i gadwraeth ragorol, y mae wedi cael ei gydnabod fel *Tibia Amnis* Richard o Cirencester; ond ni ddarganfyddwyd unrhyw fathodion nac olion hynafiaethol, yn gyfagos i'r lle, er cadarnhau y dybiaeth. Dywedir fod un Gweirydd ab Brochfael, tywysog doeth, ond anffodus, yn cyfaneddu mewn palas yn y fan hon, ac mai efe a adeiladodd eglwys yn y lle, a elwid ar y cyntaf, Llanweirydd; ond a elwir yn awr "Y Caerau." Gerllaw y llan hon y cyfanneddai un o'r enw William Edwards, yr hwn a elwid yn gyffredin, yr "Hen Ddyn." Bu fyw trwy ystod yr unfed ganrif ar bymtheg, a mwy na haner yr un ganlynol. Gelwid y tŷ y cyfanneddai ynddo, "Tŷ yr Hen Ddŷn." Flyneddoedd yn ol, pan oedd Iolo Morganwg yn fyw, yr oedd ei gareg fedd i'w chanfod oddi tan ffenestr yr eglwys, a'r geiriau canlynol wedi eu tori arni,—"Yma y gorwedd corff William Edwards, o'r Caerau, yr hwn a ymadawodd a'r fuchedd hon ar y 24 o Chwefror, 1668, yn 168 oed."[2] Cynhwysa y plwyf tua 460 o erwau o dir diwylliedig, a thua 40 erw o dir dan goed.

[1] Gwel *Myv. Arch.* t.d. 604, argraffiad Dinbach.

[2] *Y Brython*, cyf. iii. t.d. 30.

Digitized by Google

**CAERDYDD.**—Mae Caerdydd, neu Gaer Dâf, yn hen fwrdeisdref borthladdol, a thref farchnadol ar afon Tâf, cyn arllwysiad yr afon hono i'r *Bristol Channel.* Saif ar wastadedd prydferth, yn nghantref CIBWR, yn Swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, ac y mae hi ac Abertawy yn ddwy brif dref y Sir, a brawdlys blynyddol yn cael ei chynal yn mhob un o honynt, Brawdlys y gwanwyn yn Abertawy, a Brawdlys diwedd yr haf yn Nghaerdydd. Saif Caerdydd 170 o filldiroedd gyda'r rheilffordd i'r gorllewin o Lundain; 46ain i'r dwyrain o Abertawy, a 24ain i'r Dehau o Ferthyr Tydfil. Mae cynydd ei phoblogaeth a'i masnach yn y ganrif hon, wedi bod yn ddirfawr, ac nid oes nemawr, os oes un, o'i blaen yn y ddau beth hyn yn Nghymru. Nid oedd ei phoblogaeth yn 1801 ond 2000; yn 1859 yr oedd wedi codi i 36,000, gyda rhyw 5000 o boblogaeth symudol, ac y mae y cynydd oddiar hyny yn fawr. Y mae y dref hon, yn nghyd a bwrdeisdrefi Pontfaen a Llantrisant, yn dychwelyd aelod i'r Senedd, ac y mae wedi cael ei chynnrychioli er ys blynyddoedd gan y Milwriad Stuart, cefnder i Ardalydd presenol Bute.

Mae hanesiaeth hynafol a phwysig yn perthyn i Gaerdydd. Barna hynafiaethwyr iddi gael ei hadeiladu ar y cyntaf gan Morgan ap Hywel ap Rhys, ar, neu yn agos i fan y safai gorsaf Rufeinig hynafol, neu amddiffynfa, a breswylid mae'n debygol gan Aulus Didius, yr hwn a ddilynodd Ostorius, fel arweinydd y llengoedd Rhufeinig yn Mrydain. Barna rhai iddi gael yr enw Caerdydd oddiwrth yr amgylchiad hwn. Mae y dybiaeth yn cael ei chadarnhau i fesur gan y ffeithiau o gaffaeliad gweddillion Rhufeinig o fewn muriau y castell, a bod cyfeiriad y ffordd Rufeinig rhwng *Isca Silurum* a *Bovium* (Boverton), yn nghyd ag amgylchiadau cadarnhaol eraill. Tybia Camden mai yr orsaf Rufeinig hynafol hon, oedd *Ratostabius*, neu *Ratostibius*, Ptolemy, oddiwrth yr hyn mae y plwyf cyfnesawl yn cael ei alw "Rath," neu fel y geilw y Seison ef, *Roath.* Tybia eraill mai dyma *Tibia Amnis* Antonine, yr hon y mae Richard o Cirencester yn gosod ei lle yn agos i'r dref hon, rhwng gorsafoedd *Isca Silurum* a *Bovium.* Barna eraill fod y gair Caerdydd yn dyfod o Caer-dâf, sef Caer, neu amddiffynfa ar afon Tâf; y mae hyn eto yn dangos ei bod yn dref gaerog, neu yn orsaf filwrol oddiar adeg dra chynarol. Nid oes genym, er hyny, lawer o hanes Caerdydd oddiar ymadawiad y Rhufeiniaid o Brydain, hyd orchfygiad Morganwg gan Fitz-Hamon a'i wŷr yn yr 11eg ganrif. Hysbysir ni, i'r enwog frenin Arthur yn y cyfnod hwn, er mwyn rhwystro ymweliadau ysbeilgar y Seison i deyrnas Gwent, symud y llywodraeth o Gaerlleon i Gaerdydd, a gwneyd hon yn brif dref ei deyrnas, ac iddi barhau felly hyd ei dinystr gan Cadwaladr; ac iddi gael ei hadeiladu wedi hyny gan Morgan ap Hywel tua'r flwyddyn 900. Dywed Caradog o Lancarvan, iddi gael ei dinystrio drachefn a'i hadeiladu gan Iestyn ap Gwrgan oddeutu y flwyddyn 1080, yr hwn hefyd a adeiladodd yma gastell nerthol. Yn ei ymgyrchiadau yn erbyn Rhys ap Tewdwr, anfonodd Iestyn, yr hwn oedd dywysog brodorol olaf Morganwg, Einion ap Collwyn i Lundain, i geisio help rhai o'r Marchogion Normanaidd i ymladd yn erbyn Rhys. Cytunodd Einion, ar delerau pennodol â Robert Fitz-Hamon, carenydd i William y Gorchfygwr, a dygodd hwnw nifer o Farchogion gydag ef. Gyda'r adgyfnerth hwn, gorchfygwyd Rhys, a syrthiodd mewn brwydr a ymladdwyd ar Hirwaun Wrgan. Trodd Iestyn yn falch a ffromllyd, a gwrthododd gyflawni ei amodau i Fitz-Hamon; a'r diwedd fu, i Fitz-Hamon a'i ganlynwyr godi yn erbyn Iestyn; gorchfygwyd ef mewn brwydr yn agos i Gaerdydd, a ffodd am noddfa i fynachdy cyfagos, lle y treuliodd weddill hir ei oes, a bu farw wedi cyrhaedd yr oedran mawr o 129 o flynyddoedd.

Wedi enill meddiant o diriogaethau Iestyn, cyfranodd Fitz-Hamon ei ysbail rhwng ei gydfarchogion, gan gadw iddo ei hun gyfran y llew, sef y trefi, y cestyll, a'r maenorydd oedd yn cyfansoddi corph arglwyddiaeth Morganwg, o ba rai yr oedd Caerdydd yn brif le. Dywedir hefyd iddo helaethu ac ail adeiladu agos yr holl dref, a thynu i lawr y Castell Cymreig, yr hwn oedd wedi ei wneyd o goed, a chodi yn ei le y Castell godidog ag y mae rhanau mor arddercbog o hono yn para hyd y dydd hwn. Yn y Castell hwn y byddai Arglwyddi Morganwg yn cynal eu llysoedd; a byddai y deuddeg Marchog oedd yn dal eu baroniaethau dan eu prif Arglwydd, Fitz-Hamon, yn gorfod ymgynull yma yn fisol, ar y dydd pennodedig. Yr oedd yn perthyn i bob un o honynt ystafelloedd darparedig yn nghyntedd allanol y Castell. Y diwrnod ar ol cynal y llys sirol, ar yr hwn y byddai y Sirydd yn llywyddu, a'r Marchogion yn bresenol, arferai y Canghellydd eistedd yn nghangell-lys y Castell i farnu achosion o gyfiawnder fyddai yn codi o fewn cylch ei awdurdod; ac ar y dydd hwnw byddai y Marchogion yn gweini ar eu pen arglwydd. Dranoeth, dychwelai pob un i'w faeroniaeth ei hun, lle yr oedd ganddynt hwythau lysoedd barn i'w cynal, dros gylch eu hawdurdod, dan amodau pennodol. Nid oedd y gyfundrefn wriogaethol newydd hon, yn dygymod o gwbl ag yspryd annybynol y tirfeddianwyr Cymreig; ond gosodid yr iau arnynt o'u hanfodd, ac eangai y dyfodiaid Normanaidd eu tiriogaeth yn mlaen i'r gorllewin, i barthau Browyr. O'r diwedd penderfynodd y Cymry daflu yr iau ymaith; yn 1094, daethant i ddealltwriaeth â Payne Turberville, un o Farchogion gwriogaethol Fitz-Hamon, a chodasant yn llu nerthol dan ei arweiniad; cymerasant amryw gestyll, gan ladd y gwarchod-luoedd a'r cleddyf; ymosodasant yn ddirybudd ar gastell Caerdydd, a gorfodasant Fitz-Hamon i adferu iddynt eu hen gyfreithiau, a'u harferion.

Wedi i Robert, Duc Normandi, fethu yn ei amcan i ddymchwelyd llywodraeth ei frawd, Henry I., taflwyd ef yn garcharor i gastell Caerdydd, dan wyliadwriaeth Fitz-Hamon, lle y cadwyd ef am weddill ei oes, dros y tymhor maith o 28ain o flynyddoedd. Priododd Robert, Iarll Caerloyw, gordderch fab y brenin Henry, a Mabel, neu Mabli, unig ferch ac etifeddes Fitz-Hamon, ac felly daeth ef i mewn i berchenogaeth Morganwg ar ol ei dad ynghyfraith. Cynygiodd hwn eto, osod iau drom y gyfundrefn wriogaethol (*feudal system*) ar war ei denantiaid; ond yr oedd yn ormod gorchwyl iddo; cododd y Cymry eto dan arweiniad Ivor ap Cadifor (neu Ivor Bach) i'w wrthwynebu, a gwnaethant yr Iarll a'i Arglwyddes yn garcharorion; ond gollyngwyd hwy yn rhydd ar erfyniad brenin Lloegr, ar yr amod fod Cymry Morganwg i gael cyflawn ryddid i fwynhau eu hen gyfreithiau a'u harferion. Wedi hyn, er mwyn amddiffyn ei hun rhag unrhyw wrthryfel allai godi, dechreuodd yr Iarll ar unwaith godi mûr o amgylch y dref a'r Castell, a gwnaeth ffos o gylch y

Digitized by Google



Drawn by F. Jones

Engraved by Chas. Lawrie

CARDIFF.

FROM LECKWITH

BLACKIE & SON LONDON GLASGOW & EDINBURGH

Digitized by Google

Digitized by Google

mur, yr hon a gysylltai a'r afon uwchlaw ac islaw y dref.

Yn 1172, aeth Henry II., trwy Gaerdydd, wrth fyned i'r Iwerddon, ac wrth ddychwelyd. Yn 1404, dan deyrnasiad Henry IV., gwarchaeodd Owain Glyndwr, yr hwn oedd wedi cymeryd iddo ei hun arglwyddiaeth Cymru, ar dref a chastell Caerdydd, a dinystriodd agos yr holl dref, oddigerth un heol, lle yr oedd mynachdy; gadawodd hono, am i'r mynachod droi yn gyhoeddus o'i blaid. Gwnaeth ei hun yn Arglwydd y Castell, gan ddinystrio darnau helaeth o hono, a dwyn ymaith lawer o'r trysorau a gedwid ynddo. Yn 1570 ymgynullodd Cymanfa o Feirdd Morganwg yn y Castell hwn, dan nawdd William Herbert, Iarll Penfro, i'r dyben o gasglu yn nghyd, ac adolygu cyfreithiau yr urdd. Yn ystod y rhyfel Seneddol, gwarchaewyd y Castell gan blaid y brenin, a gwnaed ymosodiad arno gan Cromwell yn ei berson ei hun. Daliodd y gwarchodlu ef yn gyndyn, hyd nes i fradwr hysbysu Cromwell am lwybr dirgel i fyned i mewn, yr hyn a'i bradychodd ef i ddwylaw Cromwell. Crogodd Cromwell y bradwr hwnw, er mwyn rhoddi gwers i'w filwyr ei hun. Cysgodd Charles I., dair noswaith yn y castell hwn, yn Awst 1645, ac ysgrifenodd oddiyno lythyr at Syr Edward Nicholas, Ysgrifenydd y Llywodraeth. Mae Ardalydd Bute presenol, wedi adgyweirio y Castell yn fawr, a'i wneyd yn drigle odidog iddo ei hun, ac wedi gwellhau y parc a'r rhodfeydd prydferth sydd o'i gwmpas.

Mae y dref, fel y dywedwyd, yn sefyll ar wastadedd eang, ar lan ddwyreiniol afon Tâf. Codwyd pont rhagorol dros yr afon, gyferbyn a'r dref, yn niwedd y ganrif ddiweddaf, gan Parry; ond oblegyd cynydd mawr y lle, a bod cryn godiad tua'r canol o bob pen i'r bont, gorfu iddi y blynyddoedd diweddaf hyn roddi lle i'w gwell, ac y mae y bont bresenol yn llawer mwy llydan a gwastad. Y mae y dref wedi ei thori allan yn drefnus, yn enwog am ei hiachusrwydd, ac yn cynwys ynddi gyflawnder o bob cyfleusderau. Y mae ynddi, ac o'i chwmpas adeiladau da, a phalasau gwychion, ac y mae Neuadd y dref, yr *Hotel* fawr sydd gerllaw iddi, a'r carchar—oll yn adeiladau diweddar,—y mwyaf costus. Y mae y dref yn ddyledus am ei chynydd a'i llwyddiant mawr, i'w phorthladd cyfleus, a'i chysylltiad hwylus a pharthau gweithfaol y mynyddoedd. Mae y dref yn ymestyn tua milldir neu ychwaneg, i bob cyfeiriad o Neuadd y dref; Roath i'r dwyrain, lle mae y nifer mwyaf o balasau; Canton i'r gorllewin, o'r tu arall i'r afon, yr hon sydd yn dref go fawr ei hun, ac yn ymestyn i gyffiniau hen ddinas ac eglwys gadeiriol Llandaf; Maendy i'r gogledd; a thref Bute i'r Deheu, hyd at y porthladd. A thros ddarn o'r porthladd, eilwaith, ar drwyn uchel o dir, y mae tref go fawr arall yn codi, yn rhifo miloedd o drigolion, a elwir Penarth. Nid oes un porthladd yn Nghymru yn cystadlu a phorthladd Caerdydd, oddigerth Abertawy, yn helaethder ei fasnach; ac y mae hyn wedi peri i lawer ei alw yn Liverpool Cymru. Y rheswm am hyn, fel y dywedwyd, yw ei fod yn adwy, neu fynedfa allan i gynifer o weithfeydd haiarn a glo y mynyddoedd a'r cymoedd cyfoethog cyfagos. Gweinyddodd Camlas Merthyr a Chaerdydd, yn nghyd a'r gangen o hono sydd yn troi i Aberdâr, yn fawr tuag at chwyddo y fasnach, a'r boblogaeth. Agorwyd y Camlas yma yn y flwyddyn 1798, yr hwn sydd yn 25ain o filldiroedd o hyd. Yn y flwyddyn 1830, ryw 32ain o flynyddoedd wedi agoriad y Camlas, er fod y flwyddyn hono yn un dra gwasgedig mewn masnach, cludwyd dros y Camlas hwn 87,372 o dunelli o haiarn, i'w allforio yn Nghaerdydd; 113,753 o dunelli o lo; a thros 50,000 o dunelli o amrywion eraill. Cawn fod 1000 o longau, yn 250 o dunelli at eu gilydd, wedi eu llwytho yn y flwyddyn uchod, gan yr hyn a gludid dros y Camlas hwn yn unig. Yr oedd y perchenogion wedi eu cyfyngu i 8 punt y cant o lôg ar eu cyfalaw (capital) ar ol talu pob treuliadau; ac yr oedd yn rhaid iddynt ranu cymaint o enill a fyddai uwchlaw hyny, rhwng perchenogion y nwyddau a gludid dros y Camlas. Yn y flwyddyn 1830, talwyd i'r rheiny 77½ y cant ar eu taliadau, yr hyn a ddengys fod masnach y Camlas yn fawr. Yn yr un flwyddyn cafwyd deddf seneddol i wneyd Camlas longau Bute, ar draul yr Ardalydd ei hun; ond buwyd am ddwy flynedd cyn cychwyn ar y gwaith. Ei amcan ydoedd galluogi y llongau i ddyfod i fyny i nofle gyfleus i dderbyn y nwyddau a gludid i lawr gyda'r Camlas. Pan agorwyd rheilffordd Merthyr a Chaerdydd—y rheilffordd hynaf yn Nghymru—ofnid y buasai y Camlas yn cael ei ddinystrio; ond y cyfryw oedd, ac ydyw y cynydd gweithfaol a masnachol, fel y rhoddir digon o waith i'r naill a'r llall; a chan fod tollau y Camlas dipyn yn îs nag eiddo y rheilffordd, y mae masnach y Camlas heddyw cystal ag erioed. Gellir ychwanegu hefyd, fod y rheilffordd hon yn un o'r rhai a lywodraethir oreu, ac sydd yn talu oreu, o holl reilffyrdd y deyrnas. Cafodd y dref hon fanteision ychwanegol pan agorwyd rheilffordd Deheudir Cymru, yr hon sydd yn rhedeg trwyddi, gan ei chysylltu â Bristol, Caerloyw, a Llundain ar un llaw, ac â Milford ar y llaw arall. Yn ddiweddarach eto, agorwyd Rheilffordd Rhymni a Chaerdydd, yr hon a wnaeth adwy arall i dderbyn trysorau cyfoethog gweithfaoedd y cwm hwnw; a Rheilffordd Ely wedi hyny. Mae Dociau porthladd Caerdydd, yn mysg y rhai mwyaf eang (o'u mhaint), a chyfleus a fedd y deyrnas. Mae Dociau Bute, yn cyrhaedd ryw 65 o erwau o dir, wedi eu codi gan dad yr Ardalydd presenol, a'i ymddiriedolwyr; ac wedi costio dros filiwn o bunau. Y maent yn eiddo hollol i'r Ardalydd ieuanc presenol. Y mae dwsinau o rheilfeinciau (staiths) ar hyd y cai, neu y lanfa, gyda pheirianau hynod o gywrain i'r dyben o lwytho llongau â glo, gyda pha rai yr arbedir drylliad y glo wrth ei dywallt, yn hollol. Y mae pob un o'r rheil-feinciau yma yn abl llwytho 600 o dunelli o lô mewn diwrnod o ddeuddeg awr. Y mae yma hefyd borthladd llanw (*tidal harbour*) cyfleus, i lwytho tua thair mil o dunelli o lô y dydd. Mae lled y pyrth yn 55 o droedfeddi. Dyfnder y dwfr ar y llanw uchaf (*spring tide*) yw 31 troedfedd ac 8½ modfedd; ar y llanw iselaf, 21 troed, 7½ modfedd. Allforiwyd 1,490,312 o dunelli o lô o'r porthladd hwn yn 1859; 195,961 o dunelli o haiarn; a 16,339 o dunelli o losglo (coke). Yn nadforion yr un flwyddyn, cawn nifer y llongau, 7855, gyda thunelliad o 1,184,557; mwn haiarn, 74,934. Dengys y cyfrif canlynol am un mis, y cynydd mawr sydd ar drafnidaeth y porthladd yn y deuddeg mlynedd diweddaf. Am y mis yn diweddu Mawrth 31ain, 1871, allforiwyd i wledydd tramor, 177,711 o dunelli o lô, mewn 321 o longau (yr oedd hyn tua 12 o longau, a thua 6500 o dunelli y dydd, a chau allan y Sabboth), *Patent Fuel* 6,973 o dunelli; haiarn

Digitized by Google

20,137 o dunelli: golosg 719. Heblaw hyn, gyrwyd allan i leoedd arfordirol 76,201 o dunelli o lo; *patent fuel* 1,895; a golosg 72. Y mae hyn yn dangos fod masnachaeth lô blynyddol y porthladd hwn yn bresenol, tua 3,000,000 o dunelli.

Derbyniodd Caerdydd Freinlen ei chorphoriaeth, naill ai oddiwrth Iestyn ap Gwrgan, neu Fitz-Hamon, y cyntaf o'i harglwyddi Normanaidd. Y freinlen hynaf sydd ar gael, ydyw un o eiddo Hugh le Despencer, yn nheyrnasiad Edward II., wedi ei dyddio Hyd. 14eg, 1338, yn cadarnhau rhoddion a breintiau ei rag-flaenor, Arglwydd William de la Zouche, ac Elinor ei wraig. Y freinlen ddiweddaf yw un gan James I., wedi ei dyddio Gor. 18, 1608, yn yr hon y mae llywodraeth y dref yn cael ei gosod mewn cwnstabl y castell, yr hwn sydd i gadw ei le wrth ewyllys ei benadur, ac i fod yn brif aelod y corphoriaeth, goruchwyliwr (neu *recorder*), deuddeg henadur, deuddeg o gynghorwyr cyffredin, yn nghyd a nifer anmhennodol o fwrdeiswyr, yn cael eu cynorthwyo gan glerc y dref, dau gyfreithiwr, dau *serjeants at mace*, dau feili dwfr, dau brofwr diod, a swyddogion eraill. Mae cwnstabl y castell, y beiliaid, a'r henadur hynaf, i fod yn ynadon heddwch o fewn y fwrdeisdref, yr hon sydd yn cynwys plwyfi Eglwys Ifan, ac Eglwys Fair. Mae y Fwrdeisdref wedi ei rhanu yn bedair rhan (*wards*). Cyn ysgrif ddiwygiadol 1832, yr oedd Aberafon, Cynffig, Llychwr, Nedd, ac Abertawy, gyda Chaerdydd, Pont faen, a Llantrisant, heb ddim ond un aelod yn eu cynrychioli yn y Senedd. Mae Caerdydd yn cynwys dau blwyf, sef plwyf Eglwys Fair, a phlwyf Eglwys Ifan, neu Ioan. Mae y bywioliaethau, y rhai ydynt yn archddeoniaeth ac esgobaeth Llandâf, wedi eu prisio ar lyfr y brenin, Eglwys Ifan yn 13*p.* 4*s.* 6½*c.*, a'r llall yn 4*p.* 5*s.* 10*c.*, a than nawdd Deon a Glwysgor Caerloyw. Mae Eglwys Ifan, yr hon nad oedd gynt ond capel perthynol i Eglwys Fair, yn adeilad hynafol Seisnig ardderchog, wedi ei hadeiladu yn 1443, gan Hart, adeiladydd enwog eglwys Gwrecsam; ond y mae wedi myned dan gyfnewidiadau mewnol go ddiweddar.

Wrth y cyfrifiad (census) sydd eisoes wedi ei wneyd, ceir gweled fod poblogaeth y dref fel ei masnach wedi cynyddu yn fawr. Mae y Fwrdais seneddol yn eangach na'r Fwrdais drefol; ac wrth gymeryd cylch y fwrdeisdref seneddol, y mae nifer yr addoldai yn y cylch hwnw yn 49, ac y maent yn sefyll fel y canlyn:—

| Enwadau. | Nifer yr addoldai. |
|---|---|
| Annibynwyr, | 9 |
| Eglwys Loegr, | 8 |
| Bedyddwyr, | 8 |
| Wesleyaid, | 7 |
| Methodistiaid—Calfinaidd, | 5 |
| Methodistiaid Cyntefig, | 3 |
| Pabyddion, | 3 |
| Methodistiaid unedig, rhydd, | 1 |
| Presbyteriaid, | 1 |
| Eglwys Lutheraidd, | 1 |
| Brodyr Plymouth, | 1 |
| Bedyddwyr neillduol, | 1 |
| Mormoniaid, | 1 |
| Yr oll yn, | 49 |

Heblaw yr uchod y mae amryw leoedd y pregethir ynddynt. Mae y Milwriad Stuart, yr aelod seneddol sydd yn bresenol yn cynrychioli Caerdydd, yn fab i'r diweddar Arglwydd Patrick James Stuart, A.S., ac yr oedd hwnw yn frawd i'r diweddar Ardalydd Bute. Arglwydd Patrick James Stuart ydoedd yr aelod seneddol dros Gaerdydd yn adeg brwydr enwog Ysgrif Ddiwygiadol 1832, ac yr oedd yn gefnogwr gwresog i'r mesur; yn gymaint felly, fel ar ol pasio yr Ysgrif, daeth y diweddar Ardalydd a'r Gwir Anrhyd. John Nichol yn mlaen yn yr etholiad cyffredinol, yr hwn oedd Geidwadwr, yn erbyn ei frawd ei hun, yr hwn oedd ryddfrydwr. Ar etholiad cyffredinol diweddarach, adfeddianwyd y sedd gan ryddfrydwr, yn mherson Mr. Coffin, yn 1852, ac oddiar hyny, y mae Caerdydd yn cael ei chynrychioli gan ryddfrydwr.

**CAER EINION FECHAN** sydd drefgordd yn nghwmwd Cyfeiliog, cantref CYNAN, plwyf Mallwyd, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU; 10 milltir o Machynllaith. Y mae yn sefyll ar geulan afon Dyfi, ac yn ffurfio yr unig gyfran o'r plwyf sydd yn y swydd hon, tra y mae y gweddill yn swydd Feirionydd; y mae y gymydogaeth hon yn dra mynyddig drwyddi.

**CAERFALLWCH**, treflan yn mhlwyf LLANEURGAIN, yn nghantref COLESHILL, swydd FFLINT, GOGLEDD CYMRU, 2 filldir i'r Gorllewin wrth Ogledd, o bentref Llaneurgain, yn cynwys poblogaeth o 925, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae gweithfeydd plwm yn y drefgordd hon, y rhai a weithiwyd o bryd i bryd er's llawer o oesoedd; ond nid oes yma nemawr o weithfeydd cynnyrchiol ac enillgar yn bresenol. Tu a'r flwyddyn 1140, yr oedd Caerfallwch, Hendre Figill, a Phentre Hyfaidd, gerllaw Rhos Esmor,[1] yn ettifeddiaeth i Ithel Felyn ab Llewelyn Aurdorchog, o Iâl, pendefig a briodasai Elen, ferch Gruffydd ab Cynan, tywysog Gogledd Cymru. Yr oedd Rhos Esmor yn y drefgordd hon yn gyttir, i'r hwn y cyrchai lluaws ieuenctyd y plwyf hwn, a'r plwyfau cyfagos, ar y Sabbathau, a dyddiau gwyliau, i gynnal hoff chwareuon ein cyn-dadau, megis neidio, rhedeg, ymgodymu, taflu y trosol, cicio y bêl droed, &c.; ond y mae llafur yr ymneillduwyr, trwy bregethu, a'r Ysgolion Sabbathawl, yn yr ardal hon, wedi eu llwyr ymlid o'r lle; ac y mae moesau a chrefydd preswylwyr y dreflan hon, mor uchel a chanmoladwy yn awr, a'r eiddo unrhyw gymmydogaeth yn Nghymru.

Ar fryn, yr hwn sydd yn fil ac ugain troedfedd goruwch lyfel y môr, y mae hen amddiffynfa Gymreig, a ddyru ei henw i'r dref-gordd hon. Gelwir y bryn ar yr hwn yr adeiladwyd yr amddiffynfa, "Moel y Gaer." Y mae y rhagfur yn amgylchu llanerch o 196 llath o draws-fesur; ac o'i fewn, y mae bryncyn celfyddydol bychan; o'r lle y dywaid traddodiad, y byddai yr hen dywysogion yn cyfarch y milwyr cyn cychwyn i'r frwydr. Y mae y fynedfa iddi wedi ei gadael yn agored ar yr ochr ogleddol, lle yr oedd yr esgynfa hawddaf. Y mae yr amgylchiad yma, yn nghyd a'r amddifadrwydd o ddwfr o fewn yr amddiffynfa, yn tueddu i gefnogi y dybiaeth, nad ydoedd y gaer hon wedi ei hamcanu i fod yn lle o drigias barhaus; ond yn hytrach yn gynnullfan fanteisiol i'r milwyr brodorawl, ac i'w parottoi i wrthladd ymosodiadau eu gelynion. Yn achau Harri y Seithfed; neu yn hytrach achau Syr Owain Tudur,

[1] Darllenwn am un "Osmer Sais," yn meddiannu tiroedd yn swydd Fflint tu a'r flwyddyn 828; a gall mai llygriad o Osmer ydyw Esmor.


Digitized by Google

Digitized by Google




Digitized by Google

BLACKIE & SON LOND




Digitized by Google

a dynwyd i fynu gan Ddirprwyaeth, a roddwyd ar waith i'r perwyl hyny, gan y brenin Harri y Seithfed, cawn yn yr adran a ddengys ei haniad o Beli Mawr, enw un "Afallech, ap Afflech, ap Beli Mawr." Yr oedd yr Afallech hwnw felly, yn nai, fab Brawd i'r enwog Caswallawn, a fu yn gwrthsefyll Iwl Caisar, ar ei ymgais i oresgyn yr Ynys hon. Y mae yn dra sicr fod yr ymosodiad crybwylledig o eiddo y Rhufeiniaid ar ein gwlad, wedi cyffroi yr holl genedl, i wneyd pob ymdrech yn eu gallu, er ymbarottoi i'w gwrthladd yn effeithiol; ac fe ddichon mai dyna yr adeg y gwnaed yr amddiffynfa hon, ac mai dan lywyddiaeth Afallech yr ydoedd; yr hyn a barai iddi gael ei galw ar ei enw; ac fel cadarnhad ychwanegol o'r dŷb hon, cawn enwau ei epil trwy yr oesoedd, mewn cyssylltiad â Gogledd Cymru.

Tu a'r flwyddyn 1410, cafodd Cymro dewr-wych, a elwid "Hywel Gwynedd," yr hwn a bleidiasai Owain Glyndwr, yn ei ryfel yn erbyn y brenin Harri y Pedwerydd, ei ddal ar adeg anwyliadwrus, gan ei elynion a ddaethent o dref y Fflint i gynllwyn iddo; ac efe a roddwyd i farwolaeth ar y llanerch hon.[1] Yn y flwyddyn 1814, parwyd cyfodi tân-fwdwl ar y llanerch yma, a dodi dynion i wylio yma ddydd a nos; ond ar derfyniad y rhyfel â Napoleon Buonaparte, fe'i rhoddwyd i fynu.

Yr ydoedd castell yn sefyll yn y dreflan hon gynt, rhwng Gwern y marl a Llwyn Huwcyn; wedi ei gyfodi er cadw y bwlch, mae yn debyg. Haera traddodiad ei fod yn gorwedd ychydig oddi ar y coed; ond, pa un bynag am hyny, nid oes dim o'i olion yn weledig yn bresenol; yn unig y mae yma ammaethdy bychan, a elwir "Y Castell," fel cof-arwydd o hono, a'r llanerch lle y safai.

Y mae golygfa eang iawn i'w chael ar y wlad oddi amgylch oddi ar ben Caerfallwch, neu "Foel y Gaer." O honi, yr oedd yr holl wersylloedd Prydeinaidd oeddynt ar hyd y fynydd-res Glwydaidd, tu a'r gorllewin, yn weledig; dyffrynoedd y Wyddgrug ac Estyn, can belled a Gwrecsam, tu a'r dehau; afonydd y Dyfrdwy a'r Mersey, yn nghyda phorthladd Lle'r pwll, tu a'r gogledd; a dinas a phorthladd Caerlleon Gawr, tu a'r dwyrain. O fewn tua thri chant o gamrau i'r gogledd orllewin o'r amddiffynfa hon, y mae bryncyn celfyddydol mawr, yr hwn a gyfodasid i wylio y bwlch trwy y mynyddoedd, ac a elwir Moel y Cri, am y byddai y gwylwyr oddi yma yn codi *cri* rybuddiol, i'r gwarchodlu yn y gaer, os y gwelent ddim arwydd o berygl yn dynesu.

Y mae dau addoldy Ymneillduol yn y dreflan hon, un gan yr Annibynwyr, a'r llall gan y Trefnyddion Calfinaidd: yr olaf hwn sydd yn adeilad eang a da, ac y mae eglwys gref yn cyfarfod ynddo; a chynnulleidfa astud a threfnus, o tua phedwar cant, yn cyrchu iddo bob Sabbath, i wrando geiriau bywyd tragywyddol. Y mae yr addoldy arall ychydig yn llai; ond y mae yno hefyd gynnulleidfa hardd yn ymgyfarfod, i ymarfer ag ordinhadau crefydd yn rheolaidd.

CAER-FYRDDIN; *Swydd Gaerfyrddin*, sydd wlad arforawl yn Neheubarth Cymru; yn cael ei therfynu ar y gorllewin gan Sir Benfro, ar y gogledd gan Sir Aberteifi, ar y dwyrain gan Sir Frycheiniog, ar y de-ddwyrain gan Sir Forganwg, ac ar y dde gan afon lydan Burry, a bay Caerfyrddin, yn afon Bryste; y mae yn ymestyn o 51° 30′ i 52° 2′ (G. Lled), ac o 3° 45′ i 3° 58′ (Gor. Hyd.); ac yn cynwys naw cant a phedair ar ddeg a thri-ugain o filltiroedd ysgwâr, neu chwe chant a thair ar hugain o filoedd a thri chant a thri-ugain, o erwau o dir. Yr oedd y boblogaeth yn ol rhifiant 1861 yn 96,651.

Yr oedd y terfynau ag sydd yn awr yn ffurfio Swydd Gaerfyrddin, yn yr amser y goresgynodd y Rhufeiniaid Frydain, yn ol y darluniad a rydd Ptolomy, yn cael eu cynwys yn ngwlad y *Dimetæ*, neu *Dyfed* yr ysgrifenwyr Brytanaidd; ac yn cynwys un o'u prif ddinasoedd, a elwid gan yr un awdwr *Maridunum*, a chan Antoninus *Muridunum*, yr hyn a ddeallir yn gyfystyr a'r Gaerfyrddin bresenol. Priodolir darostyngiad y dosparth hwn i Julius Frontinus, tu a'r flwyddyn 70; ac oddiwrth yr arlywydd hwnw, y mae enw y ffordd sydd yn croesi o ddwyrain i ogledd, a elwir *Julia Strata*, neu *Via Julia Maritima*, yn cael ei darddiad; yn ol tystiolaeth Syr R. C. Hoare, Barg., ac eraill, yr oedd hefyd yn cael ei chroesi gan y *Via Julia Montana*, neu *Superior*. Heblaw gorsaf *Maridunum;* ar y ffordd a grybwyllwyd gyntaf, yr oedd yn cynwys un arall, dra phwysig, yn Llanfair-ar-y-bryn, gerllaw Llanddyfri. Pan y galwodd y Rhufeiniaid eu byddinoedd allan o Frydain, ac i'r wlad gael ei dosparthu yn fân lywodraethau, yr oedd Swydd Gaerfyrddin ddiweddar, gan mwyaf, yn gynwysedig yn nhywysogaeth *Ceredigion*, neu Aberteifi; hanes yr hon, sydd wedi bod am dymor maith mewn cryn dywyllwch. Tua chanol y nawfed ganrif, cysylltwyd hi â thiriogaethau eraill Rhodri Mawr, Tywysog Gwynedd, yr hwn a gysylltodd yr oll o Gymru yn un deyrnas. Ar ei farwolaeth ef, yn 876, cyflwynodd diriogaeth Ceredigion, neu Ddeheudir Cymru, yn cynwys, heblaw siroedd presenol Aberteifi a Chaerfyrddin; Frycheiniog, Morganwg, Mynwy, a Phenfro, i'w fab Cadell; a sefydlodd eisteddle y llywodraeth yn Dynefor, yn nyffryn Tywi, lle yr oedd ef wedi adeiladu palas, er darfod i olynwyr Cadell ei symud i Gaerfyrddin, lle yr arhosodd, hyd nes y gorfodogodd y goresgynwyr Normanaidd Seis'nig, y tywysogion brodorol i encilio i'w preswylfod flaenorol. Darfu i Cadell, y flwyddyn wedi iddo ddechreu ar ei lywodraeth, oresgyn tiriogaethau ei frawd Merfyn, a thrwy allu ymosodol, efe a gymerodd feddiant o dywysogaeth Powys; ond yn

[1] Yr Hywel Gwynedd uchod, ydoedd Frodor o'r plwyf hwn; fel hyn ei crybwyllir yn yr achau teuluaidd;—"Howell Gwynedd ab Dafydd ab Bloddyn ab Ithel Fychan o Degeingl; hwnw a fforffetiodd ei dir yn amser Owain Glyndwfr; a'r hen Saxon a'i cafas."

Mewn perthynas i'r un gwr, cawn y sylw canlynol gan *Pennant*;—"Ar y llaw aswy i'r ffordd" (o Lugain i Laneurgain), "y mae seiliau hen adeilad, a elwir *Llŷs Edwin*, neu *Llŷs Llaneurgain*, lle y cyfanneddai Edwin, arglwydd Tegeingl, yr hwn oedd yn orwyr i Howel Dda, ac yn ei flodau tu a'r flwyddyn 1041. Y mae lluaws o deuluoedd yn y wlad hon wedi hanu o hono; ond y rhan fwyaf o honynt, ydynt wedi pallu yn y llinach wrrywaidd. Parhaodd y Llŷs yn meddiant y teulu hyd farwolaeth un o epil Edwin, sef Howel Gwynedd, yr hwn a gollodd ei fywyd yn achos Owain Glyndwr; a'i ettifeddiaethau a ddirwywyd gan Harri y Pedwerydd, yr hwn a'u rhoddodd i un Bryan Saxton; gan hiliogaeth yr hwn eu meddiannwyd hyd yr ail ar bymtheg o deyrnasiad Harri y Chweched, yr hwn a'u rhoddes i Syr John Stanley, ystafellydd y brenin."

Am Howel Gwynedd, dywedir mai trwy dori ei ben ei rhoddwyd i farwolaeth ar Foel y Gaer. Yr oedd yn nghadw o fewn yr oes hon, mewn hen ammaethdy o fewn ychydig i'r lle hwn, a elwir "Y Fagnallt," lle a fuasai oesoedd yn ol yn drigle boneddwyr cyfrifol, asgwrn penglog dyn, yr hwn a gedwid gyda llawer o ofal, a pharch coelgrefyddol. Ai tybed nad asgwrn penglog y gwron uchod ydoedd, a gedwid ar y cyntaf yn ddirgelaidd, efallai, gan rai o'i garennydd, neu ei edmygwyr?—Gwel *Y Gwladgarwr*, cyf. ii. t.d. 246.

Digitized by Google

ei dro, efe a oresgynwyd gan ei frawd arall, Anarawd, tywysog Gogledd Cymru, yr hwn a wnaeth ddinystr ofnadwy yn siroedd Caerfyrddin, Aberteifi, a Phenfro, gan losgi y tai a dyfetha yr ŷd. Ar farwolaeth Cadell, yn 907, olynwyd ef yn llywodraeth Deheubarth Cymru, a Phowys, gan ei fab hynaf Hywel, yr hwn sydd yn sefyll mor uchel mewn hanesiaeth Gymreig, dan yr enw "Hywel Dda," yr hwn, yn 940, ar farwolaeth Idwal Foel, mab Anarawd, a gysylltodd lywodraeth Aberffraw, a'i diriogaethau eraill; ac a ddaeth yn llywodraethwr Cymru oll. Yn ystod cynulliad a threfniad cyfreithiau y llywydd hwn, y rhai a barhasant mewn grym drwy y dywysogaeth, hyd amser ei darostyngiad gan Iorwerth I., ac a gadwyd mewn rhai manau hyd amser uniad Cymru â Lloegr yn nheyrnasiad Harri VIII., efe a gynhaliai gyngor arbenig, yn ei breswylfa helwrol, yn Llan Gan, yn nghymydogaeth St. Clear's. Bu Hywel farw, wedi teyrnasiad maith a heddychol, yn 948, gan adael pedwar mab, sef Owain, Rhun, Rhodri, ac Edwin, y rhai, gan roddi i fynu lywodraeth Gwynedd, i Ieuaf ac Iago, meibion Idwal Foel, a ranasant y tywysogaethau, neu yr arglwyddiaethau, yn y Deheudir a Phowys; syrthiodd llywodraeth Dynefor i Owain, yr hwn, er iddo gael ei orchfygu, gyda'i frodyr, mewn brwydr a ymladdwyd â Thywysogion Gwynedd, yn Sir Aberteifi, eto, yn y flwyddyn 950, pan yr oedd y rhai diweddaf a grybwyllwyd yn gwneud ymosodiad ar Sir Benfro, a'u gorchfygodd hwy, nes iddynt ffoi ymaith, gyda y fath alanasdra, fel y boddwyd rhan fawr o'u byddin yn afon Teifi, yr hon sydd yn ffurfio terfyn gogleddol Sir Gaerfyrddin. Cynhaliwyd yr ymryson hwn, a ddechreuwyd rhwng meibion Hywel, â thywysogion Gwynedd, am amser maith, gan y ddwy ochr; ond o'r diwedd, terfynwyd yn ffafr Ieuaf ac Iago, y rhai a ddarostyngasant yr oll o Gymru, ac a ddaliasant lywodraeth Dynefor dan eu hawdurdod am lawer o flynyddoedd. Owain, wedi ei ymlid o'i lywodraeth ei hun, a ymosododd, yn 958, ar ddosparth o Ewyas, yn nyffryn Wŷsg, oedd yn ffurfio rhan o diriogaethau Morgan Mawr, brenin Morganwg; ond cyflwynwyd y ddadl a godwyd yn yr amgylchiad hwn, i'w phenderfynu gan Edgar, brenin Sacsonaidd Lloegr, a rhoddodd y llywydd hwnw ei benderfyniad o blaid brenin Morganwg, gan beri attalfa ar ymosodiadau Owain. Ar ymraniad a gymerodd le rhwng dau dywysog Gwynedd, ymddengys fod Owain wedi cymeryd mantais ar hyny i adfeddianu ei diriogaethau; o blegid yn 966, cyfarfyddodd Edgar yn Nghaerlleon, yn Mynwy, i gytuno ag ef, am daliad teyrnged, yr hon, yn ol cyfreithiau ei dad, oedd yn ddyledus i frenhin Lloegr. Ymosododd Einion, mab Owain, gyda rhai o feirch-filwyr ei dad ar Frowyr, ac wedi hyny, efe a gynorthwyodd mewn gwrthwynebiad i ymosodiadau y Sacsoniaid, dan Alfred, Iarll Mercia, yn Mrycheiniog a Gwent. Ar ei farwolaeth, olynwyd ef yn arweiniad byddin ei dad, gan ei frawd ieuengaf Meredydd, yr hwn, yn 985, a oresgynodd Wynedd, ac wedi lladd ei thywysog Cadwallon, mewn brwydr, a orchfygodd yr holl deyrnas. Ar farwolaeth ei dad, cymerodd Meredydd feddiant o lywodraeth y Deheudir hefyd, gan gau meibion ei frawd hynaf allan; a darfu i'r hynaf o honynt, Edwin, wedi codi byddin, a chael ei gynorthwyo gan y Sacsoniaid, a'r Daniaid, fyned i Aberteifi, a myned rhagddo drwy Sir Benfro, a chyda glanau y wlad hyd Cydweli, ac i Browyr; ond gwnaed heddwch yn fuan rhwng Edwin a'i ewythr, ac aeth eu byddinoedd unedig yn mlaen i ymosod ar diriogaethau Ithel, Tywysog Morganwg, ond ymlidiwyd hwynt yn ol i ffoi yn warthus. Bu ymosodiadau mynych y Daniaid, ac ymgyrchion y llywodraethau cymydogaethol, yn achlysur yn y Deheudir, i fyddinoedd Meredydd fod ar waith; ac felly gan fod gan bobl Gogledd Cymru, hawl i wneud eu dewisiad eu hunain, hwy a gyflwynasant y llywodraeth i Idwal, mab Meyrig, yr hwn, y darfu i Meredydd, wedi clywed am y chwyldroad hwn, ymdrechu ei ddiorseddu, ond methodd yn ei gais.

Bu y penaethiaid hyn, farw yn fuan wedi y cyfnewidiad hwn; ni adawodd Meredydd ond un ferch ar ei ol, yr hon oedd wedi priodi Llewelyn ab Sitsyllt, arglwydd Essyllt, yn Mhowys, pan nad oedd ef ond pedair mlwydd ar ddeg oed; yr hwn ydoedd eto dan oedran. Darfu i Aedan, yr hwn a olynodd i lywodraeth Gwynedd, wedi brwydr, yn mha un y lladdai ef ei wrthwynebwr, Cynan ab Hywel, gymeryd y fantais ar ieuengetid Llewelyn, i ddarostwng brenhiniaeth y Deheudir, heb nemawr o anhawsder, yn y flwyddyn 1000; ond yn 1015, y tywysog ieuangc, erbyn hyny mewn llawn oed, ac wedi cynull yn nghyd nifer digonol o filwyr, a gyfarfyddodd Aedan mewn brwydr, ac a orchfygodd ei fyddin, ac a laddodd y tywysog hwnw ei hun. Drwy y fuddugoliaeth enwog hon, daeth Llewelyn nid yn unig i awdurdod ar deyrnas Dynefor, neu y Deheubarth, ond hefyd dros Wynedd yr un modd. Yn 1020, daeth anturiaethwr o'r Alban, a alwai ei hun, Rhun, ac a honai ei fod yn fab i Meredydd, yn mlaen i'r Deheudir; ac wedi enill teimlad nifer o'r penaethiaid, i bleidio ei achos, a chanfod byddin gref at ei alwad, efe a gymerodd y maes. Llewelyn, yr hwn oedd y pryd hwnw yn Ngwynedd, wedi clywed am yr helyntion hyn, a brysurodd tua'r Deheubarth gyda ei fyddinoedd, ac a gyfarfyddodd Rhun yn Abergwili, gerllaw Caerfyrddin, lle yr oedd yr olaf wedi trefnu ei fyddin yn barod at frwydr; bu yr ymdrech yn faith ac echrydus; ond o'r diwedd, terfynodd o blaid Llewelyn, yr hwn a ddaeth yn llwyr orchfygwr, ac a laddodd Rhun. Yn y flwyddyn ganlynol, tiriodd Hywel a Meredydd, meibion Edwin, yn cael eu cynorthwyo gan Eulaf neu Aelaf, a byddin gref o Wyddelod ac Ysgotiaid, yn y Deheudir, gyda bwriad i orchfygu y deyrnas, ac wedi ysbeilio eglwys St. Dewi, yn Mhenfro, hwy a ddaethant yn mlaen i Gaerfyrddin, lle y cyfarfyddwyd ac y gorchfygwyd hwy gan Llewelyn, a'i frawd Cynan; pa fodd bynag trodd y fuddugoliaeth hon yn chwerw i Llewelyn trwy fradwriaeth Madog Min, esgob Bangor. Gadawodd Llewelyn ar ei ol un mab, a elwid Gryffydd, yr hwn ydoedd dan oed; yn y cyfamser, cymerwyd mantais ar yr amgylchiadau hyn, gan Iago, mab Idwal, yr hwn a gymerodd feddiant o dywysogaeth Gwynedd, a thrawsfeddianwyd Dynefor gan Rhydderch, mab Iestyn, arglwydd Morganwg; ond collodd yr olaf ei fywyd yn 1031, mewn brwydr â Hywel a Meredydd, y rhai oeddynt eilwaith wedi ymosod ar y Deheudir, gyda byddin alluog o Wyddelod ac Ysgotiaid. Cododd meibion Cynan ab Sitsyllt yn fuan mewn arfau, yn erbyn y tywysogion hyn, i ddial am lofruddiaeth eu hewythr Llewelyn, ac yn yr ymgyrch hwn, lladdasant Meredydd, ond methasant yn eu cais i ddiorseddu Hywel. Gryffydd wedi dyfod i oedran, a honodd ei hawl i lywodraethau ei dad, a'r bobl yn ymgynull dan ei

Digitized by Google

faner o bob cyfeiriad, a gymerasant y maes yn erbyn Iago. Tywysog Gwynedd, yr hwn a orchfygwyd ac a laddwyd; a chan gyfeirio ei ffordd i'r Deheudir, efe a orfodogodd yr awdurdodau yno i gydnabod ei awdurdod lywodraethol, ac a wrthwynebodd yn llwyddianus, bob cais a wnaethai Hywel i amddiffyn ei lywodraeth yno. Eto nid ymollyngai Hywel dan ei holl aflwydd, ac efe a gymerodd y maes amryw weithiau, yn cael ei gynorthwyo gan bleidiau o'r Daniaid, y rhai a ysbeiliasant y wlad; ond o'r diwedd, cafodd ei gyfarfod yn annisgwyliadwy gan Gryffydd, yr hwn a'i gorchfygodd ac a'i lladdodd. Ar farwolaeth Gryffydd, hawliwyd brenhiniaeth y Deheudir gan Rhydderch ab Iestyn, yr hwn, wedi codi byddin gref yn Morganwg, a ymladdodd frwydr egniol yn erbyn Gryffydd, pan yr enciliodd y ddwy blaid, heb benderfynu y fuddugoliaeth ar y naill ochr na'r llall. Yn fuan ar ol hyn, daeth rhai pleidwyr i Caradog, mab Rhydderch ab Iestyn, o Gwent a Morganwg i'r wlad hon, lle yr unasant â rhai o ddeiliaid anfoddog Gryffydd, ac ymosodasant ar feddianau rhai o gyfeillion y tywysog hwnw, ac a roddasant amryw o honynt i farwolaeth; ond darfu i Gryffydd arwain ei fyddinoedd, tu a'r dehau, a chospi ei foneddion gwrthryfelgar, drwy anrheithio eu hetifeddiaethau yn Nyfed, Ystrad Tywi, neu sir Gaerfyrddin, a Browyr yn Morganwg. Yn 1056, gorchfygwyd a lladdwyd Rhys, brawd Gryffydd, yn ei ymosodiad ar Forganwg a Gwent; ac yn fuan wedi hyny, cyfarfyddodd Gryffydd ei hun â thynged gyffelyb, mewn brwydr a ymladdodd yn erbyn Caradog, mab Rhydderch ab Iestyn, yn cael ei gynorthwyo gan y penaeth Sacsonaidd Harold, gyda byddin gref. Rhoddodd Harold frenhiniaeth Dynefor i Meredydd ab Owain, yr hwn y tybir ei fod yn ddisgynydd oddiwrth Hywel Dda, yr hwn, yn 1069, a orchfygwyd ac a laddwyd ar derfynau Morganwg, gan Caradog, yr hwn oedd wedi cael cynhorthwy byddin nerthol o Normaniaid o Loegr. Bu farw Caradog yn y flwyddyn ganlynol, ac olynwyd ef yn llywodraeth y Deheudir, gan ei fab Rhydderch.

Yn 1072, ymddangosodd Rhys ab Owain, ŵyr Hywel Dda, (wedi bod am beth amser yn guddiedig yn Ynys Manaw,) yn annysgwyliadwy yn y Deheudir, i honi ei hawl i lywodraeth y dywysogaeth; ac wedi cynull yn nghyd fyddin gref yn y wlad hon, a Brycheiniog, hwy a ymdeithiasant tua'r gogledd, ac a orchfygasant fyddinoedd Bleddyn ab Cynfyn, tywysog Gwynedd, yr hwn ei hun a lofruddiwyd yn fradwrus yn ystod y frwydr. Trodd Rhys wedi hyny tua Dynefor, ond talodd ymweliad cyfeillgar â Rhydderch, a hwy a wnaethant amodau oedd mor anghymeradwy gan berthynasau Rhydderch, fel y rhoddwyd yr olaf i farwolaeth gan ei gefnder, Meirchion ab Rhydderch, ac felly daeth Rhys yn Dywysog Cymru oll. Pa fodd bynag, yn 1074, ymosodwyd arno gan Goronwy, a Llewelyn, meibion Bleddyn ab Cynfyn, yn cael eu cynorthwyo gan blaid gref o Forganwg, gan y rhai y gorchfygwyd ef ddwywaith, ac yn y frwydr olaf, cymerwyd ef yn garcharor, ac wedi hyny rhoddwyd ef i farwolaeth. Yn 1077, daeth Rhys ab Tewdwr, disgynydd o Hywel Dda, yr hwn oedd wedi gorfod cymeryd noddfa yn Llydaw, ar drawsfeddianiad tywysogaeth Dynefor gan dywysogion Morganwg, i'r Deheubarth, gyda bwriad o gymeryd y llywodraeth yno iddo ei hun, yr hon a ddelid ar hyn o bryd gan Iestyn ab Gwrgant, a thrwy fod ei hawl yn cael ei gydnabod gan y penaethiaid brodorawl, o blegid eu gwrthwynebiad i'r diweddaf a enwyd, rhoddasant eu cefnogaeth i'w awdurdod bennadurol. Yn 1080, cynorthwyodd Rhys i osod Gryffydd ab Cynan ar yr orsedd yn Ngwynedd, ac wedi hyny, efe a ymosododd ar diriogaethau Iestyn ab Gwrgant, yn Morganwg; ond gyda ei fod ef wedi galw ei fyddinoedd yn ol, dialodd y llall, drwy ddifrodi Ystrad Tywi, neu Sir Gaerfyrddin, a Sir Frycheiniog, ac a gymerodd ymaith ysbail fawr. Yn yr un flwyddyn hefyd, daeth William y Gorchfygwr, a byddin i'r Deheudir; ac heb ymosod ar neb, derbyniodd warogaeth y tywysogion Cymreig, a chyflawnodd bererindod hyd at fedd St. Dewi, yn sir Benfro. Yn 1087, cododd meibion Bleddyn ab Cynfyn y fath wrthryfel nerthol yn y Deheubarth, fel y gorfu ar Rhys encilio i'r Iwerddon; ond trwy gael gan ei frawd-yn-nghyfraith, brenhin Dulyn, gorph nerthol o fyddinoedd Gwyddelig i'w gynorthwyo, dychwelodd i Gymru, sef i'r Deheudir, lle yr unodd amryw o'i gyfeillion âg ef, ac efe a enillodd fuddugoliaeth drwyadl ar ei elynion. Gwedi rhoddi gwrthryfel a godai yn Dyfed i lawr, bu raid i Rhys yn fuan wedi hyny, wrthwynebu Iestyn ab Gwrgant, Tywysog Morganwg, a'i bleidwyr Normanaidd; gan yr hwn y cafodd ei orthrechu, o fewn terfynau Sir bresenol Morganwg; ac, yn ol y cofnodau Cymreig, efe a gymerwyd ac a ddienyddiwyd yn fuan wedi hyny, gan Iestyn; ond y mae Mr. Jones, yn ei Hanes Brycheiniog, yn barnu ei fod wedi encilio i Caerbannau, yn y sir honno, a'i fod wedi cael ei ladd, wrth ymladd yn erbyn y Normaniaid, dan Bernard Newmarch. O'r amser hwn, gwanhaodd llywodraeth Dynefor yn raddol, o blegid yr ymrysonau a godid dan y llywyddion Normanaidd yn Lloegr, a gormes y barwniaid Normanaidd yn Nghymru, fel y cyfyngwyd y terfynau, fel y mae yn awr rhwng Caerfyrddin ac Aberteifi. Gadawodd gorchfygiad Rhys, a'i fab hynaf, y llywodraeth heb yr un pen, hyd y flwyddyn 1092, pan y darfu i Cadwgan ab Bleddyn, Tywysog Powys, dyn o yspryd anturiaethus a phenderfynol, honi y llywodraeth yn y Deheudir, ac efe a ddaliodd allan wrthwynebiad parhaus i'r barwniaid Normanaidd, yn gystal ac i frenhin Lloegr ei hun. Arweiniodd William de Londres, un o'r barwniaid Normanaidd a fu yn cynorthwyo Robert Fitz Hamon, yn ngorchfygiad Morganwg, fyddin gref yn 1094, i Cydweli ac Ystrad Tywi, a gynhwysir yn awr yn y sir hon, ac a adeiladodd gastell yn y lle blaenaf, i ddiogelu ei fuddugoliaethau. Gorfu ar Cadwgan, a Gryffydd Tywysog Gwynedd, ar un adeg, gilio i'r Iwerddon, o blegid gwrthryfel a godai deiliaid yr olaf; ond dychwelasant yn y flwyddyn ganlynol, gyda nifer mawr o bleidwyr, ac a sefydlasant eu gwahanol lywodraethau. Cadwodd Cadwgan am beth amser ar delerau da gyda Harri I., ond o'r diwedd daeth i anghydfod âg ef, o blegid i'w fab, ddwyn Nest, gwraig Gerald de Windsor, drwy drais i Powys. Anogodd Harri y boneddion i ddial am y sarhad a roddid felly ar lywydd Castell Penfro; a hyny, nid yn unig trwy ddinystro Owain ei hun, ond hefyd drwy ymosod ar feddianau ei dad, Cadwgan; y rhai wrth weled yr holl wlad mewn arfau yn eu herbyn, a ffoisant i'r Iwerddon; ond yn y flwyddyn ganlynol, dychwelodd Cadwgan, ac wedi gwneud heddwch â Harri, efe a gymerodd feddiant o'i lywodraeth, Dychwelodd Owain hefyd yn fuan, a thrwy fethu lliniaru digllonedd y brenhin, efe a gododd ryfel yn erbyn ar-

Digitized by Google

glwyddi y cyffiniau, yr hyn a dynodd ŵg Harri unwaith yn ychwaneg ar Cadwgan, yr hwn a'i danfonodd i Lundain i ateb am ymddygiad ei fab, ac yno efe a gadwyd yn garcharor. Eto, darfu i Harri, wedi y cyfan, ei adferu i'w anrhydedd a'i feddianau, y rhai na fwynhaodd efe ond am ychydig amser, o blegid efe a lofruddiwyd yn fradwrus gan ei nai, Madog ab Rhyrid.

Yn yr amgylchiad hwn, drwy ymraniadau parhaus yr holl wlad, gallodd Harri oresgyn a meddianu llywodraeth y Deheubarth am lawer o flynyddoedd, gan gau pob ymgeiswyr eraill allan. Yn 1113, daeth Gryffydd ab Rhys, mab hynaf Rhys ab Tewdwr, oedd eto yn fyw, yr hwn a breswyliai yn Iwerddon, tra yr oedd dan oedran, i'r Deheudir, lle yr anogwyd ef gan Gerald de Windsor, yr hwn oedd wedi ymddyweddio â chwaer Gryffydd, i honi ei hawl i'r dywysogaeth; ond darfu i Harri, wedi clywed am yr amcanion, ddefnyddio moddion yn ddioed i'w dyrysu, a bu raid i Gryffydd geisio noddfa yn llys Gryffydd ab Cynan, Tywysog Gwynedd, lle yr unodd ei frawd Hywel âg ef, yr hwn a ddiangasai o gastell Trefaldwyn. Ond fel yr oedd Gryffydd ab Cynan wedi bwriadu cyflwyno y tywysogion ieuaingc hyn i law brenhin Lloegr, hwy a ffoisant gyda'r môr i'r Deheudir, a Gryffydd ab Rhys, wedi cyrhaedd i'r wlad hon yn ddiogel, a benderfynodd gyhoeddi ei hawl drwy ryfel agored. Cefnogwyd ef yn wresog gan ei gydwladwyr, a dechreuodd ar ei ryfelgyrch yn fuan, gan arwain byddin gref, a myned i mewn i Browyr, lle y gwnaeth efe ymosodiad aflwyddianus ar Abertawe, ac wedi gwneud difrod mawr yn y wlad, dychwelodd i Ystrad Tywi gyd âg ysbail helaeth. Wedi hyny efe a ymosododd yn olynol ar gestyll Normanaidd Llanddyfri a Chaerfyrddin, ond yn aflwyddianus; ac yn 1114, efe a aeth drachefn i Browyr, gan gymeryd, ar ei ffordd, gastell Cydweli oddiar William de Londres. Dywed Giraldus Cambrensis, yn ei "Ymdeithiau," fod Gwenllian, gwraig Gryffydd, ychydig flynyddoedd wedi hyny, gyda'i dau fab, wedi arwain byddin o feirch-filwyr, yn bersonol, i gymydogaeth yr amddiffynfa hon, lle y collodd hi y dydd, y daliwyd, ac y rhoddwyd hi i farwolaeth, gyd âg amryw o'i chanlynwyr, gan Maurice de Londres, ŵyr William. Pa fodd bynag am yr hanes hon, yr oedd anturiaethau Gryffydd, yn yr amgylchiadau hyn, wedi enill iddo luaws o ganlynwyr; a darfu i Harri, wrth weled pwysigrwydd yr helynt, gefnogi ei weision, y Normaniaid a'r Fflemingiaid, yn gystal a hyny o Gymry oedd yn dysgwyl rhywbeth oddiar ei law, i uno eu byddinoedd yn ei erbyn. Gryffydd, yn gwybod am y fantais oedd ei elynion yn ei gael, drwy fod y brenhin yn meddianu amddiffynfa mor nerthol a Chaerfyrddin, a arweiniodd ei fyddin yn ei herbyn yn ddirgelaidd, ac a'i cymerodd yn annysgwyliadwy; efe a aeth rhagddo wedi hyny i Sir Aberteifi, lle y bu efe yn fynych yn llwyddianus yn erbyn yr arglwyddi Normanaidd; ond dioddefodd golled fawr, wrth wneud ymosodiad anochelgar ar gastell Aberystwyth. Brenhin Lloegr, wrth weled Gryffydd mewn hollol feistrolaeth ar y wlad, a gymhellodd Owain ab Cadwgan, a Llywarch ab Trahaearn, drwy addewidion hael, i arwain eu byddinoedd i'r Deheudir, i gynorthwyo ei weision, a hwy a aethant mewn canlyniad i ddyffryn Tywi; ond Gerald de Windsor, yr hwn oedd wedi cael ei wraig yn ol o afael Owain, ag oedd yn awr mewn arfau o blaid llywodraeth Harri, mewn dialedd am y cam a gawsai efe gan y penaeth llygredig hwnw, a syrthiodd arno yn annysgwyliadwy, ac a'i lladdodd wedi ychydig o ymgyrch; a'r amgylchiad hwn, a derfynodd yr ymryson; o blegid fod Llywarch yn gweled nad oedd gweision y brenhin, am gydweithrediad pa rai y disgwyliai, i'w hymddiried, felly efe a enciliodd gyda'i fyddinoedd. Gwnaed rhai ymgeisiadau eraill, ond heb ddim mwy o lwyddiant; ac yn 1121, daeth Harri i heddwch â Gryffydd, gan ganiatau iddo gyfran helaeth o hen deyrnas Dynefor. Eto, yn 1130, o blegid cwynion a wnaethai yr arglwyddi Normanaidd, gorchymynodd Brenhin Lloegr, ar fod i ymosodiad gael ei wneud ar Gryffydd eilwaith; ond efe, gyda'i feirchfilwyr ei hun, a chynhorthwy Hywel ab Meredydd, penaeth o Frycheiniog, gan sefyll yn hollol ar yr ochr ddiffynol, a lwyddodd i yru ymaith y Normaniaid a'r Fflemingiaid allan o'i derfynau; ac yna, efe a anfonodd genadaeth at Harri, i erchi am hysbysrwydd o fanylion ei drosedd, yr hyn a nacawyd iddo. Ar ddyfodiad Stephan i orsedd Lloegr yn 1135; efe a anfonodd at Gryffydd wŷs, i alw am iddo ymddangos ger ei fron ef yn Llundain yn ddioed; i ateb cwynion a ddygid yn ei erbyn; ond yn lle ufuddhau i'r alwad, wedi cael cefnogaeth amryw o'r penaethiaid brodorol, o Ogledd a Deheudir Cymru, efe a oresgynodd yr oll o siroedd Aberteifi a Phenfro, gan orchfygu yn hollol yr arglwyddi Normanaidd, gyda lladdfa fawr; ac wedi y buddugoliaethau dilynol hyn, y rhai a brofasant o'r braidd yn ddinystr i'r Saeson oeddynt wedi cartrefu yn y Deheudir, cadwodd Gryffydd wyl a gwledd yn ei balas yn y wlad hon, i'r lle y gwahoddodd holl dywysogion a boneddion Cymru a'r Cyffiniau, yr hon a barhaodd am ddeugain niwrnod. Bu Gryffydd, wedi adgyweirio cyfreithiau ei bobl, farw yn 1136, ac olynwyd ef gan ei fab hynaf, Rhys; y rhan gyntaf o deyrnasiad yr hwn a aethai heibio heb i ddim o bwys gymeryd lle. Un o'r amgylchiadau cyntaf a gofnodir ydoedd, cadgyrchiad gan Owain Gwynedd, Tywysog Gwynedd, yn erbyn y Normaniaid a'r Fflemingiaid yn Sir Aberteifi a'r amgylchoedd, yn yr hon y dywedir iddo ddinystrio castell a thref Caerfyrddin, o'r lle yr oedd yr arglwyddi Normanaidd wedi cael ad-feddiant. Gwnaed cadgyrchiad cyffelyb yn 1144, gan feibion Owain; ac yr oedd gan Stephan gymaint o waith i'w gadw ei hun ar orsedd Lloegr, fel nad allai estyn dim cymhorth i'w weision yn y wlad hon, y rhai oeddynt yn cynal i fynu ymrysonau yma, yn annibynol ar gymhorth y brenhin; ac yn 1145, canfyddwn yr Iarll Clare, mewn meddiant o gastell Caerfyrddin, er fod prif ymdrechiadau Rhys a'i frodyr, ar y pryd hwn, yn cael eu cyfeirio yn erbyn amcan yr arglwyddi hyn, i adsefydlu eu hunain yn eu llywodraeth ar y rhan hon o Gymru. Yn yr un flwyddyn, cymerodd Rhys a'i frawd Cadell, adfeddiant o gestyll Caerfyrddin, Dynefor, a Llanstephan, oll ger y Tywi. Ymosodwyd ar yr amddiffynfa olaf a enwyd, gan fyddin gref o Normaniaid, Saeson, a Fflemingiaid; ond amddiffynwyd y lle yn llwyddianus gan Meredydd, brawd Rhys. Cyflwynwyd castell Caerfyrddin i gadwraeth Cadell, yr hwn a adgyweiriodd ac a gadarnhaodd y lle, ac a wnaeth gad-gyrchoedd mynych oddiyno i diriogaethau cyfagos y Normaniaid oedd ynddynt, gan ddifrodi yn benaf diroedd Cydweli a Browyr. Unodd ei fyddinoedd yn fuan wedi hyny, â'r eiddo ei frawd Meredydd, i wneyd cad-gyrchiad drwy sir Aberteifi, a dychwelasant

Digitized by Google

gydag ysbail fawr. Gwnaed cad-gyrchiadau eraill cyffelyb wedi hyny; a Rhys, wedi agos ail-adeiladu a chadarnhau ei gastell breiniol Dynefor, a ddechreuodd gynllunio modd i ymlid ymaith yr holl estroniaid oeddynt wedi dyfod i gyfaneddu i Gymru, ond ni chydunai y penaethiaid eraill o'r Cymry yn yr ymdrech. Ar ddyfodiad Harri II., i orsedd Lloegr, gwrthododd Rhys uno yn y cynhygiad am sefydliad heddwch a wnai y Cymry i'r pennadur hwnw; ond wedi cael ei wysio i'r llys Seisnig, daeth i amodau yn fuan, drwy yr hyn yr oedd Harri i gyflwyno i Rhys feddiant o derfynau y Cantref Mawr, yn yr hwn yr oedd castell Dynefor yn sefyll; a rhai arglwyddiaethau eraill, y pryd hwnw yn ei feddiant; a rhoddi i fynu iddo ef amryw gestyll, y rhai yr oedd efe i'w dal fel sicrhad am gadwraeth yr amodau; am y rhai hyn talodd y tywysog Cymreig warogaeth, a dychwelodd i'w wlad, gan adael dau o'i feibion yn y llys Seisnig, fel gwystlon; ond ni chyflawnwyd yr amodau ar ochr y brenhin Seisnig, ond mewn rhan. Gilbert Iarll Clare, wedi adfeddianu rhai o'i etifeddiaethau, yn sir Aberteifi, a gymerwyd oddiarno yn amser teyrnasiad Stephan, a ymosododd ar feddianau Rhys, yn sir Gaerfyrddin; yr hwn a wnaeth ei gwyn o blegid hyn at frenhin Lloegr, ond nid oedd yn cael atebion boddhaol; gan hyny efe a ddinystriodd amryw o gestyll y Saeson, ac a gymerodd feddiant o'u tiroedd, y rhai yn ol yr amod a wnaed, nad oeddynt yn perthyn iddo. Tra yr oedd efe yn ymosod ar gastell Caerfyrddin, anfonodd Harri fyddin gref yn ei erbyn, dan arweiniad Ieirll Bristol a Clare, ac yn cael eu cryfhau gan fyddinoedd Tywysog Gwynedd. Encilodd Rhys a'i wyr, i fynyddoedd Cefn Rhestr; a'r byddinoedd unedig heb weled yr un gelyn i'w wrthwynebu, a wersyllasant am ychydig amser yn nyffryn Tywi, ac yna a symudasant i Wynedd. Ar ddychweliad Harri o Normandy, yn 1163, wedi clywed fod Rhys yn ystod ei absenoldeb, wedi aflonyddu ei bobl, efe a arweiniodd fyddin i'r Deheudir, can belled a Pencader, yn y sir hon, deng milltir yn ogleddol o Gaerfyrddin, y lle, cyn dechreu ymosodiad, y darfu i rai o benaethiaid Brycheiniog ymyryd, a threfnu fod i Rhys, ar amod o gadw meddiant mewn lleoedd penodol, gyflwyno dau o'i neiaint, fel gwystlon, am ei ymostyngiad rhagllaw. Cyflwynodd y brenhin y rhai hyn i gadwraeth Iarll Caerloew, yr hwn a'u rhoddodd i farwolaeth; ac ar y weithred hon o fradwriaeth, rhuthrodd y tywysog Cymreig dan arfau drachefn, ac efe a aeth yn erbyn meddianau Caerloew, yn sir Aberteifi, ac wedi hyny, yn erbyn meddianau rhai Saeson eraill yn Sir Benfro. Wedi yr ymgyrch hon, yr hon a drodd allan yn hollol lwyddianus, unwyd âg ef yn erbyn y Saeson gan Owain Gwynedd, tywysog Gogledd Cymru, a phenaethiaid Powys; ymosodwyd yn fuan ar y cyngreiriad hwn gan frenhin Lloegr, ond syrthiodd y dyrnod ar Wynedd, lle yr oedd Rhys wedi arwain ei fyddinoedd i amddiffyn y wlad. Goresgynodd Aberteifi a Phenfro eilwaith, ac efe a ddychwelodd i'w gastell yn Dynefor gydag ysbail fawr; ond am amser maith wedi hyn, bu ar dir cyfeillgar gyda brenhin Lloegr, yr hwn a gyfarfyddodd efe yn Nghaerdydd, ar ei ffordd i Iwerddon yn 1172, ac wedi hyny yn Talacharn, a elwir yn awr Lacharn, yn y sir hon, ar ddychweliad y brenhin o'r Iwerddon. Ryw bryd wedi hyny, pan yr oedd Harri ar adael Lloegr am Ffraingc, penododd Rhys yn brif ynad y Deheudir. Ar ddyfodiad Richard I., i goron Lloegr, yn 1189, yr ydym yn cael Rhys unwaith eto yn elyn y gallu Seisnig, ac wedi cynull ei fyddinoedd, ymosododd ar gastell Caerfyrddin, yr hwn a gymerodd ac a ddinystriodd efe; ac yna efe a aeth rhagddo tu a'r Cyffiniau, lle y cymerodd amryw gestyll, a dychwelodd i Dynefor yn fuddugoliaethus; ar yr achlysur hwn, cadarnhaodd gastell Cydweli, gan ei wneuthur yn brydferthach na'r un o'r amddiffynfeydd eraill. Bu farw Rhys yn 1196; cyfenwid ef yn *Arglwydd*, y teitl a gyflwynwyd i'w olafion, wedi colli o hono yr anrhydedd o fod yn Dywysog, drwy ei ymostyngiad i frenhin Lloegr. Olynwyd ef gan ei fab Gryffydd, yr hwn a wnaed yn garcharor yn nghastell Aberystwyth, gan ei frawd Maelgwn. Y mae dyddordeb yr hanes am yr helyntion cysylltiedig a'r sir hon, yn ei brwydrau a'i hymgyrchoedd, yn lleihau wedi y dyddiad hwn, ac felly nid ydym yn gweled priodoldeb i ymhelaethu arnynt yn mhellach.

O'r flwyddyn 1210 hyd tua 1223, yr ydym yn cael enwau Harri III., Llewelyn ab Iorwerth, a Rhys Vychan, yn dyfod i sylw mynych yn helyntion y wlad. Yn 1233, Richard Marshall, Iarll Penfro, mewn canlyniad i anghydfod â brenhin Lloegr, a wnaeth ddinystr mawr ar diroedd y wlad; ac felly y parhaodd cryn ddifrodiadau ar gestyll a thiriogaethau am dymhorau meithion, tra yr arweinid byddinoedd gan Stephan Bacon, Meredydd ab Rhys, ac eraill, hyd amser Iorwerth I., pan yr oedd y pwnc pwysig o uniad y dywysogaeth â choron Lloegr, yn nesau i derfyniad, ac yn cael ei ddadleu gan y gwahanol bleidiau ar bob llaw. Yn amser absenoldeb Iorwerth o Loegr, tra yr ydoedd yn Ffraingc, torodd Rhys ab Meredydd allan mewn gwrthryfel, a chymerodd gestyll Llanddyfri a Dynefor, a rhoddodd amryw o'r dinasoedd ar dân. Yr unig wrthwynebiad pwysig i awdurdod brenhinoedd Lloegr, a amlygwyd wedi hyny, ydoedd gwrthryfel Owain Glyndwr, hyd nes y deuir at frwydr Maes Bosworth, ac felly yn mlaen hyd amser Cromwel, a buddugoliaethau milwyr y Senedd.

Y mae Sir Gaerfyrddin o fewn esgobaeth Ty Ddewi, ac yn nhalaeth Caergrawnt; y mae agos oll yn gynwysedig yn archddeoniaeth Caerfyrddin, yr hon sydd yn cynwys deoniaeth Cydweli, Llandilo a Llangadog yn Sir Gaerfyrddin, a Browyr yn Sir Forganwg; y mae pedwar o'r plwyfydd yn archddeoniaeth Aberteifi; yr holl nifer ydynt un-ar-bymtheg-a thriugain, o ba rai y mae pymtheg yn beriglorau, deunaw-ar-hugain yn ficeriaethau, a thair-ar-hugain yn guradiaethau parhaol. I ddybenion llywodraeth wladol, y mae wedi ei dosparthu i'r cantredau canlynol—Cathinog, Caio, Derllys, Elfet, a Perfedd; ac y mae gan bob un o honynt eu dosparthau "Uwchaf," ac "Isaf;" ac y mae y tri chwmwd, Carnwallon, Iscennen, a Chydweli, yn ffurfio parthau ar wahan oddiwrth y gweddill o'r sir, yn meddu eu swyddogion priodol eu hunain. Y mae yn cynwys y bwrdeisdrefi, y marchnadfaau, a'r llongbyrth a elwir Cydweli a Lacharn; a'r trefydd marchnad Llandilofawr, Llanymddyfri, Llangadog, a Chastell-Newydd-Emlyn, yn nghyd a llongborth bychan St. Clear's. Y mae yn dychwelyd dau aelod i'r Senedd, yn ychwanegol at yr un a enfyn y dref, a Llanelli, yn nghyd. Y mae y llysoedd barn cyhoeddus a sirol, yn cael eu cynal yma yn nhref Caerfyrddin.

Y mae arwynebedd y tir, agos i gyd yn fryniog, er nad yw yn fynyddig; y mae y rhan fwyaf yn nosparth llechog y Deheudir, yn cyrhaedd o Gwm y Dwr ac afon Tywi, hyd ei therfynau. Yma y mae

Digitized by Google

cadwyn doredig o fryniau, cysylltiedig â mynydd Plymlymon, yn Sir Drefaldwyn, ac yn ffurfio y rhan fwyaf o ddyffryn Teifi, yn ymestyn o Frycheiniog hyd y mor. Ar ochr ddwyreiniol y Mynydd Du, sydd yn cyrhaedd hyd Fynwy, y mae crib uchel y *Fan*, neu Ban Sir Gaer yn eglur, ac yn ymgodi, ddwy fil, pum cant, ac un-ar-bymtheg a phedwar-ugain o droeddfeddi, uwchlaw arwyneb y mor. Y mae y bryn uchel hwn, yn cael ei wahanu oddiwrth un arall cyffelyb, gan nant gul a dofn, sydd yn Mrycheiniog; ac y mae y ddau, yn gyffredin, yn dyfod dan sylw yn nghyd, fel *Banau Sir Gaer*, i'w gwahaniaethu oddiwrth y bryniau yn agos i Aberhonddu, a elwir Banau Brycheiniog. Y mae y terfyn de-ddwyreiniol yn gynwysedig yn maesydd eang y glo yn y Deheudir, ac yn cyrhaedd mynydd y Bettws, yr hwn sydd ran o'r gadwyn, sydd yn ymwahanu oddiwrth y Mynydd Du, yn agos i ben uchaf dyffryn Tawe, yn Mrycheiniog, ac yna yn ymestyn gyda cheulanau yr Aman a'r Llwchwr yn agos i'r mor. Y mae y dyffrynoedd, drwy y rhai y rhed, gyda chyflymder, y ffrydiau sydd yn dyfod o'r ucheldir, yn cael eu hynodi am eu prydferthwch, ac yn neillduol y Tywi, un o'r rhai mwyaf yn y Deheudir; ond y mae y dyffrynoedd bychain, yn fwy unffurf mewn ymddangosiad, nag ydyw rhai Morganwg a Cheredigion. Y mae yr afonydd yn lluosog; o ba rai, y penaf ydynt y Tywi, y Tâf, y Llwchwr, y Teifi; a'r Wendraeth fawr, a'r Wendraeth fach. Uwchlaw Llangadog, y mae y Ddulas yn disgyn i'r Tywi. Y mae yr enw Dulas ar afonydd yn Maesyfed, Brycheiniog, Arfon, a Mon. Cyn i'r Tywi gyrhaedd Caerfyrddin, y mae hi yn derbyn y Cothi, a'r Gwili, i'w mynwes. Yr afonydd eraill sydd yn y sir, heb fod mewn cysylltiad a'r Tywi, ydyw y Cowyn, yn dwyn gyda hi y Towa a'r Carcenni: a'r Taw, yr hon sydd yn derbyn iddi ei hun y Morlais, a Cair. Y mae y wlad yn cynwys nifer o lynau yn teilyngu sylw, o ba rai y gellid enwi Llyn Tegwyn, a elwir weithiau Pwll yr Esgob, o ffurfiad crwn, tua haner milltir o drawsfesur, ac y mae ei sefyllfa ar y Mynydd Mawr, ychydig o filltiroedd ar yr ochr orllewinol i Landebie. Y mae Llyn hirongl, agos i filltir o hyd, ar lechwedd *Ban Sir Gaer;* y mae yr olygfa arno yn dra ardderchog, o herwydd y creigiau uchel sydd yn crogi uwch ei ben; y mae ei sefyllfa mor uchel fel y mae yr eira yn sefyll ar ei derfynau heb doddi, am saith mis o'r flwyddyn. Y mae hefyd ddau o lynau bychain wrth droed y bryn uchel, yn agos i'r lle y saif adfeiliau hen Fonachlog Tali. Y mae yr hinsawdd yn y wlad hon yn arddangos llawer o'r lleithder sydd yn gyffredin yn rhanau gorllewinol Cymru; ac er fod hyny yn ffafriol i gynyrchu porfa, eto y mae yn anffafriol i aeddfedu yd, yn fwyaf neillduol yn nyffryn Tywi; nid yw y cynhauaf yn dechreu mewn amryw fanau yma, hyd y drydedd wythnos yn Awst. Yn y parthau de-orllewinol, y mae yn gynharach. Nid yw dyffryn y Teifi, ar ochr ogleddol y wlad gan lleithed. Y mae natur y pridd yn amrywiaethol iawn yma; y mae yn ei gyflwr gwaelaf yn mharthau llechog cymydogaethau y glo; y mae y pridd coch, yr hwn sydd ddwfn yn gyffredin, yn rhagori, ac y mae ceulanau y Towi a'r Taf, yn dra ffrwythlon. Y mae trefn amaethyddol y wlad, wedi bod yn hir yn ol, drwy ddilyniad gormodol ar y cnydau; ond y mae dylanwad y Cymdeithasau Amaethyddol wedi dwyn gwelliannau pwysig yn mhob cyfeiriad yn ddiweddar; ac y mae trefn Norfolk o amaethu, sydd wedi ei dwyn i ymarferiad ar amryw o'r ffermydd goreu, wedi dwyn cnydau helaeth mewn llawer man. Y mae y Gwenith yn cael ei godi, gan mwyaf, yn nyffrynoedd Tywi, Llangyndeyrn, Llandebie, a chymydogaeth St. Clears; ac yn neillduol yn morfa Lacharn. Ychydig o feithrin pys a ffa sydd yn y wlad. Dyffryn Tywi sydd yn rhagori am borfa a gwair, ac yn enwedig o Langadog hyd Gaerfyrddin. Prif gynyrch y llaethdy yma, yw caws ac ymenyn; y rhai a anfonid mewn certwyni, cyn gwneyd y rheilffyrdd, i Ferthyr Tydfil. Y mae y celfi hwsmonawl, a'r meirch llafurio, yn rhagorol. Y mae pedrolfeni mewn arferiad yn y tiroedd gwastad yn gyffredin, a'r menau yn y tiroedd bryniog. Y mae y ceffylau a fegir, yn rhagori tua Llanddyfri, a Llangadog, o rywogaeth Hertford. Y mae y defaid yn gyffredin, o rywogaeth y mynyddig; ac y mae y gwartheg o rywogaeth ffrwythlon a gwerthadwy; y mae Amaethyddiaeth y wlad yn ei holl ganghenau, yn edrych i fynu drwy y wlad, yn y dyddiau hyn.

Y mae mwnyddiaeth y wlad hon yn werthfawr, a'r prif adnoddau, mewn glo a haiarn; y mae yma gyflawnder o gerig calch drwy y wlad. Yr unig fŵn plwm sydd yn y terfynau, ydyw yr un o eiddo Arglwydd Cawdor, yn Rhandir y Mwyn, yn mhlwyf Llanfair-ar-y-bryn, o fewn tua chwe milltir i Landdyfri, yn nyffryn Tywi; bu hwn gynt yn un o'r prif weithydd yn y dywysogaeth, a chludid y plwm ar hyd y tir i Lanelli i'w doddi; ond nid yw yn awr mor eang ag y bu; y prif fan am feini adeiladu ydyw Cwm-cerig-nadd, yn agos i Ystyffylan Carn, tua thair milltir o Gaerfyrddin. Y mae rhyw fath o lechi yn cael eu codi yn Coed Gwili, o fewn dwy filltir i Gaerfyrddin, ac yn y nentydd gogledd orllewinol i'r Tywi. Y mae rhai cloddfeydd marmor yn Llangyndeyrn a manau eraill. Y mae masnachaeth y wlad, gan mwyaf yn cael ei dwyn yn mlaen, mewn eiddo gwisgo, a nwyddau cyffredin, â Bryste a Llundain, gyda Liverpool a Manchester.

Yn mhlith yr hynafiaethau Brytanaidd hynotaf yn y wlad, gellid golygu y cylch Derwyddol, o feini sythion, tuag ugain llath o draws-fesur, sydd yn mhlwyf Llanboidy; gelwir ef yn gyffredin, "**Buarth** Arthur," ac weithiau "Meini Gwŷr," ac y mae y mynediad iddo, drwy lwybr, o feini cyffelyb. Yn agos i'r lle hwn, y mae cromlech, a elwir "Gwâl y Filiast," neu "Fwrdd Arthur," yn cael ei ffurfio o gareg arw, tua deg troedfedd o drawsfesur, a thair troedfedd o drwch, yn cael ei chynal gan bedwar o begynau sythion yn codi o'r llawr. Y mae cromlech fawr arall, yn agos i Cynfil Elfed, yn awr yn lled adfeiliedig, ac yn cael ei chylchynu gan gerig sythion, mewn pellder afreolaidd oddi wrth eu gilydd. Y mae amryw fân-domenau yn Llanfihangel yr Arth; ac un arall a elwir "y Castell" yn Llanllwny; ceir un arall yn mhlwyf Eglwys-newydd; y mae un arall yn Trelech ar Bettws; ac amryw hefyd yn mhlwyf Penboyr. Y mae yn mhlwyf Cynwil Elfed hefyd, fur-waith o bridd, tua deunaw troedfedd o uchder, ac yn agos i filltir a haner o hyd, a elwir "y Llinell." Y mae nifer o amddiffynfeydd ar Fryn Grongar, uwchlaw dyffryn Tywi, yn agos i'r Gelli Aur. Y mae yn agos i Landufaen, ar y Mynydd Du, olion cloddiadau hynod, y rhai a dybir oeddynt yn orsafau anneddau Brytanaidd. Yr oedd y ffordd Rufeinig, "y *Via Julia Maritima*, yn myned i mewn i Sir Gaerfyrddin, yn Llwchwr, ac yn myned rhagddi i dref presenol Caerfyrddin, ac fel y bernir, elai yn

Digitized by Google

mlaen oddiyno tua phentref Llanboidy, at orsaf *Ad Vicesimum*, yn Mhenfro, ond nid oes olion o honi wedi eu darganfod yn y wlad hon, hyd yma. Bernir fod y *Via Julia Montana* yn myned i Frycheiniog yn Tal-y-Sarn, yn mhlwyf Myddfai, ac yna rhagddi drwy Langadog, a Llandilo-fawr i Gaerfyrddin lle yr ymunai â'r *Via Julia Maritima;* ond barna Syr Richard Colt Hoare, ac eraill, mai o Rhyd-y-Briw, yn Mrycheiniog, y cyrhaeddai yr un pwynt, trwy Drecastell a Llanddyfri. Y mae amryw olion ffyrdd i'w canfod yn y wlad hon; un o'r rhai hyn, a elwid *Sarn Helen*, yn cyfeirio o Lanbedr i Sir Aberteifi, a ellir ei gweled yn myned cyn belled a *New Inn*, ar y ffordd tua Chaerfyrddin, lle y collir wedi hyny, bob olion o honi; yr oedd hon yn dal cysylltiad â gorsaf *Loventium*, yn sir Aberteifi, ac â *Maritinum* yn Nghaerfyrddin. Yr oedd un arall hefyd, a elwid *Sarn Helen*, yn arwain o orsaf Llanfair-ar-y-bryn, i *Loventium*, yn Sir Aberteifi, ac fe ellir ei holrhain oddi yno, yn myned heibio i eglwys Llan-y-crwys, tu a dyffryn yr afon fechan, Twrch; tra y mae trydedd ffordd, o Lanfair, yn cymeryd cyfeiriad gogledd orllewinol, drwy ddyffryn y Brân, i Frycheiniog, o'r man yr oedd yn dilyn, hyd yr orsaf ar yr Ithon, yn Maesyfed. Darganfyddwyd nifer o ddefnyddiau Rhufeinig, megis bathodau, priddfeini, llestri pridd, lampau, &c., yn Llanfair-ar-y-bryn. Cafwyd nifer o'u bathodion hefyd yn Cil y maenllwyd, yn mhlwyf Llanboidy, yn Cynfil Caio, ac yn Penboyr; y mae rhai o'r rhai hyn mor henafol, ac felly mor hynod, a dim a gafwyd yn y wlad.

Yn amser y Diwygiad, yr oedd yn y wlad hon, yn Abergwili, goleg corweiniol eang, a nifer o offeiriaid, yn perthyn iddo, &c. Yr oedd yn Ty-Gwyn-ar-Daf, Abad-dy; ac yn Nghaerfyrddin Briordy y Mynachod Awstinaidd. Yr oedd rhai o raddau gwahanol yn Cydweli a Tali; ac yn flaenorol i hyny, yr oedd un bychan yn St. Clears. Y mae olion rhai o honynt ar gael eto. Y mae yn mhlwyf Llanllwny, yn agos i'r eglwys, weddillion priordy, a eilw y trigolion, "Yr Hen Briordy," ac ar fferm a elwir Maes Nonni, yn yr un gymydogaeth, y mae un oedd yn perthyn i'r lleianod. Y mae y cynlluniau gwychaf o adeiladaeth henafol eglwysig, i'w cael yn llanau Caerfyrddin, Cydweli, a Lacharn. Y mae hen olion o gestyll Caerfyrddin, a Careg Cennen, tua phedair milltir o Landeilo fawr; Dynefor, Dryslwyn, Cydweli, Lacharn, Llanddyfri, Llanstephan, a Castell-newydd-Emlyn, er pelled y maent wedi myned i gyflwr adfeiliedig, yn arddangos eto, lawer o arwyddion eu gwychder gynt. Y goreu o honynt o ran cadwraeth ydyw un Cydweli. Yn nghestyll Caerfyrddin, a Dynefor, yr oedd prif breswylfod y Tywysogion, yn y Deheubarth. Y mae y palasau diweddar yn lluosog yn y wlad hon; yn mysg y rhai y gellid nodi un Abergwili, sydd yn awr yn breswylfod esgob Ty Ddewi; Aberglasni, preswylfod John W. Philips, Ysw.; Abermarlais, palas y Llyngesydd Syr Thomas Foley; Cwrt Henri, cartrefle y Parch. Henri Green; Dolcothy, preswylfod J. Johns, Ysw.; Dol-haidd, preswyl J. Lloyd, Ysw.; Glanbran, a fu yn gartre Mil. Gwynne; Glanrhydw, eiddo J. E. Saunders, Ysw.; Glyn hir, lle y buasai Mrs. Duboison; Golden Grove, yr Iarll Cawdor; Iscoed, palas J. P. Gwynne Holford; Cil y maenllwyd, John Rees, Ysw.; Llanelly House, William Chambers, Ysw.; Llanstephan Place, George Meares, Ysw.; Llys Newydd, Thomas Lewis, Ysw.; Maes Gwyn, Walter R. H. Powel, Ysw.; Middleton Hall, J. Adams, Ysw.; Castell Dynefor, Arglwydd Dynefor, disgynydd llinachol o'r enwog Rhys ab Thomas, yr hwn a farwnigwyd gan Harri VII.; Rhyd-y-gors, D. J. Edwards, Ysw.; Ystradau, J. Lewis, Ysw.; Taliaris, y diweddar Arglwydd Robert Seymour; Ystrad, J. Jones, Ysw.; Pant-glas, D. Jones, Ysw., yr hwn sydd wedi ei addurno â dodrefn hynafiaethol, o bob oes; Llwyn-y-wermod, Felindre, Rhyd Odyn, Tar, a lluaws yn ychwaneg. Bernir nad yw y ffermdai yn y wlad, mor olygus ag ydynt mewn rhai siroedd eraill, lle y mae y llechi toi yn nes, a llawer o ddefnyddiau eraill yn fwy cyfleus. Y mae y lluaws o Reilffyrdd, sydd wedi eu hagor trwy bob cyfeiriad yn y sir, yn newid ymddangosiad pob cymydogaeth yn gyflym, fel y mae cyfleusderau teithio, a chludo defnyddiau o bob math yn cael eu rhwyddhau. Y mae yn amryw barthau o'r wlad ffynonellau rhinweddol, at wellhau amryw anhwylderau, megis y rhai gerllaw Middleton Hall, Cynwil Caio, Nant y Rheibio, &c., y rhai a olygir gan y brodorion o werth mawr.

Ystyrir y golygfeydd ar ganol y wlad, wrth deithio o Trecastell i Landdyfri yn darawiadol iawn; a'r un modd wrth deithio yn mlaen oddi yno, dros y bont gadwynol, gerllaw Llwynhywel; wedi croesi y Tywi, y Gwydderig, a'r Sawdde, ar y ffordd o Aberhonddu. Er fod Sir Gaerfyrddin yr eangaf ei therfynau o siroedd Cymru, nid yw wedi cadw y blaen yn ei rhagoriaethau gwladol na moesol. Yma y dechreuodd helynt mawr gorymdeithiau nosawl "Rebecca," yr hyn a gynhyrfodd yspryd y werin yn fflam mor angerddol am fisoedd o amser. Yr oedd yr ymgyrch hwn, yr hwn a dorodd allan yn 1843, ag oedd yn uchder ei wres yn 1844, mor hynod yn ei ysgogiadau, fel y gallesid tybied ei fod yn perthyn yn nes i'r canol oesau nac i'r bedwaredd ganrif i'r bymtheg. Am fisoedd dilynol, arferodd tua 600 o nifer gyfarfod eu gilydd, agos oll yn marchogaeth eu ceffylau, mewn lle cyfagos i St. Clears, ar yr ochr orllewinol i Gaerfyrddin, dan arweiniad un dyn, i wneud eu hymosodiadau ar y toll-byrth, yn mhob cyfeiriad, ar dde ac ar aswy. Pan yr adgyweirid y clwydi gan y wladwriaeth, ni byddai raid aros ond hyd y nos, na ysgubid hwy ymaith yn lan. Ni feiddiai y tollborthor agor ei enau yn eu herbyn, yr oeddynt wedi cymeryd yr awdurdod yn hollol yn eu dwylaw eu hunain. Ymledaenodd yr un yspryd yn fuan, fel tân gwyllt drwy siroedd Aberteifi, Penfro, a Morganwg, fel y daeth yr amgylchiadau mor ddifrifol yn ngolwg ynadon y wlad, ag y gorfuwyd cael y milwyr i atal eu rhwysg. Yn raddol, pa fodd bynag, fe oerodd y cyffro mawr, a daeth dynion i'w pwyll, pan y gwelent, na ddygai y swyddwr gwladol "y cleddyf yn ofer," ac mai ynfydrwydd oedd i neb ddywedyd nad ofnai yr awdurdod. Pa fodd bynag am afreolaeth y bobl, a rhyfyg treisiol eu cynllun, buont yn foddion i symud ymaith nifer o dollbyrth o'r wlad, ag na chodwyd hwy i fynu byth mwy. Y mae y cyfeiriadau at enwogion y wlad i ddyfod ger bron yn eu cysylltiadau priodol. Y mae enw Ficer Llanymddyfri, a hanes llafur Jones Llanddowror, Myngair a Beibl Peter Williams, a Chaniadau Williams, Pant y Celyn, fel eiddo cenedlaethol y dywysogaeth a'r byd, wedi cael eu cychwyniad o'r wlad hon; yn gystal a nifer mawr yn ychwanegol, y rhai y bydd "eu coffadwriaeth fel gwin Libanus;" yn cael ei gyflwyno yn serchus i'r cenedlaethau yn yr oesoedd a ddel, hyd ddiwedd amser!



Digitized by Google

**CAER-FYRDDIN.** Mae tref Caerfyrddin yn gorwedd ar ychydig o godiad tir ar ochr ogleddol afon Tywi, oddeutu naw milldir cyn arllwysiad yr afon i'r *Carmarthen Bay.* Mae yn y dref, borthladd bychan, ac y mae yn fwrdeisdref farchnadol, yn blwyf, ac yn sir ynddi ei hun, yn sefyll yn nghantref ELFED a DERLLYS, yn Sir GAERFYRDDIN, DEHEUBARTH CYMRU, 216 o filldiroedd (Gor. wrth og.) o Lundain, ar hyd yr hen ffordd fawr, ond rhyw 30ain milldir yn mhellach dros y rheilffordd, ar y linell i *Milford.* Mae yr afon yn fordwyol hyd bont Caerfyrddin, ac ychydig o fasnach fordwyol yn cael ei chario yn mlaen ar hyd-ddi. Er fod y dref wedi ei chodi ar lanerch ddymunol, a bod golygfa arddechog i'w chael o'i rhanau uchaf, ar ddyffryn prydferth yr afon, a'r bryniau heirdd sydd yn ymgodi o'i hamgylch, eto nid oes yma ddim neillduol i daro llygad dyn dyeithr wrth fyned heibio.

Mae ysgrifenwyr yn cytuno fod tref Caerfyrddin yn lle hynafol iawn, er nad oes sicrwydd am hanes ei chyfodiad. Yn ol rhai, yr oedd yn brif ddinas un o brif adraniadau yr Ynys, a elwid gan y Brythoniaid *Dyfed*, a chan y Rhufeiniaid *Dimetia.* Mae eraill yn priodoli ei sefydliad i Maximus (neu Macsen Wledig), Cadfridog Rhufeinig, yr hwn a briododd Helena, merch Euddaf, Duc Cernyw, a'r hwn, yn Mrydain, a gyfododd yn erbyn yr Ymerawdwr Gratian, a dywedir iddo adeiladu Caerfyrddin, Aberteifi, a Hwlffordd. Ymddengys oddiwrth dystiolaethau hynafol, mai dyma *Maridunum* Ptolemy, a *Muridunum* Antoninus, sef un o'r prif orsafoedd yn ngwlad *Dimetia*, ar y *Via Julia* (Sarn Helen), y ffordd fawr Rufeinig, oedd yn ffurfio prif linell cymundeb rhwng y parth pellenig hwn o Brydain, â rhanau dwyreiniol yr ynys. Yr oedd *Via Julia* yn ymestyn o *Maridunum* i derfyn eithaf Sir Benfro bresenol; a ffordd arall yn myned allan o'r orsaf hon, tua'r gogledd, i *Loventium*, yn Sir Aberteifi bresenol. Bernir fod yr orsaf Rufeinig yn sefyll ar y fan, lle wedi hyny y codwyd y Castell; ac y mae y dŷb yn cael ei chadarnhau, nid yn unig gan fantais naturiol y sefyllfa, ond hefyd gan hên olion amddiffynol, a chan y ffaith ddarfod cloddio allan hên arian bathol, a gweddillion Rhufeinig eraill o'r fan hono; yn mysg gweddillion eraill a gafwyd, yr oedd allor, yr hon sydd ar gael a chadw hyd y dydd hwn.

Nid oes sicrwydd am ystyr yr enw, Caerfyrddin. Y dyb fwyaf gyffredin ydyw, iddi gael yr enw oddiwrth Myrddin Emrys, (Merlin Ambrosius), doethawr Cymreig a flagurodd tua chanol y bumed ganrif. Dywed eraill mai *Caer, môr* neu *mur*, a *din*, sef tref neu ddinas ydyw yr ystyr. Ac eraill mae *Caer-fyrdd-ddyn*, sef tref yn cynwys myrdd o drigolion, ydyw. Wedi ymadawiad y Rhufeiniaid o Brydain, daeth y rhan hono o *Dimetia*, sydd yn gwneyd i fyny Sir Gaerfyrddin bresenol, yn rhan o dywysogaeth *Ceredigion*, a neillduodd tywysogion y diriogaeth hono, y rhai a honent uwchafiaeth ar benaethiaid bychain y Deheubarth, *Maridunum* yn brif orsaf eu llywodraeth, ac felly daeth yn brif ddinas Deheudir Cymru. Mae yr enw *Caer Fyrddin* yn ei gosod allan fel gorsaf filwrol, ac yn cytuno a'r desgrifiad a roddir o honi gan *Giraldus Cambrensis*, yr hwn a'i geilw "*Urbs Antiqua Coctilibus Muris.*" Nid oes ar gael fawr o hanes y dref hon hyd y flwyddyn 877, pan ar raniad teyrnas Cymru rhwng tri mab Rhodri Fawr, y symudwyd eisteddle llywodraeth tywysogion y Deheubarth, o Gaerfyrddin i Dynefor; lle o nerth a dyogelwch mawr, ar lan afon Tywi, yn ymyl Llandilo. Yr oedd y lle hwn wedi ei amddiffyn yn dda gan natur a chelfyddyd, a gwnaed llawer ymosodiad arno gan y penaethiaid yn yr amseroedd terfysglyd hyny. Yr oedd eisteddle llywodraeth y Gogleddbarth yn y rhaniad uchod, yn Aberffraw, Môn; ac eisteddle llywodraeth Powys yn Mathrafael, Sir Drefaldwyn.

Yn y flwyddyn 1021, cyflogodd Hywel a Meredydd, dau benaeth Cymreig, fyddin o Wyddelod ac Ysgotiaid, i'w cynorthwyo i enill uwchafiaeth Deheudir Cymru. Glaniasant yn Sir Benfro, a daethant yn mlaen i Gaerfyrddin, lle y cyfarfyddwyd a hwy gan Llewelyn ab Sitsyllt, y tywysog oedd â'r llywodraeth ar y pryd, yn nghyd a Chynan ei frawd; ymladdwyd brwydr fawr, a gyrwyd Hywel a Meredydd yn eu hôl, ond lladdwyd Llewelyn yn yr ymgyrch. Yn 1038 gwnaeth Hywel, tywysog y Deheubarth, y pedwerydd ymgyrch i geisio adfeddianu ei lywodraeth o law oresgynol Gruffydd ab Llewelyn, tywysog y Gogledd-barth. Bu brwydr wrth Ben Cader, ryw 15 milldir i'r gogledd o Gaerfyrddin, ond Gruffydd enillodd y dydd; ymlidiwyd byddin Hywel, ac o'r braidd y diangodd ef ei hun, a chymerwyd ei wraig, yr hon oedd wedi ei ganlyn ef i'r frwydr, yn mysg y carcharorion, a chymerodd Gruffydd hi yn orddercbwraig iddo ei hun.

Ceir cyfeiriadau yn y *Myryrian Archæology*, yn ystod yr 11eg ganrif, at amddiffynfa wrth Rhyd y Gors, ar lan afon Tywi, ryw haner milldir islaw y dref, lle y darganfyddwyd heol yn ddiweddar, yn arwain o'r fan i lawr at yr afon; a bernir mai amcan yr amddiffynfa hon, ydoedd gwylio y rhŷd, ac y mae y ffordd hon yn gyssylltiedig a *Sarn Helen*, y tu hwnt i Pensarn. Nid yw yn hysbys pa amser, na chan bwy, yr adeiladwyd Castell Caerfyrddin. Yr hanes gyntaf geir am dano, ydyw yn y flwyddyn 1116, pan penderfynodd Gruffydd ab Rhŷs ab Tewdwr, tywysog brodorol o Ddeheubarth Cymru, yr hwn a ddietifeddwyd o'i diriogaethau gan Henry I., i wneyd ymdrechion mwy egniol i adfeddianu ei iawnderau o ddwylaw y Normaniaid gormesol. Gyda'r bwriad hwn, cawn iddo ymosod ar gastell Caerfyrddin; ond yr oedd ei wrth-gloddiau mor gedyrn, a'i warchodlu mor grŷf, fel yr aeth ei holl ymgyrch yn ofer. Eto, ni roddodd i fyny; casglodd nerth ychwanegol o'r wlad oddiamgylch. Dychrynodd hyn y Normaniaid; gwelent fod y castell mewn perygl, a chyflogasant y penaethiaid Cymreig oeddynt dan warogaeth brenin Lloegr, i fyned bob yn ail, am 14eg o ddyddiau, i amddiffyn y castell. Owain ab Caradog oedd un o'r rhai cyntaf i ymgymeryd a'r gorchwyl hwn. Arweiniodd Gruffydd ei wŷr yn ei erbyn yn ddirgel, a gorchymynodd iddynt, ar yr ymosodiad cyntaf, i floeddio "Buddugoliaeth." Parodd hyn i'r gwarchodlu ffoi mewn dyryswch; lladdwyd Owain ar y muriau, cymerwyd y castell gan Gruffydd, dymchwelwyd ei amddiffynfeydd, ysbeiliwyd a dinystriwyd y dref, a dygodd Gruffydd ysbail mawr ymaith i'w encilfa yn nghoedwig Ystrad Tywi. Bu cyfres o ymgyrchiadau eto ar ol hyn rhwng y penaethiaid Cymreig a'r Normaniaid, a newidiai y castell a'r dref ddwylaw yn fynych, a dyoddefent yn drwm drwy hyny. Yn 1137, dinystriwyd y lle gan Owain Gwynedd, tywysog y Gogledd, a chan ei feibion eilwaith, yn 1143. Y flwyddyn ganlynol, ail adeiladwyd y Castell gan Gilbert, Iarll Clare, a rhoddodd warchodlu o Normaniaid

Digitized by Google

ynddo; ond ymosodwyd arno yn ddioed gan Cadell ab Gruffydd ab Rhŷs, a gorfu i'r gwarchodlu roddi y lle i fyny; ond ar y telerau iddynt hwy gael eu harbed. Adnewyddodd y penaeth hwn, a chyfnerthodd y castell, a chadwodd feddiant o Gaerfyrddin am dymhor, o'r lle y gwnaeth amryw ymgyrchiadau yn erbyn y trefedigwyr Normanaidd oddiamgylch. Yn 1159, dan deyrnasiad Henry II., o Loegr, pan oedd y castell yn meddiant y Saeson, gwnaed ymosodiad arno gan Rhŷs ab Gruffydd, tywysog y Deheubarth, a brawd hynaf Cadell; ond gorfodwyd ef o'r diwedd i godi y gwarchae, oblegyd y cynorthwy parhaus a drosglwyddid i'r gwarchodlu gan Ieirll Bristol a Clare, y rhai a anfonasid gan y brenin i'r perwyl hwnw; yn nghyd a chynorthwy y pennaethiaid Cymreig oeddent gynghreiriaid y brenin, sef Cadwaladr, Cynan, a Hywel, meibion Owain Gwynedd. Derbyniodd y penadur Seisnig ymostyngiad Rhŷs yn Mhen Cader, yn 1163, yr hwn a dalodd warogaeth iddo, ac a roddodd iddo wystlddynion am ymddygiad da rhagllaw. Ond er hyn oll, yn 1195, pan oedd Richard I. ar daith yn Mhalestina, rhoddodd y tywysog aflonydd hwn warchae ar y castell eto, ac ar ol gwrthwynebiad diegni ei wylwyr, cymerodd a dymchwelodd ef, yn nghyd ag amryw leoedd cyfagos eraill. Yn 1212, ymosodwyd ar y castell, yn aflwyddianus gan Rhys Vychan, ac wedi hyny yn 1215, gan Llewelyn ab Iorwerth, tywysog y Gogledd-barth, yr hwn a'i cymerodd ac a'i diarfogodd, ar ol gwarchae o bum niwrnod; ond wrth dalu gwarogaeth i Henry III., yn Nghaerloyw, yn 1218, addawodd ei adferu ef a lleoedd eraill i'r Saeson, yn nghyd a'r holl diriogaethau dybynol. Ond yn y flwyddyn ganlynol, yn lle cyflawni ei addewid, adgyweiriodd yr amddiffynfeydd, gosododd warchodlu nerthol o'i bobl ei hun ynddo, a chadwodd feddiant o hono hyd 1223, pan gymerwyd ef, ar ol ymosodiad caled gan Iarll Penfro, ac y lladdodd y gwarchodlu a'r cleddyf. Pan glywodd Llewelyn am hyn, anfonodd ei fab Gruffydd, gyda naw mil o wŷr i roddi brwydr i'r Iarll. Aeth Gruffydd yn mlaen o Gydwely tua Chaerfyrddin, a chynullodd ei lu gyferbyn a'r dref, o'r tu arall i'r afon. Croesodd yr Iarll yr afon i'w gyfarfod, ac ymladdwyd brwydr waedlyd. Daeth y nos i ranu y byddinoedd; arosasant yn ngolwg eu gilydd am rai dyddiau, ond oblegyd diffyg arlwyon, gorfu i Gruffydd o'r diwedd adael y lle, ac encilio i Ogledd Cymru. Yn 1233, Cwympodd Marshall, Iarll Penfro, allan a Henry III., ac ymunodd a'r penaethiaid Cymreig, Owain ab Gruffydd, Rhys Vychan, a Maelgwyn ab Maelgwyn, gosodasant warchae ar y dref a'r castell, ond cyflenwid y gwarchodlu âg ymborth ac adgyfnerthion dros y môr, a gorfu i'r Cynghreiriaid yn mhen tri mis, godi y gwarchae. Yn 1256, anfonodd Henry fyddin gref dros y mor i Gaerfyrddin, i amddiffyn ei ddeiliaid ef oeddent yn cael eu haflonyddu yn barhaus gan y pennaethiaid Cymreig. Ar ol darostyngiad llwyr y dywysogaeth gan Edward I., gwnaed Caerfyrddin yn brif ddinas y dosbarth y mae ei henw arno, yr hwn a gyfansoddwyd yn Sir am y tro cyntaf gan y penadur uchod, a sefydlwyd ynddi lysoedd Canghellfa, a Chyllidfa, a Brawdlysoedd Deheubarth Cymru. Yn y flwyddyn 1405, gwnaed ymosodiad ar y lle eto gan Owain Glyndwr, gyda chynorthwy Montmorency a 12,000 o Ffrancod, yn nghyd ag amryw benaethiaid Cymreig, a chymerwyd y castell yn hawdd. Ond wedi i'r Ffrancod gael eu gorchfygu ar ol hyny, enciliodd amryw o'r penaethiaid Cymreig at y brenin Henry, a gadawsant Owain a'i achos.

Tua'r flwyddyn 1450, cynaliwyd Eisteddfod fawr, neu Gymanfa o feirdd, yn y dref hon, yn erbyn yr hon y gwrthdystiodd Cymanfa o feirdd cyntefig Morganwg, am fod hyn yn tueddu i ddadymchwel sefydliadau hynafol eu hurdd. Yn fuan ar ol glaniad Iarll Richmond, wedi hyny, Henry VII., yn Milford, aeth adran o'i fyddin trwy y dref hon dan arweiniad yr enwog Rhys ab Thomas, yr hwn a ymunodd a'r tywysog ieuanc yn Amwythig, gyda gallu nerthol o Gymry, y rhai yr ydoedd wedi eu casglu ar hyd ei lwybr.

Yn amser yr erlidigaeth ar grefydd dan deyrnasiad Mari, hynodwyd y dref hon a merthyrdod gwr enwog. Cyhuddwyd Dr. Robert Ferrar, Esgob Tyddewi, o heresi; a dedfrydwyd ef i'w losgi, yr hyn a gymerodd le Mawrth 30ain 1555. Dywedir mai wrth "Groes y Farchnadle" y cymerodd hyn le, yr hon oedd y pryd hwnw, mae'n debyg, yn sefyll yn y lle a elwir yn awr yn *Nott Square*. Ymwelodd plâ a Chaerfyrddin yn 1604, ac eilwaith yn 1606, ac yr oedd yr haint mor drwm y flwyddyn hono, fel y symudwyd y Brawdlys i Gelli Aur (Golden Grove). Dyoddefodd y dref hon oddiwrth yr un haint drachefn yn 1651, yr hwn a dorodd allan ar y 25ain o Fai. Yn ystod rhyfel cartrefol yr 17eg ganrif, cymerwyd y castell, yr hwn a gedwid gan warchodlu y brenin, gan y Milwriad Lacharn, ar ran gwŷr y Senedd, ond trodd y Milwriad wedi hyny o blaid y brenin. Yn 1648 daeth y castell eto i ran plaid y Senedd, a gorchymynodd Oliver Cromwell ei ddinystrio. Parhaodd mewn cyflwr adfeiliedig wedi hyny, oddigerth y gadwrfa, yr hwn a ddefnyddid fel carchar. Yn 1789–92 adeiladwyd y Carchar Sirol ar ei seiliau, gan Nash, pen adeiladydd Palas Buckingham, Llundain. Talodd John Howard, y Dyngarwr enwog, ymweliad a charchar Caerfyrddin yn 1774, ac awgrymodd gynlluniau ei adgyweiriad. Y mae y carchar yn awr eto yn myned dan adgyweiriad ac helaethiad pwysig, yr hyn a gyst tua deng mil o bunau. Nid oes ond dau ddienyddiad wedi cymeryd lle yn y dref oddiar godiad y Carchar Sirol. Y cyntaf oedd William Baines, am ffugiaw nodau Ariandy Lloegr, yr hyn a gymerodd le, Mai 23ain 1818; a'r llall ydoedd David Evans, yr hwn a ddienyddiwyd Medi 21ain 1829, am lofruddio ei gariad, Hannah Davies, ar fynydd Pencareg, ar y 13eg o'r un mis. Collodd y rhâff ei gafael y tro cyntaf, a gorfuwyd dwyn y truan i fyny yr ail waith. Cyn 1818, yr oeddid yn crogi coll-ddynion sirol yn Mhensarn, a choll-ddynion o'r dref ar y cymle, wrth y *Royal Oak*.

Mae y dref dros filldir o hyd, ac o chwarter i haner milldir o led, ac ynddi lawer o ystrydoedd, a rhai o honynt yn hynod gûl ac annrhefus. Mae un linell o ystrydoedd yn rhedeg o'r pen dwyreiniol i'r pen gorllewinol, yn cael ei ffurfio gan Heol y Prior, Heol St. Pedr, Heol y Brenin, Ysgwâr Nott (yr hon a elwid gynt yn *High Street*, ac yn *Upper Market Street*), Heol y farchnad Isaf, Ysgwâr y *Guildhall*, Heol *Darkgate*, Heol Awst (Lammas Street), a *Picton Terrace*. Mae y disgyniad o'r dref at y bont yn serth, yn gul, ac annghyfleus iawn. Mae llawer o dai da yn awr yn y prif ystrydoedd, ac eraill yn myned dan adgyweiriadau parhaus; ac y mae mwy o adeiladu tai newyddion yma y blynyddau hyn, nag

Digitized by Google

a fu er ys talm. Dechreuwyd defnyddio nwy (gas) i oleuo y dref yn 1821, ac y mae y dref yn cael ei chyflenwi a digonedd o ddwfr rhagorol o ffynonau cyfagos, gyda phibellau haiarn a osodwyd i lawr ar draul y dref, yn 1803.

Yn mhen gorllewinol y dref, ar y ffordd sydd yn arwain trwy bentref bychan Johnstown (a alwyd felly ar enw Mr. John Jones Ystrad), yn nghyfeiriad Sir Benfro, y saif cofgolofn, y cadfridog Syr Thomas Picton, y rhyfelwr dewr a syrthiodd ar faes Waterloo. Gosodwyd sylfaen y gofgolofn gyntaf i lawr, gan Arglwyddes Dynefor, gyda rhwysg mawr, ar yr 16eg o Awst 1825. Ei gynllunydd oedd Nash; gwnaed ei addurniadau gan Bailey; a chodwyd yr adeilad gan Dl. Mainwaring o'r dref hon. Gorphenwyd ef yn 1827, gyda thraul o 3000*p*. Yr oedd wedi ei adeiladu o gareg galch, yn golofn o 75 o droedfeddi o uchder, ac ar y pen, ddelw *bronze*, naw troedfedd a chwech modfedd o hyd. Yn mhen ychydig o amser dyfarnwyd y golofn hono yn anghyfartal yn ei rhanau, a gwnaed y golofn syml bresenol, o gareg galch lwyd yn ei lle, yr hon sydd yn 60 troedfedd o uchder. Ond barn llawer ydyw na wellhawyd llawer ar bethau yn y cyfnewidiad drachefn. Y mae yn gerfiedig ar yr ochr ddwyreiniol a gorllewinol,—"PICTON. *Born August* 24, 1758. *Fell at Waterloo, June* 18, 1815."

Mae colofn syml y Cadfridog Syr William Nott, yn sefyll yn *Nott Square*, ar y fan lle y safai y Groes Fawr, neu Groes yr hen Farchnad, wrth yr hon fel y bernir, y merthyrwyd Esgob Ferrar. Mae y gareg wrth yr hon y sicrhawyd y pawl y llosgwyd ef wrtho, yn awr yn ffurfio cap uchaf clochdy eglwys Abergwili. Symudwyd y Groes o'r lle hwn yn 1846, ar orpheniad y farchnadle newydd. Mae delw gyflawn o'r cadfridog mewn *bronze*, wedi ymwisgo mewn *toga* Rhufeinig, yn sefyll ar wadn o ithfaen, ac arno yn gerfiedig, "NOTT. Ganwyd Ionawr 20fed, 1782. Bu farw Ionawr laf, 1845." Codwyd y golofn yn 1850-51. Gweithiwyd y ddelw, gan Mr. Edward Davies, mab Dr. David Davies, yr hwn oedd unwaith yn fachgen tlawd yn Llandyfeiliog, ond a ddaeth wedi hyny yn Feddyg enwog yn Llundain.

Yn y flwyddyn 1858, codwyd cofgolofn fechan brydferth yn Heol Awst, i'r 23*d Royal Welsh Fusiliers*, a syrthiasant yn mrwydrau y Crimea, ar draul swyddogion y corph milwrol enwog hwnw; ar bedair ongl pa un y mae enwau yr oll a syrthiasant wedi eu cerfio. Yn anffortunus, mae yr hin eisioes wedi gwneyd ei hol ar yr argraph.

Nid yw masnach y porthladd ond bychan mewn cydmariaeth. Gall llongau o ddau i dri chant o dunelliad ddyfod i fyny at y cai, yr hwn sydd yn ymestyn am rai canoedd o latheni, hyd ymyl y bont. Mae anghyfleusdra yr afon i nofio llongau mwy o faint, a chyfleusderau arbenig y rheilffordd, wedi lleihau masnach y porthladd. Y prif nwyddau a allforir yma ydynt coed, rhisgl, llechau, alcan, priddfeini, lledr, ŷd, ymenyn, ŵyau, &c. Yn y flwyddyn yn terfynu Ion. 5, 1830, gyrwyd allan o'r porthladd hwn, 136,859 o fwsieli o geirch, 1470 o haidd, a 760 o wenith, 740 o frâg. Cyn yr amser hwnw, yr oedd yn cael ei yru allan yn flynyddol, ar gyfartaledd 22,000 o gasceni ymenyn, yn pwyso tua 80 pwys yr un, a gwerth 6050*p*. o wyau bob blwyddyn. Am y flwyddyn yn terfynu Ion. 5, 1831, daeth 13 o longau tramor i mewn, a 420 o longau arfordirol; ac allan yn yr un flwyddyn 3 llong o wledydd tramor, a 174 o longau arfordir. Yr oedd toll y *Custom House* y flwyddyn hon yn 3000*p*. Yr amser hwnw, bu agerfad yn tramwy yn wythnosol rhwng y porthladd hwn a Bristol, ond collwyd ef, a'r holl ddwylaw yn Mawrth 1831 ar *Nass Sands*. Ni welir yn awr ond rhyw ddwy neu dair o longau bychain yn gyffredin yn y porthladd; ond y mae yma agerfad yn tramwy yn wythnosol i Bristol.

Yr oedd y fwrdeistref hynafol hon yn meddu llawer o ragorfreintiau yn ddiau o dan dywysogion brodorol Deuheudir Cymru, y rhai oeddent wedi ei gwneyd yn brif eisteddle eu llywodraeth; a dywedir i'r rhai hyn gael eu cadarnhau â breinlen gan Edward I. Ond y freinlen gorphoraethol gyntaf ag y mae genym hanes sicr am dani, ydyw yr un a gafwyd gan Harri VIII., yr hon a gadarnhawyd wedi hyny gan Iago I., yr hwn a gyfansoddodd y fwrdeisdref yn sir ynddi ei hunan, dan yr enw "Sir bwrdeisdref Caerfyrddin," gan roddi dau sirydd yn lle dau feili apwyntiedig gan y freinlen gyntaf. Parhaodd y ffurf lywodraethol hon hyd y 4edd flwyddyn o deyrnasiad George III., pan ddeisebodd y dref am freinlen newydd, yr hon a ganiatawyd Gor. 27ain 1764, yn hono trefnid fod y llywodraeth i gael ei gosod mewn Maer, Cofiadur, dau Sirydd, ugain o Gynghorwyr cyffredin, yn nghyd a nifer anmhennodol o fwrdeiswyr, yn nghyd a'r swyddogion arferol, o dan y teitl, "Y Maer, y Bwrdeiswyr, a'r Cyffredin." Oddiar *Municipal Act* 1835, mae llywodraeth y dref wedi ei gosod yn nwylaw Maer, i'w ethol yn flynyddol; chwech Henadur i'w hethol gan y Cynghor am chwe' mlynedd, tri o ba rai sydd yn myned allan bob tair blynedd; a deunaw o Gynghorwyr i'w hethol am dair blynedd, chwech o ba rai sydd i fyned allan bob blwyddyn, tri yn y rhanbarth (*ward*) ddwyreiniol, a thri yn y rhanbarth orllewinol, i ba rai y rhanwyd y dref gan y Ddeddf grybwylledig. Mae iddi hedd-ynadaeth neillduol, a brawdlys chwarterol, yn cael llywyddu arnynt gan ei Chofiadur.

Gan mai tref wledig ydyw Caerfyrddin, heb nemawr o weithfaoedd yn agos iddi, a bod ei phlant yn heidio ymaith i barthau gweithfaol, ni's gall y boblogaeth gynyddu ynddi fel mewn trefi yn y parthau gweithfaol. Bu gweithfa mŵn plwm yn agos i'r dref, ond ychydig, neu ddim o hwnw a weithir yn bresenol. Y mae gwaith alcan (*tin*) yn ymyl y dref, rhwng y pen dwyreiniol iddi a'r afon, er ys llawer o flynyddoedd, ac y mae ei berchenogion presenol wedi ei helaethu. Mae cydgyfarfyddiad cynifer o Reilffyrdd hefyd—Rheilffordd Deheudir Cymru i Lundain a Milford—Caerfyrddin a Llandysul, Aberystwyth, Llandilo, a Tenby—wedi dwyn cryn fywiogrwydd i'r dref, a chynyrchu gwaith i lawer o ddwylaw. Mae poblogaeth Caerfyrddin oddiar ddechreu y ganrif hon, yn sefyll fel y canlyn: yn ol cyfrifiad 1801 yr oedd yn 5548. Yn 1811 yr oedd yn 7275. Yn 1821 yr oedd yn 8906. Yn 1831 yr oedd yn 9955. Yn 1841 yr oedd yn 9526 (tybia rhai fod camsyniad yn y rhif hwn). Yn 1851 yr oedd yn 10,462. Nid yw y cyfrifiad awdurdodedig wrth law am 1861, ond y mae *Beeton's Dictionary* yn ei roddi yn 11,000. Ac yn ol cyfrifiad y flwyddyn hon y mae yn 10,477; gwrywod, 4801, a benywod, 5676.

Fel y dywedwyd, mae y fwrdais wedi ei gwneyd yn ddwy ran gyda golwg ar etholiadau bwrdeisdrefol; y mae yn deir-ran gyda golwg ar achosion eglwysig, trwy orchymyn y penadur mewn cynghor, dyddiedig Tach. 10fed 1843; ac i'r dybenion hyn

Digitized by Google

cyfansoddwyd y tair rhan yn dri phlwyf, yn 1857, St. Pedr, St. Dewi, a Llanllwch; ac y mae wedi ei gwneyd yn bum-ran i ddybenion trethol a phlwyfol. Mae bwrdeisdref Caerfyrddin yn cynwys holl blwyf St. Pedr, ac yn ymestyn o Bont Abergwili yn y dwyrain, hyd fan yn ymyl Derllys yn y gorllewin, sef oddeutu 4¾ milldir, ac y mae yn ymestyn o'r afon yn y deheu, tua phedair milldir i'r gogledd.

Ymae yma 18 o adoldai, heblaw ystafelloedd eraill y pregethir ynddynt; sef 3 gan yr eglwys sefydledig, a 15 gan yr ymneillduwyr o fewn y dref, ac yn ei hymyl. Hen Eglwys Caerfyrddin yw St. Pedr, yr hon sydd yn rhoddi enw i'r plwyf, ac nid yw amser ei chyfodiad yn hysbys; ond y mae wedi myned dan lawer o gyfnewidiadau, a rhai adgyweiriadau cymariaethol o ddiweddar. Mae hanesiaeth bwysig yn glymedig a'r eglwys hynafol hon, ac nid oes angen ond rhoddi trem ar y cofadeiliau sydd o'i mewn tuag at brofi hyny. Dan deyrnasiad Edward I. prisid y fywoliaeth hon yn 9*p.* 6*s.* 8*c.*, a than deyrnasiad Henry VIII. yn 6*p.* 13*s.* 4*c.*; a delid y periglorïaeth gan Griffin y Prior, am 48*p.* Desgrifir y Rectoriaeth yn y geiriau canlynol:—

"First, the parish church of St. Peter, Kermerdyn, with the chapels of Manergoyne, Newchurch, and Llanllegh, to the same parish church annexed, in all tithes, fruits, obventions, and emoluments, and it is worth one year with another in the tithes of sheaves, wool, cheese, honey, and other commodities whatsoever, £48." Paraodd y Rectoriaeth yn llaw y Goron hyd 1816, pan drosglwyddwyd hi i nawddogaeth Llywydd ac Athrawon Coleg Llanbedr, gyda 400*p.* o gyfrodd neillduol (private); 400*p.* o rodd freninol; a 400*p.* o rodd seneddol. Ychydig amser yn ol, ar adeg adgyweiriad yr eglwys, pan oedd y gweithwyr yn symud cofadail yr enwog Syr Rhys ab Thomas, ar aswy yr allor yn y ganghell, wedi symud lluniau gorweddol y rhyfelwr a'i briod, a'r maen saerniaeth oedd danynt, o dan lech-gareg, cafwyd o hyd i dwr o esgyrn dyn a benyw. Nid oeddent yn gorwedd mewn cyflawn hyd, ond yn bentwr o dan ganol y beddfaen. Nid oes ammheuaeth nad esgyrn un o ryfelwyr dewraf Cymru oeddent—Rhys ab Thomas. Claddwyd ef yn 1527, yn Hen Briordy Caerfyrddin, ond symudwyd ei weddillion yn mhen tuag ugain mlynedd wedi hyny, i ganghell Eglwys St. Pedr; ac yr oedd y modd y caed yr esgyrn, yn arddangos yn eglur iddo gael ei gladdu yr ail waith. Yr oedd y meddygon, Rowlands a Watkins yn bresenol pan gafwyd yr esgyrn, a gwnaethant wahanu esgyrn y ddau ryw. Nid oedd esgyrn y gwryw yn gyflawn; priodolid hyny i esgeulusdra yn yr ail gladdedigaeth, ac i achosion naturiol; ond yr oedd y rhai a gafwyd, yn cyfateb yn hollol i'w gilydd. Yr oedd asgwrn y forddwyd, y safon oreu, yn sail i gasglu mai tua chwech troedfedd o hyd oedd Syr Rhys. Wedi cloddio yn ddyfnach, cafwyd o hyd i ychwaneg o esgyrn, mewn daiar dyner, a bernid fod y rhai hyny wedi eu claddu yn gynarach. Mae yn bosibl fod yno fedd hynafol cyn claddu gweddillion y rhyfelwr. Symudwyd y bedd-adail i fan mwy cymhwys, a gosodwyd ef ar *vault* Iarll Essex—tad llysfr-ddyn y Frenines Elisabeth, yr hwn a gladdwyd yma yn 1576; a thraddodwyd pregeth angladdol iddo gan Richard Davies, Esgob Tyddewi, ac un o gyfieithwyr y Bibl. Yma hefyd y claddwyd Syr Richard Steele, y traethodwr enwog, yn 1729, er nad oes dim i ddangos y fan y gorwedda. Y mae yma gofadeiladau hefyd i'r Esgob Ferrar, Syr William Nott, ac amryw enwogion eraill.

Mae Eglwys Dewi (St. David's) yn sefyll ar uchelfan yn mhen gorllewinol y dref, wedi ei chodi i gyfarfod angenion ysbrydol y boblogaeth Gymreig; agorwyd hi Ion. 19eg 1837, a chysegrwyd hi gan yr Esgob Thirlwall, Chwef. 3ydd 1841. Mae eglwys arall wedi ei chodi yma ryw flwyddyn a haner, neu ddwy flynedd yn ol, *Christ Church*, yr hon a gostiodd tua 3000*p.* Mae eglwys Llanllwch ryw ddwy filldir o'r dref, ar derfyn deheu-orllewin y plwyf.

Mae gan yr Annibynwyr 4 o gapeli yma, tri Chymreig, ac un Seisnig; mae un o honynt i gael ei agor y mis hwn (Ebril, 1871). Yr hynaf o honynt, ac un o gapeli mwyaf y dref, yw Capel Heol Awst. Adeiladwyd y Capel cyntaf ar y fan hon, yn 1726; codwyd un mwy yn ei le, yn 1802; a chodwyd yr un presenol yn 1826. Mae gan y Methodistiaid 4 o gapeli yma, yr hynaf, a'r mwyaf o ba rai, yw Capel Heol y Dŵr, yr hwn a adeiladwyd gyntaf ar dir a gafwyd gan Peter Williams, yr Esboniwr enwog, yn y flwyddyn 1771. Mae Capel Seisnig hefyd, gan yr un enwad, *Zion Chapel*, yn Mansell Street, a adeiladwyd yn 1850. Mae gan y Bedyddwyr dri o gapeli, dau Gymreig, ac un Seisnig. Eu Capel cyntaf hwy a godwyd yn Heol y Prior yn 1786, ac adgyweiriwyd ef yn 1817. Agorwyd y Tabernacl, Capel arall y Bedyddwyr, yn 1812, ac ail adeiladwyd ef yn 1842. Mae yma ddau gapel, un Cymraeg ac un Seisnig, gan y Wesleyaid; yr un Seisnig wedi ei godi yn 1821, a'r un Cymreig yn 1824. Codwyd Capel yr Undodiaid yn 1849, a chapel y Pabyddion yn 1851–52. Yn mysg yr adeiladau cyhoeddus eraill, y mae y Neuadd Sirol, ac Ystafelloedd Cyhoeddus Caerfyrddin, a agorwyd yn 1854.

Y Clafdy Sirol a threfol, hefyd, yr hwn a agorwyd yn 1858, ac a gostiodd 4495*p.* Mae yma farchnadle eang a chyfleus, yr hon a agorwyd yn 1846; ac y mae marchnad anifeiliaid, a lladd-dy cyfleus gerllaw, a agorwyd yn 1855. Cynelir marchnadoedd yma ar ddyddiau Mercher a Sadwrn, a marchnad anifeiliaid ar bob Mercher cyntaf o'r mis. Y mae yn un o'r marchnadoedd goreu, a rhataf, am ymenyn a chaws Cymru, yn yr holl wlad. Mae yma Weithdy eang a chyfleus, ac oddeutu 80 o dlodion ynddo.

Mae Caerfyrddin yn enwog am ei manteision addysg, er ys oesau lawer. Mae Ysgol y Frenines Elisabeth, a gynelid yn Heol y Prior, ac a sefydlwyd yn 1576, a *Free Grammar School* Syr Thomas Powell, wedi eu huno yn y flwyddyn 1857, ac yn cael eu cynal yn awr dan yr enw "*Carmarthen Endowed Schools.*" Cododd amryw o enwogion trwy gyfrwng yr ysgol hon. Sefydlwyd y Coleg Presbyteraidd yn Nghaerfyrddin, tua dechreuad y 18fed ganrif. Y mae yn cael ei lywodraethu gan Fwrdd o Gyfarwyddwyr yn Llundain. Bu am dro yn Abertawy, ac oddiyno y symudwyd ef i'r dref hon. Y mae yn cael ei gynal mewn tŷ cysylltiedig a Chapel Heol Awst, gyda thri athraw (dau Undodwr ac un Annibynwr), ac oddeutu 20 o efrydwyr. Mae adeilad brydferth arall, *Training College*, wedi ei godi ar ochr orllewinol y dref, yr hwn a agorwyd Hyd, 24ain 1848, a'i amcan i gymhwyso ysgolfeistri i'r Ysgolion, dan nawdd yr Eglwys. Gerllaw hefyd y mae Nawddle (Asylum) fawreddog i Wallgofiaid, yn perthyn i'r tair Sir, Caerfyrddin, Aberteifi, a Phenfro. Costiodd tua 30,000*p.* ac yr ydys yn awr yn myned i osod allan tua 6000*p.* arall arni. Mae

Digitized by Google

ynddi tua 400 o breswylwyr. Mae tair ysgol Genedlaethol, a dwy Frytanaidd yn y dref, un *Ragged School*, ac un Ysgol Babyddol. Mae lle cyfleus i addysgu 1700 o blant yn yr amrywiol ysgolion. Mae Bwrdd Ysgol yn ol Act newydd Addysg, wedi ei ffurfio yma, ac y mae ei holl aelodau yn bleidiol i Addysg anenwadol.

Cyn Bil Diwygiadol 1832 yr oedd gan Gaerfyrddin ei hunan aelod yn ei chynrychioli yn y Senedd; ond oddiar hyny, mae Caerfyrddin a Llanelli yn cael eu cynrychioli gan yr un gwr.

**CAERGWENT**, neu Caerwent, pentref mewn plwyf o'r un enw yn nghantref Caldicot, swydd Fynwy, Deheudir Cymru, 5 milldir i'r De Orllewin o Gasgwent (*Chepstow*). Y mae bron ar lân yr afon Hafren, ac y mae Rheilffordd Deheudir Cymru yn rhedeg gerllaw iddo. Y mae treflan o'r enw Crick yn y plwyf hwn. Y mae yn lle hynafol, ac yr oedd gorsaf yma gan y Rhufeiniaid, yr hon a alwent "Venta Silurum," ac yr oedd y ffordd a alwent "Via Julia" yn rhedeg drwyddi. Y mae amryw ddarnau o'r muriau i'w gweled hyd heddyw, ac y maent yn amgylchynu arwynebedd o 505 llathen wrth 390 llathen, ac y maent o 9 troedfedd i 12 troedfedd o led. Y mae llawer iawn o arian bathol, a gweddillion Rhufeinig ereill, wedi eu cael yma o bryd i bryd. Y mae hen weddillion castell Caldicot gerllaw y pentref, yn yr hwn gynt y preswyliai teulu Bohn, y rhai oeddent yn Ieirll Caerffawydd (*Hereford*). Y mae capel gan y Bedyddwyr yn y plwyf hwn, ac y mae yma ysgol ddyddiol. Y mae'r ficeriaeth gwedi ei huno âg un Llanfair-is-coed, ac yn werth 258*p*. Poblogaeth y plwyf, 445; y pentref 307.

**CAERGWRLE**, neu Caerestyn, hen fwrdeisdref fechan, a phlwyf, yn y rhan-barth a elwir Estyn, neu *Hope*, o gantref Maelor, swydd Fflint, Gogledd Cymru; ar fin y brif-ffordd o Wrexham i'r Wyddgrug, 5 milldir i'r gogledd ogledd orllewin, o'r flaenaf, 6 milldir i'r de ddwyrain o'r ddiweddaf; 12½ milldir, i'r de dde ddwyrain o Fflint, a 193 milldir i'r gogledd orllewin o Lundain; ac yn cynwys yn ol Deiliadeb 1861, boblogaeth o 3121. Y mae y lle hwn wedi ei hynodi yn hanesiaeth cyffin-diroedd Cymru er yn dra boreu. Ei chastell, yr hwn a saif ar graig serth, yn nghanol bwlch rhwng y bryniau cylchynol, a elwid er y cyfnod Rhufeinaidd, Caergwrle, neu ar y cyntaf, fe ddichon, *Caer gawr lleon*, a roddes yr enw Cymreig i'r plwyf. Dywedir fod y Cymry yn galw yr ugeinfed leng Rufeinig, a gyfenwid "y Fuddugol," prif orsaf yr hon oedd yn *Deva*, sef Caerlleon ar Ddyfrdwy, "Y Gawr-leng;" a bernir bod y lleng hono wedi adeiladu amddiffynfa ar y bryn hwn, lle mewn oesoedd diweddarach yr adeiladwyd y castell yr erys ei weddillion yn weledig yma hyd yr oes hon. Cefnogir y dŷb hon yn fawr, trwy y darganfyddiad o chwŷs-dy Rhufeinaidd, odditan yr hen adfeilion, a thrwy yr olion o ffyrdd, a gweithydd Rhufeinaidd eraill, oeddynt yn weledig yn y gymmydogaeth hon hyd yn ddiweddar; oddiwrth yr hyn y gellir casglu fod y fan hon fel Holt, yn ffurfio rhag-orsaf i'r brif orsaf yn *Deva*.

Ymddengys oddiwrth weddillion ydynt eto yn weledig, bod y brodorion wedi parhau i gadw gorsaf ddiffynol yn y fan hon, wedi ymadawiad y milwyr Rhufeinaidd o Frydain; a'u bod, ar ryw gyfnod tra boreuol, wedi adeiladu caer yma, yr hon yn nheyrnasiad Harri yr Ail, a ffurfiai ran o feddiannau tywysog Cymreig o'r enw Gruffydd Maelor. Y crybwylliad cyntaf a ganfyddir o enw Seis'nig y plwyf,—*Hope*, yn y cyfarchwyliad Normanaidd (*Norman Survey*), lle ei crybwyllir fel treflan fechan, yn mherchenogaeth un Gislebert. Oddiwrtho y cafodd tiriogaeth eang *Hopedale* ei henw, am yr hon y gwnelai Eustace de Cruer, yn nheyrnasiad Gwilym Goch, wrîogaeth i'r penadur hwnw; ac ymddengys ei bod ar ol hyny, yn gwneyd i fynu ran o feddiannau teulu *de Montalto*, Goruchwylwyr Caerlleon. Rhoddai Edward y Cyntaf y castell, a'r tiriogaethau perthynol iddo, i Dafydd, brawd Llewelyn ab Gruffydd, Tywysog Gogledd Cymru, yr hwn, tu a'r flwyddyn 1280, y rhoddwyd cwyn cyfraith yn ei erbyn, am bentref *Hope*, neu Estyn, gan Sais, o'r enw William Venables, o flaen prif ynad Caerlleon, yn groes i ddefod y Cymry, ac i ystyr y cyttundeb, dan yr hwn eu daliai dan frenin Lloegr. Y prif ynad a barai dori ei goed yn nghymmydogaeth yr *Hope*, ac ar diroedd Lleweni, un arall o'i ettifeddiaethau; ac efe a werthodd y coed, y rhai a gludwyd i'r Iwerddon. Ac heblaw hyny, bygythid ef y dygid y castell hwn oddiarno, pan ddelai y prif ynad arall, Reginald de Grey i'r wlad, ac y cymerid ei blant, i'w cadw yn wystlon o'i ffyddondeb ef i'r achos Seis'nig; ond yr ymddygiad annheilwng yma, yn nghyda rhesymau cryfion eraill, a barasant iddo dynu ei gefnogaeth oddiwrth y brenin yn fuan, a throi i gefnogi ei frawd, ac amddiffyn rhyddid ac iawnderau, ei wlad a'i genedl ei hun. Yn y canlyniad i'r gwrthryfeliad yma, tua chanol Mehefin, 1282, daeth y brenin Edward ei hun yn bersonol, i warchae ar y castell hwn, yr hwn a roddwyd i fynu iddo gan filwyr y tywysog Dafydd, bron can gynted ag yr ymddangosodd efe o'i flaen; a dywedir fod y brenin wedi ei roddi yn anrheg i'w frenines Eleanor, yr hon, meddir, a orphwysodd yma noswaith ar ei thaith i Gaerynarfon, lle yr ydoedd i breswylio dros ryw yspaid, i'r dyben o geisio cymmodi y Cymry oeddynt newydd gael eu darostwng, â llywodraeth eu gorchfygwyr Seis'nig, trwy roddi genedigaeth yn nghanol eu hen diriogaethau, i dywysog a fwriadid i'w llywodraethu. Fe'n hysbysir gan Phylip Yorke, Ysw., yn ei "*Royal Tribes*," o'r ffaith ganlynol;—"Yn y castell hwn, a elwir yn gyffredin Caergwrle, llettyai Edward y Cyntaf, a'i frenines Eleanor, ar eu taith i Gaer-yn-arfon, a thra yr oeddynt yno, rhoddwyd y castell ar dân trwy ryw ddamwain, fel y llwyr losgwyd ei ranau tufewnol. Gelwir pentref bychan yr *Hope* (yn Gymraeg, 'Estyn'), *Queen Hope*, mewn canlyniad i ymweliad y frenines;" ac weithiau fe'i gelwir *East Hope*, er ei wahaniaethu, fe ddichon, oddiwrth *North Hope*, sef Llaneurgain.

Yn y rhaniad a wnaeth Edward ar Ogledd Cymru i siroedd, wedi iddo lwyr ddarostwng y wlad, cyflëid *Hope* yn sir Fflint, ac fe'i cyssylltid âg Iarllaeth Caer; a nodir y castell, yn nghyd ag arglwyddiaeth *Hope*, a *Hopedale*, yn holl frein-leni breninoedd dylynol Lloegr, pan fyddai y naill a'r llall o honynt yn creu eu mab henaf, edlin (*heir apparent*,) y goron, yn Dywysog Cymru, ac ar yr un pryd y gosodid ef mewn meddiant o iarllaeth Caer. Yn y flwyddyn 1307, dyroddid y castell a'r arglwyddiaeth hon i John de Cromwell, ar yr ammod fod iddo adgyweirio y castell, yr hwn oedd mewn cyflwr adfeiliedig y pryd hwnw; ac yn y flwyddyn 1317, yr unrhyw Cromwell, yr hwn a gadwai feddiant o'r castell hyd ei farwolaeth, a gafodd orchymyn i

Digitized by Google

gyfodi haner cant o filwyr ar ei diroedd yn Nghymru, i gynorthwyo y brenin yn ei ryfel yn erbyn Ysgotland. Mewn cyfarchwyliad (*survey*), o hen gyllid iarllaeth Caer, a wnaed yn nheyrnasiad Edward y Trydydd, cyfrifid yr elw oddiwrth arglwyddiaeth *Hope*, a *Hopedale*, yn 63 punt. Rhoddodd Edward, y Tywysog Dû, freinlen o gorfforiad i'r trigolion, wedi ei hamseru yn Nghaerlleon ar Ddyfrdwy, yn y flwyddyn 1351; yr hon a gadarnhawyd gan Rhisiard yr Ail, yr hwn yn y flwyddyn 1388, a ddyroddodd diriogaeth *Hope*, a *Hopedale*, i John de Holland, Iarll Huntingdon; yr hwn, wedi dïorseddiad y brenin hwnw gan Bolingbroke, a gafodd dori ei ben gan y bobl yn Pleshey, swydd Essex. Yn y flwyddyn 1401, Harri y Pedwerydd, a roddodd yr arglwyddiaeth i Syr John Stanley, ettifeddiaethau yr hwn a ddaethant i feddiant ei olynydd, James, Arglwydd Stanley, yr hwn a wnaed yn Iarll Derbi, gan Harri VII. Yn y trefniadau a wnaed gyda golwg ar y gwledydd cyffiniawl Cymreig, yn nheyrnasiad Harri VIII., cyssylltwyd y plwyf hwn â swydd Dinbach; ond yn fuan wedi hyny, trwy ddylanwad Iarll Derbi, efallai, yr hwn a ewyllysiai gael ei holl feddiannau Cymreig yn yr un sir, fe'i hadferwyd i'r sir, o fewn terfynau pa un ei cyfrifid ar y dechreu, gan Edward I.

Nid yw y lle hwn yn bresenol, namyn pentref lled fychan; neu, yn hytrach, gellir dywedyd, fod yma ddau bentref, y naill yn agos i'r castell, yn myned dan yr enw Cymreig, "Caergwrle," a'r llall yn agos i'r eglwys, yn myned dan yr enw Seis'nig, "*Hope*," mewn sefyllfa ddymunol, ar ychydig o godiad tir, ar y tu gogleddol i'r afon Alun, yr hon sydd yn rhanu y plwyf, yn yr hwn y mae helaethrwydd o gerig calch, o ansawdd ragorol, yn cael eu cloddio; ac y mae llawer o'r trigolion yn cael gwaith cyson mewn cyssylltiad a hyny.

Trwy freinlen Edward, y tywysog du, trefnid bod cwnstabl castell Caergwrle, neu, yr *Hope*, i fod yn faer y fwrdeisdref; ond, er ei gyfaddasu i'r swydd hon, yr oedd yn ofynol iddo gymeryd ei lŵ yn ddifrifol, ar yr Efengylau Sanctaidd, y byddai iddo gadw rhagor-freintiau y bwrdeisiaid yn ddi drais, fel eu nodid yn y freinlen ddywededig; ac y byddai iddo, ar ddydd gwyl Mihangel bob blwyddyn, ddewis dau geisbwl (*bailiffs*), allan o'u nifer. Trwy ddeddfiad y 27ain i Harri VIII., rhoddwyd hawl i Gaergwrle, fel bwrdeisdref gyfranogol yn nghyda Fflint, Caerwys, Overton, a Rhuddlan, i ddychwelyd aelod i wasanaethu yn y Senedd. Y mae ffiniau y fwrdeisdref yn cynwys holl dreflan *Hope*, neu Estyn, a'r eiddo Caergwrle, yn nghyda rhan o drefgordd Rhanberfedd; a mesura ddwy filldir a haner o hyd, o ddwyrain i orllewin, a milldir a haner o led, o ogledd i ddehau, a pherthynai yr hawl i bleidleisio i'r holl drigolion a fyddent yn talu treth a dofraeth (*scot and lot*), ac wedi byw un flwyddyn yn y fwrdeisdref. Yn neddf y Diwygiad Seneddol, 1832, ychwanegwyd Llanelwy, Treffynon, a'r Wyddgrug, at y bwrdeisdrefi uchod; ond, ni wnaed unrhyw gyfnewidiad ar derfynau y fwrdais hon. Cynhelir ffeiriau yma ar ddydd Mawrth Ynyd, Mai 10fed, Awst 12fed, a Hydref 27ain.

Ficeriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn archddiaconiaeth, ac esgobaeth Llanelwy, ardrethedig yn y llyfrau breninol i 6*p*. 13*s*. 4*c*., ac wedi ei gwaddoli a 200*p*., o haeledd annghyoedd, a 200*p*., o gedrodd freninol, ac yn nawddogaeth yr Esgob. Yr eglwys, yr hon nid yw namyn adeilad led fechan, sydd gyssegredig i Sant Cynfarch. Y mae rhai cofadeiliau da yma; yn mysg y rhai y mae un i Syr John Trefor, yr hwn oedd yn ysgrifenydd i Iarll Nottingham, gorchfygwr yr Arf-lynges Hispaenaidd, a gyfenwid gan y pab "Yr anorchfygol." Y mae rhai elusenau bychain, wedi eu gadael i'r plwyf, i'w rhanu rhwng y tlodion, ac i ddwyn plant tlodion i fynu i ryw alwedigaeth.

Y mae y gweddillion presenol o'r castell yn cynwys adfail hynod o ardebol; yn gorwedd ar ben craig-fryn uchel, wedi ei ysgaru gan lynoedd culion oddiwrth y tiroedd uchel a'i hamgylchynant, ac wedi ei wneyd agos yn gwbl o'r briw-graig (*breccia*), yr hon a gloddid yn yr amser gynt i wneyd meini melinau. Y mae y graig y gorweddai yr hen gastell arni, yn ddibyn serth ar un tu; ac yn anhygyrch ar yr ochrau eraill, oddieithr ar yr ochr ogleddol, lle y gellir esgyn i'w phen ar hyd gweddillion llwybr troellawg. Y mae yr adfail yn gynwysedig o hen dŵr crwn, adfeiliedig, yn nghyd ag ychydig ddryllynau o furiau, a daiarwaith amorweddol. Nid yw yn ymddangos oddiwrth y gweddillion hyn, ei fod wedi bod yn amddiffynfa fawr erïoed; ond, yr oedd cadernid ei sefyllfa, yn ei gwneyd yn dra manteisiol i amddiffyn y fynedfa o'r cyffin-diroedd, i fynu i ddyffryn yr Alun, yr hon sydd wedi ei chyfyngu yma i geunant ramantus, ag ydoedd yr unig fwlch trwy y bryniau cymmydogaethol, yn yr hen amseroedd. Pwy a ddi gaerodd yr amddiffynfa hon, neu pa bryd ei gollyngwyd i adfeiliad, nid yw yn hysbys; ond, ymddengys ei bod mewn cyflwr adfeiliedig, mor foreu a theyrnasiad Harri VIII. Ar y bryn cyferbyniol, yr ochr arall i'r glyn, y mae hen amddiffynfa i'r Cymry, a elwir "Caer Estyn," yn gynnwysedig o lanerch eang, wedi ei hamgylchynu a ffos ddofn, a rhagfur gref. Bernir fod hen rag-orsaf *Caer gawr lleon*, ar y creig-fryn, lle wedi hyny yr adeiladwyd y castell; ac fel cadarnhad o'r cyfryw dyb, fe'n hysbysir y darganfuwyd wrth gloddio yn agos i'r hen gastell, yn y flwyddyn 1606, dwym-dy, neu chwŷs-dy Rhufeinaidd, yr hwn oedd dros chwe llath o hyd, a phump o led, ac ychydig dros ddwy droedfedd o uchder, ac wedi ei naddu allan o'r graig sylweddol: y llawr oedd o briddfeini wedi eu gweithio mewn cymmrwd; y *nen* a gynhelid gan golofnau ceuawl o briddfeini, cynwysedig o bridd-lechau dylathrol, y rhaï oeddynt wedi eu tyllu mewn amrafael fanau, ac ar y rhai yr oedd pibellau o briddfeini wedi eu gosod: yr oedd rhai o'r pridd-lechau wedi eu hargraff-nodi Legio. xx.

Yr ydoedd amryw olion eraill o breswyliad y Rhufeiniaid yn y lle, i'w canfod yma amser yn ol: megis gwelyau mawrion o sorod (*scoria*), a ddarganfuwyd yn agos i Gaer Estyn; am y rhai y bernid mai sorod, neu ysbwrial gweithfeydd haiarn Rhufeinig oeddynt; ac o fewn rhai oesoedd yn ol, gallesid olrhain ffyrdd Rhufeinaidd mewn amryw fanau, yn cyfeirio oddiyma tu a'r Wyddgrug, a Phen-ar-halawg; yn gyfagos i'r blaenaf o ba rai, yr oedd mwnt celfyddydol. Yn nhrefgordd Uwch-y-mynydd Isaf, mewn dyffryn bychan ar y tu deheuol i fynydd Bryn-Yorkyn, y mae ychydig o olion Clawdd Offa, yn agos i'r fan lle y mae yr hen ffin hwnw yn myned o swydd Dinbach i swydd Fflint. Wrth chwalu y clawdd hwnw yn y flwyddyn 1828, darganfuwyd dau ar hugain o fatholion efydd Rhufeinaidd, yn mysg pa rai yr oedd rhai yn dwyn delw yr amherawdwyr Nero, Fespasian, Trajan, Julius Agricola, a Maximilian: a chaf-

Digitized by Google

wyd bathodyn arian i Agrippa yma hefyd, amryw foglynau tra addurniadol, modrwyau o aur, arian, ac efydd; pinau o ifori, ac arian, gleiniau o wydr, a gwefr; darn o lamp, a'r gair NINVS yn argraffedig arno; allor addunedol, a rhyw arysgrif anafus arni; ac amryw wrnau, yn cynwys esgyrn llosgedig a lludw, y rhai ydynt oll yn nghadwraeth perchen y tir. Y mae Clawdd Offa yn myned ar draws y plwyf hwn hefyd, yn ei gyfeiriad gyda glan ddwyreiniol yr Alun, gan fyned heibio i eglwys yr *Hope*, ac heibio y Rhyddin, goris Caer Estyn, wedi myned heibio i'r hon, y mae yn cyrhaedd i swydd Dinbach yn fuan. Y mae rhai ffynonau rhagorol gerllaw Rhyddin, ar lan yr Alun, y rhai ydynt yn meddu hal-naws cryf, ac yr oeddynt mewn bri mawr gynt, ar gyfrif eu heffeithiolrwydd i wellau anhwylderau croenawl, ac anhwylderau ereill; medd eu dwfr lawer iawn o debygolrwydd yn ei ansawdd, i ddwfr ffynon Borrowdale, yn agos i Keswick, yn Cumberland; ond y mae eu rhinwedd meddygol wedi lleihau yn fawr erbyn hyn, trwy ymgymysgiad dyfroedd eraill a hwynt. Medda y Trefnyddion Calfinaidd dri neu bedwar o addoldai yn y plwyf; ac y mae gan yr Annibynwyr a'r Trefnyddion Wesleyaidd addoldai yma hefyd. Y mae yr iaith Saesoneg yn ffynu yn un ran o'r plwyf, tra y mae y rhan arall yn hollol Gymreig.

**CAERGYBI**; porthladd, bwrdeisdref, marchnadfa, a phlwyf, mewn rhan yn nghwmwd Tal-y-bolion, ond yn benaf yn nghwmwd Llifon, gwlad FON, GOGLEDD CYMRU, 24 milltir o Biwmares, 260 o Lundain, yn cynwys poblogaeth o 3207, yn ol rhifiant 1861. Y mae y lle hwn yn hynafiaethol iawn. Y mae yr eglurhad a roddir ar yr enw yn gwahaniaethu i raddau mawr, yn yr hen gofnodau. Myn rhai mai COR CYBI ydyw y gwreiddiol; o'r un bonedd a Ban *Gor;* ond y dyb gyffredin ydyw, mai Caer Cybi ydoedd o'r dechreuad, mewn cyfeiriad at amddiffynfa neu ddinas Cybi; ar derfyn Ynys Cybi; mewn lle manteisiol i gynal trafnidiaeth â Gwerddon. Yr oedd y Sant, i'r hwn y cysegrwyd yr eglwys yma, yn fab i Solomon, Dug Cernyw, gelwid ef weithiau Cofinius; teithiodd am ei addysg i Gaul, lle yr enwogodd ei hun fel gwrthwynebydd i gredo yr Ariaid; dychwelodd i'w wlad ei hun, tua diwedd y bedwaredd ganrif, ac yma y trigodd. Dichon mai oddiwrth ei fywyd cysegredig ef, y dechreuodd y Saeson alw y lle hwn yn *Holyhead.* Yr oedd y fan yn adnabyddus i'r Rhufeiniaid, canys dywed Tacitus fod trafnidiaeth helaeth yn cael ei ddwyn yn mlaen rhwng y lle a'r Iwerddon, yn amser Julius Agricola. Y mae hyn yn cyd-daro âg amryw enwau sydd ar leoedd yn y gymydogaeth, hyd y dydd hwn; megis y *Valley*, neu yn hytrach y Fael-lif, a Phenrhos-Faelwy, sydd yn arwyddo agos yr un peth. Y mae amryw olion o adeiladau Rhufeinig yn aros yma hyd yn awr.

Y mae helyntion milwrol, a rhyfelgar y gymydogaeth hon, wedi bod yn lluosog a phwysig iawn; ac yn cael lle cyhoeddus yn hanesion boreuol y wlad. Wedi ymadawiad y Rhufeiniaid, ac yn amser teyrnasiad Einion Urdd, mab Cunedda, yr hwn a unodd dan ei lywodraeth, Frytaniaid Ystrad Clwyd, â thalaeth Gogledd Cymru; ac a breswyliai yn ei diriogaethau gogleddol, daeth yr Albanwyr Gwyddelig, dan arweiniad Sirigi, ac a diriasant yn Mon, ac wedi gorchfygu y brodorion, a gymerasant feddiant o'r ynys. Wedi clywed y newydd hwn, anfonodd Einion Urdd ei fab hynaf, Caswallon-Law-Hir, yn ddioed i waredu Mon o ddwylaw yr estroniaid; yr hwn a gynhullodd ei holl alluoedd, ac a ymosododd ar y dieithriaid, gan eu llwyr orchfygu, ac a laddodd Sirigi, mewn ymdrech bersonol gerllaw Caergybi; a ffodd y gweddill, yn eu llynges oedd yn y porthladd, gyda cholled fawr. Yn y flwyddyn 443, wedi i Caswallon, mewn canlyniad i farwolaeth ei dad, ddyfod i'r orsedd, dewisodd Fôn fel ei breswylfod, ac fel mai efe oedd y gangen hynaf o deulu Cunedda, yr oedd yn mwynhau urddasolrwydd uwchlaw y Tywysogion eraill, y rhai a dalent warogaeth iddo oll, fel eu harglwydd, a phrif benadur y wlad. Y mae olion nifer o aneddau y dieithriaid, a elwir "Cytiau y Gwyddelod," yn aros yn yr ardal hon hyd yn awr, fel y gellir gweled yn y Ty mawr, Porth Naumarch, Ynys Llyrad, a manau eraill yma; a chafwyd rhai arfau o wneuthuriad Gwyddelig, gerllaw y Ty mawr, yr hyn a gadarnha y dystiolaeth. Ymddengys i'r wlad gael seibiant wedi hyn, hyd tua y flwyddyn 900, pan y daeth Igmwnd a'i baganiaid duon i Fon, ac yna y bu gwaith Rhos Meilion neu Meloreu. Mae yn debygol mai yn Ynys Cybi y bu y frwydr hon, sef y lle a elwir yn awr, Penrhosfeilw; mae ty a elwir "Ty Milo," neu yn hytrach Ty Maelu, yma yn awr. Drachefn, anrheithiwyd Môn gan wyr Dulyn yn y flwyddyn 915. Drachefn yn 958, tiriodd Abloic, brenhin Dulyn yn y wlad, ac a losgodd Gaergybi, ac a wnaeth ddinystr mawr drwy yr ynys. Bu ymosodiadau mynych ar y lle hwn, ac ar Aberffraw yn neillduol, y naill bryd a'r llall.

Y mae adeiladaeth y Morglawdd yn y lle hwn, yn un o'r gweithredoedd penaf a gyflawnwyd er ei hynodi; ac yn fodrwy gysylltiadol bwysig rhwng y wlad hon â Gwerddon, ac wedi hyrwyddo mordwyaeth rhyngddynt i raddau mawr. Yr oedd sylw y wladwriaeth ar yr angenrheidrwydd am y gwelliant hwn, wedi ei dynu at y lle, er amser drylliad y *Charlemont Packet*, o *Park-gate*, ar yr Ynys Halen, yn ngenau y Bay, Rhagfyr 18, 1790, pan y boddwyd cant a deg o deithwyr. Y mae y dref wedi ei chodi ar derfynau yr Ynys. Y mae y tir sydd yn ymwahanu, fel ynys, oddiwrth y sir, gan y Fael-lif, yn cynwys plwyfi Caergybi ar y gogledd, a Rhosgolyn ar y dde, a llawer o hono yn greigiau noethion, a thywod sych. Y mae y sefyllfa yn fanteisiol iawn i'r *Mail*, rhwng Caergybi a Dulyn. Nid yw yn hysbys, pa bryd y dechreuodd y lle hwn fod yn borthladd y *Mail*, ond y mae yn wybyddus, yn amser William III., fod y llongau yn mordwyo rhwng yma a Dulyn, pan y collwyd y gôd, y teithwyr, a'r dwylaw oll. Y mae y Goleudy a'r Morglawdd yn amddiffynol iawn i'r morwyr, rhag peryglon yr Ynyshalen yn awr. Y mae y draul yr aeth y llywodraeth iddi, er cwblhau y gwelliannau hyn, wedi bod yn ddirfawr; ond gan fod yr amcan mewn golwg wedi ei gyrhaedd i raddau mawr, teimlir cryn foddhad ar y cyfan, yn nghynlluniad y gwaith. Y mae Caergybi wedi cael ei llunio gan natur i fod yn hyrwyddiad i drafnidiaeth fordwyol; y mae yn borthfa ddiogel rhwng Llynlleifiad a Dulyn; a rhwng Aber-dau-gleddyf â *Port Greenock*, yn ngenau y *Clyde.* Y mae yn cynwys Morglawdd, 5000 o droedfeddi o hyd, sef o Bwynt y Milwr ar y dwyrain, hyd Bwi y Plethwr; a mur o 7500 o droedfeddi, o Ynys Gybi, hyd at y Plethwr allanol, ac felly yn amgau mesuredd o 316 o erwau; tri chwarter milltir

Digitized by Google

o hyd, a chwe gwrhyd a haner o ddyfnder o ddwfr; ac felly yn gwneud i fynu un o'r porthladdoedd eangaf yn y byd, ac a gwblhawyd drwy y draul o 700,000*p*. Y mae gweled y rhes cerbydau yn dyfod i mewn ar y Rheilffordd, at ochr y llong, fel y mae yr holl deithwyr a'u meddianau yn cael eu byrddio mewn ychydig o funydau, yn peri syndod i'r edrychydd. Morddiweddar a 1784, yr oedd y cerbyd swyddol yn cymeryd wyth awr a deugain i deithio o Lundain i Gaergybi, tra nad yw y drefn sydd yn awr mewn ymarferiad, yn cymeryd dim mwy nag o ddeg i ddeuddeng awr, i deithio o Lundain i Ddulyn! Y mae hyn yn peri i ni adgoffa prophwydoliaeth Robyn Ddu er 1350; pan y dywedai:—

"Codais, ymolchais yn Mon; ba ryfedd,
Boreufwyd Caerlleon,
Pryd gosper ddoi'n y Werddon
Prydnhawn—wrth dân mawn yn Mon!"

Y mae y pellder o Gaerlleon i Gaergybi yn 84 milltir;yn ystod y daith yma, y mae y gerbydres yn rhedeg drwy naw ceuffordd, a dwy bont bibellol, yn mesur dwy fil a chant o droedfeddi o hyd, ac yn pwyso dros ddeuddeng mil o dunelli. Y mae y draul o gwblhau y ffordd hon, wedi cyrhaedd i 3,418,596*p*. 12*s*. 1*c*., yn ol y cyfrifon a gyhoeddwyd gan y cadben C. R. Moorsom, R. N., Mawrth 16, 1849. Y mae pedair o longau gan y llywodraeth, a phedair gan y cwmni, yn gweini i'r mordeithiau hyn, wedi costio 37,000*p*. bob un; yn cludo 650 o dunelli o lwyth, ac yn cael eu gyru, gan beiriant agerol o 400 gallu march, bob un; fel y mae y teithiau yn rheolaidd, gan nad beth fyddo gerwindeb y tywydd.

Y mae y fywiolaeth yn guradaeth barhaol, yn archddeoniaeth Mon, ac esgobaeth Bangor; wedi ei gwaddoli â 300*p*. o rodd seneddol, ac yn nawddogaeth Llywydd ac ysgolorion Coleg yr Iesu yn Rhydychain; y rhai, yn 1820, a ychwanegasant 20*p*. yn flynyddol at gyflog y curad. Dywedir yn yr hen gofnodau, mai Cybi a sylfaenodd yr eglwys, yn y bedwaredd ganrif. Rhydd un hen ganiad boreuol iawn, i ni grynodeb o hanes ei dylwyth:—

"Teulu Kybi Sancte
Da oedd Kybi a'i ddeuddei;
Morwyr David a mwroc haeidec;
Ceneu Cyngar ar garec.
Cynfarwy adarwy deg.
Padarn ag Edern Maeloc Gwndec
Cyff Caffo fab un Ofeg
Kibio Peulan angwaneg
Trwy awr dda Cyw'r tri ar ddeg."

"Y saith gefnder saint,
Dewi a Chybi achubant beunydd,
Dwyn Beuno yn warant;
Dynyad Cynfarch a barchant,
A Deiniol a Seiriol sant.
Llyn a'r saith caryaith arver gan veudwy;
Gwynvordie bob amser,
At vun y maen graen grunder,
A'r saith a weles y ser."

Y mae yn gyfagos i'r eglwys, olion hen adeilad, a elwir "Eglwys y Bedd," hyd y dydd hwn; yno y claddwyd Sirigi, ac efe a seintiwyd. Pa fodd bynag, ni allai y Gwyddelod feddwl am adael ei weddillion yno, a darfu i rai o honynt droi yn adgyfodwyr, a'u cludo i'w had-gladdu o fewn terfynau yr eglwys gadeiriol yn Nulyn. Y mae yma eglwys ychwanegol yn awr, wedi ei chysegru i St. Seiriol, ac yr oedd yn bur naturiol i enwau hen gyfeillion mor fynwesol a Chybi a Seiriol gael eu cysylltu yn nghyd, yr un modd ac y mae eu henwau ar ffynonau Clorach. Dywedir fod y sefydliad athrofaol yma wedi cael ei sylfaenu gan Hwfa ab Cynddelw, arglwydd Llys Llifon yn y flwyddyn 1137; parhaodd yn llwyddianus hyd y dadgorphoriad. Arosodd y cyllid yn hawl y goron hyd amser Iago I., yr hwn a'i cyflwynodd i Francis Morris, o ddwylaw yr hwn yr aeth drachefn i feddiant Rice Wynne, Ysw., yr hwn, yn 1640 a roddes holl ddegymau y plwyf, gyda yr eiddo plwyfydd Bodedeyrn, Bodwrog, a Llandrygarn, y rhai oeddynt ar y cyntaf yn gapeloriaethau yn perthyn i blwyf Caergybi, i lywydd ac ysgolorion Coleg yr Iesu yn Rhydychain, er cynal dau aelod, a dau ysgolor yno. Y mae yr hen adail yn ymddangos yn anrhydeddus, o gynlluniad croesawl yr adeiladaeth Saesonig addurnawl. Y mae ar gareg yn un o'r muriau, yn gerfiedig "*Sancte Kuibi, ora pro nobis.*" Yr oedd amryw eglwysi eraill gynt yn y plwyf hwn, megis Capel Lochwyd, Capel y Gorllys, Capel St. Ffraid; Capel Gwrgenau; a Towyn y Capel; yr oedd yr olaf o'r rhai hyn, wedi ei godi ar fur-domen ddyrchafedig, yn yr hon yr oedd nifer o esgyrn dynol wedi eu claddu; ond yn cael eu dynoethi gan draul tonnau y mor, oedd yn bwyta i fynu y tir yn y lle. Y mae yma leoedd o addoliad gan y pedair plaid ymneillduol, ac un Saesonaeg gan y Bedyddwyr. Y mae gan bob un o'r pleidiau hyn, gapel yn y Llain-goch, pentref a fu unwaith yn boblog iawn, ar lethr Mynydd y Twr. Adeiladodd Dr. Edward Wynne, ysgoldy yn y fynwent, yn 1748; ac a'i gwaddolodd â 120*p*. i dalu am addysg chwech o blant o'r plwyf hwn. Y mae yma Ysgolion Brytanaidd, a Gwladwriaethol, o gryn enwogrwydd. Gadawodd Catherine Roberts yn 1756, y swm o 250*p*. mewn ymddiried i'r offeiriaid a'r parcatwyr; Arthur Gryffydd o adawodd leiniau o diroedd. John Pritchard, yn 1745, a adawodd 40*p*., gyda y flaenoriaeth i'w berthynasau tlodion; Margaret Owen a adawodd ddarn o dir, at yr un dybenion; y mae yma roddion elusenol ychwanegol, gyda rhai tai i'r tlodion perthynol i'r plwyf. Nid oes dim o olion hen Fonachlog St. Cybi ar gael yn awr. Fel hyn y dywed Tanner, yn ei *Notitia Monastica* am dani;—"St. Chebius yr hwn a flodeuai tua B.A. 380, a sylfaenodd Fonachlog yma; yr oedd yma wedi hyny Goleg o Brebendariaid, gwerth blynyddol yr hwn, yn amser y Dadgorphoriad, ydoedd 24*p*."

Y mae yn y gymydogaeth hon nifer mawr o olion hynafiaethol. Y mae hen amddiffynfa o fewn tair milltir i'r dref, mewn lle a elwir "Cae'r Twr," yn amlwg o wneuthuriad Rhufeinig. Yn 1825, darganfyddwyd bathodion aur i'r ymerawdwr Cystenyn, mewn cyflwr da, ar un o'r llethrau yma; y mae un o'r rhai hyn yn awr yn meddiant Ardalydd Mon; y mae darlun o ben yr ymerawdwr ar un ochr, ac ar yr ochr arall VOTIS TSE. Y mae cromlech ar dir Trefignedd, mewn cyflwr lled gyfan. Yma y bu farw William Morris, brawd Llewelyn Ddû, yr hwn oedd Arolygydd y Tollau, ac un o brif lenorion y genedl. Y mae yma Gofgolofn hywel am y diweddar Cadben Skinner. Yr Adail-Goffadwriaethol am laniad Sior IV. yma, ar y 6ed o Awst 1821, sydd yn wrthddrych o sylw mawr; aeth ei fawrhydi y dydd hwnw i'r Plasnewydd, gyda yr Ardalydd yn ei gerbyd, i letya y noswaith, a dychwelodd dranoeth, i fyned rhagddo

Digitized by Google

tua'r Iwerddon. Y mae yma amryw amlygiadau o hynafiaeth, megis y Groes yn y farchnadfa, ac amryw furiau Rhufeinig sydd yn tynu sylw cyffredinol. Yn y fynwent hon y claddwyd Huw Huws, Ysw., y Bardd Coch, o Lwydiarth Esgob: y mae cerfiad cyffredin, ar feddfaen dysyml yn dynodi y lle y gorphwysa ei weddillion marwol. Y mae ar fur yr eglwys fath o ddeial ddiaddurn, ac wedi ei argraphu arni:—

"Yr hoedl er hir ei haros,
A dderfydd yn nydd a nos."

Y mae yr Ynys Lawd (Ynys yn lledu), gyda'i Goleudy, ei chloch, a'i phont gadwynol, yn wrthddrych o hynodrwydd mawr, ac yn denu sylw pob ymwelydd a all gyrhaedd yno, i gael golygiad ar y lle.

**CAERHUN**; *Caer Rhun;* neu *Caerhên*, sydd blwyf yn nghwmwd Llechwedd Isaf, cantref Aber, swydd Gaernarfon, Gogledd Cymru; 5 milltir o Gonwy, a 7 o Lanrwst. Y mae gwahanol ffyrdd o ysgrifenu enw y lle hwn yn y coflyfrau. Dywed Lysons fod yr holl ysgrifenwyr boreuol yn cytuno mai y lle hwn ydyw *Conovium* y Rhufeiniaid, a darlunir y lle fel pentref bychan ar lan afon Cynwy. Tybia Camden mai llygriad ydyw yr enw Caerhun o *Caer Hen*, neu yr hen amddiffynfa, ond addefa fod traddodiad y gymydogaeth yn ei briodoli i Rhun, mab Maelgwn Gwynedd, yr hwn a olynodd ei dad yn y llywodraeth dros Ogledd Cymru, yn 560, ac a ddygodd yn mlaen ymdrechion milwraidd parhaus a llwyddianus yn erbyn y Saeson, y rhai a ymosodent mor fynych ar y dywysogaeth. Daeth y lle mewn amser dilynol, yn un o amddiffynfeydd y wlad, mewn cysylltiad âg Eryri. Y mae sefyllfa y plwyf ar fin yr afon, mewn lle dengar a hyfryd iawn, ac y mae y llanw yn rhedeg heibio yma, can uched a Threfriw, ac yn fordwyol hyd yno, i lestri o tua chan tunell o lwyth. Y mae nifer o ddarganfyddiadau hynafiaethol wedi eu cael yma. Dywed yr Esgob Gibson, fod Twymfa, neu Odyn Rufeinig wedi ei chanfod yma, a'i fod ef wedi gweled yn meddiant Syr Thomas Mostyn, Barwnig, amryw gywreinion a dderbyniasai efe oddiyma, ac yn neillduol, un Briddfaen gafniog, a dernyn o Gopr crwn, ag argraph arno; tua deugain pwys. Y mae sail *Conovium* yn agos i 260 o droedfeddi onglog, yn cael ei gylchynu gan orclawdd o ddaear, o fewn ychydig dros 500 troedfedd oddiwrth yr afon. O fewn y cylch hwn y saif yr eglwys. Yn gyfagos i'r eglwys ar y gogledd-orllewin, darganfyddwyd dwy gladdfa, wedi eu murio o amgylch, o ffurf bedeir-ongl, ac yn cynwys esgyrn dynol. Ar y bryn rhwng yr orsaf a'r afon, a elwir *Erw Gaer*, darganfyddwyd olion adeilad eang, amryw flynyddau yn ol, a dybir ei fod yn Dwymdy yn ngwneuthuriad priddfeini. Ar y 9fed o Fai, 1799, dangosodd yr Anrhydeddus *Colonel* Greville, yn nghyfarfod "Cymdeithas yr Hynafiaethwyr," darian henafol a gafwyd yn y lle hwn, ychydig cyn hyny, ar ochr ddwyreiniol yr orsaf, wrth agor dyfrffos, tua dwy droedfedd dan wyneb y tir; a dangosodd hefyd nifer o enghreifftiau o lestri pridd a gafwyd yn yr un lle, o rywogaeth y *Red Samian*, a ganfyddir mor gyffredin yn yr hen orsafau Rhufeinig, ond ychydig yn feddalach. Bernir oddiwrth natur eu defnydd, y rhaid eu bod wedi cael eu gwneuthur yn agos i'r lle. Yr oedd un dernyn a'r gair *Patrici* wedi ei argraphu arno. Gwnaed ymchwiliadau pellach yn yr Erw Gaer, a darganfyddwyd amryw ystafelloedd, a muriau, oeddynt o wneuthuriad cywrain, o gerig a phriddfeini; rhai o honynt yn arddangos olion gweithfeydd, a philerau, a ffumerau, a darnau o haiarn a phlwm, a gweithiau cymrwd, a llusernau annghelfydd. Yr oedd yr ystafelloedd mewn cysylltiad a'u gilydd, ac o wahanol faintioli, a'r cyfan yn arddangos fod yno waith mawr wedi bod yn cael ei ddwyn yn mlaen, yn ffurfiad priddfeini a llestri at wasanaeth teuluaidd. Cafwyd bathodyn copr i Domitian yn mhlith y trysorau, yn nghyd a chadwyn haiarn o wyth-ar-hugain o fodrwyau. Darganfyddwyd hefyd yma faen-gwerthfawr, megis gem-addurn y gwddf, a'r cyfan yn cydgyfarfod i daflu goleuni boddhaol ar breswyliad y Rhufeinwyr yn y lle. Yn ychwanegol, cafwyd un briddlech a'r geiriau Leg. X. arni, y lleng, yn ol Camden, a fu yn aros yma, dan reolaeth Ostorius. Y mae y fywoliaeth yn ficeriaeth, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Bangor, yn cael ei phrisio yn llyfrau y brenhin yn 4*p.* 9*s.* 7*c.*, ac yn nawddogaeth Esgob Bangor. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i St. Mair, ac yn adeilad gwledig, mewn lle neillduedig yn mharc Caerhun. Y mae lleoedd o addoliad yn y pentref a elwir Roe wen, yn y plwyf hwn, gan y Methodistiaid, y Bedyddwyr, a'r Annibynwyr ac addoldy newydd a hardd yn Ty'n y Groes, gan y Trefnyddion Calfinaidd. Gadawodd y Parch. Lancelot Bulkeley, yn 1718, 120*p.*, i dalu am ddysgu dau fachgen o'r plwyf hwn, dau o blwyf Llanbedr, a dau o blwyf Llangelynin, i ddarllen Cymraeg. Gadawodd William Williams, a Thomas Williams 2*p.* 16*s.* 0*c.* yn flynyddol tu ag ddysgu chwech o fechgyn i ddarllen Saesoneg, ac ysgrifenu; ac y mae yma amryw roddion eraill i'w cyfranu rhwng y tlodion. Y mae yn meddiant y boneddwr, H. Davies Griffith, Ysw., perchenog etifeddiaeth Caerhun, amryw ddefnyddiau hynafiaethol yn awr, y rhai a ddarganfyddwyd, o bryd i bryd, o fewn y terfynau yma.

**CAERLLEON AR WYSG**, tref farchnad yn mhlwyf Llangattwg, rhanbarth isaf o gantref Wysg, swydd Fynwy; 20½ milldir i'r de-orllewin o dre Fynwy, a 151½ i'r gorllewin o Lundain, yn cynwys yn ol Deiliadeb 1861, boblogaeth o 1268; neu, yn nghyd a threflan Llangattwg, 1544. Dyma lle yr ydoedd *Isca Silurum* y Rhufeiniaid yn amser Claudius Caisar, ail leng yr hwn, wedi ei galw o'r Almaen, a sefydlwyd yma, dan lywyddiaeth Fespasian. Fe'i gelwir yn Nheith-lyfr Antonine, *Isca Legionis secundæ Augustæ;* gan Fynach Ravenna, *Isca Augusta*, gan ereill, *Isca Silurum*, a chan Richard o Cirencester, fe'i gelwir *Isca Colonia;* ond y Cymry a'i galwent *Caer lleon*, neu Gaer y Lleng, am mai yma yr oedd prif luestfa yr ail leng, ac fe'i gelwid Caerlleon *ar Wysg*, er ei gwahaniaethu oddiwrth Gaerlleon *ar Ddyfrdwy*, lle yr oedd prif luestfa yr ugeinfed leng. Daeth y lle yma yn fuan yn brif ddinas yr adran hono o'r ynys, a elwid *Britannia Secunda*, ac yn un o brif ddinasoedd y Rhufeiniaid, y rhai a'i diffynasant â muriau cedyrn, tair milldir o gylch-fesur, yn amgau llanerch betryal a fesurai bum cant a deg ar hugain o latheni, wrth bedwar cant a thriugain: cyfodasant demlau yma, chwareufa, a baddonau; a gwnaethant ddyfr-ffosydd, ac adeiladasant anneddau ysplenydd o amryw fath, gweddillion gorwych y rhai, fel yr oeddynt yn aros yn y ddeuddegfed ganrif, a ddysgrifir gan Giraldus Cambrensis, fel yn ymgystadlu â Rhufain ei hunan mewn ysplander. Yn nheyrnasiad Domitian, dyoddefodd Julian ac Aaron, (y rhai a fuasent ill dau yn pregethu Cristionogaeth yn y parth hwn o'r wlad,)

Digitized by Google

ferthyrdod yn y lle hwn: ond, wedi llwyr ddarostyngiad y Prydeiniaid i'r Rhufeiniaid, daeth Caerlleon, dan nawdd Antoninus, yn eisteddle dysgeidiaeth a chrefydd; adeiladwyd yma dair o lanau Cristionogol; dwy er anrhydedd i goffadwriaeth y merthyron, Sant Julian, a Sant Aaron; â phob un o ba rai y cyssylltid lleiandy, a phriordy; a thrydedd, at yr hon yr ychwanegwyd mynachlog, yr hon wedi hyny a ddaeth i fod yn orsaf archesgobaeth Cymru, ar yr hon y bu Dyfrig, gwrthwynebwr mawr Pelagiaeth, yn archesgob cyntaf. Parhaodd y sefydliad hwn i lwyddo dan ei olynwyr i'r fath raddau, fel erbyn adeg y goresgyniad Sacsonaidd, y dywedir bod ei choleg yn cynwys, yn mysg efrydwyr ereill, ddim llai na dau gant o rai oeddynt hyddysg mewn daiaryddiaeth, a seryddiaeth. Wedi hyny fe'i symudwyd i Fynyw, gan Dewi Sant; ac fe'i hadweinid o hyny allan, dan yr enw esgobaeth Ty Ddewi: y mae ychydig weddillion o'r fynachlog yn aros eto. Y mae yn debyg i'r castell gael ei adeiladu tu ag adeg y goresgyniad Normanaidd; ond ni cheir un crybwylliad am dano mewn hanesiaeth hyd y flwyddyn 1171, pan gymerodd Harri yr Ail y dref, ac y difreiniodd efe Iorwerth ab Owen, arglwydd Gwent; ond Iorwerth a gasglodd wŷr, ac yn y flwyddyn 1173, efe a'i hadenillodd, ac a'i hadferodd i'r Cymry, er mor bybyr ei hamddiffynid gan blaid y brenin. Wedi llawer ymosodiad a gwarchaead ar y lle, cadwyd meddiant o hono gan y tywysogion Cymreig hyd deyrnasiad Edward y Cyntaf, pan, ar ddymchweliad annibyniaeth y Cymry, y gollyngwyd y dref i esgeulusdra, a'r castell i adfeiliad. Ychydig o weddillion y castell sydd yn aros yn bresenol, a'r ychydig hyny yn gynwysedig yn benaf o bentyrau o gerig o amgylch gwaelod bryn uchel, ar yr hwn yr adeiladasid y gwarch-dwr; ac adfeilion difrodol porthfa, o fewn ychydig o bellder, lle yr oedd y fynedfa iddo, mae yn debyg. Y mae y dref yn gorwedd mewn sefyllfa ddifyr, ar lethrfa deg, ger glan yr afon Wŷsg, dros yr hon y mae pont faen hardd, o adeilwaith diweddar; cynnwysa y dref ddwy brif heol, ac y mae y tai gan mwyaf yn hen, ac o adeilwaith afreolaidd, ac yn adfeilio yn brysur. Y mae rhai drylliau o'r hen furiau yn aros eto, yn dystion o faintioli a phwysigrwydd y dref yn yr amser gynt; yr hon erbyn hyn sydd wedi disgyn i gyflwr o ddi nodedd mewn cydmariaeth. Y mae y "mwnt," ar yr hwn yr adeiladasid y gwarch-dwr a grybwyllir uchod, yn dri chan llath o gylch-fesur o amgylch ei waelod, a deg llath a phedwar ugain, o gylch ei gopa. Gellir olrhain y Chwareudy eto yn "nghae y Ford Gron," lle a gyssylltir yn meddwl llaweroedd a'r enwog Arthur. Ei ffurf sydd hir-grwn, a mesura 222 troedfedd wrth 192. Yn y ganrif ddiweddaf darganfuwyd eisteddfaau cerig, wrth agoryd ystlysau y gwrth-grynedd; ond fe'u cuddiwyd â thyweirch wedi hyny. O bryd i bryd, yr ydys wedi darganfod lluaws mawr o henafiaethau Rhufeinaidd, yn y dref, a'i hamgylchoedd; megys darnau o golofnau naddedig, allorau, cyssegredig i *Jupiter Dolichenus*, a'r dduwies *Astraea*, priddfeini yn dwyn argraffiadau arnynt, palmentydd brith-addurnol; bathodynau o'r amryfal amherawdwyr Rhufeinaidd, llestri pridd, gwrnau, modrwy aur a chrifon yn cynnrychioli Erclwff yn tagu y llew, sêl o gemfaen (*cornelian*), yn cynnrychioli *Ceres*, saf-ddelw o *Jupiter* wedi ei gwneyd o elydyr (*bronze*); rhanau o faddonau, palasau Rhufeinaidd, &c. O'r tu gogleddol i'r dref, y mae olion gwersyll petryal tra chang, a saith o wersylloedd llai, heb fod yn mhell oddiwrtho. Yma y ganwyd Amphibalus, athraw y cyn-ferthyr Alban, a'r merthyron Julian ac Aaron.

Myn trigolion Caerlleon, fod ysplander a phwysigrwydd mwy, wedi bod yn perthyn i'r hen ddinas hon ar ol ymadawiad y Rhufeiniaid o Frydain; gan mai yma yr eneiniwyd Arthur gan yr archesgob Dyfrig, yn frenin y Cymry, ac iddo ddewis y lle hwn fel prif orsaf ei lywodraeth, a phrif ddinas Prydain; a haerant mai o fewn yr hen amddrychfa Rufeinaidd, a elwir ganddynt hwy "Bord gron Arthur," y cynhaliai y gwron hwnw a'i farchogion, eu gwleddoedd, gan eistedd o amgylch bord gron, er cynnyrchu y synied o gydraddoldeb, a meithrin teimlad cymdeithasol; a haera rhai mai yma y claddwyd ef: ond y mae yn anhawdd profi yr haeriadau uchod fel ffeithiau hanesyddol.

Nid oes unrhyw weddillion o'r hen eglwys gadeiriol ar gael; ac am yr eglwys bresenol, a elwir Llangadog, ymddengys ei bod wedi cael ei hadeiladu yn y cyfnod Normanaidd, a'i chyssegru i goffadwriaeth Sant Cadoc, neu "Cattwg," fab Gwynlliw filwr, arglwydd Gwynllwg yn Morganwg.

Y mae yn ymddangos fod un Charles Williams, Ysw., brodor o'r lle hwn, wedi lladd ei gâr Mr. Morgan o Benrhos, yn amryfus; ac yn y canlyniad wedi ffoi o'r wlad, gan ymsefydlu ar y dechreu yn Smyrna, lle yr ennillodd efe gyfoeth mawr trwy fasnach; yna efe a ddychwelodd i Loegr, yn nheyrnasiad y brenin William, a bu fyw yn anhysbys yn Llundain, lle yr ychwanegodd at ei gyfoeth trwy roddi echwyn i'r llywodraeth. Efe a fu farw yn y flwyddyn 1720, yn 87 mlwydd oed; ac wedi cymmun-roddi corph mawr ei gyfoeth i deulu o'r cyfenw Hanbury, efe a adawodd fil o bunau at adgyweirio eglwys Llangattwg, ac a sefydlodd ysgol rad yn ei dref enedigol, at ddilladu ac addysgu tua haner cant o blant tlodion. Dywedir fod gwaddolion elusenol y lle yn werth 830 punt, yn y flwyddyn.

Cynhelir y farchnad yma bob dydd Iau, a'r ffeiriau a gynhelir ar Gorph. 31, a Hydref 2; yr olaf hon sydd yn ffair geffylau fawr iawn. Y mae addoldai yn perthyn i amryfal enwadau ymneillduol yn y plwyf.

CAERPHILI.—Tref farchnadol a chapeliaeth yw Caerphili, yn mhlwyf Eglwysilan, cantref Caerphili, Sir Forganwg, Deheudir Cymru, saith milldir i'r gog. orll. wrth ogledd o Gaerdydd, a 159 i'r Gorllewin o Lundain, ar yr hen brif-ffordd o Gasnewydd ar Wysg i Ferthyr Tydfil a Chastellnedd. Gelwid y lle hwn ar y cyntaf *Senghenydd*, oddiwrth Sant Cenydd, yr hwn y dywedir iddo sefydlu monachlog yma, at yr hon y cyfeirir gan Caradog o Lancarfan, yr hwn a ddywed, "Yn y flwyddyn 831 daeth Sacsoniaid Mercia yn ddisymwth yn y nos, a llosgasant fonachlog Senghenydd, yr hon a safai ar ysmotyn lle mae castell yn awr yn sefyll." Enillodd y dref gryn bwysigrwydd oddiwrth adeiladaeth ei chastell nerthol. Nid oes sicrwydd gan bwy, na pha bryd y codwyd y castell, ac y mae yr amrywiol enwau a ddefnyddid ar y lle hwn, wedi dyrysu llawer ar ymchwilwyr i'w hynafiaeth. Nid oes hanes am Caerphili dan ei henw presenol, cyn amser Henry III.; ac y mae yr ymgais a wnaed i brofi ei tharddiad Rhufeinig, oddiwrth y gair *Caer* yn gorphwys yn hollol ar eangder ei hamddiffynfeydd; ond y mae yn hawdd profi, bod y rhai hyn o ddechreuad mwy

diweddar. Mae hanes y castell, yn ol a allwn gasglu, fel y canlyn:—Yn y flwyddyn 1215, arweiniodd penaeth Cymreig, o'r enw Rhys Fychan, ei alluoedd i'r lle hwn, gyda'r bwriad i ymosod ar y castell; yr hwn oedd yn perthyn y pryd hwnw i Reginald de Breos, arglwydd Brycheiniog; ond clywodd y gwarchodlu am ei ddynesiad, rhoddasant y dref ar dân, ymgiliasant i'r castell, ac ymbaratoasant i'w amddiffyn: ac y mae yn debyg i hyn ddigaloni yr ymosodwyr, fel na wnaethant ymosodiad o un pwys arno.

Dwy flynedd ar ol hyn, llwyddodd Llewelyn ab Iorwerth, tywysog Gogledd Cymru, i ddarostwng yr amddiffynfa, ond yn fuan adferodd y lle i de Breos; a'r flwyddyn ganlynol, cymerodd y lle eilwaith, ac a'i rhoddodd yn ngofal Rhys Fychan, yr hwn, yn mhen ychydig amser, rhag ofn bygythion arglwyddi y cyffiniau, a'i dymchwelodd hyd lawr, yn nghyd a lleoedd eraill cyfagos, oeddent dan ei ofal. Adeiladwyd ef drachefn, gydag amddiffynfeydd cadarnach, yn 1221, gan John de Breos, gyda chydsyniad ei dad-yn-nghyfraith, Llewelyn ab Iorwerth; ond gwarchaewyd arno eilwaith gan Llewelyn, tywysog olaf Gogledd Cymru, yn 1270, a chymerwyd ef; ac wrth gofnodi yr amgylchiad hwn, y defnyddir yr enw Caerphili am y tro cyntaf yn yr hanesion Cymreig, ac nid ydys wedi dyfod o hyd i unrhyw eglurhad boddhaol ar eiryddiaeth yr enw.

Yn fuan ar ol hyn, daeth Caerphili, trwy bryniad, yn feddiant i Gilbert Iarll Clare, yr hwn oedd y pryd hwnw yn arglwydd Morganwg; a chyflwynodd ei weddw ef drachefn, trwy briodas i Ralph Mortimer, gan yr hwn yr adferwyd ef o'i gyflwr adfeiliedig. Yn 1315 torodd gwrthryfel nerthol allan yn Morganwg, dan Llewelyn Brên, disgynydd o arglwyddi brodorol *Senghenydd*, yr hwn a arweiniodd ddeng mil o fyddin, ac a gymerodd y lle ar unwaith, yr hwn oedd wedi ei gymeryd oddiar ei dadau gan yr arglwyddi Normanaidd dan Fitz-Hamon. Casglodd arglwyddi y cyffiniau eu galluoedd yn nghyd, a than arweiniad Humphrey de Bohun, Iarll Henffordd, cymerasant y lle, daliasant y penaeth Cymreig a'i ddau fab, a thaflwyd hwy i'r Tŵr, lle y cadwyd hwy am dymhor yn garcharorion. Dan deyrnasiad Edward II., atafaelodd Hugh le Despencer, (ffafrddyn y brenin, yr hwn oedd wedi cael arglwyddiaeth Morganwg,) yn etifeddiaethau y Mortimers, ac efe a helaethodd gastell Caerphili, gan wario arno draul fawr. Cyffrodd yr anghyfiawnder yma ddigofaint y Barwniaid, ac mewn gwrthryfel yn erbyn Edward, gosodasant Roger Mortimer, yr etifedd cyfreithlon, ar ben byddin o ddeng mil o wŷr, i geisio adfeddiannu y castell, o ddwylaw ffafr-ddyn y brenin. Ond yr oedd yr amddiffynfa wedi ei hystorio mor dda, fel y daliodd allan yn hir iawn.

Yn y flwyddyn 1326, gorfu i'r brenin ffoi o Bristol, ac aeth i Gastell Caerphili, o'r lle yr anfonodd allan amryw orchymynion, wedi eu dyddio Hyd. 29, 1326, i'w ddeiliaid milwrol yn nheyrn-iarllaeth Penfro, ac i'w ddeiliaid milwrol yn Morganwg, a rhanau eraill o Ddeheudir Cymru, yn galw arnynt i gymeryd arfau i'w amddiffyn; ond wedi cael ei siomi yn ei amcan, ceisiodd noddfa yn Monachlog Nedd. Yn y cyfamser, dygwyd y gwarchae yn mlaen ar gastell Caerphili gydag egni mawr, gan fyddinoedd y frenines; ac o'r diwedd, gwnaeth yr ymosodwyr rwyg yn y mur, a llwyddasant i fyned i mewn. Odditan un o'r tyrau, dywedir fod ffwrnais at doddi haiarn, yr hwn a deflid yn hylif toddedig ar ben y gwarchaewyr, ac iddynt hwythau wedi cael mynedfa i mewn, ollwng yr haiarn toddedig allan, a llenwi y ffwrnais a dwfr, ac i'r ager ffrwydro gyda'r fath nerth, nes rhwygo y twr uwchben, a gadael y darn gweddill o hono ar ogwydd, o fwy nag 11eg o droedfeddi o'r linell unionsyth, heb ddim yn ei ddal ond nerth ymlynol y cymrwd â'r sylfaen. Mae gwahanol hanesion yn croes ddywedyd am ganlyniad yr ymgyrch hon; myn rhai i Spencer ieuangaf, adffurfio y gwarchodlu o fewn, a rhwystro dim ond nifer pennodol o'r ymosodwyr i ddyfod i mewn; ac iddo fynu y fath delerau yn y diwedd, ag a sicrhaodd y lle a'r etifeddiaeth i'w fab Thomas, ei olynydd. Ymunodd ef eilwaith a'r brenin (Edward II.), a chymerwyd hwy yn garcharorion yn, neu yn agos i Lantrisant. Mae yr ystorfa a ddywedir fod o fewn yr amddiffynfa y pryd hwn yn anghredadwy; "Dwy fil o ychain tewion, deuddeg mil o wartheg, pum'mil ar ugain o loi, deng mil ar ugain o ddefaid, chwe'chant o geffylau, a chynifer a hyny o gerti ar eu cyfer, a dwy fil o foch, &c." Dywedir fod yno ddau gant o dunelli o win Ffrainc, a digon o wenith i wneyd digon o fara i ddwy fil o ddynion am bedair blynedd. O'r amser hwn allan ymddengys fod y castell a'r faenor yn perthyn i arglwyddi Morganwg, y rhai a breswylient yn benaf yn Nghaerdydd, ac y mae yn debyg nad adgyweiriwyd y castell byth oddiar y rhwyg a gafodd yn y gwarchae hwn. Cymerodd Owain Glyndwr feddiant o'r castell, pan oresgynodd y parth hwn o'r dywysogaeth, yn 1400, ond ni chaffeir am un dygwyddiad o bwys yn nglyn a'r hanes.

Mae y dref yn gorwedd ar wastadedd llydan, yn cael ei gylchynu gan fryniau, ac wrth ddisgyn at y dref o ffordd Caerdydd, mae yr olygfa yn brydferth iawn. Mae yr olion, a'r adfeilion a geir yn y caeau cyfagos, yn profi i'r dref fod unwaith yn llawer mwy nag ydyw yn awr. Yn niwedd y ganrif ddiweddaf, syrthiodd y lle i ddinodedd cymharol, ond dechreuodd gynyddu gyda chynydd y ganrif bresenol. Nid oedd y tai ond bychain a gwasgaredig; ond y deng mlynedd diweddaf, y mae cynydd mawr wedi bod ar y lle, mewn canlyniad i agoriad y gweithfeydd glo yn yr ardal, ac y mae tref fechan o dai prydferth a chyfleus wedi eu codi yma. Yn ol cyfrifiad y flwyddyn hon (1871) y mae poblogaeth plwyf Eglwysilan fel y canlyn:—Rhandir Energlyn, 2108; Rhandir Parc, 132; Rhandir Glyn taf, 2976; Rhandir Hendredenny, 635; Rhandir Rhydyboithan, 2350; y cyfanswm, 8201. Poblogaeth Caerphili yn 1861 oedd 651, ac y mae yn awr yn 1369. Mae y cynydd yn yr holl blwyf dros 2000. Mae Caerphili wedi mwy na dyblu ei phoblogaeth yn y deng mlynedd diweddaf. Tra mae yr holl blwyf wedi enill dros ddwy fil, y mae rhandir Energlyn neu, Genau'r Glyn, wedi rhoddi mwy na haner y cynydd hwnw.

Mae y cynydd yma i'w briodoli i ddyfodiad y rheilffordd (Caerdydd a Rhymni) trwy y lle, ac agoriad cynifer o weithiau glô yn yr ardal. Mae yma chwech o byllau, ac un *level*, yn rhoddi gwaith i o 600 i 700 o ddynion. Mae cyflenwadau da yn y farchnad hon, ac y mae yn nodedig am ei chaws. Mae "Caws Caerphili" yn enwog iawn trwy barthau gweithfaol Mynwy a Morganwg. Mae yma hefyd ffeiriau poblogaidd—pedair neu bump yn y flwyddyn.

Yr oedd Caerphili gynt yn fwrdeisdref, ond collodd ei rhagorfreintiau dan Henry VIII., ac y mae yn awr dan awdurdod Ynadon y Sir, y rhai a gynaliant

Digitized by Google

frawdlys rheolaidd yma. Mae y fywioliaeth yn guradiaeth barhaol mewn cysylltiad a ficeriaeth Eglwysilan, gyda 1200*p*. o rodd freninol, a 400*p*. o rodd seneddol. Mae y capel wedi ei roddi ar enw St. Martin, yn adeilad prydferth a chyfleus, ac heb fod yn hên iawn. Heblaw hyny, y mae yma addoldy gan y Methodistiaid oddiar amser Jones Llangan, lle byddai y gwr da hwnw yn fynych yn pregethu. Mae yma addoldy gan y Bedyddwyr, wedi ei godi tua'r flwyddyn 1824 neu 25, a chapel gan yr Annybynwyr, wedi ei godi yn 1848. Bu achos Cymraeg gan y Wesleyaid yma, ond y maent hwy wedi cau eu capel i fynu, ac wedi ymuno a'r Wesleyaid Seisnig, y rhai ydynt yn addoli mewn ty o adeiladaeth diweddar. Y mae yma dair o Ysgolion, sef Ysgol Frytanaidd, Ysgol Genedlaethol, ac ysgol waddoledig i ferched: cangen ydyw yr olaf o ysgol a sefydlwyd gan Mrs. Ann Aldworth o Bristol, i ferched genedigol o blwyfi Eglwysilan a Bedwas, ac wedi ei gwaddoli a thiroedd. Y mae meistres yn derbyn 35*p*. y flwyddyn o'r gwaddol hwn tuag at ddysgu merched tlodion yn Caerphili.

Mae hen Gastell mawreddog Caerphili yn sefyll ar dir gwastad yn ymyl y dref. Safai yr adeiladau yn y gwahanol gynteddau, yn nghyd ag arwynebedd eang o fewn mur uchel a thrwchus, yn cael ei gadarnhau a gwanasau (buttresses) cedyrn, a'i am ddiffyn a thyrau ysgwar o fewn pellder pennodol i'w gilydd, a llwybr canllawiog ó un i'r llall. Yn y cyntedd allan yr oedd lluestfa y gwarchodlu, a mynedfa o hono trwy borth ardderchog, yn cael ei amddiffyn â thyrau, trwy grog-bont, (*drawbridge*,) dros y ffôs i gyntedd mewnol; ac o hwnw yr oedd mynedfa drachefn i gyntedd, lle yr oedd ystafelloedd y llywodraeth, ac y mae rhai o weddillion ardderchog y porth hwn i'w canfod yn awr. Yr oedd mynedfa orllewinol hefyd, lawn mor ardderchog, i'r rhan yma, yr hon a arweiniai dros grog-bont arall. Yr oedd y cyntedd yma, yn yr hwn yr oedd rhesi o ystafelloedd gorwych, yn 70 o latheni o hyd, wrth 40 o lêd. Mae y neuadd fawr ar y tu deheu i hwn, yn parhau mewn cadwraeth dda, ac wedi cadw amryw o olion ei gogoniant cyntefig; yr oedd yn 70 o droedfeddi o hyd, wrth 30ain o led, a 17eg o uchder, ac yn cael ei goleuo gan bedair ffenestr uchel, o gynlluniad ardderchog. Yn agos i'r gongl ddeheu ddwyrain o'r adeiladau canolog, y mae yr arfdy, yr hwn sydd dŵr crwn, heb fod yn uchel iawn, ac yn agos ato, y mae y tŵr gogwyddedig, yr hwn sydd yn tynu sylw arbenig yn mysg yr adfeilion. Yn agos i'r arfdy y mae cuddrodfa eang, tua chan'troedfedd o hyd, yn mur y cauad mewnol, ac yn cysylltu a'r amrywiol ystafelloedd, ac yn ffurfio cymundeb uniongyrchol a'r gwylwyr oeddent wedi eu sefydlu ar y tyrau, i amddiffyn y mur. Mae y gweddillion hyn, y rhai ydynt yn ffurfio prif ragoriaethau y lle, yn rhagori mewn eangder, prydferthwch, ac ardderchawgrwydd a'r unrhyw beth o'r fath sydd i'w cael yn Nghymru, ac y mae'n bosibl na cheir yn y deyrnas ddim i ragori arnynt, oddigerth yn nghastell breninol Windsor ei hun.

Heblaw adfeilion y castell, y mae gerllaw wrthglawdd hynafol ysgwâr o ran ffurf, a thua haner erw o faint, ac yn cael ei amddiffyn gan ddwy ffôs; ac wrth Morgrig, neu Morgraig, y mae un arall cyffelyb, pedwar ochrog, ac agos yr un hyd a lled, yn debyg i wersyllfa Rufeinig. Mae llawer o arian bathol, perthynol yn benaf i deyrnasiad Edward II. wedi eu cael yma, ond dim o ddyddiad hynafol iawn. Ychydig oddiwrth y dref, i'r gogledd orllewin y mae palasdy o'r enw Energlyn, neu Geneu'r Glyn, gynt preswylfa John Goodrich, Ysw., ond yn awr yn cael ei breswylio gan weithwyr. I'r dwyrain, yn agos i lanau afon Rhymni, y mae Ruperrah, lle y preswylia C. Morgan, Ysw., etifedd arglwydd Tredegar, o'r hwn y ceir golygfa ardderchog ar Siannel Bristol, a'r wlad dda oddiamgylch. Adeiladwyd ef wrth gynllun o eiddo Inigo Jones, er nad oes fawr o'r adeilad gyntaf yn aros, oddigerth y muriau oddiallan. Hen balasdy enwog hefyd yw Cefn Mabli, hen gartrefle teulu Kemeys, ac unwaith yn hen drigle y breninwr enwog, Syr Nicholas Kemeys. Preswylir ef yn awr gan y Milwriad Tynt. Mae yma ddau neu dri o hen balasdai eraill, fuont unwaith yn enwog, megys Pwll y Pant, Pont y Pandy, a'r Fan, ond y maent ys blynyddoedd lawer wedi colli eu bri cyntefig.

Ychwanegwn y Sylwadau canlynol ar Gastell Caerphili, â'r rhai ein hanrhegwyd gan Gyfaill, tra yr oedd yr erthygl flaenorol yn y Wasg:—

Wedi cael yr hyfrydwch a'r syndod, o adolygu ac olrhain yr hen adail rwysgfawr yn mis Mai, 1871, yr ydym yn rhyfeddu na byddai mwy o hysbysrwydd a son am dano, drwy holl barthau y dywysogaeth. Y mae rhoddi darluniad teg, cryno, cyflawn, trwyadl, o hono, yn nghyd a'i hanesiaeth ddyddorol, yn orchest, ac yn galw am ysgrif helaethach nac a ganiata ein gofod; eto, wedi defnyddio yr eiddo Malkin, Lewis, Clark, Nicholson, Cliffe, ac eraill, ymdrechwn ddwyn y prif linellau yn nghyd, er eu dodi ger bron. Disgynasom tu a'r fangre o lechwedd y Groes-wen, ac fel yr oeddym yn neshau, dygai un cyfeiriad i'n meddwl adgofion am furiau Caernarfon, a chyfeiriad arall am dyrau Conwy, a chollem y naill a'r llall ar fyrder, o gyfeiriad gwahanol. Cymerasom ein camrau tu a'r dref o ffordd Nantgarw, gan gylchynu y terfynau, a'n golwg yn barhaus ar yr hen adail ardderchog, gan rifo ei dyrau, edrych ar ei balasau, ac ystyried ei ragfuriau—ei orfur a'i wrthfur, ei lynau a'i ddyfrffosydd, allanol a mewnol;—ei orynys a'i gornelwaith, ei rigolau a'i groes-rodau, yn nghyd a'i fryniau a'i nentydd, nes dyfod o'r diwedd o fewn cylch yr amddiffynfa fawr. Y mae yr hen adail filwrol yn gyflawn o hynodrwydd ar bob llaw. Addefa yr hynafiaethwyr fod llawer o dywyllwch yn amgau enw a hanesiaeth y lle hwn. Nid oes crybwylliad am y lle, dan ei enw presenol yn y cofnodau Seisnig, cyn amser Harri III.; nid oes un sail i'r dybiaeth fod y fan o ddechreuad Rhufeinig, ac mai *Castrum Bullæi* ydoedd yr enw gwreiddiol. Yr oedd terfynau y castell cyntaf a godwyd yma, yn llawer llai na'r un presenol: ymddengys ei fod wedi ei adeiladu o'r blaen, ac mai trwy helaethiad ychwanegol y daeth i'w faintioli presenol; cyhoeddodd Daines Barrington, ychydig llai na chan mlynedd yn ol, draethawd hanesyddol am y lle, yn yr hwn y priodolai adeiladaeth y castell i Iorwerth I., heb ddim mwy o sail i'w dybiaeth na bod y brenhin hwnw wedi bod ar ymdaith drwy y Deheubarth. Wedi ystyried yr holl dystiolaethau, gyda dybwylledd barn, ag sydd ar gael fel awdurdodau, ymddengys yn dra thebygol, mai ar ol amser Caradog o Lancarfan (1157), a Giraldus Cambrensis (1188) yr adeiladwyd y castell hwn, ac y mae hyny ynddo ei hun yn rhoddi cyfrif am y ffaith, nad oes yr un cyfeiriad ato yn eu hysgrifau hwy; ond y mae yn nodedig i'w sylwi, nad yw Llwyd na Powel, yn crybwyll dim am adeilad sydd o gymaint pwys. Ceisia rhai roddi rheswm am fod cyn

Digitized by Google

lleied o sylw ar y castell yn yr hen gofnodau, am nad ydyw wedi ei anrhydeddu ag ymweliadau brenhinol a thywysogol, fel amryw o'r cestyll eraill; ni chrybwyllir am yr un oddigerth Iorwerth II., yn unig, yr hwn a fuasai o fewn ei furiau am ychydig oriau, tua dyddiau diweddaf ei oes. Felly nid oedd yr achlysuron cyhoeddus i grybwyll am dano, yn dyfod ger bron mor fynych ag amryw fanau eraill; a dyna y rheswm a geisir ei roddi am brinder yr hanesion am dano. Ymddengys fod y dosparth Cymreig o Forganwg, yr hwn a gynhwysai raniad diweddar Morganwg, yn ymestyn dros y pedwar cantref, y rhai a ddosperthid drachefn yn bymtheg cwmwd. Enwau y cantrefi hyn oeddynt, *Cronedd*, yn cynwys dyffrynoedd Nedd, Afon, ac Ogmore; *Pennythen*, dyffrynoedd Ely a Rhondda; *Brenhinol*, a Gwentllwg, yn awr yn ffurfio rhan o swydd Fynwy. Cwmydau *Brenhinol* oeddynt *Cibwr*, a *Senghenydd Uwchaeth* ac Iscaeth. Y cantref diweddaf a elwir Senghenydd neu Caerffili; ac adwaenid porth gogleddol Caerdydd gynt wrth yr enw, porth Senghenydd. Yn fuan wedi gorchfygiad Lloegr gan y Normaniaid, ac i Trahaearn ap Caradog, trawsfeddianydd Gwynedd, syrthio mewn brwydr, dilynwyd ef gan Gryffydd ab Cynan a Rhys ap Tewdwr fel tywysogion, un dros Ogledd, a'r llall dros Ddeheubarth Cymru, ymosodwyd ar Rhys, gan Gryffydd ap Meredydd, drwy gymhelliad Llewelyn ac Einion, meibion Cadifor, Arglwydd Dyfed. Ymladdasant, ond cawsant eu gorchfygu; Dienyddiwyd Gryffydd; ffodd Einion at Iestyn ap Gwrgant, oedd y pryd hwnw yn Arglwydd Morganwg, yr hwn oedd, fel ef ei hun, mewn rhyfel â Rhys, ac a gyttunodd âg ef i wahodd y Normaniaid cymydogaethol i'w cynorthwyo. Darfu i Einion, yr hwn a breswyliai yn flaenorol yn Llys y Normaniaid, arwain Robert Fitz-Hamon, yn 1090, gyda phlaid o anturiaethwyr rheibus, i Sir Forganwg, a thrwy eu cynhorthwy hwy, ymlidiwyd a lladdwyd Rhys yn fuan. Canlyniad y fuddugoliaeth hon a fu, codi ymrafael rhwng Iestyn ac Einion, a galwodd yr olaf, ar y Normaniaid, cyn ymadael, i ddychwelyd o'u llongau; a pherswadiodd hwy i gymeryd meddiant parhaus o'i wlad. Yn fuan wedi hyn, daeth Fitz-Hamon, wedi lladd ei hen gydymaith Iestyn, yn Arglwydd ar holl wlad Morganwg, ac efe a sefydlodd ei breswylfod yn Nghaerdydd; lle, yn ol pob tebygolrwydd y gosododd i lawr sylfaeni y castell presenol; ac wedi rhanu y dyffrynoedd a'r gwastadedd, rhwng y deuddeg barwnig a ddaethent gydag ef yma, efe a adawodd i Einion, yr hwn, wedi hyny, a briododd "Nest," merch Iestyn, y rhanau mwyaf mynyddig a diffrwyth o'r wlad. Yr oedd y prif lysoedd cyfreithiol, wedi eu sefydlu gan yr arglwydd hwn yn Nghaerdydd. Yn mhlith yr arglwyddiaethau i ba rai y rhanwyd y wlad, enwir Senghenydd fel lle wedi syrthio i hawl Einion, enw yr hwn, pa fodd bynag, ni chlywid mwyach, ond daliodd ei olynwyr feddiant o'r dosparth hwnw i barhau. Disgynodd yr etifeddiaethau a enillodd Fitz-Hamon, yn ol yr ach-len a roddid wedi hyny, a thua dechreuad y drydedd ganrif ar ddeg, i ddwylaw teulu galluog De Clare; ond yr oedd Senghenydd wedi aros yn meddiant disgynyddion Einion. Yn nheyrnasiad Harry II., hawliodd Ifor ap Meyric, a adwaenir yn well wrth yr enw "Ifor Bach," wedi priodi Nest, merch ac etifeddes Madoc ap Caradog, o Senghenydd, y tir ar yr hwn yr oedd castell Caerdydd wedi ei adeiladu, oddiar William Consal, Iarll Caerloew; ymosododd ar y castell, a chymerodd ef, a chludodd yr Iarll a'i deulu yn garcharorion i gymydogaeth fryniog Senghenydd. Dywedir fod y ddadl wedi ei therfynu, drwy i ferch yr iarll briodi Gryffydd, mab hynaf Ifor. Yn 1174, daeth Gryffydd ap Ifor ap Meyric o Senghenydd, yr hwn oedd wedi ymbriodi â chwaer Rhys, Tywysog y Deheubarth, gyda Rhys, a boneddion Cymreig eraill, i dalu gwarogaeth i Harri II. yn Nghaerloew; ac y mae yn debyg mai yr un ydoedd y Gryffydd hwn, a'r Gryffydd ap Rhys, a eilw Sir R. Hoare yn ddisgynydd o Einion, a'r hwn y gwarchaewyd arno yn y Castell Coch, gan De Clare, Iarll Caerloew; ac y tynwyd ei lygaid ef a'i blant ymaith, cyn eu newynu i farwolaeth; gweithred hollol deilwng o William de Breos, yr hwn, yn 1175, a lofruddiodd nifer o bendefigion Cymreig yn nghastell y Fenni. Adeiladwyd y Castell Coch, yn ol pob tebygolrwydd gan De Clare, ar y lle y safai adeilad blaenorol, yn fuan wedi yr helynt hwn. Gelwid ef felly, er mwyn ei wahaniaethu oddiwrth Caerffili, yr hwn a elwid "Castell Glas." Y mae yr enw Sengenny yn ymddangos mewn hen weithred, heb ddyddiad, "*Protectio filii Cadwalan* yn mysg hen ysgrifau yn Nghastell Penrice, swydd Forganwg. Yn 1215, cododd Gilbert de Clare, Iarll cyntaf Caerloew a Henffordd, mewn arfau yn erbyn y brenhin John; ac yn yr un flwyddyn, daeth Rhys, mab Gryffydd ap Rhys, gan deithio o'r gorllewin i Gastell Senghenydd; ond darfu i'r rhai oedd yno yn ei gadw, ystyried yn ofer iddynt geisio ei wrthwynebu a rhoddasant y lle ar dân. Cymerodd yr holl gestyll yn Browyr a Morganwg. Y mae sefyllfa Castell Senghenydd wedi bod yn destyn dadl. Barna rhai mai y daiarwaith uwchlaw Castell Coch ydoedd; meddylia eraill mai yn agos i afon Caiach yr ydoedd. Yn 1216, goresgynodd Llewelyn Gymru, ond ar laniad Louis, o Ffraingc, yn Lloegr, y flwyddyn hon, galwodd y Brenhin John am gymhorth Llewelyn, a Reginald de Breos; ond gwrthodasant. Yn 1217, gwnaeth Reginald heddwch dirgelaidd, ac ar wahan, gyda Harri III. Ymosodwyd arno, o blegid hyny gan Llewelyn, a'r Cymry, ac ar ei ymostyngiad, maddeuodd iddo, a derbyniodd oddiwrth Llewelyn, gastell Senghenydd, yr hwn a gyflwynodd i ofal Rhys Fychan yn fuan ar ol hyny. Ymosododd William Marshall, Iarll Penfro, ar gastell Caerlleon; ac ar hyny ymosododd Rhys Fychan ar gastell Senghenydd a rhai eraill, a dosparthodd y wlad rhwng y Cymry. Yn 1221, yr oedd anghydfod rhwng y Tywysog Llewelyn a'i fab Gryffydd; a thua diwedd y flwyddyn hon, yn yr hon y bu farw Reginald de Breos, adgyweiriwyd castell Senghenydd, trwy genad Llewelyn. Yr oedd ymrysonau y Cymry yn wastadol yn cymhell Arglwyddi y Cyffiniau i ymosod arnynt; ac felly yr oedd y Tywysog Llewelyn, wedi cyrhaedd i ŵth o oedran, wedi myned yn analluog i gadw llywodraeth ar ei feibion, am hyny efe a archodd nawdd Harri III., ac a dalodd warogaeth iddo dros y dywysogaeth, ac ymrwymodd i dalu teyrnged flynyddol iddo. Pa fodd y daeth y teulu De Clare yn feddianol ar y tir lle y saif castell Caerffili, nid yw yn gwbl eglur ond y mae tystiolaethau ar gael yn profi y ffaith, fod y castell yn 1272 yn meddiant Gilbert, Iarll Caerloew, ac iddo ei adgyweirio. Y mae hyn yn grynodeb o brif amgylchiadau meddianiad yr hen gastell, a'r terfynau hyd y pryd hwn. Y mae rhai o'r haneswyr yn anghytuno a'u gilydd yn

Digitized by Google

eu nodiadau ar amryw amgylchiadau cysylltedig a'r hen amddiffynfa, eto barnwn yn briodol gyfeirio atynt, heb geisio eu cysoni. Ar briodas Gilbert de Clare â Joan o Acres, cyflwynodd y castell hwn iddi hi a'i hetifeddion am byth, yn nghyd a'r tiroedd perthynol iddo; ond etifeddiaeth Caerloew, yn unig am ei hoes. Wedi ei farwolaeth ef, hi a briododd, heb yn wybod i'r brenhin, Ralph de Mortimer, ac a drosglwyddodd Gastell Caerffili, a'r etifeddiaeth gysylltiedig, iddo ef a'i etifeddion am byth. Wedi ei farwolaeth ef, olynwyd ef gan Gilbert, mab yr Iarll de Clare diweddaf, yr hwn nad oedd ond pum mlwydd oed pan fu farw ei dad, a daeth i feddiant o arglwyddiaeth Morganwg. Parhaodd Mortimer, pa fodd bynag, mewn meddiant o Gastell Caerffili. Lladdwyd ef yn 1314 yn ieuangc, yn mrwydr Bannockburn; nid oedd iddo blant. Disgynodd ei arglwyddiaethau i hawl ei dair chwaer, fel cyd-etifeddesau. Priododd un o honynt, a elwid Eleanor, â Huw Spencer yr ieuengaf; un arall, Margaret, â Piers Gavestone; a'r llall, Elizabeth, â John de Burgh. Huw Spencer yr ieuengaf, a ddaeth i feddiant o arglwyddiaeth Morganwg, drwy y briodas hon, a phrynodd hawl y chwiorydd eraill. Yn mysg ei weithredoedd gormesol, yr oedd ei ymosodiad ar gastell Caerphili; yr hwn y dywedir iddo fod wedi cael ei adeiladu yn gadarnach nac erioed o'r blaen, gan Ralph de Mortimer. Efe hefyd a drawsfeddianodd y tiroedd, ac a ychwanegodd ranau pwysig at y castell. Yr oedd ef a'i dad, yn fawr iawn yn ffafr Iorwerth II., a thrwy gael ei gefnogi ganddo ef yn ei holl weithredoedd annheilwng, yr oedd y tad a'r mab, wedi tynu arnynt eu hunain, ŵg y Barwniaid Seisnig, yn gystal a'r genedl yn gyffredinol. Yr oedd y deiliaid Cymreig hefyd, yn llawn mor barod i ddangos eu digofaint tu ag atynt; a darfu i Roger Mortimer, yr hwn oedd, yn ol y gyfraith, yn etifedd Castell Caerffili, dynu allan dystiolaeth ysgrifenedig o'r holl amgylchiadau, gydag erfyniad am gyfiawnder, yn erbyn atafaeliad ei feddianau gan Huw Spencer ieuangc. Cyflwynodd yr erfyniad hwn at y barwniaid penodedig i ystyried yr achos. Cytunodd y barwniaid i ddarparu byddin o ddeng mil o wyr iddo; ac yntau ei hun i fod yn arweinydd iddynt, gan ei anog i fyned i Forganwg, a chymeryd meddiant o'i etifeddiaeth. Ond yr oedd y Spenceriaid wedi diogelu yr amddiffynfa mor gadarn, ac wedi ei chyflenwi â phob defnyddiau cynhaliaeth, fel yr oeddynt yn alluog i ddal allan am dymor maith. Pleidiodd y frenhines y barwniaid, a chododd fyddin gref i'w cynorthwyo. Y Brenin Iorwerth, ei gwr, ar yr ochr arall, a gynlluniodd lwybr i fyned i mewn i Gastell Caerffili. Ond wedi ymdrech galed, llwyddasant o'r diwedd i gymeryd y castell, drwy i adwy gael ei hagor, â moddion anghyffredin yn ol tystiolaeth y traddodiadau lleol, a chofnodau eraill, ag sydd yn lled anhawdd i'w credu. Yn ol yr hanesion hyn, trefnwyd i hwrdd-beiriant gael ei lunio, a'i weithio gan fil o ddynion, wedi ei gysylltu â gosail ffurfiedig o ugain o goed derw. Agorwyd yr adwy yn nyfnder tywyllwch y nos, a ffodd y Brenin Iorwerth ymaith yn ngwisg Cymro gwledig. I'r dyben o'i guddio ei hun yn fwy diogel; dywedir iddo gynorthwyo yn egniol i gludo coed ar y tanllwyth mawr oedd yn llosgi yno; a dywedir fod yno gant o weddi yn cludo y coed at y goelcerth fawr. Dywedir fod y Cymry, wedi dyfod o bob cyfeiriad i gynorthwyo yr ymosodwyr. Diangodd Iorwerth allan o gyrhaedd pob perygl, a gweithiodd ei ffordd drwy y noswaith ystormus, nes cyrhaedd Llangynwyd, ugain milltir i'r gorllewin, lle y cyflogodd ei hun fel bugail, mewn fferm, a hynodir hyd heddyw o herwydd yr amgylchiad hwn. Wedi bod yno am beth amser, ni wyddir pa gyhyd, yr amaethwr, yn ei ganfod yn hurtyn dioglyd, a difedr, a'i gyrodd ymaith. Felly y dywed y traddodiad, ond mynega un cofnodiad ysgrifenedig am dano, y gwyddai yr Amaethwr pwy ydoedd, a'i fod wedi ei lochi yno cyhyd ag y gallai. Aeth o Langynwyd i Abatty Nedd, o'r lle y rhoddai allan gyhoeddiad ar fod i'r frenhines gael ei chymeryd i fynu, yn ol y cofnodir gan Rymer. Cymerwyd y Spenceriaid yn eu castell, lle y canfyddwyd cyflawnder o ymborth o bob math. Y mae y rhestr o'r braidd yn anhygoel, ond nid oes genym ond ei chofnodi, a gadael i'r darllenydd ei chymeryd am ei gwerth. Yr oedd o fewn muriau y castell ddwy fil o ychain byw, deuddeng mil o wartheg, pum mil ar hugain o loi, deng mil ar hugain o ddefaid tewion, chwe chant o geffylau gwedd, a nifer cyfatebol o droliau; dwy fil o foch tewion; o gig hallt, yr oedd dwy fil o wartheg, chwe chant o ddefaid, mil o foch; dwy fil o dunelli o win Ffraingc, deugain tunell o afal-ddiod a gwin, o gynyrch eu tiroedd eu hunain, a digon o wenith i wneud bara i ddwy fil o bobl am bedair blynedd. Yn un o'r tyrau, yr oedd pob ystafell yn llawn o halen. O dan y twr hwn, yr oedd ffwrnais i doddi haiarn, pres, a phlwm; pentyrau poethion o'r rhai a deflid gyda pheirianau gan y rhai oedd o fewn ar yr ymosodwyr, y rhai, wedi iddynt gael meddiant o'r castell, a ollyngasant allan yr haiarn toddedig o'r ffwrnais, ac a daflasant ddwfr arno. Gwnaeth hyn rwyg ofnadwy ar y twr, ac a ddinystrodd yr halen i gyd. Yr hyn sydd yn aros o'r twr yn awr, ydyw yr un sydd ar ei ogwydd, yn crogi dros ei sylfaeni. Y mae y dynged oedd yn aros y ddau Huw Spencer, y tad a'r mab, yn rhy hyspys yn barod, i alw am unrhyw sylw pellach yma. Canfyddodd Huw Spencer, yr ŵyr, pa fodd bynag, lwybr i ddinystrio, yn ddisymwth, nifer mawr o'r ymosodwyr, a thrwy arwain ei filwyr at yr adwy, i atal eraill rhag dyfod i mewn. Oddiar y llwyddiant hwn, gallodd Spencer ieuangc ddinystrio nifer o'i elynion oeddynt o fewn; drwy yr hyn y cafodd amodau i gadw meddiant o'r castell a'i etifeddiaethau, yn nghyd ag arglwyddiaeth Morganwg. Olynwyd ef gan ei fab Thomas Spencer. Y nesaf yn y rhestr ydoedd Thomas Spencer arall; y diweddaf, ac efallai, y gwaethaf o'r tylwyth gormesol a diegwyddor hyn. Yr oedd efe, wedi dyfodiad Harri IV., i'r goron, ar ei ffordd adref, o blegid fod y fradwriaeth wedi cael ei gwneud yn hysbys, a'r gwrthryfelwyr wedi eu hymlid yn Cirencester. Cyfarfyddwyd ef yno gan nifer mawr o'r Cymry, y rhai yr oedd ef a'i hynafiaid wedi eu hysbeilio o'u meddianau. Tynodd y Cymry hyn ef allan o'i wely yn Mryste, ac wedi cael eu cefnogi gan y werin, hwy a'i dienyddiasant ef. Nid oedd efe wedi gadael mab ar ei ol; dim ond un ferch, Isabella, ei etifeddes, yr hon a briododd Richard Beauchamp, Iarll Warwick, ac a ddaeth, drwy ei hawl hi, yn arglwydd Morganwg. Yr oedd nifer o deuluoedd, o darddiad anghyfreithlon, yn aros yn y wlad, o'r enw Spencer. Yr oedd y Spenceriaid, arglwyddi Morganwg yn gyfoethog dros ben cyfrif; ac y mae hyny yn rhoddi y rheswm am orfawredd a gwychder castell Caerffili. Gwnaeth y frenhines a'r barwniaid gryn ddifrod ar y castell yn y blynyddoedd 1326 a 1327, ac wedi hyny, bernir

Digitized by Google

na bu arglwyddi Morganwg yn preswylio ynddo mwy. Yn y flwyddyn 1400, cymerwyd meddiant o hono gan Owain Glyndwr; ac yr oedd ei ogoniant felly wedi ymadael. Yma yr oedd y Spenceriaid gorthrymus, yn llusgo pob ysbail a allent gael, er dinystr pawb oedd yn eu cyrhaedd, fel yr aeth o'r diwedd yn ddiareb yn y wlad, am bob peth a gollid, ei fod "wedi myned i Gaerffili!"

Wedi rhoddi ger bron grynhoad o'r prif amgylchiadau yn nghodiad a chynydd yr hen gastell o bryd i bryd, gyda phrif elfenau hanesyddol y tywydd ar ystormydd a aeth drosto, dichon y byddai yn briodol i ni derfynu gydâg ychydig o nodiadau ar ei gyflwr presenol. Mewn perthynas i'r enw, teimlwn fwy o foddlonrwydd yn yr hyn a fynegwyd ar y dechreu, nac yn y cais diweddar at ei egluro oddiwrth "Caer," a "phwll." Cymerwyd mantais, wrth ei gynllunio oddiwrth afon fechan Nant-y-Gledyr, a ffrwd gyfagos, i lunio corynys o'i flaen, yn cael ei chylchynu gan dir corsog, neu le llaith. Yr oedd yma ffos ddwfr lydan yn amddiffyniad i'r mur mawreddig dwyreiniol; un o'r cloddiau amddiffynol ardderchocaf mewn llawer ystyr ag y gwyddir am danynt, tua 360 o droedfeddi o hyd, gydâg ategion priodol, a mynedfa eang yn y canol, a thyrau diogel ar bob pen. Y mae yn y lle haen trwchus o raiandir, yr hwn oedd yn naturiol yn caniatau ei godi yn fryniau, neu ei ostwng yn nentydd. Yr oedd yma ddyfr-ffos fewnol, yn dal cysylltiad â llyn, yn cylchynu y gorynys, ar y lle yr oedd y prif werthyrau. Yr oedd corynys arall yn cael ei ffurfio yn gornelwaith, yn y cyfeiriad gorllewinol; ac ar y prif faes, yr oedd rhagfur eang, o gadernid mawr. Yr oedd oddiallan i'r rhai hyn hefyd, dair o linellau amddiffynol. Yr ochr fwyaf egwan o'r castell, ydoedd y wyneb deheuol. Ar ochr ddeheuol y gorynys, rhedai Nant y glyder, drwy y cyfwng, i uno a'r afon Rhymni. Y mae yr adeiladau yn y gwahanol gynteddau, yn nghyd a lle agored eang, yn cael eu cau i mewn, gan fur uchel, trwchus, wedi ei gadarnhau gan yspyrau nerthol a phraff, ac yn cael ei ddiogelu gan dyrau pedeirongl, ar derfynau priodol, rhwng y rhai yr oedd cysylltiad drwy amrodfa ddiffynedig. Yr oedd yn y cyntedd allanol filwrfa i'r arfogion, a mynedfa o honi drwy borth gorwych, yn cael ei ddiogelu gan ddau dwr cadarn, yn arwain gyda phont symudol, dros ddyfr-ffos i gyntedd mewnol, o'r hwn yr oedd mynedfa, ar yr ochr ddwyreiniol i'r cyntedd lle yr oedd yr ystafelloedd breiniol, drwy borth cadarn, yn cael ei amddiffyn gan ddorau culis. Yr oedd y fynedfa orllewinol i'r cyntedd hwn hefyd, dros bont symudol, drwy borth gorwych dan fwa meini, yn cael ei ddiogelu gan ddau o attegion tyrol, o gryfder mawr. Y mae y cyntedd hwn, yn yr hwn yr oedd yr ystefyll breiniol, yn ddeg llath a thri-ugain o hyd, a deugain o led, wedi ei gau i mewn ar yr ochr ogleddol â mur uchel, ac ategion, a thyllau yma a thraw, tu ag at ergydio ymaith bob saethau, neu foddion dinystr; ac ar yr ystlysau eraill, â'r adeiladau a'r tyrau, a warchodent y pyrth. Y mae y prif gyntedd, ar yr ongl ddeheuol, eto mewn cyflwr o gadwraeth gweddol, ac yn arddangos llawer o'i wychder gwreiddiol; yr oedd y lle ardderchog hwn, yn mesur deg troedfedd a thriugain o hyd, wrth ddeg ar hugain o led, a dwy ar bymtheg o uchder, ac yn cael ei oleuo gan bedair o ffenestri, o gynllun prydferth, yn ol y drefn addurnol Seisnig; rhwng y ddwy ffenestr ganol, y mae olion lle tân eang, ac y mae y fantell simfa o gerfiad teg, yn ei holl ranau; y mae ar y muriau, bilerau addurnol, yn gorphwys ar gorbelau diogel, yn yr uchder o ddeuddeg troedfedd oddiwrth y llawr, ac yn ymgodi am bedair troedfedd, fel cynhaliad i'r nen. Y mae y cysylltiad yn cynwys nifer o ystafellau eraill, o wahanol faintioli, ond yn cyfateb i'r cynllun neillduol, mewn mesur o gadwraeth eto. Saif twr yr arfogaeth yn agos i'r ongl dde-ddwyreiniol, yr hwn sydd yn dwr crwn, o gryn uchder; ac o'r braidd mewn cysylltiad a'r twr gogwyddedig; ac i'w weled yn eglur iawn yn mysg yr adfeiliau. Am yr achos o ogwyddiad y twr hwn, y mae llawer o wahanol syniadau yn cael eu mynegi; a dywed rhai fod graddau ei osgo wedi ei chwyddo yn ormodol mewn amryw hanesion, ac nad ydyw mewn gwirionedd, uwchlaw naw troedfedd dros ei droed; a bod ei ddiogelwch yn ei agweddiad presenol wedi cael ei sicrhau, drwy gwymp darn helaeth o'r mur ar ei sylfaeni. Y mae yn agos i'r arfdy, amrodfa eang, tua chan troedfedd o hyd, yn mur y caeadle mewnol, yn dal cysylltiad a'r gwahanol ystafelloedd, ac yn rhoddi mantais i'r preswylwyr i gynal cymundeb a'r gwylwyr oedd yn sefyll ar y gwahanol dyrau. Wrth geisio cynwys y syniad priodol am gynlluniad y lle, byddai yn fanteisiol cadw mewn golwg y prif Arwyneb; y Cornelwaith; y Rhagfuriad; y Cyntedd Canol, a'r Cyntedd Mewnol. Y mae rhai haneswyr yn dynodi, mewn cysylltiad a'r ffwrneisiau, fod yn y lle fathodfa, a bod esgyniad oddi yno i'r oriel fawr, oedd yn dal cysylltiad â'r prif gynteddau, ystafelloedd, rhodfaau, a'r gwerthyrau oll. Dywedir hefyd, nad yw y gweddillion presenol yn ddim amgen nac ysgol i'r dychymyg esgyn mewn tybiau, i dynu casgliadau am yr hyn a fu. Y mae y carchar yn arddangos pob peth oedd yn cyd-daro a'r amcan sydd mewn cosp a dialedd, sef tywyllwch, lleithder, a thrueni. Y mae y ffynon, neu y lle dwfr, eto ar gael, er ei fod wedi cael ei lanw âg ysbwrial. Y mae yn alarus edrych ar yr hen adail adderchog hon, fel un Caernarfon, Conwy, Biwmares, Harlech, &c., a phob un o honynt wedi cael eu hysbeilio o'u haddurniadau gynt. Y mae yr holl haiarn, pres, plwm, a'r rhan fwyaf o'r cerfiadau cywrain, wedi cael eu hysbeilio ymaith, fel y mae ôl dwylaw dynion, wedi bod yn waeth na holl ystormydd amser, yn eu dihatru. Yn ofer yr edrychasom am y dorau culis, y mainbilerau yn y ffenestri, y bachau yn y dorau, na'r pegynau yn y pyrth; nid oedd ond y lle y buont i'w ganfod yn mhob man. Nid oes yma ddim o gyplau na thrawstiau y nen ar gael; y mae y grisiau, a'r orielau oll yn agored i'r tywydd, y gwlaw a'r rhew; y gwres a'r gwynt, fel nad oes dim ond caledwch y meini, a rhwymau cylymedig y cymrwd, yn cadw y gweddillion wrth eu gilydd. Nid oes yma gymaint ag un o'r pontau symudol wedi ei gadael i gadw coffadwriaeth am gywreindeb yr adeiladwyr gynt. Y mae yr iwrwg fel pe byddai yn tosturio wrth y muriau mewn llawer man, ac fel mantell yn ceisio estyn cysgod drostynt. Y mae amryw ddarnau o'r muriau wedi cwympo i mewn i'r manau lle yr oedd y dyfr-ffosydd, o fewn yr ugain mlynedd diweddaf, ac y mae amryw barthau, megis y ddyfr-gist, a'r cyssylltiau, i'w gweled yn eglur fel yn ymroi, a diau y gadewir olion pellach o adfeiliad ar y lle yn fuan. Y mae y gweddillion sydd yn aros yma yn awr, yn dangos fod y lle hwn, yn ei ddydd, o ran eangder a chadernid, yn rhagori ar holl werthyroedd y dywysogaeth; yr ydym yn canfod olion y capel a'r areithfa,

Digitized by Google

dros y drws, sydd yn arwain o'r gwerthyroedd ar y dde, gyda eu nen resog, a dwy o ffenestri, o gerfiadau addurnol: Gwelir un cysylltiad neillduol rhwng cestyll Caernarfon a Chaerffili; yn y cyntaf y ganwyd Iorwerth yr ail, ac efe oedd yr unig ben coronog a ymwelodd a'r lle olaf. Dywedai y Parch. H. H. Knight mewn erthygl a gyflwynai i Gymdeithas Athronyddol Nedd, am enciliad Iorwerth yr Ail, yn y dull canlynol:—"Deallwn oddiwrth y Cofnodau, fod y Brenhin Iorwerth II., yn Nghastell Caerffili ar y 29n ar 30n o Hydref, 1326. Darllenwn hefyd fod y brenhin, yn nesaf, yn Margam ar y 4ydd ac yn Nedd, ar y 5ed o Hydref, Daliwyd ef ar y Sabbath, yr 16eg o Hydref, y mae yn debygol, tra yr oedd efe yn ymgais i adenill noddfa ddiogel yn Nghastell Caerffili, oedd yn cael ei amddiffyn mor wrol gan Hluw Despencer, yr ŵyr."

Y mae yn nodedig i'w sylwi, pa mor Gymreig y mae y gymydogaeth hon yn parhau. Y mae hi weithian dros gan mlynedd er pan wnelai Mr. Wyndham y nodiadau canlynol am y lle:—"Y mae yr adeiladau, yr arferion, a'r wisg, yn gystal a'r iaith yn y lle hwn, yn hollol Gymreig, ond y mae y lle yn dyfod i gryn gysylltiad â Lloegr yn awr. Y mae yr iaith Gymraeg yn gwisgo ymaith yn fuan, yn mhob man lle y mae trafodaeth â Lloegr yn dyfod yn hawdd a chyfleus; ac y mae yn debygol, cyn pen canrif eto, y bydd mor anhawdd i deithiwr a ddelo yma, ganfod olion yr iaith Gymraeg, ag ydoedd i Mr. Barrington yn ei daith trwy Gernyw, i chwilio am y Gernywaeg, ei chanfod, pan na allai gael ond un hen wraig, a hono yn agos i 90 mlwydd oed, yn gallu ei llefaru, a dim ond dwy eraill a allent ei deall." Y mae yr hen iaith Gymraeg yn wydnach nac y mae llawer o ddieithriaid yn gallu credu ei bod! Dyma ganrif wedi myned heibio, a'r hen iaith yma eto. Heblaw gweddillion y castell, y mae yma olion hynafiaethol eraill o gryn bwysigrwydd yn y gymydogaeth hon. Mewn rhan o dir a elwir, "Maes y Bwrdeisiaid," y mae hen ddaearfur agos yn bedeirongl, yn cau i mewn ofod, o tua haner erw, yn cael ei amddiffyn gan ddwy ffos; ac yn Morgrig, neu yn hytrach Morgraig, y mae gwersyllfa bedeironglog arall, tua phedwar ugain cam o hyd, ac yn agos o'r un lled, gyda'r conglau wedi ei crynhau, yn ol dull y Rhufeiniaid. Darganfyddwyd nifer o fathodion, o amser teyrnasiad Iorwerth yr Ail yn y lleoedd gerllaw y castell; ond ni chafwyd yr un o ddyddiad boreuol iawn yno. Tua thri chwarter milltir o Gaerffili, ar ffordd Rhydri, y mae adfeiliau y FAN, neu y *Fan fawr*, palas hynafol y teulu Lewis. Yn gynar yn y deunawfed ganrif, priododd Elisabeth, merch ac etifeddes Thomas Lewis o'r Fan, Other, trydydd Iarll Plymouth, un o hynafiaid yr Arglwyddes Harriet Clive, meddianydd presenol y Fan. Dygir yn mlaen y linell wrrywol gan Lewis o Lanisen, wedi hyny Henry Lewis, o Green Meadow; yr hwn, gan hyny, a ystyrid fel un o gynnrychiolwyr, yn y llinell wrrywol, o Nest, etifeddes Arglwyddiaeth henafol Gymreig Seghenydd; ac ni chollwyd y teulu hwn unwaith o'r gymydogaeth hono. O fewn ychydig i'r dref, ar y gogledd orllewin, y mae hen balas Geneu'r Glyn, a fu gynt yn breswylfod John Goodrich, Ysw., ac y mae golygfa ardderchog ar yr hen gastell oddi yno; ac ar yr ochr ddwyreiniol, yn agos i geulanau y Rymni, y mae palas Ruperrah, preswylfod Charles Morgan, Ysw., mab hynaf Sir Charles G. Morgan, Bar. o Dredegar; y mae mewn sefyllfa ddyrchafedig, yn ngolwg afon Bryste, ar y ddehau, yn nghyd a rhan gyfoethog o'r wlad; ac yn mhellach, hyd fryniau Gwlad yr Haf, a swydd Dyfneint. Y mae yr adeilad o gynlluniad yr enwog Inigo Jones; ond fel y mae y rhanau mewnol wedi eu llosgi gan dân, nid oes dim ond y muriau allanol ar gael yn awr o'r adeilad gwreiddiol. Ychydig yn is i lawr, y mae Cefn Mabli, hen gartref anrhydeddus y teulu Kemeys, ac a fu unwaith yn breswylfod y breiniolydd enwog, Sir Nicholas Kemeys. Y mae Pwll y pant, a Pont y Pandy, hen balasau enwog gerllaw. Y mae nifer o ffynonellau rhinweddol yn y gymydogaeth, wedi eu trwytho â defnyddiau haiarnaidd, ac heb fod yn gymwys i'w hyfed, a phan y caffont eu berwi, troant i liw du. Y mae y Nodiadau hyn yn dangos fod y gymydogaeth hon, yn orlawn o wrthddrychau o ddyddordeb i'r hanesydd a'r hynafiaethwr. Y mae llawer o ranau yr hanesion a gofnodir am y lle, ac yn enwedig am y castell, fel pe byddent wedi eu chwyddo i uchder gormodol, a rhai cysylltiadau yn lled anhawdd i'w cysoni. Gan nad pa mor anghyflawn y mae y darluniadau ger bron wedi eu dwyn yn nghyd, y maent yn ddigonol i roddi rhyw awgrymiad am bwysigrwydd yr hen amddiffynfa gadarn; ac i greu dymuniad am fod i ryw foddion gael ei arfer, i gadw yr hen gof-golofn ardderchog hon o helyntion yr amser gynt, eto fel cymunrodd i'r oesau a ddel!

**CAERSEDDFA** (CAER SEDDFAN), sydd drefgordd yn mhlwyf Darowen, yn nghwmwd Cyfeiliog, cantref CYNAN, yn swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU, 6¾ milltir o Machynllaith. Y mae yr enw yn arwyddo mai amddiffynfa llys barn ydoedd y lle hwn, sydd yn ffurfio rhanau uchaf y parth gogledd-ddwyreiniol o'r plwyf, ac y mae, gan mwyaf, yn fynyddig a garw. Y mae amryw fwnau plwm yn y gymydogaeth, ond nid ydynt yn cael eu gweithio i nemawr o bwrpas yn awr.

**CAERSWS** sydd dreflan yn mhlwyf Llanwnnog, cwmwd Uwch Coed, cantref ARWYSTLI, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU; 5 milltir o'r Dref-newydd. Dywedir fod y lle hwn unwaith yn dref Rufeinig o gryn faintioli, er nad yw wedi tynu nemawr o sylw yr ysgrifenwyr boreuol, fel y cyfryw; nid yw, hyd yn nod, yr enw Rhufeinig oedd i'r lle, ar gael; ac ni ellir olrhain dim o olion mawredd y lle gynt. Y mae ffordd Rufeinig, a elwid Sarn Swsan, neu Swsog, yn cyfeirio yn ogleddol oddiwrthi, er fod yn amheuus tu ag at ba le yr oedd yn arwain, ac ni ellir dilyn nemawr arni yn awr. Yn amser Pennant, yr oedd y maesydd yn y gymydogaeth yn cael eu gwahanu gan ffyrdd culion rhwng y naill a'r llall, oeddynt, fe ddichon, yn dangos sefyllfa yr heolydd cyntefig, ond nid yw maintioli cywir yr orsaf yn hysbys. Ar ochr y ffordd hon, ar dir cyffredin Gwynfynydd, y mae gwersyllfa hirgron fechan; ac mewn maes gerllaw Rhôs Ddiarbed, y gwelir gwersyll Rufeinig arall, o ffurf dra hynod. Y mae ar yr ochr dde, fynydd cribgrwn, yn cael ei gylchynu gan ffos ddofn; y lle a dybid ei fod yn ymchwilfa, ac ar yr ochr ogleddol iddo, yr oedd lle hirongl, tua deg llath a thriugain o led yn y man cangaf, yn cael ei amddiffyn gan fur uchel a ffos allanol; yn y rhan isaf, y mae mynedfa i wersyll pedeir-ongl, tua dau can llath o hyd, a thros gan llath o led; gyferbyn a'r hwn, y mae mynedfa arall; ac y mae y cyfan yn cael eu hamgylchu â mur a ffos. Ni ddarganfyddwyd unrhyw fathodion yma, ond tua'r flwyddyn 1777, cloddiwyd rhai priddfeini

Rhufeinig, a chymrwd llaith, yn yr ochr dde orllewinol o'r wersyllfa; yr oedd argraph ar un o'r priddfeini, yr hwn nad allesid yn hawdd ei ddarllen; ac a osodwyd yn nghefn simfa gwesty cyfagos i'r lle. Yr oedd yn perthyn i Gaer-sws gynt, gastell, ac un eglwys o leiaf, ac fe ddywedir ei fod yn breswylfa arglwyddi Arwystli. Y mae ei sefyllfa ar geulan ogleddol afon Hafren, dros yr hon yr adeiladwyd pont o dri bwa maen, amryw o flynyddau yn ol; ac y mae y lle wedi cael ei helaethu yn ystod ychydig gyda'r haner canrif diweddaf, drwy adeiladaeth tai ac anneddau dengar yr olwg arnynt; y mae ffordd newydd, wedi ei hagor er 1831, yn arwain o Gaersws i Lanwnnog. Y mae yma leoedd o addoliad gan y Bedyddwyr, a'r Trefnyddion. Calfinaidd, a Wesleyol.

CAERWYS sydd fwrdeisdref anghorphoredig, a phlwyf yn nghwmwd Rhuddlan, cantref TEGEINGL, yn swydd FFLINT, GOGLEDD CYMRU; 4 milltir o Dreffynon, ar y ffordd o'r dref hono i Ddinbych. Tybia rhai fod enw y dref yn tarddu o *Caer Gwŷs* neu Gwŷsio; a barna eraill mai *Caer-ar-yr-wy*, neu y *dyfroedd*, ydyw. Y mae yn cynwys trefgorddau Bryn Gwyn, Caerwys, a Thref-Edwyn. Os y golygiad cyntaf am yr enw sydd gywir, y mae yn awgrymu fod y lle gynt yn orsaf Rufeinig, lle y cynhelid llysoedd barn. Ymddengys fod y lle, cyn amser goresgyniad Cymru gan Iorwerth I., mewn cysylltiad â thref gymydogaethol, a elwid Tref Edwyn, yr hon sydd wedi myned yn adfeiliau; ac â bwrdeisdref Rhuddlan, yn un o'r prif lysoedd barnol yn y parth hwn o'r dywysogaeth. Yr oedd marchnad reolaidd yn cael ei chynal yma gynt ar ddyddiau Mawrth, ond a roddwyd i fynu ar sefydliad marchnad Treffynon, yr hon sydd yn dra blodeuog. Yn y flwyddyn 1244, gosodwyd abadau Cymer ac Aberconwy gan y pab, yn llys o ymchwiliad, er cael gwybod pa un ai dan ddylanwad ofn a gorfodaeth, y darfu i Dafydd ab Llewelyn, Tywysog Gwynedd, gytuno mewn amod anffafrol â Harri III., brenhin Lloegr, ac os felly, i'w ryddhau ef o bob rhwymedigaeth i gyflawni y telerau, gan wŷsio y brenhin Harri i ymddangos ger eu bron, yn eglwys y dref hon, i ateb i gwynion Dafydd; ond efe wedi ymddigio yn fawr wrth y sarhad a roddid ar ei awdurdod ef, a anfonodd archiad at y pab, am iddo ddiddymu y brwyadaeth yn ddioed, yr hyn a wnaed yn unol a'i gais. Yr oedd Llewelyn ab Gruffydd, tywysog olaf Gogledd Cymru, cyn ei esgyniad i'r orsedd, yn preswylio yn Maesmynan, yn y gymydogaeth hon, ac yn meddianu fel ei etifeddiaeth o ochr ei dad, y cantrefi cyfagos, Tegeingl, Dyffryn Clwyd, Rhos, a Rhyfoniog. Ychydig o amser cyn llwyr ddarostyngiad Cymru gan y Saeson, un o'r cwynion a wnaed gan y trigolion, ac a gyflwynwyd gan eu tywysog Llewelyn, i Peckham, Archesgob Caergrawnt, yr hwn oedd wedi ymgymeryd a bod yn gyfryngwr rhyngddo ef a brenhin Lloegr, ydoedd, fod breintiau gwyr Tegeingl, neu *Englefield*, oedd yn cyrhaedd dros y rhan fwyaf o swydd Fflint, wedi cael eu cyfyngu yn ormesol gan frawdwriaeth Caerlleon, yr hon a'u gorfodai hwy i fyned i'r dref hono, neu leoedd eraill, i geisio eu hawliau cyfreithiol; gan honi eu hawl o gael eu profi yn ol cyfreithiau Cymru, ac yn y lleoedd arferol, sef Rhuddlan, Tref Edwyn, neu Gaerwys. Ar sefydliad llysoedd barn yn Nghymru, yn ol darpariad cyfraith Lloegr, adfeddianodd Caerwys ei hiawnderau blaenorol, a chynhaliwyd llysoedd barn y sir yma, hyd y flwyddyn 1672, pan y symudwyd hwy i Fflint, ac yna i'r Wyddgrug, lle y maent hyd yn awr. Y mae yr hen garchar yn aros, ond y mae wedi ei droi yn dŷ annedd, ac a elwir eto "*Yr hen Jail;*" y mae hefyd ychydig o olion yr hen lysdy yn aros; ac y mae lle y ddienyddfa yn weledig, ar dir cyffredin, gerllaw y ffordd fawr, ychydig ar yr ochr dde-ddwyreiniol i'r dref. Rhoddodd Harri III., weithred o gorphoriad i'r trigolion; ac yn y flwyddyn 1356, rhoddodd iddynt farchnad wythnosol, a dwy ffair flynyddol, yn unol a dymuniad John Trefor, esgob Llanelwy, ac eraill.

Dichon mai yr hyn a roddodd yr hynodrwydd mwyaf ar Gaerwys mewn hanesyddiaeth, ydoedd yr Eisteddfodau breiniol a gynhaliwyd yno, o bryd i bryd. Yr Eisteddfod gynt ydoedd brif lys barn y dywysogaeth; hi ydoedd senedd y genedl. Yn ol tystiolaeth y diweddar D. Williams, Ysw., A.S., o Gastell Deudraeth, yr oedd deddfwriaeth y wlad, yn yr amser boreuol yn dair rhan, sef ffurfiad y cyfreithiau, gweinyddiad y gyfraith, a llenoriaeth y genedl; ac yn ol Ystatyd Rhuddlan, dan drefniad Iorwerth I., trosglwyddwyd y cyntaf i Dŷ y Cyffredin; a'r ail i Dŷ yr Arglwyddi; a bod y drydedd ran, sef addysgiad y bobl, yn aros yn rhan a chyfran o gyfreithiau y wlad, heb ei ddiddymu eto; a bod hyn yn cael ei brofi yn ymarferol, yn ngwŷsiad Eisteddfodau Caerwys, y rhai a gynhullid dan awdurdod y goron. Yr oedd yr hen Orseddau yn cael eu cynal, yn amser y tywysogion, yn deir-blynyddol; ac mewn amser diweddarach, yn ddamweiniol, o ran amser, yn unol a chyfleusderau y wlad. Yr oedd cynulliad y beirdd a'r cerddorion rheolaidd, yn Môn a'i therfynau, yn Aberffraw; a'r rhai yn Mhowys, yn Mathrafal; detholwyd y lleoedd hyn yn brif orsafau, o blegid preswyliad y tywysogion ynddynt. Nid oedd caniatad i neb ond beirdd "o fraint a defod," adrodd eu caneuon yn y cynulliadau hyn; nac i neb cerddorion, amgen na'r rhai profedig, chwareu ar eu telynau ynddynt. Yr oedd y beirniaid yn cael eu penodi gan y tywysogion, cyn gorchfygiad y wlad gan y Saeson, a chan frenhinoedd Lloegr wedi hyny. Cynyddodd ymhonwyr yn y celfyddydau hyn i raddau mor fawr, yn yr unfed ganrif ar bymtheg, fel y blinid y wlad gan eu clera, ac y penderfynwyd rhoddi ataliad ar eu hafreolaeth, ac estyn terfynau "y fraint" yn unig i'r rhai profiadol a thrwyddedig. Yn nyrchafiad un o'r Tuduriaid i'r goron, sef Harri VII., adferwyd y rhagorfreintiau Cymreig i'w bri cyntefig, ac estynodd y brenhin aden ei nodded, dros awen a cherddoriaeth ein gwlad. Y wŷs gyntaf sydd genym ar "gof a chadw," o awdurdod breninol, ydyw yr un gan Harri VIII., yr hon ydoedd fel y canlyn:—"*Bydded hysbys i bob dyn, boneddwr a gwerin, y cynhelir* Eisteddfod, *o arddelwyr* Barddoniaeth *a* Cherddoriaeth, *yn nhref* Caerwys, *yn swydd* Fflint, *ar yr* 20fed *dydd o Orphenaf,* 1523; *a'r* 15fed *flwyddyn o deyrnasiad* Harri yr VIIIfed, *brenin Lloegr, dan brwyadwraeth y brenin dywededig, ger bron* Richard ab Hywel ab Ifan Vaughan, Ysw; *drwy gydsyniad* Syr William Gruffydd, Bart, *Arglwydd-ystafellydd Gwynedd;* a Syr Roger Salsbri, *Siryf swydd Dinbych; a chyngor* Gruffydd ab Ifan ab Llewelyn Fychan, *a'r Bardd-Cadeiriol* Tudur Aled, *ac amryw foneddigion ac ysgolheigion eraill, i'r dyben o sefydlu trefn, a llywodraeth yn mysg arddelwyr Barddoniaeth a* Cherddoriaeth; *a rheoleiddio eu celfyddyd a'u galwedigaeth, yn unol ag Ystatyd* Gruffydd ab Cynan, *Tywysog* Aberffraw." Cynhaliwyd yr Eisteddfod hon, yn ol

Digitized by Google

y cyhoeddiad, ond ychydig o hanes ei gweithrediadau sydd ar gael. Cyhoeddwyd rhybydd i alw Eisteddfod drachefn yn Nghaerwys, drwy awdurdod y Frenhines Elizabeth, yn y flwyddyn 1568; ac y mae y wŷs-ysgrifen ar gael yn Llyfrgell Mostyn yn awr, gyda y DELYN ARIAN, oedd gan hynafiaid Arglwydd Mostyn er cyn cof, i'r dyben o obrwyo y prif-fardd a'r prif gerddor, yn yr Eisteddfod. Y mae y wŷs freiniol yn y geiriau canlynol:—"*Gan y Frenines*—ELIZABETH, trwy ras Duw, brenines Lloegr, Ffraingc, ac Iwerddon, amddiffynydd y Ffydd, &c., at ein gwir gariadus a'n hymddiriedol S$^{r}$ *Richard Bulkley*, barn$^{t}$; S$^{r}$ *Rhys Gruffydd*, barn$^{t}$; *Ellis Price*, ysw.; athraw o'r gyfraith, ac un o'n cynghor yn nghyffiniau *Cymru*, *William Mostyn*, *Ievan Llwyd* o *Ial*, *Ihn Salusbury* o *Rug*, *Rhys Thomas*, *Maurice Wynne*, *Will$^{m}$ Lewis*, *Peers Mostyn*, *Owen Ihn ap Ho$^{ll}$ Vaughan*, *John Will$^{m}$ ap John*, *John Lewis Owen*, *Morris Gruffyth*, *Symound Thelvall*, *Ellice ap Will$^{m}$ Lloyd*, *Rob$^{t}$ Puleston*, *Harry Aparry*, *William Glynne*, *a Rhys Huws*, ysw$^{d}$, ac at bob un o honynt, annerch. Yn gymaint a'i fod wedi dyfod i wybyddiaeth yr arglwydd-lywydd ac eraill, e$^{n}$ cyngor dywededig yn e$^{n}$ cyffiniau yn *Nghymru*, fod gwib-gnafiaid, a dynion diog eraill, yn eu galw eu hunain yn gerddorion, rhigymwyr, a beirdd, wedi cynhyddu yn ddiweddar i nifer anoddefol, o fewn e$^{n}$ tywysogaeth yn Ngogledd Cymru, fod nid yn unig boneddion ac eraill, drwy eu hymddygiadau gwarthus, yn fynych yn cael eu haflonyddu yn eu haneddau; ond hefyd fod y cerddorion a'r cantorion medrus, mewn tref a gwlad, yn cael eu hanghefnogi i deithio ac arfer a datgan eu gwybodaeth, ac hefyd eu hatal yn eu bywioliaethau a'u harf$^{n}$. Y mae diwyg$^{d}$ y cyfryw, a gosodiad y bobl hyn mewn tr$^{n}$ yn ymddangos i'r arglwydd-lywydd a'r cyngor yn dra angenrheidiol; a chan wybod eich bod chwi yn ddynion o ddoethineb ac ymddygiad gonest, ac hefyd o brawf a gwybodaeth dda yn y gelfyddyd; yr ydym yn eich penodi chwi i fod yn brwyaduron yn yr achos hwnw. Ac yn gymaint a bod e$^{n}$ cyngor dywededig yn ddiweddar, wrth deithio drwy ra$^{n}$ o'r dywysogaeth ddywededig, wedi cael perffaith ddealltwriaeth, a hanes gredadwy, mai lle arferol cyflawniad y fath brofiad hyd yma ydoedd Caerwys, yn sir *Fflint;* a bod gan *William Mostyn*, ys$^{w}$, a'i hynaf$^{d}$ yr hawl o gyflwyno y delyn arian a berthyn i'r rhagoraf yn y ddawn hon, a bod blwyddyn o rybydd i gael ei roddi, o leiaf, am gyflawniad o'r fath orchymyn. Y mae e$^{n}$ cyngor dywededig gan hyny, wedi eu penodi, i gwblhau yr alwad yn y dref ddywededig *Caroyes*, y *dydd Llun* cyntaf we$^{l}$ gwyl y Drindod fendigaid, yr h$^{n}$ a fydd yn mlwyddyn e$^{n}$ Harglwydd Dduw 1568.

Gan hyny yr ydym yn erfyn ac yn gorchymyn i chwi, drwy awdurdod y warant hon, nid yn unig beri bod cyhoedd$^{au}$ i gael eu gwneud yn mhob ffa$^{r}$, m'nad, trefi, a lleoedd eraill o gynulliad, o f$^{n}$ ein siroedd Mon, Arf$^{n}$, Meyrionyth, Dinbych, a Fflynt, fod i bob d$^{n}$ a d$^{ion}$ a fwriadant gynal eu bywiolaethau drwy yr enw, neu ddangos eu hunain yn gerddorion, rhigymwyr, neu feirdd, o fewn *Talaith Aberfrowe*, yn cynwys y pum sir ddywededig, ymddangos ger eich bron chwi ar y dydd, ac yn y lle, i ddangos eu dysgeidiaeth, yn unol a'r alwad; ond hefyd eich bod chwi, xx$^{a}$, xix$^{g}$, xviii$^{v}$, xvii$^{g}$, xvi$^{g}$, xv$^{g}$, xiiii$^{g}$, xiii$^{g}$, xii$^{g}$, xi$^{g}$, x$^{g}$, ix$^{v}$, viii$^{th}$, vii$^{th}$, neu vi$^{ch}$, o honoch, o'r rhai, yr ydych chwi, S$^{r}$ Richard Bulkley, S$^{r}$ Rhys Gruffydd, Ellis Price, a William Mostyn, ysw$^{d}$, neu iii., neu ii. o honoch, i fod o'r nifer, i fod yn y lle ar y dydd dywededig, a galw atoch y cyfryw ddynion galluog yn y gelfyddyd ddywededig o gerddoriaeth *Gymreig*, ag a ymddangoso i chwi yn briodol, er cwblhau yr amcan, a derbyn cynnifer o honynt ag a farno eich doethineb a'ch gwybodaeth chwi yn deilwng, i'r graddau, ag sydd yn osodedig eisoes yn y drefn, i arfer a dilyn y wyddor a'r gelfyddyd a arddelwant, mewn trefn briodol, yn ol eu graddau, yn ol fel y byddo eich doethineb chwi yn eu cyfarwyddo, gan roddi cyfarwyddyd a gorchymyn caeth i'r lleill na byddont yn deilwng, yn e$^{n}$ henw ac ar e$^{n}$ rhan; bod iddynt ddychwelyd at ryw lafurwaith gonest ac ymarferiad dyledus, a fyddo fwyaf cyfaddas iddynt er eu cynaliaeth eu hunain, dan y perygl o gael eu cymeryd i fynu fel gwibgnafiaid cyndyn, i gael ymddwyn tuag atynt, yn ol y deddfau a ddarparwyd at y cyfryw achos; gan eich awdurdodi chwi neu y cyngor dywededig, i roddi sicrhad dan eich dwylaw, mewn hysbysiad cyhoeddus, er cwblhau y cyfarwyddiadau a roddir i chwi. Gan gadw mewn golwg yn mhob modd, fod heddwch ac iawn drefn yn cael eu dwyn yn mlaen yn y cyfryw gyfarfod; a chan sicrhau i chwi fod y dywededig Will$^{m}$ Mostyn wedi addaw fod y dodrefn a'r pethau eraill gofynol er cynal y cynulliad, yn y lle dywededig. Rhoddwyd dan e$^{n}$ sel yn e$^{n}$ dinas *Caerlleon* y xxiii. dydd hwn o *Hydref*, nawfed blwyddyn e$^{n}$ teyrnasiad." "Arwyddwyd gan gyngor ei Mawrhydi yn nghyff$^{n}$ Cymru." Cynhaliwyd yr Eisteddfod ar y 26$^{n}$ o Mai canlynol. Cynhaliwyd Eisteddfod drachefn yn Nghaerwys y flwyddyn ganlynol dan nawdd y prwyaduron uchod, ac arweiniad Simwnt Fychan, Brif-fardd. Yr oedd yn Eisteddfod 1568, ddau ar bymtheg o feirdd, a deunaw ar hugain o gerddorion, Sion ab William ab Sion a enillodd y gadair. Yn yr Eisteddfod olaf a grybwyllwyd, testyn y Gadair oedd "yr Eos;" yr oedd Sion Tudyr, William Cynwal, William Lleyn, Dr. Richard Davies, esgob Mynwy, Robert Griffith ab Ieuan, Bartholomew Jones, Huw Lleyn, ac Elis ab Rhys ab Edward, yn ymgysdadlu. Dyma yr Eisteddfod olaf a gadwyd yma dan nawdd brenhinol. Cynhaliodd Gwyneddigion Llundain, Eisteddfod lewyrchus yma yn 1798, ond nid oedd y dylanwad yn ddigonol, i gynal i fynu enwogrwydd cyntefig y lle; ac felly y mae y fan wedi bod byth wedi hyny, ar ei ogwydd; eto nid cyn belled ag y gellid dywedyd:—

"Y llwybrau gynt lle bu 'r gân
Ai 'n lleoedd y ddylluan!"

Y mae y dref, sydd yn awr megis man gwledig, yn meddu golygfeydd dengar o amgylch; yn sefyll ar lanerch hyfryd, yn nghysylltiad dau ddyffryn, ac yn cynwys dwy heol, sydd yn croesi eu gilydd, yn null cyfeiriad trefydd Rhufeinig; tybia rhai mai yma ydoedd *Varis* Antonius, ond barna eraill, gyda mwy o debygolrwydd, mai Bodfari ydoedd y lle hwnw; yr oedd hyn yn cael ei gadarnhau yn narganfyddiad nifer o weddillion Rhufeinig yn mhlanwyddfeydd Pont Ryffydd. Nid oes yn Nghaerwys ond ychydig o fasnach; y mae yno ychydig o waith brethyn, a gwyfyr, yn cael eu dwyn yn mlaen. Y mae mwnau plwm a haiarn wedi eu canfod yn yr ardal. Y mae yma amryw ffeiriau at werthiant anifeiliaid. Y mae llywodraethiad y dref mewn dau swyddog, a etholir yn llys arglwydd y faenor, bob gwyl St. Michael. Y mae yn un o wyth bwrdeisdref sydd yn y sir, yn uno i anfon un cynnrychiolydd i'r senedd, dan

Digitized by Google

lywyddiaeth maer Fflint. Yr Anrhydeddus Arglwydd Mostyn sydd yn llywydd y faenoriaeth yn y lle.


Yr oedd y fywoliaeth gynt, yn beriglorìaeth a ficeriaeth, unedig drwy weithred yn amser Siarl II.; y mae yn archddeoniaeth ac esgobaeth Llanelwy, ac yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i St. Michael, ac yn adeilad prydferth, gyda thwr pedeirongl, ac yn dra chymwys i'r gymydogaeth. Y mae yma leoedd o addoliad gan y Methodistiaid Calfinaidd, a'r Wesleyaid. Y mae yma Ysgol Genedlaethol, yn yr hon y mae nifer mawr o blant yn derbyn addysg. Yr oedd mewn maes gerllaw, a elwir Erw'r Castell, amddiffynfa yn yr amser boreuol; am yr hon ni wyddir ond ychydig yn awr. Y mae amryw fur domenau yn y gymydogaeth, ac yn enwedig ar y gwastadedd yn nherfynau Newmarket; ar agoriad rhai o honynt, cafwyd nifer o lestri pridd, a throwyd rhai o'r hen adfeiliau yn odynau at wasanaeth yr amaethwyr, i losgi calch, &c. Yr oedd o fewn tua milltir o Gaerwys, gareg o tua phum troedfedd o uchder, a ddefnyddid fel post llidiart, a'r argraph canlynol arni. "*Hic jacet mulier bo . . . obiit,*" ond a symudwyd rywbryd yn y ganrif ddiweddaf i erddi Dwning, yn mhlwyf Rhydwen, y pryd hwnw, yn balas Pennant yr hynafiaethydd. Darganfyddwyd nifer o fathodion copr Rhufeinig, yn perthyn i amryw o'r ymerawdwyr, yn y maes lle yr oedd yr hen gareg gerfiedig ynddo; a barna amryw mai careg fedd yr hen frenines Buddug, (*Boadicea,*) ydoedd. Y mae yma rai gweithydd mwnau yn y gymydogaeth, o gryn hynafiaeth. Y mae ffynon a elwir ffynon "St. Michael" mewn gwig gerllaw, o gryn hynodrwydd, ac y mae yr ofergoeledd o'i rhinweddau gwyrthiol, wedi bod yn denu lluaws yno i yfed o honi ar Sul y Pasg. Yr oedd Dr. Wynne, esgob Llanelwy, wedi hyny o Bath a Wells, yn enedigol o blwyf Caerwys; ac yr oedd y Parch. John Lloyd, hynafiaethydd enwog, a chyfaill mawr i Pennant, yn beriglor y plwyf; bu farw yn Mai 1793; yr oedd yr Ysgolheiges Gymreig ragorol, Angharad Llwyd, yn ferch iddo.

CAER YN ARFON, Swydd, gwlad arforawl, yn Ngogledd Cymru, yn cael ei ffiniaw ar y tu dwyreiniol gan swydd Dinbach; ar y tu deheuol, gan y parth mwyaf gogledd-orllewinol o swydd Feirionydd, a chan y rhan hono o Leinfor Sant Sior, a elwir Machwy Ceredigion (*Cardigan Bay*); ar y gorllewin, gan y rhan hono o Leinfor Sant Sior, a gynwysir yn yr ongl a ffurfir gan benrhyn Lleyn, a glan ddeheuol Môn, a elwir yn gyffredin Machwy Caer yn arfon (*Carnarvon Bay*); ar y gogledd-orllewin gan gulfor hir a chreigiog, y Menai, yr hon sydd yn ei hysgaru oddiwrth Fôn; ac ar y gogledd, gan For y Werydd. Y mae yn cyrhaedd o 52° 45′ hyd 53° 18′ Lledred Gogleddol; ac o 3° 58′ hyd 5° 12′ Hydred Gorllewinol; ac yn cynwys arwynebedd, yn ol parth-len Evans o Ogledd Cymru, o 319,520 o gyfeiriau, neu, yn agos i bum can milldir ysgwar. Ond, yn ol Deiliadeb 1861, cyfrifir ei harwynebedd yn 370,273 o gyfeiriau; a'i phoblogaeth, yn 95,694; yr hyn sydd yn dangos cynydd ar boblogaeth y sir hon mewn tri ugain mlynedd, o 54,173!

Y mae gorchestion gwladgarol cynfrodorion y wlad hon, i'r rhai, yn ystod yr ymosodiadau olynol a wnelid arnynt gan y Rhufeiniaid, y Sacsoniaid, y Normaniaid, a'r Saeson, y gweinyddai cilfachau ei mynyddoedd noddfeydd yn fynych, a'r amgylchiadau pwysig yn yr hanesion Cymreig, i'r rhai y bu yn ddrychfa, wedi gwneuthur ei hanes foreuol yn dra dyddorawl. Cafodd ei henw oddiwrth yr hen dalaeth *Arfon*, yn yr hon ei cynwysir agos oll; a'r hon a alwyd felly ar gyfrif ei sefyllfa ar gyfer Môn; a phen tref y Sir a gafodd yr enw, Caer yn Arfon, am ei bod gynt yn orsaf gaerog y Rhufeiniaid. A phan ddarostyngwyd Cymru gan Iorwerth y Cyntaf, cymhwyswyd yr enw yma at y Sir hefyd, yr hon a ffurfiwyd y pryd hyny yn sir, ac fewn yr hon y cynwysir holl hen dalaeth Arfon, oddieithr cwmmwd Ardudwy, yr hwn sydd yn swydd Feirionydd, yn nghyd a'r ychwanegiad o gwmmwd y Creuddyn, a gymerwyd o dalaeth y Berfedd-wlad. Y cynfrodorion Cymreig a elwid y *Gordofigion*, y rhai oeddynt yn meddiannu y cyfan o Ogledd Cymru. Wedi goresgyniad Prydain Ddeheuol gan y Rhufeiniaid, yr hwn oresgyniad a wthiwyd yn mlaen i'r parth yma yn gyntaf gan Suetonius Paulinus, yn fuan wedi y flwyddyn o o.c. 58, fe'i cynwysid yn y rhandir a elwid *Venedotia*, neu Gwynedd, gan wneyd i fynu ran o dalaeth *Britannia Secunda*. Dan arglwyddiaeth y Rhufeiniaid, cynwysai y diriogaeth sydd yn awr yn gwneyd i fynu swydd Gaer yn arfon, orsaf *Segontium*, yr hon oedd gerllaw tref Caer yn arfon; a gorsaf *Conovium*, yn Nghaer hên, neu Gaer Rhûn, yn agos i Aberconwy; heblaw bod dwy o ffyrdd Rhufeinig mawrion yn ei chroesi; sef y *Via Occidentalis*, y ffordd orllewinol, yr hon oedd yn dyfod iddi o orsaf Tommen y Mur (*Heriri Mons*), yn mhlwyf Ffestiniog, yn swydd Feirionydd, ac yn cyfeirio yn gymhwys i *Segontium*, sef Caer Seiont, a changen o'r *Watling Street* ogleddol, yr hon a ddeuai iddi o barthau gogledd-orllewinol swydd Dinbach, ac a ddelai heibio i *Conovium*, i *Segontium*. Bu Caer Seiont, a Deganwy, ar lan ddwyreiniol yr afon Conwy, yn agos i'w haber, yn drigleoedd tywysogion Gogledd Cymru dros hir amser, wedi eu dewis, efallai, am y gellid cael mwy o ddiogelwch i'w teuluoedd ynddynt, nag yn un man arall o fewn eu tiriogaethau, yn ystod y rhyfel-gyrchoedd yr oeddynt yn ddarostyngedig iddynt bron yn barhaus. Yr oedd gan Caswallon, tywysog cyntaf Gwynedd, wedi deoliad y Gwyddyl (Gael), oddi yma, lŷs ar Fynydd Eilian, yn mharth gogleddol Ynys Fôn; ac mewn adeg ddiweddarach ar ei oes, y mae yn ymddangos fod ganddo lŷs arall yn y Creuddyn, a elwir hyd heddyw "Bod Caswallawn;" ond tra y meddai ei fab, Maelgwyn Gwynedd, gastell yn agos i hen drigle ei dad yn Môn, yr oedd ei brif drigfa yn y Creuddyn, o fewn y swydd hon, lle y mae "Bryn Maelgwyn" yn dwyn ei enw hyd heddyw; ac y mae yn debyg iddo adeiladu amddiffynfa gref ar lan ddwyreiniol yr afon Conwy, yr hon a elwid Deganwy. Efe a waddolodd esgobaeth Bangor â thiroedd ac â rhyddfreiniau, yn y flwyddyn o.c. 552, medd rhai haneswyr; a dywaid eraill mai efe a wnaeth goleg Bangor yn esgobaeth, gan roddi tiroedd at ei chynhaliaeth, a breinlen i'w llywodraethu; ac iddo ef hefyd y priodolir sefydliad a gwaddoliad crefydd-dy yn Mhenmon, a dywedir iddo fod yn haelionus hefyd at Goleg Caergybi. Olynwyd Maelgwyn gan ei fab Rhun, yr hwn a wnelai ei brif drigfa yn yr hen orsaf Rufeinaidd, *Conovium*, yr hon yn y canlyniad a elwid ar ei enw, "Caer Rhun." Cynnaliodd y tywysog hwn ryfel faith a gwaedlyd yn erbyn Saeson Northumbria; ac ar ei ddychweliad i Gymru, rhoddodd amryw ragorfreintiau arbenig i wŷr Arfon, fel ad daledigaeth am eu cadw cyhyd oddiwrth eu teuluoedd, ar y cad-gyrchiad gogleddol hwnw.

Digitized by Google

Digitized by Google




Digitized by Google

9.




Digitized by Google

J. Bartholomew, Edin.

GLASGOW & ...

Digitized by Google

Cafodd Castell Deganwy ei ddinystrio gan fellt yn y flwyddyn 809, ac o hyny allan ni bu yn breswylfa freninol. Tu a'r flwyddyn 819, darfu i Egbert, brenin y Sacsoniaid Gorllewinol, oresgyn Gogledd Cymru, gan anrheithio yr holl wlad, hyd fynyddoedd Eryri; ac yna, efe a aeth rhagddo i ymosod ar Fôn. Wedi hyny, yn y flwyddyn 853, daeth lluoedd gelynol Burhedd, brenin y Mersiaid, i swydd Gaerynarfon, ar eu cadgyrchiad i Fôn. Pan ranwyd Cymru yn dair talaeth gan Rhodri Mawr, pennadur holl Gymru, un o ba rai a adawai efe i bob un o'i dri mab, yr oedd y diriogaeth sydd yn ffurfio y Sir hon yn bresenol, o fewn talaeth Gwynedd, eisteddle llywodraeth yr hon a sefydlid yn yr Aberffraw, ac a etifeddid gan ei fab henaf, Anarawd, yr hwn hefyd a olynodd i'r teitl o "Frenin Cymru oll." Y pryd hyny yr oedd mynyddoedd Eryri, a ffinid ar du y gogledd gan afon Conwy, ac ar y tu deheuol, gan yr afon sydd yn ymarllwys trwy y Traeth Mawr, ac yn cyrhaedd o derfyn gogleddol machwy (*bay*), Ceredigion, hyd fachwy (*bay*), Beaumaris, yn ffurfio caerfa naturiol, dros ba un y byddai y Cymry yn arfer encilio am ddiogelwch, pan wesgid yn drwm arnynt gan fyddinoedd y Saeson; a chedwid prif fylchau y mynyddau hyn gan amddiffynfeydd cedyrn. Felly yr oedd y fynedfa trwy Gonwy yn cael ei gwarchod gan amddiffynfa Deganwy, mynedfa Bwlch y ddau-faen, gan amddiffynfa Caer Rhun, Dinas Belyn, oddiar Lanbedr, yr amddiffynfa gref ar y Penmaen Mawr, ac un gref arall oedd gerllaw Aber; Gwyl-dwr yn Nant Ffrancon, a'r dinas, Llandegai; Castell Dol-badarn, a Dinas, neu Gaer Careg y Fran, yn Nant Peris; tra yr oedd y fynedfa dros y Traeth Mawr, yn cael ei hamddiffyn ar y naill du, gan gastell Harlech, ac ar y tu arall, gan gastell Criccieth, yn nghyd a gwyl-dwr yn Nghessail gyfarch, ac amddiffynfa yn Nolbenmaen; ac yr oedd trefniad y cyfan, yn amlygu medrusrwydd milwraidd mawr, yn yr oes annghelfydd hono.

Tua chanol y ddegfed ganrif, darfu i feibion Hywel Dda, tywysogion y Deheubarth, ar eu cad-gyrchiad i Wynedd, yr hon a lywodraethid y pryd hyny gan ddau dywysog o'r enw Iefaf a Iago, lwyr anrheithio y wlad hyd yr afon Conwy, ar lanau yr hon, yn agos i Lanrwst, eu cyfarfyddid gan Iago ac Iefaf, y rhai a'u llwyr orchfygasant, ac a'u hymlidiasant hyd o fewn i'w tiriogaethau eu hunain. Tu a'r flwyddyn 1055, yn nheyrnasiad Edward y Cyffeswr, darfu i'r tywysog Sacsonaidd Harold, gymeryd cadgyrchiad i Gymru, trwy orchymyn y pennadur hwnw, i ddial ar y Cymry am yr anrheithiadau a gyflawnasid ganddynt ar y cyffin-diroedd; ac efe a ddaeth hyd at fynyddoedd Eryri yn ddi wrthwynebiad; ond yn fuan wedi hyny, wedi cyttuno ar ammodau heddwch â Gruffydd, tywysog Gwynedd, a'i gyngrheiriad Algar, Iarll Caer, efe a ddychwelodd i Loegr, heb feiddio ymwthio trwy y mynyddoedd hyn. Eto yn fuan, fe gythruddwyd Edward gan y Cymry drachefn, fel y penderfynodd roddi holl alluoedd y deyrnas ar waith i oresgyn y wlad hon; ac efe a ymddiriedodd y gorchwyl i Harold. Y tywysog hwnw, wedi gwneyd cad-gyrch i Ogledd Cymru can belled a Rhuddlan, a llosgi palas y tywysog, Gruffydd ab Llewelyn ab Sitsyllt, a'i longau, a ddychwelodd at y brenin i Gaerloyw; ac yn fuan, efe a barottodd lynges gref yn Mristol, â'r hon yr hwyliodd efe o amgylch glanau Cymru, tra yr ydoedd ei frawd Tostig, gyda byddin gref o feirch-filwyr, yn treiddio trwy y rhan ogleddol o'r dywysogaeth, a'r Cymry yn dianc o'i ffordd i'w hencilfa arferol yn mynyddoedd Eryri. Pan gafodd Harold hysbysrwydd o ddynesad ei frawd Tosti, efe a barodd lanio ei draed-filwyr, fel yr ymunent â'r meirch-filwyr oeddynt dan arweiniad ei frawd; ac â'r byddinoedd unedig hyn, efe a oresgynodd lawer o'r isel-diroedd; a dywaid rhai haneswyr, ei fod ef wedi ymlid ar ol y Cymry i'r mynyddoedd, a'u gyru o'u llochesau cryfaf, â lladdfa fawr, nes eu gorfodi i ymbil am ei heddwch; ond, fel y dywaid "Carnhuanawc," nid ydyw yn debyg fod hyny yn wirionedd; canys gwelwn eu bod hwy, hyd yn nod y flwyddyn nesaf, yn gwaradwyddo ei holl gadernid ef, megis y traetha *Matthew Westminster*, mewn geiriau tra eglur:—"Yn yr un flwyddyn (1055), y Iarll Harold, gan gyfodi adeilad mawr yn nhir y Cymry, a ddarparodd yno lawer o ddefnyddiau tuag at y gwaith, fel y gallai y brenin Edward ddyfod yno i ymddifyru dros ychydig yn amser hela. Eithr Caradawc, mab i Gruffydd, yr hwn a yrasai Harold ar ffo y flwyddyn o'r blaen, gan ddyfod yno yn elyniaethol, a laddodd y gweithwyr, yn nghyd a'u meistriaid, a'r milwyr, a'r gweision; ac a gludodd ymaith y cwbl o'r hyn a gasglwyd yn nghyd yno, gyda chymaint o drafferth."

Yn y flwyddyn 1073, Gruffydd ab Cynan, ab Iago ab Idwal, yr hwn a laniasai yn ynys Fôn, a chanddo fyddin gref o filwyr Gwyddelig, er hawlio pennaduriaeth Gwynedd oddiar Trahaern ab Caradog, a groesodd gulfor y Menai i'r wlad hon. Yn wyneb yr ymosodiad annysgwyliadwy yma ar ei diriogaethau, cynnullodd Trahaern gynnifer o filwyr ar a allai, i'w wrthladd, ac wedi ei gyfarfod gerllaw Bron yr Erw, ychydig o'r tu hwnt i derfyn de-ddwyreiniol y swydd hon, yn agos i Harlech, swydd Feirionydd, bu brwydr waedlyd rhyngddynt, yn yr hon y gorchfygwyd Gruffydd ab Cynan, yr hwn a orfodwyd i encilio yn ol ar frys, dros y Menai.

Cyfranogodd Arfon yn helaeth â rhanau gogleddol eraill y dywysogaeth, yn anrheithiadau ofnadwy Hugh, Iarll Caer, tu a'r flwyddyn 1079: a'r Barwn Normanaidd galluog hwnw, a gyfododd amryw gestyll, er cadw meddiant o'r tiriogaethau a drawsfeddiannasai efe yn Ngwynedd; ac yn mysg ereill, efe a adeiladodd un gerllaw Bangor. Yn y flwyddyn 1096, ar annogaeth fradwrus Owain ab Edwyn, arglwydd Tegeingl, a rhai pennaethiaid ereill o Wynedd, goresgynwyd y wlad hon gan fyddin gref o Saeson, dan arweiniad ieirll Caer, a'r Mwythig; a chan fod Gruffydd ab Cynan, yr hwn a lywodraethai ar Wynedd y pryd hyny, yn analluog i gasglu byddin ddigon cref i'w gwrthladd mewn pryd, efe a enciliodd i'r mynyddoedd. Y ddau iarll, heb gyfarfod ag unrhyw wrthwynebiad, a arweiniasant eu byddin yn mlaen trwy Arfon, hyd at lanau y Menai, a chan fod Gruffydd erbyn hyn wedi encilio i Fôn, hwythau a groesasant gulfor Menai, i'r ynys hono, lle y triniasant y trigolion yn y modd creulonaf, a phan ddeallodd Gruffydd ab Cynan, a Chadwgan ab Bleddyn, fod Owain ab Edwyn, (yr hwn oedd yn gâr yn nghyfraith i'r ddau, ac yn brif gynghorwr y tywysog,) wedi eu bradychu, ac yn arwain y gelynion, a'u cynorthwyo yn y cad-gyrchiad yma, hwy a hwyliasant drosodd i'r Iwerddon, rhag ofn cyfarfod a mwy o fradwriaeth oddiwrth eu pobl eu hunain. Yn ystod y cad-gyrchiad yma o'r eiddo Iarll Caer, y darfu iddo ail-adeiladu castell Deganwy, hen drigle y tywysogion Cymreig.

Digitized by Google

Yn y flwyddyn 1115, cyttunai Gruffydd ab Cynan, tywysog Gwynedd, â Harri y Cyntaf, brenin Lloegr, y byddai iddo draddodi Gruffydd, mab Rhys ab Tewdwr, tywysog y Deheubarth, yr hwn a ddaethai i'w lŷs yn Aberffraw am noddfa, i'w ddwylaw; ond gan i Gruffydd ab Rhŷs gael hysbysrwydd o'i fwriad, efe a adawodd ei lŷs yn ddiattreg; ond can gynted ag y deallodd Gruffydd ab Cynan, pa le y llechai, efe a anfonodd fintai o wŷr meirch i'w gymeryd yn garcharor, a'i ddwyn yn ol i'w lŷs ef; ond yn ffodus i'r tywysog ieuanc, efe a gyrhaeddodd i noddfa yn eglwys Aberdaron, cyn gallu o honynt ei oddiweddyd; ac er i dywysog Gwynedd orchymyn i'w filwyr ei gymeryd oddiyno trwy drais, y myneich a safent mor gyndyn dros iawnderau eu sefydliad, ac a wrthwynebasant y milwyr mor bybyr ac egnïol, fel na's gallent gyflawni gorchymynion eu harglwydd; a chefnogwyr y tywysog ieuanc a'i cymerasant ar hyd nos i'r Deheubarth.

Yn y flwyddyn 1210, cymerodd Iarll Caer gadgyrchiad i Wynedd, ac ail adeiladodd gastell Deganwy, yr hwn a ddinystriasid ychydig cyn hyny gan y tywysog Llewelyn ab Iorwerth; a'r hwn yn ad-daledigaeth am hyn, a oresgynodd diriogaethau yr iarll, ac a anrheithiodd lawer o honynt. Y cadgyrchiad eofn yma o eiddo y Cymry, a gythruddodd y pennadur Seis'nig, *John*, yn fawr, yr hwn er dïal ar Llewelyn, a arweiniodd fyddin fawr i Wynedd; a chan fod Llewelyn yn barnu mai doethineb iddo oedd encilio o ffordd y dymhestl, efe a barodd i'w ddeiliaid yn y berfedd-wlad, y rhai oeddynt yn fwyaf agored i ymosodiad y gelyn, symud eu hanifeiliaid dros afon Gonwy i fynyddoedd Eryri. Deuai y fyddin Seis'nig rhagddi, gyda glan y Môr, hyd gastell Deganwy, lle y gwersyllodd dros ryw yspaid. Ond yr oedd Llewelyn, a mintai o wŷr ysgafn-droed yn ei ganlyn, yn gwylio mor fanol ar eu symudiadau, ac yn tori ymaith eu hadgyflenwadau o arlwyon o Loegr, mor llwyr, fel y gwasgwyd y brenin a'i fyddinoedd i'r cyfyngder mwyaf. Pa bryd bynag yr anturiai rhai o'r milwyr allan o'r gwersyll, disgynid arnynt yn annysgwyliadwy gan finteioedd o'r Cymry a lechent yn y coedwigoedd. O'r diwedd, barnodd y brenin yn ddoeth iddo encilio o'r cyfryw sefyllfa beryglus; ac felly efe a ddychwelodd i Loegr, wedi cael ei golledu yn fawr. Ond, wedi adgyfnerthu ei fyddinoedd yn ddirfawr, efe a roddes ail gais i oresgyn Gwynedd yn mhen ychydig fisoedd; ac wedi croesi yr afon Conwy, efe a wersyllodd ar ei glan; ac a anfonodd ran o'i fyddin o'r fan hono, dan dywysiad arweinwyr cyfarwydd, i losgi Bangor, yr hyn a wnaethant, gan gymeryd Rotbert yr esgob, yn garcharor oddi ger bron yr allor fawr. Wedi hyn, anfonodd y tywysog Llewelyn ei wraig, *Joan*, yr hon oedd yn ferch o ordderch i'r brenin *John*, i geisio ammodau heddwch gan ei thad, yr hyn a ganiattawyd, yn unig ar ammodau tra chelyd.

Fel yr oedd y tywysog Llewelyn ab Iorwerth yn heneiddo, cymerth ei fab Dafydd, fantais ar wendidau cynyddol ei dad, a thraws-feddiannodd ran fawr o'r tiriogaethau a berthynent i'w frawd Gruffydd, gan adael Cantref Lleyn yn unig yn ei feddiant; ac er tawelu y derfysg a achlysurid trwy hyn, cynnygiodd Esgob Bangor i gynnadledd gael ei chynal ar yr achos rhwng y ddau dywysog. Yn y canlyniad i'r cyfryngiad yma, cychwynodd Gruffydd ar ei daith o Leyn, yn nghymdeithas yr Esgob, i gyfarfod ei frawd; ond Dafydd a barodd ei ddal ef ar y ffordd, a'i garcharu yn Nghastell Criccieth, yr hyn a achlysurodd ryfel gartrefol, faith, a gwaedlyd. Yn fuan ar ol hyn bu farw Llewelyn, a'i fab ieuangaf, Dafydd, a ddaeth i'r llywodraeth ar ei ol, yr hwn yn annghyfiawn, a gadwodd ei frawd Gruffydd yn garcharor tra fu efe byw.

Ar oresgyniad Cymru gan Harri y Trydydd, yn y flwyddyn 1245, gan fod y tywysog Dafydd yn analluog i'w wrthsefyll yn y maes agored, efe a giliodd i fynyddoedd Eryri, heb roddi unrhyw attalfa ar ffordd cad-ymdeithiad y brenin hyd oni ddaeth efe at afon Gonwy, lle y gwersyllodd y brenin, heb feiddio myned dros yr afon hono, ac ymwthio i fylchau y mynyddoedd; tra yr oedd byddinoedd y Cymry yn gwibio yn finteioedd bychain o'i amgylch, yn gwylio ar bob cyfleusdra i gael mantais arno. Cymerodd y brenin y gorchwyl o ail adeiladu castell Deganwy, yr hwn a ddinystriasid drachefn gan y Cymry: ond ni safai y Cymry yn edrychwyr segur ar orchwyl o natur mor elynol; a'r hyn os y goddefid ei gwblhau, a fyddai yn debyg o roddi ergyd marwol i'w hannibyniaeth. Yn ystod y deng wythnos y bu Harri ar waith yn adeiladu yr amddiffynfa hon, dyoddefai ei fyddin, yr hon a wersyllai yn y maes agored, galedi dirfawr, trwy fod eu dillad yn deneuon, ac nad oedd iddynt nemawr gysgod ar yr hin oer a gymerodd le ar derfyn yr haf; ac oddiwrth brinder ymborth, o'r hwn ni's gallent gael ond cyflenwad tra ansier o Gaerlleon, neu o'r Iwerddon; a thrwy eu bod yn cael eu blino yn ddirfawr, a'u lleihau mewn nifer, trwy yr ymdrechiadau parhaus a wnelid gan y Cymry i dori ymaith eu minteioedd crwydredig, ac i wneyd rhuthriadau ar eu gwersyll yn y nos; ond, wedi un o'r ymgyrchoedd hyny, yn yr hon y bu y Saeson yn fuddugol, hwy a ddygasant benau yn agos i gant o'r Cymry, mewn gorfoledd i'r gwersyll. Tra yr oedd y fyddin freninol yn y cyflwr peryglus yma, cyrhaeddodd llong o'r Iwerddon, yn llwythog o arlwyon at eu cynhaliaeth; ond trwy anwyliadwriaeth y morwyr, hi a redodd ar y traeth, yr ochr orllewinol i safn yr afon, pan ydoedd yn treio. Y Cymry yn ddiesgeulus a brysurasant i gymeryd meddiant o honi; ond fe'u gwrthladdid yn bybyr gan lywydd y llong, Syr Walter Bisset, yr hwn a ddiffynai y llestr yn wrol hyd oni ddaeth adgyfnerthion o Gymry y cyffin-diroedd, y rhai oeddynt yn ngwasanaeth brenin Lloegr, dros yr afon yn gymhorth iddo. Wedi gwrthladd yr ymosodwyr, y blaid Seis'nig a'u hymlidiasant am oddeutu chwe milldir o ffordd, gan ladd llawer o honynt; ac ar eu dychweliad, yn falch o'u llwyddiant, hwy a yspeiliasant fonachlog Aberconwy, o'i llyfrau a'i llestri arian; ac a roddasant ranau o'r adeiladau ar dân. Y Cymry, wedi eu cythruddo i fin gwallgofrwydd, a ruthrasant i waered o'r mynyddoedd, i amddiffyn yr hen adail hybarchus, lle y gwnelsid claddfa eu tywysogion mor ddiweddar; a chan fod y Saeson wedi ymlwytho â'r yspail, hwy a laddasant lawer o honynt, ac a archollasant ereill, a chymerasant lawer o honynt yn garcharorion, tra y rhuthrai y gweddill i'r afon, er dianc rhag cynddaredd eu hymlidwyr, ac felly darfu am danynt yn y dwfr. Llawer o fonedd uchel-radd, a thua chant o wŷr cyffredin o'r Saeson, a gwympasant trwy y cleddyf ar yr achlysur yma. Ar y dechreu, rhoddid y carcharorion mewn cadwraeth yn unig; ond, gan i'r Cymry glywed fod eu gelynion wedi rhoddi rhai o bennaethiaid eu cenedl i farwolaeth yn ddiweddar, hwy a grogasant yr holl garcharorion

Digitized by Google

wedi hyny, ac yn eu cynddaredd orphwyllog, a dorasant eu penau, ac a ddarniasant eu cyrph, gan daflu y darnau i'r afon Gonwy. Yr oedd llawer o'r carcharorion crybwylledig yn Gymry o genedl, dan arglwyddi Powys, y rhai oeddynt wedi ymuno a gelynion eu gwlad, ac am hyny a gaseid a châs angerddol gan wŷr Gwynedd, y rhai a'u cyfrifent yn fradwyr eu cenedl. Gwnaed ymosodiad llymdost arall ar y llestr, yr hon oedd eto ar y Traeth, ac fe'i hamddiffynid yn ddewr-wych hyd haner nôs, pan ar godiad y llanw y bu raid i'r Cymry gilio oddiwrthi, ac yn ystod y nôs, y gwŷr a lywyddid gan Syr Walter Bisset, a adawsant y llong, ac a ddïangasant i'r gwersyll Seis'nig. Yn y boreu, wedi ei dyfod yn drai, y Cymry a ddychwelasant at y llong, a phan ganfuant ei bod wedi ei gadael, hwy a gludasant ymaith agos y cyfan o'r llwyth, llawer o'r hwn oedd yn gynwysedig o win, ac wedi rhoddi y llong ar dân, hwy a enciliasant yn ddïogel; yr unig ran o'r llwyth a achubwyd gan y Saeson, oedd saith llestraid o win, y rhai a dynwyd allan o ran o'r llong oedd heb ei difa gan y tân. O'r diwedd, y brenin Harri a orphenodd amddiffynfa bwysig Deganwy, er holl ymdrechion y Cymry i'w attal; ac efe a gyfleodd warch-lu cryf ynddi, a rhoddes at eu gwasanaeth gyflawnder o bob math o arlwyon milwraidd; ac yna dychwelodd ei hun i Loegr, gyda gweddill ei fyddin, oddeutu diwedd yr Hydref.

Yr oedd tiriogaethau y tywysog Cymreig yn awr, wedi eu cyfyngu i swyddi Meironydd, Caer yn arfon, a Môn; yn nghyd a'r rhanau mwyaf diffrwyth o'r berfedd-wlad; a chan suddo dan bwys ei anffodion, bu Dafydd farw yn Aber, ei brif lŷs trigiannol, ac efe a gladdwyd yn mynachlog Aber-conwy. Yn ystod y rhawd mwy llwyddiannus a gymerodd helyntion y Cymry yn mlyneddoedd cyntaf teyrnasiad ei olynydd, Llewelyn ab Gruffydd, y tywysog hwnw a osododd warchae ar Gastell newydd Deganwy, ar berchenogaeth o'r hwn, y gwyddai yn dda fod tynged ei wlad yn ymddibynu i fesur mawr. A Harri, gan ofni am ddyogelwch yr amddiffynfa bwysig hon, a gyrchai ar frys i'w gynnorthwyo; ac ar ddynesaad y fyddin Seis'nig, Llewelyn a gyfododd y gwarchae, ac a enciliodd dros y Conwy i fynyddoedd Eryri, gan ofalu am dori y pontydd, rhoddi tramgwyddiadau ar y ffordd, aredig y gweirgloddiau, gwneyd y rhydau yn annrhamwyadwy, a symud y gwragedd a'r plant, a'u holl anifeiliaid, a'u harlwyon, allan o'r wlad gyfnesol. Ni feiddiodd y brenin ymwthio yn mhellach, mwy nag ar y cad-gyrchiad o'r blaen; ond gallodd ei amddiffyn ei hun yn Neganwy, hyd Wyl Mihangel, trwy gynnorthwy llynges y Pum Porthladd (*Cinque Ports*), yr hon a ddygai arlwyon i'w fyddin. Ond, gan fod y gauaf yn dynesu, a'i fod yntau wedi dyoddef yn dost oddiwrth ymosodiad ffrochwyllt a wnelid ar ei fyddin gan y Cymry o'r mynyddoedd, bu raid i'r brenin Harri adael y maes o'r diwedd i'r tywysog Llewelyn, a dychwelyd i Gaer yn ddisymwth a gwaradwyddus. Yn fuan ar ol hyny llwyddodd Llewelyn i gymeryd amddiffynfa bwysig Deganwy, yr hon a ddystrywiodd efe yn ddïoed; ond yn y flwyddyn 1263, efe a orfodwyd unwaith drachefn i ymofyn am loches yn mynyddoedd Eryri, gan ddynesâd byddin Seis'nig, dan arweiniad y tywysog Edward, yr hwn pa fodd bynag, a alwyd yn ol o'i gad-gyrchiad, gan amgylchiadau pwysig eraill.

Yn y flwyddyn 1277, wedi ei goroni yn frenin Lloegr, dan y teitl, Edward y Cyntaf, efe a ddygodd fyddin gref hyd Aberconwy, a bu raid i Lewelyn gilio i'r mynyddoedd drachefn; ond y brenin a anfonodd ran o'i fyddin mewn llongau i Ynys Fôn, er rhoddi attalfa effeithiol ar ddygiad ymborth o'r wlad hono, i gynnal Llewelyn a'i wŷr, yn eu celfeydd yn y mynyddoedd; a bu raid i'r tywysog Cymreig o'r diwedd, gan wasgiad newyn arno ef a'i wŷr, anfon i ofyn ammodau heddwch gan y brenin, ac ammodau celyd, a darostyngiadol iawn a roddwyd iddo ef; un o ba rai ydoedd, y byddai i'r holl farwniaid yn Nghymru, ddal eu tiriogaethau oddiwrth y brenin yn uniongyrchol, oddieithr pum barwn Eryri yn unig, y rhai oeddynt i gydnabod Llewelyn fel eu harglwydd, tra fyddai ef byw; ond wedi ei farwolaeth ef, yr oeddynt hwythau hefyd i-ddal eu hettifeddiaethau oddiwrth y brenin; ac ammod arall oedd, fod cantref y Rhos, yn yr hwn y safai castell Deganwy, a phedwar o rai eraill, i gael eu rhoddi i fynu i'r pennadur Seisnig.

Ar ail oresgyniad Cymru gan Edward y Cyntaf, yn ystod y cylafaredd aneffeithiol a ddygid yn mlaen rhwng y brenin a thywysog Gwynedd, yr oedd Llewelyn yn aros yn ei lŷs yn Aber, tra yr oedd y fyddin Gymreig yn gwersyllu, efallai ar y bryniau o'r tu cefn i'r Penmaen Mawr, lle yr oedd yr amddiffynfa grefaf a feddai y Cymry yn mynyddoedd Eryri. Tua dechreu Tachwedd, daeth Edward rhagddo hyd Aberconwy, lle y gwersyllodd efe ei fyddin mewn sefyllfa fanteisiol; ei wŷr meirch a wersyllent ar y gwastadedd islaw y mynyddoedd, a'i draed-filwyr ar lethrau y bryniau, dan gysgod y coed. Gan fod Edward yn methu tynu Llewelyn allan i frwydr, efe a anfonodd ran fawr o'i fyddin, mewn llongau ar hyd y mor, i gymeryd meddiant o Ynys Fôn; a chyd a'r bwriad o gymeryd meddiant o'r mynyddoedd o'r tu ol i'r fyddin Gymreig, neu o agor cymundeb â'r rhan arall o'r fyddin Seis'nig, efe a barodd wneuthur pont o fadau dros y rhan gulaf o'r Menai, yn y lle a elwir "Moel y don;" gan gydio y badau â chadwyn, a gwneyd banllawr o fyrddau arnynt, digon llydan i driugain o wŷr i gerdded yn gyfochrog. Er gwrthweithio y bwriad hwn, cyfodai y Cymry wrthgloddiau o fewn ychydig bellder o'r Menai yn swydd Gaer yn arfon, er attal dyfodiad y gelyn yn mlaen o'r cyfeiriad yma, ac er dïogelu y mynedfeydd i'w mynyddoedd. Cyn bod y bont wedi ei llawn orphen, aeth mintai o Saeson drosti, yn cael ei dilyn gan yr arglwyddi Gwasgwynaidd, y rhai, yn nghyda byddin o filwyr Hispaenaidd oeddynt ar y pryd yn ngwasanaeth Edward, y rhai a ddiystyrent y Cymry am eu bod wedi goddef iddynt oresgyn Môn, a'i meddiannu mor rwydd. Y rhai hyn a aethant drosodd yn ddïofal ar drai, i gael golwg ar yr amddiffynfeydd a gyfodai y gelyn, neu i wneyd arddangosiad ymffrostgar o'u dewrder eu hunain. Rhisiard ab Walwyn, yr hwn a lywyddai y Cymry ar ochr Arfon, gan ei fod yn gwybod y deuai y llanw i fewn yn fuan, ac y cauai ffordd y Saeson i'w pont anorphenol, a arhosai yn dawel o fewn ei wrthgloddiau, heb roddi unrhyw wrthwynebiad i'w dyfodiad drosodd, na'u mynediad i fynu i'r wlad; ond can gynted ag y cyfododd y llanw yn ddigon uchel, fel ag i attal unrhyw dramwyad rhwng Mon ac Arfon, y Cymry a ruthrasant i waered o'r mynyddoedd yn dorfeydd mawrion, a chyda chadfloeddiadau erch, a ruthrasant ar eu gelynion, ac a'u hymlidiasant a lladdfa fawr hyd lan yr afon, yn yr hon y boddwyd llawer o honynt dan bwysau eu harfogaeth. Yn y frwydr hon, collodd pymtheg o

farchogion (*knights*), deuddeg ar hugain o ysweinjaid, a mil o filwyr cyffredin, eu bywyd, naill ai trwy y cleddyf, neu trwy foddi yn y Menai. Bu arglwydd Latimer, maes-lywydd y Saeson, mor ffodus a gallu cyrhaedd y bont, trwy gyflymder ei farch. Yr oedd sefyllfa Edward yn dyfod yn fwy peryglus bob dydd yn awr; heblaw y golled hon a gawsai, yr oedd y gauaf yn nesau; ei ddwy fyddin ar wahan, ac heb allu cynal cymmundeb a'u gilydd ar y tir, a'i amcan o gam-arwain y gelyn wedi methu; tra yr ydoedd y Cymry wedi eu hamddiffyn eu hunain yn y mynyddoedd, ac yn meddu helaethrwydd o ymborth; fel y barnodd y pennadur Seis'nig mai doethach oedd iddo ef gilio yn ol i Ruddlan, yn swydd Fflint. Ond marwolaeth ddisymwth ac anamserol Llewelyn, yn fuan wedi hyny, yn agos i Lanfair yn Muallt, yn y Deheudir, a daenodd gwmwl du dros obeithion dysglaer y Cymry; a'r brenin Edward, pan welodd fod Llewelyn wedi cwympo, a benderfynodd wasgu yn fwy egnïol ar y fyddin Gymreig a wersyllai yn mynyddoedd Eryri; gan ddwyn ei fyddin ei hun i gymmydogaeth Aberconwy, a gorchymyn i'r fyddin oedd ganddo yn Môn, groesi y Menai, a threiddio i'r mynydd-dir o ochr Caer yn arfon.

Y pryd hwn, Dafydd, brawd Llewelyn, a'i hystyriai ei hun yn meddu hawl gyfiawn i olynu ei frawd fel tywysog llywodraethol Gwynedd; a chan na farnai yn ddoeth dan yr amgylchiadau, anturio brwydr gyffredinol â'r brenin, efe a ymroddai ar y dechreu, i gadw meddiant o'r holl amddiffynfeydd oeddynt yn mylchau mynyddoedd Eryri; ond yn fuan wedi hyny, efe a wnaeth ymosodiadau mwy uniongyrchol ar luoedd y brenin; eithr yn hyny ni bu yn llwyddiannus. Rhoddodd y tywysog warchodlu cryf yn Nghastell Dolbadarn, adfeilion yr hwn sydd yn aros hyd heddyw yn nghymmydogaeth Llanberis: yr oedd natur a chelfyddyd wedi gwneyd yr amddiffynfa hon yn hynod o gref; ond mor ddigalon oedd y Cymry, wedi colli eu hanwyl Lewelyn, yr unig dywysog yr oedd ganddynt ymddiried trwyadl ynddo, fel y rhoddasant y castell hwn i fynu i'r brenin, wedi bod dan warchae caeth dros beth amser, a phob amddiffynfa arall yn y wlad hono, a roddwyd i fynu yn ebrwydd. Y Cymry a ffoent mewn anobaith ar bob llaw, a chan fod bylchau y mynyddoedd wedi eu gadael heb neb i'w gwarchod, cyflëai Edward ei feirch-filwyr wrth odreu y mynyddoedd, a chan adael nifer o filwyr yn y bylchau i attal y rhai a fynent ffoi, efe a dreiddiodd gyda gweddill ei fyddin, i gilfachau mwyaf neillduedig Eryri, gan losgi y tai, a lladd llawer o'r trigolion, y rhai a gefid yn llechu yn y llanerchau mwyaf anhygyrch, neu a welid yn ffoi yno. Wedi darostwng yr holl randiroedd mynyddig, cynnullodd Edward ei fyddinoedd gwasgaredig yn nghyd, ac aeth rhagddo gyd a'r gorchwyl hawdd o ddarostwng y gwastadoedd; ac yn y cadgyrchiad yma, fe laddwyd amryw filoedd o'r trigolion.

Ni's gallwn ddarlunio y cyfnod isel yma ar ein cenedl, yn well nag yn ymadroddion y diweddar "Carnhuanawc;"—"Ond y brenin yn awr, gwedi cynull ei fyddin, a gyrchodd tuag at Eryri, ac a ymosododd ar yr ardal hono gyda dirfawr erwinder, gan anfon ei luoedd o amgylch y wlad, yn finteioedd cedyrn, a threiddio i'r mynyddoedd, fel na allai y dyrnaid pobl a amddiffynent y lleoedd hyny, barhau yn hwy i wrthladd yr ymosodiad. Y gelynion a gymerasant y cyfan o'r cestyll a oeddynt yn meddiant Dafydd, a gorfu arno yntau a'i bleidwyr gilio i ryw leoedd ereill, llai cyfannedd, gan fudo o fan i fan, fel ag y byddai angen. Ond eto pobl Eryri ni ymostyngasant; eithr cynaliasant eu breintiau mewn modd tra anrhydeddus, gan beri iddeu gelynion brynu yn ddrud bob modfedd o dir a enillasent yno. Eithr yn y diwedd, llwyddodd rhifedi yn erbyn dewrder; a lluoedd y brenin a oeddynt mewn meddiant o'r holl lefydd caerog, ac amddiffynfeydd y wlad; a phobl Eryri, a rhai ereill o'r Cymry, y rhai a hoffent rydd-did helbulus yn hytrach na chaethiwed, a orfuant gilio er dïogeliad i'r llochesau mwyaf anial; eithr nid cyn ymdrechiadau egnïol yn mhlaid eu breintiau, a cholli tair mil o wyr rhyfel yn yr achos. Yn yr amser hwn o gyfyngdra, yr oedd Dafydd hefyd yn gorfod dïogelu ei hun a'i dylwyth yn yr un modd, gan ymguddio yn y coedydd a'r corsydd. Ond yn y diwedd, syrthiodd yn ysglyfaeth i'r Saeson; canys bradychwyd ef iddeu dwylaw gan rai o'i ddeiliaid ei hun, enwau pa rai a ddywedir, oeddynt *Einion ap Ifor*, a *Goronwy ap Dafydd;* y sawl, gyd a'u meibion, a afaelasant arnaw lle yr oedd yn ymguddio mewn corsle, ac a'i dygasant, gyd a'i wraig a'i ddau fab, a'i saith ferch, yn gaeth i gastell *Rhuddlan*, lle yr oedd y brenin yn trigo ar y pryd."[1]

Bellach, wedi llwyr ddarostwng y wlad, er rhoddi attalfa ar unrhyw wrthryfeloedd yn mysg y brodorion mewn amser dyfodol, parodd Edward adeiladu dau gastell mawr ac ysplenydd,—Aberconwy, a Chaer yn arfon; gan roddi gwarchod-lu cryf yn mhob un; ac yn yr olaf, yn fuan wedi hyny y ganwyd tywysog Cymru, y cyntaf o waedoliaeth Seis'nig, wedi hyny a fu yn frenin, dan yr enw Edward yr Ail. Y brenin hefyd a wnaeth Gaer yn arfon yn dref gorphoriaethol, gan roddi iddi lawer o ragorfreintiau; ac wedi trefnu helyntion ei diriogaeth newydd, ac yn ei feddwl ei hunan, sicrhau uniad Cymru a Lloegr, efe a roddodd gyhoeddiad allan, y cynhelid rhithgyrch (*tournament*) yn Nefyn, ar oror orllewinol penrhyn Lleyn; i'r hon y daeth lluaws mawr o farchogion Seis'nig, a thramor. Ar yr ail dydd o Ionawr, 1285, anfonodd Edward ysgrif-wys allan o *Bristol*, lle yr oedd efe yn trigo ar y pryd, yn ol yr hon yr oedd preswylwyr Caer yn arfon, Aberconwy, a'r eiddo rhai trefydd ereill, yn cael eu rhyddau dros byth oddiwrth dalu y dreth a elwid dinas-dreth (*talliage*). Ond, gan i ryfel dori allan yn fuan rhyngddo a brenin Ffrainc, efe a geisiodd drethu ei ddeiliaid newydd, y Cymry, yn y flwyddyn 1294; ond bu hyny yn achlysur o dri gwrthryfeliad mewn gwahanol ranau o'r dywysogaeth, agos ar yr un pryd; y rhai nid ymddangosent yn cael eu dwyn yn mlaen dan unrhyw egwyddor o gydweithrediad. Swydd Gaer yn arfon oedd prif gemmaes un o'r gwrthryfeliadau hyn, yr hwn a flaenorid gan Madoc, mab o orddereh i Llewelyn, tywysog dewr-wych diweddar y genedl; a honai Madoc ei fod yn hawlio y teitl o dywysog, ar gyfrif ei haniad. Y gwrthryfelwyr a ddaliasant Syr Roger de Pulesdon, (boneddwr o awdurdod fawr yn y parth hwn, ac un a safai yn uchel yn ffafr y brenin Edward, ac a awdurdodasid ganddo i gyfodi y bedwaredd ran ar ddeg o eiddo symudol y bobl, yr hwn a gyfanneddai y pryd hyny mewn palas yn nhref Caer yn arfon, a elwir ar ei enw, Plas Pulesdon,) a pharasant ei grogi, ac wedi hyny dori ei ben; a'i holl gymdeithion yn nghasgliad y dreth

[1] *Hanes Cymru*, t. d. 732.

atgas hon, a gawsant driniaeth gyffelyb. Tua chanol mis Gorphenaf, aeth Madoc a'i wŷr yn erbyn Caer yn arfon, yr hon oedd yn llawn o Saeson ar y pryd, y rhai a ymgynnullasent yno i ffair fawr, ac wedi cymeryd meddiant o'r lle, efe a'u lladdodd oll yn ddi arbed, a yspeiliodd y dref, ac a'i rhoddes ar dân, ac a gymerth y castell. Llosgwyd llawer o drefi a phentrefi eraill hefyd, y rhai a berthynent i wŷr y brenin; ac mor egnïol a llwyddianus oedd Madoc yn ei rwysg, fel yr enillodd feddiant o'r oll o ynys Fôn yn fuan, cystal a rhanau helaeth o Arfon. Parodd gwrthryfel mor feiddgar, ac a ymledai mor gyflym, i'r brenin roddi i fynu ei gad-gyrchiad bwriadol i'r Cyfandir, a galw yn ol ei fyddinoedd oeddynt yn barod i hwylio drosodd; a chan eu harwain at y Gonwy, efe a groesodd yr afon hono gyd a rhan o'i fyddin, i Aberconwy, ac aeth i'r castell i aros am y gweddill o'i fyddin, yr hon oedd yn dilyn ar ei ol; wedi colli amryw fenau llwythog o ymborth wrth groesi yr afon, y rhai a attaliwyd ar y ffordd gan y Cymry a ddisgynent yn finteioedd eofn o'r mynyddoedd; y rhai hefyd a warchaeasant ar y brenin a'i wŷr yn y castell. Ac er ychwanegiad at berygl y brenin, cyfodasai y llif yn ddisymwth yn afon Conwy, fel na allai ei wŷr ddyfod drosodd o'r lan arall i'w gynnorthwyo. Yn y cyfamser, yr oedd y brenin mewn cyfyngder mawr, gan fod y fath brinder lluniaeth yn y castell, fel yr oedd ef ei hunan yn gorfod ymborthi ar y bara garw, a'r cig hallt oedd yn nghadw yn y castell, fel y milwyr cyffredin; ac yn lle diod, rhaid oedd iddo yfed dwfr yn gymysgedig âg ychydig o fêl. Ond o'r diwedd, gostyngodd y llif yn yr afon, bron mor ddisymwth ag y cyfodasai; a gweddill byddinoedd y brenin a ddaethant drosodd i'w gynorthwyo; a chan nad oedd y Cymry yn ddigon lluosog i gyfarfod y fath gadernid mewn brwydr, gadawsant y castell, ac enciliasant i fynyddoedd Eryri; a'r brenin a dreuliodd y gwyliau Nadolig canlynol yn nghastell Conwy.

Tra yr oedd y fyddin Seis'nig yn gorwedd yma, *William de Bello Campo*, (*Beau champ*,) Iarll Warwick wedi cael hysbysrwydd fod nifer mawr o'r Cymry wedi ymgynnull mewn maes rhwng dwy allt o goed, a gymerodd gyd ag ef lu dewisedig o feirchfilwyr, gyd ag arblastrwyr a saethyddion, a chan ddyfod arnynt yn y nos yn ddiarwybod iddynt, a'u hamgylchodd ar bob tu. Ar hyn y Cymry, er nad oeddynt yn dysgwyl y fath ymosodiad, a osodasant fonau eu gwaywffyn yn y ddaear, ac a safasant yn nghyd i dderbyn rhuthr y marchwyr. A chan fod meirch-filwyr Warwick yn methu gwneyd unrhyw argraff ar eu rhengau dïysgog, efe a gyfleodd arblastrwr bob yn ail a'r march-filwyr, a thrwy saethau y rhai hyn, lladdwyd llawer o'r Cymry, ac yna, y meirch-filwyr a ruthrasant ar y lleill, ac a'u gorthrechasant â galanastra ddi gyffelyb. Ar ol y fuddugoliaeth hon, gan nad oedd Edward yn canfod yr un gelyn i'w wrthsefyll, efe a aeth rhagddo tua glanau y Menai, yr hon a groesodd i Ynys Fôn. Yna, wedi rhoddi dynion ar waith i losgi coedwigoedd swydd Gaer yn arfon, fel y gallai ei swyddogion a'i wŷr, dramwy y wlad yn fwy di berygl, a chosbi yn llymdost rai o'r sawl a fuasai a llaw benaf ganddynt yn llofruddiad Roger de Puleston, efe a ddychwelodd i Loegr gyd a'i fyddin, heb ddarostwng Madoc, blaenor y gwrthryfel i ufudd-dod, na sicrhau ei garchariad ychwaith. Ac felly, ar ol ymadawiad y brenin, dechreuodd Madoc ail gynnull ei gefnogwyr; a lluaws o'i gyd genedl a gyrchent ato yn barhaus; ac efe a wnaeth gad-gyrchiad chwyrn i'r cyffindiroedd ar ymylau Gwynedd, ac wedi cymeryd tref Croesoswallt, efe a anrheithiodd yr holl wlad oddiamgylch; ar ol hyny gorthrechodd Arglwydd *L'Estrange*, mewn brwydr yn agos i'r Cnwcin, lle yr oedd ei gastell; a thrachefn, gorchfygodd fyddin arall o'r Saeson mewn brwydr, ac aeth rhagddo yn fuddugoliaethus tu a'r Amwythig; ond erbyn hyn yr oedd arglwyddi y Cyffindiroedd wedi uno eu lluoedd i'w wrthsefyll, fel y dygent fyddin fawr a chref i'w erbyn; a'r ddwy fyddin a gyfarfuant ar Gefn Digoll, ar derfyn swydd yr Amwythig, lle y bu brwydr faith a gwaedlyd; ond yn y diwedd, y Saeson a orfuant, a chymerwyd Madoc yn garcharor; a dygwyd ef i Lundain, lle y cafodd ei garcharu yn barhaus yn y tŵr.

Yn y flwyddyn 1402, gwarchaewyd ar Gaer yn arfon gan fyddin o wrthryfelwyr dan arweiniad yr enwog Owain Glyndwr; ond fe'i hamddiffynid yn ddewr-wych dros y brenin Harri y Pedwerydd, gan Iefan ab Meredydd, i'r hwn, yn nghyda Meredydd ab Hwlcyn Llwyd o'r Glyn Llifon, dan lywyddiaeth Cadben Seis'nig, yr ymddiriedasid ei chadwraeth; ac yn yr un flwyddyn yspeiliwyd a drylliwyd eglwys gadeiriol Bangor gan yr unrhyw wrthryfelwyr. Yn ystod yr ymrysonfa faith rhwng Owain Glyndwr â'r brenin, bu castell Dolbadarn, ger Llanberis, yn achlysurol yn meddiant y naill blaid, a'r llall; a llawer brwydr galed a ymladdwyd am ei berchenogaeth, fel y prif allwedd i fynyddoedd Eryri. Ar doriad allan y rhyfel-gartrefol yn yr ail ganrif ar bymtheg, aeth Dr. John Williams, archesgob Caerefrog, i draul fawr i adgyweirio castell Aberconwy, a gosod gwarchodlu ynddo, i'w gadw dros y brenin; tra ar y llaw arall y cymerid meddiant ar gastell Caer yn arfon dros y senedd, yn 1644, gan Cadben Swanley, yr hwn a gymerodd bedwar cant o garcharorion ynddo, ac ystôr fawr o offer rhyfel. Yn Mai, 1645, darfu i'r Tywysog Rupert ddwyn llywyddiaeth castell Aberconwy oddiar Archesgob Caerefrog, a hyny dan amgylchiadau niweidiol a thramgwyddol iawn i'w arglwyddiaeth; yr hwn ar hyny, wedi cael cynygiad o amddiffyniad gan y Maeslywydd Mytton, a ymunodd a'r blaid a wrthwynebai efe o'r blaen: ac a gynnorthwyodd Mytton yn ei ymosodiad ar Aberconwy, yr hon a gymerwyd trwy ruthr ar y 15ed o Awst, 1646; a rhoddwyd y castell i fynu ar y 10fed o'r Tachwedd canlynol. Yn y flwyddyn hon hefyd y bu milwyr y senedd, dan lywyddiaeth y Maeslywyddion Mytton a Laugharne yn gwarchae ar dref Caer yn arfon, yr hon a roddwyd i fynu ar ammodau anrhydeddus gan y llywydd, Arglwydd Byron. Yn y flwyddyn 1648, gwarchaewyd yma ar y Maeslywydd Mytton yntau yn ei dro, gan y pleidiwr selog hwnw i'r brenin, Syr John Owen o'r Clenennau, a byddin fechan; ond, pan ei hysbyswyd bod y Milwriaid Carter a Twisselton, gyda byddin lawer crefach, yn prysuro i godi y gwarchae, efe a roddes y gwarchaead i fynu, ac a aeth i'w cyfarfod, ac ar y Dalar Hir, rhwng Llandegai ac Aber-gwyn-gregyn, y cyfarfu y ddwy fyddin; ac yn y frwydr ffyrnig a ymladdwyd rhyngddynt, gorchfygwyd Syr John Owen, ac efe a gymerwyd yn garcharor; ac yn y canlyniad i hyny, ymostyngodd holl Ogledd Cymru i'r Senedd.

Y mae y wlad hon yn esgobaeth Bangor (oddieithr plwyfi Eglwys Rhos, Llangwstenyn, a Llysfaen, y

Digitized by Google

rhai ydynt yn Esgobaeth Llanelwy), ac yn nhalaeth Caergaint: y mae rhan o honi yn Archddeoniaeth Meirionydd; ond y rhan fwyaf o lawer yn Archddeoniaeth Bangor, yr hon a gynwysa ddeoniaethau Arllechwedd, Arfon, a Lleyn, a'r plwyfydd o'r sir hon a berthynant i Archddiaconiaeth Meirionydd, a gyfansoddant Ddeoniaeth Eifionydd. Y mae wedi ei rhanu yn wladol, yn ddeg o gantrefi, Cymmydmaen, Creuddyn, Dinlleyn, Eifionydd, Gaflogion, Isgwyrfai, Llechwedd Isaf, Llechwedd Uchaf, Nantconwy, ac Uwch-gwyrfai. Cynwysa ddinas esgobol a bwrdeisdref Bangor, bwrdeisdrefi, trefydd marchnad, a threfydd porthladdol, Caer yn arfon, Aberconwy, a Phwllheli, bwrdeis-drefi, a marchnad-drefi Crugcaith, a Nefyn, a marchnad-drefi Tremadoc, a Bethesda, a thref borthladdol newydd a blodeuog, Porth Madoc. Dychwelir un marchog dros y sir i'r senedd, a chynnrychiolydd arall dros y bwrdeisdrefi. Y mae y sir hon o fewn cylch-daith frawdlysol Gogledd Cymru; a chynelir y brawdlysoedd yn nhref Caer yn arfon, lle hefyd y mae y carchar sirol.

Y mae yr olwg ar y wlad, ar y cyfan yn wyllt a mynyddig, a'r ddrychfa gyffredinol, yn dra amrywiadol. Ei phrif fynyddoedd a gyfansoddant y fynydd-res o'r hon y mae y Wyddfa yn benaf, clogwyni dyrchafedig pa rai, oddiar eu huchder a'u llun, a ffurfiant brif nodwedd y wlad am bellder mawr o amgylch. Y mae y fynydd-res hon yn dechreu mewn aelgerth arswydlawn uwch ben y mor, ychydig filldiroedd i'r gorllewin o Aberconwy, a elwir y Penmaen Mawr, ac yna, mae yn ymestyn i'r de-orllewin, yn yr un cyfeiriad a mynydd-resi mawrion ereill Cymru; y mae yn cynwys y mynyddoedd a elwir Carnedd Llewelyn, Carnedd Ddafydd, Clogwyn y Wyddfa, rhes hirfaith o fynyddoedd o'r tu deheuol i Lanllyfni, ac yn terfynu yn y tri chlogwyn dyrchafedig a elwir "Yr Eifl," godrau y rhai a olchir gan donau bay Caerynarfon, ychydig filldiroedd i'r de orllewin o Glynog Fawr. Hyd y fynydd-res hon, os dilynir cyfeiriad igam-ogam ei chlogwyni, sydd chwe milldir a deugain; ond y pellder o'r naill ben i'r llall, mewn llinell union, nid yw namyn pum milldir ar hugain. Ar y fynydd-res hon, y clogwyn uchaf yw y Wyddfa, a hwn yw y mynydd uchaf yn Mrydain Ddeheuol, gan ei fod yn ymddyrchafu i'r uchder o 3570 troedfedd uwchlaw lyfel y mor. Yr ail mewn uchder yw Carnedd Llewelyn, yr hon sydd yn 3482 o droedfeddi uwchlaw lyfel y môr; Carnedd Dafydd a ymddercha i'r uchder o 3430, tra nad yw dau ben y gadwaen mor ddyrchafedig; y Penmaen Mawr nid yw namyn 1553 o droedfeddi; ond y mae 'yn nodedig am ei serthdra; a mynyddoedd yr Eifl ydynt 1866 troedfedd o uchder. Mynyddoedd nodedig ereill mewn cyssylltiad a'r Gadwaen hon, ydyw Mynydd y Trifaen, Moel Ogwen, Moel Siabod, y ddwy Gluder, y ddwy Elidyr, Moel Llyfni, a Moel Mynydd y Nant; y Gerwyn Goch, sydd 1723 troedfedd o uchder; y Bwlch Mawr, 1670; y Garnedd Goch, 2315; y Mynydd Mawr, 2293; Moel Wynion, 1905; y Drosgl, 2478; y Foel Fras, 3091; y Drum, 2527; ond y Wyddfa, megys cawres yn eu canol, a ddercha ei hysgwyddau yn uwch na'r oll o honynt. Gelwid y mynyddoedd uchel hyn gan ein henafiaid, "Creigiau yr Eryri," ac y mae rhai yn barnu mai "Creigiau yr Eiry" oedd yr enw ar y dechrau, am y byddai eu cribau uchel yn orchuddiedig gan eira dros hir amser, pan na byddai dim ar y gwastadoedd islaw iddynt; y mae ereill yn tadogi y gair i *eryr;* ac yn barnu mai ystyr yr enw yw "Creigiau yr Eryrod," am y byddai yr adar ysglyfaethus hyny yn cartrefu yn eu llethrau. I sylwedydd a safo ar gopa y Wyddfa, ymddengys megis pe ei hattegid â phump o greig-attegion mawrion, sef Crib y Distyll, a'r Grib Goch, tua Llanberis a Chapel Curig; y Lliwedd, tua Nant Gwynant; y Clawdd Coch, tua Beddgelert; a'r Llechog, y mynydd sydd yn ffurfio ystlys ddeheuol dyffryn Llanberis, tua Dolbadarn. Yr uchelderau hyn, y rhai ydynt bron yn anhygyrch, a fuant yn noddfa i'r Cymry gorthrymedig, ond anmhlygedig, am ganrifoedd lawer, pan y gorfyddent encilio o ffordd byddinoedd y Rhufeiniaid, y Sacsoniaid, a'r Normaniaid. Y mae amryw o'r mynyddoedd, o ran eu hyd, yn cyfeirio o ogledd i ddehau, tra y mae ereill yn ffurfio llinell o ddwyrain i orllewin; ac y maent agos oll yn cymeryd y naill neu y llall o'r cyfeiriadau yma. Y mae llethrau traserth y trumau hyn, gan mwyaf, yn gwynebu tua chulfor y Menai; ond y mae y gogwyddiadau yn mhob cyfeiriad arall yn amrywio gyda gogwyddiadau yr haenau. Y mae llysieuaeth y broydd uchel hyn, yn amrywiaeth lluosog y planigion o ba rai ei cyfansoddir, yn ffforddio maes goludog i'r llysieuydd: ac y mae yma helaethrwydd mawr, yn enwedig o'r rhywogaeth o blanhigion llysieuaidd, a eilw *Linnæus* "etherea," neu wybrenol, am na's canfyddir hwynt namyn yn agos i gopâau mynyddoedd; ac y mae amryw dylwythau ereill yn arddangos eu prydferthion yn y gwyllt-diroedd uchel hyn, o ba rai y mae amryw na's canfyddir ond anfynych mewn sefyllfeydd ereill. Y mae ceuleoedd dyfnion iawn yn mysg y mynyddoedd hyn, a glynoedd neu ddyffrynoedd culion, a elwir cymmoedd, trwy ba rai y mae lluaws o afonydd, a darddant o'r amryfal lynoedd oddiarnynt, yn rhuthro yn ffroch-wyllt am diroedd is, yn ffurfio rheieidr hynod, a rhamantus, ac yna yn gweithio eu ffordd tu a'r môr, yn fwy tawel a dolenog.

Y llynau, er nad ydynt yn y cyffredin ond bychain, ydynt fwy na haner cant mewn nifer; ac y mae lluosogrwydd o bŷsg, o wahanol rywogaethau, mewn amryw o honynt, rhai o ba rai ni's ceir yn un man ond mewn llynau mynyddig, ac ereill ydynt o gyfluniad dyeithriol. Y rhai mwyaf nodedig ar gyfrif eu maintioli, neu odidowgrwydd y golygfeydd a'u hamgylchynant, ydynt y rhai canlynol; sef y ddau lyn ydynt agos yn llanw dyffryn cul Llanberis, a elwir yn gyffredin "Llyniau Llanberis;" yr uchaf o ba rai sydd tua milldir o hyd, a haner milldir o led; a'i ddyfnder mewn manau, nid yw yn llai na saith ugain llath: y mae y llyn isaf tua milldir a haner o hŷd, ond nid yw mor lydan a'r llall. Llyn Cawellyn, wrth droed y Mynydd Mawr, sydd fwy na milldir a haner o hŷd, ac yn agos i dri chwarter milldir o led. Llyniau Nantlle, ydynt ddau o lynau heirdd iawn, ger llaw eu gilydd, yn Nantlle; Llyn Ogwen, a Llyn Idwal, yn agos i'r brif-ffordd o Gapel Curig i Bethesda, &c. &c. O'r tu gorllewinol i'r mynyddoedd, rhyngddynt a Chulfor y Menai, y mae dyffryn eang, agos yn berffaith wastad, ond nid yn isel, ar wyneb yr hwn y mae yn wasgaredig luaws mawr o ddryllynau o graig, o'r un ansawdd a chreigiau y mynyddoedd. Y mae y tirweddiad ar lenydd creigiog y Menai, yn darawiadol a dymunol. Y mae amrywiaeth o olygfeydd tra dyddorol yn nyffryn Conwy, ar derfyn dwyreiniol y sir, yr hwn a ddyfrheir gan afon, ag y mae ei cheinion naturiol, a'i dyddordeb hanesyddol, wedi ei wneyd yn hoff destun yr awen,

Digitized by Google

Gymreig a Seis'nig. Y mae y tirweddiad yn y parth hwn o'r wlad, yn fwyaf amrywiol yn Pont Dolgarrog, a Phont Porth Llwyd, y rhai a groesant yr afonydd a ddylifant dros y creigiau ysgythrog, o Lyn Cowlyd, a Llyn Geirionydd. Er fod y dyffryn hwn yn ymestyn yn gyfredol â Dyffryn Clwyd, o'r de ddwyrain i'r gogledd orllewin, nid yw yn agos i gyfartal i'r Dyffryn hwnw, mewn ehangder na ffrwythlonedd, gan nad yw yn meddu bryniau clei-briddlyd sir Ddinbach, namyn ar yr ochr ddwyreiniol, tra ar yr ochr orllewinol, nad yw yn derbyn namyn gwaddodion oddiar lethrau celyd, a serth, creigiau cyssefin swydd Gaer yn arfon. Y mae y penrhyn ar yr ochr ddwyreiniol i Aberconwy yn ffurfio cantref y Creuddyn, ac yn terfynu yn Mhentir Gwygarth. Y clogwyni a ffurfiant y pentir hwn ydynt o galchgraig; yn dra uchel, ac o'r bron yn ddarbenawl (*perpendicular*), yn nghilfachau y rhai y bydd amryw adar môr, yn heidiau lluosawg, yn gwneyd eu nythod yn misoedd yr haf.

Y mae penryn Lleyn, yr hwn a ffurfia y rhan ddeheuol o swydd Gaer yn arfon, a thu hwnt i ben de orllewinol yr hwn y gorwedda ynys Enlli, yn dwyn arweddau tra chyffelyb i'r eiddo ynys Fôn, o ran tir-weddiad, ansawdd y tir, hinsawdd, diwylliant y tir, offer ammaethyddiaeth, dâ byw, &c. Er fod mesur o amrywiaeth yn arwynebedd y parth hwn o'r wlad, nid ydyw yn fynyddig yn un ran o honi, ac nid yw yn cynwys y glynoedd dyfnion sydd yn ffurfio arwedd mor nodedig yn nhirweddiad y rhan fwyaf o barthau eraill o'r wlad. Y mae yn gynwysedig yn benaf, o'r hyn a elwid yn Lloegr yn borfeldir uchel, yn cael ei drawsu yma a thraw gan gorsydd culion, a'i dryfritho â bryniau cyrnenaidd, ar wahan, neu yn gyttyrau bychain; y caeau ydynt wedi eu hamgau gan mwyaf â chloddiau pridd, ac weithiau â magwyrydd cerig; a'r mân ddyffrynoedd, a ddyfrheir, fel y sylwai *Pennant*, "â mil o ffrydiau bychain:" a glenydd y wlad a gylchynir â ffin greigiog, rheoleidd-dra yr hwn a dorir gan amryw grigyllau bychain, lle y ceir lloches ddïogel mewn ystormydd, i gychod, a mân lestri pysgotta. Y mae yr ynys fechan Enlli, a fu mor enwog gynt, yn ysgaredig oddiwrth bentir creigiog Braich y Pwll (*Canganorum Promontorium* y daearyddwyr Rhufeinaidd), gan gul-for, tua milldir o led, a elwir Cerhynt Enlli (*Race of Bardsey*), ac oddiwrth y ffaith o fod y cerhynt mor gryf rhwng yr ynys a phen y tir, y cafodd ei henw Cymreig "Enlli:" ond y Sacsoniaid a roddasant yr enw "Bardsey" iddi mewn oesoedd diweddarach, am ei bod, efallai, wedi bod yn nawddle i'r Beirdd Cymreig. Y mae yr ynys hon tua dwy filldir o hyd, ac un o led; ac yn cynwys tua 370 o gyfeiriau o dir, o'r hwn y mae agos un ran o dair yn esgair fynyddig, ar yr hon ni cheir ymborth ond i ychydig ddefaid, a chwnning. Y mae yn agored i ruthr-wyntoedd cryfion o'r cefnfor, ar ei thu deddwyreiniol, a de-orllewinol; ond ar y gogledd, a'r gogledd ddwyrain, fe'i cysgodir gan yr esgair grybwylledig uchod, yr hon ar y wyneb nesaf i'r mor, sydd yn gynwysedig o greigiau tra uchel a darbenawl; yn agenau y rhai y bydd lluaws o for-adar yn dodwy, a'r ynyswyr cofn a ddisgynant wrth raffau i yspeilio eu nythod.

Y mae y crigyll mwyaf tufewnol o'r parth gogleddol o fay Ceredigion, yn ffurfio tywod-leoedd ehang a elwid y Traeth Mawr, yr hwn gynt a orlifid gan lanw y mor, a thrwy yr hwn yr arllwysa yr afonig Glaslyn, ei dyfroedd i'r cefnfor. Y diweddar W. A. Madocs, Ysw., o Dan yr Allt, tua dechreu y ganrif bresenol, a lwyddodd i gau yn agos i ddwy fil o erwau o dir da oddiar y môr, ar ochr orllewinol y Traeth Mawr; ac yn y canlyniad, efe a dueddwyd i ymgymeryd â'r gorchwyl anhawddach, o enill y cyfan, trwy gyfodi morglawdd o ystlys i ystlys, ar draws ei enau. Cafodd y boneddwr hwnw ddeddf Seneddol yn y flwyddyn 1808, yn ei gynnysgaeddu ef a'i ettifeddion â hawl i'r holl draethau hyn, o'u pen uchaf, gerllaw Pont Aberglaslyn, hyd y pen isaf, gerllaw Moel y Gest; ac yn fuan wedi hyny, efe a ddechreuodd weithio ei gynllun allan, er llawer o anhawsderau mawrion, nad oeddid wedi eu rhagweled. Ac fel hyn, efe a enillodd tua 2700 erw o dir, ydoedd o'r blaen yn ddarostyngedig i orlifiad achlysurol, heblaw llawer iawn o diroedd cydiol a'r cyfryw, y rhai yn y canlyniad y llwyddwyd i'w sychu, a'u dïogelu rhag y niweidiau oddiwrth y llanw, yr oeddynt yn ddarostyngedig iddynt o'r blaen; ac o'r tir hwn, a ddïogelid, ac a sychid felly, yr oedd Mr. Madocs i gael dwy fil o erwau yn wobrwy, a'r bumed ran o ardreth pymtheg can erw yn ychwanegol, neu y bumed ran o'r tir; a'r gweddill i fyned i'r rhydd-ddeiliaid a honent hawl i'r cyttir ar y morfeydd cydiol. Ar ran o'r tir a gauwyd i fewn gyntaf, y saif Tre Madoc. Y lan ogleddol o'r sir, o Aberconwy tu a'r gorllewin, sydd yn ffinio ar fay Beaumaris, yr hwn a gysgodir yn dda ar un llaw gan benryn y Creuddyn, a derfynir gan fynydd Llandudno, neu Ben Gwy-garth; ac ar y llaw arall, gan ben dwyreiniol Môn, ac ynys Seiriol, fel y ffurfia angorfa dda i lestri a dramwyant For y Werydd, lle y gallant fod yn ddïogel yn ystod yr ystormydd gerwinaf. Gadewir y rhan fwyaf o'r bay yma yn sŷch ar y trai, am amryw filldiroedd gyd a'r lan, gan ffurfio yr hyn a elwir Traeth y Lafan, lle y dywaid traddodiad fod dyffryn bras a chyfanneddol gynt, yn perthyn i diriogaeth Arfon; ac i'r llanerch gael ei galw "Traeth y Wylofain," oddiwrth gri ac wylofain y preswylwyr, pan orlifwyd eu cartrefi gan y mor yn ddisymwth, yn y chweched ganrif.

Y mae amryw neillduolion yn perthyn i hinsawdd y wlad hon, yr hyn a achosir gan ei sefyllfa arforawl, ac amrywiaeth mynyddig ei harwyneb. Ambell flwyddyn, bydd yr eira yn aros ar gopäau mynyddoedd Eryri hyd fis Mehefin, tra nad erys nemawr ar y ddaear, mewn rhanau nes i'r môr, ac yn enwedig yn mhenryn Lleyn, hyd yn nod yn nyfnder y gauaf. Y mae y gwlawogydd yn y mynyddoedd, yn dyfod yn ddisymwth yn gyffredin; ac yn fynych yn drymion iawn, gan chwyddo y nentydd bychain yn llifogydd mawrion a grymus. Yn y dyffynoedd isel, ac ar diroedd ysgeifn, bydd yr ŷd yn aeddfedu yn mis Awst; ac y mae yn deilwng o sylw, bod y wlad hon, rhan fawr o ba un a gymerir i fynu gan y mynyddoedd uchaf a gerwinaf, o Brydain ddeheuol, yn cynwys hefyd y rhandir gynnaraf ei dymhorau yn Ngogledd Cymru, sef y "Dalar Hir," rhandir dywodlyd a graianawg, yn gorwedd ar isweryd o forgregyn, a cherygos, wrth droed y Penmaen Mawr. Ond am ŷd a hauir mewn sefyllfeydd uchel, yn agos i'r mynyddoedd, er iddo dros yspaid, ymddangos yn addawol o gnwd da, nid aeddfeda o gwbl yn fynych; neu, os aeddfeda, bydd yn ddiweddar iawn ar y tymhor, a bydd y tro-wyntoedd disymwth a ymgyfodant yn fynych tua Gwyl Mihangel, o geu-nentydd y mynyddoedd, yn ei droelli a'i guro, fel na's gadewir

Digitized by Google

nemawr o'i frig arno. Hinsawdd penryn Lleyn, yw y sychaf a'r cynesaf o un ran o'r wlad, ac o ganlyniad, y mwyaf ffafrawl i lwyddiant ammaethyddiaeth.

Y mae pob ymdrechion i feithrin prenau ffrwythau i elw, wedi bod yn aflwyddianus hyd yma; gan nad yw y Gwanwyn, hyd yn nod yn y dyffrynoedd, oblegid eu cyfagosrwydd i'r mynyddoedd, ond anfynych yn ddigon tyner i gadw eu blodau rhag dylanwad niweidiol y rhew, tra y mae gwlybaniaeth ac oerni yr haf, oddiwrth yr un achos, yn anmharu pereidd-dra y ffrwythau goreu. Y mae y gwyntoedd gorllewinol yn ffynu yma am dair rhan o bedair o'r flwyddyn, ac fe'u teimlir yn eu grym eithaf oddeutu y cyhydeddau. Y mae y trigolion yn nodedig am eu hir-hoedledd, gan y gwelir llawer o gerig beddau yn yr amryfal fonwentydd, yn nodi oedran y rhai a gladdwyd danynt, yn mhell dros bedwar ugain mlwydd.

Y mae y gweryd yn amrywio yn fawr mewn gwahanol ardaloedd; y goreu ydyw y clei-bridd cryf, ar lanau y Conwy, lle y cynnyrchir gwenith rhagorol, ac y cair porfeydd da odiaeth, ac y mae y cyffelyb weryd ar lanau y Menai, tua Llanfair is Gaer, &c. Y mae gweryd Ynys Enlli, gan mwyaf yn gleiog, a chynnyrcha haidd a gwenith rhagorol, a cheir ychydig borfeldir da ynddi. Cyfrifir bod cantref y Creuddyn, y tir gwenith goreu yn Ngogledd Cymru, os nad yw cystal a dim yn holl Ynys Brydain.

Yn nesaf i'r rhai hyn y daw y gweryd sych, llac, a lled garegog, yr hwn a gymer i fynu y rhanau canol o'r dyffrynoedd mwyaf, a'r rhanau isaf o'r dyffrynoedd lleiaf, a chanol-barth penryn Lleyn. Y mae gweryd ysgafnach fyth yn y rhan fwyaf o dir Lleyn; yr hwn sydd yn dra chymwys i gynnyrchu haidd, pŷs, ac erfin; y mae rhanau mawrion eraill o'r wlad yn farianog, a rhanau helaeth yn fawnogydd. Tua dechreu y ganrif hon, cyfrifid nad oedd oddiar saith mil o erwau o dir y wlad hon dan ammaethiad, a'r rhai hyny bron yn gyfan yn nghantref y Creuddyn, Dyffryn y Conwy, penryn Lleyn, a chymmydogaeth y Menai; ond, y mae llawer ychwaneg o'r wlad wedi ei dwyn dan ddiwylliad erbyn hyn, ac y mae diwygiad mawr mewn ammaethyddiaeth wedi cymeryd lle yma yn yr haner canrif ddiweddaf. Eto trwy gadw anifeiliaid y mae y rhan fwyaf o dirddeiliaid y wlad hon yn talu eu hardrethion. Yr oedd hen ddywediad gan ein cyndadau, y gallasai Mon gynal holl drigolion Cymru â bara, tra y gallasai mynyddoedd Eryri borfau ei holl ddiadellau, pe eu cynnullasid yn nghyd yno: ac er nad yw y cyfryw ddywediad mor gymwysiadol erbyn hyn, y mae ynddo lawer o briodoldeb i ddynodi ansoddion cydmariaethol y ddwy wlad eto.

Yn amser Leland, yr oedd llethrau mynyddoedd Eryri yn cael eu gorchuddio gan goed; ond erbyn hyn y maent bron yn llwyr noethion, oddieithr y coedwigoedd uwchlaw Gwydir, ar yr ochr ddwyreiniol iddynt, y rhai a chwanegant yn ddirfawr at harddwch Dyffryn Llanrwst; a choedwigoedd Mr. Smith, mewn sefyllfa dra uchel yn Nhalmignedd, yn agos i Beddgelert; at y rhai y gellir ychwanegu y rhai a berthynant i'r un boneddwr yn y Faenol, y rhai a orchuddiant tua dau can erw o dir, a'r rhai ar ettifeddiaeth y Pant Glas, ar yr ochr ddwyreiniol i'r wlad. Ac y mae Arglwydd Penryn wedi planu llawer o ganoedd o erwau yn ddiweddar, ar lethrau plwyf Llanllechid, y rhai ydynt yn harddu y gymmydogaeth hono yn fawr. Y mae hefyd rai planfeydd lled eang oddeutu Glyn llifon, Boduan, Madryn, Cefn Ammwlch, Nanhoron, y Gwynfryn, a'r Plas Hen; ond ar y cyfan, llwm yw yr olwg ar Leyn ac Eifionydd. Y mae cantref y Creuddyn, yr hwn a ffurfia y rhan ogledd-ddwyreiniol o'r wlad, ac a ysgarir oddiwrth y gweddill o honi gan yr afon Conwy, yn dra choediog yn nghymmydogaeth y Marl, Bodyscallan, a'r Gloddaeth. Y mae y coed o amryfal rywogaethau,—y derw, yr ynn, a'r ffawydd, yn nghyd a'r pinwydd o amryw fath. Ar oresgyniad Cymru gan Edward y Cyntaf, cafodd yr holl randir eang a ffurfid gan fynyddoedd Eryri, ei di bobli yn fwriadol gan y penteyrn hwnw, yr hwn a wyddai yn dda y fath loches a allasai gwrthryfelwyr ei gael yno; ac am hyny efe a wnaeth y rhan fwyaf o honi yn wigfa freninol; ac yn y canlyniad i hyn yr oedd llawer o'r rhan fynyddig o'r wlad, yn feddiant y goron hyd yr oes hon; ac y mae gwarantau lluosog a roddid o bryd i bryd, am ladd, a defnyddio ceirw, ar gael eto. Un o'r rhai hyn, wedi ei llaw-nodi gan Henry Sidney, yn 1561, mewn modd gorthrymus, a estynai derfynau gwigfa Eryri, i Fôn ar y naill du, a Meirionydd ar y tu arall, er boddhau anwyl-ddyn y frenines Elizabeth, sef Iarll Leicester, yr hwn oedd wedi cael ei bennodi yn brif Fforestydd: er fod sicrhad wedi ei gael yn amser Harri yr Wythfed, fod y cyfan yn gorwedd o fewn swydd Gaer yn arfon. A chan ymhyfau ar yr awdurdodiad yma, yr Iarll o Leicester a aeth rhagddo fel fforestydd, i orthrymu y tair sir, y rhai yr honai eu bod o fewn ei brwyadaeth ef; a hyny â'r annghyfiawnder mwyaf trachwantus, a'r taiogrwydd mwyaf annyoddefol. Gan fod rhyw rai wedi awgrymu iddo y gallasid, trwy dystiolaeth gasgliadol, ddwyn agos yr holl ettifeddiaethau rhydd-ddaliadol oddi amgylch, i fewn terfynau y *fforest*, pennodwyd prwyaduron, a gwysiwyd rheithwyr, i chwilio i'r camoresgyniadau lluosog a wnelsid ar y meddiannau breninol; ond parodd uniondeb y prwyaduron a'r rheithwyr, iddynt ddyfod i benderfyniad gwrthwyneb i ddymuniadau y Fforestydd. Wedi y siomiant yma, pennodwyd dirprwyaeth neillduol, yn 1578, cynnwysedig o ddynion a ymddibynent yn uniongyrchol ar yr iarll; a rheithwyr, oeddynt yn llawn mor gaeth-wasaidd i'w olygiadau, a wysiwyd i ddyfod i dref y Beaumaris; ac archwyd iddynt fyned i weled Morfa Malltraeth, yn Môn, wedi yr hyn y rhoddasant eu dedryd, gan ddatgan eu bod wedi cael allan fod y rhandir hono yn gorwedd o fewn terfynau gwigfa Eryri, er ei bod yn ngwlad Fôn, ac yn ysgaredig oddiwrth y wlad yn yr hon yr oedd y wigfa, gan gulfor y Menai. Cafwyd gan y rheithwyr ddyfod i'r penderfyniad yma yn benaf trwy hyfforddiad y dirprwywyr, y rhai a'u hysbysent eu bod wedi canfod ysgrif yn Nghyllid-lys Caer-yn-arfon, yn mynegi i garw a gyfodasid yn ngwigfa Eryri, yn swydd Gaer-yn-arfon, wedi ei herlyn hyd lanau y Menai, nofio dros y cul-for hwnw, ac iddo gael ei ladd yn Malltraeth; ac oddiwrth hyny, casglent fod Malltraeth yn rhan o wigfa Eryri. Syr Rhisiard Bulkeley, yr hwn a fuasai yn un o'r prwyaduron blaenorol, yn ymwybyddus o gyfiawnder eu gwrthwynebiad i'r hawliad, ac yn ymddiried yn nheilyngdod gwirioneddol yr achos a gymerasai mewn llaw, a osododd ger bron y frenines, ar ran tirddeiliaid a thir-feddianwyr y tair sir, ddarluniad o'r gorthrymderau digyffelyb a ddodid ar y Cymry trwy yr awdurdod a weinyddid dan y ddirprwyaeth; ac o'r diwedd, a lwyddodd i gael gan ei Mawrhydi alw yn

Digitized by Google

ol y dyroddiad prwyadurol, yr hyn a wnaed trwy gyhoeddiad breninol yn Westminster, yn y flwyddyn 1579. Ond parodd y gwrthdystiad yma, i Leicester erlyn Syr Rhisiard â gelyniaeth annghymodlawn tra fu byw. Er fod llawer o ettifeddiaethau mawrion a bychain, wedi dianc rhag syrthio yn ysglyfaeth i dra-arglwyddiaeth, ar ddarostyngiad y dywysogaeth gan Edward y Cyntaf, ac mai mewn ychydig o enghreifftiau yr aflonyddwyd ar drosglwyddiad ettifeddiaethau trwy ymyriad y goron yn y blyneddoedd diweddaf hyn, y mae llawer o ettifeddiaethau yn swydd Gaer yn arfon, a ddelir hyd heddyw trwy ddyroddiad breninol; a'r rhan fwyaf o'i chyttiroedd, neu ei thiroedd agored, ydynt eiddo y goron eto. Ymddengys bod y wlad hon, oddieithr penryn Lleyn, fel y crybwyllwyd, yn un gynnullfa anferth o fynyddoedd creigiog mawrion; rhai o honynt, gan gynnwys y Wyddfa ei hunan, sydd gyttir; tra y mae eraill, trwy ddyroddiad oddiwrth y tywysogion Cymreig, yn cael eu hawlio fel meddiant personol hyd eu trumau uchaf. Nid oes dim llai na chan mil o erwau o dir yn y wlad hon, am yr hwn y gellir dywedyd, nid yn unig nad yw yn gymhwys i'w lafurio, ond hefyd, na's gellir ei lafurio, gan ei fod yn gynnwysedig o fynyddoedd clegyrog, a mignenau, ceunentydd creigiog dyfnion, ac agenau arswydlawn. Nid oes nemawr o ffermydd heb gyfranogi hawl gyffredin mewn rhai o'r diffeith-diroedd hyn, ac y mae yr hawl a berthyn i'r rhai ydynt yn nghymmydogaeth y mynyddoedd, bron yn annherfynol: ond gan nad ydyw y creigiau, o ba rai y cyfansoddir y mynyddoedd, yn ddadansoddadwy trwy weithrediad yr awyr, y mae eu diffrwythder yn fawr dros ben, fel mai yr unig lanerchau a ddygant ryw gymaint o lysiau at gynhaliaeth y rhywogaeth galed o wartheg a defaid, a borfeir yn y ffrithoedd uchel hyn yn misoedd yr haf, ydyw y ceuleoedd, neu y llechweddau a orweddant ar y mawndir, neu ar y clai. Y mae amryw o'r tiroedd gorest mwyaf gwelladwy, megis Rhos Hirwaen yn Lleyn, yr hon a gynnwysa tua thair mil o erwau o dir, cors-dir Penmorfa, ar derfyn de-ddwyreiniol y sir, yn cynnwys tua dwy fil a saith gant o erwau; Morfa Dinlle, yn agos i Aber Menai, yr hwn a gynnwysai ddwy fil, pum cant, a thriugain o erwau; a'r tiroedd gorest yn mhlwyfydd Llanddeiniolen a Llanrug, wedi eu cau, yn ol gweithredoedd Seneddol a gadarnhawyd o fewn y ganrif hon.

Y tanwydd cyffredinol yn y rhanau uchel o'r wlad hon ydyw mawn, o ba rai y cair cyflawnder, o ansawdd dra rhagorol; ychydig o lô a ddefnyddid yma o fewn oes yn ol, oddieithr yn y trefydd arforawl; ac yr ydoedd yn ddrud yno; ond erbyn hyn y mae cyflawnder o lô yn cael ei werthu am bris rhesymol, yn mhob cwr o'r wlad o'r bron, lle ei cludir gyd a'r gwahanol reilffyrdd, o'r Glofeydd mawrion, yn Nghymru a Lloegr.

Y mae Cymdeithas Ammaethyddol swydd Gaeryn-arfon, yr hon a sefydlwyd yn y flwyddyn 1807, ac i'r hon y mae holl brif dir-feddianwyr y wlad yn perthyn, wedi dylanwadu yn rhagorol er gwellad ammaethyddiaeth y wlad.

Y mae arweddau daiaregawl swydd Gaer-yn-arfon yn dra amrywiol a dyddorol; ac y mae ei chynnyrchion mŵnawl o bwysigrwydd mawr, ac yn gynnwysedig yn benaf o efydd a phlwm, llechi, a cherig calch, cerig palmantu, a cherig adeiladu. Y mynyddoedd yn y cyffredin ydynt o'r rhywogaeth gallestraidd gyssefin, yn serth a chlegyrog. Clogwyni uchaf mynydd-res Eryri, a gyfansoddir o greigiau myldarddain, yn perthyn i'r ffurfiad gris-greigiol, yn ymylu ar y llechfeinin darddwys, mwysddelid; y rhai hyn ar yr ochr orllewinol, a ffurfiant luaws o golofnau basaltic, ar wely o gornfaen neu greigellt, a chreig-risial garw, cellystr cubaidd, ac amryfal gyrph mwnawl a ganfyddir yn yr agenau yn fynych: y mae y colofnau hyn yn ddarbenawl, ac i raddau mwy neu lai rheolaidd, yn bum-onglawg: amrywiant yn eu hyd; eu tryfesur sydd tua phedair troedfedd, a thraws-gyssylltiadau, o fewn o chwech i wyth troedfedd i'w gilydd, a chryn lawer o waddodion o *quartz* yn haenau teneuon yn y cyssylltiadau. Yn agos i grib y Wyddfa, y mae lle i gredu fod llechidau perthynol i'r ffurfiad o bilegraig lwyd i'w canfod, ac olion cregyn arnynt. Dywedir hefyd fod y creigiau a gyfansoddant drumau uchaf y fynydd-res, yn cynwys gwenith-faen, ac ithfeinyn Kirwan, llechfaen cornblithig, a glodd-lech, ac yn gydiol â'r rhai hyn, ar bob ochr, y mae gwelyau mawrion o glei-lech yn ffurfio mynyddoedd eilraddol, y rhai a gyfansoddant ragfur cyntaf y fynyddres; ac yn eu dilyn hwynt hefyd, gwelir haenau o greigellt, creigrisial, graianfaen, sarph-faen, ac amrywiaeth o sylweddau mwneiawl ereill mânach, bron yn ddi ddiwedd. Y mae penrhyn Lleyn wedi ei gyfansoddi o glei-lech bron yn gwbl; ond y mae y bryniau ar y ffin ogleddddwyreiniol, o'r tu gorllewin i afon Conwy, yn gyfansoddedig i fesur mawr o greigellt, ac amryw o'r mynyddoedd ag y mae eu rhanau isaf yn gynwysedig o gleilechfaen, ydynt a'u rhanau canol yn orchuddiedig gan dalpiau o greigellt, a'u cribau wedi eu goresgyn gan glogwyni mawrion o nodwedd ithfeinol. Y mae y gleilechfaen yn attegu haen o galchgraig fynyddig ar lanau y Menai: ac y mae is-haen cantref y Creuddyn, gan mwyaf yn gynwysedig o'r un rhyw galch-graig, ac yn rhan o'r ffurfiant sydd yn cymeryd i fynu ranau o swyddi Dinbach a Fflint, ac a derfyna tu a'r gorllewin, yn y clogwyni a grogant oddiar y môr yn agos i Landudno, a elwir yn gyffredin Pen Gogarth, yr hwn a ffurfia ffin ddwyreiniol morebach (*bay*) Beaumaris. Gellir barnu fod mynyddoedd y wlad hon, yn cynwys mwy o efydd nag o blwm; ac y mae llawer iawn o efydd wedi ei godi o bryd i bryd, mewn amryw fanau yn y sir hon, yn enwedig yn nghymydogaethau Beddgelert, Llanberis, a Llandudno; ac y mae llawer o blwm wedi ei gloddio o Nant bwlch yr heiyrn, rhwng Llanrwst a Chapel Curig, a rhyw fanau eraill yn y sir, megis Llanengan yn Lleyn, &c. Ond y gangen benaf o fasnach yn y wlad hon, ydyw y cloddfeydd Llechi, o ba rai y mae lluaws mawr; y penaf o honynt yw Cloddfa Braich y Cafn, yn mhlwyf Llandegai, yn mherchenogogaeth Arglwydd Penrhyn, yr hon sydd yn rhoddi gwaith i filoedd o ddynion. Un fawr iawn arall sydd yn Llanberis, yn mherchenogaeth ettifedd ieuanc y Faenol, ac y mae rhai miloedd yn cael gwaith yn y gloddfa hon hefyd. Heblaw y rhai hyn, y mae cloddfeydd mawrion yn Nant-lle, ac yn nghymydogaeth y Waun Fawr, yn ardaloedd Dolwyddelen, Penmachno, Bettws y Coed, Trefriw, &c.

Nid oedd trafnidiaeth fordwyol y wlad hon ond bechan cyn dechreu y ganrif bresenol; ac yr ydoedd y cyfan o'r bron yn cael ei gyfyngu i borthladd Caerynarfon; ond erbyn hyn y mae trafnidiaeth helaeth iawn yn cael ei dwyn yn mlaen, o amryw borthladdoedd perthynol i'r sir hon, megis Porth

Digitized by Google

Madoc, Pwllheli, Nefyn, Caerynarfon, Porth Dinorwig, Porth Penrhyn, ac Aberconwy; ac heblaw hyny y mae yr amrywiol Reil-ffyrdd a agorwyd yn y blyneddau diweddar hyn, trwy amryfal ranau y sir, wedi rhoddi symbyliad mawr i fasnach, a rhwyddhau tramwyaeth yn ddirfawr. Y prif allforion trwy y porthladdoedd crybwylledig uchod, ydyw llechi toi, llech-feini llorio, a llechi ysgrifenu; Mwncion o amryw fath, ceryg palmantu, &c. Y gwartheg, defaid, moch, gwlan, &c., a gymerir o'r wlad yn bresenol gyd a'r Rheilffyrdd, i brif farchnadoedd Lloegr. Y prif ddadforion, heblaw nwyddau cyffredin y siopwyr, ydyw coed, glo, ac ŷd. Y brif bysgodfa sydd rhwng Pwllheli ag Ynys Enlli, lle y bydd heigiau mawrion iawn o benweig i'w canfod ar amserau, o ba rai y delir tunelli, y rhai a anfonir ar frys i brif farchnadoedd Lloegr a'r Iwerddon.

O herwydd sefyllfa orynysawl y wlad, nid yw y rhan fwyaf o'r afonydd ond byrion; gan eu bod yn cyrhaedd y môr yn mhen ychydig filldiroedd wedi eu tarddiad allan yn y mynyddoedd; er hyny y mae rhai o honynt yn afonydd cryfion iawn. Y brif afon, sef Conwy, neu "y Gynwy," sydd yn tarddu o Lyn Conwy, yn agos i gyfarfyddiad y tair swydd, Dinbach, Caer yn arfon, a Meirionydd; ar y cyntaf, y mae ei chyfeiriad yn ddeheuol, wedi hyny yn ogledd ddwyreiniol, ac yn olaf, yn ogleddol; llifeiria ar y dechreu dros greigiau ysgythrog, yn rhaiadrau mawreddawg, i ddyffryn Nantconwy, ac yna ymdroella yn ardderchog drwy y dyffryn prydferth, hyd dref Aberconwy, lle y mae yn nofiadwy i longau mawrion, ac yn fuan arllwysa ei dyfroedd i Fôr y Werydd. Ar ei thaith, derbynia lawer o afonydd ereill, megis y Machno, y Ceirio, y Ledoer, y Lugwy yr afonydd a ddisgynant o lynau Crafnant, a Chowlyd, &c. Er fod yr afon hon yn ffurfio y ffin rhwng sir Gaer yn arfon a sir Ddinbach yn y rhan gyntaf o'i rhediad, eto y mae rhan fechan o sir Gaerynarfon ar y tu dwyreiniol, ychydig o'r tu isaf i Lanrwst; ac o gymydogaeth pentref Llansantffraid, yr hwn sydd yn sir Ddinbach, y mae gweddill ei rhawd yn sir Gaer yn arfon yn gwbl, ac ysgara gantref y Creuddyn oddiwrth y gweddill o'r sir. Y mae y llanw yn dyfod i fynu yr afon hyd Drefriw, i'r lle y mae yn fordwyol i fân-longau.

Y Seiont, sydd afon fechan a chwern, a'i tharddiad mewn Llyn ar ochr ddwyreiniol yr Wyddfa, o'r lle y mae yn troi yn sydyn i'r gogledd orllewin, gan lifeirio trwy ddau Lyn Llanberis, o'r isaf o ba rai y mae yn cymeryd cyfeiriad gorllewinol, ar y cyntaf dan yr enw Afon Ruddallt, ond wedi hyny yn cymeryd yr enw Seiont arni, gan lifeirio heibio i orsaf yr hen *Segontium*, i dref Caer-yn-arfon, lle yr arllwysa ei dyfroedd i gulfor y Menai, a'i mornant fechan a ffurfia borthladd diogel a chyfleus. Y Gwyrfai, sydd afon gyffelyb o faintioli a nodweddion i'r Seiont, ac yn cymeryd ei chyfeiriad bron yn gyfredol a hi, ychydig filldiroedd yn fwy deheuol; ac ymarllwysa i'r Menai yn agos i enau de-orllewinol y culfor hwnw. Yr Ogwen, afon fechan chwyrn, yn dyfod o Lyn Ogwen, ac yn cyfeirio i'r gogledd orllewin, gan ymarllwys i'r Menai, tua dwy filldir i'r gogledd-ddwyrain o Fangor. Nid yw penrhyn Lleyn yn cael ei ddyfrhau namyn gan ryw afonigion bychain disylw; a'r Gwynedd, neu afon Glaslyn yw yr unig un ar y tu deheuol i'r wlad a deilynga sylw neillduol. Y mae ei ffynonell yn un o'r parthau gwylltaf o fynyddoedd Eryri; ac wedi ffurfio Llyn Gwynedd, cymera gyfeiriad deheuol heibio i bentref Beddgelert, o'r tu isaf i ba le, y mae yn rhuthro drwy agendor anferth yn y mynyddoedd, y rhai yma a ysgarant rhwng swyddi Caer yn arfon a Meirionydd; a chan lifeirio trwy y gwastadedd a gauwyd allan o'r Traeth Mawr, ac arllwys ei dyfroedd i'r rhan ogleddol o *fay* Ceredigion, ffurfia y ffin rhwng y ddwy sir ar hyd y ffordd, o bont Aber glaslyn.

Y mae y gweddillion henafiaethol a ganfyddir yn y Sir hon yn lluosog, amrywiol, a dyddorol. Rhai o honynt ydynt o'r dosbarth a gyfrifir yn Dderwyddol yn gyffredin; megis y cylch o feini sythion, pedwar ugain troedfedd o draws-fesur, a chist-faen yn y canol, yn mhlwyf Rhiwgyfylchi, y cylch Derwyddol bychan oddiar Ben Morfa, yr hwn nid yw yn gyfan nac yn rheolaidd er ys talm o amser bellach; cylch mwy ar Fwlch Craigwen, yr hwn sydd bron yn gyfan, ac a gyfansoddir o 38 o geryg ar eu penau; y tair Cromlech yn agos i Ystum Cegid; y gromlech hynod fawr mewn cae yn agos i lan y môr, tua haner milldir o Glynog, o fewn tua deg llath ar hugain i ba un y saif colofn unigol o faen garw; neu, fel eu gelwir weithiau, "maen hir," neu "maen llwyd;" a chromlech fawr yn agos i hen balas Cefn Ammwlch, a eilw y cyffredin, "Coetan Arthur;" gweddillion gorsafau Rhufeinaidd *Segontium*, a *Chonovium*, o'r rhai y cair dysgrifiad dan y geiriau CAER YN ARFON a CHAER HEN. Y mae rhan o'r ffordd Rufeinig yn ganfyddadwy, yn ymestyn o'r hen *Segontium*, i'r amddiffynfa gref, a elwir "Dinas Dinlle," yr hon a gynwysai gopa bryn celfyddydol mawr, ar lan y môr, ac ar fin gwastadedd eang, a fuasai gynt yn forfa. Y mae yma olion adeiladau, o fewn gwarchglawdd cryf, a chaed amryw fathodion Rhufeinaidd yma, o bryd i bryd; ac ar afonig o'r enw Y Foriad, sydd yn rhedeg o fewn ychydig bellder i'r amddiffynfa grybwylledig, y mae dau rŷd, a elwir hyd heddyw dan enwau, sydd mewn rhan yn Gymreig, ac mewn rhan yn Rhufeinaidd, sef "*Rhyd pedestre*," a "*Rhŷd Equestre*," sef "Rhyd y traed-wyr," a "Rhyd y meirch-wyr." Yr ydoedd lluaws o amddiffynfeydd eraill mewn cyssylltiad a'r brif amddiffynfa hon, y rhai a orweddent o gongl i gongl o'r wlad, rhai tu a'r gogledd, a rhai tu a'r dehau; y penaf o'r cyfryw ydyw Dinas Dinorwig, yn mhlwyf Llanddeiniolen, yr hon sydd eto yn lled gyfan, ac yn gynwysedig o lanerch eang, o fewn yr hon yr oedd adeilad gylchog o gerrig, am yr hwn y bernir yn gyffredin mai pen-cadlys ydoedd, yn cael ei gylchynu gan ddau warch-glawdd o gerig rhyddion, o fewn y rhai, y mae dau orclawdd pridd, a dwy ffos ddofn iawn;—yr "Hen gastell," yn agos i'r afonig Carrog, yn mhlwyf Llanwnda, amgaer fechan, o un gwrthglawdd, tua chant a haner o gamrau o hŷd; "Dinas Gorfan," yn agos i'r Bont Newydd, yn yr un plwyf, yr unig olion o ba un yw yr enw; a "Chraig y Ddinas," ar yr afon Llyfni, milldir a haner o bellder, a thua milldir i'r de-orllewin o'r ffordd sydd yn cyfeirio o Gaerynarfon i Bwllheli; amddiffynfa, neu wersyllfa gynghron ydyw, tua chant o gamrau o drawsfesur, a'i gwarchgloddiau yn cael eu hamddiffyn gan ffos driphlyg, sydd gref iawn, wedi ei gwneyd o gerig heb gymrwd, y mae y fynedfa iddi tu a'r gogledd, yn dra chul, ac yn ddeugain o gamrau o hyd. Yn mhellach yn mlaen, tua phen eithaf y draws linell ddeheuol yma, wrth droed mynydd Llanhaiarn, y mae amddiffynfa fechan ar ben craig uchel, a elwir "Y Gaer," gwylfa Ruf-

Digitized by Google

einaidd, ac ar ochr orllewinol y wlad, y mae gwersyllfeydd amgloddedig llai i'w canfod. Bernir oddiwrth olion amgaerau cryfion yn nghymmydogaeth, Porth-din-Lleyn yn agos i Nefyn, fod y lle hwnw wedi bod yn cael ei ddefnyddio yn borthladd gan y Rhufeiniaid; ac yn mhlwyf Llaniestyn, ychydig yn nes i'r dehau, darganfuwyd amryw wrnau Rhufeinaidd. Yr ydoedd y Ffordd Orllewinol (*Via Occidentalis*), yn dyfod i'r wlad hon o swydd Feirionydd, rhwng Pont Aberglaslyn a Beddgelert; a gellir dilyn rhyw gymaint o'i holion eto, yn ei chyfeiriad tu a'r hen *Segontium;* ac mewn un man, gelwir tyddyn a groesid ganddi, "Yr Ystrad," neu, "Y Stryd." Y ffordd Rufeinaidd arall, a ddeuai i'r wlad hon o swydd Dinbach, i orsaf *Conovium*, a gyfeiriai o'r orsaf hono, dros y mynydd, drwy Fwlch y Ddeufaen, ac oddiyno elai tua glan y môr, lle y cyfeiriai, bron yn gyfredol a'r Menai, i *Segontium.* Y mae llaweroedd o wersyllfeydd amgaeredig yn swydd Gaerynarfon, y rhai y mae eu ffurfiad yn profi mai gan yr hen Gymry eu gwnaed. Ar esgair fynyddig yr Eifl, yr hon a ffurfia y fwyaf deheuol o brif drumau Eryri, y mae un o'r amddiffynfeydd Prydeinaidd ardderchoccaf, a mwyaf celfyddydol yn y deyrnas, yr hon a elwir "Tre'r Ceiri;" neu, "Tre'r Caerau." Ymddengys bod yr unig ystlys y gallasid myned iddi, wedi ei hamddiffyn a thri rhagfur, y cyntaf o ba rai sydd yn anmherffaith yn bresenol, yr ail, agos yn gyfan, a'r drydedd, yn amgyraedd yn anwastad o amgylch llechwedd uchaf y bryn: ymddengys fod y muriau hyn wedi eu hwynebu yn rheolaidd, y maent yn dra uchel, ac y mae golwg fawreddog arnynt o'r gwaelod. Y mae y llanerch amgauedig, o ffurf afreolaidd, ac yn agos i'w chanol, y mae lle pedronglog, wedi ei ddiffynu â magwyr gerig, a'i amgylchu â dwy res o gelloedd, tra y mae llawer ereill yn wasgaredig dros wyneb y llanerch. Y mae y gweddillion hyn o hen anneddau y cyn-frodorion, o amryfal ffurfiau,—crwn, hir-grwn, a phetryal; rhai yn bymtheg, ereill yn ddeg ar hugain o droedfeddi o draws-fesur, a mynedfeydd hirion iddynt, wedi eu hwynebu â cherig. Oddiwrth y ffaith o fod llawer o uchfeydd yn y gymydogaeth wedi eu hamgaeru yn gyffelyb, sef Carn Fadryn, Carn Boduan, Moel Bentyrch, Castell Gwgan, a Phen y Gaer, yr ydys yn casglu bod y rhan hon o'r wlad yn un o brif encilfeydd y Prydeiniaid, pan y gwesgid yn galed arnynt gan oresgynwyr eu gwlad. Y mae yn agos i bentref Aberdaron, yn mhen deheuol y wlad, wersyllfa gron fechan, tua haner can llath o draws-fesur, yr hon a amddiffynir gan ffos a gwarchglawdd dwbl; ac ar fryn, wrth waelod Llyn isaf Llanberis, y mae olion hen amddiffynfa Brydeinaidd, a elwir "Caer Cwm y Glo;" a chan rai, "Caer Carreg y Fran;" a bron ar ei chyfer, yr ochr arall i'r afon, y mae hen amddiffynfa a elwir "Dinas Mawr." Heblaw hyny, ar ystlys aswy dyffryn Nant Gwynant, heb fod yn mhell o bentref Beddgelert, y mae Dinas Emrys, yr hon a wnelsid yn amddiffynfa gadarn iawn, ar adeg dra boreuol, ac a elwir yn rhai o'n hen ysgrifeniadau, Dinas Ffaraon. Y mae y bwlch a ffurfia y fynedfa o'r mynyddoedd i'r dyffryn a elwir "Nant Gwrtheyrn," yn cael ei drawsu gan ragfur mawr o gerig rhyddion.

Y crefydd-dai yn y sir hon ar adeg y Diwygiad, oeddynt a ganlyn;—yn Mangor, yr oedd tŷ y Brodyr Pregethwrol (*Friars preachers*); yn Enlli, yr oedd hen fonachlog a sefydlasid cyn y flwyddyn 516; yn Meddgelert, yr oedd priordy Canoniaid Awstinaidd; yn Nghlynog Fawr, yr oedd eglwys glasgorol; yn Maenan, ger Llanrwst, yr oedd Monachlog Cistersiaidd. Yr enghreifftiau mwyaf nodedig o adeiladau eglwysig yn y sir hon, a ganfyddir yn eglwys gadeiriol Bangor; yn eglwys glasgorawl Clynog, ac yn eglwys plwyf Llandegai. Y mae y llanau yn fwy lluosog yn mhenrhyn Lleyn, nag yn un ran arall o'r wlad; ac oddiwrth hen gerf-ysgrifau a gair yn ddynt hwy, ac yn eu claddfeydd, ymddengys fod amryw o honynt wedi eu seilio yn fuan wedi dygiad Cristionogaeth i Frydain. Y mae adfeilion mawrwych yn aros, o gestyll Caer yn arfon ac Aberconwy, y rhai a adeiladwyd gan Edward y Cyntaf. Y mae hefyd adfeilion teilwng o sylw, o gastell Criccieth; ychydig weddillion o hen amddiffynfa enwog Deganwy, yn nghantref y Creuddyn; adfeilion castell Dolbadarn, yn agos i dref Llanberis; a hefyd, o hen gastell mawr a chadarn, ar gopa bryn a elwir Braich y Ddinas, allan o'r Penmaen Mawr, oddiar angorfa Beaumaris; ac o hen amddiffynfa fechan ar graig uchel, wrth ben Llyn Cawellyn.—Gellir olrhain seiliau hen gastell Bangor eto; ac y mae olion hen dwr crwn ger Dolbenmaen, am yr hwn y tybir iddo gael ei adeiladu gan yr hen Gymry. Y mae rhanau helaeth o gaerau tref Caer yn arfon yn aros eto; ac y mae caerau, a phedwar prif borth Aberconwy yn aros eto, ac mewn cadwraeth dda. Yr hen balasau teilyngaf o sylw yn yn y sir, ydyw Gloddaeth, hen balas perthynol i'r Mostyniaid; Bodyscallan, neu, yn hytrach, Bodcaswallawn; Gwydir, perthynol i'r diweddar Arglwydd Willoughby d'Eresby; y Llys Esgobol, yn Mangor; Bryn Euryn, yn mhlwyf Llandrillo yn Rhos, hen lys Ednyfed Fychan, prif weinidog, a Maeslywydd Llewelyn ab Iorwerth; o'r hwn y mae gweddillion lled fawrion yn aros; Llŷs Dinorwig, yn mhlwyf Llanddeiniolen, hen drigfa Llewelyn ab Gruffydd, tywysog olaf y Cymry, yr hwn, yn nghyd a'r faenoriaeth berthynol iddo, a ddyroddwyd gan Edward y Cyntaf, i Gruffydd Llwyd, Ysw., o Dregarnedd yn Môn, yr hwn a wnelsid yn farchog gan y pennadur hwnw yn nghastell Rhuddlan, ar ei waith yn dwyn y newydd iddo am enedigaeth ei fab Edward, yn nghastell Caerynarfon; ond yn mysg y palasau diweddar, gellir nodi Nanhoron, Madryn, Gwynfryn, y Faenol, Coed Helen, y Glyn llifon, Castell y Penrhyn, Bryn y Neuadd, &c.

O'r tu dwyreiniol i eglwys Llanddeiniolen, y mae ffynon fwnawl a gyfrifir yn dra rhinweddol, yr hon a elwir "Ffynon Cegin Arthur." Y mae y rheieidr a ffurfir gan ddisgyniad yr afonydd o'r mynyddoedd yn y wlad hon, yn dra lluosog; o ba rai, y mwyaf nodedig yw y rhai canlynol,—*Rhaiadr Cwm Dyli*, yr hwn sydd yn gynwysedig o ddau ddwfr-gwympiad gwahanol, a ffurfir gan afonig sydd yn tarddu o Lyn Llwydaw; y *Ceunant Mawr*, haner milldir i'r dehau o gastell Dolbadarn, yr hwn sydd yn fwy na thriugain troedfedd o uchder, ac a ffurfir gan y llifeiriant a ddisgyna o Gwm Brwynog; y *Rhaiadr Mawr*, yn nglŷn rhamantus Aber Gwyn gregyn, gan ffurfio dau gwymp olynol, yr isaf o ba rai sydd yn disgyn yn un ddyfr-len ledan, dros driugain troedfedd o uchder; *Rhaiadr Mawr* arall a ffurfir gan yr afon sydd yn tarddu o Lyn Geirionydd, o'r tu uchaf i Drefriw; ac un arall, ar yr afon sydd yn deillio o Lŷn Cowlyd; *Rhaiadr Ewynawl*, a gamenwir "Rhaiadr y Wenol," gerllaw y brif-ffordd o

Digitized by Google

Bettws y Coed i Capel Curig: ac y mae rhaiadrau eraill yn Nant Francon, lle y mae dyfroedd tri o Lyniau yn rhuthro dros y Benglog, i ffurfio yr afon Ogwen.

CAER YN ARFON, porthladd, bwrdeisdref, a thref farchnad, yn meddu brawdwriaeth ddydoledig, yn mhlwyf LLANBEBLIG, yn nghantref IS-GWYRFAI, swydd GAER YN ARFON, GOGLEDD CYMRU, 250 milldir i'r gogledd orllewin wrth orllewin o Lundain; yn cynwys poblogaeth, yn nghyd a'r eiddo y plwyf, o 9937, yn ol Deiliadeb 1861. Hon yw pen tref y Sir, ac edrychir arni fel pen tref Gogledd Cymru; y mae yn ddyledus am ei dechreuad i'r ffaith o fod yr orsaf Rufeinaidd *Segontium* yn ei chymydogaeth; a gelwid yr orsaf hono felly, oddiar ei sefyllfa ger yr afon Seiont, yr hon sydd yn cyfodi o Lyn Llanberis, ac yn ymarllwys i'r Menai yn agos i'r fan hon.

Dyma oedd yr orsaf fwyaf pwysig a feddai y Rhufeiniaid o fewn ffiniau Gogledd Cymru, ac yr oedd cymmundeb rhyngddi a gorsaf Defa, a elwir yn awr Caerlleon-gawr, trwy y ffordd Rufeinaidd a elwid *Watling Street*, ac â Deheubarth Cymru, trwy y ffordd a alwyd wedi hyny, "Y ffordd Orllewinol" (*Via Occidentalis*). Y mae *Nennius*, yn ei restreb o ddinasoedd Prydeinaidd, yn galw yr orsaf hon, "Caer Cystenyn;" a dywaid ysgrifenydd "Buchedd Gruffydd ab Cynan," fod Huw Fleiddyn, Iarll Caer, wedi adeiladu castell yn "Hen Gaer Cystenyn." Oddiwrth sefyllfa *Segontium* ar gyfer Môn, cafodd ei galw "Caer yn Arfon;" a'r unrhyw enw a gymhwyswyd drachefn at y dref bresenol, yr hon a gyfododd wedi hyny o adfeilion yr hen orsaf Rufeinaidd, ac a adeiladwyd mewn rhan â'i defnyddiau. Wedi ymadawiad y Rhufeiniaid o Frydain, bu dinas *Segontium* lawer gwaith yn drigle i dywysogion Prydeinaidd Gogledd Cymru, y rhai a hawlient, ac a weinient y benteyrniaeth ar y mân daleithiau, i'r rhai yr ydoedd y dalaeth Rufeinaidd a elwid *Britannia Secunda*, wedi ei rhanu y pryd hyny. Cadwallon, mab Cadfan, yr hwn a ymenwogodd trwy ei ddewrder yn gwrthsefyll rhuthriadau y Saesoniaid i Ogledd Cymru, ac a laddwyd wrth ymladd yn eu herbyn yn Northumbria yn y flwyddyn 676, oedd y cyntaf o'r cyfryw dywysogion a gynhaliodd ei lŷs yn y lle hwn; yr hwn a ddetholodd efe, ond odid, ar gyfrif cadernid ei amddiffynfeydd, a diogelwch ei sefyllfa, fel trigle i'w deulu, tra fyddai ef ei hun yn dwyn yn mlaen y rhyfeloedd, parhaus o'r bron, â gelynion ei wlad: y rhai a wnelent ruthriadau ysbeilgar yn fynych yn yr oesoedd hyny, i ryw ranau o Wynedd.

Parhaodd Caer yn arfon i fod yn drigle y tywysogion brodorawl hyd oddeutu y flwyddyn 873, pan yr adferodd Rhodri Fawr eisteddle y llywodraeth i'r Aberffraw, ar oror ddeheuol Ynys Fôn, lle ei sefydlasid ar y cyntaf gan Caswallawn Law Hir, yn y bedwaredd ganrif, yn ol barn rhai: a lle y bu wedi hyny dros amryw ganrifoedd.

Yn fuan wedi goresgyniad Lloegr gan y Normaniaid, darfu i Huw Fleiddyn, Iarll Caerlleon, yr hwn oedd wedi darostwng agos yr oll o Ogledd Cymru, gan ymddwyn tuag at y trigolion gyda thrais a chreulondeb ofnadwy, gyfodi amryw amddiffynfeydd, mewn gwahanol barthau o'r dywysogaeth, er amddiffyn y tiriogaethau a draws-feddiannasai: ac yn eu mysg, cyfododd gastell yn y lle hwn, yr hwn, debygid, oedd yr adeilad gyntaf, o unrhyw bwysigrwydd, a gyfodwyd yn agos i'r fan lle y gorwedda y dref hon; ac fe ddichon mai hyny a fu dechreuad y dref bresenol; ac er y tybir iddi gymeryd ei henw oddiwrth Edward y Cyntaf, i'r hwn y priodolir ei seiliad, fe'i crybwyllir dan yr enw Caerynarfon, ar adeg lawer boreuach. Wedi i Owain Gwynedd, tywysog Gogledd Cymru, alltudio ei frawd Cadwaladr, darfu i'r olaf logi lluaws o bennaethiaid Gwyddelig, a byddin fawr o filwyr i'w wasanaeth; a glanio yn Abermenai, ychydig filldiroedd i'r de orllewin o Gaerynarfon, lle y gwrthladdid ef gan Owain, â byddin gref: ond, y ddau frawd yn ddoeth, a derfynasant eu hymrafael yn heddychol, ar yr hyn yr ymddigiodd y Gwyddelod mor aruthr, fel y daliasant Gadwaladr yn garcharor, hyd oni dderbynient y taledigaeth y cyttunasid arno: ond wedi i'r tywysog hwnw roddi iddynt ddwy fil o wartheg, efe a ryddhawyd; pan ddeallodd Owain pa fodd yr ymddygasai y Gwyddelod at ei frawd, efe a ymosododd arnynt, ac wedi lladd llawer o honynt, efe a ddug oddiarnynt, nid yn unig y gwartheg a roddid gan Cadwaladr, ond llawer o yspail arall hefyd, a charcharorion a gymerasent yn y wlad gyfnesawl. Y mae Giraldus Cambrensis, (yr hwn a ddylynai Baldwin, Archesgob Caergaint, ar ei daith trwy Gymru, i bregethu y croesgadau, yn 1188,) yn crybwyll y lle hwn yn ei Deith-lyfr. Ac y mae breinlen a roddwyd gan Llewelyn ab Iorwerth i Briordy Penmon, wedi ei dyddio o "Gaerynarfon," yn y flwyddyn 1221. Yn y fan wedi i'r brenin Edward y Cyntaf ddarostwng y dywysogaeth, yn argyhoeddedig o bwysigrwydd sefyllfa wedi ei chyfaddasu mor dda gan natur, er diogelwch a chadernid, efe a barodd adeiladu castell ysplenydd yma, er cadw y pennaethiaid brodorol mewn ufudd-dod, ac er sicrhau iddo ei hun arglwyddiaeth ar y tiriogaethau yr oedd efe newydd eu henill; yn enwedig y parthau cyfagos i Eryri, lle y cawsai laweroedd o'r rhai a barhaent i wrthod cydnabod ei awdurdod, encilfa ddyogel. Yn y castell hwn y preswyliai efe yn gyffredin, tra yr oedd efe ar waith yn perffeithio ei fuddugoliaeth; ac y cynhaliai ei lŷs breninol yn achlysurol; ac os nad efe ydoedd seilydd cyntaf y dref bresenol, y mae yn ddiamheuol iddo osod sail ei phwysigrwydd a'i llwyddiant canlynol. Yr amddiffynfa ysplenydd hon, yr hon am ei maintioli, a'i cheinwŷchder adeilyddol, oedd yn wrthddrych edmygedd y wlad, ac y mae llawer o'i mawr-wychder yn cael ei arddangos hyd yn nod yn ei chyflwr adfeiliedig, sydd yn gorwedd ar gopa llech-graig sylweddol, yn ysgwyddaw allan i for ebach Caerynarfon, ac yn ffiniedig ar un tu gan gul-for y Menai, ar y llall gan fornant yr afon Seiont, ac ar y drydedd, ac mewn rhan ar y bedwaredd, gan gilfach, neu grigyll o'r culfor. Dechreuwyd ei adeiladu yn y flwyddyn 1282, a dywedir iddo gael ei gwblhau yn yr yspaid byr o un flwyddyn, gan fod Edward wedi gorfodi y pendefigion brodorol, nid yn unig i ddarpar crefftwyr a llafurwyr, ond hefyd i gyfranu symiau mawrion o arian tuag at y draul o'i adeiladu, at yr hyn hefyd y neillduodd efe gyllidau archesgobaeth Caerefrog, yr hon a gadwasid yn wag i'r perwyl hyny. Cafwyd cyfran o'r defnyddiau o furiau yr hen *Segontium*, dygid y cerrig calch o Fôn, a'r grud-feini a ddygid o gymydogaeth y Faenol, ac i gludo y cyfryw ddefnyddiau trymion, yr oedd culfor y Menai yn dra manteisiol. Y mae yn debyg mai rhyw gymaint o'r castell yn unig a orphenid o fewn yr yspaid byr hwnw, ag oedd o wir angenrheidrwydd yn y fan, i gynwys y gwarch-lu; canys fe ymddengys

Digitized by Google



Drawn from Photographs by W. Hutchison

Engraved by R. Anderson

CARNARVON CASTLE.

BLACKIE & SON, LONDON, GLASGOW & EDINBURGH

Digitized by Google

Digitized by Google

oddiwrth ysgrif oedd gynt yn nghadw yn y trysordy yn Nghaerynarfon, na orphenwyd y cyfan o'r adeilad enfawr hon, o fewn llai na deuddeng mlynedd. Y llywydd cyntaf, oedd John de Havering, dan yr hwn, yn nghyda chaplan, meddyg, a gôf, yr oedd gwarchod-lu o ddeugain o wŷr arfog, o ba rai yr oedd pymtheg yn albryswyr, neu saethyddion a bwaau croesion, a'r gweddill yn cyflawni dyledswyddau gwylwyr a gwarcheidwaid. Yn ol adroddiad hanesyddol Syr John Doddridge am Ogledd Cymru, yr hwn a gyhoeddwyd tua dechreu yr ail ganrif ar bymtheg, gwnaed peth cyfnewidiad wedi hyny ar y sefydliad hwn, fel yr oedd yn gynwysedig o gwnstabl y castell, cadben y dref (swydd yr hwn a ddelid weithiau gan y cwnstabl), pedwar ar hugain o filwyr, er cadwraeth ddïogel y castell a'r dref, a phorthor, i ofalu am byrth y dref.

Er holl ofal a gochelgarwch Edward, efe a'i profodd yn orchwyl tra anhawdd i ddarostwng ysbryd rhyddgarol ei ddeiliaid newyddion, ac yn y flwyddyn 1283, y pendefigion Cymreig yn y modd mwyaf penderfynol, a wrthodasant roddi ufudd-dod iddo ef fel eu pennadur, oddieithr cydsynio o hono i breswylio yn Nghymru; nac i neb arall oddi eithr ei fod yn frodor o Gymru. Am hyny, er ceisio eu cymmodi â'i lywodraeth, efe a anfonodd genadwri at ei frenines Eleanor, yr hon oedd y pryd hyny yn agos i'w thymp, yn dymuno arni ddyfod i Gaerynarfon; a'i mawrhydi a ymgymerodd a'r daith yn ddïoed, er ei bod yn ddyfnder gauaf y pryd hyny, ac a aeth drwy y daith flin ar farch, gan dramwy ffyrdd geirwon, a braidd anhygyrch y wlad, hyd oni chyrhaeddodd hi i'r castell hwn, lle y rhoddes enedigaeth i fab ar y 25ain o fis Ebrill; yr hwn yn y canlyniad i farwolaeth ei frawd henaf, a ddaeth yn ettifedd yr orsedd dan y teitl, Edward yr Ail; ac oddiwrth le ei enedigaeth, efe a gyfenwid, Edward o Gaerynarfon. Y tywysog hwn, tra yn faban newydd ei eni, a gyflwynid gan ei dad i'r pendefigion Cymreig, fel eu pennadur dyfodol; ac yn y flwyddyn ganlynol, y darfu i'r brenin Edward, yr hwn oedd y pryd hyny yn Nghaerodor, anfon ysgrif-wŷs allan, wedi ei hamcanu i enill cymmod ei ddeiliaid Cymreig, yn yr hon y cyhoeddai fod tref Caerynarfon, yn mysg lleoedd eraill yn y dywysogaeth, i fod dros byth yn rhydd oddiwrth daliad treth dinasyddion (*talliage*). Er denu y Cymry o'u hencilfeydd yn y mynyddoedd, a chefnogi masnach, caniattaodd y pennadur hwnw freinlen o gorphoriaeth i'r trigolion, gan ddyroddi iddynt amryw ragorfreintiau.

Adam de Wetenhall ydoedd cwnstabl y castell yn y flwyddyn 1289; ac y mae yn debyg fod y brenin wedi rhoddi y swydd hono ar ol hyny, i'w anwyl-ddyn Syr Roger de Pulesdon, yr hwn a bennodasai efe yn Siryf a "Cheidwad" Mon, yn y flwyddyn 1284, a'r hwn a gyfanneddai mewn palas yn Nghaerynarfon, a elwid ar ol ei enw, Plas Pulesdon. Yn y flwyddyn 1294, gorchymynid i Syr Roger gyfodi dofraeth mewn rhanau o Ogledd Cymru, tuag at ddwyn treulion y rhyfel â Ffrainc; a chynyrfodd hyn y trigolion i ymarfogi i'w wrthsefyll, a hwy a ddaliasant Syr Roger Pulesdon, ac a'i rhoddasant i farwolaeth; a'r amgylchiad yma a arweiniodd i wrthryfel cyffredinol, dan dywysiad Madoc, mab o ordderch i'r tywysog Llewelyn ab Gruffydd; yr hwn a wnaeth ymosodiad disymwth ar dref Caerynarfon, ar ddiwrnod ffair, pan ydoedd lluaws mawr o'r Saeson wedi ymgynnull yn nghyd yno; a chan gymeryd y castell a'r dref trwy ruthr-gyrch, hwy a laddasant lawer o'r Saeson oeddynt yn anarfog a di amddiffyn, ac wedi yspeilio y dref, hwy a'i rhoisant ar dân; ac ni allwyd darostwng y gwrthryfel hwn, hyd oni ddaeth y brenin ei hunan drosodd i Gymru, a holl gadernid milwraidd Lloegr gyd ag ef.

Y tywysog ieuanc Edward, pan yn un mlwydd ar bymtheg oed, a dderbyniodd wrïogaeth ei ddeiliaid Cymreig yn Nghaerlleon, lle yr ymddangosai, a choronig aur o amgylch ei ben, a theyrnwialen arian yn ei law, yn arwydd-luniau o'i awdurdod. Wedi esgyniad y tywysog hwn i orsedd Lloegr, bu Caerynarfon dros yspaid byr, yn encilfa i Pierce Gaveston, anwyl-ddyn trahaus y pennadur hwnw, yr hwn a laniodd yno ar ei ddychweliad o'r Iwerddon, i'r lle ei dëolasid.

Yn y flwyddyn 1402, ymosodwyd ar y dref gan filwyr Owain Glyndwr; ond, fe'i hamddiffynid yn bybyr a llwyddianus dros Harri IV., gan Iefan ab Meredydd, a Meredydd ab Hwlcyn Llwyd, o'r Glyn Llifon, i'r rhai dan gadben Seis'nig, yr ymddiriedasid cadwraeth y castell. Mor gaeth y gwarchaeid y lle ar yr achlysur yma, fel y gwelwyd yn angenrheidiol cludo corff Iefan ab Meredydd, yr hwn a fuasai farw yn ystod y gwarchae, ar hyd y môr, o amgylch pen tir Lleyn, i'w gladdu yn Mhenmorfa.

Yn ystod y rhyfel Seneddol, cafodd y dref a'r castell, a gedwid dros y brenin, eu gwarchae a'u cymeryd yn y flwyddyn 1644, gan y Cadben Swanley, yr hwn a gymerodd bedwar cant o garcharorion, ac a gafodd lawer iawn o arfau, arlwy rhyfel, ac yspail. Ond y blaid freninol a ail feddiannodd y lle cyn hir, a phennodwyd Arglwydd Byron i'r llywyddiaeth; eithr yn y flwyddyn 1646, gwarchaewyd ar y lle drachefn gan filwyr y Senedd, dan lywyddiad Mytton, i'r hwn y rhoddes y gwarchodlu y lle i fynu ar ammodau anrhydeddus. Yn y flwyddyn 1648, darfu i Syr John Owen o'r Clenenney, a nifer o bleidwyr y brenin, osod gwarchae yn y dref hon, ar y Maeslywydd Mytton, a'r Milwriad Mason, y rhai a'i dalient dros y Senedd; ond hysbysid Syr John, bod y Milwriaid Carter a Twisselton, wedi cael eu hanfon gan y Senedd i gyfodi y gwarchae, a'u bod ar eu hymdaith gyda byddin o wŷr tua Chaerynarfon; am hyny efe a gymerth ran o'r fyddin i fyned i'w gwrthladd, a chyfarfuant yn lled agos i Aber, mewn lle a elwir "y Dalar Hir," lle yr ymladdwyd brwydr galed, yn yr hon y gorchfygwyd Syr John Owen, ac y cymerwyd ef yn garcharor, ac yn y canlyniad, cyfodwyd y gwarchae, ac yn fuan wedi hyn, plygodd holl Ogledd Cymru i awdurdod y Senedd.

Y mae y dref mewn sefyllfa ddymunol wrth safn yr afon Seiont, yr hon sydd yma yn ymarllwys i gulfor y Menai, ac o fewn pedair milldir i Abermenai, lle y mae y culfor hwnw yn ymuno a'r môr, yn Llein-for Sant Sior: fe'i cylchynir gan gaerau uchel a thrwchus, yn ymestyn oddiwrth y castell, ac yn ddiffynedig gan ragfuriau crynion o fewn pellderau cyfleus. Yr ydoedd gynt rodfa ddifyr ar y bronfuriau mur-ganllawiol ar hyd holl gylch y caerau, yn y rhai nid oedd namyn dau borth ar y dechreu, y rhai a ddiffynid bob un gan ddau dwr cadarn; y naill borth ydoedd ar y tu dwyreiniol, yn wynebu tu a'r mynyddoedd, ac mewn cymmundeb â'r dref newydd trwy gyfrwng pont wedi ei thaflu dros y ddyfr-ffos a amgylchynai y muriau; a'r llall ydoedd ar y tu gorllewinol, tua chulfor y Menai, mewn cymmundeb â'r borthfa i Fôn. Wedi hyny, agorwyd

mynedfeydd eraill, o'r rhanau diweddar o'r dref, sydd oddi allan i'r caerau. Yr oedd cynllun y dref yn rheolaidd; ac er fod yr heolydd yn gulion, croesent eu gilydd yn gywir-ongl; y mae y tai yn gyffredin yn hardd, ac yn dda; y dref yn cael ei goleuo a nwy, a chyflawnder o ddwfr da yn cael ei ddwyn iddi. Y mae iachusrwydd yr awyr, cyfleusdra ei sefyllfa i gael ymdrochi yn y môr, a golygfeydd prydferth y gymmydogaeth, wedi peri i lawer o deuluoedd cyfrifol ddewis y lle yn breswylfod barhaus; fel y mae lluaws o balasau tlysion yn ei hamgylchoedd: ac y mae yma amryw lettyau hardd a chyfleus wedi eu hadeiladu i dderbyn y lluaws dyeithriaid a ymwelant a'r dref yn misoedd yr haf, er difyrwch ac iechyd.

Y mae trafnidiaeth led eang yn cael ei ddwyn yn mlaen o'r porthladd hwn, â phrif borthladdoedd y Deyrnas Gyfunol; ac âg amrywiol barthau eraill y byd; y prif allforion ydynt lechi toi, a mŵn copr; a'r prif ddadforion, ydynt goed o'r Amerig, glô, a nwyddau eraill, o wahanol borthladdoedd y Deyrnas Gyfunol, ac y mae llawer o'r trigolion yn cael eu bywioliaeth mewn cyssylltiad a'r drafnidiaeth grybwylledig. Y mae y porthladd wedi ei wellau yn ddirfawr yn nghorph y ganrif bresenol, gan ymddiriedolwyr, awdurdodedig dan weithredoedd Seneddol, i godi trethoedd a thollau ar yr holl longau a ddelont i'r porthladd; yr ydys wedi gosod nof-nodau ar y *bar*, er dynodi y ddyfodfa i'r afon; a gwnaed morfur ar drwyn Llanddwyn, tua saith milldir i'r gogledd-orllewin, trwy yr hyn y ffurfir gorsaf ddiogel i lestri; ac er nodi y rhai hyn, a gwneyd y ddyfodfa i fewn i'r afon yn fwy rhwydd a diogel, y mae dau wyl-dwr wedi eu cyfodi ar uchelder Llanddwyn.

Cynhelir marchnad Caerynarfon ar ddydd Sadwrn, yn yr hon y cair helaethrwydd o bob rhyw arlwyon, yn enwedig cig, a physgod, ymenyn, a bwyd-lysiau. Y ffeiriau, a fwriadir yn benaf i werthu gwartheg, a gynhelir ar Mawrth 12, Mai 16, Awst 12, Medi 20, a Rhagfyr 5. Adeiladwyd tŷ marchnad a chigyddfa newydd yn y flwyddyn 1831, ar draul y Gorphoriaeth, a gwnaed yr hen gigfa yn farchnad ŷd.

Y dref hon, yr hon oedd y gyntaf yn y dywysogaeth a dderbyniodd freinlen freninol, a wnaed yn fwrdeis-dref rydd-freiniol, gan Edward y Cyntaf, yn dra buan wedi iddo orchfygu Cymru, Caniattasid iddynt gael carchar i roddi troseddwyr ynddo, yn annibynol ar Siryf y Sir; a chaniatteid iddynt ffurfio cymdeithwys fasnachol, a meddu llawer o ragor-freintiau. Os byddai i unrhyw gaeth-ddeiliad, fyw o fewn ffiniau y dref am un dydd a blwyddyn, naill ai yn meddu tir, neu yn talu treth a dofraeth, ni's gallai ei arglwydd ei hawlio mwyach; ond deuai trwy hyny yn ŵr rhydd, ac i hawl o holl freintiau y fwrdeisdref: esgusodid y bwrdeisiaid yn mhob parth o'r deyrnas, rhag gorfod talu unrhyw drethi lleol: ni chennadid i Iuddewon drigo yn y fwrdeisdref; ac ni ellid euog-farnu y bwrdeisiaid o unrhyw drosedd a gyflawnid rhwng yr afonydd y Conwy a'r Dyfi, (rhandir a gynnwysai agos y cyfan o swyddi Caerynarfon a Meirionydd), oddieithr gan reithwyr o'u cyd drefwyr eu hunain.

Y mae y llywodraeth, yn ol y freinlen, yn gorwedd mewn Maer, yr hwn sydd yn wastad yn gwnstabl y castell, dau feili, cofiadur, a goruchwyliwr, a nifer anmhennodol o fwrdeisiaid, yn cael eu cynnorthwyo gan ysgrifenydd trefol, dau oruchwyliwr, dau berllysgwr, a swyddogion eraill. Y mae cwnstabl y castell yn dal ei swydd trwy fraint-lythyr, a'r gwyswyr (*bailiffs*), a ddewisir yn flyneddol o fysg y bwrdeisiaid, ar y 29ain o Fedi; ac y maent hwy, yn nghyd a'r Maer, neu gwnstabl y castell, yn heddynadon o fewn y fwrdeisdref. Y mae Caerynarfon, mewn undeb a bwrdeisdrefi Aberconwy, Bangor, Criccieth, Nefyn, a Phwllheli, yn dychwelyd aelod i'r Senedd; caniattawyd yr hawl-fraint etholiadol yn yr 37ain i Harri VIII., a thros hir amser, perthynai yr ethol-fraint i'r bwrdeisiaid yn gyffredinol; ond, trwy y weithred ddiwygiadol, a gadarnhawyd yn 1832, er gwellhau cynnrychioliad y bobl, cyfyngid yr hawlfraint i'r bwrdeisiaid trigiannol yn unig, os byddent wedi eu rhestrebu yn rheolaidd, yn ol cyfarwyddiadau y ddeddf; a phob gwrryw o gyflawn oedran a fyddo yn dal, fel meddiannydd, neu dirddeiliaid dan yr un tir-feddiannydd, dir, neu diroedd, gwerth o leiaf, ddeg punt y flwyddyn, os y bydd yn alluog i restrebu yn ol y gyfraith: nifer y pleidleiswyr dan yr hen drefniadau bwrdeisdrefol, ar y pryd y cadarnhawyd deddf y Diwygiad Seneddol, oedd pedwar cant a phedwar ugain. Rhyddid y fwrdeisdref a enillir trwy breswyliad o fewn y fwrdeisdref, a thrwy ddyroddiad gan y bwrdeisiaid. Byddai y gorfforiaeth yn yr amser gynt, yn cynnal llysoedd i brofi pob troseddwyr na chyhuddid o gamweddau dienydd; ond nid ydynt yn ymarfer yr hawl-fraint hono er's llawer o flyneddoedd bellach; ac ynadon y fwrdeisdref yn gyffredin a draddodant y carcharorion i gael eu prawf yn y brawdlysoedd tri misol. Byddai cantref-lysoedd a barwn-lysoedd, yn cael eu cynal yma gynt; ond yr unig lŷs a gynhelir yma yn bresenol, ydyw llys er codi dyledion dan ddeugain swllt, yn yr hwn y llywydda y cofiadur, a brawdwriaeth yr hwn sydd yn gyfled a'r fwrdeisiaeth. Yma y cynhelir y brawdlysoedd, a'r llysoedd trimisol, ac yr etholir marchog y Sir. Ymddengys fod Capel Sant Mair, yr hwn sydd o fewn y muriau, wedi ei adeiladu ar y cyntaf, at wasanaeth y gwarchod-lu yn unig: ond efe a wnaed i fynu yn hardd er's llawer o amser, fel Capel anwes i eglwys y plwyf, yr hon sydd tua haner milldir o'r dref. Heblaw hyny, y mae eglwys newydd, helaeth a hardd iawn, wedi ei chyfodi yn ddiweddar, yn agos i orsaf y Rheilffordd, ar y tu gogleddol i'r dref: ac y mae yma amryw addoldai eang a hardd o fewn y plwyf, yn perthyn i'r Annibynwyr, y Bedyddwyr, a'r Trefnyddion Calfinaidd a Wesleyaidd. Cafodd tai a thiroedd yn mhlwyf Llanrug, eu cymun-roddi gan Mr. John Morris, at ddwyn i fynu blant tlodion o'r fwrdeisdref, mewn rhyw alwedigaethau; ac y mae llog amryw ddoniadau, a chymun-roddion elusenawl, yn cyrhaedd yn y cyfan i 200*p.*, yn cael ei ranu rhwng y tlodion yn flyneddol.

Yr oedd *Segontium* y Rhufeiniaid yn cymeryd i fynu lanerch betrual, o tua saith erw o dir, ar ben uchelfa, yn llethru yn raddol ar bob ystlys, ac fe'i hamddiffynid â muriau cryfion o waith maen, o ba rai, y mae rhanau helaeth ar y tu deheuol, bron mewn cyflwr perffaith hyd y pryd hwn; ac y mae olion o furiau mewn amryw fanau; hefyd y mae gweddillion adeilad o bridd-lechau, wedi eu plastro drostynt â chymrwd hynod o galed a llyfn, yr hwn y bernir am dano mai twymdy ydoedd. Cafwyd bathodyn aur, yn dwyn arno yr arnodau, T. DIVI, AVG. FIL. AVGVSTVS, o fewn llanerch yr orsaf, yr hon a drawsir gan y ffordd o Gaerynarfon i Lanbeblig, sef eglwys y plwyf; ac wrth gloddio lle i sylfeini Cefn

Digitized by Google

Hendref, o fewn y llanerch, yn y flwyddyn 1827, darganfuwyd amryw fathodion Rhufeinaidd, a chreiriau gwerthfawr. Yn mysg y diweddaf, yr oedd dernyn teneu iawn o aur, pedair modfedd o hyd, ac un fodfedd o led, wedi ei arnodi â rhyw lythyrenau, neu nodau cyfriniol, Groegaidd yn benaf, y rhai oddi wrth eu ffurf, a ymddangosant megis o'r ail ganrif, ac oddiwrth arwyddocad yr enwau, a'r cyfenwau, o ba rai y mae rhai yn Hebraeg, deallir mai swyn-eilun Basilidaidd oedd y dernyn aur hwn. Yr oedd yr heresi Basilidaidd, yn ol Irenæus, yn ffynu yn Gaul, yn ebrwydd ar ol yr oes apostolaidd, ac y mae darganfyddiad y crair gwerthfawr a chywrain hwn, gan y Parch. T. Trefor o'r Cefn Hendref, yn profi mor gyflym yr ymledodd yr athrawiaethau hyny, i daleithiau pellaf yr amherodraeth Rufeinaidd. Yr oedd hen amddiffynfa Rufeinaidd ar lan serth yr afon Seiont, rhwng *Segontium* a thref bresenol Caerynarfon, un o'r rhag-orsafau perthynol i'r orsaf hono: muriau yr hon, o un ar ddeg i ddeuddeg troedfedd o uchder, a chwe throedfedd o drwch, a amgylchynent lanerch betrual, 74 llath o hyd, a 64 o led. Yr oedd pentwr o gerig yn un o'r onglau, adfeilion tŵr, neu ragfur cynghrwn, mae yn debyg, sylfaeni yr hwn a ddarganfuwyd wrth gloddio, yn y rhai y cafwyd cyrn carw, ac esgyrn anifeiliaid llai. Wrth symud y ddaear, cafwyd lle i farnu fod rhagfur cyffelyb ar bob congl i'r amddiffynfa, yr hon debygid oedd wedi ei hamcanu i amddiffyn y glaniad o'r parth hwn o'r afon, ar ben gorllanw. Ar y lan arall i'r Seiont, yn gymwys ar gyfer hon, y mae olion amddiffynfeydd cyffelyb; rhagorsafau cyssylltiedig â'r brif orsaf; o'r rhai, yr amddiffynfa gref a elwir Dinas Dinlle, ar ben bryn celfyddydol ar lan culfor y Menai, ar gwr morfa helaeth, i'r de orllewin o'r dref bresenol, oedd y benaf. Ar dystiolaeth hanesyddol dra anmhenderfynol, yn seiliedig yn benaf ar awdurdod Matthew o Westminster, ac ar ddarganfyddiad careg, a'r llythyrenau S.V.C., yn gerfiedig arni, mewn daiargell, yn mysg adfeilion *Segontium*, fe dybir fod y lle yma wedi bod unwaith yn drigle yr amherawdr Cystenyn, tad yr hwn, Custeint, a gladdwyd yma, yn ol y *Flores Historiarum*. Dywedir fod yn weledig yma tua chant a haner o flyneddoedd yn ôl, gapel a adeiladasid gan Helen, mam Cystenyn Fawr, yn ystod parhad yr amherodraeth Rufeinaidd yn Mrydain; ac yr oedd ffynon yn y gymmydogaeth, yr hon oedd yn enwog gynt am rinwedd meddygol ei dwfr, yn dwyn enw y dywysoges hono drwy yr oesoedd.

Y mae gweddillion castell Caerynarfon, yr hwn oedd yn adeilad dra phwysig ar un adeg, yn gorchuddio llanerch betryal eang, ar ystlys orllewinol y dref: y muriau allanol ydynt agos yn gyfain, ac y maent oddeutu wyth troedfedd o drwch: ac y mae cel-ffordd o'u mewn, yn ffurfio cymmundeb â phob rhan o'r castell, ac agorfeydd o honi i'r gwahanol dyrau, a gyfodant i uchder mawr oddiar y murganllawiau; y mae rhan o'r gêl-ffordd hon, (tua deg llath a thriugain,) yn aros yn gyfan eto, yn cael ei goleuo gan ffenestri culion, trwy y rhai y gellid ergydio saethau ar yr ymosodwyr, heb fod mewn perygl i gael niweid oddiwrthynt.

Y mae traddodiad yn dywedyd mai yn y castell hwn yr ymddug y frenines Eleanor ar ei hail fab, yr hwn a wnaed yn dywysog Seis'nig cyntaf ar Gymru, a dangosir ystafell yn y prif dŵr, a elwir "Tŵr Eryr," lle meddir, y cymerodd yr amgylchiad hwnw lê; ond, dygir rhesymau tra chryfion debygid, yn mlaen, er dangos na all traddodiad fod yn hollol gywir yn hyn. Y mae "Coflyfrau y Tŵr," yn mherthynas i'r Dywysogaeth, yn amser Edward I., a'r II., yn cynwys tystiolaeth dra phenderfynol ar hyn: canys deallir oddiwrthynt nad oedd "Twr yr Eryr" wedi ei orphen hyd y ddegfed flwyddyn o deyrnasiad Edward yr Ail, pan oedd y pennadur hwnw yn ddeng mlwydd ar hugain oed. Cafodd ei doi yn Nhachwedd, 1316; lloriwyd ef yn Chwefror, 1317; a chyfodwyd yr eryrod i'w ben yn Mawrth, 1317. Yn yr hen goflyfrau crybwylledig, nyni a ganfyddwn, fod y castell wedi cael ei ddechreu gan Edward I., yn 1283, yn y gongl ogledd-ddwyreiniol, a'i ddwyn yn mlaen yn raddol tu a'r de orllewin; bod y gwaith wedi ei gymeryd i fynu gan Edward II., ac i'r castell gael ei orphen yn y flwyddyn 1322, fel y cymerodd yr holl adeilad yn agos i ddeugain mlynedd i'w gwblhau: ac eto fe haera rhai henafiaethwyr, fod yr adeilad enfawr hon, wedi ei chyfodi mewn deuddeng mis. Edward yr Ail a anwyd Ebrill 25ain, 1284, yn mhen y flwyddyn wedi dechreu adeiladu y castell; felly y mae yn anhawdd meddwl y gallasai unrhyw ran o'r adeilad fod yn gymhwys i dderbyn y frenines y pryd hyny; yn enwedig pan y cymerom i ystyriaeth, mor annyben yr oedd y gwaith yn cael ei ddwyn yn mlaen: ond, nid oes genym unrhyw sail i ammeu gwirionedd y traddodiad, fod Edward yr Ail wedi cael ei eni yn Nghaerynarfon, er nad yn yr ystafell fechan hono yn Nhwr yr Eryr, a ddangosir fel man ei enedigaeth; ond yn fwy tebyg, yn un o ystafelloedd breninol yr hen gastell Cymreig, yr hwn, debygid, ni ddechreuasid ei ddi gaeru eto.

Y mae un ffaith ddyddorol arall, y dylid ei chrybwyll mewn cyssylltiad a'r castell hwn, sef carchariad William Prynne, Ysw., y cyfreithiwr enwog, o fewn ei furiau, dan *warrant* o'r *Star Chamber*. Trwy wrando ar ddarlithiau Dr. Preston, y *Puritan* enwog, efe a ynillwyd i gefnogi y blaid hono; ac efe a ddechreuodd ysgrifenu yn erbyn llygredigaethau yr oes, mor foreu a'r flwyddyn 1627, gan gondemnio yr arferion o yfed iechyd da, serch-gudynau, pabyddiaeth, ac Arminiaeth, fel ysgelerderau annyoddefol. Yn y flwyddyn 1632, efe a gyhoeddodd lyfr mawr a elwid "Histrio-Mastix" o fil o du dalenau, yn erbyn chwareudai a chwareuyddiaethau; a chan y bernid ei fod yn dynoethi annuwioldeb y frenines yn lled ddi arbed ynddo, efe a wnaed yn ddeiliad erlyniad y Ser-gafell, (*Star Chamber*,) a dyfarnwyd ef i dalu dirwy o bum mil o bunnau, i'w ddiarddel o brifysgol Rhydychain, ac o *Lincoln's Inn*, i'w ddiraddio o'i alwedigaeth fel dadleuwr cyfreithiol, i sefyll ddwywaith yn y rhigod (*pillory*); a cholli clust bob tro, ac i gael ei gadw yn garcharor am ei oes. Ond, parhai Prynne i ysgrifenu yn erbyn esgobyddiaeth, gan alw yr esgobion yn "Dduwinyddion Sidan,"—"bleiddiaid rheibus," ac "Arglwyddi Luciferaidd;" ac efe a ddygwyd drachefn o flaen yr esgobion hyny i'w farnu unwaith eto; a dedfrydwyd ef mewn dirwy arall o bum mil o bunnau, ei roddi yn y rhigod, a thori y darnau gweddill o'i glustiau, a'i nodi â'r ddwy lythyren S. L. sef, cabl-draethwr ymbleidiol. Heblaw hyn oll, y mae yn ymddangos i orchymyn gael ei roddi allan, yn peri ei garcharu yn wastadol mewn rhyw garchar digon annghysbell; ac i'r perwyl hyny dewiswyd Castell Caerynarfon yn gyntaf, ac ynys Jersey wedi hyny. Ond, yn y flwyddyn 1640, efe

Digitized by Google

a gafodd ei ryddid, ac etholwyd ef yn aelod Seneddol dros Newport; a chymerai ran neillduol yn mhrawf Laud, yr hwn a fuasai ei brif erlidiwr ef. Pa fodd bynag, wedi dymchweliad y brenin Charles, bu Prynne yn dra ymdrechgar i athrywynu rhyngddo ef a'i ddeiliaid; a gwrthwynebodd Cromwell mor eofn, fel y darfu i hwnw ei fwrw ef i garchar drachefn. Efe a ymunodd yn adferiad Charles yr Ail; ac a bennodwyd yn brif geidwad y coflyfrau yn y Tŵr, a bu farw yn y flwyddyn 1669.

Yn y flwyddyn 1821, cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol yn y castell, o dan lywyddiaeth Ardalydd Môn, pan yr enillwyd y gadair gan Mr. Richard Jones, yr Erw, Llanwnda, (Gwyndaf Eryri.) Y testun y cyfansoddasai ei Awdl arno, oedd "Cerddoriaeth." Bardd yr Eisteddfod hon oedd Dafydd Ddu o Eryri, y pryd hyny o fewn ychydig i derfyn ei einioes. Cynhaliwyd Eisteddfod arall yma yn y flwyddyn 1862, yr hon a barhaodd am bedwar diwrnod. Testun y gadair yn hon, oedd "Y flwyddyn:" a'r cyfansoddiad ar y testun a farnwyd yn fuddugol, oedd yr eiddo "Hwfa Môn."

Yn y flwyddyn 1832, ymwelodd ei mawrhydi, y Frenines Victoria, y pryd hwnw yn dywysoges ieuanc, gyd a'i mam, y Dduges o Caint, a'r castell hwn: ac yn y flwyddyn 1861, ychydig fisoedd cyn ei farwolaeth, ymwelodd y tywysog cydweddawg "Albert Dda," yn nghyd a'i fab, y tywysog Alffred, a'r hen adeilad. Anrhydeddwyd y castell hefyd âg ymweliadau lluaws o urddasolion o'r cyfandir, megis yr Arch-ddug Cystenyn, o Rwssia, brenin Saxoni, y Tywysog Orange, &c.

Yn y flwyddyn 1851, cynaliwyd cyfarfod Jubili y Gymdeithas Feiblaidd Frutanaidd a Thramor ynddo, lle yr oedd llawer o filoedd o garedigion y Beibl wedi ymgynnull, ac amryw o brif enwogion Cymru a Lloegr, yn dadleu hawliau y Gymdeithas, mewn areithiau hyawdl.

Poblogaeth tref Caerynarfon, yn ol Deiliadeb 1861, oedd 8512; ond y mae y gwelliannau mawrion ydynt wedi cymeryd lle yma yn ddiweddar, a'r symbyliad a roddwyd i fasnach y lle trwy ddygiad amryfal Reilffyrdd iddi, yn sicr o fod wedi achlysuro cynnydd lled fawr yn ei phoblogaeth erbyn hyn; ac y mae yn sicr fod dygiad y rheilffordd trwy ganol y dref, wedi gweinyddu llawer at ei gwneyd yn iachach i'r trigolion.

**CAF**, neu Cap, ydoedd un o frenhinoedd Ynys Prydain yn y cynoesoedd. Efe a ddilynodd Bleiddyn II. i'r orsedd, a dilynwyd yntau gan Owen.

**CAFFO**, Sant, ydoedd un o feibion Caw ab Geraint ab Erbyn, y rhai wedi iddynt gael eu di feddianu o'u tiroedd yn ngogledd Lloegr, gan y Gwyddil Ffichti, yn y chweched ganrif, a gawsant diroedd yn Mon, gan Maelgwyn Gwynedd. Caffo a sylfaenodd eglwys Llangaffo, yn Mon.

**CAIAN**, Sant, a flodeuodd tua chanol y 5ed ganrif. Mab neu wyr ydoedd i Brychan Brycheiniog. Efe a sefydlodd eglwys Tregaian yn Mon, a chynelid ei wyl, Medi 25ain.

**CAI HIR O DIR PENCAREG**, ydoedd brif gogydd Llys Arthur, ac un o'r pedwar marchog a'r hugain a eisteddent o amgylch y Ford Gron. "A gallai Cai ddal ei anadl o dan ddwfr am naw niwrnod a naw nos, a byw naw dydd a naw nos heb gysgu. Nid oedd feddyg a allai wella archoll cleddyf Cai. Medrus oedd Cai. Cyhyd a'r pren uwchaf yn y goedwig a fyddai pan y mynai. Cyneddf arall oedd iddo—mor fawr oedd gwres ei natur, pan fyddai'r gwlaw drymaf, pa beth bynag a ddygai yn ei law, dyrnfedd îs, a dyrnfedd uwch na hwnw a fyddai sych; a phan fyddai fwyaf oerni ei gymdeithion, byddai ef fel tân iddynt." Gelwid ef yn un o "Dri Thaleithiawg Câd," y rhai a arwisgent daleithiau am yr arlais mewn brwydr; ac yn un o'r "Tri Lledrithiawg Farchawg," y rhai pan ymlidid hwynt yn galed, a allent drawsffurfio eu hunain i'r llûn a fynent. Tybir mai oddiwrtho ef y cafodd Caer Gai yn Meirion ei henw.

**CAIN**, Santes, a flodeuai yn gynar yn y 6ed ganrif, ydoedd ferch Caw, arglwydd Cwm Cawlwyd. Ganddi hi y sefydlwyd eglwys Llangain, yn swydd Gaerfyrddin.

**CAIN**, Rhys—oedd fardd awenyddol ac arlunydd medrus, yn byw yn Nghroesoswallt, yn 1580. Nid oes sicrwydd pa un ai yn ymyl afon Cain, yn mhlwyf Trawsfynydd, yn Meirion; neu yn Mechain-is-coed, yn Nhrefaldwyn, y ganwyd ef; ond pa fodd bynag, yn Nghroesoswallt y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes; ac yr oedd yn ddysgybl ac yn gyfaill mawr i William Lleyn, yr hwn oedd yno ar y pryd yn Offeiriad; cafodd lawer o lyfrau a'r ol ei athraw, ac efe a ganodd ei Farwnad ef.

Dywedir iddo ryw dro dynu darlun o'r Croeshoeliad, yr hyn a barodd i ryw gymydog, ag oedd yn meddu mwy o zêl nag o wybodaeth, dramgwyddo wrtho, a'i alw yn eilunaddolwr. Yntau mewn atebiad a ganodd iddo yr englyn chwerw a ganlyn:—

"Yr annuwiol ffol a ffy—poen alaeth
Pan welo lun Iesu;
Llunied, os gwell yw hyny,
Llun diawl yn mhob lle 'n ei dy."

Mae yn amlwg oddiwrth yr englyn canlynol fod Rhys Cain yn babydd o ran ei gred; wele ei gyffes ffydd:—

"Credaf Dduw 'n benaf, ddawn byd—cariadawl,
Credaf iddo 'n hyfryd;
A'i lûn bûn, a'i lawn benyd,
A'i wir gorff, a'i air i gyd."

Y "llûn bûn," ar "llawn benyd," ar "gwir gorff" yn y swper, a ystyrid y pryd hwnw, fel yn awr, yn surdoes y Babaeth.

Mae un englyn o'i waith ar gael, ag sydd yn myned yn mhell i brofi, mai dyfais ddiweddar yw y *Beithinen.* Dywedir bod Rhys Cain mewn rhyw Eisteddfod, yn yr hon yr oedd rhyw fardd o Forganwg yn dangos y Beithinen, sef llyfr pren Coelbren y Beirdd; a chanodd Rhys i'r hynod-beth coelbrenawg, yr englyn gogan canlynol:—

"Ysgerbwd mewn cwd, nid min call—a'i mawl,
Llyfr moliant bardd cibddall;
Anhawdd yw ei iawn ddeall,
Fe wna i ddyn a fo 'n ddall."

**CAIO**, a elwir hefyd Cynwyl-Gaio, plwyf yn y rhan-barth uchaf o gantref Caio, swydd Gaerfyrddin, Deheubarth Cymru; 8 milldir i'r gogledd orllewin wrth ogledd o Lanymddyfri, ar draws yr hwn y mae y brif-ffordd o Lanymddyfri i Lanbedr Pont Stephan, yn cyfeirio. Y mae seiliau i gasglu fod y lle yma wedi bod yn llawer mwy pwysig yn yr amser gynt nag ydyw yn bresenol; ac fe'i gelwir mewn rhai hen ysgrif-lyfrau, "Caer Caio," enw sydd yn awgrymu, o leiaf, bod y lle yn ddiffynedig

Digitized by Google

gan gastell, neu ryw amddiffynfa filwraidd. Dyma y cyfeiriad at y lle, a gair yn "Marwnad Cadwallawn brenin Prydain," gan Llywarch Hên;—

"Lluest Cadwallawn tua Chaer
Caew, byddin a chynwrf taer
Can câd, a thori can caer."

Cyfieithia y diweddar Ddoethawr William Owain Pughe y llinellau uchod i'r ystyr a ganlyn;—

"Byddin Cadwallawn a ymwersyllodd tua dinas Caew, llu oedd anhyblyg yn nghynwrf càn câd, a chwympiad can caer."

Y mae y darganfyddiad a wnaed o bryd i bryd, o amryw greiriau Rhufeinaidd henafol yn y gymmydogaeth, yn rhoddi lle i farnu nad oedd y lle yn anadnabyddus i'r genedl ryfedd hono, tra y meddiannai ranau o Ynys Prydain; ac y mae yn dra thebyg fod y traddodiad sydd ar lafar gwlad yn gywir, fod gan y Rhufeiniaid orsaf yn y fan hon, ac iddynt adeiladu tref fawr o bridd-feini yma, yr hyn a barodd iddi gael ei galw, "Y dref Goch yn Neheubarth." Pa fodd bynag, cloddir priddfeini Rhufeinaidd o'r maesydd cyfagos yn fynych: ac y mae olion melin ar fryn gerllaw, a elwir "Melin y Milwyr;" yn yr hon, medd ein cyfaill serchog, a thalentog, *Gwilym Teilo*, "yr oedd y Rhufeiniaid yn ystod eu harosiad yn y rhan hon o'r wlad, yn malu eu hŷd, &c. Nid oedd y milwyr Rhufeinig yn cael ymsegura, megis ag y mae milwyr Prydain yn y dyddiau presenol; gorfodid hwy pan na buasent yn dilyn eu "galwedigaeth," ysef *rhyfela*, i adeiladu tai, i falu ŷd, ac i wneyd ffyrdd o'r naill ran o'r wlad i'r rhan arall, y rhai a elwir yn awr yn "Sarnau." Ar y ffordd i Landdewi Brefi, y mae un o'r Sarnau hyn i'w gweled yn awr. Yn ol rhai Ysgrifenwyr, gelwid hi "Sarn Helen," mewn anrhydedd i Helena, mam Cystenyn Fawr. Y mae eraill yn barnu mai llygriad ydyw yr enw, ac mai "Sarn y Lleng," neu "Sarn Lleon," ydoedd ei hiawn enw. Barnai y diweddar Barch. Eliezer Williams, bod yr enw "Cynwyl Gaio," yn dynodi gwersyllfa blaen-fyddin Caius, y maes-lywydd Rhufeinaidd; a bod yn debyg fod blaen-fyddin y Prydeiniaid, yn y lle a elwir "Cynwyl Elfed," ychydig filldiroedd i'r dehau o Caio.[1] A bod Elfed yn orsaf filwraidd bwysig, ar yr un adeg ag yr oedd Caio yn amddiffynfa gadarn, a brofir, debygid trwy y dernyn canlynol eto o waith Llywarch Hen;—

"Gwisgwys coed cain dudded haf;
Dybrysid gwyth wrth dynged—
Cyfarwyddom ni am Elfed."[2]

Yn ol Dr. W. O. Pughe, gellid aralleirio y llinellau uchod fel y canlyn;—

"Y mae y coed wedi rhoddi eu haf-dudded cain am danynt;
Prysured llid y lladdfa, a dywysir gan dynged;
Cyfarwydder ni i wastadedd Elfed."

Heblaw hyny y mae bys traddodiad yn cyfeirio trwy yr oesoedd, at lanerch lle y dywedir fod brwydr waedlyd wedi cael ei hymladd rhwng y Cymry a'r Rhufeiniaid, o fewn y plwyf hwn, sef "Maes Llanwrthwl;" ac fe dybir fod eglwys neu gapel wedi bod yn y fan hon, ar adeg dra boreuol, yr hon o gyssegrasid i goffadwriaeth Sant Wrthwl. Ac fel cadarnhad i wirionedd y traddodiad o fod yma frwydr waedlyd wedi ei hymladd yn y gymmydogaeth hon, gellir dyfynu y Sylwadau canlynol, o'r Gwaith crybwylledig uchod gan y Parch. E. Williams;—"Canfuwyd crug-fryniau, neu wyddfäau Rhufeinaidd yn y gymmydogaeth hon, yn fwy lluosog nag mewn un ran arall o'r Deyrnas Gyfunol. "Crug y bar," neu Crug y llidiowgrwydd a'r dialedd, fel y mae yr enw yn arwyddoccau, ydoedd y lle debygid, y claddai y Rhufeiniaid rai o'u gwarchlu a laddwyd ar adeg gwrthryfel y Prydeiniaid, dan eu brenines Buddug."

"Dywaid *Tacitus* fod Ostorius, pan yn llywyddu yn Mrydain, wedi dyfod rhagddo hyd o fewn ychydig i'r lleinfor sydd yn ysgaru rhwng Prydain Fawr a'r Iwerddon, a'i fod ef wedi bod yn aros dros ryw yspaid yn mysg y Siluriaid, neu breswylwyr Deheubarth Cymru. Y mae yr amgylchiadau hyn yn dangos yn amlwg, fod maes amryw o'r brwydrau yn ystod yr ymdrech rhwng y Rhufeiniaid a'r hen Brydeiniaid, heb fod nemawr o filldiroedd oddiwrth y llanerch grybwylledig. Canys, pan gyrhaeddodd Paulinus Suetonius i Frydain, prin yr oedd gwrthryfel peryglus yn mysg y Siluriaid wedi ei ddarostwng; gan hyny y mae yn debyg, y rhaid ei fod ef wedi bod yn aros yn y gymmydogaeth hon dros beth amser, er adferu tangnefedd. Y mae yr un awdwr hefyd yn ein hysbysu, fod y Prydeiniaid digofus wedi rhoddi llawer o'r gwarchluoedd i farwolaeth trwy fin y cleddyf, tra yr oedd y fyddin Rufeinaidd yn absenol, ar gadgyrchiad Suetonius i Fôn; a bod y maeslywydd Rhufeinaidd wedi cael buddugoliaeth drwyadl arnynt, ar ei ddychweliad.[3] Paenius Posthumus, yr hwn a'i gwarthruddasai ei hun, trwy ei annewredd a'i gamymddygiad, a deimlodd gymaint o herwydd llwyddiant Suetonius, a'r dirmyg â'r hwn yr edrychid arno ef gan y lleng, enwogrwydd milwraidd yr hon a gymmylasid gan ei lwfrdra, fel yr ychwanegodd efe at ei gam-ymddygiadau blaenorol, y weithred annghyfiawnaf o bob un, trwy roddi pen ar ei einioes ei hun. Cafwyd carreg amryw flynyddoedd yn ol, a'r argraff "Paenius Posthumus, &c.," arni, gan weithwyr oeddynt yn gwneyd ffordd dros y mynydd, o Lanymddyfri i Drecastell.[4] Ystyrir hyn fel prawf fod amryw o'r gweithrediadau a gronicla Tacitus mewn cyssylltiad â'r achlysur uchod, wedi cymeryd lle, nid yn neppell oddiwrth yr orsaf filwraidd yn Caio. Y mae llawer o drigolion y plwyf yn eu cyfrif eu hunain fel disgynyddion o drefedigaeth Rufeinaidd; a llawer o honynt yn falch o'r cyfryw haniad; ac y mae enwau Rhufeinaidd yn aml yn eu mysg. Y mae gwr yn fyw yn awr, o'r enw *Paulinus;* ond, y fath ydynt y cyfnewidiadau a berthynant i'r natur ddynol, fel y mae y Paulinus diweddar mor bell o fod yn llywyddu byddinoedd, a goresgyn teyrnasoedd, fel nad yw namyn llafurwr, yn byw yn dawel yn ei fwthyn. Gellid dwyn amryw brofion ychwanegol, i gadarnhau gwirionedd yr hyn a adroddwyd, ac i ddangos fod y byddinoedd Rhufeinaidd wedi bod yn arhosol flynyddoedd lawer yn y gymmydogaeth hon; ac ni ellir dychymygu am unrhyw gymhelliad mor debyg o ddylanwadu ar eu trachwant, a'u tueddu i benderfynu ar arhosiad mor faith ar y fath lanerch, â gobaith darganfod mwnglawdd, casglu cyfoeth, ac ychwanegu at eu trysorau."[5]

[1] Rev. Eliezer Williams's English Works, pp. 151, 152.
[2] Heroic Elegies of Llywarch Hen., p. 116.

[3] *Annals of Tacitus*, b. xii. ch. 31, 32; *ib.* b. xiv. ch. 37.
[4] Adysgrifiwyd yr argraff oedd ar y maen hwn gan amryw foneddigion yn y gymydogaeth; a gadawyd y garreg yn Nhafarndy y Ceiliog Du, ar fynydd Tre Castell.
[5] Rev. Eliezer Williams's English Works, pp 153, 154.

Digitized by Google

Yn agos ar gyfer Crug y bar, y saif "Bryn y Garth;" ac y mae olion capel i'w ganfod yno: y mae olion hen gapel arall i'w weled mewn cae perthynol i Bron-deilo, sef Capel Cwrt y Cadno, ychydig yn is i lawr; a gelwir y cae, "Cae'r Capel." Y mae yn naturiol i ni gasglu oddiwrth enw y tyddyn, ei fod wedi ei gyssegru i goffadwriaeth Sant Teilo, yr hwn a fu yn esgob Llandaf tua'r flwyddyn o.c. 540, ac i'r hwn y mae llawer o eglwysi a chapelau wedi eu cyssegru yn esgobaethau Llandaf a Thyddewi. Yn agos i'r Fron-deilo, y tu arall i'r dyffryn, y mae hen balas Llanwrthwl; gerllaw i'r hwn, fe ddichon, yr oedd hen Lan gynt, yr hyn a brofir i fesur, trwy y ffaith o fod ywen ardderchog i'w gweled yno yn awr, mewn cae tu draw i'r Annell, a chyferbyn â'r tŷ. Y mae cae arall ar y tyddyn hwn, a elwir "Cae'r polion," a "Phant y Polion," neu yn hytrach "Pant y Paulin;" ar yr hwn yr oedd hen faen, yn dwyn arno yr arysgrif ganlynol;—

"*Servator fidei patriaeque semper amator,*
*Hic Paulinus jacet cultor pientissimus aequi.*"

Gwelsom y cyfieithiad canlynol o'r llinellau uchod ar yr hen faen; wrth yr hyn y gwelir nad gŵr cyffredin oedd y sawl ei cyfodwyd i'w goffau:—"Yma y gorwedd Paulinus, amddiffynwr duwiolfrydicaf cyfiawnder, ceidwad ei egwyddorion crefyddol, a gwladgarwr dianwadal."—Ond pwy oedd y Paulinus hwn a goffeid mor barchus, nid ydyw mor hawdd penderfynu. Barna rhai oddiwrth yr enw "Paulinus," mai rhyw swyddog Rhufeinaidd enwog ydoedd, a gwympodd yn mrwydr fawr Llanwrthwl; ond barna ereill, oddiwrth y rhagoriaethau a briodolir iddo, nad oedd efe yn neb amgen na'r athraw Cristionogol enwog, "Pawl Hen," yr hwn oedd yn ei flodau yn agos i ddiwedd y bummed ganrif. Mewn rhai hen ysgriflyfrau, efe a elwir "Pawl Hen o Fanaw," yr hyn, debygid a awgrymai ei fod yn frodor o'r Ynys hono. Nyni a gawn grybwylliad am dano yn gyntaf, yn aelod o gôr Illtud, yn Nghaerworgorn; ac o ddeutu y flwyddyn 480, efe a sefydlodd gôr cyffelyb yn y Ty Gwyn ar Daf, swydd Gaerfyrddin, ar yr hwn y bu ef ei hun yn Athraw cyntaf, ac efe a elwid yn Esgob y Ty Gwyn ar Dâf, hefyd. Daeth ei sefydliad yn enwog yn fuan fel athrofa grefyddol: ac yn gymaint a bod Pawl yn rhagori yn ei hyddysgrwydd yn yr Ysgrythyrau, symmudodd Dewi, Teilo, ac amryw saint enwog ereill, i'r Ty Gwyn, er mwyn cyfranogi o'i hyfforddiadau gwerthfawr. Efe ydyw nawdd-sant Llangors yn swydd Frycheiniog, a Chapel Peulin, yn swydd Gaerfyrddin. Yr oedd efe yn bresenol yn y Gymmanfa a gynhelid yn Llanddewi Brefi, yn y flwyddyn 519. Y mae y gareg hon, yr hon pan y gwnaed sylw gyntaf o honi, yn agos i ddau can mlynedd yn ol, oedd yn gorwedd fel pont ar draws ffrwd o ddwfr, yn cael ei chadw yn ofalus gan yr haeddbarchus wladgarwr diledach, J. Johnes, Ysw. Dolau Cothi. Y mae yno faen cerfiedig arall, a safai ar y dechreu yn y lle a elwir "Pant y Polion," a'r argraff canlynol yn doredig ynddo:—"*Talori adventi Maqueragi Filius.*" Bernir mai gwyddfa rhyw Rufeiniwr urddasol oedd hon: ond, y mae yn ddrwg genym ychwanegu, fod yr hin yn prysur ddinystrio yr argraff oddiar y maen hwn, fel y bydd yn llwyr annarllenadwy yn fuan; y mae llawer o'r llythyrenau a welid yn eglur ar y maen hwn lai na dau can mlynedd yn ol, fel y gwelwn oddiwrth y darlun o honi yn "Gibson's Camden," wedi eu llwyr fwytta gan yr hin, erbyn hyn. Yn mysg henafiaethau dyddorol ereill a gafwyd yn y plwyf hwn, y mae dwy dorch aur, a gafwyd wrth aredig ar diroedd Mr. Johnes y Dolau Cothi, y rhai a gedwir yn nhlysgell y boneddwr hwnw. Y cyfryw eurdorchau a wisgid gan hen dywysogion Cymreig enwog. Y mae yn meddiant y boneddwr hwn hefyd, faen gwerthfawr, a elwir *Amethyst*, yn nghyda chrifed-faen, neu ddelw gerfiedig o'r dduwies Diana, a gaed yn y gymmydogaeth hon. Cafwyd tair mil o fathodau copr yn yr ardal hon yn y flwyddyn 1792; ac yn eu plith yr oedd rhai o amser Gallienus, Solina, ac o'r deg ar hugain gormesdeyrn ereill. Ac mewn gair, yr ydys yn darganfod rhyw greiriau hynafiaethol, yn y plwyf hwn a'i amgylchoedd yn barhaus, fel nad oes le i ammeu i'r Rhufeiniaid drefedigaethu yma dros yspaid maith; ac y mae yn lled sicr erbyn hyn, mai prif orchwyl y milwyr Rhufeinaidd yn ystod eu harosiad yn Nghaio, oedd cloddio am aur: ac y mae yn debyg fod y mwnglawdd a weithiwyd ganddynt yma, yn un lled oludog, cyn y buasent yn cloddio y fath ogofeydd ehang, ac yn gwneyd y fath dramwyfeydd tan-ddaiarol rhyfedd. Y mae nifer yr Ogofau hyn yn wyth: ond, er fod rhai wedi tramwy i fewn iddynt tua haner milldir, bernir nad oes neb yn yr oes yma, wedi cyrhaedd eu man eithaf. Rhyw ddynion beiddgar a phenderfynol iawn oedd y Rhufeiniaid, ac wele yr Ogofau hyn yn brawf parhaus o hyny, y rhai a wnaed cyn darganfyddiad fflamlwch, a'i allu aruthrol; ond y mae ol eu cynion, a'u morthwylion i'w canfod yn awr, yn nghreigiau anferth yr Ogofau. Wedi myned i mewn iddynt, canfyddwn ystafelloedd eang-fawr, colofnau ysplenydd, wedi eu naddu allan o'r graig oesol; ac uwch ben, y mae eu nen yn dysgleirio fel y grisial tryloywaf, fel y mae goleuni gwanaidd y ganwyll yn eu dangos yn ngwahanol liwiau prydferth yr enfys, yr hyn sydd yn creubraw drwy y fynwes, gan eu harddunedd mawreddog, a'u gwychder ysplenydd. Y mae nant fechan i'w chlywed obry, megis yn nyfnderoedd y ddaear, yn berwi fel crochan, nes y mae ei hadsain yn dragywyddol furmur, yn adseinio yn yr Ogofau, o graig i graig, o glogwyn i glogwyn, nes creu iâsau o arswyd yn yr ymwelwr.[1] Y mae Daiaregwr Mwnyddawl tra enwog, wedi gwneyd Sylwadau tra gwerthfawr ar yr Ogofau, neu y Mwnglawdd Ogofau, yn agos i Pumsant, swydd Gaerfyrddin, fel y canlyn;—"Y mae y mwnglawdd hwn, yr hwn sydd wedi bod cyhyd yn tynu sylw yr henafiaethydd, yn gorwedd ar ystlys aswy yr afon Cothi, ac o fewn tiroedd perthynol i'r Dolau Cothi, preswylfa Mr. Johnes; i'r hwn yr ydys yn ddyledus am lawer o gynnorthwy gwerthfawr yn ystod cyfarchwyliad y rhan hon o Gymru. Efe a'n hysbysodd, fod traddodiadau y wlad yn cyfeirio at y Rhufeiniaid fel y rhai a gychwynasant y cloddfeydd hyn, ac mai am aur y chwilient wrth eu dwyn yn mlaen. Y mae Mr. Johnes yn cyfrif bod y gweddillion o bridd-lechau, priddlestri, addurniadau, a baddon Rhufeinaidd, yn rheswm dros gymeryd yn ganiattaol, fod gorsaf Rufeinig yn agos i'r llanerch hon, mewn cyssylltiad â'r mwngloddiau.

"Datganodd rhai a ymwelsant â'r Gogofau eu syndod, am mai haiarn-gellt (*iron pyrites*), yw yr unig fŵn sydd yn weledig yno; ac mai pentyrau mawrion o gellt-risial (*quartz*), wedi eu malu yn

[1] Gwel "Caio a'i Hynafiaethau," &c. Gan Gwilym Teilo, t.d. 38.

ofalus, i faint cnau cyffredin, a ganfyddid yn unig. Ond, y mae y cyfarchwyliad daiaregol (*geological survey*), wedi darganfod, cynnrych o aur rhydd yn nghellt-risial un o'r gwythenau, ac felly wedi cadarnhau y dystiolaeth a dueddai i brofi mai am aur y gweithid y mwn-gloddiau.

"Y mae y rhan fwyaf o'r gweithfeydd, y rhai a gyrhaeddant i ddyfnder mawr am rai erwau dros ystlys y bryn, 'yn agored i'r dydd,' neu wedi eu gweithio megis yr arferid yn gyffredin yn nyddiau boreuol mwnyddiaeth, fel *chwarel;* ac y mae y graig, trwy yr hon y mae y gwythienau yn rhedeg, cyfran o'r creigiau Siluraidd isaf, yn noeth mewn amryw ennghreifftiau, ac yn arddangos haenau wedi eu croes-droi, a'u tori yn ddirfawr, er yn meddu tuedd gyffredinol i ogwyddo tu a'r gogledd. Yma a thraw, y mae math o ogof wedi ei hagor, ar rai o'r gwythieni cellt-risial, ac weithiau y maent wedi eu gweithio yn mlaen fel orielau, o gyffelyb faintioli i lyfelydd mwyaf y dyddiau presenol, sef, o chwech i saith droedfedd o uchder, a phump neu chwe throedfedd o led; ac y mae y ddwy fwyaf nodedig o'r rhai hyn yn cael eu cadw yn agored gan Mr. Johnes, fel y mae yn hawdd myned iddynt i wneyd archwiliad manol arnynt. Y mae arwyneb uchaf y bryn, ar y pen de-orllewinol i'r gweithfeydd, wedi ei arnodi yn ddwfn gan ffos yn cyfeirio i'r gogledd-ddwyrain, a'r de-orllewin, yn debyg i'r cloddiadau a elwir lyfelau agored (*open casts*), lle y gweithid y rhanau uchaf o'r wythen mewn adeg foreuol iawn; a thrachefn, pan y canfyddid ei bod yn anfanteisiol i erlyn y wythïen yn y modd yma, rhaid fod rhyw feddwl grymusach, a mwy proffadol, wedi awgrymu y cynllun o yru ceuffosydd o wyneb gogleddol y bryn, trwy y graig noeth, er *tori* y *faen*, neu y wythïen, yn ddyfnach nag y gallesid ei chyrhaedd unrhyw ffordd arall; ac y mae y diwydrwydd a amlygid mewn gyru 170 troedfedd trwy lech-graig, yn mhob un o'r lyfelau crybwylledig, yn rhwym o fod yn seiliedig ar wybodaeth ddigonol am natur barhaol gwythïen fwnawl." . . . .

"O fewn ychydig bellder oddiwrth yr hen weithfeydd, y mae plocyn mawr o dywod-faen yn gorwedd, yn lled debyg o ran ffurf i reiddell (*prism*), pedairystlysol, wynebau yr hwn ydynt wedi eu rhicio gan geudyllau geirwon, cylchol a hirgylchol, heb fod yn ddyfnion, y rhai y mae yn amlwg a achlysurwyd gan ruglad gwneuthurol. Ymddengys yn dra thebyg fod y maen yma wedi cael ei ddefnyddio fel breuan (*mortar*), i'r perwyl o falurio y mŵn, goruchwyliaeth a ddygir yn mlaen eto mewn amgylchiadau ag y byddo o bwys gallu pigo briwion gwerthfawr â'r llaw."[1]

Y mae llen gwerin wedi cydio ffug-chwedl dra annaturiol â'r maen uchod.—"Yr oedd pump o saint ieuainc ar eu pererindod tua chreirfa Ty Ddewi, ac yn herwydd eu bod yn newynog a blinedig ar eu taith, hwy a orweddasant, ac a orphwysasant eu penau ar yr hen glustog fawreddog hon. Cauodd cwsg eu llygaid yn fuan, fel na allent yn hwy, wrthwynebu ystrywiau eu gelynion trwy rym gweddi. Gorchuddiwyd y wybren gan gymylau yn ddisymwth; fel y diflanodd pob gwrthddrych, megis pe y buasent wedi eu celu yn nghysgodion y nos dywyllaf; y taranau a ruent, y mellt a fflachient, a'r gwlaw a ddisgynai yn llifeiriant gorddwyol. Cynnyddai y dymhestl mewn ffrochusrwydd, ffcrai holl natur gan yr oerni, a theimlai, hyd yn nod duwioldeb a chariad oddiwrth ei effeithiau. Y dafnau gwlaw a rewid yn fuan, yn gerig cenllysg enfawr, y rhai a yrid gan nerth y gwynt, â'r fath lymdostedd ar benau y pererinion lluddedig, fel ag i beri iddynt lynu wrth eu gobenydd, ac y mae yr olion a adawsant yn ganfyddadwy hyd heddyw. Wedi eu dwyn ymaith yn orfoleddus gan y dewin maleis-ddrwg sydd yn cyfaneddu yn ngheulcoedd y bryniau hyn, fe'u cuddiwyd yn llochesau pellaf ei ogof, lle y maent wedi eu tynghedu i aros yn nghwsg, yn rhwym yn nghadwynau anhydor cyfaredd, hyd oni ddelo y cyfnod dedwydd hwnw, pan fendithir yr esgobaeth âg esgob duwiol. Canys pan ddygwyddo hyny, nid oes un amheuaeth na bydd i Fyrddin ei hunan, gelyn rheibwyr maleisus, gael ei ddadswyno, ac efe a gyfyd, ac a edryd i ryddid, y cysgadur saint, pan ymgymerant yn ddioed a'r gorchwyl gwladgarol o ddiwygio y Cymry, y rhai ydynt mewn mawr angen am hyny. Credir yr un ffunud y bydd i Owain Lawgoch hefyd, a'i filwyr, hoff wroniaid y rhamantwyr Cymreig,—y rhai y dywedir eu bod yn awr yn gorwedd, wedi eu cadwyno gan law swyn-gyfaredd, yn ogof Myrddin, gael eu hadferu i'w cyssefin yni a gweithgarwch, ar yr un cyfnod dedwydd, pan yr adenillant amherodraeth golledig y Prydeiniaid, ac yr enillant iddynt fuddugoliaeth drwyadl ar bob cenedl lai anwybodus, lai swrth, a llai anfoesol na hwy eu hunain. Mewn llanerch swynol, yn mynwes dyffryn rhamantus, ar y lan arall i'r afon Cothi, adeiladwyd llan i goffadwriaeth y pum pererin cysgadurol, a elwid Llan pum Saint, lle, dros lawer oes dywell, y bu cynnulleidfaoedd swrth yn pendwmpian uwch ben eu gweddiau, ac yn hepian dan effeithiau cwsgbeiriol pregethau disynwyr a marwaidd. O'r diwedd hepiasant mor drwm, fel y goddefasant i'w llan gyssegredig ddisgyn yn adfeilion, fel nad oes prin olion o honi yn aros yn awr."[2]

Rai milldiroedd uwchlaw y mwn-gloddiau, yn nes i dardd-le yr afon Cothi, y mae gweddillion argae yn weledig, yr hon a wnaed i droi yr afon o'i chyfeiriad naturiol, ac y mae ffordd yr hen ddyfr-ffos i'w chanfod yn eglur; a gellir canfod olion hefyd a roddant ryw ddirnadaeth am y nerth a pha un yr ymarllwysai y llifeiriant wedi ei gyfyngu felly, pan yn disgyn o uchder mawr. Y mae y pwll dwfn a ffurfiwyd gan y dwfr-gwymp, yn gymhwys goris yr argae, o herwydd ei orddyfnder, a duwch ymddangosiadol y dwfr, wedi cael yr enw gan y werin, o "Bwll Uffern." Barnai Mr. Williams fod y gamlas, olion pa un a ganfyddir ar y bryn, sydd gyferbyn a'r Brunant, tua milldir uwchlaw gwely yr afon o ba un ei codwyd! Oddiyma yr oedd yn cael ei arwain yn gornant i'r man uchelaf, yn union uwch ben cloddfeydd mwnawl yr Ogofau. Attelid ei rawd wedi'n, a chrynhoid ef i ddyfr-gronfa anferth, er iddo gasglu digon o nerth, cyn ei ollwng i ymarllwys ar draws y mŵn islaw. Pan na byddai angen y dwfr hwn arnynt, byddent yn ei ollwng i ddianc trwy yslyw (*sluice*), oedd ar yr ochr arall i'r ddyfr-gronfa, gan ei arwain drwy ffos, olion pa un sydd i'w gweled eto yn ymyl Caio, lle yr ymarllwysai i nant fechan, yr hon, yn mhell islaw, sydd yn cymysgu ei dyfroedd a'r eiddo yr afon Cothi.

Y mae un ffaith eto yn deilwng i'w choffau, pe

[1] *A Note on the Gogofau Mines, &c.; by Warrington W. Smith, M.A., Mining Geologist to the Geological Survey of the United Kingdom.*

[2] Rev. Eliezer Williams's English Works. Pp. 155, 156.

Digitized by Google

na byddai onid am y digrifwch sydd yn nglyn a hi. Ar un achlysur yr oedd henafiaethwr a naturiaethwr enwog, wedi talu ymweliad i'r wlad hon, er gwneyd ymchwiliad i'r gweddillion hyn o ddiwydrwydd Rhufeinaidd; a phan geisiai groesi y ffrwd ychydig uwchlaw yr argae, gan na's gallai wneyd un ffordd arall, efe a aeth ar gefn un o'r arweinwyr; ond, gan fod y boneddwr yn drwm iawn, wedi i'w gludydd honcian dano am ychydig gamrau, efe a gwympodd gyd a'i faich yn nghanol yr afon; ond, fe waredwyd y ddau gan wladwr arall oedd yn eu dilyn, yr hwn a'u dug i'r lan arall yn ddiogel: barnai rhai o bobl y wlad, mai ystryw ydoedd hyn, rhwng yr arweinydd a'i gyfaill, i dynu ychwaneg o arian oddiar y boneddwr; a chan fod amryw o blant yr awen yn y gymmydogaeth, gwnaeth rhai o honynt amryw bennillion i goffau y tro; yn un o honynt, y mae yr henafiaethydd yn cael ei gyffelybu i fuwch flith, a ettyl ei llaeth nes gwlychu ei thethau. Dyma rai o'r englynion, os gellir eu galw felly;—

Wŷr! dyma frodir hyfrydlon,—gwalchod
Yn gwlychu marchogion!
Rhoi gwr main o Lundain lon,
O ryfedd! yn yr afon!

Godrwyr yw 'r gwŷr heb gel,—os pwyllo,
Os pallu wna 'r armel,
Gwlych dethau y gwalch uchel,
A llaith ddwrn, a'r llaeth a ddêl.

Gwr am chwech trwy afon fechan,—ddŷg ddyn,
Ddygwyddodd yn drwstan;
Yn y rhyd, medd dynaran,
—"Rho swllt, cei frysio i'r lan."

Y mae yr afon Cothi yn tarddu o hen gors ar fynydd a elwir "Bryn Catel," yn mhlwyf Llanddewi Brefi, uwchlaw pentref enwog Caio; a thrwy ei bod yn cael ei dyogelu er's blynyddoedd bellach, gan warchodwyr sydd dan amryw foneddigion, y mae ei physg yn dra lluosog. Y mae yr afon yn llifeirio trwy anialwch diffaeth ac anhygyrch o'r bron, i waered hyd at Gwm Cothi, rhwng creigiau erchyll, nes y ffurfia yn fynych yn dro-byllau arswydus yr olwg arnynt; ac ymarllwysa i'r afon brydferth y Tywi, gerllaw Pont ar Gothi, o fewn tua chwe milldir i dref Caerfyrddin; ac yn ei thaith, y mae yn gwasanaethu i droi llawer o felinau; a dïau y gellid ei gwneyd yn llawer mwy gwasanaethgar eto nag ydyw.

Megys y dywedir, "Yn mhob gwlad y megir glew," y mae amryw gymeriadau enwog wedi cyfodi o'r plwyf hwn, neu fod yn cyfanneddu ynddo ar wahanol adegau. Brodor oddi yma, debygid, ydoedd "Lewis Glyn Cothi," bardd enwog, y mae ei Gyfansoddiadau lluosog yn cynnwys y trysorau hanesyddol cyfoethocaf yn ein haith, gyda golwg ar gyfnod rhyfel y rhosynau. Yr oedd y bardd hwn yn ei flodau yn nheyrnasiad Harri y Chweched, Edward y Pedwerydd, Rhisiard y Trydydd, a Harri y Seithfed. Y mae y diweddar Barch. P. B. Williams debygaf, dan y ffug-enw "Peris," yn gwneyd y Sylwadau canlynol mewn perthynas iddo yn y *Cambrian Quarterly*, vol. iii. p. 501—"Yr oedd Lewis Glyn Cothi yn frodor o Sir Gaerfyrddin, yn Neheubarth Cymru. Y mae yn debyg ei fod o deulu Dolau Cothi, neu, efallai Rhyd Odyn (neu "Edwin"); a chymerodd ei enw barddonol oddiwrth yr afon, ar lanau yr hon y ganwyd ef, ac yn nyffrynoedd a gweirgloddiau gwyrddion yr hon y treuliodd efe y rhan fwyaf o'i ddyddiau boreuol. Yr oedd efe yn fardd galluog ac enwog, a daeth i fod yn swyddog milwraidd dan Jasper, Iarll Penfro, er molawd i'r hwn y cyfansoddodd efe amryw o'i Gywyddau; a phan enciliodd y pendefig hwnw i Ffrainc, er osgoi dïaledd Edward y Pedwerydd, barnodd Lewis Glyn Cothi, yn angenrheidiol iddo yntau fyw mewn annghyoeddusrwydd, ac ymneillduo i rywle nad adwaenid ef: gan hyny, newidiodd ei wisg, dyeithriodd ei wedd, a daeth i Gaerlleon ar Ddyfrdwy, lle y bu yn cyfanneddu dros beth amser. Ond, mewn amser, daeth lle ei ymneillduaeth yn hysbys, a gwnaed cais at faer a swyddogion y ddinas i'w ddal ef; attafaelwyd a dirwywyd ei holl feddiannau, ond efe ei hunan a ddihangodd trwy anhawsdra. Cafodd encilfa ddyogel yn y Tŵr, gerllaw y Wyddgrug, swydd Fflint, preswylfod Rheinallt ab Gruffydd ab Bleddyn, yr hwn a ddaeth yn noddwr iddo. Gwnaed llawer cais i'w ddal ef, a'i amddiffynwr dewr; ond y cwbl yn aflwyddiannus; ac yn y cyfamser, nid oedd awen Lewis yn segur; canys tra fu yma, cyfansoddodd aml dduchan-gerdd hylym, a gogan-wawd ysciol ar faer Caer a'i blaid."

Cyhoeddwyd casgliad tra gwerthfawr o gyfansoddiadau barddonol y gwr hwn dan olygiad Gwallter Mechain, ac Ioan Tegid, gan Gymdeithas y Cymrodorion, yn y flwyddyn 1837, mewn cyflyfr wyth-plyg hardd.

Gwr arall nid anenwog, oedd "Dafydd Jones o Gaio," cyfieithwr Salmau a Hymnau y Dr. Watts. Ganwyd ef yn Nghwm Gogerddan, plwyf Caio, yn y flwyddyn 1710. Cyfaneddodd yma hyd ei ail brïodas, pan y symudodd i Hafod-dafolog, Llanwrda. Efe a fu farw yn y flwyddyn 1777, yn 67 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn Nghrug y bar, ger Caio. Oddiwrth luaws o gyfeiriadau a ganfyddir yn nghyfansoddiadau Lewis Glyn Cothi, ymddengys fod amryw deuluoedd uchel-waed a phendefigaidd, yn cyfaneddu yn Nghaio a'i hamgylchoedd yn y bymthegfed ganrif; ond ni oddef ein gofod i ni wneyd sylwadau arnynt yma: yn unig gallwn grybwyll, fod teulu cyfrifol a dylanwadol Dolau Cothi, yn hanu ar un llaw o Urien Rheged, a Brychan Brycheiniog, trwy yr enwog Gruffydd ab Nicholas o Abermarlais; ac ar y llaw arall, o'r prif bendefigion Normanaidd, megys Ieirll Carlisle, Caerlleon ar Ddyfrdwy, Leicester, Northumberland, Clare, Arundel, Warren a Surrey, &c.; ac y mae eu hymddygiadau moesol a chymdeithasol, yn wir deilwng o uchder eu bonedd.

Crybwylla Gwilym Teilo, am un cymeriad, a ymenwogodd mewn ffordd dra gwahanol yn y plwyf hwn;—Yr oedd hen gnâf o'r enw William Siôn, yn byw yn yr ardal yn y ganrif ddiweddaf, ac yn gwneyd bywioliaeth bur ddi daro, trwy gymeryd arno wneuthur rhyw beth a ymylai ar ddewiniaeth. Yr oedd efe yn proffesu gwellau pob math o glefydau, a darllen tyngedfen dyn neu anifail! Ni fyddai William Siôn yn "darllen dwfr," nac yn cynnyg gweinyddu ei rinweddau, a'i gyffuriau meddygol, &c.; ond cyn cyfodiad haul, neu wedi ei fachludiad! A gwobrwy yr hen gnâf oedd fel y canlyn:—Hyn a hyn o fara ceirch dros geffyl, caws dros eidion; ac ychydig arian, fel y gallai y llogell fforddio, am ddarllen dwfr, neu ragfynegi y dyfodol! Yr oedd maen mawr ar lan yr afon, lle yr oedd yn rhaid i'r offrymydd fyned, a dodi ei offrwm dano; yr hyn a gyfrifid yn aberth i'r duwiau, neu i ellyll y dwfr.

Digitized by Google

Wedi i'r truciniaid anwybodus ac ofer-goelus fyned ymaith, ceid gweled William Siôn yn prysuro tu a'r maen, i gyrchu yr offrymau!

Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, mewn cyssylltiad a churadiaeth wastadol Llansawel, yn archddiaconiaeth Caerfyrddin, ac esgobaeth Ty Ddewi; yn noddogaeth Tywysog Cymru. Yr eglwys hon sydd gyflwynedig i goffadwriaeth Sant Cynwyl, mab (fel y dywedir) i Dunawd Ffur, o Ddwywe, ferch Gwallawg ab Lleenawg, a brawd i Deiniol. Efe a gymerai ran yn seiliad Bangor Iscoed; ac efe hefyd a seiliodd yr eglwys hon, a Chynwyl Elfed, yn swydd Gaerfyrddin, Aber y porth yn Ngheredigion; ac eglwys Penrhos, gerllaw Pwllheli. Y mae y Llan yn adeilad ehang, yn yr arddull Seis'nig foreuol, a thŵr petryal, mur-ganllawiol iddi; ac y mae llawer wedi barnu oddiwrth ei bod mor fawr, y rhaid fod yma ryw sefydliad mynachawl yn yr amser gynt. Yr oedd hefyd gapelau anwes yn perthyn iddi yn yr hen amser, yn Nghwrt y Cadno, yn y cwr gogledd-ddwyreiniol i'r plwyf hwn, ac yn y lle a elwir Pumsaint; ond, nid oes dim o'u holion yn aros. Y mae amryw leoedd addoliad yn perthyn i'r Annibynwyr, y Trefnyddion Calfinaidd, a'r Bedyddwyr yn y plwyf. Darfu i Morgan Prŷs yn y flwyddyn 1686, adael cymmun-rodd tuag at gynaliaeth tlodion y plwyf.

Y mae hen eglwys gan yr Annibynwyr yn Crug y bar, ffrwyth llafur Walter Cradoc, Fafasor Powell, Evan Bowen, a Stephan Hughes, fel y bernir; y rhai a lafurient yn y cymydogaethau hyn er's mwy na dau can mlynedd yn ol.

Oddeutu y flwyddyn 1690, dywedir i un Daniel Harri, oedd yn byw mewn tyddyn a elwir Esgair-awen, ac yn berchen arno, drwyddedu ei dŷ i bregethu ynddo; ac yn fuan corfforwyd yno eglwys Annibynnol. Buwyd yn addoli ynddo hyd nes yr adeiladwyd addoldy Esgairdawe, yn 1754. Bu Mr. D. Harry yn ddiacon yn eglwys Crug y bar, am flyneddau wedi hyny.

Ymddengys hefyd fod y Trefnyddion Calfinaidd wedi dechreu achos crefyddol yma ryw bryd cyn y flwyddyn 1743; canys mewn adroddiad a roddid i'r Gymdeithasfa gan Mr. James Williams, gwr oedd yn arolygu, neu fugeilio y cymdeithasau a gyfarfyddent yn Caio, Tylau, Llansawel, Llangathen, a Llanfynydd, &c.; fe'n hysbysir fod yn Nghaio, 44 o aelodau, a dau gynghorwr annghyoedd, o'r enw John Thomas, a Richard Jones, yn y flwyddyn 1743. Cynhaliwyd cyfarfod yma Hydref 28ain, 1745, lle yr oedd yn bresenol y Parch. Daniel Rowlands; y Parch. William Williams, y Parch. Jenkin Morgan, gweinidog ymneillduol; Mr. Howel Harries, Arolygwr cyffredinol; Mri. James Williams, a William John, Arolygwyr; Thomas Jones, Arolygwr cynnorthwyol, a naw ereill a enwir fel Cynghorwyr annghyoedd. Y mae y penderfyniadau y cyttunwyd arnynt yn y Gynnadledd hon, ar gael eto.

Ond y mae yn debyg i'r eglwys hon yn Nghaio gael llewygfa dost yn adeg enciliad Howel Harries, a'r ddadl rhyngddo ef a'r Parch. Daniel Rowlands, pan y dyrysodd ysgogiad y peiriant crefyddol a osodasid i fynu gan y Diwygwyr, ac y chwalwyd lluaws mawr o'r mân-eglwysi a gasglesid yn nghyd yn y blyneddau blaenorol; fel yr oedd yr achos crefyddol yn y lle hwn megys yn ail ddechreu tu a'r flwyddyn 1760, pan ymadawodd pedwar ar ddeg o aelodau hen eglwys Crug y bar, "yn heddychol," i ymuno â'r ychydig Fethodistiaid oeddynt yn Nghaio. Dyma y pryd, debygid, yr ymunodd Mr. William Llwyd a hwy; canys y mae Mr. Charles yn ein hysbysu, nad oedd ond 18 o aelodau yn perthyn i'r gymdeithas yn Nghaio, pan ymunodd Mr. Lloyd a hwy. Yr oedd ef yn wr ieuanc o deulu parchus, ac wedi cael mwy o fanteision addysg na'r cyffredin yn moreu ei oes; a chan fod ei feddwl dan ddylanwad teimladau crefyddol i ryw fesur er pan ydoedd tua saith mlwydd oed, ni halogwyd ei gymeriad moesol fel llawer, yn mlyneddau ei ieuenctyd; ond pan oedd tua 18 mlwydd oed, efe a argyhoeddwyd yn ddyfnach o lawer, dan weinidogaeth y Parch. Peter Williams; a bu am agos i flwyddyn, ar ffiniau anobaith; ond, trwy weinidogaeth un Mr. Evan Jones, o Ledrod, dygwyd ei enaid i brofi rhyddid yr efengyl, a'r llawenydd a'r tangnefedd sydd gan gredu.

Pan oedd Mr. Llwyd yn 22ain oed, efe a gymhellwyd i bregethu yr efengyl ag y profasai eisoes gymaint o'i chysuron, dan weinidogaeth yr anfarwol Rowlands; a gwnaeth yr Arglwydd ddefnydd mawr o hono. Dyma y dystiolaeth a ddwg Mr. Charles am dano;—"Yr oedd tyrfaoedd lluosog yn tyru i'w wrando lle bynag yr elai, a llawer yn cael eu galw trwyddo. Aeth yn fuan yn un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd yn Nghymru yr amser hwnw. Yr oedd yn gweinidogaethu yn danllyd, ac yn argyhoeddiadol yn aml; yn dangos yn oleu fawr berygl pechaduriaid, ac yn datguddio llochesau celwyddog rhagrithwyr—hyn a wnai yn oleu, yn finiog, yn danllyd, ac yn rhagorol." Ond, ymddengys mai Crist a'i aberth, golud ei râs, a chymhwysder ei iachawdwriaeth, oedd prif faterion ei bregethau.

Bu Mr. Llwyd yn cyd-lafurio llawer â Mr. Rowlands, yn agos i ddeg ar hugain o flyneddoedd; a theithiodd lawer ar Ddehau a Gogledd Cymru, am fwy na deugain mlynedd; ac adweinid ef yn gyffredin dan yr enw "William Llwyd, Ysw. o Henllan." Parhaodd ei boblogrwydd a'i ddefnyddioldeb hyd ddiwedd ei oes; a rhoddwyd iddo allu i lafurio, bron yn ddi fwlch am bedair a deugain o flyneddoedd. Yr oedd yn pregethu yn Llanddeusant a Llansadwrn, y Sabboth y tarawyd ef yn glaf; daeth adref, a chyn y Sabboth canlynol, yr oedd wedi ei golli o dir y rhai byw, Ebrill 17, 1808, yn 67 mlwydd oed.

Poblogaeth Cynwyl Caio, yn ol Deiliadeb 1861, oedd 2251.

**CALDEY** (Ynys), yr ynys fwyaf o swp o ynysoedd yn angorfa Tinbych-y-pysgod, cantref Arberth, swydd Benfro, Deheudir Cymru. Ei hen enw Cymraeg yw "Ynys Pyr," ac y mae yn gorwedd 2 filldir i'r Dwyrain oddiwrth y tir. Y mae tua milldir ei hyd, ac yn hanner milldir ei lled, ac yn cynnwys mwy nâ 600 erw o dir gwrteithiedig, yr hwn sydd yn gorwedd ar wely o galchfaen. Y mae'r hanesydd Owen, yn mawr ganmol diwydrwydd llafurus trigolion yr ynys fechan hon, a dywed eu bod yn aredig gyda cheffylau, am na feiddient gadw ychain, o herwydd fod y môr-ladron yn eu lledratta yn barhaus. Darfu i Robert, mab Martin de Tours, adeiladu monachlog yma yn nheyrnasiad Harri I., yr hon oedd yn gell i fonachlog Llandudoch, gerllaw tref Aberteifi. Rhoddes ei fam yr holl ynys at wasanaeth y fonachlog, ac yr oedd ei chyllid, pan ddadgorfforwyd y monachlogydd gan Harri VIII., yn 5*p.* 10*s.* 11*c.* y flwyddyn. Y mae Thomas Kynaston, Yswain, yr hwn a bioedd yr holl ynys, wedi adeiladu palas hardd iawn ar sylfaeni yr hen fonachlog, ac y mae amryw o'r tai allan, yn ran o'r

Digitized by Google

fonachlog. Yr oedd wedi ei chysegru i'r Forwyn Fair, ac y mae clochdy pigfain yr hen eglwys yn aros hyd heddyw. Y mae efe a'r adfeilion cylchynol, yn gosod agwedd ramantus iawn ar y lle unig hwn. Y mae goleudy gwedi cael ei osod i fyny yma yn 1829, yr hwn sydd yn 210 troedfedd ei uchder, ac y mae ei oleuni sefydlog i'w weled yn y pellder o 20 milldir: y mae yn hynod o wasanaethgar i'r llongau sydd yn myned i mewn i Tinbych. Y mae Caldey yn adran blwyfol, ac y mae yn perthyn i fwrdeisdref Tinbych. Lledred 51° 47′ 54″ Gogledd, hydred 4° 41′ Gorllewin. Poblogaeth, 73.

**CALDICOT**, plwyf yn rhanbarth uchaf cantref CALDICOT, swydd FYNWY; 6 milldir o Gâs Gwent, yn cynwys poblogaeth o 579, yn ol Deiliadeb 1861. Y fywioliaeth eglwysig sydd Ficeriaeth ryddhaol, yn archddiaconiaeth ac esgobaeth Llandâf; wedi ei gwaddoli â 200 punt o ged-rodd freninol. Myn rhai Henafiaethwyr, mai gwir enw Cymreig y lle ar y dechreu, oedd "Gal-digoed," sef Gwastadedd di goed; yr hyn sydd yn dra dynodawl o'r lle, yr hwn sydd yn wastadedd morfaol. Y mae adfeilion castell Caldicot yn mhen uchaf y morfa crybwylledig, mewn gweirglodd wastad, ar y tu gogledd-ddwyrain i'r pentref, tua milldir oddiwrth fôr Hafren. Y mae esgair o dir, ydoedd unwaith debygid yn amgaeredig, yn cyssylltu ystlys orllewinol y castell â'r pentref. Y mae lle i gasglu y byddai y gwastadedd, neu y morfa hwn, yn cael ei orlifo gan y llanw yn yr hen amseroedd, ac os felly, safai y castell ar fath o orynys. Amgylchynir y castell gan ddyfr-ffos, ac ar yr olwg gyntaf, ymddengys fel pe byddai o ffurf betryal; ond erbyn craffu arno yn fanylach, gwelir mai amryongl (*polygon*), afreolaidd ydyw. Y mae y llanerch yn ei hyd mwyaf, yn 100 llath; ond y mae yn amrywio yn ei lled: yn ei man llettaf, y mae yn 75ain llath, ac nid ydyw yn fwy na 40ain llath yn ei phen dwyreiniol, lle y mae y muriau yn gogwyddo mewn cyfeiriad cylchol. Y muriau, y rhai a amrywiant mewn trwch, o 5, i 9 troedfedd, ydynt wedi eu gwneyd o ddefnyddiau geirwon; ond, y mae y tyrau wedi eu gwynebu â thywodfaen naddedig, ac wedi eu hadeiladu yn dra hardd a sylweddol.

Ymddengys fod y castell wedi ei adeiladu a'i adgyweirio ar wahanol amserau; ond ar y cyfan, y mae yn dwyn nodwedd Normanaidd. Efallai fod y tŵr crwn, yn nghanol yr ystlys a wyneba y pentref, wedi ei adeiladu yn agos i amser y goresgyniad; ond gellir barnu fod y rhanau ereill o amseriad diweddarach, gan fod bwaau y pyrth a'r ffenestri yn bigfain; ond o'r cyfryw ffurf ag a arferid yn lled fuan wedi dygiad yr arddull Gothaidd i arferiad.

Ychydig a feddwn ni o hanes y castell hwn: ond y mae arddull drymaidd yr adeilad, ac amryw bethau ereill yn ei ffurfiad, yn rhoddi lle i feddwl ei fod yn dra henafol; efallai mai y castell a ddechreuwyd gan Harold, ac a orphenwyd gan y Normaniaid, pan oeddynt ar waith yn darostwng Gwent, yw y rhan henaf o hono. Yr oedd yr amddiffynfa hon o bwysigrwydd arbenig er cadw arglwyddiaeth ar ranau de-ddwyreiniol Mynwy. Cawn fod y castell hwn yn foreu yn meddiant teulu pendefigaidd *Bohun*. Dywaid Dugdale fod Wmffre, Iarll *Hereford*, y pumed o'r llinach uchod, yn gwneyd gwriogaeth am dano yn y flwyddyn 1221; ac wedi derbyn meddiant o gastell Caldicot, yr hwn a fuasai yn un o berchenogaethau ei dad.[1] Y mae y morfa islaw y castell, oedd gynt yn dir tra di werth, wedi ei sychu a'i drin yn dda er's blynyddoedd bellach, fel y mae yn borfel-dir o'r fath frasaf, er's oesoedd.

[1] Dugdale, vol. i. p. 180.

**CALENIUS**, WALTER, ydoedd Gymro enwog, fel ysgolhaig a hynafiaethydd, yn nechreu y 12fed ganrif. Barna rhai mai yr un oedd ef a Walter Mapes; tra y barna ereill eu bod yn bersonau gwahanol. Dyma yr hanes a rydd Pitts am dano:—"Walter Calenius, Cymro o haniad, ac archddeacon Rhydychain, oedd yn ei flynyddau olaf yn gydnabyddus iawn â Henry o Huntingdon. Yr oedd efe yn hyawdl, yn ddarllenwr cyfarwydd mewn hen awdwyr, yn ymchwiliwr diwyd am hen lyfrau ac yn glodfawr yn mysg ei gydoeswyr fel ysgolhaig trylen. Dywed Leland iddo, wrth ddyfal chwilio yn Llydaw am hen Ysgrifau, ddarganfod hen Ysgrif-lyfr Cymraeg, a'i gymeryd gydag ef i Brydain; ac iddo, ar gais amryw uchelwyr, a thrwy gymorth Sieffre o Fynwy, ei gyfieithu i'r Lladin. Gwrthwynebwyd y gwaith ar y cyntaf; ond enillodd un Ponticus Virunnius, Eidaliad, gryn lawer o goeledigaeth trwy gyhoeddi talfyriad o hono. Haera Higden, i Walter ei hun ychwanegu ato hanes yr oesau dilynol, a'i barhau hyd ei oes ei hun, trwy gyfnod o fwy na phedwar cant o flynyddoedd, a galw yr ychwanegiad, *Auctuarium Annalium Britonum.* Haera rhai i'r Walter hwn gael ei wneyd o'r diwedd yn esgob Caeresg (*Exeter*). Blodeuodd yn 1120, yn amser Harri I., brenin Lloegr."

**CALLWEN**, SANTES, ydoedd un o deulu Brychan Brycheiniog, yn y 5ed ganrif: hi a sylfeinodd eglwys Callwen, Defynog, yn swydd Frycheiniog. Ei dydd gwyl oedd Tachwedd 1af.

**CAMBER**, yn ol y *Brutiau*, oedd un o dri mab Brutus, yr hwn ar farwolaeth ei dad, a feddianodd y tuhwnt i'r Hafren, yr hwn le a alwyd oddiwrtho ef o hyny allan yn Cambria, a Cymru.

**CAMMARCH**, SANT, ydoedd fab Gwynlliw Filwr, tywysog Gwenllwg, Mynwy. Blodeuai yn nechreu y 6ed ganrif. Oddiwrtho ef y cafodd eglwys Llangammarch, Brycheiniog, ei henw.

**CAMRHOS**, plwyf yn Undeb HWLFFORDD, cantref y RHOS, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU, 4 milldir i'r Gorllewin Ogledd Orllewin o dref Hwlffordd, ar y ffordd i Dŷ Ddewi. Ficeriaeth ryddhaol ydyw y fywioliaeth eglwysig, a threthir hi ar lyfrau y frenines yn 6*p*. 10*s*. 5*c*. Y mae gwedi ei gwaddoli â 400*p*. o rodd seneddol; cyllid cyflawn 127*p*. y flwyddyn. Y mae'r eglwys wedi cael ei chyssegru i St. Ismael, yn esgobaeth Tŷ Ddewi, ac yn nawddogaeth Hugh Webb Bowen, Yswain, Camrhôs House. Y mae hen garnedd gerllaw yr eglwys, yr hon nid yw gwedi cael ei hagor erioed, am a wyddis. Yn y plwyf hwn y mae pentref Keston, ac y mae cangen o'r afon Cleddy yn rhedeg drwyddo. Y mae capel yma gan y Bedyddwyr, ac un arall gan yr Independiaid, i'r hwn y mae llyfrgell yn perthyn. Y mae ysgol ddyddiol yma, a chynnelir un ffair flynyddol yn y lle, Chwefror 13. Y mae'r trethoedd tua 500*p*. y flwyddyn. Poblogaeth, 1126.

**CANEN**, SANT, oedd fab Gwyddlew ab Gwynlliw Filwr, a sylfeinydd eglwys Llanganten, Brycheiniog.

**CANNA**, SANTES, oedd ferch Tewdwr Mawr ab Emyr Llydaw, a gwraig Sadwrn. Daeth i'r wlad hon gyda'i phriod, a sylfeinodd eglwysi Llangan, neu Llangana, Morganwg, a Llangan swydd Gaerfyrddin.

**CANON**, SYR THOMAS, oedd wr dysgedig, yn hanu o hen deulu yn swydd Benfro, ac yn ei flodeu

Digitized by Google

yn nechreu yr 17eg ganrif. Hynododd ei hun yn y ddadl enwog a fu rhyngddo ef a Robert Vaughan o Hengwrt, o berthynas i Cadell, mab Rhodri Mawr.

**CANTELLI**, WYDDEL, a ymddengys yn yr achau fel un o'r tri chŷff Gwyddelig diweddar. Tybir iddo sefydlu yn Nghymru yn amser Gruffydd ab Cynan, tua 1120. Y ddau eraill oeddynt Osborn Wyddel, ac Amabon.

**CANTREF**, plwyf yn nghantref PENCELLI, undeb a swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU, 3 milldir i'r De Ddwyrain wrth Dde, o Aberhonddu. Y mae yn cynnwys trefgordd o'r un enw yn nghyd â chapeliaeth Nant ddu. Y mae'r plwyf yma, yr hwn gynt a elwid "Cynnedd," yn gorwedd tua milldir oddiwrth yr afon Wysg, a thua yr un faint oddiwrth yml y brif-ffordd ag sydd yn arwain o Aberdaugleddy i Lundain. Y mae ei gwr dwyreiniol bron ar lân camlas Aberhonddu a Chasnewydd-ar-Wysg. Y mae'r plwyf hwn tua 15 milldir ei hyd, ac yn rhyw 2 filldir ei led, ac felly yn mesur 1867 o erwau. Yn y plwyf hwn y mae Cadair Arthur, cribyn uchelaf Banau Brycheiniog, yr hwn sydd yn 2550 troedfedd uwchlaw gwely yr afon Wŷsg. Y mae yn edrych yn berffaith gônaidd o bell, ond y mae gwastadedd o tua 15 llathen ysgwâr ar ei ben ef, o'r hwn y gellir gweled Môr Caerodor, o'r Mumbles wrth Abertawy, hyd Kingswood; gellir gweled bryniau Malvern hefyd, yn swydd Gaerwrangon, gyda rhanau o 14 o swyddi ereill. Y mae y Gadair yn ddibyn serth ofnadwy yn ei chŵr gogledd-ddwyreiniol, tua 600 troedfedd ei ddyfnder. Y mae yn hen arferiad gan drigolion Aberhonddu, Crughywel, a'r cymmydogaethau cylchynol, i fyned i ben y *Begwns*, chwedl hwythau, bob cyntaf o Awst; yn ystod un o'r ymweliadau yma, rhyw hanner can mlynedd yn ôl, aeth dau ŵr ieuanc, ag oeddent yn hoffi yr un ferch eill dau, i chwareu ar ben y Gadair, a syrthiodd y ddau dros y dibyn aruthrol uchod. Cafwyd cryn drafferth cael o hyd i gyrff darniol y trueiniaid hyn. Y mae amryw ddefaid yn cael eu magu ar y mynyddoedd yma, y rhai ydynt yn ffurfio canolbarth y plwyf; ond y mae ei ddau ben yn cael eu gwrteithio. Rectoriaeth ydyw 'r fywioliaeth eglwysig, yn nawdd y Parch. Thomas Powell, ac yn esgobaeth Tŷ Ddewi. Y mae yn cael ei threthu ar lyfrau y frenines yn 9*p*. 10*s*. 7½*c*., ac yr oedd y cyflwyniad iddi yn perthyn gynt i arglwyddi Brycheiniog, ond ar gollfarniad Duc Buckingham, daeth y gyflwynaeth yn feddiant i'r goron, a rhoddwyd hi i William Awbrey, Doctor o'r Gyfraith, yn nheyrnasiad Elizabeth; o'r teulu hwn aeth yn feddiant drwy briodas i deulu y Poweliaid o'r Gantref, ac o'r diwedd i feddiant teulu y Poweliaid o Abertawy, llawer o ba rai sydd wedi bod yn llenorion o gryn enwogrwydd. Y mae'r eglwys wedi ei chyssegru i'r Forwyn Fair, ac yn sefyll mewn lle rhamantus ar uchelfa ar lân yr afon Cynrig; y mae yn gynnwysedig o gorff a changell, y rhai a adeiladwyd ar draul y plwyfolion yn 1829, ac y mae clochdy bychan yn y pen gorllewinol, yr hwn sydd yn cynnwys dwy gloch. Y mae golygfa ddymunol o'r fonwent, ac y mae yma goed yw ardderchog, yn un o ba rai, 12 troedfedd oddiwrth y ddaear, y mae pren cerdinen yn tyfu. Ail-adeiladwyd y persondy yn 1792, ac y mae gwedi cael ei wella a'i helaethu ar ol hyny. Gan fod yr eglwys yn eithafoedd dwyreiniol y plwyf, y mae capel wedi cael ei adeiladu yn Nant ddu, tua 10 milldir oddiwrthi, er mwyn hwylusdod y dreflan hono a Hepstè, yr hwn sydd wedi cael ei waddoli â rhodd freninol o 1000*p*., ac yn nawdd y Periglor. Y mae ffynnonau mwnol ar y Bânau, ond nid oes dim defnydd yn cael ei wneuthur o honynt. Yn mhlith y rectoriaid ag sydd wedi bod yma o deulu y Poweliaid, gellir enwi y Parch. Thomas Powell, yr hwn a anwyd yma yn y flwyddyn 1627, yr hwn a gyhoeddodd *Elementa Opticæ* yn 1651; *Quadruga Salutis*, neu "Bedwar Pen Cyffredinol y Grefydd Gristionogol," yn 1657; "Y Catecism, Gweddi'r Arglwydd, a'r deg Gorchymyn," yn Gymraeg a Saesneg, gydag esboniadau ac egluriadau, yn 1660; "Diwydrwydd Dynol;" "Bywyd Herod;" a "Chyfieithiad o Eidalaeg Malvezzi a Ffrengaeg Balzac." Gadawodd waith arall ar ei ol mewn llawysgrif, yr hwn ysywaeth sydd wedi myned i golli, sef *Fragmenta de Rebus Britannicis*, neu "Hanes byr o fywydau, moesau, a chrefydd y Derwyddon Prydeinig. "Yr oedd gan y Thomas hwn fab o'r un enw ag efe ei hunan, yr hwn oedd yntau hefyd yn ddyn o dalent nid cyffredin. Yr oedd y Poweliaid yn disgyn o deulu hynafol a boneddigaidd, ond yr oedd rhywun yn amheu ei boneddigeiddrwydd, ac yn edliw hyny i'r Thomas hwn. Atebodd yntau yn serchog:—"Wel, yr ydych yn amheu nad ydwyf yn foneddwr. Myfi a'ch atebaf ar fyr eiriau; y mae holl ddynolryw gwedi disgyn o Noah a'i dri mab, ac o un o honynt hwy y mae parson y Gantref wedi disgyn." Y mae'r trethoedd tua 200*p*. y flwyddyn. Poblogaeth, 221.

**CAPEL BETTWS**, neu fel y gelwir ef yn gyffredin PENPONT, sydd drefgordd yn mhlwyf LLANSPYTHID, cantref DEFYNOG, yn undeb a swydd FRYCHEINIOG, 5 milldir i'r Gogledd wrth Orllewin o Aberhonddu. Y mae yn gorwedd mewn man hynod o ddymunol, ar lân yr afon Wŷsg, bron wrth aberiad y Gamlais ynddi, ac yn yml y brif-ffordd o Aberhonddu i Aberdaugleddy. Y mae'r golygfeydd amgylchynol yn gyfoethog o amrywiol, a golwg ardderchog ar y dyffryn oddiar ben y bryniau cyfagos, y rhai hefyd ydynt yn hynod o brydferth, ac wedi eu mantellu âg amryw fathau o goedydd. Y mae Penpont, palas Parry Williams, Yswain, yn dŷ ardderchog ac yn sefyll yn nghanol parc eang a phrydferth, yn yr hwn y mae rhai o'r derw mwyaf yn Nghymru. Y mae gwedi cael ei osod allan yn brydferth o drefnus, ac y mae ynddo rodfa ddymunol ar hyd glân yr Wŷsg, yr hon sydd yma yn murmur yn soniarus ar ei gwely cerygog. Yn y parc hwn y mae'r capel, gyda'i fonwent rhagorol; capel bychan ydyw, ond y mae yn un tlws iawn, ac wedi cael ei ail-adeiladu rhyw hanner can' mlynedd yn ol, ar draul Mr. Phillip Williams. Y mae coed yw mawrion iawn o gylch y fonwent, ac y maent yn rai hen iawn. Y mae'r ficeriaeth, yr hon oedd cyn y ddeddf ddiweddar, yn cael ei galw yn guradiaeth barhaus, wedi cael ei gwaddoli â rhodd freninol o 1000*p*., ac yn rhodd y plwyfolion ag sydd yn byw yn y drefgordd; cyfanwerth y fywioliaeth, 80*p*. y flwyddyn. Dyma lle mae beddfa teulu Williams, ac y mae llawer o honynt wedi cael eu claddu yma. Y mae yn mhalas Penpont, ddarlun campus o Anne Boleyn, ail wraig Harri VIII., a mam y Frenines Elizabeth, o deulu yr hon, y rhai ydynt o wreiddyn Ffrengaidd, y mae y Williamsiaid yma yn disgyn. Cangen o'r teulu hwn sydd yn byw yn mhalas Abercamlais hefyd, yr hwn sydd o edrychiad mwy hynafol nâ Penpont, ond nid oes dim yn neillduol

Digitized by Google

yn perthyn i'r tŷ nac i'r parc, amgen na'u bod yn nghanol yr un golygfeydd swynol â'r palasdy arall. Yr oedd cangen o'r teulu anrhydeddus hwn yn byw gynt yn Aberbrân, ond y mae'r palas hwnw gwedi cael ei droi yn ffermdy. Tua milldir sydd rhwng pob un o'r palasau yma, ac y mae pont yn croesi yr Wŷsg ar gyfer pob un o honynt. Y mae bryn yma a elwir y Gaer, ar yr hwn y mae gweddillion hen wersyll Prydeinig. Y mae trethoedd y drefgordd hon tua 150*p.* y flwyddyn. Poblogaeth, 119.

**CAPEL CALLWEN**, neu BLAEN-GLYN-TAWY. Capeliaeth bychan ydyw hwn, cysylltiedig a phlwyf Defynog, o fewn cantref DEFYNOG, Sir FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU, ryw 15 milldir (Gor. De. Or.) o Aberhonddu. Mae y capel hwn yn Guradiaeth barhaol, yn archddeoniaeth Brycheiniog, yn esgobaeth Tyddewi, wedi ei waddoli ag 800*p.* o rodd freninol, a 200*p.* o rodd seneddol, a than nawddogaeth Ficer Defynog. Nis gwyddis pa bryd yr adeiladwyd y capel hwn gyntaf. Mae fferm o'r enw Maes eglwys yn yr ymyl, ac un arall o'r enw Callwen; a dywed traddodiad i Callwen, merch Brychan Brycheiniog, fod yn byw yn y fferm hon, ac i'r ty a'r capel gael yr enw oddiwrthi. Myn eraill mai "Celli Wen" (Fair-wood) yw ystyr y gair. Ailadeiladwyd y capel yn 1840, a gallai yn awr gynwys agos i gant o gynulleidfa, a byddai hyny agos holl drigolion yr ardal.

Mae y capel hwn yn sefyll ar waelod glyn bychan yn mhen uchaf Cwm Tawy, o fewn rhyw dair milldir i darddiad yr afon, yn cael ei gylchynu gan fryniau uchel a chreigiau Cribog o geryg calch. Mae y Cwm yn ei ben uchaf yn agor yn fforch, ar ffurf y lythyren Y; ar y ddeheu y mae y ffordd yn myned i fyny i'r mynyddoedd gyda glan ffrwd Twyni (neu Tywynu), tua Defynog; ac y mae y ffordd ar y chwith yn myned gyda glan ffrwd Tawy tua Threcastell; ac yn y fan lle mae y ddwy ffordd yn uno, y saif y capel hwn. Wrth sefyll yn ymyl y capel hwn, a'n gwyneb i lawr i'r Cwm, y mae Banau uchel Sir Gaerfyrddin ar ein deheu, a chraig galch uchel ddaneddog Penwyll, dros goryn yr hon y mae rheilffordd Castellnedd ac Aberhonddu yn myned, yn ymddyrchafu ar ein haswy. O'n blaen yn ngwaelod y glyn y mae Craig uchel Cribath (Crib-y-garth) yn ymgodi, ac fel yn cau y glyn i fyny fel padell, a Chastell Craig-y-nos wrth ei throed. Y mae agos pob ty yn yr ardal yn y golwg, ac er nad yw y boblogaeth wedi cynyddu nemawr yn yr haner canrif diweddaf, y mae yma rai hen dai, a chryn hanesiaeth yn nglyn a hwy. Mae yma ddau dafarn o fri un o bob tu i'r afon, sef "*Tafarn y Gareg*," a "*Gwyn Arms*." Mae y *Dderi* hefyd yn ymyl, ffermdy yr hen offeiriad nodedig, y Parch. W. Watkins—neu fel y gelwid ef, "Yr hen Watkins o'r Dderi." Bu yn gweinidogaethu yma am 33 o flynyddoedd. Bu llawer o bregethu gan yr hen dadau Methodistaidd yn y Dderi, Blaen-nant-twyni, a Cheryg Haffes. Ychydig uwchlaw Capel Callwen, yn ymyl ffordd Trecastell, mae dau gylch Derwyddol, o geryg meinion wedi eu rhoddi ar eu taleenau yn y ddaiar, ar ffurf y ffigwr 8. Gelwir y Cwm hwn, o'r Capel i darddiad y Tawy yn "Gwm Car (Caer) Tawy." Ar ymyl y cylch y mae llun sarph dorchog, wedi ei gwneyd o geryg, ac yn mesur pe yn gyfan tua 90 o latheni o hyd, a'i phen yn ymwthio i mewn i'r cylch. Gerllaw y mae maen a elwir "Y maen mawr," tua phedair troedfedd o hyd, a thair o drwch, ac yn sefyll i fynu tua phum' troedfedd oddiwrth y ddaiar. Y mae yma hefyd garnedd hir o geryg, a chareg fain ar ei sefyll wrth y naill ben iddi. Gelwir y garnedd hon, "Bedd y Cawr." Mae yma hefyd lawer o dwmpathau o bridd cochlyd, fel lludw llosgedig, a myn rhai mai beddau Derwyddon ydynt, a'u bod yn arfer llosgi cyrph y meirw mewn twmpathau o'r fath. Tua chanol y glyn, rhwng y capel a'r castell, y mae "Melin y Blaenau"—un o'r hen "*Lord's Mills*," lle byddai y trigolion gynt dan orfod i anfon eu hŷd i'w falu—un o weddillion yr hen gyfundrefn wriogaethol; ond nid yw yr orfodaeth hon yn bodoli er ys llawer o flynyddoedd. Mae y capeliaeth hwn yn gofalu am ei dlodion ei hun; a'r swm blynyddol ar gyfartaledd, i lawr hyd y flwyddyn 1826, a werid at hyn, oedd 14*p.* Am flynyddau wedi hyny, nid oedd yma dlodion o gwbl yn derbyn tâl.

**CAPEL-COELBREN**, capeliaeth yn nosbarth uchaf plwyf Ystradgynlais, cantref Defynog, Sir Frycheiniog, Deheudir Cymru, 17½ filldir (De. Or. wrth Or.) o Aberhonddu. Mae poblogaeth y lle, yr hwn nid yw ond ychydig, yn cael ei ddychwelyd gydag eiddo y plwyf. Curadiaeth barhaol yw y fywioliaeth, yn archddeoniaeth Brycheiniog, yn esgobaeth Tyddewi, wedi ei waddoli a 1000*p.* o rodd freninol, ac yn nawdd Periglor Ystradgynlais. Mae yr hen gapel bychan yn sefyll ar ucheldir mynyddig anghysbell, rhwng Glyntawy a Blaendylais, ar ochr Panwen Byrddin, ryw bum' milldir i'r gogledd ddwyrain oddiwrth eglwys y plwyf. Barna rhai mai Cil-y-bryn yw ystyr y gair; ac eraill, sydd yn fwy tueddol i ganfod olion hynafiaethol yn mhob peth, a ddywedant fod y lle wedi cael yr enw oddiwrth arferiad y Rhufeiniaid o fwrw Coelbren, a bod arwyddion hen wersyllfa Rufeinig yn y lle. Y mae yn sicr fod darn o hen ffordd Rufeinig yn amlwg heddyw, o fewn llai na milldir i'r capel. Cafodd ei adeiladu y tro diweddaf yn 1799 ar gyd-draul Mr. Walter Price, Glynllech, a phreswylwyr y rhandir (Hamleteers), yn ol tystiolaeth argraphlech sydd wrth y capel. Yr oedd pump, o'r saith tyddyn oedd yn y rhandir, yn perthyn i Mr. Price. Nid oes un wybodaeth pa bryd yr adeiladwyd hwn gyntaf, ond y mae yn sicr ei fod yn hen iawn. Mae argraphiadau ar y ceryg beddau yno, rhwng dau a thri chant o flynyddau yn ol, ac amryw feini a'r llythyrenau wedi treulio gormod i'w gwneyd allan. Yr oedd hen dramffordd Christie, o'r Gurnos i Defynog, yn myned heibio Capel Coelbren, ac y mae Rheilffordd Castellnedd ac Aberhonddu, yn myned yn awr dros yr un llwybr.

**CAPEL COLMAN**; a elwir hefyd LLANGOLMAN; plwyf yn nghantref CILGERAN, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU; 7 milldir i'r de orllewin wrth orllewin o Gastell newydd yn Emlyn, ar y ffordd o'r dref hono i Narberth, yn cynwys poblogaeth o 282, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae y plwyf hwn, yr hwn sydd yn cael ei enw oddiwrth ei nawdd-sant "Colman," yn cael ei drawsu gan afonig a elwir y Dylas, neu "Dulas." Yn y plwyf hwn y mae palas ysplenydd Cilwendeg, yr hwn a gylchynir gan goedwigoedd prydferth, a rhodfeydd difyrus. Yr eglwys sydd adeilad fechan hardd, wedi ei chyfodi o fewn y can mlynedd ddiweddaf. Y fywioliaeth eglwysig sydd guradiaeth wastadol, yn arch-ddiaconiaeth, ac esgobaeth Ty Ddewi, wedi ei gwaddoli âg wyth gan punt o ged-rodd freninol.

Digitized by Google

**CAPEL CURIG**, capeloriaeth yn mhlwyf LLANDEGAI, cantref ARLLECHWEDD UCHAF, swydd GAERYNARFON, GOGLEDD CYMRU; 14 milldir i'r de ddwyrain o Fangor, ar y ffordd o Lundain i Gaergybi. Y mae y lle hwn, ar gyfrif ei gyfagosrwydd i'r Wyddfa, a mynyddoedd hynod ereill yn y parth yma o'r dywysogaeth; ac i amryw o'r llynoedd goreu yn ngogledd Cymru, wedi bod dros hir amser yn gyrchfa nodedig i deithwyr, a hyny yn enwedig er pan wnaed prif-ffordd trwy Nant Ffrancon, ac yr adeiladwyd gwest-dy da a chyfleus yma, gan y diweddar Arglwydd Penrhyn; fel y daeth y Gwesty, er ei helaethu drachefn a thrachefn, yn annigonol i dderbyn y lluaws ymwelwyr urddasol a boneddigaidd, a gyrchent yma yn misoedd yr haf; ac er ys rhai blyneddoedd bellach, y mae Gwesty da Tan y bwlch wedi ei gyfodi, lle y mae Mr. a Mrs. Griffith wedi enill iddynt eu hunain air da, fel rhai hynod o alluog ac ymdrechgar i wneyd y lluaws boneddigion a dalant ymweliad iddynt, yn gysurus. Y mae ffordd newydd wedi ei hagor oddiyma er's rhai blyneddoedd yn ol, trwy Fwlch Llanberis, i Gaerynarfon, a thrwy Nanhwynan i Beddgelert, yr hon sydd yn dra chyfleus i'r ymwelwyr â rhanau perfeddol Eryri. Rhwng y lle hwn a Bettws y Coed, ar yr afon Llugwy, y mae y rhaiadr enwog a elwir "Rhaiadr y Wenol," neu, yn fwy prïodol, "Y rhaiadr ewynol," am fod y dwfr yn crychferwi yn ewyn gwyn, wrth ruthro ar draws y creigiau ysgithrog ydynt yn ngwely yr afon.

Y mae Capel Curig yn nghanol ardal oludog mewn mwnau; cafwyd helaethrwydd mawr o *calamine* yma; ac yn agos i'r lle, canfuwyd y graig gyssefin galed, a elwir y sarphin; y mae cloddfa lechau hefyd yn cael ei gweithio yn ystlys Moel Siabod, gerllaw y lle hwn.

Curadiaeth barhaol oedd y fywioliaeth eglwysig yn y lle hwn, wedi ei gwaddoli â 600 punt o gedrodd freninol, ac yn noddogaeth Esgob Bangor. Ymddengys fod y Capel, yr hwn sydd yn gyssegredig i goffadwriaeth Sant Curig, wedi ei adeiladu yn dra boreu, fel capel anwes, nid yn unig i eglwys blwyfol Llandegai, i'r hon y mae tua 13 milldir oddiyma; ond hefyd i'r ardaloedd mynyddig, yn amryfal blwyfi Llanllechid, Llanrhychwyn, Dolwyddelen, Llanrwst, a Threfriw, preswylwyr y rhai ydynt yn dra phell oddiwrth eu hamryfal eglwysi plwyfol; a rhoddid iddynt hawl ar eisteddleoedd yn y Capel hwn: ond, yn ol hen ddefod, yr oedd y draul o gadw yr adeilad mewn adgyweiriad, yn disgyn ar blwyfolion Llandegai. Cynhelir ffair yma yn flyneddol ar yr 22*ain* o Fedi, yn benaf i werthu defaid. Y mae Tyddyndy yn agos i'r Capel Curig, a elwir "Gelli'r Mynach;" yr hyn, debygid, sydd yn awgrymu bod yma ryw feudwy yn preswylio ar ryw adeg foreuol; neu, efallai ei fod yn perthyn i ryw fonachlog, ac i'r enw yma gael ei roddi i'r lle ar y cyfrif hwnw. Yr oedd y diweddar William Williams o Landegai;[1] yn barnu bod y lle hwn wedi bod yn anneddle i fyneich ar ryw adeg, ac yn sylwi fod yr adeiladau yn cyfeirio o Ddwyrain i Orllewin, fel y mae y cyfryw dai yn gyffredin. A dywedai fod rhai hen gerfiadau o'u mewn, yn brofion eu bod wedi bod yn rhyw beth amgenach nag anneddau cyffredin. Fe ddichon fod rhyw fyneich wedi ffoi yma am loches, ar ryw adeg derfysglyd, pan oedd gelynion wedi goresgyn y wlad; ac fe ddichon iddynt aros yn yr encilfa dangnefeddus yma hyd angeu.

[1] *Observations on the Snowdon Mountains*, p. 75.

Y mae yn agos i'r lle a elwir "Bryn Gefeiliau," rhwng Capel Curig a Bettws y Coed, ryw hen adfeilion, am y rhai y bernir mai hen weddillion Rhufeinaidd ydynt; ond y mae y cyfan o'r bron wedi eu symud yn bresenol, i'w defnyddio mewn adeiladau diweddar: canfu Mr. Lysons, fod un o'r ystafelloedd yn driugain troedfedd o hyd, wrth ugain o led; ac un arall, yn ddeunaw troedfedd a chwe modfedd ysgwar, yn yr hon yr oedd amryw bileri ysgwar o gareg, tebyg i'r rhai oeddynt yn y chwysdŷ, a ganfyddwyd dan westy y *Feathers* yn Nghaerlleon. Nid oedd y ffordd Rufeinaidd, o Domen y Mur i Gaerhun, yn bell o'r llanerch hon, fel y gwelir yn yr erthygl ar "BETTWS Y COED."

Yn agos i'r Ddol Gam, ac heb fod yn mhell o'r Glyn, Capel Curig, saif dernyn henafol lled hynod, ar ffurf ty bychan, o adeilwaith y canol oesoedd, yr hwn nid yw yn gyfaneddol yn bresenol; ond a ddefnyddir fel ystordy i dyddyn cyfagos. Y mae ei furiau yn drwchus a chedyrn, a'r coed-waith yn drwm a pharhaus; ei risiau ydynt droellog; ei ddrws sydd fwäog; ac ar ei ddôr, yr hon sydd weithian yn rhidyllog, y mae ystyllen yn hoeliedig, a'r geiriau canlynol wedi eu tori arni,

HEB DDUW, HEB DDIM: A DUW A DIGON. [E. I.]

Ac ychydig islaw yr astell hono, ar y drws ei hun, y mae y llythyrenau canlynol yn doredig:—

D. M. 1694.

Ymddengys mai llythyrenau cyntaf enw, gwr oedd yn byw yma yr adeg a nodir yw y rhai yna; a chawn ychydig o hanes y gwr yn y "Brython;" lle y dywedir, "Daeth Dafydd Morus i Faen y Bardd, ger Llanbedr; bu yno yn dilyn ei gelfyddyd, sef saer, ac yn cadw chwech o weithwyr. Daeth yno pan yn 25*ain* oed; ond o ba le, sydd yn gwbl anhysbys: yn mhen enyd prïodwyd ef â Gwen Ellis o'r Cyffdy, ger Llanrwst, a chafodd y tyddyn, sef y Ddol Gam yn ffarm, yr hon oedd o'r blaen yn borfa ceffylau ieuainc gan y Boneddwr o Wydir, yr hwn a ymbleserai mewn magu ceffylau; a Dafydd Morus oedd y tenant cyntaf sydd mewn coffadwriaeth, a fu yn byw yn y Ddol Gam: bu iddo un mab o'r enw Gruffydd, yr hwn a dreuliodd ei holl ddyddiau yn y lle; a mab i hwnw a fu y tenant ar ei ol yntau, hyd yr oedran o 75ain mlwydd, pan y bu farw, heb fod erïoed yn y cyflwr prïodasol.

Wedi i Dafydd Morus gael y Tyddyn dywededig, efe a roddes y saernïaeth heibio, a daeth i'w feddwl wneuthur telyn i'w ddifyru; am ei fod yn ddatganwr da gyd a'r delyn, er nad oedd yn fardd celfydd. Efe a wnaeth delyn, ac a ddysgodd chwareu chwech o donau arni wrth ei ddeall yn unig. Gelwid hon, "y delyn wen," am ei bod heb ei lliwio na'i barneisio.

Gwnaed amryw benillion i delyn Dafydd Morus, gan rai o'i gymydogion fe ddichon, rhai o ba rai ydynt eto ar gof: dywedir iddo oedi yn lled hir heb roddi tanau ynddi; ac i'w gymhell i wneyd hyny, canai rhyw un y penill hwn iddo:—

"Pe buasai wallt fy mhen yn felyn,
Cawsit danau i dy delyn;
Ond am fod fy ngwallt yn winau,
Mae dy delyn heb ddim tanau."

Un arall a ganai ddymuniad da iddo ef a'i delyn, fel y canlyn:—

Digitized by Google

"Telyn wen yn llawn o dannau,
Wnaed yn nghoed y Glyn yn rhywle;
'Rwy'n gobeithio ei bod yn hwylus,
O waith dwylaw Dafydd Morus."

Ac y mae y penill canlynol yn cael ei adrodd ar lafar gwlad, a llen gwerin a ddywaid mai gan ei gariadferch ei cenid; ond y ffaith ydyw, ei fod ef wedi priodi Gwen Ellis y Cyffdy, er's amryw flynedd-oedd cyn gwneyd o hono y delyn:—

"Dafydd fwyn, yn dwyn y delyn,
Gwyn fy myd na chawn dy ganlyn;
Cysgu 'r nos o fewn i'th freichiau,
Dawnsio 'r dydd lle cenit tithau."[1]

**CAPEL CYNON**, capeliaeth yn mhlwyf LLANDYSSILIO-GOGO, cantref MOYDDYN, CEREDIGION, DEHEUDIR CYMRU, rhwng Aberaeron, a Chastell Newydd yn Emlyn. Bu rhan o fyddin Harri y Seithfed yn gwersyllu yma, ar ei ffordd o Aberdaugleddyf i Bosworth, yn mis Awst, 1485. Cynhelir ffeiriau mawrion yma ar Iau Derchafael, a'r ail Iau, ar ol Hyd. 10. Gweler ychwaneg ar y lle hwn dan enw plwyf LLANDYSSILIO GOGO.

**CAPEL DEWI**, treflan yn mhlwyf Llandyssil, CEREDIGION, DEHEUBARTH CYMRU; chwe milldir i'r dwyrain o Gastell newydd Emlyn. Y mae'r guradiaeth barhaus yn perthyn i Ficeriaeth Llandyssil, yn esgobaeth Ty Ddewi.

**CAPEL GARMON** (GARTH GARMON), sydd gapeloriaeth plwyfol yn nghwmwd IS-DULAS, cantref RHOS, swydd DINBYCH, GOGLEDD CYMRU, 4 milltir o Lanrwst. Y mae y lle hwn, gan mwyaf yn arw, a mynyddig: cynhwys rai gwythienau o blwm, ond ni weithir y mŵn yma i bwrpas. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Llanelwy, wedi ei gwaddoli â rhodd frenhinol o 400*p.*, ac 800*p.* o rodd seneddol; ac y mae yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Y mae y Swyddogion Llywodraethol Eglwysig, wedi gwneud rhai cyfnewidiadau, er cyfoethogi y lle yn ddiweddar, drwy drosglwyddo swm o gyllidau eglwys Llanrwst i'r lle hwn. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Germanus, ac yn dra hynafiaethol: adeiladwyd yr eglwysdy presenol yn 1789, yn agos i sail capel blaenorol, yr hwn oedd wedi llithro i adfeiliau; helaethwyd y fynwent ar yr un pryd. Rhoddodd Thomas Wynn, Ysw. o Llwynon, yn 1677, dŷ i'r gweinidog, a elwir "Llanerch Goch," gyda thir, gardd, ac adeiladau allanol, dan y rhwymedigaeth o fod iddo addysgu deg o blant tlodion yn y capel, ond nid oes yr un dystiolaeth ar gael, fod y rhwymedigaeth erioed wedi cael ei chyflawni. Y mae y lle yn hollol annibynol oddiwrth unrhyw lywodraethiad arni o Lanrwst, er y taliad a gyflwynir i'r lle oddi yno.

**CAPEL GWNDWN**, pentref bychan, nid pell o'r Cei Newydd, Ceredigion.

**CAPEL IOAN**, neu CAPEL IWAN, pentref yn swydd GAERFYRDDIN, dair milldir o Gastell Newydd yn Emlyn. Y mae hen eglwys flodeuog gan yr Annibynwyr yma, ac nid pell oddiyma yw capel y Bedyddwyr, a elwir Rehoboth, a chapel arall, a berthynai i'r Bedyddwyr gynt, ond yn awr a berthyna i'r Undodwyr, yr hwn a elwir Pant teg.

**CAPEL ISAAC**, pentref bychan yn swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU. Y mae hen eglwys yma gan yr Annybynwyr, ac amryw o weinidogion parchusaf yr enwad hwnw wedi cael eu magu yma, megis Williams Llandeilo; Stephens Brychgoed, a'i frodyr, &c. Y mae Capel Isaac yn lle enwog yn ei gyssylltiad ag Annghydffurfiaeth; ac mor foreu a'r flwyddyn 1650, yr oedd gan y seraffaidd Stephen Hughes eglwys yma. Yr oedd y Parch. Stephen Hughes yn frodor o Gaerfyrddin, a bu yn Ficer Meidrym hyd oni ddaeth Deddf yr Unffurfiaeth i rym; a phriodol y gelwid ef yn "apostol Sir Gaerfyrddin," a mawr yr erlid a fu arno ef a'i bobl. Buant am dymhor yn addoli mewn ogof, ar dir Tan y Capel, yn mhlwyf Llanddeusant, ac adeiladwyd y Capel cyntaf yn y flwyddyn 1672, ar dir un Isaac Thomas. Yr oedd rhoddi tir at gapel y pryd hwnw, yn gwir haeddu y bytholrwydd ag y mae enw y gwr da uchod wedi ei gael, yn nglŷn a'r addoldy ymneillduol hwn.

[1] Brython, Cyfrol III. t.d. 156,—311.

**CAPEL NANT DDU**, lle bychan yn NGHWM TAF, BRYCHEINIOG, nid pell o Ferthyr.

**CAPEL NEWYDD**, pentref bychan gerllaw plâs Cilwendeg, swydd BENFRO; nid pell o Gastell Newydd yn Emlyn.

**CAPEL TWR GWYN**, lle gerllaw Rhyd lewis, CEREDIGION, maes gweinidogaeth rymus a thanllyd Dafydd Morus, a'i fab Ebenezer Morus, gweinidogion doniol a phoblogaidd gyd a'r Trefnyddion Calfinaidd.

**CAPEL Y DRINDOD**, pentref bychan yn swydd ABERTEIFI, heb fod yn mhell o Gastell Newydd yn Emlyn. Y mae yma addoldy yn perthyn i'r Trefnyddion, yn yr hwn y mae un o Weinidogion yr Annibynwyr i bregethu un Sabbath o bob mis; ac y mae i bob gweinidog o bunt y Sabbath am ei lafur, o waddoliad a wnaed i'r lle, gan fam gu Syr Thomas Davies Lloyd, Barg. o'r Bronwydd, yr aelod Seneddol presenol dros Geredigion.

**CAPEL Y FFIN**, lle bychan yn swydd FRYCHEINIOG, gerllaw Pontesgyb, nid pell o'r Fenni; lle y mae yr hen eglwys Fedyddiedig yn cyfarfod, a gyfarfyddai yn Olchon ar y dechreu. Y mae Mr. Thomas yn dywedyd yn "Hanes y Bedyddwyr," mai y gweinidog cyntaf y clywsai efe son am dano yn Olchon, oedd Mr. Howell Fychan, a bod ganddo ysgrif yn ei feddiant yn tystio ei fod yno cyn y flwyddyn 1640.

**CAPEL Y FFOREST**, treflan ar y mynydd, ychydig islaw Troed y rhiw, gerllaw MERTHYR TYDFYL, MORGANWG. Yr oedd capel anwes yma gynt, lle yr addolai y trigolion a gyfaneddent rhwng y Merthyr a Mynwent y Crynwyr; ond y mae wedi ei droi at wasanaeth arall er's blyneddau lawer.

**CAPOIR**, yn ol y *Brut*, ydoedd yr ail a thriugain frenin Prydain; efe a ddilynodd Pyr i'r Orsedd, a dilynwyd yntau gan ei fab Manogan, tad Beli Mawr.

**CARADAWG AB BRAN**, brenin yr Essyllwyr, ydyw un o'r enwogion Cymreig ag mae ei glod wedi cyrhaedd yr holl fyd. Essyllwyr y gelwid gynt y cynfrodorion a breswylient Ddeheubarth Cymru, yr hwn sydd yn wahanedig yn awr i Swyddi Henffordd, Mynwy, Morganwg, Brycheiniog, a Maesyfed. Eu brenin yn yr ail ganrif, oedd Caradawg ab Bran, yr hwn a eilw yr awduron tramor, yn *Caractacus.* Nodweddid yr Essyllwyr gan eu lliw gwridog, eu gwallt du crychlyd, eu hanhyblygrwydd i gaethwasiaeth, yn nghyd a'u glewder mewn rhyfel. Tra yr oedd amryw o'r llwythau dwyreiniol, megis y Trafonwyson, a'r Tafeinwyson wedi ymostwng yn rhwydd i'r goresgynwyr Rhufeinaidd o dan Claudius

Digitized by Google

Caisar, yr oedd yr Essyllwyr a'r Gordofigion, o dan arweiniad y dewrwych Garadawg, yn ymladd mor wrol dros eu gwlad, ac yn effeithio y fath golledion o fywyd a meddianau i'w gelynion, fel y darfu i Ostorius, y cadfridog Rhufeinig, ymdreulio allan, a marw o ofid; a Veranius, yr hwn a gymerodd ei le ef, lafurio yn gwbl ofer, hyd oni fradychwyd y dewrddyn Caradawg i ddwylaw ei elynion gan y butain hono, Aregwedd Foeddawg, brenines y Brigantwys. Dywedir i Caradawg barhau i herio y galluoedd Rhufeinig am naw mlynedd, ac iddo, yn y cyfamser, ymladd a hwynt ddeg ar hugain o frwydrau agored a phenodedig, ac o'r rhan fwyaf o honynt, ddyfod allan yn orchfygwr.

Nid yw yn wybodus yn mha le yr ymladdwyd y frwydr derfynol. Nodir pedwar man, a gwel rhai ryw debygoliaethau dros bob un o honynt; sef Caer Caradog, yn Swydd Amwythig; Gnol Cocsal, yn agos i Brampton Brian, swydd Henffordd; Cefn Carnedd, yn mhlwyf Llandinam, swydd Drefaldwyn; a Mynydd Breidden, yn agos i'r fan lle mae y Fyrnwy a'r Hafren yn uno a'u gilydd. Dywedir i Caradawg sefydlu a threfnu ei fyddin ar ben bryn ag afon wrth ei odre; codi yno gaer o gerig rhyddion yn gysgodfa i'w fyddin, a gosod llu o'i wyr glewaf i amddiffyn y rhŷd. Tra yr oedd y lluoedd yn ymbarotoi, gwibiai Caradog, o gadran i gadran, i anog ei wyr i wroldeb, gan ddywedyd, "Hwn yw y dydd, a hon yw y frwydr, naill ai i hawlio ein rhyddid, neu ynte i ymostwng i dragwyddol gaethiwed." Adgofiai hwynt hefyd o ddewrder eu tadau, y rhai a yrasent Iwl Caisar i gilio, gan eu hanog i'w hefelychu i waredu eu gwragedd a'u plant o ddwylaw eu gelynion, a'u gwlad oddi wrth drethoedd a gormes. A'r lluoedd, wrth glywed y fath anogaethau, a floeddiasant eu bod yn barod i farw dros eu gwlad a'u breiniau; ac nad ymostyngent byth i'r gelyn. Cyfarfu y byddinoedd, a bu lladdfa ddirfawr o bob tu; ond gan fod y Rhufeiniaid yn orchuddiedig gan arfau amddiffynol, a'r Prydeiniaid heb na llurig na phenial, gorfu iddynt, o'r diwedd, roddi fford, ac encilio o'r maes, gyda'r bwriad, mae yn debyg, o gael adgyfnerthion. Ond yn yr ymchwalfa, cymerwyd gwraig a merch Caradawg yn garcharorion, a'i frodyr a roddasant eu hunain i fynu yn wirfoddol, ac yntau ei hun a ffodd am nodded at Aregwedd Foeddawg (*Cartismandua*), brenines y Brigantwys, yr hon yn y modd mwyaf bradwrus, a'i traddododd ef mewn cadwynau i'r Rhufeiniaid, tua'r flwyddyn O. C. 51. Geilw rhai haneswyr y *fradyches* hon yn ferch Afarwy ab Lludd, yr hwn a fradychasai Gaswallon i Iwl Caisar; ond gan fod tua chàn mlynedd rhwng y ddau gyfnod, mae yn fwy tebyg mai ei wyres a allasai hi fod, ond *merch* o ran egwyddor.—

> "O ran ymddygiad, yn wylaidd gall,
> Ond yn ei chalon yn Felen Fall."

Mae adroddiad Tacitus, yr hanesydd Rhufeinig, o'r amgylchiad hwn, yn dangos fod gorfoledd mawr yn Rhufain pan ddygwyd Caradawg yno. "Nid llai," medd ef, "na phan ddygwyd Syphacs yno gan Scipio, a Perses gan L. Paulus, neu rai o'r breninoedd eraill a ddygwyd yno yn garcharorion." Dywed hefyd "na bu dinas Rhufain, ond prin erioed yn llawnach o bobl na'r pryd hwnw; nid yn unig y cyffredin bobl, ond y pendefigion, yr uchel gadbeniaid, y marchogion a'r arglwyddi, o bell ac agos, oeddynt yn cyrchu yn finteioedd i gael golwg ar y gwr a ymladdasai am gyhyd o amser, â holl gadernid Rhufain."

Eisteddai Claudius ar yr orsedd ymerodrol, a galwyd y bobl yn nghyd megis i weled rhyw arddangosfa fawreddog, wrth weled y gwron Cymreig yn cael ei arwain mewn llawenydd trwy ystrydoedd y ddinas, ac i ymddangos ger bron yr ymerawdwr. Yn gyntaf oll ymddangosai deiliaid Caradawg, gan ostwng eu penau, a dangos mor ddwys y teimlent ddarostyngiad eu brenin. Yna y torchau, yr addurniadau, a'r yspail eraill a gymerwyd yn y rhyfel. Yna daeth ei wraig, a'i ferch, yn wylo oblegid eu diraddiad. Ac yna y tywysog dewr galon; o amgylch ei lwynau yr oedd gwregys o groen bwystfil, a lluniau amryw fwystfilod yn baentiedig a'r y rhanau gweledig o'i gorff. Dygai gadwaen haearn o amgylch ei wddf, ac un arall am ei ganol; ei wallt yn gydynau troellog a hongiai lawr, gan orchuddio ei ysgwyddau; a barf ei wefus uchaf, gan ymranu i bob ochr, a orphwysai ar ei fynwes. Ni phlygai ei ben mewn llwfreidd-dra, ac ni erfyniai am drugaredd, eithr gydag ysbryd gwrol a mawrfrydig, aeth yn mlaen i bresenoldeb Claudius, a chyda llais digryn anerchodd ef fel hyn:—

"Pe buasai mesur fy llwyddiant wedi bod yn gyfartal i'm genedigaeth, a'm huchel fonedd; neu lwyddiant fy ymdrechion diweddar wedi bod yn gyfartal i benderfyniad fy meddwl, gallaswn ddyfod i'r ddinas hon fel cyfaill i gael ei roesawi, yn hytrach nag fel carcharor i gael llygadrythu arno. Ac ni buasit tithau felly yn gwrthod derbyn ar dir cyfeillgarwch a heddwch, un sydd wedi deilliaw oddi wrth hynafiaid uchel-waed, ac yn llywodraethwr amryw genhedloedd rhyfelgar. Pa gymylau bynag sydd wedi tywyllu fy nhynged bresenol, mae y Nefoedd a Natur wedi rhoi i mi mewn gwaedoliaeth a meddwl, beth na fedr neb ei orchfygu, na'm hymddifadu o hono; Yr wyf yn gweled yn amlwg eich bod chwi yn gwneyd trueni pobl eraill yn destyn eich llawenydd; felly, gallwch yn fy adfyd i, megis mewn dwfr llonydd, edrych ar eich gogoniant. Eto gwybyddwch fy mod i yn awr, a chynt, yn dywysog, a chenyf unwaith feirch, rhyfelwyr, arfau, a chyfoeth; a pha ryfedd yw, os collwyd hwynt oll, gan fod profiad yn dysgu bod digwyddiadau rhyfel yn amrywio, a bod llwyddiant cynlluniau yn cael ei lywodraethu gan dynged ansicr. O barthed i mi, yr oeddwn yn tybied bod y dyfroedd dyfnion a osodwyd gan y duwiau i amgylchu ein gwlad, yn amddiffyniad digonol rhag unrhyw oresgyniad tramor; ond yn awr mi a welaf, nad yw eich penaduriaeth chwi yn cydnabod unrhyw derfyn; ac os rhaid yw i chwi y Rhufeiniaid lywodraethu pawb, yna rhaid yw i bawb ufuddhau. O'm rhan fy hun, mi a wrthwynebais hyd eithaf fy ngallu; yr oeddwn yn anfoddlon i ostwng fy ngwar o dan iau wasaidd; ac mor belled a hyny mae deddf natur yn caniatau i bob dyn i amddiffyn ei hunan, nerth yn erbyn nerth. Pe buaswn yn ymostwng yn uniongyrch, ni fuasai fy niraddiad i, na dy glod dithau mor enwog. Weithian mae tynged wedi gwneyd ei gwaethaf, nid oes genym ddim wedi ei adael ond ein bywyd; os cymeri di hwn oddi wrthym, rhoddi derfyn ar ein trueni; ond os arbedi ni, byddwn yn wrthddrychau dy drugaredd."

Effeithiodd yr araeth fawrfrydig uchod mor rymus ar yr ymerawdwr, fel y caniataodd iddo ef a'i deulu

eu rhyddid. Dywed Dion Cassius, yr hwn a ysgrifenodd yn y drydedd ganrif, i Caradawg, gyda'i wraig a'i blant, ar ol iddynt dderbyn maddeuant, *drigo yn yr Eidal.* Ond haera y *Trioedd* yn unfrydol, iddo ddychwelyd i'w wlad, trwy i'w dad, Bran ab Llyr, fyned yn wystl drosto am saith mlynedd; yr hwn wrth ddychwelyd yn ol, meddant, a ddug yr Efengyl i Genedl y Cymry. Gwel Bran ab Llyr.

**CARADAWG AB GWYN,** ydoedd frenin Gwynedd yn niwedd y saithfed ganrif, yn adeg y rhyfeloedd gwaedlyd rhwng Offa, brenin y *Mers*, a'r Cymry. Lladdwyd ef, a Meredydd, brenin Dyfed, yn mrwydr fyth-gofus Morfa Rhuddlan, tua'r flwyddyn 800. Dywedir mai ar yr achlysur hwnw y cyfansoddwyd yr hen alaw Gymreig, *Morfa Rhuddlan.*

**CARADAWG AB IESTYN** oedd fab Iestyn ab Gwrgant, tywysog Morganwg, Syrthiodd mewn brwydr a'r Saeson tua 1031.

**CARADAWG AB RHYDDERCH,** ydoedd fab Rhydderch ab Iestyn ab Gwrgant, tywysog Morganwg; ac un o'r rhai mwyaf aflonydd a rhyfelgar yn ei oes. Yr oedd gelyniaeth farwol rhyngddo ef a Gruffydd ab Llywelyn ab Seisyllt, yr hwn ar y pryd oedd yn ben llywodraethwr holl Gymru, "o fôr Udd hyd yn môr Hafren." Yn y flwyddyn 1050, efe a Rhys, ei frawd, a ddaethant a byddin gref o wŷr Gwent a Morganwg, yn erbyn Gruffydd ab Llywelyn, "ac ymladd a fu rhyngddynt annhebyg i a fu erioed namyn y *Gad Gamlan;* a lladdwyd cymmaint o bob plaid, oni orfu ar y ddau lu ymchwelyd yn eu hol, heb a ellid ei alw yn ennill i nac un na'r llall o honynt, a gwaedlytted yr aerfa rhyngddynt."

Yn 1060, efe a'i gyfeillion a unasant a Harold, brenin Lloegr, yn erbyn Gruffydd ab Llywelyn, a lladdwyd Gruffydd yn Muallt, trwy fradwriaeth *Madawc Min*, Esgob Bangor, yr hwn, ddeugain mlynedd cyn hyny, a fuasai yn offeryn, fel y tybir, i fradychu ei dad ef, Llywelyn ab Seisyllt.

Yn 1062, gosododd Harold, Feredydd ab Owen ab Edwin, yn dywysog Deheubarth, tra yr oedd Bleddyn ab Cynfyn, a Rhiwallawn, ei frawd; yn dywysogion Gwynedd a Phowys. Yna tua'r flwyddyn 1069, torodd tanchwa ofnadwy allan yn y Deheubarth, trwy i Caradawg ab Rhydderch, gyflogi llu cadarn o Normaniaid *William Fastardd*, i ymosod ar Feredydd ab Owen; ac yn Llanfedwy, swydd Forganwg, bu ymladd gwaedlyd rhyngddynt, pryd y syrthiodd Meredydd ar y maes, ac y daeth y llywodraeth i ddwylaw Caradawg. Ond ni chafodd fwynhau ei anrhydedd yn hir; canys yn y flwyddyn hono "daeth y Normaniaid i Ddyfed a Cheredigion, ac a'u diffeithiasant yn filain; a Charadawc ab Rhydderch a ddug lu dewisawl o wŷr Gwent a Morganwg a Gŵyr, yn eu herbyn, a'u gyru yn ol i'w llongau, a dwyn oddi arnynt eu hyspail; a hyn o waith gwroldybus a ddug i Garadawg lawer o gariad Gwŷr Dyfed a Cheredigion, y rhai cyn no hyny ni charent wehelyth Caradawc. Ond cyn pen y flwyddyn ar ol y fuddugoliaeth uchod, efe a fu farw, o archoll a gawsai yn y rhyfel, a Rhydderch, ei fab, a gafodd y llywodraeth ar ei ol.

**CARADAWG FEUDWY,** a hanai o hen deulu parchus yn Mrycheiniog. Pan yn ieuanc, bu am beth amser yn ngwasanaeth Rhys, tywysog Deheubarth. Dechreuodd fywyd meudwy yn Llandaf; oddi yno enciliodd mae yn debyg i Ynys Barri, yn Môr Hafren; ond aflonyddid ef yno gan fôrladron, a gorfu iddo ymadael. Wedi hyn sefydlwyd ef gan esgob Ty Ddewi, yn St. Ismael, Penfro; lle yr arosodd hyd ei farwolaeth yn 1124; a chladdwyd ef yn nghapel St. Andreas, Ty Ddewi. Priodolid llawer o wyrthiau iddo; ac ar gais Giraldus Cambrensis, canonwyd ef gan y Pab. Efe oedd sant gwarcheidiol eglwys Llawreny.

**CARADAWG FREICHFRAS,** rhyfelwr enwog yn y 5ed ganrif; ydoedd fab i Llyr Merini, tywysog Cernyw, o Gwen, gorwyres Brychan Brycheiniog. Gelwir ef yn y *Trioedd* yn un o dri "Chad farchogion Ynys Prydain;" ac yn yr Englyn a dadogir i Arthur, yn "Golofn Cymry." Clodforir ef yn y *Gododin* am ei wroldeb yn mrwydr Cattraeth, lle y tybir iddo syrthio. Yn y *Mabinogion Arthuraidd,* gelwir ef yn brif-ynad a chefnder i'r brenin Arthur; ac yn un o farchogion y Ford Gron. Yno hefyd mae ei wraig, Tegau Eurfron, yn tori ffugyr neillduol, ar gyfrif ei glendid a'i diweirdeb.

Gelwir hi yn y *Trioedd* yn un o dair Gwenriain Llys Arthur; y ddwy eraill oeddynt Enid, ferch Yniwl Iarll: a Dyfyr Wallt-euraidd.

Yn yr hen Duchangerdd, *The Boy and the Mantle,* yr hon sydd yn dyddio ei bodolaeth i'r bedwaredd ganrif ar ddeg, Caradawg a'i wraig, yw yr unig ddau, yn yr holl Lŷs, oedd yn gallu myned yn fuddugoliaethus trwy brawf *Y Fantell, y Gyllell,* a'r *Corn;* y rhai mewn modd cyfareddol a ddangosent a oedd y wraig yn ddiwair, ai nad oedd. Y penill olaf yn engraifft:—

> "Craddocke wan the horne,
> And the brore's head:
> His ladie wan the mantle
> Unto her meede.
> Everye such a lovely ladye
> God send her well to speede."

**CARADAWG O LANCARFAN,** ydoedd fynach dysgedig, a hanesydd enwog yn y 12fed ganrif. Efe a ysgrifenodd hanes Cymru o amser Cadwaladr Fendigaid yn 686, hyd ei amser ei hun 1157, dan yr enw *Brut y Tywysogion*, dau gopi o'r hwn sydd yn argraffedig yn y *Myf. Arch.* Dygwyd y copi blaenaf o'r rhai hyn i lawr gan ryw hanesydd anadnabyddus i 1280, a'r olaf i 1196. Tybir i Caradawg farw yn 1157. Cyfieithwyd Cronicl Caradawg gan Humphrey Llwyd, a chyhoeddwyd ef gan Dr. Powell, yr hwn a ddywed nad oedd dim llai na chan copi o'r *Brut* yn wasgaredig hyd Gymru yn ei amser ef.

**CARANOG,** Sant, ydoedd fab Corun ab Caredig, yn ei flodau yn nechreu y 6ed ganrif, a sylfaenydd eglwys Llangranog, yn Ngheredigion. Cedwid ei wyl Mai 16.

**CARAWN,** neu Caron, (*Carausius* yr ysgrifenwyr tramor), yn ol y Brutiau Cymreig, ydoedd Gymro genedigol o Menyw (Ty Ddewi). Ond dywed eraill nad oedd un perthynas rhyngddo a Chymru; ond mai yn *Menapia*, yn Gâl, y ganwyd ef, ac iddo dderbyn ei addysg forwrol yn *Batavia.*

**CAREDIG AB CUNEDDA WLEDIG,** ydoedd wr enwog mewn rhyfel, yn niwedd y 4edd ganrif. Efe a yrodd ymaith y gwyddelod o amryw barthau o Gymru; ac fel gwobr, efe a gafodd y rhandir a elwid hyd hyny y Tyno Coch, ac wedi hyny, ar ei enw ef, yn *Ceredigion.*

**CAREDIG FRENIN,** a ddilynodd Faelgwyn Gwynedd i'r llywodraeth, tua'r flwyddyn 590. Mae

Digitized by Google

yr hanès a rydd *Brut Tyssilio* am dano, yn ymddangos yn lled debyg i *ramant*:—Ei fod yn anmhoblogaidd gan ei ddeiliaid,—i'r Saeson ar hyny gymeryd mantais i anfon at Gormwnt, un o frenhinoedd. Affrica, yr hwn a anrheithiasai yr Iwerddon, i ddyfod drosodd i'w cynorthwyo i ddarostwng Prydain—i Caredig, ar ol colli brwydr, orfod ffoi i Caergeri,—iddynt hwythau roddi y ddinas ar dân trwy offerynoliaeth adar y tô, nes ei orfodi i ddyfod allan i ymladd, a ffoi gyda'i weddill pobl tua Chymru, Cernyw, a Llydaw;—ac mai felly y collodd y Cymry deyrnedd Lloegr am byth.

**CAREG HWFA**, sydd drefgordd, mewn rhan yn nghwmwd Cynllaith, ac mewn rhan yn ngwmwd Mochnant Is Rhaiadr, yn mhlwyf Llanymyneeh, swydd DDINBYCH, GOGLEDD CYMRU; 6 milltir o Groesoswallt. Y mae yn sefyll rhwng yr afonydd Tanat a'r Fyrnwy, sydd yn ymuno yma, ac yn ffurfio rhan wahanedig o sir Ddinbych, yn gorwedd rhwng siroedd Amwythig a Threfaldwyn. Ystyrir ei bod yn gyfoethog mewn mŵnau, y rhai a gloddid gynt gan y Rhufeiniaid, am y rhai y cafwyd gweddillion i'w hadnabod, megis bathodion, ysgryd dynol, &c., ond y prif adnoddau, sydd mewn marmorau, o liw goleu, gyda gwythieni coch a gwyn, y rhai a ellid eu troi yn galch gyda chryn hawsder, yr hwn a gludir mewn camlas, drwy ranau helaeth o'r wlad. Y mae cangen yn cysylltu camlasau Trefaldwyn ac Ellesmere, yn cychwyn yma, ac yn dilyn trwy y drefgordd, gan groesi yr afon Fyrnwy, ar ddyfr-ffos, y rhai a wahanir gan y ffordd sydd yn arwain o Lanymyneeh i'r Trallwng. Nid oes ond ychydig o'r castell, a fu unwaith yn sefyll yma, ar lanau y Tanat, ar gael yn awr, dim ond ychydig o olion y ffos ar yr ochr ddwyreiniol. Cymerwyd ef yn 1162 gan Owain Cyfeiliog, ac Owain ab Madog, dau gefnder, y rhai a gadwasant feddiant o hono am tua phum mlynedd ar hugain, pan y llwyr ddinystriwyd ef gan Cadwallon a Gwenwynwyn, meibion Owain Cyfeiliog, wedi lladd Owain ab Madoc, hen gydymaith eu tad. Cymerodd brwydr le yn Gwern-y-fign, o fewn tua haner milltir i'r castell yn 1202. Y mae hen balas Carreghwfa Hall, wedi myned yn adfeiliau er ys tro maith, ac y mae ffermdy wedi ei godi yno yn ei le. Y mae cymunrodd o 1*p.* yn flynyddol, wedi ei gadael i wyth o ferched sengl, neu weddwon, a fyddo yn arfer myned i eglwys Llanymyneeh, gan ryw un anadnabyddus, a delir gan y periglor. Y mae clawdd Offa yn myned heibio terfynau dwyreiniol y drefgordd, ac yn dyfod yn gyfagos i bentref Llanymyneeh; ac ar y terfyn de-orllewinol, uwchlaw yr afon Fyrnwy, ac islaw y lle y mae yn uno a'r Tanat, y mae murdomen trionglog yn codi, yn cael ei gylchynu gan ffos ddofn, a elwir Clawdd Coch, neu y "ffos goch," yr hwn a dybia Syr Richard Colt Hoare ydoedd y *Mediolanum* henafol, ac nid Meifod, deng milltir yn uwch gyda'r afon, fel y tybiai rhai; ac y mae y lle hwn yn cyfateb yn well i'r pellder rhwng *Bovium* a *Rutunium* yn ffordd-lyfr Antonius.

**CAREGRINA**, CREGRINA, neu yn hytrach, CRUGYNAU, plwyf yn nghantref COLWYN, swydd FAESYFED, DEHEUBARTH CYMRU; 6½ milldir i'r dwyrain o Lanfair yn Muallt, yn cynwys poblogaeth o 124 yn ol Deiliadeb 1861. Y mae y lle hwn yn gorwedd ar lan yr afon Edwy, yr hon sydd yn ymarllwys i'r Wŷ, ger Aberedwy. Rectoriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, â'r hon y mae curadiaeth wastadol Llanbadarn y garreg, yn gydiol, yn archddiaconiaeth Brycheiniog, ac esgobaeth Ty Ddewi, wedi ei hardrethu yn llyfrau y goron, yn 9*p.* 6*s.* 8*c.*; ac yn noddogaeth Esgob Ty Ddewi. Yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i goffadwriaeth Dewi Sant, sydd adeilad fechan, salw yr olwg arni. Y mae y plwyf hwn yn cyfranogi yn nghymmun-rodd y Parch. Rees Powell o'r Bachryd, yr hwn a adawodd eiddo neillduol i amcanion elusenawl; yn mysg y rhai, yr oedd dwyn un plentyn tlawd o'r plwyf, i fynu mewn rhyw alwedigaeth; a'r Parch. Thomas Williams a roddes ddeg swllt yn y flwyddyn, at gynorthwyo tlodion o'r plwyf. Ychydig o'r tu uchaf i'r eglwys, y mae bryncyn celfyddydol, yn gylchynedig gan ddyfr-ffos, yr hwn a elwir "Mwnt Penardd," neu Penarth, yr hyn sydd yn dra dynodawl o'i sefyllfa, ar ben, neu lechwedd bryn: ac er na's meddwn unrhyw hanes ddiamheuol am y lle, y mae yn ymddangos yn debyg fod amddiffynfa yn gorwedd arni ar ryw adeg foreuol; ac yr oedd mewn sefyllfa dra manteisiol i amddiffyn y rhŷd drwy yr afon, a'r bwlch trwy y bryniau.

**CAREW**, SYR JOHN, ydoedd fab i Syr Leonard Carew, ac wyr i Syr John Carew, o Gastell Carew, yn Mhenfro. Gwnawd ef yn farchog gan Richard II., ac yr oedd yn gadben yn mrwydr Agincourt, lle yr enillodd gryn enwogrwydd. Yna efe a ymunodd a Syr George Talbot yn llywodraeth y llynges; a chafodd gan *mark* yn y flwyddyn am ei oes.—*Burke's Hist. of the Com.* vol. i.

**CARFAN**, SANT, sylfeinydd eglwys Llancarfan, Morganwg.

**CARMAIN**, rhandir anmhlwyfol yn nghantref DINAS POWIS, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, 2½ milldir i'r De Ddwyrain wrth Ddwyrain o Bont Fôn. Rhoddir y boblogaeth gyd a'r eiddo plwyf Llantrithyd, yn yr hwn y gorwedda.

**CARN**, THOMAS, un o feirdd Gorsedd Morganwg yn 1598. Defnyddir engreifftiau o'i waith yn *Nghyfrinach y Beirdd*, i egluro Dosbarth Morganwg.

**CARNE**, SYR EDWARD, oedd fab i Hywel Carne, o Bont-fôn, yn swydd Forganwg, o'i wraig Cicely, ferch William Kemys o'r Casnewydd; ac yn hanu yn llin-olin o Thomas le Carne, ail fab Ithyn, brenin Gwent. Yr oedd efe yn wr doeth, a thra dysgedig yn y Gyfraith Wladol; a chafodd ei urddo yn farchog gan yr amherawdr Siarl V. Yn y flwyddyn 1530, efe a wnaed yn areithiwr y brenin yn Rhufain, i ddadleu a'i "Santeiddrwydd" nad oedd y brenin yn rhwym wrth y gyfraith i wneyd ei ymddangosiad yn bersonol na thrwy ddirprwy yn llŷs Rhufain, yn ol yr arwysiad oedd yn dyfod iddo am ei ymddangosiad, yn herwydd ei ysgariad â'r frenines Catharine. Yn nheyrnasiad y frenines *Mary*, gan yr hon yr oedd efe mewn cymeradwyaeth mawr, yr oedd efe yn llŷsgenhadwr drosti, ac wedi hyny, dros y frenines Elizabeth: ond, pan dramgwyddodd y pab wrth y ddiweddaf am ddiddymu ei awdurdod ef yn Lloegr, efe a orchymynodd i Syr Edward Carne roddi i fynu ei swydd o lŷs-genhadydd, a chymeryd arno lywyddiad y clafdy Seis'nig yn Rhufain. Barna amryw i'r trefniad yma gael ei wneyd ar gais Syr Edward, zêl yr hwn dros y grefydd Babaidd oedd yn gyfryw, fel y buasai yn dewis aros yn Rhufain, yn hytrach na dychwelyd i'w wlad ei hun, yr hon oedd y pryd hyny ar gael ei gordoi gan yr hyn a alwai ef yn heresi.

Efe a fu farw yn Rhufain, yn mis Ionawr, 1561,



Digitized by Google

ac efe a gladdwyd yno, yn yr eglwys a berthynai i Fynachlog Sant Sior. Ysgrifenodd Syr Edward Carne lawer o lythyrau o Rufain, a manau eraill yn yr Eidal, yn mherthynas i ysgariad y brenin Hari, rhai o honynt a welir yn *Burnett's Collection of Records*, Vol. I. Efe hefyd a ysgrifenodd amryw lythyrau swyddogol at y frenises Mary, ac y mae dau o'r rhai hyny i'w canfod yn niwedd yr ail gyfrol o *Burnett's History of the Reformation;* sef Llythyr o Rufain, yn dynoethi y modd y rhagrithiai y Pab gydag ef, o barth heddwch cyffredinol, dyddiedig Mai 15, 1557.

Golygir yn wastad, mai Syr Edward Carne oedd y llys-genadwr olaf o Loegr at y pab, hyd oni anfoned Iarll Castlemain yno gan y brenin Iago II., yn y flwyddyn 1687.

**CARN GIWCH**, plwyf yn nghantref GAFLOGION, swydd GAERYNARFON, GOGLEDD CYMRU, 5 milldir i'r gogledd o Bwllheli, ar y ffordd i dref Caerynarfon, yn cynwys poblogaeth o 130, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae y plwyf hwn, yr hwn sydd yn gorwedd gerllaw yr afon Erch, yn cymeryd ei enw oddiwrth fryn conaidd uchel, a elwir Moel Carn Giwch, ar ben yr hon y mae carnedd fawr o gerig rhyddion, a elwir yn llen gwerin, "arffedogaid y gawres;" wrth yr hyn y mae lle i gasglu mai adfeilion hen deml baganaidd ydoedd. Y mae yn gofus genym fod yr henafiaethydd enwog, y diweddar Barch. John Jones, Periglor Llanllyfni, yn dadleu yn un o'i bapurau, mai "Carn y Gewach," ydyw gwir enw y lle. Y fywioliaeth eglwysig ydoedd guradiaeth wastadol, yn gydiol a pherigloriaeth Edeyrn, yn archddiaconiaeth, ac esgobaeth Bangor. Yr eglwys, yr hon sydd gyssegredig i *Sant Cirg*, medd rhai, i *Beuno*, medd ereill, sydd adeilad fechan hardd, yr hon a ail adeiladwyd oll, oddieithr y pen dwyreiniol, yn y flwyddyn 1828.

**CARNO** sydd blwyf yn nghwmwd Uwch Coed, cantref ARWYSTLI, yn rhanbarth isaf Llanidloes, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU; 11 milltir o'r Dref-newydd. Yn y flwyddyn 948, ymladdwyd brwydr drychinebus yma, am arglwyddiaeth Gogledd Cymru, rhwng Ieuan a Iago, meibion Edwal Foel, a meibion Hywel Dda, brenhin diweddar holl Gymru, yr hon a derfynwyd yn ffafr y blaenaf. Ac yn 1077, neu yn ol rhai cofnodau eraill, yn 1082, ar fryn a elwir Mynydd Carn, a elwir felly oddiwrth garnedd fawr sydd arno, yn goffadwriaethol am ryw ryfelwr o amser boreuach drachefn, bu un o'r brwydrau mwyaf ofnadwy a ymladdwyd erioed yn y dywysogaeth, rhwng Gruffydd ab Cynan, tywysog cyfreithlon Gogledd Cymru, yn cael ei gynorthwyo gan Rhys ab Tewdwr, tywysog y Deheubarth, â Thrahaearn ab Caradog, yr hwn oedd y pryd hwnw wedi trawsfeddianu yr orsedd, yn yr hon y gorchfygwyd ac y lladdwyd yr olaf, wedi ymdrech egniol, gyda phigion ei fyddin, ac y llwyddodd Gruffydd i gymeryd y frenhiniaeth, ac efe a deyrnasodd am ddwy flynedd ar bymtheg a deugain; ac a fu farw yn 1137: y mae ei fywgraphiad wedi ei gofnodi yn yr Hynafiaethau Cymreig, oddiwrth yr hwn y gwelir ei fod yn cael ei hynodi am gryfder galluoedd ei feddwl. Y mae rhai yn dynodi Carno yn Mrycheiniog, fel y man ag y cymerodd y frwydr hon le ynddo, ond dichon fod y dyryswch yn codi oddiar gam-dybiaeth am frwydr arall a gymerodd le yno yn 728, rhwng Rhodri Molwynog, ag Ethelbald Brenhin Mercia. Y mae y pentref yn sefyll ar y brif ffordd o'r Dref-newydd i Machynllaith. Y mae corsle yn y gymydogaeth, lle y ceir cyflawnder o fawn, at wasanaeth y trigolion. Y mae y bryniau yn rhoddi golygfeydd prydferth ar yr amgylchoedd, yn gystal ag ar ddyffryn Carno. Y mae y fywoliaeth yn guradaeth barhaol, wedi ei gwaddoli âg 800*p.* o rodd frenhinol, a 200*p.* o rodd seneddol; ac y mae o fewn brawdwriaeth neillduol, ac yn nawddogaeth esgob Bangor. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i St. Ioan Fedyddiwr, ac yn adeilad ddiaddurn, wedi ei ailadeiladu yn 1807. Y mae yn y gymydogaeth leoedd o addoliad gan y Bedyddwyr, yr Annibynwyr, y Methodistiaid, a'r Wesleyaid.

**CARON**, esgob, a sylfeinodd eglwys Tregaron, swydd Aberteifi. Cedwid ei wylmabsant Mawrth 5.

**CARON-IS-CLAWDD**, plwyf yn nghantref PENARTH, CEREDIGION, ar lan yr afon Teifi, saith milldir i'r gogledd ddwyrain o Lanbedr pont Stephan. Y mae yn blwyf mawr, ac yn mesur tua deugain mil o erwau. Ymladdwyd brwydr galed yma yn y flwyddyn 1041, rhwng Gryffydd ab Llywelyn, a Hywel ab Edwin, pan y lladdwyd Hywel, ac y gorchfygwyd ei luoedd ef. Yr oedd Gryffydd yn dywysog dewrwych, ond efe a laddwyd trwy frad a thwyll Madoc Min, Esgob Bangor, a rhoddwyd ei ben yn anrheg i Harallt. Poblogaeth, 2572.

**CARON-UWCH-CLAWDD**, STRATA FLORIDA, neu YSTRAD FFLUR, capeliaeth yn mhlwyf ac undeb plwyfol TREGARON, mewn rhan yn nghantref ILAR, ac mewn rhan yn mharth uchaf cantref PENARTH, yn sir ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU, 5½ milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Dregaron, ei dref bost. Bron wrth darddiad yr afon Teifi, gerllaw y lle hwn, ymladdwyd brwydr waedlyd rhwng Gryffydd ap Llewelyn, Tywysog y Gogleddbarth, a Hywel ap Edwin, Tywysog y Deheubarth, pan y lladdwyd Hywel a rhifedi mawr o'i bobl. Tywysog gwrol oedd Gryffydd ap Llewelyn, ond cafodd ei ladd drwy frad a thwyll Madog Min, Esgob Bangor, a gyrwyd ei ben yn anrheg i'r brenin Harold. Y mae Ystrad Fflur yn enwog am y fonachlog fawreddog a adeiladwyd yma, yn 1164, gan Rhys ap Gryffydd, Tywysog Deheubarth. Cadarnhawyd y gwaddolion ag oedd Rhys wedi roddi iddi gan ei feibion, yn ngŵydd eu byddin, yn eglwys Rhaiadr-ar-Wy; a thrachefn gan Harri II. Llewelyn ap Iorwerth, gan ei fod yn dymuno penderfynu yr olyniaeth dywysogol cyn ei farw, a alwodd yn nghyd i'r fonachlog hon, yr holl benaethiaid Cymraeg, y rhai a dyngasant lŵ o ffyddlondeb i Dafydd, ei fab o'r Dywysoges Seisnig, yn hytrach nag i'w fab hynaf Gryffydd. Yn y rhyfeloedd rhwng y Cymry a'r Saeson, yr oedd y fonachlog hon yn cael ei hanrheithio yn aml iawn; ac yn y 23ain o deyrnasiad Edward I., dinystriwyd hi yn ddamweiniol gan dân, oddieithr un hen adeilad a elwir "Yr Hen Fonachlog," ag sydd wedi bod yn cael ei ddefnyddio yn ysgubor. Rhoddes y brenin Edward ganiatâd i'r abad i'w hail-adeiladu, a chyfranodd 78*p.* tuag at y draul. Parhäodd i flodeuo o'r amser yma yn mlaen, mewn mwynhad o waddolion goludog, gyda thiroedd helaeth. Dyma lle claddwyd y Tywysog Rhys, y sylfaenydd, yn 1196. Claddwyd llawer o dywysogion ereill yma hefyd, gydag amryw fonedd a beirdd. Yr oedd y fonwent wedi cael ei chau i mewn gan amgaer o geryg geirwon, ac yn mesur 120 o erwau; yr oedd ynddi yn ol yr hynafiaethydd Leland 39 o goed yw, ond dywed ereill mai 24 oeddent, ac y mae traddodiad yn dywedyd taw o dân un o'r yw yma, y claddwyd y melusber a'r awenffraeth

Digitized by Google

Dafydd ap Gwilym; ond y mae englynion H. ap Thomas ap Einion, ynys Tawy, y rhai a gyfansoddwyd yn 1380 yn erbyn y traddodiad, ac yn dywedyd mai yn monwent monachlog Talyllychau y claddwyd ef. Hwyrach mai sail y traddodiad yw hyn:—Yr oedd Dafydd ap Gwilym, a Gryffydd Gryg o Benmynydd, Mon, wedi cweryla â'u gilydd, ac yn canu Cywyddau câs iawn y naill i'r llall; teimlai y wlad yn fawr iawn yn herwydd fod dau fardd mor awenber yn ben yn nghâd felly, a dyma fonachod Gwynlliw, Casnewydd-ar-Wysg, yn dyfeisio y modd canlynol i'w heddychu. Gyrasant ŵr i Fon i ddywedyd wrth Gryffydd, fod Dafydd gwedi marw, a'i fod i'w gladdu y dydd a'r dydd yn Ystrad Fflur; daeth cenad at Dafydd hefyd i ddywedyd fod Gryffydd wedi marw, a'i fod i'w gladdu yn ol ei ddymuniad yn Ystrad Fflur, ar yr un dydd ag y dywedwyd wrth Gryffydd fod Dafydd i'w gladdu—"Aeth Dafydd yno â marwnad garedig i Ryffydd Gryg, lle y cyfarfu ef â Gryffydd, â marwnad garedig i Ddafydd; a rhyfedd a llawen y bu ganddynt gyfhwrdd â'r naill y llall yn fyw fel hyny; ac o hyny hyd angau, heddwch a charedigrwydd rhyngddynt." *Iolo* MSS. Y mae un o Gywyddau marwnadol Gryffydd yn dechreu fel hyn:—

"Yr ywen i oreuwas
Ger mur Ystrad Fflur a'i phlâs;"

Ac yr ydym yn cael ein tueddu i feddwl mai hwn yw y Cywydd a ganwyd tra yr oedd Dafydd yn fyw, fel y nodir uchod. Yr oedd Gutyn Owain, gwir enw yr hwn oedd Gryffydd ap Huw ap Owain, yn hanesydd ac yn arwyddfardd i fonachlog Ystrad Fflur, ac hefyd i fonachlog Basingwerc, yn swydd Flint. Ysgrifenodd Gutyn lawer yn ei amser, ac y mae "Llyfr Du Basing," ar gael hyd heddyw, yr hwn sydd yn gopi o Hanes Cymru gan Caradawc o Lancarfan, wedi cael ei ddwyn i lawr hyd y flwyddyn 1461. Yr oedd llawer o groniclau cyhoeddus y Dywysogaeth yn nghadw yn y fonachlog hon, fel yn monachlog Aberconwy. Yr oedd amryw yspyttai, celloedd, a chapeli ar hyd y wlad, o dan awdurdod y fonachlog fawreddog hon; ac yn amser y Dadgorfforiad, yr oedd yn werth 122*p.* 6*s.* 8*c.*; rhoddwyd hi a'r tiroedd perthynol iddi gan Harri VIII. i un John Stedman, Yswain, yr hwn a adeiladodd balas yma, a thrwy briodi etifeddes Stedman y mae gwedi dyfod i feddiant teulu Powell. Yr oedd yr hen fonachlog yn un ëang iawn, ac yn sefyll mewn lle rhamantus a gwyllt, yn nghanol bryniau noethlwm, yn mhen uchaf Dyffryn Teifi. Yr unig ran o honi ag sydd yn aros yn bresenol, yw hen borth o adeilwaith Normanaidd; y mae yn gwahaniaethu yn fawr oddiwrth enghreifftiau ereill o'r arddull hwnw, ond y mae yn hynod o'r prydferth. Y mae amryw ddarnau o naddfaen cerfiedig gwedi eu cael yma, gyda thô-lechau caboledig, gwydr lliwiedig, &c.: cafwyd o hyd i ddwy sêl yma amser yn ol; un yn gron, o faint dernyn coron, ac arf bais y fonachlog yn gerfiedig arni; y llall yn hir-grwn, a'r Wyryf a'i phlentyn yn gerfiedig arni. Y mae y 150 erw o fonwent a nodir uchod, yn rhydd oddiwrth ddegwm hyd heddyw; ac y mae amryw o eirch plwm wedi eu cael yma o bryd i bryd. Y mae yma ysgol ddyddiol, capel gan y Trefnyddion Calfinaidd, ac un arall gan y Bedyddwyr. Y mae yr eglwys wedi cael ei chyssegru i'r Forwyn Fair, ac yn esgobaeth Tŷ Ddewi; y mae y ficeriaeth wedi cael ei gwaddoli â rhodd freninol o 800*p.*, a rhodd seneddol o 400*p.*; cyfanwerth, 80*p.* y flwyddyn; ac yn nawddogaeth W. E. Powell, Yswain. Yn y gymmydogaeth hon, ar ben cadwyn o fryniau ag sydd yn gwahanu siroedd Aberteifi a Brycheiniog, y mae swp o haner dwsin o lynoedd, y mwyaf o ba rai yw Llŷn Teifi, o'r hwn y mae'r afon Teifi yn tarddu. Brodor o'r ardal yma oedd Thomas Jones, Yswain (*Twm Shon Cati*), yr hynafiaethydd a'r arwyddfardd dysgedig, ac yr oedd tipyn o ofn ystranciau bachgenaidd *Twm* yn y lle yma, fel y dengys y triban canlynol:—

"Yn Ystrad Flur eleni
Mae llefain mawr a gwaeddi;
Y ceryg nâdd yn toddi'n blwm
Rhag ofn Twm Shon Cati."

Y mae'r ffordd Rufeinig a elwir Sarn Helen, yn myned heibio i'r lle yma. Y mae'r trethoedd tua 300*p.* y flwyddyn. Poblogaeth, 868.

**CARWED**, arglwydd Twrcelyn yn Môn, o'r hwn y mae llawer o deuluoedd yn y wlad hono wedi hanu. Cofnodir iddo ef, a Tegeryn, ei fab, fel rhai wedi hynodi eu hunain yn yr amrywiol gadgyrchoedd a gymerasant le rhwng Harri II. ac Owain Gwynedd, ger Coed Eulo, a manau eraill yn swydd Fflint, yn 1157.

**CARWYD** Sant, mab Pabo, ydoedd aelod o Bangor Iscoed, lle y gorphenodd ei ddyddiau, yn nechreu y 6ed ganrif.

**CAS**, mab Seidi, ydoedd un o wroniaid llys Arthur.

**CASCOB**, plwyf yn undeb Llanandras (*Presteign*), mewn rhan yn mwrdeisdref Maesyfed Newydd, swydd Faesyfed,—Deheudir Cymru; ac mewn rhan yn nghantref Wigmore, swydd Henffordd, 6m. i'r Gorllewin ogledd Orllewin o dref Llanandras. Yn y Coflyfr Normanaidd, gelwir ef yn *Coscope*, ac y mae yn cynnwys 3250 o erwau o dir, tua 1150 o ba rai sydd o dan ddiwylliad. Y mae'r tir yn mawr amrywio, peth o hono yn ddoldir ac yn bawrdir brâs, peth arall o hono yn taro i'w amaethu, a llawer o hono yn dir gwael iawn. Y mae yma nant fechan o'r un enw, yn tarddu o ddwy ffynnon wahanol; un o honynt yn y parth gorllewinol, a'r llall yn y parth de-orllewinol, ac wedi rhedeg ar wahan am tua milldir, y maent yn ymuno, ac yn ffurfio y terfyn rhwng plwyfi Hen Faesyfed, a Chascob, yna rhwng trefgorddau Cascob, a Litton, ac wedi hyny abera yn yr afon Lûg. Y mae'r plwyf hwn hytrach yn fryniog, ac y mae rhan o hono yn gwneuthur i fyny Goedwig Maesyfed. Y mae trefgordd Cascob yn cynnwys maenorau Ackwood, a Chwmygerwyn, y rhai oeddent gynt yn perthyn i'r Cyffiniau (*Marches*), ac yn meddiant y goron, ac i'r hon yn arbenig y cadwyd hwynt yn y freinlen a roddwyd i fwrdeisdref Maesyfed Newydd. Pan gauwyd i mewn diroedd anial yn y plwyf hwn, yn ol deddf seneddol a basiwyd yn y 53ain flwyddyn o deyrnasiad George III., rhoddwyd deg erw a thair pedwaran erw i'r goron yn Ackwood, a 99 erw a dwy bedwaran erw yn Nghwmygerwyn, yn lle hawliau maenorol; ond y mae'r naill wedi cael ei drosi i Lywyddion "Queen Anne's Bounty," a'r llall i Richard Price, Yswain. Y mae'r eglwys yn bur hen, yn esgobaeth Tŷ Ddewi, ac wedi cael ei chyssegru i St. Michael; y mae hefyd yn rhodd Esgob Tŷ Dewi. Rectoriaeth ryddhäol ydyw, ac y mae yn cael ei threthu ar lyfrau y frenines yn 7*p.* 0*s.* 7½*c.*; y mae gwedi cael ei

Digitized by Google

gwaddoli â 200*p.* o rodd freninol, a'i chyfanwerth blynyddol yw 143*p.* Y mae gweddillion hen wersyllfa gron yma, yr hon sydd yn fwy nâ chân troedfedd o dryfesur; y mae plasdy gwedi cael ei adeiladu ynddi, a gelwir ef "Y Moat." Y mae'r trethoedd yma yn 100*p.* y flwyddyn. Poblogaeth, yn ol deiliadeb 1861, 270.

**CASFELYN**, yr hwn a elwir gan yr awduron tramor yn *Cassivelaunus* ac a gamenwir gan y Cymry yn Caswallawn, ydoedd fab Beli Mawr ab Manogan, a phenaeth y llwythau Prydeinig a elwid y Cassiaid a'r Donubiaid, a breswylient gynt y parthau a elwir yn awr swyddi Hertfford, Bedfford, Huntingdon, Buckingham, Oxford, a Gloucester. Efe ydoedd beullüyddwr neu bendragon Prydain pan oresgynwyd yr ynys gan Iwl Caisar, Awst 25ain, c.c. 55. Fel y canlyn y dywed Caisar am dano, "Drwy gydsyniad cyffredinol, ymddiriedwyd holl drefniadaeth y rhyfel hwn i Casfelyn (*Cassivellaunus*), talaethau yr hwn oedd wahanedig oddi wrth yr arfordiroedd gan yr afon Tafwys (*Thames*), ac yn ymestyn am tua phedwar ugain milldir i'r Ynys; oblegid er fod rhyfel wedi bod rhyngddo ef a'r gweddill o'i gydwladwyr, eto ar ein dyfodiad ni, hwy a unasant oll i'w bennodi ef yn bendragon."—*Cæsar's Com. Book* v. *chap.* v.

Y weithred gyntaf o'i eiddo a gofnodir yn y *Trioedd*, oedd codi byddin o driugain ac un o filoedd, a myned drosodd i'r cyfandir hyd yn Ngwasgwyn, i gyrchu Fflur ferch Mygnach Gor, rhian nodedig, a ladratasid ymaith gan Mwrchan leidr, brenin Gwasgwyn, i'r dyben o'i chyflwyno yn anrheg i Iwl Caisar, yr hwn oedd ar y pryd yn rhaglaw ar y talaethau Rhufeinig a ffurfiasid o ddeutu yr Alpau, ac yn ymdrechu darostwng y gweddill o'r llwythau Almaenaidd a Galaidd, o dan yr iau Rufeinig. Dywedir iddo ar y gadgyrch hono, ladd chwe mil o'r Caisariaid, er adfeddianu gwrthddrych ei serch; ac mai er dial am hyny y daeth Caisar a'i wŷr i ymosod ar Brydain. Mae hyn i raddau yn cyduno a geiriau Caisar ei hun, yr hwn a ddywed "iddo benderfynu ymweled a Phrydain, oblegid iddo ddeall, yn ei holl ryfeloedd yn Gal, bod y gelyn yn derbyn llawer o gynorthwy oddi yno."—*Book* iv. *chap.* viii.

Ymddengys fod cryn lawer o ysbryd anfoddog a gwrthryfelgar yn bodoli yn mysg rhai o'r llwythau Prydeinig ar y pryd hwn. Esgynodd Casfelyn i'r orsedd ar ol ei frawd Lludd; ac yr oedd ei neiaint, Afarwy, Tenefan, a Chasnach Wledig, etifeddion y goron, yn parhau yn ddrain yn ei ystlys ef, ac yn uno â rhai o'r llwythau arforawl, y dyfodiaid diweddaraf i'r ynys, i ymgyngreirio â'r gelyn, a thrwy hyny i fradychu eu gwlad. Felly yr ydym yn gweled, yn ol adroddiad Caisar, i genadon gael eu hanfon ato o Brydain, mor gynted ag y deallwyd ei fod yn partoi i ymweled a'u hynys, i ddeisyf amodau heddwch, ac i ddadgan eu parodrwydd i ymostwng yn dangnefeddus i lywodraeth Rhufain. Wedi i Caisar eu derbyn yn hynaws, ac addaw iddynt ryw wobrwyon am ddal at eu penderfyniad, efe a'u hanfonodd adref, a chyda hwy *Comius*, yr hwn a wnaethai efe yn frenin Arras, gwr o gryn ddylanwad yn Mhrydain, a phenaeth yr *Attrebatiaid*, i fod yn genadydd drosto at Casfelyn, i geisio ganddo ymostwng a thalu teyrnged i'r llywodraeth Rufeinig. Ond atebodd y Gwron Cymreig ef fel hyn,—"Y mae trachwant y Rhufeiniaid yn anniwalladwy, gan na adawant lonydd i ni y rhai mae peryglon y mor wedi ein gosod megis tu allan i derfynau y byd. Y mae teyrnged yn nod o wasiaeth; ond y mae uchelfonedd y Prydeiniaid, yn nghyd a'u hymwybyddiaeth eu bod wedi tarddu o'r un cyff a'r Rhufeiniaid, yn peri iddynt ffieiddio y meddylddrych o ymddarostwng iddynt. Yr ydym ni wedi dysgu caniatau ein cyfeillgarwch, ond nid byth i dderbyn iau caethiwed. A bydded hysbys hyn, ped ymdrechai y duwiau eu hunain ein hyspeilio o'n rhyddid, ni a ymladdem drosto a'n holl egni."

Ond gan na fynai *Comius* ddwyn yr ateb uchod yn ol i'w feistr, gorchymynodd Casfelyn ei garcharu ef. Cyrhaeddodd Caisar draeth Prydain ar gyfer Dover, am ddeg o'r gloch, ar y 25 o Awst c.c. 55, lle y gwelai y bryniau gyferbyn wedi eu hulio gan y brodorion o dan arfau. Ond wedi deall ei fod wedi disgyn ar lecyn anghyfleus i lanio, efe a hwyliodd i lawr tuag wyth milldir, nes y daeth i'r fan lle yr oedd y traeth yn wastad, a'r lan yn agored, yn agos i'r lle a elwir yn bresenol *Deal*, yn swydd Caint, a'r lle a alwai yr hen Gymry, *Pwyth Meinlas;* ac yno bu yr ymrysonfa gyntaf rhwng ein tadau a gorchfygwyr y byd. Ac yn ol addefiad Caisar ei hun, hon oedd un o'r brwydrau caletaf a gyfarfyddodd ei fyddin erioed, canys dywed bod ei filwyr wrth weled dull y Prydeiniaid o ymladd, wedi llwfrhau, ac ymddangos yn llai chwanog i gyfarfod y gelyn nag y byddent arferol. Ond ar ol llawer o frwydro anobeithiol, llwyddasant yn y diwedd, i brofi goruchafiaeth arfau Rhufain, cydunodd y Prydeiniaid ar amodau heddwch, ac ar ol tair wythnos o arosiad yn yr ynys, dychwelodd y gelyn i Gal, "gan fod y cyhydedd yn ymyl, a'i longau yn gollwng dwfr." Ond nid dyn i roi fyny ar un cynyg oedd Caisar, felly efe a dreuliodd y gauaf hwnw i barotoi llynges anferthol, o bwrpas i ddarostwng Prydain. Ac yn nechreu yr haf canlynol, efe a ddaeth yma gyd ag 800 o longau, 30,000 o wyr traed, a 2000 o wyr meirch, ac a laniodd yn Mhwyth Meinlas fel o'r blaen, ac yn hollol ddiwrthwynebiad y waith hon, a sefydlodd ei wersyll yn agos i'r lle a elwir Richborough. Ond yr oedd Casfelyn yn ei ddisgwyl, ac wedi profi ei hun yn feddianol ar wir gymwysderau cadfridog wrth barotoi ar ei gyfer. Canys yn lle ceisio rhwystro y gelyn i lanio, efe a gyfleodd gyfran o'i fyddin mewn amddiffynfa gadarn yn y goedwig, ar lan yr afon *Stour* fel y tybir, yn Nghaint, tua deuddeg milltir o'r fan lle y glaniasai y gelyn, ac a osododd fintai ddetholedig mewn lle dirgel, i wylio ei symudiadau, ac i gymeryd mantais ar ei lynges. Yna Caisar a adawodd bedair mil o wyr traed, a thri chant o wyr meirch, o dan ofal Atrius, i wylio y gwersyll a'r llynges, ac a arweiniodd ei fyddin i fynu i'r wlad, i chwilio am y gelyn. Cyfarfu y galluoedd a'u gilydd, a bu ymladdfa ffyrnig rhyngddynt; ond yn y diwedd, gorfu i'r Prydeiniaid roddi ffordd, a dianc ymhellach i'r wlad. Boreu dranoeth, pan oedd Caisar ar gychwyn ei lengau i ymlid ar ol y brodorion, efe a agorodd ei lygaid ar ei sefyllfa, pan ddygwyd y newydd iddo oddiwrth Atrius, bod y gelyn wedi ymosod ar y llynges, a bron a'i dinystrio yn gyfangwbl, yr hyn a briodola yr haneswyr Rhufeinig i'r tymestloedd. Yna bu gorfod i Caisar a'i luoedd ddychwelyd at eu llongau yn ddioed, pryd y cawsant fod deugain o honynt wedi eu cwbl ddinystrio, a'r gweddill wedi eu niweidio, fel o'r braidd y gallid eu hadgyweirio. Gosododd ei holl ddwylaw ar waith

Digitized by Google

i wneyd y goreu o honynt, ac anfonodd i Gal am grefftwyr i ddyfod drosodd, yn nghyda gorchymyn i'w raglaw, Labienus, adeiladu cynifer o longau ag a allai, a'u hanfon drosodd iddo gyda phob brys. Ac er mwyn diogelwch y llongau oedd yn weddill, efe a'u tynodd hwynt i dir, gan eu cyfleu mewn ffosydd, yn y gwersyll! Dyna hanes y llynges fawreddog a wasanaethodd gymaint i enwogrwydd Julius Cæsar! Ond wedi dwyn ei lynges i ddiogelwch, efe a'i gadawodd o dan ofal gwarodlu fel o'r blaen, ac a ddychwelodd i ymlid y Prydeiniaid. Cyfarfu a hwynt yn agos i'r un man ag o'r blaen, ond yn llawer lluosocach na chynt, a bu brwydro gwaedlyd rhyngddynt. Ac er bod Caisar yn honi mai efe oedd yn enill bob cynyg, eto cyfaddefa fod y Prydeiniaid yn gwneyd rhuthriadau dinystriol ar ei fyddinoedd ef, ac yn dychwelyd yn ol heb dderbyn un niwaid! Yn yr ymrysonfa hon y lladdwyd *Quintius Laberius Durus*, un o'i swyddogion mwyaf urddasol. Gan fod Caisar yn son mor fynych am "ddull newydd a dieithr y Prydeiniaid o ymladd," fe allai y byddai yn fuddiol i adael iddo ei ddysgrifio yn ei eiriau ei hun:—"Gan fod y frwydr hon yn digwydd yn ngwydd yr holl fyddin, gwelodd pawb nad oedd milwyr ein llengau ni yn gymwys i wynebu y fath elyn; canys ni allent ymlid, oblegid pwysau eu harfau, ac ni feiddient fyned yn rhy bell oddiwrth eu llumanau. Ac ni's gallai ein gwyr meirch ychwaith ymdrechu a hwy, oblegid rhithgiliai y Prydeiniaid yn fynych, gan dynu ein marchogion ni i bellder oddiwrth y llengau; yna disgynent o'u cerbydau gan ymladd ar eu traed, er mantais ddirfawr, er fod ein marchogion o bob ochr yn gyfartal. Ac heblaw hyny, nid oeddynt byth yn ymladd yn fyddinoedd cryno, ond yn finteioedd bychain, ac mewn pellder mawr oddiwrth eu gilydd, a gorsaf pob un wedi ei phenodi yn y fath fodd, fel y gallent dderbyn adgyfnerthion, a rhai newydd i gymeryd lle y blinedig o hyd."—*Book* v. *chap.* vi.

Mae y dystiolaeth uchod, ond cofio o ba le y mae yn dod, yn ddigon i brofi medrusrwydd rhyfelgar y Prydeiniaid, ond wrth reswm nid oedd modd iddynt orchfygu; gan fod arfau Caisar yn gynyrch y gwareiddiad blaenaf, ei filwyr yn bigion byddinoedd Rhufain, ac yntau ei hun yn brif ryfelwr y byd. Y mae Caisar yn adrodd am lawer o frwydrau a ymladdodd a Chasfelyn, ond nid yw yn cydnabod iddo gael ei orchfygu gymaint ag unwaith. Ond y mae haneswyr eraill, llawn mor gredadwy ag ef, yn sicrhau iddo gael ei orchfygu a'i ymlid o'r ynys fwy nag unwaith. Lucan, y bardd Rhufeinig, yr hwn a ysgrifenai yn mhen tua chan mlynedd ar ol hyn, a ddywaid i Caisar "ddangos ei gefn dychrynedig i'r Prydeiniaid ymlidiol." Tacitus hefyd, wrth adrodd hanes Caradawg ab Bran yn annerch ei filwyr, a ddywed iddo "enwi ei hynafiaid, y rhai a yrasant y Prif lywydd Caisar ar ffo." Dengys hyna fod gwirionedd yn sail i'r *Brutiau* Cymreig, y rhai a roddant adroddiad helaeth a manwl am Casfelyn yn gorchfygu Caisar ar ddau amgylchiad; ac yn un o honynt, dywedant i Nyniaw brawd Casfelyn, fod mewn brwydr gledd-gledd a Chaisar ei hun, yn yr hon y collodd y Rhufeiniwr balch ei gleddyf, wedi iddo roddi archoll i'r Cymro, o'r hon y bu farw yn mhen pymtheg diwrnod—i'r rhan fwyaf o filwyr Rhufain oedd yn y frwydr hono, golli eu bywydau, ac i Caisar gyda'r gweddill gwasgaredig, ffoi i'w llongau, yn orlawen o gael o honynt y mor yn lle y gwersyll. Ymddengys mai ar ei drydydd ymweliad a'r ynys, y cymerodd y digwyddiad uchod le, a thybiwn mai at hyny y cyfeiriai *Buddug*, pan ddywedai yn ei haraeth i'w milwyr, ar ol enwi y rhai a fradychasant eu gwlad i'r gelyn:—"Offerynau Rhufain, a seirph Prydain, oni buasai y rhai hyn cawsech weled Caisar yn colli ei gleddyf yn y *frwydr gyntaf*, ac yn ffoi o'r wlad." Ond pa fodd bynag, mae yn eithaf sicr oddi wrth adroddiad Caisar, a'r *Brutiau*, mai anffyddlondeb y llwythau cyngreiriol, a brad cyfeillion gau, y penaf o ba rai oedd Afarwy, a'r Tranofantiaid, a fu yr achos o aflwyddiant Casfelyn. Oni buasai yr anffyddlondeb hwnw ag sydd yn nodweddu y Prydeiniaid erioed, buasai llwyddiant Caisar, er mai bychan a rhanol ydoedd, yn beth tra amheüs. Ond ar ol i'r llwythau syrthio drwy y cyngrair, ac ymheddychu a'r gelyn, y naill ar ol y llall, nid oedd gan ein gwron a'i fyddin fechan o'r Cassiaid, ddim i'w wneyd ond rhoi arfau i lawr, a thalu teyrnged o dair mil o bwysau o arian yn flynyddol. Wedi hyny cyfarfu y ddau wron mewn cyfeillgarwch, gan gyfnewid anrhegion a dymuniadau da. Dywed *Verunnius* bod Caisar yn edmygu taldra a gwynebpryd Casfelyn yn rhyfeddol. Yn mhen saith mlynedd ar ol hyny, bu farw Casfelyn, a chladdwyd ef yn Nghaerefrog. Ond yn mhen dwy flynedd drachefn, llofruddiwyd Caisar gan un o'i gyfeillion, yn Senedd Rhufain!

Ar dir teg, gellir ystyried Casfelyn, Caradawg, ac Arthur, yn dri phrif gatteyrn Ynys Prydain yn erbyn rhuthr a gormes cenedloedd estronol.

**CASNODYN**, ydoedd fardd enwog yn y 14 ganrif. Tybia rhai mai yr un ydoedd a Thrahaiarn Brydydd Mawr, ond nid oes prawf o hyny. Mae pump o'i gyfansoddiadau wedi eu dyogelu yn y *Myv. Arch.*, sef 1. "Clod i Wenlliant Verch Gydan," 2. "Awdl i Ieuan abad Aberconwy," 3. Awdl i Ieuan ab Gruffudd." 4. "Awdl Marwnad Madawc." 5. "Awdl i'r Drindawd." Wele engraifft o'r olaf:—

"Trindaut dibechawt Duw bych diwahan
Am ri rwydlan am kan kenffych
Mab diatneir meir mor vynych ym byd
Aeth saeth seith brivwyd ffyd am ffurvych."

**CASTELLA**, neu CASTELLAU, pentref yn mhlwyf LLANTRISANT, cantref MISKIN, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, 2 filldir i'r gogledd o Lantrisant. Y mae yma amryw weithfeydd glo yn y gymmydogaeth, yn y rhai y mae lluaws o'r trigolion yn cael gwaith. Gwel LLANTRISANT.

**CASTELLAN**, capeloriaeth yn mhlwyf PENRITH, cantref CILGERAN, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU, 6 milldir i'r de wrth ddwyrain o dref Aberteifi. Poblogaeth yn 1861, oedd 165. Y mae yn ffurfio rhan chang o'r plwyf, a'i sefyllfa ar droed gogleddol y mynydd a elwir "Y Frenni Fawr," yr ail mewn uchder yn swydd Benfro. Y mae yr hen gapel yn furddyn adfeiliedig er's llawer o amser. Gwel PENRITH.

**CASTELL BEITH**, plwyf yn nghantref CEMMES, swydd BENFRO, DEHEUBARTH CYMRU, 10 milldir i'r gogledd ogledd ddwyrain o Hwlffordd, yn cynwys poblogaeth o 227 yn y flwyddyn 1861. Y fywioliaeth eglwysig sydd rectoriaeth, yn archddiaconiaeth Ceredigion, ac esgobaeth Ty Ddewi; wedi ei threthu yn llyfrau y pennadur yn ol 6 phunt; ac yn nawddogaeth Tywysog Cymru. Y mae yr eglwys yn gyssegredig i Sant Michael. Ar fin y plwyf hwn, y mae gweddillion gwersyll Rhufeinaidd, trwy yr

Digitized by Google

hwn y cyfeiria y brif ffordd sydd yn ysgaru rhwng plwyfi Castell Beith ag Ambleston. Y mae gwersyll arall, yn agos i'r eglwys, wedi ei amgaeru â gwarch-gloddiau dyblyg, ac yn cymeryd i fewn tua phedwar cyfar o dir. Y mae tŷ yn y plwyf, a elwir "Gwesty Treth y Pen," (*Poll Tax Inn*), a elwid felly, am mai yno y cesglid y dreth ddywededig.

**CASTELL CAEREINION**, sydd blwyf mewn rhan yn nghwmwd Caer-einion, cantref Llys Wynaf, neu Mathrafal, ac mewn rhan yn nghwmwd Ystrad Marchell, cantref Ystlyc, swydd DREFALDWYN; 3½ milltir o'r Trallwng. Dywedir fod y lle hwn yn cymeryd ei enw oddiwrth Einion Urdd, degfed mab Cunedda Wledig, brenhin Cymru, i'r hwn, yn y chweched ganrif, y rhoddwyd ef gan y llywydd hwnw, ar raniad y wlad rhwng ei ddeuddeg mab. Ar fryn cribgrwn, haner milltir ar yr ochr ogledd-ddwyreiniol i'r pentref, yr oedd gwersyllfa Einion, a elwir, mae'n debygol, Castell-yn-Nghaer Einion, neu, yn ol golygiad rhai, Castell, neu Caer Einion, lle yr adeiladodd Madog ab Meredydd, Tywysog Powys, gastell, yn y flwyddyn 1151, yr hwn a losgwyd gan Owain Cyfeiliog yn 1166; y mae rhai o'r amddiffyn-feydd i'w gweled eto, ond nid oes dim o weddillion y castell. Tua y flwyddyn 1109, Madog ab Ririd, penaeth dibris o Wynedd, oedd mewn gelyniaeth at ei ewythr Iorwerth, llywydd bychan rhyw diriogaeth gylchynol, a ymguddiodd rhwng y creigiau a'r coed, gyda byddin o ganlynwyr direol; ac, wedi clywed fod Iorwerth wedi bwriadu cysgu ar noswaith benodol yn y lle hwn, a gylchynodd y lle ganol nos, gyda'i gynorthwywr Llywarch ab Trahaearn; ond tra yr oedd y tywysog yn ei amddiffyn gyda dewrder, gosododd yr ymosodwyr y lle ar dân. Y preswylwyr yna, a ymdrechasant i ffoi, a llwyddodd rhai o honynt i weithio eu ffordd drwy fyddin y gelynion, tra y lladdwyd eraill yn y cais, ac y trengodd y lleill yn y tân. Gwnaeth Iorwerth ei hun ymdrech egniol, i waredu ei hun oddiwrth arfau yr ymosodwyr, ond efe a yrwyd yn ol, ac a syrthiodd yn aberth i'w cynddaredd yn y tân; daeth ei frawd Cadwgan i'w le yn y diriogaeth, ond lladdwyd yntau yn gyffelyb, gan ei nai creulon. Y mae y pentref yn sefyll ar y ffordd sydd yn arwain o Berriew i Lanfair, a'r ffordd o'r Trallwng i Lanfair sydd yn rhedeg drwy y plwyf. Dywedir fod Iarll Richmond, wedi hyny, Harri VII., ar ei fynediad allan yn erbyn y Brenhin Richard III., wedi bod yn lletya un noswaith, yn mhalas Dolar-ddin, yn y plwyf hwn; y mae yr hen dy wedi cael ei dynu i lawr o'r bron, ac y mae yno balas newydd wedi ei godi yn ei le. Y mae y gyfran sydd o fewn terfynau bwrdeisdref Trallwng, yn cynwys trefgordd-au y Gaer, Sylfaen, Tref Helyg, a Threfnant, a rhan o Gastell-caereinion. Y mae y fywoliaeth yn berigl-oriaeth, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Llanelwy. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i St. Garmon, ac yn adeilad diaddurn cadarn, wedi ei hail adeiladu yn 1810. Y mae yma ysgol rydd, wedi cael ei gwaddoli â meddianau, yn codi oddiwrth rodd o 400*p.* gan Edward Thomas, Ysw., er addysgiad plant, na byddo eu rhieni yn ddeiliaid tir o 30*p.* o ardreth yn y flwyddyn; y mae tua deugain o blant yn yr ysgol. Y mae rhai rhoddion llai yn ychwanegol, wedi eu gadael yma er lles y tlodion, y brif un yw darn o dir gan Hannah Lloyd yn 1692; yr ardreth i gael ei rhanu mewn bara a dillad, i drigolion Castell-Caer Einion, Berriew, a Forden.

**CASTELL CILGRAIG**, neu ABEREINION, ydoedd amddiffynfa gadarn, a adeiladodd Maelgwyn ab Rhys, yn y flwyddyn 1205. Y mae ychydig o'i gweddillion yn weledig yn mhlwyf Llandyssul, Ceredigion.

**CASTELL COCH**, a elwir yn gyffredin, "Y CASTELL COCH YN MHOWYS," y gelwir annedd ysplen-ydd Iarll Powys, yr hwn sydd yn sefyll ar lechwedd bryn prydferth a difyrus, yn agos i'r Trallwng. Fe'i gelwir Castell Coch, am ei fod wedi ei adeiladu o dywod-faen coch. Ymddengys mai Cadwgan ab Bleddyn ab Cynfyn, yr hwn oedd yn dywysog galluog, a thra chanmoladwy, a ddechreuodd adeiladu castell yn gyntaf ar y llanerch hon; gan fwriadu ei wneyd yn brif drigfa iddo ei hun; ond cyn ei orphen, fel yr oedd efe yno yn arolygu dygiad y gwaith yn mlaen, ei nai Madawg, pendefig aflywodraethol o Wynedd, wedi cynnull yn nghyd fyddin o ddyhirwyr, a ymosododd arno yn ddisymwth, ac a'i lladdodd, cyn gallu o hono ddi weinio ei gleddyf i'w amddiffyn ei hunan. Yn mhen yspaid, gorphenwyd yr adeilad a adawsid yn anorphenol, trwy farwolaeth anamserol Cadwgan, gan Gwenwynwyn, yr hwn a olynodd ei dad, Owain Gyfeiliawg, yn llywodraethiad y parth deheuol o Bowys. Yn y flwyddyn 1191, darfu i Hubert, archesgob Caergaint, (yn absenoldeb y brenin Rhisiard I., yn y Tir Sanctaidd), osod gwarchae ar y castell hwn â byddin gref; ond y gwarchodlu a'i hamddiffynent yn bybyr; ac a'i rhoddasant i fynu yn unig pan y gwelsant fod y gelyn wedi tan-gloddio ei sylfeini; a'u dewrder a sicrhaodd iddynt ammodau anrhydeddus. Wedi i'r archesgob gymeryd meddiant o'r amddiffynfa, efe a adgyweiriodd y niweidiau a wnelsid iddi yn ystod y gwarchae, gan gadarnhau ei rhagfuriau, a rhoddi gwarchod-lu crŷf ynddi i'w chadw; ac yna dychwelodd i Loegr. Ond y perch enog cyfreithlawn, Gwenwynwyn, a benderfynai ddefnyddio pob moddion ac ymdrech o fewn ei allu, i ail feddiannu y castell hwn, yr amddiffynfa bwysicaf o fewn ei diriogaethau, ac yn y flwyddyn 1197, efe a ddechreuodd warchae ar y lle; a chyn nemawr o amser, efe a orfododd y gwarchodlu Seis'nig i'w roddi i fynu, ar yr un ammodau ag a ganiattasai yr archesgob i'w filwyr yntau; a daeth y Castell Coch yn brif breswylfa i Gwenwynwyn, a'i olynwyr.

Yn nheyrnasiad y brenin Ioan, cyttunodd Gwen-wynwyn i gydnabod uchafiaeth brenin Lloegr; ac ar ei farwolaeth, ei fab Gryffydd, fel ei olynydd yn llywodraethiad Powys, a dalodd warogaeth i'r brenin Seis'nig; ac yn ol ammodau ei ddeiliadaeth, efe a rwymid i'w gynnorthwyo i ddarostwng yr holl dy-wysogaeth dan arglwyddiaeth breniniaeth Lloegr. Llewelyn ab Iorwerth, tywysog Gwynedd, a gy-thruddid yn ddirfawr trwy y fath ymddygiad ffals ac anwladgar i'w genedl, o'r eiddo Gryffydd; ac yn y flwyddyn 1233, efe a ymosododd ar ei gastell hwn, ac a'i di gaerodd; ac wedi alltudio Gryffydd, rhoddes ei diriogaethau i Gryffydd ab Madoc, Tywysog Powys Uchaf, ac Arglwydd Dinas Bran: ond, y mae yn ymddangos fod Owain ab Gryffydd, ŵyr Gwenwyn-wyn, yr hwn oedd eto dan nawdd y Saeson, yn parhau i gadw meddiant o diroedd ei dad, fel deiliad Seis'nig; ac ar ei farwolaeth, efe a'u cymmun-roddodd i'w unig ferch, a'i ettifeddes, Hawys, a elwir yn gyffredin "Hawys Gadarn:" ond, wedi marwolaeth ei thad, dadleuai ei phedwar ewythr, Llewelyn, John, Gryffydd Fychan, a Dafydd, ei bod yn an-nghyfreithlawn i fenyw olynu i'r urddas hwnw. Dan yr amgylchiadau hyn, apeliodd Hawys at y brenin Edward yr Ail, yr hwn a'i rhoddes yn wraig

Digitized by Google

i John de Charlton, yr hwn a bendefigwyd â'r teitl, Barwn Powys, yn meddiant hiliogaeth yr hwn y bu perchenogaeth y castell a'r ettifeddiaethau perthynol iddo, dros lawer o genedlaethau. Y mae yn debyg mai dyma y pryd y galwyd yr amddiffynfa hon gyntaf, yn "Gastell Powys," megis ei gelwir yn fynych eto. Trosglwyddwyd y Farwniaeth a'r castell, trwy brïodas a Jane, merch henaf Edward, Arglwydd Powys, i Syr John Grey, o Heton, yr hwn a laddwyd yn mrwydr anffodus Baugée, yn y flwyddyn 1421; ac yn nheyrnasiad y Frenines Elizabeth, darfu i un Edward Grey, mab o ordderch i Edward Grey de Powys, yr hwn a feddiannasai yr ettifeddiaethau yn rhinwedd gweithred, trwy yr hon eu dyroddasid i'w fam, eu gwerthu i Syr Edward Herbert, ail fab i Syr William Herbert, Iarll Penfro. Pan fu farw Syr Edward, efe a gladdwyd yn eglwys y Trallwm, a'i fab William, yr hwn wedi hyny a grewyd yn Arglwydd Powys, gan Charles y Cyntaf, a'i holynodd yn ei deitlau a'i ettifeddiaethau.

Ar doriad allan ryfel gartrefol yr ail ganrif ar bymtheg, darfu i Piercy, Arglwydd Powys, ei ddatgan ei hunan yn bleidiwr i achos y brenin; ac efe a gadarnhaodd ei gastell, ac a ddododd warchodlu cryf ynddo, gan gymeryd y llywyddiaeth i'w law ei hun. Yn fuan wedi hyny, daeth adran gref o fyddinoedd y Senedd, dan lywyddiaeth Syr Thomas Middleton, i warchae ar y castell; ac wedi niweidio ei furiau allanol yn fawr, trwy fagnelau yr ymosodwyr, bu raid ei roddi i fynu o'r diwedd, a llywydd pendefigaidd y gwarchodlu a gymerwyd yn garcharor, a'r lle a anrheithiwyd. Ar yr achlysur yma, dirwywyd y castell a'r arglwyddiaeth, at wasanaeth y Senedd; ond caniattawyd i'r perchenog gadw meddiant o honynt, ar yr ammod o dalu swm o arian i'r Senedd. Ymddengys oddiwrth ysgrif yn llyfr-gell Castell Powys, fod y Senedd wedi gorchymyn dadymchwelyd yr amddiffynfa hon, ac un Trefaldwyn; a'u holl ragfuriau: ond trwy ordeiniad o eiddo y Cyngor gwladwriaethol, dyddiedig Ebrill 28, 1660, fe ddywedir, Gan nad oedd y "Castell Coch yn Nghymru," yn perthyn i'r Wladwriaeth, a chan fod y perchenogion wedi rhoddi sicrwydd, na's gwnelid defnydd o hono er aflonyddu heddwch y genedl, neu i wrthsefyll y Senedd a'r wladwriaeth, fe ordeinir fod i'r gorchymyn blaenorol am ddymchwelyd y castell dywededig, gael ei wneyd yn ofer, a dirym, can belled ag y mae a fyno a'r Castell Coch, gyd a'r eithriad o'r rhagddiffynfeydd yn unig, a gwneuthuriad rhai adwyau yn y muriau, er ei wneuthur yn anamddiffynadwy, pe yr ymdorrai gwrthryfel eto yn erbyn y llywodraeth, ac awdurdod y Senedd. Wedi cyflawni y penderfyniadau uchod, fe'i trosglwyddwyd i feddiant ei berchenogion cyfreithlawn, hiliogaeth pa rai ydynt yn ei feddiannu eto.

**CASTELL COCH**, yn Morganwg.—Cawn yr hanes ddyddorol a ganlyn, gan Gwilym Glan Tâf, am y castell hwn:—"Ar yr ochr ddwyreiniol i'r afon Tâf, ger Pentyrch, yn swydd Forganwg, y mae creigle serth ac ysgythrog, yn amdöedig gan goedydd tewion a thalfrigog, lle y gwelir yn ysbïo dros eu penau, weddillion tyrawl hen wersyllfa ryfelawg, a adeiladwyd gan Ifor ab Cadifor, neu fel ei gelwir, "Ifor Bach," tua chanol y ddeuddegfed ganrif. Felly, gwelwn ei fod wedi sefyll gwên a gŵg saith gant o flynoddau i ymdoni drosto, tra y safai yntau yn ddïysgog ar y graig galch, o'r hon y cloddiwyd allan ei ddefnyddiau adeiladol, y rhai a ymddangosent oran eu lliw yn goch, yr hyn a roddodd iddo yr enw Castell Coch. Ni's gall un Cymro gwladgarol a thwymn-galon, fyned heibio dros y brif-ffordd sydd ar odreu y graig oddi tano, heb deimlo rhyw iâsau o wladgarwch yn ymsaethu fel gwefr-dan drwy ei redweliau, am y gormes a'r trais a arferwyd at y dewrion Cymreig, gan wahanol estroniaid ysglyfaethus yr hen oesau; ac o'r braidd na chwennychai ddystaw ymddïal am y camwri, pe cai hamdden, er yn byw yn nhawelwch di gyffro y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ac i ormes yr ydym i ddïolch heddyw, am sefyllfa adfeiliedig, gwyllt, ac annhrigiannol, hen gestyll Cymru, y rhai yr amcenid fynychaf eu hadeiladu ar ryw fryn neu dwmpath, manteisiol i ganfod y gelynion o bell ac agos yn dynesu, fel y caffai y gwarchodlu amser cyfaddas i rag-barottoi ar gyfer yr ymosodiad. Felly, adeiladwyd y Castell Coch mewn man manteisiol i wylio ar symudiadau y Normaniaid yn ngodreu Cwm Tâf; o herwydd yr oedd arglwyddiaeth Senghennydd, Uchaf ac Isaf, yn meddiant Cedrych ab Gweithfoed, yr hwn oedd yn dadcu i Ifor Bach. Oddiar oresgyniad Morganwg gan y Normaniaid yn 1091, nid oedd Ifor yn gweled fod ei arglwyddiaeth yn ddïogel oddiwrth yspeiliadau annghyfreithlawn a thrahaus gan y *Clares*, disgynyddion ettifeddol Fitz-hammon, y Tywysog Normanaidd a gymerodd yn yspail rhyfel y rhanau helaethaf o Forganwg. Felly, efe a adeiladodd y Castell Coch, ar ei chwr deheuol, lle y cadwai ddau cant o warchodlu, yn barod ar gyfer unrhyw ymosodiad oddiwrth y Normaniaid; ac ar gwr uchaf ei arglwyddiaeth, adeiladodd gastell Morlais, neu Mawr-lais, yr hwn a saif tua thair milldir i'r Gogledd o Ferthyr Tydfil. Yno cadwai fil o warchodlu, er gwrth-sefyll ymosodiadau oddiar diriogaeth Brycheiniog, gan y Normaniaid, y rhai oeddynt wedi goresgyn y wlad hono tua diwedd 1091, neu ddechreu 1092. Felly, yr oedd ganddo i wylio y naill fel y llall o'r gelynion hyn; ond yn benaf William, mab Robert, Iarll Caerloyw, yr hwn oedd yn byw y pryd hwnw yn Nghastell Caerdydd, ac yn gwasgu arno am arglwyddiaeth Senghennydd (Caerffili); ac i'r dyben o geisio cael llonyddwch ganddo, a rhoddi attalfa ar ffrwd ei drachwant, ymosododd Ifor gyda nifer o'i filwyr, ar gastell Caerdydd, yn nyfnder y nos: ac er nad oedd yn y dref hono ar y noson grybwylledig, ddim llai na chwech ugain o filwyr, a llawer o saethyddion, yn nghyda llu o filwyr cyflogedig, efe a lwyddodd i ddyrchafu ysgolion, a dringo y muriau yn ddirgel, nes oeddynt yn y meddiant o'r castell, o'r lle y cymerodd efe William, Iarll Clare, a'i bendefiges, a'i blentyn, yn garcharorion i'r Coeddir, lle eu cadwodd yn garcharorion, nes iddynt addaw rhoddi yn ol yr hyn a ddygasent oddi arno yn annghyfiawn, ac addaw hefyd, y byddai i wŷr Morganwg gael eu llywodraethu yn ol cyfreithiau Hywel Ddâ. Wedi hyn y mae Ifor, a'i ddewrder a'i orchestion, yn ymgilio dan gwmwl diwybod i ni, fel nad oes genym ddim yn mhellach i ddynodi ei fodolaeth. Ceisia rhai ein darbwyllo i gredu, iddo gael ei ladd yn Mhant Cadifor, ger Merthyr Tydfyl, gan haeru mai Pant caed Ifor ydyw y gwir enw; ond, y mae ereill yn meddwl y gallasai y lle gael yr enw oddiwrth Cadifor, tad Ifor Bach, eraill, mai Pant câd Ifor ei gelwid, oddiwrth frwydr a ymladdwyd yn y lle, gan y gwron ar ryw achlysur.

Ond ni's gallwn sicrhau pa ddarnodiad sydd gywir, am hyny gadawn i'r darllenydd farnu am brïodoldeb

Digitized by Google

y naill neu y llall, fel y dewiso. Ac y mae hanes dinystriad castelli Ifor wedi aros dan y lleni, ac ni's gwyddom i bwy y perthyn y dianrhydedd o'u dinystrio, oddieithr rhyw rai o dylwyth y de Clares, yn cael eu cynnorthwyo, efallai, gan filwyr Harri yr Ail, er ad dalu iddo am garcharu yr Iarll William, ei wraig, a'i blentyn, yn y Coed-dir. Y mae yn gweddu i ni grybwyll fod haneswyr yn amrywio yn nghylch pa un a'i William, ynte ei dad Robert, a gafodd ei garcharu gan Ifor Bach. Dywed y Brut, mai Robert oedd; ond y mae Giraldus Cambrensis yn dywedyd mai William ydoedd; ac y mae hyny yn debycaf i wirionedd, am fod Giraldus yn cyd oesi a'r olaf. Y mae y castell yn adfeilion er ys mwy na chwe chant o flyneddoedd, ac yn nythle i'r llwynog, y ffwlbert, a'r ddallhuan; a diau ei fod oddiar amser ei ddinystriad yn perthyn i arglwyddiaeth Caerdydd, yr hon mewn rhan a berthyn i Ardalydd Bute."[1]

**CASTELL DWY RAN**, capeloriaeth yn y rhan hono o blwyf Cil y maen llwyd, yr hwn sydd yn mharthran isaf cantref DERLLŶS, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUBARTH CYMRU, 4½ milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Narberth, yn cynwys, yn ol Deiliadeb 1861, boblogaeth o 92. Curadiaeth wastadol yw y fywioliaeth eglwysig, yn archddeoniaeth Caerfyrddin, ac esgobaeth Ty Ddewi; ac yn nawddogaeth y Goron. Tybir fod y lle yma wedi cael ei enw oddiwrth gastell, a safai gynt yn agos i'r capel, a elwid Castell Dwy Ran, a berthynent i ddwy chwaer; ond, nid oes dim o olion y castell ar gael yn bresenol.

**CASTELL GWYS**, bwrdeisdref fechan, yn mhen uchaf arglwyddiaeth DAU GLEDDAU, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU. Adeiladwyd y castell gan Normaniad galluog o'r enw Phylip de Wiz. Yn y flwyddyn 1146, dygodd Cadell, Meredydd, a Rhys, meibion Gryffydd ab Rhys, fyddin o'i flaen, a chynnorthwyid hwynt gan Hywel ab Owain Gwynedd. Ar ol ymdrech galed, enillodd y Cymry y castell. Fe'n hysbysir i Hywel ab Gryffydd gymeryd y castell drachefn yn y flwyddyn 1193, a chymeryd De Wiz, a'i wraig, a'i ddau fab, yn garcharorion. Yn y flwyddyn 1220, chwalodd Llewelyn ab Iorwerth y castell, a lladdodd yr holl wŷr a'i cadwai. Ymddengys i ddau fab De Wiz gael eu lladd gan Llewelyn. Yn fuan ar ol hyny, prïododd pendefig Cymreig o'r enw Gwgan ab Bleddyn, â Gwenllïan, ettifeddes Phylip. Ar ol hyn, bu yma deulu enwog o'r enw Wogan, neu Gwgan: yr oedd un o'r teulu yma, o'r enw Syr John Wogan, yn brif ynad yn amser Iorwerth y Cyntaf, ac yn ymgyfenwi yn Arglwydd Pyketon: ond, ar ol hir rwysg, diflanodd y teulu, a gwerthwyd eu hettifeddiaethau i estroniaid; ac yn awr y maent yn mherchenogaeth Iarll Cawdor. Yn y flwyddyn 1712, penderfynwyd yn Nhŷ y Cyffredin, fod maer a bwrdeisiaid Castell Gwŷs i gael hawl i bleidleisio yn etholiad bwrdeisdrefi Penfro. Cynhelir ffair yn y lle ar yr 8fed o Dachwedd. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i'r Fair Fendigaid, a'r fywioliaeth eglwysig yn noddogaeth Iarll Cawdor. Y mae ei sefyllfa bum milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Hwlffordd. Gwerth y fywioliaeth yw 164 punt yn y flwyddyn.

**CASTELL HYWEL**, hen amddiffynfa a adeiladwyd gan un Humphre, Normaniad, yn y ddeuddegfed ganrif, a gymerwyd, ac a ail adeiladwyd gan Hywel ab Owain Gwynedd, ac a alwyd yn y canlyniad ar ei enw, Castell Hywel. Cymerwyd y castell wedi hyny gan y Normaniaid; ond y tywysog ieuanc, Einion, nai Rhys ab Gryffydd, a'i chwalodd hyd lawr. Cafodd Cadifor ab Dinawol ei greu yn arglwydd Castell Hywel, Pantstreimon, a'r Gilfachwen, gan ei gefnder, Rhys ab Gryffydd, am ei wrhydri yn cymeryd castell Aberteifi oddiar y Normaniaid a'r Ffleminiaid, a rhoddwyd Catharine, merch y tywysog yn wraig iddo. Yn y canlyniad, ymsefydlodd Cadifor, a'i wraig Catharine yn Nghastell Hywel; gan sylfaenu teulu enwog Llwydiaid Castell Hywel, oddiwrth yr hwn yr hanodd Llwydiaid y Crynfryn, Bronwydd, Berllan dywyll, Allt yr odyn, Llanllŷr, Maes y Felin, &c.

Yma y preswyliai yr ysgolor a'r Bardd enwog, y Parch. D. Dafis, gweinidog yr Undodiaid. Wedi Ystrad Meurig, nid oes odid fan yn Nghymru a ddanfonodd allan gynifer o ddysgedigion, ag ysgol Castell Hywel.

**CASTELL LLEINIOG**, neu, ABER DI ENWOG, hen gastell a saif ar dir fferm o'r enw Lleiniog, yn mhlwyf PENMON, Ynys FON; tua 3 milldir o dref Beaumaris. Am ei hanes gweler yr erthyglau ar BEAUMARIS, a PENMON.

**CAS'LYCHWR**, CASTELL LLYCHWR, neu fel y geilw y Saison y lle LOUGHOR, sydd blwyf a bwrdeisdref yn Undeb LLANELLI, cantref ABERTAWY, neu EGINOG, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU; 7 milldir i'r Gorllewin Ogledd Orllewin o dref Abertawy, 50 milldir i'r Gorllewin wrth Ogledd o Gaerdydd, a 211 milldir i'r Gorllewin o Lundain. Bernir mai dyma *Leucarum* Antoninus, am yr hon y sonia Richard o Cirencester. Y mae'r ddau enw yn bur debyg, ac y mae llawer o weddillion Rhufeinig wedi eu cael yma o bryd i bryd, yn mhlith pa rai y gellid nodi darn o arian bathol, perthynol i deyrnasiad yr amherawdwr Trajan. Yr oedd hefyd yn orsaf Rufeinig ar y ffordd a elwid *Via Julia*, yr hon oedd yn myned drwy y lle o Gastellnedd (*Nidus*). Gelwid y lle yn Dref-afanc yn amser y Rhufeiniaid, o herwydd, meddynt, fod llawer o afancod yn yr afon. Y mae gweddillion hen gaerfa Rufeinig gerllaw yma, yr hon a elwir, Carn Goch, ac y mae yma hefyd le a elwir Cadle, lle y tybir yr ymladdwyd brwydr gynt, ond gan bwy ni wyddis. Dywedir fod y castell wedi cael ei adeiladu gan Henry Beaumont, Iarll Warwig, yr hwn yn 1099, a dalodd ymweliad a Browyr, ac a wnaeth ei hun yn feistr ar diriogaethau ëang. Yn y flwyddyn 1150 dinystriwyd ef gan Meredydd a Rhys, meibion Gruffydd ap Rhys, Tywysog Deheubarth; y rhai a anrheithiasant Browyr, ac a wnaethant eu hunain yn feistri ar dref a chastell "Aberllychwr." Yn nheyrnasiad Edward II. rhoddwyd y castell gan y penteyrn hwnw, i Hugh le Despencer, yr hwn a'i hail-adeiladodd; ond ni ddaeth fyth i'w bwysigrwydd cyntefig, ac nid yw y dref wedi cyrhaedd ei henwogrwydd boreuol hyd etto.

Gorwedda y plwyf ar gyffiniau eithaf gorllewinol Morganwg, a bargodir ef ar y gorllewin gan yr afon Llychwr, yr hon sydd yn ei wahanu oddiwrth swydd Gaerfyrddin, a'r hon sydd yn aberu gerllaw yma yn Môr Hafren (*Bristol Channel*). Y mae'r plwyf wedi cael ei ddosparthu yn ddwy ran, y rhai a elwir y plwyf a'r fwrdeisdref, ac y mae yn mesur tua 2880 erw, 100 erw o ba rai sydd yn cael eu gorchuddio gan dywod y môr. Y mae yma gyttir lled fawr, arglwydd yr hwn yw Iarll Cawdor. Y mae yma

[1] Gwel y Parthsyllydd, gan y Parch. J. Emlyn Jones, M.A., LL.D.

weithfeydd glô mawrion hefyd, gyda gweithfeydd ereill. Nid oedd yma gynt ond porthfa, eithr y mae pont goed gostus yn croesi y Llychwr er ys blynyddau; ac yn awr y mae pont rheilffordd Deheudir Cymru gerllaw, ac y mae yma orsaf ar y ffordd hono, yr hyn oll sydd wedi gwneuthur llawer dros y plwyf hwn. Y mae tua 14 troedfedd o ddwfr yn y Llychwr ar yr uchel-lanw.

Y mae llywodraeth y dref, yr hon nid yw ond bechan iawn, ac yn sefyll yn dlws wrth y pen yma i'r pontydd, yn llaw portref, cofnodydd, deuddeg henuriad, a swyddogion hen arferol ereill. Y mae'r portref yn cael ei ddewis o blith yr henuriaid bob dydd gwyl Mihangel, ac y mae yn ynad yn y fwrdeisdref. Wedi rhaniad bwrdeisdrefi bychain Morganwg, yn 1832, i ddwy adran, y mae Cas'lychwr yn gyssylltiedig âg Abertawy, Aberafon, Castellnedd, a Chynffig, ac yn anfon un aelod i'r senedd. Y mae rhyddid y fwrdeisdref yn perthyn i feibion pob bwrdeisiwr, i bob egwyddor-was gyda bwrdeisiwr, i bob un sydd wedi priodi merch bwrdeisiwr, ac i bob un ag y gwel y bwrdeiswyr yn dda i'w roddi. Fel y rhan fwyaf o'r hen fwrdeisdrefi, y mae ganddi allu cyfreithiol i gynnal llysoedd cyfreithiol, dan lywyddiaeth y portref, i godi dyledion; ond nid yw yn defnyddio y gallu hwnw.

Rectoriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, o werth 170*p.* y flwyddyn, ac y mae yn cael ei threthu ar lyfrau y frenines yn 9*p.* 10*s.* 5*c.* Y mae yn rhodd y Goron, ac yn esgobaeth Llandaf. Y mae'r eglwys wedi ei chyssegru i St. Michael, ac nid yw ond adeilad cyffredin; y mae yn sefyll ar fryn ag sydd yn rhoddi golygfa ddymunol ar y wlad oddiamgylch. Yr oedd yma gapel gynt yn y Groft, ond y mae gwedi dadfeilio. Y mae yma hefyd hen le a elwir y "Sanctuary," yr hwn a berthynai i Millwood, neu faenor St. Ioan, wrth Abertawy; ac yr oedd yn nawdd-dy perthynol i farchogion St. Ioan o Jerusalem. Y mae capeli yma gan y Trefnyddion Calfinaidd, a'r Bedyddwyr. Y mae yma ysgol Genedlaethol oddiar y flwyddyn 1825. Y mae y dref a'r eglwys wedi cael eu symud o'r manau lle y safent gynt; gelwir hen fan y dref yn *Borough*, a hen orsaf yr eglwys ar y morfa, yn Story Mihangel.

Dyma lle y ganwyd Huw, y crythor enwog, yr hwn, meddir, a gyfansoddodd amryw o alawon mwyaf poblogaidd y "Beggar's Opera." Dywed rhai, taw yn y gymmydogaeth hon hefyd y ganwyd Patrig ap Maenwyn, yr hwn oedd ŵr dysgedig a duwiol iawn, ac hefyd yn brif-athraw llenyddol Bangor Tewdws, neu Llanilltyd-Fawr, yn Mro Morganwg. Byddai y Gwyddelod yn gwneuthur ymgyrchiadau aml i'r morlanau yma, a daeth llu o honynt, tua'r flwyddyn 410, ar un o'r ymgyrchiadau hyny, i ardal coleg mawr Llanilltyd; cymmerasant Patrig ac ereill yn garcharorion, ac aethant â hwynt i'r Iwerddon, lle y daeth Patrig yn enwog, ac y mae yn nawdd-sant addoledig y Gwyddelod hyd y dydd hwn. Nid oes marchnad yn cael ei chynnal yma, ond cynnelir dwy o ffeiriau blynyddol yn y lle, un ar y Llun cyntaf yn mis Mehefin, a'r llall ar Hydref 10. Y mae poblogaeth y plwyf, yn ol Deiliadeb 1861, yn 1238; ac y mae ei drethoedd blynyddol tua 250*p.*

**CASMAEL**, Castellmael, neu Puncheston, fel y gelwir ef yn Seisneg, sydd blwyf yn Undeb Hwlffordd, cantref Cemaes, swydd Benfro, Deheudir Cymru; nid pell o Drelettert, a 12 milldir i'r gogledd Ogledd Ddwyrain o Hwlffordd. Y mae peth o weddillion yr hen gastell yn aros o hyd, ac y mae'r plwyf yn cael ei ammaethu yn dda. Y mae yn amrywio yn ei natur, ac hytrach yn fynyddig. Rectoriaeth ryddhaol yw y fywioliaeth eglwysig, ac y mae yn cael ei threthu ar lyfrau y frenines yn 5*p.* 6*s.* 8*c.* Y mae yn werth 101*p.* y flwyddyn, yn esgobaeth Ty Ddewi, ac yn nawdd y Parch. James Williams James. Y mae yr eglwys wedi ei chyssegru i'r Sanctaidd Forwyn Fair, ac nid oes yn perthyn iddi ddim hynodion adeiladaethol. Y mae capel yma gan y Bedyddwyr, a chapel arall gan y Trefnyddion Calfinaidd. Bu yma eglwys o Gwaceriaid gynt hefyd, ac yr oedd ganddynt gladdfa yn y plwyf hwn. Y mae gweddillion yr hen gastell a grybwyllir uchod, yn sefyll ar uchelfa greigiog, ac yr oedd yn un cadarn iawn, os nid yn anorchfygol. Bu y Parch. William Gambold, tad yr Esgob Gambold, ac awdwr y Gramadeg Cymreig, &c., yn rector y plwyf hwn am flynyddau. Cyhoeddodd ei ramadeg yn 1724, ac y mae yn un pur dda. Mewn annerchiad iddo, ag sydd yn argraffedig ynddo, yn ol yr hen arferiad, wedi crybwyll am y ddau ramadegwr blaenorol—"Y ddau Ddafis ddawnus ddoeth," dywed yr awdwr:—

"A'r trydydd wyt, ŵr tradoeth,
Dilyn eu hôl, Gambol goeth."

Yma y ganwyd y Parch. J. Ll. Owen (*Casmaelus*), yr hwn a fu farw yn ddiweddar, yn nghanol ei ddyddiau, ac efe yn weinidog y Bedyddwyr yn Ffynnonhenry, Swydd Gaerfyrddin. Y mae trethoedd y plwyf dros 50*p.* y flwyddyn, ac y mae'r boblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, yn 231.

**CASTELL-MARTIN**, plwyf yn nghantref Castell-Martin, neu fel y gelwid hi gynt Cwmwd Coed-yr-haf yn swydd Benfro, Deheudir Cymru, 5½ milldir i'r Gorllewin De Orllewin o hen fwrdeisdref Penfro. Y mae yn fath o benmaen ar lân y môr, ac yn blwyf mawr ag sydd yn cnydio yn dda. Y mae'r creigiau ar y môrlanau yn gynnwysedig o gyfresoedd afreolaidd o haeniadau toredig, y rhai fel yr ymddengys a daflwyd yn nghyd gan ryw gynhyrfiadau aruthrol; ac y maent yn edrych yn fawreddog o arddunol. O fis Mawrth hyd fis Awst y mae'r creigiau yma yn llawn o adar traws-symudiadol, ac yn eu plith yr aderyn hwnw a elwir *eligug;* y mae'r aderyn hwn yn dodwy ei un wy ar ymylfa un o'r creigiau, ac yna y mae yn gosod ei droed arno, yn yr hon y mae digon o wrês i ddeori yr wy; cyn gynted ag y byddo yr aderyn bach yn barod i hedfan, y mae'r aderyn mawr yn ei fwrw ef i'r môr, lle y mae yn ymddangos yn gartrefol ar unwaith. Yr oedd yma tua 300 erw o dir, a elwid y Gors, yr hwn a ddygwyd dàn wrteithiad gan y diweddar Mr. Mirehouse, o Brownslade, ac am hyny efe a dderbyniodd fathodyn aur y "Gymdeithas er Cefnogtyd i Gelfyddydau, Gweithfäodd, a Masnach," yn 1810. Y mae Brownslade wedi ei amgylchynu â phlanigfeydd dymunol, ac er eu bod yn agored i ruthriadau y gwynt De-Orllewinol, y mae gofal a medr wedi gwneuthur y coed yn rai llewyrchus iawn. Heblaw y plasdy hwn, y mae yma blasdy ardderchog arall, yr hwn a elwir Corston, ac yn yr hwn y mae yn preswylio Abraham Leach, Yswain. Y mae'r plwyf hwn yn llawn o bob math o weddillion milwraidd, a bu llawer ymdrech yma rhwng y mor-ladron Danaidd â'r hen Gymru. Y mae yn llawn calchfaen, ac y mae yma lawer o briddfeini yn cael eu

Digitized by Google

gwneuthur. Ficeriaeth ryddhaol yw y fywioliaeth eglwysig, ac y mae yn cael ei threthu ar lyfrau y frenines yn 7*p.* 17*s.* 6*c.*; y mae yn esgobaeth Tŷ Ddewi, ac wedi ei gwaddoli â 400*p.* o rodd freninol; Iarll Cawdor yw'r noddwr a'r meddiannydd llëygol, a'r cyfanwerth yw 82*p.*; y mae'r eglwys yn bur hen, ac wedi cael ei chyssegru i St. Michael. Yr oedd capel yn Flimston gynt, ond y mae gwedi hen ddadfeilio. Y mae enw y cantref a'r plwyf yn tarddu oddiwrth un Martin, un o ddisgynyddion Martin de Tours; yr oedd gan y teulu gastell yma, ond yr oedd yn adfeilion cyn dyddiau Leland, fel y dengys y sylwadau canlynol yn nheithiau yr hynafiaethydd hwn:—"Towards this extrem part of Pembrokshire be the *vestigia* of Martin Castle." Y mae'r trethoedd tua 500*p.* y flwyddyn. Y boblogaeth yn ol Deiliadeb 1861 yw 422.

CASTELLNEDD. Mae Castellnedd yn fwrdeisdref, yn dref farchnadol, ac yn blwyf, yn nghantref NEDD, sir FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, 38ain milldir, gyda'r rheilffordd i'r Gor. Og. Or. o Gaerdydd, 8 milldir i'r dwyrain ogledd ddwyrain o Abertawy, a 208 o Lundain. Y mae yn dref hynafol, a chytuna hynafiaethwyr yn gyffredin mai hon ydyw *Nidum* y Rhufeiniaid, yr hon sydd wedi cael yr enw oddiwrth yr afon y mae yn sefyll ar ei glan, sef *Nidd*, neu *Nedd*, a'r hwn a seinir yn gyffelyb yn Saesneg, *Neath*. Yn Antoninus dywedir fod *Nidium* yn gorwedd ar y ffordd Rufeinig, rhwng *Leucarum* (Llychwr) a *Bovium*, gerllaw Boverton, y tu deheuol i Bontfaen. Er gwneyd llawer o ymchwiliadau, nid oes sicrwydd am y fan y safai yr orsaf Rufeinig yn Nghastellnedd. Mae claddfa yr hen eglwys yn cael ei nodi allan fel y man mwyaf tebygol; a dywedir fod hen weddillion Rhufeinig wedi eu cloddio allan rai blynyddau yn ol, yn ngardd y persondy, o fewn rhyw ugain llath i'r lle.

Ar ol gorchfygiad Morganwg gan Fitz Hamon, cafodd Richard de Granville, un o'i farchogion, arglwyddiaeth Nedd fel rhodd, o anrhydedd, yn nghyd a holl awdurdod a rhagor freintiau arglwyddiaeth gyffiniol. Nid oes ond ychydig weddillion o'r castell yn aros. Priodolir ei sylfaeniad i Iestyn ab Gwrgan; ond y mae yn lled sicr iddo fyned dan adgyweiriad helaeth gan de Granville. Bernir i'r eglwys, yr hon sydd yn ymyl yr hen gastell, gael ei chodi ar y cyntaf fel capel at wasanaeth y gwarchodlu, ond iddi gael ei helaethu wedi hyny, a'i throi at wasanaeth y plwyfolion. Y Richard de Granville hwn, gyda chydsyniad ei wraig Constance, o dan deyrnasiad Henry I., a roddodd y capel perthynol i'r castell, a'i holl waddoliadau, darn mawr o dir diffrwyth yn yr ardal, a meddianau eraill, i abad monachlog y *Grey Friars* yn Savigny, gerllaw Lyons, yn Ffrainc, er adeiladu a gwaddoli monachlog gyffelyb gerllaw tref Castellnedd. Cyfodwyd mewn canlyniad, fonachlog ardderchog, ryw filldir o'r dref, yr ochr at Abertawy, yn ol cynlluniau gan hen adeiladydd o Palestina, o'r enw Lalys, yr hwn a adeiladodd Fonachlog Margam hefyd, yn nghyd ag amryw eglwysi ac adeiladau Cyhoeddus eraill yn Neheudir Cymru.

Sylfaenwyd y fonachlog hon gan de Granville yn y flwyddyn 1111, i'r Brodyr Llwydion, a daeth wedi hyny yn feddiant i fynachod o'r *Cistercian Order*. I'r fonachlog hon yr enciliodd Edward o Gaernarfon, wedi dianc o Gastell Caerphili, ac y llechodd am dymor mewn dyogelwch. Mae Leland yn desgrifio y fonachlog fel yr un ardderchocaf yn holl Gymru; ac y mae ei gweddillion presenol yn profi ei bod yn enghraifft o adeiladaeth eglwysig o radd uchel. Saif ar lan orllewinol yr afon Nedd, a gwnaed ychwanegiadau pwysig ati mewn gwahanol dymhorau. Y mae gwedd ardderchog eto ar yr adfeilion, er fod mwg y gweithfaoedd cylchynol, wedi anurddo llawer arnynt. Mae rheilffordd Glyn-nedd yn myned heibio yr adfeilion presenol, a thros dir yr hen fonachlog, oblegyd yr oedd yr adeilad gynt yn ymestyn i ganol y pentref a elwir yn awr wrth yr enw Monachlog. Mae careg wen Sutton, gerllaw Margam, yn y sir hon, o'r hon y mae y bwâu a'r addurnwaith wedi eu gweithio, yn cadw o hyd yn lân, a rhydd oddiwrth yr eiddew a'r brysg-goed sydd yn gorchuddio yr adfeilion. Mae amryw o'r muriau, a rhai neuaddau ac ystafelloedd, mewn cadwraeth go dda, ac yn gofnodau tarawiadol o'i gogoniant cyntefig. Cyllid y fonachlog yn amser y dadgorphoriad dan Henry VIII. oedd 150*p.* 4*s.* 9*c.* Gwnaeth J. T. Price, Ysw., gynygiad anrhydeddus i harddu y lle o amgylch y fonachlog, trwy blanu coed o gwmpas yr adfeilion; ond yr oedd yr awyr yn cael ei wenwyno gymaint gan fwg y gweithiau copr, fel y methodd iddynt dyfu. Ar y naill du i'r adfeilion, y mae hen waith haiarn y Fonachlog, sydd wedi bod mewn bri mawr am oesau, a'r hwn sydd wedi gwneuthur a gyru allan luoedd o beirianau i bob parth o'r byd gwareiddiedig. Ar y tu arall, y mae y *Crown*, a'r *Mines Royal Copper Works;* a gerllaw iddynt y mae glo y gweithiau cyfagos yn cael ei lwytho i'r llongau. Y mae y gweithfaoedd hyn wedi rhoddi bod i bentref mawr yn yr ymyl, a elwir *Skewen*, (Ysgywen), ar y brif-ffordd o Nedd i Abertawy, lle mae erbyn hyn addoldai cyfleus gan y Methodistiaid, yr Annybynwyr, yr Eglwys sefydledig, a'r Bedyddwyr, ac ysgolion dyddiol cyfleus ac effeithiol. Mae y Fonachlog a'r lleoedd hyn y tu gorllewinol i afon Nedd, ac felly yn mhlwyf Llangatwg. (Gwel LLANGATWG.) Mewn cae cyfagos i'r hen fonachlog, yn ymyl y ffordd fawr, o flaen palasdy Cwrt Herbert, y mae cerflun careg o ŵr eglwysig yn gorwedd, yn dal cynllun eglwys yn ei law. Bernir iddo gael ei symud yma o'r fonachlog, pan gymerodd gweithwyr yr ardal at amryw o'i hystafelloedd i'w troi yn annedd-dai.

Yn fuan ar ol esgyniad Stephan, wedi i Gruffydd ab Rhys anrheithio meddianau y Normaniaid yn Sir Aberteifi, daeth yn ei flaen i diriogaeth Morganwg. Casglodd y Normaniaid eu galluoedd yn nghyd yn agos i'r dref hon; arweinid y galluoedd Cymreig gan feibion Caradog ab Iestyn, y rhai oeddent arglwyddi y diriogaeth rhwng afonydd Tawy ac Avon. Cymerodd brwydr waedlyd le, yn yr hon y lladdwyd tair mil o wŷr. Enillodd y Cymry fuddugoliaeth mor llwyr, fel y gorfu i'r ychydig Normaniaid a weddillwyd, ffoi am noddfa i gestyll y Browyr. Yn y flwyddyn 1185, llosgwyd y dref hyd y llawr. Ac yn 1231 cynddeiriogwyd Morgan Gam, a Llewelyn ab Iorwerth, gan ormes Hubert de Burgh, gosodasant warchae ar y Castell, a llosgasant ef; diboblogwyd y dref hefyd i fesur, a llosgwyd llawer o'r tai a thân.

Saif y dref ar ysmotyn gwastad prydferth o ddyffryn Nedd, ar y tu dwyreiniol i'r afon, ychydig mwy na dwy filldir o arllwysiad yr afon i'r *Swansea Bay* yn Briton Ferry. Mae yr ardal o gwmpas yn brydferth iawn, ac yn gysylltiedig a chyfoeth mawr o drysorau mwnawl. Mae y tai a'r adeiladau wedi

Digitized by Google

myned dan welliadau pwysig y blynyddau diweddaf, a'r ystrydoedd wedi eu eangu. Mae y dref wedi cynyddu yn fawr yn ddiweddar ar hyd y ffordd fawr sydd yn arwain tua *Briton Ferry*. Mae y cynydd hwn wedi ei achosi gan y gwaith alcan, (*tin*), newydd sydd wedi ei godi y blynyddau diweddaf gan Leach, Flower, & Co., yn Melincryddau, yn agos i'r lle bu hen weithfa haiarn o'r blaen, *Chemical Works* Player & Gibbins, a chan gyd-gyfarfyddiad cynifer o Reilffyrdd yn y dref. Mae y *South Wales* yn rhedeg trwy y dref, o Gaerloyw i Milford; y *Vale of Neath*, o Abertawy i Merthyr, Aberdare, a'r Gogledd; a'r *Neath and Brecon*, o Gastellnedd i Aberhonddu, yr hyn sydd wedi codi Castellnedd yn un o'r trefi mwyaf cyfleus o ran rheilffyrdd yn Nghymru. Heblaw y rheilffyrdd, y mae yma gamlas cyfleus yn rhedeg i fyny y dyffryn, ac i waered i Abertawy, a Briton Ferry; ac y mae yr afon yn fordwyol oddiyma i'r môr, a chryn fasnach mewn llongau yn cael ei wneyd.

Mae hen eglwys y plwyf, fel yr awgrymwyd, yn bur hen, a hen eglwys fechan Llanilltyd, wrth yr hon y mae claddfa fawr, mewn cysylltiad a hi, yn archddeoniaeth Llandâf, a'r fywioliaeth wedi ei threthu ar lyfrau y brenin, yn 16*p.* 2*s.* 3½*c.* ac y mae yn werth 440*p.* Mae y ddwy eglwys yma a'u gwasanaeth yn Gymraeg, yn cael eu gwasanaethu gan yr un periglor, ac yn rhoddiad Ardalydd Bute. Yn Tachwedd 1866 agorwyd Eglwys newydd, a elwir Eglwys Dewi, trwy lafur ac ymdrechion Periglor poblogaidd Castellnedd, (y Parch. John Griffith,) yn yr hon yr ymgynull y gynnulleidfa fwyaf liosog ac anrhydeddus yn y dref, ac y mae dygiad yn mlaen yr holl achos a'r gwasanaeth yn deilwng o efylychiad holl addoldai y dref. Yn Saesneg y dygir yn mlaen y gwasanaeth yn hon; ac y mae cynaliad yr achos yn yr eglwys hon, yn dybynu ar gyfraniadau gwirfoddol bob wythnos gan yr addolwyr. Mae hyn yn deilwng o'i goffa, gan ei fod y cynygiad cyntaf yn Nghymru, at Eglwys rŷdd yn nghlŷn a'r sefydliad gwladol. Mae Capel Eglwysig hefyd yn Melincryddau.

Mae holl addoldai y dref, a chymeryd i mewn Felincryddau, yr hwn nid yw ond darn o'r dref, fel y canlyn:—Eglwys Loegr 4, Annybynwyr 3, Methodistiaid 2, Bedyddwyr 2, Wesleyaid 2, Meth. Cyntefig 1, Crynwyr 1, *Bible Christians* 1, Pabyddion 1, a'r Iuddewon 1, yr oll yn 18. Mae yma amryw ysgolion da, yn mysg y rhai y saif yn benaf ysgol Alderman Davies, a sefydlwyd yn 1856; a'r Ysgolion Prydeinig a Chenedlaethol. Llywodraethir y dref gan gorphoriaeth, dan y *Municipal Reform Act*, yn cynwys Maer, pedwar Henadur, a deuddeg o Gynghorwyr. Mae yma Neuadd drefol gyfleus, lle y cynhelir llysoedd ynadol a Sirol. Mae yma hefyd Sefydliad Llenyddol o gryn bwys, yn cynwys ystafelloedd darllen a darlithio. Y palasdy ardderchocaf yn yr ardal yw *Castell y Gnoll*.

Mae Castellnedd yn dal i gynyddu yn ei masnach a'i phoblogaeth. Maint arwynebedd y plwyf yw 1,121 o erwau.

Ei phoblogaeth yn 1841 ydoedd 4919; yn 1851, 5699; yn 1861, 6734; yn 1871, 9074.

Mae *gross estimated rental* y dref yn 23,865*p.*; a'r *rateable value* yn 20,778*p.* Mae Undeb Castellnedd (Neath Union) yn cynwys 30ain o Blwyfi, a chan fod *Census* yr Undeb am y flwyddyn hon (1871) newydd ddyfod i law, byddai yn ddyddorol ei gyhoeddi yma yn gyflawn.

UNDEB NEDD.

| Plwyfi. | Tai preswyliedig. | Tai heb breswylwyr. | Tai ar waith. | Gwrywod. | Benywod. | Pobl. 1871. | Pobl. 1861. | Cynydd. | Lleihad. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberavon | 651 | 106 | 4 | 1683 | 1713 | 3396 | 2916 | 480 | — |
| Baglan Higher | 28 | 1 | — | 106 | 70 | 176 | 259 | — | 83 |
| Baglan Lower | 92 | 2 | 2 | 224 | 221 | 445 | 456 | — | 11 |
| Blaengwrach | 57 | — | — | 157 | 167 | 324 | 280 | 44 | — |
| Blaenhonddan | 364 | 11 | — | 940 | 960 | 1900 | 1661 | 239 | — |
| Britonferry | 830 | 21 | 7 | 2401 | 2327 | 4728 | 3781 | 947 | — |
| Clyne | 37 | — | — | 116 | 92 | 208 | 103 | 105 | — |
| Coedfrank | 527 | 34 | 2 | 1300 | 1285 | 2585 | 2151 | 434 | — |
| Duffryn Clydach | 235 | 4 | — | 560 | 577 | 1137 | 1022 | 115 | — |
| Dylais Higher | 94 | 1 | — | 240 | 239 | 479 | 622 | — | 143 |
| Dylais Lower | 85 | — | — | 230 | 223 | 453 | 348 | 105 | — |
| Glyncorrwg | 130 | — | — | 408 | 326 | 734 | 322 | 412 | — |
| Killybebill | 311 | 1 | — | 802 | 790 | 1592 | 1346 | 246 | — |
| Llangonoyd Higher | 411 | 76 | — | 1097 | 1056 | 2153 | 2187 | — | 34 |
| Llanguicke | 1,644 | 88 | 2 | 4137 | 4174 | 8311 | 7983 | 328 | — |
| Llansamlet Higher | 521 | 32 | 6 | 1352 | 1225 | 2577 | 1860 | 717 | — |
| Llansamlet Lower | 718 | 26 | — | 1801 | 1750 | 3551 | 3243 | 308 | — |
| Llantwit Lower | 269 | 19 | 1 | 654 | 677 | 1331 | 1367 | — | 36 |
| Margam | 1,007 | 89 | 8 | 2573 | 2573 | 5146 | 5528 | — | 382 |
| Michaelstone Higher | 129 | 72 | — | 305 | 297 | 602 | 861 | — | 259 |
| Michaelstone Lower | 994 | 31 | — | 2662 | 2658 | 5320 | 5323 | — | 3 |
| Neath | 1,821 | 127 | 13 | 4356 | 4718 | 9074 | 6734 | 2340 | — |
| Neath Higher | 300 | 4 | — | 722 | 704 | 1426 | 1637 | — | 211 |
| Neath Middle | 43 | — | — | 111 | 97 | 208 | 222 | — | 14 |
| Neath Lower | 35 | — | — | 94 | 93 | 187 | 174 | 13 | — |
| Resolven | 186 | — | — | 530 | 485 | 1015 | 762 | 253 | — |
| Ynisymond | 67 | 2 | 1 | 211 | 192 | 403 | 372 | 31 | — |
| Ystradgunlais Higher, | 97 | 21 | 3 | 265 | 250 | 515 | 544 | — | 29 |
| Ystradgunlais Lower | 778 | 92 | 2 | 1802 | 1804 | 3606 | 3801 | — | 195 |
| Ystradfellta | 139 | 1 | — | 353 | 366 | 719 | 668 | 51 | — |
| | 12,600 | 861 | 51 | 32,192 | 32,109 | 64,301 | 58,533 | 7168 | 1400 |

Mae *gross estimated rental* yr Undeb yn 208,805*p.* a'r *rateable value* yn 184,587*p.*

Digitized by Google

**CAS'NEWYDD-AR-WYSG,** neu Castell-newydd-ar-Wysg, [*Newport*]; marchnattref fwrdeisiol, a phorthladd, yn mhlwyf St. Woollos, yn rhandir uchaf cantref Gwentllwg, swydd Fynwy, Deheudir Cymru. 25 milldir i'r De Orllewin o Drefynwy, 12 milldir o Gaerdydd, a 150 milldir o Lundain. Y mae'r lle hwn yn cael ei alw gan Giraldus Cambrensis yn *Novus Burgus*, neu "Dref Newydd," mewn gwrth-gyferbyniad i'r hen borthladd enwog, Caerlleon-ar-Wysg, yr hwn sydd wedi cael ei ŷru ganddo yn llwyr i'r cysgodion. Y mae Leland yn ei desgrifio fel tref mewn adfeilion yn amser ei ymdaith ef—*Toun in ruine;* ond y mae Churchyard, yr hwn nad yw yn Filtwn o fardd, yn well hanesyddwr nâ Leland; ac y mae efe yn rhoddi y dysgrifiad canlynol o'r lle:—

"A towne nere this, that built is all a lenghth,
Call'd Neawport now, there is full fayre to viewe;
Which seate doth stand, for profite more than strength,
A right strong bridge is there of timber newe:
A river runnes, full nere the castle wall
Nere church likewise a mount behold you shall
Where sea and land, to sight so plain appeeres,
That there men see a part of five fayre sheires."

Y mae'r bont goed, "of timber newe" a ddesgrifir gan y bardd-hanesydd Churchyard, wedi cael ei symud, ac y mae yma bont geryg hardd iawn, o 5 bwa, yn croesi yr Wysg, yr hon a adeiladwyd gan Mr. David Edwards, mab yr enwog Mr. William Edwards, yr hwn a adeiladodd y bont un-bwäog brydferth dros y Tâf, yn Mhont y pridd, Morganwg. Yr oedd Mr. William Edwards yn pregethu gyda'r Independiaid, ac i'r enwad hwnw y mae'r teulu yn perthyn hyd heddyw, ond y maent wedi gadael y pontio a'r pregethu, ac yn feddygon, agos oll yn bresenol. Yr oedd Mr. Edwards, Caerphili, yn feddyg enwog a llwyddiannus iawn; ac y mae ei fab William Thomas Edwards, Yswain, M.D. Caerdydd, yn un o'r dynion goreu, ac yn un o'r meddygon medrusaf, yn y deyrnas.

Mewn breinlen a roddwyd gan Iago I., yn y 21ain. flwyddyn o'i deyrnasiad, yr hon sydd yn cadarnhau breinniau blaenorol, y mae yn cael ei chorffori dàn y cyfenwad o faer, henuriaid, a bwrdeisiaid Casnewydd, ac yn cael ei llywodraethu gan y cyfryw hyd y dydd hwn. Yr oedd yn isborthladd o dàn Gaerdydd hyd ddiwedd y ganrif ddiweddaf; ac nid oedd ond rhyw 300 o longau yn perthyn iddo. Y mae yma yn bresenol ddociau mawrion, ac y mae hefyd lwythfeydd lluosog ar hyd glànau yr afon Wysg, ac y mae'r llongau sydd yn dyfod yma yn bresenol yn lluaws. Y mae'r glô a'r haiarn a gludir oddiyma yn fawr iawn, ac yn ychwanegol at y camlas ag sydd yn myned oddiyma i Aberhonddu, y mae rheilffordd y Western Valleys yn rhedeg iddi, yr hon sydd yn dwyn i lawr gynnyrch Glyn Ebbwy a Nantyglo, ac y mae rheilffordd Deheudir Cymru yn rhedeg drwyddi.

Yr oedd yma gastell cadarn gynt, ar làn yr afon, y tu uchaf i'r bont, yr hwn a adeiladwyd, fel y dywed yr hynafiaethydd Grose, er amddiffyn y mynediad yn groes i'r afon Wysg, canys ar ochr yr afon y mae ei dyrau cadarnaf; ond nid oedd yn ddiamddiffyn ar y tu arall. Nid yw y castell mor hen a'r Gorchfygiad, fel y dengys ei fwäau pwyntiog, canys yn y cyfnod Anglo-Normanaidd y dechreuwyd arfer y dull hwnw o adeiladu. Yr oedd y lle hwn a'r castell yn perthyn gynt i arglwyddiaeth Morganwg; canys yr oedd arglwyddiaeth Morganwg yn cynnwys yr holl wlad rhwng yr afonydd Nedd ac Wysg. Yn amser y Gorchfygiad Normanaidd, gorchfygwyd Morganwg gan Robert Fitzhamon a'i farchogion, yr hwn a ŷrodd Iestyn ab Gwrgant, Tywysog Morganwg, ar ffô. Clwyfwyd Fitzhamon yn farwol, mewn gwarchae yn Normandy, yn 1107, a chan nad oedd ganddo etifedd gwrrywaidd, daeth castell Casnewydd yn eiddo i'w ferch hynaf Maud, a thrwy Maud, gyda ei feddiannau ereill, daeth yn feddiant i Robert, Iarll Caerloyw a Bristol, un o fastarddiaid Harri I. Yr oedd Robert yn ddyn o dalent, ac enwogodd ei hun mewn amryw ffyrdd, ac efe a adeiladodd gastell Casnewydd. Dilynwyd ef gan ei fab William, yr hwn a fu farw yn ddietifedd yn 1173. Yr oedd Richard de Clare, Iarll Hertford, wedi priodi un o'i ferched ef, a daeth y castell yn feddiant iddo ef. Ar farwolaeth ei fab Gilbert, yn 1313, rhanwyd y meddiant mawr rhwng tair chwaer, Eleanor, gwraig Hugh le Despenser; Margaret, yr hon a briododd a Hugh de Audley; ac Elizabeth, yr hon a gymmerodd yn briod John de Burgh, mab Richard, iarll Ulster. I Margaret y rhoddwyd tref a Chastell Casnewydd, ond gorfu arni eu rhoddi hwynt i fyny i Hugh le Despenser; ond ar syrthiad Despenser, adferwyd y castell i Hugh de Audley, a thrwy unig ferch Hugh, Margaret, daeth yn feddiant i'w phriod Ralph, iarll Stafford. Parhaodd yn meddiant y teulu yma hyd y pedwerydd disgynydd, Edward, duc Buckingham, yr hwn a ddienyddiwyd yn nheyrnasiad Harri VIII. Y mae'r castell ar ol hyny wedi myned drwy law amryw berchenogion; bu yn meddiant yr Herbertiaid o Cherbury; Iarll Powis; Van o Lanwern; William Kemys, Maindy; a Johnes o'r Hafod, sir Aberteifi; gan yr hwn y prynodd Duc Beaufort ef.

Ymladdwyd brwydr waedlyd ofnadwy yma yn y flwyddyn 918, rhwng Edelfred, brenin y Sacsoniaid, a Morgan, brenin Morganwg, pan y lladdwyd Edelfred, ac y gyrwyd ei wŷr ar ffo. Bu brwydrau ereill yma dro ar ol tro, a'r galanastra diweddaf a fu yn y lle, oedd y terfysg Siartiaidd. Nos Sul, Tachwedd y 3ydd, 1839. Tuag amser gorpheniad yr addoliadau, ymgynnullodd cannoedd ar gannoedd o bobl yn nghyd, ac aethant yn finteiodd mawrion drwy y cymydd prydferth ag sydd yn arwain i Gasnewydd. Disgynai y gwlaw yn bistylloedd ofnadwy, a rhuai y nentydd yn rhaiadrau drwy y gelltydd, fel i attal ynfydrwydd y bobl; ond yn mlaen yr aethant, wedi ymarfogi â gŷnau, pigffyrch, ac offerynau dinystriol ereill, heb ofalu am erwinder yr hin, na chysegrwydd y dydd, gan lusgo ganddynt lawer ag oedd yn anfoddlawn i fyned. Hudwyd y Cymry gan ysgothwyr broliog o Saeson, y rhai a ymwelent â'r cyfrinfaoedd Siartiaidd, y rhai hefyd a gymmerent eu harian, a bu'r canlyniadau yn ddrwg iawn; canys drwy y gwrthryfel hwn, dangosasant nad oedd ynddynt na rheswm, na medr, na gwroldeb yn perthyn iddynt. Yr oedd Siartiaid Birmingham, Bolton, Manchester a manau ereill, i gyfodi yn un llaw, gwedi i'r Cymru daro ergyd effeithiol yn y Casnewydd; ac yr oedd Prydain Fawr i gael ei haileni yn wleidiadol. Yr oedd golwg drist ar y Gweithfeydd doriad gwawr boreu ddydd Llun, heb nemawr i neb i'w gweled ynddynt, ond merched a gwragedd, pob un o ba rai oedd mewn dychryn a

Digitized by Google

gofid meddyliol mawr iawn. Tua 10 o'r gloch boreu dydd Llun, aeth y golofn flaenaf o'r gwrthryfelwyr o barc Arglwydd Tredegar, dàn arweiniad John Frost, at Westdy y *Westgate*, lle y cyfarfyddwyd â hwynt gan golofn arall ag oedd wedi myned dros *Stowe Hill*. Yr oedd yn y *Westgate* ychydig heddgeidwaid gan y Maer, yr hwn am y rhan ganmoladwy a gymmerodd i roddi y terfysg i lawr, a grëwyd yn *Syr* Thomas Phillips, a 30 o filwyr perthynol i'r 45 gatrawd, dàn lywyddiaeth is-gadben ieuanc, y rhai mewn ychydig fynydau a roddasant ergyd marwol ar ben dyfais Mr. Frost. Yr oedd y Siartiaid dros 5000 o nifer, ond er hyny trefn gariodd y dydd. Yr oedd amryw yn mhlith y Siartiaid yn medru saethu yn dda, a chlwyfasant y Maer ac amryw ereill, ond gan fod y milwyr yn y *Westgate*, yr oedd ganddynt fantais, a rhedodd y miloedd yn ol i'r mynyddau, gan adael 20 yn farw o flaen yr Hotel. Y mae nodau yr ymdrech fèr yn weledig ar y gwestdy hyd heddyw, ond nid oes neb yn gwybod rhif dyoddefwyr cyflafan y Casnewydd. Siopwr cyfrifol oedd John Frost, ac ynad yr heddwch dros y fwrdeisdref hon; ac yn gynnorthwywyr iddo yn y terfysg hwn, yr oedd Sephaniah Williams, arolygydd yn ngweithiau haiarn Sirhowy; a William Jones, watchmaker, Pontypwl. Daliwyd y tri yn bur fuan, ac mewn brawdlys pennodol a gynnaliwyd yn Nhrefynwy, Rhagfyr 31ain, 1839, dàn lywyddiaeth Syr Nicholas Tyndale y prif farnydd, profwyd a dedfrydwyd hwynt i farwolaeth; ond cyfnewidiwyd y ddedfryd i alltudiaeth dros fywyd. Rhoddodd y frenines ganiatâd iddynt ddychwelyd yn 1856, eithr ni ddychwelodd ond John Frost yn unig; canys yr oedd Williams a Jones, yn gwneuthur yn dda yn nhir eu halltudiaeth.

Y mae'r eglwys yn sefyll ar uchelfa goruwchy dref, ac y mae golygfeydd dymunol i'w gweled oddiyma. Adeiladwyd y clochdy gan Harri III. am wrthwynebiad gwladgarol y bobl i Iarll Leicester. Y mae yma gerflun o Harri III. ond torwyd ymaith y pen gan rai o filwyr Cromwell. Y mae amryw enwogion wedi cael eu claddu yn monwent yr eglwys hon, ac yn monwentydd ereill *Stowe Hill*, ac nid y lleiaf o honynt yw Dafydd Rhys Stephen athrylithgar, ar fedd yr hwn nid oes na maen na mynor. Y mae'r eglwys wedi cael ei chyssegru i St. Woolos—Gunleus—Gwynlliw. Mab hynaf un o freninoedd Dyfed oedd Gwynlliw, ac yr oedd yn cael ei fawr anrhydeddu. Ar farwolaeth ei dad, rhanodd y freniniaeth rhwng eu chwech brawd, y rhai o hyd a'i cydnabyddent ef fel eu penadur. Priododd â Gwladys, merch Brychan Brycheiniog, o'r hon y cafodd St. Cenna, a St. Cadog, sylfaenydd enwog monachlog Llancarfan, gerllaw Pontfaen, Morganwg. Arweiniodd fywyd meudwyaidd, a bu farw tua diwedd y bumfed ganrif. Y mae hen dwmpath gerllaw yr eglwys, yr hwn a elwir Twyn Gwynlliw. Y mae gweddillion hen gaerau Rhufeinig gerllaw yr eglwys hefyd, gyda gweddillion dau briordy. Y mae yma amryw eglwysi ereill, a chapeli heirdd iawn gan y gwahanol enwadau.

Cynnelir y farchnad yma bob dydd Sadwrn, ond y mae yma farchnad ddyddiol, a chynnelir amryw ffeiriau blynyddol yn y lle. Y mae y dref wedi cynnyddu yn synfawr yn yr hanner canrif diweddaf, ac y mae yn perthyn iddi bob peth a ddymunid mewn tref farsiandiol fel hon. Adeiliadir llawer iawn o longau yma. Y mae yn un o fwrdeisdrefi unol Mynwy, a chyda Trefynwy, Brynbiga, &c., y mae yn anfon un aelod i'r Senedd oddiar 1832. Poblogaeth y lle yn 1818 oedd 2346, ond yn 1861 yr oedd yn 23,249.

**CASTELLNEWYDD-YN-EMLYN**, capeliaeth a marchnattref fwrdeisiol, yn mhlwyf CENARTH, cwmwd UWCH-CUCH, cantref EMLYN, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, 18 milldir i'r Gogledd Orllewin wrth Ogledd o Gaerfyrddin, a 220 milldir i'r Gorllewin wrth Ogledd o Lundain. Y mae yn eisteddle Undeb y Tylodion, ac y mae'r Gweithdy yn sefyll mewn lle dymunol gerllaw y dref, yn yml pentref a elwir Aberarad. Y mae'r Undeb yn cynnwys ugain o blwyfi a threfgorddion, nid amgen, Penbryn, Llangranog, Troedyraur, Brongwyn, Llanfair-Tref-helygen, Llangynllo, Llanfair-Orllwyn, Llandyfriog, Henllan, Bangor, Llandyssul, a Bettws-Ifan, yn swydd Aberteifi; Llanfihangel-ar-Arth, Llangeler, Cenarth, a Phenboyr, yn swydd Gaerfyrddin; Clydeu, Llanfyrnach, a Phenrhith, yn swydd Benfro; a phlwyf Cilrhedyn, yr hwn sydd mewn rhan yn swydd Benfro ac mewn rhan yn swydd Gaerfyrddin. Y mae dàn arolygiaeth 30 o warcheidwaid, ac y mae yn rhifo dros 20,000 o drigolion. Rhif yr Undeb yw 594.

Hen enw y lle yw Dinas Emlyn, ac y mae Mr. Llwyd yn dywedyd, fod yr enw yn deillio oddiwrth *Emilianus*, boneddwr Rhufeinig ag oedd yn trigo yn y parth yma o'r dywysogaeth. Beth oedd seiliau Mr. Llwyd, ac efe yn hynafiaethydd môr enwog, ni's gwyddom; ond hyn a wyddom, nad oes cysgod o olion Rhufeinig yn y gymmydogaeth. Dywed llawer mai ystyr y gair yw llun y llythyren M-M-Lun, yr hyn meddir a wneir gan yr afon Teifi; nid yw'r afon, modd bynag, yn gwneyd dim llun o'r fath, gan hyny, nis gall yr ystyr yna fod yn gywir. Dywed ereill fod yr enw yn sylfaenedig ar enw Emlyn Balog, yr hwn sydd wedi ei gladdu wrth Benrhiwpaul, mewn màn a elwir hyd heddyw Crugybalog. Dywedai yr hen bobl, ac y mae yn bur debyg fod yno rai yn dywedyd hyny yn bresenol, mai yma y pregethodd yr apostol Paul y waith gyntaf yn ynys Prydain. Dywed ereill mai YMLYN yw'r gwreiddiol, am fod yr afon yn *Ymlynu* yn ei thröadau modrwyog o gwmpas y dref brydferth hon. Y mae'r holl syniadau uchod yn ddisail, ac nid ydym yn gweled fod dyryswch gydag ystyr y gair.—EM yw amgylchynu yn gyflawn neu yn rhanol, ac y mae'r gwreiddair gyda ni yn y geiriau Eminiog, Emyl, &c. Ystyr EMLYN gan hyny yw Dwfr-gylchog—Dwfr-ymylog, ac ni bu gwell gair-baentiad erioed.

Nid oes sicrwydd, na syniad o ran hyny, pwy oedd adeiladydd cyntaf y castell; ymddengys fod ei enw wedi cael ei gymmeryd oddiwrth y ffaith fod Syr Rhys ap Thomas, Dinefwr, wedi adeiladu castell newydd yma, yn nheyrnasiad Harri VII. Cymmerwyd yr hen gastell yn 1215 gan Llewelyn ap Iorwerth, yr hwn ar ddosparthiad newydd y Deheudir, a'i rhoddodd i Faelgwyn ap Rhys. Yn 1258, pan yr oedd Llewelyn ap Gruffydd mor llwyddiannus yn amddiffyn hen wlad y tadau, efe a appwyntiodd ddirprwywyr i gyfarfod yma er ymheddychu â'r Saeson: ond darfu i swyddog Harri III., Padrig de Canton, luddias y cyfan, drwy ymosod yn llechwrus ar y dirprwywyr pan ar eu ffordd i'r castell. Ymosododd Dafydd, brawd y Tywysog Llewelyn, ar y Saeson, gyrodd hwynt ar ffô, a lladdwyd de Canton ac amryw ereill. Yn nheyrnasiad Edward I. bu Rhys ap Maredydd yn gwarchae ar y castell hwn; ond daeth

Digitized by Google

Robert de Tibetot yn gynnorthwy i'r rhai gwarchaeedig a gorfu ar Rhys ffoi i'r Iwerddon. Yn amser y bardd Dafydd ap Gwilym, yr oedd ei ewythr, Llewelyn Fychan, yn geidwad y castell; ac yn y castell ar y pryd hwn y cynnaliwyd yr Eisteddfod lle yr oedd Rhys Meigen yn "gyff glêr," ac y lladdwyd ef gan Ddafydd mewn awdl ffraethlym, dafodrydd, a thuchanol. Awdlau llawn o frath-eiriau ysgorpionllyd yw rhai Madog Dwy Graig i'r butain a dorodd ei berllan, un Lewis Glyn Cothi i Saeson Caerlleon-Gawr, un Rhys Goch Eryri i'r llwynog, ac un Rhys Jones o'r Blaenau i Ddeicyn yr adarwr; ond y maent fel brwyn yn yml cleddyf, wrth awdl yr ap Gwilym i Rys. Nid oes dim yn "*Dunciad*" Pope, nag yn "*English Bards*" Byron, i'w cydmaru â hi mewn cellweir-gno dialgar, ac nid rhyfedd i'r Rhys druan, wrth ei chlywed, i syrthio yn farw gorn gelain gegoer ar lawr yr eisteddfodfa. Yr oedd Dafydd yn hoff o Gastellnewydd Emlyn, ac y mae gwedi cânu "Awdl Foliant i Llewelyn o Emlyn." Yr oedd Llewelyn ap Gwilym Fychan o Emlyn a'r Cryngae, yn ŵr cyfarwydd ar fesurau y ddwy gerdd, sef cerdd dafod a cherdd dant, ac yr oedd Ap Gwilym yn bur hoff o hono yntau hefyd, fel y dengys y llinellau canlynol:—

"Llonglwyth o dylwyth hyd Wyli-a draidd,
Llaryaidd, brawdwraidd, byd Bryderi;
Llafuriawdd berthawdd i borthi-digeirdd,
Llys Emlyn y beirdd, llys heirdd yw hi."

"Byd Bryderi" yn y llinellau uchod o'r awdl, yw Dyfed, yr hon wlad a elwir felly oddiwrth Pryderi ap Pwyll Pen Annwn, brenin Dyfed yn y seithfed ganrif, yr hwn oedd un o dri Gwrddfeichiaid Ynys Prydain. Yr oedd y castell yn amser Owain Glyndwr yn ngheidwadaeth Shiencyn ap Llewelyn, yr hwn a'i rhoddes i fyny i'r gwladgarwr byth-gofiadwy hwnw. Oddiwrth Syr Rhys ap Thomas disgynodd y castell i'w ŵyr, Rhys ap Gruffydd, yr hwn a ddigiodd Harri VIII., a rhoddwyd y castell i'r Vychaniaid o Gellyaur (*Golden-grove*). Yn y 19eg o'i deyrnasiad gwnaeth Charles I. Richard Vychan (*Vaughan*), yn Iarll Carberry o'r Iwerddon, ac yn Farwn Emlyn. Yn amser y rhyfel rhwng Charles I. a'r senedd, yr oedd y castell yn cael ei ddàl gan y Breninolion, ond cymmerwyd ef gan y Seneddolion o dân y Milwriad Gerard, yn 1645. Bu yn meddiant y Vychaniaid drwy'r blynyddau; ond ar farwolaeth yr olaf o honynt, daeth yn feddiant i Iarll Cawdor, tadeû y meddiannydd presenol, yn nghyd âg holl ystâd fawr Gelli aur. Cymro oedd Vychan ac ysgolwr o'r enw Campbell oedd Cawdor; yr oeddynt yn trafaelio gyda'u gilydd ar y cyfandir, a chytunasant â'u gilydd fod yr olynydd o honynt i gael ystâd y llall; Vychan fu gyntaf farw, a daeth yr ystâd yn feddiant i Cawdor. Y mae mab hynaf Cawdor yn cael ei alw yn Is-iarll Emlyn. Y mae gweddillion yr hen gastell yn myned yn llai lai yn flynyddol, ond yn edrych yn bur brydferth o hyd. Y mae yn sefyll ar bentir ffurfiedig gan yr afon Teifi, yr hon sydd yn troëlli yma yn fawreddog dros ben, ac yn ffurfio dyfr-ffos naturiol ac arddunol i'r castell, o dri thu iddo. Y mae traddodiad llen-werinol fod gwiber wedi bod ar dŵr gorllewinol y castell yma gynt, a'i bod wedi rhoddi llawer iawn o drallod i'r gymmydogaeth cyn iddi gael ei saethu. Dywedir fod y castell wedi bod hefyd yn eisteddle i hen wrach a elwid Magw Ddòl, ac y mae ynddo gell a elwir hyd heddyw "Lofft Magw Ddòl." Magw Ddòl yw'r dychrynair i dawelu plant yr ardal, ond ni wyddis dim am dani.

Y mae'r dref yn sefyll yn un o'r manau harddaf yn Nghymru, ac ar radd fychan yn gwneuthur i fyny bob peth ag sydd yn ofynedig mewn golygfa berffaith, castell, coed, melin, pont, &c. Unir hi â hen fwrdeisdref Trefhedyn-yn-Emlyn gan bont o dri bwa. Amgylchynir hi gan amryw blasdai, yr enwocaf o ba rai yw Bronwydd, plâs Syr Thomas Davies Lloyd, Barwing, A.S. dros fwrdeisdrefi unol Aberteifi, o'r rhai y mae Castell-newydd yn un. Y mae'r Teifi yn enwog am ëogiaid a siwiniaid, llawer o ba rai a ddelir yma. Gwel CENARTH. Nid oes yma ddim gweithfeydd, ac y mae'r trigolion yn ymddibynu yn gysurus ar gynnyrchion amaethyddol y gymmydogaeth. Cynnelir ffeiriau mawrion yma, Mawrth 23, Mai 10, Mehefin 22, Gorphenhaf 20, Awst 20, Medi 10, Hydref 19, a Thachwedd 22. Marchnad, dydd Gwener.

Yr oedd yma hen gapel wrth y castell, ond yn awr y mae eglwys adranol wedi cael ei hadeiladu yn nghanol y dref. Gwerth y ficeriaeth, yr hon sydd yn esgobaeth Ty Ddewi, ac yn rhodd ficar Cenarth, yw 150*p*. y flwyddyn. Y mae yma ysgolion da iawn, a chapel yr un gan yr Independiaid, y Wesleyaid, y Methodistiaid, a'r Bedyddwyr. Rhif poblogaeth y drefgordd yn ol Deiliadeb 1841 oedd 876, ac yr oedd mwyrif o du y menywod o 94; rhif presenol y fwrdeisdref yw 2426, yn ol Deiliadeb 1861.

**CASTLETON**, TRECASTELL-YN-NGWENTLLWG, CASTELLBACH, neu fel y gelwir ef yn gyffredin CASBACH, sydd bentref yn mhlwyf MARSHFIELD, cantref GWENTLLWG, swydd FYNWY, DEHEUDIR CYMRU, yn ymyl y brif-ffordd o Gaerdydd i Gasnewydd-ar-Wysg. Cyn gwneuthur rheilffordd y South Wales, yr oedd llawer iawn o deithio drwy y pentref hwn, a'r ddau westdy ag sydd yma yn gwneuthur masnach fawr iawn; ond y mae hyny gwedi myned heibio. Y mae y rheilorsaf, yr hon a elwir yn ol enw y plwyf yn Marshfield, yn sefyll tua dwy filldir goris y pentref, ar y morfa rhyngddo a glàn Môr Hafren. Yr oedd enw arall hefyd ar y lle hwn gynt, sef Castell Gwgan, ac yr oedd y Gwgan hwn yn ryfelwr nerthol, ac wedi adeiladu castell yma tua dechreuad y 7fed ganrif; ail-adeiladwyd y castell hwn yn fuan wedi'r gorchfygiad Normanaidd, ond o'r braidd y mae olion ei sylfaeni i'w gweled heddyw. Y mae olion hen wersyll Prydeinig mewn lle a elwir Pen-y-parc-newydd, ychydig uwchlaw y Pentref, oddiar yr hwn y mae golygfa ddymunol ar y tiroedd cnydiog, ar Fôr Hafren a'r llongau lawer, ac ar gyffiniau bryniog Lloegr. Y mae capel ëang yma gan y Trefnyddion Calfinaidd; capel bychan, costfawr, gan y Wesleyaid Seisneg; ac un o'r capeli mwyaf mawreddog yn y cwmpasoedd gan y Bedyddwyr, yn yr hwn y bu yr enwog a'r Parch. Evan Jones (*Gwrwst*) yn weinidog am flynyddau lawer. Y mae mynorfaen gwŷn prydferth ar un tu i'r areithle, er coffawdwriaeth am Mr. Jones; a mynorfaen cyfunfath ar y tu arall, er coffawdwriaeth am y diweddar Barch. John Hier, yr hwn oedd yn gweinidogaethu yma tra y bu'r eglwys yn gangen o Bethesda, Maesaleg. Y mae y Saesonaeg yn ennill tir yn fawr iawn yma. Y mae yn agos yr holl wlad amaethyddol hon yn feddiant i Arglwydd Tredegar, plasdy yr hwn, sef Tredegar Park, nid yw neppell o'r lle. Y mae plasdai eraill o amgylch iddo hefyd, ac y mae

Digitized by Google

plasdy Syr George Taylor, Barwnig, mab-yn-nghyfraith Arglwydd Tredegar, yn y pentref; ac felly y mae plasdy newydd John Davies, Yswain, yr hwn a elwir Bryn Ifor, ac i'r hwn y mae Gwilym Maesaleg wedi cyfansoddi yr englynion canlynol:—

"Bryn uwch Hafren, Bryn iach hyfryd,—Bryn lles
Bryn llawn ar bob enyd;
Bryn yr aur, a Bryn yr ŷd,
Bryn y rhodd, a Bryn rhyddyd.

"Bryn dewisol, Bryn dieisor,—Bryn Gwent,
Bryn gwych bardd a cherddor;
Bryn y stâd, a Bryn y stôr,
Bryn hafaidd yw Bryn Ifor."

Cynhelir tair offeiriau anifeiliaid yma bob blwyddyn, sef ar Mai 6, Awst 5, a Thachwedd 26. Y mae poblogaeth y lle yn cael ei rhoddi gydag un y plwyf.

**CASTLE-WRIGHT**, sydd drefgordd yn nghwmwd Ystrad Marchell, cantref Ystlyc, plwyf Mainstone, yr hwn sydd yn rhanbarth isaf cantref TREFALDWYN, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU; 5¼ milltir o Drefaldwyn. Yr oedd y drefgordd hon gynt yn ffurfio rhan o faenoriaeth Tairtref, neu y tair trefgordd, gyda'r rhai yr oedd capel yn gysylltiedig, gweddillion yr hwn a welid yn ddiweddar yn y Pentref, ond wrth ranu y faenoriaeth, cysylltwyd y drefgordd hon â phlwyf Mainstone. Y mae y ffordd o Bishop's Castle i Drefaldwyn, yn rhedeg drwy y lle. Y mae yn awr yn un o'r deunaw plwyf a threfgorddau a gydgorphorwyd drwy weithredoedd seneddol, a wnaed yn y 32n. a 36n. Sior III., er cynal eu tlodion eu hunain yn "Nhy-diwydrwydd" Forden.

**CASWALLAWN LAW-HIR** ydoedd fab i Einiawn Yrth, ac ŵyr i Cunedda Wledig, tywysog Ystrad Clwyd, a rhanau eang o Wynedd. Pan drawsfeddianodd y Gwyddelod barthau o Wynedd yn y bedwaredd ganrif, anfonodd Cunedda amryw o'i feibion i Gymru, i'r dyben o yru y Gwyddelod allan, ac adenill eu tiriogaethau.

Ac wedi llwyddo yn hyny, hwy a ranasant y wlad rhyngddynt, gan ymsefydlu yn ngwahanol barthau y dywysogaeth. Rhan Einion Yrth ydoedd Caer Einion a'r cylchoedd, yn Swydd Drefaldwyn. Efe a ddilynodd ei dad i'r orsedd yn 389, ac yn 443, dilynwyd yntau gan ei fab, Caswallawn Law-Hir.

Daeth Caswallon yn dra enwog oblegid ei Oruchafiaeth ar y Gwyddelod a'r Pictiaid, a'i nawdd i grefydd. Ymladdodd frwydr ofnadwy â'r Gwyddelod, yn agos i'r fan lle saif Caergybi yn bresenol, pryd y lladdodd eu blaenor *Serigi*, a'i law ei hun; ac y llwyr waredodd y dywysogaeth oddiwrth eu gormes. Ac er coffadwriaeth am y fuddugoliaeth fawr hono, efe a adeiladodd gapel ar y fan lle y cwympasai *Serigi*, yr hwn a elwid gynt "Capel y Gwyddyl," a'r ardal yn "Llan y Gwyddyl," ond wedi hyny Cor Cybi, ac yn awr Caergybi. Wedi hyn efe a adeiladodd balas ar yr ochr arall i'r Ynys, yn agos i Amlwch, gweddillion yn hwn a elwir hyd heddyw "Llys Caswallon;" ac un arall yn Nghreuddyn, yn agos i afon Gonwy, a elwir yn awr "Bodyscallen," sef Bod Caswallon.

Yn ei ddyddiau ef y sefydlwyd tri chôr, neu dair athrofa, yn Ynys Fon, er dwyn gwyr ieuainc crefyddol i fynu i weinidogaeth y Gair; un yn Llan y Gwyddyl, dan lywyddiaeth *Cybi*, yr hon a elwid *Cor Cybi*, ac yn awr Caergybi; y llall yn ngogleddddwyrain yr Ynys, yn agos i Lŷs y brenin, dan lywyddiaeth *Elian*, oddiwrth ba un y galwyd y lle *Llanelian;* ar drydedd yn ngwr dwyreiniol yr ynys, yn y lle a elwir Penmon, dan lywyddiaeth *Seiriol*, ac ar ei enw ef y gelwir ynys fechan gyfagos, yn "*Ynys Seiriol;*" ond "Ynys Glanach," y gelwid hi cyn hyny.

Ymddengys fod Caswallawn yn noddwr mawr i'r tri wŷr hyn, ac yn rhoddi iddynt lawer o gymorth, trwy ei elusenau a'i ddylanwad, i ddwyn yr achos da yn mlaen yn Mon a'i chyffiniau.

Ond ymddengys mai Elian oedd ei gapelwr, a'i fod yn dra hoff o hono, ac wedi rhoddi iddo lawer o diroedd a breintiau, yn nghyd a gwneyd ei grefydd-dy yn *noddfa*. Mae y traddodiad canlynol am y ddau, yn aros ar lafar y werin, yn yr ardal hono hyd heddyw:—Archodd Caswallawn i Elian ollwg ei gi ar ol un o geirw y brenin; a pha faint bynag o dir a amgylchai y carw wrth redeg o flaen y ci, y rhoddai efe hyny at gynal crefydd yn y rhan hono o'r wlad; ac felly, meddir, y nodwyd allan blwyf Llanelian yn Mon, ac mae yno aber fechan yn agos i Borth Elian a elwir "Llam y Carw," yn aros yn goffadwriaeth am y rhedfa uchod.

Pan byddai Caswallawn yn aros yn ei balas yn Nghreuddyn, byddai Elian yn arfer dyfod ato, i weinyddu iddo ef a'i deulu mewn pethau crefyddol; ac ar yr achlysur hwnw yr adeiladodd efe eglwys Llanelian, swydd Dinbych.

Yr oedd Caswallawn yn un o "Dri Hualogion Deulu Ynys Prydain, o herwydd caniateid iddynt wisgo aurdorchau, ac awdurdod brenin a roddid iddynt yn eu terfynau eu hunain, tan raith gwlad a chenedl.

Ynddo ef y dechreuodd goruchafiaeth unbenaethol teulu Cunedda Wledig yn Ngwynedd. Efe a wisgodd yr hualau aur, ac a deyrnasodd mewn anrhydedd a llwyddiant am 74 o flynyddoedd. Ac ar ei farwolaeth, yn 517, dilynwyd ef i'r llywodraeth gan ei fab, Maelgwyn Gwynedd.

**CATHEDIN**, plwyf yn nghantref TALGARTH, undeb a swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU, 6¼ milldir i'r Dwyrain De Ddwyrain o Aberhonddu. Y mae yn gorwedd ar y ffordd o Grughywel i Dalgarth, gerllaw Llŷn Safaddan, neu Lŷn Llangors. Dywed Theophilus Jones, Yswain; awdwr medrus "Hanes Sir Frycheiniog" yn Seisneg, fod y gair yn deillio o "Dir y Caeth Adyn," am ei fod wedi cael ei roddi gan Bernard de Newmarch tuag at gynnaliaeth Gwrgan, yr hwn oedd fab i Bleddyn, tywysog y rhan yma o'r wlad, a'r hwn oedd yn cael ei gadw yn gaeth gan Bernard yn nghastell Aberhonddu. Yma y safai bwrdeisdref Blaenllyfni, a'r castell ardderchog ag oedd yn perthyn iddi. Nid oes dim gwybodaeth sicr am adeiladydd y castell Normanaidd hwn; ond o herwydd ei agosrwydd at y Llŷn a nodir uchod, barna rhai haneswyr mai yr un ydyw a *Brecenanmere*, preswylfod Hwgan, tywysog penadurol Brycheiniog, yr hwn a gymmerwyd gan Ethelfleda, Tywysoges Mercia, gwedi gorchfygu o honi Hwgan ar gyffiniau ei diroedd, a'r hon a ddygodd ymaith ei wraig a'i blant yn garcharorion i Loegr. Gellid dwyn llawer o wrthwynebiadau yn erbyn y dŷb hon, ac y mae yn fwy tebyg fod castell Blaenllyfni gwedi cael ei adeiladu gan un o arglwyddi y cyffiniau, a'i fod yn rhan o diriogaethau William de Breos, ac iddo gael ei fforffedio i'r goron, ar gollfarniad y pendefig hwnw, yn nheyrnasiad y brenin Ioan, yr hwn a'i rhoddes ef i'w gyfaill Peter Fitzherbert; cymmerwyd ef oddiwrth y Peter hwn

Digitized by Google

gan Giles de Breos, ac ar farwolaeth hwnw yn ddi-etifedd, disgynodd i'w frawd Reginald de Breos; ond wedi cymmodiad Reginald â'i dad-yn-nghyfraith, dychwelwyd ef i Fitzherbert. Ar farwolaeth y pendefig hwnw, rhoddwyd ef gan y brenin i Walroud de Teys, oddiwrth yr hwn y cymmerwyd ef gan Peter de Montford, oddiwrth yr hwn y pasiodd i deulu anrhydeddus de Spencer a Mortimer: ar farwolaeth Mortimer, Iarll diweddaf March, daeth i feddiant ei frawd-yn-nghyfraith, Richard, Iarll Caergrawnt (*Cambridge*), ond gan fod llaw gyda'r Iarll hwn yn ngwrthryfel Jack Cade, fforffedwyd castell Blaen-llyfni i'r goron unwaith drachefn, a rhoddwyd ef a'i gyfoethau, yn nheyrnasiad Iago I., i Syr Dafydd Williams, Gwernyfedd. Yr oedd y castell yn dad-feilio yn amser Leland, ac o'r adeilad gorwych hwn nid oes yn awr yn sefyll ond darn o hen fur; ac am yr hen fwrdeisdref, yr hon oedd yn mwynhau brein-niau lawer, nid oes careg o'i holion i'w gweled. Rectoriaeth ryddhaol yw y fywioliaeth eglwysig, ac y mae yn cael ei threthu ar lyfrau y frenines yn 5*p.* 2*s.* 11*c.*; y mae yn esgobaeth Tŷ Ddewi, ac yn werth 141*p.* y flwyddyn. Y mae'r eglwys gwedi cael ei chyssegru i St. Michael, ac y mae yn ei chlochdy dair o glychau. Y mae yma ysgol ddyddiol, ac y mae trethoedd y plwyf tua 100*p.* y flwyddyn. Y mae'r plwyf yn mesur 1567 o erwau. Poblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, 200.

**CATHEN**, Sant, ydoedd fab neu ŵyr i Caradawg Freichfras, a sefydlydd eglwys Llangathen, swydd Gaerfyrddin. Ei ddyddgwyl oedd Mai 17.

**CATTWG DDOETH** ab Gwynlliw Filwr ab Glewys ab Tegid ab Cadell Deyrnllwg, oedd sant nodedig am ei ddysg a'i ddoethineb, yn niwedd y 5ed, a dechreu y 6ed, ganrif. Ei fam oedd Gwladys, merch hynaf Brychan Brycheiniog: Derbyniodd ei addysg yn Caerwent, o dan Sant Gwyddelig o'r enw Tathai. Wedi iddo yn ol cyfraith *Gafail cenedl* ddyfod i feddiant o ran helaeth o diriogaeth ei dad, efe a adeiladodd ar ei dir ei hun, Fynachdy Llancar-fan yn Morganwg, yr hwn a lywodraethai ei hun, ac yn yr hwn yr arferai letygarwch diderfyn. Dywed *Capgrave* ei fod yn cynal cant o bersonau crefyddol ar ei draul ei hun, a chynifer a hyny o *weddwon*, a chynifer a hyny drachefn o bobl dlodion, heblaw y rhai a ymwelent ag ef yn feunyddiol. Yma yr enillodd yr enw hybarch a chenedlaethol—Cattwg Ddoeth. Dywed rhai iddo farw yn Ngogledd Cymru, tua'r flwyddyn 570.—*Jones's Brecknockshire.*

Mae hanesion eraill yn dyweyd mai Garmon, pan alwyd arno i ddyfod i'r wlad hon i wrthladd heresi Morgan, a sefydlodd ysgolion yn Caerlleon ar Wŷsg, Llancarfan, a Llanilltyd Fawr, ac a osododd Dyfrig yn ben ar Ysgol Llancarfan; ond pan wnaethpwyd Dyfrig yn esgob Llandaf, i Cattwg gael ei osod yn abad yn Llancarfan yn ei le ef. Ond dywed golyg-ydd *Llyfr Llandaf*, mai Dyfrig a sylfaenodd goleg Llancarfan, ac mai Cattwg oedd yr *abbad cyntaf* yno; ond pa fodd bynag, mae yn amlwg mai dyma'r pryd y dygwyd esgobyddiaeth a mynachyddiaeth i Gymru. Er, mae yn dra thebyg nad oedd y crefydd-dai hyn, yn oes eu sylfaenwyr, yn ddim amgen na cholegau crefyddol, ond daethant wedi hyny yn brif noddfeydd Pabyddiaeth yn y wlad. Yn "Amser-oedd cof a chyfrif" *Iolo Manuscripts*, dywedir mai tua'r flwyddyn 430, "y gwnaethpwyd Llancarfan; a hono fu'r Fonachlog freiniol gyntaf a gad yn Ynys Prydain." Felly, mae yn canlyn mai Cattwg Ddoeth oedd yr abad cyntaf yn yr ynys, ac fel y cyfryw dylasai fod yn gymeriad gwir ddyddorol i'r hanesydd crefyddol. Ond yn lle hyny, mae mynachod yr oesau tywyll, wedi taflu cymaint o'u ysbwrial ar ei fywyd, a chyfansoddi cynifer o bethau yn ei enw, fel mae yn anmhossibl i ddeol y gwir oddi wrth y gau. Cy-hoeddwyd hanes ei fywyd yn y Lladin, yn yr hwn y dywedir i angylion weini ar ei enedigaeth, i ffynon darddu mewn lle sych er mwyn ei fedyddio, ac iddo yntau, ar ol neidio iddi, drochi ei hun dair gwaith yn y dwfr, yn enw'r Drindod. Cyflawnodd luaws o wyrthiau; megis galw am dân o'r nefoedd i losgi ysgubor,—cario marwor tanllyd yn nghwr ei fantell, —difa rhyw swyddog milwraidd, wrth edrych arno, fel mwg o flaen gwynt,—peri i'r ddaear lyncu un arall, am aflonyddu ei drigfa,—codi rhyw un o farw yn fyw,—troi bleiddiaid yn geryg,—taro'r ddaear yn Nghernyw, nes i ffynon darddu allan,—cymysgu dwfr o'r Iorddonen ag un arall, nes ei gwneyd i wella pob anhwyldeb,—ac wedi cyflawni miloedd o bethau tebyg, gorphenodd ei yrfa ar y nawfed o Chwefror, a chymerwyd ef mewn cwmwl gwyn o Nant Carfan, i ddinas Beneventum. Mae yn tori ffigyr neillduol yn y *Trioedd* hefyd; Megis, un o "Dri Gwynfebydd Ynys Prydain," un o "Dri Marchog Cyfiawn-bwyll Llys Arthur," un o "Dri di-wair Farchogion Llys Arthur," un o "Dri chyfiawn Farchogion Llys Arthur," un o "Dri doethion pen cyngor Arthur," ac un o "Dri doethion beirdd Llys Arthur." Ond gwel pawb a edrychant ar y dydd-iadau, nas gallasai Cattwg Ddoeth anrhydeddu Llys Arthur, ond yn nychymyg y mynachod. Ym-ddengys oddi wrth yr holl eglwysi sydd wedi eu cysegru iddo yn y dywysogaeth, fod ei enw wedi bod gynt yn lleng; ac nid oes llai na chan tudalen o'r *Myfyrian Archaiology* wedi eu cyfoethogi a'i ddiar-ebion, a'i goeth-ddywediadau.

**CAW** ab Geraint ab Erbin, ydoedd arglwydd Cwm Cawlwyd ar gyffiniau Ystrad Clwyd, yn nechreu y chweched ganrif. Gorfodwyd ef gan ymosodiadau parhaus y Gwyddyl Ffichti i adael ei diriogaeth, a chilio gyda'i deulu lluosog i Ynys Fon, lle yr ymsefydlodd yn Nghwmwd Twr Celyn, ar diroedd a roddwyd iddo gan Faelgwyn Gwynedd. Yr oedd ganddo deulu lluosog o blant, llawer o ba rai a hynodasant eu hunain fel rhyfelwyr, ac eraill a gofleidiasant fuchedd grefyddol, ac a sefydlasant amryw eglwysi; o herwydd hyny gelwir ei deulu ef, yn nghyda theuluoedd Brychan Brycheiniog, a Chunedda Wledig, yn Dair Gwelygordd Santaidd Ynys Prydain." Plant Caw yw y rhai hyn:—Peiro, Gallgof, Eugrad, Cennydd, Aneurin, Caffo, Dirinig, Cewydd, Maelawg, Gwrddyly, Cilydd, Huail, Eigr-awn, Cuhelyn Fardd, Cyngar, Samson, a Canna, ferch Caw.

**CAWRDAF**, mab Caradawg Freichfras, ydoedd fel ei dad, yn rhyfelwr enwog, ac olynodd ef i dy-wysogaeth Brycheiniog yn y 6ed ganrif. Yn y *Tri-oedd*, gelwir ef yn un o'r "Tri Cynweisiaid" (neu brif Weinidogion) Ynys Prydain; y ddau eraill oeddynt Caradawg ab Bran, ac Owain ab Macsen Wledig; a gelwid hwynt felly, oblegid pan benodwyd hwynt yn benllüyddion i wrthwynebu rhuthrgyrch-oedd y gelyn, daeth y wlad fel un gwr allan gyda hwynt.

Nid oes nemawr ddim o hanes Cawrdaf ar gael, ond ymddengys ei fod yn aelod o Goleg Illtyd, yn Mor-ganwg, a bod eglwys Abererch, yn swydd Gaeryn-

Digitized by Google

arfon, wedi ei chysegru iddo dan yr enw Llan Gawrdaf, oddiwrth yn hon y derbyniodd *Gwilym Cawrdaf* ei enw barddonol.

**CAWRDAF**, Gwilym, un o brif feirdd cadeiriol yr oes o'r blaen, a anwyd yn Nhyddyn Sion, plwyf Abererch, Arfon, Hydref 9, 1795. Ei enw priodol oedd William Ellis Jones, cafodd ei addysg foreuol yn ei ardal enedigol; a phan yn 13eg oed, rhwymwyd ef yn brentis o argraffydd gyda'i gefnder Mr. R. Jones, Dolgellau. Yr oedd barddoniaeth Dafydd Ionawr, a Dafydd Ddu-Eryri yn cael ei argraffu yn y Swyddfa ar y pryd, yr hyn, fel y tybir a enynodd yr awen ynddo yntau. Symudodd wedi hyny i weithio i Gaerynarfon, lle yr argraffid y "Diddanwch Teuluaidd," dan olygiad Dafydd Ddu.

Yr oedd erbyn hyn yn gryn fardd, a chyfenwid ef yn *Gwilym Cawrdaf* gan y "Gymdeithas Eryron," Tach. 24, 1816. Aeth yn fuan i Lundain, a chan ei fod yn fedrus mewn arluniaeth barthlenawl, cymerodd rhyw foneddwr ef i fyned gydag ef i deithio y Cyfandir; ac wedi iddo ddychwelyd, efe a ddilynodd yr alwedigaeth hono am gyfnod yn Nghaerodor a Chaerbaddon. Ar ei fordaith o'r Cyfandir, yn 1819, cyfansoddodd "Awdl i Dduw." Ymsefydlodd eilwaith yn Nolgellau, ac anfonodd Awdl "Hiraeth Cymro am ei wlad," i Eisteddfod Wrexham, yn 1820; ac "Awdl ar Gerddoriaeth," i Eisteddfod Caerynarfon, yn 1821. Yma graddiwyd ef yn fardd yn ol B. D. B. Y. P. gan Dafydd Ddu; Gutyn Peris; Robert Davies, Nantglyn; a Joseph Jones. Enillodd Gadair Gwent a Morganwg, yn 1822, ar "Awdl ar Raglawiaeth Sior IV." Yma y cyrhaeddodd ei uchelnod barddonol, pryd y graddiwyd ef yn "Athraw Cadeiriawg" gan y Gorseddogion,—Gwallter Mechain, Iolo Morganwg, Robert Davies, a Dewi Silin. Priododd yn niwedd y flwyddyn hono, ac ymadawodd yn fuan o Ddolgellau i swyddfa *Seren Gomer*, yn Nghaerfyrddin. Yma yr ymunodd â'r cyfundeb Wesleyaidd, gyda'r hwn y bu yn bregethwr cynorthwyol am dymor. Cyfansoddodd yn y cyfnod hwn, amryw ddarnau o gryn deilyngdod; megis Cywydd ar "Oresgyniad Môn," am yr hwn y derbyniodd wobr yn Eisteddfod Trallwm, yn 1824; ac Awdl "Mawrnad y Barwn Richards o Gaerynwch," erbyn Eisteddfod Caerynarfon, yn 1824. Yn 1830, efe a gyhoeddodd "Y Bardd, neu y Meudwy Cymreig;" a chyfansoddodd Gywydd ar "Dafydd yn canu y delyn o flaen Saul" erbyn Eisteddfod Beaumaris, yn 1832. Symudodd yn fuan ar ol hyny i swyddfa Josiah Thomas Jones, i Merthyr ac aeth gydag ef i Bontfaen. Yma y golygai ac yr ysgrifenai, bron i gyd, y "Gwron Odyddol"—Cyhoeddiad Misol at wasanaeth Yr Odyddion. Ac yma y cyfansoddodd ei Awdl faith, ar "Amynedd Cystuddiau, ac Adferiad Job," i Eisteddfod y Gordofigion. Efe hefyd, a gyfieithodd "Y Byd a Ddaw," gan Dr. Watts; a'r "Anturiaethau Cenadol," gan John Williams. A chynyrch ei ysgrifell ef yw, "Hanes y Nef a'r Ddaear, gan Josiah Thomas Jones." Gorlafur gyda'r pethau hyn, ac eraill, a ddadfeiliodd ei iechyd. Bu farw yn Nghaerfyrddin, Mawrth 27, 1848, yn 53 mlwydd oed; a chladdwyd ef yn mynwent Eglwys Pedr.

Yr oedd Cawrdaf, o ran agwedd a chyfansoddiad corphorol, yn ddyn o chwe throedfedd o daldra, ond eiddil a llathraidd; a hawdd y gwelid delw ei athrylith, ac ol ei lafur, wedi eu cerfio ar ei wyneb.

Ystyrid ef yn fardd uchelryw, a saif rhai o'i ddarnau yn emmau yr iaith.

**CEDOL**, Sant, a sefydlodd eglwys Llangedol, neu Pentir, ger Bangor. Ei ddyddgwyl oedd Tachwedd 1.

**CEDWYN**, Sant, ydoedd fab Gwgan Meigwron, o Madryn, ferch Gwrthefyr Frenin. Efe a sylfaenodd eglwys Llangedwyn, swydd Dinbych, lle mae beddfaen ac arni ddarlun offeiriad mewn cadwraeth ragorol; oddi wrth yr hyn y tybir mai yno y claddwyd ef.

**CEFN**, trefgordd yn mhlwyf Gelligaer, cantref Caerphili, swydd Forganwg, Deheudir Cymru, 5 milldir i'r De dde Ddwyrain o Ferthyr Tydfil, a 6 milldir o Gaerphili. Gorwedda yn rhanol ar lethrau bryniog y plwyf mawr hwn, ac y mae yn cael ei hamgylchu gan weithfeydd glô. Y mae rhanau o honi yn bur noethlwm, ond y mae yn well hyd lànau yr afonig Bargod, ac y mae yn y parth hwnw lawer o breswylfeydd rhagorol, wedi cael eu hamgylchynu gan blanigfeydd cangenog. Rhif y boblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, yw 659.

**CEFN**, trefgordd yn mhlwyf Cilcain, yn nghantref Cwnsyllt, swydd Fflint, Gogledd Cymru, 3½ milldir i'r gogledd orllewin wrth orllewin o'r Wyddgrug; poblogaeth yn 1861, ydoedd 220. Y mae yn cymeryd i fynu lechwedd mynydd uchel, fel y mae yr enw yn arwyddoccau, ar lan aswy yr afon Alun: ac y mae y ffordd o Ben-ar-lag i Ddinbach, yn myned ar hyd ei hystlys ogleddol.

**CEFN-COED-Y-CYMMER**, pentref mawr mewn trefgordd o'r un enw, yn mhlwyf y Faenor, cantref Pengelli, swydd Frycheiniog, Deheudir Cymru, tua 2 filldir o Ferthyr Tydfil; y mae'n sefyll ar lethr dymunol, rhwng y Tâf Fawr, a'r Tâf Fechan. y rhai sydd yn ymuno goris y pentref. Y mae yn cynnwys amryw dai da, ond tai glowyr, mwnwyr, a gweithwyr ereill, perthynol i weithfeydd haiarn Cyfarthfa, ydynt gan mwyaf, ac y mae'r oll wedi cael eu hadeiladu yn ddidrefn iawn. Y mae Mr. Crawshay, perchenog y gwaith haiarn uchod, yn byw mewn trigfa gastellawg arddunol, rhwng y Cefn a Merthyr, a elwir Castell Cyfarthfa, ac nid oes ond dau neu dri o bersonau yn y deyrnas mòr gyfoethog âg ef. O'r braidd y mae Mr. Crawshay gwedi cyrhaedd ei ganol oed ond nid yw yn alluog i glywed gair â'r glust er ys blynyddau lawer, ac y mae yn rhaid ysgrifenu pob gair ag sydd eisiau ei fynegu iddo. Y mae ychydig fŵn plwm i'w gael uwchlaw y Cefn, ond nid yw mewn digon o gyflawnder i dalu am ei weithio. Y mae yma ddau ddarllawdy, mwy nâ digon o dafarnau, ac amryw siopau; ond y mae nerth trafnidiaeth y pentref hwn yn myned i Ferthyr. Y mae yma neuadd ddirwestol, capeli gan y Bedyddwyr, yr Eglwyswyr, y Methodistiaid, yr Undodiaid, a'r Wesleyaid; a dau gapel gan yr Independiaid. Y mae yma ysgolion rhagorol i fechgyn ac i ferched, ac amryw o honynt yn rai byrddol. Yn y pentref hwn y mae holl waith y plwyf yn cael ei wneuthur, ac yma y mae'r gladdfa gyhoeddus ag sydd yn perthyn i Merthyr Tydfil a'r cylchoedd; y mae ar lethr ar làn y Tâf, y tu draw i'r pentref, yn yml y brif-ffordd ag sydd yn arwain o Ferthyr i Aberhonddu, ar hyd yr hon yr oedd tramwy mawr gynt. Y mae rheilffordd Merthyr Tydfil ac Aberhonddu, yn rhedeg drwy y lle, ac y mae arni yma bont geryg ardderchog, yn croesi Cwm y Tâf, yr hon sydd yn bur uchel. Y mae poblogaeth y pentref yn cael ei roddi gyda'r plwyf.

**CEFN-LLYS**, bwrdeisdref gyfranogol a phlwyf yn nghantref Cefn-Llys, swydd Faesyfed, Deheu-



Digitized by Google

DIR CYMRU, ar lân yr afon Ithon, 1½ milldir i'r De Orllewin wrth Dde, o Benpont, ac 8 milldir i'r De Ddwyrain o Raiadr-ar-Wy, ar yml y ffordd o'r Drenewydd i Llanfair-yn-Muallt. Y mae yn lle o hynafiaeth mawr, ac adeiladwyd castell ëang a chadarn yma, yn 1242, gan Ralph Mortimer, yr hwn a elwir gan rai haneswyr yn "Gastell Glyn Ithon," am ei fod yn sefyll ar uchelfa ar lân yr afon hono, ac yn agos a chael ei amgylchu ganddi; y mae adfeilion o hono yn aros hyd yn bresenol, ac yn ffurfio llinellau dyddorol yn yr olygfa. Y mae'r plwyf yn fryniog iawn, a chan nad oes ond ychydig goed yn tyfu yma, agwedd lled noethlwm sydd arno; ond y mae golygfeydd rhamantus a dymunol oddiar gopa aml i un o'r bryniau. Y mae mwnyddion yn barnu fod mwn plwm a glô hefyd i'w cael yma; ond y mae pob ymgais at gael o hyd iddynt, gwedi methu hyd yma. Llywodraethir y fwrdeisdref gan faeron, cofnodydd, a bwrdeisiaid, y rhai a etholir yn y maenorlys; ond nid oes un o honynt yn meddu awdurdod ynadol. Y mae yn cymmeryd i fyny tuag un ran o bump o'r plwyf, yn rhyw ddwy filldir ei hyd o'r dwyrain i'r gorllewin, a thua hanner milldir o'r gogledd i'r de. Y mae yn gydgyfranogol a Cnwc-glâs Knighton, Presteign, Maesyfed, a Rhaiadr, i anfon un aelod i'r Senedd, ac oddiar Act 1832 y mae yn etholfa dros y sir. Rectoriaeth ydyw y fywioliaeth eglwysig, ac y mae yn cael eu threthu ar lyfrau y frenines yn 8*p.* 19*s.* 4½*c.*; y mae yn esgobaeth Tŷ Ddewi, ac yn nawdd yr esgob. Y mae'r eglwys wedi cael ei chyssegru i St. Michael, ac yn sefyll ar gnwc tra rhamantus, yn nghanol bryniau cysgodfawr, ac o'r braidd y gellir myned atti yn y gauaf: y mae yn gynnwysedig o gorff a changell, ac y mae tŵr isel yn perthyn iddi. Y mae capel yma gan yr Independiaid, ac at gynal yr achos yn y lle, y mae un Mr. Jones wedi rhoddi fferm o'r enw Craigieuan, yn mhlwyf Llansaintffraid, ardreth flynyddol yr hon sydd yn 25*p.* Y mae capel yma gan y Bedyddwyr hefyd. Y mae Mr. Thomas Palmer, yn 1712; a'r Parch. Hugh Powell, yn 1713; gwedi rhoddi darnau bychain o dir er cymhorth i deulüesau tlodion nad oeddent yn derbyn tâl plwyfol. Y mae y Parch. Mr. Lewis hefyd, yr hwn a fu yn beriglor y plwyf, wedi gadael 25*p.* y flwyddyn, i'w rhanu rhwng amaethwyr methedig. Y mae trethoedd y plwyf tua 300*p.* y flwyddyn. Rhif poblogaeth y fwrdeisdref, yn ol Deiliadeb 1861, oedd 39—poblogaeth y plwyf, yr hwn sydd yn mesur 4135 o erwau, yw 395—poblogaeth y gantref, 3579.

**CEFNPAWL**, trefgordd unol a Gollon, yn mhlwyf ABBEY CWM HIR, swydd FAESYFED, DEHEUDIR CYMRU, 6½ milldir i'r Dwyrain wrth Ogledd o Raiadr-ar-Wy. Y mae yn gorwedd ar lân aswy yr afonig Clywedog, yr hon sydd yn aberu yma yn yr afon Ithon, mewn man cnydfawr, prydferth, a choedog, gerllaw adfeilion dyddorol monachlog Cwm Hir. Ychydig i'r de orllewin o'r drefgordd hon, y mae carnedd fawr o geryg rhyddion, copa yr hon sydd yn gau. Y mae gan y Bedyddwyr gapel yn y lle hwn. Rhif y boblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, oedd 164.

**CEFNPENNAR**, trefgordd yn mhlwyf ABERDAR, yn swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, 2 filldir i'r Dwyrain De Ddwyrain o Aberdâr. Y mae yn brydferth o goediog, ac yn gorwedd ar lethrau gorllewinol mynydd Twynmawr, ac y mae'r afon Cynon yn rhedeg heibio i'w thraed hi. Fel Dyffryn Aberdâr benbwygilydd, y mae'r lle hwn wedi cynnyddu mewn gwerth a phwysigrwydd, ac y mae yn cael ei breswylio gan fwnwyr a glowyr. Y mae'r boblogaeth yn chael ei chyfrif gydag un y plwyf.

**CEGIDOC**, a adwaenir yn well dan yr enw Llansant Sior, plwyf, yn cynnwys rhanbarthau Sant Sior, a Meifod, yn nghantref IS-DULAS, swydd DINBACH, GOGLEDD CYMRU, ddwy filldir i'r de ddwyrain o Abergeleu, ar y ffordd i Gaergybi, ac yn cynnwys 469 o drigolion, yn ol Deiliadeb 1861. Yr ydoedd gynt yn rhan o blwyf Llanelwy, ac yn enwog am ffynnon, gyssegredig i Sant Sior, i'r hwn, fel ei nawdd-sant yr arferai y goludog offrymu ceffyl, mewn trefn i sicrhau ei fendith ar y gweddill o'u meirch. Y mae y plwyf hwn wedi ei hynodi hefyd fel y llannerch lle y gwnaeth Owain Gwynedd ei wrthsafiad dewr-wych i Harri yr Ail, pan oresgynai y pennadur hwnw y dywysogaeth, byddinoedd yr hwn, wedi ei enciliad o Goed Eulo, a'r Maes Glas, a attaliodd efe yn effeithiol rhag treiddio yn mhellach i Gymru. Ar ben bryn a elwir Pen y Parc, neu, Pen Parc y Meirch, y mae yr amddiffynfa lle y gwersyllai Owain ar yr achlysur hwnw, mewn cyflwr tra chyfan eto: fe'i diffynir ar ddwy ystlys, gan fron-elltydd serth y mynydd, neu y bryn; ac ar y lleill, gan amglawdd triphlyg, agos i filldir o gylch. Ar yr ystlys ddwyreiniol y mae glas-rodfa deg, o'r hon y cair golygfa ehang a thra dyddorawl ar y wlad oddi amgylch. Ffinir y plwyf ar y tu gogleddol gan For y Werydd, ac o fewn oddeutu tair milldir o'r pentref, y mae porthladd Rhuddlan, yr hwn ar un adeg ydoedd yn lle pwysig. Y mae Cinmael, palas a pharc ysplenydd y diweddar arglwydd Dinorben, mewn rhan o fewn ei derfynau: ac oddiwrth ettifeddiaeth o'r enw "Dinorben," yn y gymmydogaeth hon, y cymerodd ei arglwyddiaeth ei deitl. Y mae plwm ac alcan wedi cael ei godi yn y gymmydogaeth; ond nid oes nemawr o weithio wedi bod ar y mwn-gloddiau yn ddiweddar. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorineth, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Llanelwy, trethedig yn llyfrau y frenines yn 10*p.* 3*s.* 4*c.*; ac yn nawddogaeth Tywysog Cymru. Yr oedd gan yr Annibynwyr le addoliad yn y pentref; ac yn y flwyddyn 1716, cyfododd un Mr. Daniel Williams ysgol ddyddiol, ac a'i gwaddolodd, er rhoddi addysg i blant tlodion; rhoddodd dir hefyd at freintwesu y rhai a ddysgent yn dda, er rhoddi rhyw alwedigaeth fuddiol yn eu llaw; ac adeiladodd dŷ i'r athraw, gan ordeinio mai gweinidog trigianol y gynnulleidfa Annybynol yn y lle, oedd hwnw i fod. Cafodd llawer iawn o blant tlodion y plwyf a'r amgylchoedd, addysg rad trwy yr elusen yma; a llawer eu hegwyddori mewn rhyw alwedigaethau parchus ac enillgar.

**CEIDIO**, SANT, ydoedd un o feibion Caw Cowllwg, ac yn ei flodeu yn y 6ed ganrif. Efe a sylfaenodd eglwys Ceidio, yn swydd Gaerynarfon; a Rhodwydd Ceidio, yn Mon. Yr oedd sant arall o'r un enw, yr hwn oedd fab i Ynyr Gwent, ac aelod o goleg Cattwg.

**CEIDIO** (*Rhod o Geidio*), sydd blwyf yn nghantref MENAI, swydd FON, GOGLEDD CYMRU, yn cynwys rhan o dref Llanerchymedd. Myn rhai mai Rhodwydd Ceidio ydyw yr iawn ysgrifeniad o'r enw, a bod coedwigoedd yn lluosog yn y gymydogaeth gynt. Nid yw hyn yn annhebygol, canys "y Goedwig," y gelwir yr heol honno o'r dref sydd yn nghyfeiriad Ceidio, hyd y dydd hwn. Y mae yr eglwys wedi ei

Digitized by Google

chyflwyno i St. Ceidio, sant enwog a flodeuai yn y chweched ganrif, ac a fu yn sylfaenydd i amryw eglwysi yn y dywysogaeth. Y mae yn sefyll gerllaw afon Alaw; nid yw ond yn cyrhaedd dros ddwy neu dair o ffermydd; y mae yn awr mewn cysylltiad â Llanerchymedd; y mae yr olygfa oddiyma yn brydferth, dros Gors y Bol, ar y tiroedd cyferbyniol; croesir yr afon, yn yr haf, ar bontbren, o dan Waredog. Y mae y fywioliaeth yn archddeonaeth Mon, ac esgobaeth Bangor; yr oedd gynt mewn cysylltiad â Llantrisant. Adeiladwyd yr eglwys yn 630. Y mae ychydig o waddolion yn perthyn i'r lle; ac y mae gan bump o dlodion y plwyf hwn hawl i freintiau elusendy Dafydd Huws, yn y Beaumaris, a sefydlwyd yn y flwyddyn 1609.

**CEIDIO**, sydd blwyf yn nghantref Dinllaen, swydd Gaernarfon, Gogledd Cymru; 6 milltir o Bwllheli. Y mae y tiroedd yma yn dywodog gan mwyaf, a pheth yn fawnogaidd. Y mae y fywioliaeth yn guradaeth barhaol, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Bangor, gyda 200*p*. o waddol mewn rhoddion personol, 1400*p*. o rodd frenhinol, a 600*p*. o rodd seneddol, ac yn nawddogaeth L. P. Jones Parry, Ysw., cyn cael y gwaddolion hyn, nid oedd cyflog y gweinidog ond 5*p*. yn y flwyddyn, a hyny o gymunrodd Owen Huws, Ysw., o Madryn. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i St. Ceidio, yn adeilad bychan, yn sefyll ar fryn prydferth. Nid yw y drefn o ddewis parcatwyr un amser yn cael ei harfer yn y plwyf hwn.

**CEINDRYCH**, Sant, oedd un o ferched Brychan Brycheiniog, ac yn byw yn Nghaer Godolawr, yn ol *Bonedd y Saint*, ond yn Llandegwyn, yn ol eraill. Sonia y Trioedd am Geindrych arall, yr hon oedd ferch i Elidir Gosgorddfawr.

**CEINFRON**, un o ferched Llywarch Hen.

**CEINFRYD**, un o ferched Cyndrwyn, Tywysog Powys.

**CEINWEN**, Sant, ydoedd un o ferched Brychan Brycheiniog, a sylfaenydd eglwysi Llangeinwen, a Cheryg Ceinwen, yn Mon, lle coffheid hi Hydref 8fed. Mae yn amheus pa un ai hi, neu ei chwaer, Ceneu neu Cenedlon, ydoedd *St. Keyne*.

**CEIRCHIOG**, sydd blwyf yn nghwmwd Llifon, cantref Aberffraw, Mon, Gogledd Cymru; 4 milltir o Fodedeyrn. Gelwir y lle weithiau "Bettws y Grog." Dywedir fod yr enw wedi ei gymeryd oddiwrth rinwedd arbenig y tir yma i gynnyrch ceirch. Y mae y fywioliaeth yn guradiaeth barhaol, yn archddeoniaeth Mon, ac esgobaeth Bangor. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i'r groes santaidd; ar le dengar, yn agos i brif ffordd Caergybi y saif. Gadawodd Sergeant Wynne ychydig o waddolion i'r lle.

**CEIRIOG**, Huw, bardd genedigol mae yn debyg o Glynceiriog, swydd Dinbych. Yr oedd yn ei flodeu o 1580 i 1620. Mae peth o'i waith yn nghadw mewn Ysgrifau.

**CEIRIOG**, Sion, neu John Edwards, a anwyd mewn lle a elwir Crogen Wladys, yn agos i Gastell y Waen, Glynceiriog, 1747. Aeth i Lundain yn ieuanc, ac efe, Owain Myfyr, a Robin Ddu o Fon, oedd y tri a sefydlasant Gymdeithas y Gwyneddigion, yn 1770. Dywedir mai Owain a grybwyllodd am y meddylddrych wrth Sion yn gyntaf, ac ymddiddanodd Sion am y peth wrth Robin Ddu.

Parotodd Sion Awdl i'r Gymdeithas erbyn Gwyl Dewi, 1778; a bu yn Ysgrifenydd iddi yn 1779–80, ac yn llywydd yn 1783.

Pan fu farw Richard Morus, llywydd y Cymrodorion, yn 1779, rhoddwyd ei goffadwriaeth yn destyn marwnad; a chyfansoddwyd Awdlau gan D. Ionawr, Jonathan Hughes, a Richard Jones o Fon; ond Sion Ceiriog a gyfansoddodd Awdl Bindaraidd (*Pindaric Ode*).

Barnodd y ddau feirniad, Owain Myfyr a Robin Ddu o Fon, mai Awdl Richard Jones oedd yr oreu; ond mynai y Gymdeithas mai Awdl benrydd Sion Ceiriog oedd yr oreu, a bu rhyfel mawr yn eu plith. Bu farw ar ol cystudd byr yn 1792, yn 45 mlwydd oed. Ysgrifenodd John Jones, Glan y Gors, Englynion hynod ganmoliaethol, er cof am dano, yn yr *Eirgrawn*, Mehefin 1796, gyda'r rhagnod canlynol:—"Er coffadwriaeth am John Edwards, Glyn Ceiriog, yn mhlwyf Llangollen, Sir Dinbych, yr hwn a elwid yn gyffredin Sion Ceiriog; bardd, arcithiwr hynod, ac hefyd serydd, a hanesydd cywrain am for a thir; a thriniwr offerynau cerdd, a gwir garwr ei wlad, a'r hen famiaith Gymraeg, yr hwn (er mawr alar i'w gyfeillion) a fu farw, ac a gladdwyd yn Llundain, yn mis Medi, 1792."—*Enwogion Cymru.*

**CEITHO**, Sant, oedd fab i Cynyr Farfdrwch, o Gynwyl Gaio, swydd Gaerfyrddin, a sylfaenydd eglwys Llangeitho, swydd Aberteifi. Dywedir mai efeilliad oedd ef a'i bedwar brawd—Gwyn, Gwyno, Gwynoro, a Celynin; ac i'r pump arwedd bywyd crefyddol.

Yr oedd unwaith gapel yn mhlwyf Caio, o'r enw Pumsant, yr hwn, gydag eglwys Llanpumsant, ger Caerfyrddin, a gysegrwyd iddynt.

**CELER**, Sant a Merthyr; yr hwn y mae eglwys Llangeler, swydd Gaerfyrddin, wedi ei chyssegru iddo.

**CELYNIN**, Sant, ydoedd fab i Helyg ab Glanawg, ac yn ei flodau yn y 7fed ganrif. Efe a sylfaenodd eglwysi Llangelynin ger Conwy, a Llangelynin yn Meirion.

**CELLAN**, plwyf yn rhanbarth uchaf cantref Moyddyn, Ceredigion, 3 milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Lanbedr pont Stephan. Yr oedd y ffordd Rufeinig i *Loventium*, (Llanio), yn myned drwyddo, ac y mae gweddillion o honi i'w gweled bron ar lan Teifi. Y mae careg fawr yma ar garnedd gron, yr hon a elwir Llech Cynon, ac y mae gweddillion Derwyddol ereill yma, gyd ag olion beddau, neu gist-feini, gelwir un o honynt "Bedd y Forwyn," ac un arall Byr-faen, &c. Y mwyaf nodedig o'r carneddau, ydynt ddwy o rai mawrion ar fynydd uchel, yn agos i'r ffordd sydd yn cyfeirio o Lanfair i Lan y crwys: y mae un arall hefyd a elwir y Tair Carnau, y rhai ydynt oll yn gynnwysedig o bentyrau o geryg mawrion; a bernir mai ar feddau rhyfelwyr y maent. Y mae maen arall ar derfynau y plwyf, a elwir Careg tair croes; nid gwyddfa feddrodol yw hon, ond yn hytrach careg derfyn. Y mae dwy o gerig mawrion iawn hefyd ar y mynydd, o'r tu deheuol i'r afon a elwir Ffrwd Gynon, y rhai y tybir eu bod wedi eu cyfleu yno er coffâd am ryw fuddugoliaeth fawr: y mae un a elwir Byr-faen, 15 troedfedd o hyd, a phedair o led a thrwch, yn gorwedd ar y ddaear yn bresenol; ond y llall, a elwir Hir-faen Gwyddog, un droedfedd ar bymtheg o uchder, sydd yn sefyll eto. Ar domen arall, a gylchynir gan ddyfr-ffos, y mae careg fawr iawn, un droedfedd ar bymtheg o hyd, yn gorwedd, a elwir Maen y Prenfol; neu, Maen Prenfol Gwallt Gwyn;

Digitized by Google

ac yn agos iddo, ar yr un domen, y mae un arall, tuag wyth droedfedd o uchder yn sefyll. Y mae hefyd dair o hen werthyroedd milwraidd o fewn y plwyf hwn; un ar ben y bryn, islaw yr hwn y llifeiria yr afon Ffrwd, a elwir Caer Morus; un arall ar y tyddyn a elwir Glan ffrwd, yr hon sydd yn hirgron; a'r drydedd, yr hon sydd gron, ac o faintioli mawr, rhwng y tyddyn hwnw a phlwyf Pencarreg. Yma y ganwyd y Parch. Moses Williams, ficer Defynog, yr hwn oedd yn ysgolor da, a henafiaethwr gwych. Perigloriaeth rydd yw y fywioliaeth eglwysig, yn archddiaconiaeth Ceredigion, ac esgobaeth Ty Ddewi; wedi ei threthu yn llyfrau y frenines i 5*p.* 7*s.* 8½*c.*; ei gwaddoli â 200*p.* o gedrodd freninol; ac yn noddaeth Esgob Ty Ddewi. Y mae lleoedd addoliad yn y plwyf yn perthyn i'r Annybynwyr a'r Henaduriaethwyr. Poblogaeth 532 yn ol Deiliadeb 1861.

**CELLAN BENCERDD**, ydoedd brif-fardd telyn Gruffydd ab Cynan yn 1015. Ymddengys mai Gwyddel ydoedd, a gyrchasai Gruffydd i Wynedd, gyda'r amcan i wellhau cerddoriaeth.

**CELLI**, THOMAS, ydoedd fardd enwog yn niwedd yr 16eg cant. Mae amryw o'i gyfansoddiadau ar gael mewn llaw-ysgrifau, ond y mwyaf adnabyddus o honynt, yw ei "Gywydd i'r 2000 saint aethant i Enlli." Argraffwyd hwn yn y *Brython*, a chyfieithad o hono yn y *Cam. Reg.* vol. iii. Dechreua fel y canlyn:—

"Awn i Enlli rhi yn rhod,
O nwyf bur i nef barod.
Down i'r ardd, dyna'r urddas,
Ar draws goror glwysfor glas,
I'r ynys bob rhyw unawr,
Ac wrthi mae gwyrthiau mawr;
Ugain mil a ganmolwn,
O saint draw sy'n y trwn."

**CELLYWION**, neu CELLIWYN, pentref yn mhlwyf Llantrissent, cantref MISCYN, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, cyfodir llawer o lô yn y lle hwn, yr hwn a allforir i'r Iwerddon, a gwledydd ereill.

**CEMMAES**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanbadrig, cwmwd TAL-Y-BOLION, MÔN, GOGLEDD CYMRU; 5 milltir o Amlwch. Y mae eglwys y plwyf o fewn y drefgordd hon. Y mae cilfach yn nglan y mor, gyferbyn a'r pentref, sydd yn llunio porthladd wrth natur, y mae hyny yn fanteisiol iawn, i allforio y "Mynor Mon," sydd yn cael ei gloddio rhwng yno a Llanfechell, gydâg eiddo ereill. Yr oedd y lle hwn gynt, yn cynal ei dlodion ei hun, ond y mae yn awr wedi ei uno â Chlegyrog. Y mae y pentref yn dangos cryn bwysigrwydd; y mae y mor-gilfach sydd gerllaw, a elwir *Bull Bay*, yn tynu cryn sylw fel ymdrochle yn yr haf, yn y dyddiau hyn. Y mae llawer o olygfeydd swynol yn y gymydogaeth hon.

**CEMMAES**, sydd blwyf yn nghantref MACHYNLLAETH, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU; 7 milltir o Machynllaeth. Dywedir mai ystyr yr enw ydyw, chwareufa campau. Y mae y pentref yn sefyll ar le prydferth, ar ochr ddeheuol yr afon Dyfi, ac ar y brif-ffordd o'r Trallwng at Fachynllaeth ac Aberystwyth, yr hon, ar ychydig o bellder yn ogleddol iddi, sydd yn cyd-redeg a'r afon hyd derfyn ei thaith. Y mae golygfa darawiadol o Moel Eiddau ar ddyffryn Cemmaes a Mallwyd, drwy y lle y rhed y Dyfi, rhwng y clogwyni uchel, Cader Idris, Aran Mowddwy, Plumlumon, a bryniau eraill. Y mae tua y drydedd ran o'r plwyf yn ddefeid-dir, yn perthynu i'r tirfeddianwyr ar y terfynau; y mae cyflawnder o fawn at danwydd yn y gymydogaeth. Cynelir y Ffeiriau ar Mai 1; Medi 9fed; a Tachwedd 24n. Y mae y fywoliaeth yn berigloriaeth, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Llanelwy. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Tydecho, ac yn adeilad hardd. Y mae yma leoedd o addoliad gan y Methodistiaid a'r Annibynwyr. Gadawodd Derwas Gruffydd, waddol i'r tlodion yma yn 1669; Bridget Mostyn, 40*p.* yn 1730; a Grace Price 20*p.*, yn 1784. Y mae olion gwersyllfa Rufeinig ar ben Moel Eiddau; cafwyd rhai offerynau pres Celtaidd yma yn 1824, a fuant yn meddiant y Parch. Isaac Bonsall, offeiriad Llanwrin.

**CENARTH**, plwyf yn undeb CASTELLNEWYDD-YN-EMLYN, rhandir uchaf cantref ELFED, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, 3 milldir i'r Gorllewin Ogledd Orllewin o Gastellnewydd, yr hon sydd farchnattref fwrdeisiol yn y plwyf hwn. Y mae ceryg adeiladu yn cael eu cloddio yma, ac y mae'r ffermydd yn cael eu gwrteithio yn dda. Y mae'n sefyll yn un o'r manau mwyaf dymunol yn Nghymru, ar lân yr afon Teifi, yr hon a groesir yma gan bont dlôs iawn o geryg, dros yr hon y mae prif-ffordd Caerfyrddin ac Aberteifi yn myned. Y mae'r golygfeydd oddiamgylch yn amrywiol, ac yn hynod o brydferth. Y mae yma gyfres o raiadrau bychain, y rhai a elwir yn llam yr ëog, y rhai sydd yn rhamantus dros ben, ond y mae'r ëogiaid yn niweidio eu hunain yn fawr wrth geisio myned drostynt. Ar ochr sir Aberteifi y mae gored, yn yr hon y mae llawer o ëogiaid yn cael eu dal. Perthyna i deulu Peneraig, y mae yn rhan o ffermdy o'r un enw, ac yn cael ei gosod am ardreth flynyddol. Y mae yma amryw gorwglau hefyd, yn pysgotta gyda rhwydau, ac yn dàl llawer o ëogiaid. Gerllaw y pentref yma y mae Gellidywyll, palas y Bristockiaid, y rhai yw meddiannwyr llëygol degwm y plwyf. Ficeriaeth ryddhaol ydyw y fywioliaeth eglwysig, ac y mae yn cael ei threthu ar lyfrau y frenines yn 4*p.* 6*s.* 8*c.*; y mae gwedi cael ei gwaddoli a 400*p.* o rodd freninol a 800*p.* o rodd seneddol; cyfanwerth presenol 185*p.* y flwyddyn, ac yn nawdd Esgob Tŷ Ddewi. Y mae'r eglwys wedi cael ei chyssegru i St. Llawddog, ac yr oedd yn eglwys fechan hardd, ond y mae gwedi myned yn rhy ddadfeiliedig i gynnal gwasanaeth ynddi, fel ag yr ydys yn gorfod defnyddio yr ysgoldy at y gwaith hwnw. Y ficar presenol yw y Parch. H. L. Davies (*Bardd Coch*), yr hwn sydd wedi adeiladu gwlatty hardd yma. Bu Mr. William Griffiths yn dàl y gored yma am flynyddau, ac arferai ddanfon ëogiaid i'r teulu breninol. Ysgrifenai aml i ddarn i "Seren Gomer," ddeugain mlynedd yn ol, o dàn yr enw *Gwilym Gloff Glàn Teifi.* Y mae'r plwyf yn mesur 6429 o erwau. Y mae'r trethoedd blynyddol tua 500*p.* y flwyddyn. Y boblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, yw 1744.

**CENARTH**, trefgordd yn mhlwyf ST. HARMON, cantref RHAIADR (yr hon gynt a elwid cantref MAELIENYDD), swydd FAESYFED, DEHEUDIR CYMRU, 2¼ milldir i'r Gogledd Ogledd Ddwyrain o Raiadr-ar-Wy. Y mae yn ffurfio rhan isaf neu ddeheuol y plwyf, ac y mae'r afonig Merthyd yn rhedeg drwyddo, yr hon sydd yn aberu yn yr Wy gerllaw yma. Yn y drefgordd hon y saif eglwys y plwyf, ac y mae'r ffordd o Raiadr i Lanidloes yn myned drwy y dyffryn, gan groesi y Merthyd yma, dros bont ag sydd gerllaw

Digitized by Google

yr eglwys. Y mae yma fynydd uchel a elwir Moel Howel, gyda mynyddoedd uchel ereill, ond ychydig is na'r Foel. Poblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, 500.

**CENEDLON**, neu CENAU, SANTES, ydoedd ddeunawfed ferch Brychan Brycheiniog, ac un o'r rhai mwyaf enwog o'r seintiau Cymreig.

Rhed ei hanes, fel y gosodir ef allan gan Capgrave, Cressy, Theophilus Jones, ac eraill, fel y canlyn.—Pan dyfodd i aeddfedrwydd oedran, ceisiwyd hi gan amryw o wyr urddasol, ond hi a wrthododd y sefyllfa briodasol am ei bod wedi cyflwyno ei morwyndod i'r Arglwydd trwy adduned barhaus; am hyny galwyd hi o'r pryd hwnw allan yn Cenedlon y Forwyn. O'r diwedd penderfynodd adael ei gwlad, a myned i chwilio am ryw lanerch annghyfaneddol, lle y gallai drigo mewn unigedd a myfyrdod duwiol. Wedi iddi groesi yr Hafren, hi a welodd goedwig gyfleus, gwnaeth gais at arglwydd y wlad hono am y lle er gwasanaethu Duw ynddo; caniataodd yntau ei dymuniad iddi. Ond yr oedd y lle yn orlawn o nadrodd a seirph, fel na's gallai dyn nac anifail fyw ynddo; am hyny gweddiodd Sant Cenau ar yr Arglwydd, ac efe a drodd y nadrodd a'r seirph yn geryg. A thyna y rheswm bod ceryg' y lle hwnw (yr hwn a elwir yn awr Keynsham, rhwng Caerodor a Chaerbaddon), yn debyg i Seirph troellog hyd y dydd heddyw. (*Cornu Ammonis* y gelwir y cyfryw mewn Dacareg.) Ond ar ol llawer o flynyddoedd, wedi i'w henwogrwydd ymledu dros yr holl wlad, a llawer o gapeli gael eu hadeiladu ganddi, daeth ei nai St. Cattwg (Cathog Ddoeth), heibio, wrth fyned ar ei bererindod i fynydd St. Mihangel, ac efe a geisiai ei chymeryd adref gydag ef, ond ni adawai y trigolion iddo. Eithr yn mhen ysbaid ar ol hyny hi a ddychwelodd ar orchymyn angel, ac a adeiladodd drigfan iddi ei hun ar ben bryncyn, wrth droed mynydd uchel yn swydd Frycheiniog; ac mewn atebiad i'w gweddi, tarddodd ffynon iachusol allan o'r ddaear yn y lle hwnw, yr hon a elwir Ffynon Genau. a *St. Keyne's Well*, i'r hon y perthynai gynt amrywiol rinweddau; megis iachau clefydau, neu roi awdurdod i'r gwr neu i'r wraig, a fedrai ar ol priodi, lwyddo i yfed yn gyntaf o'i dwfr, i fod yn ben ar y llall o hyny allan.

Gwisgodd Southey y traddodiad uchod mewn baled ddigrifol, yn yr hon y mae yn darlunio digrif-was yn gofyn i wladwr, ar ol deall ei fod yn briod, a wyddai ef am rinweddau y ffynon:—

"'You drank of the well, I warrant, betimes?'
He to the countryman said,
But the countryman smiled as the stranger spoke,
And sheepishly shook his head;
'I hastened as soon as the wedding was done,
And left my wife in the porch,
But she had been wiser i' faith than me
For she took a bottle to church.'"

Iddi hi mae eglwys Llangenau wedi ei chyssegru, ac mae y plwyf hefyd yn cael ei alw ar ei henw.

**CENEU** AB COEL GODEBOG ydoedd sant yn y 4edd ganrif.

**CENEU**, 4ydd archesgob Ty Ddewi, yn ei flodau yn y 6ed ganrif.

**CENFFIG**, CYNFFIG, neu CEFN-Y-FIGYN, plwyf unedig â phlwyf Pil, yr hwn sydd yn cynnwys y rhan fwyaf o fwrdeisdref Cenffig, yn undeb PENYBONT-AR-OGWY a PHONTFAEN, cantref CASTELLNEWYDD-AR-OGWY, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, 11¼ milldir i'r De Dde Ddwyrain a Gastellnedd, a 184 milldir i'r Gorllewin o Lundain. Y mae hwn yn le hynafol iawn, ac yn derbyn ei enw oddiwrth ei sefyllfa ar gefn o dir, goruwch hen figyn ag oedd yma; y mae'r figyn (*bog*), modd bynag gwedi myned yn llyn er ys amser diwybod; y mae'r llyn hwn tua dwy filldir ei amgylchedd, ac y mae ynddo bysgod o rywogaeth neillduol. Er ei fod yn yml y môr, ac wedi ei amgylchynu a thywod, nid oes ynddo unrhyw briodoleddau heliaidd. Yr oedd yn lle pwysig iawn gynt, ac yn ffurfio rhan o arglwyddiaeth ëang Morganwg; ond pasiodd drwy hawl goruchafiaeth, gyda meddiannau ereill Iestyn ap Gwrgant, Tywysog brodorol olaf Morganwg, i Robert Fitz-Hamon, y trais-ruthrwr Normanaidd a ddaeth drosodd gyda William y Gorchfygwr. Rhanodd Fitzhamon arglwyddiaeth Morganwg rhwng y marchogion oeddent yn ei ganlyn; ond efe a gadwodd arglwyddiaeth a chastell Cenffig iddo ei hun. O dân ddisgynyddion ac olynwyr Fitzhamon, cynnyddodd y dref mewn pwysigrwydd, a rhoddwyd iddi freintiau a hawliau corfforiaethol o werth mawr iawn. Ychwanegwyd at y breinioliaethau yma yn amser Edward II., drwy ddylanwad ei hoff-ddyn, Spencer yr ieuengaf; yr hwn a gafodd freinlen newydd oddiwrth y Goron i'r dref hon, ac i drefydd ereill yn ei arglwyddiaeth yn Morganwg. Yr oedd castell, tref, ac arglwyddiaeth Cenffig, tua chanol y 14eg ganrif, yn ffurfio rhan o waddol gweddw Hugh le Despencer, ar ei phriodas â Guy de Brien. Cadarnhawyd breinlen y dref gan Thomas le Despencer, arglwydd Morganwg, yr hwn gadarnhad sydd wedi cael ei ddyddio Mai 14, 1360; rhoddes ei fab Edward gadarnhad iddo hefyd, dyddiedig Chwefror 16, 1396; gwnaeth ei ferch Isabel yr un peth, Mai 1, 1423.

Yr oedd yn dref bwysig iawn y pryd hwn, ac yr oedd llysoedd cyfraith arglwyddiaeth Morganwg yn cael eu cynnal yma; cynnelid marchnadoedd mawrion iawn yma; dwy o ffeiriau blynyddol, pob un o ba rai oedd yn para wyth niwrnod; ac yr oedd yn lle o drafnidiaeth nid ychydig. Tua'r amser yma, modd bynag, dechreuodd y môr ymosod ar y dref, a gyru ei dywod am ei thraws; ac yn y diwedd, llwyr orchuddiodd hi agos, fel nad oes ond ychydig weddill o honi yn aros heddyw, ac nid yw amgen nâ phentref pysgotta. Y mae tua deuddeg troedfedd o un o dyrau yr hen gastell, i'w weled yn dyrchafu ei ben uwchlaw y tywod, ond y mae'r gweddill yn gladdedig tano; y mae ychydig o'r gylch-ffos hefyd i'w weled. Tua thri chân llath i'r de o'r castell, safai yr hen eglwys a'i monwent, yr hon oedd wedi ei chyssegru i St. Mair Magdalen, ac y mae esgyrn dynol i'w gweled ambell i waith yn y tywod. Rhoddwyd yr eglwys hon a'i pherthynolion, gan Henry, esgob Llandaf, i Fonachlog Margam, yn ol deisyfiad Walter, abad Tewksbury, ond drwy ryw ffordd, nad yw hanes yn mynegu, aeth yn feddiant i'r Goron. Gorseddwyd yr Henry uchod yn nghadair esgobaeth Llandaf yn 1199, a bu farw yn 1218.

Y mae Cenffig yn cynnwys tua 750 erw o dir amgauedig, a thua 800 o dir wast, yr hwn sydd yn gynnwysedig o fanciau tywod, a chwningfeydd (*warrens*), ac yn ymestyn o greigiau Sgêr, hyd Briton Ferry. Tyddyn anmhlwyfol ydyw y Sgêr, ar du deddwyreiniol Cenffig, ac yn y flwyddyn 1554, fe gafwyd Act Seneddol i benderfynu y ffiniau rhyngddynt, canys yr oedd yr hen ffiniau gwedi myned ar goll yn ngorchuddiadau y tywod. Yr oedd y Sgêr yn perthyn gynt i fonachlog Castellnedd, ond prynwyd hi

Digitized by Google

gan deulu Talbot, Margam; yn meddiant yr hwn y mae yn bresenol. Bu cariad-gerdd "Y Ferch o'r Sgêr" yn boblogaidd iawn yn Morganwg flynyddau yn ol, a llawer iawn o ddarllen a chanu arni. Y mae'r banciau tywod a nodir uchod, er mwyn eu rhwymo hyd y gellir, yn cael eu planu yn flynyddol a math o frwyn corsenog, a elwir *Arundo arenaria;* ac y mae'r amaethwyr cymmydogaethol, yn ol cytundeb cymmeriad eu tyddynod, yn rhoddi diwrnod neu ragor bob blwyddyn, at y gwaith hwnw. Cyn gorchuddiad y dref, yr oedd y brif-ffordd o Abertawy i Gaerdydd yn myned drwyddi, ond bu orfod ei throi drwy Pil, tua milldir a hanner i'r gogledd o'r lle hwn. Bernir hefyd fod yr hen ffordd Rufeinig a elwid *Via Julia Maritima* yn pasio gerllaw yma, canys y mae careg rhwng y lle a phentref Margam, ar yr hon y mae'r geiriau Lladinaidd canlynol yn gerfiedig;—*Pompeius Carantorius.* Y mae Cenffig yn un o'r bwrdeisdrefi henaf yn Nghymru, ac yn mwynhau ei hawliau hyd heddyw; llywodraethir hi gan bortref, cofiadur, a deuddeg o henuriaid; y mae'r portref yn cael ei ethol yn flynyddol o blith y bwrdeisiaid trigianol, ac y mae yn meddu awdurdod ynadol y tu fewn i'r fwrdeisdref; yr hon sydd yn cynnwys Cenffig Isaf, Cenffig Uchaf, a rhan o drefgordd Trissient; y mae'r ddau le olaf yn mhlwyf Margam, yr hwn sydd yn ffinio â'r plwyf yma. Yr oedd gynt yn gydgyfranogol yn ei hetholfraint â Chaerdydd, Aberafon, Bontfaen, Llantrisaint, Casllwchwr, Castellnedd, ac Abertawy; ond wedi rhanu y lleoedd yma, gan wneuthur dwy o adranau etholiadol o honynt; gosodwyd Cenffig yn adran Abertawy, gydag Aberafon, Casllwchwr, a Chastellnedd; ac anfonant un aelod i'r Senedd. Yr unig hawl ddiddadl i ryddid y fwrdeisdref, yn ol yr hen rëolau bwrdeisiol, ydyw bod yn feibion i fwrdeisiaid, ac yn anedig ar ol i'r bwrdeisiaid hyny gael eu derbyn i mewn. Maer Abertawy ydyw yr un sydd yn cymmeryd y pleidleisiau Seneddol—y *Returning Officer.* Y mae'r neuadd drefol gwedi cael ei hadeiladu yma yn nechreu y ganrif hon, a chostiodd tua 400*p.*; y mae'r llawr isaf o honi wedi cael ei droi yn dafarndy. Ficeriaeth ryddhaol yw y fywioliaeth eglwysig, wedi cael ei huno âg un Pil, ac yn cael ei threthu ar lyfrau y frenines yn 4*p.* 8*s.* 11½*c.*; y mae gwedi ei gwaddoli âg 800*p.* o rodd freninol, ac 800*p.* o rodd Seneddol, ac yn nawdd y Goron; cyfanwerth, 95*p.* y flwyddyn; meddiannydd llëygol y degwm, yw C. R. M. Talbot, Yswain, Margam, un o'r ddau Aelod Seneddol dros swydd Forganwg. Cychwynwyd ysgol ddyddiol i blant yma yn 1833. Y mae'r trethoedd blynyddol tua 130*p.* y flwyddyn. Poblogaeth y plwyf, yn ol Deiliadeb 1861, yw 278; poblogaeth y fwrdeisdref, 442.

**CENLLUG**, un o feibion Llywarch Hen.

**CENNARTON**, trefgordd unol â Badland, yn mhlwyf MAESYFED HEN, undeb KINGTON, y tu fewn i ffiniau bwrdeisdref MAESYFED NEWYDD, DEHEUDIR CYMRU, 2½ milldir o'r lle olaf a enwir. Y mae yn gorwedd yn yml y ffordd, rhwng Maesyfed Newydd a Disgoed, a cherllaw yr afonig Best, yr hon sydd yn troi melin Holbech. Y mae yma gapel o dàn yr eglwys, yr hwn sydd wedi cael ei gyssegru i'r Forwyn Fair. Y mae'r trethoedd yn y drefgordd hon tua 150*p.* y flwyddyn. Y mae'r boblogaeth yn cael ei rhoddi gydag un y plwyf.

**CENOL**, neu CANOL, adran yn mhlwyf LLANFIHANGEL-CWMDU, cantref CRUGHYWEL, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU, 5 milldir i'r Gogledd Orllewin o Grughywel. Y mae yn ffurfio canolbarth y plwyf, fel y dengys yr enw, ac y mae'r afon fechan Rhian-goll yn rhedeg drwyddo, yr hon a groesir yma gan bont: yr oedd yr hen ffordd Rufeinig a elwid "Via Julia" yn myned drwy yr adran hon. Y mae yma ddyffryn tlws iawn, wedi ei gysgodi gan fryniau dymunol, ac y mae llawer o anneddau prydferth iawn i'w gweled ar hyd-ddo. Y mae rhyw gymmaint o ddegwm yr adran hon yn perthyn i ficar eglwys St. Ioan yr Efengylydd, Aberhonddu, yn ol rhoddiad hynafol o eiddo un Pycard, marchog Normanaidd, i abad a monachod y fan hono. Poblogaeth, yn ol Deiliadaeth 1861, 264.

**CENT**, SION, neu, fel ei gelwir weithiau, DR. JOHN KENT, oedd yn wr tra hynod yn ei oes, a anwyd fel y tybir, yn Nghwm Tridwr, yn mhlwyf Eglwys Ilan, cantref Caerphili, swydd Forganwg, lle yr ydoedd ei rïeni yn byw, mewn sefyllfa isel. Yr oedd ewythr iddo, o du ei fam, yn offeiriad pabaidd, debygid, ond yn byw buchedd feudwyaidd, mewn lle a elwir Llwyn Dafydd Ddu, yn mhlwyf Pentyrch, cantref Miscyn, swydd Forganwg, lle y gweinyddai addysg yn rhad, i'r rhai a gyrchent ato, yn yr ieithoedd Lladin a Chymraeg, ac mewn Barddoniaeth. Y mae yn ymddangos fod hen grefydd-dy pabaidd yn mhlwyf Pentyrch yn foreu, ac y mae yno le a elwir "Castell y Mynach;" a gallai fod rhyw gyssylltiad rhwng yr ewythr uchod â'r sefydliad crybwylledig. Yno y byddai ein harwr yn gorfod cyrchu o Gwm Tridwr, trwy yr afon Tâf, i dderbyn addysg gan ei ewythr; ac mor sychedig am wybodaeth oedd y bachgenyn, fel nad attelid ef gan unrhyw hin, rhag myned beunydd i ysgol ei ewythr, yn droednoeth goes-noeth, ar rew ac eira, ac ar yr ystormydd mwyaf. Bu ei dad a'i fam farw, pan nad oedd efe eto ond bachgenyn, ac yna, ei ewythr a'i cymerodd i'w ddwyn i fynu; ac yn fuan wedi hyn cafodd ei ewythr fywioliaeth eglwysig, yn rhywle tua chymydogaeth Caerlleon ar Ddyfrdwy, lle hefyd y bu efe farw, ac y claddwyd ef. Ar farwolaeth yr ewythr, dychwelodd y nai i'w fro enedigol, lle ei hadnabyddid dan yr enw "*Siôn Cwm Tridwr;*" a chan nad oedd ganddo ddim moddion cynnaliaeth ond ei lafur ei hunan, efe a gyflogodd i wasanaethu gyd ag ammaethwr, yn Nghaerphily, neu y gymydogaeth. Y mae yn ymddangos mai dyn drygnaws a nwyd-wyllt oedd y meistr hwn, fel y gorfu i'r bachgen amddifad tlawd, ymadael oddiyno ar ganol y tymhor; ac efe a grwydrai drwy ranau uchaf Gwent, hyd oni ddaeth efe i Kentchurch, ar ffiniau swydd Henffordd, lle y cyflogodd efe i weini yn ystabl teulu o'r cyfenw *Scudamore.* Cysgai yno o dan breseb y ceffylau, am nad oedd unrhyw letty arall wedi ei drefnu iddo. Sylwid yn fuan ei fod yn fachgen llafurus, a gofalus; cadwai yr ystabl yn hynod o lanwaith, a phorthai ac ymgeleddai y ceffylau yn rhagorol. Cymerai ei feistr sylw o hono yn fuan, ac er dangos ei gymeradwyaeth o'i ymddygiad, rhoddai ambell i ddernyn arian iddo, yr hyn a ddefnyddiai y bachgen yn ofalus, i brynu llyfrau, a phapur, neu femrwn, ac weithiau sylwid ei fod yn darllen mewn rhyw lyfr, yr hwn a ddygai gyd ag ef yn wastadol, ar ei funydau hamddenol. Parodd hyn i'w feistr gymeryd mwy o sylw o hono; ac wedi ei holi, canfu y boneddwr er ei syndod, ei fod yn alluog i ddarllen ac ysgrifenu Lladin, Cymraeg, a Saesonaeg; ac yn y canlyniad, efe a'i cymer-

Digitized by Google

odd i'r tŷ, rhoddes letty cysurus iddo, ac a'i dilladodd yn dda, ac a'i gwnaeth yn athraw i'w blant, yn yr hyn y rhoddes efe y fath foddlonrwydd, fel y darfu i'w feistr caredig ei anfon i brif ysgol Rhydychain, lle y cyrhaeddodd y bachgen tlawd i enwogrwydd yn fuan, fel un o'r ysgolorion galluoccaf yn y lle. Wedi hyny efe a urddwyd yn offeiriad, ac fel y cyfryw, bu yn gwasanaethu dros ryw gymaint o amser yn nghymydogaeth Emlyn, o'r lle y dychwelodd efe i Kentchurch, a threuliodd weddill ei ddyddiau fel Capelwr teuluaidd i'r Scudamoriaid, ac yno y bu efe farw wedi cyrhaedd oedran teg, wedi gweled (fel y dywaid yn un o'i gyfansoddiadau barddonol), pump o freninoedd, a llawer o ryfeloedd, daiargrynfâau, a llif-ddyfroedd dinystriol. Yn wir y mae rhai yn dadleu ei fod yn 120 mlwydd oed pan y bu farw; ac felly, ei fod wedi ei eni tu a'r flwyddyn 1300, a byw hyd y flwyddyn 1420. Yr oedd efe yn un o feirdd goreu ei oes; ac y mae uchlaw deugain o'i gyfansoddiadau barddonol ar gael; oll ar destunau moesol a chrefyddol, ac yn fynegai eglur o dduwiolfrydigrwydd yr awdwr. Heblaw ei Weithiau Barddonol, dywedir ei fod yn awdwr Gramadeg;—Moeschwedl Einiawn ap Gwalchmai, a Rhīan y Llwyn Glas;—Rhith-hanesion (*fables*), yn yr Iaith Gymraeg;—Llyfr yr offeren yn Gymraeg—Efengyl Ioan yn Gymraeg;—Araith y tri Brodyr, Pwyll, Nwyf, a Dysg;—a phethau eraill, yn Gymraeg ac yn Saes'neg. Y mae efe yn rhai o'i Gywyddau yn dynoethi annuwioldeb ac ofergoeledd y clerigwyr, a'r myneich, yn ddi arbed, yn mysg pethau ereill dywaid,—

"Dyma'r dallder arferwyd,
Delwau oedd well na Duw Iwyd!
Rhoi addoliad ar ddeu-liu,
A ddylai i Grist,—i ddelw grin!"

Ymddengys hefyd ei fod yn gyfaill mynwesol i'r Diwygiwr boreu ac enwog, Syr John Oldcastle, am ferthyrdod yr hwn y cwynai yn un o'i Gywyddau; ac y mae yn ddiameu ei fod yn cyfranogi yn helaeth o'i olygiadau. Pa fodd y cafodd ef dreulio ei oes mewn heddwch, tra yn coledd y fath olygiadau, sydd ddirgelwch i ni, tra na's gallai hyd yn nod y penadur ei hunan gadw Syr John Oldcastle, Arglwydd Cobham, rhag myned yn aberth i gynddaredd uchel-swyddwyr Eglwys Rhufain. Efallai fod a fyno ei sefyllfa fel Capelwr Teuluaidd i Syr John Scudamore, rywbeth a hyn. Yr oedd y pendefig a noddai Sion Cent, yn fab yn nghyfraith i'r gwron enwog Owain Glyndŵr; ac ymddengys mai yno y treuliodd Owain ei flyneddoedd diweddaf dan gêl; gan dramwy o *Kentchurch* i *Monnington*, lle yr oedd merch arall iddo yn byw, weithiau mewn gwisg bugail, ac weithiau mewn gwisg mynach; a'r gred gyffredin yw, mai yn un o'r ddau le uchod, y bu farw gwron Glyn Dyfrdwy; ac y mae yn dra thebyg mai ein bardd hwn oedd prif gydymaith ei ddyddiau diweddaf.

Y mae rhyw bethau yn ein tueddu i dybied mai Dafydd Ddu o Hiraddug, oedd ewythr ac athraw Sion Cent, yr hwn fel yntau ydoedd yn Fardd medrus, ac a gyfieithodd ranau o'r Ysgrythyrau i'r Gymraeg; ac ar gymeriad yr hwn hefyd, y pentyrwyd crugiau o ffug chwedlau gwarthus, gan y myneich, wedi ei farwolaeth; gan ei ddarlunio megis dewin, ac un oedd mewn cyngrhair â'r ysbryd drwg.

Er i Sion Cent ddianc rhag cael ei ferthyru o ran y corph, efe a ferthyrwyd yn ei gymeriad gan y myneich pabaidd, er attal dylanwad ei athrawiaeth ar ei gyd-genedl, wedi ei ymadawiad ef: haerent ei fod yn ddewin, ac wedi myned i gyfammod a'r diafol. Ac y mae y gymydogaeth yn llawn o'r traddodiadau mwyaf afresymol am dano, y rhai a gredir gan laweroedd hyd y dydd hwn. Yn mysg pethau eraill, dywedir ei fod, pan yn fachgen, yn ngwasanaeth y Tyddynwr ger Caerphili, wedi ei anfon i wylltio y brain oddiar y cae gwenith, ar ddiwrnod oer a gwlŷb, wedi dychwelyd i dŷ ei feistr, a myned at y tân i ymdwymno; a'i feistr, pan ei gwelodd, a ofynodd iddo mewn llais digofus, paham y daethai o'r cae, gan adael y brain i ddifa y gwenith? "O! y mae y brain yn ddigon dīogel, wedi eu carcharu yn nghastell Caerphily," medd y bachgen. Y meistr, wedi ei gyffroi i nwydau drwg, gan y fath attebiad, a'i curodd yn ddi arbed, ac a'i gyrodd allan o'r tŷ; a phan aed i ymofyn am dano, nid oedd i'w gael yn un man oddeutu yno. Y meistr calon galed, yn clywed rhyw drwst dyeithriol yn y castell, a aeth yno i edrych pa beth a'i parai; ac er ei syndod, gwelai beth afrifaid o frain yn y castell, yn ymladd, ac yn rhwygo eu gilydd; ac er fod yr holl ddorau a'r ffenestri yn agored, ni allai yr un o honynt ddianc allan. Ond, pan aeth y Tyddynwr creulawn i fewn i'w mysg, hwy a ymgasglasant o'i amgylch, ac a dynasant ei lygaid ef. Erbyn hyn yr oedd yn ddrwg gan y Tyddynwr am ei ymddygiad at y bachgen, ac anfonodd i ymholi yn ei gylch yn mhob cyfeiriad; ond ni's gallai glywed dim am dano, a sylwid nad oedd cymaint ag un frân i'w chanfod ar unrhyw faes hauedig yn yr holl ran hono o'r wlad. Y mae hen wragedd Grosmont yn adrodd y chwedl ychydig yn wahanol,—"Tra yr oedd Sion yn wesyn mewn tyddyn yn y gymydogaeth, wedi ei roddi ar waith i gadw y brain o'r ŷd, efe a'u carcharodd mewn hen ysgubor heb dô arni, fel y gallai ef fyned i ffair Grosmont. Ac yn ddigon siwr i chwi," meddynt, "dyna lle yr oeddynt yn croch-ddadwrdd yn arswydus, ac ni chynnygient ehedeg ymaith, hyd oni ddaeth Jac ei hun i'w rhyddhau."

Ond, o'i holl orchestion, yr un a wna ei goffadwriaeth yn fwyaf hoffus i drigolion Grosmont, ydyw y bont dros yr afon Monnow, y ffordd yr eir i Kentchurch, yr hon, medd traddodiad, a gyfododd ef mewn un noswaith; ac fe'i gelwir hyd heddyw, "Pont Sion Cent."

Y cyfammod a wnelsai â'r diafol oedd, Os y byddai iddo ei gynnorthwyo ef i gael ei amcanion yn ei fywyd, y caffai yntau gymaint o'i gorph ef wedi ei gladdu, ag a fyddai o'r tu fewn, neu o'r tu faes i'r eglwys; ond fe'n hysbysir gan yr hygoelus o'r trigolion, gyda mesur o falchder, fod Sion wedi myned yn rhŷ gyfrwys i'r un drwg; canys pan oedd ar ei wely angeu, efe a barodd i'w gyfeillion ei gladdu yn gymhwys dan bared yr eglwys, fel nad oedd un ran o'i gorph o'r tu fewn nac o'r tu faes i furiau yr eglwys, pan ddelai "y gwr du" i ymofyn ei ran. Y mae yn deilwng o sylw, fod yr unrhyw chwedlau yn cael eu cydio â Dafydd Ddu o Hiraddug, yn swydd Fflint, ac â Robyn Ddu, yn Môn ac Arfon; pob un o ba rai oeddynt feirdd galluog, ac o flaen eu hoes mewn gwybodaeth a dŷsg.

CENYCH, Sant, sylfaenydd eglwys Llangenych, swydd Gaerfyrddin.

CENYDD, Sant, ydoedd fab Gildas ab Caw, ac

Digitized by Google

aelod o Gor Cattwg yn Llancarfan, a sylfaenydd cymdeithas grefyddol yn Ngwŷr, a elwir Cor Cenydd, lle y saif yn awr eglwys Llangenydd.

CERAINT AB GREIDIOL, meistr Monddal yr hwn, meddir, a ddyfeisiodd Faen-saerniaeth. (*Myf. Arch.* ii. 64.)

CERDDORIAETH, ydyw y gelfyddyd o uno seiniau, yn y modd mwyaf boddhaol a chymeradwy gan y glust. Y mae pawb ag sydd yn meddianu chwaeth goethedig, yn hoff o'i swynion. Y mae serch at Fiwsig yn naturiol i bob dyn o deimlad tyner, yn gystal a'r gwerinwr mwyaf dysyml a gwledig. Y mae y dynion eangaf eu gwybodaeth, a mwyaf goleuedig eu meddyliau fel naturiaethwyr, yn ei mawrhau; yn mhob gwlad ac oes. Dywed Shakespeare:—

"Y dyn na fedd Gerddoriaeth yn ei nawd,
Sydd gymhwys at bob trosedd, ysbail, trais;
Na rodder cred yn hwnw."

Y mae fel moddion adloniant, yn un o'r elfenau mwyaf effeithiol. Y mae yn alluog i ddylanwadu arnom, yn mha gywair bynag y byddo ein teimlad. Pan y byddo dyn wedi ei suddo dan ddyfnder trallod, gall ei godi megis yn ddiarwybod i'r lan; pan y byddo ei natur wedi ei chyffroi gan nwyd orwyllt, gall leddfu y teimlad yn dawel, a gosod pob tymer yn ei lle. Pan yr oedd Saul gynt yn cael ei flino gan ddrwg yspryd, yr oedd peroriaeth llinynau telyn Dafydd yn ddigonol feddyginiaeth i'w adferu, i hwyl dynoliaeth drachefn yn ol. Dywed rhai fod Cerdd Dant yn foreuach yn y byd na Cherdd Dafod; o blegid nid oedd gan y prydydd cyntaf, un athraw daearol i'w hyfforddi yn ei gelfyddyd, tra yr oedd cantorion y goedwig, yn hwyr ac yn foreu, yn pyncio cynlluniau tonau i hoffwr peroriaeth. Yr eos, y llinos, y fwyalch, y fronfraith, a'r ehedydd, neu ryw aelodau eraill o'r côr asgellog, yn Nghyngerdd anian, oedd yn dysgu i fab Lamech ddychymygu a chyweirio telyn ac organ, ar y cyntaf.

Nid ffrwyth dyfais, darganfyddiad, na damwain ydyw y dalent hon sydd gan ddyn, ond yn hytrach amlygiad o alluoedd y tafod a'r peirianau lleisiol, wrth naturiaeth. Nid oedd offerynau cerddorol ar y dechreu, Celfyddyd a ddygodd y rhai hyn at wasanaeth dyn. Dichon fod y ddawn i raddau, yn ddynwarediad o fiwsig yr adar, y rhai oeddynt yn chwareu rhwng y cangau pan y crewyd ef. Dywed rhai ei bod yn cael ei ffurfio allan o ddwy egwyddor, sef y naturiol a'r ddynwaredol. Yr oedd yr efelychiad hwn, yn arwain yn raddol at ddyfeisio a llunio offer cerdd, y rhai a gafwyd, yn y diwedd, trwy dair ffordd, sef trwy yr anadl, trwy guriad ar wrthddrych, a chyda'r llinyn wedi ei dynhau.

O'r holl gelfyddydau ag sydd wedi addurno athrylith dynion, nid oes yr un anhaws i olrhain ei hanesyddiaeth ddechreuol na Cherddoriaeth. Nid yw yn ddim amgen na hanes sain, yr hwn nad oes ffurf sylweddol iddo. Y mae Adeiladaeth a Cherfwaith yn meddu eu cofadeiliau, y rhai sydd megis yn herio dinystr yr oesau, a'u llinellau yn aros, er darllen arnynt lawer a ellir ei ddyfalu, ond am Fiwsig, nid oes ganddi ddelw i'w harddangos ei hun. Er hyn oll, y mae ei seiniau ar "gof a chadw," yn rhyfedd, wedi eu trosglwyddo i ni trwy ymarferiad ac arwyddion nodweddiadol, er ys llawer o oesau o'r cynfyd. Y mae yn afreidiol i ni, yn y sylwadau hyn, grwydro yn mhell i hanesion gwledydd eraill, nac at genhedloedd eraill; i'r Aipht nac i'r Eidal; at y Groegiaid nac at yr Hebreaid. Digon i ni fydd peidio dilyn neb, ond yr hen Gymry yn unig; ni bydd dim ychwaneg yn ofynol i ni, gydâg ambell gyfeiriad achlysurol at eraill. Addefa pob hanesydd diragfarn, fod y Cymry yn genedl gerddorol o'r oesau boreuaf. Dioddefodd ein llenoriaeth lawer o ddifrod trwy oresgyniad y Rhufeiniaid, a gweithredoedd mwy barbaraidd drachefn, gan y Saesoniaid, y Daniaid, a'r Normaniaid, yn ninystr ein Cof-lyfrau. Colledwyd barddoniaeth a cherddoriaeth ein gwlad, o bryd i bryd, fel y taenwyd cwmwl dros ein hanesyddiaeth awdurol am dymor maith, ac weithiau, bygythiwyd ei llwyr ddileu; ond y mae hyny sydd ar gael yn werthfawr, ac yn gynllun o gymeriad y rhai a gollwyd; ac y mae tystiolaethau anwadadwy am eu gwreiddioldeb yn aros, ac nid oes yr un genedl ar y ddaear a all arddangos gweithiau o'r fath hynafiaeth, ac awdurdod a'r Cymry, hyd y gwyddom ar dir têg.

Daeth doniau barddoniaeth a cherddoriaeth, dan reol a dysgyblaeth yn mysg ein hynafiaid, yn gynar iawn, ac yn rhan hanfodol o drefniant Derwyddiaeth; ac yn raddol, fel yr oedd dalenau gwyddoriaeth yn ymagor, lluniwyd a chadarnhawyd deddfau priodol, i'r gwahanol swyddwyr, a'u gwaith, yn eu hamrywiol gylchau. Prif orchwyl y swyddogion hyn ydoedd, cadw TRI CHOF YNYS PRYDAIN, sef cofiadau Hynafiaethol y genedl, y rhai oedd yn gynwysedig mewn tri dosparth; y cyntaf o'r "tri chof," ydoedd hanes gweithredoedd gorchestol brenhinoedd a thywysogion Cymru; yr ail ydoedd cadwraeth yr iaith, gyda gwybodaeth am bob gair, a sill, a llythyren o honi; yr oedd y beirdd i fod yn alluog i'w hegluro, pan y gofynid am hyny ganddynt, ac i fod yn ofalus am gadw allan o honi, bob cymysg-air o dafodau dieithr, rhag llygru y Gymraeg bur, fel yr addysgid hi; a'r trydydd ydoedd cadw cofnodau llawn, o achyddiaeth y pendefigion, rhaniadau eu tiroedd, a'u terfynau, gyda chynlluniad a chyfansoddiad eu harf-beisiau a'u banieri. Ac yr oedd yr holl bynciau i gael eu ffurfio mewn cynllun priodol er eu datganu. Bernir yn gyffredin mai y Farddoniaeth henaf ydoedd y penillion a ddatgenid, ac y mae hyny yn gasgliad naturiol iawn; a chan hyny rhaid fod y naill a'r llall yn foreuol iawn yn hanesiaeth y byd. Dichon i ddyn gael ysbrydoli ei deimlad, os nid ei hyfforddi, mewn mesur cerdd, i raddau mawr gan gôr y goedwig.

Daeth y ddwy dalent hyn yn nghyd i wasanaethu cysegr addoliad ar y dechreu; a daeth yr offer cerdd yn fuan, i gynyg cynorthwy i'r llais naturiol, ac yr oedd pob "teimlydd telyn ac organ," i'w hadnabod yn mysg y cantorion boreuaf oll; ac yr oedd swyddogaeth briodol at bob cangen wedi ei sefydlu yn rheolaidd, yn mysg ein hynafiaid. Y mae Tydur Aled yn cyfeirio at ei urddoliad ef ei hun i'r swyddau hyn, a'r gobrwyon yr oedd yn dyfod i hawl iddynt fel y cyfryw, yn mhriodas freiniol Efan ab Dafydd ab Ithel Fychan, yn swydd Callestr:—

"Cyntaf neuadd ym graddiwyd
Fu oror llys f'eryr Llwyd,
Am dri chof ym dyrchafwyd,
Yn neithior"——Llyma'r tair rhodd.

Nid oedd yn gyfreithlon i neb gyfansoddi "Cerdd Foliant" am orchestion mewn rhyfeloedd, ond y cyfryw ag a fyddent lygad-dystion o'r brwydrau a ddarlunid. Byddai yr Arwyddfeirdd urddedig yn

Digitized by Google

eistedd yn y cyngor, ar y maes, fel yn y llys; hwy oeddynt genhadau ymddiriedol y tywysogion; ni chofnodent hwy byth hanes bwysig ar dystiolaeth gan glywed; yr oedd raid iddynt fod yn gwbl hysbys o'r holl amgylchiadau, a hwy a ddelid yn gyfrifol am gywirdeb yr hanes. Yr oeddynt i fod, o ran eu dysgeidiaeth, a'u galluoedd llenyddol, o'r dosparth uwchaf. Yr oedd gan y Brenhin Arthur ddau foneddwr, sef Trystan, a Llywarch, yn arwydd-feirdd, yn gystal a milwyr, at ei wasanaeth:—

"Arthur oesdwr a Thrystan,
A Llywarch ben cyfarch can."

Yr oedd Offerynau Cerdd yr hen Gymry, mor briodol a neillduol iddynt eu hunain, ag ydoedd eu barddoniaeth. Yr oeddynt yn chwech o nifer, sef Telyn, Crwth, Pibgorn, Pibau-Cod, Tabwrdd, a'r Corn-bual, neu Corn-Buelin. O'r holl offerynau hyn, y Delyn oedd y fwyaf cyhoeddus a chenedl-aethol. Yr oedd gan amryw o'r cenedloedd eraill eu telynau. Ceir eu bod gan yr Iuddewon yn mysg y rhai cynaraf, fel y gwelir wrth y tystiolaethau Ysgrythyrol, o'r boreufyd hyd amser y prophwydi. Y mae bod y Delyn yn adnabyddus i bob cenedl, yn beth naturiol iawn. Y mae y sylw a delir i seiniau y llinyn, i'w ganfod yn eglur gan bawb, o'r plentyn a chwery ag un pen i'r llinyn rhwng ei ddanedd, a'r pen arall am fys ei law chwith, gan ei dynhau ag egni, a'i seinio â bys ei law ddehau, hyd at yr offeryn syml a lunia y bugail, a'r arddwr, ar ystyllen wledig eu symbal, yn gystal â llinyn neu wyfyr y drostan, sydd yn "ystyrmant i'r ystormydd." Eto, er hyn i gyd, rhaid addef na bu yr un o'r tylwythau Celtaidd, mor ofalus a manwl yn meithriniad y Delyn, a'r Brython. Dywedir fod Blegwryd ab Seisyllt, brenhin Brydain, tu a'r flwyddyn 160. cyn cred, yn gerddor rhagorol, ac yn chwareuydd medrus ar y delyn. Y mae yr hen gyfreithiau bor-euol yn dynodi, fod medrusrwydd ar y delyn, yn un o bynciau hanfodol addysgiaeth Boneddwr. Yr oedd tri math neu radd o Delynau, sef "Telyn y Brenhin, Telyn Pencerdd, a Thelyn Gwrda." Dyma y dar-luniad o'u gwerth.—"Gwerth y ddwy gyntaf," Chweugaint a dâl bob un, a phedeir ar hugain ar eu cyweirgorn. Telyn Gwrda, triugeint a dâl, a'i chyweirgorn, deunaw ceiniawg.[1]

Yr oedd arddelwyr urddedig y Delyn, yn meddu llawer o freintiau, yn ol deddfau y wlad, ac ystyrid eu personau yn gysegredig, fel y Beirdd. Yr oedd y Bardd Cerddorol, i chwareu ar y Delyn ger bron y Tywysog cyn cychwyn i faes y frwydr, ac wedi dychwelyd oddiyno yr un modd. Wrth arwain y fyddin allan i gyfarfod y gelynion, chwareuid yr hen dôn filwrol "Unbenaeth Prydain" yn gyffredin, gyda'r penillion priodol o arganmoliaeth i orchestion y cyn-dadau. Yr oedd rhyw raddau o yspryd yr arferiad hwn i'w ganfod yn y "Fuddygoliaeth Hal-eluia," gerllaw y Wyddgrug, ar y lle a elwir "Maes Garmon," hyd y dydd hwn; fel nod o anrhydedd am yr oruchafiaeth fyth-gofiadwy hono, yn y flwyddyn 447. Y mae yn ddiamheuol fod y Delyn yn mysg y Cymry, yn foreuol iawn. Cyfeirir ati gan Taliesin yn ei ganiadau:—

"Mi fu'm yn Ngwynfryn yn llys Llewelyn,
Mi fu'm yn fardd Telyn i Leon yn Llychlyn," &c.

Y mae amryw gyfeiriadau yn y cofnodau boreuol Cymreig, am feithriniad y Delyn. Y mae Iorwerth Beli, bardd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg, yn cyfeirio at Eisteddfod a gynhelid dan nodded Maelgwyn Gwynedd yn Nhyganwy, yn yr hon yr oedd nifer o feirdd a cherddorion, mor gynar a'r bumed ganrif; pan y dywedir, fod iddynt nofio drwy afon Gynwy, a thra yr oedd tannau y telynau yn tynhau, fod awen y beirdd yn cael ei hysbrydoli yn fwy, yn nghanol y llifeiriant:—

. . . "pan daethant i dir trai,
Dimai nis talai y telynorion," &c.

Ond am yr awenyddion, "mai gwell y prydynt," wedi y nofiaw, &c. Yr oedd cyfreithiau Hywel Dda yn gwneud darpariadau priodol ar gyfer y swyddogion hyn yn y llys. Yr oedd y crwth a'r corn-bual, megis yn ganlyniedyddion i'r delyn, ac mewn bri mawr gan y Pencerdd. Ymddengys fod y crwth yn cael ei llunio mewn cryn gywreindeb â'r coed-helyg: cyfeiria Iorwerth Beli ati yn benodol:—

"Tra fu'r prif-feirdd heirdd, hardd weision cerddiawn,
Cyflawn o dri-ddawn ymadroddion,
Nid ef a berchid berchyll son debyg,
*Grwth helyg* terig tòr goluddion."

Y mae dau neu dri chanrif wedi myned heibio erbyn hyn, er pan y mae y crwth wedi myned allan o arferiad, ac ni chlywir am olynwyr i *Rys Grythor*, yn ceisio yr urdd mewn unrhyw Eisteddfod yn awr.

Yr oedd Gruffydd ab Cynan, yn y ddeuddegfed ganrif, yn un o brif ymgeleddwyr Cerddoriaeth ein gwlad. Cynhaliodd amryw Eisteddfodau gyda golwg ar buro a derchafu y ddawn. Gwahoddodd brif Gantorion Iwerddon, a gwledydd eraill i Gynadledd-au cerddorol yn Nghymru, ac a ddygodd wŷr wrth gerdd, dan ddysgyblaeth briodol, er adnewyddiad i'r gerddoriaeth yn ei holl ranau. Yr oedd y pedair canon ar hugain, fel eu gosodir ger bron yn Ngram-adeg Dr. John Dafydd Rhys, yn dangos fod y gelfyddyd yn cael ei meithrin yn helaeth drwy y dywysogaeth oll. Nid yw yn amlwg pa bryd y daeth y Delyn deir-rhes i ymarferiad: y mae yn debyg mai yn raddol, o bryd i bryd, yr ymgododd i'r perffeithrwydd y mae ynddo yn awr. Y mae cylch seiniau y Delyn drithant Gymreig bresenol, yn cyrhaedd pum wythawd ac un nod. Y mae y tair rhes yn cynwys deunaw a phedwar ugain o dannau, cwmpas felly yn eang iawn, o G wythawd islaw y llinell gyntaf yn yr isalaw; i G neu A yn *altissimo* ar yr ochr *dde;* ac o G y llinell gyntaf yn yr isalaw i'r un nodau uchaf ar yr ochr *aswy;* a chynhwysa y rhes ganol, haner tonau y rhesi allanol. Ac os cyd-doneiddir y rhesi allanol yn ngraddfa G, ac os bydd pob nodyn cyferbyniol mewn perffaith gysonedd, bydd nodau y rhes ganol yn cael eu cyd-doneiddio haner ton yn uwch. Gellir dywedyd fod y delyn, fel offeryn cyffredin ddefnyddiol, yn dyddio ei bodolaeth o'r amser yr ychwanegwyd y troedolion ati, o ddyfais Sebastian Erard. Gellir trawsgyweirio i bob cywair gyda y rhai hyn, a chwareu unrhyw ddernyn o gerddoriaeth gyfaddas i offerynau allweddol. Yn y gweithrediad sengl, y mae y troedol yn codi pob llinyn haner tôn yn uwch; yn y gweithrediad dwbl, mae yr offeryn yn cael ei gyd-doneiddio yn C leddf; ac wrth osod y troedol yn y rhigol flaenaf, y mae yr offeryn ar unwaith yn cael ei drawsddodi i C natur-iol; ac os gosodir hwy yn yr ail rigol, fe'i trawsddodir haner tôn yn uwch i gywair C lon. Y mae cwmpas

[1] Leges Wallicæ, p. 415.

Digitized by Google

y delyn wedi gwella fel hyn, yn cyrhaedd o E is law yr isalaw i E yn *altissimo*.

Y mae amryw genhedloedd yn honi iddynt eu hunain ryw hawl foreuol yn nyfeisiad ac arferiad y Delyn; yr hon a geir dan wahanol enwau, ac mewn gwahanol ffurfiau. Cafodd Martianus Capella fod y delyn mewn ymarferiad yn mhlith y llwythau gogleddol ag oeddynt wedi gorlenwi yr amherodraeth Rufeinig yn y bumed ganrif. Pa fodd bynag, y mae Edward Jones, Bardd y Brenhin, yn hawlio yr anrhydedd o'i meddu gyda'r cyntaf, i "Gymru hen," ac o fod yn meddu telyn gynwysedig o chwech ar hugain o nodau trydonawl, mor foreu a'r chweched ganrif. Y mae Bunting yn rhoddi hanes am delyn Wyddelig henafol iawn, o fod yn meddu pump a deugain o dannau mewn un res, a saith yn ychwanegol yn y canol, fel unseiniau.

Wrth chwareu ar y delyn Gymreig, dodir hi i orphwys ar yr ochr chwith, tra y chwareuir y delyn Droedol, gan ei dodi i orphwys ar y dde. Efallai na byddai yn anmhriodol grybwyll yma, am yr hoffder oedd gan yr hen Dderwyddon o'u Trioedd. Yr oedd pob peth perthynol i'r delyn yn Driawl. Yr oedd yr Englyn milwr yn cael ei wneud i fynu o dair llinell; y mae y delyn ei hun yn drionglog; y mae i'r cyweirgorn dair braich; y mae i'r delyn reolaidd dair rhes o dannau. Yr oedd y mesur i fod yn yr amser triphlyg. Bernir gan rai fod y delyn deir-rhes, wedi dyfod i arferiad tua dechreu y bedwaredd ganrif ar ddeg. Cyfeirir ati mewn Galargan am Sion Eos yn 1450:—

"Fe aeth dy gymar yn fud
Durtur y Delyn Deirtud;
Ti sydd yn tewi a son,
Telyn aur Telynorion."—*D. ab Edmwnd.*

Y mae cyfeiriad achlysurol ati yn cael ei wneud gan Cadwaladyr Rhobert Fardd, yn y ddwy linell hyn:—

"Y digynwr' g'weiriwr gorau,
Tra pher dyniad Tri phâr dannau."

Y mae amryw Delynorion, o bryd i bryd, wedi enill iddynt eu hunain radd dda. Cyfeirir yn neillduol at un "Twm Bach," neu Thomas Prichard, tua diwedd teyrnasiad Elisabeth, yr hwn ydoedd yr Orpheus ar y Delyn, y pryd hwnw. Ganwyd ef yn y Coity, Morganwg; bu farw yn Llundain yn 1597. Yr oedd teimlad cryf o blegid y golled ar ei ol, fel y gwelir wrth yr Englyn canlynol; y ddwy linell gyntaf gan Huw Gruffydd, a'r gweddill gan Rhys Cain:—

"Yn iach i Dwm Bach, aeth i'r bedd—bellach
Fe ballodd cynghanedd.
Ni wn i'w ol yn un wedd,
A wyr fiwsig ar fysedd!"

Yn amser Sior II., arferai Telynor o'r enw Powel, chwareu o flaen y Brenhin hwnw mor fedrus, fel yr oedd wedi tynu sylw yr enwog Handel i raddau mor fawr, ag y cyfansoddodd amryw ddarnau iddo i'w chwareu; y rhai sydd eto i'w canfod yn rhai o *Concertos Handel*. Yr oedd Powel yn arfer chwareu yn rhai o'i brif Deithganau. Yr oedd cymydogaeth Llanrwst yn Sir Ddinbych, yn hynod am fedrusrwydd yn ngwneuthuriad Telynau ar un adeg neillduol. Erys enw Dafydd Morys yn adnabyddus yno eto, fel un doniol yn y gelfyddyd. Y mae yn debygol fod y ddawn wedi ei cholli yno i raddau mawr erbyn hyn, ond er hyny oll, y mae cryn chwaeth at delynau a datganu, yn aros yn y gymydogaeth hyd y dydd hwn.

Nid yw y dalent o ddatganu gyda'r Delyn, yn cael ei meithrin, ond i raddau bychain iawn yn y tymor presenol. Y mae cywreindeb rhyfeddol yn perthyn i'r gelfyddyd, ac nid hawdd iawn ydyw egluro ei ddirgelwch. Y mae trefn y Gogledd o Ddatganu yn gwahaniaethu oddiwrth drefn y Deheubarth. Y mae yr olaf yn fwy cyd-ddilynol a chyfochr, o ran y penill a'r mesur; y mae y blaenaf yn amrywio mwy, ac efallai yn fwy cywrain. Ymdrechir yma roddi rhyw awgrym am y drefn, oreu y gellir, fel hyn:— Y mae y Telynor yn dewis ei don ei hun; dichon mai "Merch Megan," "Penrhaw," neu "Serch Hudol," a fydd, neu ynte ryw un o'r amser triawl; y mae y Datgeiniaid yn rhes o'i amgylch; y mae y cyntaf yn dechreu, efallai mai penill pedair llinell a fydd ganddo:—

"Llun y delyn, llun y tanau,
Llun cyweirgorn aur yn droiau,
Tan ei fysedd, O na fuasai
Llun fy nghalon union innau."

Efallai mai penill o chwe llinell, neu ychwaneg a fydd: megis:—

"Er a welais dan y ser
O lawnder glewder gwledydd,
O gwrw da, a gwŷr i'w drin,
A gwin ar fin afonydd,
Goreu bir a goreu bwyd
A ranwyd yn Meirionydd."

Neu ynte, fe ddichon mai englyn, neu ran o Gywydd, neu Awdl, a ddewisa y cyntaf, pa fodd bynag, disgwylir i'r ail, a'r trydydd, a'r lleill oll, ddilyn gyda phenill o'r un hyd. Yna caiff yr ail ddechreu, gan ddewis ei benill ei hun, a bydd raid i'r lleill ei ddilyn yntau yr un modd, ac felly yn mlaen hyd na byddo y cyfan wedi cael eu twrn. Os penill byr a fydd, gwelir y datgeiniad yn gwylio ar ysgogiadau y delyn, ac yn dechreu drwy daro i mewn i'r bar, lle y gwypo yn berffaith y gall ddilyn yn mlaen, mewn cysondeb nes cyrhaedd y nod diweddaf, mewn cymhwys gydgordiad hyd y sill olaf yn y penill. Dichon y bydd y telynor yn myned yn mlaen gyda'i amrywion a'i addurniadau cywrain a chyflym ar y tanau, eto bydd y datgeiniad yn sicr o ddilyn sylfon y dôn, heb ymddyrysu dim o blegid yr amrywiadau chwareus, drwy y gainge. Hyd y penill a fydd yn rheoli y cyfwng yn mha un y mae yn rhaid taro i mewn. Y mae rhyw swyn neillduol yn y dull hwn o ganu, digon i orchfygu teimlad pob gwrandawr, yn enwedig os bydd y datgeiniad o fedrusrwydd celfydd, llais soniarus, a chwaeth goethedig. Nid oes dim mewn Eisteddfod yn tynu mwy o sylw na datganu da; ni flina y dorf yn gwrando arno am amser maith. Y mae yn nodedig i'w sylwi, fod agos yr oll o'r cerddorion, sydd wedi meistroli y dull hwn o ganu, yn analluog i roddi un math o gyfrif athronyddol am ddirgelwch y drefn; y maent yn dysgu rywfodd drwy ymarferiad, megis wrth synwyr y fawd, fel y maent yn dyfod i berffaith feistrolaeth ar y gamp, o'r braidd yn ddiarwybod iddynt eu hunain. Yr oedd pob teulu, o ryw foddion yn y byd, o'r bron, yn yr amser gynt, yn meddu ar eu telyn, ac yn alluog i'w chwareu.

Digitized by Google

Yr oedd y bechgyn a'r genethod ieuaingc yn ymarfer o foreu eu hoes, fel yr oedd cyfrinach yr orchest yn dyfod fel ail natur iddynt. Y mae y datgeiniaid yn hoff iawn o "Ganiad y Gog i Feirionydd," gan Lewis Morys, i'w chanu gyda'r delyn. Y mae yn y "Tlysau Penillion" o ddetholiad Edward Jones, Bardd y Brenhin, nifer o ganeuon tarawiadol iawn at y perwyl hwn.

Bernir yn gyffredin mai y Crwth Cymreig oedd y sail wreiddiol i'r *Violin*, sydd gan y Cenhedloedd oll yn awr. Yr oedd hi yn fynych yn cael ei harfer gan yr hen Gymry fel cyfeiliant i'r Delyn. Yr oedd y Pibgorn mewn arferiad mynych yn y dyddiau gynt, yn enwedig yn mysg y bugeiliaid. Dichon mai hi oedd cynnrych y *clarionet*. Perthyn i'r un dosparth yr oedd y Cornig, neu y Cornicyll, oedd yn fwy adnabyddus yn y Deheubarth nac yn y Gogledd. Yr oedd y Cod-bibau hefyd yn hysbys i'r Cymry; y mae yr Albanwyr wedi eu gorfaelu erbyn hyn. Y mae Iolo Goch yn ei Gywydd i Syr Hywel y Fwyall yn cyfeirio atynt:—

"A cherdd chwibanogl a chod,
Gwawr hoenus a gwr hynod."

Y mae Gutto'r Glyn hefyd yn cyfeirio atynt, yn lled gyffelyb, mewn Englyn i'r Isgywair Fach:—

"Per, per, Isgywer oes caingc—mawr foliant
Mor felus gan ieuaingc,
Aml o osgedd melusgaingc
Aur-bibau cerdd ar bob caingc!"

Yr oedd y Corn-bual yn gyffredin iawn, ac oddiwrtho yn ddiau y daeth y Corn Hirlas; yr hwn a gymhwyswyd at yfed a chanu Corn-bual; buelin, neu *Buffalo* ydoedd y cynllun gwreiddiol i'r *Bugle-horn*. Yn amser y Brenhin Hywel, yr oedd tri math o Gyrn, yn perthyn i'r palas brenhinol, y rhai a ddarlunir yn yr hen Gyfreithiau Cymreig fel y canlyn:—

Tri Chorn Cyweithas a fydd i'r Brenhin, ac a ddylynt fod yn Fuelin:—Ei Gorn Cyfedd; ac yfa y Brenhin o hwnw—Ei Gorn Cychwyn, a fo yn ei Gyweithas yn wastad—A Chorn Hela, yn llaw y Pencynydd: A Phunt yw gwerth pob un o honynt.

Yn mhlith yr Offerceredd, ceir y Tabwrdd, o'r braidd yn adnabyddus yn mhob gwlad; y mae wedi ei chymhwyso yn arbenig at Orymdeithiau, at achosion cyhoeddus o lawenydd; ac at arwain y byddinoedd i faes y gwaed. Yn mysg y Cad-donau saif "Y Gadlys," ac "ymdaith Gwyr Harlech," fel y pigion; y maent yn cyflwyno ymadferth a dewrder i bob clust a chalon a wrandawo arnynt; ni flinir byth ar eu seiniau. Yr oedd gan y Cymry amryw fân offerynau eraill, nad yw yn werth eu crybwyll yn mysg y pethau Cenedlaethol. Y mae cyfeiriad at yr "Ystyrmant" neu *Ystwr-mant* gan amryw o'r beirdd "Ystyrmant i'w ystormydd," fel y crybwyllwyd yn barod, &c. Bernir mai *Jaw's Harp*, ac nid *Jew's Harp* ydyw yr enw Seisnig gwirioneddol ar yr offeryn hwnw, ac ni wyr yr hanesion Iuddewig ddim am dano; ac nid yw yr Iuddew yn ei harddel.

Gwelir yn amlwg, tra yr oedd y Cymry yn byw dan reolaeth eu cyfreithiau eu hunain, fod sefydliadau barddoniaeth a cherddoriaeth yn derbyn y nodded uwchaf, a'u swyddogion yn cael y gefnogaeth fwyaf anogaethol. Wedi crybwyll am yr offerynau cerddorol, dylid cyfeirio rhai nodiadau at y gelfyddyd. Y mae wedi bod yn bwnc o ddadl, pa un a oedd y Cymry yn gwybod rhywbeth am gynghaneddiad (*counterpoint*), yn yr oesau boreuol, a'i peidio? Dywed Lewis Morys eu bod, ond haera yr enwog Dr. Burney fod hyny yn annhebygol iawn. Dywed yn ei "Hanes Cerddoriaeth,"—"nid yw yn debyg y buasai pobl anwar a gwledig," fel y geilw y Cymry, "wedi eu gwasgu i fyw mewn congl ddinod o'r byd, mewn bro fynyddig, heb ohebiaeth na masnach rhyngddynt âg Ewrob yn gyffredinol, yn gwybod dim am un o'r rhagoriaethau ag sydd yn hynodi y cenhedloedd mwyaf dysgedig oll." Nid oes yn yr haeriad hwn yr un prawf, a dywedyd y lleiaf. Dywed Llewelyn Ddu, mai yr engraifft henaf o nodiant Cerddorol Gymreig, ydyw yr ysgrif sydd yn Ysgol y Cymry yn Llundain, ag y mae talfyriadau o honi wedi cael eu dyfynu gan nifer o'r prif gerddorion. Mynegir yn yr ysgrif fod y cofnodau wedi eu copio gan Rhobert ab Huw, o Fodwigan yn Mon, yn amser teyrnasiad Siarl I., allan o lawysgrif William Penllyn, cerddor galluog o'r ganrif flaenorol; a dywedir mewn nodyn yno, fod y gwaith yn cynwys Miwsig Prydain, fel y cytunwyd arno mewn cynhadledd o'r prif gerddorion, yn ol gorchymyn Gruffydd ab Cynan, tu a'r flwyddyn 1100; gyda rhai o ddarnau mwyaf hynafiaethol y Brytaniaid, wedi eu trosglwyddo, o oes i oes, oddiwrth yr hen feirdd boreuol. Dywedir yn gyffredin mai Guido, monach o Arezzo yn Tuscany, a'i darganfyddodd tua 1022. Nid ydym yn ceisio haeru mai y Cymry a'i cafodd allan gyntaf o bawb, ond hyderwn fod yn deg i ni gael tystio, eu bod yn gyfarwydd ynddo er yn foreu iawn. Y mae hyn yn cael ei awgrymu yn gryf, yn y manylrwydd a'r cywreindeb a berthyna i'r hen osodiadau a gofnodwyd ganddynt. Yr oeddynt yn arfer mwy a'r offerynau llinynol na'r lleill oll. Yr oedd y cyfarwyddiadau hyn yn cyfeirio at y delyn a'r crwth yn benaf; ac y mae enwau yr arddelwyr yn cael eu crybwyll, sef y pedwar athraw canlynol, Allon y Cenaw, Rhydderch Foel, Matholwch y Gwyddel, ac Olaf y Cerddor; ac arolygwyr y Cyngor oeddynt Henri Gyfeurydd, a Carsi y Telynor, a'r rhai a alwent i'w cynorthwyo. Yr oedd manylder eu trefniadau yn hynod, fel y gellir gweled wrth yr enwau oedd ganddynt ar ysgogiadau y bys, y fawd, a'r llaw. Pedwar canon ar hugain cerdd oeddynt Macmwn hir, Corfinwr, Corfgolof, Rhiniart, Coraldan, Tresi heli, Wnsach, Cordia Tytlach, Corfinfaen, Corwrgog, Carsi, Brath yn ysgol, Fflamgwr Gwgan, Macmwn byr, Calchan, Brut odidog, Trwsgwl mawr, Tutyr bach, Macmwynfaen, Toddyf, Hatyr, Mac-y-delgi, Alban Hafaidd, ac Alfarch. Meddyliem fod nifer o gerddorion Gwerddon yn y cynadleddau hyny, a bod yr athrawon yn cofnodi y deddfau ac yn llawnodi y memrwn. Y mae yr Egwyddorion canlynol yn cael eu gosod ger bron. fel egluriadau ar y canonau, sef Tagiad y fawd, Plethiad byr, Plethiad y pedwarbys, Plethiad y bys bach, Crafiad dyblyg, Crafiad unig, Haner crafiad, Tafliad y bys, Plethiad dyblyg, Plethiad y Wenynen, Crychu y fawd, Ysgwyd y bys, Tagiad dyblyg, Tagiad fforchog, Cefn cwin, Ysbonc, a'r Plethiad mawr. Wedi dodi ger bron nodiantau y canonau, ar cylymau cysylltedig, y mae y darnau cerddorol yn dilyn, y rhai a ddynodir gyda manylder mawr.

Wedi crybwyll cymaint a hyn am drysorau cerddorol y Cymry, dichon mai nid anmhriodol fyddai coffau yma, am y prawf a wnaed ar un o'r hen alawon boreuol, a elwir "Cân y Prophwyd Dafydd," gan y galluog *Bartholomew*, agos i ganrif yn ol,

Digitized by Google

gyda dwsmel Ysbaenaidd, er mwyn cael allan ei theithi gwreiddiol. Y mae yr ysgrif o hon, wrth ei chymharu a'r un dôn yn nghasgliad Parry, yn rhoddi sail gref i gredu, fod yr hyn a ddywed Llewelyn Ddu, am wybodaeth yr hen Gymry am egwyddorion cynghaneddiad, neu wrth-alawiant, (*counter-point*) yn safadwy. Dyma yr hen nodiant Cymreig mewn llythyrenau Rhufeinig:—

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| e | e | e | | |
| c c | c c | c c | d d | |
| G D G | G D G | G D G | G G | Bas, &c. &c. |
| | | | | c |
| | | | | e |
| | | | | g |
| | | | | c c |

Y mae yr ysgrifen yn cynwys y nodiantau, ag sydd yn egluriadau ar bedwar canon ar hugain cerddoriaeth; naw ar hugain o donau hynafiaethol, yn nghyd â rhestr o dros gant a haner o rai eraill; yr hyn a awgryma rywbeth am eangder cyfoeth y gelfyddyd yn mysg y Cymry. Y mae y cofnodau hyn oll wedi cael eu hadysgrifio yn fanwl, gan y diweddar Dr. W. O. Pugh.

Ystyrir Peroriaeth fel y gelfyddyd o grynhoi yn nghyd amrywiol seiniau, fel ag i ffurfio cordiau, yn nghyda thraethu ar y cyfuniadau a ffurfir fel hyn. Y ffurf symlaf o gynghanedd yw y triad, yr hwn a gynnyrchir gan gryniad (*vibration*) pob corff soniarus, ac ar ba un yr adeiladir llawer iawn o gynghanedd gelfyddydol. Golygir fod y rhai canlynol yn mysg prif ddeddfau cynghanedd:—"1. Nid oes i ddwy gydsain berffaith, megis dau 5 neu ddau 8 i gydddilyn eu gilydd, ond y maent yn oddefol mewn ysgogiad gwrthwynebol, hyny yw, pan fo un yn codi, a'r llall yn disgyn. 2. Y mae y rhan fwyaf o'r annghydseiniaid yn gofyn cael eu *parotoi*, a rhaid i'r oll o honynt, gael eu *hadferyd;* hyny yw, y mae yn rhaid i'r nodyn annghydseiniol gael ei glywed yn gyntaf fel cydsain, ac ar ol tarawiad, neu wedi iddo gael ei seinio, rhaid iddo basio drachefn i gydsain yn gyffredin, trwy gwympo tôn neu haner tôn. Ond y mae yr arferiad yn cael ei ddwyn oddiamgylch weithiau gan yr isalaw. 3. Y mae yn natur cyfryngau a fo wedi cael eu lloni i godi, ac i'r rhai a fo wedi eu lleddfu ddisgyn. 4. Mewn cerddoriaeth i bedwar neu ragor o leisiau, dylai yr amrywiol leisiau, gael eu gwahanu oddiwrth eu gilydd mewn modd mor gyfartal ag sydd bosibl; ceir fel hyn gyfatebiad perffeithiach a chynghanedd lawnach a chyfoethocach. Ond er mwyn cynnyrchu rhyw effaith neillduol, y mae trefniad pur wahanol yn cael ei wneyd weithiau o'r gwahanol ranau. 5. Fel rheol gyffredin, y mae pob cyfansoddiad, beth bynag fo ei natur, yn rhwym yn ei gyweirnod priodol ei hun; ond gyda golwg ar y terfyniad, nid oes un reol benodol yn cael ei gosod i lawr, er fod y trydydd weithiau yn cael ei newid o drydydd lleiaf, i drydydd mwyaf." Y mae amryw yn golygu wrth gynghanedd, nad yw yn meddwl mwy na pherthynas briodol y naill sain a'r llall, neu gydgordiad dymunol cyfryngau mewn peroriaeth.

Y mae pawb yn deall mai un o ranau mwyaf hanfodol y wyddor, ydyw Amser. "Wrth amser y meddylir, y 1af, parhad sain; yn 2il yr hyn a ddospartha far i ddau neu dri o ranau cyfartal, ac a ad-ddospartha y rhai hyn wedyn; ac yn 3ydd cyflymdra neu arafwch ymsymudiad y gerddoriaeth. 1. Y mae parhad y sain yn cael ei nodi gan y nodyn neillduol a'i cynnrychiola, megis adfanig, corfanig, &c. Y nodyn hwyaf a ddefnyddir yn awr, gyda golwg ar amser, yw y banig, yr hwn a ystyrir y nodyn mesurol, a chyfartaledd ei hyd yn oddeutu 4 curiad gwaed dyn iachus. 2. Y mae amser yn cael ei ystyried yn ddyblyg, neu driphlyg. Y mae y cyntaf yn rhanu pob bar neu fesur i 2 neu 4, &c., o ranau cyfartal; a'r olaf yn eu rhanu yn 3 neu 6, &c. Y mae y lythyren C yn nechreu tôn yn arwyddo amser cyffredin, yn cynwys un banig neu nodau cyfartal i hyny, yn mhob bar. Y mae y rhifnodau yn dangos yr adranau ag y mae banig wedi cael ei ranu iddynt: y rhifnod uchaf yw y rhifedydd (*numerator*) a'r isaf yr enwedydd (*denominator*). Y mae y blaenaf o'r termau hyn, yn dangos y nifer o nodau a ddefnyddir yn amseriad y dôn, a'r olaf yn dangos nifer y nodau i ba un y mae banig yn rhanedig iddynt. Pan fydd y rhifedydd yn 2 neu 4, y mae yr amser yn ddyblyg; pan yn 3, triphlyg; pan yn 6 neu 12, y mae yn amser cyffredin cyfansawdd. 3. Wrth y gair *Timi* neu *Tempo*, y meddylir hefyd, gyflymdra y beroriaeth. Ond llywodraethir hyny fynychaf, gan y geiriau *adagio, allegro*, &c. Y mae y rhan fwyaf o'r termau a ddefnyddir i'r perwyl hwn, yn cael eu benthycca oddiwrth yr Eidaliaid.

Y mae amryw yn barnu, mai gyda'r crwth y dechreuwyd yn Nghymru, ac mai dilyn yn raddol a wnaeth y Delyn, fel yr oedd darganfyddiadau newyddion yn ymagor, a'r offerynau yn gwellhau; ac mai trwy y Delyn Deir-rhes, y daeth cynghanedd i gael ei chyd-chwareu â'r alaw, ar y cyntaf. Pa fodd bynag, collwyd y Crwth, mewn amser dilynol, allan o ymarferiad, i raddau mawr; fel yr oedd y telynau yn amlhau drwy bob cymydogaeth yn ein gwlad.

Y mae caniadaeth arwrol a chenedlaethol ein gwlad, wedi ymgodi i enwogrwydd mawr yn ddiweddar, ac amryw awdwyr wedi tori i dir newydd. Dichon fod "Tan-y-marian" yn un o'r anturiaethwyr blaenaf, i dori allan o'r llwybr cyffredin, yn nghyhoeddiad ei Dreithalaw "Ystorm Tiberias." Y mae tystiolaeth estroniaid am deilyngdod gwaith o'r fath, i'w ddisgwyl yn anmhleidgar, ac yn werth ei grybwyll. Dygwyddodd i un o Olygwyr un o brif Newyddiaduron Llundain, fod yn clywed ei chanu, tuag amser ei chyhoeddiad, a gwnaeth y sylwadau canlynol arni—"Y mae yr Ystorm yn ei huchder, yn cael ei darlunio mewn Byrdwn dyblyg ardderchog; ac y mae y geiriau yn gymhwys at ddarluniad cerddorol. Dengys y miwsig raddau uchel o dalent naturiaethol, wedi ei gloewi drwy efrydiaeth ar waith y mwyaf meistrolgar o bawb, Handel. Cyfrifir y Cymry yn gyffredin yn Genedl gerddorol, a diau eu bod wedi profi eu hawl i'r ganmoliaeth yn yr amgylchiad hwn." Gallem yn hawdd gyfeirio at ddosparth arall, sef y Cantawdau galluog a gyhoeddwyd yn ddiweddar, megis "Genedigaeth Tywysog Cymru yn Nghastell Caernarfon," gan Owain Alaw; "Llewelyn," gan Pencerdd Gwalia; "Y Mab Afradlon," gan Eos Bradwen, ac eraill, sydd yn dal eu prawf yn ngolwg y cyhoedd, ac yn ymgodi i gymeradwyaeth gan bawb.

Y mae yn llawen genym gyfeirio at sefyllfa obeithiol Caniadaeth Gysegredig yn ein gwlad, ar hyn o bryd. Y mae gwasanaeth y mawl yn yr addoliad cyhoeddus yn ymburo ac yn ymddyrchafu yn gyflym. Yr ydym yn credu y gellir profi tu hwnt i bob amheuaeth, nad oes yr un werin ar

Digitized by Google

wyneb y ddaear, ag sydd wedi cynnyddu mwy mewn cerddoriaeth yn ysdod y blynyddoedd diweddaf, na'r Cymry. Y mae cyfnewidiad pwysig wedi cymeryd lle er amser cyhoeddiad y "Gramadeg Cerddoriaeth." Hyd yn ddiweddar, nid oedd ond ychydig iawn yn ymhoni eu bod yn deall y wyddor; ac o'r ychydig hyny, nid oedd ond ambell un, yma a thraw, yn gwybod dim pellach nac am yr amserau—y dull o guro amser—defnydd y gwahanol arwyddnodau—ac ychydig am y cyweiriau; ond am drawsddodiad, a thraws gyweiriad, yr oeddynt yn ddyfnderoedd o'r fath, fel mai un o fil a anturiai eu plymio. Ond erbyn hyn y mae pethau wedi newid, fel y mae cannoedd os nid miloedd yn eithaf hyddysg yn y pynciau yma; ac y mae nifer mawr o'n cydwladwyr yn gyfarwydd yn holl egwyddorion hanfodol y gelfyddyd. Nid oes ond ychydig o gymydogaethau yn awr yn Nghymru, nad oes yno rywrai yn alluog i fod yn athrawon cerddorol. Y mae yn ddiau fod yn rhaid addef, fod eto lawer o dir heb ei feddianu, a galwad uchel am fynediad yn mlaen, mewn astudio egwyddorion, a dwyn allan i ymarferiad, holl ragoriaethau y gelfyddyd. "Un peth yw deall ei rheolau; peth arall yw dirnad ei hawen."

Ystyriwn Ganiadaeth Eglwysig y gyfran bwysigaf o ddoniau Cerddoriaeth. Diau mai dawn yr eglwys ydyw, ond fod llawer o'i rhagoriaethau, wedi myned, fel cysegr-ysbail i Chwareudai y byd. Un o'r cwestiynau cyntaf sydd yn ymgodi yn y meddwl ymchwilgar ydyw, O ba le y cafwyd tonau cyntaf yr eglwys Gristionogol? Tyb duwinyddion yn gyffredin ydyw, i'r tonau a'r geiriau ddeilliaw o'r un ffynnon, sef oddiwrth yr Iuddewon, ond barn y cerddorion cyfarwydd mewn hanesiaeth ydyw, fod y geiriau yn Iuddewig, ond y gerddoriaeth yn Genhedlig. Barna amryw fod y ddwy elfen yn yr eglwys ar y cyntaf; ond bod yr olaf wedi goroesi y flaenaf, a'r ddwy wedi eu llwyr golli, er ys canrifoedd lawer. Fe ganodd y Gwaredwr a'r dysgyblion gyda'u gilydd yn yr oruwch-ystafell; yr oedd yno eiriau a thôn mawl. Canodd Paul a Silas foliant yn Ngharchar Phillippi; ac yr oedd canu Salmau ac odlau ysprydol yn beth cyffredin yn yr eglwysi cyntefig. Y mae yn debygol mai yn draddodiadol oddiwrthynt hwy y cafodd y paganiaid y meddylddrych o ganu moliant i'w gau-dduwiau, a'u heilunod. Yn ráddol y mae yr eglwys wedi dyfod i'w sefyllfa bresenol yn rhagoriaethau y mawl; a diau fod galwad uchel am feithriniad pellach ar y ddawn yn nhemlau yr Ion. Addefir yn gyffredin gan bawb, fod cerddoriaeth briodol yn dyrchafu y teimlad cysegredig mewn graddau mawr, a'i bod yn codi yr enaid uwchlaw pryder daearol, ac yn ei gludo ar adenydd seraphaidd i awyrgylch dedwydd drigfanau y nef. Y mae y teimlad o leiaf, megis am fynud awr, fel pe byddai wedi ymddiosg o faich y cnawd, fel y llyngeer yr hyn sydd farwol gan fywyd, er mwyn cael *golwg* ar sylweddau y byd anweledig. Y mae, nid yn unig yn meddu y gallu hwnw sydd yn derchafu yr enaid, ond y mae hefyd ar yr un pryd, yn gallu darostwng pob peth sydd o duedd lygredig yn y fynwes, ac yn trawsffurfio pob peth anianol i'w helfen ei hun. Dywedai Luther, ei bod yn eilfydd i dduwinyddiaeth, ac yn alluog i lefaru tangnefedd wrth yr enaid trallodus, mor dyner a theimladol, nes toddi y dymer fwyaf anfoddog i anwyldeb cariad a hedd. Dywedai Beveridge mai po felusaf y tywalltai cerddoriaeth ei halawon ar ei glust, egluraf yn y byd y cyflwynai gwirionedd ei oleuni i'w galon; a dywedai mai oddiwrth seiniau y delyn, y byddai oreu ganddo fyned i'w fyfyrgell ar bob pryd.

Y mae gwasanaeth y mawl wedi bod dan gyfnewidiadau a gwelliannau yn mhob oes, a than bob goruchwyliaeth, yn mysg yr Hebreaid, o amser Moses hyd dymor y Lefiaid; ac o Cenaniah a chantorion y cyssegr hyd at beraidd Ganiedydd Israel, ac felly yn mlaen hyd ddyddiau yr efengyl. Ni orphwyswyd ond yn unig yn yr oesau tywyll. Ymgododd yn ei nerth drachefn, yn amser y Diwygiad oddiwrth Babyddiaeth. Yn awyr Protestaniaeth y daeth dan ymgeledd briodol gyntaf. Yr oedd yn ysprydoliaeth hollol i deimladau Luther. Pa un bynag ai efe, ynte Dowland, neu Day, neu Ffranc, neu rhyw un arall, a gyfansoddodd yr "Hen Ganfed," nid oes dim yn eglurach na'i bod yn orlawn o ysbryd yr hen ddiwygiwr enwog. Y mae yn ddiau fod yr Almaen wedi bod yn faethfa foreuol iddi, ac y mae llawer iawn o swyn, beth bynag a ddywedir am sylwedd, yn ei cherddoriaeth, fel yn ei duwinyddiaeth, hyd y dydd hwn. Y mae cryn sylw yn cael ei dalu yn awr, mewn llawer man, i gynllun Glover, Waite, Curwen, ac eraill, gyda y Tonic Solfa, a'r nodiant diweddar, drwy lythyrenau yn lle y nodau cyntefig. Y mae amrywiaeth barn yn y wlad am ddefnyddioldeb y cynllun, ond yn mlaen y mae y diwygiad yn cerdded. Rhoddwyd cychwyn adnewyddol yn y mawl, pan y dygwyd trefniant Wilhelm yn Ffrainc, a Hullah yn Lloegr, dan nodded y llywodraeth wladol, yn yr Ysgolion Cenedlaethol. Daeth Binney, ac Allon allan drachefn, a chydag effeithioldeb mawr, a wnaethant gyffro grymus, a rhoddasant fywyd newydd yn ngwasanaeth y mawl, fel y mae cyfnod newydd hollol erbyn hyn, wedi gwawrio ar ein gwlad, yn y gangen bwysig hon o wasanaeth y cysegr. Y mae yn llawenydd genym ddeall fod ein cyd genedl, wedi, ac yn gwneud eu rhan yn deilwng yn y diwygiad hwn. Y mae y Cymry erbyn hyn yn lled gyflawn yn eu trysorau cerddorol ac emynol, ac y mae ein gwlad wedi ei chyfoethogi, i raddau mawr, â llyfrau tonau, ac â llyfrau emynau at wasanaeth y deml. Y maent yn uchel o ran cymeriad, ac yn lluosog o ran nifer. Y mae yr eiddo Pant y celyn, Anne Griffiths, Edmwnd Prys, Benjamin Francis, Edward Jones Maes y plwm, Thomas Williams, a nifer eraill a ellid eu henwi, yn rhagorol. Y mae y cyfieithiadau o Watts, Wesley, Doddridge, ac eraill, yn wir weithfawr. Y mae casgliadau Harries; Jones, Treffynon; Edwards, Waeddgrug; Samuel Roberts, Caledfryn; Griffiths Abertawe; Ebenezer Rees, a nifer eraill, yn drysorau anmbrisiadwy yn ein gwlad. Y mae genym grynhoad teilwng iawn o Donau cysegredig at wasanaeth yr addoliad, gan Ieuan Ddu, Ambrose Lloyd, Ieuan Glan Geirionydd, Glan Hafren, John a Richard Mills, Alawydd; y Parch[n.] Evans Corris, a Jones Llanengan, Ieuan Gwyllt, ac eraill, oll yn gymeradwy iawn; y mae y Casgliad o Donau ac Emynau gan Stephan a Jones, wedi cael derbyniad cyffredinol, ac mewn ymarferiad yn mhob man; a diau y croesawir yr hyn a addawa Rees a Lloyd i'r cyhoedd ar fyrder. Y mae y Corganau yn dechreu dyfod i arferiad mewn llawer man; ac y mae cyhoeddiad y Casgliad diweddar o Gorganau gan Stephan a Jones, wedi bod yn foddion effeithiol er hyrwyddo hyn mewn llawer modd. Gyda golwg ar yr offerynau, y mae yn briodol mynegi fod yr *Organ* yn dechreu cael ei dwyn i mewn i'r addoldai

Digitized by Google

Cymreig, a bod yr *Harmonium* yn gyffredin iawn eisoes; yr hyn a brofa yn eglur, fod chwaeth y genedl yn rhedeg yn y cyfeiriad offerynol. Y mae y wlad yn cyfoethogi yn ei Chyhoeddiadau o'r hen Donau cenedlaethol, fel y gellid ychwanegu at yr enwau a grybwyllwyd eisoes, am Llinos (Miss Williams, Aberpergwm), Owen Williams, Llanddeusant, ac eraill, er nad yw eu gwaith mor adnabyddus yn mysg y cyffredin. Yn mysg ein Cerddorion cyhoeddus, saif enwau Pencerdd Gwalia, Brindley Richards, Ellis Roberts, Pencerdd America, Owain Alaw, ac eraill, yn uchel iawn. Addefir fod W. E. Thomas, y Crythor Cymreig o Liverpool, yn sefyll yn y rhestr flaenaf o holl *violinists* y byd; ac felly y gellir dywedyd am Aptomas yn ei gysylltiad a'r delyn; a diau y dylid gwneud yr un sylw ar Griffiths, Telynor Gwenhynen Gwent (Arglwyddes Llanofer) yn ei feistrolaeth ar y Delyn Deir-rhes. Fel cantorion ag sydd wedi enill iddynt eu hunain radd dda, dylid crybwyll am Tan-y-marian, Lewis Thomas, Llew Llwyfo, T. J. Hughes, Edith Wynne, Miss Watts, a nifer yn ychwanegol. Am y cyfansoddwyr, y mae y lluaws yn fawr iawn, fel y mae allan o'n terfynau allu cyfeirio atynt oll ar wahan.

Y symudiad diweddar pwysicaf, efallai, ydyw ffurfiad yr Undebau Cerddorol, mewn amryw gymydogaethau, os nad mewn Siroedd rai. Cynhelir cyfarfodydd cylchynol, a gwyliau blynyddol, lle yr una nifer o gorau, i gydymarfer. Anfonir cynnrychiolwyr i'r cynadleddau er cael ymgynghoriad yn gystal ac ymarferiad. Detholir Tonau, a chyhoeddir rhaglenau am y gweithrediadau, a dygir tystiolaeth ffafriol iawn, am yr effaith ddaionus a gynnyrchant ar y canu cynulleidfaol yn mhob man yn barod. Un o'r pynciau mwyaf pwysig, mewn cysylltiad a'n gwlad, ar hyn o bryd, i gadw gwyliadwriaeth drosto ydyw,—Pa mor belled y gellir dwyn yn mlaen Gerddoriaeth adlonawl, heb iddi redeg i ynfydrwydd gwagsaw ar un ochr, a chadw rhag ysbryd Phariseaeth gorfanwl ar yr ochr arall. Y mae pob dawn a thalent o'r bron, yn agored i gael ei chamarfer. Addefir fod llawer o ddarganfyddiadau buddiol wedi ac yn cael eu gwneuthur, o oes i oes, a thebygol iawn y ceir mwy eto, a'r rhai hyny yn tueddu er adeiladaeth a lles i ddynolryw. Mae y pethau hyn yn fendithion gwerthfawr yn eu lle, a'r darganfyddwyr o honynt yn teilyngu parch; ond os gosodir, hyd yn nod y gwelliant mwyaf buddiol yn y celfyddydau, fel gwrthddrych eithaf y meddwl i gyrhaedd ato, ac fel sail pob dedwyddwch yma, a hapusrwydd ar ol hyn, fe dry y cyfan allan yn siomedigaeth yn y diwedd. Os daw Treith-ganau yn y ffurf o dromarawd, neu ddigrifwawd, neu ynte adroddiadau mewn damhegion, cyffelybiaethau, chwedlonau, neu unrhyw ffurf arall o ddifyrwch, yn brif hoffder y genedlaeth a fyddo yn codi, ni ellir magu dynion cryfion a chedyrn, fel llenorion na duwinyddion, erbyn yr oes a ddel. Y mae o bwys i'r byd adnabod canol llwybr barn, a rhodio ynddo. Nid oes neb o chwaeth briodol a choethedig, a dderbyn unrhyw niweid oddiwrth Gerddoriaeth adlonol, mwy nac oddiwrth Farddoniaeth o'r un natur. Os gellir gwisgo pwnc mewn "Hud a Lledrith," o ran y farddoniaeth, nid oes neb goleuedig na addefa fod Ysbryd y Gan, yn "Ngwlad y Gân, mor gymhwys at yr amcan a'r awenyddiaeth buraf.

Wedi yr holl gyfeiriadau a ellir eu gwneud at bob dosparth o beroriaeth leisiol, nid oes yr un mor bwysig yn y diwedd, â Chaniadaeth y Cyssegr. Yma y cafodd athrylith seraphaidd prif gerddor y byd le priodol i chwareu, ar weithredoedd rhyfeddol "Y Greadigaeth"—ar orchenaid genedlaethol "Israel yn yr Aipht"—ac ar "Haleluia" buddugoliaethau "Y Messia," yn y seiniau aruchelaf a glybuwyd er yr amser y "Cydganodd ser y bore, ac y gorfoleddodd holl feibion Duw." Diau nad oes diffyg o'r doniau hyn nghydgan y nef, lle yr adseinir "Can Moses a Chan yr Oen," gan y Côr sydd a thelynau Duw yn eu dwylaw! Y mae llawer o ddychymygu, pa un ai pyncio distaw yn y galon sydd yno, a'i ynte peroriaeth seiniol y llais; yn cynwys isalaw gwrolaeth; y meinlais menywol; tonor yr ieuaingc, a "pherffeithiad moliant" y plant! Pa fodd bynag, yma ar y ddaear y dysgir elfenau y Gân; ac nid Cyngherdd, a rhai yn canu, a'r lleill yn gwrando, a fydd yno; ond torf na ddichon neb ei rhifo, a phob un yn ei le priodol yn chwyddo yr anthem, "Teilwng yw yr Oen, yr hwn a laddwyd i dderbyn gallu, a chyfoeth, a doethineb, a chadernid, ac anrhydedd, a gogoniant, a bendith!"

**CEREDIGION.** Gwel ABERTEIFI.

**CERI**, plwyf yn rhan-barth uchaf cantref TREFALDWYN, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU, 3 milldir i'r dwyrain wrth ddehau o'r Drefnewydd, yn cynnwys poblogaeth o 2075, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae rhai yn barnu mai llygriad yw yr enw o *Caerau*, am fod gweddillion amryw hen amddiffynfeydd yn y plwyf a'i amgylchoedd, yr hwn fel yr oedd ei sefyllfa gerllaw cyffindiroedd Lloegr, oedd yn faes brwydrau mynych rhwng y ddwy genedl; ond, y mae y ffaith o fod y lle yn myned dan yr enw "Ceri" mor foreu a'r chweched ganrif, cyn adeiladiad yr amddiffynfeydd lluosog, a wnaed yn angenrheidiol gan ryfeloedd y cyffin-diroedd, yn dymchwelyd y cyfryw dybiaeth, y mae yn ymddangos. Y diweddar Barchedig Mr. Jenkins, henafiaethwr cywrain, a Ficer y plwyf hwn am lawer o flynyddoedd, a farnai fod y lle wedi cael ei enw oddiwrth ryw bennaeth mewn adeg dra boreuol, ettifeddiaeth yr hwn ydoedd. Yr ydoedd yn arferiad dra chyffredin yn mysg y Cymry mewn oesoedd boreuol, alw ettifeddiaethau ar enwau eu perchenogion; ac efe a farnai, mai "Ceri Hir Lyngwyn," tadeu yr enwog Caradog, a adawodd ei enw ar y llanerch hon. Yn yr hen amseroedd, yr oedd Ceri yn cynnwys rhandir sydd yn awr yn gwneyd i fynu blwyfi Ceri a Mochdref, a'r pryd hyny gelwid yr eglwys "Llanfihangel yn Ngheri," a ffurfiai gwmmwd yn nhalaeth Fferyllwg, yn cyfatteb i'r hyn a elwir yn awr, y parthran uchaf o'r cantref. Yr amgylchiad cyntaf a grybwyllir mewn cyssylltiad a'r ardal hon, ydyw ei bod wedi bod yn destyn ymladdfa galed a phenderfynol rhwng yr enwog Giraldus Cambrensis, Archddiacon Brycheiniog, âg Adam, Esgob Llanelwy, o barth yr hawl i'r eglwys; yr hon, er iddi gael ei chyfrif er's peth amser fel yn perthyn i esgobaeth Ty Ddewi, a hawlid gan yr esgob uchod; yr hwn allan o law a gododd fintai gref o Powys, i gynnorthwyo, os byddai eisiau, i roddi ei hawliad mewn grym. Pan glybu Giraldus hyny, efe a anfonodd genhadon at ddau dywysog o'r wlad hon, Einion Glŷd, a Chadwallon, yn gofyn am gynnorthwy milwraidd, er amddiffyn hawlion eglwys Ty Ddewi; gan benderfynu rhagflaenu bwriad yr Esgob. Wedi cyrhaedd o hono i Ceri, efe a aeth i'r eglwys, ac a archodd ganu y clychau, fel arwydd o berchenog-

Digitized by Google

aeth; ac yna aeth rhagddo i gyflawni gwasanaeth yr offeren. Yn y cyfamser, y cenadon a anfonasid gan yr esgob, a roddent hysbysiad o ddynesad yr esgob i gyssegru yr eglwys; ar hyny, yr arch ddiacon, a anfonodd rai o'i offeiriaid, a deon y rhandir gyda hwy, i'w hysbysu, os y deuai fel cyfaill, y derbynid ef yn garedig; ond, os amgen, efe a'i cymhellai na's deuai rhagddo yn mhellach. Ond ni fynai yr esgob ei droi oddiwrth ei amcan; a'r archddiacon a'i offeiriaid a'i cyfarfu wrth borth y fynwent, lle y cyfododd ymryson rhyngddynt, pob plaid yn dadleu ei hawl neillduol ei hun i'r eglwys. Yr esgob wedi dodi y meitr am ei ben, a chymeryd y fugeil-ffon yn ei law. a ddeuai yn mlaen gyd a'i ganlynwyr, ar yr hyn y deuai y blaid wrthwynebol yn mlaen hefyd, yn eu gwenwisgoedd, a'u hurddwisgoedd offeiriadol, a chanwyllau cwyr wedi eu goleuo yn eu dwylaw, a'r groes yn ddyrchafedig o'u blaen, mewn trefn orymdeithiol, a dechreuai y naill, ysgymuno y llall; ond, wedi i'r archddiacon orchymyn canu y clychau dair gwaith, er cadarnhad o'i ddedryd, aeth yr esgob a'i blaid ar eu ceffylau, a marchogasant ymaith yn nghanol bloeddiadau a pheledіadau y dyrfa a gynnullasai y fath amgylchiad annghyffredin yn nghyd. Fe'n hysbysir gan Matthew Paris, fod Harri y Trydydd wedi tywys byddin er cynnorthwyo gwarchodlu castell Trefaldwyn, ar yr hwn y gwarchaeai y Cymru y pryd hwnw, ac efe a'u gorfodogodd i roddi eu hanturiaeth i fynu, ac a aeth rhagddo yn mhellach i'w gwlad; ond efe a gyfarfuwyd gan Llewelyn ab Iorwerth, mewn lle a elwir yn llygredig "y Cridia," yn Nyffryn Ceri. Wedi treulio llawer o amser yn tori coedwig fawr, yr hon a fuasai lawer gwaith yn lloches i'r Cymru rhag ymosodiadau blaenorol y byddinoedd Seis'nig, efe a gymerodd, ac a anrheithiodd balas castellawg oedd yn ei chanol, a thrwy hyny a'u hamddifadodd o un o'u hamddiffynfeydd pwysicaf; a chan sylwi ar sefyllfa dra manteisiol y lle, trwy gyngor ei weinidog Hubert de Burgh, efe a ddechreuodd adeiladu castell ar orsaf yr adeilad flaenorol: tra yr oedd y gwaith yn cael ei ddwyn yn mlaen, efe a flinid yn fawr gan y Cymry, y rhai a arluddient ei nawdd-luoedd, ac a dorent ymaith ei ysborthwyr (*foraging parties*), fel, wedi tri mis o lafur, a llawer o draul, y bu raid iddo roddi ei fwriad i fynu, a chyttuno ar gad-ymbaid (*truce*); yr ammodau oeddynt, ei fod ef i chwalu hyd lawr, yr adeiladau a gyfodasai, a'r rhai ar ol hyn a elwid "Ffolineb Hubert," a bod y tywysog Cymreig i dalu tair mil o farciau am y defnyddiau, a chyttuno i wneyd gwriogaeth am arglwyddiaeth Ceri. Yn un o'r ymladdfeydd a gymerodd le y pryd hyny, cymerwyd William de Breos, arglwydd Brycheiniog, yn garcharor gan y Cymry, am yr hwn, gwel ychwaneg dan y gair ABER.

Y plwyf, yr hwn sydd yn gorwedd yn mharth deheuol y Sir, ar ymylau siroedd Maesyfed a'r Amwythig, sydd tua thair milldir ar ddeg o hyd, ac yn amrywio mewn lled, o dair, i bum milldir; ac y mae yn cynnwys tua deuddeng mil o erwau o dir cauedig a diwylliedig, ac yn nghylch deng mil o erwau o dir mynyddig, yr hwn a ranwyd yn ddefeittir i wahanol dyddynod, o fewn y ganrif bresenol, dan ddeddf Seneddol a gadarnhawyd yn y flwyddyn 1797. Y mae y pentref yn gorwedd ar y ffordd o'r Dref Newydd i *Bishop's Castle*. Yn amser tywysogion diweddaf Cymru, yr oedd yr ardal yma yn orchuddiedig gan goedwigoedd anhydraidd o'r bron; ac yn nheyrnasiad Harri yr Wythfed, fe'i darlunid gan *Leland* fel gwigfa heb geirw. Ond, er y pryd hyny, y mae wedi ei llwyr ddynoethi o'i gwisg wŷddigawl; er fod yma blanfeydd helaeth wedi eu ffurfio yn lled ddiweddar, y rhai ydynt yn brydferthiad mawr ar y dyffryn. Cynhelir cyfarfod yr ynadon am y rhanbarth uchaf o'r cantref, yn y pentref hwn, ar y dydd Gwener olaf yn mhob mis. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn archddiaconiaeth Brycheiniog, ac esgobaeth Ty Ddewi, wedi ei threthu yn llyfrau y Llywodraeth yn 17*p*. 8*s*. 4*c*., ac yn nawddogaeth esgob Ty Ddewi. Dywaid Giraldus Cambrensis, fod yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i St. Michael, wedi cael ei hail-adeiladu yn y flwyddyn 1176; y mae yr adeilad gan mwyaf, yn yr arddull Normanaidd, ac yn gynnwysedig o ddwy asgellfa, wedi eu hysgaru gan wyth o fwäau Normanaidd, cynnaliedig gan golofnau crynion ac wyth-onglawg, a thŵr petryal mawr yn y pen gorllewinol, ar ben yr hwn y mae cloch-dy o goed. Y bedydd-faen, yr hwn sydd dra henafol, sydd wyth-ongl, ac wedi ei addurno ar bob wyneb â dyfeisiau yn ddarluniadol o'r Croeshoeliad. Y mae coflech i goffadwriaeth Giraldus wedi ei chyfodi yn yr eglwys; ac ar ochr ogleddol y ffenestr yn yr asgellfa ddeheuol, y mae gwyddfa hardd wedi ei chyfodi, ar y draul o 525*p*., i'r diweddar Richard Jones, Ysw., o'r Plas Du (*Black Hall*); seilydd haelfrydig "Sefydliad y Plas Du," (*the Black Hall Institution*), yn y plwyf hwn; y mae yn gynnwysedig o saf-ddelw o'r seilydd, mewn marmor gwyn, ar un ochr i ba un y mae bachgen yn ysgrifenu, ac ar yr ochr arall, eneth yn darllen, yn gorphwys ar fonsang o farmor amryliw. Y mae yma gof-lech hardd hefyd am y Parch. Mr. Jenkins, diweddar ficer y plwyf.

Yr oedd capel anwes gynt yn nhrefgordd Gwern y go; ond ni's gellir olrhain dim o weddillion yr adeilad yn bresenol. Y mae amryw addoldai ymneillduol yn y plwyf. "Sefydliad y Plas Du" a gyfodwyd yn y flwyddyn 1787, gan y dywededig Richard Jones, Ysw., yr hwn a fuasai yn byrsydd yn y llynges freninol, "i fod yn rhydd ac agored i bob Cristionogion, Iuddewon, Twrciaid, ac Anffyddwyr, a ddeuant i dderbyn addysg, fel y gwrandawont ac y dysgont, ac yr ofnont yr Arglwydd, yr Iehofah mawr." Ar ei farwolaeth, efe a gymmun-roddodd i ymddiriedolwyr, drysorfa gynnwysedig o fwy na thair mil o bunnau, yn dwyn i mewn wahanol logau, o dair i bum punt y cant, tuag at borthi, dilladu, ac addysgu plant tlodion o'r plwyf hwn, a rhoddi bechgyn tlodion yn freint-weision mewn gwahanol alwedigaethau. Cymmun-roddodd hefyd saith gant o bunnau, yn dwyn tair punt y cant o lôg, tuag at gynnal Ysgol Sabbathol yn y plwyf. Y mae yr elusen werthfawr hon wedi bod yn foddion i addysgu cannoedd o blant tlodion er ei sefydliad cyntaf, ac i roddi defnydd bywioliaeth gysurus yn nwylaw llaweroedd, na buasai iddynt obaith am hyny oni buasai yr elusen yma. Mewn adroddiad a gyhoeddwyd amryw flyneddoedd yn ôl, fe'n hysbysid fod 76 o feibion, a 59 o enethod, yn yr ysgolion dyddiol; o ba rai yr oedd pedwar o bob rhyw yn cael eu dilladu, a dau neu dri yn cael eu rhoddi yn freint-weision yn flyneddol; a pherthynai cant o blant i'r Ysgol Sabbothol, i'r rhai, os dewisent aros ar ol y gwasanaeth boreuol, yr arlwyid bara a chaws, yn ol cyfarwyddiadau y cymmun-roddwr. Y mae yr ysgoldy yn sefyll yn agos i'r eglwys, ac wedi cael ei adgyweirio

Digitized by Google

yn dda lawer gwaith, mewn rhan trwy gyfroddion gwirfoddol, ac mewn rhan ar draul y drysorfa berthynol i'r elusen.

Y mae llawer o amgloddiau, amddiffynfeydd, a charneddau, ar y bryniau, ac mewn rhanau eraill o'r plwyf, y rhai ydynt yn brofion amlwg fod y gymmydogaeth hon wedi bod yn gemmaes ymdrechfeydd ffyrnig, o'r rhai ni's meddwn unrhyw gofion ysgrifenedig. Meddylir mai olion yr hen amddiffynfa y ceisiodd Harri y Trydydd ei chyfodi, ydyw y bryncyn uchel yn ngardd y persondy, yn nhrefgordd Trêflan, yr hwn sydd yn gylchynedig gan ddyfrffos.

**CERI**, Hir Lyngwyn, yn ol y *Trioedd*, ydoedd orhendaid Caradawg ab Bran; a'i fardd ef, Corfinwr, a ddyfeisiodd longau hwylio gyntaf i genedl y Cymry.

**CERI**, Hywel, Bardd a flodeuodd rhwng 1570 a 1600.

**CERI**, Sion, Bardd enwog o ardal Ceri, rhwng 1500 a 1530.

**CERIDWEN**, ydoedd un o'r gwiddanesau mwyaf enwog yn chwedloniaeth ein hynafiaid. Gosodir hi allan fel gwraig i Tegid Foel, etifeddiaeth yr hwn a safai yn nghanol Llyn Tegid. Yr oedd iddynt fab a elwid Morfran, a merch a elwid Creirfyw—a theca merch o'r byd oedd hono. Mab iddynt hwy hefyd oedd Afagddu—y dyn hagraf yn yr holl fyd. Ceridwen yn gweled nad oedd efe yn debyg o gael ei dderbyn i blith boneddigion, o herwydd ei hagrwch, oni bai fod arno ryw gampau neu wybodau urddasol (Canys yn nechreuad Arthur ar ford gron oedd hyny), a ordeiniodd ferwi Pair o Awen a Gwybodau i'w mab. Yr oedd yn rhaid i'r Pair gael berwi yn ddidor am un dydd a blwyddyn, hyd oni cheid o hono dri dyferyn bendigaid o rad yr Ysbryd. Syrthiodd y dyferion hyny ar fys Gwion Bach o Lanfair-Caer-Einion yn Mhowys, yr hwn a osodasai hi i ofalu am y Pair, a chan mor boeth oedd y dafnau, tarawodd Gwion ei fys yn ei eneu, ac mor fuan ag y gwnaeth hyny daeth i wybod pob peth. Yna efe a ymrithiodd yn ysgyfarnog, ac a ffodd ymaith rhag llid Ceridwen, hithau a ymrithiodd yn filiast ac a'i dilynodd ef at fin afon. Gwion ar hyny a neidiodd i'r dwfr gan drawsffurfio ei hun yn bysgodyn, hithau a drawsffurfiodd ei hun yn ddyfrgast, ac a'i hymlidiodd o dan y dwfr nes ei orfodi i droi yn aderyn. Yna trodd hithau yn farcutan, gan ei ymlid yn galetach nag erioed; a phan ar ei orddiwes, ac yntau, ag ofn angau arno, a ganfu dwr o wenith nithiedig ar lawr Ysgubor, a disgynodd ar ei ben iddo ac ymrithiodd yn un or gronynau. Yna ymrithiodd hithau yn iar ddu gopog, ac aeth at y twr gwenith, canfyddodd ef yn mhlith y grawn, ac a'i llyncodd. Bu yn feichiog arno naw mis, a phan esgorodd, ni's gallai gael ar ei chalon ei ladd, gan mor dlws ydoedd. Felly hi a'i gwnïodd ef mewn cwrwgl, ac a'i bwriodd i'r mor ar y 29ain o Ebrill; a hwnw, wedi ei gael yn nghored Wyddno, rhwng Dyfi ac Aberystwyth, ar nos Calanmai, oedd yr enwog Daliesin Ben Beirdd.

Dyna grynodeb o'r chwedl, fel ag ei ceir yn y *Mabinogi*, ac mae yn ddigon amlwg mai aralleg o gyfansoddiad diweddar ydyw; ond pwy fedr ei deongli? Tybia y Celtic Davies bod Ceridwen yn cynddrychioli *Ceres* y Groegiaid, a'i bod yn cael ei haddoli mewn cysylltiad a'r lleuad gan y Cymry yn y 12 fed ganrif; ond mae Mr. T. Stephens yn gwrthbrofi hyny. Teml Ceridwen y gelwir y cylch drylliog o geryg anferth a geir yn Caergyfylchi, ger y Penmaenmawr, yn Arfon. Gwel ddarlun o honynt yn *Arch. Cambrensis*, i. 71; a'r Ysgrif ar Penmaenmawr yn y gwaith hwn.

**CERRIG-CADARN**, neu Crug-Cadarn, sydd blwyf yn nghwmwd Talgarth, cantref Canol, swydd Frycheiniog, Deheudir Cymru; 11½ milltir o Hay, yn cynwys y rhanbarthau Gogleddol a Deheuol, y rhai a lywodraethir ar wahan. Bernir fod enw y plwyf yn codi o "gadernid y mynydd," ac oddiwrth sefyllfa yr eglwys, sydd yn sefyll ar goryn bryn uchel, uwchlaw afon fechan Clettwr; sydd yn rhedeg i'r Wy, yn Errwd, ar y ffordd i Buillt. Y mae y pentref yn sefyll ar lan yr Wy, yr hon sydd yn gwahanu y lle oddiwrth sir Faesyfed; ac y mae y brif-ffordd, o Henffordd, trwy y Gelli, i Buillt, yn rhedeg drwy barth dwyreiniol y plwyf. Y mae y Clettwr, ychydig uwchlaw y lle y mae yn cael ei chroesi ar bont, yn rhedeg drwy nant ddofn, ochrau yr hon sydd yn sythion iawn, ac yn cael eu gorchuddio â choed o'r grib hyd ymyl y dwr, ac felly yn arddangos golygfa darawiadol iawn. Y mae y fywoliaeth yn ficeriaeth wahanedig, mewn cysylltiad â Llandefali, yn archddeoniaeth Brycheiniog, ac esgobaeth Ty Ddewi. Y mae yr eglwys, yr hon sydd wedi ei chyflwyno i St. Mair, yn adeilad bychan henafol, gyda thwr cadarn, ond heb unrhyw hynodrwydd yn y cynlluniad. Y mae rhai cerfiadau mewn derw, yn y nen, ac ar y pileri o fewn, yn brydferth. Nid oes persondy na thir yn perthyn i'r eglwys. Collwyd Cofrestrau y plwyf hwn, a Llandefali yn y flwyddyn 1792, a chyn y dyddiad hwnw, nid oes yno un hanes. Y mae yma leoedd o addoliad gan y Bedyddwyr a'r Annibynwyr ar gael. Gadawodd y Parch. Dafydd Williams, yn 1712, hawl ar ardreth o 2*p*. i'w ranu rhwng wyth o dlodion; at yr hyn yr ychwanegodd Mrs. Lettice Parry, yn 1721, dir o werth 1*p*. yn y flwyddyn; ac yn yr un flwyddyn gadawodd Mr. William Evans hawl ar ardreth o 5*p*. y rhai a ddosberthir yn flynyddol, mewn bara, rhwng tlodion y plwyf.

**CERRYG CEINWEN**, plwyf yn nghantref Malltraeth, swydd Fon, Gogledd Cymru, 3 milldir de orllewin wrth orllewin o Langefni, ar y ffordd i Gaergybi, yn cynwys poblogaeth o 465, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae y tir yn y plwyf hwn mewn cyflwr dâ o ddiwylliad; ac o ganlyniad, er fod peth o hono wrth natur yn rhosdir carregog, y mae ar y cyfan yn lled gynnyrchiol. O fewn y plwyf hwn y mae yr Henblas, mewn sefyllfa hynod o ddymunol, yn nghanol planfeydd prydferth. Curadiaeth barhaol oedd y fywioliaeth eglwysig, wedi ei chyssylltu a Llangristiolus, yn archddeoniaeth Môn, ac esgobaeth Bangor. Y Llan, yr hon sydd gyflwynedig i goffadwriaeth St. Ceinwen, un o ferched Brychan Brycheiniog, sydd adeilad fechan, ond hardd a chyfleus. Cedwid cofwyl Ceinwen, Hydref 8. Darfu i'r Dr. William Lewis, yr hwn a anwyd yn y plwyf hwn, adael deuddeg punt yn y flwyddyn at roddi addysg i ddau fachgen tlawd, a anesid yn y plwyf hwn, ac amryw symiau o arian, i gynnorthwyo gwŷr ieuainc o'r wlad hon i fyned i un o'r ddwy brif ysgol; ac efe a gyfranodd yn dra haelionus hefyd i'r drysorfa er cynnorthwyo gweddwon gwŷr eglwysig.

Yn y cyflyfr cyntaf o'r *Cambro Briton*, cyfarfyddwn a'r adroddiad hynod a ganlyn, mewn cyssylltiad a'r plwyf hwn;—"Yr arysgrif hynod a ganlyn, a adysgrifiwyd oddi ar fedd-faen yn Eglwys Cerryg Ceinwen, yn Ynys Fôn. Coffadwriaeth syml ydyw am

Digitized by Google

ddŷn, y darfu i'w wrolder gynnyrchu nid ychydig o edmygedd mewn oes flaenorol; ac efallai na's cyfrifir ef yn annyddorol yn yr oes hon. Yr ydoedd yn oesi yn adeg yr ymrafaelion annedwydd rhwng Charles I. a'r Senedd, ac yn cyfanneddu yn Lledwigan, tyddyn adnabyddus yn agos i Langefni; am ba achos ei hadwaenir dan yr enw "Dyrnwr Lledwigan." Y mae yn hysbys fod annrhefn ac afreolaeth mawr yn y rhan hon o'r deyrnas, ar adeg adfeiliad yr achos breninol. Yr oedd llawer o'r milwyr Seneddol, y rhai a achwynent fwyaf yn erbyn gorthrymder yr orsedd, wedi dyfod eu hunain i fod y gorthrymwyr gwaethaf, gan orfodi y rhai oeddynt oludog, i dalu dirwyon trymion, ac arfer creulonderau mawrion tu ag at bersonau eu cydwladwyr, ac yn enwedig eu cymmydogion teyrngarol a di amddiffyn. Cyrhaeddodd mintai o'r dysgrifiad yma, tua deg ar hugain mewn nifer, medd traddodiad, i Ledwigan, gan erchi i'r tyddynwr, Morys Llwyd, yr hwn oedd ar y pryd yn dyrnu yn ei ysgubor, roddi swm mawr o arian iddynt hwy, neu fygwth cymeryd ei fywyd oddiarno os gommeddai. Ond, efe a'u hattebai yn ddïoed, na's rhoddai y naill i fynu, ond gyd a'r llall; ac wedi cil gau drws ei ysgybor, efe a ymosododd arnynt a'i ffust, fel y ceisient ddyfod i fewn yn olynol. Cwympodd wyth neu ddeg o honynt yn yr ymrysonfa hon, yr hon, debygid, a ddaliasid i fynu yn hwy o lawer, oni buasai i gareiau y ffust gael eu torri, naill ai yn ddamweiniol, neu gan gleddyfau yr ymosodwyr. Yna yn wir, fe'i trechwyd gan nifer mwy, ac arfau rhagorach yr ymosodwyr, ac ni raid dywedyd pa beth a fu y canlyniad.

Y mae y bedd-faen, a'i arysgrif syml a chyffrous, yn perthyn, debygid, i gyfnod blaenorol i'r Adferiad: ac y mae hanes ei helynt ganlynol yn gweini enghraifft darawiadol o ddïofalwch cyssegr-ladradol am goffiannau ein henafiaid, ac yn brawf gwaradwyddus o'r di deimladrwydd calon-galed hwnw, na's gall werthfawrogi yr hyn sydd hybarchus ar gyfrif ei henafiaeth, adeiladol mewn siampl, neu dduwiolfrydig mewn amcan. Ymddengys fod coffadwriaeth Morus Llwyd wedi bod yn barchus iawn yn y gymmydogaeth hono dros lawer o genedlaethau; ond, yn yr oesoedd diweddarach hyn, cyfodasai cenedlaeth, meddiannol ar deimladau a syniadau tra gwahanol. Fel yr oedd rhyw adgyweiriadau wedi dyfod yn angenrheidiol yn yr eglwys, ac yr oedd angen am lech-faen mewn rhyw ran o honi, gwnaed defnydd o'r beddlech oedd yn gorchuddio gweddillion "Dyrnwr Lledwigan" a'i wraig, i'r cyfryw amcan, er arbed y draul o brynu un; ac heblaw hyny, trowyd wyneb isaf y garreg yn uchaf, gyd a'r amcan cyfrwys o gladdu hen hanes Morus Llwyd, a chybydd-dod y wardeniaid diweddar, yn yr unrhyw ebargofiant. Cyfodwyd y bedd-faen crybwylledig yn ddiweddar o'r sefyllfa waradwyddus a nodwyd, gan Mr. John Williams, y tirddeiliad parchus sydd yn dal Lledwigan yn bresenol, ac fe'i dodwyd i sefyll mewn rhyw ran o'r eglwys. Ond, yn gymaint ag nad yw yn llwyr ddïogel yn ei sefyllfa bresenol, yr ydwyf yn hyderu bod digon o ysbryd cyhoeddus yn nhrigolion presenol Cerryg Ceinwen, i ddïogelu y crair hybarchus yma, rhag ei anafu gan ymyriad difeddwl, cystal a chybydd-dod barbaraidd, wardeniaid eglwysig dyfodol. A ganlyn ydyw yr arysgrifen, a adysgrifenwyd yn ofalus amryw flyneddoedd yn ol, ond prin y mae yn ddarllenadwy yn awr:—

"'Dyma yr lle y dayarwyd Morys Lloyd y trydydd dydd o Hydref 1647. Hwn a ymdrechodd ymdrech dêg dros y Frenhin a'i wlad. Wrth i ystlys i claddwyd i assen, Jane Rees Owen, yn gywely iddo y 4 o Dachwedd 1653.'"

**CERRYG Y DRUDION**, a elwir weithiau CERRYG Y DRUIDION, plwyf yn nghantref ISALED, swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU; 10 milldir i'r gorllewin ogledd orllewin o Gorwen, ar hen ffordd Caergybi, yn cynnwys yn ol Deiliadeb 1861, boblogaeth o 1243. Y mae enw y lle hwn yn arwyddo "Cerryg y Dewrion," ac nid "Cerryg y Derwyddon," fel y tybir yn gyffredin; ac y mae y cyfeiriad at bentwr mawr o gerryg oeddynt ar du gorllewinol yr eglwys, o fewn oes neu ddwy yn ôl, ond ydynt wedi eu chwalu yn llwyr erbyn hyn. Cawn ddarluniad manol o honynt gan Mr. Lloyd, yn Camden's *Britannia*, t.d. 682.—"Y ddau garchar hyny, y rhai y meddylir yn gyffredin eu bod yn cael eu defnyddio yn amser y Derwyddon. Y maent wedi eu cyfleu tu a'r wythfed ran o filldir, y naill oddiwrth y llall, ac y maent yn gyfryw, fel y gallasai pob carchar gynnwys un dyn yn hawdd. Gelwir un o honynt "Carchar Cynric Rŵth:" ond pwy oedd efe, sydd yn hollol ansicr. Nid oes unrhyw enw neillduol yn cael ei roddi ar y llall, heblaw "Cist-faen;" ond y mae y naill a'r llall yn cael eu galw yn gyffredin dan yr enw hwnw yn yr oesoedd diweddar hyn, am eu bod mewn rhan yn debyg i gistiau mawrion, oddiwrth y rhai y gwahaniaethant yn benaf yn yr agorfeydd i fyned iddynt. Y maent yn sefyll a'u penau i'r gogledd a'r dehau, a phob un o honynt yn gyfansoddedig o saith o gerryg. O'r rhai hyn, y mae pedair uchlaw chwe throedfedd o hŷd, a thua llathen o led, ydynt wedi eu cyfleu yn y fath fodd, fel ag i ffurfio rhywbeth tebyg i dwnel ysgwar simnai; y bummed, yr hon nid yw mor hir, ond o'r un lêd, sydd wedi ei dodi ar y pen deheuol, fel ag i gau allan fynedfa y ffordd hono yn ddïogel. Yn y pen gogleddol y mae y drws, ar yr hwn y mae y chweched garreg yn gauad, er cadw y carchar cauedig hwn yn ddïogel: ond, gan y byddai yn angenrheidiol symud hon, pan y byddai eisiau rhoddi rhyw un yn y carchar, neu ryddhau rhyw un o hono, nid ydyw o'r cyfryw bwysau ag a'i gwnelai o honi ei hunan yn ddigon o warchodaeth ar y carcharor, gan hyny, ar ben y pedair careg a grybwyllwyd gyntaf, y gorwedda y seithfed, yr hon sydd yn garreg dra enfawr, ac a symudasid drwy egni dirfawr tu a'r pen gogleddol, fel trwy ei mawr bwysau, y dïogelai garreg y drws. Y mae traddodiad lleol yn dweyd mai rhyw bennaeth creulon a gorthrymus o'r enw Cynric Rwth, a'u defnyddiai i gau ei garcharorion ynddynt, hyd oni thalai eu ceraint am eu rhyddid, efallai. Ond wedi y cwbl, nid yw yn annhebyg nad yn feddrodau i ryw ddewrion eu ffurfiasid ar y cyntaf; y mae *Pennant* yn ein hysbysu, mai saith droedfedd o hyd, tair a haner o led, a dwy a haner o uchder, ydoedd mesur tufewnol y fwyaf o'r rhai hyn.

Y mae y plwyf yn cynnwys tuag ugain mil o gyfeiriau o dir, ond bod llawer o hono yn rhosdir tlawd a mynyddig. Nid yw y pentref ond bychan, ac y mae yn sefyll ar dipyn o ddyrchafiad tir, ar yr hen brif-ffordd o Lundain i Gaergybi, ac y mae yr un newydd hefyd yn dyfod yn agos iddo, ac am amryw filldiroedd yn myned trwy y plwyf. Prif orchwyl y trigolion, ydyw magu anifeiliaid, tori mawn yn danwydd, nyddu edafedd gwlan, a gwau hosanau.



Digitized by Google

Y mae llawer o borfeldir da yn y gymmydogaeth; ac erbyn hyn trwy y diwygiad mawr sydd wedi cymeryd lle mewn ammaethyddiaeth, cyfodir cnydau lled drymion o ŷd, yn enwedig haidd a cheirch, o fewn y plwyf hwn. Byddai marchnad yn cael ei chynal yma gynt, ar ddydd Gwener; ond, y mae wedi cael ei rhoddi i fynu er ystalm: cynhelir ffeiriau yma eto, ar Mawrth 14, Ebrill 27, Awst 24, Hydref 20, a Rhagfyr 7.

Rectoriaeth ydyw y fywioliaeth eglwysig, yn arch-ddiaconiaeth ac esgobaeth Llanelwy, wedi ei threthu yn llyfrau y frenhines yn 10*p.* 8*s.* 1½*c.*; ac yn nawdd-ogaeth esgob Llanelwy. Y mae yr eglwys yn gys-segredig i goffadwriaeth Mair Magdalen, ac y mae yn adeilad ehang: ac y mae amryw addoldai perth-ynol i'r Trefnyddion Calfinaidd, a Wesleyaidd, yr Annibynwyr, a'r Bedyddwyr, yn y plwyf. Yn y flwyddyn 1716, cyfodwyd elusendy i chwech o hen wŷr, gan Robert Price, Ysw., Prif Farwn y Trysorlys yn nheyrnasiad William y Trydydd, yr hwn hefyd a roddes waddoliad da at eu cynnal; ac y mae amryw o gymun-roddion haelionus wedi eu gadael i'r-plwyf hwn, llog y rhai a renir, yn benaf, mewn bara gwŷn i'r tlodion, yr hwn a gyfrifid yn foethau yn y parthau hyn, gan mai bara haidd, neu fara ceirch a arferid gan drigolion y wlad hon, yn unig o'r bron, rai blyneddodd yn ol. Y dywededig Mr. Price, araeth hygofus yr hwn yn Nhŷ y Cyffredin, yn erbyn dy-roddiad arglwyddiaeth Dinbach, a lleoedd eraill yn Nghymru i'r Duc o Portland, a dynodd sylw ei ben-nadur, a anwyd yn Giler, yn y plwyf hwn.—Gwel ROBERT PRICE.

**CESAIL**, CADWALADR, ydoedd fardd yn byw yn y Gesail Gyfarch, yn Eifionydd, yn nechreu yr 17eg ganrif. Mae cynwysiad naw o'i Gywyddau ar glawr Y *Greal.* Tybia rhai mai yr un oedd ef a Cadwaladr Gruffydd.

**CETHIN**, GUTYN, ydoedd fardd yn ei flodau yn haner olaf yr 16eg ganrif.

**CETHIN**, SYR LEWIS, oedd fardd ac offeiriad gwladgarol yn yr 16eg ganrif. Yn y *Greal* am 1806, ymddangosodd dau Englyn a gyfansoddodd efe er anog i argraffu llyfrau yn yr iaith Gymraeg, y rhai a ddiweddant fel hyn:—

"Er colli'n lle a'n trefi,
Cadwn ein Iaith cyd a nyni."

**CEUGANT** (BEILLIAWG), rhyfelwr a gofnodir yn y *Trioedd* gyda Madawg ab Brwyn a Rhuawn Befr, fel tri "Eurgelain" Ynys Prydain; oblegid pan laddwyd hwynt mewn brwydr, rhoddwyd eu pwysau o aur am gael eu cyrph o ddwylaw y rhai a'u lladdes.

**CEULAN**, neu CEULAN Y MAES MAWR, cyd drefgordd â Maesmawr, yn mhlwyf LLANFIHANGEL GENEU'R GLYN, yn y rhanbarth uchaf o gantref GENEU'R GLYN, swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU, 8 milldir i'r gogledd ddwyrain o Aberystwyth, yn cynnwys yn nghyda Maesmawr, boblogaeth o 840, yn ol Deiliadeb 1861. Ymddengys ei bod yn cael ei henw oddiwrth yr afonydd Ceulan a Maesmor, y flaenaf o ba rai sydd yn llifeirio trwy y drefgordd, ac yn ymuno a'r afon Lery yn fuan, a'r llall sydd yn llifeirio ar hyd terfyn gogleddol y dref-gordd: y mae y ffordd o Aberystwyth i Machynlleth yn croesi yn y fan lle y mae y Ceulan a'r Lery yn ymuno, ger pentref bychan hardd Tal y Bont. Ar fynydd yn y gymmydogaeth hon, a elwir Pensarn ddu, y mae yr hen feddrod a elwir "Gwely Taliesin." Y tradd-odiad, neu lên gwerin mewn perthynas i'r gwely hwn yw, os y byddai i ryw un gysgu noswaith ynddo, y deuai yn fardd, neu yn symlyn. Yr oedd y gwely wedi ei wneyd i fynu o chwech o gerryg, o ba rai y mae pump wedi eu cyfleu yn y fath fodd ag i ffurfio math o gist hir-gron; a'r chweched, yr hon oedd y cauad, ac ydoedd yn fwy na chwe throedfedd o hŷd, a thair troedfedd a chwe modfedd o led, a symmud-wyd, ac a ddodwyd o'r naill du: y mae yn nghanol cylch o gerryg, saith droedfedd ar hugain o draws-fesur, yr hwn a gylchynir gan un arall, un droedfedd ar ddeg ar hugain o draws-fesur. Bu Taliesin farw tu a'r flwyddyn 570; ond y mae pob lle i farnu bod y cylchoedd hyn o leiaf, yn llawer boreuach, ac o ddechreuad Derwyddol.

**CEWYDD**, mab Caw, sant a flodeuai yn nechreu y 6ed ganrif. Efe a sylfaenodd eglwysi Aberedwy, a Diserth, yn Maesyfed; a Llangewydd, a safai gynt ger Penybont, Morganwg.

**CHALONER**, SYR THOMAS, a hanai o deulu urddasol yn Nghymru, ac a anwyd yn Llundain tua'r flwyddyn 1515. Derbyniodd ei addysg yn Nghaergrawnt. Wedi gorphen ei efrydiaeth, anfon-wyd ef i'r Almaen, yn gydymaith i Syr Henry Kevet, llysgenadydd Prydain at yr ymerawdwr Siarl V. Yn 1541, cyfarfu a llongddrylliad, a dyoddefodd lawer o galedi. Pan ddychwelodd, gwnawd ef yn ysgrifen-ydd y cyfrin-gyngor. Yn nheyrnasiad Edward VI. aeth gyda Duc Somerset i'r Alban, lle yr enillodd lawer o glod yn mrwydr Musselburgh, ac y derbyn-iodd urdd marchog. Bu agos iddo a syrthio yn ferthyr yn nyddiau gwaedlyd Mâri, Ar goroniad Elizabeth, anfonwyd ef yn negesydd i'r Almaen, ac yn 1561, i'r Hispaen. Bu farw Hydref 7fed, 1565, yn 40 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn Eglwys St. Paul. Cyhoeddodd amryw lyfrau ar lywod-ddysg.

**CHAPEL HILL**, plwyf yn rhan-barth uchaf cantref RHAGLAN, swydd FYNWY, 4¼ milldir i'r gogledd o Chepstow, yn cynwys poblogaeth o 497, yn ol Deiliadeb 1861. Y fywioliaeth eglwysig sydd guradiaeth wastadol, yn arch-ddiaconiaeth ac esgob-aeth Llandâf, wedi ei gwaddoli ag 800 punt o ged-rodd freninol, ac yn noddogaeth Dug Beaufort. O fewn y plwyf hwn y safai Abbatty fawreddawg Tintern, yr hon a seiliasid gan Walter de Clare, yn y flwyddyn 1141, at wasanaeth myneich o'r urdd Cistersiaidd, ac fe'i cyssegrwyd i goffadwriaeth Sant Mair: cyfrifid ei chyllid ar adeg y dadgorphoriad yn 256*p.* 11*s.* 6*c.* Y mae yr adfeilion i lygad yr edrychydd yn olygfa ardderchog, ar lan yr afon Wy, mewn ardal nodedig am harddwch dengar ei golyg-feydd; y maent yn gynwysedig o furiau yr eglwys ysplenydd bron yn gyfain, mewn arddull a ffurfiai y traws symmudiad o'r un Seis'nig boreuol, i'r addurn-iadol.

Ar farwolaeth Walter de Clare yn ddi blant, trosglwyddwyd noddogaeth y fonachlog hon i Gil-bert, a gyfenwid Strongbow, yr hwn a ddaeth yn arglwydd Striguil, neu Chepstow, ac a grewyd yn iarll Penfro. Ychwanegwyd at waddolion y fonachlog gan Gilbert, a'i olynwyr yn arglwyddiaeth Chepstow. Y mae yr hanesydd William o Worcester, wedi cadw coffadwriaeth o brif gymwynaswyr y Sefydliad hwn; yn mysg y rhai yr oedd Roger de Bigod, iarll Nor-folk, yr hwn a adeiladodd yr eglwys. Ac efe a'n hysbysa hefyd, fod yr abbad a'r myneich wedi myned i gôr yr eglwys newydd, yn Hydref 1268, a chyflawni

Digitized by Google

gwasanaeth yr offeren am y waith gyntaf, o flaen yr allor fawr. Ond, y mae yn debyg nad oedd dim ond rhan o'r adeilad wedi ei gorphen; canys ar yr adeg dan sylw, nid ydoedd yn beth annghyffredin i adeiladu a chyssegru y côr, ac wedi hyny orphen y gweddill: ac y mae arddull rhanau o'r adeiladaeth, yn cefnogi y dŷb yma. Yr oedd y fonachlog hon yn cynwys tri ar ddeg o grefyddolion ar adeg y dadgorphoriad: ac yn yr 28ain i Harri yr Wythfed, dyroddid y lle i Harri, ail iarll Worcester, yr hwn a berchenogai gastell Chepstow; ac yn awr y mae yn perthyn i'r Dug o Beaufort.

**CHARLES**, Edward, a elwid hefyd "Siames o Wynedd" a "Sierlyn Fardd," ydoedd frodor o Glocaenog, ger Rhuthyn. Treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Llundain. Yr oedd yn un o'r Gwyneddigion, ac yn ysgrifenydd i'r Gymdeithas yn 1796. Etholwyd ef yn fardd iddi yn 1800, pryd y derbyniodd anrheg o dlws arian hardd; ac ail etholwyd ef yn 1810. Bu farw yn Llundain yn y flwyddyn 1828.

**CHARLES**, Y Parch. Thomas, A.B., o'r Bala. Yn mhlith yr holl enwau ag sydd yn addurno y gofrestr Gymreig o "rai rhagorol y ddaear," ni saif yr un yn uwch na'r eiddo Thomas Charles. Y mae rhyw swyn yn yr enw erbyn hyn, ag sydd yn sicr o gyffwrdd â rhyw linyn yn nghalon a theimlad pob Cymro, er adsain i bob llythyren o hono. Y mae dylanwad ei egwyddorion cywir, ac effaith ei lafur diflino, wedi gadael argraph annileadwy, fel arwydd er daioni cenedlaethol, yn holl barthau y dywysogaeth, a phob gwlad arall ag y mae ein cyd-genedl wedi cyrhaedd iddi i breswylio. Y mae hyn yn dangos y byddai cael golygiad cryno ar brif elfenau ei fywgraphiad, yn gymeradwy gan bawb. Y mae nifer o gofiannau wedi eu hysgrifenu am dano, yn Gymraeg a Saesonaeg yn barod; eto rhaid addef fod nifer o linellau disglaer yn ei gymeriad, ag sydd heb eu darlunio yn eu cyflawnder hyd y dydd hwn.

Ganwyd Mr. Charles ar y 14eg o Hydref, 1755, yn Pant-dwfn, plwyf Llanfihangel, yn Sir Gaerfyrddin; lle sydd ar y llaw aswy wrth fyned o St. Clears i Lacharn. Ei dad oedd amaethwr cyfrifol, o'r enw Rice Charles. Pan ydoedd o ddeutu deg neu ddeuddeg oed, anfonwyd ef i'r ysgol yn Llanddowror, lle yr oedd yr enwog Gryffydd Jones wedi bod yn llafurio, hyd ei farwolaeth yn 1761. Arosodd yn y lle hwn am o dair i bedair blynedd; ac aeth oddiyno i Goleg Caerfyrddin, oedd y pryd hwnw dan olygiaeth y Parch. Mr. Jenkins. Yn ysdod ei arosiad yn Llanddowror, y dechreuwyd dwyn ei feddwl dan argraphiadau crefyddol, yn benaf trwy ddarllen traethawd John Bunyan ar y "Ddau Gyfamod," a chymdeithas hen wr duwiol o'r enw Rhys Huw; a thra yr arosai yn Nghaerfyrddin, er iddo gyfarfod yno â dynion ieuaingc digrefydd, eto dyfnhaodd yr argraphiadau crefyddol ar ei feddwl, a chafodd lawer o adeiladaeth wrth ddarllen "Myfyrdodau Hervey," a llyfrau efengylaidd eraill. Pan yr oedd yn ddeunaw oed, Ionawr 20fed 1773, aeth yr holl ffordd i Capel Newydd, i wrando Mr. Rowlands o Langeitho, a chafodd ei weinidogaeth argraph ddifrifol iawn ar ei feddwl. Nid oes yr un darluniad cystal, a ellir ei wneud o'r amgylchiadau, a'i adroddiad ef ei hun, fel y mae wedi ei gofnodi ganddo:—"Ei destyn ydoedd, Hebreaid iv. 15, a bydd y diwrnod yn dra chofiadwy genyf tra byddwyf byw. O'r diwrnod cysurol hwnw, cefais fath o nefoedd a daiar newydd i'w mwynhau. Y cyfnewidiad a brofa dyn dall wrth dderbyn ei olwg, nid ydyw yn fwy na'r cyfnewidiad a brofais i y pryd hwnw ar fy meddwl:—

> 'Ciliodd daiar, aeth o'r golwg,
> Nef a ymagorai 'n amlwg;
> Sain angylaidd oedd i'm clustiau,
> Adsain nefol ber ganiadau.'

Dyna'r pryd yr argyhoeddwyd fi gyntaf o'r pechod o anghrediniaeth, neu o gynwys meddyliau culion, bychain, a chaled, am yr Hollalluog. Gyda hyny, cefais y fath olwg ar Grist, fel ein Harchoffeiriad; ar ei gariad, ei dosturi, a'i allu, a'i holl-ddigonedd, ag a lanwodd fy enaid â syndod, ie, a "llawenydd annhraethadwy a gogoneddus." Yr oedd fy meddwl wedi ei orthrechu a'i orchfygu gan syndod; yr oedd y gwirioneddau a osodwyd ger fy mron yn ymddangos yn rhy anfeidrol rasol i'w credu; ni's medrwn gredu gan lawenydd. Bydd y golygiadau gogoneddus a gefais y pryd hwnw er llawn ddigoniad i fy enaid, yn y myfyriaeth arnynt, yn mhen myrdd o oesoedd i ddyfod. Yr oedd genyf o'r blaen ryw ddarluniad o wirioneddau yr efengyl, megis yn nofio yn fy mhen; ond erioed hyd y tro hwn, ni threiddiasent i'm calon gydag effeithiolaeth a nerth dwyfol. Arosodd effaith y bregeth hon ar fy meddwl am fwy na haner blwyddyn; ac yn y misoedd hyny, yr oeddwn yn gyffredinol mewn agwedd gysurus a nefolaidd. Yn fynych, wrth rodio yn y maesydd, mi a godwn fy ngolwg yn llawen i'r nef, fel un yn edrych tua'i gartref, a than hiraethu yn wresog am ymddangosiad fy Iachawdwr gogoneddus, i'm cymeryd am byth ato ei hun. Eto, ar amserau, amheuon a redent i fy meddwl, a mi a ddywedwn ynof fy hun, 'A oes modd i'r pethau hyn fod yn wir?' Yna yr Arglwydd a barai i'r fath eiriau a'r rhai hyn ddadseinio yn fy meddwl—'Ni chyflawnaf angerdd fy llid; ni ddychwelaf i ddinystrio Ephraim, canys Duw ydwyf fi, ac nid dyn;'—'Fy enaid bendithia yr Arglwydd, ac nac anghofia ei holl ddoniau ef.' Yn nghylch y pryd hwn hefyd y bu agoriad Luther ar *Galatiaid* i. 4, er bendith fawr a neillduol i'm hysbryd, megis y bu am lawer gwaith wedi hyny. Yn yr holl amser y bu fy arhosiad yn Nghaerfyrddin, yr oedd yr Arglwydd yn rhoddi i mi, yn gyffredinol, brawf melus o'i gymdeithas: ac yr oeddwn yn mwynhau yn dra helaeth y moddion mwyaf grymus o'i ras, a llawer o'r dwyfol bresenoldeb ynddynt. Ar yr un amser nid oeddwn heb demtasiynau cryfion a maglau, y rhai a fuant fwy nag unwaith yn agos iawn i'm llwyr anafu, ond yn y cwbl, yr oedd llaw anweledig Duw yn fy nghadw—y 'breichiau tragwyddol oddi danodd.'"

Y mae y dystiolaeth hon yn dra hynod drwyddi, ac yn llawn o addysgiadau gwerthfawr. Gwelir yma fel yr oedd Rhagluniaeth y nef, yn parotoi y ffordd er gosod i lawr sylfaeni defnyddioldeb, yn oes ddyfodol y "llestr etholedig hwn," ar gyfer gwasanaethu ei Dduw, a gwasanaethu ei genedlaeth, yn ol ei ewyllys, mewn llawer ffordd; yr hyn a drodd allan er daioni cyffredinol i'w wlad. Yn y flwyddyn 1775, agorwyd llwybr annisgwyliadwy iddo fyned i Rydychain. Ond yn mhen tua dwy flynedd wedi ei dderbyniad i mewn, dygwyd ef i brofedigaeth o anhawsder a chyfyngder mawr. Ataliwyd ei gynhaliaeth o Gymru yn ddisymwth; ac nid oedd yr un nodded dynol ag y gallasai edrych ato am ymwared. Dygwyddodd hyn hefyd pan yr oedd yn ddyledwr o ugain punt yn y coleg. Ond yn y cyfyngder hwn, anfonodd gwr

Digitized by Google

bonheddig am dano, i giniawa gydag ef, a chyn iddo ymadael o'r ty, estynodd iddo y swm o ugain punt; ac ar yr un pryd, dywedodd wrtho, na cha'i diffyg fod arno tra y byddai yn Rhydychain; a bu y boneddwr cystal a'i air. Cafodd ei urddo yn ddiacon, Mehefin 14, 1778. Yr haf hwnw ymwelodd a'r Bala; ac oddiyno aeth ef a'i gyfaill, Mr. Lloyd, i Langeitho, lle y gwrandawsant ddwy bregeth gan Mr. Rowlands, er eu cysur annhraethol; ac o Langeitho, teithiasant i Pant-dwfn. Am yr ymweliad hwn a'i hen gartref, dywed Mr. Charles,—"Minau a edrychwn ar y conglau bychain yn y ty, ac ar y gwrychoedd encil yn y maesydd, gyda hyfrydwch sydd yn anhawdd i'w adrodd; lleoedd y buasai fy enaid gynt yn ymdrech â Duw ynddynt, ac mewn gweddi yn caffael y fendith. Ni's gallwn lai nac edrych ar y conglau a'r manau hyny, y buaswn ynddynt yn mwynhau cymdeithas adfywiol â Duw, fel lleoedd cysegredig. Yr oedd tyddyn fy nhad yn gwisgo gwedd baradwysaidd; a'r coffa am yr amryw fendithion a gyfranwyd arnaf ar amryw amserau, oedd yn llenwi fy nghalon â llawenydd a mawl. Awst 16eg. mi a bregethais yn Llanfihangel —plwyf fy nhad; a chefais y fraint o fod yn y gwaith gyda chysur, a difrifwch neillduol; a bu yn llawenydd mawr i'm calon, gael gweled unwaith yn chwaneg, fy hen gyfaill tra anwyl a Christionogaidd, Rhys Huw. Medraswn agos wylo o lawenydd. Y cyfarfod olaf a gawsom yn y byd hwn; yn mhen mis ar ol hyn, efe a ddiangodd i'r nef."

Ymgododd i sylw, fel ysgolhaig gobeithiol yn fuan, a graddiwyd ef yn A. B., yn 1779; ac urddwyd ef yn offeiriad yn 1780. Gwedi bod yn llafurio yn Halifax am bum mlynedd, ymbriododd â Miss Jones, o'r Bala, Awst 20fed. 1783; ac mewn canlyniad i hyn, ymsefydlodd yn y Bala am weddill ei oes. Tua dechreu y flwyddyn 1784, cafodd guradaeth Llanymowddwy; ond achwynwyd arno gan rai o'r plwyfolion, ei fod yn egwyddori y plant bob Sabbath ar ol y gosper, ac o herwydd hyny, rhoddodd y periglor rybudd iddo i ymadael. Dywedir iddo fod rai gweithiau ar ol hyn, yn gweinyddu yn Llanwyddyn, ac yn achlysurol yn Shawbury, er pelled oedd y ffordd, gan nad allai ymgymodi a'r meddwl am fod yn ddi waith, ar un cyfrif. Oddiwrth yr amgylchiadau hyn, gellir gweled yn amlwg, y modd yr oedd ei feddwl yn cael ei weithio a'i aeddfedu, i adael y sefydliad gwladol o grefydd, dan reolaeth pleidwyr ffurfiau dynol, a throi allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau, gan ddywedyd fel Wesley, "mai ei blwyf ef oedd y byd," neu ynte fwrw ei goelbren i blith yr Ymneillduwyr; ac felly o'r tu allan i furiau yr Eglwys Wladol. Ni weithredai yn fyrbwyll yn y cyfyngder hwn, ond ymgynghorodd a'i gyfeillion. Rhoddodd y Parch. J. Newton anogaeth iddo ddyfod i Loegr, ond ni allai feddwl am ymadael â gwlad ei enedigaeth, gan y dywedai ei fod wedi ymuno a Chymru yn yr un teimlad ag yr oedd wedi priodi ei wraig, er gwell ac er gwaeth. Nid oes neb a all ddarlunio ei deimladau dan yr amgylchiad hwn eto, yn ogystal ag ef ei hun. Fel hyn y dywed, mewn llythyr, dyddiedig Mehefin 12fed. 1784—"ei bod yn gyfyng arno o'r ddeutu—rhwng gadael yr Eglwys, ac aros ynddi. Wedi cael fy nhroi allan o dair o eglwysi yn y wlad, ac heb obaith o gael un arall, pa beth a wnaf? Yn yr Eglwys ddiweddaf a wasanaethais, bum dri mis. Cafodd yr efengyl ei bendithio yn fawr yno, fel y mae pethau yn ymddangos yn bresenol. Y mae y bobl yn gwaeddi arnaf yno dan wylo, am eu porthi hwynt â bara y bywyd. Pa beth a wnaf? Y mae geiriau Crist yn swnio yn barhaus yn fy nghlustiau, "Portha fy wyn." Yr wyf yn meddwl fod fy nghalon yn barod i ymaflyd yn y gwaith, bydded y canlyniad a fyddo." Y mae yn amlwg oddiwrth y darluniad hwn, fod ei bryder yn fawr ar y pryd, heb wybod yn iawn ar ba law i droi, ond yn raddol, ar ol ymdrech a disgwyliad maith, ac wedi datgan ei barodrwydd i weinyddu am ddim i Eglwyswyr ei gymydogaeth, a chael ei wrthod, cafodd ei dueddu yn benderfynol, i fwrw ei goelbren yn mhlith y Methodistiaid Calfinaidd, gan gredu ei fod yn gweithredu yn ol arweiniad Rhagluniaeth y nef. Mae yn ddiau iddo gael y derbyniad mwyaf croesawgar gan y mwyafrif o'r frawdoliaeth honno, er fod nifer mawr o'r rhai cyfyng eu golygiadau, yn edrych arno gyda chilwg amheus, gan ei ystyried fel un balch, diddawn, a diddefnydd. Ond yr oedd y rhai mwyaf gwybodus, ac eang eu calon, yn barod iawn i estyn iddo "ddeheu ddwylaw cymdeithas;" a chofl'heir am Mr. Rowlands, pan glywodd ef yn pregethu yn Llangeitho, oddeutu Awst, 1785, iddo ddywedyd am dano, gyda llawenydd, "Rhodd yr Arglwydd i'r Gogledd, ydyw Charles." Nid hir y bu heb i amgylchiadau brofi gwirionedd y dywediad. Yn nyddiau y Nadolig, yn y flwyddyn a grybwyllwyd olaf, yr oedd yn pregethu mewn cymanfa yn y Bont-uchel, gerllaw Rhuthyn, ar *Gal.* iv. 4. 5, a dywed ei fywgraphydd, y Parch. T. Jones, iddo lefaru "am berson anfeidrol, ac ufudddod gweithredol a dyoddefol y Prynwr, gyda'r fath eglurdeb, ag a roddodd y gynulleidfa mewn syndod deffrous a diolchus, ac mewn ymdoddiad serchiadol ac ysbrydol, na welwyd y cyffelyb ond yn anfynych. Rai blynyddoedd wedi hyn, cafodd un o'r oedfaon rhyfeddaf a welwyd erioed, pan yn llefaru am dderchafiad Crist, mewn cymdeithasfa yn Aberystwyth.

Teithiodd lawer drwy wahanol barthau o'r dywysogaeth i bregethu, ac i sefydlu ysgolion dyddiol a Sabbathol, hyd y flwyddyn 1799. Ond yn fuan ar ol dechreu y gauaf hwnw, wrth deithio ar noswaith oerlem dros fynydd Migneint, ar ei ddychweliad o Sir Gaernarfon, ymaflodd oerfel treiddiol yn mawd ei law aswy, yr hyn a barodd iddo ddolur maith a gofidus; a bu raid iddo yn y diwedd oddef ei thori ymaith. Yr oedd gweddiau aml, yn cael eu derchafu ar y pryd am ei arbediad, o herwydd yr ystyrid fod ei fywyd mewn cryn enbydrwydd, a choffeir hyd heddyw am eiriau un hen weddiwr gafaelgar, o'r enw Richard Owen, yr hwn a ddadleuai mewn gweddi ger bron yr orsedd, gyda thaerineb a hyder—"Pymtheg mlynedd yn ychwaneg, O Arglwydd! Yr ydym yn erfyn am bymtheng mlynedd o estyniad at ddyddiau ei oes, ac oni roddi di bymtheng mlynedd, O ein Duw, er mwyn dy eglwys a'th achos?" A pha esboniad bynag a roddir ar yr amgylchiad, y mae yn briodol coffa, fel estyniad oes Heseciah gynt, mai yn bur agos i hyny, y bu ei dymor daearol. O hyny allan, gan nad oedd mor alluog i deithio, ymroddodd yn fwy i gyfansoddi ac ysgrifenu. Yn y flwyddyn 1779, ac o hyny hyd 1802, cyhoeddwyd y gyfrol gyntaf o'r "Drysorfa Ysprydol," ganddo ef a Mr. Jones o Ddinbych. Yn y flwyddyn 1803, dygodd argraphwasg i'r Bala; ac argraphwyd o'r amser hwnw hyd ei farwolaeth, o'r llyfrau ysgol a barotoisai efe, 320,000 o gopiau. Yn y blynyddoedd hyn hefyd y dygodd allan y "Geir-

Digitized by Google

iadur Ysgrythyrol," ei "Amddiffyniad i'r Methodistiaid Cymreig," a'r ail gyfrol o'r "Drysorfa." Ond yn 1814, llesgaodd yn raddol, ac yn Awst aeth ef a Mrs. Charles i'r Abermaw am bythefnos, lle y clybuwyd ef yn dywedyd wrth ei wraig, "Sally, y mae y pymtheng mlynedd agos ar ben." Oddiyno aeth at eu perthynasau i Fachynllaith, lle y pregethodd Mr. Charles ddwywaith ar y dydd Sabbath, Medi 4ydd. Dychwelasant adref y 10fed o Fedi, ac wrth draethu ei lawenydd a'i ddiolchgarwch am gael cyrhaedd adref, chwanegodd Mr. Charles, "Bellach nid oes genyf ddim i'w wneuthur ond marw." Ymwelodd cyfaill âg ef fore dydd ei farwolaeth, a dywedodd, "Wel, Mr. Charles, y mae dydd trallod wedi dyfod," atebodd yntau, "Y mae noddfa," a dyna ei eiriau diweddaf. Bu farw dydd Mercher, Hydref 5, 1814; a dilynwyd ef gan ei briod ar y 19eg o'r un mis.

Wele ni yn awr, wedi dilyn hanes y gwr enwog hwn, o ranau arweiniol ei fywyd, drwy oes lafurus a gweithgar, hyd ei therfyniad tawel a dedwydd. Nid ydym yn cael hynodrwydd ei fywgraphiad yn gymaint mewn disgleirdeb ymddangosiadol ei dalentau, ag yn ei lafur penderfynol, ei ddefnyddioldeb cyffredinol, a dyngarwch ei deimlad tyner. Yr oedd ei ostyngeiddrwydd yn fynych yn cuddio rhagoroldeb ei alluoedd. Yn yr ystyriaethau hyn, y gwelwn ei dymor yn llawn o addysgiadau i'r byd. Tra y deisyfer y doniau cyhoeddus goreu, dylid cadw defnyddioldeb bob amser ger bron, fel amcan mawr y meddiant o honynt. Y mae yn briodol i bob dyn, yn enwedig yr ieuangc, dori ei ffordd i'r byd, drwy y llwybr ag y gallo fod yn fwyaf defnyddiol. Dylai pob dyn amcanu byw i bwrpas, er ei ddedwyddu ei hun, a lleshau eraill. Yr ydym yn cael y llinellau hyn yn eglur iawn yn nghymeriad Mr. Charles. Ni chafodd y ffordd i'r cyhoeddusrwydd a'r dylanwad a enillodd, heb rwystrau ac anhawsderau i weithio yn mlaen drwyddynt. Cryn ddigalondid oedd raid fod iddo, tra y teimlai eiddigedd calon dros achubiaeth eneidiau dynion, a dyrchafiad cymeriad ei gydgenedl, fethu cael lle yn yr Eglwys Sefydledig, i weinyddu yn ei chynteddau, nac i bregethu yn ei hareithfaau; ar ol ymroddi mor llwyr i'w barotoi ei hun at y gwaith; ac wedi i bob drws gael ei gau rhagddo, gorfod troi wyneb i dir Anghydffurfiaeth, i ymofyn am faes i lafurio ynddo. Ymddengys mai yn raddol y gollyngodd ei afael o'i fwriadau cyntaf; ond wedi iddo ddyfod yn llwyr argyhoeddedig o lwybr ei ddyledswydd, gwelodd y meddai ddigon o benderfyniad i ddilyn ei argyhoeddiad, a gweithio allan yr egwyddorion a goleddai ei fynwes i ymarferiad trwyadl. Wedi dyfod allan o gaethiwed y rhagfarnau blaenorol, a allasai fod yn ei fynwes o blaid yr Eglwys Wladol, ymroddodd i fod yn ddefnyddiol yn mhob modd dyledus, fel dyn, fel Cristion, fel gweinidog, ac fel llenor ac ysgolhaig. Yr oedd ei lafur diflino er lledaenu gwybodaeth gyffredinol yn mysg ei gydgenedl, yn ei arwain yn naturiol i bleidio ysgolion dyddiol a Sabbathol yn mhob man. Nid oedd yr amcan hwn yn cyd-daro yn gwbl oll â chwaeth prif swyddogion y grefydd wladol, mwy nac arglwyddi y tir, y rhai a dywysid ganddynt wrth eu hewyllys. Dyma un o'r prif atalfeydd oedd ar ffordd llwyddiant ymdrechiadau Gryffydd Jones Llanddowror. Yr oedd y dirgel awydd oedd gan yr esgobion Seisnig yn Nghymru, i lethu y Gymraeg drwy y wlad, yn sefyll ar ffordd llafur pob Cymro twymgalon, hunanymwadol, ac ymgyflwynedig. Pa fodd bynag, rhagddo yn wrol yr aeth Mr. Charles, ar dir Ymneillduaeth, a bu ei ymdrech dros sefydlu yr Ysgol Sabbathol, dan fendith y nef, yn agoriad ffordd i sefydlu Cymdeithas y Biblau. Ni allwn lai nac ymfawrygu ychydig yn y cysylltiad neillduol sydd rhwng Cymru a'r Gymdeithas enwog honno. Dywedir i Mr. Charles, ar ei ddychweliad o daith Sabbathol, ar ddydd Llun, gyfarfod â geneth ieuangc dlawd, gerllaw tref y Bala; a gofynodd iddi, a fuasai hi yn yr Ysgol Sul y dydd blaenorol, i'r hyn yr atebai yr eneth, na bu, gan ychwanegu, "Twm fy mrawd hynaf oedd i gael benthyg y Testament ddoe." Bu hyn yn foddion i arwain ei feddwl at y syniad, am y waith gyntaf, i ymholi, a oedd dim modd cael rhyw lwybr, i gael Testament i bob un o'r plant, yn mhob teulu drwy y wlad?—mai dyna fu ar ei feddwl drwy y dydd hwnw; ac mai y noswaith ganlynol, tra yn myfyrio, y daeth y dychymyg i'w feddwl am fyned i Lundain i ofyn cymhorth at yr amcan hwn. Pa fodd bynag, cyfarfu cyn hir, mewn Pwyllgor yn y Brif-ddinas, perthynol i Gymdeithas Genhadol, lle y cafodd gyfle i ddywedyd ei gwyn, ac i ofyn cynhorthwy, tu ag at gael cyflenwad o'r Ysgrythyrau i dlodion Cymru; a dywedir mai y Parch. Joseph Hughes a'i hatebodd gyntaf, mewn ffordd o gymeradwyaeth i'w gais, gan ychwanegu, "Os i Gymru, pa ham nad i Loegr; ac os i Loegr, pa ham nad i'r holl fyd!" Felly syniad Mr. Charles oedd yr hedyn cyntaf, a syniad Mr. Hughes oedd yr had-lestr a'r cyflawnder mawr. Yr oedd yr egwyddor o flaen meddwl y cyntaf; a'r moddion i ddwyn yr egwyddor allan i ymarferiad, o flaen meddwl yr olaf. Rhoddai Mr. Alers Hankey dystiolaeth o wirionedd yr hanes, ac am ychwanegiad, "*Brytanaidd a Thramor*" at enw y Gymdeithas. Felly y gwelir yn "Llyfr y Jubili," gan y diweddar Dr. Phillips, un o'r Goruchwylwyr;—"Wrth waith y Parch. T. Charles yn ymorol yn Llundain âg ewyllyswyr da i grefydd a duwioldeb, pa fodd y gellid cael argraphiad helaeth o'r Bibl am bris gweddol, yn yr iaith Gymraeg, ac os byddai bosibl i drefnu cyllidfa barhaus o honynt, fel na byddai un amser mwy, brinder o Fiblau i'r Cymry tlodion; rhoddodd yr Arglwydd y meddwl caruaidd ardderchog yn nghalonau rhai o'r gwyr duwiol yr oedd yn ymddiddan â hwynt, o ffurfio Cymdeithas i ddosparthu Biblau, nid yn unig yn ein gwlad ein hunain, ond hefyd yn y gwledydd pellenig tramor!" Dyma fel y dywedai y diweddar J. A. James, o Birmingham, mewn cyfeiriad at yr amgylchiad hwn—"Pwy a feddyliasai am y Bibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor—y lamp disgleiriaf yn ffurfafen haelfrydedd crefyddol, nad ydoedd un mlynedd ar bymtheg yn ol, (llefarai yn 1820), yn ddim mwy na bwriad a goleddid gan ychydig o Gristionogion, oedd wedi ymgynull, mewn ystafell, i drafod achos cymdeithas arall o addysg crefyddol—bwriad fel yn codi yn ddamweiniol, oddiar gais a wnelai gweinidog o Gymru, oedd yn bresenol, yn gofyn cymhorth tu ag at gael cyflenwad o'r Ysgrythyrau i ddiwallu anghenion ei gydwladwyr tlodion, yn eu hiaith eu hunain, erbyn hyn, wedi dyfod i'r nerth a'r dylanwad, y mae wedi ei gyrhaedd!" A dyma fel y dywedai y diweddar Jay, o Bath,—"Addefa pawb yr angen oedd am y Bibl Gymdeithas, at ddiwallu anghenion tramor, ond ceisia rhai wadu fod dim angen cartrefol; fod digonedd o Fiblau yn mhob man. Ond wedi

Digitized by Google

gwneud ymchwiliad priodol, cafwyd allan fod miloedd o deuluoedd yn ein gwlad, heb air Duw o fewn eu hanneddau. Ni chyfeiriaf yn awr ond at Gymru yn unig. Yr oedd y fath brinder o Feiblau, yn Nghymru, fel nad oedd yn beth anghyffredin, fod dim ond un Bibl, neu Destament, mewn teulu, fel eiddo cyhoeddus, at wasanaeth pob un ar gylch, dros adegau penodol; ac yr oedd felly mewn rhai manau, dros gymydogaethau cyfain." Gwnaeth Mr. Charles yr angen yn hysbys, a gwnaed darpariaeth ar gyfer y Cymry; ac yr wyf yn ei gofio yn dda ddigon, yn dywedyd am yr olwg oedd ar y bobl yn nhref y Bala, pan y gwybyddwyd fod y llwyth cyntaf o Fiblau a Thestamentau, yn dyfod mewn cerbyd i'r dref; ac i'r bobl ryddhau y meirch, a llusgo y fen eu hunain, gan faint eu llawenydd; a dosparthwyd y cyfan, ar ganol yr heol, mewn ychydig o oriau; a bod y plant, yr ieuaingc, a'r henaint, yn cusanu y llyfrau ac yn eu gwasgu at eu mynwesau, fel y trysor penaf! Gwelir bellach fod y dystiolaeth yn sefyll ar sylfaeni digon safadwy, i brofi mai Mr. Charles a fu yr offeryn mwyaf uniongyrchol, yn ffurfiad un o brif gymdeithasau y byd crefyddol, ag y mae ei chlod erbyn hyn, yn ogyfled a'r teyrnasoedd oll!

Fel awdwr ac ysgrifenydd, saif Mr. Charles yn y dosparth cyntaf. Gellir cyfeirio mewn gair at ei fân gynhyrchion, y rhai sydd oll wedi myned drwy nifer mawr o argraphiadau, yn mhlith y rhai y mae ei *Sillydd*, yn benaf at wasanaeth yr Ysgol Sabbathol, a dechreuwyr; Y mae y llyfr egwyddori a elwir *Hyfforddwr*, yn adnabyddus iawn; Y mae ei *Esboniad ar y Deg Gorchymyn*, yn gymeradwy iawn, er nad yw mor gyhoeddus a'r lleill. Galwyd am ei "*Vindication of the Welsh Methodists*," ar achos neillduol o amddiffyniad i'r Enwad, pan wnaed ymosodiad ysgeler arno. Dywedir ei fod wedi darparu "Mynegeir" helaeth o'r Ysgrythyrau, yr hwn yn ddiau a fuasai yn drysor gwerthfawr i'r wlad. Y mae y ddwy gyfrol o'r "*Drysorfa Ysprydol*," a gyhoeddwyd ganddo, yn drysorau gwerthfawr iawn. Ond ei brif orchestwaith yn ddiau ydyw y GEIRIADUR YSGRYTHYROL, yn cynwys arwyddocad Geiriau Anghyfiaith, yn nghyd ag Enwau a Hanesion yr amrywiol Genhedloedd, Teyrnasoedd, a Dinasoedd, y crybwyllir am danynt yn yr Ysgrythyrau," &c. Y rheswm a rydd dros ei gyhoeddi, yn y rhagymadrodd, ydyw yr hyn a ganlyn—"Y mae Geiriadur Ysgrythyrol yn dra angenrheidiol yn y Gymraeg, i'r Cymry uniaith, y rhai trwy ddaioni Duw sydd, lawer o honynt, yn newynu ac yn sychedu am wybodaeth o wirioneddau Duw yn ei air. Er nad oes prinder o honynt mewn ieithoedd eraill, y mae y Cymry, hyd yn hyn, wedi bod heb yr un." Y mae darlleniad cyffredinol wedi bod ar y llyfr gwerthfawr hwn drwy yr holl dywysogaeth, er pan y daeth allan gyntaf; ac y mae wedi myned drwy amryw argraphiadau erbyn hyn. Nid yw yn ormod cydnabod, ei fod wedi bod o ddefnyddioldeb cyffredinol i Weinidogion, pregethwyr, athrawon yr Ysgol Sabbathol, yn gystal a'r cyhoedd yn gyffredinol. Y mae wedi bod fel llawlyfr i'r duwinydd a'r hanesydd ieuangc, ac am ei ragoroldeb, nid rhyfedd oedd i Dafydd Cadwaladr, ddywedyd yn ei Farwnad ar ol Mr. Charles—

"Doctor Morgan a'r hen Salsbri
Ddaeth a'r trysor gore'i ni,
Ar eu hol ni chafodd Cymru
Debyg i'th Eiriadur di," &c.

Nis gallwn gymeradwyo yr awgrymiadau a deflir allan gan rai, fod Mr. Charles wedi cymeryd mantais annheg ar Eiriadur John Roberts o Gaergybi, drwy ddefnyddio yr eiddo ef, heb ei gydnabod, a gwneud rhyw addewidion iddo os tynai yn ol ei hysbysiad am ail argraphiad o hono. Yr hysbysiad ydoedd fel y canlyn:—"Os bydd i'r Llyfr uchod gael ei roddi yn yr Argraphwasg, yr wyf yn meddwl cael gan wŷr di-duedd, fwrw golwg ofalus drosto ef yn gyntaf, rhag fy mod i wedi casglu Tywys gweigion, wrth hyny gwneuthur ei swm yn fwy na'r sylwedd, neu loffa llawer o dywys pydron, y rhai a wna liwiau drwg ar y gwirioneddau disgleiriaf, neu gasglu llawer o ŷd meddw, i lenwi y pen â swn, yn hytrach nac archolli calon iach, neu newyddu eu grym. Fe gynwys y Llyfr o gylch 300 o du dalenau wythblyg ehelaeth, a'i bris fydd o bedwar swllt i bump," &c. Yn awr, os llyfryn bychan, o werth o bedwar swllt i bump y bwriedid iddo fod, nid ydym yn gallu gweled sail i'r haeriad mai hwnw ydoedd cynllun y llyfr eang, helaeth, pedair cyfrol, y cyfeiriwn ato yn awr. Heblaw hyn, y mae yr ystyriaeth o fod llawer o bethau tebyg i'w gilydd yn rhwym o fod mewn gwahanol Eiriaduron Ysgrythyrol, yn dinystrio pob cyhuddiad a all godi o fod yma ddim tebyg i len-ladrad; y mae y rhanau hanesol yn rhwym o fod yn gyffelyb yn y naill a'r llall, gan nad faint o wahaniaeth a fyddo yn y dull o ymadroddi.

Fel ysgolhaig Cymreig, rhaid addef fod Mr. Charles yn mysg y pigion. Y mae ei ieithwedd yn gymeradwy; nid yw ef yn annheilwng o olynydd hen gyfieithwyr y Bibl Cymraeg. Y mae ei orgraph a'i ddullwedd yn ddillyn, yn esmwyth, ac yn naturiol. Dengys chwaeth goethedig yn ei ddewisiad o eiriau, ac y mae yn ddi dramgwydd a di rodres yn ffurfiad ei frawddegau. Nid oes yn ei holl ysgrifau fradychiad o briod-ddull yr iaith, na dynwarediad o ymadroddion Seisnig, megis "un ac oll," na "pob tragwyddoldeb," na dim o'r clogyrnwch sydd yn anurddo lluaws o draethodau diweddar ein gwlad. Dichon fod ei hoffder o'r iaith yn gymnorth iddo er talu y sylw priodol i'w chyfansoddiad. Y mae ei nodiadau ar y pwnc yn deilwng o le, mewn cyhoeddiadau allan o derfynau yr eiddo ef ei hun:—"Mae yr iaith Gymraeg yn odidog, yn bur, yn gyflawn hynod o amrywiaeth geiriau, ac ymadroddion; yn bersain, yn addurnedig; yn neillduawl o addas i ymadroddi am bethau ysbrydawl yn fawreddig, yn ddealladwy, ac yn effeithiawl. Mae yn syml, heb fod yn isel; yn hyf, heb fod yn ddigywilydd; yn addurnwych, heb gymendawd; yn gydseiniawl, heb fod yn orwag; yn ardderchawg, heb chwyddiaith; tyner, heb fod yn fursenaidd; yn gryf, heb erwinder, Defnyddioldeb pob iaith yw trosglwyddaw meddyliau y naill i'r llall; honno gan hyny yw yr iaith oreu, sydd yn cyflwynaw meddyliau dynion iddeu gilydd yn fwyaf cywir, goleu, ac effeithiawl, yn gyfaddas i'r achaws, y traethwr a'r gwrandawr; a hwnw ydyw yr ieithydd goreu, sydd yn medru ymadroddi neu ysgrifenu felly. I wneuthyr iaith yn eglur, dylai fod pob gair yn bur, yn perthynu i'r dafodiaith y llefarir ynddi; yn addas ac yn arferedig, yn yr ystyr yr arferir ef, gan yr awdwyr mwyaf difrifedig a hyddysg yn yr iaith honno; yn bendant yn mynegi y meddwl yn benodawl, heb ddim dyeithr a gormodawl yn ychwanegawl ato. Dylai fod yn mhob darn ymadrawdd, eglurdeb, nerth, a chynghanedd y geiriau, gwedi eu gosawd yn y drefn mwyaf cryf,

Digitized by Google

eglur, effeithiawl, a hyfryd i'r glust, a mwyaf addas i'r mater y traethir am dano. Yn yr ysgrifenadau santaidd, mae pob ardderchawgrwydd, cywreinrwydd, ac addasrwydd ymadrawdd, mewn modd digyffelyb mewn un cyfansoddiad arall."

Y mae y cyffredin yn cytuno, mai fel ysgrifenydd ac awdwr y rhagorodd Mr. Charles, ac nid fel traddodwr. Wrth gydnabod hyn, ni awgrymir ei fod yn ddi-ddawn. Y mae ar "gof a chadw" gan rai hyd y dydd hwn, am dano yn pregethu mewn cymdeithasfa yn Llangefni yn Mon, ar y maes. Ychydig erbyn heddyw sydd yn cofio ei weled a'i glywed. Yr oedd yn pregethu am ddau o'r gloch, ar ol John Roberts, Llangwm, yr hwn oedd yn gyffredin yn dra hwyliog. Codai Mr. Charles i fynu; yr oedd golwg hawddgar a serchus arno; o daldra cyffredin, ei wyneb yn tueddu at y llyfn a'r llawn, ei wallt yn deneu a gwastad, ac o ymddygiad urddasol iawn. Yr oedd ganddo yr arferiad o ddal ei law ddehau ar draws ei fynwes tra yn traddodi, ac heb ysgwyd ond ychydig arni. Cafodd wrandawiad astud, ac enillodd serch a theimlad y dorf yn fuan; ond y mae yn gofus eto, mai ar y rhan fwyaf deallgar o'r gynulleidfa yr oedd ei afael fwyaf effeithiol. Yr oedd eglurdeb ei syniadau, serchogrwydd ei olwg, a difrifoldeb ei anerchiadau, yn cario gyda hwy ddylanwad mawr. Yr oedd Mr. Charles yn dadol iawn yn ei ymddygiad tu ag at bregethwyr ieuangc; ac efe oedd un o'r rhai cyntaf i estyn ei aden noddawl dros yr enwog John Elias, ac i'w roddi ar ben y ffordd i gyrhaedd ychydig o wybodaeth yn y Saesonaeg, a'r ieithoedd clasurol, yn gystal a'r defnyddiad priodol o'r Geiriaduron a'r Gramadegau, y rhai a fuont yn gynhorthwy gwerthfawr iawn iddo. Nid ydym yn gwybod am ddim ond un Emyn o'i waith; y mae honno yn llawn o feddwl a theimlad, ac yn brydferth iawn o ran ffurf: dechreua y pennillion gyda y llinellau adnabyddus canlynol:—

"Dyfais fawr tragwyddol gariad, &c.
Sylfed iechyd, sylfed bywyd, &c.
Bu'm yn wyneb pob gorchymyn, &c.
Pethau chwerwon sydd yn felus, &c." &c.

Wrth adolygu dros fuchweddiad dynion ag sydd wedi eu bendithio â dawn a chalon i wasanaethu eu Duw a lleshau dynion, ni allwn lai nac edrych arnynt fel prif amddiffyn eu gwlad. Hwy ydynt y gwylied-yddion ar y twr, i rybuddio y cyhoedd mewn amgylchiad o berygl, pan y byddo y gelyn yn dyfod i mewn fel afon, mewn cyfeiliornad yn yr athrawiaeth, neu ddifaterwch mewn dysgyblaeth; ac i godi baner yn ei erbyn, er ataliad, rhag i bob rhinwedd gael ei ysgubo ymaith gan nerth y llif. Hwy sydd i arwain y cyhoedd at holl ragoriaethau llenoriaeth a moesgarwch; ac yn benaf oll at y ddoethineb sydd oddi uchod, ag y mae ei "ffyrdd yn ffyrdd hyfrydwch, a'i holl lwybrau yn heddwch;" ac wedi eu hymadawiad, y mae eu coffadwriaeth yn fendigedig, a hwythau, drwy eu hesiamplau a'u hysgrifau, yn eu gwaith a'u *Dyddlyfrau*, er wedi marw, yn llefaru eto, yn eu profiadau a'u tywydd, eu cysur a'u trallod, yn nghyd a'u hymroddiad i ewyllys Duw, a'u penderfyniad i fyned rhagddynt, er tywys yr oesau dilynol, i barchu dyn, i garu y frawdoliaeth, i ofni Duw, ac anrhydeddu y brenhin. Er mai Cymru oedd prif faes llafur y gwr enwog hwn, ni chyfyngodd ei hun yma yn gwbl oll; o blegid bu dros rai blynyddau yn un o bedwar gweinidog urddedig yn Eglwys Loegr, oedd yn myned o Gymru i weinyddu yn Nghapel Spa Fields, a chapel arall, perthynol i Gyfundeb y ddiweddar Arglwyddes Huntington, yn Llundain. Y Parch.[n] Mr[d] Jones o Langan, Griffiths o Nefern, a Nathaniel Rowlands, oedd ei gydweinyddwyr. Bu canlyniadau gwerthfawr, dan fendith yr Arglwydd i'w lafur yn y lleoedd hyn. Mewn llythyr a ysgrifenwyd gan y ddiweddar Bendifiges Erskine, yn mis Ebrill 1792, i'w wahodd yn yr hâf canlynol i Lundain, y mae hi, wedi crybwyll am farwolaeth rhai gweinidogion, a ddychwelwyd dan ei weinidogaeth ef, yn tystio fod amryw yn nghynulleidfa Spa Fields, wedi derbyn adeiladaeth a chysur neillduol dan ei weinidogaeth. Y mae y tystiolaethau hyn oll, o'u dodi yn nghyd, yn dangos fod ei lafur yn fawr, a'i ddefnyddioldeb yn eang, a'i lwyddiant yn helaeth iawn; yr oedd "fel gwlith i Israel, yn blodeuo fel y lili, a bydd ei goffadwriaeth fel gwin Libanus."

**CHEPSTOW**, porthladd, marchnad-dref, a phlwyf, yn rhan-barth uchaf cantref CALDICOTT, swydd FYNWY; 15 milldir i'r de wrth ddwyrain o Fynwy, a 131 i'r gorllewin o Lundain, yn cynwys 3455 o drigolion, yn y flwyddyn 1861. Y Cymru a alwent y lle hwn CAS' GWENT, a barna llawer o henafiaethwyr, ei bod wedi cyfodi o adfeilion yr hen ddinas Rufeinaidd *Venta*, tua phedair milldir tu a'r gorllewin. Bernir bod ei henw presenol yn deillio o'r gair Saxonaidd *Chepe*, sef marchnad, a *Stowe*, tref: a chafodd yr enw Striguil yn foreu, oddiwrth ieirll Penfro, fel y bernir, i'r rhai y perthynai ar adeg y Goresgyniad, a'r rhai am eu bod yn preswylio mewn castell cyfagos o'r enw hwnw, a elwid "arglwyddi Striguil." Yn fuan ar ol y Goresgyniad, adeiladwyd castell cryf, gan William Fitz-Osborn, Iarll Henffordd, debygid, ar ben diphwys creigiog, oddi ar yr afon Wy; o'r hwn y mae cryn lawer o weddillion yn aros, wedi ei orchuddio âg eiddew, fel y mae yn wrthddrych mawreddog ac ardebol i'r golwg, o wahanol gyfeiriadau. Tu a'r un pryd, amddiffynwyd y dref a muriau cryfion, amryw ranau o ba rai sydd yn aros hyd heddyw. Yn nheyrnasiad y brenin Ystephan, sefydlwyd Priordy i'r myneich Benedictaidd yma, yr hwn a gyssegrwyd i St. Mair, cyllid pa un ar y dadgorphoriad, ydoedd yn 32*p*. 4*s*. Yn ystod y rhyfel Seneddol, glynai y trigolion yn ddiysgog wrth achos y Brenin; ac ni roddasant y castell i fynu i'r Senedd, cyn sefyll gwarchae caled, ac ymosodiad a barodd niweidiau mawrion iddo. Ar adferiad Charles yr Ail, cafodd Henry Marten, un o'r rhai a eisteddent mewn barn ar Charles y Cyntaf, ei garcharu yn y castell hwn hyd ddydd ei farwolaeth.

Y mae y dref yn gorwedd mewn sefyllfa dra dymunol, ar lan yr afon Wy, ac yn agos i ymuniad yr afon hono â'r Hafren, ac y mae wedi ei hadeiladu ar lechwedd bryn, yn mysg y clogwyni dyrchafedig sydd yn ymddyrchafu yn ddisymwth o lan orllewinol yr afon, dros yr hon y cyfodwyd pont haiarn hardd, ar draul siroedd Caerloyw a Mynwy, rhwng pa rai y mae yr afon yn ffin.

Nid yw y dref hon yn dref weithfäol, ac am hyny y mae yn lleihau yn hytrach na chynyddu yn ei phoblogaeth. Bu, ac y mae eto, gryn lawer o adeiladu llongau yn y lle. Bydd y llanw yn codi yn uchel iawn yma, tua thri ugain troedfedd; a bydd y llif yn beryglus o wyllt. Gall y llongau mwyaf ddyfod i fynu hyd y bont a grybwyllwyd yn barod; yr hon

Digitized by Google

sydd o adeilwaith haiarn coethedig. Pont brydferth iawn hefyd, yw pont y rheilffordd gerllaw y dref hon. Cynhelir marchnadoedd yma ar ddyddiau Mercher a Sadwrn; ac y mae marchnadoedd mawrion, y dydd Llun olaf yn mhob mis; lle y gwerthir ceffylau, gwartheg, defaid, moch, a gwlan; amserau gosodedig ei ffeiriau, ydyw y dyddiau Gwener a Sadwrn yn wythnos y Sulgwyn, y dydd Sadwrn cyn yr 20fed o Fehefin, Awst 1, a'r dydd Gwener o flaen y 29 o Hydref. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth ryddhaol, yn archddiaconiaeth ac esgobaeth Llandâf, wedi ei threthu yn llyfrau y frenines yn 6*p.* 16*s.* 8*c.*, a'i gwaddoli â 200 punt o ged-rodd annghyoedd, a 200 punt o ged-rodd freninol. Rhoddodd Richard Clayton, Ysw., dir yn y flwyddyn 1605, tuag at gynal ysgol rad, i dri ar ddeg o blant tlodion; ac yn 1614, darfu i Syr William Montague sylfaenu ysbytty i dri ar ddeg o hen bobl, gan roddi tiroedd at gynhaliaeth y sefydliad. Yn y flwyddyn 1716, cyfodwyd elusendy i chwech o wŷr, a chwech o wragedd, gan Thomas Powis, Ysw., yr hwn a roddodd ddeunaw cant o bunau at y cyfryw amcan.

**CHERITON**, plwyf yn nghantref Abertawy, Sir Forganwg, Deheudir Cymru, 14eg milldir i'r gorllewin o dref Abertawy, yn cynwys 153 o boblogaeth. Yr oedd y boblogaeth, yn ol Geirlyfr Lewis, agos deugain mlynedd yn ol, yn 242. Barna rhai fod y lle hwn wedi cael yr enw (Cherry-town) oddiwrth swm y *cherries* dyfai yn y lle, y rhai gynt a dyfent yn llawn yn y perthi yn wylltion. Mae y pentref bychan yn sefyll ar fan dymunol, yn agos i dywalltiad yr afonig *Burry* i'r Llychwr. Mae y fywioliaeth yn berigloriaeth yn archddeoniaeth Caerfyrddin, yn esgobaeth Tyddewi, ac yn cael ei threthu yn llyfrau y frenines i 9*p.* 7*s.* 3½*c.*, a than nawddogaeth y goron. Adeilad fechan yw yr eglwys, yn cynwys corph a changhell (*nave and chancel*), rhwng pa rai y mae twr ysgwar canllawiog yn codi. Mae y lle hwn yn Mrowyr, mewn parth or wlad lle nad oes dim cynydd na chyfnewidiadau, oddigerth y cynydd sydd yn ymfudiad y bobl oddiyno i barthau gweithfaol y sir. Nid oes yr un addoldy ymneillduol, na'r un ysgol ddyddiol yn y plwyf; ac am yr adeiladau, y maent "megys yr oeddent yn y dechreu," o ran unrhyw ymyriad dynol a hwynt.

**CHERITON**, swydd Benfro, Deheudir Cymru. —Gwel Stackpool-Elidur.

**CHIRK.** Gwel Y Waun.

**CHRISTCHURCH**, plwyf yn rhanbarth isaf cantref Caldicott, swydd Fynwy, 2¼ milldir i'r dwyrain ogledd ddwyrain o'r Cas' Newydd, yn cynwys poblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, o 3004; ac y mae yn ddiau fod y boblogaeth wedi cynnyddu llawer erbyn hyn, gan fod llawer o adeiladu mewn cyssylltiad a thref y Cas' Newydd, yn nghyfeiriad y plwyf hwn. Y fywioliaeth eglwysig yma, sydd ficeriaeth ryddhaol, yn archddiaconiaeth ac esgobaeth Llandâf, wedi ei threthu yn llyfrau y Frenines yn ol 13*p.* 4*s.* 2*c.*, ac yn noddogaeth penaeth a chymdeithion Coleg Eton. Y mae yr eglwys yn adeilad fawr a harddwych, ac yn gorwedd ar lanerch ddyrchafedig o dir.

**CHURCHSTOKE**, plwyf ag sydd yn rhanol yn nghantref Forden, ac yn rhanol yn nghantref Maldwyn, yn swydd Drefaldwyn, Gogleddbarth Cymru, 4 milldir i'r dwyrain dde ddwyrain o Drefaldwyn, ar y ffordd o'r Trallwm, trwy Chirbury, i Bishop's Castle. Y mae yn cynnwys trefgorddau Brompton a Riston yn swydd Amwythig, ac yn mesur 10,457 o erwau, gyda phoblogaeth o 1545, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae yn gorwedd wrth gydiad yr afon Camlet ag afon fechan arall, mewn lle dymunol; ac y mae'r Camlet, wedi dyfrhau dyffryn cul a rhamantus Marrington, yn aberu yn yr Hafren wrth Forden. Gan fod y tir yn wastadedd, a gwely y Camlet yn gul iawn, y mae'r dolydd yma yn aml yn y gauaf, o dàn ddiluw o ddyfroedd. Y mae golygfeydd dymunol oddiar ben yr uchelfeydd ag sydd yma, a gwelir brynian a dyffrynoedd Trefaldwyn, yn eu hamrywiaethan gogoneddus a swynol. Y mae cyflawnder o fŵn plwm wedi ei gael yma, ac y mae olion diamheuol o hen weithiau mwnol Rhufeinig ar y mynyddau. Ficeriaeth yw y fywioliaeth, ac y mae gwedi cael ei gwaddoli a 600*p.* o roddion personol, 1000*p.* o rodd freninol, a 600*p.* o rodd seneddol, yr hyn sydd yn ei gwneuthur yn werth 150*p.* y flwyddyn, ac y mae yn nawddogaeth Warden Yspytty Clun. Y mae'r eglwys wedi cael ei chyssegru i St. Nicholas, ac yr oedd gynt yn ymddibynu ar fonachlog Chirbury; adeilad dysyml tlws ydyw, a chostiodd 2500*p.* i'w hail-adeiladu yn 1815. Cyn hyny, yr oedd arni olion ymosodiad a wnaethpwyd gan wŷr Trefaldwyn, yn amser rhyfel Charles a'r Senedd, er mwyn cymmeryd rhai o'r breninolion ag oeddent yn llechu ynddi, dàn lywyddiaeth Sir John Walls. Wedi amddiffyniad cadarn a gwrol, cymmerwyd y breninolion. Y mae yma ddwy o ysgolion dyddiol, ac y mae yn perthyn iddynt waddol o 80*p.* y flwyddyn. Y mae gweddillion castell Symond yma, ac ar fryn Llanfawr, y mae olion hen wersyllfa. Ar fryn arall y mae olion hen wersyllfa Rufeinig, ac ar y llethr a elwir Todleth, y mae gweddillion hen furiau, a llyn o ddwfr a elwir Churchpool, yr hwn, y mae yn bur debyg a berthynai i ryw sefydliad eglwysig. Dywed llên gwerin mai yma yr oedd yr eglwys gynt. Ar fferm Aldres, ac ar Galet-y-din, neu Calton, y mae olion gweddillion hen wersylloedd Prydeinig. Y mae Clawdd Offa yn rhedeg drwy y plwyf hwn, ac y mae amryw garneddau o'i gwmpas, un o ba rai a agorwyd yn ddiweddar; yr oedd wedi ei phalmantu, ac yr oedd llythyrenau wedi eu cerfio ar un o'r ceryg, ond yr oeddent wedi treulio allan, ac yn annarllenadwy; ni chafwyd yn y garnedd ond llwch du, a dernyn bychan o arian bathol, yr hwn oedd hefyd oedd wedi gwisgo yr argraffiad i ffwrdd. Mewn lle a elwir Three Jacks, ar Glawdd Offa, cafwyd deryn bathol o eiddo Agricola, tuag ugain mlynedd yn ol. Y mae trethoedd y plwyf, a gadael y ddwy drefgordd allan, tua 800*p.* y flwyddyn.

**CIAN**, rhyfelwr, a bardd yn y 6ed ganrif. Cyfeirir ato gan Aneurin, Taliesin, a Gildas. Dywedir mai efe a sylfaenodd eglwys Llangian, yn Lleyn, lle cedwid ei gofwyl ar yr 11 o Ragfyr, ond tybia eraill mai Cian arall oedd hwnw.

**CIBDDAR**, enw a gyfarfyddir yn fynych yn y *Trioedd* a'r *Mabinogion*, yn tori ffigyr neillduol fel swynwr.

**CILAN**, Hywel—bardd a flodeuai rhwng 1460, a 1490. Dywedir mai efe oedd perchenog Llawr y Cilan, yn Llandrillo yn Edeyrnion. Ni argraffwyd ond ychydig o'i waith.

**CILAU**, cyd drefgordd a Thregorn, yn mhlwyf Llanddarog, cantref Iscennen, swydd Gaerfyrddin, Deheudir Cymru, 7 milldir i'r dwyrain dde ddwyrain o dref Caerfyrddin. Y mae yr afon Gwen-

Digitized by Google

draeth Fechan yn rhedeg trwy ganol y dreflan hon, ac ar ei glan ddeheuol, y mae gweddillion hen gapel a elwir Capel Ifan. Cynnwysir poblogaeth y dreflan yn y cyfrif a roddir am y plwyf.

**CILCAIN**, plwyf yn rhanbarth Llaneurgain o gantref CWNSYLL, swydd FFLINT, GOGLEDD CYMRU, 4 milldir i'r gorllewin wrth ogledd o'r Wyddgrug, yn cynnwys poblogaeth o 1028, yn ol deiliadeb 1861. Barna rhai mai arwyddocad enw y plwyf hwn, ydyw *Encilfa dêg*, oddiwrth *Cil*, a *cain;* ond eraill a farnant fod yr enw yn tarddu oddiwrth Eurgain, nith Sant Asaph, ail esgob Llanelwy. Cawsai Eurgain ei dwyn i fynu, a'i haddysgu gan ei hewythr; ac yn ystod yr erlidigaeth gyffredinol a ymosododd ar Gristionogaeth y pryd hyny, hi a ymneillduodd i'r rhandir a gynnwysir o fewn plwyf presenol Cilcain, mewn dyffryn, goris Moel Famau, yr uchaf o fynydd-res Clwyd, lle yr adeiladodd gell, ac y bu fyw mewn unigrwydd a dyhewyd. Oddiwrth ei buchedd ddiargyhoedd a duwiolfrydig, cafodd y cyfenw "Eurgain," yr hyn a ddynoda "Degwch Auraidd;" ac yn fuan wedi hyny, cyfodwyd eglwys yn agos i'w hencilfa, yr hon a gyssegrwyd i'w choffadwriaeth: y mae y glyn yn yr hwn y trigai, yn cael ei alw hyd heddyw, "Nant Cain," ac y mae y ffrwd a lifeiria o'r mynydd a'i cysgodai, yn dwyn yr enw Cain. Y mae y pentref wedi ei gyfleu mewn llanerch ddymunol, gerllaw yr Alun; ac y mae y gymmydogaeth yn cynnwys y golygfeydd mwyaf amrywiadol a dymunol. Cynnwysa y plwyf 5550 o gyfeiriau o dir, yr hwn sydd gan mwyaf yn raianog, a pheth gweryd gwlŷb ac oer; y mae mewn rhan yn fryniog ac uchel; ond y mae rhanau o hono yn ddyffryndir isel. Cauwyd 2400 o gyfeiriau, o gyttir agored oedd yn y plwyf hwn, yn ol deddf a gadarnhawyd yn y flwyddyn 1793. Ar y Foel Famau, ar gyffiniau y plwyf hwn, y cyfodwyd Colofn y Jubili, er coffa am yr haner canmlwydd o deyrnasiad Sior y Trydydd. Y mae y gymmydogaeth yn oludog mewn mwngloddiau, a chyfodwyd miloedd o dunelli o blwm o rai o honynt, o bryd i bryd; ond nid ydynt yn llawn mor flodeuog yn bresenol ag y buant. Cynhelir Ffeiriau yma, Mawrth 14, Gorphenaf 7, a Hydref 12.

Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth ryddhaol, yn arch-ddiaconiaeth, ac esgobaeth Llanelwy, trethedig yn llyfrau y frenines yn 6*p.* 6*s.*, ac yn nawddogaeth Esgob Llanelwy: y mae yma rectoriaeth segur-swyddol, a ardrethir yn 16*p.* 14*s.* 7*c.*, yn rhoddiad yr esgob. Yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i'r Forwyn Fair, nid ydyw namyn adeilad led fechan; ond y mae yn nodedig ar gyfrif ei nen o dderw wedi ei gerfio yn gywrain, yr hwn a ddygwyd yma o fonachlog y Maes Glas, gerllaw Treffynnon, ar ddadgorphoriad y sefydliad hwnw: y mae hwn yn ddernyn o gywrein-waith hynod o hardd, ac yn gynnaliedig gan fwäau yn cyfodi oddi ar gorbelynau, wedi eu haddurno â delwau o angelion yn dwyn tarianau, ar y rhai y mae y groes, ac arluniau eraill o'r Croeshoeliad, wedi eu cerfio. Tu a'r flwyddyn 1846 adgyweiriwyd yr eglwys hon trwy gyfroddion gwirfoddol amryw o dirfeddianwyr y plwyf, a boneddigion haelionus eraill, a chymerwyd gofal arbenig i adgyweirio a dïogelu yr hen nen ysplenydd uchod. Bu y Parch. Richard Davies, pummed mab Mytton Davies, Ysw., o'r Gwyssanney, a'r Llannerch, yn dal personoliaeth ddi waith y plwyf hwn, o'r flwyddyn 1721, hyd ddydd ei farwolaeth yn 1746, dan amgylchiadau tra neillduol. Dywedasid wrth Arglwydd esgob Llanelwy, y Dr. Wynne, yn 1721, bod mawr angen am Eglwys yn Ngwrecsham, at wasanaeth Cymreig yn unig; yn y canlyniad i'r hyn, addawai ei arglwyddiaeth ei gwaddoli â bywioliaeth ddi waith Cilcain; ac efe a drosglwyddodd Mr. Davies iddi, i'w dal hyd oni adeiladid yr Eglwys yn Ngwrecsham. Casglwyd uwchlaw saith gant o bunau tu ag at adeiladu yr eglwys grybwylledig; ond cyfododd dadl yn nghylch pwy a feddai ei nawddogaeth. Dadleuai yr Esgob, gan ei fod ef yn ei gwaddoli a'r Segur-swydd, ei fod ef yn dysgwyl i'r hawl o gyflwyniad i'r fywioliaeth, aros ynddo ef, a'i olynwyr yn yr esgobaeth. Ond Ficer Gwrecsham a ddadleuai, os y cydsyniai ef a hyny, y byddai efe yn niweidio ei olynwyr ef, ac yn eu hamddifadu o'r hyn a gyfrifent hwy eu hawl, trwy ganiattau i eglwys gael ei hadeiladu yn ei blwyf. Ni therfynwyd byth mor ddadl, a dychwelwyd yr arian mewn amser i'r Cyfran-dalwyr, oddieithr i Mrs. Middleton o'r Groes Newydd, yr hon a roddasai ddau cant o bunau; a hi a wrthododd eu derbyn yn ôl, ond a barodd eu trosglwyddo at Gapel y *Minera*, neu y Mwnglawdd, yn mhlwyf Gwrecsham, trwy yr hyn y sicrhawyd i'r Capel hwnw, bedwar cant o bunau o gedrodd freninol. Felly, daliodd Mr. Davies fywioliaeth ddi waith Cilcain hyd ddydd ei farwolaeth; ond â'r cyllid yma, efe a adeiladodd gangell ogleddol eglwys Cilcain yn y flwyddyn 1746, yr hon a losgasid hyd lawr yn foreu ddydd Nadolig, 1532, pan oedd y plwyfolion wedi ymgynnull yn nghyd, i weddïo a chanu carolau ar yr achlysur, mewn efelychiad o'r Uchel Offeren;—arfer a ffynai yn ddirfawr gynt yn Nghymru, dan yr enw "Plygain."

Y mae yr amgylchiad crybwylledig, wedi ei gofnodi ar ddalen bres o fewn yr Eglwys, yn y llinellau canlynol:—

> "Mil, pum cant, rhifant y rhai'n
> Nod addas, a deuddeg ar hugain,
> Oedd y Gair am Fab Mair fain,
> Pan ddaeth y goelcerth i Gilcain."

Y mae gan y Trefnyddion Calfinaidd, a'r Annybynwyr, addoldai cyfleus yn y plwyf hwn; ac y mae eu cynnulleidfaoedd yn dra lluosog. Gadawyd amryw gymmun-roddion elusenawl o bryd i bryd, i'w rhanu rhwng y tlodion perthynol i'r plwyf. Y mae amryw wersylloedd bychain, a gwerthyroedd milwraidd, ar y bryniau o fewn y plwyf hwn. Yn agos i'r Plâs yn Nghilcain, yn nyffryn Nannerch, y mae "Ffynnon Leinw," yr hon a enwogwyd gan *Camden*, yr hwn a ddywedai am dani, ei bod yn treio ac yn llenwi, gyda thrai a llanw y môr; ond y mae pob lle i feddwl fod yr Hanesydd enwog hwnw wedi ei gam arwain gan ryw rai; canys nid ydyw, ac ni's meddir un sail i dybied i'r cyfryw hynodrwydd fod erïoed yn perthyn iddi. Y mae yn ffynon gref, ac ar un adeg, byddai llawer o gyrchu i ymdrochi ynddi, gan y cyfrifid ei dyfroedd yn meddu rhinweddau cyfartal, os nad rhagorach, na'r eiddo Ffynon enwog Treffynon.

**CILCARW**, cyd-randir a Gorycoed, yn mhlwyf LLANGENDEYRN, cantref CYDWELY, sir GAERFYRDDIN, DEHEUBARTH CYMRU, 5¾ milldir (deh. ddwy. wrth ddwy.) o Gaerfyrddin. Rhoddir y boblogaeth gyda phoblogaeth y plwyf, o'r hwn y mae Cilcarw yn ffurfio y rhan ddeheu-ddwyrain. Cymer i fyny ddarn

Digitized by Google

o'r dosbarth rhwng afonydd Gwendraeth Fawr a Gwendraeth Fechan; ac y mae y ffordd o Llanon i Langendeyrn yn pasio drwyddo. Mae Mynydd Llangendeyrn, yr hwn sydd yn cydredeg a Gwendraeth Fechan, yn gorwedd yma, ac oddiwrth ei gilfachau dyfnion ef, sydd yn fforddio lle mor gyfleus i'r carw i gilio ac ymguddio y cafodd ei enw, *Cilcarw.*

**CILCENNIN**, plwyf yn undeb plwyfol ABERAERON, rhif trigolion yr hwn yw 603, yn rhanbarthiad isaf cantref ILAR, yr hon a elwid gynt cantref CANOL, yn swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU, 9¼ milldir i'r Gogledd Orllewin wrth Ogledd, o Llanbedr-pont-Stephan, a 4 milldir i'r Dwyrain o Aberaeron. Y mae y lle hwn yn hynod mewn hanesyddiaeth fel y fan lle y cyflawnwyd cyflafan arswydlawn, yn 1210, gan Rhys, ac Owain ap Gruffydd. Yr oedd gan eu hewythr, Maelgwyn ap Rhys, amryw Gymru a Saeson dân ei lywodraeth, er mwyn adfeddiannu y cyfoethau ag oedd Llewelyn ap Iorwerth wedi eu dwyn oddiarno, ac wedi eu rhoddi i'w neiaint, sef y brodyr a nodir uchod. Gan nad oedd ganddynt hwy fyddin ddigon cref i gyfarfod a'u hewythr mewn maes agored, rhuthrasant ar ei luoedd yn y nos, gyda 300 o wŷr etholedig; ac wedi lladd llawer yn eu cwsg, gyrasant Maelgwyn eu hewythr, a'r gweddill ar ffô. Y mae y plwyf mewn rhan yn fryniog, a chan mwyaf yn dir ŷd; ond y mae peth o honaw yn wastadedd ar lân yr afon Aeron, yr hwn sydd yn agored i lifogydd gwyllt a disymwth yr afon brydferth hono. Mesura y plwyf 3405 o erwau, ac y mae ei boblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, yn 603. Y mae'r eglwys yn esgobaeth Tŷ Ddewi, yn gysegredig i Cannen Sant, ac wedi cael ei hail-adeiladu yn ddiweddar. Y mae'r ficeriaeth yn werth 25*p.* y flwyddyn, ac wedi cael ei huno âg un Llanbadarn-Trefeglwys. Y mae ynddi ysgol Sul, yn yr hon y mae tua 100 o blant. Y mae capel yma gan yr Independiaid, ac nid oes eisiau dywedyd fod ganddynt hwy Ysgol Sul. Y mae yma ysgol ddyddiol hefyd, yn yr hon y mae tua 60 o blant yn derbyn addysg. Y mae gweddillion hen gastell, ar fryn yn y plwyf yma, yr hwn a elwir Bwlch-y-Castell, ond nid oes dim hanes am ei sefydliad nac arall. Y mae cyfanswm trethoedd y plwyf tua 150*p.*

**CILFATHWY**, mab Don, gwron a goffeir yn fynych yn y *Mabinogion.*

**CILFAWR**, capeloriaeth yn mhlwyf *Manor Deifi*, cantref CILGERAN, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU, 4 milldir i'r de ddwyrain o Aberteifi. Y mae yn gorwedd ger glan ddeheuol afonig fechan sydd yn arllwys i'r Teifi yn agos i gastell Maelgwyn. Perthynai y degymmau i ettifeddiaeth Blaen y Pant. Y mae y capel wedi ei ollwng i fyned yn adfeilion er's llawer dydd.

**CILGERAN**, neu, yn fwy priodol, CIL GARON, plwyf, yr hwn oedd gynt yn dref farchnad gorphoriaethol, yn nghantref CILGERAN, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU, 2¼ milldir i'r de dde ddwyrain o Aberteifi, yn cynwys poblogaeth o 1236, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae y pentref hwn yn ddyledus am ei ddechreuad, i gyfodiad castell mawr a chryf yn y llanerch, seiliad yr hwn sydd gladdedig mewn llawer o dywyllwch: fe'i priodolir gan rai ysgrifenwyr, i Roger de Montgomery, ac eraill a ddadleuant mai Gilbert, Iarll Clare a'i hadeiladodd. Yn y flwyddyn 1164, cymerwyd yr amddiffynfa bwysig hon oddiar y Saeson gan Rhys ab Gruffydd, Tywysog Deheubarth Cymru, gan yr hwn ei cadarnhawyd yn fawr; ac yn y flwyddyn ganlynol, y Normaniaid a'r Fflemingiaid a wnaethant ymosodiad aflwyddiannus arno. Yn ystod y rhyfel gartrefol rhwng ei ddau fab, Gruffydd a Rhŷs, y blaenaf o ba rai a ddaethai i feddiant o arglwyddiaeth ei dad, fe'i cymerwyd gan Gruffydd, yn y flwyddyn 1199, ond William Marshall, Iarll Penfro, a'i cymerodd drachefn yn y flwyddyn 1204. Yn y flwyddyn 1215, cymerwyd y castell hwn gan Llewelyn ab Iorwerth, yn ystod ei gadgyrchiad llwyddianus i'r Deheubarth; ond yn y flwyddyn ganlynol efe a'i rhoddes i bennaeth o'r enw Maelgwyn, oddiar yr hwn ei dygwyd drachefn yn y flwyddyn 1222, gan Iarll Penfro, yr hwn a ddechreuodd adeiladu amddiffynfa newydd yn ddioed, yr hon a orphenwyd gan y gwarchodlu, yn ystod arhosiad yr Iarll yn Llundain, lle ei gwŷsiasid i weini ar y brenin. O hyny allan parhaodd y castell hwn mewn cyssylltiad âg Iarllaeth Penfro, hyd farwolaeth mab ieuangaf yr Iarll William, pan y disgynodd yr ettifeddiaethau ehang hyn i gyd ettifeddesau, ac ysgarwyd castell ac arglwyddiaeth Cilgeran oddiwrthynt. Yr oedd pwysigrwydd y castell yn dodi gradd gyfattebol o urddas ar y dref, i'r hon y dyroddwyd rhagorfreintiau corphoriaethol, a pharhaodd i flodeuo mewn llwyddiant hyd oni ddadfeiliodd y castell; yna adfeiliodd y dref yn gyfattebol.

Nid ydyw yn bresenol, namyn pentref bychan, cynnwysedig o un heol, tua haner milldir o hyd, y tai yn fychain, ac o adeilwaith afreolaidd; a'r eglwys yn sefyll yn ei ben gorllewinol. Y mae yr afon Teifi yn ymddolenu yn brydferth a mawreddawg heibio i'r pentref hwn tua'r môr, ac ar bob trofa iddi, yn dwyn rhyw brydferthwch newydd i'r golwg. Y mae llech-gloddfeydd lled fawrion yn y plwyf, yn y rhai y mae y rhan fwyaf o drigolion y pentref yn cael gwaith. Cynhelid marchadoedd yma gynt, bob dydd Mercher; ond y maent wedi eu rhoddi i fynu er's llawer o flyneddoedd: eithr y mae ffeiriau yn cael eu cynal yma yn flyneddol eto, ar yr 21ain o Awst, a'r 12fed o Dachwedd, yn y rhai y gwerthir cryn lawer o geffylau, gwartheg, moch, &c. Y mae y lle hwn wedi colli ei ragorfreintiau bwrdeisiol er ys talm, ond y mae yn cadw i fynu ryw rith o gorphoriaeth, trwy etholiad blyneddol porthfaer, yr hwn a ddewisir gan reithwyr o'r bwrdeisiaid mewn cantref-lys, yr hwn a gynhelir ddwywaith yn y flwyddyn: iddo ef y telir tollau y ffeiriau; ond nid yw ei holl swyddau eraill yn nemawr ddim heblaw mewn enw.

Y fywioliaeth eglwysig sydd reithoriaeth ryddhaol, yn archddiaconiaeth Ceredigion, ac esgobaeth Tyddewi, ardrethedig yn llyfrau y frenines yn 9 punt; ac yn nawddogaeth Tywysog Cymru. Yr eglwys, yr hon sydd gyflwynedig i Sant Llawddog, sydd yn hen adeilad, yn yr arddull foreuol o adeilwaith Seis'nig, ac mewn cywair lled dda, a thwr petryal ar ei phen gorllewinol. Y mae careg arw yn y fynwent, a rhyw argraff arni, sydd yn annarllenadwy yn bresenol; ond, y mae yn lled amlwg mai hen gof-faen Rhufeinaidd ydyw. Y mae gan yr Annybynwyr, y Bedyddwyr, a'r Trefnyddion Calfinaidd, leoedd addoliad cyfleus yn y plwyf hwn.

Y mae adfeilion y castell hwn yn un o'r rhai mwyaf, a hynottaf o weddillion hen amddiffynfeydd, ydynt ar gael yn Neheubarth Cymru; safant ar fin craig a ymgyfyd yn ddarbenawl o lan ddeheuol yr afon Teifi: ond, er mor ardderchog ydyw yr olwg arno, y mae yn ymddangos fod rhyw lech-gloddwyr wedi gweithio yn rhy bell dan ei sylfeini, fel y

Digitized by Google

cwympodd rhan fawr o fur y castell, 56 troedfedd o hyd, ac 20 troedfedd o uchder, ar nos Sadwrn, Gorphenaf 29, 1863. Hyderwn bod perchenog yr hen gastell wedi cymeryd rhybudd oddiwrth yr amgylchiad uchod, i roddi attalfeydd effeithiol ar ffordd dynion anwybodus a di chwaeth, i beri ychwaneg o ddifrod ar yr hen amddiffynfa hon.

**CILGIL**, trefgordd yn mhlwyf LLANYRE, cantref RHAIADR, swydd FAESYFED, DEHEUDIR CYMRU, 5 milldir i'r De Ddwyrain o Raiadr-ar-Wy. Y mae yn gorwedd yn mharth gogleddol y plwyf, ar lan yr afon Ithon, ac y mae amryw ddarnau o'r rhan ag sydd ar fin yr afon, yn bur gorsog. Yn y drefgordd hon y mae eglwys y plwyf, gyda'r hwn y cyfrifir y boblogaeth.

**CILGWYN**, 1, trefgordd yn mhlwyf LLANDRILLO-YN-RHÔS, cantref IS-DULAS, swydd DINBYCH, GOGLEDD CYMRU, yn agos i làn y môr, 4 milldir o Gonwy.—2, trefgordd yn nghwmwd MALLAEN, yn y cantref BYCHAN, neu gantref Perfedd, plwyf MYDDFAI, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, 4 milldir o Llanymddyfri. Y mae yn sefyll mewn adran hynod o brydferth, ac y mae golygfeydd dymunol iawn o gwmpas y lle. Y mae plasdy hardd yma o'r un enw, preswylfa y Gwynne Holfords, yr hwn sydd yn sefyll ar làn y nant Sefin, yn nghanol parc ardderchog. Y mae yma un o'r melinau a elwir "melin y brenin," yr hon sydd yn talu prifrent o 2*p.* y flwyddyn, i arglwydd y faenor. Y mae pob *freeholder* ag sydd yn priodi yma, yn talu y swm o ddeg swllt i'r un arglwydd, yn lle yr arferiad gwriogaethol barbaraidd, o gael cysgu gyda'r wraig ieuanc y noson gyntaf wedi priodi. Y mae olion y paganeiddiwch yma drwy holl blwyf Myddfai, canys y mae pob rhydd ddeiliad ynddo, yn gorfod talu ei ddeg swllt ar ddydd ei briodas—3, capeliaeth yn mhlwyf NEFERN, cantref CEMAES, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU, 2½ milldir i'r De De Ddwyrain o Drefdraeth. Y mae yn sefyll wrth droed llethrau de-ddwyreiniol mynydd rhamantus Carn Ingli, ar yr hwn y mae amryw hen garneddau. Mab i ffermdy cyfrifol gerllaw y mynydd hwn, oedd y diweddar Joseph Hughes (Carn Ingli), Huddersfield; yr hwn oedd yn offeiriad dysgedig, yn fardd campus, ac yn wladgarwr twymgalon, ond, fel llawer ereill, wedi cael ei gadw allan o fywioliaeth eglwysig yn ngwlad ei enedigaeth, ac yn gorfod ymadael â'r fuchedd hon mewn gwlad estronol, gan huno yn mhridd ei daear hi; ond dyna, chwedl ei frawd-fardd siomedig Goronwy Owain:—

"Pa les cael lloches o'r llaid,
Duw rano dŷ i'r enaid."

Y mae capel y Cilgwyn wedi cael ei gysegru i'r Forwyn Fair, ac y mae rhif y boblogaeth wedi cael ei ddychwelyd gydag un y plwyf. Felly hefyd y mae rhif poblogaeth y ddwy drefgordd a nodir uchod.

**CILHWCH** ab Cilydd ab Celyddon, arwr y *Fabinogi* "Cilhwch ac *Olwen*, neu Hanes y Twrch Trwyth," yr hon a dybir sydd alegori o'r Bardd a'r Awen; a diau, o ran cyfoeth crebwyll a darfelydd, lledneisrwydd chwaeth, ac unoliaeth amcan, nad oes yn llenyddiaeth henaf unrhyw wlad, ddernyn a ragora arni.

**CILIAU-AERON**, plwyf dymunol yn undeb plwyfol ABERAERON, poblogaeth 301, yn ngwmwd ANHUNOG, yn nghantref CANOL neu ILAR, swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU, 10 milldir i'r Gogledd Orllewin o Lanbedr-pont-Stephan. Y mae'r Aeron yn dyfrhau ei barthau Gogledd-Ddwyreiniol, ac y mae yma dir cnydfawr. Rectoriaeth ollyngol yw y fywiolaeth eglwysig, ac y mae yn cael ei threthu ar lyfrau y frenines yn 5*p.*; y mae gwedi ei gwaddoli â 400*p.* o rodd freninol, yn werth 100*p.* y flwyddyn, ac yn nawddogaeth esgob Ty Ddewi. Un fechan ydyw yr eglwys, ac y mae gwedi cael ei chyssegru i St. Michael. Y mae yma gapel gan yr Independiaid. Y mae holl drethoedd y plwyf tua 150*p.* y flwyddyn, ac y mae'n mesur 1914 o erwau, gyda 301 o breswylwyr, yn ol Deiliadeb 1861.

**CILIAU-UCHAF**, trefgordd yn rhanbarth isaf plwyf LLANDYSILIO-GOGO, cantref MOYDDYN, swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU, nid pell o'r Ceinewydd, a 16½ milldir i'r Gorllewin Ogledd Orllewin o Lanbedr-pont-Stephan. Y mae'r drefgordd hon ar làn bay Aberteifi, yn cynnwys eglwys y plwyf, gyda'r hwn y mae ei phoblogaeth yn cael ei roddi. Yr oedd hen blâs Cwm Cynin yn meddiant teulu o'r enw Parri yn y dyddiau gynt, ond y mae yn ffermdy er ys blynyddau lawer bellach. Ar uchelfa yn y gymmydogaeth hon, y bu Duc Richmond, Harry VII. wedi hyny, yn gwersyllu i ddysgwyl Rhys ap Thomas a'i wŷr i ymgyssylltu âg ef, pan yr oedd yn cychwyn i ymladd am goron Lloegr â Richard III. Daeth Syr Rhys yn brydlawn, canys ys dywed Ieuan Deulwyn am dano:—

"Yn barod bwa Urien,
A syth nod, a'i saeth yn wèn."

Modd bynag, tra yr oedd Syr Rhys yn dyfod, darfu i Dafydd ap Ifan, Llwyn Dafydd, letya y Duc yn groesawgar, a phan oedd y Duc yn ymadael, efe a roddes i Ddafydd gwpan aur, yr hwn sydd yn awr yn y Gelli Aur, sir Gaerfyrddin, un o blasau Iarll Cawdor, i feddiant yr hwn y daeth drwy y Vychaniaid, Ieirll Carbery, hen berchenogion y lle, y diweddaf o ba rai a adawodd ei ystâd a'r cyfan a feddai, i deulu Cawdor. Y mae yma gapel eglwysig wedi cael ei adeiladu i Cynin Sant, yr hwn, am ei fod yn adfeiliedig iawn, a ailadeiladwyd gan bobl y plwyf yn 1820. Y mae'r fywioliaeth wedi cael ei gwaddoli â 200*p.* o roddion gwirfoddol, ac â 2000*p.* o rodd seneddol, ac y mae yn nawddogaeth Mr. Parry, perchenog ystâd Cwm Cynin. Y mae'r Cynin yn syrthio yma i fay Aberteifi, glànau yr hwn sydd yn serthion iawn yma, ac y mae yn 11 gwrhyd o ddyfnder, heb fod yn mhell oddiwrth y tir. Ar fferm o'r enw Ciliau, y mae hen amddiffynfa, a elwir y Garn Wèn, yr hon sydd yn ffurfiedig o gylch crwn o geryg rhyddion, tua 70 llathen o dryfesur, ac yn rhanedig i dair cyfran; amgylchynir y cylch hwn gan ragfur isel, ac ychydig i'r de-orllewin y mae cyfran arall o'r amddiffynfa, yr hwn gynt a amgylchynid gan fwnt o bridd. Yr oedd yma gynt, gastell, yr hwn a elwid "Castell Meib Wnion," ac a gymmerwyd gan Rhys ap Gruffydd yn 1164. Bernir mai gweddillion hwn sydd i'w gweled ar fryn Llwyndafydd hyd heddyw. Y mae yn gynnwysedig o ddau o rag-gylchoedd, dau càn troedfedd o dryfesur, gyda mwntiau uchel, a ffosydd dyfnion, ac y mae yn y canol rywbeth tebyg i hen garnedd. Ereill a ddywedant mai gweddillion un o anneddau castellog teulu Tewdwr yw y gweddillion yma. Y mae ychydig gwlwm (*culm*) a cheryg calch yn cael eu dadlwytho yn hafan bychan Cwm Tewdwr, ac y mae'r olaf yn

Digitized by Google

cael ei losgi yma yn wrtaith. "Traeth Cwm Tidi" y gelwir Cwm Tewdwr ar lafar gwlad.

**CIL-LE**, dyranbarth cydunol a'r Prysg, yn mhlwyf LLANGATTWG-AR-WYSG, cantref CRUGHYWEL, yn swydd FRYCHEINIOG, DEHEUBARTH CYMRU, milldir i'r Gorllewin o Grughywel, poblogaeth yr hwn sydd yn cael ei roddi gydag eiddo y plwyf. Y mae yn sefyll mewn dyffryn bychan tlws anghyffredin, drwy yr hwn y rheda afonig ag sydd yn aberu yn yr afon Wysg. Y mae llawer o galchfaen yn cael ei gloddio yma, a chan fod y cloddfeydd yn sefyll ar yml y llwybrau ag sydd yn arwain o Llangattwg i'r Brynmawr, y mae llawer o ddamweiniau angeuol yn dygwydd yma yn y nos, ac mewn tywydd niwlog, i aml i deithiwr. Y mae camlas Aberhonddu a'r Casnewydd yn rhedeg drwy y lle, â'r hwn y cyssylltir y lle gan ogwydd ffordd (*incline*), ac y mae rheilffordd yn eu cyssylltu â Nantyglo. Yr oedd yma barc mawr gynt, parc y Llân, yr hwn oedd yn perthyn i gastell Crughywel, ac yr oedd yma bont yn eu cyssylltu hwy â'u gilydd, seiliau yr hon a ddaethant i'r golwg tua diwedd y ganrif ddiweddaf, wedi i lifogydd mawrion yr Wysg, ysgubo ymaith ei glânau. Y mae yn y Daren yma, sef Daren y Cil-le, ogof fawr yn y graig galch, yr hon a elwir "Eglwys Faen," a chan amryw o'r brodorion, "Eglwys Frân." Y mae Dr. Powel yn sôn am Carno, neu Fynydd y Cyrn, yn y lle hwn, fel man ag y bu brwydr waedlyd rhwng Ethelbald, brenin Saeson Mercia, a Rhodri Molwynog, yn 728. Rhodri, wedi marwolaeth Ifor ap Alan o Lydaw, oedd etifedd gwirioneddol gorsedd Cymru; yr oedd yn dywysog Gwynedd, yn fab i Idwal Iwrch, ac yn ŵyr i Cadwaladr. Ymladdodd lawer a breninoedd Mercia, a bu iddo eu trechu droion, megis yn Heilyn, Cornal; yn Garthmaelwg a Phenycoed, Morganwg; ac yn Mynydd y Cyrn yma, lle y collodd Ethelbald "dirfawr ar wŷr, ag y gyrwyd y Saeson drwy yr afon Wysg, lle y boddasant lawer o honynt." Bu y gwrol Rodri farw tua'r flwyddyn 755, gwedi teyrnasu deng mlynedd ar hugain, a chladdwyd ef yn Nghaerlleon-ar-Wysg; "a'r diweddaf o eppil breninoedd Ynys Prydain a gladdwyd yno oedd efe." Gwel LLANGATTWG.

**CIL-MACHALLT**, trefgordd yn mhlwyf a chantref LLANIDLOES, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU, poblogaeth yr hon sydd yn ei rhoddi gyda'r plwyf. Gwehyddion gwlaneni ydyw y rhan amlaf o'r preswylwyr. Y mae yn amgylchu tref Llanidloes ar y gogledd, y dwyrain, a deheu, ac y mae rhan fawr o honi yn gynnwysedig yn y fwrdeisdref newydd.

**CILMARCH**, trefgordd gyssylltiedig âg Iscoed, yn mhlwyf LLANDYFAELOG, cantref CYDWELI, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, 5½ milldir i'r Deau wrth Orllewin o Gaerfyrddin, gyda rhyw 200 o drigolion. Y mae ar lan aswy yr afon Towy, ac nid yn mhell o'i genau. Y mae yma ychydig breswylfeydd boneddigaidd, y rhai sydd yn sefyll ar lethrau dymunol yn ngolwg yr afon.

**CILMIN DROED-DDU**, oedd fab i Cador ab Gwriad, a phenaeth un o bymtheg llwyth Gwynedd. Daeth i swydd Gaerynarfon gyda Merfyn Frych yn 819, ac ymsefydlodd yn Nglyn Llifon. Yr hwn sydd hyd heddyw yn aros yn meddiant un o'i ddisgynyddion, a chymerodd llawer o honynt y cyfenw Glynne, oddi wrth enw eu preswylfod. Dywed traddodiad, i Cilmin gynorthwyo rhyw ddewin i ladrata llyfrau y gwr drwg, ac iddo wrth ddianc, fethu neidio dros ryw ffrwd, a suddodd ei droed aswy i'r dwfr, yr hyn a achosodd iddi droi yn ddu, ac o herwydd hyny gelwid ef Cilmin Droed-ddu.

**CILSTRYM.** Gwel KELSTERTON.

**CILWYCH**, dyran (*parcel*) yn mhlwyf CWMDU, cantref CRUGHYWEL, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU, 3 milldir i'r Gogledd wrth Orllewin o Grughywel, gyda phoblogaeth o 355. Yr oedd rhan o ddegwm y ddyran yma gwedi cael ei rhoddi gynt i fonachod St. Ioan yr Efengylydd, Aberhonddu, gan y marchog Normanaidd Pycard, i'r hwn y rhoddes Bernard Newmarch arglwyddiaeth Ystradyw; ond ar y dadgorfforiad, aeth y rhan hono o'r degwm i feddiant lleygol. Y mae golygfa ddymunol oddiyma ar Ddyffryn Crughywel, a glânau dymunol yr Wysg.

**CIL Y CWM**, plwyf yn y rhan-barth uchaf o gantref CAIO, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, pedair milldir i'r gogledd ogledd orllewin o Lanymddyfri, yn cynwys poblogaeth o 1380, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae y plwyf hwn, ar draws yr hwn y rhed yr afon Towi, yn agos i ddeng milldir o hyd, ac mewn manau yn bum milldir o led. Y mae helaethrwydd o fwnau efydd a phlwm o fewn ei derfynau; a buwyd unwaith yn gweithio mwngloddiau helaeth yma; ond nid ydynt yn bresenol mor fywiog ag y buant gynt. Y fywiolaeth eglwysig sydd guradiaeth barhaol, neu ficeriaeth, yn archddiaconiaeth Caerfyrddin, ac esgobaeth Ty Ddewi, wedi ei gwaddoli â 600*p*. o gedrodd freninol, a mil o bunnau o rodd seneddol.

**CIL-Y-MAEN-LLWYD**, neu CILMAENLLWYD, plwyf yn undeb ARBERTH, rhif yr hwn yw 590, mewn rhan yn nghantref DERLLYS, yn swydd GAERFYRDDIN, ac mewn rhan yn nghantref DUNGLEDDY, yn swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU, 7 milldir i'r Gogledd wrth Ddwyrain o Arberth. Y mae yn gorwedd ar lân yr afon Tâf, yr hon sydd yma yn gwahanu siroedd Caerfyrddin a Phenfro. Y mae y rhan o'r plwyf ag sydd yn Mhenfro, yn cynnal ei dylodion ei hunan. Y mae yma blâs mewn cilfach ddymunol a choedog, yr hwn a elwir Coedllys, ac y mae yn perthyn i Mr. Phillips, Dale Castle, swydd Benfro. Y mae yma hen le arall a elwir Castell-Dwy-Ran, yn yr hwn y mae capel eglwysig. Yr oedd yma hen gastell gynt, yr hwn oedd wedi cael ei ranu rhwng dwy chwaer yn ddwy ran, ond nid oes dim olion o hono i'w gweled heddyw. Y mae yn y plwyf ddwy o ysgolion dyddiol. Rectoriaeth ryddhaol yw y fywioliaeth eglwysig, ac y mae yn cael ei threthu ar lyfr y Frenines yn 6*p*. 10*s*.; y mae yn esgobaeth Ty Ddewi, yn nawddogaeth y Goron, ac yn werth 240*p*. y flwyddyn. Y mae yma olion hen wersyll Rhufeinig, a dywed Camden fod nifer lawer o fwnai (money) Rhufeinig wedi eu cael yma. Darnau arian anmhur oeddent, a chyrhaeddent o deyrnasiad Commodus, yr hwn gyntaf a anmhurodd arian bathol Rhufain, hyd bumed swyddogaeth (*tribuneship*) Gordian III. Y mae trethoedd y plwyf tua 200*p*. y flwyddyn, ac y mae yn mesur 4381 o erwau.

**CIL-Y-PEBYLL**, neu CILBEBYLL, plwyf yn undeb a chantref CASTELLNEDD, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, 4½ milldir i'r Gogledd o Gastellnedd, gyda phoblogaeth o 1346. Y mae yn gorwedd mewn dyffryn dymunol, yr hwn yn ei ben deheuol sydd yn agored i Glyn Nedd. Y mae yn cael ei wahanu oddiwrth blwyf Llangiwch gan yr

Digitized by Google

afon Tawy, yr hon a groesir yma gan bont dlws o un bwa, 80 troedfedd ei rychwant, yr hon a elwir Pont-ar-Ddwy: adeiladwyd hi gan Mr. Edwards, yr hwn a adeiladodd Bontypridd, ac er nad yw gymmaint a hono, y mae yn rhagori arni yn mhrydferthwch ei saerniaeth. Y mae plâs Kilbebyll wedi cael ei adnewyddu gymmaint, fel nad oes ond ychydig olion o'i hen agweddau. Perthynai gynt i'r Herbertiaid, un o foneddigesau yr hwn deulu oedd yn forwyn i Catherine o Braganza, brenines Charles II., yr hon a'i gwnaeth hi yn feistres y gwisgoedd; cyflwynodd ei mawrhydi iddi hefyd un o'r unig ddau arlun a dynwyd o honi, a hyny gan Syr Peter Lely, ac y mae'r arlun yn cael ei gadw hyd heddyw yn *Kilbebill Place*. Y mae camlas a rheilffyrdd yma, ac y mae yma lawer o lô yn cael ei godi, yr hwn sydd yn cael ei allforio o Abertawy. Rectoriaeth ryddhäol ydyw'r fywioliaeth eglwysig, ac y mae yn cael ei threthu ar lyfr y Frenines yn 4*p.* 6*s.* 8*c.*: y mae gwedi cael ei gwaddoli â 200*p.* o rodd seneddol, ac y mae yn nawddogaeth y Goron, ac yn werth 85*p.* y flwyddyn. Y mae capeli yma gan yr amrywiol enwadau, ac y mae ysgol râd yma. Y mae amryw garneddau yma ar fryn March Hywel, ac mewn un o honynt cafwyd wrn, esgyrn dynol, a gweddillion ereill. Y mae'r trethoedd blynyddol tua 200*p.*, ac y mae'r plwyf yn mesur 4014 o erwau.

**CIL-Y-RHEDIN**, neu CIL-RHEDYN, plwyf yn undeb CASTELLNEWYDD-YN-EMLYN, poblogaeth yr hwn yw 1074, mewn rhan yn nghantref ELVET, swydd GAERFYRDDIN, ac mewn rhan yn nghantref CILGERAN, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU, 5 milldir i'r Deau Orllewin o Gastellnewydd-yn-Emlyn. Y mae yr afon Cuch yn rhedeg drwyddo, ac y mae yn bur goedog. Y mae yma fan a elwir ffwrn Cadifor, yr hwn, meddir, sydd yn dàl cyssylltiad â Chadifor Fawr, tywysog Dyfed, yr hwn oedd yn preswylio yma tua dechreu yr unfed-ganrif-arddeg. Y mae mabinog yn y *Cambrian Registrar*, mewn perthynas i "Pwyll, Pendefig Dyfed," ac y mae yno grybwyllion am Glyn Cuch yn y plwyf hwn. Gŵr boneddig o'r ardal yma oedd Rhys Meigen, y bardd, yr hwn a duchanwyd i farwolaeth gan Dafydd ab Gwilym. Y mae dau blas prydferth yn y plwyf, sef Glasbant, a'r Dyffryn, yn yr olaf o ba rai y mae offeiriaid y plwyf yn preswylio y naill ar ol y llall. Y mae hen brydydd tafodrydd, yn y pennill canlynol, wedi rhoddi cymmeriad canolig i un o'r rhai a fu yn byw yma yn y ganrif o'r blaen:—

"Mae 'ffeiriad Cilrhedyn
Yn byw yn y Dyffryn;
Gwell ganddo gŵn hela
Na defaid Jehofa."

Rectoriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, y mae yn cael ei threthu ar lyfr y Frenines yn 8*p.* 12*s.* 8½*c.*, ac y mae yn werth 192*p.* y flwyddyn; y mae yn esgobaeth Ty Ddewi, ac yn nawddogaeth y Goron. Y mae'r eglwys yn rhan swydd Benfro o'r plwyf, ac wedi cael ei chyssegru i Sant Teilo. Nid oes unrhyw ardderchawgrwydd saerniol yn perthyn iddi. Y mae yma dair o ysgolion dyddiol, ac y mae yn y plwyf dri chapel, sef un gan yr Undodiaid, un gan y Bedyddwyr, ac un gan yr Annibynwyr. Y mae'r trethoedd tua 100*p.* y flwyddyn, ac y mae'r plwyf yn mesur 7856 o erwau.

**CIWA**, SANT, a flodenai yn y 6ed neu y 7fed ganrif, ac a sylfaenodd eglwys Llangiwa, yn Mynwy.

**CIWG**, SANT, yn y 6ed ganrif, ydoedd fab Aaron ab Cynfarch. Efe a sylfaenodd eglwys Llangiwg (Llanguke), yn Morganwg.

**CLARACH**, trefgordd yn mhlwyf LLANBADARN-FAWR, yr hwn sydd yn rhan uchaf cantref GENAU'R-GLYN, swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU, 3 milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Aberystwyth, ar y ffordd i Fachynlleth, gyda 240 o drigolion. Y mae'r afon fechan Clarach, yr hon sydd yn rhoddi enw i'r drefgordd, yn rhedeg drwy un o'r dyffrynoedd tlysaf yn Nghymru, ac yna yn ymarllwys i Angorfa Aberteifi, lle y mae'r morlan yn ymëangu i draeth dymunol, dros yr hwn yr ymdaena carped esmwyth o dywod. Y mae'r môr yn fâs iawn ar y trai, ac y mae yma fanc mawr o dywod yn rhedeg iddo o ben gorllewinol y traeth, yr hwn a elwir Sarn Gynfelyn, h.y., Ffordd Gynfelyn: rheda i'r môr am filldiroedd lawer, mewn cyfeiriad de-orllewinol; terfynir hi gan greigiau soddedig, ac nid oes arni ar y trai, ond dau wrhyd o ddwfr. Y mae'r drefgordd hon yn cynnal ei thylodion ei hunan, ac y mae y trethoedd blynyddol tua 100*p.* Mesura 1702 o erwau.

**CLARBESTON**, plwyf yn undeb ARBERTH, cantref DAUGLEDDY, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU, 6½ milldir i'r Gogledd Orllewin o Arberth, a thua'r un pellder o Hwlffordd, gyda 191 o drigolion. Y mae rheilffordd Deheubarth Cymru yn rhedeg drwy y plwyf hwn, ac y mae gorsaf yma. Ficeriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, ac y mae wedi cael ei gwaddoli âg 800*p.* o rodd freninol, a 400*p.* o rodd seneddol: y mae yn esgobaeth Tŷ Ddewi, ac yn werth 60*p.* y flwyddyn. Y mae yn nawddogaeth teulu y diweddar James Phillips, Yswain; ac y mae'r eglwys wedi ei chyssegru i St. Martin. Y mae yma ysgol ddyddiol, ac y mae capel gan y Bedyddwyr yn y lle oddiar 1834, yn yr hwn y mae dros 100 o aelodau. Y mae'r plwyf yn mesur 1588 o erwau, ac y mae ei drethoedd blynyddol tua 70*p.*, y rhai a godir oddiar y tiroedd âr yn unig.

**CLAS** (ISAF), rhandir yn mhlwyf LLANGYFELACH, mewn rhan, o fewn terfynau newyddion bwrdeisdref Abertawy, ac mewn rhan, yn nghantref LLANGYFELACH, sir FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, tair milldir i'r Gogledd o Abertawy. Y mae Camlas Abertawe, rhan o ba un a elwir Camlas Morris, ac a wnaed ar draul y Dug o Beaufort, yr hwn a derbynia y tollau, yn myned rhwng y pentref a'r afon Tawy; a chroesir yr afon hono â'r gamlas gan bontydd, ar y ffordd i Gastell Nedd. Cynyddodd poblogaeth y rhandir hwn 75 y cant yn y deng mlynedd rhwng 1821 ac 1831, ac yr oedd ar derfyn y cyfnod yna, yn 4251 o eneidiau. Yn y flwyddyn hon (1871) y mae wedi Cyrhaedd 10,620. Mae tref boblog Treforis i mewn yn y rhandir hwn; ond rhoddir hanes hono dan ei henw priodol, yn nghorph y gwaith hwn. Codwyd palasdy ardderchog amryw flynyddau yn ol, yn min y goedwig sydd ar y cefn, rhwng Treforis a phentref Llangyfelach, a elwid *Clasemont*, diweddar breswylfa Syr John Morris, ond tynwyd y palas i lawr, a symudwyd ei ddefnyddiau, i'w gosod yn nghyd mewn palasdy arall gerllaw Ysgetty. Y mae palasdy llai o'r enw *Clasmont*, gerllaw y fan y safai preswylfa Syr John, ar ymyl yr hen brif-ffordd i Langyfelach. Mae amryw hen balasdai eraill hefyd ar hyd y rhandir hwn. Gan fod cyfrifiad (census) Undeb Abertawy am 1871 newydd ei gyhoeddi, ni fyddai yn anmhriodol cyhoeddi cyfanswm o hono yma:—

Digitized by Google

| Undeb Abertawe. | Tai. | | | Poblogaeth. | | Cyfanswm Poblogaeth. | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Preswyl-iedig. | Anmhres-wyliedig. | Ar waith. | Gwrywod. | Benywod. | 1871. | 1861. | 1851. |
| Clâs Uchaf | 418 | 5 | ... | 1,180 | 1,086 | 2,266 } | 9,436 | 7,302 |
| Clâs Isaf | 2,111 | 31 | 12 | 5,358 | 5,262 | 10,620 } | | |
| Sant John | 889 | 14 | 11 | 2,395 | 2,319 | 4,714 | 2,738 | 1,215 |
| Llandilo Talybont | 351 | 13 | 2 | 842 | 917 | 1,759 | 1,331 | 1,408 |
| Mawr | 160 | 2 | ... | 422 | 430 | 852 | 733 | 810 |
| Penderry | 348 | 6 | 1 | 907 | 860 | 1,767 | 1,330 | 1,205 |
| Rhyn dwyclydach | 416 | 12 | 7 | 1,092 | 1,118 | 2,210 | 1,720 | 1,578 |
| Abertawe Uchaf | 745 | 11 | 4 | 1,857 | 1,827 | 3.684 | 2,379 | 1,295 |
| Abertawe Isaf | 253 | 9 | 10 | 562 | 649 | 1.211 | 1,107 | 932 |
| Sant Thomas | 639 | 8 | 1 | 1,689 | 1,680 | 3,369 | 3,325 | 1,089 |
| Tref Abertawe | 5,993 | 367 | 68 | 15,853 | 17,621 | 33,474 | 27,161 | 21,586 |
| Cyfanswm | 12,323 | 478 | 116 | 32,157 | 33,769 | 65,926 | 51,260 | 38,420 |

**CLAS** (Uchaf), rhandir, neu *hamlet* yn mhlwyf Llangyfelach, sir Forganwg Deheudir Cymru, pum' milldir i'r Gogledd o Abertawy. Mae yr enw Clâs, neu Clasdir yn tarddu oddiwrth gysylltiadau Eglwysig, yr un peth a dyweyd tiroedd Eglwysig, neu *Glebeland*. Nifer trigolion rhanbarth Clâs Uchaf, ddeugain mlynedd yn ol, ydoedd 531, ond yn ol y cyfrifiad eleni (1871) y mae yn 2266. Mae yn cael ei drethu yn annybynol at gynaliaeth ei dlodion.

**CLAS GARMON**, trefgordd yn mhlwyf Sant Harmon, cantref Rhaiadr, swydd Faesyfed, Deheudir Cymru, 5 milldir i'r gogledd o'r Rhaiadr, yn cynwys poblogaeth o 261, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae yn ffurfio y rhan ogledd orllewinol o'r plwyf, yr hwn sydd yn ymylu ar swydd Drefaldwyn. Y mae dwy ffordd o Raiadr i Lanidloes yn myned trwyddi, y naill, gyda glan aswy yr afon Wŷ, a'r llall, yr unionaf, wedi croesi y Mertyd, trwy y rhan fynyddig o honi.

**CLAWDD MADOC**, maenol yn mhlwyf Llanwrtyd, cantref Buellt, swydd Frycheiniog, Deheudir Cymru, 10½ milldir i'r gorllewin wrth ogledd o Lanfair yn Muallt. Y mae mewn sefyllfa ramantus a difyrus, yn y rhan uchaf o'r plwyf, ac yn warchaeëdig ar y ddwy ystlys, gan fynyddoedd uchel. Yn y gymmydogaeth hon y mae tarddell yr afonig a elwir y Cammarch, yr hon a ymarllwysa i'r Irfon. Gadawodd un Margaret Jones, yn 1783, ddeuddeg punt yn y flwyddyn, i waddoli ysgol râd yn y lle; a phymtheg punt yn y flwyddyn, tuag at ddilladu tlodion yr ardal.

**CLEAR**, Sant, plwyf yn y rhan uchaf o gantref Derllys, swydd Gaerfyrddin, Deheubarth Cymru, ar y ffordd o Gaerfyrddin i Hwlffordd, 9 milldir i'r gorllewin wrth ddehau o Gaerfyrddin; yn cynwys poblogaeth o 1129. Bernir fod y lle hwn, yr hwn sydd yn dra henafol, wedi cael ei enw oddiwrth foneddiges grefyddol o'r enw Clara, yr hon a seiliodd eglwys yma yn y bumed neu y chweched ganrif. Ond, y mae eraill o'r farn iddi gael ei henw oddiwrth gynnulliad o feirdd Cymreig, a arferid ei gynal yma, ac a elwid yn yr iaith Gymraeg "Clair," neu "Claer," ac er cefnogaeth i'r fath dŷb, cyfeirir at grug, ar yr hwn y dywedir y cynhelid y cyfryw gyfarfodydd, "yn wyneb haul a llygad y goleuni."

Yn fuan ar ol y goresgyniad Normanaidd o'r rhan hon o'r dywysogaeth, adeiladwyd castell yma gan rai o'r goresgynwyr, adfeilion yr hwn a grybwyllir gan Leland, yr hwn a ysgrifenai yn amser Harri yr Wythfed; ond erbyn hyn, y maent wedi diflanu yn llwyr. Yr un bobl hefyd, yn ol rhai haneswyr, a adeiladasant eglwys yn agos i'r castell, gan ei chyflwyno i Sant o'u cenedl eu hunain o'r enw Clâr; ac yn mhen ychydig ar ol hyny, adeiladasant briordy, myneich yr hwn oeddynt o gynnulleidfa Sant Martin des Campis, yn Mharis. Y mae crybwylliadau mynych yn yr hanesion Cymreig am y castell hwn, yr hwn a gymerwyd, ac a anrheithiwyd mewn rhan, gan Llewelyn ab Iorwerth, Tywysog Gogledd Cymru, yn y flwyddyn 1215; wedi hyny, cyfranogodd o ffawd yr holl amddiffynfeydd Cymreig o'r bron, hyd oni therfynwyd yr ymrafael rhwng y brodorion a'r ymsefydlwyr Normanaidd, trwy oresgyniad Cymru gan Edward y Cyntaf. Y priordy hwn a ddadgorphorwyd, yn nghyd a'r priordai Tramoraidd eraill, yn nheyrnasiad Harri y Pumed, a'i feddiannau a roddwyd gan Harri y Chweched i Wardain a Chymdeithion Coleg yr Holl Saint, Rhydychain, i'r rhai y perthynant eto, yn nghyda dwy ran o dair o ddegymau y plwyf.

Priododd Rhys ab Meredydd âg Auda de Hastings, ettifeddes arglwyddiaeth St. Clêr, a'r cylchoedd, ac efe a ddienyddiwyd yn farbaraidd gan frenin Lloegr, yn y flwyddyn 1292.

Y mae y dref yn gorwedd gerllaw ymuniad yr afon Guining a'r Tâf, yr hon sydd yn arllwys eu dyfroedd unedig i *fay* Caerfyrddin, gerllaw tref fechan Lacharn, ychydig filldiroedd i'r dehau; ac y mae yn gynwysedig o un heol afreolaidd, agos i filldir o hyd. Y mae y wlad gylchynol i'r lle hwn yn hynod am gynnyrchu grawn ŷd, ac ymenyn, yr hyn a anfonid gynt, mewn llongau bychain oddiyma i Gaerdydd, Caerodor, Bridgewater, Southampton, a phorthladdoedd eraill; ond yn awr, fe'u gyrir o'r wlad gyd a'r rheilffyrdd, i'r amryfal farchnadoedd. Yn ystod y flwyddyn 1830, anfonid pedair mil a phum cant o grynogau o ŷd, a thua chan tunnell o ymenyn, o'r porthladd bychan hwn.

Yr ydoedd St. Clêr yn fwrdeisdref dra chyfrifol yn yr amser gynt, a meddai ei brawdlysoedd a'i charchardy, yr hwn oedd yn sefyll hyd yn agos i ddiwedd y ganrif ddiweddaf. Pennodir porth-faer, cofiadur, dau ddirprwywr cyffredinol, a chyhoeddwr y llŷs, yma yn rheolaidd, ond ni chynelir unrhyw lŷs bwrdeisiol yma; yn unig cynhelir cyfarfod ustusiaid y sir yma bob mis. Enillir rhyddfreiniad yma trwy enedigaeth i holl blant bwrdeisiaid, ac fe'i ceir trwy etholiad hefyd.

Ficeriaeth ryddhaol yw y fywioliaeth eglwysig, yn archddiaconiaeth Caerfyrddin, ac esgobaeth Ty Ddewi, ac wedi ei hardrethu yn llyfrau y frenines,

Digitized by Google

yn 4*p*. 17*s*. 1*c*., a'i gwaddoli â 200*p*. o roddiad personol, 200*p*. o gedrodd freninol, a 600*p*. o rodd seneddol, ac yn noddogaeth—Philips, Ysw. Y mae yr eglwys, yr hon sydd ar lan y Guinning, yn adeilad dra henafol. Ac y mae addoldai perthynol i'r amrywiol enwadau ymneillduol yn y plwyf, megys i'r Annybynwyr, y Trefnyddion, a'r Undodiaid. Y mae yma ysgol feunyddiol dda, i fechgyn a genethod, yn cael ei chynal trwy gyfroddion; a gadawodd y bendefiges Mary Osburne, o Pencoed, yn y plwyf hwn, wyth bunt yn y flwyddyn at gynal ysgolfeistr yn y lle, yr hon hefyd a drosglwyddodd diroedd mewn gweithred, dyddiedig yn y flwyddyn 1719, oddiwrth y rhai y mae o 15*p*. i 20*p*. yn y flwyddyn yn cael eu cynnyrchu, i'w rhanu rhwng tlodion y plwyf. Y wyddgrug a grybwyllasom, ar yr hwn y dywedir y cynhaliai y beirdd eu cyfarfodydd, a elwir "Bryn y Beili;" a dywedir hefyd mai ar y cyfryw grug, yr oedd rhan o'r castell yn sefyll, y gadwrfa, mae yn debyg.

**CLEDWYN**, un o feibion Brychan Brycheiniog, olynodd ei dad i'r llywodraeth, ac enwogodd ei hun trwy ymlid y Gwyddyl Ffichti o Ddeheubarth. Cysegrwyd eglwys Llangledwyn, swydd Gaerfyrddin, i'w enw, lle y cedwid ei gofwyl Tach. 1.

**CLEGYROG**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanbadrig, cwmwd Tal-y-bolion, swydd Fon, 6 milltir o Amlwch. Y mae y drefgordd hon, yn nghyda Chemaes, yn ffurfio yr holl blwyf, ac yr oeddynt gynt yn cael eu trethu at gynhaliaeth y tlodion ar wahan, ond yr awr y maent yn unedig; ond eto ar wahan tu ag at bob dyben arall. Ystyr yr enw ydyw cerigog, neu greigiog, ac y mae y gair yn ddarlun priodol o gymeriad cyffredinol yr ardal.

**CLICIEDIG**, cyd drefgordd â'r Prion, yn mhlwyf LLANRHAIADR YN NGHIMMEIRCH, cantref ISALED, swydd DINBACH, GOGLEDD CYMRU. Fe'i dosbarthir yn Cliciedig Uchaf, a Chliciedig Isaf.

**CLIDRO**, ROBERT, bardd, yn ei flodau o 1600 i 1650. Mae amryw ddarnau o'i eiddo wedi eu dyogelu mewn casgliadau o hen ysgrifau, ac yn cael eu hynodi yn benaf gan ddigrifwch.

**CLITTERWOOD**, trefgordd yn mhlwyf BUTTINGTON, o fewn yngneidiaeth bwrdeisdref y TRALLWM, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU, 3 milldir i'r dwyrain ogledd ddwyrain o'r Trallwm, yn cynwys poblogaeth o 241, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae hon yn un o'r deunaw plwyfau a threfgorddau, a gorphorwyd i gynnal eu tlodion yn Nhy Diwydrwydd Forden.

**CLOCAENOG**, plwyf yn nghantref RUTHIN, swydd DINBACH, GOGLEDD CYMRU, 3¼ milldir i'r de orllewin o Ruthin, yn cynwys y Rhanbarthau Uchaf ac Isaf, ac yn ol Deiliadeb 1861, cynwysa y Rhanbarth Isaf 162 o drigolion, a'r Uchaf, 277; yn y cyfan 439. Y mae y plwyf hwn yn gorwedd mewn rhan fynyddig o'r wlad, a'r pentref yn cael ei gylchynu gan lawer o dir gwael a diffrwyth. Y mae rhai cloddfeydd o gerig rhagorol yn y gymydogaeth, yn mysg y rhai y ceir calenau rhagorol i hogi ellynod. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn mrawdwriaeth llys eglwysig Esgob Bangor, wedi ei hardrethu yn llyfrau y frenines yn 12 punt, ac yn nawddogaeth yr Esgob. Yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i goffadwriaeth St. Trillo, sydd adeilad fechan hardd, a ffenestr ddwyreiniol ysplenydd iddi. Cyfodwyd ysgol blwyfol yma gan y diweddar Arglwydd Bagot, yr hon a gynhelid yn benaf gan ei arglwyddiaeth, a pheriglor y plwyf; a thros lawer o flyneddoedd, bu tua thriugain o blant yn cael addysg rad ynddi. Y mae llawer o ddoniadau mewn tir at amcanion elusenawl wedi eu gadael, y rhai a gyrhaeddant i fwy na haner can punt yn y flwyddyn, ac a renir i dlodion y plwyf. Y mae carnedd fawr yn nhrefgordd Maes tyddyn, ar ben yr hon yr oedd careg syth, neu faen hir, ar yr hon y cerfiasid mewn llythyrenau Sacsonaidd, *Aemilini Tovisac;* gelwid y garnedd gan werin y gymydogaeth, "Bedd Emlyn." Y mae y gareg wedi ei symud er ys talm, ac yn nghadw yn *Pool Parc*, gerllaw palas Arglwydd Bagot.

**CLOFFAN**, sant na wyddys dim am dano, ond iddo sylfaenu eglwys Llangloffan, yn Mhenfro.

**CLOIGIN**, arglwyddiaeth yn mhlwyf LLANDYFEILOG, cantref CYDWELI, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, 4 milldir i'r de ddc ddwyrain o Gaerfyrddin; y mae'r boblogaeth yn cael ei dychwelyd gydag un y plwyf. Y mae'r ffordd ag sydd yn myned o Gaerfyrddin i Bont-ar-ddulais, a'r un hono i Lanelli, yn myned drwy y lle hwn. Y mae yma ffynnon o ddwfr grisialaidd, yr hon a elwir y Pistyll Gwŷn, i'r hwn y cyrchai llawer gynt er gwella eu llygaid cleifion, ond y mae'r "Pistyll" wedi ei anghofio, a'r cyrchfaoedd wedi pallu. Yr oedd yma gapel hynafol tua dechreu y ganrif hon, yn yr hwn y gweinyddid priodasau; ond y mae wedi dyfod i lawr gareg oddiar gareg, a'r defnyddiau wedi cael eu cymmeryd at wasanaeth personol, fel nad oes ond y sylfeini i'w gweled yn awr.

**CLOUGH**, PARCH. R.B., M.A., periglor Corwen; bardd a llenor dysgedig, enwog am ei wladgarwch a'i sel dros lenyddiaeth Gymreig. Ymddangosodd rhai o'i gyfansoddiadau yn y *Gwyliedydd.* Bu farw Gorph. 11, 1830; a'i farwolaeth oedd un o destynau Eisteddfod Edeyrnion y flwyddyn hono.

**CLOUGH**, SYR RICHARD, a anwyd yn nhref Dinbych tua'r flwyddyn 1520. Efe oedd y pumed mab i Richard Clough, glwfer lled lwyddianus yn y dref hono, yr hwn a briodasai ddwywaith, o deuluoedd tra pharchus. Pan oedd y bachgen Richard yn ieuanc, hynodid ef gan ei chwaeth at gerddoriaeth, a bu am gyfnod yn aelod o gôr mynachlog Caerlleon. Yna aeth i Lundain, lle y sicrhaodd ei gyfeillion swydd iddo, yn ngwasanaeth Syr Thomas Gresham, a chasglodd yno gyfoeth enfawr.

Pan yn ieuanc, ac yn llawn sel Babyddol, aeth ar bererindod i Jerusalem, a gwnawd ef yn farchog y Bedd Sanctaidd. Ac o hyny allan, adweinid ef wrth yr enw *Syr* Richard Clough, er nad arddelai ef y teitl ar ei ddychweliad, rhag tramgwyddo y frenines Elizabeth, yr hon a ffieiddiai waith ei deiliaid yn chwenychu anrhydedd tramor. Bu am lawer o flynyddoedd yn oruchwyliwr, neu yn ddirprwywr masnachol dros Syr Thomas Gresham, yn Antwerp, lle ffurfiodd efe gydnabyddiaeth a'r bydglodus Ortelius, ac y bu yn offerynol i ddwyn y daearyddwr enwog i gyfeillgarwch a'i gyd drefwr, yr hynafieithydd galluog, Humphrey Llwyd. Er cymaint ei lwyddiant mewn gwlad estronol, yr oedd yn mawr garu y wlad a'i magodd, ac yn edrych yn mlaen yn awyddus at yr adeg, yr addawai iddo ei hun yr hyfrydwch o gael mwynhau ffrwyth ei lafur yn ardal ei enedigaeth. Yn 1564, efe a lwyddodd trwy Syr Thomas Gresham, i gael gwaddoliad o dir iddo ei hun yn ardal Dinbych, lle yr adeiladodd efe ddau balas,—Bachegraig, a Plas Clough, yr olaf o ba rai

Digitized by Google

a crys yn meddiant ei ddisgynyddion hyd heddyw. Yn 1567, efe a briododd yr enwog Catrin o'r Berain, yr hon oedd ar y pryd yn weddw i John Salusbury, Lleweni. Mae traddodiad am y briodas hon wedi ei gofnodi gan Pennant, ag sydd yn rhy dda i'w adael allan.—Yn nghladdedigaeth ei gwr cyntaf, dywedir bod Catrin yn cael ei thywys i'r eglwys yn mraich Syr Richard Clough o Bachegraig, ac yn ol o'r eglwys yn mraich Maurice Wynn o'r Gwydir, yr hwn a sisialodd yn ei chlust, ei ddymuniad o gael bod yn ail wr iddi. Hithau yn foesgar iawn a'i gwrthododd ef, gan ei hysbysu ei fod wedi aros yn rhy hwyr, ei bod hi wedi derbyn cynygiad Syr Richard Clough, ar y ffordd wrth fyned i'r eglwys; ond sicrhai ef, os digwyddai iddi orfod myned trwy y ddyledswydd ddifrifol hono eto, y gallai ef ymddibynu ar fod yn drydydd iddi; a chadwodd ei gair; canys ar farwolaeth Syr Richard, hi a briododd Maurice Wynn o Wydir. Ganwyd i Syr Richard o Catrin, ddwy ferch, Ann, a Mary. Yn 1569, daliwyd ef gan y Ffrancod yn Dieppe, a chanddo bapurau pwysig i'r frenines; ond rhyddhawyd ef yn fuan. Ar ol terfynu ei gysylltiadau masnachol gyda Syr Thomas Gresham, aeth i Hamburgh, yn gynnrychiolwr i'r *Fellowship of Merchant Adventurers;* ac yma yn 1570, bu farw yn nghanol ei ddyddiau, heb gael medi ond ychydig o frwyth ei lafur. Claddwyd ef yn Hamburgh, eithr ei galon (a'i ddeheulaw hefyd medd rhai), a ddygwyd drosodd yn ol ei ddymuniad, i Gymru, a chladdwyd hwynt yn yr Eglwys Wen, ger Dinbych. A dywedir bod Catrin ei wraig yn cario cydyn o'i wallt mewn gwddf-dlws, hongiedig wrth y gadwen aur a wisgai, tra y bu byw.

Yn ei ewyllys, dyddiedig 1570 gadawodd ei dda symudol i Syr Thomas Gresham, (eithr ni chymerodd y boneddwr feddiant o honynt); a'i holl gyfoeth tirol i'w wraig a'i ddwy ferch. Daeth Bachegraig i feddiant Ann, ei ferch henaf, yr hon a briododd Roger Salusbury, mab Lleweni, a pharhaodd yn y teulu nes dyfod i feddiant aeres,—yr enwog Mrs. Thrale, yr hon wedi hyny a ddaeth yn Mrs. Piozzi. Ystad y Maenan, yn Arfon, a syrthiodd i ran Mary, ei ferch ieuangaf yr hon a briododd Wynn o Felai, ac y mae yn awr yn meddiant ei disgynydd, Arglwydd Newborough. Plas Clough, a syrthiodd i ran mab ordderch i Syr Richard, a ddygasai efe drosodd o Antwerp, ac mae yn parhau yn meddiant ei ddisgynyddion hyd heddyw. Gadawodd 100*p.* yn y flwyddyn, yn nghyda degwm lleygyddol Cilcen, swydd Flint, at sefydlu a chynal Ysgol Rad yn Dinbych, ei dref enedigol; ethr, fel y rhan fwyaf o waddoliadau cyffelyb, y maent wedi eu colli er's llawer blwyddyn. Yr oedd ei gyfoeth mor fawr, fel y daeth y gair "Myn'd yn Glough" yn ddiareb yn y parth hwnw o'r wlad, am fyned yn gyfoethog.

Yr oedd Syr Richard yn fasnachydd o'r radd flaenaf; buasai ei feddwl anturiaethus, a'i ddeheurwydd masnachol, yn ei wneyd yn enwog mewn unrhyw oes; a saif y *Royal Exchange* yn Llundain, yn gof-golofn oesol o'i athrylith fasnachol ef, canys profa ei lythyrau, cyhoeddedig yn Mywgraffiad Syr Thomas Gresham, gan Burgon, mai i'w awgrymiadau ef i raddau helaeth, y mae yn rhaid priodoli bodolaeth y sefydliad gwerthfawr hwnw; a chyfranodd hefyd amryw filoedd o bunau tuag at yr anturiaeth.

Yr oedd hefyd yn wladgarwr mawr, yn caru ei ardal enedigol gyda brwdfrydedd annghyffredin, ac yn bwriadu gwneyd llawer o welliannau ar ei rhan; megis gwneyd yr afon Glwyd yn fordwyol o Ruddlan i Ruthyn; dwyn masnach ar brisiau cyfanwerth i galon y wlad; a throi rhan o'i adeiladau yn Bachegraig, yn ysdordai at wasanaeth ei hen gymydogion: ond, "bwriadau lawer sydd yn nghalon dyn, eithr cyngor yr Arglwydd, hwnw a saif."

**CLWYACH**, neu CLYDACH, maenol yn mhlwyf YSTRAD DYFODOG, cantref MISCYN, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, 9 milldir i'r gogledd o Lantrisant. Y mae yr enw yn arwyddoccau glas lanerch gysgodol, yr hyn sydd yn ddysgrifiadol o sefyllfa y faenol hon, yn mysg y mynyddoedd a'i hamgylchynant.

**CLYDAI**, un o ferched Brychan Brycheiniog, a sefydlydd eglwys Clydai, yn Mhenfro.

**CLYDEY**, neu CLYDAI, plwyf yn undeb CASTELLNEWYDD-EMLYN, cantref CILGERAN, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU, 6 milldir i'r De Orllewin o Gastell newydd-Emlyn, a gelwir ef weithiau "Clydai yn Emlyn." Y mae yn cynnwys, yn ol Deiliadeb 1861, 1074 o drigolion. Y mae'r plwyf yn gwneuthur i fyny waddol côr-gyfran (*prebend*) yn eglwys gadeiriol Tŷ Ddewi, yr hon a drethir ar lyfr y frenines yn 12*p.*, ac y mae yn nawddogaeth yr Esgob. Ficeriaeth ryddhaol yw y fywioliaeth eglwysig, ac y mae yn cael ei threthu ar lyfr y frenines yn 6*p.*: y mae wedi ei gwaddoli â 600*p.* o rodd seneddol, ac y mae un ran o dair o'r degwm yn perthyn iddi hefyd, tra y mae'r ddwy ran arall yn myned i gynnal y brebendiaeth: y mae'r fywioliaeth hefyd yn nawddogaeth Esgob Tŷ Dewi, ac yn werth 144*p.* y flwyddyn. Y mae clochdy pedair-onglog yn perthyn i'r eglwys, yr hon sydd wedi ei chyssegru i St. Clydai, un o ferched Brycheiniog. Adeilad diaddurn ydyw, ac o wneuthuriad cadarn. Y mae ysgol ddyddiol yn perthyn i'r eglwys, ac un arall yn perthyn i'r ymneilldwyr. Y mae capeli yn y plwyf gan yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, a'r Trefnyddion Calfinaidd, ac achosion llewyrchus yn mhob un o honynt. Mewn lle a elwir Henfeddau cynnelir tair o ffeiriau mawrion ar Mai 13, Medi 17, ac Hydref 30. Y mae yn Henfeddau ddarn lled fawr o fynydd-dir agored, yr hwn sydd yn llawn twmpathau ar ffurf beddau, ac y mae traddodiad yn y gymmydogaeth fod brwydr waedlyd wedi cael ei hymladd yma rywbryd. Y mae'r plwyf yn mesur 8120 o erwau, ac y mae'r trethoedd blynyddol tua 500*p.*

**CLYDNO**, 48ain brenin Prydain.—*Myf. Arch.*

**CLYDNO EIDDIN**, ydoedd fab i Cynwyd Cynwydion, ac yn benaeth dewr, yn ei flodau yn y 6ed ganrif.

**CLYDOG**, SANT, yn ei flodau yn y 5ed ganrif. Efe a sylfaenodd eglwys Clodoc yn swydd Henffordd. Dywed Cressy iddo ddyoddef merthyrdod yn 495, a choffheir ef yn y Merthyrdraeth Awst 19.

**CLYDOG**, a flaenorodd Clydno ar orsedd Prydain.—*Myf. Arch.*

**CLYNE** (GLYN), rhandir o fewn plwyf LLANILLTYD ger Castellnedd, yn nghantref NEDD, sir FORGANWG, DEHEUBARTH CYMRU, naw milldir (Gog. Ddwy. wrth Ddwy.) o Gastellnedd. Ddeugain mlynedd yn ol, yr oedd trigolion y faenol yn 129, ond erbyn 1861 yr oeddent wedi syrthio i 103. Y mae yn cael ei drethu ar ei ben ei hun i gynaliaeth ei dlodion.

**CLYNOG**, neu CELYNOG, plwyf yn nghantref UCHGWYRFAI, swydd GAERYNARFON, GOGLEDD CYMRU, 10 milldir i'r de dde orllewin o Gaerynarfon, ar y

Digitized by Google

ffordd o'r dref hono i Bwllheli, yn cynwys 1671 o boblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae y plwyf maith hwn, yn gorwedd ar lan Culfor Sant Sior; y pentref a saif ar wastadedd bychan, ger godrau mynydd y Gyrn Goch, ac y mae yn enwog fel y lle y preswyliai Beuno Sant, yr hwn a adeiladodd eglwys yma, yn agos i'w gell, yr hon mewn amser diweddarach, a wnaed yn golegawl, a phan wnaed Trethiad Lincoln yn y flwyddyn 1291, yr oedd yma sefydliad, cynwysedig o bump o beriglorion, neu gôr-fuddogion, yr hyn a barhaodd hyd y dadgorfforiad cyffredinol; ac yr ydoedd wedi ei gwaddoli â meddiannau mawrion, y rhai a ddyroddasid i'r sefydliad gan wahanol dywysogion brodorawl, a phendefigion Cymreig goludog; ac yn mysg eraill yr oedd trefgordd Clynog, yr hon a ddelir yn rhydd dani hyd y pryd hwn. Dywedir hefyd fod Beuno wedi sefydlu mynachdy yma; ond y mae yn fwy tebyg mai un o'i ddysgyblion, o'r enw Gwyddaint, a sefydlodd hwnw, yn y flwyddyn 616: yr ydoedd yn sefyll mewn lle a elwir "y Monachdy Gwyn," tua dwy filldir i'r de ddwyrain o'r eglwys; ac wedi cwympo o hono i adfeiliad, ar ol gwasgariad y rhai a'i cyfanneddent gyntaf, fe'i hadferwyd drachefn, i dderbyn y Carmeliaid, neu y brodyr Gwynion, ac fe'i gelwid "Monachdy Clynog bach," er ei wahaniaethau oddiwrth Clynog Fawr, y drefgordd a roddasid fel rhan o waddoliad yr eglwys. Nid ydyw yn debyg i'r gymdeithas neu y frawdoliaeth hon barhau yn hir; ond ni wyddys pa bryd ei diddymwyd, ac ni's meddwn unrhyw hanes sicr yn mhellach am y sefydliad. Dywaid traddodiad fod yr eglwys gyntefig a adeiladasai Beuno, wedi cael ei dinystrio trwy dân, yn y flwyddyn 976, a bod llyfr perthynol iddi, a elwid "Tiboeth," a ysgrifenasid gan Sant Twrog, ac a grybwyllir mor ddiweddar a theyrnasiad Harri yr Wythfed, wedi ei gadw. Y mae y mynyddoedd a elwir "Y Gyrn Goch" a'r "Gyrn Ddu," yn y plwyf hwn, yn ffurfio pen eithaf mynydd-res hir, a ymestyna ar led-traws y wlad, o'r Wyddfa, ac a derfyna o fewn ychydig i'r môr. Y mae mŵn efydd a manganys yn y mynyddoedd, mewn amryw fanau yn y plwyf; ond ni wnaed unrhyw ymdrech egniol a theilwng, i weithio y mwngloddiau yma eto. Cynhelir ffeiriau yma ar Mai 6, a Thachwedd 6. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth ryddhäol, yn archddeoniaeth, ac esgobaeth Bangor, wedi ei hardrethu yn llyfrau y frenines, yn 6 phunt, ac yn nawddogaeth Esgob Bangor. Y berigloriaeth, yr hon a ardrethir yn 24 punt, sydd segur-swydd, cyssylltiedig â phenogaeth Coleg yr Iesu, Rhydychain, penrhaith yr hwn sydd yn derbyn dwy ran o dair o'r degwm mawr. Yr eglwys, yr hon sydd yn gyssegredig i goffadwriaeth Sant Beuno, sydd yn adeilad croesddulliog mawr, wedi ei hadeiladu yn amser Harri y Seithfed, yn yr arddull ddiweddaraf o adeiladaeth Seis'nig, ac yn gynwysedig o gorff-eglwys, cangell, a chroesfeydd gogleddol a deheuol, yn nghyd a thŵr petrual uchel, ar y pen gorllewinol. Ar yr ystlys ddeheuol, ac mewn cymundeb â'r eglwys drwy fynedfa gul, yr oedd adeilad fawr a elwid "Eglwys Beuno," neu "Eglwys y Bedd," fel ei gelwir gan y trigolion, am fod traddodiad yn eu mysg, mai yma yr oedd "Bedd Beuno," a dangosid ei fedd-adail ryw ddwy oes yn ol, yn nghanol y Capel. Dywedir i'r bedd gael ei chwalu ar gais mam yr Arglwydd Newborough presenol, yr hon oedd Eidalyddes o genedl, a phabyddes o grefydd, i'r dyben o chwilio am greiriau y Sant. Yr oedd y beddfaen, a delw ddynol, (benyw meddir, yr hon ond odid a fwriedid i gynnrychioli Gwenfrewi,) wedi eu gwneuthur o rud-faen. Hyd yr eglwys, o'r dwyrain i'r gorllewin, yw 158 troedfedd. Nid oes ond ychydig o lethriad yn ei nen, yr hon sydd döedig â phlwm, ac yn amgylchynedig â mur-ganllawiau prydferth, megis y mae tŵr y clochdy hefyd yr un modd, yr hwn sydd yn 75 troedfedd o uchder, ac yn cynwys clwydi cryfion, i grogi arnynt dair o glychau, er nad oes ond dwy yn bresenol. Y mae traddodiad yn mysg y plwyfolion, mai o hen Fonachlog Enlli y cael y clychau hyn i Glynog Fawr. Y mae y brif ffenestr yn mhen dwyreiniol yr Eglwys, yn fawr iawn, a thra hardd-wych: cynwysai amryw ddarnau o wydr lliwiedig, a phortreiadau o'r Arglwydd Iesu Grist, y Forwyn Fair, temlau, &c. Ar y muriau, oddi fewn i'r gangell, gwelir amryw gof-feini marmor, pur dlysion a dillynaidd; ac argraph amryw o honynt yn ddyddorol. O amgylch y Gangell y mae pedair ar ddeg o hen eisteddleoedd Monachaidd, neu Brebenderaidd, a llun gwyneb tra defosiynol, wedi ei gerfio ar du blaen yr astell wahaniadol rhwng pob eisteddle. Yn y mur, yr ochr ddeau i'r allor, y mae y noe, a ddaliai y dwfr cyssegredig, mewn cadwraeth ragorol. Ar yr un ochr, rhwng y noe a'r drws, y mae tair o gilfachau eang yn y mur, a'u capanau yn fwaog, o adeilwaith *Gothig*, ac addurniadau yn rhedeg oddiarnodd; ac y mae twll, tua modfedd o dryfesur, yn y gwahan-lechi rhwng yr eisteddleoedd. Bernir mai lleoedd i'r Offeiriaid gweinyddol i eistedd ynddynt, oeddynt y seddau hyn. Uwch ben y cyfwng, rhwng corff yr Eglwys a'r Gangell, y mae "Llofft y Grog," yr hon a gynhelir gan res o golofnau rhychog, wedi eu haddurno yn y pen uchaf â rhwydwaith bwaog, ac â cherfiadau destlus. Cyssylltir Capel Beuno â'r Eglwys, fel yr awgrymwyd, gan fynedfa gul, dywyll, tua phum llath o hyd; ac y mae ystlys-furiau y fynedfa hon, wedi codi i ychydig uchder, yn troi tipyn yn fwaog, ac yn cynal y nen, yr hon a ffurfir o bump o gerig llydain, mawrion, amryw fodfeddi o drwch, y rhai a gyrchwyd yma o'r mynydd gerllaw. Dywedir bod ffenestr fawr Ddwyreiniol Capel Beuno, yn yr hen amser, yn dra ardderchog a chywrain; ac yn cynwys hanesion Sant Beuno, a Sant Gwenfrewi, mewn arwyddluniau yn ei gwydr lliwiedig. Yr oedd yn hen ddefod gan yr ofergoelus oesoedd gynt, i daenu brwyn ar fedd Beuno, a dodi plant cleifion, neu bersonau afiachus eraill arno, wedi eu golchi yn gyntaf yn y ffynon sanctaidd oedd gerllaw, gan gredu y buasai i'r claf, wedi treulio noswaith ar fedd y Sant, gael ei adferu i iechyd trwy ei gyfryngiad gwyrthiol ef. Yn mysg y coflechau dyddorol sydd yn yr Eglwys hybarchus hon, y mae un i'r Milwriad Twisselton, yr hwn oedd yn swyddog effro yn myddin y Senedd, ac a gymerodd Syr John Owen o'r Clenennau, yn garcharor yn mrwydr y Dalar Hir, gerllaw Llandegai, yn y flwyddyn 1648. Hyd yn agos i derfyn y ganrif ddiweddaf, yr oedd defod yn ffynu, o offrymu at adgyweiriad yr eglwys hon, neu gynhaliaeth y tlodion, loi, neu ŵyn, a fyddent wedi eu geni, a "Nôd Beuno" yn eu clust; y rhai hyn a ddygid i'r eglwys ar Sul y Drindod, cylchwyl St. Beuno, ac a gyflwynid i'r gwarcheidwaid eglwysig, y rhai a'u gwerthent, ac a ddodent yr arian mewn hen goffr derw mawr, a elwid "Cyff Beuno," ar yr hwn yr oedd tri chlô; ac oddiwrth y cyfryw offrymau,

buwyd yn cael trysorfa ddigonol i'r amcanion dywededig am oesoedd lawer. Gerllaw y brif-ffordd, yn agos i'r Eglwys, y mae yr hen ffynon gyssegredig, a elwir "Ffynon Beuno," i ddwfr yr hon y priodolid llawer o rinweddau yn yr oesoedd gynt, ac mewn cyfeiriad at y cyfryw dŵb, y dywedai y diweddar Eben Vardd yn chwareus unwaith, tra yn estyn gwydraid o'i dwfr i Gyfaill;—

"Dderbyniwch chwi ddwr Beuno—i'w yfed?
Mae *hufen gras* arno,
Mae'n ddïod saint, braint ein bro;
Mae *rhinwedd mawr* o hono."

Mewn cae, ar dyddyn o'r enw "Bach Wen" yn y plwyf hwn, y mae cromlech fawr, neu faen mawr, wedi ei ddodi i orphwys ar bedair o golofnau meinion, unionsyth. Gan fod Bachwen yn gwneyd i fynu randir go helaeth o "Dref Clynog Fawr," sef y drefgordd a roes GWYDDEINT i SANT BEUNO, fe farna rhai nad cromlech Dderwyddol ydoedd hon, ond yn hytrach, maen a gyfodwyd, er coffadwriaeth a thystiolaeth o drosglwyddiad meddiant y drefgordd o law GWYDDEINT i SANT BEUNO. Gwel *Archæologia Cambrensis*, vol. i. p. 393.

Yn y plwyf hwn y mae y lle a elwir "Y Bwlch Mawr," yr hwn sydd yn cyrhaedd o fynydd Llwytor, ar y tu dwyreiniol, hyd fynydd Pen y Gaer, ar y tu gorllewinol, o ddwy i dair milldir o hŷd; ar y fynedfa iddo o'r dehau, y mae bryn, a elwir "Mynydd y Cennin," yr hwn sydd yn culhau y Bwlch, ac yn y parth cul hwnw, fe'i gelwir "Bwlch Derwyn," am mai dyma y lle yr oedd hen drefgordd Derwyn gynt; ac yn agos i'r un lle, fe'i cyfyngir hefyd gan Foel Derwyn, yna y mae yn ymledu, ac yn ffurfio yr hyn a elwir yn brïodol, "Y Bwlch Mawr;" ac fe'i terfynir o du y gorllewin, gan fynydd a elwir oddiwrtho, "Mynydd y Bwlch Mawr," mewn cydiad a'r hwn, y mae mynyddoedd y Gyrn Goch, a'r Gyrn Ddu, yn ffurfio esgair uchel, hyd oni's torir yn y pen gorllewinol gan fwlch arall, llawer culach, a elwir yn awr "Bwlch Llanaelhaiarn."

Y mae dwy lanerch yn y Bwlch Mawr, y rhai a gadwant eu hen enwau hyd y pryd hwn, am y rhai y crybwyllir mewn hanesiaeth, eu bod yn faesydd rhyw orchestion milwraidd yn yr amser gynt; un o'r rhai hyn ydyw Bron yr Erw, sef yr ucheldir a ffurfir gan lethrfa mynydd y Bwlch Mawr, a grybwyllwyd o'r blaen. Yma y gwnaeth y Tywysog Gruffydd ab Cynan ei ymdrech cyntaf i adenill y Dywysogaeth oddiar y trawsfeddiannydd Trahaiarn Caradog, gan yr hwn ei gorchfygwyd, ac ei curwyd yn ol gyda cholled fawr. Cynnorthwyid Gruffydd ab Cynan y pryd hwn gan Encumallon, Ranallt, a Mathon, tri o bennaethiaid Gwyddelig;[1] ac y mae yn gyd darawiad hynod, mai enw y penaeth diweddaf, Mathon, yw y cyntaf ar gôf a chadw, yn ach-draith Prysccyni fel seilydd y teulu hwnw. Y mae trefgordd Pryscyni yn ymylu ar Bron yr Erw; ac y mae bryncyn o'i mewn, a elwir "Carreg Cynan." Efallai bod yr holl drefgordd ar y dechreu, yn dwyn yr enw Prys Cynan, fel y mae amryw leoedd yn Nghymru eto yn dwyn yr enw Prŷs, neu Prysg, yn arwyddo coed-dir, neu dir gorchuddiedig gan brysgoed, ac y mae y cyfryw dir hyd heddyw yn agos i gymydogaeth Prysgyni, ac y mae yn debyg ei fod yn rhan o honi, pan oedd yr ettifeddiaeth yn ei chyfanrwydd gynt. Y mae y teulu wedi darfod er ys talm, a'r drefgordd wedi ei had-ranu yn fân dyddynod, yr hyn a all fod yn rheswm am ei galw yn y lluos-rif, *Pryscyni*, fel y gwneir yn bresenol.

Un arall o'r tywysogion Cymreig a amlygodd ei wrhydri ar y llanerch hon, oedd Llewelyn Fawr, am yr hwn y dywaid Llywarch Brydydd Môch, fel y canlyn, yn un o'i Gywyddau,—

"Eil agwrdd ymwrdd
Am hardd Amgant bre,
BRON YR ERW ei galwant;
Cynwan llu, fal llew y'th welsant,
Cadr. Eryr, . . .

Y mae y desgrifiad tra chyfaddas a roddir o'r lle, yn y geiriau uchod, "Hardd amgant bre," yn darawiadol hynod i'r sawl ydynt adnabyddus o'r llanerch, ac y mae hyny yn gadarnhad neillduol i'r dybiaeth, mai y lle hwn, a elwir dan yr enw "Bron yr Erw" hyd heddyw, oedd y fan. Y mae yn gorwedd mewn bwlch, lle y mae yn dra thebyg y buasai byddin a gynnygiai oresgyn gwlad, yn debyg o gael ei gwrthladd. Heblaw hyny, fe'n hysbysir yn "Hanes Cymru" gan WYNN, fod Gruffydd ab Cynan wedi tywys ei luoedd dros yr afon (Menai), a gwersyllu yn swydd Gaer-yn-arfon, gan hyny, oni's gellir cyfeirio at unrhyw le arall yn swydd Gaer-yn-arfon, a chynifer o debygolion yn ei ffafr, ac yn dwyn yr un enw, rhaid mai Bron yr Erw yn mhlwyf Clynog ydoedd.

Wrth ddisgyn o honom i'r gwastadedd, ar ochr Arfon i'r bwlch, yr ydym yn fuan yn dyfod ar draws amryw gladdfeydd, fel y mae yr enwau yn arwyddocceau; a dywedir fod gweddillion cyrph dynol wedi eu canfod rai blyneddau yn ol, wrth gloddio yn agos i rai o honynt. Mewn nant fechan, a elwir Cilcoed, yr hon sydd yn gorwedd yn gymhwys wrth droed y ddisgynfa ogleddol o Prysgyni, a bryn Bron yr Erw, y mae lle a elwir "Carnedd," ac olion adfeiliedig rhyw hen furiau gerllaw iddi; ac o fewn ychydig bellder o bentref Clynog, y mae maes a elwir "Penbryn-y-fonwent." Ychydig yn fwy i'r gogledd, ar dyddyn a elwir Cae yn y Morfa, y mae maes a elwir "Bryn y cyrph," yn yr hwn y mae bryncyn bychan o dir gwyllt, annrhiniedig, yr hwn y tybir mai hen gladdfa ydoedd. Ac yn mhellach fyth i'r gogledd, yn nghyfeiriad y môr, neu Ddinas Dinlle, y mae maes arall, ar dyddyn Llyngela, neu "Llyn y gelain," a elwir "Bryn beddau," a "Pen deg ar hugain," y rhai y tybir eu bod yn dynodi claddfeydd; a chan eu bod yn llwyr annghyssylltiedig ag unrhyw sefydliad cyssegredig, fe ddichon y gellir eu golygu yn dwyn rhyw berthynas a rhai o'r gweithredoedd rhyfelgar a ddygid yn mlaen yn y Bwlch Mawr yma. Ychydig mwy i'r gogledd ddwyrain, ac yn nghyfeiriad Glyn-llifon, y mae Bryn Cynan, lle y mae plwyf Clynog yn terfynu. Yn y rhan ogledd ddwyreiniol o'r un Bwlch, ac ychydig yn uwch oddiwrth y môr, y mae Brynaera, Lleaer, a elwir yn gyffredin Lleuar, enwau yn arwyddoceau brwydrau eto.

Y mae lle arall yn y Bwlch, yn cael ei grybwyll gan "Llygad Gwr," yn un o'i Gyfansoddiadau i'r Tywysog Llewelyn ab Gruffydd, sef y lle a elwir yn yr oesoedd diweddar hyn, "Moel Derwyn." Y mae ei sefyllfa yn mhen deheuol y Bwlch, yn agos i'r ffin rhwng Cantref Eifionydd a Chantref Arfon. Fel hyn ei crybwyllir gan y Bardd;—

[1] *Wynne's History of Wales*, pp. 105, 106.

Digitized by Google

"Breisclew Môn, mwynfawr Wyndodydd
Bryn Derwyn, clô byddin clodrydd
Ni bu edifar y dydd i cyrchawdd
Cyrch ehofn essillydd."

Ac y mae cyfeiriad drachefn yn yr un cyfansoddiad, at orchestion ein Tywysog olaf, yn y bwlch arall, ar derfyn gorllewinol mynyddres Clynog, sef "Bwlch Llanaelhaiarn, trwy yr hwn y mae y brif-ffordd o Gaer-yn-arfon i Bwllheli yn gorwedd. Y mynydd-oedd o'r tu gorllewin iddo a elwir "Yr Eifl," ar ben y clogwyn nesaf o ba rai y mae hen amddiffynfa gref Tre'r Ceiri yn gorwedd. Barna amryw o'r Hynafiaethwyr, mai y Bwlch hwn a elwid gynt, Drws Daufynydd;[1] a grybwyllir yn fynych fel maes llawer brwydr waedlyd.

Fel hyn y mae y crybwylliad neillduol y cyfeirir ato uchod,—

"Gwelais wawr ar wŷr lluossydd,
Fal gwr yn gwrthladd cywilydd;
A welei Lywelyn, llawenydd Dragon
Ynghymysg Arfon ac Eiddionydd,
Nid oedd hawdd, Llew aerflawdd Lluydd
I dreisiaw gar Drws Daufynydd,
Ni's plygodd Mab Dyn, bu doniawg ffydd,
Ni's plyceo Mab Duw yn dragywydd."

Gellid rhoddi yr aralleiriad canlynol i'r ddau ddernyn barddonol uchod, mewn iaith mwy sathredig, a dealladwy;—

"Llew mawr Môn, mwynfawr Wyneddwr
Cefnogwr dewr ei fyddin yn Mryn Derwyn.
Ni bu edifar ganddo y dydd yr ymosododd ar ei elynion,
Yr ydoedd fel ymosodiad gwron hanedig o henafiaid eofn."

"Gwelais wron yn ymosod ar lu o wŷr,
Fal gwr anrhydeddus yn gwrthladd cywilydd.
Y sawl a welodd Lywelyn mal Draig aiddgar,
Yn amrysonfa Arfon ac Eiddionydd,
A ganfu nad hawdd gwrthsefyll ei ruthriad llewaidd
Ger Drws Daufynydd.
Ni orfodwyd ef i ymostwng gan ddyn erïoed;
Na fyddo i Fab Duw ei blygu yn dragywydd!"

Yr ydoedd y ddwy brif drefgordd yn y Bwlch Mawr, sef Graianog a Derwyn, wedi eu dyroddi i Fonachlog Clynog Fawr yn yr amser gynt; ond ymddengys oddiwrth yr Achau Cymreig, fod maerdref Graianog, yn fuan ar ol cwymp y dywysogaeth frodorol, yn meddiant hiliogaeth yr Arglwydd Trahaiarn Goch, o Leyn, y rhai a ymgyfathrachasant trwy brïodas â theuluoedd Glyn llifon, a Llywarch ap Bran, y prif arglwyddi a thir-feddianwyr yn Nghlynog Fawr yn Arfon, a'i hamgylchoedd, yn yr oesoedd canol.

Y mae yn alarus, leied o hen gofiannau sydd ar gael, er egluro hanes eglwysig Clynog. Sefydliad y crefydd-dy yma gan Sant Beuno yn y flwyddyn 616, ei gwaddoliad yn yr oes hono a'r oesoedd dylynol i hyny, ymsefydliad y Myneich Gwynion yn y gymydogaeth, a'u darostyngiad yn y drydedd ganrif ar ddeg, a thröedigaeth y Sefydliad mewn canlyniad i hyny, i fod yn glasgorawl, yn nghyda dadgorfforiad y sefydliad yn yr unfed ganrif ar bymtheg, ydynt amgylchiadau a grybwyllir oll mewn ymadroddion cyffredinol gan haneswyr; ond nid ymddengys fod manylion y sefydliad wedi eu croniclo mewn trefn amseryddol, a chyda manylrwydd a chywirdeb hanesyddol, erïoed. Efallai bod enwau rhai lleoedd yn agos i'r eglwys yn deilwng o sylw Hynafiaethwyr, fel enwau ag y mae iddynt arwyddocead hanesyddol. Mur Sant,—bwthyn sydd yn awr ar du dwyreiniol yr eglwys, ar ochr bryn, wrth droed yr hwn y mae pantle bychan, a elwir Llwyn Ne', yn gydiol a'r hwn y mae dau gae, yn cyrhaedd hyd at y pentref; y cae nesaf i'r eglwys a elwir Bryn-y-gowr-dy, enw a all fod wedi ei lygru oddiwrth Bryn y Gwyryf-dy; ar fin hwn y mae y Plas, yn yr hwn yr oedd ystafell gynt, a elwid Y Lloft Wen. Yr oedd *Gwen*, a *Gwyn*, yn cael ei ddefnyddio yn allegawl gan y Cymry, am sanctaidd, fel ei gwelir yn Bachwen, sef yr ebach sanctaidd, enw ar dyddyn sydd yn gorwedd rhwng eglwys Clynog a glan y môr, ar yr hwn y saif y gromlech. A'r tyddyn nesaf i hwnw, a elwir Cae'r pws sant, yr hyn efallai a ddynoda ryw berthynas rhwng y lle a'r hen gyssegrfa, mewn oesoedd boreuol. Yn agos i'r fonwent, ar yr ochr ogleddol i'r gangell, y saif hen balas, a elwir Y Llys, neu y Cwrt; efallai fod yr enw yn dwyn rhyw berthynas â brawdwriaeth eglwysig yr hen Fonachlog.

Y mae ffug-chwedl draddodiadol mewn cyssylltiad a Llwyn Ne', sef, pan adeiledid eglwys Clynog Fawr, bod aderyn, yr hwn a eilw pobl yn bresenol "Y Durtur," wedi ymsefydlu yno, a bod peroriaeth ddigyffelyb ei gathliadau mor swynawl, fel ag i beri i'r adeiladwyr roddi eu gwaith i fynu, ac ymollwng i fath o ber lewyg dan ddylanwad grymus ei delor-iaeth. Ymofidiai Sant Beuno o herwydd yr attaliad a roddid ar y gwaith trwy hyny, ac efe a weddïodd yn daer am i'r aderyn gael ei symud. Caniattawyd ei ddeisyfiad yn y fan, ac ni chlywwyd llais yr hudolydd peraidd yno mwyach. Efallai fod y chwedl hon wedi ei hamcanu i ddysgu i ni, na ddylem aberthu dyledswyddau pwysig, a rhwymedigaethau difrifol, i foddhad gwagsaw teimladau naturiol, a mwyniannau personol; ac mai dymuniad difrifol pob dyn dâ, ydyw cael tori ymaith bob annogaethau i'r cyfryw anwes anmhrïodol.

Y mae ffug-chwedl arall ar lafar gwlad yn nghymydogaeth Clynog Fawr, mewn cyssylltiad a chladdedigaeth Beuno Sant; a hyderwn yr esgusodir ni am ei chroniclo o fewn y Gwaith hwn:—Yn agos i ben uchaf y plwyf, yn nghyfeiriad Pen y morfa, y mae llanerch o dir a elwir "Ynys yr Arch," yr hon a elwir felly, meddir, er cof am yr amgylchiad hynod a ganlyn.—Wedi marw Sant Beuno, cludid ei gorph i'w gladdu ar hyd y ffordd hon. A phan oeddynt yn y llanerch uchod, safodd yr orymdaith angladdol, a chymerodd dadl frwd le, yn nghylch y lle y dodid gweddillion marwol y sant; a dadleuid dros dri lle, Clynog Fawr, Nefyn, ac Enlli. Yn nghanol y ddadl flin hon, disgynodd trymgwsg arnynt oll, ac erbyn deffroi o honynt, pa beth a welent ond tair arch, bob un mor llwyr gyffelyb, fel na allasai neb wahaniaethu yr un wirioneddol oddiwrth y ddwy wyrthiol; felly, pob plaid a gymerth arch i'w chladdfa ddewisedig ei hun, gan feddu sicrwydd cyfattebol yn ol pob ymddangosiad, o'i bod yn meddu yr arch wirioneddol. Oni all fod y ffug-chwedl uchod wedi ei hamcanu i drosglwyddo addysg o'r fath a ganlyn, sef, bod dadleuon, ac ymrysonau dall-bleidiol, yn cymylu y gwirionedd, ac yn cynnyrchu cynifer o ffugiadau cyffelyb i'r gwirionedd, fel y mae yn

[1] *See the Rev. P. B. Williams' History of Carnarvonshire*, p. 159.

Digitized by Google

berygl i ddynion ddibrisio sylweddau, a rhedeg ymaith gyda ffugiadau?

Ond y grediniaeth sydd yn ffynu ydyw, mai yn Nghlynog Fawr y claddwyd Sant Beuno; ac ymddengys bod y grediniaeth hon yn cael ei chefnogi gan draddodiad, a hanesiaeth. Dangosir dernyn o'i fedd-faen eto o fewn y Capel, y dywedir ei fod wedi cael ei adeiladu ar ei fedd.

Coffeir yn Englynion Beddau Milwyr Ynys Prydain, fod—"Bedd Dylan yn Llan Feuno;" ac o fewn tua milldir a haner i "Gor Beuno," sef Eglwys Clynog, y mae penrhyn bychan yn ymestyn i'r môr, ar yr hwn, ychydig goris llinell llanw, y mae maen mawr, a elwir "Maen Dylan," oddiwrth yr hwn y mae y penrhyn yn cael ei alw "Pwynt Maen Dylan;" ac y mae yn debyg mai yma yr oedd y bedd y cyfeirid ato yn y cofion uchod. Y mae olion rhai hen wersylloedd milwraidd i'w canfod hefyd o fewn y plwyf hwn; y cyntaf sydd ar ben gorllewinol Craig Brysgyni, o ffurf hirgrwn afreolaidd, ei hŷd o'r dwyrain i'r gorllewin yn agos, sydd tua 220 troedfedd, yn ei fan hwyaf; a'i led, tua 75 troedfedd. Nid ydyw hyny o olion amddiffynfeydd celfyddydol sydd yn aros yn y fan hon, ond tra disylw; ond bod yr orsaf yn un o'r rhai mwyaf manteisiol; gan fod natur wedi ei gwneyd bron yn anorchfygol. Y mae llen gwerin yn cydio y lle hwn â chad-gyrchiad aflwyddianus Gruffydd ab Cynan, yn erbyn y trawsfeddiannydd Trahaearn, pan y cafodd ei lwyr orchfygu ger Bron yr Erw, tua thri chwarter milldir o'r fan hon. Gellir dilyn y llwybr a gymerodd efe i arwain ei fyddin o Abermenai i'r fan hon, trwy amryw enwau traddodiadol, megys Bryn Cynan, ger Llandwrog, Carreg Cynan, uwchlaw Penarth, a Chraig Cynan.

Gellir canfod olion hen amgloddiau milwraidd hefyd ar ben Moel Derwyn, yr hon sydd yn gorwedd rhwng Clynog a Llanllyfni. Ffurf y wersyllfa hon ydoedd hirgrwn lled reolaidd, 304 troedfedd o hŷd, wrth 258, o led.

Yn y plwyf yma y treuliodd y diweddar Mr. Ebenezer Thomas, (Eben Vardd,) ei ddyddiau gorau, fel Ysgolfeistr tra defnyddiol, ac yma y cyfansoddodd efe y rhan fwyaf o'i Awdlau gorchestol. Bu am amryw o flyneddoedd olaf ei einioes, yn swyddog eglwysig tra chymeradwy a defnyddiol, yn Nghyfundeb y Trefnyddion Calfinaidd; ac yn rhagbarottoi ymgeiswyr ieuainc am y Weinidogaeth yn mysg yr Enwad hwnw, i fyned i Athrofa y Bala. Wedi ei farwolaeth ef, pennodwyd y Parch. David Jones, (Dewi Arfon,) pregethwr ieuanc tra chymeradwy, a bardd galluog, i gymeryd gofal yr Ysgol bwysig hon; ond bu yntau farw, yn mlodeu ei ddyddiau, ac yn nghanol ei ddefnyddioldeb. Bwriadwn roddi hanes fanylach am y gwyr da uchod, dan eu henwau, yn nghorff y Gwaith hwn.

**CLYNOG**, Maurice, ydoedd aelod o athrofa Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn wyryf y gyfraith (B. Ll.), yn 1548. Yn 1556, cafodd fywioliaeth Corwen, yn Meirion; a gwnawd ef yn gorberiglor Caerefrog, ac yn swyddog yn y llys uchelfraint o dan Cardinal Pole, archesgob Caergaint. Yn fuan ar ol marwolaeth Dr. Wm. Glynn, esgob Bangor, yn 1558, darfu i'r frenines Mari benodi Clynog yn olynydd iddo; ond gan i'r frenines farw cyn ei gysegru i'r swydd, efe a enciliodd gyda Dr. Goldwell, esgob Llanelwy, i Rufain; lle, yn mhen blynyddoedd ar ol hyny, y gwnawd ef yn Rheithor y Clafdy Seisnig a sefydlwyd yno, a gelwid ef yn Dr. Maurice. Ond gan ei fod yn dra phleidiol i'r myfyrwyr Cymreig a drigent yno, enynodd gasineb y Saeson tuag ato, a di swyddodd y Pab ef o'r herwydd, yn 1581.

**CLYRO**, neu Claerwy, plwyf yn undeb Y Gelli (Hay), cantref Castell-y-pain, swydd Faesyfed, Deheudir Cymru, 1 milldir i'r Gogledd Orllewin o'r Gelli, gyda 888 o drigolion. Y mae'r plwyf hwn tua 4 milldir ei led, ac y mae yn ymestyn am ryw 7 milldir ar hyd glànau yr afon Wy, yr hon sydd yn ei wahanu yma oddiwrth sir Frycheiniog, ac y mae yn ffinio hefyd â sir Henffordd, oddiwrth yr hon y gwahanir ef gan nant bychan. Y mae'r brif-ffordd o Aberhonddu i Kington yn myned drwy y pentref. Y mae ychydig weddillion o gastell hynafol i'w gweled yma, ond ni wyddys dim o'i hanes: adeiladwyd monachlog yma hefyd yn gynnar iawn, ond nid oes olion o honi, a'r unig beth ar sydd ar gôf a chadw am dani, ydyw enw tiroedd yn y plwyf, y rhai, meddir, a berthynent i'r hen fonachlog, ac am hyny a elwir hyd heddyw yn "Dir-y-Myneich." Y mae amryw blasau ardderchog yn y plwyf, megys Cabalfa, &c. Y mae'r plwyf hwn yn gwneuthur i fyny waddol cor-gyfran (*prebend*) yn eglwys glasgorol Aberhonddu, yr hon a drethir ar lyfr y frenines yn 7*p.* 6*s.* 8*c.*, ac yn nawddogaeth Esgob Tŷ Ddewi. Ficeriaeth ryddhaol yw y fywioliaeth, ac y mae ficeriaeth Bettws Clyro wedi ei huno â hi: tua 2 filldir sydd o un eglwys i'r llall: y mae yn cael ei threthu ar lyfr y frenines yn 6*p.*, a'i gwerth blynyddol yw 330*p.*: y mae yn nawddogaeth Esgob Tŷ Ddewi. Y mae yn un hên iawn, ac wedi cael ei chyssegru i St. Michael. Y mae rhan o'r clochdy wedi cael ei ddinystrio, ac ail-adeiladwyd y gangell, yn 1823, gan yr Archddiacon Beynon, cor-beriglor Aberhonddu. Yr oedd yr Archddiacon yn wladgarwr haelionus, a phriodol y dywedai Daniel Ddu am dano:

"Mæcenas Cymru, Beynon hael dy law."

Y mae dwy lech fynor syml yn y gangell; un er coffadwriaeth am y Parch. Edward Edwards, ficer y plwyf, a chorberiglor Aberhonddu; a'r llall i Sophia, unig ferch William Davies, Yswain, Cabalfa: y mae ar fur yr eglwys hefyd wyddfa brydferth iawn, o farmor gwŷn, yr hon a addurnir â cherflun o fenyw yn plygu uwchben wrn: coffawdwriaeth yw hon, am Elizabeth Williams, o Bronith Cottage. Y mae capel gan y Trefnyddion Wesleyaidd gerllaw y pentref. Y mae yma ysgol blwyfol, at yr hon y telir 15*p.* y flwyddyn o dreth y tylodion. Tua'r flwyddyn 1773 gadawodd un Mrs. Gwynne, gymunrodd o 600*p.*, llôg y rhai oedd i fyned at ddilladu. rhoddi addysg, a phrentisio plant tlodion y plwyf; ond nid yw yr elusen yma yn awr yn gyrhaeddadwy i wneuthur â hi yn ol amcan y foneddiges haelionus. Y mae yma ffynnon fwnol, yr hon sydd yn effeithiol iawn i wella llygaid cleifion. Y mae ei drethoedd, a gadael Bettws Clyro allan, tua 400*p.* y flwyddyn.

**CLYWEDOG**, Ieuan, bardd yn ei flodau yn nechreu y 15ed ganrif.

**CLYWEDOG**, Sion, bardd yn ei flodau o 1580 hyd 1620.

**CLYWEDOG**, Watcin, bardd yn ei flodau tua 1600.

**CNEPPYN GWRTHEURNION**, a Sypyn Cyfeiliog, oedd y ffugenwau a arferai Dafydd Bach ab Madawg Wladaidd. Dichon mai brodor o Wrtheurnion, Maesyfed, ydoedd.

Digitized by Google

**CNWC-GLAS**, bwrdeisdref, mewn rhan yn mhlwyf BUGEILDY, ond gan mwyaf yn mhlwyf HEYOP, o'r hwn y mae yn barthran, cantref KNIGHTON (TREFYCLAWDD), swydd FAESYFED, DEHEUDIR CYMRU, 2½ milldir i'r Gogledd Orllewin wrth Orllewin o Knighton, poblogaeth yr hon a ddychwelir gyda'r ddau blwyf. Y mae yn gorwedd mewn man dymunol ar lân yr afon Terne, yr hon sydd yma yn gwahanu rhwng siroedd Amwythig a Maesyfed. Yr oedd yma yn yr amser gynt, gastell, yr hwn a adeiladwyd gyntaf gan Ralph Mortimer, tua'r flwyddyn 1242, ar ben twmpath conawl gwneuthuredig. Nid oes yn y pentref ond rhyw ddwsin o dai, ac nid ydynt yn agos iawn at eu gilydd: perthyna y faenor i'r Goron. Y mae'r fwrdeisdref o dan arolygiaeth maeron a bwrdeiswyr, y rhai a ddetholir mewn rhan gan oruchwyliwr y faenor. Gyda Cefnyllys, Knighton, Rhaidr-ar-Wy, a Llanandras (*Presteign*), y mae yn ymuno â Maesyfed i anfon un aelod i'r senedd. Y mae yn sefyll mewn rhandir ag sydd yn llawn o borfeydd gwelltog, ac y mae'r anifeiliaid a besgir yma yn cael eu cymmeryd i farchnad Knighton, neu ynte i farchnad Tre-Esgob (*Bishop's Castle*) swydd Amwythig. Y mae yma orsaf ar y gangen hono o reilffordd y Central Wales ag sydd yn rhedeg o Builth Road i'r Craven Arms. Yn y fwrdeisdref fechan hon y ganwyd y dŷn mawr hwnw, Vavasor Powell. Gwel VAVASOR POWELL.

**COBHAM**, ARGLWYDD, neu SYR JOHN OLDCASTLE, yr hwn a alwai Y Cymry, "Sion Hen dy," ydoedd frodor o dreflan Oldcastle, ger Llanfihangel-crygcornel, ar gysylltiad Mynwy a Henffordd.

Ganwyd ef tua chanol y 14eg ganrif. Cymerodd ei enw *Oldcastle*, oddi wrth ei le genedigol, a dywed traddodiad lleol, mae y Castell, neu y *Court-house*, a dynwyd i lawr yno tua'r flwyddyn 1770, oedd y fan lle y ganwyd ac y magwyd ef. Yr oedd efe ei hun yn hanu o deulu da, ac efe a briododd etifeddes gyfoethog ac urddasol, sef unig ferch Arglwydd Regnolde o Cobham, a thrwy hyny daeth i wisgo y teitl o Arglwydd Cobham, yn rhinwedd pa un y cafodd ei wŷsio i senedd 11, 12, 14 Hen. IV. a 1 Hen. V. Gwel *Dugdale's Baronage*.

Ystyrid Arglwydd Regnolde yn un o ryfelwyr dewraf Lloegr, a phrofodd y Cymro ei hun, yn yr ystyr hono, yn deilwng o fab yn nghyfraith iddo; canys dywed Bale, ei hanesydd, ei fod mewn pob anturiaethau bydol, bob amser yn eofn, dewr, galluog, pendefigaidd, a llwyddianus. Yr oedd ei gymwysderau naturiol yn ei wneyd yn gymeriad gwir bwysig yn y llywodraeth, cyfrifai Harri IV. ef yn un o bendefigion anrhydeddusaf ei lŷs; a phan gorfu arno anfon byddin drosodd i Ffrainc, Arglwydd Cobham, a'r Iarll Arundel oedd y ddau a ddewisodd i fod yn ben capteniaid y llu. Ond buasai enw Arglwydd Cobham, fel eiddo y rhan fwyaf o bendefigion y dyddiau hyny, wedi ei gladdu mewn angof er's llawer o oesau, oni buasai iddo dderbyn y goleuni oddi wrth "Seren y Diwygiad." Yn rhinwedd hwnw efe a drodd allan yn arwr Cristionogaeth bur, pan oedd yr holl fyd wedi suddo o dan dywyllwch Pabyddiaeth; ac yn y diwedd, efe a seliodd ei ffydd a'i waed. Felly mae Arglwydd Cobham yn dyfod ger ein bron, fel y Cymro cyntaf a ymdrechodd ddiwygio ei gydwladwyr o dywyllwch pabyddiaeth; a dywed Foxe mai efe oedd y pendefig cyntaf, a ddyoddefodd ferthyrdod o dan greulonderau Pabyddiaeth yn Lloegr.

Nid yw ei hanes boreuol yn adnabyddus, ac nid oedd yn adnabyddus i Bale, yr hwn, yn 1544, a ysgrifenodd hanes ei brawf a'i ferthyrdod ef. Ond ymddengys yn debygol iddo ddyfod i adnabyddiaeth a John Wickliffe, yn ei ardal enedigol. Yr oedd gan deulu *Duciaid Lancaster*, feddianau lawer yn swydd Fynwy, a'i chyffiniau. Castell *Grosmont* oedd prif breswylfa *Ioan o Gaunt*, mab Iorwerth III. ac y mae yn wybodus mai efe oedd un o noddwyr mwyaf gwresog John Wickliffe. Y mae yn dra thebyg i'r Diwygiwr yn ei gyfyngderau, lechu yn yr ardal ddirgel hono, ac mai yno y cyfarfyddodd Arglwydd Cobham ag ef gyntaf. Dywed ei hun, ei fod cyn hyny heb wybod beth oedd ymatal rhag pechod, ond o'r pryd y daeth i adnabyddiaeth o athrawiaeth ddirmygedig y Diwygiwr, cafodd ras i ddychwelyd i lwybrau sancteidd-rwydd, yn y rhai y parhaodd hyd angau. Nid ymfoddlonodd ar fwynhau y goleuni ei hunan, ond gwnaeth ei oreu yn mhob ffordd i waredu ei wlad, a'r byd, o dywyllwch Pabyddiaeth.

Yn y flwyddyn 1391, efe, gyd ag eraill, a lwyddodd i gael gan y brenin, Risiart II. i basio deddf seneddol i gwtogi awdurdod y Pab, yr hon a ordeiniai nad oedd neb o Brydain i anfon cwyn at y Pab ar unrhyw achos, na chyhoeddi ychwaith unrhyw esgymuniad o'i eiddo, o dan y boen o golli eu meddianau, gyda charchariad parhaus. Dyma y waith gyntaf, er dim a wyddom, i Arglwydd Cobham ymddangos yn gyhoeddus mewn gwrthwynebiad i Eglwys Rufain. Yn mhen pedair blynedd ar ol hyn, sef yn 1395, efe a ddygodd lygredigaethau yr offeiriaid ger bron y Senedd, mewn llyfryn a ddechreuai fel hyn:—*Prima conclusio. Quando ecclesia Angliæ*, &c. Ond llwyddodd yr archesgob i roi yr alarwm mewn pryd, fel y galwyd allan holl adnoddau yr Eglwys i'r ymdrechfa, ac y methodd y Diwygiwr yn ei amcan camnoladwy. O hyny allan, edrychai yr offeiriaid arno fel eu prif elyn, a chyhuddent ef o fod yn ben y *Lolardiaid*, ac yn bla a therfysg yn y deyrnas. Ac yn wir, ni cheisiai yntau gelu dim o'i egwyddorion, ond cynaliai bregethwyr yn esgobaethau Llundain, Rochester, a Henffordd, i ddysgu egwyddorion y Diwygiad; ac aeth i'r draul o ysgrifenu holl weithiau Wickliffe, ar awgrymiad John Huss, a'u gwasgaru trwy Bohemia, Ffrainc, Yspaen, Portugal, a gwledydd eraill, gan benderfynu lledu y feddyginiaeth mor bell a'r clwyf.

Nid gwaith, na thraul fychan oedd hyn, oblegid nid rhyw ychydig o gopiau o weithiau Wickliffe a wasgarodd efe, ond yr oeddynt mor lluosog yn Bohemia fel y gallodd Subinco Lepus, archesgob Prague, gasglu dros ddau cant o gyfrolau o honynt (oll wedi eu hysgrifenu yn hardd), a'u llosgi yn gyhoeddus! Nid oedd fodd na chynhyrfai gweithredoedd Arglwydd Cobham ddigofaint y Babaeth i'r eithafion, ond yr oedd ei safle uchel yn y llys, a'i ffafr gyda'r bobl, y fath, fel na's beiddiodd yr offeiriaid ymosod arno yn nheyrnasiad Risiart II., na Harri IV. Ond nid cynt y daeth Harri V. i'r orsedd, yr hwn oedd ŵr wrth fodd eu calon hwy, nag y teimlasant eu hunain yn ddigon cryfion i ddechreu ar eu hysgelerwaith. Cwynent wrth y brenin, bod heresiau dinystriol yn gwreiddio yn Rhydychain, gan ddymuno arno benodi deuddeg o brofwyr i wneyd ymchwiliad i ansawdd y brif ysgol, yn nghyda pha mor bell yr oedd yr aelodau yn parhau yn ffyddlon i egwyddorion yr Eglwys Sefydledig. Yn gynar yn y flwyddyn 1413, galwodd Thomas Arundel, ar-

Digitized by Google

chesgob Canterbury, gymanfa o holl offeiriaid pabyddol Lloegr, i ystyriad mynegiad y profwyr, y rhai oedd wedi tynu dau cant a thriugain a chwech o heresiau, allan o Ysgrifeniadau Wickliffe, a nodi allan y prif bersonau oedd yn eu noddi a'u gwasgaru yn mhlith y bobl; y penaf o ba rai oedd Arglwydd Cobham. Gosodid yn ei erbyn ef dri chyhuddiad, sef cynal pregethwyr drwgdybus yn esgobaethau Llundain, Rochester, a Henffordd, yn groes i ewyllys yr esgobion; a'u cadw yno trwy nerth arfau; a'i fod ef ei hun yn coleddu syniadau am y Cymun, y penyd, y pererindodau, yr addoliad delwau; a'r awdurdodau eglwysig, gwahanol i'r hyn a ddysgid gan eglwys santaidd Rhufain er's llawer o flynyddoedd.

Ond yn hytrach na chymeryd gafael ynddo yn fyrbwyll, gan y gwyddent fod ei barch yn fawr yn y wlad, aeth yr archesgob a'i gyfeillion dewisol, a gosodasant y cyhuddiadau ger bron y brenin, yr hwn a'u hanogai i arfer tynerwch tuag ato, fel y moddion sicraf o'i gael yn ol i'r gorlan; ac addawai ei hun ymresymu ag ef, gan ymdrechu ei adferyd mewn tawelwch. Galwodd ef ger ei fron, a gosododd o'i flaen y pechod dirfawr o ymysgaru oddi wrth ei fam, yr eglwys santaidd; a deisyfai arno ymostwng iddi, fel mab ufudd, a chydnabod ei fai. I'r hyn yr atebodd Arglwydd Cobham:—"I chwi, fy mrenin mwyaf teilwng, yr wyf bob amser yn barod, ac ewyllysgar i ufuddhau, am fy mod yn gwybod eich bod yn frenin Cristionogol, ac yn weinidog Duw i ddwyn cleddyf, er cosbi y drygionus, ac amddiffyn y rhinweddol. Yn nesaf dim at fy Nuw, mi a fyddaf ufudd i'm brenin. Ond mewn perthynas i'r Pab, a'i hawliau ysbrydol, nid wyf mewn dyled i'w cydnabod na'u gwasanaethu; oblegid fy mod yn gwybod, oddi wrth yr ysgrythyrau, mai efe ydyw yr Anghrist mawr, mab y golledigaeth, gelyn agored Duw, a'r ffieidd-dra a saif yn y lleoedd sanctaidd."

Pan glybu y brenin y geiriau hyn a'u cyffelyb, efe a lidiodd wrtho yn ddirfawr, ac a'i gadawodd ef o hyny allan yn hollol i ddwylaw ei elynion. Yr oedd Arglwydd Cobham yn preswylio ar y pryd, yn nghastell Cowling, yn agos i Rochester, yn swydd Kent, ac anfonodd yr archesgob ei brif wŷsiwr i gyflwyno gwŷs (*citation*) iddo, i ymddangos ger ei fron ef. Aeth y gwŷsiwr at y castell, ond gan na's beiddiai fyned i mewn heb ganiatad y boneddwr, efe a ddychwelodd heb ei wasanaethu. Yna galwodd yr archesgob ar un John Butler, porthor dirgelystafell y brenin, i fyned gyda'i was ef, a gwasanaethu y wŷs ar Arglwydd Cobham yn enw y brenin, mewn modd twyllodrus. Wedi iddynt wneyd hyny, hysbysodd Arglwydd Cobham hwynt mewn modd nas gallent ei gamddeall, na buasai iddo ar un cyfrif roddi i fyny i ddichellion cythreulig yr offeiriaid. Pan wybu yr archesgob ei atebiad, ac nad oedd yn ddiogel i neb mwyach ei wysio yn ddirgel, heb beryglu ei fywyd, ar y dydd Mercher blaenorol i Wyl Fair, efe a osododd i fyny wŷsiau cyhoeddus ar dri phorth prif eglwys Rochester, yn gorchymyn i Arglwydd Cobham ymddangos yn bersonol ger ei fron ef yn nghastell Ledis (Leeds), yn swydd Kent, ar y chweched o'r mis hwnw, yn ddiesgeulus. Ond ebrwydd y dinystriwyd y gwŷsion hyny gan gyfeillion Arglwydd Cobham, a gorchymynodd yr archesgob i rai newyddion, gael eu gosod yn eu lle, ond dinystrwyd y rhai hyny drachefn, gyda'u bod i fynu. Eisteddodd yr archesgob yn ei gastell ar y dydd penodedig, a chan na ymddangosodd Arglwydd Cobham ger ei fron, efe a'i dedfrydodd ef yn ei absenoldeb. Ac nid ymfoddlonodd ar hyny ychwaith, ond efe a anfonodd allan wŷs arall, yn gorchymyn iddo ar ei berygl, ymddangos o'i flaen ef y Sadwrn canlynol; ac er bod yn fwy sicr o gyrhaedd ei amcan, galwodd allan yr awdurdod wladol, drwy y bygythion mwyaf ofnadwy, i'w gynorthwyo yn erbyn "y gwrthgiliwr, yr eglwys-rwygydd, yr heretic, yr aflonyddwr heddwch, gelyn y llywodraeth, a gwrthwynebwr yr eglwys santaidd." Yna Arglwydd Cobham, yn gweled fod tymestl ofnadwy yn agoshau, ac nad oedd un noddfa iddo, a ysgrifenodd gyffes ei ffydd, yr hon sydd yn cynwys sylwedd y grediniaeth Gristionogol am y Drindod, ymgnawdoliad y Mab, natur yr eglwys, amcan yr ordinhadau, digonolrwydd a pherffeithrwydd yr ysgrythyrau, ac mai Gair Duw yn unig sydd i fod yn rheol ffydd ac ymarweddiad ei eglwys. Ac yn gymhlethedig a'r gosodiadau uchod, mae y dynoethiadau mwyaf ofnadwy o drawshoniadau y Pab, a llygredigaethau yr offeiriaid. Efe a gymerodd y gyffes at y brenin, gan ddymuno arno ei darllen, a chael barn y dynion duwiolaf a mwyaf dysgedig yn y deyrnas arni; ond ni fynai y brenin ei derbyn, eithr gorchymynodd iddo ei chyflwyno i'r rhai oedd i fod yn farnwyr arno. Yna efe a erfyniodd ger bron y brenin, am iddo gael defnyddio darpariadau y gyfraith eglwysig, (*canon-law*), i brofi ei ddieuogrwydd; sef cael cant o farchogion ac ysweiniaid, i dyngu dros ei lanhad (*purgation*); neu ynte, ei fod yn foddlon i benderfynu y ddadl yn ol cyfraith arfau, ac yr ymladdai ef fywyd am fywyd, âg unrhyw ddyn ar y ddaear, Cristion neu bagan, oddieithr y brenin ac arglwyddi ei gyngor. Yn ddiweddaf, ardystiai ger bron y rhai oedd yn bresenol, ei fod yn barod i dderbyn unrhyw gerydd a weinyddid arno yn ol cyfraith Duw. Ond ni thyciai dim o'r pethau hyn gyda'r brenin, eithr yn y modd mwyaf gwasaidd, efe a'i bradychodd ef yn ei ystafell ei hun i ddwylaw ei elynion, trwy adael iddynt ei wŷsio yn bersonol yn ei bresenoldeb; cymerwyd ef oddi yno yn garcharor i'r *Twr Gwyn*, ac ar y 23ain o Medi, 1413, dygwyd ef i sefyll ei brawf yn y *Chapter-house*, ger bron yr archesgob, ac eraill o benaethiaid yr eglwys.

Gan fod hanes y prawf hwn wedi ei esgeuluso gan Foxe, ac felly yn parhau yn lled anadnabyddus, a'i fod yn ddangosiad o syniadau crefyddol y Cymro cyntaf ag y mae hanesiaeth wedi ei gofnodi, a hyny gan mlynedd lawn o flaen y Diwygiad Protestanaidd, ni a roddwn yma dalfyriad o hono mor bell ag y gwasanaetha i osod allan wybodaeth Ysgrythyrol, a syniadau crefyddol Arglwydd Cobham.

Dechreuodd yr archesgob y cyngaws trwy hysbysu Arglwydd Cobham, ei fod am ei anufudd-dod i'r eglwys wedi ei esgymuno, yn ddirgel, a chyhoeddus; ond ei fod ef yn barod, hyd y nod ar y pryd hwnw, i roddi iddo ollyngdod. Ar hyn tynodd Arglwydd Cobham bapyryn o'i fynwes, a darllenodd gyffes ei ffydd mewn atebiad i'r pedwar cyhuddiad a ddygid yn ei erbyn ef:—"Yr wyf yn credu fod yn Sacrament yr allor *wir gorph Crist* yn y ffurf o fara,—yr un corph ag a anwyd o'r Forwyn fendigaid a fu farw ar y groes, a gladdwyd ac a gyfododd y trydydd dydd i fywyd. Ac am Sacrament y penyd, yr wyf yn credu bod yn angenrheidiol i bawb a achubir, ymadael a'u pechod, a gwneyd penyd drosto, gyda gwir edifeirwch tuag at Dduw, cyfaddefiad o'u beiau, ac ymfoddlonrwydd dyledus yn Nghrist, megis âg y

Digitized by Google

mae cyfreithiau Duw yn dysgu; os amgen, nis gallant gael iachawdwriaeth. Ac am ddelwau, yr wyf yn deall nad ydynt yn perthyn dim i'n crediniaeth Gristionogol, ond iddynt gael eu caniatau (yn mhell ar ol i'r ffydd yn Nghrist gael ei rhoddi i ni) drwy oddefiad yr eglwys, i fod fel dydd-lyfrau i wŷr lleyg i ddwyn i'w meddwl ddyoddefiadau yr Arglwydd Iesu Grist, yn nghyd a merthyrdod a bucheddau da y saint.

"Yr wyf yn meddwl hefyd fod pwy bynag sydd yn rhoddi i ddelwau meirwon yr addoliad sydd yn ddyledus i Dduw, neu sydd yn rhoddi ei ffydd, ei obaith, neu ei ymddiried yn eu cymorth hwy, yr hyn a ddylai roddi yn unig yn y Duw byw tragwyddol, ei fod drwy hyny yn cyflawni y pechod ffiaidd o eilunaddoliaeth. Yn mhellach, yr wyf yn cwbl gredu fod pob dyn ar y ddaear yn bererin, gan ymdeithio i ddedwyddwch, neu i boen; a bod yr hwn nad yw yn gwybod, nac yn ewyllysio gwybod, nac ychwaith yn cadw gorchymynion sanctaidd Duw yn ei fywyd, (er iddo fyned ar bererindodau i bob parth o'r byd,) yn sicr o gael ei ddamnio. Eto, mae yr hwn sydd yn gwybod gorchymynion sanctaidd Duw, ac yn ymdrechu, hyd ag y mae ynddo, eu cadw ar hyd ei fywyd, yn gwbl sicr o gael ei achub yn Nghrist, er na bu ar bererindod yn ei fywyd, fel pobl y dyddiau hyn, i Canterbury, Walsingham, Compostella, Rhufain, nac un lle arall."

Wedi iddo ddarllen y gyffes uchod, efe a'i cyflwynodd i'r archesgob, yr hwn ar ol ymgynghori a'r esgobion a'r doctoriad oedd o'i amgylch, a ddywedodd wrtho "fod llawer o bethau da yn ei ysgrif, ond nad oedd wedi cyffwrdd a'r pwyntiau ag y cyhnddid ef o fod yn gyfeiliornus arnynt, sef pa un a oedd yn sacrament yr allor, ar ol i eiriau y cyssegriad gael eu dyweyd yn briodol gan yr offeriaid, *fara elfenol yn aros, a'i nad oedd?* Hefyd, pa un a oedd pob dyn cristionogol yn rhwym o angenrheidrwydd i gyffesu ei bechodau i offeiriad a ordeiniwyd gan yr eglwys, ai nad oedd?" Ond gan na roddai Arglwydd Cobham un atebiad i'r pethau uchod, ond yr hyn ag oedd ei ysgrif yn ei roddi, gohiriwyd y cyngaws hyd y dydd Llun canlynol, Medi 25ain, dan yr esgus o roddi iddo amser i wneyd ei feddwl i fyny ar y pwyntiau uchod. Ar y dydd apwyntiedig, symudodd yr archesgob ei lys, o'r *Chapter-house* i'r mynachdy Dominicaidd, tu fewn i *Ludgate,* ac amgylchynid ef gan Risiart, esgob Llundain; Harri, esgob Winchester; Benet, esgob Bangor; yn nghyda lluaws mawr o ddoctoriad eglwysig, prioriaid, ficeriaid, offeiriaid, mynachod, canoniaid, ffriariaid, pardwnwyr, clochyddion, a dau gofnodydd, i gymeryd i lawr yr holl weithrediadau. Ac wedi iddynt oll dyngu ar yr offeren y gwnaent eu dyledswydd y diwrnod hwnw, dygwyd Arglwydd Cobham ger eu bron, fel oen i blith bleiddiaid, i sefyll ei brawf am ei fywyd.

Dechreuodd yr archesgob agor y cyngaws yn bwyllog, trwy ddatgan ei barodrwydd hyd yn nod y pryd hwnw, i roddi gollyngdod i'r troseddwr, yntau a atebodd, "Ni throseddais i yn eich erbyn, ac nid oes arnaf eisiau eich gollyngdod." Yna syrthiodd ar ei liniau ar y palmant, gan ddyrchafu ei ddwylaw tua'r Nefoedd, a dywedodd,—"Yr wyf yn cyffesu fy mod yn bechadur ysgeler yn dy erbyn di, o fy Nuw, fy mod yn fy ieuenctyd egwan wedi dy ddigio di, Arglwydd, yn y modd mwyaf galarus, drwy falchder, llid, glythineb, cybydd-dod, ac anlladrwydd. Llawer o ddynion a niweidiais yn fy llidiawgrwydd, a gwnaethum lawer o bechodau dychrynllyd eraill;—Arglwydd da, yr wyf yn deisyf dy drugaredd." Yna cododd i fyny dan wylo, a dywedodd wrth y dyrfa mewn llais uchel,—"Wele, bobl dda, wele, am dori cyfraith Duw ni ddarfu iddynt erioed fy melldithio; ond am eu cyfreithiau a'u traddodiadau eu hunain y maent yn fy nhrin i ac eraill yn y modd mwyaf creulawn. Ac felly, hwy, a'u cyfreithiau, yn ol addewid Duw, a lwyr ddinystrir." Ac mewn atebiad i'w holiadau, efe a hysbysodd iddynt ei feddwl ar y cymun—"ei fod yn wir gorph Crist yn y ffurf o fara." Gofynai y doctoriad "pa un a ydoedd yn gorph Crist, ac nid bara ar ol y cyssegriad, ai nad oedd?"

Atebodd Arglwydd Cobham:—"Y mae yn gorph Crist, ac yn fara. Mi a brofaf hyny fel hyn: Oblegid megis ag yr oedd Crist pan ar ddaear yn meddu ar Dduwdod a dyndod, a'r Duwdod yn guddiedig yn y dyndod; felly yn y cymundeb, y mae gwir gorph Crist, a gwir fara hefyd, fel yr wyf fi yn credu. Y bara yw y peth a welwn ni a'n llygaid, ac y mae corph Crist yn guddiedig ynddo, ac ni welir ef, ond trwy ffydd." "Dyna heresi afiach," gwaeddai llawer o honynt mewn gorfoledd. Yna gofynent,—"pa un a ydoedd yn fara *materol* ai nad oedd?"

Atebodd yntau, "Nid yw yr ysgrythyrau yn defnyddio y gair *materol;* ac felly nid oes gan fy ffydd i ddim i'w wneyd ag ef. Ond hyn wyf yn gredu, ac yn dystiolaethu, ei fod yn gorph Crist, ac yn fara. Oblegid dywed Iesu yn y chweched o Ioan, 'Myfi yw y bara a ddaeth i waered o'r nef, a bara y bywyd,' (ac nid bara marw). Ac yr wyf yn sicr fod Sant Paul yr apostol, mor ddoeth a neb o honoch chwi, ac yn fwy duwiol-ddysgedig, a bara y mae ef yn ei alw,—'Y bara yr ydym yn ei dori, onid cymmun corph Crist yw?'" Dywedent hwythau, "fod Paul i gael ei ddeall mewn rhyw ffordd arall, a'i fod yn heresi i ddyweyd mai bara ydoedd, ar ol iddo gael ei gyssegru, oblegid fod hyny yn groes i benderfyniad eglwys Rufain, eu mham, a'r doctoriaid sanctaidd. Atebai yntau,—"Nid wyf fi yn gwybod am neb *sancteiddiach* na Christ a'i apostolion. Ac am y penderfyniad yna, mi a wn mai nid eu heiddo hwy ydyw, oblegid nad yw yn unol a'r ysgrythyrau; eithr yn hollol wrthwynebol iddynt. Os eiddo yr eglwys ydyw (fel y dywedwch), daeth yn eiddo iddi hi ar ol iddi dderbyn y gwenwyn o feddianau bydol, ac nid cyn hyny."

Wedi i Dr Walden ei rybuddio i beidio barnu eraill, ac mai ysgolheigion dysgedig Wickliffe, bob amser, oedd y barnwyr byrbwyll, atebai yntau,—"Am y dyn rhinweddol hwnw, Wickliffe, syniadau yr hwn sydd mor ddirmygus genych chwi, yr wyf yn tystio yma ger bron Duw a dyn, cyn i mi adnabod ei athrawiaeth ddiystyrllyd ef, nad oeddwn erioed wedi ymatal oddi wrth bechod: ond er pan y dysgais drwyddi i ofni Duw, yr wyf yn hyderu iddi fod yn wahanol gyda mi. Cymaint a hyna o ras nid wyf byth yn gael yn eich holl addysg ogoneddus chwi." "Rhyfedd iawn" atebodd y mynach (Dr Walden), "os mewn oes, yn yr hon mae cynifer o ddynion rhinweddol yn byw, a chynifer o ddynion dysgedig yn pregethu, a'r ysgrythyrau hefyd mor agored, ac esiamplau y tadau mor lluosog, na fedrwn gael digon o ras i wellhau fy muchedd, hyd nes y clywn y diafol yn pregethu." I hyn yr atebodd Arglwydd Cobham,—"Yr oedd eich tadau, yr hen Phariseaid, yn

Digitized by Google

priodoli gwyrthiau Crist i Belzebub, a'i athrawiaeth i'r diafol; a chwithau, eu plant naturiol, ydych yn coleddu yr un syniadau am ei ganlynwyr ffyddlawn. Mae y rhai sydd yn ceryddu eich bucheddau llygredig chwi yn rhwym o fod yn hereticiaid, a rhaid i chwi gael eich doctoriaid i brofi hyny pan nad oes genych ysgrythyrau. Yn mha le yn holl gyfraith Duw yr ydych yn cael awdurdod i eistedd mewn barn fel hyn ar unrhyw Gristion, neu i ddedfrydu unrhyw ddyn i farwolaeth, fel ag yr ydych yn gwneyd yma yn ddyddiol?[1] Nid oes genych un esiampl yn yr holl ysgrythyrau o gymeryd arnoch y fath arglwyddiaeth, oddieithr yn Annas a Chaiaphas, y rhai a eisteddasant fel hyn mewn barn ar Grist, ac ar ei apostolion ar ol ei esgyniad ef. Oddiwrthynt hwy y cymerasoch chwi beth fel hyn, ac nid oddi wrth Pedr, nac Ioan. Oblegid er pan dywalltwyd y gwenwyn i'r eglwys, ni ddarfu i chwi byth ddilyn Crist, na sefyll yn mherffeithrwydd cyfraith Duw."

Gofynodd yr archesgob iddo, beth a olygai wrth "y gwenwyn?" Atebodd yntau,—"Eich meddianau, a'ch arglwyddiaethau. Oblegid y pryd hwnw llefodd angel yn yr awyr (fel y dywed eich croniclau chwi eich hunain): 'Gwae, gwae, gwae! heddyw y tywalltwyd gwenwyn i eglwys Dduw.' Cyn y pryd hwnw, yr oedd holl esgobion Rhufain yn ferthyron mewn ystyr, ond o hyny allan, nid ydym yn darllen ond am ychydig iawn. Ac yn wir o hyny allan, mae y naill yn darostwng y llall, y naill yn gwenwyno y llall, y naill yn melldithio y llall, y naill yn llofruddio y llall, a llawer o ddrygioni heblaw hyny, fel ag y tystia eich croniclau chwi eich hunain. Bydded i bob dyn ystyried hyn yn ddifrifol, yr oedd Crist yn addfwyn a thrugarog; mae y pab yn falch, a gormesol. Yr oedd Crist yn dylawd a maddeugar; mae y pab yn gyfoethog ac yn ddynleiddiad o'r fath greulonaf. Rhufain ydyw nŷth wirioneddol yr annghrist; ac o'r nyth hono y mae ei holl ddysgyblion yn dyfod allan; o ba rai yr esgobion, yr offeiriaid, a'r mynachod ydyw y corph, a'r ffriariaid llymrig hyn yw y gynffon, yr hon sydd yn dirgelu ei ranau mwyaf aflan." Wedi eu gwaradwyddo a'u dyrysu fel hyn gan ei atebion a'i geryddon ef, tynodd John Kempe bapyryn o'i fynwes, a gofynodd iddo draethu ei farn eilwaith am athrawiaeth yr eglwys, ar y pedwar pwynt; gwnaeth yntau hyny, yr un peth o ran sylwedd, a'r waith gyntaf, gan sicrhau iddynt "na fedrai ef gredu ond felly, gwnaent ag ef fel y gwelent yn dda." Yna cododd yr archesgob, a darllenodd arno ddedfryd marwolaeth, yn nghyd ag esgymundod ar bawb, o hyny allan, a'i derbyniai neu a'i noddai ef mewn unrhyw fodd. Atebodd yntau yn siriol,—"Er i chwi allu condemnio fy nghorph, da y gwn na's gallwch wneyd dim mwy o niwaid i fy enaid nag a allodd Satan i enaid Job." Yna trodd at y bobl a dywedodd, a llef uchel,—"Bobl dda, er mwyn cariad Duw, cymerwch ofal rhag y dynion hyn: canys hwy a'ch llithiant chwi, ac a'ch arweiniant yn ddeillion i uffern gyda hwy eu hunain." Ac wedi hyny syrthiodd ar ei liniau, a chan ddyrchafu ei ddwylaw tua'r Nef, efe a ddywedodd,—"O Arglwydd Dduw tragywyddol, yr wyf yn erfyn arnat er mwyn dy fawr drugaredd faddeu i'm herlidwyr, os hyny yw'th ewyllys fendigedig." Yna trosglwyddwyd ef o dan ofal Syr Robert Morley i'r Twr Gwyn, ac felly y terfynodd gwaith y dydd. Anfonwyd adysgrifau o'r ddedfryd i esgob Llundain, esgob Henffordd, ac archddeaconiaid Henffordd ac Amwythig. Cafodd carchariad Arglwydd Cobham effaith cyffelyb ar ei frodyr i'r hyn a gafodd carchariad Paul gynt,—"aeth llawer o honynt yn hyderus wrth ei rwymau ef, ac yn hyfach o lawer i draethu y gair yn ddi ofn." Cymerodd y pabyddion achlysur oddi wrth hyny i anfon cwyn at y brenin, fod y *Lolardiaid* yn cynnyddu gyda chyflymdra dychrynllyd, a'u bod, nid yn unig yn hereticiaid yn erbyn Duw, ond yn deyrn-fradwyr cyhoeddus yn erbyn y brenin, ac y buasent yn fuan wedi llwyddo i ddymchwelyd yr ymerodraeth, a llwyr ddinystrio y wlad, oddieithr i atalfa effeithiol gael ei rhoddi arnynt gan y brenin.

Llwyddodd y ddichell hon hyd eithaf disgwyliadau ei chynllunwyr, galwodd y brenin ei senedd yn nghyd yn *Leicester*, yr hyn ni feiddiasai wneyd yn Llundain, gan mor barchus oedd Arglwydd Cobham yno, ac a ffurfiodd yno y gyfraith greulawn, fod pwy bynag, o hyny allan, a ddarllenai yr ysgrythyrau yn iaith ei fam (yr hyn a alwent yn ddysgeidiaeth Wickliffe), i gael dirwyo ei holl feddianau am byth, ac i gael ei gondemnio yn heretic yn erbyn Duw. Hefyd, nad oedd un lle sanctaidd, na thir breintiedig yn y deyrnas, i gynwys y Lolardiaid; ac os na byddai iddynt ddychwelyd yn edifeiriol, eu bod i gael eu rhoddi i ddau fath o farwolaeth, sef i gael eu crogi am deyrnfradwriaeth yn erbyn y brenin, a'u llosgi am heresi yn erbyn Duw.

Yn y cyfamser, tra yr oedd y gelynion yn darparu poenydiau iddo, dihangodd Arglwydd Cobham allan o'r carchar, trwy ryw foddion anhysbys, ar noswaith dywell; a ffodd i fynyddau Cymru, lle y gallodd ymddiogelu am bedair blynedd. Cyhoeddodd y brenin fod deugain *marc* i gael eu rhoddi am ei ben ef, a bod yr ettifeddiaeth ar yr hon y delid ef i fod yn rhydd oddiwrth drethoedd am byth. Y gwobrau hyn, yn nghyda phenboethni pabyddol, a gynhyrfent dirfeddianwyr Cymru i wneyd pob ymdrech i'w ddal, ymlidient ef o gelfan i gelfan ar hyd mynyddoedd Mynwy, Brycheiniog, a Henffordd, nes o'r diwedd y gorfu arno ffoi i Ogledd Cymru, a gwnaeth ei ymguddfa ger llaw Abertanad yn agos i Sycharth—llys Owen Glyndwr, yr hwn oedd ar ddifancoll er's yn agos i ddwy flynedd bellach. Ond daeth ei ymguddfa yno yn hysbys i'w elynion, a hwy a wnaethant gyngrair ag Edward Charlton, Arglwydd Powys, i'w ddal. Gosododd yntau ei ddynion ar waith i'w hela, gan orchymyn iddynt am beidio ei ddal hyd nes y byddai ar ei dir ef, fel y gallai felly hawlio y wobr addawedig, sef bod ei etifeddiaeth yn rhydd oddiwrth drethoedd am byth. A phan ydoedd yn agos i'r Castell Coch yn Mhowys, hwy a'i hamgylchasant ef, fel pe buasai gi cynddeiriog, a daliwyd ef gan Syr Gruffydd Fychan, ac Ieuan ab Gruffydd ei frawd; a gelwir y llecyn, ar yr hwn y daliwyd ef, "Cae'r Barwn" hyd y dydd heddyw. Dygasant ef mewn llawenydd mawr i'r Castell Coch, lle y traddodasant ef i Arglwydd Powys, yr hwn yn ddioed a'i hanfonodd i Lundain yn ngofal ei fab-yn-nghyfraith Syr John Grey. Ac wedi ei gadw am fis neu ddau yn y carchar, ail gondemniwyd ef o heresi a theyrn-fradwriaeth, a dedfrydwyd ef i farwolaeth ddeublyg, yn ol y gyfraith newydd. A chyda phob dirmyg a allasai ei elynion ddyfeisio, dygwyd ef allan i faesydd St. Giles, *lle y crogwyd ef gerfydd*

[1] Fe wel y darllenydd fod Arglwydd Cobham, yn y syniadau hyn, yn mhell o flaen ei oes.

Digitized by Google

*ei ganol wrth gadwen haiarn, ac y rhostiwyd ef wrth dân araf i farwolaeth!*

Dyoddefodd ei arteithiau gyda sefydlogrwydd a gwroldeb annghyffredin. Gweddïai yn daer dros ei leiddiaid, y rhai a ymegnient i foddi ei weddïau â'u melldithion. Ond er gwaethaf melldithion yr offeiriaid, ac angerdd y fflamiau, efe a barhaodd i weddio a moli Duw, tra daliodd anadl ynddo; ac â'r anadl olaf, efe a gyflwynodd ei enaid i'w Waredwr. Cymerodd hyn le, medd Bale, yn y flwyddyn 1418. Nid yw yn hysbys pa wobr a dderbyniodd Arglwydd Powys gan yr offeiriaid am ei ysgelerwaith; ond dywedir iddo gael llythyr o ddiolchgarwch oddiwrth y senedd, ac iddo yntau dalu yn helaeth i'w weision, Gruffydd Fychan, a'i frawd. A rhoddwyd am y weithred hono, arglwyddiaeth Broniarth i Danad o Abertanad, a rhagorfreintiau lawer i deulu Pontyscowryd, y rhai sydd yn eu meddiant hyd y dydd heddyw. Ond daeth y rhan fwyaf o'r rhai a fu a llaw yn naliad a merthyrdod Arglwydd Cobham, i ddiwedd truenus; trengodd Arglwydd Powys yn 1421; lladdwyd Syr John Grey yn yr un flwyddyn; bu farw Harri V. o'r eisglwyf, yn 1422; a thorwyd pen Syr Gruffydd Fychan, yn muarth y Castell Coch, yn 1447.

Diau fod athrawiaeth y diwygiad wedi gwreiddio yn lled ddwfn mewn rhai parthau o Gymru yn yr adeg foreu hono. Gwel *Walter Brute*, a *Sion Cent.* Yr oedd Sion Cent yn gymydog agos i Syr John Oldcastle, Arglwydd Cobham, a dengys ei farddoniaeth, ei fod yntau hefyd yn un o'r *Lolardiaid*, a bod trigolion yr ardal hono yn rhwym o fod yn bur bleidiol i'r "ffydd newydd," fel y gelwid hi, cyn y buasai yn beiddio goganu yr offeiriaid pabaidd, a thaenu dysgeidiaeth Wickliffe mor hyf. Yn ei Gywydd i "Lyvr Arall" y mae yn darlunio y perygl yr oedd ynddo, ac yn cyfeirio at ferthyrdod Syr John Oldcastle:—

"Dilys gan anfedrys gaü
taerys vawr i anturiaü
Llyvr wyd heb roi llafar iawn
dalennog diwael iniawn
   Arwest gekr o bymthekryw
arno dy varn or wyd vyw
nau dithau kryn dirau krêd
a i ffo rhŵng hên gist a phared
drüd wyd ymhob diraidi
darvy dy ddivainti di
paid erov ond kov kwymp
Olcastr ti a gair ailkwymp
dig yw r kedyrn klochwyrn klyd
dig iawn nas diogenid," &c. &c.

**COED ANNA**, sydd blwyf, mewn rhan yn nghwmwd TWR-CELYN, ac mewn rhan yn nghwmwd Tal-y-bolion, o fewn dwy filltir i Lanerchymedd, ar y ffordd i Langefni, swydd FÔN, GOGLEDD CYMRU. Y mae y fywoliaeth yn guradaeth barhaol mewn cysylltiad â Llanelian. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Blenwydd; wedi ei hadeiladu yn y flwyddyn 630. Gelwir y lle, mewn rhai ysgrifau Coed Aneu, ond yr ysgrifeniad cyffredin ydyw y cyntaf. Gadawodd William Thomas gymunrodd o 10*p.* i'r lle, yn 1772; a Margaret Owen 20*p.* yn 1784, er gwaddoli ysgol i ddysgu plant tlodion. Bu Llewelyn fawr mewn brwydr drychinebus yma: dyma y fan yr ymofyna Ieuan Brydydd Hir am dano, mewn nodyn yn ei *Dissertatio de Bardis.* Y mae o fewn y lle hwn amryw enwau, y rhai a dybir eu bod o darddiad Derwyddol, megis Bryn Gwyddon, Maen-gwyn, &c., ac y mae yn gymydogaeth o gryn sylw yn y wlad.

**COED CANLAIS**, neu COED-CANLAS, neu COED CEFN GLAS, sydd blwyf yn nghantref Narberth, swydd Benfro, Deheubarth Cymru, 8 milltir o Hwlffordd. Y mae y plwyf bychan hwn yn sefyll ar geulan ddwyreiniol Hafan Aberdaugleddau, o'r man y mae porthfa i Langwm, ar y traeth cyferbyniol; ac y mae yn mhellder pum milltir o Benfro, dros borthfa Lawrenni. Yr haen nesaf i'r pridd yma ydyw y galchen, a gloddir mewn cyflawnder mawr. Y mae y fywoliaeth yn rhodd gysylltiedig â ficeriaeth Martletwy; nid yw cyflog y gweinidog dros 2*p.* 2*s.* yn y flwyddyn, yr hwn a delir gan Sir John Owen, Bar^t^. Y mae yr eglwys yn adeilad bychan o brydferthwch a hynafiaeth mawr, wedi ei adgyweirio yn ddiweddar ar draul Sir John Owen. Nid oes gwasanaeth o addoliad, yn cael ei gynal, ond yn achlysurol yma. ond y mae y claddedigaethau yn gyffredin, a'r defodau eglwysig arferol, yn cael eu cyflawni yn Martletwy. Y mae yma adfeiliau hen balas, yr hwn a ddygai yr un enw a'r plwyf, yn perthyn i deulu o'r enw Percival.

**COED CERNYW**, plwyf yn rhanbarth uchaf cantref GWENTLLWG, swydd FYNWY, 4½ milldir i'r de dde orllewin o'r Cas Newydd, yn cynwys poblogaeth o 163, yn ol Deiliadeb 1861. Y fywioliaeth eglwysig sydd Guradiaeth barhaol, unedig a Sant Bride, Gwentllŵg, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Llandâf, wedi ei gwaddoli âg 800 punt o gedrodd freninol. Y mae y llan yn gyflwynedig i'r Holl Saint.

**COED-EULO**, neu COED. EFLO, sydd drefgordd yn mhlwyf Pen ar halawg, cantref WYDDGRUG, swydd FFLINT, GOGLEDD CYMRU; 1½ milltir o Ben ar halawg. Y mae y lle hwn yn cael ei hynodi mewn hanesyddiaeth, fel y man ag y dioddefodd byddin o feirchfilwyr Saesonig dewisedig, a anfonodd Harri II., yma, yn 1157, golled fawr, drwy gael eu llwyr orchfygu, pan yr oedd yn amcanu gorchfygu Cymru, o'u gwersyllfa yn morfa Saltney, mewn brwydr âg Owain Gwynedd, Tywysog y Gogledd, yr hwn oedd wedi trefnu gwersyllfa ei alluoedd yn y Maes Glâs. Cafodd yr adran hon ei chyfarfod yn annysgwyliadwy, ac ymosod arni, tra yn croesi trwy fwlch cul, dwfn, gan gorph o feirchfilwyr Cymreig, yn cael ei arwain gan Dafydd a Chynan, meibion Owain; ac wedi cael eu taro a dychryn, yr hyn a wnai yr amgylchiad yn waeth iddynt, gan eu gwneud yn analluog i ddal yn wyneb eu gwrthwynebwyr, y rhai a laddasant y rhan fwyaf o honynt, yn ddidrugaredd; ac ni ddiangodd ond yr ychydig a ffoisant trwy gyflymdra eu meirch, i ganol y brif fyddin. Y mae gwneuthuriad llestri pridd, a phriddfeini, yn cael ei ddwyn yn mlaen yma yn helaeth iawn. Y mae y defnyddiau o'r fath oreu; ac y maent yn cael eu llwytho mewn llongau, a'u cludo i'r holl borthladdoedd Cymreig, ac i Iwerddon a manau eraill, yr hyn sydd yn darparu gorchwylion i luaws o'r trigolion. Y mae y clai i'w gael ar fynydd Bwlclai; a phan y byddo yn cael ei gymhwyso at briddfeini tân, y maent yn rhagorol at dderbyn gwres mawr, heb eu dryllio. Yn 1822, adeiladwyd eglwys yn Bwlclai, gyda thwr prydferth; a thu ag at ddwyn y draul, cyfranodd y Gymdeithas gorphoredig, er adeiladu a helaethu eglwysi 4000*p.*; y mae yn

Digitized by Google

gapel ychwanegol at berigloriaeth Pen ar halawg, neu Hawarden. Y mae yma hefyd ddwy o ysgolion cang, tu ag at addysgu plant o'r ddwy ystlen, gyda thŷ i'r offeiriad, fel athraw, i gyfaneddu, y rhai a godwyd yn 1819, drwy y draul o 1200*p.*, rhan o'r swm o 2000*p.*, a godwyd mewn cydroddion i'r dyben hwnw; y maent yn cael eu dwyn yn mlaen ar egwyddor yr Ysgolion Cenedlaethol. Y mae gweddillion Castell Eulo, yn sefyll mewn nant goediog, tua chwarter milltir i'r gogledd, o ffordd Caerlleon a Chaergybi; yr oedd hwn mewn cysylltiad ag un arall oedd yn y Wyddgrug, ond ychydig a wyddom am ei hanes ddechreuol.

**COED-FFRANC**, rhandir yn mhlwyf Llangatwg, cantref NEDD, sir FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, 2¼ filldir (Deh. Or. wrth Or.) o Gastellnedd. Y mae y lle wedi cael yr enw oddiwrth goedwig fawr fu yma oesau yn ol, lle y trigai llawer o fleiddiaid. Dywed traddodiad, i frwydr fawr gael ei hymladd yn y lle hwn, ac ar ol y frwydr, i nifer fawr o fleiddiaid ddyfod allan o'r coed, a llarpio llawer o'r lladdedigion. Mae y rhandir, neu y faenol yma yn dechreu wrth enau afon Nedd, ac yn ymestyn i gyfeiriad Gogledd-ddwyrain hyd Ddyffryn Clydach. Y mae braich o Gamlas Nedd yn rhedeg trwyddo, agos yn gyfochrog ag afon Nedd, ac yn ymuno a Chamlas Briton Ferry, yr hon sydd yn cydio afon Nedd ag afon Tawy, o'r naill du i Abertawy; a thrwy wasanaeth trosglwyddfad (Ferry-boat) dros y Nedd, yn ymyl Briton Ferry, y mae y ffordd o Abertawy tua'r dwyrain, i gyfeiriad Caerdydd, yn cael ei byrhau lawn chwe' milldir, o'r hyn ydyw wrth fyned dros y brif-ffordd, trwy Treforis a Chastellnedd. Mae gwaith Copr y Crown, amryw weithfaoedd glo, yn gystal a phentref mawr Yscywen, o fewn y rhandir yma. Nifer y tai preswyliedig yn rhandir Coed-Ffranc y flwyddyn hon (1871) yw 527; tai anmhreswyliedig, 34; tai yn cael eu hadeiladu, 2; y boblogaeth yw 2585; yn cael eu gwneyd i fyny o 1300 o wrywod, a 1285 o fenywod. Nifer y boblogaeth yn 1861 oedd 2151. Felly mae cynydd o 435 yn y deng mlynedd. (Gwel dan y gair SCIWEN.)

**COED-GLASSEN**, neu COED GLEISION, trefgordd yn mhlwyf NANTMEL, cantref RHAIADR-AR-WY, swydd FAESYFED, DEHEUDIR CYMRU, 5¼ milldir Dwyrain wrth Ddeheu o Raiadr, gyda phoblogaeth o 255, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae ar lân orllewinol y nant Clywedog; ac ar lethrau de-ddwyreiniol bryn Camlo. Fel y dengys yr enw, yr oedd gynt yn llawn coed, ond nid yw yn ddarluniadol iawn o'r drefgordd yn ei sefyllfa bresenol.

**COED Y CYMMER.** Gwel CEFN-COED-Y-CYMMER.

**COEL**, un o hen frenhinoedd Prydain. Efe a ddilynodd Cadell ab Geraint, a dilynwyd yntau gan Por.

**COEL** AB CYLLIN AB CARADAWG AB BRAN, sydd gyda Corfinwr a Morddal, yn ffurfio "Tri Madgyrfinydd" Ynys Prydain; am mai efe, meddir, a ddygodd felinau a pheirianau malu gyntaf i'r ynys hon.

**COEL** AB MEURIG, a ddilynodd ei dad i orsedd Prydain o dan raglawiaeth Agricola. Dywedir iddo fyw i'r oedran mawr o 289, am hyny gelwir ef yn yr hen fabinogion—yr "Hen Frenin Coel."

**COEL GODEBOG**, o Caer-Coelin, a elwir weithiau, Iarll Caerloyw, ydoedd fab i Tegfan ab Deheufraint, a brenin Prydain o dan y Rhufeiniaid yn y 3edd ganrif. Daeth i'r orsedd trwy ladd Asclepiodotus mewn brwydr; gwnaeth heddwch a Chysteint, y rhaglaw Rhufeinig, yr hwn, medd yr hanesion Cymreig, a briododd Elen ei ferch ef, o'r hon briodas y ganwyd Cystenyn Fawr. Gwel ELEN.

**COF** AB CEIDIO, ydoedd aelod o Gôr Illtyd, ac un o seintiau y 6ed ganrif.

**COFEN**, sant yn y 7fed ganrif. Ar ei enw ef y gelwir eglwys Llangofen, yn Mynwy, a Chapel St. Gofen, yn Mhenfro.

**COGAN**, plwyf yn nghantref DINAS-POWIS, sir FORGANWG, DEHEUBARTH CYMRU, pum' milldir (De. Or. wrth Dde.) o Gaerdydd. Nid yw y plwyf ond bychan o faint, a phoblogaeth. Ei arwynebedd sydd tua saith cant o erwau o dir amgauedig, yr hwn sydd dan raddau helaeth o ammaethiad. Mae y fywioliaeth yn berigloriaeth gyfansoddiadol gyda bywioliaethau Llandoch a Leckwith, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Llandâf, wedi ei threthu ar lyfrau y brenin yn 8*p.* 8*s.* 4*c.*, a than nawddogaeth Ardalydd Bute. Mae y Llan gysegredig i St. Pedr, wedi ei gadael er ys blynyddau yn anghyfanedd. Y mae amryw gofadeiladau hynafol yn y gangell, yn mysg pa rai y mae amryw i deulu Herbert o *Cogan Pill*, hen balasdy sydd wedi ei droi er ys talm yn ffermdy. Mae plant tlodion y plwyf hwn yn cael rhagorfraint Ysgol Llandoch. Deugain mlynedd yn ol nid oedd poblogaeth y plwyf ond 22ain; yn 1861 yr oedd wedi codi i 283.

**COKE**, PARCH. THOMAS, LL.D., y cenadwr enwog, ac awdwr Esboniad helaeth ar y Beibl, ydoedd fab i feddyg o dref Aberhonddu. Ganwyd ef yn 1747. Derbyniodd elfenau ei addysg yn hen golegdy Llanfaes; a phan yn 17, oed aeth i Rydychain, lle y graddiodd yn LL.D., yn 1775. Ar ei fynediad o'r ysgol, urddwyd ef i guradaeth South Petherton, a bu yn llafurio yno am dair blynedd. Yn y cyfnod hwn yr oedd John Wesley yn cynhyrfu y deyrnas a'i hyawdledd, ac yn rhifo ei ddychweledigion wrth y miloedd; ac yn eu plith, ymddangosodd Dr. Coke yn 1782, gan benderfynu bwrw ei fara ar wyneb y dyfroedd, er mwyn cael cydwybod dawel, a rhyddid llawn i bregethu Efengyl Crist. Ar ei ymuniad a'r Wesleyaid, gwnaethant ef yn llywydd eu cynadledd Wyddelig, a pharhaodd yn y swydd hono am ddeng mlynedd ar hugain. Yn 1784, talodd ymweliad a Gogledd America, lle y llafuriodd yn galed am flwyddyn, i sefydlu eglwysi newyddion; a'r fath oedd atgasrwydd ei natur yn erbyn pob math o drais, fel y defnyddiodd iaith rŷ gref am ymddygiadau y llywodraeth Brydeinig yno, yr hyn a barodd i'w frodyr wgu arno, a'i ddwyn o dan fesur o gerydd ar ei ddychweliad adref. Yn 1786, ymwelodd a'r India Orllewinol, a chroesodd oddi yno i Ogledd America, lle y bu mewn enbydrwydd bywyd o dan erlidigaeth y caethfeistri. Ond gofalodd yr Arglwydd yn dyner am dano, a dygodd ef yn ddyogel i wlad ei enedigaeth. Croesodd i'r America saith o weithiau ar ol hyn, gan lafurio a'i holl egni i ysgafnhau beichiau y tylawd a'r gorthrymedig, a phregethu heddwch i bell ac i agos. Treuliodd hefyd lawer o amser i sefydlu cenadaethau yn yr Iwerddon, yr Alban, Ffrainc, ac Africa. Yn 1800, tynodd gynllun allan i ddwyn Wesleyaeth i Gymru. Yn y flwyddyn ganlynol, dechreuodd gyfansoddi ei Esboniad, yr hwn a orphenodd yn 1807 yn chwe chyfrol pedwar plyg. Cyfieithwyd ei sylwadau ar y Testament Newydd i'r Gymraeg. Ond ni bu ei Esboniad erioed yn boblogaidd yn y Gymraeg na'r

Digitized by Google

Saesneg; gan nad yw ond ail-argraffiad gan mwyaf, o waith Dr. Dodd. Cyhoeddodd Coke hefyd dair cyfrol ar hanes yr India Orllewinol, yn nghydag amryw bregethau, a thraethodau. Bu farw yn lled ddisymwth, Mai 2, 1814, pan ar ei fordaith i'r India Orllewinol. Anhawdd yw cael engraifft o ddyn wedi treulio, ac ymdreulio, yn fwy trylwyr yn ngwaith yr Arglwydd.

**COLEDDOG** ab Gwyn, ydoedd un o "Dri Anhuol Farchogion Llys Arthur."

**COLFA**, capeliaeth blwyfol yn undeb Kington, yn nghantref, a swydd Faesyfed, Deheudir Cymru, 5 milldir i'r Deheu Orllewin o Faesyfed, a 9 milldir i'r Dwyrain wrth Ogledd o Lanfair-yn-Muallt. Saif y lle ar làn yr afon Edwy, ar y ffordd o Lanfair i Kington, ac ymddengys nad oedd gynt namyn trefgordd yn mhlwyf Glasgwm, â'r hwn y mae hyd eto yn gyssylltiedig yn eglwysig; ond mewn materion gwladol, y maent yn ddau blwyf annibynol. Y mae Colfa yn cael ei ddysgrifio ar lyfrau y frenines, fel capel i Glasgwm, ac yn werth 10*p.*: y mae degwm mawr y ddau blwyf, yn perthyn i Esgob Tŷ Ddewi, fel meddiant llëygol; ond y mae ficer Glasgwm yn derbyn y degwm bach. Y mae capel Colfa, fel eglwys Glasgwm, wedi ei gyflwyno i Dewi Sant. Cynnwysa y gapeliaeth, naw càn erw o dir amgauedig, a mil o erwau agored: y mae gan mwyaf yn fynyddig, ac nid oes ynddo ddaear gynnyrchiol iawn. Perthyna gan mwyaf i'r Goron, ond y mae yma faenor fechan yn perthyn i feddiannydd Harpton Court. Y mae yma ddwy o ysgolion dyddiol, yn y rhai y mae ychydig blant yn cael eu dysgu ar draul eu rhieni. Gadawodd Evan, ac Ann Griffiths, arian ar eu hol, â'r rhai y prynwyd fferm Ty'n y waun, yn mhlwyf Llandegley, yr hon sydd yn cael ei gosod am tuag 20*p.* y flwyddyn o ardreth, y rhai sydd yn cael eu rhanu yn gyfartal rhwng tylodion Colfa, Llandegley, a Llanfihangel-nant-Melan. Gadawodd Mr. James Chambers, o'r lle hwn, 60*p.* yn ei ewyllys, y rhai sydd wedi cael eu dodi yn dirwystl ar fferm yn mhlwyf Kington, swydd Henffordd, ac yn cynnyrchu 3*p.* y flwyddyn, y rhai a renir mewn bara rhwng tylodion Colfa, yn y pasg, ac yn y Nadolig. Y mae'r trethoedd blynyddol dros 150*p.*

**COLMAN**, Sant Gwyddelig, ar enw yr hwn y galwyd Llangolman, a Chapel Colman, yn Mhenfro; a Phorth golman, yn Lleyn, oddiwrth yr hyn y tybir iddo drigo am ryw gyfnod yn Nghymru.

**COLWINSTONE**, neu Tregolwyn, neu, fel y dywed rhai, Tre golwen, plwyf yn nghantref Ogmôr, sir Forganwg, Deheudir Cymru, pedair milldir (Gor. wrth Og.) o Bontfaen, yn cynwys 274 o boblogaeth. Plwyf amaethyddol ydyw, yn mro fras Morganwg, gyda pheutref bychan yn dwyn enw y plwyf yn ymyl y Llan. Ficeriaeth yw y fywiolaeth, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Llandâf, wedi ei threthu ar lyfrau y frenines yn 6*p.* 6*s.* 8*c.*, ac wedi ei gwaddoli a 400*p.* o gedrodd bersonol, a 400*p.* o rodd freninol. Mae yr eglwys yn gysegredig i St. Michael. Y mae yno ddau neu dri o gapeli bychain hefyd gan yr Ymneillduwyr, un gan y Methodistiaid, ac un gan y Wesleyaid. Yn y plwyf hwn y mae y Filldir Aur (Golden Mile), darn o dir cyffredin (*common*) tua milldir o hyd, trwy yr hwn y rhêd y brif-ffordd o Gaerdydd i Abertawy, a'r hwn sydd nodedig am ei borfa rhagorol. Mae ar y Filldir Aur wyddgrug, neu garnedd hynafol; ac ar gae cyfagos, yn ymyl y ffordd fawr, y mae olion hen wersyllfa fechan Rufeinig; ac y mae olion gwersyllfa arall gyffelyb ar yr ochr arall i'r darn tir hwn; a bernir fod yr hen ffordd Rufeinig (*Julia strata Maritana*) yn cerdded yn agos i lwybr y brif-ffordd bresenol. Nid oes yn y plwyf hwn ddim gweithfaoedd i beri cyfnewidiad yn agwedd y lle, na nifer y boblogaeth.

**COLWYN** sydd bentref cynnyddol a chymydogaeth brydferth, yn mhlwyf Llandrillo yn Rhos, swydd Gaernarfon, Gogledd Cymru, ar y brif-ffordd, chwe milltir o Gonwy a phump o Abergele; y mae yn terfynu ar drefgordd Eirias, os nid yn cynwys rhan o honi. Ychydig o flynyddau yn ol, nid ydoedd ond pentref cyffredin, ond y mae ar hyn o bryd, yn dangos arwyddion tebygol o ddyfod yn lle o bwys, fel ymdrochfa, a man ymgynulliad am iechyd ac adloniant yn yr haf. Y mae yn sefyll ar fin y mor, lle y mae golygfa darawiadol ar bob cyfeiriad. Gwerthwyd etifeddiaeth Pwll-y-crochan yn ddiweddar yn fan ddosbarthau, a throwyd yr hen balas enwog yn westy eang, ac y mae yn gyrchfa dieithriaid yn yr haf, o ddengarwch mawr. Y mae Gwesty eang, masnachdai cyfleus, a lletyau manteisiol, yn cael eu hadeiladu yn gyflym yma yn awr. Y mae y maesydd cyferbyniol â gorsaf y Rheilffordd wedi eu trefnu, yn ol cynlluniau priodol, yn heolydd, llwybrau, anneddau, &c., agos oll; a bydd y lle wedi ei addurno âg adeiladau, gerddi, rhodfeydd, a phrif-ffyrdd yn fuan. Y mae eglwys wedi ei chodi yma, ar wahan oddiwrth lan y plwyf; y mae yma le o addoliad gan y pedair plaid ymneillduol; y mae claddfa yn perthyn i gapel yr Annibynwyr, y lle o addoliad cyntaf a godwyd yn y pentref. Y mae yma hefyd, ddau ysgoldy; un Brytanaidd ac un Cenedlaethol, ond y mae y cynydd mewn adeiladu, yn y lle newydd, tua milltir i'r gorllewin, o'r pentref gwreiddiol. Yma y mae palas y diweddar Cadben Clough, a elwir Min y don; Bryn-dulas, I. Hesketh, Ysw., a Glan-y-don, preswylfod Henry Hesketh, Ysw., o Gaerlleon. Pwll-y-crochan ydoedd gynt yn drigfa y Bendefiges Erskine, sydd yn awr yn Westy; a saif ar lethr y mynydd, yn cael ei gylchynu â choed prydferth, ac o'r tu cefn â choedwigoedd cauadfrig, y rhai a ychwanegant at ddengarwch yr olygfa. Nid yw yn hawdd penderfynu beth yw ystyr wreiddiol yr enw; tybia rhai ei fod yn dyfod oddiwrth Colwyn, prif fugail Bran ab Llyr Llediaith; eraill, mai Ceulwyn, am fod yma nentydd dyfnion, yn gauedig gan lwyni o goed; a barna eraill fod Colwyn, neu Coel-lwyn, Eirias, a Llety y Derwydd, neu Llety y Dryw, yn dyfod o darddiad Derwyddol. Y mae nentydd mawrion y gymydogaeth, heb ond ychydig o ffrydiau bychain yn rhedeg drwyddynt, ger llaw y traeth, yn hynod iawn, fel agorfaau yn y tir graianog, sydd yn haen yn rhedeg gyda glan y mor, o Benmaen Rhos.

**COLWYN**, pen bugail Bran ab Llyr, yr hwn gyda Phibydd Moel, a Gwesyn, a ffurfient "Dri Defeidydd Gosgordd Ynys Prydain;" a chan bob un o honynt dri chant o gynorthwywyr, ac arnynt ofal chwe chan mil o ddefaid, o dan amddiffyniad Cenedl y Cymru.

**COLL** ab Collfrewi, cymeriad hynod yn chwedloniaeth y Cymry. Dywedir mai efe oedd y cyntaf a ddygodd wenith a haidd i'r ynys hon, lle nad oedd yn flaenorol ond ceirch a rhug. Gelwir ef yn un o'r "Tri Gwrddfeichiaid," ac adroddir alegori ryfedd am dano yn gwylied hwch Dallwaren Dallben rhag dyfod yn ormes ar Ynys Prydain.

Digitized by Google

**COLLEN**, Sant, yn y 7fed ganrif, ydoedd, yn ol rhai awdurdodau, yn fab i Petrwn ab Coleddog, ond yn ol eraill, mab ydoedd i Gwynawg, ŵyr i Caradawg Freichfras; ac mai ei fam oedd Ethri ferch i Fatholwch Wyddel. Ymddangosodd "Buchedd Collen" yn y *Greal*, tud. 337, yr hon nid yw ond cruglwyth o ddychymygion rhyw fynach o'r Oesau Tywyll. Efe a sylfaenodd eglwys Llangollen, swydd Dinbach.

**COLLFRYN**, sydd drefgordd yn y rhan hono o Lansantffraid yn Mechain, yr hon sydd yn rhanbarth uchaf cantref Deuthyr, yn swydd Drefaldwyn, Gogledd Cymru. Y mae yn sefyll ar yr ochr ddeheuol i'r afon Fyrnwy.

**COLLWYN**, penaeth un o bymtheg llwyth Cymru yn yr 8fed ganrif. Mab ydoedd i Tango ab Cadfael ab Lludd, ac yr oedd yn arglwydd Eifionydd, Ardudwy, a rhan o Leyn. Bu yn trigianu am gyfnod yn Nhwr Bronwen, yn Harlech; ac oddi wrtho ef y galwyd y lle hwnw yn Caer Collwyn. Dywedir bod llawer o deuluoedd Arfon wedi disgyn o hono.

**COMYN**, un o feibion Caw, a rhyfelwr a ymladdodd o dan Arthur.

**CONWIL**, neu Cynwyl, plwyf yn rhandir uchaf cantref Elfed, yn undeb, a swydd Gaerfyrddin, Deheudir Cymru, bron ar hanner y brif-ffordd o Gaerfyrddin i Gastellnewydd-yn-Emlyn, gyda phoblogaeth o 1703, yn ol Deiliadeb 1861. Gan ei fod yn sefyll mewn lle mor ganolog, ac fod cymmaint o deithio rhwng y ddwy dref uchod, yr oedd golwg fywiog gynt ar y pentref sydd yma. Y mae rheilffordd Caerfyrddin ac Aberteifi yn rhedeg drwyddo, ac y mae yma orsaf.

Gan fod dau Gynwyl yn swydd Gaerfyrddin, y mae hwn yn cael ei alw yn Gynwyl Elfed, a'r plwyf sydd gerllaw Llanymddyfri, yn Gynwyl Caio. Y mae eglwysi y ddau blwyf, wedi cael eu cyssegru i'r un sant, sef Cynwyl ap Dunawd Ffur, a Dwywe, ferch Gwallog ap Llenog, yr hwn gyda'i dad, a'i ddau frawd, Deiniol a Gwarthan, a sefydlasant athrofa Bangor-Iscoed, ar làn y Dyfrdwy, yn swydd Fflint, yn y 6fed. ganrif. Cynnelid dydd gwyl Cynwyl Sant ar ddydd "Cynnull y Ferflaen," sef Ebrill 30. Heblaw y ddwy eglwys uchod, y mae dwy eglwys arall wedi cael eu cyssegru i Cynwyl Sant, nid amgen, Aberporth, yn swydd Aberteifi; a chapel Penrhos, yn swydd Gaerynarfon. Fel yna, gwelir fod yr enw cyssefin yn dàl i gael ei arfer weithiau; a phryd arall ei fod yn cael ei gyssylltu âg enw nawdd-sant yr eglwys. Nid yw yn ymddangos fod y plwyf hwn yn gwybod dim am yr enw *Cynwyl* cyn sefydliad yr eglwys, ond y mae crybwylliadau hynafol am Elfed: meddai y bardd tywysogol Llywarch Hen:—

"Cyfarwyddom ni am Elfed."

Gellid dywedyd yr un peth am Gynwyl-Gaio, gelwir y lle mewn hen ysgrifau yn "Caer Gaio," ac yn "Dref Goch yn Neheubarth," ond wedi adeiladu yr eglwys, a'i gosod tan nawdd Cynwyl, yr ydym yn cael y lle yn Gynwyl Gaio. Ar lafar gwlad, modd bynag, Caio y gelwir y lle olaf: ond am y lle ag sydd wrth ben yr ethygl yma, Cynwyl y gelwir ef bob amser. Y mae gŵr mor ddysgedig a'r henafiaethydd enwog hwnw, y Parch. Eliezer Williams, A.C., yn barnu yn wahanol, ac yn cyfrif fel hyn am yr enw Cynwyl: *cyn* yn golygu y blaenaf, a *gwyl* yn golygu gwylwyr-gosgordd: ystyr y gair gan hyny yw "Yr Osgordd flaenaf:" yna â Mr. Williams yn mlaen i ddywedyd fod rhyfel rhwng y Rhufeiniaid a'r Elfediaid, neu y Cymru; ac fod gosgordd flaenaf y Rhufeiniaid, o dàn Caius, ar làn Cothi: ac fod gosgordd flaenaf yr Elfediaid ar làn Gwili: ac oddiwrth hyn y meddylia Mr. Williams i'r enw darddu. Gan nad beth am hyn yna, ac y mae pob sylwad o eiddo Mr. Williams yn gofyn parch ac ystyriaeth; y mae Cynwyl Elfed yn cynnwys amryw arwyddion fod yma frwydro wedi bod yn y cynoesodd, ac nid yw yn debyg y buasai yr Elfediaid dewrion yn gadael i'r Rhufeiniaid gael meddiant llonydd o ogofau aur Caio,—Awstralia Cymru. Y mae yn sicr y bu yma frwydro hefyd rhwng y Cymru a'r Sacsoniaid; canys dyna Llywarch Hen, yn y llinell a ddyfynir uchod, yn annog y milwyr i gael eu harwain i Elfed: ac yn amser y rhyfeloedd Sacson-Cymreig mwyaf gorchestol a gwaedlyd y bu ef byw: sef amser y Brenin Arthur.

Myn rhai hefyd, mai drwy y lle hwn y rhyfelgyrchodd Harri, Iarll Richmond—Harri VII. wedi hyny, i gyfarfod Richard III.: ac mai yn y Llwyndafydd ag sydd yn ymyl Cynwyl, yn mhlwyf Llangeler, y bu Harri yn aros; ac nid yn y Llwyndafydd ag sydd yn mhlwyf Llandysilio-Gogo, yn swydd Aberteifi. Dywed y rhai sydd o'r dybiaeth yna, fod brwydr wedi bod rhwng gosgordd flaenaf Harri a gosgordd olaf Richard, yn Llanfihangel-Yeroth: neu, fel y dylasid galw y lle Llanfihangel-ar-Arth; ac fod gosgordd Harri gwedi gyru gosgordd Richard ar ffò. Y rhesymau dros y dybiaeth hon, yw bodolaeth olion hen wrthglawdd, milldir a hanner ei hyd, yr hwn hefyd mewn rhai manau sydd yn 18 troedfedd ei uchder: y mae gwaith cyffelyb ar gyfer hwn, ac y mae arno dwmpath a elwir "Crug y Brenin," ar ben yr hwn y mae olion tân hyd y dydd heddyw. Dywedir yn mhellach, fod y daith o Milffwrd i'r Amwythig, yn well, ac yn fwy uniongyrchol drwy Gynwyl, na thrwy sir Aberteifi; ac fod corsydd lawer ar y daith hono. Nid oes rhith o sail i'r dybiaeth hon, fel y gŵyr pawb ag sydd yn gwybod am filwrdaith gampus yr Iarll. Y mae ol cynghorfa arni, ac y mae yn llawn athrylith milwrol; a pheth sydd o fwy pwys na'r oll, cariwyd pob peth allan yn llwyddiannus. Rhanwyd y fyddin yn ddwy yn Milffwrd: un gangen dan lywyddiaeth Harri, a'r llall dan lywyddiaeth Syr Rhys ap Thomas: dyma nhw yn cychwyn: cadwodd Harri ar y llaw aswy, ac aeth yn mlaen dros gefnydd dymunol y Mwnt, Blaenporth, Llwyndafydd, Llanarth, &c., ar hyd glàn Morgilfach Aberteifi o hyd: ni bu gwell ffordd i filwr deithio erioed, ac nid oes afon i'w rwystro o'r Teifi i'r Aeron, ac y mae rhwng y ddwy afon hyny 23 milldir: wedi gadael glàn y môr, y mae Harri yn wynebu yn union ar yr Amwythig drwy sir Drefaldwyn, ac y mae yn gwersyllu yn y diwedd, rhwng y Trallwng a'r Amwythig. Cadwodd Syr Rhys ar y llaw ddeheu, ac aeth rhagddo drwy swyddi Caerfyrddin a Brycheiniog, &c., ac yr oedd wedi ymuno â Harri ar y Cefn Digoll yn brydlawn; a'r ddau gwedi ennill adgyfnerthion mawr i'w byddinoedd ar y ffordd, ac heb gyfarfod â'r un gwrthwynebiad.

Yr oedd yma gynt hen gromlech, yr hon a amgylchynid gan ei chylchau, ac yr oedd yn un o'r temlau Derwyddol perffeithiaf yn y deyrnas hon: eithr nid oes ond carn o geryg lle y safai, canys saethwyd hi yn ddarnau gan ryw Fandal, a chariwyd

Digitized by Google

y ceryg ymaith ganddo, at ryw wasanaeth neu gilydd. Fel pob cromlech arall, yr oedd hon wedi cael ei chyfodi i daro yn gywir i linell canolddydd y lle, yr hon sydd yn awr yn gogwyddo ychydig i'r dwyrain: y mae'r gogwyddiad yma, wrth gyfrif rhagfynediad yr albanau (*equinoxes*), yn brawf fod y gromlech wedi cael ei gosod yn ei safle 200 mlynedd cyn geni Crist. Y mae yma weddillion hynafol ereill hefyd, megis, carneddau, &c. Y mae yma ffynnon enwog iawn hefyd, yr hon sydd yn llawn o haiarn, ac yr oedd cyrchu mawr iddi gynt; ond y mae ei rhinweddau wedi myned dros gof. Gelwir hi Ffynnon Ffosana. Y mae rhai Saison wedi meddwl mai Ffos Sana ydyw enw y Ffynnon; gan hyny, y maent yn gywrain iawn yn dywedyd ei bod yn adnabyddus i'r Rhufeiniaid, ac nad yw Ffos Sana ond llygriad o *Fons Sana*—"Ffynnon Iechyd."

Ar dir amaethdy a elwir Troed y rhiw, yn rhan orllewinol y plwyf, safai capel gynt, yr hwn y bernir ei fod wedi dadfeilio cyn amser Harri VIII., ac nid oes ond ychydig iawn o'i ol yn ganfyddadwy; ond y mae'r fan yn cael ei alw yn barhaus yn Gae'r-hen-Eglwys. Nid oedd y fywioliaeth eglwysig ond curadiaeth barhaus, wedi ei huno â ficeriaeth Abernant, ac nid oedd ei gwaddol ond 3*p.* y flwyddyn, a chymun-rodd o 8*p.* a adawwyd, yn 1721, gan Mrs. Anna Warner, o Southampton: ond y mae yn ficeriaeth ar ben ei hunan er ys amser bellach, ac y mae yn werth 244*p.* y flwyddyn. Y mae gan yr Independiaid ddau gapel yma, y mae un gan y Bedyddwyr, ac un gan y Trefnyddion Calfinaidd.

Y mae'r afonydd bychain, Bala, a Gwili, yn rhedeg drwyddo; ac y mae'r wlad oddiamgylch yn ffurfiedig o fryniau cefnol, a glynoedd, y rhai sydd yn cydgyfarfod mewn pwynt yn y lle hwn. Cynnelir ffair yma bob Tachwedd 21ain.

**CONWY.** Gwel ABERCONWY.

**CONWY**; HUW—Bardd a flodeuodd o 1550 hyd 1580. Tebyg mai brodor o Lan Conwy ydoedd. Mae peth o'i farddoniaeth mewn llaw ysgrifau.

**CONWY**; LEWIS—Bardd yn ei flodau rhwng 1570 a 1600.

**CONWY**; PYRS—ydoedd fab Conwy Hên, o Fodryddan, person Llaneurgain, ac archddïacon Llanelwy. Bu farw 1581, a gadawodd yn ei ewyllys ddeg *marc* i blwyf Llaneurgain.

**CORDALIA**, neu CORDELIA, ydoedd un o dair merch y brenin Llyr ab Bleiddyd (*King Lear, Shakespeare*). Ymddengys mai brenin Gwyddelig oedd y Llyr hwn, bu farw yn 458.

**CORFINWR**, un o'r "Tri Madgyrfinydd," am mai efe a ddygodd, longau hwylio a llyw gyntaf i'r ynys hon. Efe oedd bardd Ceri Hir Lyngwyn.

**CORWEN**, sydd dref farchnad, a phlwyf yn nghantref EDEYRNION, yn swydd FEIRIONYDD, GOGLEDD CYMRU; 10 milltir o Ruthyn, a 194 o Lundain. Y mae rhan o'r plwyf yn nghwmwd Dinmael, cantref y Barwn, a elwir yn awr, Is Aled, yn swydd Ddinbych. Y mae gwahanol olygiadau am darddiad yr enw: tybia rhai mai Côr Gwen, neu Gwyn ydyw; a barna eraill ei fod yn dyfod oddiwrth Corwenna, boneddiges a fu yn cyfaneddu yno; ac y mae ei henw yn aros eto ar amryw leoedd yn y gymydogaeth. Ar oresgyniad Gogledd Cymru gan Harri II., yn 1165, daeth y penaeth hwnw, gan arwain ei fyddin, i fynyddoedd y Berwyn, yn agos i'r dref hon, lle y cyfarfyddodd efe â galluoedd unedig y Cymry, yn cynwys holl fyddinoedd y Gogledd, dan arweiniad Owain Gwynedd, a'i frawd Cadwaladr; holl nerthoedd y Deheubarth, dan lywyddiaeth Rhys ab Gryffydd; a holl nerthoedd Powys, dan Owain Cyfeiliog, a meibion Madog ab Meredydd; a gwyr y wlad rhwng yr Hafren a'r Wy, dan arweiniad eu dau gadfridog, meibion Madog ab Ednerth. Ymwrolodd y rhai hyn yn egniol i dori ymaith gyfnerthion y meirchfilwyr Seisnig, ac i'w llethu mewn lled-ymosiadau; fel yr hollol analluogwyd Harri i ddyfod yn mlaen; ac wrth weled calonogrwydd y Cymry, ac ansawdd anfanteisiol y tymor, efe a farnodd yn briodol iddo encilio gyda'i fyddinoedd am beth amser, a rhoddi i fynu yn llwyr, yr amcan am ddarostwng y dywysogaeth. Cymerodd Brenhin Lloegr ei sefyllfa ar grib y llinell o fynyddoedd yn y Berwyn, a'r Cymry ar y llethr uwchlaw y dyffryn, mewn lle amddiffynol, ar yr ochr serth o'r gymydogaeth. Y mae y wersyllfa hon, a elwir Caer Drewyn, o agweddiad crwn, ac yr oedd yn cael ei hamddiffyn, gan fur unigol; yr oedd dau fynedfa iddi; ac yr oedd yn agos i'r pen gogledd-ddwyreiniol, hir-ongl yn cael ei gadarnhau gan ffos, a mur; ac o fewn yr amgauad, yr oedd adeiladau cryfion, a chelloedd o fewn y muriau. Y mae olion o'r adeiliau hyn ar gael eto, yn cynwys cylch o gerig rhyddion, tua haner milltir o gylch-fesur, yn gystal a sylfaeni yr adeiladau. Dywedir fod Owain Glyndwr yn achlysurol, wedi cymeryd mantais ar y werthyr, palas ardderchog yr hwn, ar geulan y Ddyfrdwy, oedd yn sefyll o fewn tua phedair milltir i Gorwen, ar ochr ddwyreiniol y ffordd i Langollen, lle y mae rhan o'r ddyfrffos, a'r hon yr oedd yn cael ei amgylchu, eto yn weledig; ag sydd o'r braidd, yn ffurfio yr un olion o'r adeiladaeth ardderchog ac eang, yn yr hwn yr arddangosid croesawgarwch, o bob cysuron, oedd o'r braidd, yn ddiareb drwy yr holl wlad; o fewn ychydig bellder oddiwrtho, y mae bryn, o gryn famtioli, a dybir oedd yn sail twr gwyliaduriaeth y palas, a'r gymydogaeth.

Y mae y dref yn sefyll mewn lle hyfryd, ar geulan ddeheuol afon Dyfrdwy, ar y ffordd o Lundain i Gaergybi a Dulyn, o dan gysgod craig sydd wrth droed mynydd y Berwyn, ac yn nyffryn cyfoethog a rhagorol Edeyrnion. O fewn tua haner milltir, ar yr ochr dde-orllewinol, ar linell ffordd Caergybi, y mae y Ddyfrdwy yn cael ei chroesi gan bont brydferth, o saith o fwäau meini; ac y mae yr olygfa ar y dyffryn oddi yno ar bob llaw, yn hynod o ddengar, ac yn enwedig ar i fynu, lle y mae yr afon yn ymddangos fel llyn disglaer, yn cael ei ymylu ar bob llaw â gweirgloddiau ffrwythlon, a choedwigoedd prydferth. Y mae ar fynydd y Berwyn, o'r tu cefn i'r eglwys, le a elwir "Cadair Glyndwr," o'r lle y cair golygfa swynol iawn; a dywedir fod Owain, oddiar y lle hwn, wedi taflu dagr, yr hon wrth syrthio ar gareg, a dorodd ynddi ei hol, am ei holl hyd, tua modfedd a ddyfnder; y mae y gareg hon yn awr yn mur deheuol yr eglwys; ond mwy tebyg ydyw mai careg fedd rhyw fynach ydoedd, a llun y groes arni. Y mae y plwyf hwn yn dra eang; tuag un filltir ar ddeg o hyd, ac o dair i bedair o led. Y mae yma ddwy farchnad wythnosol, ar y Mawrth, a'r Gwener. Y mae y ffeiriau yn cael eu cynal ar Mawrth 12fed, Mai 24n; Gorphenaf 14eg, Hydref 7fed, a Rhagfyr 20fed, er gwerthu ceffylau, gwartheg, &c. Y mae un o garacharau y sir yma, o dan gadwraeth yr heddgeidwad; ond fel y mae yn adeilad bychan ac anghyfleus, ni bydd y troseddwyr yn cael eu caethiwo

Digitized by Google

yma yn ddim hwy, nac i aros cyfleusdra i'w danfon i Ddolgelley. Y mae y fywoliaeth yn cynwys perigloriaeth a ficeriaeth, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Llanelwy, ac yn nhadogaeth Esgob Llanelwy; y mae y degymau wedi bod yn cael eu gwahanu yn ddwy ran gyfartal, un i'r periglor a'r llall i'r ficar. Y mae yr eglwys, yr hon sydd wedi ei chysegru i St. Sulien, yn ol y cynllun Normanaidd, wedi ei hadeiladu yn groesawl, gyda thwr pedeirongl yn y pen gorllewinol. O dan fwa maen yn ochr ogleddol y gangell, y mae beddrod un or ficeriaid boreuol, a elwid Iorwerth Sulien, yn arddangos mewn cerfiad, o'r ffurf ddynol, wedi ymwisgo mewn dillad offeiriadol, a thano yr ysgrifen ganlynol, mewn hen lythyrenau:—"*Hic jacet Iorwerth Sulien, Vicarius de Corwaen: ora pro eo.*" Y mae y gareg y cyfeiriwyd ati yn flaenorol, gyd âg argraph dagr Owain Glyndwr yn mur deheuol yr eglwys, oddi allan. Y mae croes gywrain, o gareg, yn sefyll yn y fynwent, cynwysedig o un piler o gareg gyfan, wedi ei haddurno yn y pen uchaf, ac yn gorphwys ar un gareg wastad, a'i phwys ar bedair neu bump o rai geirwon, llai o famtioli. Y mae yn y fynedfa, yn yr adail, gareg bigfain, a elwir *Careg y Big yn y fach Rewlyd*, am yr hon y dywedir mewn chwedl draddodiadol, fod pob cais a wnaed i adeiladu yr eglwys mewn unrhyw fan arall wedi aflwyddo, a bod y sylfaenwyr wedi cael eu cyfarwyddo drwy arweiniad goruwchnaturiol at y lle y saif y gareg hon. Y mae yn y Rug, gapel neillduol, heb ei waddoli, yn cael ei gynal gan deulu y Fychaniaid, lle y cyflawnir y gwasanaeth yn unig yn Saesonaeg. Y mae yma leoedd o addoliad y Methodistiaid a'r Annibynwyr, gyd âg ysgol Sabbathol berthynol i bob un. Y mae yma ysgol blwyfol yn cael ei chynal drwy gydroddion, yn cael eu cynorthwyo â rhodd o 4*p.* yn y flwyddyn, gan un o deulu Salusbri, yr hwn gynt a feddianai y Rug; yr oedd y teulu hwn wedi bod yn haelionus tu ag at y lle hwn, ac yr oedd un o honynt wedi gadael cymunrodd er dilladu pedwar o fechgyn yn flynyddol. Y mae o'r tu cefn i'r eglwys, elusendy er cynaliaeth chwech o wragedd gweddwon gweinidogion yr Eglwys Sefydledig, yr hwn a waddolwyd gan offeiriaid oedd yn gweinyddu yn ysdod eu bywyd yn y sir; ac a adeiladwyd yn 1750, gan William Eyton, Ysw., o Blas Warren yn sir Amwythig. Nid oes ond dau o'r anneddau yn awr yn cael eu preswylio; y mae y deiliaid yn ychwanegol at dŷ a gardd yn cael 20*p.* bob un. Y mae elusendai i gael wyth o wragedd tlodion yma, wedi eu codi gan un o deulu Salsbri. Y mae amryw gymunroddion wedi eu gadael i gynorthwyo y tlodion, yn cynwys un o 400*p.* gan Lumley Salsbri, i ddilladu wyth o wragedd tlodion y plwyf, dwy o Gwyddelwern, a dwy o Langar; un o 200*p.* gan Roger Salsbri, at ddilladu chwech o hen wyr tlodion, a deuddeg o blant; un o 150*p.*, gan Mrs. Jones, er cynorthwyo deg ar hugain o deuluoedd wedi llesghau; a 75*p.* gan Huw Jones, 50*p.* gan William Jones; ac 20*p.* bob un gan Roger Jones, Parch. Mr. Humphreys, a Mrs. Wynne; a 10*p.* gan David Jones, i'w cyfranu rhwng y tlodion. Y mae palas ardderchog y Rug o fewn y plwyf, etifeddiaeth teulu Fychan; yr hwn sydd yn hynod mewn hanesyddiaeth, fel y lleeyn y denwyd Gryffydd ab Cynan, Tywysog Gwynedd iddo, gan un Meiriawn Goch, yn fuan wedi y fuddygoliaeth benderfynol a enillodd yn Carno, yn 1077, yr hon a'i gosododd ar yr orsedd; ac a fradychwyd i law Huw Lupus, Iarll Caerlleon, a Huw Belesme, Iarll Amwythig, gan y rhai y cludwyd ef i gastell Caerlleon, o'r man y ffodd efe drwy gyfrwysdra, wedi cael ei garcharu yno am ddeuddeng mlynedd. Y mae ffynon yn gyfagos i'r lle, a elwir ffynon Sulien, dwfr yr hon sydd yn rhinweddol er iachad y gewyneg. Darganfyddwyd gwrn o lestr pridd, ar un o fynyddoedd Berwyn yn y plwyf hwn, yn cynwys esgyrn dynol, mewn lle a elwir Moel Ferma; yr hon a fu yn meddiant y Milwriad Fychan.

**COSHESTON**, plwyf yn nghantref CASTELLMARTIN, yn undeb a swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU, 2 filldir i'r Gogledd o Benfro, gyda phoblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, o 602. Y mae y pentref yn sefyll ar lethr deheuol bryn prydferth, traed yr hwn a olchir gan gaine o hafan Aberdaugleddeu (*Milford*), yr hon sydd yn fordwyadwy i ysgraffau. Rectoriaeth ryddhaol ydyw y fywioliaeth eglwysig, yr hon sydd yn cael ei threthu ar lyfrau y frenines yn 11*p.* 12*s.* 11*c.*: ei gwerth presenol yw 160*p.* y flwyddyn, ac y mae yn nawddogaeth Syr Huw Owain, Barwnig, A.S. Y mae yn esgobaeth Tŷ Ddewi, ac y mae'r eglwys hynafol ag sydd yma gwedi cael ei chyssegru i Mihangel Sant. Yn 1698 gadawodd John Jones, Yswain, M.D., feddiant yn ei ewyllys i brentisio plant tylodion, ac i gynnorthwyo yr hen a'r methiantus, y rhai oedd i fod yn perthyn i'r pedwar plwyf, a elwir Lawrenny, Llanbedr-Felffre, Tŷ Ddewi, a Cosheston; y mae Cosheston o'r elusenfa hon yn derbyn 30*p.* yn flynyddol. Y mae trethoedd y plwyf tua 150*p.* y flwyddyn, ac y mae yn mesur 2440 o erwan.

**COWBRIDGE** (PONT FAEN, neu PONT Y FON, neu PONT Y FUWCH), bwrdeisdref a thref forchnadol gyda llywodraeth annybynol, yn mhlwyf Llanblethiau, yn nghantref PONT FAEN, sir FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU. Y mae yn archddeoniaeth ac esgobaeth Llandaf, ac yn sefyll 12 milldir i'r gorllewin o Gaerdydd, 172 (gyda'r rheilffordd 186) o Lundain, 56 o Bristol, 8 o Lantrisant, a 7 o Ben y bont. Y mae rheilffordd o Lantrisant yn rhedeg i'r dref hon, ac yn ei chysylltu a llinell rheilffordd Deheudir Cymru. Bernir fod y dref ar y cyntaf yn rhyw ychwanegiad at gastell ac arglwyddiaeth St. Quentin. Cylchynwyd hi gan Robert St. Quentin, un o farchogion Fitz-hamon, yn 1090, a mur ceryg, gyda thri phorth, y rhai oeddent i fyny yn amser Leland; ond nid oes ond porth y Deheu i fyny yn awr.

Mae y dref yn gorwedd ar wastadedd yn isel, ond er hyny y mae ei sefyllfa yn iachus. Mae yn gynwysedig o un stryd lydan tua haner milldir o hyd, gyda rhai adeiladau da, Neuadd Drefol, a Marchnadle; y mae yn cael ei dyfrhau gan liaws o ffynonau da, ac y mae yr afon Ddaw yn rhedeg trwy ei chanol, dros yr hon y mae y bont sydd yn rhoddi yr enw arni. Arfbais y corphoriaeth yw darlun buwch yn croesi dros bont, a'r traddodiad yw, iddi gael yr enw oddiwrth yr amgylchiad canlynol:—Pan oedd y bont yn cael ei hadeiladu, ymlidiwyd buwch gan gŵn i fwa y bont, ac aeth ei chyrn mor dyn yno, fel y methwyd a'i rhyddhau heb ei lladd. Mae y dref yn cael ei llywodraethu gan Faer, dau *bailiff*, a chwech henadur, y Maer yn cael ei ethol gan Ardalydd Bute dros ei fywyd, ac felly hefyd Clerc y Dref, a'r *bailiffs* yn cael eu hethol gan y bwrdeiswyr. Y mae gan y dref hawl i gadw *court of record*, yn ol breinlen a roddwyd gan Charles II., ond nid yw y corphoriaeth wedi arfer defnyddio yr hawl-

Digitized by Google

fraint hon. Y mae Pont-faen mewn undeb a Chaerdydd a Llantrisant, yn dychwelyd un aelod i'r Senedd.

Y mae Pont-faen yn cael ei hystyried yn blwyf annybynol, er nad oes ganddi yr un perigloriaeth annybynol. Capel Anwes yn perthyn i Llanblethian oedd eglwys Pont-faen ar y cyntaf, ac y mae y ddwy eto, yn nghyd a St. Donatts Gymreig, mewn undeb a'u gilydd, yn 300*p.* o werth blynyddol, ac yn cael eu dal gan y Parch. Thomas Edmondes, M.A. o Goleg yr Iesu, Rhydychain. Mae yr Eglwys yn gysegredig i St. Mair, ac eglwys Llanblethian i St. Ioan Fedyddiwr, yr hon sydd adeilad o arddull Normanaidd, wedi ei chodi ar dwmpath uchel, gyda chlochdy ysgwâr, a chylch o wyth o glychau. Y mae addoldai yn y dref hefyd gan y Bedyddwyr, y Methodistiaid, yr Annybynwyr, a'r Wesleyaid.

Y mae yma Ysgol Ramadegol o gryn bwys, ac nid oes sicrwydd am amser ei sefydliad. Tybia rhai ei bod wedi tyfu allan o adfeilion hen sefydliad addysg Llanilltyd Fawr, ac iddi gael ei symud yma dan deyrnasiad y Frenines Elisabeth.. Y mae dan arolygiaeth Llywydd a Chymrodwyr Coleg yr Iesu, Rhydychain, y rhai a bennodant y meistr, gyda chyflog o 20*p.* y flwyddyn. Ychwanegwyd y gwaddol at yr Ysgol, gan Syr Leoline Jenkins, Marchog; Barnwr y Morlys, dan deyrnasiad Charles II., yr hwn a addysgwyd yn yr ysgol hon, a gosodwyd hi ar seiliau manteisiol a chyfrifol. Codwyd yr adeilad bresenol gan Gymrodwyr Coleg yr Iesu, Rhydychain, yn 1847, yn nghyd a thy i'r athraw.

Y mae yn perthyn i'r dref hon lawer o waddoliadau elusengar eraill, llechres o ba rai ellir weled yn Eglwys Fair. Yn mysg y rhai hyn y mae 225*p.*, y rhai ydynt wedi hyny wedi eu gosod mewn tir, a roddwyd gan Rebecca Wyndham i brentisio plant tlodion; 100*p.* wedi eu gadael gan Catharine Williams yn 1682 i brentisio plant, a dilladu hen bobl, yn nghydag amryw symiau llai i borthi y tlodion a bara, &c. Y mae yma Ysgol Genedlaethol dda, a rhoddodd John Francies Gwyn o *Ford Abbey*, swydd Devon, Rhag. 11eg 1845, 200*p.* mewn ewyllys, yn ngofal Wardeniaid Pont-faen, i ddefnyddio eu llog i gynorthwyo yr Ysgol Genedlaethol i fechgyn, yn mhlwyfau unedig Llanblethian, Pont-faen, a Welsh St. Donatts.

Y prif balasdai yn yr ardal ydynt, Bryn Awel, preswylfa Miss Entwisle; Marlboro' Grange, preswylfa Mrs. Entwisle; Newton House, preswylfa John Samuel Gibbon, Ysw., Ynad Heddwch; Castell Penllin, trigle John Homfray, Ysw. Y.H.; Cwrt Penllin, trigle William Salmon, Ysw. Y.H.; Y Verlands, preswylfa James Ballard, Ysw. Ardalydd Bute yw arglwydd maenor Llanblethian, a bwrdeisdref Pont-faen; a'r prif arglwyddi tiroedd ydynt, Iarll Dunraven, Meistriaid J. S. Gibbon, West, a Bassett, a Mrs. Entwisle.

Arwynebedd plwyf Pont-faen yw 69 o erwau; plwyf Llanblethian, 3,030 o erwi. *Gross estimated rental* plwyf Pont-faen yw 3,556*p.* 13*s.*; plwyf Llanblethian 5,515*p.* 9*s.* *Rateable value* plwyf Pont-faen 3,095*p.* 10*s.*: plwyf Llanblethian 5,083*p.* 6*s.* Ar ochr y ffordd fawr oddiyma i Benybont, tua dwy filldir o'r dref, yn agos i'r cyttir a elwir y Filldir Aur, y mae hen wersyllfa, Rhufeinig, fel y tybir; ac ar yr ochr ddeheuol i'r un *common* y mae gweddillion un arall gyffelyb, y rhai ydynt yn awgrymu cyfeiriad yr hen ffordd Rufeinig, *Via Julia Maritima.*

Nid oes dim cynydd yn mhoblogaeth Pont-faen er ys llawer o flynyddoedd. Ceir fod y boblogaeth ddeugain mlynedd yn ol yn 1097. Yn 1861 yr oedd poblogaeth Pontfaen yn 1047 a phlwyf Llanblethian yn 753—y ddau yn nghyd yn 1800. Yn 1861 yr oedd poblogaeth y cantref, neu gylch y Cofrestrydd yn 6486; ond eleni (1871) nid yw ond 6450; yr hyn sydd yn dangos tri dwsin o leihad yn y deng mlynedd.

**COWRYD**, arglwydd Dyffryn Clwyd, a chŷff y llwyth a elwid Gwehelyth Ceinmerch.

**COX**, Leonard, a anwyd yn swydd Fynwy, ac a addysgwyd yn Nghaergrawnt, lle y graddiwyd ef yn B.A. Yn 1528, symudodd i Rydychain, a derbyniwyd ef yno dan yr un teitl. Wedi hyny cawn ef yn ysgolfeistr parchus yn Reading, lle dangosodd efe garedigrwydd mawr i John Frith, y Merthyr, yr hwn a gafodd efe mewn cyflwr truenus yn y dref hono. Teithiodd wedi hyny trwy Ffrainc, yr Almaen, a Hungari, gan gyfranu addysg yn y *classics;* a daeth yn fwy enwog yno nag yn ei wlad ei hun. Yn 1540, cawn ef yn cadw ysgol yn Nghaerlleon, swydd Fynwy, ac yn cyhoeddi "*Commentaries on Lilly's Construction of the Eight Parts of Speech.*" Efe a gyfieithodd hefyd o'r Groeg i'r Lladin, "*Marcus Ermita de Lege et Spiritu;*" ac o'r Lladin i'r Saesneg, "*The Paraphrase of St. Paul's Epistle to Titus,*" o waith Erasmus, gyda'r hwn yr oedd efe yn lled gydnabyddus. Dywed Bale fod Cox wedi derbyn addysg ragorol, a'i fod yn ramadegwr, areithydd, bardd, duwinydd, a phregethwr gair Duw. Hefyd ei fod wedi ysgrifenu yn erbyn "cyfiawnhad trwy weithredoedd;" a'i fod yn dra pharchus gan ddysgedigion yn 1530. Yr oedd yn fyw yn amser Edward VI., eithr ni wyddis pa bryd y bu farw.

**COYCHURCH**, a elwir hefyd Llangrallo, plwyf yn nghantref Castellnewydd, Morganwg, Deheudir Cymru, 2½ filldir i'r dwyrain o Ben y Bont, yn cynnwys treflanau Coychurch Uchaf, Coychurch Isaf, a Phen-coed, lle y mae gorsaf ar reil-ffordd Deheudir Cymru. Y mae llog mil o bunnau yn cael ei ranu rhwng tlodion y treflanau hyny. Y mae gweithydd glo a haiarn yn y gymmydogaeth. Y mae y plwyf wedi cael ei enw Cymreig oddiwrth St. Crallo, gan yr hwn y dywedir i'r eglwys gael ei sylfaenu; ac i goffadwriaeth yr hwn ei cyssegrwyd. Yr oedd y Sant hwn yn nai i St. Illtud, seilydd Llanilltud Fawr, yn y swydd hon, â'r hwn le yr ymddengys fod cyssylltiad yn cael ei awgrymu trwy y groes gylchawl sydd yn y fynwent, yn cyfatteb yn mhob peth â'r un yn Llanilltud; ac oddiwrth yr hyn a ddywedir oedd amser yn ôl yn ddarllenadwy o'r arysgrifen, ond sydd yn awr wedi ei llwyr ddileu, y mae yn dra thebyg eu bod wedi eu cyfodi gan yr un gwr, sef Samson, olynydd Illtud; a Samuel, y maen gerfiwr. Rheithoriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn archddiaconiaeth ac esgobaeth Llandaf; ardrethedig yn llyfrau y frenines i 21*p.* 1*s.* 8*c.*, ac yn noddogaeth Iarll Dunraven. Y mae yr eglwys, yr hon sydd yn gorwedd yn nhreflan Coychurch Isaf, yn adeilad ehang a hybarchus; ac y mae capel anwes yn nhreflan Peterston. Y mae addoldai perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd a Wesleyaidd, yr Annybynwyr a'r Bedyddwyr, yn y plwyf, ac y mae Ysgolion Sabbathawl yn perthyn i'r rhai hyn, cystal ag i'r eglwys. Gwerth y Rectoriaeth ydyw 446 punt. Y mae ammaethdy yn agos i'r eglwys, am yr hwn y bernir mai hen grefydd-dy ydoedd gynt, yn ddaros-

Digitized by Google

tyngedig i Fonachlog Ewenni. Bu y Parch. Thomas Richards, awdwr y Geiriadur Cymraeg a Saesneg, yn gurad y plwyf hwn dros ddeugain mlynedd. Poblogaeth yr holl blwyf yn 1861, oedd 1431.

**COYCHURCH UCHAF**, maenol, neu dreflan yn mhlwyf Llangrallo, cantref CASTELL-NEWYDD, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, 5 milldir i'r gogledd ddwyrain wrth ddwyrain o Ben y bont, yn cynnwys poblogaeth o 316, yn ol deiliadeb 1861. Fe'i ffinir ar y Gogledd, gan yr afon Ewenni, a chynnwysa rai glofeydd, a elwir glofeydd Hirwaun, y rhai ydynt wrth odreu mynydd Cefn Hir.

**COYTY**, neu yn fwy priodol COED-TY, plwyf yn nghantref CASTELL-NEWYDD, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, ar lan ddwyreiniol yr afon Ogmore, yn cynwys y Dreflan Uchaf, neu Faenor Coyty Seis'nig; a'r Dreflan Isaf, neu, y Faenor Gymreig; yr olaf yn ffurfio rhan o dref farchnad Pen y bont, ac a adwaenir hefyd dan yr enw Hen Gastell (*Oldcastle*), oddiwrth hen amddiffynfa oedd yno gynt. Poblogaeth Coyty Uchaf oedd 511; a'r Coyty Isaf 2174, yn ol deiliadeb 1861. Dyroddwyd arglwyddiaeth y Coyty gan Fitz-Hamon ar Syr Payne Turberville, un o'r marchogion a'i dylynasent ef yn ei gad-gyrchiad i Gymru, gan yr hwn y bernir i'r castell gael ei adeiladu ar y dechreu; yr hwn sydd yn eang a mawreddawg, hyd yn nod yn ei adfeilion. Trosglwyddwyd yr arglwyddiaeth a'r castell, o deulu y Turberville i feddiant Syr Richard Berkrolles; ac ar ol hyny i deuluoedd Gammage, Sydney, a Wyndham. Wedi hyny daeth i feddiant Iarll Dunraven a Mountearl, trwy briodas ei arglwyddiaeth â merch, ac unig etifeddes y diweddar Thomas Wyndham, Ysw., aelod dros swydd Forganwg, mewn amryw Seneddau olynol. Y fywioliaeth eglwysig sydd reithoriaeth, â'r hon y mae capel Nolton yn gydiedig, yn archddiaconiaeth, ac esgobaeth Llandaf, ardrethedig yn llyfrau y frenines yn 21*p.* 12*s.* 3½*c.*; ac yn noddogaeth Iarll Dunraven. Y mae yr eglwys, yr hon sydd o adeilwaith cyffredin a di addurn, yn gyssegredig i St. Mair. Wrth agoryd beddrod i gladdu y diweddar reithor Dr. Richards, darganfuwyd bedd-gell (*vault*), yn cynnwys gweddillion Syr Payne Turberville a'i bendefiges. Yr oedd Dafydd Hopcyn, y bardd, yr hwn a lywyddai Orsedd Morganwg yn 1730, yn frodor o'r plwyf hwn.

**CRADOC**, SYR MATHEW, boneddwr yn meddu dylanwad ail i frenin yn Morganwg, yn yr haner olaf o'r 15fed ganrif. Hanai o du ei dad, Rhisiart ab Gwilym, o Einion ab Collwyn; ac o du ei fam, Sionet Horton, o Arglwydd Tregwynt yn Mhenfro. Ei olafiaid yn bresenol ydyw yr Herbertiaid, y Treherniaid, y Turberwiliaid, y Llewelyniaid, a'r Bassetiaid, o Forganwg; a'r Sandersoniaid o'r Iwerddon. Ganwyd ef yn Nghaerdydd, tua'r fl. 1468. Yn 1489, efe a briododd Alis ferch Philip Mansel; ac wedi ei marw hi, efe a briododd yr Arglwyddes Catrin Gordon, gweddw Perkin Warbeck, yr hwn a grogwyd yn Tybnrn am deyrnfradwriaeth, yn 1499. Bu Syr Mathew yn ddistain Bro Gwyr, 1491, a 1497. Pabydd gorselog ac erlidgar ydoedd; canys y mae genym hanes am dano yn carcharu Thomas ab Ieuan ab Rhys (Twm y Celwydd Teg), a Rhys Sion, y cyntaf yn Nghastell Cynffig, a'r llall yn Abertawe, am eu bod yn *Lolardiaid*. Ysgrifenodd Iorwerth Fynglwyd, ddau gywydd ar garchariad Rhys Sion, y rhai sydd eto ar gael. A diau pe ceid golwg ar *Records of Convictions* Syr Mathew, ac eraill o erlidwyr y dyddiau hyny, y gwelid fod mwy o Lolardiaid yn Nghymru y pryd hwnw, nag a feddylir yn gyffredin. Bu Syr Mathew farw yn 1531, a chladdwyd ef yn eglwys Abertawe, lle mae beddfaen hardd, ar lun allor, yn dynodi ei orweddfa. Ysgrifenodd *Traherne* Nodiadau Hanesyddol am dano.

**CRADOC**, WALTER, un o ser cyntaf yr Annghydffurfwyr yn Nghymru, a anwyd yn Nhrefela, yn mhlwyf Llangwm Uchaf, swydd Fynwy, tua'r fl. 1600. Yr oedd yn hanu o deulu parchus, ac yn meddu etifeddiaeth gwerth 60*p.* y flwyddyn. Dygwyd ef i fyny yn Rhydychain, a phan oedd gartref yn y gwyliau, tua'r flwyddyn 1620, cafodd gyfle i glywed William Wroth, o Lanfaches, sef y cyntaf o weinidogion yr Eglwys sefydledig yn Nghymru ag y cyffyrddodd yr Arglwydd a'i galon yn yr oes hono; a bu yn foddion i'w ddwyn ef i adnabyddiaeth o'r gwirionedd. Wedi gadael y Brif-ysgol, ymsefydlodd yn gurad yn Llanbedr-y-fro, yn Morganwg, ac wedi hyny yn Eglwys Fair, Caerdydd, fel curad i Wm. Erbury. Yn 1633, dechreuodd Esgobion Ty Ddewi a Llandaf, ar gymhelliad yr Archesgob Laud, erledigaeth danllyd, ar bob un yn eu hesgobaethau a annghydffuriai, trwy wrthod darllen "*Book of Sports*" yn yr eglwys ar y Sabboth. Ymwelodd yr Esgob yn bersonol a William Erbury, ac a Walter Cradoc, ei gurad; ac wedi cael eu bod yn anufudd i orchymyn y brenin, trwy omedd darllen y "*Book of Sports*," ac yn eglwys-rwygol a pheryglus yn eu pregethau, efe a weinyddodd rybudd bygythiol i'r ficer, a chymerodd ei drwydded pregethu oddiar y curad, yr hwn a eilw efe "A bold, ignorant young fellow."—*The Lambeth MSS.*

Trosedd Walter Cradoc oedd gwrthod cydsynio a chais y brenin i ddarllen "*Llyfr y Chwareuon*" yn yr eglwys ar y Sabboth, Cyfansoddwyd y llyfr hwnw gan yr Esgob Morton, a chyhoeddwyd ef gan y brenin Iago, yn y flwyddyn 1617, yn nghyda gorchymyn caeth am iddo gael ei ddarllen yn mhob Eglwys Sefydledig trwy y deyrnas, bob boreu Sabboth ar derfyn y gwasanaeth. Cynwysiad y llyfr oedd, "Nad oedd gwasanaeth i fod yn yr Eglwys ond yn y boreu yn unig, oddieithr fod claddedigaeth; a bod y prydnawn i gael ei dreulio mewn chwareuon a difyrwch." Nodai hefyd pa chwareuon oedd i gael eu harferu bob Sabbath, megys neidio, dawnsio, coetio, codymu, &c.; yn nghyda'r amodau ar ba rai yr oedd y breintiau grasol hyn i gael eu mwynhau. Nid oedd neb i gael rhan na chyfran yn y chwareuon yn y prydnawn, ond y sawl a fyddai yn yr Eglwys yn y boreu; felly yr oedd y Pabyddion a'r Annghydffurfwyr yn cael eu hamddifadu o'r bendithion eglwysig hyn. Wedi marwolaeth Iago, ac esgyniad Charles ei fab i'r orsedd, dechreuodd rhai o'r offeiriaid mwyaf ystyriol, esgeuluso darllen "Llyfr y Chwareuon," wrth weled ei effeithiau diraddiol ar foesau y wlad. Ond pan ddeallodd yr Archesgob Laud am yr esgeulusdra, efe a ddylanwadodd ar y brenin i ail gyhoeddi y gyfraith, ac i wneyd ymchwiliad manwl pwy oedd y rhai a feiddient anufuddhau i orchymyn y brenin. Yr oedd corn clust pob esgob i gadw dwy restr o enwau offeiriaid yr esgobiaeth, gosod *O* uwchben un restr i arwyddo *Orthodox* neu iawngred, a *P* uwchben y llall i arwyddo Puritanaidd. Yn yr ymchwiliad hwn cafwyd tri offeiriad yn Nghymru, yn penderfynu ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion, sef Walter

Digitized by Google

Cradoc, William Erbury, a William Wroth. Gwelir ein bod yn cyfleu y triawd uchod yn wrthwyneb i'r dull arferol, gan osod Cradoc yn gyntaf, a Wroth yn olaf, oblegid felly mewn gwirionedd y mae trefn amseryddol eu tröad allan o'r Eglwys. Di swyddwyd Cradoc yn 1633, Erbury yn 1637, a Wroth yn 1638, neu 1639. Hefyd dylid deall, er bod y tri wŷr hyn yn arfer cael eu galw yn "dair seren foreu y Diwygiad," ac yn "dadau ymneillduaeth yn Nghymru," &c., mai nid hwy oedd yr ymneillduwyr cyntaf yn y Dywysogaeth. Oblegid cafodd un Roberts, yr hwn a eilw Laud yn ei fynegiad blynyddol i'r brenin, yn *Welsh lecturer*, ei ddiarddelu gan esgob Llandaf, am ei Annghydffurfiaeth, o flaen Walter Cradoc. Gwel ROBERTS. Hefyd yr oedd Walter Brute, a phregethwyr Arglwydd Cobham, wedi bod yn llafurio mewn parthau o Gymru, dros gan mlynedd cyn geni un o'r tri wŷr uchod. Ac y mae genym hanes am rai, megis Thomas ab Ieuan Rhys, a Rhys Sion, a ddyoddefasant eu carcharu oblegid "y ffydd newydd," yn y 15fed ganrif. Ac hefyd mae yn ffaith bod eglwys o Fedyddwyr wedi ei ffurfio Yn Olchon, er nad oedd ganddynt addoldy, mor foreu a 1633, sef y flwyddyn y trowyd Walter Cradoc allan o Eglwys Loegr; ond er hyny mae yn amlwg fod ymneillduaeth yn dra dirmygedig yn ngolwg y wlad yn yr adeg hono, fel y cawn, i berthynasau Walter Cradoc droi mor greulawn yn ei erbyn, am ymadael a'r Eglwys, fel y gorfu iddo hefyd ymadael a'i ardal enedigol, a gwynebu ar Ogledd Cymru. Ar y daith hono, tramwyodd trwy ranau o Brycheiniog, Maesyfed, a Threfaldwyn, gan bregethu, weithiau mewn tai anedd, weithiau mewn coedydd, ac weithiau ar benau mynyddoedd, yn ol fel byddai amgylchiadau yn caniatau iddo. O'r diwedd daeth i Wrexham, lle y derbyniwyd ef yn gurad i'r eglwys blwyfol, ac y dechreuodd ar ei weinidogaeth gyda'r fath nerth a dylanwad, nes oedd y tafarndai bron yn weigion, a'r eglwys yn orlawn o wrandawyr yn cael eu toddi i ddagrau o dan y weinidogaeth. Mae rhyw ddirgelwch anesboniadwy i ni yn awr, yn nglŷn a sefydliad Cradoc yn Wrexham. Gan ei fod wedi ei ddiswyddo gan esgob Llandaf, pa fodd y cafodd efe dderbyniad i esgobaeth Llanelwy? Ac yn neillduol felly, gan fod John Owen, esgob Llanelwy ar y pryd, yn gyfaill mawr i'r archesgob Laud, ac yn selog i gario allan ei ewyllys erlidigaethus ef i'r llythyren. Ond os nad yw yn hysbys y moddion a arferodd Rhagluniaeth i'w gael yno, mae y moddion a arferodd y diafol i'w godi oddiyno yn ddigon hysbys. Rhyw fragwr o'r enw Timothy Middleton, wrth weled nad oedd yn gwerthu cymaint o frâg i'r tafarndai ag a fyddai yn arfer, a ymholodd i'r achos o hyny, ac wedi deall mai gweinidogaeth y curad newydd o'r Deheudir oedd yn effeithio ar obaith ei elw ef, efe a gododd erlidigaeth danllyd yn ei erbyn, fel y gorfu iddo ymadael, ar ol llafurio yno am tua blwyddyn. Blwyddyn o weinidogaeth werthfawr oedd hon i Wrexham, ac i Gymru; oblegid cafodd llawer eu dychwelyd at yr Arglwydd trwyddi, ac yn eu plith Morgan Llwyd, awdwr *"Llyfr y Tri Aderyn."* Gwynebodd Cradoc eilwaith ar y Deheudir; ac ar ei daith, treuliodd beth amser gyda'i gyfaill, Richard Symonds, yn yr Amwythig, lle daeth Richard Baxter, yr hwn oedd ar y pryd, yno yn ddyn ieuanc, i adnabyddiaeth ag ef, yn nghydag i syniad uchel am ei alluoedd meddyliol, rhagoroldeb ei gymeriad, yn nghyda theilyngdod yr achos y dyoddefai o'i blegid. Dywed Baxter, fod Cradoc y pryd hwnw yn cael ei erlid gan swyddogion yr esgob, a'i fod yn ymguddio rhagddynt tan yr enw Williams. O'r Amwythig, efe a aeth i Lanfair Waterdine, ar gyffiniau swyddi Henffordd a Maesyfed; lle y lletyid ef yn garedig gan gyfaill y Puritaniaid erlidiedig, Syr Robert Harley, Bramton Briars. Gwnaeth ei gartref yma am tua thair neu bedair blynedd; ac oddiyma cymerai deithiau pregethwrol, trwy Maesyfed, Brycheiniog, Trefaldwyn, a Cheredigion, ac yr oedd llaw yr Arglwydd yn amlwg gydag ef yn mhob man. Ar un o'r teithiau hyn, y bu efe yn offerynol i enill Vavasor Powel i'r ffydd, yr hwn a fu un o'r rhai mwyaf ymdrechgar i enill eneidiau at Grist, a fagodd Cymru erioed. Yr oedd Walter Cradoc, o ran ei syniadau, yn Annibynwr; a Vavasor Powell, yn Fedyddiwr. Yn ei daith drwy Geredigion, cofnodir yr amgylchiad canlynol, a gymerodd le yn y Ddôl, ger Tregaron,—yr oedd yno ddyn o'r enw Morgan Howell, yn ddarn o wr boneddig, yn arfer rhigymu caneuon, ac yn orlawn o gynddaredd at grefydd a chrefyddwyr. Pan ddeallodd fod Cradoc yn dyfod i'r ardal, efe a gyfansoddodd yr erthyl Englyn canlynol, yn ogan arno:—

"Dyma fyd, trwm ofyd i'w drin, nid pregeth,
Ond bragiach heb wreiddyn,
Gan ryw Gradoc, o grwydryn,—
Cenhadwr diawl, swyn hudawl ddyn."

Wedi cyfansoddi yr Englyn, daeth gyda lluaws o'i gyfeillion i'r cae lle yr oedd Cradoc yn pregethu; ac er mwyn rhwystro yr addoliad, dechreuasant gicio pel droed, gyda banllefau o wawd ar y pregethwr. Ond o'r diwedd, cynygiodd Morgan Howell daro y bel at ben y pregethwr; un o'i gyfeillion, yn gweled ei amcan, a gododd ei sawdl ef, syrthiodd yntau ac ysigodd ei ffêr, a chan na's gallai symud, bu gorfod iddo orwedd yno i wrando y bregeth; a phregeth i'w chofio iddo ef ydoedd. Aeth y gair i'w galon, nes y bloeddiai allan cyn y diwedd, "Pa beth a wnaf fel y byddwyf cadwedig?" "A oes modd achub pechadur mor fawr a fi?" &c. Cymwysodd y pregethwr y feddyginiaeth at friwiau ei enaid, daeth yn Gristion glöyw, ac yn bregethwr ffyddlawn, hyd ddiwedd ei oes; ac efe oedd un o'r deuddeg a ymffurfiasant yn eglwys gyntaf yn swydd Aberteifi. Ac wedi i Morgan Howell newid ei farn am Cradoc, efe a newidiodd y penill a wnaethai iddo, i'r ffurf a ganlyn:—

"Gan Cradoc, gwr enwog, car i'n,—cawn bregeth,
Nid bragiach heb wreiddyn;
Y gair gwir, tyst cywir yw'r testyn,
Cenhadwr Duw, cain hynod ddyn."

Yn 1639, yr ydym yn cael Cradoc yn Llanfaches, yn cynorthwyo Mr. Wroth i ffurfio yr eglwys Annibynol yno; ac ar farwolaeth Mr. Wroth, yn 1642, efe a gymerodd ofal yr eglwys.

Pan dorodd y rhyfel cartrefol allan, rhwng y brenin a'r senedd, ffodd Walter Cradoc yn nghyda'r rhan fwyaf o'i eglwys, ac amryw weinidogion, o Gymru, am noddfa i Bristol; a buont yno yn cyd addoli a'r eglwys yn Broadmead, nes y cymerwyd y ddinas gan fyddin y brenin yn 1643. Yna hwy a aethant gyda'u gilydd i Lundain, a chyfarfyddent yn gyffredin, sef y brodyr o Gymru, ac o Bristol, yn Great Allhallows, lle y penodwyd Walter Cradoc yn

bregethwr; ond y rhai oedd yn Fedyddwyr o honynt, a eisteddent o dan weinidogaeth Mr. Kyffin yn Devonshire-square. Parhaodd Walter Cradoc i lafurio yn Llundain, hyd 1646, pan y dychwelodd ef, a'r pregethwyr eraill a ffoisant yno o Gymru, ar doriad allan y rhyfel, i wlad eu genedigaeth, fel pregethwyr teithiol, o dan nawdd y Senedd. Treuliodd weddill ei oes yn Nghymru yn benaf; a gorphenodd ei yrfa ddefnyddiol yn Nhrefela, Rhag. 24, 1659, a chladdwyd ef yn nghangell Eglwys Llangwm-uchaf. Bu yn briod, a chafodd ddwy ferch, y rhai a enwodd Lois ac Eunice. Yr oedd yn ddyn tal, gewynog a chadarn, ac ol y frech wen yn ei wyneb. Yr oedd o dymer serchog, ond poethlyd, a byrbwyll. Bu yn pregethu ddwywaith ger bron y Senedd, a phenodwyd ef yn un o'r *Tryers*. Yr oedd yn cynorthwyo Vavasor Powell i ddwyn allan argraffiad Cymraeg o'r Beibl, yn 1654. Cyhoeddwyd ei bregethau yn yr iaith Saesneg, mewn cyfrol 4plyg, yn ystod ei fywyd, ac ail gyhoeddwyd hwynt gan Charles o'r Bala, ac Oliver o Gaerlleon, gyda hanes bywyd yr awdwr, yn 1800.

**CRAI**, capeliaeth yn mhlwyf a chantref DEFYNOG, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU, 8 milldir i'r Gorllewin o Aberhonddu, (*Brecon*) gyda phoblogaeth o 545, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae yn gorwedd wrth ymuniad yr afon fechan Crai, a'r Wysg; yr hon a groesir yma gan bont. Yr oedd cyttir y Fforest Fechan, yn y gapeliaeth hon, yn perthyn gynt i Fforest Fawr Brycheiniog, ond ar warthruddiad Duc Buckingham, fel arglwydd Brycheiniog, gwahanwyd y ddwy Fforest, a rhoddwyd y Fechan gan Harri VIII. i'r arglwydd Seymour o Sudley; ac ar ei warthruddiad ef, rhoddwyd hi gan y brenin i hoffddyn arall, disgynyddion yr hwn a'i gwerthodd yn rhanau bychain. Y mae trigolion y rhan yma o Crai yn rhydd oddiwrth yr arferiad gwriogaethol hwnw ag oedd yn ffynu yn mhlwyf Defynog, sef gorfod myned a'u gwenith, &c., i'w malu i felin arglwydd y faenor; ond ni chedwir yn gaeth at yr arferiad yn awr. Y mae llawer o drigfanau cyfrifol yn y gapeliaeth hon; yn enwedig yn nyffryn y Crai. Ficeriaeth yw y fywioliaeth eglwysig; y mae gwedi ei gwaddoli a 1600*p.* o rodd freninol, ac yn nawddogaeth ficer Defynog. Y mae'r eglwys dipyn i fyny yn y dyffryn, ar lan aswy y Crai, ac wedi cael ei chyssegru i Ilid Sant, am hyny y mae'r pentref yn cael ei alw yn Llanilid. Y mae capel yma gan y Trefnyddion Calfinaidd. Yn 1626, gadawodd Syr John Davy, perchenog y meddiant yma, 40*p.* y flwyddyn at adeiladu 5 elusendy ac ysgol, y rhai sydd i'w talu o'r degwm: ac yn 1699 gadawodd Mr. Morgan Watkin 12*p.* y flwyddyn i'r tylodion. Y mae hen garneddau ar y bryniau cylchynol. Y mae'r trethoedd blynyddol tua 400*p.*

**CRALLO**, SANT, yn ei flodau yn y 6ed ganrif. Mab ydoedd i Sadwrn, a Channa ei wraig, ferch Tewdwr Mawr ab Emyr Llydaw. Daeth drosodd gyda'i rieni i Gymru, a sefydlodd Llangrallo neu *Coychurch*, yn Morganwg.

**CREIGIOG IS-LAN**, neu IS-GLAN, sydd dref-gordd yn mhlwyf Llanarmon, 4¾ milltir o Ruthyn, yn swydd DDINBYCH, yn NGWYNEDD. O ran ei sefyllfa a'i ddarluniad, y mae fel parhad o drefgordd Creigiog Uwch-lan; y mae "isaf," ac "uchaf" yn eu gwahaniaethu.

**CREIGIOG UWCH-LAN**, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanarmon, cantref IÂL, swydd DDINBYCH, GOGLEDD CYMRU, 5¾ milltir o Ruthyn. Y mae yn sefyll mewn dyffryn cul, yn cael ei derfynu ar un ochr gan fynyddau Clwyd, ac ar yr ochr arall gan fryniau sir Fflint, ac y mae yr afon Alun yn rhedeg agos drwy y canol. Y mae nifer o balasau anrhydeddus mewn amryw barthau o'r terfynau hyn.

**CREIRWY**, merch Tegid Foel, o Ceridwen, ac un o "Dair Gwenrian Ynys Prydain."

**CRESSWELL QUAY**, pentref yn nghydiad plwyfi LAWRENNY, CAREW, a JEFFRESTON, yn nghantref ARBERTH, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU, 7½ milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Benfro, poblogaeth yr hwn a roddir gyda'r gwahanol blwyfi uchod. Y mae yn sefyll ar gangen o hafan Milffwrd, ac y mae llawer iawn o gwlwm (*culm*) a glô yn cael eu gyru oddiyma, cyflawnder o ba rai sydd yn y cylchoedd yma. Bu tua 30,000 tynell y flwyddyn yn cael eu cario oddiyma, ond nid oes cymmaint yn awr. Y mae'r llongau a ddefnyddir, yn cario tua phedwar ugain tynell.

**CRICIAETH**, neu CRUG-CAETH, sydd yn awr yn fwrdeisdref, ag ydoedd gynt yn dref farchnad, yn nghwmwd EIFIONYDD, cantref DUNODIG, swydd GAERNARFON, GOGLEDD CYMRU; 18 milltir o Gaernarfon, a 240 o Lundain. Yr oedd y lle hwn, a ystyrir o hynafiaeth foreuol, yn perthynu i Ednyfed Fychan, yr hwn oedd yr unfed-ar-bymtheg-a-thri-ugain, fel disgynydd, mewn gradd linachol, o Henwyn, Dug Cernyw, barwn Brynffenigl, ac arglwydd Criciaeth; ac hefyd yn brif gynghorwr i Llewelyn Fawr. Yr oedd efe wedi enill iddo ei hun radd dda, a dylanwad mawr yn mysg ei gydwladwyr, a dywedir iddo adeiladu amddiffynfa gadarn yma, yr hon, wedi syrthio i adfeiliad, a adgyweiriwyd ac a gadarnhawyd gan Iorwerth I. Yr oedd y castell hwn yn ffurfio un o'r amddiffynfeydd perthynol i'r Traeth Mawr, o'r terfynau yn Meirionydd, i Eryri yn sir Gaernarfon, yn ysdod y brwydrau rhwng y Brytaniaid, a'r Saeson a'r Normaniaid, oedd mor fynych yn goresgyn y wlad. Tua'r flwyddyn 1140, wedi i Gryffydd ab Llewelyn, gael ei garcharu gan ei frawd Dafydd, mor annheg, (yr hwn wedi hyny a ddaeth i'r llywodraeth yn Ngwynedd,) yn y lle hwn am dymor maith, efe a gyflwynwyd yn y diwedd i afael y pennadur Seisnig, Harri III. Wedi i Iorwerth I., gwbl ddarostwng y dywysogaeth, efe a adferodd ac a gadarnhaodd y castell hwn, ac a benododd William de Leybourn yn llywodraethwr arno, gyda chyflog blynyddol o 100*p.*, ar yr amod iddo gynal deg ar hugain o ddynion cryfion, (deg o honynt yn dwyn y bwa-croes), a chapelwr, a meddyg, a saer coed, a saer maen. Yn mysg ei lywodraethwyr diweddarach, yr oedd Sir Hywel y Fwyall, a elwid felly o blegid fod llun bwyell ar ei darian; ac yr oedd efe gydag Iorwerth y Tywysog Du, yn ei deithiau trwy y Cyfandir; ac efe a enwogodd ei hun yn deilwng yn mrwydr Poictiers, lle ei barwnigwyd gan y tywysog, ac y penodwyd ef yn llywodraethwr y castell; y lle a wnaeth wedi hyny yn brif breswylfod iddo ei hun. Dyrchafodd yr un tywysog hefyd, dref Criciaeth yn fwrdeisdref rydd, a cheidwad y castell i fod yn faer; gan ganiatau i'r bwrdeiswyr yr un breintiau a'r cyfryw yn Rhos-Fair yn Mon. Ni wyddir yn iawn pa amser y syrthiodd y castell i gyflwr adfeiliedig; ond yn y 24n, Harri VIII., rhoddwyd gorchymyn i'r llywydd ei adgyweirio, ar draul y brenhin; a darfu i'r penadur hwnw yn y 35in. flwyddyn o'i deyrnasiad, roddi i'r bwrdeiswyr y fraint etholiadol

Digitized by Google

yn newisiad cynnrychiolydd tref Caernarfon; a daeth y lle felly yn un o'r cydfwrdeisiau yn y sir.

Nid yw Criciaeth erbyn hyn ond pentref lled ddisylw; eto ar yr adeg bresenol, fel y mae y rheilffordd wedi cyrhaedd i'w therfynau, y mae yn edrych i fynu, ac yn ymgodi yn gyflym; y mae yr adeiladau yn lluosogi, ac yn gwellhau; a'r lle, yn ol pob arwyddion, drwy ddenu dieithriaid yno yn yr haf, ac amryw gyfleusderau eraill, yn debyg o ddyfod yn lle pwysig ar fyrder. Y mae y traeth yn wynebu bay Aberteifi, ac yn fanteisiol at drafnidiaeth fordwyol, ac y mae yn gyfagos i Borth Madog, lle y mae llechi yn cael eu hallforio mewn cyflawnder mawr; nid oes ond ychydig o gychod pysgota yn perthyn i'r lle yn awr. Y mae y farchnad, yr hon ydoedd ar y Mercher, wedi myned i lawr er ys rhai canrifoedd, ond y mae tair o ffeiriau yn y flwyddyn, yn aros; ar Mai 23n, Mehefin 29n, a Hydref 22n, pryd y gwerthir gwartheg a cheffylau. Y mae corphoraeth y dref yn gynwysedig o faer, yr hwn sydd yn wastadol yn llywydd y castell, ac yn cael ei benodi drwy hawl gyfreithiol am ei oes; dau wysor, y rhai a etholir yn flynyddol, gan y bwrdeisiaid ar y 29n o Fedi; a chofiadur, yr hwn a benodir gan y maer wrth ei ewyllys. Y mae y lle yn parhau yn un o gydfwrdeisdrefi y sir, yn etholiad aelod i'r senedd. Y mae yr hen hawliau bwrdeisiol gynt, wedi eu diddymu, gan ddarpariadau y weithred seneddol ddiweddar, a'r drefn bresenol, yn unol â darpariadau cyffredinol yr hawl etholiadol yn y preswylwyr. Y mae breintlen y dref yn awdurdodi y swyddogion, i gynal llysoedd barn ar fân droseddau, o fewn terfynau y dref, ond nid ymddengys fod y preswylwyr erioed wedi arfer yr hawlfraint hon; y maent yn cynal llys blynyddol i ddewis y swyddogion, ac i'w tyngu i mewn. Y mae yma gyfarfod ynadon yn cael ei gynal yn fisol. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth wahanedig, gyda churadaethau parhaol Treflys, ac Ynys-Cynhaiarn, yn archddeoniaeth Meirionydd, ac esgobaeth Bangor. Y mae yr eglwys, yr hon sydd wedi ei chysegru i St. Catherine, yn adeilad eang, yn ol y arddull diweddar Seisnig, yn cynwys nef, cangell &c.; y mae yn y ffenestr ddwyreiniol, wydr lliwiedig; y mae y cyfan yn drefnus, ond wedi eu gadael yn lled ddiofal, a dibris. Y mae yma leoedd o addoliad gan y pedair plaid Ymneillduol, sydd yn adnabyddus yn y dywysogaeth. Y mae y Parch. Dafydd Ellis, periglor y plwyf, wedi gadael 200*p.*; a'r llog i'w ddefnyddio er talu i ysgolfeistr, am ddysgu holl blant tlodion Criciaeth, Treflys, ac Ynys Cynhaiarn; y mae yn gyffredin tua phedwar ar hugain o blant yn cael y manteision hyn, oddiwrth y gwaddoliad. Y mae y castell yn sefyll ar grib mynydd, yn codi ar lan y traeth, sydd yn ngolwg bay eang Aberteifi; y mae ei lethrau ar bob llaw yn serth, ac yr oedd yn cael ei gylchynu â dyfrffos er diogelwch. Y mae y gweddillion yn gynwysedig o ddau dwr crwn, ac yn bedeirongl o fewn; a bernir iddo gymeryd ei agweddiad presenol, yn yr adgyweiriad a wnaeth Iorwerth I., arno; pan y gwynebwyd y gwaith â meini newyddion; y mae y porth hefyd, a rhai gweddillion o'r amgaer yn aros. Er fod y sefyllfa yn fanteisiol, nid ymddengys fod ei derfynau yn helaeth iawn, ac nad ychwanegwyd at y diogelwch naturiol a berthyna i'r lle, nemawr drwy adgyfnerthiad celfyddyd.

**CRINOW**, sydd blwyf yn nghantref DUNGLEDDY, swydd BENFRO, yn y DEHEUBARTH; 1 filldir o Narberth. Y mae y plwyf hwn, agos yn cael ei gylchynu oll, er ei fod yn nghantref Dungleddy, gan derfynau Narberth, ac yn perthynu, gyd âg ychydig eithriad, i Roger Eaton, Ysw., yr hwn y mae ei balas prydferth, y Parc Glas, o fewn ei derfynau. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, heb fod dan awdurdod lle arall, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Ty Ddewi, wedi ei gwaddoli â 600*p.* o rodd frenhinol, ac yn nawddogaeth Tywysog Cymru. Y mae yr eglwys yn adeilad bychan, diaddurn, gyda thwr, heb fod o unrhyw hynodrwydd.

**CRISTIOLUS**, SANT, yn ei flodau yn y 7fed ganrif. Mab, neu ŵyr ydoedd i Hywel, ab Emyr Llydaw. Efe a sylfaenodd Lancristiolus, yn Mon; ac Eglwys Erw, a Phenrydd, yn Mhenfro.

**CRISTIONYDD**, trefgordd yn mhlwyf RHIWABON, cantref BROMFIELD, swydd DINBACH, GOGLEDD CYMRU, 2 filldir i'r gogledd orllewin wrth orllewin o Riwabon. Y mae yn gorwedd yn y parth gorllewinol, a'r rhan uchelaf o'r plwyf, lle y mae amryw lofeydd gwerthfawr, yn y rhai y mae y rhan fwyaf o'r trigolion yn cael gwaith i ennill eu cynaliaeth.

**CROES**, sydd drefgordd gysylltiedig â Berwyn, yn mhlwyf Tregaron, rhanbarth uchaf cantref PENARTH, swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR; 4 milltir o Dregaron. Y mae y drefgordd hon, yr hon y mae y rhan uchaf o honi yn wyllt, garw, a mynyddig, yn cymeryd ei henw oddiwrth yr afon Croes, sydd yn rhedeg drwyddi, a chan uno a'r afon Berwyn, yn ymollwng i'r Teifi, ychydig o bellder o dan Tregaron.

**CROES-LLWYBR**, neu fel yr ysgrifenir weithiau CROES-LIBIN, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanidloes, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU, 1 filltir o Lanidloes.

**CROMLECH** (*ll.* CROMLECHAU); meini mawrion, wedi eu gosod ar eu gilydd, ar agweddiad bwrdd; ond mewn ymosgo wyrog; yn gorphwys ar feini eraill, wedi eu gosod ar eu penau yn y ddaear, fel pileri cynaliaethol, dan bwys y llechfeini mawrion. Cytunir yn gyffredin, fod ystyr yr enw i'w gael yn eglur yn y geiriau cyffredin, *crwm*, a *llech;* oddiwrth *crwm;* benywaidd *crom;* a *llech*, neu faen; *llech grom.* Gwelir yr ystyr hefyd yn y gair *cryman.* Fel hyn y dywed y Dr. Puw, yn ei Eiriadur, "llech wastad deneu, neu mewn ffurf gafniog, yn gogwydd tu ag i waered." Y mae hefyd, yn enw cyffredin am "*Crair gorsedd,*" "*maen llog,*" neu "*faen* gorsedd;" "maen cyfamod," neu "allor y beirdd." Y mae yr adeiladau hyn yn lluosog yn Nghymru, ac yn enwedig yn Mon. Canfyddir hwy hefyd yn yr Alban, Gwerddon, Jersey, a Llydaw, ac yn mhob man ag y bu y grefydd Dderwyddol yn blodeuo. Gellir eu golygu fel yr olion hynafiaethol Celtaidd, mwyaf cyffredin, nid yn unig mewn lluaws o leoedd yn Ewrob, ond hefyd yn Asia. Y mae nifer mawr o honynt mewn gwahanol barthau o Brydain. Dywed Sir R. C. Hoare, yn ei Hanesiaeth am Wiltshire, am nifer o rai mewn gwledydd pellenig, ag sydd yn dwyn llawer o debygrwydd i'r rhai sydd yn y dywysogaeth. Y mae y rhai sydd yn y wlad hon, yn dangos arwyddion hynafiaethol iawn. Y mae yn Mon yn awr, o leiaf, bymtheg ar hugain; sef dwy yn y Plas-newydd; un yn Bodowyr; dwy yn Mhresaddfed, un yn Myfyrian; un yn Bodlew; un yn Rhos-cerig, dwy yn Trefor (wedi cwympo o fewn cof), dwy yn Rhosfawr; un yn Marian pant y Saer; un yn Lligwy, un yn y Parciau, Penrhos Lligwy; tair yn Mynydd

Digitized by Google

Bodafon; tair yn Bod-deinioel; un yn Llanfechell; un yn yr Henblas, Llangristiolus; un yn Llanfaelog, un yn Din-dryfol, Aberffraw; un yn Mynydd y cnwc; tair gerllaw afon Grigyll; un yn Tywyn Trewen, un yn Llanallgo, un yn Nghremlyn, Llanddona; un yn Llanfair-y-borth; un yn Pandy, Treban; ac un yn Llandyfrydog. Y mae un fawr iawn yn Nefern, sir Benfro, a nifer yn Morganwg. Y mae un ar Gefn-y-Bryn, yn Mrowyr, o faintioli anferth, a elwir Maen Arthur. Dywedir mai hon ydyw y *Maen-Ced-dy* neu "Cetti" y cyfeirir ati yn y Trioedd. Y mae nifer mawr yn ychwaneg, o faintioli a hynodrwydd neillduol, mewn gwahanol fanau o'n gwlad, ond arweiniai sylw arnynt oll ar wahan, i feithder annymunol yma.

Mewn perthynas i ddyben dechreuol y cromlechau, y mae llawer o wahanol farnau. Y golygiad cyffredin sydd yn gymeradwy gan nifer mawr o ddarllenwyr yn y dyddiau hyn ydyw, mai Bedd-feini oeddynt; lle i gysgodi gweddillion enwogion, o urddas mawr. Y mae y syniad hwn wedi dyfod yn boblogaidd, fel y mae y naill ysgrifenydd yn dilyn y llall. Ni amcenir yma olrhain y pwnc yn drwyadl, eto ni byddai yn anmhriodol mynegi, nad yw y syniad crybwylledig yn hollol foddhaol. Os edrychir yn fanwl ar yr adeiladau, yr enwau a roddir arnynt, a'r cofnodau a ysgrifenwyd o bryd i bryd, yn eu cylch, ceir eu bod wedi eu codi o leiaf, i bedwar o wahanol ddybenion, sef fel alloraau, fel beddrodau, fel meini gorsedd, ac fel cof-adeiladau. Barnai Rowlands, Stukeley, ac eraill, mai alloraau oeddynt; ac yr offrymid arnynt, heblaw llefrith a mel, anifeiliaid, &c., ac hyd yn nod gaethweision, a charcharorion rhyfel, a throseddwyr collfarnedig. Y mae Tacitus, yr hanesydd Rhufeinig, yn darlunio Derwyddon Mon, fel rhai a gyfrifent yn addas, i boethoffrymu ar eu halloraau, waed caethion, ac i ymgynghori a'r duwiau, trwy gysegr-chwilio ymysgaroedd dynion. Y mae y dyb mai bedd-rodau yn unig oeddynt, yn ymddangos yn ddi-sail; o blegid y mae rhai o honynt wedi eu codi ar wyneb noeth creigiau celyd, ac na chloddiwyd iddynt nac o danynt erioed. Y mae y sylw hwn yn unig, yn ddigonol i brofi ynfydrwydd y gosodiad. Y mae rhai wedi sylwi, fod yn rhyfedd, er cynnifer o gyfeiriadau a geir yn "Englynion y Beddau," a "Beddau Milwyr Ynys Prydain," at feddrodau personau neillduol, na chaed un o honynt erioed dan y Gromlech, er fod amryw o honynt yn agos iawn atynt. Myn rhai nad ydynt nac alloraau, na bedd-adeiliau, ond mai croth neu lys Ceridwen oeddynt, lle y caethiwid ymgeisydd am urddau, er mwyn ei brofi a'i gymhwyso at ddyledswyddau y grefydd Dderwyddol. Wedi cymeryd yr amrywiol olygiadau hyn dan sylw, gwelir yn amlwg, mai ofer fyddai ceisio eu cyfyngu i ryw un amcan penodol. Y mae y gwahanol enwau a roddir arnynt hefyd, yn raddau o gymorth, er tynu casgliadau priodol am eu dybenion cyntefig; megis *maen-arch, maen-llog, maen-gorsedd*, &c., heblaw yr amrywiol enwau a gedwir trwy draddodiadau lleol arnynt, megis "bwrdd Arthur," "coeten Arthur," "llech y filiast," "gwâl y filiast," "llech yr ast," "allor moloch," &c. Y mae bod cynnifer o honynt wedi eu cyfenwi ar Arthur, yr hwn sydd yn enw cynnrychiadol o fawredd, dyrchafiad, neu allu personol, yn ein harwain i feddwl y gallai rhai o honynt fod yn fedd-feini coffadwriaethol am enwogion, mewn cysylltiad â rhyw rinwedd neu orchest o'r eiddynt. Y mae rhai o'r enwau hefyd yn tybio fod y gwreiddyn yn hollol dderwyddol, yn eu cyfeiriadau at urddau a chymwysderau y beirdd, a'r offeiriaid boreuol; yn enwedig y cyfeiriadau ffugyrol am Ceridwen. Am yr enw "Moloch," nid yw yn hawdd iawn penderfynu, pa un ai treigliad ydyw oddiwrth "dduw tân yr Ammoniaid," ynte a ydyw o wreiddyn Cymreig, megis *mawl-lech;* y mae y naill a'r llall yn awgrymu yn gryf, ei fod wedi ei gymhwyso at y cromlechau oddiar syniadau crefyddol. Yn nhrefn y *cylch cyngrair*, yr oedd wedi ei osod yn nghanol y deml, lle y cyflawnid y defodau perthynol i'r trefniant. Fel mai yr Eisteddfod oedd prif senedd y genedl gynt, y *maen-gorsedd*, oedd y deyrngadair, oddiar yr hon y cyhoeddid cyfreithiau y wlad. Am yr enw *maen-arch*, nid yw yn hawdd penderfynu pa un ai y *prif*-faen a olygir, ynte a oes yma gyfeiriad at Arch Noa, yr hyn a dybir yn fynych, yn ei berthynas ag addysgiadau Derwyddol am dani. Y mae yn ddiau fod llawer llai o nifer o'r adeiliau hyn ar gael yn awr, nag ydoedd ganrif neu ddwy yn ol. Yr oedd teml Carn-llechart, yn mhlwyf Llangyfelach, yn Sir Forganwg, yn eang iawn, a chromlech fawr, a elwid Cist-faen yn ei chanol. Yr oedd Cistfaen hefyd yn nghanol Mynydd-drymau, yn agos i Gastell Nedd. Y mae yr enw hwn, yn awgrymu fod rhyw beth yn cael ei gysgodi, a'i gadw, neu ei ddiogelu ganddynt. Yr oedd "Buarth Arthur," yn agos i Gil maenllwyd, yn sir Gaerfyrddin, o gylchedd eang; nid yw yr enw hwn yn cyfateb i'r rhai cyffredin. Yr oedd temlau Trefdraeth, yn sir Benfro, a "Llech yr Ast" yn Llangoedmor, sir Aberteifi, yn rhai tra chyfrifol, a dywedir eu bod wedi eu cysegru i Ceridwen, a Llywy. Daw y Meini-chwyf a'r Meini-Gwŷr, &c.; dan sylw yn eu lleoedd priodol.

Pwnc ag sydd wedi bod yn destyn ymofyniad mynych, mewn sylw cysylltiedig a'r Cromlechau, ydyw, Pa le ydoedd prif orsedd, neu safle Derwyddiaeth? Ar y testyn hwn, yr ydym yn cael llawer o olygiadau gwrthwynebol i'w gilydd; a phawb yn cael eu harwain i dynu y casgliadau mwyaf naturiol ag a allont. Heb fynwesu yr un rag-dybiaeth am olygiad ffafriol dros y naill a'r llall, gellid crybwyll am y rhai canlynol, ag y mae rhyw beth yn ffafriol, a rhywbeth yn anffafriol i bob un. Cyfeiria rhai yn benodol at *Fryn Gwyddon* (Avebury), fel y brif orsaf. Y mae yma dri o gylchau, diweddar, a chyntefig, ar wastadedd prydferth. Y mae dau o'r rhai hyn yn drefnus a rheolaidd. Y mae yn y mwyaf o honynt yn awr 200 o feini, yn ffurfio y cylch, a 58, ar un cwr iddo yn ffurfio llwybr eang iawn. Y mae yno un arall, cyffelyb o ran ei gynllun, ond ei fod yn llai o faintioli; y mae yno un cylch arall, bychan, a'r Gromlech yn ei ganol; y mae hwn yn ymddangos yn hynafiaethol iawn; ond y mae y ddau gylch eang yn ymddangos yn rhy gelfyddydol a diweddar, i fod yn perthyn i'r un oes a'r llall. Y mae hyn yn tueddu i fod yn erbyn rhoddi yr anrhydedd o fod yn brif orsaf i'r lle hwn.—*Gwaith Emrys* neu *Stonehenge;*—Y mae yma gryglwythi enfawr o feini, ond y mae y gwaith yn dangos ol y cŷn a'r morthwyl, yn mhob man; y maent yn cael eu cysylltu yn nghyd gan denymau a morteisiau; a phan yr ystyriom fod y traddodiad ganddynt, o grefydd Batriarchaidd gwlad Canaan, "pan gotech dy forthwyl arni, ti a'i halogaist hi," y mae yn tueddu i atal gosod y lle hwn yn brif orsaf. *Carnac* hefyd sydd yn deml eang iawn. Y mae yma tu ag un ar

Digitized by Google

ddeg o resi, o feini mawrion, o naw i bymtheg troedfedd o uchder, wedi eu gosod yn llinellau rheolaidd, ond nid oes yno yr un cylch. Y mae tua 300 o feini yn mhob rhes; y mae yno, ar hyn o bryd, dros 4000 o honynt, ac yn rhedeg dros haner milltir o ffordd. Y mae dull eu gosodiad yn tueddu, i fod yn erbyn y dyb mai yma yr oedd y brif deml. Y mae *Pont y pridd*, a phlwyf *Llanwyndeg* yn y Deheudir, yn lleoedd o hynodrwydd mawr. Dywed Angharad Llwyd yn ei "Hanes Mon," a dywed y Gwyddoniadur yr un peth, sef fod mwy o olion Derwyddol, mewn un plwyf yn y Deheudir, sef Llanwyndeg, gerllaw Abergwaen, nag sydd yn holl sir Fon drwyddi. Y mae yn resyn na chai y cyhoedd fwy o fanylion hanes hynafiaethau y lle hwn, fel y gellid ffurfio barn gywir am ei hawliau.—*Sir Fon;*— Er nad ydym yn ceisio sicrhau, am y naill na'r llall o'r lleoedd hyn, pa un oedd y brif orsaf, eto dylem goffau, fel y mae Rowlands, yn ei "*Mona Antiqua Restaurata*, wedi myned cyn belled a datgan o blaid hyny; ac nid yw efe yn sefyll yn unig ar y tir hwn; canys ni a gawn Pennant, a Richards, ac eraill, yn cyhoeddi yr un syniadau. Y mae y casgliadau y mae efe wedi eu tynu oddiwrth enwau ar leoedd yn mhlwyfi Llanidan, a Llanedwen, wedi ymddangos iddo ef, fel profion eglur o gadernid ei ymresymiadau. Pa fodd bynag, y mae yr enwau, ynddynt eu hunain, o ddyddordeb mor darawiadol, fel na byddai yn deg eu cau allan o gofnodiad yma; sef, Tre'r Dryw, Bryn Gwyn, Caer-leb, Tre'r Beirdd, Castell Idris, Bod-drudau, Cerig y Brudyn, Tref-irwydd, Mosoglan, Tre Hirfaen, Bodofwyr, Myfyrian, Afon Braint, yr Ardd Boeth, Clog, neu Clogwyn Poeth, Bryn Poeth, Cefn Poeth, &c. Y mae y cyfeiriadau hyn yn llefaru llawer drostynt eu hunain; at y rhai y gellid ychwanegu lluaws mawr o'r un natur, allan o derfynau y plwyfi crybwylledig, ond heb fod yn nepell oddiwrthynt, megis Llanfihangel Tre'r Beirdd, a'r Maen-addwyn, Alaw'r Beirdd, Llech-cylched, Bod-of-wyr yn Modedeyrn, Bryn Gwyddon, Maen y Dryw, Cerig y Drudion mewn tri o wahanol fanau, Gwaredog, &c., a Llwyni, carneddi, cylchau, gorseddau, Meini Gwyr, a Meini Hirion, yn ddirifedi. Y mae yn briodol crybwyll yn mhellach, fod awdwr dysgedig y *Celtic Researches*, o'r farn fod yr adeiladau syml, geirwon, mawreddig hyn, wedi eu codi mewn coffadwriaeth am yr Arch, o blegid y cyfeiriad ati yn un o'r Trioedd, dan yr enw *Maen Arch*, fel y crybwyllwyd yn barod, a'r enw *Cist-faen* yn gyffelyb, dywed y Triad hwn, mai "tair gweithred orchestol Ynys Prydain ydoedd, codi y Maen-*Ceddy*, adeiladu Gwaith Emrys, a gosod ar eu gilydd Fynydd y Cynulliadau." Ac nid oes dim o'r gweithiau gorchestol boreuol yn cyfateb i'r darluniad hwn, oddigerth adeiladaeth y Cromlechau. Y mae yn destyn llawenydd i bob dyn, wrth feddwl fel y mae paganiaeth y Derwyddon, wedi rhoddi lle i Gristionogaeth yr Ysgrythyr, a'r lleoedd gynt oedd yn demlau yr eilunod, wedi dyfod yn addoldai y gwir a'r bywiol Dduw; y fath ag a dybir ydoedd cyfnewidiad Carn Moesen, neu Carnedd Moses, yn Morganwg, a charn y Groes ar fynydd Gelli Onen, yn yr un sir, lle y saif croes henafol iawn hyd y dydd hwn; yn lle "ymwresogi âg eilunod yn mhlith y derw, a lladd y plant yn y glynoedd dan gromlechydd y creigiau," ein bod yn cael dyrchafu ein caniadau o fawl i'r Goruchaf, oddiar fynydd Sion!

**CRONWERE**, neu CRUNWEAR, sydd blwyf yn nghantref NARBERTH, swydd BENFRO, DEHEUBARTH; 6 milltir o Narberth. Y mae y plwyf hwn yn sefyll ar gyffiniau y wlad, ac o fewn ychydig ar y dde i'r brif-ffordd rhwng Llacharn a Narberth. Y mae y fywoliaeth yn berigloriaeth ar wahan, yn archddeonaeth ac esgobaeth Ty Ddewi, ac yn nhadogaeth y brenhin, fel Tywysog Cymru. Y mae yr eglwys, yr hon sydd wedi ei chysegru i St. Elidyr, wedi ei gwneud i fynu yn briodol at addoliad dwyfol, ond heb unrhyw hynodrwydd adeiladol.

**CRUG-CADARN.** Gwel CERRIG-CADARN.

**CRUGHYWEL** sydd farchnattref fechan harddwych, mewn plwyf o'r un enw, ac mewn cantref o'r un enw hefyd, yn nghŵr eithaf De Ddwyreiniol swydd FRYCHEINIOG, neu WLAD BRYCHAN. Y mae yn sefyll ar lechwedd, yn un o'r dyffrynoedd harddaf a thawelaf yn Nghymmru, bron ar gyffiniau Mynwy, ac yn cael ei chylchynu gan fynyddoedd rhamantus. Y mae'r dref yn 5 milldir o'r Fenni, yn 12½ milldir i'r De Ddwyrain o Aberhonddu, ac yn 153 milldir i'r Gorllewin wrth Ogledd, o Lundain. Y mae'r plwyf yn mesur 1941 o erwau, gyda 1516 o blwyfolion, a'i rif yn yr Undeb Plwyfol, yw 601. Gan ei fod ar y brif-ffordd, o waelod sir Benfro i Loegr, yr oedd yr hen breswylwyr yn bur gyfarwydd â llawer o fawrion y deyrnas, cyn amser y rheilffyrdd. Cafodd Picton roesaw mawr yma, ar ei ffordd i frwydr fawr Waterloo, ac yr oedd galar dwys yma hefyd, pan ddychwelwyd â'i gorff marw yn ol drwy y lle. Bu y frenines Adelaide, ar daith drwy y dref, a chafodd hithau fawr groesaw, yn enwedig gan Probert y Saddler, yr hwn a aeth i ysgwyd llaw â hi yn ddi seremoni, cyn dyfodiad mawrion y lle; a hithau fel boneddiges urddasol, a'i derbyniodd yn groesawgar, yn nghanol banllefau y gwyddfodolion. Nid oes yn y dref unrhyw weddillion hynafiaethol pwysig iawn, ac y mae'r holl dai o adeiladwaith diweddar; llawer iawn o honynt yn dai da iawn hefyd, er eu bod wedi eu hadeiladu am draws eu gilydd. Y mae gwedi bod mewn enwogrwydd mawr gynt, am ei gweithfeydd gwlanenau, ond, fel ei threfydd cymmydogaethol Aberhonddu, a'r Fenni, y mae'r alwedigaeth hono gwedi ei cholli ganddi. Yr oedd gynt yn gyrchle hefyd i bobl afiach, y rhai a ddelent yma i yfed llaeth geifr, ac i ymgryfhau yn yr awelon pur ac iachus ag sydd yn suo dros y bryniau amgylchynol. Y mae hyny gwedi darfod. Perthynai cwmpeini i'r Gwlenwyr, ac un arall i'r Cryddion, gan swyddogion y rhai yr oedd dwy o eisteddleoedd prydferth yn eglwys y plwyf, ac arflen y gwahanol gwmnïau gwedi cael ei gerfio mewn derw ar bob un o honynt. Y mae Dr. Smollett, yn y nofel a elwir "Humphrey Clinker," yn crybwyll am wlenyn Crughywel. Nid oes yma yn bresenol ond galwedigaethau cyffredinol, fel y rhai a ddysgwylid mewn tref amaethyddol, ac y mae llwyddiant trafnidol y dref, yn ymddibynu ar y gweithfeydd cyfagos, megis Llanelli, Nantyglo, &c.

Y mae crefftwyr Crughywel yn rai tra rhagorol; ond y campuswaith crefftwrol a arddangoswyd yma yn y ganrif hon, oedd argraffiad "Hanes Cymmru" Carnhuanwc, gan Mr. Thomas Williams (*Cynidr*). Y mae Mr. Williams yn weinidog gyda'r Wesleyaid, ac yn fardd campus. Ennillodd wobr yn un o Eisteddfodau Aberhonddu, am yr awdl oreu i "Gyfieithwyr y Beibl," yn nghyd âg amryw wobrau ereill. Y mae yn un o faelwyr mwyaf parchus y lle, ac efe yn unig sydd yn aros, o hen enwogion Crughywel.

Digitized by Google

Y mae'r Archddiacon Payne, Carnhuanawc, Dr. Wakeman, ac ereill, yn nhŷ eu hir gartref; y mae Mr. Jones (*ap P. A. Mon*) yn America, ac y mae Mr. Lloyd (*Sallwg*) wedi gadael.

Y mae pump o ffeiriau blynyddol yn cael eu cynnal yma, sef Chwefror 1af, Ebrill 13eg, Mai 12fed, Medi 24ain, a Thachwedd 6fed; eithr nid oes ond un o honynt o ddim pwys, sef y ffair gyflogi a gynnelir yn mis Mai. Y mae'r lleill mor fychain fel ag yr oedd yr hen Jôb y llifwr gynt, yn goleuo canwyll a lantarn i fyned i ymchwilio am danynt. Y mae'r farchnad yn cael ei chynnal ddydd Iau yn wythnosol, ac y mae yn farchnad lawn o bob cynnyrchion amaethyddol, i'r hon y mae nifer nid bychan o "bobl y mynyddau," chwedl trigolion Crughywel, yn dyfod i drafnidio. Y mae toll yn cael ei thalu i'r Duc Beaufort, am bob peth ddaw i'r farchnad, ac y mae ceiniog y pen yn cael ei thalu iddo, am bob un yn y plwyf ag sydd uwchlaw 16 o oedran. Y mae yn fwrdeisdref wrth enw, ac y mae'r dyfynwr (*bailiff*) presenol yn cael ei appwyntio bob blwyddyn gan Arglwydd y faenor, yr hwn yw Duc Beaufort; a byddai gynt yn arferol o gynnal ei lysoedd maenorol, llysoedd y man-ddyledion, &c., yn y neuadd drefol, yr hon oedd yn adeilad anolygus ddigon, yn nghanol yr Heol Fawr. Yr oedd yr hen neuadd yn llys yr ynadon, yn farchnatty, ac yn garchardy; ond y mae gwedi ei thynu i lawr er ys blynyddau, ac y mae neuadd gyfleus arall wedi cael ei hadeiladu gerllaw maelfa *Cynidr*. Y mae arfbais y Duc Beaufort uwchben y pyrth, yr hon a gerfiwyd o faen cyfangwbl gan Mr. Thomas, Aberhonddu, ac a osodwyd i fyny ar draul y diweddar Dduc, yn 1837. Y mae carchardy newydd, wedi cael ei adeiladu hefyd yn Heol y Felin; a mawr fel y byddai y bechgyn yn arswydo rhag ei geidwad diniweid, yr hwn a alwent "Tom of the Jail," canys y mae plant Crughywel wedi myned yn Saeson er ys dros chwarter canrif. Gyda'r llysoedd a nodir uchod, a'r tollau a dderbynir, y mae gan y Duc Beaufort amryw hawliau ereill yn nghantref Crughywel, megis yr hawl o appwyntio trengholydd dros y gantref, gwasanaethu gwysiadau y frenines, &c.

Y mae amryfal farnau am darddiad yr enw Crughywel. Dywed rhai fod y lle yn cael ei alw felly, oddiwrth hen gaerfa Brydeinig ag sydd gerllaw y lle. Tua dwy filldir o'r dref ydyw, ac y mae ar ddull tryfal afreolaidd. Y mae gwedi ei hamgylchynu a phentwr o geryg, y rhai sydd yn 170 llathen eu hamgylchedd, wrth 80 llathen eu lled. Yn ychwanegol at hyn y mae gwedi ei hamddiffyn â ffôs ddofn, yr hon sydd wedi ei thori allan o'r graig. Y mae'r gaerfa gadarn hon yn cael ei galw mewn hen ysgrifau yn Caer-crygiau, ac yr oedd yr hen drigolion yn ei galw yn Begwys, ond ei henw cyffredinol yn awr yw *Table Mountain*. Y mae golygfa ddymunol ac harddwych oddiar ei chopa, ac y mae ei llethrau yn llawn goferydd, yn y rhai y tyfa berw'r dwfr tra blasus. Y mae rhai haneswyr yn priodoli sylfaeniad y gaer hon i Hywel ap Rhys, tywysog Gwent, yr hwn a ryfelodd yn erbyn arglwydd Gwlad Brychan, am diroedd Ystrad-yw, ac Ewias, y rhai yn etifeddiaethol oeddent yn eiddo Hywel. Arglwydd Gwlad Brychan, modd bynag, a'u rhoddes hwynt i Cadell ap Rodri, brenin Deheubarth Cymmru, ac felly gorfu ar Hywel i roddi fyny ei hawl i'r tir uwchlaw Crughywel, lle y gosodwyd ceryg hirion i fyny, i arwyddo y terfynau; ac oddiwrth y ceryg hyn, meddant, y galwyd y lle yn "Geryghywel." Y mae'r lle ar lafar gwlad yr hen frodorion yn cael ei alw Ceryghywel hyd yn awr, ond nid yw y dybiaeth uchod am y ceryg terfyn yn ffaith, canys nid Hywel ap Rhys, ond Owain ap Hywel Dda fu yn ceisio cymmeryd meddiant o diroedd Ystrad yw ac Ewias; ac oddiwrth hyny y mae yn ymddangos, mai i Hywel Dda y perthynent, ac mai nôd bargodion Gwent a Brycheiniog, yw y maen hir sydd gerllaw plasdy Cwrt-y gollen. Cyn uno Lloegr a Chymmru yr oedd Crughywel yn perthyn i diriogaeth arglwyddi y cyffiniau, o dan arglwyddiaeth Blaenllyfni, ac yn adranfa Ystrad yw, ac Ewias. Yn nheyrnasiad Harri VIII., modd bynag, ar ddiddymiad llywodraeth annibynol arglwyddi y cyffindiroedd, cyssylltwyd Crughywel a swydd Frycheiniog, a gwnaethpwyd hi yn ben ar gantref. (27, 34, 35, Harri VIII.) Yr oedd y dref yn myned dan ei henw presenol cyn hyny, fel y sylwa y teithiwr hanesyddol, Leland:—"Cregehouel, a preati tounlet, stondeth as in the vallie upon Wyske. Hard by the toun is a castle, longing ons to the Paunford, but now to the king. Tretowr and Cregehouel stond in the hundred of Ystradyw." Yr oedd Ystrad-yw yn adran bwysig gynt, ac yr oedd cadair farddonol yn perthyn iddi; yr oedd cadeiriau barddonol yn hawl Ewias ac Ergyng hefyd, ond y mae'r enw gwedi myned i golli oddigerth mewn plwyf ag sydd yn ffinio âg un Crughywel, sef Llanbedr-Ystrad-yw.

Y mae'r ffordd fawr Rufeinig, a elwid y *Via Julia Montana*, yn myned drwy y plwyf hwn, wrth droed mynydd Breanog; ac mewn cae yn yml hen gapel Llanfair, y mae twmpath uchel gwneuthuredig. Barna rhai mai hen garnedd Brydeinig ydyw, a barna ereill mai sailfan hen orsaf Rufeinig yw—math o *arx speculatoria*, gwylfa, ag oedd ar y ffordd uchod, yr hon oedd yn arwain o Gaerlleon-ar-Wysg, i Gaerfyrddin. Os Rhufeinig yw y twmpath coedog hwn, dyma'r unig weddill ag y mae'r genedl fawr hono wedi ei adael yn y gymmydogaeth yma, oddigerth olion gwaith haiarn ag sydd gerllaw yma; a chareg hir ar amaethdy Tynywlad, tua milldir o Grughywel. Y mae yn naw troedfedd ei hyd, yn rhyw ddwy droedfedd ei lled, ac yn chwech modfedd ei thrwch. Yr oedd gynt yn sefyll yn syth, ond yn awr y mae gwedi syrthio, ac wedi ei symud o'i lle cyntefig. Y mae arni arysgrifen, ond y mae yn hollol annealladwy oddieithr y gair cyntaf. Y mae ysgrifenydd yn y *Gentleman's Magazine* am 1768, yn dywedyd mai yr arysgrifen ydyw *"Turpilius iacit veri tr. filius dunocate." Turpilii* heb ddim dadl yw y gair cyntaf; ond ni's gellir gwneuthur allan y gweddill. Credai yr hen drigolion fod crochan yn llawn o aur wrth droed yr hir-faen hwn, ac os byddai rhyw rai yn ddigon hyf i fyned yno am ddeuddeg o'r gloch y nos, yr ymddangosai yspryd iddynt, gan bwyntio allan fan cuddiedig y crochan. Daeth gwâs i Dyn-y-wlad o sir Henffordd, ac wedi clywed am y crochan, nid oedd na byw na bod ganddo heb ei gael; ac yr oedd yn barhaus yn poeni y ddau frawd caredig ag oedd yn byw yn Nhyn-y-wlad, am gael myned i edrych am dano. Un noswaith dyma Mr. Edward Rumsey yn dywedyd wrtho, "Heno am y crochan." Llawenodd y llanc, a dyma'r ddau yn agoshau at gongl y cae lle y mae yr hen faen hir yn gorwedd, pan welsant yspryd gwyn mawr yn sefyll yno; ofnai Mr. Rumsey, eithr yr oedd y llanc am fyned rhagddo, ond mewn mynyd, dyma'r yspryd

Digitized by Google

yn toddi i'r awel yn wreichion melltenol; y Sais yn rhoddi y goes iddi, a Mr. Rumsey ar ei ol yn weddol fach o fuan. Cafodd y Sais y fath ddychryn, fel nad arosai yn hir yn ei wasanaeth, ac ni chafodd byth wybod mai y Mr. Rumsey arall oedd yr yspryd. Yr oedd y ddau frawd wedi cytuno, ac un wedi myned i gongl y cae, wedi ei wisgo mewn gwrthban wèn, dàn yr hon yr oedd yn cario dau bentewyn, y rhai a rwbiodd yn eu gilydd, nes cynnyrchu y gwreichion dychrynadwy a nodir, yn nghyd â'r canlyniadau rhedegfäol.

Tua haner milldir o'r dref, ar y ffordd i Aberhonddu, gerllaw tir Gronw Foel, neu *Gwernvale*, safai gynt gromlech weddol o fawr. Gorweddai y gareg uchaf ar bump o geryg ereill, a byddai yr hen bobl yn credu fod ellyllon o dàn y gareg hon. Byddai moch a mulod yn cysgu tani yn y nos, a mynych y byddent yn dychrynu dynion ofnus a diniweid. Er gosod terfyn ar hyn, penderfynodd un Charles Ffrancis ei llwyr ddinystrio; ond methodd gyrhaedd ei amcan, canys rhwystrwyd ef gan wlaw mawr. Y noson hono, gafaelodd twymyn drom ynddo, credodd y bobl mai cosb am gyffwrdd â'r gareg oedd hyn, a chyssegrwyd yr hen weddillion Derwyddol yn ngolwg y preswylwyr. Tynwyd yr hen gromlech i lawr wedi hyny, gan Syr Richard Colte Hoar, yr Archddiacon Payne, a boneddigion ereill, er cael profion a oedd olion claddu dani a'i peidio. Ni chafwyd dim, ac nid oedd digon o foneddigeiddrwydd yn yr henafiaethwyr Vandalaidd, i ail osod yr hen geryg fel yr oeddent, gan hyny y mae yn awr yn garnedd. Amgylchynir hi gan goed, a byddai Carnhuanawc yn eistedd llawer awr i ddarllen yma.

Gerllaw yr hen gromlech hon, y tu arall i'r ffordd, y safai hen gapel Llanfair, yr hwn ag ydym eisioes wedi nodi. Yr oedd peth o'i weddillion yn weledig tua dechreu y ganrif hon, a bu yn cael ei ddefnyddio fel ysgubor, eithr nid oes yn awr ddim o honynt, ond y mae ffermdy yn yml, yr hwn a adeiladwyd ar ei sylfeini, ac a elwir Llanfair hyd heddyw. Yr oedd y capel hwn wedi cael ei gyssegru i'r "Sanctaidd Forwyn Fair," a barna rhai mai dyma yr eglwys blwyfol; ond oddiwrth ymadrodd o eiddo Giraldus Cambrensis, ymddengys nad oedd ond capel o dàn eglwys St. Ednyfed, sef eglwys Crughywel, er ei fod wedi cael ei adeiladu yn mhell o flaen yr eglwys bresenol. Yr oedd Giraldus yn byw yn nheyrnasiad Harri II., ac yn archddeon Aberhonddu, ac yn barhaus mewn dadleuon â'r archesgobion a'r Pabau, am ei fod, ag efe yn Gymro o du ei fam, yn derbyn sarhad mynych oddiwrthynt. Cafodd ei wŷsio i ymddangos o flaen abadau Llanthoni ac Aberhonddu, am beidio talu dirwy ag oedd Archesgob Canterbury wedi osod arno, a'r lle ag oedd efe i ymddangos o'u blaen, oedd "*in capellâ Sanctæ Mariæ de Cruchoel.*" Pe buasai Llanfair yn eglwys blwyfol, y mae yn sicr y buasai Giraldus yn defnyddio y gair *Ecclesia* ac nid *Capellâ*. Dywed traddodiad, fod un o bum cloch eglwys Crughywel, wedi cael ei symud yma o'r capel hwnw, ond os felly y bu, nid oes dim olion henafiaethol arni. Y mae lle a elwir Cae'r Crochenydd yn yml Llanfair, lle y byddid yn arfer claddu dieithriaid, meddynt; ac wrth adeiladu tai yno yn ddiweddar, cafwyd o hyd i esgyrn dynol, y rhai a gladdwyd drachefn yn Nghrughywel.

Y mae plwyf Crughywel wedi cael ei ranu i ddwy dreflan, y fwrdeisiol, a'r wladol; ac yr oedd gynt yn gapeliaeth o dàn blwyf Llangallwg; ond gwnaethpwyd ef yn blwyf gan yr Arglwyddes Sybil, gwraig Syr Grimbald de Pauncefote. Y mae yn nawdd Duc Beaufort, yn esgobaeth Tŷ Ddewi, ac y mae'r ficeriaeth yn werth 650*p.* y flwyddyn. Y mae'r eglwys wedi cael ei chyssegru i St. Edmund (Ednyfed), yr hwn oedd yn frenin Sacsonaidd, ac a laddwyd gan y maeslywydd Danaidd, Hinguar, yn 871. Fel ag yr ydym wedi lled grybwyll eisioes, nis gellir dywedyd pwy yw sylfaenydd yr eglwys hon, Y mae yn gerfiedig ar y bedyddfaen, y dyddiad 1668, ac enwau yr arolygwyr eglwysig am y pryd hwnw. Yn 1725, tynwyd i lawr ddwy rodfa o honi, a defnyddiwyd y coed a'r ceryg i adgyweirio y rhodfa arall. Ail-adeiladwyd hwynt drachefn yn 1830, ar draul y rhai oedd am seddau rhydd yn yr eglwys, i'r rhai y perthynant o hyd, ac y perthynant am byth; gan hyny, y mae'r eglwys yn awr yn ei dull cyssefin croesol. Y mae ei chlochdy pigfain yn un hardd iawn, ac nid oes tebyg iddo yn y wlad. Y mae awel-fynag goreuredig ar ei ben, yn chwareu â'r awelon, ac y mae swn ei glychau yn aml ddadseinio, o'r Daren i'r Ffawyddog. Yn 1836 cafwyd organ newydd yn yr eglwys, ac yn yr un flwyddyn, gosodwyd i fyny gan Syr Joseph Bailey, Barwnig, ffenestr o wydr amryw-liwiedig, yn yr hon y mae lluniau heirdd o'r pedwar Efengylwr, yn nghydag arfbais y Barwnig ei hunan, ac amryw ddyfeisiau ereill. Odditan fwa isel yn mur deheuol y gafell, y mae cerflun o farchog, ac wrth yr arfais ag sydd ar ei darian ddrylliedig, y mae yn debyg mai un o'r Pauncefotes ydyw. Y mae yn gerfiedig arno ryw lythyrenau, ond y maent yn hollol anarllenadwy. O dàn y cyffelyb fwa, gyferbyn a hwn, y mae cerflun o fenyw; ac y mae dau fwa o'r un ddull o bob tu i'r gafell; ond nid oes ynddynt ddim cerfluniau. Y mae ar ochr ogleddol y gafell, gofgolofn hardd iawn, o fynor brithwyn, am y marchog Syr John Herbert, a'i arglwyddes, Joan. Bu Syr John farw Mai 10fed, 1666, a'i arglwyddes yn mhen ychydig wedi hyny. Bu iddynt bedwar-ar-ddeg o blant, ac oddieithr un, buont oll feirw yn eu mabandod; yr un hono oedd Elizabeth, yr hon a briododd â William le Hunt, *Sergeant-at-law.* Wrth ben dwyreiniol y gofgolofn hon, y mae cerflun Sergeant Hunt a'i wraig, ac y mae yn gerfiedig ar y naill o honynt, 1694, ac ar y llall, 1703. Y mae yma amryw gofgolofnau ereill i deuluoedd diweddarch, ond o lai enwogrwydd. Y mae yn y gafell, wyddfa er coffadwriaeth am wraig gyntaf Henry Williams, Yswain, cyfreithiwr; arysgrifen yr hon sydd yn Lladin, ac y mae ei geiriad gramadegol a thlws, ei *multum in parvo*,—ei chydwasgiad o ymadroddion synwyrlawn i ychydig eiriau, yn ddiguro bron. Y mae yma wyddfa arall i un o'r dynion goreu fu ar y ddaear erioed, sef y diweddar Barch. Henry Vaughan, disgynydd o Vychaniaid gwladgarol Brycheiniog; ac y mae yn gerfiedig arni y geiriau canlynol:—

Sacred to the Memory of
THE REV. HENRY VAUGHAN,
Late Vicar of this Parish.
He Died January 15th, 1837,
Aged 31 Years.

**God forbid that I should glory, save in the cross of our Lord Jesus Christ.**
**Thine eye shall see the King in his beauty.**

Yn ychwanegol at hyn yna, y mae yn gerfiedig hefyd ar y piler, amser marwolaeth dau o blant Mr.

Digitized by Google

Vaughan, y rhai a fuont feirw oddicartref. Canlynydd Mr. Vaughan, yw y Parch. John Evans, B.D., brodor o bentref Trefach, ger Emlyn, swydd Gaerfyrddin. Y mae Mr. Evans yn fardd pur wych, fel y dengys yr englynion annerchiadol yma o'i eiddo i Weithiau barddonol y Parch. James James (*Iago Emlyn*):—

"Amlach yw Iago Emlyn—ei ffrwythau,
A ffraethach nag undyn;
A diliau mêl ei delyn
A orlifant o'r tant tŷn.

Annoger gwaith ein Iago,—dalenau
Dail anian sydd ynddo:
Gwawl addysg a goleddo,
Bydd geraint i'n braint a'n bro."

Y mae'r lle hytrach yn eglwysig, ac y mae gofal mawr yn cael ei gymmeryd am yr hen eglwys brydferth. Y mae newydd gael ei hadgyweirio, ac y mae gwelliannau mawrion wedi cael eu gwneuthur yn y gladdfa, dwy yr hon y mae llwybr troed cyhoeddus. Cynnwysa amryw gof-golofnau destlus, dyddiadau llawer o ba rai sydd wedi eu treulio allan gan y tywydd, a'r dyddiad hynaf a welir yma, yw 1666.

Er eglwysyddiaeth y lle, y mae enwadau crefyddol ereill wedi bod yn gwneuthur eu rhan dros lesiant moesol y plwyf, a'r dref hon. Bu Howel Harris yn pregethu yma, a dau ŵr duwiol ereill yn ei amser ef, sef Morgan John Lewis, a Morgan Jones, ac ar y ddau Forgan nodedig yma, yr oedd yn gorphwys arolygiaeth y cŷrau yma o Frycheiniog a Mynwy. Casglasant amryw aelodau eglwysig yn nghyd, mewn amryw fanau, megis yn Cantref, Cwmdu, Glyn, Grwynau-fechan, Llanfihangel, Llangallwg, a Llansaintffraid, oll yn ardal Crughywel.

Bychain oedd y cymdeithasau hyn, ac nid oedd gan un o honynt gapel, fel ag y maent yn myned i golli yn ngolwg y Parch. John Hughes; awdwr "Methodistiaeth Cymru." Y mae dyryswch mewn cyssylltiad â'r peth, rhaid cyfaddef, a chafodd y cymdeithasau bychain yma lawer o'u herlid gan Davis Cwrtygollen, ac eglwyswyr trahaus-feilch ereill; ond yr ydym yn barnu mai ffrwyth yr holl gangenau yma, ydyw eglwys Danycastell, Crughywel. Bu Jones, Llangan; Peter Williams; Edward Goslett; enwogion ereill; a myfyrwyr Trefeca; dau o honynt —Lewis Jones, a Griffith Williams, yn "feibion y daran;" yn pregethu yn Nghrughywel; ond ni chawsant yno y derbyniad parchus a gawsent yn awr. Yr oedd Crughywel y pryd hwnw, fel y plwyfi o'i gwmpas, ar uchelfeydd ei wylmabsantau a'i annuwioldeb; ond trechwyd hwynt gan angerdd graslawn y diwygwyr Methodistaidd; ac y mae llawer o'r buddugoliaethau moesol yma yn synfawr, hanes y rhai a ellir weled yn "Methodistiaeth Cymru," Cyf. iii. Dos. iv. Pen. iv. Yn nhŷ Mr. Rumsey, Tal-y-garan y cychwynwyd yr achos gyntaf, er mai yn nhy Mr. Powell, o'r Twyn, y pregethid ar y cychwyniad. Wedi symudiad Mr. Rumsey i'r Ty'n-y-wlad, byddid yn cynnal moddion yno, ar yn ail a thŷ Mr. Herbert, yr Held. Llwyddodd y Mr. Herbert hwn, i gael darn o dir gan ei dad, Mr. Herbert o'r Gilfach, i adeiladu capel arno, ac adeiladwyd capel Danycastell yn 1805. Ail-adeiladwyd y capel yn 1826, ac y mae gwedi myned drwy welliannau amrywiol ar ol hyny. Y mae pobl barchusaf y dref a'r gymmydogaeth wedi bod, ac yn bod yn aelodau yn y capel hwn, ac y mae rhif presenol yr aelodau, tua 100.

Bu John Wesley hefyd yn talu ymweliadau â Chrughywel. Dydd Iau, Awst 18fed., 1763, marchogodd yma o Drefynwy, a disgynodd yn y Bear Hotel, yr hwn sydd yn para i fod yn brif westy y dref, a meddyliai gael tamaid i'w fwyta; ond gorfu iddo fyned allan cyn ei giniaw, a phregethu i'r lluaws ag oedd wedi ymgasglu yn awyddus i'w wrando. Ni wnaethpwyd dim er sefydlu achos yn y lle hyd 1807, pan y daeth y Parch. Evan Edwards yma i bregethu. Yn mhen pythefnos ar ei ol ef daeth y Parch. W. Batten yma, ac efe y pryd hwnw ar Gylchdaith; a chafodd ei weinidogaeth danllyd effaith mawr ar y gymmydogaeth. Cymmerodd dŷ dân ardreth yn Heol y Bont, a sefydlodd gymdeithas yno. Yn 1808 gwnaethpwyd Crughywel yn ben Cylchdaith, ac yn weinidogion arni, sefydlwyd y Parchn. W. Batten, Griffith Hughes, ac Evan Edwards. Yr oedd Wesleyaid Crughywel erbyn hyn wedi dyfod yn barchus; ond cyfododd dyn drwg yn eu plith, yr hwn a fu yn dra niweidiol i'r achos am flynyddau. Yn 1812 pennodwyd y Parchn. Hugh Hughes a Lot Hughes i'r Gylchdaith, ac wedi cael llawer iawn o rwystrau a gofid, llwyddasant i adeiladu y capel presenol, yn nghanol y dref; ac efe a gafodd ei agor Mehefin 23ain 1813. Y mae llawer o welliannau gwedi cael eu gwneuthur yn y capel ar ol hyny; y mae dynion parchus a duwiol wedi bod yn dàl cyssylltiad âg ef, ac y mae llafur mawr wedi cael ei gymmeryd gyda'r achos; ond nid yw drwy'r cwbl, mor flodeuog ag y gallesid dysgwyl. Priodolwn hyn yn hollol i'r ffaith, fod Cymru Crughywel wedi myned i siarad Seisneg. Y mae Ymneillduwyr y dref a'r wlad, yn siarad Seisneg â'u plant, yn dysgu Seisneg iddynt yn yr Ysgol Sul, a phan y byddo iaith yr Ysgol Sul yn wahanol i iaith y pulpud, ofer yw dysgwyl am lwyddiant yn y fan hono. Y mae'r Wesleyaid Seisnig wedi bod yn ymdrechol iawn yma hefyd, ac am flynyddau lawer wedi bod yn pregethu mewn ystafell ardrethol; ond y mae yn awr ganddynt gapel, yr hwn a agorwyd yn 1852.

Y mae gweinidogion eglwys y Bedyddwyr yn Llanwenarth, wedi bod yn pregethu llawer yn y gymmydogaeth hon; canys nid yw Llanwenarth yn mhell oddiyma; ond ni chafwyd capel yma hyd 1839. Buont yn pregethu am lawer o flynyddau yn y *Three Salmons;* wedi hyny symudasant i ffermdy o'r enw Tymawr, Llangattwg. Yr oedd rhywun yn achwyn yn y Tymawr, nad oedd pregethu yn Nghrughywel, a dyma'r Parch. James Lewis, Llanwenarth, yn union ar ei draed, ac yn dywedyd dipyn yn sarug:—"Tewch a sôn y dyn, os oes gan yr Arglwydd bobl i'w hachub yn Nghrughywel, mi ddaw â hwynt i'r Tymawr, Llangatwg." Y mae capel y Bedyddwyr wedi cael ei adeiladu wrth y Bont, yn ngwaelod y dref, er mwyn cyfleusdra pobl Llangattwg. Y mae gwedi bod yn ddigon helbulus ar yr achos hwn yn ei ddyddiau cychwynol, ond y mae pethau yn well er ys tro, ac y mae yma tua chant o aelodau. Nid oes yma un achos gan yr Independiaid, ond y mae ganddynt eglwys barchus iawn yn Llangattwg, yr hwn le sydd megys yn un â Chrughywel, ac y mae ganddynt eglwysi parchus iawn hefyd yn yr ardaloedd cymmydogaethol.

Y mae yn Nghrughywel ei hunan amryw blasdai, ac y mae yn cael ei hamgylchynu gan amryw ereill, megis Tanyparc, Plâs Duc Beaufort, Glanusk Villa, Glanusk Castle, Sunny Bank, Court-y-gollen, Court-garw, Greenhill, Gwernvale, &c. Yr unig ddau

Digitized by Google

bwysig o honynt mewn hanesyddiaeth, ag sydd yn dàl cyssylltiad â Chrughywel, yw y Courtgarw, a Gwernvale. Y mae'r Courtgarw, neu Gwrt-y-carw, neu fel y gelwir ef yn bresenol—Porth Mawr, yn sefyll ar y llaw ddeau wrth fyned i mewn i'r dref; a barna rhai, taw darn o'r castell ydyw, gan ddywedyd fod ffordd dan-ddaearol yn arwain oddiwrtho i'r castell. Gwelsom hen ddarlun o honaw yn meddiant Mr. John Evans, Teiliwr, ac ar gefn hwnw, dywedai y darlunydd mai perthyn yr ydoedd i hen drigle castellog yr Herbertiaid cyntaf a fu yma; a dyna oedd barn Carnhuanawc. Perthynai gynt i'r Cadben Frederick, yr hwn a adeiladodd yr anneddle dlws bresenol yn 1810. Y mae'r Cadben Seymour wedi bod yn byw ynddo ar ol hyny, ac y mae'r olygfa a geir ar ddyffryn Wŷsg drwy y Porth, yn ardderchog o swynol, ac hen fryniau gogoneddus Penmyarth yn ei chysgodi yn y cefn. Y mae Gwernvale—Tir Gronw Voel, ychydig yn mhellach yn mlaen na Chwrt-y-carw; ac y mae yn blasdy hardd iawn, ar lechwedd dymunol, ac hyfryd, goruwch yr afon Wysg. Mewn hen ysgrifau, y mae y lle hwn yn cael ei alw yn "Gwernfald, neu Moelmore." Yn ol hen ysgrif yn meddiant y diweddar Archddiacon Payne, yr hon oedd wedi cael ei hysgrifenu yn nheyrnasiad Edward II., yr oedd y tir yma yn meddiant Goronwy Voel, yr hwn sydd yn cael ei alw yn yr ysgrif yn *Comportionarius Ecclesiæ Beati Edmundi de Crúghoel.*" Ar ol Goronwy, y mwyaf enwog o breswylwyr Gwernvale, oedd Syr Henry Proger, Marchog, yr hwn a wasanaethodd Charles I. gyda sêl fawr; a bu ei frodyr yn euog o fod â llaw yn llofruddiaeth Mr. Ascham, y cenadwr Seneddol i lys Madrid, ganol dydd goleu. Gwasanaethodd Charles II. hefyd yn ffyddlawn, a bu ganddo mewn alltudiaeth, ond ni bu y naill Charles na'r llall yn garedig iddo, a bu farw mewn amgylchiadau cyfyng, y dydd diweddaf o Ragfyr, 1713, yn 92 mlwydd oed.

Y mae Mr. Manby, y teithydd, yn crybwyll fel hyn am y dref hon:—"Ymddengys y dref yn wael iawn, ac yn agos iddi y mae gweddillion hen gastell, yr hwn gan rai a elwir yn gastell Alisby." Ar fynydd Carno, ychydig o'r dref, bu brwydr yn 728, rhwng Gwŷr Morganwg, ac Ethelbald. Nid oes dim sicrwydd am sylfaenydd y castell hwn; dywed rhai mai Syr Humphrey Burghill ydoedd, i'r hwn y rhoddwyd maenor Crughywel gan y gorchfygwr Normanaidd, Bernard de Newmarch, yr hwn a ladrattodd Brycheiniog oddiwrth Bleddyn ap Maenyrch y brenin brodorol, yn nheyrnasiad William II. Nid oes sicrwydd am hyn; ond ymddengys ei fod yn iawn, canys yr ydym yn cael hanes am Sisyllt ap Riryd, Tywysog Gwent, yn cymmeryd castell y Burghills yn 1172. Yn yr adeg hon, efallai i'r Burghills ymofyn cynnorthwy gan eu cymmydogion, y Turbervills o'r Coyty, Morganwg. Gan nad beth am hyny, yr oedd y Turbervills, neu fel y gelwid hwynt ar lafar gwlad yn Morganwg, y "Twrbiliaid," yn preswylio yn nghastell Crughywel yn 1216. Tua'r amser hwnw, darfu i Sybil, merch ac etifeddes Syr Huw Twrbil, briodi â Syr Grimbald Pauncefote, neu Paunsfoot, a thrwy hyny aeth castell a maenor Crughywel yn eiddo i Syr Grimbald. Bu Syr Grimbald yn help mawr i Edward I., ac efe a gafodd gan y brenin hawl i gynnal marchnad yn nhref Crughywel; a'r ffair gyflogi ag ydym eisioes wedi nodi, Mai 12fed. Yr oedd yn rhyfelwr gwŷch, ond cymmerwyd ef yn garcharor yn mrwydr Nottingham (Din-Obant), ac nid llawer o goffa sydd am dano gwedi hyny. Gadawodd ar ei ol ddau o blant, Syr Grimbald, a Syr Emerod. Nid oes dim hanes am y ddau yma; ac yn nheyrnasiad Edward II. yr ydym yn cael maenor a chastell Crughywel yn meddiant Roger Mortimer, yr ieuengaf. Yn 1325 yr oedd Mortimer yn garcharor yn Nhŵr Caerludd; ond diangodd drwy gymhorth ei geidwad, Gerard de Allisby. Wedi adennill o Gerald ei hawliau, gosododd Allisby yn llywydd castell Crughywel, yr hyn sydd yn cyfrif am y ffaith o'i fod yn cael ei alw Castell Allisby. Yn fuan ar ol hyn, modd bynag, adenillwyd y castell a'i gyfoethau, gan Syr Grimbald Paunsfoot, mab y Syr Emerod a enwir uchod. Bu farw y Syr Grimbald hwn yn 1357, ac am nad oedd ganddo etifedd, daeth y castell a'r ystâd yn feddiant i'r ieuengaf, Syr Huw Paunsfoot. Ar farwolaeth Syr Huw, disgynodd i'w fab Syr John Paunsfoot, yr hwn a gafodd orchymyn arbenig i'w amddiffyn rhag rhuthriadau gwladgarol Owain Glyndwr. Ond gan nad pa amddiffyn a wnaeth Syr John, dinystriwyd y castell, gyda chastell Tretŵr, a chestyll cymmydogaethol. Gadawodd Syr John dri o blant, sef Syr Huw, Thomas, a Margaret. Ni bu iddynt etifeddion, ac yn ol ewyllys Syr Huw, daeth y castell a'r ystâd yn eiddo Harri VI. Bu gwedi hyn yn meddiant Richard, Duc Caerefrog, yr hwn oedd wedi priodi Anne, chwaer Edward Mortimer, Iarll March, ac felly yn ei hawlio fel meddiant y Mortimeriaid. Yr oedd Edward IV. yn ŵyr i'r Duc Richard, ac yn gynnar yn ei deyrnasiad, rhoddodd y castell, &c., i'w gyfaill Syr William Herbert, o gastell Raglan; yr hwn, wedi hyny, a greodd yn Iarll Penfro. Bu i'r Syr William hwn unig fab, a bu iddo yntau unig ferch ac etifeddes, yr Arglwyddes Elizabeth Herbert, yr hon a briododd Syr Charles Somerset, yr hwn wedi hyny a grewyd yn Iarll Caerwrangon (*Worcester*). Oddiwrth hwn y mae wedi disgyn yn linachol olynol i'r perchenog presenol, y Duc Beaufort. Yr oedd y castell, a'r tir perthynol iddo, yn mesur dros ddau gyfair o fewn y muriau, ac yr oedd yn edrych yn bur brydferth yn 1600, fel y gwelir oddiwrth ddarlun o honaw a dynwyd yn y cyfnod hwnw. Yr unig weddill o honaw, ydyw tŵr dadfeiliedig ar yr ongl Ddc. Ddwyreiniol. Y mae'r Herbertiaid yn preswylio yma o hyd, ac felly hefyd y mae'r Burghills, ond y mae'r olaf yn sillebu eu henwau yn awr yn Burfields. Yr oedd Cil-le yn mhlwyf Llangattwg yn perthyn i gastell Crughywel; ac yr oedd pont yn croesi yr Wŷsg tuag ato. Gwel CIL-LE.

Y mae Crughywel yn cael ei wahanu oddiwrth blwyf prydferth Llangattwg, gan yr afon Wŷsg, yr hon a groesir yma gan bont dlos, o 13 bwa. Y mae ffordd newydd wedi cael ei gwneuthur, er ys rhyw hanner can mlynedd yn ol, o ben y bont hon, allan i'r brif-ffordd wrth y Porth Mawr; ac yr oedd ei mawr eisiau, canys y mae'r hen ffordd drwy y dref yn hynod o serth. Y mae ffordd newydd arall wedi cael ei gwneud, o'r Heol Fawr i'r Heol Newydd; ac y mae y dref fechan yn edrych yn bur daclus. Y mae gwedi ei goleuo â nwy, ac yn cael ei dyfrhau yn gyflawn er ys blynyddau. Y mae ŷf-ffynnon wedi cael ei chodi yn mhen y dref, yn 1869, gan y diweddar Mr. J. Jones. Y mae yma feddygfa, a llawer o sefydliadau cymdeithasol, ac y mae y dref yn cadw i fyny agos yr oll o'i hen arferion cyntefig, megys Sul y Blodau, y ddyhuddgloch, y gwylmab-

Digitized by Google

sant, &c. Y mae yma ysgol Genedlaethol, ac Ysgol Brydeinig, gydag ysgolion ereill; ond newydd hytrach yw yr ysgol Brydeinig. Y mae amryw hynodion yn nghylchoedd Crughywel, megys yr Eglwys Faen; Castell Glanwysg, annedd Syr Joseph Bailey, Barwnig—hen breswylfod y Maeslywydd Keppel; Llyn Llangors; y Fâl, &c., ac y mae yn drueni na byddai rheilffordd yn rhedeg drwyddi, o'r Fenni i gyssylltiad rheilffordd Merthyr ac Aberhonddu; y mae camlas Aberhonddu a Chasnewydd-ar-Wysg, yn myned heibio, ac y mae son yn awr am gael y rheilffordd hefyd. Y mae yn brif eisteddle Undeb y Tylodion, yn yr hwn Undeb y mae'r lleoedd canlynol:—Grwyneu Fawr, Grwyneu Fechan, Llanbedr-ystrad-yw, Llanelli, Llanfihangel-Cwmdu, Llangattwg, Llangeney, Llangynidr, a Patrishw, y rhai sydd dan ofal 16 o warcheidwaid. Y mae trethoedd plwyf Crughywel tua 250*p.* y flwyddyn.

"Croyw a gwiw yw Craighywel,
Glân yw a mâd, glyn y mêl."

**CRUGION**, sydd gapeloriaeth yn nghwmwd Ystrad Marchell, cantref YSTLUC, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU; 6 milltir o Trallwng. Y mae y fywoliaeth yn guradaeth barhaol, yn archddeonaeth Amwythig, ac yn esgobaeth Henffordd, wedi ei gwaddoli â 1000*p.* o rodd frenhinol, ac yn nhadogaeth ficer Alderbury. Y mae y capel yn adeilad prydferth, wedi ei wneyd o briddfeini, ac yn sefyll ar geulanau yr Hafren. Y mae yma ysgol Wladwriaethol, yn cael ei chynal drwy gydroddion, yn yr hon y mae tua deugain o blant yn cael addysg. Gadawodd Methuselah Jones, yn 1727, hawl ar ardreth o 3*p.* 3*s.*, er darparu deg o gobau i dlodion y plwyf hwn, yn flynyddol. Adeiladwyd ar grib uchaf un o fryniau Breiddyn, o fewn y capeloriaeth hwn, yn 1781, big-dwr, er coffadwriaeth am orchestion morwrol y Llyngesydd Arglwydd Rodney, ac yn neillduol am ei orchfygiad ar y llynges Ffrengig, yn yr India Orllewinol, dan arweiniad Count de Grasse.

**CUGIAN**, neu GOGOIAN, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanddewi-Brefi, yn rhanbarth isaf cantref PENARTH, swydd ABERTEIFI, DEHEUBARTH; 5½ milltir o Lanbedr. Y mae yn sefyll ar geulan chwith afon Teifi, sydd yn cael ei chroesi yma ar bont, ac ar lethr gorllewinol tir dyrchafedig.

**CUHELYN**, mab Gwrgant Farfdrwch, a ganlynodd ei dad i orsedd Prydain.

**CUHELYN** AB CAW, bardd yn y 6ed ganrif. Dywedir mai efe yw awdwr y gân ar "Frad y Cyllyll Hirion" yn Stonehenge, yr hon a gedwir yn y *Myf. Arch.*

**CUHELYN** FARDD, ydoedd fab Gwynfardd Dyfed, ac yn ei flodau tua diwedd yr 8fed ganrif. Priodola rhai y Gân ar "Frâd y Cyllyll Hirion" iddo ef.

**CUL FYNAWYD PRYDAIN**, penaeth yn y 6ed ganrif, a gofnodir fel tad Tair Anniweir-wraig Ynys Prydain; sef Essyllt, Bun, a Phenarwen.

**CUNEDDA**, ydoedd fab Einion, tywysog Cernyw, o Rhagaw ferch Llyr. Gwel CORDALIA.

**CUNEDDA WLEDIG**, brenin Brythoniaid Ystrad Clwyd, yn nechreu y 4edd ganrif, ydoedd fab i Edeyrn ab Padarn, o Gwawl, ferch Coel Godebog. Trwy ei wraig, daeth i etifeddiaethau helaeth yn Nghymru, y rhai a draws-feddianwyd gan y Gwyddelod, ond a ail feddianwyd gan feibion Cunedda, y rhai, wedi iddynt ymlid y Gwyddelod ymaith, a ymsefydlasant yn y wlad, ac a roddasant eu henwau i lawer o leoedd yn y dywysogaeth. Meirion ab Tybiawn, ŵyr Cunedda, a gafodd, ac a roddodd ei enw, ar Feirion; Arwystl, ar Arwystli; Einion, ar Gaereinion; Ceredig, ar Geredigion; Dunod, ar Dunodig; Edeyrn, ar Edeyrnion; Mael, ar Dinmael; Coel, ar Coeleion; Dogfael, ar Dogfaelin; Rhufon, ar Rhufoniawc; ac Oswallt, ar Groesoswallt, yn swydd Amwythig. Darfu i eraill o feibion Cunedda ymgyflwyno i fywyd crefyddol, o ba herwydd, teulu Cunedda, gyda'r eiddo Bran a Brychan, sydd yn ffurfio "Tair Gwelygordd Santaidd Ynys Prydain." A dywed y *Trioedd* mai efe oedd y cyntaf a roddes "dir a braint i Dduw a'r saint yn Ynys Prydain."

**CURIG LLWYD**, neu y BENDIGAID, ydoedd sant, enwog am ei ddysg a'i fuchedd santaidd, yn y 7fed ganrif. Dywed traddodiad, mai dyfod i Gymru a wnaeth o rywle, ac iddo, ar ol glanio yn Aberystwyth, deithio i fyny trwy ganol y wlad, i gyfeiriad Pumlymon; ac iddo eistedd i orphwyso ar ben mynydd uchel, tua dwy filldir i'r deau o Bumlymon, o ba le y gallai weled yr holl wlad am lawer o filldiroedd o'i amgylch, ac y penderfynodd ar fan i adeiladu eglwys, yr hon a elwir Llangurig, yn nghantref Llanidloes. Gelwir y llecyn ar ba un yr eisteddai y sant, yn Steddfa-Gurig hyd y dydd hwn, ac mae yn debyg mai at yr amgylchiad hwnw y cyfeiria yr hen benill canlynol, yr hwn a gedwir ar lafar gwlad yn yr ardaloedd hyny:—

"Mi debygais wrth fy magu,
Cawswn wely o blu i gysgu;
Yn lle hyny, gwely o gerig
Ar ben bwlch Eisteddfa-Gurig."

Tybir hefyd bod Sant Curig wedi bod yn esgob yn rhywle yn Nghymru—yn Llanbadarn fawr, fe allai.

Ymddengys ei fod yn dra enwog yn mhlith y Seintiau Cymreig yn y 15fed ganrif; canys gwelwn oddi wrth gywydd "Marwnad Einiawn ab Ieuan," gan Lewis Glyn Cothi, ei bod yn arferiad yn ei amser ef, gan y mynachod cardotlyd gerdded y wlad i werthu delwau o hono ef a seintiau eraill, gan dderbyn mewn cyfnewid, gaws, enllyn, gwlan, ŷd, &c.:—

"Un a arwain yn oriog,
Gurig Lwyd dan gwr ei glog;
Gwas arall a ddwg Seiriol,
A naw o gaws yn ei gol."

Yr oedd ei fugeil-ffon yn cael ei chadw yn ofalus yn eglwys Llanarmon, yn amser Giraldus Cambrensis, yr hwn a ddywed am ei rhinweddau fel hyn:—Yn eglwys St. Garmon, y mae ffon St. Curig, wedi ei gorchuddio gydag aur ac arian, a'i phen uchaf ar lun croes. Y mae llawer prawf wedi ei gael o'i rhinwedd i wella clefydon, yn enwedig chwyddiadau manwynog; pwy bynag a flinir gan yr anhwylderau hyn, ac a wnelo gais duwiolfrydig at y ffon, gydag offrwm o geiniog, a gwbl iacheir." Yna efe a gofnoda ddwy engraifft anhygoel o feddyginiaeth a gafwyd trwyddi yn ei ddyddiau ef.

**CWM**, sydd blwyf yn nghwmwd Rhuddlan, cantref TEGEINGL, swydd FLINT, GOGLEDD CYMRU; 3 milltir o Ruddlan. Ymddengys fod enw y lle wedi ei gymeryd oddiwrth sefyllfa yr eglwys, a'r pentref, mewn pant neillduedig, rhwng bryniau uchel. Y

Digitized by Google

mae y plwyf, yr hwn sydd tua thair milltir o hyd, a dwy a haner o led, ag sydd mewn rhan o fewn maenoriaeth Rhuddlan, yn perthyn i Esgob Llanelwy; cynwysedig, gan mwyaf, o dir cyffredin mynyddig, heb ond ychydig o hono dan wrteithiad. Y mae yr olygfa o'r pentref yn dra tharawiadol, ac oddiar y bryniau uwchben, yn arbenig, yn cyrhaedd dros ddyffryn ffrwythlon y Clwyd, môr y Werydd, a mynyddoedd Eryri, gyda'r bryniau cysylltiedig. Bernir fod y bryniau yn cynwys adnoddau mwnyddol cyfoethog, ac y mae yno gareg-haiarn mewn cyflawnder: ac y mae gweithfa i doddi, a gyru y mŵn, wedi ei chodi o fewn tua milltir a haner i'r pentref. Y mae ffynon Asaph yn ffrwd digon cref i droi yr olwynion, ac yn gwasanaethu i ddwy felin ŷd yn y gymydogaeth; yn nghyd â ffrwd arall a red drwy gilfachau y Dyserth. Cafwyd llechi hefyd yn mynydd y Cwm, ond nid o ddefnydd cymhwys at doi. Y mae y brif-ffordd o Gaerlleon i Gaergybi yn rhedeg o fewn milltir a haner i'r pentref. Y mae rhan o'r plwyf hwn o fewn cylch bwrdeisdref Rhuddlan. Y mae y fywoliaeth yn cynwys perigloriaeth a ficeriaeth, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Llanelwy. Y mae y ficeriaeth wedi ei gwaddoli a 200*p.* o rodd frenhinol, ac y mae y naill a'r llall yn nawddogaeth esgob Llanelwy. Y mae degymau y plwyf, yn cael eu rhanu rhwng y periglor a'r ficar. Y mae yr eglwys, sydd wedi ei chyflwyno i Valacinian, yn adeilad dysyml, cadarn, heb yr un tŵr, ac er fod yr adail yn ymddangos yn lled drwsiadus oddi allan, nid yw yr adgyweiriad o fewn yn gyfatebol; y mae yn cynwys amryw fedd-feini, a dybir eu bod yn gof-adeiliau Marchogion y Deml; ac y mae yn y fynwent feddfaen hynafol, ar yr hwn y mae llun bwa wedi ei gerfio mewn careg. Y mae yma addoldai gan y Methodistiaid, a'r Wesleyaid, gydag ysgol Sabbathol yn perthyn i'r naill a'r llall. Y mae ardreth tir, o werth pymtheg neu ugain punt yma, yn cael ei chyflwyno i ddwyn plant tlodion yn egwyddorweis; ni wyddir yn iawn am darddiad y gymunrodd hon; y mae dan ofal teulu Glynne; a Syr Stephan Glynne, Barg., ydyw yr ymddiriedolwr presenol.

**CWM**, sydd ranbarth o blwyf Gwyddelwern, cantref EDEYRNION, swydd FEIRIONYDD, GOGLEDD CYMRU; yn cynwys trefgorddau unedig Aelhaiarn, Bodran, Maesgamedd, Maesgwyn, Myarth, Trebach, a Trefrith. Cyfrifir y boblogaeth gydag Uwch-mynydd. Y mae y rhanbarth yn ffurfio y gyfran isaf o'r plwyf, ac y mae y ffordd rhwng Corwen a Rhuthyn yn rhedeg drwyddo. Y mae eglwys blwyfol a phentref Gwyddelwern, o fewn y terfynau.

**CWM AFAN.** Cwm bychan tua thair milltir o hyd, yw hwn, a'i gyfeiriad yn orllewinol a dwyreiniol, a'i safle yn mhlwyfi Aberafan, a Llanfihangel Ynys Afan, Swydd Forganwg, Deheudir Cymru: a thrwyddo y rhed afon Afan.

Gelwir y cwm hwn gan rai, yn Gwmafon, a Chwmbychan; ond ei wir enw, yw Cwmafan. Ar bob tu iddo, y mae rhesi o fryniau uchel a serth, yn rhedeg o ymyl Tref Aberafan yn y gorllewin, hyd Bontrhyd-y-fen yn y dwyrain.

Yr hyn sydd yn gosod pwysigrwydd ar y Cwm hwn, fel llawer Cwm arall yn Neheudir Cymru, yw y Gweithfeydd eang sydd ynddo.

Tua dechreu y ganrif bresenol, yr unig orchwylion a ddygid yn mlaen yn y Cwm hwn, oedd amaethu a malu yd; yn nghyd a thori ychydig lo mewn un lofa fechan, at wasanaeth yr amaethdai. Cludid peth o'r glo hefyd dros gledrffordd goed, o'r Cwm hwn at Waith y Tai bach; ac wedi hyny cludid ychydig lo ar gefnau mulod, o lofa y Waun las yn y Cwm hwn, at wasanaeth Morthwylfa Aberafan. Cludid glo oddi yma hefyd, at Ffwrnes Penrhwdyn, yr hon a safai gynt rhwng Castell-nedd a Briton Ferry: ac fel yr oedd yn arferiad cyffredin yr amseroedd hyny, cludid y mŵn haiarn mewn cewill, ac mewn sachau, ar gefnau mulod, a cheffylau, yr holl ffordd o Gwmafan i Benrhwdyn.

Ychydig feddylid y pryd hwnw, fod mynwesau y bryniau ar bob tu i'r Cwm, yn orlawn o fŵn haiarn, a glo; oblegyd casglu yr ychydig fŵn a wnelid yn y man nentydd, ar ochrau y bryniau; a phan wnaed ymchwiliad am lô mewn gwahanol fanau yn y Cwm, gan berchenogion Gwaith Aberafan, methwyd a'i gael, a daethant i'r penderfyniad fod holl gyfoeth y Cwm yn gynwysedig yn nglofa fechan y Waun las, a bod hwnw yn ymyl cael ei ddiyspyddu.

Pa fodd bynag, tua'r flwyddyn 1810, tynwyd sylw un Samuel Fothergill Lestom, Ysw.; at y lle, yr hwn oedd yn ddigon treiddgar ei ganfyddion, i weled yn îs nag arwyneb y tir, ac yn ddigon hyddysg mewn daiareg, i ddeall fod yn Nghwmafan ystorfa eang o lô a mŵn haiarn, ac y gallai ef yn ddi bryder anturio i godi Prydles ar y lle, ac agor Gwaith Haiarn ynddo.

Yn y flwyddyn 1811, cydunodd y boneddwr hwn âg Iarll Jersey (perchenog rhan ogleddol y Cwm), i gael prydles ar y lle am 99 mlynedd. Wedi cael y *lease*, dechreuodd y boneddwr anturiaethus hwn chwilio coffrau anian, am eu trysorau cuddiedig—dechreuwyd cloddio ystlysau y bryniau—agorwyd glofa *Level* y Wern, a glofa arall ar ol hyny—gwelwyd fod digon o lô y tu fewn i'r llen, agorwyd ychwaneg o Lyfelau, a dechreuwyd adeiladu tai i'r gweithwyr, fel y tyfodd y lle yn bentref bychan, megys ar unwaith; eto nid oedd hyn ond dechreuad.

Dygid y glo a gloddid yn y Cwm y pryd hwnw, i fanau ereill i'w ddefnyddio. Ond fel y treiglai amser yn ei flaen, yr oedd pob troad i'w olwyn, fel yn dwyn pelydr ychwanegol o oleuni i'r Cwm hwn. Wedi cael prawf digonol ar helaethrwydd mŵn a glô y Cwm, darfu i Mr. Lestom anturio adeiladu Ffwrnes (*blast furnace*) yn y lle, yn y flwyddyn 1819, i gael ei chwythu trwy offerynoliaeth Rhod-ddwfr, a gwnaeth fath o gamlas, i gario dwfr i droi y Rhod, o gymydogaeth Pont rhyd y fen; sef tua milltir a hanner o hyd.

Erbyn bod y ffwrnes a'r camlas wedi eu gorphen, a'r Olwyn fel yn dysgwyl i'r dwfr ddisgyn arni i'w hysgogi, a phob peth arall yn barod i adnewyddu neu ychwanegu bywiogrwydd y lle, aeth yn nos dywell ar y Cwm, trwy i Mr. Lestom fethu yn ei amgylchiadau, yn mis Rhagfyr 1819.

Yn mis Mawrth 1820, cymmerwyd meddiant o'r gwaith gan ddau foneddwyr o'r enwau *Vigurs & Smith*, perchenogion Gwaith Alcan Ynys y gerwyn, ger Castell nedd.

Cychwynodd y boneddwyr hyn y Gwaith, gosodwyd tân yn y ffwnes a adeiladodd Mr. Lestom, gollyngwyd y dwfr ar yr Olwyn, dechreuodd hono droi, gweithiodd y peiriannau, a dechreuwyd gwneyd haiarn bwrw (*cast iron*). Yn ychwanegol at hyn, adeiladwyd Morthwylfa fechan (*forge*) ger y ffwrnes, i rolio llafnau haiarn, y rhai a gludid i Ynys-gerwyn i'w gorphen.

Digitized by Google

Yn mhen ychydig amser, adeiladasant forthwylfa arall yn y lle—Y Forthwylfa Isaf. Er ychwanegu hwylusdod masnachol y lle, gwnaethant fath o ffordd haiarn,—*tramway*, ar hyd ffordd y plwyf, o'r Cwm hyd Aberafan, ac oddi yno i Borth Talbot.

Ychwanegodd ac helaethodd y boneddwyr hyn eu gweithfeydd, gan drefnu eu melinau yn y fath fodd, fel ag i orphen y *tin* yn y lle, a hyny ar raddfa mor helaeth, fel ag i'w galluogi i wneyd tua 1500 o flycheidiau (*boxes*) yn wythnosol, a phob blwch yn cynnwys tua 200 o lafnau. Fel yr oedd y Gwaith yn cynnyddu, a thrigolion y lle yn amlhau, yr oedd y perchenogion hefyd yn helaethu y lle, trwy adeiladu ugeiniau lawer o dai i'w gweithwyr, fel yr oedd y lle yn tyfu, o fod yn bentref distadl, i faintioli tref flodeuog.

Yn y flwyddyn 1835, ymadawodd Mr. Smith, fel y daeth Mr. Vigurs yn unig berchenog, ac ymunodd ag ef ddau foneddwr o Gernyw, o'r enwau James a Batton, ac felly aeth y Cwmni dan yr enw *Vigurs & Co.*

Yn fuan wedi i'r rhai hyn ymffurfio yn Gwmni, dechreuasant adeiladu Gwaith Efydd (*copper*), yr hwn a sylfaenwyd Hyd 12fed, 1835; a gwnaed llafnau efydd ynddo y waith gyntaf, Mawrth 19eg, 1838. Mae adeilad y gwaith hwn yn 690 troedfedd o hyd, a 100 troedfedd o led. Saif y gwaith enwog hwn wrth droed Mynydd Y Foel, yr hwn sydd yn codi yn lled serth, i'r uchder o 1122 troedfedd. Y mae mwg gwenwynig y Gwaith hwn yn cael ei gario o'r Gwaith, mewn math o ffummer, i fyny i ben Y Foel, lle y mae *stack* yn 30 troedfedd o uchder, yr hon a welir o'r pellder o ugeiniau o filltiroedd. Mae y ffummer o'r gwaith i ben y mynydd, yn 1100 o latheni o hyd, 15 troedfedd o led, a 10 troedfedd o uchder, y tu fewn iddi. Costiodd adeiladu y ffummer hon 4000*p.*: ond dywedir ei bod wedi talu hyny gyda llog da i'r perchenogion, lawer gwaith, gan fod mân ronynau o efydd yn cael eu dal ynddi gan offerynau pwrpasol, yr hwn lwch gwerthfawr a lanheir o honi, ar adegau pennodol.

Yn 1838, rhoddodd Mr. Vigurs ei swydd i fynu fel arolygydd y gwaith, wedi bod ag ef dan ei ofal am 18 mlynedd; a chanlynwyd ef gan un Nicholas Vivian, Ysw. Tua blwyddyn y bu y boneddwr hwn yn y swydd: oblegyd yn 1839, daeth W. Gilbertson, Ysw. i ofalu am y Gwaith. Helaethodd, a diwygiodd hwn lawer ar y Gwaith—adeiladodd luaws o dai i'r gweithwyr, diwygiodd y Gledrffordd o'r gwaith i Borth Talbot, gan adeiladau Pont, 4 bwa, dros yr afon, yn ngodre y Cwm, ychydig uwchlaw Aberafan, yn nghyd a llawer o welliadau ereill. Dylanwadodd ar y Cwmni hefyd i helaethu y Gweithfeydd, a chawsant brydles ar ddarn helaeth o dir yr ochr arall i'r Cwm, gan C. R. M. Talbot, Ysw., A.S. Mae y tir hwn tua milltir o hyd, ac yn tynu ar dair o led, yn ymestyn yn agos i'r Maesteg, ac yn llawn o fŵn a glo. Ar y tir hwn, mewn lle o'r enw Bryn troedgam, y mae prif weithiau glô y Cwmni yn bresenol; a digon tebyg y bydd y Bryn yn lle helaeth yn fuan. Dygwyd y glô cyntaf o'r Bryn i Gwmafan yn Medi 1841.

Blwyddyn bwysig yn hanes y Cwm oedd 1841. Yn mis Mai y flwyddyn hono, ymunodd Cwmni Gweithfeydd Cwmafan, â'r Cwmni enwog a elwir "*The Governor and Company of Copper Miners in England;*" ac felly llyngcwyd enw yr hen gwmni gan y newydd. Derbyniwyd Mr. Gilbertson yn aelod o'r Cwmni, a phenderfynwyd fod iddo aros yn ei swydd fel o'r blaen.

Wedi i'r Cwmni mawr hwn feddiannu y gwaith, prynasant Waith Pont-rhyd-y-fen yn y mis Awst canlynol, gan ei uno a'u gwaith eu hunain. Yr oedd gwaith Pont-rhyd-y-fen wedi ei ddechreu er y flwyddyn 1825, gan foneddwr o'r enw Reynolds, yr hwn a dreuliodd tua 80,000*p.* yn y lle, ac a fethodd yn y diwedd.

Meddai perchenogion Gwaith Cwmafan, ar ol prynu y gwaith uchod, bedair ffwrnes flast, heblaw eu Gweithfeydd Efydd, ac Alcan. O'r pryd hwnw, aeth pethau yn mlaen yn bur hwylus gyda Mr. Gilbertson, hyd y flwyddyn 1844, pan y cafodd ei ddiswyddo yn dra disymwth, gan un o gyfarwyddwyr y Cwmni, o'r enw Mowatt; yr hwn a fu yn gofalu am y Gweithiau am ychydig amser, hyd nes y pennodwyd Charles Lane, Ysw. ; yn arolygwr. Wedi i Mr. Lane gymmeryd at yr arolygiaeth yn 1844, adeiladodd dair ffwrnes flast yn ymyl y ddwy oedd yn Nghwmafan yn flaenorol; adeiladodd Felin Gledrau (*Rail Mill*) yno hefyd, a chan fod y boblogaeth ar gynnydd mor gyflym, parodd adeiladu ugeiniau o aneddau yn ychwanegol. Gwnaed Cledren yn y felin uchod, yn 1851, yn mesur 63 troedfedd o hyd, ac yn pwyso 1176 pwys, yr hon a ennillodd y wobr yn Arddangosfa Llundain.

Yn 1845, darfu i Mr. Lane, osod ager-beiriant (*Locomotive*) i lusgo glô o'r Bryn i Gwmafan; ac un arall i redeg ar y gledrffordd, o'r Gwaith i'r Porthladd, yn lle ceffylau.

Yn 1846, anfonodd y Cwmni foneddwr o'r enw T. R. Guppy, Ysw., i arolygu y gwaith, yn lle Mr. Lane. Bu y gwr hwn yn foddion i ychwanegu llawer ar faint y lle, trwy helaethu y Gwaith, ac adeiladu cannoedd o dai newyddion i'r gweithwyr. Yn ystod ei arolygiaeth ef yr adeiladwyd y forthwylfa a elwir y *Great Western;* a'r lle eang a elwir *Y Depôt*, yr hwn sydd yn 900 troedfedd o hyd, a 45 o led; lle y gweithia gwahanol ddosparthiadau o grefftwyr, megys seiri, gofaint, llifwyr, &c. Yn ei amser ef hefyd yr adeiladwyd Ty Marchnad y lle, yn yr hwn y cynnelir marchnad bob Sadwrn. Cyn hyny, y farchnad nesaf i'r lle, oedd yr eiddo Aberafan.

Yr oedd Mr. Guppy, fel yn penderfynu codi Cwmafan i sylw a bri, ac ni arbedai na thraul na llafur i gyrhaedd ei amcan. Mynodd oleuo y lle a nwy, sefydlodd yn y lle (*Mechanics' Institute*) a Darllenfa (*reading-room*), yn nghyd a llawer iawn o welliadau ereill. Ond dichon er y cwbl, ei fod yn rhy hael ar bwrs y Cwmpeini; oblegyd aeth y Gwaith i ddyled o 270,000*p.*! Yr oedd y swm hwn yn ddyledus i Ariandy Lloegr; a chan na fedrai y Cwmni dalu, cymmerodd Cwmni *Bank of England* at y Gwaith yn mis Ebrill 1848; a daeth dan yr enw "*The Governor and Company of the Bank of England.*"

Yn 1850, ceisiodd yr Hen Gwmni ei adfeddianu, trwy gael breinlen (*charter*) newydd, yn ol yr Act Seneddol a elwir,—*The Companies' Clauses Consolidation Act*, 1835;" ond methasant. Gwnaethant gais drachefn yn y flwyddyn ganlynol, a buont mor ffodus a llwyddo.

Penawd Y Weithred sydd fel y canlyn:—"*An Act for facilitating the settlement of the affairs of the Governor and Company of the Copper Miners in England, and for the better management of the said Company, 24th July*, 1851."

Digitized by Google

Cynnwysa 165 o erthyglau, a'r prif rai o honynt yn rhwyddau y ffordd i'r Cwmni ddod allan o'u dyrysweh.

Yn rhinwedd y weithred hon, talodd yr Hen Gwmni eu dyledion, ac ail feddiannasant y Gwaith yn 1852: a phan ddaeth y Cyfarwyddwyr i Gwmafan i ail ymaflyd ynddo, ar y 13 o Fai y flwyddyn hono, neillduwyd y diwrnod yn ddydd Gwyl,—aeth miloedd Cwmafan at Orsaf Porth Talbot i gyfarfod y Cwmni, gyda seindorf pres yn eu blaenori, a channoedd o faneri o bob math, yn cyhwfanu yn yr awyr; gydag amryw *Anerchiadau* i'r boneddwyr oddiwrth wahanol Gymdeithasau: a phan ddaethant i mewn gyda'r Gerbydres, arweinwyd hwy i gerbyd yn ymyl, a ffurfiwyd yn orymdaith drefnus, ac aed tua thref Aberafan; ac oddi yno i fyny i'r Cwm, gyda sain cân a llawenydd.

Y pryd hwnw, ail ymaflodd yr "Hen Gwmni" yn y Gwaith, a dygir ef yn mlaen yn hynod hwylus; a rhifedi trigolion y lle yn amryw filoedd, tua 10,000 fe allai, a chymmeryd i mewn Pont-rhyd-y-fen, a Bryn troed-gam.

Mae agwedd grefyddol y lle yn bur flodeuog, y mae yma amryw gapeli gan yr Ymneillduwyr, megys Annibynwyr, Bedyddwyr, Trefnyddion Calfinaidd, a'r *Bible Christians*. Heblaw yr Eglwys Blwyfol, y mae yma Eglwys newydd, hardd a chostus, wedi ei hadeiladu tua'r flwyddyn 1859. Yn mynwent hen Eglwys blwyfol y lle hwn, y claddwyd yr enwog, a'r hynod Sieneyn Penhydd, ar fedd yr hwn y mae bedd-faen prydferth.

Teilwng yw sylwi hefyd, mai yn y lle hwn y cynnaliwyd yr Eisteddfod hono, lle y bu Dafydd ab Gwilym yn "Gyff Clêr," ac y canodd Rhys Meigan iddo yr englyn canlynol:—

"Mil trichant, meddant i mi—y ganed
Yn genau dan lwyni,
Gwr o'th han garw yw'th enwi,
Mab Gwilym Gam, cydgan ei."

**CWM BOWYDD**, sydd ddyffryn coediog yn y rhanbarth ogledd-ddwyreiniol o blwyf Ffestiniog, cynnwysedig o un Ffarm, berthynol i Arglwydd Newbrough; drwy y dyffryn rhed Afon Bowydd, yr hon sydd yn tarddu o lyn o'r un enw, sydd ar y mynydd i gyfeiriad Penmachno. Beth yw ystyr yr enw, mae yn lled anhawdd dyfalu. Tybia rhai mai *Bo-wŷdd* a feddylir, eraill mai *Byw-wŷdd*, ac eraill drachefn, mai *Bwa-wŷdd* ydyw gwir ystyr y gair, gan ei fod yn gwm coediog yn yr hen amser, fel y mae yn bresenol i raddau; a bod yma le rhagorol am ddefnyddiau Bwaau saethu, y rhai oeddynt mewn cymaint o fri yn yr amser gynt. Mae yr olion henafol a geir yma ac acw ar hyd-ddo, yn dangos yn eglur ei fod wedi cael ei breswylio yn lled foreu.

Yn nghwr isaf y dyffryn, ac ychydig uwchlaw Tyn-y Cefn, y mae hen le neillduol, a elwir *Llŷs Darfil*, saif yr hen lŷs ar yr ochr ogleddol i afon Bywydd, a gelwir y graig uwchlaw iddo, *Pen llŷs Darfil*. Tybir mai Llys Derfel ydyw y gwir ystyr. Mae yn lled debyg mai hon ydoedd hen drigfan Derfel gadarn; yr hwn ydoedd yn fab i Hywel ab Emyr Llydaw, ac yn ol Dr. Pughe, yn frawd i St. Dwywe. Yr oedd Derfel yn Rhyfelwr dewr yn amser y Brenin Arthur, hynododd ei hun yn Mrwydr Camlan, yn 542. Cyflwynodd y rhan olaf o'i oes i wasanaeth crefyddol, ac ar ol iddo farw, rhifwyd ef gyda Saint Cymru. Efe a sylfaenodd Eglwys Llandderfel.

Saif ei Lŷs ar ychydig o godiad tir, ac y mae olion o'r fagwyr oedd yn ei amgylchynu, i'w gweled yn amlwg; y mae y llanerch amgauedig yn 160 llath o hyd, ac yn 120 llath o led, a'r pen gogleddol ar ddull hir-grwn. Ar ganol y llanerch, y mae adfeilion tair o ystafelloedd, yn gysylltiedig a'u gilydd. Mae un yn mesur 21 troedfedd, wrth 15 tr., a gallem dybied mai un ydoedd y ddwy ystafell fach sydd ar y gogledd i'r uchod, ar y cyntaf; ac yn 18 troedfedd o drawsfesur. Mae adfeilion ystafell arall ar yr ochr orllewinol i'r un gron, ac mewn oddeutu 9 tr. iddi, maint hon ydyw 27 tr. wrth 18 tr. Ar yr ochr ddeheuol, ac mewn tua 15 troedfedd i'r ystafelloedd uchod, ceir llanerch arall, yn mesur 45 troedfedd, wrth 27 troedfedd. Mae olion mawrion eraill ar yr ochr ddwyreiniol i'r llanerchi hyn, yn y pellder o 80 troedfedd; ac y mae yr oll a ddesgrifiwyd, oddi mewn i'r cylch mawr cyntaf. Ceir hefyd ddwy neu dair o lanerchi oddi allan iddo. Mae un ar yr ochr ddwyreiniol, yn y pellder o 60 llath o'r gongl agosaf i'r afon.

Ar yr ochr agosaf i'r afon i'r rhai hyn, yr oedd 8 neu 9 o feddau amser yn ol; ond nid oes ond un neu ddau i'w canfod yn bresenol.

Ar yr ochr ddeheuol i'r afon, y mae Llenyrch y Moch, a Bwlch Iocyn.

Yn y Coed, ar yr ochr ddeheuol i Ffarmdy Cwmbowydd, y mae adfeilion henafol eraill. Ymddengys wrth sylwi ar olion o sylfaeni un adeilad gron tuag 8 llath o drawsfesur, ei fod wedi bod yn amddiffynfa gadarn gynt.

Oddiar y *Cwm*, y mae lle a elwir *Maen-Offeren*. Yr oedd ar y lle yma hen faen neillduol, yn gysylltiedig a mur, os nad yn ffurfio rhan o furiau, hen dy *Maen*-Offeren. Tybir fod rhyw gysylltiad rhwng y lle yma a Monachlog Rhiw-bryfdir yn y Canoloesoedd, ac y byddai rhyw ddefodau yn cael eu cyflawni ar y *Maen* hwn gan yr hen Fyneich.

Mae yr Ardal yma wedi codi i fri mawr yn yr ugain mlynedd diweddaf, mewn cysylltiad a'r Cloddfeydd llechau enwog sydd ar y llethr yn mlaen y Cwm; sef y Fotty, a *Bowydd*, *Maen offeren*, a'r *Diphwys;* yr olaf ydyw y gloddfa henaf yn Ffestiniog: dechreuwyd ei hagor oddeutu y flwyddyn 1765. Mae tua 600, o weithwyr yn y tair Cloddfa uchod. Ceir yn y rhan boblogaidd yma o Flaenau Ffestiniog, bedwar o Addoldai wedi eu hadeiladu yn nghorff y deng mlynedd diweddaf, sef un gan y Bedyddwyr, un gan yr Annibynwyr, a dau gan y Methodistiaid Calfinaidd. Byddai yr Annibynwyr yn arfer pregethu yn Cwmbowydd, a Maenofferen, cyn iddynt adeiladu Capel Bethania, yr hyn a gymerodd le yn y flwyddyn 1818.

Drwy Maen offeren, a thros Bont y Fron goch, ger Cwmbowydd, yr oedd yr hen ffordd yn arwain o Dolyddelen i gyfeiriad Ffestiniog, a Maentwrog.

Ar hyd yr hen ffordd yma, y cludent y llechau o'r Diphwys, mewn cewill a bachau coed, am flynyddoedd lawer ar ol agor y Gloddfa.

Ymddengys mai ar hyd hon hefyd, yr arweiniodd Gwilym Herbert, Iarll Penfro, ei fyddin at Harlech yn 1468, i warchau ar y lle, pan ydoedd yn cael ei amddiffyn gan Dafydd ab Ieuan ab Einion, y Milwr dewr o Maes y Neuadd; oblegid dywedir iddo ddyfod drwy Nant Conwy, Dolyddelen, a Ffestiniog, gan wneyd dinystr mawr yn y ffordd y cerddai.

**CWM CARFAN**, plwyf yn nghantref RAGLAND,

Digitized by Google

MYNWY, 3½ milldir i'r de orllewin o Dre Fynwy; ar lan cangen o'r afon Trothi. Y mae y Ficeriaeth yn esgobaeth Llandaf, ac yn nghyd a Rectoriaeth Mitchel-Troy, yn werth 398 punt. Poblogaeth yn 1861, oedd 332.

**CWM-COTHI**, trefgordd yn mhlwyf a chantref CAIO, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, 7 milldir i'r Gogledd Orllewin o Lanymddyfri, poblogaeth yr hon a roddir gyda'r plwyf. Y mae'r afon Cothi yn tarddu gerllaw iddi, yr hon sydd yn ymdroelli drwy ddyffryn tlws a thoraethog, ac yn yr hwn y mae llawer o olygfeydd arddunol. Y mae ffynnon feddygol yma. Yn y drefgordd hon y mae yr hen fwngloddiau aur, a elwir Gogofau. Gwel CAIO. Yma hefyd y mae Dolau-cothi, plâs dymunol y gwladgarwr John Johns, Yswain, yr hwn oedd barnwr cyntaf Llys y Mân-ddyledion, yn swydd Caerfyrddin a Phenfro, a bu yn ei swydd am flynyddau; ond gorchfygwyd ef gan henaint.

**CWM CROESOR**, neu CROESAWR, sydd yn hafn ddwfn rhwng y Moelwyn Mawr, a'r Cnicht neu y Cunuch. Mae hen ffordd Elen, yr hon oedd yn arwain o "*Segontium*," i *Heriri Mons*, sef "*Tomen y Mur*," yn Croesi cwr isaf y Cwm. Canfyddir hi yn amlwg oddeutu y fan, ac oddi yno at Bwlch Gwernwy yn Nanmor. Dyma y ffordd yr oedd yr hen Briffordd o Gaernarfon i Maentwrog, o hyny hyd ryw 60 mlynedd yn ol.

Dywed *llen* y werin, fod Elen merch Eudaf, yr hon a briododd Maesen Wledig, ymerawdwr Rhufenig, yn arwain ei byddinoedd o Gaernarfon i *Domen y Mur;* yr oedd hi gyda y flaen fyddin, a mab iddi gyda'r ol fyddin, yr hwn a laddwyd yn agos i gwr isaf Llyn Cywellyn, yn Nant y Bettws, gan ryw fradwr o'r enw Cidwm. Gelwir y graig lle y dygwyddodd hyn, yn "*Castell Cidwm*" hyd heddyw. Anfonwyd brys genad yn ebrwydd a'r ol Elen, a goddiweddwyd hi wrth y ffynon risialaidd sydd yn tarddu yn ngodreu yr allt, ger Croesor; sef "*Ffynon Elen.*" Pan y trosglwyddwyd y newydd pruddaidd iddi, taflodd ei chleddyf, a llefodd "*Wel Croes awr* yw hon i mi:" ac o hyny allan, galwyd y lle, Croesawr. Nid oedd ond 3 neu 4 o dai yn y lle yma hyd yn ddiweddar; ond erbyn hyn, mae yn lle poblogaidd iawn, drwy ei agosrwydd i'r gloddfa a agorwyd tua 12 mlynedd yn ol, ar lechwedd y mynydd, tua dwy filldir i fyny y garn. Adeiladwyd Capel gan y Methodistiaid yn Nghroesor, a thrwy gynydd cyflym y boblogaeth, bu raid ei ail adeiladu yn ebrwydd. Ychydig o olion henafol sydd yn y Cwm, heblaw a nodwyd; oddieithr yr hen ffordd oedd yn croesi y mynydd, i gyfeiriad Dolyddelen, a Llanrwst. Gelwir un Farmdy yn y Cwm yma, yn Gae'r Llwynog ond ymddengys mai *Cae y Llwynog*, ydyw ei wir ystyr. Mae ffordd Haiarn wedi ei gwneyd o Gloddfeydd y Rhosydd, a Chroesor, drwy y Cwm, a Llanfrothen, i Porth Madoc. Anfonir y llechi o'r Cloddfeydd uchod, i waelod y Cwm, mewn pedrolfeni, ar hyd Esgynloriau (*Inclines*) sythion, mae un o honynt tua 600 o latheni o hyd. Rhyfedd y cyfnewidiad a wnaed mewn amryw o Gymoedd Meirionydd, yn y Blynyddoedd diweddaf! Priodol y gellir defnyddio y llinellau hyn o waith yr enwog Ieuan Gwynedd:—

"Gwythen o blwm yn y Cwm cul,
A wycha ardal wachul;
Lle uchel Cloddfa llechi
Ar y fron wna gaer o fri."

**CWM DÂR.** Cwm yn mhlwyf Aberdar, trwy yr hwn y rhed afon Dar, hyd ei haberiad yn y Cynon, ger gorsaf Cledrffordd Dyffryn Taf, yn Aberdar. Hyd y cwm yw tua thair milltir, a'i gyfeiriad o'r gorllewin i'r dwyrain. Ar y tu deheuol i'r cwm, y saif mynydd Pen rhiw llech, yr hwn sydd tua 1327 troedfedd o uchder; ac ar y tu gogleddol, yn agos i ben uchaf y cwm, y saif Cefn-cynon. Mae yn amlwg fod llygad eryraidd celfyddyd, wedi darganfod y cwm bychan hwn er ys oesau: oblegyd ceir olion tawdddy haiarn, yn mlaen y Cwm, yn agos i waelod Tarren Y Bwllfa, lle y mae tomen fechan o farwdos (*cinders*) yn aros. Ni's gellir cael hanes pa bryd y buwyd yn toddi mŵn haiarn yn y lle hwn, ond prawf y marwdos, i hyn gymmeryd lle, cyn dyfeisio y ffordd i wneyd haiarn bwrw (*cast iron*), oblegyd nid *cinders* haiarn bwrw ydyw, ond *cinders* haiarn gwaith; yr hyn a brawf mai ffwrnes *bloomer* fu yma, sef un o'r rhai a ddefnyddid tua'r 15fed ganrif, ac ar ol hyny. Tueddir ni i gredu, mai yn amser y Rhyfel Cartrefol, rhwng Charles I. a'r Senedd, y bu Gwaith haiarn yma: a dichon iddo gael ei ddinystrio gan filwyr Cromwell, fel y darfu iddynt ddinystrio amryw dawdd-dai ereill yn y parthau hyn o'r wlad. Pa fodd bynag am hynyna, mae yn ddigon amlwg, fod Gwaith haiarn wedi bod yma rywbryd. Cyn, ac wedi cyfnod y Gwaith haiarn hwn, yr unig Waith a ddygid yn mlaen yn y cwm, oedd amaethu, a malu llafur: hyd y flwyddyn 1845, pryd y dechreuwyd cloddio i'w goluddion, i chwilio am ei drysorau cuddiedig, yr hyn oedd ddechreuad cyfnod newydd yn ei hanes. Cloddiwyd y pwll cyntaf yn ngwaelod y Cwm, yn agos i hen Eglwys Aberdar, gan Gwmpeini Gwaith Haiarn y Gadlys.

Wedi cael prawf boddhaol ar drysorau ei waelodion, dechreuodd amryw gyfoethogion anturiaethus drefnu eu matterion, er cloddio ychwaneg o byllau yn y Cwm; a throes y cwbl allan yn bur llwyddiannus. Yn y blynyddau 1851–2–3, cloddiwyd tri phwll yn y lle.—Un gan T. Powell, Ysw.; ar dir Troed rhiw-llech;—un arall gan y diweddar Alaw Goch, ar Dir Morris; a'r trydydd, ar dir Bwllfa Dâr, gan Meistri S. Thomas, a T. Joseph. Cloddiwyd pwll arall yn y cwm, yn 1860, gan Mordecai Jones, Ysw.

Er hwyluso masnach y cwm, gwnaed cangen o gledr-ffordd y Great Western iddo, yn 1853; a changen arall o Gledr-ffordd Dyffryn Taf, o Aberdar i'r Bwllfa, yn 1866.

Dechreuwyd anfon glo o bwll *Cwmdar* (Powell) a phwll *Merthyr Dâr*, yn 1853; o'r *Bwllfa* yn 1857; ac o *Nantmelin*, eiddo Mordecai Jones, Ysw., yn 1861.

Yn ystod y flwyddyn 1870, anfonwyd ymaith o lô, o'r gwahanol byllau yn y cwm, y symiau canlynol:—

| | | |
|---|---|---|
| Bwllfa, ............................ | 104,927 | tunnell. |
| Nantmelin, ...................... | 89,708 | „ |
| Merthyr Dâr, .................... | 38,670 | „ |
| Pwll Powell, Cwmdar, ........ | 41,926 | „ |
| Gellir ychwanegu, ............. | 126,611 | „ |

yr hyn a anfonwyd o waith y Gadlys, oblegyd o Gwm Dar mewn gwirionedd y cloddir glo y Gwaith hwnw.

Yn y flwyddyn 1853 y dechreuwyd adeiladu Pentref Cwmdar. Y mae yno yn bresenol 135 o dai; a thri Chapel—un gan y Bedyddwyr, un gan yr Annibynwyr, ac un gan y Trefnyddion Calfinaidd.

Digitized by Google

Mae yno Ysgoldy Prydeinaidd gwych hefyd, wedi ei adeiladu o haiarn.

Yn ymyl Pwll Nantmelin, ac yn agos i'r fan y mae Nantmelin yn aberu yn y Dâr, y mae Dwfr-gronfa (Reservoir) perthynol i Ddwfr-weithfa Aberdar, yr hon a wnaed yn 1858, i ddal 10,000,000 o alwyni o ddwfr. Cludir y dwfr i'r *Reservoir* mewn pibellau haiarn o'r Dar, ger Tarren y Bwllfa; ac o'r gronfa drachefn i'r *Burfa*, dan Graig y Mynach, yn ymyl y dref. Tua milltir i fyny yn y cwm, y mae pont yn 400 troedfedd o hyd, a 70 troedfedd o uchder, dros yr hon y cludir glo Cwmaman, a llawer o lo Cwmdar, i fyny i Hirwaun. Rhed cangen Cledrffordd Dyffryn Taf dan y bont hon; a chledrffordd y Great Western drosti.

Yn mlaen y cwm, y mae golygfa bur ramantus—cauir y cwm i fyny gan graig serth, dros gan llath o uchder, dros gongl gogledd-orllewinol yr hon, y disgyna yr afon Dar, i'r cwm islaw, gan ffurfio rhaiadr ewynog a thrystfawr ar dywydd gwlyb; ond ar dywydd sych, nid yw ond pistyll bychan distadl.

**CWMDU** (Cwm-du), rhandir, neu *hamlet*, yn mhlwyf Llangynwyd, cantref Castellnewydd Uchaf, yn Undeb Pen y bont-ar-Ogwy, a Phont-faen, Sir Forganwg, Deheubarth Cymru, tuag wyth milldir (Gog. wrth. Orll.), o Benybont, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Llandâf. Y mae y rhandir hwn yn gorwedd mewn dyffryn, trwy yr hwn y mae ffrwd yn rhedeg i afon Llynfi, neu Llyfnwy; ac y mae yn ardal go wyllt a mynyddig ei gwedd, ond yn gyfoethog o drysorau mwnawl.

Y prif drysorau ydynt glo, a mŵn haiarn, ac y mae cynydd y gweithfaoedd yn yr ardal, wedi codi y boblogaeth yn fawr, y rhai nad oeddent yn 1821 ond 307 o drigolion. Mehefin 5, 1858, cyfansoddwyd rhandir Cwmdu, "*by order in Council*," yn ddosbarth dan *Act* Bwrdd Iechyd, ac y mae achosion y Bwrdd yn cael eu llywodraethu gan Fwrdd Iechyd Lleol, yn cynwys deuddeg aelod, un rhan o dair yn myned allan bob blwyddyn, ond yn agored i ail etholiad.

Mae arwynebedd Cwmdû, yr hwn sydd yn cynwys ynddo ardal boblog Maesteg, yn mesur 4180 o erwi, a phlwyf Llangynwyd yn 15,461. Yr oedd poblogaeth Cwmdû yn 1861 yn 4154; a phlwyf Llangynwyd yn 7002; mae *gross estimated rental* Cwmdû yn 16,200*p.*; a phlwyf Llangynwyd yn 27,995*p.*; *rateable value* Cwmdû yn 14,151*p.*, a phlwyf Llangynwyd yn 23,929*p.* Y mae Maesteg i mewn yn Cwmdu yn mhob un o'r cyfrifon uchod. Mae poblogaeth Llangynwyd gyda Chwmdu yn 1871, wedi cyrhaedd 12,236. Gwel Llangynwyd, Maesteg.

**CWM-GARW-LWYD**, trefgordd yn mhlwyf Llandeilo-Fawr, cantref Caio, swydd Gaerfyrddin, Deheudir Cymru, 2 filldir i'r Gogledd wrth Orllewin o Landeilo, gyda phoblogaeth o tua 200, yr oll o ba rai sydd yn weithwyr amaethyddol. Y mae yn ffurfiedig o ddyffryn bychan, drwy yr hwn y rhed nant ag sydd yn ymarllwys i'r Towy, gerllaw Llandeilo.

**CWM-GELLAU**, trefgordd yn mhlwyf a chantref Knighton, swydd Faesyfed, Deheudir Cymru, 1 milldir i'r De Orllewin o Knighton, yr hwn gydag arglwyddiaeth Farrington, sydd yn cynnwys 193 o breswylwyr. Y mae yn gorwedd mewn dyffryn tlws, drwy yr hwn y ffrydia cangen fechan o'r afon Teme. Y mae dwy garnedd yn y drefgordd hon, ond nid oes dim hanes am danynt.

**CWM IAU**, plwyf, mewn rhan yn nghantref Ewyas-Lacy, swydd Henffordd; ac mewn rhan yn nghantref y Fenni, swydd Fynwy; 8½ milldir i'r gogledd wrth orllewin o Abergafenni; yn cynwys yn nghyda threflanau y Bwlch a'r Fwthog, poblogaeth o 649, yn y flwyddyn 1861. Yn fuan wedi y flwyddyn 1108, seiliodd Hugh de Lacy brïordy yma, cyssegredig i Ioan Fedyddiwr, yr hon wedi hyny a adwaenid dan yr enw Mynachlog Llantony. Er i'r Fonachlog hon fod yn enwog ar un adeg, nid oedd yn werth mwy na chan punt ar adeg y Dadgorphoriad. Fe'i bwriedid ar y dechreu i Gynonau rheolaidd o urdd Sant Awstin; ond llawer o honynt, o herwydd y caledi a ddyoddefent yma, a symudwyd yn gyntaf i'r llys esgobol yn Henffordd, ac wedi hyny yn 1136, i le yn agos i Gaerloyw, gan adael ychydig o'u brodyr yn yr hen sefydliad yn Llantony. Gwerth y Ficeriaeth bresenol yw 200 punt.

Y mae *Coxe* yn ei "Hanes o swydd Fynwy," yn rhoddi yr adroddiad canlynol am ei ymweliad âg adfeilion hen Fonachlog Llanthony,—"Wedi cyrhaedd Dyffryn Ewyas o'r diwedd, disgynasom o'r cerbyd; a chan groesi yr Honddu, daethom at yr adfeilion, y rhai ydynt mewn llanerch neillduedig, yn nghilfachau gwylltion y Mynyddoedd duon.

"Yr oedd y Fonachlog wedi ei hadeiladu yn debyg i eglwys gadeiriol, ar ffurf croes Rufeinaidd, ac er nad yw ond bechan, y mae o gyfartaleddau rhagorol. Yr hyd, o'r drws gorllewinol i'r pen dwyreiniol, sydd 212 troedfedd; a'r lled, gan gynnwys y ddwy gorâg, 50 tr.; hyd y groes-adail, o ogledd i ddëau, yw 100 tr. Fe'i hadeiladwyd yn fuan wedi dygiad yr adeilddull Gothicaidd i arferiad, a chyn i'r arddull Normanaidd fyned o arferiad; ac y mae yn gyfansoddiad rheolaidd, o'r ddau arddull. Y mae yr holl nen, oddieithr ychydig ddernyn yn yr ystlysgor gogleddol, wedi cwympo; a'r holl adeilad yn dra adfeiliedig. Y corff eglwys (*nave*), yn unig a arddengys ennghraifft gyflawn o'r cynllun gwreiddiol, ac fe'i hysgerir ar bob llaw oddiwrth y ddwy ystlys-gor, gan wyth o fwaau pig-fain, yn gorphwys ar bileran o'r fath fwyaf syml, y rhai a wahenir oddiwrth res uwch o fwäau Normanaidd, gan ffasg-rwymau. Oddiwrth y dernyn bychan yn yr ystlys-gor ogleddol, ymddengys fod y nen yn argrwm, neu fwaog, a gwerddyrog, ac y mae y colofnau arsangol gan y rhai ei cynelid, yn weledig ar y muriau eto.

"Yr oedd pedwar bwa mawr yn nghanol yr eglwys, yn cynal tŵr petrual, o ba un nid oes namyn dwy ystlys yn aros. Y bwa addurniadol yn y ffenestr ddwyreiniol, yr hwn a ymddengys yn y cerf-lun yn Nheith-lyfr Mr. Wyndham, a gyhoeddwyd gan Hearne, sydd wedi cwympo yn bresenol. Yr unig olion o'r corgell ydynt ran o'r fagwyr ddeheuol, yn nghyd a drws Normanaidd, a arweiniai i ystlys-gor, a'r pen dwyreiniol o'r fagwyr ogleddol; y mae bwa Normanaidd mawr, a arweiniai o'r groes-adail i ystlys ddeheuol y côr, yn aros eto, ac yn cael ei gynnrychioli yn y cyfarwel dwyreiniol. Y mae magwyrydd yr ystlysfa ddeheuol, yn llwyr adfeiliedig; ac y mae yr ystlys-drem ar y ddwy res o fwäau Gothigaidd yn ymestyn ar hyd y corff-eglwys (*nave*), yn dra ardebawl. Y mae magwyr allanol yr ystlysfa ogleddol yn gyfan, oddieithr rhan fechan o'r pen gorllewinol: y mae ffenestri y rhan yma yn hollol Normanaidd, ac yn gwneyd ymddangosiad mawr-wychawl. Mewn gair, y mae yr ystlys orllew-

Digitized by Google

inol yn hynod o harddwych, tra mai yr ogleddol yw y fwyaf cyfan, y ddeheuol, y fwyaf ardebaidd, a'r ddwyreiniol, y fwyaf mawr-wych.

"Ar y tu dehau i'r groes-adail, y mae capel Gothig bychan hardd, a nen gwerddyrog, mewn cadwraeth ragorol; mesura 22 droedfedd o hyd, 10½ tr. o led, a 15 tr. o uchder. I'r dehau o'r capel hwn, y mae gweddillion ystafell hir-gron, yr hon ond odid, ydoedd y glwysgor-dy; ac o'r tu draw i hyny y mae drws, tebyg i ddrws y capel, yn agoryd i ryw ystafelloedd, ydynt yn awr wedi eu dystrywio.

"Gellir olrhain gweddillion hen adeiladau yn y gymydogaeth eto: mewn ysgubor ar y tu gorllewinol i adfeilion y fonachlog, gwelir bwa maen hardd, am yr hwn y bernir ei fod unwaith yn ffurfio y brif fynedfa i'r fonachlog. Darganfuwyd mynedfa dan-ddaiarol, wedi ei weithio â cherrig nâdd, 4½ tr. o uchder, yn agos i'r fan hon, yr hwn, yn ol traddodiad y brodorion, a arweiniai hyd oddi tan fynydd-oedd yr Hen gastell (*Oldcastle*); ond, fe ddichon nad oedd yn ddim heblaw cangen o'r geuffos gyffredin." . . . .

"Y mae adroddiad hynod am seiliad, a hanes Llanthony, wedi ei ysgrifenu yn Lladin gan un o Fyneich y lle hwn, ar gael yn *Dugdale's Monasticon;* ac wedi ei gyfieithu i'r Saesonaeg gan *Atkyns*, yn Hanes swydd Gaerloyw. Rhoddaf dalfyriad o'r adroddiad dywededig o flaen y darllenydd, wedi cyd wau ag ef amrywiol amgylchiadau o Giraldus Cambrensis, ac amryw awdwyr eraill, yr hyn ni's crybwyllir gan fynach Llanthony.

"Sant Dewi, ewythr y brenin Arthur, a Nawddsant Cymru, wedi canfod llanerch neillduedig yn nghanol coed, creigiau, a glynoedd, a adeiladodd gapel bychan ar lanau yr Honddu; ac a dreuliodd amryw flyneddoedd yn y meudwy-dy hwn: ar ei farwolaeth ef, bu yn annghyfannedd, a heb gynniweirydd dros amryw ganrifoedd. Y capel bychan hwn a elwid Llan Ddewi Nant Honddu; enw a lygrwyd mewn amser yn Llanthony.

"Yn nheyrnasiad Gwilym Goch, Hugh de Lacy, pendefig Normanaidd galluog, wedi dilyn y ceirw i'r dyffryn hwn, a orphwysodd yma, yn nghyd a'i ganlynwyr wedi yr hely. Un o'i ganlynwyr milwraidd, William, wedi blino gan y gwres, a gerwinder y ffordd, a orweddodd ar y glaswellt i orphwyso. Unigrwydd gwyllt y ddrychfa a adawodd argraff ddofn ar ei feddwl; ac wedi canfod o hono gapel St. Dewi, a'i feddiannu yn ddisymwth gan frwd-frydedd crefyddol, efe a ollyngodd ei gymdeithion ymaith; ac a ymgyssegrodd i fuchedd dduwiol-frydig. 'Efe a roddodd ei wregys milwraidd o'r naill du,' medd mynach Llanthony, 'ac a ymwregysodd â rheffyn; ac yn lle llîan main, rhoddodd grys o rawn am dano; ac yn lle cwnsallt y milwr, llwythodd ei hun a heiyrn trymion. Yr arf-wisg a'i diffynai o'r blaen rhag saethau ei elynion, a wisgai efe yn barhaus, fel gwisg i'w galedu rhag temtasiynau gwagsaw ei hen elyn Satan; fel, megys y cystuddid y dyn oddi allan gan lym-doster, y dyogelid y dyn oddifewn, i wasanaeth Duw; ac fel nad oerai ei zel, efe a'i croeshoeliai ei hun fel hyn, ac a gadwodd ei arf-wisg galed am ei gorph, hyd oni threuliwyd hi allan gan rŵd ac oedran.' Wedi treulio o hono flyneddoedd lawer yn yr unigedd yma, darfu i'w fuchedd lemdost, a'i enwogrwydd am sancteiddrwydd, dueddu yr hybarch Ernesi, capelwr y frenines Maud, gwraig Harri y Cyntaf, i ddyfod yn gydymaith iddo. Trwy eu cyd ymdrechion, hwy a adeiladasant gapel bychan, yr hwn yn y flwyddyn 1108 a gyssegrwyd gan Urban, esgob Llandâf, a Rameline, esgob Henffordd, ac a gyflwynwyd i St. Ioan Fedyddiwr, buchedd neillduedig yr hwn yn y diffeithwch, y cymerent arnynt ei efelychu.

"Yn fuan wedi hyny, darfu i Hugh de Laci, Iarll Henffordd, sefydlu, ar gymhelliad Ernesi, brïordy o ganonau rheolaidd, o urdd St. Awstin, yr hwn hefyd a gyssegrid i St. Ioan Fedyddiwr. Dewiswyd Ernesi yn Llywydd y priordy, a than ei lywyddiaeth ef, a thrwy ei esiampl ef a'i gyd Feudwy, ennillodd y fonachlog newydd y fath enwogrwydd am sancteiddrwydd, fel y trefnai gwŷr mawr y deyrnas, ac hyd yn nod Harri y Cyntaf, a'i frenines, achosion tymhorol y fonachlog; gan eu cyfrif eu hunain yn ddedwydd, o gael bod o fewn cylch gweddîau y gynnulleidfa sanctaidd hon.

"Yn y canlyniad i'r enwogrwydd yma, cynnygid yn aml, roddion mawrion, mewn arian a thiroedd, at gynhaliaeth y Sefydliad; ond Ernesi, a'i frawd meudwyol, a wrthodent bob rhoddion, gan ddewis, fel y dywedent, 'breswylio yn dlawd yn nhŷ Dduw.' Offryment weddîau cyhoeddus yn erbyn cynnydd cyfoeth, a chyfrifent bob caffaeliad cyfoeth, fel anffawd arswydus. Adroddir hanesyn digrifol ar y pen yma, gan fynach Llanthony. 'Y frenines Maud, heb fod yn ddigon hysbys o sancteiddrwydd a hunan ymwadiad William, a ddymunodd ganiattad ar un achlysur, i roddi ei llaw yn ei fynwes; ac wedi iddo, gyda llawer iawn o wylder, ymostwng i'w thaerni, hi a roddes godaid fawr o aur, rhwng ei grŷs garw a'i wasg-rwym haiarn; ac felly, trwy ystryw ddiniwed, a weinyddodd gynnorthwy dyddanus iddo. Ond O! y fath ddïystyrwch rhyfedd ar y byd! Efe a arddangosodd enghraifft ddyeithr, bod y dedwyddwch cywiraf yn gynnwysedig mewn ychydig, neu ddim. Efe a gydsyniodd mae yn wir, ond yn anewyllysgar; ac yn unig gyda golwg, ar i'r frenines gael defnyddio ei haelioni duwiolfrydig, i addurno yr eglwys.'

"Wedi gorfodi y gorfanylrwydd yma unwaith, ymdywalltai golud yn helaeth ar y sefydliad newydd; cyfodid adeiladau mawrion at eu gwasanaeth, a'u cysur; ac adeiladwyd eglwys fwy ysplenydd. Ni's gellir penderfynu i fanylrwydd, pa bryd ei seiliwyd; ond y mae yn sicr ei bod wedi ei chyfodi ryw bryd rhwng y flwyddyn 1108, a'r flwyddyn 1136, pan y symudwyd y rhan fwyaf o'r myneich i Henffordd. Nyni a wyddom ar awdurdod Giraldus Cambrensis, ei bod yn y flwyddyn 1186, wedi ei gorphen er ys talm; canys y mae efe yn ei darlunio wedi ei gorchuddio â phlwm, ac wedi ei hadeiladu yn hardd, a'i nen o gerig.

"Y mae cyflwr a sefyllfa y fynachlog ar y pryd hwn, yn cael ei ddarlunio fel y canlyn gan fynach Llanthony;—'Mewn glyn dwfn, y safai eglwys fynachlogaidd, wedi ei chyfleu yno er meithrin gwir grefydd, bron tu hwnt i'r holl eglwysi yn Lloegr; tawel i fyfyrdod, a neillduedig i ddal cymmundeb â'r Hollalluog; yma, nid ydyw cwynion galarus y gorthrymedig yn peri aflonyddwch, nac ymrysonau gorphwyllog y taiogaidd, yn peri terfysg; ond y mae tangnefedd tawel, a chariad perffaith, yn croesawi crefydd sanctaidd, ac yn alltudio annghydfod. Ond, pa ham y darluniaf sefyllfa y lle, pan y mae pob peth wedi cyfnewid cymaint er ei sefydliad cyntefig? Tramwyid y creigiau ysgythrog gan ddi-

Digitized by Google

adelloedd o greaduriaid gwylltion a chyflymdroed;[1] y creigiau hyn a gylchynent ac a dywyllent y glyn; canys yr oeddynt yn orchuddiedig gan goed mawrion a thewfrig, y rhai a ymddangosent yn hardd o bell, i'r edrychwyr ar dir a môr. Yr ydoedd canol y glyn, er ei fod wedi ei wisgo â choed, ac yn gûl a dwfn, yn cael ei derfysgu weithiau â gwynt crŷf a difwynol, ac ar brydiau eraill, ei dywyllu â chymylau duon, a gwlawogydd trymion; ei wneyd yn anghyfleus gan rewogydd llymion, neu ei gau i fynu gan luchfeydd o eira, tra y bydd yr awel yn dyner a nawsaidd mewn manau ereill.

"Y tarddellau mawrion a dibrin o'r mynyddoedd cymydogol, a ddisgynent gyda mûrmur hyfryd i'r afon, yn nghanol y dyffryn, yn yr hon yr heigiai pysgod. Weithiau, ar ol gwlawogydd trymion, y rhai a ddisgynent yn dra mynych, byddai y llifogydd, heb gymeryd eu hattal, yn ymchwyddo dros geulanau yr afon, gan ddymchwelyd creigiau, a diwreiddio y coed. Ond, er hyny, yr ydoedd y mynyddoedd ehang hyn, yn cynwys porfeldir rhagorol, a gweirgloddiau breision, i borthi anifeiliaid; yr hyn a wnelai i fynu am ddiffrwythdra llawer o barthau eraill; ac yn enwedig, am brinder ŷd. Ac er fod yr awyr yn lled dawchus, yr ydoedd yn iachus, fel yr oedd y trigolion yn mwynhau hir-hoedledd mawr; ond yr oedd y bobl yn anwaraidd, heb grefydd, yn grwydriaid, ac yn dueddol i ladratta: ni's meddent drigleoedd sefydlog, a symmudent, fel eu tueddid gan y gwynt a'r hin.'

"Ond, terfynodd y cyfnod yma o ysplander a thawelwch, gyda theyrnasiad Harri y Cyntaf; ac yn ystod yr ymrafael rhwng yr amherodres Maud â'r brenin Stephan, y myneich a orthrymid, a yspeilid, ac a sarhaid yn ysgeler, gan y brodorion yn fynych. Y mae mynach Llanthony mewn dwyster difrifol, yn rhoddi adroddiad tarawiadol o'r triniaethau blinion a achlysurodd eu symmudiad o Gwm Iau, neu Ddyffryn Ewyas.—'Daeth Cymro o'r gymydogaeth, i ymofyn am nawdd rhag ei erlidwyr yn y llanerch gyssegredig hon; ond ei elynion, gan ei erlyn â malais annghymodlawn, a osodasant gynllwyn iddo yn y cyntedd allanol. Yn y cyfyngder hwnw, efe a ffodd, yn nghyd a'r benywod o'i deulu, i'r swyddfeydd mwyaf tufewnol; a'r benywod a gymerasant feddiant o'r ystafell fwytta, ac nid oedd gywilydd ganddynt ganu a halogi y lle â'u hymddygiadau gwagsaw a mursenaidd. Pa beth a allasai milwyr Crist ei wneuthur? Y maent yn gylchynedig oddi allan gan arfau eu gelynion;—arfau oddi allan i'w pyrth, a dychrynfeydd oddi fewn: ni's gallant gael cynhaliaeth i dori eu newyn; nac ymarfer a gwasanaeth Dwyfol gyd â'r parch arferol, gan drahausder eu gwesteion di ddiolch.'

"Yn y cyfyngder yma, hwy a anfonasant eu cwynion at Robert de Betun, esgob Henffordd, yr hwn a olynasai Ernesi fel llywydd y priordy; a'r esgob, gan dosturio wrth eu cyfyngderau, a'u gwahoddodd i Henffordd, a roddes ei balas i fynu at eu gwasanaeth, a thros ddwy flynedd, a gynhaliodd yr holl rai a adawsent y fonachlog, ar ei draul ei hunan. Yna, efe a lwyddodd i gael gan Milo de Lacy, ganiattau llanerch o dir a elwid Hyde, yn agos i Gaerloyw, lle o fewn corph blwyddyn, yr adeiladasant eglwys, â'r arian a ddygasid o Lanthony, yn nghyd a chynnorthwyon ychwanegol oddiwrth yr esgob; a'r eglwys hono a gyssegrwyd yn y flwyddyn 1136, gan esgobion Caerwrangon a Henffordd, gan ei chyflwyno i'r Forwyn Fair; ac fe'i galwyd Llanthony, ar enw yr eglwys flaenorol. Hwy a ymsefydlasant yn y fan hon, fel trigle dros dymhor; a chyfrifid y fonachlog newydd, yn gell ddarostyngedig i'r hên fonachlog, i'r hon yr oedd y rhan fwyaf o'r myneich yn rhwym o ddychwelyd ar adferiad heddwch a diogelwch.

"Milo a'i deulu a waddolasant Lanthony yr ail, â meddiannau lawer; a bu y brenin Ioan hefyd yn gymwynaswr mawr iddi; gan roddi llawer o diroedd at ei chynhaliaeth. Trwy yr anrhegion hyn, daeth y Llanthony newydd yma rhagddi mewn cyfoeth ac ysplander; y myneich yn cael gwenieithio iddynt gan y mawrion, ac yn ymdroi mewn helaethrwydd o bob rhyw foethau, a ddaethant i ymhyfrydu yn eu sefyllfa, ac i annghofio yr hen anialwch cyntefig; ac nid yn unig gommeddent ddychwelyd; ond hefyd hawlient i'r sefydliad newydd, dra arglwyddiaeth ar y fam eglwys; tra y gorthrymid ac yr yspeilid yr ychydig a barhaent i gyfanneddu yn nyffryn Ewyas.'

"Y mae mynach Llanthony, yn arllwys y cwynion mwyaf galarus, yn yr iaith fwyaf cynhyrfus, o herwydd cyflwr anrheithiedig y fam eglwys. 'Wedi i'r dymhestl fyned drosodd, ac i heddwch gael ei adferu, yna meibion Llanthony a rwygasant ffiniau y fam eglwys, ac a ommeddasant wasanaethu Duw fel yr oedd yn ddyledus arnynt; canys hwy a arferent ddywedyd, fod gwahaniaeth mawr rhwng dinas Caerloyw, â chreigiau gwylltion *Hatyrel* (?); rhwng yr afon Hafren, a'r ffrwd Honddu; rhwng y Saeson goludog, a'r Cymry anghenog. *Yno*, y mae gweirgloddiau cynnyrchiol, *yma* nid oes namyn rhosydd diffrwyth; am hyny, wedi ymchwyddo gan foethau eu sefyllfa newydd, a llwyr flino ar y lle hwn, y maent yn ei warth-nodi fel lle annghymwys i greadur rhesymol, llawer llai i grefyddolion. Myfi a'i clywais yn cael ei haeru, ac yr ydwyf mewn rhan yn ei gredu, bod rhai o honynt yn dywedyd yn eu cellweiriaeth, (gobeithiaf nad oedd yn tarddu oddiar gynddrygedd eu calonau), eu bod yn dymuno fod pob careg o'r hen sefydliad hwn, yn ysgyfarnog. Eraill a ddywedasant, eu bod yn dymuno fod pob careg o'r eglwys, a'i holl adeiladau, wedi suddo i waelod y môr. Y maent wedi traws-feddiannu a gwastraffu holl gyllidau yr eglwys. *Yno*, y maent wedi cyfodi adeiladau uchel a rhwysgfawr; *yma* y maent wedi goddef i'n hadeiladau hybarchus gwympo i adfeiliad. Ac er gochel y gwaradwydd o roddi i fynu hen fonachlog, lle yr hir arferasid cynnal addoliad crefyddol, gwaddoledig â meddiannau mawrion, y maent yn anfon yno eu haelodau hên ac anfuddiol, y rhai ni's gallant fod o unrhyw enill iddynt eu hunain nac i eraill; y rhai a allant ddywedyd gyd a'r apostol, 'Fe'n gwnaed yn yscum, a gwrthodedig gan ein brodyr.' Hwy a oddefasant i'r fonachlog ddisgyn i'r fath dlodi, fel yr oedd y brodyr heb wenwisgoedd, ac yn cael eu gorfodi i weini gwasanaeth yr eglwys, yn groes i arfer a rheolau yr urdd. Weithiau ni bydd ganddynt lodrau, ac ni's gallant fod yn bresenol yn y gwasanaeth dwyfol; weithiau, bydd raid i ddogn un diwrnod o fara, wasanaethu am ddau, tra yr ydoedd myneich Caerloyw, yn mwynhau gorddigonedd. Ein hymliwiad a gyffroai eu digofaint, neu eu gwawd, ond ni chynnyrchai unrhyw gyfnewidiad; ac os adnewyddid y cwynion hyn, hwy a attebent, 'Pwy a elai i ganu i fleiddiaid? A all cenawon bleiddiaid ymhyfrydu mewn peroriaeth

[1] Wrth y creaduriaid hyn y golygid ceirw yn benaf.

uchel?' Yr oeddynt hyd yn nod yn gwneyd gwawd o honom, a phan anfonid neb un yma, gofynent, 'Pa gamwedd a wnaeth efe? Pa ham yr anfonir ef i garchar?' Ac fel hyn y mae yr arglwyddes, a'r fam eglwys, yn cael ei galw yn garchardy, a lle i gosbi troseddwyr.

Er yr holl orthrymderau creulawn a gwaradwyddus hyn, yr oedd llawer yn parchu y fam eglwys, â serchawgrwydd mabol; ond ni feiddiai neb sefyll i fynu o'i phlaid; ac ni feiddiai neb gwyno drosti; os rhyfygai neb yngan, efe a gosbid fel troseddwr ysgeler: gan hyny ymostyngai pawb yn ddyoddefgar, tra y caniattai Duw, yn ei ewyllys gyfiawn, ond anamgyffredadwy i ni, i'r llyfr-gell gael ei hyspeilio o'i llyfrau, yr ystordy o'i weithredoedd a'i freinleni, o'i wisgoedd sidan, a'i greiriau, wedi eu brwydweithio âg aur ac arian; a'r trysordy, o'i holl nwyddau gwerthfawr. Pa beth bynag ydoedd werthfawr, neu addurniadol, yn eglwys St. Ioan, a drosglwyddwyd i Gaerloyw, heb y gwrthwynebiad lleiaf; hyd yn nod y clychau, er eu pwysau dirfawr, a symudwyd i'r un lle.'

"Darfu i gyflwr anrheithiedig y fonachlog yn y Cwm, gymhell y brenin Edward y Pedwerydd, i uno y ddwy fonachlog trwy freinlen, yn yr hon y rhoddai efe yr uchafiaeth i'r un yn agos i Gaerloyw; gan roddi y myneich dan rwymau i gynnal llywydd trigianol, a phedwar canon, yn y fynachlog gyntefig. Ond ni's gellir cael gwybodaeth benderfynol, pa un a gymerodd yr undeb yma le mewn gwirionedd, ai peidio; canys ar ddadgorfforiad y mynachlogydd, y mae y ddwy fynachlog yn cael eu prisio ar wahan; yr un gerllaw Caerloyw, i 648*p.* 19*s.* 11*c.*; a hon yn swydd Fynwy, i 71*p.* 3*s.* 2*c.* yn ol Dugdale; neu, yn ol Speed, 748*p.* 0*s.* 11*c.* a 112*p.* 1*s.* 5*c.*

Un John Ambrus oedd Llywydd priordy Llanthony yn Mynwy, y pryd hwn; yr hwn yn nghyda John Neleand, a thri eraill, a danysgrifiasant i uchafiaeth y brenin mewn pethau crefyddol, yn y flwyddyn 1534. Yr un flwyddyn, Richard Hempstead, neu "Hart," fel ei gelwir gan *Anthony Wood*, yr hwn oedd yn Llywydd y priordy ger Caerloyw, a dau ar hugain eraill, a danysgrifiasant i uchafiaeth y goron. Rhoddwyd gorsaf hen fynachlog Llanthony, i Richard Arnold, yr hwn a eilw *Tanner*, "Nicholas Arnold;" ac fe'i pwrcaswyd, yn nghyd a'r ettifeddiaeth, oddiar Cadben Arnold, Llanfihangel, gan y Prawiadur Harley; ac wedi hyny daeth yn eiddo Iarll Rhydychain."

Cydnabyddwn fod yr Erthygl hon wedi myned yn lled faith, ar le tra di nod yn yr oes hon; ond yr ydym yn ystyried bod y dyfyniadau o waith hen fynach Llanthony, yn dra gwerthfawr, fel y maent yn adlewyrchu goleu ar ansawdd cymdeithas yn Nghymru yn yr oesoedd hyny.

**CWMORTHIN**, neu CWM CERTH HIN, mae safle y Cwm yn ateb i'r enw uchod, yn gymwys; ond myn rhai ychwanegu ato, a dywedant mai ei enw cyntefig ydoedd, Cwm oer certh hin. Saif ar yr ochr ogleddol i blwyf Ffestiniog; ac er ei fod yn lle uchel, y mae yn Gwm dwfn, drwy ei fod yn cael ei amgylchynu gan fynyddoedd uchel ar bob llaw oddieithr un fynedfa agored ar y dehau. Mae ynddo Lyn prydferth, oddeutu haner milldir o hyd. Ceir ynddo ddwy Ffarm, sef Cwmorthin isaf, yn agos i'r fynedfa ddeheuol, a Cwmorthin uchaf, ar y pen gogleddol i'r Llyn. Mae yr olaf yn rhan o *ystad* y Llyn Llywarch yr hon etifeddiaeth sydd yn bresenol yn eiddo i J. R. Ormsby Gore, Ysw., A.S., Brogyntyn (*Parkington*) ger Croesoswallt. Mae y Ffarm yn bresenol yn gysylltiedig a *chloddfa* y "*Rhosydd*," a thy hardd, wedi ei adeiladu ers rhai blynyddoedd bellach. Mae golwg henafol ar yr hen ffarm-dy, lle y bu hen gymeriadau hynod yn trigo am ganrifoedd lawer, dywedir fod yr un linach wedi bod yn byw yno am wyth gant o flyneddoedd. Hen fachgen dyddan oedd yr hen Shon Cwmorthin, difyrus iawn fyddai genym daro arno, i holi am helyntion yr amser gynt. Mae ef wedi marw ers o 12 i 15 mlynedd bellach. Pan y gofynid iddo,—"Pa fath le oedd yn y rhan yma o'r wlad yn yr hen amser Shon Jones?" Attebai yr hen wr yn bwyllog, "Mi glywais fy Nhad yn dyweyd, glywed fy Nhaid yn dyweyd, yr elai y Wiwar i fyny o goed Tany Bwlch, i Bont yr Afon, heb roddi ei throed ar y ddaiar." Mae y coedydd mawrion a godwyd o'r Mawnogydd, o Dan y Grisiau i'r Rhiwbryfdir, yn brawf o gywirdeb dywediad yr hen wr. Yr oedd yn syn ganddo glywed neb yn dyweyd fod y ddaiar yn troi; digwyddodd fyned allan o'r Cwm, i dreulio ychydig o amser, pan ydoedd y Lleuad yn llawn; sylwodd yr hen wr arni, a dywedodd. "Mae genych Leuad braf ffordd yma, rhyw beth fain sydd genym ni acw, yn ditlanu mewn mynyd rhwng y creigiau! Mae Cloddfa Cwmorthin wedi gorchuddio y rhan fwyaf o'r ffarm arall. Erbyn hyn y mae y Cwm anhygyrch yma, wedi myned yn lle poblogaidd; lliaws o dai yma ac acw, a dau addoldy wedi eu hadeiladu tua 4 blynedd yn ol; sef un gan y Methodistiaid Calfinaidd yn y cwr uchaf i'r Cwm, ac un gan yr Annibynwyr yn y cwr isaf. Mae yn agos i 300 yn gweithio yn Nghloddfa Cwmorthin, a lliaws mawr yn y *Rhosydd*, yr hon sydd ar y mynydd, yn agos i'r ffordd sydd yn arwain dros y Bwlch, tua *Cwm Croesor.*

Ar y mynydd, yn ogleddol i'r Bwlch, yr ydym yn canfod olion o hen ffordd; a dywedir mai ffordd ydoedd o *Cricieth* i *Lanrwst.* Dywed traddodiad fod yr hen Frytaniaid yn amcanu gwneyd eu ffyrdd dros leoedd uchel, gan eu bod yn fwy diogel rhag bwystfilod gwylltion, y rhai oeddynt mor liuosog yn ngwaelod y dyffrynoedd. Llwybr anhygyrch oedd i ddyfod i lawr o Gwmorthin. Yr oedd math o *Risiau* wrth Dai y Muriau, i ddyfod i *Dol redyn*, y rhai a elwid y GRISIAU MAWR, ac am y rheswm yma y gelwid yr ardal boblogaidd sydd is law, yn Tan y Grisiau. Yr oedd yn y Ddol redyn, hen gistfaen neillduol amser yn ol, ond y mae hi wedi ei chwalu ymaith erbyn hyn, fel lliaws o olion henafol Ffestiniog.

**CWM-RHEIDIOL**, trefgordd yn mhlwyf LLANBADARN-FAWR, cantref GENAU'R GLYN, swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU, nid pell o Aberystwyth, gyda phoblogaeth o 1304. Y mae'r afon Rheidiol yn rhedeg drwyddo, ar hyd glânau yr hon y mae golygfeydd dymunol iawn. Y mae yma weithfeydd plwm mawrion, yn y rhai y mae y rhan fwyaf o'r preswylwyr yn gweithio. Y mae trethoedd blynyddol y drefgordd, tua 190*p.*

**CWM RHONDDA.**—Mae y cwm hwn gan mwyaf, yn mhlwyf Ystrad dyfodwg, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU. Mae i afon Rhondda ddau ben, neu ddwy gangen, y rhai a elwir Rhondda Fawr, a Rhondda Fach, y rhai a unant a'u gilydd mewn lle o'r enw Cymmer: ac ystyr y gair Cymmer, yw uniad dwy afon o'r un enw.

Tardda y Rhondda Fawr, yn rhan ogleddol plwyf

Digitized by Google

Ystrad-dyfodwg, rhwng Mynydd Penpych, a Chraig Y Llyn. Mae yma hefyd amryw fân gangau, y rhai a ymunant i ffurfio blaen y Rhondda Fawr. Mae rhywbeth neillduol, yn ymddangosiad yr un fwyaf gorllewinol o'r cangau hyn, yr hon a red am tua hanner milltir, o'r gorllewin i'r dwyrain, ac y mae yr hanner milltir hono, fel rhes faith o risiau, dros y rhai y rhed yr afon. Ar ol rhoi llam tua throedfedd, dwy, neu dair, fel y bo'r disgyniad, â yn mlaen am tuag ugain llath, mwy neu lai, ac yna disgyna dros y gris nesaf; ac ar ol cael digon o ymarferiad ar y mân risiau a nodwyd, y mae yn rhoi llam hyf a phenderfynol, dros graig, tua 40 troedfedd o uchder, a'r nentydd ereill fel pe am ei hefelychu, a neidiant dros greigiau cyffelyb, a chyfarfyddant yn y gwaelod, gan ymdoddi yn eu gilydd, mewn lle o'r enw, Blaen Rhondda. Mae y rhaiadrau a ffurfir gan y nentydd hyn, yn rhai prydferth iawn—mae yma bedwar o honynt, a phob un yn agos yr un faintioli o ran uchder. Tardd y fwyaf dwyreiniol, o'r rhai hyn, yr hon a elwir Nant-rhyd-y-cyllyll yn agos i ben Craig y Llyn, yr hwn yw y mynydd uchaf yn Morganwg, 1971 troedfedd o uchder. Rhed peth o ddwfr y tarddiad, tua'r gogledd, dros y dibyn i'r Llyn Mawr, a'r gweddill tua'r deau, tua Blaen Rhondda. Tua chwarter milltir yn nes i Blaen Rhondda na phen Craig y Llyn, y mae math o siglen gorslyd, lle y mae tarddiad cryf iawn—digon o ddwfr i droi rhodau tair neu bedair melin, yn ymwthio allan o'r mynydd, yr hwn sy'n rhoi nerth a bywyd adnewyddol i Nant-rhyd-y-cyllyll. Yn y man y cyd gyferfydd y nentydd, y mae creigiau y lle yn ymddangos yn union fel pe baent wedi eu taflu i fyny i'r awyr, gan nerth daiargryn cryf, a syrthio yn bendramwnwgl ar draws eu gilydd drachefn, ac aros felly hyd yn awr.

Tardda y Rhondda Fach yn agos i Graig y Bwlch, tua milltir i'r dwyrain o'r man y tardda Nant-rhyd-y-cyllyll. Y Rhondda fach sy'n ffurfio'r ffin rhwng plwyf Aberdar, a phlwyf Ystrad-dyfodwg.

Mae lle yn Nghwm Rhondda Fach, a elwir Pont y Gwaith; a'r bont wedi cael ei henw oddi wrth y Gwaith haiarn fu yno amryw gannoedd o flynyddau yn ol. Dywed rhai fod y gwaith hwn mor hen ag amser y Rhufeiniaid; ond tybiwyf mai cywirach yw y syniad, mai tua'r 14eg ganrif y bu gweithio haiarn yn y lle hwn. Yr oedd cryn lawer o'r hen ffwrnes yn sefyll, hyd o fewn ychydig flynyddau yn ol, ond nid oes ond ychydig olion yno yn bresenol.

Yn Nghwm Rhondda Fach, y mae'r Lôfa sydd erbyn hyn yn hyspys i'r holl fyd, yr hon a elwir Glofa Blaenllechan, neu'r *Ferndale Colliery*, lle y collodd 178 o'r glowyr eu bywydau, trwy ffrwydriad y Llosgnwy, Tach 8fed 1867: ac yr hyrddiwyd 47 drachefn i'r byd tragywyddol, trwy ffrwydriad yr unrhyw nwy. Mehefin 11eg, 1869.

Mae'r pwll hwn yn 300 llath o ddyfnder. Cloddiwyd ef yn 1858-9. Yr enw a roddir i'r ardal yn bresenol, yw Tre Rhondda. Mae yno tua 225 o dai; a chapeli gan y gwahanol enwadau. Y mae gweithiau glo hefyd yn ngodre y cwm hwn, ychydig i fyny o'r lle yr una y ddwy afon. Enwau y glofeydd hyn, yw Pwll yr Ynys Hir, a Phwll Troed y Rhiw. Cloddiwyd y blaenaf yn 1850; o'r olaf yn 1854.

Yn y cwm hwn y mae dau amaethdy, yn dwyn yr enwau Penrhys Uchaf; a Penrhys Isaf, er cof am doriad pen y Tywysog Rhys ab Tewdwr yn y gymydogaeth, yn y flwyddyn 1091. Cymmaint a hyna ar Gwm Rhondda Fach.

Ychydig yn is na'r rhaiadrau a nodwyd, yn Blaen Rhondda Fawr, y mae Pwll glo wedi ei suddo yn 1868-9, a elwir Pwll Blaen Rhondda; y mae hwn dros 400 o latheni o ddyfnder—yn un o'r rhai dyfnaf yn Nghymru.

Tua milltir yn îs yn y cwm, y mae amryw byllau glo yn cael eu gweithio ar raddfa helaeth, megys Pwll Blaen y Cwm (*Dunraven Colliery*) Pwll y Bute, eiddo Ardalydd Bute, a Phwll y Ty Newydd, ac ychydig yn ddeheuol i'r rhai hyn, y mae Glofa Ynysyfeio. Mae suddiad y gwahanol byllau hyn, wedi bod yn foddion i dref fawr gael ei hadeiladu yn y lle yn ystod y deng mlynedd ddiweddaf, yr hon a elwir Treherbert. Gan fod tai y dref hon i gyd yn newyddion, ac wedi eu hadeiladu i gyd wrth gynllun gwych, ac heb fod un o honynt yn fychan iawn; y mae y dref yn edrych yn hardd dros ben.

Yn y dref hon y mae gorsaf uchaf, neu derfyn eithaf, cangen Cledrffordd Dyffryn Taf yn y Cwm: hyny yw, i'r dref hon y daw cerbydau y teithwyr bellaf; ond â y gledrffordd i fyny at bwll Blaen Rhondda.

Mae yn y lle hwn, Eglwys newydd a hardd, yn nghyd a chapeli prydferth gan y gwahanol enwadau ymneillduol. Dyma eu henwau, a'r pryd eu hadeiladwyd:—

Horeb (T. C.) 1867. Libanus (B.) 1858. Carmel (A.) 1858, ail adeiladwyd yn 1867. Capel Blaen-y-cwm (B.) 1870. Capel Tynewydd (A.) 1871. Wesleyaid Seisnig. Mae yn y lle hwn ysgoldai gwychion hefyd, fel nad yw yn ol mewn unrhyw fraint a mantais ag sydd gan drefi gweithfaol y Deheudir yn gyffredin. Y lle nesaf, yr hwn sydd ychydig yn ddeheuol i Dreherbert yw *Treorci*. Y mae'r dref hon fel Treherbert, i gyd yn newydd, ac ugeiniau o dai yn cael eu hadeiladu yno yn bresenol. (1871). Y glofeydd perthynol i'r lle hwn ydynt, Abergorci, Tyle Coch, a Chwm Parc. Cymmerodd Tanchwa nwyol le yn yr olaf Mehefin 23in 1871; trwy yr hon y llosgwyd offer pen y pwll yn ulw. Erbyn y bydd yr holl dai sy'n cael eu hadeiladu yn y lle hwn yn orphenedig, yn nghyd a'r cannoedd sydd yno yn barod, bydd yn dref fawr iawn. Mae yn y lle hwn hefyd amryw gapeli, ac Ysgoldy Brytanaidd, eang a gwych.

*Ystrad Rhondda*, yw y lle nesaf tua'r deau. Yma y mae hen Eglwys y Plwyf—Ystrad Dyfrdwg. Mae y lle hwn etto yn fawr a phoblog. Adeiladwyd Ty Marchnad yn y lle hwn yn 1869, yr hwn sydd yn gryn gyfleustra i'r lle. Mae yma hefyd amryw gapeli, ac oll yn newyddion, fel y gwelir wrth y blwyddiadau canlynol:—Jerusalem (T. C.) 1867. Siloh (A.) 1868. Hebron (B.) 1870. Congregational, 1870. Wesley,——.

Mae'r lle hwn yn ymddibynu ar y glofeydd, fel ardaloedd ereill y Cwm; a'r prif rai yn nghysswllt a'r lle ydynt Pwll y Ton, a Phwll y Pentref. Dygwyddodd Ffrwydriad Nwyol galarus yn yr olaf, yn mis Chwefror 1871, pryd y collodd 40 o'r glowyr eu bywydau. *Llwyn y pia*, sydd le pwysig etto, ychydig yn ddeheuol o Ystrad Rhondda, lle y mae glofeydd mawrion, a phentref mawr a phoblog, yr hwn sydd ar gynnydd cyflym. Rhwng y lle hwn a'r Cymmer, y mae gwaith a phentref Y Ddinas, lle y mae 56 o ffyrnau, at wneyd golosglo: yn nghyd a dau Waith glo mawr.

Digitized by Google

Mae'r Cymmer, Y Porth, ac America Fach, megys un dref fawr, ar bob tu i'r afon, lle yr una y ddwy a'u gilydd.

Mae hen bont y Cymmer wedi ei hadeiladu ar y Rhondda fawr, ac y mae ei harddull yn profi ar unwaith ei bod wedi ei chynllunio a'i chodi gan yr un gwr ac a adeiladodd hen Bont y pridd, neu ynte gan ei fab. Mae hon yn sicr o fod tua chan mlwydd oed, ac yn ddigon cadarn i sefyll amryw gannoedd etto.

Achwynai Malkin, wrth fyned i fyny trwy y Cwm hwn yn 1803, ei fod fel un wedi myned allan o gylch cymdeithas ddynol, gan mor anaml oedd y trigolion, yn enwedig ar ol myned i fyny ychydig yn uwch na'r Cymmer, i ardal Llwyn-y-pia &c.

Pa fodd bynnag, y mae yn amlwg fod y Cymmer yn gyrchfan canolog lawer o flynyddau cyn hyny, oblegyd adeiladwyd Capel gan yr Annibynwyr yn y lle yn y fl. 1743, yr hwn a ail adeiladwyd yn 1834.

Yr oedd y gymydogaeth hon wedi bod yn bwysig hefyd oesau cyn codi y capel y tro cyntaf, yn enwedig yr ardal yr achwynai Malkin ar ei hunigedd, oblegyd nid pell o'r gymydogaeth hono y safai Mynachlog Penrhys, yr hon oedd yn ei bri yn 1400. Yr oedd Mynachod y Fynachlog hon yn bleidiol iawn i'r enwog Owen Glyndwr, a chynnaliwyd Eisteddfod Fawreddog ynddi, dan nawdd y gwladgarwr dewr hwnw. Ond wedi gorchfygu Owen Glyndwr, gorchymynodd Harri V. i'r awdurdodau lwyr ddinystrio Mynachlog Penrhys, er dial ar y Beirdd a'r Mynachod, am fod yn bleidiol i Glyndwr. Dinystrwyd hi yn y flwyddyn 1414.

Yr hyn sydd wedi dod a'r Cymmer i sylw yn ddiweddar, pa fodd bynag, yw y Glo sydd yn llechu yn nghrombil y ddaiar yn yr holl gymydogaeth. Suddwyd Pwll y Cymmer, yn y flwyddyn 1847. Ei ddyfnder yw 100 llath. Yn mis Gorphenaf 1856, taniodd y Llosgnwy yn y pwll hwn, pryd y llosgwyd i farwolaeth 114 o'r glowyr. Yn y pedwar ffrwydriad a nodwyd, y mae 379 o fywydau dynol wedi eu haberthu yn y Cwm hwn, ar allor ddu y glo: yr hyn sydd yn galw yn uchel ar y perchenogion, i arfer pob moddion o fewn eu cyrhaedd, er diogelu bywydau eu cyd-ddynion sydd yn eu gwasanaeth.

Adeiladwyd Ysgoldy Cenedlaethol hardd yn y Cymmer yn y flwyddyn 1857; yn yr hwn y cynnelir gwasanaeth Eglwysig bob Sabbath.

Adeiladwyd Ysgoldy Brytanaidd y tu arall i'r afon, yn America Fach, yn 1863, ac y mae yn ysgoldy eang a gwych.

Codwyd capel gan y Bedyddwyr, yn y lle yn 1855; ac un arall gan y Trefnyddion Calfinaidd yn 1856; a chan y Wesleyaid yn 1865.

Adeiladwyd pont hardd, dau fwa dros yr afon, ychydig yn is na'r Cymmer yn 1870.

Rhwng y Cymmer a Phontypridd y mae dau bentref poblog ereill, sef y Gyfeillion, a Hopkinstown. Mae yma amryw weithfeydd glo hefyd, megys Glofa Llwyn celyn, Glofa y Coedca, Glofa y Great Western, a Level Simon. Y mae eglwys hardd yn ymyl glofa y Great Western, yr hon a elwir Eglwys Rhondda.

Mae hyd y Cwm hwn o Bontypridd i fyny hyd Blaen Rhondda, tua 12 milltir, a braidd na ellir dweyd gyda phriodoldeb, ei fod yn cynnwys tref hir, yr un rhifedi o filldiroedd, oblegyd y mae tai wedi eu hadeiladu ar hyd y Cwm, heb nemawr lecyn gwag, o'r pen isaf i'r pen uchaf.

**CWM-TOYDDWR**, neu Cwm-dau-ddwr, plwyf yn undeb a chantref Rhaiadr-ar-wy, swydd Faesyfed, Deheudir Cymru, chwarter milldir i'r Gorllewin De Orllewin o Raiadr, oddiwrth yr hwn le y gwahanir ef gan yr afon Wy. Y mae yn 10 milldir ei hyd, ac yn y man lletaf y mae yn 5 milldir. Mynyddig ydyw gan mwyaf, ac y mae yma ddiadelloedd lawer o dda, a defaid yn cael eu magu. Darganfyddwyd mwn plwm yn nyffryn Elain, yn 1796, ond nid yw yn cael ei weithio yn bresenol. Y mae yma hefyd chwarelau o lechau da iawn. Y mae ychydig weithfeydd gwlân yn y plwyf. Y mae'r eglwys yn sefyll gerllaw cydiad dau ddŵr yr Elain a'r Wy, ac wedi cael ei chyssegru i St. Ffraid, yr hyn ydyw'r achos fod y plwyf yn cael ei alw weithiau yn Llansaintffraid-Cwmdauddwr. Ficeriaeth ollyngol yw y fywioliaeth, ac y mae gwedi cael eu gwaddoli a 200*p*. o rodd freninol, a 400*p*. o rodd seneddol; y mae yn werth 95*p*. y flwyddyn, yn esgobaeth Tŷ Ddewi, ac yn nawddogaeth yr Esgob. Y mae'r ficar yn derbyn hanner y degwm, ac y mae'r hanner arall yn myned i'r Esgob. Y mae eglwys adranol yn Nantgwyllt, yr hon a adeiladwyd yn 1772. Y mae capel yma gan y Bedyddwyr.

Gadawodd y Parch. Charles Price, ficar Llanarth, swydd Aberteifi, yn 1719, dŷ a thiroedd, a elwir Llawr y llan, yn y plwyf hwn, at y dybenion canlynol, sef addysgu plant tylodion, a thraddodi pump o ddarlithiau duwinyddol yn eglwys y plwyf, y gyntaf ar y Sul cyntaf yn mis Mai, a'r lleill yn y misoedd dilynol: cynnelir yr ysgol yn Rhaiadr, ac y mae chwech o blant y plwyf hwn yn derbyn addysg ynddi yn rhad. Y mae yma ysgol i fechgyn, gydag ychydig waddol, ac y mae yma hefyd ysgol i ferched. Gadawwodd John Davies yn ei ewyllys, dŷ a elwir Troed y rhiw ac ychydig dir, at dderbyn cloffion, deillion, ac anafusion methedig y plwyf. Y mae'r cynnyrch yn 17*p*. y flwyddyn, ac yn cael ei ranu rhwng y rhai a fyddo i mewn. Y mae Jeremiah Powell wedi gadael 2*p*. y flwyddyn i'r tylodion. Y mae ychydig olion o hen gaerfa yma ar làn yr Wy, gyferbyn â chastell Rhaiadr, a dywed traddodiad eu bod yn gyssylltiedig gan ffordd ag oedd yn myned dan yr afon. Y mae'r plwyf wedi cael ei ranu i ddwy drefgordd, ac y mae olion capel hynafol yn mhob un o honynt, y rhai a elwir capel Madoc, ac Aber-Henllan: bernir eu bod yn hynach na'r eglwys blwyfol gyntaf a adeiladwyd yma. Y mae enw amaethdy ag sydd yma, Coed-y-Mynach, yn peri i rai dybied fod yma fonachlog gynt: ond, nid oes dim hanes am dani, nac olion o honi; gan hyny, y mae yn fwy tebyg fod yr amaethdy yn perthyn i fonachlog Cwmhir, yr hon sydd bron yn yml, ac o'r hon i fonachlog Ystrad-Fflur, yn swydd Aberteifi, yr oedd ffordd yn myned dros y mynyddoedd, olion yr hon sydd i'w gweled hyd heddyw, ac mewn cyssylltiad â'r hon yr adeiladwyd hen Bont-y-gŵr-drwg, sef y bont isaf. Gwel Devil's Bridge. Y mae ffynnon sulpheraidd gref iawn yma, yr hon a ddarganfyddwyd tua 40 mlynedd yn ol, mewn lle a elwir Hirnant. Y mae'r plwyf hwn yn mesur 32,000 o erwau, ac y mae ei drethoedd tua 500*p*. y flwyddyn.

**CWMTWRCH**, trefgordd yn mhlwyf a chantref Caio, swydd Gaerfyrddin, Deheudir Cymru, 11 milldir i'r Gogledd Orllewin wrth Orllewin o Lanymddyfri, poblogaeth yr hon a roddir gyda'r plwyf. Y mae olion yr hen ffordd Rufeinig, a elwid Sarn Helen, i'w gweled yma cyfeirio yn drwy ddyffryn y

Digitized by Google

Twrch, o Llanio i Lanfair-ar-y-bryn. Y mae llethrau y bryniau yn goedog iawn, yn enwedig lle mae'r afon Twrch yn ymarllwys i'r Cothi.—Y mae pentref o'r enw yma, gerllaw Ystradgynlais, swydd Forganwg, yr hwn a gylchynir gan weithfeydd glô ac haiarn.

**CWYFAN**, Sant, yn y 7fed ganrif, a sylfaenydd Llangwyfan, yn Mon; Tudweiliog, yn Arfon; a Llangwyfan, yn swydd Dinbych.

**CWYFYN**, Sant, yr hwn oedd yn fab i Arthalun, o Ddyffryn Achlach, yn yr Iwerddon; ac fe'i coffeir yn Monedd y Saint, fel un a ddaethai drosodd i Gymru; ond nid yw yn hysbys pa bryd.

**CWYLLAWG**, un o ferched Caw, a gwraig Medrawd, nai Arthur; y mae Llangwyllawg, yn Môn, yn gyssegredig i'w choffadwriaeth.

**CYBI**, ydoedd fab Selyf ab Geraint ab Erbyn, a Gwen, ferch Gynyr, o Gaer Gawch. Yr oedd ei dad yn benadur yn Nghernyw, ond efe, wedi cael blas ar wybodaeth, a adawodd lŷs ei dad, ac a aeth drosodd i Ffrainc, lle y treuliodd efe gryn ysbaid gyda *Hilary*, esgob Poictiers, yr hwn a'i hordeiniodd ef yn gynorthwydd iddo ei hun yn y weinidogaeth; arosodd yno hyd farwolaeth yr hen esgob, yna dychwelodd i'w wlad ei hun. Ond mor gythryblus oedd Cernyw ar y pryd, fel y penderfynodd Cybi ei gadael, er ei fod yn etifedd y benaduriaeth; ac wedi iddo hwylio i'r mor, efe a laniodd yn *Mhenryn Menefia*, a alwyd wedi hyny Ty Ddewi. Oddiyma aeth drosodd i'r Iwerddon, lle yr arosodd am ryw yspaid. Ond gan na allai wneyd ei gartref yno o herwydd rhyw amgylchiadau, efe a groesodd y mor drachefn, ac a laniodd yn mhenryn gorllewinol Ynys Fon, ac a ymsefydlodd yn agos i Lan y Gwyddyl, lle yr adeiladodd fwthyn bychan iddo ei hun; ond Caswallon Law Hir, gan dosturio wrth waeledd ei drigfa, a roddes iddo gastell yn y gymydogaeth hono, a thiroedd at ei wasanaeth; ac mewn canlyniad i'r rhodd haelfrydig hon, sefydlwyd yno grefydd-dy bychan dan yr enw *Côr Cybi*, ac a alwyd ar ol hyny Caergybi. Yr oedd ar y pryd dri chôr, neu dair athrofa, yn Ynys Fon, er cyfranu addysg grefyddol i wŷr ieuainc a ymgyflwynent i'r weinidogaeth; yr oedd y gyntaf o dan lywyddiaeth Cybi, ar Lan y Gwyddyl; yr ail oedd dan lywyddiaeth Elian, yn y lle a elwir yn awr Llanelian; a'r drydedd o dan lywyddiaeth Seiriol, yn Mhenmon; ac oddi wrtho ef y gelwir Ynys fechan gyfagos, yn *Ynys Seiriol.* Dywed traddodiad, yr arferai y tri wŷr hyn gyfarfod yn rheolaidd mewn manau neillduol yn yr Ynys, i ymgynghori ar achosion crefyddol. Arferai Cybi ac Elian gyfarfod yn Llandyfrydog, rhwng Caergybi a Llanelian; ac arferai Cybi a Seiriol gyfarfod yn Clorach, ger Llanerchymedd, lle mae dwy ffynon a elwir hyd y dydd heddyw "Ffynon Seiriol" a "Ffynon Cybi;" a chan y byddai yr haul i wyneb Cybi yn wastad wrth ddyfod yn y boreu, ac wrth ddychwelyd yn yr hwyr, a'r un modd i gefn Seiriol, gelwid y naill yn "Seiriol *Wyn*," a'r llall yn "Cybi *Felyn*."

Ymddengys oddiwrth hen ddarn o farddoniaeth yn y *Myf. Arch.* fod Cybi yn nghymanfa Llanddewi brefi. Mae amryw eglwysi wedi eu cyssegru iddo; megys Llangybi, ger Llanddewi brefi; Llangybi, yn Mynwy; a Llangybi, yn Eifionydd.

**CYDIFOR**, abad Llanfeithin, ydoedd wr enwog am ei ddysg a'i dduwioldeb yn nechreu y 9fed ganrif. Danfonodd chwe' gwr o'i goleg, yn genadon i'r Iwerddon.

**CYDPLWYF**, trefgordd yn mhlwyf Llanina, cantref Moiddyn, swydd Aberteifi, Deheudir Cymru; 4 milldir i'r De Orllewin o Aberaeron; gyda 239 o breswylwyr, yn ol Deiliadeb 1861. Amaethyddiaeth ydyw galwedigaeth y bobl, ac y mae'r tir yn cael ei wrteithio yn dda; y mae hytrach yn goediog, ac y mae golwg ddymunol oddiyma ar for agored Angorfa Aberteifi.

**CYDWELI**, hen fwrdeisdref gorphoriaethol, tref farchnadol, plwyf, a gorsaf rheilffordd, gydag awdurdod annybynol, yn nosbarth Undeb, a llys Sirol, Llanelli, cantref Cydweli, yn sir Gaerfyrddin, Deheudir Cymru, naw milldir (De ddwyrain) o Gaerfyrddin, yn Archddeoniaeth Caerfyrddin, yn Esgobaeth Tyddewi, ac yn gorwedd ar linell Rheilffordd Deheudir Cymru. Saif y dref ar ymuniad y ddwy afonig, Gwendraeth Fach, a Gwendraeth Fawr; o fewn ryw haner milldir i'r *Carmarthen Bay.* Mae llywodraeth y fwrdeisdref wedi ei osod mewn corphoriaeth dan arglwyddiaeth Duciaeth Lancaster, yn cynwys Maer, 12 henadur (aldermen) a 12 o fwrdeiswyr. Cynelir is-brawflys (petty sessions) yma bob mis, a brawdlys tri-misol.

Y mae Cydweli yn lle hynafol iawn, a thybir gan haneswyr, mai yma yr ymladdwyd y frwydr rhwng Ambrosius a Fortigern, yr hon a ymladdwyd, yn ol Bede, yn y flwyddyn 458. Bu y parth hwn o'r dywysogaeth, yn ol tystiolaeth Camden, am lawer o flynyddoedd yn meddiant y Scotiaid, dan feibion Keianus; y rhai a yrwyd ymaith o'r diwedd gan y tywysog Cymreig enwog, Cunedda. Yn nheyrnasiad William Rufus, cymerodd William de Londres y lle trwy oruchafiaeth. Yr oedd hwn yn un o'r deuddeg marchog oedd gyda Fitz-Hamon, yn ei ymosodiad llwyddianus ar Forganwg, ac i'r hwn, wedi hyny, y rhoddwyd arglwyddiaeth Ogmôr yn y sir hono. Dywedir i'r Londres hwn godi castell yn y dref, yr hyn drachefn a roddodd gymaint o bwysigrwydd ynddi. Ond mwy tebygol yw, mai Maurice de Londres, un o ddisgynyddion William de Londres, a gododd y castell, yr hwn y dywed Camden iddo, ar ol rhyfel caled, wneyd ei hun yn arglwydd y lle, a chadarnhau y dref gyda muriau a chastell. Yn ganlynol i hyn bu Cydweli yn faes i lawer a ymgyrchiadau milwraidd o gryn bwys. Yn y flwyddyn 1114, cymerwyd y dref a'r castell gan Gruffydd ab Rhys, ond ni's gallodd gadw meddiant o honi ond dros ychydig. Wedi cael ei orchfygu, ymgymerodd Gwenllian ei wraig, yr hon oedd ddynes o wroldeb anarferol, ag arwain llu mawr o wŷr, yn cael ei chynorthwyo gan ei dau fab, yn erbyn Maurice de Londres, gwnaeth ymosodiad arno gerllaw y castell, lle y gorchfygwyd hi; gwnaed hi yn garcharor, a rhoddwyd hi i farwolaeth gan ei gelyn. Lladdwyd un o'i meibion hefyd, a gwnaed y llall yn garcharor. Gelwir y lle yr ymladdwyd y frwydr hon, yn "Faes Gwenllian" hyd y dydd hwn. Yn 1148, daeth Cadell, un o feibion Gruffydd ab Rhys, gyda llu nerthol, allan o Gaerfyrddin, ac anrheithiodd yr holl wlad o amgylch y dref hon. Adgyweiriwyd a chadarnhawyd y castell yn 1100, gan Rhys ab Gruffydd, ond yn 1233, dymchwelwyd ef drachefn gan Gruffydd, mab Llewelyn ab Iorwerth, tywysog Gogledd Cymru, yr hwn oedd wedi dyfod i'r parth hwn o'r wlad, i wrthsefyll anrheithiadau Iarll Penfro, ac wedi clywed fod bradwriaeth ar droed gan bobl Cydweli, i'w fradychu ef i ddwylaw y Saeson, gosododd y dref ar dân, ac aeth yn ei flaen i Gaerfyrddin.

Ar ol hyn, trwy briodas âg wyres i Maurice de

Digitized by Google

Londres, daeth arglwyddiaeth Cydweli yn feddiant i Iarll Lancaster, ac y mae llywodraeth bresenol y dref, wedi tarddu oddiwrth ffurfiad etifeddiaethau yr iarllaeth hon i deyrniarllaeth, (County Palatine) dan deyrnasiad Edward III. Daeth y meddianau hyn yn eiddo y goron dan deyrnasiad Harri VII., yr hwn a gyflwynodd y castell a'i arglwyddiaeth, i'r enwog Rhys ab Thomas, am y cymhorth pwysig a roddodd i'r penadur hwn i esgyn i Orsedd Lloegr. Ar adeg gwarthruddiad Gruffydd, ŵyr Rhys ab Thomas, dychwelodd y meddianau hyn eto i'r goron; a gwerthwyd hwynt dan deyrnasiad Charles I. i'r Fychaniaid, neu y Vaughans, o Golden Grove, yn y sir hon; ac ar farwolaeth John Vaughan, Ysw., yn gynar yn y ganrif hon, daethant trwy ewyllys, yn feddiant Arglwydd Cawdor, ac y maent yn awr, yn eiddo etifedd y teulu hwnw, yr hwn sydd yn dwyn y teitl, Iarll Cawdor. Y mae arglwyddiaeth a rhyddid Cydweli yn cynwys, Cantrefi Carnwallon, Isceneu, a Chydweli, yn cymeryd i mewn un-ar-bumtheg o blwyfi, a phedwar-ar-bumtheg o faenorydd.

Mae y dref yn sefyll ar dir isel, heb fod dim neillduol o brydferth yn yr olygfa, ar lanau yr afonig a elwir Gwendraeth Fach; yr hon sydd yn rhanu y dref yn ddau barth, sef yr hen dref, a'r dref newydd. Saif yr hen dref ar y tu gorllewinol, a chysylltir y ddwy, gan bont geryg dda dros yr afon. Bu y dref yn un flodeuog iawn unwaith; ond trwy danau dinystriol, ac amryw bethau eraill, darostyngwyd hi i ddi nodedd a thlodi mawr; ac yr oedd ei thlodi wedi cyrhaedd ei eithafnod yn amser teyrnasiad y frenines Elisabeth. Un rheswm pwysig am ei dirywiad, ydoedd i'r mor daflu i fyny domenau mawrion o dywod, i gau i fyny fordwyaeth yr afon. Pan agorwyd Gweithiau glô, a phan godwyd Gweithiau copr, yn ardal Llanelli, dygwyd y fasnach a'r bobl tuag yno, a dyhysbyddwyd nerth a thrafnidiaeth y lle hwn i fesur mawr. Costiwyd symiau o arian i geisio carthu gwely yr afon, a chodi dociau yno, ond nid oedd dim yn tycio. Oddeutu 1766 agorwyd braich o gamlas, gan un Mr. Keymer, ar fedr dwyn glô o'r pyllau cyfagos, i'r porthladd. Yn hir wedi hyn trosglwyddwyd y Camlas i Gwmni, y rhai a'i hestynasant rai milldiroedd i fyny i ddyffryn Gwendraeth, ac yn mlaen tua Phenbrê, lle o fewn tua phedair milldir, ar y traeth; ond er pob peth, ciliodd y nerth a'r bywyd i ardaloedd cynyddol Penbre, a Llanelli. Bu yma Weithiau haiarn, ac alcan; mae y cyntaf wedi diflanu er ys llawer o flynyddoedd; ond mae y Gwaith alcan wedi cael ail fywyd y blynyddau diweddaf, gan Mr. Chivers. Y mae ei Waith ef yn sefyll tua milldir allan o'r dref, yr ochr oddiwrth y rheilffordd, ac y mae y Gwaith hwn wedi dwyn cryn fywyd eto i hen fwrdeisdref enwog Cydweli, ac wedi gwellhau llawer ar fasnach a thai y dref. Mae peth glô hefyd yn cael ei weithio yn yr ardal. Mae y plwyf yn cael ei ranu yn ddau ddosbarth, sef Eglwys Fair tu fewn, ac Eglwys Fair tu allan, a phob dosbarth yn gofalu ar wahân am ei dlodion. Mae hen Eglwys y plwyf—Eglwys Fair—yn sefyll yn y Dref newydd, yn esgobaeth Tyddewi, ac wedi ei threthu ar lyfrau y brenin, yn 7*p.* 10*s.* Ficeriaeth ydyw, gwerth 140*p.* yn rhoddiad yr Arglwydd Ganghellydd. Mae yma addoldai hefyd yn perthyn i'r Bedyddwyr, Methodistiaid, Annybynwyr, a Wesleyaid; ac y mae yma Ysgol Frytanaidd gyfleus. Cynelir y farchnad ar ddydd Gwener, a ffair fawr ar y 29ain o Hydref, a ffeiriau eraill, llai, yn ystod y flwyddyn. Y mae yr hen gastell yn sefyll ar ddarn o graig, mewn man amlwg, ar lan orllewinol Gwendraeth Fach, ac wedi ei gadw mewn gwell cyflwr, efallai, na'r un castell adfeiliedig arall yn y dywysogaeth. Y mae rhai o'r prif ystafelloedd yn gyfain a chyflawn. Wrth Penallt, ychydig tu allan i'r dref, sefydlwyd yn y flwyddyn 1130, briordy i fynachod Benedictaidd, gan Roger, esgob Sarum, yr hwn a'i cysegrodd, i'r Santes Mair, ac a'i cysylltodd a Mynachlog Sherborne yn Swydd Dorset; parhaodd i flaguro hyd yr ymraniad. Y mae peth o'r adfeilion yn amlwg hyd heddyw. Arwynebedd y plwyf yw 5170 o erwi, y *gross estimated rental*, yw 7112*p.*, a'r *rateable value* yn 6374*p.* Yr oedd y boblogaeth yn 1861 yn 1652; a bernir ei fod yn awr (1871) tua 2000.

**CYDWELI**, Syr Harri, ydoedd fardd, ac offeiriad Llandyfeiliog, swydd Gaerfyrddin, yn nechreu y 15fed ganrif.

**CYDWELI**, John, LL.D., a gafodd ei addysg yn Ngholeg yr Holl Saint, yn Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn 1510, a dyrchafwyd ef yn Benaeth Neuadd Edward.

**CYFEILIAWG**, esgob Llandaf, a gyssegrwyd yn ei dy ei hun gan Ethelred, archesgob Caergaint, yn 872. Yn 915, cymerwyd ef yn garcharor rhyfel gan y Daniaid; eithr y brenin Edward, (yr hynaf) a'i prynodd ef ganddynt, am ddeugain punt.—*Liber Lan.*

**CYFEILIOG**, neu Cyffylliog, sydd blwyf yn nghantref Rhuthyn, swydd Ddinbych, Gogledd Cymru; 5 milltir o Ruthyn. Y mae yn sefyll ar derfyn deheuol y sir, ac y mae nifer o ffrydiau yn rhedeg drwyddo, yn codi ar y mynyddoedd cymydogaethol, ac yn uno o fewn y plwyf, cyn ymarllwys i'r afon Clwyd. Y mae yn cynwys tir da at ŷd, a gwair, ac mewn amaethiad rhagorol; y mae yr arwynebedd yn amrywiaethol, a'r tir, yn enwedig yn y gwaelodion, yn ffrwythlon iawn. Y mae yr olygfa ar y gymydogaeth hefyd yn amrywio mewn prydferthwch; ac er fod y mynyddoedd, mewn rhai manau, yn tori ar yr olygfa, nid yw i ddim amgen nac i'w gwneud yn fwy swynol. Y mae y fywoliaeth yn gysylltiedig â ficeriaeth Llanynys, yn archddeonaeth Meirionydd, ac esgobaeth Bangor. Nid yw yr eglwys, yr hon sydd wedi ei chyflwyno i St. Mair, yn arddangos dim hynodrwydd yn nghynllun ei hadeiladaeth. Y mae yma waddoliad o 3*p.* yn y flwyddyn, wedi ei adael er addysgu plant tlodion; ac y mae cynyrch amryw roddion haelfrydig, yn cael eu cyfranu yn flynyddol rhwng yr anghenus.

**CYFEILIOG**, Huw, a anwyd yn 1164, yn Nghantref Cyfeiliog, Powys. Efe oedd un o'r arglwyddi a gytunodd a brenin Lloegr am eu hen hawliau a'u rhyddid. Cyfranodd lawer i Fynachlog Enlli. Bu farw 1181.

**CYFEILIOG**, Owain, bardd tywysogaidd, a milwr enwog, yn nechreu y 12fed ganrif. Mab ydoedd i Gruffydd ab Meredydd, Arglwydd Powys. Ar farwolaeth ei dad yn 1130, daeth Owain i etifeddiaeth helaeth. Yn 1162, bu mewn rhyfel aflwyddianus a Hywel ab Cadwgan, arglwydd y berfedd-wlad, rhwng Gwy a Hafren. Yn y flwyddyn ganlynol, efe a ymosododd ar gastell Careg Hwfa, yn mhlwyf Llanymynach, ac a'i dymchwelodd. Yn 1165, ymunodd ag Owain Gwynedd yn erbyn Harri II., a hynododd ei hun a'i wŷr yn mrwydr Crogen. Yn 1166, dygodd diroedd Powys oddi ar Iorwerth Goch, yr hyn a fu yn achlysur i ddwyn Owain Gwynedd, a Rhys,

Digitized by Google

tywysog Deheubarth, yn ei erbyn; y rhai a'i difeddianasant ef o'i holl diroedd. Ond adfeddianodd Owain ei dreftadaeth yn fuan ar ol hyny, trwy gymorth Harri II. Yn 1176, gwŷsiwyd ef gan Harri i'w gyfarfod ef yn Rhydychain, i gyflafareddu ar faterion y dywysogaeth. Yn 1188, esgymunwyd ef gan yr archesgob Baldwyn, pan oedd efe a Giraldus Cambrensis, a'r Prif Ynad Glanville, yn myned trwy y dywysogaeth i bregethu Rhyfel y Groes. Dyma y cofnod o'r amgylchiad,—"Nyni hefyd a esgymunasom Owain de Ceveleoc, oblegid efe yn unig o'r tywysogion Cymreig, a wrthododd gyfarfod yr archesgob gyda'i bobl." Bu Owain farw mewn oedran teg, yn mynachlog Ystrad-marchell yn 1197. Efe a adeiladasai y fynachlog hono yn 1170. Mae dau o'i gyfansoddiadau barddonol ar gael, sef "Hirlas Owain," a'r "Englynion i Gylchau Cymru." Bu yn briod a Gwenllian, ferch Owain Gwynedd, o'r hon y cafodd un mab, Gwenwynwyn, yr hwn a etifeddodd ei holl dreftadaeth, oddi-eithr Llanerchhudol, a Broniarth, y rhai a roddes efe i'w orderchfab, Caswallon.

**CYFELACH**, rhaglaw-esgob Morganwg, yr hwn a laddwyd yn 756, mewn brwydr a ymladdwyd rhwng y Cymru a'r Saeson, yn swydd Henffordd. Mae eglwys Llangyfelach, yn Morganwg, yr hon a sylfaenwyd gan Dewi Sant, yn cymeryd ei henw oddiwrtho ef.

**CYFLEFYR**, SANT, yn y 5ed ganrif, a lofruddiwyd gan y Saeson, yn swydd Aberteifi, mewn lle a elwir er cof am ei ferthyrdod, Merthyr Cyflefyr. Y mae rhai adroddiadau yn ei roddi yn rhestr meibion Brychan; ond, y mae adroddiadau eraill, gyda mwy o debygrwydd i fod yn gywir, yn ei alw yn fab Dingad, ac ŵyr i Brychan.

**CYFLEWYR**, mab Gwynlliw, sant a flodeuodd yn y 6ed ganrif; ond ni's gwyddys dim yn ychwaneg o'i hanes.

**CYFOETH-Y-BRENIN**, trefgordd yn mhlwyf LLANFIHANGEL-GENAU'R-GLYN cantref GENAU'R GLYN, swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU, nid pell o Aberystwyth, gyda phoblogaeth o 1089, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae yn perthyn i'r Goron, yr hyn sydd yn cyfrif am ei henw, ac y mae ynddi fwn-gloddiau copr, a phlwm. Y mae yn mesur 2514 o erwau, ac y mae ei threthoedd tua 150*p.* y flwyddyn. Y mae rhan o honi yn talu y degwm mawr i ficar y plwyf.

**CYFRONYDD**, sydd drefgordd yn ffurfio rhan wahanedig o blwyf, a therfynau Trallwng, rhanbarth uchaf cantref CAWRSE, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU; 5 milltir o'r Trallwng. Y mae y lle hwn yn sefyll ar y ffordd o'r Trallwng i Lanfair, ar geulan yr afon Banw, yr hon sydd yn ymarllwys i'r Fyrnwy ychydig oddiwrth Mathrafael, tua phedair milltir i'r gogledd. Y mae Cyfronydd Hall, wedi ei godi yn nghanol coedwigoedd iraidd a thyfadwy, ar lethr bryn, oddiar grib yr hwn y ceir golygfa fanteisiol ar brydferthion y dyffryn, drwy yr hwn y rhed y Banw, a'r gymydogaeth gyfagos, yn cynwys bryniau sir Feirionydd. Y mae olion amddiffynfeydd ar ben y bryn hwn, ac amryw eraill sydd yn y gymydogaeth hon.

**CYFYW**, neu CYNFYW (AB GWYNLLIW), sant o goleg Cattwg. Gan ei fod yn cael ei alw weithiau yn *Cyfyw*, a phryd arall yn *Cynfyw*, tybir mai efe a adeiladodd eglwysi Llangyfyw, yn agos i Gaerlleon, swydd Fynwy; a Llangynyw, swydd Drefaldwyn.

**CYFFIG**, plwyf yn undeb ARBERTH, yn mharth isaf cantref DERLLYS, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, 5 milldir i'r Gorllewin wrth Dde o St. Clears. Y mae'r hen ffordd o St Clears i Arberth yn myned drwyddo. Cyn y ddeddf ddiweddar ag sydd wedi gwneuthur pob curadiaeth barhaus yn ficeriaeth, curadiaeth barhaus oedd bywioliaeth y plwyf hwn, ac y mae gwedi cael ei chysylltu âg un Marros; yr oedd gynt yn ymddibynu ar y fam eglwys yn Llacharn, ond gwaddolwyd hi yn ddiweddar gan ficar y plwyf hwnw, âg 8*p.* y flwyddyn, a chafodd rodd freninol o 600*p.*; cyfanwerth, 56*p.* y flwyddyn; y mae yn nawdd ficar Llacharn. Y mae capel yma gan y Bedyddwyr. Y mae Syr John Crow, Barwnig, gwedi gadael cymmun-rodd o 50*p.* i'r plwyf hwn, llôg blynyddol y rhai sydd yn cael ei ranu rhwng y tylodion. Y mae'r trethoedd blynyddol tua 150*p.* y flwyddyn. Y mae'r plwyf hwn yn mesur 4556 o erwau. Rhif y boblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, yw 468.

**CYFFIN**, MORUS, oedd ail fab Richard Cyffin, o'r Glasgoed, ger Llansilin. Yn 1587, cyhoeddodd "Ddadseiniad meibion y daran." Yn 1595, cyhoeddodd "Ddiffyniad Ffydd Eglwys Loegr, gan Esgob Jewel, wedi ei gyfieithu o Ladin yn Gymraeg, drwy waith M. Kyffin, o'r Glasgoed, Llansilin," yn rhagymadrodd pa un, traetha am y buddioldeb o droi y Salmau i fesur cerdd. Dichon mai ei awgrymiad ef a roddodd benderfyniad i'r Archddiacon Prys i ymgymeryd â'r gorchwyl, yn mhen tuag ugain mlynedd ar ol hyn. Yr oedd Morus Cyffin yn fardd galluog, fel y dengys yr Englynion o'i eiddo, a argraffwyd yn y *Greal*.

**CYFFIN**, RICHARD, Deon Bangor, a Pherson Llanddwyn, yn Mon, yn 1485. Cymerodd ran neillduol gyda syr Rhys ab Thomas, i ddwyn Harri VII. i Orsedd Lloegr.

**CYFFYLLIOG.** Gwel CYFEILIOG.

**CYLCH-BYCHAN**, trefgordd yn mhlwyf TY DDEWI, cantref DEWISLAND, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU, 1¼ milldir i'r Dwyrain o Dŷ Ddewi, gyda phoblogaeth o 278, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae yn un o'r pedwar cylch, i'r rhai y mae'r plwyf wedi cael ei ranu.

**CYLCH-GWAELOD-Y-WLAD**, trefgordd yn mhlwyf TY DDEWI, cantref DEWISLAND, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU, 1 milldir i'r Gorllewin o Dŷ Ddewi, gyda phoblogaeth o 419, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae yn gorwedd wrth waelod y plwyf, ar lan y môr, a dyma barth mwyaf gorllewinol Cymru. Y mae ynys Ramsey, yr hon sydd yn cynnwys un fferm, yn y drefgordd hon.

**CYLCH-MAWR**, un o'r cylchoedd uchod 2¼ milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Dŷ Ddewi, gyda phoblogaeth o 460, yn ol Deiliadeb 1861.—Y mae'r pedwarydd cylch yn cael ei alw CYLCH-Y-DREF, ac y mae ei boblogaeth yn 1027, yn ol Deiliadeb 1861.

**CYLLIN**, mab Caradawg ab Bran; sant oedd yn ei flodau tua diwedd y ganrif gyntaf. Nid oes yr un eglwys yn Nghymru ar ei enw.

**CYMORTH**, neu COUTH, SANT, ydoedd un o ferched Brychan, a gwraig Brynach Wyddel; a mam Gerwyn, a'i chwiorydd Mwynen, Gwennan, a Gwenlliw.

**CYNAN**, ydoedd fab Cynwyd Cynwydion yn y 6fed ganrif.

**CYNAN** AB IAGO, ydoedd fab Iago ab Idwal, ac Afandred, ferch Gweir ab Pyll, a thywysog yn

Digitized by Google

meddu hawl i benaduriaeth Gwynedd, yr hon oedd yn cael ei dal ar y pryd gan Gruffydd ab Llywelyn. Enciliodd Cynan i'r Iwerddon, lle y priododd Ranulph, ferch Awloedd, brenin Dublin. Yn 1042, efe a gafodd gymorth y Gwyddelod i ymosod ar Wynedd, a chymeryd y brenin yn garcharor. Ond llwyddodd y Cymry yn fuan i waredu eu brenin, a gorchfygu y Gwyddelod gyda lladdfa fawr. Yn 1050, gwnaeth Cynan ail gynyg, yr hwn hefyd a drodd yn aflwyddianus; yna efe a dreuliodd weddill ei oes yn yr Iwerddon.

**CYNAN** AB SITSYLLT, a laddwyd gyda'r oll o'i feibion, yn mrwydr Ystrad Ywain, yn Morganwg, yn 1032.

**CYNAN GARWYN**, a ddilynodd ei dad, Brochwel Ysgythrog, i dywysogaeth Powys yn y 7fed ganrif.

**CYNAN MEIRIADOG**, yn ol y *Brutiau*, ydoedd fab i Eudaf, "Iarll Ergyng ac Euas," ac Arglwydd Meiriadog, (yn awr Arglwyddiaeth Dinbych,) yn y 4edd ganrif. Dywedir mai ei chwaer ef, Elen Luyddawg, oedd gwraig *Clemens Maximus* (Macsen Wledig), Hispaeniad, mae yn debyg o genedl, yr hwn oedd yn gwasanaethu gyda'r fyddin Rufeinig yn Mrydain, ond a gafodd ei gyhoeddi gan ei fyddin yn ymerawdwr, ac a ddyhyspyddodd Brydain o'i milwyr, ac o flodau ei hieuenctyd, i fyned gydag ef i'r cyfandir, i geisio trawsfeddianu gorsedd Rhufain; ond a laddwyd gan Theodosius, yn 388. Dywed y chwedl, mai trwy ddylanwad Cynan Meiriadog, ei frawd yn nghyfraith, y cyfododd efe y fyddin fawr o Brydain, (ugain mil o wyr), ac i'r rhai hyny, ar ol i Macsen gael ei ladd, ymsefydlu yn Llydaw, o dan lywodraeth Cynan, yr hwn, am nad oedd yn dewis i'r Prydeiniaid ymgyfathrachu gyda phobl y wlad hono, a anfonodd at Dunawd, yr hwn oedd yn llywodraethu Prydain ar y pryd, am iddo anfon cymaint fyth ag a allai o wyryfon ieuainc i Lydaw, i fod yn wragedd i'r Prydeiniaid yno. Dunawd, mewn canlyniad, a anfonodd 11,000 o ferched pendefigion, a 60,000 o ferched y werin, o dan ofal ei ferch Ursula, mewn llongau drosodd i Lydaw; ond cyfododd tymestl ddychrynllyd yn eu herbyn ar y mor, drwy yr hon y suddodd amryw o'r llongau, ac y gyrwyd y lleill i arfordiroedd yr Almaen, lle y llofruddiwyd y morwynion yn ddidrugaredd gan Gwynwas, brenin yr Huniaid, a Melwas, brenin y Pictiaid, am nad ymostyngent i rysedd y barbariaid; ac er cof o hyn y cedwir "Gwyl y Gwyryfon."

**CYNAN NAWDD NIFER**, yn ol y *Brut*, ydoedd un o ryfelwyr dewraf y Cymru yn y 9fed ganrif.

**CYNAN TINDAETHWY**, oedd fab hynaf Rhodri Molwynog, a thywysog ar Ynys Môn, a rhan o Arfon. Daeth i'r benaduriaeth ar farwolaeth ei dad, yn 715. Yn 810, cododd ei frawd Hywel mewn gwrthryfel yn ei erbyn, gan hawlio Môn fel ei dreftadaeth, a thrwy frwydr waedlyd, enillodd yr ynys. Yn 814, ymladdasant drachefn, a throdd y fantol eto o blaid Hywel. Parodd hyn i Cynan gasglu ei holl adgyfnerthion yn nghyd, a thrwy ymdrech gadarn, gorfodwyd i Hywel encilio o Fôn, i ynys Manaw. Bu Cynan farw yn fuan wedi hyn, gan adael ei holl feddianau i Essyllt ei ferch, yr hon a briodasai Merfyn Frych, pendefig o Fanaw, fab Nest, ferch Cadell Deyrnllwg, fab Brochwel Ysgythrog.

**CYNAN WLEDIG**, medd y *Brut*, a ddaeth i freniniaeth Prydain trwy ladd Cystenyn Goronog, yn 544. Bu farw yn mhen dwy flynedd, a dilynwyd ef gan Gwrthefyr.

**CYNBRYD**, SANT, ydoedd fab Brychan. Efe a sylfaenodd eglwys Llanddulas, swydd Dinbych. Lladdwyd ef gan y Saeson yn y lle a elwir Bwlch Cynbryd; coffeid ef Mawrth 19.

**CYNDAF**, SANT, yn ol *Achau y Saint*, ydoedd wr o Israel, ac a ddaeth i Ynys Prydain gyda Bran Fendigaid ap Llyr Llediaith, i ddwyn y Ffydd yn Nghrist i Genedl y Cymry.

**CYNDEYRN**, neu ST. KENTIGERN, ydoedd fab i Owain ab Urien Rheged, a Dwynwen, ferch Llawdden Lueddog o Ddinas Eiddin (*Edinburgh*). Derbyniodd ei addysg o dan ofal Servanus, sant Gwyddelig, yr hwn, oblegid ei lariaidd-dra nodedig, a'i cyfenwodd *Mwyngu*, ond a lygrwyd gan ysgrifenwyr diweddar yn *St. Mungo*. Efe a sefydlodd esgobaeth Penryn Rhionydd (*Glasgow*), am hyny geilw y *Trioedd* ef yn "ben esgob" y Brytaniaid gogleddol. Yn mhen ysbaid, parodd ymrafaelion y wlad hono iddo encilio i Gymru, lle y derbyniwyd ef yn frawdol gan Dewi Sant.

Tra yn tario yn Nghymru, efe a sefydlodd esgobaeth Llanelwy, tua'r fl. 550. Yn mhen ychydig ar ol hyny, galwyd ef i ddychwelyd i'r Gogledd, gan Rhydderch Hael, penaeth Brytaniaid Ystrad Clwyd; felly efe a adawodd esgobaeth Llanelwy i ofal Asaf, un o'i ddysgyblion, a dychwelodd i'w esgobaeth gyntaf, lle y parhaodd hyd ei farwolaeth.

**CYNDEYRN**, SANT, yn y 6ed ganrif. Mab ydoedd i Arthog ab Caredig. Efe a sylfaenodd eglwys Llangyndeyrn, swydd Gaerfyrddin. Coffeid ef Mehefin 25.

**CYNDRWYN**, tywysog Powys, yn niwedd y 5ed ganrif. Efe oedd tad Cynddylan.

**CYNDDELW BRYDYDD LLYCHWYN**, a flodeuodd yn y 13eg ganrif. Nid oes dim o'i gyfansoddiadau ar gael.

**CYNDDELW BRYDYDD MAWR**, un o'r enwocaf o'r gogynfeirdd, oedd fardd Owain Gwynedd, Madog ab Meredydd, a Dafydd ab Owain Gwynedd; ac yn ei flodau o 1150 hyd 1200. Mae ei ganiadau yn llanw deugain tudalen o'r *Myf. Arch.*, argraffiad Dinbych. Wele engraifft o'r gyntaf, "Arwyrain i Owain Gwynedd:"—

"Ardwyreaf hael hwyl gyfrgain yg cad
Hwrd gleisiau feidiad flaid cyfwrain
Yn ail arwar mawr myn yd gyngain
Yn ail awduriaeth medfaeth madiain," &c.

**CYNDDYLAN**, ydoedd fab Cyndrwyn, ac olynodd ei dad i benaduriaeth Powys, yn Mhengwern, yn y 6ed ganrif. Nid oes dim o'i hanes ar gael, ond a ellir gasglu oddiwrth farddoniaeth Llywarch Hen, a Meigant, a welir yn y *Myf. Arch.* Ymddengys i Cynddylan syrthio mewn brwydr a'r Saeson, wrth amddiffyn tref o'r enw Tren; a chladdwyd ef yn eglwys Bassa, a elwir yn awr *Baschurch*, gerllaw Amwythig. Mae marwnad Llywarch Hen i Cynddylan yn cael ei hystyried, ar gyfrif ei theithi barddonol, a'i chyfeiriadau hanesyddol, yn un o'r darnau gwerthfawrocaf yn yr iaith. Wele engraifft o honi:—

"Sevwch allan vorwynion, a syllwch
Werydre Cynddylan;
Llys Pengwern neud tandde.
Gwae ieuainc à eiddynt brodre.

Digitized by Google

"Un pren a gwyddvid arno,
O dianc os odid.
A vyno Duw dervid.

"Cynddylan calon iaen gauav
A wânt Twrch trwy ei ben:
Ti a roddaist cwrwv Tren.

"Cynddylan calon goddaith wanwyn,
O gyvlwyn am gyviaith;
Yn amwyn Tren, trev ddifaith.

"Cynddylan bevyr-bost cywlad,
Cadwynawg cyndyniawg cad.
Amysgai Tren, trev ei dad.

. . . . . . .

"Ystavell Cynddylan ys tywyll heno,
Heb dan, heb ganwyll.
Namym Duw pwy am dyry pwyll.

. . . . . . .

"Ystavell Cynddylan nid esmwyth heno,
Ar ben Careg Hydwyth;
Heb ner, heb niver, heb ammwyth.

. . . . . . .

"Ystavell Cynddylan ys tywyll ei nen,
Gwedy diva o Loegyrwys:
Cynddylan ac Elvan Powys.

. . . . . . .

"Eglwysau Bassa ynt wng heno,
I etivedd Cyndrwyn;
Tir mablan Cynddylan wyn."

**CYNFAB**, Sant, yn y 7fed ganrif. Efe a sefydlodd Gapel Cynfab, yn mhlwyf Llanfair-ar-y-Bryn, swydd Gaerfyrddin.

**CYNFAR CAD-GADDUG**, penaeth yn y 5ed ganrif, ydoedd fab Cynyr Cynwydion, a chyda Gwendoleu ac Urien, yn ffurfio y "Tri tharw Câd."

**CYNFARCH I.**, fab Sitsyllt, a ddilynodd Iago i orsedd Prydain tua 704 cyn Crist.—*Brut.*

**CYNFARCH II.**, fab Sitsyllt, yn ol yr un awdurdod, a ddilynodd ei dad i orsedd Prydain, tua 563 cyn Crist.

**CYNFARCH OER**, ydoedd fab Meirchion, a thywysog y Brythoniaid Gogleddol, yn y 5ed ganrif. Efe a briododd Nefyn, ferch Brychan, o'r hon briodas yr hanodd Urien Rheged. Tybir i Cynfarch gael ei yru o'i diroedd yn y Gogledd, gan y Saeson a'r Gwyddyl Ffichti; ac iddo mewn canlyniad, ymsefydlu yn Nyffryn Clwyd, a chyflwyno gweddill ei oes i wasanaeth crefydd. Efe a sefydlodd eglwys Llangynfarch yn Maelor, yr hon a ddinystriwyd gan y Saeson yn mrwydr Bangor Iscoed, yn nechreu y 7fed ganrif. Mae eglwys Llanfair Dyffryn Clwyd wedi ei chyflwyno iddo ef, yn gyfranog a'r Forwyn Fair; a thybir mai iddo ef y cyflwynwyd eglwys St. Kinemark, Mynwy. Mae ei enw ar golofn Eliseg, ger Llangollen.—"*Conmarch pinxit hoc chirograffum rege suo poscenti Concenn.*"

**CYNFARWY**, Sant, yn y 7fed ganrif, ydoedd fab Afwy ab Llunawg, tywysog Cernyw, a sefydlydd eglwys Llechgynfarwy, yn Mon.

**CYNFELYN**, yr hwn a elwir weithiau *Cynfelyn Wledig*, *Cunobelinus* yr haneswyr tramor, a *Cymbeline*, Shakespear; yn ol y *Brut*, ydoedd fab Teneufan ab Lludd ab Beli Mawr, a brenin Prydain yn nechreu y cyfnod Cristionogol, tra yr oedd Tiberius a Caligula yn ymerawdwyr Rhufain. Dygwyd ef i fyny yn Rhufain; ac wedi iddo ddyfod yn hyddysg yn arferion a moesau y Rhufeiniaid, gwnaethpwyd ef yn frenin ar y *Trinobantiaid*, y *Catticulaniaid*, a'r *Dobuniaid*; a dywedir iddo ennill y fath ddylanwad ar y Prydeiniaid, er eu cael i ymostwng a thalu teyrnged i'w gorchfygwyr, fel y teyrnasodd efe ar y llwythau hyny mewn heddwch a llwyddiant am flynyddau lawer. Cadwai ei lys yn *Camalodunum* (Maldon, yn Essex), lle y bathodd efe lawer iawn o arian, tua deugain o ba rai, o wahanol fathau, ydynt ar gael hyd y dydd hwn; ond oll ar y dullwedd Rhufeinig; yr hyn sydd yn myned yn mhell i gadarnhau adroddiad y *Brut*, sef mai yn Rhufain y dygwyd ef i fyny. Credid hyd yn ddiweddar mai efe oedd y cyntaf a fathodd arian yn Mrydain; ond ymddengys yn awr, fod arian yn cael eu bathu yn Verulam cyn hyny; a chyn i'r Rhufeiniaid gymeryd meddiant o'r lle. Yr oedd un tu iddynt heb un math o argraff arno, ac ar y tu arall, yr oedd delw march, ac olwyn, i ddynodi, mae yn ddiau, gerbyd rhyfel. Bu farw Cynfelyn tua O.C. 40, gan adael ar ei ol ddau o feibion, Gwydyr a Gweirydd, (Guiderius ac Arviragus); ond dywed Dion Cassius, mai meibion Cynfelyn (*Cunobelinus*), oedd Caractacus, Adminius, a Togodumnus. Gwel Caradawg.

**CYNFELYN**, Sant, yn y 7fed ganrif, ydoedd fab Bleiddyd ab Meirion, a sefydlydd eglwysi Llangynfelyn, Ceredigion; a Llangynfelyn, Trallwng, swydd Drefaldwyn.

**CYNFELYN DRWSGL**, ydoedd fab Cynwyd Cynwydion, ac un o'r "Tri phost cad ynys Prydain."

**CYNFRAN**, Sant, ydoedd fab Brychan, a sefydlydd eglwys Llysfaen, ger Abergele, lle mae ffynon a elwir "Ffynon Gynfran," yn yr hon gynt, medd Edward Llwyd, yr arferai amaethwyr offrymu, gan erfyn "Rhad Duw a Chynfran lwyd ar y dâ."

**CYNFRIG**, neu Cynwrig ab Dafydd Goch, bardd, oedd yn ei flodau tua'r flwyddyn 1420. Y mae rhai o'i Gyfansoddiadau ar gael mewn hen ysgriflyfrau.

**CYNFRIG** ab Dafydd Goch, bardd yn ei flodau tua 1420.

**CYNFRIG**, Ellis, bardd yn ei flodau o 1580 hyd 1620.

**CYNFRIG HIR**, brodor o Edeyrnion, a anfarwolodd ei enw, trwy ei ddewrder yn achub ei dywysog, Gruffydd ab Cynan, o garchar Caerlleon. Gwel Gruffydd ab Cynan.

**CYNFYN** ab Gwerystan, arglwydd Cibwyr yn Ngwent, a oesai yn nechreu yr 11eg ganrif. Efe a briododd Angharad, ferch Meredydd ab Owain ab Hywel Dda, a gweddw Llewelyn ab Sitsyllt, o'r hon briodas y ganwyd Bleddyn, yr hwn a ddaeth i orsedd Gwynedd yn 1062.

**CYNHAFAL**, Sant, ydoedd fab Elyd ab Cadfarch ab Caradawg Freichfras, o Tubrawst; a sylfeinydd Llangynhyfal, swydd Dinbych.

**CYNHAFAL** ab Argad, bardd a rhyfelwr enwog yn y 7fed ganrif, a elwid yn un o "Dri Tharw Unben Ynys Prydain."

**CYNHAIARN** ab Hygarfael, yn y 6ed ganrif, ydoedd frodor o Llwch-haiarn, ac Ael-haiarn. Mae Ynys Cynhaiarn, yn Arfon, wedi ei galw ar ei enw.

**CYNHEIDDON**, Santes, yn y 5ed ganrif, a sylfaenodd Llangynheiddon, ar Fynydd Cyfor, yn swydd Gaerfyrddin.

**CYNHUDYN**, Sant, yn y 6ed ganrif, ydoedd fab Bleddyd ab Meirion, a deon coleg Padarn yn Llanbadarn Fawr.

**CYNIDR**, Sant, yn y 5ed ganrif, ydoedd fab i Rhiengar, ferch Brychan. Preswyliai yn Maelienydd,

Digitized by Google

swydd Faesyfed, a chladdwyd ef yn Glasbury. Efe a sylfaenodd eglwysi Llangynidr, ac Aberyscir, yn Mrycheiniog; y rhai a gyflwynwyd iddo ef a'r Forwyn Fair.

CYNIN, Sant, yn y 5ed ganrif, ydoedd fab, neu wyr i Brychan. Efe a sylfaenodd eglwys Llangynin, swydd Gaerfyrddin.

CYNLLO, Sant, yn y 5ed ganrif, ydoedd fab i Môr ab Ceneu ab Coel Godebog. Yn nydd-lyfr yr hen Ffurf-weddiau Cymreig, coffheir ef ar Mehefin 17, dan yr enw "Cynllo *Frenin*." Efe a sefydlodd eglwysi Nantmel, Llangynllo, a Llanbister, yn Maesyfed; a Llangynllo, a Llangoedmor, yn Ngheredigion. Rhaid fod enw Cynllo yn uchel yn yr oesau tywyll, canys yn "Dyhuddiant Elphin," a briodolir i Taliesin, dywedir:—

"Ni bydd coeg gweddi Cynllo
Ni thyr Duw a'r addawo."

Mae enw Cynllo mewn cadwraeth ddiogel yn y pethau canlynol, ar hyd parthau o Gymru:—1. *Cerwynau Cynllo*, sef corbyllau yn ngwely creigiog yr afon, wedi eu cafnu gan y dwfr; 2. *Ol traed march Cynllo;* 3. *Ol glinau Cynllo.* Ac y mae ffynon yn mhlwyf Llanbister, a elwir *Pistyll Cynllo.*

CYNLLO ab Beli, tywysog Powys yn yr 8fed ganrif.

CYNLLWG, bardd a flodeuai yn nechreu y 9fed ganrif.

CYNOG, yr hwn a elwir hefyd *Kinothus*, ydoedd ail esgob Llanbadarn, ac olynodd Dewi Sant yn esgobaeth Ty Ddewi, tua 544. Mae eglwys Llangynog, swydd Gaerfyrddin, wedi ei chyflwyno iddo.

CYNOG, Sant, yn y 5ed ganrif, ydoedd fab i Brychan, o Banadlwedd ferch Banadle o Bowys. Dygwyd ef i fyny o'i ieuenctyd tan ofal gwr duwiol o'r enw Gastayn, yr hwn a'i bedyddiodd ef. Dywed Cressy am dano,—"Yr oedd enwogrwydd ei fuchedd sanctaidd mewn bri mawr yn mhlith y Siluriaid; a chofnodir ei enw yn ein Merthyrdraith Saesneg, ar gyfer Chwefror 11; efe a flodeuodd yn mhob rhinweddau tua'r fl. 492." Merthyrwyd ef gan y Saeson Paganaidd, ar fynydd y Fan, yn Mrycheiniog; ac adeiladwyd eglwys yno er cof am dano, a gelwir y lle, Merthyr Cynog. Efe a sylfaenodd eglwysi Defynog, Ystradgynlais, Penderin, Battel, a Llangynog, yn Mrycheiniog; a Llangynog, yn swydd Drefaldwyn. Yr oedd mynachod yr oesau tywyll yn gwneyd masnach o'i enw; a dywed Giraldus Cambrensis iddo weled ei wddf-dorch yn Aberhonddu, yn cael ei chadw yn ofalus; ac yn mhlith yr amryw rinweddau a berthynent iddi, yr oedd un werthfawr neillduol, sef "na feiddiai neb dyngu anudon yn ei phresenoldeb."

CYNON ab Clydno Eiddin, un o "Dri Marchog cyngor Llys Arthur," un o "Dri serchogion Ynys Prydain," ac un or pedwar a ddiangodd a'i fywyd ganddo, o frwydr Cattraeth:—

"Ni ddiengis ond tri o wrhydri ffosawd,
Dau gadgi Aeron, a Chynon daerawd,
A minau o'm gwaedffrau gwerth fy ngwen-wawd."

Bernir oddiwrth y crybwylliadau sydd am dano yn "Englynion y Beddau," mai yn Llanbadarn y claddwyd ef.

CYNULLEIDFAOLAETH a olyga ffurf benodol o drefn eglwysig. Crybwyllwyd yn y gwaith hwn, dan y gair *Annibyniaeth,* "fod amryw eglwysi yn Annibynol, heb fod yn Gynulleidfaol, ond nad oes yr un eglwys Gynulleidfaol, heb fod yn Annibynol." Amcan y nodiadau hyn fydd egluro, neu ddatgan, hyd y gellir, beth ydyw syniadau y blaid grefyddol a adwaenir wrth yr enwau hyn, yn fwy na cheisio amddiffyn, neu bleidio y golygiadau. Tu ag at osod y pwnc yn y goleuni mwyaf trwyadl, bydd yn ofynol gwneud cyfeiriadau achlysurol at syniadau gwahanol ar drefn eglwysig; nid i geisio darostwng y naill, na dyrchafu y llall; ond yn hytrach, er mwyn y fantais, trwy gyferbyniad, o gymeryd golygiad eang a chywir ar bob ochr, fel y gwybydder yn eglur am yr ystyriaethau sydd yn gwahaniaethu y blaid a greda fod hawl gan bob eglwys, dan y Testament Newydd, i farnu drosti ei hun, yn ol y gallo ddeall gair Duw, am bethau crefyddol; ac i weithredu yn ol ei barn, heb fod yn gyfrifol i'r un person, llys, cymanfa, senedd, cyngor, nac awdurdod eglwysig arall, ar y ddaear, am wahaniaethu oddiwrth eraill. Addefwn fod yn anhaws rhoddi eglurhad teg am enwad nad yw yn caeth-ymlynu wrth syniadau cyhoeddedig, nac am y cyfryw ag sydd yn ffurfio eu rheolau, mewn trefn i'w harosod ar yr holl eglwysi a fyddo yn dal cysylltiad â hwy. Efallai, gan hyny, na byddai dim yn well ar y cychwyn, na chyfeirio at y nodiadau arweiniol, ag sydd wedi eu cyfleu o flaen y Datganiad a gyhoeddodd Undeb Cynulleidfaol Lloegr a Chymru yn ddiweddar, o egwyddorion eu ffydd, eu trefn, a'u dysgyblaeth eglwysig, yr hwn sydd fel y canlyn:—

"Ni fwriedir i'r mynegiad hwn gael ei osod allan gydag un math o awdurdod, neu fel safon ag y gelwir am gydsyniad ag ef."

"Heb fod yn credu yn nefnyddioldeb credoau ac erthyglau crefyddol, fel rhwymyn undeb, a chan ardystio yn erbyn llawnodiad wrth unrhyw ffurfiadau dynol, fel telerau cymundeb, y mae y Cynulleidfawyr, er hyny, yn foddlon i ddatgan yr hyn a gredir yn gyffredin yn eu mysg, er mwyn hysbysiad; gan gadw perffaith ryddid cydwybod i bob un."

"Ar rai pynciau athrawiaethol ac ymarferol, llai eu pwys, ag y gwahaniaethir yn eu cylch, y maent yn naturiol yn caniatau y naill i'r llall, yr hawl o ffurfio barn mor gywir ag a allont ar air Duw."

"Dymunant hefyd sylwi, er maint eu heiddigedd yn erbyn llawnodiad i gredoau ac erthyglau, a'u hanghymeradwyaeth o arosodiad unrhyw safon dynol mewn ffydd na dysgyblaeth, eu bod yn llawer mwy unedig yn eu hathrawiaethau a'u hymarferion, nac unrhyw eglwys sydd yn galw am lawnodiad, ac yn arosod unrhyw safon dynol o uniawngredaeth."

Tra y datganant y syniadau hyn, hwy a ardystiant, nad eu hamcan ydyw ceisio dad-eglwyso eraill, na sarhau teimlad neb, sydd yn gwahaniaethu oddiwrthynt, ond yn hytrach, er mwyn egluro y golygiadau a goleddant eu hunain.

Ystyriant fod y drefn gynulleidfaol, yn cymeryd i mewn, i raddau, y tri golygiad cyffredin ar natur llywodraeth eglwysig, sef esgobyddiaeth, henaduriaeth, ac annibyniaeth. Y mae y naill a'r llall yn wirionedd, ond y prif wirionedd ydyw annibyniaeth. Y mae esgobyddiaeth yn ysgrythyrol,—y mae yr esgob yn y drefn annibynol; y mae henaduriaeth yn ysgrythyrol;—y mae y gweinidog a'r diaconiaid yn ffurfio math o gyngor henadurol, yn yr eglwys annibynol, eto, annibyniaeth ydyw corph y pren, nid yw y lleill ond canghenau ynddo; neu, a newid y gymhariaeth, Annibyniaeth yw corph y deml, nid

Digitized by Google

yw y lleill ond adenydd yn yr adeilad. Felly, nid ceisio gwadu gwirioneddolrwydd y naill y maent, mwy na'r llall, wrth ddatgan mai annibynol neu gynulleidfaol ydyw yr eglwys yn ei ffurfiad. Felly barnant y dylid dechreu gyda y gofyniad, Pa beth ydyw golygiad y Testament Newydd ar natur eglwys Gristionogol?—o blegid y byddai cymeryd camolygiad ar hyn, yn arwain i ganlyniadau niweidiol; gan hyny, rhaid ei fod yn bwnc o bwysigrwydd mawr. Y mae y farn a ffurfier am natur eglwys, yn dylanwadu ar gymeriad a bywyd crefyddol yr aelodau.

Y mae y gair eglwys, yn ein gwlad ni yn gyffredin, yn golygu adeilad wedi ei gymhwyso at addoliad, megis "eglwys y plwyf," neu gapel anghydffurfiol; bryd arall defnyddir ef i osod allan gymundeb o bersonau, yn arddelwi yr un ffydd, ac yn arfer yr un defodau, megis Eglwys Loegr, neu Eglwys yr Alban; ac y mae yn cael ei arfer weithiau hefyd, i ddynodi ffurfiadau crefyddol, megis yr eglwys Esgobol, Henadurol, neu Babyddol. Y mae y gair yn yr ystyr cyntaf ag yr arferir ef yn yr Ysgrythyr, yn golygu cynulleidfa o unrhyw natur, crefyddol neu wladol, rheolaidd neu afreolaidd. Gelwir y cynhulliad oedd wedi dyfod yn nghyd i anrhydeddu y dduwies Diana yn Ephesus, yn eglwys (Actau xix. 32); ond cymerodd yr apostolion y gair i'w ddefnyddio fel ymadrodd cysegredig, i ddynodi eglwys Crist; corph cynulledig credinwyr yn yr Arglwydd Iesu Grist, ar y ddaear, ac yn y nef; neu ynte y rhan honno o honynt, sydd yn aros am dymor ar y ddaear, i addoli; neu ynte unrhyw frawdoliaeth unigol o bersonau, yn cynal cymdeithas a'u gilydd, yn yr un lle yn unrhyw fan ar y ddaear. Golygir y cyntaf yn yr ystyr eang am holl nifer y credinwyr trwy nef a daear, megis yn Ephes. iii. 21—yr ail, am holl nifer y credinwyr ar y ddaear, er bod ar wahan oddiwrth eu gilydd, Actau xx. 28;—a'r trydydd, yn yr ystyr derfynol, fel nad all yr holl eglwys ar y ddaear gyfarfod yn un gynulleidfa, o blegid eu bod yn "ddieithriaid ar wasgar," trwy deyrnasoedd a gwledydd, mewn gwahanol leoedd yn y byd; ac y mae yr enw yn cael ei roddi ar un gynulleidfa, yn cyfarfod yn yr un fan, at ddybenion crefyddol, megis yr eglwys yn Jerusalem, Antiochia, Phillipi, &c.; a hyny yn unol â chyfleusdra a manteision naturiol y gwahanol frodoriaethau. Pan y cyfeirir at nifer o'r cymdeithasau hyn ar wahan, mewn gwahanol fanau ar y ddaear, arferir y gair yn y rhif luosog, "eglwysi." Wrth ysgrifenu llythyrau at saith o honynt ar wahan, mewn gwahanol barthau o Asia, dywedir wrth Ioan, "ysgrifena mewn llyfr, a danfon i'r saith eglwys y rhai sydd yn Asia." Nid ydym byth yn cael y fath beth yn yr ysgrythyr, a chyfeiriad at eglwys wladol, cenedlaethol, taleithiol, neu blwyfol. Ni sonir am eglwys Asia, na Macedonia, ond eglwysi y cyfryw ddosparthau. Arferir y gair yn y rhif luosog yn ddi eithriad wrth gyfeirio at fwy nag un o'r cynulliadau hyn, ond yn unigol wrth olygu holl gyfundeb y saint yn gyffredinol, trwy nef a daear, neu wahanol barthau ar y ddaear ar yr un pryd.

Y mae y nodiadau hyn am syniadau y cynulleidfawyr, wedi rhwyddhau y ffordd at osod ger bron, eu golygiadau neillduol, am sefyllfa yr eglwys ar y ddaear, yn ei chymeriad lleol ac arbenig, sef ei bod o ran ei tharddiad yn ddwyfol,—o ran ei ffurfiad yn gymdeithasol,—o ran ei chyfansoddiad yn berffaith; —o ran ei dybenion yn grefyddol,—o ran ei chynhaliaeth yn wirfoddol,—ac o ran ei hamcan yn genhadol. Y mae yr eglwys o ran ei dechreuad yn *ddwyfol.* Nid yw hi o'r byd hwn, er ei bod yn y byd. Duw ei hun a roddodd y gorchymyn a'r cynllun i'w ffurfio. Efe ei hun ydyw ei chynalydd; arno ef y dibyna am ei llwyddiant, ac iddo ef y dychwelir yr holl anrhydedd oddiwrthi; ac o herwydd hyn y rhoddir ei enw ef arni—"Ty Dduw"—"eglwys Dduw"—"eglwys y Duw byw," &c. Rhoddir ei enw arni, fel nod o hynodrwydd, i'w gwahaniaethu oddiwrth bob brawdoliaeth arall, o bob math. Y mae o ran ei ffurfiad, yn *gymdeithasol.* Cymundeb y saint ydyw—nifer yn cyd gyfarfod oddiar ad-dyniad yr un golygiadau, a'r un teimladau, i gario allan yr un dybenion. Can belled a hyn, y mae ei ffurfiad yn seiliedig ar natur. Ni all y rhai a fyddo yn cyd-weled ac yn cyd-deimlo a'u gilydd, lai na chyd-gyfarfod a chydweithredu, a fyddo o fewn cylch cyrhaeddiad. Pe na byddai ond dau weddiwr mewn tref, nid hir y byddent heb glywed am eu gilydd, a thynu at eu gilydd. Y mae yr eglwys wedi ei chyfaddasu at deimladau naturiol dynion. Nid oedd angen nemawr o orchymynion at hyn yma, gan fod cymdeithasgarwch yn elfen naturiol mewn dyn. Pan y byddo amgylchiadau yn caniatau, y mae cymdeithas yn ymffurfio yn naturiol; felly yr eglwys, fel parotoad at gymdeithas y nef. Y mae o ran ei chyfansoddiad yn *berffaith.* O dan un Pen, yn rhodio wrth yr un rheol; yn yn meddu ar ei swyddogion, o esgobion a diaconiaid, o'i dewisiad ei hun, yn cynal gweinidogaeth y gair, ac ordinhadau y ty; yn cyd-uno i fyw yn dduwiol, a chyd-weithio. Nid yw i gynwys fel aelodau, ond rhai ag arwyddion duwioldeb arnynt. Cydnabyddant yn frodyr, bawb sydd yn caru ein Harglwydd Iesu Grist mewn purdeb; gan nad i ba ddosparth o'r Eglwys Gristionogol y perthynont. Golygant ei bod o ran ei dybenion yn *grefyddol.* Nid llenyddiaeth, moesgarwch, gwleidyddiaeth, gwyddoriaeth, na chelfyddyd, yn benaf; ond addoliad y Duw byw. Tra y dywedir hyn, ni olygir nad yw i fod yn mlaenaf yn nghefnogaeth pob rhinwedd a rhagoroldeb cymdeithasol; ond nid y rhai hyn yw ei phrif nod; nid yw y doniau hyn yn ddim amgen na'r blodau sydd yn addurno y llwybrau i'w chysegr. Y mae o ran ei *chynaliaeth* i fod yn *wirfoddol,* ac mewn cysylltiad a mwynhad ei breintiau. Y mae pob un i gyfranu, fel y llwyddodd Duw ef, a rhoddwr llawen y mae ef yn ei garu. Y mae trefn ei chynaliaeth i fod yn gydweddol â phrif egwyddor crefydd. O'i fodd y meddyliodd Duw am achub pechadur; y daeth Crist i'r byd, ac y rhoddodd ei fywyd i lawr; o'u bodd y mae yn enill deiliaid i'w deyrnas; ac o'u bodd y mae yn gofyn iddynt gynal ei achos yn y byd. Byddai y radd leiaf o orfodogaeth, yn ddinystr ar yr egwyddor haelfrydig ar ba un y mae ei holl oruwch-adeiladaeth yn pwyso. Y mae i fod yn *genhadol* yn ei hamcan. Y mae pob eglwys, o'i ffurfiad cyntaf, i gadw golwg ar helaethiad ei therfynau yn y byd. Y mae achubiaeth y byd, ac adeiladaeth personol y Cristion, wedi eu cydblethu a'u gilydd. Yn yr ystyr hwn, y mae i fod yn ymosodol. Nid fel y graig, sydd yn sefyll yn ei hun-fan i wrthwynebu rhuthr y don, ond yn hytrach fel y wawr, sydd a'i chynydd yn ymestyn ac yn myned rhagddi hyd ganol dydd.

Os yw y gosodiadau uchod yn deg, y mae y casgliadau canlynol yn dilyn yn naturiol, sef, Bod pob eglwys i Grist yn frawdoliaeth gyflawn, bob un

Digitized by Google

ar wahan, dan y Testament Newydd; a phob un i farnu drosti ei hun, yn ol y syniad cywiraf a allo roddi ar Air Duw, am bethau crefyddol, heb fod yn gyfrifol i neb arall ar y ddaear; ac y mae hyn yn ymddangos yn eglur, pan yr ystyrir y pethau canlynol;—Na fedd yr eglwys yr un reol, ond Gair Duw; a bod hwnw yn unig a digonol reol ffydd ac ymarweddiad.—Nad oes son yn y Testament Newydd am unrhyw frodoriaeth o eglwysi, yn ffurfio llŷs o awdurdod eglwysig,—Fod yr eglwys yn dewis ei swyddogion ei hun, a bod hyny yn brawf, fod yr awdurdod lywodraethol yn gwbl oll ynddi ei hun. Dywedyd i'r eglwys, ydyw y gorchwyl diweddaf, mewn penderfyniad ar unrhyw bwnc o ddadl, yn mhob achos,—Mai Crist yn unig a gydnabyddir yn Ben; mai un yw athraw yr eglwys a'r gweinidogion sef Crist, a'r swyddogion oll yn frodyr, yn sefyll ar yr un tir; ac nad oes gan yr un o honynt hawl i alw neb arall yn Dad iddynt ar y ddaear. Gan hyny, egwyddor gyntaf Annibyniaeth, ydyw perffaith hunan lywodraethiad, ac yna y canlyn yr ail, sef perffaith hawl pob aelod i gael llais yn nhrefniadau yr eglwys y perthyna iddi, yr hyn sydd yn galw am osod y gwaelaf yn yr eglwys ar y faingc, i gael ei bleidlais fel y lleill, yn mysg y lluaws, yr hyn a dybir yn yr ymadrodd, "Digon i'r cyfryw un y cerydd yma, a ddaeth oddiwrth laweroedd," neu y nifer fwyaf.

Y mae y nodiadau hyn yn arwain yn naturiol at yr ymofyniad pellach, sef;—Pa beth ydyw yr achos o fod cynnifer o enwau yn cael eu harfer i ddynodi y blaid hon, ac eto na feddant yr un enw nodweddiadol, yn y diwedd? Y mae yn briodol i'w fynegi, nad ydynt yn meddianu rhai o'r enwau a gymhwysir iddynt, ond yn unig megis rhai o'r enwadau eraill, sydd yn dyfod o dan yr un darluniad. Felly ni ellir, osgoi yr angenrheidrwydd o gyfeirio atynt. Y maent wedi derbyn rhai o'r enwau hyn oddiar amgylchiadau, ac eraill drwy arosodiad y cyhoedd, ac nid o'u dewisiad eu hunain. Gellid dosparthu yr enwau hyn, er mwyn cyfleusdra, i ddwy ran, sef y rhan Dduwinyddol, a'r rhan Lywiadol. Mewn ystyr dduwinyddol, y maent yn Ardystwyr, Trindodiaid, a Bedyddwyr deiliaid o bob oedran. Fel Ardystwyr, ni feddant yr un gredo ond y Bibl, yr hwn yn unig a addefant fel Llyfr crefydd. Ardystiant yn erbyn cyfeiliornadau eglwys Rhufain. Ni addefant neb yn Ben i'r eglwys, ond Crist; nac yr un gredo ond y Bibl. Ar y Bibl ni feddant yr un esboniwr, ond barn bersonol, wedi ei goleuo gan yr Yspryd, sydd yn tywys i bob gwirionedd. Y maent yn Drindodiaid mewn cyferbyniad a'r Undodiaid. Ni chynnygiant ddirnad dirgelwch yr athrawiaeth; credant mewn Un gwir a bywiol Dduw, yn dri pherson Dwyfol. Y maent yn Fedyddwyr deiliaid o bob oedran, mewn cyferbyniad a'r rhai a wrthodant fedydd babanod, ac a gyfyngant yr ordinhad i rai mewn oedran. Mewn perthynas i'w Llywiadaeth, y maent yn Ymneillduwyr, Anghydffurfwyr, Annibynwyr, ac yn Gynulleidfaolwyr. Y maent yn Ymneillduwyr, fel y maent wedi encilio o Eglwys Rhufain. Y mae llawer o briodoldeb (anfwriadol) yn ardystiad yr Archesgob Laud, pan y dywedai, "Gall eglwys arall ymneillduo o Rufain, pan yr ymadawa eglwys Rhufain â Christ,—y mae yr achos o *sism* gydag eglwys Rhufain, canys hwy a'n gyrasant ni allan, pan y gofynasom am gywiro cyfeiliornad a diwygio gorthrymau." Dyma ein rheswm ninau yn gwbl oll. Ond deil eglwys Rhufain i honni anffaeledigaeth, heb allu ei brofi; ac o ganlyniad yr ydym yn rhwym o ymwrthod a'r trefniant. Y maent yn Anghydffurfwyr; a dyma y llinell derfyn rhyngddynt âg Eglwys Sefydledig Lloegr. Yn ol Chillingworth, Y Bibl, a'r Bibl yn unig, gyda pherffaith ryddid barn bersonol, ydyw trefn crefydd yr ardystwyr, a dyma y rheswm a roddir yn ogystal dros Ymneillduaeth. Yn gyson a'r egwyddorion hyn, ni allant foddloni ar Oddefiad yn nhrefn Addoliad y Duw byw. Nid oedd "ardderchog lu y merthyri," a drowyd allan o'r Eglwys Sefydledig yn 1662, oll o'r un farn; yr oeddynt, o leiaf, yn dri dosparth. Buasai rhai o honynt yn bleidiol i gysylltiad yr Eglwys a'r Wladwriaeth, ond yn unig iddynt gael eu hiawnderau, mewn pynciau penodol eraill. Yr oedd yno blaid arall, yn foddlon, pe cawsent addoli yn eu ffordd eu hunain, heb eu haflonyddu, rywfodd trwy oddefiad. Yr oedd yno blaid arall yn gwrthod goddefiad, am yr ystyrient fod hawl i oddef, yn cynwys addefiad o hawl i orfodogi, ac o blegid hyny, yr oeddynt yn sefyll dros berffaith gydraddoldeb pob dyn, o ran breintiau crefyddol, gan ystyried fod cydwybod yn gysegredig i Dduw, ac nid i ddyn. Y maent yn Annibynwyr, fel nad ydynt yn gyfrifol i unrhyw awdurdod allanol. Y maent yn Gynnulleidfaolwyr, fel y mae pleidlais gan bob aelod, o bob ystlen, yn nhrefniadau holl orchwylion yr eglwys. Y maent yn *Wirfoddolwyr,* mewn cyferbyniad i'r rhai a ddaliant allan dros y priodoldeb o orfodogaeth mewn cynaliad a threfniad dysgyblaethol ac athrawiaethol yr eglwys. Dyma yr enwau wrth ba rai yr adwaenir y blaid hon yn ein gwlad, a dyma eu hystyr wedi ei osod mewn gair ger bron; ond y prif enwau ydynt y ddau y cyfeiriwyd atynt ar y dechreu; *Cynulleidfaolaeth,* fel darluniad o egwyddor rydd-weithredol pob eglwys ynddi ei hun, ac *Annibyniaeth,* fel yr ymwrthyd a phob ymyraeth gan unrhyw awdurdod allan o honi ei hun. Y mae yr enwau hyn wedi eu harfer er amser y Diwygwyr. Y mae gwir ystyr Eglwys Gristionogol, wedi colli golwg arno er amser tywyllwch Pabyddiaeth, a chauad allan yr Ysgrythyrau oddiwrth y werin; ond wedi cael ei adferu gan Browne, Clyfton, Robinson, ac eraill, yn yr unfed ganrif ar bymtheg, ac y mae eu holynwyr wedi eu defnyddio, yn yr un goleuni hyd y dydd hwn. Y mae yr enw Annibynwyr yn cael ei ddefnyddio yn awr yn gyffredin, i'w gwahaniaethu oddiwrth yr Esgobyddion, yr Henaduriaid, a'r Wesleyaid, y rhai sydd yn caniatau hawl ac awdurdod esgobion, cymanfaoedd, a chynadleddau. Y mae y Bedyddwyr yn sefyll ar yr un tir, yn bur agos, o ran eu golygiadau ar athrawiaeth, trefn eglwysig, a gweithrediadau cyffredinol. Gelwir y naill a'r llall yn Galfiniaid weithiau, i'w gwahaniaethu oddiwrth yr Arminiaid, yn fwy nac unrhyw ymlyniad wrth olygiadau Calfin.

Y mae y nodiadau uchod yn arwain yn mhellach at y sylwadau canlynol, mewn ffordd o ymofyniad am sefyllfa yr enwad yn y Dywysogaeth, ar hyn o bryd; yn nghyd a dylanwad yr egwyddorion hyn ar y wlad. Ceir y golygiadau hyn, yn ymddangos dan lawer o amgylchiadau yn y Dywysogaeth, er yr amser boreuol; yn yr adeg, pan y daeth Awstin i argyhoeddi y Saeson paganaidd, ac y digiodd yn aruthr wrth weled y Cymru yn Gristionogion trwyadl yn barod, ac y bygythiai hwy ag erlidigaeth y tywysogion estronol, os na wadent eu ffydd

Digitized by Google

gyntefig, a derbyn Cristionogaeth o'i law ef, dan awdurdod Rhufain. Ond safodd yr esgobion Cymreig yn wrol at eu hegwyddorion, a dywedent yn ei wyneb, yn groew, na wnaent hwy ddim, nac yma nac acw, nes ymgynghori yn gyntaf a'u heglwysi gartref. Felly y gwelwn yn eglur, eu bod yn honni eu Hannibyniaeth, y pryd hwnw. Yn amser dyfnder tywyllwch Pabyddiaeth, pan yr oedd y genedl yn eistedd yn mro a chysgod angau, ac y codwyd y diwygiwr trwyadl John ap Henri, o'r Cefn-brith, plwyf Llangamarch, yn swydd Frycheiniog, i ddatgan yn erbyn rhagrith a marweidd-dra yr offeiriaid gwladol, yr hwn a ddechreuodd gyhoeddi gair y bywyd ar hyd bryniau ei wlad, gan ddioddef erlidigaeth hyd rwymau, a charchar, a merthyrdod; gwelid yr egwyddorion hyn yn cael eu dadleu yn oleu a nerthol yn gynar, ac felly yn arloesi y tir, ac yn digaregu y ffordd, ar gyfer yr amser oedd yn ol. Gwedi hyny yn nghodiad Wroth yn Llanfaches, yn cael ei ddilyn gan Erbury, Caradog, Powell, Lloyd, Mostyn, ac eraill, hyd amser Edmund Jones a'i gydlafurwyr, gan gynyddu a llwyddo, yn wyneb pob anfanteision a gwrthwynebiad drwy erlidigaeth; ac ychydig o anghydfod yn eu plith eu hunain hefyd, eto yn lluosogi ac yn ymwasgar dros yr holl wlad, i gyhoeddi yr efengyl, yn agos ac yn mhell. Dywed Johnes yn ei "Achosion Ymneillduaeth yn Nghymru," fod yr Ymneillduwyr agos a threulio eu holl nerth ymaith drwy gynhenau dadleuol yn nghylch y pwnc o Fedydd; ond sicrha Rees yn ei "Anghydffurfiaeth yn Nghymru," na bu ond dwy ddadl arbenig rhyngddynt o 1688 hyd 1735, a hyny yn siroedd Penfro a Mynwy; ac na wnaethai, ar y cyfan, nemawr o niwaid, ond yn hytrach goleuo y wlad, a lledaenu gwybodaeth i bob parth. Yr oedd un blaid yn gweithredu ar egwyddor y llinellau canlynol:—

"At bawb trwy 'r byd, anfonai Ion
Ei weinidogion allan,
Gorchymyn eu bedyddio wnaeth,
Heb ddim gwahaniaeth oedran;
Os oes trwy 'r byd, yr un a ddaeth
Heb iechawdwriaeth iddo,
Na rodder sel trugaredd rad,
Mewn un gweinyddiad arno,"

ac felly yr oeddynt yn dal allan mai perthynas y deiliaid â'r efengyl, ac â Christ, oedd sail bedydd, yn hytrach nac a'r wladwriaeth, nac a'u rhieni; tra yr oedd y lleill, mor benderfynol o'r ochr arall, yn cau pawb allan, o derfynau yr ordinhad, ond a fyddent mewn oedran i wneud proffes o'u ffydd yn Mab Duw. Wedi cael y cymhorth mwyaf angenrheidiol at y gwaith, drwy nifer o argraphiadau o'r Bibl yn yr iaith gysefin, er mor anniben y buwyd yn eu dwyn allan ar y cyntaf; ac wedi cael ychwanegiad o luaws o draethodau gwerthfawr ar wahanol bynciau crefyddol, aeth y gwaith mawr rhagddo gyda chryn gyflymdra, hyd yr amser y trowyd allan y ffyddloniaid o Eglwys Loegr, yn 1662, pan y gwelwyd fod eu nifer yn lleng. Dywedir nad oedd un Ymneillduwr yn Ynys Mon, y flwyddyn hono, eto yr oedd yr ynys yn aros i gael ei hammaethu cyn hir, a'r gyfer cynnyrch ffrwyth toreithiog iawn, yr hwn a ddechreuodd ddyfod i'r golwg tua Rhosymeirch, gerllaw Llangefni, lle yr adeiladwyd yr addoldy cyntaf yn y sir, gan yr Ymneillduwyr, trwy ymdrech Phillip, a Morgan, ac eraill. Ni oddef ein terfynau, ac nid yw amcan ein gwaith, i fanylu; fel na cheir ond yn unig grybwyll am Huw Owen, Bron y clydwr, William Prichard o Glwchdernog, Llanddeusant; ac eraill, yn gystal ag Annibynwyr boreuol Capel-helyg yn Arfon, a ddirwywyd amryw weithiau drosodd, dan Weithred yr Unffurfiad; ac fel y cynnyddodd y gwaith yn barhaus, fel yn y flwyddyn 1715, yn ol tystiolaeth Dr. John Evans, nad oedd dim llai na 34 o eglwysi rheolaidd, yn meddu ar eu gweinidogion a'u hordinhadau, gan yr enwad hwn yn y Dywysogaeth. Bu codiad Dr. Daniel Williams, a'i gyfoeth cysegredig, yn gefnogaeth werthfawr i ymdrechiadau yr Annibynwyr Cymreig, mewn llawer modd. Bu codiad Methodistiaeth wedi hyny, yn achlysur i ail enyn twymfrydedd a gweithgarwch yr enwad ar bob llaw.

Cyhoeddwyd Ystadegaeth fanwl am eglwysi yr enwad yn y flwyddyn 1861, yn ol y daflen ganlynol:—

| SIR. | Capeli. | Gweinidogion. | Pregethwyr. | Aelodau neu Gymunwyr. | Yn yr Ysgol Sabbathol. | Gwrandawyr, heb fod yn Aelodau. |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mon | 36 | 15 | 19 | 3587 | 3204 | 3206 |
| Arfon | 67 | 30 | 40 | 7095 | 6417 | 6376 |
| Meirionydd | 46 | 16 | 18 | 3611 | 3380 | 2250 |
| Dinbych | 43 | 22 | 26 | 3517 | 4604 | 4603 |
| Fflint | 32 | 16 | 13 | 1648 | 2299 | 2576 |
| Trefaldwyn | 66 | 26 | 16 | 4189 | 4673 | 4119 |
| Maesyfed | 9 | 6 | 6 | 436 | 644 | 1333 |
| Brycheiniog | 38 | 22 | 13 | 3775 | 3477 | 4445 |
| Mynwy | 61 | 40 | 38 | 7459 | 8042 | 11,186 |
| Morganwg | 142 | 88 | 123 | 23,821 | 24,228 | 29,789 |
| Caerfyrddin | 78 | 40 | 57 | 15,774 | 11,881 | 15,154 |
| Penfro | 63 | 32 | 22 | 8228 | 7092 | 9129 |
| Aberteifi | 55 | 23 | 28 | 11,658 | 6505 | 7698 |
| Eglwysi Cymreig yn Lloegr | 30 | 14 | 12 | 2849 | 2319 | 2587 |
| Y Cyfan | 766 | 390 | 431 | 97,647 | 88,765 | 104,351 |

Nid yw yr Ysgoldai a'r Ystafelloedd pregethu, y rhai ydynt tua chant o nifer, yn gynwysedig yn y daflen uchod.

Y mae y crynodeb canlynol, a gyhoeddwyd yn y flwyddyn hon, yn dangos pa faint a fu y cynydd, yn ystod y deng mlynedd diweddaf.

| | |
|---|---|
| Capeli | 921 |
| Eglwysi | 838 |
| Aelodau | 90,534 |
| Gwrandawyr | 118,546 |
| Aelodau a Gwrandawyr yn nghyd | 209,080 |
| Athrawon | 11,960 |

Digitized by Google

| | |
|---|---|
| Aelodau yr Ysgol Sul, heb fod yn Athrawon | 95,470 |
| Ysgolheigion ac Athrawon yn nghyd | 107,430 |
| Casgliadau y flwyddyn 1865 | 59,626*p.* 0*s.* 0½*c.* |
| Gweinidogion | 506 |
| Pregethwyr cynorthwyol | 278 |
| Myfyrwyr yn y tair Athrofa | 58 |
| Nifer yr Eglwysi Gweigion, neu heb Weinidogion | 169 |
| Gweinidogion heb ofal eglwysig | 65 |
| Nifer y Capeli Cymreig yn America | 144 |
| Nifer y Gweinidogion | 92 |

O. Y. Y mae chwe mlynedd er pan y cymerwyd cyfrif yr aelodau, y gwrandawyr, a'r casgliadau, o'r dyddiad uchod.

Y mae y tafleni hyn yn arddangos fod sefyllfa yr enwad yn dra boddhaol, wrth adolygu yr hyn a fu, yn gystal a'r rhag-olygon am a ddaw; ac yn dwyn yr erthygl hwn i derfyniad, gydag ychydig o nodiadau cyffredinol;—Fod Annibyniaeth eglwysig, tra yr ymwrthoda â phob gormes, yn hollol gyfaddas at gynal Undeb efengylaidd. Dyma yr egwyddor ag sydd yn gosod cydweithrediad Cristionogol ar sylfaeni diberygl a manteisiol i bawb; sef bod y Gair yn unig reol ffydd ac ymarferiad, fel y dywedai Williams Pant y celyn, yn dra phriodol:—

"Does eisiau un traddodiad, na chanon council mawr,
Credoau na chyffesion, nad ydynt yma 'i lawr,
'Madroddion yr hen dadau, gweddiau Pab ni chair
I lanw dim diffygion, adawyd yn y gair."

Gyda chyd-oddefiad, mewn cariad, am bethau amgylchiadol, lle na's gellir cyd-weled lygad yn llygad. Y maent felly, fel y gellid dywedyd, "Eu bod mor wahanedig a'r tonnau, ac eto mor unedig a'r mor." Y maent yn gallu cytuno i anghytuno,—Tra y mae natur ffurfiad cymdeithas, a hanesiaeth eglwysig, oll yn ffafriol i Annibyniaeth, eto nid hyny ydyw prif reswm ei deiliaid am lynu wrth ei hegwyddor, ond yn hytrach, am ei bod yn Ysgrythyrol. Y mae ei chyfaddasrwydd at ansawdd cymdeithas yn eglur, o blegid ei bod yn troi pob trefniant ag y delo i gyffyrddiad ag ef, i'r unrhyw ddelw â hi ei hun. Y mae yn gweithio ei ffordd yn gyflym i gynlluniau eraill. Y mae yn mwrdd y Golygydd, yn y Drysorfa am Ebrill 1862, yr ymadroddion canlynol—"Y mae rhyw yspryd yn ysgogi yn ein plith ninau, ag y mae yn anhawdd rhoddi enw arno, amgen nag Annibyniaeth. Mewn byr amser, bydd yn ddigon adnabyddus yn gweithredu yn Annibynol, yn wrth-weithiol i Henaduriaeth, ac yn dad-gymalu yr hen gorph prydferth, synhwyrol a gweithgar, yn y Dywysogaeth, a manau eraill hefyd." Dyma addefiad anrhydeddus. Y mae y tir canol rhwng Methodistiaith ac Annibyniaeth i'w weled yn culhau bob dydd; ac ond odid, nid yw yr amser yn bell, pan y bydd y ddau enwad yn cymeryd y pwnc dan ystyriaeth, gan fod y tir canol rhyngddynt, o'r bron wedi cael ei wasgu allan o'r golwg, a ydynt yn gyfiawnhaol i sefyll ar wahan? Y mae Annibyniaeth yn gweithio ei ffordd i drefniannau eraill cyffelyb; ac yn neillduol esgobyddiaeth, yr hon y mae eisoes yn ei "dadgymalu" ar bob llaw; fel y mae yr ystyriol sydd mewn cysylltiad a hi, yn hiraethu am gael cyhoeddi Iubili, a dyfod i dir rhyddid yr efengyl. Dywedai Dr. Owen yn ei *Enquiry into the Origin of Evangelical Churches,* nad oes yr un Hanesydd credadwy, nad yw yn addef mai annibynol oedd yr eglwys dros y ddau canrif cyntaf. Eto er hyn i gyd, nid yr ymofyniad a ddylai fod, pa gynllun sydd fwyaf llwyddianus, cyfrifol, na chyfleus, ond,—Pa beth a ddywed yr ysgrythyr. Ni all annibyniaeth gyson, ofyn dim ychwaneg, fel cymhwysder aelodaeth, nac arwyddion duwioldeb, nid syniadau neillduol am arfaeth nac etholedigaeth, mwy nac am ddull na deiliaid bedydd, ond ffydd yn Nghrist. "Derbyniwch eich gilydd, fel y derbyniodd Crist chwithau." Dichon mai dyma yr unig enwad ag sydd ganddo ddigon o hyder yn ei egwyddorion, i adael y Gymdeithas Genhadol yn anenwadol, heb ofyn dim am olygiadau y cenhadwr, yn nghylch esgobyddiaeth, henaduriaeth, nac annibyniaeth, ond anfon cenhadon efengylaidd i gyhoeddi y gwirionedd megis y mae yn yr Iesu, a gadael i'r dychweledigion ymffurfio yn bleidiau crefyddol, fel y gwelont oreu eu hunain. Gellid ychwanegu yma, fod yr enwad hwn, yn mysg y rhai blaenaf yn eu hymdrech am bob diwygiadau cymdeithasol a gwleidyddol, yn gystal ac iawnderau cyffredinol y cyhoedd. Arddelwa ddymuniad am fwy o eiddigedd dros Gristionogaeth, na Sectyddiaeth; eto, dichon na byddai yn ormod rhag-ddyfalu, yn ol pob tebygolrwydd, mai rhwng Cynulleidfaolaeth â Phabyddiaeth, y bydd yr ymdrech orfawr yn fuan, yn mhob man. Daw Bibl Duw, a dychymyg dyn, i ymdrechu dau fywyd yn fuan. Bydd y frwydr yn ofnadwy, ond y canlyniadau yn ogoneddus. Y mae yr holl drafodaeth gyhoeddus ar egwyddorion mawrion yn y dyddiau hyn, mewn perthynas ag addysg, dadgysylltiad yr eglwys oddiwrth y wladwriaeth, agoriad y Prif-athrofaau, a tharian rhyddid etholiadol, yn gystal a thafod y wasg, nerth agerdd, a chyflymder y trydan, oll yn cyd-ddylanwadu i brysuro dyfodiad dydd brwydr fawr Armagedon i ben!

**CYNWAL,** Richard, Penmachno, bardd yn ei flodau yn 1670.

**CYNWAL,** William, Penmachno, bardd enwog, yn ei flodau o 1560, hyd 1600. Mae ei weithiau mewn llawysgrifau ar gael, ac yn eu plith mae tua 50 o gywyddau ymryson a fu rhyngddo ef ar Archddiacon Prys. Ymrysonfa farddonol heb ei bath oedd hon, a dywedir i'r Archddiacon ladd ei wrthwynebydd, fel y lladdodd Dafydd ab Gwilym, Rhys Meigen. Gellir gweled hanes yr Ornest yn *Ngreal* Llundain, tud. 9; a dywed Goronwy Owain ar ol darllen y cywyddau,—"Nid hen ddyn dwl oedd yr Archddiacon, ac ystyried yr amser yr oedd yn byw ynddo; eto yr wyf yn cyfrif Mr. Cynwal yn well bardd, o ran naturiol anian ac athrylith, ond bod Edmund yn rhagori mewn dysg. Nid oedd Cynwal druan (ysgolhaig bol clawdd), ond megys yn ymladd â'r dyrnau moelion, yn erbyn tarian a llurig."

**CYNWRAITH,** penaeth yn y 6ed ganrif, ydoedd fab Cyndrwyn, a brawd Cynddylan; syrthiodd gyda'i frawd wrth amddiffyn Tren.

**CYNWRIG,** Sion, bardd yn ei flodau tua 1600. Mae ei waith ar gael mewn llawysgrifau.

**CYNWRIG BENCERDD** o Dreffynon, ydoedd prif gerddor Eisteddfod fawr Caerfyrddin, yn 1451. Barnwyd Dafydd ab Edmund yno yn ben bardd, Cynwrig Bencerdd yn brif gerddor, a Rhys Bwtting o Brestatyn yn ben dadganydd, a'r tri o swydd Fflint.

**CYNWYD,** Sion, gwehydd, a bardd, yn byw yn Nghynwyd, yn niwedd y ganrif ddiweddaf. Gwelir peth o'i waith yn y *Cylchgrawn* 1793.

Digitized by Google

**CYNWYD CYNWYDION**, Sant, yn ei flodau yn y 6ed ganrif. Mab ydoedd i Cynfelyn ab Garthwys, yr oedd yn aelod yn nghor Cattwg, ac efe a sylfaenodd eglwys Llangynwyd, yn Morganwg. Ymgyflwynodd amryw o'i feibion i fywyd crefyddol.

**CYNWYL**, Sant, yn y 6ed ganrif, ydoedd fab i Dunawd Ffur, a Dwywe ferch Gwallawg ab Lleenawg; brawd iddo ef oedd Deiniol. Yr oedd ganddo law yn sefydliad Bangor Iscoed; ac efe hefyd a sefydlodd eglwysi Cynwyl Gaio, a Chynwyl Elfed, yn swydd Gaerfyrddin, ac Aberporth, yn Ngheredigion. Y mae eglwys Penrhos, ger Pwllheli, wedi ei chyssegru iddo. Coffheid ef, Ebrill 30.

**CYNYR CEINFARFAWC**, ydoedd fab Gwron ab Cunedda, a phenaeth, yn y 5ed ganrif.

**CYNGAR**, Sant, yn y 6ed ganrif, ydoedd fab Geraint ab Erbin, tywysog Dyfnaint. Daeth i Gymru o Congresbury, yn Ngwlad yr Haf, aeth yn aelod o goleg Garmon, a sefydlodd fynachlog Llangenys, yn Morganwg. Efe hefyd yw sylfaenydd Badgworth a Congresbury, yn Ngwlad yr Haf; Llanestyn, yn swydd Fflint; a Llangefni, yn Mon.

**CYNGARFAEL**, ydoedd fab Cyndrwyn, a thywysog ar ran o Bowys, yn y 6ed ganrif.

**CYNGEN I.**, ydoedd fab Cadell Deyrnllwg y cyntaf, ac olynodd ei dad i dywysogaeth Powys, tua'r fl. 500. Yr oedd yn enwog mewn haelfrydedd at grefydd; rhoddodd lawer o diroedd i Fangor Iscoed, ac adeiladodd eglwys yn Amwythig, yr hon a gyflwynwyd iddo dan yr enw Sant Cyngen. Ei wraig oedd Tangwystl, ferch neu wyres i Brychan.

**CYNGEN II.**, ydoedd fab Cadell Deyrnllwg II., dilynodd ei dad i orsedd Powys yn 804. Aeth ar daith i Rufain, a llofruddiwyd ef yno gan ei weision, yn 850.

**CYRIOG**, Gutyn, bardd yn ei flodau o 1500, hyd 1530. Preswyliai yn Llanelian, yn Mon.

**CYRIOG**, Iorwerth ap, bardd o Fôn, yn ei flodau o 1360 hyd 1400. Mae dwy Awdl o'i eiddo, sef un i Dduw ac un i Ferch, yn y *Myf. Arch.*, yn nghyda Marwnad iddo gan Sefnyn.

**CYRRIOG**, Goronwy, bardd o Fôn, yn ei flodau o 1310 hyd 1360. Mae dau gyfansoddiad o'i waith yn y *Myf. Arch.*, sef Englynion i Wenhwyfar, ferch Madawg, gwraig Hywel ab Tudur; a Chân i Madawg, esgob Bangor.

**CYRYS O IAL**, a enwogodd ei hun wrth gasglu y Diarebion Cymreig. Nid yw yn sicr pa un ai yn yr 11eg, neu y 12fed ganrif, yr oedd yn byw. Cafodd ei gasgliad, "Madwaith Hen Gyrys o Ial, neu Bach Buddugre a Gwynfarch Gyfarwydd," ei adysgrifenu gan Gruffydd Hiraethog, tua 1530; a chan y Dr. Evans o Fallwyd, tua 1600; gan William Morus o Gefnybraich, Llansilin, yn 1675; gan Ieuan Brydydd Hir, yn 1775; ac o'r diwedd ei argraffu yn y *Myf. Arch.*, gan Owain Myfyr.

**CYSTENYN.** Mae tri neu bedwar o'r enw hwn yn cael son am danynt yn y *Brutiau;* sef Cystenyn *Gorneu*, Cystenyn *Llydaw*, a Chystenyn *Fendigaid;* ac ymddengys i ni yn dra sicr am y tri hyn, mai un oeddynt, a hwnw yn neb amgen na "Chystenyn Fradwr" (Constantinus III.); yr hwn er nad oedd ond "milwr o radd isel," ond am ei fod o'r un enw a Chystenyn Fawr, a gyhoeddwyd gan y fyddin Rufeinig, yn ymerawdwr Prydain, yn y fl. 408. Wedi iddo osod yr ynys hon mewn trefn, efe a alwodd y milwyr yn nghyd o bob parth o'r wlad, a chan ddynwared Macsen Wledig, cymerodd flodau Prydain, i adgyfnerthu ei fyddin, ac aeth drosodd i Gâl, gan gyhoeddi ei hun yn benadur yr Ymerodraeth Orllewinol; a Chonstans ei fab, yr hwn, meddir, oedd wedi ei ddwyn i fyny yn fynach, yn mynachlog Amphibalus, yn Nghaerwynt, yn gyd ymerawdwr ag ef. Ond lladdwyd y ddau gan fyddinoedd Honorius, yn 411. Nid yw ei achau yn adnabyddus; ond ymddengys oddiwrth *Lyfr Llandaf*, fod iddo ferch, yr hon a briododd Pebiaw ab Erb, brenin Gwent ac Ergyng; canys yn y llyfr hwnw yr ydym yn cael Pebiaw, yn "cyflwyno Llangystenyn Garthbenni, yn nghydag eiddo Cystenyn Frenin, ei dad yn nghyfraith, o'r tu draw i'r afon Wysg, i Dduw, a Dyfrig, Archesgob Llandaf, yn offrwm dros ei enaid, ac er cael ei enw wedi ei ysgrifenu yn Llyfr y Bywyd."—Ac wedi hyny y mae yn cyflwyno "Llangernyw, yn nghydag *uncia* o dir," i'r un personau am byth.—*Liber Landavensis*, tud. 314–15. Mae hyn yn dangos fod eglwysi wedi eu cyssegru i Cystenyn yn foreu, ac yn mhen ysbaid ar ol hyny, saintyddiwyd ef, yr un fath a holl enwogion yr oesau hyny, gan ei alw yn Cystenyn *Fendigaid;* ac iddo ef, mae yn debyg, y cyssegrwyd Llangernyw, swydd Dinbych; a Llancystenyn, yn Nghreuddin; a gwnaed ef yn dad Emrys Wledig, ac Uthr Bendragon, er mwyn felly ei gael yn daid i'r enwog Frenin Arthur.

**CYSTENYN GORONOG**, yn ol y *Brutiau*, ydoedd haner brawd i'r brenin Arthur ac ar ei daer ddymuniad, a'i dilynodd ef i orsedd Prydain yn 542. Lladdwyd ef gan Cynan Wledig, a chladdwyd ef ger llaw i fedd Uthr Pendragon, yn Nghor y Cewri, yn Nghaer Caradog.

**CYWRYD**, bardd o dan nawdd Dunawd, yn y 15ed ganrif. Nid oes dim o'i waith ar gael.

## D.

**DADWEIR DALLBEN**, ydoedd un o arwyr Llys Arthur. Efe oedd perchenog y moch a gadwai Coll ab Collfrewi yn Nyffryn Dallwyr, yn Nghernyw. Crybwyllir am dano yn *Mabinogi* "Cilhwch ac Olwen."

**DAFYDD** ab Belyn. Bardd a flodeuodd rhwng 1520 a 1550. Mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael mewn llawysgrifau.

**DAFYDD** ab Bleddyn, a gyssegrwyd yn esgob Llanelwy yn 1315. Yn ei amser ef y casglwyd *Llyfr Coch Llanelwy.* Yr oedd yn fyw yn 1346, ond ni's gwyddis pa bryd y bu farw.

**DAFYDD** ab Dafydd Llwyd. Bardd yn ei flodau tua 1536.

**DAFYDD** ab Edmwnd; gwr ydoedd o Hanmer yn Nhegeingl, neu sir Fflint, yn Ngwynedd, ac enw y lle y preswyliai ydoedd Pwll Gwepra. Dywedir ei fod yn wr bonheddig tiriawg, a'r goreu o brydyddion gwlad Wynedd. Ganwyd ef yn yr Hen Blas yn Hanmer, yn Maelor Saesneg. Preswyliai yn

Digitized by Google

achlysurol yn Llysfasi, yn Nyffryn Clwyd;—Glan Pwll Wepra, &c. Yr oedd mam Tydur Aled yn chwaer iddo. Y mae ei enw yn dyfod i hysbysrwydd mewn cysylltiad â hanes Eisteddfod fawr Caerfyrddin, a gynhaliwyd dan nawdd Gryffydd ab Nicolas, yn 1451 a 1461. Cafodd ei ddysgeidiaeth farddonol, drwy hyfforddiad Maredydd ab Rhys, offeiriad Rhiwabon. Bu Gutyn Owain, a Tydur Aled yn ddysgyblion iddo. Y mae hanes ei ymdaith i Eisteddfod Caerfyrddin yn ddyddorol iawn, ac yn rhedeg yn y ffordd ganlynol;—Pan yr oedd efe a'i was ar eu taith, efe a ddaeth at balas gwr bonheddig yn Sir Aberteifi, i ofyn llety yno; ac yn y ty hwnw yr oedd prydydd arall, ar ei ffordd i Gaerfyrddin, sef Ieuan ab Hywel Swrdwal; a thybiai hwnw mai prydydd oedd Dafydd, a mynegai ei dŷb wrth wr y ty; a pharodd hwnw i Ieuan ddodi pwnc i'r gwr dieithr ar fesur cerdd, er mwyn cael allan y dirgelwch, ac fel y gwypid a allai efe ei ateb, ai ni allai; ac y deallid a oedd efe yn brydydd ai nid oedd. Yna gofynodd Ieuan iddo enw ei geffyl; *Dobyn* ebai Dafydd. Yna ebai Ieuan—

"Dewis di oddiar dy stol,
Ai Dobyn, ai dau ebol?"

Ac atebodd Dafydd—

"O Dduw, p'un orau i ddyn,
Ai dau ebol, ai Dobyn?"

Yna dywedodd Ieuan yr atebiad i'r boneddwr, a deallwyd ei fod yn brydydd dysgedig a pharod ei awen. Dygwyd ef ar hyny i'r neuadd, a dangoswyd parch mawr iddo ef, a'i was. Tybid erbyn hyn fod y gwas hefyd yn brydydd, ac felly y gwybyddid yn fuan. Gwr bychan o gorpholaeth ydoedd Dafydd, yn gwisgo gŵn llwyd, neu glog wlan, tra yr oedd Gutyn Owain, ei ddysgybl a'i gymydog, yn gwisgo ei hug sidan.

Dywedai y boneddwr wrth Ieuan, yr elai i'r Eisteddfod, gyda'r gwr dieithr a'i was; ac felly y cychwynent, a Ieuan gyda hwy: ac ni cha'i y gwas yr un croesaw llai na'i feistr, a phob un o'r pedwar yn ogyfuwch a'u gilydd. Gwedi cyrhaedd i Gaerfyrddin, mynai Dafydd fyned yn ei bais wlan i'r neuadd, lle yr oedd y prydyddion; ac un o honynt a ofynai i'r hwn oedd yn nesaf ato, "Pwy ydyw yr hwrdd yma?"—ac atebodd Dafydd ef fel hyn:—

"Da yw fy hawl: nid wyf hardd;
O dwf a hyd, nid wyf hardd.
Dywed o fodd, od wyd fardd,
Beth, wr mwyn, yw cadwyn cerdd?"

Ac wedi clywed y llinellau hyn, mor annisgwyliadwy, ni wyddai yr un o honynt beth i'w ateb iddo. A Gryffydd ab Nicolas a ddywedodd wrtho, "Y gwr dieithr, mi a welaf wrth dy foes a'th olwg, mai gwr o fonedd, a doethineb, a gwybodau ydwyt; dywed i mi o ba wlad yth henyw, a thi a gei dy barch a'th le, yn ogyfuwch ag eraill. Y mae yma ford gron, ar ddull y bu gan yr ymerawdr Arthur, fal na's gellir uwch un, nag arall. Cymer dy le wrthi, a dod y gorchymyn a fo genyt, a'th fodd a fydd itti." Ac atebodd Dafydd fel hyn; "Nid i ddodi gorchymyn y daethym i yma, eithr i ganu, ac i fod yn narpar yr Ystadydau, a ddangoswyd genynt ar osteg a rhybydd, ac i gymeryd addysg, gan ei rhydd, ac i roddi addysg i'r a'i cymer. Ef am henyw o Wynedd, am henw yw Dafydd ab Edmwnd, o Bwll Gwepra, yn Nhegeingl; a chyda mi a fynai fod i mi yn was, sef ei enw, Gutyn Owain, gwr bonheddig a phrydydd o Groesoswallt." Yna Gryffydd ab Nicolas a barai alw Gutyn i mewn, a rhoddi lle iddo wrth y ford gron, ond ni fynai ef gymeryd y lle, gan mai dysgybl oedd, a mynai ef sefyll at wasanaeth ei athraw—Tra y bu y ciniaw ar y ford, a Gutyn yn gwasanaethu, rhoddodd ei ymddygiad gwylaidd a gostyngedig, foddhad mawr i bawb, ac ennillai serch y gwyddfodolion oll. Gwedi ciniaw, rhoddodd Gryffydd ab Nicolas y gofyniad canlynol i sylw y prydyddion, a gofynai am eu hatebiad:—"Pa beth yw achos, a defnydd, a dyben Eisteddfod?"—ond ni chlywai neb ar ei galon ateb. Yna dywedodd Gryffydd ab Nicolas, "Y gwr bach, a'r gŵn llwyd, dod ateb," ac atebodd Dafydd fel hyn;—Cof am a fu—ystyr am y sydd—a barn am a ddaw. "Da iawn y dywedaist," ebe Gryffydd ab Nicolas, "dod dy farn a'th orchymyn, fel y gwypom."—"Am a fu," ebai Dafydd, "ni's gellir ei wellhau; am y sydd, nis gellir amgen nac y mae; ac am a ddaw, gellir amcanu gwellhad. Am a fu, y mae ger bron ar gof; am y sydd, y mae yn ngolwg; ac am a ddaw, nid oes ond barn. Ni's gellir gwellhau a fu, cyd gellir ei well; rhy hwyr ceisio gwellau y sydd, eithr gellir ei well; eithr am a ddaw, gellir ei amcanu yn well. A chan felly, mae o dwng, rhodder ar yr ariandlws, ac ar a'i cais, wellhau ar fesurau cerdd dafod, a gadael ar ol a fo gwaethaf, gan osod gwell o newydd yn ei le, a chadw a fernir yn oreu, oni's delo amser a gwŷr a'i gwellao." "Ti a ddywedaist yn gall," ebai Gryffydd ab Nicolas, a chan alw y prydyddion, efe a ddywedai wrthynt fel hyn;—"Nid da lle gellir ei well. Llyma yr ariandlws: y gorau ar ganu, y gorau ar wybodau canu, a'r gorau yn gwellhau gwybodau a chelfyddyd canu, a'i caiff. Gwyliwch chwi y prydyddion!—y mae awen gan y Llwyd Bach o Degeingl; y mae deall gan y Bach o Wynedd; y mae dychymygion yn mhen y dieithr yma. Ymrodded pob un o honoch i amcanu y gorau er gwellhau cerdd dafod a'i pherthynasau; a chedwch, os gellwch, y gadair arian yn eich plith yn Neheubarth, lle ei cadwed hyd yn awr, er amser yr ymerawdr Arthur. Os Gwynedd a'i dwg, bydd hyny er cywilydd a cholled i chwi; eithr myfi a'i dodaf i'r prydydd a'i dirper yn gyfiawn; bydd hyny er clod ac anrhydedd i mi; nid i mi y mae y golled; nid i mi y cywilydd, ond i'r prydyddion a'i cyll."

Canlyniad yr ymdrech a derfynodd er anrhydedd Dafydd ab Edmwnd; a chludodd ef y gadair arian ar ei ysgwydd gartref. Ni orphwysodd yr amgylchiadau hyn yn esmwyth ar deimladau y beirdd o'r Deheubarth, cyhuddid Dafydd ganddynt o ddyfeisio y pedwar mesur ar hugain, caethiwo y rheolau, a llunio deddfau newyddion; ond nid ymddengys eu bod yn gallu profi yr haeriadau; ac addefir, wedi y cyfan, mai gan Llawdden y bu y llaw benaf yn nygiad o amgylch y cyfnewidiadau a wnaed. Nid oes amheuaeth nad yn raddol y cyfododd y cynghaneddion i'w sefyllfa bresenol. Gwelir y mesurau, yn Nosparth Edeyrn Dafod Aur, yn' awdl Gwilym Tew i Fair, cyn 1414, ac yn awdl Lewis Morganwg i Leision, Abad, Glyn-nedd, yn 1490. Amcan arbenig Gryffydd ab Nicolas oedd, cael trefn a dosparth ar feirdd, a barddoniaeth. Dyma y dystiolaeth a geir yn yr hen gofnodau am yr oruchwyliaeth. "Llawdden a ddodes wellhad ar y cynghaneddion; ond ni's gallesid yr ariandlws iddo, herwydd nad o bwnc eisteddfod y

Digitized by Google

dodid hyny, eithyr ar osteg a rhybudd un dydd a blwyddyn ymlaen, a gwahardd dangos yn amgen nog yn ol y gwellhad a wnaeth efe cyn no hyny, yn yr eisteddfod; ac nis gellid amgen no braint eisteddfod ar y gwellhad hyn, achos y dywedbwyd eisoes. Ac am na's gellid pwnc eisteddfod o hyny, efe a roddes Gryffydd ab Nicolas yn bwnc ymryson, y gorau ei ddychymyg er gwellhau Mesurau Cerdd Dafawd, ar gyhydeddau, a chynganeddau, a chymeriadau. Gwedi naw diwrnod yn canu ar hyny, y doded a wnaethpwyd o flaen barn; a gorchestolaf o'r cyfan y cafwyd a gânt Dafydd ab Edmwnd, sef y mesurau a wnaeth efe o'i ddychymygfawr athrylith oeddent, Gorchest y beirdd; a hwnw yn gwbl newydd; ac yn ail, gwellhau dau hen fesur, nid amgen Hypynt, o'i ganu yn gyfochrawdl, a Chadwyn fer, yn y modd y mae yn awr; wedi gwellhau arno yn orchestawl, a dodi rhagor arno nog a fu cyn no hyny, parth camp a chelfyddyd. A gwedi enill o Dafydd ab Edmwnd y Gadair, efe a fynes Gryffydd ab Nicolas farn yr Eisteddfod ar ei ddosparth ef ar y mesurau; canys ni's gellir braint yn y byd, cyn meddiant ar un rhyw, na bod o beth; a gwedi golygu ar a wnaethpwyd yn yr eisteddfodd honno, gwelwyd nad oedd a ddylasai fraint a gwarant, namyn y dosparthau a drefnasai Ieuan Llawdden, sef un, dosparth yn Ystatyd parth y Gwŷr wrth Gerdd Dafawd a Thant; a dosparth ail, honno ar y cynganeddau; a chyda hyny, y dosparth a'r gwellhad a wnaethoedd Dafydd ab Edmwnd ar y Mesurau, sef y pedwar mesur ar hugain cerdd dafawd."

Gwedi edrych dros y tystiolaethau uchod, gwelir na bu gan Dafydd ab Edmwnd, ond ei ran yn y trefniadau dan sylw, ac mai trwy ymgynghoriad a chydweithrediad, y dygwyd y cyfan dan ddosparth a rheol. Y mesur eithafol o gyfyngu yr Awdl i'r pedwar mesur ar hugain, oedd y peth mwyaf anmhriodol, yn eu gweithrediadau; yr hyn a wellhawyd yn Eisteddfodd Caerfyrddin, pan yr enillwyd y Gadair gan Gwallter Mechain, ac y gadawyd y beirdd at eu dewisiad i ddefnyddio y nifer a fynent o honynt mewn Awdl. Y mae llawer cynhygiad wedi ei wneud, o bryd i bryd, er hyny hyd yn awr, am symud yr Awdl o'i safle foreuol, ond yn hollol ofer, gan na fyn y genedl ei darostwng o'i chadair gyntefig. Ychwanegir yn yr hen gofnodau crybwylledig, fel y canlyn:—"Gwedi enill o Ddafydd ab Edmwnd y gadair arian, efe a'i harweiniodd yn anrhydeddus tra bu fyw." Y mae ei enw yn dal cysylltiad agos a'r Mesurau cynghaneddol Cymreig, ac y mae ei farddoniaeth, sydd eto ar gael, yn dangos ei berffaith feistrolaeth ar y gynghanedd. Wedi yr holl ddadleuon, am y mesurau, y mae anianawd yr iaith yn gydweddol a'r hen fydrau, eto yn ddigon hydwyth at wisgo y rhai diweddar:—

"Mae amheus siarad am y Mesurau,
Rhai 'n gweithio 'i ryddid—rhai 'n gaeth i raddau;
Un radd a ystyr fawr werth pryddestau,
Un arall fawredd hyawdledd odlau;
Y medrus fyn bob mydrau,—a'r gwir lên,
All lywio 'r awen yn ei holl rywiau."

Y mae y cofnodau ysgrifenedig yn Llyfr y Plas gwyn, yn Mon, yn gwahaniaethu ychydig oddiwrth y dyfyniadau uchod, eto yn cytuno yn yr ystyr, ar y cyfan. Yr oedd Gryffydd ab Nicolas wedi cael awdurdod Breiniol i'r Eisteddfod hon gan Iorwerth IV. yn ol breintiau y wlad a'r amseroedd. Ardystiwyd yn erbyn canonau barddol Dafydd, gan feirdd Morganwg, y rhai a honnent fod y deddfau gwreiddiol yn eu meddiant hwy. Y mae y nodiadau ar ei weithrediadau yn lled chwerwon yn *Nghyfrinach y Beirdd.* Bu farw, fel y bernir, rhwng 1480 a 1490, a chladdwyd ef yn Hanmer. Y mae amryw o'i Gyfansoddiadau barddonol yn argraphedig yn "*Ngorchestion Beirdd Cymru;*" ac yn arddangos talent ddisglaer iawn.

**DAFYDD** ab Gerald, neu Fitzgerald, archddiacon Aberteifi, a gysegrwyd yn esgob Ty Ddewi yn 1147. Bu farw 1176.

**DAFYDD** ab Gruffydd, ydoedd fab ieuangaf Gruffydd ab Llewelyn ab Iorwerth, o'i wraig Sina, ferch Cariadog ab Thomas, ac orwyres Owen Gwynedd. Difreiniwyd Gruffydd o orsedd Gwynedd, oblegid iddo, fel Absalom, wrthryfela yn erbyn ei dad; yr hwn a'i rhoddodd hi i'w fab Dafydd, yr hwn a ymddug ei ail-wraig, Joan, ferch Ioan brenin Lloegr, iddo ef. Ond wedi marw Dafydd yn ddiblant, tua'r fl. 1246, dewisodd y Cymry ddau fab hynaf Gruffydd, sef Owen Goch, a Llewelyn, yr hwn a elwir yn gyffredin "Llewelyn ein Llyw Ola'," i fod yn gyd-dywysogion ar Dalaeth Gwynedd. Ond nid ymfoddlonodd Owen yn hir ar fwynhau haner y Dywysogaeth, eithr yn 1254, efe a hudodd Dafydd, ei frawd ieuangaf, i ymuno ag ef i gymeryd y maes yn erbyn Llewelyn, gyda'r amcan o ddwyn ei gyfran oddiarno. Bu brwydr waedlyd rhyngddynt mewn lle a elwir *Bryn Derwyn;* ond trodd y gwrthryfel yn aflwyddianus, daliwyd Owen, a charcharwyd ef yn Nghastell Dolbadarn, ger Llanberis, am ddwy flynedd ar hugain, ond llwyddodd Dafydd i ffoi i rywle anhysbys; ac o'r diwedd cymodwyd ef a'i frawd, a daeth yn gynorthwy effeithiol iddo yn ei frwydrau a'r Saeson. Dyma y waith gyntaf y dygir Dafydd ab Grufydd ger ein bron ar faes hanesyddiaeth. Yna yn 1258, yr ydym yn ei gael gyda *Meredydd ab Owen*, a *Rhys ab Rhys*, fel dirprwywyr dros *Llewelyn*, yn cyfarfod *Padrig de Canton*, a *Meredydd ab Rhys*, dirprwywyr Harri III., yn *Emlyn*, er tynu allan amodau heddwch rhwng y ddwy wlad; pan y darfu i'r Saeson, wrth weled eu bod yn fwy lluosog na'r Cymry oedd yn y fan hono, ymosod arnynt yn fradwrus, a lladd llawer o honynt, cyn iddynt gael amser i ymarfogi; ond o'r diwedd, llwyddodd Dafydd i gael ei wŷr i agwedd briodol i wneyd gwrthsafiad, a gwnaethant ddifrod ofnadwy ar y Saeson. Yn mhen ychydig ar ol hyn, efe a fradychodd Llewelyn ei frawd, a'i wlad, trwy encilio drosodd at fyddin Harri III. Yr oedd yn gwasanaethu tan Arglwydd Audley, yn mrwydr Morfa Caerlleon, pan y gorchfygwyd y Saeson gyda lladdfa fawr. Erbyn 1277, yr oedd wedi dyfod i gymaint ffafr gyda'r brenin, fel y gwnaeth ef yn Farchog; ac y rhoddes iddo ferch Iarll Derby, gweddw ieuanc, yn wraig. Gwnaeth ef yn arolygwr hefyd ar holl gestyll y brenin yn Nghymru; a chafodd yn anrheg ganddo, gestyll Dinbych, a Frodsham yn swydd Gaer, yn nghyda thiroedd yn werth mil o fareau yn y flwyddyn. Ond er fod bradwriaeth yn talu yn dda dros ychydig, cafodd Dafydd brawf, bod ei ffrwythau yn dra chwerwon yn y diwedd. Wedi iddo dderbyn llawer o gam driniaeth oddi ar ddwylaw William Venables, a Reginald de Grey, efe a ffodd i Gymru, gan gynyg ei gleddyf eilwaith i wasanaeth ei frawd, a'i wlad, a chael gan Llewelyn dyngu iddo na roddai ei arfau i lawr mwyach, hyd nes yr ysgubid



Digitized by Google

pob Sais allan o Gymru. Dechreuwyd rhyfelgyrch newydd yn ddioed, trwy i Dafydd gyda byddin gref, wneyd rhuthr sydyn ar gastell Pen ar halawg, cymeryd y ceidwad, Roger de Clifford, yn garcharor archolledig, a lladd amryw o farchogion, a gwŷr cyffredin. Cymerodd hyn le ar nos Sul y Blodau, 1282. Yna y ddau dywysog, a unasant eu byddinoedd, ac a fuont lwyddianus iawn am yspaid; nes oedd Cymru yn orlawn o wrthryfel o'r naill ben i'r llall, a'r genedl, ar ambell i adeg, yn meddwl bod dydd ei gwaredigaeth gerllaw. Ond erbyn diwedd y flwyddyn hono, yr oedd y rhod wedi troi, a'r Cymry yn erfyn am amodau heddwch. Yr amodau a gynygiwyd i Llewelyn, oedd bod iddo roddi i'r brenin feddiant o Eryri yn gyflawn ac am byth, ac y darparai y brenin iddo yntau, gynaliaeth anrhydeddus o fil o bunau yn y flwyddyn yn nghyda rhyw iarllaeth gyfaddas, yn Lloegr, &c. A'r amodau i Dafydd oedd, bod iddo fyned i Balestina, i ymladd yn Rhyfeloedd y Groes, a pheidio dychwelyd byth i Brydain, ac y darparai y brenin ar ei gyfer ef, a'i epil, &c. Ond os gwrthodid yr amodau hyn, taranai yr eglwys Babaidd fygythion o ysgymundod a difodiant ar y tywysogion, a'u deiliaid. I hyn yr atebodd Dafydd fel y canlyn:—

"Pan fyddo iddo ef fyned i'r Tir Sanctaidd, efe a â yn wirfoddol ac o'i galon, i Dduw, ac nid i ddynion; a thrwy ganiatad Duw, nid â efe yno o'i anfodd; canys gwyr fod gwasanaeth trwy drais, yn anfoddloni Duw. Ac os digwydd efe ar ol hyn, fyned i'r Tir Sanctaidd o'i wir ewyllys ei hun, ni ddylai efe a'i etifeddion o achos hyny gael eu dietifeddu, ond yn hytrach enill gwobrwy. Heblaw hyn, nid yw y Tywysog a'i bobl, yn cynal rhyfel yn erbyn neb o achos dygasedd, neu elw, trwy ymosod ar diroedd eraill; ond er amddiffyn eu hetifeddiaeth a'u breintiau, a'u rhyddid eu hunain; ond yr arglwydd Frenin a'i bobl, a gynaliant ryfel o hen ddygasedd, ac er mwyn yspeilio ein tiroedd ni. Yr ydym ni yn credu ein bod yn hyn, yn cynal rhyfel cyfiawn; a gobeithiwn gan hyny y bydd i Dduw ein cynorthwyo, trwy ei ddwyfol ddialedd yn erbyn difrodwyr yr Eglwysi, y rhai a lwyr ddinystriasant yr Eglwysi, gan eu llosgi, a'u hyspeilio o'u dodrefn sanctaidd; lladdasant yr offeiriaid, y crefyddwyr llenyddol, y cloffion, y byddariaid, y mudion, y plant, y rhai yn sugno bronau, y methedig, a'r cystuddiedig, heb arbed na gwrryw na benyw; felly bydded yn mhell oddiwrth eich Sanctaidd Dadolde b, daranu unrhyw ddedfryd yn erbyn neb, ond y sawl a gyflawnasant y cyfryw bethau. Canys nyni, y rhai a ddyoddefasom y pethau a enwyd, gan swyddogion y brenin, ydym yn gobeithio derbyn eich tadol gysur o'u herwydd; a cheryddu o honoch y cyfryw gysegryspeilwyr, a'u cefnogwyr, y rhai ni ellir trwy unrhyw fraint eu hamddiffyn yn hyn, rhag, o ddiffyg arferyd arnynt y cerydd dyledus, y bydd i'r drygau a enwyd gael eu cymeryd yn gynllun parhaus gan eraill. Hefyd, y mae llawer yn ein gwlad ni, yn rhyfeddu eich bod yn ein cynghori ni i ymadael a'n gwlad ein hunain, a thrigo yn mhlith gelynion; canys os nad allwn gael heddwch yn ein gwlad gynhenid, pa fodd y gallwn gael ein cadw mewn heddwch, mewn gwlad ddieithr yn mhlith gelynion. Ac er mai caled yw arwain bywyd o ryfel a chynllwynion, eto caletach fyddai cael ein llwyr ddifetha. Duw a luddias i bobl Gristionogol gael eu diddymu am amddiffyn eu gwlad a'u breintiau! Felly gorfodir ni i hynyma gan angenrheidrwydd, a chan drachwant ein gelynion; a chwi, Dad Sanctaidd, a ddywedasoch yn ein gwydd, eich bod am gyhoeddi dedfryd ar y rhai, er mwyn dygasedd neu elw, a aflonyddant yr heddwch; ac y mae yn amlwg i bawb, pwy yw y cyfryw. Gan hyny, ofn angau, a charchariad, dietifeddiant parhaus, dirmygiad amodau, llywodraethiad creulawn, yn nghyda llawer o bethau cyffelyb, a'n cymhellant ni i ryfel parhaus. A hyn a ddangoswn i chwi, a deisyfwn genych dadol gynorthwy. Yn mhellach, sylwn fod llawer yn nheyrnas Lloegr wedi digio y brenin; ond ni ddietifeddodd efe neb o honynt am byth, fel y dywedir. Ac os darfu i rai o honom ninau ei ddigio ef yn annghyfiawn, dylem wneuthur boddlonrwydd iddo hyd y gallom, eithr ni ddylai efe ein dietifeddu. Dad Sanctaidd, gan ein bod yn ymddiried ynoch, erfyniwn arnoch ymdrechu tuag at ddwyn hyn oddiamgylch. Haerir yn ein herbyn ein bod wedi torri yr heddwch, eithr hwynthwy yn hytrach a'i torasant, a phob amod a chytundeb gydag ef."

Diwedd yr ymdrafodaeth hon fu, i'r archesgob ysgymuno Llewelyn, a Dafydd; syrthiodd Llewelyn yn fuan ar ol hyn yn Muallt, trwy law bradwr; ac er i Dafydd geisio cadw meddiant o'r dywysogaeth, trwy wysio penaethiaid Gwynedd i'w gyfarfod yn Ninbych, a bwriadu ail ddechreu rhyfelgyrch egniol, ac amddiffyn Eryri am yspaid gyda gwroldeb mawr; ond o'r diwedd, daeth Iorwerth a'i fyddinoedd yn mlaen fel cenllif dinystriol, gan feddianu y cestyll, ac Eryri ei hunan—cysegr sancteiddiolaf y gwroniaid Cymreig; ac ysgrifenwyd marwnad annibyniaeth Cymru, â gwaed meibion Arfon! Bu Dafydd yn ffoadur crwydrol o hyny hyd Mehefin 21, pan y bradychwyd ef i ddwylaw y gelyn, gan *Einion ab Ifor*, a *Gronw ab Dafydd*, ac y dygwyd ef, a'i wraig, a'i ddau fab, a'i saith ferch, yn gaeth i gastell Rhuddlan, lle yr arosai Iorwerth ar y pryd. Erfyniodd Dafydd gael ymddiddan a'r brenin, ond ni chaniataodd efe hyny iddo; eithr anfonodd ef tan ofal gosgordd gref, yn garcharor i'r Amwythig, i gael ei brofi yno fel *Arglwydd Saesneg*, yn ol y gradd a dderbyniasai efe yn llys Iorwerth, pan enciliasai yno oddiwrth ei frawd. Furfiwyd brawdlys o un-ar-ddeg o ieirll, a chant o farwniaid, a Iorwerth ei hun yn llywyddu fel barnwr; cafwyd Dafydd yn euog, a chyhoeddodd John de Vans, prif ynad Lloegr, arno y ddedfryd hon ag sydd yn warth i ddynoliaeth:—

"Am ei fod yn fradwr i'r brenin yr hwn a'i hurddasai yn farchog, yr oedd i gael ei lusgo wrth gynffon ceffyl, i le y dienyddiad. Am iddo lofruddio Fulk Trigold ac eraill yn nghastell Pen ar halawg, yr oedd i gael ei grogi. Am iddo wneuthur y gelanedd hono ar ddydd Sul y Blodau, yr oedd ei ymysgaroedd i gael eu tori allan, a'u llosgi. Ac am iddo gynllwyno yn erbyn bywyd y brenin mewn amryw fanau yn y deyrnas, yr oedd i gael ei dori yn bedwar darn, a'r darnau i gael eu hongian i fyny mewn pedwar o'r lleoedd mwyaf cyhoeddus yn y deyrnas, sef Brystau, Northampton, Caerefrog, a Chaerwynt." Cariwyd y ddedfryd wrthun hon allan hyd yr eithaf; a chymaint oedd gorfoledd y Saeson yn y fath gigydd-dra, fel y bu ymryson taer rhwng Caerefrog a Chaerwynt am yr anrhydedd o gael y fraich ddeäu; ond trodd y ddadl yn ffafr Caerwynt, ac anfonwyd yr aelodau eraill ar frys gwyllt, i Brystau, Northampton, a Chaerefrog; a'i ben a osodwyd ar bawl yn y Tŵr Gwyn, yn ymyl pen Llewelyn, ei frawd! Dyma fu diwedd yr impyn olaf o'r hen foncyff Prydeinig!! Canodd Bleddyn Fardd, Englynion, a Marwnad ar

Digitized by Google

ei ol, y rhai a welir yn y *Myf. Arch.* tud. 251, argraffiad Dinbych.

**DAFYDD** ab Gwilym. Bernir yn gyffredin, fod awen Cymru wedi myned dan gwmwl lled dywyll, o amser Iorwerth I. hyd gyfodiad Dafydd ab Gwilym. Er fod erlidiau a bygythion yr orsedd y pryd hwnw, wedi bod yn anghefnogiad mor fawr iddynt, fel y gorfyddai iddynt arfer ffugyrau a chymhariaethau gochelgar iawn, er mwyn eu diogelwch, eto ni roddwyd ysbryd barddol y genedl i lawr, drwy y tymhor peryglus oll; ac ni ellir canfod yr awen yn ymwisgo yn deg yn nillad y dydd, hyd tua'r flwyddyn 1350, pan y dechreuodd ymysgwyd o'r llwch, a chyfodi yn ei dysgleirdeb. Ceredigion a gafodd yr anrhydedd o fod yn lle genedigol Dafydd ab Gwilym. Ganwyd ef yn 1340, mewn lle a elwir Bro Gynin, yn mhlwyf Llanbadarn Fawr. Drwy hynafiaid ei dad, y mae yn dal perthynas â rhan arall o'r Dywysogaeth, fel yr oedd ei dad, Gwilym Gam, yn disgyn o Llywarch ab Bran, penaeth un o bymtheg llwyth Gwynedd. Mam y bardd ydoedd Ardudful, chwaer Llewelyn ab Gwilym Fychan, arglwydd Ceredigion, yr hwn oedd wr o enwogrwydd yn y rhan honno o'r wlad. Yr oedd yn perthynu drwy briodas, i Owain Gwynedd. Gesyd rhai hanesion, ei enedigaeth yn Môn, ond y mae ei dystiolaeth ef ei hun, am dano ei hun, fel gwr o Fro Cadell, yn gwrthbrofi hyny. Eto er fod Dafydd yn hanu o lin uchel, y mae lle i gredu nad oedd uniad ei rieni yn gyfreithlawn a rheolaidd, ac nad oedd yntau felly yn cael ei ystyried yn etifedd cyfreithlawn. Pa fodd bynag, ymddengys wedi hyny, fod yr holl berthynasau wedi dyfod i gymeradwyo y briodas, a daeth Dafydd i fri. Cymerwyd ef dan nawdd ei ewythr, Llewelyn ab Gwilym, yr hwn ydoedd wr o gryn alluoedd. Daeth yn athraw iddo, a gwelodd yn fuan, fod ynddo dalent o radd obeithiol, a rhoddodd iddo bob addysg gyrhaeddwy, er llanw y lle a gymerodd yn y byd llenyddol. Pan oedd Dafydd tua phymtheg mlwydd oed, dychwelodd i dy ei dad; lle nad arhosodd ond am ychydig amser, o herwydd rhyw anghydfod a gyfodasai rhyngddo a'i rieni, a hyny o blegid rhyw ffraethineb dduchanol oedd ganddo, yn more ei ddyddiau, yr hyn nad ellid yn hawdd ei roddi i lawr. Y mae rhai o'i ganiadau y pryd hwnw, eto ar gael, y rhai a brofant nad oedd yno ddim serch teuluol. Ymadawodd yn fuan oddi yno, a rhydd hanesion amlygiad, ei fod yn ieuanc iawn, wedi enill ffafr Ifor Hael, o Gwern y cleppa, yn Maesaleg, yn Mynwy; yr hwn oedd berthynas agos i'w dad. Byddai Dafydd yn cyfaneddu yn gyffredin yn Gwenallt, yn Mynwy, un o balasau Ifor, sydd erbyn hyn yn adfeiliau; ac at y lle hwn y cyfeiriai Ieuan Brydydd Hir, yn y llinellau adnabyddus canlynol—

"Y llwybrau gynt, lle bu'r gan
Yw lleoedd y ddylluan."

Cymaint oedd serch Ifor tuag ato, fel y penododd ef yn oruchwyliwr ei etifeddiaeth, ac yn athraw ei unig ferch; er yr amheuir ei gymhwysder i'r swydd yn gyffredin. Cyfododd serchogrwydd personol rhyngddo â merch Ifor, ac er mwyn tori y gyfathrach hon i lawr, anfonwyd hi i leiandy yn Mon; dilynwyd hi yno yn fuan gan ei hoffydd, yr hwn a weithiodd ei hun i mewn, fel gwas, i fonachlog gerllaw, lle yr amcanai ei difyru a chynhyrchion ei awen; yr unig ddyddanwch a ellai gynyg iddi, erbyn hyny; ac y mae llawer o'i waith eto ar gael, a briodolir i'r tymor hwn. Pa fodd bynag, blinodd cyn hir ar y cyflwr hwn, a dychwelodd i balas ei hen noddwr, heb yr un gwg yn ei aros. Yr oedd wedi ymgymodi hefyd a'i rieni, a byddai yn treulio peth amser yn y naill le, a'r llall, fel y byddai amgylchiadau yn caniatau.

Wedi dychwelyd i balas Ifor, y dechreuodd Dafydd feithrin ei awen i bwrpas, ac etholwyd ef yn brif-fardd Morganwg. Yr oedd yn y cymeriad hwn, yn ymwelydd a'r prif deuluoedd, ac mewn bri mawr ar bob achos cyhoeddus. Yr oedd gwleddoedd mawrion yn cael eu cynal yn fynych yn mhalasau Ifor, a Llewelyn; a thelid moes uchel i feibion yr awen yno. Yn Emlyn, palas Llewelyn, ar un o'r gwleddoedd cyhoeddus, y dechreuodd yr eiddigedd rhyngddo ef a Rhys Meigan, a ddaeth yn achos o ddadleuon barddonol mor llym rhyngddynt; a dywedir i dduchan medrus Dafydd, fod yn archoll farwol i'w wrthwynebydd. Yr oedd gogwydd ei ddawn farddonol yn rhedeg mewn mawl, neu sarhad, ar yr ystlen deg yn wastadol. Yr oedd nifer gwrthddrychau ei serch yn lleng, ond y mae y traddodiad am un amgylchiad mewn cyssylltiad â hwynt, yn dra hynod. Fel hyn y rhed yr hanes. Fel yr oedd efe o duedd chwareus, gwnaeth amod, drwy wahoddiad, i gyfarfod a nifer o honynt, dan gysgod coeden, mewn lle penodol; a'r naill o'r merched, heb wybod dim am eu gilydd. Daeth pob un o honynt at y lle, yn ol yr amod, i'r mynud. Ond pan ganfyddai pob un y nifer oedd wedi dyfod yno, deallasant y ddichell, a phenderfynasant ddial arno, mewn rhyw ffordd neu gilydd. Yr oedd efe wedi ymguddio rywfodd rhwng y cangau a'r dail, a phan welodd yr ystorm yn ymgodi, ymdrechodd i'w lleddfu â'i awen. Daeth i'r golwg yn sydyn, ac ymdrechodd ateb i'w bygythiadau mewn englyn cellweirus:—

"Y butain wen fain fwynaf—o honoch
I honno maddeuaf,
Tan frig pren, a heulwen haf
Teg anterth, trawed gyntaf."

A bu y canlyniad, mae'n debyg, fel y disgwyliai ef y byddai; a chafodd gyfle i ffoi o afaelion y perygl, yn nghanol y dadwrdd a greasai y penill rhyngddynt. Yr oedd ei serch, pa fodd bynag, wedi ymgylymu yn fwy penodol â dwy, sef Dyddgu, a Morfudd, i'r rhai y cyfansoddodd rai o'i ddarnau barddonol prydferthaf oll; ond ni bu yn llwyddianus gyda'r naill na'r llall. Darlunia y gyntaf, fel un yn meddu pob rhagoroldeb meddwl, a gwedd; ond eto nid oedd ei holl linellau yn gallu cyrhaedd ei chalon. Y mae saith o'i Gywyddau i hon ar gael. Yr oedd y llall, sef Morfudd, yn rhoddi gwell gwrandawiad iddo, ac oni bai rhai amgylchiadau anffodus, nad allasai hi eu llywodraethu, dichon y cawsai ei obeithion eu cwblhau. Merch ydoedd Morfudd, i Madog Lawgam, boneddwr o Fôn; ac wedi methu cael cydsyniad ei rhieni, unwyd hwy mewn ffordd afreolaidd. Yn neillduedd y goedwig, cafwyd gan ryw gyfaill i Dafydd, ddynwared yr offeiriad, heb neb ond hwy eu tri yn bresenol; a phriodwyd hwy. Buont fyw am ryw ysdod, fel gwr a gwraig. Dyma fel y darlunia ef yr hanes:—

"E'm rhoddes liw tes lw teg,
Ni chawn gan unferch chwaneg,
Llw a chred, myn y bedydd,
I mi dan ganghenau gwydd;
A rhwymaw llaw yn y llwyn,
Yn ddiddig a'i bardd addwyn;
Myn Mair! a bu'n offeiriad
Madog Benfras, mydrwas mad."

Digitized by Google

Ond nid hir y bu ei rhieni heb ei mynu yn ol; a chyflwyno ei llaw, pan nad allesid cael ei chalon, i un Cynfrig Cynin, hen gybydd, ac nad oedd dim i'w arganmol, ond ei gyfoeth. Cyfansoddodd Dafydd y caneuon mwyaf gwawdiol ar ei elyn, Bwa Bach, fel ei gelwid ef, o blegid ei fod yn gefngrwm, ac ni foddlonai ar ddialedd o dduchan yn unig, ond lluniodd ffordd drwy ddichell, i gael ei gweled, a denodd hi ymaith gydag ef. Ond buan y darganfyddwyd y cariadau, a dygwyd hi yn ol, a dirwywyd Dafydd. Gan na allai dalu y dirwy, bwriwyd ef i garchar, ac yno y darfuasai am dano, oni buasai i waredigaeth ddyfod drwy haelioni boneddion Morganwg.

Yr oedd Gryffydd Grug o Fon, yn fardd oedd yn cydoesi â Dafydd, ac yr oedd cryn gyfeillgarwch rhyngddynt ar un adeg; eto daeth rhyw amgylchiad a barodd iddynt syrthio allan a'u gilydd, ac aeth yn ddadl farddol chwerw rhyngddynt, y mae naw ar hugain o gywyddau Dafydd yn yr achos, ar gael. Dyfeisiodd rhyw un ffordd i heddychu y ddau. Anfonodd at Dafydd, fod Gryffydd wedi marw, a chanodd Dafydd farwnad deimladol ar ei ol. Anfonodd yr un pryd at Gryffydd, fod Dafydd wedi marw, a chanodd Gryffydd alarnad mor effeithiol ar ei ol yntau; felly yr heddychwyd y ddau, a buont yn gyfeillion mynwesol hyd ddiwedd eu hoes.

Y mae cryn wrthdarawiad yn yr hanesion a geir am Dafydd, mewn gwahanol gofnodau, y rhai na byddai yn ddoeth eu dilyn yma. Y mae yr hyn a ganlyn i'w ganfod yn yr Iolo MSS.:—"Ach Dafydd ab Gwilym, ap Dafydd, ap Ieuan, ap Hywel, ap Cynwrig, ap Gronwy, ap Meredydd, ap Madog, ap Iorwerth, ap Llywarch ap Bran:

Mil trichant meddant i mi—y ganed
Yn geneu dan lwyni,
Gwr o'th pau garw yw'th enwi
Mab Gwilym Gam, cytgamei.

Rhys Meigan a gant yr englyn hwn yn neuadd Ieuan ab Lleision, yn Maglan. Gwilym Gam o Lanbadarn fawr yn Ngheredigion, ap Dafydd ap Ieuan ap Hywel, ac Ardudful ferch Gwilym Fychan o'r Cryngae yn Emlyn, Tad a mam Dafydd ap Gwilym y prydydd oeddynt; ac o achos rhyw wrthymod cas oedd rhwng y ddwy wehelyth, ni chaed bodd priodas, gan yr un o'r ddau rieni, a'r ddeuddyn ieuangc yn fawr eu serch y naill at y llall, beichiogi Ardudful a wnaeth Gwilym Gam; ac o weled hyny, ei thad a'i brawd a'i troes o'u ty ganol nos gauaf chwerw, a danfon arch at bawb o'u ceraint, na's derbynient hi dan do neb o honynt, myned a wnaeth hi lwrw ei phen, heb yn waeth lle nag arall, a Gwilym Gam a glybu, a myned ar ei hol, a'i goddiweddyd, a'i chymeryd gyd ag ef i Forganwg, at Ifor Hael ei ewythr, brawd mam iddo; ac eraill a wedant taw ei gyd frawd yn nghyfraith oedd Ifor Hael; ag ar y ffordd, dyfnder nos dan berth, mewn tywydd garw iawn gan wynt a chesair, y ganed mab iddynt yn ei seithmis, a hwnw oedd Dafydd ab Gwilym; yn mlaen ydd aethant, a thranoeth cyrhaedd Llandaf, lle priodws Wilym Gam, Ardudful, ac yna'r undydd y bu hi farw ag a'i claddwyd yno; a bedyddio'r mab ar arch ei fam, a llyma ddau englyn, a gant Wilym i Ardudful, uwch ben ei bedd:—

"Cof Ardudful deg, cat adfer—wawr fwyn
Ar fynydd Olifer;
Angyles yn ngoleuder
Uchel y saint, uwchlaw ser.

"Dygn immi 'r byd, a bod hebddi—meinir
A'm henaid yn edwi;
Aele alaeth am dani,
Wylaf ael rhych a'i rhoed hi."

Gwedi gweled pridd ar wyneb Ardudful, myned yn mlaen a Dafydd ei fab bychan at Ifor Hael o Wern y Cleppa, yn Maeshaleg, lle bu'n fawr ei roesaw a'i rysgwydd lawer blwyddyn; a phan fu farw Dafydd ab Ieuan ei dad, dyfod yn ol i Geredigion a oruc Gwilym Gam, ag idd ei Dre Tad yn Llanbadarn, ac enw'r Ty, Bro Ginin, ag yno byw ar ei dir ei hunan, a'i fab Dafydd gyd ag ef. Gwilym a briodes ei ail wraig, a Dafydd ei fab ni allai aros ei lysfam; am hyny, myned yn ol at Ifor Hael ei ewythr i Forganwg, lle bu mewn parch a chariad mawr; a'i ewythr, brawd ei fam, Llewelyn ab Gwilym Fychan o'r Cryngae, yn Emlyn, a'r Ddol Goch, yno, lle oedd y byddai un neu arall o honynt yn byw, a dysgu celfyddyd mydr a cherdd dafod iddo, ac o hyny yr aeth Dafydd yn brydydd mawr iawn ei glod; a gwylliaid o Saeson Penfro a ddaethant am ben y Ddol Goch, a lladd Llewelyn ab Gwilym; yna Dafydd yn ei ol i Faeshaleg at Ifor Hael, a Nest ei wraig, lle bu gan fwyaf hyd farw Ifor a Nest o'r haint chwaren, yn nhy Esgob Llandaf, yn Llangadwaladr yn Ngwent-iscoed, lle ydd oeddynt yn ngwesteiaeth, a'r esgob a fu farw yno gyda nhwy; Dafydd ab Gwilym yn diangc drwy'r haint, a ddaeth yn ol i Faeshaleg, ond gan nad oedd yno nag Ifor na Nest, myned a wnaeth ar amdaith i rodfela Cymru, ac hyd yn Mon ac Arfon, ag ar ei droeon ym Morganwg, a phan fu farw ei dad, aeth yn ei Dreftadaeth Broginin, yn Llanbadarn fawr; ydd oedd ef erbyn hyn yn dechreu myned mewn oedran; gwedi bod yno amser nid mawr, efe a aeth i Fonachlog Tal y Llychau, lle gnawd yn fawr ei barch a'i roesaw, ag yno y bu ef farw ag a'i claddwyd wyliau'r Nadolig, yn mlwyddyn deugain o goroniad y Brenhin Edwart y trydydd, yn hen wr o brydydd clodfawr." Ychwanegir hefyd, "Dafydd ab Gwilym a wnaeth wellhad nid bychan a'r fesur cywydd, gan ganu rhieingerdd yn oreu arno o neb a fu erioed. Yna y dilyn pump o englynion marwnad iddo, o waith Hopcin ap Thomas ap Einion o Ynys Dawy, 1380. Y mae tri eraill, sef Iolo Goch, Madog Benfras, a Gryffydd Grug, wedi cyfansoddi galarnadau ar ei ol, sydd yn dangos yn eglur y parch uchel a delid iddo gan bawb.

Y mae y nodiadau coffadwriaethol a wnaed am ei gymeriad, yn amrywio llawer; gesyd rhai ef allan fel gwr dillynfoes, a'r lleill yn hytrach fel cellweirddyn. Dichon mai ei ymddygiad ynfyd yn galw y rhianod yn nghyd mewn dichell, a roddodd sail i'r sylw olaf. Diau ei fod wedi bod yn annoeth wrth droi nerth ei awen ormod yn y ffordd chwareus, ac ar destynau lled wagsaw, hyd nifer mawr:—

"Saith gywydd i Forfudd fain,
Seth hoew-gorph, a saith ugain,"

eto, er hyn i gyd, dengys dalent ddisglaer, mewn amryw o'r llinellau tlysaf a fedd yr iaith, mewn ymadroddion coethedig. Os edrychir ar "Gywydd y Daran," lle y darlunia yr ystorm, daw ymadferthoedd ei awen yn amlwg ger bron. Saif y llinellau canlynol mewn darlleniad cyhyd ac y lleferir y Gymraeg:—

"Taro a wnaeth, terwyn oedd,
Trwst taran tros y tiroedd,

Digitized by Google

A ffrydiaw croew-wlaw creulawn,
A phoeri mellt yn ffrom iawn;—
Tân amlwg, dwr tew'n ymladd,
Tân o lid, dwr tew'n ei ladd,—
Canu trwmp yr wybr gwmpas,
Curo glew ar bob craig las,
Croglam yn dryllio creiglawr,
Crechwen o'r ffurfafen fawr! &c."

Y mae y dystiolaeth ganlynol, a ddyfynwyd o "*Dlysau yr hen oesoedd,*" gan Lewis Morris, mewn cyfeiriad at y dernyn uchod, yn cadarnhau y sylw a wnaethom. "Y mae *Pope*, wrth gyfeirio at luawsedd rhagoriaethau *Homer*, yn crybwyll fod priodoldeb ei seiniau dynwaredol, mor eang a naturiol, a'i ddarfelydd aruchel; ac na wyddai ef am yr un bardd oedd wedi esgyn mor ddyrchafedig yn yr orchest hon. Pa fodd bynag, os nad wyf yn camgymeryd yn mhell, yr wyf yn credu fod gan Dafydd ab Gwilym, ogystal hawl i'r rhagoroldeb hwn, o blegid, yn Nghywydd y Daran, y mae detholiad ei eiriau, er cyfateb i'r seiniau bwriadol, yn profi fod y llinellau oll, wedi eu hamcanu i arddangos natur, yr hyn ydyw mewn gwirionedd. Y mae y darluniad o'r *daran* a'r *fellten*, er mai mewn caniad serch, yn un o'i destynau tyner (o ba rai y mae genyf tua chant ger fy mron) yr ymddengys, y mae y cyfan yn darllen mor esmwyth â cherdd Italaidd. Bydded i'r rhai sydd yn gyfarwydd ar yr ieithoedd clasurol, ac sydd hefyd yn feirniaid galluog ar ein hiaith ni, gymharu y Cywydd hwn, yn natur ei seiniau, ac arucheledd ei gymhariaethau, â'r darnau goreu a fedd y prif awdwyr, ar destynau cyffelyb, ac yr wyf yn hyderus, yr esgusodant fy eondra, ac na olygant fy mod yn arfer iaith ry gref ar y pwnc, pan y sicrhaf nad yw yn ol i neb, gan nad pa mor gysegredig y cyfrifir cymeriad Homer ac eraill." Addefir yn gyffredinol fod barddoniaeth Dafydd ab Gwilym yn llawn o brydferthwch, nid yn unig o ran ei ffurfiad celfyddgar, ond hefyd yn ei theimlad dwys. Dywedir fod y bardd o ymddangosiad personol hawddgar, tal, ysgafn, uniawnsyth; ei wallt yn oleu, llaes, modrwyog, fel yr oedd yn edliwiad gan y rhianod iddo, ei fod yn gwisgo gwallt ei chwaer. Dywedir hefyd ei fod yn wrthddrych sylw pawb, hyd yn nod pan yn yr addoliad ar y sabbath, o blegid hawddgarwch ei ymddangosiad. Diau fod ei waith, ar y cyfan, yn addurn i'n llenyddiaeth.

Mewn hen ysgriflyfr yn meddiant y Golygydd, y mae y Nodyn canlynol;—"Fe welodd Dafydd Jones, Ficer Llanfair Dyffryn Clwyd, yn 1572, hen wraig a welsai un arall a fuasai yn ymddiddan â Dafydd ap Gwilym;—Hir-fain oedd ef, a gwallt llaes melyngrych oedd iddo, a hwnw yn llawn cayau, a modrwyau arian, meddai hi."

**DAFYDD** ab Harri Wyn, ydoedd fardd medrus yn Edeyrnion. Yr oedd yn Eisteddfod Caerwys, yn 1566, lle y gwrthododd y radd o bencerdd.

**DAFYDD** ab Hywel ab Ifan Fychan, bardd a flodeuai rhwng 1480 a 1520.

**DAFYDD** ab Ifan Llwyd, bardd yn ei flodau tua'r fl. 1500.

**DAFYDD** ab Iorwerth, abad Llanegwest, dyffryn Eliseg, swydd Dinbych, a gysegrwyd yn esgob Llanelwy, Ebrill 26, 1500. Yr oedd yn enwog am ei nawdd a'i haelioni i'r beirdd. Bu farw yn 1503.

**DAFYDD** ab Llewelyn, ydoedd fab ieuangaf Llewelyn ab Iorwerth, o Joan, ferch Ioan, brenin Lloegr, a chwaer Harri III. Bu Llewelyn yn briod ddwy waith, y tro cyntaf gyda Tangwystl, ferch Llywarch Goch, arglwydd Rhos, ac o'r briodas hon yr hanodd Gruffydd, tad Owen Goch, Llewelyn ein Llyw Ola; a Dafydd ab Gruffydd. Yr oedd Gruffydd yn ddyn dewr a dibris, ac wedi digio ei dad trwy godi mewn gwrthryfel yn ei erbyn, am yr hyn bu yn ngharchar am saith mlynedd; felly penderfynodd Llewelyn ei ddifreintio, a gosod Dafydd, ei anwyl-fab, yr hwn oedd nai i Harri brenin Lloegr, ar ei orsedd yn ei le, i'r hon yr esgynodd gydag ewyllys da ei ddeiliaid, a'r Saeson, yn 1240.

Y peth cyntaf a wnaeth Dafydd ar ol dyfod i awdurdod, oedd dietifeddu Gruffydd, ei haner brawd, trwy gymeryd oddiarno ardaloedd Arwystli, Ceri, Cyfeiliog, Mowddwy, Mochnant, a Chaereinion, gan adael iddo ond cantref Lleyn yn unig. Wedi hyny efe a'i gwahoddodd ef yn fradwrus i'w gyfarfod ef mewn cyngorfa, yno daliodd ef, a charcharodd ef, a'i fab Owen, yn nghastell Cricieth. Dywedir fod gan esgob Bangor law yn y fradwriaeth hon, mai o dan ei nawdd ef y daeth Gruffydd i'r gyngorfa. Yn mhen mis wedi iddo gael ei droed ar yr orsedd, aeth i Gaerloyw, i wneuthur gwriogaeth i'w ewythr Harri, brenin Lloegr, a throsglwyddodd iddo awdurdod uwch-lywodraethol ar Ogledd Cymru. Ond buan y derbyniodd a haeddai am y weithred wasaidd hon, sef troed ei ewythr a'i bendefigion, ar ei war. Daeth Gilbert Marshal, a byddin i Gymru, ac a gadarnhaodd gastell Aberteifi; a dilynwyd ef gan y brenin, gyda byddin luosog, yr hwn a dderbyniodd wyriogaeth amryw o bendefigion y wlad. Tua'r amser hwn, cyfododd cynwrf mawr am ryddhad Gruffydd, a'i fab Owen, y rhai a gadwai Dafydd yn ngharchar. Yr oedd esgob Bangor, ac amryw bendefigion Cymru yn dra phleidiol i Gruffydd, ac yn cymeryd ei achos i fyny yn wresog. Aeth esgob Bangor i Rufain, a chafodd gan y Pab ysgymuno Dafydd, a gosod ei gyfoeth o dan ddedfryd. Gwahoddodd Gruffydd Maelor, y brenin Harri i ddyfod i Gymru, i gosbi Dafydd, oni ollyngai efe Gruffydd yn rhydd. Daeth Harri gyda byddin luosog, dan yr esgus o gymeryd achos y carcharor anffodus, a thrwy offerynoliaeth yr arglwyddi Cymreig, ffurfiwyd amodau rhwng y brenin a Gruffydd, y rhai a arwyddwyd dros Gruffydd, gan Sina, ei wraig, ac a wystlwyd gan Roger de Monte Alto, a'r pendefigion eraill. Yn yr amodau hyny, yr oedd y brenin i fynu Gruffydd yn rhydd o'r carchar, ac yntau i dalu iddo am ei diroedd, chwe chant Marc, a thri chant yn flynyddol; ac i gadw yr heddwch tuag at Dafydd, a sefyll at ddedfryd llys y brenin, ar yr ymrafael rhyngddynt. Gwelai Dafydd erbyn hyn, bod ystorm ofnadwy uwch ei ben,—y Pab wedi ei ysgymuno, y rhan fwyaf o bendefigion y wlad wedi troi yn ei erbyn ef, a chyda'i haner brawd; a'i ewythr Harri gyda byddin ddirfawr wedi dyfod hyd ddinas Caer, ac yn gorchymyn iddo roddi y carcharor i fyny, ac fel gwr wedi ei ddiarfogi ar y maes, nid oedd ganddo ddim i'w wneyd ond plygu, a chynyg rhyddhau Gruffydd ar y telerau y derbynid ef ei hun i ffafr ei *feistr*. Cydsyniodd Harri a hyny, ac ychwanegodd delerau trymion eraill o'i eiddo ei hun at hyny. Sylwedd pa rai oedd a ganlyn:—

Fod Dafydd ab Llewelyn i draddodi i'r brenin ei frawd, Gruffydd, yn nghyda'i fab, a phawb eraill ag oedd ganddo yn garcharorion yn achos Gruffydd. Ei fod yn ymrwymo i sefyll wrth ddedfryd y llŷs ar yr ymrafael ag oedd rhyngddo a'i frawd. Ei fod yn cytuno y byddai iddo ef a Gruffydd, ddal eu tiroedd

Digitized by Google

dan y brenin, megys Pen-teyrn. Ei fod yn ymrwymo dychwelyd i'r arglwyddi Saesnig, yr oll o'r tiroedd a gymerwyd oddi arnynt, er dechreuad y rhyfeloedd rhwng ei dad a'r brenin Ioan. A'i fod i dalu i'r brenin, draul y rhyfel-gyrch hwnw; ac i adferyd iddo bob gwriogaeth ag oedd yn ddyledus i'r brenin Ioan, &c. &c. Ffurfiwyd y weithred hon yn Llanelwy, yn y fl. 1241. Arwyddwyd a seliwyd hi gan y Tywysog, a chan ei weinidog, Ednyfed Fychan. Wele, yn awr, lwyr ddarostyngiad teyrnedd y Cymry. Yr un trosedd a barodd i'r Cymry golli gorsedd Gwynedd, ag a barodd i Dŷ Ddafydd golli gorsedd Israel,—ymgyfathrachu â'r gelynion. Llewelyn Fawr a briododd ferch y brenin Ioan, a thalodd wriogaeth i'w dad-yn-nghyfraith. Dafydd ei fab a orfu dalu yr un gwriogaeth i'w ewythr Harri, yn nghyda llawer mwy nag a feddyliodd ei daid erioed ofyn am dano. Llewelyn ei ŵyr, yr hwn a elwir yn gyffredin "Llewelyn ein Llyw Ola," a aberthodd ei wlad a'i ryddid, ar allor serch,—rhoddodd ei wddf o dan droed Iorwerth I. er mwyn Elenor de Montfort!

Dafydd, wedi ymiselu fel hyn o dan draed ei ewythr, a anfonodd ato yn ddirgel, i erfyn arno gadw Gruffydd yn ngharchar, am fod ei ryddid yn beryglus i heddwch y Dywysogaeth; a chaniatau iddo ef fwynhau y cyfan o'r Dywysogaeth ei hun; a'r brenin mewn modd hollol annheilwng o hono ei hun, a ganiataodd iddo ei ddymuniad; efe a anfonodd Gruffydd i'r Tŵr, yn nghyd a'i wraig, a'i fab Owen, ac yno y bu efe yn dihoeni am ddwy flynedd, hyd nes daeth angau i roddi ymwared iddo, wrth iddo geisio rhoddi ymwared iddo ei hun trwy ffenestr ei garchar, yn 1244. Gallasid meddwl y buasai marwolaeth ei wrth-ymgeisydd yn rhoddi heddwch a dedwyddwch sylweddol i Dafydd; ond yn lle hyny ni bu ond dechreuad gofidiau iddo. Cymerodd Harri fantais ar farwolaeth Dafydd, i ddatgan mai efe oedd Tywysog Cymru; ac i gyhoeddi ei fab ei hun, Iorwerth I., yn Dywysog Cymru ar ei ol; ac ar yr un pryd, i ranu ei gyfoeth rhwng y rhai a dybiai ef a fyddent gyngrheirwyr iddo, a chymeryd meddiant o amryw gestyll y Dywysogaeth. Nid oedd eisiau dim yn rhagor i ddangos bwriadau y brenin. Cynhyrfodd hyn benaethiaid y Dywysogaeth o'u cysgadrwydd. Taflodd Dafydd ymaith ei iau, ac apeliodd at y Pab am amddiffyniad rhag ei ewythr, gan gynyg dal ei Dywysogaeth o dan wriogaeth i'r Pab, a thalu iddo bum can marc yn flynyddol. Ac wedi derbyn anrhegion mawr, y Pab a gydsyniodd a'r cynygiad, ac a orchymynodd i abadau Aberconwy, a Chymmer, i gynal llŷs i chwilio i mewn i'r achos; ac os gwelent fod y Tywysog wedi ymrwymo gwriogaeth i'r brenin trwy ofn a chribddeiliad, am iddynt ei ryddhau oddiwrth ei lŵon. Yr abadau, trwy awdurdod y weithred Babawl hono, gyda rhwysg digrif fawreddog, a wŷsiasant y brenin i ymddangos ger eu bron hwy yn eglwys Llangystenyn, yn Nghreuddin, i ateb y cwynion a ddygid gan Dafydd yn ei erbyn. Ffromodd y brenin yn aruthr am yr anfri hwn ar ei urddas; eithr gwyddai pa fodd i drin llŷs Rhufain, a chan fod ganddo gymaint mwy o gyfoeth na'i nai, defnyddiodd hwnw i dymheru meddwl y Tad Sanctaidd; a'r Pab, yn ol ei garedigrwydd arferol, a dderbyniodd anrhegion y ddwy blaid, heb wneyd lles i'r un.

Cyffrôdd hyn Dafydd i wrthryfel, a bu ymladd gwaedlyd rhyngddo ef ag arglwyddi Harri; lladdwyd Herbert Fitz-Mathew, llywydd byddin fechan o'r gelynion, a mawr gythruddodd hyn greulonder y rhyfel.

Collodd y Cymry ddau gant o wyr trwy gynllwyn y gelyn ger castell Trefaldwyn; rhuthrodd adran o'r fyddin Gymreig fel ad-daliad, ar gastell y Wyddgrug, gan ladd yr holl warchodlu, ac o'r braidd y diangodd eu cadlywydd gyda'i einioes. Erbyn hyn yr oedd y rhyfel wedi myned mor waedlyd, fel na arbedai y naill blaid na'r llall, ryw, nac oed, na gradd. Harri, yn gweled agwedd fygythiol pethau, a alwodd ei holl nerthoedd yn nghyd, tua diwedd Mehefin 1245, ac arweiniodd ei fyddin gref mor bell a Chaerlleon. Gwelodd Dafydd na's gallai gyda'i fyddin fechan wrthsefyll y fath luoedd, yna efe a enciliodd o'u blaen i Eryri. Daeth y brenin a'i fyddin yn mlaen mor bell a'r afon Conwy; ac yno efe a wersyllodd, gan adgyweirio a chadarnhau hen gastell Dyganwy. Dyma y pryd y cododd efe y dreth o ddeugain swllt ar bob marchog yn y deyrnas, yr hon a elwid "Scutage of Gannock" (*Treth Dyganwy*). Gwnaeth Harri ymdrech ofnadwy y waith hon, i ddarostwng y Cymry, trwy gael byddin o Wyddelod i anrheithio Ynys Fôn, a gosod ei wŷr ei hunan i ddifrodi cyffiniau Lloegr; i'r dyben i geisio newynu y fyddin Gymreig yn Eryri. Ond trôdd y cwbl allan yn fethiant chwithig a siomedig,—daeth prinder ymborth ar warthaf ei wŷr ei hun, trengent wrth y degau, gan newyn ac anwyd; blinid hwy gan ruthriadau beiddgar y Cymry, ddydd a nos, fel erbyn diwedd Hydref, yr oedd wedi ei yru i'r fath gyfyngder, nes nad oedd ganddo ddim i'w wneyd, ond gadael Dyganwy dan ofal y castellwyr, a dychwelyd a'i fyddin tuag adref, mewn gofid a gwarth. Er iddo beri blinder enbyd i'r Cymry yn yr ymdrech hon o geisio eu newynu, eto ni orchfygodd hwynt; a bu y methiant hwn yn foddion i uno amryw o'r penaethiaid Cymreig o dan faner eu Tywysog; a'u hachos yn ymddangos fel yn adnewyddu nerth. Ond bu farw Dafydd yn mis Mawrth, y flwyddyn ganlynol, yn ei lŷs ei hun, yn nghastell Aber, a chladdwyd ef gyda'i dad, yn mynachlog Aberconwy. Canodd Dafyd Benfras ei Farwnad, yr hon a gedwir yn y *Myf. Arch.*

**DAFYDD** ab Meredydd ab Ednyfed, bardd a flodeuodd tua 1460.

**DAFYDD** ab Meredydd ab Tudur, bardd yn ei flodau tua 1400.

**DAFYDD** ab Nicholas, bardd yn ei flodau rhwng 1590, a 1630.

**DAFYDD** ab Owain Gwynedd, trydydd mab Owain Gwynedd, o'i ail wraig, Cristiana, ferch Gronw ab Owain ab Edwyn, arglwydd Tegeingl. Ar farwolaeth ei dad, yn y flwyddyn 1169, darfu i bendefigion Gwynedd yn unfryd, roddi ei frawd henaf, Iorwerth (mab i Owain Gwynedd, o'i wraig gyntaf, Gwladys, ferch Llywarch ab Trahaern, arglwydd Penfro), o'r neilldu, ar gyfrif yr anaf oedd ar ei wyneb, fel un annghymwys i deyrnasu arnynt; ac yntau a ymostyngodd yn dawel i'w barn, gan ymfoddloni i fyw fel pendefig annghyoedd, ar y rhan o ettifeddiaeth ei dad a roddasid at ei gynhaliaeth, sef cantrefi Nanconwy ac Ardudwy. Ac ail fab Owain Gwynedd, sef Howel, er ei fod yn fab annghyfreithlawn i'r hen dywysog, gan ei fod yn filwr dewr-wych a phoblogaidd, a gymerodd feddiant o lywodraeth Gwynedd, ac a'i cadwodd am ddwy flynedd, pan ei gorchfygwyd, ac ei lladdwyd gan ei frawd Dafydd; yr hwn trwy

Digitized by Google

drais ac annghyfiawnder a draws-feddiannodd lywodraeth y Dywysogaeth. Yn y flwyddyn 1173, efe a garcharodd ei holl frodyr, oddieithr Maelgwn, yr hwn a gymerodd feddiant o Ynys Fôn, yr hon a ddygasai Dafydd oddiar ei frawd Rhodri, ac efe a gadwodd feddiant o honi am dair blynedd, pan y gorchfygwyd yntau hefyd, ac ei carcharwyd. Yr un flwyddyn, ymgyngrheiriodd y tywysog Dafydd â'r brenin Harri, gan gymeryd Emma, chwaer y brenin Seis'nig, yn wraig; ac ar yr achlysur hwnw, efe a anfonodd fil o Gymry arfog i Normandi, i gynnorthwyo ei frawd yn nghyfraith, y brenin, yn ei ryfeloedd. Yn y flwyddyn 1177, diangodd Rhodri o'r carchar, ac wedi iddo lanio yn Ynys Fôn, y trigolion a'i derbyniasant yn chwannog fel eu penteyrn cyfiawn; a chan i'w frawd Maelgwyn ddychwelyd yn fuan o'r Iwerddon, a dwyn gyd ag ef adgyfnerthion iddo, hwy a orfodasant Dafydd i encilio i'r ochr Seis'nig i'r afon Conwy, lle y cadwai feddiant o *dri* chastell; Deganwy, Rhuddlan, ac Eflo, mae yn debyg, a'r tiriogaethau cyssylltiedig, y rhai a gadwai efe trwy gynnorthwy gwarchodlu Seis'nig. Yn y flwyddyn 1194, ei nai, Llewelyn ab Iorwerth, wedi dyfod bellach i oedran gwr ieuanc, ac yn cael ei gefnogi gan y prif bendefigion Cymreig, a hawliodd dywysogaeth Gwynedd, ac a'i henillodd: ond yn mhen tua thair blynedd, gwnaeth y tywysog Dafydd ymdrech i adenill y dywysogaeth oddiar ei nai, trwy gynnorthwy byddin Seis'nig; ond efe a orchfygwyd, ac a gymerwyd yn garcharor gan Llewelyn. Yn y flwyddyn 1204, efe a ryddhawyd, ac yn y fan efe a ffodd i Loegr, lle y llwyddodd i gael cynnorthwy byddin Seis'nig drachefn, i geisio adenill y dywysogaeth oddiar ei nai; ond efe a orchfygwyd y waith hon eto, ac yn fuan wedi hyny, rhoddwyd ef, a'i fab Owain i farwolaeth yn Aberconwy, trwy orchymyn Llewelyn ab Iorwerth.

**DAFYDD** AB PHILIP RHYS, bardd a flodeuai o 1500 hyd 1540.

**DAFYDD** AB RHYS O'R FENNI, bardd o Ddyffryn Wysg, a flodeuodd tua 1550. Dywedir fod peth o'i waith ar gael mewn Y.-L.

**DAFYDD ALAW**, bardd o lan Alaw yn Mon. Bu farw tua 1540. Mae enwau 12 o'i gywyddau ar glawr y Greal, 1806.

**DAFYDD BACH** AB MADOC WLADAIDD, bardd a flodeuai o 1400 hyd 1450. Mae ei gyfansoddiadau mewn Y.-L. Efe a wisgai wahanol ffug-enwau, megys Sypyn Cyfeiliog, a Cnepyn Gwrtheurnion. Dichon mai brodor o Wrtheurnion, yn Maesyfed ydoedd.

**DAFYDD BENFRAS**, bardd enwog, yn ei flodau o 1190 hyd 1240. Mae 12 o'i gyfansoddiadau yn y *Myf. Arch.* Galarnadau ydynt yn benaf, am Llewelyn ab Iorwerth a'i feibion; ac y maent yn werthfawr ar gyfrif eu crybwylliadau hanesyddol. Wele engraifft o'i Farwnad i Llewelyn ab Iorwerth:—

"Meu foli Crist celi culwydd
Mawr foliant didrawd didramgwydd.
Maith i'm gwnaeth alaeth ac arwydd
Arnaf—mi rydynnaf dan ei aflwydd.
Mor draws fu Iesu am aes digwydd!
Mor dreisiwr hagen am ren rhadlwydd!
Mor drist yw ein byw, bod glaflwydd derfyn
Ar rudd Llewelyn llaw gyfanrwydd," &c.

**DAFYDD BENWYN**, un o feirdd Gorsedd Morganwg, ac un o'r rhai oedd a llaw yn nghyfansoddiad *Cyfrinach y Beirdd.* Dywed Edward Dafydd iddo ef "ei thynnu allan o Lyfrau Beirdd ac Awduron dysgedigion, rhag ei myned ar goll, nid amgen nag o waith a Llyfrau Meuryg Dafydd, a Dafydd Llwyd Mathew, a Dafydd Benwyn, a Llywelyn Sion; y sef ydd oeddynt oll yn Feirdd Cadeiriog wrth Fraint a Defod Beirdd Ynys Prydain, a Phencerddiaid wrth Awdurdod Gwlad ag Arglwyddiaeth Morganwg, a Gwlad Gwent ag Euas." Dywedir ei fod yn ddysgybl barddonol i Lewys Morganwg, yn 1520, a llywydd yr Orsedd yn 1580, neu yn ol eraill 1560.

Ymddengys iddo gyfansoddi llawer o farddoniaeth, ond ychydig o'i waith sydd yn adnabyddus. Dywed Llywelyn Sion yn ei Farwnad:—

"Llenwis gwlad a'i ganiadau;
Llith gwirddysg, llwyth ei gerddau;
Llaweroedd o gall eiriau;
Llu rhinwedd llwyr o'i enau;
Lluaws yn hardd eu lliwiau;
Llewyrch gwir hir i barhau."

**DAFYDD DDU ERYRI**, neu DAFYDD THOMAS o'r Waenfawr, yn Arfon, ydoedd un o feirdd godidocaf, hynafieithydd mwyaf gwybodus, a llenor disgleiriaf ei wlad, yn y canrif presenol. Efe ydoedd fab ieuengaf Thomas, a Mari Gryffydd; yr hwn a anwyd yn mis Ebrill, yn y flwyddyn 1760, mewn lle a elwir Pen pont y Creunant, Waenfawr, yn mhlwyf Llanbeblig. Gwehydd oedd ei dad, o ran ei alwedigaeth fydol, o sefyllfa gyffredin, ond yr oedd o gryn dalent naturiaethol, ac yn alluog i ysgrifenu yn lled gywir yn iaith ei fam; yr hyn nad oedd yn beth cyffredin yn Nghymru yn y tymor hwnw. Yr oedd ganddo wybodaeth led eang o reolau Barddoniaeth Gymreig, ac y mae yn dra thebygol mai hoffder ei dad o'r awen, a fu yn foddion i roddi y cyfeiriad cyntaf i osgo chwaeth Dafydd ei fab, at y ddawn farddonol. Yr oedd ei dad hefyd yn ddyn dichlynaidd, o duedd grefyddol, ac yn fath o gynghorwr gyda y Methodistiaid; a diau fod dylanwad yr addysg foreuol a gafodd, wedi effeithio i raddau mawr, i gynhyrchu y teimladau crefyddol, sydd i'w canfod fel gwythien aur, yn rhedeg drwy y rhan fwyaf o'i ganiadau. Dechreuodd farddoni pan yr ydoedd tuag wyth mlwydd oed. Anfonwyd ef i Lanberis, i'r ysgol oedd yno dan ofal y Parch. J. Morgan, offeiriad y plwyf, pan yr ydoedd tua 14eg. mlwydd oed. Bu yno am tuag wyth mis, yn dysgu Saesonaeg, rhifyddiaeth, &c., a gwnaeth y goreu o'r amser byr hwnw. Bu Abraham Williams o'r Cwmglas, yn gynhorthwy iddo, pan yr oedd yn cychwyn ei yrfa lenyddol. Ni chafodd ond ychydig o fanteision addysg, eto daeth yn fuan yn Gymreigydd, ac yn Sais galluog; ac yr oedd wedi cael gafael ar elfenau Lladin, Groeg, a Hebraeg. Bu am gryn dymor yn dilyn galwedigaeth ei dad, fel gwehydd; a bu yn cadw ysgol, o bryd i bryd, yn Llanddeiniolen, Betws Garmon, a Llanystumdwy. Tu a'r flwyddyn 1780, daeth i adnabyddiaeth â Robert Huws, Ceint bach, neu "Robin Ddu o Fon," fel ei gelwid; a buont o gryn gymnorth y naill i'r llall. Estynodd y Parchn. R. Davies, oedd yn preswylio yn Mangor; a John Williams, Treffos, Mon, eu nodded drosto yn fuan; a chafodd yr allwedd i'w llyfr-gelloedd, yr hyn a fu yn fantais fawr iddo, yn ei ymegniad am wybodaeth gyffredinol. Llafuriodd yn ymdrechgar a diorphwys, yn ol y manteision oedd gyrhaeddadwy iddo; fel y daeth yn fuan yn wr o gryn enwogrwydd yn ngolwg

Digitized by Google

y cyhoedd. Daeth i amlygrwydd fel bardd galluog, tu a'r flwyddyn 1789, pan gynhaliodd y Gwyneddigion Eisteddfod yn y Bala; er na bu yn ymgeisydd buddygol yno, canys Gwallter Mechain a enillodd yr ariandlws, ar destyn yr Awdl, sef, "Ystyriaeth ar oes dyn." Testyn Eisteddfod Llanelwy yn 1790, oedd "Rhyddid," ac efe a enillodd y gamp yno. Bu yn fuddygol hefyd ar destyn y Gwyneddigion, yn Llanrwst, yn 1791, sef "Gwirionedd." Yr oedd yr holl amgylchiadau hyn, yn cydweithio i ddwyn Dafydd Ddu yn fwy i sylw llenorion y Dywysogaeth. Bu ganddo law yn nghyhoeddiad gwaith Dafydd ab Gwilym, yn 1789, dan nawdd y Gwyneddigion. Yr oedd ein bardd, erbyn hyn, yn cael ei ystyried fel un o gewri yr awen, drwy yr holl wlad; a hyny i raddau mor uchel, fel y gwaharddwyd iddo ef, a Gwallter Mechain, ymgysdadlu ar destynau y Gwyneddigion, er mwyn rhoddi mwy o gefnogaeth i feirdd ieuaingc anturio i'r maes. Diehon i hyny fod yn achlysur o dramgwydd i Dafydd, fel yr ymataliodd, ac ni ymddangosodd fel ymgeisydd yn yr Eisteddfod mwyach. Bu yn ohebydd ffyddlon mewn amryw gyhoeddiadau cylchynol yn fuan wedi hyn, megis y "Cylchgrawn Cymraeg," y "Geirgrawn," &c. Nid oedd eu nifer yn fawr y pryd hwnw, o blegid nad oedd eu cylchdaeniad ond prin yn cael digon o gefnogaeth i'w cadw yn fyw.

Tua'r flwyddyn 1794, symudodd Dafydd Thomas i Bentraeth, yn Mon; i'r lle y daethai mewn canlyniad i gydnabyddiaeth a gawsai â Paul Panton, Yswain, o'r Plasgwyn; i'r hwn y bu yn llyfrgellydd am amryw flynyddau. Yr oedd yn cadw ysgol ddyddiol hefyd yn y pentref. Trwy garedigrwydd Mr. Panton, tra yr ydoedd wedi lled-flino ar gadw ysgol, cafodd swydd arall, yn yr hon y disgwyliai gael mwy o ryddid i ymestyn am wybodaeth, megis Glo-fesurydd yn Amlwch, ond nid oedd y lle hwn yn cyd-daro yn dda a'i deimladau, a chafodd le arall, yn nes i Bentraeth, fel math o Wyliedydd ar lan y mor, dan y Llywodraeth, yn y Traeth-coch. Tua yr amser hwn, bu gwympo i maes, a chryn eiddigedd, rhyngddo ef a Twm o'r Nant, yr hyn a dorodd allan mewn brwydr farddonol gyhoeddus rhyngddynt; fel y gollyngwyd saethau go lymion, gan y naill at y llall, o bob ochr. Dywedai Bardd y Nant, mewn cyfeiriad lled goeglyd at swydd Dafydd, air fel hyn;—

> "Y Traeth coch, lle mae trwyth cu
> O *Smugglers* eisio 'u maglu,"

canys yr oedd eiddo rhedeg yn cael ei ddwyn, mewn cyflawnder mawr i'r ynys, tua yr amser hwnw; a gollyngai Dafydd yntau saeth go lem, wrth dalu yr echwyn adref, fel y canlyn:—

> "Chwi ddynion byddwch ddoniawl,
> Saf draw, a bydd ddistaw, ddiawl," &c.

Bu Dafydd Thomas yn ddiwyd a llafurus iawn, yn adgyweirio, ac yn cyfoethogi Llyfrgell y Plasgwyn; a chasglodd ef, a Ieuan Brydydd Hir, drysorau gwerthfawrocaf y genedl yn y Gogleddbarth, yno, y rhai a symudwyd wedi marwolaeth Mr. Panton i'r Gareglwyd, gerllaw Caergybi. Symudodd yn ol o Fon, tu a'r flwyddyn 1800, a chawn ef, mewn cydweithrediad â Ieuan Lleyn, yn cynyg dwyn allan y "Greal." Bu ychydig o anfoddogrwydd rhyngddo a'r Gwyneddigion, tu a'r amser hwn; yr oedd efe ar y mwyaf dichlynaidd a duwiolfryd yn eu golwg hwy; a hwythau ar y mwyaf penrhydd, yn ei olwg ef. Bu ychydig o ffrigwd farddol hefyd, rhyngddo ef â Dafydd Ionawr; ond heb fod yn chwerw iawn. Yn y flwyddyn 1803, priododd ag Elinor Thomas, yr hon oedd mewn gwth, o oedran; ac aethant i fyw i le a elwir "Pen Domen," yr hwn a gyfenwai ef ei hun, "Bwth y Bardd," yn mhentref Waenfawr. Cadwai ei wraig fasnachfa fechan; ac agorodd yntau ysgol, yn y Waenfawr, ac eglwys Betws Garmon, bob yn ail haner blwyddyn. Nid da yr oedd trwst plant yr ysgol yn cyd-daro a'i deimlad weithiau, fel y cwyna yn y penill canlynol:—

> "Gweini yn mysg eginau mân,—yr ydwyf
> Yn greadur egwan;
> Deg wyth—dim diogi weithian
> Dim eilio—dim ceingcio cân."

Gwedi bod yn cadw ysgol, o bryd i bryd, yr oedd ei iechyd bellach yn dechreu cael ei anmharu, a chwynai yn rhai o'i Lythyrau, fod y gorchwyl yn rhŷ bwysig iddo. Yn fuan, tosturiodd ei gyfeillion boneddigaidd lluosog wrtho; a gwnaethant ddarpariaeth tu ag at ei gynhaliaeth, gydag annedd gysurus iddo i fyw ynddo, yn Llanrug. Fel hyn y datganai ei deimladau, yn yr amgylchiad dedwydd, mewn llythyr at gyfaill:—"Dyma fi wedi symud o'r sybyllty afiach, i diriondy iachus; un o'r tai goreu yn meddiant un bardd tylawd yn Nghymru; amgenach tŷ na'r eiddo Goronwy Owen yn *Walton*, yr hwn a welais unwaith. Mae y ty hwn megis llys brenhin mewn cymhariaeth i'r sybyllty afiach, yn yr hwn y preswyliais dros saith mlynedd. Mawl i'r Nef am diriondeb rhagluniaeth. Yr ydwyf wedi ymlonni yn rhyfeddol wedi dyfod yma; hyderu yr ydwyf y caf iechyd. Mae fy ngwraig hefyd yn bur dda wrth ei bodd. Pawb yma yn bur dirion tu ag atom. Ni wn ddim am y gorchwylion a gymeraf mewn llaw yma. Mae pen y Wyddfa, i'w weled trwy ffenestr y grisiau; bar Caermarfon, y castell, a rhan o'r dref, a'r rhan fwyaf o Fôn, i'w weled trwy ffenestr y llofft." Yn 1808, yr ydym yn ei gael yn ymaflyd mewn gorchwyl pwysig arall, sef cyhoeddiad "Yr Eurgrawn Cymraeg," ond ni chaed nemawr o gefnogaeth iddo, ac ni chyrhaeddodd ond i ychydig o rifynau. Cyhoeddodd ei waith barddonol, dan yr enw "Corph y Gaingc," yn 1810, yn cynwys "Awdlau, Cywyddau, Englynion, Carolau, Caniadau Duwiol, a Chaniadau Moesol a Difyr." Y maent yn dangos gwybodaeth eang yn rheolau y gelfyddyd, syniadau priodol, a theimladau dwys, yn eu cynwysiad. Y mae rhai o'i Awdlau yn sefyll yn uchel o ran teilyngdod barddonol; ac y mae ei Ganiadau yn y mesurau cyffredin, yn dyner a thlws dros ben, megis, "Fy Anwyl fam fy hunan," a lluaws o ddarnau ereill o'i waith. Gadawodd ar ei ol, "Reolau Barddoniaeth Gymraeg," o'i gyfansoddiad ei hun, yr hwn sydd yn ei lawysgrif ef ei hun, ger ein bron yn awr. Nid yw yn gwahaniaethu ond ychydig oddiwrth y rhai cyhoeddedig; eto, y mae ganddo nodiadau gwerthfawr, ar deilyngdod y gwahanol fesurau. Efe oedd y beirniad yn Eisteddfod Tremadog, Medi 18, 1811. Yr oedd yntau wedi cyfansoddi Awdl ar y "Morglawdd," i'w hadrodd ar gyhoedd yn yr Eisteddfod. Yr oedd yn cwyno tu a'r amser hwn eto, fod afiechyd yn ei atal rhag ymroddi i gyfansoddi i'r graddau y dymunasai. Cyfansoddodd ei Awdl ar "Arddwriaeth," yn 1812. Yn 1817, bu yn golygu ail argraphiad o waith

Digitized by Google

"Beirdd Mon," ac yn ysgrifenu hanes eu bywydau. Cyfansoddodd Awdl Marwnad ar ol y Parch. Richard Davies, Person Llantrisant, yr hwn a gyfaneddai yn Mangor; a'r hwn oedd wedi bod yn gynwynaswr caredig i'r bardd. Darparodd Awdl ardderchog hefyd, ar gyfer agoriad Eisteddfod Caernarfon, yn 1821. Bu yn llafurus yn y gwaith o farddoni ei hun, yn gystal a meithrin a hyfforddi beirdd ieuaingc ei wlad, dros dymhor maith. Bu yn ohebydd cymeradwy i'r *Gentleman's Magazine,* yn yr hwn y mae darnau coethedig iawn o'i waith. Dylid coffa yn ychwanegol at ei ddawn farddonol, ei fod wedi enill iddo ei hun radd dda yn mysg y genedl, fel hynafieithydd ac achyddwr; ac wedi ysgrifenu cofnodau helaeth a gwerthfawr, am luaws o'r hen deuluoedd, a'r llwythau Cymreig. Y mae wedi gadael ar ei ol ddarnau barddonol teilwng iawn yn yr iaith Saesoneg, megis y "*Thunder Storm,*" "*Banks of the Menai,*" &c. Yr oedd o ran ei syniadau crefyddol, o ddyhewyd dichlynaidd, ac yn ymlynu, gan mwyaf, wrth yr Eglwys Sefydledig. Bu yn wrthwynebydd chwerw i Iolo Morganwg, yr hwn a ddaethai ar daith i'r Gogledd, tua 1799. Cadwai ar dir heddychlon iawn yn gyffredin gyda phawb, oddi gerth ambell amgipris a fyddai rhyngddo a'r beirdd. Ymddangosai yn ddifrifol, ac egwyddorol yn mhob trafodaeth ar y cyfan. Bu cynhygiad am iddo gyfieithu Esboniad Dr. Coke ar y Testament Newydd i'r Gymraeg; ond ni ddaeth yr amcan i ben: a dywedir fod gan John Bryan, Gweinidog gyda'r Wesleyaid, ryw law yn ataliad y cynllun i gael ei gwblhau; ac ar hyny y terfynwyd y bwriad hwnw.

Y mae llawer o dywyllwch mewn cysylltiad â hanes amgylchiadau marwolaeth Dafydd Thomas, fel y gofynir am law ysgafn iawn tu ag at ei gyffwrdd. Yr oedd efe yn dychwelyd o Fangor, Mawrth 30, 1822; ac yn croesi afon fechan a elwir Cegin. Y mae y tybiau am yr achos o'i farwolaeth, yn lluosog ac amrywiaethol. Dywed rhai, nad oedd yr afon ar y pryd dros ei esgidiau; dywed eraill, ei bod wedi chwyddo yn gyflym ar ol cawod; tybia rhai, mai llithro oddiar y llammau a wnaeth; ond casgla eraill, mai gwasgfa a gafodd, pan yn rhydio y llif. Y mae olrhain yr holl ddyfalion yn ofer. Cafwyd yr hen gadeir-fardd hybarch yn farw ar y flordd fawr, yn min yr afon. Rhoddwyd ei gorph i orphwys yn mynwent Llanrug, Ebrill 2, 1822. Yr oedd cynulliad lluosog a pharchus, yn ei hebrwng i dy ei hir gartref. Cyfododd y Parch. P. B. Williams, gydag eraill, fedd-adail teilwng iddo, ar yr hon y mae yr hyn a ganlyn yn gerfiedig—"Bedd Dafydd Thomas, y Godidog Gadeir-fardd, a'r Hynafieithydd clodfawr, a gyfenwyd, Dafydd Ddu o Eryri. Bu farw ar y Degfed ar hugain o Fawrth MDCCCXXII., yn ei Dair a thri-ugain mlwydd oed."

**DAFYDD DDU** o HIRADDUG, ydoedd fab Rhoderig ab Madog; brodor o Degeingl, neu Sir Fflint; a flodeuodd tua'r flwyddyn 1340. Yr oedd yn llenor a bardd o'r radd uwchaf. Y mae yn debygol iddo gymeryd ei ffug-enw, oddiwrth fynydd gerllaw ei breswylfod; sef Moel Hiraddug. Cawn ei enw yn cael ei gofnodi mewn gwahanol ffyrdd, mewn amryw ysgrifau; weithiau Dr. Dafydd Ddu; bryd arall, Dafydd Ddu Athraw; ond yn gyffredin "Dafydd Ddu o Hiraddug." Y mae Cof-adail ardderchog iddo yn eglwys Dymeirchion, gyda'r argraph,—HIC JACET DAVID FILIUS, HOWELI FILII MADOCI. Y mae darlun gwych o'r Bedd-adail yn y *Bardic Relics,* Cyf I., gyda'r sylw canlynol;—"Cof-adail Bardd, yn Eglwys Dymeirchion, Sir Fflint;"—sef "Dafydd Ddu o Hiraddug, Archddeon Dyserth, a Ficar Dymeirchion; yr hwn ydoedd Fardd Dysgedig, ac a flodeuodd rhwng y blynyddau 1310 a 1380. Ysgrifenodd Ramadeg Brytanaidd; Cywydd Dysgedig; ac efe a ddyfeisiodd dri o'r mesurau perthynol i Farddoniaeth Gymreig. Yr oedd efe hefyd yn awdwr Awdl Dduwiol; ac y mae efe hefyd wedi rhoddi cyfieithiad awenyddol gorwych, o'r TE DEUM, ac amryw o'r Salmau, y rhai sydd ar gael yn y Gyfrol gyntaf o'r *Archaiology* Cymreig, tu dalen 536 a 569. Yr oedd efe yn arddelwi gwybodaeth eang o Athroniaeth naturiaethol, Fferylliaeth, a Rhif a Mesur; yr hyn a fu yn achlysur o roddi iddo yr enw o Swynwr, neu frudiwr, yn mysg y werin, ac y mae amryw o chwedlau hynod am dano, yn aros mewn rhai parthau o Gymru hyd heddyw." Pa faint bynag o'r traddodiadau sydd ar "gof a chadw" am dano, ydynt yn seiliedig ar wirionedd, y mae digon o dystiolaethau diamheuol, ei fod yn wr rhinweddol, yn offeiriad bucheddol, yn fardd rhagorol, ac yn llenor o'r radd uwchaf. Bu ganddo law yn ffurfiad rhai o'r mesurau cynghaneddol Cymreig, y rhai a briodolir yn gyffredin i Dafydd ab Edmwnd. Fel hyn y crybwyllir yn Nosparth Edeyrn Dafod Aur;—"Gwedy hyny y dychymygawdd Dafydd Ddu Athraw, dri mesur eraill, nid amgen; Kyrch a chwtta, Hir a thoddaid, a Thawdd-gyrch Kadwynoc. Einion Offeiriad a ddychymygawdd yntau, Huppynt hir; Dafydd ab Edmwnd, a ddychymygawdd ddau vessur yn lle Ynglyn o'r hen ganiad, ac Ynglyn milwr; nid amgen Gorchest Beirdd, a chadwyn Vyrr." Y mae dull ei ddawn yn cael ei arddangos yn darawiadol, yn ei "Awdl Santaidd, ar ddiwedd Dyn a'i gorph:" Y mae hon ar fesur Hupynt, ac yn cynal yr un brifodl drwyddi, fel y gwelir wrth y dyfyniad canlynol, o'r penill cyntaf, a'r olaf:—

Rhyfedd na phwyllwn,
Rhyfyg na ddaliwn;
Peidiwn na rwyfwn,
  Er ei fawr rinwedd,
Gwae ddyn nad ystyr
Ydd a yn ehegyr;
Cynu rhythyr tymyr
  Tomod Vaenfedd.

Ior yr uchelder
Mynydd Olifer,
Nid drwy na symlder
  Nag oferedd;
Yna i diolchir
Ymadrodd Cywir;
Yna i dielir
  Pob enwiredd.

Y mae ei feistrolaeth ar yr iaith Gymraeg, yn gystal a'r rhai clasurol, i'w weled yn ei gyfieithiad rhagorol o ranau o'r Salmau, a darnau eraill o'r Ysgrythyr. Y mae prydferthwch ei arddull yn cael ei ddangos yn eglur, yn y Weddi ganlynol o wasanaeth Mair—"Holl gyfoethawg Dduw, yr hwn a arlwyaist yn iawn rhyfedd corph ac enaid yr ogoneddus fam Grist, wyry Fair, wrth haeddu ei gwneuthyr yn deilwng deml a phreswylfod ith un mab di; dyro i ni gael ein rhyddhau oddiwrth bob rhyw gyndrychawl ddrwg, a pherygl, ac oddiwrth dragwyddawg Angau, drwy Iesu Grist ein Harglwydd. Amen. Bendigwn

Digitized by Google

yr Arglwydd. Diolchwn. Gwareddawg gyfrwng. *Pia intercessio.*"

Ymddengys fod Dafydd yn mhell o flaen ei oes, o ran gwybodaeth a dysgeidiaeth. Fel Archddeon Dyserth, a Ficer Bodfari, yr oedd yn sefyll mewn cryn sylw yn y byd eglwysig; rhoddodd ei wybodaeth feddygol eang, achlysur i'r werin haeru ei fod yn ddaroganwr, ac yn "ddyn hysbys," fel yr arferir dywedyd; a phriodolir chwedlau yr oes i'w ragoriaethau ef. Dywed awdwr yr *Eminent Welshmen*, mai i Dafydd y cymhwysid prophwydoliaethau Robyn Ddu; ond ni wyddir pa'r gan belled y mae y dyb yn seiliedig ar wirionedd. Y mae yr awgrymiadau a roddir yn nghorph y gwaith hwn, dan yn yr erthygl Sion Cent, yn werth cyfeirio atynt, yn eu cysylltiad a'r sylwadau hyn, sef bod pob tebygolrwydd, mai Dafydd ydoedd athraw Sion Cent, yr hwn, fel yntau ydoedd yn fardd rhagorol, ac a gyfieithodd ranau o'r Ysgrythyrau i'r Gymraeg; ac ar yr hwn y pentyrwyd lluaws o chwedlau ofer, gan y mynachod, wedi ei farwolaeth. Y mae ychydig o amryfusedd yn rhai o'r cofnodau am y man lle y claddwyd Dafydd. Dywed rhai fod ei lwch yn gorphwys yn mynent y Cwm, gerllaw Rhuddlan, yn unol a thraddodiad sydd yn aros hyd y dydd hwn yn y gymydogaeth honno; sef bod dewin enwog wedi cael ei gladdu dan un o furiau yr eglwys; ac mai yn unol a'i brophwydoliaeth ef ei hun y bu hyny; sef y byddai iddo gael ei gladdu yn y fynwent honno, ac heb fod o fewn, nac oddi allan i'r eglwys. Ymddengys fod arwyddion beddrod o'r fath yn y lle yn awr, a bod rhyw un o enwogrwydd wedi ei gladdu felly; ond nid Dafydd Ddu o Hiraddug ydoedd. Y gair cyffredin yn y gymydogaeth ydyw, mai Robyn Ddu sydd yn huno yno; ond y mae cynnifer wedi bod yn gwisgo yr enw hwnw, ar wahanol brydiau, fel nad yw yn hawdd olrhain yr hanes i gywirdeb. Am ddilysrwydd y dystiolaeth dros awduriaeth gwaith Dafydd, y mae y nodiad canlynol, yn ysgrifen law Dr. Davies o Fallwyd, yr hon sydd yn awr ger ein bron, yn ddigon o sicrhad:—"Y copi yr ysgrifenwyd hwn allan o honaw, a ysgrifenwyd yn Llanharri, ym Morganwg, ynghylch y 30 o Harri VIII., ynghylch y flwyddyn 1537. Ac a ysgrifenwyd yma (yn Mallwyd) yn y flwyddyn 1613." Fel hyn y dywedir am yr Officium B. Mariæ, neu Wasanaeth Mair, "ei fod wedi ei dynnu o'r Lladin Ynghymraeg, y gan Ddafydd Ddu o Hiraddug, hyd mae pawb yn tybaid, ac a gopiwyd yma er mwyn cael gweled y dull oedd gan yr oes honno ar gyfieithu." Y mae ei iaith yn eglur, yr arddull yn dlws, a'r cyfieithiad yn ffyddlon.

**DAFYDD**, Edward, o Fargam, ydoedd un o feirdd enwocaf Gorsedd Morganwg. Yn ol Dr. Pughe, yr oedd yn ddysgybl barddonol i Llewelyn Sion, yn 1580, i Watkin Powel yn 1620; yn gadeirfardd yn 1660, ac yn marw yn 1690. Felly y mae yn rhaid ei fod wedi cael llawer dros gan mlynedd o einioes ar y ddaear. Iddo ef y perthyn yr anrhydedd o gasglu yn nghyd, a threfnu "Cyfrinach y Beirdd," "Ys ef Llwybreiddiaeth ag Athrawiaeth ar y Farddoniaeth Gymraeg a'i pherthynasau; herwydd Barn a Dosparth Beirdd, a Chadair Morganwg; yr hon yw cyssefin ddosparth Beirdd Ynys Prydain, ar Gerdd Dafawd, ag a elwir o iawn alwad, Yr Hen Ddosparth; am mai hon a fu o'r dechreuad.

"Ag Edward Dafydd o Fargam ym Morganwg a'i trefnodd, gan ei thynnu allan o Lyfrau Beirdd ag Awduron dysgedigion, rhag ei myned ar goll, nid amgen nag o waith a Llyfrau Meuryg Dafydd, a Dafydd Llwyd Mathew, a Dafydd Benwyn, a Llywelyn Sion; y sef ydd oeddynt oll yn Feirdd Cadeiriog wrth Fraint A Defod Beirdd Ynys Prydain, a Phencerddiaid wrth Awdwrdod Gwlad ag Arglwydd, ar holl Arglwyddiaeth Morganwg, a Gwlad Gwent ag Euas."

Mae lluaws mawr o'i benillion, yn egluro y mesurau yn Nghyf. y Beirdd, ac y maent yn hynod am eu llithrigrwydd, a'u chwaeth dda. Ei benill i'r Alarch yn engraifft:—

"Gwelais aderyn ar y llyn llonydd,
A gwynlliw hynod fal manod mynydd;
Lliw ewyn y donn, pann fo'n creuloni,
Y mawr rhuolwynt ar y mor heli;
Lliw blodau dôl hyd ganol y gweynydd,
Neu wyngalch ar fain, rhyw gywrain geyrydd;
Lliw bronnau meinwen, glaerwen eglurwedd,
Yn unlliw a'r haf, yn wynlliw rhyfedd."

**DAFYDD EMLYN**, oedd ffugenw Dafydd William Prys, offeiriad, a bardd, a flodeuai tua 1450. Mae llawer o'i ganiadau mewn Y.-L.

**DAFYDD EPYNT**, bardd a flodeuai tua 1460.

**DAFYDD FYNGLWYD**, bardd a flodeuai tua 1480. Mae peth o'i waith mewn Y.-L.

**DAFYDD GOCH BRYDYDD**, bardd a flodeuai o 1480 hyd 1520.

**DAFYDD GORLECH**, bardd a flodeuai tua 1500. Mae amryw o'i ganiadau ar gael mewn Y.L. Ymddangosodd enwau naw o honynt ar amlen y *Greal*, 1806.

**DAFYDD IFAN** ab Einion, ydoedd geidwad dewr Castell Harlech, o dan deulu Lancaster, yn ystod y Rhos-gadau. Mae yn adnabyddus mai Castell Harlech oedd yr amddiffynfa ddiweddaf yn y deyrnas, a ddaliodd allan o blaid teulu Lancaster; ac y mae hyny i'w briodoli i'w safle ddyogel rhwng mynyddoedd Ardudwy, yn nghydag i ddewrder di-hafal ei geidwad, Dafydd Ifan ab Einion. O'r diwedd, gorchymynodd Iorwerth IV. i Syr William Herbert, arglwydd Raglan, yr hwn hefyd, trwy ddifreiniad Jasper Tudor, oedd wedi ei wneyd yn Iarll Penfro, i gymeryd y castell, beth bynag fyddai y canlyniadau. Yr Iarll, wedi casglu ei fyddin a'i beirianau yn nghyd, a gychwynodd tuag yno: ac wedi llawer iawn o drafferth, o herwydd gorfod cludo ei beirianau rhyfel i fyny dros y mynyddoedd, a thrwy fylchau daneddog Drws Ardudwy, efe a gyrhaeddodd y lle, ac a ddechreuodd ei warchae. Ond cyn taro ergyd, efe a alwodd ar Dafydd, yn enw y brenin, i draddodi y Castell i fyny iddo. I hyn yr atebodd Dafydd:—"Ewch, a dywedwch i'ch meistr, fy mod unwaith wedi amddiffyn Castell yn Ffrainc, nes oedd holl hen wragedd Cymru wedi clywed am y peth; ac yr amddiffynaf hwn eto, nes byddo holl hen wragedd Ffrainc wedi clywed am yr amddiffyniad." Cynddeiriogodd hyn yr Iarll yn enbyd, a dechreuodd ei ymosodiad yn ddioed; ond wedi brwydr waedlyd, yr oedd yr Iarll wedi treulio allan ei nerth, a Dafydd yn parhau mewn meddiant o'r Castell. Parodd hyn y fath ddiflasdod i'r Iarll, fel y gadawodd y gwarchae yn nwylaw ei frawd, Syr Richard, yr hwn a elwid gan y Cymry "Syr Richard Hir," am ei fod o faintioli un o gewri Anac. Deallodd Syr Richard ei waith yn well na'i frawd, torodd ymaith yr adgyflenwadau o ddwfr, ac ymborth oddi wrth y Castell; fel y gorfu i Dafydd roddi y lle

Digitized by Google

i fyny rhag newyn. Ond cyn gwneyd hyny, efe a sicrhaodd iddo ei hun a'i wŷr, amodau rhyddid a bywyd; y rhai ni foddhaent y brenin ar un cyfrif, a gwrthododd eu cadarnhau. Pan ddeallodd Syr Richard hyny, efe a ddywedodd:—"Cymered eich Mawrhydi fy einioes i yn lle einioes y penaeth Cymreig; ond *rhaid* cyflawni yr amodau, neu ynte mi a roddaf Dafydd yn ol yn y Castell, a chewch chwithau anfon y neb a fynoch i'w gymeryd." Parodd hyn i Iorwerth gyndyn, ystwytho at yr amodau; ond ni chafodd Syr Richard ddim am ei drafferth, ond bywyd ei gydwladwr dewr, Dafydd Ifan ab Einion. Dywedir bod y beiddgar Rheinallt ab Gruffydd o'r Tŵr, ger y Wyddgrug, yn mhlith swyddogion Dafydd yn yr ymdrechfa hon; ac mai ar yr achlysur yma y cyfansoddwyd yr hen alaw fyd-enwog, "Ymdaith Gwyr Harlech."

**DAFYDD LLWYD**, boneddwr, a bardd, a gyfanneddai yn yr Henblas, yn Mon. Yr oedd efe yn ei flodau, o'r flwyddyn 1560, hyd y flwyddyn 1600.

**DAFYDD LLWYD** ab Llewelyn, o Fathafarn, yn swydd Drefaldwyn, ydoedd fardd a brudiwr lled enwog; a chanddo etifeddiaeth helaeth ar lanau y Dyfi. Ymddangosodd teitlau a llinellau cyntaf 55 o'i gywyddau, ar amlen *Greal* Llundain, 1806. Adroddir yr hanesyn canlynol am dano fel brudiwr: Pan oedd Iarll Richmond ar ei ffordd o Aber-daugleddyf i'r Amwythig, i ymladd a Richard III. am goron Lloegr, efe a farnodd yn ddoeth i droi at "Brophwyd Mathafarn," i ymofyn pa lwyddiant a fyddai ar ei anturiaeth. Wedi i'w uchelder hysbysu ei neges, petrusodd y Prophwyd roddi atebiad; a dymunodd ohirio hyny hyd dranoeth. Yn y cyfamser, gwelodd ei wraig fod ei gyfrwysdra yn pallu, a'i fod o herwydd hyny yn pruddhau, a hi a'i ceryddodd ef gan ddywedyd;—"Beth! tydi yn fardd,—yn frudiwr,—yn brophwyd; ac yn methu ateb gofyniad syml fel hwna! Dywed wrtho yn bendant y bydd iddo enill y frwydr; ac os bydd i hyny brofi yn wirionedd, bydd dy gymeriad di wedi ei sefydlu; ond os fel arall y trŷ allan, ni raid i ti byth ofni y dihanga efe o ddwylaw Dic Gefngrwm, ac y daw yma i dy gosbi di am fod yn gau brophwyd."

Boddiodd hyn y Brudiwr yn fawr, ac wedi i'r Iarll gael ei ateb, efe a aeth ar hyd ei ffordd ei hun yn llawen. Ac fel y mae yn hysbys, cyflawnwyd y brophwydoliaeth ar faes Bosworth, coronwyd yr Iarll dan yr enw Harri VII., ac enillodd Dafydd Llwyd o Fathafarn, lawer byd o glod am ei alluoedd fel brudiwr. Dywedir mai oddiwrth yr amgylchiad hwn y tarddodd y ddiareb, "Cyngor gwraig heb ei ofyn."

**DAFYDD LLWYD EPPYNT**, bardd a flodeuodd rhwng 1540 a 1570.

**DAFYDD LLYFNI**, bardd, a brodor o Lanllyfni, yn Arfon; ac yn ei flodau yn 1595. Mae peth o'i waith mewn Y.-L.

**DAFYDD MAELIENYDD**, yr hwn hefyd a elwid Bach Buddygre, a Dafydd Bach ab Madawg Wladaidd; ydoedd frodor o Llanstephan yn Muddygre, Maelienydd. Mae lluaws o'i "Ddewis bethau" yn y *Myf. Arch.* ac yn y "*Cydymaith Diddan.*"

**DAFYDD MANUEL**, bardd yn ei flodau tua 1700. Mae Cân o'i waith, a elwir "Bustl y Cybyddion," yn y *Blodeugerdd.*

**DAFYDD MEIFOD**, bardd, a brodor o Feifod, swydd Drefaldwyn. Blodeuai o 1630 i 1670. Mae peth o'i waith mewn Ysgrifiyfrau.

**DAFYDD**, Meurig, ydoedd frodor o Lanisan, Morganwg, ac yn un o feirdd yr Orsedd hono, tua'r fl. 1580. Bu ffrae farddonol rhyngddo ef a Sion Mawddwy, yr hon a welir yn "Cymru Fu." Yr oedd ganddo Ysgrif-Lyfr o hynafiaethau yn ei feddiant, y rhai a argraffwyd yn yr *Iolo MSS.*

**DAFYDD NANMOR**, ydoedd fardd enwog yn nechreu yr 16eg ganrif. Trigai yn Nghae Ddafydd, yn ymyl Hafodgaregog, ger Pont Aberglaslyn. Dywed traddodiad, mai Rhys Goch Eryri, yr hwn oedd wr boneddig tiriawg, yn byw yn Hafodgaregog, ac yn canu ar ei fwyd ei hun, a roddodd y tyddyn yn anrheg iddo; ac iddo yntau ei alw ar ei enw ei hun, yn Gae Ddafydd. Yr oedd yn Eisteddfod fawr Caerfyrddin, yn 1441, ac yn ol yr hen gofion am yr Eisteddfod hono, "Gwilym Tew o Dir Iarll, a Dafydd Nanmor, a gad yn oreuon eu gwybodau a'u hawen; a mwyaf ei orchest ar Gerdd Dafod, y bernid Dafydd Nanmor; ac hefyd am ddefodau Llysoedd Tywysogion Cymru, hyd ag y barant." Mae yn dra thebyg ei fod wedi bod yn trigianu rywbryd yn Nyfed, gan iddo ganu llawer i deulu anrhydeddus y Tywyn yn swydd Aberteifi. Tybir iddo farw tua 1460, a chael ei gladdu yn y Ty Gwyn ar Daf; ond dywed eraill mai yn Meddgelert y mae ei lwch yn gorphwys. Ymddangosodd rhestr o'i gyfansoddiadau ar glawr y *Greal;* ac mae 5 o honynt wedi eu dyogelu yn *Ngorchestion Beirdd Cymru*, y rhai sydd yn meddu nodweddau gwir farddonol. Gwasanaetha yr Englyn diweddaf yn ei "Awdl Farwnad am Thomas, Arglwydd y Tywyn," fel enghraifft:—

> "Aed nen ffurfafen fferf fawr,—a'r dw'r oer
> Ar ei ol, a'r lloer, a'r haul i'r llawr!
> Tristed ei weled ar ei elawr--gref,
> Truan fu llef trwy nef a llawr!"

**DAFYDD NICHOLAS**, ydoedd Fardd teulu Aberpergwm, dros haner can mlynedd; ac efallai mai efe oedd yr olaf o'r cyfryw yn Nghymru. Ganwyd ef yn 1693, a bu farw yn 1769. Mae peth o'i waith wedi ei argraffu yn y *Fêl Awen* a'r *Afalau Awen.* Dywed ei feddargraff yn Aberpergwm;—"Bu yn athraw i'r anwybodus, yn feddyg i'r claf, ac yn brydydd anianol tryddawn."

**DAFYDD** o'r Coed, bardd gorchestol, yn ei flodau o 1300 i 1340. Mae saith o'i gyfansoddiadau yn y *Myf. Arch.* yn nghydag Englyn gan rywun i'r awdwr:—

> "Dafydd y Coed hoed hydr sant;
> Dyn wyt cerddlawn radlawn rent:
> Ffo'r bore o'r brithle brwnt,
> Ffi' Lanymddyfri ddu front."

**DAFYDD** o'r Nant, ficer Penllin, Morganwg, yn y rhan olaf o'r 17eg ganrif. Yr oedd yn un o bencerddiaid Gorsedd Morganwg, yn Eisteddfod Bewpyr, yn 1681, lle penderfynwyd ar, ac y mabwysiadwyd Dosbarth *Cyfrinach* y *Beirdd.* Mae ei waith yn britho y llyfr hwnw, er egluro y mesurau.

**DAFYDD WILLIAM DAFYDD**, oedd un o feirdd Gorsedd Morganwg. Mae peth o'i waith yn egluro *Cyf. y Beirdd.*

**DALE**, plwyf yn undeb Hwlffordd, cantref Rhos, swydd Benfro, Deheudir Cymru, 13 milldir i'r Deau Orllewin wrth Orllewin o dref Hwlffordd. Y mae yn mesur 3038 o erwau, ac yn ol Deiliadeb 1861 y mae ei boblogaeth yn 463. Meddylia rhai haneswyr, mai talfyriad o *De Vale* ydyw y gair,

Digitized by Google

yr hwn oedd enw un o'i arglwyddi hynafol, yn amser yr hwn yr oedd yn meddu yr anrhydedd o fod yn fwrdeisdref; ac yr oedd amryw ragorfreintiau yn perthyn i'r lle. Gall fod y meddwl uchod yn iawn, ond y mae'r gair Seisneg Dale-Ystrad yn hollol ddysgrifiadol o'r plwyf hwn. Y mae'r plwyf yn barhaus yn mwynhau yr hawlfraint o ddanfon ei anifeiliaid i bori, ar ddarn o dir a elwir Dale Meadow, wedi i arglwydd y faenor gywain y gwair; rhoddwyd yr hawlfraint iddo gan Harri VII., yr hwn a diriodd yma Awst 6fed, 1484, pan yn Ddue Richmond, ar ei ffordd i ddiorseddu Richard III. Gan fod Harri yn Gymro o du ei dad, yr oedd ei amcan wedi cynhyrfu gwaed yr hen genedl, ac yr oedd dymuniadau mawrion am iddo dirio yn Nghymru, yn enwedig yn mysg y beirdd, y rhai a sonient lawer am hen broffwydoliaethau o barthed i eisteddiad Cymro ar orsedd Lloegr, &c. Meddai Lewis Glyn Cothi wrth annerch Jasper Tudor, Iarll Penfro, ac ewythr Harri:

> "Tiria, y bwla, heb oludd
> Truan yw'n rhwym, tro ni'n rhydd."

Wedi rhagbarotöadau dirgelaidd i'w dderbyn, hwyliodd Harri o Harfleur, yn Ffrainc, Gorphenhaf 13eg, 1484, gyda rhyw 2000 o Ffrancod i'w ganlyn; a thiriodd yn y lle hwn, fel y nodir uchod. Derbyniwyd ef gyda llawenydd nid bychan, gan Syr Rhys ap Thomas, a'i fyddin; Syr Thomas Perrot, Harolston; Syr John Wogan, Wiston; John Savage, Yswain; Syr Robert Salisbury, o Wynedd; a boneddigion ereill. Wedi gwneuthur darpariadau dyladwy, gyda gwledda, &c., a phregethu o Esgob Ty Ddewi i'r fyddin; cychwynodd yn ddwy ran tua Lloegr. Yr oedd un ran dàn arweiniad Harri, ac aeth drwy Sir Aberteifi, &c.; yr oedd y rhan arall dàn arweiniad Syr Rhys ap Thomas, ac aeth drwy Sir Gaerfyrddin, &c. Cyn cyrhaedd yr Amwythig, yn ol rhag-gytundeb, yr oedd y ddwy fyddin wedi cydgyfarfod; yna aeth rhagddi gan gynnull nerth parhaus, tua Maes Bosworth, lle y cyfarfu Richard III. â hi, ac yno y lladdwyd ef, ac y gyrwyd ei wŷr ar ffô; pan gyhoeddwyd Harri yn frenin ar faes y frwydr. Y mae esgyniad y Cymro hwn i'r orsedd, yn ddechreuad cyfnod newydd a phwysig yn hanes ein gwlad:—

> "Harri lân, hir lawenydd,
> Hwn a'n rhoes ninau'n rhydd."

Cyn gadael Dale, torodd dolur allan yn y fyddin, yr hwn a elwir y "dolur chwŷslyd"—*sweating sickness* (Sudor Anglicanus); dilynodd y dolur rhyfedd hwn y fyddin i Lundain, a gwnaeth ddifrod mawr ar fywydau yno, am dri mis. Dychwelodd drachefn yn 1485, 1500, 1518, 1528, a 1529; ac am y tro diweddaf yn 1551.

Y mae y plwyf hwn yn gorwedd ar làn mor-gilfach ddymunol a dyogel; a bu yn dda i ysgrifenydd yr erthygl hon i gael lloches yno mewn ystorm ddychrynllyd, ar fordaith o Gaerdydd i Aberteifi. Y mae yma angorfa ddyogel, mewn rhyw dair gwrhyd o ddwfr. Adeiladwyd argaebyrth yma yn nheyrnasiad y frenines Elizabeth, a thaflwyd cadwen yn groes i enau yr hafan, o St. Ann, i bwynt Nangle, ar yr ochr gyferbyniol, er gochelyd mynedfa y Spanish Armada. Adeiladwyd goleudai St. Ann ar y cyntaf, yn 1712, gan William Allen, Yswain; i'r hwn y rhoddodd y Goron ammodrwym am 99 mlynedd, yr hwn a derfynodd yn 1813. Ail adeiladwyd hwynt, ac agorwyd hwynt drachefn yn 1800. Y mae lantarn un o honynt, yn cynnwys un-ar-ddeg o oleuadau, ac y mae iddi uchder o 160 troedfedd; y mae'r lantarn arall yn cynnwys un-ar-bumtheg o oleuadau, ac y mae i hono uchder o 195 troedfedd. Y mae yma rhyw hanner dwsin o gychod pysgota, y rhai sydd yn dàl wstrws, penweig neu ysgadau, &c., yn eu hamserau priodol; ac y mae yma drafnidiaeth mewn allforio glô a chwlwm (*culm*), y rhai a ddygir o'r mewndiroedd. Y mae gan yr holl blwyfolion yr hawl o yru eu däoedd i bori i gyttir Pickleridge. Y mae'r golygfeydd amgylchynol yn rai tarawiadol a phrydferth; ac oddiar y manau uchelaf, ceir golygfeydd ëang a dymunol, ar Fôr St. George i'r de a'r dwyrain; ac ar y wlad amgylchynol, i'r gogledd. Yr oedd Castell Dale, yn breswylfa gynt i deulu Allen; ond aeth i feddiant John Lloyd, Yswain, Mabws, yn swydd Benfro, drwy ei briodas â'r etifeddes: rhedodd wedi hyny i feddiant ei ŵyr, J. P. Lloyd Allen Phillips, Yswain; ac yn meddiant yr un teulu y mae o hyd. Y mae yn sefyll mewn cilfach ddymunol, ac y mae yn ychwanegu yn fawr iawn at brydferthwch yr olygfa, canys y mae yn un o'r preswylfeydd castellog prydferthaf yn y wlad, ac y mae yn edrych yn swynol oddiar yr hafan. Ficeriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, ac y mae gwedi cael ei gwaddoli âg 800*p.* o rodd freninol; cyfanwerth 65*p.*; noddwr a meddiannwr, Mr. Phillips, Castell Dale. Y mae'r eglwys yn adeilad prydferth iawn, wedi cael ei hadeiladu yn 1761, ar draul John Allen, Yswain, yr hwn hefyd a osododd ynddi fedyddfan o farmor gwŷn; y mae gwedi cael ei chyssegru i St. Iago, ac yn gynnwysedig o gorff, a changell. Y mae capel yma gan y Trefnyddion Wesleyaidd, ac y mae yn y plwyf, dair o ysgolion dyddiol, un o ba rai a gynnelir drwy dansgrifiadau. Y mae llawer iawn o olion hen amddiffynfeydd Danaidd, ar hyd glàn y môr.

**DALLDAF** AIL CYNAN COF, rhyfelwr yn y 6ed ganrif, ac un o'r "Tri gogyfurddion llys Arthur."

**DAN**, neu DANED, mab Seisyllt, yn ol y *Brutiau*, a ddilynodd ei dad i orsedd Prydain, cyn Cred.

**DANIEL** AB LLOSGWRN MEW, neu MENYW, ydoedd fardd awenyddol, rhwng 1160 a 1200. Mae "Awdl Farwnad i Owain Gwynedd" o'i waith, yn y *Myf. Arch.*

**DANIEL DDU** O GEREDIGION, ydoedd ffugenw y Parch. Daniel Evans, B.D. o Facsymynach, plwyf Llanfihangel-Ystrad, swydd Aberteifi. Ganwyd ef yn 1792; ac yr oedd yn un o dri mab i amaethwr cyfrifol. Derbyniodd ei addysg elfenol yn Ysgol Ramadegol Llanbedr, a gedwid ar y pryd gan y Parch. Eliezer Williams, mab hynaf yr Hybarch Peter Williams, yr Esboniwr. Aeth oddi yno i Goleg yr Iesu, lle yr ymraddiodd yn M.A. Wedi hyny gwnawd ef yn *Fellow of Jesus College;* ac er na chafodd fywioliaeth eglwysig yn un man hyd y gwyddom, efe a fwynhaodd y Gymrodoriaeth (*Fellowship*), a graddiwyd ef rywbryd yn B.D. Dechreuodd farddoni yn bur ieuanc, Dewisodd y Gwyneddigion Englyn o'i waith, yn 1813, i'w osod ar feddfaen Twm o'r Nant, yn mynwent yr Eglwys Wen.

Yr oedd yn un o ohebwyr a chefnogwyr cyntaf *Seren Gomer*, yn 1815. Yn 1819, etholwyd ef yn fardd Cymdeithas y Gwyneddigion; a chyfansoddodd yntau Awdl ar yr achlysur yn ol y ddefod. Yn 1820, cyfansoddodd Englyn buddugol i'w osod ar feddfaen Bardd Mon, ac Awdl deimladwy, er coffawdwriaeth

Digitized by Google

am ei hen athraw, Eliezer Williams. Yn 1823, cyrhaeddodd binacl ei enwogrwydd fel bardd, pan enillodd Gadair Dyfed, ar y testyn, "Buddugoliaethau diweddar y Groegiaid ar y Tyrciaid." Yn 1831, crynhodd ei holl waith barddonol yn nghyd; a chyhoeddodd ef dan yr enw "Gwinllan y Bardd." Mae cynyrch y "Winllan" yn amrywiol, chwaethus, ac efengylaidd; ac mae rhai o'r Emynau yn cael eu harferyd yn nghynulleidfaoedd Seion, ac yn debyg o barhau mewn bri yn hir. Bu farw Mawrth 28, 1846, yn 54 oed; a chladdwyd ef yn meddrod ei dadau, yn mynwent Pencareg, swydd Gaerfyrddin.

**DARON**, Lewis, ydoedd fardd o Aberdaron. Y mae ar gael "Cywydd" o'i waith, "i ofyn March, gan Dafydd, Prior Beddgelert, i Sion Wynn o Wydir, Ysw."

**DARONWY**, a restrir gyda Cath Palug, ac Edwin, brenin Northumbria, fel tri aflonyddwyr Ynys Fôn.

**DAROWEN**, neu Dar Owain, plwyf yn Nghantref Machynlleth, swydd Drefaldwyn, Gogledd Cymru, 6 milldir i'r Dwyrain wrth Ogledd, o dref Machynlleth, yn cynwys poblogaeth o 1227, yn ol deiliadeb 1861. Y mae y plwyf hwn, arwyddocead enw yr hwn yw, Derw Owain, neu, Tref Owain, yn cael ei ffinio ar y gogledd orllewin gan yr afon Dyfi, ac ar y gogledd ddwyrain, gan yr afon Twymyn, yr hon sydd yn ymarllwys i'r Dyfi, ar ei ben gogleddol; a chynwysa tua naw mil o gyfeiriau o dir; tu a'i haner wedi ei gau, ac o dan ammaethiad, a'r gweddill yn gyttiroedd, a phorfeldir defaid. Torrir llawer o fawn, o ansawdd ragorol o fewn y plwyf, y rhai a ddefnyddir yn danwydd yn y gymydogaeth. Y mae llawer o blwm wedi cael ei gyfodi yn y plwyf o bryd i bryd, yn enwedig yn Mwnglawdd Esgair galed, y Cwm bychain a Chwm y Nant Ddu. Y mae y prif ffyrdd o Machynlleth i'r Dref Newydd, trwy Carno, ac o'r Trallwm i Fallwyd, yn rhedeg trwy y parthau gorllewinol a gogleddol o'r plwyf hwn.

Ficeriaeth ryddhaol ydyw y fywioliaeth eglwysig, yn archddiaconiaeth, ac esgobaeth Llanelwy, ac yn nawddogaeth Esgob Llanelwy; fe'i sefydlwyd gan yr Esgob Robert Warton, yn y flwyddyn 1545, ar gais y Rheithor, Rhisiard ab Gruffydd. Y mae y rheithoraeth (*rectory*) yn segur-swydd, trethedig ar lyfrau y deyrnas, i 10*p*. 17*s*. 11c., ac yn rhoddiad yr esgob, yr un modd a'r Ficeriaeth.

Yr eglwys, yr hon sydd gyssegredig i Sant Tudyr, a adeiladwyd yn yr arddull Seis'nig foreuol; y mae yn gorwedd o fewn trefgordd Noddfa, enw sydd yn awgrymu fod braint noddfa yn perthyn i'r llanerch hon ar adeg dra boreuol; terfynau yr hon a nodid mae yn debyg gan dair carreg, un o ba rai a elwir "Carreg Noddfa," sydd yn sefyll tua milldir i'r dwyrain; a charreg fawr arall yn agos i dair llath o uchder o'r ddaear, tua milldir i'r dehau; ac un lai, tu a'r un pellder i'r gogledd ddwyrain. Y mae yma leoedd addoliad perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd a Wesleyaidd, a'r Annibynwyr, yn y plwyf. Tua haner milldir i'r gorllewin o'r eglwys, ar ben bryn y Fron Goch, yn maenol Noddfa, y mae olion hen wersyllfa; ac ar ben un arall, a elwir Bwlch Gelli lâs, y mae crug, neu garnedd, yn agos i ba un, ar ddefeittir y Berllan Deg, darganfuwyd amrywiol hen arfau rhyfel o brês, yn gynar yn y ganrif bresenol. Cafodd y Dr. John Davies, awdwr y Geiriadur Cymraeg a Lladin, a'r Gramadeg Cymraeg, ac un o gyfieithwyr y Beibl i'r iaith Gymraeg, ei bennodi i reithoriaeth segur-swyddol y plwyf hwn, gan yr Esgob Parry, yn y flwyddyn 1615; fe'i daliwyd wedi hyny gan Dr. Randolph, Esgob Rhydychain, yr hwn a ddyrchafwyd oddiyno i fod yn Esgob Llundain. Dywedir yn Achau Saint Ynys Prydain, fod Sant Tudyr, mab Arwystl Gloff, yr hwn oedd yn ei flodau yn y seithfed ganrif, wedi ei gladdu yma. Cynhelir ei Wyl-mabsant ar y 25ain o Hydref, yn flyneddol, neu y Sabbath cyntaf ar ol hyny; ac yr oedd defod neillduol, a elwid "Curo Tudyr," yn nglyn â'r Gwylmabsant yma, yn yr hon yr arferai bechgyn gario pawl hir, neu gangen o bren, ar eu hysgwyddau; a'r lleill a'i curent â phastynau, er cadw côf, mae yn debyg, o'r erlidigaeth a ddyoddefasai y sant hwnw.

Yn y flwyddyn 1862, tynwyd hen lan y plwyf i lawr, yr hon fel yr ymddengys, a adeiladasid yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, ag ydoedd wedi myned mor adfeiliedig yn y blyneddoedd diweddaf, fel yr oedd yn beryglus myned iddi. Yr un newydd, a adeiladwyd yn ol cynlluniad Mri. Poundley a Walker, ar y draul o 667*p*.; a chynnwysa eisteddleoedd i 202 o bobl, y rhai ydynt oll yn ddi ardreth.

Perthyna i'r plwyf, yn nghadwraeth y periglor, lawer o lyfrau duwinyddol, y rhai a roddwyd at wasanaeth y plwyfolion, gan Dr. Bray; yr hwn a anrhegodd amryw blwyfi yn y Dywysogaeth yn gyffelyb.

Y mae amryw goflechau o fewn yr eglwys;—Un i Mr. Theodore Morgan, ac arno fedd-argraff Saesonaeg, a gyfansoddasai ef ei hun; ond pwy ydoedd, na pha fath ei sefyllfa, ni's meddwn unrhyw hysbysiad: yn unig prïodola ei iachawdwriaeth i Grist Iesu.—Un arall, i Humphrey Jones, Ysw., o'r Garthmill Hall, a Melyn-grug, Ustus yr Heddwch; yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1808; yn nghyd a'i Wraig, yr hon a fu farw yn 1793. Aeres y Rhiwfelen, yn y plwyf hwn, ydoedd hi.

Yn y fynwent y mae beddfaen ysgwar, ar un ystlys i'r hon y mae yn gerfiedig, goffadwriaeth am y Parch. Thomas Richards, yr hwn a fu yn Ficer y plwyf am 37 o flyneddoedd; ac a fu farw yn 1837, yn 83 mlwydd oed. Ar yr ystlys arall, y mae coffadwriaeth am ei wraig, yr hon a fu farw yn 1841, yn 84 mlwydd oed. Ac ar un ystlys y mae y coffäad canlynol am eu plant.—"Bu iddynt wyth o blant, Richard, Ficer Meifod; David, Ficer Llansilin; Thomas, Rheithor Llangyniew; Mary; John Lloyd, C. P. Llanwddyn; Jane; Elizabeth; a Lewis, Rheithor Llanerfyl; y rhai a gyfodasant y maen hwn, er cof am eu rhïeni hybarch."

Llyfrau eglwys y plwyf, a ddyddiant o'r flwyddyn 1633. Yn mhlith periglorion y plwyf, cair enwau amryw o ddynion a gyrhaeddasant enwogrwydd yn yr eglwys, a'r byd llenyddol, megys y Dr. John Davies, (Mallwyd), awdwr y "Geiriadur Cymraeg a Lladin," &c., yr hwn a fu yn beriglor y plwyf yn 1615. Y Dr. William Worthington, awdwr, a phregethwr nodedig. Y Dr. Randolph, a fu yn Esgob Rhydychain, a Llundain wedi hyny. Nid oedd swyddau y perigloriaid (*rectors*) hyn, ond segur-swyddau, (*sinecures*). Cofnodir yn un o lyfrau y plwyf, yn 1711, fod y degwm wedi ei osod am dair blynedd, am y swm o 28*p*. y flwyddyn, i ddau o'r plwyfolion. Y mae y periglordy yn ymylu ar y fynwent. Ceir cofnodiad yn un o'r *Registers*, dyddiedig 1635, fel y canlyn; "adeiladwyd ficerdy Darowain, gan yr Esgob Robert, (Warton), ar ddymuniad

Digitized by Google

Richard ap Griffith, y Rector; yn y flwyddyn 1545." Tynwyd yr hen ficerdy hwn i lawr yn 1849, ac adeiladwyd yr un newydd presenol, am y swm o 570*p*.

Yr oedd Bywiolaethau y plwyf gynt, yn gynwysedig o Rectoriaeth, a Ficeriaeth; ond y maent yn awr wedi eu huno. Yn 1845 pan y gwnaed y "Tithe Commutation Survey" am y plwyf, cafwyd fod 10,000 o erwau ynddo, o dan daliad o wahanol amrywiaethau o ddegwm; ac yn unol a'r gyfraith i wastadau y degwm, gosodwyd fod *Tithe-rent charge* o 183*p*. i fod i'r ficer, ac i'r Rector 155*p*. Gwnaed yn y flwyddyn 1856, drefniad gan y Dirprwywyr Eglwysig, i drosglwyddo iddynt hwy ei hunain, y Rectoriaeth segur-swyddol; a chyfnewidiasant hwythau y fywioliaeth, i fod yn Rectoriaeth; gan dileu y Ficeriaeth, ac ychwanegu y cyflog blaenorol, o 40*p*. 15*s*. 7¼*c*. yn flynyddol. Y mae 23erw. 2*r*. 7*p*., o dir eglwysig (*glebe*) yn perthynu i'r fywiolaeth. Pan y Gwnaeth y Pab Nicholas, yn 1288 Drethiad o holl diroedd yr Eglwys, er mwyn cynorthwyo Edward I. yn ei ryfelgyrchoedd yn y dwyrain, gosodir allan yn y trethiad hwnw, werth Bywiolaeth Darowen, fel y canlyn.

"Ecclesia de Darewyntax' Rectoria.........£4 0 0
Et quia Rector alibi benefic' Vicaria...... 2 0 0"

Y trethiad i'r Brenhin Edward I. ar y Rectoriaeth, ydoedd 8*s*. a'r Viceriaeth, dim. Ymddengys wrth y Trethiad yma, fod Llanbrynmair y pryd hyn yn gapel o dan Eglwys Darowain.

Yn y "Valor Ecclesiasticus Tempore Harry VIII.," gosodir allan werth y Tiroedd, a Bywiolaeth y plwyf, fel y canlyn;

"*Rectoria de Darrowen.*

| | |
|---|---|
| Valet in gross' coibz annis p' scrutin' & exami' ac' commiss' &c. ......... | xij*l*. |
| Inde in rep 'is' viz. | |
| Lactualibz ep'o, xiij*s*. iiij*d*. P'cur' annual', vj*s*. viij*d*. P'cur' visit' jux'a rat', ij*s*. ij*d*............ ....... | xxij*s*. ij*d*. |
| Et valet clare coibz annis. ............ | x*l*. xvij*s*. x*d*. |
| Inde p' x'ma p'te d'no Regi debit'. | xxj*s*. ixob'." |

Y mae gan y gwahanol Enwadau ymneillduol, gapelau yn y llan, a'r pentrefydd eraill yn y plwyf. Y mae yn y plwyf, ysgol ddyddiol, perthynol i'r Eglwys Wladol; yr Ysgoldy a godwyd, yn 1841; cyfranwyd tuag at ei adeiladu gan y pwyllgor Addysg. Traul ei adeiladu ydoedd 200*p*. Y mae ysgolion dyddiol bychain yn Abercegir, ac yn y Byrhedyn; ond ychydig ydyw awydd y plwyfolion hyd yn hyn, am anfon eu plant i gael addysg ynddynt.

*Elusenau.* Mewn hen dir-lyfr, dyddiedig Gorphenaf, 1791, dywedir am yr Elusenau, fod yn llaw Humphrey Jones o'r Rhiwfelen, Yswain, 15*p*.: yn cynwys 5*p*. a adawyd yn Ewyllys Richard Rowland, boneddwr; 5*p*. arall a adawyd gan Rowland ap Prichard, o Gefncoch; a 5*p*. arall adawyd gan Thomas Jones, o Rhosdyrnog; llog y 15*p*. hyn, a gyfrenir yn y Nadolig, gan y wardeniaid a'r overseers, i'r personau tlottaf yn y plwyf.—Bod yn llaw Richard Jones o'r Berllan deg, boneddwr, 21*p*. 15*s*. llog pa rai a delir yn flynyddol [h.y. yn 1791]. Bod ardreth Ty a elwid yn Ffridd fach, yn mhlwyf Llanbryn mair, yr hyn a adawyd gan Derwas Griffith, boneddwr, yn 1669, yn cael ei osod am 1*p*. 15*s*. yn y flwyddyn, at wasanaeth tlodion y plwyfydd Darowen, a Chemmaes; hanner i bob un, a delir yn flynyddol i'r wardeniaid a'r overseers tlodion, plwyf Darowen, ac a gyfrenir yn mhlith y tlodion.

Y symiau a dderbynir yn bresennol, (1871), ac a renir cydrhwng y tlodion bob Nadolig, ydynt fel y canlyn. Gan J. O. Jones, Ysw., Dolycorsllwyn, 15*s*. allan o ystad y Rhiwfelen: sef llog y 15*p*. crybwylledig, a chyfran (3*p*. 10*s*.) o ardreth flynyddol y Ffridd fach yn Llanbrynmair. Y cyfan a dderbynir ac a gyfrenir yn bresennol i'r tlodion, yn elusenau yn y Nadolig, yw 4*p*. 5*s*. Ni thalwyd dim llog ar yr 21*p*. 15*s*., a nodwyd uchod, fel yn nwylaw Richard Jones, o'r Berllan deg, er's llawer blwyddyn. Dywed hen dir-lyfr arall, dyddiedig 2 Mehefin 1748 bod *Bond* yn awr i'w gweled yn mhlith papurau y plwyf.

*Hynafiaethau.* Trefddegwm y Noddfa, medd traddodiad, a elwid felly oddiwrth bod yr Eglwys o'i fewn, a'i bod yn "noddfa" neu ddiogelwch i ryw fath o ddrwg-weithredwyr, yn erbyn cyfreithiau y wlad. Nodir allan gan draddodiad, derfynau tir y "noddfa;" yn dri ochrog, gan gynwys i fewn yr Eglwys. Y terfynau oeddynt y *tri maen hir*, a welir eto yn sefyll, un yn Rhosdyrnog, mesura hwn 6 troedfedd o uchder, wrth bedair ar ddeg o amgylchedd; y llall ar y Cefn coch uchaf; yn mesur pum troedfedd o uchder, wrth bymtheg o amgylchedd; a'r trydydd, yn Cwmbychan Mawr. Eu pellder, bob un, oddiwrth yr Eglwys, sydd oddeutu milldir. Pwy bynnag a allai ddianc tu fewn i'r terfynau hyn, cyn i'r dialydd ei ddal, yr oedd yn ddiogel rhag cosp. Gelwir carreg y Cwmbychan mawr, o dan yr enw "Carreg y Noddfa;" yr oedd hwn ar un adeg yn faen o gryn faintioli, ond gwnaed difrod o hono, drwy ei ddinystrio â phylor, er mwyn yr elw o gael y defnyddiau at adeiladu; ac nid oes yn awr yn aros, ond pedwar dernyn o hono. Saif y tri maen hyn, bob un yr gyfagos i brif ffyrdd yn arwain i'r Llan; arweinia un o gyfeiriad Llanbrynmair, un arall o Bont dol gadfan, a'r llall o Abercegir. Y mae yn agos i Peneraig, lanerch a elwir wrth yr enw "Pant y noddfa." Y mae lle hefyd a elwir "Bryn y crogwr," lle medd traddodiad, y byddent yn crogi drwg weithredwyr, ynghyd a'r rhai hyny nad oedd iddynt hawl noddfa o herwydd eu trosedd. Rhoddwyd y fraint o gael "noddfa," i ychydig o leoedd gan y Tywysogion; ond cwttogwyd rhagorfreintiau y noddfeydd hyn yn fawr, gan gyfreithiau a basiwyd yn amser Harry 'r VIIIed. (27 Hen. VIII. c. 19, a 32 Hen. VIII. c. 12), ac wedi hyny, yn amser Iago I. (21 James I. c. 28), llwyr ddilewyd hwy. Ar dir y Berllan deg, cafwyd amryw arfau rhyfel. Yn agos i Bwll y Gelli las, ar dir y Cefncoch gwyllt, y mae olion Tommen, un o gladdfeydd cynfrodorion y wlad. Y mae yn awr wedi ei chwalu hyd o fewn tair troedfedd i arwyneb y ddaear; ei thraws-fesur ydyw pymtheg a'r ugain o droedfeddi. Ar Penfrongoch y mae olion amddiffynfa, yn mesur oddeutu dau gant ac ugain llath o hyd; a chant a deg llath o led; ac o'i hamgylch, y mae amryw ffosydd, a gwrth gloddiau. Ar dir y Castell, y mae hen amddiffynfa; y mae'r enw yn awgrymu hyn; ymddengys bod rhyw fath o furiau cerrig wedi bod o'i hamgylch, a chludwyd llawer o honynt, i adeiladu y tŷ ffarm, a'r adeiladau allan. Y mae un ystafell o'r Castell, yr hon a ellir ei olrhain, yn mesur tair troedfedd ar ddeg o hyd, wrth saith ar hugain o led. Gerllaw amaethdy y "*Caerseddfan*," yr hwn a arwydda

Digitized by Google

gorsedd-fan, neu lŷs, y mae ar y bryn, gaer, a elwir wrth yr enw Caerseddfan. Dywedir mai yma y byddai llŷs (*court*) yn ymgynnull, ar wahanol amserau, i derfynu dadleuon, ac i roddi barn a dedfryd. Y mae cofnodiad yn llyfrau y plwyf, mai yn 1760 y dechreuwyd offrymu wrth gladdu, &c. Byddai yr offrymau hyn wrth gladdu; medd ysgrif anghyhoeddig wrthym, yn cael ei ystyried fel math o fenthyg, i'r perthynasau i'w ad-dalu, pan ddygwyddai y cyffelyb amgylchiad mewn teulu; offryment i'r person, ac i'r clochydd; a byddai hefyd gasgliad yn cael ei wneud tuag at gael diod boeth (*spiced ale*), yr hwn a ddygid o'r dafarn at borth y fynwent, ynghyd a chaccen, ac yno y rhenid cwpanaid o'r ddiod, a chaccen, i bob un wrth fyned allan.

*Tai.* Yn yr Hirddol yr oedd un Lewis Jones yn byw yn nechreu y ganrif ddiweddaf, a chrybwylla John Davies o Lansilin, yn ei waith ar achyddiaeth, tu dal 48 [1716] ei fod yn disgyn o Gadwgan o Nannau, o hil Bleddyn ap Cynfyn. Esgair gadwyth sydd ffermdŷ, ac iddo y traddodiad hyn,—fod ar ryw adeg ar ol brwydr, i wyth o ddynion ddianc i lechu i'r coedydd gerllaw, ac yno gwnaethant luesty—o hyn y mae'r enw Cadw-wyth wedi dyfod. Yn Abergwidol, yr oedd palas Meredydd ap Rhys ap John ap Lewis, yr hwn a briododd Ellen, ferch John Wynn o'r Ynys maengwyn. Llythyr cymmun pa un sydd eto ar gael, dyddiedig 17 Mawrth, 1616. Y mae yr ymddangosiad allanol i dy Abergwidol, yn awgrymu ei fod yr amser a basiodd, yn dŷ cyfrifol.

**DAU GLEDDYF.** Gwel ABER-DAU-GLEDDYF.

**DAVID,** PARCH. JOB, ydoedd weinidog enwog gyda'r Bedyddwyr yn Frome, yn Ngwlad yr Haf, Mab ydoedd i Job David, pregethwr cynorthwyol yn Mhenyfai, Morganwg. Ganwyd ef yn 1746. Dechreuodd bregethu tua 1766. Derbyniodd ei addysg yn Athrofa Caerodor. Sefydlwyd ef yn Frome, yn gydweinidog a Mr. Sedgefield, yn 1773; a bu yno yn llafurio yn llwyddianus, am 30 mlynedd. Yn 1803, cafodd alwad i fod yn olynydd y Dr. Josiah Toulmin, i eglwys Taunton; ond o herwydd gwaelder ei iechyd gorfu iddo ymadael oddi yno yn mhen tua phum mlynedd, a dyfod i Abertawy, er mwyn manteision y môr; ac yno y bu yn dihoeni, hyd y fl. 1813, pan y bu farw, a chladdwyd ef yn mynwent Penyfai. Yr oedd yn bregethwr rhagorol; ac yn awdwr galluog. Ysgrifenodd lawer ar yr ochr Arminaidd i'r ddadl a gymerai le y pryd hwnw yn mhlith y Bedyddwyr. Ei weithiau ydynt:—"*A Letter on the Use of Scriptural Doxology,*" &c., yr hwn a barodd ddadl rhyngddo a'i hen athraw Caleb Evans; "*A Sermon Preached before the Unitarian Society;*" "*An Assembly Letter on the Evidences of Christianity;*" "*A Reply to Dr. Priestley on the Subject of Infant Baptism;*" "*A Letter to Dr. Coke on the Wesleyan Connection.*"

**DAVIES,** BENJAMIN, D.D., ydoedd fab i'r Parch. Rees Davies, Canerw; a llywydd athrofa yr Annibynwyr yn y Fenni; ac wedi hyny athraw clasurol coleg Homerton. Ganwyd ef yn 1739. Derbyniodd ei addysg yn ngholeg Caerfyrddin. Dewiswyd ef ar y cyntaf, gan bwyllgor y Fenni, i fod yn gyd athraw a'r Parch. Mr. Jardine; ar farwolaeth yr hwn yn 1766, yr etholwyd ef yn llywydd y coleg. Bu yma yn llwyddianus am 14 mlynedd; pryd y dewiswyd ef yn athraw clasurol coleg Homerton; ac yn weinidog yr eglwys fechan yn Fetter Lane, Llundain. Ond gorfodwyd ef gan waelder ei iechyd, i roddi ei broffeswriaeth i fyny, yn 1787; a gofal yr eglwys i fyny, yn 1797. Ar ol treulio rhai blynyddau i ymsymud o fan i fan, er mwyn ceisio adferiad iechyd; efe a ymsefydlodd o'r diwedd yn Ngher-baddon, lle y mwynhaodd weinidogaeth a chyfeillgarwch yr enwog William Jay. Dywedai Mr. Jay am dano, "ei fod yn un o'r dynion mwyaf duwiolfrydig a adnabu efe erioed; ond nad oedd ynddo lawer o wreiddioldeb, na hyawdledd." Dywedai yntau am dano ei hun, "nad oedd ynddo ddigon o synwyr i foddio y deallus; na digon o ddwli i foddio y werin." Bu farw Gorph. 22, 1817, yn 78 mlwydd oed. Yr unig beth o sylw a gyhoeddodd, oedd traethodyn o'r enw, *Primitive Candour;* er gwrthbrofi rhai o syniadau Dr. Priestley. Dywedir fod hwn wedi ei ysgrifenu mewn ysbryd mor hynaws a boneddigaidd, fel y galwodd y Dr. gydag ef, i ddiolch iddo am ei ysbryd da.

**DAVIES,** BENJAMIN, Denant, a anwyd yn nhref Abergwaun, swydd Benfro. Yr oedd ei rieni yn bobl barchus yn yr ardal, ac yn aelodau yn eglwys y Bedyddwyr, yn Llangloffan. Deffrowyd yntau am fater ei enaid, pan yn 15 oed, a derbyniwyd ef trwy fedydd, yn aelod i'r un eglwys a'i rieni. Dechreuodd bregethu yn dra buan; a chan fod duwiolfrydedd a sel grefyddol yn nodweddau amlwg yn ei gymeriad, daeth yn fuan yn anwylddyn ei ardal, ac anfonwyd ef i athrofa Caerodor, i dderbyn addysg o dan yr enwog Ddr. Evans. Wedi gorphen ei efrydiaeth, derbyniodd alwad eglwys Accrington, yn swydd Lancaster; lle bu yn llwyddianus anarferol i ddychwelyd eneidiau, ac adeiladu y saint. Yn y cyfamser, efe a briododd Miss Mary Owen, Denant; fferm fawr a thoreithiog, tua thair milldir o Hwlffordd; a bu hyny, yn nghydag amryw amgylchiadau eraill, yn foddion i'w ddwyn i benderfynu ymgysegru i waith yr Arglwydd yn ei wlad ei hun. Derbyniodd alwad eglwys Moleston, swydd Benfro, yn y fl. 1786; a dangosodd yr Arglwydd ei foddlonrwydd i'w symudiad, trwy roddi iddo lawer o eneidiau yn Moleston, a'r ardal o amgylch, yn wobr ei lafur. Gan fod Mr. Davies yn byw gyda'i fam yn nghyfraith, yn Denant, yn agos i Hwlffordd; a bod ar y pryd gynulleidfa fechan o Fedyddwyr yn ymgyfarfod mewn tŷ anedd yn *Prendergast*, yn ymyl y dref, efe a deimlodd yn ddyledswydd arno dalu sylw neillduol i'r ddiadell fechan hono, a llafurio er ei lleshad. Gwenodd yr Arglwydd mor amlwg ar ei lafur, fel yr aeth y tŷ bychan yn fuan yn rhy gyfyng i'r gynulleidfa. Llwyddodd yntau, trwy gymorth Mr. Morgan, boneddwr cyfrifol yn y dref, ond o farn wahanol iddo ef o barth yr ordinhad o fedydd, i godi capel hardd i'r Bedyddwyr yn Hwlffordd, yr hwn a agorwyd yn 1788. Corffolwyd yr eglwys yno, yn 60 o rifedi, yn 1798; pryd y rhoddodd Mr. Davies ofal eglwys *Moleston* i fyny, ac y cyfyngodd ei lafur yn benaf i'r achos newydd yn mhrif dref y sir, yr hyn a fu mor fendithiol yn llaw yr Arglwydd, fel y rhifai yr eglwys ar ddydd ei farwolaeth, Chwefror 16, 1816, 200 o aelodau. Dywed awdwr *Hanes y Bedyddwyr* am dano:—"Meddai Mr. Davies ar y fath alluoedd gweinidogaethol, fel nad oedd yn hawdd iddo lafurio yn hir mewn tref, heb dynu sylw y trigolion. Yr oedd ei gorff o'r fath brydferthaf, yr hwn a addurnai ef a'r gwisgoedd harddaf; yr oedd ei lais yn gwmpasog a soniarus, a meddai gyflawn lywodraeth arno, fel y gallai ei amrywio yn ol natur yr hyn a lefarai. Yr oedd yn feistr ar yr iaith Saesneg, a defnyddiai y geiriau mwyaf priodol ynddi at ei bwnc. Yr oedd

Digitized by Google

ei wybodaeth yn mhob peth yn eang; a'i gof yn graffus; a medrai ddarparu at ei gyflawniadau cyhoeddus gyda mor lleied o drafferth ag un gweinidog a adnabyddais erioed; er hyny ymddangosai ei bregethau yn gyffredin, fel pe buasent wedi eu myfyrio gyda y dyfalwch mwyaf: ac yr oedd ei ymddygiad cyffredinol, mor wrol a boneddigaidd, fel y gallasid ei osod yn y cymdeithasau mwyaf boneddigaidd yn y deyrnas. Heblaw yr addurniadau allanol a nodwyd, yr oedd hefyd yn dra duwiol, a llaw yr Arglwydd oedd gydag ef. Nid rhyfedd gan hyny i weinidogaeth y fath ddyn, dynu o'i amgylch dorf o wrandawyr, ac i lawer o honynt yn ewyllysgar roddi eu gyddfau o dan iau Crist."

DAVIES, David, Castellhywel, a anwyd mewn amaethdy o'r enw Goetre Isaf, Llangybi, swydd Aberteifi, Chwefror 14, 1745. Yr oedd ei rieni yn bobl grefyddol, yn aelodau yn eglwys yr Annibynwyr yn y Cilgwyn; ac yn arfer cadw addoliad teuluaidd ar yr aelwyd. Bu iddynt saith o blant, pum mab, a dwy ferch, y rhai a ddygasant i fyny yn ofn yr Arglwydd, a chawsant yr hyfrydwch o weled dau o honynt yn ddynion enwog ar y maes crefyddol: sef Dr. Benjamin Davies, yr hwn, mewn cysylltiad a'r Parch. R. Gentleman, a fu am gyfnod yn arolygu coleg Caerfyrddin, ac a ddiweddodd ei oes yn weinidog Undodaidd yn Evesham: a'r Parch. David Davies, gwrthddrych y nodiadau hyn, yr hwn a briodola ddechreuad ei argraffiadau crefyddol, i weddiau ei dad wrth yr allor deuluaidd:—

"Gwel'd fy nhad yn plygu ei liniau
Mewn defosiwn hwyr a boreu,
Barodd imi'n bleutyn gyntaf
Feddwl am y Duw Goruchaf.
Wrth fugeilia'n lleucyn egwan,
'Ddeutu wyth neu naw mlwydd oedran,
Ar y banc mewn rhedyn tewon,
Rhwng y defaid a'r da düon,
Syrthiais gynta' ar fy neulin,
Wedi syrthio, 'ffaelu gofyn,'" &c.

Pan yn dair neu bedair ar ddeg oed, gosodwyd ef o dan ofal yr enwog Joshua Thomas, Llanllieni, awdwr *Hanes y Bedyddwyr*, i dderbyn elfenau ei addysg; lle yr arosodd am tua blwyddyn a haner. Bu am ychydig amser drachefn, yn yr ysgol gyda Mr. D. Jones, Llanbyther. Ond pan yn 16 oed, anfonwyd ef i'r ysgol i Langeler, yr hon a gedwid gan T. Lloyd, ficer Penboyr; lle y treuliodd efe dair blynedd. Yn Ionawr 1764, efe a dderbyniwyd i goleg Caerfyrddin, lle yr arosodd am bedair blynedd, ac y gosododd i lawr sylfaen ei gymeriad, gan argraffu ar feddyliau ei athrawon a'i gydfyfyrwyr, ei fod yn ddyn a dorai ffigyr yn y byd. Ar ei ddyfodiad o'r athrofa, yr oedd dau le yn ymgystadlu am ei gael yn weinidog, sef eglwys Llanedi, a'r eglwysi Presbyteraidd yn y Ciliau Caeronen, a Cilgwyn, swydd Aberteifi. Dewisodd yntau yr olaf; ac yn y maes eang hwn, y bu yn llafurio am haner can mlynedd; ac oddi yma yr aeth ei glod fel pregethwr, ysgolhaig, a bardd, dros yr holl wlad. Yn 1775, efe a briododd ag Ann Evans, merch y Foel allt, Ciliau Aeron; o'r hon y cafodd naw o blant, dau o ba rai a droisant allan yn weinidogion gyda'r Undodiaid, sef David Evans yn Nghastellnedd, a Timothy Davies yn Evesham. Yn fuan ar ol priodi, efe a gymerth ei drigfan yn Castell Hywel; ac wrth yr enw "Dafydd Dafis Castell Hywel" yr adweinid ef trwy ei oes.

Y mae yn anhawdd dyweyd yn sicr, beth oedd ei ddaliadau duwinyddol ar athrawiaeth y Drindod, ac aberth Crist. Fel y nodwyd eisioes, yr oedd yn weinidog gyd a'r Presbyteriaid, sef y bobl a elwir yn gyffredin, "yr hen Bresbyteriaid Saesnig,"—y blaid luosocaf o Ymneillduwyr o fewn y deyrnas, yn amser Cromwell, a'r chwyldroad; ond o hyny hyd yn awr, y mae ar ddadfeiliad, a'r rhan fwyaf, os nad yr oll, o'r gweddillion o honi yn Lloegr a Chymru, naill a'i yn Undodiaid, neu yn Ariaid proffesedig. Anhawdd yw gwybod yn mha le ar y maes gwyllt-dywodlyd hwn, yr oedd ein gwrthddrych wedi sylfaenu ei farn grefyddol. Ymddangosai weithiau yn Ariad, a phroffesai mai dyna oedd ei farn. Yn yr ymgom farddonol a fu rhyngddo a David Saunders, Merthyr, efe a ddywedai fel hyn:—

"Undod, nid Trindod, yr un-Duw,—a ddeil
Addolwyr y gwir-Dduw;
Dwl, tra-dall, dal tri-Duw,
Myn y doeth mai un yw Duw.

Undod, wâd Drindod, er un-dyn,—Trindod
Wad Undod yn dŷn-dŷn;
Yn wir nid all yr un dyn
Yn ddê' dystio 'r ddau destyn.

Mewn enwau'n dri mae'n unig,—yn meddwl
Y Moddiad dysgedig;
Duw, Mab Duw, heb wŷn na dig
'Run ydyw 'n ddi ranedig.

Yn glod rho'wn undod i'r un-Duw,—a gras
Ag urddas y gwir-Dduw;
Treio dyweyd fod tri Duw,
Yw taeru 'n ddwl fod tri'n Dduw."

Ond gellir meddwl fod ei syniadau ar aberth Crist, a phrynedigaeth dyn, yn gwrthddyweyd y daliadau Ariaidd yn hollol;—Er engraifft, pan yn llefaru am Grist, dywed:—

"Ei gariad hael a'i dygai 'n hy'
Drwy ing ei daith, a'r angau du;
Yn rhwydd yn wir y rhoddai 'i wa'd,
Er achub dyn, ar arch ei Dad.

Cariad ni bu ar ddae'r yn bod
O'i ryw, na'i radd, na'i fath erio'd;
Crist wedi dod i gadw dyn!
I'w lwyr ryddhau, bu farw'i hun."—*Telyn Dewi*, tud. 145.

Y gwir yw, ymddengys ei fod fel duweinydd yn gymysglyd ei feddwl, ac yn ansefydlog ei farn, ar yr athrawiaethau uchod ar hyd ei oes.

Yr oedd ei olygiadau ar ryddid gwladol, crefyddol, a meddyliol, agos a bod heb un linell derfyn. Yn adeg y Chwyldroad yn Ffrainc, daeth y llywodraeth i wybod am dano, fel un o'r blaid gref oedd yn y deyrnas hon ar y pryd, yn bleidiol i egwyddorion y Chwyldroad; ac awdurdododd Mr. Pitt, (y prif weinidog ar y pryd), un Johnson, goruchwyliwr y trethi, i agor llythyrau Mr. Davies. Ond llwyddwyd i atal hyny i gymeryd lle, trwy gyfryngwriaeth Offeiriad parchus yn y gymydogaeth. Y syniad hwn am eangder rhyddid, a'i gwnaeth ef mor bleidiol i olygiadau materaidd Dr. Priestley, fel y dywedai mewn llythyr at gyfaill:—"Yr wyf yn cael fy hollol foddloni, y gall Dr. Priestley, a phersonau o'i blaid ef, fod yn Gristionogion da a duwiol. Y mae genyf yr un meddwl am John Calvin, a'r Dr. Crisp, a'i ddysgyblion. Eisteddwn yn llawen yn yr un cy-

Digitized by Google

mundeb a hwynt, gyda hyfryd obaith o dreulio tragwyddoldeb gyda hwynt ar ol hyn." Y rhyddfrydigrwydd hwn mewn barn, yn nghyda synwyr cyffredin crŷf, ffraethineb naturiol parod, teimladau llednais, a chwaeth dda, a'r oll wedi eu dadblygu, a'u haddurno â dysgeidiaeth glasurol uchel, oedd yn cyfansoddi arbenigrwydd ei gymeriad. Mae ei glod fel ysgolhaig, ac ysgolfeistr, yn adnabyddus dros yr holl wlad. Dechreuodd ar y gwaith o gadw ysgol, yn fuan ar ol iddo ymsefydlu yn Nghastellhywel. Daeth yn fuan mor enwog yn y gangen hon o wasanaeth, fel yr ymgynullai gwyr ieuainc, o Ymneillduwyr ac Eglwyswyr ato, o bell ac o agos. Ond pan ddaeth Dr. Horsley yn esgob Ty-Ddewi, efe a gyhoeddodd na urddai efe neb a dderbyniasai elfenau ei addysg gan yr athraw ymneillduol hwn. Lleihaodd hyn am yspaid, nifer ei ysgolheigion; ond caed gweled yn y diwedd, mai "trech gwlad nag arglwydd." Dywedai Mr. Davies, iddo fod yn addysgu ieuenctyd mewn rhyw ddull neu gilydd am bum' mlynedd a thriugain, a gellir enwi lluaws o blant athrylith, a fuont o dan ei wialen, a'i addysg. Un peth hynod ynddo fel ysgolfeistr, oedd ei allu i dymheru caledi y gwersi, ac i adloni meddyliau ei ddysgyblion, trwy adrodd ffraethebau a chwedleuon digrif iddynt, tra yn ceisio meistroli "Virgil," a "Horace." Yr oedd yn ei natur, fel y crybwyllwyd eisoes, gryn lawer o'r arnwythus, a'r digrifol. Nodwn un engraifft. Pan yn dychwelyd unwaith o'i daith bregethwrol, trwy Glyn Aeron, daeth yn guryn mawr o wlaw arno. Yntau, yn digwydd bod heb ddim parotoadau ar ei gyfer, a drodd i mewn i ydlan Llwyd Jack, sydd ar fin y ffordd; a gwisgodd ei hun mewn gwellt, o'i goryn i'w sawdl; ac felly efe a aeth ar hyd ei ffordd ei hun yn llawen, trwy ganol y gwlaw, gan ymddangos fel rhyw fwdwl symudol! ond maes o law, daeth rhyw foneddwr a'i hadwaenai i'w gyfarfod, gan ofyn mewn syndod, "Yn enw'r anwyl, Mr. Davies bach, beth yw'r holl wellt yna sydd o'ch cylch chwi?" "O," ebe yntau, "mae tô o wellt yn burion ar dŷ o bridd." Pan gyhoeddodd Dr. Priestley ei waith ar ddefnyddiolrwydd (*materiality*), a marwoldeb yr enaid, cyfansoddodd Mr. Davies y penill byd-enwog a ganlyn, i'w roi ar gareg ei fedd:—

"Here lie at rest in oaken chest,
Together pack'd most nicely,
The bones, and brains, flesh, blood, and veins,
And *soul* of Doctor Priestley."

"Yma gorwedd wedi marw,
Yn dra dethau mewn arch dderw,
Esgyrn, 'menydd, gwaed, a gwythi,
Corff, ac enaid, Doctor Priestley."

Gwelsom mewn newyddiadur Americanaidd ryw dro, fod y penill uchod wedi ei gerfio ar gareg bedd y *materialist*, mewn mynwent ddinôd yn America; a digon tebyg y barna llawer nas gallasai byth gael gwell bedd-argraff.

Ymddengys mai pur ychydig a ymbleserodd ein gwrthddrych mewn gwisgo ei feddwl mewn rhyddiaith. Nid ydym yn gwybod am ddim o'i waith yn y ffordd hon, oddieithr traethawd Scougal ar "Fywyd Duw yn Enaid Dyn" a gyfieithodd i'r Gymraeg, pan oedd yn 34 oed; ac erthygl feirniadol ar farddoniaeth Dafydd ab Gwilym, a gyhoeddodd yn yr *Analytical Review*, vii. 295. Ond fel bardd a chyfieithydd barddoniaeth, y mae wedi llwyddo yn benaf i enill iddo ei hun enw uchel mewn llenyddiaeth Gymreig. Yn 1822, efe a gyhoeddodd gasgliad o'i farddoniaeth, tan yr enw, "Telyn Dewi." Cyfieithadau ydynt gan mwyaf o weithiau y beirdd Saesneg; ac yn eu plith mae y farddones Roegaidd enwog, Sappho, yn ymddangos yn brydferth mewn gwisg Gymreig. Y mae yn dra sicr bod athrylith ddynwaredol ein bardd, lawer yn gryfach na'i athrylith ddyfeisiol; o ganlyniad y mae yn fwy hapus fel cyfieithydd, nag yw fel cyfansoddydd gwreiddiol; a diau mai efe yw *un* o'r cyfieithwyr goreu, os nad *y* goreu sydd genym yn ein hiaith.

Mor lithrig y rhed y llinellau hyn o eiddo Cowper mewn gwisg Gymreig:—"Man wants but little here below," &c.:—

"Dyn nis gofyn ond ychydig, na'r ychydig hyny'n hir;
Yn eu beddau caiff cybyddion, eu digonedd bawb o dir;
Tir a leinw'r gol a'r galon, a'r ddau lygad fynu'n lân,
Nes bo'r geg yn gwaeddi 'Digon,' gair na chlyw'd erioed o'r blaen."

Ni chaniata ein gofod ini ddyfynu engraifftiau o'i waith yn cyfieithu Barbauld, Sappho, Pope, Young, Beattie, Watts, &c.; ond byddai yn anesgusodol peidio sylwi ar gampwaith ein bardd, sef ei gyfieithad o'r "Myfyrdod ar Einioes ac Angau, a ysgrifenwyd mewn Mynwent yn y wlad, yn min yr hwyr," gan Gray. Dywed rhai bod hon, a chredai yntau ei hunan hyny, mor belled ag y mae iaith ystwyth, fanwl, a naturiol, yn myned, yn rhagori ar y gwreiddiol. Un tro pan ymwelai Major Evans Dolau bach ag ef, "Gwelsoch chwi fy mhitiwr Major? gofynai, "Do syr," oedd yr ateb. "Ydych chwi ddim yn meddwl 'mod i wedi shafio yn lanach nag erioed? Mae'r esgob Burgess yn barnu 'mod i; a bod fy nghyfieithiad i o Gray yn well na'r original, a rhoes 5*p*. i mi am guro Gray." Ond pa fodd bynag, er fod "Gray's Elegy" wedi ei chyfieithu i'r Groeg, Lladin. Idalaeg, Ellmynaeg, a Ffrancaeg, y mae yn ddigon sicr nad oes un o'r cyfieithwyr wedi gwneyd gwell chwareu teg a bardd Stoke Pogis, nag a wnaeth bardd Castellhywel. Nodwn benill neu ddau yn Engraifft:—

"Y mae'r gemau a'r perlau puraf, goreu 'u lliwiau is y llô'r
Dan y tonau'n gudd rhwng creigiau, yn nyfnderoedd mawr y môr;
Ac mae'r blodau teca'u lliwiau, lle nas gwelir byth mo'u gwawr,
Ac yn taenu'u peraroglau, lle na sylw neb mo'u sawr.

* * * * * *

Rhag i'w hesgyrn gael eu damsang, gyda dirmyg gan un dro'd,
Gerllaw iddyn', er eu coffa, mae rhyw arwydd in' a nod,
A diryfau heb iawn fesur, a cherfiadau gwael di lun,
Ag sy'n galw am ddeigryn mwynaidd, wrth fyn'd heibio gan bob un.

'R oed ar enw, ar dydd bu farw, ar gareg arw lwyd ddirâ'n,
A geir yma 'n lle cof-feini, a chanmoliaeth peraidd gân;
Cyngor prysur, ma's o'r 'sgrythyr, ar eu godre gwedi'n gawn;
I rybuddio pawb el heibio, lwyr ddiwygio a marw'n iawn.

Nid oes adyn yn ymado, na ddymunai i gyfaill mwyn,
Wedi cauad ei ddau lygad, roddi 'chenaid fer a chwyn;
I dir ango wedi i'r angau, fyn'd a'i gelain yn ei gôl,
Hoff yw ganddo pan na's byddo, i rai wylo ar ei ol."

Ond rhaid ymatal, gyda dwy engraifft o hono yn medru cerdded yn hualau y gynghanedd Gymreig yn yr iaith Ladin.—Y blaenaf, yn feddargraff i ryw gyfaill yn Castellnedd, a'r ail yn anerchiad i Samuel Tenton, i ddiolch i'w frawd Charles am ryw garedigrwydd:—

"Sopor Mariam cepit;—in lectum
A luctu recessit:
Ast tuba hanc excitabit,
Ut Maria salva sit."

"O Carole! non querelas—tibi
Nunc dabo, sed gratias:
Tui Sam grates sumas
Cui tot clara dona das."

**DAVIES**, David. Abertawe, a anwyd yn mhentref Llangeler, sir Gaerfyrddin, Mehefin 12, 1763. Cyfrifid ei rïeni yn deulu parchus yn mysg eu cymmydogion; ond, ymddengys bod yr oll o'u crefydd yn gynnwysedig mewn myned yn achlysurol i eglwys y plwyf: a chan nad oeddynt yn oludog o bethau y byd hwn, nac yn ddifrifol fel crefyddwyr, ni chafodd eu mab fwy o fanteision addysg yn ei flyneddau boreuol, nag a allasai ei gael yn yr ysgol ddyddiol, a gedwid yn mhentref bychan Llangeler. Ond er iddo gael ei ddwyn i fynu mewn tafarndy, ac mewn pentref lled ddi grefydd, ymddengys iddo gael ei ddwyn dan argraffiadau crefyddol dwysion, yn dra ieuanc; er na's gwyddom pa fodd. Y mae traddodiad yn ei deulu, y byddai er yn blentyn bychan, yn arfer gofyn bendith ar ei ymborth, pwy bynag a fyddai yn ei weled a'i glywed; a dywedir y byddai ei ddull difrifol, a'i ymadroddion cyfaddas ar y cyfryw achlysuron, yn taro y dynion a eisteddent yn y tŷ i yfed, â syndod. Dywedir hefyd i'w dad ei glywed ar ryw achlysur, yn gweddïo dros ei rïeni, dan gysgod llwyn yn yr ardd, yr hyn a adawodd argraff ddwys ar ei feddwl.

Yn yr ugeinfed flwyddyn o'i oedran, efe a aeth i'r sefyllfa brïodasol. Enw gwraig ei ieuenctyd, oedd Jane Evans, yr hon oedd yn enedigol o'r un gymmydogaeth ag yntau, ac oddeutu blwyddyn yn ieuangach nag ef; ond er ieuenged y prïodasol, hi a drodd allan yn wraig werthfawr a rhinweddol; ac yn un o'r mamau rhagoraf.

Pan oedd Mr. Davies tuag ugain oed, sef yn agos i'r amser yr ymbriododd, efe a ymunodd â'r eglwys ymneillduol oedd yn Mhen rhiw, yn agos i'w le genedigol, yr hon oedd ar y pryd dan ofal gweinidogaethol yr enwog D. Davies Castell Hywel. Rhyw fath o Arminiaid, neu Ariaid oeddynt, o ran eu golygiadau crefyddol; ac y mae yn dra thebygol fod y rhan amlaf o'r aelodau yn ddynion lled wybodus, ac yn fedrus fel dadleuwyr ar byncian crefyddol; ond, nid ymddengys fod nemawr o'r teimladau duwiolfrydig hyny yn eu meddiannu, a ystyrir yn hanfodol i wir grefydd, gan ddynion o olygiadau efengylaidd. Darfu i'r hyglod Christmas Evans ymuno â'r eglwys yn Mhen rhiw, tu a'r un amser a Mr. Davies, ac ymadawodd y ddau a hi yn dra buan; aeth y naill at yr Annybynwyr, a'r llall at y Bedyddwyr, a buant am flyneddau lawer, yn weinidogion tra enwog a chymeradwy, gyd a'r ddau Enwad. Trwy ryw foddion, anhysbys i ni, gweithiodd Ysbryd yr Arglwydd feddwl Mr. Davies i'r fath wasgfa am ei gyflwr fel pechadur colledig, nes y bu ei reswm ar fin cael ei ddymchwelyd o'i orsedd; ond yn ofer y buasai yn troi at neb o'i gyd aelodau yn Mhen rhiw, am gysur a chyfarwyddyd yn wyneb ei deimladau trallodus. Pe buasai dadl ar ryw gangen o'r athrawiaeth, neu ymgomiad ar hynafiaethau, daiaryddiaeth, neu feirniadaeth ysgrythyrol, yn gwneyd y tro, gallasai gael digon o hyny yn eu plith hwy; ond yr oedd yn rhaid iddo droi i rywle arall, i ymofyn am gyfarwyddyd, i liniaru loesion cydwybod archolledig. Yn y cyfamser, pan y teimlai ei hun ar fin dystryw, daeth i adnabyddiaeth â rhai o aelodau yr hen eglwys annybynol yn Mhen cadair; yr hon oedd y pryd hyny dan ofal y Parch. William Perkins. Efe a aeth yno, lle y clywodd efe eiriau a fendithiwyd i dawelu ei fynwes derfysglyd ef; ac efe a ddaeth i fwynhad o dangnefedd yr efengyl; a chafodd ei dderbyn i fod yn aelod o'r eglwys hono. Ni fu Mr. Davies yn hir wedi ymuno â'r gymdeithas grefyddol yn Mhen cadair, cyn i'w wybodaeth grefyddol, ei brofiad ysbrydol, a'i ddoniau toddedig mewn gweddi, dueddu y gweinidog a'r eglwys, i'w anog i arfer ei ddoniau fel pregethwr. Cydsyniodd yntau â'r annogaeth a gafodd gan yr eglwys, a thraddododd ei bregeth gyntaf, mewn annedd-dy bychan yn mhlwyf Llangeler; ac nid yw y ffaith yn annheilwng o'i chofnodi, mai yn yr un annedd-dy, ac o fewn yr un wythnos, y traddododd Christmas Evans ei bregeth gyntaf. Ymddengys i hyn gymeryd lle yn y flwyddyn 1784, neu 1785; ac yn fuan wedi iddo ddechreu pregethu, tynodd ei ddoniau di gyffelyb, sylw neillduol, a chyrchai torfeydd lluosog i'w wrando, pa le bynag y cyhoeddid ef i bregethu. Ar ol bod yn pregethu yn Mhen cadair a'r eglwysi cymmydogaethol am rai blyneddoedd, gyda chymeradwyaeth neillduol, efe a urddwyd yn gyd-weinidog â'r Parch. John Lewis, yn y Dre fach, gerllaw Llangeler, yn y flwyddyn 1790; a chyn pen y dwy flynedd wedi ei urddiad, aeth y gynnulleidfa yn rhŷ luosog i addoldy bychan y Dre fach i'w chynwys; fel y penderfynwyd adeiladu addoldy helaethach, mewn man mwy canolog, a mwy cyfleus i'r ardal; a galwyd ei enw Saron. Talwyd am dano ar unwaith, a gorlanwyd ef o aelodau, a gwrandawyr. Ni chyfyngai Mr. Davies ei lafur gweinidogaethol i ardal Llangeler; ond cymerodd hefyd ofal yr eglwysi yn y Neuadd-lwyd, swydd Aberteifi, a Gwernog-le, swydd Gaerfyrddin. Pregethai un Sabbath yn y mis yn mhob un o'r lleoedd hyn; a bu ei weinidogaeth yn foddion i roddi bywyd newydd i'r achos yn y ddau le, fel y daethant yn fuan, o fod yn gynnulleidfaoedd bychain, marwaidd, a di galon, i fod yn eglwysi lluosog, bywiog, a blodeuog. Ar ol llafurio yn Llangeler, Neuadd-lwyd, a Gwernogle, am bum mlynedd, gyda llwyddiant ac arddelwad anghyffredin, derbyniodd Mr. Davies alwad oddiwrth yr eglwysi yn y Mynydd bach, a'r Scetty, gerllaw Abertawe, i ddyfod yn olynydd i'r hybarch Lewis Rees; yr hwn, ar gyfrif ei henaint a'i lesgedd, a roddasai ofal gweinidogaethol yr eglwysi i fynu; ac yr oedd efe yn un o'r rhai a law-nododd yr alwad i Mr. Davies, i gymeryd eu gofal yn ei le ef. Yr oedd agwedd foesol Abertawe a'i hamgylchoedd, yn annysgrifiadwy o resynol pan y daeth Mr. Davies i fyw i'r ardal. Y Mynydd bach,

Digitized by Google

a'r Scetty, oeddynt yr unig eglwysi perthynol i'r Annybynwyr, o fewn saith milldir i Abertawe; ac nid oedd y ddwy eglwys hyny ond bychain iawn y pryd hyny, mewn cydmariaeth i'r hyn ydynt yn awr; ac eto y pryd hwn, nid oes dim llai na deunaw o eglwysi Cymreig, ac amryw o honynt yn gryfion, a lluosawg iawn, yn Abertawe, a'r wlad o'i hamgylch.

Abertawe oedd un o'r manau cyntaf y gosododd Ymneillduaeth ei throed i lawr ynddo yn Nghymru; canys ymddengys i eglwys Annybynol gael ei chasglu yma, trwy lafur yr hyglod Ambrose Mostyn, a'r Cadfridog Phylip Jones, Pentwyn, Llangyfelach, cyn toriad allan y rhyfel cartrefol, yn 1642, yn dra buan ar ol sefydliad yr eglwysi yn Llanfaches, Mynydd-islwyn, a Chaerdydd. Yn y flwyddyn 1662, trowyd Daniel Higgs, A.C., a Marmaduke Mathews, allan o lanau y dref; ac yn fuan wedi hyny, daeth yr Annghydffurfwyr enwog, Stephen Hughes, Meidrym; Dafydd Jones, Llandyssilio; William Thomas, A.C.; a Meredydd Davies, Llanon; i drigianu yn y dref a'r gymmydogaeth; a thrwy hyny, cadwyd Annghydffurfiaeth yn fyw yma, er llymder yr erlidigaeth. Tu a'r flwyddyn 1688, adeiladwyd capel bychan yn agos i High Street, yr hwn erbyn y flwyddyn 1697, a aethai yn rhŷ fychan i'r gynnulleidfa; fel y bu raid iddynt adeiladu un mwy, ac ardrethu yr hen gapel i'r Bedyddwyr. Yn y flwyddyn 1715, yr oedd y gynnulleidfa hon yn 250 o rif, ac yn cynwys ynddi amryw deuluoedd cyfrifol. Yn gynnar yn y ddeunawfed ganrif, deallid fod y gynnulleidfa yn y lle hwn yn gogwyddo at Ariaeth, os nid Sosiniaeth noeth. Ymddengys fod y gwasanaeth cyhoeddus yn y lle hwn, yn cael ei ddwyn yn mlaen, agos yn gwbl yn yr iaith Saes'neg, o'r dechreuad; fel nad oedd wedi bod erïoed o nemawr wasanaeth i'r werin Gymreig yn y dref hon a'i hamgylchoedd; a daeth i ran Mr. Davies, i ail gychwyn Annybyniaeth yn Abertawe. Yn mhen ychydig wedi ei sefydliad yn y Mynydd bach, efe a ardrethodd ystafell yn Heol y castell, at gynnal moddion cyhoeddus. Cafodd y lle hwnw ei orlenwi â gwrandawyr cyson yn dra buan: ac am hyny, yn y flwyddyn 1803, adeiladwyd capel Ebenezer, yr hwn a agorwyd ar y 9fed a'r 10fed o Fai, 1804. Yr oedd y capel hwn y pryd hyny, yn un o'r rhai mwyaf yn Nghymru; ond aeth yn fuan yn annghyfleus o fychan, i gynwys y lluaws gwrandawyr a gyrchent iddo; felly fe'i helaethwyd yn y flwyddyn 1826; a thrachefn, tu a'r flwyddyn 1866, fe'i hail adeiladwyd; fel y mae erbyn hyn yn fwy na chymaint arall ag ydoedd ar y dechreu.

Wedi casglu cynnulleidfa luosog yn y dref, a chael gwasanaeth yr enwog Daniel Evans, fel ei gyd weinidog, ymadawodd Mr. Davies â'r eglwysi yn y Mynydd bach, a Threforus; a chyfyngodd ei lafur gweinidogaethol i eglwysi Ebenezer, a'r Scetty; ond ymwelai hefyd yn fisol, cyhyd ag y parhaodd ei nerth, â'r ddïadell fechan a gasglasid ganddo yn Nghlydach. Fe ddichon na fu un gweinidog yn Nghymru, nac un wlad arall, yn fwy llafurus, gartref ac oddi cartref, gyd ag achos ei Feistr mawr, na David Davies. Teithiodd lawer trwy Ddeheudir a Gogledd Cymru, gan bregethu i dorfeydd lluosog, ddwy waith neu dair yn y dydd, ar ei deithiau.

Dyn *cyhoeddus* ydoedd Davies, yn llawn ystyr yr ymadrodd; a bu fyw a marw yn ngwasanaeth y cyhoedd. Yr oedd ei gyfansoddiad corfforol lluniaidd a chyd-nerth, ei wynebpryd hawddgar a siriol, ei lygaid treiddgar, ei lais soniarus, yn gystal a'i alluoedd meddyliol, a'i dduwiolfrydedd dwfn, oll wedi cyd-gyfarfod ynddo, er ei wneyd yn un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd yn ei oes.

Er holi degau o bobl a'i hadwaenent yn dda, ac a gawsent gyfle i'w wrando yn fynych yn ei ddyddiau gorau, yr ydym yn fyr o gael darluniad cyflawn a boddhaol o hono fel pregethwr. Yr atteb cyffredin a roddid i ni ydoedd, mai y pregethwr rhyfeddaf, a mwyaf effeithiol a glywsent erïoed ydoedd. Ymddengys bod yr olwg arno, pan gyfodai mewn areithfa, neu ar esgynlawr, yn hynod o darawiadol. Yn y cyffredin, byddai yn pregethu yn olaf o dri, yn yr oedfa ddeg o'r gloch, yn y Cymmanfaoedd, a'r cyfarfodydd cyhoeddus eraill; a pha mor ragorol bynag a fuasai y ddau bregethwr blaenorol, odid na fuasai llawer o'r dorf yn eistedd ar y cae, neu yn lled-orwedd ar ochrau y cloddiau; ond, can gynted ag yr ymddangosai Davies ar yr esgynlawr, cyfodai pawb, ac ymwasgent yn mlaen hyd y gallent; a byddai pob llygad a chlust yn y dorf fawr, yn hoeliedig ar unwaith; ac yn ymddangos yn awyddus i ddal ar bob gair, ac i graffu ar bob ysgogiad o eiddo y pregethwr. Cerddai ei lais fel gwefr trwy yr holl gynnulleidfa, pan yn rhoddi penill allan i'w ganu, er na byddai yn parablu namyn mewn cywair hollol naturiol, heb roddi un math o dôn i'w lais. Yr oedd yn wahanol braidd i bob pregethwr arall; canys pa uwchaf y dyrchafai ei lais, pereiddiaf a fyddai.

Llefarai yn yr awyr agored, ar ddiwrnod tawel, yn ddigon uchel i fod yn glywedig am ddwy neu dair milldir o bellder. Byddai y bendefiges dduwiol hono, yr arglwyddes Barham, yn ei wrandaw yn fynych; a phob tro ei gwrandawai, ni's gallai ei harglwyddiaeth ymattal rhag wylo yn hidl, er na ddeallai un gair a lefarai. Yr oedd dull ei wynebpryd, ysgogiadau ei freichiau, a sain ei lais, yn gadael yr argraff ar feddwl pob un a'i gwelai, ac a'i clywai, mai un yn teimlo pwys y gennadwri a draddodai ydoedd; a thrwy hyny, gorfodai eraill i deimlo, hyd yn nod pan na byddent yn deall yr iaith yn yr hon y llefarai. Cofnodir enngrhaifft gyffelyb gan y diweddar Barch. James Griffiths, Tyddewi. Dywaid ei fod ef yn sefyll yn nghanol y dorf, yn ymyl boneddiges Seis'nig, mewn Cymmanfa yn sir Benfro, pan yr oedd Mr. Davies yn pregethu. Yn fuan wedi i'r pregethwr ddechreu trin ei fater, gwelai y dagrau mawrion yn treiglo i lawr dros ruddiau y foneddiges; a pharhaodd i wylo drwy y bregeth. Ar y diwedd, trodd Mr. Griffiths atti, a gofynodd paham yr oedd hi yn wylo, gan nad oedd yn deall iaith y pregethwr. I'r hyn yr attebodd, gan ddywedyd, "Pa fodd y gallaswn beidio wylo, pan yr oedd pawb o'm hamgylch yn foddfa o ddagrau?" Ac y mae y chwedl a adroddir gan Dr. William Rees, yn Nghoffadwriaeth ei dâd, yn deilwng o'i chof-nodi yma, fel eglurhad â phrawf o'i ddylanwad mawr fel pregethwr:—"Dygwyddodd fy nhad fyned ar neges i Ddinbych unwaith, ar ddiwrnod cyfarfod blyneddol yr Annibynwyr; ac aeth i wrando y pregethau, am ddeg, a dau; a chafodd y fath hyfrydwch, fel yr arferai fyned yno i'r Cyfarfod blyneddol ar ol hyny, am amryw flyneddoedd. Adroddai am un cyfarfod hynod. Yr oedd Gweinidog dyeithr o'r Deheudir, yn pregethu am ddau o'r gloch, gyda nerth ac effeithioldeb anarferol. Yn mysg y gwrandawyr, yr oedd yr hen William Lewis, fel ei gelwid ef, o Ddinbych y pryd hyny; ond a symudodd ar ol hyny

Digitized by Google

i Fôn. Yr oedd William Lewis yn bregethwr tanllyd iawn gyd a'r Methodistiaid, a llais fel udgorn ganddo. Yr oedd ei deimladau wedi eu cyffroi yn fawr er ys meityn, dan bregeth y gwr dyeithr; ac ar ganol yr hwyl, adroddodd y pregethwr y darn penill:—

"Ca'dd ddwfr o'r graig, ca'dd fanna gwiw,
Dan Sinai fe'i cynhaliodd Duw,
Er saled oedd ei drŷch."

Tarawodd y llinell—"*Dan Sinai fe'i cynhaliodd Duw,*" y gynulleidfa fel trydan; a thorodd William Lewis allan mewn banllef fawr, gan ddywedyd, "O diolch! dô, Dan Sinai fe'i cynhaliodd Duw! y man mwyaf ofnadwy y bu dynion ynddo erioed! Ond, fe'i cynhaliodd Duw hi yno! Do, ac fe'm cynhaliodd inau yno hefyd, er saled oedd fy nrŷch." Yr oedd hyny yn ddigon, wedi i William Lewis agor yr adwy, torodd y llifeiriant i mewn, ac aeth y gynulleidfa yn gyffredinol, i waeddi a molianu.

Er mai yn ei alluoedd di gyffelyb y rhagorai Mr. Davies, eto nid yw yn anenwog fel Awdwr. Ei brif waith yw ei Feibl Teuluaidd, gyda Sylwadau eglurhaol ar bob pennod. Efe a fu farw, cyn llawn orphen y gwaith hwn; a chan y diweddar Barch. D. Davies Pant teg, yr ysgrifenwyd y Sylwadau ar lyfr y Datguddiad. Y mae hwn yn argraffiad hardd a chywir o'r Beibl Cymraeg; ac yn cynnwys ar odreu y dail, gannoedd o sylwadau esboniadol ac ymarferol, nodedig o darawiadol, a melus. Cyfansoddodd hefyd amryw Emynau Cymraeg rhagorol, yn y rhai y gwel y craffus, y gallasai efe ennill safle uchel fel Bardd, pe y buasai wedi ymroddi i roddi mwy o feithriniad i'r awen.

Bu y gwr da hwn farw, er galar i filoedd, Rhag. 26, 1816, pan nad oedd namyn 53 mlwydd oed; a chladdwyd ef mewn daiargell, gerllaw addoldy Ebenezer.

**DAVIES**, DAVID, athraw duwinyddol, coleg y Bedyddwyr yn Hwlffordd, ydoedd fab i Benjamin Davis, gweinidog cyntaf y Bedyddwyr yn y dref hono. Cafodd addysg dda pan yn ieuanc; ac yn y flwyddyn 1818, derbyniwyd ef i athrofa y Fenni, ac efe yn 18 mlwydd oed. Cynaliwyd ef yn y Fenni, gan athrofa Stepney; ac wedi bod yno am ddwy flynedd, aeth i Stepney i orphen ei addysg. Wedi hyny efe a ymsefydlodd yn Evesham, yn gyd weinidog a Laurence Butterworth; ac wedi marwolaeth Mr. Butterworth, efe a gymerodd holl ofal yr eglwys, a llafuriodd yno yn llwyddianus hyd 1837, pryd y derbyniodd alwad ei fam-eglwys yn Hwlffordd.

Pan sefydlwyd Coleg Hwlffordd yn 1839, efe a etholwyd yn Llywydd, ac Athraw Duwinyddol; yr hon swydd, yn nghyda gweinidogaeth yr eglwys, a lanwodd yn effeithiol hyd ei farwolaeth, Mawrth 19, 1856; gan ddysgu yn y cyfamser, amryw o ugeiniau o fechgyn ieuainc i'r weinidogaith.

**DAVIES**, DAVID DANIEL, M.D., a anwyd yn mhlwyf Llandyfaelog, swydd Gaerfyrddin, yn y flwyddyn 1777. Amaethwr bychan cyfrifol, o'r enw Daniel Davies, yn byw ar ei dir ei hun, oedd ei dad: ac efe oedd yr hynaf o dri o feibion. Derbyniodd elfenau ei addysg, yn Ysgol Ramadegol Caerfyrddin; yn 1793, symudwyd ef i Goleg Northampton, lle yr arhosodd hyd 1798, pryd y derbyniwyd ef i Brif ysgol Glasgow, lle yr enwogodd ei hun, ac y graddiwyd ef yn M.A., ac wedi hyny yn M.D. yn y flwyddyn 1801. Treuliodd y deng mlynedd cyntaf o'i fywyd proffeswrol yn Sheffield, yn un o feddygon y Sheffield General Infirmary. Yn 1811, gwnawd ef yn aelod o Goleg Physygwyr Edinburgh; ac yn mhen dwy flynedd wedi hyny, symudodd i Lundain, a daeth yn aelod trwyddedig o Goleg Breiniol y Physygwyr. Hyd y pryd hwn, yr oedd yn gweinyddu fel physygwr cyffredinol. Yn 1816, cyhoeddodd gyfieithiad dillyn o draethawd enwog Pinel ar *Wallgofrwydd*, i'r Saesneg. Ysgrifenodd hefyd yn y blynyddoedd hyny, aml i erthygl alluog ar destynau meddygol, i'r *Edinburgh Review;* a thraddododd amryw ddarlithiau ar ei gelfyddyd. Yn 1813, symudodd i Lundain, a phenodwyd ef yn physygwr i Ysbytty Bydwreicol y Frenhines Charlotte. Yn 1815, dechreuodd draddodi darlithiau ar Fydwreiciaeth; ac yn 1816, penodwyd ef yn physygwr i'r *Royal Maternity Charity.* Yn 1819, gan ei fod wedi cyrhaedd pinacl enwogrwydd, efe a gafodd yr anrhydedd o fod yn physygwr i'r Dduges o Caint, ar achlysur genedigaeth y frenhines Victoria; ac oddiar hyny, anrhydeddwyd ef a chyfeillgarwch Dug Caint, hyd ei farwolaeth. Bu Dr. Davies yn traddodi darlithiau ar Fydwreiciaeth, a gwahanol anhwylderau gwragedd a phlant, am saith mlynedd ar hugain; ac ni bu dim llai nag un-cant-ar-ddeg yn derbyn addysg ganddo. Yn 1825, efe a orphenodd ei lyfr ar Fydwreiciaeth Offerynol, yn mha un yr eglurai ei syniadau ar y gelfyddyd, ac y dysgrifiai yr offerynau a ddyfeisiodd ef flynyddau cyn hyny, at y gelfyddyd. Yn 1836, efe a gyhoeddodd mewn dwy gyfrol, 4to, ei waith mawr ar Physygwriaeth Fydwreicol, yn cynwys ffrwyth profiad helaeth, yn nghydag ymchwiliad manwl i lenyddiaeth y pwnc. Heb fod yn hir ar ol hyn, ymddangosodd ei waith ar Ben-ddyfredd (*hydrocephalus*), amcan yr hwn oedd dileu y syniad cyffredin, bod yr afiechyd hwnw yn anfeddyginiaethol; a phrofi ei fod yn hawdd i'w wella, os trinid ef mewn pryd. Yn 1825 etholwyd ef i gadair bydwreiciaeth Coleg Llundain; ar agoriad y sefydliad hwnw yn Hydref 1828, efe a ymgymerodd a'i swydd; a phan sefydlwyd Ysbytty Gyffredinol mewn cysylltiad a'r coleg, penodwyd ef yn physygwr yno hefyd, ar y gangen hono o feddyginiaeth. Parhaodd yn y swyddau uchel a phwysig hyn, gan ymenwogi fel dysgawdwr rhagorol, a meddyg medrus, hyd ei farwolaeth, Rhagfyr 4, 1841.

**DAVIES**, SYR DAVID, K.C.H., M.D., ydoedd fab i Robert Davies, Llwyn, swydd Aberteifi. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1793. Ymgyflwynodd at y wyddor o feddyginiaeth, o'i ieuenctyd; bu yn dilyn ei alwad am flynyddau yn Hamton, Middlesex; a daeth mor enwog yn ei gelfyddyd, fel y cafodd ei benodi yn feddyg teuluaidd i'r brenin Gwilym IV. a'r Frenhines Adelaide. Yr oedd yn gweinyddu i'w Fawrhydi ar ei wely angau, a derbyniodd ganddo Yr *Urdd Guelphaidd*. Ar esgyniad Victoria i'r orsedd, hi a'i gwnaeth ef yn farchog. Bu farw yn Lucca, yn yr Eidal, Mai 10, 1865, yn 72 mlwydd oed.

**DAVIES**, EDWARD, a anwyd yn mhlwyf Llanfareth, swydd Faesyfed, yn y flwyddyn 1756, lle yr oedd ei dad, Edward Davies, yn ammaethu ettifeddiaeth deuluaidd fechan, a berthynai i'w frawd henaf; ac yr oedd ei hynafiaid, dros amryw genedlaethau, mewn cymeriad uchel yn mhlith tir-feddianwyr y wlad hono. Derbyniasai ei addysg foreuol oddiwrth amryfal athrawon; ond yn y flwyddyn 1774, efe a ddodwyd yn ysgol ramadegawl coleg Aberhonddu. Un o'i gyd ysgolorion yno, oedd Theophilus Jones, yr hwn wedi hyny a gyrhaeddodd enwogrwydd mawr

Digitized by Google

fel Hanesydd swydd Frycheiniog; ei gyfeillgarwch â pha un a derfynodd yn unig gyd a'i farwolaeth, yn y flwyddyn 1812. Wedi aros flwyddyn yn Aberhonddu, efe a agorodd ysgol yn y Gelli, ar ei gyfrifoldeb ei hun, yn 1775; ac yn 1779, efe a ordeiniwyd yn ddiacon i guradiaeth Bacton, yn swydd Henffordd; yr hon, yn nghyd ag eglwysi St. Margaret, a Turnaston, y bu raid iddo eu gwasanaethu yn ddi dâl am flwyddyn; yn fuan wedi hyny, efe a symudodd i guradiaethau Dorston, a Peterchurch, y rhai y parhaodd i'w gwasanaethu, yn nghyda Turnaston, hyd ddiwedd y flwyddyn 1782. Ar y pryd hwn, efe a ddarllenai y gwasanaeth eglwysig bum gwaith, ac a bregethai dair gwaith, bob Sabbath, gan deithio uwchlaw deng milldir ar hugain; ac am yr holl lafur yma, ni dderbyniai namyn deg punt ar hugain yn y flwyddyn; a'r llafur enfawr yma, a osododd sail anhwyldeb yn ei natur, oddiwrth yr hwn ei blinid weddill ei oes. Yn y flwyddyn 1783, efe a symudodd o'r Gelli, ac a gymerodd ofal ysgol ramadegol yn Chipping Sodbury, yn swydd Gaerloyw; yr hon, yn nghyd a llithwrfa y plwyf hwnw, a churadiaeth Badminston Fawr, a ddaliodd efe dros un flynedd ar bymtheg. Yn y flwyddyn 1784, efe a gyhoeddodd ei waith llenyddol cyntaf, dan yr enw "Aphtharte," neu "Athrylith Prydain," pryddest wedi ei hysgrifenu yn chwaeth yr unfed ganrif ar bymtheg; ac yn fuan wedi hyny, "Vacunalia, cynnwysedig o Fyr-draithiadau mewn mydr, ar amrafael destunau; yn nghyda rhai cyfieithiadau." Yn y flwyddyn 1795, efe a gyfansoddodd ffug-hanes, dan yr enw "Eliza Powell," &c., yr hon a gyhoeddwyd mewn dwy gyfrol; ac am yr hon y derbyniodd efe ugain guni, yr unig swm a dderbyniodd efe yn union-gyrchol, am yr un o'i gyfansoddiadau llenyddol. Yn y flwyddyn 1799, efe a symudodd i Olveston, lle y cawsai guradiaeth.

Yn y flwyddyn 1802, efe a gafodd ei ddyrchafiad eglwysig cyntaf, trwy gael ei gyflwyno i guradiaeth barhaol Llanbedr, swydd Faesyfed; ac yn y flwyddyn 1805, darfu i'r Dr. Watson, esgob Llandâf, roddi bywioliaeth Bishopston, ger Abertawe, iddo. Wedi anhawsderau mawrion, efe a lwyddodd o'r diwedd i gyhoeddi ei "*Celtic Researches*," 8 plyg, yn y flwyddyn 1804; ac yn 1809, ei "*Mythology of the Druids*," 8 plyg. Y gweithiau hyn a'i cyfodasant i'r radd flaenaf fel ysgrifenydd ar hanes a defodau yr hen Gymry; ac y maent yn arddangos mewn modd nodedig, ymchwiliadau dwfn yr awdwr, a'i fedrusrwydd meistrolgar i drin testunau mor ddyrus; a chawsant gymeradwyaeth gynes dynion mwyaf enwog ei oes. Yn y flwyddyn 1811, efe a gyhoeddodd gyflyfr, yn cynwys "Cyfres o Bregethau, ar Undeb Eglwysig," y rhai a gyfrifir yn mysg y rhai goreu ar y testun, yn yr iaith Saesonaeg; ac fel tystiolaeth o'i gymeradwyaeth, rhoddodd yr Esgob Burgess brebenduriaeth Llangunllo, yn eglwys golegawl Aberhonddu, iddo. Yn y flwyddyn 1816, efe a gyhoeddodd Draethawd o'r enw "Immanuel, Llythyr ar Esaiah vii. 14, mewn attebiad i Sylwadau beirniadol Iuddew diweddar;" ac yn yr un flwyddyn, efe a gyflwynwyd i reithoriaeth Llanfair Oerllwyn, yn Ngheredigion, a changelloriaeth eglwys Aberhonddu. Ar derfyn y flwyddyn 1823, ei olwg a ballodd agos yn hollol yr hwn a fuasai yn anmharus bron drwy ei oes, mewn canlyniad i ddamwain a ddygwyddasai iddo, pan oddeutu chwe mlwydd oed. Yn y flwyddyn 1824, efe a etholwyd, ar gyfrif ei ddysgeidiaeth, yn un o ddeg Cymrawd o'r Gymdeithas Lenyddol Freninol, yr hyn a roddai hawl iddo ar gan guni yn y flwyddyn. Yn y flwyddyn 1825, ymddangosodd ei Draethawd rhagorol ar "Hawlion Ossian," 8 plyg.

Yn ngwanwyn y flwyddyn 1828, efe a gafodd gystudd trwm, o'r hwn yr ofnid na buasai yn cael adferiad; ond trwy ofal mawr, a gweinyddiad meddygol rhagorol, dan fendith Ddwyfol, efe a adferwyd i'w iechyd arferol dros beth amser, mewn ymddangosiad a leiaf. Ond yr oedd gwendidau henaint yn gwasgu arno; a hyny, yn nghyd a'r diffyg o ymarferiad, a barodd i'w goesau chwyddo, ac yn y diwedd, dori yn friwiau cyndyn yn nghorph y flwyddyn 1830; ac ni's gallai fyned allan o'i dŷ, wedi dechreu Hydref, y flwyddyn hono. Bu farw yn dawel, ar y 7fed o Ionawr, 1831, yn y 75ain mlwydd o'i oedran.

O ran corpholaeth, yr ydoedd o daldra canolig; ac yn ei ieuenctyd, yr ydoedd yn lled eiddil; ond fel yr heneiddiai, deuai yn fwy corphol. Yr ydoedd mor wylaidd a di ymffrost yn ei alluoedd, fel y byddai yn y cyffredin yn dawedog mewn cymdeithas, yn enwedig yn mhresenoldeb dyeithriaid; a chan mai gwrthwynebiad i'w olygiadau ar amryfal destunau, a fuasai yn foddion i'w gyffroi i ymgymeryd a'i brif gyfansoddiadau llenyddol, byddai y rhai oeddynt yn fwyaf adnabyddus o'i gymeriad, yn haeru yr hyn y gwyddent ei fod yn wrthwynebol i'w farn weithiau, er mwyn ei dynu allan i ymadroddi.

Pan gymerer i ystyriaeth, leied o fanteision addysg uchraddol a gawsai yn moreu einioes, a maint y llafur y gorfyddai ei gyflawni fel offeiriad ac ysgolfeistr, y mae yn syn gynnifer o ieithoedd a feistrolwyd ganddo. Heblaw ei gydnabyddiaeth â'r Gymraeg, y Gaelaeg, a'r Wyddelaeg; o'r hyn y cair profion digonol yn ei gyfansoddiadau, yr oedd efe hefyd yn lled hyddysg yn y Ffrancaeg, yr Eidalaeg, yr Hebraeg, y Groeg, a'r Lladin; fel y mae yn amlwg mai oes dra llafurus oedd ei oes ef; a'i fod yn deilwng o goffadwriaeth barchus.

**DAVIES**, Evan, y cenadwr i China, a anwyd yn Hengwm, plwyf Lledrod, swydd Aberteifi. Ar farwolaeth ei fam, pan oedd efe yn dair oed, symudodd ei dad i Lundain, gan ei adael ef o dan ofal modryb iddo; a chafodd ei brentisio gyda masnachydd yn yr ardal; ond ar ol gorphen ei brentisiaeth, efe a aeth ar ol ei dad i Lundain. Ymunodd yno â'r eglwys Annibynol yn Little Guildford Street, Southwark. Wedi dechreu pregethu, anfonwyd ef i ysgol Neuaddlwyd, o dan ofal Dr. Philips; ac oddi yno i'r *Western Academy*, yn Exeter, tan lywyddiaeth Dr. George Payne, lle yr enillodd safle uchel ar gyfrif ei alluoedd meddyliol, a'i dduwioldeb. Wedi gorphen ei addysg, ymsefydlodd yn weinidog yn Great Torrington, Devon. Ond yr oedd ei fryd ar fod yn genadwr; a chafodd ei dderbyn gan Gymdeithas Genadol Llundain. Urddwyd ef yn nghapel Wickliffe, Ebrill, 1835, i fyned allan yn genadwr i China, ac ymsefydlodd yn Penang. Llwyddodd yn fuan i ddysgu y Chinaeg nes oedd yn alluog i gynal ysgol Gristionogol i'r plant brodorol. Ond yn mhen pedair blynedd, methodd ei iechyd, a gorfu iddo ddychwelyd adref. Yn 1842, penodwyd ef yn arolygydd ar y *Boy's Mission School*, yn Walthamstow, lle yr arosodd am ddwy flynedd, hyd oni dderbyniodd alwad yr eglwys Annibynol yn Richmond. Llafuriodd yno yn llwyddianus iawn, am dair blynedd ar ddeg, pryd y gorfod-

Digitized by Google

wyd iddo roddi gofal yr eglwys i fyny, oblegyd ei afiechyd; ond ar ei ymadawiad, dangosodd yr eglwys ei gwerthfawrogrwydd o hono, trwy ei anrhegu a £200. O hyny allan, bu yn symud o fan i fan, gan geisio cael adnewyddiad iechyd; ond ymwaethygu yr oedd yn barhaus, a bu farw Gorphenaf, 18, 1864.

Yr oedd Mr. Davies yn ysgolhaig gwŷch, yn feddyliwr dwfn, ac yn awdwr o gryn fedrusrwydd. Er ei holl wendid, efe a adawodd y gweithiau canlynol ar ei ol:—"*China and her Spiritual Claims;*" "*Memoirs of the Rev. Samuel Dyer;*" "*Rest: Lectures on the Sabbath;*" "*An Appeal to the Reason and the good Conscience of Catholics.*" Efe a adolygodd hefyd y gweithiau canlynol:—"*Letters of the Rev. Samuel Dyer to his Children;*" "*Lectures on Theology, by the late Dr. Payne;*" "*The Works of Dr. Edward Williams, of Rotherham.*"

**DAVIES**, Henry, yr hynaf, o Langloffan, ydoedd un o enwogion y Bedyddwyr yn Nghymru, yn niwedd y ganrif ddiweddaf, a dechreu yr un bresenol. Mab ydoedd i dyddynwr bychan yn ardal Trelettert, swydd Benfro, ganwyd ef yn 1753. Yr oedd ei rieni yn aelodau yn eglwys y Bedyddwyr yn Llangloffan; ac yn bobl a ymdrechent ddwyn eu plant i fyny yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Henry oedd yr ieuangaf o bedwar o blant; bu farw ei dad, pan oedd efe yn saith mlwydd oed, yna gwaethygodd amgylchiadau y weddw a'i hamddifaid, fel y methodd roddi iddynt ond ychydig o addysg ddyddiol; ond er hyny cafodd Henry ddigon i'w alluogi i wneyd defnydd rhwydd o'r iaith Saesneg, yr hyn a brofodd yn fendith fawr iddo ar hyd ei oes. Dygwyd ef i fyny yn grŷdd, a dilynodd yr alwedigaeth, hyd nes oedd tuag 20 oed. Bedyddiwyd ef ar broffes o'i ffydd yn Mab Duw, Tachwedd 28, 1772, pan yn 19eg oed. Dechreuodd bregethu Rhagfyr, 1775; ac ordeiniwyd ef, a Thos. Lewis, yr hwn oedd yn pregethu yn yr eglwys er's tuag ugain mlynedd, yn gyd weinidogion yn Llangloffan, yn y flwyddyn 1780. Yr oedd Thos. Lewis yn ddyn braidd yn ddiarebol o ddiniwaid, eto yn meddu synwyr cryf; ond yn hynod o farwaidd wrth bregethu, ac felly yn lled anmhoblogaidd. Ond yr oedd Henry Davies yn meddu galluoedd pregethwrol rhagorol,—yn un o'r *Boanerges*, ac yn hynod o boblogaidd; a byddai yr hen frodyr yn Llangloffan yn arfer dyweyd, mai hwy oedd y ddau ddyn mwyaf eu gras a adwaenent erioed, am nad oedd anmhoblogrwydd y blaenaf, yn ei ddigaloni, na phoblogrwydd yr olaf, yn ei falchio.

Yn fuan ar ol ei ordeinio, efe a briododd a Phebe Harry, merch i un o ddiaconiaid yr eglwys, ac aethant i fyw i Banteirig—ty sydd byth oddi ar hyny, wedi bod yn adnabyddus iawn yn mhlith enwad y Bedyddwyr; ganwyd iddynt bedwar o blant; un o ba rai oedd y diweddar Henry Davies o Langloffan, yr hwn a fu yn weinidog parchus, ac yn un o golofnau yr achos yn swydd Benfro, am lawer o flynyddoedd.

Fel y crybwyllwyd eisioes, yr oedd yn Henry Davies lawer iawn o elfenau gwir boblogrwydd; yr oedd yn un o bregethwyr "yr hwyliau mawr." Yr oedd wedi ei gynysgaeddu a chorff cryf, *dwylaw annghyffredin o fawr*, llais clochaidd, tymeredd wresog,—ag oedd yn ei wneyd yn agored i deimladau ofnus a phoenus iawn iddo ei hun yn y dechrau, ond wedi iddo unwaith ddechreu myned i mewn i'w bregeth, efe a fedrai gyfodi yn hynod o uchel. Yr oedd fel llong fawr, llawn hwyliau, yn alluog i ddal llawer iawn o'r awelon nefol, pan ddisgynent ar yr oedfa. Pan yn ddyn ieuanc yn pregethu unwaith yn y Castellnewydd, disgynodd colomen ar ei ysgwydd, ac arosodd yno gryn amser. Adweinid ef o hyny allan yn yr ardaloedd hyny, wrth yr enw "Y dyn a'r golomen;" ac mewn ardaloedd eraill, "Y dyn a'r llaw fawr." Efe oedd un o'r rhai cyntaf a bregethodd egwyddorion y Bedyddwyr yn Aberystwyth. Un tro yr oedd ef, a'i gyfaill John Reynolds, Felin ganol, yn dyfod ar eu taith trwy y wlad hono, ac yn bwriadu pregethu ar yr heol yn Aberystwyth gyda min yr hwyr; ond pan daethant i westty yn y dref—(y Talbot, feallai), dywedodd y gwestwr wrthynt, fod meibion y fall yn parotoi ar eu cyfer, ac yn bwriadu eu baeddu mor gynted ag y dechreuent bregethu; ond os oeddynt yn benderfynol o wynebu yr ystorm, y gallent gael myned i mewn i'w *Coach-house* ef, fel na fedrai neb ymosod arnynt o'r tu ol. Derbyniasant hwythau ei gynyg yn ddiolchgar. Dechreuodd John Reynolds yr oedfa, trwy ddarllen a gweddïo, yn hynod o ofnus a chrynedig; ac mor gynted ag y cododd Henry Davies i fyny, a chymeryd ei destyn, dyna y ceryg yn chwyrlïo o amgylch ei ben ef; cododd yntau ei law fawr i fyny, a gorchymynodd lonyddwch yn enw Brenin y Nefoedd; a chyn pen ychydig o fynydau, yr oedd nerthoedd y byd a ddaw i'w gweled yn gweithio ar y dorf, a'r dynion anystyriol ag oeddynt wedi ymgasglu yno i labyddio y pregethwyr, wedi eu llanw ag arswyd annaearol. Pan ddychwelodd y ddau bregethwr i'r gwestty, dyna bedwar o'r rhai ag oedd yn flaenoriaid y fyddin ddu, yn dyfod i mewn atynt, ac yn dyweyd, "Wŷr dierth, raid i chwi ddim talu am ddim yn y tŷ yma; mi dalwn ni am eich lle chwi a'ch cyfflylau bore foru; ac mi'ch hebryngwn chwi allan o'r dre' yn ddigon pell, fel na chaiff neb ymosod arnoch chwi." Ac yn unol a'u gair, talasant eu *bill* boreu dranoeth, ac hebryngasant y ddau bregethwr yn ddiogel, dros ben "Rhiw Glais!"

Yr oedd Henry Davies yn ddyn hynod am ragweled canlyniadau pethau mewn pryd. Nodwn un engraifft, sef amgylchiad tiriad y Ffrancod yn Mhencaer, yn agos i annedd-dy Mr. Davies, ar ddydd Mercher, Chwefror 22, 1797. Yr oedd efe ar y pryd, yn dychwelyd o gyfarfod chwarterol Bethel, Monachlog ddu, ac yn pregethu yr hwyr hwnw yn y Fagwyr goch fach, yn agos i Jabez. Boreu dranoeth yn ei wely, clywodd bod y Ffrancod wedi tirio yn Mhencaer. Brysiodd adref heb ei foreufwyd, a gorfu iddo gymeryd llawer o gwmpas, gan fod y gelynion yn lluosog rhwng Abergwaun a Phanteirig. Gadawodd ei gaseg, a'i oriawr, dan ofal hen wraig o gymydoges; ac aeth at y tŷ yn wyliadwrus; ond yn lle gwenau ei deulu, derbyniwyd ef yno gan ffrochiad saith o ddrylliau y gelyn, y rhai a anelid ato ar unwaith; a chan nad ufuddhai i fyned yn mlaen atynt, wrth iddynt amneidio arno, daeth y saith Ffrancwr allan ato, ac yspeiliasant ef o'r unig haner coron oedd yn ei logell; ac yna ymadawsant. Yr oedd Mrs. Davies, druan, ac ychydig o'r cymydogion gyda hi, yn ymguddio mewn eithyn; mewn cae cyfagos, yn ngolwg y tŷ; a rhai o honynt newydd fod yn gweddïo am gyfryngiad y Nef rhyngddynt a'u cyfyngder. Erbyn hyn, yr oedd y wawr yn ymdori, a gwelsant Mr. Davies yn dyfod at y tŷ, ac aethant yno ato ar frys. Ond er fod pawb yn newynog, nid oedd yno damaid o fara wedi ei adael gan y gelyn. Dechreuasant bobi bara haidd; ond

Digitized by Google

deuai y Ffrancod i mewn, a charient ef ymaith can gynted ag y byddai yn barod o hyd; fel y bu y teulu yn hir cyn gallu cael tamaid i dori eu hangen. Ond pan ddeallodd Mr. Davies fod eisieu ceirt ar y Ffrancod, i gludo eu peirianau, i fyned i ymosod ar Abergwaun, efe a anmharodd ei geirt yn ddioed, trwy dynu yr olwynion yn rhydd, a chuddio y byllt; fel na allent gael ei geirt ef, boed a fyno, i ymosod ar y dref. Dyma rag feddwl mewn adeg o gyfyngder—dyma ffyddlondeb i'w frenin! A phan lwyddodd tafod enllib i daflu drwgdybiaith ar Ymneillduwyr yr ardal hono, o fod a llaw yn nhiriad y gelynion yn Mhencaer, a bod Mr. Davies ar ben y graig yn eu cynorthwyo i dirio; ac yr anfonodd y llywodraeth ymchwilwyr i edrych i mewn i'r seiliau, adlewyrchodd y weithred uchod, lawer o anrhydedd ar gymeriad ein gwrthddrych; a daeth ef a'i frodyr allan, fel aur wedi ei buro trwy dân. Wedi iddo dreulio pum' mlynedd ar hugain yn y weinidogaeth, teithio llawer, pregethu yn galed, a bedyddio cymaint, os nad mwy na neb yn Nghymru, mewn can lleied a hyny o amser, efe a derfynodd ei yrfa mewn tangnefedd, ar y 9fed o Fai, 1825; a chladdwyd ef yn mynwent y Bedyddwyr, yn Abergwaun.

**DAVIES**, Howell, ydoedd frodor o Ddeheubarth Cymru, ac yn hanu o deulu parchus a chrefyddol. Amlygai syched am ddysgeidiaeth pan yn dra ieuanc; a chanfyddid yn amlwg ei fod yn feddianol ar athrylith fywiog a chref. Wedi iddo dreulio rhyw gymaint o amser mewn ysgol yn ei ardal gartrefol, rhoddwyd ef dan ofal yr "apostol Cymreig," fel y gelwid y Parch. Griffith Jones Llanddowror weithiau; a than hyfforddiad y gwr da hwnw, cynnyddodd Mr. Davies yn gyflym mewn hyddysgrwydd yn yr ieithoedd Lladin, a Groeg, ac mewn cangenau eraill o ddysgeidiaeth; er ei fod ar y pryd o gyfansoddiad llesg ac afiach. Yr ydoedd o dueddfryd tra difrifol o'i ieuenctyd; a than weinidogaeth effro Mr. Jones, efe a arweiniwyd i adnabyddiaeth gyflawnach o'i gyflwr wrth natur, ac i olygiadau eglurach ar "y gwirionedd, fel y mae yn yr Iesu;" ac yn fuan, tueddid ei feddwl yn grŷf at waith y weinidogaeth, er ei fod yn ystyried y swydd yn dra phwysig, a'r cyfrifoldeb cyssylltiedig â hi yn ofnadwy; ac wedi ystyriaeth ddifrifol, efe a benderfynodd ymofyn am urddau cyssegredig yn Eglwys Loegr. Ar ddydd ei urddiad, rhoddai y Parch. Gryffydd Jones hysbysiad o hyny i'r gynnulleidfa yn Llanddowror, a dymunai am gyd weddïau yr holl gynnulleidfa drosto, ar fod i Ben mawr yr Eglwys, dywallt ei Ysbryd arno, a'i wneuthur yn llwyddianus iawn yn ei weinidogaeth: a chafodd gweddïau y gynnulleidfa dduwiol-frydig hono eu hatteb ar ran y curad ieuanc mewn modd tra amlwg; canys efe a aeth allan yn Ysbryd a nerth Elïas, gan bregethu, nid ei hunan, ond Crist Iesu yr Arglwydd. Yr eglwys gyntaf y galwyd ef i weini ynddi, oedd Llys y frân, yn swydd Benfro; ond cafodd ei droi allan oddiyno yn fuan, o herwydd ei ffyddlondeb dros Grist, a'i eiddigedd yn erbyn annuwioldeb ei blwyfolion. "Mab y daran" ydoedd Mr. Davies, ac ni allasai hen Offeiriaid ffurfiol a deddfol yr oes hono, oddef ei weinidogaeth danllyd a deffrous. Bu yr eglwysi mwyaf yn Nghymru yn agored iddo, dros ryw yspaid; aeth y son am ei bregethu difrifol a nerthol, ar led y wlad; a chyrchai miloedd i wrando arno, pa bryd bynag y deallid ei fod i bregethu. Ond ar hyny, enynai digofaint yr offeiriaid di lafur a di dduw yn ei erbyn, gan eu bod yn teimlo bod ei ysbryd, a'i ymddygiad, yn eu condemnio hwy; cenfigenent wrth ei lwyddiant a'i boblogrwydd, a chauent ddrysau y Llanau yn ei erbyn, yn gyffredinol. Ar hyny, trodd yntau allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau, fel cenad anfonedig y nefoedd, gan gymhell pechaduriaid i gymodi â Duw yn Nghrist. Cefnogid ef yn hyn trwy esiampl ei hen athraw hybarch, Gryffydd Jones, yr hwn a bregethai yn y mynwentydd yn fynych, am nad oedd yr eglwysi yn ddigon ehang i gynwys y cynnulleidfaoedd a gyrchent i wrando arno. Yn y cyfamser, yr oedd Howell Harries, a Daniel Rowlands, gwŷr wedi eu bedyddio â'r un ysbryd ag ef, yn dechreu cyffroi rhanau eraill o'r Dywysogaeth; ac er nad ymddengys ei fod ef yn gwybod dim am y gwŷr hyn pan y dechreuodd ar ei lafur yn swydd Benfro, y mae lle i farnu na bu efe ddim yn hir wedi ei fwrw allan o Lŷs y frân, cyn dyfod i gydnabyddiaeth a hwy; ac y mae yn ddiameu i gydnabyddiaeth a gwŷr o'r un ysbryd ag yntau, ac yn cyrchu mor egnïol at yr un nod, fod yn gryfhad mawr i'w ddwylaw, ac yn achlysur i chwanegu llawer at faes ei lafur. Ffurfiwyd cyfeillgarwch agos rhyngddo a'r Parchedig George Whitefield hefyd, yr hwn yn fuan a'i dug i sylw Iarlles Huntington; ac ar gymhelliad taer y bendefiges urddasol hono, a'i chapelwr, ymwelai yr offeiriad Cymreig ieuanc a'r brif ddinas, a bu ei weinidogaeth yno, yn enwedig yn y Tabernacl, a Totenham Court, o fendith neillduol i laweroedd. Yn y canlyniad i hyn, efe a lafuriodd lawer ar wahanol adegau, hyd ddiwedd ei oes, yn nghapelau yr Iarlles, yn Brighton, Caerodor, a manau eraill; a dyferai ei weinidogaeth fel y gwlaw, er ffrwythloni y diffeithdir cras; ac yn ystod ei ymweliadau hyn â Lloegr, efe a gafodd fwynhau llawer o gymdeithas â'r cyfryw ddynion rhagorol a Romaine, Venn, Madan, &c.; a dylynid ei weinidogaeth âg arwyddion neillduol o'r ffafr Ddwyfol. Fe'n hysbysir iddo fod am ryw yspaid, yn gurad i'w hen athraw, y Parch. G. Jones, yn Llanddowror, lle y cerid ac y perchid ef yn fawr gan lawer; a lle y bu yn offerynol i ddychwelyd llawer o ddynion at Dduw, y rhai trwy eu hymarweddiad sanctaidd, a fuant yn harddwch i athrawiaeth Duw ein Hiachawdwr. Mewn amser, efe a symudodd oddiyno i Hwlffordd, lle y canfu yn fuan fod crefydd mewn cyflwr tra isel; yr ychydig a broffesent eu bod yn grefyddol, oeddynt yn llwfr a difywyd; a'r lluaws, yn llwyr ddïofal am bethau ysbrydol; ond ni bu efe yn gweinidogaethu yn hir yn y dref hon, cyn bod swn a chynwrf yn mysg yr esgyrn sychion; canys bendithiwyd ei lafur i ddwyn llaweroedd dan argyhoeddiadau dwysion; ac yn y canlyniad, cynniweirient, nid i gyfarfodydd llygredig, ac at eu cyfeillion gwammal ac ofer, ond at ŵr Duw, i ymofyn ag ef yn ddifrifol, pa beth a wnaent fel y byddent yn gadwedig. Y trallod hwn a gynnyddai am gryn amser, a llawer beunydd a chwanegid at y gymdeithas grefyddol. Ac ni chyfyngwyd y deffroad hwn i Hwlffordd yn unig, ond ymdaenodd dros holl sir Benfro, trwy ei lafur ef, a'r rhai a'i cynnorthwyent, megis Howell Harris, ac eraill o gynghorwyr boreuaf y Trefnyddion Calfinaidd. Yr oedd Mr. Howell Davies yn meddu ar raddau helaeth o wybodaeth, ac o gymhwysder i ddysgu eraill; ac yr oedd y cymhwysderau hyn o ddysgeidiaeth a hyawdledd, wedi eu cyssegru i weinidogaeth yr efengyl, trwy ei fod wedi ei eneinio yn helaeth â'r olew sanctaidd, yr hyn a barai iddo

Digitized by Google

ddysgleirio mewn prydferthwch a defnyddioldeb. Cyfrifid ef gan amryw, bron yn gyfartal â Daniel Rowlands o Langeitho, mewn doniau gweinidogaethol. Yr oedd ei dymherau yn hynaws, a'i ysbryd yn llawn o addfwynder yr efengyl; a pharai hyny i'w ymadrodd ddefnynu fel y gwlaw. Er ei fod wedi ei fendithio â doniau annghyffredinol, nid ei amcan ydoedd chwythu udgorn hunan-glod, ond pregethu yr efengyl yn ei symlrwydd, er llesâd i eneidiau dynion. Yr oedd efe wedi cael argyhoeddiad trwyadl o gyflwr truenus dyn wrth natur, am hyny ymdrechai i'w ddihuno i ystyriaeth o'i berygl, trwy weinidogaeth daranllyd y ddeddf; ac oddiar adnabyddiaeth brofiadol o ogoniant trefn iachawdwriaeth trwy Iesu Grist, efe a gyhoeddai y newyddion da gyda gwresawgrwydd, a blas annghyffredin. Ychwanegai at ei daerni, ddagrau o gydymdeimlad a'i wrandawyr, a thosturi attynt. Ac wedi iddo osod allan anchwiliadwy olud Crist, a gwahodd y pechadur tlawd, diofal, a di Grist, i ddyfod a chyfranogi o honynt; eto, gan ei fod yn gwybod na's gallasai un darbwylliad dynol lwyddo, efe a'u cyflwynai mewn ymbiliau difrifol, i ddylanwadau awdurdodol Ysbryd y gwirionedd. Ar yr achlysuron difrifol hyn, byddai ei wynebpryd, a phob gïeuyn iddo, yn llawn bywiogrwydd; a gellid dywedyd, mai iaith natur ei hunan, oedd pob ysgogiad o'r eiddo ef yn yr areithfa. Llefarai yn naturiol, oblegid llefarai yn deimladwy; yr oedd serchawgrwydd sanctaidd yn hynodi ei gyfarchiadau, a'i apeliadau at y gydwybod oeddynt yn ddwys ac argyhoeddiadol. Yr oedd pob peth a ddywedai yn dwyn arno argraff o ddiragrithrwydd, yr hyn y gall celfyddyd ei ddynwared, ond nid ei gyrhaeddyd byth. Mewn gair, yr oedd yr arddelwad Dwyfol yn amlwg ar ei weinidogaeth, fel ei dylynid âg argyhoeddiad a dychweliad lluaws llaweroedd. Deffrowyd amryw o offeiriaid, a gweinidogion, dan ei weinidogaeth gyffrous, fel yr aethant allan i gyhoeddi efengyl gras Duw, mewn eglwysi, tai annedd, ysguboriau, neu ar y maesydd, fel y byddai yn gyfleus iddynt.

Yr oedd perthynas neillduol rhwng Howell Davies â phedair o eglwysi y Trefnyddion Calfinaidd yn sir Benfro, o'u ffurfiad, hyd ei farwolaeth. Yr eglwysi hyn oeddynt Woodstock, y Capel Newydd, Capel Mounton ger Narberth, a St. Daniel, ger Penfro; y ddau olaf oeddynt yn ymylu ar y rhan Seis'nig o'r wlad, tra yr ydoedd y ddau eraill yn y rhan Gymreig o honi; a gweinyddai Howell Davies yn y pedwar lle hyn bob mis, gan roddi ei Sabbath i bob lle; ac efe a weinyddai yr ordinhadau o fedydd, a swper yr Arglwydd, yn mhob un o'r lleoedd hyn.

Yr oedd y Parch. Howell Davies i Fethodistiaeth sir Benfro, agos yr un peth ag ydoedd y Parch. Daniel Rowlands i Fethodistiaeth Ceredigion; ac Woodstock i fesur, yn cyfatteb i Langeitho. Adeiladwyd capel yn Woodstock, mor foreu a'r flwyddyn 1754; ac yn y lle hwn y rhoddwyd cychwyniad i weinyddiad yr ordinhad o swper yr Arglwydd mewn lle annghysegredig yn y wlad hon, ac efallai mewn un wlad arall, yn mysg y Methodistiaid, yn Neheudir Cymru; a byddai cyrchu mawr i Woodstock ar y Sabbath pen mis, o Ddinas Dewi, Trefin, Abergwaun, Hwlffordd, &c. Ymgynnullent gan mwyaf ar brydnhawn Sadwrn; a mawr y ffyddlondeb a'r caredigrwydd a ddangosid yn yr ardal, mewn ffordd o lettya yr holl ddyeithriaid a ddeuent yno ar yr achlysuron hyn; a rhyfedd y mwynhad a brofid yn y moddion; ac fe'n hysbysir mai anfynych y byddai y cymunwyr ar yr achlysuron crybwylledig, dan *ddwy fil* o nifer; ac weithiau byddent yn llawer lluosoccach na hyny.

Yr oedd Mr. Davies yn dra ffafriol i bregethu teithiol, am ei fod yn credu yn ddïysgog, fod llawer o fywyd crefydd yn ymddibynu ar hyny; a thra y byddai yn ymdrechu cael gweinidogion o bell i gynnorthwyo yn y cynnulleidfaoedd y buasai efe yn offerynol i'w cyfodi; felly, gyda phob parodrwydd meddwl, elai yntau i weini i gynnulleidfaoedd pellenig, lle y gwyddai fod ei wasanaeth yn dderbyniol. Ac er ei fod o gyfansoddiad llesg ac afiachus, a bod taith trwy Ogledd Cymru i bregethu yr efengyl, mewn cyssylltiad a Methodistiaeth, yn anturiaeth bwysig y pryd hyny, efe a fu yno amryw weithiau, fel y tystia yr hybarch John Evans o'r Bala,—"Bu y Parchedig Howell Davies yma amryw weithiau. Gwr tirion, mwynaidd, oedd Mr. Howell Davies, ac yn bregethwr ennillgar iawn." Ac yn un o lythyrau Mr. Davies ei hun, cyfarfyddwn â brawddeg sydd yn amlygu i ni pa fodd yr edrychai efe ar daith i'r Gogledd, ac ar yr un pryd, yr ysbryd rhagorol oedd ynddo;—"Yn mherthynas i fy mynediad i'r Gogledd, yr wyf yn meddwl y bydd yn rhŷ boenus i mi, sydd yn parhau o hyd yn llesg a chlefycca; *ond pa fodd bynag, yr wyf yn penderfynu cynyg hyny, pe gorfyddai i mi farw ar y ffordd.*" Cafodd y gwr duwiol hwn ei anrhydeddu yn ei flyneddau diweddaf, â graddau helaeth annghyffredin o gysuron yr efengyl; yr oedd efe wedi ymgynefino âg angeu, a byd arall, er ys amser maith; a llenwid ei ysbryd â gorfoledd, yn y gobaith am fywyd ac anllygredigaeth. Fel hyn, wedi oes o lafur ffyddlawn dros ei Arglwydd, ac o ddefnyddioldeb i'w genhedlaeth, efe a hunodd yn yr Iesu, tua diwedd mis Mawrth, 1770, a chladdwyd ef yn eglwys Prengast, Hwlffordd, fel y dywaid Williams yn ei Farwnad;—

"Howell Davies, ffyddlawn, cywir,
Bugail pedair eglwys fawr,
Sydd yn myn'd i fynwent Prengast,
Heno i orwedd yno i lawr."

**DAVIES**, Hugh, naturiaethwr enwog, a anwyd yn Môn, yn y flwyddyn 1739. Ei dad oedd Lewis Davies, rheithor Llandyfrydog; a chyfenw morwynol ei fam oedd Knight. Efe a gollodd ei dâd pan yn dra ieuanc, a chafodd ei addysg, yn Ysgol Ramadegol Beaumaris, o'r lle y cafodd dderbyniad i Goleg yr Iesu, Rhydychain, ac mewn amser dyledus, cymerodd ei radd yn Wyryf yn y Celfyddydau. Pan yn dair ar hugain oed, cymerodd urddau eglwysig, ac yn fuan wedi hyny efe a bennodwyd yn is athraw yr Ysgol Ramadegawl yn Beaumaris. Yn y flwyddyn 1778, efe a ddyrchafwyd i fywioliaeth Beaumaris, yr hon a roddes efe i fynu yn y flwyddyn 1787, am Aber, yn swydd Gaerynarfon. Yn y flwyddyn 1790, efe a etholwyd yn gymrawd o'r *Linnæan Society.* Fel naturiaethwr, yr ydoedd yn feddianol ar dalent annghyffredin; ac ymofynid âg ef yn fynych, gan wŷr tra enwog, yn eu hymchwiliadau gwyddonawl, ac fe'i dylynid yn wastad gyda dyogelwch. Yr oedd Pennant yn ei barchu yn fawr, gyd a'r hwn yr ymwelodd efe âg Ynys Manaw, yn y flwyddyn 1774; ac efe a grybwyllir fel y canlyn gan y boneddwr hwnw, yn un o'i gyfansoddiadau;—"Cyfrifwn fy hun yn euog o esgeulusdra tra anweddus, pe na chydnabyddwn y gwasanaeth gwerthfawr a dderbyniais o bryd i bryd, trwy gyfeillgarwch Mr. Davies, er pan ddaethum yn adnabyddus o hono. Cydnabyddaf yn

Digitized by Google

neillduol y cynnorthwyon a dderbyniais trwy ei wybodaeth ëang mewn llysieuaeth. Iddo ef yr ydwyf yn ddyledus am yr adroddiad o lysiau a phlanigion Eryri; ac yr ydwyf dan rwymedigaeth iddo, am ymgymeryd yn Mehefin, 1775, â mordaith arall i Ynys Manaw, ar fy nghais, i gymeryd adolygiad eilwaith o'i chynnyrchion llysieuawl. Trwy ei lafur ef y mae llysieuaeth yr ynys wedi ei wneuthur mor gyflawn ag y gallasid gan un dŷn, mewn un tymhor o'r flwyddyn. Y mae nifer y tyfolion amrywiol a ddaethant dan ei sylw, tua phum cant a haner."

Efe a gynnorthwyai Pennant hefyd, yn mharottoad yr ail argraffiad o'i Fildracthawd Indiaidd, a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1792. Y mae ei waith ar Lysieuaeth Môn, yr hwn a gyhoeddwyd yn gyflyfr 8 plyg, yn y flwyddyn 1813, yn Llyfr tra rhagorol, ac un y cyfeirir ato yn fynych gan awduron diweddarach, gyda chanmoliaeth uchel.

Oblegid ei henaint a'i wendidau, efe a roddes fywioliaeth eglwysig Aber i fynu yn y flwyddyn 1816, a bu farw yn y Beaumaris, Chwefror 16, 1821. Y mae y tyfolion canlynol wedi cael eu henwau oddiwrtho ef, *Encalypta Daviesii, Hydnum Daviesii, Calithamnion Daviesii*, a *Glyphomitrion Daviesii.*

**DAVIES**, James (Iago ab Dewi), bardd, a hynafieithydd, a anwyd yn mhlwyf Llandysul, swydd Aberteifi, yn y fl. 1668. Bu farw ar y 24 o Fedi, 1722. Cyfansoddodd luaws mawr o "Ddyriau Moesol," y rhai a gyhoeddwyd yn yr *Awenydd*, gan P. Evans, Caerynarfon. Efe a gyhoeddodd y "*Flores Poetarum Britannicorum,*" o ddetholiad y Dr. Davies o Fallwyd; yr hwn a ail argraffwyd yn ddiweddar gan Gwilym Cowlyd, Llanrwst. Efe a gyfieithodd hefyd i'r Gymraeg, amryw lyfrau, ac yn eu plith, *Taith y Pererin.* Bu yn ddiwyd i gasglu ac adysgrifio lluaws o hanesion dyddorol, a hynafieithau cywrain; ac o'i lyfr ef, y tynodd Iolo Morganwg "Chwedl Rhitta Gawr" sydd yn yr *Iolo MSS.*

**DAVIES**, John, D.D., a adwaenid yn gyffredin wrth yr enw "Dr. Davies o Fallwyd," ydoedd fab i Sion ab Rhys, gwehydd wrth ei alwedigaeth fydol, yn mhlwyf Llanferras, yn sir Ddinbych. Ganwyd ef tu a'r flwyddyn 1570. Saif ei enw yn y rhestr gyntaf o bigion yr ysgolheigion Cymreig. Dywed *York* yn ei "Royal Tribes," yr hanai o dylwyth Marchudd ab Cynan; a dywedir mewn sylw bywgraphyddol am dano, yn y *Cambrian Register*, ei fod yn disgyn, yn ochr ei fam, oddiwrth Ednyfed Fychan, un o benaethiaid Cymreig enwog y drydedd ganrif-ar-ddeg. Anerchai Dr. Davies ei hun, mewn llythyr dyddiedig Awst 26, 1623, Mr. Fychan o Hengwrt, yr hynafieithydd enwog, fel ei "gefnder." Gwelir wrth hyn, ei fod o linach anrhydeddusaf y genedl. Nid yw yr amgylchiad o fod ei dad yn dilyn y gelfyddyd a grybwyllwyd, yn awgrymu ei fod mewn sefyllfa isel; canys yr oedd gwehyddiaeth y pryd hwnw, mewn llawer mwy o fri na'r hyn ydyw yn awr. Y mae ychydig o dywyllwch yn cylchynu ei hanesiaeth foreuol, ac nid yw y tystiolaethau a geir gan wahanol gofnodwyr, yn cwbl gytuno a'u gilydd; gan hyny ni ellir gwneud dim amgen na dodi y naill a'r llall ger bron, fel y caffo y darllenydd fantais i farnu drosto ei hun, am y tebygolrwydd o gywirdeb yn mhob un o honynt:—Dywedir yn y *Cambrian Plutarch*, "i wrthddrych y cofiant hwn, dderbyn ei addysg foreuol yn ysgol Rhuthin, oedd wedi ei sefydlu ychydig o flynyddoedd cyn hyny, gan Dr. Gabriel Goodman. Ei athraw yma ydoedd Dr. Richard Parry, a ddaeth wedi hyny yn esgob Llanelwy; golygydd y cyfieithiad awdurdodedig o'i Bibl Cymraeg, a gyhoeddwyd yn 1620; a meithrinwyd y gyfeillach a ffurfiwyd y pryd hwnw rhyngddynt, fel athraw ac ysgolor, nes dyfod yn gyfeillgarwch gwresog, drwy amryw amgylchiadau, a barhaodd dros ysdod eu tymor ar y ddaear." Dyma dystiolaeth "*Enwogion Cymru*" am yr hanes. "Danfonwyd ef ar y cyntaf i ysgol Rhuthin. Ni's gwyddis pa ysgol oedd hon; eithr nid yr ysgol ramadegol enwog a sefydlwyd yno gan y Deon Goodman, yr hon a fu yn fagwrfa addysg i gynnifer o enwogion mewn amseroedd diweddarach, gan na sefydlwyd honno hyd 1595, tra yr oedd y Dr. Davies wedi derbyn ei raddau yn Rhydychain, a dychwelyd yn ol i'w wlad yn 1592. Camgymeriad dybryd o eiddo yr holl fywgraphwyr, ydyw y cam-amseriad hwn; a'r un modd, pan y dywedant mai y Dr. Richard Parry oedd ei athraw yn yr ysgol honno; canys y mae hanes y Dr. Parry yn dweyd ddarfod iddo ef gael ei wneud yn gangellydd eglwys gadeiriol Bangor yn 1592, ac yn ddeon yr un lle saith mlynedd yn ddiweddarach. Y mae *Wood* yn ei *Athenæ Oxiensis*, a'r Esgob Humphreys, yn ei nodiadau ar waith Wood, mae'n wir, yn cadarnhau y dybiaeth; eithr dywed yr Archddiacon Newcome, (a phwy a wyddai yn well?) yn *Memoirs of the Goodmans*, fod lle cryf i amheu yr hanes hwn. Gan mai yn Rhuthin y ganwyd y Dr. Parry, ac nad yw ei fywgraffwyr yn dweyd pa le y treuliodd ei amser rhwng 1579, pryd y derbyniwyd ef i'r coleg, â 1592, pan y gwnaed ef yn gangellydd Bangor, ai nid tebygol iddo dreulio rhan o'r amser hwn yn ei dref enedigol ei hun, yn cadw ysgol anghyhoedd, ac mai yn ei ysgol ef y bu Dr. Davies yn derbyn elfenau dŷsg, pan yr enynwyd y serch anwylgu hwnw cydrhyngddynt, na ddiffoddodd yn y byd hwn, hyd oni pheidiodd eu dwy galon gynes a churo?"

Yn y flwyddyn 1589, dechreuodd Dr. Davies ar ei fywyd athrofaol, a daeth yn aelod o Goleg yr Iesu, yn Rhydychain. Ni bu ei arosiad y tro cyntaf yn y brif-athrofa, onid dros bedair blynedd; yn mha dymor y cymerodd efe ei raddiad yn y celfyddydau, ac y cyrhaeddodd gryn enwogrwydd fel ysgolhaig. Yn 1593, gadawodd Rydychain, a dychwelodd i Gymru, lle yr aeth rhagddo yn ei fyfyriaeth o dduwinyddiaeth, ynghyd a gwybodaeth o iaith a hynafiaethau ei wlad ei hun. Yn y flwyddyn ar ol ei ddychweliad o Rydychain, derbyniodd ei urddau eglwysig; ond bu heb yr un derchafiad swyddol am ddeng mlynedd, yn ysdod pa amser yn ddiau y bu yn llafurus iawn, yn cyfoethogi ei feddwl, â thrysorau y rhagoriaethau a welwyd ynddo yn ol llaw. Yn 1604, ychydig amser cyn derchafiad Dr. Parry i esgobaeth Llanelwy, cyflwynwyd iddo bersonoliaeth Mallwyd, yn sir Feirionydd, gan y goron; a daeth yn fuan yn gapelwr i'w gyfaill ffyddlon, wedi ei dderchafu i'w urddas esgobol. Y mae yn dra thebygol fod ei ymroad i fyfyrio iaith ei wlad, wedi dechreu mor gynar a'r adeg hon; o blegid yn ei Ragymadrodd i'w Ramadeg, dywed ei fod wedi cyflwyno ei holl amser hamddenol at yr amcan hwn.

Wedi arosiad o tua phymtheg mlynedd yn ei wlad, efe a ddychwelodd i Rydychain, yn 1608, ac efe a dderbyniwyd yn Ngholeg Lincoln, fel Darllenydd "ymadroddion yr Esgob Lombard." Yr oedd "Llyfrau yr ymadroddion" hyn, yn bedwar o nifer,

Digitized by Google

o waith Peter Lombard, Esgob Paris, yn 1172, yn cynwys casgliad o ysgrifeniadau y Tadau Cristionogol; anghysonderau pa rai, yr ymdrechai yr esgob i'w *cysoni*, hyd y gallai, gyda brwdfrydedd teilwng o'i swydd. Ni ellir penderfynu hyd sicrwydd, pa faint fu ysdod ei ail-arosiad yn yr athrofa; ond bernir nad ydoedd yn faith, canys yn 1612, canfyddwn ei fod yn cael ei ethol yn Ganon Llanelwy, ac yn y flwyddyn 1613 a 1615, cyflwynwyd personoliaeth Llan-y-Mawddwy, yn sir Feirionydd iddo; ynghyda Dar-Owain yn sir Drefaldwyn; y rhai, mewn ychwanegiad at yr hyn oedd ganddo yn barod, a'i dyrchafai i amgylchiadau cysurus iawn. Yn 1616 cymerodd ei raddiad fel Doctor Duwinyddiaeth, ac yn y flwyddyn ganlynol, efe a benodwyd i Brebendariaeth Llan Nefydd yn esgobaeth Llanelwy, yr hyn ydoedd y dyrchafiad olaf a gafodd yn yr eglwys. Yn mhen ychydig o flynyddoedd wedi hyn, collodd ei gyfaill a'i noddydd, yr Esgob Parry, yr hwn a wyddai yn dda am ddysgleirdeb ei dalentau, cywirdeb ei egwyddor, a'i deilyngdod o gefnogaeth. Y mae yn debyg fod cwlwm serchiadau y ddau tu ag at eu gilydd, wedi cael ei dynhau, yn amser ei cydweithrediad yn adgyweiriad cyfieithiad y Doctor Morgan o'r Bibl Cymraeg. Bernir i'r Dr. Davies ymgymeryd a'r gwaith hwn yn fuan wedi ei ddychweliad y tro cyntaf o Rydychain; ac y mae yn naturiol i ni gasglu, fod awydd ei feddwl i gyflawn feistroli iaith ei wlad, yn codi i raddau mawr oddiar ddymuniad ei galon, i allu cyflawni y gorchwyl hwn yn deilwng o'i bwysigrwydd, yn gystal a gwybodaeth drwyadl o egwyddorion llenoriaeth Fiblaidd. Ymddengys mewn nodyn sydd ar gael, o waith un o Gangellwyr Llanelwy, fod gwasanaeth Dr. Davies wedi bod yn anmhrisiadwy, yn y cynnorthwy a roddodd i'r Dr. Parry yn y gwaith hwn.

Yn y flwyddyn 1632, cyhoeddodd Dr. Davies ei Eiriadur, yr hwn yn ddiau a fu y brif orchest o'i eiddo, i roddi iddo y fath radd uchel yn ngraddfa llenorion y genedl. Yr oedd efe wedi gosod i lawr sylfaen y gwaith hwn, er tua deugain mlynedd cynt, fel yr ymddengys oddiwrth lythyr o'i eiddo, sydd eto ar gael, wedi ei gyfeirio at Mr. Owen Wynn, mab Sir John Wynn o Wydir, dyddiedig Ionawr 23, 1627; yn yr hwn y dywed ei fod wedi dechreu ei Eiriadur yn 1593, y flwyddyn yr ymadawodd â Rhydychain, ond nad oedd efe ar y pryd yr ysgrifenai, ddim ond dechreu ei adysgrifenu yn deg; gorchwyl ag yr oedd efe y pryd hwnw yn disgwyl ei orphen erbyn dechreu yr hâf canlynol; ond aeth o leiaf bedwar hâf heibio, cyn y dygwyd y gwaith i oleu dydd. Yr oedd yn hynod fod gwr mor graff a Llewelyn Ddu, wedi cymeryd y fath gam olwg ar eangder y gwaith, fel y dywedai, yn un o'i lythyrau at Mr. Pegge, mai gwaith wedi ei gwblhau mewn prysurdeb, oedd Geiriadur Dr. Davies, tra mewn gwirionedd, yr oedd wedi cymeryd deugain mlynedd i'w gyflawni. Yn y flwyddyn 1626, yn unol â chais Syr John Wynn, efe a ymgymerodd âg adgyweirio gwaith cyffelyb, oedd mewn llawysgrifen gan Thomas ab William, neu fel yr adwaenid ef yn gyffredin, Syr Thomas Williams o Drefriw. Y mae y ffaith yn cael ei chrybwyll yn y llythyr dywededig at Mr. Owen Wynn. Dechreuodd ar yr adgyweiriad yn mis Ebrill 1626, a chwblhaodd ef yn yr Ionawr canlynol. Brodor o Sir Gaernarfon oedd Thomas ab William, meddyg wrth ei alwedigaeth. Gwaith y gwr hwn yw y ddosran Lladin-Gymreig, ac nid yw Dr. Davies yn hawlio dim enw iddo ei hun, ond yn unig y gorchwyl o'i olrhain a'i adgyweirio. Dyma fel y dywed yn ei Ragymadrodd;—"Na fydded i ti," y Darllenydd, "feddwl na chymerais i ddim ychwaneg o boen a thrafferth yn nghylch Geirlyfr Lladin a Chymraeg Dr. T. Williams, na'i ail-ysgrifenu o'i 'sgrifenlaw ef ei hun, ond gwybydd fy mod i wedi chwanegu amryw eiriau Cymreig, i'r dyben o eglurhau yn fwy cyflawn, ystyr ac arwyddocad y geiriau Lladin. Yr ydwyf hefyd, wedi ei ddifeio o'r aneirif feiau, a'r gwallau hyny, y rhai oeddynt yn bur aml yn rhedeg trwy gorph yr holl lyfr; ac fel y byddai yn fwy perffaith, ac ar yr un pryd, yn llai ei faintioli, mi a adewais allan yr holl eiriau Hebraeg, a Groeg, ac amryw eraill ag oeddynt ynddo; gan fy mod i yn barnu y gall y rhai hyny ag sydd yn ewyllysio gwybod ystyr y cyfryw eiriau, eu chwilio hwy allan yn Ngeirlyfrau y rhagddywededig Ieithoedd. . . . Mewn byr eiriau, yr ydwyf wedi cyfnewid, adferyd, difeio, a iachau, pa le bynag yr oedd eisiau llaw y meddyg, yr hyn sydd wedi rhoddi gwedd newydd ac arall oddiwrth yr un gysefin, fel ag y gellir ei alw yr awr hon, yn waith i mi fy hun, yn hytrach na gorchwyl y Meddyg, Thomas Williams, er fy mod wedi sylfaenu hwn, megis ar hwnw." Dywed Williams yn ei "*Eminent Welshmen*," ei fod wedi bod yn cymharu yr Ysgrif Wreiddiol a'r Geiriadur, a chanfod nad oedd ond ychydig o fraslinelliad o hono wedi ei ddefnyddio yn y Geiriadur, a'i fod yn cynwys defyniadau helaeth o weithiau yr hen feirdd, a bod yn alarus meddwl, na chyhoeddid y gwaith eto, ar wahan, yn ei gyflawnder gwreiddiol. Gelwir y Geiriadur gan Dr. Davies, "Antiquæ Linguæ Britannicæ et Linguæ Latinæ Dictionarium Duplex." Yr oedd y gyfran Gymraeg-Ladin, yn eiddo ef yn unig, a'r Lladin Gymreig yn cynwys y diwygiadau ar lafur y Dr. Thomas Williams. Y mae y Geirlyfr wedi ei gyflwyno i Siarl II., oedd y pryd hwnw yn Dywysog Cymru; ond nid ymddengys i'r awdwr dderbyn unrhyw gydnabyddiaeth oddiwrth y parch hwn i deyrnedd. Y mae yn hollol afreidiol olrhain dim ar deilyngdod gwaith ag a barhaodd am ddau can mlynedd i fod yn safon ieithyddol y genedl. Cyhoeddwyd argraphiad pedwar-plyg o'r Geiriadur, ychydig dros gan mlynedd yn ol, gan un Boxhornius, yn Holland, gyda y bwriad o gefnogi yr ymchwiliadau a wneid i hynafiaethau Celtaidd. Cafwyd helaethiad ac ychwanegiad anmhrisiadwy ato, yn Ngeiriadur W. Owen Puw, Ysw., a gyhoeddwyd yn 1803; yr hwn a gynwys nifer mawr o ddyfyniadau o weithiau yr hen feirdd, fel egluriadau ar fonedd a thadogaeth geiriau, a chystrawen y Gymraeg. Mewn cysylltiad hefyd â Geiriadur Dr. Davies, yr oedd rhestr o'r beirdd a'r awdwyr Cymreig, yn nghyda mynegiad o'r amser y blodeuent, a chasgliad helaeth o'r hen Ddiarhebion, ac o enwau llysiau, &c.; ac oddiwrth lythyr o eiddo yr awdwr at Syr Simonds D'Ewes, ymddengys ddarfod iddo ysgrifenu deongliad i'r Diarhebion Cymraeg, a dywedir fod cyfysgrif o honynt eto ar gael, yn yr Amgueddfa Frytanaidd yn Llundain.

Yn ychwanegol at ei weithiau llenyddol, dylid coffa iddo gyfiethu i'r Gymraeg, y Namyn-un-deugain Erthyglau, gyda "Phenderfyniadau Cristionogol" Parsons. Yr oedd yn rhaid iddo fod yn dra diwyd a llafurus, yn cynull ac yn adysgrifio y trysorau gwerthfawr a grynhôdd, mewn amryw ddosparthau, ac yn enwedig mewn barddoniaeth a hanesion Cym-

Digitized by Google

reig. Y mae ger ein bron yn awr, gyfrol drwchus, o tuag 800 o du dalenau, wedi eu hysgrifenu yn fân ac agos, gyda phrydferthwch mawr, yn cynwys Awdlau, Cywyddau, Caniadau, Pryddestau, a Hanesion achlysurol, Gwasanaeth Mair, ac amryw Weddiau, &c. Ar derfyn yr olaf dywed, "Y copi yr ysgrifenwyd hwn allan o honaw, a ysgrifenasid yn Llanharri yn Morganwg, yn nghylch y 30 o Harri VIII., sef tua y flwyddyn 1537. Ac a ysgrifenwyd yma yn y flwyddyn 1631." Y mae y rhan fwyaf wedi eu copio o'r Llyfr Coch o Hergest, gyda rhai darnau o'r Llyfr Du, a llyfrau eraill, fel y mynega. Crybwylla wrth derfynu hefyd fel hyn:—"Y Llyfr Coch o Hergest, sydd yn awr yn eiddo Syr Lewis Mawnsell, a'i dŷ yw Margam. A'r llyfr hwnw a ddaeth ym menthyg i Fallwyd, yn Sir Feirionydd, pan oedd Crist 1634, A lle y gwelych Ll. C., y Llyfr Coch a arwyddocâ." Adroddir am dano, pan y byddai yn darllen ywahanol lyfrau, ac yn cyfarfod ynddynt a rhyw ymadroddion a'i boddhai yn fwy na chyffredin, ei fod yn arfer rhoddi nodau ar ymyl y ddalen gyferbyn a hwynt. Ac ar ol ei farwolaeth, darfu i James Davies (*Iago ab Dewi*), o Bencadair, yn Sir Gaerfyrddin, gyhoeddi casgliad o'r ymadroddion hyny, a'u hargraphu yn llyfr, dan y teitl "*Flores Poetarum Britannicorum*," yr hwn a rwymid gyda barddoniaeth Salesbury. Yn y flwyddyn 1710, cyhoeddodd Dafydd Lewis, Llanllawddog, lyfr dan y cyfenwad uchod, a dywed am dano, mewn rhagymadrodd, fel hyn—"Yn gymaint a dyfod i'm llaw y casgliad hwn o eiddo'r dysgedig a'r Parchedig Ddoctor J. Dafis, hyd ar ddeallais, a alwodd ef, "*Flores Poetarum Britannicorum*," mi a dybiais yn fuddiol ei brintio, yn gystal er mwyn ei Awdwr Parchedig, (yr hwn a haeddodd fwy ar law pob Cymro nag a allont fyth dalu y pwyth iddo), ac er mwyn y llyfr ei hun, yr hwn sydd yn cynwys llawer o ddysgeidiaeth, a chelfyddyd. Myfi a chwanegais ychydig ato, ac a osodais rai pethau buddiol eraill allan gydag ef." Yn y flwyddyn 1864, cyhoeddodd y Parch. Robert Jones, Rhudd-ddwr-hydd, Llundain, adargraph o'r gwaith hwn, mewn cyfrol fechan ddestlus, wedi ei chyflwyno i'r "Tywysog Louis Lucien Buonaparte, D.C.L. Uchel Seneddwr Ffraingc, un o brif ieithyddwyr yr oes, a noddwr gwresog Llenyddiaeth y Cymry." Arferid dangos yn llyfrgell ysgol Ystrad Meurig, bregethau mewn llaw-ysgrifen, am y rhai y dywedid mai eiddo Dr. Davies oeddynt. Mynegid hefyd, ddarfod i'w lyfrau, syrthio i feddiant gwr o'r enw Kenrig, yr hwn, ryw nifer o flynyddau yn ol, a fu yn Weinidog Ymneillduol yn Ngwrecsam; ac ar ei ymadawiad oddiyno, iddynt gael eu cludo gydag ef i Gaer Wŷsg, a'u bod yn parhau yn meddiant rhai o'i hiliogaeth hyd y dydd hwn.

Dywedir am wrthddrych y nodiadau hyn, ei fod yn wr cariadus iawn yn mysg ei gydwladwyr; a chedwid ei goffadwriaeth mewn parch mawr gan bawb a'i hadwaenent; ac fe gafodd trigolion Mallwyd yn arbenig, achos i drosglwyddo y cyfryw serchogrwydd i oesoedd dyfodol. Dywedir iddo adael ardreth lle a elwir "Dol-ddyfi," i dlodion y plwyf hwnw, tra y rhedo dwfr. Dywedir hefyd, iddo adeiladu ar ei draul ei hun, bont faen, yn gyfagos i'r llan, a elwir "Pont-y-cleifion;" ac mewn dau fan yn y palmant, gosodwyd llythyrenau cyntaf ei enw, sef J. D., mewn cerig gwynion, a'u bod i'w canfod yno hyd y dydd hwn. Y Periglordy hefyd, a gwbl adnewyddwyd ganddo ef, ac yn y palmant o flaen y drws, gosodwyd llythyrenau dechreuol ei enw, er mwyn cyflwyno ei goffadwriaeth i'r oesau a ddeuai. Dywedir iddo ail-adeiladu clochdy a changell yr Eglwys ar ei draul ei hun, yr hyn a gedwir ar gof, yn llythyrenau ei enw, yr un modd a'r manau eraill a grybwyllwyd.

Priododd Dr. Davies, ferch i Rhys Wynn, Ysw. o'r Llwynon, chwaer yr hon a briododd yr Esgob Parry. Ni bu plant iddynt; a gadawodd ef feddiant o'i holl diroedd oedd ganddo, i ddau nai, un a'r ei ochr ef, a'r llall ar ochr y wraig, sef mab i'r Esgob Parry, a hyny fe ddichon, er mwyn dangos y serchogrwydd oedd ganddo at ei dad. Dywedir i'w weddw briodi ei Gurad. Bu farw yn Mallwyd ar y 15fed o Mai, 1644, yn 74 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn nghangell Eglwys Mallwyd; ac ar ei gareg fedd, cerfiwyd yr argraph canlynol yn Lladin, yr hwn sydd erbyn hyn wedi ei lwyr dreulio ymaith;—"John Davies, Dysgawdwr Duwinyddiaeth Gysegredig, Periglor Eglwys blwyfol Mallwyd, a fu farw y 15eg dydd o Fai, ac a gladdwyd yr y 19eg B. A. 1644. Mwy coffadwy am ei rinwedd, nac am ei enw." Mewn perthynas i'w alluoedd naturiol, a'r ddysgeidiaeth a gyrhaeddodd Dr. Davies, y mae pawb yn cytuno eu bod o'r radd uchaf. Dywed *Wood*, tra y bu yn y brif athrofa, y cyfrifid ef fel un galluog mewn gwybodaeth feirniadol o'r ieithoedd boreuol; ei fod yn dra hysbys yn hanesyddiaeth ei wlad ei hun, a'i fod yn meddu yni diderfyn at olrhain ysgrifau henafol, a rhagoriaethau yr hen oesoedd. At y galluoedd hyn, gellid ychwanegu ei benderfyniad diflino, i ddwyn allan drysorau llenyddol hynafiaid ei genedl; a phan ystyrir yr aberth arianol a wnaeth o bryd i bryd, tu ag at ddwyn yr amcan hwnw i ben, y rhaid ei fod yn gweithredu yn berffaith ddi-hunangais, tuag at wasanaethu ei genedl, a'i wlad. Y mae y dystiolaeth hon yn cael ei chadarnhau mewn mynegiad a wnaethai mewn llythyr at Sir John Wynn o Wydir; Tachwedd 3, 1623, mewn perthynas i Eirlyfr Thomas ab William, yr hwn y dymunai y Barwnig iddo ei adgyweirio:—"Chwi a wyddoch na ellir cyhoeddi gwaith mor eang, heb draul fawr, ac mi a wn nad oes yr un argraphydd a gymera yr anturiaeth ar ei gyfrifoldeb ei hun, gyda gobaith mor wan am ad-daliad, ag a geir wrth gyhoeddi llyfrau Cymraeg." Felly gwelir pa mor ddyfned ydyw dyled ei gyd-genedl iddo, am ei lafur a'i ymdrechiadau clod fawr, ac am y gymun-rodd gyfoethog a adawodd i'w frodyr ar ei ol!

**DAVIES**, John Phillip, o Dredegar, ydoedd fab David Davies, Offeiriad Bangor, a Henllan, swydd Aberteifi. Ganwyd ef ar y 12fed o Fawrth, 1786. Cafodd fanteision addysg cyffredin yr ardal; a hynododd ei hun pan yn ieuanc, trwy awyddfryd anniwalladwy, i ddarllen pob peth a ddeuai o hyd iddo. Trwy ddarllen llyfrau ei dad, heb na chymorth na chyfarwyddyd, efe a ffurfiodd olygiadau am ordinhadau crefydd, croes i arferiadau yr Eglwys yn yr hon y dygasid ef i fyny. Heb wybod fod neb yn y byd yn awr, yn arferyd yr ordinhad o Fedydd yn y dull a ystyriai efe oedd yn Ysgrythyrol, efe a ofynodd un diwrnod i hen wr a weithiai ar dyddyn ei dad, yr hwn oedd yn aelod gyda'r Annibynwyr, yn y *Drewen*, a oedd rhyw rai yn awr yn bedyddio dynion mewn oed, a thrwy droehiad; ac er ei syndod, cafodd fod eglwysi yn yr ardal hono, yn arferyd yr ordinhad felly, a bod ewythr iddo, y Parch. Daniel Davies, Talgoed, yn weinidog ar un o honynt. Gwnaeth ei feddwl i fyny yn fuan, i ymuno a'r

Digitized by Google

Bedyddwyr, bedyddiwyd ef gan ei ewythr, a Samuel Breeze yn pregethu ar yr achlysur; ac ymaelododd yn yr eglwys yn y Drefach. Dechreuodd bregethu yn fuan, ac er cael cryn groesau oddi wrth rai o'i berthynasau, aeth rhagddo yn benderfynol, a chafodd gyfaill a noddwr ffyddlawn yn y galluog Titus Lewis, Caerfyrddin, awdwr *Hanes Prydain Fawr*. Aeth ar daith i'r Gogledd, ffurfiodd eglwys yn Nhreffynon, ac ymsefydlodd yn weinidog arni. Hon oedd yr eglwys gyntaf i'r Bedyddwyr yn swydd Fflint. Yn nghylch y pryd hwn, efe a briododd ferch o swydd Benfro, yr hon, er ei golled fawr, a fu farw cyn pen blwyddyn, gan adael merch fechan yn ei ofal. Symudodd oddi yno, at y Cymry i Liverpool, a phriododd eilwaith, ferch o deulu uchel yn swydd Fflint, yr hon, fel y noda un yn dra phriodol, a fu iddo yn fath o Xanthipe yr ail, ac yn groes drom hyd ei fedd, tra yr oedd yntau o ran ei bwyll a'i larieidd-dra, yn tebygu llawer i Socrates. Symudodd o Liverpool at y Cymry i Lundain; ond oddi yno yn fuan, efe a ddychwelodd i Gymru, gan ymsefydlu yn weinidog ar yr eglwysi yn Glanyferi a Chydweli, yn agos i'w ardal enedigol. Wedi llafurio yma am rai blyneddoedd, gyda graddan o lwyddiant, efe a symudodd i Dredegar, swydd Fynwy; ac yma y trenliodd weddill ei oes, lle y ffurfiodd iddo ei hun yr enw, "Davies Tredegar." Isel, mewn cymhariaeth, oedd yr achos yn Nhredegar, pan aeth Mr. Davies yno, yn 1818; ond yn fuan, gorfuwyd helaethu Siloh, casglwyd eglwys, ac adeiladwyd addoldy yn *Rhymni*, ac un arall yn Mhenycae; ac yn mhen ychydig, eglwys Saesneg yn Nhredegar; a'r oll trwy lafur bendithiol y gwas ffyddlawn hwn i Grist. Gafaelodd afiechyd trwm ynddo yn nghanol ei wasanaeth, a chan lynu wrtho am flyneddau, cymerodd ef ymaith ar 23ain o Awst, 1832, yn 46 mlwydd oed; a chladdwyd ei weddillion wrth yr addoldy lle y llafuriodd mor alluog. Fe allai na bu dyn yn Nghymru, a adawodd gymaint o ddylanwad ar gymeriad pregethu, a Davies Tredegar. Cyn ei ddyddiau ef, Calfiniaeth isel, neu uchel, oedd yn cael ei chyhoeddi bron o bob areithfa; ac yr oedd yn rhaid i'r pregethwr fod yn dra gofalus i wisgo ei athrawiaeth yn y brawddegau arferedig, onite cawsai ei gyhuddo ar unwaith o roddi sain ddieithr. Ond anturiodd Mr. Davies farnu drosto ei hun, a thaflodd ymaith y *shibboleth;* amddiffynodd olygiadau *Andrew Fuller*, yn *Seren Gomer* am 1822–23, a thynodd ystorm anarferol am ei ben; ymosodwyd arno gyda ffyrnigrwydd gan amryw o brif ddynion yr enwad; cauwyd pwlpudau yn ei erbyn, a gwnawd pob ymdrech i'w ladd. Ond glynodd eglwys Siloh wrtho, er clod bythol iddi ei hun; llwyddodd yntau i agoryd llygaid y dosbarth mwyaf ymchwilgar yn yr eglwysi, trodd y cydymdeimlad o'i blaid; ac felly, efe a dreuliodd allan nerth yr ystorm, a phrynodd y rhyddid ymadrodd a fwynheir mor helaeth gan weinidogion pob enwad yn Nghymru, yn yr oes hon. Aeth i'r wasg y tro cyntaf, fel cyfieithydd gwaith *Andrew Fuller* ar lyfr y Dadguddiad,—cyfieithiad hynod o glogyrnaidd, a throdd allan yn fethiant; o herwydd ei fod yn annghydweddu mewn orgraff a chystrawen, a chyflwr llenyddiaeth Gymreig ar y pryd. Yn nesaf, efe a gyfieithodd "Lythyrau Ymadawol William Ward o Serampore," y rhai a gyhoeddodd yn 1824;—a rhaid cyfaddef i hwn eto droi allan yn fethiant, am yr un rheswm yn gywir a'r llall; er fod y cyfieithydd yn dyweyd yn ei "Ragymadrodd"—"Gyda golwg ar y Gymraeg (ynddo), nid ydyw yn ieithadurol yn y gystrawen, herwydd azaw o honof roddi iaith sathredig er mwyn y werin." Ond nid diffyg yn ei wybodaeth o holl deithi yr iaith, a barodd y methiant yn ei gyfieithiadau, ond dieithrwch yr arddull a arferai efe. Oblegid yr oedd wedi myfyrio y Gymraeg yn drwyadl, gan gymeryd yn awdurdod, Eiriadur y Dr. Owen Pughe, safai yn uchel fel Cymreigydd; a llafuriodd lawer i ddyrchafu ei iaith, ei wlad, a'i genedl, fel y prawf ei "Araeth ar yr Iaith Gymraeg" a argraffodd efe yn *Seren Gomer*, 1825; a'i Amddiffyniad" iddi yn yr un cyhoeddiad am 1826. Llafuriodd lawer hefyd i barotoi Geiriadur Cymraeg oll, cyhoeddodd gynllun o'r gwaith yn *Seren Gomer*, 1824, ac ysgrifenodd dwysged o hono; ond ni ddygodd ei fwriad byth i ben. Gyda llaw, ymddengys mai dyma y gwendid mwyaf amlwg yn ei gymeriad ef, sef diffyg penderfyniad i ddwyn ei amcanion i ben. Deallai hyny ei hun yn dda; canys dywedai unwaith wrth siarad am ragoriaethau Joseph Harries,—"Y gwahaniaeth rhyngwyf fi a Harries oedd hyn, meddyliais i am gynifer o ffyrdd i wasanaethu fy nghenedl ag yntau; ond yr oeddwn i bob amser yn ddiffygiol mewn *resolution*, tra yr oedd Harries yn meddu digon i gyflawni ei amcanion." Diau mai fel pregethwr goleu, ymresymiadol, ac effeithiol, y rhagorai Mr. Davies. Cyhoeddwyd cyfrol werthfawr o'i "Draethodau ar Athrawiaethau y Grefydd Gristionogol," ar ol ei farwolaeth, yn nghyda 'i "Nodweddiad fel Cristion, Pregethwr ac Awdwr," gan ei ddysgybl athrylithgar, David Rhys Stephen; yr hon a ailgyhoeddwyd yn America. Saif hon, ar lawer o ystyriaethau, yn addurn i Lenyddiaeth Grefyddol Cymru.

**DAVIES**, Cadfridog Lewis, ydoedd drydydd mab John Davies, o'r Creigiau, plwyf Llanbadarnfawr, swydd Aberteifi. Ganwyd ef yn 1777. Ymunodd a'r fyddin yn 1791, fel banerwr yn yr 31ain gatrawd, ar yr hon yr oedd ei frawd John, yn gadben.

Yn 1796, yr oedd gyda Syr Ralph Abercrombie yn cymeryd St. Lucia, ac yno gwnawd ef yn rhaglaw. Yn 1799, cafodd Gadbeniaeth, gwasanaethodd y Duc o York yn Holland. Wedi hyny, bu yn gwasanaethu yn Ffrainc, ac ar For y Canoldir. Yn 1804, prynodd Uwch-gadbeniaeth y 36ain gatrawd. Wedi hyny efe a wasanaethodd yn Hanover, ac yn Mhenryn Gobaith Da; ac yr oedd gyd a'r Duc Wellington yn Portugal,—yn mrwydrau Brillos, Rolcia, a Verniera; a chyda Syr John Moore, yn Hispaen, a'r Iarll Chatham, yn ngwarchae Flushing, ac yn cymeryd ynys Walcheren. Yn 1812, efe a wnawd yn Rag-Filwriad ei gatrawd, a chymerodd ei llywodraethiad o dan Duc Wellington, yn nghymeriad dinas Salamanca, lle yr enwogodd ei hun yn fawr, ac y derbyniodd fathodyn. Yn Medi 1806, gwnawd ef yn gydymaith o'r anrhydeddusaf Urdd Milwrol y Bath; ac yna yn fuan cyrhaeddodd y gradd o Uwch-Faeslywydd. Yna dychwelodd adref, a threuliodd weddill ei oes yn Tanybwlch, ger Aberystwyth, lle y bu farw Mai 10, 1828, yn 51oed. Yr oedd yn briod a Jane, ail ferch Mathew Davies, Ysw, o Gwmcynfelyn.

**DAVIES**, Miles, hen awdwr cywrain, a anwyd yn Nhre'r Abbad, plwyf Rhydwyn (*Whiteford*), swydd Fflint, yn y rhan olaf o'r 16eg ganrif. Dywedir iddo fod yn offeiriad, ond nid oes sicrwydd o hyny, ac nid oes ond ychydig o'i hanes ar gael,

Digitized by Google

ond ei fod yn ysgolhaig dâ, yn gyfarwydd iawn yn llenyddiaeth ei wlad, ac yn hynod o anffodus i ddwyn ei alluoedd i unrhyw fantais iddo ei hun. Yr oedd yn elyn ffyrnig i Babyddiaeth, Ariaeth, a Sosiniaeth; ac yn deyrngarol iawn i frenhiniaeth Sior II., a'r olyniaeth Hanoveraidd. Gadawodd ei wlad, ac aeth i Lundain, i ddilyn ei alwedigaeth yn nglyn a'r gyfraith; canys geilw ei hun yn *Counsellor at Law*, ac y mae yn un o'i lyfrau lith faith ar gyfraith, ac ysgrifenwyr cyfreithiol. Yma y daeth allan fel awdwr yn y dull iselaf, canys yn hytrach na chyflwyno ei lyfrau i'r mawrion, yn ol yr arferiad, efe a'u cyhoeddai o ddrws i ddrws, gan dderbyn yr holl ddirmyg a ddigwyddai gyfarfod. Ni wyddis am ba hyd y bu wrth y gorchwyl truenus hwn, na pha bryd y bu farw. Y mae Isaac Disraeli yn "*Calamity of Authors*" wedi cymeryd cryn drafferth i achub ei enw rhag difancoll, a thybia ef, bod ei feddwl wedi dyrysu, o dan dlodi a siomedigaethau. Mae darn cywrain o gân a gyfansoddodd, dan yr enw "*Martii Calendæ, sive Laudes Cambro-Britanniæ*," i'w gweled yn hanes plwyf Whiteford, gan Pennant. Ond y mwyaf cywrain o'i lyfrau, yw yr "*Athenæ Britannicæ*, 1715," math o lyfr-hanesiaeth, bywgraffyddiaeth, a beirniadaeth, ydyw y gwaith, a'r rhan fwyaf o hono, medd Baker, yr hynafieithydd, wedi ei gymeryd o weithiau haneswyr diweddar, ond er hyny fod ynddo rai pethau mwy annghyffredin, a phrin. Enw y gyfrol gyntaf, yw "*Icon Libellorum, neu hanes beirniadol llyfrynau.*" Yn hon y geilw ei hun yn "*Gentleman of the Inns of Court.*" Cynwysiad y cyfrolau eraill, ydyw hanes awduron Caergrawnt, a Rhydychain. Y mae y gwaith yn hynod brin; ni welodd Dr. Farmer ond un gyfrol o hono, na Baker ond tair, y rhai sydd yn nghadw yn awr yn ngholeg St. John, Caergrawnt. Y mae saith cyfrol yn yr Amgueddfa Brydeinig.

**DAVIES**, Owen, un o weinidogion cyntaf y Wesleyaid yn Nghymru, a anwyd yn Ngwrexham, yn 1752. Aeth i Lundain yn ieuanc; ac yno ymunodd a'r Cyfundeb Wesleyaidd. Dechreuodd bregethu yn 1789, ac wedi bod yn ffyddlawn a llafurus am rai blyneddau, tynodd ei dduwioldeb sylw Mr. Wesley, ac efe a'i hanfonodd ef i Fanceinion, yn 1740; a bu yn llafurio mewn amryw gylch-deithiau yn Lloegr, hyd 1800, pan ffurfiwyd Cenadaeth yn Ngogledd Cymru, ac y penodwyd ef yn arolygwr arni. Yn mhen tair blynedd, gwnawd y Gogledd yn dalaeth o'r Cyfundeb, a dewiswyd Mr. Davies yn gadeirydd y dalaeth, o dan arolygiaeth Dr. Coke. Parhaodd yn y swydd hon hyd 1817, pan yr ymsefydlodd yn Liverpool, fel gweinidog cyffredin gyda'r Saeson; ond yn mhen y flwyddyn, uwchrifwyd ef, a chartrefodd yn Liverpool o hyny hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le, Ion. 12, 1830. Efe a ysgrifenodd amryw lyfrynau i amddiffyn y Cyfundeb y perthynai iddo, sef 1. "Amddiffyniad i'r Methodistiaid Wesleyaidd, 1806;" 2. Ymddiddan rhwng Hyffordd a Beread, ar yr Athrawiaethau Calfinaidd ac Arminaidd, 1807;" 3. "Sylwadau ar lyfr a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Mr. T. Jones [o Dinbych] 1808;" 4. "Llythyr at Mr. T. Jones;" 5. "Catecism i Blant, ac eraill, 1811;" 6. "Deuddeg o Bregethau, ar wahanol destynau, 1812."

**DAVIES**, Richard, oedd fab i Dafydd ab Gronw, offeiriad y Gyffin, ger Conwy, swydd Gaer yn arfon. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1501, mewn lle a elwir Plas y Person, a derbyniodd ei addysg golegawl yn Rhydychain. Yn y flwyddyn 1550, anrhegwyd ef â ficeriaeth Burnham, gan y brenin Edward y Chweched, ac â phersonoliaeth Maidsmorton, yn swydd Buckingham: ond amddifadwyd ef o'r cyfan ar esgyniad y frenines Mari i'r orsedd; a gorfodwyd ef, yn nghyd a'i wraig, i ffoi o Loegr i'r Cyfandir; ac efe a ymsefydlodd yn Geneva, lle y dyoddefodd lawer o dlodi. Ar y cyntaf, yr ydoedd yn ymddibynu ar elusenau, a chyfraniadau ei gyd alltudion; ond, mewn ystod tair blynedd, efe a feistrolodd y Ffrancaeg, fel y daeth yn alluog i bregethu yn yr iaith hono; a chafodd ei ddewis yn weinidog ar eglwys yno, yr hon a roddai gynhaliaeth gysurus iddo. Ei feibion, Thomas, Peregrine, a Jerson, a anwyd yn Geneva; ond, ar farwolaeth y frenines Mari, efe a adferwyd i'w fywiolaethau blaenorol yn Lloegr; ac ar y cyntaf o Ionawr, 1561, efe a ddyrchafwyd i esgobaeth Llanelwy; yr ydoedd wedi cael ei raddio yn D.D., y flwyddyn flaenorol; a chyfrifid ef yn un o wŷr dyscedicaf ei oes. Dyrchafwyd ef i esgobaeth Tyddewi, Mai 21, 1561.

Y mae pob parch yn ddyledus i goffadwriaeth Dr. Davies, am ei ymdrechion gwladgarol er cael gair Duw i'w gyd genedl, yn eu hiaith gynhenid. Er dwyn yr amcan clodfawr hwn yn mlaen, gwahoddodd ato rai o'r ysgolorion blaenaf, a'r ieithwyr mwyaf cyfarwydd, (yn blaenori pa rai yr oedd William Salisbury,) er cyfieithu yr Ysgrythyrau i'r iaith Gymraeg; ac yn y flwyddyn 1567, ymddangosodd y cyfieithiad cyntaf o'r Testament Newydd i'r Gymraeg, yr hwn gan mwyaf ydoedd o waith William Salisbury; ond y rhanau canlynol a gyfieithwyd gan yr esgob, sef yr epistol cyntaf at Timotheus, yr epistol at yr Hebreaid, epistol Iago, epistolau cyntaf ac ail Pedr; ac yn rhag-ddodawl i'r Testament, mewn Cymraeg rhagorol, lythyr "At y Cymry oll, yn enwedig pob mab enaid dyn o fewn ei Esgobaeth, yn dymuno adnewyddiad yr hen ffydd gatholic, a goleuni Efengyl Crist iddynt." Y llythyr a ddengys ei fod ef yn brotestant cadarn, yn wladgarwr twymngalon, ac yn dduwinydd rhagorol, o olygiadau cwbl efengylaidd. Y mae yr esgob yn y Llythyr hwn, yn galw ar y Cymry yn y modd serchocaf, i ddeffroi o'u cwsg, ac i dderbyn a gwerthfawrogi y rhodd ardderchog, oedd yn awr yn cael ei chynyg iddynt. Y mae yn dwyn ar gof iddynt y modd y cadwodd yr hen Gymry yr efengyl yn ddi lwgr yn eu gwlad, dros amryw oesoedd, a'r erlidigaethau a ddyoddefasant o'r herwydd. Yna, y mae yn dangos pa fodd y cawsant o'r diwedd eu llygru, a'u dwyn yn gaeth gan Babyddiaeth; a pha fodd y cafodd eu llyfrau eu dinystrio o bryd i bryd, nes i'w holl gyfansoddiadau o'r braidd gael eu dyfetha. Yn ganlynol i hyny, y mae yn mawrygu y goleuni oedd wedi tywynu ar bob gwlad, er pan ddyfeisiwyd y gelfyddyd o argraffu llyfrau; ac yn datgan ei alar fod y Cymry wedi manteisio leied oddiwrth y gelfyddyd hono: ond er ei gysur, y mae yn chwanegu fod eu hesgobion, trwy gynnorthwy William Salisbury, yn bwriadu rhoddi yr holl Feibl iddynt yn eu hiaith eu hunain;—fod y Testament Newydd yn barod, a'i fod yn hyderu na fyddent yn hir, cyn cael yr Hen Destament hefyd.

Y mae y Dr. Davies yn y Llythyr crybwylledig, yn dywedyd iddo ef, pan yn fachgen, weled pum llyfr Moses yn Gymraeg, yn nhŷ ei ewythr, yr hwn oedd yn wr dysgedig; ond nad oedd neb yn prisio y llyfr hwnw. Barnai, nad oedd yn annhebygol fod

Digitized by Google

y Beibl, neu ranau o hono, gan y Cymry, yn yr iaith Gymraeg, o'r pryd yr anfonodd Duw ef yma, hyd ddechreuad y Diwygiad: ond, gan nad oedd rhyddid i'r bobl i'w ddarllen, tra yr oedd Pabyddiaeth yn ei rwysg, a'r gelfyddyd o argraffu heb ei dwyn i'r wlad, na allasai fod llawer o Feiblau gan y Cymry yr amser hwnw.

Yn yr un flwyddyn hefyd, sef 1567, yr ymddangosodd Ffurf-wasanaeth yr Eglwys Sefydledig, wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg gan yr esgob, yn cael ei gynnorthwyo gan William Salisbury; a thraul argraffu yr hwn a gyd ddygwyd ganddynt.

Yn ol tystiolaeth Syr John Wynn, yr oeddynt wedi myned yn mhell yn mlaen gyd a'r Hen Destament, a buasent wedi gorphen y gwaith hwnw, oni buasai i ymrafael dori allan rhwng yr esgob a William Salisbury, yn nghylch geir-darddiad, ac arwyddocad un gair, yr hwn y mynai yr esgob ei fod un ffordd, a William Salisbury, ei fod yn wahanol, er mawr golled i'r hen iaith Gymraeg; canys yn ystod agos i ddwy flynedd, y bu William Salisbury yn byw gyd a'r esgob, hwy a dynasant i fynu Homiliau, Llyfrau, ac amryw draethodau eraill, yn yr iaith Gymraeg; a diau y buasent yn gwneuthur llawer yn ychwaneg, oni buasai yr ymrafael anhapus hwnw; canys ymddengys fod yr esgob wedi byw bump neu chwe blynedd wedi hyny, a William Salisbury bedair blynedd ar hugain; ond efe a roddes i fynu ysgrifenu, yr hyn oedd yn resyn mawr, gan ei fod yn ysgolor gwŷch, ac yn Hebrewr rhagorol, yr hyn oedd yn dra phrin yn y dyddiau hyny. Yn y Cyfieithiad newydd o'r Beibl Saesoneg, a wnaed trwy orchymyn y frenines Elisabeth, yr hwn a adwaenir yn gyffredin dan yr enw "Beibl Parker," ac a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1568, llyfrau Josuah, Ruth, a'r I., a'r II. Samuel, a adolygwyd, ac a gydmarwyd â'r Hebraeg gwreiddiol, gan yr Esgob Davies. Yn y flwyddyn 1577, efe a gyhoeddodd bregeth, a draddodasai efe yn angladd Walter, Iarll Essex, yn Nghaerfyrddin, yn y mis Tachwedd blaenorol. Yr oedd efe yn Fardd Cymreig rhagorol hefyd, ac y mae rhai Cyfansoddiadau o'i eiddo ar gael eto. Pan ei symudwyd i Dy-ddewi, dywaid Syr John Wynn, iddo "lywyddu yno yn deilwng o hono ei hunan, ac er anrhydedd i'n cenedl, gan amlygu ei hoffder trwyadl o'r Gogleddwyr, y rhai a gyfleai efe yn lluosog mewn bywioliaethau eglwysig yn ei esgobaeth, a'i hoff ddywediad canlynol yn wastad yn ei enau, '*Myn y firi faglog*, myfi a'ch planaf chwi y Gogleddwyr, tyfwch os mynwch.' Efe a gadwai dŷ rhagorol, gan gadw yn ei wasanaeth, y brodyr ieuangaf o'r rhan fwyaf o'r tai goreu yn y wlad hono, i'r rhai y rhoddai gynhaliaeth ac addysg dda, gyd a'i blant ei hun. Efe a wrthsafodd Syr John Parrot yn ddewr-wych, yr hwn oedd y dyddiau hyny yn hoff-ddyn cyfrinachol Iarll Leicester, gwr o feddiannau mawrion yn y wlad hono." Y mae yn ofidus meddwl fod gwr o gymeriad mor uchel, wedi rhoddi achos i achwyn arno o herwydd ei ymddygiad yn llywyddiad ei esgobaeth; ond, y gwir yw, na's gellir gwadu ei fod ef wedi tlodi esgobaeth Tyddewi yn fawr, er gwneyd arlwy i'w deulu lluosawg, fel y cwynai ei olynydd yn yr esgobaeth, yr hwn a'n hysbysa fod yr holl diroedd, hyd at ddrysau ei dŷ, wedi eu gosod ar brydlesoedd; yr holl fywiolaethau eglwysig o werth deg punt yn y flwyddyn, wedi eu glwys-fuddio; ei holl dai oddieithr un, wedi eu gollwng yn adfeilion."

Efe a fu farw Tach. 7, 1581, yn 80 mlwydd oed, yn y llys esgobol yn Abergwili, a chladdwyd ef yn eglwys y plwyf; gan adael gweddw, o'r enw Dorothy, ac amryw blant.

**DAVIES,** Richard, y Crynwr, a anwyd yn y Trallwm, swydd Drefaldwyn, yn y flwyddyn 1635, o rieni oeddynt yn berchenogion ettifeddiaeth fechan, trwy yr hyn eu galluogid i roddi manteision addysg lled dda i'w mab; ac amlygai yntau dueddfryd gref at ddarllen, pan yn ieuanc; ymhyfrydai yn fawr mewn gweithiau duwinyddol, ac ymdrechai yn ddifrifol i'w hiawn ddeall, a'u gwerthfawrogi. Er yn blentyn, cadwai ddysgyblaeth fanol ar ei feddwl, ac ar ei ymddygiadau ei hun. Pa mor foreu y daeth yn ddeiliad argyhoeddiadau crefyddol, nid yw yn sicr: ond wedi penderfynu o hono ymofyn am aelodaeth eglwysig, efe a ddewisodd wneyd hyny yn mysg yr Annibynwyr. Yn mhen rhyw gymaint o amser, cymerodd dadl le rhyngddo ag un o'r Crynwyr, o Ddeheudir Cymry, o barth i olygiadau y bobl hyny, y rhai oeddynt yn tynu cryn sylw yr amser hwnw. Wedi i'r ddadl hono fyned trosodd, ail ystyriodd resymau ei wrthwynebydd, a chawsant y fath ddylanwad ar ei feddwl, fel yr ymadawodd efe a'i hên gyfeillion, yr Annibynwyr, ac yr ymunodd â'r Crynwyr, oddeutu y flwyddyn 1657. Dyn ydoedd Richard Davies, yn credu yn drwyadl yr hyn a gredai, pa un bynag a'i cywir neu annghywir a fyddai. Mor gynted ag yr argyhoeddid ef o wirionedd a phwysigrwydd unrhyw beth, byddai y fantol wedi troi, a'r gwirionedd tybiedig hwnw yn cael ei weithio allan i'w holl ganlyniadau, pa un bynag a'i gwawdio, ynte gwenu, a'i noddi, neu erlid, a wnelai y byd: felly, wedi iddo fabwysiadau golygiadau y Crynwyr, ymegniodd mewn amser, ac allan o amser, yn rhydd, ac yn rhwym, i enill ei gydwladwyr ac eraill, i'w cofleidio hefyd. Holwyd ef gan y swyddog gwladol drachefn a thrachefn; bu yn cael ei holi, a'i groes holi gan yr ynadon lawer gwaith; ac amryw weithiau bu yn nghelloedd llaith y carchar, yn herwydd ei olygiadau crefyddol, a'i ymdrechion egniol dros eu lledaeniad. Ond, nid oedd sarrugrwydd y ceisbwl, llymder di drugaredd yr ynadon, nac oerni ac afiachusrwydd y carchar, yn pylu ei sêl, nac yn oerni brwdfrydedd ei ysbryd. Bu Richard Davies a'r esgob William Lloyd, yn dadleu a'u gilydd; yr oedd y naill a'r llall yn zelog a galluog; ond, yr oedd lledneisrwydd Cristionogol y naill a'r llall y fath, fel y gochelent sarhau eu gilydd, gan fod y naill yn edrych ar y llall fel Cristion pur, er eu bod yn gwahaniaethu o barthed i allanolion crefydd. Y mae esgobion fel eraill, yn agored i erlidigaethau ar brydiau; ac felly y dygwyddodd i Dr. Lloyd; canys ar yr 8fed o Fehefin, 1688, efe, yn nghyd ag amryw esgobion eraill, a draddodwyd i garchar yn y Twr; ac yn awr, pan oedd cyfoeth a llwyddiant wedi cefnu ar yr esgob, a'r llŷs breninol yn gwgu arno, fe'i hannghofid gan y rhan fwyaf o'i gyfeillion blaenorol; ond glynodd Richard Davies yn ffyddlawn wrtho, gan ymweled ag ef yn ei adfyd, a'i gysuro yn ei garchar. Llawer gwaith yr ymwelodd Richard Davies â'r brif ddinas, pan fyddai achosion crefydd a chydwybod yn galw am hyny. Nid oedd llafur na lludded, corph na meddwl yn effeithio dim arno; ond byddai yn barod i gydsynio â galwad dyledswydd, pa faint bynag o draul a thrafferth a fyddai hyny iddo. Yn y flwyddyn 1702, aeth efe, yn nghyd ag un ar ddeg eraill, i Lundain, i gyflwyno anerchiad teyrngarol i'r frenines; ac wrth ddy-

Digitized by Google

chwelyd oddiyno, efe a aeth trwy Worcester, er talu ymweliad cyfeillgar i'w hen wrthwynebwr, a'i gyfaill hoff, y Dr. Lloyd, yr hwn oedd y pryd hyny yn esgob Worcester; a bu cyfeillach felus yno rhwng yr Esgob a'r Crynwr. Ni throsglwyddwyd adroddiad i ni o holl destynau eu hymddyddan; ond, y mae yn ddïau mai y pethau a berthynant i'r deyrnas nad yw o'r byd hwn, oedd yn benaf dan eu sylw; a phan yn ymadael a'u gilydd, nid yw yn annhebyg iddynt son am "y wlad well" hono, lle

"Y mae pawb o'r brodyr yn gyttun,
Heb neb yn tynu'n groes,
Yn moli'r Duwdod yn y dyn,
A chofio ei angau loes."

Bu Richard Davies farw, mewn lle o'r enw Cloddiau Cochion, ar yr 22ain o Ionawr, 1708, yn 73ain mlwydd oed. Cyhoeddwyd Hanes cyflawn o'i fywyd, yr hwn a aeth drwy amryw argraffiadau, ac yn yr hwn y cair llawer o oleuni ar sefyllfa grefyddol y Cymry, yn yr eilfed ganrif ar bymtheg.

**DAVIES**, Robert, Ysw., ydoedd fab i Robert Davies, Ysw., o'r Gwyssaney, gerllaw y Wyddgrug, o Ann, merch i John Haynes, Ysw., Derbynydd y trethi dan y frenines Elisabeth. Efe a anwyd, Medi 19, 1616; a thrwy ei brïodas ag Ann, unig ferch, ac ettifeddes Syr Peter Muton, Marchog; yr hwn yn ei ddydd oedd yn brif farnydd Sessiwnau Gwynedd, efe a ddaeth i feddiant o'r Llannerch, yn Nyffryn Clwyd. Bu y boneddwr hwn yn Siryf swydd Fflint dair blynedd olynol, sef yn 1644, 1645, a 1646; a thrachefn yn y flwyddyn 1660; a buasai wedi cael ei wneyd yn Farchog y Dderwen Freninol, yn y flwyddyn olaf a nodwyd, pe y buasai yr amcan o sefydlu yr urdd crybwylledig, wedi ei roddi mewn gweithrediad; a dywedir fod ei ettifeddiaeth y pryd hyny, yn werth dwy fil o bunau yn y flwyddyn. Pan dorodd y rhyfel gartrefol allan, efe a osododd ei dŷ yn y Gwysanau mewn cyflwr amddiffynol; ond bu raid iddo ei roddi i fynu i allu cryfach Syr William Brereton, yn y flwyddyn 1645. Efe a fu farw yn y flwyddyn 1666, a dylynwyd ef gan ei fab, Muton Davies, Ysw., yr hwn a anwyd Chwef 19, 1634, ac yn hawl ei fam, a ddaeth yn ettifedd y Llannerch; a bu yn Uchel Siryf swydd Fflint, am y flwyddyn 1670.

**DAVIES**, Robert, Ysw., o'r Llannerch, a Gwysaney, ŵyr i'r Robert Davies uchod, yr hwn a fu yn Uchel Siryf swydd Fflint, am y flwyddyn 1704, a brïododd Letitia, ferch Edward Fychan, neu Vaughan, o'r Trawsgoed, Ceredigion. Yr oedd y boneddwr hwn yn wr tra dysgedig, yn henafiaethydd enwog, ac yn gasglydd diwyd ar hen ysgrif-lyfrau Cymreig, ac amryw bethau cywrain eraill. Ystyrid ef yn eglwyswr uchel, a gorfanwl. Bu farw Gorph. 11, 1710, yn 52ain mlwydd oed.

**DAVIES**, Robert, a adwaenid yn gyffredin gan lenorion y dywysogaeth, wrth yr enw barddonol, "*Bardd Nantglyn;*" efe a anwyd yn yr Henfryn, tyddyn bychan gerllaw Nantglyn, yn Sir Ddinbych, yn 1769, yn nechreu ei yrfa farddonol, dywedir mai ei enw cyffredin, ydoedd, Robin Ddu o'r Glyn, a phryd arall, Robin Ddu o Nantglyn. Nid oes ond ychydig o hanes ei ddyddiau boreuol ar gael, amgen nag iddo gael ei ddwyn i fynu yn nghrefft Dilledydd, ac iddo flino yn fuan ar yr alwedigaeth hono, a throi allan yn fardd. Yr oedd yn adnabyddus â Twm o'r Nant, ac yn ddysgybl awenyddol iddo. Dechreuai brydyddu trwy rigymu *Interludiau*, yn ol delw ei athraw; eithr ni chyrhaeddodd nemawr o fri yn y dosparth hwnw. Y prif ddernyn o'i waith yn y cyfeiriad hwn, ydoedd "Ewyllys Adda," yr hwn sydd yn cael ei hynodi am Gellweiriaeth mewn pethau cyssegredig; elfenau anghydnaws ïawn a'u gilydd. Dywedir iddo ymuno a'r Trefnyddion Calfinaidd pan yn ieuangc; ond ni bu ei arosiad gyda hwy yn hir, eithr trodd ei wyneb am yr Eglwys Sefydledig, a bu yn glochydd yn ei chynteddoedd. Ymgododd yn fuan i gryn enwogrwydd fel bardd. Enillodd Gadair Eisteddfod Caerwys, yr hon a gynhaliwyd dan nodded Cymdeithas Gwyneddigion Llundain, ddydd Mawrth y Sulgwyn 1798; y testyn ydoedd, "Cariad i'n gwlad, drwy adgyfodiad yr hen Eisteddfod, a defodau Cymru." Symudodd i Llundain yn 1800; a bu yno am ysdod pedair blynedd. Ymddengys nad aeth ei deulu gyd âg ef yno, ond iddynt aros yn Nantglyn. Eto, teimlai y Bardd yn hiraethlawn iawn am danynt, yn ei absenoldeb oddiwrthynt. Yr oedd ganddo serchawgrwydd gwresog at ei deulu, fel y profa yr Englynion a gyfansoddodd ar farwolaeth ei wraig. Dywedir ei fod yn edrych tua'r nefoedd, pan yn Llundain, ac iddo amlygu ei hiraeth am ei gartref, yn yr Englyn hwn:—

"Y lloer wen, a'r glaer Fenws,—a ser
Siriol y Twr Tewdws,
Rowch chwi drem goruwch y drws
Debygwch, ar dy Begws?"

Cyfansoddodd Gywydd gorchestol i swyddogion y Gwyneddigion, yn y flwyddyn 1800, a derbyniwyd ef yn aelod o'r Gymdeithas. Efe oedd Bardd y Gymdeithas am 1801, a'i hysgrifenydd am 1802, a 1803. Gadawodd Lundain, a dychwelodd i'w hen gartref yn Nantglyn, yn 1804, ac yno yr arhosodd hyd ddydd ei farwolaeth, yr hyn a fu, Rhagfyr 1, 1835. Y peth cyntaf a gyhoeddodd Bardd Nantglyn, ydoedd llyfryn swllt o Farddoniaeth, dan yr enw, "Cnewyllyn mewn Gwisg; sef Cnewyllyn Gwirionedd—mewn gwisg o Gynghanedd, neu gasgliad o Garolau, a Cherddi, a rhai Cywyddau, ac Englynion, ar amryw destynau, pa rai na buant yn argraphedig o'r blaen." Cyhoeddodd lyfryn arall yn 1803. Y llyfr cyntaf wedi hyny, oedd ei Ramadeg, gyda'r hwn y mae Rheolau Barddoniaeth. Yn yr Hysbysiad a gyhoeddwyd cyn argraphu y llyfr, dywedid y byddai Rheolau Barddoniaeth, o waith Dafydd Ddu Eryri, gyda'r Gramadeg. Ni chydnabyddwyd enw Dafydd Thomas yn y gwaith, yr hyn a fu yn achlysur o raddau o dramgwydd i Fardd Eryri. Daeth dau argraphiad allan, wedi hyny, mewn amserau dilynol, o'r Gramadeg. Yn 1837, cyhoeddodd grynhoad detholedig o Farddoniaeth, yn gyfrol brydferth, dan yr enw "Diliau Barddas." Efe a enillodd Gadair Powys, yn Eisteddfod Gwrecsam yn 1820, am ei "Awdl ar farwolaeth ein diweddar frenin Sior III." Dywedir iddo enill un ar ddeg o Fathodau, heblaw gobrwyon mewn arian, mewn gwahanol Eisteddfodau, y mae yn debyg mai y tro diweddaf yr enillodd, ydoedd yn Eisteddfod Biwmares, yn 1832, pryd y cafodd ddwy wobr, un am y Cywydd ar "Dafydd yn chwareu y delyn o flaen Saul," a'r llall am y chwe Englyn goreu ar "Ymweliad eu Huchelder Brenhinol Duges Caint, a'r Dywysoges Victoria, â'r Eisteddfod Genedlaethol." Ni bu ef yn llwyddianus y tro hwn, ar y Cywydd ar Lundain; nid oedd yno yr un teilwng o'r wobr. Dylid nodi

Digitized by Google

hefyd, fod Bardd Nantglyn, a chanddo gryn raddau o wybodaeth mewn Cerddoriaeth, canys yr oedd efe yn gydfeirniad ar y Datganu, âg A. O. Puw, Ysw.; Ieuan Glan Geirionydd, a'r Bardd Alaw. Y mae yn hysbys ddigon eisoes i'r cyhoedd, i Fardd Nantglyn dynu cryn wg arno ei hun, wrth gydfarnu â Dr. Puw, a Dewi Silin, yn 1819, ar "Awdlau ar Elusengarwch, pan y rhoddid y flaenoriaeth i Awdl y "Dryw," ar yr eiddo "Dewi Wyn o Eifion," tra nad oedd mewn gwirionedd, un lle o amheuaeth nad oedd yr olaf yn tra rhagori. Yr oedd Bardd Nantglyn wedi enill iddo ei hun radd dda, fel cyfieithydd o'r *Messiah*, gan *Pope*. Rhanwyd y Wobr rhyngddo ef â Blackwell, yn yr ymdrechfa hon. Claddwyd ef yn Mynwent Nantglyn.

**DAVIES**, Samuel, 1af, un o weinidogion enwocaf y Wesleyaid yn Nghymru, ydoedd fab i amaethwr bychan, yn byw mewn lle o'r enw Ffordd, yn mhlwyf Cilcain, swydd Fflint. Ganwyd ef yn mis Mehefin, 1788; efe oedd yr ieuangaf o amryw frodyr; o ganlyniad cafodd fwy nag a wnelai les iddo, o anwes gan ei rieni, yr hyn a fu yn rhwystr iddo gael ysgol ddyddiol yn ei ieuenctyd. Trodd allan yn fachgen gwyllt a direidus; ond ni adawai ei gydwybod lonydd iddo fyned yn mlaen felly, eithr blinai ef yn y nos, â breuddwydion terfysglyd am farw, a barn, nes iddo o'r diwedd benderfynu nad halogai y Sabboth mwyach, a dechreu teimlo ei ffolineb o fod wedi casau addysg, a gwrthod myned i'r ysgol yn ei ieuenctyd. Tua'r amser hwn, daeth un Evan Roberts, gwr perthynol i'r Methodistiaid Calfinaidd, i Gilcain i gadw Ysgol Sabbothol; ac yn mhlith ei ddysgyblion mwyaf cyson, yr oedd Samuel Davies. Dysgodd yn fuan ddarllen ei Feibl, ac yr oedd y canu a'r gweddio ar ddechreu a diwedd yr ysgol, yn cael argraff arosol ar ei feddwl. Yr oedd yn teimlo erbyn hyn, nad oedd gorphwysfa i'w feddwl blin, ond yn ngwaith, a chyda phobl yr Arglwydd; ond gan ei fod o dymeredd drymaidd, ac na ddarfu i'r Methodistiaid dori ato, bu yn hir fel y golomen archolledig, yn cwynfan uwch ben ei ddolur, heb un cyfaill i'w gynghori, nac i gydymdeimlo ag ef. Pan yn y cyflwr hwn, clywodd fod Jones Bathafarn,—un o bregethwyr mwyaf tanllyd y Wesleyaid, i bregethu bore Sabboth, Tach. 1801, yn Llanferres, y plwyf nesaf i Gilcain. Penderfynodd y bachgen Samuel fyned i'w wrando ef, glynodd rhanau o'r bregeth yn ei gof, a thueddwyd ei serch at y Wesleyaid. Wedi iddo glywed Mr. Jones eilwaith, a gwrando John Bryan, yn pregethu ar y geiriau "Dianc am dy einioes," efe a lwyr benderfynodd i fwrw ei goelbren i'w plith; ond ofnai anturio, rhag yr ystyrid ef yn rhŷ ieuanc. Ond yn Ebrill 1802, daeth John Morris i'r ardal, a phregethodd yn nhy Robert Jones, Maeshafn, ar y geiriau, "Y cyfaill, pa fodd y daethost i mewn yma, heb fod genyt wisg priodas?" Wrth bregethu, sylwodd Mr. Morris ar y dyn ieuanc, ac ar ol yr oedfa, cymerodd ef gerfydd ei law, ac yn nghanol ei ddagrau, arweiniodd ef i'r *seiat*. Wedi iddo gael gafael ar Geidwad ei hun, yr oedd ei galon ar dân am gael ei gymydogion i afael yr un fraint. Llwyddodd i gael Ystafell yn llan Cilcain, i gynal addoliad, ac i gael brodyr o Lanferres i ddyfod yno i arfer moddion. Byddai hin anffafriol, a'r ffordd arw, yn atal y cyfeillion yn fynych i ddyfod i Gilcain i gynal moddion; a chan nad oedd ond Samuel, ac un ferch ieuanc, yn aelodau yn y lle, gorfodid ef a hithau i fyned a'r moddion yn mlaen eu hunain. Fel hyn y parhaodd pethau am gyfnod, ond o'r diwedd, dechreuodd yr eglwys gynnyddu, a chael pregethu rheolaidd, fel erbyn 1803, yr oedd yr aelodau yn rhifo 27ain. Yn y flwyddyn hono, dechreuwyd adeiladu capel yno, yr hwn a agorwyd yn yr Hydref canlynol. Yn fuan ar ol hyn yr ydym yn ei gael yn Llansanan, yn *mentro* mewn gwaith mŵn; ac ymddengys iddo fod yn llwyddianus, canys pan yn gadael ei gartref i fyned i'r weinidogaeth, gallodd hebgor 100*p*. yn rhodd i'w rieni. Yn ystod ei arosiad yn Llansanan, arferai fyned oddi amgylch, i'r pentrefi cyfagos i gynal cyfarfodydd gweddi. O'r diwedd, dechreuodd arfer ei ddawn ynddynt, i ddyweyd gair ar ryw adnod; a gwelwyd yn fuan fod ynddo ddefnydd dyn, a chaed ganddo ddechreu pregethu o ddifrif. Anfonodd Owen Davies, arolygwr y Genadaeth Gymreig, ef i gydlafurio a Mr. Jones Bathafarn, a Mr. William Davies, i gylchdaith Machynllaeth, yr hon oedd ar y pryd yn cyrhaedd o Ddinas Mawddwy, i Aberteifi. Arosodd yno, o Ionawr hyd Awst 1807, gan gynnyddu yn ddirfawr mewn nerth a phoblogrwydd. Yna symudwyd ef i gylchdaith Arfon, yr hon oedd yn cyrhaedd o Aber, ger Bangor, hyd Aberdaron, yn Lleyn. Bu yma am ddwy flynedd, ac arddeliad amlwg ar ei lafur; yna symudodd i Dinbych, pryd y daeth i gynabyddiaeth a merch ieuanc rinweddol, o'r enw Miss Twiston, yr hon a briododd efe yn 1814. Yn 1810, symudodd o Dinbych i Liverpool, lle y bu o fendith fawr i lawer o Gymry ag oedd yn suddo mewn tlodi ac esgeulusdra, i anfoesoldeb a thrueni ysbrydol. Yma y daeth ei bedair blynedd prawf i ben, ac urddwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth yn 1811. Daeth yn fuan i gael ei ystyried yn un o brif ddynion ei enwad, fel pregethwr nerthol a hyawdl, ac amddiffynwr cadarn i'r egwyddorion, yn erbyn yr ymosodiadau parhaus a gyfarfyddent yn yr oes ddadleugar hono. Cofid yn hir am ei *bregeth fawr*, fel ei gelwid, yr hon a ddarparodd efe pan yn aros yn Nhreffynon, yn 1818, er gwrthateb yr uchel-Galfiniaid. Gan fod capel yr enwad yn y dref yn rhy fach i gynwys y dorf enfawr a ymgynullai i'w gwrando, efe a benderfynodd ei thraddodi ar ochr y mynydd, mewn lle a elwir Moel y Park, ar derfyn swyddi Dinbych a Fflint. Cofid yn hir am y miloedd yn ymgynull o swydd Fflint, a Dyffryn Clwyd; —y gwragedd yn llusgo eu rhai bach, a'r dynion, a'u siacedi ar eu breichiau, yn chwys diferol—pob un yn dringo y gelltydd, mewn mawr awydd am gyrhaedd Ochr y Foel mewn pryd, i glywed y testyn, "Crist a fu farw dros bawb;" ac fel yr ymwthient yn mlaen yn rhengau trwchus a boddhaol, wrth weled eu gwron yn tywallt cawod ar ol cawod, o beleni ar gestyll y gelyn Calfinaidd.

Gadawodd y bregeth hon, fel ugeiniau eraill o'i eiddo, effeithiau parhaol ar gredoau y sawl a'i gwrandawsant. Ymddengys ei fod erbyn hyn, wedi ymroddi i "ymladd rhyfeloedd yr Arglwydd;" canys yn Gorphenaf y flwyddyn hono, efe a gyhoeddodd bregeth ar "Brynedigaeth Gyffredinol," yr hon a wrthatebwyd gan Ieuan Glan Geirionydd (ac efe eto ond llanc), yn y fl. 1819. Yn gynar yn 1820, dyma lyfryn allan gan Samuel Davies, er gwrthateb ymresymiadau E. Evans, dan yr enw, "Calfiniaeth yn cael ei dadlenu, a'r gwirionedd ei amddiffyn." Yr unig ateb a roddodd y blaid Galfinaidd i hwn, oedd pregethau Hurrion, mewn gwisg Gymreig, wedi eu cyfieithu gan Ieuan Glan Geirionydd, gyda Rhagym-

Digitized by Google

adrodd gan John Elias. Ymorphwysodd y ddwy blaid ar hyn, gan fod yn sicr bob un yn ei meddwl ei hun. Yn 1841, efe a gyhoeddodd lyfryn gorchestol, dan yr enw, "Etholedigaeth Ddiamodol; sef Esboniad ar Rhuf. IX." Yna, yn fuan, cawn ef, mewn cysylltiad a'i gyfaill hoff, Thomas Jones, yn dwyn allan y "Drysorgell Efengylaidd, neu Gorff o Dduwinyddiaeth;" ac yn mhen ychydig wedi hyny, cyhoeddodd yr "Hyfforddwr Teuluaidd," yr hwn sydd yn parhau mewn gryn fri gan yr enwad hyd heddyw.

Cyfansoddodd y gweithiau olaf a enwyd, yn Manceinion, pan oedd wedi suddo yn ddwfn i ddyfroedd trallod, o herwydd colli el briod, a dau o'i blant. Dan bwys y gofidiau, ar llafur, rhoddodd ei feddwl ffordd; ac er iddo gael ei adferyd i raddau, fel i'w alluogi i gyflawni ei ddyledswyddau crefyddol, eto nid yr un Samuel Davies oedd efe yn awr a chynt. Uwchrifwyd ef yn 1845; symudodd i fyw at ei ferch i Liverpool; ail briododd yn 1847; symudodd i Gaerlleon yn 1851, lle y cafodd ergyd trwm o'r parlys, yr hwn a'i cwbl analluogodd ef, gorff a meddwl; a phan yn y cyflwr yma, bu farw ei ail wraig. Symudodd at ei ferch i Dinbych, yn 1852; ac yno y bu farw ar y 7fed o Mai, 1854.

**DAVIES**, Stephen, Dyserth; bardd o gryn deilyngdod, a elwid fynychaf wrth yr enw *Stephan*. Ganwyd ef yn Prestatyn, swydd Fflint, Tach. 8, 1790. Symudodd ei rieni i fyw i'r Dyserth, pan oedd efe yn dra ieuanc. Yn 1822, efe a briododd ag un Cathrine Price o Moelfra, ger Abergele, yr hon a fu farw yn 1835; a gwelir galaeth y bardd ar ei hol, yn y Gwladgarwr, iii. 248, yr hon yn ddiau yw un o'r pethau symlaf a thyneraf a feddwn yn ein hiaith. Efe a enillodd y wobr ar "Hiraeth ar ol Mabolaeth," yn Eisteddfod y Gordofigion yn Liverpool 1840, yr hon a argraffwyd yn yn y *Beirniadur Cymreig*, 1846. Y darn diweddaf o'i eiddo, ydoedd "Ymddiddan rhwng y bardd ac Amser;" ac ymddangosodd yn y *Drysorfa* 1858. Ymddangosodd llawer o'i gynyrchion yn y *Gwladgarwr;* a gadawodd o'i ol, lawer o Y.-L. tra gwerthfawr. Bu farw Ebrill 6, 1858, yn 67oed, a chladdwyd ef yn mynwent Galltmelyd.

**DAVIES**, Thomas, D.D., oedd yn hanu o hen deulu tra chyfrifol; mab ydoedd i Dafydd ab Robert ab Llewelyn, Ysw., o'r Caerhun, yn agos i Gonwy, yn swydd Gaer yn arfon, lle ei ganwyd ef tu a'r flwyddyn 1515. Efe a gafodd ei ddysg athrofaol yn Ngholeg Sant Ioan, Caergrawnt, a'i ddyrchafiadau eglwysig cyntaf, oeddynt reithoriaeth Llanbedr y Cenyn, a ficeriaeth Caerhun. Yn y flwyddyn 1539, efe a bennodwyd i Archddiaconiaeth Llanelwy, yr hon a ddaliodd efe hyd y flwyddyn 1554, pan ei difuddiwyd o honi am iddo brïodi; ond, ar esgyniad y frenines Elisabeth, efe a adferwyd; ac yn y flwyddyn 1546, efe a wnaed yn Gangellydd Eglwys Gadeiriol Bangor. Yn y flwyddyn 1561, efe a ddyrchafwyd i fod yn esgob Llanelwy, lle y parhaodd hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le yn ngwyl Mihangel, y flwyddyn 1573. Dywedir ei fod yn wr tra chrefyddol, ac elusengar. Efe a sefydlodd ysgoloriaeth yn ngholeg y Frenines, yn Nghaergrawnt, a rhoddodd amryw symiau o arian, at amcanion elusenol eraill.

**DAVIES**, Thomas Rhys, Glanwydden, pregethwr tra adnabyddus trwy holl Gymru, a anwyd yn Penwenallt, Cilgeran, swydd Benfro, Mai 19, 1790. Yr oedd ei rieni yn gwrando gyda'r Annibynwyr; ond bwriodd ef ei goelbren gyda'r Bedyddwyr, a bedyddiwyd ef yn afon Morgenau, gan Benj. Davies, Cilfowyr, pan yn 16oed. Dechreuodd bregethu yn ystod y gauaf canlynol. Yn 1811, daeth ef, a Simon James, ar daith bregethwrol i'r Gogledd; pregethasant yn Nghymanfa Amlwch; hoffodd Christmas Evans y ddau ddyn ieuanc yn fawr, ac anogodd hwynt i ymsefydlu yn y Gogledd, lle yr oedd y cynauaf yn fawr, a'r gweithwyr yn anaml. Y canlyniad fu, i Simon James ymsefydlu yn Lleyn; a Thomas Rhys Davies, yn y Creuddin, gan gymeryd gofal yr eglwysi bychain yn y Roe, Fforddlas, a Glanwydden, a'r holl wlad o amgylch yn faes ei lafur. Yr oedd yn ddyn cryf annghyffredin, ac yn meddu holl elfenau pregethwr poblogaidd mewn cyflawnder; a llafuriodd yn galed iawn yn mlyneddau cyntaf ei weinidogaeth, i deithio a phregethu ar hyd y wlad o amgylch; yn gymaint felly, fel y dywed ef ei hun na chysgodd braidd ddwy noswaith nesaf at eu gilydd yn yr un gwely, am rai blynyddoedd. Yn 1814, efe a briododd Miss Foulks, Glanywern, yr hon yn ei synwyr da, ei gofal mawr, a'i chynysgaeth doreithiog, a fu iddo ar hyd ei oes, yn "ymgeledd gymwys" yn ystyr helaethaf y gair. Tua'r flwyddyn 1817, cododd rhyw ymrafael rhyngddo ef a John Evans, Glanwydden, o berthynas i adeiladu y capel yno; ac wedi llawer o ymdrech aflwyddianus i'w cymmodi, diaelodwyd Thomas Rhys Davies o Gyfundeb y Bedyddwyr, yn Nghymanfa Rhuthyn, yn 1818. Wedi hyn efe a ymunodd a'r Wesleyaid, a bu yn pregethu gyda hwynt yn boblogaidd am yn agos i saith mlynedd. Ond er iddo newid ei sect, ni newidiodd efe ei farn ar y pynciau gwahaniaethol rhwng y ddau enwad. Ni chafwyd ganddo fedyddio un baban yn ystod y saith mlynedd. Dywedai unwaith, mewn cyfarfod Cenadol gyda'r Wesleyaid yn Maentwrog,—"Mae nhw, y Baptists, yn meddwl llawer o honynt eu hunain, ond allan nhw fel sect, ddim gwneyd yr holl waith sydd i'w wneyd yn y wlad yrwan; rhaid ein cael ninau, y Wesleyaid, ar y maes hefyd; ond o ran hyny Baptists fyddwn ni i gyd cyn y diwedd." Mae yn amlwg fod ei galon o hyd yn ei hen gynefin, a chadwai ei lygad am gyfle i fyned yn ol. O'r diwedd, daeth yr amser cyfaddas; cyfarfu Hugh Jones (Rhuthin, ar ol hyny), ag ef ar y ffordd yn agos i gapel Fforddlas, ar noson y gyfeillach, a gofynodd iddo, "Father, dros ba hyd yr ydych yn meddwl aros fel hyn, fel aelod allan o'r corff?" "Dim yn hwy," ebe yntau, nag y gwelaf gyfle i ddod yn ol i'r *joint*." "Dyma gyfle heno, dewch gyda mi i'r gyfeillach," ebe Hugh Jones, a bydd pob peth drosodd." Felly fu, ac yr oedd Thomas Rhys Davies, eilwaith yn bregethwr rheolaidd gyda'r Bedyddwyr yn 1826. Sefydlodd yn Glynceiriog, arosodd yno ddwy flynedd. Aeth oddi yno at yr eglwys fechan o 30 o aelodau oedd yn Heath Street, Liverpool; gwelodd hwynt yn mhen tair blynedd yn 150; adeiladwyd capel hardd yn Stanhope Street, llafuriodd lawer i dalu ei ddyled, ac yn mhen pum' mlynedd, ymadawodd i'w fro enedigol, sef Cilgeran, a Pheniel. Prynodd dyddyn yno o'r enw Llwyncelyn, a thybiodd ef a phawb eraill, mai yno y buasai yn terfynu ei oes. Ond yn mhen wyth mlynedd, cododd ei babell, a wynebodd eilwaith i ardal y Creuddin,—maes cyntaf ei lafur. Adeiladodd dŷ yn ymyl Glanwydden, o'r enw "Yr Orsedd;" ac yma y trigodd bellach, gan weinidog-



Digitized by Google

aethu i'r holl Dywysogaeth a alwai am ei wasanaeth; ac yr oedd ei wasanaeth yn cael ei ystyried yn anhebgorol i derfynu pob cyfarfod mawr, a chymanfa, perthynol i'r Bedyddwyr, o Ben Caer Gybi, i Lanrhaiadr yn Mochnant. Byddai yn arfer myned am daith i'r Deheudir, yn awr ac eilwaith yn adeg y cymanfaoedd; wrth gychwyn yno yn 1859, dywedai "ei fod yn myned i'r *South* y tro hwn i farw." Pregethodd yn nghymanfa Caersalem Newydd, nos Iau, Mehefin 22, ar y geiriau "Pa fodd y dihangwn ni, os esgeuluswn iachawdwriaeth gymaint?" Bu farw y Sabboth canlynol, yn nhy y Parch. R. A. Jones, Abertawe, yn 67oed; a chladdwyd ef ar ei ddymuniad, yn yr un bedd a Christmas Evans.

Pregethodd Thomas Rhys Davies 13,145 o weithiau! Yr oedd yn ddyn tal, esgyrniog, a hardd. Gwisgai glôs o felfed, gwasgod o sidan, ffunen wen glerigawl, a chap o felfed du am ei ben, yn y pwlpud. Yr oedd ei bregethau yn gyfrodeddiad hynod o'r difrifol a'r chwareus; ac yn orlawn o ffraethebau chwaethus, ffres, a byw; hyny gyda llais soniarus, ychydig o atal dywedyd, ac agwedd o'r fath mwyaf awdurdodol, a'i galluogai i draddodi yr un bregeth ugain o weithiau i'r un gynulleidfa, a'r tro diweddaf bob amser yn oreu.

**DAVIES**, Timothy, Evesham, ydoedd drydydd mab i David Davies, Castellhywel. Ganwyd ef Tach. 20, 1779, yn y Plas bach, Ciliau Aeron, swydd Aberteifi. Derbyniodd addysg elfenol o'r fath oreu, yn ysgol ei dad; a phan yn 19 oed aeth i Goleg Caerfyrddin, lle yr arhosodd am dair blynedd. Ar ei ddyfodiad o'r athrofa, ymsefydlodd yn gyd weinidog a'i dad, a daeth yn fuan yn lled enwog yn y wlad. Yn 1810, derbyniodd alwad yr eglwys Annibynol yn y Great Meeting-house, Coventry; a bu yno yn llwyddianus am wyth mlynedd. Yn 1818, symudodd i Evesham, lle y treuliodd weddill ei oes mewn llwyddiant, a pharch mawr. Bu farw Tach. 28, 1860, a chladdwyd ef yn y fynwent ger llaw ei hen gapel. Efe a gyfieithodd y rhan fwyaf o Esboniad Dr. Coke, i'r Gymraeg.

**DAVIES**, Walter, neu fel yr adwaenid ef yn gyffredinol, *Gwallter Mechain*, a anwyd ar y 15ed dydd o Orphenaf, yn y flwyddyn 1761, mewn man a elwir y Wern, yn mhlwyf Llanfechain, Sir Drefaldwyn; cymerodd ei enw barddonol oddiwrth ei blwyf genedigol. Saif ei enw yn y dosparth cyntaf, yn mysg llenorion ei wlad, a'i goffadwriaeth mewn bri mawr, gan yr holl genedl. Yr oedd efe yn disgyn, o ran ei linach, o deuluoedd uchel yn y wlad. Yr oedd yn disgyn mewn llinell uniongyrchol oddiwrth Davies o Nant-yr-Erw-Hardd, yr hwn a briododd etifeddes Cyffin, o Drebrys; cangen o fonedd y Cyffiniaid o Bodfach, a'r Garth. Ond er y gallasai olrhain ei achyddiaeth at dylwythau o urddas, eto, yn mhlith y cyffredin, mewn sefyllfa ddinod yr ydym yn ei gael ar y cyntaf. Felly gwelir, mai nid i fanteision bydol, nac amgylchiadau ffafriol, y gellir priodoli ei enwogrwydd, ond yn hytrach, i'w dalentau naturiol, a'i ymdrechiadau diflino, i weithio ei ffordd drwy anhawsderau fyrdd, nes dringo i'r sefyllfa anrhydeddus a feddianai mor deilwng yn mysg ei gydwladwyr. Ni chafodd ond ychydig o fanteision addysg foreuol, ond ymddengys iddo osod nod uchel iddo ei hun, a phenderfynodd y mynai ei gyrhaedd, os gellid, trwy efrydiaeth drwyadl a llafur diorphwys, dan fendith y nef; yr hyn a gwblhaodd, i raddau eglur iawn. Arddangosai brofion o alluoedd meddwl treiddgar, yn fore iawn; yn yr hyn y gwelid llinellau arweiniol at y safle a feddianodd yn nhymor ei fywyd, fel llenor, bardd, ysgolor, a duwinydd. Pan nad oedd ond tua thair, neu bedair blwydd oed, arferai adysgrifio ar lechau, bob ymadroddion, neu ddarluniau hynod, o bob math, y dygwyddai gyfarfod â hwy. Yr oedd y gynneddf o efelychu yn gref ynddo. Parodd yr arwyddion cynharol hyn o athrylith ynddo, i'w gymydogion ei ystyried fel bachgen o dalentau uwchlaw y cyffredin; ac arno arwyddion o gynnydd addawol iawn; cymaint oedd y sylw a dynai tua'r pryd hwn, fel y galwai un boneddwr o'r gymydogaeth ef, "yr esgob ieuangc;" ac yn yr ysgol oedd yn cael ei chynal yn ei blwyf genedigol, daeth yn fuan i ragori ar ei athraw mewn dysgeidiaeth. Fel yr oedd yn myned rhagddo mewn oedran, a'i rieni yn analluog, o ran eu hamgylchiadau bydol, i'w gadw yn hwy yn yr ysgol, bu orfod arno edrych am ryw alwedigaeth, a throdd allan yn ysgol-feistr, gyda cherfio ar feddfeini yn achlysurol. Parhaodd yn y sefyllfa hono hyd tua y nawfed flwyddyn ar hugain o'i oedran, gan gymeryd pob mantais a allai gael, i'w adeiladu ei hun, trwy ddarllen pob llyfrau, a defnyddio pob moddion eraill, a ddeuai yn ei ffordd, er cyfoethogi ei feddwl mewn gwybodaeth gyffredinol. Gwnaeth gyrhaeddiad gwybodaeth fel prif amcan ei fywyd, ac fel y mae pob dyn penderfynol, yn llwyddo yn ei ymroad, felly y bu ar Gwallter Mechain. Yn y flwyddyn 1790, cynnygiodd Cymdeithas Gwyneddigion Llundain, wobr am y traethawd goreu ar Ryddid, i gael ei ddarllen yn Eisteddfod Llanelwy; testyn o gryn ddyddordeb ar y pryd hwnw; daeth Mr. Davies, yn gysdadleuydd, a chyhoeddwyd yr eiddo ef yn fuddygol. Yr oedd y gwaith yn dangos arwyddion o ymofyniad trwyadl, a darlleniad eang. Wrth adolygu y gwaith hwn ei hunan; ychydig fisoedd cyn ei farwolaeth, dywedodd, pe buasai yn ei adysgrifio ar y pryd hwnw, nad allasai ei wneuthur yn well. Dylid coffa yma, yn y flwyddyn flaenorol, sef 1789, iddo fod yn ymgeisydd buddygol ar Draethawd ar "Fywyd" neu "Einioes Dyn." Bu yr anrhydedd a enillodd ar y ddau amgylchiad hyn, yn foddion i'w ddwyn i sylw cyhoeddus trwy yr holl wlad; ac i sefydlu ei enwogrwydd fel llenor o alluoedd dysglaer iawn. Tua yr amser hwn amlygodd ei duedd at y weinidogaeth gysegredig, ac o blegid dichlynder ei ymarweddiad, a rhagoroldeb ei gymeriad llenyddol, cefnogwyd ef i fyned i un o'r prifathrofeydd, er ei gymhwyso ei hun at y gwaith. Yn ganlynol i hyn, tu a'r flwyddyn 1791, yr ydym yn ei gael mewn gwasanaeth, yn Ngholeg *All-Souls*, yn Rhydychain; a thra yr oedd yno, bu mewn swydd yn yr Ashmolean Museum. Darfu i'r amgylchiad hwn, gyda'i efrydiaeth ymroddgar, a'i awydd i wneud y goreu o bob manteision a gaffai, i'w wellhau ei hun, yn ei ymestyniad at wybodaeth, ei gymhell i aros yn Rhydychain, yn ysdod y gwyliau, perthynol i'r athrofa; felly ni ddychwelodd i'w wlad, hyd nad oedd tymhor ei efrydiaeth yno wedi ei gwblhau. Dyma brawf eglur o benderfynolrwydd ei feddwl. Yn y flwyddyn 1795, cafodd y graddiad o G. C.; a chafodd ei A. C. cyn pen ychydig o flyneddoedd wedi hyny, yn mhrif-athrofa Caergrawnt, wedi dyfod yn aelod o Goleg *Trinity*, i'r dyben hwnw. Wedi cael ei urddau offeiriadol, daeth yn gurad Meifod, yn Sir Drefaldwyn; ac yn y flwyddyn 1799, penodwyd ef gan Arglwydd Mostyn, yn beriglor curadaeth

Digitized by Google

barhaol Ysbytty Ifan, yn Sir Ddinbych, yr hon a gynhaliodd hyd ddydd ei farwolaeth. Cafodd ei dderchafu i bersonoliaeth Llanwydden, yn Sir Drefaldwyn, gan yr esgob Horsley, yr hon a roddodd i fynu yn 1807, wedi ei godi i bersonolaeth Manafon, gan yr esgob Cleaver; yr hyn a gafodd fel cydnabyddiaeth o werthfawrogrwydd ei wasanaeth yn cywiro orgraphaeth y Bibl Cymraeg, a gyhoeddwyd tu a'r amser hwnw, gan y Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol. Rhoddodd y rheithoriaeth yn Manafon i fynu, yn 1837, ar ei dderchafiad i Ficeriaeth Llanrhaiadr yn Mochnant. Tu a'r flwyddyn 1803, ymbriododd â Mrs. Pryce, gweddw ei hen gyfaill, Rice Pryce, Ysw., o Ros bryn bwa, lle y treuliodd dymor o ddedwyddwch a defnyddioldeb teuluaidd tra boddhaol. Bu iddynt fab, a merch; bu y wraig farw o'i flaen ef, a gwelodd y plant ei gladdu yntau. Yn aeddfedrwydd ei dymor, safai yn ei ganolddydd o ran enwogrwydd, fel bardd a llenor, wedi enill amryw obrwyon am farddoniaeth, a thraethodau, mewn amryw Eisteddfodau; y rhai oeddynt wedi eu hadgyfodi i fri yn yr adeg hono. Yn Eisteddfodau 1793 a 1794, gwaharddwyd iddo ef, a Dafydd Ddu Eryri, ymgysdadlu am obrwyon barddonol, oddiar yr ystyriaeth, os byddent hwy yn ymgeiswyr, na byddai yn anogaethol i feirdd ieuaingc ymgynyg. Yr oedd ei enwogrwydd yn cynnyddu yn barhaus yn ngolwg y wlad, hyd ddiwedd ei oes. Y mae ei farddoniaeth, gan mwyaf, wedi ei chyfansoddi yn y mesurau cynghaneddol, yn ol trefn yr hen Feirdd Cymreig, o sefydliad boreuol Aberffraw yn y ddeuddegfed ganrif, ac a drosglwyddwyd yn mlaen hyd amser Edmwnd Prys, yn yr eilfed ganrif ar bymtheg; ac a adgyfodwyd gan Goronwy Owen ac eraill, yn mhen 130 o flynyddoedd wedi hyny; ac a edmygir gan y genedl hyd y dydd heddyw. Cyfansoddodd rai Dyrifau, neu Ganiadau cyffredin, ar fesurau rhyddion, wedi eu cymhwyso at eu datganu. Y mae ei farddoniaeth ar gwymp Llewelyn, Marwnad Iolo Morganwg, a'r Englyn ar y Delyn, adnabyddus o'i waith, yn gymeradwy iawn. Yn mhlith ei Ddyrifau goreu, y mae "Cân y Gwenyn," a "Galarnad Dafydd am Jonathan," y rhai a ysgrifenwyd, fel y bernir, o waelodion teimladau cyffelyb i'r eiddo Brenhin Israel. Y mae ei draethodau wedi eu cyhoeddi, gan mwyaf, yn y gwahanol gyfnodolion, o'r rhai yr oedd efe yn Ohebydd gwastadol, megis, "Y *Cambrian Register*," "*Cambro-Briton*," "*Cambrian Quarterly*," "Y Greal," "Y Gwyliedydd," a'r "Haul," a golygir fod pob un o honynt yn ddyledus iddo ef am eu herthyglau goreu. Y mae y rhan fwyaf o'i ysgrifau, ar destynau, yn dal cysylltiad a'n gwlad, a'n hiaith; cyhoeddwyd hefyd dair cyfrol o'i waith ar Amaethyddiaeth, a Theuluyddiaeth Deheudir a Gogledd Cymru. Golygodd argraphiad o waith Huw Morris, mewn dwy gyfrol hardd. Cyhoeddodd weithiau Lewis, Glyn Cothi, mewn cydweithrediad â Ioan Tegid. Gwasanaethodd fel beirniad i'r Eisteddfodau, ar amryw droion, ac y mae craffder ei adolygiad i'w weled yn eglur yn ei sylwadau beirniadol, ar yr awdlau a anfonwyd i Eisteddfod Biwmares, ar "Ddrylliad y Rothesay Castle," yn gystal ag ar amryw achlysuron eraill, fel y rhoddai foddlonrwydd cyffredinol i'r byd, ar bob achlysur. Y Sadwrn cyn ei farwolaeth, amlygai ei fwriad o ysgrifenu Traethawd i'w anfon i un o'r Cyhoeddiadau cylchynol Cymreig; yr hyn a brofa fod galluoedd ei feddwl yn aros yn eu nerth, hyd derfyn ei dymor ar y ddaear; ond pa fodd bynag, ar y dydd Llun canlynol, daliwyd ef gan afiechyd, yr hwn a drodd yn angeuol iddo ar y dydd canlynol, yr hyn a gymerodd le yn ei gartref ei hun, yn Ficerdy Llanrhaiadr, Rhagfyr 5, 1849, yn ei nawfed a phedwar ugain mlwydd oed. Ymddangosodd erthygl alluog ar yr achlysur o'i farwolaeth yn y *Times*, Newyddiadur Llundain, a Chofiant teilwng o hono, yn y *Gentleman's Magazine*, Hydref, 1850. Y mae cofiadwriaeth Gwallter Mechain, yn llawn o addysgiadau anogaethol i ieuengctid athrylithgar ein gwlad. Y mae meddwl penderfynol, yn fwy o drwydded i wir enwogrwydd, na holl gyfoeth a ffafrau y byd. Yr ydym ni yn Nghymru wedi cael cymaint o eglurhadau ymarferol ar y pwnc, ag yr un genedl dan y nef. Pa nifer o lenorion, beirdd, cerddorion, duwinyddion, ac areithwyr, a gyfodasant o sefyllfa o hollol ddinodedd, i ben pinacl anrhydedd, drwy hunan-addysgiant, a llafur a diwydrwydd personol? Ac nid oes yr un o honynt wedi eu hynodi mewn dim yn eu dydd, nad yw yn gyrhaeddadwy eto, y rhai trwy hyder a phanderfyniad, sydd yn dilyn eu camrau!

**DAVIES,** WILLIAM, offeiriad Castellnedd, a anwyd yn y flwyddyn 1727, yn nghymydogaeth Crug-y-bar, tebygol. Ni's meddwn ddim o hanes ei ddygiad i fynu, hyd oni chawn grybwylliad am ei ddyfodiad i Gastellnedd, fel clerigwr ieuanc, i fod yn gurad i Mr. Pinkney, yr hwn oedd yn meddu personoliaeth Castell-nedd a Llanilltyd. Ymddengys ei fod yn wr ieuanc hynod o ran ei dduwioldeb, ac yn bregethwr a gyfrifid yn ddi gyffelyb yn mysg ei gyfoedion offeiriadol. Ni byddai y bobl gyffredin yn arfer mynychu y llanau yn y dyddiau hyny; ond elai Mr. Davies attynt hwy i'r tai, a'r lleoedd y cynhalient eu chwareufeydd ynddynt; gan ddewis yn hytrach bregethu Crist croeshoeliedig oddiar hen gadair ddi addurn, mewn annedd-dy gwael, ond yn llawn o wrandawyr, nag o areithfa gyssegredig, mewn llan wâg. Yr oedd gwneuthur daioni, ac achub eneidiau, yn fwy pwysig yn ei olwg ef, na chadw at ffurfiau a rheolau y Llan. Fel hyny efe a fu yn foddion i ddiwygio llawer ar foesau y trigolion, ac i greu awydd mewn llaweroedd, i fyned i wrando pregethu yn yr eglwys, yr hyn ni theimlent o'r blaen. Bob yn ychydig, enillodd gynnulleidfa rëolaidd, a llenwid y llan bob Sabbath ag y byddai ef yn pregethu ynddi; ac ymddengys bod haner trigolion y plwyf, o leiaf, yn wrandawyr rheolaidd. Yr ydoedd Mr. Davies yn ddyn tra efengylaidd o ran naws ei ysbryd; ac yr oedd ei bregethau yn wastad o arwedd dra efengylaidd. O dan ei weinidogaeth ef y cafodd Jenkin Thomas ("Siencyn Penhydd"), olwg ar drefn gras yn ddigonol ar gyfer y penaf o bechaduriaid, ar ol iddo fod dros dymor ar lewygu, dan Weinidogaeth daranllyd Iefan o'r Ty Clai. Hoffid Mr. Davies yn fawr gan y rhai a feddent chwaeth at efengyl: ond, ni fu yn hir yn Nghastell-nedd, cyn iddo ddyfod yn wrthddrych dygasedd a gwawd dosbarth arall o bobl, yn enwedig pobl fawr y dref, a'i hamgylchoedd; er nad ymddengys fod ganddynt un achwyniad yn ei erbyn, ond fod ei athrawiaeth yn rhy bur, a'i fuchedd yn rhy sanctaidd, iddynt allu ei oddef; a'i zel yntau yn rhy danbaid dros ogoniant Duw, i allu o hono oddef eu pechodau, heb gyfodi ei lef yn eu herbyn. Pa fodd bynag, cydfwriadodd pechaduriaid a gau grefyddwyr Castell Nedd yn ei erbyn, iw fwrw ymaith o'u plith;

Digitized by Google

ond, yr oedd y rheithor parchedig, Mr. Pinkney, yn adwaen teilyngdod ei gurad yn rhŷ dda, ac efe a'i cadwodd yn ei guradaeth hyd ddydd ei farwolaeth; ond wedi marw ei noddwr, ail ymdrechodd ei wrthwynebwyr i'w gael ef ymaith o'r plwyf; a buant yn fwy llwyddianus y tro hwn. Cafodd Mr. Davies alwad daer gan y rhan fwyaf o'r plwyfolion, i ymsefydlu yn Llangiwc; ond gan fod y gwŷr mwyaf yn y plwyf hwnw hefyd yn ddieithriaid i'r efengyl, ac yn chwenych cael clerigwr mwy cydnaws a'u chwaeth, codasant yn ei erbyn, gan ddewis gwr arall i'r lle. Barnodd Mr. Davies a'i bleidwyr bellach, mai ychydig obaith oedd iddo allu bod yn ddefnyddiol tu fewn i furiau y Llan; ac efe a benderfynodd ymroddi i waith yr Arglwydd oddi allan i furiau yr Eglwys Sefydledig: ac mewn canlyniad i hyn, cyfarfyddai Mr. Davies â'r aelodau a lynent wrtho, gan ffurfio eglwys mewn tŷ annedd. Erbyn hyn yr oedd holl Gymru yn agored i Mr. Davies, fel maes ei lafur; a phregethai yn fynych mewn tai annedd yn y gymydogaeth, ac yn yr awyr agored, a llaweroedd yn y dref a'r amgylchoedd, a ddychwelwyd at yr Arglwydd trwy ei weinidogaeth. Gerllaw Castell Nedd y mae hen Gapel y Gyfylchi, a adeiladwyd fel y tybir, mewn modd neillduol i Mr. Davies, oddeutu y flwyddyn 1776. Yma y gweinyddai swper yr Arglwydd yn rheolaidd; ac er nad ymddengys i'r capel hwn gael ei gyssegru yn ol trefn eglwys Loegr erioed, arferai amryw offeiriaid eraill, heblaw Mr. Davies, weinyddu ynddo. Nid oes le i ammeu na ddewiswyd y fan lle y saif y capel hwn, fel lle anhygyrch a dirgel, er dyogelwch mewn amser erlidigaethus: gan fod llawer o drigolion, yn enwedig gwŷr mawr y gymydogaeth, yn dra gelyniaethol i grefydd tu a'r pryd hyny. Fel un enghraifft o lawer a ellid ei nodi, dywedir fod Mr. Davies Castell Nedd, i fod yn pregethu unwaith yn Eglwys Cenarth, a bod gwr boneddig yn byw yn Gelli Dywyll yr amser hyny, o'r enw Cadben Lewis, yr hwn oedd yn dra gelyniaethol i grefydd; yr hwn a anfonodd ei was a'i ddryll ganddo, i saethu y pregethwr. Hysbyswyd hyny i'r pregethwr; a dywedodd yntau wrthynt, "Gadewch i mi fyned i'r pulpud yn gyntaf, ac yna byddaf yn foddlawn iddo fy saethu wedi hyny." Yna efe a aeth i'r pulpud, ac a bregethodd yn hwylus iawn, nes oedd yr holl gynnulleidfa, ac yn eu mysg, was y boneddwr erlidgar, yn foddfa o ddagrau. Bu y boneddwr hwnw farw yn mhen ychydig flyneddau, mor hynod o druenus, fel yr oedd y dynion calettaf mewn annuwioldeb yn y lle, yn methu aros yn yr ystafell gydag ef. Dro arall, pan ar daith yn y Gogledd, fel yr oedd efe yn pregethu yn y Bettws Abergeley, trefnwyd iddo lefaru wrth ochr dâs uchel o frigau coed, eiddo hen wr a hen wraig oedd yn byw gerllaw, ac yn dra gelynol i grefydd, a chrefyddwyr. Tra yr oedd ef yn llefaru, daeth yr hen wr a'r hen wraig, perchenogion y coed, i'r lle, i ddial eu llid ar y crefyddwyr, trwy geisio gwthio y dâs â phig-ffyrch o'r tu cefn iddynt, fel ag i'w dymchwelyd ar ben y pregethwr: clywai yntau y brigau yn rhugldrystio, a deallodd pa beth oedd yn cael ei wneyd, yr hyn a ddyrysodd ei feddwl, ac a lwfrhaodd ei ysbryd, fel y methodd a myned yn mlaen.

Bu Mr. Davies farw yn y flwyddyn 1781, a chladdwyd ei ran farwol yn mynwent eglwys Castell Nedd. Fel y crybwyllwyd eisoes, yr ydoedd wedi rhoddi i fynu wasanaethu yr Eglwys Sefydledig er's amryw flyneddoedd, ac yn arfer pregethu mewn lleoedd annghyssegredig; ac yn cyfeillachu yn benaf â'r Trefnyddion Calfinaidd; ond ymddengys na thorwyd yr undeb rhynddo a'r Eglwys Sefydledig hyd y diwedd. Pregethwyd ar yr achlysur o'i angladd, gan y Parchedig Mr. Jones o Langan; a dywedir ei fod yn wylo yn hidl uwch ben corph marw ei gyfaill, gan ddywedyd,—"O, Davies anwyl! O, Davies, gwas yr Arglwydd! ti a fuost farw! Do, disgynaist i'r bedd, a'th goron ar dy ben!"

Adroddir yr hanesyn dyddorol a ganlyn am y gwr hwn, yr hyn a ddengys yr hunan ymwadiad oedd yn ofynol oddiwrth yr Offeiriaid duwiol a ymunent a'r Trefnyddion Calfinaidd yn y ddeunawfed ganrif.—Rhoddwyd cyhoeddiad y Parch. William Davies, Castell Nedd, i fyned un tro i ardal fynyddig ac anhygyrch, lle yr oedd yr achos yn isel, a'r bobl yn bur dlodion. Aeth y gwr parchedig tu a'r lle, yn ol ei gyhoeddiad, a chafodd brofiad fod y lle yn mhell, a'r ffordd yn afrwydd iawn, nes peri iddo ymresymu ynddo ei hun,—'Pa ham y gwnaed a fi fel hyn? pa fodd yr arweiniwyd fi ar hyd y fath ffordd anhygyrch, ac i'r fath ardal annghysbell?' Wedi dyfod i'r lle drachefn, yr oedd yr olwg ar y fan, y tai, a'r bobl, yn chwanegu ei anfoddogrwydd. Nid oedd yn y golwg ond ychydig o dai tlodion, tô gwellt, mewn bro a ymddangosai yn fynyddig ac anial. Nid oedd y ty cwrdd ychwaith, ond y cyfryw a gydweddai a thlodi yr ardal. Pa fodd bynag, ar ei ddyfodiad i'r fan, arweiniwyd ef i dŷ bychan gwael, lle y preswyliai tair chwaer, yn hen ferched heb briodi. Cymerwyd ei farch ef i'r ystabl gan un; arweiniwyd ef i'r bwthyn bychan gan y llall; a'r chwaer arall a elai i agoryd y Capel, a'i drefnu gogyfer a'r oedfa. Erbyn hyn yr oedd mynwes y pregethwr wedi cythruddo yn fwy fyth, am fod y brodyr wedi ei drefnu i fyned i'r fath le; a meddyliai ar y pryd, dan ruthr y brofedigaeth, ei bod yn ormod o ddarostyngiad i wr o'i fath ef ddyfod i'r fangre: a braidd nad oedd y gwr llariaidd yn teimlo ei hun yn ymddigio, fel un a gawsai sarhad trwm.

Dan y teimlad hwn yr ydoedd, pan ddaeth yr amser i ddechreu yr oedfa. Fe ddaeth rhyw nifer yn nghyd; ond nid oedd y pregethwr mewn un modd yn gwerthfawrogi ei fraint o gael cyfarfod a'r fath gynnulleidfa. Er hyn oll, wrth fyned rhagddo gyd a'r gwasanaeth crefyddol, teimlai yr awyr grefyddol yn ysgafn; rhoddai darlleniad y bennod ryw gymaint o bleser iddo; ac ychwanegai y canu hyfrydwch i'w ysbryd; teimlai ei hun yn cael dyfodfa at Dduw yn y weddi, fel pe y tynasid ei holl enaid allan, mewn ymdrech â Duw. A chafodd rwyddineb anarferol drachefn i bregethu i'r bobl. Dywedir ei bod mor hawdd iddo wneyd hyny ag anadlu. Erbyn hyn yr oedd ei ysbryd mewn llawer gwell naws nag ydoedd ar ddechreu yr oedfa; ac yn awr, yr ydoedd yn barod i edrych, nid ar dlodi yr hen ferched, ond ar eu hysbryd llwyr ymroddgar i wasanaeth yr efengyl: ac yn yr ansawdd ysbryd yma y dychwelodd efe i'r bwthyn llwyd.

Gyd a'i fod wedi eistedd, daeth un o'r chwiorydd a bwrdd bychan, cyfuwch a'i ben glin o'i flaen. Ar y bwrdd, dodid llian, bras yn wir, ond hynod o lân; a'r hen ferch hithau, ydoedd wedi ymwregysu â llian bychan, bras a gwyn; a hi a brysurai i godi ychydig bytatws o'r lludw mawn ar yr aelwyd, y rhai a roddasid yno i'w rhostio; ac wedi eu sychu yn lân, a thynu y croen, dodai hwynt ar y bwrdd, gan ddymuno ar y gwr bonheddig erfyn bendith yr Ar-

Digitized by Google

glwydd ar yr ymborth; ac nid yw yn ymddangos bod yno ar y pryd, ddim ond bara ac ymenyn, heblaw y pytatws hyn. Synai y pregethwr wrth yr olwg; canys canfyddai yma ddirfawr dlodi, a charedigrwydd yn cyd gyfarfod: gwelai amgylchiadau isel, a duwiolfrydedd, yn nghyd a chwbl ymroddiad i wasanaethu Duw, wedi ymblethu yn eu gilydd. Nid oedd yn amheu bellach, er mor fynyddig ac anial ydoedd, nad oedd Duw yn y lle,—er mor anhygyrch y ffordd, mai *braint* oedd i wr boneddig gael ei theithio. Gofynai erbyn hyn, i'r hen fenyw, pa nifer o aelodau a berthynai i'r eglwys yno? I'r hyn yr attebai, "Nid oes o honom ond *nyni ill tair.*"

"Pa fodd gan hyny (gofynai Mr. Davies), yr ydych yn gallu dwyn yr achos yn ei flaen?"

"Y mae i bob un o honom (ebe hithau) ei gorchwyl. Un chwaer a ofala am y ty cwrdd, y llall a edrycha ar ol y stabl, a cheffylau y pregethwyr, a minau a gafodd y fraint o weini i'r pregethwyr eu hunain. Yr ydym ein tair yn cyfarfod yn y ty cwrdd unwaith yn yr wythnos, i gadw cyfarfod eglwysig, gan adael y drws yn agored, i bwy bynag a ewyllysio ddyfod attom, ac ymuno gyda ni."

Cyn i Mr. Davies ymadael, cynnygiai yr hen ferch *chwecheiniog* iddo, yn gydnabyddiaeth am ei wasanaeth! Mynai yntau wrthod pob cydnabyddiaeth o'r fath, am ei fod yn hysbys o'u dirfawr dlodi. Ond, ni fynai yr hen ferch ei naccau; eithr dywedai yn ddifrifol, "Nid yr eiddom ni bellach ydyw y dernyn arian: y mae eisoes yn gyssegredig i'r Arglwydd; ac ni's meiddiwn ei ddefnyddio at ddim arall. Yntau a'i cymerodd rhag eu tristau, gan ryfeddu at gyssegredigaeth eu hysbryd, a'u caredigrwydd at enw Mab Duw. Gwelai yr ystyrient yn fraint gael rhoddi y cwbl a feddent, ie, "a'u heneidiau eu hunain," hefyd er cynal ei deyrnas ef.

Pan oedd yn cychwyn ymaith, daeth y tair chwaer ato i ffarwelio ag ef, a gofynent iddo, "Pa bryd debygech y cewch y *fraint* o ddyfod attom eto?" Erbyn hyn yr oedd ei ysbryd wedi ei orlenwi, gan edmygedd o dduwiolfrydedd y chwiorydd tlodion, ac o hunan-ffieiddiad. Aeth i ffordd, gan ei alw ei hunan "Y cythraul balch!" am iddo edrych yn isel ar waith Duw, oblegid y wedd dlawd oedd arno yn y lle. Yn mhen ychydig flyneddoedd, *cafodd y fraint* o fyned i'r lle hwnw drachefn; ac erbyn hyny yr oedd yr eglwys yn y lle, wedi cynyddu i *naw ugain* o rifedi."

**DAVIES,** William, offeiriad yn Cynwil Elfed, swydd Gaerfyrddin. Nid oes genym hanes pa bryd, na pha le y ganwyd ef; ond efe a fu farw yn hen wr, yn y flwyddyn 1821; a chladdwyd ef yn Llanddowror, nid yn mhell oddiwrth weddillion yr hybarch Griffith Jones; ond y mae heb unrhyw gofgolofn wedi ei chyfodi i nodi ei feddrod. Y mae enw y gwr da hwn yn adnabyddus yn mysg yr hen bobl, trwy Ddeheudir a Gogledd Cymru, fel un a lafuriodd lawer yn ei gyssylltiad â'r Trefnyddion Calfinaidd. Yr oedd efe yn bregethwr rhagorol, a bu dros flyneddau lawer, yn llafurus a llwyddiannus, yn pregethu efengyl y deyrnas trwy y Dywysogaeth. Yn ei amser ef yr adeiladwyd capel Banc y felin, gerllaw Caerfyrddin, yn y flwyddyn 1788; ac o'r pryd hwnw hyd y flwyddyn 1811, gweinyddid y sacramentau, gan mwyaf yn y lle uchod, gan Mr. Davies o Gynwyl, yr hwn oedd yn byw ar y pryd, o fewn dwy filldir i'r capel, mewn lle a elwir Aberhenllan. Bu ei weinidogaeth yn foddion arbenig dros amryw flyneddau, i gasglu cynnulleidfaoedd mawrion i Banc y felin; ac nid yno yn unig, ond hefyd i Meidrym, Llanddowror, y Cwm bach, a manau eraill. Ond, ciliodd y gwr parchedig hwn, yn nghyd ag amryw o'r hen offeiriaid, oddiwrth y Methodistiaid, ar adeg neillduad pregethwyr heb dderbyn urddau esgobol, i weinyddu yr ordinhadau sacramentaidd, yn y flwyddyn 1811; a bu yn llafurio o hyny allan, hyd ei farwolaeth, yn yr Eglwys Sefydledig, sef dros y deng mlynedd wedi ei ymadawiad â'r Methodistiaid. Dywedai y rhai a'i hadwaenent yn dda, nad oddiar ddylanwad egwyddorion yn gymaint yr ymadawodd efe, ond oddiar effaith rhyw wahanol amgylchiadau; ac fel yr addefodd efe wrth frawd a'i hadwaenai yn dda, ac a fyddai yn fynych yn ei gyfeillach, na theimlodd efe byth mo hono ei hun mor ddedwydd ei feddwl, ar ol iddo ymadael â'r Methodistiaid, ag oedd yn flaenorol, pan yn pregethu, a gweinyddu yr ordinhadau yn eu plith.

**DAW,** neu Dawen, afonig ag sydd yn tarddu yn mhlwyf Llansannwr, y tu cefn i dref Pontfaen, swydd Forganwg, Deheudir Cymru. Y mae yn rhedeg drwy ganol y Bontfaen, ac heibio St. Quintin, Beaupre, &c., gan aberu yn Môr Hafren, rhwng Pwynt Breaksea a Phontygari, wedi cwrs o 8 milldir. Y mae yn ffinio rhwng plwyf Llansannwr a phlwyf Penllyn, ac y mae yn ei genau bentref bychan a elwir Aberddawen, neu yn fwy cyffredin Aberthaw, yr hwn sydd yn borthladd o dan Gaerdydd. Y mae yn enwog am ei galch, yr hwn a elwir "Calch Aberthaw," ac a ddefnyddir at furiau tan-ddyfrol, megis morglawdd ardderchog Caergybi, a'r cyffelyb Weithiau. Rhinwedd y calch hwn, yw ei fod yn caledu dan y dwfr.

Yn Aberthaw y tiriodd Robert Fitzhamon ei ddeuddeg marchog, a llu mawr o Normaniaid, yn 1089, y rhai a orchfygasant holl Forganwg. Achoswyd y gorchfygiad fel hyn:—Rhys ab Tewdwr oedd etifedd cyfreithlawn y Deheubarth, ond ar farwolaeth ei dad, gorfu iddo ffoi i Lydaw, lle y bu yn preswylio am ryw 50 mlynedd. Dychwelodd i Gymru yn 1077, a chymmerodd feddiant o orsedd ei dadau, yr hon oedd wedi ei thrawsfeddiannu gan Iestyn ap Gwrgant, tywysog Morganwg. Dychwelodd Gruffydd ap Cynan o'r Iwerddon, tua'r un pryd ag y dychwelodd Rhys o Lydaw; a chan mai efe oedd gwir etifedd gorsedd Gwynedd, gosodwyd ef i eistedd arni; ac ammodi a wnaeth y ddau dywysog dychweledig â'u gilydd, i gynnorthwyo y naill y llall; ond ni chadwyd yr ammodau. Yn 1088, llwyddodd meibion arglwydd Penfro, Llewelyn ac Einion, i gael gan Gruffydd ap Maredydd i wrthryfela gyda hwynt yn erbyn Rhys ap Tewdwr, yr hyn a achosodd frwydr waedlyd Llandudoch, gerllaw Aberteifi, lle y daliwyd Gruffydd, a thorwyd ymaith ei ben, ond llwyddodd Einion i ddianc at Iestyn ap Gwrgant, i Forganwg. Yn ol cytundeb a wnaethpwyd rhwng Einion ac Iestyn, aeth Einion i gyflogi llu o Normaniaid; llwyddodd yn ei amcan, a thiriodd y llu fel y crybwyllir uchod. Aethant rhagddynt hyd y Mynydd Du, neu, fel y gelwir ef yn awr, Hirwaen Wrgant, lle y cyfarfu Rhys ap Tewdwr â hwynt; wedi ymladd dygn o'r ddau tu, gorfu i Rhys a'i fyddin encilio, ac yn yr enciliad, daliwyd yr hen wron, a thorwyd ymaith ei ben, ac efe yn 80 mlwydd oed. Talodd Iestyn y Normaniaid mewn aur pur ar dwyn Collwyn, gerllaw y Bontfaen; a dychwelasant

Digitized by Google

hwythau at eu llongau i Aberthaw: pan ar hwylio ymaith, dyma Einion atynt, ac yn achwyn fod Iestyn wedi tori ei ammodau âg ef. Hwy a ddychwelasant gydag ef, ac ymosodasant ar Iestyn a'i luoedd, ar y Mynydd Bach, yr hwn yn awr a elwir Great Heath, gerllaw Caerdydd. Gyrid ef ar ffô, a phan welodd y Normaniaid nad oedd neb a allasai eu gwrthsefyll, rhanasant y wlad rhyngddynt, a bu llawer o'u disgynyddion, megis y Stradlingiaid, &c., yn ddynion o bwys ac enwogrwydd yn y wlad; ond nid oes ganddynt gwys o dir yn awr, ac o'r braidd y mae eu henwau ar gael.

**DEFYNOG**, plwyf yn nghantref DEFYNOG, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUBARTH CYMRU, 9 milldir i'r gorllewin o Aberhonddu, gan gynwys treflanau Crai, Glyn, Maescar, a Senni. Y mae rhai Haneswyr dysgedig, yn barnu fod enw y plwyf ehang hwn, yr hwn gynt a ffurfiai ran helaeth o wigfa fawr Defynog, yn tarddu o'r un gwreiddyn Cymreig, a Dyfnaint, a eilw y Saeson, *Devon*, enwau ydynt yn dra darluniadol o wyneb y wlad, yr hon a amrywir yn mhob man, gan lynoedd dyfnion, a bryniau mawrion. Y mae ysgrifenwyr eraill, yn dadleu fod y plwyf wedi cael ei enw, oddiwrth gyssegriad ei Lan i goffadwriaeth Dyfnog Sant, yr hwn oedd yn ei flodau tua diwedd y chweched ganrif. Y mae yr oll o'r plwyf, yr hwn a ffinir ar y gogledd gan yr afon Wŷsg, o fewn arglwyddiaeth, neu Faenoriaeth Defynog, yr hon a ddelid fel gwarog-fael dan y goron, gan arglwyddi cyffindirawl Aberhonddu, ac yr ydoedd yn ddarostyngedig i weithrediad gorthrymus y cyfreithiau gwigfäawl, y rhai a gymhwysid yn ddi arbed, gan arglwyddi y cyffin-diroedd, a'u holynwyr. Gelwid y rhandir ehang hon, "Maenor y Wig fawr;" neu, "Wig Fawr Defynog," o fewn swydd Frycheiniog; a chan fod rhan fawr, os nad y cyfan o honi, wedi ei meddiannu gan olynwyr Bernard Newmarch, yn arglwyddiaeth Brycheiniog, fe'i delid ganddynt dan goron Lloegr, ar wahan oddiwrth arglwyddiaeth y bargodion. Dan yr hen gyfreithiau gwrïogaethol, gorfodid holl dir-ddeiliaid y Faenor, i ddwyn eu hŷd i'w falu yn melinau yr arglwydd, o ba rai, o fewn cyffiniau y Faenoriaeth, nid oedd o fewn y triugain mlynedd diweddaf, ddim llai na saith yn aros; pedair o honynt oeddynt yn y plwyf hwn, un yn Defynog, un yn y Crai, un yn Nglyn Tawe, a'r llall yn Senni: ond, ni chedwir at y ddefod hon yn awr. Yr oedd castell bychan, yn sefyll gynt ar lan yr afon Senni, oddiwrth yr hwn y mae y tyddyn ar yr hwn y safai, yn cael ei alw yn barhaus, "Y Castell Du." Bernir am yr amddiffynfa hon, yr hon a gyfodwyd gan y Normaniaid, ei bod yn breswylfa Cwnstabl y Wigfa, swydd a ddelid ar un adeg gan un o eppil Syr Reginald Aubrey, un o gymdeithion Bernard Newmarch, ac yn gwasanaethu hefyd fel cadwrfa, neu garchar, lle y carcherid yr yspeilwyr mynyddig a fyddent yn gwneyd rhuthriadau yspeilgar yn fynych i'r dyffryn; ac i gospi troseddwyr o gyfreithiau y goedwig. Yn ystod gwrthryfel Owain Glyndwr, yn erbyn Harri y Pedwerydd, dywedir fod y pennadur hwnw, ar ei ymweliad â'r dywysogaeth, wedi bod yn aros dros ryw yspaid yn y castell hwn, lle y parodd efe dynu allan gyhoeddiad o anghofraith, (*pardon*,) yr hwn a dderbyniodd y llaw-nodiad breninol yn Defynog, Medi 15, 1403, ac y mae ar gael eto. Ar annurddiad y Stafford diweddaf, Duc Buckingham, yn nheyrnasiad Harri yr Wythfed, adranwyd y rhandir ehang hon, i faenoriaeth Gwigfa Fawr Defynog, a'r Wigfa Fâch, a chyn nemawr o amser wedi hyny, delid y ddwy, ar ammodau gwahanol dan y goron. Y mae yr olwg bresenol ar y rhandir hon, o'i gydmaru â hen Weithred a wnaed yn y nawfed flwyddyn o deyrnasiad Elizabeth, yn taro y meddwl â syndod, gan y cyfnewidiad mawr sydd wedi cymeryd lle er y pryd hyny: yn y Weithred hono, eithriadai ei mawrhydi yr holl wylltfilod, a hyddod, yr holl goed, prysgoed, a phrenau, yn yr ardal hon, at ei gwasanaeth ei hunan; ond erbyn hyn, y mae y wlad yn llom, heb gymaint a phren yn weledig, ac y mae hyd yn nod y magwyrydd oll o gerig; a'r unig anifeiliaid a welir yma, ydyw ychydig feirch, a gwartheg bychain celyd, a defaid mynydd-dir.

Y mae y pentref yn gorwedd mewn sefyllfa ddymunol, yn mhen Dyffryn Senni; ac fe'i trawsir gan yr afon Senni, yr hon sydd yn llifeirio trwy y plwyf, ac yn ymarllwys i'r afon Wŷsg, yn agos i Rŷd y Briw. Fe'i cysgodir gan rai bryniau serth, dau o ba rai ydynt wedi eu gwisgo, yn hardd â choed ieuainc, yr hyn a ychwanega yn fawr at brydferthwch ei ymddangosiad. Cair glo, cwlwm, a'r galch-graig yn helaeth, yn mharth deheuol y plwyf, a'r rhandir nesaf atto. Y mae y brif-ffordd, o Lundain i Aberdaugleddyf, yn myned trwy y parth gogleddol o'r plwyf, gan redeg bron yn gyfochrog â'r afon Wŷsg.

Y fywioliaeth eglwysig sydd Ficeriaeth, â'r hon y mae curadiaeth barhaol Ystrad felltey wedi ei chyssylltu, yn Archddiaconiaeth Brycheiniog, ac Esgobaeth Ty Ddewi, ac wedi ei threthu yn llyfrau y Frenines, yn 14*p.* 14*s.* 4½*c.*; ac yn noddogaeth Esgob Caerloyw, perchenog un ran o dair o'r degwm, mawr, a mân, dan freinlen Bernard Newmarch, fel y tybir, gan yr hwn eu dyroddid i fonachlog St. Pedr, yn y ddinas hono, eglwys yr hon, ar ffurfiad yr esgobaeth, a wnaed yn eglwys gadeiriol. Y drydedd ran arall, ydoedd gynt yn perthyn i brïordy St. Ioan, Aberhonddu, ac sydd yn awr yn feddiant lleygol; a'r drydedd ran arall, sydd yn perthyn i'r ficer, yr hwn yw noddwr y tair curadiaeth barhaol, Llan Ilid, Llan Illtyd, a Challwen. Y mae yma dair neu bedair o eglwysi adranol; ac y mae yr elusenau yn werth 97 punt; dwy a deugain o'r hyn sydd yn myned at Ysgol rad, ac elusendai Davy. Y mae yr eglwys wedi ei chyssegru i Sant Dyfnog. Gwerth y ficeriaeth, yn nghyda churadiaeth Ystrad felltey, ydyw 400 punt; poblogaeth, 1798. Y mae gan yr Annibynwyr eglwys flodeuog, mewn lle a elwir Brychgoed, yn y plwyf hwn; yr hon a gorfforwyd gan y Parch. Edmund Jones, o Bont y pŵl, yn y flwyddyn 1742; ac o'r eglwys hon y cyfododd amryw o'r Gweinidogion mwyaf talentog a gweithgar. Tu a'r flwyddyn 1752, yr oedd y Bedwyddwyr yn pregethu mewn tŷ annedd yn mhentref Defynog, ffrwyth yr hyn a fu corffori Pont-estyll; ond, y mae ganddynt gynnulleidfa yn awr yn Senny hefyd; ac y mae yma gynnulleidfa dda hefyd, gan y Trefnyddion Calfinaidd.

Ar y mynydd, cyssylltiedig a Llywel, ar ffiniau gorllewinol y plwyf, yr oedd amryw weddillion Derwyddol, dro yn ôl; un o ba rai, sydd yn awr wedi ei ddystrywio, oedd yn gynnwysedig o saith o geryg, wedi eu cyfleu, meddir, yn gyfattebol i gyfluniad Pleiades, ac fe'i gelwir yn bresenol, "Meini y Pedair Cawres." Y llall sydd yn agos i'r

Digitized by Google

ffordd o Dre Castell, i Dafarn y Gareg, ac a elwir "Y Ceryg duon." Y mae y rhai hyn wedi eu cyfleu yn y fath fodd ag i ffurfio cylch. Yr oedd dwy ffordd Rufeinaidd yn trawsu y plwyf hwn; y naill yn myned ger ei ffiniau gogleddol, o'r Camlais i'r Senni, yn ei chyfeiriad o *Bannium*, yn agos i'r Aberhonddu bresenol, i *Maridunum*, a elwir yn bresenol Caerfyrddin: y llall a elwid Sarn Elen, sef y ffordd fawr o *Deva*, a elwir yn awr Caerlleon ar Ddyfrdwy, i *Nidus*, ger Castell Nêdd, oedd yn dyfod i'r plwyf hwn o Ddyffryn y Senni, gan gyfeirio ar draws y Wigfa, at faen mawr, a elwir "Maen Llia," gan ogwyddo oddiyno i Ddyffryn Ystradfelltey. Y mae Maen Llia tu ag un droedfedd ar ddeg o uchder; a barna rhai henafiaethwyr, mai maen a gyfodasid gan y Rhufeiniaid, er cyfarwyddo teithwyr wrth groesi y Wigfa, ydoedd: ac y mae yn weledig am bum milldir o bellder, o bob ochr. Y mae lluaws o garneddau yn wasgaredig ar hyd y rhanau mynyddig o'r plwyf hwn; a chyfarfyddir â gwyddfeydd, (*barrows*,) yn y dyffrynoedd yn aml. Cafwyd dernyn o aur bathol, a elwid *angel*, o amser teyrnasiad Harri y Seithfed, yn mhen gogledd ddwyreiniol y plwyf, tua dechrau y ganrif bresenol.

**DEHEUFRYN**, trefgordd yn mhlwyf Bettws-yn-Rhôs, neu Bettws-Abergele, swydd Dinbach, Gogledd Cymru, 2½ milldir i'r De De Orllewin o Abergele. Y mae'r boblogaeth yn cael ei rhoddi gydag eiddo y plwyf. Y mae yn gorwedd mewn gwlad ddymunol, yn nghysgod bryniau uchel, ac y mae oddiyma olygfa brydferth ar y Môr Gwyddelig.

**DEINIOL WYN**, neu Daniel, ydoedd fab Dunawd Ffur, sefydlydd ac abad Bangor Is-Coed, Swydd Flint. Ymddengys iddo o'i ieuenctyd ymroddi i fywyd crefyddol; yn y flwyddyn 516, yn ol Bale ac Usher, ond 525, yn ol eraill, efe a aeth ac a sylfaenodd goleg yn Arfon, ar lan yr afon Menai, i hyfforddi ieuenctyd, a chynal Offeiriaid yn Ngogledd Cymru. Yr oedd y coleg hwn yn gangen o'r sefydliad mawr yn Bangor Is-Coed, ac yn dibynu arno, hyd y flwyddyn 550, pan darfu i Maelgwn Gwynedd ei waddoli âg arian a thiroedd, yn nghyda lluaws o freintiau eraill, ac adeiladu yno ddinas, yr hon a elwir Bangor Fawr yn Arfon; a gwneyd Deiniol yn esgob Bangor. Mae cryn lawer o dywyllwch yn gorwedd dros ei hanes ef, fel dros hanes yr holl seintiau Cymreig. Dywedir mai Dyfrig a'i gwnaeth ef yn esgob, a'i fod yn bresenol yn Senedd Frefi (pa bryd bynag y bu hono), yn gwrthladd heresi Morgan, ac iddo farw yn yr un flwyddyn a Dewi, sef 544, meddir, a chael ei gladdu yn Ynys Enlli, fel holl saint yr oesau hyny. Mae yr eglwysi canlynol wedi eu cysegru iddo:—Llanddeiniol, yn Ngheredigion; Llanddeiniol, neu Itton, yn Mynwy; Penarlag, a Worthenbury yn Fflint; Llanuwchllyn, yn Meirion; a St. Daniel, yn Mhenfro.

**DEINIOLEN**, yddoedd fab Deiniol Wyn, ac aelod o Bangor Is-Coed. Pan ddinystrwyd y sefydliad enwog hwnw gan Ethelffrith, brenin Northumbria, yn 607, a rhoddi deuddeg cant o'r myfyrwyr i'r cleddyf, diangodd tua deugain a'u hoedl ganddynt, a Deiniolen yn eu plith, a daethant i Bangor Fawr yn Arfon. Dywed rhai i Deiniolen olynu ei dad yn athraw Bangor; ond y cyntaf a gofnodir yn olynu Deiniol yn yr esgobaeth, yw Elfod, yr hwn a fu farw yn 811. Yn 616, efe a sefydlodd eglwys Llanddeiniolen, yn Arfon; ac efe hefyd a sefydlodd Llanddeiniol-Fab, yn Môn.

**DEIO** ab Ieuan Ddu, ydoedd fardd enwog, yn ei flodau yn niwedd y 15fed ganrif. Ymddengys mai brodor o Langynfelyn, ar gwr Cors Fochno, ydoedd, ac mai yno hefyd y claddwyd ef. Mae ei waith yn dangos ei fod yn fwy o gler-fardd nag o "wr boneddig tiriawg, yn canu ar ei fwyd ei hun, ac yn byw yn lân ar ei foddion:"—

> "Ni chawn, ym Duw a Chynin,
> Dŷ bach o'r Dehau, heb win;
> Llawen fyddai gwen pob gwr
> Wrth Ddeio gymhortha wr."

Yr oedd Deio yn fardd awenyddol a medrus; y mae o ddeuddeg i bymtheg o'i gyfansoddiadau ar gael mewn Y.-L., mae rhai o honynt wedi ymddangos yn y *Brython*, ac mae saith o honynt wedi eu diogelu yn *Ngorchestion Beirdd Cymru*. Ond ymddengys mai Awdl y Caws, yr hon a ganodd efe fel serth a gogan ar Madog, abad Enlli, a wnaeth fwyaf tuag at ei anfarwoli o bob peth. Yr oedd yn arferiad yn yr oes hono, i feirdd fyned i Enlli i glera, ac i ymweled a'r saint. Aeth Deio yno tua'r flwyddyn 1450, ar ryw wyl arbenig, gydag awdl foliant i'r abad haelionus yn ei logell, gan ddysgwyl cael "newydd o fwyd, a hen o ddiod," yn groesaw; ond yn lle hyny cafodd "gosyn cnap pryfedog, ac enwyn barfog mewn cynog ddrewsur," yn arlwy. Taflodd yr Awdl foliant i'r tân, a chanodd Awdl y Caws, trwy yr hon yr anfarwolwyd Madog, a Deio. Gwel yr Awdl yn y *Brython*, cyf. 11. O hyny allan adwaenid yr abad wrth yr enw "Madog y Caws."

**DENNANT**, treflan yn mhlwyf Llansaint-ffraid Glan Conwy, swydd Dinbych, Gogledd Cymru; tua milldir a hanner i'r de-ddwyrain o Gonwy.

**DENNIO**, neu Denïo, plwyf yn nghantref Gaflogion, swydd Gaer yn arfon, Gogledd Cymru, yn yr hwn y mae tref Pwllheli yn gorwedd: poblogaeth y plwyf, gan gynnwys y dref, ydoedd 2420, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae yr eglwys yn gyflwynedig i goffadwriaeth Beuno Sant, a'r guradiaeth wedi ei huno â ficeriaeth Llanor, yn arch-ddiaconiaeth, ac esgobaeth Bangor. Y mae yr eglwys yn gorwedd tua hanner milldir i'r gogledd o dref Pwllheli: ond gan ei bod yn fechan, ac yn annghyfleus i boblogaeth y plwyf, adeiladwyd eglwys newydd yn y dref, lle y cyflawnir pob gwasanaeth eglwysig, oddieithr gwasanaeth y claddedigaeth. Gwel Pwllheli.

**DERFEL GADARN**, mab Hywel ab Emyr Llydaw, oedd yn rhyfelwr enwog yn amser y brenin Arthur. Yr oedd ef yn un o'r swyddogion milwraidd oeddynt yn cymeryd rhan yn mrwydr Camlan, yn y flwyddyn 542, lle yr ymenwogodd yn fawr trwy ei orchestion milwraidd: ond, efe a gyssegrodd y rhan olaf o'i oes, i wasanaeth crefydd; ac ar ol ei farw, efe a gyfrifwyd yn mysg y Seintiau Cymreig. Y mae lle yn Mlaenau Ffestiniog, swydd Feirionydd, a elwir "Llŷs Dorfil," llygriad, fe ddichon o Lŷs Derfel, lle y mae olion lluaws o adeiladau mawrion, a thra henafol; efallai mai yma y trigianai pan yn uchder ei rwysg a'i enwogrwydd milwraidd; ac mewn lle arall yn yr un Sir, y mae eglwys blwyfol wedi ei chyssegru i'w goffadwriaeth, sef Llandderfel, ger y Bala, lle mae yn debyg y bu efe yn llafurio yn ngwasanaeth yr efengyl, dros ryw yspaid, ac y llwyddodd efe i gasglu yn nghyd gynnulleidfa o gredinwyr. Yr ydoedd gynt, hen ddelw nodedig yn

Digitized by Google

Llandderfel, a elwid Derfel Gadarn, i'r hon y telid parch eilun-addolgar yn yr oesoedd tywyll, gan gyflawni pererindodau atti, a thalu offrymau iddi. Yr oedd i hon, mae yn debyg, fel i amryw ddelwau cyffelyb, fath o beirian-waith, a barai i'w llygaid agor, a throi oddi amgylch, ac i ranau ereill o'r corff symmud, trwy yr hyn y bu y werin anwybodus yn cael ei thwyllo dros hir amser. Ond mewn canlyniad i orchymyn a roddwyd allan gan Harri yr Wythfed, cafodd delw Derfel Gadarn, fel llawer eraill cyffelyb, ei dystrywio.

Fe'i cymerwyd i Lundain yn mis Mai, 1538, ac a'i llosgwyd yn Smithfield. Y mae Fox, yn hanes y Merthyron, yn dywedyd fod y ddelw hon wedi bod mewn bri tra mawr yn mysg y Cymry, a bod rhyw fath o ddaroganiad yn eu mysg, y byddai i'r ddelw hon roddi coedwig gyfan ar dân; a sylwa fod y brophwydoliaeth wedi ei chywiro, yn gymaint a bod y mynach *Forest* (coedwig), a grogasid am deyrn-fradwriaeth, wedi ei losgi ar dân y ddelw hon yn *Smithfield*, nes ei ddifa yn llwyr. Yr oedd rhyw gryn nifer o hen greiriau eraill a berthynent i'r Sanct hwn, yn nghadw rai blyneddau yn ol yn mhersondy Llandderfel, y rhai a elwid gan y Cymry, "Ceffyl Derfel," a "Ffon Derfel."

**DERLLWYN**, treflan yn mhlwyf Carno, swydd Drefaldwyn, Gogledd Cymru; 9½ milldir i'r Gogledd o Lanidloes. Gwerth tirawl, £711. Poblogaeth, 243.

**DERLLYS**, cantref yn swydd Gaerfyrddin, Deheudir Cymru. Y mae yn gorwedd ar lan *bay* Caerfyrddin, ac yn ymestyn orllewin a gogledd hyd at Benfro; fe'i trawsir gan reilffordd Deheudir Cymru; a chynwysa un ar hugain o blwyfau, a rhanau o bedwar plwyf arall. Mesura 103,673, o gyfeiriau o dir, a chynwysai, yn ol Deiliadeb 1861, boblogaeth o 14,949; a thai, 3220.

**DERWEN**, a elwir hefyd, Derwen yn Ial; plwyf yn nghantref Ruthin, swydd Ddinbach, Gogledd Cymru, saith milldir i'r Dê Or. wrth Ddê o Ruthin, yn cynnwys poblogaeth o 573, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae y pentref yn gorwedd yn agos i darddell yr afon Clwyd, ac y mae helaethrwydd o ffynonau dyfroedd ynddi; un o ba rai, a elwir "Ffynon Sarah," oedd mewn bri mawr gynt, ar gyfrif effeithiolrwydd ei dwfr i wellau y caner, neu ddefaid gwylltion.

Tua milldir o'r pentref y mae cloddfa, lle y ceir y cerig hogi goreu yn yr holl wlad; ac ar un adeg, anfonid llawer o honynt i Lundain, a threfydd mawrion eraill y deyrnas, lle y rhoddid mawr fri arnynt. Cynhelir ffair yma ar yr 11eg o Chwefror. Y fywioliaeth eglwysig sydd reithoriaeth, yn esgobaeth Bangor, trethedig yn llyfrau y frenines, i 10 punt, a phymtheg swllt, ac yn mrawdwriaeth neillduol, a noddogaeth esgob Bangor. Yr eglwys, yr hon sydd gyssegredig i goffadwriaeth St. Mair, sydd yn adeilad fechan, ond tra dyddorol, yn yr arddull addurniadol Seis'nig, gan gynnwys gwasgodfa dra cheinwych, a ffenestr ddwyreiniol addurniadol. Y mae croesfaen gerfiedig dra hardd yn y fynwent, yn ddwy droedfedd ar bymtheg o uchder, wedi ei haddurno â darlun o'r croeshoeliad, a delwau yn arluniadol o Gyfiawnder, Trugaredd, a Ffydd, mewn eilunfäau gorthöawl hardd. Y mae yma addoldy gan y Trefnyddion Calfinaidd, lle y cynhelir Ysgol Sabbathawl, ac y pregethir yn rheolaidd. Gwerth y Rheithoriaeth yw 415 punt yn y flwyddyn. Y mae yr elusenau a adawyd i'w rhanu rhwng tlodion y plwyf, yn werth tua 13 punt yn y flwyddyn.

**DERWEN-LLANERCH**, treflan yn mhlwyf Llanfair Dyffryn Clwyd, swydd Dinbach, Gogledd Cymru, 2 filldir i'r De Ddwyrain o Ruthin. Poblogaeth yn 1861, 369.

**DERWYDD**, cyd dreflan â'r Garn, yn mhlwyf Llandebie, yn y rhan-barth uchaf o gantref Iscennen, swydd Gaerfyrddin, Deheubarth Cymru; 3½ milldir i'r De Dde Orllewin o Landeilo Fawr. Y mae enw y lle yn awgrymu rhyw berthynas boreuol rhyngddo â rhyw Dderwydd; ac fe debygir fod amryw olion Derwyddol yn y gymmydogaeth. Y mae yn gorwedd yn agos i lan ddeheuol yr afon Cennen.

**DERWYDDIAETH**, ydyw y gair a arferir yn gyffredin, i ddynodi crefydd a dysgeidiaeth trigolion boreuol Brydain. Y mae yr holl ysgrifenwyr cyntefig a chlasurol, yn cytuno ar y cyfan yn eu syniadau am egwyddorion ac arferion y Derwyddon; ond y mae dosparth o athrawon wedi codi yn ddiweddar, i haeru mai dychymygion ofer, a thraddodiadau disail ydyw y cyfanswm o'r hyn sydd ar "gof a chadw," mewn perthynas iddynt. Nid amcan yr ysgrif hon, a fydd dadleu ar y naill ochr na'r llall, ond "mynegi y peth, yn helaeth fel y mae," a dodi ger bron y tystiolaethau mwyaf credadwy yn eu cylch. Peth hawdd ydyw gwrthddadleu, a chodi anghysonderau ymddangosiadol i sylw, mewn hanesion sydd yn rhedeg yn mhell yn ol i'r amser gynt, a blynyddau yr hen oesoedd. Ceir hyny yn gyffredin, mewn cysylltiad â phob trefniant. Y mae ceisio gwadu pob peth a gredai yr hynafiaid, wedi dyfod yn orchest ddefodgar, gan nifer a ddilynant y naill y llall, tra y byddo hyny yn fanteisiol i gywreingarwch, ac enwogrwydd tybiol. Mewn perthynas i ystyr y gair "*Derwydd*," a'r lluosogiad o hono, "*Derwyddon*," y mae yr hyn a ddywed y Dr. Owain Puw yn ei Eiriadur, yn arweiniad, a chasgliad naturiol iawn. "*Dar* a *gwydd;* ydyw y gwreiddyn, un yn meddu gwybodaeth am wrthddrychau—a fyddo yn wyddfodol; duwinydd." Y mae y sylw hwn yn dangos fod yr ystyr yn gyfagos, wrth law. "Derwyddon," ydyw, athronwyr y derw, o herwydd yr edrychid ar y pren hwnw yn gyssegredig, a bod y llwyni derw yn lle neillduedig at addoliad. Ystyrient yr uchelfar a dyfai ar y coed derw, yn rhodd uniongyrchol o'r nef. Torid ef â chyllell aur, a derbynid ef ar len liain, wen gannaid. Yr oedd hon yn un o brif ddefodau *gwyddon* y *derw*. Y mae yn naturiol i'n cenedl ni deimlo dyddordeb yn hanes ein cyndadau, a gwybod pa agwedd oedd ar ein gwlad, cyn dyfodiad yr efengyl i'w bro; fel y mae yr Apostol Paul yn coffnau i'r Ephesiaid, "Am hyny, cofiwch, a chwi gynt yn Genhedloedd," &c. Felly y mae yr hen gromlechau, a'r olion derwyddol, sydd i'w canfod mor fynych ar hyd a lled y dywysogaeth, yn adgoffa i ninau, y cyflwr galarus yr oedd ein henafiaid ynddo, er uwched oedd eu rhagoriaethau mewn amryw ystyron eraill. Nid oes yr un genedl ar wyneb y ddaear, a mwy o hynodrwydd yn ei hanes, ie, hyd yn nod i fod yn wrthddrych o eiddigedd i genhedloedd o fri, nad ydynt mewn cymhariaeth â hi, ond megis er doe. Dywedodd un awdwr cyhoeddus yn ddiweddar, "Od oes arnoch eisiau ymddifyrn mewn henafiaeth, ewch i Gymru, a chwi a gewch glywed iaith yn cael ei llefaru, sydd gan hyned a mynyddau y wlad hono." Barnwn y byddai yn

Digitized by Google


briodol cadw dau ocheliad mewn golwg, ar y cychwyn; sef y dybiaeth o fod crefydd yr hen Gymry, mor eilun-addolgar ag eiddo yr Indiaid, ac mor farbaraidd a'r eiddo trigolion Ynysoedd *Sandwich* ar un llaw, neu fod eu hegwyddorion a'u moesau mor ddisglaer a'r eiddo yr athonwyr mwyaf gwybodus a addurnodd unrhyw wlad, ar y llaw arall.

Nid yw y cofnodau boreuol sydd ar gael, am natur y grefydd dderwyddol, ond ychydig o nifer. Yr oedd wedi ymledaenu dros brif barthau Ewrob, a chyrhaedd dros yr oll o wlad Gâl gyntefig, yn cynwys Ffraingc, Lombardy, a therfynau yr Alpau, a'r Isel-diroedd, ac y mae amryw awdwyr o blith y Groegiaid, a'r Rhufeiniaid, wedi gwneud sylwadau arni, yn mysg pa rai y canfyddwn Iwl Caisar, Cicero, Diodorus Siculus, Strabo, Pomponius Mela, Suetonius, Pliny, Tacitus, Diogenes Laertius, ac Ammianus Marcellinus. Gellid cynwys y cyfan mewn ychydig o du-dalenau, ond y mae hyny sydd ar gael yn werthfawr. Ni ellir eu derbyn oll fel gwirionedd, canys y mae ynddynt nifer o anghysonderau, a llawer o ragfarn, eto ni ellir gwadu nad oedd llinell o wirionedd yn rhedeg drwyddynt, a ellir ei dilyn, fel mantais i dynu casgliadau teg a chywir oddiwrthynt. Dichon fod Julius Cæsar, a Cicero, yn mhlith y goreuon o'r Rhufeiniaid a ysgrifenasant. Yr oeddynt yn oesi tua haner canrif cyn cred; ond dylid cofio mai am Dderwyddiaeth Gâl, a Belgium, yr oeddynt hwy yn crybwyll, mewn awgrymiadau byrion. Ni chafodd Caisar ond prin ddigon o amser i ddisgyn ar lanau Prydain, ac felly ni allai fod ganddo ond tystiolaeth arwynebol iawn i'w rhoddi. Yr oedd cymaint o wahaniaeth rhwng Derwyddiaeth y gwledydd hyny, a Derwyddiaeth Prydain, ag sydd o wahaniaeth rhwng Cristionogaeth Hisbaen, a Christionogaeth Cymru. Yr oedd Diodorus, a Strabo, yn mysg y goreuon o'r Groegiaid ar y pwnc. Yn mysg yr ysgrifenwyr diweddar, y cawn Toland, a King, Stukeley, a Borlaise. Ysgrifenodd Toland gan mwyaf am Dderwyddiaeth Gwerddon. Yn ein gwlad ein hunain, rhifir Davies, Rowlands, Richards, a Dr. Puw, yn mysg y rhai a olrheiniasant eu hanes gyda yr ystyriaethau manylaf. Cynwysir nodiadau helaeth yn Nhraethodau James, a Roberts, y rhai sydd wedi eu hysgrifenu mewn arddull poblogaidd. Y mae cofnodau gwerthfawr ar y testyn, yn Cyclopædia Chambers, a'r Encyclopædia Britannica, ond byddai eu dilyn oll, yn arwain i feithder anghydweddol âg amcan yr erthygl hon. Wedi crybwyll am yr ysgrifenwyr, dylid cyfeirio at ei hynafiaeth, a'r cenhedloedd a'i proffesai, yn nghyd a'r gwledydd yn mha rai yr oedd wedi ei sefydlu. Gan mai Derwyddiaeth ydoedd crefydd gyntefig trigolion Brydain, y mae yr ymofyniad yn codi yn naturiol, pwy oedd y rhai hyny? Pwy a ddaeth i fyw yma gyntaf erioed? Bernir mai preswylwyr cyntaf Brydain, oedd disgynyddion Japheth, mab ieuangaf Noa, yn llinell Gomer, ac Ascenas. Cafodd epil Sem, mab hynaf Noa, gyfandir Asia i breswylio. Rhoddwyd Ewrob, a'r ynysoedd cysylltiedig, i hiliogaeth Japheth, mab ieuengaf Noa. Geilw yr haneswyr Iuddewig, Ewrob, yn "Ynysoedd y Cenhedloedd." Dywed Herodotus fod y Celtæ, disgynyddion Gomer, wedi cael Ynysoedd y Gorllewin. Y Celtiaid oedd y Galiaid cyntefig, oedd yn preswylio Ffraingc a'r Isel-diroedd. Tu draw i'r rhai hyny, nid oedd ond Brydain, a Gwerddon. Y mae Aneurin, yn y chweched ganrif, yn dosparthu cyn-frodorion yr ynysoedd Brytanaidd yn dair rhan, sef Kynt, Gwyddyl, a Phrydain. Yn y Trioedd, dynodir Hu Gadarn, fel un o dair colofn Ynys Prydain—"Hu Gadarn, yr hwn a ddaeth a Chenedl y Cymry i Ynys Prydain, o wlad yr Haf, Deffro Bani, neu godiad haul." Dywed Trioedd arall iddynt ddyfod gyda Hu, yr hwn ni fynai dir trwy draïs a rhyfel, ond trwy gyfiawnder, a heddwch. Rhoddasant enwau ar leoedd—ar wledydd, afonydd, a mynyddau, y rhai a ddarllenir ac a ddeallir hyd heddyw, gan bawb sydd yn deall y Gymraeg, yr hyn sydd yn dangos yn ddigon eglur, y llwybr ar hyd yr hwn yr oeddynt yn teithio yn mlaen. Yr oedd yr Arch-ddeon Williams, o Geredigion, wedi olrhain y llinellau hyn, a gwneud sylwadau cywrain iawn ar yr enwau sydd eto yn aros yn ffordd eu teithiau, gan eu harddangos oll, yn hollol Gymreig. Y mae Trioedd arall sydd yn dynodi dosparthiad Prydain yn mhellach, sef, "Tri llwyth gwledig Ynys Prydain; llwyth y Cymry, y rhai a ddaethant gyda Hu Gadarn—llwyth y Lloegriaid, y rhai a ddaethant o Gascony—a llwyth y Brython, y rhai a ddaethant o Armorica." Y mannau lle yr oedd yn cael ei phroffesu yn benaf, ydoedd Ffraingc, Lombardy, broydd yr Alpau, yr Isel-diroedd, ac yn benaf oll, Brydain. Yma yr oedd ei chartref; ei Chaersalem. Y mae yn resyn meddwl fod cynnifer o'r rhai a ysgrifenasant arni, wedi olrhain cymaint am dani mewn gwledydd dieithr, a'i hesgeuluso i raddau mawr yn ei phrif orsaf ei hun. Y mae cymaint a hyn o hanesiaeth awdurol, yn profi yn ddiymwad, mai nyni y Cymry, hiliogaeth yr hen Dderwyddon, ydyw meddianwyr gwreiddiol Prydain, ac y mae yn anrhydedd i ni allu datgan, ein bod wedi dal gafael mewn rhan o honi, hyd y dydd heddyw.

Y mae wedi bod yn bwnc o ddadl, pa le yr oedd prif orsaf y grefydd hon. Y mae rhyw brif fan wedi bod yn brif gartref pob crefydd o'r bron, fel y gwelir mewn oesoedd diweddarach, megis y mae Rhufain i Babyddiaeth, a Chaergrawnt i Eglwys Loegr, ac fel yr oedd Caersalem i'r Grefydd Iuddewig. Ar y pwnc hwn y mae ysgrifenwyr yn anghytuno. Y mae amryw leoedd fel yn ymryson am yr anrhydedd, a rhyw bethau yn ffafriol, a rhyw bethau yn anffafriol i bob un o honynt. Myn rhai mai Bryn Gwyddon (*Avebury*) ydoedd. Y mae yno weddillion teml eang iawn. Y mae yno dri o faen-gylchoedd; dau o agwedd ddiweddar, ac un henafol, ar wastad-dir prydferth. Y mae dau o honynt, a'r meini mewn gosodiad trefnus, ac un mawr o'u hangylch, yn cynwys 260 o feini, ac wrth yr ochr, 58 ereill, fel llwybr yn arwain tu a'r cyntedd. Y mae yno un, llai o faintioli, yn dwyn llawer o debygrwydd i gylchau Cymru. Y mae y cylchau eang yn rhy gelfyddydol yn eu hymddangosiad, i fod yn foreuol iawn, ond y mae y cylch lleiaf, sydd a'r Gromlech yn ei ganol, yn dwyn agwedd henafiaethol iawn. Y mae Gwaith Emrys (*Stonehenge*), yn gryglwythi anferth o feini mawrion; ond y mae y gwaith yn dangos gormod o ol y cŷn a'r morthwyl, canys y maent wedi eu cydio a'u gilydd drwy denymau a morteisiau; a phan yr ystyrir fod yr un traddodiad yn mysg y Derwyddon, ag oedd wedi ei gadw gan y genedl Iuddewig, "Pan gottech dy forthwyl arni, ti a'i halogaist hi," y mae yn milwrio yn erbyn gosod y lle hwn yn brif orsaf. Y mae Carnac wedi cael ei hynodi am ei themlau: y mae yno tuag un-ar-ddeg o resi o feini, o naw, i bymtheg troedfedd o

Digitized by Google

uchder, wedi eu gosod yn llinellau union, rheolaidd, tua thri chant o feini yn mhob rhes, ac y maent yn awr yn rhifo dros bedair mil. Nid yw ffurfiad y cyssegr hwn, ar y cynllun boreuol. Y mae rhai mannau yn Neheubarth, a Gogledd Cymru, yn honi y flaenoriaeth. Dywed Angharad Llwyd yn ei Hanes Môn, a'r 'Gwyddoniadur,' yr un modd, fod mwy o olion Derwyddol mewn un plwyf yn y Deheudir, a elwir Llanwyndeg, gerllaw Abergwaen, nac sydd yn Mon oll, a dywed rhai mai tuag yno, neu ar gyfer Pont y pridd, yn Morganwg, y ceir y man tebycaf, i fod yn brif gartref y sefydliad. Y mae Rowland, Pennant, Richards, ac eraill, pa fodd bynag, yn tueddu i roddi y flaenoriaeth am yr hawl o'r anrhydedd, i wlad Fôn. Pa fodd bynag, nid yw yn ormod i'w addef, fod yr enwau boreuol a roddid ar yr ynys, nifer y Cromlechau a'r cylchau sydd yno, yn cynal enwau cyssylltiedig a'r grefydd Dderwyddol hyd y dydd hwn, yn gosod hynodrwydd arbenig ar y wlad. Gelwid yr ynys wrth yr enw, "Mon," o blegid ei sefyllfa; Ynys Dywell, o blegid ei llwyni; Ynys Moliant Hu, er anrhydedd Hu Gadarn; Ynys y Cedyrn, o blegid ei Gwroniaid; a Mon Mam Gymru, o blegid helaethder ei chynnyrchion. Y mae enwau lleoedd, o fewn cylch o tua dwy filltir, yn mhlwyfydd Llanidan a Llanedwen, yn awgrymiadau tarawiadol iawn am bwysigrwydd boreuol y lle. Rhydd y darluniad canlynol ryw amnaid am eu sefyllfa:—




A. Tre'r Dryw.
B. Bryn Gwyn.
C. Caer-leb.
D. Cefn y Dderwen.
E. Tre'r Beirdd.
F. Castell Idris.
G. Bod-drudau.
H. Mossoglan.
I. Tref-irwydd.
K. Bod-ofwyr.
L. Myfyrion.
M. Afon Braint.
N. Bodlew.
O. Gwydryn.
P. Tre Hirfaen.
Q. Grug-gaer.
R. Neuadd wen.
S. Yr Ardd Boeth.

Y mae y braslun uchod wedi ei gymeryd o *Mona Antiqua Rowlands*, gyda rhai ychwanegiadau, a wnaed mewn canlyniad i olrheiniad diweddar a wnaed ar y lle. Y mae yn afreidiol yma, geisio rhoddi yr ystyr priodol i bob un o'r enwau uchod, canys y mae yr ystyron yn adnabyddus ar lafar gwlad, a llen gwerin, heb un angen am Eiriadur. Pa fodd bynag, ni allwn lai na datgan ein syndod, wrth ddarllen y sylw canlynol, mewn cyhoeddiad parchus a gwerthfawr a ddaeth allan o Wasg Gymreig yn ddiweddar:—"Tre y Dryw, yn Môn, sydd le yr haera ein haneswyr Derwyddol, ei fod gynt yn llawn o Dderwyddon; pa fodd bynag, nid yw yr enw yn arwyddo hyny; canys *Dryw*, medd y Dr. Davies, ydyw *trochilus, reguliolus*—sywidw, rhyw ddwfraderyn hoff gan y crocodil; tinsigl y gwrych; cyffylog y mor. Yn lle bod yn llawn o *Dderwyddon*, gan hyny, arwydda yr enw Tre'r Dryw, mai lle llawn o *adar* ydoedd!" I ba le na rêd dynion ar ol hoff degan? A oes rhyw gysondeb yn y dyb o fod edn y gwrŷch, yn aderyn y môr. Nid yw yn ormod i'w sicrhau, na wyr un o gant o drigolion Môn, ddim am dinsigl y gwrŷch, na sywidw y mor, na sigl tan y gŵys; canys wrth yr enw, "Brith y fuches," yr adwaenir yn Mon, yr aderyn a elwir yn dinsigl y gwrych, a sigl dan y gwys, yn Sir Fflint! Ni ddylid cellwair gyda phwnc o henafiaeth, mwy na'r "gwirionedd presenol." Y mae yn afreidiol myned yn mhellach yn y llwybr hwn yma, canys daw y cromlechau, y meini hirion, y llwyni neillduedig, a'r enwau Derwyddol, sydd mor lluosog yn yr ynys, dan sylw, yn yr erthygl ar "Swydd Fon."

"Drwy Fon, a'i holl derfynau,—arwyddion
Derwyddiaeth sy'n olau,
A'i haml uchel Gromlechau,
Amryw o'u hol, i'w mawrhau!"

Y mae yn amlwg, mai senedd y genedl oedd yr Orsedd, ac mai yno y trefnid yr holl swyddogaethau. Ni's gellid graddio neb, ond yn unol a'r rheolau gosodedig, yr hyn a welir yn y darpariadau canlynol:—"Derwydd a reddir wrth raith a barn gorsedd, ac os bydd ef yn brifardd cyssefin, nid rhaid namyn y rhaith, gan fwrw coelbren, ac yna cyfallwy; canys cyfallwy y bydd pob peth a wneir yngorsedd, parth ac at fardd gorseddog, neu gadeiriog, heb achos cyfarch a hawl, can mai wrth hawl ef a barawd, ac yn nawdd ei hawl. Ef a ellir Derwydd o Ofydd cyssefin gan raith gorsedd, ac cyfallwy y bydd. Rhai a ddywedasant y gellir graddu Awenydd trofedig yn Dderwydd, ac o hyny bod yn Dderwydd cyssefin; eithr nid gwir hyny, can nis gellir Awenydd trofedig onid o wr wrth gerdd dafawd, a Phrydydd yn nawdd, ac wrth hawl Beirdd Ynys Prydain y bydd efe. Am hyny, ni's gellir o gyssefin ansawdd a defawd, nad gradd Prydydd neu Brifardd cyssefin yw 'r un a rodder ar Awenydd trofedig, can nis gellir o fyned gwr wrth drofedigaeth a cherdd Dafawd yngradd, wrth farn a rhaith gorsedd, nad Prifardd cyssefin y bydd, a hyn o anfodd oll a ellir ei ddywedyd, a'i ddychymyg, a'i haeru. Eithr y gwir yw hyn, sef y gellir ar yr un anadl ac ymod a llafar a'i greddir ef yn Brifardd cyssefin, ei drefnu ef yn Dderwydd, a gyru hyny o radd arno dan yr un. O ba radd bynag y bo Derwydd, neu os bydd trofedig o drwyddedawg nawdd, os ymerfyr ef a swydd a gorchwyl unrhyw radd arall yngorsedd a chadair, a myned o hyny yn nawdd gorsedd neu gadair, graddedig y bernir ef yn mraint hawl ac arddel a nawdd gorsedd, fel y bydd Prifardd o roddi gwir hyd yngradd gorsedd, ar air a chydwybod, parth ac at Ofydd, sef y bernir ei fod y hyny yn myned gan bwyll ac ansawdd, wrth angen a gorfod gwirionedd, ac wrth hyny yn ymarfer a braint a swydd Derwydd; ac nis gellir ymarfer a dim heb ei ddeall; a bernir deall ar hyny o beth lle'dd elo a wneythpwyd felly, wrth farn ac yn nawdd gorsedd; ac yno braint iddo radd, a gafwyd wrth farn a nawdd ar

Digitized by Google

ddeall gantho, heb ymhellach parth barn a rhaith; eithr ei roddi ar glyw a gosteg a rhybudd gorsedd. Ac yn unwedd y bernir am Ofydd yn ymarfer, onid el a wnelo ef yn nawdd gorsedd, a gorchwyl a swydd Prydydd, sef prydu a chynal cof, neu o fyned wrth bwyll, ac ansawdd ac angen, a chaffael o hyny nawdd gorsedd; yna Derwydd y bydd, a braint iddo fyned yngolochwyd, a chynal rhaccadair a rhagorsedd ar yr amseroedd defodawl a deddfedig. Nid rhaid i Brydydd o Brifardd cyssefin aros gradd wrth farn, a rhaith gorsedd, er gallu ymarfer â swydd a gorchwyl Derwydd, namyn rhoddi hynny ar glyw a gosteg gorsedd, neu gadair, can mai gwr wrth bob addysg cyfallwy ym mraint Barddas a Barddoniaeth yw Prydydd o Brifardd cyssefin; can mai arno ef y mae cynal cof a gwybodaeth hysbysrwydd am Farddas, ac nis gellir hyny heb ei ddeall a'i wybod yn gyfiawn o chyflwyr, a hynny yn ngwybod a barn gorsedd, heb na barn na rhaith gorsedd ymhellach, eithr cadarn yn a chyfallwy, heb mwyach yn y byd, y radd iddaw. Namyn na bod defod o syberwyd rhoddi a wneler ar glyw a gosteg a rhybudd gorsedd rhag dygwydd annhrefn ac annefod." Y mae ysgrif arall yn rhedeg fel y canlyn;—"Derwydd a radder wrth goelbren a barn gorsedd, os Ofydd y bydd, a'i swydd yw athrawiaethu a dangos gwybodau daionus, sef gwybod am Dduw a'i ofynion, a chynal golychwyd, a'i amseroedd yw bannau lleuad, man y bo gorau a hawsaf a gallediccaf, eiswys ei brif ansawdd yw cadlas egored yn wyneb haul, a llygad goleuni, eithr rhydd iddo ei wasgawd rhag hin gythrawl, ag eraill o gythrolion bethau. Iawn i bob Prifardd herwydd braint ei swydd a'i gelfyddyd, myned yn ansawdd Derwydd, lle a man ag amser y mynno. Canys o'r Prifardd y tarddant o gwbl y graddau eraill, ag ynddo ef y mae gwblgyfundawd y graddau ereill yn hanfodawl."—Byddai y Beirdd yn arwedd eu teitlau yn ol trefn eu derbyniad i mewn i'w gwahanol swyddau; ac yn y drefn hon ni chanfyddid un amser swydd Derwydd yn flaenaf. Ymddangosai y rhestr yn gyffredin yn ol y radd-restr ganlynol:—Bardd Braint; Bardd a Derwydd; Bardd ac Ofydd; Bardd, Ofydd, a Derwydd; Bardd Derwydd, ac Ofydd; Ofydd, Bardd, a Derwydd; Ofydd, Derwydd, a Bardd. Yr oedd gan bob gradd wisg o liw priodol i'r urdd:—"Derwydd a wisg y gwyn, yn arddangos gwirionedd a dwyfoldeb, a phob pur a glan, o gamp a gweithred, ag arfeddwl a myfyrdawd. Sef lliw goleuni y gwyn; am hyny lliw arbenig gwirionedd. Lliw gwirionedd hefyd pob hardd o gyfunlliw." Lliw yr awyr asur oedd lliw y Bardd, yn arddangos uchder a phurdeb ei ddrychfeddyliau, a'i foeswersi. Y lliw gwyrdd oedd briodol i'r Ofydd; lliw natur a thyfiant; yr oedd y naill a'r llall yn cwbl gydweddu a'r cymeriadau oedd yn eu gwisgo; y mae yr hen gofnodau yn cyfeirio at y lliwiau a'r graddau yn fynych.

Y mae y nodiad canlynol, wedi ei ddyfynu o'r "Gwladgarwr" am 1833, yn deilwng o gyflead yma. "Ystyrir Ynys Fon, gan rai, fel prif sefyllfod Derwyddon Prydain, yr hyn yr ymdrechir ei gadarnhau oddiwrth yr amrywiol weddillion Derwyddol sydd yn aros yno hyd heddyw; ac o herwydd fod cynnifer o leoedd yn dwyn enwau Derwyddol, megis Tre'r Dryw, Tre'r Beirdd, Cerrig Brudyn, Caer Idris, Myfyrion, &c. Ond er cynnifer yw gweddillion Derwyddol Mon, nid ydynt yn rhagori nac yn cysdadlu y rhai sydd i'w cael mewn amrywiol barthau eraill o Gymru, Lloegr, Ysgotland, a'r Iwerddon?" Ni bydd yr ychwanegiad o'r sylw canlynol ar yr enw yn mhellach, yn annyddorol:—"Am darddiad ac ystyr y gair DERWYDD, y mae cryn amheuaeth a gwahaniaeth barnau yn mysg dysgedigion. Y dyb fwyaf cyffredinol yw, ei fod yn deillio oddiwrth y gair *Derw*, o herwydd bod y Derwyddon yn dal parch neillduol i'r coed hyny, ac yn cyflawni eu defodau crefyddol mewn llwyni o honynt. Ond ar yr un pryd, y mae yn rhaid ystyried arwyddocad a threigliad y gair *Derw*, o herwydd mai o'r un gwreiddyn y mae tarddiad y ddau, ac oddiar yr un achlysur y maent yn cael eu defnyddio. Derw a ddeillia o *Dâr*, sef *amlwg*, *gwyddfodol*, &c. Yr un modd, Derwydd a dardda o *Dar* a *Gwydd*, sef un dyrchafedig ac eglur. Felly hefyd, y lle y cynalient eu cyfarfodydd a elwid *Gwyddfa*, neu le o bresenoldeb. Ofer i ni fyned i syfrdanu y darllenydd Cymreig, yn nghylch tarddiadau y gair o ieithoedd estronol."

Y mae yn ofynol gwneud rhai nodiadau bellach ar eu hegwyddorion, eu rhagorfreintiau a'u harferion. Yr oedd y rhan fwyaf o'r grefydd Dderwyddol wedi ei dwyn yn draddodiadol, o hen grefydd batriarchaidd gwlad Canaan. Nid yw yn hawdd canfod cymaint o gydweddiad rhwng crefyddau dwy wlad yn y byd, ag oedd rhwng Derwyddiaeth Ynys Prydain, â Phatriarchaeth y genedl Iuddewig. Y mae y sylw hwn yn cael ei gadarnhau pan y cyfeirir at yr Ysgrythyrau. Ni fu yr un cyfnod ar y byd, heb grefydd. Y grefydd honno oedd gan Noa yn yr arch, a ddysgodd efe i'w blant, a'i blant i'w holafion wedi y diluw, gan hyny, y mae yn naturiol i ni gasglu, fod llawer o honi wedi cael ei drosglwyddo i Dderwyddiaeth. Yr oedd Noa yn aberthu, felly y Derwyddon. Yr oedd ganddynt draddodiad am y Diluw a'r arch, ac yr oeddynt yn cael eu cadw mewn cyffelybiaeth, yn Ychain Bannog Hu Gadarn. Yr oedd addoliadau yr Iuddewon yn fynych yn y coed derw, felly y Derwyddon. Crybwyllir am Abraham yn teithio i ddyffryn Morch, neu ddyffryn y derw, i i addoli. Yr oedd Josua yn codi cromlech mewn coed derw, wrth ysgrifenu llyfr y gyfraith, "A Josua a ysgrifenodd y geiriau hyn yn llyfr cyfraith Duw, ac a gymerth faen mawr, ac a'i gosododd i fynu yno dan dderwen, oedd yn cyfagos i gyssegr yr Arglwydd," Jos. xxiv. 26. Yr oeddynt yn claddu eu henwogion yn y lleoedd cyssegredig hyn:—"Pob gwr nerthol a godasant, ac a gymerasant ymaith gorph Saul, a chyrph ei feibion ef, ac a'u dygasant i Jabes, ac a gladdasant eu hesgyrn hwynt dan y dderwen yn Jabes," 1 Cron. x. 12. Y mae hyn yn cael ei awgrymu yn y prophwydoliaethau am lwyddiant yr efengyl: "Cywilyddiasant o achos y derw a chwenychasant, a gwarthruddir chwi am y gerddi a ddetholasoch," Esay i. 29. "A chewch wybod mai myfi yw yr Arglwydd, pan fyddo eu harcholledigion hwy yn mysg eu heilunod o amgylch eu hallorau, ar bob bryn uchel, ar holl benau y mynyddoedd, a than bob pren ir, a than bob derwen gauadfrig, lle y rhoddasant arogl peraidd, i'w holl eilunod," Ezec. vi. 13. "Ar bennau y mynyddoedd yr aberthant, ac ar y bryniau y llosgant arogldarth, dan y dderwen a'r boplysen, a'r llwyfen, am fod yn dda eu cysgod," Hos. iv. 13. Y mae yr ystyriaethau hyn yn dangos yn eglur, fod llawer o gydweddiad yn arferion y naill grefydd a'r llall.

Y mae yr amrywiol enwau oedd ganddynt ar

Digitized by Google

Dduw, yn fynegai lled eglur am amryw o'u hegwyddorion, fel y gellid cyfeirio mewn gair byr at rai o honynt, megis Ion; dechreuad cyntaf pob peth, o'r hwn air y tardda *Ionawr*, dechreuad y Misoedd. Ior; y Tragwyddol, yr Arglwydd—ni a'i cawn wedi ei dreiglo i arferiad cyffredin mewn enwau ar leoedd, megis Bodior, Castellior, &c. Dofydd; Llywodraethwr, un yn ffurfio, rheoli, a threfnu pob peth—"Dofydd a llywydd y lleill." Peryf; Achosydd, effeithydd pob peth. Rhi; Boncyff dechreuol—rhieni. Celi, y Dirgeledig, &c. Ner, yr un sydd yn hunanysgogawl; nerth. Deon, Cyfranydd pob peth. Hen; yr Hen Ddihenydd—diheneiddio, &c. Y mae Edmwnd Prys yn y Salman Cân, wedi defnyddio yr enwau Derwyddol ar Dduw, gyda phrydferthwch mawr. Yr oedd y Derwyddon yn dosparthu y byd i dri o gylchau penodol, sef Cylch y Ceugant (circle of space), yr hwn na allai neb ond Duw ei gynwys; Cylch yr Abred (circle of causes), yr hwn oedd yn cynwys yr holl greadigaeth ddefnyddiol, a chyflwr neu sefyllfa dynoliaeth; a Chylch y Gwynfyd (circle of happiness), i'r hwn y cyrhaeddai dyn yn y diwedd; ac yr oedd eu syniadau yn ymganghenu i drefniant eang o fanylion, allan o'r egwyddorion sylfaenol hyn. Yr oedd ganddynt olygiad ar ysbrydolrwydd natur y Duwdod, "Nid dim ond Duw," a "Nid Duw ond dim." "Ni all Duw fod yn ddefnydd:" "Ysbryd yw Duw." Yr oeddynt yn credu athrawiaeth Rhagluniaeth, a llywodraethiad y byd; Cyfrifoldeb dyn, a bod dyn mewn cyflwr o brawf ar gyfer y dyfodol; Da a drwg, a Gwobr a chosp; Aberthau fel moddion addoliad, ac iawn am drosedd. Y mae wedi bod yn ddadl, pa un a oeddynt yn cyflwyno ebyrth dynol a'i peidio, ac y mae ysgrifenwyr galluog wedi cymeryd pob ochr i'r ddadl; ond cytunir yn gyffredin, os oeddynt, mai carcharorion rhyfel, a throseddwyr collfarnedig oeddynt, ac nad oeddynt byth yn eu traddodi, heb arfer pob ymdrech i'w henill i roddi eu hunain i fynu yn wirfoddol. Credent yn anfarwoldeb yr enaid, a thrawsfudiad eneidiau o'r naill i'r llall, sef pan fyddai un person yn marw, fod plentyn yn cael ei eni yn rhywle ar y pryd, i dderbyn ei enaid. Credent yn nyddbrawd, ddiwedd y byd. Yr oedd deddfau priodas, a'r Sabbath ganddynt, yn debyg i'r Iuddewon. Yr oedd ganddynt ddyddiau gwyliau, i addoliadau arbenig, at y rhai y cyfeirir yn fynych yn y Trioedd boreuol.

Mae dieithriaid i'w hiaith a'u cenedl, wedi bod yn dueddol i'w desgrifio yn anghywir iawn, a holl swyddogaeth ac urddau y grefydd, fel cymysgedd annhrefnus, tra yr ydoedd, mewn gwirionedd, yn drefniant rheolaidd ynddi ei hun, ac yn cynwys pob llywodraeth, wladol a chrefyddol, ac a ffurfid i dri dosparth o swyddogaeth reolaidd, yn y Beirdd, yr Ofyddion, a'r Derwyddon. Un trefniant oedd y cyfan, a phob dosparth yn gyfran reolaidd o'r un cynlluniad cyffredinol. Sicrheir i ni, na byddai neb yn derbyn graddoliaeth Derwydd, heb iddo yn gyntaf gael ei ddarparu, a'i dderbyn i raddoliaeth Bardd. Ac wedi cyrhaedd y raddoliaeth hono, yr oedd rhyw nifer o'r Beirdd yn cael eu neillduo yn fwy penodol, i weinyddiad achosion crefyddol, a'r rhai hyny a ddynodid wrth yr enw o Dderwyddon. Felly, er mai y rhai olaf oeddynt yn fwyaf arferol o weinyddu mewn pethau cyssegredig, eto, nid oedd hyny yn cau allan y Beirdd a'r Ofyddion oddiwrth yr unrhyw ragorfraint. Hefyd, nid oedd swyddogaeth Derwydd, yn rhoddi iddo ddim uwchafiaeth ar y lleill, o blegid yr oeddynt hwythau yn meddianu yr un cymwysderau i'r swydd, ar ol iddynt gael eu derbyn trwy awdurdod Gorsedd; ond yn unig bod y Derwyddon yn cael ymddiried iddynt am y gangen hono o'r swyddogaeth. Y rhai a neillduid i'r dosparth hwn, a arferent wisg wen, fel arwydd o burdeb eu swyddogaeth; gwisg y Beirdd, fel y crybwyllwyd, oedd awyr las, fel arwydd o dangnefedd; a'r eiddo yr Ofyddion, yn werdd, fel arwydd o ddysgeidiaeth. Ac megis nad oedd yn ganiataol i'r un o'r pleidiau arferyd amrywiaeth lliwiau, rhoddid ar ddeall fod y Gwirionedd ynddo ei hun, yn bur ac yn ddigymysg. Yr oedd eu trefniadau, a'u rhagorfreintiau, dan reolaeth briodol, yr un modd. Y mae yn ofynol yma, gyfeirio at y cynneddfau a'r cymwysderau, yn nghyd a'r darpariadau, oedd yn ofynol i fod yn y rhai a dderbynid i'r raddoliaeth Farddonol. Yr oedd yn angenrheidiol fod eu moesau yn ddiargyhoedd, eu hegwyddorion yn gywir, a'u gwybodaeth yn helaeth. Am yr holl gymwysderau hyn, yr oedd ymofyniad manwl i gael ei wneuthur, a sylw craff i gael ei ddal ar ymarweddiad yr ymgeisydd, yn flaenorol, ac yn ysdod amser ei brawf. Yr oedd yn rhaid iddo fod yn gyfarwydd, ac yn barod yn holl wersi a chyfansoddiad gosodedig y swyddogaeth. I'r dyben hwn, yr oedd raid iddo drysori yn ei gôf, luaws mawr o wyddor-wersi barddonol penodedig, y rhai y dywedir eu bod uwchlaw ugain mil o nifer. Tybir fod y rhai hyn, gan mwyaf, ar ddull Englyn Milwr, yr hwn a wneid i fynu o dair llinell, y gyffelybiaeth yn yddwy gyntaf, a'r foes-wers yn yr olaf, yn gyffredin, megis yr Englynion Eiry Mynydd; Gorwynion Llywarch Hen, &c. Y rhai hyn, medd Caisar, ni chaniateid eu dodi mewn ysgrifen, eithr dysgid hwy ar dafod leferydd, er mwyn cryfhau galluoedd y cof, a gloywi y cynneddfau, os nid hefyd tu ag at ddirgelu cyfrinach y frawdoliaeth. Ar ol i'r ymgeisydd ddyfod drwy ei efrydiaeth, dan y ddysgyblaeth hon, dros yr ysbaid gofynedig, a chael boddlonrwydd ynddo, derbynid ef i gyfranogiad o freintiau y raddoliaeth, ac amlygid iddo ei holl ddirgeledigaethau hi. Nid ymddengys yn debygol bod moes-wersi y Derwyddon, yn cael gwahardd eu hysgrifenu o gwbl oll, canys yr oedd ganddynt eu llythyrenau, a dyna oedd dyben y peithyneu; ond cedwid yr efrydwyr ieuaingc i ymddiried yn eu llafur, ac nid yn nghymorth llyfr. Yr oedd aelodau y raddoliaeth hon, yn rhydd oddiwrth holl drethi y wladwriaeth, ac oddiwrth yr angenrheidrwydd o wisgo arfogaeth filwrol; ac hefyd yn mwynhau cynifer o ragorfreintiau, ag a barai o'r braidd i dywysogion flysio bod o fewn cylch eu brawdoliaeth. A chymaint oedd eu parch a'u cymeriad, yn nghyfrif y bobl, yn gystal gelynion a chyfeillion, fel weithiau yr anturient rhwng dwy fyddin, ar fin yr ymgyrch, a thrwy ffraethineb eu hareithiau, a grym anwrthwynebol eu hymresymiadau, hwy a lwyddent i gael ganddynt ddychwelyd y cleddyf i'r wain, ac ymgymodi a'u gilydd. Mewn llysoedd gwladol hefyd, yr oedd pawb yn plygu i'w dedryd, ac oddiwrthi, nid oedd wiw apelio i un llys arall. Y rhai a anturient wrthwynebu hon, a ysgymunid yn ddiymwared; yr hon gospedigaeth ydoedd arswydus i'r graddau eithaf, ac yn gosod y sawl a ddelent dani, yn agored i'r dialeddau chwerwaf; gochelid eu cymdeithas fel yr haint, ac i'w meddianau nid oedd dim amddiffyn. I'r Derwyddon yr ymddiriedid addysgiaeth yr ieuaingc, ac i'w hathrofeydd y cyrchid o bob gwlad.

Digitized by Google

Yr oeddynt yn helaeth eu gwybodaeth yn y celfyddydau, yn nirgelion naturiaeth, mewn seryddiaeth, rhifyddiaeth, daearyddiaeth, a meddyginiaeth. A chymaint yr ystyrid Derwyddon Prydain yn rhagori ar rai eraill, fel y dywed Caisar." Pwy bynag o drigolion Gâl, a chwenychai gyrhaeddyd gwybodaeth drwyadl o'r ddysgeidiaeth, hwy a ddeuent drosodd i Frydain i'r perwyl hwnw. Er eu bod yn credu yn modolaeth un gwir a bywiol Dduw, eto yr oeddynt yn eu haddoliad o hono, wedi cymysgu llawer o goelgyfaredd, a thraddodiadau dychymygol, fel y mae yn dueddol i bob cenedl, pan y collo oleuni datguddiad Dwyfol, ac hyd oni dderbynir addysgiadau nefol yr efengyl. Er eu bod yn dal anfarwoldeb yr enaid, yr oeddynt yn ofer yn eu rhesymau am drosglwyddiad eneidiau, fel y paganiaid eraill yn gyffredinol. Mae hanesion, a thraddodiadau, yn darlunio eu haddoliadau yn gymysgedig o aberthau o wahanol greaduriaid, anifeiliaid, a dynion. Am yr aberthau anifeilaidd, nid oeddynt ond tebyg i genedloedd eraill yn y byd, yn flaenorol i ddyfodiad yr efengyl i'w gwlad; ac wedi dechreu er dyddiau boreuaf dynolryw, a hyny ar y cyntaf, o Ddwyfol osodiad, hyd yn nod yn mhell iawn cyn sefydliad yr oruchwyliaeth Iuddewig. Ond fel y mae yr ordinhadau mwyaf santaidd yn dueddol i ddirywio pan eu gadawer i gael eu cyfarwyddo gan ddychymyg calon dyn, nid oedd ddim yn beth i'w ryfeddu, fod y cyfryw ddirywiad wedi dyfod i blith y Cymry, yn enwedig pan yr ystyrier eu bod wedi crwydro mor bell o'r gwledydd lle yr oedd addoliad pur i'r gwir Dduw yn cael ei gynal i fynu. Dywedir, pan y byddai rhyw uchel wyl i gael ei chadw, y byddai yr Arch-dderwydd yn llywyddu; wedi torri yr uchelfar, a dodi dwfr arno, ystyrid y meddai y dwfr rinwedd gwyrthiol, er iachau clefydon, gwrthweithio gwenwyn, peri i anifeiliaid epilio, a llawer o wasanaeth arall. Yn y cyfamser, fe fyddai dau o deirw gwynion, wedi eu rhwymo wrth fôn y dderwen, gerfydd eu cyrn, y rhai a leddid yn aberth, ac a ddosperthid yn dair rhan, ond un ran i'w llosgi yn boeth-offrwm; a'r llall yn wledd i'r aberthwr a'i gyfeillion, a'r drydedd ran yn wledd i'r Derwyddon. Cyhuddir hwy hefyd, yn ddiau gyda llawer o ragfarn, gan rai haneswyr, o fod yn euog o aberthu dynion, megis pan fyddai un o'u penaethiaid yn glaf, neu pan fyddai rhyw drychineb ar y wladwriaeth; ac yr offrymid aberth dynol er symud ymaith yr anffawd, ond nid yw ambell ddywediad, megis "Bwrw caeth i gythraul," a'r cyffelyb, yn ddigon eglur o ran ei ystyr, i brofi hyn, na'r cyfeiriad at y "coelcerth" ychwaith, gan y gellid eu priodoli at lawer o amgylchiadau eraill. Dylid cofio, ar yr un pryd, fod yr arferiad o ddienyddio yn mhob gwlad, er rhybudd yn erbyn troseddau. Y mae yn anhawdd deall pa fodd yr oedd yn gysson â rheolau tyner y Derwyddon dysgedig, i arfer llawer o'r creulonderau hyn, tra y cydnabyddir eu bod mor dosturiol a llariaidd, yn eu rheolau eraill. Ac fe dystiolaethir, nad oedd un genedl, yn fwy parod i dderbyn yr Efengyl, na'r Cymry, pan y cawsant gynygiad o honi.

Y mae yn briodol crybwyll yma yn mhellach, mai y Beirdd oedd y cantorion. Yr oeddynt yn awenyddion wrth broffes, credent mai Barddoniaeth oedd y cyfrwng goreu i gyflwyno Gwirionedd i'r byd. "Y gwir yn erbyn y byd," oedd eu harwyddair, ac yr oedd pob Gorsedd, yn cael ei hagor gyda'r datganiad hwn. O blegid hyn, eu rheol oedd, dodi pob gwirionedd mewn barddoniaeth, a phob chwedl neu "hud a lledrith" mewn rhyddiaith, fel y gwelir fod yr holl Fabinogion, a'r Rhamantau, mewn iaith gyffredin. Yr oedd cyssegredigrwydd yn mherson y bardd: arbedid ef mewn rhyfel, fel y crybwyllwyd eisoes, ac eisteddai yn un o brif wŷr llys y brenin, ymddengys felly, ei fod yn swyddwr o anrhydedd a dylanwad mawr yn ngolwg yr holl genedl.

Haera rhai, ni wyddir oddiar ba awdurdod, nad oedd celfyddyd yn cael unrhyw feithriniaeth yn mhlith y Derwyddon. Ymddengys hyn yn hollol ddisail, ar bob golygiad ystyriol. Yr oedd yr Ofyddion yn gelfyddydwyr, yn gystal ag athronwyr, er mai rhyw fath o aelodau mygedawl yn y trefniant ydoedd y rhai hyn. Yr oeddynt yn dra chyfarwydd mewn Meddygyniaeth. Y mae adeiladaeth y cromlechau, y meini hirion, a'r cylchau, yn profi yn eglur eu bod yn adnabyddus o egwyddorion Gallofyddiaeth (*Mechanism*), cyn y gallent godi careg o ddeg tunell ar hugain o bwysau, a'i dodi i orphwys fel bwrdd cadarn am oesoedd, ar ben tri, pedwar, neu bump o begynau, pedair neu bum llath o uchder. Rhaid eu bod yn deall grym y trosol, yr ysgryw, neu ryw allu arall, i gwblhau y fath orchestion. Y mae yn lled debygol, mai hwy oeddynt ddyfeiswyr cyntaf gwydr, er mai y Rhufeiniaid a'i cymwysodd gyntaf at ffenestri. Y mae hyn yn cael ei addef yn y nifer fwyaf o'r Gwyddoniaduron. Y mae pob dyn a edrycho ar y Glain-neidr, yn cael ei argyhoeddi ar unwaith mai gwydr ydyw; a gwyddir mai trwy gloddio dan yr hen gromlechau, yn yr hen demlau Derwyddol yn unig, y darganfyddir hwy.

Ond wedi y cyfan a ddywedir ac a ysgrifenir, ai nid dychymygion ofer, a chwedlau disail, o ddyfais ddiweddar, ydyw yr oll a haerir am henafiaeth a dysgeidiaeth yr hen Dderwyddon? Addefir fod llawer a anghysonderau ymddangosiadol yn eu cofnodau, ac yn y Trioedd arddeledig, mewn llawer o ystyron, fel y mae gyda phob hanesiaeth foreuol; eto nid oes neb ystyriol, na addefa fod llinell o wirionedd yn rhedeg drwy y cyfan, hyd yn nod pan y teimlir anhawsder i gysoni llawer o'r manylion. Nid yw yr amheuwyr yn gwadu digon, os oes gwadu i fod hefyd; dylent wadu y cyfan, ac nid addef rhan, a gwadu y cyfanswm, ar y cyfan. Y mae hyn yn bur debyg i'r blaid sydd yn codi i amheu, os nid i wadu, y Datguddiad Dwyfol. Dyma fel y dywed awdwr "Barddas y Cymry;" tu dalen 4:—"Mewn ffurf brydyddol yn unig yr ymddangosai hanesyddiaeth hyd yr oes ddiweddaf o flaen Heredotus; a thybir fod gan y Cymry hanes mewn mydr, mor ddiweddar ag amser Gerallt o Gymru. Mae yn amlwg fod rhyw hanes Gymreig ar gael yn amser Gerallt, wrth y cyfeiriadau mynych a wna efe iddi, ac o herwydd mai mewn mydr yr ysgrifenai yr hynafiaid braidd a'r bob pwnc, mae yn dra sicr mai felly yr oedd eu hanesion cyssefin. Ond er mai prydyddiaeth oedd dull boreuaf yr holl genhedloedd o gyfansoddi, ac o draddodi eu gwybodau a'u hyfforddiadau i'w cyd oeswyr, ac o'u trosglwyddo i'w holafiaid; ac er bod gan bob cenedl o'r braidd, ei Hofyddion, a'i Phrydyddion, —ei Doethion yn gystal a'i Hoffeiriaid; eto, nid ymddengys fod y cyfryw yn mysg un genedl wedi ymdrefnu mor rheolaidd, ac wedi gallu gwneud eu cyfundrefn mor bwysig, ymhob ystyr i gymdeithas, ag y gwnaeth Beirdd Ynys Prydain eu hunain, a'u "dosparth." Dywed Toland, fod Barddoniaeth y Celtiaid, neu yr Offeiriadaeth Orllewinol, fel y geilw

Digitized by Google

hi, yn tra rhagori ar yr eiddo Soroaster, ac ar holl gyfundrefn gyssegredig y Dwyrain. Yr oedd prydyddion y genedl fawr, ddiwylliedig hon, dan yr enw Beirdd, y radd bwysicaf yn eu plith, gan fod holl ddysg, a chrefydd, a chyfraith y genedl yn hollol dan eu hawdurdod; ac fel y cyfryw, yr oedd eu breintiau yn fawrion a chysegredig dros ben, a'u proffes yn "ddosparth drwyddedog," reolaidd, yn ol cyfreithiau y wlad, dan yr enw Barddoniaeth, mor foreu, medd y Trioedd, ag amser Plenydd, Alawn, a Gwron, y rhai a ddychymygasant y Breiniau a'r Defodau y sydd ar Feirdd a Barddoniaeth.

Y mae yr ymdrech diweddar i geisio profi nad oedd y cromlechau yn allorau, ond mai Beddfeini ar lwch enwogion oeddynt, yn rhy anmrwd o lawer i gael derbyniad parhaus. Y mae rhai o honynt wedi eu codi ar ben y graig noeth, lle nad oes yr arwydd lleiaf fod cloddio wedi bod o danynt erioed; a rhai o honynt mewn manau ag y buasai yn anhawdd iawn gwneud hyny, er mae yn ddiau, nad yn anmhosibl; eto dyna ydyw y ffaith; ac y mae hyny ynddo ei hun yn profi pa mor anghyson ydyw y dybiaeth. Y mae eu henwau hefyd, yn gystal a'u sefyllfa, yn dangos eu bod wedi eu codi, o leiaf, rai o honynt, i ryw ddybenion heblaw beddrodau. Y mae yr enwau, "Y Gromlech;" y "Maen arch;" "Maen y Bardd;" "Allor Moloch;" Llech-y-filiast; "Bwrdd Arthur," "Coeten Arthur," &c., "Cistfaen," &c., yn anhawdd olrhain eu hystyron, mae'n wir, eto, y maent yn awgrymu yn ddigon eglur, fod a wnelont ag addoliad, rai o honynt. Y mae yn amheus genym nad gair Cymraeg cyffredin ydyw *Moloch*, wedi ei lygru mewn amser, ac mai Molech, neu Mawl Lech, ydoedd y gwreiddiol. Gellid gwneud sylwadau cyffelyb ar amryw o'r lleill. Y mae yn eglur, mai cymaint a allwn ei wneud, lle nad oes "weledigaeth eglur," ydyw tynu y casgliadau mwyaf naturiol oddiwrth enwau ac amgylchiadau, a gochel rhedeg i'r unrhyw ormod rhysedd a'r "chud a goelia bob peth."

Paganiaid, wedi y cyfan, oedd y Derwyddon. Tra yr oeddynt yn uchder eu bri yn Môn, yr oedd llaw Rhagluniaeth y nef, yn ddirgel o'r tu fewn i'r llen, yn symud olwynion y peiriant Dwyfol, i ddwyn diwygiad o amgylch, ac arwain Cristionogaeth i'r wlad. Ymosododd y Rhufeiniaid ar y fro, a hyny ar un o'u prif wyliau. Croesodd y fyddin, Afon Menai, dan Borthamel, yn Mhorth yr Ysgraffau, gyferbyn a Maes-hirgad, a bu dinystr ofnadwy ar Gaer-oerwaed, canys dyna fel y gelwir y lleoedd hyn hyd y dydd heddyw. Penderfynasant ar y cyntaf, beidio codi arfau yn erbyn yr estroniaid, gan ymddiried yn nawdd eu duwiau; ac wedi i'r Archdderwydd gyhoeddi melldith arnynt, ac i'r gwragedd redeg o amgylch gyda thân yn eu gwalltau fel gwallgofiaid, tarawyd gwersyll y Rhufeiniaid â dychryn, pan glywsant y felldith, er nad oeddynt yn deall y geiriau. Cyfodai yr Arch-dderwydd ei ddwylaw tua'r nef, ac â golwg urddasol arno, yn ei wisg gysegredig, a'i farf laes, a'i wallt gwyn yn crogi dros ei ysgwydd, ac mewn llais eofn, traddodai y farn ofnadwy:—

"Pawb a'i floedd, pob aflwyddiant,—adawer
Gan y Duwiau'n soriant;
Melltith i'ch plith chwi a'ch plant,
Y dreigiau a'ch cyd rwygant;
Eich enw byth, dan ochain bo,—ac effaith
Eich coffa a bydro,
Mewn brys o gymau ein bro,
Duw—Lywydd a'ch dileo!"

Ond wedi yr holl arswyd, adymwroli a wnaeth y Rhufeinwyr, a rhuthrasant arnynt yn ddiarbed, gan eu rhifo wrth y canoedd i'r cledd, a bwrw eu penaethiaid i'w llosgi ar dân eu hallorau, fel y bu yno ddifrod ofnadwy, haws i'w ddychymygu, na'i ddarlunio ar hyn o bryd. Pa fodd bynag, goruwch lywiwyd y gyflafan i fod yn lles, a throwyd cynddaredd dyn i folianu y nef, a gwaharddwyd gweddill y gynddaredd, rhag rhedeg i derfynau rhŷ bell! Yr oedd parodrwydd yn egwyddorion Derwyddiaeth er rhoddi derbyniad i Gristionogaeth. Buan ar ol hyn, y dychwelwyd rhai a gymerid yn garcharorion rhyfel, i'r ffydd, y rhai a gludasant y "newydd da o lawenydd mawr," ar eu rhyddhad, i'w hen wlad gyssefin. "Y gwir yn erbyn y byd," oedd eu prif arwyddair, ac yn ol hyny, yr oeddynt yn rhwym o wneud ymchwiliad i egwyddorion y grefydd newydd a ddygid i'w plith, ac wrth ei chwilio, a'i chael yn seiliedig ar wirionedd, rhoddasant dderbyniad iddi, er nad oedd ar y cyntaf, ond math o gymysgedd o Gristionogaeth wedi ei himpio ar Dderwyddiaeth; yr hyn a roddai sail i'r arwyddair newydd, "Da'r maen gyda'r efengyl," ac wedi cael ei throed i lawr unwaith ar ein gwlad, ni adawodd ein terfynau byth mwy. Ymburodd yn raddol oddiwrth y llygredd, a gwisgodd fantell cyfiawnder, a'r gwirionedd megis y mae yn yr Iesu. Daeth yr Offeiriaid Derwyddol, yn Weinidogion Cristionogol, tynwyd i lawr gestyll paganiaeth, chwalwyd cymylau duon ofergoeledd, a chodwyd temlau addoliad y Duw a wnaeth y byd, ar hyd a lled y wlad. Pa faint ydyw ein rhwymau i fod yn ddiolchgar am y rhagorfraint hon, ac am na adawyd mo honom fel cenedl i ymbalfalu yn nhywyllwch ofergoeledd paganiaeth, fel y mae lluaws o genhedloedd lluosocach na ni, yn aros hyd y dydd hwn!

**DESWNWY**, neu Dysynny, afon yn swydd Feirionydd, yr hon y mae ei tharddiad ar ystlys Ogledd Ddwyreiniol Cadair Idris, ac wedi llifeirio tua 17 o filldiroedd i'r De Orllewin, y mae hi yn ymarllwys i'r môr islaw y Towyn.

**DEULWYN**, Ieuan, ydoedd foneddwr o ddysg a gwybodaeth eang, a bardd awenyddol a choeth; yn ei flodau tua chanol y 15fed ganrif. Mae dau le yn y Deau yn ei hawlio, sef Pendeulwyn, yn Mro Morganwg; a Phendeulwyn, ger Cydweli, yn swydd Gaerfyrddin. Ond tybir mai gan yr olaf mae yr hawl grefaf iddo. Yn y flwyddyn 1460, gwŷsiwyd ef a thri eraill, trwy lythyrwys gan Edward IV., i gastell Penfro, i chwilio allan achau a disgyniad enw anrhydeddus yr Herbertiaid. Yn y wŷs hono gelwir hwynt "*the foure cheyffest men of skyll within the prouynce of Sowth Wallys.*" Hywel Surdwal, Ieuan Deulwyn, a Ieuan Brechfa, "*Bardes,*" oedd tri o honynt. Wedi hir chwilio coflyfrau Mynachlogydd Ystrad Fflur, a Margam, &c., gosodasant y cwbl ger bron y brenin—*in foure severall languadges, viz., in Latyne, Brytish, French, and English, eache Coppye agreeing word for word.*"

Yr oedd yn llywydd Gorsedd Morganwg yn 1480; ac efe oedd athraw barddonol Iorwerth Fynglwyd, Lewys Morganwg, Harri Hir, &c. Mae saith cyfansoddiad o'i eiddo, wedi eu diogelu yn *Ngorchestion Beirdd Cymru.* Dywedir fod L. W. Dillwyn, Ysw.,

Digitized by Google

o Sketty Hall, Abertawe, yn ddisgynydd o Ieuan Deulwyn; ac y mae doniau ei hynafiaid, wedi gorphwys arno yn helaeth.

**DEVEREUX**, Walter, Iarll Essex, a thad anwylddyn anffodus y frenines Elizabeth, a anwyd yn swydd Gaerfyrddin, yn 1540; ac a olynodd ei daid i'r teitlau is-iarll Henffordd, ac arglwydd Ferrers. Yn 1571, pan gododd ieirll Westmoreland, Northumberland, a Dacres, a Duc Norfolk, wrthryfel yn ngogledd Lloegr, gyda'r amcan o ddiorseddu Elizabeth, ymunodd Walter Devereux a byddin Iarll Lincoln, yn erbyn y gwrthryfelwyr, ac enwogodd ei hun gymaint yn yr amgylchiad hwnw, fel y gwnaeth Elizabeth ef yn Iarll Essex, ac yn farchog o Urdd y Gardas. Bu farw yn Nublin, Medi 22, 1576; a thybir fod gan ei elyn, Iarll Leicester law yn ei farwolaeth. Traddododd yr esgob Richard Davies, ei bregeth angladdol yn Nghaerfyrddin, yr hon yn nghyda Chofiant achyddol, a bedd argraff iddo, a gyhoeddwyd yn Llundain, yn 1577.

**DEVIL'S BRIDGE**, Pont-y-Gŵr-Drwg, neu Bont-ar-Fynach, sydd hen bont enwog a rhyfeddol, yn croesi yr afon Mynach, 10 milldir o Aberystwyth. Y mae wedi ei thaflu am draws gagendor dwfn, tua 18 troedfedd ei led. Y mae yn gynnwysedig o ddwy bont un-bwâog, y naill uwch ben y llall. Adeiladwyd y bwa isaf, tua'r flwyddyn 1087, gan fonachod Ystrad Flur, yr hon oedd yn fonachlog enwog iawn yn y dyddiau gynt, ac y mae amryw o hen Dywysogion Cymru, wedi eu claddu ynddi: nid oes ond ychydig olion o honi i'w gweled heddyw. Rhuthra yr afon islaw y bwa hwn, yn y dyfnder o 118 troedfedd, ac yna neidia yn raiadrau mawreddog, dros glogwyni olynol, i ddyfnbwll berwedig, yr hwn sydd 326 troedfedd islaw y bont. Nid yw y bwa, neu'r bont uchaf, ond o wneuthuriad diweddar, ac y mae cerbyd-ffordd hardd a dyogel yn myned drosti, yr hon sydd yn cyssylltu Aberystwyth â Rhaiadr-ar-Wy. Adeiladwyd hi ar draul y Sir yn 1753. Y mae olion hen ffyrdd culion, o bob tu i'r Mynach, rhwng gweddillion monachlog Ystrad Flûr, a gweddillion monachlog Abbatty Cwmhir, yn swydd Faesyfed, a bernir mai olion ydynt o'r hen dramwyfa rhwng y ddau le.

Y mae hen draddodiad am y bont isaf, ag sydd yn werth i'w gofnodi, yr hwn gynt a gredid yn gyffredinol, ac nid yw y grediniaeth wedi llwyr ddiffodd hyd heddyw:—Yr oedd hen wraig o'r gymmydogaeth wedi myned allan i chwilio am ei buwch, yr hon oedd wedi myned ar ddisperod; ac wedi llawer o ymchwil, gwelodd hi yn pori ar glogwyn serth ac aruthrol, y tu draw i'r Mynach ffrochwyllt; gan fod y gagendor dychrynllyd rhyngddi a'i buwch, nid oedd gobaith i'r hen wraig i gael ei godro hi fyth ond hyny. Yn y cyfyngder hwn, ymddangosodd ei fawrhydi Satanaidd iddi, ac addawodd i daflu pont dros y ddwy geulan ofnadwy, ar yr ammod iddo ef i gael y *cyntaf* a elai drosti: cytunodd yr hen wraig, ac yn y fan, wele bont yn ymgodi megys o'r creigiau, ac ni wyddai hi beth i'w wneuthur: yr oedd yn dda ganddi am ei buwch, ond yr oedd yn well ganddi am dani ei hun: fel pob gwraig, pan y gwthir hi i gongl, gwelodd ffordd i ddyfod allan: yr oedd ganddi gi bychan yn ei chanlyn, a theisen yn ei llogell; dangosodd hi i'r ci, bowliodd hi dros y bont, a rhedai y ci ar ei hôl hi; ffromodd y Gŵr Drwg yn aruthr, pan weles ei guro gan hen wraig, ac yn lle cymeryd meddiant o'r *cyntaf* a aeth drosodd, efe a ddiflanodd mewn llwch brwmstanaidd. O'r traddodiad hwn y tarddodd yr enw Pont-y-Gŵr-Drwg. Bu yr hen bont o'r pwys a'r gwasanaeth mwyaf am ryw 600 o flynyddoedd, ac y mae'r Parch. Daniel Evans, A. C. (*Daniel Ddu o Geredigion*), wedi cyfansoddi yr englynion canlynol iddi:—

"Mi a wn mai rhyw ymenydd—cadarn,
Fu'n rho'i cydiad celfydd
Y bont addien, ysplenydd,
Uwch ceudod, yn syndod sydd.

Llesiol wyt trwy'r holl oesoedd,—da waith,
I deithwyr aml filoedd;
Camfa lân uwch cwm, a'i floedd
Nwyfus yn cyrhaedd nefoedd.

Gwir draws yw rhoi i'r 'Gwr Drwg'—y moliant
Am haeledd mor amlwg;
I ni dda, mae'n wir na ddwg
Etifedd mawr y tew-fwg."

Wrth bob pen o'r bont uchaf, y mae llwybr garwserth yn arwain i lawr hyd lethrau creigiog y gagendor, hyd ddarnan gwastad o'r creigiau a grogant uwchben y ffrwd, o'r rhai y gellir clywed, gyda synfyfyriad mawreddus, wyllt-ruadau taranllyd y dyfroedd, y rhai a groch-ffrydiant yn anweledig, oddieithr mewn dau fan yn unig, rhwng y creigiau odditanodd. Y mae'r ffrydiau ewynog fel yn suddo i grombil y ddaear; a chyn eu gweled yn ailymddangos, y mae yn rhaid esgyn ar hyd un llwybr, a disgyn ar hyd llwybr arall; y mae'r llwybr yn arw iawn, ac yn beryglus; ac yn gofyn amynedd, gofal, a dewrder, i'w deithio; ond wedi cyrhaedd gwastadedd llydan ag sydd ar ben craig grogedig, gellir canfod yn agos yr holl gyfres ardderchog o'r rhaiadrau mawreddog yma.

Darlunia un teithiwr diweddar, y golygfeydd yma yn y geiriau canlynol:—"Gwedi ymruthro drwy y fynedfa gul o tân y bont, rhydd y Fynach ffyrnigwyllt bedair naid olynol dros dri rhaiadr. Y mae'r cyntaf tua deugain llathen i'r De Orllewin oddiwrth y bont, lle yr ymruthra dros ddibyn craig, i bwll caregog, 18 troedfedd o ddyfnder: y mae'r ail naid, yn 60 troedfedd o ddyfnder; ac y mae'r drydedd naid, yn 20 troedfedd o ddyfnder. Wedi hyny gwylltreda yr afon rhwng creigiau aruthrol eu maintioli, hyd nes y cyrhaedda ddibyn y clogwyn mawr; pan y rhydd naid anferthol arall, 110 troedfedd ei dyfnder: y mae'r holl raiadrau felly, yn 208 troedfedd o ddyfnder unionsyth. Wedi ymruthro dros y rhaiadr diweddaf, rheda'r Fynach yn ffrwd orwyllt ar hyd ei gwely creigiog, hyd oni chyrhaedda fan mwy agored a llydan, ac yr ymuna ei dyfroedd â'r afon Rheidiol. Pan ymgyfarfyddo dyfroedd y ddwy afon â'u gilydd, yn enwedig pan y mae llifogydd ynddynt, rhuthrant yn ffyrnig yn erbyn eu gilydd, fel gelynion mewn ymgyrch ar faes y frwydr; ond yn mhen ychydig, deuant yn fwy cyfeillgar â'u gilydd, ac wedi cael mwy o le i redeg ynddo, ffrydiant yn dawel, mewn undeb ac heddwch, yn un afon, gan aberu yn y môr, yn Aberystwyth."

Y mae llawer o deithwyr yn ymweled â'r lle, ac y mae yma westty rhagorol i'w derbyn, gyda thai ereill. Yr ydys yn bwriadu agor cangen o reilffordd i'r lle, yr hyn a fydd yn gaffaeliad mawr iddo. Y mae capel yma gan y Trefnyddion Calfinaidd; ac y mae plasdy mawreddog yn yr yml, sef, yr *Hafod*.

Digitized by Google

**DEWI**, Arfon, neu y Parch. David Jones, o Glynog, a aned Gorph. 6, 1833; mab ydoedd i Hugh ac Ellin Jones, Ty dû, Llanberis, ac yr oedd David Jones, Garegwen, (gwr tra adnabyddus yn Arfon), yn daid iddo. Aeth ei fam ag ef i'r ysgol pan oedd ond baban, at un o'r enw Ellis Thomas, oedd yn cadw ysgol ddyddiol yn y Capel Coch; a phan nad oedd ond wyth oed, yr ydym yn cael ei fod yn anfon llythyr, yn Gymraeg ac yn Saesneg, at ei ewythr i'r Garegwen. Fel y mae arfer rhai yn nghymydogaethau y chwarelydd, anfonwyd Dewi i'r chwarel, i ddysgu y gwaith o chwarelwr, a phan nad oedd ond un-ar-ddeg oed, dysgodd y gelfyddyd hono, fel y cyffredin; neu feallai yn well na llawer o'i gyd-chwarelwyr. Ond pan yn 20 oed, oddiar anogaeth rhai o'i gyfeillion, aeth i'r ysgol at Mr. Evans (yn awr o Ddolgellau), yr hwn oedd ar y pryd yn athraw yn Llanberis; a bu gyd âg ef am oddeutu haner blwyddyn. Aeth oddiyno i'r Borough Road, Llundain, a bu yno drachefn am flwyddyn, a thrwyddedwyd ef yn yr ail ddosbarth. Bu yn athraw yn yr Ysgol Frytanaidd, Llanrwst, am bedair blynedd, ac yn niwedd y tymor yma, dechreuodd bregethu, ac ordeiniwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth, yn y flwyddyn 1867. Yn fuan ymgymerodd âg arolygiaeth yr Ysgol ag y bu Eben Fardd mor lwyddianus yn ei dwyn ymlaen, yn Nghlynnog; lle y bu yn hynod o ddyfal, yn dysgu plant, ac yn parotoi efrydwyr ieuaingc fel ymgeiswyr am y weinidogaeth.

Fel bardd (yn y mesurau caethion), yr oedd yn un o oreuon ein cenedl, ac er na wnaeth yr un cyfansoddiad maith, yr oedd yn amlwg i bawb a'i hadwaenai, ei fod yn berchen crebwyll a darfelydd tuhwnt i nemawr o feirdd Cymru. Yr oedd yn feirniad craffus a manwl, ac yr oedd yn wastad yn hynod o dyner wrth gyfansoddwyr ieuaingc. Fel pregethwr, yr oedd ei gynydd yn eglur i bawb. Yr oedd sylweddolrwydd, newydd-deb, a threfnusrwydd ei faterion, ynghyd ag amcan oruchel ei weinidogaeth, yn gosod argraff neillduol ar feddyliau ei wrandawyr.

Oddeutu blwyddyn cyn ei farwolaeth, cafodd ei flino gan ddiffyg treuliad, a bu yn nychu o dan yr afiechyd hwnw, nes y rhoes angau derfyn ar ei ofidiau, bore Nadolig, Rhag. 25ain, 1869.

Bu farw, a gwên ar ei enau, yn hynod o dawel, a digyffro.

Ychydig fisoedd cyn ei farwolaeth, yr oedd cyfeillion ac edmygwyr y bardd, wedi bod yn hynod o ffyddlawn yn casglu at wneuthur tysteb iddo, ond ehedodd ei yspryd anfarwol at Dduw, yr hwn a'i rhoes, cyn ei derbyn; a defnyddiwyd yr arian i godi côf-golofn ardderchog ar ei fedd. Mae y defnyddiau o "wythïen lâs Eryri," ac mae y cwbl o ran gwaith, yn gredyd mawr i'r gwneuthurwyr, ac yn addurn i hen fynwent Llanberis, sydd yn gorwedd yn nghesail mynydd, ac yn nghanol y golygfeydd mwyaf rhamantus a fedd ein gwlad. Gellir ei gweled ar y llaw dde, yn y fynedfa i'r eglwys, yn cael ei hamgylchu gan *rails* haiarn cedyrn a phrydferth. Yn gwynebu i'r llwybr, ar ran isaf y golofn, ceir y geiriau a ganlyn wedi eu cerfio:—

"Yma y gorwedd gweddillion
Y Parch. DAVID JONES (Dewi Arfon),
Bardd, Pregethwr, ac Ysgolfeistr,
Yr hwn a fu farw, Rhagfyr 25ain, 1869,
Yn 36 mlwydd oed.

O! ddiallu weddillion—ynoch chwi
Ni cheir Dewi Arfon:
Angel luniwr englynion
Fydd fyw'n hwy na'i feddfaen hon.

Cofio llais cyfaill Iesu—dreigla ias
Drwy eglwysi Cymru;
Gwylaidd fab i'r Arglwydd fu—
Rhaid oedd ei anrhydeddu.
*Tudno Jones.*

Fel hyn y chwenychai ei gyfeillion ei anrhydeddu."

**DEWI**, Mynwy, bardd a flodeuodd o tua 1170 hyd 1210, ond nid oes dim o'i weithiau ar gael.

**DEWI**, Sant, yr enwocaf o'r seintiau Cymreig, a flodeuodd yn y 6ed ganrif. Tua'r flwyddyn 1120, canoneiddiwyd ef gan y Pab Calixtus II.; a daeth wedi hyny i gael ei ystyried yn Sant Gwarcheidiol Cymru, a'r geninen, fel ei arwydd, i gael ei gwisgo ar ei ddydd gwyl, sef y 1af o Fawrth. Ymddengys i Dewi fel yr holl Seintiau Cymreig, ddyfod i fri yn ddisymwth yn yr unfed ganrif ar ddeg, a pharhau i redeg yn glodforus hyd ddiwedd y bymthegfed; canys yn y cyfnod yna, ysgrifenwyd cymaint a phedwar bywgraffiad iddo, a hyny gan brif ysgrifenwyr eu hoes. Y cyntaf a ysgrifenwyd gan Ricemarch, tua'r flwyddyn 1090, ac a gedwir yn yr Amgueddfa Brydeinig, dan yr arwydd Cott. MSS. Vesp. A. XIV. Yr 2il a ysgrifenwyd gan Giraldus Cambrensis, tua'r fl. 1200, ac a gyhoeddwyd yn *Wharton's Anglia Sacra;* Y 3ydd a ysgrifenwyd gan John Teignmouth, tua'r un adeg a Giraldus, ac a gyhoeddwyd yn *Capgrave's Collection;* a'r 4ydd a ysgrifenwyd gan Leland, yr hanesydd enwog, ac a gyhoeddwyd ganddo yn ei *Collectanea.* Y mae hefyd "Fuchedd Dewi Sant" yn yr iaith Gymraeg, yn cael ei chadw yn yr Amgueddfa Brydeinig; nodir hi Cott. MSS. Titus D. XXII.; ac y mae hon, a'r Fuchedd Ladin, gan Ricemarch, yn nghyda chyfieithiad o'r ddwy i'r Saesneg, wedi eu hargraffu yn awr yn y "*Lives of the Cambro-British Saints*" gan Gymdeithas y Llawysgrifau Cymreig, Llanymddyfri, 1853. Nid yw yr ysgrif Gymreig ond talfyriad o'r ysgrif Ladin, ac wedi ei darparu, yn ddiau, i gael ei darllen i'r cynulleidfaoedd Cymreig, ar Ddydd Gwyl Dewi. Nid oes dim yn "Muchedd Dewi" nad yw i'w gael mewn cyflawnder yn Mucheddau yr holl Seintiau Cymreig, ond yn unig ei fod ef yn cael ei osod allan yn archesgob holl Brydain, ac yn llawer helaethach ei ddoniau na'i holl frodyr, er gwrthladd heresi Morgan, a dwyn yn mlaen yr achos Cristionogol mewn rhwysg a mawredd dyladwy. Ond wrth ganfod Bucheddau y Seintiau Cymreig wedi eu cruglwytho a phob math o chwedlau gwylltion ac anhygoel, y mae *hanes y Bucheddau* hyn eu hunain yn dyfod yn bwnc gwir bwysig i'r hanesydd eglwysig, ac yn anhebgorol o gael ei ddeall yn lled drylwyr, cyn y gellir cael un syniad tebyg i gywir, am gyflwr Cristionogaeth yn Mrydain dros y chwe chanrif cyntaf. Y mae y ffaith bod yr holl Fucheddau a ddarganfyddwyd hyd yn hyn, wedi eu hysgrifenu yn ddiweddarach na'r 10 fed ganrif, a bod y cymeriadau a gofnodant, yn ddi eithriad, wedi oesi yn y 5ed a'r 6ed, i gael ei chadw mewn golwg drwy yr holl ymchwiliad; ac hefyd na ddylid rhoi ffordd i swyn geiriau, megys eglwys, esgob, archesgob, &c., ac edrych ar yr hen oesoedd syml boreuol, yn ngoleuni pomp a rhwysgfawredd y canol oesoedd. Nid oedd y dynion a elwir yn awr yn Seintiau, megys Dyfrig, Dewi, Padarn, Illtyd, Beuno, Cybi, Gwynllyw,

Digitized by Google

&c., ond athrawon crefyddol tlodion, yn cyfarfod a'u dysgyblion mewn llanerchi di nôd; ond o herwydd eu duwioldeb a'u diwydrwydd, hwy a adawsant ar eu hol goffadwriaeth ber-aroglus. Yna, tua dechreu y 12 fed ganrif, pan oedd pabyddiaeth wedi gorlifo dros y gwledydd; ysbrydiaeth *Chivalry* wedi meddianu Ewrob, ac yn hulio y byd a rhamantau o bob dysgrifiad, yn mha rai yr oedd y gwroniaid, yn berffaith rydd oddiwrth bob diffygion, wedi eu cynysgaeddu a galluoedd i ddarostwng y goruwchnaturiol, a chyflawni pob math o wrhydri gwyrthiol, y Normaniaid wedi goresgyn gorsedd Prydain, a'u hiliogaeth wedi ymdaenu dros yr holl ynys; daeth yn bwnc pwysig yn ngolwg Eglwys Rhufain, i agoshau y cysylltiad a fodolai rhyngddi a'r hen Eglwysi Prydeinig; a'r ffordd a gymerodd i wneyd hyny, oedd ymdrechu cymodi meddwl y Cymry, trwy ysgrifenu Bucheddau y Seintiau yr oeddynt hwy fel cenedl yn arfer eu hedmygu. Felly daeth Dyfrig, Dewi, Teilo, &c. &c., i gael eu gwisgo yn holl nwyfau rhwysgfawr Rhufain, ac yna eu cyflwynid i'w cydwladwyr, gan ddywedyd, "O Gymry, wele eich Seintiau Chwi."

Gyda golwg ar y defnyddiau o ba rai y cyfansoddwyd y Buchedau hyn, mae yr hyn a ddywed awdwr Buchedd Dewi am yr eiddo ef, yn debyg o fod i raddau yn wirionedd am yr oll, sef "ei fod wedi casglu y pethau a adrodda am Dewi, allan o luaws mawr a gafodd yn wasgaredig mewn hen ysgrifau yn ei wlad, ac yn benaf yn ei ddinas ei hun; a'i fod yntau yn y modd mwyaf cyfrwys, ac megys â genau y wenynen, wedi sugno y pethau hyn o'r ardd flodau, er gogoniant i'r tad, a lles i craill." Ysgrifenwyd y Bucheddau hyn, braidd i gyd yn y Lladin, am mai hi oedd iaith yr offeiriaid; ond talfyrwyd, a chyfieithwyd y rhan fwyaf o honynt i'r Gymraeg, er mwyn eu darllen yn yr eglwysi, ar ddyddiau gwyliau y gwahanol Seintiau; a byddai *Collect* yn perthyn i bob Buchedd neu *legend*, fel yr arferid ei galw, o ba rai mae y rhai sydd ar ddiwedd Bucheddau St. Dewi, a St. Curig, yn engraifftiau. Geilw *Cressy*[1] Gollect Dewi "yn eiddo eglwys hynafol *Sarum*," yr hwn a arferid ganddi yn flyneddol ar Ddydd Gwledd y Sant, ac a redai fel y canlyn, "O Dduw, yr hwn trwy dy angel a rag fynegaist enedigaeth dy gyffeswr bendigedig Sant Dewi, ddeng mlynedd ar hugain cyn iddo gael ei eni, caniata i ni, ni a attolygwn arnat, wrth glodfori ei goffadwriaeth, gael trwy ei eiriolaeth ef, gyrhaeddyd llawenydd tragwyddol."

Y mae yn amlwg gan hyny, nad yw Bucheddau y Saint o nemawr werth, ond yn unig fel dangoseg o pa mor lwyr yr oedd pabyddiaeth wedi cael meddiant o'n gwlad ni; gan mai eu holl amcan yw pentyru ar goffadwriaeth eu gwrthddrychau, gymaint o fri ag sydd yn ddichonadwy i ddychymyg gorwyllt ac hygoeledd pabyddol, ei gyflawni. Er engraifft o hyn, nyni a roddwn yma amlinellau Buchedd Dewi. Ei dad ydoedd Sandde ab Ceredig ab Cunedda; ac er mwyn rhoi digon o fri arno, olrheinir ef yn ol, i "Eurddoleu, fab Chwaer Mair, mam Iesu Grist." Ei fam ydoedd leian sanctaidd, o'r enw Non, merch Gynyr o Gaer Gawch; ac er mwyn rhoi digon o fri arno o'r ochr hon eto, dywedir bod Gynyr yn briod ag Anna, chwaer y brenin Arthur; ac felly yr oedd Dewi yn fab i nith i'r brenin. Gan na wnai y tro i ddyn mor enwog a Dewi ddyfod i'r byd fel marwolion cyffredin, gofalwyd am anfon angel i ragfynegi ei enedigaeth ef i'w dad, a Sant Patrick, ddeng mlynedd ar hugain cyn iddo ymddangos. Er mwyn amddiffyn diweirdeb y santes, cafodd Dewi ei genhedlu trwy drais, ac anfodd, a hyny mewn cae agored; ac er cysgodi ei noethni, daeth natur yn mlaen, a chododd fur o geryg o'i hamgylch ar yr amgylchiad. Dechreuodd Dewi wneyd gwyrthiau cyn ei eni, canys pan aeth Non i'r eglwys, i wrando Gildas Sant yn pregethu, tarawwyd y pregethwr a mudandod, ac ni's gallodd lefaru gair, nes gyru y lleian allan, o herwydd fod y mab oedd yn nghroth y lleian, ebe fe, yn fwy ei rad a'i urddas nag ef. Pan anwyd ef, yr oedd anian mewn cyffro drwyddi oll; ond yn nghanol tymestl o fellt, taranau, a gwlaw, yr oedd y fan lle y daeth ef i'r byd, yn berffaith sych, a'r haul yn tywynu arno. Tarddodd ffynon mewn lle sych, i gael dwfr i'w fedyddio, a chafodd y mynach dall, wyneb-clawr, ag oedd yn ei ddal wrth ei fedyddio, ei olwg, a meddyginiaeth i'w wyneb, trwy daenellu ei wyneb dair gwaith a'r dwfr, yn yr hwn y trochwyd corff y plentyn sanctaidd. Derbyniodd Dewi ei addysg yn Henllwyn; ac yno, gwelodd ei gyd-ddysgyblion golomen gylfin aur, yn chwareu o amgylch ei enau, ac yn ei ddysgu, gan ganu iddo emynau Duw. Bu wedi hyny o dan addysg athraw o'r enw Paulinus, dysgybl i Garmon Sant; adferodd ei olwg i'w athraw pan aethai hwnw yn ddall gan henaint. Wedi bod yno am lawer o flyneddoedd, anfonwyd ef gan angel at ei waith. Efe a adeiladodd ddeuddeg mynachdy, er gogoniant i Dduw. Adeiladodd eglwys yn ynys Afallon, a bendigodd ddwfr gwenwynllyd Caerbaddon, nes y bydd yn dwym hyd ddydd brawd. Wedi iddo adeiladu mynachdy yn Llanllieni, rhoi llygaid i Bebrawg brenin Ergyng, adeiladu eglwysi Rhaglan, a Llangyfelach, dychwelodd yn ol i Henllwyn, ac oddi yno, i Glyn Hodnant, lle y cyneuodd dan yn enw yr Arglwydd nes oedd ei oleuni i'w ganfod o'r Iwerddon, y parodd i ffynonau gwin a dwfr darddu allan o'r ddaear, y gorchfygodd efe hen ddewin cadarn o'r enw Boya, cymeriad corfforedig o Balaam a Saul, ac yr adeiladodd fynachdy enwog yn y lle. Yr oedd pawb, a phob peth ag oedd mewn rhyw gysylltiad a Dewi, yn medru gwneyd cyflawnder o wyrthiau. Yr oedd hyd yn nod ei geffyl, yn medru nofio o Dy Dewi i'r Iwerddon, a Sant Barri ar ei gefn. Ond nid oedd yr holl ogonianau hyn, ond rhag arweiniad i bethau mwy; anfonwyd ef, a Teilo, a Phadarn, gan angel, i Ierusalem, lle y penodwyd Dewi yn archesgob, ac y cafodd efe gan y Patriarch bedair rhodd, sef allor gysegredig, ar yr hon y bu corff yr Arglwydd yn gorwedd; cloch nodedig iawn, a ffon, a mantell;—oll yn gallu gwneyd digonedd o wyrthiau gogoneddus. Wedi iddo ddychwelyd, cynaliwyd Senedd Frefi, er gwrthladd heresi Morgan. Yr oedd yn bresenol 118 o esgobion, tyrfa ddirif o henaduriaid, abadiaid, breninoedd, tywysogion, lleygwyr, a menywod, nes oedd y dyrfa mor fawr, fel na allai neb bregethu iddynt, hyd yn nod pe llefarai trwy udgorn; ac nid oedd Dewi yn bresenol yn y gymanfa; ond wedi i un ac arall ymdrechu pregethu, ond methu gwneyd i'r bobl glywed, cododd Paulinus i fyny, a dywedodd, "Nad oedd *un*, yr hwn a wnaed gan y Patriarch yn esgob, ddim yn bresenol yn y gymanfa." Yna anfonwyd cenadau yn ddioed at Dewi, i'w wahodd i'r Cyfarfod, ond efe a wrthododd unwaith a dwywaith; eithr o'r diwedd anfonwyd ato Deiniol, esgob Bangor, a Dyfrig archesgob Caerlleon-ar-Wysg, ac efe a gyfododd, ac a aeth gyda hwynt.

[1] Church Hist. of Brit. b. x. ch. viii.



Digitized by Google

Ac ar y ffordd, efe a gyfododd ddyn ieuanc o'r enw Magnus, o feirw, ar lan afon Teifi, ac aeth ag ef gydag ef i'r gymanfa. Wedi myned yno, gwrthododd esgyn i ben y crugyn dillad ag oeddynt wedi ei godi yno fel areithfa, ond efe a orchymynodd i'r dyn ieuanc a godasai efe o farw, daenu napcyn ar y ddaear, mewn pant-le, ac yno safodd i areithio yn erbyn Morganiaeth; a thra yr oedd yn areithio, eisteddai colomen wen o'r nefoedd ar ei ysgwydd, a chododd y ddaear i fyny o dan ei draed ef, nes oedd yn sefyll ar ben *bryn* uchel; ac felly, wedi cael uchel-fanau y maes, efe a lwyr ddymchwelodd yr heresi, ae a gadarnhaodd y bobl yn y ffydd. Yna trwy gydsyniad cyffredinol, etholwyd Dewi yn archesgob, yn lle Dyfrig, ac ymneillduodd Dyfrig i Ynys Enlli; a symudwyd y pryd hwnw yr archesgobaeth o Gaerlleon-ar-Wysg, i Ddy Ddewi. Ac wedi iddo yn mhen blynyddau ar ol hyny, gynal cymanfa fawr arall, a elwir "Cymanfa y Fuddugoliaeth," i roi terfyn bythol ar heresi Morgan, a chadarnhau, trwy gydsyniad awdurdodau Rhufain, y rheolau a'r urddau eglwysig, ag oeddynt i lywodraethu holl eglwysi Prydain, y rhai a ysgrifenodd Dewi oll a'i law ei hun, daeth amser ei ymddatodiad i fyny, ac ar Galan Mawrth, cymerodd Iesu Grist a'i angelion, ef adref i'r wlad nefol. Dyna y defnyddiau sydd yn cyfansoddi "Buchedd Dewi Sant." Dywed Sieffre o Fynwy, iddo gael ei gladdu yn ei fynachdy ei hun yn Menyw, ar orchymyn Maelgwn Gwynedd; ac mai Cynog, esgob Llanbadarn, a'i dilynodd ef yn yr archesgobaeth. Y mae yn anhawdd gwybod faint o wirionedd a all fod yn gymysgedig a'r holl ffiloreg uchod; ond y mae amcan yr eglwys babaidd i'w ganfod yn amlwg trwy y cyfan; sef gwneyd dolen arall yn y gadwaen, i brofi dibyniad yr Eglwys Frutanaidd ar y Pab. Y ddolen gyntaf, ydyw y chwedl am Lles ab Coel yn derbyn y ffydd gan y Pab Eleutherius, yr ail ddolen, ydyw gwaith Morgan yn llygru y ffydd hono, y drydedd, ydyw anfoniad Garmon a Bleiddian yma i wrthladd yr heresi, ac urddo Dyfrig yn archesgob; y bedwaredd, ydyw Senedd Frefi, yn yr hon yr ymddiswyddodd Dyfrig, oblegyd ei henaint, ac yr etholwyd Dewi yn ei le ef; yr hwn trwy gydsyniad awdurdodau Rhufain, a dynodd allan erthyglau y ffydd, a'r trefniadau eglwysig, ag oedd i reoleiddio yr eglwysi Prydeinig o hyny allan; ond y rhai, fel y dywed *Cressy*, ysgwaetherwydd, sydd wedi myned ar goll. Mae yn wybodus na ddeil y gadwaen uchod wyntyll beirniadaeth. Er engraifft, pa bryd bynag y bu Garmon a Lupus yn Mrydain, yr oedd Garmon wedi marw yn 448. Dywed Llyfr Llandaf mai yn 612, y bu Dyfrig farw; ac â hyn y mae *Manby* a *Stephen* yn cyduno. Gwnaed Ty Ddewi yn archesgobaeth, yn ol *Goodwin*, yn 577; ond yn ol eraill, yn 609. Felly y mae yn canlyn, na's gellir bachu Dyfrig wrth Garmon, ac na allai Senedd Frefi fod wedi cael ei chynal yn 519, fel y dywed yr ysgrifenwyr pabaidd. A chyda llaw, nid yw Nennius, na Gildas, na Sieffre o Fynwy, na Llyfr Llandaf, yn crybwyll am Senedd Frefi o gwbl. Hefyd, y mae yn dra amheus, a fu archesgobaeth yn Nghymru erioed; o blegyd os oedd awdurdod archesgobawl yn Nghymru yn y 6ed ganrif, paham yr oedd yn rhaid i Awstin fyned drosodd i Arles i gael ei gysegru yn "Esgob y Saeson?" Os atebir bod yr Eglwys Brydeinig a'r EglwysBabaidd y pryd hwnw, yn ddau sefydliad gwahanol, dywedwn ninau bod Llyfr Llandaf (tud. 372) yn tystio bod St. Oudoceus, yr hwn meddir a olynodd Teilo yn esgobaeth Llandaf, wedi cael ei gysegru gan archesgob Caergaint; a chadarnheir hyny gan ddeiseb yr esgob Urban, at y Pab Calixtus II., yn Nghyngor Rheims, yn 1119; yr hon a ddywed, "fod esgob Llandaf wedi bod er y dyddiau boreuaf, hyny yw, o amser Eleutherius, ac ar ol dyfodiad Awstin, archesgob Caergaint, i Brydain, bob amser yn ddarostyngedig, ac yn ufudd i'r cyfryw archesgob.[1]

Yn llythyr Awstin at y Pab Gregory, yr hwn a ysgrifenodd efe ar ol cael ei wneuthur yn archesgob y Saeson, ac a gedwir yn Bede's Eccl. Hist. c. 27, yr ydym yn cael y cwestiwn canlynol o eiddo y mab ffyddlawn, yn nghydag atebiad y tad sanctaidd iddo: "*Cwestiwn y Seithfed.*—Pa fodd yr ydym i ymddwyn at esgobion Ffrainc a Phrydain?"—"*Atebiad Gregory.*—"Nid ydym yn rhoddi i chwi un awdurdod dros esgobion Ffrainc, o herwydd y mae esgob Arles wedi derbyn y *pall* yn yr hen amseroedd, gan fy rhagflaenoriaid, ac nid ydym i'w ymddifadu ef o'r awdurdod a dderbyniodd. . . . Ond am holl esgobion Prydain, yr ydym yn eu cyflwyno i'ch gofal chwi, fel y byddo yr annysgedig yn cael eu dysgu, y gwan yn cael eu nerthu trwy ddarbwylliad, a'r cyndyn yn cael eu cywiro trwy awdurdod."

Felly fe welir, mai yr un awdurdodau sydd yn cysegru Dyfrig, Dewi, a Theilo, yn archesgobion, ag sydd yn eu digysegru drachefn. Y mae wedi profi yn rhy anhawdd i ysgrifenwyr Pabaidd, er eu holl ddoniau, allu llunio hanes heb wrthddyweyd eu hunain yn fynych. Dywedir bod 40 o eglwysi, a 13 o gapeli, yn gysegredig i Dewi yn Neheudir Cymru, a Swydd Henffordd. Nid oes ond Mair a Mihangel yn fwy poblogaidd nag ef yn yr ystyr hono.

**DEWI**, Silin, ydoedd ffugenw barddonol Dafydd Richards, periglor Llansilin. Mab ydoedd i Thomas Richards, Darowain, a brawd i'r enwog Richard Richards o Gaerwys. Ganwyd ef yn 1783, cafodd ei addysg yn Ystrad Meirig, daeth i ficeriaeth Llansilin yn 1819, a bu farw Rhagfyr 1, 1826, yn 43 oed.—Pan sefydlwyd Cymdeithas Cymrodorion Powys, yn 1819, dewiswyd ef yn ysgrifenydd. Yr oedd yn gydfeirniad a Gwallter Mechain yn Eisteddfod Wrexham, yn 1820; ac yn un o golofnau yr Eisteddfodau o hyny hyd ddiwedd ei oes.

**DEWI WYN**, o *Eifion*, ydoedd un o brif feirdd y ganrif bresenol. Y mae ei fywgraphiad gan hyny, o ddyddordeb cyffredinol. Mab ydoedd Mr. David Owen, i Mr. Owen Dafydd, a Chatherine, ei ail wraig, yr hwn oedd dyddynwr medrus yn byw yn y Gaerwen, yn mhlwyf Llanystumdwy, yn Eifionydd, Sir Gaernarfon. Bu i'r rhieni hyn ddau o feibion; a Dafydd oedd yr henaf o'r ddau. Ganwyd ef yn y Gaerwen, yn y flwyddyn 1784, ac ymddengys oddiwrth Goflyfr y plwyf, iddo gael ei fedyddio yn Eglwys Llanystumdwy, ar y deunawfed dydd o Fehefin, yn y flwyddyn hono. Dywedir nad oedd dim yn nodedig o dalentog yn yr un o'i berthynasau, oddigerth ei Fam; a chyfododd, ef i enwogrwydd mawr, allan o ddi nodedd gwledig, megis ar ei ben ei hun. Ei frawd, ieuangach nag ef, ydoedd Mr. Owen Owens, a dreuliodd y rhan fwyaf o'i oes, fel masnachwr cyfrifol yn Mhwllheli; ac yr ydoedd yn ddyn pwyllog ac addfwyn o ran ei dymer, cywir a gonest yn ei fasnach, a pherchid ef fel y cyfryw gan bawb; a bu yn aelod cymeradwy gyda y Bedyddwyr dros amryw flyneddoedd. Cafodd gystudd trwm a

[1] Llyfr Llandaf, tud. 556.

Digitized by Google

hirfaith, yr hyn a ddioddefodd gydag yspryd ymostyngol, mewn amynedd a thawelwch, yr hwn a derfynodd yn ei farwolaeth yn y flwyddyn 1837. Nid oedd yr un o'r ddau frawd wedi ymbriodi â gwraig. Yn nyddiau ei faboed, bu Dewi mewn amryw fân ysgolion, yn ei ardal yn Llangybi, Llanarmon, Llanystumdwy, a Phenmorfa; a bu ar ol hyny yn Mangor Iscoed, yn Maelor, yn gorphen ei addysgiaeth. Yna dychwelodd adref, a threuliodd weddill ei oes yn y Gaerwen. Dywedir fod Dewi yn enwog fel amaethwr, ac yn hynod fel masnachwr yn Mhwllheli, mewn cydweithrediad a'i frawd Owen; ond y mae yn hysbys i bawb, mai mewn cysylltiad â barddoniaeth y daeth i sylw cyhoeddus yn y byd. Pan yr oedd efe yn fachgenyn, yr oedd y Parch. D. Ellis, yn berson Criciaeth; Sion Lleyn yn fardd yn ei aeddfedrwydd; Dafydd Ddu Eryri wedi cyrhaedd pinacl ei enwogrwydd; a'i gymydog a'i gyfaill Robert ab Gwilym Ddu, yn cyfodi yn gyflym i sylw, fel bardd gorchestol, ac wedi enill cadair y Gwyneddigion yn Ninbych, yn 1792. Yr oedd yma gyfarfyddiad o amgylchiadau, i enyn y ddawn oedd wedi cymeryd meddiant mor wresog o'i fynwes yntau. Yr oedd yspryd yr awen wedi dechreu dangos ei hunau ynddo yn fore iawn, canys tra yr ydoedd yn Mhenmorfa, heb fod eto dros ddeuddeng mlwydd oed, dygwyddodd i un Richard Morris achwyn arno wrth ei Athraw, ac yntau a wnaeth iddo yr Englyn digrif a ganlyn:—

"Dic Morus, fradus, di fri,—hen chwanen
Yn chwenych drygioni;
Y gwar cam a'r garrau ci,
Y grigwd; haeddai ei grogi."

Y mae cyfansoddiad yr englyn hwn yn dangos pertrwydd ei ddawn, bywiogrwydd ei ddychymyg, a'i wybodaeth am reolau cerdd dafod; ac yr oedd felly yn' rhag arwydd o'r hyn yr addawai yr herlod fod, mewn oedran o aeddfeddrwydd. Cyfansoddodd Englynion hiraeth am ei gartref, pan yr oedd yn Mangor yn yr ysgol. Pan yn un ar bymtheg oed, cyfansoddodd Gywydd o gryn ragoroldeb, ar Fawredd Iehofa, ac yr oedd dewisiad y fath destyn, yn dangos cryn feiddgarwch mewn un oedd eto mor ddi brofiad yn y gwaith. Yr oedd ei ymddygiad difrifol a myfyrgar yn yr ysgolion, yn enill sylw y cyhoedd, ac yn peri i'w gyd-ysgolheigion ieuaingc, feddwl am dano, fel un yn tra rhagori ar ei gyfoedion. Ystyrid ef gan y bechgyn, fel un tra gwrol a galluog i'w amddiffyn ei hun ar bob achlysur; ac ar yr un pryd, ni chanfyddid ynddo unrhyw duedd i ddiystyru neb arall. Yr oedd yn arddangos diwydrwydd a phenderfyniad neillduol wrth ddysgu ei wersi, a chan fod ei alluoedd meddylgar yn gryfach na'r eiddo y cyffredin o'i oed, yr oedd yn myned rhagddo yn brysur, ac nid hawdd oedd i'r rhai a'i hadwaenent yr adeg hono, beidio a mynwesu tyb uchel am ei gyrhaeddiadau, yn gystal ag am briodoldeb ei ymddygiadau yn gyffredinol, fel dyn ieuangc.

Yr ydym yn awr wedi ei ddilyn drwy dymhor mebyd ac ieuengctyd, hyd amser aeddfedrwydd oedran. Ni bu Dewi, er rhagored ei ddoniau, yn anffodus iawn mewn cystadleuon. Wedi ymsefydlu gyda ei rieni yn y Gaerwen, gan ddilyn gorchwylion Amaethyddol, aeth rhagddo yn barhaus, gan ymddifyru yn nghynnyrchion ei awen. Ymddengys oddiwrth rai llinellau yn ei Awdl ar Amaethyddiaeth, fod ganddo hoffder mawr yn y naill alwedigaeth a'r llall, ac mai hwy, y pryd hyny, oedd prif wrthddrychau ei ymlyniad, fel y dengys y dernyn canlynol;—

"Dygaf brif enwau digardd
*Amaethon* boddlon a *Bardd*,
Mynai *Awen*, am enyd,
Fy nghael i'w gafael i gyd,
Eithr mwy *rhwng y ddwy* ydd af
Hyd y bedd, a da byddaf."

Tu a'r adeg hon, daeth yn fwy adnabyddus fel bardd, a thynwyd cryn sylw at ei waith drwy y beirniadu a'r *adfeirniadu* a fu arno. Ei ymgais cyntaf at orchest mewn Eisteddfod, oedd awdl "Anfarwol Goffadwriaeth Goronwy Owain," testyn y Gwyneddigion am 1803. Gwaith Gytun Peris a gafodd y flaenoriaeth y tro hwn, a theimlodd Dewi raddau o siomedigaeth. Yn 1804, meddyliodd y Gwyneddigion am gynal eu Heisteddfod yn Harlech, ac wedi hyny yn Nghaernarfon, er na chynaliwyd mo honi yn y naill le na'r llall. Y testyn oedd, "Ynys Prydain, a'i hamddiffyniad rhag estron genedl." Daeth tri chyfansoddiad i law, dan y ffugenwau, Bardd Cwsg, Eifion Ieuangc, a Daned. Cân rydd oedd eiddo Bardd Cwsg, ac efe a farnwyd yn oreu, ac Eifion Ieuangc, sef Dewi, yn ail. Bu llawer o ddadleu yn mysg y Gwyneddigion ar yr achos. Huw Morys, nai Owain Myfyr, oedd y Bardd Cwsg, ond ni amlygodd ei enw priodol am flwyddyn, ac aeth yr Ariandlws i Dewi, yr hyn a wnelai y teimlad yn waeth, wedi amlygu y gyfrinach. Barnai rhai fod Dewi wedi cyfyngu ei sylwadau, ar y mwyaf, at genedl y Cymry, gan esgeuluso gorchestion rhai eraill. Ar ol hyn, bu dadl Farddonol rhwng Dewi â Gytun Peris, ar "Fonedd a chyneddfau yr Awen." Barnai Dewi, mai "dawn natur, a dysgeidiaeth ydyw Awen, a barnai Gytun ei bod yn rhodd neillduol, tebyg i ddawn prophwyd. Bernir fod y ddau yn rhedeg i eithafion, mewn brwdfrydedd dros eu golygiadau. Yn Medi 1811, cynaliwyd Eisteddfod Tremadog, a'r testyn oedd "Amaethyddiaeth." Dafydd Ddu Eryri oedd y beirniad. Daeth cryn nifer o Awdlau galluog i law, ac yn eu plith, yr eiddo Huws, Bodfari, Gwallter Mechain, &c., ond Dewi a fernid oreu. Tu a'r amser hwn y cyfansoddodd Farwnad y Parch. D. Jones, Llangan. Yn 1819, cynnaliodd y Gwyneddigion eu Heisteddfod yn Ninbych: "Elusengarwch" oedd testyn eu tlws, a'u cadair. Daeth pymtheg o Awdlau i law, er nad oedd yr un yn dal cymhariaeth a'r eiddo Dewi, eto i'r *Dryw*, sef y Parch. E. Huws, Bodfari, y barnwyd y llawryf. Parodd hyn gyffro a berw mawr yn mhlith y beirdd ac eraill, drwy yr holl wlad. Bernid mai oblegid cyfeiriadau duchanol at y Degwm, a rhai pethau eraill, y tynwyd yr eiddo Dewi i lawr. Addefa pawb sydd wedi darllen Awdl y Dryw, ei bod yn dda, ond nid yn agos mewn teilyngdod i'r llall. Ar ben Bardd Nantglyn y disgynodd y gerydd drymaf, o blegid yr amryfusedd hwn. Pa fodd bynag, effeithiodd y siomedigaeth mor ddwys ar deimladau Dewi, nes chwerwi ei yspryd i raddau pell iawn. Y mae nifer o ddarnau rhagorol eraill ar ei ol, megis "Cywydd Anerch Sion William Prisiart, Plas y brain," "Awdl Cyfarch y Gweithwyr," Goroian y Bardd ar "Ymweliad Sior IV. âg Ynys Mon," "Englynion ar Bont Menai," "Awdl yr Adebau," "Cywydd yr Iwan," a nifer eraill, yn drysorau gwerthfawr iawn. Y mae hefyd nifer o ddarnau byrion, o dlysni anarferol, y gellid cyfeirio atynt, megis "Cywydd Elen," "Dym-

Digitized by Google

unoldeb Gwraig Rinweddol," "Twr Ardalydd Mon," "Cywydd y Farf," "Englynion Buonaparte," "Cywydd y Cawr Gwan," "Englynion y Morglawdd," ac amryw eraill, rhy luosog i'w henwi.

Er mai Barddoniaeth oedd ei brif dalent, a thestyn penaf ei fyfyrdod, eto hoffai gelfyddydau, a gwyddonau eraill yn fawr. Ymddengys fod ganddo gryn sylw o Rifyddiaeth; hoffai ymddiddan am ei hamrywiol ganghenau, a'i rhyfeddol briodoleddau; ac yr oedd yn alluog i werthfawrogi ei defnyddioldeb ymarferol, yn ei chymhwysiad at amrywiol oruchwylion y byd. Y mae y llinellau canlynol o'i waith, yn ddigonol er profi hyn:—

"Ei doniau ni chred annoeth,
Di ball, uwch deall y doeth;
Hi a gyrhaedd â'i gwrhyd,
Uchder, ehangder, a hyd.

Tu a'r flwyddyn 1815 ymgymerodd ag astudio egwyddorion Peroriaeth, ac ymddengys, nid yn unig iddo gyrhaedd gwybodaeth o'r gelfyddyd mewn amser byr, ond ei fod yn gallu mwynhau ei rhagoriaethau. Cyfansoddai yr Englyn hwn, pan yr oedd ar ymweliad a'r Parch. Vaughan Lloyd, yn Lleyn, wrth wrando boneddiges yn chwareu ar y Berdoneg:—

"Da gwrando dy gywreindeb,—yn Ngwalia,
Angyles cysondeb;
Ni fydd hir y nefoedd heb
Dy ganau a'th deg wyneb."

Wedi treulio rhan fawr o'i oes yn y Gaerwen, fel Amaethydd llwyddiannus, aeth i fyw at ei frawd i Bwllheli, tua'r flwyddyn 1827. Ni bu ond ychydig o amaethwyr y wlad mor llwyddianus âg ef i gasglu cyfoeth. Ar ei fynediad i Bwllheli, ni roddodd y tyddyn i fynu, eithr parhaodd i'w ddal; ac arferai fyned yno yn fynych ar ei dro: ac yn y flwyddyn 1837, sef wedi marwolaeth ei frawd, dychwelodd yno i aros yn sefydlog. Yr achos o'i symudiad ef a'i fam i Bwllhelli, oedd afiechyd ei frawd, a thebygol iawn i'w deimladau gofidus yn ysdod y blyneddoedd hyn, gael effaith dra niweidiol ar ansawdd ei feddwl, a'i iechyd.

Y mae yn naturiol bellach i'r ieuaingc, na's gwelsant ef erioed, gael rhyw ddarluniad o hono, yn ei berson, a'i gymeriad; fel y gallont ffurfio rhyw ddychymyg, pa fath un ydoedd, o ran yr ystyriaethau hyn, yn gystal ag fel adgofion i'r rhai a'i hadwaenent; ac ni wyddom am yr un ffordd fwy effeithiol tu ag at gyrhaedd yr amcan hwn, na rhoddi ger bron, ddau neu dri o adroddiadau am dano, ar wahanol amgylchiadau, gyda gwahanol gyfeillion. Yr oedd ei enw, fel y crybwyllwyd, yn gyhoeddus iawn fel bardd, drwy Gymru oll. Yr oedd yn dra chyfeillgar a chroesawgar at feirdd ieuaingc, fel y prawf yr hanesyn canlynol. Dechreuwn gyd ag ychydig o adgofion am dano, yn ngwahanol agweddau ei dymher, ei bertrwydd barddonol parod, a'i gynghorion caredig; fel y caffer mantais i gymeryd golygiad arno, o wahanol gyfeiriadau. Ymdrechir gwneud hyn gyda llaw ysgafn, gan gofio fod amryw bethau yn yr hanes, na byddai o un buddioldeb eu hadrodd. Ar yr ugeinfed dydd o Hydref, 1836, y mae dau gyfaill ar ymdaith yn Mhwllheli, ac yn penderfynu ymweled â Dewi Wyn; y maent yn troi i mewn i'w fasnachdy, lle y cyd drafnidiai â'i frawd, Mr. Owen Owens. Y maent yn canfod Dewi yn sefyll o fewn, gyferbyn a'r drws. Y maent yn ei gyfarch, ac yntau yn eu cyfarch hwythau yn ol. "Nid ydym ni am fyned a nemawr o'ch amser, Mr. Owen," meddynt wrtho, "ond gwnaethom mor eofn a galw i'ch gweled." Felly, nid wyf yn eich adnabod. "O Fôn yr ydym ni yn dyfod." "O, yn wir, yr wyf yn awr yn dychymygu pwy ydych, canys clywais eich bod yn y dref: deuwch i mewn y ffordd yma, y mae yn dda genyf eich gweled, a chael ychydig o ymddiddau â chwi—Ai nid ydych chwi yn perthyn i'r teulu a'r teulu—A adwaenoch chwi hwn a hwn, a'r llall a'r llall?" &c. "Adwaenwn; yr ydym yn dal perthynas linachol â hwy." Felly, gwelaf wrth hyny, ein bod ninau ein tri yn berthynasau, heb fod yn mhell iawn, a'u gilydd. Gwedi hyn, teimlid yn lled gartrefol o bob ochr. O ran ei berson, ceid ef yn ddyn o'r maintioli canolig, yn wledig ei ymddangosiad, ac yn gryf o gorpholaeth, ac o'r braidd yn tueddu at gefngrymu. Yr oedd ei wynebpryd yn darawiadol; o'i wefusau i lawr, nid oedd dim yn ddengar, ond oddiyno i fynu, yr oedd yn dreiddgar, graffus, feddyl-ddwys, ac eto yn siriol. Yr oedd ei lygaid yn dremgar, ei wallt yn grych, ei bryd yn oleu, a'i barabl yn ffraeth, weithiau yn ymylu ar y chwarëus; yr oedd ei ddysbwylledd i'w ddarllen ar ei wedd. Rhoddai awryw gynghorion iddynt, fel beirdd ieuaingc, "peidiwch a chymeryd barddoniaeth fel eich prif nod, ond yn hytrach fel hamddenaeth; rhag i hynny niweidio eich amgylchiadau, a'ch iechyd, drwy golli cwsg, &c. Os gelwir chwi i feirniadu, gwnewch ddeddfau caethach i chwi eich hunain, nac i neb arall. Nid oes berygl i chwi arfer dysgyblaeth ry lem ar eich awen eich hunain, ond gallwch ymddangos yn rhodresgar, wrth fod yn rhy barod i bigo brychau yn ngwaith eraill. Yr ydych yn ysgrifenu ar y mesurau caethion: y mae gwybodaeth ac ymarferiad yn dwyn dyn i feistrolaeth arnynt, fel na theimlir dim o'u caethiwed dychymygol." Ar hyny, gwelent ef yn cymeryd llen o bapyr gwyn i'w law, ac yn tynu ato yr ysgrifell a'r inc, ac yn cofnodi y llinellau tlysion a ganlyn.—

"Beirdd Mon yn bur ddamweiniol,—i'm daethent
Yn gymdeithion boddiawl,
I'm gwyn fyd, mae genyf hawl
Mewn dau ddyn mwyn dyddanawl.

Gweddus i'm ddatguddio serch
Er lloni gwyr y Llanerch,
Da llanwoch a'ch dillynion
Lanerchmedd, holl lenyrch Mon,
A chynhyddoch yn haeddawl,
Llanerchmedd llenwir a'ch mawl!"

Y mae yr ysgrif ger ein bron yn awr; rhydd yr hanesyn, yr agoriad i ni at amryw o'i gynneddfau, sef ei duedd gyfeillgar, ei nawdd magwriaethol, ei awenydd parod, a'i gynghorion rhyddfrydig i ddysgyblion ieuainc. Y mae yr amgylchiad canlynol hefyd, a gofnodwyd gan Eben Fardd, yn allwedd a egyr ystafelloedd pellach yn ei gymeriad hynod. "Medi 8, 1838—Diwrnod hyfryd, cymerais yn fy mhen fyned i ymweled â Dewi Wyn, o Glynog fawr hyd i'r Gaerwen; cyfeiriais trwy "*Lwyn Ne*," heibio i *Frysgyni*, ar hyd y ffordd trwy lechwedd y *Bwlch mawr;* heibio i *Fron yr Erw*, i lawr at *Hengwm* a'r *Monachdy*, nes cyrhaedd *Bryn Engan;* yma yr oedd adgofion fyrdd,

"Yn gnwd tew eginhad daear,"

Digitized by Google

yn cyfodi i'm meddwl, oddiar hen gysylltiadau gynt, na byddai eu crybwyll yma, o nemawr briodoldeb. Prysurais i lawr o'r fan yma, ar hyd llwybr digon adnabyddus i mi gynt, nes cyrhaedd Ffordd Newydd *Maughan*, yr hon nis gwelswn erioed o'r blaen; ymddangosai fel swyn, trwy rin y cyfnewidiad a wnai yn yr olygfa, yn nghyd a'r effaith ar y teimlad. Rhyw barth noethlwm ac anhygyrch oedd yr ardal o amgylch y *Gaerwen* yn flaenorol; ond yn awr, ymddangosai braidd fel Dyffryn *Llanystumdwy*, yn diroedd ffrwythlawn, addurnedig â ffyrdd, a choed; ymylid y ffordd hon gan irwydd prydferth a deiliog, a'i gwnelai yn rhodfa eang, ysgafn, a phleserus. Yr oedd yn amlwg erbyn hyn, fod rhag ddysgwyliadau y Bardd Gwyn yn "Awdl y Gweithiwr," wedi eu sylweddoli, lle y dywed—

"Creu a wnewch i'n *Caerwen* ni,
Gysgod rhag dyrnod oerni;
Cysgodion lle cwsg adar,
Ty'r edn gwyllt a'r eidion gwar;—
Pyncio pob edn yn llednais,
Ryw bwyslais arab oslef,—
Gwaed y Bardd, fe gwyd i'w ben
Cyffriant caiff yr awen,—
Gwinllanoedd o gynlluniau,—Gardd *Eden*,
Ar dir y *Gaerwen* o'r derw gorau,—
A da'r cof wedi'r cyfan
*Maughan* am goed, minnau am gân."

Yn ymyl y *Gaerwen*, croesais glawdd, neu ffos y ffordd newydd, a'r hyd pont bren, i droi at y ty; curais yn y drws, ac yn ddioed dyma Dewi Wyn ei hun yn agor y ddor; ac yn dechreu dal sylw craff arnaf; a chyda hyny yn estyn ei law i gydymgyfarch; yr oedd yn edrych yn hynod o groesawus, a llongyfarchai fi ar fy ymddangosiad personol, a'm golwg iachus. Dechreuodd, gyda fy mod yn ei ddilyn i'r ty, ddesgrifio ei ddioddefiadau; gydag iaith ddigon cref braidd, i ddarlunio poenau uffern. Dywedai fod ei ïau (*nerves*) fel yn orlawn o ager, neu bowdwr, ar ymdorri; ac er ei holl wendid, y gallai gynnyrchu nerth rhyfeddol ac anghyffredin; er prawf o hyn, dechreuodd fy ngwthio yn esgud a chyflym, a minau yn ei wrthsefyll, ar agwedd oddefol yn unig, heb wthio yn ei erbyn, nag ymaflyd ynddo; ond nid oedd y dull yma o'i wrthsefyll yn ei foddloni; archai i mi ymaflyd ynddo erbyn tu blaen ei *got*, ac ymaflai yntau ynof finnau yr un modd, fel pe buasem yn "maelyd codwm breichiau." Wedi trefnu ein hunain fel hyn, ymosodai i'm herbyn a'i holl rym, gan blanu er draed yn y llawr, a gwthio yn egniol; a minnau, wrth reswm, yn colli tir; er i'm tyb i, nad oedd ei fawr nerth ond dychymygol. Yna perai i mi ddal fy llaw ar y bwrdd, iddo ef osod ei ben arni; ac wedi pwyso ochr dde ei ben a'i holl nerth ar fy llaw, datganai ei syndod wrth ei bwysau dirfawr, gan ddywedyd y byddai weithiau mor drwm, braidd i ddryllio y gobenydd! Dywedai fod pob cysur wedi ei dywallt allan o hono, fel dwfr o "*bowlen*" a droid ar ei hwyneb. Mynych ddywedai "O! Arglwydd mawr," a chyffelyb ymadroddion ebychiadol. Yr oedd teimladau tyner, medd ef, wedi darfod; ni buasai yn cydymdeimlo dim â mi, pe gwelsai fi yn cael fy nhrywanu â chleddyf, er y gwnaethai ei oreu i fy amddiffyn ar yr un pryd. Archodd i'r forwyn wneud *Te* i mi, a chymhellai fi i aros yno "i fwrw y Sul." Ni chymerodd efe *de* gyda mi; dywedai mai ei arfer oedd bwyta yn nodedig o brysur, a chymerai damaid i ddangos i mi ei ddull. Ychydig iawn a eisteddai, yr oedd yn naill ai cerdded yn ol ac yn mlaen, neu yn sefyll yn ysdod fy arosiad; daeth i'm danfon gan belled a *Chefn Pencoed*, tyddyn cyfagos. Tra yn sefyll ychydig gydâg ef yn y fan hono, cyn ymadael, ac yn bwrw golwg ar y tirwedd amgylchol, sylwais mor ddedwydd y gallasai fod, yn porthi yr awen yn mynwes y coed-lenyrch difyr hyny, ond iddo ymddiosg o'i brudd-der, a'i anobaith—i'r hyn yr atebai, "Pe buasai y lle yn *Ardd Eden*, ac Adda ac Efa yn rhodiana ynddi fraich yn mraich, nad allai deimlo mo hono ei hun fynud yn hapus." Ar hyn, ysgydwasom law, ac ymadawsom." Y mae yr hanesyn hwn, yn dwyn i'n cof, am dro arall o ymgyfarfod, yn fuan wedi yr adeg y cyfeiriwyd ati, yn Mhen-y-groes, Llanllyfni, megis ar ddamwain; pan mewn cyfeillach gyda dau neu dri eraill, y cyfeiriai mewn ymadroddion cyffrous iawn at ei gystuddiau, a'i ddyoddefiadau, gan sylwi, pe buasai cymaint o ofid yn yr hen Wyddfa, ag oedd ynddo ef, y chwythesid hi yn llwch i'r awyr," &c. Yr oedd yn ymlynydd brwd-frydig drwy ei oes gydag enwad y Bedyddwyr, er na fedyddiwyd ef, yn ol eu trefn hwy, hyd tua thymor ei bruddglwyf, yr hyn ni symudai ei ofid ymaith, mwy na chynt. Ni liniarodd cyfranogi o Swper yr Arglwydd ychwaith, mo ei ofid angerddol. Yr oedd ei ymadrodd yn chwerw, a dywedai, "fel y mae dy ofn y mae dy ddigter;" ac yn ei ing a'i drallod, dywedai—

Arweiniais yn wr annuw
Fy holl daith dan felldith Duw.

Ond wedi dyfnder anfesurol ei ofid anobeithiol, mynwesir tybiaeth fod gwawr gobaith wedi tywynu ar ei feddwl cyn ei farwolaeth, pan yr anadlai y dymuniad tarawiadol hwn—

Agor ddrws trugaredd rad
I mi, Ddafydd amddifad!

Y mae y gwahanol gyfeiriadau hyn i dremio ar ei fywgraphiad, yn cyffroi cydymdeimlad dwys a'i drallodion yn mhob calon dyner. Bu farw yn y Gaerwen, Ionawr 17, 1841, yn 54 oed.

Fel rhydd ieithwr, nid oedd Dewi heb ei ragoriaethau godidog. Y mae ei Draethawd ar Gymedroldeb," yr hwn a ysgrifenodd yn 1836, yn dangos galluoedd eang iawn. Y mae yr "Araith Satanaidd" o'i eiddo, a gyhoeddwyd yn y "Seren Ogleddol," ar "Sefydliadau Eglwysig, a Degymau," yn dangos dawn, o nerth ac amgyffrediau anarferol. Ysgrifenodd luaws o draethodau i Seren Gomer, yn amser Harris. Y mae cyfeirio at ei holl weithiau, yn cynwys ei farddoniaeth, ei draethodau, a'i ohebiaethau, allan o derfynau yr erthygl hon. Y mae y gyfrol brydferth, gyda phortread o hono, a gyhoeddwyd yn cynwys cynnyrchion penaf ei oes, yn deilwng o grybwylliad am dani yma, ac yn werth i bob llenor Cymreig ei meddianu. Ond o'i holl gyfansoddiadau, dichon mai ei "Awdl ar Elusengarwch," a roddodd y cyhoeddusrwydd mwyaf i'w enw fel bardd, ac y mae yn debygol fod y dadleuon a ganlynodd gyhoeddiad y feirniadaeth, wedi ychwanegu llawer at y dyddordeb.

Mae un deyrnged yn ychwaneg o barch-gydnabyddiaeth i goffadwriaeth Dewi, yn ddyledus o'i chofnodi, sef y galar cyffredinol a amlygodd ei gyd-genedl, yn enwedig ei frodyr barddonol, yn ganlynol i'w ym-

Digitized by Google

adawiad, cynygiodd Mr. Edward Parry, Caerlleon, wobr am yr Hir a Thoddaid goreu, fel Bedd-argraph Dewi Wyn, yr hon a enillwyd gan Mr. John Williams, (Ioan Madog), yr hwn sydd fel y canlyn—

"Oh! ddaiar isel, prif fardd yr oesoedd;
Gyrhaeddai nwyfawl gerddi y nefoedd;
Sain ei gain odlau synai genedloedd;
Hir fydd llewyrch ei ryfedd alluoedd!
Oeswr a phen Seraph oedd,—pen campwr,
Ac Amherawdwr beirdd Cymru ydoedd!"

Yn y cyfamser, dyledus hefyd yw mynegi yn mhellach, ddarfod i Gymdeithas Gymreigyddol Llundain gynyg gwobr o Dri Gini, am y chwe Englyn goreu, mewn dull o Fedd-argraph ar Mr. David Owen, ac i Ddau a deugain ymgysdadlu. Y Beirniaid oeddynt Gwallter Mechain, a Daniel Ddu; a'r buddygol ydoedd Mr. Robert Owen, Llundain. Y mae yr Englynion wedi eu cyhoeddi yn y Bywgraphiad. Mynegir i Dewi wneud amryw elusenau haelionus tu a'r Nadolig 1840; rhai a ellir eu nodi, megis Deg Punt at brynu cig, ac ymenyn, i'w rhanu rhwng tlodion ei gymydogaeth. Yr oedd yn arfer cyfranu yn helaeth at bob gofynion yn "Nghapel y Beirdd," lle yr arferai addoli. Yn mysg ei Gymmun-roddion, ymddengys y rhai canlynol, 90*p.* at Gymdeithas y Biblau; 10*p.* at Gymdeithas Genhadol y Bedyddwyr, &c. Yr oedd yn dra gofalus wrth gyfranu at bob achos, heb ei ddangos ei hun, i wneud hyny yn ddirgelaidd, fel y dywedai yn ei Awdl, am Elusen—

Boed na wypo byd nepell
Ie, naill law, a wnel y llall!

**DEYTHUR**, cantref yn swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU, ar ei ffin Ogledd Ddwyreiniol, yn yml swydd Amwythig, ac yn cynwys dau blwyf, a rhanau o bedwar eraill. Mesura 8196 o gyfeiriau, a chynnwysa boblogaeth o 2933, yn ol Deiliadeb 1861, a 568 o dai.

**DIER**, neu DIHEUFYR, yr hwn, yn rhamant Gwenfrewi, a elwir Deiferus, ydoedd sant yn y 6ed ganrif. Mab ydoedd i Arwystli Gloff. Efe a sefydlodd eglwys Bodfari.

**DIFWG**, bardd Morgan Mwynfawr, brenin Morganwg, yn y 10fed ganrif.

**DIFFEDELL**, tywysog, a bardd, yn mysg Brythoniaid Deifyr, yn y 7fed ganrif, ydoedd fab i Disgyfeddawg. Cofnodir ef yn y *Trioedd*, fel awdwr un o'r "tair fadgyflafan," am iddo ladd Gwrgi Garwlwyd, yr hwn a ddysgodd fwyta dynion oddiwrth Edelffled, Sais.

**DIGAIN GORNEU**, mab Cystenyn Gorneu, ydoedd sant yn y 5ed ganrif. Efe a sefydlodd Llangernyw, yn Erging, a Llangernyw, swydd Dinbych.

**DIGNIF**, neu DIFWG, ab Alban, a gofnodir yn y *Trioedd*, fel un o'r tri "Llynges gyniwair."

**DINAN**, trefgordd yn mhlwyf LLANDRILLO, yn swydd FEIRIONYDD, GOGLEDD CYMRU, 4 milldir i'r De Orllewin o Gorwen. Rhoddir y boblogaeth gydag eiddo y plwyf.

**DINAS**, plwyf yn undeb plwyfol ABERTEIFI, cantref CEMMAES, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU, 5 milldir i'r Gogledd Ddwyrain wrth Ddwyrain o Abergwaen; gyda phoblogaeth o 820. Y mae yn gorwedd ar lân Môr St. George, ac y mae y briffordd o Abergwaen i Drefdraeth yn rhedeg drwyddo: nid yw ond plwyf bychan, 2328 erw, ac y mae'n bur debyg ei fod wedi derbyn ei enw oddiwrth y penmaen tarawiadol, a elwir Pen Dinas, yr hwn sydd yn ffurfio un ochr o Angorfa Abergwaen, parth tirol yr hwn oedd wedi ei amgaeru; ond nid oes nemawr o'r muriau yn sefyll. Rectoriaeth ryddhäol yw y fywioliaeth eglwysig, a threthir hi yn 8*p.* ar lyfr y frenines: ei gwerth presenol, 136*p.*; noddwr, Thomas Lloyd, Yswain. Y mae'r eglwys, yr hon sydd yn sefyll mewn man hynodol, ar y traeth, wedi cael ei chyssegru i Brynach Sant; ar y gorlanw y mae'r môr yn golchi muriau y fonwent; ond y mae rhai yn meddwl fod yr eglwys blwyfol mewn sefyllfan arall gynt, o herwydd fod yma le yn y gymmydogaeth a elwir "Bryn Henllan." Y mae a fyno y trigolion lawer iawn â morwriaeth, ac y mae yma forwyr cywrain a dysgedig yn cael eu magu. Nid yw y pentref yn un mawr iawn, ond amgylchynir ef gan lawer o dai gwasgaredig, ac y mae addoldai yma gan yr Independiaid, y Trefnyddion Calfinaidd, a'r Bedyddwyr. Y mae llawer o blant yn yr Ysgolion Sul, ac y mae yma ysgolion dyddiol hefyd. Y mae'r trethoedd blynyddol tua 250*p.*

**DINAS**, neu DINAS-Y-GLÔ, pentref yn mhlwyf YSTRAD-DYFODWG, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, o gylch yr hwn y mae lluaws o dai gwasgaredig, a gweithfeydd glô mawrion iawn, gan y Meistriaid Coffin a'i Gyf., poblogaeth yr hwn a roddir gyda'r plwyf. Gorwedda ar lân yr afonig Rhondda, rhwng hen dref Pontypridd, a thref newydd Treherbert, yn un o'r manau dymunolaf yn y dyffryn cul, ond prydferth. Ugain mlynedd yn ôl, y Ddinas oedd pen draw y dyffryn, o gyfeiriad Pontypridd, o ran yr un llun o ffyrdd, namyn dramffyrdd, ag oedd yn rhedeg iddo; ond yn awr y mae yma ffyrdd da, ac y mae cangen Cwm Rhondda o reilffordd Dyffryn Tâf, yn rhedeg drwy y lle. Gerllaw yma y goddiweddwyd Rhys ap Tewdwr, Tywysog Deheubarth, gan luoedd Iestyn ap Gwrgant, a'r Normaniaid, wedi brwydr Hirwaen Wrgant, neu frwydr y Mynydd Du, yn 1088. Wedi dâl ap Tewdwr, torwyd ei ben, ac efe yn mhell wedi 80 mlwydd oed. Y mae fferm dy o'r enw Pen Rhŷs, gerllaw y fan hyd heddyw. Gwel DAW. Yr oedd yma fonachlog gynt, ond nid oes dim gweddillion o honi, os nad yw Ffynnon Fair felly. Yr oedd yr abadau yn bur ddysgedig, a chynnaliwyd amryw eisteddfodau yma, dàn eu nodded. Y mae maen chwyf bychan ar y bryn ag sydd y tu ôl i'r pentref. Y mae capeli yma gan y Trefnyddion Calfinaidd, yr Independiaid, a'r Bedyddwyr; ac y mae yma Ysgol Brydeinig ragorol.

**DINAS BRAN**. Gwel LLANGOLLEN.

**DINAS MAWDDWY**, hen fwrdeisdref adfeiliedig, yn mhlwyf Mallwyd, swydd FEIRIONYDD, GOGLEDD CYMRU; mewn llanerch ramantus, ar gyfarfyddiad yr afon Ceris â'r Dofwy, ac ar derfyniad cangen o reilffordd, 10 milldir i'r Dwyrain wrth Ddehau, o Ddolgelleu. Y mae yma addoldy perthynol i'r Eglwys Sefydledig, a chapel gan y Trefnyddion Calfinaidd. Cynelir marchnadoedd bychain yma ar y Sadyrnau, a ffeiriau, ar y dydd Gwener o flaen Gwener y Groglith, Meh. 2, Awst 9, Medi 10, Hydref 22, a Thachwedd 13. Y mae yma ychydig o weithfeydd gwlaneni, a gweithydd mŵn, yn cael eu dwyn yn mlaen yn y gymmydogaeth.

Yr oedd Dinas Mawddwy yn lle llawer mwy pwysig yn yr oesoedd gynt, nag ydyw yn bresenol; a dywaid rhai, ei bod gynt yn ddinas ddiffynedig, a thrigle tywysog; y mae hi yn cadw ei rhagorfreintiau corfforiaethol eto, ac y mae yn ben arglwyddiaeth,

Digitized by Google

sydd yn cynwys holl blwyfi Mallwyd, a Llan y Mawddwy, (oddieithr trefgordd Caer Einion Fechan, yn y plwyf blaenaf,) dros yr hon hefyd y cyrhaedda awdurdod frawdwriaethol y gorfforaeth. Y mae y gorfforaeth yn gynwysedig o faer, cofiadur, a bwrdeisiaid: y maer, yr hwn gynt a etholid yn flynyddawl, a ddewisir yn bresenol bob tair blynedd yn unig: y mae efe yn hedd-ynad, ac yn meddu awdurdod i brofi troseddwyr, ond anfynych y gweinydda yn ol yr awdurdod hono, oddieithr mewn amgylchiadau ag y cyfrifir bod y cyffion, neu garchar y "Feg fawr" yn gosb ddigonol. Y cofiadur a arferai benderfynu pob cynghawsion perthynol i feddiannau, o werth deugain swllt, a than hyny; a chynal pentreflys, (*court leet,*) ddwy waith yn y flwyddyn, yn Mai, ac yn Nhachwedd. Ettifeddir y rhyddfreiniad trwy enedigaeth, gan feibion rhydd-freinwyr, ar farwolaeth eu tad. I'r corfforiaeth yn unig, y perthynai yr hawl i roddi trwyddedau i dafarnwyr, o fewn yr arglwyddiaeth; ac er eu bod wedi colli llawer o'u hen awdurdod, y maent yn cadw yr arwyddion yn ofalus, megys, y berllysg, y prawffesur, y cyffion, a'r feg fawr.

Cafodd y lle hwn air drwg yn nghofiannau y Cymry, am ei fod wedi dyfod, yn fuan wedi terfyniad "Rhyfel y Rhosynau," rhwng teuluoedd Caerefrog a Lancaster, yn gyrchle lluaws o ddrwgweithredwyr, a gwyr di gyfraith, oddiwrth y rhai yr hanodd llinach o yspeilwyr, oeddynt yn ddychryn i'r wlad; o ba rai yr oedd dwy haid, a elwid "Gwylliaid y Dugoed," a "Gwylliaid Cochion Mawddwy," y rhai a fuant dros amser, yn herio pob awdurdod gyfreithiol, ac yn cyflawni yr ysgelerderau mwyaf beiddgar, nes peri eu harswyd ar holl drigolion tangnefeddus y wlad o amgylch, y rhai, yn hytrach na pheryglu eu bywyd, a'u meddiannau, trwy fyned ar hyd y ffyrdd rheolaidd i'r Amwythig, a manau eraill, a elent ar draws y mynyddoedd, ac a ddodent bladuriau yn simneiau eu tai, o ba rai yr oedd rhai yn aros, fel cof-arwyddion o'r cyfryw amseroedd blinion, hyd derfyn y ganrif ddiweddaf. Er rhoddi terfyn ar y cyfryw yspeiliadau a llofruddiaethau, rhoddwyd awdurdod i John Wynn ab Meredydd, o Wydir, Ysw.; a Lewis Owen o'r Llwyn, ger Dolgelleu, Ysw., Rhag-Gyllidydd, ac un o Arglwyddi y Gyllidfa, Gogledd Cymru, y rhai yn rhinwedd yr awdurdodiad yma, a gyfodasant fyddin o wŷr grymus, ac ar brydnhawn Nadolig, a gymerasant tua phedwar ugain o'r dyhirwyr yn garcharorion, ar achos y rhai y cynhaliwyd prawf-lys, gan eu dyfarnu i gosbedigaethau yn ol eu camweddau. Yn mysg y rhai hyn, yr ydoedd dau wr ieuanc, mam y rhai a attolygai gyd a'r taerni mwyaf, a'r i'r barnwr Owen, arbed un o honynt; ond, pan ei gomeddwyd o hyny, hi a regai y barnwr mewn cynddaredd ddïalgar, gan dyngu y parai i'r gweddill o'i phlant ddïal arno hyd yr eithaf; ac fel yr oedd efe ar ei daith i frawdlys Trefaldwyn, yn y flwyddyn 1555, gosodwyd cynllwyn iddo yn ngwigfa "Dugoed Mawddwy," gan fintai o ddyhirwyr, y rhai a gwympasent brenau mawrion ar draws y ffordd, er attal y barwn a'i gymdeithion i fyned rhagddynt; ac wedi gollwng cawod o saethau, rhuthrasant ar eu hysglyfaeth, yr hwn a lofruddiasant yn y fan, gan adael ei gorph ar y ffordd, ac uwchlaw deg ar hugain o archollion ynddo; ac o'r braidd y gallodd mab yn nghyfraith y Barwn, ddianc rhag cael y cyffelyb driniaeth.

Gelwir y llanerch lle y cyflawnwyd yr ysgelerwaith hwn, "Llidiard y Barwn," hyd heddyw. Y fath ymosodiad beiddgar a chreulawn, ar un o farnwyr y Brenin, a greodd gynwrf ofnadwy trwy y wlad; penderfynwyd cosbi y lleiddiaid, a diwreiddio y giwed yspeilgar o'r wlad. Ar y pryd, dïangodd cyflawnwyr y gyflafan erchyll, a cheisiasant loches yn Ngwanas, gyda châr iddynt, o'r enw Sion Rhydderch; ac mewn dâs wair, yr hon a wnelsid yn wâg oddi fewn, yr oedd eu cuddfan: ond, fe'u bradychwyd i'r awdurdodau, gan Sion Rhydderch, a bu ei enw yn adgas o'r herwydd am oesoedd, yn nghyffiniau Bwlch Oerddrws; ac y mae, "Mor ffalsed a Sion Rhydderch," yn ddïareb yn Mawddwy, hyd heddyw. Wedi eu dal, cafodd amryw o'r dyhirwyr hyn eu profi yn euog, a'u rhoddi i farwolaeth, a gorfodwyd y lleill i adael eu llochesau, fel yr adferwyd heddwch a dïogelwch trwy yr holl ardal.

Y mae Bwlch Oerddrws, i'r hwn y deuir trwy esgyn Rhiw serth, ar y ffordd o Ddinas Mawddwy i Ddolgelleu, yn lle hynod, am ei fod yn un o'r tri lle, yn y rhai y cyfarfyddai y dynion galluoccaf yn yr ardaloedd, i wneuthur cyfammod, yn yr hwn yr ymrwyment, i fynu gweini cyfiawnder diduedd am bob cam a wnaed cyn, ac wedi, rhyfel Owain Glyndyfrdwy, trwy yr hyn yr oedd pob un a amddifadasid o'i feddiannau, i gael eu hadferu iddo, heb gwyn cyfraith; a phenderfynwyd ar amryw reolau eraill, er adferu iawn lywodraethiad y wlad.

Y mae ysgrifenydd yn y Cambro-Briton,[1] yn dywedyd bod y *fam* y cyfeiriwyd ati uchod, pan y gwelodd na chaniattai y barnwr ei deisyfiad, trwy arbed bywyd ei mab, wedi dynoethi ei dwy-fron, gan ddywedyd, "Y mae y bronau hyn wedi meithrin y rhai a ddïalant fy mab, ac a olchant eu dwylaw yn ngwaed llofruddwyr eu câr." Ac y mae yr un awdwr yn ein hysbysu yn mhellach, bod y Gwylliaid, ar ol darfod iddynt ladd y Barwn, a myned tua chwarter milldir o'r lle, wedi cofio nad oeddynt wedi llwyr gyflawni bygythion eu mam, a dychwelyd yn ol, a thrywanu eu cleddyfau yn ei gorph, ac yna, olchi eu dwylaw yn llythyrenol yn ngwaed ei galon ef.

Dywedir hefyd, mai John Lloyd, o'r Ceiswyn, yn mhlwyf Tal y Llyn, ydoedd Câr y Barwn Owain, yr hwn yn nghyd ag amryw weinidogion, a'i canlynent ar y daith anffodus hon; a chan fod y dywededig John Lloyd, wedi bod yn garedig i un o'r Gwylliaid, lawer pryd cyn hyn, efe a arbedwyd, a dywedai un o honynt, pan yn lladd y Barwn, "Cerdd di i ffordd, Llwyd fain."

Dywedir fod y rhai cyntaf o'r Gwylliaid hyn, yn wŷr o gyfoeth, perchenogion, meddir, ar "bedwar ugain aelwyd," ac wedi eu ffyrnigo trwy ryw gamwri, neu orthrymder; ac yr oedd adfeilion eu prif balas yn weledig yn ddiweddar, ar ben uchaf y tyddyn, a elwir "Dugoed Mawr." Y rhai hyn wedi diddarbodi, a'u bwrw allan oddi tan nawdd cyfraith, a gynnullasant ddynion dibris a chythryblus, y gymmydogaeth o'u hamgylch, y rhai a ddaethant yn fflangell ar y wlad.

**DINAS POWIS**, pentref, a chantref yn swydd Forganwg, Deheudir Cymru. Y mae y pentref yn sefyll 4½ milldir i'r De Orllewin o Gaerdydd, ac yn meddu Llythyrfa dan Gaerdydd, a gweddillion castell, a adeiladwyd gan Iestyn ab Gwrgant. Y mae y cantref yn gorwedd o amgylch y pentref, ac yn cynwys saith ar hugain o blwyfi. Cynwysa

[1] Cambro-Briton, vol. i. pp. 184, 266.

Digitized by Google

40,601 o gyfeiriau o dir; a phoblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, o 7661; tai, 1434.

**DINBACH**, swydd arforol yn Ngogledd Cymru, yr hon a gyffinir ar y Gogledd gan swydd Fflint, y Môr Gwyddelig, a chyfran o swydd Gaernarfon; ar y De gan swydd Drefaldwyn, a swydd Feirionydd; ar y De-Ddwyrain gan swydd yr Amwythig; ar y Dwyrain gan gyfran o swydd Fflint; ac ar y Gogledd-Ddwyrain gan swydd Caerlleon-Gawr. Y mae yn ymestyn o 52° 48′ hyd 53° 18′, Lledred Gogleddol; ac o 2° 54′ hyd 3° 47′, Hydred Gorllewinol. Y mae'n mesur tua 387,600 o erwau, neu rhyw 606 o filldiroedd; ac y mae ei phoblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861 yn 100,778—nid oedd ond 83,167, yn 1831.

Y mae dadleu mawr yn mhlith henafiaethwyr, am ystyr yr enw hwn, ac y mae amryfal opiniynau o berthynas i'r pwnc. Cytunir ar bob llaw, fod "den" neu "din" yn gyfystyr â'r geiriau Sacsonaidd "don" neu "dun," sef *caer* neu *uchelfa*. Y sillaf olaf sydd yn ddyryslyd, ac y mae yn anhawdd gwneuthur dim o honi. Yn ol llais a llafar traddodiad, enw priodol rhyw anghenfil, neu fwystfil, oedd *Bigh* neu *Bych;* yr oedd y *Bych* anghenfilaidd hwn yn preswylio ar y clogwyni serth ac uchel, ag sydd ar y tu dwyreiniol i'r Castell; ac yn arswyd i'r holl gymydogaeth. Lladdwyd ef gan Syr John Salisbury, Lleweni—"Syr John y Bodiau," yr hwn a elwid felly, am fod ganddo ddau fawd ar bob llaw, ac ar bob troed, ac yr oedd yn rhyw Goliath o ddyn. Lladdodd rhywun y wiber ar gastell Emlyn, lladdodd "Guy of Warwick," y *Dun-cow*, a lladdodd Syr John y "Bych:" ac yn goffawdwriaeth am y gorchestwaith hwnw, rhoddes ar y ddinas yr enw oesol o "Dim Bych." Gwnaeth Syr John lawer o wrhydri heblaw hyn, sef lladd y llewes wèn fawr yn Nhŵr Llundain, gyda'i ddwrn noeth, ar un ergyd, am yr hon gamp gawraidd y galwyd ei ystâd yn Lleweni: bu hefyd yn ymgodymu â'r nertholfawr Edward Shôn Dafydd, adeiladydd enwog Pont-y-Ddôl, yr hwn a loriwyd ganddo. Cyfarfu Syr John âg Edward yn y Bull Inn, Dinbach, a chariodd ef mewn cadair freichiau fawr, ar ei ysgwyddau, yr hon fyth wedi hyny a elwid "Cadair Syr John y Bodiau," ac nid oedd neb fyth yn beiddio eistedd ynddi gyda'r arferiad llygredig o yfed, ond Edward Shôn Dafydd, ac ynteu. Mynegir llawer o bethau anhygoel ereill am Syr John, a phriodolir iddo amryw orchestion Hercwlfaidd. Cyn ei amser ef yr enw oedd *Dinbach*, ond fel y dywed traddodiad, galwyd ef *Dimbych*, ac yna *Dinbych*. Mewn hen groniclau ysgrifol, yr ydym yn cael *Dinbech* hefyd, megis:—

"Har*lech* a Din*bech* bob dôr."


Geir-darddwyr ereill a fynant mai *Din* a *buch* yw y gwreiddiau, tra y mae Mr. Aneurin Owen, mab y diweddar Ddoctor Owen Pugh, yn dywedyd mai *Din* a *bych* neu *pych* yw y gwreiddiau, ac fod *pych* yn golygu uchelfa, ond fod y gair yn awr yn anarferedig. Dyna fel y sillebid ef yn amser Llewelyn ap Gruffydd, ac y mae'r gair *bych* yn nghadw o hyd yn Bychtyn, swydd Fflint, Gogledd Cymru; yn Tinbych-y-pysgod, swydd Benfro, ac yn Penpych, Cwm Rhondda, swydd Forganwg, Deheudir Cymru. Myn ereill fod y gair *bych* gynt, yn golygu prydferth; os felly y mae yn eir-baentiad byw o'r lle, a'r lle sydd wedi rhoddi enw i'r sir. Meddylia ereill nad yw *bych* ond y rhif luosog am *bwch*—"castell y ceirw." Tybia rhai eto, fod yr enw yn tarddu o'r Ellmynaeg *Den*—"dyffryn," a *bigh, bighe*, neu *bige*—"cilfach," "bwa," neu "llecyn hanner-crwn," ac fod yr enw gwedi cael ei roddi i'r lle gan Syr John y Bodiau, yr hwn oedd foneddwr Ellmynaidd, ac yn disgyn o linach freninol yr Amherawdwr Charlemagne. Y mae'r gair *bach* yn golygu llecyn hanner-crwn, a chawn ef yn aml yn rhagddawd, megis Bach-y-gwyddyl, Bachymbyd, &c.; ac y mae lle o'r desgrifiad hwn yn yml Llandudno, swydd Gaernarfon, Gogledd Cymru, a elwir "Y Fach." Y mae'r amrywiol dybiau yma yn profi hynafiaeth yr enw.

Hen enw y lle oedd Caledfryn-yn-Rhôs, ac yr oedd yn perthyn i'r wlad a elwid Tegenia neu Tegeingyl, ac yn cael ei phoblogi gan y Gordofigion (*Ordovices*) yn amser y goresgyniad Rhufeinig. Yr oedd y Gordofigion yn llwyth galluog iawn, yn meddiannu Gwynedd i gyd, a rhanau o swydd Amwythig. O dàn yr awdurdod Rufeinig yr oedd swydd Dinbach yn ffurfio rhan o *Venedotia*, dybarth o dalaeth fawr *Britannia Secunda*, eithr nid oes yma ond ychydig o weddillion Rhufeinig yn aros. Nid oes sicrwydd fod yma yr un orsaf gan y genedl hono, ond yr oedd cangen o Heol Watling yn croesi ei pharthau gogleddol, o Bodfari (Baris) i Gaerhen (Conovium); yr oedd y ffordd a elwid *Via Devand* hefyd yn myned drwy ei pharthau dwyreiniol, yr hon ffordd oedd yn arwain o orsaf *Deva* yn Nghaerlleon-Gawr, tua Chastellnedd (Nidus), swydd Forganwg. Y mae yn bur debyg mai Suetonius Paulinus oedd y maeslywydd Rhufeinig cyntaf a osododd ei droed yn Sir Ddinbach. Danfonwyd ef drosodd gan yr Amherawdr Nero, yn y flwyddyn 58 o.c., ac ar ei ffordd i ddarostwng Môn, gwersylloedd efe a'i luoedd, gerllaw Llanelwy, ar làn yr afon Clwyd, mewn lle a elwir hyd heddyw "Bryn Paulin." Dywedir fod Julius Agricola wedi bod yma hefyd yn nheyrnasiad yr Amherawdwr Vespasian, o.c. 78, yr hwn a roddodd ei enw i'r Bwlch nodedig hwnw yn Mynyddoedd Iâl, sef "Bwlch Agricola." Y mae amryw arian bathol Rhufeinig wedi eu cael yn nghymydogaeth y Bwlch hwn, ond y mae Mr. Ffoulkes, yn groes i Mr. Pennant a mapiau y Llywodraeth, yn dywedyd nad yw Bwlch Agricola namyn llygriad o "Bwlch y Crug glâs."

Wedi y goresgyniad Rhufeinig, disgynodd y wlad yn etifeddiaethol i Elen, mam Cystenyn Fawr; ac oddiwrthi hithau i'w nai, Cunedda Wledig, brenin Brythoniaid Ystrad-Clwyd; ac oddiwrtho yntau yn llinachol, i Dafydd ap Gruffydd, arglwydd Dinbach, a Thywysog olaf Cymru. Gan fod y Sir mor agos i'r cyffiniau Sacsonaidd, bu yma aml i frwydr â'r genedl hono, ac â'u disgynyddion hefyd, am y rhai y rhoddir hanes o dàn y manau priodol. Yn amser Offa, brenin Sacsoniaid Mersia, y mae'r diriogaeth hon yn dyfod gyntaf i sylw hanesyddol pwysig, hwn a arweiniodd fyddin fawr yma, a orchfygodd y trigolion, ac a adeiladodd glawdd, o enau yr afon Dyfrdwy hyd lànau yr afon Wy, gweddillion yr hwn a adwaenir hyd heddyw, dàn yr enw "Clawdd Offa." Yr oedd rhanau mawrion o Sir Ddinbach, y tu fewn i'r clawdd hwn, ac yr oedd Offa wedi eu trefedigaethu â Sacsoniaid. Y mae clawdd arall, yn rhedeg agos yn gyfochrog a chlawdd Offa, i'r dwyrain o hono, a gelwir ef clawdd Wat; ond y mae ei adeiladydd yn anhysbys. Ni ddarfu i'r cloddiau hyn rwystro ymosodiadau y Cymry ar y Sacsoniaid, a'r Sacsoniaid hwythau, a adymosodent, gyda dinystr a difrod o bob tu. Yn y flwyddyn 818, o.c.; darfu i Egbert, brenin Wessecs, ymosod ar y wlad gyda byddin

Digitized by Google

Digitized by Google



Digitized by Google



Digitized by Google
J. Bartholomew, Edin.

Digitized by Google

fawr, gan ei hanrheithio mor bell a'r Eryri, a chymeryd meddiant o arglwyddiaeth Rhufoniog, yn sir Ddinbach.

Rhanodd Rhodri Fawr holl Gymru rhwng ei dri mab, Cadell, Anarawd, a Merfyn, yn y flwyddyn 877:—

"Tri-meib Rhodri Fawr mewn tremyn—eu caed,
Cadell, Anarawd, Merfyn;
Rhanodd ef yr hyn oedd un—
Rhoddiad holl Gymru rhyddyn."

Ceredigion a roddwyd i Cadell, Gwynedd a roddwyd i Anarawd, a Phowys i Merfyn; a "Thywysogion Taleithawg" y gelwid y tri hyn, am eu bod yn gwisgo taleithiau aur, fel arwydd o'u graddau breninol. Yr oedd Sir Ddinbach felly, yn feddiant i Anarawd; a chan fod gweddillion Brythoniaid Ystrad-clwyd, yn ngogledd Lloegr, yn cael eu blino yn dost gan y Daniaid, y Sacsoniaid, a'r Ysgotiaid, danfon a wnaethant at Anarawd, i ymofyn am noddfa yn ei dywysogaeth ef. Danfonodd ynteu yn ol attynt, gan y cenadon, i hysbysu fod y Saeson yn meddiannu tir o'i eiddo ef rhwng y Dyfrdwy a'r Gonwy; ond os gallasai Brythoniaid Ystrad-clwyd eu gyrn allan, buasent yn cael meddiannu y wlad; ac addawodd yn mhellach, y buasai ynteu yn rhoddi pob cynnorthwy iddynt i gyrhaedd yr amcan. Derbyniwyd y cynyg caredig gan ein brodyr gorthrymedig, ac o dàn lywyddiaeth blaenor galluog o'r enw Hobart, ennillasant y diriogaeth, a chyda lladdfa fawr, gyrasant y Saeson ar ffô, heb ond ychydig golled iddynt eu hunain. Wedi meddiant llonydd o'r wlad am beth amser, ymosododd Eadred, Iarll Mersia, ar yr Ystrad-clwydiad; ond daeth Amarawd yn gymhorth buan iddynt, a llwyr orchfygwyd yr Iarll a'i luoedd yn Cymryd, tua dwy filldir o Gonwy. Caniatäwyd i Frythoniaid Ystrad-clwyd, sefydlu talaeth fechan yn annibynol, yr hon oedd yn cynnwys parth o Sir Flint. Yr oedd y Rhufeiniaid yn galw rhyw barth yn y fan hon, Tegenia, y Saeson yn Englefield, a'r Cymru yn Degeingl; ond galwyd y dalaeth fechan, yn Strath-Clwyd, gan y Brythoniaid uchod; am ei fod ar làn y Clwyd, ac o'r un enw a'u lle blaenorol, fel y sylwa Camden, a Warrington. Parhaodd y deyrnas fechan hon, am tua chant o flyneddau; ond ar enciliad Dunwallon i Rufain, unwyd hi â theyrnas Gwynedd. Bernir mai y Dunwallon hwn, brenin olaf Ystrad-Clwyd, fu gyda Sifrethus ac Ithel, yn rhwyfo Edgar y brenin Sacsonaidd, ar hyd y Dyfrdwy i Gaerlleon Gawr, yn 965. Disgynyddion y dewrion uchod, yw pobl Dyffryn Clwyd, yn gystal a'r holl wlad o Gaerlleon i Gonwy; ond y mae ynddynt gymmysgedd o waed Sacsonaidd a Normanaidd.

Yn yr ymdrechion gwaedlyd a fu, o 982 hyd 984, rhwng meibion Hywel Dda, a meibion Idwal Foel, am benaduriaeth Cymru, bu llawer brwydr yn y Sir hon; rhoddir hanes am danynt yn eu manau priodol; megis brwydr Llanrwst, yn yr hon y trechwyd Idwal, yn nghyd â brwydrau ereill. Yn 1063 darfu i Harold, ail fab Iarll Goodwin; yr Harold yr ail, yr hwn a esgynodd i orsedd Lloegr yn 1066; ymosod ar Ddyffryn Clwyd, gyda byddin luosog, a chymerodd feddiant o hono, gyda'r morfeydd cymmydogaethol. Syrthiodd yn sydyn ar y Tywysog Gruffydd ap Llewelyn, yr hwn oedd ar y pryd yn cynnal ei lys yn nghastell Rhuddlan: cymmerodd y castell, a gosododd ar dân y llongau Cymreig oeddynt yn yr afon. Yn y cyfamser yr oedd Toston, brawd Harold, yn dyfod yn mlaen â'r gwŷr meirch; tra yr arweiniai Harold y gwŷr traed i fryniau Eryri: gofalai y meirch-filwyr am y Dyffryn a'r Rhôs. Disgynwyd ar y Cymru heb yn wybod iddynt, a gorthrechwyd hwynt gan Harold, yr hwn, er mwyn cynghanedd, a elwir "Harallt" gan amryw o'r hen feirdd. Gosododd Harold amryw golofnau i fynu yn gofnodion o'i fuddugoliaethau, ac yr oedd yn gerfiedig arnynt y geiriau yma:—"*Hic fuit victor Haroldus;*" ond nid yw yn ymddangos iddo gymeryd meddiant o ddim o'r tiroedd. Diangodd Gruffydd ap Llewelyn yn ddiogel o losgfa y llongau yn Rhuddlan, a'i long ef oedd yr unig long a ddiangodd. Tywysog dewr oedd Gruffydd, ac ennillodd amryw frwydrau ar Edward y Cyffeswr, ac Harold, megis brwydrau Pencadair, Llanbadarn, Rhydygorsar-Hafren, Abertywi, Pwll-Dyfach, &c. Er ei ddewrder a'i fuddugoliaethau, llofruddiwyd Gruffydd drwy frad a thwyllineb Madawc Min, Esgob Bangor, a dygwyd ei ben yn anrheg i Harold. Yna;

"O.C. 1062, gwedi lladd Gruffydd ap Llewelyn, fe ddoded Maredydd ap Owain ap Edwin yn Dywysawg Deheubarth, gan Harallt, ac Edward brenin y Saeson; a Bleiddyn ap Cynfyn, a Rhiwallawn ei frawd, hwy a ddoded yn Dywysogion Gwynedd, a Phowys." Mynwyd gwystlon ganddynt, modd bynag, am daliad y deyrnged, ac os byddai i ryw Gymro, yn ôl y cytundeb hwnw, fyned y tu dwyreiniol i Glawdd Offa, heb gael trwydded y Brenin, torid ei law ddehau ymaith.

Ymdrechfa fawr arall ag sydd wedi cyssegru llawer o lanerchau Sir Ddinbach, yw ymdrechfa y gwladgarol Owain Gwynedd a Harri II. Daeth Harri hyd yma yn ei gadgyrchiad cyntaf, yn ol cais ac anogaeth Madawc ap Maredydd, Tywysog Powys, a Thywysogion ereill, a haeddent eu crogi am eu gwarthus anwladgarwch. Yr oedd gan Harri lu mawr, a llynges gref. Cyn cyrhaedd o hono i Sir Ddinbach, cyfarfu Owain Gwynedd âg ef, gerllaw Caerlleon-Gawr. Rhanodd Harri ei fyddin fawr yn ddwy, ac ymosododd y ddwy ran ar Owain: cyfarfu meibion Owain, sef Cynan, a Dafydd, â'r rhan ag oedd dàn faeslywyddiaeth Harri ei hunan, yn nghoed Eulo, ac wedi ymladd gwrol o bob tu, gyrwyd y Saeson yn ol gyda lladdfa fawr, ac o'r braidd y gallesent ddianc i'r Maesdir, yr hwn yn awr a elwir *Saltney Marsh.* Wedi colli yn nghoed Eulo, ymosododd y brenin Harri ar Owain ei hunan yn y Cwnsyllt, neu Coleshill, yn agos i Fflint: gorchfygwyd ef yno drachefn, a chiliodd i'r Gadlys, amddiffynfa gyfagos; oddiyno aeth i Gastell Rhuddlan, yr hwn a gadarnhaodd yn fawr; a chan adael Sir Ddinbach mewn rhan yn y gwrthol, efe a wnaeth ymdrech i ddarostwng Mon; ond ni fynai y Monwysion hyn, ac nis gallent ei oddef, gan hyny ymladdwyd brwydr waedlyd Tal-y-Moelfre, yn yr hon y cochwyd y Menai gan waed, ac y gorchfygodd pobl Mon. Dychwelodd y llynges at y Brenin, a phan y canfyddodd efe nad oedd ei nerth unol a pharotöedig yn llwyddiannus, efe a ymheddychodd âg Owain. Y mae Matthew Paris, y croniclwr Seisnig, yn gwadu y buddugoliaethau yma o eiddo Owain, ac yn erbyn pob rheswm ac hanes, yn dywedyd mai Harri ennillodd. Y mae'n wir fod Owain wedi cael ei yru o'i wersyll yn Llaneurgain (*Northop*), Swydd Fflint, ac iddo gilio i sefyllfa gadarn; yr hon a elwir Cil-Owain, gerllaw dinas Llanelwy: wedi dy-

Digitized by Google

nesiad agosach Harri, ciliodd Owain drachefn i Fryn-y-Pin, sefyllfa gadarnach fyth, tua phum milldir i'r gorllewin o Lanelwy, o'r hwn le y cytunwyd ar amodau heddwch, fel y nodir uchod. Y mae Gwalchmai ap Meilir o Fon, yr hwn oedd yn byw yn y ddeuddegfed ganrif, wedi bytholi buddugoliaethau Owain, mewn awdl aruchel, a elwir "Arwyrain Owain Gwynedd." Y mae'r bardd Seisnig Gray, wedi sylfaenu ei gerdd "Triumphs of Owen," ar yr awdl uchod.

Yn mhen ychydig flyneddau wedi hyn, ail gododd Owain faner rhyddid, ac ymunodd holl Dywysogion Cymru âg ef; nid amgen, Rhys ap Gruffydd, o'r Deheubarth; Owain Cyfeiliog, o Bowys; yn nghyd âg is-dywysogion, megis Iorwerth Goch; meibion Madawg ap Maredydd; a meibion Madawg ap Idnerth, y rhai a ddaethant a'r holl wŷr rhwng Gwy ac Hafren. Fel yna yr ydym yn canfod y Cymru am unwaith yn un a chytun yn Nghorwen, ychydig i'r De o ffiniau Sir Ddinbach. Yr oedd Dafydd ap Owain ychydig cyn hyn, wedi anrheithio Saeson Fflint, ac wedi eu dwyn hwynt a'u meddiannau i Ddyffryn Clwyd, yr hyn a achosodd i Harri ddyfod mor bell a Rhuddlan, yn Swydd Fflint, gyda'r bwriad o'i gospi: ond aeth yn ol i Loegr, a dychwelodd drachefn gyda byddin fawr o'i filwyr dewisolaf. Daeth drwy Groesoswallt, Swydd yr Amwythig, i dir Powys; ac yn ei flaen i Sir Ddinbach, nes cyrhaedd glànau y Ceiriog, afon fechan yn rhan De-Ddwyreiniol y Sir. Gorchmynodd dori y coed i lawr, er mwyn gochel cynllwynfeydd, ond bu coed Aberceiriog yn llawn mor anffortunus iddo, a choed Eulo; llwyddodd modd bynag, i groesi yr afon Ceiriog, a symudodd o faes Crogen i fynydd y Berwyn, gan adael Dinbach yn rhydd unwaith yn rhagor. Tra yn croesi y Ceiriog, gollyngodd rhyw Gymro saeth at Harri, ac oni bai i Hubert de St. Clair, neidio rhyngddi a'r brenin, buasai wedi trywanu ei gorff ef, yn lle corff Hubert. Dilynwyd ef gan y Cymru yn ei enciliad, y rhai a ofalent nad oedd ei filwyr i gael gormod o ymborth, a gorfodwyd ef i ddychwelyd i Loegr, mewn sefyllfa druenus iawn. Yr oedd wedi colli llawer iawn o wŷr, ac nid ychydig o nwyddau rhyfel; ac yn ei gynddeiriogrwydd, tynodd allan lygaid y boneddigion oeddynt yn wystlon ganddo am heddwch Cymru; neu yn fwy priodol, am i Gymru gymeryd ei gormesu. Digon anmherffaith yw yr hanes a rydd Giraldus Cambrensis, a'n haneswyr ereill *ni*, am frwydr Crogen: ac am yr hen haneswyr Seisnig, y maent yn ddystaw i gyd oll, ond Matthew Westminster; a dyma ddywed ef:—"*Rex in Walliam expeditionem fecit,*" sef yw hyny:—"Gwnaeth y Brenin gadgyrchiad i Walia." Wedi y fuddugoliaeth gampus-fawr hon, nid hir y bu y Cymry cyn dychwelyd at eu hen waith, o ymladd â'u gilydd.

Bu Harri III. yn llawn mor elyniaethus i'r Cymru a'i dad y brenin John, yr hwn o hono yntau oedd yn ail fab i elyn arall—Harri II.; ond gwrthwynebwyd ef gan y Tywysog goreu fu yn llywodraethu Cymru erioed, sef Llewelyn ap Iorwerth, yr hwn oedd wedi priodi â Joan, merch o ordderch i'r brenin John, sef o Agatha ferch Iarll Derby. Bu farw Llewelyn, Ebrill 11eg, 1240, wedi teyrnasu gyda gwroldeb a llwyddiant nid ychydig, am 49 o flyneddoedd: claddwyd y gŵr mawr hwn yn monachlog Aberconwy, a Dafydd ei fab, o'i wraig gyntaf Joan, a deyrnasodd yn ei le. Nid cynt y bu i Dafydd roddi ei droed ar yr orsedd, nag y darfu iddo fyned i Gaerloyw at ei ewythr Harri III., i wneuthur gwriogaeth iddo, a chydnabod ei uwch-awdurdod lywodraethol. Yr oedd i Llewelyn ap Iorwerth, fab arall, o'r enw Gruffydd, o'i ail wraig, sef Tangwystl, merch Llywarch Goch, Arglwydd Rhôs a Rhufoniog; ac i'r Gruffydd hwn y perthynai cantrefi Dyffryn Clwyd, Rhos, Rhufoniog, a Thegengyl. Yn nghantref Rhos y safai castell cadarn Deganwy, bron ar lan yr afon Conwy: yn nghantref Rhufoniog, y safai castell a thref DINBACH: yn nghantref Tegengyl y safai castell Rhuddlan: ac yn nghantref Dyffryn Clwyd yr adeiladwyd tref, a Chastell Rhuthin. Modd bynag, yr oedd Gruffydd, drwy gymhorth Dafydd ei frawd, ac Esgob Bangor, yn nghyd a'i deulu, wedi cael ei garcharu yn Nhŵr Llundain, ac wrth geisio dianc drwy ffenestr, yn y flwyddyn 1244, syrthiodd i lawr yn farwol. Wedi hyn, aeth yn rhyfel rhwng Dafydd a'i ewythr breninol; ond bu farw Dafydd yn 1246, a chladdwyd ef gyda'i dad Llewelyn, yn monachlog Aberconwy. Gan nad oedd plant ar ol Dafydd, ceisiodd Roger Mortimer, Iarll Wigmore, mab Gwladus Ddu, yr hon oedd chwaer un fam i'r Tywysog Dafydd; feddiannu yr orsedd: ond ni fynai y Cymry mo Roger, a rhanwyd y Dywysogaeth rhwng meibion Gruffydd ap Llewelyn, sef Owain Goch, a Llewelyn, i'r rhai yr oedd brawd bychan o'r enw Dafydd. Hawliodd Harri eu gwriogaeth, yn 1247, a gwnaeth iddynt i roddi fynu am byth dref Dinbach, a chantrefi Dyffryn Clwyd, Rhos, Rhufoniog, a Thegengyl. Rhoddodd Harri hwynt i'w fab hynaf Edward, wedi hyny Edward I.; ac yn ddeiliad i Edward yr oedd Alan de la Zouch, un o'r Llydawiaid, am y rhent o 1100 marc. Yr oedd yr Alan hwn, a chyd swyddog cigyddol arall iddo, o'r enw Geoffry de Langley, yn gormesu yn dost ar Gymru Dyffryn Clwyd; ac y mae'n bur debyg mai'r ddau ormeswr yma oedd y cyntaf a drinodd achosion y Cymry mewn iaith estronol yn ein llysoedd cyfreithiol ni. Cynhyrfodd yr anghyfiawnder barbareiddiol hwn waed holl bobl ddewrion Dyffryn Clwyd, a holl Gymru gyda hwynt; a dechreuwyd y rhyfel mawr hwnw rhwng y Cymru, a Harri III. ac Edward I. Llywydd gwrol-fawr y Cymry, oedd Llewelyn ap Gruffydd, eu Tywysog cyfreithlawn, ac etifedd cyfiawn Dinbach, a'r pedair cantref rhag-enwedig. Ymladdodd gyda medr milwrol, a gwrhydri canmoladwy; ond bradychwyd ef yn Muallt, Swydd Frycheiniog, ac wedi ei ladd, gyrwyd ei ben yn anrheg i'r Brenin Edward, yr hwn oedd ar y pryd yn Nghastell Rhuddlan. (Gwel LLEWELYN AP GRUFFYDD.) Y mae Llewelyn yn cael ei alw yn wastadol, yn "Llewelyn ein Llyw olaf," ond camsyniad rhyw fardd cynghaneddol yw hyny, canys bu Dafydd ei frawd yn teyrnasu ar ei ol, ac efe oedd yr "olaf." Wedi marwolaeth ei frawd, galwodd Dafydd gynghor o bendefigion i gastell Dinbach, yn yr hwn y penderfynwyd dwyn y rhyfel yn mlaen yn erbyn Edward; ond yr oedd angeu Llewelyn wedi bod yn angeu hefyd i yspryd y genedl: ymdrech ofer fu ymdrech Dafydd; daliwyd ef gerllaw Aber, a thorwyd ymaith ei ben fel bradwr; a gosodwyd ef yn yml pen Llewelyn, ar Dŵr Llundain.

Wedi claddu annibyniaeth Cymru am byth yn meddau y ddau Dywysog uchod, syrthiodd parthau dwyreiniol Sir Ddinbach i feddiant Saeson, a hyny o dàn amgylchiadau neillduol iawn: Darfu i Emma, gweddw Gruffydd ap Madog, yr hwn a fu farw yn 1270, anghytuno a pherthynasau ei gŵr, o berthynas

Digitized by Google

i addysgiad ei meibion, neu, fel y tybia Mr. Pennant, ei hwyrion; ond cafodd feddiant o ddau o honynt, a rhoddes hwynt dan ofal a cheidwadaeth Edward I. Yr oedd un o honynt, sef Madog, yn feddiannol ar Maelor, ac Iâl; a gosododd Edward hwnw yn ngofal John, Iarll Warren: gosododd y llall, sef Llewelyn, yr hwn oedd yn feddiannol ar Gastell-y-Waen, a Nanheudwy, yn ngofal Roger Mortimer, trydydd mab Roger Mortimer, mab Ralph, Arglwydd Mortimer, o Wigtown. Cytunodd y ddau hyn i foddi y ddau fachgen yn y Dyfrdwy, yr hyn a wnaethpwyd, ac wedi cyflawni y llofruddiaethau yma, rhoddwyd ystâdoedd y bechgyn iddynt gan Edward, yn ol gweithred a arwyddwyd yn Rhuddlan, Hydref 27, 1281; oddieithr castell Hope, neu Gaergwrle, a'r tiroedd perthynol iddo, y rhai a gadwodd y brenin iddo ei hun. Parhäodd Iâl a Maelor yn meddiant y Warreniaid hyd y flwyddyn 1347, pan y daethant yn feddiant, drwy etifeddes, i'r Fitz-Alans, Ieirll Arundel, y rhai hefyd a brynasant Gastell-y-Waen, a Nantheudwy gan y Mortimeriaid: bu yr arglwyddiaethau unol yma yn meddiant y teulu am genedlaethau; aethant drwy ddifeddianiad o un teulu i'r llall, ac o'r diwedd yn eiddo i'r goron, i'r hon y maent yn perthyn hyd heddyw. Gwel tref DINBACH, a RHUTHIN.

Y mae Sir Ddinbach, yn esgobaeth Llanelwy, gyda'r eithriad o bedwar-ar-ddeg o blwyfi, y rhai sydd yn esgobaeth Bangor. Y mae y parthau ydynt yn yr esgobaeth flaenaf, yn gynnwysedig yn archddeoniaeth Llanelwy, a deoniaethau Rhos, Maelor, Iâl, a Marcia; y mae'r pedwar-ar-ddeg o blwyfi ydynt yn y ddeoniaeth olaf, dàn lywodraeth uniongyrchol Esgob Bangor, ac yn gwneuthur i fynu ddeoniaeth Dyffryn Clwyd: rhif y plwyfi yw deunaw-a-deugain, o ba rai y mae tri-ar-ugain yn rheithorau, a phumtheg-ar-ugain yn ficeriaethau. Y mae ugeiniau o gapeli yma gan y gwahanol enwadau, yn ol fel y gwelir wrth eu hamrywiol Ddydd-lyfrau. I amcanion gwlad-lywodraeth fe'i rhenir i chwech cantref, Maelor, Castell-y-Waen, Isaled, Is-dulas, Ruthin, ac Iâl. Cynnwysa farchnad-drefydd Dinbach, Ruthin, Gwrecsam, Llanrwst, a Llangollen. Enfyn ddau aelod i'r Senedd, y rhai gyda'r un dros y bwrdeisdrefi unol, a etholir yn Ninbach. Yr etholfanau yw Dinbach, Llangollen, Llanrwst, a Gwrecsam. Llywodraethir y Sir gan Arglwydd Raglaw, a thua deugain o ynadon. Perthyna i gylchdaith gyfreithiol Gogledd Cymru, a chynnelir y brawdlysoedd yn Rhuthin; cynnelir y llysoedd chwarterol ar yn ail, yn Rhuthin a Dinbach. Yn Rhuthin y mae carchar y Sir hefyd, ond y mae carchardy arall yn Ngwrecsam. Cynnelir Llysoedd y Man-ddyledion yn Ninbach, a threfydd ereill. Cynnwysa undeb plwyfol Rhuthin, a rhanau o undebau plwyfol Gwrecsam, Llanelwy, Llanrwst, Conwy, Corwen, a Llanfyllin.

Y mae arwyneb Sir Ddinbach yn ddigon anwastad, ac yn ei ffurf, y mae yn hynod o ddidrefn: y mae darn o honi ar ben ei hun y tu draw i'r parth deddwyreiniol, yr hwn sydd yn cynnwys darn o bentref Llanymynech, yr hwn sydd yn cael ei ffinio ar y gorllewin gan yr afon Tanat, ac ar y gorllewin gan y Fyrnwy; yr hon sydd yn ei gwahanu oddiwrth Swydd Drefaldwyn, ac ar y dwyrain a'r gogledd, gan Swydd yr Amwythig. Y mae ei harwynebedd, a'i golygfeydd, yn amrywio yn fawr iawn, ac y mae ei harweddau ysgythrog a mynyddig, yn cael eu tyneru i brydferthwch arluniol, gan gydgymmysgiad o ffrwythlondeb amrywiaethol. Y mae cantref Iâl yn y parth dwyreiniol o'r Sir, gan mwyaf yn fynyddig a noethlwm, a'i hunig gynnyrch agos yw grug: ffurfir y gantref hon gan resau mynyddau Clwyd ac Hiraethog, y rhai, gyda'u bryniau perthynol, sydd yn ffurfio y rhan fwyaf o'r diffeithdiroedd uchel, ag sydd yn cymmeryd i fynu gymaint o bob adran arall o'r Sir: y mae y rhês hon ar lun y llythyren U, a'i dwy ochr yn rhedeg yn gyf-linellol gyda'r naill y llall, gan amgau y prydferth Ddyffryn Clwyd. Y mae'r aden Glwydaidd, neu'r un ogledd-ddwyreiniol, yr hon sydd yn dyfod i mewn i'r Sir, o gymmydogaeth Ysgeifiog, Swydd Fflint, yn dangos gwythienau amrywiaethol o glai, a chalchfaen, yn ei rhediad heibio Iâl, Minera, bryniau y Fron deg, gweithfeydd Eglwyseg, chwareli llechau Oernant, a Chefn du, hyd Bryn-Eglwys, lle y mae yn gorphen y plyg ag sydd yn ei chyssylltu â rhês Hiraethog, neu y rhês dde-ddwyreiniol: y mae yr aden hon, yn cyrhaedd o Derwen, neu ychydig uwchlaw, ar gyffiniau deheuol y Sir, hyd yr Eglwys Fach, ar lân yr afon Conwy, ac ychydig uwchlaw Aberconwy;—dyma eithafoedd gogledd-orllewinol rhês Hiraethog, yr hon sydd yn agos i ddeg-ar-ugain o filldiroedd ei hyd, ac o bump i naw milldir ei lled. Y mae yn un o'r diffeithdiroedd grugosaidd mwyaf ëang yn Nghymru. Y mae yn mhlith y mynyddoedd yma, amryw lynoedd bychain, o'r rhai y rheda amryw ffrydiau gwylltion, a dolenog. Nid yw y bryniau ar y morlan yn cyrhaedd yn mhellach nag Abergele yn ddwyreiniol, ac oddiyno y mae'r wlad yn rhedeg i lawr yn raddol i wastadedd mawr Morfa Rhuddlan, yr hwn sydd yn ymgyrhaedd yn ddwyreiniol hyd Sir Fflint. Bu brwydr waedlyd ar Forfa Rhuddlan, yn 795, rhwng y Sacsoniaid, o dan Offa, Brenin Mercia; a'r Cymru, o dan Caradog, Brenin y Gogleddbarth. Lladdwyd Caradog, ac amryw o flodau ei fyddin. A llawer o'r Cymru ar a ddiangasent rhag cleddyf y gelyn, wedi ymladd o honynt gyda gwrhydri dihafal, a foddwyd yn llanw y môr; a'r oll ar a gymerwyd yn garcharorion a lofruddiwyd yn gigyddol a dianrhydeddus ar faes y gwaed. Dywed rhai haneswyr, fod Offa hefyd wedi cael ei ladd yn y frwydr hon, ond nid oes sicrwydd am hyny. Mewn coffadwriaeth am y dygwyddiad trychinebus hwn, y cyfansoddwyd yr hen alaw adnabyddus hono, "Morfa Rhuddlan;" yr hon, gyda phriodoldeb dyladwy, sydd enwog am bereidd-dra cwynfanus ei melodiaeth. Y mae'r Parch. Evan Evans (*Ieuan Glàn Geirionydd*), wedi cyfansoddi Cân doddedig iawn, ar fesur yr hen alaw, sef "Cyflafan Morfa Rhuddlan," yr hon sydd wedi cael ei chyfieithu i'r Seisneg hefyd. Dyma'r ail bennill o'r gân:—

"Trwy y gwŷll gwelaf ddull teryll y darian;
Clywaf si eirf heb ri' arni yn tincian.
O'r bŵau gwyllt mae'n gwau saethau gan suo;
A thrwst mawr nes mae'r llawr rhuddwawr yn siglo;
Ond uwch sain twrf y rhain, ac ochain y clwyfawg,
Fry hyd nef clywir cref ddolef Caradawg:—
Rhag gwneud brad ein hen wlad, trown eu cad weithian
Neu caed lloer ni yn oer ar Forfa Rhuddlan'."

Gogoniant Sir Ddinbach yw Dyffryn Clwyd, a Dyffryn arddunol i'r eithaf yw y Dyffryn toraethog hwn: y mae dros ugain milldir ei hyd, ac y mae o

bump i saith milldir ei led: y mae wedi ei foglynu â phlasdai, pentrefydd, trefydd, capeli, ac eglwysi: y mae ei ymddangosiad yn cael ei wneuthur fyth yn fwy prydferth, am ei fod yn cael ei amgau ar bob tu gan fynyddoedd, cribau llwydion ac anffrwythlawn pa rai, sydd yn ffurfio cyferbyniaeth harddwych â'r dolydd gwyrddion, a'r caeau brasdyfol, ag sydd yn llechu yn eu cysgodion. Y mae ymddangosiad gwag y morfeydd anial, yn cael ei ysgafnhau hefyd mewn amryw fanau, gan ddyffrynoedd bychain a chnydfawr, y rhai a ddyfrheir gan ffrydiau bywiog; ac un o'r penaf o honynt yw Dyffryn Iâl. Y rhan bwysicaf o'r Sir, mewn poblogaeth a chyfoeth, ydyw Maelor, neu Bromfield: gelwid hi gynt "Maelor Gymreig," er mwyn ei gwahaniaethu oddiwrth ddarn o Sir Fflint ag sydd yn gorwedd ar y tu arall i'r Dyfrdwy, a elwir "Maelor Seisnig." Y mae Castell-y-Waen, neu Chirk, yn ffurfio rhanbarth de-ddwyreiniol y Sir, ac y mae yn fryniog iawn: y ddau fryn uchelaf, yw Cadair Ferwyn, a'r Cefn uchaf, y rhai sydd yn ffurfio rhan o rês mynyddau y Berwyn; y maent yn rhedeg o bentref Castell-y-Waen mewn cyfeiriad de-orllewinol, i Swydd yr Amwythig, Swydd Drefaldwyn, a Swydd Feirionydd. Nid yw mynyddau Sir Ddinbach yn mhlith yr uchelaf yn Ngogledd Cymru: yn mhlith yr uchelaf o honynt, y mae Moel Famma, yr hon sydd un fil wyth gant a phump-a-deugain o drodfeddi uwchlaw llyfal y môr; y mae cofadail wedi chael ei chyfodi ar ben hon, er coffadwriaeth am Jubili teyrnasiad George III.; gellir ei gweled o bell ffordd mewn llawer cyfeiriad, ond nid oes neb yn gofalu am dani, ac y mae yn garnedd adfeiliedig er's rhai blyneddoedd bellach. Mynydd uchel arall yw Cyrn y Brain, yr hwn sydd yn un fil wyth gant a deunaw-a-deugain o droedfeddi uwchlaw llyfal y môr: Moel Fenlli, un fil saith gant a saith-a-thri-ugain o droedfeddi: Craig Eglwyseg, un fil chwe' chant ac wyth-a-phedwar-ugain o droedfeddi: Moel Arthur, un fil pedwar cant ac unarddeg-a-phedwar-ugain o droedfeddi: Pen y Cloddiau, un fil pedwar cant a deuddeg-a-deugain o droedfeddi: Moelfre Uchaf, un fil dau gant a phedwar-ar-ddeg-ar-ugain o droedfeddi: mynydd Llanelian, un fil un cant a deg o droedfeddi: Moelfre Isaf, un fil a dwy-ar-bumtheg-ar-ugain o droedfeddi.

Y mae awyr bryniau y Sir hon, yn oerllyd ac yn llym yn gyffredin; canys y mae hyd yn nod y gwyntoedd gorllewinol, drwy ystod y rhan fwyaf o'r flwyddyn, yn cael eu hyspeilio o'u tynerwch naturiol ar eu taith i'r Sir, gan uchelfeydd eiryog mynyddoedd Eryri; ac y mae bryniau uchelaf y wlad, yn hollol agored i'r dwyrain, a'r gogledd: y mae'r llymdra yma yn yr awyr, modd bynag, a sychdra y tir, yn gwneuthur preswylwyr y bryniau yn hynod o galed a grymus. Y mae awyr y dyffrynoedd, yn fwy llaith a thyner-fwyn; ond y mae Dyffryn Clwyd, fel ag y mae yn agor yn ogleddol i'r môr, yn cael ei ddynoethi yn hollol i ruthriadau chwäon y pwynt hwnw; ond yr ydys yn barnu fod hyny yn cyfranu at yr iachusrwydd, am ba un y mae mòr enwog: y mae'r trigolion yn hynodol am iachusrwydd eu cyfansoddiad, a'u hir-hoedledd. Fel yna y mae'r hinsawdd yn amrywio mewn gwahanol adranau.

Y mae y tir yn amrywio mewn ffrwythlondra, yn ol yr adran y byddo ynddi, a'i sefyllfa i dderbyn yr yspwrial a gludir o'r lleoedd uchelach. Y mae tir priddgleiog trwm, yr hwn sydd wedi ei gyfaddasu yn rhagorol at dyfu gwenith, &c., neu ynte i fod yn bawrdir parhaus, yn Nyffryn Clwyd, islaw Rhuthin; ar lân y môr yn nghymmydogaeth Abergele; ar lân y Conwy, gerllaw plâs Marl; ac i fyny tua Maenan a Threfriw; a llawer o'r tir ag sydd ar lanau y Fyrnwy. Y mae tir priddgleiog mwy ysgafn na'r uchod, yr hwn sydd yn wasanaethgar at amcanion amaethyddol cyffredin, i'w gael ar hyd yr holl ddyffrynoedd; ond yn mhen uchaf y dyffrynoedd, y mae y tir hytrach yn garegog, a thywodlyd, ac eto y mae yn cynnyrchu cnydau da o haidd, pŷs, maip, &c. Nis gellir tyfu ceirch ar bob rhan o fynyddau Hiraethog, ond y mae yma gystal mawn ag sydd yn y deyrnas. Glô ydyw tanwydd cyffredin y wlad, ond yn yr adranau ag sydd yn mhell oddiwrth lofeydd a rheilffyrdd, llosgir mawn. Gwenith, haidd, a cheirch, yw yd-gnydau cyffredin y Sir, ac y mae yma lawer iawn o honynt yn cael eu codi. Dechreuwyd codi maip yma, tua'r flwyddyn 1765. Y mae y cynnyrchion tyfiannol ereill, yn debyg i'r hyn ag ydynt yn mharthau ereill Cymru: ac yn ei hoffer llafurwaith, a'i dull o drin y tir, &c., y mae y Sir hon yn y dosparth cyntaf o Siroedd Cymru. Y mae ymenyn a chaws rhagorol yn cael eu gwneuthur yma; ac y mae llawer o honynt yn cael eu danfon i farchnadoedd Amwythig, Caerlleon, &c. Fel ag y mae ceffylau lleoedd ereill, wedi gwella yn fawr yn yr hanner canrif diweddaf yma, felly hefyd y mae rhai y Sir hon; ac y mae yma rywogaeth brodorol o ddefaid, gyda gwynebau duon, ac nid oes tecach gwlân ar unrhyw ddefaid yn y deyrnas hon: pan yn pori ar diroedd calchfaenaidd, y mae eu cig yn hynod o flasus. Sefydlwyd Cymdeithas Amaethyddol yma yn 1796, ac y mae yma Glwb Ffermwyr hefyd, yn perthyn i Ddyffryn Clwyd, yr hwn sydd yn cyfarfod yn fisol.

Y mae Gweithfeydd gwlân yn Glynceiriog: gwneir llawer o hosanau yn nghylchoedd Llanrwst: nyddir edafedd yn Llangollen, ac y mae yno Weithfeydd gwlân mawrion hefyd: gwneir esgidiau, a llawer iawn o fenyg, yn Ninbach: a gwneir papyr yn Nghastell-y-Waen: rhoddir hanes yr amrywiol Weithfeydd yma yn fanylach, o dàn enwau yr amrywiol fanau lle eu dygir hwynt yn mlaen.

Y mae daearegaeth y Sir hon yn ddyddorol iawn, ac y mae ei chynnyrchion mwnol yn amrywiol ac yn bwysig, yn gynnwysedig gan mwyaf o haiarn, glô, mŵn plwm, llechau, calchfaen, meini melinau, a cheryg nâdd rhagorol. Y mae rhês mynyddoedd y Berwyn, yn gyfansoddedig o holltfaen *(schistus)* cyntefig, hyny yw, y fath ag nad yw yn cynwys tân-feini haiarnaidd, nac unrhyw nodion na gweddillion o gyrff trefniadol: y mae sefyllfa yr haen ar yr un pryd, bron yn unionsyth. Y mae y rhan fwyaf o hono yn gorwedd yn llafnau tewion didrefn, wedi eu croesi mewn gwahanol fanau, gan wythienau o greig-greisial, ac y maent yn aml yn oleddu yn eu sefyllfa, yn mhell oddiwrth yr unionsyth: y mae sefyllfa yr haen yn fwyaf didrefn ar lethrau dwyreiniol Trûm-y-Sarn, ac ar ochr ddeheuol Dyffryn Llangollen. Ar gyffiniau Swydd Fflint, y mae'r bryniau Clwydaidd yn gynwysedig o deneufaen cleiog, yr hwn sydd yn cael ei ffinio ar y tir gogledd-ddwyreiniol gan galchfaen y swydd hono; ac ar y tir de-orllewinol gan y calchfaen ag sydd yn bargodi ar Ddyffryn Clwyd: o Foel Accre hyd lle mae y rhês Glwydaidd yn ymuno â mynyddoedd Hiraethog, yn nghŵr pellaf Dyffryn Clwyd, cyfarfyddir, â chalchfaen ac haen gleiog ar yn ail. Y mae rhês Hiraethog

Digitized by Google

yn gynwysedig o deneufaen, gyda chraig lwydwawr fynyddig, neu asphallt-faen haner caledog, yr hwn a ddefnyddir at lorio tai, at geryg beddau, &c.: y mae hwn yn cael ei ffinio ar y dwyrain gan galchfaen, ac ar y gorllewin gan heiniau culion o galchfaen llwyd, y rhai sydd yn rhedeg yn groes i gyfeiriad cadwyn y mynyddau. Y mae rhandir mawr calchfaenaidd Gogledd Cymru, yn cychwyn mewn clogwyn serth, tua naw can troedfedd ei uchder, yn Llanymynech, ac yna yn myned rhagddo yn ogleddol: y mae y bryniau a ffurfir ganddo yn gwneud i fyny ffiniau gorllewinol gwastadedd mawr yr Amwythig, a cheir ef yn olynol yn Mhorth-y-Waen, Coed Treflech, Sychdyn, Cyrn-y-Bwch, Bryn-y-Garth, a'r Fron: y mae yn cyrhaedd yr afon Dyfrdwy gerllaw y lle olaf, ac, wedi rhoddi tro i'r gogledd-orllewin, y mae yn cyrhaedd dros yn agos yr oll o Swydd Fflint, a rhan fawr o Swydd Dinbach. Gellir dilyn llinell dde-orllewinol y creigiau, o Trefor, heibio i greigiau ysgythrog Eglwyseg, uchelfeydd Iâl, o Lanelidan i Efenechtyd, Coed Marchan, Llanrhaiadr, Dinbach, Cefn Meiriadog, a Llanddulas, ac y mae yn terfynu yn mhen y Gogarth, y clogwyni ag sydd yn crogi uwchben y môr, yn Llandudno, yn Swydd Gaernarfon. Y mae'r linell fwyaf gogledd-ddwyreiniol yn pasio y glofeydd, a'r chwarelau ceryg nâdd, yn Rhiwabon, i Minera, ac yna y mae yn rhedeg yn gyfochrog â'r glofeydd, i Swydd Fflint. I'r dwyrain a'r gogledd-ddwyrain o'r llinellau calchfaenog yma, y rhai, mewn sefyllfa ddaearegol, sydd yn gorwedd ar y llechfaen, y mae gwythienau gwerthfawr o lô, yn gorphwys ar y galchfaen. Y mae'r wythien fwyaf, yn Brymbo, yn bumtheg troedfedd o drwch; yn mhellach i'r de, yn Rhiwabon, y mae yn naw; yn y Waen, (*Chirk*,) y mae yn saith; ac yn Llwyn-y-maen, a manau ereill gerllaw Croesoswallt, nid yw ond chwech: yn mhen eithaf deheuol y glofaes hwn, yn Alderbury, yn Swydd yr Amwythig, nid yw trwch y wythien yn fwy nâ dwy droedfedd. Y mae'r glô o amryw fathau; megis, glô rhwym, neu olosglo, glô caled, glo careg, &c. Y mae glo-byllau yn nghymmydogaeth Acerfair, Black Park, Cefnmawr, Gwrecsam, Minera, a Rhiwabon. Y mae mŵn haiarn i'w gael mewn cyssylltiad â'r glô, ac y mae digonedd gwerthfawr o hono yn Brymbo, lle y mae amryw ffwrneisiau i'w doddi: y mae gweithfeydd haiarn mawrion iawn hefyd yn yr Acerfair, Cefnmawr, a Rhôs-Llanerchrugog. Y mae'r mŵn plwm i'w gael, gan mwyaf, yn y calchfaen; ond mewn rhai manau, ceir ef mewn grutfaen, ac mewn manau ereill, mewn teneufaen du: y mae'r prif weithiau plwm yn Minera, gerllaw Gwrecsam; ac yn mhlwyf Llanferras, y rhai sydd wedi cael eu gweithio am hir gyfres o oesoedd: y mae creigiau calchaidd Coed Marchan, Llanferras, Llanarmon, a'r creigiau ar hyd y morlanoedd, yn cynwys mŵn plwm hefyd. Y mae tunelli lawer o gopr wedi cael eu codi o greigiau calch Llanymynech, ac y mae ynddynt gyflawnder o fŵn afryttel (*zinc*). Y mae'r calchfaen yn un rhagorol iawn, ac y mae llawer iawn o weithio arno. Y mae'r prif chwarelau llechau, yn mharth de-ddwyreiniol y Sir, sef yn Oernant, a Glyn ceiriog; ac ystyrir llechau y blaenaf yn fwy parhäol nag eiddo yr olaf. Y mae math o gallestr i'w gael yn Nhref-ar-clawdd, gerllaw Croesoswallt; ac ar fryniau Llechrydau, gerllaw Glynceiriog. Ar lànau y Dyfrdwy, rhwng Overton a Bangor, y mae cyflawnder o glai y crochenydd, ond nid oes defnydd yn cael ei wneuthur o hono. Y mae agate, jasper, a chalcedon, prydferth iawn, i'w cael yn y creigiau uwchlaw Llanrhaiadr yn Nghimmeirch.

Y mae rhedyn, banadl, ac eithin, yn tyfu ar lethrau y bryniau iselaf, yn nghyd â manwydd ereill, gyda pheth anghyffredin o gŷll, a drain gwynion. Y mae amryw berllanau ar gyffiniau dwyreiniol y Sir, a gwneir ychydig afalwy yma. Yn Nyffryn Clwyd y mae'r coedwigoedd helaethaf, ac yn mharthau dwyreiniol y Sir. Y mae y coed o gwmpas Erthig, neu Erddig, yn hynodol am eu ffacthder, a'r chwaeth a ddangosir yn eu planiad: dywedir mai dyma yr unig fan yn Ngogledd Cymru, lle clywwyd cân yr ëos, fel "chwibanogl aur uwchben gwlith." Rhai o'r coed mwyaf ffynianus yn Nyffryn Clwyd, ydyw derw, sycamwr, ŷn, elmwydd, a poplys. Mewn planu coed, mewn cauad i mewn diroedd annwylliedig, ac mewn sychu tiroedd gwlybion, y mae gorchestion wedi cael eu gwneuthur yma, oddiar 1800.

Y prif afonydd yw y Dyfrdwy, y Clwyd, a'r Conwy. Y mae'r Dyfrdwy yn rhedeg drwy Lyn Tegid, neu Lyn y Bala, yn swydd Feirionydd, ac yn dyfod i mewn i Swydd Ddinbach, ychydig islaw Corwen: yna y mae yn croesi parth de-ddwyreiniol y Swydd, o'r dwyrain i'r gorllewin, drwy ddyffryn prydferth a rhamantus Llangollen: pan yn cyrhaedd ochr ddwyreiniol Sir Ddinbach, y mae yn ffurfio ei chyffiniau, ac yn linell wahanol rhwng Cymru a Lloegr: ond y mae wedi hyny yn ffrydio i'r gogledd-ddwyrain, yn Holt, ac yn gadael y Sir hon. Y prif gangenau y mae y Dyfrdwy yn derbyn o Sir Ddinbach ydyw yr Alwen, yr hon sydd yn tarddu yn un o lynoedd parth gorllewinol y Sir; y Ceiriog, yr hon sydd yn ffrydio o fynyddoedd llechau Castell-y-Waen, ac sydd yn ymuno â hi islaw Bryncinallt; y Clywedog, yr hon a dderbynir ganddi o'r gorllewin, ychydig islaw Bangor, yn Swydd Fflint; a'r Alyn, yr hon sydd yn tarddu yn y mynyddoedd o gwmpas Llandegla, gan ymlifo yn ogleddol i Swydd Fflint, ac wedi cyfeiriad hynod o drofaus drwy y Swydd hono, y mae drachefn yn cyffwrdd â Swydd Ddinbach gerllaw Gresford, o'r hwn bentref y mae yn cyfeirio yn ddwyreiniol, gan ymuno a'r Dyfrdwy, ychydig islaw Holt. Y mae y Clwyd yn disgyn yn ogleddol o lyn bychan sydd yn mhlith y bryniau, ar gyffiniau deheuol y Sir, drwy y dyffryn ëang a thoracthog a elwir ar ei henw, ac y mae amryw ffrydiau yn ymarllwys iddi o'r mynyddoedd sydd o bob tu; wedi treiglo heibio tref Rhuthin, cyrhaedda gyffiniau Swydd Fflint, ychydig islaw pentref Llandyrnog, ac y mae yn rhedeg i'r Swydd hono yn nghymmydogaeth Bodffari; ei phrif gangen ydyw yr Aled, yr hon sydd yn tarddu gerllaw yr Alwen, ac yn ymuno â'r Clwyd ychydig islaw Llanelwy. Y mae y Conwy yn tarddu o lyn bychan o'r un enw, yn nghydiad Siroedd Dinbach, Meirionydd, a Chaernarfon, ac wedi crychneidio i'r gogledd, yn raiadrau gwylltion, y mae yn fuan iawn yn dyfod yn ffin rhwng siroedd Caernarfon a Dinbych: wedi gwneuthur ei hymddangosiad heibio i glogwyn coediog Gwydir, y mae yn crych-ffrydio i ddyffryn prydferth Nantconwy, ac, ychydig filldiroedd islaw pont brydferth Llanrwst, llifeiria i mewn drwy gyffiniau dwyreiniol Swydd Gaernarfon; ac, wedi cwrs o ychydig filldiroedd, y mae drachefn yn dyfod i ffinio rhwng y Swydd hono a swydd Ddinbach, a pharha felly hyd nes y mae islaw Llansantffraid, lle y mae yr ail waith yn rhedeg i mewn i Swydd Gaernarfon, yn afon lydan fawr: y mae y Gonwy yn fordwyadwy hyd Llanddoged, yn Swydd Ddinbach, lle y mae yn cyfarfod â'r môr-

Digitized by Google

lanw. Y mae ager-fâd bychan yn rhedeg i fyny i'r afon yn yr haf, o bont Conwy hyd Drefriw. Y mae parth de-ddwyreiniol y Sir yn cael ei ffinio gan y Rhaiadr a'r Tanat: y mae'r flaenaf yn rhedeg i'r olaf, a'r olaf yn rhedeg i'r Hafren. Y mae yr holl afonydd yma yn llawn ëogiaid, brithyllod, &c. Yr unig raiadrau hynodol ar yr afonydd yma, yw dau ar yr afon Aled, yn agos i'w tharddiad: a'r llall yw Pistyll-Rhaiadr, gerllaw Llanrhaiadr-yn-Mochnant. Y mae ffynnonau meddygol, o enwogrwydd henafol, yn mhlwyf St. George; wrth droed uchelfa a elwir Cadair Gwladus; gerllaw eglwys Llandegla; ac ychydig i'r gogledd-orllewin o eglwys Llanrhaiadr.

Y mae'r ddwy brif-ffordd sydd yn myned o Lundain i Gaergybi, yn myned drwy y Sir; sef y ffordd newydd drwy Birmingham a'r Amwythig: a'r hen un, drwy Gaerlleon-Gawr. Er ei bod yn wlad arforol, nid oes yr un porthladd yn perthyn iddi; ond yn yr amddifadrwydd yma, y mae camlas Ellesmere, ei gangenau lluosog, a'r amrywiol ddramffyrdd ag sydd yn arwain iddo o'r amrywiol weithfeydd, wedi bod o lesiant anmrhisiadwy i ddadblygiad adnoddau gwerthfawr y wlad. Y mae prif gangen y camlas hwn yn croesi y Dyfrdwy, gerllaw y Cefnmawr, ar hyd dyfr-bont ardderchog a elwir Pont-y-Cyssyllte: y mae bwäau y bont hon wedi cael eu gwneuthur o haiarn bwrw, a rhifant bedwar-ar-bumtheg; a gorphwysant ar bilerau destlus o geryg: y mae yn un fil a saith troedfedd ei hyd, ac yn un cant chwech-ar-ugain troedfedd ac wyth modfedd ei huchder. Dyfeisydd a gwneuthurwr y bont ryfeddol hon, oedd Mr. Telford, peiriannydd enwog Pont Menai: gosodwyd ei sail, Gorphenhaf 25ain, 1795, ac agorwyd hi i'r cyhoedd, Tachwedd 26ain, 1805: yr oedd dydd ei hagoriad yn ddydd rhwysgfawr iawn, ac aeth gorymdaith ardderchog drosti: yn y bâd cyntaf, yr oedd Iarll Bridgewater a'r Iarlles; Syr W. W. Wynn, Barwnig; Syr Foster Cunliffe, Barwnig; y Milwriad Kynaston Powell a'i foneddiges; gydag amryw foneddigion a boneddigesan ereill o'r gymmydogaeth. Y mae rheilffordd Caerlleon Gawr a'r Amwythig yn rhedeg drwy un cŵr o'r Sir, ac y mae ar hon bont geryg ardderchog, nid pell o bont y camlas. Y mae rheilffordd Caerlleon-Gawr a Chaergybi yn rhedeg drwy gŵr arall iddi: y mae cangen yn rhedeg allan o hon o'r Rhyl, drwy Ddyffryn Clwyd, i Gorwen: cangen arall yn rhedeg allan o *Landudno Junction*, i Lanrwst: y mae cangen arall yn cylymu Corwen a Rhiwabon: felly, y mae cyfleusderau teithiol a chludfäol Sir Ddinbach yn bur helaeth, ac yn agoryd iddi bob cyfeiriad o'r deyrnas.

Y mae ychydig olion Derwyddol yma, ond nid oes yma ddim gweddillion Rhufeinig, os nad gwaith y genedl hono ydyw'r lefel fwnol ag sydd yn tyllu y bryn calchfaen yn Llanymynech, yr hon yn awr a elwir "Yr Ogof:" y mae arian bathol Rhufeinig, ac amryw henafiaethau wedi eu cael yma, gydag amryw ysgerbydau dynol. Y mae ar un o lethrau y bryn hwn, amgaer aruthrol o geryg rhyddion, o gylch yr hon y mae ffôs ddofn; ac o'r tu allan i hono drachefn, y mae dwy ffos arall, wedi eu naddu allan o'r graig gyda llafur nid ychydig. Y mae amryw garneddau yn mhlwyf Llanarmon, y rhai sydd wedi cael eu gwneuthur o bridd a cheryg; ac yn y rhai yr ydys wedi cael darnau o esgyrn, a gwrnau yn cynwys lludw. Y gofgolofn hynaf yn y Sir, o ddyddiad adnabyddus, ydyw "Colofn Eliseg," yr hon sydd wedi cael ei chyfodi er coffadwriaeth am dywysog Cymreig o'r enw hwnw, yr hwn a laddwyd gan ei ŵyr, Concenn, mewn brwydr â'r Sacsoniaid, gerllaw Caerlleon-Gawr, yn 607: y mae y golofn henafol hon yn sefyll tua dwy filldir o Langollen. Y mae olion Clawdd Offa, i'w gweled yn amlwg drwy yn agos i'r oll o'r Sir hon: y mae yn dyfod i mewn iddi, o barth gogledd-orllewinol Swydd yr Amwythig, pan yn croesi yr afon Ceiriog i'r Glyn; oddiyno y mae yn myned yn mlaen, heibio i Gastell-y-Waen, yn croesi y Dyfrdwy a ffordd Rhiwabon, ac yn ffurfio rhan o ffordd Gwrecsam, can belled a'r Pentre bychan: oddiyno â heibio Plâs Power, Adwy'r Clawdd, a Brymbo, yn groes i'r afonig Cegidog, ac ar ochr ddeheuol Bryn Yorcyn, a'i gyfeiriad ar y cyntaf yn ogleddol, ac yna i'r gogledd orllewin, lle y rheda i Swydd Fflint: ar lan y Ceiriog, gerllaw Castell-y-Waen, y mae bwlch mawr ynddo, yr hwn a elwir hyd heddyw yn Adwy'r Beddau, lle y tybir y claddwyd y Saeson a syrthiasant yn mrwydr Crogen. Y mae ffôs Clawdd Offa, ar ei hyd, ar yr ochr orllewinol iddo, neu yr ochr Gymreig, ac y mae amryw dwmpathau ar hyd-ddo, y rhai ydynt weddillion amddiffynfeydd bychain. Y mae Clawdd Wat i'r dwyrain o Glawdd Offa; y mae yn ogymaint, ond nid yw yn ogyhyd: canfyddir ef gyntaf i'r de o Maesbury, gerllaw Croesoswallt, ac oddiyno gellir ei ddilyn yn groes i barth dwyreiniol y Swydd hon hyd enau y Dyfrdwy: y mae yn croesi y Ceiriog, yn y fan lle y mae yr afon hono yn aberu yn y Dyfrdwy, rhwng Bryncinallt a Phenylan; yna y mae yn myned drwy Barc Wynnstay, ac heibio Pentre'r Clawdd, i Erddig, lle y mae olion amddiffynfa gadarn: oddiyno y mae yn pasio uwchlaw Gwrecsam, gerllaw Melin Puleston, heibio y Dolydd, Maesgwyn, Rhôsddu, Gwersyllt, yn groes i'r afon Alyn, a thrwy drefgordd Llai, i Dreuddin, yn Swydd Fflint. Y mae yn hynod fod haneswyr boreuol yn gadael y Clawdd hwn yn ddisylw, neu ynte yn ei gymeryd yn gamsyniol am Glawdd Offa. Y mae Thomas Churchyard, y bardd, modd bynag, yn eithriad i'r haneswyr uchod: y mae efe yn sylwi ar y ddau Glawdd, ac yn dywedyd mai amcan y ddau oedd cael lle canol i drafnidio, a hyny ar dir rhydd,—heb fod yn perthyn i Gymro, Daniad, na Saxon. Meddylddrych digon barddonol ydyw yr un yna, gan nad faint o wirionedd sydd ynddo: ond nid oes eisiau lle canol bellach:—

"Ciliodd effaith Clawdd Offa."

Y mae amryw olion o hen gaerfeydd Brythonaidd: cawn Gopa'r Wylfa, neu Gaer Dinhengroen, ar un o'r bryniau calchaidd i'r dwyrain o Abergele, yr hon oedd amddiffynfa gadarn iawn: cawn un arall a elwir Caerddin, neu Garthen, ar fryn uchel, tua dau can' llathen o bellder oddiwrth Glawdd Offa, gerllaw Rhiwabon: a chawn y drydedd ar ben pellaf bryn, goruwch Dyffryn Gresford, mewn maes a elwir y Rofts. Y mae yn Llansantsior, neu St. George, yr hwn hefyd a elwir Cegidog, ar ben bryn a elwir Penyparc, olion hen wersyll o eiddo Owain Gwynedd, yr hwn a feddiannid ganddo wedi ei enciliad o Gil Owain, pan yn rhyfela â Harri II., Brenin Lloegr.

Nid oes ond ychydig o weddillion monachaidd yn y Sir hon: yr oedd monachdy yn nhref Dinbach; coleg offeiriadol yn Rhuthin; a monachlog yn Llanegwest, gerllaw Llangollen, yr hon a sefydlwyd yn 1200 gan Madog ap Gruffydd Maelor: gelwir y fonachlog hon yn "De Valle Crucis," ac y mae ei gweddillion yn ddyddorol, ac yn rhamantus iawn. Y mae'r gweddillion castellog yn ddyddorol hefyd,

Digitized by Google



Drawn by W. Simpson from a Photo. by Bedford. Engraved by R. Anderson.

DENBIGH.

FROM THE STONE QUARRIES.

BLACKIE & SON, LONDON, GLASGOW & EDINBURGH.

Digitized by Google

Digitized by Google

ond nid ydynt yn llawer: castell Dinas Brân, gerllaw Llangollen; castell Dinbach; castell Holt; a chastell Rhuthin. Y mae Castell-y-Waen yn un hen iawn; ond nid yw efe wedi cael ei adael i ddadfeilio: preswylfod y Biddulphiaid ydyw, i fam y cyntaf o ba rai y dyfarnwyd ef, fel un o gydetifeddesau teulu Myddleton, gan y Cangell-lys yn niwedd y ganrif ddiweddaf. Gerllaw pentref Llanarmon, y mae mynyddyn gwneuthuredig hynod o fawr, yr hwn a elwir Tomen y Faerdre, ac y mae olion sylfaeni caerfa ysgwâr arni. Y prif blasdai ydyw Acton Hall, Bathafarn Park, Bryncinallt, Dyffryn Aled, Erddig, Eyarth, Galltfaenan, Glan y wern, Gresford Lodge, Gwersyllt, Kinmel, Llanbedr Hall, Llanerch, Llangedwin, Llys Meirchion, Pen y lan, Penbedw, Plâs Heaton, Plâs Power, Pool Park, Ruthin Castle, Trevallyn, a Wynnstay. Y mae Ieirll, Arglwyddi, Barwnigion, a boneddwyr ereill yn preswylio y plasau uchod, ac yn yr olaf, preswylia Syr Watkin Williams Wynn, Barwnig, un o'r aelodau seneddol dros y Sir. Llosgodd Wynnstay i'r llawr er ys ychydig flyneddau yn ol, yr hyn a grëodd gydymdeimlad dwfn â Syr Watkin, canys yr oedd Wynnstay yn dywysogol o ardderchog, a'i gynwysiad uwchlaw pris. Y mae'r plâs presenol yn llawn mòr ardderchog a'r llall; ond y mae'r ysgrifau Cymreig gwerthfawr, y llyfrau y darluniau, &c., wedi eu colli am fyth.

Y mae Sir Ddinbach wedi magu meibion ag sydd wedi enwogi eu hunain yn mhob dull a modd, ar dir ac ar fôr: rhoddir am danynt hanes fanwl, wrth eu henwau, yn eu lleoedd priodol.

**DINBACH**, marchnattref fwrdeisiol, mewn plwyf o'r un enw, yn undeb LLANELWY, cantref IS-ALED, a phrif dref henafol swydd DINBACH, GOGLEDD CYMRU, 128 milldir i'r Gogledd Orllewin o Lundain, gyda phoblogaeth o 5946. Y mae yn meddu awdurdod arbenigol, ac yn cael ei rhestru gan y llywodraeth yn brif-ddinas Cymru. Yr oedd eisiau cael arfbais prifddinas Cymru, ddwy neu dair blynedd yn ôl, i'w osod gydag arfbeisiau Llundain, Dublin, ac Edinburgh: wedi gwneuthur ymchwiliadau priodol, penderfynwyd mai i Ddinbach y perthynai yr anrhydedd hwnw. Cymmerodd Doctor Pierce, fel maer y lle, ran bwysig yn yr ymchwiliad, ac oni buasai ei aiddgarwch a'i wybodaeth ef, y mae yn bur debyg na buasai y dref hon wedi cael chwareu teg: y mae'r Doctor caredig wedi cael ei ethol yn faer Dinbach bump o weithiau yn olynol.

Am ystyr y gair Dinbach, gweler hanes y Sir: gelwid y lle gynt, neu yn hytrach y castell, yn "Gastell Caledfryn-yn-Rhôs." Barna llawer fod y Tywysog Llewelyn wedi bod yn byw yma: nid oes, modd bynag, gyda ni dystiolaeth hanesyddol o gywirdeb y dybiaeth hon: ond y mae yn bur debyg fod y Tywysog yn preswylio yn ei arglwyddiaeth ei hun. Y mae yn sicr i Dafydd ei frawd fod yn preswylio yn y castell, fel y nodwyd eisioes yn hanes y Sir, a chyda Dafydd y mae hanes Dinbach yn dechreu yn gyffredin. Pa un a ddarfu i Dafydd adgyweirio, neu helaethu y castell, nis gellir dywedyd: ond y mae yn sicr mai nid efe oedd ei sylfaenydd. Wedi marwolaeth, neu yn hytrach llofruddiaeth ei frawd Llewelyn, cariodd Dafydd y rhyfel yn mlaen yn erbyn Edward I., yn ol penderfyniad cynghorfa o bendefigion, a fu yn eistedd yn Ninbach. Edward orchfygodd, modd bynag, a bu Dafydd a'i deulu ar ffo am beth amser; goddefodd y dywysoges, y ddau fab, a'r saith merch, lawer iawn o eisiau a thrueni; ond ar nos Mehefin 21, 1283, cymerwyd Dafydd yn garcharor, gerllaw yr Aber, yn ngolwg hen balas breninol ei hynafiaid, a dygwyd ef mewn cadwynau at Edward, yr hwn oedd yn aros y pryd hwnw yn Rhuddlan. Pan gymmerwyd ef, yr oedd coron-dlysau yr hen dywysogion Cymreig yn ei feddiant—coron y brenin Arthur, ac hen grair a elwid "croesenydd," yr hwn a werthfawrogid yn fawr gan y Tywysogion Cymreig: dywedid ei fod wedi cael ei wneuthur o'r pren ar yr hwn y dyoddefodd Crist, ac wedi ei ddwyn i'r wlad yma gan yr Amherodres Helena:—

> "Diboen ferch Coel Godebog
> I Gred a gafas y *Grog*."

Profwyd Dafydd yn yr Amwythig, a chafwyd ef yn euog o lawer iawn o bethau yn erbyn y brenin; eithr nid oeddent amgen, nag ymladd dros ryddid ei wlad: y ddedfryd oedd, fod iddo gael ei lusgo wrth gynffon ceffylau drwy ystrydoedd Amwythig i'r dienyddle: fod iddo gael ei grogi: fod ei galon a'i ymysgaroedd i gael eu llosgi: fod ei ben i gael ei dori ymaith: ac fod ei gorff i gael ei dori yn bedwar chwarter; un i gael ei anfon i Bristo, un arall i Yorc, y trydydd i Winchester, a'r pedwerydd i Northampton. Cariwyd y ddedfryd yna allan yn ei chreulondeb llythyrenol; a gosodwyd pen Dafydd yn yml pen Llewelyn ei frawd, ar Dŵr Llundain.

Wedi llofruddio Dafydd, rhoddodd Edward gastell ac arglwyddiaeth Dinbach i Henry Lacy, Iarll Lincoln, yr hwn a adeiladodd gastell newydd mawreddog yma ar sail yr hen un, yn y flwyddyn 1284, ac a gyfododd fur o amgylch y dref fechan, milldir a haner ei gwmpas: rhoddes hefyd amryw freintiau i'r lle, yr hyn sydd yn hawlio iddo y clod o fod yn sylfaenydd pwysigrwydd y lle: dywedir na chwbl orphenwyd mo'r castell ganddo ef, oherwydd marwolaeth ei fab, yr hwn a syrthiodd i ffynnon ddofn yn y Tŵr Coch, ac a foddodd: effeithiodd hyn yn ddwys iawn ar ei dad galarus; ac fel y dywed Camden, "gadawodd y gwaith cyn gosod tô arno." Yn fuan wedi hyn, yn 1294, cafodd Lacy orchymyn gan y brenin i gymeryd llywyddiaeth y fyddin, yn gydunol âg Iarll Lancaster, brawd y brenin; yr oedd y fyddin ar gychwyn i'r Cyfandir: ond torodd gwrthryfel mawr allan yn ngogledd Cymru, dan arweiniad Madog, mab o ordderch i'r Tywysog Llewelyn; gyda'r hwn yr oedd y Tywysogion Rhys ap Maredydd; Maelgwn Ieuanc, o'r Deheudir; a'r Tywysog Morgan, o Forganwg: parodd hyn oedi y cadgyrchiad i'r Cyfandir, a daeth Lacy i ofalu am gastell Dinbach, a'i arglwyddiaeth: pan yn yml muriau y castell, cyfarfu y Cymru âg ef, Tachwedd 11, 1294, ac wedi ymladd gwaedlyd, gorchfygwyd y Saeson, a gorfu i Lacy ffoi am ei einioes. Gorfu i'r brenin ei hunan ddyfod i osod y gwrthryfel hwn i lawr: yn y pen draw, daliwyd y gwladgarol Madog, ar Gefn Digoll; carcharwyd ef am ei oes yn Nhŵr Llundain; a daeth Dinbach i feddiant y Saeson, a Lacy drachefn.

Bu farw Lacy yn ei dy ei hunan yn Llundain, ac efe yn 59 mlwydd oed. Y mae cerflun o hono yn eistedd yn ei arwisg, uwchben porth y castell. Gadawodd Dinbach a'r arglwyddiaeth i'w ferch a'i unig etifeddes Alice, yr hon a briododd â Thomas Plantagenet, Iarll Lancaster: ond cyfododd Thomas wrthryfel yn y deyrnas, yn yr hwn y cynnorthwyid ef gan farwniaid galluog ereill; ond cafodd ei ddâl yn

Digitized by Google

y diwedd, ac er ei fod yn gefnder i'r brenin, Edward II., torwyd ymaith ei ben. Wedi hyn rhoddodd Edward Dinbach i Huw de Spencer, Iarll Winchester; yr hwn a fu yn greulawn anghyfiredin wrth y bobl, ac a'u hyspeiliodd hwynt o amryw o'r breintiau ag oedd Lacy wedi roddi iddynt. Dyn creulawn, anonest, oedd de Spencer: Cymerodd ef a'i fab, yr hwn oedd o'r un enw ag ef, ran bwysig yn y rhyfeloedd cartrefol oeddynt yn aflonyddu y wlad yn eu dydd hwy: cymerwyd y tad yn garcharor yn Bristo; a'r mab yn garcharor yn Nghastell-Nedd, Swydd Forganwg: crogwyd y ddau yn ddioed, ac efelly daeth Dinbach unwaith drachefn yn eiddo i'r Goron. Rhoddwyd hi wedi hyny gan Edward III., i Roger Mortimer, Iarll March. Fel y ddau arall o'i flaen, fforffedodd Mortimer hefyd ei hawl; a rhoddwyd Dinbach i William Montacute, Iarll Salisbury, yr hwn a fu farw yn 1333. Ar ol Montacute, bu Dinbach yn meddiant Henry Percy, (Hotspur), mab gwrol Duc Northumberland, yr hwn a gafodd ei ladd yn mrwydr yr Amwythig, Gorphenhaf 20, 1403, pan yn ymladd yn erbyn Harri IV. Wedi tynu yn ôl fforffediad Mortimer, adferwyd Dinbach i'w ŵyr Roger: priododd Richard Plantaganet, Iarll Caergrawnt, âg Anne, chwaer Roger, y diweddaf o Ieirll March, efelly pasiodd Dinbach i deulu Yorc, a daeth yn feddiant i'r Goron. Yn amser y Rhósgadau—yr ymdrechion gwaedlyd rheiny am y Goron, rhwng teulu Yorc a theulu Lancaster. Daliwyd castell Dinbach dros Harri VI., gan ei haner brawd, Jasper Tudor, Iarll Penfro; ond cymerwyd ef gan y Yorciaid yn 1460: yn 1468, dychwelodd Jasper Tudor, gyda byddin o ddwy fil o Gymru, a gosododd y dref ar dân. Gwarchaewyd ar Edward IV. yma, meddai Leland, ac ni chawsai ddyfod allan, ond ar yr amod iddo ymadael â'r deyrnas am byth. Wedi hyn, bu Dinbach yn meddiant tawel y Goron hyd 1563, pan roddwyd y lle gan y frenines Elizabeth, i Robert Dudley, Iarll Leicester, yr hwn a greodd hi yn Farwn Dinbach. Ymddygodd y Barwn hwn yn ormesol iawn; mor ormesol, nes gyru y bobl i wrthryfela yn erbyn ei awdurdod: bu terfysg nid ychydig, a chan i rai o fonedd y gymmydogaeth gymeryd rhan ynddo, cawsant eu profi, a'u torfynyglu. Er mwyn tawelu yr ystorm, caniatäodd y frenines lawer iawn o freintiau i'r trigolion, mewn breinlen newydd, yn y 19fed. flwyddyn o'i theyrnasiad: yr Iarll yntau er mwyn tawelu y bobl, a ddechreuodd gapel ardderchog yn y castell, ar ei draul ei hun; ond ni orphenwyd ef: y mae'r cymaint a adeiladwyd o hono wedi dadfeilio; wrth gareg ag sydd yn nghongl de-ddwyreiniol yr adeilad, canfyddir fod yr Iarll wedi gosod y sylfaen ei hun, Mawrth 1, 1579.

Ar gollfarniad Iarll Leicester, daeth y castell a'r arglwyddiaeth i feddiant y Goron unwaith eto; ac o'r amser hwnw hyd doriad allan ryfel cartrefol y ddwyfed ganrif ar bumtheg, ni ddygwyddodd yma unrhyw beth o ddyddordeb hanesyddol. Yn 1643 yr oedd y castell yn cael ei amddiffyn dros y Brenin, ar draul trigolion Dinbach, a'r boneddwyr cymydogaethol, ac yr oedd yn ngofal William Salisbury, yr hwn yn llwyddiannus, ac yn wrol, a wrthwynebodd holl ymdrechion gorchestol y Maeslywydd Mytton i'w gymmeryd dros y Senedd. Wedi brwydr ddinystriol Rowton Moor, yn mis Medi, 1645, bu'r Brenin anffortunus yn cysgu yma ddwy noson; a gelwid ei ystafell yn "Siambr y Brenin." Hydref 1, 1645, ennillodd y Seneddolion frwydr bwysig ar y Breninolion, yn ngolwg y castell; ac wedi hyny ymosodasant ar y castell; ond bu yr ymosodiad yn gwbl ofer. Yn 1645, enillodd y Seneddolion fuddugoliaeth yn Llanrhaiadr, tua dwy filldir o Ddinbach; ond ni wnaeth hyny ddim effaith ar amddiffynwyr y castell; a daliasant yn ddi blygu gyda'u gwaith hyd fis Medi, 1646, pan y daeth gorchymyn pendant oddiwrth y Brenin, am iddynt roddi i fynu ar ammodau anrhydeddus: gwnaethpwyd hyny; ac, wedi arwyddo y cytundeb, rhoddodd y llywydd yr agoriadau i fynu i'r Maeslywydd Mytton, Hydref 26; a dyma'r gaerfa olaf a safodd allan dros y Brenin. Wedi yr Adferiad, difantellwyd y castell, yn ol gorchymyn Charles II. Rhoddodd William III. gastell ac arglwyddiaeth Dinbach, gydag amryw feddiannau ereill, i Iarll Portland; nid oedd y wlad yn foddlawn i hyn, a gyrwyd deisbau i'r senedd yn erbyn y peth: bu dadleu brwd yn y senedd ar y pwnc; a'r canlyniad fu, galw y rhodd yn ôl: oddiar hyny hyd yn awr y mae y castell a'r arglwyddiaeth yn meddiant y Goron, ac o dàn arolygiaeth goruchwyliwr appwyntiedig gan y llywodraeth.

Y mae Dinbach yn sefyll mewn lle prydferth iawn, bron yn nghanol Dyffryn Clwyd, mewn rhan wrth droed, ac mewn rhan ar lethr, uchelfa greigiog ac unigol, crib yr hon a goronir gan weddillion hybarch yr hen gastell. Y mae yn gynwysedig o dair o brif heolydd, ac amryw heolydd bychain; ac y mae gwedi ei phalmantu a'i goleuo â nwy; ond nid oes yma gyflawnder o ddwfr yn gyfleus. Y mae yn dref iachus iawn, ac y mae cyfartaledd y trigolion yn byw i oedran têg. Y mae y golygfeydd cylchynol yn hynod o brydferth, ac y mae y tir cnydfawr yn y gymydogaeth yn cael ei wrteithio i'r perffeithrwydd. Y mae yn y gymydogaeth amryw blasau a gwlattai ardderchog, y rhai a breswylir gan deuluoedd cyfoethoeg. Y mae y gwelliannau ydynt wedi cael eu gwneud yn y dref, yn ystod y chwarter canrif ddiweddaf wedi bod yn fawr iawn, ac yr ydys yn para i'w gwella. Nid oes ond ychydig fythod yn awr y tu fewn i'r hen furiau, ac y mae y dref wedi symud ei hun felly i sefyllfa mwy cyfleus. Y mae yma lawer o dai rhagorol, a nifer nid ychydig o siopau prydferth, &c. Lleol ydyw y drafnidaeth, gan mwyaf, ond y mae yma farcerdai lled fawrion. Nid yw y gweithfeydd menyg, ac esgidiau, yn agos i'r peth oeddynt yn yr amser gynt: y mae canfeusydd Lleweni gwedi darfod hefyd, a'r holl adeiladau perthynol iddynt wedi cael eu tynu i lawr, er costio o honynt dros 20,000$p$. Sefydlwr y gweithfeydd yma, oedd y Gwir Anrhydeddus Thomas Fitzmaurice, gan yr hwn yr oedd ystâd fawr yn yr Iwerddon: ac yr oedd yn derbyn ei hardrethion mewn llian llwyd, newydd ei wau, yr hwn a ddanfonid i Leweni i'w gànu. Wedi marwolaeth Mr. Fitzmaurice, cymerodd rhyw bersonau o Swydd Lancaster at y gwaith; ond darfyddodd rhwng eu dwylaw yn mhen ychydig flyneddau: ac nid oes yn awr ddim olion o hono. Y mae y brif farchnad yn cael ei chynnal ddydd Mercher: cynnelir marchnad yma hefyd ddydd Sadwrn: cynnelir yma ffeiriau ar y Sadwrn cyn Sul y Blodau, Mai 14, Mehefin 28, Gorphenhaf 18, Medi 25, a'r ail Ferchor yn Nhachwedd. Y mae yma ddau fanc, banc cynnilo, &c.

Fel ag yr ydym eisioes wedi nodi, cafodd ei breinlen gyntaf gan Henry Lacy, yn nheyrnasiad Edward I., yr hon a gadarnhawyd gan Edward III., yr hwn hefyd a anrhegodd y preswylwyr â breintiau ychwanegol: cadarnhawyd y breinleni yna gan Richard II.,

Digitized by Google

Henry IV., Henry VI., Richard III., Henry VII., Henry VIII., Elizabeth, a Charles II.: yn ol y ddwy freinlen olaf, yr oedd y llywodraeth yn nwylaw dau henuriad, cofnodydd, dau faeron (y rhai hefyd oeddent yn siryddion) dau grownwr, pump-ar-hugain o gynghorwyr, y rhai a gynnorthwyid gan glerc trefol, a swyddogion ereill. Yn ol act 5fed a 6fed o William IV., pennod 76, y mae corfforiaeth Dinbach yn cael ei galw yn, "Faer, Henuriaid, a Bwrdeisiaid," ac y mae yn gynwysedig o faer, pedwar henuriad, a deuddeg o gynghorwyr; ond nid yw y fwrdeisdref wedi cael ei rhanu i barthau (*wards*). Derbyniodd Dinbach ei hetholfraint oddiwrth Harri VIII., ac yn y flwyddyn ganlynol, sef yr 28ain, o'i deyrnasiad, ychwanegodd ati, Holt a Rhuthin: yn 1832 ychwanegwyd Gwrecsam atynt: gyda'u gilydd anfonant un aelod i'r Senedd. Adeiladwyd neuadd y dref, gan Iarll Leicester, yn 1572; ac y mae gwedi cael ei adnewyddu a'i helaethu tua therfyn y ganrif ddiweddaf. Y mae yn adeilad helaeth a chyfleus; y mae lle i'r farchnad odditanodd, ac uwchlaw hyny y mae y gwahanol ystafelloedd i lysoedd y fwrdeisdref a'r Sir. Y mae'r "Borough Market" yn un hardd iawn.

Cynelid Cymdeithas Gymreigyddol enwog yma gynt; ac y mae amryw Eisteddfodau enwog wedi cael eu cynal yma: megis Eisteddfod y Gordofigion, pan yr ennillodd y Parch. Mr. Hughes, Bodfari, ar "Elusengarwch." Bu twrw annrhaethol ar ol yr Eisteddfod hon; am y dywedid yn gyffredinol mai awdl benigamp Dewi Wyn o Eifion, ddylasai gael y gamp. Cynnaliwyd Eisteddfod rwysgfawr yma yn 1822, o dàn lywyddiaeth ei Uchelder Breninol, Duc Sussecs, pan yr ennillwyd y gadair am yr Awdl ar "Wledd Belsassar," gan y Parch. Evan Evans (*Ieuan Glan Geirionydd*): cynnaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yma yn 1860, o dàn lywyddiaeth Syr Watkin Williams Wynn, Barwnig, A.S.; pan yr ennillwyd y gadair am yr Awdl i'r "Pentecost," gan y Parch. John Emlyn Jones, M.A.; LL.D., (*Ioan Emlyn*). Y mae Dinbach yn para yn llenyddol o hyd, ac y mae yma Gymdeithas Lenyddol, Darllenfa, &c. Yma y cyhoeddir y "Faner," a newyddiaduron ereill: y "Gwyddoniadur," ac amryw lyfrau buddfawr ereill, gan Mr. Thomas Gee, y cyhoeddwr mwyaf anturiaethus yn Nghymru.

Y mae'r fywioliaeth eglwysig yn gynnwysedig o rectoriaeth a ficeriaeth ryddhäol, y rhai a unwyd gan ddeddf a basiwyd yn y 29ain a'r 30ain o deyrnasiad Charles II., a threthir hwynt ar lyfrau y frenines yn 23*p.* 17*s.* 3½*c.* Y gwerth presenol yw 445*p.* ac y mae yn nawddogaeth Esgob Llanelwy. Hen eglwys y plwyf, yw'r Eglwys Wen, yr hon sydd tua milldir o'r dref, ond y mae y rectoriaeth yn awr wedi cael ei symud, yn ol deddf seneddol, i Ddinbach. Gan fod yr eglwys blwyfol mor bell, byddid yn myned i St. Hilary, eglwys y castell; ond y mae eglwys newydd wedi cael ei hadeiladu erbyn hyn yn y dref, gyda chladdfa gyfleus, &c. Yn yr Eglwys Wen y byddid yn arfer claddu, ac y mae yno wyddfaoedd i amryw ddynion enwog, megis Richard Middleton, Gwaenynog, ceidwad y castell yn amser Edward VI., Mary, ac Elizabeth; Syr John Salisbury, neu "Syr John y Bodiau:" Humphrey Llwyd, yr hynafiaethydd dysgedig; Thomas Edwards (*Twm o'r Nant*), &c.

Hwyrach y carai ein darllenwyr weled yr hyn sydd yn ysgrifenedig, er coffawdwriaeth am y Bardd o'r Nant: y mae y Bardd wedi cael ei gladdu yn nghanol y fonwent; ond y mae y maen mynor gwyddfäol, ar dalcen gorllewinol yr eglwys, ac arno yr arysgrifen yma:—

Y Maen hwn a osodwyd gan Gymdeithas
Y Gwyneddigion, Llundain,
Er cof am THOMAS EDWARDS, NANT,
Bardd rhagorol yn ei oes.
Bu farw Ebrill 3ydd, B.A. 1810. Ei Oedran 71ain.

Geirda roe i gywirdeb,—yn benaf
Ni dderbyniai wyneb;
A rhoe sen i drawsineb
A'i ganiad, yn anad neb.

Er cymaint oedd braint a bri—ei anian
Am enwog farddoni,
Mae'r awen a'i hacen hi,
Man tawel, yma'n tewi.

Y mae capel mawr a phrydferth yma gan yr Independiaid, ac y mae eu hachos wedi cael ei sefydlu yn y lle oddiar deyrnasiad Charles II.: y mae ganddynt ddau gapel bychan arall yn y fwrdeisdref. Y mae gan y Trefnyddion Calfinaidd bedwar o gapeli yma, ac y maent yn rhai prydferth iawn: y mae capel Swan Lane, yr hwn a adeiladwyd *gyntaf* yn 1793, yn un mawr iawn. Y mae capel Cymreig, a chapel Seisnig gan y Wesleyaid yma, a chapel yn Henllan hefyd. Y mae capel bach tlŵs gan y Bedyddwyr yma hefyd, achos pa rai, fel y Wesleyaid, a ddechreuodd yma tua diwedd y ganrif ddiweddaf. Y mae gan y pedwar enwad, ysgolion Sul blodeuog, a gellir dywedyd yr un peth am yr Eglwys Sefydledig. Y mae y Pabyddion wedi prynu darn o dir yma at adeiladu capel, er ys blyneddau lawer; ond nid ydynt wedi adeiladu hyd yn hyn.

Sefydlwyd ysgol râd yma yn 1714, gan Mrs. Oldfield, yr hon a elwid y "*Blue Coat School*," gwaddol yr hon, oddiwrth diroedd yn mhlwyf Llanrhaiadr, sydd yn 90*p.* y flwyddyn: ychwanegwyd at y cyllid hwn, gan Mr. Morgan Evans; a phrynwyd tir â'r 200*p.* a roddodd, yr hwn sydd yn cynnyrchu 22*p.* y flwyddyn. Y mae yr Ysgol hon wedi cael ei huno yn awr â'r Ysgol Genedlaethol, ac adeiladwyd ysgoldy hardd iddi yn 1847. Y mae yma Ysgol râd arall, yr hon a sefydlwyd gan ychydig bersonau yn 1727, y rhai cyd-rhyngddynt a dansgrifiasant 340*p.* 2*s.*, ac a brynasant ddarn o dir yn mhlwyf Tremeirchion, swydd Fflint, cyllid presenol yr hwn yw 70*p.* y flwyddyn: y mae yr ysgol hon wedi cael ei huno â'r Ysgol Brydeinig; ac y maent wedi adeiladu ysgoldy oddiar 1844. Y mae amryw ysgolion ereill; ond ysgol fawr Dinbach, ydyw Ysgol Rad Howell, i Ferched Amddifaid; lle yr addysgir dros 50 o ferched amddifaid yn rhâd. Y mae'r ysgoldy hwn, wedi costio tuag 20,000*p.*, a chafwyd yr arian fel hyn. Gadawodd un Thomas Howell, Cymro o'r Deheudir, 12,000 o *ducats* aur yn ei ewyllys, er rhoddi addysg i ferched amddifaid o Gymru, heb son am sect nac arall. Yr ymddiriedolwyr oedd y *Drapers' Company*, Llundain; y rhai ni ofalasant ddim am y rhodd: erbyn edrych, yr oedd yr arian wedi cynnyddu mor anferthol, fel na wyddent yn y byd beth i'w wneuthur â hwynt: ymgynghorasant a Dr. Ollivant, esgob Llandâf; a Dr. Short, diweddar Esgob Llanelwy; y rhai yn bur fuan a benderfynasant pa fodd i wneuthur â'r arian. Rhanwyd hwy rhwng De a Gogledd: gwnaethpwyd yr ysgolion yn sectaraidd: cyfodwyd hon yn Ninbach; cyfodwyd un gyffelyb yn Llandâf: a sicrhäwyd yr oll, gan weithredoedd seneddol.



Digitized by Google

Y mae yma lawer o fudd-gymdeithasau, megis yr Odyddion, y Fforestwyr, &c. Y mae y cymun-rodd-ion i'r tylodion yn fawr iawn; ac yn dyfod i fynu i dros 1700*p.* y flwyddyn, ond y mae y rhan fwyaf o honynt wedi myned ar goll. Y mae yma Glafdy rhagorol, yr hwn a adeiladwyd yn 1813: dyma y Clafdy cyntaf a adeiladwyd yn Ngogledd Cymru, ac y mae ugeiniau o filoedd wedi cael eu gwellhau ynddo. Yma hefyd y mae Lloerigdy Gogledd Cymru, yr hwn sydd yn un o'r adeiladau harddaf yn yr holl Dywysogaeth, a chostiodd yn agos i 30,000*p.* Y mae ynddo tua dau gant o anhwylusion ar y cyfartaledd, ac y mae pob tiriondeb yn cael ei ddangos iddynt gan y goruchwyliwr caredig, Mr. Robinson.

Y mae gweddillion hen briordy gerllaw y dref, yr hwn a adeiladwyd rywbryd cyn 1289, gan John Salisbury, o Lleweni, yr hwn oedd wedi ei gyssegru i'r Forwyn Fair. Wrth hen lafn o bres a gafwyd yma dro yn ol, deallwyd mai yma y cafodd y Sylfaenydd ei gladdu: ymddengys hefyd, mai yma yr oedd claddle Salusbryaid Lleweni hyd amser y Diwygiad. Yr eglwys ydyw yr unig weddillion o bwys sydd yn aros o'r priordy, ac y mae yn awr yn frâgdy: y mae'r ffenestr ddwyreiniol yn un hynod o brydferth, ac yn nullwedd diweddaraf adeiladaeth Seisnig; y mae mewn cadwraeth dda hefyd: y mae y gronglwyd yn enghraifft ardderchog o dderw cerfiedig, ac y mae yn gyfan hyd heddyw. Yr oedd y Salusbriaid wedi dyfod yma o flaen y Myddletwniaid; ond dau deulu oeddent a wnaethant lawer iawn dros Ddinbach. Dyna Syr Huw Myddleton, er enghraifft, y fath ddyddordeb oedd ef yn ei gymeryd yn y lle hwn. Yr oedd yn henuriad Dinbach yn 1597, ac yn y flwyddyn ganlynol anrhegodd y fwrdeisdref â dwy frysgyll (*mace*), ac â dwy gwpan arian ysplenydd. Bu Syr Huw yn cynnrychioli y fwrdeisdref mewn llawer i Senedd. Y mae gofal mawr yn cael ei gymeryd am yr hen gastell yn awr, fel na byddo iddo ddadfeilio yn mhellach. Y mae Dinbach yn rhoddi y teitl o Iarll i deulu Fielding. Y mae rheilffordd Dyffryn Clwyd wedi gwneuthur llawer dros yr hen fwrdeisdref hynafol ac ardderchog hon, a gwna ragor eto. Gwel *The Records of Denbigh and its Lordship*—ac *Ancient and Modern Denbigh*, gan John Williams (*Glanmor*).

**DINBREN**, trefgordd yn mhlwyf LLANGOLLEN, yn swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU. Y mae yn gorwedd yn nyffryn prydferth y Dyfrdwy, nid pell o dref Llangollen, ac y mae ei boblogaeth yn cael ei rhoddi gydag eiddo y plwyf.

**DINERTH**, trefgordd yn mhlwyf LLANDRILLO-YN-RHOS, swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU, 4 milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Gonwy, ar lân Môr yr Iwerddon, ac y mae yma bysgodfeydd enwog, lle y mae llawer iawn o feeryll ac ëogiaid yn cael eu dàl. Gyda'r trefgorddau ereill sydd yn y plwyf hwn yn perthyn i'r un Sir â hi, y mae yn cynnal ei thlodion ei hun: ond am drefgordd Eirias, yr hon sydd yn yr un plwyf, ond yn swydd GAERYNARFON; y mae hi ar wahan.

**DINGAD**, un o feibion Brychan, a sant yn y 5ed ganrif. Efe a sefydlodd Llanddingad, swydd Gaerfyrddin, a Llanddingad, neu Dingatstow, yn Mynwy, lle y claddwyd ef.

**DINGAD** AB NUDD HAEL, sant yn y 6ed ganrif. Ei wraig ydoedd Tonwy neu Tefrian, ferch Llewddyn Luyddog o Ddinas Eiddin.

**DINGA MOEL** AB LLYWELYN CHWITH, bardd yn ei flodau rhwng 1540 a 1570.

**DINGESTOW**, plwyf yn swydd FYNWY, undeb TREFYNWY, DEHEUDIR CYMRU, 2½ milldir i'r De Orllewin o Drefynwy, gyda phoblogaeth o 231. Y mae yn gorwedd ar lân yr afonig Trothy, ac yn mesur 1930 o erwau: y mae yn hollol amaethyddol, ac y mae yma orsaf ar reilffordd Trefynwy. Ficeriaeth ydyw y fywioliaeth eglwysig, ac y mae yn werth 244*p.* y flwyddyn.

**DINHAM**, trefgordd fechan yn swydd FYNWY, DEHEUDIR CYMRU, mewn lle dymunol, ar lân yr Hafren, gerllaw Casgwent, neu *Chepstow*, gyda poblogaeth o 37.

**DINLLEYN**, cantref yn swydd GAER YN ARFON, GOGLEDD CYMRU; yn gorwedd o amgylch Nefyn; yn cynwys wyth o blwyfydd, a rhan o un arall; ac yn mesur 30,141 o gyfeiriau o dir. Poblogaeth yn 1861, 7215. Tai, 1706.

**DINOGAD**, un o'r arwyr a syrthiodd yn Nghattraeth.

**DINOGAN**, un o feibion Cynan Garwyn, tywysog Powys, yn y 7fed ganrif.

**DINORBEN**. Gwel LLAN SANT SIOR.

**DINORWIG**. Gwel LLANDDEINIOLEN.

**DIRYNIG**, un o feibion Caw, a sant yn y 6ed ganrif, Lladdwyd ef gan y Saeson paganaidd. Yr oedd eglwys wedi ei chyflwyno iddo yn Nghaer efrog.

**DISCOED**, trefgordd, neu gapeliaeth, yn mhlwyf, undeb, a bwrdeisdref LLANANDRAS (*Presteign*), cantref a swydd FAESYFED, DEHEUDIR CYMRU, 2½ milldir i'r Gorllewin wrth Ogledd o Lanandras, gyda 111 o drigolion. Y mae yn gorwedd bron ar lân yr afon Lug, mewn dyffryn prydferth iawn, ar y ffordd o Lanandras i Gascob. Y mae Clawdd Offa tua hanner milldir i'r Gogledd-Orllewin o'r pentref. Y mae y capel wedi cael ei gyflwyno i St. Michael, ac y mae y ficeriaeth wedi cael ei huno â rectoriaeth Llanandras.

**DISGARTH**, treflan yn mhlwyf Llangwm, swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU, chwe milldir i'r gorllewin o Gorwen.

**DISSERTH**, neu DYSERTH, plwyf yn undeb LLANFAIR-YN-MUALLT, cantref CALWYN, swydd FAESYFED, DEHEUDIR CYMRU, yr hwn sydd yn mesur 6650 o erwau, ac yn rhif o 521 o drigolion. Cynnwysa dreflanau Howey a Thracoed, ac y mae yn 4½ milldir i'r Gogledd o Lanfair. Y mae yma le a elwir Llechryd yn y plwyf hwn, a dywed aml i hanesydd mai yma y gorchfygodd Rhys ap Tewdwr, feibion Bleddyn ap Cynfyn: ond y mae yn fwy tebygol i'r frwydr hono gael ei hymladd yn Llechryd, gerllaw Aberteifi. Y mae yma rês o fryniau pur uchel, a elwir Carneddau, o gribau pa rai y ceir golygfeydd dymunol iawn. Y mae y tir wedi ei gauad i mewn agos oll, a chan ei fod yn cael ei wrteithio yn dda, y mae'n gnydfawr iawn. Y mae diadelloedd lawer o ddefaid yn pori ar y Carneddau, ac y maent yn enwog iawn am eu gwlân rhagorol. Rectoriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, ac y mae wedi ei huno âg un Bettws-Disserth: trethir hi ar lyfr y frenines yn 16*p.*, ac y mae yn werth 310*p.* y flwyddyn: y mae yn esgobaeth Tŷ Ddewi, ac yn nawddogaeth yr Esgob. Y mae yr eglwys wedi cael ei chyflwyno i St. Cewydd, ac y mae yn edrych yn hen eglwys ddigon hybarch o bell, ond wrth agosau ati, nid yw yn edrych cystal. Y mae yma ddwy o ysgolion dyddiol yn cael eu cynnal, ac un ysgol Sul.

Digitized by Google

**DOCKS**, neu GLANYMOR, parth arforol tref LLANELLI, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU. Dosbarthir Llanelli i dair rhan; sef, y Wern, y Dref, a'r Docks; ac nid y lleiaf enwog o'r rhanau yma ydyw'r Docks. Nid oedd ond porthladd disylw yn niwedd y ganrif ddiweddaf, ac ychydig oedd rhifedi y llongau bychain a ymwelent âg ef. Pysgota oedd prif alwedigaeth y preswylwyr, ac yr oeddent yn byw yn gysurus. Pysgotent mewn corwglau, gan mwyaf; a charient y pysgod i Abertawy, i'w gwerthu, ac yno y prynent y nwyddau a fuasai arnynt eu hangen, canys nid oedd siopau o ddim gwerth yn y Dref y pryd hwnw.

Cyn y flwyddyn 1813, nid oedd yma ond traeth agored, heb na doc nac arall o bwys. Fel hyn y darlunia un ysgrifenydd sefyllfa pethau tua'r adeg hono:—"Ar dywydd têg, elai rhai llongau bychain i fynu â llwyth o geryg calch hyd odyn y Sandy, a llwythid peth o lô Lady Mansell, ger y Bont Haiarn: ond pan na allent fyned i fynu, dygid ef i lawr i'r Flatts, ar gefnau ceffylau a mulod, mewn cydau rhawn. Deuai llongau o gryn faintioli i'r Flatts, ar y *spring tide*, gyda mŵn i Waith y Ffwrnes; a deuai certi y ffermwyr cymmydogaethol i'w gludo i fynu o làn y traeth. Os na ellid ei ddadlwytho yn ddigon buan, cyn yr aethai y trai yn isel, teflid ef i lawr i'r traeth: a chyn y gellid ei gario ymaith, byddai y tywod wedi cuddio ei haner, a'r mor wedi cymeryd ymaith lawer iawn o hono: ac y mae ugeiniau o dunelli, yn gyd-gymmysgedig a'r tywod gerllaw i'r Flatts, hyd y dydd heddyw. Dygid y glô i ymyl y traeth mewn cydau, ar gefnau mulod; yna cymerid ef oddiar gefn mul, gan ddyn, yr hwn a'i cariai i'r llong, pan yr agorid genau y cŵd gan ddyn arall, a gollyngid y cynnwysiad i lawr" Dull trafferthus ac oediog iawn oedd yr uchod: nid oedd ychwaith, na chraig, na chlawdd, er amddiffyn y llongau rhag gwyntoedd y gorllewin, na rhedfa gref y llanw; ac felly yr oedd trafferth fawr, a pheryglon lawer gyda'r llwytho.

Gwnaeth y Meistri Bowen a Roderick, ddoc fechan yn 1795: gwnaeth A. Raby, Yswain, un arall yma yn 1799: yn y flwyddyn 1804 gwnaeth Cwmni y Gwaith copr, ddoc yma, ac wedi ei helaethu o bryd i bryd, y mae yn awr yn ddoc cyfleus iawn i lwytho a dadlwytho llongau mawrion. Yn 1828 pasiwyd deddf i wneuthur y "Llangenech Dock," yr hwn hefyd sydd wedi cael ei helaethu droion. Yn y flwyddyn 1813 cafwyd Act, a elwir:—"*An Act for the Improvement of the Navigation of the Rivers Bury, Loughor, and Lliedi, in the counties of Carmarthen and Glamorgan.*" Yn ol y gallu a roddwyd gan yr *act* hon y gwnaethpwyd y *Ballast Bank* mawr, sydd yn ffurfio y Porthladd. Buwyd tua 15 mlynedd yn ei wneuthur. Yn 1853 cafwyd Act arall, i wella Act 1813. Mae llywodraeth y Porthladd yn llaw nifer pennodol o Ddirprwywyr, a chanddynt hwy y mae yr awdurdod benaf ar longbyrth Caerfyrddin, Cydwely, Llacharn, a St. Clears. Y mae y dociau cyfleus yma gwedi cael eu huno â'r gweithfeydd mawrion cymmydogaethol, gan reilffyrdd a chamlasau; ac y mae amryw gannoedd o filoedd o dunelli o lô, yn cael eu hallforio oddiyma bob blwyddyn. Y prif nwydd a allforir ydyw mŵn copr, yr hwn wedi cael ei weithio yma, a allforir: allforir o hono werth tua 500,000*p.* y flwyddyn.

Bu trafnidaeth fawr iawn rhwng y Docks a'r India Orllewinol, ond syrthiodd hono ymaith; a'r prif gwsmeriaid presenol yw Ffrainc, a dinasoedd Môr y Canoldir. Y mae trafnidaeth y lle wedi cynnyddu yn synfawr yn y ganrif hon; yn enwedig oddiar 1830. Yn 1800, rhifedi y llongau a ddaethant i mewn yma oedd 331, tra y maent yn awr dros 3000!

Y mae yn y Docks amryw gapeli heirdd iawn, ysgolion manteisiol, &c. Adeiladwyd capel yr Annibynwyr yn 1841; ac ail-adeiliadwyd ef yn 1856. Adeiladwyd capel y Bedyddwyr yn 1840, ac helaethwyd ef yn 1850; y mae yma addoldy hardd gan y Trefnyddion Calfinaidd hefyd. Rhoddir cyfrif y boblogaeth gydag un y dref. Gwel LLANELLI.

**DOCHDWY**, sant yn y 6ed ganrif. Aeth gyda Chadfan i Enlli, lle yr urddwyd ef yn esgob, er nad ymddenys iddo gael un esgobaeth o dan ei ofal, ond croniclir iddo gael gofal esgobaeth Llandaf yn absenoldeb Teilo, yr hwn a wahoddasid i Enlli, i drefnu amgylchiadau y fynachlog, ar farwolaeth Cadfan. Tybir mai efe a sefydlodd ddwy eglwys Llandough, neu Llandocha, yn Morganwg.—*Rees' Welsh Saints.*

**DOGED**, a elwir yn *Monedd y Saint*, Doged Frenin, ydoedd sant yn y 6ed ganrif. Efe a sefydlodd Llanddoged, swydd Ddinbach.

**DOGFAEL**, sant yn y 6ed ganrif. Mab ydoedd i Ithel ab Ceredig. Efe a sefydlodd eglwysi Dogmael yn Nghemaes, Dogwel yn Pebidiog, Mynachlog Ddu, a Melinau, oll yn swydd Benfro; ac hefyd Llanddogfael, capel a safai gynt yn mhlwyf Llanfechell, yn Mon.

**DOGFAN**, sant yn y 5ed ganrif. Mab ydoedd i Brychan. Lladdwyd ef gan y Saeson paganaidd, mewn lle a elwid Merthyr Dogfan, yn swydd Benfro. Efe hefyd ydyw nawddsant neu sylfaenydd Llanrhaiadr yn Mochnant, Swydd Ddinbych.

**DOGMEL**, ST. Gwel LLANDUDOCH.

**DOGWELL**, SANT, plwyf yn undeb HWLFFORDD, cantref DEWISLAND, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU, 9 milldir i'r Gogledd o Hwlffordd, ar y ffordd o'r dref hono i Abergwaen; yr hwn, yn ôl Deiliadeb 1861, sydd yn cynnwys 436 o drigolion. Y mae traddodiad yn y plwyf hwn, mai yma y ganwyd ac y claddwyd Owain Glyndwr: ganwyd ef, medd y traddodiad, yn Trefgarn-Fach, a chladdwyd ef yn *Wolf's Castle*. Gwel OWAIN GLYNDWR. Rhoddwyd maenor Sant Dogwell i senedd uchaf eglwys gadeiriol Tŷ Ddewi, gan Syr Richard Symmond, Marchog, yn 1328, at gynnaliaeth dau offeiriad yn yr eglwys gadeiriol, i ddywedyd offeren dros lesħad ei enaid ef a'i wraig: yr oedd degymau rectoraidd y plwyf wedi cael eu rhoddi i'r un corff, gan yr Esgob Thomas Wallensis, yn y flwyddyn 1254. Yr oedd Trefgarn-Fach, yn wreiddiol wedi cael ei huno â phrif gantoriaeth yr eglwys gadeiriol, gan yr Esgob Iorwerth, ar sefydliad y swydd hono; ond adgymerwyd hi, gwedi hyny, gan yr Esgob Gower; yr hwn a ganiataodd gyflog o ugain marc yn ei lle—13*s.* 4*c.* ydyw marc: ad-neillduwyd hi, modd bynag, i'r amcan cyntefig, ac y mae yn cael ei dàl yn bresenol gan deulu Sealyham, fel cynddrychiolwyr yr Edwardiaid o Trefgarn, o dàn lês oddiwrth y prif gantor. Y mae Sealyham yn blâs newydd prydferth iawn, ar làn yr afonig Sealy, ac y mae yn meddiant y teulu presenol, oddiar amser Edward III. Y mae llechau rhagorol i'w cael yn y plwyf hwn, eithr nid oes ond ychydig weithio arnynt. Ficeriaeth ollyngol yw y fywioliaeth eglwysig, a threthir hi ar lyfrau y frenines yn 4*p.* 16*s.* 0½*c.*: y nawdd-

Digitized by Google

ogaethwyr, a'r lleygfeddiannwyr, yw Prif gantor a Senedd Eglwysig Tŷ Ddewi. Y mae yr eglwys wedi cael ei chyssegru i Dogfael, neu Dogwael Sant, ac yn adeilad di addurn, o henafiaeth mawr iawn, heb yr un clochdy: y mae corff yr eglwys yn cael ei wahanu oddiwrth y rodfa ddeheuol, gan fwafeydd Normanaidd isel. Y mae 7*p*. 10*s*. yn cael eu talu yn flyneddol i dlodion y plwyf hwn, yn ol ewyllys y diweddar John Edwardes, Yswain, Trefgarn. Y mae yma lawer iawn o hen garneddau, ac y mae yn y plwyf un gromlech, ac un maen chwyf. Y mae yn y lle, olion tri o wersylloedd, a'r dyb gyffredinol yw, mai rhai Danaidd oeddent.

**DOL**, treflan yn mhlwyf CORWEN, swydd FEIRIONYDD, GOGLEDD CYMRU, nid pell o dref CORWEN.

**DOLBADARN**, treflan yn mhlwyf Llanberis, cantref Is GWYRFAI, swydd GAER YN ARFON, GOGLEDD CYMRU; tua saith milldir o dref Caer yn arfon. Yn y cloddfeydd llechau, ac efydd, y mae y rhan fwyaf o'r trigolion yn ennill eu bywioliaeth. Y mae yma ddau Westty mawr, sef y Dolbadarn Inn, a'r Victoria Hotel, â'r rhai y bydd cannoedd o ymdeithwyr yn ymweled bob blwyddyn, am eu bod wrth ben y llwybr sydd yn arwain i'r Wyddfa. Y mae yma ddau lŷn mawr yn y dyffryn cul, sef Llŷn Padarn, a Llŷn Peris; yr uchaf, sydd oddeutu milldir o hŷd, ac ychydig llai na haner milldir o lêd, ac o ddyfnder aruthrol; canys methwyd a chael gwaelod iddo mewn rhai manau arno, â llinyn o ddeg gwrhyd a thriugain o hŷd! Y mae y Llŷn isaf ychydig yn hwy; ond nid ydyw yn llawn mor lydan, nac mor ddwfn a'r Llŷn uchaf. Y mae llain gul o dir rhwng y ddau Lŷn, drwy yr hon y llifeiria afonig o'r naill i'r llall. Ar greig-fryn a ymddyrchaif o lan isaf Llŷn Peris, y saif hen dŵr Castell Dolbadarn, yr hwn a welir ar hyd y dyffryn am bellder mawr. Ei draws fesur oddifewn, yw chwe throedfedd ar hugain, a'i uchder yn 77 troedfedd. Cafodd y lle yma yr enw "Dolbadarn," mewn canlyniad i ymneillduad hen feudwy-sant o'r enw Padarn i'r lle hwn, i dreulio gweddill ei ddyddiau mewn edifeirwch a gweddi. Y mae hanes foreuol y castell yn amgauedig mewn tywyllwch dudew, fel na's gellir cael sicrwydd pa bryd, na chan bwy ei hadeiladwyd; y mae lle i feddwl fod gan yr hen Gymry amddiffynfa filwraidd yma, er cadw y bwlch pwysig hwn i fynydd-dir Eryri, mor foreu, efallai, ag oes Maelgwyn Gwynedd; ac fe'i defnyddid ar amserau, fel carchar gwladol. Mewn Erthygl yn yr *Archaiology Cambrensis*,[1] cawn y Sylwadau canlynol;—"Y mae y ddinas oddiar Ddolbadarn, yn gorwedd ar esgair o fryn, a gydir trwy wddf îs â'r mynydd cyfnesol. Y mae dernyn bychan iawn o fagwyr yn aros, yr hon sydd yn gymhwys o'r un adeilwaith a'r un ar y Penmaen Mawr, ac yn dra nodweddiadol o'r math hwnw o faen-saernïaeth sŷch. Ni ellir canfod olion unrhyw adeiladau o fewn y llanerch ydoedd yn ffurfio yr amddiffynfa fechan hon: ond, y mae pentwr mawr o gerrig ar y gwddfdir a grybwyllir uchod, ac yn gymhwys gorîs yr amddiffynfa, lle y canfyddir olion amlwg o amryw ystafelloedd bychain; ond y mae eu nenau, a'r rhan fwyaf o'u muriau, wedi cwympo." Y mae lle cryf i gasglu, bod yr hen amddiffynfa yma wedi ei ffurfio cyn y cyfnod Cristionogol. Yn y tŵr hwn y cafodd Owain Goch, brawd Llewelyn ab Gruffydd, tywysog olaf y Cymry, ei garcharu, dan y cyhuddiad ei fod ef wedi ceisio annog y bobl i wrthryfela yn erbyn ei frawd; ac yma y bu efe yn dihoeni dros dair blynedd ar hugain o'r amser mwyaf cyffrous a phryderus a fu ar ei genedl: a thrwy yr agenau culion, a ollyngent ychydig o oleuni i'w garchar,—ei fyd tywyll a chyfyng,—ei fêdd, lle ei cleddid yn fyw,—gallai y carcharor truan edrych allan ar wyneb gwir fawreddog natur, ar y mynyddoedd a ymddyrchafent mewn amrywiaeth di derfyn o ffurfiau prydferth o'i flaen, ac ar y Llynau siriol a orweddent wrth ei draed; a phwy a all ddirnad pa fath oeddynt ei fyfyrdodau a'i deimladau, wrth edrych arnynt! Yr ydoedd yn fwy, neu yn llai na dŷn, os nad oedd y golygfeydd yn creu awydd am ryddid yn ei fynwes, tra yr un pryd y teimlai yr anobaith llwyraf i'w gyrhaedd a'i fwynhau. Ond, nid yw yn ymddangos fod y dyoddefiadau yr elai danynt, wedi torri na llethu ei ysbryd; er ei fod wedi cwympo, heb obaith cyfodi drachefn, efe a wisgai ei gadwynau, ac a oddefai ei hir garchariad, yn dawel a siriol ei wedd. Eto, ymddengys ei fod ar un adeg o'i garchariad, wedi meddwl tori allan o'i garchar, er cryfed ydoedd; canys fe'n hysbyswyd gan y diweddar Mr. Griffith Ellis, hen oruchwyliwr parchus llech-gloddfa Llanberis, ei fod ef wedi rhoddi dynion ar waith i garthu y malurion a'r ysbwrial ydoedd wedi disgyn yn haeniadau oesol ar waelod y tŵr; ac wedi iddynt fyned rai llathenau o ddwfn, iddynt ganfod twll yn y mur, yn agos i sylfaeni yr hen adeilad, yr hwn a yrasid amryw droedfeddau i'r mur; ac y mae pob lle i gasglu, mai y carcharor tywysogaidd a'i gwnelsai, yn ei ymdrech am ei ryddid; ond ei fod o'r diwedd wedi rhoddi yr ymdrech i fynu mewn anobaith. Y mae dwy awdl yn y "Myvyrian Archaiology," a ganwyd iddo pan yn ngharchar, gan Howel Foel fab Griffri ap Pwyll Gwyddel, yn y rhai y mae y Bwrdd yn rhoddi canmoliaeth uchel iddo, ac yn eiriol yn daer ar i'w frawd Llewelyn faddeu iddo, a'i ryddhau. Efe a garcharwyd yn y flwyddyn 1254, ac a ryddhawyd gan ei frawd, yn y flwyddyn 1277.

[1] Mr. Charles C. Babington in the *Arch. Cambr.* vol. vii. Third Series, page 240.

**DOLBEN**, DAVID, D.D., Esgob Bangor, ydoedd fab ieuangaf Robert Wynn Dolben, o'r Segrwyd, ger Dinbych. Ganwyd ef yn 1581. Derbyniodd ei addysg yn ngholeg Ioan, Caergrawnt, lle, o radd i radd y cyrhaeddodd D.D. Cafodd fywioliaeth Llangernyw yn 1621, canoniaeth Llanelwy yn 1624, a chorberigloriaeth yn 1626. Yr oedd hefyd yn ficer Hackney, ond rhoddodd i fynu y ddyrchafiaeth hono pan gafodd esgobaeth Bangor, Mawrth 4, 1631. Bu farw yn *Bangor-house, Shoe-lane, Holborn*, Tach. 27, 1633; a chladdwyd ef yn Eglwys Hackney, lle y mae gwyddfa hardd, er nodi ei fedd. O'r un teulu yr hanai John Dolben, archesgob York, yr hwn oedd fab i William Dolben, D.D., a'i fam oedd chwaer i'r archesgob Williams. Brawd i'r uchod oedd Syr William Dolben, marchog. Hanent oll o Dolbeniaid Swydd Ddinbych, ac Alice, chwaer i Syr Thomas Middleton, o Chirk Castle.

**DOLBEN**, JOHN, M.A., D.D., ydoedd fab i William Dolben, D.D., ac a anwyd yn Stanwich, Swydd Northampton, ac yr oedd yn orwyr i John Dolben o Hwlffordd; yr oedd ei fam yn hanu o deulu Cochwillan. Yn amser y rhyfel gartrefol, efe a gymerodd arfau dros y brenin, ac yr oedd yn llumanwr yn mrwydr Marston Moor, lle y clwyfwyd ef yn dost; ac o'r diwedd efe a wnaed yn Uwch-gadben. Ond wedi i Rydychain roddi yr ymryson i fynu, ac i'r

Digitized by Google

fyddin ymwasgaru, efe a ail gymerodd â'i efrydiau, a chyrhaeddodd ei M.A., yn 1647; ond efe a ddeolwyd o'r Coleg yn y flwyddyn ganlynol, gan Ymwelwyr y Senedd. Yna, efe a fu byw yn ddirgelaidd yn nhŷ Mr. Ralph Sheldon, yn mhlwyf Sant Aldgate, Rhydychain, â merch yr hwn yr ymbrïododd. Wedi adferiad Charles yr Ail, cafodd ganoniaeth Eglwys Crist, yn 1660; a'i wneyd yn D.D. Gwnaed ef yn Arch-ddiacon Llundain; ac wedi hyny yn Ysgrifenydd y Gyfrinfa, ac yn Ddeon Westminster. Yn y flwyddyn 1666, pan yn 41 mlwydd oed, gwnaed ef yn esgob Rochester. Yn y flwyddyn 1683, efe a ddyrchafwyd i archesgobaeth Caer Efrawg. Cyhoeddodd o bryd i bryd, amryw bregethau a draddodasai o flaen y Brenin ar ryw achlysuron neillduol. Bu farw o'r Frech Wen, Ebrill 11, 1686, pan yn 61 ml. oed; a chladdwyd ef yn Eglwys gadeiriol Efrawg, lle y rhoddwyd cof-golofn hardd ar ei fedd.

**DOLBEN**, Syr William, Marchog, ydoedd fab i'r Dr. Wm. Dolben, periglor Stanwich, a brawd i'r un blaenorol. Efe a gafodd ei ddysgeidiaeth yn Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn M.A., yn y flwyddyn 1665. Daeth yn Ddadleuydd o'r *Inner Temple;* ac o'r diwedd, cafodd yr urdd o Farchog, a'i ddyrchafu yn un o farnwyr y *King's Bench.*

**DOLBENMAEN**, plwyf yn nghantref Eifionydd, swydd Gaer yn arfon, Gogledd Cymru; 12 milldir o dref Caer yn arfon, a phum milldir o Dre Madoc. Y mae adwyn, (*manganese,*) ac efydd, i'w gael yn y gymmydogaeth hon. Cynhelir ffair yma yn flyneddawl, ar y 26ain o Awst. Y fywioliaeth eglwysig sydd Reithoriaeth, mewn cyssylltiad â Pherigloriaeth Penmorfa, yn arch-ddïaconiaeth Meirionydd, ac esgobaeth Bangor. Yr eglwys, yr hon a gyssegrwyd i goffadwriaeth Beuno Sant, sydd adeilad fechan, yn arddull ddiweddar adeilwaith Seis'nig; ac wedi ei hadeiladu yn y flwyddyn 1432: ac y mae yn y plwyf, addoldai perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd, yr Annybynwyr, a'r Bedyddwyr. Y mae bryncyn celfyddydol crwn, heb fod yn mhell oddiwrth lan y plwyf, ar yr hwn yr oedd castell yn yr oesoedd gynt; wedi ei gyfodi, debygid, er gwarchod y bwlch trwy y dyffryn; ac y mae yn debyg mai gan y Cymry ei cyfodid, mewn rhyw oes dra boreuol: ond nid oes dim olion hen adeiladau yn aros ar y bryn. Y mae tair cromlech fawr yn lled agos y naill i'r llall, gerllaw Ystum Cegid, ac heb fod yn mhell oddiwrth y castell. Gadawodd rhyw gymmwynaswr anadnabyddus, ddwy bunt a deg swllt yn y flwyddyn, i'w rhanu rhwng tlodion y plwyf hwn. Yn agos i'r Clenneneu, ar Fwlch Craig Wen, y mae cylch Derwyddol, yr hwn yn amser y diweddar Barch. Peter Bailey Williams, oedd yn gynwysedig o ddeunaw ar hugain o gerrig; ac un arall uwchlaw Penmorfa, o fewn tua milldir o bellder oddiwrth y llall, ac yn ei olwg. Yn gynar yn y ganrif hon, darganfuwyd amryw wrnau, yn cynwys esgyrn dynol, a lludw, ar dir y Llysdin; a'r holl bethau hyn a dueddant i brofi, bod yr ardal hon yn lled boblogaidd, hyd yn nod cyn y cyfnod Cristionogol.[1]

**DOLBRYN**, trefgordd yn mhlwyf Cenarth, yn Swydd Gaerfyrddin, Deheudir Cymru, tua 2 filldir i'r Dwyrain Orllewin o Gastellnewydd-yn-Emlyn. Y mae yn gynnwysedig o ddyffryn bychan, drwy yr hwn y ffrydia nant furmurol. Y mae y llethrau o ddeutu, yn bur gnydfawr. Poblogaeth, 455.

[1] The Tourist's Guide, &c. By the Rev. P. B. Williams, A.B.

**DOLDREWYN**, trefgordd yn mhlwyf Llandderfel, swydd Feirionydd, Gogledd Cymru; 4¼ milldir i'r Gogledd Ddwyrain o'r Bala. Poblogaeth, 93.

**DOLFACH**, trefgordd yn nghantref a phlwyf Llanfair-yn-Muallt, Swydd Frycheiniog, Deheudir Cymru, 2 filldir o Lanfair, ar lân yr afonig Dihonwy. Amaethwyr sydd yn ei phreswylio, ac y mae'r boblogaeth yn cael ei rhoddi gydag eiddo y plwyf. Y mae y Dihonwy yn llawn pysgod, ac y mae llawer o bysgodwyr yn ymweled â'i glânau yn y tymmor priodol.

**DOLFOR**, neu Dolfawr, capeloriaeth drefgorddawl, yn mhlwyf Kerry, neu "Ceri," Swydd Drefaldwyn, Gogledd Cymru, yn agos i ffin Swydd Drefaldwyn a Swydd Faesyfed, ac yn agos i Reilffordd Llanidloes a'r Dref Newydd, 2¼ milldir i'r De Dde Orllewin o'r Dref Newydd. Y fywioliaeth eglwysig sydd guradiaeth barhaol, mewn cyssylltiad a ficeriaeth Ceri, yn esgobaeth Llanelwy.

**DOLFORWYN**, trefgordd yn mhlwyf y Bettws, Swydd Drefaldwyn, Gogledd Cymru, ar lân yr afon Hafren, 3 milldir i'r Gogledd Ddwyrain o'r Dref Newydd. Poblogaeth, 234. Y mae yma weddillion castell, yr hwn a adeiladwyd tu a'r flwyddyn 1065, gan Bleddyn ab Cynfyn; ac a roddwyd i'r Mortimeriaid. Gwel Bettws.

**DOLGADFAN**, trefgordd yn mhlwyf Llanbrynmair, swydd Drefaldwyn, Gogledd Cymru; 9¼ milldir i'r Dwyrain o Fachynlleth. Gwerth tirawl 905*p*. Poblogaeth, 237.

**DOLGAN**, sant yn y 6ed ganrif, ydoedd fab Gildas ab Caw, ac aelod o gôr Cattwg.

**DOLGANED**, treflan yn mhlwyf Abergeleu, swydd Ddinbach, Gogledd Cymru. Poblogaeth, 87.

**DOLGAR**, Santes, a chwaer i Dolgan.

**DOLGARROG**, treflan yn mhlwyf Llanbedr y Cennin, swydd Gaer yn arfon, Gogledd Cymru; ar lân yr Afon ddu; 7¼ milldir o Gonwy, ar fin y ffordd i Drefriw. Poblogaeth 134, yn 1861. Y mae yr olygfa ar ddyffryn y Conwy yn hardd dros ben yn y fan hon; a'r afon, yr hon sydd yn tarddu o Lyn Cawlwyd, a ruthra i waered yn ffrochwyllt rhwng glenydd creigiog serth, gan ffurfio amryw reieidr heirdd yn ei rhawd; ac yn fuan wedi myned trwy y pentref hwn, y mae yn ymarllwys i Afon Conwy. Ceir golwg fanteisiol oddiar bont Dolgarrog, ar y tirweddau amrywiol a brydferthant y gymmydogaeth. Poblogaeth, 134; tai, 27; yn ol Deiliadeb 1861.

**DOLGELLEU** sydd dref farchnad a phlwyf, yn nghwmwd Tal-y-bont, a Mawddwy, Swydd Feirionydd, Gogledd Cymru; 18 m. o'r Bala (De. Orll.), 20 o Harlech (De. Ddwy.), a 211 (Gor. Gog. Gor.) o Lundain, ac yn cynwys poblogaeth o 2217. Saif rhwng afonydd Wnion ac Aran, yn agos i ymuniad yr olaf â Mawddach, mewn dyffryn llydan a ffrwythlon, o brydferthwch mawr, wrth odreu Cader Idris. Golyga yr enw "*Ddol*" o "*Gyll,*" gan fod y Gollen mewn cyflawnder mawr yn y cymydogaethau hyn. Yn amser y gwrthryfel a arweinid gan Owain Glyndwr, yn y flwyddyn 1404, cynhullodd Owain Senedd yn y dref hon, ac anfonodd ei ganghellydd, Gryffydd Yonge, LL.D., archddeon Meirionydd, a'i garenydd, John Hanmer, yn genhadau i lys Ffrainge, gyda chred-lythyrau oeddynt yn dechreu, fel hyn, "*Owinus Dei gratia princeps Walliæ,*" ac wedi eu dyddio fel hyn—*Datum apud Doleguelli* 10 *die mensis Maii, MCCCC quarto, et principatus nostri*

Digitized by Google

*quarto.*" Yn ysdod y rhyfel a fu rhwng Siarl I., a'r Senedd, yr oedd Dolgellau wedi ei meddianu gan fyddin fechan, dros y Senedd, a gwarchaewyd arni gan oddeutu cant o wŷr y brenin, y rhai, modd bynag a wasgarwyd gan Mr. Edward Fychan; a chymerwyd eu cadben yn garcharor.

Ystyrir Dolgelleu fel prif dref y Sir, fel y mae y fwyaf poblog, a chanolog o ran ei sefyllfa. Y mae yn sefyll ar fan dymunol, ar y brif-ffordd rhwng Trallwng ac Abermaw. Nid yw yr heolydd wedi eu cynllunio wrth unrhyw drefniant rheolaidd; y maent yn gulion, yn groesion, ac o osodiad anghyson, ac amryw o'r tai, yn henafol a di lun; ond y mae y dref, er yn ddiweddar, wedi ymloewi i raddau mawr, a'r tai gwaelaf wedi rhoddi lle i'r adeiladau goreu. Y mae y gymydogaeth hon yn cael ei haddurno â mynyddoedd uchel, llethrau pa rai sydd wedi eu gwisgo â nifer o goedwigoedd prydferth, ar diroedd ffrwythlawn, yn cael eu dyfrhau gan yr Wnion, neu *Gwynion*, sydd yn uno a'r afon Maw, neu Mawddach, gerllaw Llanelltyd, tua dwy filltir yn is i lawr, ac yna yn rhedeg yn mlaen, nes ymarllwys i fay Aberteifi, yn Abermaw. Dechreuwyd adgyweirio y dref ar y 4ydd o Fehefin, 1830, gan Syr Robert Vaughan, Barg., drwy adeiladaeth nifer o dai sydd yn ffurfio heol, a elwir Rhes Eldon, er anrhydedd boneddwr o'r enw hwnw; ac y mae amryw ranau eraill o'r dref, wedi eu gwellhau yn rhagorol. Nid oes ond ychydig o henafiaethau dyddorol yn perthyn i'r dref. Ymddengys ei bod yn adnabyddus i'r Rhufeiniaid; er nad oes olion adeiladau iddynt yma; yr oedd hyn yn ddigon eglur oddiwrth fathodion a ddarganfyddwyd mewn ffynon yno, gyda'r cerfiad canlynol—IMP. CÆSAR. TRAIAN. Y mae yr afon Wnion yn cael ei chroesi gerllaw y dref, gan bont o saith bwa maen, wedi ei hadeiladu yn 1638, ac a helaethwyd, ac a wellhawyd ychydig o flyneddau yn ol. Y mae y plwyf tuag un filltir ar bymtheg o hyd, ac o dair i bedair o led; y mae llawer o hono, yn dir bryniog a mynyddig, yn cynwys llwybrau defaid, a nifer o fân lynau, o ba rai y cyfodir cyflawnder o fawn a thanwydd. Cauwyd allan tua chwe mil o erwau o dir diffaith yn ddiweddar, drwy weithred seneddol, a gafwyd yn 1811. Y mae y lle hwn wedi cael ei hynodi er ys amryw flyneddau bellach, am wneuthuriad brethyn cyffredin, neu wlanen, a elwid "*Gwe*," neu "*Web* Cymreig," ac yr oedd tua phedwar-cant-ar-ddeg o weithwyr yn cael gorchwylion yn y gwaith hwn; ac yr oedd yma tua deng mil ar hugain o fwrneli, yn cynwys tu achant a deg o latheni bob un, y rhai a anfonid mewn llongau i Lerpwll, ac oddi yno i Charlestown, Carolina Ddeheuol. Y mae defnydd cyffelyb yn cael ei weithio mewn lle yn Sir Drefaldwyn, ac mewn man yn Sir Ddinbach, ond nid gyda'r fath gyflawnder ag yn Nolgellau, a'r gymydogaeth. Ymddengys fod y gwaith hwn wedi bod yma er yn gynar iawn; o blegid yn ol gweithredoedd seneddol dan Iago I., a thrwy ddau orchymyn yn nghylch eu rheolaeth gan Gyfrin Gyngor Siarl I., y mae hyn yn cael ei gadarnhau. Hyd tua therfyn y ganrif ddiweddaf, yr unig farchnad reolaidd at brynu a gwerthu yr eiddo hyn, ydoedd yn yr Amwythig, ar ddydd Iau, yn wythnosol; ond y mae goruchwylwyr yn awr, o Lerpwll, ac Amwythig, yn myned i'w prynu i le eu gwneuthuriad. Yn y ganrif ddiweddaf, gwerthid hwy yn gyffredin oddiar y gwehydd; ond y mae pandai, a lleoedd i'w cannu wedi eu codi erbyn hyn, ar lanau yr afonydd, yn yr holl ardaloedd. Y mae cryn waith hefyd yn cael ei wneud yma, mewn triniaeth crwyn defaid, cartrefol a thramor; ac y mae dros gan mil o'r rhai blaenaf yn cael eu danfon yn flyneddol i Gaerwrangon, a Chaerlleon; ac ychydig i Lundain. Y mae barceriaeth hefyd yn cael ei gario yn mlaen yn lled helaeth yma; ac mewn rhai manau, y mae mŵnyddiaeth mewn efydd, a phlwm, yn cael ei ddwyn yn mlaen gyda chryn gyflawnder. Ond yn y dosparth hwn, er ys rhai blynyddau bellach, y mŵn sydd yn tynu fwyaf o sylw, fel y mae naturiol, o blegid ei werth, ydyw yr aur. Ymddengys fod rhyw raddau o hono yn holl *quartz* y wlad. Y mae y cerig gwynion i'w canfod yn mhob cloddfa yma, ac yr oedd cyffro mawr drwy yr holl ardaloedd yn ddiweddar, mewn anturiaethau i agor yr aur-gloddfeydd yn mhob cyfeiriad. Pa un a ydyw y graddau o hono, yn ddigonol i ateb y draul o'i weithio, sydd bwnc ag y mae amrywiaeth golygiadau am dano. Yn fuan wedi terfyniad rhyfel Amerig, agorwyd ystorfa at lwytho llongau bychain â brethyn y wlad, at fasnach dramor, yn Abermaw, a chludid nifer mawr i Lundain, yn y llongau ag y byddai eu balast o lechi, neu geryg palmantu. Terfynodd yr allforio tua 1793, a dychwelwyd i anfon gyda'r tir, fel cynt, mewn gwageni i Amwythig, a manau eraill. Yr oedd y llongau, wedi hyn, yn cludo eiddo masnachwyr y dref i Abermaw, ac yn mlaen, gyda'r afon Maw, mewn cychod, o ddeg i ugain tunell o lwyth, i le cyfagos i bont Llanelltyd, o fewn tua dwy filltir i Dolgellau. Y mae yma ddwy farchnad wythnosol, ar y Mawrth a'r Sadwrn; a ffeiriau, yn benaf at werthu gwartheg a cheffylau, caws ac ymenyn, &c., ar Chwefror 20; Ebrill 21n; Mai 11g; Mehefin 27n; Awst 13g; Medi 20d; Hydref 9d; Tachwedd 22n; a Rhagfyr 16g. Y mae Sesiwn yr haf, a Chwarter sesiwn y Pasg, a Gwyl Mihangel, dros y Sir, yn cael eu cynal yma; ond nid oes yma ond nifer fach o garcharorion yn cael eu prawf, ac ni fydd yma yn fynych ond "*sesiwn wag*," ac heb neb i'w ddwyn ger bron. Y mae llys y mân ddyledion, yma yn gyffredin, ac weithiau yn y Bala. Y mae llys y dref, yr hwn sydd yn adeilad hardd, ac a gyfodwyd yn 1825, drwy y draul o 3000*p.*, yn ymyl yr afon Wnion; ei hyd yn y wyneb yw, deuddeg troedfedd a thriugain ac wyth modfedd; y mae y brif ystafell a'r celloedd llai, wedi eu gwneud i fynu yn drefnus, at bob gofynion, megis yr ystafell i'r ynadon, yr arfogaeth, &c. Y mae y carchardy, yn ystafellau eang, ar fin y dref, wedi ei adeiladu yn 1811, gyda'r draul o 5000*p.*, ac y mae cynlluniad yr holl ystafelloedd yn gyfleus at eu dybenion.

Y mae y fywoliaeth yn berigloriaeth, yn archddeoniaeth Meirionydd, ac esgobaeth Bangor, ac yn nhadogaeth y Goron. Neillduwyd tua phum erw o dir, a gauwyd i mewn yn y flwyddyn 1811, o fewn tua thair milltir i'r dref, at wasanaeth y periglor, gan y goron. Y mae yr Eglwys yn adeilad eang, wedi ei chysegru i St. Mair, o gynllun Groegaidd, ar ychydig o godiad tir, yn nghanol y dref, gyda thŵr ysgwar, a chlych, ond heb nemawr o addurniadau, mewnol nac allanol. Y mae yma gofadail henafol, yn dwyn delw barwnig mewn arfogaeth, gyda chi wrth ei draed, yn cynnrychioli un o hynafiaid teulu Vaughan o Nannau, sef Meurig ab Fychan; ac fe adeiladwyd yma yn ddiweddar, gofadeiliau hardd, am y Barwn Richards, yr hwn oedd frodor o'r lle, ac o'r Parch. John Jones, Archddeon Meirionydd. Yr

Digitized by Google

hynotaf o'r cyfan ydyw y cyntaf a grybwyllwyd, am Meurig Vychan ab Ynyr Vychan pumed mewn disgyniad o'r Tywysog Cadwgan, mab Bleddyn ab Cynfyn, yr hwn a breswyliai yn Nannau, lle sydd yn aros eto yn meddiant ei ddisgynyddion; y mae yn cael ei ddarlunio mewn gwisg fail, a chledd yn ei law; y mae ei arf-darian yn gwisgo llew, gyda'r arwyddair hanesol, *"Hic jacet Mawric filius Ynyr Vychan."* Yr oedd capel henafol, a elwid "Yspytty Gwanas," o fewn tua phedair milltir i'r dref gynt, ar ffordd Dinas Mawddwy, ond y mae pob olion o hono wedi colli erbyn hyn, oddigerth yr ychydig goed Yw sydd yno. Y mae hen senedd-dy Owain Glyndwr ar ei draed eto, yn lle diolwg a gwledig iawn. Y mae yma ysgoldai rhagorol at addysgiad dyddiol. Y mae yma Gapeli gwychion gan y pedwar enwad Ymneillduol, gydag ysgol Sabbathol yn perthyn i bob un; ac y mae Dolgellau wedi enill iddi ei hun enw am ei moesgarwch a'i phrydferthwch, mewn hynawsedd ymddygiadau. Y mae yma argraph-wasgau o gryn ddefnyddioldeb, er ys amryw flyneddoedd, yn troi allan gyhoeddiadau cyfnodol, a newyddiadur wythnosol, o gylch-daeniad eang. Sylfaenwyd yr ysgol Ramadegol yn 1665, gan John Ellis, D.D., periglor y plwyf, yr hwn a wnaeth gymunrodd o dyddyn, a elwir y Penrhyn, yn mhlwyf Llanaber, yn y Sir hon, er addysgu deuddeg o fechgyn tlodion; ychwanegwyd at y gwaddol, drwy ewyllys y Parch. Ellis Lewis, o'r lle hwn, dyddiedig Awst 21, 1727, yr hwn a roddodd dyddyn a elwir Cilgwyn, yn mhlwyf Llandrillo yn Rhos, Sir Ddinbych, gyda 50*p.* at adeiladu ysgoldy. Hefyd 300*p.* gan y Parch. Mr. Tamerlain, y periglor diweddar. Gwerth blyneddol y lleoedd hyn, hyd yn ddiweddar, ydoedd 40*p.* y flwyddyn; y mae yn rhaid i'r athraw, yr hwn a benodir gan beriglor Dolgelleu, fod wedi ei raddio yn Rhydychain, neu Gaergrawnt, ac ni chaniateir iddo dderbyn swydd eglwysig, heb roddi yr alwedigaeth yma i fynu. Gadawodd John Rowland, Ysw., o Lundain, 4*p.* at wyddor-rwymiad pedwar o fechgyn tlodion; ac y mae ychydig o roddion yn mhellach, wedi eu gwneud i dlodion y lle hwn; y prif un o honynt ydyw tyddyn, a elwir Faenol, yn mhlwyf y Tywyn, o werth tua 15*p.* 15*s.* y flwyddyn, i'w cyfranu yn ol trefniad periglor y lle.

Y mae y gymydogaeth hon yn tynu sylw pawb a ymwelo â hi, o ran ei phrydferthwch, can gystal a'i thirweddau tarawiadol, a rhamantus. Y mae rhan o'r adeilad a fu yn senedd-dy Owain Glyndwr, yn sefyll yn mhlith nifer o fân dai gerllaw gwesty y Llong, ac a elwir weithiau *"Cwrt plas yn y dref."* Bernir fod y *Via Occidentalis* Rufeinig, yn cymeryd ei llwybr o *Menapiæ*, neu Ty Ddewi, i *Segontium*, neu Caernarfon, drwy y dref hon, rhwng yr hon â Thrawsfynydd, mewn lle a elwir Pen ystryd, gellir gweled rhan o'r olion hyd heddyw. Yn agos i'r dref, mewn lle a elwir Ffynon Fair, rhinweddau dyfroedd yr hon a dybid gynt yn effeithiol er gwella y gewyneg, darganfyddwyd rhai bathodion Rhufeinaidd. Cafwyd torch aur, y fath a wisgai un o'r buddugoliaethwyr Rhufeinig yn Mrydain, a rhai o'r hen benaethiaid Brytanaidd, oeddynt yn gyfeillgar â hwy, mewn corsle, ar fin Llyn Gwernau, yn Medi 1823, yn agos i lwybrau gogleddol Cader Idris, gan James P. Hughes, Ysw., yn ddamweiniol, wrth hela; ac yn anwybodus o'i gwerth, fel dernyn henafiaethol, efe a'i cynygiodd ar werth i gyfaill, am bum swllt, ond wedi i'r cynygiad gael ei wrthod, efe a'i rhoddodd yn anrheg i David Jones, Ysw., un o ysgrifenwyr Ty y Cyffredin, yr hwn a wyddai ei gwerth a'i dyben; y mae hi yn ddwy fodfedd a deugain o hyd, yn pwyso 8 wns a haner, ac y mae gwerth y defnydd yn 36*p.* Y mae o fewn terfynau tir Nannau, yn y plwyf hwn, weddillion amddiffynfa Frytanaidd a elwir Moel Orthrwm," neu "Moel Offrwm;" y mae yn cael ei ffurfio gan goryn craig uchel, yn cael ei gylchynu gan werthyr o feini rhyddion. Y mae palas Nannau, yn sefyll o fewn tua dwy filltir i'r dref; yn adeilad cadarn, prydferth, wedi ei ail-adeiladu ar le mwy manteisiol, gan Sir R. W. Vaughan, Bar.; y mae yn sefyll ar godiad tir, yn cael ei gylchynu gan blanwyddfeydd cauadfrig, yr hwn sydd yn un o ragoriaethau prydferthion Dyffryn Dolgelleu. Yn nheyrnasiad Harri IV., yr oedd etifeddiaeth Nannau yn perthyn i Howel Sele, pleidiwr gwresog i deulu Lancaster, a gelyn chwerw i Owain Glyndwr, ei gefnder. Er mwyn heddychu y ddau garenydd, cynlluniodd Abad Cymer, ffordd i'r ddau, allu cydgyfarfod yn y lle hwn, ac ymddangosai fel pe buasai wedi llwyddo yn ei amcan; ond tra yr oeddynt allan yn cyd-rodio, Owen yn canfod carw yn pori, a'i nododd allan fel pwynt cyfeiriad i saeth Howel, yr hwn a ystyrid y mwyaf medrus gyda'r bwa a saeth, yn ei ddydd. Yna plygodd Hywel y bwa, gan gymeryd arno gyfeirio at ei nod, ond a drodd o amgylch yn sydyn, ac o ollyngodd y saeth at Owain; ond efe a amddiffynwyd gan arfogaeth a wisgai dan ei ddillad, fel na dderbyniodd yr un niwaid. Gafaelodd Owain yn union yn ei garenydd bradwrus; a llosgodd ei balas, sef Nannau, hyd y llawr. Arweiniwyd Hywel i le o garchariad, ac ni chlybuwyd am dano yn fyw byth mwy. Yn mhen tua deugain mlynedd ar ol hyn, darganfyddwyd ysgryd dyn, a dybid mai efe ydoedd, mewn gwagle yn mon coeden dderw fawr, yn yr hwn, y mae yn debygol, y dodasid ef gan Owain.

Y mae dyffryn Dolgelleu yn cael ei hynodi hefyd, am amrywiaeth a phrydferthwch y golygfeydd a geir ynddo; ac y mae yr olwg ar yr ardaloedd pellenig yn ychwanegu y dyddordeb mewn mawredd, cyfoethogrwydd, ac amrywiaeth dihafal. Bernir nad oes nemawr fan yn y dywysogaeth, ag y gellid cael mwy o rodfeydd ymbleseru, na'r gymydogaeth hon; ac y mae yn debyg mai dyma y rheswm a ellir ei roddi am fod cynnifer o deithwyr yn ei dethol fel man eu harosiad ar eu hymweliadau. Un o'r gwrthddrychau mwyaf hywel, ydyw Cader Idris, sydd yn teyrnasu uwch ben, gorsedd Idris Gawr, y sywedydd; coryn yr hon sydd yn esgyn ddwy fil ac wyth gant a deg a deugain o droedfeddi, uwchlaw arwynebedd gwastad dir y dref, yr hon nad oes ond dwy garnedd arall a'r rhai hyny yn Arfon, yn gallu codi eu penau yn uwch; y mae yr esgyniad de-orllewinol yn cychwyn oddiar lan y mor, gerllaw lle yr ymarllwys yr afon Dysyni, tua milltir o Tywyn, ac yn parhau yn ddi rwystr, i ddechreu ar yr ochr ogleddol am dair milltir, ac wedi hyny, am tua deng milltir, at y dwyrain ogledd, gyda throad am agos i dair milltir, gan ymestyn yn dde-orllewinol, yn gyfochrog a'r brif grib. Y mae yr esgyniad o Ddolgelleu, yr hyn a gymer yn gyffredin tua thair awr, yn dechreu tua milltir a haner o'r dref, ar y ffordd at y Tywyn; wedi gwneud y daith hon, a chyrhaedd y prif uchder, a elwir Pen y Gader, y mae golygfa ardderchog yn cyflwyno ei hun ger bron, mewn amrywiaeth swynol, a phellder hirfaith, gydag eangder o, yn y man

Digitized by Google

lleiaf, tua phum can milltir, ac o fawreddigrwydd annychymygol. Ar y gogledd, y mae y drem yn cael ei therfynu gan y Wyddfa, a'i chyd-glogwyni; ar y gorllewin, y mae bay Aberteifi, yn cael ei ymylu gan fryniau Arfon; ar y ddehau, y mae bryniau Maesyfed, a mynydd Plumlumon, gyda lled-olwg rhyngddynt, a bay Abertawy a Chaerodor, gyda phenau eglur Bannau Brycheiniog; ac ar yr ochr ddwyreiniol, i Lyn Tegid, y ddau Arenig a'r ddau Aran, a chadwyn hirfaith mynyddau y Berwyn, gyda bryniau Breiddin, a Wrecin, a hyd yn nod y *Blackstone Edge* ar ymylon swydd Lancaster. Ar ambell waith, pan y byddo y tywydd yn ffafriol, ceir golwg ar Fryniau Iwerddon. O fewn cylch yr olygfa hon y mae amrywiaeth diderfyn o gyferbyniadau yn dilyn eu gilydd, i ddifyru y llygad, ac i swyno y dychymyg, mewn cribau, pigynau, dyffrynoedd, llynau, porthladdoedd, trefydd a phentrefydd, yn uno i wneud y darlun mwyaf tarawiadol i'r golwg. Y mae y mynydd yn serth a chrugog ar bob ochr, ac yn enwedig tu a'r de, hyd ymylon Tal y llyn, lle y mae y disgyniad o'r braidd yn unionsyth. Nid yw ei led yn dal cymhariaeth a'i hyd; pe tynid llinell o'i odreu dros y grib, prin y mesurai dros bedair milltir a haner; ac mewn rhai manau nid yw lled ei sail nemawr dros filltir. Yn y lle a elwir Rhiw gredydd, o fewn ychydig o latheni i'r llwybr, gyda'r hwn y dechreuir esgyn yn gyffredin, ar ochr y mynydd, canfyddir mŵn cyffelyb i *amber* Seisnig, a gafwyd allan yn 1831, o'r hwn y mae cyflawnder mawr wedi ei gloddio; y mae y wythien yn rhedeg trwy ddwy graig, tua thri chwarter llath o drwch. Y mae y rhaiadrau sydd yn y gymydogaeth yn hynod a mawreddig, o'r rhai hyn, y nesaf yw y Rhaiadr Ddû, neu Raiadr Dol y melyn llyn, yn gyfagos i'r bumed careg filltir, ar ffordd Trawsfynydd; cyrchir ato trwy lwybr yn arwain ar y chwith o'r brif-ffordd, i fynu hyd lwybr coediog, lle y gwelir yr afon Camlan yn bwrw ei dyfroedd dros glogwyn, o tua deugain troedfedd o godwm, mewn dwy brif len, a thrwy gilfachau culion, i wely tywyll yn y graig, lle y rhuthra allan yn ewyn berwawg digllawn, ac a gollir o'r golwg yn fuan, yn nghoedydd cauadfrig y gymydogaeth. Y mae golwg eilwaith i'w chael arno, wrth ddilyn trwy lwybr dyrus, nes dyfod i odreu y ceunant, lle yr egyr golygfa darawiadol iawn, gyda rhaiadr arall, o tua deg troedfedd ar hugain o godwm ger bron; ar y chwith, gwelir y rhaiadr blaenorol yn ymluchio dros y clogwyni, yn cuddio y cyfan â gwisg o ewyn cannaid, rhwng creigiau, wedi cael eu coroni âg addurniadau o goed tyfadwy. O fewn tua dwy filltir i'r rhai hyn, ar y gogledd-ddwyrain, mewn dyffryn cul, dwfn, llawn o goed, y mae ceu-nentydd Pistyll Cain, a Phistyll Mawddach, o fewn ychydig o bellder oddiwrth eu gilydd; cyrhaeddir y cyntaf, drwy groesi pont wledig, wedi ei llunio drwy gorph derwen wedi ei gogwydd o'r naill graig ar y llall, uwchlaw agen ddofn, gul, drwy yr hwn y mae y Cain yn ymwthio gyda thrwst mawr, ac ymosodiad bygythiol; wedi disgyn i'r gwaelod, y mae yr afon i'w gweled yn ymyru rhagddi, hyd estyll o'r graig, o tua dau can troedfedd o uchder, agos yn unionsyth, yn disgyn ar gerig wedi eu treulio i ffurfiau cywrain a rhyfedd iawn. Y mae Pistyll Mawddach, yn cynwys tri chodwm, y cyntaf yn ffurfio llen o ddwfr tu ag ugain troedfedd o led, ac yn agos i hyny o uchder, yr hwn sydd yn cael ei dderbyn i gelwrn naturiol, tua deg troedfedd ar hugain o draws-fesur, yna rhed yr afon dros yr ail glogwyn, gyda chwymp o tua deg troedfedd ar hugain, i ail gelwrn, mwy na'r cyntaf; ac oddiyno drachefn, gan ymgulhau, dros drydedd astell, gyda chodwm o ugain troedfedd, i lyn eang, o'r hwn y rhed yn ffyrnigwyllt, nes ymuno a'r Cain. Y mae afon fechan Clywedog, sydd yn codi ar lechwedd Cader Idris, o fewn y plwyf hwn, ac yn ei llwybr o tua dwy filltir, yn ffurfio amryw fân raiadrau, ond rhai o honynt yn ffurfio cwympiadau o haner can troedfedd, ac yn wrthddrychau o gryn ddyddordeb i bob ymdeithydd ymofyngar. Y mae yr afon hon yn rhedeg drwy diroedd amryw foneddion yn y gymydogaeth, gydâg ymylon yr hon, y mae llwybrau hyfryd i rodio, er cael mantais i weled y rhaiadrau; ac ar ol gwlawogydd trymion, y mae eu trwst yn hynod, drwy eu disgyniad:—

"Rhaiadr ar raiadr a rydd
Dwrw gwyllt drwy y gelltydd,"

nes adsain yr holl ardal, a difyru yr ymdeithydd. Y ffordd i'r llwybr rhamantas hwn, sydd gerllaw Caerynwch, ydyw trwy gymeryd-ffordd Machynllaith tua milltir; dilyn y llwybr ar y chwith, sydd yn arwain at felin Clywedog, ac yno, heb groesi y bont, troi ar y dde, drwy y llidiart, a chyfeirio gyda'r llwybr ar fin afon y mynydd; y mae yr esgyniad yn dra syth am tua milltir, neu ychwaneg, gydâg ochr yr afon, ac yn ngolwg ei chwympiadau, sydd yn ferw gwyn dros y gwely lle y rhed.

Y mae llawer o chwedlau yn cael eu hadrodd am Gader Idris, mewn cysylltiad a llen gwerin, sef mai Cadair neu eisteddfa Idris ydoedd, yr hwn ydoedd gawr o enwogrwydd, ac yn ol yr hen gofnodau barddol, yn brydydd, yn seryddwr, ac yn athronydd. Y gadair oedd ei brif arsyllfa, a phriodolir llawer o weithredoedd gorchestol iddo. Y mae yn yr ardal hon nifer o balasau o gryn enwogrwydd, yn mhlith y rhai y gellir rhesu, Nannau, a Hengwrt, etifeddiaeth teulu y Fychaniaid; Caerynwch, Richards; Fronwnion, Williams; Bron-y-gader, Williams; Bryn-y-gwin, Reveley; Brynadda, Anwyl; Abergwynant, Banbury; a Garthangharad, Owen; yn nghyd a nifer eraill, llai o sylw. Y mae Hengwrt yn henafol ac anrhydeddus, ac o fewn ychydig i'r lle, y mae gweddillion Abatty Cymer. Yma y preswyliai Robert Vaughan, neu "Fychan," yr hynafiaethydd, awdwr y "*British Antiquities Revived,*" yr hwn a fu farw yn 1667. Y mae ei lyfrgell Gymreig, yn orlawn o drysorau henafiaethol gwerthfawr, ac yn awr mewn cysylltiad â Nannau. Gelwid yr hen abatty gan y brodorion, "Y Faner," saif o fewn ychydig ar y dde, o ffordd Dolgellau, ar ddyfodiad at bont Llanelltyd. Yr oedd yn perthyn i'r dosparth a elwid "*Cistercian;*" ac a sefydlwyd yn 1200, ond a ddadgorphorwyd yn amser Harri VIII. Y mae rhai o gysylltiadau yr hen deml, yn gynwysedig yn adeiladau ffermdy gerllaw. Y mae y rhan a olygid fel yr eglwys, yn cael ei chadw mewn adgyweiriad. Y rhan berffeithiaf ydyw y pen dwyreiniol, lle y gwelir tair o ffenestri pigfain, yn tremio drwy drwch o eiddew; y mae ychydig o bilerau, a bwäau-meini Gothaidd, yn aros yn y mur deheuol; ac y mae yn gyfagos, ddarlun o ben dyn, wedi ei anweddu. Y mae rhai hanesion yn cam osod hon allan, yn lle Abatty Cwmhir, yn Maesyfed. Dywedai Syr Richard Hoare, "Mewn lle gerllaw Trawsfynydd, ar y ffordd

Digitized by Google



Drawn by A. Maclure

GLYN LLEDR, A MOEL SIABOD O BELL.

BLACKIE & SON, GLASGOW, EDINBURGH & LONDON

Digitized by Google

Digitized by Google

o Ddolgelleu, gwelais olion o'r hen ffordd oedd yn cyfeirio at orsaf *Heriri Mons*, yn Nhomen y mur." Y mae golygfa brydferth ar y dyffryn, i'w chael o ffordd Dinasmawddwy, gyda y dref, a Chader Idris; ac o'r Twr glas, gerllaw Garthangharad, y gwelir bay Aberteifi yn fanteisiol iawn, yn gystal ag Ynys Enlli, a therfynau Caernarfon, a thref Abermaw, yn ngenau y Mawddach, gyda'r afon hono yn llithro yn orllewinol drwy y dyffryn, yn cael ei therfynu gan y ddau Aran; ac y mae yr holl ffordd o Ddolgelleu i Abermaw, yn arddangos golygfeydd tarawiadol iawn, mewn mynyddau uchel-grib, a gwastadoedd ffrwythlawn rhyngddynt. Yr oedd Lewis Owen, Ysw., y Barwn swyddol dros Ogledd Cymru, a lofruddiwyd gan nifer o wylliaid Mawddwy, ar ei fynediad i lys cyfreithiol y wlad, yn Nhrefaldwyn, yn 1555, yn cyfaneddu yn y Llwyn, gerllaw y dref. Y mae y fan hono hefyd wedi ei hynodi, fel trigfan y Dr. John Owen, Deon Christ-church, Rhydychain, yr Annibynwr enwog.

Ystyrid Dolgelleu, hyd yn ddiweddar, fel un o'r manau mwyaf Cymreig yn Ngwynedd, ac aml y dyfelid mai yma y byddai cartref olaf yr iaith Gymraeg, ond y mae y Rheilffordd wedi cyrhaedd yma, ac y mae yn debygol y bydd newidiadau pwysig ar gymeriad yr holl ardal cyn y byddo hir. Eto yn nghanol y cyfnewidiadau, y mae yn dra thebygol, y bydd y gymydogaeth o amgylch, yn aros yn Gymreig, o ran iaith ac arferion, am nifer lawer o oesoedd, os nid am ddyddiau y ddaear. Y mae yn dra thebygol, wedi cael manteision teithio, a chludo eiddo o bob math gyda rhwyddineb, y bydd y dref hon, yn ymgodi yn fuan mewn pwysigrwydd, yn yr holl anturiaethau a'r gwelliannau priodol i dref mewn gwlad. Yma y bu y Parch. Cadwaladr Jones yn treulio ei oes weinidogaethol gyda yr Annibynwyr, ac fel Golygwr y Dysgedydd, am dymhor maith. Y mae Bywgraphiad helaeth iddo, wedi cael ei gyhoeddi yn ddiweddar.

**DOL-GLEDR**, trefgordd yn mhlwyf Dolgelleu, swydd Feirionydd, Gogledd Cymru; yn agos i Ddolgelleu. Gwerth tirawl, 1421*p*. Poblogaeth, 294.

**DOLGWDEN**, trefgordd yn mhlwyf Tref Eglwys, swydd Drefaldwyn, Gogledd Cymru; yn agos i'r afon Clywedog; 4¼ milldir i'r Gogledd o Lanidloes.

**DOLGWYN-FELYN**, treflan yn mhlwyf Manafon, swydd Drefaldwyn, 3 milldir i'r Dehau o Lanfair. Poblogaeth, 118.

**DOLWAR**, trefgordd yn mhlwyf Llanfihangel, swydd Drefaldwyn, Gogledd Cymru; 5½ milldir i'r De Orllewin o Lanfair. Poblogaeth, 190.

**DOLWEN**, pentref bychan, mewn dyffryn prydferth, tua haner y ffordd rhwng Llanelian yn Rhos, a'r Bettws yn Rhos, swydd Ddinbach, ger llaw yr hwn y mae palas hardd y Coed Coch.

**DOLWEN**, trefgordd yn mhlwyf Llansantffraid, swydd Drefaldwyn, Gogledd Cymru, 4¼ milldir i'r Dwyrain Ogledd Ddwyrain o Lanfyllin. Poblogaeth, 57.

**DOLWEN**, gorsaf Rheilffordd yn swydd Drefaldwyn, ar Reilffordd y Dref Newydd a Llanidloes, 2¾ milldir i'r Dwyrain Ogledd Ddwyrain o Lanidloes.

**DOLWYDDELAN**, plwyf yn nghantref Nancowy, swydd Gaer yn arfon, Gogledd Cymru, 8 milldir i'r De Orllewin o Lanrwst. Y mae yn gorwedd ar lan yr afon Ledr, neu Ledoer, wrth droed Moel Siabod. Y mae y plwyf hwn yn gorwedd yn agos i derfyn De Ddwyreiniol y Sir, ac yn ymylu ar Swydd Feirionydd, gan yr hon ei ffinir ar y tu deheuol, ac yn ymestyn ar y tu Gorllewinol hyd fynyddoedd Eryri, y rhai ydynt, mewn rhan, o fewn ei ffiniau. Trawsir y plwyf gan yr afon Ledoer, yr hon wedi derbyn amryw ffrydiau o'r bryniau cylchynol, a chymeryd cyfeiriad dwyreiniol trwy y plwyf, a ymarllwysa i afon Conwy, yn agos i Gapel Garmon. Y mae arwynebedd y plwyf yn hynod o arw ac anwastad, gan ymddyrchafu yn fryniau tra uchel mewn llawer o fanau, ac oddieithr y dyffrynoedd, y rhai ydynt ffrwythlawn, y mae y rhan fwyaf o'r tir yn fynyddig a llwm. Y mae y tirweddiad cylchynol yn fawreddog a gwyllt, yn hytrach nag yn brydferth.

Barna rhai mai "Dolyddelen" y dylid ysgrifenu enw y plwyf hwn; a haerant fod Elen Luyddog, merch Coel Codebog, wedi bod yn cyfanneddu yma; ac y mae llawer o draddodiadau cyssylltiedig â'r dywysoges hono, yn nofio ar len gwerin yn y plwyf hyd yr oes hon; ond y mae yn amheus a fu hi erioed yma. Y mae yn ymddangos yn fwy tebyg, mai Sant boreuol o'r enw Gwyddelan, a ddug yr efengyl i'r gymmydogaeth yma, yr hwn a lwyddodd i grynhoi cynnulleidfa Gristionogol yn y lle, i wasanaeth y rhai yr adeiladwyd addoldy yma ar y dechreu; ac ar ail, neu drydedd adeiladiad yr addoldy, fel y cyssegrwyd y lle i goffadwriaeth yr hen sant, gan ei galw "Dolwyddelan." Fel hyn y dywedir yn Achau Saint Ynys Brydain;—"Gwyddelan, ei âch a'i amser sydd anhysbys. Ei eglwysi oeddynt Llanwyddelan ym Mhowys, a Dolwyddelan yn Arfon." Ac ar Gofadail i Meredydd Wynne, a'i wraig, sydd yn eglwys Llanrwst, gelwir y plwyf ar enw *St. Gwythelan*, ac y mae y pethau yna yn awdurdod uchel dros farnu, mai oddiwrth Sant Gwyddelan y cafodd y plwyf ei enw.

Y mae pont dda yn croesi yr afon, ar gyfer Eglwys y plwyf, wedi ei gwneyd yn ol cynllun pont Llanrwst, yn dwyn arni yr amseriad 1808; ac heblaw hon, y mae tair o bontydd eraill yn croesi yr afon; un hen bont goed, ddi addurn, a elwir Pont y Pant; ac y mae lluaws o brif arlunwyr y deyrnas, wedi tynu lluniau o hon a'i hamgylchoedd, fel y mae yn dra adnabyddus yn nhrefydd mawrion Lloegr: y llall sydd o fwa maen, ac wedi ei gwneyd mor ddiweddar â'r flwyddyn 1852; y mae hon yn sefyll gerllaw tyddyn a elwir Perth Eos: ac y mae un arall yn uwch i fynu, a elwir Pont Sarn Ddu, dros yr hon yr oedd yr hen ffordd yn myned. Y mae ffordd y plwyf yn gyfochrawg â'r afon, am lawer o filldiroedd; ac mewn rhai manau, y mae dibynau dyfnion, ac ochrau echryslawn, rhwng y naill a'r llall; yr hyn, yn nghyd a'r creigiau ysgythrawg, sydd yn crogi uwch ben mewn llawer o fanau, sydd yn peri fod teithio ar hyddi yn boddio chwilfrydedd y teithydd dyeithr yn fawr: mewn gair, y mae amrywiaeth ac aruthredd y golygfeydd yn Nolwyddelan, yn dangos nodweddiad "Gwyllt Walia" mor effeithiol ag un man yn Nghymru. Y mae tyddynwyr Dolwyddelan yn gwneyd eu helw yn benaf oddiwrth ddefaid, a magu anifeiliaid; a llawer o'r llafurwyr yn cael bywioliaeth gysurus wrth weithio yn y llech-gloddfeydd: ac er fod y plwyf ar y cyfan yn fynyddig, y mae rhai dolydd gwastad o ddau du yr afon, o'r rhai y cair cnydau da o wair, ceirch, &c. Ar greig-fryn tua chanol y plwyf, y saif y castell, yr hwn yw y gwrthddrych mwyaf hynod yn y plwyf. Ar y cyntaf, yr oedd y

Digitized by Google

castell yn cynwys dau o dyrau pedair-ongl; un yn mesur 43 troedfedd, a 6 modfedd, wrth 31 troedfedd; ac y mae y tŵr hwn yn aros eto, mewn cyflwr lled dda, gan ei fod wedi cael ei adgyweirio o fewn yr oes hon, ar draul y diweddar Arglwydd Willoughby de Eresby. Ymddengys fod tair o ystafelloedd yn y tŵr hwn. Yr oedd y tŵr arall, yr hwn nid oes ond rhyw fur adfeiliedig yn sefyll o hono yn bresenol, yn mesur 47 troedfedd, a 6 modfedd, wrth 25 troedfedd. Yr oedd y tyrau hyn hefyd, oddeutu 60 troedfedd o uchder; a'r rhag-furiau yn bum troedfedd o drwch, a thuag 8 troedfedd o uchder, y rhai a gyrhaeddent o'r naill dŵr i'r llall, o bob ochr, gan amgau y canol yn fath o neuadd agored, tua 60 troedfedd o hŷd a lled. Y mae darn o un o'r magwyrydd hyn i'w chanfod eto, heb ei llwyr ddystrywio; yr oedd y cyfan wedi ei wneyd o geryg cyffredin yr ardal, a'u gweithio â chymrwd. Y mae yr olwg ar y fath gruglwyth o geryg wedi eu casglu at eu gilydd, a hyny heb un moddion gwell na gallu y corff dynol, yn peri syndod annrhaethadwy i bob edrychydd ystyriol; a chesglir yn naturiol fod y cyfryw lafur, yn effaith meddwl tra phenderfynol.

Nid oes un mynegiad eglur ar glawr Hanesyddiaeth, gan bwy, na pha bryd yr adeiladwyd yr hen amddiffynfa hon; ond, y mae haneswyr yn cyd uno mai rhyw bryd oddeutu y bumed ganrif y gwnaed ef, yn amser teyrnasiad Maelgwyn Gwynedd. Priodolir adeiladiad cestyll Amwythig, Deganwy, a Chricciеth, gan rai, i Maelgwyn; a chan fod castell Dolwyddelan yn dwyn arwyddion o debygrwydd mawr, y mae lle i gasglu mai dan gyfarwyddyd yr un arch-adeiladydd y cyfodwyd hwn a'r lleill.

Oddeutu y 12fed ganrif, medd Hanesiaeth, ymneillduodd Iorwerth, a gyfenwid "Y Trwyndwn," i'r castell hwn i gyfaneddu. Yr ydoedd Iorwerth yn fab henaf i Owain Gwynedd, ac felly yn ettifedd agosaf i deyrngadair y Dywysogaeth; ond, gan fod anaf anolygus ar ei drwyn, efe a roddwyd o'r neilldu, a'i frawd Dafydd ab Owain, a olynodd ei dad yn y llywodraeth. Tra yr oedd Iorwerth yn cyfanneddu yn nghastell Dolwyddelan, ganwyd mab iddo, yr hwn a elwid Llewelyn ab Iorwerth, yr hwn, pan ddaeth yn llawn-dwf, a aeth a theyrn wialen Gwynedd oddiar ei ewythr, a hyn a fu yn y flwyddyn 1195. Y Llewelyn hwn oedd wr o feddwl tra phenderfynol a diofn; ac efe a fu yn dywysog dewr a llwyddiannus iawn dros haner can mlynedd. Efe a fu farw o'r parlys mud, yn y flwyddyn 1240, a chladdwyd ei gorph mewn arch garreg, yr hon a gafniwyd yn gyfan-waith; a mesura yn agos i dair llath o hyd, a llathen o led. Y mae yr arch hon i'w gweled yn awr yn Eglwys Llanrwst.

Yr hanes cyntaf sydd ar gael ar ol hyn am gastell Dolwyddelen, ydyw, fod un Howel Coetmor yn byw ynddo, oddeutu dechreu y bymthegfed ganrif. Yr oedd yr Howel hwn, yn y chweched genhedlaeth o Owain Gwynedd, yn llinach ei fab Rhodri. Ni chyfrifid ef yn dywysog, ond yr ydoedd yn un o'r pymtheg penaeth a bennodasid yn Nghymru dan freninoedd Lloegr, yn meddu awdurdod i gadw milwyr danynt. Ymddengys oddi wrth gyfenw Howel, fod perthynas rhyngddo a thŷ sydd yn Mlaenau plwyf Dolwyddelen, a elwir "Coetmor" hyd heddyw. Y mae yn dra thebyg, mai Howel a adeiladodd yr hen dŷ hwnw, a'r hen dai eraill sydd yn y lle, y rhai a ymddangosant o'r un amseriad a gwneuthuriad, sef y Garnedd, y Ffridd, y Fynhadog, a'r Gorddinan. Efallai eu bod wedi eu hadeiladu tu a'r un amser, i geraint, a swyddogion Howel, am na allasai y castell ei hunan gynwys ei holl lu ef, yr hwn oedd yn gynwysedig o bedwar neu bum cant o filwyr. Y mae traddodiad yn yr ardal, fod adeilad wedi ei chyfodi gerllaw y castell, at wasanaeth gwragedd y gwarchodlu; ac y mae hen dŷ yn aros yn y llanerch eto, a elwir "Hafod y Gwragedd."

Yn yr adeg yma yr oedd Rhisiard y Trydydd, brenin Lloegr, yn gorthrymu y wlad yn dost; ac yn ei eiddigedd am gadw y goron yn meddiant ei deulu ei hun, efe a barodd lofruddio ei neiaint, wyrion Owain Tudur, o Fôn: ond, trwy ryw ffawd, dyogelwyd un o honynt, Iarll Rhismwnd, rhag ei gynddaredd; ac efe a giliodd i Ffrainc. Wedi i'r tywysog hwnw gyrhaedd i'w gyflawn oedran, efe a daer gymhellwyd gan ei gyfeillion, a chan amryw o'r pendefigion Cymreig yn enwedig, i ddyfod drosodd i hawlio yr orsedd: ac o'r diwedd, efe a ddaeth, ac a diriodd yn Aber-dau gleddyf. Pan glybu y brenin am y bwriad yma, efe a anfonodd at yr holl bennaethiaid yn Nghymru, yn nghyda phendefigion Lloegr, i erchi iddynt ddyfod, a'u byddinoedd ganddynt, i'w gynnorthwyo: ond, yr oedd y Cymry, gan mwyaf, yn wrthwynebwyr i'r brenin, ac yn gefnogwyr i'r Iarll. Er hyny, aeth Howel Coetmor, a byddin gref dan ei arweiniad, o gastell Dolwyddelen, i gynnorthwyo y brenin; ac ar ei ymddangosiad o'i flaen, estynodd y brenin Rhisiard gwppanaid o win ato, ac a'i cyfarchodd, gan ddywedyd, "Howel, tydi yn unig o'r Cymry, sydd yn profi dy hun yn ffyddlawn i'th frenin heddyw." Ymladdwyd brwydr Bosworth ar yr 22in o Awst, 1485, ac ynddi lladdwyd y brenin, a gwasgarwyd ei fyddinoedd, a'r Iarll a goronwyd ar y maes, dan y teitl Harri y Seithfed. Ychydig iawn sydd o hanes Howel ar gael ar ol hyn; yn unig ymddengys iddo ddychwelyd adref at ei deulu, a threulio gweddill ei oes mewn annghyoeddusrwydd. Nid ydys yn sicr yn mha flwyddyn y bu farw, na pha faint oedd ei oedran; ond, y mae yn sicr mai yn yr hen Eglwys ar Fryn y Bedd, y cafodd ei gladdu: ac y mae Coflun gwenith-faen o hono, i'w weled yn Eglwys Llanrwst, tua 2¼ llath o hyd, yr hwn a symmudwyd o Eglwys Dolwyddelen, gan Rhisiard Wynn, er mwyn cyflenwi, yr hen gafell henafiaethol hynod, a welir yn yr Eglwys hono. Y mae yn gorwedd ar ei hŷd, fel arwr, ger ystlys arch careg Llewelyn; ac y mae o naddiad penigamp, yn ei wisg filwrol; a'r ysgrif ganlynol yn gerfiedig ar osail y Coflun, mewn llythyrenau blewog.—

> "Howel Coetmor, ap Dafydd Gam, alias Gôch,
> natural son to David, Prince of Wales."

Ymddengys fod yr hen ddull o gadw milwyr mewn cestyll, wedi diflanu yn raddol, yn fuan ar ol hyn; ac mewn canlyniad, rhaid fod llawer o gyfnewidiad wedi cymeryd lle yn nghymydogaeth Dolwyddelen, trwy ymadawiad lluaws o'r milwyr, gwasanaeth y rhai ydoedd wedi dyfod yn afreidiol; a bu raid i'r gweddill, a drigent yn y tyddynod, droi i drin eu tiroedd, er mwyn eu bywioliaeth. Yr oedd dau o feibion gan Howel Coetmor, sef Dafydd, a Meredydd; aeth Dafydd i fyw i'r Hen blas, yn agos i Lanrwst; ond y mab henaf, Meredydd, a ymsefydlodd yn Eifionydd, ar ei ettifeddiaethau, Cefn y Fan, a Chesail Gyfarch. Mab henaf Meredydd, ydoedd Robert ab Meredydd; a mab henaf Robert, ydoedd

Digitized by Google

Ifan ab Robert; ac yn Eifionydd y ganwyd, ac y claddwyd hwynt. Yr oedd Ifan ab Robert yn enwog iawn yn ei ddydd, a thrwy gyssylltiad amryw ettifeddiaethau ynddo ef, yr oedd yn dra chyfoethog. Iddo ef y disgynodd yr Henblas, yn swydd Ddinbach, trwy ball ettifeddion i'w ewythr, brawd ei dad, sef Dafydd ab Howel Coetmor. Yn y chweched flwyddyn o deyrnasiad Edward y Pedwerydd, darfu i Ifan, yn nghyd ag eraill o'r Lancastriaid, gymeryd tref Dinbach, a'i llosgi: ac i ddïal am hyn, anfonwyd Iarll Penfro, gyda byddin gref, i ddarostwng yr holl fynydd-dir yn swyddi Caer yn arfon, à Meirionydd; ac i gymeryd castell Harlech: a'r fyddin hon a wnaeth ddifrod ofnadwy yn y wlad, gan losgi y tyddynod, a'r coedwigoedd, y ffordd y cerddai, fel y tystia yr hen Englyn canlynol;

"Harlech, a Dinbech bob dor—yn cynneu,
Nan' Conwy yn farwor;
Mil a phedwar cant mae Iôr,
A deugain, ac wyth ragor."

Ond yn ffodus, ni chyffyrddodd y tân ag ettifeddiaethau Ifan, sef Bryn-syllty, a'r Henblas, gerllaw Llanrwst. Pan oedd y fyddin yn aros yn Eryri, aeth Ifan allan o'i dŷ, ac a ymguddiodd dros nos mewn craig, a elwir Ogof Filain, yr hon sydd ar dir Meillionen, yn mhlwyf Beddgelert; a thranoeth daeth llawer o'i gyfeillion Lancastraidd ar ei ol, gan ymuno ag ef, y rhai a ddosbarthwyd ar hyd nant wyllt Nan' hwynan, i wylio symmudiadau Iarll Penfro, a'i flino ef a'i wŷr, a gwnelid hyny mor effeithiol, fel y bu raid i'r Iarll o'r diwedd, anfon at Ieuan i ofyn am drugaredd; a gwnaethpwyd cyttundeb, yn yr hwn yr ymrwymai yr Iarll, na threiddiai mwyach i un parth o Ogledd Cymru.

Mab henaf Ifan ab Robert, ydoedd Meredydd ab Ifan, yr hwn a roddwyd i'w fagu at deulu parchus oedd yn byw yn y Crug, yn mhlwyf Llanfair is gaer, ger Caer yn arfon; a chan nad oedd plant gan deulu y Crug, mabwysiadwyd ef i'r teulu, a gadawyd yr ettifeddiaeth iddo. Wedi hyny efe a brïododd ferch i William Gruffydd ab Robin, Siryf swydd Gaerynarfon; ac yn y Crug y bu yn dechreu byw gyd a'i wraig; ond, gan fod y lle yn rhŷ fychan ganddo, efe a feddyliodd unwaith am hawlio ettifeddiaethau ei henafiaid yn Eifionydd; eto, wedi ail ystyriaeth, gan fod ymladdau, a llofruddiaethau mynych yn cymeryd lle yn y cymmydogaethau hyny, rhwng ei geraint lluosog; efe a benderfynodd brynu pryd-les castell, a Ffriddoedd, Dolwyddelen, gan ysgutoriaid Syr Ralph Berkinnet; ac yn y canlyniad, efe a ymfudodd o'r Crug i gastell Dolwyddelen i fyw; canys y mae yn ymddangos fod rhan o'r castell yn gyfanneddol y pryd hyny.

Howel ab Ifan ab Rhŷs Gethin, o Benmachno, a fuasai yn byw yma yn nechreu teyrnasiad Edward y Pedwerydd; yr oedd hwn yn fath o herwr, ac yn meddu gallu milwraidd cryf dano. Cyfododd Dafydd ab Siencyn yn erbyn y gwr hwn, gan ymryson ag ef am yr arglwyddiaeth yn y wlad; ac y mae yn debyg bod y naill yn blaenori y blaid Lancastraidd, a'r llall, y blaid Iorcaidd, yn y rhan hon o Gymru. Er yr ymddengys fod Howel yn gryfach mewn gallu milwraidd na Dafydd ab Siencyn, yr oedd Dafydd yn dra chyfrwys, ac wedi gosod cynllwyn i Howel, efe a'i daliodd yn ei wely yn Mhenanmen, gyd a'i ordderchwraig, ac a'i dug ef yn garcharor i gastell Conwy. Ar ol hir ymryson, a llawer o ymladdau, bu raid i Dafydd ab Siencyn ffoi o'r wlad, ac efe a aeth drosodd i'r Iwerddon lle yr arhosodd tua blwyddyn. O'r diwedd, efe a ddychwelodd, yn y tymhor haf, wedi ei wisgo ei hun, a gwisgo ei ganlynwyr, mewn dillad gwyrddion; a'r rhai hyn a wasgarid ganddo yma a thraw yn mysg ei gyfeillion, gan lechu y dydd, a chwilena y nos; ac os dygwyddai i rai o bobl y wlad eu gweled, dywedent mai y Tylwyth Teg oeddynt, a rhedent o'u ffordd gan eu hofn. Yr oedd yr holl wlad, o Gonwy i'r Bala, ac o'r Ffestiniog i Ddinbach, yn wyllt, anniwylliedig, a theneu ei thrigolion, ar y pryd hwn, yn y canlyniad i'r anrhaith a barasid trwy ryfel Owen Glyndwr, a rhyfel y Rhosynau: ac heblaw hyny, yr oedd cymmydogaeth yr Ysbytty, yr hon oedd yn agos i Nant-conwy, megys "nŷth cacwn," fel y dywaid Syr John Wynn, o'r lle y blinid yr holl wlad; yn gymaint a bod yr arglwyddiaeth hono wedi bod yn amser rhwysg Pabyddiaeth yn y wlad hon, yn meddu y rhagorfraint o "Noddfa," a chan nad oedd cyfreithiau y deyrnas mewn grym o fewn cylch yr arglwyddiaeth ddywededig, hi a ddaeth yn gyrchle lladron a llofruddion o bob cwr o'r wlad, fel nad oedd unrhyw lanerch, o fewn ugain milldir i'r lle, yn ddïogel rhag eu rhuthriadau yspeilgar; ac yr oedd ganddynt gyfeillion a chefnogwyr trwy holl Feirionydd, a thalaeth Powys, y rhai a dderbynient eu hysbail, ac a dalent iddynt am dano; ac yr oedd y dyhirwyr hyn wedi ychwanegu yn ddirfawr at anrhaith ac annghyfaneddiad cantref Nant-conwy, yr hwn oedd mor agos attynt. Dyna y fath oedd cyflwr cymdeithasol Dolwyddelen, pan ddaeth Meredydd ab Ieuan i gyfaneddu yma, ac efe yn mlodeu ei ddyddiau, sef tua 24 mlwydd oed, ac yn nechreuad teyrnasiad y brenin Harri y Seithfed. Pan y gofynid iddo gan ei gyfeillion, paham y meddyliai am adael ei hen gartref, ac ymsefydlu yn Nant-conwy, lle oedd yn heigio o ladron a chaeth-ddeiliaid, o ba rai yr oedd amryw yn arglwyddiaeth a threfydd y brenin, yn y cantref hwnw, efe a attebai, y caffai efe ddigon o le yn y wlad chang hono, yn mysg caeth-ddeiliaid, a bod yn well ganddo ymladd a lladron, a gwŷr di gyfraith, nag â'i gig a'i waed, a'i geraint ei hun; "canys," eb efe, "os trigaf yn fy nhŷ fy hun yn Eifionydd, rhaid i mi ladd fy ngheraint fy hun, neu gael fy lladd ganddynt.

Ar ol rhai blyneddoedd o arhosiad yn y castell, adeiladodd Meredydd dŷ hynod o grŷf, mewn cwm a elwir Cwm Penanmen, neu yn fwy cywir, efallai, "Cwm pen yn Nhomen," oddiwrth y Domen a saif yn y cwm, gerllaw yr hen Ffordd Rufeinaidd a gyfeiria drwy y cwm, o Domen y Mur, i Gaerhun; ac efe a symudodd o'r castell i gyfaneddu yno; ac o hyny allan bu y castell yn annghyfaneddol, ac fe'i gollyngwyd i gael ei falurio gan yr ystormydd.

Wedi mynediad Meredydd i gyfaneddu yn Mhenanmen, dywedir ddarfod i un "Ifan o'r Ysbytty," yr hwn oedd yspeiliwr hynod, a gormesydd di arbed ar ei gymmydogion, ddyfod trosodd, a thua deuddeg o wŷr arfog dano, ac yspeilio tŷ Meredydd, ar ddydd Sul, tra yr oeddynt yn y gwasanaeth crefyddol: ond wedi i hyn gymeryd lle, ni adawai Meredydd ei dŷ heb wylwyr nerthol ynddo. Ac er dïogelu ei hun a'i feddiannau, efe a gasglodd ddynion cryfion a phenderfynol, i'r holl dyddynod oeddynt yn y gymmydogaeth, ac a arlwyodd iddynt arfau cymhwys i ymosod ar unrhyw elyn. Efe a brynodd hefyd

Digitized by Google

amryw leoedd ar dir y goron, yn yr amgylchoedd, gan osod gwŷr dewrion, cymhwys i ddwyn arfau, i fyw ynddynt. Un o'r rhai hyn ydoedd William ab Robert, i'r hwn y prynodd efe Ben craig Inco, lle a adnabyddir wrth yr enw hyd heddyw, yn Nhre Wydir, uwch ben Rhaiadr y Wennol; efe a dalodd i'r brenin am hwnw, ddeg swllt a grôt, ac y mae y lle yn cadw tua phymtheg o wartheg godro yn bresenol. Y mae hiliogaeth y William ab Robert uchod, sef Davies, o'r Cyffdy, yn perchenogi y lle hyd heddyw. Efe a osododd Einion ab Gruffydd yn Bryntyrch, Howel ab Ifan yn y Garth, Gruffydd ab Tudyr yn y Rhiw Goch, Ifan Dafydd ab Ednyfed yn y Bwlch Gymid, yr hwn a gymynodd ddeunaw o dderw mawrion, mewn un diwrnod, at dŷ Penanmaen. Rhoddwyd Robert ab Meredydd i gyfaneddu yn y Berth Eos; ac yr oedd eisoes wr grymus yn byw yn y Fynhadog, o'r enw Rhys ab Robert, ganedig o'r Faenol, ger Bangor; ac amryw eraill, rhy faith i'w henwi yma, a gyfleodd Meredydd ab Ifan o'i amgylch, fel o'r diwedd yr oedd ganddo saith ugain o fwawyr tal, wedi eu harfogi â breichledau, a chapiau o ddur, cleddyfau byrion, a bidogau, yn nghyda saethau a bwaau: ac yr oedd ganddynt feirch, a gwaewffyn hely hefyd: fel yr oeddynt yn ddigon grymus i wynebu unrhyw ymosodiad yspeilgar a allasid wneyd arnynt; a thrwy y moddion yma, bu Meredydd ab Ifan yn offerynol i lanhau y wlad oddiwrth y Gwilliaid a'i blinent. Er mwyn dïogelwch ychwanegol tra yn ymarfer â gwasanaeth crefyddol, darfu i Meredydd dynu i lawr yr hen eglwys oedd ar Fryn y Bedd, ac adeiladu yr un sydd yn aros yn bresenol, oddeutu tri chan llath yn fwy i'r dwyrain, ac yn nghwr y dyffryn. Efe a ddewisodd y lle hwn, meddir, er mwyn i'w dŷ a'r Eglwys, fod yn weledig i wylwyr a gyfleid mewn lle a elwid Craig y Big; fel, os y dygwyddai i'w dŷ, neu yr Eglwys, gael ymosod arnynt gan yspeilwyr, y gellid rhoddi arwydd am gynnorthwy y milwyr o'r lle arall ar rybudd byr. Adeiladodd Meredydd yr Eglwys hon ar ei draul ei hun, tu a'r flwyddyn 1500; ac felly, y mae yr adeilad bresenol dros dri chant a haner o flyneddau o oedran; ond y darn croes o honi a wnaed yn ddiweddarach, gan Robert Wynn. Yn mhen y deuddeng mlynedd, rhoddwyd ffenestr arni, yr hon oedd y gyntaf o'r cyfryw y meddwn hanes am dani yn y wlad hon; ac y mae amseriad y ffenestr wedi ei roddi ar y pared, ar ei chyfer, sef 1512.

Y mae cof-adail o wenith-faen ar y mur gogleddol, a wnaed gan Meredydd, er coffadwriaeth am amryw o'i deulu a gladdwyd yn y lle: ond, y mae amser wedi gwisgo y rhan fwyaf o'r enwau ymaith, fel na's gellir eu darllen. Y mae dau neu dri o bladiau efydd, o fewn ffenestr gyfagos i'r Gof-adail grybwylledig, yn cynnwys pais arfau y teulu; ac y mae enw Meredydd, a'i goffadwriaeth yn Lladin, ar un o honynt. Ychydig o flyneddoedd cyn ei farw, darfu i Meredydd brynu plas, ac ettifeddiaeth Gwydir, gan ddisgynyddion Dafydd ab Howel Coetmor; ac efe a sylfaenodd Gwydir Isaf, ac a orphenodd y darn a elwir "Neuadd Meredydd;" ac yna, efe a adawodd ei dŷ yn Mhenanmen, ac a ymsefydlodd yn Ngwydir. Yr oedd iddo bedwar o feibion, sef John, Rhŷs, Wmphre, a Chadwaladr; ac efe a adawodd ei ettifeddiaethau dan ofal ymddiriedolwyr, i'w rhanu rhwng ei blant; sef Gwydir, Dolwyddelen, Llanfrothen, a'r holl diroedd oedd ganddo yn Nant-conwy, i John Wynn, ei fab henaf;—y Gessail Gyfarch, ettifeddiaeth ei dâd yn Eifionydd, a adawodd efe i'w fab Wmphre; Gwenallt a roddodd efe i'w fab Cadwaladr, yr hwn oedd ar y pryd yn aelod Seneddol; ond, bu Rhŷs farw cyn dyfod i feddiant o'i ran. Felly, bu farw Meredydd mewn heddwch, yn y bumed flwydd a thriugain o'i oedran, ar y 18fed o Fawrth, 1525; a dodwyd ei weddillion i orwedd yn Llan Dolwyddelen. John Wynn ab Meredydd, a fwynhaodd ettifeddiaeth Gwydir am wyth mlynedd ar hugain; a bu iddo bedwar o feibion, sef Morus Wynn, Gwydir; Gruffydd Wynn, y Berth Ddu; Robert Wynn, Conwy; ac Owen Wynn, Cae'r Melwr. Bu John Wynn ab Meredydd farw, yn y flwyddyn 1553; a'i fab henaf, Morus Wynn, a ddaeth i'r ettifeddiaeth ar ei ol ef; ac yn yr un flwyddyn ganwyd iddo fab o'r un enw a'i daid, sef John Wynn; ac efe ydoedd y Syr John Wynn, awdwr "Hanes Teulu Gwydir." Y Robert Wynn uchod, oedd yn oesi rywbryd o'r flwyddyn 1536, hyd y flwyddyn 1600; ac ymddengys ei fod ef yn cymeryd dyddordeb neillduol yn mhlwyf Dolwyddelen. Efe a adeiladodd y darn croes yn yr Eglwys, fel y crybwyllwyd o'r blaen; ac efe hefyd, yn ol pob tebygolrwydd, a adeiladodd balasdy yn y plwyf, a adwaenir wrth yr enw Bryn Moel, amseriad yr hwn, fel yr oedd wedi ei dori ar gareg oddiallan i fantell y simnai, ydoedd 1563, yr hyn sydd yn cyfatteb i ganol oes Robert Wynn, ac i adeg gwneuthuriad y darn newydd yn yr Eglwys. Gwnaed y ty hwn yn dda dros ben; ei drawstiau a'i swmerau oeddynt o dderw rhagorol, ac yr oedd wedi ei fyrddio o fewn â derw, o beithynwaith dâ. Y mae yr adeilad hwn yn aros eto, mewn cyflwr da, ac wedi ei droi yn ddau dŷ ffarm. Y mae yn rhesymol i ni i gasglu fod Bobert Wynn wedi bwriadu yr adeilad hwn i drigo ynddo, neu ynte, at wasanaeth achlysurol y teulu, pan ar ymweliadau yn y plwyf.

Mewn perthynas i hen Eglwys Bryn y Bedd, nid oes dim o honi yn weledig yn bresenol; ond y mae lle i feddwl mai ar gŵr gogleddol y bryn y gorweddai; gan fod llawer o ysbwrial a cherig rhyddion yn y cwr hwnw o'r bryn, er fod glasdir yn eu gorchuddio yn awr. Y mae hen gloch a gloddiwyd oddiar y bryn hwn ar gael eto; a thrwy ryw esgeulusdra, cafodd ei dryllio; ond y diweddar Arglwydd Wiloughby a barodd ei hanfon i Lundain i'w chyfanu eilwaith, ac ar ei dychweliad yn ol, i'w dodi yn Eglwys Dolwyddelen er coffadwriaeth. Ac am hen dŷ Meredydd ab Ifan yn Mhenanmen, y mae wedi ei chwalu, oddigerth darnau o'r muriau; ac wrth sylwi ar y darnau hyny, gwelwn ei fod wedi ei adeiladu yn hynod o gadarn. Cymerwyd yr hen goed derw oeddynt yn mhen y ty hwn, fel yr eiddo Bryn y Foel, i Wydir er ys talm bellach, i'w defnyddio at ryw wasanaeth mewn cyssylltiad â'r palas hwnw. Pan ymadawodd Meredydd o Benanmen i Wydir, efe a osododd y lle i dir-ddeiliad, o'r enw Angharad James, benyw dalentawg iawn; a dywedir bod Llyfr o'i chyfansoddiadau barddonol wedi ei ysgrifenu âg inc coch, ar gael eto. Yr oedd y diweddar Fardd, Guttyn Peris, wedi bod yn darllen rhanau o hono; ac mewn llythyr o'r eiddo at fardd ieuanc, efe a barai iddo gyfansoddi yn gyffelyb i waith Angharad, neu waith William Cynwal, Bardd galluog arall, oedd yn byw, meddir, yn y Bwlch, Dolwyddelen, tua chanol yr unfed ganrif ar bymtheg. Y mae traddodiad yn dywedyd fod Angharad yn dal holl Gwm Anmen, am un bunt o ardreth; ond ei bod wedi penderfynu rhoddi y ffarm i fynu unwaith,

Digitized by Google

gan ofni na allasai gasglu y bunt yn nghyd erbyn y taliad; ond tra ar ei ffordd i Wydir, i'r perwyl hyny, cyn myned o olwg y Cwm yn hollol, trodd yn ol i edrych arno drachefn, a dywedodd, "Mi a dreiaf eto gasglu un buntan, am dy hen lechweddau gleision;" ac felly, ni roddes y tir i fynu y tro hwnw. Y mae yr hanesyn uchod yn profi fod arian yn brinion iawn, a'r tiroedd yn isel, a di werth yn y dyddiau hyny; a rhyfedd y cyfnewidiad sydd wedi cymeryd lle erbyn yr oes hon, pan nad oes dim llai na chwech o ffermydd yn Cwm Ammen, ac y mae yn ardrethu i amryw ugeiniau o bunau; ac y mae cyfnewidiad cyffelyb wedi cymeryd lle drwy yr holl blwyf yn ddi wahaniaeth.

Yr oedd hen ffynon enwog yn y plwyf hwn gynt, a elwid gan rai, "Ffynon Elen;" ond, gan eraill, gyda mwy o briodoldeb yn ol ein barn ni, "Ffynon Gwyddelan. Y mae i'w chanfod eto, ond mewn cyflwr tra adfeiliedig, yn ochr "Gelli y Pentref," fel ei gelwir, ar y naill du i'r felin. Yr oedd ei muriau yn mesur deuddeg troedfedd o hŷd, wrth naw troedfedd o led; a rhodfa, tua haner llath o lêd, o fewn y mur allanol, gyda glan y dwfr. Y mae tarddiad y dwfr yn mhen uchaf y ffynon, o godiad y tir, ac y mae gofer yn ei chwr isaf, i ollwng y dwfr i redeg yn llwyr, nes ei hollol waghau; a phan y byddai angen am ei gwasanaeth, yr oedd yn rhaid cau y gofer, i groni y dwfr. Dywedir ei bod wedi bod mewn bri a chlod mawr, yn yr amser gynt, am ei cyfrifid yn dra rhinweddol i gryfhau plant gweiniaid, ac adferu nerth i aelodau rhai wedi diffrwytho. Y mae amryw yn fyw eto sydd yn cofio dwyn rhai iddi i'w trochi, ac a gadarnhant wirionedd y traddodiad uchod, am ansawdd rhinweddol y ffynon hon. Pa fodd bynag, y mae wedi ei gollwng i gyflwr aflêr a thra esgeulusedig er's llawer o flyneddoedd bellach, ac ni bydd dim i nodi y fan lle yr oedd yn fuan, oni adgyweirir hi gyda brys.

Tua diwedd y ddeunawfed ganrif, dechreuwyd cloddio am lechau, mewn lle a elwir yn bresenol yn "Chwarel Ddu," gerllaw y Castell; ac erbyn hyn y mae amryw lech-gloddfeydd yn y plwyf; a rhai o honynt yn debyg i fod yn rhai go dda; ac y mae ffordd dda wedi ei gwneyd ar hyd y plwyf, o Bettws y Coed i'r Ffestiniog, a thramwy mawr ar hyd-ddi.

Y mae gan y Trefnyddion Calfinaidd dri o Addoldai yn y plwyf hwn, a chan yr Annibynwyr un. Cynnwysa y plwyf 14,384 o erwau o dir, a chyfrifir ei werth tiriogaethol yn 1974*p.*; o'r hyn y mae 98*p.* mewn cloddfeydd. Poblogaeth 811, nifer y tai, 164. Y mae y cyfan yn perthyn i ettifeddiaeth Gwydir. Y Fywioliaeth eglwysig sydd Ficeriaeth, yn esgobaeth Bangor, gwerth 107*p.* yn y flwyddyn. Noddwr, Arglwydd Willoughby de Eresby.

Mewn tyddyn-dy bychan di nod, yn y plwyf hwn, a elwid Tan y Castell, y ganwyd, ac y magwyd cawri yr areithfa Gymreig, y Parch. John Jones, gynt o Dal y Sarn, a'r Parch. David Jones, gynt o Dreborth, Arfon; i hanes y rhai y telir mwy o sylw drachefn, dan eu henwau priodol.

Gweddus yw cydnabod bod y Golygydd yn ddyledus am agos holl ddefnyddiau yr Erthygl hon, i Mr. Evan Thomas, masnachwr parchus o Ddolwyddelan, yr hwn sydd yn cymeryd dyddordeb dwfn yn hanes a henafiaethau y plwyf y mae yn cyfaneddu ynddo.

**DOL Y GAER**, gorsaf rheilffordd yn Nheubarth Cymru, ar gyfuniad rheilffyrdd Aberhonddu a Merthyr Tydvil, rhwng Tal y bont a Dowlais.

**DOLL**, pentref yn mhlwyf Machynlleth, swydd DREFALDWYN, 2 filldir o dref Machynlleth.

**DON**, tad Amaethon, Gwydion, Gofannon, Eunydd, ac Arianrod, yn ol y Brutiau Cymreig, ydoedd frenin Llychlyn (Iceland) yr hwn yn gyntaf a anrheithiodd yr Iwerddon, ac ar ol hyny a arweiniodd fyddin o 30,000 o Wyddelod, a Llychlyniaid, drosodd i Ogledd Cymru, yn y flwyddyn 267, y rhai a gadwasant feddiant o'r wlad hono, hyd oni ddarfu i Gaswallon Lawhir eu hymlid ymaith, a lladd eu tywysog Serigi Wyddel, yn Llan y gwyddyl, sef Caergybi, yn Ynys Mon. Ond mae yn dra thebyg nad yw Don a'i deulu, yn ddim amgen na bodau dychymygol, ac felly yn perthyn yn briodol i ddosbarth Hu Gadarn, Tydain tad awen, a Nefydd Naf Neifion.

**DONA**, SANT, yn y 7fed ganrif, ydoedd fab Selyf ab Cynan Garwyn, a sylfaenydd Llanddona yn Mon.

**DOTHI-CAMDDWR**, trefgordd yn mhlwyf LLANDDEWI BREFI, undeb TREGARON, rhanbarth uchaf undeb TREGARON, swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU, 3 milldir i'r De Orllewin o Dregaron, a 14½ milldir i'r Dwyrain Ogledd Ddwyrain o Lanbedr-pont-Stephan, gyda 121 o drigolion. Y mae'r lle hwn yn derbyn ei enw oddiwrth yr afon Camddwr, yr hon sydd yn ymarllwys i'r Towy yn nghydiad swyddi Aberteifi, Brycheiniog, a Chaerfyrddin. Ymladdwyd brwydr waedlyd yma yn 1074 rhwng lluoedd Goronwy a Llewelyn, meibion Cadwgan ap Bleddyn; a lluoedd Gruffydd ap Cynan, iawn etifedd Gwynedd; meibion Cadwgan orchfygodd, a gorfu i Gruffydd encilio drachefn i'r Iwerddon. Y mae rhai haneswyr yn galw brwydr Camddwr, yn frwydr Gweun-y-nygyl. Y mae yma hyd heddyw hen waith milwrol, ar lân orllewinol y Camddwr, yr hwn a daflwyd i fynu ar yr achlysur o'r frwydr uchod, a gelwir ef "Y castell:" y mae y fan lle croesodd gwŷr ceffylau Goronwy a Llewelyn, yn cael ei alw yn "Ryd y meirch."

**DOWLAIS**, tref weithfäol fawr, mewn adran eglwysig o'r un enw, yn mhlwyf MERTHYR TYDFIL, parth uchaf cantref CAERPHILI, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, 2 filldir i'r Gogledd Ddwyrain o dref Merthyr, a 172 milldir i'r Gogledd wrth Orllewin o Lundain: y mae yn cynnwys poblogaeth o 15,590, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae Pendaren yn ei huno â Merthyr, fel nad oes ond un rhestr o dai, o ben uchaf Dowlais hyd waelod Merthyr. Y mae yn sefyll ar lethr, yn nghanol mynyddau, ac y mae y nant Morlais yn rhedeg drwyddi. Y mae'r brif-ffordd o'r Fenni i'r Merthyr yn myned drwyddi, ac hyd yml y brif-ffordd hon y mae y tai goreu, y prif faelfeydd, a'r prif westtai. Y mae y tai yn yr heolydd ereill yn dai gweithwyr gweddol, rhai o honynt yn dda, ond nid yw yr oll o honynt yn cael eu cadw mor lanwedd ag y dymunid, ac y mae amryw o'r heolydd mewn sefyllfa annhrefnus. Y mae y Bwrdd Iechyd wedi gwneuthur llawer o welliannau yn y cyfeiriad hwn, ac y mae yn parhau gyda'r gwaith canmoladwy. Y mae yma ddigon o ddwfr, ac y mae y dref wedi cael ei goleuo â nwy. Y prif anneddle yw Dowlais House, hen breswylfod Syr Josiah John Guest, Barwnig; lle yn awr y triga G. T. Clark, Yswain, yr ymddiriedolwr cyfanneddol: y mae tai da ereill yma, gan y gwahanol oruchwylwyr, a'r ysgrifenwyr. Y mae yn rhanol â Merthyr yn fwrd-

Digitized by Google

cisiol, oddiar pan ffurfiwyd y lle hwnw yn fwrdeisdref yn 1832; a chyd ag Aberdare a manau ereill, yn anfon un aelod i'r Senedd; ond oddiar Act Ddiwygiadol 1868, y mae yn anfon dau aelod i'r senedd. Y mae gorsaf yn ei phen uchaf, ar reilffordd y Fenni a Merthyr; ac yr oedd yma gynt gangen o reilffordd yn ei chyssylltu a rheilffordd Dyffryn Taf: gogwyddol oedd y gangen hon yn ei ffurfiad, ac *incline* lled serth ydoedd: torodd y rhaff dro yn ôl, a rhuthrodd y gerbydres i waered gyda chyflymdra aruthrol, pan y lladdwyd un hen wraig, ac y clwyfwyd amryw: oddiar y pryd hwnw, nid yw y gangen hono yn cael ei defnyddio i gario teithwyr. Y mae rheilffordd perthynol i Gwmni y Gwaith, yn rhedeg i'r Brithdir, pentref bychan tua 4 milldir oddiyma, ar làn yr afon Rhymney: y mae dau o byllau glô gan y Cwmni yn y lle hwn, ac oddiyma y maent yn cael y rhan fwyaf o'r glô at y gwaith.

Nid oedd yma ond un amaethdy bychan tua chanol y ganrif o'r blaen; ond yn bresennol y mae yma un o'r gweithfeydd glô a haiarn, mwyaf yn yr holl fyd. Yn y flwyddyn 1747, rhoddwyd prydles ar yr adran fwnol fawr yma, i Mr. Thomas Morgan, Machen House, gan yr Arglwyddes Windsor: un o hynafiaid Arglwydd Tredegar, Tredegar Parc, swydd Fynwy, oedd y Morgan hwn. Yr oedd y lês am y term o 99 mlynedd, a'r meddiant mwnol a rwymid ynddi yn 2000 erw, y rhai a gyrhaeddent o barth gogleddol Dowlais, hyd ganol plwyf mawr Gelli gaer: yr oedd yn rhydd oddiwrth bob amod rhag ei aillesio, ac yr oedd rhyddid i Mr. Morgan weithio yr haiarn, y glô, y calch, y tywod, a'r clai, yn mhob cwys o hono, a'r cwbl am 26*p.* y flwyddyn! Pan yn meddiant Mr. Morgan, ail-lesiwyd ef gan un Mr. Lewis, Dowlais, am 100*p.* y flwyddyn: ond aeth ei wraig yn groes iawn o'r herwydd, a gorfododd ei gŵr i fyned a thori y cytundeb i fyny, fel na byddai iddynt gael eu llwyr ddinystrio. Buont fyw i weled y camsyniad mawr a wnaethant. O herwydd rhywbeth na wyddis am dano, nid oedd Morgan yn talu dim sylw i'r mŵn, na'r glo: bernir gan rai, taw lesio y lle yn dir hela wnaeth ef; ac efallai fod y farn yn gywir, canys helwyr cedyrn oedd, ac yw holl Forganiaid Tredegar, ac yr oedd tir Dowlais, y mae yn sicr, yn taro yn mhob ystyr i bob cangen o helwriaeth. Ail-lesiodd Mr. Morgan y lle unwaith eto, a'r ail dro hwn i Mr. David John, Gwernllwyn Isaf, gerllaw yma, yr hwn a'i trosodd i'r Parch. Thomas Lewis, Llanisan, gerllaw Caerdydd. Yr oedd y tir erbyn hyn wedi dyfod yn feddiant i Ardalydd Bute drwy ettifeddiaeth; yr hwn a drosglwyddodd y lês i Mr. Lewis o'r Fan, ger Caerphili, gyda'r un hawliau a breintiau ag oedd gan Mr. Morgan, gyda hyn o wahaniaeth pwysig, sef fod Mr. Lewis i dalu 28*p.* yn lle 26*p.* Yr oedd gan Mr. Lewis waith haiarn bychan yn Mhentyrch, gerllaw Caerdydd, ac mewn cyssylltiad a hwnw dechreuodd weithio ychydig haiarn yn Nowlais, ond nid rhyw lewyrchus iawn oedd pethau yn myned rhagddynt, canys nid oedd ffyrdd nac arall yma, ac yr oedd amryw rwystrau ereill ar y ffordd. Clywodd Mr. Lewis am un John Guest, Broseley, swydd Stafford, yr hwn yntau hefyd oedd yn ceisio gwneuthur ychydig haiarn yno: a'r canlyniad fu, cytuno âg ef am ddyfod i gymmeryd gofal ffwrnais fechan Dowlais, yr hyn a wnaeth yn 1760. Yr oedd yn cadw y *White Horse*, Brosely, ac yn trafnidio mewn glô: yr oedd hefyd yn rydd-ddaliwr bychan, a ganwŷd ef Awst 31ain, 1721. Marchogodd ar gefn caseg lwyd, o Broseley i Ddowlais, ac yn gydymaith iddo, yr oedd hen was i'r teulu, o'r enw Ben Guest. Pan yr oedd Syr John Guest yn uchelder enwogrwydd, gwnaeth ei oreu i olrhain achyddiaeth y teulu: ond yr oll a gafodd allan, oedd, fod Guest yn gyfenw Saesonaidd, ac fod y teulu yn preswylio yn Broseley er ys cannoedd o flyneddau.

Wel, dyma John Guest, Ben, y gwas, a'r gaseg lwyd, yn Nowlais. Adeiladodd dŷ iddo ei hun ar làn y Morlais, ac aeth at waith y ffwrnais o ddifrif. Yr oedd llawer o rwystrau ar ffordd John Guest, ond yr oedd yn myned drostynt yn raddol. Tua'r un amser ag y daeth Guest yma, daeth yma ŵr boneddig arall o Broseley, o'r enw Wilkinson, ac adeiladodd ffwrnais yn y lle; ond bu ei lafur yn ofer, a gwariodd ei holl arian i ddim pwrpas: y mae adfail yr hen ffwrnais hono i'w weled hyd heddyw, y tu ol i risiau y Vulcan. Bu Guest yn fwy ffortunus, a phan welodd fod gobaith am lwyddiant, gyrodd am ei frodyr, a'i gyfeillion o Broseley. Nid oedd ei frodyr yn feddiannol ar ei ŷni a'i benderfynolrwydd ef, ac ni chyfodasant uwchlaw bod yn weithwyr cyffredin. Yn mhen tair blynedd, yr oedd Dowlais yn dechreu tyfu, a rhês ar ôl rhês o dai yn ymddyrchafu. Yn Nowlais y dechreuwyd gweithio haiarn, â glô, am y waith gyntaf yn Nghymru: cyn hyny, golosg coed arferid. Dechreuodd Guest werthu glô hefyd, a byddai pobl pentref Merthyr, yn nghyd â ffermwyr y Vaynor, yn cyrchu yma i'w brynu: gwerthid ef ar y cyntaf, am ddimai y sached; ond codwyd ef i geiniog, am yr hyn y mawr ffromodd y cwsmeriaid: nid oedd dim i'w wneuthur, modd bynag, canys nid oedd glô yn nes nag Aberdâr. Yr oedd y dull o godi glô ac haiarn, yn gyntefig i'r eithaf. Y dull o gael y mŵn haiarn, oedd croni cornentydd y mynyddau, ac yna eu gollwng yn ffrydwyllt am draws y ceulanau, nes eu golchi ymaith; a chan fod y mŵn yn drwm, yr oedd yn aros yn ngwaelod y nant, ac yna yn cael ei gasglu i'r ffwrnais: gelwid y dull yma yn "ysgwrio." Yr oedd yr haiarn a wnelid yn Dowlais, wedi cynnyddu o 500 tunell y flwyddyn, i 1500 tunell, o dàn ofal Mr. Guest. Yr oedd efe yn feistr da, ac yn cael ei garu gan ei weithwyr. Bu farw, Tachwedd 25ain, 1785, a chladdwyd ef yn nghangell eglwys Merthyr Tydfil. Bu fel yna yn byw yn Nowlais tua 25ain. o flynyddau.

Wedi marwolaeth ei dad cymmerodd Thomas Guest ofal y ffwrnais, ac appwyntiwyd ef yn un o'r Cwmni, yr hwn am y tro cyntaf a alwyd yn "*Dowlais Iron Company.*" Yr oedd y Cwmni yn gynnwysedig o Guest, Lewis, a Tait: yr oedd gan Guest, 2–16eg.; Lewis, 8–16eg; a Tait, 6–16eg. Yr oedd Mr. Lewis yn byw yn Mhentyrch; bu yn aelod Seneddol dros Gaerdydd, ac wedi hyny dros Maidstone. Ar ei farwolaeth ef, aeth ei ran ef o'r gwaith i'w ddau ŵyr, a bu yn feddiant i'r teulu hyd fynediad allan y lês yn 1848.

Dangosodd Thomas Guest yn fuan iawn, fod ynddo bob cymhwysder i drin y gwaith. Yr oedd yn ddyn o *fusnes* trwyadl, ac yn Gristion trwyadl hefyd; a dangosodd y gallai trin masnach fawr, a byw yn grefyddol, gytuno â'u gilydd. Yr oedd bob amser yn ufuddhau i hyfforddiad englyn Ieuan Brydydd Hir:—

"Agor dy drysor, dod ran—trwy gallwedd
Tra gellych i'r truan:
Gwell rhyw awr golli'r arian,
Na chau'r gôd a nychu'r gwan."

Digitized by Google

Yr oedd yn aelod ac yn bregethwr cynnorthwyol gyda'r Wesleyaid Seisnig, ac yr oedd yn ofalus iawn am yr achos. Byddai ambell i waith yn myned i Gwm Aberdâr i bregethu, ac yn cymmeryd ei ddau fab, Thomas a John (Syr John wedi hyny), gydag ef i'r daith: bob boreu Sabbath, am 5 o'r gloch, yr oedd Thomas Guest a'i ddau fab, yn y cyfarfod gweddi; ac yr oedd y llanciau i'w gweled yn yr ysgol ddwywaith bob Sul, a hyny i'r fynud.

Yr oedd y gwaith yn cynnyddu yn barhaus, ond yr oedd Mr. Guest yn ei reoleiddio gyda medr a doethineb, ac yn gofalu am gysur a llesiant y gweithwyr. Yn 1790 yr oedd y gwaith yn talu 2000*p.* o dreth y tlodion. Yn 1795 gosodwyd ager-beiriant i weithio yma, a hwnw oedd y cyntaf a ddefnyddiwyd yn y parth yma. Yn 1797 agorwyd siop y cwmni yma gyntaf, a bu o lesiant mawr i'r gweithwyr. Erbyn dechreu 1800 yr oedd tair ffwrnais ar waith yn Nowlais, ac yr oedd eu cynnyrch blyneddol tua 3000 o dunelli. Yr oedd y *forge* wedi agor, a'r *roller* cyntaf ynddi, oedd un Hugh John, genedigol o Lantrisant: yr oedd y *bar* cyntaf a orphenwyd yma yn 3 modfedd wrth hanner. Yn 1804 sefydlwyd corff o filwyr yma, a elwid "Dowlais Marksmen," canys yr oeddid yn ofni dyfodiad Napoleon, ac yr oedd masnach yr haiarn yn isel iawn. Yn 1807, Chwefror 28ain, bu farw Mr. Guest, a chladdwyd ef yn eglwys Merthyr.

Rhoddodd Mr. Tait ei ran ef o'r Gwaith, a'i holl feddiannau, i'w ŵyr, Mr. J. J. Guest, ac yna yr oedd y rhanau yn sefyll fel hyn:—Mr. J. J. Guest, 9–16eg; Mr. Thomas Revel Guest, 1–16eg; Mr. Lewis, 6–16eg. Nid oedd Mr. T. R. Guest yn prisio dim am haiarn na glô; pregethu, a chyfranu elusenau oedd ei hoff waith ef. Clywodd fod hen gyfaill iddo yn glaf yn yr Iwerddon, ac mewn amgylchiadau isel: aeth yno o bwrpas i gael gweled sut yr oedd pethau gydag ef, ac ar y daith ddyngarol hon, cymerwyd ef yn glaf gan dwymyn, a bu farw yno. Wesleyan selog fel ei dad oedd Mr. Thomas Guest, ac yr oedd ei dduwioldeb yn amlwg i bawb; am Mr. J. J. Guest, nid oedd ef mor sectarol a'i frawd, ond yr oedd ganddo barch mawr i'r Wesleyaid drwy ei oes. Fel engraifft o haelioni Mr. Thomas Guest, adroddir yr hanesyn hwn:—Aeth un o Wesleyaid Dowlais i ofyn am rodd tuag at y capel, a'i ateb oedd—"Ewch a chasglwch gymaint ag a alloch, ac yna myfi a'u dyblaf hwynt." Ganwyd Mr. J. J. Guest, Chwefror 2il, 1785. Bu farw ei fam pan nad oedd ond ieuanc, a magwyd ef gan mwyaf yn ngofal hen wraig, a elwid Mari Aberteifi, i'r hon y bu efe yn garedig hyd y buodd hi fyw. Yn fuan wedi marwolaeth ei dad, daeth gofal yr holl waith ar Mr. J. J. Guest. Yn 1815 yr oedd ffwrneisiau Dowlais wedi cynnyddu i bump, ac yr oeddent yn troi allan 15,600 tunell o haiarn bob blwyddyn. Yn 1817 priododd Mr. Guest â boneddiges ieuanc dduwiol, o'r enw Miss Mary Rankin. Fel engraifft o'i duwioldeb a'i dylanwad, cymerer yr hanesyn boddhäol a ganlyn:—Yr oedd hi a Mr. Guest yn marchogaeth i'r eglwys un boreu Sul; ac yn ddisymwth dyma hi yn troi pen y ceffyl, ac yn marchogaeth gartref. Daliodd ei gŵr hi yn union, ac wedi holi pa beth oedd rhyw ymddygiad felly:—"Josiah," ebe hi, "alla i ddim myned i'r eglwys, a chymaint o'ch gweithwyr chwi eich hunan yn tori y Sabboth." O'r Sabboth hwnw allan, ni tharawwyd ergyd yn Nowlais, ond ag oedd raid. Wedi naw mis o fywyd priodasol, bu farw Mrs. Guest, Ionawr 14eg, 1818, pan yn 23ain, oed. Bu colli y fath wraig rinweddol yn ergyd trwm i Mr. Guest, ond daliodd ef yn wrol; ac fel i foddi ei alar, aeth i ddyfnder ei oruchwylion. Adeiladodd bedair o ffwrneisiau newyddion yn olynol; ac yn 1823, yr oedd deg ffwrnais Dowlais, yn troi allan 22,287 o dunelli o haiarn. Cynnyddu yn barhaus yr oedd y gwaith; adeiladwyd Gwaith Ivor; ac erbyn 1845 yr oedd yma ddeunaw o ffwrneisiau, yn troi allan 1600 tunell o haiarn bob wythnos, ac yn llosgi 1200 tunell o lô bob wythnos. Y mae Cwmni Dowlais yn danfon tua 70,000 tunell y flwyddyn o haiarn gyda rheilffordd Dyffryn Taf, ac yn talu i'r Cwmni hwnw dros 25,000*p.* y flwyddyn o gludiad. Y mae holl drethoedd Cwmni Dowlais, tua 4195*p.* y flwyddyn. Y mae dros 5000 o weithwyr yma, i'r rhai y telir yn wythnosol mewn cyflogau, dros 250,000*p.* Y mae yma tuag 20 o byllau yn cael eu gweithio; y mae yma o 500 i 600 o geffylau ar waith yn barhaus; ac y mae yr agerdd ag sydd mewn gweithrediad, yn gyfartal i nerth 2000 o geffylau. Pe gosodid y dramffyrdd ag sydd yma ar y ddaear a thân y ddaear, yn un linell, buasai y llinell hono dros 2000 o filldiroedd ei hyd. Oddiar ddyfodiad Mr. Clark yma, telir mwy o sylw i'r farchnad lô, a gwerthir llawer mwy nâ chynt o hono. Y mae Mr. Clark wedi adeiladu gwaith dur, yn yr hwn y gwneir llawer o'r fetel hono yn ol cynllun Bessamer. Y mae llawer o welliannau wedi cael eu gwneuthur yn ddiweddar. Cyd ymddiriedolwr Mr. Clark, yw y Gwir Anrhydeddus Henry Austin Bruce, A.S. Aeth y gwaith anferthol hwn yn mlaen yn ddifethiant, hyd fynediad allan y lês yn 1848, pan y bu attalfa arno; yr oedd pryder mawr yn nghalonau ugeiniau o filoedd, ac ofn dwfn arnynt, y gwelid Dowlais yn adfeilion. Yr oedd Syr John yn hen, ac yn dywysog mewn golud; ac Ardalydd Bute yn penderfynu mynu rhent cyfwerth â'r ystâd. O drugaredd at filoedd Dowlais, adnewyddodd Syr John y lês, gan gytuno i dalu 30,000*p.* y flwyddyn o rent. Y mae gwahaniaeth mawr rhwng y swm yma, ag 28*p.* y lês gyntaf. Yn 1823 agorodd Mr. Guest fanc yn Nghaerdydd, ac un arall yn Merthyr, y rhai oedd yn rhoddi allan Bapyrau punnoedd. Yr oedd yn gwneuthur yn dda fel banciwr, ond rhagwelodd ddymchweliadau masnachol 1825, a brysiodd i Lundain at ei arianwyr, y Meistriaid Roberts a'i Gyf. Gwrthodasant roddi dim arian iddo; ond mynodd hwynt o fan arall, ac yr oedd yn Nghaerdydd erbyn fod y bobl yn dechreu rhedeg ar y banc: cyfarfu â phob gofynion, a thrwy ei ragweledìad, achubodd filoedd rhag tlodi. O'r amser hwn allan, y Meistriaid Glyn a'i Gyf. oedd ei fancwyr yn Llundain.

Yn nghanol y llafur ar trafferthion yma, y rhai oeddynt yn galw am nerth corff, a nerth meddwl hefyd, yr ydym yn cael Mr. Guest yn aelod Seneddol dros Honiton, yn 1823; parhaodd i gynnrychioli y lle hwnw hyd 1831, pan y trowyd ef allan. Yn 1832, modd bynag, etholwyd ef yn unllais unllafar dros fwrdeisdref newydd Merthyr Tydfil, yn yr hon yr oedd wedi cael ei eni. Ar yr achlysur hwn rhoddodd 500*p.* i'w rhanu mewn dillad, blancedi, &c., rhwng pobl dlodion Merthyr a Dowlais, &c. Cynnrychiolodd Merthyr hyd ei fedd. Yr oedd golud Mr. Guest wedi cynnyddu yn fawr, ac yr oedd wedi dyfod yn foneddwr o bwys mewn llawer ystyr. Yn 1833 priododd â'r enwog Arglwyddes Charlotte Elizabeth Bertie, chwaer Iarll Lindsay; ac yn 1834

Digitized by Google

bendithiwyd yr undeb hwn a mab ac etifedd, yr hwn a alwyd Ifor. Yn 1838, ar goroniad y Frenines Victoria, gwnaethpwyd Josiah John Guest yn farwnig.

Yn mhlith y gweithredoedd da lawer a wnaeth Syr John yn Dowlais; gellir nodi yr ysgolion nos a sefydlodd; y llyfrgell i'r gweithwyr, yr hon ydyw un o'r goreu yn y Dywysogaeth; y banc cynnilo, &c. Cyfododd ysgoldy ardderchog yma hefyd, yn ol cynllun Syr Charles Barry, yr hwn yw un o'r mwyaf yn y deyrnas, os nid y mwyaf: y mae'r adeilad yn 235 troedfedd ei hyd, ac yn 100 troedfedd am draws ei ganol. Y mae ysgoldy y plant lleiaf, yn 100 troedfedd ei hyd, yn 35 troedfedd ei led, ac yn 50 troedfedd ei uchder; y mae ysgoldy y bechgyn, yn mhen deheuol yr adeilad yn 100 troedfedd ei hyd wrth 30 troedfedd ei led, ac yn 30 troedfedd ei uchder; y mae dwy ystafell i ddosparthiadau pennodol, un yn 25 troedfedd wrth 21, a'r llall yn 45 troedfedd wrth 24. Y mae ysgoldy y merched, yn mhen gogleddol yr adeilad; ac yn cyfatteb yn ei fesuriad a'i drefniadau i ysgoldy y bechgyn. Y mae wedi costio tua 7000*p.*, ac y mae yn anrhydedd, nid yn unig i Ddowlais, ond i Gymru. Y mae yr ysgol yn hollol rydd, ac yn cael ei threfnu a'i haddysgu gyda'r gofal mwyaf. Y prif-athraw presenol yw Mr. Hirst, ac nid oes ei ragorach yn y wlad: y mae yma dri athraw arall, tair athrawes, a thua deg-ar-ugain o rai yn dysgu myned yn athrawon. Yn 1827 adeiladodd Syr John eglwys yn y lle, yr hon a gostiodd iddo 3000*p.*; y mae yn adeilad brydferth, ac yn cynwys 600 o eisteddleoedd, haner pa rai sydd yn rhâd. Rectoriaeth yw y fywioliaeth, yn esgobaeth Llandâf, ac yn nawddogaeth Ardalydd Bute. Cynnelir y rector, gan mwyaf, drwy roddion gwirfoddol, canys nid yw ond gwerth 140*p.*, a byddai Syr John yn cyfranu yn haelionus. Y rector cyntaf oedd Canon Jenkins, yr hwn a weithiodd yn galed ac yn ddifefl yn Nowlais, am flyneddau meithion; a phan yr ymadawodd i Ogledd Cymru, yr oedd 400 o gymunwyr yn yr eglwys.

Y mae yma un-ar-ddeg o gapeli yn perthyn i'r gwahanol enwadau, a'r rhan fwyaf o honynt yn helaeth ac yn hardd. Y mae amryw o honynt wedi cael eu hail-adeiladu; ac at eu gilydd y maent wedi costio miloedd o bunnau. Y mae ynddynt eglwysi lluosog (dwy o rai Seisneg), ysgolion Sul llewyrchus, a chynnulleidfäoedd rhagorol, yn enwedig ar nos Sabbathau. Y mae rhai o weinidogion goreu Cymru wedi bod yn bugeilio eglwysi Dowlais, ac y mae yma weinidogion talentog yn bresenol hefyd, a gellir rhestru rhai o honynt hwythau, yn y dosparth blaenaf.

Cafwyd Act yn 1837 i adeiladu marchnatty, ac i gynnal marchnad yn y lle. Y mae yma amryw glybiau o Iforiaid, Dyngarwyr, Odyddion, &c., gydag amryw fudd-gymdeithasau ereill. Yn mhlith enwogion Dowlais, gellir enwi Mr. Kirkhouse; Dr. White, un o feddygon goreu y deyrnas; Mr. John Evans, y *manager* llwyddianus, yr hwn a fu farw yn Sully, yn 1862; Mr. Adrian Stephens, dyfeisydd y *steam whistle*, am yr hon ni chafodd geiniog—y mae Mr. Stephens yn byw yn Merthyr yn bresenol, a gwraig iddo ef oedd y diweddar Emily Stephens, y farddones; Evan Hopkin, Yswain, C.E., F.G.S., M.S.A., aelod anhydeddus o Gymdeithas Athronyddol Granada Newydd, &c. &c.; a Miss Watts y gantores enwog.

Bu farw Syr J. J. Guest, Tachwedd 25ain, 1852, a chladdwyd ef yn ol ei ddymuniad, yn eglwys Dowlais. Bu ei Arglwyddes weddw yn preswylio yn Dowlais am flyneddau wedi marw Syr John; ac wedi ei hymadawiad, a'i phriodas ganlynol a Charles Schreiber, Yswain, A.S.; y mae cyssylltiad ei Harglwyddes â Dowlais wedi ei dori. Y mae Syr Ivor Bertie Guest hefyd, wedi symud i Canford Manor, plâs ardderchog ar ystâd fawr anrhaethol, a brynwyd gan Syr John, yn swydd Dorset. Wedi preswylio o'r teulu am yn agos i gant o flyneddoedd yn y lle, nid oes yn awr yr un o honynt i'w weled; ond bydd coffa am Syr John tra safo Dowlais. Gwel MERTHYR TYDFIL.

**DRE** (Y), treflan yn mhlwyf LLANARTH, swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU; 4¼ milldir i'r De Orllewin o Aberaeron. Poblogaeth, 221.

**DREBACH** (Y), trefgordd yn mhlwyf LLANFAIR-TALHAIARN, swydd DDINBACH; 4¼ milldir i'r Dehau o Abergeley. Poblogaeth, 68.

**DREBACH** (Y), trefgordd yn mhlwyf GWYDDELWERN, swydd FEIRIONYDD, GOGLEDD CYMRU; 2 filldir i'r Gogledd o Gorwen.

**DREM** AB DREMHIDYDD, un o arwyr Llys Arthur yn y *Mabinogion.* Efe a welai wybedyn yn y bore yn codi o'i lwth yn Blathaon, Gogledd Prydain, ac yntau yn y Gelliwig, yn Nghernyw. Ceir ei enw yn "Englynion y Clywed:"—

"A glywaist ti a gant Dremhidydd
Hen ddisgwyliwr ar gaerydd,
Gwell nag, nac addaw ni wneydd."

**DREF NEWYDD** (Y). Gwel TREF NEWYDD.

**DRUDWAS** AB TRYFFIN, ydoedd un o dri "Marchogion aur dafodogion" llys Arthur. Y mae traddodiad hynod am ddau aderyn a berthynent i Drudwas ab Tryffin, a elwid Adar y llwch Gwyn, yn cael ei adrodd mewn llythyr o eiddo yr henafieithydd enwog, Robert Vaughan o Hengwrt, 1655, a argraffwyd yn y *Cambrian Register*, iii. 311.—"Yr adar hyn oeddynt ddau griffin, a ddysgasai Drudwas i ymosod ar y dyn cyntaf a ddeuai i faes neillduol, a'i ladd; a dygwyddodd iddo nodi y maes hwnw i ymladd gornest a'r brenin Arthur. Drudwas a arosodd mor hir heb ddyfod i'r maes, nes y meddyliodd bod ei wrthwynebydd yn sicr o fod wedi cyrhaedd yno, a syrthio bellach o dan ddialedd yr adar ysglyfaethus: ond siomwyd ef; efe ei hun oedd y cyntaf yno, a'r adar a ymosodasant arno, ac a'i lladdasant yn gelain. Ond pan welsant mai eu meistr ydoedd, galarent ar ei ol drwy ysgrechiadau dolefus am hir amser. Er coffadwriaeth o hyn, y mae darn cerddorol i'w chwareu ar y crwth, yr hwn a welais i yn cael ei chwareu yn fynych, wedi ei gyfansoddi y pryd hwnw, ac a elwir 'Caniad Adar y Llwch Gwyn,' ac y mae englyn Cymreig ar gael yn gwirio yr hanes hwn."

**DRYCH** AIL CIBDDAR, ydoedd un o'r tri "prif ledrithiawg Ynys Prydain." Y ddau eraill oeddynt Coll ab Collfrewi, a Menyw ab Teirgwaedd. Gallai y tri hyn wneyd eu hunain yn anweledig pan y mynent.

**DRYSLWYN**, trefgordd yn mhlwyf LLANGATHEN, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU. 3 milldir i'r Gogledd o Landeilo-Fawr, mewn man prydferth yn nyffryn toreithiog Tywi, neu Towi. Y mae'r bryniau o bob tu wedi cael eu gwisgo â phlanigfeydd cysgodfawr, wedi eu haddurno â phalasau prydferth, ac wedi cael eu hamrywio â

Digitized by Google

phentrefydd gwledig, dymunol i'r olwg. Gerllaw minion y Towy, ar ben bryn ag sydd yn ymddyrchafu yn serth o'r dyffryn, y mae adfeilion castell Dryslwyn, yr hwn yw un o'r gwrthddrychau mwyaf dymunol yn y fro. Y mae adfeilion yr hen gastell hwn, yn profi ei fod unwaith yn sefyll ar ddarn helaeth o dir, er nad oes yn bresenol ond ychydig o'r muriau, a rhyw ddarnau o'r tyrau, yn sefyll. Adeiladwyd ef gan un o dywysogion Dynefor; ac yr oedd yn mhlith yr olaf o'r meddiannau a ddaliwyd gan y teulu hwnw. Clywwyd alawon pereiddfwyn y bardd teulu, yn aml o fewn i'w furiau; clywwyd hefyd weryriad y march, a bloeddiadau y marchog, y tu allan iddynt: ond y mae y dyddiau hyny wedi myned drosodd:—

"Mewn muriau fu'n gaerau gynt,
Nytha adar, noeth ydynt."

Pan yr oedd y maes lywyddion Stafford a Monchency yn gwarchae arno, chwythwyd un o'i furiau trwchus i fynu, ac yn ei ddymchweliad, claddodd y ddau faeslywydd, llawer o'u swyddogion, ac amryw o'u gwŷr.

Ychydig i'r De o'r castell, saif Gelli Aur (*Golden Grove*), palas ardderchog Iarll Cawdor, yn nghanol parc ëang a dymunol. Y mae bryn bychan yn ngyffiniau de-orllewinol y parc, yr hwn a elwir Golwg y Byd, ac y mae golygfa helaeth iawn oddiarno, ar Ddyffryn Towy. Yn mhen gorllewinol y parc, gorwedda pentref tawel Llanfihangel-Aberbythych, lle y bu y duwinydd dyfnddysg hwnw, Jeremy Taylor, yn cadw ysgol.

Tua 3 milldir i'r Gorllewin, y mae Middleton Hall yn sefyll, palas Edward ap Adams, Yswain; ac yn coroni bryn uchel gerllaw iddo, y mae tŵr cadarn ac uchel, a elwir "Tŵr Paxton" ar lafar gwlad: adeiladwyd ef gan y diweddar Syr William Paxton, er coffawdwriaeth am fuddugoliaethau morwrol Nelson. Yn y fro, bron gyferbyn, y mae pentref bychan Llanarthney. Ychydig i'r gogleddorllewin, y mae Cwrt-Henri yn sefyll, meddiant ac anneddle y Parch. G. Wade Green. Barna rhai henafiaethwyr, fod enw y plâs yma yn deilliaw oddiwrth Henri VII., yr hwn fu yn preswylio ac yn cynnal ei lys yma, meddynt, pan yn Iarll Richmond. Y mae yn fwy tebyg, modd bynag, fod y lle wedi cael ei enw oddiwrth Henri ap Gwilym, merch yr hwn a briodwyd gan Syr Rhys ap Thomas.

Gerllaw yma hefyd, y mae plâs tlws Aberglasney, lle ganwyd y bardd penigamp, a'r offeiriad, John Dyer: perthynai yr ystâd yma gynt, i Syr Rice Rudd, Barwnig, yr hwn a drosglwyddodd 25*p*. y flwyddyn tuag at elusen a sefydlwyd gan yr Esgob Rudd, a'i weddw, yn nhref Caerfyrddin. Bu yr Esgob Rudd yn Esgob Tyddewi am 20 mlynedd, ac yn eglwys y plwyf hwn, sef Llangathen, y mae efe a'i wraig wedi cael eu claddu. Gwel LLANGATHEN. Y mae Aberglasney yn sefyll wrth droed Bryn Grongar, neu Grongaer, am yr hwn y crybwylla Leland fel hyn yn ei Deithlyfr (*Itinerary*):—"There is within halfe a myle of Drislan Castel on Tawe, a mightye campe of men of warre, with 4 or 5 diches, and an area in the middle." Hen gaer gron Rufeinig sydd yma, yr hon a adeiladwyd mewn hen gaer Brydeinig, ac y mae'n mesur 450 troedfedd wrth 300. Y mae yn wersyllfa lled berffaith, ac yn mesur tuag wyth erw, gydag arwynebedd pedwarochrog; ac y mae iddi ddwy fynedfa o ochrau byraf y cyflinellau. O dân gysgod draenen ddu, ar y bryn hwn, y cyfansoddod Dyer un o'r cerddi darluniadol arddunolaf yn iaith y Saeson, sef "Grongar Hill." Y mae rhywfaint dros 150 llinell ei hyd, ac yn llawn o swynion awenyddol: cyhoeddwyd hi ar y cyntaf yn "Lewis's Miscellany" yn 1727. Y mae y golygfeydd oddiar y bryn yn hardd dros ben, ac y mae'r llinos, yr ëos, ac adar ereill yn cathlu yn ddidaw yn ei lwyni gwyrddion: pa ryfedd i awen dynerfwyn Dyer gynnyrchu y fath gerdd yn y fath le. Y mae Mr. William Davies (*Gwilym Teilo*), Llandeilo-Fawr, wedi cyfieithu "Grongar Hill," a dyma ddarn o'r cyfieithiad:—

"Ni lwyd gyfrynga niwl-darth dwys,
Rhyngwyf a'r dêg olygfa lwys;
Ymddengys gwyneb anian gref
Yn nhlysion liwiau enfys nef;
Ymchwydda i gofleidio'r gwawl
A daen o gylch ei fri di-dawl.
Hen gestyll ar glogwyni cry'
'N balch estyn tua'r cymyl sy;
* * * * * *
Cusana'r haul â'i danlliw wrid
Gopaau y banau melyn bryd;
Goreura gnu y defaid ffraw,
Disgleiria gernau'r dryll-greig draw:
Islaw, aneirif goedydd blydd,
Mor brydferth ac amliwiog sydd;
Y pinwydd prudd, y poblys llwys,
Y ffawydd gwyrdd, a'r ywen ddwys,
Y fain-gil fèr, dewfrigog, hyf
Y dderwen braff a'i breichiau cryf;
A thu draw'r allt, gwerdd fangre dderch,—
Blodeuog fan brenines serch."

**DRYWON** AB NUDD, ydoedd benaeth un o'r "tair Gosgordd Addwyn," y rhai a wasanaethent eu gwlad a'u teyrn mewn rhyfel ar eu traul eu hunain, heb aros eu gofyn, ac heb erchi na thâl nac anrheg gan wlad na chan deyrn. Y ddau eraill oeddynt Belyn, a Mynyddog Eiddin.

**DU**, DR. JOHN, a elwir gan y Saeson, John *Dee*, ydoedd Gymro, genedigol o Nantygroes, swydd Faesyfed. Ymddengys mai negroaid oedd ei hynafiaid, ond eu bod trwy ryw amgylchiad anhysbys wedi dyfod i drigo i Gymru. Canys dywed Dr. Sion Dafydd Rhys yn ei *Cambro-Britannica Cymraiceol Linguæ Institutiones*,—"Yn agos i Nantygroes, swydd Faesyfed, Cymru, yr oedd gynt deulu negroaidd enwog yn preswylio, oddiwrth yr hwn yr oedd John Du, h. y. yr enwog John Dee o Lundain, yn olrhain ei ddisgyniad." Mab ydoedd i Rowland Dee, gwin fasnachydd yn Llundain, ac orwyr i Bedo Ddu. Tybir iddo gael ei eni tua 1527. Derbyniodd ei addysg yn Nghaergrawnt, lle yr ymenwogodd mewn amryw ganghenau gwybodaeth, ac yn neillduol mewn rhifyddiaeth, seryddiaeth, a fferylliaeth. Pan oedd tuag ugain oed, cymerodd daith i'r cyfandir, ac arosodd yno, yn benaf yn Holland, am tua blwyddyn; a phan ddychwelodd i Gaergrawnt, gwnawd ef yn gymrodor o Goleg y Drindod. Yn fuan, drwg-dybiwyd ef o fod yn ymarfer a'r "gelfyddyd, ddu"—ser-ddewiniaeth a swynyddiaeth, yr hyn, y pryd hwnw, a gredid yn gyffredinol, ac yn fynych a gospid a marwolaeth. Pa un a ydoedd ar y pryd hwn wedi dechreu ei yrfa ser-ddewinol, yn yr hon y daeth yn mhen blynyddoedd ar ol hyny mor enwog, neu ynte ffrwyth rhagfarn oedd y ddrwg-dyb-



Digitized by Google

iaeth a nodwyd, yn tarddu yn hollol oddi ar ei ymchwiliadau gwyddonol ef, sydd yn anmhosibl benderfynu. Ond pa fodd bynag, gorfu iddo ffoi o Gaergrawnt, a chymeryd taith eilwaith i'r cyfandir. Ymsefydlodd yn gyntaf yn Mhrif Ysgol Louvain, yr hon oedd ar y pryd yn dra enwog, ar gyfrif ei dysgeidiaeth; a daeth yntau yn fuan yn barchus iawn yn y lle, ac i gael ei edmygu yn fawr oblegyd ei fedrusrwydd celfyddydol, a'i adnoddau deallol, y rhai, yn nghyda nodweddau dyrchafedig ei gymeriad, a dynent y dosbarth uwchaf o gymdeithas, i ymweled ag ef. Aeth oddi yno i Ffrainc, a bu yn traddodi darlithiau ar Elfenau Euclid, yn Rheims.

Gwelir engraifft o'i alluoedd yn y wyddor hono, yn ei draethawd arweiniol i *Billingsley's English Euclid*, a *Leeke a Serle's Euclid*. Yn 1551, dychwelodd i Loegr, a chafodd ei gyflwyno gan Cecil i Edward VI., yr hwn a roddodd iddo flwydd-dal o gan coron. Ond ymwadodd a hwnw am fywioliaeth Upton-ar-Hafren. Yn fuan ar ol esgyniad Mary i'r orsedd, yn 1553, cafodd ei gyhuddo o "gynllwyno yn erbyn bywyd y frenhines, trwy swyngyfaredd;" seiliwyd y cyhuddiad ar ryw ohebiaeth a ddarganfyddwyd rhyngddo ef a "gwasanaethwyr y foneddiges Elizabeth;" ac arweiniodd i garchariad hirfaith, a threialon mynych, ond gan na chaed sail i ddim yn ei erbyn, rhyddhawyd ef yn 1555. Ar esgyniad Elizabeth i'r orsedd, yn 1558, ymgynghorodd arglwydd Dudley â John Du yn nghylch "y dydd mwyaf ffodus" i'w choroni. Cyflwynwyd ef i'r frenhines, a chafodd ganddi addewidion mawr iawn a gwerthfawr. Yn 1564, ymwelodd drachefn a'r cyfandir, i'r dyben o gyflwyno i'r Ymerawdwr Maximilian, lyfr a ysgrifenasai efe dan yr enw *Monas Hieroglyphia*, yr hwn a argraffodd efe yn Antwerp y flwyddyn hono; a chyn pen y flwyddyn, dychwelodd i Loegr. O hyn allan y mae cymeriad John Du yn dyfod yn un o'r pethau anesboniadwy yn hanes Prydain Fawr. Yr oedd y cyhoedd yn edrych arno fel dewin, yn ymarfer a'r "gelfyddyd ddu," ac yn gallu codi a gostwng cythreuliaid, swyno, a darllen tesni, &c., ac fel y cyfryw yr adweinir ef mewn hanesiaeth y dydd heddyw. Ond dywed y rhai a ddylent wybod, mai proffesu y "gelfyddyd ddu" yr ydoedd, fel cochl dros wir amcan ei fywyd; ei fod mewn gwirionedd yn cael ei gadw yn *yspiwr*, neu yn ddirgel-hysbysydd, gan y frenhines Elizabeth, ac yn derbyn cyflog rheolaidd gan ysgrifenydd y llywodraeth. Felly y dywed Lilly am dano, "a'i fod yn ddyn hynod o gyflym a deallgar, ac yn gyfarwydd iawn yn y Roeg a'r Lladin; yn ymchwiliwr dwfn i'r ddysgeidiaith hermeticaidd ddirgelaf, yn seryddwr perffaith, yn ser-ddewin cywrain, yn ddaear-fesurydd galluog; ac mewn gwirionedd, ei fod yn rhagorol yn mhob math o ddysgeidiaeth."—Lilly's Memoirs, tud. 224. Felly, y mae yn amlwg nas gallesid cael dyn mwy cymwys nag ef i gario allan amcan y frenhines, ac y mae yn dra sicr nas gallasai yntau gael gwell cochl, na phroffesu y "gelfyddyd ddu" er dirgelu ei swydd oddiwrth y cyhoedd.

Yr oedd yr oes hono yn hynod am ei hofergoeledd; gan fod y Diwygiad Protestanaidd newydd ddileu yr holl wyrthiau, y Madonas, a'r Seintiau, ag oedd yn arfer porthi hygoeledd y bobl, yr oedd gaugred y cyhoedd wedi troi i gyfeiriad gwahanol; gan osod coel mewn alchymyddiaeth, ser-ddewiniaeth, a phob math o swyngyfaredd, a thynu yn helaeth o'r rhyfedd, y gwrthun, a'r dychrynllyd. Yn y flwyddyn 1562, hysbysir ni yn benodol bod nifer mawr o enedigaethau anghenfilaidd wedi cymeryd lle yn y deyrnas. Yr oedd ffaith felly yn rhwym o gynhyrchu dau ddylanwad: adgyfnerthu y gred gyffredinol bod rhywbeth dieithr, ac anarferol, yn myned y mlaen; a chwyddo rhestr y gwallgofiaid, y breuddwydwyr, a'r swyngyfareddwyr, y rhai trwy eu harferion a'u crediniaeth, a gynorthwyent yn effeithiol i gadw i fyny a chwyddo yr hygoeledd cyffredinol, bod dadguddiedigaethau goruwch naturiol yn cael eu cyfranu i unigolion. Yr oedd John Du, un a'i wedi syrthio yn aberth i'r hygoeledd uchod, neu ynte mewn modd cyfrwys, wedi cymeryd maintais o hono, er cuddio amcan ei ymweliadau a llysoedd Ewrob; a'r rhai a goleddant y syniad olaf a ddywedant, mai gwasanaethu y llywodraeth yr oedd yn ei ymweliad a llys Maximilian, ac nad oedd cyflwyno y llyfr i'r ymerawdwr, ond esgus i guddio ei neges. Y mae yn ffaith fod gan Elizabeth olwg fawr arno, canys pan ymaflodd clefyd peryglus ynddo yn Lorraine, yn 1571, anfonodd y frenhines ddau physygwr drosodd yn ymwared iddo. Ymsefydlodd wedi hyny yn Mortlake, Surrey; lle yr arweiniodd fywyd annghyhoedd am rai blyneddoedd, gan ymgyflwyno yn hollol i'w fyfyrdod, a chasglu yn nghyd offerynau gwyddonol a seryddol, heb esgeuluso wrth reswm nifer ddigonol o beryls a talismans, &c. Yma aeth y dybiaeth am dano fel un oedd mewn cyfrinach a'r diafol mor gryf. fel y cododd y werin yn ei erbyn yn 1576, gan ddinystrio ei offerynau a'i lyfrau, nes o'r braidd y dihangodd ef a'i deulu, gyda'u heinioes.

Yn 1578, cymerwyd y frenhines yn glaf; ac anfonwyd John Du i'r cyfandir, dan yr esgus o ymgynghori a physygwyr ac athronwyr (neu yn hytrach ser-ddewinwyr) yn nghylch y moddion tebycaf i'w hadferyd; ond mae lle cryf i dybied, mai amcan gwleidyddol dirgel, oedd ganddo yn yr ymweliad hwn. Wedi iddo ddychwelyd, gosododd y frenhines ef ar waith i ysgrifenu dysgrifiad o'r gwahanol diriogaethau a berthynent i'w choron, ar y cyfrif eu bod wedi eu darganfod gan ddeiliaid Prydain, yn nghyda chrynodeb o'r prawfion cofnodedig ac amgen, ar ba rai yr oedd ei hawliau iddynt yn gorphwys. Mewn amser annghredadwy o fyr, efe a orphenodd ei orchwyl, ac a gyflwynodd i'w mawrhydi, ddau rol mawr yn mha rai y mae y tiriogaethau darganfyddedig yn cael eu dysgrifio yn ddaearyddol, a'u darlunio yn hanesyddol. Y mae yr ysgrifau cywrain hyn yn cael eu cadw yn y Cott. Coll. yn yr Amgueddfa Brydeinig. Tua'r amser hwn hefyd, efe a dalodd lawer o sylw i ddiwygiad y Calender, ac y mae traethawd o'i eiddo ar y pwnc hwnw, yn cael ei gadw yn y Llyfrfa Ashmoleaidd yn Rhydychain.

Yr oedd Du y pryd hwn, tua haner cant oed, a'i glod yn y "gelfyddyd ddu" yn ymehangu yn gyflym. Yn 1581, efe a gymerodd i'w wasanaeth, un Edward Kelly, cyfferiwr o Worcester; a byddai y ddau yn "siarad ag ysbrydion." Yr oedd ganddynt fath o ddrych gloyw, yr hwn, fel y tybir, ydoedd ddarn o ganwyll-lo wedi ei gaboli, ar yr hwn y byddai yr angelion, Gabriel a Raphael yn gwneyd eu hymddangosiad ar eu gorchymyn. Am hyny dywed Butler:—

> "Kelly did all his feats upon
> The devil's looking-glass—a stone."

Yn 1583, yr oedd uchelwr Pwylaidd, o'r enw Albert

Digitized by Google

Laske, teyrniarll Siradia, yn Lloegr, ar ymweliad; cyflwynwyd ef i Du, a Kelly; a pha un bynag a oedd amcan gwleidyddol yn hyn ai nad oedd, hwy a aethant gydag ef i'w wlad; ond wedi iddo flino ar eu honiadau hwynt, efe a gafodd wared o honynt drwy eu hanog i ymweled a Rodolph, brenin Bohemia, yr hwn oedd ddyn gwan ac ofergoelus; blinodd Rodolph arnynt yn fuan, ac anfonodd hwynt at frenin Pwyl; ni bu eu ffawd yn fawr gwell yno; ond o'r diwedd cawsant wahoddiad gan ryw uchelwr Bohemiaidd, i fyned ato ef i gastell Trebona, lle yr arosasant mewn bri mawr am ryw gyfnod, o herwydd eu gallu, fel y proffesent, i droi pob meteloedd yn aur. Ymddengys mai yr eglurhad ar y wibdaith ryfedd uchod yw hyn. Elizabeth, a'i chynghorwyr cyfrwys, yn deall bod Laski a brenin y Pwyl, yn dueddol i serddewiniaeth ac alchymyddiaeth, a anfonasant Du allan yno i borthi eu hygoeledd, tra mai ei wir neges, oedd myned allan fel *yspiwr* dros y frenhines.

Ymadawodd Du, a Kelly, oddiwrth eu gilydd yn Bohemia, o herwydd rhyw achos anhysbys, dychweledd y cyntaf i Loegr, ac arosodd yr olaf yn Prague. Yr oedd y ddau hyn yn ol tystiolaeth Lilly, yn gymeriadau perffaith wahanol, tra yr oedd Kelly o'r fath mwyaf isel a gwasaidd, yn edrych yn unig ar elw uniongyrchol oddiwrth bob gorchwyl, ac heb un rhith o egwyddor nac anrhydedd yn ei gyfansoddiad; yr oedd Du yn un o'r rhai mwyaf mawrfrydig, uchelgeisiol, ac awyddus am enwogrwydd, ac ni byddai byth mor foddhaus a phan yn clywed ei hun yn cael ei alw "Yr Ardderchocaf" (Most Excellent). Yn 1595, penododd y frenhines ef yn Warden coleg Manceinion, ac efe y pryd hwnw yn 68 mlwydd oed. Bu yno am naw mlynedd; ond o herwydd rhyw achos anadnabyddus, efe a ymadawodd yn 1604, a dychweledd i'w dy ei hun yn Mortlake, lle y bu farw mewn tlodi mawr yn 1608, yn 81 oed; gan adael teulu lluosog, a nifer mawr o weithiau ar ei ol. Yr oedd mor dlawd yn ei ddyddiau olaf, medd Lilly, fel yr oedd yn fynych yn gorfod gwerthu rhyw lyfr neu gilydd, i brynu ei giniaw.

Pe buasai Du yn byw mewn gwell oes, buasai ei alluoedd, a'i uchelgais, yn sicr o enill iddo y safle fwyaf anrhydeddus; ond fel ag yr ydoedd, nid ydoedd ddim angen nag yspiwr i weinidogion gwael y frenhines Elizabeth, ac i gario allan yr amcan hwnw, yn gorfod ymddarostwng at ystrywiau a chyfrwysderau ag sydd yn iselu y cymeriad yn foesol a deallol. Gwelsom hefyd ei wobr, angen yn ei hen ddyddiau. Gadawodd ar ei ol lawer o ysgrifau; ceir rhestr o honynt yn ei *Compendious Rehearsal*, neu ei lythyr at Whitgift, lle y gwelir bod ganddo dros ddeugain o weithiau annghyoeddedig. Yn mhen tua haner can mlynedd ar ol ei farwolaeth, sef yn 1659, cyhoeddwyd y "Book of Spirits," a bernir mai y Dr. Dee oedd ei awdwr; ond nid oes digon o sail i hyny.

**DUAWG**, mab ieuangaf Llywarch Hen; am yr hwn y dywed y bardd:—

"Er yvais i win o gawg
Ev a ragwan rai rheiniawg
Esgyll gwawr oedd waywawr Duawg."

**DUGOED**, trefgordd yn mhlwyf mawr a mynyddig MALLWYD, swydd FEIRIONYDD, GOGLEDD CYMRU, 2 filldir i'r De o Ddinas-Mawddwy. Gorwedda rhwng mynyddau tra rhamantus, ac y mae y golygfeydd cymmydogaethol ar hyd glânau y Cerist yn rai dymunol iawn. Yn fuan wedi terfyniad y Rhosgadau, sef y rhyfeloedd ofnadwy hyny rhwng teuluoedd Yorc a Lancaster, cyfododd yn y lle hwn hiliogaeth o garnlladron digyfraith, a elwid "Gwylliaid y Dugoed:" yr oeddent hwy a chymmydogion iddynt, y rhai a elwid "Gwylliaid Cochion Mowddwy" yn ddychryn i'r holl wlad, ac yn cyflawni ysgelerderau gorherodaidd. Nid oedd neb yn ddiogel rhagddynt na dydd na nos, ac yr oedd hi yn beryglus iawn i deithio ar hyd unrhyw ffordd: yr oedd yn rhaid i bob tŷ fod fel castell; ac hyd yn nod yn y simddeoedd yr oeddent yn gosod pladuriau a'r min i fyny, er cadw y "Gwylliaid" allan. Er gosod attalfa ar y llofruddiaethau a'r yspeiliadau a gyflawnid, appwyntiwyd y boneddigion canlynol yn ddirprwywyr:—John Wynn ap Meredydd, o Gwydir, Yswain; a Lewis Owen, o'r Llwyn ger Dolgelley, Yswain, Is-Ystafellydd, a Barwn Trysorlys Gogledd Cymru: cyfodasant gorff o ddynion nerthol, ac ar brydnawn cyn Nadolig, daliwyd tua phedwar ugain o'r ysglyfgwn, y rhai a ddygwyd i brawf, a chosbwyd hwy yn ol mesur eu drygioni. Yn mhlith y rhai a grogwyd, yr oedd dan ddyn ieuanc, mam y rhai a ymbiliai â'r Barwn Owen am arbed un o honynt; ni wrandawai y Barwn, tyngodd hithau, gyda holl ddialgarwch ffyrnigrwydd anianddrwg, y buasai i'r plant ag oedd ar ol ganddi, gael dial arno; cadwodd ei llŵ, canys pan oedd y Barwn ar ei daith i frawdlys Trefaldwyn, yn 1555, cynllwynwyd iddo yn nhewgoed Dugoed Mowddwy, gan haid o ddiriedwcis, y rhai a gauasant y ffordd i fyny a phrenau hirion; ac wedi gollwng cafod o saethau, rhuthrasant ar eu hysglyfaeth, a llofruddiasant ef, gan adael ei gorff o dàn fwy nâ deg-ar-ugain o archollion: gelwir y man lle cymmerodd y llofruddiaeth erchyll yma le, yn "Llidiart y Barwn" hyd heddyw. Galwodd y fath weithred anfad am fesurau egnïol: daliwyd amryw o'r "Gwylliaid," ac wedi eu profi, cawsant eu dienyddio; gyrwyd y lleill o honynt o'u cyrchfeydd; ac felly adferwyd diogelwch a llonyddwch i fryniau Mallwyd, yn ogystal ac i'r wlad oddiamgylch.

**DULAS**, sydd yn nghwmwd y Twrcelyn, cantref Cemaes, plwyf Llanwenllwyfo, swydd Fon; 4 m. o Amlwch. Y mae holl drethiadau plwyfol y lle hwn, yn cael eu cynwys yn nghyfrifon y plwyf, yr hwn sydd yn sefyll ar fin Mor Gwerddon, ar ochr ogleddol afon Dulas. Y mae golygïad cyffredinol yr ardal yn dwyn llawer o ddelw y mynyddoedd diffrwyth, yn nherfynau y mwnoedd, er fod yma rai llanerchi yn dangos arwyddion ffrwythlondeb a phrydferthwch arbenig. Y mae nifer o drigolion y lle hwn yn cael eu gorchwylion a'u cynhaliaeth yn Mynydd Paris, a gwaith efydd Mona, y rhai sydd ar y terfyn, yn mhlwyf Amlwch. Y mae Llys Dulas, preswylfod achlysurol Arglwydd Dinorben gynt, mewn man prydferth iawn yn y gymydogaeth hon; ac o fewn ychydig bellder, fel gwrthddrych teg yn y golwg, saif eglwys y plwyf. Y mae Traeth Dulas, wrth enau yr afon Dulas, sydd yn codi o lyn yn y gymydogaeth, yn ymestyn gyda'r glanau yma, ac yn ffurfio math o fay bychan, a elwir "Bay Dulas, tra y mae bryniau uchel yn codi gerllaw, ac yn peri fod y lle yn darawiadol iawn yr olwg arno. O fewn ychydig bellder oddi yma, y mae yr "Ynys Gadarn." Dywedai Lewis Morris am y fynedfa i'r bay, ei bod yn gyfyng iawn, ac yn orlawn o gerig mawrion rhyddion, yr hyn sydd yn beryglus i fordeithiad; a dywed y dylid cludo y cerig hyn i'r lan, at wneuthyr morglawdd, yr hwn ni chostiai dros 400*p.*, gerllaw

Digitized by Google

y fan a elwir Tyn y nant; a symud y graian o ochr ddeheuol y bay, a'i droi i'r afon, yr hyn a'i lledai, ac a arafai lawer ar rwysg y lli. Y mae amryw longau yn troi i mewn yma am ddiogelwch, ar ystormydd blin. Y mae y fywoliaeth yn guradiaeth barhaol, mewn cysylltiad âg Amlwch, yn Archddeoniaeth Mon, ac esgobaeth Bangor, ac yn nhadogaeth yr esgob, yr hwn yw meddianydd y degymau; ond yn haner cyfran Rhos y Mynach, y mae y degymau yn perthyn i beriglor Llanelian. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Gwenllwyfo; yn adeilad bychan prydferth, o fewn tir Llys Dulas, ac yn gymwys iawn i'r sefyllfa, yn mhob modd. Y mae plant tlodion yr ardal yn derbyn addysg rad yn ysgol genedlaethol Amlwch, ac y mae yma ychydig o gymun-roddion i'w cyfranu rhwng y tlodion. Yma y preswyliai Arglwyddes Dinorben, wedi marwolaeth ei gwr, lle y symudai o Cynmel, yn Sir Ddinbach. Yma y cyfanedda eu merch, yr Anrhydeddus Miss Hughes, yr hon a ymbriododd â Syr Arundel Neave, o Essex yn ddiweddar. Y mae Lady Neave yn llenores, ac yn noddydd beirdd a llenorion y wlad. Rhydd ei phresenoldeb a'i chyfraniadau weithiau, i gefnogi Eisteddfod; ac y mae ganddi serchogrwydd mawr at ei chartref Cymreig, ac at bobl Mon. Ar gyfer y lle hwn, yr ochr ddeheuol i'r afon, y mae Bodafon, a Phentre-eirianell, lle y treuliai Llewelyn Ddu gryn nifer o ddyddiau ei faboed, pan yr oedd yn dechreu parotoi at lafur diorphwys ac amrywiaethol ei oes weithgar.

**DULAS**, neu Dulais (Isaf ac Uchaf), dwy drefgordd yn mhlwyf Llangattwg, swydd Forganwg, Deheudir Cymru, ar yr afon Dulas, a ffordd Sarn Helen, 2 filldir i'r Gogledd Ddwyrain o Gastell Nedd. Gwerth tirawl 1453*p.* a 2030*p.*; o'r hyn y mae 600*p.* mewn Gweithfeydd haiarn. Poblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861,—348, a 622. Tai, 67, a 121. Y mae Dulas Uchaf yn cynwys pentref Creunant. Cynhelir Ffeiriau yma ar Ddydd Llun y Sulgwyn, Medi 29, a Thachwedd 20.

**DUNAWD** ab Cunedda, a ddaeth gyda'i dad a'i frodyr o "Fanau Gododin" i Wynedd, tua'r flwyddyn 414. Wedi ymlid ymaith yr Ysgotiaid gyda lladdfa fawr, hwy a ymsefydlasant yn y wlad, gan osod i lawr sylfon brenhiniaeth Cymru; a Dunawd a gafodd diriogaeth helaeth yn Arfon, a Meirionydd, a elwir ar ei enw Dunodig.

**DUNAWD FFUR**, a elwir hefyd Dunawd Wr, a Dunawd Fawr, ydoedd Abad Bangor Iscoed, yn adeg y gynadledd gydag Awstin Fynach, yr hon, yn ol Bede, a gymerodd le yn y flwyddyn 603. Dywed y cofnodau Cymreig, mai mab ydoedd i Pabo Post Prydain, ac iddo yn ei ieuenctyd, fod yn rhyfelwr enwog yn mysg Prydeiniaid y Gogledd, yn gymaint felly, nes aeth ei ddewrder yn ddiareb yn y wlad. Yn "Marwnad Urien Reged" y mae Llywarch Hen yn crybwyll am dano yn fynych, fel yn rhyfela a meibion Urien, ac mewn un penill dywed:—

"Dymcyfarwyddiad yr hwch dywal
Dywedydd yn nrws Llech
'Dunawd vab Pabo ni thech.'"

Yn y *Trioedd*, cysylltir ei enw gyda Gwallawg ab Lleenawg, a Chynfelyn Drwsgl, fel "tri phost cad Ynys Prydain, sef y medrynt ddosbarth ar gad a chatteyrnedd, yn oreuon ar bawb oll ar a fuant erioed." Ond er y cyfan, yr oedd cythrwfl yr amseroedd yn gymaint, fel y gorfu iddo ef, megys lluaws eraill o'r parthau hyny, adael ei diriogaeth, a ffoi am loches i Gymru. Cafodd noddfa ac achles gan Cyngen ab Cadell, tywysog Powys, megys y cawsai ei dad o'i flaen gan Cadell Deyrnllwg; o hyny allan efe a ymroddodd i fywyd crefyddol; ac mewn cysylltiad a'i feibion, Deiniol, Cynwyl, a Gwarthiau, efe a adeiladodd goleg enwog, a elwir Bangor Iscoed, ar lan y Dyfrdwy, yn swydd Fflint, yr hwn a waddolwyd yn helaeth gan Cyngen, ac a lywyddwyd gan Dunawd, hyd oni ddinystriwyd ef gan Ethelfrid brenin Northumberland, yn y flwyddyn, yn ol y *Saxon Annals*, 607.

Nid oes dim yn yr uchod yn annghydweddol ag hanesiaeth yr oes hono; oblegyd arferiad llawer o ryfelwyr y cyfnod hwnw, ar ol methu gyd a'r cleddyf, oedd troi yn saint. Dyna y gwirionedd am y "Tair Gwelygordd Sanctaidd," yn nghyda lluaws eraill, pobl wedi eu gorchfygu mewn rhyfel, a'u gyru allan o'u tiriogaethau oeddynt, a hwythau, mewn canlyniad, o herwydd cyflwr cymdeithas ar y pryd, yn gorfod ymneillduo oddiwrth y byd, gan arwain bywyd meudwyaidd, neu fynachaidd; ac yn mhen oesoedd ar ol hyny, cawsant eu rhestru yn mhlith y saint.

Yn y goleuni hwn, ni a feddyliwn, y dylid edrych ar Bangor Iscoed. Yn y cynwrf cyffredinol hwnw, pan oedd y Saxoniaid paganaidd yn dylifo yn finteioedd yspeilgar i'r Ynys, yn gorchfygu y brodorion gyd a'r galansdra mwyaf ofnadwy, meddianu y Dwyrain, y De, a'r Gogledd, ysgubo taleithiau lawer,—megys *Deifyr*, *Bryneich*, *Ystradclwyd*, a *Reged*, o'u preswylwyr, dryllio eu haddoldai, a gadael eu gweinidogion yn gelaneddau ar wyneb y maes, a'r rhai a ddiangasant gyda'u hoedl, yn ymfudo o bob cyfeiriad tua Chymru, gan ymddiried yn nghorsydd, cymoedd, a mynyddoedd "gwlad y Bryniau," rhag cleddyf addolwyr Wodin, yr oedd yn naturiol i'r dosbarth crefyddol o honynt, ymgasglu at eu gilydd, i ffurfio Corau yma a thraw, neu ymuno a'r Corau ag oeddynt eisioes wedi eu sefydlu, fel y gwnaeth Aneurin Gwawdrydd, â Chor Cattwg, yn Morganwg. Yr oedd amryw o'r Corau hyn yn Nghymru yn yr oes hono, Megys Cor Cattwg, Cor Illtyd, Cor Cybi, Cor Elian, a Cor Seiriol, &c. Ond y prif Gor oedd yr un a adeiladodd Dunawd a'i feibion yn Iscoed; am hyny gelwid ef mewn ffordd o arbenigrwydd ac anrhydedd, yn *Ban* Gor. Mae yn dra thebyg ei fod yn cael ei wneyd i fyny yn benaf, o'r rhai, ag oedd fel Dunawd a'i feibion, wedi eu hymlid o Deyrnedd y Gogledd, ond a ymffurfient yma yn un frawdoliaeth, gan ymroddi i addysg a gweithredoedd crefyddol, a phob peth ganddynt yn gyffredin. Dywed Bede ei bod yn arferiad yn Northumbria yn ei amser ef, gan uchelwyr, yn nghyda phobl gyffredin, i osod eu harfau o'r neilldu, a chyflwyno eu hunain a'u plant i'r *tonsure*, ac addunedau mynachaidd, yn hytrach nag i ddysgyblaeth filwrawl.—*Eccles. Hist. B. V. C.* 23.

Yn ei Epistol at Egbert, archesgob York, y mae yr un Ysgrifenydd yn achwyn bod penaethiaid, heb wybod dim am ddysgyblaeth grefyddol, yn sefydlu mynachdai, ac yn ymgymeryd â'u llywyddiaeth hwynt eu hunain, gan wahodd pob math o bersonau, yn enwedig y rhai ymddibynai arnynt, i mewn; llawer o ba rai a gadwent eu gwragedd gyda hwynt, ac a barhaent i blanta. Nid yw yn cyhuddo y Prydeiniaid o'r camarferiad uchod; ond nid oedd ganddynt hwy leiandai, tra yr oedd lluaws o honynt yn Northumbria; a'r rhai hyny yn fynych yn cael

Digitized by Google

eu llywyddu gan wragedd penaethiaid.—*Epistola ad Ecgberctum.*

Dywedir bod y sefydliad enwog hwn yn Bangor Iscoed, yn rhanedig i saith dosbarth, gyda llywydd ar bob un, ac nad oedd yr un dosbarth yn cynwys llai na thri chant o ddynion,—yr hyn sydd yn eu gwneyd dros ddwy fil; a'r oll yn byw ar lafur eu dwylaw eu hunain. Yr unig waith ag y mae Dunawd a Bangor Iscoed yn ymddangos ar dudalenau hanesyddiaeth, ydyw yn eu cysylltiad a chynadledd Awstin; a'r hanesydd ydyw Bede, yr hwn a anwyd yn y flwyddyn 673, sef tua 70 mlynedd ar ol y gynadledd uchod. Gan fod y pwnc hwn yn un o begynau hanesyddiaeth crefydd yn Mrydain, a bod cynifer o haeriadau a thradd-odiadau disail yn glynu wrtho, gan droi o'i amgylch ar hyd y blyneddoedd, byddai yn werth ini fyned i'r drafferth o'i ddadgysoddi, er cael allan pa faint o wirionedd sydd yn osail i'r cwbl. Ni a ddyfynwn gymaint ag a ddywed Bede ar y pwnc, ac a olrhein-iwn wedi hyny yr ychwanegiadau at yr hanes, o hyny hyd yn awr. Wedi adrodd fel y darfu i Awstin, trwy gymorth Ethelbert, brenin Kent, ddwyn yn nghyd gyngor o esgobion, neu ddoctoriaid, y dalaeth (province) nesaf o'r Brytaniaid, mewn lle a elwid hyd y dydd hwnw, Derwen Awstin,[1] ar gyffiniau y *Wiccii* a'r *West Saxons;* a'u hargyhoeddi, trwy ei allu gwyrthiol i roddi llygaid i ddyn dall o genedl y Saeson, mai efe oedd yn dysgu ffordd cyfiawnder mewn gwirionedd; iddynt hwythau, er cyfaddef hyny, ddadgan nas gallent hwy ymadael a'u harfer-ion henafol, heb ganiatad a chydsyniad eu pobl, a dymuno ar i ail gymanfa gael ei galw, fel y gallai rhagor o honynt hwy fod yn bresenol, Yna ebe Bede, —"Wedi i hono gael ei chyhoeddi, daeth yn nghyd (fel yr haerir) saith o esgobion y Brytaniaid, yn nghyd a llawer o'u dynion mwyaf dysgedig, yn neillduol o'u mynachdy ardderchog, yr hwn, yn yr iaith Saesneg, a elwir Bancornburg, dros yr hwn y dywedir mai yr Abad Dinooth oedd yn llywyddu." Yna, ar ol adrodd fel yr oedd y gwyr uchod wedi eu rhagddysgu gan ryw Feudwy cyn dyfod i'r gymanfa, pa fodd i wybod a oedd Awstin yn ddyn Duw ai nad oedd; ac iddynt hwythau, wrth weled ynddo yr arwydd wrthwynebol, sef peidio cyfodi o'i gadair i roi derbyniad iddynt ar eu mynediad i'r gymanfa, ymgynhyrfu ato, ei gyhuddo o falchder, ac ymdrechu gwrthddyweyd yr oll a lefarai efe, y mae Bede yn proffesu dyfynu geiriau Awstin iddynt hwy, a'u hatebiad hwythau i Awstin:—"'Yr ydych chwi mewn llawer o bethau yn groes i'n defod ni, neu yn hytrach ddefod yr eglwys gyffredinol, ac eto, os cydunwch a mi yn y tri pheth hyn, hyny yw, cadw y Pasg ar yr amser priodol; gweinyddu bedydd, trwy yr hwn y'n hailenir ni i Dduw, yn ol defod Eglwys Apostolaidd Rhufain; a phregethu gyda ni air Duw i genedl y Saeson, ni a oddefwn yn rhwydd yr holl bethau eraill ydych yn gyflawni, er eu bod yn groes i'n defodau.' Atebasant hwythau ef na wnaent hwy ddim o'r pethau uchod, ac nas derbyn-ient ef ychwaith yn archesgob arnynt; canys haerent yn eu mysg eu hunain, 'os na chyfodai efe yn awr ini, pa faint mwy y'n dirmygai fel rhai diwerth, pe dechreuem fod yn ddarostyngedig iddo?' I'r rhai, dywedir, i'r dyn Duw, Awstin, ragfynegi, mewn modd bygythiol, gan na fynent hwy ymgysylltu mewn undeb gyda'u brodyr, y caent ryfel gan eu gelynion; a chan na phregethent ffordd y bywyd i'r Saeson, y caent ddyoddef dialedd marwolaeth trwy eu dwylaw hwynt. Yr hyn oll, trwy oruchwyliaeth barnedigaeth ddwyfol, a drodd allan yn gywir fel y rhagfynegasai efe. Oblegyd ar ol hyny, darfu i'r brenin rhyfelgar Saesnig, Ethelfrid, gyfodi byddin nerthol, a gwneyd lladdfa fawr ar y genedl anffydd-lawn hono, wrth Ddinas y Llengoedd (Caerlleon). Pan ar ddechreu y frwydr, efe a ganfu eu hoffeiriaid, y rhai a ddaethent yn nghyd i offrymu gweddiau at Dduw dros y milwyr, yn sefyll ar wahan, mewn lle o fwy diogelwch, ac a ymholodd pwy oeddynt? neu i ba beth y daethent yn nghyd i'r lle hwnw? y rhan fwyaf o ba rai oeddynt o fynachdy Bangor, yn yr hwn dywedir bod y fath nifer o fynachod fel yr oeddynt yn rhanedig i saith dosbarth, gyda llywydd dros bob un, ac nad oedd un dosbarth yn cynwys llai na thri chant o ddynion, y rhai oeddynt oll yn byw ar lafur eu dwylaw eu hunain. Llawer o'r rhai hyn, ar ol cadw tri diwrnod o ympryd, a ymgynullasant yn mysg eraill i weddio yn achos y frwydr ragddywededig, a chanddynt un Brocmail (Brochwel Ysgythrog) yn amddiffynydd, i'w diogelu tra yn gweddio, rhag cleddyf y barbariaid. Y brenin Ethelfrid, wedi ei hysbysu pwy oeddynt, a ddywed-odd, 'Os ydynt yn llefain ar eu Duw yn ein herbyn ni, er nad ydynt yn dwyn arfau, eto y maent mewn gwirionedd yn rhyfela yn ein herbyn, oblegyd gwrth-wynebant ni a'u gweddiau.' Efe a orchymynodd, gan hyny, am ymosod arnynt hwy yn gyntaf, ac yna efe a ddinystriodd y gweddill o'r fyddin annuwiol, er nid heb golledion pwysig yn ei fyddinoedd ei hun. Dywedir fod tua deuddeg cant o'r rhai hyny a ddaethant yn nghyd i weddio, wedi cael eu lladd, ac na ddiangodd ond tua haner cant trwy ffoedigaeth." —*Bede's Eccles. Hist.* b. ii. c. 2.

Dyna yr oll a ddywed Bede ar y pwnc; ac mae yn amlwg bod yr hanesydd wedi sylfaenu yr adrodd-iad uchod, am y saith esgob Cymreig, abad Bangor Iscoed, yn nghyda nifer y mynachod yno, ar yr hyn a ystyriai ef yn dystiolaeth ail raddol (*secondary evidence*), gan ei fod, yn ol ei onestrwydd arferol pan yn defnyddio tystiolaeth felly, yn arferyd y geiriau "dywedir," a "haerir," i nodweddoli ei adroddiad, er mwyn gosod y darllenydd ar ei ochel-garwch. Felly nis gellir sylfaenu ar yr adroddiad uchod, ragor na'r hyn a ganlyn,—nad oedd dim cymundeb rhwng yr Eglwys Brydeinig a'r Eglwys Babaidd pan ddaeth Awstin gyntaf i'r wlad hon; fod yn Mrydain y pryd hwnw, lawer o ddysgawdwyr crefyddol, y rhai a alwai ef esgobion—yr enw Ys-grythyrol ar weinidogion, neu fugeiliaid eglwysi; fod yr adroddiad ar led yn amser Bede, bod saith o'r cyfryw ddysgawdwyr, yn nghyda llawer o'r dynion mwyaf dysgedig, yn enwedig o Bangor Iscoed, yn bresenol yn y gynadledd hono a alwodd Awstin Fynach; fod Bangor Iscoed y pryd hwnw, yn sef-ydliad crefyddol enwog yn y wlad, lle y dywedid fod tair mil o frawdoliaeth, ac mai Dunawd oedd yr abad; a bod y Cymry, er holl ymdrech Awstin a'i gyfeillion, wedi gwrthod cydymffurfio ag Eglwys Rhufain, a derbyn gwas y Pab yn archesgob arnynt. Ond wedi i'r hanes uchod fyned trwy ddwylaw

[1] Nid oes sicrwydd am y dyddiad na'r lle: Florence o Worcester a rydd o.c. 603: Sigebert, o.c. 602: Spelman, o.c. 601; a Randolph o Gaer, o.c. 599. Methodd Camden er ei holl chwilgarwch a dyfod o hyd i'r lle y cynaliwyd hi: tybiai Cressy mai *Austric* yn swydd Gaerwrangon ydyw, ac y gallai bod yr enw hwnw yn dalfyriad o *Austinsric:* ond golyga Giles mai *Aust*, yr hwn a elwid gynt *Austre Clive,* yn swydd Gaer-loyw, sydd yn dynodi y fan.

Digitized by Google

Walter de Mapes, a Sieffre o Fynwy, yn y 12fed ganrif, y mae yn dyfod allan mewn agwedd lled wahanol. Fe gafodd Awstin yn Nghymru, meddant hwy, saith esgobaeth, ac un archesgobaeth; a'r oll yn cael eu llanw gan y preladiaid mwyaf duwiol; yn nghyda lluaws o abattai, trwy y rhai yr oedd diadell Crist yn cael ei chadw mewn trefn. Yn mhlith eraill, yr oedd yn ninas Bangor Iscoed, eglwys o'r fath fwyaf arddercbog, (yn cynwys yr un nifer o fynachod ag a enwa Bede), enw yr abad oedd Dinooth, yr hwn oedd ddyn hynod o ddysgedig yn y celfau breiniol. Yn ol eu hadroddiad hwy, Dunawd oedd yn arwain y gwrthwynebiad yn erbyn Awstin; pwnc y ddadl, oedd yr archesgobaeth; a rheswm y Cymry dros wrthod ymostwng i Awstin, oedd bod ganddynt hwy eu harchesgob eu hunain.—*Geoff.'s British Hist.* b. xi. c. 12 (Bohn's).

Y mae adroddiad y gwyr hyn, yr hwn nid yw yn ddim ond eiddo Bede wedi ei drwytho yn mhabyddiaeth y 12fed ganrif, yn dinystrio ei hun mor effeithiol, fel na raid dyweyd dim am dano. Ond yn yr oes hono, pan oedd pabyddiaeth yn ei gogoniant, a ffugio ysgrifau yn ddyledswydd grefyddol, tybiodd rhyw fynach Cymreig, ei bod yn werth cadarnhau adroddiad y *Brut*, trwy ffugio ysgrif yn proffesu cofnodi atebiad Dunawd i Awstin, yr hon a gamgymerwyd gan lawer o haneswyr am gynysgrif wirioneddol, ac a argraffwyd lawer gwaith, a llawer modd, er profi cyflwr annibynol yr eglwys Brydeinig yn y cyfnod dan sylw. Y ffurf hynaf ar yr ysgrif hon ag y gwyddom ni am dani, yw yr hyn a geir yn *Spelman's Concilia,* allan o MS. Pedr Mostyn, Bon.—"Bid yspys a diogel i chwi, yn bod ni holl un ac arall yn ufudd ac ynn ostyngedig i Eglwys Duw ac i'r Paab o Ruvain, ac i boob kyur grissdion dwyvol, i garu pawb yn i radd mewn kariad perffaith, ac i helpio pawb o honaunt a gair a gweithred i fod ynn blant i Dduw: Ac amgenach ufudddod no hwn nid adwen i vod ir neb ir yddych chwi yn henwi yn Baab ne yn Daad o daade, yw gleimio ac yw ovunn: Ar uvydddod hwn ir yddym ni yn barod yw roddi ac i'w dalu iddo ef ac i bob krisdion yn dragwyddol. Hefyd ir ydym ni dan lywodraeth Esgob Kaerllion ar wysg, yr hwn ysydd yn olygwr dan Dduw arnom ni y wneuthud i ni gadw y ffordd ysbrydol."

Nid yn unig y mae diweddarwch iaith ac arddull y cyfansoddiad, yn bradychu y weithred hon, ond y mae y gosodiad sydd ynddi am "lywodraeth Esgob Kaerllion ar wysg" dros yr eglwysi Cymreig, yn profi tu hwnt i bob dadl, nad ydyw ond *ffugiaeth* ddiweddar; oblegyd yn ol pobpeth ag sydd yn proffesu bod yn awdurdod ar y pwnc, yr oedd yr esgobaeth neu fel y gelwir hi yn gyffredin yr archesgobaeth, wedi ei symud flyneddau cyn hyny, gan Dewi, o Gaerlleon-ar-Wysg, i Ty Ddewi, yn swydd Benfro.

Bu llawer o ddyfalu gan haneswyr erioed, pwy oedd y saith esgob yn yr hanes; oblegyd wrth gymwyso y meddylddrych diweddar am esgobion, sef esgobion taleithiol, (yr hyn sydd yn berffaith anwarantedig), at y dysgawdwyr crefyddol hyny, teimlir yr anmhosiblrwydd i gael gafael mewn saith esgobaeth yn Nghymru yn yr adeg hono. Yn canfod hyn, ymollyngodd *Giraldus Cambrensis* i ddychymygu hanes, a dyweyd,—"Y rheswm paham yr oedd yn Nghymru y pryd hwnw saith esgob, pan nad oes heddyw (y 12fed ganrif) ond pedwar, oedd, feallai, bod yn Nghymru yn y dyddiau hyny, fwy o Eglwysi Cadeiriol nag sydd heddyw; ac feallai bod Cymru yn fwy cang y pryd hwnw, nag ydyw yn awr."

Yn unol a'r awgrymiad uchod, anturiodd Roger Hoveden, John Bale, ac eraill ar eu hol, roddi i'r saith esgob breswylfod leol, ac enw. Dyma y rhestr a rydd Bale:—"Y rhai hyn oeddynt Esgobaethau, Henffordd, Llandaf, Llanbadarn, Bangor, Llanelwy, Caerwrangon, a Morganwg." Ond nid oes y cysgod lleiaf o sail i'r rhestr hon, nac yn wir i'r un arall ychwaith, i'w gael mewn hanesiaeth Gymreig. Mae y chwedl mai Lles ab Coel, yr hwn meddir oedd frenin holl Brydain, yn y flwyddyn 156, ac a anfonodd at y Pab Eleutherus am ganiatad i fod yn Gristion; ac mewn canlyniad a adeiladodd eglwys yn Llandaf, yr hon oedd yr eglwys gyntaf yn Ynys Prydain, gan roddi iddi diroedd a breintiau gwladol; ac a drodd yr holl demlau paganaidd yn y deyrnas, yn eglwysi Cristionogol, ac Esgobaethau wyth ar hugain o Flamens a thri o Archflamens—offeiriaid ac archoffeiriaid paganaidd, yn gynifer a hyny o Esgobaethau, ac Archesgobaethau Cristionogol; ac ar ol iddo felly, Gristioneiddio ei holl deyrnas, efe a ddiosgodd ei goron, a chyda ei chwaer St. Emerita, a aeth allan yn genadwr i Bavaria, Rhætia, a Vindelicia, ac yn y diwedd a ddyoddefodd ferthyrdod yn Curia, yn Germany,[1] mae y chwedl meddwn, mai efe a sylfaenodd Bangor Iscoed, i fod yn goleg i Athronwyr Cristionogol, yn rhy wyllt a gwrthun i deilyngu unrhyw wrthbrawf difrifol; ond y syndod yw, fod braidd bob ysgrifenydd ag sydd yn cyffwrdd a Bangor Iscoed, yn cymeryd ei arwain ymaith gan y fath chwedl ramantus.

Yn ol pob tebygoliaeth, Dunawd a'i feibion, ar eu ffoedigaeth o Ogledd Prydain, a sefydlasant goleg Bangor Iscoed, a'u cydwladwyr y rhai a ffoisant gyda hwynt, oedd y rhan luosocaf o'r myfyrwyr. Felly nid oes fodd mai mynach oddi yma, oedd Pelagius yr heretic, yr hwn oedd yn dechreu taenu ei athrawiaethau yn Rhufain, yn niwedd y bedwaredd ganrif. Beth a ddaeth o Dunawd ar ddinystriad Bangor gan Ethelfrid, nid yw yn hysbys; dichon iddo gael ei rifo yn mhlith y deuddeg cant lladdedigion. Tybir i hyn gymeryd lle, tua'r flwyddyn 607.

**DURDAN**, Sant, a ddaeth gyda Chadfan o Lydaw i Fynachlog Enlli. Efe ydyw un o seintiau llywyddawl Ynys Mon. Dywedir fod Bodwrda, hen balasdy yn mhlwyf Aberdaron, yn dynodi ei breswylfod, ac y mae yno ffynon gerllaw, a elwir Ffynon Durdan, neu Dwrdan, hyd heddyw.

**DWN**, Gruffydd, bardd yn ei flodau tua 1550.

**DWN**, Henry, bardd yn ei flodau rhwng 1550 a 1580.

**DWN**, Lewis, athraw barddonol y Dr. Richard Davies, ydoedd arwydd-fardd dysgedig, yn ei flodau yn niwedd yr 16 ganrif. Preswyliai yn Garth Gelyn, plwyf Betws Cedywain, swydd Drefaldwyn. Ei dad oedd Rhys ab Owain, a'i fam oedd ferch Rhys Goch Dwn, o'r Gwestyd, ac oddiwrth ei fam y derbyniodd efe y cyfenw Dwn. Dyma ei gyfrif am ei addysg:—"A minau, Lewis Dwn, brydydd, wyf un o ddysgyblion Owen Gwynedd, ac a fum ddysgybl i William Lleyn, ac a gefais gof o'i lyfrau achau ef; a chyn hyny, mi a fuaswn yn ddysgybl i Hywel ab Syr Mathew, a llawer o'i lyfrau ef a gefais." Yn 1585 penodwyd ef o dan freint-lythyr a sel brenin-

[1] Cressy's Church Hist. b. iv. c. 12-16.

oedd yr arfau—(*kings of arms*) yn Arwyddfardd Dirprwyol Cymru, a'r Cyffiniau. Cyhoeddwyd ffrwyth ei lafur gan Gymdeithas yr Y. L. Cymreig, yn ddwy gyfrol hardd, yn 1846, dan yr enw,—"*The Heraldic Visitation of Wales and the Marches, in the time of Queen Elizabeth, by Lewis Dwnn, Deputy Herald at Arms, from such original Manuscripts as still exist. Edited by Sir Samuel R. Meyrick, K.H., LL.D., F.S.A., F.R.S.,* &c. *With Illustrations and numerous Notes for the advantage of the English as well as the Welsh reader.*"

Mae y cyfrolau hyn yn olrhain achyddiaeth prif deuluoedd Cymru, ac yn cael eu hystyried yr awdurdod uwchaf.

**DWRBACH**, lle dair milldir i'r dehau o ABERGWAUN, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU, a Llythyrfa ynddo dan Hwlffordd.

**DWY AFON**, treflan yn mhlwyf Llangernyw, swydd DINBACH, GOGLEDD CYMRU; 6½ milldir i'r Gogledd Ddwyrain, o Lanrwst. Poblogaeth, 209.

**DWYFACH**, gwraig Dwyfan.

**DWYFAEL**, sant, yn y 6ed ganrif. Mab ydoedd i Pryderi ab Dolor.

**DWYFAN**, yn nghyda'i wraig Dwyfach, sydd yn y chwedlonau Cymreig yn cynddrychioli tad a mam pob dyn byw. Hwy yn unig a ddiangasant pan dorodd "Llynn Llion," ac o honynt hwy yr ad-epiliwyd Ynys Prydain. Ymddengys fod "Toriad Llyn Llion" yn cynddrychioli y Diluw, o'r hwn y mae traddodiad mewn rhyw ffurf neu gilydd yn bodoli yn mhlith pob cenedl ar wyneb y ddaear. Mae y traddodiadau Cymreig am y trychineb hwnw, wedi eu corphori mewn alegori brydferth, yn Llyn Tegid a'i amgylchoedd. Enwau y ddwy afonig a arllwysant iddo, yw Dwyfan a Dwyfach, y rhai a unant a'u gilydd yn y Llyn, ac a redant trwyddo heb gymysgu a'i ddyfroedd, ond wedi eu dyfod allan o hono, gelwir hwy Dyfrdwy, dwfr-dwyfol neu hanfodedig, ac y mae yn arwyddlun o'r bywyd dynol yn rhedeg i lawr trwy'r Diluw, gan ymdroelli ar hyd gwastadedd amser, ac yn y diwedd yn ymgolli yn môr tragwyddoldeb. Gwel LLYN TEGID. Y mae yn deilwng o sylw hefyd, bod dwy afonig o'r enwau uchod, Dwyfan a Dwyfach, yn rhedeg i lawr oddiwrth Garn Dolbenmaen, yna yn ymuno a'u gilydd, gan ymarllwys i'r môr yn Ynysgain-fawr.

**DWY FFRWD**, treflan yn mhlwyf Pennant, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU, 8½ milldir i'r Gogledd Orllewin o Lanfyllin. Poblogaeth, 90.

**DWYGYFYLCHI**, neu RHIWGYFYLCHI, pentref, a phlwyf, yn nghantref ARLLECHWEDD UCHAF, swydd GAER YN ARFON, GOGLEDD CYMRU, 4 milldir i'r Gorllewin o Aberconwy, ar y ffordd o Gaer-lleon i Gaergybi. Y mae y pentref yn gorwedd ar lethr y mynydd, oddiar y môr, rhwng y Penmaen Bach a'r Penmaen Mawr. Islaw y pentref, y mae gorsaf gyfleus ar y rheilffordd o Gaer i Gaergybi. Cyfrifir y llanerch hon yn iachus a difyrus dros ben, ac fel y cyfryw, y mae yn gyrchfa lluaws o foneddigion uchaf y deyrnas, yn y tymhor hâf; i dderbyn y rhai y mae yma lawer iawn o adeiladau gwychion wedi eu cyfodi yn ddiweddar. Rhoddir mesuriad y plwyf yn 5794 o erwau, o ba rai, y mae 2005 yn ddwfr. Ei werth tirawl, yw 6107*p.*, o'r hyn, y mae 3606*p.*, mewn cloddfeydd. Poblogaeth y plwyf yn 1851 oedd 926; ond yn 1861, yr ydoedd yn 1386. Nifer y tai yn y plwyf yn 1851, oedd fel y canlyn,—yn cael eu cyfanneddu, 183; yn weigion, 16; yn cael eu hadeiladu, 2: ond yn 1861, yr oedd nifer y tai fel y canlyn; yn gyfanneddawl, 272; yn weigion, 12; yn cael eu hadeiladu, 11; ac erbyn hyn, y mae y cynnydd yn llawer mwy; y cynnydd mawr yma yn mhoblogaeth y lle, a achoswyd gan ehangiad y cloddfeydd cerig yn ystlysau y Penmaen Mawr, o'r lle yr anfonir llawer o lwythi llongau, i balmantu trefydd mawrion Lloegr. Ficeriaeth ydyw y fywioliaeth eglwysig, yn esgobaeth Bangor, gwerth 125*p.* yn y flwyddyn, Noddwr, y Parch. H. Roberts. Yn ddiweddar, adeiladwyd Eglwys newydd hardd yn y plwyf. Y mae yma hefyd addoldy hardd gan y Trefnyddion Calfinaidd, a dau addoldy gan yr Annibynwyr. Y mae cynnyrch amryw gyfroddion elusenawl, yn cyrhaedd yn y cyfan, i 76*p.* 14*s.*, yn y flwyddyn, yn cael ei ranu rhwng y tlodion ar ddydd gwyl Domos. Ar y mynydd, rhwng Penmaen Bach a Sychnant, y mae hen amddiffynfa, a elwir DINAS; ac y mae lle cryf i gasglu, mai dyma y lle y bu Hywel ab Owain Gwynedd yn gwersyllu, at yr hon y cyfeiriai mewn un, neu ddwy o'i bryddestau;—

"Caraf y gaer falch-waith o'r Gyfylchi,
Yn y bylch, a balch-lun fy hun ynddi.
Enwawg, drafferthawg a dreidd iddi,
Anwar don lafar lefawr wrthi.
Dewisle Lywy loyw, gyd-teithi,
Glaer gloyw y dwyre o du gweilgi;
A'r wreic a lewych ar eleni,
Blwyddyn yn ynial Arfon yn Eryri,
Ni ddirper pebyll, ni syll pali,
Nep a rwy garwy yn fwy noti,
Pei chwaerei y but yr barddoni,
Nebawd noswaith y byddwn nesaf iddi.

"Caraf y Gaer wen-glaer, o du gwenylan,
Mynydd car gwyl-deg gweled gwylan:
Ydgarwn i fyned cared yn rwy,
Ry eitun ofwy y ar fein-gan,
I edrych fy chwaer, chwerthin egwan;
I adrawdd caru can doeth ym ran,
I edryd fy lledfryd ae llet ourwy:
I edryd Llywy, lliw ton dylan.
Llifyant oe chyfoeth, a doeth attan,
Lliw eiry llathyr oerfel, ar uchel fan,
Rac fal ym cotidy yn llys Ogyrfan.
Chweris oe hadaw hi adoed cynran,
Ethyw am eneidy athwyf yn wan
Neud athwyf o nwyf yn eil garwy hir
Y wen am lluddir yn llys Ogyrfan."

*Myvyrian Archaiology.*

Yr hyn sydd yn ymddangos yn fwyaf tebyg ydyw, bod y tywysog Hywel ab Owain Gwynedd, ar farwolaeth ei dâd, wedi symud ei wraig i'r gymydogaeth hon, er dïogelwch, tra yr ymrysonai ef a'i frawd Dafydd am arglwyddiaeth Gwynedd; ac iddi fod yn cyfaneddu yn y lle a elwir hyd heddyw "Merddyn Hywel," wrth odreu y bryn, ar yr hwn y mae olion yr hen amddiffynfa uchod; yn yr hon efallai yr ydoedd gwarchodlu cryf, a lle y gallasai y dywysoges encilio yn hawdd ar ymddangosiad o berygl; a chasglwn oddiwrth rai o'r llinellau uchod, ei bod wedi aros "flwyddyn, yn anial Arfon, yn Eryri."

Ychydig oddiar y Gwddw Glâs, yn y plwyf hwn, y mae amryw olion henafiaethol tra dyddorol, o'r rhai y dyru *Pennant* y dysgrifiad canlynol;—"Disgynais o'r drum, i bantle, rhwng y Penmaen a mynydd cyfagos, aethum ar gefn fy march, a chyfciriais ar hyd llwybr defaid dâ, tua Chonwy. Yn

Digitized by Google

fy ffordd, sylwais uchlaw y Gwddw Glâs, yn mhlwyf Dwygyfylchi, ar gyfres hir o henafiacthau, rhai o ba rai a grybwyllir gan Camden, yn ei adroddiad am y Penmaen Mawr. Am gryn bellder o ffordd, gwelais gylchoedd o feini o amryfal dryfesurau, a charneddau mawrion. Y mae y prif gylch yn bresenol yn gynwysedig o ddeg o feini ar eu penau, o fewn pellderau annghyfartal oddiwrth eu gilydd; y fwyaf o ba rai, sydd yn wyth droedfedd, a thair modfedd o uchder: y mae un arall ar lawr, yn un droedfedd ar ddeg, a dwy fodfedd o hŷd. Perffeithir y cylch â chlawdd bychan o gerig rhyddion, wedi eu cyfleu rhwng y rhai mwyaf. Y mae traws-fesur y cylch yma yn bedwar ugain troedfedd. Yn agos i hwn, y mae pedwar o gylchoedd eraill, llawer llai. Yn nghanol un o honynt y mae llech-faen, gweddillion Cromlech; ac y mae yn debyg fod y cyffelyb goffeini yn y lleill, cyn eu symud i wneyd magwyrydd, ac amcanion eraill. Tua chwarter milldir oddiwrth y rhai hyn, y mae Carnedd fawr, wedi ei gwneyd i fynu o gerig bychain, ac yn agos ati, un arall, o gerig mawrion; ac heb fod yn mhell oddiwrth y rhai hyn, y mae cylch, wedi ei wneyd o gerig bychain. Yn agos i'r olaf, y mae careg arw, a elwir "Maen y Campau;" a cherllaw iddo, y mae Carnedd, a chylch bychan o ddeuddeg careg. Y mae yn sicr fod y llanerch yma wedi ei chyfaneddu yn dda ar adeg dra boreuol; canys y mae seiliau adeiladau bychain, o amgylch ogylch, wedi eu gwneyd o gerig crynion, cyfaddas i symlrwydd annghelfydd oesoedd boreuol. Y mae cerig bychain ar eu penau, ac amryw Garneddau bychain, yn wasgaredig mewn amryw fanau; a gellir canfod olion ffordd rheolaidd, yn cyfeirio oddi yma tua Chonwy." Dyna y darluniad a ddyru *Pennant* o'r llanerch yma, fel yr ymddangosai yn ei amser ef.

Yna, y mae efe yn myned rhagddo, gan wneyd y Sylwadau canlynol ar y Campau Cymreig;—"I ba amcan bynag y gallasai y cylchoedd lleiaf fod wedi eu bwriadu, y mae rheswm cryf i gredu, fod y mwyaf, yn enwedig y nesaf i "Faen y Campau," yn Gemmaes, neu chwareule Gymreig, i arddangos yr hen gampau; hwyrach mai yma, ac mewn lleoedd cyffelyb, y cynhelid yr Eisteddfodau, i benderfynu ar deilyngdod yr ymgystadlyddion yn yr Olympau Cymreig. Yr oedd Pedair Camp ar hugain gan y Cymru, enwau y rhai a roddaf, fel y maent wedi eu cadw gan y *Dr. Davies* yn ei Eirlyfr, yn nghyd a'u heglurhad, hyd y mae yn fy ngallu. O'r rhai hyn, gelwid deg yn WROL-GAMPAU; ac yr oedd chwech o'r rhai hyn yn ymddibynu ar nerth corphorol yn unig, ac fe'u gelwid "Tadogion," am nad oedd eisiau un math o offeryn i'w cyflawni, ond eu bod yn ymddibynu ar y dŷn yn noeth, megis ei ganwyd. Yr oedd gan y Groegiaid eu *Pentathlon;* ond yr oedd genym ni un yn ychwaneg.—1. Nerth i gyfodi pwysau.—2. Rhedeg.—3. Neidiaw.—4. Nofiaw.—5. Ymgodymu.—6. Marchogaeth. Yr ydwyf yn tybied fod y gair "Marchogaeth," yn cyrhaedd yn mhellach na'r ystyr gyffredin, ac yn dynodi ymgystadleuaeth rhwng cerbydwyr; canys nid oedd bobl fwy medrus yn y defnyddiad o gerbydau mewn rhyfel, nag ydoedd y Brythoniaid; gan hyny, nid yw yn debyg y buasent mewn amser o heddwch, yn esgeuluso ymarfer eu celfyddyd mewn rhith-ryfel, neu mewn ymryson cyflymder yn y chwareu-faes. Ac y mae yn ddiamheuol fod y chwech hyn, yn gampau cynhwynol yr Ynys hon, a hyny o'r amserau boreuaf: fe all fod rhyw amheuaeth am y lleill.

"Y pedair gwrol-gampau eraill oeddynt, 'o rym arfau,' neu yr hyn a ymddibynai ar fedr i drin arfau;—1. Saethyddiaeth.—2. Chwareu â chleddyf a bwcled.—3. Chwareu â chleddyf deu-ddwrn, hen arf y Brytaniaid, fel ei harddangosir mewn cerfddelw o filwr, a gafwyd wrth gloddio yn mysg adfeilion Llundain, wedi y tân mawr yn 1666.—4. Chwareu Ffon Ddwybig.

"Wedi y rhai hyn, yr oedd y deg MABOL-GAMPAU; yn mysg pa rai yr ydoedd tri math o *hely;*—1. Hela a milgi;—2. Pysgotta;—3. Adara. Y saith eraill oeddynt o ryw deuluaidd;—1. Barddoniaeth;—2. Chwareu ar y delyn;—3. Darllen Cymraeg;—4. Canu Cywydd gan dant;—5. Canu Cywydd pedwar, ac accenu;—6. Tynu arfau;—7. Herodraeth. A'r pedair a elwir Gogampau,—1. Chwareu Gwydd bwyll, a chwareuid â dynion, efallai mai yr un ydoedd â'r chwareu a elwir, 'Y Llwynog a'r Wydd:' a bernir fod yr ymadrodd, 'Gwerin y Wyddbwyll,' yn dynodi y dynion a fyddent yn cymeryd rhan yn y chwareu hwnw; 'Clawr y Wyddbwyll,' (*the Chessboard*);—2. Chwareu Tawlbwrdd, yr unrhyw chwareu, efallai, ag a elwir *Backgammon*, geiriau o darddiad Cymreig, sef o *Bach*, bychan, a *Cammawn*, ymryson; ac yn arwyddo 'ymrysonfa chwareuwyr;' ac arwyddocad llythyrenol y gair 'Tawlbwrdd,' ydyw *taflu ar y bwrdd.*—3. Chwareu Ffristial, sef disiau; ac yn 4ydd, Cyweiriaw Telyn." Gwel *Pennant's Tours in Wales*, 8vo, ed. 1810, vol. iii. p. 118–122.

Yn y plwyf hwn y mae y bryn a elwir "Trwyn y Wylfa," yr hwn a gafodd yr enw, medd traddodiad, mewn cyssylltiad â gorlifiad tiroedd Helig ab Glanawg, yn y dyffryn islaw yma. Mewn cyssylltiad a'r amgylchiad hwnw, dyfynwyd a ganlyn o hen Ysgrif-lyfr yn meddiant y Parch. James Williams, Llanfair yn Nghornwy;—"Helig ab Glanawg ydoedd Arglwydd Abergeley, Rhôs, Arllechwedd, Lleyn, a Chantref y Gwaelod, a'r dyffryn tra ffrwythlawn, teg, a hyfryd, sydd yn gorwedd rhwng Bangor Fawr yn Ngwynedd, a Gogarth, a Theganwy, mewn hŷd; ac mewn llêd, o Ddwygyfylchi, hyd y trwyn o swydd Fflint, a ymestynai o Ruddlan hyd Ynys Lanach, a elwir "Ynys Seiriol;" ac yn ei ben uchaf, a ymestynai mewn llêd, o Aber, a Llanfair, hyd yr afon Ell, yr hon a ysgarai swydd Gaer yn arfon oddiwrth Fôn; a'r un ffunud, a ysgarai Fôn oddiwrth swydd Fflint, gan redeg rhwng y Penmaen mawr ag Ynys Seiriol, ac a ymarllwysai i'r môr yn mhell tu hwnt i Ynys Seiriol, wedi amgylchynu llawer o ddyffrynoedd ac isel-diroedd breision a ffrwythlawn, o fewn siroedd Caer yn arfon, Fflint, Mon, a Meirionydd. Y rhan fwyaf o honynt oeddynt diroedd Helig ab Glanawg, prif balas yr hwn a safai yn y dyffryn hwn, tua haner y ffordd o'r Penmaen Mawr i Gogarth, adfeilion yr hwn y gellir eu gweled eto, wedi trai isel, o fewn cylch dwy filldir i'r môr, yn gymhwys ar gyfer Trwyn y Wylfa, yr hwn sydd fryn yn gorwedd yn nghanol plwyf Dwygyfylchi, o fewn tir Syr John Bodfel, Marchog; i fynu i'r hwn fryn y rhedodd Helig ab Glanawg a'i bobl, i ymachub, pan wedi eu peryglu trwy ymdoriad disymwth y môr arnynt; a'r rhai hyn a achubasant eu heinioes. Ac wedi dyfod o honynt i fynu i drwyn y bryn hwnw, a chan edrych yn ôl, y gwelent yr olygfa arswydus a galarus a ymledai o'u blaen, yn lle y

Digitized by Google

dyffrynoedd di gyffelyb mewn ffrwythlonrwydd, Helig ab Glanawg a'i bobl, a ddirwasgent eu dwylaw, gan ddyrchafu eu llef mewn wylofain, a galaru eu hanffawd, a galw ar Dduw am drugaredd; a gelwir trwyn y bryn hwnw, hyd heddyw, "Trwyn yr Wylfa;" sef "trwyn y bryn galarus," neu, fryn y wylofain.

"Yr oedd gan Helig ab Glanawg Faenordy arall ger Pwllheli, adfeilion yr hwn sydd i'w weled yn agos i dŷ Owen Madryn, ar y llaw ddehau, fel yr elych o'r dref tuag Abererch.

"Gelwid y dref hon 'Pwllhelig,' ac yn ddiweddar Pwllheli, trwy adael y llythyren *g* allan o ddiwedd y gair.

"Yr oedd gan Helig ab Glanawg dri o feibion, y rhai a ymroddasent i fuchedd grefyddol, ac a ganonwyd yn saint; nid amgen Boda, a Gwyn, y rhai oeddynt eill dau yn Nwygyfylchau, ac ydynt yn gladdedig wrth ben yr Eglwys, mewn capel bychan, cyssylltiedig â phen gorllewinol yr Eglwys; a mab arall a elwid Brothen, yr hwn a wasanaethodd Dduw, ac sydd yn gorwedd yn gladdedig yn Llanfrothen, swydd Feirionydd."

Mewn hen ysgriflyfr arall, cawn y crybwylliadau canlynol am ddisgynyddion Helig ab Glanawg, a ymsefydlasant yn y gymmydogaeth hon:—"Oddiwrth yr Helig ab Glanawg hwn, y mae y prif ddynion yn swydd Gaer-yn-arfon yn disgyn; yn Arllechwedd Uchaf, yr oedd Iarddur, o'r hwn yr oedd prif lwyth y Cwmmwd yn hanu: ac felly hefyd yr hanai Maelog Grwm, arglwydd Arllechwedd Isaf, a'r Creuddin. Iarddur oedd fab Cynddelw ab Trahaiarn; ac oddiwrtho ef yr hanodd yr holl foneddion, yr ysweiniaid, marchogion, ac arglwyddi, a gymerant arnynt eu bod o haniad henafol, neu ydynt yn dal tiroedd er ys hir amser, o fewn Cwmmwd Arllechwedd Isaf; canys Iarddur oedd perchenog yr holl diroedd yn y Cwmmwd hwnw, yn mysg llawer o bethau eraill, (heblaw Aber, a'r Wig, y rhai a berthynent i'r tywysog,) a'r tiroedd hyn a ddaliwyd gan ei hiliogaeth, trwy fraint-lythyrau, dros flyneddoedd lawer. Yr ydoedd Iarddur wedi derbyn ei diroedd yn ddigyfrwng oddi gan y tywysog, a phan fu efe farw, gadawodd ddau fab, Madoc, ac Iorwerth, i ettifeddu ei feddiannau. Madoc, wedi ei alw i hyny, a fu yn gwasanaethu ei dywysog yn bersonol yn y rhyfeloedd, fel yr ydoedd yn rhwym i wneyd, yn ol deiliadaeth ei diroedd; ond Iorwerth a omeddodd y cyfryw wasanaeth, ac am hyny y tywysog a attafaelodd ei holl diroedd, ac a ganiattaodd yr unrhyw, yn nghyda holl arf-arwyddion Iarddur, i Madoc ab Iarddur, y brawd henaf; yr hyn a fwynhaodd Madoc yn y canlyniad, gan ddwyn arfau: wedi hyny mwynhaodd Madoc yr holl diroedd a'r arfebion; ond o'i serch at ei frawd Iorwerth, efe a roddes iddo ran o'r tiroedd, ac o'r arfebion.

"O Madog ab Iarddur yr hanodd Rhŷs Fychan, yr hwn oedd ei ettifedd gwrryw. Rhys Fychan oedd fab i Robert Fychan, fab Ieuan Fychan, fab Madog, fab Howel, fab Gruffydd, fab Dafydd, fab Tudyr, fab Madog ab Iarddur; ac er yr hen ddefod Gymreig, o raniad tiroedd yn gyfartal rhwng y meibion, yr oedd Rhŷs Fychan yn berchen tiroedd, a meddiannau mawrion, yn Môn, a swyddi Caerynarfon, a Fflint. Yr oedd efe yn yswain ar y corph i'r brenin Rhisiard y Trydydd; ac yn gweini arno yn ei gyfringynghorfa; a thrwy freinteb, yr oedd yn rhydd ddinesydd o fewn Lloegr. Efe a brynasai gan y brenin, dair maenor dda, yn agos i'r Eglwys Wen, ac a bwrcasodd Aber, a Chemmaes, a'r Wig, ac amryw bethau eraill, y rhai a gymerwyd oll oddiarno pan ddaeth Hari y Seithfed i fewn. At y Rhŷs Fychan yma, yr yfodd Rhisiard y Trydydd y gwin diweddaf a yfwyd ganddo. Pan welodd y brenin fod Stanley wedi cefnu arno, a bod yr holl Gymry wedi gwrthryfela oddiwrtho, efe a alwodd am ffiolad o win, gan eistedd ar ei farch yn ei lawn arfogaeth; a phan ddygwyd y gwin iddo, efe a alwodd ar Rhŷs Fychan, ac a yfodd ato yn y geiriau hyn, "Dyma, Fychan, myfi a yfaf attat ti, y Cymro cywiraf a ganfyddais erioed yn Nghymru;" ac wedi yfed, efe a ruthrodd i ganol ei elynion, lle y lladdwyd ef yn ddioed.[1] Ar hyn, collodd Rhys Fychan ei holl diroedd, (y rhai a ddeisyfwyd oll gan y llyswyr newyddion, cyn y gallai efe gael ei bardwn,) oddieithr yr ychydig a adawodd efe i'w ddau fab, Pyrs ab Rhŷs, ac Edmwnd ab Rhŷs; ac felly yr oedd i Pyrs fab, William Coetmor; a mab Edmwnd ab Rhys, oedd Thomas Wynn ab Edmwnd.

"Ni's gwelir neb yn dal tiroedd yn y cwmmwd hwn, neu rywle arall, wedi disgyn yn llinachol, o dad i fab, o gorph Madog ab Iarddur, oddieithr William Coetmor, a Thomas Wynn ab Edmwnd; ond chwi a ganfyddwch fod y Gwir Barchedig, a'r Gwir Anrhydeddus, John, Esgob Lincoln, Arglwydd Geidwad sêl fawr ei Fawrhydi, o Loegr, ac un o gyfrin gynghor anrhydeddus ei Fawrhydi, yn disgyn oddiwrth Madog ab Iarddur, trwy ferch; ac y mae efe yn dal y tiroedd cyntaf a feddai ei hynafiaid yn y Penrhyn, oddiwrth ei nain hono; ac felly oddiwrth Madog ab Iarddur, fel y gwelir oddiwrth yr achres ganlynol;—John, Esgob Lincoln, oedd fab i Edmwnd, fab i Dorothy, ferch i Syr William, fab i Syr William, fab i William Fychan, fab i Gwilym, fab i Gruffydd, fab i Dafydd, fab i Tudyr, fab i Madog ab Iarddur. Ac yn nesaf i'r Penrhyn, y tirfeddianydd mwyaf, a ddaliai diroedd oddiwrth Madog ab Iarddur, oedd John ab William ab Rheinallt, o'r Gwddw Glas, yn nghwmmwd Ucharfe, yr hwn oedd yn dal gwerth tri chant yn y flwyddyn, a mwy, oddiwrth Madog ab Iarddur; canys efe oedd John, fab William, fab Gwenllian, ferch, ac aeres Gruffydd, fab Hwlcyn, fab Ieuan, fab Howel, fab Madog ab Iarddur. Felly, ni's gallaf ganfod neb arall yn dal tiroedd, oddiwrth Madog ab Iarddur yn y cwmmwd hwn, heblaw y pedwar a grybwyllwyd gyntaf uchod; y ddau gyntaf, trwy ddisgyniad o dad i fab, linolin; a'r ddau ddiweddaf, trwy haniad o du eu mam, er eu bod o fewn yr ychydig oesoedd diweddar hyn, yn rhagori ar y lleill, mewn moddion a meddiannau.

"Y mae yn nghwmmwd Ucharfe, (Arllechwedd Uchaf?) ddau eraill ydynt yn disgyn linolin o'r brawd ieuangaf, Iorwerth ab Iarddur, sef, Thomas Wynn ab Morus, o'r Gorddinog; a Robert ab Rhisiard, o Lanfair Fechan. Thomas Wynn ab Morus, gan ei fod yr ettifedd gwrryw mwyaf uniongyrchol o gorph Iorwerth ab Iarddur, a feddiannai y brif breswylfa, Gorddinog; gan ei fod yn hanu fel y canlyn, Thomas ab Morus, ab John, ab Rhŷs, ab Gwilym, ab Ieuan Llwyd, ab Gruffydd, ab Gronw, ab Howel, ab Cynfrig, ab Iorwerth, ab Iarddur. A'r brif annedd a feddai Iorwerth, a'r lle y cyfanneddai Ieuan Llwyd hefyd, er fod eu tiroedd a'u meddiannau yn fawr iawn y pryd hyny, oedd

[1] Y mae chwedl gyffelyb yn cael ei hadrodd mewn cyssylltiad â Howel Coetmor. Gwel DOLWYDDELEN.

Digitized by Google

Gorddinog; o'r hwn dŷ, er amser Ieuan Llwyd, y tarddodd lluaws mawr o gangenau: a phe buasai holl diroedd Ieuan Llwyd, yn perthyn i Gorddinog yn awr, fel yr oeddynt yn ei amser ef, buasent yn werth tua 2000*p.* yn y flwyddyn; ond y maent yn awr wedi eu rhanu, o leiaf, rhwng tua chant o berchenogion.[1]

Yr oedd Robert ab Rhisiard o Lanfair Fechan hefyd, yn dal ei diroedd oddiwrth Iorwerth ab Iarddur, gan ei fod yn hanu o frawd o dŷ Gorddinog, fel y canlyn;—Robert ab Rhisiard, ab Robert, ab William, ab Meredydd, ab Rhŷs, ab Ieuan Llwyd, ab Gronw, ab Howel, ab Cynfrig, ab Iorwerth, ab Iarddur. Ei holl diroedd ef oeddynt diroedd Ieuan Llwyd, ac a berthynent i Gorddinog, a chynt, oeddynt diroedd Iorwerth ab Iarddur, oddieithr ychydig o diroedd celedig, a orweddent yn gymmysg a'i diroedd ef, ac a fuasent yn perthyn i Bleddyn Rwth, ond a ddirwywyd, ac ydynt yn awr yn eiddo Thomas Bulkeley.

"Y brif gangen sydd yn disgyn o Iorwerth ab Iarddur, ac yn dal y rhan fwyaf o diroedd y dydd hwn yn y cwmmwd yma, ydyw tylwyth Cochwillan; canys oddiyno y mae Arglwydd Geidwad y sêl fawr yn hanu, fel y dangoswyd eisoes. Y mae y nifer o ysweiniaid a boneddigion sydd yn dal tir, mewn union-lin o Iarddur, yn hawl eu mamau, a'u neiniau, o fewn siroedd Môn, Arfon, Meirionydd, a Flint, yn afrifaid. Ni chrybwyllir neb yma, ond y rhai a ganfyddir yn y gymmydogaeth hon. Am Robert Owen, Bodsilin, estron oedd efe o ran genedigaeth, yn y cwmmwd yma; ac nid oedd yn dal ond ychydig iawn o diroedd oddiwrth Ieuan Llwyd; a'r hyn oedd ganddo, a ddaethai iddo drwy Mali, ferch Ieuan Llwyd, yr hon a briodasai a Llewelyn ab Hwlcyn, mab yr hwn oedd Meurig, mab yr hwn oedd John, mab yr hwn oedd Robert, mab yr hwn oedd Owen, mab yr hwn oedd Robert Owen, yr hwn oedd y diweddaf a drigodd yn Modsilin, am fod ei fam yn meddu Tre'r gof am ei hoes, ac am ei fod ef wedi priodi yr ail waith â Lowry Coetmor, yr hon wedi ymsefydlu unwaith yn Modsilin, er nad oedd ond tyddyn bychan, a thrigfa annestlus, ni fynai symud oddiyno i Dre'r gôf, mor bell oddiwrth ei chyfeillion, er ei fod yn well preswylfod. Ond, y rhan fwyaf o diroedd a feddai Robert Owen yn y cwmmwd yma, oedd y drydedd ran o diroedd Dafydd ab William, ab Gruffydd, ab Robyn, y rhai a ddaethent iddo oddiwrth ei fam, Angharad, ferch Dafydd ab William, yr hon oedd yn gyd-aeres â'i chwïorydd Jane, ac Agnes; ac o'r tiroedd hyny, cafodd Syr John Bodfel, Marchog, y rhan a berthynai i Jane; Robert Owen, y rhan a berthynai i Angharad, a Dafydd Llwyd ab Rhŷs, y rhan a berthynai i Agnes.

"Gall pob dyn synhwyrol ganfod, trwy y cangenau crybwylledig uchod, gynifer o wŷr anrhydeddus, urddasol, a theilwng, mewn manau eraill, allan o'r cwmmwd hwn, yn swydd Gaer yn arfon, a'r gwledydd cyfnesol eraill, ydynt wedi disgyn o Iarddur, ac felly o Helig ab Glanawg; ac ydynt yn awr yn wŷr enwog. A'r holl achau a hanant o Madoc Grwm. Y mae llwyth Arllechwedd Isaf, a'r Creuddin, yn hanu o'r cŷff teilwng yma.

"Seiriol, câr agos i Helig ab Glanawg, a elwid 'yr offeiriad sanctaidd,' oedd yn benaeth y crefydddy yn y lle a elwir ar ei enw, wedi y gorlifiad, 'Ynys Seiriol,' yn swydd Fflint. Yr oedd gan y Seiriol hwn, guddigl yn y Penmaen Mawr hefyd, ac yr oedd ganddo gapel yno, lle y treuliai lawer o'i amser mewn gweddïau; gan fod y lle y pryd hyny yn graig erwin, annghyfanneddol, ac anhygyrch o'r bron, ar gyfrif serthusrwydd y graig, a diffeithder anial y lle. Yr oedd y coedwigoedd mor drwchus yno, fel wedi yr elai dyn i fewn iddynt unwaith, na's gallai prin weled y ffurfafen. Parodd Seiriol balmantu ffordd, o'i grefydd-dy, i'r Penmaen Mawr, fel y gallai gerdded yn droedsych, o'i Eglwys i'w gapel yn y lle hwn, am fod y dyffryn yn dir isel a llaith; a gellir canfod y sarn hono hyd heddyw, pan fyddo y môr yn glir, os dewisa un fyned mewn bâd, i edrych am dani. Wedi y gorlifiad mawr a galaethus hwnw, gan fod y ffordd dramwyol wedi ei chau i fynu heibio i droed y Penmaen Mawr, am fod y môr wedi dyfod i fewn hyd at y graig, y gwr sanctaidd Seiriol, fel meudwy dâ, a barodd dori ffordd trwy y graig, yr hon yw yr unig dramwyfa y ffordd hono. Hon yw y ffordd o Ddwygyfylchi i Lanfair Fechan, a phrif-ffordd y brenin, o Gonwy i Beaumaris, Bangor, a Chaerynarfon; a'r unig dramwyfa i lythyrgludydd y brenin i farchogaeth i'r, ac o'r Iwerddon. Y mae y graig hon yn filldir a haner o uchder, ac yn dra serth, yn enwedig islaw y ffordd hon, yr hon sydd yn cychwyn ger glan y môr, yn mhlwyf Dwygyfylchi, ac a dorwyd drwy y graig grybwylledig, gan esgyn yn barhaus, hyd oni ddeuir at bigyn ar y graig, a elwir 'Clippyn Seiriol,' ac y mae yr holl ffordd hono yn 200 llath uwchlaw y môr, dros yr hwn, pe y cwympai dyn neu anifail, byddai mynydd a môr yn ymryson, pa un a wnelai fwyaf o niwed iddo; ac oddi wrth y capel crybwylledig yn mlaen, y mae y ffordd wedi ei thori trwy ystlys creig-fryn marianawg, gan ddisgyn yn barhaus, hyd oni ddeuir at lan y môr drachefn, yn mhlwyf Llanfair. Y mae y ffordd hon oddeutu milldir o hyd, neu ychydig yn well, ac yn ddwy lath o led; ond mewn rhai manau, nid yw prin lathen a chwarter, neu lathen; ac y mae y ffordd hon yn cael ei chadw, a'i hadgyweirio, byth er hyny, gan feudwy, yr hwn nid yw yn cael dim am ei lafur, a'i wasanaeth yn hyn, ond elusen tramwywyr haelionus, a chasgliad a wneir unwaith yn y flwyddyn yn y plwyfydd, ac eglwysi y trefydd cyfagos, a chymwynasgarwch yr hedd-ynadon, a'r rhai a wysir yn uchel-reithwyr yn mhob brawdlys o fewn tair sir Gwynedd. Ac er hyn oll, darfuasai am y ffordd yn fuan, oni buasai cadernid y graig, gan y cerig mawrion, a'r malurion a gwympant yn fynych o'r bryn, ar ddadmeriad pob eira a rhew mawr; ac weithiau a lanwant y dramwyfa, neu, a dorant fylchau mawrion yn y ffordd, y rhai a adgyweirir gan y meudwy, yn nghyda chymhorth trigolion y plwyfi cyfnesawl, gan wneyd sylfeini newyddion yn y cyfryw fylchau, ar erwydd a drain.

"Yn y traeth mawr yma, ar ddistyll trai, yn Mawrth a Mehefin, pan fyddo yn treiaw bellaf, gwelir gwraidd derw ac ynn mawrion, yn y rhan bellaf o'r traeth, lle ar amserau eraill o'r flwyddyn, nid ydyw byth yn treiaw, oddieithr ar deidiau uchel, yn Mawrth ac Awst.[2] Yr ydwyf yn adrodd hyn fel llygad-dyst, gan fy mod wedi gweled y gwraidd fy hunan, a'u codi i fynu, ac felly ymddengys fod y dyffryn hwn cyn y gorlifiad, yn wlad goediog.

"Y mae bryn mawr creigiog, a elwir Braich y

[1] Cofied y darllenydd fod hyn yn cael ei ysgrifenu dros 200 ml. yn ol.

[2] Yn yr hen ysgrif, y mae Mehefin wedi ei groesi allan, ac Awst wedi ei roddi yn ei lle.

Digitized by Google

Ddinas, yn sefyll ar ben y Penmaen Mawr; ar yr hwn y gellir gweled adfeilion muriau amddiffynfa gref ac anorchfygol, wedi ei hamgylchynu â rhagfuriau tri phlyg; ac oddi fewn i bob mur, y mae sylfeini cant o dyrau, o leiaf, o amgylch; ac o faintioli cyffelyb mewn llêd, rhai o honynt yn chwe llath bob ffordd, o fewn y muriau. Yr oedd muriau y Ddinas hon, yn y rhan fwyaf o leoedd, yn ddwy lath o drŵch; ac mewn rhai manau, tua thair llath o drwch. Yr ydoedd y castell hwn, pan safai, yn anorchfygol; gan nad oedd un ffordd y gellid ymosod arno, trwy fod y bryn yn uchel, creigiog, a serth; a'r muriau yn hynod o gedyrn. Y mae y ffordd, neu y fynedfa iddo, yn esgynawl, gyda llawer a drofeydd, weithiau un ffordd, a phryd arall ffordd arall; fel y gallasai cant o wŷr eu hamddiffyn eu hunain yn y castell hwn, yn erbyn lleng a ymosodai arnynt. Ac ymddengys yn mhellach, fod lluestai o fewn y muriau hyn, i ugain mil o wŷr, yn mhen uchaf y graig. O fewn y mur nesaf i fewn i'r Ddinas hon, y mae ffynnon ragorol, yn yr hon y mae cyflawnder o ddwfr peraidd, ac iachus, yn tarddu yn wastadol, ïe, hyd yn nod yn yr haf sychaf; yr hyn sydd yn rhodd ryfeddol o eiddo Duw i ddŷn, bod i ddwfr darddu ar ben uchaf craig mor uchel, a chaled, yr hon sydd o leiaf yn filldir a haner, neu filldir a chwarter o uchder, oddiwrth droed y Penmaen Mawr.[1] Yr ydym wedi ein hysbysu trwy draddodiad ein cyn-dadau, mai hon oedd yr *ultimum refugium*, yr amddiffynfa a'r nawddle grefaf, a diogelaf, a feddai yr hen Frytaniaid o fewn Eryri, i'w hamddiffyn eu hunain rhag rhuthriadau a chad-gyrchoedd eu gelynion; canys ni ellir canfod yn holl Eryri y fath le, mor gryf, mor anhawdd i'w gymeryd, ac mor fanteisiol i'w amddiffyn. Ac heblaw hyny, y mae maintioli ac ehangder y gweithydd, yn dangos iddi fod yn amddiffynfa dywysogaidd a breninol; wedi ei chadarnhau gan natur a chelfyddyd, yn gorwedd ar ben un o'r mynyddau uchaf yn Eryri, yn agos i'r môr, ac yn nghanol y tiroedd goreu a ffrwythlonaf yn Arfon. Y mynyddoedd cydiedig a'r lle hwn, ydynt borfeldir sych, a theg; ac yn yr oesoedd boreuol, yr oeddynt yn gauedig a phreswyledig, fel yr ymddengys oddiwrth sylfeini magwyrydd ceryg, y rhai a ganfyddir ar hyd-ddynt, ac olion rhychau, a chefnau, y rhai a ymddangosant mewn llawer o fanau, mor amlwg a phe y buasent wedi cael eu haredig mor ddiweddar ag o fewn y chwe' blynedd hyn. Ond, yn awr, y mae yn annghyfannedd, ac yn cael ei gyd feddiannu gan drigolion y plwyfydd cyfnesawl, lle y porfäant bob rhyw anifeiliaid, bron yn aneirif, ac y cânt helaethrwydd o fawn, ac eithin rhagorol, yn danwydd.

"Tua milldir oddi wrth yr amddiffynfa uchod, y saif y gof-adail fwyaf hynod a ganfyddir o fewn holl Eryri, a elwir 'Y Meini Hirion,' y rhai a safant o fewn plwyf Dwygyfylchi, goruwch y Gwddw glâs, ar wastad-lawr y mynydd. Y mae y gof-adail hon yn sefyll megys cylch, wedi ei amgylchynu â magwyr geryg; ac o fewn y fagwyr, yn ei hymyl, y mae meini hirion, mawrion, o amgylch y cylch, yn sefyll ar eu penau yn y ddaiar; fel ag i beri i ddyn synu, o ba le y caed y fath feini yn y parthau hyn, a pha fodd eu dodid ar eu penau felly yn y ddaiar.

[1] Cofied y Darllenydd, nad yw y Golygydd yn gyfrifol am gywirdeb pob haeriad yn yr ysgrif hon, yr hon a wnaed gan ryw Awdwr anadnabyddus i ni, er's dros ddau gant a haner o flynyddau yn ôl.

Y mae o'r meini hyn, yn sefyll yn y cylch hwn yn bresenol, debygaf, ddeuddeg mewn nifer; rhai o honynt yn ddwy lath a thri chwarter o hŷd, uwch wyneb y ddaiar, rhai yn ddwy lâth, a rhai yn llathen a thri chwarter. Y cylch o fewn y meini hyn, a alwn ni 'Meini Hirion,' sydd oddeutu chwe' llath ar hugain o draws-fesur: y mae hwn yn sefyll ar wastad y mynydd, can gynted ag y deuir i'w ben, a llawer o wastadedd o'i amgylch. Gellid meddwl mai dyma y lle y deuai yr hen Frythoniaid, o'r Ddinas grybwylledig, i ymwersyllu, a hyfforddi eu milwyr: y mae yn gorwedd ar wastadedd, a fuasai yn gymhwys i rith-ymladdfeydd, a gallasai mai y cylch hwn, yr oedd y Meini hirion o'i amgylch, oedd y llanerch lle y cyfodid pabell y brenin arni; ac yn agos i'r cylch hwn, y mae tair o geryg lled fawrion ar eu penau, yn sefyll fel trybedd, ar y rhai, yn ol traddodiad, y dodid berwedydd mawr, i ferwi blawd ynddo; ac yn sier, y mae y ceryg hyn yn ymddangos fel pe y buasent wedi bod yn hir mewn tân mawr.

"O fewn rhyw ddwy neu dair ergyd careg o'r fan hon, y mae amryw bentyrau o geryg bychain, a alwn ni yn garneddau. Ac yn y lle hwn, cafodd brwydr fawr ei hymladd, rhwng y Rhufeiniaid a'r Brytaniaid, lle y gorchfygwyd y Rhufeiniaid, ac y bu lladdfa fawr o bob tu; a'r lladdedigion a roddwyd yn bentyrau ar eu gilydd, a'r ceryg hyn a fwriwyd arnynt, rhag i faeddod, a môch gwylltion durio eu cyrph i fynu; a hefyd, i fod yn gof-arwydd i oesoedd dyfodol, fod cyrph dynion yn gladdedig yno. Ac o ddeutu y pentyrau mawrion hyn o geryg, y mae amryw feddau, a cheryg wedi eu dodi arnynt, ar eu penau o'u hamgylch, ac un, neu ddau o feini ar y beddau crybwylledig, lle, fel y dywedir, yr oedd y gwŷr penaf a laddwyd wedi eu claddu: y mae yn drueni mawr, fod ein hanesion Prydeinaidd mor ddiffygiol, fel na's meddwn un sicrwydd am y pethau hyn; ond y gorfodir ni i ymddibynu ar draddodiad yn unig.

"Yn agos i'r fan hon y mae bryn teg, a elwir Moelfre, yn grwn gan natur, ac yn dra uchel; ac ar ei ben y mae yn wastadlyfn, a hyfryd; ar y bryn hwn y mae cylch wedi ei nodi, ar yr hwn y safai tri maen, tua llathen a chwarter allan o'r ddaiar; un yn goch, fel gwaed, y llall yn wyn, a'r trydydd ychydig yn lasach na'r maen gwyn, yn sefyll yn dri onglawg. Pa beth a allasai fod yr achos o gyfleu y cyfryw dri maen, yn y fath le, ar fynydd mor uchel a hyfryd, ac i ddodi y meini hyn o'r fath liwiau, ni's gallaf ddywedyd yn amgen na'r hyn a ddywedir gan draddodiad. Y traddodiad yw hyn, bod yr Hollalluog Dduw wedi gwneyd gwyrth yn y fan hon, er cadarnhau ein ffydd. Ac fel hyn y bu:—Yr oedd tair o wragedd, tu a'r pryd yr oedd Cristionogaeth yn dechreu ymledu yn ein plith, wedi myned i ben y Foel hon ar foreu Sabbath, i nithiaw eu hŷd; ac wedi tanu o honynt eu nithlen ar lawr, a dechreu ar eu gwaith, deuai rhai o'u cymmydogion attynt, gan eu ceryddu am droseddu gorchymyn yr Arglwydd, trwy weithio ar y dydd Sabbath: ond y gwragedd digred hyny, gan ofalu am eu helw yn fwy na chadw gorchymynion Duw, a ddïystyrasant rybudd eu cymmydogion, ac aethant a'u gorchwyl yn mlaen, ar yr hyn y rhyngodd bodd i Dduw eu troi yn geryg yn y fan, a hyny o'r un lliw â'r dillad a wisgai y gwragedd; un yn goch, y llall yn wen, a'r drydedd yn las-wyn, a throi eu nithlen a'u grawn yn bridd, a'u gadael hwynt felly, yn siampl i eraill. Dyma y

Digitized by Google

traddodiad a feddwn, ac fe'i credid gan hen bobl y gymmydogaeth hono; a pha un bynag a fu y fath beth neu na fu, yr oedd tuedd dda i'r traddodiad, er attal i eraill weithio ar y dydd Sabbath. Y meini hyn, y rhai oeddynt yn werth eu gweled, fel yr oeddynt wedi eu cyfleu yno, a gyfodwyd gan ryw wŷr ieuainc anystyriol, o fewn y chwe' blynedd hyn, ac a dreiglwyd dros ael y bryn, ac y maent yn awr yn ngodreu y bryn."

**DWYRIW**, treflan yn mhlwyf Manafon, swydd Drefaldwyn, Gogledd Cymru, dwy filldir i'r De Ddc Ddwyrain o Lanfair. Poblogaeth, 270.

**DWYNWEN**, Santes, ydoedd un o luaws merched Brychan Brycheiniog. Hi a sefydlodd eglwys Llanddwynwen yn Mon. Daeth rywfodd i gael ei hystyried gan y beirdd, yn santes warcheidiol cariad. Galwai Dafydd ab Gwilym hi, yn "dduwies serch merch Brychan." Cyfansoddodd hefyd weddi neu erfyniad at Dwynwen. Yr oedd ganddi yn Llanddwynwen ffynon, a elwir hyd heddyw Ffynon Fair, at yr hon y byddai lluaws mawr o gleifion cariad, yn dyfod o bob parth o'r wlad, ac yno ar allor Dwynwen yn offrymu arian, er mwyn iddi eiriol ar eu rhan gyda Mair, a thyneru calonau gwrthddrychau eu serch. Rhagfynegid eu ffortun gan bysgodyn yn y ffynon. Yr oedd yr hygoeledd hwn mor fawr, fel y daeth yr eglwys yn abatty cyfoethog, ac yn amser Harri IV. yn fwy ei gyllid na'r un crefydd-dy yn Ngwynedd; ac yn amser Harri VIII. hon oedd y côrfywoliaeth gyfoethocaf yn y Dywysogaeth.

**DWYWAN**, Sant, mab i Hywel ab Emyr Llydaw, oedd yn ei flodau yn y 6ed ganrif. Ar ei enw ef y gelwir Llanddwywan, yn Meirion.

**DYER**, John, bardd enwog, ydoedd fab i gyfreithiwr yn Aberglasni, yn ymyl Bryn y Grongar, swydd Gaerfyrddin, lle y ganwyd ef yn 1700. Yr oedd ar hyd ei oes yn amddifad o benderfyniad a sefydlogrwydd meddwl; felly yn moreu ei ddyddiau, cawn ef yn derbyn ei addysg yn Westminster gyda'r bwriad i fyned yn gyfreithiwr; rhoddodd y bwriad hwnw heibio, ac ymroddodd i fod yn arlunydd, ac aeth i Rufain er mwyn coethi ei hun yn y gelfyddyd hono; wedi dychwelyd, efe a briododd foneddiges o'r enw Miss Ensor, disgynyddes o Shakespeare, meddir; a chymerodd urddau eglwysig. Ymsefydlodd ar y cyntaf yn gurad yn swydd Warwick, yna cafodd fywiolaethau Belchford a Kerkby, yn swydd Lincoln; ond gan nad oedd y lle yn dygymod a'i iechyd, efe a gafodd fywiolaeth Coningsby, lle y bu farw o'r darfodedigaeth yn 1757. Mae enwogrwydd Dyer yn ymddibynu ar dair Cân Seisneg a gyhoeddodd, sef "*Grongar Hill*," yn 1727; "*The Ruins of Rome*," yn 1740; a "*The Fleece*," yn 1757. Cyhoeddwyd ei gyfansoddiadau, yn nghyda bywgraffiad o'r bardd, mewn un gyfrol 8 plyg, gan Dodsley, Llundain, yn 1770.

**DYFAN**, Sant, a anfonwyd gan y pab Eleutherius gyda Ffagan, Medwy, ac Elfan, ar gais Lles ab Coel, tua'r flwyddyn 180, i droi y Prydeiniaid i'r ffydd Gristionogol. Dywedir mai Brython oedd Dyfan, a'i fod yn fab Alwn Aflerw ab Ystwyth ab Manawydan ab Llyr. Golygir iddo ddyoddef merthyrdod, gan fod eglwys Merthyr Dyfan, Morganwg, wedi ei chodi i'w goffadwriaeth. Coffheid ef Ebrill 8.

**DYFI**, afon yn Meirionydd; yr hon sydd yn tarddu ar yr ochr ddwyreiniol i'r Aran Fawddwy, ac yn llifeirio am oddeutu 30 milldir, mewn cyfeiriad deheuol, a de orllewinol, ar draws rhan o Swydd Drefaldwyn, ar hyd y ffin rhwng Swydd Feirionydd a Swydd Aberteifi; ac wedi myned heibio i Ddinas Mawddwy, a Machynlleth, yn ymarllwys i For y Werydd, ger Aberdyfi. Y mae y 6½ milldir olaf o honi yn for-gainc.

**DYFNAN**, Sant, fab Brychan, yn y 5ed ganrif, a sefydlodd eglwys Llanddyfnan, Mon, lle y claddwyd ef. Coffheid ef Ebrill 23.

**DYFNANT**, pentref yn rhandir y Garth, plwyf Ystradgynlais, Swydd Frycheiniog, Deheudir Cymru, 8½ milldir i'r Gog. Og. Ddwyrain o Gastell Nedd.

**DYFNIG**, Sant, a ddaeth gydag Ust a Chadfan i Brydain, yn y 6ed ganrif; a chyd rhyngddynt, hwy a sefydlasant Llanwrin, swydd Drefaldwyn.

**DYFNOG**, Sant, ydoedd fab Medrawd ab Cawrdaf ab Caradawg Freichfras. Yr oedd yn ei flodau yn y 7fed ganrif. Efe ydyw gwarcheid-sant eglwys Defynog, swydd Frycheiniog. Coffheid ef Chwefror 13.

**DYFNWAL**, Hen, oedd fab Ednyfed ab Macsen Wledig, a brenin Gwent, yn nechreu y 5ed ganrif.

**DYFNWAL**, Moelmud, hen ddeddf-roddwr tybiedig y Cymry, ydoedd yn ol *Brut y Breninoedd*, yn fab Cloten, iarll Cernyw, o ferch brenin Lloegr, ac yn frenin ar holl Brydain, o 694, hyd 667, cyn Cred. Gan fod cymaint o dywyllwch yn gorwedd ar ei hanes, gyrwyd llawer yn eu ffrwst i wadu ei fodolaeth yn gyfangwbl, yr hyn sydd orchwyl llawer hawddach nag olrhain hanes Ynys Prydain bum cant ar hugain o flyneddoedd yn ol. Ond beth bynag a wneir o Dyfnwal Moelmud, a'i gyfreithiau, y mae yn ddilys fod y fath berson wedi bod yn mysg y Cymry, rywbryd cyn amser Hywel Dda, a bod gan y genedl ryw nifer o gyfreithiau, yn dwyn yr enw Dyfnwal Moelmud, cyn i Hywel sefydlu ei eiddo ef; oblegyd y mae cyfreithiau Hywel ei hun, copi Gwynedd, yn tystio ddarfod iddo ef hollol ddiddymu pob rhan o ddeddfau Dyfnwal, ond ei reolau ar fesur tir. Gwel Hywel Dda.

**DYFNWALLAWN**, tywysog Dyfed. Lladdwyd ef mewn brwydr yn 950.

**DYFNWALLAWN**, tywysog ar Frythoniaid Ystrad Clwyd, a ymneillduodd i Rufain yn 975, lle y bu farw yn ystod y flwyddyn hono.

**DYFRDWY** (Y), afon sydd yn tarddu yn agos i Aran Fawddwy, yn Swydd Feirionydd, Gogledd Cymru, ac yn llifeirio dros oddeutu 80 milldir, mewn cyfeiriad dwyrain ogledd ddwyreiniol, gogleddol, a gogledd orllewinol, heibio y Bala, Corwen, Llangollen, yr Holt, Caerlleon Gawr, a'r Fflint, i For y Werydd. Y prif afonydd a ymarllwysant iddi, ydynt yr Alwen, y Ceiriog, y Clywedog, a'r Alun. Y mae ffyrdd-hynt mawrion rheilffordd yr Amwythig a Chaerlleon a Chaergybi yn ei chroesi, ac awell arddcrchog dyfr-ffos Ellesmere. Bydd llifogydd mawrion yn cael eu hachosi gan wlawogydd trymion yn y mynyddoedd, a thoddiad disymwth y rhew a'r eira, yn cyfodi ynddi weithiau, ac yn ysgubo pob peth o'u blaen, gan beri colledion mawrion. Yr hen Frutaniaid a dalent barch mawr iddi; a'r Rhufeiniaid a'i galwent *Deva*. Y mae y 14 milldir olaf o honi yn for-gainc, o ddwy i chwe milldir o led, a gwely tywodog iddi. Y mae ei mordwyaeth o ben uchaf y for-gainc hyd ddinas Caerlleon, dros y pellder o 8 milldir, yn ddyfr-ffos gelfyddydol, yr hon y caed awdurdodiad y Senedd i'w gwneuthur, yn y flwyddyn 1732, ac a orphenwyd yn y flwyddyn 1754.

Digitized by Google

Enillwyd yn agos i ddwy fil a haner o erwau o dir oddiar yr afon, islaw Caerlleon, rhwng y blynedd-oedd 1763, a 1795, ac y mae dyfrgloddiau mawrion, wedi eu gwneyd ar ol hyny.

**DYFRIG BENEUROG,** yn ol *Llyfr Llandaf,* ydoedd fab i Eurddyl ferch Pebiau, fab Erb, brenin Ergyng. Ni ddywedir pwy oedd ei dad; ond yr oedd ei genhedliad, fel y saint yn gyffredin, yn wyrthiol, a gwnaeth yntau luaws mawr o wyrthiau, o'r dydd y ganwyd ef yn y danllwyth angladdol, hyd oni fu farw yn Ynys Enlli, yn y flwyddyn 612. Ysgrifenwyd Buchedd St. Dyfrig, gan John o Teign-mouth, a Benedict o Gaerloyw, tua'r flwyddyn 1120, yr hwn a gyhoeddwyd yn *Capgrave's Collection,* a *Wharton's Anglia Sacra.* Y mae hefyd wedi ei argraffu yn *Llyfr Llandaf,* dan yr enw *Lectiones de Vita Sancti Dubricii.* "Darlleniadau o Fuchedd St. Dyfrig," yr hyn sydd yn dangos yr arferid darllen penodau, neu ranau o hono yn yr addoliad. Nid yw y cyfan a ddywedir am dano, ond cruglwyth o chwedl-au gwneuthur, am wyrthiau a rhinweddau mynachol y sant; yn nghyda rhestr o wrthddywediadau am ei swyddau, a'i ddyrchafiadau eglwysig. Er engraifft, dywedir iddo sefydlu ysgol yn Henllan, yn Nglyn Gwy, lle y cadwai ddwy fil o offeiriaid, am saith mlynedd yn olynol, gan eu dysgu yn mhob gwybod-aethau dynol a dwyfol; i Garmon, pan ar ymweliad a'r ynys hon, yn 427, ei gysegru yn esgob Llandaf; iddo gael ei wneuthur yn archesgob Caerlleon-ar-Wysg, yn y flwyddyn 490, yr hon swydd a ddaliodd efe, yn nghydag esgobaeth Llandaf, hyd 512, pan roddodd efe yr olaf i Teilo; ac yn Senedd Frefi, efe a drosglwyddodd yr archesgobaeth i Dewi, ac a ym-neillduodd i Ynys Enlli, lle y bu yn arwain bywyd meudwyol hyd derfyn ei oes; ac "ar y dydd Sab-both, Tachwedd 14, 612, (medd *Llyfr Llandaf* mewn dau fan, tud. 329 a 622) St. Dyfrig, esgob eglwys Llandaf, a ymfudodd at yr Arglwydd." Mae y gosodiadau uchod mor afresymol, fel nad ydynt yn teilyngu dynoethiad; ac nid oes neb hyd yn hyn wedi llwyddo i daflu dim goleuni ar y dyryswch. Oblegyd os dywedir nad oedd Dyfrig yn dechreu oesi mor foreu, ni's gellir felly ei fachu wrth Garmon, yr hwn a ddaeth yma yn 427, yn genad y pab, i ddarostwng Morganiaeth; ac os dywedir na ddarfu iddo oesi mor hir, ni's gallai felly ymddiosg o'r archesgob-aeth, a'i chyflwyno i Dewi, yr hwn, yn ol Goodwin, a wnaed yn archesgob Ty Ddewi yn 577, ond yn ol eraill, yn 609. Ond yr hyn sydd yn fwyaf hynod mewn cysylltiad a Dyfrig, yw, gan ei fod yn cael ei alw yn gyffredin yn archesgob cyntaf y Cymry, er y dywed Sieffre o Fynwy, fod un Threminius yn archesgob Caerlleon-ar-Wysg o'i flaen ef, ac yn Brif esgob holl Brydain, yn gystal ag yn *Legate* yr esgobaeth Apostolaidd, &c., bod Dewi wedi ei ddi-sodli ef yn ei anrhydedd, a'i fod yn cael ei adael allan bron o bob rhestr o'r Seintiau Cymreig a welsom erioed. Y mae yn ddigon hysbys, bod yr enw Dyfrig yn ymddangos yn rhestr meibion Brychan; a dywedir yn *Bonedd y Saint,* "Dyfrig ab Brychan sydd sant yn Ngheredigion." "*Dubricius* archesgob Llan-daf;" ac mae yr achau yn ei osod allan fel mab Pabioli mab Brychan. Y gofyniad gan hyny yw, pwy yw y Dyfrig hwn, a'i yr un yw efe a St. Dubri-cius *Llyfr Llandaf,* a Sieffre o Fynwy? Tybir yn gyffredin mai yr un ydynt, a dadleua y cadeirdraw Rees, mai mab neu wyr i Brychan ydoedd Dyfrig yr archesgob. Yn ol hen ysgrif yn Ngholeg Iesu, de-chreuodd Brychan deyrnasu yn y flwyddyn 500, a bu farw yn 550; felly os oedd Dyfrig, fel y dadleua Rees, yn fab neu wyr i Brychan, ni's gallasai fod wedi ei *ordeinio* yn esgob gan Garmon. Dywed yr achau, mai mab Pabiali, mab Brychan ydoedd; ond nid oes dim yn fwy amlwg, nad prif amcan casglwyr yr achau, oedd rhoi i Brychan deulu lluosog o saint, a bod amryw nad oeddynt yn perthyn dim iddo ef, yn ymddangos yn rhestr ei feibion. Gwelir fod Pabiali yn sefyll yn y rhestr, heb ddim yn adnabyddus am dano. Fe allai y rhydd yr hyn a ganlyn ryw agoriad i'r dyryswch. Dengys golygydd y *Cambro-British Saints,* fod o leiaf dri Brychan yn cael eu cymysgu a'u gilydd mewn hanesiaeth eglwysig; sef Brychan Brycheiniog, Brychan o Gwent, a Brychan ab Gwyngon. Dywed ef i Brychan o Gwent, a'i wraig Gwen, ymfudo i Lydaw, lle y bernir iddo farw tua dechreu y 6ed ganrif. Yn ol *Achau Seintiau Llydaw,* yr oedd ganddo dri mab, Wynfaloc Gwyth-enoc, a Iago. Yr oedd gan Wynfaloc ddysgybl o'r enw Pablay, a thybia ef mai hwn yw y Pablai neu Pablialai a welir yn rhestr meibion Brychan Brych-einiog. A ddichon mai hwn oedd tad Dyfrig?

Ymddengys Brychan ab Gwyngon yn *Llyfr Llan-daf,* tud 456, yn cyflwyno tir i'r eglwys hono dros iachawdwriaeth ei enaid; ac yn mhlith yr offeiriaid, sydd dan yr esgob Cadwared, yn llawnodi y cytun-debau, gwelir enw Dyfrig; a thybia golygydd y *Cambro-British Saints,* mai mab oedd y Dyfrig hwn i Brychan ab Gwyngon. Os felly, y mae yn dra thebyg mai am dano ef y dywed *Bonedd y Saint,* "Dyfryg ab Brychan sydd sant yn Ngheredigion;" ond fod casglwyr yr achau wedi ei gamdadogi i Brychan Brycheiniog, a'i gamgymeryd am Dyfrig Beneurog. Ond pa fodd bynag, mae y ffeithiau canlynol yn llefaru drostynt eu hunain, nid oes eglwysi wedi eu cysegru i Dyfrig yn Nghymru, nid oes yn Nghymru iddo ychwaith wylmabsant, ni cheir ei enw yn yr *Almanaciau* Cymreig, ac nid yw y *Trioedd,* a'r beirdd, yn ei glodfori, fel y gwnant a Dewi, ac eraill, a seintiwyd gan y pab. Ond yn y flwyddyn 1120, cafodd Urban, esgob Llandaf, genad Ralph, archesgob Caergaint, a Dafydd, esgob Ban-gor, i symud gweddillion Dyfrig, o Ynys Enlli, i Eglwys Gadeiriol Llandaf; ac ar ddydd Gwener, y 7fed o Fai yn y flwyddyn hono, yn mhresenoldeb esgob Bangor, a Gruffydd, brenin Gwynedd; efe a symudodd ei esgyrn ef, (neu esgyrn rhyw un arall), gyda rhwysg a mawredd anarferol; ac wedi i'r esgyrn wneuthur gwyrthiau enwog, a thrwy hyny brofi mai gwir esgyrn y sant oeddynt, gosodwyd hwynt mewn beddgist briodol, yn yr hen fynachdy, ger bron allor St. Mary. Gwel DEWI.

**DYFYR WALLT EURAIDD,** un o dair "Gwenrian Llys Arthur," y ddwy eraill oeddynt Enid a Thegau Eurfron.

**DYFFRYN,** rhandir yn mhlwyf LLANGYNIDR, cantref CRUGHYWEL, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU, 9 milldir i'r Gorllewin De Orllewin, o Grug-hywel, gyda 975 o boblogaeth. Y mae yn gorwedd mewn rhan ar lân yr afon Rhymney, ac ychydig islaw y fan lle mae prif-ffordd y Fenni a Merthyr Tydfil yn croesi yr afon hono, y mae olion hen waith haiarn: y mae'r gweithiau wedi myned yn nes i lawr i'r cwm yn awr; ond y mae llawer o'r defnyddiau i'w cael yma o hyd, yn enwedig y calch. Y mae yma amryw ddramffyrdd yn croesi y rhandir, ac y mae un o honynt, sef dramffordd Bryn-oer, yn terfynu

Digitized by Google

wrth gamlas Aberhonddu, yn Nhalybont. Y mae ar fynydd Tryfil, olion hen Sarn Rufeinig, yr hon oedd yn arwain o Gaerphili, drwy Brynoer, i'r gweithfeydd haiarn ag oedd gan y Rhufeiniaid, yn Llanfrynach, dyffryn Wŷsg. Y mae offer celtaidd wedi eu cael ar y Tryfil, ac y mae arno amryw garneddau: y mae ynddo hefyd ogof naturiol o gryn faint, yr hon a elwir "Ystabal Fawr," ac uwchben iddi, y mae crug mawr o geryg i'w gweled, yr hwn, mae'n sicr, a arferid yn wylfa, canys nid oes dim olion claddedigol o tanodd.

Gerllaw tarddiad yr afon Rhymney, y mae rhyd arni, yr hon a elwir Rhyd y milwr, neu yn ol rhai Rhyd y milwyr; ac y mae yma graig, yn yr hon y mae olion tebyg iawn i argraff troed march. Y mae barnau amrywiol iawn am yr olion yma. Dywed rhai, fod tywysoges enwog a rhyfelgar, o'r enw Mari Lwyd, yn preswylio yn Ngwent a Morganwg: ac fe ddywedodd rhyw hynafiaethydd enwog wrth Doctor William Roberts (*Nefydd*), fod crybwylliad am y dywysoges mewn hen ysgrif, tua phum can' mlwydd oed, ag oedd yn mhlith ysgrifau ereill Iolo Morganwg. Wedi ymchwil manwl, dyma ddywed Doctor Roberts:—"Gan nad beth a fu yn mhlith ysgrif-lyfrau henafol Iolo, nid oes yn awr y fath hen ysgrif ag a ddesgrifid, fel un yn cynnwys y crybwyllion a nodwyd am Mari Lwyd." Y mae traddodiad, modd bynag, yn dywedyd mai olion traed march Mari Lwyd, yw yr olion yma yn nghraig Rhyd y milwyr.

Tybiaeth arall am yr olion yma yw, mai ol traed y meirch Normanaidd, yn ffoi o flaen y Cymru ydynt. Fod yma frwydro, a ffoi wedi bod, sydd yn ffaith hanesyddol, ac efallai mai yn adeg y brwydro hyny, y cafodd y Rhyd ei henw; ond am yr olion, efallai eu bod dipyn yn henach nâ'r enw. Y mae Caradoc o Lancarfan yn rhoddi hanes y brwydro mewn ychydig eiriau:—

"Yn yr un flwyddyn (1024) ymladdwyd brwydr Gelli Darvawc, rhwng y Cymry a'r Normaniaid, yn yr hon y gorchfygwyd yr olaf gyda lladdfa fawr. Yn fuan wedi hyny, ymladdwyd brwydr arall, rhwng y Cymry a'r Normaniaid, y rhai oedd wedi derbyn adgyfnerthion o Saeson. Ffoes y Cymry o flaen eu gelynion i fynyddau Brycheiniog, lle y safasant ac y daethant yn ymosodwyr yn eu tro, a gyrasant yr oll ar ffô, heb adael ond i ychydig ddianc gyda'u bywydau. Fel ag yr oedd gwŷr Morganwg yn dychwelyd gartref, cyfarfuwyd â hwynt yn Ngelligaer, gan Iarll Arundel, gyda Ieirll a Thywysogion Normanaidd ereill, y rhai oeddent yn myned i gynnorthwyo Robert Fitzhamon: cymmerodd brwydr le, a gorchfygwyd y Normaniaid, a chollasant eu holl bennaethiaid."

Wrth "fynyddau Brycheiniog" yn hanes Caradoc, y mae yn amlwg mai mynyddau blaen cwm Rhymney, a olygir. Y mae llawer o deithwyr yn ymweled â Rhyd y milwyr, i gael gweled olion y pedolau Normanaidd. Y mae Doctor William Price, o Bont-y-pridd, yn credu yn ddiysgog, mai dyna pa olion ydynt; ac, yn nghymdeithas ychydig o feirdd Dowlais a Merthyr Tydfil, bu yn cynnal math o orsedd yma flyneddau yn ol. Y mae Syr Walter Scott, Barwnig, bardd a nofelydd mawr yr Ysgotland, wedi bytholi y brwydrau ag y mae Caradoc yn groniclo, mewn cân dlôs, yr hon a elwir. "The Norman Horse-shoe"—*Y Bedol Normanaidd.* Y mae amryw feirdd Cymreig wedi cyfieithu y Gân hon: dyma'r pennill olaf o honi, yn ol cyfieithiad y Parch. James James (Iago Emlyn), gweinidog yr Annibynwyr, Clifton, Bristol:—

"Fyth mwyach Morganwg, mor ddiddrwg dy ddôl;
Meirch rhyfel trwy'th frodir ni welir, na'u hôl:
A phan wawrio'r gwanwyn dy frwyn fydd ddifrêg,
Min cylch gwyrdd di-adwyth y llon Dylwyth Têg."

Barna rhai fod Syr Walter yn cyfeirio yn y pennill hwn at y traddodiad am yr olion ar graig Rhyd y milwyr; ond yr ydym yn meddwl eu bod yn camsynied: gwrandawer ar Syr Walter ei hunan:—

"No more the stamp of armed steed
Shall dint Glamorgan's velvet mead;
Or trace be there in early spring
Save of the fairies' emerald ring."

Nid oes yma son am graig—nid pantio, nid nodi y *graig* a ddywedir, ond nodi y *ddôl.*

Y mae'r olion yma yn blith draphlith â'u gilydd, nid oes un o honynt yr un faint, ac y mae rhai o honynt yn llawer rhy fychan i fod yn ôl troed ceffyl. Grut-faen y gelwir y graig ar ba un y maent, gan ddaearegwyr, ond yn lleol, gelwir hi "Farewell Rock." Ei sefyllfa yn y raddfa ddaearegol, yw rhwng y glô a'r calchfaen carbonaidd, a chafodd ei ffurfio pryd nad oedd na byw na bod: nis gallant, gan hyny, fod yn olion ffosilaidd; y mae yn bur debyg mai ysmaldod o eiddo anian ydynt, a'u bod wedi cael eu hargraffu yn y grut-faen, gan dreigliad parhaus y dyfroedd. Y mae Buckland, a daearegwyr enwog, ereill, yn crybwyll am draddodiadau mewn cyssylltiad âg "ol traed" ar greigiau, y rhai nid oeddent amgen nâg ol treigliad y dwfr.

Y mae yma bentref bychan a elwir *Rhymey Inn*, gerllaw yr hwn y mae gorsaf ar reilffordd y Fenni a Merthyr Tydfil. Y mae capel gerllaw iddo hefyd, gan yr Annibynwyr, yr hwn a elwir Capel y Graig, ac y mae monwent fawr yn perthyn iddo. Am hanes pen arall rhandir y Dyffryn, gwel LLANGYNIDR.

**DYFFRYN**, trefgordd yn mhlwyf LLANDDETTI, cantref PENGELLI, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU, 7 milldir i'r De Ddwyrain o Aberhonddu, gyda 318 o boblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae yn sefyll mewn gwlad goedog a phrydferth, ar lân yr Wysg; ac yma y mae eglwys y plwyf. Y mae camlas Aberhonddu yn myned drwyddi.

**DYFFRYN**, trefgordd yn mhlwyf y VAENOR, cantref PENGELLI, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU, 3½ milldir i'r Gogledd o Ferthyr-Tydfil, gyda 154 o boblogaeth. Y mae yn gorwedd ar lànau aswy y Taf Fawr, ac y mae y rhanau isaf o honi yn lled goedog. Y mae amryw garneddau ar hyd y mynyddoedd yma. Yr oedd Cefn coed y cymmer yn perthyn iddi gynt, ond y mae y lle hwnw yn awr yn drefgordd ar ei ben ei hun.

**DYFFRYN**, pentref yn mhlwyf ST. LYTHIAN, cantref DINAS-POWIS, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, 5 milldir i'r De Orllewin o ddinas Llandaf. Y mae yn sefyll yn un o'r manau prydferthaf yn Morganwg, ac yn cysgodi dàn lwyni cauadfrig. Gerllaw yma y mae Dyffryn House, hen blâs Prysiaid Morganwg, y rhai oedd deulu enwog iawn. Disgynyddion o honynt hwy oedd y diweddar Bruce Knight, Canghellydd Llandaf; a'r diweddar Arglwydd Ynad Bruce Knight: disgynydd o honynt hwy hefyd, yw y Gwir Anrhydeddus Henry Austin Bruce,

Digitized by Google

A.S., yr Ysgrifenydd Cartrefol. Y mae cromlech fawr ar gyttir ag sydd yma, yn nghyd âg amryw ddarnau cromlechol. Ac yn Nyffryn Goluch—Dyffryn Addoliad, yn yr yml, y mae y gromlech fwyaf yn y deyrnas. Y mae y ceryg gwaelod yn 6 troedfedd eu huchder, ac yn cau i mewn arwynebedd o 17 troedfedd ei hyd, a 13 troedfedd ei led; ar y rhai hyn gorphwysa bwrdd o gareg, 24 troedfedd ei hyd, ac yn amrywio yn ei lled, o 17, i 10 troedfedd. Yn ei "Awdl ar Dderwyddon Ynys Prydain," buddugol yn Eisteddfod Caerdydd, 1834, y mae Taliesin ap Iolo yn cânu fel hyn i'r gromlech hon:—

"Ar Ddyffryn Goluch mae Cromlech uchel,
A drosti yn fywiog, rhywiog yw'r awel;
Maen Crair Beirdd diwair, hedd blaid dawel,
Lle gyda'r DERWYDDON digon diogel;
I'w Rhi yn gweini, heb gêl,—caid ar g'oedd,
Mintai hen oesoedd,—'n awr maent yn isel."

**DYFFRYN**, trefgordd yn mhlwyf MAESALEG, cantref GWENTLLWG, swydd FYNWY, 3 milldir i'r De Orllewin o Gasnewydd-ar-Wysg. Y mae rheilffordd Casnewydd a Glyn Ebwy yn rhedeg drwyddi, yr hon a elwir *Western Valleys Railway*. Y mae yn sefyll mewn lle dymunol a choedog; ac y mae'r amaethwyr yma yn deall eu gwaith yn dda. Y mae yn sefyll mewn gwlad glasurol, cartref Ifor Hael, a'i Nest garedig, cyrchfa Dafydd ap Gwilym, ac ereill o odidogion feirdd y dyddiau gynt.

**DYFFRYN**, pentref yn mhlwyf MEIFOD, yn swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU, 4 milldir i'r De o Lanfyllin, ar lân yr Einion.

**DYFFRYN ARDUDWY**, swydd FEIRIONYDD, GOGLEDD CYMRU. Dyffryn Ardudwy ydyw arfordir Sir Feirionydd, rhwng yr Abermaw a Harlech; a chawn y desgrifiad canlynol o hono o ysgrifell IDRISON, sef y DR. W. O. PUGHE; yr hwn a'i hanfonodd i'w gyhoeddi yn y "Cambrian Quarterly Magazine" am y flwyddyn 1830. Cymera yr Awdwr dysgedig arno ei fod ef yn ymdaith drwy y llanerch hon, a chyfaill o Sais yn cyd ymdaith ag ef, i'r hwn y mae efe yn rhoddi hysbysrwydd am bob gwrthddrych o deilyngdod a ddaw dan eu sylw.

Caiff ein gwib-daith ddechreu yn yr Abermaw. Ac ebe y Sais, "Rhyw gongl ryfedd iawn i fod a thref ynddi ydyw hon." Ië, ond gan ei fod yn ymdrochle, ac yn dra adnabyddus, nyni a awn rhagom. "Pa fodd y daeth i gael y fath enw di ystyr?" Yn y modd hyn;—Mewn cyfarfod o feistriaid llongau a berthynent i'r llong-borth hwn, mewn tafarn-dy, yn y flwyddyn 1768, lle yr oeddwn innau yn bresenol, a phan ydoedd nifer y llongau yno yn myned ar gynnydd, penderfynwyd cael enw Saes'nig ar y lle, i'w roddi ar ben ol y llestri, er hysbysrwydd i ddycithriaid, i ba le y perthynent; ac felly rhyw forwr a'i cyfrifai ei hun y mwyaf dyfn-ddysg yn iaith y Saeson, a gynnygiai ddull-newidiaw yr enw cyntefig *Abermaw*, sef arllwysiad yr afon *Maw*, i *Barmouth*. Pa fodd bynag, rhai o'r gwyddfodolion a wawdient yr enw newydd hwn, gan ofyn pa fodd y gallai fod gan *Far*, enau, (mouth); ac hefyd y mae yma ddau *Far*, a dylasai fod gan bob un o honynt enau: ond er gwaethaf pob gwrthadl, *Barmouth* oedd yr enw a gymeradwywyd; a'r llygr-enw "Bermo," a ddilewyd yn fuan oddiar y cerig milldiroedd. "Yr ydwyf yn gweled nad yw y ddwy enau ond wedi eu gwahanu gan draethell gul o fân gerig a thywod." Gwir; ond yr wyf fi yn cofio cwning-gaer yna, bron yn bedwaredd ran o filldir o hyd, a thri ugain llath o led, yr hyn sydd yn brawf, yn mysg amrai eraill, o ormesiad y môr ar y glenydd hyn; ac ar du gogleddol y dref, yr ydoedd gwastadedd gwyrdd-las, tua haner milldir o hŷd; ac oddeutu y bedwaredd ran o filldir o lêd, yn awr wedi ei llwyr ysgubo ymaith; a thros y llanerch hono yr oedd ffordd gynt, ac yn ei lle, chwi a welwch un wedi ei gwneyd ar lethr y creigiau, ar y llaw ddehau iddi.

Yn awr, awn yn mlaen ar ein taith, ac heibio i'r eglwys blwyfol, y pellder o filldir a haner, yr hon a elwir Llan Aber, ac a gyssegrwyd i'r Forwyn Fair. —"Adeilad fawr a hybarchus yw hon, ac wedi ei chyfleu yn agos iawn i'r môr hefyd."—Ië, a gellir rhoddi rheswm am hyny fel hyn, mae yn debyg. Y mae rhai arwyddion nad oedd yma gynt ond un aber, neu ffrwd i'r afon Maw; ac y mae cyfeiriad presenol yr un hono tu a'r llanerch hon, ac felly rhoddes enw i'r Eglwys, neu y Llan, yr hon sydd yn un o chwech, o fewn saith milldir, ar hyd ein ffordd i Harlech. Efallai y gallwn roddi rhyw reswm am y fath nifer o eglwysi, yn y fath randir annghysbell a hon, fel yr elom yn mlaen.

"Dyma ni wrth gareg filldir, dair milldir a haner o'r Abermaw, ac wrth edrych i'r dwyrain, tu a'r bryniau, canfyddaf adail o'r cyn-oesau, ar yr ochr bellaf i'r maes." Ein ffordd uniawn oddiyma at un o brif wrthddrychau ein gwib-daith, yr hwn a orwedda ar wastadedd yn y mynydd, na's gwelir oddiyma, tu hwnt i'r corfryn acw, a fyddai myned heibio i hen Faenordy, o'r enw Egryn; ond cwblhawn ein hamcan yn well, os awn rhagom, filldir a haner yn mhellach, ar hyd ffordd Harlech, a dychwelyd heibio yr hen adail acw y cyfeiriwch ato. Ond, yr hen dŷ acw, a dynodd eich sylw, sydd un o lawer cyffelyb iddo yn y Dyffryn hwn. Ar y cyntaf yr ydoedd yn drigfa *Cymro*, o ryw urddas a bri; ac yn y bymthegfed ganrif, efe a gyfanneddid gan Fonachod. Y mae y tufewn iddo yn dra chywrain; cynnelir y nen gan fwäau blaen-feinion, o dderw Gwyddelig teg, yn ymgyfodi o'r gossail, ac yn dosbarthu yr adeilad yn dair rhan. Dros haner y ganol, yr hon yw y fwyaf, yr oedd hyd yn ddiweddar, oriel o gymmundeb rhwng yr ystafelloedd yn mhob pen, ac yn cael ei hamddiffyn gan fath o ganllaw, fel pe yr amcenid i rai weled a chlywed yr hyn a gymerai le ar y llawr isod.—"Pa fodd yr ydych chwi mor adnabyddus o'r hyn yr ydych yn ei ddysgrifio yn awr?" Er pan gyrhaeddais y wybodaeth hon, y mae cenedlaeth gyfan wedi myned oddiyma i fyd arall: yn y tŷ acw y bu fy rhïeni byw; ond yn awr y maent wedi ymadaw! fy mrodyr a'm chwïorydd hefyd, y rhan fwyaf o ba rai ydynt wedi myned ymaith—Awn yn mlaen.

Aethom heibio i gareg filldir arall; ac yma, gadewch i ni fyned i waered ar hyd y gul-ffordd acw ar ein deheulaw, am oddeutu can llâth, i dŷ a elwir Caer Elwan, o ba un nid oes dim olion yn weledig; ond ein nod ni i gyrchu ato yma, ydyw y gareg union-syth acw, o ba un y gwelir tua saith troedfedd allan o'r ddaear. "A ellwch chwi adrodd ei hanes?" Edrychwch ar y bryn llyfn ac uchel acw, i'r gogledd ddwyrain, yr hwn sydd yn sefyll yn mlaenaf yn y rhestr reolaidd o fynyddoedd, a chopa yr hwn a all fod tua thair milldir o bellder, fel yr eheda y frân, a'r hwn a elwir Moelfre, neu y Bryn Moel; fe'ch hysbysid gan unrhyw frodor o'r lle, mai y cawr galluog Arthur, a daflodd y gareg yna o

Digitized by Google

ben Moelfre, fel nôd, at ba un y bwriadai chwareu â choitiau. Ond, pe gellid maddeu i mi fy meiddgarwch yn ammeu y cyfryw ffaith, myfi a gasglwn mai cof-golofn Llïa Wyddel ydyw y gareg hon o'n blaen, am ba un y cawn y crybwylliad canlynol yn Englynion Beddau Milwyr Ynys Prydain;—

"Bedd Llia Wyddel yn argel Ardudwy,
Tan y gwellt."

Wedi myned yn mlaen yn agos i filldir, deuwn i Landdwywe, Eglwys gyflwynedig i St. Dwywe, ferch Gwallog ab Llenog, a mam Deiniol, nawddsant Bangor. Y Capel bychan ar ochr ogleddol Cangell yr Eglwys hon, a gynwysa fedd-adeiladau hen deulu Cors y Gedol, cynnrychiolydd presenol pa un yw y gwladgarwr Syr R. W. Vaughan, aélod Seneddol dros swydd Feirionydd. I fyrhau ein taith, trwy eich cenad chwi, digon fydd i mi draethu yn fyr ar bethau teilwng o'n sylw, ar ein ffordd yn mlaen i Harlech, felly nyni a allwn droi i fynu i'r mynyddoedd sydd yn ffurfio terfyn dwyreiniol y dyffryn. Yn y pellder o dri chwarter milldir, a haner milldir i'r gorllewin o'r ffordd, y gwelwch Lanenddwyn, neu Eglwys santes a elwid Enddwyn. Milldir a haner yn mhellach, y mae y ffordd yn myned trwy Lanbedr, eglwys gyflwynedig i Sant Pedr. Yr unig chwedl draddodiadol hynod a adroddir yma, ydyw yn nghylch y cyfyng-gyngor o barth gorsaf yr eglwys. Tua deugain llath ar y llaw ddehau o'r ffordd, y mae pedair neu bump o lech-feini, yn sefyll yn union-syth, tuag wyth troedfedd o uchder; ac yn y fan hono y dechreuasant adeiladu yr Eglwys; ond yr holl waith a wnelid y dydd yn barhaus, fe'i ceid bob amser wedi ei symud yn y nos, gan yr un drwg, i'r man lle y saif yr Eglwys yn bresenol; ac o'r diwedd, yr adeiladwyr a roisant ffordd i'w fympwy ef. Wrth fyned ar hyd llwybr ar draws y morfa, am dri chwarter milldir, y mae pont i'w chroesi, dros afon fechan a elwir yr Artro, yr hon sydd yn ymledu yn gyfyngfor, am tua milldir o hyd i'r mor, ar ochr ogleddol yr hon y mae lleindir Mochras, ar yr hwn y mae un tyddyn yn unig. Ac yma y mae Dyffryn Ardudwy yn terfynu, am fod y môr yn ffurfio cywir-ongl o gylch pen y lleindir, ac yn dyfod o fewn yr wythfed ran o filldir i'r bont a grybwyllwyd o'r blaen, ac yna, yn gwneyd yn agos i gywir-ongl arall, ar hyd glan morfa Harlech, i gainc-for y ddwy draethell. Gerllaw yr ongl ddiweddaf, y mae Llandanwg, Eglwys gyssegredig i goffadwriaeth Sant Tanwg, yr hwn oedd fab Ithel Hael, o Lydaw. Y mae y môr yn dyfod mor agos i'r Eglwys hon yn bresenol, fel y bydd y tonau ar amserau yn ewynnu ar ei muriau; a'r oll o'r plwyf sydd yn aros heb ei orlifo, ydyw tyddyndir Mochras, a grybwyllwyd eisoes, heblaw rhyw dyddynod a bythynod sydd ar hyd glan yr afon Artro, tuag i fynu, ac ar ochr y tir; a dyma brawf arall o ormesiad y môr ar yr arfordir hwn. Tair rhan o bedair o filldir, yn mhellach ar y ffordd, y mae Llanfair, Eglwys blwyfol Harlech. Hen gastell harddwych y lle hwn a ddysgrifiwyd mor fynych gan deithwyr, fel ag y gallwn ni fyned heibio iddo. Acw hefyd y mae beddau gwŷr Ardudwy, ar y gefnen uchel, tua thair milldir i'r dwyrain o'r dref, y rhai nad rhaid i ni sylwi arnynt, am fod Pennant wedi traethu arnynt. Ond, y mae yn angenrheidiol i ni sylwi ychydig ar Forfa Harlech: gwastadedd tywodog ydyw hwn, oddeutu tair milldir o hŷd, ac yn agos i un o lêd, wedi ei orchuddio a glaswellt, hynod am fagwraeth corfeirch; ac y mae rhan o hono wedi ei ddwyn dan ammaethiad yn ddiweddar. Y mae yn rhaid mai y môr a'i ffurfiodd, ac iddo encilio wedi hyny; ac fel prawf o hyn, darganfuwyd odyn galch, yn llawn o galch, tuag ugain mlynedd yn ol, ychydig islaw arwyneb presenol y morfa, ac yn ymyl y graig, ar ba un y saif y castell.

Gan adael y dyffryn, nyni a awn rhagom ar ein taith ar i fynu, a rhwng dau borthordy, awn i fewn i'r wydd-rawd uniawn acw, sydd oddeutu milldir o hŷd, ac yn arwain i hen balas Cors y Gedol. Wedi myned oddeutu dau gant o latheni, rhaid i ni ddringo dros y fagwyr gerig ar ein llaw aswy, i edrych ar gareg, oddeutu deg troedfedd o hyd, wyth o led, ac oddeutu ugain modfedd o drwch, yn gorwedd ar gerig eraill, prin uwchlaw arwyneb y ddaear. A choetan yw hon, am yr hon y dywaid pawb yn yr amgylchoedd hyn, ei thaflu gan Arthur, o ben Moelfre. "Yn ddïau, rhaid ei fod wedi cam-gymeryd yn fawr yn ei dafliad, gan fod y nod a anfonasai efe o'r blaen, filldir dda oddiyma. Yr wyf yn gweled bod rhyw un wedi bod yn cerfio, megis ol llaw ar ymyl y gareg." Cerfio yn wir! Nid oes yma yr un bachgenyn na ddywedai wrthych am y nodau a elwch chwi yn gerfiadau, mai gwir ôl bysedd Arthur ydynt, lle yr ymaflai efe yn y gareg i'w thaflu. "Rhaid fod ei law ef yn fawr iawn, gan fod y bysedd hyn oddeutu deunaw modfedd o hyd; yn sicr, yr oedd yn rhaid cael llaw fawr i daflu y fath gareg." —Ai gweddus yw i chwi chwerthin am ben y fath ffaith? Ond, gadewch i ni fyned heibio i'r palas acw sydd o'n blaen; ac wedi dangos i chwi gromlech, yn agos i gwr gogleddol eithaf rhiw Moelfre, o'r hon y rhydd Camden ddysgrifiad, nyni a awn i'r tu cefn i'r mynydd acw, fel y caffoch olwg ar Ddrws Ardudwy, un o'r golygfeydd mwyaf arddunawl yn Nghymru, ac un sydd yn anhysbys i ddyeithriaid, am ei fod mor annghysbell. "Wele, y mae yr olygfa yma yn aruthrol yn wir, ac yn daledigaeth digonol am ein holl lafur. Yr ydwyf yn cofio yn awr weled darlun o hono yn Pennant. Ond waeled yw y ddrychfa a gawn ni o honi yno!" Ie, digon gwael yn wir.

Yn awr bydded i ni adolrhain ein camrau, dros y gefnen ar ein deheulaw, ac yna cewch weled tri o lynau, y rhai ni sylwasoch arnynt wrth ddyfod; y maent wedi eu cyfleu mewn byd bychan o annghyfannedd-dra, yn mhell oddiwrth dramwyfeydd dynion. "Myfi a welaf un goris i ni."—*Bodlyn* yw hwn acw: y mae un arall i'r dwyrain, o'r tu uchaf iddo, yn geledig o'n golwg ni, a elwir *Dulyn;* a chwi a welwch un mawr draw, yn agos i filldir o hyd, i'r de orllewin, dyna *Lyn Urddyn*, neu, y llyn cyssegredig; ac yr ydym i fyned ger ei lan, i ddyfod at y gwrthddrychau yr addawais eu dangos i chwi ar wastadedd y mynydd.

"Nyni a awn rhagom gan hyny; ac a ochelwn y Llyn du acw, a'i orddibynau ysgethrawg, yr hwn a alwch Bodlyn, gan brysuro at lenydd siriolach y llyn cyssegredig. Myfi a glywais yn aml am wlad y Tylwyth Teg, gallwn feddwl ein bod ynddi o'r diwedd." Na, nid ydyw namyn lledrith i chwi yn awr; ond i mi, ryw dri ugain mlynedd yn ol, yr ydoedd yn wlad y Tylwyth Teg mewn gwirionedd; o herwydd, bryd bynag yr awn o fewn ei therfynau, yn enwedig ar ddyddiau niwlog, arferwn fod yn dra gofalus am gerdded ar y glaswellt, a gochel lleoedd

Digitized by Google

caregog. "Pa ham y gwnaech felly." Y Tylwyth teg, (nid y cyfryw gorynod ag a feddwch chwi yn Lloegr,) a'ch cipient i fynu yn ddisymwth, ac oddieithr gallu o honoch ymaflyd mewn glaswelltyn, yr hwn ni's meddant awdurdod i'w dori, hwy a'ch cipiant i fynu; ond yn dra boneddigaidd, hwy a roddant eich dewis i chwi o dair hynt,—un a'i is-gwynt, canol-gwynt, neu uwch-gwynt.—"Beth wedi hyny?" Beth wedi hyny yn wir! Yr ydwyf yn cofio yn dda am ddyn, oedd yn ddiffygiol yn offerynau yr arogliad, yr hyn a brïodolid i driniaeth erwin a gawsai gan y Tylwyth Teg; arferai pobl y wlad ei alw "Twn-drwyn," sef un wedi tori ei drwyn. Arferai y gwr hwnw adrodd, pa fodd y cawsai yr anaf ei achlysuro; ac fel hyn y buasai: y tro cyntaf y cipiwyd ef gan y Tylwyth Teg, efe a ddewisai gael ei gludo is-gwynt; ac felly dygasant ef trwy yr holl berthi a'r prysglwyni a allent gael, ac yn mhlith yr holl gripiadau a'r briwiau a gawsai, cafodd dori ei drwyn. Wedi hyny, efe a gymerai ofal am ddewis gyrfa canol-gwynt, bryd bynag y caffai hynt trwy yr awyr. Gan hyny, a'i rhyfedd genych, fy mod yn dra gofalus i chwilio am lwybr ar hyd y glaswellt, tra y parhaodd y fan yma yn wlad y Tylwyth Teg i mi! Ond y mae yr holl Dylwyth Teg wedi ymadael oddiyma yn awr.

Wedi dyfod o honom i lenydd y llyn cyssegredig, chwi a welwch ein bod yn gyd-wastad a phen deheuol y Moelfre, yr hwn sydd yn ymddangos yn dra hardd o'r fan hon.—"Ydyw y mae; ond rhaid ei fod wedi bod yn ddarostyngedig i dân-ruthriad arswydus ar ryw adeg, fel yr awgrymir gan y gramen fawr acw, tu a saith ugain llath o hyd, ac yn agos i haner hyny o led." Gellwch ymdawelu yn ddïogel yn eich meddwl, nad tân-ruthriad a fu acw; yn gymaint a bod y bryncyn godidog acw, wedi bod mewn ansawdd iachus bob amser. Yr hyn a gyfrifir genych chwi yn effaith tân ruthriad, nid yw namyn effaith damwain, fel y cewch glywed. Gerllaw y ffryd-lif acw sydd o'r tu isaf i ni, tua haner y ffordd rhyngom a'r bryniau, chwi a welwch yr hyn a ymddengys megis castell uchel, enw yr hwn yw "Craig y Dinas." Cawres, medd traddodiad, a drigai acw yn y dyddiau gynt, a chrib Moelfre ydoedd ei hoff encilfa, lle y carai ymrodio ar ddyddiau hyfryd haf; a bwriadai adeiladu seddfa yno, o'r lle y gallasai edrych ar y gwrthddrychau o'i hamgylch wrth ei phleser. I'r dyben hwnw, hi a gasglasai arffedogaid o gerig, a phan yn agos i gyrhaedd pen y bryn gyda hwy, torai llinyn ei harffedog, ac i lawr â'r cerig ar hyd y llethr, fel ag y gwelwch hwynt yn awr. Torodd llinynau arffedogau Cawresi eraill, yn y cyffelyb fodd, ar ein mynyddoedd. Y mae un ddamwain o'r fath, wedi cymeryd lle ar fin y ffordd, ar Fwlch y ddeufaen, gerllaw y Penmaen Mawr. Awn yn mlaen filldir yn mhellach i'r de orllewin, a deuwn at Garneddi Hengwm, y rhai ydynt ddwy mewn rhif, ac yn ol Hanes Cymru gan Wynne, fe'u cyfodwyd fel cof-adeiladau o rai a gwympasant mewn brwydr.

Y fwyaf o'r Carneddi hyn, yr hon sydd i'r dehau o'r llall, ac oddeutu deg llath ar hugain oddiwrthi, sydd dri ugain llath o hyd, ac ugain o led. Yn ei phen dwyreiniol y mae cistfaen, ac ar ei chanol, yn y tu gogleddol, y mae cromlech, o dan ba un y mae ystafell, ac eisteddleoedd o bob tu iddi, lle y gall wyth o bersonau eistedd, a choginiaw eu bwyd ar dân yn un o'r cornelau. Y garnedd arall sydd oddeutu deugain llath o hyd, a phymtheg o led, a cholofn o fewn dwy ran o dair i'w phen gorllewinol, yn agos i ba un, y mae rhês o gerig gwastad, yn cyrhaedd am draws y garnedd, fel pe y byddent yn toi rhyw feddau. Ond, wele ni yn eu hymyl yn awr, ac—O! bu Gothiaid yma, megis yn Abury, a than nawdd Cyfraith i amgau tiroedd, hwy a ddifrodasant y cof-adeiladau hybarchus hyn, er cael cerig i wneyd magwyrydd eu terfynau.

Ar yr olwg gyntaf, edrychwn ar y Carneddi tu a'r dwyrain, a gwelwn ran o'r fynydd-res sydd yn ymestyn oddiwrth yr afon Maw, yn y dehau, i swydd Gaerynarfon, ar y tu gogleddol. Am y rhai hyn ni raid dywedyd dim yn chwaneg, oddieithr sylwi hyny, er rhoddi rhyw ddrych-feddwl am ein sefyllfa i ddyeithriaid; pe edrychid yn gymhwys i'r gogledd, gwelid y Moelfre, yr hwn sydd tua dwy fil o droedfeddi uchlaw lyfel y môr, yn gymhwys ar ein cyfer.

Yr ail ddrychfa, gan edrych tu a'r gorllewin, a ofyna eglurhad helaethach. "Mi a feddyliwn hyny: yr oeddwn yn myned i ddywedyd, fod fy sylw wedi ei dynu gan yr hyn sydd yn ymddangos i mi yn debyg i un o amddiffynfeydd yr hen Gymru, ar y bryn acw, i'r gogledd-orllewin, ac yn ngolwg yr holl ddyffryn islaw iddo." Un o'r hen amgloddiau crynion hyny ydyw; ac y mae yn dra sicr ei bod yn cael ei meddiannu gan un o'r pleidiau gelynol hyny, a ymladdent y frwydr, o ba un y mae y Carneddi hyn yn gof-adeiladau. Ei henw yw "Dinas Corddyn;" ond yr ydwyf yn dychymygu nad dyna ydoedd ei henw ar y cyntaf, gan yr ymddengys bod yr enw hwn wedi ei fwriadu yn hytrach er dysgrifio ei hymddangosiad. Gadewch i mi alw eich sylw yma, at gyfnewidiad hynod y dygwyd y gwastadedd mynyddig hwn dano. "Yr ydwyf yn canfod ein bod wrth ddisgyn yn dyfod i Fawnog." Yr ydym felly; ond, yr wyf fi yn ei chofio hi yn gynefin defaid, hyfryd a sych, a'r unig arwydd o fawn ydoedd yn nghylch haner milldir oddiyma, i'r dehau; ac mor ddiweddar ag 1811, aethum y ffordd yma ar farch, heb sylwi ar yr hyn yr ydym yn awr yn sylwi arno; ond, wrth groesi yr un modd, yn y flwyddyn 1827, cefais gryn drafferth cael gan fy anifail ddyfod dros y ffosydd oeddynt wedi ymffurfio yn mhob man ar hyd wyneb y gwastadedd; yr hyn, fel y gellwch feddwl, a barai syndod nid bychan i mi. Chwi a welwch hefyd, y ceule dwfn ar ein deheulaw, yr hwn a ddyru enw ar y lle, fel y dywedwyd o'r blaen; yr ydwyf yn cofio yr ochr nesaf attom o hono, yr hon sydd yn dra serth am agos i haner milldir, yn lle nodedig am gnau; am ei fod yn dew-lwyn o fangoed, yn enwedig y cyll; ac yn awr y mae y cyfan o hono mor noeth ag ochr y mynydd draw. Rhaid mai gormesiad parhaus y môr a achosodd y fath gyfnewidiadau, o herwydd y mae y coed yn darfod yn raddol yn y dyffryn isod.

Wrth edrych tu a'r gorllewin, chwi a welwch ynys fechan, can belled ag y gwelwch i'r môr, allan o bentir Caerynarfon; hon acw yw Enlli; Ynys sanctaidd Cymru; ar ba un y gadawyd peth gweddillion o'i monachdy gynt. "Ond pa beth a welaf yn y môr, yr hyn hyd yn hyn a gyfrifais yn dwyll-ymddangosiad, neu ryw gysgod symmudol ar y môr?" Y mae yn dda genyf na's darfu i chwi alw sylw at y gwrthddrych acw yn gynt, gan fy mod wedi bwriadu terfynu ein gwib-daith, trwy adrodd i chwi y cyfan a wn i yn ei gylch. Hwn acw, a ymddengys fel wâl wedi ei hadeiladu yn y môr, a elwir yn Sarn Badrig.



Digitized by Google

"Pa beth oedd ganddo ef i'w wneuthur yma?" Pa beth! efe a anwyd tu hwnt i'r rhês ganol acw o fryniau, a welwch chwi i'r gogledd-orllewin. Yn ol ein hach-draith o saint Ynys Prydain, yr oedd efe yn fab i Allfryd ab Goronwy ab Gwydion ab Don, o Werydog, yn Arfon, ac efe a ddaeth i fod yn apostol yr Iwerddon.—"Ac a ydych chwi yn dweyd iddo ef fyned i'r Ynys Werdd ar hyd y sarn acw?" Nac ydwyf fi; ond nid oes niweid yn y byd i ni alw y gwaith mawr acw ar ei enw ef. "A ydych chwi yn barnu mai gwaith dyn yw efe?" Gweddillion ydyw, o forglawdd anferth, er attal gormesiad y môr. Y mae yn dechreu yn agos i flaen Mochras, ac yn cymeryd ei gyfeiriad tua chanol y *bay*, dair milldir oddiwrth y lan bresenol; ac y mae y morwyr cydnabyddus â'r morebach yma, yn ei ddarlunio yn ymestyn mewn cyfeiriad de-orllewinol, i'r pellder o un filldir ar hugain; a gadewir naw milldir o hono yn sych ar y trai yn feunyddiol; ac y mae ynddo dri agored bychan, trwy y rhai yr â y llongau. Gyda golwg ar amser ei adeiladiad, y mae hanesyddiaeth yn fud; a pha ryw bobl, mewn gwlad mor annghysbell, a allasent ymgymeryd â'r fath waith enfawr, sydd yn dra hynod i feddwl am dano. Ar derfyn pentir Celynin, ar yr ochr ddeheuol i'r Abermaw, y mae morglawdd arall cyffelyb, a elwir "Sarn y Bwch," yr hon y gellir ei holrhain yn agos i ddwy filldir o ffordd i'r môr, yn nghyfeiriad y lle y terfyna y llall. Ar dueddau Sir Aberteifi, y mae rhai adfeilion o'r cyffelyb bethau yn y môr; ac un o honynt, yn agos i Aberystwyth, a elwir Sarn Cynfelyn; ac yn agos i hono, y mae lle a elwir Caer Gwyddno.[1] Y mae traddodiad wedi cadw llawer o fanylion ar gof a llafar gwlad, mewn perthynas i'r rhandir hon, yr hon a orlifwyd gan y môr tua diwedd y bumed ganrif, a'r hwn am lawer o oesoedd, a aeth dan yr enw Cantref y Gwaelod. Heblaw y cyfryw draddodiadau, y mae genym rai cofiannau hynod o hono, yn rhai o'n hysgrif-lyfrau henaf, y rhai a argraffwyd yn y Myfyrian Archaiology, o'r rhai y dyfynnodwyd a ganlyn;—

[1] Pan oeddwn ar fwrdd llestr yn dyfod o Lundain yn haf 1770, dangosai y morwyr yr adfeilion hyn i mi, er eu bod o dan ddwfr; o herwydd hwyliem yn agos attynt.

[2] Y mae Eglwysi yn Nghymru wedi eu cyssegru i'r Seintiau hyn, meibion Seithennin.

Y dosbarth cyntaf ydynt grybwylliadau achlysurol allan o ach-draith y Saint Cymreig;—

1. "Seithenin Frenin o Faes Gwyddno, a oresgynws môr eu tir.

2. "Merin, a Thutclyt, a Gwynoedyl, a Thudno, a Sennefyr, meibion Seithennin Frenin, o Faes Gwyddno, a oresgynnws môr eu tir.

3. "Sennefyr ab Seithennin Frenin, o Faes Gwyddno, a oresgynnws môr eu tir.

4. "Tutglyd,[2] Gwynoedyl, Merin, Tyneio, Tudno, a Sennefyr, meibion Seithennin Frenin, o Faes Gwyddno, a oresgynnws môr eu tir.

5. "Tudno, mab Seithennin Frenin, o Faes Gwyddno, a oresgynnws môr eu tir."

Yr hyn a ganlyn sydd allan o'r Trïoedd;—"Tri Charn-feddwon ynys Prydain:—Geraint feddw, brenin Essyllwg, a losges yn ei feddwdod yr holl ŷd ymhell ac yn agos, hyd glawr gwlad, ac o hyny dyfod newyn bara; Ail, Gwrtheyrn Gwrtheneu, a roddes ynys Daned yn ei ddïawd i Hors, am gael ymodinebu â Rhonwen, ei ferch ef; a rhoddi hawl hefyd a wnaeth efe i'r mab a enid o hynny, ar Goron Loegr: ac yn un a hynny, Brad a Chynllwyn yn erbyn Cenedl y Cymry; Trydydd, Seithinyn Feddw ab Seithyn Saidi, brenin Dyfed, a ollyngwys yn ei ddiawd, y môr tros Gantre'r Gwaelod, oni chollwyd o dai a daear, y maint ag oedd yno, lle cyn hynny y caid un dinas-dref ar bymtheg yn oreuon ar holl drefydd a dinasoedd Cymru, a gadu yn amgen Caerllïon ar Wŷsg: a chyfoeth Gwyddno Garanhir, brenin Ceredigiawn, ydoedd Cantre'r Gwaelod; ac yn amser Emrys Wledig y bu hynny; a'r gwŷr a ddianghasant y rag y bawdd hynny, a diriasant yn Ardudwy, a Gwlad Arfon, a mynyddoedd yr Eryri, a lleoedd ereill nad oeddynt gyfannedd cyn no hyny."

Y mae dau gyfansoddiad gan y rhag ddywededig Gwyddno, wedi eu hargraffu yn yr un Llyfr, a'r rhai sydd yn cyfeirio at y dygwyddiad a nodwyd eisoes, ac a gymmerwyd allan o law-ysgrif, oddeutu y flwyddyn 1100. Y maent yn tebygoli i farddoniaeth o'r amseroedd boreuaf; ac hyd yn nod yn yr hen gyfysgrif y cyfeirir atti yma, y mae yn dwyn nodau amlwg ei bod wedi cael cam, drwy adysgrifiad blaenorol, fel y gellir gweled yn hawdd wrth sylwi ar y pennillion. Y dyfyniad cyntaf sydd o bryddest gan Gwyddno, annghyssylltiedig â'r testun presenol:—

| | |
|---|---|
| "Kyd carui fi morfa, casaa fi don;<br>Digoneis don dreis oer kleis y ron:<br>Ef kwyniw, yn i wiw herwyt hon!" | Er y caraf y traeth, casâf y don;<br>Y don a barodd drais i wanu fy mron:<br>Cwynaf, ond yn ofer, am hon. |

Y penillion canlynol ydynt ar y gorlifiad ei hunan gan yr un bardd:—

| | |
|---|---|
| "Seithenin saw di allan<br>Ac edrych firdre faranres;<br>Mor maes Gwitneu rytoes! | Seithinin saf di allan<br>A gwel donau Llewin yn rhesau:<br>Mewn mor y towyd maes Gwyddno! |
| "Boed emendiceit y morwin<br>A hellyngawt gwydi e wyn<br>Ffynnawn wenestyr môr terwyn! | Boed felldigaid a ollyngodd<br>Y môr gwedi gwin:<br>Ffynnon lifeiriol oedd y môr brigwyn! |
| "Boed emediceit y fachdeith<br>Ai gollyngaut guydi gweith:<br>Ffynnawn wenestyr môr diffeith. | Boed felldigaid deithnawdd yr hwn a'i<br>Gollyngawdd gwedi trafael:<br>Ffynnon lifeiriol oedd y môr diffaeth! |
| "Diasbad mererit i ar fan caer,<br>Hyd ar Duw i dodir:<br>Gnawd gwedi traha tranc hir! | Y don-waedd a ymddyrchaif uwch ban y gaer<br>Hyd at Dduw y cyrhaedda:<br>Olynir trahausder gan drychineb! |

Digitized by Google

| | |
|---|---|
| "Diasbad mererit i ar fan caer,<br>Hetiu hyt ar Duw y dadoluch:<br>Gnawd gwedi traha attreguch! | Y don-waedd a esgyn uwch ban y gaer<br>Heddyw ceisir heddwch Duw:<br>Daw attalfa yn aml wedi traha! |
| "Diasbad mererit am gorchwyt heno,<br>Ac nim hawt gorlwyt:<br>Gnawd gwedi traha tramewyt! | Y don-waedd o wae a'm gorchuddia heno<br>Ac ni rydd dim da ymwared i mi:<br>Tramgwydd a ddylyna draha! |
| "Diasbad mererit i ar gwinueu,<br>Cadir Cedawl duw ae goreu:<br>Cnawd gwedi gormod, eisieu! | Y don-waedd a lef ar y gwyntoedd,<br>Cadair Cedawl, a barwyd gan Dduw:<br>Mynych wedi gormod, daw angen! |
| "Diasbad mererit am cymhell,<br>Heno i wrth fy estafell:<br>Gnawd gwedi traha, tranc pell! | Bloeddiadau y don a'm cymell<br>Heno i adael fy ystafell:<br>Olynir traha gan anrhaith pell! |
| "Bet Seithennin synwyr wan<br>Rhwng Caer Cenedir a glan:<br>Mor mawrhydic a cinran!" | Bedd Seithinyn synwyr wan,<br>Rhwng Caer Cenedr a glan;[1]<br>Lle yn y môr mae'm ceraint. |

Nid Gwyddno a gyfansoddodd y pennill olaf hwn; ond fe'i cymerwyd o Englynion Beddau Milwyr Prydain, ac fe'i cydiwyd â'r penillion ereill, yn yr hen ysgrifyfr.

**DYFFRYN-CEIDRYCH**, trefgordd yn mhlwyf LLANGADOG, rhanbarth isaf cantref PERFEDD, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, 3 milldir i'r De wrth Orllewin o Langadog, gyda 689 o boblogaeth yn ol Deiliadeb 1861. Gorwedda rhwng yr afonydd Areth a Sawdde; y mae yn cael ei gwrteithio yn dda, ac y mae hytrach yn goedog. Ar gopa mynydd Trichrug y mae tair o garneddau, ond ni wyddis eu hamcan. Gerllaw yma y gânwyd y Parch. James Hughes (*Iago Trichrug*), y bardd a'r esboniwr, yr hwn oedd yn weinidog enwog gyda'r Trefnyddion Calfinaidd yn Llundain. Y mae rhai yn barnu mai Dyffryn-Ceindrych yw iawn enw y Dyffryn toreithiog hwn, a'i fod wedi cael ei alw felly oddiwrth Ceindrych ferch Brychan Brycheiniog, plant yr hwn sydd wedi rhoddi enwau i amryw leoedd yn y parth yma o Swydd Gaerfyrddin, megis Tach-lleian, &c.

**DYFFRYN CLYDACH.** Rhandir neu dreflan yn mhlwyf Llangatwg, Nedd, yn nghantref CASTELL-NEDD, Sir FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, oddeutu milldir a haner i'r gog. orll. o Gastellnedd, yn cynwys poblogaeth, yn ol Deiliadeb 1871, o 1137, yn dangos cynydd o 115 yn y deng mlynedd diweddaf. Mae y brif-ffordd o Gastellnedd i Abertawy yn myned trwy y rhandir, a'r afonig fechan Clydach, yr hon sydd yn rhedeg i'r Nedd ryw haner milldir nes i lawr, yn ffurfio ei derfyn. Mae y rhandir hwn yn cysylltu a rhandir Coedffranc yn yr un plwyf (gwel COED-FFRANC). Y mae hen waith Monachlog, ar yr afonig fechan hon, ac y mae y rhandir yn gyfoethog o wythenau glo, a gweithiau diweddar wedi eu hagor iddynt. O fewn terfynau y rhandir hwn hefyd, y mae hen adfeilion ardderchog Monachlog Nedd (gwel CASTELLNEDD). Mae y rhandir hwn yn terfynu yn y gorllewin gyda Mynydd y Drymau, neu Trumau, ar ba un y mae Cist-faen yn sefyll, ac olion hynafol, na cheir hanes am danynt mewn llyfrau.

**DYFFRYN-ELAN**, trefgordd yn mhlwyf CWMTOYDDWR, cantref RHAIADR-AR-WY, swydd FAESYFED, DEHEUDIR CYMRU, 4 milldir i'r De Orllewin o Raiadr, ar lân yr afonig Elan, gyda poblogaeth o 338, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae y Dyffryn hwn yn llawn golygfeydd rhamantus, cyfansoddedig o fynyddoedd uchel, a chreigiau serthion a danneddog, y rhai sydd yn cyferbynu yn ddymunol â'r dolydd gleision, a'r tir gwrteithiedig ar lânau yr afon. Y mae yma blâs hardd iawn, o wneuthuriad diweddar, yn un o blygiadau yr afon; y mae y tir perthynol iddo, o fod yn anialwch, wedi cael ei wneuthur yn ardd. Yn Nantgwyllt, tua 4 milldir oddiwrth y fam eglwys, y mae capel eglwysig wedi cael ei adeiladu yn 1772, ac y mae y fywioliaeth yn rhodd y ficar. Ar lân yr Elan, yn Nghoed-y-mynach, y mae adfeilion hen gapel, a elwir Capel Madog: tybir ei fod yn perthyn i'fonachlog Ystrad Fflur, yn swydd Aberteifi, am fod olion hen ffordd i'w gweled ar y mynyddoedd uchel, yr hon ffordd sydd yn nghyfeiriad y ddau le. Ai nid olion yr hen ffordd rhwng Ystrad Fflur ac Abbatty Cwm Hir ydyw yr olion uchod? Y mae capel yma gan y Bedyddwyr. Y mae mwn plwm i'w gael yn y drefgordd hon, ac y mae wedi bod yn cael ei weithio.

**DYFFRYN-GWY**, trefgordd yn mhlwyf CWMTOYDDWR, mewn rhan yn mwrdeisdref RHAIADR-AR-WY, ac mewn rhan yn nghantref RHAIADR, DEHEUDIR CYMRU, 2 filldir i'r Gogledd Orllewin o Raiadr, ar lân yr Wy, gyda 460 o drigolion. Yn y drefgordd hon y mae yr Elan yn cyfodi, o lŷn Gwingy, ar gyffiniau swydd Aberteifi. Y mae gweithfeydd gwlan yma. Y mae amryw garneddau yma, y mwyaf nodedig o ba rai, yw Tomen St. Ffraid, lle y dywedir fod y santes hono wedi cael ei chladdu, ac i'r hon y mae eglwys y plwyf wedi cael ei chyflwyno. Y mae yma olion hen wersyllfa ar lân yr Wy, gyferbyn a chastell Rhaiadr, a dywedir fod mynedfa o dân yr afon, o'r naill i'r llall.

**DYFFRYN-HONDDU**, capeloriaeth yn mhlwyf, a chantref, MERTHYR-CYNOG, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU, 7 milldir i'r Gogledd wrth Orllewin o Aberhonddu, gyda 383 o boblogaeth. Rhenir hi i ddwy drefgordd; yr Isaf, a'r Uchaf: y mae yn yr Isaf 196 o boblogaeth; ac yn yr Uchaf 187. Y mae yr enw yn dangos ei sefyllfa, ac y mae yn llawn o'r golygfeydd mwyaf dymunol a rhamantus. Y mae y wyneb yn arddunol o fryniog, a rhai o'r bryniau wedi cael eu gwisgo yn odidog â choed, tra mae ereill yn rhoddi porfa dda i'r defaid ag sydd yn ymborthi ar eu llethrau: y mae y golygfeydd oddiar y tiroedd uchelaf, yn cyd-gyssylltu amryw wrthddrychau o ddyddordeb, ac agweddion o brydferthwch. Ficeriaeth yw y fywioliaeth, wedi ei gwaddoli

[1] Yn agos i Aber y Porth, Ceredigion, y mae traeth bychan a elwir "Traeth Saith;" yr hwn enw, debygid, sydd yn dynodi cyssylltiad â'r rhai a gadwyd yn hen gofion gorlifiad Cantre'r Gwaelod.

Digitized by Google

â 1000*p.* o rodd freninol: cyfanwerth, 66*p.*; y mae yn nawddogaeth Ficar Merthyr-Cynog. Y mae y capel yr hwn oedd o dàn Merthyr-Cynog, yn sefyll mewn rhan dröellog a rhamantawl o'r dyffryn, gerllaw tarddiad yr Honddu ffrydwyllt, ac ar y ffordd fynydd ag sydd yn myned o Aberhonddu i Lanfair-yn-Muallt, tua dwy filldir i'r dwyrain oddiwrth y fam eglwys, a gelwir ef ambell i waith, Capel Uchaf, i'w wahaniaethu oddiwrth gapel Llanfihangel-Fechan, yn mhlwyf Llandyfaelog-Fach, yr hwn sydd yn is i lawr yn y dyffryn. Ar lànau de yr Honddu, ychydig uwchlaw y capel, y saif Mynachdy, yn yr hwn unwaith y preswyliai monachod priordy Malvern, swydd Gaerwrangon (*Worcester*), y rhai oeddent yn gofalu am amgylchiadau tymmorol ac yn casglu dyledion y tŷ hwnw, yn y plwyf yma: nid yw yn ymddangos fod dim o'r tŷ gynt, yn aros, canys nid oes yma yn bresenol ond annedd-dy gwael, i'r hwn y perthyna tyddyn bychan.

**DYFFRYN LLANFAN**, trefgordd yn mhlwyf a chantref y DRENEWYDD, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU, 2 f. o'r Drenewydd. Y mae yn gorwedd mewn gwlad ardderchog a chnydfawr, ac y mae y boblogaeth yn cael ei chyfrif gydag eiddo y plwyf.

**DYGANWY**, neu DEGANWY, hen gastell yn nghwmmwd y CREUDDIN, swydd GAER YN ARFON, GOGLEDD CYMRU; yn agos i safn afon Gonwy, ddwy filldir i'r Dehau o Landudno. Yr hen Haneswyr Seis'nig a'i galwant, "Y Gannoc," ond yr Haneswyr Cymreig a'i galwant "Dinas Conwy," sef yr Amddiffynfa ar y Conwy, enw a lygrwyd mewn amser yn "Dyganwy." Bernir fod yma amddiffynfa, mor foreu a'r cyfnod Rhufeinaidd; ac y mae yn dra sicr bod yma un yn amser Maelgwyn Gwynedd, yr hwn ar un adeg o'i oes, a gynhaliai ei brif lŷs yma, debygid; ac yma, meddir, yr oedd Elphin yn garcharor, pan ennillwyd ei ryddid trwy ddylanwad awen ei fardd, Taliesin. Dywedir fod yr hen amddiffynfa oedd yma, wedi cael ei dinystrio trwy fellt, yn y flwyddyn 810, wedi bod am oddeutu 300 mlynedd yn brif lŷs tywysogaidd Gwynedd. Yn yr unfed ganrif ar ddeg, Huw Fleiddyn, Iarll Caer, gan hawlio yr ardal fel rhan o Iarllaeth Caer, a adeiladodd amddiffynfa newydd ar yr hen orsaf; ac a gyflwynodd ei chadwraeth i ofal Robert o Ruddlan; ond cyn hir lladdwyd y gwr hwnw, mewn ymosodiad o'r eiddo y Tywysog Gruffydd ab Cynan, ar yr amddiffynfa, Gorphenaf 3, 1088. Yn mhen tua chan mlynedd ar ol hyn, torwyd yr amddiffynfa hon hyd lawr, gan Llewelyn ab Iorwerth; ond, yn y flwyddyn 1210, fe'i hail adeiladwyd gan Randle Blondevil, Iarll Caer. Yn y flwyddyn 1211, darfu i'r brenin John, yn ystod ei gadgyrchiad i Wynedd, wersyllu ei fyddin ger caerau Dyganwy; ond gan fod Llewelyn wedi rhybuddio ei ddeiliaid i symud eu hanifeiliaid a'u meddiannau i gilfachau dyogel Eryri, gwasgwyd y penteyrn Seis'nig, a'i fyddin, i gyfyngdra dirfawr yn fuan, fel y gorfu iddo encilio yn ol yn warthus, a cholledus. Wedi ei gythruddo yn fawr gan hyn, dychwelodd y brenin i Gymru yn mhen ychydig fisoedd, â byddin lawer cryfach; ac wedi croesi afon Gonwy, arweiniodd ei fyddin i Fangor, yr hon a losgasant, ac a gymerasant yr Esgob yn garcharor. Y pryd hwn yr oedd Castell Dyganwy yn meddiant brenin Lloegr; ond, yn y flwyddyn 1213, daeth y Tywysog Llewelyn drosodd i'r Creuddin drachefn; ac wedi gwarchaead byr ar y Castell hwn, efe a gymerth feddiant o hono eilwaith. Ond, cyn hir, syrthiodd drachefn i feddiant y Saeson; ac yn y flwyddyn 1245, cyfododd Harri y Trydydd, dreth anarferol, er ei alluogi i wneyd parottoadau mawrion i oresgyn y Dywysogaeth; ac wedi arwain y fyddin anferth hono hyd Dyganwy, efe a'i gwersyllodd yno, lle y bu y brenin a'i fyddin, dros yn agos i dri mis, yn dyoddef y caledi mwyaf, oddiwrth newyn, anwyd, a rhuthriadau mynych, ac annysgwyliadwy, y Cymry ysgafn-droed, fel y bu raid iddo yntau o'r diwedd, encilio yn brysur o'r Dywysogaeth, wedi ei doi â gwarth. Yn y flwyddyn 1258, cynnullodd y brenin Harri, holl allu milwraidd Lloegr, unwaith drachefn, at furiau Dyganwy: ond ofer a fu y cynnyg hwn hefyd; ac wedi cael colledion mawrion, a thaflu ei fyddin gref i'r annrhefn mwyaf, bu raid iddo droi ei wyneb tuag adref unwaith eto, yn golledus a gwaradwyddus. Yn y flwyddyn 1262, cymerodd y tywysog Llewelyn ab Gruffydd y castell hwn, a fuasai o bryd i bryd, mor bwysig, a gwasanaethgar i'r Saeson ar, gyfrif ei gadernid, a'i sefyllfa; ac efe a'i dymchwelodd hyd lawr; ac yma y terfyna adgofion milwraidd yr hen amddiffynfa enwog hon, gan nad ail adeiladwyd hi drachefn. Yr enw mwyaf cyffredin ar yr adfeilion hyn yn bresenol, yw "Castell y Faerdref."

Y mae adfeilion y Castell hwn yn gorwedd ar ddau fryn, gan gymeryd i fewn y gwastadedd bychan oedd rhyngddynt. Ei ffurf oedd bron yn hir-grwn, ond yr oedd ei furiau yn dra afrëolaidd, yr hyn a achlysurid gan ffurf annghyffredin y tir ar yr hwn y gorweddai. Y mae ystlysau y bryn mwyaf, wedi eu tori, er ffurfio serth-allt uchel, ac yr oedd y mur wedi ei adeiladu ar fin y clogwyn, pen uchaf yr hwn oedd wedi ei wastadhau, a'r ceudwll yn y canol, ydoedd y gadwrfa. Yr oedd y mur yn cyfeirio i waered ar hyd yr ystlys ddeheuol, ar draws y gwastadedd bychan rhwng y ddau fryn, ac i fynu hyd grib yr ail fryn, tua haner yr hwn a gymerai i fewn; yna dychwelai o ddwyrain i orllewin, hyd at ystlys ogleddol y dibyn. Yr oedd dau borth iddo, yn wynebu y gogledd a'r dehau, y rhai a ganfyddir yn hawdd eto; ac y mae yn amlwg eu bod wedi eu hamddiffyn â thyrau, a rhagfuriau, y rhai y gellir olrhain eu sylfeini y pryd hwn. Y mae y ffos yn sech yn bresenol, eto yn weledig; ac y mae darnau o'r muriau yn aros ar ben y bryn cyntaf: ond y darnau o furiau a welir ar yr ystlys ddeheuol, ydynt wedi cwympo o'r rhan uchaf o'r mur, yr hwn wedi ei dan-gloddio a ddymchwelwyd; ac y mae y darnau hyn yn gorwedd allan o linell y sylfeini; yr oedd yr onglau wedi eu cadarnhau â thyrau o faenwaith cryf. Heb fod yn mhell, ar gopa bryn, gerllaw tyddyn a elwir y Bryniau, y mae tŵr, yr hwn, fe ddichon, a fuasai ar y cyntaf yn rhag-orsaf i'r amddiffynfa hon. Ei ffurf sydd grwn, ac y mae tua deuddeg troedfedd o draws-fesur, ac ugain o uchder. Y mae olion dau lawr o'i fewn, ac y mae tair rhês o dyllau ysgwâr o'i fewn o amgylch; ond nid oes yr un o honynt yn myned trwy y mur. Gan fod oddeutu y drydedd ran o'r cylch yn agored, o'r pen i'r gwaelod, a bod yr agored yma yn nghyfeiryd y gogledd ddwyrain; efallai ei fod wedi ei amcanu i roddi arwyddion, trwy oleuadau, i gastell Rhuddlan. Y mae y mur yn drwchus iawn, a'r maen-waith yn llwyr wahanol i'r hyn sydd yn aros o'r castell; ac fe ddichon gan hyny, ei fod wedi ei adeiladu mor foreu ag y gwnelid yr amddiffynfa gyntaf gan y Rhufeiniaid.

Digitized by Google

**DYGYNELW,** bardd Owen ab Urien, yn y 6ed ganrif, yr hwn a elwir yn un o'r "Tri Gwaywruddion," am eu bod, yn groes i ddefodau Barddas, yn euog o dywallt gwaed.

**DYLAN AIL TON,** cymeriad yn *Mabinogi* Math ab Mathonwy. Tybia y Celtic Davies, mai Noa ydoedd, o dan ffugenw Prydeinig.

**DYLAS** (DULAS), ISAF, rhandir yn mhlwyf Llangatwg, Nedd, yn nghantref CASTELLNEDD, Sir FORGANWG, DEHEUBARTH CYMRU, dwy filldir a haner i'r Gogledd Ddwyrain o Gastellnedd, yn cynwys, yn ol Deiliadeb 1871, 453 o drigolion; 105 yn fwy nag yn 1861. Adnabyddir y lle wrth yr enw Aberdulas, ac y mae yn sefyll ar arllwysiad afon Dulas i'r Nedd, ac ar y brif-ffordd o Gastellnedd, i fyny trwy ddyffryn Nedd, i Merthyr. Y mae yma gryn bentref o dai, a golygfeydd anianyddol hynod o brydferth. Mae yma gydgyfarfyddiad afonydd, camlasoedd, a rheilffyrdd, a hyny mewn dyffryn cul prydferth, yn cael ei gylchynu gan goedwigoedd, twmpathau, a bryniau uchel. Ar y naill du i'r ffordd fawr, y mae afon fywiog Dulas yn ymdaflu yn ysgŵd grychwyn dros graig ysgythrog; ond y mae y gwaith Alcan wedi ei godi yn awr i guddio yr olygfa ysblenydd oddiwrth lygaid y rhai sydd yn myned heibio. Y tu arall i'r ffordd, gyferbyn, y mae pont ardderchog dros y ddwy afon, yn cludo Camlas Castellnedd ac Abertawy, i'w uno a Chamlas Cwm-Nedd. Mae y gwaith Alcan sydd yma, a berthynai gynt i deulu Llewelyn, yn fforddio cynaliaeth gysurus i liaws y trigolion. Y mae dwy reilffordd yn pasio drwy lle, rheilffordd Dyffryn Nedd, a rheilffordd Castellnedd ac Aberhonddu. Y mae hefyd weithiau glo wedi eu hagoryd yn ddiweddar, y naill ochr i'r cwm, ar y llechwedd sydd yn codi i fyny at ben Marchhywel, yr hwn sydd yn gweini yn helaeth at gynydd a llwyddiant y lle. Y mae yn y pentref, ddau gapel hardd, un gan y Methodistiaid, yr hwn a ail adeiladwyd y blyneddoedd diweddaf, ac un gan y Bedyddwyr, yn ymyl gorsaf y rheilffordd. Y mae y gwaith glo a nodwyd hefyd, wedi rhoddi bod i gapel bychan arall, perthynol i'r Annybynwyr, yn ymyl Bryncaws, tua milldir o'r pentref. Yn y pentref hwn y mae palas prydferth Joshua Williams, Ysw., Ysgrifenydd medrus y *Great Western Railway Co.*, ac un o brif feddianwyr, ac arolygydd Gwaith Alcan Aberdulas.

**DYLAS** (DULAS), UCHAF, rhandir yn mhlwyf Llangatwg, Nedd, yn nghantref CASTELLNEDD, Sir FORGANWG, DEHEUBARTH CYMRU, ryw 6½ milldir o Gastellnedd, i'r Gog. Og. Orll., yn cynwys, yn ol Deiliadeb 1871, 479 o drigolion; 143 yn llai nag ydoedd yn 1861. Mae yn cael yr enw oddiwrth yr afonig fechan sydd yn rhedeg trwy y lle, ac yn arllwys i'r Nedd yn Aberdylais. *Du-las* yn ddiau yw tarddiad y gair, oddiwrth liw tywyll y dwfr, yn dyfod o dir mawnog y mynydd; ond Dulais y bydd yn cael ei ysgrifenu yn fwyaf cyffredin. Mae afon Dulas yn tarddu yn ymyl gwaith yr Onllwyn, yn nghysylltiad mynydd y Drum, a Banwen Byrddin. Yn y rhandir, neu yr *hamlet* hwn, y mae pentref bychan neillduedig y Creunant, neu Crynant. Y mae yma hen gapel bychan Eglwysig, yn nglyn a Llangatwg, cyflwynedig i St. Margaret; ond y mae mewn cyflwr gwael, ac heb ond ychydig yn ei fynychu. Mae yma hen achos gan y Methodistiaid, yr hwn a gynaliwyd am oesau mewn adeilad go ddystadl, uwchlaw y felin, ar lan y Nant groyw, sydd yn rhedeg i lawr o lechwedd yr Hirfynydd i'r Dulas. Mae y Methodistiaid yn awr wedi gadael eu hen gapel bychan, ac wedi adeiladu capel newydd prydferth yn ei le, yn ymyl gorsaf y rheilffordd. O fewn milldir i hwn, y mae hen gapel Annybynol Godreurhos; yr hwn sydd achos o sefydliad henafol, ond codwyd capel newydd prydferth yno, tua 15 mlynedd yn ol. Codwyd Ysgoldy Cenedlaethol costus yn y Creunant, tua phumtheg mlynedd yn ol—llawer rhy gostus i ateb yr ardal, ond nid yw yr ysgol yno wedi bod mor llwyddianus ag y buasai dymunol. Mae agoriad rheilffordd Castellnedd ac Aberhonddu trwy y lle, yn ddiweddar, wedi dwyn cryn adfywiad, ac eisioes wedi bod yn achos i agor gwaith glo yn y lle. Diau y daw yr ardal anghysbell, ond prydferth hon, yn lle pwysig mewn amser dyfodol. Mae yr hen ffordd Rufeinig a elwir Sarn Helen, yn pasio dros ben y mynydd, y naill du, yr hon oedd yn canghenu o'r *Julia Strata Maritania* yn Nghastellnedd, ac yn cyssylltu yr orsaf hono a'r sefyllfa filwrol *Banium*, neu *Caer Banau*, o fewn tair milldir i dref Aberhonddu.

**DYLIFAU,** capeloriaeth yn mhlwyfi Darowen, Llanbrynmair, Penegoes, a Thref-eglwys, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU; yn agos i Reilffordd y Dref Newydd a Machynlleth; 8 milldir o Lanbrynmair. Fe'i ffurfiwyd yn gapeloriaeth yn y flwyddyn 1856; a medda Lythyrfa dan yr Amwythig.

Poblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861,—859; Tai, 141. Ficeriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn esgobaeth Bangor; gwerth dau gan punt yn y flwyddyn. Noddwr, yr Arglwydd Gangellydd. Yn ddiweddar yr adeiladwyd yr eglwys; ac yn wir, yn ddiweddar y daeth y llanerch hon yn boblogaidd, trwy agoriad gweithfeydd mŵn ynddi.

**DYMEIRCHION.** Gwel TREMEIRCHION.

**DYNHENLLE,** ISAF, neu DINHENLLE, trefgordd yn mhlwyf Rhiwabon, yn nghantref BROMFIELD, Swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU; 1 filldir i'r De Ddwyrain o bentref Rhiwabon, yn cynwys poblogaeth o 312. Cyfrifir ei gwerth ardrethol yn 2286*p*. Y mae Wynnstay, palas ysplenydd Syr Watcyn Williams Wynn, Bar., yn cymeryd i fynu y rhan fwyaf o'r drefgordd hon; o'r hwn y rhoddir dysgrifiad manylach yn hanes y plwyf.

**DYNHENLLE,** UCHAF, trefgordd yn mhlwyf Rhiwabon, cantref BROMFIELD, Swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU; 2 filldir i'r De Orllewin o Riwabon, yn cynwys poblogaeth o 1027, yn ol Deiliadeb 1861; cyfrifir ei gwerth ardrethol yn 2658*p*.; o ba rai y mae 800*p*. yn dyfod oddiwrth fwngloddiau. Y mae parc Wynnstay yn cymeryd i fynu ran o'r drefgordd hon; ac y mae Clawdd Offa yn myned drwyddi, mewn llinell gyfochrog, o'r bron, â'r ffordd o Riwabon i'r Waun.

**DYSERTH,** plwyf, mewn rhan o fewn terfynau bwrdeisdref RHUDDLAN, mewn rhan yn nghantref RHUDDLAN, ac mewn rhan yn nghantref PRESTATYN, swydd FFLINT, GOGLEDD CYMRU; 2½ milldir i'r Dwyrain Ogledd Ddwyrain o Ruddlan, yn cynwys poblogaeth o 1098; y mae yn mesur 3348 o erwau, o ba rai y mae 1464 yn ddwfr; meddiannau ardrethedig, 2206*p*. Nifer y tai, 267. Yr oedd y lle yma yn nodedig er yn foreu, ar gyfrif ei gastell, am yr hwn y crybwyllir mewn amryw goflyfrau, dan y gwahanol enwau, o Din Colyn, Castell y Failon, a Chastell Gerri. Nid ydys yn gwybod dim yn sicr am ei

Digitized by Google

seiliad cyntaf; yr hyn sydd yn fwyaf tebyg yw, mai gan y Cymry ei cyfodwyd gyntaf; ac fe fernir ei fod yr olaf o rês o amddiffynfeydd Prydeinaidd, a gyfodasid ar y bryniau Clwydaidd. Cadarnhawyd y castell hwn gan Harri y Trydydd, tu a'r flwyddyn 1241; ond, o fewn llai nag ugain mlynedd wedi hyny, fe'i chwalwyd hyd y llawr, yn nghyda chastell Dyganwy, gan Llewelyn ab Gruffydd. Yn ystod gwarchaead y lle hwn, lladdwyd Einion, fab Rhiryd Flaidd, a chyfodwyd croes ar y llanerch, er côf am dano, paladr yr hon, wedi ei haddurno â rhyw gerfiadaeth led annghelfydd, a ddefnyddiwyd wedi hyny i ffurfio rhan o gamfa i'r fynwent. Y mae y bryn lle y safai Croes Einion, o du y dehau i'r Dyserth; ac yno, ger y ffordd o Ruddlan i Dreflawnyd (*Newmarket*), y dywedir i'r gwron gwympo, a chael ei gladdu yn y fan: ac yn lled gynar yn y ganrif hon, fel yr oedd rhyw lafurwr yn darparu gardd at ei fwthyn, efe a ddaeth ar draws arwyddion claddfa yn y llanerch hono. Er cof am Einion, cyfansoddai y diweddar Mr. Stephen Davies o'r Ddyserth, yr Englyn canlynol;—

"Y gwron Einion a enwyd,—(wir brawf,)
Ar y bryn a gladdwyd;
Ar y bryn claer, ger bron Clwyd,
Hoff Einion a orphenwyd."

Ffinir y plwyf ar y Gogledd Orllewin, gan Fôr y Werydd, ac y mae y ffordd fawr o Dreffynon, trwy Dreflawnyd, i Ruddlan, yn myned trwy y pentref. Mewn rhan o'r plwyf, a elwir Y Dalar Gôch, y mae Gwaith Mŵn o henafiaeth mawr, o'r hwn y cloddiwyd tunelli afrifaid o blwm, trwy yr oesoedd. Bernir ei fod yn un o'r Gweithfeydd plwm dyfnaf yn y Dywysogaeth; canys y mae yn *dri chan llath* o ddyfnder; ac y mae y rhan o'r mwnglawdd a weithir yn bresenol, yn cyrhaedd am oddeutu milldir o hŷd, yn yr hwn y mae o dri chant i bedwar cant o fŵnwyr yn gweithio yn gyson; a danfonir dau can tunell o blwm allan o hono bob mis; ac oddeutu can tunell o'r mŵn a elwir *Black Jack;* canfyddir hefyd mewn rhanau o'r Gwaith, ychydig o lô, ac o efydd, yn achlysurol. Gan fod y Gwaith yn lled agos i'r môr, y mae y tir yn wlŷb iawn, ac y mae dau ager-beiriant mawr ar waith, ddydd a nos yn barhaus, yn codi y dwfr i fynu.

Yn agos i'r pentref hwn, y saif Moel Hiraddug, yn nghwr gogleddol yr hon, y mae cloddfa o gerig calch rhagorol, allan o ba un y cafwyd llawer o'r cerig a pha rai yr adeiladwyd tref newydd, a hardd, y Rhyl. Y mae llawer o fŵn haiarn hefyd, yn cael ei gloddio o ymysgaroedd hen Foel Hiraddug. Oddiar y pentref, y mae rhaiadr bychan, ond prydferth, i weled yr hwn y bydd canoedd o ddyeithriaid yn cyrchu o'r Rhyl, bob tymhor hâf.

Y mae y plwyf hwn yn ben arch-ddëoniaeth, sydd yn bresenol yn gydiedig âg esgobaeth Llanelwy; ac yr oedd unwaith hen balas yn y pentref, yn yr hwn y cyfaneddai yr arch-ddëoniaid gynt, a rhai o'r esgobion, mewn amseroedd diweddarach, ac yn mysg eraill, y Dr. Richard Parry, Esgob Llanelwy, ac arolygydd y cyfieithiad diwygiedig o'r Beibl Cymreig; ac am hyny, gelwid y tŷ hyd yn ddiweddar, "Llŷs yr Esgob." Bu yr Esgob Parry farw yma, yn y flwyddyn 1623. Y fywioliaeth eglwysig yma, sydd guradiaeth wastadol, yn arch-ddeoniaeth, ac esgobaeth Llanelwy, ac yn noddogaeth yr esgob fel arch-ddïacon, i'r hwn, fel y cyfryw hefyd, y mae y degymau yn perthyn. Gwerth blyneddol y fywioliaeth, yw 113*p.*

Adeilad fechan, hardd, yw yr eglwys; a gellid meddwl fod un ran o honi yn dra oedranus; ond ychwanegwyd tu a'r naill haner ati, oddeutu y flwyddyn 1579. fel yr ymddengys oddiwrth amseriad sydd yn gerfiedig ar un o'i cholofnau. Y mae wedi ei haddurno â ffenestr o wydr lliwiedig hardd, a ddygwyd yma, fel y bernir, o Fonachlog y Maes Glas, gerllaw Treffynon, ar ddadgorfforiad y crefydd-dai Pabaidd. Y mae o fewn yr eglwys hen feddrodau a berthynent i rai o Farchogion y Deml; ac o fewn y fonwent, yr hon a addurnir a rhai coed yw godidog, y mae dau fedd-faen hynod, a bwa faen cerfiedig ar bob un o honynt, a hen faen wylofain, neu golofn henafol, oddi ar yr hon, medd traddodiad, y byddai y penaethiaid, a'r tywysogion gynt, yn gweini barn; ac yn cyhoeddi eu dedfryd. Am y ddau fedd hynod, y cyfeirir attynt uchod, y mae llen gwerin yn dywedyd, mai beddau swyddogion milwraidd, o hen fonedd Tre castell oeddynt. Y mae cistiau y beddau hyn yn uchel; ac ymddengys bod eu gwynebau unwaith yn llawn o ddarlleniad; ond, y mae amser wedi ei dreulio ymaith mor llwyr, fel na's gellir gwneyd un synwyr o hono, er fod careg fwäog yn cyrhaedd o'r naill ben i'r bedd hyd y llall, er cysgodi yr argraff ar y gist debygid. Ar un o honynt y mae y llythyrenau canlynol yn ddarllenadwy eto;—

I: H. MORS: MEA VITA: MIHI. 1676.

Ac ar y llall gellir darllen a ganlyn;—

DIES, MORUS MATARUS ÆTERNI.

O fewn ergyd careg i'r Eglwys, o'r tu dwyreiniol, ac yn nghilfach y creigiau, y mae hen le Ffynon Sant Cwyfan,[1] yr hon sydd yn awr wedi sychu i fynu, trwy beiriauau mwnglawdd y Dalar gôch; ond, yn nechreu y ganrif hon, yr oedd hi yn bwrw allan ffrwd gref, o ddwfr grisialaidd, a pheraidd, a thra gwasanaethgar i drigolion y pentref.

Rhyngom a Bryn croes Einion, y mae afon gref o ddwfr, yn rhedeg rhwng y creigiau, yr hon sydd yn tarddu o Ffynon Asaph, yn mhlwyf y Cwm, tua milldir a haner o'r Ddyserth; a chymaint yw grym y ffrwd hon, fel y mae yn troi melin ŷd fawr, o fewn ugain gwrhyd i'w tharddiad; ac er nad yw yn llifeirio nemawr dros bedair milldir cyn cyrhaedd y môr, y mae yn gweithio lluaws mawr o beirianau: ar ei rhawd, rhwng y creigiau, tu a'r Ddyserth, y mae rhaiadr, neu gwymp o amryw latheni iddi, yr hwn sydd yn peri trwst aruthrol. Y mae y pantle y rhed yr afon uchod drwyddo, yn agos i bentref y Dyserth, yn cael ei alw "Nant y Felin blwm;" ac ynddi byddys yn fynych yn cael amryw ddarnau o blwm toddedig, yn mysg lludw coed llosgedig; ac mewn ochrau amryw gloddiau a thwmpathau gerllaw, canfyddir olion hen aelwydydd, ac ynddynt y cyffelyb arwyddion, yn profi y bu yma ryw bryd, doddi a thrafod mŵn plwm, er bod yr amser a'r dull yn anhysbys i ni.

Cyfansoddodd Mr. Stephen Davies, y ddau englyn canlynol i'r rhaiadr crybwylledig;—

[1] Cwyfan Sant, ydoedd fab Brwyno Hen ab Corthi ab Medrod ab Cawrda ab Caradog Freichfras; efe a oesai tua diwedd y seithfed ganrif, ac y mae amryw Eglwysi wedi eu cyssegru i'w goffadwriaeth, un yn Môn, un yn swydd Dinbach, ac un yn Mynwy.

Digitized by Google

"O ben y graig uchel-grib gron,—chwyrna
Uchoernad yr afon;
Fe glyw 'r wlad raiadr hon,
Rhuthr uchder swn ei throch-don.

"A byddys yn mron boddi—o'u pebyll
Pobl a ffoant rhagddi;
Mawr doddiad ymred iddi,
Tros y Llan daw trais y lli."

Ar lethr un o'r bryniau serth a ymddyrchafant oddiar bentref Dyserth, tu a'r Gogledd Ddwyrain, ac ychydig goris y clogwyn a goronir âg adfeilion yr hen gastell, y mae murddyn adeilad, a adwaenir yn yr ardal dan yr enw "Siamber Wen;" ac a elwir weithiau, "Yr Eglwys Wen." Y mae un pen i'r adeilad bron yn gymhwys i'r Dwyrain, a'r llall i'r Gorllewin; yn haner can troedfedd o hyd, wrth saith ar hugain o lêd, oddi allan; ac ar y pen dwyreiniol i'r adail yma, y mae croes-adail, yn ychwanegu un droedfedd ar hugain, a chwe modfedd, at hyd y cyfan; ac yn gwneyd yr holl lêd yn y pen dwyreiniol, yn dair troedfedd ar ddeg ar hugain. Y mae y muriau, yn dair troedfedd o drŵch, ond mor adfeiliedig, fel y mae yn dra anhawdd deall i ba arddull y perthynai yr adeilad, nac o ganlyniad, ffurfio unrhyw farn benderfynol am gyfnod ei adeiladiad.

Yn nghanol y ddarn fwyaf o'r adeilad, a thua haner y ffordd o holl hyd yr adeilad, y mae ffynon ysgwar adfeiliedig, yr hon o fewn oes neu ddwy yn ôl, a fyddai yn arfer bod yn llawn o ddwfr; ond yn bresenol, prin y gellir canfod dwfr ynddi, yn nghanol y mièri a'r chwyn a'i llanwant. Y mae yr holl furddyn yn orchuddiedig gan fantell drwchus o eiddew ir-fyth.

Y mae *Pennant* yn ei sylw ar yr hen adeilad hon, gan ddyfynu o Ysgrifeniadau Mr. Llwyd, yn dywedyd, —"Mewn cae, ar y tu deheuol i'r castell, (Dyserth,) y mae hen furddyn, a elwir *Siamber Wen.* Dywedir fod hwn wedi bod yn annedd i Syr Robert Pounderling, yr hwn a fu yn gwnstabl y Castell cyfagos, marchog gwrol, a chall, yr hwn y tarawyd un o'i lygaid o'i ben, gan foneddwr o Gymro, yn y chwareu garw o rith ymgyrch; ond pan ei cymhellwyd i anfon heriad iddo drachefn i ymorchest arfau, pan gyfarfu ein cyd-wladwr yn y llys breninol, a omeddodd, gan ddywedyd, nad oedd efe yn bwriadu i'r Cymro gael curo ei lygad arall allan."

Nid oes dim yn yr adeilad, fel yr ymddengys yn bresenol, a'n harweiniai mewn un modd i gasglu ei fod wedi ei adeiladu at wasanaeth teuluaidd; ond, pe y buasai y groes-adail ar y pen dwyreiniol ychydig yn hwy, buasai yn meddu ffurf eglwysyddol mor drwyadl, fel y gallasem yn ddïogel gymeryd yn ganiattaol, mai capel eglwysig ydoedd.

Fe'n tueddir i dybied, yn benaf oddiwrth y ffaith o fod ffynon adfeiliedig yn ei ganol, yr hon sydd yn chwe throedfedd ysgwar, ac yn gymwys i drochi ynddi, bod hon yn un o'r ffynonau sanctaidd, oeddynt mewn cymaint o fri yn Nghymru, yn yr Oesoedd Canol, ac o'r rhai y mae enghreifftiau nodedig yn Nhreffynon, a Gwigfair, heb fod yn bell o'r gymydogaeth hon.

Y mae yr enw "Eglwys Wen," yn gadarnhad o'r dybiaeth uchod; er na's gallwn ddyfalu pa ham ei gelwid Eglwys *Wen,* na Siamber *Wen* ychwaith, gan fod cerig yr adeilad o liw llwyd dywyll y bryniau cylchynol. Os ydyw y dybiaeth hon yn gywir, y mae yn ffaith hynod, fod cynifer a thair o ffynonau sanctaidd, dros y rhai y cyfodasid adeiladau cyssegredig yn gynullfanau i'r duwiol-frydig, mor agos i'w gilydd.

Ar y llaw arall, yr oedd y diweddar Barchedig H. Parry o Lanasa, o'r farn mai math o gapel gwledig oedd yr hen furddyn hwn, at wasanaeth gwarchodlu y castell cyfagos, a bod yr adeilad hon wedi ei harbed, ar gyfrif ei nodwedd grefyddol, pan ddymchwelid y castell.

Y mae tri addoldy Ymneillduol yn y plwyf; un yn perthyn i'r Trefnyddion Calfinaidd, un i'r Trefnyddion Wesleyaidd, ac un i'r Annibynwyr.

**DYSGYFEDDAWG**, penaeth yn Deifyr, yn y 6ed ganrif. Efe ydoedd tad Gall, Difedell, a Disgyrnin.

# E.

**EBBW**, neu Ebwy, afon ag sydd yn tarddu yn mryniau Trevil, yn mhlwyf Llangynidr, cantref Crughywel, swydd Frycheiniog, Deheudir Cymru, ond yn fuan iawn, croesa derfynau swydd Frycheiniog, a rhed i mewn i swydd Fynwy, gan ddilyn ei gwely hyd Aber big, lle yr ymunir â hi gan gangen arall o'r un enw; wedi hyny ffrydiant yn mlaen yn unedig heibio Llanhiddel, o dàn bont fawreddog Crymlyn, a thrwy barc arddunol Arglwydd Tredegar, gan ymarllwys i Fôr Hafren wrth Gasnewydd-ar-Wysg. Ar ei dyfodiad i swydd Fynwy, y mae tri o weithfeydd glô a haiarn lled fawrion a phwysig, sef Beaufort, Glyn Ebbw, a Victoria. Tua dechreu y ganrif ddiweddaf, nid oedd yma ond tawelwch amaethyddol yn teyrnasu; ond yn awr, y mae y tawelwch hwnw wedi cael ei hen dori gan drwst peiriannau y gweithfeydd, ac yn lle da a defaid, y mae dramiau ugeiniau, yn tramwy y bryniau a'r dyffrynoedd.

Y mae y cyntaf o'r gweithiau yma, yn sefyll mewn adran eglwysig o'r un enw, poblogaeth yr hon, yn ol Deiliadeb 1861, sydd yn 5880. Y mae yn gorwedd mewn rhan yn swydd Frycheiniog, ac mewn rhan yn swydd Fynwy. Gelwid hi gynt yn Cendal, neu Cendl, oddiwrth Mr. Kendal, un o gychwynwyr y gwaith; ond o barch i berchynog y tir amgylchynol, sef Duc Beaufort, galwyd hi dro yn ol, yn *Beaufort;* eto i gyd y mae'r hen enw yn dàl ei dir yn hynod o benderfynol. Y mae y pentref yn ymestyn ar hyd ochr y brif-ffordd, o'r Fenni i Ferthyr Tydfil, ac y mae yn cynnwys llawer o dai, a maelfeydd canmoladwy. Y mae amryw ystrydoedd yn croesi o'r brif un; a chan ei fod yn sefyll ar lechwedd bryn dymunol, y mae yr heolydd yn cael eu cadw yn lled lanwedd gan y gwlaw. Y mae yn cael ei oleuo â nwy; y mae yma lythyr-swyddfa, darllenfa, amryw sefydliadau dyngarol, a marchnatty bychan. Y mae yn cael ei amgylchynu â glofeydd, ac y mae y gweithiau haiarn yn y dyffryn odditano, lle hefyd y mae shop y cwmni, &c. Perthyna y gwaith er ys

Digitized by Google

blyneddau lawer, i'r Meistriaid Bayleys a'u Cyf. Y mae yn y lle, Ysgol Brydeinig, gydag ysgolion ereill. Y mae capel hardd iawn yma gan yr Annibynwyr Cymreig, yr hwn sydd wedi cael ei adeiladu drosodd a throsodd; ac y mae ar ei gyfer, gapel ac ysgoldy hardd iawn hefyd yn perthyn i'r Annibynwyr Seisnig, y rhai a adeiladwyd drwy ymdrech a dylanwad y Doctor Thomas Rees, yn awr o Abertawy. Y mae capel mawr yma gan y Trefnyddion Calfinaidd, yn monwent yr hwn y gorwedda gweddillion marwol, "Morgan Howells." Y mae gan y Bedyddwyr, a'r Wesleyaid hefyd, eu capeli, Cymraeg, a Seisnig. Y mae rheilffordd y Fenni a Merthyr yn rhedeg drwy y lle; ac y mae rheilffordd o Gasnewydd-a'r-Wysg, yn ymunaw â hono yma.

Y mae GLYN EBBW, yn uniongyrchol islaw Beaufort, ac yn atteb yn hollol i'w enw; *glyn* ydyw, ond y mae y tai yn ymddyrchafu y naill ris wedi'r llall, o fin yr Ebbw, hyd lethrau y bryniau. Gelwir y lle hwn yn *Ebbw Vale* gan y Saeson, ond ei enw cychwynol oedd Penycae, am mai ar amaethdy o'r enw hwnw, y cychwynwyd y gwaith; a Phenycae y gelwir ef gan ugeiniau hyd heddyw. Y mae yma amryw gapeli, a llawer o honynt yn rai newyddion a heirdd iawn; y mae capel gan y Wesleyaid cyntefig, y Bedyddwyr Seisnig, a'r Trefnyddion Calfinaidd, yn y Drenewydd; ar y tu arall i'r Ebbw, y mae capeli gan y Bedyddwyr Cymreig, yr Annibynwyr, y Wesleyaid Seisnig, a'r Wesleyaid Cymreig, &c.: ychydig yn nes i lawr, ar Dwyn Drysiog, y mae capeli hefyd gan yr Annibynwyr, y Bedyddwyr (Seisnig a Chymreig), y Trefnyddion Calfinaidd, a Wesleyaidd, &c. Y mae eglwys fawreddog gwedi cael ei hadeiladu wrth Heol-y-mwyn. Y mae yn perthyn i amryw o'r capeli yma, fontwentydd lled fawr, ond gan fod cymmaint o ddieithriaid yn dyfod i'r lle, yr oeddent yn llanw yn brysur; gan hyny cafwyd claddfa gyhoeddus at wasanaeth y lle. Y mae yma ysgolion rhagorol, dan nawddogaeth y Cwmni, ond y maent yn gwbl rydd. Y mae y gweithiau, ar y llaw chwith i'r ffordd yr elych o Heol James i'r Twyn, a pherthynant yn awr i Gwmni Unedig, cadeirydd pa rai, yw Abraham Darby, Yswain, un o'r cyn-berchenogion. Y mae y lle hwn wedi cael y rheilffordd iddo, gyda llawer o welliannau ereill yn ddiweddar, ac y mae ar gynnydd parhaus. Y mae ei Ddarllenfa gyhoeddus, a'i Sefydliad Llenyddol a Gwyddoregol, yn dda dros ben, a pherthyna iddo Amgueddfa, &c. Yn yr adeilad prydferth hwn, y mae y brif Lythyrfa, i'r hon y mae dwy neu dair o gangenau. Y mae ar y Twyn, farchnatty; ac y mae yn y lle amryw faelfeydd rhagorol; heblaw maelfa fawr y Cwmni, ar nen yr hon y mae awrlais ysplenydd.

Y mae VICTORIA, bron yn un â Glyn Ebbw, ac y mae yr heol ag sydd yn arwain i lawr i'r lle, sef Victoria, yn heol olygus ddigon. Y mae y dyffryn yma yn ymëangu, a llethrau y bryniau yn cael eu mantellu â choedydd; nid yw y golygfeydd yn wyllt ac yn anrheithiedig yr olwg, ac y mae hen fryn y Domen Fawr, yn edrych arnoch yn bur ddifrif-ddwys. Nid yw Victoria ond un heol hir, gyda ffrydiau bychain o ddwfr crisialaidd yn rhedeg ar hyd ymyl y palmant; y mae yn arwain i Victoria Parc, anneddle prif berchenog y gwaith, ac y mae yn anneddle hardd iawn, oddi fewn ac oddi allan. Nid oes yn Victoria yr un faelfa, ond maelfa y Cwmni ar y pen uchaf iddi, ac y mae ei dawelwch yn nghanol rhuadau y gweithfeydd, yn ddymunol dros ben. Y mae capel yma gan yr Annibynwyr, a phob o un arall gan y Bedyddwyr, a'r Wesleyaid. Y mae y gwaith haiarn yn sefyll ar y llaw ddehau wrth fyned i lawr, a'r pyllau glô ar yr un tu. Perthyna yn bresenol i'r un Cwmni a gwaith Glyn Ebbw; ac y mae gwedi bod yn waith digon aflwyddiannus, ond y mae yn myned rhagddo yn bresenol, yn weddol o lewyrchus. Hen enw Cymreig y lle hwn, oedd Troedrhiw'r-clawdd, ac y mae y tir yn perthyn i deulu y diweddar Arglwydd Llanofer.

Yn yr amser presenol hwn, nid yw y cwm yma heb enwogion brodorol: y mae yma lawer o feirdd, cerddorion, a phregethwyr, wedi cael eu magu, ac ni bu neb yn well tad iddynt, nâ Daniel Seys Lewis, Yswain (*Ifor Gwent*). Yn yr hen amseroedd hefyd, nid distadl Glyn Ebbw: coffa da am Edmund Jones, Howell Harris, &c., y rhai a wnaethant les mawr yma yn y dyddiau gynt. Gweler EDMUND JONES, HOWELL HARRIES, &c.

**EBENEZER**, pentref poblogaidd yn mhlwyf Llanddeiniolen, swydd GAER YN ARFON, GOGLEDD CYMRU, 7 milldir i'r Dwyrain o dref Caer yn arfon. Cafodd y pentref yr enw oddiwrth addoldy helaeth i'r Annibynwyr, a gyfodasid yn yr ardal, pan oedd yn dechreu cael ei phoblogi yn gyflym gan y llechgloddwyr, ac a enwasid "Ebenezer," lle y mae eglwys flodeuog yn bresenol. Y mae Llythyrfa yn y pentref, dan Gaer yn arfon.

**EBEN FARDD**; EBENEZER THOMAS, ydoedd un o brif-feirdd a llenorion y genedl yn ei oes. Ganwyd ef yn Tanlan, Gelligron, yn mhlwyf Llanarmon, Eifionydd, Sir Gaernarfon, yn mis Awst, 1802. Enw ei dad ydoedd Thomas Williams, ac enw ei fam oedd Catrin Pyrs. Bu yn dilyn yr un alwedigaeth a'i dad, sef gwehydd, am ryw dymor. Y lle cyntaf y bu yn derbyn addysg, oedd yn Abererch; wedi hyny, anfonwyd ef i ysgol Tudweiliog, yn Lleyn, dan Mr. Isaac Morris o Bentyrch. Ar ei ddychweliad oddiyno, aeth i gadw yr Ysgol Genedlaethol, berthynol i blwyfydd Llanarmon a Llangybi; a thybia rhai iddo fod yn ysgolor ei hun, ar ryw bryd cynt, yn yr ysgol hon, a hyny pan yn bur ieuangc; cesglir hyn oddiwrth rai ymadroddion yn ei Gywydd ar Langybi. Symudodd i gadw ysgol, i Glynog Fawr; ac yno ymbriododd â Mary, ail ferch Thomas Williams, Cae Pwsain. Bu yn cyfaneddu yn un o'r tai sydd ar ochr y brif-ffordd rhwng Caernarfon a Phwllheli, ar gyfer hen eglwys orwech y plwyf. Bu yn cadw y Llythyrfa, gyda Masnach ar radd fechan, y rhai oeddynt yn benaf dan ofal y wraig, tra y llafuriai ef mewn diwydrwydd gyda yr ysgol. Ganwyd iddynt bedwar o blant, tair merch, ac un mab. Tuedd gynil oedd gan y ddau o fyw, a hyny efallai, hyd ormodedd. Dichon nad ellir beio nemawr arnynt, ar dir teg, gan yr amcanent at onestrwydd a chywirdeb, yn nghanol anhawsderau yn eu hamgylchiadau bydol. Yr oedd yn dra chroesawgar a siriol yn ei dŷ, ar ymweliadau cyfeillion. Yr oedd ef yn dra llafurus, a'i alluoedd meddyliol yn ymagor yn raddol, parhaus, a rheolaidd. Nid ymddengys ei fod yn gyflym iawn, mewn cymeryd pethau i fyny, ond yr oedd yn fanwl, yn ymchwilgar, ac yn dreiddgar iawn. Trwy ei ymroad penderfynol, aeth rhagddo yn ddiorphwys, nes ymgodi i'r dosparth uchaf, fel llenor, a bardd; a diau iddo allu cynal i fyny y radd dda a enillasai, hyd ddydd ei farwolaeth. Yr adeg gyntaf y daeth i sylw cyhoeddus yn ngolwg

Digitized by Google

y byd, ydoedd yn Eisteddfod y Trallwng, yn 1824, pan yn ddwy ar hugain oed, ac yr enillodd yr anrhydedd o eistedd yn Nghadair Powys. Nid oedd ei lyfrgell ond bechan, eto yr oedd yn cael modd, trwy gymhorth cyfeillion, i gael golwg ar brif gyhoeddiadau y dydd. Nid oedd yn meddu ar dalent areithiwr; pan yr elai ar yr esgynlawr, yr oedd math o orchwyledd yn ei lethu. Gyda'r pin a'r inc yr oedd cuddiad ei gryfder. Yr oedd yn benderfynol iawn am fod yn ddyn iddo ei hun, yn mhob dosparth, heb bwyso ar alluoedd rhai eraill. Dywedai yn fynych mewn cyfeillach, "Os gall dyn arall feddwl drosto ei hunan, pa ham nad allaf finau?" Yr oedd ganddo gryn wrthwynebiad i bob math o ymbleidiaeth grefyddol: y mae hyn yn cael ei arddangos yn ei waith yn mawrhau yr Eglwys Sefydledig; yn uno mewn proffes grefyddol, ac yn derbyn swydd, gyda y Trefnyddion Calfinaidd; ac ar yr un pryd, yn cyfansoddi emyn, a gafodd ei ffordd i Lyfr Hymnau y Bedyddwyr. Dywed 'Ioan ab Hu Feddyg' am dano, "Cristion, ac nid Trefnydd, nac Eglwyswr ydoedd, yn holl ddirgel awyddfryd ei enaid, o'r dechreu hyd y diwedd. Gwell fuasai ganddo o lawer, pe na buasai y fath *enwau* mewn bod. Un tebycach i Melancthon, nac i Luther, yn nodwedd ei feddwl oedd; a dylanwadodd hyn yn fawr ar ei ysgogiadau ymarferol mewn crefydd trwy ei oes. Credai yn ddiysgog, mai 'rhydd i bob dyn ei farn, ac i bob barn ei llafar.' Yn ngoleuni y rheol dda hon, ymdrechai bob amser, i ffurfio barn onest, bwyllog, yn ngwrthgefn i bob rhagfarn, yn ngwyneb pob gwir ac uniawn; ac yn herwydd pob anghenrhaid o ofynion cred, ac ymarferiadau crefydd."

Dywedir fod hen Eglwys Golegawl Clynog Fawr, yn wrthddrych hoffder mawr gan Eben. Bu yn destyn Awdl ragorol ganddo. Dechreuodd farddoni yn ieuangc; parhaodd i goledd yr awen dros ysdod ei dymor ar y ddaear. Yr oedd ganddo gryn hoffder yn nghyfeillach ac addysgiadau Robert ab Gwilym Ddu, Dewi Wynn, a Sion Wyn, o Eifion. Yr oedd yn alluog i gyfansoddi Englynion rheolaidd, er yn bymtheg oed. Argraphwyd ei Awdl ar Ryddid, yr hon a amlygai eangder ei alluoedd gyntaf. Y mae ei Awdl Gadeiriol, ar "Ddinystr Jerusalem," yn gofadail enwog i'w fedr meistrolgar. Ni bu yn llwyddianus ar "Ddrylliad y *Rothsay Castle*, yn y Biwmaris, ond enillodd ar Englynion Pont Menai yno. Cafodd y Gadair yn Eisteddfod y Gordofigion, yn Llynlleifiad, a'r "Gystuddiau Job;" ac efe hefyd oedd y buddugol ar "Esgyniad Elias." Anfonodd Bryddest ar yr Adgyfodiad, i Eisteddfod Rhuddlan. Yn Eisteddfod Llangollen, yn 1858, enillodd y Gadair, mewn Awdl ar "Frwydr Bosworth," yn 1862, cynaliwyd Eisteddfod yn Nghaernarfon; testyn y Gadair ydoedd "Y Flwyddyn." Ymddengys fod Eben yn ymgeisydd, ond mai Hwfa Mon ydoedd y buddugol. Bygythid y beirniaid ar y pryd, â dialedd ofnadwy, gan rai o gyfeillion Eben Fardd; ond y mae yr ymosodiad heb ymddangos hyd yn hyn. Bu gwrthddrych ein cofnodiad, yn beirniadu amryw weithiau, yn mhrif Eisteddfodau De, a Gogledd, a rhoddid canmoliaeth uchel iddo yn wastadol, am ei alluoedd, a'i onestrwydd. Tra yr ydym yn cyfeirio ato fel beirniad, efallai mai nid teg fyddai celu rhai pethau hynod yn y cyflawniad o'r gorchwylion hyn ganddo. Pan yn cydfeirniadu ag eraill, weithiau, ymddangosai megis wrth draed ei frodyr, i wrando arnynt hwy, gan ymddangos fel heb yr un sylw i'w wneud o'r eiddo ei hun, yr hyn a'u gwnelai hwy, o'r braidd yn annedwydd; eto, wedi y cyfan, byddai ei ffordd ei hun ganddo. Mewn cyfarfod Llenyddol pur gyhoeddus unwaith, o bymtheg ar hugain o ymgeiswyr ar englyn Bedd-argraph, dododd ddeuddeg yn gyfartal; ac yn yr un cyfarfod, dododd chwech yn gyfartal ar Draethawd. Yr oedd hyn yn beth lled anghyffredin. Y mae ei Farwnad ar John Elias, yn gyfansoddiad rhagorol. Efe, mewn cydweithrediad a'r Parch. Roger Edwards, a arolygodd y casgliad o Emynau, a arferid yn gyffredin gan y Methodistiaid Calfinaidd yn Ngogledd Cymru. Ysgrifenodd gryn nifer o erthyglau i gyhoeddiadau Saesonig; ond diau, mai yn y Gymraeg yr oedd ef ddedwyddaf. Cyhoeddodd rai detholion o'i waith, mewn llyfr swllt; hyd yn hyn, y mae ei waith yn gyhoeddedig ar wahan, heb erioed eu cynull yn un gyfrol. Dysgwylir yr argrephir y cyfan yn nghyd, cyn y bo hir. Ni wyddom am ddim o'i waith, nad yw yn gyhoeddedig, yn un o'r cyfnodolion, neu ryw ffordd neu gilydd, oddigerth yr Awdl ar y "Flwyddyn." Ni wyddom eto yn iawn, beth yw rheswm ei gyfeillion am yr oediad hwn. Dywedodd un bardd, unwaith mewn cyfeillach, gyda golwg ar Eisteddfod Caernarfon, "Wedi y cwbl, ni chred naw o bob deg o'r cyhoedd, fod Hwfa wedi curo Eben," ac atebwyd, "efallai hyny, a gellid ychwanegu, na chred naw o bob deg, na chafodd Hwfa gam yn Aberdâr, hyd oni chyhoeddir y Feirniadaeth."

Mynegir yn mhellach, mai ei bleser, a phrif wrthddrych ei ymchwiliadau yn ei ddyddiau olaf, ydoedd Achyddiaeth; a thrwy ei ddiwydrwydd a'i lafur, er ys rhai blyneddoedd, ei fod wedi casglu defnyddiau helaeth yn y dosparth hwnw; a bod ganddo dueddfryd arbenig at henafiaeth yn ei holl ganghenau. Pan yn ei gystudd, cyfansoddai amryw emynau melus, a phrofiadol. Dydd Mawrth, Chwefror 10, 1863, ymadawodd a'r fuchedd hon, yn nghanol ei barch a'i gymeradwyaeth, yn 61 mlwydd oed. Dywedai pan yr oedd yn wynebu ar y glyn:—

> "Y nefoedd fydd, yn berffaith ddydd,
> O bob goleuni i'w ddysgwyl sydd."

Y mae amryw yn hoff iawn o'r llinellau a adroddodd ar esgynlawr Eisteddfod Madog, amryw flyneddau yn ol, y rhai sydd fel y canlyn:—

> "Maddeuwch dyma ddiwedd,
> Difeth, ar bob peth ond bedd;
> Buoch drwy ysdod bywyd,
> Siriol hawddgarol i gyd.
> Am f'oes mor ddifyr i'm fu
> Fy nghenedl a fy nghanu;
> Ond bellach yn iach i'w nawdd,
> Rhoi hwnw sy'n rhy anhawdd,
> Ca' nghenedl well cynghanedd
> I'w mwynhau; caf finau fedd!"

Y mae y sefyllfa uchel yr ymgododd Eben Fardd iddi, fel llenor ac awenydd, yn anogaethol iawn i eraill ymwroli, fel y gwnaeth yntau. Y mae llawer un, sydd wedi ymddiried mewn hunan-ddiwylliant, er absenoldeb moddion i gyrhaedd dysgeidiaeth yr athrofaau, wedi llwyddo i raddau mawr, i wneuthur y diffygion hyny i fynu. Ni wyr dynion mo eangder nerth eu galluoedd, nes eu rhoddi mewn ymarferiad. Gosodant nod digon uchel iddynt eu hunain, ar y cychwyn; a mynant ei gyrhaedd, gan nad faint yr anhawsderau y byddo raid gweithio drwyddynt.

Digitized by Google

Felly gyda golwg ar Mr. Ebenezer Thomas, saif ef, yn ei lafur a'i lwyddiant, fel esampl deilwng o'i hefelychu, gan lenorion a beirdd ieuaingc ein gwlad!

**ECHEL FORDDWYD TWLL**, ydoedd un o ryfelwyr enwog llys Arthur. Crybwyllir am ei enw yn "Mabinogi Cilhwch ac Olwen." Efe oedd tad Gronw.

**EDEYRN**, plwyf yn nghantref DINLLEYN, swydd GAER YN ARFON, GOGLEDD CYMRU. Y mae yn gorwedd ar yr arfordir, 3 milldir i'r Gorllewin wrth Ddehau, o Nefyn, ac 8 milldir i'r Gorllewin Ogledd Orllewin, o orsaf y Rheilffordd yn Mhwllheli. Y mae yn cynwys Porth Dinlleyn, a phentref y Gors wyllt o'i fewn, ac y mae yma lythyrfa dan Bwllheli. Mesura y plwyf 1380 o gyfeiriau, 20 o ba rai sydd dan ddwfr. Cyfrifir ei werth ardrethawl yn 1814*p.*; y boblogaeth yn 613; a'r tai, yn 145. Y fywioliaeth eglwysig sydd reithoriaeth, unedig â churadiaethau parhaol Carngiwch, a'r Pistyll, yn esgobaeth Bangor. Ei gwerth yw 362*p.* yn y flwyddyn, a'r Noddwr yw esgob Bangor. Y mae gan y Trefnyddion Calfinaidd addoldy helaeth, mewn lle a elwir y Groesffordd, yn agos i'r pentref; a meddant gladdfa hardd a chyfleus gerllaw eu haddoldy.

Gwnaeth y diweddar Mr. Madocs, ffordd newydd, o Sir Feirionydd i Borth-Dinlleyn, gyda golwg ar i'r fan gael ei wneyd yn orsaf i'r llythyr-longau i'r Iwerddon; ond gan i'r Llywodraeth roddi y flaenoriaeth i borthladd Caergybi, y mae y ffordd a'r porthladd yma wedi cael eu hesgeuluso i raddau helaeth. Bu y boneddwr crybwylledig hefyd yn foddion i beri gwellad mawr ar for-fur Porth Dinlleyn, yr hwn a ddechreuasid yn nheyrnasiad George y Cyntaf, at yr hyn y cyfranodd y pennadur hwnw chwe' chant o bunau. Yn Mhen y bryn, yn y plwyf hwn, y cyfaneddai yr enwog "John Jones, Edeyrn," yr hwn oedd mor adnabyddus trwy Gymru am ei ffraethebau synhwyrol. Y mae tua saith bunt yn y flwyddyn, o elusenau yn perthyn i dlodion y plwyf.

**EDEYRN**, SANT, yn y 5ed ganrif, ac aelod o Gôr Cattwg. Tybia rhai mai mab ydoedd i Gwrtheyrn, yr hwn a elwir Faustus, gan Nennius. Sefydlodd Edeyrn grefydd-dy, ac iddo dri chant o aelodau, yn y lle a elwir ar ol hyny Llanedeyrn, yn Morganwg.

**EDEYRN** AB NUDD ab Beli ab Rhun ab Maelgwyn Gwynedd, yn ol y *Myf. Arch.* ii. 339, ydoedd un o farchogion dewrion llys Arthur. Y mae y gwrth amseriaeth yma mor amlwg, fel na raid ond ei nodi, yr oedd Arthur yn oesi yn y 5ed, a Maelgwyn Gwynedd yn y 6ed ganrif; felly nis gallasai disgynydd mor bell oddiwrth Maelgwyn fod yn arwr yn llys Arthur. Gesyd hanesion eraill, Edeyrn ab Nudd allan fel bardd, a dywedant iddo yn niwedd ei oes, ymroddi i fywyd crefyddol; ac mai efe a sefydlodd eglwys Bodedeyrn yn Mon.

**EDEYRN DAFOD AUR** meddir, oedd ramadegwr, a bardd enwog yn y 13eg ganrif. Tua'r flwyddyn 1270, meddir, y cyfansoddodd efe ei Ramadeg, yr hwn a sylfaenodd efe ar Reithiadur Cerdd, a gyfansoddasai Geraint Fardd Glas, yn y 10fed ganrif, ac a ychwanegwyd ato gan Einion Offeiriad. Ymgymerodd Edeyrn at y gorchwyl o ddwyn allan Ddosbarth ar Lythyrenau Cymreig, Ymadroddion, a Mesurau Cerdd Dafod, drwy orchymyn y tywysogion Cymreig. Dyma fel y dywed y Gramadeg:—"Ac ef a'i gwnaeth wrth arch a dymuniad y tri Arglwydd Penrhaith hynn, nid amgen Llywelyn, fab Gruffudd, tywysawg Aberffraw, a brenin Cymru oll; a Rhys Fychan, arglwydd Dinefwr ac Ystradtywy; a Morgan ab Caradoc, ab Rhydderch, ab Caradoc, ab Iestyn, ab Gwrgant, Arglwydd cyfoeth rhwng Nedd ac Afan, a Chilfai, ac Arglwydd Penrhaith Morganwg.

"A'r Edeyrn hwnw o'i Athrylith gymhenddoeth Fyfyrdawd, a'i Athrawiaeth afrifed, a'i gof a'i gadw, ac awdurdawd ei dafawd ei hun, yr hwn a roddai awdurdawd ar bob tafawd a fai athrawedig, ac athrawiaeth arnaw, a wnaeth y Ddosbarth honn ar y Llythyrennau, ac ar yr Ymadroddion, ac ar y Mesurau Cerdd Dafawd, ac i'w gosod yn eu cyfleoedd dyledus, ac i fod yn Gyweirgorn cadwedig iddynt drwy gof a chadw, a chynnal athrawiaeth gymmwys. Canys fal y mae ymma y traetha Edeyrn i galon a'i serch, ac i pwyll a'i meddwl, ac i dafawd a'i traetha, ac i gof a'i ceidw, ac i giwdawd a'i cynnail, fal o hynn nas gallo perchen tafawd o'r byd draethu yn awdurdodawl, ac yn athrawiaethol, y gallai efe, nag ungwr arall symmud un pwynt o Reol ei athrawiaeth ef, o'i gof a'i gadw ei hun, nac o gadw neb un arall pa bynnag, cyd y gallo fwynhau. Ac ni ddichon neb hyny ar ei reolaeth ef, namyn o gadw ciwdawd, ac na bo o'i gadw ei hun, sef y tynnwys Edeyrn yr hon Ddosbarth o'r cadw a wnaeth Einiawn Offeiriad; yr hwnn a gafwyd arno Farn, ac Awdurdawd Llys Arglwydd a Rhaith Gwlad. Ac ar a roddes Edeyrn at honno, y cafas yntef yr un modd Farn Llysoedd ei Arglwyddi, a Rhaith Gwlad. Ac fal y mae ymma y rhoddes efe ei gadw yn gadwedig, ac yn gadwedigaeth, rhag colli dosbarth ar y Llythyrennau, a'r Ymadroddion, a'r Mesurau Cerdd Dafawd, a chelfyddyd bardd, a barddoniaeth yr honn a roddes Duw drwy'r Ysbryd Glân i Feirdd Ynys Prydain, o genedl y Cymry, er yn oesoesoedd."

Wedi cael Gramadeg, fel hwn, yn honi awdurdod ddwyfol, a rhaith gwlad ac arglwyddi gwahanol oesoedd, yn ei gymeradwyo fel y Gramadeg Cenedlaethol; yr oedd yn naturiol dysgwyl ynddo ryw deilyngdod anarferol. Ond pan y cyhoeddwyd ef yn Llanymddyfri, o dan olygiad Ab Ithel, a than nawdd Cymdeithas y Llawysgrifau Cymreig, yn 1856, efe a siomodd yr holl genedl. Nid yw yr hyn sydd ynddo yn proffesu bod yn gasgliad Edeyrn Dafod Aur, ond 24ain o dudalenau 8 plyg. Traetha yn gyntaf am lythyrenau, a sillau; wedi hyny am ranau ymadrodd, brawddegau, ffigyrau, &c.; yna daw at dair caine Cerdd Dafod,—clerwriaeth, teuluwriaeth a phrydyddiaeth. Y mae ganddo 24ain o lythyrenau, dwy ran ymadrodd,—"Henw a Pheirwyddiad;" dau enw,—un priawd, ac un galwedig; dau ryw enw,—enw gwan, ac enw cadarn; tair cenedl enw,—gwryw, benyw, a chyffredin; a dau rif enw,—unig a lluosog. Dywed mai dau *ryw* Beirwyddiad y sydd,—Peirwyddiad Rhydd, a Pheirwyddiad Arch y fynedig; pum *modd* Peirwyddiad,—Managedig, archedig, damunedig, amodedig, ac annherfynedig. Dau ryw genedl Peirwyddiad,—gwneuthuredig, a dioddefedig. Tri amser y sydd i Beirwyddiad,—cyndrychawl, gorphenedig, a dyfodedig. Rhana ei Brydyddiaeth i englynion, awdlau, a chywyddau, yr hyn sydd yn sawrio diweddarwch. Ac yn wir y mae diweddarwch i'w ganfod yn amlwg ar wyneb yr holl gyfansoddiad. Heblaw nad oes dim, hyd y gwyddom ni, o hanes Edeyrn Dafod Aur ar gael, y mae yn annichonadwy yn awr olrhain ei Ddosbarth yn mhellach yn ol na'r 16eg ganrif. Proffesa y llyfr hwn

Digitized by Google

fod yn gopi a wnawd gan W. J. Rees, Casgob, o adysgrif Lewis Richards o Darowen, dyddiedig 1821. Dywedir bod Richards wedi cymeryd ei gopi o adysgrif Iolo Morganwg, a bod Iolo Morganwg wedi cymeryd ei eiddo ef, o Lyfr Iago ab Dewi.

**EDEYRNION**, dyffryn, a chantref yn Swydd Feirionydd, Gogledd Cymru. Y mae y dyffryn yn gorwedd gyda glan yr afon Dyfrdwy, rhwng y Bala a Chorwen; ac y mae yn un o'r rhai prydferthaf yn y deyrnas.—Cynwysa y cantref, saith o blwyfau, a rhan o un arall; a mesura 60,432 o erwau o dir, ac yn ol Deiliadeb 1861, cynwysai 5043, o drigolion; ac o dai annedd, 1116.

**EDGEWORTH**, Roger, D.D., a anwyd yn Nghastell Holt, swydd Dinbach. Tua 1503, derbyniwyd ef i Rydychain, derbyniodd amryw raddau colegawl, a dyrchafiadau eglwysig. Yn amser Mary, trodd yn amddiffynydd selog i Babyddiaeth, ac yn elyn i'r Diwygiad. Cyhoeddodd amryw lyfrau i amddiffyn ei egwyddorion. Bu farw 1560, a chladdwyd ef yn mynachlog Wells.

**EDMUND**, Ellis, geilw y *Non.'s Memorial* ef, yn "Edmund Ellis, a chrwynwr o Lundain;" ond pa fodd bynag, yr oedd yn weinidog plwyf St. Ffagan, Caerdydd, yn flaenorol i gyhoeddiad Deddf yr Unffurfiaeth, Awst 24, 1662, a throwyd ef allan yn un o'r *ddwy fil.*

**EDMUND**, Evan, gweinidog y Bedyddwyr yn Cwmifor, swydd Gaerfyrddin. Ganwyd ef mewn lle a elwir Clwt y ddraenen, plwyf Llandeilo, yn 1762. Bedyddiwyd ef pan yn 27ain oed, gan David Morris, Porth tywyll, ac ymaelododd yn Cwmifor. Yn 1795, efe a briododd Catherine Nathaniel, ac aethant i fyw i'r Llwyn du, Cwmaman; yr oedd eglwys Llandyfaen ar y pryd hwnw, wedi ymranu yn Sosiniaid ac Arminiaid, ond efe a fu yn foddion i gasglu yn nghyd y praidd crwydredig, a ffurfio eglwys Soar. Yma y dechreuodd bregethu, a daeth yn enwog fel Cristion cywir, a dysgawdwr cadarn yn yr Ysgrythyrau. Bu farw yn 1824, yn 62 oed, a chladdwyd ef yn mynwent Cwmifor.

**EDMYG**, un o feibion Caw, a rhyfelwyr Arthur.

**EDNAL**, trefgordd yn mhlwyf Hen Faesyfed, Swydd Faesyfed, Deheudir Cymru; 2 filldir i'r De Ddwyrain o Faesyfed Newydd. Poblogaeth, 34; anneddau, 5.

**EDNYFED**, fab Macsen Wledig, oedd sant yn ei flodau yn y bummed ganrif. Yr ydoedd yn frawd i Owain, Cystenyn, a Pheblig.

**EDNYFED FYCHAN**, ydoedd gadlywydd a phrif weinidog enwog Llywelyn ab Iorwerth. Disgynai o Marchudd ab Cynan, penaeth un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Preswyliai yn benaf yn Tregarnedd yn Mon, lle yr oedd ei gyfoeth a'i ddylanwad yn fawr. Gwisgai ar ei arfbais ar y cyntaf "Ben Saraceniad" yr hyn a arwyddai iddo ef, neu rai o'i hynafiaid, fod yn "Rhyfel y Groes." Bu brwydr dost unwaith rhwng y Cymry o dan Ednyfed Fychan, a'r Saeson o dan Ranulph, Iarll Caer. Llwyddodd Ednyfed i orchfygu ei elynion, a lladdodd hefyd dri o'u prif swyddogion am yr hyn y gorchymynodd ei dywysog iddo o hyny allan ddwyn ar ei arfbais, "*Gules between three Englishmen's heads couped, a chevron ermine,*" yr hyn a arddelwa ei ddisgynyddion hyd heddyw. Bu yn briod ddwywaith: 1af, gyda Gwenllian ferch Rhys, tywysog Deheubarth, o'r hon y ganwyd iddo Goronw, arglwydd Trecastell yn Mon; Gruffydd o'r Henglawdd; Iorwerth, arglwydd Abermarlais; Einion; Rhys; a merched. 2il, gyda merch Llywarch ab Bran, o'r hon y cafodd Llywelyn, arglwydd y Creuddyn; Tudyr o'r Nant a Llangynhafal; a Hywel, esgob Llanelwy. Gorwyr iddo ydoedd Gruffydd Llwyd, o Dregarnedd; yr hwn a urddwyd yn farchog gan Edward I. am iddo ddwyn iddo i gastell Rhuddlan, y newydd am enedigaeth ei etifedd, Edward II. tywysog cyntaf Cymru, yn nghastell Caerynarfon. Yr oedd Owen Tudyr hefyd yn ddisgynydd o hono yn y saithfed radd; ac felly y mae gwaed Ednyfed Fychan yn euro yn bresenol yn ngwythïenau teulu breninol Prydain Fawr.

Crybwyllwyd yn y dechreu, bod rhyw gysylltiad rhwng Ednyfed Fychan a Rhyfel y Groes. Y mae hen alaw Gymreig ar gael, a elwir "Ffarwel Ednyfed Fychan, a chwedl dda iawn mewn cysylltiad a hi, yr hon sydd fel hyn;—Aeth Ednyfed Fychan i Ryfel y Groes, gan adael Gwenllian a'r plant yn Nhregarnedd, ac wrth fyned ymaith, cyfansoddodd a chwareuodd dôn o ffarwel i'w Wenllian. Bu ymaith am flyneddau lawer, nes y credodd ei wraig ei fod wedi marw, a derbyniodd gynyg rhyw foneddwr, yr hwn a ddaethai yn mlaen i ymofyn am ei llaw. Ond noson y neithior, daeth i'r drws ryw gardotyn drwg ei olwg, i ofyn tamaid, a llety; ac wedi deall beth oedd yn myned yn mlaen, a chael caniatad i fyned i mewn fel clerwr i ddifyru y cwmni, efe a alwodd am "fenthyg yr hen delyn oedd yno ystalwm." Ac wedi ei chael a'i thrwsio, efe a darawodd yr alaw "Ffarwel Ednyfed Fychan," a chyn iddo gyraedd y 10fed nodyn yr oedd y neithior drosodd—y wraig a'i gwr newydd yn ymwneyd am y drws, ac Ednyfed yn codi ei law oddiwrth y delyn, ac yn bloeddio:—

> "Os bum ar ffo, dro yn druan,—gwallus
> I'm golli Gwenllian!
> Ni chollaf, ewch chwi allan,
> Na gwely, na thy, na than!"[1]

Mae yn amlwg mai ar yr ystofiad uchod y gweuodd *Tennyson* ei "Enoc Arden."

**EDNYWAIN** ab Gweithfoed, ydoedd esgob Llanbadarnfawr, tua chanol y 10fed ganrif.

**EDNYWAIN BENDEW**, penaeth un o Bymtheg Llwyth Gwynedd, ydoedd fab Bradwen, ac yn ei flodau yn y 12fed ganrif. Preswyliai yn Llys Bradwen, ger Dolgelley. Dygai ar ei arfbais "*Gules three snakes enowed in a triangular knot argent.*" O hono ef y mae amryw o brif deuluoedd Meirion yn olrhain eu disgyniad.

**EDRENS** (St.). plwyf yn Undeb Hwlffordd, Swydd Benfro, Deheudir Cymru; 9 milldir i'r Gogledd Ogledd Orllewin o orsaf rheilffordd Hwlffordd, a 10 milldir i'r Dwyrain wrth Ogledd o Dy Ddewi. Ei Lythyrfa ydyw *Letterstone*, dan Hwlffordd. Mesura 916 o gyfeiriau; a chyfrifir ei werth tirawl yn 667 punt. Yn ol Deiliadeb 1861, yr oedd ei boblogaeth yn 118, a nifer y tai annedd yn y plwyf, yn 20. Ficeriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn esgobaeth Ty Ddewi, gwerth 120 punt yn y flwyddyn. Noddwr, yr Arglwydd Ganghellydd. Haerid gan lawer o breswylwyr y gymmydogaeth, fod y glaswellt a dyfai yn mynwent y plwyf hwn, yn feddygyniaeth neillduol er cadw dynion ac anifeiliaid, rhag effeithiau niweidiol brathiad ci cynddeiriog; fe'i bwytteir gyda bara ac ymenyn, gan

[1] Cyssylltir y cyffelyb chwedl ag Einion ab Gwalchmai o Drefeilir, ar lafar gwlad, yn Môn.

Digitized by Google

ddynion, yn yr amgylchiad hwnw, a throir anifeiliaid wedi eu brathu, i'r fynwent i bori; a haerir nad ymddangosodd dim o arwyddion y gynddaredd mwyach, yn neb a'i bwyttasant tra yn y cyflwr hwnw; tra i'r gwrthwyneb, yr oedd yr holl rai a omeddasant ei ddefnyddio, wedi marw yn fuan, heb eithriad. Adfael y clochydd ydyw glaswellt y fynwent, ac y mae ceuedd yn mur y gangell, i'r hwn y rhoddir pa beth bynag a welo dynion yn dda ei dalu am gael bwytta o hono. Y mae hyn yn esboniad lled bendant debygid, am barhad y fath ofergoeliaeth yn y plwyf. Meddylir mai gwir enw y plwyf hwn, yw "Sant Edeyrn."

**EDWARD** AB RALPH, bardd yn ei flodau tua 1594.

**EDWARD** AB RHYS MAELOR, bardd tua chanol y 15fed ganrif. Dyma yr Englyn a wnaeth efe i Harri VIII., pan orchymynodd efe i ddynion dori eu gwallt, a gadael i'w barfau dyfu :—

"Y sawl a fynno'n ddisen—ymostwng
I'w meistr yn LLUNDEN,
Gaded ei farf yn geden
A del i'w go bowlio'i BEN."

**EDWARDS,** CHARLES, awdwr "Hanes y Ffydd Ddiffuant" a flodeuai tua chanol yr 17eg ganrif. Nid oes sierwydd am y lle y ganwyd ef, na phwy oedd ei dad; dywedai y Parch. Walter Davies, i Charles Edwards gael ei eni yn Rhydycroesau, plwyf Llansilin, swydd Dinbach, ar derfynau plwyfau Croesoswallt a Sylattyn: ac i'w frawd henaf, Robert Edwards, briodi Anne Kyffin, merch ac etifeddes Robert Kyffin, o Garth Eryr yn Mochnant. Ond dywedai John Edwards, Ysw., o Great Ness,—un o'r teulu, nad oedd ond un Charles wedi bod yn y teulu, a bod hwnw yn fab i Robert Edwards, o Cynlleth, swydd Dinbach. Gwel Rhagymadrodd i argraffiad Dolgelleu o "Hanes y Ffydd," 1822.

Tybia rhai iddo gael addysg athrofaol yn Rhydychain, a derbyn, urddau eglwysig; seilir hyn ar y ffaith bod "Hanes y Ffydd" wedi derbyn *Imprimatur*—trwydded i'w argraffu, gan is-ganghellydd y Brifysgol; a bod Thomas Richards Llangrallo, yn ei Ragymadrodd i'w Eiriadur, yn rhoddi y nodyn canlynol yn y gyfres o awduron Cymreig:—"Parch. Charles Edwards, gweinidog Croesoswallt, gwr tra dysgedig, awdur llyfr Cymreig o'r enw 'Hanes y Ffydd Gristionogol,' 1680." Nid yw y ffaith gyntaf yn profi ei fod yn aelod o'r Brifysgol; ac y mae ei fywgraffydd diweddaraf, y Parch. William Edmunds, yn ei Ragymadrodd i argraffiad Caerfyrddin o "Hanes y Ffydd" yn dyweyd yn bendant mai camsynied yw yr olaf, "o herwydd y mae yn eithaf dilys na fu Charles Edwards erioed yn weinidog Croesoswallt, pa un bynag a oedd ef yn offeiriad neu beidio." Ond pa fodd bynag, y mae yn amlwg ei fod yn aelod o'r Eglwys Sefydledig, ac yn ymdrechu at lesiant ysbrydol ei gydwladwyr. Yn 1671, cyhoeddodd "Hanes y Ffydd," yn Llundain. Dygwyd ail-argraffiad allan yn Rhydychain, yn 1676; a thrydydd yn 1677. Rhaid gan hyny fod y llyfr yn dra derbyniol, a bod ysbryd darllen wedi disgyn yn helaeth ar y dywysogaeth, er gwaethaf holl ystranciau Charles II.

Cyhoeddwyd pedwar argraffiad o'r llyfr, ar ol marwolaeth yr awdwr: yn yr Amwythig yn 1722; yn Nolgelleu yn 1811; yn Nolgelleu drachefn yn 1822; ac yn Nghaerfyrddin, gan Mr. Spurrell, yn 1856.

Bu gan Charles Edwards law yn nygiad allan lawer o lyfrau da eraill, megys ail-argraffiad o "Ddiffyniad Ffydd Eglwys Loegr 1670," trydydd argraffiad o "Ddadseiniad Meibion y Daran," "Hyfforddiadau Cristionogol," Ymarfer o Dduwioldeb—"y 3ydd preintiad," "Y Llwybr Hyffordd i'r Nefoedd," a "Llyfr y Resolution," &c. Ni wyddys pa le, na pha bryd y bu farw. Ond y mae ei enw yn anfarwol, a'i "Ffydd Ddiffuant" wedi bod gyda "Drych y Prif Oesoedd," y "Bardd Cwsg," ac ychydig eraill, yn unig lyfrau y genedl am lawer o flyneddoedd, ac yn aros hyd heddyw, yr engreifftiau perffeithiaf o athrylith Gymreig.

**EDWARDS,** JOHN, pregethwr perthynol i'r Bedyddwyr, yn ardaloedd Abergafenni, a Llangors, yn amser y Werinlywodraeth. Daw i'r golwg am y waith gyntaf yn y *Ddadl Fedydd* a gymerodd le yn Eglwys blwyfol Abergafenni, yn 1653, rhwng John Tombes, B.D., gweinidog Eglwys blwyfol Llanllieni, am yr hwn y dywed Dr. Wall, "O'r Gwrthfaban-feddyddwyr proffesedig, Mr. Tombes oedd y dyn mwyaf galluog yn ein cenedl ni, ac feallai yn unrhyw genedl arall," âg un Mr. Cragg, Presbyteriad, yr hwn a amddiffynai fedydd plant. Yn ei hanes o'r ddadl hono, dywed Cragg "fod Mr. J. E. cobler, yr hwn a drochwyd, yn siarad." Geilw Dr. Walker ef yn "grydd;" a dywed iddo gael ei osod yn mywioliaeth Cathedin, swydd Frycheiniog, gan y *Profwyr;* ond dywed Calamy mai nid efe oedd hwnw, a geilw ef yn "John Edwards, crydd, o Langors." Dywed Joshuah Thomas iddo ddechreu pregethu yn 1653; a barna iddo fod yn dra defnyddiol am flyneddoedd yn Llangors a'r cylchoedd; ac iddo fel llawer o weinidogion ymneillduol eraill yn yr adeg hono, pan oedd yr offeiriaid anfoesol a digymwysder yn cael eu troi allan o'r Eglwysi plwyfol, a'r Llyfr Gweddi Cyffredin wedi ei roi o'r nailldu, gael ei benodi i bregethu yn Eglwys y plwyf; ond ei fod hefyd yn parhau i bregethu i'w gynulleidfa ei hun yn Llangors, gan nad oedd y naill le nepell oddi wrth y llall. Dywed hefyd, bod hen lyfr eglwys y Fenni, yn crybwyll yn fynych am dano; a barna ei fod yn wr parchus a defnyddiol, ac iddo orphen ei yrfa cyn i'r wyth mlynedd ar hugain erlidigaeth ddechreu.

**EDWARDS,** JOHN, neu "Sion Ceiriog," a anwyd yn Nyffryn Ceiriog, yn Swydd Ddinbach, oddiwrth yr hyn y cymerai ei enw barddonol. Yr ydoedd yn fardd celfyddgar, ac yn meddu gwybodaeth led fanol o'r iaith Gymraeg. Efe a fu farw yn bum mlwydd a deugain oed, yn Llundain, yn y flwyddyn 1792.

**EDWARDS,** JOHN, a adnabyddid wrth yr enw "John Edwards o Ereiniog." Ganwyd y gwr hwn tu a'r flwyddyn 1755. Pan oedd tuag ugain mlwydd oed, dygwyddodd iddo fyned gyda rhyw gyfoedion gwammal fel ei hunan, i le o'r enw Hendre Hywel, tyddyn yn mhlwyf Penmorfa, ac o fewn tua dwy filldir i'w gartref, i wrando pregeth. Enw y pregethwr oedd Mr. John Pierce. Effeithiodd y bregeth yn ddwys ar ei feddwl, ac nid annghofiodd yr amgylchiad tra fu byw.

Yr oedd offeiriad llafurus iawn, o'r enw Mr. Hughes, yn Llanfihangel y pennant, plwyf yn cyffinio ar y plwyf y cartrefai ynddo; yr hwn ar gyfrif maintioli ei gorff, a elwid "Hughes Fawr." Yr oedd y gwr hwnw yn rhagori llawer ar y cyffredin o offeiriaid ei oes, a'i wlad, ar gyfrif ei ddawn, ei

Digitized by Google

lafur, a'i ysbryd di ragfarn at Ymneillduwyr. Daeth John Edwards i gydnabyddiaeth a'r gwr parchedig, tra yr oedd ei feddwl, yn y canlyniad i'r bregeth uchod, mewn trallod mawr yn nghylch ei gyflwr ysbrydol. Teimlai fod arno angen ymgeledd ysbrydol; ond ni wyddai pa le i ymofyn am dano. Ei dad a'i hannogai i fyned i'r ysgol, er ymbarottoi i gael urddau eglwysig; ac amlygai lawer o barodrwydd i ddwyn ei draul i hyny. Eraill a'i cynghorent i ymuno a'r Annibynwyr yn Nghapel Helyg; ond, gyd a'r Trefnyddion Calfinaidd, yr arferasai efe wrando; a thra yr oedd ei feddwl yn y sefyllfa anmhenderfynol yma, ymofynodd â Mr. Hughes am gyfarwyddyd; ac yntau yn ddi betrus a'i cynghorodd, gan ddywedyd,—"Gwell i ti aros wrth y cwppwrdd lle yr wyt ti yn cael bwyd." Canfu brïodoldeb y cyngor, a phenderfynodd i fwrw ei goelbren gyd a'r Methodistiaid. Yr oedd John Edwards yn meddu ar awen farddonol lithrig; ac yn nyddiau ei oferedd, byddai yn arferol o gyfansoddi caneuon gwagsaw; ac yr oedd ar ganol cyfansoddi *Interlude*, pan y daeth Duw yn ei ras i'w gyfarfod, gan ddywedyd, "Hyd yma yr ei, ac nid yn mhellach;" ac yn y canlyniad, efe a roddodd bob oferedd o'r fath heibio, ac a ymunodd â'r gymdeithas eglwysig oedd yn Hendre Hywel, neu Fryn Engan; a gwnaeth ei gartref gyd a'r Cyfundeb o hyny allan. Ar ol iddo gynnyddu mewn gwybodaeth, a dyfnhau mewn profiad, efe a ddaeth yn gymhwys i fod o les i eraill; ac efe a alwyd i fod yn aelod yn nghyfarfod misol y Sir, tu a'r flwyddyn 1787. Pan oedd tua 32ain mlwydd oed, cymhellwyd ef i arfer ei ddawn i gynghori pechaduriaid; a chydsyniodd yntau a chais ei frodyr yn hyn, a bu am yspaid saith mlynedd yn llafurio yn y modd hyn yn ei ardal enedigol ei hun. Yn y cyfamser, daeth offeiriad i fod yn oruchwyliwr i'r boneddwr oedd yn berchen ar y tyddyn a ddaliai, a'r lle y buasai ei henafiaid yn cyfanneddu, er cyn côf. Pan ddeallodd yr offeiriad hwnw, fod John Edwards yn arfer pregethu gyd a'r Methodistiaid, efe a gythruddodd yn ddirfawr, ac a benderfynodd roddi pen ar y fath beth; ac am hyny, nid oedodd roddi rhybudd iddo, y byddai raid iddo ymadael a'i dŷ, a'i dyddyn. Wedi iddo gael y rhybudd, aeth yn y fan i ymofyn a'r goruchwyliwr am yr achos o hyny; a chafodd hysbysiad penderfynol, a difloesgni, mai o achos ei fod yn pregethu gyd a'r Methodistiaid y rhoddasid y rhybudd iddo; ac os y mynai aros yn y tyddyn, y byddai raid iddo roddi heibio bregethu; ac ni fynai y gwr parchedig newid na lleddfu ei benderfyniad mewn un modd; ond parai i Mr. John Edwards gymeryd ei ddewis, —y tyddyn, neu y weinidogaeth; y ddirwy, neu ei gydwybod; colled, neu ddyledswydd; pechu, neu ddyoddef: dewisodd yntau yr olaf yn ddibetrus; a bellach, nid oedd ganddo ddim i'w wneyd, ond chwilio am dyddyn arall. Wedi bod dros beth amser yn ymofyn yn bryderus, heb ganfod un drws yn ymagor, a'r amser yn nesau pan y byddai yn rhaid iddo ymadael, teimlai ei hun ar ymsuddo dan y brofedigaeth, gan nad oedd ganddo olwg ar un lle i fyned iddo. Ond, pan oedd tywyllwch dudew yn gorwedd fel hyn ar ei ddyfodol, anfonodd rhyw un Newyddiadur iddo, yn cynwys hysbysiad, fod tyddyn helaeth ar osod yn Sir Ddinbach, sef y Gelligynau, ger Llanarmon yn Iâl. Wedi iddo edrych dros y tyddyn, a deall yr amgylchiadau cyssylltiedig a'i gymeriad, efe a'i cymerodd; ac felly, efe a symmudodd i'r Gelligynau, yn y flwyddyn 1795. Yr oedd yn y parth hwnw, ddarn mawr a phoblogaidd o wlad, heb nemawr ddarpariaeth ar gyfer angenion ysbrydol y trigolion.

Yn ystod yr amser y bu Mr. John Edwards yn preswylio yn y Gelligynau, bu ei lafur yn dra defnyddiol yn y rhan ddeheuol o Sir Fflint. Yr oedd yn bregethwr tra ymarferol; dynoethai arferion llygredig y wlad, a rhybuddiai ei gydwladwyr yn ddifrifol, i adael eu ffyrdd pechadurus. Syniadau cyffredin y bobl am dano, oedd ei fod yn ŵr parchus, ac yn bregethwr difrifol, a serchog. Yr oedd yn hoff ganddo fyned i'r ardaloedd oeddynt megis anialwch mewn ystyr foesol, i draethu yn yr awyr agored, y newyddion dâ am Geidwad i bechaduriaid. Efe oedd yr Ymneillduwr cyntaf a fu yn pregethu yn Mryn Eglwys; ac i draethu ei genadwri, efe a safai ar faen mawr oedd ar y rhos. Daethai y gair i'r ardal o'i flaen, fod "parson y Cradocs, a ddaethai i fyw i'r Gelligynau, yn dyfod yno i bregethu." Yr oedd yno dyrfa fawr wedi ymgynull i'w weled, a rhai wedi dyfod i'w wrando. Y mae yn debyg mai efe oedd y cyntaf a bregethodd i'r glowyr yn Harwood, neu Brymbo. Yr oedd efe cyn hyny wedi bod yn pregethu yn Nghaergwrle, lle yr oedd dyn mawr, meistrolgar, o'r enw Edward Hopwood, yn ei wrando, ac wedi cael rhyw flas neillduol, debygid, ar y bregeth, canys wrth ddychwelyd tuag adref gyd a'r hen bererin John Ellis o'r Cymer, efe a ofynai, "A oes dim modd cael y dyn yna i bregethu i bechaduriaid Harwood!" I'r hyn yr attebai John Ellis, gan ddywedyd, "Y mae arnaf ofn na chai e ddim llonydd genych." "Caiff" (medd Edward, gyda llŵ), "mi edrychaf fi am chwareu teg iddo." Pa fodd bynag, myned i Harwood a wnaeth y pregethwr ryw Sabbath; ond nid heb ryw radd o arswyd; ac efe a gymerodd ei safle yn nghysgod rhyw berth, ar fin y ffordd; ac Edward Hopwood, yn ffyddlawn i'w air, a safai gerllaw. Wedi gweddïo, a darllen testun, wele ddyn meddw, neu yn cymeryd arno fod felly, yn dyfod yn mlaen, gan ymwthio trwy y gynnulleidfa, a siarad yn uchel a chynhyrfus, nes y daeth heb feddwl, i ymyl "Ned Hopwood;" ac erbyn hyn yr oedd hi yn llawn bryd amddiffyn y pregethwr, os ei amddiffyn a wnelid. Gan hyny, ymaflodd "Ned" a'i law chwith yn ngwddf y terfysgwr, gan ei wthio yn wŷsg ei gefn allan o'r dyrfa; ac â'i law ddehau, efe a'i tarawodd yn ei safn, nes oedd e yn swp ar lawr, gan ddywedyd, "Dos, a golch dy gêg, a gad y gwr yn llonydd, onide ti a gai ychwaneg."

Yn y flwyddyn 1811, symudodd John Edwards, o'r Gelligynau i'r Plas Coch, tyddyn helaeth yn agos i'r Gellifor, yn Nyffryn Clwyd. Nid oedd yr un addoldy Ymneillduol yn yr ardal hono ychwaith, nac Ysgol Sabbothawl, na changen eglwys, ar ei ddyfodiad ef iddi; ond bu ei ymdrechion ef, a'r eiddo yr hen frawd ffyddlawn Edward Simon, yn foddion i gyfodi achos blodeuog yn y lle. Yn y flwyddyn 1817, efe a symudodd drachefn i Blas yn Nghaerwys; ac erbyn hyn yr oedd ei nerth a'i iechyd yn dechreu anmharu; eto, dangosai yr un parodrwydd i ymweled ag ardaloedd tywyll y wlad, i gyhoeddi newyddion da yr efengyl i'r trigolion. Bu yn ymdrechgar a ffyddlawn i fyned i Gronant, a lleoedd eraill yn y rhan ogleddol o Sir Fflint, lle nad oedd eto yr un achos sefydlog gan y Methodistiaid, na chan unrhyw enwad Ymneillduol arall.

Digitized by Google

Yr oedd llafur cenadol, ac arloesi tir newydd, yn hoff waith ganddo; a dywedai yn fynych tua diwedd ei ddyddiau, nad oedd dim o'i holl lafur dros ei oes, yn gorwedd yn esmwythach ar ei deimlad, na'r ymdrech a wnelsai i ymweled â manau oeddynt mewn ystyr grefyddol, yn anial, ac anniwylliedig.

Yn ei flyneddoedd olaf, poenid ef yn fawr gan ddolur y gareg; a'r arteithiau cyssylltiedig a'r clefyd hwnw, a wanhaodd ei gyfansoddiad yn fawr; ac yn y flwyddyn 1823, ehedodd ei enaid i'r anneddle nefol, y wlad well hono, lle na ddywed yr un o'i phreswylwyr, "Claf ydwyf."

**EDWARDS**, Jonathan, D.D., a anwyd yn Ngwrecsam, Swydd Ddinbach. Yn y flwyddyn 1655, efe a aeth i Rydychain; ac wedi cymeryd ei raddio yn B.A., yn y flwyddyn 1659, efe a etholwyd yn Gymmrawd o Goleg yr Iesu, yn 1662. Wedi hyny, bu yn rheithor Kiddington, ger Woodstock; ac yn y flwyddyn 1686, efe a etholwyd yn benrhaith Coleg yr Iesu, a'r un flwyddyn cymerodd ei radd yn D.D. Bu farw Gorph. 20, 1712, yn 73 mlwydd oed.

**EDWARDS**, Miles, gweinidog enwog gyda'r Bedyddwyr yn Nhrosnant, ger Pontypool, yn haner olaf y ganrif ddiweddaf. Mab ydoedd i Thomas Edwards o Flaenau Gwent, yr hwn a urddwyd i waith y weinidogaeth yn 1737, ac a ddewiswyd yn weinidog yn Llanwenarth tua 1743. Bu farw yn 1746, yn 34 mlwydd oed, gan adael ar ei ol enw perarogIus, yn nghydag amryw o blant, tri o ba rai, sef Morgan Edwards, M.A., yr Hanesydd; James Edwards, Waterford, Ywerddon; a Miles Edwards, Trosnant, a daethant yn ddynion enwog, a gwerthfawr i'r byd. Ganwyd Miles Edwards yn 1743; felly nid oedd ond 3 blwydd oed pan fu farw ei dad. Bedyddiwyd ef yn ieuanc yn Mhenygarn; a dechreuodd bregethu yn 1766. Yn fuan ar ol hyn, bu rhyw anghydfod yn eglwys Penygarn, pryd yr ymadawodd amryw o'r aelodau, ac yn eu plith Miles Edwards, ac ymaelodasant yn Bethesda, Bassaleg. Bu Miles Edwards am gyfnod yn Athrofa y Bedyddwyr yn Nhrosnant, yr hon a lywyddid ar y pryd gan Miles Harrys; aeth oddi yno at Joshua Thomas Llanllieni, ac wedi hyny i Goleg Brystau. Wedi gorphen ei addysg, ordeiniwyd ef i waith y weinidogaeth yn Methesda, Bassaleg; yr oedd yn byw ar y pryd mewn ty o'r enw Wern, ger Pontypool. Gan fod yn yr ardal hono amryw o Fedyddwyr, y rhai oeddynt yn mhell o'r eglwysi cymydogaethol, efe a ddechreuodd bregethu yn ei dy ei hun; ffurfiwyd yno eglwys yn 1776, a Miles Edwards yn weinidog arni, a derbyniwyd hi i'r Gymanfa yn 1777. Parhaodd yr eglwys i ymgynull yn y Wern hyd 1779; pryd y symudodd i'w thŷ cwrdd a brynasai yn Nhrosnant. Gyda sefydlu yr eglwys yn Nhrosnant, bu Miles Edwards yn offerynol hefyd i ddechreu eglwys Saesneg Coleford, yr hon a gorffolodd efe yn eglwys yn 1788. Yn y flwyddyn 1800, efe a gladdodd ei briod; ac yn 1808, terfynodd yntau ei yrfa ddiwyd mewn tangnefedd, gan adael yn ei ewyllys, dŷ anedd da, yn nghyda llawer o lyfrau gwerthfawr, yn feddiant i'w eglwys yn Nhrosnant. Claddwyd ef wrth y capel; lle mae gwyddfa ar ei fedd, a choffadwriaeth barchus am dano, uwch ben yr areithfa. Dywed Micah Thomas o'r Fenni am dano, "ei fod o gorff talach na'r cyffredin, ysbryd gwrol a hoyw, llygad treiddgar, ac edrychiad awdurdodol. Nid oedd arno ofn dyn, ond nid anaml y byddai ef yn arswyd i'r dosbarth hwnw o bregethwyr, ag oedd yn dra hunanol ac uchel-Galfinaidd; o ganlyniad prin y credai y dosbarth hwnw ei fod yn Gristion; ond yr oedd efe yn Gristion, er nid o'r fath gyffredin. Ni chlywais erioed am unrhyw fai yn ei gymeriad, a thrwy yr amryw flyneddau y bum yn cyfeillachu ag ef, ni welais ynddo ddim i'w feio. Yr oedd ei lwybr yn myned rhagddo fel y goleuni. Yr oedd yn ddyn tyner a theimladwy iawn, ei sel dros Dduw yn rymus, ei garedigrwydd at ddynion yn ëang, a'i ymddiddanion a'i arferion mor berffaith ag y gellir disgwyl i Gristion fod yn y bywyd presenol."

Y mae Cymru o dan fwy o rwymau i Miles Edwards nag a wyr neb heddyw. Efe a osododd i lawr sail y weinidogaeth ryddfrydig ag sydd yn awr yn adseinio dros ein gwlad. Yn nechreu ei oes ef, pan oedd uchel-Galfiniaeth yn ffynu yn mhlith Bedyddwyr Cymru a Lloegr, ni chlywid braidd byth ddim o'r areithfa yn Nghymru, ond y *pum' pwynt* byth a hefyd. Yr oedd cymell eu rhwymedigaethau moesol ar y gwrandawyr, a'u hanog i droi at yr Arglwydd am drugaredd, yn ddigon i ddymchwelyd unrhyw weinidog mewn pwynt o athrawiaeth, ac iddo gael ei gondemnio o fod yn afiach yn y ffydd. Ond beiddiodd Miles Edwards ddarllen y Beibl drosto ei hun, ffurfio barn annibynol, heb gydnabod neb yn feistr ond Crist, a llefaru yr hyn a gredai oedd yn wirionedd Duw; ac felly cyhoeddai alwadau yr Efengyl mor ëang a'r ddaear.

Cafodd lawer o'i wrthwynebu, a'i faeddu ger bron cyngorau, o dan y cyhuddiad o fod yn Armin. Dygwyd ef ger bron pedwar Cwrdd Chwarter, ac un Gymanfa, er mwyn ei ddystewi pe gallesid; ond bu y cwbl yn ofer. Yn un o'r cyngorfeydd hyn, dywedai J. Lewis, Llanwenarth, wrtho,—"Miles Edward, yr ydych yn pregethu yn debyg iawn i Armin, ond nis gallaf fi ddyweyd mai Armin ydych er hyny." Atebai yntau,—"James Lewis, yr ydych chwi yn pregethu yn debyg iawn i Antinomiad, ond nis gallaf fi ddyweyd mai Antinomiad ydych er hyny." Daliodd Miles Edwards ei brawf yn ogoneddus; gweithiodd ei ffordd yn erbyn culni a rhagfarn yr oes, dygodd i mewn olygiadau rhyddfrydig ac efengylaidd i bwlpud Cymru, trwy osod y Beibl i fyny yn uwch na Chyffesiadau Ffydd, a phob trefniant dynol mewn crefydd; a thrwy hyny gwnaeth wasanaeth i'w wlad, na fedr neb ei brisio. Ond er ein syndod, ni chyfarfyddasom eto a'i enw mewn un Geirlyfr Bywgraffyddol o enwogion Cymru, Cymraeg na Saesneg!

**EDWARDS**, Morgan, M.A., awdwr y "*Materials towards the History of the Baptists in Pennsylvania*," ydoedd fab, meddir, i Thomas Edwards o Flaenau Gwent, ac felly yn frawd i Miles, a James Edwards. Aelod ydoedd o Benygarn; dechreuodd bregethu tua 1738, pan yn 16eg oed. Derbyniwyd ef i Athrofa Trosnant yn 1740; a thybiwn iddo orphen ei addysg yn Brystau, o dan Foskett ac Evans. Ymddengys iddo ymroddi o'r dechreuad i fod yn weinidog Saesneg; bu yn llafurio am tua naw mlynedd yn Ywerddon, lle yr ordeiniwyd ef yn 1757. Yn y flwyddyn 1761, efe a ymfudodd i Philadelphia, America; lle y daeth yn dra enwog fel pregethwr, a Hanesydd yr enwad. Efe a ysgrifenodd *ddeuddeg* llyfr ar Hanes y Bedyddwyr, mewn *deuddeg* talaeth yn America. Daeth y cyntaf allan yn 1770. Y mae hwn yn waith gwir werthfawr, ac yn taflu

Digitized by Google

llawer o oleuni, nid yn unig ar Hanes y Bedyddwyr yn America, ond hefyd yn Nghymru.

**EDWARDS**, THOMAS, Ysw. (Caerfallwch), ydoedd un o brif lenorion y genedl, yn yr oes bresenol. Efe ydoedd fab i Richard, a Margaret Edwards, o'r Felin-Ganol, ond yn ol tystiolaeth rhai, o'r Tyn-y-twll, sef ty annedd bychan, ar ochr y ffordd o'r Wyddgrug i Dreffynon, yn nhref-ddegwm Caerfallwch, plwyf Llaneurgain, yn Sir Fflint. Ganwyd ef yn y lle uchod, tua diwedd y flwyddyn 1779. Dywedir nad oedd ei rieni ond pobl o amgylchiadau cyffredin, a lled isel yn y byd, ond eto uwchlaw angen a thlodi. Gwnaethant bob ymdrech i roddi addysg foreuol i'w mab Thomas, ac anfonasant ef i'r ysgol ramadegol a gedwid y pryd hwnw yn Llaneurgain, gan y Parchedig Mr. Williams, is-beriglor y plwyf, er y dywedir mai y clochydd oedd yr ysgolfeistr mewn gwirionedd; a thybir nad oedd yr addysg a dderbyniodd yno, yn ddim amgen nac arweiniad dechreuol, o'r fath ag a allesid ddisgwyl yno, ar y pryd. Pa fodd bynag, pan yr oedd tua phedair ar ddeg oed, cafodd ei rwymo yn egwyddorwas gydag un Thomas Birch, cyfrwywr, yn y Wyddgrug. Ymddengys fod dwy ferch gan ei feistr, oeddynt yn dra hoff o ddarllen y newyddiaduron, a'r hanesion cyhoeddus; ac yr arferent ddwyn y gwahanol gyhoeddiadau i'w darllen gan Thomas, ond fel nad oedd ef yn deall ond ychydig o Saesonaeg y pryd hwnw, gorfyddid arno ofyn eglurhad ar yr hyn a ddarllenai yn fynych. Felly rhoddodd y merched gynghor iddo i brynu Geirlyfr Saesonaeg a Chymraeg, fel y byddai ganddo at ei wasanaeth ei hun; ac felly fu. Y mae yn debygol mai hyny fu yn achlysur o droi ei feddwl at astudiaeth drwyadl o eiryddiaeth. Wedi gorphen ei rwymedigaeth yno, dywedir iddo gymeryd taith, ar ei draed, gydag un Edward Huws, i Lundain, gan lunio gobeithion pwysig iddo ei hun, wedi cyrhaedd yno; ond siomedigaeth a gafodd yno, a da oedd cael y traed i gyfeirio y camrau tu ag adref, gan gardotta lluniaeth ar hyd y ffordd. Tua'r flwyddyn 1800 neu 1801 ymbriododd â Miss Margaret Jones, Trellynau, yn mlwyf Helygen; ond ni bu hi byw dros ddwy flynedd. Ganwyd iddynt ddau o blant. Ni bu yn llwyddianus iawn gyda ei fasnach fel cyfrwywr yn Llaneurgain. Daeth tua y pryd hwn i gydnabyddiaeth ag un Mr. Bell, perchenog gwaith glo y *Boar's Head*, yr hwn a'i cyflogodd fel pwysydd i'r gwaith, yn 1802. Wedi bod gyda y gorchwyl hwnw am tua blwyddyn o amser, ac i Mr. Bell ddyfod i wybod rhywbeth am ei alluoedd a'i gymhwysderau, efe a'i dyrchafodd i'r swydd o ysgrifenydd, yn ei sefydliad. Tu a'r flwyddyn 1803, priododd ei ail wraig, sef Miss Wynne o Laneurgain; o'r hon y cafodd saith o blant, ond nid oes yr un o honynt yn fyw. Trwy ganfod ei gynnydd mewn gwybodaeth a dysg, dyrchafodd Mr. Bell ef i'w swyddfa yn Llundain, yn 1816, lle y bu am dymor maith. Dyrchafwyd ef drachefn i wasanaeth cwmni o rai oeddynt Grynwyr; ac yn 1815, dyrchafwyd ef drachefn, i fod yn ysgrifenydd yn swyddfa N. M. Rothschild, Ysw., tad yr arianydd adnabyddus yn Llundain. Yn 1816, priododd y drydedd waith, sef, âg un Miss Webster, o'r Fynachlog, yn mhlwyf Llaneurgain, yr hon a breswyliai ar y pryd yn y brif ddinas. Bu hi fyw ar ei ol ef; yr oeddynt wedi cael pedwar o feibion, a thair o ferched. Wedi dyfod i wasanaeth Rothschild, cafodd ei holl dalentau gyfleusderau i ymagor a dysgleirio. Bu ar deithiau gyda'i feistr, ar achlysuron yn mhrif lysoedd penau coronog Ewrob, a rhoddai Edwards foddlonrwydd i bawb, yn mhob man. Yn y flwyddyn 1830, dywedir fod cyfrifon rhai o dywysogion yr Almaen â'r cwmni, wedi syrthio i raddau mawr o dywyllwch a dyryswch, fel y gorfuwyd anfon y Cymro galluog yno i'w trefnu; yr hyn a wnaeth, gyda'r fath foddlonrwydd, fel y derbyniodd fil o bunnau o anrheg, tua Nadolig 1830. Bu yn ngwasanaeth y Rothschilds hyd ddydd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le yn Llundain, Gorphenaf 4, 1858. Claddwyd ef yn mynwent Highgate, Llundain.

Yr oedd Caerfallwch yn enwog fel llenor, ac yn fedrus yn y Roeg, a'r Lladinaeg, eto fel awdur y Geiriadur Saesonaeg a Chymraeg, yr enillodd iddo ei hun ei hynodrwydd penaf. Yr oedd ei eiddigedd am ddiwylliad y Gymraeg yn dwym iawn. Dyma ei dystiolaeth ef ei hun:—"Er amled y cyhoeddiadau sydd ar led yn y Dywysogaeth, erys blwyddau bellach, nis gwelir braidd un math o ddiwygiad yn ein hiaith, na neb yn amcanu at hyny; arweinir, a chymeradwyir, geiriau basdarddaidd, agos ar bob achosion, a gemau yr hen Gymraeg, yn gorwedd yn y cudd: y modd goreu i ddangos ein hoffedd at yr iaith, fyddai ceisio diwygio ei beiau, a dwyn ei thrysorau godidawg idd y golwg. Edrychwn idd y llyfrau y mynom, oddigerth rhai Cymraeg, ni welwn y fath bethau a hyn yn un o honynt; sef *a'r, i'r, o'r*, &c., wyf yn eu galw yn *bethau*, o blegid nid *geiriau* ydynt; ac eto, ceir dynion i bleidiaw dros y gwall, afreolus, aneglur hwn. Y *diddysg* yn unig mewn ieithau eraill, a dolynt eiriau mewn rhyddiaith, ac fy marn i yw, nad oes dim yn y Gymraeg yn peri angenrheidrwydd am y peth, na chwaith yn ei wneud yn gyfreithlawn. Mae hir arferiad o un peth, yn rhoddi arddangosiad arwynebawl o ei gyfreithlondeb; eto hir lygriad o beth, a ddylai beri holion er ei wellâd; ond mae rhagfarn gwedi gwreiddiaw mor ddwfn, yn mhlant y bryniau, ychydig obaith sydd y gwelir llwyddiant ar un moddion er ei symud." Yr ydym yma yn gweled yr awdwr enwog yn tynu y llinyu yn lled dyn, ac felly yn peryglu iddo gael ei dori. Y mae yn amlwg ei fod ef yn tynu yn lled gaeth yn ei farddoniaeth, at arddull Dr. Puw, yn ei gyfieithiad o Goll Gwynfa, yn yr hwn yr oedd y sillgollau yn cael eu hesgymuno yn gwbl oll. Dyma gynllun o'i waith i'w ganfod yn llinellau ei Gân, fel priodasgerdd i Gyfaill, gyda rhodd o Fibl:—

"O wir gymhelliad cariad atat hyn,
Anerchiad cynhes, dyfydd yn ddirwysg;
Pa fodd yr af yn mlaen?—caethiwus wyf,
Am eiriau, mal, i osod ger dy fron,
Fy myniad parod, gwresog er dy lwydd:
O awen dyred, rho dy hwylus ddawn,
Ac awch fy natur wael yn hyn o gais,
Tra rhed yn hwyr drwm, nodau rhif fy nghan!"

Y mae yn hawdd, wrth ochel un eithafiad, redeg i un cyferbyniol, felly yn eglur y canfyddwn yr enwog Caerfallwch yma, wrth ochel yr hyn a alwai yn wrthun, yn rhedeg i afrwyddineb.

Yr oedd gwrthddrych ein sylwadau, yn wastadol o ymddangosiad boneddigaidd, coeth, a dillyn; ac o ysbryd hynaws a charedig. Gallai fwynhau cyfeillach lawen a chwareus, cyhyd ag y cedwid oddiwrth bob peth gwagsaw a mursenaidd. Yr oedd ei ymarweddiad yn wastadol yn weddaidd, a moesgar; ac

Digitized by Google

yr oedd ei haelioni a'i elusengarwch, yn ddiarebol. Yr oedd ei deimlad Cymreig yn uchel iawn, drwy ysdod ei dymor ar y ddaear. Bu am flynyddoedd yn arfer addoli yn nghapel y Trefnyddion Calfinaidd, yn Nghilgant Heol Iewin; ond yn y flwyddyn 1829, ymadawodd ef, yn nghyd â nifer eraill oddiyno, o herwydd anghydwelediad yn nghylch Rhyddfreiniad y Pabyddion, a'r ddeiseb a anfonodd "Eirchiaid Caerludd" i'r Senedd yn yr achos hwnw. Ar ol hyny, bu yn arfer addoli gyda y gynulleidfa Annibynol, dan weinidogaeth Dr. Bennett, yn Silver Street. Ond yn ei flynyddoedd diweddaf, ar ol newid ei drigfa i fyw yn y dref, aeth i'r eglwys oedd dan ofal y Parch. Mr. Hollis, yn Islington. Yr oedd ei fuchedd gyffredinol yn dwyn tystiolaeth i gydwybod pob dyn a'i hadwaenai, ei fod yn wr da, llawn o deimlad crefyddol, ac enwog am ei weithredoedd da. Yr oedd yn llanw pob cylch yr ymgymerai âg ef. Crybwyllwyd ar y dechreu, mai ei brif orchest lenyddol ydoedd, ei Eiriadur; dichon y dylid ychwanegu, ei fod wedi gadael ar ei ol draethodau gwerthfawr iawn, megis ei ddarlithiau "ar y Gymraeg," "ar Fwaau," &c., a gŵyr y cyffredin yn dda, am ragoroldeb ei ysgrifau, cyhoeddedig yn Seren Gomer, Goleuad Cymru, Cymro Llundain, &c. Gellid dywedyd am dano yn ddibetrus, iddo fod yn ymdrechgar yn ei ddydd a'i dymor, i wasanaethu ei Dduw, a gwasanaethu ei genedlaeth, yn ol ei ewyllys ef, a'i fod wedi huno gyda ei dadau mewn oedran teg, a gadael coffadwriaeth fendigedig ar ei ol, sydd fel perarogl dros yr holl dywysogaeth, o'r naill derfyn i'r llall.

EDWARDS, Thomas; *Bardd y Nant*, neu *Twm o'r Nant*, fel y gelwid ef yn gyffredin, a anwyd yn y flwyddyn 1738, mewn lle a elwir Pen porchell-isaf, yn mhlwyf Llan-nefydd, Sir Ddinbach; lle yr oedd ei dad a'i fam yn byw ar y pryd, gyda rhiaint y naill neu y llall; ond pan ddaethant i gael plant eu hunain, gorfu arnynt ymadael, a symud i fyw i fan a elwir Coed Sieneyn, lle y buant am tua blwyddyn; ac yn y gwanwyn canlynol, symudasant drachefn, i le a elwir y "Nant," yn mhlwyf Henllan; yr hyn a fu yn achlysur i'r Bardd gael ei alw "*Twm o'r Nant.*" Bu ei fam yn ofalus iawn i'w hyfforddi, mewn ymddygiadau addas, tra yr ydoedd yn ei fabandod, ac i ochel pob iaith aflednais; a thystiodd ef, fod y cynghorion hyny wedi cael dylanwad arno tra y bu fyw. Yr oedd yn fawr ei awydd am ddysgeidiaeth yn ei ddyddiau boreuol; ond nid oedd mewn moddion i allu cyrhaedd y manteision gofynol er ei chyrhaedd. Pan yr ydoedd tua saith mlwydd oed, daeth ysgol rad i'r gymydogaeth, ac anfonwyd ef yno i ddysgu yr egwyddor; ond un diwrnod, yn fuan wedi ei fynediad yno, dychwelodd adref dan afiechyd y frech wen. Nid oedd ei rieni ond tlodion, ac ni allent bwrcasu i Twm y defnyddiau gofynol at yr ysgol, ond fel y dygwyddai i fasnachdy yn Ninbach fyned ar dân; rhoddodd hyny gyfle i'w fam brynu iddo gyflawnder o bapyr, wedi lled losgi, am isel-bris; a chynlluniai yntau ei hun fodd i wneud inc o ddefnyddiau cartrefol. Ataliodd yr amgylchiadau hyn lawer ar ei efrydiaeth foreuol, ac erbyn iddo gwbl iachau, tybid y gallai wneud rhyw wasanaeth ar y tyddyn; ac felly yn lle dilyn yr ysgol, gorfu arno droi i aredig y maes; ond yr oedd ei fam yn parhau yn ofalus i gadw y llythyrenau ar ei gof. Yn yr haf, pan yr ydoedd tuag wyth oed, caniatawyd iddo fyned i'r ysgol drachefn, am ysdod o tua thair wythnos, pan y dysgodd sillebu, a dechreu darllen. Yn fuan, cododd awydd arno i ddysgu ysgrifenu, ac felly yr aeth rhagddo yn raddol. Cafodd gryn wrthwynebiad i'w lafur am ddysg, oddiwrth ei dad, yr hwn na phrisiai ddim ar werth gwybodaeth, eto yn mlaen yr elai Twm yn ddi-ildio. Ysgrifenodd amryw gerddi, a chyfansoddodd ddau o'i Gyd-chwareuon, cyn bod yn naw mlwydd oed. Sylwodd rhai o'r cymydogion ar ei athrylith naturiol, a chymhellasant ei rieni i'w anfon i ysgol i ddysgu Saesoneg, ac felly fu; cafodd fyned i ysgol yn Ninbach am tua pythefnos, a dyna y cwbl a gafodd. Yr oedd ef erbyn hyn mewn cyfyngder, rhwng awydd ymestyn at ddysgeidiaeth, ac amgylchiadau bydol yn gwasgu arno yn drwm. Pan yr ydoedd tua deg oed, daeth i adnabyddiaeth â hen gylchwr oedd yn byw yn nghymydogaeth Nantglyn; yr hwn a ystyrid o gryn athrylith a medrusrwydd, mewn copio gwaith prydyddion, sef cerddi, carolau, &c., a thua yr un amser cafodd fenthyg nifer o lyfrau, gan hen wr dawnus o Bentrefoelas. Dechreuodd ar ei gyd-chwareuon yn gynar iawn. Dewiswyd ef i flaenori yn hyn, gan nifer o lanciau Nantglyn. Daliodd at y chwareuon, hyd oni ddaeth i oedran gwr, pan y teimlodd ryw euogrwydd yn ei fynwes, wrth feddwl am y gwaith hwnw; eto torodd drwy yr ataliad hwnw, ac ni roddodd y cydchwareuon heibio yn llwyr, hyd ei henaint. Y mae yn debygol y teimlai anhawsder yn ei gydwybod, i ddilyn yr arferiad llygredig oedd yn gymeradwy gan yr oes; eto parhaodd i gyfansoddi pethau y teimlai ei hun ofid, oblegid eu maswedd. Pan yr oedd yn bedair ar hugain oed, priodwyd ef â gwraig, gan yr enwog Ieuan Brydydd Hir, yn Llanfairtalhaiarn, lle yr oedd y gwr hwnw yn gurad ar y pryd. Dywedir fod ei wraig yn un dra dichlynaidd a chrefyddol, ac iddi effeithio yn ddaionus ar ei ymarweddiad yntau. Dechreuodd y ddau eu bywoliaeth mewn tyddyn bychan a elwid y Bylchau, ar fin y ffordd rhwng Llansanan a Nantglyn; ac yn fuan, symudasant i dyddyn bychan arall, a elwid Ael Fowlio. Arhosasant yno am tua dwy flynedd:—Yr oedd ganddynt rai gwartheg, a cheffylau erbyn hyn; ac arferai yntau gludo coed i Ruddlan. Yr oedd ganddo hoffder a medrusrwydd neillduol at gario coed, trwy yr hyn yr enillodd iddo ei hun gryn enw yn y gwaith hwnw. Honai iddo ei hun yr anrhydedd o ddyfeisio ffordd briodol i godi coed oddiar lawr, i'w dodi ar fen, gyda pheirianau, yn lle trosolion. Rhoddodd brawf o'i alluoedd yn hyn tua Gwaenynog, ac yn y Deheudir yn arbenig. Tynodd sylw neillduol yn hyny tua Chaerfyrddin, pan y cludai frenin-brenau enfawr, yn ngwydd y lluaws, gyda'u banllefau, yn llwyddianus iawn. Bu yn cludo eiddo rhwng Caerlleon a Dinbach, ol a blaen, am dymor maith. Daeth Twm trwy lawer o drybini a helbulon, drwy feichiafu dros ewythr iddo; yr hyn a fu yn achos o gryn ataliad i'w lwyddiant bydol; a bu orfod arno symud o fan i fan, ac o wlad i wlad, er ymgadw allan o afaelion y cyfreithwyr. Yr oedd ei dad wedi gadael iddo dyddyn bychan, rhwng Llansanan a Nantglyn, ond yr oedd cyfreithiwr o Ddinbach wedi ei feddianu, o herwydd rhyw hen gyfrifon. Bu y cyfreithiwr farw, dan arteithiau blin, a dychwelodd y meddiant o'r tyddyn yn ol i Twm; a bu ardreth y lle yn llawer o gymhorth iddo yn ei hen ddyddiau. Y mae y gorchestion a wnaeth, a'r trallodion a welodd, tua Dinbach; yn Nolobran, Sir Drefaldwyn; yn Aber-

Digitized by Google

marlais; yn Llandeilo-fawr, a manau eraill, wedi eu cofnodi ganddo ef ei hun, yn "Hanes ei fywyd," a chyhoeddiadau eraill, fel na chydwedda eu hailadrodd yma, ag amcan y gwaith hwn.

Addefir yn gyffredinol fod nerth meddyliol "Twm o'r Nant," o'r gradd uwchaf: yr oedd ei athrylith yn eang, a'i awenydd yn ddysglaer. At y duchanol yr oedd osgo ei ddawn; yr oedd ei arabedd yn ddiderfyn, a'i watwargerdd, yn llem ofnadwy: "Rhywwr a ddywed eiriau fel brath cleddyf." Gelwid ef yn fynych, "*The Welsh Shakespeare*," a diau nad yw hyny yn ormod o anrhydedd iddo. Y mae yn alar meddwl na buasai ei dalent ddysglaer wedi myned dan raddau o eneiniad cysegredig, fel y buasai ei holl waith, yn gyfrol deilwng o le ar y bwrdd, ac ar astell yr aelwyd, yn mhob annedd yn ein gwlad. Y mae ei dalent ysblenydd i'w gweled yn pelydru drwy ei weithiau mwyaf gwageddol. Dywedodd Caledfryn unwaith, "Y mae yn ddrwg genyf na buasai "Holl waith Twm o'r Nant, yn gyfrol mor ddyrchafedig o ran chwaeth, ag y gallesid ei dwyn o fewn cyrhaedd darlleniad ein plant." Rhaid addef ei fod yn ddiffygiol yn y pur, y dillyn, yr arddunol, y mawreddig, a'r llednais. Yn nghanol ein mawrygiad o hono, ni allwn lai na chydnabod hyn, er na allwn lai nac addef, wedi y cyfan o'r hyn a fynegwyd!—Twm—

"*With all thy faults I love thee still!*"

Yr oedd ei holl gynnyrchion yn llawn o natur, ac weithiau, yn y man y tramgwyddid ni fwyaf, yr edmygem ef uwchaf. Pwy a all lai na'i fawrhau yn nillynion dysglaer ei "Sion lygad y Geiniog;" "Arthur Gybydd;" "Gwenhwyfar Ddiog;" "Lowri Lew;" "Rhys y Geiriau Duon;" "Gwallco, a Sidi Drwsiadus;" "Rondol Rowndiaid;" a'r "Doctor;" ac "Angau," &c. Gellid cyfeirio at amryw feirdd oeddynt yn rhagori arno mewn amryw ddosparthau, mae yn ddiau; eto, a chymeryd Twm at ei gilydd, saif yn ddiau yn y dosparth cyntaf. Yn nghanol ei holl ramantau, yr ydym drwy y cyfan, yn canfod ynddo raddau eglur o ymwybodoledd o werth egwyddor. Dywedir i Mr. Charles o'r Bala unwaith, amcanu rhoddi cyngor iddo ymwrthod a'r iaith sarhaus a arferai efe tuag at ei gaseion; ac mai ei atebiad ydoedd, "Edrychwch chwi, Mr. Charles, ar ol y defaid; minau a edrychaf ar ol y bleiddiau." Tybir mai mewn ymddiddan yn nghylch ei Gân ar "Berson Paris," y dygwyddodd y sylwadau hyn. Y mae gweithiau llenyddol a Barddonol, yr awenydd o'r Nant wedi eu cyhoeddi yn lled gyflawn. Y mae gan y Meistri Blackie, bortreiad ffyddlawn a chywir o hono, yr hwn, yn ddiau, a welir mewn gosail, yn mhob annedd trwy Gymru ben-baladr, cyn y bo hir. Cyhoeddwyd ei "Gardd o Gerddi" yn Nhrefecca; a gwerthwyd dwy fil o honynt. Ail argraphwyd y gwaith yn Rhuthyn, yn y flwyddyn 1826, ac hefyd yn Merthyr Tydfil yn yr un flwyddyn. Y mae yn anhawdd rhoddi yr amseriad cywir, am adeg cyhoeddiad yr amrywiol ranau o'i waith. Cyhoeddid ei Gydchwareuon fel y cyfansoddid hwynt; a gwerthwyd llawer o argraphiadau o honynt, o bryd i bryd. Daeth argraphiad lled helaeth o'i waith allan yn Merthyr Tydfil, ar ol yr un a grybwyllwyd. Cyhoeddwyd Detholion o'i waith, yn llyfr swllt, yn Llerpwll, yn y flwyddyn 1861. Bernir fod rhai darnau eto o'i waith, yn aros mewn ysgrifen, ac heb ddyfod i argraph. Y mae llawer o gofion yn mysg y rhai byw am dano, a chwedleuon hynod yn ei gylch. Bu yn dda gan lawer teulu yn Ngwynedd ei wahodd i osod ffyrnau yn eu haneddau, pan yr oedd hyny yn beth newydd yn y wlad; ac ni ystyrid fod yr un o honynt wedi eu gosod yn deg, os na byddai ei law ef wedi bod arnynt. Yr oedd cywreindeb celfyddydol yn beth naturiol iddo, mewn llawer ffordd. Bu farw Ebrill 3, 1810. Yr oedd wedi parotoi beddgist iddo ei hun, a cherfio arni y geiriau canlynol, "*Llyma y claddwyd*," a dim yn ychwaneg. Bernir ei fod wedi bwriadu tori ychwaneg o eiriau arni, ond fel y cymerodd afiechyd angeuol afael arno, cyn cario ei fwriadau i weithrediad. Y mae y gareg hon ar ei fedd yn awr, yn yr Eglwys Wen, gerllaw Dinbach, lle y gorphwys ei weddillion marwol. Anfonodd Gwyneddigion Llundain faen marmor costus i'w osod o fewn yr Eglwys Wen, er cadw coffadwriaeth am dano. Y mae yn gerfiedig ar y maen hwn, ddarlun o'r Awen yn wylo uwch ben ei fedd. Ymddengys iddo ychydig o flyneddau cyn marw, ymuno mewn proffes gyda y Trefnyddion Calfinaidd, gyda pha enwad y buasai ei wraig a'i blant yn aelodau o'u hieuenctid, ac yntau ei hun yn wrandawr. Dywed Williams, yn ei *Eminent Welshmen* am dano, ei fod wedi ei eni yn athrylithfawr; a than amgylchiadau mwy ffafriol, y gallasai adael adgofion teilyngach am ei alluoedd ar ei ol!

**EDWARDS**, Timothy, ydoedd un o for-filwyr enwocaf Prydain Fawr. Yr oedd yn hanu o deulu henafol ac anrhydeddus Nanhoron, yn Sir Gaernarfon, ac yn fab i'r Parch. William Edwards, offeiriad. Efe a anwyd yn y flwyddyn 1731, ac efe a ddaeth i etifeddiaeth y teulu, ar farwolaeth ei ewythr, Richard Edwards, Ysw. Yn mhen ychydig amser, wedi iddo ymuno a'r mor-filwyr, sef yn 1755, dyrchafwyd ef yn is-gadben, ac yn llywydd, yn 1757. Wedi hyny, bu yn olynol yn gadben y llestri rhyfel a elwid y *Valeur*, y *Wager*, a'r *Emerald*. Yn 1778, dyrchafwyd ef i'r llong a elwid y *Cornwall*, yr hon a gludai 740 o ynnau mawrion; un o'r llynges a anfonwyd i'r Amerig, dan lywyddiaeth yr is-lyngesydd Byron, gyda'r bwriad o wrthwynebu llynges Ffraingc, dan reolaeth Count D'Estaing; eithr ni chafodd y llywydd Edwards gyfleusdra y tro hwn, i arddangos y dewrder dihafal a'i hynodai ar lawer amgylchiad arall. Efe a ymunodd â Byron, er myned i India y Gorllewin, tua diwedd y flwyddyn; ac yn y frwydr â Count D'Estaing, tu hwnt i Granada, Gorphenaf 6, 1779, yr oedd efe wedi ei osod yn un o eilwyr yr is-lyngesydd Parker. Enillodd iddo ei hun enwogrwydd uchel, yn y gorchestion a gyflawnodd ar yr amgylchiad hwn. Bu agos i'w long suddo yn yr ymdrech; cafodd ei niweidio i raddau mawr, a lladdwyd 16 o'r dwylaw, a chlwyfwyd 27 eraill. Darluniai y rhaglyngesydd Byron, yn yr hanes a rydd am yr ysgarmes, ymddygiad y Cadben Edwards gyda yr arganmoliad uchaf. Yn Ebrill 1780, yr oedd efe yn bresenol yn yr ymdrechfa a fu rhwng Syr Sior Rodney, a'r Count de Guiechen, Gosodwyd ef ar yr achlysur hwn eto, yn un o eilwyr y Cadlywydd; ac efe a gyflawnodd ei orchwylion yn egniol, ac anrhydeddus, mewn llong oedd yn hanerdrylliedig. Ar yr amgylchiad hwn, lladdwyd 21 o wyr, a chlwyfwyd 41. Yr oedd ei long ef wedi ei hadgyweirio erbyn y frwydr drychinebas hon, eto, o herwydd y niweidiau trymion a dderbyniasai yn flaenorol, nid oedd mewn cyflwr priodol; ac nid hir y bu hi wedi hyn, cyn suddo; yr hyn a gymerodd le



Digitized by Google

pan yr oedd wedi angori yn St. Lucia. Pa fodd bynag, yr oedd y Cadben Edwards wedi ei gadael cyn hyny, ac ar ei fordaith i Loegr, i dderbyn y parch a'r anrhydedd oedd yn aros yn deilwng iddo, fel gobrwy oddiwrth ei frenhin, a'i wlad, am wasanaeth pybyr, yn wyneb gelynion galluog. Eithr tra yr ydoedd ar ei fordaith tu ag adref, gafaelodd twymyn ynddo, a drodd yn angeuol iddo, a bu farw Gorphenaf 12, 1780, yn 49 mlwydd oed. Y mae ei enw mewn anrhydedd gan ei wlad, a'i genedl, hyd y dydd hwn.

**EDWARDS**, WILLIAM, yr "*Adeiladydd ar gyfer y ddau fyd*," a anwyd yn 1719, mewn tyddyndy o'r enw y Bryn, yn mhlwyf eglwys Ilan, neu Elian, yn swydd Forganwg. Mab ydoedd i Edward Dafydd, Bryn Dail, yr hwn a fu farw pan nad oedd efe ond dwy flwydd oed, gan adael ar ei ol, weddw a thri mab, ac un ferch; yr ieuangaf o ba rai, ydoedd William. Enillodd iddo ei hun enwogrwydd a ledaenodd, nid yn unig dros Gymru, ond hefyd dros yr holl fyd adnabyddus, fel maen-saer, yn adeiladaeth y pontau eangaf, ac ardderchocaf a fedd ein gwlad; ac ni bu yn ol am ei lafur a'i lwyddiant, fel adeiladydd ysbrydol; fel pen-saer ffyddlon yn eglwys y Duw byw, fel gweinidog yr eglwys Annibynol yn y Groes-wen. Fel yr oedd efe yn byw mewn ffermdy, gyda ei fam, yr oedd yn naturiol, yn llygadu yn wastadol, ar y gwaliau ar y tir. Daeth y meibion hynaf yn fuan, yn alluog i gynorthwyo eu mam yn niwylliad y tyddyn, a rhoddodd hyny fantais iddi, er anfon William i'r ysgol, yr hwn a ddysgodd ddarllen ac ysgrifenu ychydig yn iaith ei wlad; ac ymddengys mai dyma gymaint o fanteision dysgeidiaeth a gafodd y dyn athrylithfawr hwn. Dechreuodd ymhyfrydu mewn adgyweirio y gwaliau ar y tir, yn awr ac eilwaith, pan yr ydoedd tuag 16 oed. Denwyd sylw yn fuan, ei fod yn gallu cyflawni y gorchwyl hwn gyda harddwch, cadernid, a chyflymder, uwchlaw y cyffredin. Anogodd rhai cyfeillion ei frawd henaf, i'w gefnogi yn yr amcan hwn; ac y byddai ef yn wasanaethgar iawn i eraill, yn y gymydogaeth, yn gystal a'i gartref. Cymerodd William yr awgrymiad i fynu yn llawen, a gelwid am ei wasanaeth mewn adeiladu gwaliau yn fynych iawn, mewn amrywiol fanau. Cyflwynai ei gyflog yn ofalus i'w fam. Gelwid y cloddiau hyn yn gyffredin, "gwaliau sychion," o blegid nad oedd morter yn cael ei arfer atynt. Tu a'r amser hwn, daeth nifer o faen-seiri medrus i'r gymydogaeth, i adeiladu lle i ôf, bedoli ceffylau. Gwelai William ragoroldeb medrus y gweithwyr hyn, yn llunio y pileri, a'r muriau, ac awyddai yn fawr am eu hefelychu. Sylwai ar gynlluniad eu morthwylion, gyd ag un pen yn deneu fel bwyall; a'u bod yn gallu trwsio y cerig gyda glanweithdra canmoladwy, yr hyn na ellid ei wneud gydag arfau trwsgl y wlad. Cafodd yntau gan ôf, lunio morthwylion cyffelyb, wedi ei durio yn drefnus, ac nid hir y bu yntau heb eu hefelychu, a'u taflu i'r cysgod oll. Cafodd ei alw i godi gweithdy i gymydog yn fuan, yr hyn a gwblhaodd gyda'r fath fedrusrwydd, fel y daeth, yn wrthddrych sylw a chanmoliaeth yr holl wlad. Cafodd ei alw wedi hyny i adeiladu melin, yn ei blwyf ei hun; ac yma y daeth gyntaf i ddeall egwyddorion hanfodol cynlluniad bwa maen. Wedi cyflawni gorchwylion y felin, denwyd sylw celfyddydwyr cywrain at y gwaith, a'r farn unedig am dano ydoedd, ei fod yn benigamp. Ystyrid ef erbyn hyn, y prif grefftwr, yn y dosparth hwn, yn yr holl wlad. Yr oedd galwad am ei wasanaeth yn mhob man, ac yr oedd yntau yn rhoddi boddlonrwydd i bawb, fel dyn medrus, a gonest. Yn 1746, ymgymerodd âg adeiladu pont newydd dros yr afon Tâf, yn y lle, ag sydd ar ol hyny, wedi bytholi ei enw a'i goffadwriaeth. Cyflawnodd y gwaith hwn gyda phrydferthwch, a chadernid, oedd yn rhagori ar ddim arall oedd wedi ei godi drwy yr holl wlad, na thrwy holl Gymru benbaladr. Yr oedd yn gynwysedig o dri bwa, o gynlluniad ysgafn a hardd. Yr oedd y cerig nadd yn ymddangos fel pe buasent wedi eu hasio yn un darn o gyfanwaith. Yr oedd yn wrthddrych clodforedd pawb a'i gwelai. Ond y mae yr afon hon yn rhedeg drwy ddyffryn isel, sydd yn dra chocdiog, ac yn cael ei hymylu ar bob ochr gan fynyddoedd uchel. Dylid crybwyll yma hefyd, fod afonydd cryfion eraill, megis y Criw, y Bargoed Taf, a'r Cunno, gyda lluaws o ffrydiau llai, yn rhedeg iddi, fel yr el yn mlaen yn ei llifeiriad. Fel y mae disgyniad rhai o honynt yn serth, ac ar ol gwlawogydd trymion, ei bod yn codi yn gyflym, ac yn rhuthro yn mlaen gyda nerth ofnadwy; anghredadwy o'r bron, i drigolion y gwastad-dir. Yn anffodus, bu ystorm fel hyn, yn fuan wedi cwblhau y bont hon; yr hon a ddiwreiddiodd nifer o'r coed cryfaf, ac a'u cludodd yn llwythi trymion, gyda pheth wmbredd o frysglwyni, gwair, gwellt, a chwŷn, y rhai a ddaethant oll yn erbyn y bont, gan atal rhediad y llif, dan y bwa-meini, a thrwy y rhuthr ofnadwy, cludwyd y bont ardderchog ymaith gan y llifeiriant, allan o olwg yn mhell. Yr oedd yr holl yni, ymadferth, a phenderfyniad a feddai yr Archadeiladydd enwog, erbyn hyn wedi eu gosod yn y prawf. Yr oedd William Edwards, yn ei berson ei hun, gyda meichiafon cyfrifol, wedi rhoddi sicrhad am ddiogelwch y bont dros saith mlynedd. Wrth reswm, yr oedd ef yn rhwym o adeiladu un arall; a dechreuodd ar ei waith yn ddioed. Nid oedd y bont gyntaf wedi sefyll i fynu ddim dros ddwy flynedd a haner. Yr oedd yr ail bont o un bwa, fel y byddai yr agored yn ddigon llydan, i ollwng ymaith bob sylweddau a gludid gan y llifeiriaint nerthol, ar ystormydd mawrion, drwodd. Yr oedd lled y bont hon, yn gant a deugain troedfedd: yr oedd ei huchder, yn bymtheg troedfedd a thriugain. Gorphenwyd y bwa, ond yr oedd yr ategion eto heb eu cwblhau, a chymaint ydoedd pwysau y naill ben a'r llall, fel yr ymgododd y bwa yn y canol, ac y maluriwyd y meini clô, ac y syrthiodd y mur. Dychymyged y darllenydd bellach, os gall, beth a allasai fod teimladau William Edwards, ar y pryd. Yr oedd raid fod hyn yn gryn ergyd iddo, gan fod ei enw, gyda phriodoldeb ei anturiaethau, yn nghyd a'i lwyddiant, oll, yn unedig a'r anffawd. Yr oedd gan William Edwards, er hyn oll, ddigon o wroldeb a phenderfyniad, i ymgynal dan y profiad tanllyd a'i goddiweddodd. Cynnygiodd ar y bont y drydedd waith; a thrwy gynllunio tri o dyllau, eang, agored, yn y mur, ar bob pen i'r bont, llwyddodd i ysgafnhau y pwysau anferth, oedd yn gwasgu, yn erbyn y bwa, fel na bu dim perygl oddiwrth hyny mwyach. Y mae y tri agored yn ymgodi uwchlaw eu gilydd, mewn cysondeb, yn ol cynlluniad y bwa, ac yn ychwanegu at brydferthwch yr adeilad. Lled yr isaf yw naw troedfedd; y mae yr ail yn chwech; a'r trydydd yn dair troedfedd. Syrthiodd yr ail bont yn 1751. Gorphenwyd y drydedd, yr hon sydd yn sefyll hyd heddyw yn 1755. Dywedir fod

Digitized by Google

William Edwards wedi cael cydymdeimlad a chynnorthwy gan foneddion y wlad, yn wyneb y golled, ond nid oes profion eglur o hyny; ac ni wyr ei olafion ddim am ei fod yn ddyledus am haelioni neb. Hyd yn hyn, ystyrid mai y Rialto oedd y bont letaf yn Ewrob, os nid yn y byd; yr oedd ei lled yn ddeunaw troedfedd a phedwar ugain, ond y mae lled Pont-y-pridd ddwy a deugain o droedfeddi yn fwy na hono. Aeth enwogrwydd yr Adeiladydd hwn ar led drwy y teyrnasoedd. Galwyd am ei wasanaeth yn adeiladaeth Pont Brynbyga, wedi hyn. Cododd hefyd bont o dri bwa dros yr afon Tawy; Pont ar Dawy, dros yr un afon, tua deng milltir uwchlaw tref Abertawe: un bwa oedd i hon, yn bedwar ugain troedfedd o led, gydag un agored yn yr erchwynion. Pont Bettws, yn Sir Gaerfyrddin, yn cynwys un bwa, pum troedfedd o deugain o led; a phont Llanymddyfri, yn yr un sir, yn cynwys un bwa, yn bedwar ugain troedfedd o led, gydag un agored yn yr erchwynion. Pont Wychbrec, dros afon Tawy, tua dwy filltir uwchlaw Treforris, un bwa, naw a phedwar ugain troedfedd o led, dwy ar hugain o uchder, gydag un agored yn y penau. Efe hefyd a adeiladodd bontydd Aberafon, Glasbury, ac amryw eraill. Gwnaeth lawer o welliannau, o bryd i bryd, yn nhrefn adeiladaeth pontau meini, a fuant yn wasanaeth mawr i'r teyrnasoedd oll. Dyma orchestion gan Gymro uniaith, a saif yn gynllun i'r byd, o eangder terfynau hunan-addysgiant, a llafur penderfynol, yn wyneb mil o rwystrau, a myrdd o achlysuron digalondid. Yn ychwanegol at ei fedr mewn adeiladaeth pontau, rhoddodd brawf o eangder ei alluoedd, a'i gymhwysder celfyddgar, mewn adeiladu ffyrndai, todd-dai, tyrau, a phalasdai. Yr oedd ei athrylith eang, a'i wroldeb penderfynol, yn ymlid pob anhawsderau ymaith o'r golwg, fel y byddai yn sicr o'i nod, yn mhob camp uchel yr ymgymerai â hi. Yr oedd gartref gyda holl gyfrinion y wyddoriaeth, yn ei holl ganghenau amrywiaethol, ar unwaith; ac nid oedd un math o anhawsder, na weithiai drwyddo rhag ei flaen. Dywedir iddo gael ei ddysgu i ddarllen ychydig Saesneg, pan oddeutu un ar hugain oed, gan ddyn dall, yn nhŷ yr hwn yr oedd yn lletya pan yn adeiladu tawdd-dy yn Nghaerdydd. Yn ganlynol i hyn, bernir iddo ddyfod i wybod ychydig am rifyddiaeth. Cafodd yr anhrydedd o gyfeillachu gyda phrif gelfyddydwyr, a boneddion y byd. Anfonodd un gwr bonheddig o Loegr am dano, er mwyn cael ei weled; ac wedi iddo fod ychydig yn ei gyfeillach, anrhegodd ef âg ugain punt, i ddychwelyd adref.

Yr oedd William Edwards yn ddyn crefyddol, yn bregethwr teilwng, ac yn weinidog ffyddlon. Yr oedd yr amser hwnw, tu ag un ar ddeg o frodyr wedi ymneillduo o eglwys Elian, oddiwrth Mr. Smith, yr offeiriad, ac wedi codi addoldy ar eu traul eu hunain, sef y Groes Wen, ar y man y saif y capel presenol. Ymunodd William Edwards â hwy yno; a chyn hir, deallwyd fod ei wybodaeth ysgrythyrol yn eang, a'i ddawn ymadroddi yn barod; ac ar ddymuniad y frawdoliaeth, dechreuodd bregethu, a hyny, pan yr oedd tua deg ar hugain oed. Yn fuan wedi hyn, daeth arnynt awydd cael gweinidog yn eu plith eu hunain; ac i'r dyben hwn, aeth un Edward Llwyd, yr hwn oedd yn aelod parchus yn yr eglwys, a William Edwards, i Bont-y-pwl, at y Parch. Edmund Jones, yr hwn a elwid y pryd hwnw, "Yr Hen Brophwyd," i ymgynghori yn yr achos. Pan ddaethant at y drws, yr oedd Mr. Jones ar weddi gyda'i deulu, ac felly safasant yno, nes iddo orphen. Pan gododd, dywedodd wrth ei deulu, fod dau o weision yr Arglwydd wrth y drws. Yna, aethant i mewn; ac wedi ymgynghori ar y neges, dywedodd yr hen brophwyd, am iddynt neillduo William Edwards i'r weinidogaeth; ac addawodd ddyfod yno ei hun, i gynorthwyo yn y gorchwyl, ac felly y bu. Dywedir am Mr. Edwards yn dystiolaeth am ei ymddygiad, ei fod yn dra phrydferth ac efengylaidd, a'i fod yn esampl o ddichlynder a santeiddrwydd, pa le bynag yr elai. Bu yn weinidog yn y Groes Wen am agos i ddeugain mlynedd; a'r hyn oll a dderbyniodd am ei wasanaeth oddiwrth yr eglwys, at ei gynaliaeth dymorol, fel ei bugail, a gyfranai efe mewn elusenau, ac at achosion crefyddol; a llawer yn ychwaneg weithiau. Fel hyn yr oedd efe yn adeiladydd rhagorol, ar gyfer ychwaneg nac un byd. Bu yn offerynol i ddychwelyd lluaws o eneidiau at y Gwaredwr. Efe a fu farw, yn 1789, yn dri-ugain a deng mlwydd oed. Y mae ei fywgraphiad wedi cael ei ysgrifenu gan lenorion o Loegr, yr Alban, a'r Amerig. Yr oedd Mr. Edwards yn wastadol yn dysgu pobl y Groes Wen, mai eu dyledswydd fel cymdeithas grefyddol, oedd cynal eu gweinidog yn anrhydeddus; ac o herwydd y rheswm hwn, yr oedd efe yn cymeryd gan y gynulleidfa y gyflog addawedig, er na ddefnyddiodd ef yr un ffyrling o honi at ei wasanaeth ei hun. Sylwai, er fod galwedigaeth enillfawr yn ei osod ef mewn amgylchiadau ag y gallai eu gwasanaethu yn rhad, y gallai ei olynydd fod yn wahanol. Ar ddydd ei gladdedigaeth, ymgynullodd tyrfa fawr, i dalu y deyrnged olaf i'w goffadwriaeth, pan y pregethodd Mr. T. Walters, Mynyddislwyn, cyn cychwyn allan. Aethant dan ganu, yr holl ffordd hyd fynwent Eglwys Elian, lle y gorphwys ei weddillion marwol mewn tawelwch.

**EDWEN**, Santes, o darddiad Sacsonaidd. Dywedir mai merch, neu nith ydoedd, i Edwin, brenin Northumbria, a'i bod wedi ei dwyn i fyny yn Llŷs Cadfan, yn Nghaerseiont. Mae eglwys Llanedwen, yn Mon, yn cadw ei choffadwriaeth hi. Ei dydd gwyl oedd Tach. 6ed.

**EDWIN**, arglwydd Tegeingl, swydd Fflint, ydoedd benaeth un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Mab ydoedd i Goronw ab Hywel Dda; ac ar ei baisarfau yr oedd "*Argent between four Cornish choughs, a cross fleuri engrailed sable.*" Oesai yn y 10fed ganrif.

**EDWINS**, treflan yn mhlwyf Llansawel, Swydd Gaerfyrddin; 11 milldir i'r Gogledd o Landeilo fawr. Poblogaeth, 182.

**EDWINSFORD**, neu Rydodyn, cyd-drefgordd â'r Glyn, yn mhlwyf Llansawel, rhanbarth isaf cantref Caio, swydd Gaerfyrddin, Deheudir Cymru, 8½ m. i'r Gogledd, o Landeilo-Fawr, poblogaeth yr hon sydd yn cael ei rhoddi gyda'r plwyf. Y mae Rhydodyn yn gorwedd mewn dyffryn dymunol a choedog, ar lân ddeheuol yr afon Cothi, yn y ffordd yr elych o Landeilo-Fawr, i Llanbedr-pont-Stephan, yn swydd Aberteifi. Y mae palas hardd Syr James Hamlyn Williams, Barwnig, yn gwynebu y ffordd, ac y mae yr olwg arno wrth droed y Moelfre uchelgrib, yn darawiadol dros ben. Y mae y golygfeydd o'i gwmpas yn llawn prydferthwch, ac y mae adfeilion hen gaerfa gerllaw iddo. Y mae amryw o deulu Rhydodyn wedi bod yn aelodau seneddol dros sir Gaerfyrddin, ac felly y bu Syr James ei hun. Yn

Digitized by Google

1802 gwrthwynebwyd ef gan Syr William Paxton, Middleton Hall; a'r etholiad hwn oedd y mwyaf treulfawr a fu yn y sir erioed. Parhäodd am un-ar ddeg o ddyddiau, yr hyn oedd oddefol cyn Act Diwygiad 1832, ac y mae yn cael ei galw hyd heddyw "Y Lecsiwn Fawr." Costiodd i Syr William Paxton y swm o 15,690*p.* 4*s.* 2*c.* Talodd 786*p.* am ysnodenau yn unig, ac yr oedd yn y cyfrif y pethau canlynol: 11,070 o fore brydiau i'r etholwyr; 36,901 o giniawau; 684 o swperau; 25,275 galwyn o gwrw; 11,068 potel o wirodydd; 8879 potel o borter; 460 potel o sherry; 509 potel o afalwy; a gwaith 4521 o geffylau. Yr oedd y pleid-leisiau fel y canlyn:—Syr James Hamlyn Williams, 1217; Syr William Paxton, 1110. Bu etholiad ymdrechgar iawn hefyd yn 1837, pan y collodd Syr James ei eisteddle, ac ni bu yn y senedd wedi hyny. Rhyddfrydwyr yw y teulu, ac y maent yn garedig iawn i dlodion y gymmydogaeth, megis talu am ysgol eu plant, &c.

**EDWY**, afonig brydferth ag sydd yn tarddu ychydig uwchlaw BETTWS-DISERTH, cantref COLWYN, swydd FAESYFED, DEHEUDIR CYMRU. Y mae gweddillion hen gastell ar ei glànau, yr hwn a elwir "Castell Llewelyn;" y maent yn gynnwysedig o ddarn o dŵr, a mur, y rhai sydd yn edrych i lawr ar yr afonig yn crych-ffrydio rhwng y creigiau danneddog tua'r afon Wy, i'r hon yr ymarllwysa, ychydig islaw i dref gynnyddfawr Llanfair-yn-Muallt. Y mae y golygfeydd hyd lànau yr afonig hon, yn llawn o harddwch rhamantus; ond yn amser Llewelyn ap Gruffydd, yr hwn a elwir "Llewelyn ein Llyw Olaf," nid yw yn ymddangos fod cymmeriad y preswylwyr yn meddu harddwch cyfunfath; canys mewn rhyw le yn agos i'w haberiad, lladdwyd ef gan ryw un, drwy dwyll a brad y brodorion: oddiwrth hyn y cododd y dywediad "Bradwyr Aberedwy," a "Bradwyr Buallt." Gwel ABEREDWY.

**EFENECHTYD**, neu Y FYNEICHDYD, plwyf yn nghantref RHUTHIN, Swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU, 2 filldir i'r De wrth Orllewin o Ruthin. Bernir fod y lle hwn, mewn amser boreuol, yn perthyn i ryw grefydd-dy, fel y mae yr enw yn arwyddocau, yr hwn sydd yn deillio o "Mynach," a "thud," brô, neu dir; er na's meddwn unrhyw gofion neillduol am hyny. Y mae sefyllfa y pentref yn ddifyrus, mewn dyffryn neillduedig a phrydferth. —Rheithoriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn esgobaeth Llanelwy, ac yn werth 200 punt yn y flwyddyn. Y mae Llan y plwyf yn gyssegredig i St. Michael, neu, Mihangel. Cynwysa fedyddfa hynod o gywrain, yr hon a gerfiwyd allan o un dernyn o dderwen sylweddol; ac y mae yma grog-lofft dda. Mesura y plwyf 1217 o erwau; a chyfrifir ei werth ardrethawl yn 1210 punt. Yn ol Deiliadeb 1861, yr oedd o drigolion yn y plwyf, 211; ac o dai annedd 53. Medda y Trefnyddion Calfinaidd le addoliad yn y plwyf. Ar ben uchelfa, oddiar y pentref, y mae olion hen wersyll milwraidd, a elwir "Pen y Gaer:" ac y mae maen mawr yn y fynwent, a elwir "Careg y Gamp," yr hon y gwnelid rhyw ddefnydd o honi gynt, yn chwareuon gwerinol y plwyf. Bu y Dr. William Lloyd, Esgob Norwich, yn Rheithor y plwyf hwn am rai blyneddoedd; ac efe a roddes anrheg o lestri cymmundeb ysplenydd i'r Eglwys hon, yn y flwyddyn 1710. Y mae ychydig o gymmun-roddion elusenawl wedi eu gadael at wasanaeth y plwyf hwn, cynnyrch y rhai a gyfrenir rhwng tlodion y plwyf yn flynyddol.

**EGLWYS AEL**, (gwel LLANGADWALADR,) plwyf yn Swydd FÔN, GOGLEDD CYMRU.

**EGLWYS BACH**, plwyf, yn benaf, yn nghantref IS-DULAS, swydd DDINBACH, ond yn cynwys hefyd dref-gordd Maenan, yn nghantref ARLLECHWEDD ISAF, swydd GAER YN ARFON, GOGLEDD CYMRU; 6 milldir i'r Gogledd o Lanrwst, ar y ffordd i Lansant-ffraid Glan Conwy. Y mae y pentref mewn dyffryn bychan tlws, tua milldir i'r Dwyrain o reilffordd Bettws y Coed, a Llandudno; nid yn neppell o orsaf Tal y Cafn. Y mae y plwyf yn cynwys trefgorddau Bodnod, Cefn y Coed, Esgorebrill, a'r Pennant, yn Sir Ddinbach, a threfgordd Maenan, yn Sir Gaer yn arfon. Y mae y rhan o'r plwyf sydd yn Sir Ddinbach, yn mesur 7838, o gyfeiriau o dir; a'i werth tirawl yn cael eu gyfrif yn 5270 punt; a'i boblogaeth yn ol Deiliadeb 1861, yn cyrhaedd y nifer o 1157, a nifer y tai annedd, yn 257. Mesura y rhan o'r plwyf a berthyna i Sir Gaerynarfon, 2902 erw o dir; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 1845*p.*; nifer y trigolion, 373, tai, 80.

Yn agos i derfyn gogledd-orllewin y plwyf, y mae Bodnod, palas yr Hanmeriaid, yn sefyll. Daeth yr ettifeddiaeth hon yn eiddo un William Hanmer, Ysw., trwy ei briodas ag ettifeddes hen deulu y Llwydiaid, y rhai, fel yr ymddengys, oeddynt yn meddiannu y tiroedd hyn yn amser teyrnasiad Iago y Cyntaf. Tynwyd yr hen balas i lawr, gan y diweddar John Forbes, Ysw., ac adeiladwyd un newydd ar ei orsaf, yn y flwyddyn 1792, yr hwn a helaethwyd ac a wellawyd yn fawr gan Mr. Hanmer, yn y flwyddyn 1829; y mae hwn yn balas hardd iawn, mewn sefyllfa ddymunol, o'r hwn y ceir golygfeydd eang ac amrywiol, dros ddyffryn y Conwy, ar fynyddoedd Eryri. Y mae dau balas arall yn y plwyf, sef Pennant Ereithlyn, a Maenan. Er fod yr afon Conwy yn fordwyol ar hyd y plwyf hwn, nid oes dim a ellir ei alw yn fasnach, na llaw weithfeydd yn perthyn i'r Eglwys Bach. O fewn ffiniau y plwyf hwn, mewn lle a elwir Tal y Cafn, y mae porthfa i groesi yr afon Conwy, er cymmundeb a swydd Gaerynarfon; a dywedir mai hen enw y borthfa, oedd "Porth Howel Goch." Cynhelir ffeiriau yn yr Eglwys Bach, ar Chwefror 24ain, Mai 11eg, Awst 24ain, a Thachwedd 24ain. Cynhelid pentreflys, a breyr-lys yma yn flyneddol yn mis Ebrill, am faenor Maenan, yr hon a gynwys y cyfan o'r plwyf sydd o fewn Swydd Gaer yn arfon, ac a hawlia y rhagorfreintiau a fwynheid gynt gan abadau y Fynachlog oedd yma ar un adeg. Neillduwyd degymau perigloraidd y plwyf hwn, gan Syr John Wynne, Bar., er gwaddoli yspytty, ac ysgol rammadegol Llanrwst, a sefydlasid ganddo yn y flwyddyn 1610. Ficeriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn esgobaeth Llanelwy, gwerth 220*p.* Noddwr, Esgob Llandâf. Yr eglwys, yr hon sydd yn gyflwynedig i St. Martin, a ail adeiladwyd yn gyfangwbl, yn y flwyddyn 1782; y mae yn adeilad hardd ac eang, a thŵr ysgwar isel iddi. Y mae yn y plwyf dri addoldy perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd, ac un perthynol i'r Trefnyddion Wesleyaidd.

Yn y rhan hono o'r plwyf, sydd yn perthyn i Swydd Gaer yn arfon, y safai Mynachlog Maenan yn yr hen amser; am yr hon yr haera rhai haneswyr, ei bod wedi ei seilio yn nheyrnasiad Rhisiard y Cyntaf; ond, ni chair unrhyw hanes ddilys am dani cyn y flwyddyn 1283, pan ddarfu i'r brenin Edward I., trwy awdurdodiad y Pab Nicholas, symud myneich Aberconwy i

Digitized by Google

Maenan, er mwyn gwneyd tref filwraidd a chastell yn Aberconwy; ac ar eu sefydliad yn Maenan, efe a gadarnhaodd iddynt yr holl ragorfreintiau a fwynhaent yn eu trigfa flaenorol, ac a chwanegodd lawer at eu meddiannau blaenorol. Parhaodd y Fonachlog yn llwyddianus yn y lle hwn, hyd ddadgorphoriad y mynachlogydd, pan y cyfrifid bod ei chyllid blynyddol yn 179*p.* 10*s.* 10*c.* Yn y flwyddyn 1563, dyroddwyd y fynachlog, a'r drefgordd yn yr hon y safai, gan y Frenines Elizabeth, i Eliseus Wynne, yr hwn a dynai y rhan fwyaf o'r adeiladau mynachlogaidd i lawr, ac a adeiladai balas â'r defnyddiau, yn agos i'r llanerch lle y safai yr hen Fynachlog; ac yn lled ddiweddar, y mae Arglwydd Newborough wedi adeiladu palas newydd ysplenydd, yn lle yr hen balas a adeiladasai ei hynafiad Eliseus Wynne.

**EGLWYS-BREWIS**, plwyf yn undeb Penbont-ar-ogwy a PHONTFAEN, cantref BONTFAEN, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, 4 milldir i'r De wrth Ddwyrain o'r Bontfaen, gydag 21 o boblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861. Rectoriaeth ryddhäol yw y fywioliaeth, ac y mae yn cael ei threthu ar lyfrau y frenines yn 3*p.* 18*s.* 6½*c.*; cyfanwerth presenol 93*p.*; y mae yr eglwys fechan wedi cael ei chyflwyno i St. Brise, ac nid oes yn perthyn iddi unrhyw hynodrwydd adeiliadaethol. Nid oes yma yr un pentref, ac y mae y plwyf yn mesur 367 erw.

**EGLWYS-CYMMIN**, plwyf yn undeb NARBERTH, yn rhanbarth isaf cantref DERLLYS, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, 4 milldir i'r Gorllewin o Lacharn, ar y ffordd i Narberth; yn ol Deiliadeb 1861 cynnwysa 260 o drigolion. Y mae Syr John Pryce, yn ei hanes o ryfeloedd Cymru, yn crybwyll am y plwyf hwn, ac yn dywedyd fod yma gytundeb heddwch wedi cael ei wneuthur: y mae yma fan a elwir hyd heddyw "Parc-yr-heddwch," lle, meddynt, y cymmerodd y cyflafareddiad le. Y mae yn blwyf pur fawr, ac yn mesur 3634 erw; ond y mae llawer iawn o hono heb fod o dan ddiwylliad: y mae dwy ffrwd yn ei groesi, y rhai sydd yn rhedeg o dàn y ddaear am lawer o ffordd, ac yn ymarllwys i angorfa Caerfyrddin. Rectoriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, a threthir hi ar lyfrau y frenines yn 8*p.*; y mae yn nawddogaeth y Goron, ac yn werth 147*p.* Y mae yr eglwys, yr hon sydd wedi cael ei chyssegru i St. Margaret, yn cynnwys bedd-adail i Syr John Perrot, sirydd cyntaf swydd Benfro. Y mae y geiriau canlynol, mewn hen lythyrenau, yn gerfiedig ar y cwpan cymmun, *Poculum Ecclesiæ de Eglos Skymine*, gyda'r dyddiad 1574: gan fod y gair *Skymine* yn golygu "oerllyd," neu, "oerlwm," yr ydys yn meddwl ei fod yn cyfeirio at sefyllfa yr eglwys, ar uchelfa noeth anghysgodol. Y mae yma ysgol Genedlaethol, yr hon a sefydlwyd yn 1832; ac yn yr hon yr addysgir tua 130 o blant: cynnelir hi o drysorfa a roddwyd yn ewyllys y diweddar Mrs. Bevan. Yn 1682 gadawodd Zecharia Thomas, yn ei ewyllys, y swm o 1*p.* 6*s.* 8*c.* y flwyddyn, i'r tlodion nad ydynt yn derbyn tâl plwyfol. Y mae yma ychydig weddillion o briddwaith milwraidd, mewn cae a elwir "Parc-y-castell."

**EGLWYS Y DRINDOD**, (gwel EGLWYSILAN,) plwyf yn Swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU.

**EGLWYS EIRW**, (gwel EGLWYSWRW,) plwyf yn Swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU.

**EGLWYS-FACH**, neu LLANFIHANGEL-CAPEL-EDWIN, capeliaeth yn nhrefgordd YSGUBOR-Y-COED, plwyf LLANFIHANGEL-GENAU'R-GLYN, undeb MACHYNLLETH, cantref GENAU'R-GLYN, swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU, 5 milldir i'r De Orllewin o Fachynlleth. Y mae gorsaf yma ar reilffordd Aberystwyth. Gorwedda bron yn nghydiad yr afonig Einion a'r Dyfi. Y mae y gymmydogaeth yn llawn coed, ac yn un ddymunol iawn: y mae amryw anneddau boneddigaidd o gwmpas y fan, ac y mae golygfeydd dymunol oddiyma ar gainefor y Dyfi. Y mae y Dyfi yn fordwyadwy hyd yma i longau o 300 tunell, ac y mae llawer o fwn plwm, a rhisgl derw yn cael eu cludo oddiyma; atgludir glô, calch, a choed. Gerllaw yma yr oedd tawdd-dai, a melinau puro y cwmpeini oedd yn gweithio mwn-gloddiau arian y Goron. Ficeriaeth ydyw y fywioliaeth eglwysig, ac y mae gwedi cael ei gwaddoli âg 800*p.* o rodd freninol: ei chyfanwerth presenol, yw 80*p.*: y mae yn nawddogaeth Mrs. Davies, a meddiannydd lleygol y degwm, yw Mr. Chichester. Y mae y capel wedi cael ei gyflwyno i St. Mihangel. Y mae capel yr un yma gan y Trefnyddion Calfinaidd, a Wesleyaidd. Y mae yma ysgol ddyddiol hefyd.

**EGLWYS-FAIR-A-CHURIG**, capeliaeth yn mhlwyf HENLLAN-AMGOED, undeb Narberth, rhanbarth isaf cantref DERLLYS, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, 16 milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Narberth; ac 11 milldir i'r Gogledd Orllewin wrth Ogledd o St. Clears; gyda phoblogaeth o 268, yn ol Deiliadeb 1861. Gorwedda ar làn y Taf, yn nghŵr uchaf dyffryn yr afon hono, ar gyffinau swydd Benfro. Y mae'r gapeliaeth wedi cael ei chau i mewn, gan mwyaf, ac y mae yn cael ei hammaethu yn dda. Y mae y capel wedi cael ei gyflwyno i Dewi Sant, ac yn perthyn i eglwys Henllan-Amgoed.

**EGLWYS FAIR GLAN TAF**, rhandir oedd yn blwyf gynt, ar ffin gorllewinol Swydd GAERFYRDDIN; ar lan yr afon Tâf, a cher rheilffordd Deheubarth Cymru, yn agos i orsaf Whitland, 5½ milldir i'r Gorllewin o St. Clears. Y mae y Llythyrdy yn Whitland, dan Narberth.

**EGLWYSILAN**, plwyf yn undeb CAERDYDD, cantref CAERPHILI, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, tua hanner y pellder o Ferthyr-Tydfil i Gaerdydd; y mae y brif-ffordd, y camlas, a'r rheilffordd ag sydd yn cyssylltu y ddau le uchod â'u gilydd, yn myned drwyddo; felly hefyd y mae rheilffordd Caerdydd a Rhymney. Y mae yma gyflawnder o fŵn haiarn, calch, a glô, ac y mae gweithfeydd newyddion yn cael eu hagor yn barhaus. Y mae yma hefyd geryg adeiladu rhagorol, nad oes eu gwell yn y deyrnas; a chan y gellir eu cloddio yn flociau o faint anferthol, y mae cannoedd o dunelli o honynt wedi cael eu defnyddio at adeiladu dociau mawrion Caerdydd. Y mae hyn oll yn peri cynnydd mawr yn mhoblogaeth y plwyf: tua deugain mlynedd yn ôl, nid oedd y rhifedi yn agos i 3000; yn 1861 yr oedd yn 6383; ond yn ôl cyfrif 1871 y mae yn 8201. Bargodir y plwyf hwn ar y Dwyrain, gan yr afon Rhymney, ac ar y Gorllewin, gan yr afon Tâf; ac y mae yn mesur 13,619 o erwau. Y mae arwynebedd y plwyf, mewn rhan yn fryniog, ac mewn rhan yn wastadedd: y tir cyffredin ag sydd yma, ydyw cleidir graianog, a mawndir. Y mae yn cael ei ammaethu yn dda, y cymmaint o hono ag sydd yn atteb i hyny, ac y mae yn hynod o enwog am ei gaws. Yn y plwyf hwn y mae marchnattref Caerphili, ac y mae marchnadoedd Caerdydd, a Phontypridd, yn gyfleus iawn hefyd i'r trigolion. Rhenir ef i bum trefgordd; sef, Ene'r Glyn, Parc, Glyn Tâf, Hen-

Digitized by Google

dredenny, a Rhydyboethen. Yn Glyn Tâf, yn mhen uchaf y plwyf, y mae gweithiau Ynys Angharad, sef gweithiau angorion, cadwynau, &c., y rhai sydd yn bresenol yn perthyn i Lennox a'i Gyf. Y maent yn weithiau enwog iawn, ac ynddynt y gwnaethpwyd cadwynau pont Menai; pont Hammersmith, Llundain; ac amryw bontydd ereill; yn nghyd â glanfa *(pier)* Brighton; &c. Y mae plwyf Eglwysilan yn hen enwog am ei weithfeydd haiarn, fel y dengys "Hanes Hen Ffwrnais Caerphili," gan y diweddar Mr. John Rees, Pendarren, yr hon a ymddangosodd yn y *Seren Gomer*, ychydig flyneddau yn ol. Y mae yr "Hen Ffwrnais" wrth droed y llethr, ar ba un y saif hen blâs Ene'r-Glyn. Yn y pen hwn i'r plwyf, y mae pont un-bwäog Pontypridd, yr hon sydd yn rhychwantu y Tâf, ac yn cydio Llanwono â'r plwyf hwn. Edrychai yn hynod o dlws a chywreinwych; ond yr oedd yn rhy serth i fod o wasanaeth i fenau llwythog iawn; gan hyny, y mae pont arall wedi cael ei hadeiladu gerllaw iddi. Yma hefyd y mae y Maen Chwyf, yr hwn er ei faint, a ellid ei siglo â bŷs; ond codwyd ef o'i le, gan y Dr. William Price, er mwyn ceisio deall ei gelfyddwaith, a methodd ei osod yn ol, fel yr oedd; gan hyny, nid yw yn bresenol yn siglo mor hawdd. Y mae yn sefyll ar dwyn dymunol, ac amgylchynir ef gan amryw gistfeini, a gweddillion henafol ereill. Y mae amryw orseddau gwedi cael eu cynnal arno, yn ol Braint a Defawd Beirdd Ynys Prydain. Y mae gweithfeydd pibellau mawrion iawn, yn nyffryn tlws Nantgarw, y rhai sydd yn perthyn i'r Meistriaid Pardoe, a'i Frodyr; ac y mae yno glai rhagorol at wneuthur llestri, fel y dengys y *china* prydferth a wnaethpwyd yn y lle tua diwedd y ganrif ddiweddaf. Yr oedd dysgl, a dau neu dri o'r llestri ereill a wnaethpwyd yma, yn meddiant y diweddar Mrs. Williams, gweddw Mr. Thomas Williams (*Gwilym Morganwg*), Pontypridd; ac yr oedd yn aml wedi gwrthod 50*p.* am danynt.

Yr oedd yma gynt, amryw balasdai yn perthyn i deuluoedd enwog, megis Pwll-y-pant, Pont-y-pandy, Ene'r-Glyn, a'r Fan. Preswyliai Thomas Goodrich, Ysw., yn Ene'r-Glyn; ond yn awr y mae gweithwyr diwyd yn preswylio ynddo. Bu y Lewisiaid, hynafiaid Arglwyddi Plymouth, yn preswylio yn y Fan, am genedlaethau; ond y mae y plâs ardderchog hwnw, yn awr yn adfeilion. Daeth y Fan yn eiddo i deulu Plymouth drwy briodas Elizabeth, merch ac etifeddes Thomas Lewis, Yswain, â thrydydd Iarll Plymouth. Cynddrychiolydd presenol yr Ieirll yma, yw yr Arglwyddes Harriet Clive, yr hon hefyd sydd mewn meddiant o'r Fan. Nid yw llinach wrrywaidd y Lewisiaid, wedi darfod o'r plwyf hwn, ac y mae un o honynt, Wyndham Lewis, Yswain, yn byw yn bresenol yn mhlas harddwych Green Meadow, gerllaw y Castell Coch. Y mae yma hefyd ddau o adfeilion castellawg, sef adfeilion y Castell Coch, ac adfeilion Castell Caerphili. (Gwel CAERPHILI.) Y mae gweddillion y Castell Coch yn rai dyddorol iawn, ac y mae y golygfeydd oddiyma, yn olygfeydd dymunol ac arddunol i'w rhyfeddu. Y mae y gweddillion yn sefyll ar uchelfa o graig galchfaen, yn yml Tongwyrddlas, ac yn gynnwysedig o ddau ragfur crwn: y mae clogwyn serth o'r tu allan; ac o'r tu fewn y mae ffôs ddofn a llydan, wedi cael ei naddu o'r graig. Y mae y galchfaen yn cael ei chwarelu yma yn bresenol; y mae o liw cochwawr, ac o'r maen hwn y mae y castell wedi cael ei adeiladu, yr hyn sydd yn cyfrif am ei enw. Gelwid castell Caerphili, y "Castell Glâs." Adeiladydd y castell hwn, oedd Ifor ap Cadifor, neu fel y gelwir ef gan rai, Ifor ap Meurig, sef Ifor Bach; yr hwn a osododd ei sylfaeni tua chanol y ddeuddegfed ganrif. Amcan ei adeiladu, oedd cael lle manteisiol i wylio symudiadau milwrol y Normaniaid, yn nyffryn Tâf. Yr oedd arglwyddiaeth Senghenydd, neu Gaerphili, yn meddiant Cedrych ap Gweithfoed, tadeu Ifor Bach; ac yr oedd Ifor am ei chadw yn y teulu. Oddiar oresgyniad Morganwg yn 1091, gan Robert Fitzhamon a'r Normaniaid, yr oedd y Clares, ac ereill o'r arglwyddi dilynol, yn parhaus ormesu y wlad. Er gosod attalfa arnynt, adeiladodd Ifor gastell Morlais, ar gŵr uchaf arglwyddiaeth Senghenydd, nid pell o Ferthyr Tydfil, yn yr hwn yr oedd mil o warchodlu ganddo; ac adeiladodd y Castell Coch, ar gŵr deheuol yr arglwyddiaeth, yn yr hwn yr oedd dau gant o warchodlu ganddo. Ei elyn penaf, oedd William, mab Robert, Iarll Caerloyw; yr hwn oedd yn byw yn Nghastell Caerdydd. Rhyw noson, ymosododd Ifor ar y castell hwnw, a chymmerodd William, ei foneddiges, a'i blentyn, yn garcharorion; a chadwodd hwynt mewn caethiwed yn y Coettir, hyd nes dychwelyd yn ol iddo yr hyn a ddygasid oddiarno ar gam, a chael o wŷr Morganwg addewid, y byddai iddynt gael eu llywodraethu yn ol cyfreithiau Hywel Dda. Dywed y Brut, mai Robert, Duc Caerloyw, yr hwn a nodir uchod, a gymmerodd Ifor yn garcharor; ond y mae Giraldus Cambrensis yn dywedyd, mai William ei fab, Iarll Clare, oedd yr hwn a fu'n garcharor; a chan fod Giraldus yn gyfoeswr âg Ifor Bach, gall mai efe sydd yn gywir. Nid oes hanes pellach am Ifor, wedi y gorchestwaith uchod; ond y mae yn hynod fod ei ddau gastell—Castell Morlais, a'r Castell Coch, yn cael eu dadsylfaenu gan y chwarelwyr calchfaen! Terfynwyd y cweryl hwn, meddir, drwy i ferch William, briodi a Gruffydd, etifedd Ifor. Barna rhai, mai yr un yw y Gruffydd hwn, a'r Gruffydd ap Rhys, ag y sonia Syr Richard C. Hoare am dano; os felly, gwarchaeodd De Clare, Iarll Caerloyw, yn y Castell Coch arno, ac wedi tynu ei lygaid ef, a llygaid ei blant, newynodd hwynt oll i farwolaeth.

Ficeriaeth ryddhaol ydyw y fywioliaeth eglwysig, ac y mae ficeriaeth Llanfabon wedi ei cyssylltu â hi; y mae yn cael ei threthu ar lyfrau y frenines, yn 6*p.* 13*s.* 1¼*c.*, ac y mae yn nawddogaeth seneddr eglwys gadeiriol Llandaf, yr hon a'i piau. Gwerth presenol, 140*p.* Y mae yr eglwys wedi cael ei chyflwyno i St. Helen, ac yn sefyll ar fryn pur uchel. Y mae yma Englynion tlws iawn ar y ceryg beddau, o waith Robert ap Gwilym Ddu, Dewi Wyn o Esyllt, Gwilym Elian, &c. Y mae yma dair o eglwysi adranol. Yr oedd Eglwysilan yn enwog yn amser Charles I., a chyn hyny hefyd, am Annibynwyr a Bedyddwyr; y rhai a gawsant eu herlid yn dost yn yr erlidigaethau creulonfawr a ganlynodd adferiad Charles II.; ond daliasant eu tir, ac y mae eglwysi blodeuog ganddynt yn y plwyf hwn; ac hefyd yn y plwyfi cymmydogaethol. Y mae eglwysi yma hefyd gan y Trefnyddion Calfinaidd, a Wesleyaidd. Y mae y gweithiau yn tynu amryw Saeson yma, ac y mae tair neu bedair o'r eglwysi uchod, yn rai Seisneg. Gadawodd Mrs. Aldworth, Bristol, mewn ewyllys dyddiedig Awst 29, 1729, ryw diroedd yn y plwyf hwn, plwyf Llandaf, a phlwyf Bedwas, yn swydd Fynwy, er gwaddoli ysgol tuag at addysgu merched tlodion, genedigol o Bedwas, ac Eglwysilan. Y mae

Digitized by Google

tair o ysgolion wedi cael eu sefydlu i'r amcan mewn golwg:—Un yn Nghaerphili, un arall yn Mhontypridd, a'r llall yn Medwas. Y mae yma amryw ysgolion ereill hefyd, ac y mae ysgolion Sul y gwahanol enwadau, yn lluosog a llewyrchus.

Yn nhrefgordd Rhydyboethen y mae y ffynnon glaiar enwog hono, a elwir Ffynnon Tâf. Y mae yn yr afon mewn ffordd, a phan y byddo llifeiriant yn y Tâf, llwyr orchuddir y Ffynnon. Bu llif anarferol o fawr yn y Tâf yn 1799, pan y golchodd i'r golwg, meddir, adeilwaith Rhufeinig, gerllaw y ffynnon hon, yr hwn a guddiwyd drachefn gan lif arall. Dyma yr unig ffynnon glaiar yn Neheudir Cymru; ac y mae yn hynod o'r effeithiol i wella anhwylderau gewynol: y mae yn cael ei chylchynu gan wlad ddymunol, ac y mae rheilffordd Dyffryn Tâf yn rhedeg drwy y fan, ar yr hon mae y gorsaf yma; ond nid oes cyrchu mawr iddi. Y mae yma hefyd ffynnonau ereill, yn nwfr y rhai y mae llawer iawn o haiarn, ac y maent yn cael eu hystyried yn wasanaethgar iawn at wella doluriau y galon: nid oes fawr gyrchu i'r rhai hyn ychwaith! Yn y plwyf hwn y gânwyd Mr. William Edwards, adeiladydd medrus pont Pontypridd, a phontydd ereill. Wedi dysgu ei hunan yr oedd Mr. Edwards yn y gelfyddyd o adeiladu, ac yr oedd yn weinidog gyda'r Annibynwyr. Ganwyd ef yn 1719, ac y mae gwedi cael ei gladdu yn monwent eglwys y plwyf. Y mae ei ddisgynyddion parchus yn aros hyd heddyw, ac y mae llawer o honynt yn feddygon: meddyg enwog iawn oedd Dr. Edwards, Caerphili; ac y mae ei fab William Thomas Edwards, Yswain, M.D., Caerdydd, yn cael ei ystyried yn un o'r physygwyr goreu yn y deyrnas —y mae Dr. Edwards yn ddiacon yn yr eglwys Annibynol, Charles Street, Caerdydd. Lle enwog iawn yn mhlwyf Eglwysilan, yw y Groeswen, capel yr Annibynwyr: yn monwent wladaidd, ond hardd-wych y capel hwn, y gorwedda enwogion rai, ac yn eu plith "Hughes o'r Groeswen," Moses Rees, Ieuan Gwynedd, a Chaledfryn. Yr oedd Mr. Hughes yn ddyn mawr, ac y mae ei enw yn anwyl yn mhlwyf Eglwysilan a'r cymmydogaethau hyd y dydd hwn. Yn Nghofiant y Parch. John Williams, Rhosllanerchrugog, gan y Parch. Robert Ellis (*Cynddelw*), yr ydym yn cael yr hanesyn canlynol:—Yr oedd Mr. Williams wedi cael galwad, yn 1838, i bregethu am ychydig Sulian yn Nhonyfelin, eglwys y Bedyddwyr yn Nghaerphili: tra yno, clywodd fod yr athrylithfawr Hughes, i fod yn pregethu i glwb yn y lle, a ffwrdd a Mr. Williams i'r capel. Pan ddeallodd Mr. Hughes fod gŵr enwog a dysgedig yn ei wrandaw, newidiodd ei dôn, a dechreuodd siarad fel athronydd, a ffurfio deffiniadau cywrain a galluog, o bethau dyfnion a dyrys, nes yr oedd Mr. Williams wedi synu at ei barodrwydd dawn, a'i graffter a'i dreiddgarwch meddyliol. Ar ol rhoddi y croesaw hwnw i'r gŵr dieithr, trodd at y gwrandawyr, a dywedodd;—"O ran hyny, ni wyddoch chwi ddim beth oeddwn yn ddywedyd yn awr, ond y mae nhw ar y *gallery*," gan gyfeirio at Mr. Williams, "yn gwybod o'r goreu." Y mae yr Englynion canlynol, a gyfansoddwyd gan Caledfryn, ar fedd-faen Mr. Hughes:—

"Tynerwch—tân ei eiriau—drwy'i einioes,
Wrth drin athrawiaethau,
A gyrhaeddodd bob graddau
Yn ei nerth, heb brin wanhau.

"Yr hyawdledd fu'n rhedli'—am hiroes,
Fu'n gwneyd mawr ddaioni;
Heibio'r aeth, ni chaiff ddim bri,
Mewn tywyll fedd mae'n tewi."

Symudodd y Parch. Moses Rees i'r Groeswen, o eglwys hynafol Pencader, swydd Gaerfyrddin, a dyma ei fedd argraf:—

Y Parch. MOSES REES.
Bu yn Weinidog yn y Groeswen 16 mlynedd.
Hunodd Awst 31ain, 1856,
Yn 60 mlwydd oed.

Bu farw y Parch. Evan Jones (*Ieuan Gwynedd*), Chwefror 23, 1852, yn 32 mlwydd oed. Yr oedd yn byw yn Nghaerdydd ar y pryd, ac yn nyfnderoedd y darfodedigaeth, yn dwyn allan y "Gymraes," a'r "Adolygydd;" ond nid oedd yn cael y gefnogaeth a ddylasai. Y mae yma golofn hardd ar ei fedd, ac y mae yr Hir a Thoddaid canlynol, o waith y Parch. William Rees, D.D. (*Gwilym Hiraethog*), yn gerfiedig arni:—

"Y golofn yma gyhoedda haeddiant
Ieuan Gwynedd, i'w wlad fu'n ogoniant:
Haul oedd i'w genedl, miloedd a gwynant,
Ai'n nos o'i golli—tewi nis gallant:
Llanwodd swydd Llenydd a Sant;—sai'i Weithiau
Ef i'r ol-oesau'n ddirfawr lesiant."

Olynydd y Parch. Moses Rees, yn mhwlpud y Groeswen, oedd y Parch. William Williams (*Caledfryn*), yr hwn ynteu hefyd sydd wedi huno gyda'i dadau, ac y mae ei fedd-argraff ef fel hyn:—

CALEDFRYN.
Ganwyd, Chwefror 6, 1801.
Bu farw, Mawrth 23, 1869.

Yn monwent y Groeswen hefyd, yr huna y Parch. J. D. Williams, olynydd hyawdl yr Hybarch Lewis Powell, yn Nghaerdydd; yr hwn a fu farw yn nghanol ei ddyddiau. Yma hefyd, y gorwedda gweddillion y Parch. Lemuel Smith, Pentyrch. Y mae y fonwent yn llawn o feddgolofnau costus a phrydferth; ac y mae llawer o honynt ag Englynion tlysion yn gerfiedig arnynt. Nid yw monwentydd y capeli ereill heb eu henwogion hefyd; dyna'r taranllyd William Lewis, y llednàis Thomas Francis, a'r awenfwyn Daniel Jones, gynt o Lerpwl, yn monwent capel y Bedyddwyr, yn Nhongwyrddlas: dyna'r ffraethbert Stephens, gweinidog yr Annibynwyr yn Nglŷn Tâf, haul yr hwn a fachludodd a hi eto yn ddydd: dyna'r bardd ariandlysog ac hynaws-foes William Jones, Yswain (*Gwilym Ilid*), B.B.D., gyda'r Trefnyddion Calfinaidd, &c. &c.

Yn y plwyf hwn, mewn lle a elwir Abertridwr, oddeutu milldir oddiwrth yr eglwys, y ganwyd Shoni Cwm Tridwr, neu Shôn Cent, neu'r Dr. John Kent. (Gwel Cent.) Y mae y lle yn cael ei alw yn Abertridwr hyd heddyw, a gelwir ef felly am fod tri o nentydd yn cyd-gyfarfod yma. Y mae yn y lle hwn gapel yn bresenol, cangen o'r Groeswen. Yn y plwyf hwn y ganwyd Mr. Thomas Williams (*Cilfynydd*), yr hwn sydd wedi marw yn ddiweddar, mewn gwth o oedran: bernir mai yn y Ty-Canol y gânwyd yr hen fardd, tua dwy filldir oddiwrth yr eglwys; nid oes ond ychydig olion o'r hen adeilad i'w gweled yn bresenol, mewn lle uchel yn ystlys y mynydd. Y bardd henaf yn y plwyf yn awr, yw Mr. Walter

Digitized by Google

Coslet (*Shakespeare*), a chydag ef y mae ei fab, Gwilym Elian; Carnelian; Cenydd; Dewi Glân Corwg; Eurglawdd, Elianwyson, a Moesen.

**EGLWYS-LWYD**, neu LUDCHURCH, plwyf yn undeb a chantref NARBERTH, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU, 4½ milldir i'r De Ddwyrain o Narberth; gyda 264 o boblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae y plwyf hwn yn gorwedd mewn lle dymunol, yn rhanbarth de-ddwyreiniol y Sir. Y mae ei arwynebedd yn anwastad, a'r tir yn amrywio yn ei natur; nid yw gwedi cael ei amgauad oll. Yr is-weryd yw calchfaen rhagorol, yr hwn sydd yn cael ei weithio yma ar raddfa helaeth iawn. Cymmer y calchfaen hwn ei gaboli yn dda, ac y mae claddëoedd (*mantlepieces*), ac addurniadau prydferth ereill, yn cael eu gwneuthur o hono: llosgir llawer o hono hefyd yn wrtaith, ac y mae chwech o odynau wrth y gwaith yn feunyddiol, y rhai sydd yn diwallu parthau mwyaf gogleddol y Sir. Rectoriaeth rydd-haol yw y fywioliaeth eglwysig, ac y mae yn cael ei threthu ar lyfr y frenines yn 3*p.* 14*s.* 4½*c.*; y mae yn nawddogaeth y Goron, ac yn werth 70*p.* Y mae yr eglwys wedi cael ei chyflwyno i Elidyr Sant, ac y mae yn un brydferth iawn; y mae yn sefyll mewn parth noethlwm o'r plwyf, ac y mae chwarelau calchfaen wedi cael eu gweithio o'i hamgylch, fel ag y mae yn llawer uwch na llyfal y tir cyfagos. Y mae y plwyf hwn yn mesur 1607 o erwau.

**EGLWYS-NEWYDD**, neu LLANFIHANGEL-Y-CREIDDYN UCHAF, capeloriaeth yn mhlwyf LLANFIHANGEL-Y-CREIDDYN, Undeb ABERYSTWYTH, cantref ILAR, swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU, 14 milldir i'r De Ddwyrain o Aberystwyth, gyda 1796 o drigolion, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae gwedi derbyn yr enw Eglwys-Newydd, oddiwrth y ffaith fod y Milwriad Thomas Johnes, o'r Hafod Uchtryd, wedi adeiladu yr eglwys bresenol yn 1803. Adeiladwyd hi ar sylfeini hen eglwys ag oedd wedi cael ei hadeiladu, yn 1620, gan yr Herbertiaid o'r Hafod: adeiladwyd hono at wasanaeth teulu yr Hafod, ac er cyfleusdra i'r rhai oedd yn llafurio yn ngweithfeydd plwm Cwmystwyth: mewn cyssylltiad â'r gweithfeydd hyn y daeth yr Herbertiaid i breswylio yma gyntaf, yn nheyrnasiad y Frenines Elizabeth; eithr nid oeddent yn trigo yma ond yn yr haf, yr hyn a roddes enw i'r lle—Haf-fod. Y mae yr eglwys yn mharc yr Hafod, a'i chynlluniwr oedd yr archadeiladydd enwog Wyatt: adeilad prydferth iawn, ar lun croes ydyw, yn yr arddull Seisnig diweddaraf o adeiladu, gyda thŵr pedwar-onglog yn ei phen gorllewinol. Yn nghanol y groes, y mae bedyddfa addurniedig o faen gwneuthurol, yr hon a gynnelir ar baladr wyth-onglog: ar un tu i'r cawg, y mae arflen yn cynnwys arfbais Mr. Johnes, ac y mae gwynebau y paladr wedi cael eu haddurno â lluniau yn cynddrychioli y pedwar prif rinwedd, nid amgen, Pwyll, Cymmedrolder, Cyfiawnder, a Goddefgarwch. Y mae darlun ardderchog o Grist, a dau ddysgybl Emmaus, gan Fuseli, yn addurno y groes ogleddol; ac y mae ffenestr y groes ddeheuol, wedi cael ei gwneuthur o wydr lliwiedig henafol, yr hwn oedd gynt yn addurno un o'r eglwysi Is-Ellmynaidd, ag a ddygwyd drosodd i'r wlad hon yn amser y Chwildröad Ffrengaidd, yn niwedd y ganrif ddiweddaf. Y mae amryw o Herbertiaid yr Hafod, wedi cael eu claddu yma, i'r rhai y mae coflechau gwedi cael eu cyfodi. Y mae yma fedd-adail ardderchog hefyd, gan Chantrey, er coffadwriaeth am Miss Johnes, ar yr hwn y mae darluniau o honi hi ei hunan, a'i rhieni galarus, wedi cael eu cerfio yn ddestlus. Y mae deddf Seneddol newydd gael ei phasio, i wneuthur pob curadiaeth barhaus, yn ficeriaeth; gan hyny, ficeriaeth ydyw y fywioliaeth eglwysig yma yn awr; ac y mae gwedi ei gwaddoli â 1000*p.* o rodd freninol, ac â 1200*p.* o rodd Seneddol; cyfanwerth presenol, 97*p.*; noddwr, William Chambers, Yswain, Hafod. Y mae dau gapel yma gan y Trefnyddion Calfinaidd, ac un gan y Trefnyddion Wesleyaidd: y mae yma ddwy o ysgolion dyddiol. Yn amser Mr. Johnes, yr oedd yma ysgol râd i ferched, yr hon a adolygid gan Mrs. Johnes; gyda darllen, &c., yr oeddent, yn cael eu dysgu hefyd i wnïo, gwau, nyddu, &c. Yr oeddent yn wehyddesau rhagorol, a'u gwaith mor harddwych, fel ag yr oedd hyd yn nod y Llundeiniaid yn ei fawr brisio: nid oedd neb a allasai droi allan well llieiniau byrddau nâ hwynt; a gwaith eu dwylaw hwy oedd defnyddiau crysau Mr. Johnes. Yr oedd Mr. Johnes, ar ei gost ei hunan, yn cadw apothecari, a meddyg, i weini ar iechyd bwthynwyr ei ystâd; ac yr oedd yn ei dŷ, feddygfa râd i holl bobl y gymmydogaeth.

Perthynai yr Hafod i'r Herbertiaid: bu farw yr olaf o honynt, William Herbert, Yswain, yn 1704, gan adael ar ei ol unig ferch, a'i etifeddes; yr hon a gymmerwyd i fod yn wraig iddo, gan Thomas Johnes, Yswain, Llanfair Clydogau, yr hwn drwy y briodas hon a ddaeth i feddiant o'r Hafod. Mab ac etifedd o'r briodas yma, oedd y Milwriad Thomas Johnes, yr hwn a symudodd o Lanfair, i'r Hafod, yn 1783. Nid oedd yma ond anialwch anhygyrch y pryd hwnw, ac yn ddïoed ymosododd Mr. Johnes ar adeiladu plâs yma. Tynwyd yr hen dŷ i lawr, ac yn ol cynllun, ac o dàn arolygiaeth, Mr. Baldwin, Caerbaddon (*Bath*), cyfododd plâs ardderchog i fodolaeth, yn nghanol diffaethdir, ac yr oedd Mr. Johnes wedi dechreu ar ei greadigaethau campusfawr. Yr oedd y plas yn yr arddull adeiladol ddiweddaraf Seisneg, ac yn cynnwys ystafelloedd prydferth, y rhai oeddent wedi eu dodrefnu yn y modd godidocaf. Yr oedd yma lysieufa ardderchog, yn yr hon yr oedd pob math o blanigion tramor; ac yn agor iddi, yr oedd y llyfrgell fawreddog, yn yr hon yr oedd miloedd o lyfrau gwerthfawr, a chasgliad drudfawr o lawysgrifau Cymreig, gan Syr John Sedbright, ac ereill. Yr oedd y llyfrgell yn cael ei hamgylchynu gan oriel, o dan yr hon yr oedd pileri ysplenydd, yn yr arddull Dorig. Tebygai yn ei ffurf i gapel, ac yr oedd ei ffenestri aml-liwiog yn hardd dros ben; mewn gair, yr oedd yn un o brif ryfeddodau Cymru, ac yn cynnwys cyfrolau ar bob rhan o gelfyddyd, gwyddoreg, &c. Yr oedd yr ystafelloedd wedi cael eu haddurno a cherfluniau, ac â darluniau gan y paentwyr goreu, yn mhlith pa rai yr oedd darlun o "Elias yn cael ei borthi gan Gigfrain." Yr oedd y darlun cywreinwych hwn, wedi cael ei gymmeryd o fonachlog Tal-y-llychau, yn amser y Diwygiad Protestanaidd: nid oedd neb yn gwybod faint o amser y bu yn y fonachlog, na phwy oedd ei baentiwr; ond cytunid ei fod yn waith un o'r penpaentwyr henaf a gyfododd wedi adfywiad y gelfyddyd o baentio. Yr oedd celfyddyd ar ei goreu drwy yr holl ystafelloedd, a chymmerai gyfrol i ddarlunio yr oll; ond boreu dydd Gwener, Mawrth 13eg, 1807, torodd tân damweiniol allan, ac yn mhen ychydig oriau, nid oedd ond muriau noethion yr Hafod i'w gweled. Yr oedd y golled yn fwy nâ gwerth arian, ond yr oedd y golled

Digitized by Google

arianol tua 700,000*p*. Yr oedd Mr. Johnes ar y pryd, yn ei le yn y Senedd, fel aelod dros Aberteifi; a phan glywodd, y mae yn rhaid fod y ddamwain wedi effeithio arno; ond ni lwfrhaoedd, canys yn ddioedi adeiladodd yma blâs ardderchocach nâ'r cyntaf, yr hwn yw y plâs presenol.

Yr oedd Mr. Johnes yn amaethwr mawr hefyd: pan ddaeth yma gyntaf, nid oedd yma na phren nac arall; ond yn fuan iawn yr oedd buchod yn brefu hyd ddolydd meillionog, a'r mynydd-dir wedi cael ei wisgo â llawrwydd, cerdin, sycamorwydd, ŷn, derw, a choed cysgodfawr ereill. Yn y chwech mlynedd cyntaf o drigiant Mr. Johnes, planwyd yma ddwy filiwn a chwe chant a hanner o filoedd o goed; a thros amser wedi hyny, plenid yma dros ddau cant o filoedd o goed bob blwyddyn, ar y rhai y mae golwg fawreddog yn bresenol. Yn mhlith y coed yma, y mae tai tlysion y gweithwyr, rhodfeydd tröellog, deildai cysgodol, rhaiadrau crychiedig, bwäoedd enfysaidd, a cherfluniau harddwych. Yn mhlith y cerfluniau, y mae un i'r Duc Bedford, am ei wasanaeth haelionus a gwerthfawr i amaethyddiaeth. Yr oedd yr Hafod, gyda'r holl waith yma, yn fath o drefedigaeth yn nghanol y mynyddoedd; ac yr oedd yma ugeiniau lawer yn ennill eu bara beunyddiol. Ni arbedodd gost na llafur i wella cyflwr amaethyddol y wlad: ffurfiodd gymdeithasau amaethyddol, rhoddodd wobrwyon lawer ynddynt, dygodd o'r Ysgotland, y ffermwyr goreu a allai gael, &c. &c. Cafodd y wlad yn anialwch, a gadawodd hi yn baradwys, ac nid oes harddach lle na'r Hafod, yn y deyrnas. Gwerthodd Mr. Johnes y lle i Dduc Newcastle, tad y Duc presenol (1872); gwerthodd y Duc ef i Mr. Houghton; a gwerthodd Mr. Houghton ef i William Chambers, Yswain, gynt o Lanelli, sir Gaerfyrddin, y perchenog presenol.

Ganwyd Mr. Johnes yn 1748, a derbyniodd ei addysg yn Ngholeg Eton, ac yn Ngholeg Iesu, Rhydychain, lle yr ennillodd y radd o Athraw y Celfyddydau (M.A.). Yr oedd argraffwasg ganddo yn ei dŷ ei hun, ac argraffodd ynddi amryw lyfrau o'i waith, neu ei gyfieithiad ei hun. Yr oedd yn disgyn o Urien Rheged, ac yn olrhain ei achres yn gywir o Brydain ap Aedd Mawr. Arfbais Urien Rheged, sef brain, &c., oedd arfbais Mr. Johnes hefyd. Y mae darlun o hono yn Neuadd tref Aberteifi, fel Arglwydd Raglaw y sir, a chynddrychiolydd y fwrdeisdref yn y Senedd. Bu farw Ebrill 23, 1816, yn 68 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn eglwys y plwyf hwn, yn yml ei unig blentyn, sef Miss Johnes.

**EGLWYS NYNYDD,** Fferam yn mhlwyf Margam, Swydd Forganwg, 5 milldir i'r De Dde Ddwyrain o Gastell Nedd. Yr oedd lleiandy, a chapel perthynol i Fynachlog Margam, yn sefyll yma gynt; ac y mae rhyw ranau o'r hen adeiladau yn sefyll yma eto; ac yn cael eu defnyddio yn dai i'r anifeiliaid.

**EGLWYS RHOS,** a elwir hefyd Llanrhos, neu Llanfair yn Rhos, plwyf yn nghantref y Creuddin, swydd Gaer yn arfon, Gogledd Cymru, 2½ filldir i'r Gogledd wrth Ddwyrain o dref Aberconwy; ar y ffordd i Landudno. Mesura 3735 o gyfeiriau, o ba rai y mae 630 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 2856*p*. Poblogaeth, 832. Tai annedd, 172. Y mae y plwyf hwn yn enwog fel preswylfa pennaduriaid Gwynedd, mewn amseroedd tra boreuol: o'i fewn yr ydoedd hen lys breninol Deganwy, a elwir "y Gannock" gan yr Haneswyr Seis'nig yn gyffredin; yr hwn a orweddai ar fryn, uwch ben yr afon Gonwy, tua milldir i'r gorllewin o'r eglwys; a thros oesoedd lawer cyn llwyr ddarostyngiad y dywysogaeth, yr ydoedd yn orsaf filwraidd, am feddiant o ba un yr oedd yr ymrysonfa fwyaf caled, rhwng y brodorion, a'r Saeson a fynent oresgyn eu gwlad. Y mae yn debyg mai camsynied o eiddo Camden, oedd tybied mai yn y fan lle y saif Deganwy, yr oedd yr hen orsaf Rufeinaidd, a elwir *Dictum* yn eu teithlyfrau; ond y mae yn ymddangos oddiwrth dystiolaethau hen Haneswyr Cymreig, fod yma ddinas, neu amddiffynfa filwraidd yn dra boreu; ac yn wir fe haera rhai, fod castell Deganwy wedi ei gyfodi gan Caswallon Law Hir, penteyrn cyntaf Gwynedd, yn y flwyddyn 550, yr hwn a wnaeth y fan hon yn brif eisteddle ei lywodraeth, cyn symmud ei lŷs brenhinol i'r Aberffraw, yn Môn; ac yna, efe a adawodd y castell hwn yn breswylfa i'w fab, a'i olynydd, Maelgwyn Gwynedd: ond, y mae yn ymddangos fod Maelgwyn wedi adeiladu palas iddo ei hun, yn y lle a elwir "Y Penrhyn," yn y plwyf hwn, yr hwn a elwid "Llys Maelgwyn Gwynedd," lle y trigai hyd oni ddiboblid y rhan yma o'r wlad, gan yr haint ddinystriol, a eilw Haneswyr, "Y Fad Felen;" ac ar yr achlysur hwnw, Maelgwyn a aeth i ymofyn am loches yn Eglwys Rhos; ond er hyny efe a syrthiodd yn ysglyfaeth i'r haint yno, fel y rhagfynegasid; a dywaid rhai mai yno ei claddwyd, tra yr haera eraill, i'w gorph gael ei gludo i Ynys Seiriol, i'w gladdu. Bu olynwyr y tywysog hwn, yn cyfanneddu ar yn ail, yn Neganwy, neu Gaer Seiont, gerllaw Caer yn arfon. Dywedir fod Deganwy wedi cael ei dinystrio gan fellt, yn y flwyddyn 810; ac o hyny allan, na bu yn drigfa freninol. Ond, ymddengys fod y Cymry wedi adeiladu amddiffynfa yma drachefn, er eu cynnorthwyo i amddiffyn Eryri, eu lloches ddiweddaf, yn erbyn ymosodiadau mynych y Saeson i oresgyn eu gwlad. Yn y rhan olaf o'r unfed ganrif ar ddeg, pan ddarfu i Huw Lupus, Iarll Caer, oresgyn agos yr oll o Ogledd Cymru, ail adeiladwyd y castell yma, gan swyddog aiddgar y pendefig hwnw, sef Robert o Ruddlan, yr hwn yn y flwyddyn 1088, a wersyllodd fyddin gref yn agos i'w furiau: a dywedir fod Gruffydd ab Cynan, tywysog Gwynedd, wedi dyfod yr un flwyddyn i afon Gonwy, gyda thair o longau; ac wedi glanio ar y llanw dan y castell, efe a adawodd ei longau ar y lan, ar enciliad y llanw, ac a aeth rhagddo i anrheithio y wlad o amgylch. Fel yr oedd Gruffydd ab Cynan yn dychwelyd o'i gadgyrchiad hwn, gan yru yspail fawr, o ddynion ac anifeiliaid o'i flaen, i'w longau, Robert, yr hwn oedd wedi ei gythruddo yn ddirfawr gan yr olygfa, a ddisgynodd o'i amddiffynfa, yn cael ei ddilyn gan un milwr yn unig, ac heb unrhyw arfogaeth ddiffynol ond ei darian. Y Cymry a ymosodasant arno, ac wedi llenwi ei darian â'u saethau yn y fath fodd, fel y cwympodd dan eu pwysau, rhuthrasant arno yn fintai, ac wedi tori ei ben oddi ar ei gorph, hwy a'i dodasant ar hwylbren un o'u llongau; ac a hwyliasant ymaith yn orfoleddus. Darfu i Llewelyn ab Iorwerth hefyd, ddinystrio y castell hwn; ond, fe'i hail-adeiladwyd yn y flwyddyn 1210, gan Ranulph de Blundeville, Iarll Caerlleon. Yn y flwyddyn ganlynol, tywysodd y pennadur Seis'nig, John, ei fyddin at gastell Deganwy, lle ei cyfleodd dros ryw yspaid o amser; ond cyflëai Llewelyn ei filwyr chwimwth, i gynflwyn oddeutu y ffyrdd, gyd a'r

Digitized by Google

fath fedrusrwydd, fel y gwasgwyd y brenin a'i fyddin i'r cyfyngder mwyaf; gan fod y cynllwynwyr Cymreig yn tori eu harlwyon oddiwrthynt, fel y gorfyddai y fyddin freninol ymborthi ar gnawd eu meirch eu hunain; a pha bryd bynag y cynnygiai y milwyr gyffro allan o'r gwersyll, yr oeddynt mewn perygl i gael eu torri yn ddarnau, gan fod y Cymry trwy eu hadnabyddiaeth trwyadl o'r wlad, a'r defnydd medrus a wnelent o hyny, yn meddu y fantais arnynt yn gyffredin, yn mhob ysgarmes. Wedi cael ei golledu yn ddirfawr, ac yn teimlo oddiwrth y gwarth yn ddwys, penderfynodd y brenin John, godi y gwersyll, a dychwelyd yn ol i Loegr, gan fytheirio bygythion o ddialedd yn erbyn y Cymry dewrion. Yn y flwyddyn 1212, gwnaed ymosodiad aflwyddiannus ar yr amddiffynfa hon, gan y Tywysog Cymreig, Llewelyn ab Iorwerth, i'r hwn ei rhoed i fynu yn mhen dwy flynedd ar ol hyny, pan ei di gaerwyd, debygid. Pan oedd Harri y Trydydd ar ei gad-gyrchiad i Ogledd Cymru, yn y flwyddyn 1245, efe a barodd i'w fyddin sefyll ar yr ochr ddwyreiniol i'r afon Gonwy, heb feiddio myned drosti, a myned i fewn i gil fachau mynyddig y wlad; tra yr oedd y brodorion yn gwylio yn finteioedd cryraidd o'i amgylch, am bob cyfleusdra i'w flino, a'i ddrygu. Pan ganfu y brenin adfeilion castell Dyganwy, ar benrhyn o'r plwyf hwn, oddiar afon Gonwy, ac efe yn penderfynu na adawai i'w gad-gyrchiad treulfawr fyned yn hollol ofer, efe a benderfynodd ail adeiladu yr hen amddiffynfa; fel y gallai gyfleu gwarchodlu ynddi, i attal rhuthriadau y Cymry i'r parth hwnw o'r Dywysogaeth, a feddienid yn barod gan y Saeson. Yn ystod y deng wythnos y bu y brenin yn adeiladu yr amddiffynfa hon, yr oedd ei fyddin, yr hon a wersyllai yn y maes agored, yn ddarostyngedig i beryglon lawer, a chyfyngderau mawrion. Trodd yr hin yn dra oer tua diwedd yr hâf, fel y dyoddefai y milwyr oddiwrth yr oerni, gan nad oedd eu dillad ond teneuon ac ysgafn; ac ni's meddent hwythau unrhyw gysgod, ond pebyll wedi eu gwneyd o lian; tra ar yr un pryd, fe'u gwesgid i gyfyngderau dirfawr gan brinder ymborth yn achlysurol, gan mai tra ansier oedd eu derbyniad o arlwyon, o Gaerlleon, ac o'r Iwerddon. Fe'u blinid yn ddirfawr hefyd, a lleiheid eu nifer, trwy ymdrechiadau di dor y Cymry, i dori ymaith eu minteioedd gwasgaredig, ac i ystormio eu gwersyll yn y nos: ond, mewn canlyniad i un o'r ymrysonfeydd yma, yn yr hon y buasai y Saeson yn fuddugoliaethus, hwy a ddygasant benau yn agos i gant o'r Cymry i'r gwersyll, er gorfoledd i'r brenin, a'u cydfilwyr.

O'r diwedd, wedi i'r brenin orphen adeiladu yr amddiffynfa gadarn hon, er gwaethaf holl ymdrechion y Cymry i'w lesteirio, efe a gyfleodd warchodlu crŷf ynddi, a helaethrwydd o gad-ddarpariadau, ac a ddychwelodd i Loegr tua diwedd Hydref, gyd a'r gweddill o'i fyddin.

Yn y flwyddyn 1257, gosodwyd gwarchae tost ar gastell Deganwy, gan Llewelyn ab Gruffydd, Tywysog Gwynedd; ond, fe'i gorfuwyd i gyfodi y gwarchae yn fuan, trwy ddynesiad y fyddin Seis'nig, dan dywysiad y brenin Harri yn bersonol. Daeth Harri yn mlaen hyd at y fan hon, lle trwy gymhorth llynges, berthynol i'r "Pum porthladd," ei galluogwyd i gynal ei fyddin hyd Wyl Mihangel, pan ei gorfodwyd i ddychwelyd yn ol i'w diriogaethau ei hunan, unwaith drachefn. Yr ydoedd y manteision a weinyddid i oresgynwyr Seis'nig Gwynedd, trwy gastell Deganwy, o bwysigrwydd annrhaethadwy: fel yr oedd yn gorwedd ar lan y dwfr, yr ydoedd yn agored i dderbyn arlwyon parhaus; ac fel yr oedd yn sefyll yn agos i un o'r prif fynedfeydd i Eryri, ar draws mor-gainc y Conwy, yr oedd ei gwarchodluoedd lluosog yn gallu tori ymaith y gwib-fyddinoedd Cymreig; ac fel yr oedd yn lle tra chadarn, o ran sefyllfa, ac adeil-waith, yr ydoedd yn lloches ddiogel, i'r hon y gallai y Saeson encilio yn wyneb unrhyw aflwydd. Ond, er cryfed oedd yr amddiffynfa, ni's gallai wrthsefyll ymosodiadau penderfynol Llewelyn ab Gruffydd, yr hwn a'i cymerodd trwy ruthr-gyrch yn y flwyddyn 1260, ac a'i llwyr ddinystriodd; ac ymddengys na chafodd ei hail adeiladu byth mwyach.

Y mae pentref Eglwys Rhos yn gorwedd mewn dyffryn bychan, cylchynedig ar bob tu gan fryniau uchel-grib, ar ystlysau amryw o ba rai y mae hen dderw llawn-dwf, ac heb fod yn mhell oddiwrth afon Gonwy, yr hon yw terfyn gorllewinol y plwyf. Heb fod yn mhell oddiyno y mae Bod Caswallon, lle yr oedd hen lŷs gan Caswallon Law Hir, tua dechreu y chweched ganrif; ac y mae yr hen balas presenol, wedi bod yn annedd cangen o deulu anrhydeddus y Mostyniaid, dros ganrifoedd. Ceir golygfeydd prydferth oddiar yr uchrodfa gerllaw yr hen balas hwn, dros frigau y coed mawrion a dyfant islaw iddo, ar dref Aberconwy, a rhan o'r afon fawreddawg, yn nghyd a'r mynyddoedd uchel-grib a ymddyrchafant o'r tu cefn iddi. Y mae Gloddaeth hefyd, hen balas arall, perthynol i'r un teulu boneddigaidd mewn sefyllfa ddifyrus, ar lechwedd bryn coediog. Adeiladwyd rhan fawr o'r hen balas hwn, yn nheyrnasiad y frenines Elizabeth; ac y mae y neuadd fawr wedi ei haddurno âg arf-arwyddion y frenines Elizabeth, ac â'r eiddo Iarll Leicester.

Gwelir adfeilion y Marl, palas Owen Williams, Ysw., yr hwn a ddinystriwyd yn ddamweiniol trwy dân, yn y flwyddyn 1750, ychydig o'r tu isaf i Bod Caswallon.

Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 167 punt. Noddwr, Esgob Llanelwy. Y mae dau addoldy ymneillduol yn y plwyf, y naill yn perthyn i'r Trefnyddion Wesleyaidd, a'r llall, i'r Trefnyddion Calfinaidd. Y mae Ysgol blwyfol dda yn agos i'r Eglwys, yr hon a seiliwyd, ac a waddolwyd â mil o bunau, gan Mrs. Francess Mostyn, yn y flwyddyn 1822, ac y mae yma ysgoldy da, ac annedd i'r athraw, wedi eu cyfodi, yn benaf ar draul yr un foneddiges.

Yn y flwyddyn 1623, darfu i Mr. Lewis Owen, gymmun-roddi degymau periglоraidd plwyf Aberconwy, i'w rhanu rhwng Ficer y plwyf hwnw a thlodion plwyfi Aberconwy, Llangwstenyn, Llandudno, ac Eglwys Rhos; ac y mae y gyfran o'r rhodd uchod, a berthyna i'r plwyf hwn, yn 16 o bunoedd yn y flwyddyn, yr hyn a renir mewn dilladau i'r tlodion, ar ddydd-gwyl Domos. Y mae ychydig elusenau heblaw yr uchod, yn perthyn i'r plwyf, hwn, yn gwneyd y cyfan i fynu yn 22 p. yn y flwyddyn.

**EGLWYSWRW**, neu yn fwy priodol Eglwyseirw, plwyf yn undeb Aberteifi, cantref Cemmes, swydd Benfro, Deheudir Cymru, 6 milldir i'r De Dde Ddwyrain o Aberteifi, ar y ffordd yr elych i Hwlffordd, gyda 490 o drigolion yn ol Deiliadeb 1861. Yr oedd y plwyf hwn gynt yn is-arglwyddiaeth o dan Cemmes, ac y mae'r afon Nefern yn

Digitized by Google

rhedeg drwyddo. Y mae hytrach yn fynyddig, a'r mynyddoedd uchelaf yw Prisceli, dros y rhai yr elai hen ffordd Rufeinig, a elwid *Via Flandrica*. Y mae yn cael ei ammaethu yn dda, ac y mae ffeiriau mawrion iawn yn cael eu cynnal yma. Y mae y golygfeydd yn amrywiol a phrydferth, ac y mae plâs y Berllan yn sefyll mewn man swynol iawn. Ficeriaeth ryddhaol yw y fywioliaeth eglwysig, ac y mae yn cael ei threthu ar lyfr y freinies yn 3*p.* 13*s.* 4*c.*; y mae gwedi ei gwaddoli â 200*p.* o rodd freninol, ac â 200*p.* o rodd seneddol; cyfanwerth presenol 105*p.*; y mae yn nawddogaeth y Goron, a pherchenogion llëygol y degwm, yw teuluoedd Cwmgloyn, a'r Berllan. Y mae yr eglwys wedi ei chyflwyno i Eirw Sant, a dywedir ei fod wedi ei gladdu yma. Y mae capel yma gan y Bedyddwyr. Y mae y plwyf yn mesur 3634 erw.

**EGRYN**, Sant, ydoedd fab i Grwydr Drwm ab Gwedrog ab Geraint, o linach freiniol Cadell Deyrnllwg. Oesai yn y 7fed ganrif. Efe, meddir, a sefydlodd eglwys Llanegryn, yn Meirion.

**EGWAD**, Sant, yn y 7fed ganrif, ydoedd fab i Cynddilig ab Cenydd ab Gildas. Sefydlodd Llanegwad, a Llanfynydd, yn Swydd Gaerfyrddin.

**EIDAL**, neu Eidaf, yn ol y *Brut*, a olynodd ei frawd Fulgen i orsedd Prydain, bedair canrif cyn y Cyfnod Cristionogol.

**EIDIOL**, neu Eidol, yn ol y *Brut*, a olynodd Arthmael i Orsedd Prydain, ddwy ganrif cyn y Cyfnod Cristionogol.

**EIDIOL** ab Ner, a enwir gan Taliesin yn ei farddoniaeth, ac hefyd yn *Mabinogi* "Cilhwch ac Olwen."

**EIDIOL GAWR**, neu Gadarn, Iarll Caerloyw, yn ol y *Brut*, oedd yr unig Frython a ddianges a'i fywyd ganddo o Frâd y Cyllill Hirion.

**EIDDA**, trefgordd yn mhlwyf yr Yspytty, swydd Gaer-yn-arfon, Gogledd Cymru; ar lan yr afon Gonwy, 9 milldir i'r De Dde Ddwyrain o Lanrwst. Gwerth ardrethol y tir, 1369*p.* Yn ol Deiliadeb 1861, cynwysai 73 o dai annedd, a 396 o drigolion.

**EIDDILIG**, Cor, a elwir hefyd Iddawc Corn Prydain a osodir allan yn y *Trioedd*, fel bradwr a swynwr. "Hud Eiddilig Cor" fu yr achos o Gâd Gamlan, lle y lladdwyd Arthur.

**EIDDYN** ab Eingian, yn ol y *Trioedd*, a laddodd Aneurin Gwawdrydd, trwy roddi iddo ergyd yn ei ben a bwyell. Y weithred hon a elwir yn "Un o dair anfad fwyellawd Ynys Prydain."

**EIFIONYDD**, cantref yn swydd Gaer yn arfon, Gogledd Cymru, yn cynwys rhan o Eryri, ac yn ymestyn hyd lan mor Ceredigion, (*Cardigan Bay*). Cynwysa un ar ddeg o blwyfau; ac yn ol Deiliadeb 1861, cynwysai 1964 o dai annedd, a 9612 o drigolion. Mesura 45,421 o gyfeiriau o dir.

**EIGEN**, Merch Caradawg ab Bran, meddir, ydoedd Santes yn y ganrif gyntaf. Bu yn briod a Sarllog, arglwydd Caersarllog, a elwid wedi hyny "Old Sarum."

**EIGRAD**, Sant. yn y 6ed ganrif, ydoedd fab Caw, ac aelod o Gor Illtyd. Mae Llaneigrad, yn Mon, ar ei enw ef.

**EIGRON**, Sant, yn y 6ed ganrif, ydoedd fab Caw.

**EIGYR**, yn ol y *Brut*, ydoedd ferch Amlawdd Wledig, a gwraig Gorlais, Iarll Cernyw. Ystyrid hi yr harddaf yn ei hoes, a hi, meddir, oedd mam y brenin Arthur.

**EINION** ab Arthal, yn ol y *Brut*, a olynodd ei frawd Morgan ar Orsedd Prydain yn y bumed ganrif cyn y Cyfnod Cristionogol.

**EINION** ab Cadwgan, tywysog ar ran o Bowys. yn y 12fed ganrif. Hynododd ei hun wrth ymladd a Harri I. Bu farw yn 1121, gan adael ei diriogaethau yn Meirion, a Phowys, i'w frawd Meredydd.

**EINION** ab Collwyn, pendefig o Ddyfed, yn yr 11eg ganrif, ydoedd gymeriad hynod yn nherfysgoedd gwleidyddol Deheudir Cymru, a chyfrwng trosglwyddiad parthau ffrwythlonaf y wlad hono i feddiant y Normaniaid. Yn y flwyddyn 1088, efe a'i neiaint, Llywelyn ac Einion, meibion Cadifor, ac ymunasant a Gruffydd ab Meredydd, i ymosod ar Rhys ab Tewdwr Mawr; ond gorchfygwyd hwynt gyda cholled fawr yn Llandudoch; lladdwyd y ddau nai, a Gruffydd; a diangodd Einion at Iestyn ab Gwrgant, yr hwn oedd mewn gelyniaeth farwol at Rhys, gan fod y naill a'r llall o honynt wedi bod yn anrheithio tiriogaethau eu gilydd. Gwnaeth Iestyn ac Einion gyngrair a'u gilydd, er darostwng Rhys; yr oedd i Einion gael Nest ferch Iestyn yn wraig, ar yr amod iddo fyned at William II. brenin Lloegr, a llwyddo i gael cymorth ganddo, i ddarostwng Rhys ab Tewdwr. Llwyddodd Einion yn ei amcan, efe a gyflogodd Robert Fitzhamon, a deuddeg marchog Normanaidd arall, i ddyfod gydag ef i Forganwg. Ymosododd y cyngrheiriaid hyn ar Rhys, ar Hirwaen Wrgant, ger Aberdar; ac wedi brwydr ofnadwy, bu raid i Rhys ffoi, eithr goddiweddwyd ef yn Nghwm Rhondda, ger Pontypridd, ac yno torwyd ei ben, mewn lle a elwir hyd heddyw, *Pen Rhys*, ac efe y pryd hwnw uwchlaw 92 mlwydd oed. Ar Dwyn Colwyn, talodd Iestyn ab Gwrgant yn aur pur i'r Normaniaid am eu cymorth; a gelwir y lle hwnw y "Filltir Aur" hyd heddyw. Ond gyda bod y Normaniaid yn Aberddawen, lle yr oedd eu llongau wrth angor, wele Einion yn eu goddiweddyd, yn cwyno fod Iestyn wedi tori ei amod ag ef, gan ballu Nest, ei ferch, yn wraig iddo; ac yn erfyn arnynt ddychwelyd gydag ef, i ddial ar Iestyn. Cydsyniasant hwythau â'i gais, ac wedi cael Robert ab Seisyllt, ac arglwyddi eraill, i ymuno a hwynt, gorchfygasant Iestyn ar y Mynydd Bach (*Great Heath*) ger Caerdydd. Y Normaniaid yn y frwydr hono, a osodasant Einion, Cedrych ab Gweithfoed, Robert ab Seisyllt, ac eraill o'r arglwyddi Cymreig, yn flaenaf yn y gâd, lle bu laddfa ddychrynllyd arnynt, a phan awd i ranu Morganwg rhyngddynt, cymerasant y rhanau brasaf eu hunain, a rhoddasant y lleoedd mwyaf diffaith a mynyddig, i'r Cymry, fel y gwelir oddi wrth y daflen ganlynol:—

Robert Fitzhamon, y prif arglwydd, a gafodd Gaerdydd; ac yn arglwyddi deiliadol iddo ef, cawn William de Londres, Aberogwr; Richard de Greenfield, Castellnedd; Pain Turbeville, y Coetty; Robert St. Quintine, Llanbleithian; Richard de Seward, Talyfan; Gilbert Humfreville, Penmarc; Reginald de Sully, Abersili; Roger de Berkrolles, Llandathan; Peter le Soore, Llanbedr-ar-fro; John de Fleming, Llanyfelwyn; Oliver de St. John, Abernant; William Ystradling, Llanywerydd; Einion ab Collwyn, yr hwn a fu yn achos o'r holl aflwydd uchod, Senghenydd a Meisgyn; Caradawg ab Iestyn, Aberafon; Madawg ab Iestyn, Rhuthyn; Hywel ab Iestyn, Llantryddyd; Rhys ab Iestyn, Soflen; a Robert ab Seisyllt Maes Essyllt.

Felly y rhanwyd Morganwg, a'r parthau mynyddig

Digitized by Google

uchod a gafodd Einion am ei fradwriaeth. Efe a briododd Nest, ac a derfynodd ei oes mewn dinodedd.

**EINION** AB GRUFFYDD, o Dalyllyn, ydoedd fardd yn yr 17eg ganrif.

**EINION** AB GWALCHMAI, bardd o Drefeilyr, yn Mon, ac yn ei flodau yn y 12fed ganrif. Mae lle i dybied mai mab ydoedd i Gwalchmai ab Meilyr. Gwelir engreifftiau o'i waith yn y *Myf. Arch.*, a cheir Dameg ryfedd am dano, dan yr enw "Einion ab Gwalchmai a Rhian y Glasgoed" yn yr *Iolo MSS.* a *Chymru Fu.*

**EINION** AB GWGAN, neu GWGAWN, bardd, yn ei flodau yn nechreu y 13eg ganrif. Mae "Anerch i'r tywysog Llywelyn ab Iorwerth," o'i waith, yn y *Myf. Arch.*

**EINION** AB GWRON, un o dri "anhuol farchogion Llŷs Arthur."

**EINION** AB MADAWG AB RHAWD, bardd, yn ei flodau rhwng 1230, a 1270. Ceir ei "Anerch i Gruffydd ab Llywelyn" yn y *Myf. Arch.*

**EINION** AB OWAIN AB HYWEL DDA, arglwydd rhan o Frycheiniog, yn y 10fed ganrif. Lladdwyd ef gan wŷr Gwent yn 983.

**EINION** AB OWEN (SYR), neu fel y gelwir ef yn gyffredin, Einion Offeiriad, a ychwanegodd at Reithiadur Cerdd, Geraint Fardd Glas, ac o'r ysgrif a wnaeth Einion Offeiriad, y tynodd Edeyrn Dafod Aur, ei Ddosbarth. Od oes dim coel i'w roddi ar Restr Beirdd Gorsedd Morganwg, a dynwyd, meddir, o Lyfr Sion Bradford, yr oedd Einion Offeiriad yn un o Awenyddion yr Orsedd hono, yn 1480.

**EINION FONEDDIG**, yn ol *Brut y Tywysogion*, ydoedd esgob yn Nhy Ddewi, ac a fu farw yn 871. Dilynwyd ef gan Hubert Sais.

**EINION FRENIN**, a deyrnasai ar randir Lleyn, yn swydd Gaerynarfon, yn y 6ed ganrif. Mab ydoedd i Owain Danwyn ab Einion Yrth, ab Cunedda Wledig. Efe, meddir, a sefydlodd Lanengan yn Lleyn; coleg Penmon yn Mon; a mynachdy Ynys Enlli; felly cafodd ei restru yn mhlith y saint, a'i goffhau Chwefror 9.

**EINION GLYD**, mab Madawg ab Idnerth, ydoedd benaeth yn y 12fed ganrif. Yr oedd yn briod a merch Rhys ab Gruffydd, lladdwyd ef gan y Normaniaid yn 1177. *Myf. Arch.* ii. 578.

**EINION MEIRION**, bardd, yn y 13eg ganrif.

**EINION WAN**, bardd, a flodeuai rhwng 1200, a 1250. Y mae chwech cyfansoddiad o'i eiddo, yn y *Myf. Arch.*

**EINION Y MARCH**, bardd, yn ei flodau rhwng 1370, a 1400.

**EINION YRTH**, neu Urdd, ab Cunedda Wledig, yn ol y chwedl, pan ddanfonodd efe a'i frodyr y Gwyddelod allan o Gymru, a gafodd yn rhan, Lanfair caereinion a'r cylchoedd, yn swydd Drefaldwyn, ac a ddilynodd ei dad i'r orsedd yn 389; dilynwyd yntau ar ei farwolaeth yn 443, gan ei fab Caswallon Lawhir.

**EIRIAS**, trefgordd yn mhlwyf Llandrillo yn Rhos, swydd GAER YN ARFON, GOGLEDD CYMRU; 4½ milldir i'r Dwyrain Ogledd Ddwyrain o Gonwy. Cynwysa 941 o erwau o dir; a chyfrifid ei gwerth ardrethol, yn ol Deiliadeb 1861, yn 1245*p*. Poblogaeth, 295; tai annedd, 65. Trwy fod llawer iawn o dai yn cael eu hadeiladu yn y gymmydogaeth, a'i fod yn dyfod yn ymdrochle bwysig, y mae yn cynnyddu yn gyflym yn ei werth ardrethol, ac yn nifer ei drigolion.

**EIRW**, pentref bychan yn mhlwyf LLANTRISAINT, cantref MISKIN, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, tua 6 milldir o Bontypridd, ei lythyrfa. Y mae yn un o'r gyfres o bentrefydd ag sydd yn llanw Cwm Rhondda, ac amgylchynir ef gan lofeydd mawrion. Y mae cangen Cwm Rhondda o reilffordd Dyffryn Tâf, yn rhedeg drwyddo, ac y mae y boblogaeth yn cael ei rhoddi gydag eiddo y plwyf.

**EISTEDDFOD** (ll. *Eisteddfodau*), ydyw yr enw a roddir yn gyffredin ar gynhulliad cyhoeddus y beirdd a'r llenorion. Yr Eisteddfod ydoedd Athrofa, Senedd, a Theml yr hen Gymry. Bernir ei bod yn un o'r sefydliadau Llenyddol henaf yn yr holl fyd + adnabyddus. Y mae rhai cofnodau neu draddodiadau am dani ar gael, er yr amser boreuol, er cyn cred, ac y mae ei dylanwad yn parhau yn bwysig iawn yn mysg y genedl, hyd y dydd hwn. Y mae gan bob gwlad ei defodau, a'i harferion neillduol, ac y maent yn gwreiddio yn ddwfn yn mynwesau y cyhoedd. Pa un bynag a fyddo eu tuedd ymarferol, ai da, ai drwg, nid yw yn hawdd eu dadwreiddio. Mewn amryw gymydogaethau, y mae nifer o arferion, o lai pwys, wedi cilio o'r golwg i dir anghof, er yn ddiweddar; ond am yr hen Gynghor cenedlaethol hwn, y mae yn sefyll gan uwched yn awr ag y bu erioed, drwy yr holl Dywysogaeth, ac ni fedd yr un dyn na phlaid o bobl, ddigon o ddylanwad i'w roddi i lawr, pe y ceisid at hyny, ar hyn o bryd. Y mae gwladgarwch, yn elfen Gymreig foreuol ac effeithiol iawn, ac y mae egwyddor cydymgeisiaeth, ag sydd yn hynodi yr Eisteddfod, yn cael ei dynwared a'i hefelychu yn y dyddiau hyn, gan amryw genhedloedd eraill.

Dywed y Dr. Puw, yn ei Eiriadur, fod yr enw yn tarddu o'r "agweddiad o eistedd"—eistedd mewn Cynghor; cynhulliad swyddol, llysawl, a barnol; ac yn gyffredin, "*Eisteddfod y Beirdd.*" O'r un gwreiddyn, o ran ystyr, y tardda "*Session,*" neu Gynghaws gwladol, yn gystal a'r gair Normanaidd "*Assize.*" Y mae amryw osodiadau yn codi yn cin llysoedd seneddol a barnol, na byddai yn hawdd eu holrhain, yn ol barn amryw haneswyr diweddar, i'w tarddiad dechreuol, ond yn unig i gynlluniau boreuol y sefydliad hwn. Y mae rhoddi golygiad cyflawn ar y trefniant, yn galw am gylch eangach, nac a fwriadwyd i'r erthygl hon, gan hyny, ni cheir yma, ond yn unig gyfeirio at y prif linellau.

Y mae yn debygol mai y prif arweinwyr a gawn, a fydd "Trioedd Ynys Prydain." Gan fod y Trioedd yn lled ddieithr i amryw o'n darllenwyr, a gwahanol farnau am eu hawduriaeth hanesyddol, y mae yn ofynol, ar y cychwyn, wneyd ychydig o gyfeiriadau atynt, mewn ffordd o eglurhad ar eu dilysrwydd. Nid yw yn hawdd rhoddi rheswm, pa ham y dewisodd yr hen athronwyr Cymreig, roddi gwersi eu doethineb i'w dysgyblion yn *Drioedd*, mwy nag mewn unrhyw rifnod arall. Dichon fod y rhif tri yn gysegredig yn eu golwg, ac y mae yn dra thebyg fod ganddynt ryw reswm dros hyny. Y mae yn briodol i ni sylwi yma, fod rhyw neillduolrwydd arbenig yn perthyn i'r rhif tri, fel y rhif saith, yn y Bibl. Y trydydd dydd yr oedd Isaac i gael ei offrymu; taith tri diwrnod y chwenychai Moesen fyned i'r anialwch; tri diwrnod y teithiodd Israel yn yr anialwch heb ddwfr; taith tri diwrnod yr aeth yr arch o'u blaen hwy i chwilio am orphwysfa; erbyn y trydydd dydd yr oedd y bobl i fod yn barod i dderbyn y gyfraith; ar ol tri diwrnod yr aethant

Digitized by Google

dros afon yr Iorddonen i Ganaan; y trydydd dydd yr ymwisgodd Esther yn nillad y frenhiniaeth; ar y trydydd dydd yr aeth Heseciah i dy yr Arglwydd, ar ol cael ei adferu o'i afiechyd; ar y trydydd dydd y dywedodd y prophwyd, "Duw a'i cyfyd ef i fyny;" yr oedd yr aflan i ymburo ar y trydydd dydd, cystal ag ar y seithfed; gosododd y Caldeaid dair byddin a'r weision Job; tri oedd nifer cyfeillion Job. Y mae *trioedd* yr Hen Destament yn afrifed. Y mae pawb yn gwybod am adeg adgyfodiad y Gwaredwr. Y mae bore "y trydydd dydd," yn air teuluaidd yn Nghymru. Yr oedd y duedd i gysylltu trioedd, yn gyffredin yn mhlith yr hen Gymru, ac y mae eu doeth-wersi oll yn Drioedd. Yr oedd amryw ddosparthau o honynt, sef Trioedd Cerdd, Trioedd Barddas, Trioedd Doethineb, Trioedd Braint a Defod, Trioedd Cyfraith, a Thrioedd Ynys Prydain, neu y Trioedd Hanesyddol. Y mae yn wir fod llawer yn amheu awdurdod y cofnodau hyn, a llawer o chwilio allan am anghysonderau, ac ail-adroddiadau ynddynt, er mwyn ceisio eu gwneud yn ddiwerth. Y mae llawer Colenso hanesyddol, yn gystal a duwinyddol, ar gael eto; ac y mae yn rhaid addef fod llawer o ymadroddion amheuol yn eu mysg; eto, wrth eu cymeryd at eu gilydd, ar y cyfan, y maent yn cynwys hanesion ac awgrymiadau o wir werth. Nid yw yn ormod genym dalu y parch dyladwy i'r ysgolheigion llafurus, sydd yn dylorni pob peth hanesyddol Cymreig, ond yr ydym yn datgan, eu bod yn gofyn profion am ddilysrwydd y Trioedd, nad yw i'w gael, hyd yn nod am awdurdodaeth yr Ysgrythyrau Santaidd. Pa fodd bynag, addefa pob plaid, eu bod yn dra henafiaethol, ac yn brif dystiolaeth ein cenedl, am egwyddorion a defodau yr Eisteddfod.

Bernir yn gyffredin, mai yn y cynulliad hwn yr arferid ar y cyntaf, â holl orchest-gampau y genedl, y rhai a ddarlunia Pennant gyda manylrwydd cywrain, ac mai yn raddol, fel yr oedd gwybodaeth yn ymeangu, a moesgarwch yn cynnyddu, y daeth yn sefydliad llenyddol, gwladol, a chrefyddol. Gorseddau, a chadeiriau, y gelwid cynulliadau y Beirdd cyntefig wedi hyny. Prif ddybenion Gorseddau y prifnod Barddonol cyntaf, oedd barnu achosion gwleidyddol, llenorol, celfyddydol, a chrefyddol; a dybenion eu Cadeiriau, a'u Rhac-gadeiriau, oedd dysgu Beirdd ieuaingc, a gwerin lleol a thaleithiol y genedl. Ond dyben penaf Eisteddfodau yr ail prifnod, a'r trydydd hefyd, oedd diwyllio prydyddiaeth a barddoniaeth y genedl yn gyffredinol. Ymddengys hefyd, i feirdd y prifnodau hyn, wneud egni gwladgarol, i gadw cof o gymaint ag a'u cyrhaeddasent, dros agendor llydan canoedd o flynyddoedd, o ddefodau ac arferion y prifnod cyntaf, er y tybir iddynt ychwanegu rhai defodau o'r eiddynt eu hunain. Ceir mai y rhai canlynol oedd y trefniadau gwarantedig:—Pedair Cadair wrth Gerdd a Barddoniaeth, sydd yn Nghymru, yn ol yr hen gofion: —1. Cadair Morganwg, a Gwent, ac Ergam, ac Euas, ac Ystrad yw, a'i gair cyfarch a chyswyn yw, "Duw a phob daioni." 2. Cadair Deheubarth, a Dyfed, a Cheredigion; a'i gair cyfarch a chyswyn yw, "Calon wrth galon." 3. Cadair Powys a Gwynedd uch, ac is, Gonwy; a'i gair cyfarch a chyswyn yw, "A laddo a leddir." 4. Cadair Gwynedd, a Mon, a Manaw, a'i gair cyfarch a chyswyn yw, "Iesu," neu, "O Iesu, nad gamwaith." A'r pedair cadair hyn a ellir eu cynal yn un man y bo achos, yn Ynys Prydain; eithr trefnusaf yw eu cynal yn eu hardaloedd eu hunain, lle ni raid wrth rybudd un dydd a blwyddyn; a rhaid yw hyny, lle bo angen; hyny yw, rhaid rhybudd un dydd a blwyddyn, os cynhelir y Gadair mewn rhyw le heblaw yn ei hardaloedd ei hun. Yr orsedd oedd yr awdurdod gwreiddiol. Yr oedd mewn ymddangosiad, yn debyg i bren yn meddu dwy gangen. Y canghenau oedd yr Eisteddfod, a'r Gadair; a'r cyff, o'r hwn y tyfent, oedd yr Orsedd, Dechreuodd yr Eisteddfod ddyfod yn drefniant rheolaidd, yn amser Owain Finddu ab Macsen Wledig, ar ymadawiad y Rhufeiniaid o'n gwlad; wedi teyrnasu mewn rhwysg yma am ysdod pedwar can mlynedd. Yr oedd yma, o ran ei hegwyddor, lawer yn gynt. Y mae yr hen gofnodau, yn dechreu gyda Tydain Tad Awen, yr hwn, meddir, oedd yn gydoeswr â Prydain ab Aedd Mawr. Dyddir yr hanes hwn tua saith gant a haner o flynyddoedd cyn cred, sef yn mhen tuag wyth gan mlynedd ar ol i Hu Gadarn arwain y Cymry i Ynys Prydain. Parhaodd y cyfnod hwn ar yr awen Gymreig, hyd ddyfodiad y Rhufeiniaid yma. Dan yr enw Derwyddon, y ceir y beirdd gan Caisar, ac eraill; ond haera yr haneswyr Cymreig, mai at Dderwyddon Gâl, y mae yr haneswyr estronol yn cyfeirio. Pa fodd bynag, y mae yr hanesion yn lled aneglur am y cyfnod cyntaf, ac nid oes dim o weithiau y beirdd a flodeuent yn y cyfnod hwnw ar gael, wrth enwau yr awdwyr; ond tybir fod llawer a'u moes-wersi yn y Trioedd. Yr oedd Enir ab Ithel yn gyfoeswr â Tydain, yr hwn oedd yn frenhin doeth, a bardd rhagorol, ac efe a'r beirdd oedd yn llywodraethu. Yn mhen tua chan mlynedd ar ol Enir, fe ddywedir fod Dynwal Moel-mud yn ffurfio ei gyfreithiau, a bod Plenydd, Alawn, a Gwron, tri chyntefigion beirdd Ynys Prydain, yn gyd-oeswyr ag ef; ond y mae dadl am yr amseriad hwn. Pa fodd bynag, yr ydym yn cael molawd uchel i'r tri wyr hyn, am roddi "gwaedd yn ngwlad, dan osteg a rhybudd un dydd a blwyddyn, a nawdd a braint, pob perchen awen o Dduw, gyrchu cyfnod o le, ac amser, er myned yn nghadair a gorsedd, gan addysg a gaffed yn ngherdd Tydain Tad Awen, a chan bwyll ac ymbwyll gwlad a chenedl y Cymry." Cawn hefydd fod Plenydd, Alawn, a Gwron, heblaw trefnu a breintio llenyddiaeth, yn ffurfio cymrawd rhwng dyn a dyn, "yn nawdd Duw a'i dangnef." "Yna doded a wnaed gan y tri chyntefigion hyn, dan osteg a rhybudd un dydd a blwyddyn, gan waedd gwlad, hyd yn mhen y tair blynedd, ac yn mhob gorsedd, cadarnhau gan dri chant o nifer." Dyma fel y cafwyd gwarant, a braint, a chadernid ar ddosparthiad y tri doethion cyntefig; sef Plenydd, Alawn, a Gwron. Yr oedd yr orsedd yn cael ei chadarnhau am dair blynedd olynol. Gwelir yma fod yr hen orsedd wreiddiol, yn cael ei rheoli gan y tri wyr galluocaf a feddai yr holl wlad. Wedi i'r enwogion hyn fynegi y drysorfa o ddoethineb a feddent mor gyflawn, deuwyd yn raddol i sefydlu rheolau gosodedig y trefniant, yr hwn a dderbynid fel awdurdod oruchaf gan yr holl wlad.

Y mae ysgriflyfrau Iolo, a'r hanesion Cymreig, yn crybwyll am luaws o Gadeiriau ac Eisteddfodau, o amser Arthur, tua 512, hyd amser Syr Rhisiard Basset 1681; ond nid oes hanes fanwl am weithrediadau ond ychydig iawn o honynt, ar gof a chadw; ond y mae hyny o awgrymiadau sydd ynddynt, yn profi yn ddigon amlwg, mai prif ddyben yr holl

Digitized by Google

gynulliadau boreuol, oedd diwyllio barddoniaeth, a phethau eraill cysylltiedig, ac yn neillduol yr iaith Gymraeg. Gwnaeth amryw o honynt hefyd, yn enwedig Eisteddfodau y Deheudir, ymdrechiadau canmoladwy, at gasglu a chadw yr hyn oedd ar gof o ddefodau yr hen sefydliad Barddol cyntefig. Un o'r Cadeiriau hynaf y mae son am danynt, ydoedd Cadair Urien Rheged, 517, yn Nghaer Gwyroswydd, sef Ystum Llwynarth, lle yr oedd Talhaiarn, tad Tangwn, yn Bencerdd; ac wedi marw Talhaiarn, "Taliesin a fu yn arwain tair Cadair, nid amgen Cadair Caerlleon ar Wysg, dan nawdd Arthur, a chadair Rheged yng Ngwyroswydd, dan nawdd Urien, a Chadair y Gorllewin, yn Mangor Deifi, yn nawdd Cedig ap Caredig ap Cyneddaf Wledig." Ymddengys i Taliesin, tua'r un amser, sefydlu "Cadair yng nghyfoeth Gwyddnyn ap Gwydion, yn Arllechwedd Arfon, a chael braint yno ar dir a daear." Yn un o'r Cadeiriau hyn, trefnodd Taliesin i ugain llythyren fod yn yr egwyddor Gymraeg, pan nad oedd cyn hyny, fel y dywedir, ond deunaw. Deg llythyren oedd yn yr egwyddor gysefin; yna deuddeg; wedi hyny, un ar bymtheg; ac yn nechreu oes Taliesin, deunaw. Tu a'r un amser, neu efallai yn foreuach, bu Gwdion ab Don yn enwog am wybodau a chelfyddydau, ac a ddygodd chwareu Hud a Lledrith gyntaf i'r Cymry. "Cerdd Hud a Lledrith a fydd honno, lle bo ymryson a chyfariaith nifer o ddyniadon ynddi, dan ledrithoedd amgen o fraint a gradd, a chyflwr, nag y byddont herwydd gwirionedd; a phob un yn ei râdd a'i gyflwr lledrith, yn ymryson âg arall, yng ngwrth, neu yn mblaid yr hyn a ddodir yn gyff ymryson rhyngddynt; er dangos a fo cyfiawn ac anghyfiawn, diddan ac annniddan," &c. Y mae hyn yn dangos fod y dull yma o gyfansoddi, a chwareu, yn foreuol iawn. Y mae amryw ganiadau o'r dull hwn yn henafiant Cymry, dan enw Taliesin, Merddin, ac eraill. Yr Eisteddfod nesaf y sonir am dani, ydoedd yr un yn Nghonwy, dan nawdd Maelgwn Gwynedd, o gylch 540. Yr unig gof henafol am dani, sydd mewn Cywydd o'r eiddo Iorwerth Beli, o'r pedwerydd canrif a'r ddeg, yn dangos ddarfod i Maelgwn gynhyg gwobrau i'r prydyddion a'r cerddorion, am nofio dros afon Gonwy; a hyny, fel y tybir, o blegid ei fod yn fwy pleidiol i'r beirdd nag i'r telynorion; canys erbyn iddynt gyrhaedd y lan, ni thalai y telynau ddimai goch, pan y canai y beirdd mor beraidd a chynt, ac am hyny hwy a gawsant y gwobrau. Ar ol hyn ni cheir hanes am un Eisteddfod, oddigerth yr un dan nawdd Cadwaladr, am yr hon nid oes ond crybwylliad, hyd amser Morgan Hen, tywysog Morganwg, yn y degfed canrif, pan yr oedd Geraint Fardd Glas, brawd y tywysog, yn bencerdd. Dywedir y cynhelid Eisteddfodau, yn oes y tywysog hwnw, unwaith yn y tair blynedd, yn ei lŷs, ac mai y pryd hyny y dygodd Geraint "gynghanedd gydsain" gyntaf i brydyddiaeth, pan nad oedd cyn hyny eithr cynghanedd unodl yn unig; sef gair yn nghanol yr haner olaf o'r ban, yn unodl a gair gyferbyn ag ef yn nghanol yr haner cyntaf, fel y dodai Taliesin Ben Beirdd yn ei gerdd ef. Coffeir am amryw Eisteddfodau yn yr unfed canrif ar ddeg, dan nawdd Rhys ab Tewdwr, Bleddyn ap Cynfyn, Cadwgan ap Bleddyn, a Gryffydd ap Cynan, yr hwn a gynhaliai Eisteddfod yn gysson, unwaith bob tair blynedd, yn ei lŷs yn Aberffraw, heblaw yr Eisteddfodau a gynhaliwyd dan ei nawdd yn Nghaerwys, ac yn Nglyn Achlach yn Iwerddon, o gylch 1100. Y mae y trefniadau eisteddfodol a ffurfiwyd gan Gryffydd ab Cynan, yn ol cynllun Cadwaladr, ar gof a chadw hyd y dydd hwn. Dywedir i amryw Eisteddfodau gael eu cynal yn y deuddegfed canrif, dan nawdd Robert, a William, ieirll Caerloew, pan y mabwysiadwyd y gair cyswyn, "Da'r maen gyda'r efengyl," a chofnodir un a gynhaliwyd yn 1166, yn nghastell Aberteifi, dan nawdd Rhys ab Gryffydd. Sonir am Gadair dan arweiniad Ieuan Fawr ap y Diwlith yn 1170. Ni chanfyddir un mwyach, hyd y gwyddys, hyd oes Dafydd ap Gwilym yn 1300 hyd 1368. Crybwyllir am un heb ddyddiad iddi, a gynhaliwyd yn Llanfihangel Afan, lle yr oedd Dafydd ab Gwilym yn gyff cler, pan y canodd Rhys Meigen dduchan gynfigenus iddo; yr hyn a barodd i Dafydd ganu mor chwerw iddo yntau, erbyn yr eisteddfod ganlynol, fel y syrthiodd Rhys i lawr yn farw wrth ei wrando. O gylch y pryd hwn y cynhaliwyd y "tair Eisteddfod Dadeni," sef y gyntaf yn Ngwern y clepa, dan nawdd Ifor Hael, lle yr oedd Llewelyn ab Gwilym yn athraw: a Dafydd ab Gwilym, a'r tri brodyr Marchwiail, nid amgen Ednyfed ab Gryffydd, Madog ab Gryffydd, a Llewelyn ab Gryffydd, yn ddysgyblion iddo. Yma y rhoddwyd Cadair i Dafydd ab Gwilym, am ganu Cywydd Deuair Hirion, sef o gylch 1360. Gwedi hyn, cynhaliwyd Eisteddfod dan nawdd y Llewelyn ab Gwilym uchod, yn y Ddol Goch, yn Emlyn; ac i hono y daeth Sion Cent, a Rhys Goch o Eryri yn Ngwynedd, ac y bu ymryson rhwng Sion a Rhys, ac y bernid Sion yn oreu ar gerdd gysegredig, a Rhys yn oreu ar gerdd foliant, rhoddwyd y gadair i Sion Cent. Rhoddwyd, wedi hyny, Riangerdd yn destyn Cadair Ceredigion, a barnwyd Dafydd ab Gwilym yn oreu, ac ef a arwisgwyd â'r Cae Bedw. Gwedi hyn y tri brodyr a ddodasant, dan osteg a rhybudd un dydd a blwyddyn, Eisteddfod yn Maelor, yn Mhowys, yn nawdd Iarll Mortimer, dan goron y Brenhin Iorwerth III., ac yno y canwyd am Gadeiriau; ac Ednyfed ab Gryffydd a gafodd y Gadair am Gywydd Gwr, ac am englynion Byraf Eiry Mynydd; a Madog, y trydydd brawd, a gafodd Gadair, a Chae Bedw am Rieingerdd; a Dafydd ab Gwilym a ganodd yn garedig i Madog am ei gerdd. Ac yn yr Eisteddfod hon yr addurnwyd Iolo Goch âg addurn Cadair, am ei wybodau, a ddysgodd Ednyfed ab Gryffydd, o berthynas i Gerdd Dafod. Ymddengys i'r adfywiad llenyddol a gododd yn y ganrif hon, greu a magu y fath nifer o feirdd, ac yn enwedig clerwyr, nes y daeth y rhai olaf yn faich ar y wlad, fel y bu raid rhoddi ataliad cyfreithiol ar eu honiadau, dan boen ffin a charchar. Ar ol y gwahardd hwn gan Harri IV., ymgyfarfu y beirdd mwyaf cyfrifol a dysgedig, mewn Gorseddau ac Eisteddfodau, yn y Deheudir, dan nawdd y Barwniaid; ac yn Ngwynedd a Phowys, drwy ganiatad brenhinol. Yn unol a hyn, ceir rhestr o Feirdd Morganwg, o Ieuan Hen 1270, hyd Sion Bradfford, a Thrahaiarn Brydydd Mawr 1300; Hywel Bwr Buch, 1330; Dafydd ab Gwilym 1360; Edward Ifan 1780; a Iolo Morganwg 1824. Ond fel beirdd lleol Morganwg y dylid ystyried y rhai hyn, ac nid fel Beirdd cenedlaethol Cymru. Y nesaf a grybwyllir fel Eisteddfod genedlaethol, a adwaenir yn gyffredin wrth yr enw, "Eisteddfod Fawr gyntaf Caerfyrddin," a gynhaliwyd dan nawdd Gryffydd ab Nicolas, yr hwn a gafodd Warant a Braint diogelwch dyfod a dychwel, dan nawdd Llythyr

Digitized by Google

cynwys y Brenhin Harri VII., pan y dodwyd ar Llawdden adgyweirio y cynghaneddion; a goreu ar ddefodau y bernid Gwilym Tew; a Dafydd Nanmor a ragorai ar Gerdd Dafod. Ac wedi hyn, dodwyd yr Eisteddfod ar osteg a rhybudd un dydd a blwyddyn, o flwyddyn i flwyddyn, hyd ben y tair; ac o dair blynedd hyd yn mhen y naw mlynedd; ac yn hyny, cyrhaedd cyfallwy, a'r ddegfed flwyddyn, 1451, cynal ail "Eisteddfod Fawr Caerfyrddin," lle yr enillodd Dafydd ab Edmwnd y Gadair arian. Yn y flwyddyn 1460, cynhaliwyd Eisteddfod a Gorsedd wrth Gerdd, ar fynydd Garth Maelawg, dan nawdd Rhisiart Nefel, oedd yn ben arglwydd Morganwg; ac yn yr orsedd hon y rhoddodd beirdd Morganwg, a Gwent, ac Euas, warafun, a gwrthwynebiad i Ddosparth Cerdd Caerfyrddin. Cynhaliwyd amryw Eisteddfodau wedi hyn, megis yr un dan nawdd Harri VII., yn y teirgwlad, Morganwg, Gwent, ac Euas, o 1485 hyd 1509; yr un dan nawdd Rhisiard ap Hywel ap Ieuan Fychan 1524; un arall yn Nghastell Caerdydd, dan nawdd William Herbert, Iarll Penfro, lle y gwnaed eto Ddosparth ar Gerdd, ond a wrthodwyd gan Feirdd Gwynedd. Yr ydym yn awr, wedi dyfod, o dymor i dymor, nes cyrhaedd Eisteddfod Freiniol adnabyddus Caerwys; a barnwn erbyn hyn, er na ellir cofnodi y cyfan, o fewn cylch yr erthygl hon, fod yma gynnifer wedi cael cyfeirio atynt hwy a'u gweithrediadau, ag sydd yn ofynol, er rhoddi mantais i'r darllenydd gael trem ar y pethau pwysicaf yn hanes y rhestr oll, hyd y cyfnod hwn. Y mae y crynodeb hwn yn eglurhad i ni, fel yr oedd egwyddorion a defodau yr Eisteddfod yn cael cerfio mold iddynt, i'w bwrw, mewn amserau dyfodol, nes eu dyfod i'w ffurf bresenol. Er mwyn osgoi tra mynychiad o'r un pethau, gadawyd allan amryw gyfeiriadau yma, ag a geir mewn manau eraill yn nghorph y gwaith hwn.

Y mae athrawiaeth Barddas yn cael manylu arni, mewn cryn gywreindeb yn ysgrifau Iolo Morganwg. Dywed yr arwydda y nod /|\, sef yr hwn a elwir, y nod cyfrin, oleuni a phurdeb Dwyfol. Dyma y Dwyfoldeb a berthyna i'r Bardd. Dywed fod pob bod yn Ddwyfol o enw Duw. Dyma air y creu, yr hwn a seiniodd yr holl gread i fodolaeth. Bod pechod wedi tynu anfoesoldeb i'r byd: O halogi enw Duw, y daeth marwoldeb i'r byd. Tra cedwir enw Duw ar gof, parth rhyw, a rhin, a rhif, nis gellir amgen na bod bywyd, a gwynfyd, a gwybod, hyd byth bythoedd. O anghofio enw Duw, y syrthir i gylch isaf yr abred; yna "Heb Dduw, heb ddim." Nis gellir gwybod dim am Dduw yn nghylch abred, nes goddef yr holl gosp; yna daw adferiad i ail sefyllfa, o gosp yr abred. Y cyflwr nesaf i obryn, yn nghylch yr abred, yw cydfil, neu fwystfil. Y beilchion a dybid oedd ddyfnaf yn nghylch yr abred; yna yr anwir; yn nesaf, annhrugarogion. Ar ol i'r enaid ymburo ychydig, wrth dreiglo o'r naill filyn i'r llall, deuai o'r diwedd i gylch dyndod. Cyn dyfod i gyflwr dyndod, yr oedd y drwg yn gorbwyso y da; ond yn nyndod, yr oedd y da a'r drwg yn cyd-bwyso. Dyma lle yr oedd yr enaid yn dyfod i bwnc rhyddid, ac yn dyfod yn gyfrifol am ei holl weithredoedd. Os iawn ddefnyddiai yr enaid ei ryddid, drwy gylch dyndod, câi ei ddercharu i "gylch gwynfyd," lle yr adferid i'r enaid, gof perffaith, fel y gallai olrhain, gyda manylrwydd a dywenydd, bob cyflwr a sefyllfa a gyfarfu yn mhob corph, tra yn rhedeg ei yrfa yn abred, o anwn i fynu. Ar ol i'r enaid unwaith gyrhaedd cylch y gwynfyd. nid oedd dim perygl iddo fyned i anwn yn ol, am y byddai y da yno yn gorbwyso y drwg; ond gallai, os mynai, ddyfod i gyflwr o ddyndod. Y mae yr athrawiaeth hon yn y Trioedd, fel y gellir gweled oddiwrth yr ychydig ddyfyniadau canlynol.—"Tri chylch hanfod sydd: cylch y ceugant, lle nid oes namyn Duw, na byw, na marw; ac nid oes namyn, Duw a all ei dreiglo, cylch yr abred, lle pob ansawdd —hanfod o'r marw, a dyn a'i treiglwys; cylch y gwynfyd—lle pob ansawdd—hanfod yn y nef, a dyn a'i treiglwys yn y nef. Tri chyflwr hanfod bywedigion; cyflwr yr abred yn anwn, cyflwr rhyddid yn nyndod; a chyflwr cariad, sef gwynfyd yn y nef. Tri phrif anffawd abred; angen, anghof, ac angau. Tri chyd-gyfran dyn; abred a gwynfyd, angau a rhyddid, da a drwg, ac oll yn gydbwys; a'r gallu gan ddyn i lynu wrth yr un a fyno. Tri braint cyflwr dyn; cydbwys drwg a da, ac yna cymhariaeth; rhyddid wrth ddewis, ac o hyny, barn a dewis; a chynnechreu gallu yn mraint barn a dewis; gan y rhaid cyn dim arall o wneuthyr. Tri pheth a roddes Duw ar bob byw; sef cyflawnder ei ryw, gwahander pen ei hun, a banogaeth awen gysefin rhag arall; yna hunan cyfoll pob un gwrth arall. Tri pheth sydd ar eu cynnydd; tân, sef goleuni; deall, sef gwirionedd; ac enaid, sef bywyd; a gorfod a wnant ar bob peth, ac yna diwedd yr abred. Y neb a fynai olrhain y pethau hyn yn fanylach, ymgynghored â *Celtic Researches* yr enwog Davies.

Rhan hanfodol o'r hen Eisteddfod, ydoedd yr Urddau, fel y mae gyda phob trefniant rheolaidd cyffelyb. Ni chawn yma ond yn unig eu crybwyll, mewn ychydig o ddyfyniadau o Ramadeg Dr. John Dafydd Rhys. Bernir fod y ddefod o urddo Beirdd a dysgyblion, o henafiaeth boreuol iawn. Gweinyddid hwy gyda gofal a phryder mawr, dan reolaeth ddoeth a gochelgar, a chedwid y graddau fel cymhelliad i lafur a diwydrwydd; a thrwy yr arholiad manylaf, y cedwid pob ymhoniad annheilwng draw. Gyda golwg ar Farddoniaeth, yr oedd ganddynt bedair gradd, ac urdd briodol ar gyfer pob un o honynt. Fel hyn yr oedd eu darpariadau, ar "Swyddau priodol gwyr Cerdd Dafod; pawb yn herwydd ei radd. 1. *Dysgybl Ysbas* Cerdd dafod, a ddylai wybod y sillafau, a phump mesur englyn; nid amgen Unodl Union, ac Unodl Crwca, ac Unodl Cyrch, a Phroest Gyfnewidiog, a Phroest Gadwynawg; a mesur Cywydd Deuair Hirion; a'u canu yn awenyddgar yn marn Pencerdd, a ddywedo ar ei gydwybod a ellir Prydydd o hono. 2. *Dysgybl Dysgyblaidd*, a ddylai wybod y Deuddeg mesur; nid amgen pum mesur Englyn, a phedwar mesur Cywydd, sef Cywydd deuair hirion, a chywydd deuair byrion, ac Odlgywydd, a chywydd Llosgyrnog, a thri mesur Awdl; nid amgen Toddaid, Gwawdodyn Byr, a Gwawdodyn Hir, a gochel y pymtheg bai cyffredin; a dangos o'i waith ei hun, bob un o'r deuddeg mesur, yn ddysgyblaidd ac yn awenyddol. 3. *Dysgybl Pencerddaidd*, a ddylai wybod ei holl sillafau, a rheol yr ymadroddion, yn ol y gramadeg, a dosparth y cynghaneddion, a gochel yr holl feiau, a chanu yn gydsain, neu yn gyfochr-gerdd ar un-mesur-ar-hugain. 4. *Pencerdd* a ddylai wybod y cwbl, a chanu yn gyfochr, ac yn gydsain, ac yn groes gynghaneddol ar Gymeriadau, ac yn destyngar ar Ddigrifwch, ac yn ffrwythlawn o synwyr, ac yn ddeunyddfawr o gerddoriaeth, ac yn warantedig o awdurdod, ac yn awenyddol o ddy-

Digitized by Google

chymyg, fel y bo hawsaf i ddysgu neu ddatganu y gerdd, a difyr o'i gwrandaw, neu ei darllen, a hwyaf gallu dala cof ar foliant Boneddigion." Dyma gymhwysderau gofynol y Beirdd, tu ag at gyrhaedd y gwahanol urddau a grybwyllwyd. Yr oedd eu rheolau penodol hefyd, yn perthyn i'r cerddorion, y rhai a ddynodid yn y drefn ganlynol. 1. "*Dysgybl Yspas* heb radd, nid oes ar ei gelfyddyd, nac ar ei radd, nac ar ei rodd, ond barn Pencerdd, a ellir gwr wrth gerdd o hono. 2. Dysgybl *Ysbas Graddawl*, a ddylai wybod deg cwlwm, a cholofn, a phum cwlwm o gydgerdd, a chadair, ac wyth o ganiadau. 3. *Dysgybl Dysgyblaidd*, a ddylai wybod ugain cwlwm, a dwy golofn, a deg cwlwm cydgerdd, a dwy gadair, ac un ar bymtheg o ganiadau, a'r pedwar-mesur-ar-hugain, a'u canu wrth reol. 4. *Dysgybl Pencerddaidd*, a ddylai wybod deg-cwlwm ar-hugain, a thair colofn, a phymtheg o glymau cydgerdd, a thair cadair; a phedair-ar-hugain o ganiadau; a'r pedair gosteg; a medru eu mesurau a'u dosparthu; ac adnabod gwahan rhwng pob rhyw a'u gilydd. 5. *Pencerdd* a ddylai wybod deugain cwlwm, a phedair colofn, ac ugain cwlwm cydgerdd, a phedair cadair, a deuddeg-ar-hugain o ganiadau, a phedair gosteg; a gwybod yr holl fesurau i gyd, a'u rheolaeth; a gwybod pedair-ar-hugain o Ddyrïau; a dosparth y mesurau, megis y mae y llyfr dosparth yn dangos; a medru gwneuthyr cerdd ei hunan, yn ddifai, yn marn Pencerddiaid; a medru eu holl ddosparthau, a phob gwant, a rhagwant, a phob cynwysiad a gorphwysiad, a phob symudfa ar dyniadau, a chyweir-dannau cuddiedig ac anghuddiedig, a'u dangos yn warantedig o'i waith ei hun, yn Bencerddaidd ac Athrawaidd, fel y bo gwybodus i Bencerddiaid a doethion; a'i farnu ef, a'i ddewis yn Awdwr ac yn Athraw ar ei gelfyddyd. Ni ddylai neb ddysgu, ond gan Athro Pencerddaidd; a fedro osod yn iawn a ddysger gan arall; ac os Telynor fydd y Cerddor, rhaid iddo wybod y tri Mwchwl godidog; yr hwn a raddiwyd yn gyfuwch o radd a'r pedair cadair; a'r pedair cadair yn bum cwlwm bob un."

Nid ydym yn amcanu i'r sylwadau hyn, fod yn ddim amgen nag awgrymiadau am brif egwyddorion a defodau yr hen Eisteddfod, gan y galwai eglurhad cyflawn, am gylch llawer eangach nag a ganiateir yma. Efallai y dylid crybwyll gair yn mhellach am yr Orsedd. Dyma ddarluniad Iolo Morganwg o honi. "Defod yw gwneuthyr cylch cyngrair ar ben bryn amlwg; a hwn a wneir â meini yn gylch, o faint a fo achos, o don, neu wyneb y ddaear; a lle gŵr, o leiaf, rhwng maen a maen; ac yn ngwyneb haul y dwyrain; lle tri gwyr, o leiaf, i fyned i'r cylch, a hwn a elwir yn gyntedd, neu y porth, ac yn ei gyfer yn mhellach, hyd tri gwrhyd, neu dri thri gwrhyd, gosod maen, a elwir maen gorsedd, a hwnw yn mhrif bwnc y dwyrain; ac o'r tu gogleddol i hwn, maen arall, yn llygaid pwnc haul y dydd, pwnc codiad haul ddydd byraf y gauaf. Y tri maen hyn a elwir meini gorsedd, ac yn nghanol y cylch, maen arall, yn llygaid pwnc haul y dydd hwyaf yr haf; a'r tu deheu i'r maen gorsedd, maen arall yn llygad pwnc codiad haul ddydd byraf y gauaf. Y tri maen hyn a elwir meini gorsedd, ac yn nghanol y cylch, maen arall, o faint mwy na'r lleill, ar gyferyd cywir y tri maen gorsedd, yn llygad haul y boreu. Meini y cylch a elwir meini gwynion, a meini crair, a'r maen canol a elwir maen gorsedd, a chrair gorsedd, a'r maen llog, a'r maen armerth. Y cylch hyny a welir, fel y dywedwyd, a elwir cylch ambawr, a chylch gorsedd, a chylch gwyngil; a'r cylch hwn hefyd a elwir y trwn, mewn rhai gwledydd; ac yn y cylch hwn y cyrchant y beirdd yn ngorsedd; ac nid defod na syberwyd i neb, namyn y beirdd, fyned o fewn y cylch, oni's ceisier gan fardd." Dylid crybwyll yma, mewn gair, yn mhellach, am amser Cynhaliad yr Orsedd: 1. "Y cyntaf yw Alban Arthan, (*Winter Solstice*), a'i syrth ar y degfed dydd o fis Rhagfyr, pan y byddo dydd byraf y gauaf; a'r dydd hyny y cyntaf o'r flwyddyn a'r gauaf, herwydd defod yr hen Gymry, a chyfrif y Beirdd, herwydd hen gof a chadw. 2. Yr ail yw Alban Eilir (*Vernal Equinox*), a'i syrth ar y degfed dydd o fis Mawrth; a'r dydd cyntaf o'r Gwanwyn yw. 3. Y trydydd yw yr Alban Hefin (*Summer Solstice*), a'i syrth ar y degfed dydd o fis Mehefin; a dydd cyntaf yr Haf, a dydd hwyaf yr Haf. 4. Y pedwerydd yw'r Alban Elfed (*Autumnal Equinox*), a'i syrth ar y degfed dydd o fis Medi, a'r dydd hwyaf, a'r cyntaf Mesyryd yw, a hefyd dydd cyhydedd haul y Mesyryd; ac ar y dyddiau hyny y cadwent y Beirdd eu Gorseddau, a'u Cadeiriau, ac ar yr undydd blaen ac ol y pedair Alban, y trafodent eu prif orchwylion, ag a drefnant a fo achos. Y dydd o flaen yr Alban a elwir Gwyl yr Alban; a'r dydd ar ol, Gwledd yr Alban; a rhydd ac egor bob un o honynt, megis yr Alban, yn dri diwrnod y cyfan, ac ernynt y gellir trafod a fyner a fo wrth gais ac achos, yn Ngorsedd a chadair, heb na gosteg na rhybudd." "Dyddiau Rhagorsedd a Rhaccadair, ydynt ddyddiau bann lleuad; sef, y cyntaf, dydd newydd y lleuad, a elwir cyntefin y lleuad; a'r ail yw dydd haner cynnydd y lleuad, a elwir Adfan Cynnydd; y trydydd yw dydd y llawn lleuad, a elwir y Llawn Llonaid; a'r pedwerydd yw yr Adfan Cil, sef dydd haner cil y lleuad." Y mae amryw Weddiau wedi eu darparu ar gyfer yr Orsedd, i ddilyn y datganiad o'r hen Arwyddwers, "Y Gwir yn erbyn y byd." Hon a arferir yn fynych, o waith Trahaearn Tad Tanwyn:—

"Duw rho nerth;
Ac o nerth, pwyll;
Ac o bwyll, gwybod;
Ac o wybod, y cyfiawn;
Ac o'r cyfiawn, ei garu;
Ac o garu, caru pob path,
Ac yn ngharu pob peth, caru Duw."

Y mae un arall yn ysgriflyfr Iolo; ac un arall yn llyfr Trahaearn Brydydd Mawr; ac un arall a elwir Gweddi y Gwyddoniaid; oll yn gwahaniaethu ychydig o ran eu geiriad, ond yn bur debyg o ran eu hysbryd a'u cynnwysiad. Fel hyn y rhoddir i ni ddarluniad o gyflawniad defodau yr Orsedd gan un awdwr:—"Dacw y Bardd gorsedd, a chyfaill yn dwyn cleddyf gweiniog i'w ganlyn, yn cyfeirio eu camrau at y maen gorsedd, mor ddifrifol a phe yr elent ar feddau eu mamau. Dacw y cleddyf yn cael ei ddiweinio, i'r dyben i'r graddedigion ei weinio, drwy i bob un ymaflyd yn y wain, ag un llaw, i'w rhoddi am y cleddyf sydd yn llaw y bardd gorsedd. (Y peth cyntaf a wnaeth Caledfryn, yn Nghaernarfon, oedd gwaeddi allan, "A oes Heddwch?" Ac wedi cael myrdd o atebion cadarnhaol, elid yn mlaen); Os bydd gormod o nifer o'r graddedigion, i bob un allu cydymaflyd yn y wain ar unwaith, eler dros yr un ddefod drachefn, a thrachefn eilwaith, os bydd eisiau. Pawb yn droednoeth ac yn bennoeth, cofier; hyny

Digitized by Google

yw, pawb fyddo o fewn y cylch cysegredig. Dealler mai y meddylddrych yw gweinio, ac nid dadweinio y clêdd, a hyny yn arwydd o Heddwch, sef "Heb noeth arf." Yr ydym yn dymuno hysbysu y dyben gyda phwyslais, rhag i neb feddwl mai tyngu eu gilydd y mae y beirdd, i ymladd a'u gilydd, a phawb arall, tra y safo y cledd yn ei garn, ac ymladd â'r carn eilwaith. Tybiai Iolo ac Ab Ithel, fod gwyr llên yn dderwyddon wrth eu galwad, ac am hyny, y dylid eu hurddo oll fel y cyfryw, gydag arwydd o ysnoden wen. Yr oedd yr olaf yn rhestru holl weinidogion yr efengyl, a'r ysgol athrawon, yn y dosparth hwn. Arwydd y bardd yw glas, (gwirionedd); y derwydd, gwyn (purdeb); a'r ofydd, gwyrdd (celfyddyd); yr oedd i bob dosparth ei liw priodol ei hun. Dylid ychwanegu yma, nad oedd neb i gael ei raddu heb gymeradwyaeth tair gorsedd, drwy rybudd o un dydd a blwyddyn. Gelwid y gyntaf yn orsedd gyfarch; yr ail, gorsedd hawl, yr hon sydd yn fwy pwysig na'r gyntaf; a'r drydedd, gorsedd gyfallwy, sef y fwyaf oll. Un orsedd gyfallwy sydd, sef gorsedd Cymru oll, fel y golygir fod yr Eisteddfod Genedlaethol. Yr is-orseddau ydynt, Gorsedd Morganwg—"Duw, a phob daioni;" Gorsedd Deheubarth, "Calon wrth galon;" Gorsedd Gwynedd a Phowys, "A laddo a leddir;" a Gorsedd Mon a Manaw, "Iesu," neu "Iesu nad gamwaith." Fe ellir cynal y gorseddau hyn, gyda rhybudd o un dydd a blwyddyn, y lle a'r amser a ddewiser. Y gorseddau hyn yn nghyd, sydd i ffurfio gorsedd gyfallwy. Os bydd gorsedd gyfallwy wedi huno, fe all gorsedd gyfarch raddio; ac os bydd gorsedd gyfarch wedi huno, fe all gorsedd hawl raddio; ac os bydd gorsedd hawl wedi huno, fe all tri chanwr, ar air deuddeg o gywiriaid gwlad, raddio yr urddolydd teilwng.

Y mae yr hyn a grybwyllwyd am yr hen Eisteddfod, yn arwain y darllenydd yn naturiol i ymofyn, "Pa faint o debygrwydd sydd ynddi i'r Eisteddfod ddiweddar, a phresenol?" Y mae rhai yn bleidiol dros gadw prif ddefodau yr hen drefniant, ac eraill yn dramgwyddus iawn, wrth feddwl am gynal "hen ddefodau paganaidd o'r fath, yn yr oes bresenol, pan y mae Cristionogaeth wedi cymeryd lle yr hen arferion ofer, yn gwbl oll. Dadleua eraill nad oes dim yn anghydweddol ag ysbryd diwygiad yn y defodau, gan eu bod fel gwersi ar gof a chadw, am ddiffygion yr oesau a fu. Y mae gan bob trefniant cyhoeddus, ei ffurfiau a'i ddefodau, o'r Seiri Rhyddion a'r Coedwigwyr, i fynu hyd osodiadau coroniad brenhinoedd. Pa ham y cludir y cleddyf ar achlysuron o flaen y Frenhines, a'r berllysg o flaen y Maer, yn ein gwlad ni? Gwyr y cyhoedd nad yw y rhai a'u harferant yn meddwl dim pellach am danynt, na chynnrychiolaeth o egwyddorion cyntefig. Nid ydym yn gwybod yn iawn, pa ham y crybwyllir am fod Alawn, Plenydd, a Gwron "yn erwynebol" yn y dyddiau hyn, os nad o ystyriaeth gyffelyb i'r hyn a dybiai yr Iuddewon am y Gwaredwr, pan y golygent ei fod yn Elias, Zecharias, Ioan Fedyddiwr, neu un o'r prophwydi. Y mae yn debygol mai yn Eisteddfod fawr Caerfyrddin, y penodwyd ar fod y Gadair mewn cysylltiad âg Awdl ar destyn penodedig. Gwnaed cais gan rai i godi y Bryddest i'r un safle o anrhydedd a'r Awdl, ond penderfynwyd i'r hen drefn barhau yn yr Eisteddfod ddiweddaf a fu yno. Dyma fel y sylwai Caledfryn ar y pwnc; "Can belled ag y mae a wnelo yr Eisteddfod Genedlaethol, a'r Awdl a'r Bryddest, a dyma yr unig awdurdod addefedig sy mewn bodolaeth yn bresenol, y mae y ddadl, pa un ai yr Awdl ai y Bryddest a gaiff y Gadair, wedi ei phenderfynu; sef fod yr Awdl i gadw ei lle, megis yr oedd o'r blaen, er ys canoedd o flynyddoedd. Y mae dros bedwar cant o flyneddau, er pan aeth Dafydd ab Edmwnd a'r Gadair o Gaerfyrddin i'r Gogledd; ac y mae wedi cael ei chadw yn ei hurddas, gydag ychydig o eithriadau, hyd y dydd hwn. Ni feddyliodd neb am ei bwrw o'i hanrhydedd, nes y cododd mintai o ddynion ieuaingc, a deimlent awydd tua haner can mlynedd yn ol, am fod yn feirdd; ond a welsant fod dringo i ben mynydd Parnassus, yn ormod gorchwyl i'w gewynau gweiniaid; neu mewn geiriau eraill, a ganfyddent yn amlwg nad allent feistroli y gynghanedd gydag un gradd o anrhydedd iddynt eu hunain, nac er un math o dderbyniad yn mhlith y bobl. Rhyfedd gymaint y maent wedi ddulio ar hyn, ond nid ydynt un cam pellach yn mlaen, o blegid yr Awdl a fyn y bobl; ac nid ydyw hyny yn rhyfedd, o blegid y mae yr Awdl yn meddu mwy o gywreinwaith, ac yn haws i'w chofio o lawer na'r Bryddest. Pwy a glywodd erioed linellau o Bryddest yn cael eu hadrodd ar dafod leferydd, na'u dyfynu, fel yr adroddir llinellau o Awdlau? Ni fyddwn yn rhyfeddu cymaint at ymgeiswyr gweiniaid, na wyddant ddim am natur cynghanedd, eu bod yn dyweyd pob peth sydd yn gas yn erbyn yr Awdl; ond y mae clywed y rhai a enillasant yr unig glod a feddant, yn ei chablu, ie, rhai na ddaethent byth i'r safle a gyrhaeddasant, pe buasent yn dechreu gyda'r Bryddest, yn lle yr Awdl, yn dyweyd yn ei herbyn,—yn annyoddefol. Y mae y rhai hyn yn brathu y llaw a roddodd iddynt damaid o fwyd pan na feddent ddigon o nerth i'w enill eu hunain." Yr oedd Caledfryn yn wrthwynebus iawn i urddo neb yn fardd, heb wir deilyngdod, ni fynai er dim wneud yr Orsedd, yn fath o chwareu-fwrdd i foddloni cywreingarwch, ond yr oedd yn wastadol am gynal y graddau fel cymhelliad i lafur ac ymdrech. I'r dyben hwn, mynai fod arholiad manwl, neu dystiolaeth foddhaol am deilyngdod yr ymgeisydd, yn cael ei chyflwyno ger bron. Addefir yn gyffredin, mai amcan yr Eisteddfod ydyw diwyllio a meithrin Barddoniaeth a Llenyddiaeth; chwilio, trefnu, a chadw, cofnodion hanesyddol, a gweddillion llenyddol y genedl; cynorthwyo i gyhoeddi gweithiau gwreiddiol, yn yr iaith Gymraeg; meithrin a dadlenu talent y Cymry; a defnyddio pob moddion eraill, o bryd i bryd, a fyddo yn debyg o ddyrchafu cyflwr cymdeithasol, moesol, a deallol y genedl. Y mae yn alar cyffredinol drwy y wlad, fod y sefydliad diweddar, "Yr Eisteddfod," wedi aflwyddo, a syrthio i ddyled arianol, ac felly wedi dyfod yn faich ar ei charedigion. Er yr anffawd hwn, nid yw yr ysbryd eisteddfodol wedi oeri dim yn y wlad, ac y mae rhai o'r cynulliadau mwyaf llwyddianus, yn mhob modd, wedi eu cynal ar ol hyny. Y mae nifer maith o'n cadeirfeirdd wedi eu colli drwy angau er yn ddiweddar, y rhai a ystyrid fel pigion y genedl, ac ni erys ond saith yn fyw ar hyn o bryd; sef, Nicander, a gadeiriwyd yn Aberffraw, ar y testyn, "Y greadigaeth," pan yr oedd Eben Fardd, Ioeyn Ddu, a Joseph Jones, Ysw. Yn feirniaid: Hiraethog, yn Morthmadog, ar y testyn, "Heddwch;" beirniaid, Eben Fardd, Nicander, a Caledfryn. Hwfa Mon yn Nghaernarfon, ar y testyn, "Y Flwyddyn;" beirniaid Caledfryn, Nican-

der, a Gwalchmai. "Emlyn Jones yn Ninbych, ar y testyn," Tywalltiad yr Yspryd Glan; beirniaid Eben Fardd, Emrys, ac Aneurin Fardd. Emrys yn Aberteifi, ar y testyn "Albert Dda;" beirniaid Iago Emlyn, a Clwydfardd. Ap Fychan yn Nghaerlleon, ar y testyn, "Y Mor;" beirniaid Gwalchmai a Gwrgant. Gwalchmai yn Nghaerfyrddin, ar y testyn, "Y Milflwyddiant;" beirniaid, Caledfryn, a Cynddelw. Gwedi cynhaliad yr Eisteddfodau yn Nghaerwys, dan Freinteb oddiwrth y Goron, cynaliwyd hwy yn ddilynol fel cyfres hirfaith, yn Nghaerwys yn 1798, dan nodded y llengarwr Cymreig enwog, Owain Myfyr, a Chymdeithas y Gwyneddigion. Yn mhen ychydig o flyneddoedd wedi hyny, yn Nghaerfyrddin; ac wedi y dyddiad hwn, dilynasant yn lluosog iawn: yn Abergafeni, ac yn Ngwrecsam yn 1820; yn Nghaernarfon yn 1821; dan lywyddiaeth Ardalydd Môn; yn Aberhonddu yn 1822; yn Nghaerfyrddin yn 1823; yn y Trallwng, dan lywyddiaeth Iarll Powys, yn 1824; yn Aberhonddu yn 1826; yn Ninbych, dan lywyddiaeth Dug Sussex, yn 1828; Beaumaris, yn 1832, pan y cadeiriwyd Caledfryn; Caerdydd, yn 1834; Llanerchymedd, yn 1835; Lerpwl, yn 1836; Merthyr Tydfil, yn 1838; Lerpwl, 1839; Llifon, 1842; Aberffraw, 1851; Rhuddlan, 1852; Lerpwl, a Phorthmadog, 1853; Ffestiniog, a Llanfair Talhaiarn, 1854; Dinas Mawddwy, a Llundain, 1855; Machraeth, Mon, 1855; Treforris, Deheubarth, 1855; Llangollen, 1858; Merthyr Tydfil, 1859; Llanerchymedd, 1859; Dinbych, 1860; Conwy, ac Aberdar, 1861; Caernarfon, 1862; Llandudno, 1866; Aberystwyth, 1866; Caerlleon, a Chastell Nedd, 1866; Caerfyrddin, 1867; Rhuthin, 1868; Llanerchymedd, 1869; Liverpool a Birkenhead, yn flynyddol; Llanerchymedd, a'r Tywyn, 1871, &c. Y mae y rhestr hon ynddi ei hun, yn arddangos y fath afael y mae y sefyddliad hwn wedi ei gael ar deimladau y genedl dros yr holl Dywysogaeth, o Gaergybi i Gaerdydd, ac oddi yno i bob man lle y preswylia y Cymry yn nhrefydd Lloegr, yn gystal ag yn yr Amerig.

Addefir yn gyffredinol mai prif foddion lledaeniad gwybodaeth yn ein gwlad ni, ydyw yr ysgolion dyddiol, a'r rhai Sabbathol, mewn cysylltiad a'r Weinidogaeth efengylaidd. Ni feddwn, hyd yn hyn, yr un o'r Prif-athrofaau, ond yr ydym yn gyfoethog o Golegau Enwadol. Eto, y prif foddion addysg, ydyw yr Hunan-ddiwylliant sydd genym, mewn ymdrechiadau personol, yn enwedig yn y cymydogaethau gweithfaol, ac ardaloedd y Cloddfeydd; ond y prif gymhelliad i hyny sydd genym ydyw yr Eisteddfodau, a'r Cyfarfodydd Llenyddol a gododd o honynt. Y mae y gobrwyon a gynnygir, er cyffroi yr ymgais gysdadleuol anrhydeddus a wneir, yn dwyn allan gynnyrchion o wir werth; yn anogaeth a chefnogaeth effeithiol, i efrydiaeth a llafur, i ddarllen ac ysgrifenu; yr hyn a welir yn amlwg yn mhob Llyfrgell Gymreig yn y dyddiau hyn. Pe gofynid, yn mha beth y mae prif hynodrwydd ein cenedl yn gynwysedig, gellid cyfeirio at ein sefyllfa foesol a chymdeithasol. Y mae genym ein Hanesiaeth, a'n Llenyddiaeth, mewn barddoniaeth, cerddoriaeth, a chelfyddyd, er yn fore iawn; er nad ydym yn meddu ar nemawr o enwogrwydd yn mysg cenedloedd y byd, fel nad yw nifer ein poblogaeth yn fforddio hyny, ac na ddysgwylir i genedl yn rhifo un filiwn, gysdadlu ar hon a rifa ugain miliwn, eto yn ol ein manteision cymhariaethol, nid ydym yn ol i unrhyw genedl ar wyneb y ddaear. Y mae genym enwogion teilwng o'u cofnodi yn mhob dosparth, ag na raid i ni gywilyddio eu harddel na phetruso wrth eu mawrhau. Wrth grybwyll am ddylanwad Barddoniaeth ar y byd, sylwa awdwr "Barddas y Cymry" yn ddigon priodol, "Mae arllwysiadau y prydydd yn addas at anghenion yr anwaraidd a'r anniwylliedig; a phrydyddiaeth yw y cyfrwng cyntaf a mwyaf effeithiol i weithredu ar feddwl dyn, lle y tywyna, neu y cynnydda gwareiddiad." Ac yn ddiau, nis gwyr hanesiaeth am genedl enwocach na'r hen Gymry, yr hyn a welir yn amlwg wrth gymeryd adolygiad ar orchwylion yr Eisteddfod gyntefig, a diweddar. Rhagorodd y Groegiaid arnynt mewn rhai canghenau o athronddysg, a rhagorodd yr hen Gymry arnynt hwythau, mewn canghenau eraill. Pwy sydd heb sylwi ar yr hen allorau, y cromlechau, a'r cylchoedd, ac ni cheir neb na chenfydd eangder eu gwybodaeth, a gorchestion eu gweithredoedd, mewn celfyddyd a gallofyddiaeth? Onid yw yr hen gestyll, a'r amddiffynfeydd boreuol a godasant, yn profi yn anwadadwy, eu bod ar y blaen yn holl ragoriaethau addurnol cenedl wareiddiedig? Rhagorai ein hynafiaid hefyd ar y Groegiaid, neu unrhyw genedl arall a ellid ei henwi, o ran eu crefydd a'u moesgarwch. Y mae yn ddiau y ceir llawer o enwau dysglaer, yn mysg amryw genedloedd paganaidd, ond gellid gofyn, Pa rai o honynt a ddaethant i fyny a'r hen Gymry, ar y cyfan? A chaniatau eu bod yn addoli eilunod, ac yn aberthu eu caethweision ar eu hallorau, y mae yn amlwg na lygrodd y grefydd a gawsant oddiwrth Noa, i'r fath raddau yn eu plith, ag iddynt anghofio y Duw byw. Y mae amryw ystyriaethau a ellid eu dwyn ger bron, fel rhesymau dros ymlyniad y genedl wrth yr hen sefydliad anrhydeddus hwn. Er mai nid bytholi y Gymraeg ydyw ei amcan, y mae yn ddiau ei fod yn foddion effeithiol i'w chynal yn ei bri. Y mae yn y dyddiau hyn, yn fynych, yn cyhoeddi testynau a gobrwyon yn yr iaith Saesonaeg, ac y mae y Saeson yn cael eu rhan yn helaeth iawn, yn ei chyfarfodydd cyhoeddus, yr hyn sydd yn profi yn eglur, nad yw cenedlgarwch y Cymry, yn rhedeg i derfynau rhagfarn yn erbyn yr un iaith, na'r un genedl arall. Y mae y teimlad gwladgarol yn gwreiddio yn ddwfn yn mynwesau trigolion pob gwlad; ac onid yw hyn yn naturiol? Pwy a all ei feio? Felly y mae gyda ninau, mewn golygiad naturiaethol, a moesol. Y mae rhyw swyn anianyddol, gan y dywysogaeth yn awr, ar feddwl a theimlad y Cymro. Fel yr ydoedd Canaan a Jerusalem, yn dylanwadu gynt ar deimlad yr Iuddew, "Dymunwch heddwch Jerusalem; llwydded y rhai a'th hoffant: Heddwch fyddo o fewn dy ragfur, a ffyniant yn dy balasau: Er mwyn fy nghyfeillion a'u perthynasau, y dywedaf yn awr, Heddwch fyddo i ti: Os anghofiaf di, Jerusalem, anghofied fy neheulaw ganu: glyned fy nhafod wrth daflod fy ngenau; oni chofiaf di, Jerusalem, fel fy llawenydd penaf!" Y mae rhyw hoffder cyffelyb yn deimlad cenedlaethol, yn mhob gwlad ar wyneb daear, a pha ryfedd ei fod felly yn ein plith ninau. Y mae rhyw swyn arddunol yn ein bro, ei mynyddoedd cribuchel, ei dyffrynoedd ffrwythlon, ei hadnoddau cyfoethog, ei llynnau gloewon, ei hafonydd grisialaidd, a'u rhaiadrau trystfawr, ei hawelon iachusol, a'i hwybren glir, ei threfydd tawel, ai mynwentoedd dystaw! Nid yw y serchawgrwydd hwn at ein gwlad, ond yr un elfen ag a welir yn mhob gwlad arall, ac yn mhlith yr holl greaduriaid

Digitized by Google

o'r bron. Y mae pawb yn hoff o'i hen gartref; a myn y creadur mud, ddychwel i farw i'r man yr anadlodd ynddo gyntaf erioed :—

"Pawb o'u cartref, nef a wnant,
Am eu haelwyd ymholant;
Indiad, dan ei gywreindo
Fyn ei frwd gyssefin fro,
A byw'n ei dy caban dail
A gwead y mur gwiail;
Y brodor o oror ia,
Erys yn ei fwth eira;
Mae'r Iuddew yn ymroddol
Trig yn hawdd i'w gartre'n ol;
Twrc o'i fodd, Tyrci a fyn,
A Ffraingc ddewisa Ffrengcyn;
Y Gwyddel argyhoedda
Fod Gwerddon dan hinon ha;
Lloegr sy yn lle a gâr Sais,
Enw eglur, i'w oglais;
Ysgotyn a'i bais gwta
Efo rhwysg, Alban fawrha;
Minau o sêl mynwes sydd,—drwy fawr serch,
Am ryw lannerch yn Nghymru lonydd!"

**EITHRAS**, Sant, a ddaeth drosodd o Lydaw gyda Chadfan, yn y 6ed ganrif.

**EITHYR**, un o feibion Llywarch Hen, a glodforir ganddo yn ei "Gân i'w Henaint, a'i Feibion."

**ELAETH**, Sant, a elwir hefyd Elaeth Frenin, ydoedd fab Meirig ab Idno, a thywysog ar ryw ran o'r Gogledd, yn moreu ei oes; ond wedi ei yru oddi yno gan y Saeson, efe a drodd yn sant, ac a gafodd nawdd gan Seiriol, yn ngholeg Penmon. Efe a sefydlodd eglwys Amlwch, coffheid ef Tachwedd 10.

**ELAN** (Yr), afon yn swydd Faesyfed. Y mae yn tarddu tua 9 milldir i'r Gogledd Orllewin o'r Rhaiadr; ac wedi cyfeirio yn Dde Ddwyreiniol am oddeutu pymtheng milldir, derbynia y Glaerwen, ger Capel Nant Gwyllt, ac ymarllwysa i'r afon Wŷ.

**ELDAD**, Sant, ydoedd fab Arth ab Arthwg Frych, ab Cystenyn Goronawg, ac aelod o Gôr Illtyd yn nechreu y 7fed ganrif.

**ELDAD**, Sant, ydoedd fab Geraint ab Caranog, ac aelod o Gôr Illtyd yn nechreu y 7fed ganrif. Pan yn esgob Caerloyw, lladdwyd ef gan y Saeson.

**ELEN**, gwraig Hywel Dda, a fu farw yn 943.—*Myf. Arch.* 11, 488.

**ELEN** Ferch Coel Coedhebog, a elwir yn y *Brutiau* Cymreig Helen *Luyddawg* neu lwyddianus, oblegyd iddi briodi Constantius a chael yr anrhydedd o fod yn fam Cystenyn Fawr; ond mae yr awdurdodau goreu yn cyduno i wadu haniad Prydeinig Helena, felly mae chwedl y *Brutiau* yn syrthio i'r llawr; ac nid yw y ffaith bod eglwysi megys Llanelen, swydd Fynwy, &c., wedi eu galw ar ei henw, yn profi dim mai Prydeines ydoedd, gan fod gan *Michael*, a *Mair*, fwy o eglwysi yn Nghymru na neb arall.

**ELEN LUYDDAWG** ydoedd ferch Eudaf, chwaer Cynan Meiriadog, a gwraig Macsen Wledig. Gwel Cynan Meiriadog.

**ELERCH**, capeloriaeth yn mhlwyf Llanbadarnfawr, swydd Aberteifi, Deheudir Cymru, 2 filldir i'r De Ddwyrain o Aberystwyth. Fe'i ffurfiwyd fel capeloriaeth yn y flwyddyn 1868. Curadiaeth barhaol ydyw y fywioliaeth eglwysig, gwerth 150*p.* yn y flwyddyn.

**ELERI**, Santes, yn y 5ed ganrif, ydoedd un o luaws merched Brychan Brycheiniog; bu yn briod â Cheredig ab Cunedda, ac o'r briodas hono y ganwyd Sandde, tad Dewi Sant.

**ELERI**, Santes, yn y 6ed ganrif, ydoedd ferch Dingad ab Nudd Hael, o Tonwy, ferch Llewddyn Luyddawg. Trigai yn Pennant, yn mhlwyf Gwytherin, swydd Dinbach.

**ELESTRON** ab Don, a ymddengys yn fynych mewn cysylltiad a chwedlonaeth yr hen Brydeiniaid.

**ELFAN**, yr hwn a elwir *Elvanus Avallonius*—(Elfan Afallon) gan hen haneswyr, oedd yn gydoeswr, meddir, ag *Antonimus* yr *Athronydd*, *Commodus* ei fab, a'r *Pab Eleutherius*, ac yn awdwr Llyfr ar Ddechreuad yr Eglwys Brydeinig. Crybwyllir am y llyfr uchod gan Radulphus Niger, Bale, Cressy, ac eraill o'r un dosbarth; ond nid oes un o honynt yn dyweyd iddynt erioed ei weled, ac nid yw yn debyg fod iddo erioed hanfod. Sonia Llyfr Llandaf, tud. 309 am Elfan, a Medwy, fel y ddau lys-genadwr a anfonodd Lles ab Coel at y Pab Eleutherius, i erfyn am ganiatad iddo gael ei wneyd yn Gristion, y rhai a welodd y Pab yn dda orchymyn eu bedyddio, ac urddo Elfan yn esgob, a Medwy yn Ddoctor, a'u hanfon yn ol i Brydain, i Gristioneiddio yr Ynys. Dywed y mynachod, i St. Elfan fod yn ddysgawdwr cynulleidfa o Gristionogion yn Clas Myrddin, ac mai efe oedd ail esgob Llundain. Coffheid ef Medi 26. Nid yw yr holl chwedl yn werth dynoethiad difrifol. Gwel ar Lles ab Coel.

**ELFIS** (St.), plwyf yn nghantref Dewisland, swydd Benfro, Deheudir Cymru; 4¼ milldir i'r Dwyrain wrth Ddehau o Dyddewi; ac 11 milldir i'r Gog. Or. wrth Orllewin o orsaf y rheilffordd, Hwlffordd. Y Llythyrfa sydd yn Nhyddewi, dan Hwlffordd. Y mae hwn yn un o'r plwyfydd lleiaf yn y Dywysogaeth, gan na chynwysa namyn 414 o erwau o dir, 5 o dai annedd, a 33 o drigolion, a'i werth ardrethol a gyfrifid yn 1861, yn 226*p.* Y fywioliaeth eglwysig sydd reithoriaeth, yn esgobaeth Tyddewi, ac yn nawddogaeth Deon a glwysgor Tyddewi.

**ELFOD**, neu Elbotus, athraw Nennius yr hanesydd, ydoedd yn hanu, meddir, o Caw ab Geraint ab Erbin. Ymddengys mai efe ydoedd esgob cyntaf Bangor Deiniol, neu Bangor Fawr yn Arfon; dyddiad ei gyssegriad yw 755, a geilw Caradog o Lancarfan ef, yn archesgob Gwynedd. Dywedir mai efe a berswadiodd y Gwyneddwyr i fabwysiadu y cylch Rhufeinig tuag at olrhain allan y Pasg, fel y gallent drwy hyny syrthio yn rhwyddach i gymundeb ag Eglwys Rhufain. Nacaodd esgobion Deheubarth a chydsynio a hyn; ar Saeson, mewn canlyniad, a gadgyrchasant i'w tiriogaethau; cymerodd brwydr waedlyd le rhyngddynt yn Coedmarchan, ond y Cymry a enillodd y fuddugoliaeth. Yn ol yr *Annales Menevensis*, bu Elfod farw yn 811; ond dywed eraill, iddo farw yn 809.

**ELGUD**, Sant, oedd yn ei flodeu yn y chweched ganrif. Mab ydoedd i Cadfarch ab Caradog Freichfras.

**ELIAN GEIMIAD**, neu "y pererin" ydoedd fab Gallgu Rieddawg ab Carcludwys, ab Cyngu ab Ysbwys, ab Cadrod Calchfynydd. Ei fam oedd Canna, ferch Tewdwr Mawr, ab Emyr Llydaw. Dywed chwedl am dano, iddo ddyfod drosodd o Rufain, a gwladychu yn Ynys Mon, yn amser Caswallon Lawhir, yr hwn a ymlidiodd y Gwyddelod allan o'r Ynys, ac a sefydl-

Digitized by Google

odd ynddi dri choleg neu Gôr, y rhai a osododd efe o dan lywyddiaeth Cybi, Seiriol, ac Elian. Ymddengys bod Caswallon yn dra hoff o Elian, ac wedi rhoddi iddo lawer o diroedd, a breintiau, gan wneuthur ei grefydd-dy—Llanelian yn Mon, yn *gyssegr*, neu *noddfa*. Mae llawer o draddodiadau am dano yn nofio ar hyd y gymydogaeth hono hyd y dydd hwn; un o ba rai yw, bod Caswallon unwaith, wedi gorchymyn i Elian ollwng ei gi ar ol carw, gyda'r dealldwriaeth y byddai cymaint o dir a amgylchai y carw o flaen y ci, yn cael ei roddi iddo at wasanaeth ei goleg. Felly, meddir, y nodwyd allan blwyf Llanelian yn Mon; ac y mae aber fechan yn agos i Borth Elian, yn dwyn yr enw "Llam y Carw," yn goffadwriaeth am y rhedfa hono hyd y dydd heddyw. Efe hefyd a sefydlodd Lanelian, swydd Dinbach; a bernir iddo sefydlu hono mewn cysylltiad a thrigle dywysogaidd Caswallon yn Nghreuddin, ar lan Conwy, yr hwn a elwir hyd heddyw Bod'sgallen. Yn ystod yr oesoedd tywyll, daeth y ddwy eglwys uchod—un yn Ynys Mon, a'r llall yn swydd Dinbych, yn enwog am eu galluoedd swynyddol; sef gwella clefydon, darganfod lladradau, a gosod nôd a melldith ar y neb y mynid; daeth Elian Geimiad yn *Sant* Elian, a'i enw yn lleng; a daeth ei eglwysi yn gyrchleoedd ynfydion o bob math, ac yn farchnadoedd enillfawr i gnafiaid twyllodrus. Offrymwyd cymaint o arian i "Gyff Elian," yn Mon, gan y werin ofergoelus a gyrchent yno ar nos Gwyl Elian, i erfyn nawdd y Sant, fel y gallwyd prynu a hwynt dri o dyddynod, y rhai yn awr a berthynant i fywioliaeth eglwysig y plwyf hwnw. Ond erbyn heddyw, y mae goleuni yr efengyl wedi tywynu ar y lleoedd hyn, gan chwalu y tywyllwch, a difodi y swyn, fel y mae "Cyff Elian" yn awr yn wag, a "Ffynon Elian" yn cael llonydd i redeg i Nant Meifod, heb i'r un dewin ddifwyno ei dyfroedd.

**ELIAS**, John, ydoedd weinidog defnyddiol gyda y Trefnyddion Calfinaidd; un o bregethwyr ac areithwyr galluocaf yr oes bresenol; un a ymgododd o sefyllfa gyffredin, i ben pinacl uwchaf cyhoeddusrwydd yn Nghymru; a hyny trwy hunan-ddiwylliant a llafur, dan fendith y nef. "Yn mhob gwlad megir glew," sydd hen ddiareb darawiadol; ac y mae yn amlwg y myn yr holl wledydd anrhydeddu eu rhai glewion, mewn rhyw ffordd neu gilydd, ac felly y myn ein gwlad ninau, dalu ei pharch dyledus i gofion Mr. Elias. Galwai y Salmydd sylw at "Philistia, a Thyrus, yn nghyd âg Ethiopia," a mynai "gofio Rahab a Babilon wrth ei gydnabod." Beth am danynt, atolwg? Yr ateb ydyw, "Yno y ganwyd hwn!" Y mae man yn Sir Gaernarfon, yn mhlwyf Abererch, o fewn tua phedair milltir i Bwllheli, lle yr oedd bwthyn, tua phedwar ugain mlynedd yn ol, ag y gallesid cyfeirio bys ato, a dywedyd, "Yna y ganwyd John Elias!" Dichon fod hwnw yn garneddi cyn hyn, ac oni buasai hyny, diau y buasai llawer darluniwr a cherfiwr wedi ymweled a'r fan, er rhoddi i'r wlad ryw argraph o hono.

Dymuna llawer o ieuengctid, y rhai na's gwelsant wrthddrych ein nodiadau erioed, gael darluniad mor agos ag a ellir ei gael o hono, yn ei holl agweddau, yn gystal a'r rhai a'i hadwaenent, am gael ail-olwg ar un a hoffent mor fawr, ac y derbyniasant fwy o argraphiadau dan ei weinidogaeth, na thrwy neb arall; a'i glywed, er "wedi marw, yn llefaru eto." Tu ag at gyrhaedd yr amcan hwn, hyd y gellir, ymdrechir yma, mewn cylch mor gryno ag y byddo modd, ddwyn ger bron, adgofion am dano, yn mhob sefyllfa neillduol a chyhoeddus ag y byddo yn hawdd ei ddilyn; o blegid yn y peth a wnaeth dyn, y ceir y bywgraphiad goreu o hono. Cymerwn olygiad arno ar wahanol amserau, ac o wahanol gyfeiriadau. Dechreuwn trwy dremio arno yn nyddiau ei faboed, fel y caffom olwg ar yr hyn a all penderfyniad meddwl ei wneud, yn wyneb anfanteision. Bu raid i Elias weithio ei ffordd trwy fynyddau o anhawsderau, cyn cyrhaedd i'r sefyllfa yr ymgododd iddi. Nid oedd ei dad na'i fam yn grefyddol, nac wedi cael nemawr, os dim, addysg gyffredin. Yr oedd ef yn fwy dyledus i'w daid am hyfforddiad, nac iddynt hwy. Dysgodd ef i ddarllen Cymraeg, pan yr oedd o bedair i bum mlwydd oed. Dysgodd grefft hefyd iddo, yn gynar iawn. Yr oedd ef wedi darllen y Bibl, o'i ddechreuad hyd ganol llyfr Ieremia, cyn cyrhaedd saith oed. Fel hyn y gwelwn y modd yr oedd osgo ei feddwl yn cymeryd ei gyfeiriad boreuol. Dechreuodd argraphiadau crefyddol ar ei feddwl yn gynar. Breuddwydion am y farn, ac ofnau am ei golledigaeth, a'i brawychent yn fawr. Bu afiechyd y Frechwen, o fewn ychydig i fyned a'i fywyd ymaith. Clywodd fachgen annuwiol iawn, yn tyngu ac yn rhegu yn ddoniol dros ben, unwaith; ymneillduodd yntau i fan dirgelaidd, i geisio ei efelychu; ond wrth gynyg ar y gwaith hwn, ymaflodd arswyd dirfawr yn ei holl deimladau, fel y daeth dan ofn pechu, i raddau anghyffredin o ddwysder. Arferai fyned gyda ei daid i eglwys y plwyf, y boreuau sabbath, ac i wrando y Methodistiaid Calfinaidd, yn yr hwyr. Daeth yn raddol, i fod yn wrandawr sefydlog yn y Pentre-uchaf. Ar un amgylchiad, wedi i'r dorf ddyfod yn nghyd yn lled gynar, ac heb yr un olwg am bregethwr, gyrodd ei daid ef i'r pwlpud, i ddarllen penod; ond canfyddodd y pregethwr yn dyfod i mewn yn fuan, a chauodd y llyfr yn uniongyrchol: yr oedd ef tua deng mlwydd oed y pryd hwn. Collodd ei daid, yr hwn oedd ei brif athraw a'i arweinydd, pan yr oedd tua deuddeg oed; ond yr oedd wedi cael ychydig lyfrau erbyn hyn, megis gwaith Cole, Bunyan, Gryffydd Jones Llanddowror, a'r cyffelyb, fel yr oedd yn gallu dwyn ei efrydiaeth yn mlaen, fel dechreuwr, yn lled ryfedd. Pan yr oedd tua phymtheg oed, llwyddodd i gael addoliad teuluaidd yn nhy ei daid. Yr oedd hyn yn fanteisiol er dechreu dwyn ei alluoedd allan, a gosod ei ddoniau mewn ymarferiad. Yn fuan, teimlodd awydd mawr am fyned ar ymweliad i Langeitho, i wrando ar y seraph enwog, Daniel Rowlands, yr hwn y clywsai gymaint am dano. Pa fodd bynag, tua'r pryd hwn, aeth un bore Sabbath i Bwllheli, i wrando ar y Parch. Benjamin Jones, gweinidog yr Annibynwyr; a pha beth oedd y testyn ond "Oni wyddoch chwi i dywysog, a gwr mawr yn Israel, gwympo heddyw?"—a phregeth angladdol am Rowlands ydoedd. Parodd hyn alar mawr i'w feddwl. Pan yr oedd tua deunaw mlwydd oed, aeth gyda nifer o gyfeillion, fel yr oedd yr arferiad yn fynych y pryd hwnw, i Gymdeithasfa y Bala. Gwnaeth y daith hon, yn y gyfeillach a'r cydweddio oedd ar hyd y ffordd, gyda nerthoedd y weinidogaeth yn y Gymanfa, argraphiadau dwysion iawn ar ei feddwl. Effeithiodd gwrando pregeth gan Robert Roberts, Clynog, unwaith yn ddwfn iawn arno; ac fel hyn, rhwng y naill amgylchiad a'r llall, yr oedd mold ei feddwl yn cael ei cherfio, i'r hon yr oedd ei holl

Digitized by Google

syniadau, ei egwyddorion, a'i deimladau, i gael eu tywallt, i'w parotoi ar gyfer yr hyn a fyddai yn yr amser dyfodol. Yn fuan wedi hyn, cafodd fyned i wasanaeth dyn crefyddol, o'r enw Gryffydd Jones, Ynys y Pandy, yn nghymydogaeth Penmorfa. Ar un diwrnod, cyfarwyddai y gwr ef i fyned allan gyda y forwyn, i droi y gwair, pan yr oedd y gyfeillach grefyddol, yn ol yr arferiad y pryd hwnw, i aros yn ol, i gael ei chynal yn y ty. Effeithiodd ei gau allan, yn ddwys iawn ar ei feddwl; a dyna oedd ei ochenaid yn barhaus, yr hyn a led-glywai y forwyn —"a chauwyd y drws!" Mynegodd y forwyn i'w meistr am yr agwedd ddwys oedd arno yn y maes; a chafodd gyfle i wrando adroddiad am ei deimladau ei hunan cyn hir; a phan yr ydoedd tuag ugain oed, anogodd y meistr ef, i ddyfod gydag ef i'r gyfeillach grefyddol oedd i gael ei chynal yn Hendre-Hywel, ac felly y daeth ef yn aelod eglwysig.

Bellach, dyna ei anfanteision boreuol ger bron, ond yr oedd anhawsderau eraill, luaws yn ei aros; rhwystrau, ag oedd yn galw am iddo ef wneud ei wyneb fel callestr, er gweithio ei ffordd drwyddynt. Ond y mae yn nodedig i'w sylwi, fel y mae anhawsderau yn dwyn galluoedd dynion allan. Nid oes y fath athrofa i'w chael yn y byd âg ysgol profiad. Yma y mae natur yn cael mantais i ddwyn ei dylanwadau allan. Felly am Elias, ni chafodd neb yn ei ddydd fwy o rwystrau ar ei ffordd, eto yr oedd ganddo ddigon o benderfyniad i dorri drwyddynt oll. Cafodd ei dderbyn yn bregethwr mewn Cyfarfod Misol yn Bryn-yr-odyn, pan yr oedd tuag un-ar-hugain oed. Yr oedd Robert Jones, Ty-bwlcyn; John, a Robert Roberts, Clynog; Mr. Richards, Caernarfon; a John Jones, Edeyrn; ac eraill yn bresenol. Llygaid go gilwgus oedd gan rai arno, eto efe a gafodd dderbyniad. Yr oedd llawer o bethau yn Elias, y pryd hwn, rhaid addef, ag oedd yn naturiol yn codi eddigedd tu ag ato, a rhagfarn yn ei erbyn. Yr oedd ymadferthoedd ei feddwl, a'i ddawn ymadrodd, yn eu hamlygu eu hunain yn gyflym; ond yr oedd ei ymddangosiad gwledig, ei ymddygiad aflerw, ei ystum wrthun, a'r rhwnc diflas oedd yn ei wddf, yn taro yn ei erbyn yn fawr. O blegid hyn, yr oedd yn anhawdd gwybod beth i'w wneud o hono. Yr oedd ar ryw gyfrif, yn fwy na phawb, ac eto yn llai na phob dyn. Yr oedd rywfodd yn wrthddrych eiddigedd, a thosturi. Aeth yn fuan, ar gyhoeddiad sabbath i'r Bala; ond fel yr oedd gwaetha modd, yr oedd yno un arall o'i flaen, a hwnw yn edrych yn oer iawn arno. Pa fodd bynag, cafodd gyfle i'w glywed yn gweddio dranoeth, a lleddfodd i raddau yn ei ragfarn tu ag ato. Daeth arno, yn fuan wedi hyn, awydd dysgu ychydig Sacsoneg, a chael myned i ysgol ddyddiol. Priodolid hyn gan amryw, i'w falchder, a'i hunangais. Ond ni roddodd hyny mono ef i lawr. Cafodd fyned at Mr. Richards i Gaernarfon, yr hwn oedd yn ysgolhaig gwych, a chymerodd Elias gerfydd ei law, yn dadol a magwriaethol iawn, gan roddi iddo bob cymhorth i ddyfod yn mlaen. Daeth cenhadwr o Fon, tua'r amser hwn, o'r Bryn-du, at Mr. Richards i ofyn ei gyhoeddiad i fyned i Gyfarfod misol; atebai nad allai ef ddyfod ei hun, ond yr anfonai un arall yn ei le. Felly fu, neu yn hytrach, cymerodd Elias gyd âg ef, ac yr oeddynt yno eu dau. Erbyn hyn, yr oedd ef wedi enill iddo ei hun radd dda, ac enw na ellid ei guddio, gan eithafion eiddigedd na rhagfarn. Bu amcan cryf unwaith i'w ddigaloni yn Bryn-yr-odyn, pan yr oedd hen weinidog i gyd-bregethu âg ef; a thra yr oedd ef yn gweddio, yr oedd yr hen dad yn crafu ei wddf yn enbyd, a thra y bu yn pregethu, yr oedd yn waeth fyth, eto rhagddo yr a'i Elias, gan rwygo pob peth o'i flaen, ac aeth gan dywylled a'r fagddu ar yr hen gyfaill ei hun, pan y cododd ar ei ol. Bu hyn yn wers a deimlodd yr henafgwr yn ei fynwes yn fawr. Yn y flwyddyn 1799, symudodd Elias i Fon, a phriododd, ac ymsefydlodd yno, yn Llanfechell. Aeth rhagddo yn wrol a diorphwys, yn ei lafur a'i ymofyniad am wybodaeth. Casglodd yn nghyd lyfrgell eang. Chwiliodd, darllenodd, treiddiodd, myfyriodd, a chyfoethogodd ei feddwl, a daeth yn drysorfa o wybodaeth dduwinyddol eang ynddo ei hun; ac felly daeth yn ddyn trwyadl, yn mhob dosparth yr ymestynai ato. Daeth yn fuan i adnabyddiaeth â Mr. Charles o'r Bala, yr hwn a fu yn gryn gynhorthwy iddo, er cael ei osod ar ben y ffordd i ddeall yr ieithoedd clasurol; ac ymwthiodd i'w cyfoeth yn rhyfedd, trwy eiriaduron a gramadegau, nes y daeth yn athraw mewn gwirionedd, fel duwinydd o wybodaeth gyffredinol. Cyfarfyddodd âg ychydig o erlidigaeth ar daith bregethwrol, yn Llanidloes, a Llanfair-Caereinion, a manau eraill; ond meddai lawer o ddoethineb, i leddfu yr Ynadon anwybodus a rhagfarnllyd yn mhob man. Cyfarfyddodd â rhai damweiniau peryglus yn ei oes. Wrth groesi afon Menai, tra y cydiai yn ffrwyn y ceffyl, ac i hwnw wylltio, a neidio i'r mor, tynid yntau dros yr ymyl i'r dwfr. Cafodd brofedigaeth gyffelyb yn agos i Griciaeth hefyd; heblaw y ddamwain, gyda'r cerbyd, ar y ffordd, yn agos i'r Bala; am y rhai y gallasai ddywedyd gyda yr apostol, "Oddiwrthynt oll y'm gwaredodd yr Arglwydd."

Yn y flwyddyn 1811, neillduwyd ef, yn mysg y rhai cyntaf, i weinyddu yr ordinhadau gyda'r Trefnyddion Calfinaidd: Hyd hyny, gweinidogion o Eglwys Loegr yn unig, a weinyddent fedydd a swper yr Arglwydd yn y corph. Erbyn hyn, yr ydym wedi cael cip-olwg ar ei godiad i sefyllfa ei dderchafiad penaf, canys gweinyddai yn mhrif Gymanfaoedd yr enwad yn Nghymru, a rhai o drefydd Lloegr. Yr oedd wedi ymgodi yn esmwyth i'r sefyllfa uwchaf o gyhoeddusrwydd, tu a'r adeg hon. Bellach, ein hymofyniad a fydd,—Yn mha beth yr oedd ei brif hynodrwydd? Yn mha beth yr oedd efe yn gwahaniaethu oddiwrth y cyffredin, ac yn rhagori ar bawb? Pa fodd y gellir ei ddwyn yn ol, ger bron meddwl y rhai a'i hadwaenent, ac a'i clywsant? Pa fodd y gellir rhoddi y dychymyg cywiraf am dano, i'r rhai na's gwelsant, ac na's clywsant ef, er ffurfio y syniad tecaf am dano? Yn atebiad i'r gofyniad hwn, ni feddwn yr un ffordd amgen, na cheisio ei osod ger bron, yn yr holl sefyllfaoedd a lanwai; ac edrych arno, o'r gwahanol gyfeiriadau, yn ei waith. Tu ag at hyn, bydd raid i ni ei ddilyn i'r gwahanol gylchoedd y troai ynddynt. Edrychwn arno yn ei fyfyrgell: dyma y lle y cawn ef yn parotoi ar gyfer ei wasanaeth cyhoeddus. Y mae hanes am dano yn cymeryd testyn i bregethu arno, heb un rhagfyfyriad; ac ar dro arall, iddo droi ei feddwl yn sydyn, oddiwrth destyn ag yr oedd wedi myfyrio arno, gan wres angerddol ei fyfyrdod, ond iddo deimlo siomedigaeth; a chanfyddodd na atebai y drefn hono un dyben daionus. Gwelai pa fath lafur a baich oedd cyflwyno ei holl syniadau i'w gof, ar un llaw, ac mai diogelach oedd cymeryd yr ochr arall, sef parotoi y defnyddiau, ac ymddiried

Digitized by Google

yn ei ddawn a'i hwyl, am y traddodiad. Fel dyn meddylgar, gosododd iddo ei hun nod digon uchel ar y cychwyn, a phenderfynodd y mynai ei gyrhaedd; gwnaeth ei weinidogaeth yn brif nod ei fywyd. Felly yn raddol, daeth yn hollol hunan-ddibynol, fel y gallai gerdded, heb gymhorth ffyn baglau. Nid ymddangosai byth, fel y dywedai Robert Hall am rywun, yn mron âg ysigo ei fenydd, wrth gario twr o gyfrolau ar ei ben. Eto er hyn i gyd, mynai ddefnyddio gwaith pawb y ca'i les oddiwrthynt. Yr oedd ganddo astell gron ar y ford, yn troi ar begwn, lle y gallai osod pump neu chwech, neu ychwaneg o esboniadau, pan y byddai yn myfyrio ar destyn, er gallu ymgynghori a'r cyfan, a defnyddio yr hyn a fynai. Fel ysgrifenydd, nid oedd yn gywrain, nac yn hynod o ran llithrigrwydd. Yr oedd yn lled gywir, ar y cyfan; ond yn tueddu at yr afrwydd. Yr oedd yn wastadol yn gwneud cyfiawnder â myfyrio ei bregethau: yr oedd ei gyfansoddiad bob amser, yn orphenol a chyflawn. Yr oedd yn gryf mewn gweddi yn ei fyfyrgell. Yr oedd arwyddion o hyn, fel eneiniad ar ei holl wasanaeth; ac efallai mai yma yr oedd y dirgelwch am y modd oedd ganddo i guddio celfyddyd âg ymddangosiad o natur. Os edrychwn arno yn ei fannau mwyaf cyhoeddus, rhaid ei ddilyn o'r heol i'r addoliad arferol, ac oddiyno i'r Gymanfa. Yr ydym yn canfod ger ein bron ddyn tal, teneu, esgyrniog; y mae ei edrychiad yn llym, ei arleisiau yn uchel, ei wedd yn feddylgar, ei wallt yn llyfn, dewglyd, wastad, eto heb fod yn ymylog fel bargod to gwellt; ei wisg yn berffaith lanwaith; côt sengl, ddiaddurn, eto heb fod yn gwbl yn nhoriad y crynwr; gwasgod ddwbl; llodrau pen glin; hosanau sidan duon; sel drom wrth ei oriawr; a phob peth ynddo yn tynu sylw yr edrychwr. Y mae arferion yn newid llawer gydâg amser. Deugain mlynedd yn ol, y cyfarfod mwyaf dyddorol yn Nghymru, neu o leiaf, yn Ngwynedd, ydoedd y "Gymdeithasfa," neu y "sasiwn," fel ei gelwid. Yr oedd yn gyfarfod cenedlaethol, yn ystyr mwyaf priodol y gair, ac efallai nad oedd yr un cynulliad arall, a gydnabyddid felly gan bawb, y pryd hwnw. Dichon fod yr Eisteddfod yn ogymaint yn awr, ond nid oedd ar yr adeg y cyfeirir ati. Yr oedd enw John Elias bob amser mewn cysylltiad anysgaradwy a'r cynulliad hwn. Efe oedd bywyd ac enaid y cyfarfod, yn enwedig yn siroedd y Gogledd, pa un bynag ai yn ei wlad ei hun, neu yn rhyw barth arall y byddai. O blegid hyn, y mae mor ofynol i'r genedlaeth ieuangc wybod rhywbeth am ansawdd y Gymdeithasfa, ag am ddoniau arbenig Elias, er gallu ffurfio syniad lled agos, am yr effeithiau hynod a gynnyrchid gan ei bresenoldeb. Y mae yn ofynol cael y ddalen wen i dynu yr ardeb arno, cyn y gellir canfod y llinellau gwreiddiol. Rhaid dangos y dadleuwr yn y llŷs; a dangos y rhyfelwr ar y maes; ac y mae yn rhaid dangos gwrthddrych ein sylwadau, yn y Gymanfa, ac yn yr areithfa. Yr oedd hon yn wyl flyneddol i'r holl wlad. Y person mwyaf cyhoeddus ar yr esgynlawr ydoedd Elias. Dysgwylid, darperid, ac ymddiddenid llawer yn ei chylch, am wythnosau cyn ei dyfod. Holid llawer pwy fyddai y dieithriaid oedd yn dyfod i'w chynal. Yr oedd fel canol-bwnc, at yr hwn yr oedd myrdd o linellau yn cyfeirio o bob aelwyd. Byddai y gymydogaeth lle y byddai i gael ei chynal, yn ymwisgo yn ei dillad newydd i gyd. Yr oedd pob palas yn cael ei adgyweirio, a phob bwth yn cael ei wyn-galchu. Ar y dydd hwn, telid math o warogaeth genedlaethol i grefydd. Yr oedd raid i bob dosparth gael myned i'r Gymanfa. Yr oedd hyd yn oed y rhai nad elent i gapel nac i eglwys ddydd yn y flwyddyn, yn mynu gweled y cynulliad mawr. A'r hyn oedd yn coroni yr holl bryder ydoedd, y disgwyliad am bregeth, ac anerchiadau yr hwn y cyfeiriwn ein cofnodau am dano. Gallem gyfeirio at ei ddylanwad a'i ddyhewyd, ar noswaith gyntaf y Gymanfa yn Mon, pan na byddai yn pregethu; dim ond yn unig rhoddi ychydig o gyfarwyddiadau yn nghylch y priodoldeb o iawn ymddygiad, cynaliad addoliad teuluaidd, &c. Y mae yr ail bregeth drosodd. Mae yntau yn cyfodi, ac yn neshau at y ddesg. Mae yn edrych o amgylch dros yr holl dorf, ac fel pe byddai yn tremio yn graff drwy bob wyneb, hyd y galon. Y mae a'i anadl yn tynu ei fochau i mewn, dan ei arleisiau uchel; y mae yn cyfeirio a'i fys ddwywaith at ryw fannau yn y dorf sydd yn sibrwd, mewn tipyn o aflonyddwch, nes y mae pawb mewn mynyd mor llonydd a'r delwau ar y pared—ond y mae efe heb agor ei enau eto. O'r diwedd y mae gwên serchus yn gwisgo ei wyneb, ac yna y mae yn dechreu llefaru:—"Y mae genyf air neu ddau i'w dywedyd cyn i neb syflyd o'i le. Nid yw hi eto ond prin chwarter wedi saith o'r gloch; ni raid fod brys ar neb; y mae hi yn hirddydd haf. Yr wyf wedi deall er ys meityn ar wyneb y dorf, fod pawb yma heno yn teimlo fod y nefoedd yn ein hymyl. Mae gweision y Duw Goruchaf, sydd yn mynegi i ni ffordd iachawdwriaeth, yn llaw eu Meistr mawr. Mae yn eglur eu bod wedi eu gwisgo â nerth o'r uchelder yn barod. Y mae udgorn floedd brenhin yn y gwersyll. Yr ydym wedi gweled, a chlywed pethau anhygoel heno. Clywsom drwst hollt yn muriau Jerico, a gallwn yn hyderus ddysgwyl gweled yr hen furiau yn garneddi ar lawr cyn nos yfory; ac ni a gawn weled hyny yn sicr, oni bydd i rywbeth ynom ni, neu yn ymddygiad y dorf, neu y dref, dristau yr Yspryd. Gan hyny, er mwyn gwerth eneidiau, a all fod yn yr esgoreddfa y mynud hwn, yr wyf yn tynghedu pawb i fod ar eu gwyliadwriaeth. Dymunwn anog pob dyn sydd yma, i fod yn fwy difrifol yn awr nag y bu erioed. Na ato Duw i neb o honom fod yn euog o'r fath beth ag ymlid y golomen nefol o'n mysg. Na weler un dyn meddw ar yr heol heno, ar bwys colli ei enaid. Na fydded dim yn ymddygiad neb, yn y tai, nac allan o honynt, i ddolurio llygad un ynad, na swyddwr gwladol, mwy na'r pregethwr, neu y dyn duwiol cyffredin. Disgwyliwn i foesau yr holl dorf, fod yn ddifrycheulyd heno; onid e, dyma y sasiwn ddiweddaf fydd yn y dref hon byth! Y mae yma filoedd o ddieithriaid i gael eu lletya heno yn y gymydogaeth; cofied pob dyn fod yn ufudd i fyned i'r lle y caffo ei wahodd: pa orchest ar hin fel hyn, fyddai myned dair milltir o ffordd, pe bai raid. Gofaled pob un am fod yn ffyddlawn, a diolchgar am ei letty. Chwithau sydd yn lletya, agorwch eich drysau o galon. Nac anghofiwch letygarwch. Na chymerwch unrhyw drafferth na thraul; cymaint a ofynwn, ydyw gwely sych, diberygl, a thamaid o fara, a llymaid o ddwfr. Gwerthfawrogwch ddyfodiad y dieithriaid dan eich cronglwyd am dro. Efallai mai heno yr eneinir eich aelwydydd gyntaf â dagrau y saint; efallai mai heno y cysegrir eich nenbrenau gyntaf â gweddiau duwiolion. Darfu i'r hen bererinion gynt,

Digitized by Google

trwy ffydd, letya rhai angelion yn ddiarwybod, a gwledda gyda hwynt, yn hyfryd yn eu lluestai. Pwy a wyr na chewch chwithau heno, letya duwiolion, yn nghwmni anweledig angelion y nef! Chwithau sydd yn cyfarwyddo y lletywyr, gofelwch am drefnu, fel y byddo gweddiwr yn myned i bob ty. Sylwed y dorf i gyd, ar fod addoliad teuluaidd yn mhob annedd, yn gymwys am naw o'r gloch heno. Y mae y nefoedd fawr wedi gwenu arnom eisoes; y mae negeswriaeth gyflym gan yr angelion rhwng yr orsedd a'r maes hwn er ys meityn; ac am naw o'r gloch heno, yr ydym yn hyderu y bydd ysgol Jacob yn orlawn o deithwyr, ol a blaen, ac y bydd y fath nerth gan gyd-weddiau o'r gymydogaeth hon, dros chwe milltir o amgylch, fel y tynant y nefoedd i lawr at y ddaear, ac y codant y ddaear mor agos i'r nef, fel y bydd pabell Duw gyda dynion, ac mai y Gymanfa hon fydd prif destyn yr ymddiddan heno yn nghyfrin-gynghor y drydedd nef!" Fel hyn yr oedd meddyliau y bobl wedi eu hoelio wrth ei wefusau, ac yr oeddynt yn clywed ei eiriau fel clochau yn seinio yn hir yn eu clustiau. Yr oedd arswyd ar bob dyn wrth gerdded yr heol, rhag rhoddi un achos tramgwydd mewn dim. Ymddangosai yr holl dorf fel crefyddwyr dichlynaidd eu gyd. Er mwyn cael golwg arno yn mhellach yn ei ddyhewyd, dichon y dylid yma roddi darluniad o hono ar yr awr weddi. Y mae hi erbyn hyn yn naw o'r gloch. Yr oedd lluaws wedi gorphen swperu ac addoli, cyn i'r awrlais daro naw. Yr oedd pawb wedi dyfod i wybod, rywfodd neu gilydd pa le yr oedd Elias ei hun yn lletya. Yr oedd yr heol gyferbyn a'r ty, wedi ei llanw gan dorf fawr cyn yr awr gyhoeddedig. Ar ddyfodiad yr adeg, pan agorwyd ffenestr, yr ystafell o led y pen, yr oedd pawb yn dysgwyl am gael ei glywed yn darllen a gweddio. Y mae ef yn rhoddi penill i'w ganu yn mlaenaf, "Ag isop golch fi'n lân, &c." Mesur Salm byr—mesur go anghyffredin. Nid oedd neb a ddechreuai ganu am beth amser: ond o'r diwedd, dyma wr y ty yn ei chynyg hi: canwr trwstan iawn oedd efe—ond pa fodd bynag, gwnaeth y tro ar y pryd; a phwy a ddygwyddai fod allan yn yr heol, wrth y ffenestr, ond Cadi Rondol; a dyma yr hen Gadi yn cipio yr hen fesur i fyny, ac yn dechreu ei rolio yn yr awyr, gan befrio ei hen lygaid croesion gwrthun, a'r olwg arni yn rhyfedd iawn; ond ni waeth beth a fo, gweithiodd yr hen fenyw ei ffordd, a gafaelodd yr holl dorf yn y canu, mor wresog, fel y buwyd dipyn o amser cyn cael pen a gosteg i fyned yn mlaen a'r gwasanaeth. Wedi gorphen y canu, darllenodd Mr. Elias Salm 51; ac yr oedd pob arwyddion yn y darlleniad, fod y canu wedi tanio ei yspryd. Yna plygodd ei liniau i anerch yr orsedd. Y mae cynyg darlunio y weddi yn hollol ofer. Yr ydym yn meddwl na fyddai yn rhyfyg i ni ddefnyddio geiriau yr hanes am weddi y Gwaredwr wrth adrodd. Yr oedd efe mewn "llefain cryf a dagrau, yn offrwm gweddiau ac erfyniau at Dduw" dros achubiaeth y bobl ar y pryd. Yr oedd y teimladau hyn yn rhywbeth uwchlaw y cyffredin. Yr oedd fel pe buasai wedi cael caniatâd i fyned i ymyl yr orsedd, i ymddiddan wyneb yn wyneb â Duw. Yr oedd ei wyneb yn dysgleirio fel yr eiddo Moses yn y mynydd. Yr oedd ei weddi mewn ofn, mewn ffydd, mewn cariad, mewn hyder, mewn nerth, ac mewn gafael, na ollyngai nes cael ei neges. Mynai arwydd er daioni y noswaith hono, cyn codi oddiar ei liniau. Yr oedd ei ymroad yn debyg i ymdrech Jacob gyda'r angel; a diau y cafwyd blaenffrwyth o'r cynhauaf mawr dranoeth; ar y pryd yr oedd yn tynu yspryd y bobl i'w yspryd ei hun. Yr oedd y weddi hon yn treiddio trwy galonau annuwiolion fel cleddyf tanllyd ysgwydedig; ond yr oedd yn derchafu teimladau duwiolion, nes yr oeddynt yn dychymygu eu bod ar adenydd cerubiaid, ac wedi colli eu gwadnau oddiar y ddaear. Wedi gweddio, rhoddwyd penill allan i'w ganu drachefn, a chanu rhyfedd ydoedd—canu yn ddiau ag yr oedd yn bleser gan seraphiaid dewi, i wrando arno—"Caned nef a daear lawr, &c." Ac felly y parhaodd y canu am ysdod maith. Bu effeithiau y weddi hon yn rhyfedd. Gwelwyd y dynion mwyaf annuwiol ac anystyriol yn delwi yn eu golwg, ac yn wylo eu dagrau yn hidl fel plant bychain. Dychwelwyd lluaws at grefydd yn y tro, y rhai a roddasant brawf o'u gwir droedigaeth, mewn oes o fywyd wedi ei gyflwyno i'r Gwaredwr, ac i harddu ffyrdd crefydd, a llwybrau rhinwedd! Er mwyn i'r darllenydd allu ffurfio rhyw syniad lled agos, am ddylanwad ei areithyddiaeth, ni allwn ymatal, heb gyfeirio ato yn anerch cyfarfod cyhoeddus, perthynol i Gymdeithas y Biblau, ar adeg o gryn hynodrwydd. Yn mhen tua deg neu ddeuddeng mlynedd wedi ffurfiad y Gymdeithas, daeth i enill sylw a dylanwad neillduol drwy yr holl dywysogaeth, ac nid oedd Mon ac Arfon yn ol i unman, er fod llawer ar y pryd, yn lled ragfarnllyd tu ag ati. Tu a'r adeg hon, yr oedd cynulliadau cyhoeddus i gael eu cynal yn nhrefydd Caernarfon, a Biwmares, ac Ardalydd Mon i lywyddu ynddynt. Cyhoeddwyd yr hysbysiadau; ac yn mysg yr areithwyr, yr oedd enwau Dr. Stuart o Lerpwll, i areithio yn Saesoneg, a John Elias, Llanfechell i areithio yn Gymraeg. Deallid y byddai presenoldeb yr Ardalydd yn foddion i dynu lluaws o foneddigion i'r fan; er mai yn lled anfoddog y byddai rhai o honynt. Yr oedd y Gwron, newydd gael ei goroni â gogoniant bythgofiadwy Waterloo, a'i urddo a theitlau newyddion yn ddirif; ac yr oedd y gofgolofn o anrhydedd iddo newydd gael ei chodi ar glogwyn uchel Craig y Ddinas, ar lan afon Menai, yn Mon. Ni allai y boneddion oedd newydd fod yn ei anrhydeddu a'r gofadail, lai na bod yn bresenol, ond yr oeddynt yn hollol anfoddlon i John Elias areithio yn y fath le, ac yr oedd yn anhawdd ganddynt ymgymodi a'r meddwl o wrando arno. Yr oeddynt yn gwbl foddhaol i'r Dr. Stuart, ond yn unig cael cymeryd y llall yn esgusodol; ond ni fynai y swyddogion er dim newid y rhaglen. Y cyfarfod a ddaeth! Yr oedd llygad yr holl wlad arno. Nid oedd nemawr gongl o Fon, nac Arfon, nad oedd rhywun oddiyno yn bresenol. Yr oedd y boneddigesau yn ddirifedi yno o bob man. Yr oedd pob beth erbyn hyn yn barod at ddechreu y cyfarfod, a'r lle yn orlawn o wrandawyr. Mawr oedd y pryder bellach yn mhob mynwes, a phawb yn tremio tua'r drws, ac yn ymwrando a oedd dim arwydd fod y cadeirydd ger llaw; ac yn disgwyl bob mynud glywed trwst carnau y meirch ar y palmant, i hysbysu am ei ddyfodiad. Yr oedd y pryder yn codi fwyfwy bob mynud, fel yr oedd yr amser i ddechreu yn neshau. Nid oedd na siw na miw, na dim tebyg am y Cadeirydd o fewn pum mynud i awr y cyhoeddiad. Ar hyn dyma sibrwd drwy yr holl le, nad oedd y llywydd yn dyfod i'r cyfarfod! Yr oedd hyn fel tawch yn gorchuddio y cyfan, ac yr oedd megis niwl tywyllwch yn cuddio

Digitized by Google

pob wyneb yn y lle. Ond ust! gyda bod yr awrlais yn dechreu taro un ar-ddeg o'r gloch, dyma drwst olwynion y cerbyd yn sefyll ar y foment wrth y gorddrws, a dyma y gwr mawr i mewn, ac i'r gadair rhag blaen, nes yr oedd yr holl lys yn fyw drwyddo ar unwaith, a gwên newydd yn cael ei gwisgo gan bawb. Erbyn hyn, dyma y ffanau, y ffuneni, a'r sidanau, gan y rhianod, yn suo llawenydd yn yr holl ystafell drwyddi draw. Wel! dyma bawb yn ei le, a distawrwydd y bedd drwy bob man, a gorchwylion pwysig y cyfarfod yn dechreu. Cododd y llywydd i fyny: eglurodd ddybenion y cyfarfod mewn byr eiriau. Dywedodd ei fod yn hollol gymeradwyo amcan y Gymdeithas, ac yr ystyriai yn fraint iddo gael cydweithredu yn mhob modd tu ag at ddwyn y fath gynllun bendigedig yn mlaen! Yna elid yn mlaen gyda'r gorchwylion cyhoeddedig. Bellach dyma enw Mr. John Elias yn cael ei alw, o'r gadair. Rhyfedd oedd yr olwg ar amryw yn y lle erbyn hyn. Yr oedd llawer yn troi gwegil, ac nid wyneb, tuag ato; eraill, yn hytrach na throi cefn, yn gwneud osgo led ochrog tu ag ato, gyda gwefl laes, a thrwyn sur, a llygad cilwgus! Wel, o'r goreu; nid oedd yr holl agweddau a wneid, yn ddigonol i'w roddi ef i lawr. Deuai yn mlaen, talai foesgyfarchiad i'r llywydd, mewn ymddygiad tra boneddigaidd; a dychwelai y llywydd yr amnaid yn ol gyda gwen; canys gwelai fod ganddo ddyn gerbron. Gwelai yn eglur fod rhywbeth ynddo, ar yr olwg gyntaf! Dechreuai yntau ar ei orchwyl. Er mor gas oedd gan lawer ei enw, yr oedd hyd yn nod yr olwg arno, wedi lladd haner eu rhagfarn yn barod; ac yr oedd ei gyfarchiad gweddus, o'r braidd wedi lladd yr haner arall. Dechreuodd drwy gymeryd golwg ar ansawdd Cymru cyn cael y Bibl. Dangosodd, cyn pen pum mynud, fod hanesiaeth ei wlad ar ben ei fys. Yr oedd y gynulleidfa yn gymysgedig o Saeson a Chymry—rhai yn ei ddeall, a rhai heb ei ddeall. Pan ddaeth at hanes y cyfieithiadau Cymreig o'r Ysgrythyr, ac i'r dorf ei glywed yn son am William Salisbury, Dr. Morgan, Dr. Richard Davies, Thomas Hewit, canghellwr Tyddewi, Dr. Whitgift, Dr. Hughes, Dr. Bellot, Dr. Gabriel Goodman, Dr. David Powell, ficar Rhiwabon, Archddiacon Prys, Mr. Richard Vaughan, a'r Dr. Parry, ac eraill, disgynodd seiniau ar eu clustiau, na ddysgwyliasent oddiwrtho ef; a hen enwau anwyl oedd fel miwsig, ar eu calonau. Ac fel yr oedd yn myned yn mlaen, i son am y gwahanol argraphiadau o'r Bibl Cymraeg, ac yn rhedeg dros enwau Thomas Middleton, Rowland Heylin, Walter Cradock, Vavasor Powell, Thomas Gouge, Stephan Hughes, Dafydd Jones, yr Esgob Llwyd, Moses Williams, y Morusiaid o Fon, ac eraill, a chanfod fod yr holl hanes drwyddi, fel llythyrenau yr egwyddor o flaen ei feddwl, nid oedd modd peidio gwrando arno; ac wedi dechreu enill eu sylw, a thoddi y teimlad, a thwymno y serch, yr oedd y rhew i gyd wedi dadmer rywfodd! Ac fel yr oedd yn myned rhagddo yn ei araith, a'i eiriau nerthol, a'i iaith dda, a'i ddawn ddengar, nid oedd un gwegil nac ochr ar ei gyfer; ond pawb megis am eu bywyd, yn gwrando ac yn tremio arno. Wedi arwain y dorf i gymeryd golygiad ar ansawdd Cymru, a darlunio yr angen yn mha un yr oedd y genedl yn sefyll am ryw ddarpariaeth mwy effeithiol na dim a gafwyd eto—er cymaint oedd y llafur a fu, yr oedd pob dyn wedi llwyr anghofio ei gulni a'i ragfarn, a phob teimladau wedi eu cydsyfrdanu yn lân. Yna symudodd i orsaf newydd yn ei anerchiad. Darluniodd sefyllfa foesol y wlad ar y pryd hwnw, megis mewn rhyfel rhwng goleuni a thywyllwch—rhwng sancteiddrwydd a phechod—Crist a Belial—a bod y ddwy fyddin fawr yn neshau i gyfarfod a'u gilydd yn gyflym—bod y tir canol rhyngddynt i'w weled yn culhau bob dydd—a bod yn rhaid i'r gwirionedd lwyddo a gorchfygu ar y diwedd yn lan. Dangosodd fod dedwyddwch y byd yn troi ar yr ymdrech fawr hon. Dywedodd fod cynllun o'r frwydr a'r fuddygoliaeth wedi ei gael yn ddiweddar ar faes Waterloo! Erbyn hyn, yr oedd teimladau y dorf yn gwbl at ei alwad. Yr oedd y rhianod er ys meityn wedi colli llinynau a chyhyrau eu hwynebau. Gwelid ambell un yn colli ei napcyn yn ddifeddwl o'i llaw, a'r llall yn gollwng ei maneg i lawr, a'r drydedd wedi colli trefn cudynau ei gwallt, a phawb yn yr un teimlad! Aeth rhagddo i ddarlunio yr ymdrech ddiweddar yn Waterloo; a dangosai fel yr oedd tynged cenedloedd, heddwch y byd, anturiaeth masnach, gobaith celfyddyd, cynnydd gwybodaeth—ie, a rhwydd rediad yr efengyl, yn troi ar yr awr bwysig honno. Ond yr oedd llaw Rhagluniaeth i'w gweled yn amlwg yno. Yr oedd eu cadfridogion wedi eu donio a'r ddoethineb a'r gallu oedd yn ofynol i'r orchest fawr. "Yr Arglwydd sydd ryfelwr; yr Arglwydd yw ei enw." Ar hyn, troai i ddarlunio y llywydd yn myned yn mlaen i'r maes, yn y foment yr oedd y glorian fawr i droi am byth! Defnyddiodd y darluniad sydd yn llyfr Job am y rhyfelfarch, i'w osod allan—"Dychymygaf," meddai, "ei weled yn dyfod i'r maes ar ei farch gwyn; hwnw yn diystyru arswyd, &c." Darluniai ef yn rhedeg i ganol yr udgyrn, ac yn gwaeddi "Ha, ha," mewn gwawd arnynt. A'r marchog enwog mewn perffaith hunan-feddiant, yn nghanol y mwg a'r tan, yn cyfarwyddo ac yn trefnu y fyddin, gan arwain ei gadrod, nes yr oedd wedi hollol gylchynu y gelyn, fel nad allai fyned yn ol nac yn mlaen, ond yntau yn rhy fawr ac yn rhy foneddigaidd, i'w ladd a'i law ei hun, tra yr oedd yn ei gyrhaedd." "Ar hyn, ataliwyd peth ar hyawdledd yr areithiwr gan deimladau y dorf; o blegid yr oedd su distaw yn rhedeg drwy yr holl ystafell, a chryn gamp oedd cadw griddfanau a chrechwenau i lawr. Ond yn mlaen yr aeth Mr. Elias yn ei araith; ac fel yr oedd yn cryfhau yn ei nerth, ac yn tanio yn ei yspryd, yr oedd yn myned yn fwyfwy effeithiol o hyd. Dywedai yn awr—"Dychymygaf glywed bloeddio concwest cyn ei henill! Ie, ond concwest ar draul colli bywyd un o bigion ein cenedl a fydd! Nage; dim ond colli un aelod! Ar hyn, dyma angau yn dyfod yn mlaen, ac yn taflu pelen, nes ysgar aelod y llywydd; ond beth er hyny, dyma Ragluniaeth i'r maes yn yr un foment, ac yn gwaeddi ar angau, fel y gwaeddodd yr angel ar Abraham gynt—'Atal dy law—hyd yna yr ai, ac nid yn mhellach!' Gochel gyffwrdd a'i einioes—na feiddia fyned gam yn nes at ei fywyd na'r aelod; y mae arnaf fi eisiau ei wasanaeth i lywyddu yn nghadair y Fibl Gymdeithas—y mae arnaf eisiau iddo arwain byddin i daenu gair y bywyd i bob gwlad, ac iaith, a phobl, a chenedl, dros wyneb yr holl ddaear." Bloeddiodd allan yn y fan hon â llais grymus, ond lled doddedig—"Y mae y gelyn wedi ei rwymo, ond gair Duw nis rhwymir!" Ar hyn, dyma yr holl gynulleidfa fel pe buasai wedi ymddyrysu yn lân;—weithiau distawrwydd—weithiau

Digitized by Google

sibrwd—weithiau distaw holi; a'r Seison oedd heb ddeall Cymraeg, yn brysurach na neb, wrth ganfod y *thrill* drwy yr holl ystafell, yn gofyn "*What?—What was that? What did he say? What was that excitement?*" &c. Yr oedd yr holl sidanau erbyn hyn yn ddagrau—yr holl pwcram yn wlanen, ar holl *starch* yn llyn! Wedi ychydig o ddistawrwydd ac adfeddiant o deimladau, amneidiai y cadeirydd ar gyfaill oedd gerllaw, i ofyn beth oedd yr achos o'r cyffro? Neshaodd hwnw at ei glust, a dywedodd. *It was an allusion to yourself, my Lord, and the accident at Waterloo, where the interposition of Providence spared you to preside over this meeting,*" &c. Ar hyn, gwelid y llywydd yn prysuro, i chwilio am ei ffunen logell, a'r dagrau mawr, fel y pŷs, yn disgyn o'i lygaid! Dychymyged y darllenydd bellach, os gall, beth oedd y teimladau, oedd wedi eu creu yn yr holl dorf erbyn hyn. Ie, dyma y maes-lywydd gwrol yn wylo fel plentyn! Nid oedd digon o nerth yn holl drwst magnelau Waterloo i fenu ar ei deimlad, mwy na'r graig, ond dyma araith Cymro, yn troi y gallestr yn llyn dwr!

Fel eglurhad ar wroldeb defnyddiol Mr. Elias, yn nghychwyniad ei weinidogaeth, gellid cyfeirio yn mhellach at yr amgylchiad canlynol,—Bu yn pregethu ar yr heol, yn Rhuddlan, gyda golwg arbenig ar ddarostwng yr hen arferiad annuwiol oedd yno, o ymgynull ar y Sabbathau, yn amser cynhauaf, i gyflogi gweithwyr i'r cynhauaf, ac i gael eu cyflogi; yr oedd y cyfarfod hwn yn fath o ffair. Ymgynullai tyrfaoedd o ddynion o wahanol barthau y wlad; rhai i ymofyn gwaith, ac eraill i ymroddi i feddwdod a phob afreolaeth. Deuai ffermwyr yr ardaloedd cylchynol yno hefyd, i gyflogi gweithwyr am yr wythnos ganlynol. Yr oedd yno hefyd brynu a gwerthu pladuriau, crymanau, a chelfi amaethyddol; a'r Sabbath a wnelid yn ddydd marchnad; a'r tafarndai hefyd oeddynt yn llawn meddwdod ac afreolaeth. Cafodd Elias ar ei feddwl i gyfarfod a'r dorf hon, i ddynoethi ysgelerder eu hymddygiad, ac i alw arnynt i roddi heibio yn llwyr ac am byth y fath arferiad di-dduw. Safodd ar risiau y gwesty a elwid y *New Inn;* ac o'i flaen yr oedd cannoedd o ddynion, llawer o honynt a'u crymanau, a'u pladuriau ar eu hysgwyddau, a'r olwg arnynt i bob meddwl ystyriol yn arswydus. Nid oedd efe ar y pryd, ond dyn ieuangc, tuag wyth mlwydd ar hugain oed, ac heb fod yn pregethu fwy nag er ys wyth mlynedd. Gofynai wroldeb mawr ynddo, i sefyll yn y fath le, ar y fath achlysur. Pa fodd bynag, ymddangosai yn bur fuan fod Duw gyda'r llanc. Ar waith y gynulleidfa yn canu, disgynodd gradd o ddifrifwch ar bawb; diflanodd y crymanau, a'r pladuriau o'r golwg, ac ymroes pawb i wrando yr holl bregeth. Cerddodd effeithiau anarferol gyda'r bregeth hono; disgynodd arswyd ar bawb ymron fel na allent ymnerthu i fyned at y gorchwyl y daethent yno o'i herwydd; chwalodd y bobl fel rhai wedi synnu, a llawer o honynt â saethau Duw yn eu cydwybodau. Clybu boneddwyr y wlad am y bregeth, ac yn mysg eraill, Esgob a Deon Llanelwy, a gyrasant air at drigolion Rhuddlan a'r cymydogaethau, na oddefid iddynt fod yn euog byth mwy o'r fath ysgelerder. Felly rhoddwyd pen ar unwaith, ac hyd heddyw, ar arferiad a fu yn ymwreiddio yn y parth hwn er ys oesoedd. Pan yr oedd un gwr cyfrifol, y Parch. Robert Roberts, yn dychwelyd adref o'r oedfa hon, goddiweddodd ddyn, yn dychwelyd o'r bregeth fel yntau. Deallodd wrth y dyn yn fuan, fod y bregeth wedi cael llwyr oruchafiaeth arno. Dywedai ei fod ar ei waith yn troi tu a'i gartref, wedi meddwl fod ei fraich, y cariai y cryman arni, wedi gwywo; ac felly syrthiodd o'i law ar y ffordd. Ofnai ei godi i fynu, rhag y diffrwythai y fraich arall hefyd. Collodd y dyn ei gryman, ond fe gafodd ei ddwy fraich; do, cafodd fwy; dychwelwyd ef mewn edifeirwch at Dduw, a threuliodd weddill ei oes yn Gristion gloew, a gorphenodd ei yrfa mewn llawenydd!

Yr oedd llawer o gymhwysderau naturiol yn Mr. Elias, er ei gymhwyso i fod yn ymadroddwr cyhoeddus. Yr oedd ei gryfder corphorol yn fawr iawn. Gallai bregethu mewn ffenestr, pan y byddai y dorf yn rhy fawr i gael ei chynwys yn yr addoldy, a'r haner allan, heb deimlo dim niwaid. Yr oedd ei lais yn dreiddgar, heb fod yn gras, ac ni wyddai ond ychydig am anwyd a chrygni. Yr oedd ei gof fel llestr anfesurol, a'i ddawn ymadrodd, yn bob peth oedd ofynol at hyawdledd. Yr oedd y gelfyddyd o draddodi, yn ei pherffeithrwydd ganddo, ac eto y graddau uwchaf yn y perffeithrwydd hwnw, oedd ei fedr i guddio y gelfyddyd â gwisg natur. Yr oedd ei hunan-feddiant yn nodedig, pan yr ystyrier, mai lled boethlyd a thwymfrydig o anian ydoedd. Fel prawf o hyn, gellid cyfeirio at un amgylchiad neillduol. Yr oedd ef yn pregethu mewn gwlad unwaith, gerllaw amaethdy, brydnhawn Sabbath gwresog yn yr haf. Yr oedd y gwasanaeth allan, yn yr awyr agored. Tra yr oedd yn pregethu, cododd haid o wenyn gerllaw y lle. Daeth un o'r gwenyn cyn hir, gan wibio, ar ei haden, ac wedi troi o amgylch amryw weithiau, o'r diwedd disgynodd ar ei wyneb. Dyna lle yr oedd y dorf yn y cyffro mwyaf pryderus, gan ofn iddo gael ei bigo, ond aeth ef yn mlaen, yn hollol yr un modd, ac heb gyffroi dim. Cyn hir, daeth un arall heibio, yr un modd, ac wedi gwibio ychydig o amgylch, disgynodd hono ar ei wyneb; yr oedd hyn yn gyru y dorf i fwy o bryder drachefn, ond ni chyffroes ef ddim, yn y gradd lleiaf; ac ar fyrder, dyma y drydedd heibio, yr un modd, a disgynodd hono ar ei wyneb, fel erbyn hyn yr oedd y tair yn cerdded, ol a blaen hyd ei wyneb: yr oedd y gynulleidfa yn mron ymdori gan deimlad, ond ni chyffroes ef ddim, mewn un gradd; ond aeth yn mlaen yn berffaith yr un modd â phe na wybuasai fod yr un o honynt yno. Cyn hir, aeth un ymaith; aeth yr ail yn fuan ar ei hol, a'r drydedd cyn hir, ar ol y ddwy arall, ac heb wneud un math o niwaid iddo, ac aeth rhagddo gyda'r bregeth, yr un modd yn union a phe buasai heb eu hymweliad o gwbl oll. Yr oedd hyn yn dangos pwyll, arafwch, hyder, a hunanfeddiant anarferol. Er mor wrol o deimlad a phenderfyniad ydoedd, yr oedd ganddo dynerwch prydferth, a theimladau teuluol anrhydeddus iawn. Yr oedd yn pregethu unwaith yn Mhwllheli, pan yr ydoedd yn uwchder ei boblogrwydd, ac wedi dyfod i dy y capel, ar ol gorphen yr addoliad, a'r lle yn llawn o oreugwyr y gymydogaeth wedi dyfod i'w gyfarch; a thra yr oedd pawb yn talu eu moes iddo, clywai un yn lled besychu, yn nghanol y bobl o'r tu cefn iddo; tybiodd mai pesychiad ei dad a glywai; trodd yn union tu ag ato, a chanfyddodd ef, a chodai o'i gadair yn uniongyrchol, a dywedai, "O fy nhad anwyl, ai chwi sydd yna—y mae yn dda genyf eich gweled, deuwch i'r gadair hon yn union, &c." Dangosai y parch mwyaf iddo, er nad oedd dim yn ei wisg nac yn ei ymddangosiad a

Digitized by Google

fuasai yn cymhell hyny. Yr oedd Mr. Elias wedi dangos ei ragoriaethau fel pregethwr ac areithiwr ar amryw achlysuron; mewn cymdeithasfaoedd, cyfarfodydd cenhadol, ac ar deithiau pregethu ar lawer pryd, mewn llawer man, ag y buasai yn ddymunol cyfeirio atynt, ond ni chaniata ein gofod eu cyfleu yma. Hyderir y bydd yr egluriadau crybwylledig, yn ddigonol er ei osod allan yn holl fanylion ei hynodrwydd. Dichon y dylid cyfeirio yn neillduol at ei ddylanwad ar y cyhoedd yn Môn, yn yr hanes a geir am dano, ar adeg ag yr oedd llong-ddrylliadau wedi bod ar lanau môr yr ynys yn lluosog iawn. Nid oedd y werin wedi cwbl ddeall natur y trosedd o ysbeilio eiddo ar y traeth, wedi eu cludo gan y llanw, o longau drylliedig. Bu i'r wlad ei gwarthruddo ei hun, unwaith, drwy anfon certwyni i gynull y cyfryw eiddo, a llenwi ysguboriau â brethynau, gwlaneni, cotymau, a phob math o eiddo gwisgo. Yn y cyfamser, anogodd y Cyfarfod misol Mr. Elias, i anfon ei gyhoeddiad i'r manau ag y gwybyddid fod yr ysbail wedi myned yn fwyaf eithafol. Felly fu, a dywedir fod ei anerchiad yn mhob man lle yr aeth, o flaen y bregeth, mor danllyd ac effeithiol, fel y dychrynodd lluaws, i'r fath raddau, nes anfon yr eiddo yn ol, a'u tywallt yn fwrneidiau ar y traeth, lle y cafwyd hwy. Fel hyn yr ydym wedi cymeryd adolygiad ar hanes un o'r dynion enwocaf, ar amryw ystyriaethau, a fagodd Cymru, nac un wlad arall: dyn ac y bydd ei enw yn cael ei drosglwyddo, yn mysg hanesion crefyddol y genedl, fel perarogl i'r oesau a ddel. Pa faint bynag oedd ei ddiffygion a'i golliadau, nid oes neb na addefa, fod ei ragoriaethau yn eu cysgodi i gyd. Nid oes dim a wnelom ni yma, ag un amcan mwy na llai, na cheisio tynu portread cywir o hono, yn ei gymeriad cyhoeddus. Dichon fod awchder gwres ei deyrngarwch, wedi ei gario weithiau i eithafion yn ei syniadau gwleidyddol. Nid y gwleidyddwr, ond y pregethwr yr ymofynasom am dano. Yr ydym wedi cael golygiad ar ei fywyd, a dichon na byddai yn annyddorol i ni derfynu gyda rhai nodiadau ar amgylchiadau ei farwolaeth. Dywedodd Addison unwaith wrth foneddwr ieuangc, oedd o olygiadau lled amheus am wirioneddau Cristionogaeth, pan yr oedd cyfaill iddo, yr hwn oedd yn Gristion disglaer, ar gymeryd ei adenydd i'r byd ysprydol, "Deuwch gyda mi, a dangosaf i chwi y modd y gall Cristion farw." Yr ydym ninau yn dynesu at ystafell angeuol Elias. Gorphenodd ei yrfa ddaearol yn y Fron, Llangefni, ar yr 8fed dydd o Fehefin 1841, yn y 69ain flwyddyn o'i oedran. Dyma ei dystiolaeth pan yr oedd yn wynebu brenhin dychryniadau, ac ar gychwyn i ffordd yr holl ddaear —"Yr ydwyf mor ddedwydd fy meddwl ag y dichon i ddyn fod, o dan y fath boen ag yr wyf ynddo. Nid oes un cwmwl yn myned rhwng fy enaid a'm Duw; y mae y cysuron hyny, yr arferwn eu mwynhau yn moddion gras, ac yn y weinidogaeth, yn dylifo eto i fy enaid; ie, y maent weithiau yn gryfach, ac yn fwy bywiog yn eu heffeithiau yn awr, nac y buont erioed o'r blaen." Yr oedd ei ostyngeiddrwydd yn dra phrydferth yn yr adeg ddifrifol hon. Yr oedd yn ymwybodol o'i sefyllfa ddylanwadol fel gweinidog yn mysg ei frodyr, eto cadwyd ef yn gydostyngedig a'r rhai iselradd, o blegid yr oedd wedi ymdrwsio oddi fewn a gostyngeiddrwydd. Ymddengys iddo ysgrifenu rhai llinellau bywgraphyddol am dano ei hun, a therfynai gyda'r ymadroddion gwylaidd canlynol. "Ysgrifenais y pethau hyn, heb wybod nad yn 'rhosydd Moab, ar lan yr Iorddonen,' yr ydwyf. Mewn gofid, a thrwy anhawsder mawr yr ysgrifenais—gan fy ystyried fy hun yn ysgrifenu ger bron Duw; ac efallai yn ysgrifenu yr hyn a ddarllenir pan y byddaf fi yn ddystaw yn y bedd." Y mae y syniadau hyn, a fynegwyd megis ar fin y bedd, yn dangos yn ddigon eglur, ei fod yn profi ei hun, yr hyn a gymhellai ar eraill. Diwrnod i'w gofio yn hir yn Môn, ydoedd y pymthegfed o Fehefin, yn y flwyddyn deunaw cant ac un a deugain—y dydd y claddwyd yr hyn oedd farwol o John Elias, yn mynwent Llanfaes, ger Biwmares. Y mae cryn deimlad ar lawer pryd wedi cael ei amlygu ar gyflwyniad dynion o enwogrwydd mawr i dy eu hir gartref; a theimlad tra naturiol yw, "A gwŷr bucheddol a ddygasant Stephan i'w gladdu, a hwy a wnaethant alar mawr am dano." Yr oedd y dyrfa a ymgynhullodd i'w angladd yn ddirfawr. Nid yw yn anhawdd dirnad beth oedd rhediad myfyrdod y dorf a'r edrychwyr, fel yr oeddynt yn cychwyn, gan symud, cerbyd ar ol cerbyd, a march ar ol march, a theithwyr ar draed, oddiwrth drothwy annedd y trancedig, gan gynnyddu ar hyd y ffordd. Yr oedd tref Llangefni yn dangos arwyddion o alar mawr ar y pryd. Nid yn fynych y gwelwyd yr anneddau oll, a'u ffenestri dan leni, fel yr oedd y pryd hwn. Nid oedd dim llai na cholli ardderchawgrwydd Israel a fuasai yn creu y fath alar. Yr oedd yr olwg ar yr prymdaith yn symud oddiwrth y Fron, ar hyd y brif-ffordd, ac heb odid lygad sych o'r naill ben i'r llall, yn dra effeithiol. Yr oedd nifer y galarwyr, a hyd y llinell, yn estyn ac yn cynhyddu wrth bob croesffordd, ac ar gyfer pob llwybr, nes yr ydoedd yn ddim llai na milltir a haner o hyd, cyn cyrhaedd Porthaethwy. Yr oedd tref Biwmares yn ei galarwisg, o'r naill gwr i'r llall. Y mae y Llan, a'r fynwent yn neillduedig iawn. Yma yr huna ei hen gyfaill, a'i gydweithiwr, y Parch. Richard Llwyd. Y mae coffadwriaeth y ddau yn fendigedig yn Môn. Wedi hir gyd-fyw, a chydlafurio, fel hyn, ni wahanwyd hwy yn angau!

Fel awdwr, nid llawer o gyfoeth a adawodd Elias ar ei ol i'r byd. Y mae yr hyn sydd ar gael yn werthfawr iawn. Y prif lyfr a ysgrifenodd, ydyw y "Traethawd ar Gyfiawnhad," yr hwn sydd yn dangos yn eglur, y fath drysorfa o wybodaeth dduwinyddol oedd ganddo. Yr oedd ei syniadau yn unol, ar y cyfan, a'r hyn a elwir yn Galfiniaeth. Yr oedd yn arwyddair ganddo, "Yr hen dduwinyddion, a'r athronwyr diweddar." Yr oedd yn dra hoff o Dr. Owen, Edwards, Goodwin, a Charnock, ac eraill; y mae ef wedi gadael mewn ysgrifen, nifer o'i bregethau, ac y mae amryw gyfrolau o honynt wedi cael eu cyhoeddi, o bryd i bryd. Cyhoeddodd Draethawd ar y Sabbath; a nifer o Anerchiadau dros y Gymdeithas Genhadol. Cyfansoddodd Holwyddoreg byr ar y Deg Gorchymyn. Nid ydym yn gwybod ddarfod iddo ysgrifenu ond ychydig o Farddoniaeth: y mae yr Emyn, sydd yn dechreu gyda y llinell, "Ai am fy meiau i, &c.," yn cael ei phriodoli iddo ef. Gwyddom ei fod yn dra hoff o'r Mesur Salm Byr, ac felly yr arweiniwyd ef, y mae yn debygol, wrth gyfansoddi yr emyn adnabyddus y cyfeiriwyd ati. Y mae yn hysbys hefyd iddo gyfieithu yr Emyn ar "Gariad Duw," yr hon yr oedd yn dra hoff o honi. Gan nad yw y dernyn hwn o'i waith yn hysbys iawn i'r cyhoedd, efallai na byddai dim yn fwy derbyniol

Digitized by Google

na'i dodi i mewn yma, fel terfyniad i'r nodiadau coffadwriaethol hyn am dano:—

"Pe troid afonydd daear lawr,
Ffynnonau, llynau, moroedd mawr,
Tan y ffurfafen faith,
Yn inc o'r dua'i liw a'i lun,
Chwanegu gwlith y nef bob un,
I roi mwy rhyfedd iaith;

Pe tybiem lyfr mor fawr yn nghyd,
O bapur teneu oll i gyd
Ag ydyw'r byd yn grwn,
A phob blaguryn, a phob pren,
A phob glaswelltyn is y nen,
Yn bin sgrifenu hwn;

A phawb fu'n byw o dan y rhod,
Er pan y cafodd natur fod,
I ysgrifenu'n un,
Mewn goleu llawn, am gariad rhad,
Yn nghalon Duw goruchaf ga'd,
At bechadurus ddyn;

Pe oes Methusalem gaent fyw,
Pob moment lanwai ddalen wiw,
Nes blino a marw 'nghyd;
Y pinau wedi treulio gawn,
O fewn ac allan, llyfr yn llawn
A'r inge yn sych i gyd;

Ag yno draethu ei gariad cun,
Angylion fry, run modd a dyn,
Archangel, methai i ddawn,
Ni wnaent i dragwyddoldeb pell
Er iawn ddefnyddio gwynfyd gwell,
Fynegi hyn yn llawn."

I'r neb a hoffa weled mwy, ar destyn y Nodiadau hyn, ni bydd raid iddo ond edrych "Methodistiaeth Cymru," gan John Hughes; Cofiant John Elias, gan Roberts a Jones; Eliasia, gan Bleddyn, y Traethodydd; Adgofion am John Elias gan R. Parry; Gwyddoniadur, Cyfrol IV.; a'r Traethodau Saesonaeg, gan Owens, a Morgan.

**ELIDR LYDANWYN**, tad Llywarch Hen, ydoedd benaeth yn mhlith y Brythoniaid Gogleddol, yn y 5ed ganrif.

**ELIDR MWYNFAWR**, ydoedd fab i Gwrwst Briodor, ab Dyfnwal Hen, brenin Gwent, a phenaeth ar ryw ran o swydd Gaerhirfryn (*Lancashire*), neu un o'r parthau cyfflniol, yn y 6ed ganrif.

**ELIDR SAIS**, bardd rhagorol, a flodeuai rhwng 1160 a 1220. Mae amryw ddarnau o'i waith yn nghadw yn y *Myf. Arch.*

**ELIDR WAR**, neu DOSTURIOL, ydoedd frenin Prydain yn y cyfnod cyn-hanesiol.—*Brut Tysilio.*

**ELIFER GOSGORDDFAWR**, mab Arthwys ab Mor ab Morydd, ydoedd benaeth nodedig yn y 5ed ganrif. Yr oedd yn briod ag Eurddyl, chwaer Urien Rheged.

**ELIFRI**, cyfeirir ato yn fynych gan yr hen feirdd; ond y mae ei hanes wedi ei golli.

**ELINER** AB NER, a dora ffigyr yn fynych yn y chwedlau Cymreig.

**ELINWY** AB DON, a glodforir fel scryddwr: ond ymddengys nad yw ond ffug-fod fel y rhelyw o feibion Don.

**ELIS** AB ELIS, bardd ac offeiriad yn trigo yn Llandrillo, rhwng 1580, a 1620. Mae ei "Gywydd i'r Arian" wedi ei argraffu yn y *Gwladgarwr*, iv. 18; a cheir tri dernyn o'i waith yn y *Blodeugerdd.*

**ELIS** AB IFAN AB RISIART, neu ab Ifan Drwyndwn, ydoedd fardd yn ei flodau yn yr 16eg ganrif.

**ELIS**, SION SIAMS, telynor enwog o Lanfachreth yn Meirion, yn niwedd yr 17eg ganrif. Pan y dechreuodd godi i enwogrwydd, dywedir i Risiart Elias, yr hwn oedd y telynor blaenaf yn ei oes cyn hyny, wrth glywed ei glod ef, dori ei galon a marw. Dywedir iddo fod yn delynor i'r frenhines Anne.

**ELISABETH** FERCH GRUFFYDD AB IFAN, barddones yn nechreu yr 17eg ganrif.

**ELISAU** AB CYNLLO, tywysog Powys. Bu farw 773.

**ELIWLOD** AB MADOG AB UTHYR, ydoedd un o dri marchog aur-dafod Llys Arthur.

**ELISEG**; (COLOFN) Cof-golofn a gyfodwyd yn y seithfed ganrif, er cof am Eliseg, tad Brochmael, tywysog Powys. Y mae pedair arysgrif ar y golofn, pob un yn dechreu â chroes; ac nid ydyw yn annhebyg bod y golofn ei hun ar ffurf croes ar y dechreu, ac felly i'r dyffryn lle y saif, gael ei enw, "Glyn y Groes, (*Vale Crucis*) oddiwrthi. Y mae yn gorwedd o fewn tua 2 filldir i'r Gog. Og. Or. o Langollen, yn lled agos i'r ffordd, trwy Bentre'r dwr i Landegle. Yr ydoedd y golofn yn ddeuddeg troedfedd o uchder unwaith; ond yn amser y rhyfel cartrefol, cafodd ei dymchwelyd a'i dryllio; ac fe'i hadferwyd yn ei ffurf bresenol, yn y flwyddyn 1779.

**ELMUR**, bardd yn y 6ed ganrif, a restrir yn y *Trioedd* gydag Afaon ab Taliesin, a Chynfal ab Argad, fel "tri Tharw unben Ynys Prydain."

**ELPHIN**, mab Gwyddno ab Gerfynion, ab Dyfnwal Hên, brenin Gwent, oedd yn sant o Gôr Illtud, ac yn ei flodau yn y chweched ganrif. Dywedir fod gan ei dad gored bysg, ar lan y môr rhwng y Dyfi ac Aberystwyth, ennillion blyneddol yr hon oedd yn fawr iawn. Ond, yr oedd Elphin yn un o'r dynion mwyaf anffodus, fel na lwyddai dim yn ei law ef; yn gymaint, fel y gofidiai ei dad o herwydd ei aflwydd, ac yr ofnai ei fod wedi ei eni ar awr ddrwg. Ond, gan ei fod yn awyddus i roddi un cynnyg eto iddo, efe a gyttunodd i roddi enillion y gored iddo, am un flwyddyn eto. Dranoeth, ymwelodd Elphin â'r gored, ac ni chanfu ynddi ddim ond côd ledr, yn grogedig ar un o'r pawlion. Edliwid ei aflwydd iddo yn y fan gan ei gymdeithion, gan ei fod wedi andwyo llwyddiant y gored, yr hon o'r blaen a arferai gynnyrchu gwerth can punt, ar noswyl Galanmai. "Na," ebe Elphin, "fe all fod yn hon rywbeth cydwerth â'r can punt." Dattodwyd rhwymyn y gôd, a'r sawl a'i hagorai a ganfyddai dalcen bachgen, pan y bloeddiodd, *Llyma Dal iesin.* "Gan hyny," medd Elphin, "bydded ei enw yn Taliesin;" a chan gymeryd y plentyn i fynu yn ofalus, efe a'i dug i'w wraig, yr hon a'i magodd yn serchog, ac o'r pryd hyny allan, cynnyddodd ei olud yn gyflym bob dydd. Fel ad-daledigaeth am ei garedigrwydd, cyfansoddai Taliesin bryddest, pan nad oedd ond plentyn, yr hon a elwir "Dyhuddiant Elphin," er ei galonogi â gobeithion am lwyddiant dyfodol; a thrachefn, pan oedd Elphin wedi ei garcharu yn Nghastell Dyganwy, llwyddodd awen Taliesin, i ennill rhyddhad ei gymmwynaswr.

**ELUNED**, neu LUNED, rhian enwog am ei phrydferthwch, yn y 6ed ganrif. Ei modrwy hi oedd un o dri thlws ar ddeg Ynys Prydain. Dysgleiria yn Mabinogi "Iarlles y Ffynon," ac yn chwedl Syr Gareth, yn "Morte de Arthur." Yn y rhamantau Ffrengig gelwir hi *Lunette.*

**ELWY** (YR), afon yn swydd DDINBACH, Gogledd

Digitized by Google

CYMRU. Y mae yn tarddu yn agos i Wytherin, ac wedi llifeirio mewn cyfeiriad gogledd-ddwyreiniol am oddeutu 20 milldir, y mae yn ymarllwys i'r afon Clwyd, ychydig islaw Llanelwy.

**ELWY** (YR), neu ELY, afon yn swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU. Y mae yn tarddu yn agos i Ystrad Owen, ac yn llifeirio yn Dde Ddwyreiniol, am oddeutu pymtheng milldir, cyn ymarllwys i for-gaine yr Hafren, yn agos i safn yr afon Tâf, 2 filldir i'r De wrth Orllewin o Gaerdydd.

**ELY**, neu DRELAI, trefgordd gynnyddol ar lân yr afonig Lai, yn mhlwyf LLANDAF, cantref CIBBOR, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, gerllaw Caerdydd. Y mae gorsaf yma ar reilffordd y South Wales. Y mae'r afonig yn ymdroelli drwy ddyffryn bychan tlws iawn, ac yn ymarllwys i for Hafren gerllaw Penarth. Cyfrifir y boblogaeth gydag eiddo y plwyf.

**ELYSTAN GLODRUDD**, penaeth, neu dywysog ar y tiriogaethau a elwid Fferlys, rhwng yr Hafren a'r Wy, yn y 10fed ganrif, ydoedd fab i Cuhelyn ab Iarddur, o Rhieingar, ferch ac aeres Goronw ab Tudur Trefor, yn hawl yr hon y meddianodd efe iarllaeth Henffordd. Dywedir iddo dderbyn ei enw oddi wrth Athelstan, brenin Lloegr, yr hwn oedd ei dad bedydd. Efe a briododd Gwenllian ferch Einion ab Hywel Dda, o'r hon y cafodd un mab, Cadwgan, yr hwn oedd dad i lawer o feibion a merched enwog.

Cysylltir ef yn y *Trioedd* gyda Morgan Mwynfawr a Gwaithfoed, i wneyd tri "Hualogion Teyrnedd" neu dywysogion a wisgent gylchau am eu harleisiau, yn lle coronau, yn ol arfer hen freninoedd Prydain.

**ELLDEYRN**, SANT, oedd fab Gwrtheyrn, ac yn ei flodau yn y 5ed ganrif. Efe a sefydlodd Llanelldeyrn, neu Laniltern, yn Morganwg.

**ELLESMERE** (DYFR-FFOS), dyfr-ffos yn Ngogledd Cymru, swydd y Mwythig, a swydd Gaer. Fe'i ffurfiwyd yn 1772-7; a chyn cyfnod y rheilffyrdd, fe'i cyfrifid yn brif orchest-waith celfyddydol. Ymuna a dyfr-ffos Llan y mynech yn agos i Hardley, ac oddiyno enfyn ddwy gangen allan, y naill yn 18 milldir o hyd, i'r Waun, a Llandysilio; a'r llall 6 milldir, tu a'r Amwythig.

**ELLYW**, neu ELYW, santes yn y 5ed ganrif, ydoedd wyres, meddir, i Brychan. Dywedir mai hi a sefydlodd Llanelieu a Llanelli, yn Mrycheiniog; ac a roddodd yr enw hefyd i Lanelli, swydd Gaerfyrddin.

**EMERCHROD**, gwraig Mabon ab Dewain Hen, ydoedd un o dair "Diweirwraig Ynys Prydain;" y ddwy eraill oedd Arddun ac Esiliau.

**EMRYS WLEDIG**, yr hwn a eilw Bede, *Ambrosius Aurelius;* Gildas, *Ambrosius Aurelianus;* Nennius, *Ambrosius;* a Sieffrey o Fynwy, *Aurelius Ambrosius*, ydoedd un o'r mân freninoedd a gyfododd yn Mrydain ar ol ymadawiad y Rhufeiniaid. Yr oll a ddywed Bede am dano, yw "ei fod yn ddyn gwylaidd, yr hwn yn unig, drwy ffawd, o'r genedl Rufeinig a orfucheddodd yr ystorm, yn yr hon ei rieni, y rhai oeddynt o'r llinach freninol, a ddifethwyd."—*Bede's Ecc. Hist.* chap. xvi. Dilyna Gildas adroddiad Bede yn llythyrenol, gyda'r ychwanegiad "bod ei rieni oblegyd eu rhinwedd, wedi cael eu haddurno a'r porphor."—*Gildas*, sec. 25. Ni ddywed Nennius ddim am ei rieni, ond dywed "mai Gwrtheyrn oedd yn teyrnasu yn Mrydain, a bod gan y brodorion achos i ddychrynu, nid yn unig oblegyd rhuthrgyrchoedd y Scotiaid a'r Pictiaid, ond hefyd oddi wrth y Rhufeiniaid, yn nghyd a'u drwgdybiaeth o Ambrosius."—*Nen. Hist. of the Brit.* sec. 31.

Mewn lle arall, sec. 48, geilw ef "y brenin mawr yn mhlith breninoedd Prydain." Ac yn niwedd ei hanes, crybwylla am "ymrafael rhwng Ambrosius a Guitolinus yr hwn yw Guoloppum, hyny yw Catgwaloph." Tybir yn gyffredin mai Cydwelli, yn swydd Gaerfyrddin, yw y lle uchod, a bod brwydr wedi cymeryd lle rhwng y dref hono ag Ambrosius.

Mae yr holl grybwyllion uchod yn cyduno i ddangos mai fel Rhufeiniwr yr edrychai y Prydeiniaid ar Emrys. Dywed Whitaker ei fod yn haner Rhufeiniwr,—mab brenin y Damnonwys, prif ddinas pa rai oedd *Isca Damnoniorum*, yr hon fel y tybir, yw Exeter bresenol; felly yr oedd yn naturiol iddo fod yn deyrngarol i'r Rhufeiniaid, ac wrth wasanaethu i'w lles yn yr Ynys hon, ymrafaelio a Gwrtheyrn (Vortigern), yr hwn oedd frenin y Dimetwys.

Mae adroddiad Sieffrey o Fynwy am dano, yn grugiwyth o'r chwedlau mwyaf synfawr, ffugiol, a rhamantus, a gyfarfyddir yn unrhyw iaith. Dywed ef, mai mab ydoedd i Cystenyn Fendigaid, a brawd i Uthyr Pendragon,—ac iddo ef a'i frawd, pan yn eu babandod, gael eu gyru am noddfa i Llydaw, rhag llid Gwrtheyrn;—iddo gael ei addysg yno yn llys ei ewythr Aldroen, brenin Llydaw; yr hwn, ar gais y Prydeiniaid, a'i hanfonodd drosodd, gyda deng mil o wŷr i'w cynorthwyo yn erbyn y Saeson, a wahoddasai Gwrtheyrn i Brydain. Wedi llwyddo i hyny, iddynt orfodi Gwrtheyrn i roddi iddo haner ei deyrnas; ac yn mhen yspaid wedi hyny, ar ol i Gwrtheyrn golli ei fywyd yn y fflamau, wrth ymguddio mewn rhyw gastell yn Nghymru, iddynt ei ethol ef yn frenin cyffredinol ar yr holl ynys; pan y gwisgodd efe y porphor ymerodrol, yn ol dull ymerawdwyr Rhufain, ac y cyflawnodd orchestion lawer, yn mhlith pa rai y mae adeiladau Cor Gawr (*Stonehenge*), a elwir yn gyffredin "Gwaith Emrys," er coffadwriaeth am "Frad y Cyllyll Hirion." Ond llwyddodd Pasgen, un o feibion Gwrtheyrn, i roddi gwenwyn iddo, trwy ryw Eopa, Sais, pan oedd efe yn glaf yn Nghaerwynt (*Winchester*), ac felly y bu farw, ac y cafodd y Saeson feddiant o Ynys Prydain. Geoff.'s *Brit. Hist.* books vi.-viii.

Nid oes ond ychydig heddyw yn cymeryd y rhamant uchod am hanes, gan fod y ffugiaeth yn eglur, a'r amcan yn adnabyddus. Gwel CYSTENYN.

**EMYR LLYDAW**, sydd enw a gyfarfyddir yn fynych mewn cysylltiad ag achau y Seintiau Cymreig; ond ymddengys mai enw swyddol ydoedd, ar benaethiaid Llydaw, megys ag yr oedd Pharaoh ar freninoedd yr Aifft.

**ENDDWYN**, SANT, yn y 7fed ganrif, a sefydlodd Lanenddwyn, yn Meirion.

**ENEILIAU**, neu ESILIAU, gydag Arddun ac Emerchrod, oeddynt "dair Diweirwraig Ynys Prydain."

**ENE'R-GLYN**, neu GENAU'R GLYN, trefgordd yn mhlwyf EGLWYSILAN, cantref CAERPHILI, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, 1¼ milldir i'r Gogledd Ddwyrain o dref Gaerphili. Gwel EGLWYSILAN.

**ENFAIL**, SANTES, yn y 5ed ganrif, ydoedd ferch Brychan, a thybir iddi gael ei merthyru yn Merthyr Enfail, swydd Gaerfyrddin.

**ENGHENEL**, SANT, yn y 5ed ganrif, ydoedd wyr

Digitized by Google

i Brochwel Ysgythrog; efe a sefydlodd Llanenghenel, yn Mon.

**ENID**, merch Yniwl Iarll, gyd Dyfyr Wallt euraidd a Thegau Eurfron, oedd "dair gwenrian Llys Arthur." Gwraig Geraint ab Erbin ydoedd; a hi ydyw arwres y *Fabinogi* o'r enw hwnw. Mae beirdd y canol oesau yn ei chlodfori yn fawr; a Dafydd ab Gwilym, er dangos rhagoriaeth ei Forfydd a'i galwai yn "ail Enid."

**ENLLI** (Ynys), ynys fechan, yn perthyn i Undeb Pwllheli, swydd Gaer yn arfon. Y mae yn gorwedd ar derfyn Gogledd Orllewinol bay Ceredigion, 2½ milldir i'r Dehau wrth Orllewin, o bentir Braich y Pwll, a 15 milldir i'r De Orllewin o Bwllheli. Y mae y Culfor rhyngddi a Braich y Pwll, o 15 i 25 gwrhyd o ddwfn; ond y llifiant ynddo mor grŷf ar deidiau uchel, fel ei gelwir gan y Saeson, *Bardsey Race*, a'r hen Gymry, ddeuddeg can mlynedd yn ol, neu fwy, a'i galwent "Ffryd-lif Caswennan," neu "Cerhynt Caswennan," am i long o eiddo y brenin Arthur, gael ei dryllio yma, medd traddodiad. Y mae yr Ynys yn agos i 2 filldir o hyd, a mesura ¾ milldir o led yn y pen gogleddol; ond yn meinhau i bentir cul, ar y pen deheuol; a chynnwysa tua 430 o erwau o dir; ac yn ol Deiliadeb 1861, yr oedd y boblogaeth yn 81, a nifer yr anneddau yn 14. Ei pherchenog presenol yw Arglwydd Newborough, yr hwn sydd yn derbyn 122*p.*, o ardreth yn flyneddol o honi. Y mae y rhan ogledd ddwyreiniol o honi yn fryn uchel ysgythrog, ac yn dra serth y wyneb nesaf i'r môr; ond y mae y gweddill o honi, gan mwyaf, yn wastadedd isel, ffrwythlawn. Yn y flwyddyn 1821, cyfodwyd goleudy ar yr ynys gan y Llywodraeth, yr hwn sydd yn 108 troedfedd o uchder, yn sefyll ar bentir deheuol yr Ynys, yn yr hwn y mae goleuni sefydlog, yn weledig, o leiaf, 5 milldir o bellder. Prif orchwyl y trigolion, yw ammaethu yr ychydig dir sydd yno, a physgotta; gan ddwyn yn mlaen drafnidiaeth arforawl, â Liverpool yn benaf, lle y mae eu prif farchnad i'w pysgod; a chynnyrcha yr Ynys yn barhaus, rai o'n morwyr gorau. Y Cymry a'i galwant "Ynys Enlli," yr Ynys yn y lli, neu, yn y cerhynt; enw tra dynodawl o'i sefyllfa; a'r Saeson a'i galwasant "Bardsey," sef Ynys y Beirdd, am fod y lle yn hoff encilfa y doeth, y myfyrgar, a'r crefyddol; y rhai a gyfrifid yn Feirdd, mewn oesau boreuol; a'r myneich a'i galwent yn yr oesoedd canol, pan oedd Pabyddiaeth yn ei rwysg yma, "Yr Ynys gyssegredig," neu, "Ynys y Saint;" am y rheswm ei bod yn hoff encilfa y Saint Cymreig, yn oesoedd boreuol Cristionogaeth. Sefydlwyd crefydd-dy yma, (prin y gallwn ei alw yn fonachlog), yn nechreu y chweched ganrif, gan Cadfan Frenin; ac yma yr ymneillduodd Dyfrig, a eilw yr Haneswyr Pabaidd, yn archesgob Caer lleon ar Wysg; ac amryw o grefyddolion Bangor Is y coed, a ymneillduasant yma, yn y canlyniad i'r anrheithiad ar eu Côr, a'r gyflafan ar eu brodyr, gan y brenin paganaidd Ethelfrith, trwy annogaeth Awstin Fynach, fel y dywedir. Ymddengys fod y terfysgoedd gwladol, a'r ymosodiadau parhaus a wnelid ar y gwledydd hyn, wedi ymadawiad y Rhufeiniaid oddiyma, gan ddwyn grym milwraidd y genedl gyda hwy, wedi peri i amryw o'r crefyddolion yn mysg y prif Gristionogion; yn enwedig y rhai llesg ac oedranus, ymneillduo i ryw Ynysoedd anial, er mwyn llonyddwch. Felly ein hysbysir fod Dyfrig, pan mewn gwth o oedran, wedi rhoddi yr archesgobaeth i fyny i Dewi, ac ymneillduo ei hun i fyw bywyd meudwyol yn Ynys Enlli, lle y bu farw yn mhen tair blynedd, wedi cyrhaedd yr oedran teg o saith ugain a chwe' mlwydd oed, meddir, tu a'r flwyddyn o.c. 612; ond, y mae awdurdodau eraill yn dywedyd ei farw ef yn y flwyddyn 522. Dywedir hefyd mai yn yr Ynys hono ei claddwyd, ac y gorphwysodd ei weddillion mewn heddwch, hyd y flwyddyn o.c. 1120, pan eu symmudwyd ar gais Urban, Esgob Llandâf, gyda llawer o ddefodaeth a rhwysg, i eglwys gadeiriol Llandâf.

Fe'n hysbysir yn mhellach gan rai Haneswyr, fel y canlyn;—"Gan ei bod yn amser mor derfysglyd yn Nghymru yn y dyddiau hyny, llawer o'r duwiolion oeddynt yn bresenol yn Nghymmanfa Llanddewi Brefi, a fwriadasant fyned gyda Dyfrig i Enlli, fel ag y gallent addoli Duw mewn llonyddwch, heb ofni brad na gwrthryfel y Saeson. Ond rhag iddynt gyfeiliorni, dymunasant gael cyngor Cattwg, pa beth oedd oreu iddynt ei wneuthur. Cattwg, yn llawn oedran a doethineb, a'u cyngorodd hwynt ar fesur cerdd, i fod yn ddiwyd yn ngwaith yr Arglwydd yn wastadol, ac i ymostwng i'w ewyllys ef dan bob amgylchiad; gan fod yn hyderus y byddai i Dduw amddiffyn a gwaredu pawb a ddysgwylient wrtho yn llwybr eu dyledswydd."[1] Dywaid rhai Haneswyr, fod amryw o'r rhai a ddiangasant o gyflafan Bangor Is y Coed, wedi ymneillduo i Enlli; a chyn hir fe adeiladwyd Mynachlog fawr; ac fel yr oedd coelgrefydd yn enill tir yn mysg y Cymry, cyfrifid yr Ynys hon yn hynod o Sanctaidd; ac ymdrechai gwŷr enwoccaf y genedl, gael dyfod yma i ddiweddu eu dyddiau, fel eu cleddid yn ei daear gyssegredig. Dywedir mai Lleuddad, fab Dingad ab Nudd Hael, a elwid weithiau Llawddog, a fu yn esgob, neu abbad cyntaf yn Enlli; ond y mae yn orchwyl rhy anhawdd i chwilio allan pwy a fu yn Abbadau yma, o amser Lleuddad hyd amser Sion Conwy, yr Abbad diweddaf, yn o.c. 1460. Bu un Ieuan yn Abbad yma; ac ar ei ol ef, un o'r enw Madog, a gyfenwir "Madoc y Caws;" a'r achos o'i enwi felly, oedd yr hyn a ganlyn, meddir;—Bardd o Geredigion, o'r enw Deio ab Ieuan Ddu, a glybu mai gwr hael dros ben oedd Madog, Abbad Enlli; ac efe a wnaeth Gywydd o foliant iddo, ac wedi llogi cwch, efe a aeth ato i Enlli, i'w gyflwyno iddo; ond yr unig groesaw a gafodd, oedd bara a chaws, a diod o enwyn; am hyny Deio a ganodd Awdl y caws, rhan o'r hon sydd fel y canlyn:—

"Madog yn henog anhynaws—a'i dŷ
Wedi'i doi â gwyn gaws,
Ac eilio'i nen â hen-gaws,
A chau ei logell â chaws.

"Bragod ni cheisiodd, ond briw-gaws—boreu,
A berwi maidd a chaws,
A chanol dydd, mydd meidd-gaws,
A phrydnhawn, ni a gawn gaws.

"Pob congl o'i dŷ, pob cynglaws—oedd lawn
O laeth geifr, a rhudd-gaws;
Nid oes nen heb hufen-gaws,
Na chell na bai, faidd, a chaws.

"Ei sew Nadolig, a'i saws—ei bastai
Ei best ef oedd fortraws,
Ei rost a'i ferw oedd chwerw-gaws,
Ei frawn a'i gywiawn oedd gaws."

[1] Gwel Hanes Crefydd yn Nghymru, gan D. Peters, Caerfyrddin, t. d. 103.

Digitized by Google

Crybwyllir fod Cadwallon ab Owain Gwynedd yn Abbad yn Enlli, tu a'r flwyddyn o.c. 1169; a bu un Robert Meredydd ab Ifan, o wehelyth Owain Gwynedd, yn Abbad Enlli; ond y diweddaf a fu yn Abbad yno, oedd Sion Conwy, yn amser Harri yr Wythfed. Y Sion Conwy hwn, oedd ettifedd Bodnithoedd yn Mellteyrn. Yr oedd yn Enlli, heblaw yr Abbatty y soniwyd am dano, gapel bychan o gerryg; a thô cerryg wedi ei wneyd o fwa maen arno: yr oedd wedi ei wneuthur yn y ddaear; ac ynddo fwrdd, a meinciau o gerryg: nid oedd ei nen ond isel, fel mai yn brin y gallasai dyn tal sefyll yn syth ynddo. Yr ydoedd heb ei chwalu tu a'r flwyddyn 1780; ac ynddo y cynhaliai trigolion yr Ynys eu gwasanaeth crefyddol; yr hyn a wnelid, trwy i'r darllenwr gorau ar yr Ynys, ddarllen y rhanau gosodedig o wasanaeth yr Eglwys Sefydledig, a'r darllenwr ail orau, yn ymatteb yn lle clochydd. Byddai rhai o'r trigolion, tua diwedd y ganrif o'r blaen, a dechreu yr un bresenol, yn arfer dyfod drosodd i'r "tir mawr," (fel y galwant hwy dir Aberdaron,) i'r eglwys a'r capelau, ar amser tawel, er mwynhau gweinidogaeth yr efengyl; a byddai ambell un yn myned drosodd yn achlysurol i bregethu iddynt ar yr Ynys.

Tu a'r flwyddyn 1819, pan oedd adfywiad crefyddol grymus yn Lleyn, elai lluaws o frodyr crefyddol, y naill yn nifyg y llall, drosodd o Leyn, i gynnal cyfarfodydd gweddio yn Enlli, a thorodd adfywiad grymus iawn allan yn mhlith yr Ynyswyr, fel yr ymunodd y rhan fwyaf o drigolion llawndwf yr Ynys, mewn cymdeithas eglwysig: ond lleihaodd eu nifer drachefn mewn amser, trwy farwolaeth amryw, ac ymfudiad eraill i'r Amerig, a manau eraill. O'r diwedd, cafwyd addoldy bychan, perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd ar yr Ynys, trwy ymdrechiadau y diweddar Barchedig William Roberts Clynog, a charedigrwydd y diweddar Arglwydd Newborough. Y mae un o frodorion yr Ynys, Mr. Robert Williams, wedi bod yn dra llafurus fel Pregethwr yn mysg ei gymmydogion, er's tua deugain mlynedd bellach; ac efe a neillduwyd i gyflawn waith y Weinidogaeth, yn nghymdeithasfa Pwllheli, yn y flwyddyn 1843; ac y mae ei ffyddlondeb, ei ostyngeiddrwydd, a'i ymarweddiad diargyhoedd, yn peri ei fod yn barchus iawn gan holl drigolion yr Ynys. Yn ddiweddar, dygid y dystiolaeth hon am yr Ynys, ac yr ydym yn meddwl ei bod yn gymhwysiadol atti eto;—Nid oes ynddi na degwm na threth o un math; ac nid oes ynddi na maelfa na thafarn; na dim ond un crefftwr o'i mewn, a hwnw yn asiedydd: ac ni welir dyn meddw un amser ynddi.

Crybwyllasom uchod y byddai enwogion y genedl yn chwenychu cael eu claddu yn naiar gyssegredig yr Ynys hon; ac yn mysg eraill, crybwyllir mewn hanesiaeth, i'r rhai canlynol gael eu claddu yma;—Dyfrig, a Theilaw, esgyrn y rhai wedi hyny a gyrchwyd oddiyma, ar gais Urban, esgob Llandaf, ac a gladdwyd yn yr eglwys gadeiriol hono, lle y buasent yn esgobion cyntaf;—Lleuddad; Merfyn ab Morfryn; Cadwallon ab Owain Gwynedd, Abbad; Hywyn ab Gwyndaf Hên, gwr o Lydaw; Cadfan Sant, yn ol rhai traddodiadau, a gladdwyd yno; Thomas ab Gruffydd ab Nicolas, yr hwn a laddwyd yn Mhenal, yn Meirion, a gladdwyd yno; Gruffydd ab Thomas, ŵyr i Gruffydd ab Nicolas, o'r Dref Newydd, yn Neheubarth; Beuno, sant Clynog Fawr yn Arfon; Padarn, esgob Llanbadarn Fawr, yn Nghredigion; Deyrdan, oedd yn cyfanneddu, fel y bernir, yn Bodwrda, neu Bod Deyrdan; Derfel sant, Llandderfel, yn Meirion; Daniel, esgob cyntaf Bangor Fawr, yn Arfon; ac ymddengys oddiwrth yr Englyn canlynol o waith William Lleyn, mai yma y claddwyd Huw ab Rhisiart ab Sion ab Madog, o Fodwrda, yn nheyrnasiad y frenines Elisabeth;—

"Hir yr wyd Brophwyd a braint—yn Enlli,
Union-llwybr y cwrfaint;
Modd yw i gael maddeuaint,
Mae'ch bedd, lle bu senedd Saint."[1]

Gyda golwg ar yr hen Fonachlog oedd ar yr Ynys hon, cawn rai Sylwadau dyddorol a gwerthfawr yn yr *Archaeologia Cambrensis*, gan y diweddar Barch. H. L. Jones.[2]—"Os y deuai y pererin tu ag Enlli o'r gogledd, trwy Gaer yn arfon, dechreuai ei lafur yn agos i Glynog, lle y gorfyddai esgyn bwlch serth mynyddoedd yr Eifl, oddiar Nant Gwrtheyrn; ond ar ben y bwlch, efe a ganfyddai ysbytty, (*hospitium*,) wedi ei ddarparu mewn ammaethdy, a ddelid am yr ardreth o gynnorthwyo pererinion a fyddent yn rhwym i'r Ynys Sanctaidd. Gan ymdaith rhagddo trwy Leyn, efe a elai yn mlaen ar hyd ffordd wedi ei phalmantu yn ddâ, yr hon y gellir ei dilyn eto, ar draws amryw dyddynod, a rhai tiroedd agored, gan dderbyn cynnorthwy ar ei daith, gan dir-ddeiliaid y Fonachlog, hyd oni chyrhaeddai lan y môr yr Aberdaron. Neu, os o'r dehau y deuai, gallai lanio yn agos i Bwllheli, lle y tebygir fod enw llan Abereirch yn dynodi y llanerch y gorphwysid gyd ag aml i arch, ar ei ffordd i'r gladdfa ddewisedig hon: yna, gallasai gyfeirio ei gamrau gyda glan y mor, heibio i ynys St. Tudwal, ac wedi croesi arfordir Porth Nigel, ddringo llethrau serth Mynydd y Rhiw, cyn y buasai mor-gilfach Aberdaron yn dyfod i'r golwg. Wedi cyrhaeddyd Aberdaron, y pererinion a gyflawnent eu defosiynau arweiniol, yn eglwys glasgorawl Sant Hywyn. Byddai y pererinion yn ddarostyngedig i ryw gymaint o oediad yn y lle hwn bob amser; canys ni ellid croesi y culfor o'r tir mawr i'r ynys, ar unrhyw bryd mewn badau bychain, pan fynai dyn: rhaid i'r gwynt a'r dwfr fod yn gyd ffafrawl i'r fynedfa, neu ni wiw cynnyg croesi. Ond, os byddent yn cael eu cadw yma dros ryw yspaid, gallasent ymrodio hyd at y pentir uchel sydd ar gyfer yr ynys; ac yno, canfyddent Gapel Mair yn agored, lle y gallent droi i mewn i offrymu eu gweddïau am fynedfa ddïogel, a'i ffynon gyfriniol islaw pen gorllanw, er rhoddi prawf ar ddianwadalwch eu dyhewyd.—Yno gallasent fod yn llygad-dystion o ryfel dragywyddol y tonau dulas, newydd dreiglo o'r Atlantic, yn taranu yn erbyn y bryniau amryliw, ac ysgythrawg. Gallasent edrych yno dros glogwyni, gannoedd o droedfeddi i'r dyfnder ofnadwy, a threiddiasai eu trem amryw wrhydau islaw ei arwyneb gloyw. A thraw, yn y môr, rhwng pen y tir ag Ynys Enlli, gallant ganfod y cerbynt, yn rhuthro ac yn berwi rhagddo, gyda grym arswydlawn; ac os y dygwydd fod y gwynt yn groes, yn ymdorri yn llinell o donau ewynawg, na's beiddiai nemawr gychod ei wynebu. Pan yn barod i groesi, rhaid iddynt fyned oddiamgylch, i gilfach fechan Porth Meudwy, goris Llysdy y Fonachlog; ac oddiyno, dan amgylchiadau ffafrawl, gallent fyned yn lladradaidd mewn bâd, goris y clogwyni uchel, nes

[1] Gwel "Y Brython," cyf. ii. t. d. 21. [2] Vol. ii. pp. 55–76.

cyrhaedd Trwyn Pen y Cil, lle, gan adael dibyn y Parwyd, ar y llaw ddehau, hwy a groesent, gan gyfeirio at ben deheuol yr Ynys. Fel y dawnsiai eu llestr fregus dros y tonau, ehedai y lluaws amrywiol o fôr-adar a fynychant y cyfyngfor dros eu penau, neu ymsuddent am eu hysglyfaeth yn y dwfr, bron yn ymyl y rhwyfau; fel yr ymddangosai yr awyr a'r mor yn orlawn o fywyd; a'r cychwyr agwrdd, a orphwysent weithiau, gan offrymu gweddi fer; yna, dechreuent rwyfo yn adnewyddol; ac mewn *dwy awr* o leiaf, y gorphenent fordaith o ddim mwy na chwe milldir.—*Adeiladwaith y Fynachlog.* Pa beth bynag oedd maint yr adeilad hon ar y dechreu, nid oes dim yn aros o honi yn bresenol, (1846,) oddieithr dernyn o dŵr. Dywedir fod gweddillion capel bychan, yn agos i ffynon sanctaidd, a elwid Ffynon Fair, ar y bryn goruwch y tŵr, yn weledig yn amser Pennant. Ond yn awr, nid yw, hyd yn nod sylfaeni yr adeiladau yn weledig, oddieithr mewn man neu ddau; mor ddi arbed y darfu i angenion dyn gyflawni difrodiad yr hen adail gyssegredig. Nid oes yr un pencolofn, na chauad arch, na dernyn o faen naddedig, i'w ganfod mewn un man o amgylch.

"Dywaid y trigolion fod llawer o weddillion adeiladau wedi cael eu tynu i lawr o fewn eu côf hwy, ar yr ystlys ogledd-orllewinol i'r tŵr crybwylledig; ond, ni allant roddi unrhyw ddysgrifiad o'u ffurf, na'u nodweddiad. Ar yr ystlys dde-ddwyreiniol i'r tŵr, dangosant olion yr hyn a alwant y fonwent, a dywedant fod cryn lawer o esgyrn wedi eu cyfodi yno o bryd i bryd. Gwelid rhai o'r esgyrn hyny yn ddiweddar ar wyneb y maesydd cyfagos. Yn ol pob tebyg, yr ydoedd yr holl adeiladau mynachlogaidd, yn gystal a'r eglwys, wedi eu gwneyd i fynu o'r cerryg geirwon, a dorid o'r creigiau cyfagos; ac o ganlyniad, byddai yn anmhossibl eu gwahaniaethu oddiwrth gerryg eraill, mewn unrhyw sefyllfa newydd. Gallasai fod y congl-feini nâdd, ac unrhyw addurnolion eraill, o rut-faen, neu galch-faen; a dichon fod y diweddaf wedi eu llosgi, a'r blaenaf wedi eu gwasgaru yn y fath fodd, fel na ellir eu holrhain erbyn hyn. Pa fodd bynag, y mae yr absenoldeb o bob meini addurniadol, yn amgylchiad tra nodedig, am yr hyn nid ydys eto wedi cael rheswm digonol.

Fe ddichon fod y tŵr ei hun yn sefyll ar yr ystlys ogleddol, neu, ar y ddwyreiniol i'r eglwys; y mae yn anmhossibl dywedyd pa un, gan nad oes dim o olion cydiad y tô, na llinellau cydiad muriau, lle y gallasai fod un ran arall o'r adeilad â'r tŵr. Efallai nad ydoedd yn cyfansoddi un ran o'r eglwys, o ran hyny; er y tueddid ni i gasglu ei fod, oddiwrth ei agosrwydd i'r llanerch lle y cafwyd yr esgyrn. Yr oedd y twr yn bur agos yn ysgwâr, gan ei fod yn ddeuddeg troedfedd, wrth ddeuddeg troedfedd a chwe modfedd, oddi fewn; ac y mae yn gynnwysedig o weddillion dau uchder llofft; yr isaf o ba rai, nid oedd namyn wyth droedfedd a chwe modfedd, o uchder; a'r uchaf, yn mesur yn awr, tua deg troedfedd. Yr oedd ffenestr hir bigfain, chwe throedfedd o uchder, wrth oddeutu deng modfedd o led, oddi allan, ac yn ymehangu i wyth droedfedd a deng modfedd, wrth dair troedfedd a phedair modfedd, oddi fewn, yn yr ochr dde ddwyreiniol, neu ochr y tir, i'r ystafell isaf; tra nad oes y cyfryw agorfa yn yr ystlysau tu a'r môr, i'r ystafell hon. Y mae agorfa, a allasai fod yn ddrws unwaith, yn y wyneb de orllewinol; ond y mae y murddyn mor adfeiliedig, fel na's gellir sicrhau dim am dano yn bresenol. Oddiwrth yr arddull a amlygir yn y ffenestr uchod, gellir penderfynu i'r fonachlog gael ei hadeiladu yn y drydedd ganrif ar ddeg. Ymddengys hefyd, fod ffenestr yn ystlys ddwyreiniol yr ystafell uchaf; ac efallai, yn yr ystlys ddeheuol hefyd. Ac yn y wyneb gogledd orllewinol, y mae rhywbeth sydd yn ymddangos yn debyg i ffenestr ben llydan, neu ddrws. Y mae y muriau wedi eu hadeiladu o gerryg a godwyd ar yr ynys; ond addurnolion y ffenestri, ydynt o gerryg grut mân, a chaled."

Er fod yn dra thebyg fod cymdeithas o ddynion crefyddol, wedi ymsefydlu ar yr Ynys hon, tua dechreu y chweched ganrif; ni's meddwn un sail i gasglu fod yma Fonachlog rëolaidd wedi ei sefydlu, hyd oddeutu y drydedd ganrif ar ddeg, pan oedd eglwys Rhufain wedi cyrhaedd dylanwad cyffredinol ar eglwysi Cymru; ac y mae yn dra thebyg, mai tu a'r adeg olaf hon, y sefydlwyd yr urdd Ganonaidd yn mysg myneich Ynys Enlli, ac y cyssegrwyd y Fonachlog i'r Forwyn Wynfydedig, Mair.

Yn rhai o hen ysgrif-lyfrau y Rhyl, fe'n hysbysir, fod "Idwal, fab Gruffydd ab Cynan, tywysog Gwynedd, yn Abbad Enlli, ac Abbad Penmon. Dywedai William Lleyn, fod ei fedd yn weledig yn eglwys Penmon, yn ei amser ef." Ac mewn rhan arall o'r hen Ysgrif-lyfrau uchod, dywedir;—"Llewelyn, fab Cadwallon, oedd yn Abbad Enlli; a bu iddo fab o'r enw Meredydd, tad Meredydd Penhir, merch yr hwn, Gwenhwyfar, a brïododd Iorwerth Ddu."

Y mae y diweddar Barch. P. B. Williams, yn gwneyd y sylw canlynol, mewn perthynas i Enlli:—

"Dywaid traddodiad, fod Aberdaron, Bryn-croes, a Nefyn, yn perthyn i Enlli ar y cyntaf; ond yn bresenol, y mae degymmau y tri phlwyf hyny, yn berchenogaeth teulu Cefn Amwlch; ac y mae yn dra thebyg fod un o'u henafiaid, wedi eu prynu gan y brenin (Harri VIII.) neu ei weinidogion y pryd hyny. Dyroddwyd Ynys Enlli, gan Edward VI. i'w ewythr, Sir T. Seymour; ac wedi hyny, i John, Iarll Warwick; a thad y perchenog presenol, a'i pwrcasodd gan Dr. Wilson, o Newark. Yr oedd y tyddyn a elwir y *Court*, yn mhlwyf Aberdaron, yn perthyn i Enlli ar y dechreu, ac fe'i dyroddwyd, ac a'i pwrcaswyd gyd a'r Ynys, fel y darluniwyd uchod. Y mae rhan o Leyn yn cael ei galw yn arglwyddiaeth, neu faenoriaeth Enlli hyd heddyw, a chynhelir math o bentref-lys yn achlysurol, naill ai yn Aberdaron, Bryn-croes, neu Tydweiliog, yr hwn a elwir "Cwrt Arglwydd Maenor Enlli." Arglwydd presenol y Faenor, yw Ardalydd Môn; y mae amryw swyddogion eraill, megys Cofiadur, Maenorydd, a Cheisbwl, yn perthyn i'r Faenoriaeth hon. Y mae yn debyg y byddai y llys yn cael ei gynnal gynt, yn y tŷ a elwir hyd y pryd hwn, "y Cwrt;" ac y mae lle arall heb fod yn mhell oddiyno, a elwir "Secar" (*Exchequer*), ac ymddengys fod yno garchar yn yr amser gynt, canys yn agos yno y mae bryn, a elwir "Bryn y Crogbren."[1]

Mae y *Record of Caernarvon*, dan y pennawd *Leges et Consuetudines Walliæ*, yn t. d. 252, yn cynnwys gweithred gyfreithiol berthynol i Abbad a Mynachlog Enlli, o. c. 1252, yr hon, ar gyfrif ei hamseriad boreuol, a'r manylion hynod a grybwyllir ynddi, sydd yn teilyngu ei chyfieithu yn llawn. Ond, y mae yn gweddu i ni sylwi, fod naill ai yr

[1] The Tourist's Guide through the County of Carnârvon, by the Rev. P. B. Williams. P. 174.

Digitized by Google

ysgrif wreiddiol wedi ei cham attalnodi, neu ei bod wedi ei hadysgrifio yn annghywir. Y mae llythyraeth amryfal enwau hefyd, yn anhawdd ei deall, ac arwyddocad amryw enwau ynddi, yn amheus.

"Bydded hysbys i'r rhai presenol cystal a'r sawl a ddeuant, bod y Cyfammod gwirioneddol hwn wedi ei wneuthur, rhwng Penrhaith A. Abbad, a Mynachlog Enlli, ar y naill du, a Chanonau anfynachol Aberdaron, ar y llaw arall, o barth i ddadleuon a gyfodasent rhwng y pleidiau rhag-enwedig, yn mhresenoldeb Dafydd ab Gruffydd, Arglwydd Cymmytmaen, y rhai a benderfynwyd fel y canlyn;—sef, bod y pleidiau rhagddywededig wedi cyttuno ar bump o wŷr o ymddiried, y rhai a ddewiswyd yn unfrydol; sef, G. Prïor Enlli, a Meilir, brawd dychweledig o'r un Tŷ, a Goronw, fab Ysop, ac L. Steward, fab D., a Thegwared, fab K. Y pum wr rhag enwedig, yn gyntaf a benderfynasant mewn perthynas i ddegymau Canonau Enlli, bod Canonau Anfynachol Aberdaron wedi cytiwyno i Ganonau Enlli, holl ddegymau yr holl diroedd, a drinir ganddynt ar eu traul eu hunain. A'r rhagenwedig Ganonau Enlli, a roddasant i Eglwys Aberdaron, Wisgoedd Cyssegredig, yn nghyda chymun-gib arian, a Llyfr yr Offeren, ac y maent yn ymrwymo i roddi i'r eglwys rag-ddywededig, bwys o thus ar ddydd gwyl Ioan Fedyddiwr, yn flyneddol. Y mae yr Abbad a'r Fynachlog rag-ddywededig, i gael a meddiannu holl arian gwestfau pobl yr Abbadaeth, oddieithr Clastreni. Mewn perthynas i faenor Stohelig, fel hyn y penderfynwyd, bod gwŷr y faenor hono yn rhydd oddi wrth arian gwestfäau a gwaith. Y mae *Twnc*[1] y faenor ddywededig wedi ei sefydlu yn y fath fodd, fel y maent i dalu yn flyneddol 18 ceiniog, yn nghyda 12 *Gwyelyniau*[2] o haidd yn ei dŵr. Mewn perthynas i'r rhai ydynt Gyfranwyr yn eglwys Aberdaron, y maent hwy i dalu am *Amobrum*[3] ac *Ebedyw*,[4] 12 ceiniog yn unig; ond, y mae lleygion yr unrhyw faenor i dalu 2 swllt am Amobrum ac Ebedyw. Ond, y rhai ydynt Gyfranwyr yn Eglwys Aberdaron, pa le bynag y dichon eu bod o fewn arglwyddiaeth yr Abbad, a dalant 12 ceiniog am Amobrum ac Ebedyw. Os y daw unrhyw arian oddiwrth diroedd a meddiannau yr Abbadaeth, oddiwrth yr hyn y cyfododd y ddadl, y mae y Canonau Anfynachol i gael y drydedd ran o'r unrhyw. O berthynas i Farnwr, neu Benderfynwr, y mae wedi ei ordeinio, na byddo Barnwr, yn yr Abbadaeth, oddieithr y sawl y cyttuno y Canonau Anfynachol arno, yn nghyd a'r Abbad a'r Fynachlog. O barth i achosion amheus a ddichon gyfodi oddiwrth y Canonau Anfynachol, y mae yr Abbad yn rhwym o ymchwilio i'r gwirionedd. Y mae meibion Trahaearn Foel, yn rhydd oddiwrth arian y gwestfäau, a gwaith; a'r un modd y mae gyda golwg ar Bwll-defaid. Y mae Seguiabdref yn rhydd, oddieithr 12 ceiniog am Amobrwy, a'r un swm am Ebedyw. Y ddarmerth o'r Abbadaeth, oddieithr Trefgraig, o bob Rhandir lle y telir Twnc, 12 *cribrates*,[5] sef 6 o wenith da, a 6 o beilliad da, a 2 swllt. Ond o Drefgraig, 15 *cribrates*, y naill haner o wenith da, a'r haner arall o beilliad da, a 27 ceiniog. Ond, y mae Bryncroes i dalu am Amobrwy, 12 ceiniog; a'r un faint am Ebedyw. Twnc Penarglwydd y tir, o bob Rhandir, 12 Gwyelyniau o haidd, heb ei bentyru, a 25c., oddieithr Stohelig, a Thre'r dom. Am Dre'r dom, y mae wedi ei ordeinio fel hyn: am ddarmerth y faenoriaeth grybwylledig, pedwar gogrynaid o flawd da, a phedwar o wenith, ac 16c. Am Dwnc, 8 Gwyelyniau o haidd, heb ei bentyru, ac 16½c. a'r trydydd ar gyfrif Twnc yr Is Benrhaith, oddieithr Cell y felin, o bob Rhandir, 53c.; ond o Gell y felin, 43c. Am dreth mewn gwaith, y mae wedi ei drefnu fel hyn. Pwy bynag sydd yn dal tir a thŷ dan y dywededig Ganonau Enlli, a weithiant am dri diwrnod yn yr Hydref; ond yn yr hâf, y mae pob un sydd yn meddu ceffyl, yn rhwym o gludo dau gerbydaid o ddegwm, can belled a Chwrt y Cil, oddigerth Stohelig, a *Segenabeyd*, a Feyrth. Ond am y lleill, nid ydynt i wneyd gwaith, heblaw ar ffos melin Aberdaron. Eto, gall holl drigolion yr Abbadaeth fod at eu rhyddid i gymeryd yr arwydd clerigawl. Darmerthiadau Arglwydd Cymmytmaen, a benderfynwyd fel hyn: bod i'r Trulliad, yn nghyd a'r Goruchwyliwr, ddewis pump o wŷr ymddiriedol o'r Abbadaeth, unwaith yn y flwyddyn; a hwynt-hwy eu hunain a drethant y cyfoethoccaf a'r cryfaf, 4c. a 4 scutel (ysgudelliad)[6] o flawd, a dau ogrynaid o geirch, yn nghyd ag iâr. Hefyd, y maent i drethu y gwŷr eraill, y rhai nid ydynt mor gyfoethog, 2c. a dwy ysgudelliad o flawd, ac un gogrynaid o geirch. Hefyd, trydydd dosbarth o ddynion, 1c. ac un ysgudellaid o flawd. Hefyd, trethant ddynion eraill, y rhai ni allant roddi cymaint, un geiniog, neu ei gwerth; ac yn mhob ty lle y cedwir ieir, un iâr. Trethant Dyroy Croes, 2 swllt. Penderfynwyd fel hyn, gan yr Arglwydd, Tywysog Gwynedd. Nid yw gwŷr yr Abbadaeth i gael eu gorfodi i wasanaethu Melinau yr Abbad a'r Fynachlog. Os bydd unrhyw dir, am yr hwn ni bydd neb i fod yn attebol, y mae yr Abbad i ddal y cyfryw dir, hyd oni ddel rhyw un o'r teulu yn mlaen, yr hwn a all ddyfod yn gyfrifol am dano. Ac fel y byddo i'r ffurf yma o dangnefedd a chyttundeb, barhau yn gadarn a dïysgog mewn amserau dyfodol, y mae seliau Argl. R. Bangor, a'r Arglwydd Dafydd ab Gruffydd, ac Argl. A. Abbad Enlli, wedi eu dodi wrth yr ysgrif yma. A'r rhai hyn yn dystion; y bendefiges S., a fu gynt yn wraig yr Arglwydd Gruffydd; T., Deon Lleyn; Argl. William, Prïor Nefyn; Mr. Richard, Capelwr Bodfran; Gervase, fab M.; Meurig, fab R.; John, fab K.; Iefaf, fab L. Maenorydd Neugwl; T., fab M.; L. y Moel, ac amryw eraill. Gwnaed o. c. MCCLII., ar y 5ed. o Idau Gorphenaf."

Oddiwrth yr ysgrif ddyddorol uchod, deallwn fod Crefyddolion Enlli, ar y pryd hwnw, yn Ganonau, —ac nid yw yn annhebyg mai Canonau o urdd Sant Awstin oeddynt,—hefyd, deallwn bod crefydd-dy yn Aberdaron, ac un arall yn Nefyn, er na wnelid unrhyw grybwylliad am y naill na'r llall, ar adeg dadgorphoriad y crefydd-dai, fel y mae pob lle i feddwl, eu bod wedi eu difodi er ys talm cyn hyny.

Ceir amryw grybwylliadau heblaw yr hen weithred uchod, yn y "*Record*," y rhai a roddant fesur o oleuni ar hanes foreuol yr hen Sefydliad ar Ynys Enlli. Mewn un man yno, dywedir fod yr Abbad wedi cael ei Wysio i ddangos pa beth oedd sail, neu seiliau ei hawliad o'r rhagorfreintiau canlynol;—

[1] Twnc, yr ardreth blyneddol, dyledus i arglwydd y tir.

[2] *Gwyelyniau*,—Ni's gellir bod yn sier pa fesur ydoedd.

[3] *Amobrum*, yn hytrach "Amobrwy," taliad dyledus ar gaeth ddeiliad i'w arglwydd, ar brïodas ei ferch.

[4] *Ebedyw*, dirwy, dyledus i'r meistr tir, ar farwolaeth deiliad.

[5] *Cribrates*, goyryniadau, yn fwyaf tebyg.

[6] *Ysgudellaid* = dysglaid.

sef, Y gallai ef, a'i Olynwyr, a'i wŷr, brynu a gwerthu, ychain a buchod, a dwyn yn mlaen fasnachau eraill o fewn ei arglwyddiaeth, yn ei holl diroedd a'i faenorau, a bod yn ddi doll yn holl ffeiriau a marchnadoedd, trwy holl Wynedd; ac i gael Amobrwy trwy ei holl arglwyddiaeth, ac i gael toll gan ei holl ddynion ar bob trafnidiaeth a wnelid ganddynt, o fewn ei arglwyddiaeth: ac i gael briwion y môr, yn ei holl diroedd yn Ngogledd Cymru;—yn wrthwyneb i elw ac urddas y Tywysog.

I'r Gwysiadau hyn, y mae yr Abbad yn atteb, gan ddywedyd, ei fod ef a'i ragflaenoriaid wedi bod yn meddu ac ymarfer y rhagorfreintiau hyn, er cyn côf; a'i fod ef yn eu hawlio ar y sail hono. Ar hyny, John de Delves a ddadleuai, gan nad oedd yr Abbad wedi honi ei hawl o'r rhagorfreintiau hyn yn ystod cylch-daith ddiweddaf y barnwyr trwy Gymru, bod y rhagorfreintiau hyn wedi eu cymeryd i feddiant y Tywysog; ond eu bod wedi eu dyroddi i'r Abbad drachefn, ar daliad dirwy o un marc. Yna, efe a archai i'r Abbad hysbysu pa ennillion a manteision yr ydoedd ef yn eu derbyn oddiwrth y rhagorfreintiau crybwylledig. I hyn, attebai yr Abbad, mewn eglurhad, ei fod ef yn ol adran Amobrwy, yn derbyn dau swllt am bob un o'r benywod brodorawl, a geffid yn euog o ordderchiad; a'i fod ef yn hawlio i'r cyfryw gael eu barnu o flaen ei Oruchwyliwr, neu ryw un a ddirprwyer ganddo; a thrwy y gair *Toll*, efe a hawliai swydd a gwasanaeth oddiwrth ei holl brïodorion, a'r hawl i osod treth uchel, neu isel, arnynt, wrth ei ewyllys ei hun: ac o dan yr adran, "Gwrec y Môr," hawliai feddiant o bob anifeiliaid, dâ, neu ddodrefn, a deflid ar ei arfordir gan y môr, neu, a beryglid trwy dywydd garw. I hyn yr attebai John de Delves, Gan mai gwlad wedi ei goresgyn oedd Cymru, a'i gorchfygu o fewn cof gwr, bod pob rhagorfreintiau blaenorol wedi eu dirymu drwy hyny: na allai yr Abbad, hyd yn nod pe y bernid ei ddadl o hen-feddiant yn safadwy, hawlio bod yn rhydd oddiwrth doll, yn gymaint ag na's dangosodd efe ei hunan wedi bod un amser yn ddarostyngedig i doll, ac na's gallai brofi o flaen y Coflys ei fod wedi bod; bod yr hawl i brynu a gwerthu yn rhydd, yn perthyn i bob dyn yn Nghymru cyn y goresgyniad. Wedi y goresgyniad, archwyd gan y Brenin, nad oedd neb i brynu na gwerthu unrhyw nwyddau masnachol yn holl Ogledd Cymru, oddieithr yn un o'r trefydd marchnadol, Caer yn arfon, Conwy, Beaumaris, Harlech, Bala, Criccieth, a Niwbwrch; oddieithr ychydig o ryw fath o nwyddau yn ymborth. Mewn attebiad i hyn yna, dadleuai yr Abbad, bod yn ol y cyhoeddiad a wnelsid gan Edward I., i'r holl Gymry a ymostyngent iddo ef yn wirfoddol, gael eu holl ragorfreintiau wedi eu cynnal a'u parchu; bod ei ragflaenoriaid ef wedi ymostwng felly, a chael eu derbyn i ffafr y brenin, ac hyd yn nod eu parhau yn eu tiroedd a'u breinniau, trwy ganiattad neillduol y Brenin. Efe a sylwai yn mhellach hefyd, nad oedd ganddo ef fel Pennaeth Ty Crefyddol, namyn hawl dros ei oes yn y rhagorfreintiau hyn; y rhai a berthynent i'r Eglwys, a'r Tŷ oedd dan ei lywyddiaeth, ac nid iddo ef ei hunan: ac o ganlyniad, na allasai ei ragflaenoriaid fforffedu unrhyw ragorfreintiau, a berthynent yn gyfiawn i'r Eglwys: ac efe a ddywedai yn mhellach, y gallai efe brofi, na bu ei ragflaenoriaid, nag ef ei hunan, erïoed yn ddarostyngedig i doll; ac na cham arferwyd y rhagorfreintiau hyn un amser, trwy drais na gorthrymder. Wedi i'r Llŷs wrando hyd yma, penderfynodd yn erbyn hawliad yr Abbad, o eithriad oddiwrth doll, gan nad oedd yn brofedig trwy unrhyw hawl-fraint na ffaith; a barnai fod y rhagorfraint yma, am ei bod yn annghyson âg elw, ac urddas y Tywysog, i gael ei difodi; ac mai gweithred o drugaredd oedd caniattau i'r Abbad fwynhau y rhagorfreintiau crybwylledig hyd yn hyn. Am yr hawl i *Amobr*, a *Tholl*, caniatteid i'r Abbad eu cadw, can belled ag na byddent yn ymyryd â hawliau y Tywysog. Oedwyd y ddadl dros hawl i "Wrec y Môr," i wrandawiad pellach yn Nghonwy. Yr ymchwiliad blaenorol a wnaed tua'r 24ain i Edward III.

Canfyddwn grybwylliad hefyd yn *Record* Caer yn arfon, t. d. 221, am amryfal ddeisebau a gyflwynwyd gan Abbad a Mynachlog Enlli, i Farnwyr y Brenin, a'r attebion a roddwyd iddynt, 33ain Edward III. Fel hyn deisebai yr Abbad a'r Fynachlog, am gael eu hamddiffyn yn eu rhagorfraint, na fyddai i'r un Coedwigwr gael ei oddef i wneyd "attafaeliadau" ar eu tiroedd, neu eu gwigfeydd; a'r attebiad a roddwyd, yw, y byddai iddynt gael y rhagorfreintiau a fwynhaent hyd yma.

I'w cwyn, fod gweision y Tywysog yn cymeryd toll ar gychod llwythog o bysgod heilltion, a ddeuent i'w glanau, atebid, bod yr Abbad wedi addef o flaen y Cyngor, y cymerid y doll yma bob amser; ac o ganlyniad, y myntumid yr arferiad.

Deisebai yr Abbad a'r Fynachlog, bod i feibion eu tir-ddeiliaid gael eu derbyn i Urddau Sanctaidd, heb drwydded y Tywysog, y rhai a lesteirir i hyny yn awr. Yr attebiad a roddid i hyn ydoedd, na allasai yr un gael y coryn-eilliad offeriadol (*tonsure*), yn amser Breninoedd a Thywysogion Gwynedd, heb drwydded Freninol; ac am hyny bod yn rhaid gomedd y rhagorfraint.

Deisebent hefyd, ar fod haner y rheithwyr yn ddewisedig o'u gwŷr hwy eu hunain, yn mhob cynghaws perthynol iddynt hwy, yn Llys y Tywysog, —a'r haner arall, o wŷr y Tywysog. Yr atteb a roddid i hyn, ydoedd, y byddai i'r arferiad a ffynai yn amser y Brenin diweddaf, a threfniadau ystatyn Rhuddlan, gael eu cadw yn hyn.

Hawlient hefyd, bod iddynt gael yr hyn ydoedd angenrheidiol at amcanion adeiladol, yn nghoedwigoedd Cantref Meirionydd; a chaniattawyd iddynt eu cael, trwy ffafr y Tywysog, ac yn ol ei farn ef.

Eu deisyfiad, ar fod i'w tir-ddeiliaid feddu hawlion cyffredinol yn y tiroedd oeddynt yn nwylaw y Tywysog trwy ddiarddelwad, neu wendid, a attebwyd trwy y cyhoeddiad, y byddai iddynt gael y cyfryw hawlion, ar yr amser prïodol, yn ol yr hyn a ganiattawyd i ddeiliaid y Tywysog.

Yn olaf, cwynent fod Barnwyr Gogledd Cymru yn gofyn 3 punt, 8 swllt, a 6 cheiniog ganddynt, yn ol Terfynaeth (*Extent*) o'u tiroedd, a wnaethpwyd yn annghyfiawn, yn amser, a thrwy orchymyn Dafydd, Arglwydd Lleyn, a brawd Llewelyn, Tywysog Cymru, fel teyrnged, at ei gynhaliaeth ef, megys yr awdurdodasid mewn Chwil-lys a gynhelid gan John de Havering, Barnwr Gogledd Cymru y pryd hyny, trwy orchymyn Breninol. Ond yr attebiad i hyn ydoedd, bod yn rhaid i'r taliad crybwylledig, barhau, hyd oni ellid gwneyd Terfynaeth newydd o Ogledd Cymru.

Er mor ddyddorol ydyw yr hen gofion hyn, i'r ymofyngar i Henafiaethau ei genedl, a'i wlad,



Digitized by Google

barnwn mai doethach i ni ymattal ar hyn, rhag blino y cyffredin o'n darllenwyr. Y mae yr holl Ynys yn bresenol, fel y crybwyllwyd, yn meddiant Arglwydd Newborough, o'r Glynllifon; a'r trigolion yn ymgynnal trwy drin y tir, a physgotta. Y mae y gweryd yn gynnyrchiol, a bras, a'r tyddynod arni mewn cyflwr llwyddiannus; ond prif drafnidiaeth yr Ynys a ddygir yn mlaen â Liverpool, lle y bydd hwyl lestri cyflym yn cyrchu yn wythnosol, gyda llwythi o geimychiaid a llymeirch, o'r rhai y delir lluaws mawr o amgylch yr Ynys hon. Ymddengys fod y trigolion yn byw yn dangnefeddus a chysurus; gan gyflwyno eu hamrafaelion i farn yr henaf o'r trigolion, yr hwn a alwant yn frenin. Y maent yn meddu y cymeriad o fod yn llettygar a charedig; a chan mai anfynych yr ymwelir â hwy heblaw gan eu ceraint, bydd ymweliad dyeithr-ddyn a'r Ynys, yn tynu sylw, ac yn peri llawenydd i'r holl drigolion.

**EPPYNT** (Mynyddoedd), rhes o fynyddoedd llymion yn swydd Frycheiniog, Deheubarth Cymru, tua 15 milldir o hyd; yn cyrhaedd o Dref Castell, i Fuallt, mewn cyfeiriad Gogledd Ddwyreiniol.

**ERBERY**, William, B.S., o barchus goffadwriaeth, ydoedd un o'r offeiriaid cyntaf a drowyd allan o'r Eglwys yn Nghymru, am wrthod darllen *Llyfr y Chwareuon* ar y Sabboth. Ganwyd y dyn da hwn yn mhlwyf Roath, ger Caerdydd, yn 1604. Derbyniodd ei addysg yn ngholeg Brazenose, Rhydychain; lle yr enillodd y radd o B.A. wedi derbyn urddau eglwysig, cafodd fywioliaeth yn Nghasnewydd-ar-Wysg, ac wedi hyny, ficeriaeth St. Mary, Caerdydd; a'i gurad yno oedd Walter Cradoc. O dan yr erlidigaeth danllyd a gyfododd yr Archesgob Laud, ar yr offeiriaid a wrthodent gydymffurfio a'r drefn eglwysig o ddarllen *Llyfr y Chwareuon*, ar ol y gwasanaeth dwyfol yn yr eglwysi ar y Sabboth, yr ydym yn cael y nodiad canlynol yn y mynegiadau blyneddol a gyflwynai Laud i'r brenin:—

"Ionawr 2, 1634.—Mae Esgob Llandaf yn tystio iddo ef y flwyddyn ddiweddaf hon, ymweled yn bersonol, a chael bod William Erbery ficer eglwys St. Mary, yn Nghaerdydd, a Walter Cradoc, ei gurad, wedi bod yn dra anufudd i archiadau eich Mawrhydi, a'u bod wedi pregethu yn dra eglwysrwygol a pheryglus i'r bobl. Ei fod am hyn wedi rhoddi i'r ficer rybudd bygythiol, ac y bydd iddo fyned yn mhellach, os na bydd iddo (y ficer) ymostwng; ac am ei gurad, yr hwn sydd greadur ieuanc eofn, ac anwybodus, y mae wedi ei ddiswyddo ef, a chymeryd ymaith ei drwydded oddiarno, i wneyd ei ddysgyblaeth yn effeithiol."

"1638.—Llandaf.—Nid oedd yn yr esgobaeth hon y flwyddyn ddiweddaf, ond dau weinidog anufudd, Mr. Wroth, a Mr. Erbery. Ymostyngodd y cyntaf; ond ni wnelai y llall nac ymostwng na rhoi boddlonrwydd i'w blwyfolion, i'r rhai yr oedd wedi rhoi tramgwydd cyhoeddus. Felly efe a roddodd ei ficeriaeth i fyny; ac a ymadawodd a'r esgobaeth mewn heddwch."—*Lamb. MSS.* vol. 943.

Yn ganlynol i hyn, tybir iddo ymweled a gwahanol barthau Cymru, fel pregethwr teithiol. Yn 1642, yspeiliwyd ef yn Nghymru gan wŷr y brenin, pan y gorfu iddo ffoi i Loegr am noddfa. Cafodd loches am gyfnod, yn nghastell Windsor, gan yr enwog, ond anffodus Christopher Love, ei fab yn y ffydd; yr hwn yn garedig a ranodd ei bwrs ag ef, ac a sicrhaodd iddo y swydd o gablan yn myddin Major Skippon, lle y derbyniai wyth swllt yn y dydd. Gadawodd y fyddin yn 1645, a bu yn trigianu am dymor yn ynys Ely, gan bregethu yn mha le bynag y cai gyfle. Yn 1646, yr ydym yn ei gael yn gaplan eilwaith i gatrawd o filwyr yn Rhydychain; eithr cyhuddwyd ef o ddal a lledaenu egwyddorion Sosinaidd, ac ar y 9fed o Fawrth, 1652, cawn ef yn sefyll o flaen y Cyngor dros Weinidogion Yspeiliedig, yn Westminster, i ateb y cyhuddiadau, ac i roi dadganiad o'i ffydd, lle y profodd efe nad oedd yn Sosin, er bod ei syniadau ar y pwnc hwnw, fel ar bron bob pwnc arall er's rhai blyneddau, yn dra chymysgedig a thywyll. Oblegyd y mae yn hysbys bod Mr. Erbery, er's amryw flyneddoedd, wedi cael cystudd chwerw, yr hwn a anmharodd ei feddwl i raddau helaeth. Pan ystyrir hyny, yn nghyda'r ffaith ei fod wedi ymddiosg o'r gredo a fabwysiadodd efe yn ei ieuenctyd, wrth ddyfod allan o eglwys Loegr, ac heb ymuno eilwaith ag un enwad crefyddol, na chael ei ystyried yn frawd gan yr un o honynt, nid yw yn ymddangos yn rhyfedd fod ei gredo crefyddol yn ansefydlog ac annghyson; a'i fod yn ymddangos, oddiwrth ei ysgrifeniadau, yn wrth fedyddiwr, yn wrth eglwyswr, yn Sosin, yn Antinomiad, ac yn Grynwr. Diau y ceir yn ei ysgrifeniadau ryw bethau yn ffafrio pob yn o'r syniadau uchod, ond ni's gall un enwad ei hawlio yn feddiant iddo ei hun. Derbyniodd lawer o gamwri oddi ar ddwylaw Baxter, Wood, ac eraill; ond yr oedd yn rhaid hyd yn nod i'w elynion gydnabod ei fod yn ddyn o dalentau cryfion, dysgeidiaeth uchel, cydwybodolrwydd mawr, a duwioldeb diamheuol. Bu farw yn Ebrill 1654.

Cyhoeddodd amryw lyfrynau yn yr iaith Saesneg, y penaf o ba rai ydyw:—1. "Mawr ddirgelwch Duwioldeb," 1640; 2. "Pregeth Gyhoeddus yn Rhydychain," 1646; 3. "Gweinidogion am Ddegymau, prawf nad ydynt yn Weinidogion yr Efengyl," 1653; 4. "Pregethau ar amrywiol achlysuron," 1653; 5. "Teyrnasiad Crist a'i Saint ar y Ddaear am Fil o Flyneddoedd," 1654; 6. "Ei Dystiolaeth wedi ei gadael ar goflyfr i Seintiau yr oesau dilynol,—wedi ei hargraffu gyda'i Brawf yn Westminster."

Yn fuan ar ol ei farwolaeth cyhoeddwyd llyfryn bychan dan yr enw, "Briwsionyn er cof am y diweddar a'r byth nid a yn angof Mr. Wm. Erbery;" ac yn 1685, lyfryn arall, dan yr enw "Amdo i Feirwon Mr. Baxter; neu y rhai hyny a laddodd ac a lofruddiodd efe yn ei Gymundeb Catholicaidd, wedi eu heneinio yn beraidd, a'u claddu yn weddus drachefn; sef Esgusawd dros amryw Weinidogion—h.y. Mr. Erbery, Mr. Cradoc, Mr. Vavasor Powell, a Mr. Morgan Llwyd."

**ERBIN**, mab Cystenyn Gorneu, tywysog o Dyfnaint, yn y bummed ganrif. Cyfarfyddwn a'i enw yn rhestr y Saint Cymreig; ond nid ydym yn gwybod am eglwysi wedi eu cyssegru i'w goffadwriaeth.

**ERBISTOCK**, plwyf yn rhan-barth Gwrecsham, mewn rhan yn swydd Ddinbach, ac mewn rhan yn swydd Fflint, Gogledd Cymru, ar lan yr afon Dyfrdwy; 4¼ milldir i'r Dwyrain Dde Ddwyrain o orsaf rheilffordd Rhiwabon; Llythyr-dref, Overton, dan Wrecsham. Cynwysa y rhan sydd yn swydd Ddinbach, 1559 o erwau o dir, 50 o dai annedd, a 227 o drigolion, a chyfrifir ei werth ardrethol yn 1700*p.* A'r rhan sydd yn swydd Fflint, a gynwysa 43 o erwau, 24 o dai, a 110 o drigolion; a chyf-

Digitized by Google

rifir ei werth ardrethol yn 1053*p*.—Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth 254*p*. Noddwr, Esgob Llandâf.

**ERDDIG**, neu ERTHIG, trefgordd yn y rhan hono o blwyf GRESFORD, sydd yn nghantref BROMFIELD, Swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU, milldir a haner i'r De Orllewin wrth Ddehau o Wrecsham; yn cynwys 31 o dai annedd, a 117 o drigolion. Y mae yn cael ei gylchynu ar bob tu gan blwyf Gwrecsham, oddieithr y tu dwyreiniol, lle y mae yn cydio â phlwyf Marchwiail; ac fe'i trawsir gan Glawdd Watt, un o'r hen ffiniau rhwng Cymru a Lloegr. Ar yr hen glawdd yma y saif Plas Erddig, lle gynt y cyfanneddai Phylip Yorke, Ysw., awdwr y llyfr a elwir "*Royal Tribes of Wales.*" Y mae y palas hwn yn gorwedd mewn sefyllfa hynod o'r difyrus, rhwng dau ddyffryn bychan, a ddyfrheir gan afonig droellog, ac yn cael ei amgylchynu gan goedwigoedd tew-frig, mewn un o ba rai y mae gweddillion hen wersyll, bron yn gyfan, wedi ei amddiffyn a ffosydd dyfnion, a gwarchgloddiau cryfion. Tybia trigolion y gymmydogaeth, mai hen wersyll Rhufeinaidd ydoedd, ond ni chanfuwyd unrhyw henafiaethau Rhufeinig yn y lle, i gadarnhau y cyfryw dŷb.

Dywedir fod ettifeddiaeth yr Erddig yn perthyn gynt i hen deulu Cymreig o'r enw hwnw; ac wedi hyny, fe'i prynwyd gan John Edisbury o Bentre'r Clawdd, ammaethdy gerllaw, mab yr hwn, Josuah Edisbury, a adeiladodd y palas presenol, yn y flwyddyn 1678. Gwerthwyd yr ettifeddiaeth trwy archiadeb o'r Cangell-lys, yn y flwyddyn 1715, ac fe'i prynwyd gan gyfreithiwr, o'r enw Mr. Mellor, chwaer yr hwn a brïodasai frawd yr Arglwydd Gangellwr Hardwicke; a phan fu farw Mr. Mellor, efe a adawodd yr ettifeddiaeth i fab ei chwaer, Simon Yorke, hen daid y boneddwr sydd yn ei meddiannu yn bresenol.[1]

**ERDDREINIOG**, neu YR DDREINIOG, trefgordd yn y rhan hono o blwyf TREGAIAN, yr hon sydd yn nghantref TINDAETHWY, Swydd FON, GOGLEDD CYMRU, 4 milldir i'r Gogledd o Langefni.

**ERGYRIAD**, penaeth yn y 6ed ganrif, ydoedd un o feibion Caw.

**ERLAS**, neu ERLYS, trefgordd yn y rhan hono o blwyf GRESFORD, sydd yn nghantref BROMFIELD, Swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU, 5 milldir i'r Gogledd o Wrecsham. Cynwysa 710 o erwau o dir, 11 o dai annedd, ac 61 o drigòlion.

**ERRYRYS**, capeloriaeth yn mhlwyf Llanarmon yn Iâl, swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU, 5 milldir i'r Dwyrain Dde Ddwyrain o Ruthin; ac o fewn tu a'r un pellder o orsaf rheilffordd Rhuthin a'r Wyddgrug. Llythyr-dref, y Wyddgrug, Swydd Fflint. Mwnwyr yw y nifer luosoccaf o'r trigolion.

**ERWOOD**, neu ERWYD, pentref mhlwyf CERRIGCADARN, cantref TALGARTH, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU, mewn lle prydferth ar lan yr afon Wy, 9 milldir i'r Gorllewin o'r Gelli (*Hay*). Y mae capel yma gan y Bedyddwyr, ac y mae ysgol ddyddiol yn y lle. Y mae yma orsaf ar gangen o reilffordd y Great Midland. Yma y mae'r Clettwr yn aberu yn yr Wy. Cyfrifir y boblogaeth gydag eiddo y plwyf.

**ESCEIBION**, trefgordd yn mhlwyf LLANYNYS, Swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU; 3¼ milldir i'r Gogledd Ogledd Orllewin o Ruthin.

**ESCLUSHAM** (ISAF), trefgordd yn y rhan hwnw o blwyf GWRECSHAM sydd yn nghantref BROMFIELD, Swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU, 2 filldir i'r De Orllewin o dref GWRECSHAM, yn cynwys 1687 o erwau o dir, 145 o dai annedd, a 745 o drigolion. Ar Glawdd Offa, yr hwn sydd yn dra amlwg rhwng y ddwy drefgordd hon, y saif Pentre bychan, lle y mae teulu o'r cyfenw Meredydd, wedi bod yn cyfaneddu er y flwyddyn 1002; ac wrth wastadhau y Clawdd, i'r bwriad o ail adeiladu y tŷ, yn y flwyddyn 1824, cafwyd amryw ddarnau bathol Sacsonaidd; ac y mae henafiaid H. W. Meredydd, Ysw., arglwydd presenol Pentre bychan, wedi bod am lawer o genedlaethau, yn geidwaid y sel freninol am swyddi Dinbach, a Threfaldwyn. Y mae y Clawdd yn cyfeirio oddi yma tua Phlas Cadwgan, yr hwn hefyd a adeiladasid ar y Clawdd, ac a fu gynt yn meddiant un Edward Jones, Ysw., yr hwn a ddïenyddiwyd yn Llundain, yn mis Medi, 1586, fel un oedd yn gyfranog yn nghyd-frad Babington, yn erbyn y frenines Elisabeth; neu, o leiaf, fe'i cyhuddid o fod felly. Yn y flwyddyn 1804, darganfuwyd mwy na llwyth trol o arfau rhyfel, wedi eu claddu mewn carnedd yn agos i'r ty hwn; ac y maent yn nghadw yn awr yn Nghastell y Waun. Oddi yma, y mae Clawdd Offa yn cyfeirio yn ogleddol, tua Phlas Power, lle oedd gynt yn perthyn i Gastell y Waun; ac fe'i canfyddir yn ei gyflwr perffeithiaf yn y parc yno, a'i ffos ddofn a llydan ar yr ochr Gymreig; yna y mae yn cyfeirio tuag Adwy y Clawdd, lle ei croesir gan y brif-ffordd, o Ruthin i Wrecsham, ac oddiyno y mae yn myned i drefgordd Broughton. Cyfrifir gwerth ardrethol y ddwy drefgordd yma, yn 10,068*p*., o'r hyn y mae 1790*p*., mewn cloddfeydd cerig, a 518*p*. mewn mwngloddiau.

**ESCLUSHAM** (UCHAF), trefgordd yn mhlwyf GWRECSHAM, sef y rhan hono o'r plwyf sydd yn nghantref BROMFIELD, Swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU, 3 milldir i'r De Orllewin wrth Orllewin o dref Gwrecsham, yn cynwys 2104 o erwau o dir, 102 o dai, a 493 o drigolion. Gelwir y drefgordd hon Esclusham *Uchaf*, ar gyfrif ei sefyllfa gyda golwg ar Glawdd Offa, yr hwn sydd yn ysgaru rhyngddi ag Esclusham *Isaf;* ac y mae y Clawdd yma, mewn cyflwr lled berffaith. Y mae y drefgordd yn cynwys llanerch o dir uchel, yn y rhan dde orllewinol o'r plwyf; ac y mae rhai gweithfeydd glo o'i fewn.

**ESGAIR EBRILL**, trefgordd yn mhlwyf yr Eglwys bach, Swydd DDINBACH; 4½ milldir i'r De Dde Ddwyrain o Gonwy. Poblogaeth, 294.

**ESGAIR-GEILIOG**, treflan yn mhlwyf Mochdref, Swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU; 3¼ milldir i'r De Orllewin o'r Dref Newydd. Poblogaeth, 256.

**ESGAIR MAEN**, treflan yn mhlwyf Llandinam, Swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU; 5½ milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Lanidloes. Poblogaeth, 58.

**ESGAIR NANT**, treflan yn mhlwyf Talley, neu Tal y Llychau, Swydd GAERFYRDDIN, DEHEUBARTH CYMRU, 7½ milldir i'r Gogledd o Landeilo Fawr, yn cynwys poblogaeth o 168, yn 1861.

**ESGEIRIETH**, treflan yn mhlwyf Tref Eglwys, Swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU; 4¼ milldir i'r Gogledd o Lanidloes.

**ESTYN**. Gwel CAERGWRLE.

**ESTYN ALLAN**, trefgordd yn mhlwyf Llansilin, swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU; 7¼ milldir i'r De Orllewin o'r Waun. Poblogaeth 40, yn ol Deiliadeb 1861.

[1] *Wrexham and its Neighbourhood*, by John Jones, Solicitor.

Digitized by Google

**ESYLLT**, merch ac aeres Cynan Tindaethwy, a gwraig Merfyn Frych, drwy hawl yr hon y daeth efe i orsedd Gwynedd yn 817. Mae Esyllt yn hynod, oblegyd mai hi yw y drydedd yn yr hon yr aeth y freniniaeth Brydeinig i'r gwr trwy y wraig.

**ESYLLT FYNGWEN**, merch Culfynawyd Prydain, neu ferch March ab Meirchion, a restrir yn y *Trioedd* gyda Phenarwen, a Bun, fel "tair anniweirwraig Ynys Prydain." Ymddengys nad yw ond person ffugiol, a'r un ag Ysonde, gwraig Syr Tristan yn yr hen chwedlau Arthuraidd.

**EUARTH**, neu Eyarth, treflan yn mhlwyf Llanfair Dyffryn Clwyd, Swydd Ddinbach, Gogledd Cymru, yn nghyda gorsaf, ar Reilffordd Dinbach a Chorwen; 1¾ milldir i'r De Dde Ddwyrain o Ruthin. Gwerth ardrethol 3000*p*. Poblogaeth, 304.

**EUDAF**, yn ol *Brut Tysilio*, ydoedd iarll Ergyng ac Euas, ac a gymerth feddiant o orsedd Prydain yn absenoldeb Trahaiarn, yr hwn a acthai gyd Chystenyn ar ryfelgyrch i Rufain. Nid yw y cwbl a ddywed y *Brut* am dano, ond chwedl ddi sail.

**EULAD**, tywysog oedd yn ei flodau yn nechreu y chweched ganrif. Yr oedd ef yn ymladd yn mrwydr ofnadwy Cattraeth; ac fe'i crybwyllir gan Aneurin.

**EULO**, neu Ewlo; y mae dwy drefgordd, o'r enw "Tref Ewlo," a "Choed Ewlo," yn mhlwyf Pen ar halawg, Swydd Fflint, Gogledd Cymru, 1¾ filldir i'r Gog. Or. o Ben ar halawg, a 2 filldir i'r Gor. Dde Or. o orsaf rheilffordd Caer a Chaergybi, a elwir y "*Queen's Ferry*." Mesura y ddwy 2299 o erwau o dir. Cyfrifid gwerth ardrethol Tref Ewlo, yn 3455*p*. o'r hyn y daw 350*p*. oddiwrth fwn-gloddiau. Nifer y tai annedd ynddi 258, a nifer y trigolion 1252. Gwerth ardrethol trefgordd Coed Ewlo, 1436*p*., o ba rai y mae 591*p*. mewn mwngloddiau. Nifer tai annedd y drefgordd hon, 103, a nifer y trigolion, 513, yn ol Deiliadeb 1861.—Gwel Coed Eflo.

**EUNYDD**, penaeth un o bymtheg llwyth Gwynedd, ydoedd fab Morien ab Morgeneu, o Gwenllian, merch Rhys ab Marchan, ac "aeres Dyffryn Clwyd." Yr oedd yn byw rhwng 1050 a 1100. Ei arfbais:—"*Azure a lion rampant saliant or;*" at yr hwn yr ychwanegodd arfbais ei fam:—"*Azure, between three nags' heads, erased argent, a fess or.*"

**EUNYDD** ab Don, enwog fel swyn-gyfareddwr:—bod ffugiol.

**EURDYDFIL**, merch Tryffin, yn y 6ed ganrif, a ddisgleiria mewn rhamant Gymreig.

**EURDDYL**, merch Cynfarch Hen, a Nefyn, a gwraig Elifer Gosgorddfawr, i'r hwn y rhoddodd enedigaeth i dri mab ar unwaith, sef Gwrgi, Peredur, a Ceindrech Ben Asgell; yr hyn a elwir yn y Trioedd yn "dair gwyn dorllwyth Ynys Prydain."

**EURFYL**, Sant, sefydlydd Llaneurfyl, swydd Drefaldwyn, a goffheid Gorph. 6;—nis gwyddis dim am dano.

**EURGAIN**, Santes, yn y 6ed ganrif, ydoedd ferch Maelgwyn Gwynedd, a gwraig Elidr Mwynfawr. Hi a sefydlodd Laneurgain, swydd Fflint.

**EURNAID**, ferch Clydno Eiddyn, yn y 6ed ganrif, a ddisgleiria yn yr hen ramantau.

**EURONWY**, ferch Clydno Eiddyn, yn y 6ed ganrif, oedd rian enwog am ei thegwch; ond geilw Myrddin hi yn "galon galed."

**EURYN**, Sant, yn y 7fed ganrif, ydoedd un o feibion Helyg ab Glanawg. Tybir bod Bryn Euryn yn Llandrillo-yn-Rhos, wedi derbyn ei enw oddiwrtho.

**EVANS**, Benjamin, Drewen, a anwyd yn Ffynon Adda, plwyf Meline, swydd Benfro, ar yr 22ain o Chwefror, 1740. Amaethwr cyfrifol oedd ei dad, ac yn ddiacon gyda'r Bedyddwyr yn Rhydwilym; tra yr oedd ei fam yn aelod gyda'r Annibynwyr yn Brynberian. Cafodd ddysgeidiaeth dda o'i ieuenctyd, ac yr oedd yn ddeiliad i argyhoeddiadau crefyddol er yn foreu; ond pan yn 24ain oed ymunodd ag eglwys Annibynol Trewyddel, a chan na fedyddiasid ef pan yn faban, cafodd ei fedyddio ar ei dderbyniad yn aelod. Dechreuodd bregethu yn fuan; a thrwy Lewis Rees, Mynyddbach, Llanbrynmair wedi hyny, daeth i Lanuwchllyn, yn Meirion, ac ordeiniwyd ef yno, yn 1769. Bu yma yn weithgar a llwyddianus am tua naw mlynedd, gan dori allan i bregethu ar y ddê a'r aswy. Yn mysg manau eraill, dechreuodd godi achos yn Abermaw; cymerodd dŷ yno o dan ardreth, i addoli; ond gwrthodai yr ynadon iddo drwydded ar y lle, cododd yntau *mandamus* yn eu herbyn, a mynodd y lle wedi ei drwyddedu i gynal gwasanaeth crefyddol. Dysgodd hyny wers i'r gormeswyr hyn, ac i'r wlad o'u hamgylch. Cafodd lawer o dywydd garw wrth anturio i bregethu yr Efengyl mewn lleoedd anwaraidd, ond yr oedd wedi ei gynysgaeddu a nodweddau i weithio ei ffordd trwy bob rhwystrau felly, yn ddianaf. Yn 1777, efe a symudodd o Lanuwchllyn at eglwys Saesneg Hwlffordd, swydd Benfro. Yn mhen dwy flynedd, derbyniodd alwad eglwys y Drewen, yr hon a gafodd yn llawn Ariaeth ac Undodiaeth; ond trwy ei weinidogaeth nerthol, bwriwyd allan yr ysbrydion hyn yn fuan. Pan yn y Drewen, efe a sefydlodd hefyd eglwysi blodeuog yn Hawen, Glynarthen, a Phenrhiwgaled. Heblaw ei lafur gweinidogaethol, efe a ysgrifenodd hefyd amryw lyfrau, ar bynciau dadleugar ei oes; sef "Amddiffyniad i Fedydd Babanod;" "Holwyddoreg ar Egwyddorion y Grefydd Gristionogol," &c.; "Sylwadau ar Ddadleuaeth yr Ariaid a'r Undodiaid;" a chyfieithiad talfyredig o waith M. Maurice ar "Grefydd Gymdeithasol." Bu farw Mawrth 2, 1821, yn 81 oed, wedi treulio 52 o flynyddau yn y weinidogaeth; a chladdwyd ef mewn marwgell yn ymyl pwlpud Hawen.

**EVANS**, Caleb, D.D., ydoedd fab hynaf Hugh Evans, M.A., athraw Coleg y Bedyddwyr yn Mrystau, ac ŵrwyr i'r enwog Thomas Evans o'r Pentref. Ganwyd ef Tach. 12, 1737; derbyniodd ei addysg o dan ofal ei dad, a Foskett, ac wedi hyny yn athrofa *Mile End Road*, Llundain, o dan ofal y Drd. Walker a Jennings; bedyddiwyd ef yn Barbican, Llundain, gan Dr. Joseph Stennett, Tach. 28, 1753; galwyd ef i'r weinidogaeth gan yr eglwys yn *Little Wild Street*, Llundain, Mehefin 12, 1757; ac ar farwolaeth Bernard Foskett yn 1758, dewiswyd Hugh Evans, M.A.—ei gynorthwywr, yn weinidog *Broadmead*, a Caleb Evans yn gynorthwywr i'w dad, yn yr eglwys, a'r athrofa. Yn 1770, efe a fu yn offerynol i sefydlu athrofa y Bedyddwyr yn Stokescroft, ger Brystau. Yn 1778, bu yn dadleu trwy y wasg a John Wesley yn nghylch rhyfel America. Yn 1781, bu farw ei dad, ac olynodd yntau ef yn y weinidogaeth, a llywyddiaeth y Coleg. Yn 1789, anrhydeddwyd ef a'r radd o D.D. gan Brifysgol Providence, America; ac yn fuan ar ol hyny, gan Brifysgol Aberdeen. Bu farw Awst, 1791, yn 54 oed; a chladdwyd ef yn mynwent y Bedyddwyr yn Mrystau,

Digitized by Google

lle mae coffadwriaeth Lladin ar ei fedd. Cyhoeddodd Dr. Evans amryw lyfrau; megys "*Sermons on the Scripture Doctrine of the Son and the Holy Spirit;*" "*A Collection of Hymns;*" "*An Address to Serious People and Professors of Christianity;*" "*Christ Crucified,*" &c. Golygodd hefyd waith barddonol Theodosia, sef Miss Slute, o Brouton, yn dair cyfrol. Ystyrid ef yn ysgolor, llenor, a phregethwr rhagorol.

**EVANS**, CHRISTMAS, o anfarwol enwogrwydd, fel ag y cydnabyddir yn un-llais, ydoedd *un o'r rhai* mwyaf, os nad *y* mwyaf ei athrylith a fagodd Cymru erioed. Y mae cymaint wedi ei ysgrifenu arno yn Gymraeg a Saesneg, fel nad amcanwn yma ond rhoi delweddiad o hono fel pregethwr. Yn nghyda braslin o amgylchiadau ei fywyd. Yn y blyneddoedd 1832-1837, ped ywwelsai dieithr ddyn a Chymanfa y Bedyddwyr yn Mon, nis gallasai lai na rhyfeddu wrth weled y trigolion, yn foreu iawn, yn ymgasglu yno o bob cwr o'r Ynys, yn nghyda nifer mawr o gyrau Arfon, a Dinbych,—oll yn ymdrechu bod ar y cae erbyn 10 o'r gloch, i gael clywed Christmas Evans yn pregethu. Byddai y *stage* wedi ei chodi ar waelod cae cyfleus, ei chefn ar y gwynt, a'i gwyneb ar godiad tir, a lle i ryw ugain neu ragor o weinidogion a diaconiaid i eistedd arni o'r tu cefn i'r hwn fyddai yn sefyll i fyny i anerch y dorf. O'i blaen gwelid torf enfawr o bobl, yn sefyll fel coedwig fyw, yn cael ei gwneyd i fyny o amaethwyr yr ardal, eu teuluoedd, a gwasanaethwyr; creftwyr, mwnwyr, chwarelwyr; pobl o bob dosbarth, rhyw, oedran, a chymeriad—crefyddol, a digrefydd,—a phawb yn ymwthio am yr agosaf at y stage, "er mwyn cael clywed y testyn." Tuag ymylon pellaf y dorf, gwelid aml bregethwr o'r enwadau eraill, ac ond odid fawr, John Elias,—yn arwydd sicr fod rhywbeth mawr i fod yn y Gymanfa hon; a thuag ymyl y *stage*, ac o flaen llygad y pregethwr, gwelid lluaws o hen wragedd—y mamau yn Israel: llawer o honynt wedi teithio pymtheg milldir y boreu hwnw, a rhai wedi cychwyn er y dydd blaenorol. Dyma y dosbarth anhawddaf i'w hebgor yn mhob Cymanfa; oblegyd hwynt hwy yn gyffredin sydd yn cario yr hwyliau, ar ba rai mae yr awelon nefol yn chwythu. Tra byddai y brawd cyntaf yn pregethu, yr oedd yn hawdd gweled bod llygaid y rhan fwyaf o'r bobl yn edrych heibio iddo, ac yn syllu ar y dyn mawr, rhyfedd ei faint, a'i olwg, a eisteddai yn aflonydd o'r tu cefn iddo; yr hwn yn mhlith ei gyd-rywogaeth a edrychai megys *phenix* dynol, heb neb yn gyffelyb iddo yn un man, ac yn sicr braidd o dynu y sylw blaenaf yn mhlith miloedd,—dyna Christmas Evans! Yr oedd ei ddyn oddi allan yn ddwy lath o daldra; ac yn esgyrnog, cnawdol, a thrwm iawn. Ar ei ysgwyddau crwm, a'i wddf byr yr oedd pen anarferol o fawr; gwallt du, garw, a thrwchus; talcen eang, eiliau duon, uchel; a llygad mawr, disgleirdeb yr hwn ebe Robert Hall, oedd ddigon i oleuo byddin ar noson dywell, trwy goedwig. Yr oedd rhywbeth yn ei symudiad, yn lloglog ac amrosgo, fel pe na buasai ei aelodau yn cyfateb i'w gilydd, "a'i fod wedi ei osod yn nghyd, dranoeth i frwydr fawr, o aelodau y lladdedigion." Nid oedd megys yn perthyn i'r oes gorachaidd hon, ond i oes y Casluhim, y Caphtorim, a'r Anakim; ac yn un o weddillion cewri yr oesau gynt. Ond er fod rhywbeth allan o'r ffordd gyffredin yn ei gorff, eto nid oedd dim aflunieiddwch, nac anmhrydferthwch ynddo, ond yn unig ei fod yn un llygeidiog. Yr oedd Christmas Evans ar y cyfan, yn ddyn o edrychiad prydferth, ac edrychai yn siriol annghyffredin pan wrth ei fodd mewn cwmpeini; neu pan yn cael ei wresogi gan ei feddylddrychau yn y pulpud. Gyda bod y pregethwr cyntaf yn terfynu, lle yr hwn, pwy bynag a fyddai, oedd bod yn gymedrol o fyr, cyfodai Christmas Evans mewn gwedd ddifrif-ddwys, ond hollol naturiol iddo ei hun; agorai y Beibl, a chan droi ei ddail, rhoddai emyn allan,—un o emynau Williams, feallai, yr hon mewn hen dôn leddf—gynhyrfus, a genid yn afaelgar gan yr holl gynulleidfa, gan ddyblu yn unig ar y ddwy linell olaf. Yna gwynebai yn hyf ar y gynulleidfa, gyda haner gwên ar ei wyneb, yr hon a feithrinai hyder yn y bobl, a darllenai ei destyn mewn llais cryf a seinfawr, ond yn rhy fuan, i ŵr o'i feistrolaeth ef. Rhagymadroddai yn fyr, ac i bwrpas, mewn iaith gref, a chyda chamrau breision; ac fel y byddai meddyddrychau yn codi o'i flaen, hawdd gweled yr ymdrech ag oedd efe ynddi i lywodraethu ei ddarfelydd, ac i ymgadw rhag cymeryd ei lithio ymaith gan yr allegau swynhudol a demtient ei ddychymyg, hyd nes byddai wedi gosod i lawr yn gyntaf, sylfaen gadarn i'r adeiladaeth. Wedi iddo ranu ei destyn, i ddau neu dri o benau, a nodi allan ei lwybr goleu i Galfaria, torai ei ymresymiad yn fyr, a dechreuai ymollwng gyda'i dueddfryd cynwynol. Yr oedd ei feddylddrychau brwd i'w gweled yn croni, ac yn gorlwytho ei ymenydd; ac yntau fel y môr yn dechreu cynhyrfu, ei lygad mawr yn llawn bywyd, treiddgarwch, ac anesmwythder, fel pe byddai am neidio allan o'r grain. Ymddangosai fel pe buasai rhyw gronfa fawr ar dori, a'i ymadrodd yn cyflymu y naill foment ar ol y llall; a'i lais treiddgar, hynod, yn dyrchafu yn uwch, uwch, fel pe buasai yn tynu at ryw *glimax*, a'r bobl yn disgwyl bob mynyd bod y gronfa yn tori; yna arafai, a chychwynai drachefn yr un modd; ac felly am gynifer o weithiau, nes byddai y gwrandawyr braidd wedi eu difeddianu o'u synwyrau, ac o'r diwedd cyrhaeddai y *climax* gyda bloedd fawr, wichialaidd, uchel, ddieithr, yr hon oedd fel comed yn gadael llinell oleu ar ei hol, ac yn gwefreiddio pob calon. O'r fath ddylanwad a dreiddiai trwyddo, y dynion cryfaf ar ymrwygo gan eu cynhyrfiadau mewnol; eraill, wedi colli pob hunan-feddiant, fel prin y gwyddent pa un a'i ar y ddaear, neu ar un o'r ser y safent, yn wylo, ac yn bloeddio trwy eu dagrau; a'r oll yn ymysgwyd fel coedwig o dan bwysau yr ystorm! Ar ddiwedd yr oedfa, rhoddai emyn allan gyda'r fath fawrhydi gosgorddawl, a'r fath bwyslcisiad anefelychadwy, nes byddai y bobl megys yn ymddiosg, ac yn myned i lesmeiriau. O! fel y bloeddiai allan yr emyn hon o'i gyfansoddiad ei hun, nes y gallasid meddwl bod nef a daear wedi dyfod yn nghyd, ac yn siglo dwylaw!—

"Dacw'r Llew o Juda heddyw
 Yn rhwygo'n ddarnau rwymau'r bedd,
Mewn corff llawn o ardderchogrwydd,
 Agwedd concrwr yn ei wedd;
Dacw e'n drigo i'r lan o'r beddrod
 Wedi bod ar ben y bryn,
Ei wisg yn hardd, a'i fraich yn rymus.
 Ymdeithio mae yn nerth ei rym."

Wrth edrych ar safle uchel Christmas Evans fel pregethwr, a'r lle a sicrhaodd efe iddo ei hun yn

Digitized by Google

nheml meibion athrylith, yn nghyd a'r sefyllfa isel o ba un y cychwynodd, nis gall y byd lai na mawrhau yr Hwn a fedr fforddio i guddio y fath gyfoeth, mewn gwisg mor wael, a sancteiddio y fath alluoedd, i amcan mor ogoneddus.

Mab i grydd tlawd oedd Christmas Evans; ganwyd ef mewn bwthyn adfeiliedig, perthynol i ffarm o'r enw Ysgairwen, plwyf Llandysul, swydd Aberteifi, ar ddydd Nadolig, 1766; am hyny galwyd ei enw ef Christmas. Enw ei dad, oedd Samuel Evans, ac enw morwynol ei fam, oedd Johannah Lewis, yr hon a hanai o hen deulu parchus y Lewisiaid, Blaenccerdyn, Cwmhyar, a Chlunadda. Tystiai ei fam, fod Christmas, pan aned ef, mor fychan, fel y cafodd ei roddi mewn llestr chwart! Bu ei dad farw pan nad oedd ond naw oed, a bu gorfod iddo yntau pan yn dra ieuanc, heb na dysg na phrofiad, fyned allan o fwthyn tlawd ei fam weddw. Cymerwyd ef am ei fwyd a'i ddillad, gan ewythr iddo o'r enw James Lewis, Bwlchog, plwyf Llanfihangel-Ieroth; am yr hwn y dywedai gyda phrofiad chwerw yn mhen blynyddau ar ol hyny, "nas gallasai weled gwaeth esiampl yn holl gwrs y byd drygionus, na dyn mwy *digydwybod*;"—ac yn y peth hwn y mae enw James Lewis, yn ddiau, mor anfarwol a Christmas Evans. Wedi bod yma am rai blyneddoedd aeth i weini i leoedd eraill, sef Penyrallt fawr, Gwenallt, a Chastellhywel, heb gael o hono ddim manteision gwybodaeth, na chyfaill na chartref yn unman. Yn yr adegau hyn cafodd amryw o waredigaethau hynod o beryglon, y rhai, er na lwyddasant ar y pryd i gyffroi ei feddwl at bethau crefyddol, eto pan dyfodd efe yn ddyn, ac yr edrychodd trwyddynt oddi ar bwynt crefyddol, efe a ganfu ynddynt law warcheidiol ei Dduw yn ei arbed at gyflawni gwaith mawr drosto yn y byd. Yr oedd rhywfath o argraffiadau crefyddol ar ei feddwl ar brydiau er pan oedd tua naw oed; ond pan oedd tua deunaw oed, cymerodd deffroad crefyddol le yn yr ardal, a thueddwyd yntau yn mhlith amryw o'i gyfoedion i ymuno ag eglwys y Presbyteriaid Arminaidd yn Llwynrhydowen, yr hon oedd, hyd yn nod mor foreu a hyny, yn dechreu dyfod i sylw fel nyth Sosiniaeth yn Nghymru. Yma y dechreuodd ddysgu darllen y Beibl, yr hyn a gyrhaeddodd er llawer o hunan-foddhad yn mhen mis. Yn awr ymagorodd byd newydd o'i flaen, swynion yr hwn a ddechreuent ddeffro ei enaid, a chreu ynddo awydd angerddol am wybodaeth. Benthycai lyfrau gan ei gymydogion, a darllenai y cyfan gyda syched anniwalladwy. Un o'r llyfrau cyntaf a syrthiodd i'w law, oedd *Taith y Pererin*,—am yr hwn, yn ddiau, nid oedd angen rhoi gorchymyn iddo ei "fwyta yn llwyr;" a phwy fedr ddirnad y dylanwad a gafodd athrylith Bunyan, yn nadblygiad galluoedd y mwyaf darfelyddol o bregethwyr Cymru? Yn fuan ar ol ei ymuniad a chrefydd, teimlodd awydd cryf at bregethu, er nad oedd y pryd hwnw, meddai ef, ond pentwr o anwybodaeth. Traddododd ei bregeth gyntaf, nid yn nghapel Llwynrhydowen, ond mewn cyfarfod gweddi a gynhelid mewn bwthyn yn mhlwyf Llangeler—yn y ty hwnw hefyd y dechreuodd Davies Mynyddbach, ac Abertawe, yn mhen wythnos ar ei ol; cafodd y ty hwnw, yn ddiau, lawer mwy o anrhydedd na phulpud Llwynrhydowen. Nid oedd ymdrechiadau pregethwrol cyntaf Christmas Evans, yn arwyddo fawr am ei allu a'i enwogrwydd dyfodol. Oblegyd cyfaddefa ei hun yn ei ddyddlyfr, mai cyfieithad oedd ei bregeth gyntaf, o *Thesaurus Theologicus* yr Esgob Beveridge, ac iddo gymeryd ei ail bregeth, o'r Saith Pregeth, a gyhoeddasid ar enw Rowlands o Langeitho—er nad gwaith y gwr enwog hwnw oeddynt, a dysgu ei weddi bob gair, o lyfr gweddi Griffith Jones, Llanddowror! "Yr oeddwn wedi dechreu," meddai, "cyn casglu dealltwriaeth, a chyn i'r llestri agor i dderbyn." Ond er y cyfan, yr oedd rhyw ysbrydiaeth o'i fewn, yn ei yru yn mlaen; bwriodd y ffyn baglau crybwylledig ymaith yn fuan, a gorfu i'w wrthwynebwyr gydnabod bod "rhywbeth ynddo." Aeth i'r ysgol at ei hen feistr, Davies Castellhywel, a bu yno am tua chwe' mis, yn ymladd brwydr barhaus gyda thlodi ar un llaw, a dirgelion y *Latin Grammar* ar y llaw arall. Ond tlodi a orchfygodd; syrthiodd yntau mewn canlyniad i ddigalondid, a phenderfynodd daflu yr ysgol, a phregethu hefyd, i fyny am byth, a myned yn ol i'r byd i weini fel o'r blaen.

Yn y cyflwr hwnw aeth i ffair yn Nghapel Cynon, plwyf Llandyssilio-Gogo, Ceredigion, yr hon oedd, fel Ffair Rhos, yn enwog y pryd hwnw am ei hymladdfeydd, a'i hysgelerderau; yn y ffair, efe a brynodd *Daith y Pererin*, ac ar y ffordd wrth ddyfod adref, ymosodwyd arno gan bump neu chwech o ysgelerwyr, fel y collodd ei lygad, a bu bron iddo a cholli ei fywyd. Bu yr amgylchiad o dan fendith i'w ddychwelyd o dir gwrthgiliad, a'i gael i ail afaelyd yn ei waith; ond bydded hyn yn ddiareb i'r oesau a ddêl, a'r cenedlaethau a enir,—"yn nhir gwrthgiliad y collodd Christmas Evans ei lygad." Yn fuan wedi ei adferiad, argyhoeddwyd ef wrth ddarllen y Beibl, o anysgrythyroldeb bedydd babanod, er mai chwilio am adnodau i'w amddiffyn yr oedd ar y pryd, er dystewi un Amos, yr hwn oedd wedi ymadael ag eglwys Llwynrhydowen, a chael ei fedyddio yn Aberduar. Mewn canlyniad i hyn, efe a ufuddhaodd i lais ei gydwybod; cyflwynodd ei hun i'r eglwys yn Aberduar, a bedyddiwyd ef ar broffes o'i ffydd, gan Timothy Thomas, yn 1788, pan yn 22ain oed, ac wedi bod yn pregethu gyda'r Presbyteriaid Arminaidd, am dair blynedd a haner.

Daeth yn awr i fyd hollol ddieithr iddo; yr oedd yno adfywiad nerthol yn myned yn mlaen ar y pryd; teimladau, dagrau, a gorfoledd, na welsai ef ddim yn debyg iddynt yn flaenorol; ac yr oedd yn tybied y pregethwyr a wrandawai, yn llawer mwy doniol a duwiol nag ef. Edrychai arno ei hun fel aderyn brith, ac yn ddim amgen na chlamp o gnawd. Gwasgai y teimladau hyn arno mor drwm, nes y byddai yn ymdori allan mewn alaeth, ac yn ymgreinio ar y llawr mewn gofid. Yn y cyflwr hwn, aeth i Gymanfa Maesyberllan, yn 1789; cyfarfu yno yn rhagluniaethol ag amryw weinidogion o'r Gogledd, megys John R. Jones, Ramoth; Thomas Morris, o Fon; a William Roberts, Lleyn. Cydsyniodd a chais y gwyr hyn, i fyned gyda hwynt i'r Gogledd, ac ymsefydlodd yn Lleyn, yn nghwr gorllewinol swydd Gaerynarfon, yn weinidog ar bedair neu bump o eglwysi bychain ag oedd yno fel llin yn mygu, sef Salem, Rhoshirwaun, Galltraeth, Llangian, a Nefyn. Cymerodd yr urddiad le yn Salem, yn 1790; a'r gweinyddwyr oedd John Evans, o'r Roewen y pryd hwnw; wedi hyny o'r Dolau, a Thomas Morris o Fon. Yr oedd Christmas Evans y pryd hwnw, yn 24ain oed; ac yn yr un flwyddyn, efe a wnaeth y dewisiad doeth o gymeryd Catherine Jones, aelod o un o'i eglwysi, yn wraig; yr hon oedd fel pe buasai

wedi cael ei darparu gan Ragluniaeth o bwrpas i fod yn wraig pregethwr, a phregethwr tlawd a diofal, fel Christmas Evans. "Ymddiried yn y drefn fawr, Catherine fach," oedd hi gydag ef o hyd; ond yr oedd "Catherine fach" yn deall "y drefn fawr" yn ymarferol, yn llawer gwell na'i phriod, "Catherine fach, na ofala am y tatws," ebe fe wrthi un diwrnod, "rho dy ymddiried yn Rhagluniaeth." "Mi ddyweda i chwi beth wnawn ni Christmas," ebe hithau, "ewch chwi, ac eisteddwch ar ben Moel y Gest i ddysgwyl Rhagluniaeth, mi af finau i geibio y tatws, a chawn weled at ba un o honom y daw Rhagluniaeth gyntaf." Cafodd fwynhau dwy fendith arbenig yn fuan ar ol ymsefydlu yn Lleyn, sef ymwared oddi wrth yr ofn nad oedd wedi ei osod yn y weinidogaeth gan Dduw, a disgyniad ysbrydiaeth newydd ar ei ddawn gweinidogaethol; cafodd y gyntaf mewn gweddi yn mol y clawdd, rhwng Pont Aberglaslyn a Maentwrog; a'r ail, trwy fyned i wrando Robert Roberts, Clynog, yn pregethu ar brydnawn dydd Sul, yn Rhyd-y-clafrdy. "Yr oedd y meddyliau ynof," meddai, "ond Robert Roberts a roes allwedd y *level* imi." Ymagorodd ystafelloedd ei enaid yn ddisymwth, a ffrydiodd ei athrylith allan yn rhaiadrau digyffelyb o hyny hyd ei fedd. Aeth yn boblogaidd iawn yn Lleyn ar unwaith, a bu arddeliad nerthol ar ei weinidogaeth yno. Yn yr ail flwyddyn, cymerodd daith i'r Deheudir; dechreuodd yr awelon nerthol chwythu gydag ef yn Mhenryncoch, a pharhausant trwy Aberystwyth, ac i lawr i Aberteifi, Castell Newydd, Cilfowyr Abergwaun, Llangloffan, a Rhydgwilym. "Byddai llonaid y mynwentydd a'r tai cyrddau o wrandawyr yn ymdyru i'm gwrando yn nghanol y cynhauaf Medi. Byddwn yn pregethu allan yn fynych, yn yr hwyr,—a'r canu a'r molianu yn parhau hyd ddydd goleu." Wedi dychwelyd o'r daith hon, daeth i benderfyniad i ymadael a Lleyn, a myned i Fon, gan gwbl gredu alw o'r Arglwydd ef i efengylu i'r holl ynys hono. Nid oedd yn Mon y pryd hwnw, ond dau gapel i'r Bedyddwyr, sef Cildwrn, Llangefni; a'r Capel Newydd, ger Mynydd Parys; a rhyw wyth o orsafoedd pregethu mewn anedd-dai yma a thraw ar hyd yr ynys. Symudodd Christmas Evans yno ar ddydd Nadolig, 1791,—dydd mawr o rew ac eira, gan farchogaeth ar geffyl Mr. John Jones, o'r Nantglyn, a'i wraig wrth ei esgil, a chyrhaeddasant Langefni y noson hono, gan osod eu pabell i lawr yn nhy capel Cildwrn, gyda rhagolygon am 17*p.* yn y flwyddyn at eu cynaliaeth! A gellir ychwanegu yma, na cheisiodd efe ragor na hyny, sef 17*p.* yn y flwyddyn, am tuag ugain mlynedd. Y mae yn amlwg mai nid uchel-gais y byd hwn oedd ei ymgais ef, na thâl y byd oedd ei wobr.

Heb fyned i fanylu ar ei lafur dirfawr yn Mon, i gael yr ychydig achos ag oedd yno i drefn, adeiladu y muriau adfeiliedig, cyfodi capeli newyddion, eu dodrefnu ag aelodau, casglu 1500*p.* at dalu eu dyledion; ac felly ddwyn achos y Bedyddwyr o'r iselder a'r dinodedd ag yr oedd ynddo, i safle anrhydeddus yn yr ynys; yr ydym yn rhwym o nodi allan y graig yn erbyn pa un y tarawodd ei lestr ef, fel y bu bron a myned yn ddrylliau. Yr ydym yn cyfeirio wrth reswm at Sandemaniaeth, yr hon a ddygwyd i'r Gogledd gan John R. Jones o Ramoth, ac a niweidiodd achos y Bedyddwyr yn y wlad, hyd y dydd hwn. Daeth y ffydd newydd i mewn gyda'r fath honiadau o ysgrythyroldeb, a'r fath fanylrwydd gyda'r "mintys a'r anis, a'r cwmin," fel y dallodd hi lygaid y rhan fwyaf o weinidogion y Bedyddwyr yn y Gogledd, am gyfnod o leiaf; ac

> "O'r braidd diangodd Christmas,
> A William Roberts bach!"

Yr oedd tuedd naturiol yn Christmas Evans i fod yn flysig am newydd-bethau; ac efe a fwytaodd gymaint o'r gwenwyn hwn o'r Alban, fel yr effeithiodd yn dra niweidiol iddo mewn ychydig amser. Dyma ei gyfaddefiad:—"Effeithiodd y trefniant Sandemanaidd arnaf, fel y parodd ddiffodd ysbryd gweddi dros yr annuwiolion am eu troedigaeth. Yn rhywfodd, gyrodd bethau ysgafnaf teyrnas nefoedd yn fwy ar fy meddwl, na'r pethau trymaf: collais y nerth, yr hwn a wisgai fy meddwl a sêl, a hyder, a thaerni yn y pwlpid am ddychweliad eneidiau at Grist. Ciliodd fy nghalon yn ol, rhyw fodd, fel y collais dystiolaeth cydwybod dda."

Ond trwy drugaredd, efe a waredwyd o'r diwedd oddi wrth yr awelon difaol hyn; ymddidolodd Jones o Ramoth, a'i ganlynwyr, oddi wrth Fedyddwyr Cymru, ac ymunasant a'u brodyr yn yr Alban; ymddyrchafodd Christmas Evans o efynau "calon oer at Grist a'i aberth;" ac "ar ddiwrnod, byth i'w gofio, wrth fyned o Ddolgellau i Fachynlleth, wrth ddringo i fyny at Gader Idris" efe a esgynodd i fyny i gymundeb a Duw, pan y teimlodd "megis cadwynau yn ymryddhau, hen galedwch yn tyneru, a mynyddoedd o rew ac eira yn dadmer ac yn toddi o'u bodd. Parhaodd yr ymdrech am dair o oriau; byddai yn ailgyfodi fel tonau ar ol eu gilydd, fel rhyw lanw cryf gyda gwynt nerthol, hyd onid oedd fy natur wedi llesghau trwy wylo a llefain, gan roddi fy hunan i fyny i Grist, yn gorff ac enaid,—yn ddawn ac yn llafur,—fy holl oes,—bob dydd, a phob awr oedd i mi,—a'm holl ofalon, a gyflwynais i Grist."

Wedi hyny efe a dynodd gyfamod a Duw, yr hwn, fel y dywed un, "sydd un o'r cyfamodau llawnaf o wres cariad, dyfnder teimlad crefyddol, ac angerddoldeb beiddgar ffydd fywiol yn nhrugaredd Duw, y dichon i farwol ddyn byth ddychymygu."

Felly y gwaredwyd ef o bwll Sandemaniaeth; a chafodd y brofedigaeth ei goruwchlywodraethu i fod yn lles iddo hyd ddiwedd ei oes:—"Darfu iddi," meddai, "fel daeargryn, ysgwyd fy hen drefniant, fel y gorfu arnaf chwilio i'r sylfeini i gyd, ac ailadeiladu rhai o'r pyrth, a mesur y cwbl wrth gorsen fesur y gwirionedd. Parodd i mi ail chwilio droswyf fy hun i bob rhan o'm crefydd yn ol y gair."

Erbyn y flwyddyn 1822, yr oedd y lleoedd pregethu yn Mon wedi amlhau i ugeiniau, a'r gweinidogion a'r pregethwyr, i tua wyth ar hugain; ac yn ddisymwth dyna ddadl Ffwleriaeth yn ymdaenu yn gaddug dros yr holl achos, a'r pregethwyr a'r aelodau wedi ymranu yn dair rheng, rhai yn uchel Galfiniaid, rhai yn Arminiaid rhonc, a rhai yn Ffwleriaid trwyadl. Ffwleriad oedd Christmas Evans; wedi ei lyncu i fyny gan *Structures* Andrew Fuller ar Sandemaniaeth, ac yn galw "Mr. Fuller yn un o'r duwinyddion penaf wedi yr oes apostolaidd," &c. A chan ei fod ef yn esgob ar yr holl ynys, dysgwyliai i'w lais ef gael ei glywed, a'i awdurdod gael ei chydnabod. Pan yn y dwymyn Ffwleraidd, efe a draddododd bregeth yn cynwys y golygiadau hyny ar yr Iawn. Anfoddlonodd hono lawer iawn o'r pregethwyr a'r diaconiaid yn Mon. Aeth ar daith i'r Deheudir, i gasglu mae'n debyg, a thraddododd hi yn nghlyw

Digitized by Google

brodyr deallus yno, a chafodd gymeradwyaeth uchel ganddynt. Dychwelodd adref yn galonog, i drin y Monwysiaid am eu rhyfyg yn amheu cywirdeb ei olygiadau. Cyfarfu a hwynt mewn cwrdd misol, ac esgynodd i'r areithfa tua naw o'r gloch y boreu, i holi y pregethwyr ar egwyddorion y bregeth. Gofynai i bob un wrth ei enw, pa beth oedd ei farn ar yr Iawn, yn ol fel yr oedd efe wedi ei bregethu, a chanmolai y rhai oedd yn cydweled ag ef, fel brodyr call a dysgedig, ond gwae y lleill. Ond gwrthsafwyd ef yn egniol gan rai o honynt, a gwrth brofent syniadau y bregeth o hen lyfrau cyhoeddiedig Christmas Evans ei hun! Erbyn 1825, yr oedd tymestl Ffwleriaeth wedi chwythu heibio, a'r hen gadfridog wedi dychwelyd yn ol i'r "hen athrawiaeth," gan resynu at y drwg oedd Ffwleriaeth wedi effeithio yn Nghymru, a "gobeithio y deuai y bobl yn ol at yr hen egwyddorion Calfinaidd ag oedd ganddynt er'ys deugain mlynedd."

Yr oedd erbyn hyn yn tynu at 60ain mlwydd oed, ei iechyd wedi gwanhau, ei wraig wedi ei chladdu, defnyddioldeb ei unig lygad bron a'i golli, a'i holl gyfansoddiad yn bygwth suddo i'r bedd o dan lwyth llafur a gofidiau.

Yr oedd wedi anog rhai o'r eglwysi cryfaf, megys Amlwch a Chaergybi, i ymgorffoli, a galw iddynt eu hunain weinidogion. Galwodd rhai o'r eglwysi bersonau i fod yn weinidogion ag oeddynt yn ei farn ef, ar ol iddo oeri o'r dwymyn Ffwleraidd, yn ormod o Ffwleriaid, neu Arminiaid, i eglwysi Calfinaidd.

Yr oedd Hugh Williams, yr hwn a ddewisodd eglwys Amlwch, yn Ffwleriad proffesedig; ond dylid cofio mai efe oedd y prif ddyn gan Christmas Evans tua'r flwyddyn 1823, a bod y pregethwyr eraill wedi ei ddigio yn erwin, am feiddio gwrthwynebu ei Ffwleriaeth. Ond yn awr, yr oedd yr hen dad wedi dychwelyd i'w farn gyntefig: a phan welodd y brodyr mân, bod Hugh Williams yn myned o'u blaen, hwy a deimlasant yn ddiau, radd o genfigen, a llwyddasant i anog yr hen dad annichellgar i wrthwynebu yr anrhefn, ac i ddarostwng y gwrthryfel; ac wrth gynyg at hyny, efe a dynodd yr holl ynys am ei ben, a chafodd brofiad gofidus, mai "trech gwlad nag arglwydd." Yr oedd pethau erbyn hyn wedi gwisgo agwedd dra bygythiol, fel y galwyd gweinidogion o swydd Ddinbych, sef Ellis Evans, Cefnmawr; John Edwards, Ruthyn; Samuel Edwards, Glynceiriog, a John Prichard, Llangollen; i ddyfod yno i geisio cymodi y ddwy blaid. Cyfarfyddwyd yn Bodedeyrn, a llwyddwyd i ffurfio rhywfath o gymod; canys dywedai Christmas Evans wrth Ellis Evans, yr hwn o herwydd ei ddoethineb a'i ochelgarwch, ni ddaethai yno nes oedd pob peth drosodd, —"Wel Ellis, yr ydym ni wedi claddu y diawl." "Da iawn," ebe Ellis Evans, "ond gobeithio na ddarfu i chwi mo'i gladdu o yn fyw." "Hawyr bach! oes arnat ti chwant ei godi o i fyny i gael gweled?"

Ond y mae yn amlwg nad oedd y cymod a wnawd, yn ddim ond ffurf, yr oedd yr ysbrydoedd wedi eu clwyfo yn rhy ddyfnion. "O'r diwedd," meddai, "trodd y penderfyniad i mi ymadael a Mon, yn afiachus fel yr oeddwn. Yr oeddwn fel Jacob yn gadael ei dad a'i fam, ac yn myned a'i ffon yn unig gydag ef dros yr Iorddonen; felly yr oeddwn inau yn ymadael a'r eglwys y gweddiais, ie, yr ymdrechais gyda Duw dros ei llwyddiant, ac y llafuriais agos i ddeugain mlynedd gyda hi, yn awr yn ymadael heb feddu dim o'r byd hwn, ond y ceffyl oedd o danaf, ac ychydig arian yn fy llogell, a phrin y gallaswn ddyweyd fod y rhai hyny yn rhydd genyf."

Oh olygfa dorcalonus! cyffelybai ei hun i Jacob yn myned dros yr Iorddonen, ond yr oedd yn llawer mwy tebyg i Dafydd yn gorfod ffoi o Jerusalem, dan wylo, a'i ben wedi ei orchuddio, ac yn dianc drosodd i Mahanaim, rhag cleddyf ei fab Absalom!

Ar ei ymadawiad o Mon, cafodd alwad gynes gan yr eglwys yn Nghaerffili, swydd Forganwg, lle y dechreuodd ar ei waith mewn llawn sicrwydd fod yr Arglwydd yn ei arddel. Yma efe a briododd Mary Evans, y forwyn dda ag oedd ganddo pan yn Mon; yr hon a fu iddo yn ymgeledd gymwys hyd ei fedd. Ni bu ei arosiad yn Nghaerffili ond tua dwy flynedd, ond efe a dderbyniodd yn yr yspaid hwnw, tua saith ugain trwy fedydd; a dywed "na threuliodd ddwy flynedd mewn mwy o gysur erioed, oblegyd fod arch Duw wedi ymddangos yno, a thelynau o gylch saith ugain wedi canu." Yn Medi, 1828, efe a symudodd i Dabernacl, Caerdydd. Yno efe a ysgrifenodd ei drydydd cyfamod a Duw, yr hwn sydd ddyddiedig Caerdydd, Ebrill 24, 1829. "Daethum," ebe fe, "i Gaerdydd ar ol y cyfamod hwn, yn galonog a dibetrus, fel marsiandwr a yrai ei long i'r môr, wedi ei chofrestru yn swyddfa y Digollediad (Insurance Office)."

Yr oedd rhyw ymryson yn yr eglwys hon pan aeth ef yno; ond dysgwylid y buasai iddo ef drwy ei brofiad a'i ddoniau, allu dwyn y tryblith i drefn a phrydferthwch; ond er iddo gael ychwanegiad o tua phedwar ugain at rif yr eglwys, a chael hamdden i barotoi tua dau cant o'i bregethau i'r wasg, yn ystod y ddwy flynedd y bu yno, dyma a ddywed:—

> "Rhyfedd i'm henaid ddala
> Pan rifai pa sawl ton
> O mewn, o maes, a redodd
> Yn genllif dros fy mron!"

Yn 1832, wrth weled nad oedd pethau yn gwella yn Nghaerdydd, daeth i'r penderfyniad i ymadael. Yr oedd wedi derbyn galwadau taerion oddiwrth dair neu bedair o eglwysi yn y Gogledd, un o ba rai oedd Bodedeyrn, yn Mon; ond ni thueddid ei feddwl at un o honynt; ond pan yn Nghymanfa Liverpool y flwyddyn hono, amlygodd ei ddymuniad am fyned i Gaerynarfon, lle yr oedd eglwys fechan o tua deg ar hugain o aelodau, ac 800*p.* o ddyled, a'r achos bron wedi cael ei ladd gan Sandemaniaeth, ymrafaelion, ac anfoesoldeb. Parodd y newydd fod Christmas Evans am wynebu ar Gaerynarfon, lawenydd mawr mewn amryw gylchoedd. Addawodd amryw o Gymry a Saeson yn Liverpool, na chai fod mewn eisiau yno; a rhoddodd y Mrd. Rushton, henaf, ar ieuangaf, o'r dref hono, *Gig* fechan iddo at ei wasanaeth. Dechreuodd ar arloesi Caerynarfon, yr hon a gafodd fel anialwch gwag erchyll; ac er na sylweddolwyd ei ddysgwyliadau, nid oes ond y Dydd mawr a all ddangos y lles a wnaeth yno. Bu yn foddion i godi pen yr achos yn y dref hono, trwy dalu swm mawr o'r ddyled, a gosod y cerbyd ar y ffordd i fyned yn mlaen. Ar yr 28ain o Ebrill, 1838, gan gymeryd ei wraig, a Mr. John Hughes o Ruthyn, gydag ef, efe a gychwynodd ar ei *ddeugeinfed* taith i'r Deheudir, i gasglu at ddiddyledu ei gapel yn Nghaerynarfon, wedi anfon o hono lythyr effeithiol i'r *Ystorfa Weinidogaethol*, ac at amryw weinidogion, o'i flaen, yr hwn a wasanaethai iddo

Digitized by Google

fel rhagredegydd. Dyma ranau o'r llythyr;—"Yr wyf wedi cael lês bywyd i fyny, sef deg a thriugain, ac yn afiach iawn, wedi bwriadu aberthu fy hun at y gorchwyl hwn, er yn ofni marw ar y ffordd, ac yn ofni na lwyddaf yn fy neges dros Grist. . . . O cynorthwywch ni, frodyr, pan weloch yr hen frawd, gwedi bod dair blynedd ar ddeg a deugain yn y weinidogaeth, yn awr yn lle bod yn y bedd gyda'i gyfoedion, neu orphwys gyda thri o honynt sydd eto yn fyw, sef y brodyr Lewis, Llanwenarth; Davies, Felinfoel; a Thomas o Aberduar; yn dyfod atoch, ag ol rhychau angau ar ei ruddiau, a blodau y bedd ar ei ben, a'i holl gyfansoddiad yn ymddatod yn raddol. Mae, gyda gweddiau gant yn byrlymu o ffynon ei feddwl, mewn ofn a hyder yn gymysgedig, yn dyfod atoch. O peidiwch a gwgu arno—mae arno ofn eich gwg. Gwenwch arno, trwy gyfranu at ei achos. Dyma fy aberth diweddaf dros achos y Prynwr."

Cafodd dderbyniad croesawus yn mhob man; pregethodd yn Nghymanfa Argoed, gyda nerth mawr; bwriadai fyned yn ei flaen i Gymanfa Pont y pridd, ond cymerwyd ef yn glaf yn Nhredegar, lle bu yn aros am wythnos. Yna aeth yn ei flaen trwy Gaerffili, a Chaerdydd, a chyrhaeddodd Abertawe erbyn y Sabboth, Gorphenaf 15, lle y pregethodd ddwy waith y Sabboth hwnw; a'r nos Lun ganlynol, yn Saesneg, yn nghapel David Rhys Stephen, ac ar ddiwedd y bregeth, dywedodd yn hyglyw, "*This is my last sermon.*" Y nos hono cymerwyd ef yn glaf, ac erbyn nos Iau, yr oedd hyd at ei wddf yn yr afon; a phan oedd y don olaf ar ymdori dros ei ben, dywedodd wrth y brodyr oedd yn yr ystafell ar y pryd, —"Yr wyf ar ymadael; yr wyf wedi llafurio yn y cysegr er's tair ar ddeg a deugain o flynyddoedd, a dyma yw fy nghysur a'm hyder yn y bwlch hwn, nad wyf wedi llafurio yno heb waed yn y cawg. Pregethwch Grist i'r bobl, frodyr anwyl. Os edrychwch arnaf fi yn fy mhregethau, nid wyf ond darn o golledigaeth; ond os edrychwch arnaf yn Nghrist, yr wyf yn nefoedd, ac yn gadwedigaeth trwyddo ef." Yna efe a gymerodd yr hen benill hwnw o eiddo Williams, i hollti dyfroedd yr Iorddonen:—

O gyfiawnder pur tragwyddol!
O gyfiawnder maith didrai!
Rhaid i'm henaid noeth newynllyd
Gael yn fuan dy fwynhau, &c.;

ac megys o'r "Cerbyd tanllyd a'r meirch tanllyd," taflodd ei law at ei gyfeillion synedig, a dywedodd—"*Good bye, drive on!*"

Dydd Llun canlynol, Gorphenaf 23, 1838, claddwyd ei weddillion marwol yn mynwent Bethesda, Abertawe.

Ei weddillion *bywydol* ydynt, "Y Drindod,"—Llythyr Cymanfa Penyparc, 1802; "Perffeithiad Tywysog Iachawdwriaeth,"—pregeth oddiar Heb. v. 9, 1804; "Llythyr Cymanfa Llysfaen," 1807; "Crist yn Fachnïydd yn y Cyfamod Newydd dros ei bobl,"—pregeth oddiar Heb. vii. 22; "Atebiad am y Gobaith a osodwyd i'r Cristion yn Iawn haeddianol Crist, &c." 1810; "Neillduolrwydd y Prynedigaeth yn cael ei chwilio allan, &c." 1811; Ffurf yr Ymadroddion iachus, neu Lais y Ddurtur yn y wlad," &c. 1811; "Prynedigaeth o fewn cylch Etholedigaeth, &c.; yn cynwys atebiad i sylwadau y diweddar Barch. Thos. Jones Dinbych," 1819; Llyfryn ar Fedydd, yn atebiad i Peter Edwards; un arall ar yr un pwnc yn atebiad i D. Williams Llanwrtyd, 1822; Cyfrol o Bregethau, argraffedig yn Nghaerfyrddin; "Darlithoedd ar y Dadguddiad;" "Traethawd ar Lwyrymwrthodiad;" lluaws mawr o lythyrau ar wahanol bynciau yn ngrealon y Dywysogaeth; "Pregethau, Dammegion ac Areithiau" a gyhoeddwyd yn Nghaerdydd, 1804.

Trwy y rhai hyn, y mae Christmas Evans, er fod ei enau yn fud yn y bedd, yn gallu llefaru yn awr wrth drigolion Prydain Fawr, ac America, yn nghyda pharthau eang o gyfandir Ewrop; a'i glod fel athrylith o'r radd flaenaf, yn ymeangu o ddydd i ddydd.

Mae amryw wedi enwogi eu hunain wrth ysgrifenu arno; cyfansoddwyd Cofiant helaeth am dano gan Dr. Morgan, Caergybi, yn 1839, ac un arall yn fuan ar ol hyny, gan D. Rhys Stephen, yn yr iaith Saesneg. Dilynwyd y rhai hyn gan Brutus, Golygydd "yr Haul," mewn llyfryn rhagorol, dan yr enw "Christmasia;" ac yn 1863, daeth cyfrol wir alluog arno allan, yn y *Bunyan Library* gan y diweddar D. M. Evans, Llanelli. Mae y rhan fwyaf o'i bregethau, a gyhoeddwyd yn y Gymraeg, wedi cael eu cyfieithu i'r Saesneg, a'u cyhoeddi yn Lloegr ac America, a rhai o honynt wedi eu cyhoeddi yn ieithoedd y Cyfandir; a pha mor bell bynag y mae y Bywgraffiadau o gyrhaedd y gwreiddiol—canys dywedir bod gwir ddarlun Christmas Evans heb ymddangos eto, a bod lluoedd o adgofion nodweddiadol o hono yn nofio hyd wyneb y wlad, heb gael eto eu casglu gan neb; a pha faint bynag mae y pregethau wedi golli wrth gael eu rhoi mewn argraff, ac yn enwedig wrth gael eu trosglwyddo o'r naill iaith i'r llall; y mae un peth wedi ei sefydlu trwy gydsyniad cyffredinol beirniadaeth, sef ei fod yn yr un gallu mawr hwnw, i osod allan olygfeydd yn ol fel ag y canfyddai efe hwynt,—golygfeydd sylfaenedig ar hanes ac athrawiaeth, fel ag i gynysgaeddu y dychymyg a darluniau nad ellid byth eu anghofio,—yn sefyll yn ddigyffelyb yn mhlith pregethwyr y byd. Tra mae hyawdledd fflamllyd John Elias wedi profi yn beth anmhosibl i'w gosod ar bapyr; treiddiadau athronyddol a chymwysiadau effeithiol Williams o'r Wern, wedi ymgolli gyda'r bobl oedd yn gwledda arnynt; pregethau coeth a mawreddog Robert Hall, yn colli eu gwres a'u swyn i deimlad y cyhoedd, y mae athrylith Christmas Evans yn parhau i anadlu yn ei bregethau, gan ymwisgo yn gartrefol yn mhriod-ddull pob iaith, a chyflwyno i drigolion pob gwlad, ddelweddau byw o athrawiaethau y grefyddydd Gristionogol.

**EVANS**, Dafydd, o'r Dolau, cenadwr cyntaf y Bedyddwyr yn Mon, Arfon, a Meirion, ydoedd aelod gwreiddiol o eglwys Cilfowyr, swydd Benfro; dechreuodd bregethu tua'r flwyddyn 1742, ac ordeiniwyd ef, a dau eraill yno, i fod yn gynorthwywyr i'r Gweinidog yn 1761. Yn 1771, derbyniodd alwad eglwys y Dolau, swydd Faesyfed, lle y bu yn dra pharchus a llwyddianus hyd ddiwedd ei oes. Yn 1776, trwy offerynoliaeth y Dr. Thomas Llewelyn, cafwyd gan Lywodraethwyr Trysorfa y Bedyddwyr Neillduol yn Llundain, ganiatau swm penodol o arian tuag at ddwyn yn mlaen genadaeth yn Ngogledd Cymru, yn neillduol yn Mon, Arfon, a Meirion, lle yr oedd egwyddorion y Bedyddwyr hyd hyny bron yn berffaith anadnabyddus. Y ddau oruchwyliwr ar y symudiad hwn, oedd Joshua Thomas, Llanllieni, a William Williams, Ebenezer, swydd Benfro; a phenodwyd ar Dafydd Evans, o'r Dolau, fel y dyn mwyaf cymwys i wynebu ar y maes.

Digitized by Google

Cychwynodd y cenadwr yn ddioed ar ei daith bregethwrol trwy y Gogledd, gan bregethu lle bynag y cai gyfle; a chafodd anogaethau i ddyfod drachefn.

Yn Ebrill, 1779, o flaen Cymanfa Glynceiriog, yr hon a gynaliwyd ar y 9fed a'r 10fed o Mehefin yn y flwyddyn hono, efe a fedyddiodd *ddau* mewn afon yn Mon; ac yn mhen ychydig ddyddiau wedi hyny, bedyddiodd *ddeg* yn ngwahanol barthau yr ynys. Y deuddeg hyny, yn nghyd a *thri* a fedyddiwyd yno ar yr 20fed o Mehefin, gan Stephen Davies, Caerfyrddin; a David Jones, Penygarn, a gorpholwyd yn eglwys ar yr un dydd; a galwyd ei henw *Ebenezer*, o barch i William Williams, Ebenezer, trysorydd y genadaeth. Yr eglwys hono yn awr, ydyw eglwys Llangefni. Bu Dafydd Evans farw yn 1790, gan adael rhyw nifer o blant ar ei ol, un o ba rai oedd David Evans, ei olynydd yn eglwys y Dolau.

**EVANS**, Dafydd. Ffynonhenry, un o'r cymeriadau mwyaf gwreiddiol ac athrylithgar, a anwyd yn 1778, mewn amaethdy o'r enw Nantyfen, plwyf Conwil Elfed, swydd Gaerfyrddin. Enwau ei rieni oedd Stephen, a Jane Evans,—pobl barchus, ac o amgylchiadau da yn y byd. Bu ei fam, yr hon oedd ddynes grefyddol iawn, farw pan oedd Dafydd yn dra ieuanc; a phriododd ei dad eilwaith, wraig weddw o'r enw Mary Howells, etifeddes Troedyrhiw, ger Cwmduad. Yr oedd hon eto yn ddynes dra chrefyddol, a bu yn dyner a mamol o Dafydd, a hoff iawn o hono. Gan fod y teulu mewn amgylchiadau da, Troedyrhiw, ac amryw leoedd bychain eraill yn eu meddiant, cafodd Dafydd bob mantais addysgol ag oedd yr ardal yn ganiatau; a gwnaeth yntau ddefnydd da o honynt, fel y cyfrifid ef yn ysgolhaig gwych. Pan tua 29ain neu 30ain oed, enillwyd ei feddwl at bethau tragwyddol, trwy ddarllen y "Bardd Cwsg;" ac ar ol cael ei wasgu yn enbyd am hir o amser rhwng ystlysau "y mynydd teimladwy," ymwthiodd at eglwys y Bedyddwyr yn Ffynonhenry, i gael ymgeledd i'w enaid. Bedyddiwyd ef gan Gabriel Rees, Rhydgwilym, yr hwn a ddeuai yn fynych i'r Ffynon yn yr adeg hono. Dechreuodd bregethu yn fuan, gyda chymeradwyaeth mawr; ac ar anogaeth Titus Lewis, Caerfyrddin,—awdwr "*Hanes Prydain Fawr*," neillduodd yr eglwys ef i waith y weinidogaeth yn eu plith, yn y flwyddyn 1811. Ychydig o amrywiaethau allanol sydd yn mywyd Dafydd Evans. Yr oedd ganddo wraig rinweddol, a magodd ryw gymaint ar saith o blant, un o ba rai,—Hywell Evans, a ddaeth yn Llawfeddyg galluog a phoblogaidd yn yr ardal. Yr oedd yn byw y rhan flaenaf a'r fwyaf o'i oes, yn Nhroedyrhiw, yr hon etifeddiaeth a ddaeth iddo yn ol ewyllys ei lysfam ar ol dydd ei dad, ac yn cyfranu "dwfr y bywyd yn *rhad* "i'r gynulleidfa yn Ffynonhenry ar y Sabbothau, ac un James Davis yn cydweinidogaethu ag ef. Ond pan yn nghanol ei hawddfyd a'i lwyddiant, daeth ystorm nodedig i'w gyfarfod!—rhai o deulu ei lysfam yn ymgyfreithio ag ef am yr etifeddiaeth, yntau yn colli y dydd, a chael ei gymeryd i garchar Caerfyrddin, am wrthod llawnodi ymaith ei hawl o'r meddiant! ond er i'r gyfraith droi yn ei erbyn, yr oedd yr eglwys a'r wlad yn edrych arno fel merthyr i achos cyfiawnder. Fel prawf o hyn, aeth o'r cwrdd gweddi i'r carchar, ac yn mhen tua dwy flynedd, aeth yn ol o'r carchar i'w bwlpud. Mae y dyddlyfr a gadwai efe yn y carchar, yn un o'r pethau mwyaf cyfoethog mewn profiad a ffydd Gristionogol, a gynyrchodd yr oesoedd diweddaf. Yr oedd Dafydd Evans yn y carchar yr un peth yn hollol a Dafydd Evans yn y "Ffynon,"—yn meddu goleuni mewn tywyllwch, a rhyddid mewn caethiwed. Y tro cyntaf yr ymwelodd Hugh W. Jones, Caerfyrddin, ag ef yn ei gaethiwed, gofynai iddo mewn syndod, "Yn enw'r anwyl, beth ych chwi yn wneyd yma, Dafydd Evans? Am beth ych dygwyd chwi yma?" "Wn i ddim," ebe yntau, "wn i ddim am beth, ond dyma lle mae'r *nashiwn* drwg wedi dod a fi; a dyma lle bydda i mwy. Cha i ddim dod ma's; yn yr hen le yma byddai farw. Ond gwaetha 'u dane' nhw, allan nhw ddim rhwystro 'n enaid i fynd adre, fe eiff whiw trwy ben tŷ ar waetha 'r *nashiwn* melldigedig." Ond yr oedd Dafydd Evans yn y carchar nid yn unig fel "*Vicar of Wakefield*" yn y *rhamant*, yn pregethu i'r carcharorion, fel nad oedd eisieu *fflangell* na *dungeon* yno tra yr oedd Dafydd Evans yn eu plith; ond hefyd parhaodd yn annghydffurfiwr cydwybodol yno, er gwaethaf y rheolau; a hyny "nid o herwydd un tramgwydd," efe fe, "na rhag talu arian y weinidogaeth ychwaith, oblegyd yr oedd y weinidogaeth yn rhad, a'r frawdoliaeth yn lled heddychol;" ond pan alwyd ef i gyfrif gan y *caplan* am "esgeuluso y gwasanaeth," "Gwasanaeth yn wir!" efe fe, "gwasanaeth ac eglwys iawn sydd gyda chi; pe cai yr aelodau ddim ond y drysau yn agored, fe redent ma's bob un yn y fan!" ond yn mhen tua dwy flynedd, agorwyd y drysau iddo ef, a daeth allan yn well pregethwr nag erioed. Cafodd oes hir iawn, a llafuriodd yn ddiwyd, gan adnewyddu ei ieuenctyd hyd y diwedd. *Bu yn y weinidogaeth am bymtheg mlynedd a deugain; a phregethai pan yn bedwar ugain, a phedwar ugain a thair oed, lawn cystal os nad yn well na phan yn ddeugain.* Bu farw Mawrth 5ed, 1866, yn 88 mlwydd oed.

Fel pregethwr, perthynai Dafydd Evans, i'r un dosbarth a John Jones, Llandysul; Thos Rhys Davies, Glanwydden; Powel, Caerdydd; Dafydd Rolant, y Bala; Robert Thomas, Llidiarde, &c. Mae y rhywogaeth hon wedi ymadael yn llwyr o'n gwlad; dichon bod rhai o'u nodweddau eto yn aros mewn ambell i ardal, ond nid oes un *thorough-bred* i'w gael heddyw yn Nghymru. Safai Dafydd Evans ar ei ben ei hun hyd yn nod yn ei ddosbarth; yr oedd braidd yn feius o wreiddiol yn ei holl ysgogiadau meddyliol a chymdeithasol. Plentyn natur ydoedd, heb erioed gael ei dori i mewn gan unrhyw ddeddfau o osodiad dynol. Ymddangosai fel "yr hwn y gosodir yr anialwch yn dŷ iddo, a'r difeithwch yn drigfa iddo. Yr hwn a chwardd am ben lluaws tref; ni wrendy ar lais y geilwad. Cilfachau y mynyddoedd yw ei borfa, ac efe a chwilia am bob glaswelltyn:" neu fel darn o dir bras, heb ei gyffwrdd erioed gan law celfyddyd, yn cynyrchu cyflawnder o bob math o flodau, coedydd, a ffrwythau, yn blith draphlith a'u gilydd, ond oll yn ffyddlawn i natur. Yr oedd mewn duwioldeb braidd yn angel; ac yr oedd ei ddifrifoldeb y fath fel na chybuddai neb ef o ysgafnder, er y byddai y gynulleidfa yn chwerthin ac yn wylo bob yn ail, fel pe buasent o dan ddwylaw y Mesmerydd. Yr oedd teimladau y galon ddynol fel tanau telyn o dan ei ddwylaw, ac yntau yn medru goglaisio megys a bysedd gwefrol. Yr oedd mor llawn o natur ei hun, ac yn taflu ei hun mor drylwyr i'w bwnc, fel y byddai weithiau yn chwerthin yn galonog, a phryd arall yn wylo fel y gwlaw, ac yn cynyrchu yr un teimladau yn eraill.

Digitized by Google

Er cryfed yw y brofedigaeth nis gallwn fforddio lle ond i ychydig engreifftiau nodweddiadol o'i athrylith. Wrth ddarlunio yr Iesu yn datod gweithredoedd y diafol, dywedai "Hen g'lymwr ofnadwy yw y diafol, ond y mae Mab Duw yn ddigon gwell datodwr nag ef. Yr oedd wedi c'lymu hen wraig fach ys llawer dydd, am ddeunaw mlynedd—wedi ei llyfetheirio i fod yn llwdwn diogel, i bori ar ei dir ef. Yr oedd wedi c'lymu un pen i'r llinyn am ei gwddf, a'r pen arall am ei throed, ac yr oedd wedi bod am ddeunaw mlynedd fel drysien ddeupen; ond daeth Iesu Grist yn mlaen, a thorodd y llinyn, a *springodd* 'nol fel *spring trap*. Ha! ha! ha! Daeth mor union a'r ferch ifanc unionaf yn y capel yma. 'Nawr yr hen Pharisead, dere 'mlaen, rho dy ffon *rule* ar ei chefn hi i gael gwel'd a ydyw hi 'n syth."

Pan yn darlunio Pharaoh o dan bla y llyffaint, ac wedi gorchymyn i'r *butler* glirio y *dining-room*, a gofalu na fuasai un o'r creaduriaid cas yno, dywedai, —"Wedi dod mewn a'r bwyd, a chau y drws yn ofalus, eisteddai Pharaoh a Mrs. Pharaoh, a'r teulu breninol o amgylch y bwrdd, ac yr oedd yno geiliog twrci braf i ginio, a stymog ffamws ato. Ond pan oedd Pharaoh yn myn'd i gyfranogi o'r danteithion melus, dacw lyffan' mawr yn dringo i'w *blate*, ac yn edrych yn ei wyneb, a gwaeddai y bwtler allan dan regu, 'Meistr, meistr, *sack* y fork i lygad e, sack y fork i lygad e.' 'Na, na i,' ebe Pharaoh, gan newid ei wedd, a'r *fork* yn syrthio o'i law, 'mae Duw Israel yn llygad hwn!'" Nid yn unig medrai baentio fel yna hyd at fywyd, ond taflai y syniadau mwyaf athronyddol, ond perffaith wreiddiol iddo ef, allan ar brydiau, nes y rhyfeddai y gwrandawyr mwyaf galluog. Pan yn pregethu ar y Gwr goludog *blysig* yn gwaeddi am ddafn o ddwfr *i oeri ei dafod*, dywedai, "A oes gan ysbrydion dafodau! Na, ni feddant dafodau o gnawd; ond y fath ydyw'r cysylltiad agos rhwng corff ac enaid, fel mae yr enaid yn hir iawn ar ol iddo ymadael a'r corff, gallem feddwl, heb ymryddhau mewn dychymyg oddiwrth y babell bridd; yn neillduol y rhai sy'n ddaearol, a chnawdol eu tueddiadau, 'a'u rhan yn y bywyd yma.' Teimlant boen yr ochr draw yn ddiamau, mewn cysylltiad ag aelodau y corff. Dywedir bod y dyn a fyddo wedi cael tori ymaith ei fraich, neu ryw aelod arall, yn teimlo fel pe buasai yn ei feddiant o hyd—yn teimlo ei fysedd yn symud. Felly yr oedd y dyn truenus hwn yn teimlo ei dafod yn llosgi yn y fflam. Pa ham ei dafod yn fwy na rhyw aelod arall? Tua bon ei dafod yr oedd yn cael mwyaf o bleser a mwynhad yn y bywyd hwn; nid oedd dim o'r gwin a'r danteithion yr ochr draw; ac felly yr oedd ei dafod yn llosgi o eisieu eu cael; ac efallai hefyd, mai o herwydd mai a'i dafod y bu yn cablu Duw, difenwi ei blant, a gwawdio crefydd. Am hyny y mae yn teimlo poen ofnadwy mewn cysylltiad a'r aelod corfforol, a'r hwn y bu yn pechu yn erbyn y Goruchaf."

Yr oedd llond Dafydd Evans o deimlad a gonestrwydd. Unwaith mewn angladd hen wrandawr o'r enw Shoni, yr hwn yr oedd wedi bod yn dymuno ei achub am flynyddoedd, aeth yn mlaen at yr arch, a chan dynu yr amwisg oddi ar y gwyneb gwelw, dywedai dan wylo, "Shoni bach! Shoni bach! fe ddywedais i ganwaith wrthot ti, mai fel hyn y buasai hi, ond yr wyt ti yn 'difaru yn dost heddyw, Shoni bach!" ac ymaith ag ef a'r dagrau mawrion yn treiglo dros ei ruddiau.

Nid oedd ei arbenigrwydd yn ymddangos yn un man yn fwy nag wrth yr orsedd. Yr oedd yn annghyffredin iawn yn ei weddi, yn dangos rhyw gynefindod, cofndra plentynaidd, a gostyngeiddrwydd llednais, ag sydd yn anmhosibl peidio eu hedmygu. Mae rhai darnau o'i weddiau fel ag y cadwyd hwynt ar gof ei gyfeillion, wedi eu hargraffu yn ei Gofiant. Pan yn gweddio yn angladd un o aelodau Penybont, Llandysul, yr hwn oedd wedi gadael gweddw ac amryw o blant ar ol, dywedai, "Cofia am y weddw, O Arglwydd; y mae yn ddiwrnod tywyll iawn arni hi heddyw; dydd tywyll du—dydd cymylog a niwlog—dydd claddu ei hanwyl briod. Mae y dydd hwn iddi yn dywyll nos. Arglwydd cynal a goleua ar ei meddwl. Rho iddi gael golwg arnat ti yn yr amgylchiad. Rho iddi gael gweled dy wyneb; ac os na cha weled dy wyneb, gad iddi gael gweled dy gefn fel Moses gynt; ac os ca hi weled dy gefn di, ni welodd hi gefn mor llydan erioed o'r blaen; ni welodd erioed gefn a chynifer o blant amddifaid a gwragedd gweddwon arno, a dy gefn di. Rho iddi gael golwg ar dy gefn di beth bynag."

Ond rhaid ini ymatal, gan gyfeirio y darllenydd at y Cofiant rhagorol am dano, a gyhoeddwyd gan Benjamin Thomas, Castell newydd-Emlyn, 1870.

**EVANS,** Edward, Hen Dy Cwrdd, Aberdar, ac un o feirdd Cadair Morganwg, a anwyd yn 1716. Derbyniodd ei addysg yn ngholeg Caerfyrddin; ac urddwyd ef yn yr Hen Dy Cwrdd yn 1772. Yr oedd yn fardd o gryn fri, ac yn selog dros ddefodau yr orsedd farddol. Bu farw yn 1798, yn 82 oed; a chladdwyd ef yn mynwent *hen* eglwys Aberdar.

**EVANS,** Ellis, D.D., Cefnmawr, un o weinidogion enwocaf y Bedyddwyr, yn Ngogledd Cymru, yn y ganrif bresenol, a anwyd mewn lle a elwir Pig y Swch, yn ucheldir Penllyn, yn Meirionydd, Mehefin 22, 1786. Ni chafodd nemawr o ddim manteision dysgeidiaeth pan yn ieuanc; gorfu iddo droi allan yn dra boreu i wasanaethu gyda thyddynwyr yr ardal; ond gan fod Llanuwchllyn y pryd hwnw yn un o'r ardaloedd mwyaf uchel-freintiog yn Nghymru, cafodd gyfleustra i ddysgu darllen ei Feibl, a thrwy chwilio a barnu drosto ei hun, daeth yn Fedyddiwr goleuedig ac egwyddorol yn nghanol yr Annibynwyr; fel y bedyddiwyd ef ar broffes o'i ffydd, yn y flwyddyn 1806, ac yr ymunodd a'r pump neu chwech ag oedd yno eisioes, yn dechreu achos i'r Bedyddwyr yn Llanuwchllyn. Dechreuodd bregethu yn 1809; ac wedi bod am ychydig yn yr ysgol gyda Jesse Jones yn Nglanconwy, efe a dderbyniwyd i athrofa y Fenni, yn Medi 1811, lle yr arosodd hyd Ebrill 1813. Ar ei ddyfodiad o'r Fenni, efe a briododd ferch ieuanc grefyddol, o'r enw Mary Jones, a'r hon y ffurfiasai efe gydnabyddiaeth pan yno yn yr ysgol. Bu heb un eglwys am yn agos i dair blynedd! ond Tach. 2, 1815, urddwyd ef yn weinidog ar y tair eglwys fechan, Llannefydd, Llansanan, a Llangernyw, swydd Dinbach; a bu yno am bedair blynedd, yn fawr ei lafur a'i bryder, yn cyfranu "bwyd cryf" i'w gynulleidfaoedd bychain ar y Sabboth, a dysgu yr A, B, C, i blantos bychain drwy'r wythnos. Yn 1819, efe a gymeradwywyd i eglwys Cefnmawr, gan Evan Evans, yr hen weinidog, ar ei ymadawiad; felly ymagorodd y drws i Ellis Evans fyned i mewn i'r maes a drefnasid iddo gan ragluniaeth; yr oedd cyflawnder o ddefnyddiau cyfoeth yn yr ardal, a chyflawnder o ddefnyddiau enwogrwydd ynddo ynt-

Digitized by Google

au, a daeth y ddau i enwogrwydd gyda'u gilydd yn ngolwg Cymru grefyddol.

Mae tymor ei weinidogaeth yn y Cefnmawr yn ymestyn o 1819 hyd 1858, pryd y rhoddodd ei ofalon gweinidogaethol i fyny, ac y neillduwyd Abel J. Parry i fod yn olynydd iddo; er y pregethai efe yno yn fynych o hyny hyd ddiwedd ei oes, yr hyn a gymerodd le Mawrth 28, 1864, pan oedd efe yn 78 oed. Ystyrid Ellis Evans yn un o'r pregethwyr mwyaf galluog,—gwreiddiol, cyfoethog, a nerthol; er nad oedd yn hyawdl, nac yn enwog fel pregethwr cymanfa. Ysgrifenodd gryn lawer i'r cyhoeddiadau misol perthynol i'r enwad, ar hanesiaeth y Bedyddwyr a'u hegwyddorion yn benaf. Efe oedd un o sefydlwyr yr *Athraw i Blentyn* yn 1827. Cyhoeddodd hefyd rai llyfrynau, megys "Llythyr Cymanfa Cefnmawr" 1828, ar "Unoliaeth a Gweledigrwydd yr Eglwys;" Pregeth ar "Arddangosiad syml o syniadau gwahaniaethol, neu egwyddorion priodol, y Bedyddwyr Crediniol," 1829; "Anogaeth i Athrawon ac Athrawesau ein Hysgolion Sabbothol, &c.," 1830. Ond ei brif orchestwaith llenyddol, oedd "Hanes y Bedyddwyr." Dechreuodd ar y gwaith hwn mor foreu a 1827, a chyflwynodd ei oes ato; ond bu farw cyn i ond ychydig ranau o hono ddyfod allan, felly gadawodd brif orchwyl ei fywyd megys newydd ei ddechreu. Ar ymddangosiad cyntaf y gwaith, anrhydeddwyd yr awdwr hybarch a'r radd o D.D., gan Goleg William Jewell, Missouri, America; a chydnabyddai pawb a'i hadwaenent, na bu teitl o anrhydedd yn gweddu yn well i nemawr neb erioed.

"Goludog o wawl ydoedd,—yn y nen
Bu'n seren siroedd;
Fel gweinidog, enwog oedd,
Heb ei ablach i'r bobloedd."

**EVANS**, Parch. Evan, neu *"Ieuan Glan Geirionydd,"* ydoedd weinidog parchus, perthynol i'r Eglwys Sefydledig. Ganwyd ef mewn tyddyndy henafol ar lan yr afon Geirionydd, oddiwrth yr hon y cododd ei enw barddonol, yn nghwr deheuol pentref prydferth Trefriw, yn Sir Gaernarfon. Yr oedd ei fam, Elisabeth Prichard, yn ddisgynyddes uniongyrchol o'r hen deuluoedd parchus oeddynt wedi cyfaneddu yn Tan-y-celyn, er ys llawer o ganrifoedd yn flaenorol. Yr oedd cyn priodi, yn byw gyda ei mam, yr hon oedd weddw Evan Prichard, o'r lle crybwylledig. Ei dad, Robert Evans, oedd frodor o Lanbedr, Dyffryn Ardudwy, Sir Feirionydd. Yn flaenorol i'w briodas gyda y ddywededig Elisabeth Prichard, dilynai y gelfyddyd o saer llongau. Daeth ar y cyntaf i Drefriw, i brynu, ac i dori coed yn Mhencraig; a bu yn Nhrefriw, pan y daeth yn adnabyddus a'r hon a gafodd yn wraig, yn adeiladu llong. Ganwyd iddynt bump o blant, tair o ferched a dau fab. Ieuan oedd yr ieuangaf, onid un o honynt. Ganwyd ef Ebrill 20, 1795. Yr oedd ei rieni yn aelodau ffyddlon gyda y Trefnyddion Calfinaidd er yn ieuangc. Dygwyd Ieuan i fynu yn yr un eglwys a hwythau, a phan ddaeth i aeddfedrwydd oedran, dangosodd duedd dduwiol-frydig iawn. Cafodd ei dderbyn yn aelod o eglwys y Methodistiaid yn Nhrefriw, a pharhaodd yno, mewn gweithgarwch ffyddlon, hyd nes yr oedd tua phump ar hugain oed. Yr oedd ei rieni mewn sefyllfa gysurus, ac yr oedd ei dad yn gryn lenor, ac yn ychydig o fardd. Yr oedd tuedd yn hyn i roddi cyfeiriad i osgo meddwl y mab; ond i'w fam yr oedd efe fwyaf dyledus, fel y mae yn gyffredin, am ei feithriniaeth feddylgar foreuol. Pan gyrhaeddodd oedran priodol, anfonwyd ef at un Mr. Griffiths, yr hwn oedd yn cadw ysgol yn eglwys Trefriw. Yn fuan wedi hyny, anfonwyd ef i ysgol râd Llanrwst, lle y cafodd gyfeillion boddhaol yn William ac A. Ll. Roberts, meibion Cefn-y-Coed. Nid yw yn hysbys am ba hyd yr arosodd yma, ond pa hyd bynag, yr oedd wedi dyfod erbyn hyn i allu cyfansoddi yn rhwydd yn y Saesneg, ac i ddeall ychydig o'r Lladin. Yn niwedd y flwyddyn 1816, aeth i Dal-y-bont, i gadw ysgol ddyddiol, ac y mae yn debygol mai tua'r amser hwnw y meddyliodd gyntaf am ddechreu barddoni. Yr oedd wedi cyfansoddi ychydig o benillion, a llunio ambell englyn lled reolaidd cyn hyny, ond nid oedd wedi gwneud dim o werth. Tra yn Tal-y-bont y cyfansoddodd ei "Awdl ar farwolaeth y Dywysoges Charlotte," yr hon a enillodd y tlws yn Eisteddfod Llanelwy, yn 1817, neu 1818. Tu a'r un amser y cyfansoddodd ei Awdl, "Marwolaeth Charles o'r Bala," ac amryw ddarnau eraill. Tu a'r amser hwn, daeth y Parch. John Parry, o Gaerlleon i Drefriw i bregethu; ac yr oedd arno eisiau gwasanaeth dyn ieuangc, o ysgolhaig da, i gyfieithu gwaith Boston ar "Bedwar Cyflwr Dyn," o'r Saesneg, ac i olygu misolyn oedd efe ar fwriad i'w gyhoeddi, sef "Goleuad Gwynedd." Cynnygiodd Mr. Parry y lle iddo, a derbyniodd yntau y cynnygiad. Aeth i Gaerlleon, cyfieithodd y llyfr, a golygodd y misolyn hyd 1820, y pryd, o herwydd cael anwyd trwm, y gorfu arno roddi ei le i fynu, a dychwelyd i'w hen gartref, i Drefriw. Tra yr oedd yn aros yn Nghaer, ysgrifenodd draethawd ar "Brynedigaeth neillduol," mewn atebiad i bregeth a argraphwyd gan Samuel Davies, un o weinidogion y Wesleyaid, ar "Brynedigaeth Gyffredinol." Atebwyd ef gan Davies yn uniongyrchol, ond ni ddaeth Ieuan allan yn fuan i'w ateb; ond ar anogaeth y Parch. John Elias, o Fon, cyfieithodd, ac argraphodd bedair pregeth, o waith y Parch. J. Hurrion, ar y pwnc mewn dadl rhyngddynt. Bernir fod darllen gwaith Dr. Edward Williams o Rotherham ar y pwnc, wedi hyny, wedi effeithio cryn gyfnewidiad yn marn Ieuan ar y testyn mewn dadl. Wedi dychwelyd i Drefriw, gwellhaodd ei iechyd, ac yna y cyfansoddodd ei Awdl, "Hiraeth Cymro am ei wlad," a "Chywydd y Bedd." Bu am gryn amser heb wybod mai ei Awdl ef oedd yn fuddygol ar y Dywysoges Charlotte, am nad oedd wedi anfon ei enw priodol i mewn dan sel, gyda'r ffugenw. Rhoddwyd hysbysiad yn y newyddiaduron, mai *Plorator* oedd y buddygol, ond nid oedd neb yn ateb, fel y darfu i awdurdodau yr Eisteddfod dybio fod yr awdwr wedi marw, neu ei fod yn celu ei enw yn fwriadol. Ar ddamwain, aeth Robert Thomas, Betws-y-coed, i ymweled â Ieuan, a dywedodd wrtho fel yr oedd pethau yn bod yn achos yr awdl fuddygol yn Llanelwy. Dranoeth aeth tad Ieuan, ar neges i Lanberis, a galwodd gyda Gutyn Peris, a dywedodd wrtho, mai ei fab ef oedd Plorator. Gyda'r gair, neidiodd yr hen fardd gan lawenydd, a dywedodd, "Dyma fardd eto i roddi pluen yn nghap Eryri; Sir Gaernarfon am byth!" Archodd i Robert Evans geisio gan Ieuan ysgrifenu i hysbysu y cyfan, i Syr Thomas Mostyn, y Llywydd. Felly fu. Cymerodd hyn le tu a'r amser yr oedd Eisteddfod Wrecsam yn cael ei chynal, sef mis Medi 1820. Aeth Ieuan i'r Eisteddfod, ac ar yr heol, cyfarfu â thri boneddwr, i'r rhai y gofynodd, pa le yr oedd y beirdd yn ym-

Digitized by Google

gyfarfod. Gofynodd un o honynt iddo, a oedd efe yn fardd? Dywedodd yntau ei fod wedi cyfansoddi ychydig, ac yn mhlith pethau eraill, Awdl y Dywysoges Charlotte, dan y ffugenw, "Plorator." Rhoddodd un o'r boneddion nodyn iddo, i fyned i ystafell y beirdd. Wedi i Ieuan roddi y nodyn i'r drysor, trosglwyddodd hwnw ef i'r Llywydd, yr hwn a gyfododd i fynu, gan ddatgan fod Plorator wedi ei gael, a gosodwyd ef yn y gadair. Yn fuan wedi hyny, yn yr Eisteddfod, galwyd enw y buddygwr ar Awdl, "Hiraeth Cymro am ei wlad," pan y cododd Ieuan ar ei draed i'w arddel, ac y cafodd y wobr; ac arwisgwyd ef gan Angharad Llwyd, yr awdures. Yr oedd cryn awydd y pryd hwnw yn mysg Eglwyswyr, am gael dynion o dalent i'r swydd offeiriadol, a chan fod arwyddion gobeithiol ar Ieuan, rhoddwyd y cynyg o'i flaen, cyn iddo ymadael a'r Eisteddfod, ac addawyd iddo bob cynorthwy. Wedi iddo osod y cynnygiad dan sylw ei rieni, ac ymgynghori a'i gyfeillion, ymgyflwynodd i ymbarotoi ar gyfer yr alwad. Ysgrifenodd Mr. Richards o Gaerwys, lythyr iddo at ei frawd, y Parch. T. Richards, Berriew, ac aeth yntau yno. Pan yr oedd yn aros yn Berriew, cyfansoddodd ei Awdl ar "Ymweliad y Brenhin Sior â Mon," i Eisteddfod Caernarfon, yn 1821, yr hon a gollodd y wobr, am ei bod yn hwy deirgwaith na'r gofyniad hysbysedig. Tu a'r un amser, ysgrifenodd draethawd ar "Wladgarwch," i'r gystadleuaeth yn Nghaerludd, yn Rhagfyr 1821, a derbyniodd y wobr. Yn eisteddfod Aberhonddu, a gynhaliwyd yn Mis Medi 1822, efe a enillodd y wobr a roddai Syr Charles Morgan, am y chwech englyn byrfyfyr goreu ar Theophilus Jones, Hanesydd Brycheiniog. Yr oedd yn ymgeisydd ar "Forladradaeth," a enillwyd gan y Parch. S. Roberts, Llanbrynmair. Ysgrifenodd ar "Farwolaeth Syr Thomas Picton," ac "Ymadawiad Goronwy â Mon." Wedi iddo adael Berriew, aeth i Goleg St. Bees, lle yr oedd Dr. Ainger yn brif athraw, a bu yno hyd 1826, pan ddychwelodd adref i Drefriw. Cafodd gystudd trwm wedi hyn: Gwellhaodd cyn hir, a galwyd ef i Lundain i gael ei arholi o flaen esgob Caerlleon; cafodd bob cymeradwyaeth, drwy y boddlonrwydd a roddodd, gydag urddau eglwysig, a thrwydded i ddarllen y gwasanaeth Cymraeg yn St. Martin, Caerlleon. Yn Rhagfyr 1826, cafodd isberigloriaeth Christleton. Argraphodd Lyfr Hymnau Cymraeg, yn 1829; a chasgliad arall o Emynau yn y "Caniedydd Crefyddol" yn 1841. Yn Christleton hefyd y cyfansoddodd ei Awdl ar "Wledd Belsasar," yr hon a enillodd y Gadair yn Eisteddfod Freiniol Dinbych, yn 1828. Ysgrifenodd lawer i'r "Gwyliedydd," ond cafodd ymddygiad lled sarhaus yn y Golygydd, yr hyn a barai iddo ymatal rhag ysgrifenu yno mwy. Yn mis Mai, 1829, priododd â Miss Wilson, Vicar's Cross, yr hon oedd foneddiges rinweddol, gyfoethog; yr hyn a'i cododd i sefyllfa annibynol, a manteisiol i wasanaethu ei genedlaeth. Yn y flwyddyn 1830, ysgrifenodd lythyr at yr Esgobion Cymreig, yn erfyn eu nawdd a'u cefnogaeth i ddwyn allan gyhoeddiad Cymreig, o'r un natur a'r "Saturday Magazine," oedd mor dderbyniol gan y Saeson ar y pryd; a llwyddodd i gael eu caniatad, "i oddef iddo ddwyn allan y fath Gyhoeddiad, os ceid lle i ddisgwyl y byddai hyny o wir leshad." Rhaid fod goddefgarwch Ieuan yn cael ei roddi yn y prawf i'r eithaf gydag atebiad mor glaiar! Yn ganlynol i'r godd-efiad hwn, y dechreuodd gyhoeddi y "Gwladgarwr." Bu yn llafurus iawn gyda y Cyhoeddiad teilwng hwnw, am dair blynedd, pan y gorfu iddo ei drosglwyddo, wedi goddef colled arno, i Mr. Parry, Caerlleon, awdwr y "Royal Visits." Ysgrifenodd erthyglau rhagorol ar Gerddoriaeth. Yn 1838, argraphodd gasgliad o donau at wasanaeth addoliad, dan yr enw "Seraph," a dyma flaenffrwyth y cynhauaf toreithiog o donau, ydym wedi eu cael, o dymor i dymor, er hyny hyd yn awr. Yn y flwyddyn 1843, argraphodd draethawd bychan, dan yr enw, "*The Claims of the Church in North Wales*," er gwrthdystio yn erbyn uno esgobaeth Bangor â Llanelwy, trwy ddangos yr afresymoldeb o'r amcan, a'r camwri a wneid a'r genedl trwy hyny. Yr oedd yn adolygiad ar Adroddiad y dirpwywyr oedd wedi bod yn edrych dros ansawdd yr Eglwys Esgobaethol yn Nghymru. Ysgrifenodd lawer ar achosion Ymneillduaeth yn Nghymru. Pan yr oedd yn Ince, argraphodd Gasgliad o Hymnau at wasanaeth yr Eglwys; yno hefyd y cyfansoddodd ei "Bryddest ar yr Adgyfodiad," a "Hynt y Meddwyn." Enillodd hon y Gadair iddo yn Rhuddlan, yn 1850. Dichon na ysgrifenodd ddim barddoniaeth mwy yn Ince, gyda'r eithriad o'r Farwnad ar ol ei briod. Yn y flwyddyn 1844, dygodd allan o'r wasg, y gyfrol gyntaf o'r "Bibl Darluniadol." Bu Erfyl, ei gyfaill, a'i gymydog, fel yntau yn golledwr arianol yn yr anturiaeth hon. Yn niwedd y flwyddyn 1852, rhoddodd ei weinidogaeth yn Ince i fynu, mewn canlyniad i siomedigaethau, colledion, a digalondid. Ar ei ymadawiad oddi yno, dangoswydd iddo barch ymarferol, drwy gyflwyniad o flwydd-dal, o gan punt, am ei oes, am ei wasanaethgarwch yn y lle, fel dyn, fel Cristion, ac fel pregethwr. Cynnygiwyd iddo Olygiaeth Newyddiadur a gyhoeddai yr Eglwyswyr, dan yr enw "Y Cymro;" ond yr oedd y telerau ar ba rai y bwriedid iddo gael ei ddwyn yn mlaen, yn rhy anghydnaws â syniadau haelfrydig Ieuan, fel nad allai ymgymeryd a'r gwaith; a'i dystiolaeth, yn ei eiriau ef ei hun ydoedd, "Nad oedd dim yn gwneud mwy o niwaid i'r Eglwys Esgobaethol, na'r ymosodiadau a wneid yn y 'Cymro,' a chyfnodolion eraill yr Eglwys, ar Ymneillduaeth." Bu yn foddion i sefydlu Cymdeithasau Elusengar, a fu yn lles mawr yn ei gymydogaeth. Yn mis Gorphenaf 1854, symudodd o Drefriw i'r Rhyl, er cyflawni gwasanaeth is-beriglor yno, am y gyflog o bedwar ugain punt yn y flwyddyn! Y mae yn anhawdd ymatal heb arllwys teimlad o alar, neu ddigofaint, wrth adrodd ffaith fel hon; ond efallai mai gwell tewi ar y cyfan! Rhaid fod ei deimladau tyner wedi cael eu rhwygo yn ofnadwy wrth gyfarfod ag amgylchiadau o'r fath ag a grybwyllwyd. Terfynwyd ei oes weithgar, drwy anafad a gododd ar ei wegil; a bu farw, Ionawr 21, 1855, yn 60 mlwydd. Casglwyd a chyhoeddwyd ei Weithiau, yn un gyfrol hardd, gan ei Nai, Mr. W. I. Roberts (Gwilym Cowlyd), dan olygiad "Gwalchmai," yr hwn a ragflaenai y gyfrol, gyda nodiadau ar ei fywyd, a'i weithiau Llenyddol: yr hwn hefyd a sylwa fel y canlyn mewn anerchiad at y cyhoedd:—"Nid yw y Gwaith hwn yn sefyll mewn un math o angen arganmoliaeth. Y mae y wlad yn hysbys eisoes o'r rhan fwyaf o'r cynnyrchion hyn. Nid trysorau cuddiedig ydynt. Y maent y gyfrol yn drysorfa o syniadau amrywiaethol, aruchel mewn meddwl, tarawiadol mewn adroddiad, ac o'r duedd ymarferol fwyaf defnyddiol. Y maent yn gymhwys at chwaeth yr athraw, fel yr ysgolor, y

Digitized by Google

llenor mwyaf diwylliedig fel y gwledigwr mwyaf dysyml. Nid oes yma yr un penill o duedd i lygru archwaeth, ond yn hytrach i buro y fynwes; y maent y pethau y dymunai rhieni eu gweled yn nwylaw eu plant, a'r meistri dan sylw eu gweision. Y mae y cyfan wedi eu hysgrifenu yn y dull mwyaf naturiol, ac yn yr ieithwedd fwyaf dillyn; y mae pob llinell yn esmwyth, ac heb arwyddion egni na gorchest yn ei ffurfiad. Dylifiad naturiol, cronfa eang enaid cyfoethog, ydyw y Gwaith, wedi ei amcanu er adeiladaeth pob darllenydd; er gwneuthur oriau hamddenol yr amaethwr yn ddifyrus, ar ol llafur y dydd ar y dyffryn gyda'r wedd; ac adloni y cloddiwr diwyd, wedi dychwel o'r mynydd oddiwrth ei orchwyl dybryd gyda'r ebill yn y graig; yn gystal ag i sirioli meddwl y masnachwr pryderus, wedi cau ei faelfa yn yr hwyr, er adnewyddiad i'w deimladau, ar ol gofid a blinder y dydd!" Fel bardd, yr oedd Ieuan Glan Geirionydd yn eglur, coeth, dillyn, darluniadol, ac arabaidd; yr oedd teimlad byw, yn rhedeg drwy ei holl gyfansoddiadau. Cenir ei benillion "Ar lan Iorddonen ddofn, &c.," cyhyd ag y byddo dyhewyd y Cristion Cymreig yn parhau. Gorphwysa ei ran farwol yn mynwent Trefriw, ei fro enedigol. Dynodir y lle gan feddgist brydferth, o dywodfaen naddedig, gydag argraph briodol; ac y mae y Beddargraph canlynol, o gyfansoddiad Ioan Madog, yn derfyniad digon priodol i'r sylwadau hyn:—

"Fel bardd rhagorol, ddoniol Dduwinydd,
Bu'n fri i'w genedl, bu'n fawr ei gynnydd;
Ac mewn nefol swyn, fel mwyn Emynydd,
Ei ddawn ber, rywiog, wefreiddia'n broydd;
A byw yr erys fel gwych Berorydd,
A diwall hynod Feirniad a Llènydd,
A thyner wlith Awenydd,—Cymru wyl
Fydd ddagrau anwyl ar fedd Geirionydd."

**EVANS.** Parch. Evan; neu *Ieuan Brydydd Hir*, sef ei enw barddonol, wrth yr hwn yr adwaenid ef oreu gan ei gyd wladwyr, a anwyd yn Nghynhawdref, yn mhlwyf Lledrod, yn sir Aberteifi, yn y flwyddyn 1730. Derbyniodd elfenau cyntaf ei ddysgeidiaeth, yn Ysgol Ramadegol Ystrad Meurig, yn yr un sir, o dan yr athraw enwog, a sylfaenydd yr athrofa honno, Mr. Edward Richard, awdwr y "Caniadau Bugeiliol," yr hwn a fu yn athraw am lawer o flynyddoedd yno. Oddiyma symudwyd ef i Goleg Merton, Rhydychain, yn 1751. Wedi gadael y brifysgol, bu yn gwasanaethu fel curad, mewn amryw leoedd olynol, megis Towyn, yn Sir Feirionydd; Llanberis a Llanllechid yn Sir Gaernarfon; a Llanfair Talhaiarn, yn Sir Ddinbach. Dangosodd yn foreu ymlyniad wrth yr awen, a hynafiaethau ei wlad, yr hyn a dynodd sylw prif lenorion a gwladgarwyr y Dywysogaeth yn yr oes honno. Yr oedd yn berchen ar etifeddiaeth fechan yn Sir Aberteifi, yr hon a drosglwyddodd i frawd ieuengach, er mwyn iddo gael modd i'w gynal ei hun yn y brif-ysgol. Daeth yn fuan i adnabyddiaeth a'r bardd gwladgarol, Lewis Morris o Fon yr hwn a goleddai syniadau uchel am ei alluoedd a'i Ganiadau. Defnyddiodd ei holl dalentau mawrion i goleddu a myfyrio llenyddiaeth Gymreig; ac i'r dyben hwnw, ymwelodd a'r rhan amlaf o lyfrgelloedd Cymru, lle y deallai fod ynddynt law-ysgrifau; a threuliodd lawer o amser i adysgrifenu lluaws o hen gofnodau Cymreig. Bu am amser yn derbyn blwydd-dalion bychain, oddiwrth Syr Watkin Williams Wyn, a'r Dr. Warren, esgob Bangor, i'r dyben o'i gynorthwyo i fyned yn mlaen gyda y llafur hwnw. Yn y flwyddyn 1764, argraphodd gyfrol bedwarplyg o hen Ganiadau Cymreig, gyda chyfieithiadau i'r Lladinaeg; a Rhagymadrodd dysgedig: galwai y gwaith, "*Dissertatio de Bardis.*" Dyrchafodd y gwaith hwn ef yn uchel, fel hynafieithydd, a beirniad; ac o hwn y cafodd *Grey* sylwedd rhai o'i Ganiadau mwyaf rhagorol. Y mae y Gwaith yn gynwysedig o dair rhan; Y rhan gyntaf yn Saesonaeg; yr ail yn Lladin; a'r drydedd yn Gymraeg. Y mae dalen-enw yn blaenori pob rhan, neu ddosparth. Y gyntaf yw y Saesoneg, yr hon yw rhagddalen yr holl gyfrol: Fel hyn y dynodir y Llyfr:—"*Some Specimens of the Poetry of the Antient Welsh Bards: translated into English, with Explanatory Notes on the Historical Passages, and a short account of Men and Places mentioned by the Bards, in order to give the Curious some Idea of the Taste and Sentiments of our Ancestors, and their manner of Writing.*" Dechreu y Lladin ar dudalen 60; a rhag-ddalen y rhan hono sydd fel y canlyn—"*De Bardis Dissertatio; in qua nonnulla quæ ad eorum antiquitatem et munus respiciunt, et ad præcipuos qui in Cambria floruerant breviter discutiuntur.*" Gelwir yr holl lyfr yn gyffredin, wrth yr enw Lladin hwn. Dechreu y Gymraeg ar dudalen 95, a rhed yr enwad fel hyn—"Ychydig Awdlau o waith yr hen Feirdd, yn amser Tywysogion Cymru, wedi eu cyfieithu i'r Saesoneg; er mwyn dangos ansawdd ein Prydyddiaeth i wŷr cywraint, dysgedig, anghyfiaith; a nodau byrion i eglurhau enwau Dynion, a Lleoedd, a grybwyllir ynddynt; a hanes byr o honynt, wedi ei gasglu allan o Drioedd Ynys Prydain, a hen Goffadwriaethau eraill; er dywenydd i'r oes hon, ac er adfer ei haeddedigawl barch, i'r hen famiaith Gymraeg, ac i'w gwlad; a'u dyledus glod i'w thrigolion dewrwych gynt." Nid oes argrapheb ond i'r tu dalen cyntaf yn unig. Y drydedd ran a gynwys yr Awdlau gwreiddiol; yn y rhan gyntaf, ceir cyfieithiad Saesoneg o honynt; ar ail ran, neu y dosparth Lladin, sy draethawd yn nghylch yr hen feirdd, a'u barddoniaeth. Cyfieithodd a chyhoeddodd dair Pregeth, o waith Job Orton, am "Fuddiol wrandawiad y Gair; uno mewn Gweddi; a Chanu a Molianu Duw, &c." Cyfieithodd a chyhoeddodd "Gasgliad o Bregethau, ar y Pynciau mwyaf sylweddol, mewn perthynas i Fuchedd ac Ymarweddiad Cristionogion." At ba rai y chwanegwyd "Anerch i Benteulu, yn nghylch y Ddyledswydd bwysfawr o Addoliad Teuluaidd, gan Dr. Doddridge." Ni enwir yr awduron eraill, ond dywedir eu bod y rhai goreu yn Saesoneg. Y mae yn ddwy gyfrol. Y mae rhagddalen i'r ail, yn hollol yn yr un geiriau. Dyma y Gwaith cyntaf erioed a gyhoeddwyd yn gyfrolau yn Gymraeg. Y mae yn nechreu y gyntaf, lythyr Seisonaeg o gyflwyniad y Prydydd Hir at Syr W. W. Wyn, yr hwn sy ddernyn cywrain iawn; ac nid yw ryfedd na chafodd yr awdwr godiad yn yr Eglwys, fel y mae yn ceryddu mawrion ac urddasolion Seisonig yr Eglwys Sefydledig yn Nghymru. Y mae yr un dull yn cael ei gymeryd yn ei Anerch at y Darllenydd, yn Gymraeg. Cynwysa y gyfrol gyntaf, un ar bymtheg o Bregethau, a'r ail, ddeuddeg. Yr "Anerch i Benteulu;" "Gweddiau;" "Anghwanegiad, sef dwy bennod o Englynion, gyda mynegiad mai ef ei hun a'u cant." Y mae hefyd "Rybydd i'r Darllenydd," yr hwn a gynwys Sylwadau rhagorol ar Orgraph y Bibl Cymraeg. Dywed fel hyn am

Digitized by Google

un o'r Argraphiadau o'r Bibl—"Ond y mae bai arall sydd waeth na'r cwbl a grybwyllwyd, sef yn *ynghynor, ynghynulleidfa, yngolwg*, ysgrifenu *yng nghyngor, yng nghynulleidfa, yng ngolwg*—ag sydd yn argraphiadau y Bibl Cyssegrlan, drwy newidio ag anffurfio enwau dynion, a lleoedd, drwy holl gorph yr Ysgrythur Lan, gan daflu y llythyren *Ch* Gymraeg allan o'r geiriau hyny, lle yr oedd y Groegiaid a'r Hebreaid, yn arfer y llythyrenau *Chi*, a *Chaph* Hebraeg, ag arfer *C* yn ei lle, megis yn y geiriau canlynol, Acis, Nebucodonosor, Aristarcus, Tycicus, ac Acaia yn lle *Achis, Nebuchodonosor, Aristarchus, Tychichus*, ag *Achaia*. Chwith iawn a fyddai ysgrifenu y geiriau canlynol, Llywarch, Cynfarch, yn Gymraeg, yn Llywarc, Cynfarc. Nid llai chwithig ynteu, i'r sawl a ddeallont y iaith wreiddiol, yw troi *Achis, Nebuchodonosor, Aristarchus, Tychicus, Achaia*, yn *Acis, Nebucondonosor, Aristarcus, Tycicus* ag *Acaia*." Y mae y pum enw hyn, mewn llythyrenau Groeg gan y Prydydd Hir, ond bernir fod y llythyrenau cyffredin yn rhwyddach yma. Dywed fod y Sacson yn eu llefaru felly, a bod ein heglwyswyr Seisnig ninau yn eu dilyn, yn eu llygredig lafariad. Ychwanega yn mhellach—"Nid wyf fi yn dywedyd mo hyn, er gwarthruddo neb, o herwydd nad eill neb ond a allo. I mae genyf fi a phob gwir Gymro, ddyladwy barch a chariad i'r sawl a olygasant yr argraphiadau diweddar o'r Bibl Cyssegrlan yn Gymraeg, o herwydd eu bod yn deall iaith eu gwlad yn odidog. Ond da i gwnaethant hwy yn y peth hwn, yn fy marn i, ac i bawb a ddelo ar eu hol hwynt i olygu argraphiad yr Ysgrythur Lan, ddilyn orgraph neu ddull ysgrifeniad y dysgedig a'r parchedig esgob *Richard Parry*, a'r *Dr. Davies o Fallwyd*, yn argraphiadau y Bibl Cyssegrlan, a ddaethant allan yn y flwyddyn 1620 a 1630: gwyr a oeddynt yn deall iaith eu gwlad yn rhagorol, a chanddynt gariad i'w gwlad a'u hiaith, ag i eneidiau dynion. Nid fel y gormesiaid Seisnigaidd yn ein dyddiau drwg ni, y rhai ni fedrant, ag ni fynant, wneuthyr yr hyn a weddai i Fugeiliaid ffyddlon. Duw yn ei drugaredd a symudo ymaith ei farnedigaethau oddiarnom, ac a ganiattao i ni ganwyllbren ei air sanctaidd yn ein iaith ein hunain, ac esgobion a fedront yscrifenu, pregethu, a darllen Cymraeg." Y mae hyn yn dangos yn eglur iawn, fod gan y Prydydd Hir eiddigedd trymfrydig dros ei wlad a'i iaith. Cafodd yr anrhydedd o ohebu ar byncian llenyddol a'r Esgob Percy, yr hwn a feddyliai yn uchel iawn am ei alluoedd. Yn 1772, argraphodd Gân Saesonaeg, ar "The Love of our Country," a llawer o Ganiadau Cymreig, y rhai a argraphwyd yn y llyfr a elwir "Blodau Dyfed." Yn y flwyddyn 1776, cyhoeddodd weithiau yn ychwanegol. Rhoddodd y diweddar Paul Panton, Ysw., o'r Plas Gwyn yn Mon, flwydd-dal o ugain punt iddo, tua diwedd ei oes, ar yr amod o fod ei holl ysgrifau i gael eu trosglwyddo iddo ef wedi ei farwolaeth; o ganlyniad aeth holl Weithiau y "bardd a'r offeiriad" enwog, i lyfrgell y Plas Gwyn; ac y maent yn awr yn meddiant Barton Panton, Ysw., Gareglwyd, Caergybi. Dywedir fod Mr. Evans yn wladgarol a dyngarol, ac yn un caredig iawn, a'i fod yn meddu llawer o rinweddau arddcrchog. Bu farw yn Cynhawdref, lle y ganwyd ef, yn mis Awst, 1789. Saif ei enw eto ar restr uwchaf llenorion ein gwlad.

**EVANS**, Hugh, o swydd Faesyfed, ydoedd un o bregethwyr boreuaf y Bedyddwyr yn y parthau hyny. Ganwyd ef yn swydd Faesyfed neu ar gyffiniau swydd Amwythig; ond symudodd, pan yn lled ieuanc, i Gaerwrangon, lle yr arosodd am rai blynyddau. Tua dechreu y Rhyfel Cartrefol, efe a symudodd i Coventry, lle y cafodd eglwys o Fedyddwyr, ac yr ymunodd a hi. Tybir i hyn gymeryd lle yn 1642, neu 1643. Gwelodd yr eglwys yn fuan fod ynddo gymwysderau i bregethu yr efengyl, ac yn ol ei dymuniad, efe a lwyr ymroddodd at y gwaith. Gwyddai fod gwlad ei enedigaeth mewn cyflwr gresynus o eisieu Efengyl, a phenderfynodd gysegru ei oes at ei gwasanaeth. Dywedir bod ei gariad yn fawr at y gwirionedd, ac at y Cymry; ond cyn dechreu ar ei waith, barnodd ei gyfeillion y dylai gael ychwaneg o ddysgeidiaeth. Felly gosodwyd ef o dan hyfforddiant Jeremiah Ives, gweinidog y Bedyddwyr, yr hwn a ymenwogodd wedi hyny fel un o ddadleuwyr galluocaf ei oes. Ar ol gorphen y tymor apwyntiedig gyda Mr. Ives, gwynebodd Hugh Evans yn ffyddiog ar faes ei lafur. Cymerodd hyn le yn 1646 neu 1647, pan oedd efe tua 30ain oed. Ei fwriad wrth ddyfod i Gymru, oedd aros yn y wlad am gyfnod, ac yna dychwelyd i Loegr; ond pan ddaeth i'w fro ei hun, a dechreu bod yn llwyddianus yn swyddi Maesyfed, a Brycheiniog, i gasglu eneidiau at Grist, dymunodd y bobl dda hyny arno i aros gyda hwynt, a pharhau i lafurio yn eu plith; ac felly y gwnaeth. Llwyddodd yn fuan i gasglu cynulleidfa barchus yn Maesyfed, yr hon wedi hyny a adwaenid wrth yr enw *Eglwys y Dolau*. Yn y flwyddyn 1650, daeth y *Weithred Seneddol er lledaeniad yr Efengyl yn Nghymru*, i weithrediad; yr hon a roddai awdurdod i'r Dirprwywyr a enwir ynddi, i benodi personau cymwys i bregethu yn yr eglwysi plwyfol, i gynulleidfaoedd sefydlog, ac yn bregethwyr teithiol ar hyd y wlad. Ymddengys fod Hugh Evans wedi gosod ei hun o dan nawdd y cyfryw ddirprwywyr, ac yn derbyn rhyw gymaint o gyflog ganddynt, am bregethu yn swyddi Maesyfed, a Brycheiniog. Cyhudda Walker ef o dderbyn tal yn y ddwy Swydd uchod; ond nid oedd dim yn afreolaidd yn hyny, gan nad oedd y gyfraith yn ei wahardd, a chan ei fod yntau yn llafurio yn y ddwy Swydd. Tybia Dr. Richards o Lynn, mai efe a fedyddiodd yr enwog Vavasor Powel, yn nghyda rhai pregethwyr eraill; a bod ei eglwys yn gyfansodedig o Fedyddwyr yn unig. Bu farw yn 1656. Yn ei oes fer, cafodd lawer o flinderau, a hyny yn benaf oddiwrth y bobl a elwir Crynwyr, y rhai oeddynt dra ffyrnig yn eu hymosodiadau ar y Bedyddwyr yn y parthau hyny. Gyda'i fod wedi marw, cyhoeddodd un o honynt, o'r enw John Moon, lyfryn cableddus yn ei erbyn, gan ei ddifenwi yn "Offeiriad dall o Gymru, yn Swydd Faesyfed," &c.; ond amddiffynwyd ef yn alluog gan ddau o'i frodyr, sef John Price, o Faesygelli,—ei gyd-lafurwr yn y weinidogaeth, a William Bound, o'r Garth, swydd Drefaldwyn; mewn llyfryn a gyhoeddasant yn 1658; ac megys y mae cynddaredd dyn yn cael ei oruwch-lywodraethu yn fynych i foliannu Duw, felly y bu yr ymosodiad uchod ar gymeriad Hugh Evans, yn foddion i drosglwyddo ei enw da, a'i rinweddau, i lawr i afael hanesyddiaeth; gan mai o'r atebiad i'r cyfryw ymosodiad y casglodd Joshua Thomas bron gymaint o hanes Hugh Evans ag sydd ar gael.

**EVANS**, Hugh, M.A., athraw coleg y Bedyddwyr yn Mrystau, a gweinidog eglwys *Broadmead*, a anwyd yn ardal y Pentref-Newydd, Swydd Faesyfed,

Digitized by Google

yn y flwyddyn 1712. Mab ydoedd i Caleb Evans, gweinidog y Bedyddwyr yn y Pentref, ac wyr i Thomas Evans, gweinidog cyntaf yr eglwys hono. Ei fam oedd Hannah, merch Hugh Lewis o Olchon, yr hon a fu farw ar ei enedigaeth. Galwyd ef yn Hugh er mwyn ei daid, ac er coffadwriaeth am Hugh Evans, swydd Faesyfed. Derbyniodd elfenau ei addysg, o dan Mr. Price, Llwynllwyd, gweinidog Maesyronen, yr hwn oedd yn cadw ysgol fawr yno yn yr amser hwnw.

Pan tua deunaw oed, aeth i ymweled a'i fodryb, Mrs. Mary Evans, i Brystau; ac ar y 7fed o Awst, 1730, bedyddiwyd ef yn Bedminster, gan Bernard Foskett. Dechreuodd bregethu yn fuan. Yn 1735, cafodd alwad daer gan yr eglwys yn Little Wild Street, Llundain, i fod yn olynydd i'r enwog William Arnold, a chafodd alwad hefyd i Exeter; ond yn Mrystau yr oedd Rhagluniaeth wedi trefnu lle ei breswylfod, a maes penaf ei lafur. Felly ar y 7fed o Chwefror, 1740, neillduwyd ef yn gynorthwywr i Foskett yn eglwys *Broadmead*, a dan yr enw "Henadur llywodraethol, a Dysgawdwr;" a chydweithiai hefyd a Foskett, yn nygiad yn mlaen yr athrofa fechan oedd yno, yn yr hon y cyfranwyd addysg i ugeiniau o ymgeiswyr ieuainc am y weinidogaeth yn Nghymru a Lloegr, cyn bod y *Bristol Education Society* wedi ei sefydlu. Byddai Hugh Evans yn arfer dyfod i Gymanfa yr enwad yn Nghymru, bron bob yn ail flwyddyn yn rheolaidd, drwy ystod ei oes, ac o Gymanfa Rhydgwilym yn 1736, hyd Gymanfa Caerlleon yn 1777, yr ydym yn cael ei enw *ddwy arbymtheg* o weithiau yn mhlith pregethwyr y Gymanfa. Cawn amryw gofnodau parchus am dano yn y *Broadmead Records*, yr olaf o ba rai yw, "Mae yr 28ain o Fawrth, 1781, wedi ei wneyd yn gofiadwy trwy farwolaeth y gweinidog, Hugh Evans, yr hwn am haner can' mlynedd, a fu yn aelod o'r eglwys, ac am saith a deugain yn ddysgawdwr iddi. Bu farw o adfeilion araf henaint, a gadawodd ar ei ol goffadwriaeth o anfarwol werth."—*Broad. Rec.* tud. 312.

Bu yn briod ddwywaith; y tro cyntaf gyda Sarah Brown, merch un o'r diaconiaid, o'r hon y ganwyd iddo Caleb, sef y Dr. Caleb Evans, ei olynydd; a'r ail dro gydag Ann Brain, yr hon hefyd a'i rhagflaenodd ef o bedair blynedd. Mae amryw bregethau unigol o'i waith wedi eu cyhoeddi.

**EVANS**, John, M.A., ser-ddewin, a chymeriad hynod yn amser y frenines Elizabeth ac Iago I., a anwyd yn mhlwyf Llangelynyn, Meirion. Derbyniodd ei addysg yn Rhydychain, a bu yn gurad ac yn cadw ysgol yn Enfield, swydd Stafford, o'r hwn le cafodd ei droi ymaith oblegyd gwall ymddygiad. Aeth oddi yno i Lundain, lle yr enillodd enw yn fuan fel dewin, a gwneuthurwr almanaciau; ac yn yr almanac am 1613, ceir epistol Lladin, yn ei gyflwyno i nawdd a ffafr esgob Worcester!

**EVANS**, John, D.D., prelad enwog, oedd frodor o Swydd Gaer-yn-arfon, ac a anwyd yn y Plas Du, yn mhlwyf Llanarmon, Eifionydd. Cafodd ei addysg athrofaol yn Ngholeg yr Iesu, Rhydychain, lle y cymerodd ei urddau. Efe a anrhydeddwyd yn lled ieuanc â pheriglotiaeth Llanaelhaiarn, yn ei Sir enedigol; a chyssegrwyd ef yn Esgob Bangor, Ionawr 4, 1701. Yn y flwyddyn 1715, efe a symudwyd i esgobaeth Meath, yn yr Iwerddon. Gyd a'i fod yn dechreu yn ei esgobaeth newydd, efe a roddodd brofion o'i fŵriad i gynal i fynu ddysgyblaeth yr eglwys, yr hyn a'i gwnaeth ef yn agored i lawer o flinder oddiwrth y Deon Swift; ac y mae ei Lythyrau at yr Esgob, i'w gweled yn ei Weithiau argraffedig. Er yr holl ogan gwawdlym a roddai Deon Swift iddo, fe'i crybwyllir gyda pharch mawr gan gydoeswyr enwog eraill. Efe a fu farw yn mis Mawrth, 1724; a chyssegrodd ei feddiannau, ar ei farwolaeth, megys y gwnelsai yn ei fywyd, at wasanaeth yr Eglwys, yn gystal yn Lloegr ac Iwerddon. Efe a gymun-roddodd ei ettifeddiaeth bersonol tuag at adeiladu tŷ yn Ardbraccan—at brynu tir at wasanaeth periglor Llanaelhaiarn, yn esgobaeth Bangor —at brynu llan-diroedd (*glebes*), a degymau neillduedig, er buddiant clerigwyr angenus yn Lloegr,—a thuag at brynu llan-diroedd, a degymau neillduedig, er cynnysgaeddu amryfal eglwysi yn esgobaeth Meath, yn Iwerddon.

**EVANS**, John, o'r Bala. Ganwyd y gwr hwn mewn lle a elwir Glan yr afon, yn mhlwyf Gwrecsham, Sir Ddinbach, ar y 30ain o Hydref, 1723. Enwau ei rïeni oeddynt William, ac Ann Evans, y rhai a symudasant i fyw i Adwy'r Clawdd, pan oedd eu mab John, tua 4 blwydd oed. Er nad oedd ei rïeni yn meddu llawer o gyfoeth, yr oeddynt yn weddol o gysurus eu hamgylchiadau, ac yn hynod o barchus yn mysg eu cydnabod, fel rhai tra gonest a geirwir. Ni wyddom pa faint o fanteision addysg a gafodd John Evans yn ei ieuenctyd; ond arferai ddywedyd ei hun, i'w rïeni ei roddi yn yr Ysgol pan yn dra ieuanc, ac ymddengys ei fod yn ddysgwr cyflym, yn gymaint a'i fod yn alluog i ddarllen ei Feibl Cymraeg, a Saes'neg, pan oddeutu naw mlwydd oed. Pan ydoedd yn nghylch deng mlwydd oed, teimlai hyfrydwch mawr wrth ddarllen y rhanau hanesyddol o'r Beibl, ac arferai fyned i dai y cymydogion gyd a'r nos, i adrodd o'i gof, yr hanes am Noa, a'r dylif,—am Abraham ffyddlawn yn myned o'i wlad,—am Joseph yn cael ei werthu gan ei frodyr,—mynediad Israel trŵy y Mor Côch, &c. Ond, fel y cynnyddai mewn oedran, collai ei flas ar y Beibl, a denid ei feddwl gan chwareuyddiaethau ei gyfoedion; ac er holl ymdrech ei fam i'w gadw ar ffyrdd rhinwedd a moesoldeb, ni's gallai ei attal i ddylyn cymdeithion llygredig ac annuwiol, yn eu chwareuon a'u campau ofer ar ddydd yr Arglwydd. Eto nid oedd ei gydwybod yn dawel, hyd yn nod yn yr adeg foreuol hono ar ei einioes; ac wedi treulio y Sabbath mewn oferedd felly, byddai ei feddwl ar gael ei lethu gan ofn marw, a dychrynfeydd y farn a fydd. Pan oedd efe rhwng deuddeg a thair ar ddeg oed, fe'i rhoddwyd yn freint-was i ddysgu celfyddyd gwehydd; ond yn fuan, cyfododd awydd arno am fyned i waith plwm oedd yn y gymmydogaeth; ac wedi myned i'r Gwaith hwnw, ac ymgymmysgu a'r mwnwyr annuwiol a halogedig, oeddynt yn gweithio yno, efe a gollodd bob argraff grefyddol oddi ar ei feddwl, bron yn llwyr; a chyfododd awydd cryf yn ei feddwl am fyned i Loegr, er mwyn gweled digon o'r byd a'i helyntion: ond, trwy amgylchiadau annysgwyliadwy a dyeithr, fe'i harweiniwyd gan Ragluniaeth i dref y Bala, lle yr agorwyd ei lygaid am ei gyflwr ysbrydol, ac am drefn rasol Duw i gadw pechaduriaid. Yn y flwyddyn 1744, efe a brïododd a Margaret, ferch i Morus ab Robert, yr hwn oedd yn aelod gyd a'r Ymneillduwyr Presbyteraidd yn y Bala, i'r rhai y gweinidogaethid yn achlysurol ar y pryd, gan weinidog o'r enw Mr. Baddy, o Ddinbach. Yr oedd Morus ab Robert yn rhagori ar ei gyfoeswyr mewn dawn a gwybodaeth grefyddol; fel y prawf y

Digitized by Google

traethawd a ysgrifenodd efe, dan yr enw "Cyngor difrifol i'r Cymry;" a'r Cywydd, a gyfansoddodd efe ar Lyn Tegid. Yr oedd ei ferch, prïod Mr. John Evans, wedi ymuno a'r ychydig Drefnyddion oeddynt yn y Bala, pan ymbrïododd ag ef; ond nid oedd ef yn aelod eglwysig gyda neb ar y pryd, er ei fod yn ddichlynaidd o ran ei fuchedd, a bod pethau crefyddol yn meddu dylanwad grymus ar ei feddwl. Wedi prïodi o hono, efe a ddechreuodd fyned i wrando ar y Trefnyddion Calfinaidd yn pregethu. Ar y Sulgwyn yn y flwyddyn 1745, bu oedfa ryfedd yn y Bala, "tebyg mewn rhyw fesur" medd efe, i hono yn Jerusalem, ar y Sulgwyn, ddau gant ar bymtheg, a mwy, o flyneddoedd o'i blaen; ac yn y cyfarfod hwnw y cafodd John Evans ei lwyr argyhoeddi, fel y llwyr ymroddodd yn y canlyniad, i fod yn ddysgybl i'r Arglwydd Iesu: ond ni ddechreuodd ar y gorchwyl o bregethu am ugain mlynedd wedi ei dröedigaeth. Pa fodd bynag, tu a'r pryd hyny, meddyliodd y brodyr yn y Bala fod ynddo gymhwysder i'r gwaith, a chymellasant ef yn daer i ddechreu arno. Wedi iddo ddechreu pregethu, neu "gynghori," fel ei gelwid, efe a fu yn dra diwyd yn y gwaith, yn enwedig ar y Sabbathau, gan fyned i gonglau tywyll yr ardaloedd cymmydogaethol, i draethu yr Efengyl; ac yr oedd purdeb ei athrawiaeth, a'i ymarweddiad diargyhoedd, fel halen yn halltu llygredigaethau yr oes, i ba le bynag yr elai. Dyoddefodd John Evans lawer o erledigaethau creulawn oblegyd ei grefydd; a gorfu iddo ffoi am ei einioes lawer gwaith o'r manau hyny y byddai wedi myned iddynt i bregethu, yn herwydd creulondeb gelynion y gwirionedd. I'r dyben o gael gwared o hono o'r wlad, ymgyngrheiriodd rhai o foneddigion y Bala i'w orfodi i'r fyddin, trwy ei wneyd yn filwr yn ngwasanaeth y brenin. Gorfu iddo ffoi o'i dŷ unwaith yn herwydd hyny; ac mewn cae ŷd yn mhlwyf Llanycil, y bu yn ymlochesu rhag ei erlidwyr. Fel yr oedd unwaith yn myned yn fyfyrgar trwy un o heolydd y Bala, tarawodd un o'i elynion ef â chareg, nes tyllu ei wefus, a thori un o'i ddannedd, a syrthiodd yntau i lewyg ar y pryd. Daeth wedi hyny i wybod pwy oedd ei darawydd; ond yn lle ei gosbi, pan gyfarfu âg ef yn y Bettws Gwerfyl Goch, heb arian yn ei logell, efe a dalodd am giniaw iddo. O ran y dyn oddiallan, yr oedd John Evans o ymddangosiad mawreddog a pharchus; yn meddu llygaid bywiog a threiddgar, ac yn wastad yn llân a thrwsiadus; ac yr oedd ei wybodaeth gyffredinol, mewn llenyddiaeth, hanesyddiaeth, daearyddiaeth, ac yn enwedig mewn duwinyddiaeth, yn llawer helaethach na nemawr yn ei oes, o'i fanteision ef. Teithiodd lawer trwy wahanol Siroedd Cymru, i bregethu yr efengyl i'w gydwladwyr, a rhoddid derbyniad croesawus iddo yn mhob lle gan y rhai a hoffent glywed geiriau gwirionedd a sobrwydd. Ei brif ymdrech wrth bregethu, oedd goleuo deall y rhai a wrandawent arno, dangos iddynt eu cyflwr truenus wrth natur, a'u harwain at groes Crist, i gael ymwared a'u pechodau, a gorphwysfa i'w heneidiau. Fel pregethwr, yr oedd yn bwyllog, arafaidd, a synhwyrol; ac ymdrechai bob amser i fod ar ganol llwybr gwirionedd, gan ochel dychymygion di sail, ac ofer-siarad. Bu y gwr da hwn fyw yn dduwiol, a ffyddlawn yn llafur yr efengyl; a bu farw mewn tangnefedd, a chafodd fynediad helaeth i mewn i lawenydd ei Arglwydd, Awst 12fed, 1817, pan ar fin 94 mlwydd oed, wedi bod yn was ffyddlawn i Grist yn mysg y Trefnyddion Calfinaidd, am ddeuddeng mlynedd a thri ugain, ac yn pregethu am ddeuddeng mlynedd a deugain. Claddwyd ei ran farwol yn mynwent Llan y cil, gerllaw y Bala.

**EVANS**, John, ydoedd wr ieuanc o ysbryd anturiaethus, yr hwn oedd frodor o gymmydogaeth y Waen Fawr, Arfon. Tu a'r flwyddyn 1790, efe a aeth i'r Amerig, gyd a'r amcan o wneyd ymchwiliad am yr Indiaid Cymreig, neu, hiliogaeth Madawg ab Owain a'i ganlynwyr. Wedi myned trwy lawer o anhawsderau, ac ymwthio yn mlaen tua 1300 o filldiroedd gyd a'r afon Missouri, gorfu iddo ddychwelyd yn ol i St. Louis gyd â'r afon Mississippi. Y penllywydd yno a'i hanogai i wneyd ail gynnyg, gyda chynnorthwywyr; a phob darpariadau angenrheidiol er gwneyd darganfyddiadau; ond, yn anffodus, bu John Evans farw yno o dwymyn, yn y flwyddyn 1797, pan oedd yr holl barottoadau at yr anturiaeth wedi eu gwneyd. Y mae y ffaith o ymfudiad Madoc ab Owain i'r byd gorllewinol, yn cael ei hammeu, os nad ei gwadu yn benderfynol, gan y rhan fwyaf o Haneswyr Cymru yn bresenol.

**EVANS**, John, LL.D., golygydd y "*Cambro-British Biography*," &c., ydoedd un o gyff hynod yr Evansiaid; disgynai yn y bedwaredd radd o Thomas Evans y Pentref. Ganwyd ef yn Brynbyga (Usk), swydd Fynwy, yn y flwyddyn 1767. Dechreuodd bregethu yn Mrystau yn 1784, lle yr oedd yn y coleg gyda Dr. Evans a Robert Hall. Yn 1787, aeth i brifysgol Aberdeen; ac yn 1790, i brifysgol Edinburgh, lle y graddiwyd ef yn M.A. Tua 1792, derbyniodd alwad eglwys y Bedyddwyr Cyffredinol yn Worship Street, Llundain. Tua 1796, agorodd athrofa yn Islington ar gyfer nifer benodol o bobl ieuainc, a daeth yn dra enwog fel athraw ieuenctyd. Yn 1815, cafodd afiechyd yr hwn a ddiffrwythodd ei goesau am weddill ei oes; ond parhaodd i bregethu yn dderbyniol a llwyddianus hyd ychydig wythnosau i'w farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Ionawr 25, 1827. Ysgrifenodd amryw o lyfrau lled ddarllenadwy, megys "*Sketch of the Denominations of the Christian World*," 1795; "*Memoirs of the Life and Writings of William Richards, LL.D.*," 1819; "*The Welsh Nonconformist's Memorial, or Cambro-British Biography, &c., by the late Rev. William Richards, LL.D., edited with notes and illustrations*," 1820; "*Progress of Human Life, or the Seven Ages of Man;*" "*The Christianity of the New Testament impregnable and imperishable,*" &c. &c.

Yr oedd yn ysgolor gwŷch, yn bregethwr hyawdl, yn ysgrifenwr poblogaidd, ac yn gymeriad moesol uchel. Anrhydeddwyd ef yn 1819, a'r radd o LL.D. gan un o brif-ysgolion America.

**EVANS**, John, Llwyn ffortun, pregethwr tra phoblogaidd yn Nghyfundeb y Trefnyddion Calfinaidd. Efe a anwyd yn mis Hydref, 1779, mewn ammaethdy o'r enw Cwm Gwen, ger Pencadair, yn mhlwyf Llanfihangel ar arth, Swydd Gaerfyrddin, Deheudir Cymru. Yr oedd ei dad yn ddiacon yn yr hen Eglwys gynnulleidfaol yn Mhen cadair, a'i fam yn aelod o'r un eglwys. Yr oedd ei fam yn ddynes dduwiol iawn o'i mebyd, ac yn hynod o gyfarwydd yn yr Ysgrythyrau; a chafodd y fraint o ddwyn i fynu blentyn yn mhen ei ffordd, a drodd allan yn un o'r dynion rhagoraf, a hynottaf a fu erïoed yn Nghymru. Mynych y byddai yn ei gymeryd

gerfydd ei law pan oedd yn fachgen tra ieuanc, i'r ystafell ddirgel, ac yno yn gweddïo drosto yn daer a difrifol, gan ei gyflwyno i'r hwn a ddywedodd, "Gadewch i blant bychain ddyfod attaf fi," &c. Y mae yn ddiamheuol fod gweddïau dwysion ei fam dduwiol drosto, a'i chyngorion difrifol iddo, wedi cynnyrchu ynddo yn nyddiau ei ieuenctyd, y difrifwch hwnw, a danbeidiai yn ei lygaid a'i bregethau trwy ei oes ddefnyddiol. Yr oedd y pethau pur yr ymhyfrydai ei fam ynddynt, wedi meddiannu ei feddwl yntau o'i ieuenctyd, fel na's gallai fwynhau cymdeithas plant anystyriol a di feddwl. Heblaw yr addysg a roddes ei fam iddo, efe a fu dan athrawon dysgedig eraill, y rhai a ddygasid i fynu yn y prif athrofeydd, a dysgodd y Lladinaeg, y Groeg, a'r Hebraeg, yn lled drwyadl, yn benaf dan hyfforddiad Mr. Jones Maesnoni, yr hwn oedd yn ysgolhaig gwÿch, ac yn ddyn o deimladau crefyddol, ac o ymarweddiad duwiol; ac i'r hwn y meddai Mr. Evans barch mawr: ond y mae yn ffaith led hynod, na lwyddodd yr un o'i athrawon, i gael ganddo ddysgu onid y nesaf peth i ddim o rifyddiaeth. Yr oedd ei feddwl ef yn rhÿ ehedegog i ymgartrefu gyda chelfyddydau rhif a mesur; cestyll y creigiau, a bryniau tragywyddoldeb, oedd hoff breswylfeydd ei feddyliau dyrchafedig ef; a rhodfeydd dewisedig ei ddychymyg a'i fyfyrdod ef, oedd amherodraeth fawr ac ehang y datguddiad Dwyfol.

Pan yn bedair mlwydd ar bymtheg oed, efe a anfonwyd i'r Coleg Presbyteraidd yn Nghaerfyrddin, dan lywyddiaeth y Parch. D. Peters. Dywedir fod yr Athraw Parchedig uchod wedi dyfod o hyd iddo unwaith yn pregethu yn egnïol, ond heb neb yn ei wrandaw; a dywedai wrtho, "John, John, pa le y mae y gwrandawyr?" "Nid wyf yn gwybod yn siwr, *My dear Sir*," meddai yntau, "eu colled hwy yw hyny." Yr oedd tuedd at bregethu wedi greddfu yn ei feddwl yn foreu iawn; byddai yn myned i'r maesydd yn aml, i fyfyrio, gweddïo, a phregethu, pan yn hogyn ieuanc. Bu am beth amser yn cadw ysgol yn Mhencadair, pan o bymtheg i un ar bymtheg oed; ac yn mysg eraill oeddynt dan ei addysg, yr oedd dau wr ieuanc o gyfoedion iddo, sef John Lloyd, a Thomas Davies, y rhai a arferent fyned gyd ag ef ar amserau i bregethu,—pob un yn ei gylch, a'r ddau eraill yn gwrandaw, ac yn barnu: ac o'r tri, John Lloyd a gyfrifid yr ymadroddwr goreu y pryd hyny. Tu a'r adeg hono, neu yn fuan wedi'n, aeth John Evans i ymofyn am aelodaeth eglwysig gyd a'r Trefnyddion Calfinaidd, yn nghapel Gwaunifor, pan oedd y gangen eglwys ar symmud i'r New Inn;—John Lloyd a ymunodd â'r Annibynwyr; ac efe a adweinid wedi hyny dan yr enw, y Parch. John Lloyd, o Henllan:—Thomas Davies a ymunodd â'r Bedyddwyr; ac wedi hyny gelwid ef y Parch. Thomas Davies, Argoed; a bu pob un o'r tri yn Weinidogion ffyddlawn hyd ddiwedd eu hoes.

Yn fuan wedi i Evans ymuno â'r Trefnyddion Calfinaidd, efe a symmudodd i Lanpumsaint, i gadw ysgol; ac mewn lle o'r enw "y Llain," yn agos i Lanpumsaint, y dechreuodd efe bregethu; ei destun cyntaf oedd, "Os myn neb ddyfod ar fy ol i, ymwaded âg ef ei hun," &c. Cafwyd oedfa lewyrchus, a thra dylanwadol, fel y torodd y gynnulleidfa allan i folianu Duw. Yr oedd John Evans y pryd hyn yn ddeunaw mlwydd oed. Ymledodd y son am y bregeth rymus hon i'r ardaloedd cylchynol yn fuan; a chyrhaeddodd i glustiau y frawdoliaeth yn y New Inn; fel y mynwyd addewid ganddo i fyned yno i bregethu. Erbyn iddo fyned yno yn ol ei addewid, yr oedd y Capel yn orlawn o'i hen gydnabyddion, a'i geraint; a phan welodd efe y gynnulleidfa fawr, ac yntau yn fachgenyn ieuanc, syrthiodd ofn mawr arno; a lled ddi lewyrch ydoedd arno yn pregethu yn y canlyniad; ond, ni effeithiodd hyny ddim er ei ddarostwng yn ngolwg ei wrandawyr. Yn Cydweli y pregethodd efe gyntaf mewn Cymmanfa; a phregeth rymus a dylanwadol dros ben oedd hi. Yr ydoedd pob peth angenrheidiol i wneyd dyn yn bregethwr poblogaidd, wedi cyd gyfarfod yn John Evans:—yr ydoedd o ymddangosiad hardd a boneddigaidd; a'i wynebpryd yn hawddgar, synwyrol, ac enillgar. Yr oedd ei gyfarchiad yn foesgar, serchog, a boneddigaidd; ei ymadroddiad yn llithrig, hyawdl, ac addurniadol;—ei lais yn soniarus, treiddiol, a pheraidd; a'i holl ymddygiad yn gyfryw ag i argyhoeddi pawb a'i hadwaenai, ei fod yn ofni Duw, ac yn cilio oddi wrth ddrygioni. Byddai ar brydiau, yn enwedig yn nechreu ei yrfa weinidogaethol, yn hynod o daranllyd; ond nid felly y treuliodd ei fywyd; ac yr oedd gweinidogaeth efengylaidd yn fwy cydnaws a'i ysbryd ef. Trefn rasol Duw i achub y penaf o bechaduriaid, a gweinidogaeth fawr y cymmod oedd ei hoff destunau, a sylwedd mawr ei bregethau. Yr oedd yn dra hoff am ryw yspaid ar ol dechreu pregethu, o siarad llawer am weinidogaeth angelion; pan oedd unwaith yn pregethu yn ddoniol iawn ar y pwnc yn Nghaerfyrddin, gofynodd y Parch. D. Charles iddo, "O ba le y daethoch heno, Mr. Evans bach?" "O Banc y felin, *My dear Sir*," meddai yntau. "Ho," meddai Mr. Charles, "yr oeddwn inau yn meddwl mai o'r nefoedd y daethoch."

Pan yn naw mlwydd ar hugain oed, efe a brïododd a gweddw o'r enw Mrs. Jones, oedd yn byw yn Llwyn ffortun y pryd hwnw; ac yn mhen oddeutu blwyddyn, efe a aeth i'r Eglwys Sefydledig; a chafodd ei urddo yn ddiacon, gan Dr. Watson, Esgob Llandâf. Fel prawf o'i hyddysgrwydd yn yr ieithoedd Lladin a Groeg, ceisiodd yr Esgob ganddo gyfieithu rhanau o gyfansoddiad Lladin Grotius ar "Wirionedd y Grefydd Gristionogol," a rhai adnodau o'r Testament Groeg; yr hyn a wnaeth gyda rhwyddineb mawr, ac er cyflawn foddlonrwydd i'w arglwyddiaeth. Bu yn is-beriglor yn y Mynydd islwyn am beth amser; ac wedi hyny yn y Casnewydd, Pen y bont, a Threlalas. Lle bynag y byddai Mr. Evans yn pregethu, byddai yr eglwysi bob amser yn llawnion; ond, yr oedd ei bregethau yn hytrach yn rhÿ finiog gan goeg foneddigion yr ardaloedd hyn, y rhai ni fynent yr is-beriglor Methodistaidd i bregethu iddynt; a llwyddasant i'w amddifadu o'i is-berigloriaeth. Wedi i hyn gymeryd lle, dychwelodd adref i Lwyn ffortun, lle y treuliodd ychydig amser yn ofidus ei feddwl. Pregethu oedd ei hoff waith; a byddid yn ymofyn am dano, i bregethu yn achlysurol mewn gwahanol eglwysi trwy y cymmydogaethau cylchynol; a byddai yr eglwysi yn orlawn o wrandawyr pa bryd bynag y byddai ef yn pregethu. Yn mhen rhyw ysbaid o amser, cafodd is-berigloriaeth Llanddowror; ond, nid hir y bu ei arhosiad yma ychwaith, cyn iddo dori allan i bregethu mewn llanau eraill, pa le bynag y caffai dderbyniad, neu y gelwid am dano. Cauid y llanau yn ei erbyn mewn rhai manau, a byddai yntau yn pregethu ar y bedd-feini, i dyrfaoedd lluosawg iawn.

Digitized by Google

Gwelodd Mr. Evans bellach, nad oedd iddo arhosfa faith yn yr Eglwys Esgobaethol. Yr oedd ei galon yn orlawn o awydd i bregethu Crist, nid yn unig o fewn muriau cyssegredig, ond hefyd yn mhob man y caffai bechaduriaid i wrandaw arno: felly, ar ol rhyw flwyddyn o grwydro, dychwelodd at ei hen frodyr y Trefnyddion Calfinaidd, a threuliodd weddill ei oes, yn llafurus a defnyddiol yn eu plith.

Wedi dyfod yn ol at y Trefnyddion, gwnaeth ei arhosfa yn Llwyn y ffortun, yn nyffryn prydferth y Tywi; ac oddiyma y cychwynodd i lawer taith hirfaith trwy y Dywysogaeth, i gyhoeddi goludoedd gras i bechaduriaid colledig, a pha le bynag y byddai gwybodaeth ei fod ef i bregethu, yno bob amser y cyrchai y bobl yn dorfeydd mawrion i wrandaw arno; ac anfynych yr ymadawai o un lle, heb fod yr eglwys wedi ei hadnewyddu, a phechaduriaid wedi eu deffroi i ystyried eu diwedd. Yr oedd ei hynawsedd a'i ledneisrwydd, yn peri i foneddig a gwreng ei barchu: yr oedd hyd yn nod y crwydraid iselaf yn y wlad yn ei fendithio, a pharai arglwydd Dynefor i'w gerbyd sefyll ar yr heol, er mwyn cael y fraint o ymddiddan âg Evans Llwyn ffortun. Yr oedd hefyd yn wr parchus iawn yn ngolwg Dr. Burgess, esgob Ty ddewi; ac amryw fawrion craill a ellid enwi. Yr oedd y gwahanol Enwadau crefyddol yn ei hoffi a'i barchu ef, fel pe y buasai yn perthyn iddynt hwy eu hunain: ac nid oedd dim yn rhyfedd yn hyny; canys cariad a thynerwch a lywodraethai ei fynwes ef ei hun, a'r canlyniad naturiol oedd, ei fod yntau yn derbyn hyny oddi wrth bawb arall. Pregethai yn aml yn addoldai y Cynnulleidfaolwyr a'r Bedyddwyr, a siaradai yn barchus yn wastad am danynt hwy a'u gweinidogion.

Blinid ef yn aml gan glefyd y ddueg, neu y pruddglwyf; fel y byddai yn dra anhawdd ei gael o'r gwely i fyned i'r Capel at ei gyhoeddiad. Yr oedd y clefyd hwn yn perthyn i'w henafiaid, ac yn gryf iawn yn ei gyfansoddiad yntau. Yr oedd unwaith ar foreu Sabbath, yn y gwely yn Nhŷ y Capel, wedi ei oddiweddyd gan effeithiau y clefyd hwn yn drwm. Daeth amser dechreu y cyfarfod; ond nid oedd yn ddichonadwy cael John Evans o'r gwely:—darllenwyd pennod, ac aeth un o'r brodyr i weddi; ac yn y cyfamser, aeth un o'r henuriaid ato, gan ddweyd wrtho, fod yn rhaid iddo godi oddi yno, fod y gynnulleidfa yn y Capel yn ei ddysgwyl, a'r "cwrdd" eisoes wedi dechreu. "*O, my dear Sir,*" meddai yntau, "yr wyf yn rhŷ glaf." Aeth yr hen flaenor allan o'r ystafell wely, yn methu dyfalu pa beth i'w wneyd, a dywedai ei brofedigaeth wrth forwyn y tŷ. "O," meddai hithau, "arhoswch chwi enyd fechan, a mi a baraf iddo ddyfod i'r Capel." Aeth i'r ystafell wely lle yr oedd, tynodd ei hesgidiau oddi am ei thraed, cymerodd arni ddechreu dïosg ei dillad, gan awgrymu ei bod am ddyfod ato i'r gwely; ond, ar hyny, efe a neidiodd o'r gwely, a gwisgodd ei ddillad, ac allan ag ef, gan ddywedyd, "O, yr hen fileines drythyll!" Aeth rhag blaen i'r areithfa, a phregethodd dan y fath eneiniad, nes oedd yr holl gynnulleidfa yn foddfa o ddagrau.

Unwaith yn Tal y llychau, cyn dechreu yr oedfa, galwodd ar yr hen flaenor parchus, Thomas Lewis, y Gôf, o'r neilldu, a dywedodd wrtho, "Ni's gallaf fi bregethu heddyw; y mae yn rhaid i chwi fy nghymeryd i'r carchar."—"Na, na," meddai yr hen flaenor, "Nyni a awn yno ar ol y cwrdd, Mr. Evans bach."—"A ydych chwi yn meddwl druan, mai hyny a fyddai yn oreu!" meddai yntau. "Ie, ïe," meddai yr hen flaenor.—"O'r goreu, o'r goreu," meddai yntau. Ond, er yr holl wendidau naturiol hyn, a'u cyffelyb, i bregethu yr oedd efe wedi cael ei alw; a phregethu a wnaeth drwy ei oes, â'r fath hyawdledd a dylanwad, nes synu holl Gymru; ac fel pregethwr, yr ydoedd yn meddu y prif elfenau angenrheidiol at y gwaith. Dyn dros ei Dduw oedd efe, a gwnaeth waith cenad Duw yn ffyddlawn, tra fu yn y byd.

Treuliodd flyneddoedd olaf ei oes yn y Cross Inn, lle y bu farw ei wraig gyntaf. Mewn amser, efe a brïododd eilwaith, â Miss Rachel Davies, merch Mr. J. Davies, Pentwyn, Mynydd Mawr; ac yn niwedd ei oes, efe a symmudodd o Cross Inn i Bentwyn; ond, yr oedd ei iechyd wedi adfeilio llawer erbyn hyny; fel na allodd fyned nemawr ddim oddi cartref, y flwyddyn olaf y bu efe byw; ond byddai yn myned i'r Capel y perthynai iddo, yr hwn oedd yn agos i'w breswylfod.

Dywedir ei fod wedi dewis man ei "dŷ rhagderfynedig," gan ddywedyd wrth rai o'i gyfeillion, "Cleddwch fi yn y fan hyn druain; peidiwch a'm dodi yn nes i'r mur, rhag i mi fod dan y bargod."

Pan yn son am farwolaeth brodyr enwog oeddynt wedi ei ragflaenu, dywedai, "Y maent hwy wedi myned; ac y mae yn fwy na thebyg na fyddaf finau ddim yn hir bellach. Un o'r *Winter apples* wyf fi; ond yr wyf yn dysgwyl y byddaf yn aeddfed tua Chalan gauaf, ac y cymer fy Nhad nefol fi adref ato ei hun."

Efe a fu farw Hydref 4, 1847, yn 68 mlwydd oed. Ychydig ddyddiau cyn ei farwolaeth, dywedodd wrth ei anwyl brïod, "Ni chollir ddim o honof;—na wneir, na wneir." Gofynodd hithau iddo, "A gawsoch chwi ryw ymweliad cysurus yn ddiweddar, John Evans bach?"—"Do, do," meddai yntau, a'r dagrau yn llifeirio dros ei ruddiau,—"Yr hwn sydd yn credu yn Mab Duw ni ddemnir. Ni chollwyd neb erïoed a gredodd ynddo ef. Yr wyf finnau yn credu a'm holl galon."

Fel hyn mewn ffydd y bu efe farw, fel y patriarchiaid gynt; ac efe a aeth i dangnefedd, a'i bwys ar ei Anwylyd.

**EVANS**, Lewis, a anwyd yn swydd Fynwy tua dechreu yr 16eg ganrif. Wedi derbyn ei addysg yn Rhydychain, ymsefydlod yn Llundain, lle yr erlidiwyd ef yn chwerw oblegyd ei sel dros Babyddiaeth, ac y gorfu iddo ffoi i Antwerp. Yno yn 1566, efe a gyfieithodd o'r Lladin i'r Saesneg lyfr o waith Esgob Rurimund yn Gelderland, yn 1565, yn erbyn y rhai a alwai ef yn Hereticiaid. Cymodwyd ef ag eglwys Loegr wedi hyny, ac yn 1568, efe a gyhoeddodd "The Castle of Christianitie, &c.," i ddynoethi Pabyddiaeth. Yn 1570, efe a gyhoeddodd lyfr arall,—"The hateful hypocrisy and rebellion of Romish Prelates." Bu wedi hyn yn cadw ysgol, a dygodd allan argraffiad newydd o "*A short Dictionary for Young Beginners.*"—Ni wyddis pa bryd y bu farw, ond yr oedd yn fyw yn 1573.—Wood's *Athen. Oxon.*

**EVANS**, Samuel, awdwr y *Gomerydd*, a anwyd mewn ty o'r enw Llwyn y Piod, ger St. Clears, swydd Gaerfyrddin, yn 1793. Yn 1807, rhwymwyd ef yn brentis o argraffydd gyda Mr. Evans, Caerfyrddin. Yn 1825, ar ol marwolaeth "Gomer," symudwyd swyddfa y *Seren* o Abertawe i Gaerfyrddin, ac ar Samuel Evans yn ymarferol y syrth-

Digitized by Google

iodd pwys ei golygyddiaeth; er mai D. D. Evans oedd y golygydd mewn enw. Yn 1839, cyhoeddodd argraffiad diwygiedig rhagorol o Eiriadur y Dr. Richards o Lynn. Yn 1840, penodwyd ef gan Gymdeithas Gymreigyddol y Fenni yn un o Bump o Lenorion, i sefydlu Llythyreniaeth y Gymraeg. Wedi symudiad *Seren Gomer* o swyddfa Caerfyrddin, bu yn golygu *Seren Cymru*, yn yr hon y cyhoeddodd gyfres o lythyrau galluog ar Lythyreniaeth y Gymraeg; y rhai yn 1854, a gyhoeddodd efe yn llyfryn dan yr enw "Gomerydd;" ac efe, yn ddiau, yw y peth goreu a feddwn ar orgraff ein hiaith. Yn 1852, efe a symudodd i swyddfa William Owen, i Gaerdydd, lle bu yn golygu y *Bedyddiwr*, a chyfieithu Esboniad Dr. Gill i'r Gymraeg, hyd ei farwolaeth, Awst 30, 1856, pan yn 63 oed. Yr oedd Samuel Evans yn ddyn o gymeriad dichlynaidd, ac yn aelod gyda'r Bedyddwyr; fel ysgolor Cymreig nid oedd yn ail i neb yn ei oes; ac fel golygydd ar gyhoeddiad rhyddfrydig, safai yn uwch na neb o'i gyfoeswyr.

**EVANS**, Thomas, o'r Pentref, cyff gwreiddiol yr Evansiaid ag sydd wedi bod oes ar ol oes yn weinidogion enwog gyda'r Bedyddwyr, ydoedd fab i amaethwr o'r un enw, yr hwn a drigai yn y Pentrefnewydd, plwyf Llanafan fawr, swydd Frycheiniog. Ymddengys yn dra thebyg iddo gael ei enill i'r ffydd gan yr enwog Hugh Evans, a'i fod wedi dechreu pregethu mor foreu o leiaf a 1651; oblegyd yn 1653, efe a gafodd *drwydded* i bregethu gan y Dirprwywyr, yn ol y Weithred er lledaeniad yr Efengyl yn Nghymru. Gan fod y *trwyddedau* uchod yn bethau mor brin, gosodwn yma adysgrif o'r un a dderbyniodd Thomas Evans er ei diogelu yn nglŷn a'i goffadwriaeth:—

"*By the Commission for Propagating the Gospel in Wales*:—Whereas five of the ministers in the Act of Parliament named, bearing date the 25th of February, 1649, and entitled, An Act for the better Propagation of the Gospel in Wales, have, according to the tenors of the said Act, approved of Mr. Thomas Evans, the younger, to be a person qualified for the work of the ministry: We do, according to an order to us directed by the committee of five, at *Neath*, therefore order that Mr. John Pryce, treasurer, shall forthwith pay unto the said Mr. Thomas Evans the sum of thirty pounds, which we have thought fit to allow him towards his salary, and encouragement in the work of the ministry. This our order, together with his acquittance, shall be a sufficient discharge for the said treasurer. Dated under our hands, the 16th of May, in the year of our Lord, 1653. John Williams, &c. &c."

Y lle neillduol y gosodwyd Thomas Evans ynddo gan y Dirprwywyr, oedd eglwys blwyfol Maesmynys, ger Llanfair Muallt, ond efe a lafuriai yn ddiwyd yn yr holl barthau hyny, ar y ddê a'r aswy, ac yn enwedig tua Llanigon, Golchon, a'r Gelli. Ymddengys mai efe oedd yr unig weinidog o "gysylltiad Hugh Evans," fel y gelwid Bedyddwyr y parthau hyny, a ymunodd a'r Gymanfa a ffurfiodd John Miles yn 1650. Yn Nghymanfa Aberafon yn 1654, cawn ei enw ef yn mysg eraill yn arwyddo y penderfyniadau. Gwrthododd gydymffurfio o dan ddeddf orthrymus 1662, a thröwyd ef allan o eglwys Maesmynys; bu byw drwy yr holl erlidigaeth waedlyd a barhaodd o 1662 hyd 1688, a chafodd ei ran yn helaeth o'i llymder, mae yn ddiau; canys darllenwn iddo fod yn ngharchar Aberhonddu oblegyd ei Annghydffurfiaeth, ond nis gwyddom dros ba hyd y bu yno, na pha fodd y cafodd ei ryddid, gan nad yw Dr. Calamy wedi bod yn ddigon gonest i gofnodi ei hanes ef, mwy na hanes ugeiniau o'i frodyr, er mor adnabyddus y rhaid ei fod i James Owen, yr hwn a gynysgaeddai y Presbyteriad â hanes y dyoddefwyr yn Nghymru!

Tua'r flwyddyn 1675, pan oedd tua deugain oed, efe a briododd ddynes ieuanc dduwiol o swydd Faesyfed, yr hon a adawodd ar ei ol gyda *chwech o blant bychain* yn 1688. Daeth yr amddifaid hyn (pedwar mab a dwy ferch) yn enwog mewn duwioldeb boreuol; daeth dau o honynt, Caleb a John, yn bregethwyr llafurus, ac yn olynwyr i'w tad yn eglwys y Pentref; daeth o leiaf bedwar o'i wyrion yn bregethwyr enwog, un o ba rai oedd Hugh Evans, M.A., athraw coleg y Bedyddwyr yn Mrystau; a daeth amryw iawn o'i orwyrion yn bregethwyr gyda'r Bedyddwyr yn Nghymru a Lloegr, un o ba rai oedd y Dr. John Evans, Llundain, awdwr Cofiant y Dr. Richards o Lynn. Bu naw o'i ddisgynyddion yn weinidogion yn eglwys y Pentref yn olynol, yr hyn, yn ddiau, sydd yn un o'r pethau hynotaf mewn hanesiaeth eglwysig. Y mae tair gwelygordd bregethwrol hynod yn perthyn i Fedyddwyr Cymru,—Gwelygordd y Thomasiaid o'r Ty Hen, plwyf Caio, swydd Gaerfyrddin; gwelygordd y Jonesiaid o Bentre Morgan, ger Llangollen; a gwelygordd yr Evansiaid o'r Pentrefnewydd, swydd Faesyfed.

**EWENNY**, neu Y Wenni, pentref bychan a phlwyf yn nghantref Dymor, Sir Forganwg, Deheudir Cymru, ar lan afonig fechan Y Wenni, ac ar yr hen ffordd oedd yn arwain o Benybont-ar-Ogwy i Gaerdydd. Saif o fewn rhyw ddwy filldir i'r Deheu ddwyrain wrth ddeheu o Benybont. Y mae y lle hwn wedi bod yn enwog am ganrifoedd am weithfa llestri pridd cochion, ond y mae er ys ychydig flynyddau yn ol, wedi sefyll yn lân. Mae cyfeiriad at lestri pridd Y Wenni, gan yr hen feirdd Cymreig ys mwy na thair Canrif yn ol. Ac oddiwrth y ffaith fod y llestri a wnelid yma yr un ffurf a llestri pridd Rhufeinig a gafwyd mewn lleoedd eraill, tybir gan rai fod y weithfa lestri pridd hon, yn bodoli oddiar amser y Rhufeiniaid. Yr oedd y clai yn cael ei gloddio yn y lle, yn gorwedd yn wely o ddeg i bedair troedfedd ar ddeg o drwch. Ac yr oedd digon o lô o fewn pedair milldir neu bump at yr odynau. Mae y fywioliaeth yn rhoddiad y Turbervilles, perchenogion y palasdy a'i amgylchoedd. Mae yr hen Eglwys, St. Michael, yn adeilad yn ol yr arddull Normanaidd, a thwr aruthrol o faint yn perthyn iddi. Y mae yn ffurfio rhan o'r hen Briordy Benedictaidd a sylfaenwyd yma yn fuan wedi y Gorchfygiad, gan Thomas de Londres, arglwydd Ogmôr, ac a wnaed gan Maurice de Londres yn y flwyddyn 1141, yn gafell (cell) i Fynachlog St. Pedr, yn Nghaerloyw. Ei gwerth ar lyfrau y brenin, Henry VIII., oedd 78*p*. 0*s*. 8*c*. Rhoddwyd y Priordy a'r Fynachlog i'r Dirprwywr enwog dros ddadymchweliad y Monachlogydd, Syr Edward Carne, D.C.L., a'r llys-genadwr i Rufain ar neges bwysig priodas y brenin. Daeth y lle yn ddiweddarach, trwy briodas i deulu y Turbervilles, y rhai sydd mewn meddiant presenol o hono. Y mae y gangell wedi ei defnyddio i gladdu teuluoedd y perchenogion oddiar amser y Diwygiad, ac y mae yno gôf-adeiladau hynod. Yn mysg eraill y mae yno un i goffadwriaeth Maurice de Londres. Mae yma balasdy

Digitized by Google

ardderchog yn sefyll o fewn caerau yr hen adeilad fynachaidd, mewn arddull Seisnig, ac yn un o'r palasdai goreu a fedd y sir. Y mae yma ddarnau mawrion o'r hen adfeilion cyntefig, a'r rheiny wedi eu gorchuddio ag eiddew. Nid oes llawer o flynyddoedd er pan gafwyd sêl Isabel, merch William, Iarll Caerloyw, yr hon a gafodd arglwyddiaeth Morganwg yn waddol, a'r hon a briododd y tro cyntaf a'r tywysog John, mab Henry II., a'r ail waith a Iarll Essex, a'r drydedd waith a Hubert De Burgh; cafwyd y sêl yn yr hen adfeilion eglwysig. Y mae yn gerfiedig arni, heblaw ei theitlau ei hunan, yr eiddo Iarlles Moreton, y rhai a gafodd gyda'i gwr cyntaf, yr hwn oedd yn Iarll Moreton. Y mae Eweny yn sefyll ar fangre brydferth, ar lan afon fechan yn llawn o bysgod, ar lanerch o ddaiar fras, a choedydd mawrion yn gorchuddio y palasdy, a'r eglwys. Nid oes yma ddim tai eraill o bwys. Mae yma felin flawd ar yr afon yn ymyl y bont. Ardal amaethyddol ydyw, ac nid oes yma ddim i beri cynydd neillduol yn y boblogaeth. Yr oedd yma hen gapel bychan gan y Methodistiaid er ys llawer o flynyddoedd, ond y mae hwnw er ys blwyddyn neu ddwy, wedi gorfod rhoddi lle i addoldy newydd cyfleus a phrydferth.

**EWLOE.** Gwel Eulo.

**EYTON**, trefgordd yn mhlwyf Bangor is y coed, yn nghantref Bromfield, Swydd Ddinbach, Gogledd Cymru, ar derfyn y Sir, gerllaw yr afon Dyfrdwy; 5½ milldir i'r De Ddwyrain o Wrecsham. Cyfrifir ei gwerth ardrethol yn 615*p.*; a chynwysa 47 o dai annedd, a 261 o drigolion, yn ol Deiliadeb 1861.

# F.

**FACH** (Y), treflan yn mhlwyf Llanarth, swydd Aberteifi, Deheudir Cymru, 4½ milldir i'r De Dde Orllewin o Aberaeron. Poblogaeth, 189.

**FACH WEN** (Y), capeloriaeth yn mhlwyf Llanfihangel, Swydd Drefaldwyn, Gogledd Cymru; 5½ milldir i'r De Orllewin o orsaf rheilffordd Llanfyllin. Curadiaeth barhaol ydyw y fywioliaeth eglwysig; gwerth 216*p.* yn y flwyddyn.

**FAENOL** (Y), trefgordd yn mhlwyf Llanelwy, Swydd Fflint, Gogledd Cymru. Cyfrifir ei gwerth ardrethol yn 7036*p.*, o'r hyn y mae 367*p.*, mewn mwngloddiau. Poblogaeth 209, yn ol Deiliadeb 1861.

**FAENOL** (Y), trefgordd yn mhlwyf y Towyn, Swydd Feirionydd, Gogledd Cymru, ar yr arfordir, ac yn cynwys pentref y Towyn. Cyfrifir ei gwerth ardrethol yn 3205*p.* Poblogaeth, 810.

**FAENOR** (Y), plwyf yn undeb Merthyr-Tydfil, cantref Pengelli, swydd Frycheiniog, Deheudir Cymru, 3½ milldir i'r Gogledd wrth Ddwyrain o'r Merthyr, gyda 2984 o drigolion, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae yn gorwedd ar lân y Tâf Fechan, ac y mae'r golygfeydd a geir yma yn rai dymunol iawn. Y mae ychydig blwm i'w gael yma, ac y mae yn y plwyf gyflawnder o geryg calch. Rectoriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, ac y mae yn cael ei threthu ar lyfr y frenines yn 8*p.* 3*s.* 11½*c.* Ei gwerth blynyddol yw 88*p.*, ac y mae yn nawddogaeth Tywysog Cymru. Dywed rhai fod yr eglwys wedi cael ei chyssegru i St. Gwenddolen, ac ereill mai i St. Gwenfrewi, ond i Gwynno neu Gwynnog y mae wedi ei chyssegru, un o ddysgyblion Cattwg Ddoeth, Llancarfan, yr hwn a adeiladodd yr eglwys gyntaf yma. Eglwys fechan ddiolwg ydyw'r un bresenol, ac y mae coffaen ar ei mur am hen wraig o'r enw Catherine Morgan, yr hon a welodd saith teyrnasiad olynol, ac a gladdwyd yma yn 108 mlwydd oed. Ganwyd hi yn y 3ydd flwyddyn o deyrnasiad Iago II., a chladdwyd hi yma Chwefror 23, 1794. Wedi cychwyn gwaith Merthyr, yr oedd yma fwy o gladdu nag arfer; ond yr oeddid yn gorfod gwylied y beddau am beth amser, canys yr oedd daearfoch o'r coedydd cyfagos yn aflonyddu y meirw. Y mae yma ddynion enwog wedi cael eu claddu;—megis, Mr. Thomas Evans, *Manager* Gweithiau Dowlais: Mr. Job James, meddyg, Merthyr: Mr. Hywel Rhys, &c. Dyn hynod iawn oedd Hywel Rhys: nid oedd ond amaethwr bychan ar y cyntaf: wedi hyny aeth yn wneuthurwr ceryg beddau. Yr oedd Hywel yn fardd pur ffraeth; ac yr oedd ganddo wybodaeth ëang mewn seryddiaeth, llysieuaeth, *mathematics*, ac athronyddiaeth anianyddol. Bu farw Awst 22, 1817, yn 73 mlwydd oed, ac y mae'r pennill canlynol o'i gyfansoddiad ei hunan ar ei fedd:—

'N ol ing a gwewyr angau,
I ddryllio fy mhriddellau;
Rhwng awyr, daear, dwr, a thân,
Mi ymrana'n fân ronynau.

Y mae yma hen gareg, yr hon sydd yn bost clwyd, ar yr hon y mae y gweddill canlynol o arysgrifen:—

Tir . . . . . . vs Catiri.

Nid oes dim hanes am y gareg hon, ac ni wyddys pwy oedd Catiri. Yr oedd yma gareg arall hefyd, yr hon a elwid "Croes y Faenor;" a dywed Llwyd fod yr arysgrifen ganlynol arni:—

In nomine Dei Sumni Tilus.

Barna rhai mai yr enwog Teilo Sant oedd y Tilus hwn; gan nad beth am gywirdeb y farn hono, y mae'r hen "Groes" wedi myned o'r golwg er ys blynyddau, ac nid oes neb yn gwybod beth ddaeth o honi. Y mae yma amryw garneddau ac ogofeydd bychain. Gwel Cefn coed y cymmer.

**FAENOR** (Y), trefgordd yn mhlwyf Glasgwm, cantref Colwyn, swydd Faesyfed, Deheudir Cymru, 8 milldir i'r Dwyrain o Lanfair-yn-Muallt; gyda 315 o drigolion, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae yn gorwedd rhwng bryniau Glasgwm a Bryngwyn, ac y mae nant yn rhedeg drwyddi, i'r afon Edwy. Y mae yn gwneuthur i fyny hanner y plwyf, a'r Drewern yn gwneuthur i fyny yr hanner arall. Mewn lle a elwir Bryn Bychan y mae pedair o geryg hirion wedi eu gosod yn syth yn y ddaear; y rhai, meddir, sydd yn gof-golofnau o ryw frwydr a ymladdwyd yma.

Digitized by Google

**FAENOR** (Y), trefgordd yn mhlwyf NANTMEL, cantref RHAIADR-AR-WY, swydd FAESYFED, DEHEUDIR CYMRU, gyda rhyw 400 o drigolion. Y mae yn gorwedd 3 milldir i'r Dwyrain Ogledd Ddwyrain o Raiadr, ac y mae'r boblogaeth wedi cynnyddu yn fawr yn y blyneddau diweddaf. Y mae yn sefyll mewn dyffryn yn mhen uchaf y plwyf, gerllaw tarddle y nant Dulas, yr hon sydd yn rhedeg i'r afon Ithon.

**FAENOR ISAF** (Y), trefgordd yn mhlwyf LLANBADARN-FAWR, rhanbarth isaf cantref GENAU'R GLYN, swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU, 1 milldir o dref Aberystwyth, gyda 198 o drigolion, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae yn gorwedd ar lân y môr, ac y mae yn cynnwys amryw balasau dymunol. Arglwydd y faenoriaeth yw Duc Leeds, ac yn ol hawlfraint a roddwyd iddo gan Charles I., y mae'n derbyn pum swllt y dunell am bob llongaid o lô a ddelo i mewn i Aberystwyth. Y mae rhan o'r drefgordd y tu fewn i fwrdeisdref Aberystwyth.

**FAENOR UCHAF** (Y), trefgordd arall yn mhlwyf LLANBADARN-FAWR, rhanbarth isaf cantref GENAU'R GLYN, swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU, 2 filldir i'r Dwyrain Ogledd Ddwyrain o Aberystwyth, gyda 426 o drigolion yn ol Deiliadeb 1861. Y mae parth gorllewinol y drefgordd hon bytrach yn goedog, ac y mae yma geryg sythion hen iawn. Cynnelir ysgol ddyddiol a Sabbathol yn y lle.

**FAERDREF** (Y), trefgordd yn mhlwyf Llandrillo, Swydd FEIRIONYDD, GOGLEDD CYMRU; 5½ milldir, i'r De Dde Orllewin o Gorwen. Cyfrifir ei gwerth ardrethol yn 842*p.*, a'r boblogaeth yn 217.

**FAIRDREF** (Y), treflan yn mhlwyf Llandyssul, CEREDIGION, 7½ milldir i'r Dwyrain o Gastell Newydd yn Emlyn. Poblogaeth, 356.

**FAIR-FACH** (Y), treflan yn mhlwyf Llandeilo Fawr, Swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, ar lan yr afon Towy, ac ar Reilffordd Glyn Towy, 1 filldir i'r De Dde Orllewin o Landeilo Fawr. Y mae yma orsaf ar y Rheilffordd; a chynhelir Ffair anifeiliaid yma ar yr 22ain o Dachwedd.

**FAIRWATER**, rhandir, neu *hamlet* yn mhlwyf Llandaf, Sir FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU. Mae plwyf Llandaf yn cael ei wneyd i fyny o bum *hamlet*, y rhai ydynt unedig i bob pwrpas; sef Llandaf, yn cynwys rhyw bum' cant a thriugain erw; Canton, pum' cant a phedair ar ddeg; Laulai (Ely), pedwar cant a thriugain a phedair ar ddeg; Fairwater, tri chant a phedair ar ugain; a Gabalfa, pum' cant a deg o erwi; yr oll yn gwneuthur dwy fil tri chant a phedwar ugain a chwech o erwau. (Gwel LLANDAF.)

**FARCHWEL** (Y) trefgordd yn mhlwyf GUILSFIELD, cantref POOL, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU, 4 milldir i'r Gogledd Ddwyrain o'r Trallwng (*Welshpool*); rhoddir y boblogaeth gydag un y plwyf. Y mae cangen Guilsfield o gamlas Trefaldwyn yn dechreu gerllaw yma.

**FARRINGTON**, arglwyddiaeth yn mhlwyf a bwrdeisdref KNIGHTON, swydd FAESYFED, DEHEUDIR CYMRU, 1½ milldir i'r De Ddwyrain o KNIGHTON: y mae'r boblogaeth yn cael ei chyfrif gydag eiddo trefgordd Cwm gilla. Y mae yn gorwedd ar lân yr afon Teme, ac y mae Clawdd Offa yn myned heibio i'w rhan orllewinol.

**FEDW** (Y), trefgordd yn mhlwyf Hirnant, Swydd DREFALDWYN; 6½ milldir i'r Gogledd Ogledd Orllewin o Lanfyllin. Poblogaeth, 96.

**FELINDRE** (Y), cyd-drefgordd â Gwempa, plwyf LLANGYNDEYRN, cantref CYDWELI, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, 6 milldir i'r De Dde Ddwyrain o Gaerfyrddin: rhoddir y boblogaeth gydag un y plwyf.

**FELINDRE** (Y), lle yn mharth Gogledd Orllewinol Swydd BENFRO; 5 milldir i'r Gogledd Ogledd Ddwyrain o Drefdraeth. Medda Lythyrfa dan Hwlffordd.

**FELIN-DRE** (Y), pentref yn Swydd GAERFYRDDIN; ar lan yr afon Dulas, 9½ milldir i'r Dwyrain wrth Ogledd o Gaerfyrddin.

**FELIN-DRE** (Y), lle ddwy filldir o Dref y Clawdd (*Knighton*), Swydd FAESYFED, ar derfyn Dwyreiniol Cymru; yn meddu Llythyrfa dan Dref y Clawdd, Swydd Faesyfed.

**FELIN-DRE** (Y), treflan yn mhlwyf Glasbury, Swydd FRYCHEINIOG; 4¼ milldir i'r De Orllewin o'r Gelli (*Hay*).

**FELIN-FACH**, pentref yn mhlwyf Talachddu, Swydd FRYCHEINIOG; 4¼ milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Aberhonddu.

**FELYN-DRE**, treflan yn mhlwyf Llangyndeyrn, Swydd GAERFYRDDIN; 4¼ milldir i'r De Ddwyrain o Gaerfyrddin. Pobl. 335.

**FELYNDRE**, treflan yn mhlwyf Llangwnnor, Swydd GAERFYRDDIN; un filldir i'r Dwyrain o Gaerfyrddin.

**FENEY**, treflan yn mhlwyf Abergwilli, Swydd GAERFYRDDIN; dwy filldir i'r Gogledd Ddwyrain o Gaerfyrddin. Pobl. 544.

**FENNI FACH** (Y), treflan yn mhlwyf St. Ioan, Swydd FRYCHEINIOG; yn agos i Aberhonddu. Poblogaeth, 148.

**FERRY-SIDE**, neu GLANYFFERI, pentref mawr yn mhlwyf ST. ISHMAEL, cantref CYDWELI, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, 7½ milldir i'r Dwyrain wrth Orllewin o Gaerfyrddin. Y mae yn sefyll mewn lle dymunol, bron wrth enau y Towy, ar gyfer Llanstephan, yr hwn sydd y tu arall i'r afon, yr hon a groesir yma gan fadau pwrpasol. Y mae'r tywod yma fel carped, yr awyr yn bur ac yn iachus, y cyfleusderau i ymdrochi yn dda, a'r golygfeydd o bob tu i'r Towy yn bennodol o brydferth: nid rhyfedd fod ymwelwyr yn cyrchu cymmaint i'r pentref hwn yn yr haf, a'i fod yn parhaus gynnyddu. Y mae prif-ffordd Cydweli a Chaerfyrddin yn myned drwyddo, ac y mae ynddo orsaf ar reilffordd y South Wales. Y mae cocos, berdasod, a physod ereill i'w cael yma hyd ddigon, a gwerthir hwynt yn rhesymol. Ar awgrymiad oddiwrth yr Dr. Burgess, pan oedd yn Esgob Ty Ddewi, adeiladwyd eglwys yma drwy dansgrifiad; y mae gwedi cael ei chyssegru i St. Thomas, ac agorwyd hi yn 1828. Y mae gwedi ei gwaddoli gan y Parch. Thomas Picton â 4*p.* y flwyddyn, at yr hyn yr ychwanegwyd 600*p.* o rodd freninol; ficeriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, ac y mae'n werth 23*p.* yn y flwyddyn. Y mae capel yma gan y Trefnyddion Calfinaidd, ac un arall gan y Bedyddwyr. Y mae yn y lle ysgoldy cyfleus iawn hefyd.

**FERWIG** (Y), plwyf yn rhan isaf cantref TROEDYR AUR, undeb a swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU, 2½ milldir i'r Gogledd o Aberteifi; y mae yn cynnwys 319 o drigolion, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae yn gorwedd ar lân môr St. Sior, ac y mae'r afon Teifi yn ffinio un tu iddo, yn yr hon y mae cyflawnder o bysgod yma, sef ëogiaid, &c. Ficeriaeth

Digitized by Google

ryddhäol yw y fywioliaeth eglwysig, ac y mae yn cael ei threthu ar lyfr y frenines yn 10*p*. 13*s*. 4*c*.; y mae wedi ei gwaddoli a 200*p*. o rodd freninol, ac yn nawddogaeth y Goron; gwerth blynyddol, 69*p*. Eglwys fechan hynafol sydd yma, wedi ei chysegru i Pedrog Sant; ac y mae iddi glochdy bychan hefyd, gyda bedyddfaen tra addurniadol. Y mae'r dyddiad 1627 uwchben y porth. Y mae capel yma gan y Bedyddwyr. Y mae yn yr eglwys amryw wyddfaoedd i Arglwyddi y Tywyn, y rhai oeddent yn ddiarebol am eu haelioni a'u cenedlgarwch. Y mae achau y teulu anrhydeddus hwn yn "Ngwaith Lewis Glyn Cothi," tud. 282–3. Y mae beirdd mwyaf awenfawr y cyfnod ag yr oeddent yn byw ynddo, wedi cyfansoddi llawer iddynt. Y mae Dafydd Nanmor, o Feirion, wedi cânu Cywydd ac Awdl o glod i Rys ap Maredydd; y mae hefyd wedi cânu Awdl marwnad i Thomas ap Rhys, yr hwn a fu farw yn mlodau ei ddyddiau, ac a ganlynwyd yn yr arglwyddiaeth gan ei frawd Rhydderch, i'r hwn y mae Lewis Glyn Cothi wedi cânu Awdl. Y mae Deio ap Ieuan Du hefyd, wedi cânu "Cywydd Marwnad Rhys o'r Tywyn." Ffermdy yw y Tywyn presenol sydd yma.

Tiriodd llu mawr o Fflemingiaid gerllaw yma unwaith, sef ar Draeth y Mwnt, a bu ymladd poeth iawn rhwng y brodorion a hwythau; lladdwyd yr ymosodwyr â lladdfa fawr, a chladdwyd hwynt yn y tywod ar fin y môr, lle y mae eu hesgyrn yn dyfod i'r golwg weithiau. Ymladdwyd y frwydr waedlyd hon ar y Sul cyntaf wedi'r Calan, ac am oesau buwyd yn galw y Sul hwnw, "Y Sul Coch:" y mae carnedd lled fawr ar dyddyn a elwir Crug.

**FLEMINGSTON**, neu FLIMSTON (TRE FFLEMING), plwyf yn nghantref Pontfaen, Sir Forganwg, Deheudir Cymru, pedair milldir i'r Deh. Ddwyr wrth Ddeh. o Pontfaen. Rhyw ddeugain mlynedd yn ol nid oedd poblogaeth y plwyf ond 73 o eneidiau, a chan mai ardal amaethyddol wledig ydyw, nid oes yma fawr gynydd ar y boblogaeth o hyny hyd yn awr. Dywedir fod y lle wedi cael ei enw oddiwrth ddisgynyddion Syr John Fleming, un o farchogion Fitz-Hamon, yr hwn a ymsefydlodd yn St. George, ar yr afon Lai; ac y mae, yn agos i'r fynwent, olion hen balas castellog, lle y trigai y teulu. Mae pentref bychan Tre Ffleming yn sefyll ar godiad tir, neu fryn bychan, mewn man dymunol, yn Mro frâs Morganwg, ac y mae argraph hynafol ar bob peth yma. Mae y fywioliaeth yn gysylltiedig a Llanmihangel, yn Archddiaconiaeth, ac esgobaeth Llandâf, ac wedi ei phrisio ar lyfrau y brenin i 4*p*. 18*s*. 9*c*. Y clod mwyaf cysylltiedig a Thre Ffleming yw iddo fod yn breswylfan am y rhan fwyaf o'i oes, i'r hen fardd athrylithgar, Iolo Morganwg. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1746, yn Benon, ychydig filldiroedd o Dre Ffleming Saer maen oedd ei dad, ond yr oedd ei fam yn ferch i foneddwr o'r enw Matthews, yr hwn oedd wedi afradu ei etifeddiaeth. Llyfrau ac addysgiad ei fam, fu unig foddion addysg Iolo. Wedi claddu ei fam yn 1770, pan yn 24ain oed, aeth Edward Williams i Lundain, a bu yno, ac mewn parthau eraill o Loegr, yn dilyn yr un alwedigaeth a'i dad. Dychwelodd i wlad ei enedigaeth, priododd, ac ymsefydlodd yn Nhre Ffleming, lle y treuliodd agos yr oll o weddill ei oes. Teithiodd lawer yn Nghymru a Lloegr, i gasglu hynafiaethau ac ysgrifau Cymreig. Bu dros y Llywodraeth yn mesur ac archwilio Deheudir Cymru, ac y mae ei *Survey* wedi ei gyhoeddi mewn dwy gyfrol. Cyhoeddodd weithiau barddonol hefyd yn Saesneg a Chymraeg. Bu yn llywyddu Eisteddfodau, yn ordeinio Beirdd, a sefydlodd Orsedd Cadair Morganwg yn ei bri cyntefig. Bu farw yn niwedd y flwyddyn 1826, dros bedwar ugain mlwydd oed, ond nid oes yr un beddfaen i ddangos y man y gorwedda ei gorph. Dywed Malkin yn ei hanes, am yr athrylith hunan ddysgedig hwn, "Pe buasai ei dalentau wedi cael y sylw priodol yn more ei ddyddiau, y buasai y cyhoedd, yn bur debygol, wedi enill adeiladydd, neu gerfiwr enwog, ac heb golli hynafiaethydd gwerthfawr."

**FLORENCE** (ST.), plwyf yn nghantref CASTELLMARTIN, undeb a swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU, 3½ milldir, Gorllewin wrth Ogledd o Ddinbych-y-Pysgod (*Tenby*); gyda phoblogaeth o 450, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae'r plwyf hwn yn sefyll ar lethr dymunol, yn nghanolbwynt dyffryn ffrwythlawn, ac mewn lle cysgodfawr, rhwng Penfro a Dinbych. Y mae'r pentref yn un prydferth dros ben, ond y mae yn bur henafol, canys adeiladwyd ef gan y Fflemingiaid, y rhai a wladychasant yma yn ol caniatâd Harri I., wedi cael eu gyru o'u gwlad eu hunain gan orlifiad y môr. Y mae'r fywioliaeth eglwysig yn gynnwysedig o rectoriaeth a ficeriaeth: y mae'r rectoriaeth yn segur-swydd, ac yn cael ei threthu ar lyfr y frenines, yn 16*p*. 12*s*. 1*c*., ac y mae yn nawddogaeth Meistr a Chymmrodyr Coleg St. John, Caergrawnt: gwerth blynyddol, 177*p*. Y mae'r ficeriaeth yn cael ei threthu yn 4*p*. 18*s*. 4*c*., ac wedi cael ei gwaddoli â 400*p*. o rodd freninol: gwerth blynyddol, 94*p*.: y mae yn yr un nawddogaeth a'r segur-swydd. Y mae'r eglwys wedi cael ei chyssegru i St. Florence, ac wedi cael ei hadeiladu yn yr arddull Seisnig cynnar; y mae ar lun croes, ac y mae iddi glochdy ysgwâr uchel iawn. Y mae capel yma gan yr Independiaid, ac y mae ganddynt ddwy ysgol ddyddiol yn y plwyf.

**FOCHRIW**, sydd bentref newydd, cynnyddol, yn mhlwyf GELLIGAER, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, lle mae glofeydd mawrion, a gorsaf cledrffordd, ar linell Aberhonddu a'r Casnewydd. Tua deng-mlynedd-ar-ugain yn ol, nid oedd yn y lle hwn ond amaethdy a thafarn, mewn mynydd-dir diffrwyth; a "Charn y Bugail" yn ymyl, yn sefyll mewn unigedd, rhyw 1574 o droedfeddi uwchlaw arwyneb y môr. Ond os oedd gwyneb y maesydd yn edrych yn ddiserch a diffrwyth, yr oedd y mynyddau cylchynol, fel cynnifer o sachau mawrion natur, yn gorwedd yno er dyddiau y cread, yn llawnion o drysorau gwerthfawr, yn dysgwyl i law fedrus celfyddyd chwilio eu perfeddion, a gwthio ei breichiau i'r dyfnder, i dynu allan oludoedd eu gwaelodion. O'r diwedd suddwyd pwll mŵn haiarn yn y gymydogaeth, ac agorwyd rhai lefiau glo yn y lle, ar raddfa fechan; ond ni fu nemawr gynnydd ar y lle, nes i Gwmni Gwaith Haiarn Dowlais suddo pyllau glo mawrion yno, rhwng y blynyddau 1855, a 1863. Mae y pyllau hyn wedi eu suddo yn ddwfn iawn, un yn 1200, o droedfeddi, a'r llall yn 1320 o droedfeddi; a chodir o honynt 900 o dunnelli o lo yn ddyddiol ar gyfartaledd; a gellir ychwanegu, fod glo y parth hwn wedi ei brofi gan swyddogion y llywodraeth, y gorau yn y deyrnas at gynnyrchu ager.

Cynnwysa y lle yn bresenol, tua 120 o aneddau, gyda chapel eglwysig, a chapeli perthynol i'r gwahanol enwadau ymneillduol.

Digitized by Google

Adeiladodd y Bedyddwyr eu capel yn 1859, ychydig yn ddeheuol i'r pentref, mewn lle a elwir Brithdir. Adeiladwyd capel yr Annibynwyr yn 1867; a chapel y Trefnyddion Calfinaidd yn 1871. Bernir fod Heol Rufeinig yn pasio y lle hwn, ac yn arwain o Gaerlleon-ar-wysg i Aberhonddu: ac y mae careg fawr ar ochr y mynydd, yn ymyl y lle, a elwir "Y Maen Hir," yn sefyll fel post yn y ddaiar, ac wyth troedfedd o honi uwchlaw'r llawr; a barna rhai mai careg filldir a osodwyd yno gan y Rhufeiniaid ydyw. Cyn gwneyd cledr-ffordd o Aberhonddu i'r Casnewydd trwy y parth hwn, dygid y glo o'r gymydogaeth i Ddowlais; ond bellach gellir ei anfon ymaith gyda'r gledr-ffordd i'r Casnewydd, neu Gaerdydd, i'w allborthi, yr hyn sydd yn hwylusdod mawr i fasnach y lle.

**FONMON**, pentref yn mhlwyf Pen marc, Swydd Forganwg, yn agos i lan y môr, 5¼ milldir i'r De Ddwyrain o Bont Fon. Castell Fonmon a berthynai i St. Johns, o Bletsoe, ac a drosglwyddwyd trwy werthiad i'r Milwriad Phylip Jones, blaenor enwog dan Cromwell.—Bu yr hybarch John Wesley yma lawer gwaith.

**FONTIGARY**, pentref yn mhlwyf Pen marc, Swydd Forganwg.

**FORD**, capeliaeth yn mhlwyf Hayscastle, cantref Dewisland, swydd Benfro, Deheudir Cymru, 7 milldir i'r Gogledd o Hwlffordd, poblogaeth yr hon a roddir gyda'r un berthynol i'r plwyf. Y mae'r ficeriaeth wedi cael ei gwaddoli â 1200*p*. o rodd freninol: gwerth blynyddol, 70*p*.; y mae yn nawdd Mr. Tucker. Y mae yn gorwedd ar lân yr afon Cleddy, ar y brif-ffordd o Hwlffordd i Abergwaen.

**FORDEN**, plwyf ac eisteddle Undeb y Tlodion yn nghantref Cawrse, swydd Drefaldwyn, Gogleddbarth Cymru, 3 milldir i'r Gogledd o Drefaldwyn (*Montgomery*); gyda 926 o drigolion, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae'r plwyf hwn yn enwog iawn yn hanes rhyfeloedd ein gwlad. Bu y Daniaid yn meddiannu y wlad tua 894, fel y gwelir oddiwrth yr olion gwersyllol sydd yn Cefn Digoll, a Thalybont (*Buttington*), ond wedi hir warchae ac ymladd gwaedlyd, gyrwyd hwy allan gan y Sacsoniaid. Yn 1294 gwrthryfelodd Madawg ap "Llewelyn y Llyw olaf" yn erbyn Edward I.: mab o ordderch i Llewelyn oedd Madawg; ac ymunodd Rhys ap Maredydd a Mael-Ieuanc o Ddyfed âg ef, gyda Morgan o Forganwg: wedi ennill amryw frwydrau, cyfarfu lluoedd Edward a hwythau ar Gefn Digoll, ac wedi brwydr galed a gwaedlyd iawn, trechwyd Madawg: yn y pen draw cymmerwyd ef yn garcharor, a threuliodd ei oes yn y Tŵr Gwŷn, Llundain. Ar Gefn Digoll hefyd y cyfarfu lluoedd Duc Richmond, Harri VII. wedi hyny, cyn brwydr Bosworth. Yn y plwyf hwn y mae Tŷ Gweithfäol adran unol Trefaldwyn a'r Trallwng, yr hon adran sydd yn 18 milldir ysgwâr, ac yn cynnwys amryw blwyfau a threfgorddion. Y mae'r Tŷ yn un mawr iawn, ac wedi cael ei adeiladu o briddfeini yn 1795, am y swm o 12,000*p*. Y mae yn sefyll yn nghanol tyddyn o 30 erw, yr hwn a ammaethid gan y tlodion oedd yn y tŷ; ond y mae y tyddyn yn awr wedi cael ei rentu, ac nid oes yn y Tŷ yn bresenol, namyn tlodion methiantus a phlant. Y mae ysgoldy a chapel yn perthyn iddo; ac y mae yn cael ei lywodraethu yn ol actau pennodol a basiwyd yn y 32ain flwyddyn o deyrnasiad George III., 36ain o George III., a'r 5fed o George IV. Ficeriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, ac y mae wedi cael ei gwaddoli â 400*p*. o rodd bersonol, a 900*p*. o rodd seneddol: gwerth blynyddol, 119*p*. Y mae'r eglwys wedi bod am ganrifoedd yn gladdfa i deulu Deverent, Is-Ieirll Hereford, i'r rhai y perthyna ystâd Nantcrippa yn y plwyf hwn. Y mae un o'r teulu yma wedi gadael 100*p*. i'r plwyf, at brentisio dau fachgen tlawd. Y mae un Edward Lewis hefyd, wedi gadael 20*p*. y flwyddyn at addysgu plant tlodion. Y mae capel yma gan yr Independiaid. Y mae Clawdd Offa yn myned drwy y plwyf, a'r hen ffordd Rufeinig i Gaerswa. Y mae yma hefyd weddillion hen gaerfeydd, a gwersylloedd Rhufeinig.

**FOREST**, trefgordd yn mhlwyf a chantref Talgarth, swydd Frycheiniog, Deheudir Cymru, 10¼ milldir i'r De o'r Gelli (*Hay*). Y mae'r drefgordd hon yn gynnwysedig o gyfran ddeheuol y Mynyddau Duon, y rhai sydd yn rhanu siroedd Brycheiniog a Mynwy oddiwrth eu gilydd. Y mae mynydd Talgarth yn y drefgordd hon yn 2445 troedfedd uwchlaw llyfal y môr: y mae mynydd uchel arall yn ei yml, yr hwn a elwir y Gadair, ar yr hwn y mae cylch Derwyddol. Yma hefyd y mae gweddillion hen gastell Dinas, yr hwn a ddinystriwyd gan bleidwyr Syr Dafydd Gam, mewn gwrthwynebiad i Owain Glyndwr. Gwyllt a noethlwm yw y drefgordd hon, ac o'r braidd y mae tamaid yma i ddefaid y mynydd. Poblogaeth, 172.

**FOREST**, trefgordd yn mhlwyf Llanycrwys, cantref Cathinog, swydd Gaerfyrddin, Deheudir Cymru, 4 milldir i'r Dwyrain o Lanbedr-pont-Stephan, gyda 915 o drigolion. Ar lân yr afonig Twrch y mae i'w gweled weddillion y ffordd Rufeinig Sarn Helen, yr hon oedd yn myned drwy'r drefgordd hon, o *Loventium*, Llanino, yn swydd Aberteifi, i orsaf Llanfair-ar-y-bryn, ger Llanymddyfri, swydd Gaerfyrddin.

**FOREST**, trefgordd goedog yn mhlwyf Llandingad, cantref Perfedd, swydd Gaerfyrddin, Deheudir Cymru, 3 milldir i'r Gogledd o Lanymddyfri. Y mae yn gorwedd rhwng y Brân a'r Towy, ac y mae yma bont yn croesi yr afon olaf.

**FORLAN** (Y), treflan yn mhlwyf Maenclochog, Swydd Benfro; 8½ milldir i'r Gogledd Ogledd Orllewin o Narberth. Poblogaeth, 29. Tai, 6.

**FOUR CROSSES**, pentref, 3 milldir o Bwllheli, yn Swydd Gaer-yn-arfon, a Llythyrfa dan Bwllheli. Y mae yma addoldy hardd a chyfleus gan y Trefnyddion Calfinaidd, ac un arall gan yr Annibynwyr.

**FOUR CROSSES**, gorsaf rheilffordd, yn agos i'r ffin, rhwng Siroedd yr Amwythig a Threfaldwyn; 7½ milldir, i'r De wrth Orllewin o Groesoswallt.

**FOXHOLE**, lle o fewn milldir a chwarter i Abertawe, yn Swydd Forganwg. Y mae ynddo Lythyrfa, dan Abertawe.

**FREYSTROP**, plwyf yn undeb Hwlffordd, cantref Rhôs, swydd Benfro, Deheudir Cymru, 2¼ milldir De wrth Ddwyrain o Hwlffordd, gyda 576 o drigolion. Y mae yn cael ei ammaethu yn dda, ac y mae llawer iawn o gwlwm (*culm*) yn cael ei gloddio yma. Y mae yma ffynnon haiarnaidd, yr hon a elwir Ffynnon Goch. Y mae yn rectoriaeth ryddhäol yn cael ei threthu ar lyfr y frenines yn 5*p*. 13*s*. 9*c*.; y mae wedi cael ei gwaddoli â 400*p*. o rodd freninol, ac yn nawddogaeth y Goron: gwerth blynyddol, 145*p*. Y mae capel yma gan y Trefnyddion Calfinaidd, ac y mae yn y plwyf ysgol ddyddiol.

Digitized by Google

**FRO** (Y), rhandir yn mhlwyf Llangynidr, Swydd Frycheiniog; 4¼ milldir i'r Gor. Og. Or. o Grughywel. Gwerth ardrethol, 3259 punt. Poblogaeth, 549. Tai, 126.

**FRO** (Y), treflan yn mhlwyf Llanthety, Swydd Frycheiniog, gan gynnwys Tal y bont. Gwerth ardrethol, 2325 punt. Poblogaeth, 313. Tai, 69.

**FRO** (Y), treflan yn mhlwyf Llanfihangel ar arth, Swydd Gaerfyrddin; 9½ milldir i'r De Or. o Lanbedr Pont Stephan.

**FRON** (Y), lle o fewn 4 milldir i Langollen, yn Swydd Ddinbach, yn meddu Llythyrfa dan Langollen. Y mae yma addoldy cyfleus gan y Trefnyddion Calfinaidd.

**FRON GOCH** (Y), capeloriaeth yn mhlwyfi Llanfawr, Llandderfel, a Llan y cil, Swydd Feirionydd; 1 filldir i'r Gor. Og. Or. o orsaf rheilffordd y Bala; a 13 milldir i'r Gor. Dde Or. o Gorwen. Fe'i ffurfiwyd yn gapeloriaeth yn y flwyddyn 1859. Pob. 650. Tai, 107. Poblogaeth y gyfran o Lanfawr, 413; tai, 68. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth yn Esgobaeth Llanelwy. Gwerth 125*p.* Noddwr, Esgob Llanelwy.

**FYCHAN**, Dafydd, mab i Gruffydd ab Ednyfed, a bardd o gryn enwogrwydd, rhwng y blyneddoedd 1400, a 1430. Y mae ychydig o'i gyfansoddiadau ar gael mewn llaw-ysgrifau.

**FYCHAN**, Dafydd, offeiriad, a bardd, yn Morganwg; yr hwn oedd yn oesi tu a'r rhan olaf o'r bymthegfed ganrif. Efe a gyfieithodd lyfr o'r enw "Taith y Brawd Odrig yn yr India," o'r Lladin i'r Cymraeg; ac yn ei Ragymadrodd, hysbysai, ei fod wedi ymgymeryd â'r gorchwyl ar gais ei athraw, Elis ab Thomas ab Einion, tu a'r flwyddyn 1460. Nid ymddengys iddo gael ei argraffu erïoed; ond dywedir yn yr *Arch. Brit.* tu dalen 255, fod adysgrif o hono yn meddiant yr Henafiaethydd enwog, Edward Llwyd.

**FYCHAN**, Edward, LL.D., esgob enwog, oedd yn frodor o Ddeheubarth Cymru. Efe a dderbyniodd ei addysg golegawl yn Nghaergrawnt. Yn y flwyddyn 1503, cafodd ei bennodi yn Drysorydd St. Paul, Llundain, a pheriglor St. Matthew, *Friday Street*, a Ficar Islington. Perchenogodd fywioliaethau eraill ar wahanol amserau; ac yn y flwyddyn 1509, trwy awdurdodiad oddiwrth y Pab, cafodd ei gyssegru yn esgob Ty Ddewi. Fe'n hysbysir gan *Leland*, ei fod yn ddyn o ysbryd tra chyhoeddus; a'i fod wedi adeiladu tŷ da yn agos i Eglwys Gadeiriol St. Paul, at wasanaeth ei olynwyr; a rhanu o hono 500 marc, sef tua 365*p.* 1*s.* 8*c.* i'r tlodion yn Llundain, yn amser newyn. Efe hefyd a adeiladodd Gapel y Drindod, yn ei eglwys yn Nhy Ddewi, a Chapel St. Justinian, tua milldir o Dy Ddewi. Efe hefyd a adgyweiriodd gastell Llawhaden, ac a adeiladodd Gapel yno. Yn ei ewyllys, dyddiedig Mai 20, 1521, efe a drefnodd bod i'w gorph gael ei gladdu o fewn eglwys Gadeiriol Ty Ddewi; ac ynddi gadawodd gymunrodd o 20 punt i Briordy St. Ioan yr Efengylwr, yn Nghaerfyrddin; a deugain swllt i Briordy St. Ioan yr Efengylwr, yn Aberhonddu, a deugain swllt i Briordy St. Thomas, yn Hwlffordd, a deugain swllt i offeiriaid am ganu gweddiau chwe blynedd drosto, yn Nghapel y Drindod Sanctaidd, a adeiladasai efe yn Eglwys Gadeiriol Ty Ddewi. Mewn gair, efe oedd un o'r cymmwynaswyr mwyaf er addurno yr eglwys gadeiriol, a gafodd Ty Ddewi erïoed. Efe a fu farw yn mis Tachwedd, 1522, ac fe'i claddwyd yn yr adeilad ardderchog a gyfodasid ganddo ef ei hun, ac a adwaenir dan yr enw "Capel yr esgob Vaughan."[1]

**FYCHAN**, Henry, mab i John Fychan, boneddwr, o'r Caethle, yn Swydd Feirionydd. Efe a addysgwyd yn Rhydychain, lle ei derbyniwyd fel ysgolor eilradd i Goleg Oriel, yn y flwyddyn 1632, pan yn un mlwydd ar bymtheg oed. Wedi hyny, efe a etholwyd yn ysgolor o Goleg yr Iesu, lle, yn ol *Wood*, y bu efe dros ryw yspaid, dan ddysgyblaeth lem, ac y cymerodd ei radd yn y Celfyddydau, ac yr ennillodd gymrodoriaeth. Yr oedd efe yn bregethwr tra y cadwai y brenin Charles I. ei lŷs yn Rhydychain; ac yn Gorphenaf, 1643, efe a gyflwynwyd gan y Brif ysgol i Ficeriaeth y Panteg, yn Swydd Fynwy, trwy rinwedd Deddf a wnaed gan y Senedd a ddechreuodd yn Westminster, Tach. 5, yn y drydedd i Iago I., er analluogi ymwrthodwyr i gyflwyno rhai i fywioliaethau a fyddent yn eu nawddogaeth. Bu dros ryw yspaid yn athraw i Leoline Jenkins; ac o'i gyfansoddiadau llenyddol, cyhoeddwyd y llyfrau canlynol;—"Pregeth, a draddodwyd o flaen Ty y Cyffredin yn Rhydychain, ar Matthew v. 20," 4 pl. Rhydychain, 1644. "Dadl, rhyngddo ef â J. Tombes, B.D., yn Eglwys St. Mair, yn y Fenni, Medi 5, 1653, yn mherthynas i Fedydd Babanod, 4 pl. Llundain, 1656." Efe a fu farw yn 1661.

**FYCHAN**, Henry, a adnabyddid wrth yr enw "*Y Siluryn*," a anwyd yn y flwyddyn 1620, mewn ammaethdy o'r enw "Y Drefnewydd," yn mhlwyf Llansantffraid, yn Swydd Frycheiniog. Yr oedd Henry yn efeill-frawd i Thomas Fychan, neu *Eugenius Philalethes*, a bu yn cael ei hyfforddi mewn addysg ramadegawl dros chwe blynedd, dan M. Herbert, Rheithor Llangattwg. Yn y flwyddyn 1638, efe a aeth i Goleg yr Iesu, yn Rhydychain, lle yr arhosodd ddwy flynedd; ond nid ymddengys iddo gymeryd unrhyw raddiad yno. Wedi toriad allan y Rhyfel cartrefol, efe a giliodd i'w wlad enedigol; ac ymroddodd i efrydu meddygyniaeth; ac o'r diwedd cyrhaeddodd enwogrwydd fel Meddyg. Efe a gyssegrai ei oriau hamddenol at efrydu ieithyddiaeth, a barddoniaeth; ac yn y flwyddyn 1650, efe a gyhoeddodd ei waith cyntaf, *Olor Iscanus;* sef, "Casgliad o Bryddestau Detholedig," Llundain, 8 pl. Dylynwyd hwn gan ei *Silex Scintillans*, neu, "Y Galon Waedlyd." Pryddestau Cyssegredig, a Saeth-weddïau, yn ddau Lyfr. Argraffwyd hwn ddwy waith; ac at yr ail argraffiad, ychwanegwyd "Mynydd yr Olewydd; neu Ddefosiynau Neillduol," 8 pl. Llundain, 1652. Cyfieithodd y Llyfrau canlynol hefyd, o'r Lladin i'r Saes'neg;—1. "Y lles a allwn ni ei gael oddiwrth ein Gelynion." Traithawd ydyw hwn, a ysgrifenwyd ar y cyntaf yn y Groeg, gan Plutarchus Chaeronensis, ac a gyfieithwyd i'r Lladin, gan Dr. John Rainolds.—2. "Clefydau y Meddwl a'r Corph."—3. "Clefydau y Meddwl a'r Corph, a pha un o honynt sydd yn fwyaf peryglus." Y cwestiwn yn cael ei agoryd, a'i benderfynu gan Maximus Tyrius, Athronydd Platonaidd, a ysgrifenwyd ar y cyntaf yn y Groeg, ac a Ladineiddiwyd gan Dr. Rainolds. Y tri chyfieithiad hyn a argraffwyd gyd ag "Olor Iscanus."—4. "Cyflwr Gwynfydedig Dyn," a ysgrifenwyd yn Lladin gan Anselme, a fu gynt yn archesgob Caergaint. Y cyfieithiad hwn a argraffwyd gyda "Mynydd yr Olewydd."—5. Dau Draethawd rhagorol; y cyntaf ar "Gymedroldeb ag Amynedd;"

[1] Gwel *Willis's Survey of St. David's. Leland's Collectanea.*

Digitized by Google

a'r ail ar "Fywyd ac Angeu;" a ysgrifenwyd gan Joh. Euseb. Nierembergius. Argraffwyd y Cyfieithiad yma yn Llundain, yn 1654, yn 8 pl.—6. "Y byd wedi ei ddirmygu," a ysgrifenwyd gan Eucherius, esgob Lyons.—7. "Meddygyniaeth Trywyddorol," neu, yr iawn ffordd i gadw ac adferu iechyd, 12 pl. Llundain, 1655, a ysgrifenwyd gan Henr. Nollius, Fferyllydd. Efe a gyfieithodd hefyd o'r Hispaenaeg i'r Saesoneg, "Folawd a Dedwyddwch Bywyd Gwledig," a ysgrifenwyd ar y cyntaf gan Don Anton. Guevara, esgob Carthagena. Efe a gyhoeddodd hefyd "Fuchedd Paulinus, esgob Nola, a gasglwyd allan o'i ysgrifeniadau ef ei hunan, ac awdwyr boreuol." Bu y gwr llafurus hwn farw yn mis Ebrill, 1695; ac efe a gladdwyd yn eglwys ei blwyf genedigol.

**FYCHAN**, Howell, neu Vaughan, ydoedd un o weinidogion cyntaf y Bedyddwyr yn Nghymru. Dywed Joshua Thomas mai efe oedd y gweinidog cyntaf a glywsai ef am dano yn eglwys Olchon, yr hon oedd yn ymgyfarfod i addoli Duw yn nirgelleoedd y Mynydd-du, er cyn cof. "Dywedir mewn ysgrifen sydd genyf," meddai, "ei fod ef yno yn amser y brenin Charles I., yr hon sydd yn tystio i mi ei fod yno cyn y flwyddyn 1640; ond yr wyf yn barnu na bu y gwr hwn erioed yn Rhydychain, nac yn un brif ysgol, eithr gwr duwiol, gwledig, cydwybodol, ond yn hyfforddus a deallus yn yr Ysgrythyr ydoedd; ac o herwydd hyny, a'i ddawn gweinidogaethol, cafodd ei ddewis i borthi yr ychydig bobl hyny â gwybodaeth ac â deall." Ymddengys yn dra sicr nad oedd y bobl y pregethai Howell Fychan iddynt wedi myned trwy unrhyw ffurf o *gorpholiad*, nac yntau ychwaith wedi cael ei *urddo* i'r weinidogaeth; oblegyd nid oedd cyflwr erlidigaethus yr amseroedd hyny yn gwneyd *corpholiad* yn bosibl, ac fe allai nad oedd y duwiolion hyny a breswylient gyffiniau Mynwy, Brycheiniog, Henffordd, a Maesyfed, yn barnu bod *urddiad* yn angenrheidiol i bregethwr, er ei gymwyso i iawn gyfranu gair y gwirionedd. Ond anonestrwydd anfaddeuol fyddai i neb, oblegyd hyny, geisio gwadu eu bodolaeth, yr hyn a osodir allan tu hwnt i bob amheuaeth, gan y ddeiseb a anfonwyd o Gymru i'r Senedd yn 1641, yr hon a ddywed "bod proffeswyr crefydd (yn Nghymru) yn dra phrin ac ychydig, oddieithr yn nghonglau dwy neu dair o'r siroedd; yn nghylch y pryd hwnw y cafodd yr eglwys gyntaf, os nad yr unig eglwys gynulledig yn yr holl wlad ei ffurfio."—*Powell's Brief Narrative, prefixed to his "Bird in the Cage."* "Yr eglwys" y cyfeirir ati uchod, yw eglwys yr Annibynwyr yn Llanfaches, yr hon a gorpholwyd Tachwedd, 1639, gan Henry Jessey, gweinidog yr eglwys Annibynol yn Southwark; ac y mae yn ddiddadl mai y proffeswyr a drigent "yn nghonglau dwy neu dair o siroedd" oedd pobl Howell Fychan, canys dyna yn gywir oedd safle Olchon, yn ei pherthynas a'r siroedd a nodwyd.

Dywed llyfr eglwys Ilston mai yr eglwys a ffurfiwyd yno yn 1649 gan John Miles, a William Proud, o dan gyfarwyddyd eglwys y *Glass House*, Llundain, oedd y gymdeithas gyntaf o bobl yn dal allan a phroffesu athrawiaeth, addoliad, trefn, a dysgyblaeth yr efengyl, yn unol a'i gosodiadau cyntefig, ag y gwyddent hwy am dani yn holl Gymru, er amser y Babaeth; mai hwy yn Ilston oedd y rhai blaenaf a gawsant yr anrhydedd i arferyd yr ordinhad ogoneddus o fedydd, yn yr holl barthau hyny, ac mai yno y casglwyd yr eglwys gyntaf o gredinwyr bedyddiedig.

Nid ydym i ddeall oddiwrth y dystiolaeth uchod, nad oedd eglwys Olchon mewn bod ar y pryd hwnw, neu nad oedd eglwys Ilston yn gwybod dim am dani; ond mai syniad ffurfwyr eglwys Ilston am *eglwys* yn unol a gosodiadau cyntefig yr efengyl, oedd corph o gredinwyr bedyddiedig, yn ymarferyd yr hyn a elwir "cymundeb caeth." Yn yr ystyr hono, eglwys Ilston yw yr eglwys gyntaf yn Nghymru, ac ar yr egwyddor hono y ffurfiwyd y Gymanfa, gan gau allan bob eglwys gymysgedig, neu ynte ei hail gorpholi cyn ei derbyn. Yr oedd eglwys Olchon, erbyn 1649, wedi ymeangu yn rhyfeddol, ac yn meddu llawer o aelodau yn ardaloedd y Gelli, a Clifford. Gan fod y Gelli yn dref farchnad, adeiladwyd yno dŷ cyfarfod, yr hwn o bosibl oedd y cyntaf yn Nghymru, a gelwid yr eglwys yn y dyddiau hyny yn eglwys y Gelli, ac nid eglwys Olchon. Yn y cyfnod dan sylw, yr oedd cymundeb cymysg wedi ei ddwyn i mewn i'r eglwys, a hyny, mae yn debyg, trwy ddylanwad Captain Jenkin Jones; a gwelsom lythyr oddiwrth John Miles, gweinidog Ilston, at eglwys y Gelli, dyddiedig 1649, yn yr hwn yr oedd yn addaw dyfod atynt i amddiffyn cymundeb digymysg; ac yn gorchymyn iddynt alw cyfarfod yn Clifford i'r perwyl hwnw; ac yn sicrhau iddynt y safai efe dros y gwirionedd, pe byddai Mr. Cradoc, Mr. Powell, a Mr. Jones, yno i'w wrthsefyll. Nid oes gwybodaeth pa un a gymerodd y cyfarfod uchod le neu beidio, ond cofnodir yn llyfr eglwys Ilston, i John Miles gorpholi eglwys y Gelli, gan gynwys Olchon, yn eglwys o fedyddwyr digymysg, tua chanol Rhagfyr 1649; ac felly daeth pobl Howell Fychan i mewn i ffurfio y gymanfa, yr hon a sefydlwyd yn Ilston Medi, 6fed a'r 7fed, 1650. Ymddengys fod Howell Fychan y pryd hwnw mewn gwth o oedran, a bod dau weinidog arall, sef Walter Prosser, a Thomas Watkins, yn cyd lafurio ag ef; oblegyd tra gwelwn fod John Miles, David Davies, Gelligaer; Walter Prosser, a Thomas Watkins y Gelli, wedi cael eu penodi gan y gymanfa gyntaf i gymeryd teithiau pregethwrol trwy wahanol barthau o'r wlad, nid ydym yn cwrdd a'i enw ef gymaint ag unwaith. Ond yr oedd yn nghymanfa Abergafenny yn 1653, a chawn ei enw ef yn un o bedwar ar hugain yn arwyddo y penderfyniadau. Nid oes hanes am dano mwyach, eithr tebyg iddo farw tua dechreu y Rhyfel Cartrefol.

**FYCHAN**, Syr John, oedd yn gyfreithiwr enwog, a mab i Edward Fychan, Ysw. o'r Trawsgoed, yn Swydd Aberteifi, lle ei ganwyd yn y flwyddyn 1603. Ei fam oedd Lettice, ferch John Stedman, Ysw. o Ystrad Fflur. Efe a addysgwyd yn Ysgol y Brenin, yn Nghaerwrangon, lle yr arhosodd am bum mlynedd; yna anfonwyd ef i Eglwys Crist, yn Rhydychain, pan oedd yn bymtheng mlwydd oed. Pan yn ddeunaw mlwydd oed, aeth i'r *Inner Temple*, lle y dewisodd am ryw gymaint o amser, ddylyn ei efrydiau athrofaol mewn barddoniaeth, a mesuroniaeth, yn hytrach nag astudio cyfreithiau dinesig Lloegr. O'r diwedd, wedi dyfod i gydnabyddiaeth â Selden ddysgedig, ac eraill, efe a ddarbwyllwyd ganddynt hwy o werth dysgeidiaeth yn y gyfraith wladol, fel yr ymroddodd efe yn dra diwyd yn fuan, i efrydu y gangen hono o ddysgeidiaeth; ac yn enwedig y cyfreithiau breiniol (*Municipal Laws*). Wedi ei ethol i gynnrychioli

Digitized by Google

bwrdeisdref Aberteifi, yn y Senedd a gyfarfu Tachwedd 3, 1640, efe a ddaeth yn siaradwr nodedig, ac edmygedig yn fuan, ond toriad allan y rhyfel cartrefol a fu yn attalfa i'w fynediad rhagddo; ac yna, efe a adawodd Lundain, ac a enciliodd i'w wlad enedigol. Ysgrifenwyd y nodweddiad hynod a ganlyn am dano, oddeutu y flwyddyn 1661;—"John Fychan, un a sieryd yn uchel dros benteyrniaeth yn achlysurol; ond a ofala rhag gwlychu ei fysedd er ei chefnogi. Gwasanaethai fel Cynnrychiolydd dros dref Aberteifi, yn y Senedd Hir; ond gadawodd hi ar brawf Stafford; efe a enwyd gan ei Fawrhydi yn un o'r Dirprwywyr i gymeryd rhan yn ngweneuthuriad y cyttundeb yn Ynys Wyth, ond gwrthododd weithredu; a bu yn bersonol yn cynghori Cromwell i osod y goron am ei ben ei hun. Prynodd Mefenydd, un o faenorau ei ddiweddar Fawrhydi yn Swydd Aberteifi; a chynnorthwyodd yn bersonol i gymeryd Aberystwyth, gwarchodfa a gedwid y pryd hyny dros ei Fawrhydi. Trwy y pethau hyn, efe a gadwyd rhag gorfodogiad; a bu mewn swyddau dan yr amryfal lywodraethau diweddar. Y mae yn wr o ddoniau rhagorol; ond y mae yn rhoddi gormod o fri arnynt; gan ei fod yn drahaus-falch, ac yn ddiriad ddigyffelyb; a thrwy fenthyca wyth gant o bunnau i'r Milwriad Phylip Jones, ac eraill oeddynt mewn ffafr y blyneddoedd diweddar, efe a gafodd lywyddiaeth y wlad yn yr hon yr ydoedd yn byw, i fod yn nwylaw ei gyfeillion, a'r rhai a ymddibynent arno." Wedi yr Adferiad, efe a etholwyd yn farchog dros Swydd Aberteifi, i'w chynnrychioli yn y Senedd a gyfarfu yn Westminster, Mai 1, 1661, a thu a'r pryd hyny gwelodd y Brenin yn dda gymeryd sylw o'i deilyngdod uchel, a'i brofiad ehang. Ac yn fuan wedi hyny, efe a roddes yr anrhydedd o'r urdd farchogol arno ef, ychydig ddyddiau cyn iddo gael ei dyngu i fewn yn Rhingyll y Gyfraith yn y Cangellys yn Westminster, yr hyn a gymerodd le Mai 1, 1668; a thranoeth, efe a dyngwyd yn Arglwydd Brif Farnwr Llŷs y Dadleuon Cyffredin. Yn ol Wood, "Yr oedd efe yn wr o deilyngdod mawr, yn gyfreithiwr enwog, ac yn mhob ystyr, yn Foneddwr coethedig." Efe a fu farw yn y flwyddyn 1674, ac a gladdwyd yn Eglwys y Deml, Llundain, yn agos i feddrod ei hen gyfaill John Selden. Cafodd ei ŵyr, John Fychan, ei wneyd yn is-Iarll Lisburne, ac Arglwydd Vaughan, yn y flwyddyn 1695, un o hiliogaeth yr hwn, yw Iarll presenol Lisburne.

**FYCHAN**, Richard, D.D., oedd yn esgob enwog, ac yn fab i Thomas ab Robert Fychan, Ysw., o'r Nyffryn, yn Lleyn, Swydd Gaer yn arfon. Yr oedd ei dad yn bumed mab i Robert Fychan ab Gruffyth, Ysw., Talhenbont, yn mhlwyf Llanystumdwy, Swydd Gaerynarfon: a'i fam oedd Catharine, ferch Gruffydd ab John ab Gruffydd, Ysw., o Leyn. Efe a gafodd ei addysg athrofaol yn ngholeg St. Ioan, Caergrawnt, o'r hwn yr ydoedd yn gymrawd, a'r lle y derbyniodd ei urdd-raddau. Cyfodwyd ef i brebenduriaeth Holborn, yn Eglwys Gadeiriol St. Paul, Tach. 18, 1583, ac Arch-ddiaconiaeth Middlesex, Hyd. 26, 1588; ac efe y pryd hwnw yn B.D. Cyssegrwyd ef yn Esgob Bangor, Ion. 25, 1595; ac efe a symudwyd oddiyno i Gaerlleon, yn 1597; ac i Lundain, yn 1604. Bu farw, Mawrth 30, 1607, a chladdwyd ef yn St. Paul, yn Nghapel yr Esgob Kemp. Perchid ef yn fawr ar gyfrif ei hynawsedd, a'i ddysgeidiaeth; ac yn enwedig, ei alluoedd fel pregethwr.

**FYCHAN**, Richard, Iarll Carbery, Arglwydd Fychan, o Molingar, yn Iwerddon, pendefig o ddylanwad mawr yn ystod y rhyfeloedd cartrefol, yr hwn a olynodd ei dad John, Iarll cyntaf Carbery, yn ei deitlau a'i ettifeddiaethau, yn 1621. Efe a wnaed yn un o Farchogion Caerbaddon, ar goroniad Charles I. Tu a'r flwyddyn 1644, efe a wnelsid yn gadfridog Caerfyrddin, Penfro, a Cheredigion, gan y brenin Charles; ond, er ei fod yn blaenori byddin lawer lluosoccach a chrefach na byddin y Senedd, efe a ffodd rhagddi. Prïodolid hyn gan rai, i'w lwfrdra; ond y mae eraill, gyda gwell seiliau, yn haeru fod dealldwriaeth dirgelaidd rhyngddo a blaenoriaid y blaid wrthwynebol; oblegyd, pan ddymchwelwyd galluoedd y brenin, efe yn unig o'r breninolwyr yn y wlad hono, a ddïangodd rhag gorfodogaeth. Rhyddhawyd ef oddi wrth ran-daliad, trwy orchymyn dau dŷ y Senedd;—"o herwydd yr ohebiaeth a ddaliai âg Iarll Essex, a'r gwasanaeth mawr a wnelsai i'r Senedd, yn ystod ei faes-lywyddiaeth; yr hyn a brofwyd y pryd hyny i'r Senedd, gan Syr John Meyrick, &c." Pan ymgymerodd Cromwell â'r llywyddiaeth, y pendefig cyfrwys hwn, a ymweithiodd gymaint i'w ffafr, fel yr anfonodd yr arglwydd Amddiffynwr, o'r parciau oeddynt yn ei feddiant ef yn agos i'r brif ddinas, amryw fychod danas, i'w barc ef yn y Gelli Aur, yn Sir Gaerfyrddin. Gwnaed ef hefyd yn Arglwydd Lywydd Cyffin-diroedd Cymru; ac y mae Robert Fychan o'r Hengwrt, yn ei grybwyll dan y Teitl hwnw, yn 1662, yn ei *British Antiquities Revived.*

**FYCHAN**, Robert, henafiaethydd tra enwog, oedd fab henaf Hywel Fychan, Ysw., a Margaret ei wraig, wyres Lewis Owen, Ystafellydd Gogledd Cymru. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1592, yn Hengwrt, yn agos i Ddolgelley, swydd Feirionydd. Darfu i'w daid, trwy brïodi ettifeddes y lle hwnw, symud y breswylfa deuluaidd o Gwengraig, lle y buasai ei henafiaid yn cyfanneddu dros genedlaethau lawer. Cartrefle y cyff gwreiddiol, oedd Nannau, o'r lle yr ymneillduodd Hywel Fychan, yn y chweched genedlaeth o Cadwgan o Nannau, ail fab Bleddyn ab Cynfyn; ac yr ymsefydlodd yn Gwengraig. Trwy brïodas Robert Fychan, â Catharine, merch Gruffydd Nannau, Ysw., o'r Nannau, o'r hon y cafodd wyth o blant, unwyd y ddwy gangen drachefn; a pharhaodd felly yn eu hiliogaeth, hyd y diweddar Syr Robert Vaughan, Barwnig, o'r Nannau a'r Hengwrt. Aeth Robert Fychan i'r brif ysgol, fel cyssegiwr o goleg Oriel, yn y flwyddyn 1612; ac wedi myned trwy yr efrydiau arferol y dyddiau hyny, mewn rhesymeg ac athroniaeth, efe a ymadawodd â'r brif ysgol heb gymeryd urdd-raddiaeth, a dychwelodd i'w drefdadaeth yn yr Hengwrt. Fel yr oedd yn meddu manteision ettifeddiaeth dda, ac yn cael ei gymhell gan ysbryd gwladgarol, efe a goleddodd yr efrydiau hyny a'i gwnaethant mor enwog am ei hyddysgrwydd yn hanesyddiaeth a henafiaethau ei wlad, a'i genedl. Ac er mwyn hyny, cynnaliai ohebiaeth eang âg enwogion o chwaeth gyffelyb, megys yr Archesgob Usher, Syr S. D'Ewes, Selden, a Henafiaethwyr enwog eraill.

Nid ymollyngai Robert Fychan un amser i seguryd; ac yn mysg ffrwythau ei ddïwydrwydd gallwn grybwyll ei Nodiadau, neu Ddeongliadau ar Lyfr y Maes glas (Basingwerk), ar Nennius, ar y Trioedd, yn nghyda chyfieithiad Seis'nig; ar Frut, neu Groniclau Caradawg o Lancarfan, yn nghyda chymhariad o ddeg o adysgrifiadau gwahanol; ar Flwyddyn Newydd Dda,

Digitized by Google

Leland; ar Antoninus, Burton; ar Hanes Cymru, gan Dr. Powell; ar Primordia, yr Archesgob Usher; ar *Catalogus Scriptorum*, Ball; ar Flwyddolion Cymru, o Wrtheyrn i waered, wedi eu cyfieithu o'r gwreiddiol i'r Saes'neg, gyda nodiadau; Hanes byr am deulu Cors y gedol; Parthofyddiaeth Swydd Feirionydd; a Thaith i Dy Ddewi, yn nghyda nodiadau byrion ar y lleoedd yr elai drwyddynt, wrth fyned a dychwelyd. Yr unig Waith o'i eiddo a argraffwyd yn ei fywyd, oedd ei "*British Antiquities Revived*," 4 pl. Rhydychain, 1662. Dygwyd ail argraphiad o'r llyfr hwn allan yn y Bala, yn y fl. 1834. At yr hwn y rhag-ddodwyd Cofiant o'r Awdwr, gan y Parch. John Jones, Borthwnog. Darfu iddo hefyd wneyd Casgliad helaeth o Law ysgrifau Cymreig yn yr Hengwrt, amryw o ba rai oeddynt yn dra oedranus; a lluaws o honynt yn adysgrifiadau o'i eiddo ef ei hun; ac y mae eu gwerth wedi eu hychwanegu yn ddirfawr, trwy ei nodiadau arnynt, a'i ychwanegiadau attynt. Yr ydym yn deall fod y Casgliad gwerthfawr yma, yn Mheniarth yn bresenol. Bu Robert Fychan farw yn yr Hengwrt, yn y flwyddyn 1666, ac efe a gladdwyd yn eglwys plwyf Dolgelleu.

**FYCHAN**, ROWLAND, ysgrifenydd Cymreig rhagorol, oedd yn aelod o deulu henafol a chyfrifol yn swydd Feirionydd, y rhai oeddynt wedi ymsefydlu dros genedlaethau lawer yn Nghaergai, yn agos i'r Bala. Efe a dderbyniodd ei addysg athrofaol yn Ngholeg yr Iesu, Rhydychain; ond ymadawodd heb gymeryd urddau, ac ymneillduodd i'w dreftadaeth, lle y treuliodd efe ei amser yn coledd Llenyddiaeth Gymreig. Y mae ei enw yn sefyll yn dra enwog ragor nemawr o foneddion ei oes, am ei ymdrechion canmoladwy i ddiwyllio ei gydwladwyr tlodion, ac er mwyn hyn y cyfieithodd efe amryw lyfrau dâ, y rhai ydynt gof-golofnau anrhydeddus o'i dduwioldeb, a'i fedrusrwydd fel ysgrifenydd Cymreig. Yn y flwyddyn 1630, cyhoeddodd "Yr Ymarfer o Dduwioldeb," cyfieithiad o waith Bailey. Ymddangosodd argraffiad arall o'r un Gwaith, yn 1656. Yn y flwyddyn 1658, argraffwyd ei gyfieithiad o waith Brough, dan yr enw "Prif-fannau Sanctaidd, neu Lawlyfr o Weddïau." Ac yn yr un flwyddyn yr argraffodd "Bregeth yn erbyn Schism," gan Jasper Mayne, D.D.; a chyfieithiad o Holwyddoreg yr Archesgob Usher, a elwid, "Prif fannau Crefydd Gristionogol, a llwybraiddfodd byrr o'r athrawiaeth o honi." Ymgymerai â'r Gwaith hwn ar gais y Milwriad William Salusbury, o Bachymbyd, Llywydd dewrwych castell Dinbach, ar draul yr hwn y cafodd ei argraphu, a'i ranu rhwng y tlodion. Cyhoeddwyd ail argraphiad o'r llyfr hwn yn y fl. 1682. Yr oedd Rowland Fychan yn fardd Cymreig rhagorol hefyd; ac yr oedd yn deyrngarwr enwog, yr hyn a'i gwnaeth yn agored i gael ei erlid yn fynych. Llosgwyd ei balas, Caergai, yn mis Awst, 1645, gan y galluoedd gwerinol o Swydd Drefaldwyn; ac attafaelwyd rhan o'i ettifeddiaeth; a thrwy ymgyfreithio blin a threulfawr dros lawer o flyneddoedd, y darfu iddo ei hadenill, hyd yn nod wedi adferiad y brenin di ddiolch Charles yr Ail.

Ar losgiad ei balas gan wŷr y Senedd, cyfansoddai Rowland Fychan yr englyn canlynol;—

"Caer Gai, nid difai fu gwaith tan—arnad
Oernych wyd yr awrhon;
Caer aethost i'm car weithian,
Caer Gai lle bu cywir gân."

A'r canlynol a wnaeth efe i Gaer Gai wedi ei ail adeiladu;—

"Llawer Caer yn daer i'w dydd,—a losgwyd
Lesg-waith wŷr di grefydd;
Y Gaer hon i gywir hydd,
Caer gain yw, Caer Gai newydd."

**FYCHAN**, SIMMWNT, bardd enwog, a gwr bonheddig, a breswyliai yn mhlwyf Llanelidan, yn Swydd Dinbach. Yn yr Eisteddfod enwog a gynhaliwyd trwy awdurdod freninol yn Nghaerwys, yn y flwyddyn 1568, yr oedd efe yn un o'r pedwar a enillasant radd gyntaf Pencerddiaid ar Gerdd Dafod. Efe a fuasai yn ddysgybl i'r bardd enwog, Gryffydd Hiraethawg, yr hwn a ganmolai ei ofal yn ei gyfansoddiadau. Y mae amryw o'i gyfansoddiadau barddonol, a Gramadeg o'i gasgliad, ar gael mewn llaw ysgrifau.

**FYCHAN**, THOMAS, o Gastell Bylchwyn, boneddwr, a bardd enwog, a flodeuai rhwng 1520 a 1560. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael mewn hen ysgrif-lyfrau.

**FYCHAN**, THOMAS, ysgrifenydd, ac athronydd enwog, yr hwn a'i galwai ei hun wrth y rhan fwyaf, os nad yr oll o'i Weithiau cyhoeddedig, dan y ffugenw "*Eugenius Philathes*," oedd fab i Thomas Fychan, o Lansantffraid, Swydd Frycheiniog, yn yr hwn blwyf ei ganwyd, mewn tŷ o'r enw Drefnewydd, (*Newton*), yn y flwyddyn 1621. Wedi bod dros yspaid yn derbyn addysgiaeth ramadegol dan ofal y Parch. Matthew Herbert, efe a aeth i goleg yr Iesu, Rhydychain, yn y flwyddyn 1638, a chymerodd ei urdd-radd o B.A. yno. Wedi hyny derbyniodd urddau cyssegredig, ac yn fuan ymsefydlodd yn mheriglorïaeth ei blwyf genedigol, ar gyflwyniad câr pell iddo, sef Syr George Fychan, o Fallerstone, yn Swydd Wilts. Ond, yn fuan efe a gilgwthiwyd o'i beriglorïaeth, yn benaf, ar gyfrif ei deyrngarwch; ac ymneillduodd i Rydychain, lle yr ymroddes efe i efrydu Fferylliaeth, ac efe a gymerwyd i ffafr, a than nawdd Syr R. Murray, Ysgrifenydd Cartrefol yr Alban. Yr ydoedd yn edmygydd mawr ar ysgrifeniadau C. Agrippa, a chydnabyddai ei fod yn ddyledus iddynt, fel moddion, am ei egwyddorion athronyddol. Ymddygai yn dra dirmygus at olygiadau Aristotl, gan eu dysgrifio fel cyffuriau yr apothecari, wedi eu cyfansoddi o ddefnyddiau amryfal, ac annghydnaws; ac ni thalai nemawr fwy o barch i Descartes, yr hwn a ddarluniai yn "gydymaith mympwyol, a ddyfeisiasai egwyddorion digrifol o'r eiddo ei hun, ond ei fod wedi eu tawddlunio i'r fath ffurf, fel y mae dysgedigion wedi cam gymeryd ei gnafeidd-dra ystrywgar, am ei reswm." Efe a aeth yn gydymaith i'w noddwr, yr hwn oedd, yntau, yn dra hoff o fferylliaeth, i Rydychain, pan y symmudodd y llŷs yno yn 1665, er gochel y plâ oedd yn Llundain. Ond wedi aros yno am ychydig ddyddiau, efe a giliodd i Albury, yn y gymydogaeth hono; a bu farw yno yn ddi blant, Chwefror 27, 1665-6. O'r lluaws llyfrau a ysgrifenodd, y rhai canlynol oeddynt y penaf;—"*Anthroposophia Theomagica*, neu Draithawd ar natur dŷn, a'i sefyllfa ar ol marw." Gyd a'r hwn yr argraphwyd *Anima Magica abscondita*, neu draithawd ar natur gyffredinol blorsur, yr hwn a argraphwyd yn Llundain, yn 1650, 8 pl.—"*Magia Adamica;* neu henafiaeth *Magic*, a'i haniad o Adda i waered, yn cael ei brofi. Llundain, ar-

Digitized by Google

graphwyd yn gyf. 8 pl. 1650.—"*Lumen de Lumine;*" neu Oleuni gorcheiniol newydd, wedi ei ddarganfod, a'i hysbysu i'r byd. Llundain, argr. 1651.—"*Aula Lucis,* neu Dŷ y Goleuni," 8 pl. Llundain, 1652.—"*Euphrates;* Traethawd ar Ddyfroedd y Dwyrain; neu, am y ffynnon ddirgel, dyfroedd yr hon sydd yn llifeirio o'r tân, ac yn dwyn ynddo belydrau yr haul a'r lloer." Llundain, 8 pl. 1655.

**FYCHAN**, WILLIAM, oedd fab i Walter Fychan, Ysw., o'r Gelli Aur, yn Swydd Gaerfyrddin, a brawd ieuangaf Syr John Fychan, iarll cyntaf Carbery. Ganwyd ef yn y Gelli Aur, yn y flwyddyn 1577. Pan yn bedair ar ddeg oed, cafodd ei dderbyn i Goleg yr Iesu, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn y Celfyddydau; ac ar ol hyny ymroddodd i astudio y Gyfraith; ond cyn cymeryd ei urdd-raddio yn y gelfyddyd hono, efe a aeth "ar led," a chymerodd ei raddio yn Ddoctor, yn Vienna, ac ar ei ddychweliad, rhoddwyd yr unrhyw urdd-raddiad iddo yn Rhydychain, yn y flwyddyn 1605. Perchid ef yn fawr gan ei gyfoeswyr, fel bardd Lladinaidd a Seis'nig, rhagorol, ac enwog. Y gyfrol gyntaf o'i eiddo a argraffwyd, oedd "*Erotopaignion Pium, continens canticum canticorum Solomonia, et Psalmos aliquot selectiores una cum quibusdam aliis poematis e sacrae Scripturae fontibus petitis,*" 8 pl. Llundain, 1597. Y nesaf oedd "*Varia Poemata de Sphaerarum ordine,*" &c. 8 plyg, Llundain, 1598.—Yn yr un flwyddyn hefyd yr ymddangosodd ei "*Poemata continent. Encom. Roberti Comitis Essex.*" 8 pl. Llundain. Dylynwyd y rhai hyn gan ei "*Golden Grove, Moralized,* mewn 3 Llyfr. Gwaith tra angenrheidiol i bawb a fynent wybod pa fodd i'w llywodraethu eu hunain, eu teuluoedd, neu eu gwlad," 8 pl. Llundain, 1600, a 1608. Ond, yr amgylchiad pwysicaf yn ei oes, oedd sefydliad trefedigaeth yn y rhan fwyaf deheuol o *Newfoundland,* i'r hon y rhoddodd yr enw *Cambriol;* a galwyd hi wedi hyny, "*Britanniola.*" Cyflwynodd ei holl olud bydol, a'i dalentau, i ddwyn oddiamgylch yr anturiaeth hon. Yn y flwyddyn 1625, yr argraphwyd yn Llundain, ei "*Cambriensium Caroleia;*" pryddest Ladinaidd, wedi ei chyflwyno ganddo, dan y ffug-enw "Orpheus Junior," i'r brenin Charles y Cyntaf. Y gwaith olaf a gyfansoddodd sydd mewn rhydd-iaith, neu Draethawd, dan yr enw, "*The Golden Fleece,*" wedi ei ddosranu yn dri dosbarth, o dan y rhai yr olrheinir, ac y datguddir, cyfeiliornadau crefyddol, dadfeiliadau, a drygioni y deyrnas, &c. 4 pl. Llundain, 1626. Yr oedd efe yn byw yn Cambriol, y drefedigaeth a sefydlodd efe ei hun, yn y flwyddyn 1628, y pryd hwnw yn 51 mlwydd oed. Nid oes genym yr un hanes pa bryd y bu farw, nac yn mha ran o'r drefedigaeth y claddwyd ef.

**FYNGLWYD**, DAFYDD, a elwir hefyd, Dafydd ab Siancyn Fynglwyd, bardd, oedd yn ei flodau tua diwedd y bymthegfed ganrif. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael mewn ysgrif-lyfrau.

**FYNGLWYD**, IORWERTH, bardd enwog, yr hwn oedd ddysgybl o Orsedd Morganwg yn y flwyddyn 1460. Fel bardd yr oedd yn perthyn i Fynachlog Margam, ac yn derbyn cyflog rheolaidd am wasanaethu y frawdoliaeth. Y mae llawer o'i Gyfansoddiadau ar gael mewn llaw-ysgrifau; ond, nid ydym yn gwybod fod mwy na dau o honynt yn argraphedig; sef ei Alareb ar ol y bardd Llawdden, yr hon sydd wedi ei hargraphu, yn nghyda chyfieithiad, yn Nghrynodeb Iolo Morganwg o'r Llaw ysgrifau Cymreig. Y llall ydoedd Ffuglith am St. Ffraid, a argraphwyd yn hanes Aberconwy, gan Williams.

**FYRNWY** (Y), afon, yn benaf yn Swydd Drefaldwyn; ond mewn rhan yn terfynu rhwng y Sir hono a Sir yr Amwythig. Y mae yn cyfodi yn mynyddoedd y Berwyn, yn llifeirio i'r gogledd ddwyrain, heibio i Lwydiarth, Mathrafal, a Meifod, i Lansantffraid; ac yna, y mae yn cyfeirio i'r dwyrain, heibio i Lan y mynach, ac yn ymarllwys i'r Hafren ger Meferley. Ei hyd sydd oddeutu 35 milldir; a'r prif afonydd a ymarllwysant iddi, ydynt yr Einion, y Cain, a'r Tanat.

# FF.

**FFAGAN**, SANT, un o'r cenadon a anfonodd y Pab Eleutherius i ddysgu cred a bedydd i'r Prydeiniaid. Gwel LLES AB COEL.

**FFAGAN**, ST., plwyf yn nghantref DINAS POWIS, Sir FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU, pedair milldir i'r Gog. Orll. wrth Orll. o Gaerdydd. Mae pentref St. Ffagan yn cynwys rhai ugeiniau o dai prydferth, yn nghyd a phalas mawr caerog, cyffelyb i gastell, yn sefyll ar godiad tir, ar ochr aswy afon Lai. Mae y pentref a'r ardal o'i gwmpas, yn neillduol o brydferth, ac y mae gorsaf ar Reilffordd Deheubarth Cymru yn ymyl y pentref. Mae y plwyf hwn wedi cael ei enw oddiwrth y Sant y cysegrwyd yr eglwys iddo, sef Ffagan, yr hwn, yn ol pob tystiolaeth, a ddaeth drosodd i Brydain i bregethu yr Efengyl mor fore a'r flwyddyn 180, ac a sefydlodd yr eglwys hon, yr hynaf wrth bob tebyg o holl eglwysi Ynys Prydain.

Y mae St. Ffagan yn nodedig fel lle yr ymladdwyd brwydr waedlyd a phwysig ynddo, yr hon a gymerodd le yn amser Cromwell, rhwng arweinwyr terfysglyd plaid y Senedd yn y dywysogaeth, a'r Milwriad Horton, yr hwn a anfonodd Cromwell gyda byddin i'w diarfogi. Yr oedd y blaenaf, gyda'r Cadfridogion Stradling a Laugharne yn ei harwain, wedi cymeryd plaid y brenin, ac yn gwrthod ymostwng. Yr oeddent wedi ymgasglu yn wyth mil o wŷr, ac aethant yn hyf i gyfarfod Horton a'i wyr, y rhai oeddent wedi ymsefydlu yn St. Ffagan. Ymladdwyd y frwydr ar yr 8fed dydd o Fai, 1648, a diweddodd yn narostyngiad y milwyr Cymreig, gyda lladdfa fawr, a chymeriad amryw o'r prif swyddogion yn garcharorion. Lladdwyd triugain a phump o wyr o'r plwyf hwn yn unig; ac yn y cynhauaf dilynol, cymaint oedd prinder dynion, fel y gorfyddid i'r merched a'r gwragedd ladd y gwair a'r ŷd, a chasglu y cnydau adref. Ystyriai y senedd y fuddugoliaeth hon mor bwysig, fel y pennodwyd diwrnod o ddiolchgarwch i'w gadw ar yr achlysur. Rectoriaeth yw y fywioliaeth, gyda'r hon y mae Llanilterne yn gysylltiedig, yn esgobaeth ac arch-

Digitized by Google

ddiaconiaeth Llandâf, wedi ei phrisio yn llyfrau y brenin yn 14*p.* 9*s.* 7*c.*, ac yn nawddogaeth Iarll Plymouth. Mae yr Eglwys yn adeilad prydferth, ac wedi myned dan adgyweiriad pwysig yn ddiweddar. Mae y palasdy hefyd wedi bod dan adgyweiriadau y blynyddoedd diweddaf, ac y mae ei berchenogion yn talu ymweliadau achlysurol ag ef. Perthynai gynt i deulu o'r enw Lewis; ond trwy briodas yr etifeddes, trosglwyddwyd ef, yn nghyd ag etifeddiaeth fawr yn y Sir hon, i Iarll Plymouth, y perchenog presenol. Mae hen achos gan y Methodistiaid yn y pentref prydferth hwn. Traddodwyd y bregeth gyntaf, cysylltiedig a'r cyfundeb hwnw, yn y pentref hwn, gan Howell Harris, yn y flwyddyn 1740. Cynaliwyd yr oedfa yn Cribyn Cadog, yn nhy Lewis, a Christiana Dafydd. Oddiyma aeth Harris i fan ar fynydd Llwyn-diddan, tua dwy filldir a haner oddiyno, lle yr oedd tyrfa fawr iawn wedi ymgasglu i wrando arno. Ar ol i'r oedfa ddechreu, ymddangosodd un Mr. Jones o Gastell Ffon-mon, Heddynad, yn y lle. Daethai yno ar y bwriad i rwystro Harries i fyned yn mlaen; ac yr oedd boneddigion eraill gydag ef. Pan welodd Harris y boneddwyr yn dynesu, ac eisoes wedi cael amnaid am eu bwriad, trodd i lefaru yn Saesneg, gan feddwl y buasai y boneddigion yn fwy tebyg o wrando yn yr iaith hono. Ac felly bu; safodd y boneddigion i wrando yn astud nes oedd y bregeth drosodd. Yna aeth Mr. Jones at y pregethwr, a gwahoddodd ef i ddyfod gydag ef i'w dy. Ond ni fedrai Harris gydsynio y tro hwnw, eithr cyflawnodd ei gais y tro nesaf y daeth i'r ardal; oddiar hyn y mae achos cysurus gan y Methodistiaid yn y lle, ac y mae er ys llawer o flynyddoedd yn cael ei gynal mewn addoldy cyfleus.

**FFENTON**, Richard, awdwr yr "*Historical Tour through Pembrokeshire,*" a anwyd yn Nhy Ddewi, yn 1746. Wedi derbyn rhyw gymaint o addysg yn ysgol yr eglwys gadeiriol, aeth i Lundain, lle y cafodd swydd yn y toll-dy. Ond gan nad oedd y gwaith hwnw yn unol a'i chwaeth, aeth i'r *Middle Temple,* i efrydu y gyfraith, a chymerodd ei le fel dadleuydd ar gylchdeithiau cyfreithiol yn yr Iwerddon, Lloegr, a Chymru. Yr oedd yn ysgolhaig rhagorol, ac yn meddu chwaeth uchel at farddoniaeth a hynafiaethau. Cyhoeddodd ddwy gyfrol o farddoniaeth cyn bod yn ugain oed. Yr oedd ar delerau cyfeillgar a phrif lenorion yr oes, yn neillduol â Goldsmith, Garrick, a Syr Richard Hoare; ar ddeisyfiad yr olaf, yr ysgrifenodd efe ei "*Historical Tour through Pembrokeshire,*" yr hwn a gyhoeddwyd yn Llundain yn 1810. Ysgrifenodd hefyd a "*Tour in Quest of Genealogy,*" a "*Memoirs of an Old Wig,*"—cyhoeddwyd y ddau yn ddienw. Efe a gyflwynodd yr ugain, neu y deng mlynedd ar hugain diweddaf o'i oes, yn hollol at lenyddiaeth; cyfansoddodd Chwareuon, cyfieithodd "*Deipnosophistæ*" Athenæus, a gadawodd ar ei ol lawer o ysgrifeniadau gwerthfawr, yn mysg pa rai yr oedd defnyddiau at hanes holl siroedd Cymru. Bu farw yn mis Tachwedd, 1821, yn 75 oed, a chladdwyd ef yn Maenorowen, ger Abergwaen, swydd Benfro. Dywedai cyfaill a'i hadwaenai yn dda, am dano, "ei fod yn ddyn o ddiwydrwydd diflino, o chwaeth farddonol uchel, tymeredd hynod o ddedwydd, ymddygiad a moesau neillduol foneddigaidd, a'i fod y dyn o'r wybodaeth fwyaf bron ar bob pwnc a adwaenai ef erioed."

**FFESTINIOG**, neu Ffestiniaw; plwyf yn nghantref Ardudwy, swydd Feirionydd, Gogledd Cymru, 2¼ milldir i'r dwyrain ogledd ddwyrain o Tan y bwlch.—Y mae yr enw yn arwyddo prysurdeb, *to hasten, or to do a thing speedily.* Tybia rhai ei fod yn tarddu o'r gair Lladin, *Festino* a bod yr enw yma yn cael ei roddi ar y lle, er yr amser yr oedd y Rhufeiniaid yn llywodraethu yma.

Mae y Dr. Wm. O. Pughe, yn olrhain y gair o wreiddiau Cymreig; a defnyddid y gair hefyd yn yr ystyr yma gan yr hen Feirdd Gymreig, yn eu barddoniaeth, a'u Diarebion. Dywed Awdwr yr ysgrif "Moel y Gest," a ymddangosodd yn y Traethodydd, mai prysuro oedd eisiau, os tros y Mynyddoedd i'r Bala, neu i'r Yspytty yr elid cyn y nos; a mwy fyth fyddai y brys, os yn mlaen y llanw y croesid y Traeth Bach, a'r Traeth Mawr, i Sir Gaernarfon.

Yr oedd Cwmwd Ardudwy yn nghyda Chwmwd Eifionydd, yn ffurfio Cantref Dunodig, yn ol y dosbarthiad boreuaf ar Dywysogaeth Cymru: erbyn hyn gelwir y Cwmwd, yn Gantref Ardudwy, yr hwn a renir yn ddau, sef Ardudwy Uwch Artro, ac Ardudwy Is Artro. Cymerant yr enwau yma oddiwrth eu safle ar Afon Artro, yr hon sydd yn rhedeg drwy blwyf Llanbedr; ac yn ymarllwys i'r mor yn Mochras.

Saif plwyf Ffestiniog yn y cyntaf, a therfynir ef ar y Gogledd, gan blwyfau Llanfrothen, Beddgelert, a Dolwyddelen, ar y Dwyrain gan Penmachno, ac Yspytty Ifan; ar y Dehau gan Afon Cynfal, yr hon sydd yn ei wahanu oddiwrth blwyf Maentwrog, ac ar y Gorllewin gan y Traeth bach, a Llanfihangel y Traethau.

Ei hyd o'r Gorllewin i'r Dwyrain, sef o Gaer Fali, i Garnedd Iago, a'r Migneint, ydyw deng milldir, a'i lêd o'r Dehau i'r Gogledd, sef o Afon Cynfal, i Fwlch Gorddinen, ydyw pum milldir a haner. Mae yn amrywiol o ran ei arwynebedd, cynwysa liaws o gymoedd dyfnion, a chreigiau noethlwm ac ysgythrog; a chawn yma hefyd amryw o fynyddoedd uchel. Ar y Gogledd y mae y Moelwyn Bach, Moelwyn Mawr, a'r Foel Rudd, a'r Allt Fawr. Uchder y Moelwyn Mawr ydyw 2390 troedfedd uwchlaw gwyneb y mor. Ar y Dwyrain y mae Moel Barlwyd, Moel Amnan, a'r Manod Mawr, yr hwn sydd yn 2178 troedfedd o uchder. Er fod y rhan fwyaf o'r plwyf yn greigiog ac anwastad ei arwynebedd, y mae y dyffryn yn brydferth a deniadol dros ben; a rhoddir canmoliaeth uchel iddo gan deithwyr, o amser *Wyndham* hyd yn awr.

Saif Pentref Ffestiniog ar le uchel, yn agos i gydlifiad afonydd Cynfal a Dwyryd. Cyffelybir Rhaiadrau y cyntaf i raiadrau y *Tivoli* yn yr Eidal, un o ba rai sydd oddeutu 300 o latheni uwchlaw, a'r llall 300 o latheni islaw, y Bont henafol sydd yn croesi yr afon at Cynfal. Y mae yr uchaf yn gynnwysedig o dair craig serth, dros y rhai y mae y dwfr yn disgyn i Gronbwll dwfn a du. Ffurfir y llall gan len lydan o ddwfr, yn ffrystio dros graig lechweddog, oddeutu 40 troedfedd o uchder. Rhwng y Rhaiadr isaf a'r Bont, y mae colofn o graig hynod yn ngwely yr afon, yr hon a elwir *Pwlpud Huw Llwyd Cynfal.* Ar ol i'r dwfr gyrhaedd gwaelod y ceudod dwfn, y mae yn ymwthio ymlaen rhwng y creigiau, gan ddisgyn o lethr i lethr, nes enill llyfnach gwely, i'r Ddwyryd ddolenog, yr hon sydd yn ymlwybro yn arafaidd drwy y dyffryn prydferth, ac yn ymarllwys i'r Traeth Bach islaw Pentref Maentwrog.

Digitized by Google

Dywedir fod golygfa Ffestiniog yn tebygu i *St. Helena*, ac yn enwedig i *Sandy Hook Cove*. Sylwa Mr. Warner, ei fod yn cynwys pob gwrthddrych ag sydd yn cyfoethogi, ac yn amrywio tirwedd (*landscape*), ac y mae Wyndham yn sicrhau ei fod yn rhoddi efrydiaeth mor wŷch i'r Lluniedydd a chymydogaeth *Tivoli* neu *Frascati*. Y mae Arglwydd Lyttleton ar ol ymweled a'r lle, yn fwy afradus fyth o'i ganmoliaeth, oblegid dywed ei arglwyddiaeth wrth ei gyfaill Mr. Bower, "Gyda gwraig serchog, cyfaill cywir, ac ystor helaeth o lyfrau, gallai un dreulio oes yn y dyffryn hwn, heb ei hystyried ond fel un diwrnod. Os ydych yn meddwl am fyw yn hir ac adnewyddu eich ieuengctyd, deuwch gyda Mrs. Bower, a thrigwch yn Ffestiniog."

Mae yn y plwyf yma liaws o Lynau prydferth, y prif rai ydynt, Llyn Ystwlan, geilw rhai ef yn *Llyn trwst y llan*, eraill gyda mwy o briodoldeb a ddywedant mae ei ystyr ydyw, "Llyn *dwys-du-lyn*." Llyn Cwmorthin; Llyn Conglog; Llyn Barlwyd; Llyn Bowydd; Llyn Du Bach; Llyn y Manod; Llyn y Gamallt; Llyn Hesgog; Llyn Bach; Llyn y Morwynion, a Llyn y Dywarchen.

Ceir amryw o lynau ereill, llai, sef Llyn Hafod y Llyn; Llyn y Garnedd-lwyd; Llyn Gelliwiog; Llyn y Drwm, &c. Y prif afonydd ydynt y Barlwyd, Bowydd, Teigil, Penyd, Cynfal a'r Dwyryd. Mae y ddwy gyntaf yn ymuno a'u gilydd yn agos ir Cymerau (*Junction*), o herwydd yr hyn y derbyniodd yr enw uchod. Maent oll wedi cyd-gyfarfod ger Dol y Moch, er ffurfio y Ddwyryd.

Y mae Eglwys Ffestiniog wedi ei hadeiladu yn lled foreu, ac wedi ei chysegru i Sant Michael. Y mae Capliniaeth Maentwrog mewn cysylltiad a hi, saif yn Neoniaeth Ardudwy ac o fewn Esgobaeth Bangor. Tynwyd yr hen Eglwys i lawr, ac adeiladwyd un newydd yn ei lle, ychydig o latheni yn fwy Gorllewinol, yn 1844–5 a saif hon etto yn Eglwys odidog a helaeth. Er fod yr hen adeilad a chwalwyd, wedi sefyll am ganrifoedd, ymddengys mai nid hono ydoedd yr Eglwys gyntaf a adeiladwyd yn Ffestiniog; canys tua chwarter milldir ar yr ochr ddeheuol i'r pentref y mae lle a elwir yr *hen fynwent;* ac y mae yn eithaf hysbys fod yma gladdfa wedi bod, er nad oes un bedd i'w ganfod yn bresenol. Beudy sydd yn bresenol yn y man y safai yr hen Eglwys.

Yr oedd dwy garreg fawr ar eu penau yn dangos y fynedfa i'r llanerch gysegredig, ac y mae un yn aros hyd heddyw. Mae hen draddodiad yn y gymydogaeth eu bod wedi dechreu adeiladu Eglwys ar y llanerch uchod, ac y byddai yr holl gerrig a roddid ar eu gilydd yn ystod y dydd, yn cael eu symud yn y nos, i'r man y saif yr Eglwys yn bresenol.

Poblogaeth y plwyf yn 1801 ydoedd 732, yn 1821 yr oedd yn 1168, yn 1861 yr ydoedd yn 4553, ac yn 1871 yn 8062. Gellir priodoli y cynydd dirfawr yn y boblogaeth, i agoriad y Cloddfeydd enwog sydd yn y gymydogaeth, a bywiogrwydd y fasnach lechau yn yr ugain mlynedd diweddaf. Yn ol y ddeddf a basiwyd yn 1803 i gael cyfrif o'r arian a godid drwy drethiad plwyfol yn Lloegr a Chymru, ac at faint yn y Bunt, yr oedd yr arian a godid pryd hyny yn y plwyf yma, yn 140*p.* 3*s.* 6*c.* yn ol 4*s.* 6*c.* yn y Bunt. Yr oedd yr arian a godwyd trwy drethiad plwyfol yn 1853 yn 886*p.* 6*s.* yn ol 4*s.* 6*c.* yn y Bunt. Er y flwyddyn uchod hyd yn bresenol y mae cynydd dirfawr wedi cymeryd lle. Yn ol y Trethiad a wnaed ar yr 17eg o Mai, 1871. Y mae y gwerth trethadwy yn y plwyf fel y canlyn:—

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm yn ol 4*s.* 6*c.* yn y Bunt— | | | |
| Ffermydd, | £3,070 | 13 | 2 |
| Chwarelydd, | 15,503 | 14 | 10 |
| Anneddau, | 1,082 | 0 | 6 |
| Swm yr Anneddau yn ol 2*s.* 3*c.* y Bunt, | 3,575 | 19 | 0 |

Yr ydym yn gweled yn ol hyn fod y swm a godid yn y flwyddyn bresenol—

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yn ol 4*s.* 6*c.* yn y Bunt yn...... | £4422 | 14 | 0 |
| Yn ol 2*s.* 3*c.* yn y Bunt yn...... | 402 | 6 | 0 |
| Cyfanswm, | £4825 | 0 | 0 |

Y mae dwy Farchnadfa yn y plwyf, sef un yn y Pentref, ac un yn y Blaenau, yr hon a adeiladwyd yn 1862, drwy roddion Perchenogion y Chwarelydd, a Mrs. Oakley yn benaf, ac yn gysylltiedig a hi y mae llyfrgell odidog. Yn nechreu y flwyddyn hon eangwyd y Farchnadfa, a gwnaed Ystafell-Gynull, *Assembly-room* ardderchog uwch ei phen.

Cynnelir saith o Ffeiriau yn y flwyddyn yn y Pentref, sef ar Mawrth 7ed, Mai 24, Mehefin 30, Awst 15, Medi 26, Hydref 23, a Tachwedd 13.

Y mae elusenau a roddwyd i'r tlodion yn y plwyf yn sefyll fel hyn, yn ol Adroddiad Dirprwywyr y Llywodraeth yn y flwyddyn 1837.

Yn ol Adroddiad Seneddol am y flwyddyn 1786 rhoddwyd y symiau canlynol at wasanaeth y tlodion, a chyflwynwyd hwynt i ofal y swyddogion plwyfol:—

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gan Richard Humphreys, .......... | £20 | 0 | 0 |
| Gan Mrs. Jones fel y tybir, oddeutu 1742, | 30 | 0 | 0 |
| Gan John Roberts, | 5 | 0 | 0 |
| Gan Rhoddwr anhysbys, | 3 | 0 | 0 |
| | £58 | 0 | 0 |

Ymddengys fod y swm o 60*p.* wedi ei benthyca tua 10 mlynedd yn ol i ymddiriedolwyr Addoldy Methodistaidd yn Llanfor ger y Bala. Derbyniwyd Llog o 3*p.* yn rheolaidd gan y Wardeiniaid, oddiwrth Mr. Robert Richard o Gwern-Delisau, yn agos i'r Bala, a rhanwyd hwy gan y Gweinidog a'r Wardeiniaid oddeutu y Nadolig, yn mysg tlodion y plwyf yn gyffredinol; ond yn benaf i'r rhai nad oeddynt yn derbyn cynnorthwy plwyfol, yn wahanol symiau, yn amrywio o 1*s.* i 3*s.* 6*c.* yr un. Nid ydoedd y plwyf yn meddu unrhyw sicrwydd am y cyfalaf neu y cyfanswm o 60*p.* Anogasom ar fod cais yn cael ei wneyd at Mr. Richards, i roddi cydnabyddiaeth digonol am y Benthyg i'r plwyf, a phan y cyfarfu y Boneddwr a ni yn y Bala, ymgymerodd arno ei hun a'i gyd-ymddiriedolwyr, i roddi Rhwym Ysgrif (*Bond*) i Swyddogion plwyf Ffestiniog am y 60*p.* a ddiogelwyd ar yr Addoldy yn mhlwyf Llanfor.

### Elusen Mrs. Jones.

Dywed yr Adroddiad Seneddol yr un modd, fod Mrs. Jones oddeutu y flwyddyn 1703, wedi rhoddi 50*p.* i'r tlodion, neu at rwymo plant tlodion yn Egwyddorweision, a bod y swm wedi ei roddi i'r swyddogion plwyfol, "gwneir nodiad ychwanegol yma" "Ni thalwyd llog ers amryw o flynyddoedd yn ol. Y mae yn ddyledus drwy Rwym Ysgrif oddiwrth y

Digitized by Google

diweddar William Wynne o'r Wern, Ysw. Nid ydyw y Rhwym Ysgrif yn meddiant y Swyddogion plwyfol yn bresenol, (sef yn 1837). Gwnaed cais at William Wynne, Ysw. o Peniarth, yn agos i Towyn, mab y diweddar Wm. Wynne, am dalu yr 50*p*. gyda'r llog oedd yn ddyledus ar y swm; ond ni wyddai ef ddim am y drafodaeth."

Mae y plwyf yn ddiffygiol o ddaiar fras a chynnyrchiol, oddiethr yn y dyffryn, drwy yr hwn yr ymddolena y Ddwyryd. Yma y gwelir natur yn ei hamrywiaeth a'i phrydferthwch: tir tenau ac oer sydd yn y rhanau uchaf o hono, creigiau noethlwm a daneddog sydd yn ffurfio y rhan fwyaf o'r plwyf; yn enwedig y rhan fwyaf Gogleddol, ond y maent yn llawn o gyfoeth, yr hyn a rydd brawf ychwanegol i ni, fod Awdwr natur wedi "gwneyd y naill ar gyfer y llall."

Y mae olion o'r hen ffyrdd Cymreig i'w canfod mewn gwahanol ranau o'r plwyf; yr oedd yr hen ffordd o'r Ffestiniog i'r Bala, yn arwain o groesffordd Tyn y Ffridd, a thros Gefn Bodlosgad, oddiar Bryn Cyfergyd, ac at Bryn llech; ac oddiyno yn syth dros y Bryn, i Bont yr Afon Gam, ar y chwith i'r ffordd bresenol. Gellir ei dilyn hefyd o Bentref Ffestiniog drwy ffridd Ty Isaf, at Tal y Bont, lle y gwelir fod yr afon Dwyryd yn cymeryd cyfeiriad gwahanol yn yr hen amser. Hen ffordd henafol arall, ydyw yr hon sydd yn croesi Pont Dol y Moch, ac yn arwain ar yr ochr ogleddol i'r Dwyryd, at Tan y Bwlch, Carnedd Hywel, ac at Ogof Llychwin. Hen ffordd Gymreig arall oedd yn dyfod o gyfeiriad Dolwyddelen, dros Fwlch Gorddinen, Rhiwbryfdir, heibio hen dŷ Maen offeren, dros Bont y Fron goch, Tyddyn Gwyn, drwy diroedd Pengwern, a Chae'r Blaidd, i Ffestiniog. Yr oedd un arall yn croesi y Cefn, drwy diroedd Lletty Faelog, ac yn ymuno â hon ar dir Pengwern, a gellir tybio fod hon yn cyfeirio at Trawsfynydd. Yr oedd rhywbeth yn debyg yn null yr hen Gymru a'r Rhufeiniaid, yn ngwneuthuriad eu ffyrdd, sef myned ar eu huniawn i lawr y pant, ac i fyny y bryn, heb byth ei osgoi.

Y mae olion o hen ffordd arall, yn dyfod i lawr o Fwlch Careg y Fran, at Cae Canol, dros odreu y Manod, Ffridd Cae du, heibio y Ffynon, Llwyn Crai, ac at y Cymerau; yma yr ydoedd yn ymranu, un gainc yn arwain heibio y Cymerau Isaf, ac at Rhyd y Sarn, a Thal y Bont, a'r llall yn croesi yr afon rhwng y Cymerau a Bryn Melyn, sef ty bychan ar yr ochr ogleddol i'r Afon, ar odrau Moel Ystradau, yr hon a elwir dan yr enw yma, am fod y ffordd hon yn myned dros ei godrau, a ffordd Tanygrisiau yn arwain dros yr ochr arall, oddiwrth Tyn y Cefn.

Y mae Pont y Cymerau, neu Bryn Melyn fel y gelwir hi weithiau, yn hen adeilad gywrain, yn gyfansoddedig o ddau fwa pur wastad, tua phedair llath o hyd, a phum llath o uchder o wely yr afon; mae y pentan sydd rhwng y ddau Fwa, yn saith droedfedd bob ffordd, ac wedi ei adeiladu ar graig yn nghanol yr afon. Lled y Bwa ydyw chwe throedfedd, ac yr oedd magwyrydd wedi eu hadeiladu ar y ddwy ochr fel canllawiau, ac felly yn gadael mynedfa o dair troedfedd a chwe modfedd o led. Ceir amryw o bontydd yn y plwyf, yn tebygu iddi o ran gwneuthuriad, sef Pont Dol y Môch, a'r Bont Ddu ar yr afon Cynfael.

Priodolir Pont y Cymerau i waith y Rhufeiniaid, a dywedir mai ffordd Elen oedd yn dyfod dros odreu y Manod, Cae du, ac yn croesi y Bont uchod, gan gyfeirio oddiar Gelli-wyog, drwy Ffridd y Dduallt, ac yn ymuno a'r ffordd oedd yn myned o Domen y Mûr i gyfeiriad Beddgelert, yn agos i Ogof Llychwin, wrth odreu y Moelwyn, mae olion o'r hen ffordd yn amlwg mewn amryw fanau; ac yr ydym yn credu yn ddiysgog mai hen ffordd Gymreig ydoedd. Cawn fod cainc yn cymeryd o honi ar y chwith, yn agos i'r Cymerau, ac yn arwain drwy Rhyd y Sarn, ac at Maentwrog: gallasai y Rhufeiniaid ddefnyddio y ffyrdd hyn pan yn cyfeirio i Harlech, neu Segontium, yn hytrach nag amgylchu drwy Domen y Mur. Yr oedd hen ffordd Elen yn croesi dyffryn Ffestiniog, o Domen y Mur, yn mhlwyf Maentwrog, i Segontium, yr oedd yn cyd redeg a'r hen ffordd Gymreig oddiwrth Dan y Bwlch, heibio Carnedd Hywel, at yr Ogof, a thrwy Groesor a Nanmor. Gellir gweled olion y ddwy ar wahan mewn rhai manau, yn berffaith eglur.

Yr ydym yn cael fod un o'r ffyrdd hyn yn arwain i gyfeiriad gogleddol o Domen y Mur; yr ydoedd yn croesi y Breichiau, ac i lawr at Bryn Saeth, ac yn croesi Afon Cynfal i blwyf Ffestiniog yn agos i Tyddyn Gwyn. Mae hi yn croesi ffordd y Bala tua dwy filldir uwchlaw pentref Ffestiniog, ac yn arwain trwy y Beddau, Rhyd yr Halen, neu Rhyd Elen. Yr ydoedd y Rhufeiniaid wedi palmantu y Rhyd, er atal y Nant sydd yn rhedeg o Llyn y Gamallt i ddryllio y fynedfa. Mae peth o hono yn aros etto, rhaid ei fod yn gadarn, gan ei fod wedi dal am gymaint o ganrifoedd, heb ei gymeryd ymaith yn llwyr gan y llifeiriant. Oddi yma i Bwlch Careg y Fran, y mae yr hen ffordd yn hollol amlwg ar hyd cefnen o fynydd, heb ffyrdd eraill yn ei chroesi nac yn ei dilyn; a gellir ei cherdded am tua thair milldir. O Bwlch Careg y Fran y mae hi yn dilyn at chwarel y Rhiw Bach, ar ochr Pen Machno; ac oddiyno y mae yn cyfeirio dros y mynydd i Penamnan, Dolwyddelen, Bryn Gefeiliau, rhwng Bettws y Coed a Chapel Curig, a thros y mynydd i Conovium, neu Gaer Rhun, yn agos i Conway.

Y mae ffyrdd da wedi eu gwneyd yn y plwyf er dechreu y ganrif bresenol, sef ffordd i'r Bala, a Thrawsfynydd. Yn 1801 gwnaed ffordd o Gloddfa y Diphwys, i Gongl y Wal, er cario y Llechau, yn lle myned dros Bont y Fron goch, gan Meistri Turner a Cassons; ac yn 1830 gwnaed ffordd gan yr un Cwmni, o Gongl y Wal, Tyddyn Gwyn, heibio Pengwern, at Rhyd y Sarn, yn lle myned a'r llechau drwy Ffestiniog; a gwnaed un o'r Cymerau i Tan y Grisiau, tua'r un amser. Yn 1852, trwy ymdrechion Samuel Holland, Ysw., A.S., gwnaed ffordd dda o Rhiwbryfdir, dros Fwlch Gorddinen, ac yn 1853 o Tan y Grisiau i Rhiwbryfdir. Yr oedd yr hen ffyrdd hyn, hyd y blynyddoedd uchod, mor ddrwg, fel nad allai ceffyl eu teithio.

Fel ag yr oedd chwarelau yn cael eu hagor, a masnach yn cynnyddu, gwelwyd angen am well cyfleusderau i gludo y llechau; ac yn y flwyddyn 1833 yr ydym yn cael eu bod wedi dechreu ar y gorchwyl o wneyd ffordd Haiarn o Rhiwbryfdir i Bortmadog, 13 milldir o hyd, gorphenwyd hi yn 1835, y mae yn gogwyddo yn raddol fel yr â y gerbydres ei hunan, a chludid y ceffylau i lawr mewn cerbydau, fel y gallont ddwyn y gerbydres wag yn ol. Er y flwyddyn 1863 cludir llechau, nwyddau, a theithwyr ar y llinell yma, gydag ager. Yn 1868 gwnaed Rheil-ffordd o Dol-y-garreg-ddu, neu y Diphwys, i Bentref Ffestiniog. Dylasem grybwyll hefyd,

Digitized by Google

fod Rheil-ffordd wedi ei gwneyd dros y mynydd o chwarelydd Rhiwbach i Ddol y garreg ddu, ers tua 10 mlynedd yn ol, er cludo y llechau i Porthmadog.

Y mae lliaws mawr o hen adfeilion i'w canfod yn y plwyf. Yn nghwr isaf a mwyaf gorllewinol y plwyf, y mae olion o hen amddiffynfa Frytanaidd a elwir Caer Fali; saif hon wrth y Nant, yn agos i Dollborth Caer Faly, yn y fynedfa i Ddyffryn Ffestiniog. Beth ydyw ystyr yr enw nis gallwn ddyfalu, os nad ydyw wedi ei Saesnegeiddio, mewn cyfnod diweddarach, ac felly yn cymeryd ei enw oddiwrth y dyffryn, (*valley*).

Yn agos i Orsaf Hafod y Llyn, y saif gweddillion o "Garnedd Hywel;" Gellir ei gweled ar yr ochr ddeheuol i'r Rheilffordd Ffestiniog, lle y mae yr hen ffordd a'r ffordd newydd yn ymuno. Pa Hywel ydoedd yr un a gladdwyd yma, nid ydym yn gwybod; mae yn debyg ei fod yn un o'r hen arwyr Cymreig, oblegid fe godwyd Carnedd fawr ar ei fedd; ond erbyn hyn y mae y rhan fwyaf o honi wedi ei gludo ymaith.

Yn y flwyddyn 1831, cafwyd Sêl, berthynol i Esgob Bangor, yn y ddaear gerllaw Tan y Bwlch, ei defnydd ydoedd o Arian, ac o drwch dryll coron arian bathol, y mae yn debygol mae Sêl Llewelyn Bifort ydoedd, yr hwn oedd Esgob yn Mangor (yn ol Willis), yn amser Harri IV. tua'r flwyddyn 1404, ond pa fodd y daeth y Sêl i'r fan y canfyddwyd hi, nis gellir gwybod. A ganlyn ydyw yr argraff oedd arni.—*S. Lodowici Epi. Bangoren ad Causas.*

Ychydig uwchlaw Dol y Moch, yn agos i'r llwybr sydd yn arwain i fyny at y Gelliwyog, neu Gelli ddyfrllyd, lle ag sydd hyd heddyw yn ateb i'w enw cyntefig, yn lle coediog a dyfrllyd; canfyddwyd cerrig hynod wedi eu gosod ar eu penau yn y ddaiar, ac yn ffurfio cylch tua 3 troedfedd o drawsfesur; deuwyd yn ddamweiniol ar eu traws wrth droi y tir, oblegid yr oeddynt yn gydwastad a'r ddaiar. Cloddiwyd iddo a chafwyd fod y cerrig tua 3 troedfedd o ddyfn ond ni ddarganfyddwyd dim ar y gwaelod, oddiethr pridd du. Mae yn debyg mai math o fedd henafol ydoedd.

Y mae ychydig o olion yn aros ar yr ochr ogleddol i Bont y Cymerau, cynnwysedig o amryw lanerchi ag sydd yn profi yn eglur fod yr hen Gymru wedi bod yn trigo yma ganrifoedd yn ol; sef yn agos i'r hen ffordd oedd yn cyfeirio at Ffridd y Dduallt.

Pan wedi croesi y Bont i'r ochr ddeheuol, yr ydym yn teimlo ein traed yn sengi ar lanerchau cysegredig yr hen Dderwyddon; yn ol llên gwerin, yr ydoedd amryw o Garneddau mawrion rhwng y Dollborth Newydd a'r afon; ond y maent wedi eu cario ymaith trwy arloesi y tir. Pan oeddynt yn cario un Garnedd led fawr, tua 30 mlynedd yn ol, sylwyd fod cerrig wedi eu gosod ar eu penau yn y ddaiar, yn dyfod i'r golwg, y naill ar ol y llall, yr oeddynt tua 2 droedfedd o uchder, ac mewn o ddwy lath i dair oddiwrth eu gilydd, yn ffurfio cylch crwn, tua 12 llath o draws-fesur; yn nghanol y cylch cafwyd Cist faen, tua 6 troedfedd o hyd, a 2 droedfedd o led; yr ydoedd dwy garreg yn ffurfio yr ochrau, ac un yn y ddau ben, a charreg yn gorchuddio y cyfan, yr hon sydd i'w gweled yn bresenol yn garreg gorddrws Ty y Dollborth sydd gerllaw. Ni chafwyd dim yn yr hen Gist ond ychydig o bridd du a rhuddgoch. Yr ydoedd y Garnedd cyn dechreu ei chlirio, yn gorchuddio yr oll o'r cerrig oedd yn ffurfio y cylch. Adnabyddid hi dan yr enw "Carnedd Pen y Cae," ac weithiau, "Carnedd Pen y Cae Gwyn." Yr ydoedd yn sefyll ar yr ochr dde i'r hen ffordd, wrth fyned at y Bont. Y mae ychydig o adfeilion yn Nghaer y Coed, gyferbyn a'r man y safai, ar yr ochr aswy i'r ffordd. Ymddengys fod y pantle yma, o'r Cymerau Isaf hyd Cwm Bowydd, wedi bod yn lle pwysig gan ein henafiaid. Nid yn aml y canfyddir olion mor fawrion ac ardderchog a hen Lys Dorfil, ar lan afon Bowydd, uwchlaw Tyn y Cefn.—Gwel CWM BOWYDD.

Rhaid tynu yn mlaen hyd Rhiwbryfdir ar derfyn gogleddol y plwyf, lle y mae Cloddfeydd llechau dihafal Ffestiniog. Beth ydyw ystyr yr enw Rhiwbryfdir? Y mae cryn lawer o amrywiaeth barn ar y mater, dadleua rhai, mai Rhiw Brwydr ydyw ei ystyr, eraill mae Rhiw-y-braf-dir, oblegid fod yma lanerchau pur ddymunol yn mysg y fath greigiau noethlwm, cyn eu gorchuddio ag yspwrial y cloddfeydd; tybia eraill gyda mwy o briodoldeb efallai, mae Rhiw-y-pryf-dir ydyw ei ystyr, dyma y farn mwyaf cyffredin, ac y mae yn ddi ddadl ei fod yn lle pryfedog yn yr hen amser; oblegid yr ydoedd yn lle coediog iawn. Y mae gweddillion o goedydd mawrion i'w canfod yn bresenol yn y mawnogydd, o Tan y grisiau hyd Rhiwbryfdir; ac y mae enwau lleoedd yn y gymydogaeth yn brawf ychwanegol, sef Pant yr Yn, a Llwyn y Gell. Yr oedd y llechweddi cyfagos yn cynwys helaethrwydd o greaduriaid gwylltion hyd yn ddiweddar. Ychydig o anedd-dai ydoedd yn y fangre hyd oddeutu 50 mlynedd yn ol, ond yn awr y mae ugeiniau o anedd-dai gwychion, ac Addoldai helaeth a phrydferth. Yn nghwr eithaf yr ardal, y mae J. W. Greaves, Ysw., perchenog Cloddfa y Llechwedd, wedi adeiladu Palas ysblenydd yn drigfan iddo ef a'i deulu.

Ar lan afon Barlwyd, yn Rhiwbryfdir, yr oedd hen Fonachlog, a dyma yr enw a roddir ar y lle etto, er nad oes yma yn bresenol ond tri neu bedwar o dai perthynol i'r Cwmni Cymreig. Tybir fod yr hen Fonachlog wedi ei chodi yma fel nawddle i'r Monachiaid ar eu teithiau o Fonachlog y Cymmer i Fonachlog Aber-Conwy, a Bangor-Is-y Coed, &c. Gwelsom grybwylliad mewn *Guide Book*, fod yn y Fonachlog yma gryn lawer o amser yn ol, ryw hen ddyn llygredig yn byw, yn cynnal i fyny y drefn o amlwreigiaeth fel y gwna y Mormoniaid yn yr oes hon. Mae yn sicr fod y Monachod yn llygredig, a'r Mynachlogydd yn nythleodd i bob aflendid, cyn eu dinystrio yn amser Harri VIII.

Ychydig islaw, y mae lle o'r enw y Dinas. Bryn ydyw ar yr hwn y saif ty, perthynol i gloddfa Samuel Holland, Ysw., A.S. Nid oes yma unrhyw olion, ac nid oes traddodiad fod amddiffynfa wedi bod arno. Tua haner milldir i Rhiwbryfdir y mae lle a elwir Maen Offeren, a gellir casglu fod rhyw gysylltiad rhwng y lle a'r hen Fonachlog.

Dywedir fod Ffermdy y Cwm, yn nghwr uchaf Cwm neu Flaen Cynfal, wedi bod yn hen Fynachdy, ac y mae Ty ar y creigiau uwchlaw iddo, ac ar yr ochr ddeheuol i'r ffordd sydd yn arwain o'r Ffestiniog i'r Bala, a elwir Hafod yr Offeiriad.

Gelwir y Bryn sydd ar y gogledd i Pengwern, yn Henblas, am y tybir mai yma y safai yr hen Balas, ganrifoedd yn ol, cyn adeiladu Pengwern. Y mae yma adfeilion i'w gweled ar y Bryn yn bresenol, sef cylch crwn, 30 troedfedd o draws-fesur, a'r fynedfa iddo ar yr ochr ddeheuol; ymddengys mai Tŵr gwylio ydoedd, neu gastell; canys y mae yn debycach



Digitized by Google

ei ffurf i'r cyfryw, nag i Balas. Safai ar le hynod o fanteisiol i gael golwg ar y wlad am filldiroedd o gwmpas, ac yn lled agos i'r hen ffordd oedd yn myned at y Cymmerau.

Ychydig yn fwy dwyreiniol y mae Llwyn Crai, lle y ceir olion amryw o hen drigfanau; y mae yr adfeilion agosaf i'r ty yn 27 troedfedd o hyd, a thua 15 troedfedd o lêd; yn lled agos, ond yn fwy deheuol, gwelir olion eraill o ddwy ystafell, y mae un yn mesur 24 troedfedd wrth 12 troedfedd; a'r llall sydd yn gysylltiedig, yn 36 troedfedd wrth 21 troedfedd. Yn agos i Llwyn Crai y mae hen ffynon odidog; mae yn debyg mai hon ydyw yr un a elwid gynt yn Ffynon St. Michael, a byddai cyrchu mawr iddi o wahanol barthau, oblegid yr ystyrid hi yn rhagorol at wellhau y gymalwst, llewygfeydd, ynghyda lliaws o anhwylderau eraill. Mae y Ffynon oddi mewn i'r ty, yn y rhan ddeheuol, a gwaith wedi ei wneyd o'i hamgylch; yr hyn sydd yn dangos yn eglur ei bod wedi bod mewn bri mawr oesoedd yn ol; ond erbyn hyn nid oes ond ychydig o son am dani, na neb yn cyrchu iddi.

Gwelir rhai llanerchau henafol ar y Fron Las, ac oddeutu y Cae Du, lle yr ydoedd amryw o gylchau cyn eu diddymu wrth arloesi y tir. Y mae etto olion mawreddog, tebyg i hen Gaerfa odidog, ar ben bryn y ffridd Cae Du; ac yn y cae sydd rhwng y ffridd a godreu y Manod bach, y mae cylch crwn, 60 llath o draws-fesur; drwy ganol y cylch y mae llwybr sydd yn arwain oddiwrth Bron y Manod at Bryn Eithin.

Ychydig ar y dde, ceir adfail arall hirgrwn, 16 llath o hyd, a thuag 8 llath ar ei draws; y mae rhan o hono yn y cae, a rhan yn y ffridd; yn gysylltiedig a'r rhan sydd yn y ffridd, y mae cylch crwn, 10 llath o draws-fesur, ar y dde i'r ddau gylch olaf, ymddengys fod llanerch betrual o faintioli mawr: ceir olion eraill yn nghwr isaf y cae sydd yn terfynu ar y ffridd.

Safai yr hen wersyll mawreddog yma ar le uchel oddiar yr hen ffordd, a manteisiol i weled yr holl wlad am filldiroedd o bellder. Yr ydoedd yr hen ffordd a nodwyd, yn myned gyda godreu y Manod heibio Cae canol, a thrwy y Cwm, i Bwlch Carreg y Fran. Yn mlaen uchaf y Cwm y mae craig serth, lle y nytha y cigfrain bob amser, ac y mae yn debyg mai oddiwrth hyny y cafodd hi yr enw. Myn rhai mai Bwlch Caradog ap Bran ydyw y gwir ystyr, eraill a ddywedant mai ar y Bwlch yma y lladdwyd Bran gan y Rhufeiniaid. Gwelir olion o'r hen ffordd yn y cwm islaw, a cheir yma leoedd ag enwau hynod arnynt, megis Nant y Drewi, Bwlch llais dyn, &c.

Tua dwy filldir ar y Dwyrain o Bentref Ffestiniog, y mae Beddau Gwyr Ardudwy. Y mae y ffridd a elwir y *Beddau*, ar y chwith o ffordd y Bala, drwy yr hon yr oedd Ffordd Helen yn myned. Ar y ddwy ochr i'r ffordd, yr oedd y Beddau tua 36 mewn nifer; dywed rhai mai 30 oedd yno ar y cyntaf. Yr oeddynt tua 6 troedfedd o hyd, a charreg wrth bob pen, ac yr oeddynt oddimewn i ddau gylch, ar ffurf hirgrwn, a magwyr o gerrig yn amgylchynu y ddau. Yr ydoedd dwy o'r cerrig yn sefyll tuag ugain mlynedd yn ol; ond nid oes yma yr un i'w gweled erbyn hyn, ond y mae un o'r cylchoedd yn eglur ar yr ochr chwith i'r ffordd. Dywed *Pennant*, fod y rhan fwyaf o'r cerrig, wedi eu symud pan yr ymwelodd ef a'r lle, ond yr oedd yno amryw gylchoedd o gerrig i'w gweled; a'r mwyaf tua 52 troedfedd o drawsfesur, a charnedd fawr, gyda dwy o gerrig sythion ar un cwr o honi, fel yn ffurfio mynedfa i fedd, ac yn agos at hono, garnedd lai, a chylch bychan, a'r cwbl yn cael eu hamgylchynu â chylch mwy; ond yn amherffaith, trwy fod y cerig wedi eu cymeryd ymaith. Ni welir yma yr un garnedd yn bresenol. Gwnaed ymchwiliad bychan yn y Beddau, tuag ugain mlynedd yn ol, gan John Lloyd Pen y Glanau, Ysw., ac yn yr Arddangosfa hynafiaethol yn Dolgellau yn 1850, dangoswyd Bwyall, (Celt) a ganfyddwyd yn agos i "Feddau Gwŷr Ardudwy," gan y Boneddwr uchod.

Dywed llên gwerin, fod Ardudwy lawer o oesau yn ol, wedi ei diboblogi gan ryfeloedd blinion; ac er adboblogi y dyffryn, cymerodd mintai o'r gwyr eu taith tua Dyffryn Clwyd, ac a hudasant liaws o ferched ieuanc y lle hwnw drosodd i Ardudwy; ond pan ddeallodd gwŷr Dyffryn Çlwyd yr helynt, ymlidiasant ar eu holau, a goddiweddasant hwynt uwchlaw Ffestiniog; lle y bu ymladd tost rhwng y ddwy blaid yn agos i "Bwlch Wae," neu Bwlch y Wae, yr hwn a alwyd felly o herwydd yr amgylchiad hwnw. Lladdwyd yr oll o wŷr Ardudwy, a phan welodd y merched eu hochr hwy yn colli y dydd, diangasant yn uwch i'r bryniau, a boddasant eu hunain mewn Llyn oedd gerllaw, yr hwn a elwir hyd heddyw, o herwydd yr amgylchiad, yn Llyn y Morwynion.

Tybia yr hynafiaethwyr presenol, mai Beddau y Rhufeiniaid ydyw y rhai a elwir "Beddau Gwyr Ardudwy," oblegid y byddent hwy yn arfer a chladdu yn agos i'r ffyrdd yn gyffredin; pa fodd bynag yr ydym yn gweled fod yma liaws mawr o olion Cymreig, a gresyn fod pobl Ffestiniog wedi bod mor ddiystyr o honynt; y mae eu hymddygiad yn adgofio i ni y llinellau canlynol,—

"Fy ngwlad! O fy ngwlad! mae dy demlau cysegrol,
A'th Santaidd allorau 'n malurio yn nghyd!
Dy gestyll, dy gaerau dy gylchau derwyddol,
A beddau dy arwyr, ynt lwyd iawn eu pryd;
Symudir y Gromlech, a meini dy heddwch,
Lle gynt bu'r addoli, gan law difaterwch
Ar fri dy hynafiaid rhoir pob diystyrwch
Dy fawredd cyntefig fachludodd o'r byd!"

Rhwng y Beddau a Rhyd yr Halen, neu Rhyd Elen, y mae Bryn Castell, ac ar ben y bryn yma yr oedd castell cadarn yn yr oesau gynt, y mae adfeilion o'i ffurff a'i faint yn eglur eto. Yr oedd magwyr yn amgylchu copa y bryn yr hwn sydd yn 38 o latheni o hyd ac yn 24 llath o led, yn y lle lletaf: yr oedd y fynedfa iddo ar y pen dwyreiniol yn cyfeirio at y Rhyd Helen, yr oedd dau dwr crwn ar y ddwy gongl, o bobtu y fynedfa; yr un gogleddol yn 24 troedfedd o drawsfesur, a'r un deheuol yn 12 troedfedd o drawsfesur, ac yr oedd un arall ar yr ochr ogleddol, yn 9 troedfedd o drawsfesur; ac yr oedd yn anmhosibl cymeryd y Castell ond o'r manau lle y safai y Tyrau. Ceir olion bychain o'r hen amddiffynfa yn weledig eto gyda godreu y Bryn, ar ddwy ochr. Ceir lluaws o hen olion oddeutu y ffordd Rhufeinig, yn y manau hyn, ac oddiar Hafod Yspytty, yr hwn le a ddefnyddid i gadw clwyfedigion yn amser y rhyfeloedd gwaedlyd yn y dyddiau gynt. Ceir lliaws o olion henafol ar yr ochr ddeheuol i'r plwyf gydag afon Cynfal, o bentref Ffestiniog i Migneint. Gelwir y graig ar yr hon y saif rhan o'r pentref, yn Bryn Wilcyn, ar ben hwn yr ydoedd twr gwylio yn yr hen amser, ac yr oedd yn anmhosibl cael gwell lle i'r amcan hwnw. Dywed traddodiad, fod y gwylwŷr

Digitized by Google

oedd yn y Twr, neu y Wylfa yma, wedi bod yn ddi-ofal, a bod y Rhufeiniad wedi croesi afon Cynfal o blwyf Maentwrog, mewn lle a elwir Rhyd y Gân, a myned at Bodlosgad yn y nos, ac ymosod ar y fyddin Gymreig yn ddirybudd iddynt, a'u gorchfygu yn hollol; ac o herwydd yr amgylchiad hwnw y galwyd y lle yn Bod loes y Gâd!

Pa le yr ydoedd y gwersyll Cymreig mae yn anhawdd gwybod i fanylrwydd, tybia rhai mai oddiar Cefn Pawl yr ydoedd; ond y mae yn fwy tebygol ei fod ar dir Bodlosgad, oblegid y mae yma gae a elwir Cae'r Bont, a dywedir fod y Rhufeiniaid wedi cyfeirio at y Beddau ar ol y frwydr waedlyd yma.

Ychydig yn uwch, ar ffridd Bryn Cyfergyd, yr oedd hen gaerfa fawr, ond ychydig o olion o honi sydd yn aros. Mae pant mawr yn y cae sydd wrth gefn y tŷ, a gelwir y lle Cae'r Pant. Ystyr y gair uchod ydyw, Bryn-cyfar-ergyd, ac enw yr Amaethdy sydd ar ei gyfer ar yr ochr ddeheuol i afon Cynfal, yn mhlwyf Maentwrog, ydyw Bryn Saeth; mae y pellder rhyngddynt yn lled fawr, eto credir y chwedl y byddai y cynfrodorion yn gallu anfon saethau o'r naill fan i'r llall. Y mae olion hen gaerfa Gymreig wrth Bryn Saeth, a hen dy yn ei chwr; ceir amryw o olion eraill ar y Tyddyn; ond gan eu bod yn mhlwyf Maentwrog gadawn hwynt yn bresenol.

Ger afon Cynfal, ar dir Tyddyn Gwyn, amryw o flynyddoedd yn ol, cafwyd careg hogi saethau; yr ydoedd tua 12 modfedd o hyd, a 6 mod. o led, ac yr oedd ôl hogi arni; cafwyd amryw o bethau eraill yn y ddaiar, yn ngwahanol ranau y plwyf, a gresyn na buasid yn eu cadw yn ofalus.

Dangoswyd yn Arddangosfa hynafiaethol Dolgellau yn 1850, Ffon Gleddyf yr enwog Huw Llwyd o Gynfal, a llythrenau ei enw arni, ynghyda chareg uchaf Melin, (Quern) o faintioli a ffurf anarferol, gan y diweddar Lewis Lloyd, Ysw., o Ffestiniog.

Ar y Bryn yn agos i Bryn llech, yr ydoedd olion hyd yn ddiweddar, a bernir mai claddfa fechan ydoedd, ond yr ydym yn credu mai Gwylfa a safai yma gynt; ac yr ydoedd yn lle hynod o fanteisiol i'r perwyl hwnw. Yr oedd yr hen ffordd Gymreig o Ffestiniog i'r Bala, yn arwain dros y cwr gogleddol i'r Bryn; ac oddiar ei ben gallesid gweled yr hen ffordd Rufeinig am bellder mawr, sef ar yr ochr ddeheuol, tua Thomen y Mur, ac at Rhyd yr Halen, yn y cyfeiriad gogleddol.

Yr ydym wedi awgrymu eisioes am y Cwm, sef hen dy ffarm yn mlaen Cynfal, mai hen fonachlog ydoedd, ganrifoedd yn ol, dyna ydyw y traddodiad am dano yn yr ardal, ac nid oes genym un rheswm dros ameu y chwedl.

Mae terfyn plwyf Ffestiniog yn rhedeg at Bont yr afon Gam, ac i fyny hyd Nant y Groes, a'r Migneint, y nant yma sydd yn ei derfynu a phlwyf Maentwrog. Ymddengys fod yn y fan yma lanerch gyssegredig, lle y byddai teithwyr yn arfer addoli; yr ydoedd yn arferiad o osod croes i fyny yn agos i'r ffyrdd yn yr hen amser, a chawn amryw o leoedd wedi cael eu henwau oddiwrth yr arferion hyny, megis Bwlch y Groes, &c. Ychydig yn uwch y mae Nant y lladron, a Nant Murddyn Gutyn, yr hwn ydoedd ysbeiliwr beiddgar, ond a laddwyd o'r diwedd; a chesglir iddo gael ei gladdu lle mae y Garnedd. Ychydig yn fwy dwyreiniol, yn agos i derfyn eithaf plwyf Ffestiniog ar Migneint, y mae carnedd a elwir Carnedd Iago. Y mae un arall ar y Foelgron a elwir Carnedd Gynwhyfar; yr ydym yn tybio mai Carnedd Gwenhwyfar ydyw gwir ystyr yr enw, ni ddigwyddodd i ni glywed unrhyw draddodiad am y naill na'r llall. Ar yr ochr ddeheuol i afon Cynfal, a thua haner milldir o Bentref Ffestiniog y saif hen Balasdy Cynfal, lle yr ydoedd yr enwog Huw Llwyd yn byw, tua dau gant a haner o flynyddoedd yn ol. Er bod Cynfal yn mhlwyf Maentwrog y mae yn taro mor agos ar ardal Ffestiniog fel y cysylltir enw a chwedlau am Huw Llwyd a hi bob amser. Dywed Dr. W. O. Pughe mai yn mhlwyf Maentwrog y saif Cynfal, ac mai ystyr yr enw ydyw Cynwâl (*the first laying place*). Mae y cyntaf yn annghywir, beth bynag am ystyr yr enw.

Yr ydym yn cael fod un o'r enw Morris, yr hwn ydoedd Berson Ffestiniog, yn byw yn Nghynfal, tua chan mlynedd yn ol. Perchenog ystâd Cynfal yn bresenol ydyw W. Casson, Ysw., diweddar o Blas y Penrhyn. Ymddengys fod Huw Llwyd wedi bod yn filwr, ac wedi treulio llawer o flynyddoedd yn Lloegr ac ar y Cyfandir. Dywedir iddo fod mor hir o'i wlad, fel yr ydoedd ei deulu yn Nghynfal yn methu ei adnabod ar ei ddychweliad. Yr oedd Huw Llwyd yn Fardd da, a gellir gweled dau gywydd byr o'i waith yn "Cymru a Fu," sef ymddiddan rhwng y Bardd a'r Llwynog. A dyma Englyn o'i waith ar ol teithio amryw wledydd,—

Yn Ffrainc yfais yn ffraeth,—win lliwgar  
Yn Lloegr cawl odiaeth;  
Yn Holland 'menyn helaeth,  
Yn Nghymru, llymru a llaeth.

Y mae Beddargraff o'i waith yn y Greal am y flwyddyn 1805. Dywedir hefyd, mai efe ydyw Awdwr Beddargraff Sion Philip y Bardd o Ardudwy. Yr oedd yn gydoeswr, ac yn gyfaill mawr a'r enwog Archddiacon Prys, yr hwn fu yn Rheithor Ffestiniog, a'r Capleniaeth berthynol iddo am lawer o flynyddoedd. Dywedir mae efe a ganodd yr Englyn canlynol, ar adeg claddedigaeth Huw Llwyd,—

"Pen campau doniau a dynwyd,—o'n tir  
Maentwrog yspeiliwyd;  
Ni chleddir ac ni chladdwyd,  
Fyth i'w llawr mo fath Huw Llwyd."

Canodd W. Philip o Ardudwy restr o Englynion ar ei farwolaeth, yn y rhai y coleddid syniadau uchel am ei alluoedd. Y mae gryn lawer o chwedlau am Huw Llwyd yn ardal Ffestiniog, fel un yn gallu codi cythreuliaid, ac mai i'r amcan hyny y byddai yn dringo i ben y Graig sydd yn sefyll yn afon Cynfal, yr hon a elwir hyd heddyw yn "Pulpud Huw Llwyd;"—Colofn o graig yn nghanol gwely yr afon ydyw yr hen Bulpud hynod, tua 15 troedfedd o uchder, a'r dwfr wedi treulio ar y ddwy ochr iddi. Rhaid fod yr hen Bulpud yn hen iawn, yma y gwelir cywirdeb y geiriau hyny,—"Y dyfroedd a dreuliant y cerig."

Pan fydd llifogydd mawr yn ymlithro o Migneint, ceir golwg arddunol ar Raiadrau ffrochwyllt Cynfal, a'r hen bulpud yn dyrchafu ei ben yn ddiysgog yn eu canol, yn un o brif ryfeddodau Meirion.

Yn Nghynfal y ganwyd yr enwog a'r athrylithgar Morgan Llwyd o Wynedd, ac oddeutu pentref Ffestiniog y treuliodd ef foreu ei oes; a thybir mai mab ydoedd i Huw Llwyd. Ymddengys ei fod yntau

Digitized by Google

wedi bod yn canlyn y fyddin am dymor, a bod ei deulu ar y pryd yn byw yn Nghynfal, yr oedd yn byw yn yr adeg cynhyrfus yn amser Siarl I. a Chromwel. Yr ydoedd yn bregethwr enwog, a theithiodd lawer drwy Ogledd a Deheudir Cymru, ac ysgrifenodd amryw o lyfrau rhagorol, sef "Gwaedd yn Nghymru" yn 1653. "Yr Ymroddiad." "Gair o'r Gair." "Llyfr y Tri aderyn," &c. Yr oedd rhywbeth yn brophwydoliaethol yn ei ddywediadau; un tro pan ydoedd yn pregethu yn yr awyr agored ar bentref Ffestiniog, yr oedd un bachgen yn rhagori ar ei gyfoedion mewn cellwair a gwawdio; ar fagwyr y Fonwent, nodwyd ef allan gan Morgan Llwyd, a dywedodd,—Tydi y gwr ieuanc, gelli roddi heibio dy gellwair, oblegid tydi fydd y cyntaf a gleddir yn y fynwent yna;" ac felly y bu. Dywedodd hefyd am blant oedd yn cellwair yn Machynlleth, "Pan dŷf y plant hyn i oedran gwŷr, fe ymâd yr Efengyl o Machynlleth," ac felly y bu am faith flynyddoedd. Rhag-hysbysodd hefyd am ddiwygiad yn Nghymru. Claddwyd ef yn Ngwrecsham, a dywedir i ryw filwr anghrefyddol a gelyniaethus, drywanu ei gleddyf yn ei fedd.

Pan dorodd y gwrthryfel allan yn Lloegr, rhwng Siarl I. ar Senedd. yr ydoedd yn fyd blin a thrallodus mewn amryw barthau o Gymru; a theimlodd gwahanol ranau o Feirion, allu y March Coch. Bu byddinoedd y Brenin a'r Senedd yn tramwy trwy y Sir am fisoedd, gan ysbeilio y trigolion. Ar Ebrill 6ed, 1645, daeth rhwng 300 a 400 o ŵyr Arglwydd Biron, Meirch-filwyr a thraed-filwyr, i Ddolgellau, dan y Milwriad Vane; aeth rhai o honynt drosodd i Mawddwy, gan ysbeilio yr holl ffordd; a dychwelasant yn hwyr i Ddolgellau, ac a ysbeiliasant y dref. Tranoeth daethant i Drawsfynydd, ac oddiyno i Ffestiniog, a Maentwrog. Dros y Brenin yr oedd y rhai hyn. Yn yr un mis, pan wybu y Cadfridog Mytton, fod Biron a'i wyr wedi bod yn Dolgellau, a'u bod wedi ysbeilio ei denantiaid yn Mawddwy, anfonodd fyddin i'r Bala, ac ar foreu Sadwrn, aethant dros Migneint i Ffestiniog, a Maentwrog, gan feddwl dal gwyr Arglwydd Biron, ond gwybu y rhai hyny am eu dyfodiad, a ffoisant dros y traeth i Sir Gaernarfon.

Y mae yn amlwg wrth yr olion a welir, fod plwyf Ffestiniog wedi ei boblogi yn lled foreu. Yr ydym yn cael fod gan y Tywysog enwog Owain Gwynedd, etifeddiaeth bersonol yn Nghymru, ac ymddengys i'w fab hynaf Iorwerth gael rhan o honi, sef Nant Conwy, ac Ardudwy, at ei gynnaliaeth, o herwydd nad ystyrid ef yn gymhwys i deyrnasu, am fod anaf arno. Gwelir wrth hyn, fod Ffestiniog yn rhan o etifeddiaeth Iorwerth Drwyn Dwn, yr hwn oedd yn byw yn Nghastell Dolwyddelen oddeutu 1169. Yn y flwyddyn hono y bu ei dad Owain Gwynedd farw, wedi teyrnasu am ddeuddeg mlynedd ar hugain.

Y mae yn y plwyf amryw o deuluoedd henafol, dywedir fod yr un llinach wedi bod yn hen Ffarmdy Cwmorthin Uchaf am tuag wyth gant o flynyddoedd; os gwir hyny yr ydoedd y rhai cyntaf yno yn mhell cyn amser Owain Gwynedd.

Yn y cwr isaf i Ddyffryn Ffestiniog ac ar yr ochr ogleddol i'r afon Dwyryd, y saif hen Balasdy Tan y Bwlch, neu Tan y Bwlch Coed Dyffryn fel ei gelwid ef yn yr hen amser. Y mae teulu Tan y Bwlch o waedoliaeth uchel, yn disgyn o Collwyn ab Tagno un o'r 15 llwyth Gogledd Cymru, ac y maent wedi cymysgu trwy briodi a lliaws o deuluoedd mwyaf urddasol Meirionydd, ac Eifionydd yn Sir Gaernarfon; sef teulu Maes y Neuadd, Rhiwlas, Glyn, Mawddwy, Hendre'r Mur, Cesail Cyfarch, &c. Olrheinir eu hachau yn debyg i hyn gan hynafiaethwyr, Ieuan ab Iorwerth, ab Adda, ab Dafydd, ab Ifan, ab Adda, ab Iorwerth, ab Meredydd, ab Einion, ab Gwgan ab Meredydd Goch, ab Collwyn, ab Tangno un o'r 15 llwyth.

Ieuan ab Iorwerth a briododd Morfydd, ferch—a ganwyd iddynt Robert, yr hwn a briododd Annes ferch Nicolas, ferch Dafydd ab Ieuan ab Einion o Lancaster, amddiffynydd dewr Castell Harlech dros blaid Harri VI. yn erbyn Edward y IV. o Gaerefrog; ganwyd iddynt Ifan neu Ieuan, yr hwn a briododd Gwen, ferch Humphrey ab Meredydd ab Ieuan o'r Gesail Gyfarch; a ganwyd iddynt Robert Ifan, Ysw., yr hwn a briododd ferch John Wyn ab Cadwaladr o'r Rhiwlas; a ganwyd iddynt Ifan ab Ifan, Ysw.; ac yntau a briododd Catrin ferch Robert Wyn o'r Glyn, Ysw., a ganwyd iddynt Robert ab Ifan, Ysw., ac efe a briododd Lowri, ferch ac etifeddes Ffowc Prys, Tyddyn Du, Maentwrog, yr hon ydoedd wyres i Edmwnt Prys, Archddiacon Meirionydd, ac felly disgynodd iddi holl etifeddiaethau ei thad a'i thaid; a gwelir yn y cysylltiad priodasol hwn, i holl eiddo tirol yr Archddiacon gael eu huno ag etifeddiaeth Tan y Bwlch. O'r briodas hon ganwyd iddynt Evan Evans, Ysw., ac yr ydym yn cael, fod Evan Evans, Ysw., yn Sirydd Meirionydd yn 1635. Yntau a briododd Sionet ferch Sion Fychan o Gefn Bodig, a ganwyd iddynt Robert Evans 1740: a John ei frawd yr hwn a fu farw yn ddiblant, yna Catrin eu chwaer, unig aeres Tan y Bwlch a briododd Robert Gruffydd Bach y Saint, ac o'r briodas hon y ganwyd Ifan Gruffydd, Ysw.—ac yntau a briododd Jonnet merch hynaf Thomas Meyrick o'r Berth Lwyd, Ysw., o Anne merch Evan Evans o Blas Tan y Bwlch, Ysw. Eu mab hwy, Robert Gruffyth, Ysw., a briodai ei gyfnither eto; Anne merch Thomas Lloyd Anwyl, o Landecwyn, Ysw., o Margaret merch Thomas Meyrick o'r Berth lwyd, Ysw. Eu mab hynaf hwy, Evan Gruffydd, Ysw., a briodai ei gyfnither eto, sef Mary, merch William Anwyl o Hendre'r Mur, Ysw., o Margaret, merch y Parch. Reece Pierce, Offeiriad Celynin; (yr ydoedd Robert Gruffydd, Ysw., yn Sirydd Meirionydd yn 1742; ac Evan Gruffydd, Ysw., yn Sirydd yn 1770). Eu hunig ferch hwy, Margaret, a briodai William Oakley, Ysw., brawd y diweddar Syr Charles Oakley, Llywydd Madras, yn yr India Ddwyreiniol, a'u mab hwy ydoedd William Gruffydd Oakley, Ysw., yr hwn a briododd Louisa Ness, merch R. Ness, Ysw., o Middle Hall yn agos i Gaer Baddon, (*Bath*) yn Ngwlad yr Haf. Yr oedd G. W. Oakley, Ysw., yn Sirydd Meirionydd yn 1814. Bu farw yn 1834 ond y mae ei weddw yn fyw eto, yr hon a wnaeth lawer o Elusenau yn Mhlwyf Ffestiniog, drwy gynnal ysgolion, adeiladu Eglwys hardd yn Blaenau Ffestiniog, a'i gwaddoli yn 1841, adeiladu Ysbytty, cyfranu yn helaeth at y Farchnadfa, &c. &c. Y mae hi wedi ymneillduo o'r etifeddiaeth yn ddiweddar, ac wedi cyflwyno y cyfan i W. E. Oakley, Ysw., yr hwn ydyw cynnyrchiolydd presenol y teulu.

Dol y Moch sydd Balasdy henafol arall yn Nyffryn Ffestiniog. Yr ydoedd etifeddiaeth Dol y Moch er's llawer o flynyddoedd yn perthyn i deulu Bankes; ond gwerthwyd hi yn y flwyddyn ddiweddaf, ac y mae y rhan fwyaf o honi wedi dyfod i fedd-

Digitized by Google

iant W. E. Oakley, Ysw., o Blas Tan y Bwlch; ac y mae ef wedi dechreu adgyweirio yr hen Balas uchod. Cawsom yr hyfrydwch o weled yr hen Balas cyn i liaws o bethau hynod a gwerthfawr, gael eu difodi, pan yn ei adgyweirio. Dywedir mai ei gynllunydd cyntaf ydoedd yr Arch-adeiladydd enwog Inigo Jones, sef Cymro genedigol o Penrhiwddolion yn agos i Bettws y Coed. Yr oedd ef yn un o adeiladwyr cyntaf ei oes; y mae amryw o Balasau o'u gynlluniad ef yn Llundain, a gwahanol barthau o Loegr, a Chymru. Efe a adgyweiriodd Eglwys St. Paul. Dywedir mae ei ddwy brif orchestwaith ydoedd y gwledd-dy yn Whitehall, ac Eglwys St. Paul yn Covent Garden, Llundain. Y mae Dol y Moch wedi ei adeiladu gyda cherig naddedig, ac wedi eu gweithio gyda chlai glas fel cymrwd. Nid oes neb yn gallu penderfynu yn hollol yn mha le y codwyd y cerig i'w adeiladu. Tybir i'r clai cael ei gludo o ymyl Pont yr Afon Gam, ar gwr Migneint. Yn y palmant o flaen y ty, y mae y ffigyrau canlynol wedi eu ffurfio o gerig gwynion,—1643. Ymddengys mai yn y flwyddyn hono yr adeiladwyd yr hen Balas godidog. Y mae y muriau yn drwchus, ac y mae grisiau o gerig yn arwain o un rhan o hono i'r pen uchaf. Ar y moldaddurn sydd yn amgylchu muriau y neuadd fawr sydd ar y gongl ddwyreiniol o'r Palas, y gwelir Pais Arfau lliaws o 15 llwythau Gwynedd, a rhai o'r Pum Breninllwyth. Yr ydym yn meddwl fod y cyfan yma ar y cyntaf, gresyn fod amryw o honynt wedi eu dryllio.

Yn gerfiedig ar y pared, yn y llofft ar yr ochr orllewinol, gwelir Pais-arfau; y chwarter cyntaf a'r ail, yn cynnwys *"Tri fflwr di lis a chwpl,"* sef arfau Collwyn ab Tangno, yr hwn ydoedd yn un o'r 15 llwyth Gwynedd, ac Arglwydd Ardudwy ac Eifionydd, a rhan o Leyn. Mae y 3ydd a'r 4 chwarter yn cynwys cwpl a thri pen gwaew, a'u blaenau tuag i fyny, sef Arfau Nefydd Hardd, o Nant Conwy, un arall o'r 15eg llwyth.

Mewn ystafell arall, yn y lloft ar yr ochr ogleddol, y mae Pais arfau arall yn gerfiedig, yn cael ei dwyn gan ddau ddyn, y rhai sydd wedi eu cerfio o bobtu iddi. Y chwarter 1 a'r 4, Elystan Glodrudd; yr 2 a'r 3, Collwyn ab Tangno. (Arflen Jones o Dol y Moch.) Arni y mae Helm, ond y mae yr helm-grib wedi ei ddryllio, oddiwrth yr hyn sydd yn aros o hono, gallem dybied mai Baedd gwyllt ydoedd; os dyna ydoedd, gellir casglu fod etifeddion Dol y Moch o'r un gwelygordd a theulu Pengwern, neu eu bod wedi cymysgu trwy briodi. O dan yr Arfau hyn y mae y geiriau canlynol yn gerfiedig,—

VELLE QVOD VVLT DEVS.

Y mae dau o feddau perthynol i hen deulu Dol y Moch yn Mynwent Ffestiniog; ac y mae golwg henafol arnynt. Y mae un wedi ei weithio gyda cherig cyffelyb ag sydd yn ffurfio Dol y Moch. Ar y pen dwyreiniol i un o honynt, y mae Pais Arfau y teulu wedi ei gerfio mewn careg lwyd galed. Y mae rhai llythrenau i'w canfod odditano, ond y maent yn bur aneglur. Ar yr ochr ddeheuol i un o'r Beddau hyn yr ydoedd Plat, (*plate*) o Efydd; ond y mae wedi ei gymeryd ymaith ers llawer o amser bellach gan ryw ddyhirod: nid oes unrhyw lythyren ar wyneb y cistiau hyn. Yr ydoedd W. John Bankes, Ysw., perchenog diweddar Dol y Moch, yn Sirydd Meirionydd yn y flwyddyn 1829.

Y mae Pont Dol y Moch, yr hon sydd yn croesi Afon Dwyryd, yn ddarn henafol o adeiladaeth, wedi eu ffurfio o bedwar bwa; nid ydyw ond cul a digon i un cerbyd fyned drosti; ar gyfer y pentanau y mae onglau yn taflu allan, a meinciau o gerig ynddynt. Priodolir gwneuthuriad yr hen bont odidog yma i'r enwog Inigo Jones, ac y mae yn ddigon tebyg i'w gynlluniau ef. Dros y bont yma yr ydoedd y briffordd yn arwain o Beddgelert, drwy Ffestiniog, i'r Bala, hyd tua dechreu y ganrif bresenol. Gelwid hi "Pont Rhyd yr Eryr," ond dywedir mai y gwir ystyr ydoedd "Pont Rhyd Eryri." Erbyn hyn ni chlywir amgen enw arni, na Pont Dol y Moch.

Pengwern sydd yn hen Balasdy godidog arall yn mhlwyf Ffestiniog, saif ar lanerch goediog brydferth, tua milldir i'r gogledd o'r pentref. Y mae etifeddiaeth Pengwern yn gynnwysedig o liaws o Ffermydd yn y rhan ddwyreiniol o'r plwyf. Perchenogion cyntaf Pengwern, y cawn grybwylliad am danynt, ydoedd y Lewisiaid, y rhai oeddynt yn deulu uchel ac anrhydeddus; yr ydym yn cael fod un o honynt sef Huw Lewis, Ysw., yn Is Sirydd Meirionydd yn 1529, a Morris Lewis o Ffestiniog, yn Sirydd Meirionydd yn 1595; a Maurice Lewis Pengwern, Ffestiniog, yn llanw yr un swydd yn 1654. Yn lled fuan ar ol hyn, newidiwyd cyfenw y teulu, o Lewis i Wynne, drwy gymysgu a changen o Wynniaid Gwydir. Yr oedd Owen Wynne Pengwern, Ysw., yn Sirydd, Meirionydd yn 1693; ac Owen Wynne eto, yn llanw yr un swydd yn 1748. Efallai mai mab i'r cyntaf ydoedd hwn.

Rhoddwn Achau teulu Pengwern i fewn yma, yr hyn a all fod yn ddyddorol i ryw rai o'r darllenwyr; a hyderwn na fydd yn flinder i neb.—"Gwehelyth John ab Lewis ab Ieuan ab Dafydd;—

John ab Lewis, ab Ieuan, ab Dafydd, ab Ieuan, ab Einion, ab Gruffydd, ab Llewelyn, ab Cynwrig, ab Osbwrn Wyddel, ab Gwythlath, Iarll Desmwnt, o Werddon.

Y prīodasau ydynt yn canlyn;—

Llewelyn ab Cynwrig ab Osbwrn Wyddel, a brīododd Nêst, ferch a chyd-aeres Gruffydd ab Adda, ab Gruffydd, ab Madoc, ab Cadifor, ab Gwaithfoed. Mam Gruffydd ab Adda, oedd Tanglwst, ferch Gronwy ab Adda, ab Dafydd Goch, ab Gr., ab Ednowain, ab Bradwen.

Gr.: ab Llewelyn, a brīododd Efa, ferch, a chydaeres Madoc ab Elize, ab Iorwerth, ab Owain Brogyntyn.

Einion ab Gr.: a brīododd Tanglwyst, ferch Rhydderch ab Ieuan Llwyd, o Gogerddan, yn Ngheredigion, ab Ieuan, ab Gr: Foel, ab Gr: ab Iorwerth, ab Cadifor.

Ieuan ab Einion, a brīododd Angharad, ferch Dafydd ab Gīwn Llwyd, ab Dafydd ab Madog, o'r Hendwr.

Dafydd ab Ieuan, ab Einion;[1] a brīododd Margaret, ferch John Puleston, o Emral, yn swydd Fflint, ab Robert, ab Richard, ab Syr Roger Puleston.

Ieuan ab Dafydd, a briododd Isabel, ferch Gr: ab Dafydd, ab Ieuan, ab Meredydd, ab Dafydd Goch, ab Trahaern Goch, o Leyn.

Lewis ab Ieuan, ab Dafydd, a brīododd Catharine, ferch Meredydd ab Ieuan, ab Robert. Eu meibion a'u merched,

[1] Y gwr hwn oedd yn gwnstabl Castell Harlech, ac a'i daliodd amryw flyneddoedd dros y brenin Harri y Chweched, yn erbyn plaid wrthwynebol y Iorciaid.

Digitized by Google

(1.) John Lewis, a brīododd Gwen, ferch Robert Gethin, o'r Cerniogae.

(2.) Morgan Lewis, a brīododd Lowri, ferch, a chyd-aeres Ffowc ab Robert, ab Meredydd, ab Dafydd, ab Einion, o'r Fronheulog, yn Llanfair Dolhaiarn.

(3.) Elizabeth, a brīododd Robert ab Ieuan, ab Gr: ab Dafydd.

(4.) Sioned, a brīododd Robert ab Howel, o'r Ffestiniog.

(5.) Margaret, a brīododd Ieuan ab John, ab Richard, ab Robert, o Benmachno.

(6.) Lowri, a brīododd Robert ab Morus, ab John, ab Meredydd.

(7.) Alice, a brīododd Richard ab William, ab Thomas.

(8.) Catrin, a brīododd John ab Ieuan, ab Robert; ac wedi hyny, Ieuan ab Robert, o Leyn.

(9.) Ann, a brīododd Pyrs ab Robert ab Huw.

(10.) Gwen, a brīododd â Lewis ab Robert, ab Llewelyn ab Rhŷs.

(11.) Elliw, a brīododd â John ab Dafydd Fychan ab Ieuan, ab Rhys, ab William.

Mab i John Lewis, o Gwen ei wraig, oedd Morus Lewis, yr hwn oedd yn Siryf swydd Feirionydd, yn 1596, ac a fu farw yn 1606. Ei wraig ef oedd Margaret, ferch Robert Fychan, ab Ieuan, ab Rhŷs, ab Robert ab Meredydd. O'r brīodas hon y ganwyd Robert Lewis, o Bengwern, yr hwn, debygid, a fu farw yn ddi briod.—John Lewis, yr hwn a anwyd yn 1615, ac a brīododd Anne, ferch Gruffydd ab John, ab Gruffydd Wynne; ac a fu farw yn 1649. Hwn a ddaeth yn ettifedd Pengwern, ar farwolaeth ei frawd Robert.

Arfau John Lewis, Ysw., yw pais Osbwrn, Gwaithfoed, Owain Brogyntyn, a phais Cynfyn, yn chwarteri, heb na dofrans, na bar.

Etifeddes y teulu yma, sef Anne merch Maurice Lewis, a anwyd Mawrth 28, 1656, a briododd yn 1689 gydag Owen Wynn, Ysw., o'r Llwyn, yn Sir Ddinbych, cangen ieuengach o hen deulu neillduol Wynn o Wydir. Yr ydoedd hi yn fyw yn 1723. Eu disgynydd llinachol ydoedd Maurice Wynn, LL.D., o'r Llwyn a Pengwern, a Rector Bangor yn Sir Fflint. Bu farw heb briodi, a gwaddolodd ei etifeddiaeth i'w Nai, y Parch. Lloyd Fletcher, mab ieuengaf ei chwaer Elinor, o Philip Lloyd Fletcher, o Gwernhayled yn Sir Fflint. Cymerodd Mr. Fletcher drwy lawysgrifen yn 1845 y cyfenw Wynne, a bu yn perchenogi y Llwyn a Pengwern hyd 1863. Etifeddwyd yr ystad ar ei ol ef, gan Cadben Fletcher, cymerodd yntau y cyfenw Wynne, ond bu farw yn 1868. Perchenog a chynnrychiolydd presenol y teulu, ydyw Philip Lloyd Fletcher, o Nerquis Hall, Sir Fflint. (*Extracted from Lewis Dwnn's Heraldic Visitations.*) Nodiad o Lewis Dwnn ynghylch Achau Bwlch Coed y Dyffryn.

Howel ab Gruffydd ab Dafydd a ddywedir ei fod yn fyw ar y 24 o Awst 33ain o deyrnasiad Harri VIII. 1541, a bod ganddo fab o'r enw Robert, y teulu yma oeddynt yn meddianu Dol y Moch yn Nyffryn Ffestiniog. John Lewis, Ysw., oedd yn byw yn Pengwern yn amser Siarl I. ac Oliver Cromwell. Yr oedd careg ar yr Hen Dy uchaf, yn Mhentref Ffestiniog, yr hon a dynwyd i lawr yn nechreu y flwyddyn hon er gwneud lle i adeiladu Capel perthynol i'r Wesleyaid; arni yr oedd Pais Arfau y teulu, ynghyd a'r llythrenau hyn I. L. un ar bob ochr iddi, a'r flwyddyn yr adeiladwyd ef ar y cwr isaf iddi, sef 1643. Yn yr hen dy uchod y ganwyd y diweddar George Casson, Ysw., o Blaen y Ddol. Y mae careg cyffelyb iddi ar fur Pengwern Arms, a'r ffigyrau hyn arni 1729.

Y mae Cist-fedd yn Mynwent Ffestiniog yn gyfochrog ag un o hen feddau Dol y Moch, ymddengys fod y gareg sydd ar wyneb y bedd wedi ei chludo o fynydd Maentwrog, nid oes arni unrhyw fath o lythyrenau na ffigyrau; ond y mae careg cyffelyb ar dalcen dwyreiniol y bedd, ac arni Bais Arfau teulu Pengwern, sef Penwisg filwrol, a Baedd Gwyllt yn ffurfio yr Helm-grib. Y mae un arall ar hen Blasdy Pengwern, a Mochyn wedi ei gerfio arni a'r llythrenau canlynol ar ei gwaelod,—

JOHN LEWIS, OBIT. FEBRUARY 26TH, 1693.

Yr oedd yn Pengwern hyd yn ddiweddar, lên wauedig drwchus, yn un darn llydan, ac yn gwahanu, rhwng dwy ystafell eang, yr ydoedd o wneuthuriad cywrain, a pharhaodd yn ol fel y dywedir, am rhagor na dau gant o flynyddoedd. Y mae traddodiad yn nghymydogaeth Ffestiniog hyd heddyw, i un o Aerod Pengwern, yr hwn oedd yn rhyfelwr dewr ac anturiaethus, gael ei ladd gan Faedd Gwyllt. Os gwir y chwedl, efallai mai hyny barodd iddynt roddi y Mochyn Gwyllt yn eu Pais Arfau. Yn unol a'r traddodiad uchod, ymddengys fod yr ardaloedd hyn yn lle hynod o goediog ganrifoedd yn ol, ac yn llawn o amryw rywogaethau o fwystfilod gwylltion: ac yr ydym yn cael ein tueddu i goleddu y syniad, fod amryw leoedd yn y plwyf wedi derbyn yr enwau a roddir arnynt yn bresenol, o herwydd amledd y creaduriaid hyny yn y lle, neu am fod rhyw ddygwyddiad wedi cymeryd lle mewn cysylltiad a hwynt;—megis, Rhiw-y-Pryf-dir, Cae'r Blaidd, Coed y Bleiddiau, Llenyrch y Moch, Dol y Moch, Bryn y Moch, a Gallt y Moch. Yn agos i Beddau Gwyr Ardudwy, ar yr ochr ogleddol y mae Ffarmdy henafol a elwir Hafod Yspytty, yr ydym yn cael fod lliaws o'r yspyttai wedi eu hadeiladu gan farchogion y Deml, neu urdd Caersalem, ar eu dychweliad o Ryfeloedd y Groes, a defnyddid hwynt fel math o addoldai. Nid oes unrhyw sail i gredu fod y lle uchod yn perthyn i'r urdd yma. Yr unig draddodiad yn ei gylch ydyw, iddo gael yr enw Yspytty, am y defnyddid ef i gadw ac ymgeleddu y clwyfedigion yn amser y rhyfeloedd. Y mae yr olion a welir o amgylch y lle, ynghyd a *llen gwerin*, yn profi yn eglur fod brwydrau gwaedlyd wedi cymeryd lle ar y llechweddi hyn ganrifoedd yn ol; ac ar adegau o'r fath, naturiol ydoedd darparu lle i'r clwyfedigion a'r methiantus. Ar bren uwch ben y drws, y mae amryw o lythrenau wedi eu tori, ond y maent yn lled aneglur erbyn hyn, oddieithr y frawddeg ganlynol,—

ΕΙΡΗΝΗ ΤΩ ΟΙΚΩ ΤΟΥΤΩ.

sef; "Tangnefedd i'r Ty hwn."

Rhwng Hafod Yspytty a'r Manod, y mae Cwm Teigil, new Cwm Tegawl, neu Tegwel, efallai ydyw ei wir ystyr: yn y Cwm yma y mae y Tryfal, sef *triangle*. Y mae yr enw yn eithaf priodol, oblegid y mae yr Afon sydd yn dyfod o Fwlch Careg y Fran, a'r afon sydd yn rhedeg o Lyn y Gamallt, yn ymuno a'u gilydd yn agos i'r ty, gan ffurfio ongl hynod o naturiol. Ychydig yn is, y mae Ffermydd a elwir y Teiliau mawr, Teiliau Bach, a'r Teiliau Isaf, y maent yn sefyll a'r lechwedd teg yn wynebu at y dehau. Llygriad ydyw yr enw Teiliau, o Tyle,

Digitized by Google

ystyr yr hwn yn ol Dr. Pughe ydyw, *a gentle swell or elevation, a small bank or rising hill, a down,* &c., ceir yr enw yma ar amryw fanau yn Nghymru.

Prif adnoddau y plwyf ydyw y llechi rhagorol a godir yn y rhan ogleddol o hono: ceir yma hefyd wythienau culion o Blwm, sef yn Cwm Cynfal, Blaen y Ddol, Manod, a'r Gamallt. Bu gryn dipyn o weithio dalm o amser yn ol, yn y Cwm a'r Gamallt, yr unig fan y mae ychydig o weithio ynddo yn bresenol, ydyw yn y Manod.

Y chwarel gyntaf a agorwyd yn mhlwyf Ffestiniog, ydoedd y Diphwys, neu y Diffwys, yn ol fel y sillebir ef gan Dr. Pughe.

Dechreuwyd agor chwarel y Diphwys oddeutu y flwyddyn 1765, gan ddau o chwarelwyr a ddaethant yma o chwarel y Cilgwyn yn Sir Gaernarfon; sef Methusalem Jones, Tyddyn Dafydd Ddu, yr hwn ydoedd dad i'r enwog Bregethwr, John Jones Edeyrn; a William Morris, Dafarn Dywyrch; y ddau o blwyf Llandwrog, ger Caernarfon. Yn lled fuan ar eu hol hwynt, daeth dau eraill, sef Owen Davies, a David Davies, Gwernoer. Daeth tri eraill yma oddeutu 1769, sef James Williams, a'i frawd William Williams, a William Solomon, dyma y chwarelwyr cyntaf a ddaethant i Ffestiniog. Nid ydym yn dyweyd nad ydoedd y cyn-frodorion wedi canfod y llechi, ac wedi eu defnyddio i doi rhai o'u Bythynod. Oddeutu 1794 delid y chwarel dan Ardreth flynyddol, gan James Williams, William Williams Tyddyn Gwyn, Owen Pritchard y Gelli, John Owen Bryn Cyfergyd, ac un neu ddau eraill; ychydig o lechau a wneid ganddynt, a'r dull y byddent yn eu cludo o'r chwarel ydoedd mewn Cewill a Bachau Coed, ar gefnau ceffylau, dros Bont y Fron Goch, ac at Gongl y Wal; lle y cymerid hwynt mewn troliau, drwy Ffestiniog ac i Cemlyn, islaw Maentwrog. Oddiyma cymerid hwynt mewn cychod i lawr y traeth, i'w rhoddi mewn llongau, i'w cludo i wahanol Borthladdoedd y Deyrnas.

Yn 1800 rhoddwyd hysbysiad allan gan y Perchenogion, fod y chwarel ar werth, a phrynwyd hi yn y flwyddyn a nodwyd, gan Meistri Turner a Cassons. Dechreuodd y Cwmni newydd ei gweithio gydag egni ac yspryd anturiaethus; defnyddiasant hwythau yr un drefn o gludo y llechi hyd 1801, pryd y dechreuasant wneyd ffordd o Gongl y Wal i'r chwarel; bu cyflawniad y gorchwyl yma yn foddion i roddi cynnydd ychwanegol i chwarelyddiaeth, trwy eu bod yn gallu cludo y llechi yn fwy didrafferth, a chyda llai o draul.

Dechreuwyd gweithio yn chwarel *Lord,* islaw y Diphwys, oddeutu 1801, gan yr anrhydeddus Arglwydd Newborough o Glynllifon; ond am dymor byr y daliodd i gario ymlaen, yna gadewid iddi am flynyddoedd. Tua'r un amser y dechreuwyd gweithio yn chwarel y Manod, ond ni pharhaodd hwn i fyned yn mlaen am dymor maith, er y dywedir fod gryn lawer o lechi wedi eu gwneyd yn yr yspaid hyny; y pryd hyny hefyd y gwnaed y ffordd sydd yn arwain iddi dros ochr y Manod o Gwm Teigil. Nid oedd neb yn dal atti fel Meistri Turner a Casson, meddianwyr y Diphwys, daethant hwy yn mlaen yn llwyddianus. Yr ydoedd W. Casson, Ysw.; yn byw yn Blaen y Ddol ar y cyntaf, a Thomas Casson, Ysw., yn Ty Uchaf, Ffestiniog; yr ydym yn cael fod W. Casson, Ysw. yn Sirydd Meirionydd yn 1826; a Thomas Casson, Ysw. yn llanw yr un swydd yn 1828. Symudodd W. Turner, Ysw. i'r Parciau gerllaw Caernarfon, ac aeth T. Casson, Ysw., i Blaen y Ddol yn ei le, lle y mae y teulu yn aros hyd heddyw; y cynnrychiolydd presenol ydyw John Casson, Ysw. Bu y diweddar George Casson, Ysw. o Blaen y Ddol, yn Sirydd Meirionydd yn 1851. Parhaodd y Cwmni yma i weithio chwarel y Diphwys hyd y flwyddyn 1862, pryd y gwerthwyd hi i'r Cwmni presenol. Fel ag yr oedd Chwarel y Diphwys yn dyfod yn mlaen yn llwyddianus, yr oedd hyny yn cynnyrchu ymchwiliadau am chwarelydd newyddion. Yr ymchwiliad cyntaf y cawn grybwylliad am dano, a wnaed oddeutu 1814 ar dir Tal y waenydd, gan un o'r enw Williams o Machynlleth, Richard Griffith, a Richard William Solomon, ond fe gondemniwyd hon, ac o ganlyniad rhoddwyd hi i fyny, a gadawyd hi fel peth hollol ddiwerth. Oddeutu 1816 gwnaed ymchwiliad drachefn ar dir Rhiwbryfdir, gan un o'r enw Richard Thomas o Benmachno, ond digwyddodd yr un dynged i hon eto a'r gyntaf. Rhoddwyd ail gynyg arni yn lled fuan, gan David James ac un arall o'r enw Ellis Williams, methodd y rhai hyn a chario yn mlaen o eisiau moddion, a'r canlyniad fu gadael iddi. Yn fuan ar ol hyn yr ydym yn cael fod Mr. Oakeley Tany Bwlch, perchenog y tir, wedi ymgymeryd at y chwarel, faint oedd ei awydd ef gyda'r anturiaeth yma nis gallwn ddyweyd, ond adroddir fod ei oruchwyliwr yn bur benderfynol gyda'r gorchwyl, oblegid dywedai ar un achlysur, y gwariai ef Bum Punt wedyn dros ei feistr, cyn y rhoddai i fyny. Yn y flwyddyn 1819 daeth Samuel Holland, Ysw., a'i dad drosodd, a chymerasant chwarel y Rhiw, gan Mr. Oakeley, a dechreuasant ei gweithio yn ebrwydd, a'r canlyniad fu iddi droi allan yn llwyddianus. Yn 1825 gwerthodd Samuel Holland, Ysw., y chwarel i'r diweddar Arglwydd Palmerston a'i Gwmni, yn meddiant yr hwn y bu hyd ei farwolaeth. Hon ydyw y chwarel fwyaf yn Ffestiniog, ac adnabyddir hi yn bresenol dan yr enw Chwarel y Cwmni Cymreig. Yn mhen tua dwy flynedd ar ol hyn, sef yn 1827, dechreuwyd agor chwarel arall gan S. Holland, Ysw., ychydig yn uwch eto ar yr un Faen, mae y boneddwr yma yn parhau i'w chario yn mlaen hyd heddyw, a hon ydyw yr ail chwarel yn Ffestiniog, o ran maint, a rhifedi y gweithwyr.

Yn 1823 yr ydym yn cael ail gychwyniad ar chwarel Lord, gan yr Anrhydeddus Arglwydd Newborough ei hunan, yn 1827 cymerwyd hi gan un Mr. Roberts o Gaernarfon, yn meddiant yr hwn y bu hyd ddiwedd y flwyddyn 1833; yna safodd.

Tua'r flwyddyn yma y dechreuwyd agor chwarel Cwmorthin, ac yn flaenorol i hyn, bu peth gweithio yn y Manod. Yr ydym yn gweled fod yma erbyn hyn liaws o chwarelau, ac yn cynnwys rhifedi mawr o weithwyr, eto cludid yr holl lechau a wnelid, drwy Ffestiniog; ond yn 1830 gwnaed ffordd gan Thomas Casson, Ysw., Blaen y ddol, o Dyddyn Gwyn, heibio i'r Cymerau, ac at Tal y Bont. Parodd hyn welliant mawr yn yr ardal mewn amryw ystyriaethau; heblaw hyrwyddo cludiad y llechau at y Porthladdoedd, yr ydoedd yn peri cynnydd ychwanegol mewn chwarelyddiaeth a chelfyddydau eraill, ac yn helaethu manteision y trigolion yn mhob ystyr. Yn ychwaneg at y manteision uchod fel y crybwyllasom o'r blaen, dechrewyd y Ffordd Haiarn o Rhiwbryfdir i Porthmadog yn 1833, a gorphenwyd hi yn 1835.

Yn y gwanwyn 1834 cymerwyd chwarel Lord gan J. W. Greaves, Ysw., ar ol iddi fod yn sefyll am tua thri mis; cariwyd hi yn mlaen yn llwyddianus

Digitized by Google

hyd 1846, pryd y tybiwyd ei bod ar ddarfod, a'u bod wedi cloddio hyny a ellid gael o lechi ynddi; ac mewn canlyniad i hyny dechreuodd y Boneddwr uchod agor chwarel arall yn y Llechwedd, oddeutu y flwyddyn a nodwyd, yr hon a weithir yn mlaen yn egniol hyd yn bresenol; a gerllaw iddi ar dir Talywaunydd y mae Palas ysplenydd wedi ei adeiladu gan y Boneddwr haelfrydig, lle y treulia ef a'i deulu y rhan fwyaf o'u hamser. Y mae yr adeilad yn addurn i'r gymydogaeth.

Oddeutu 1836 yr ydym yn cael fod gweithio yn y Manod, a thua'r adeg yma y dechreuwyd agor y Graig ddu. Yn Medi 1838, dechreuwyd agor chwarel gan y diweddar Nathaniel Mathew, Ysw., Wern, a'i Gwmni, rhwng chwarel y Cwmni Cymreig, a chwarel S. Holland, Ysw., adnabyddir hon wrth yr enw chwarel y Rhiwbryfdir, neu y chwarel ganol.

Oddeutu 1853 dechreuwyd amryw o chwarelydd eraill, megis y Rhosydd, Fotty, a'r Bowydd, yr un ydyw yr olaf a hen chwarel Lord, yr hon a dybiwyd oedd wedi darfod; ond drwy dori trwy ychydig o latheni o graig galed, canfyddwyd Faen newydd drwchus, yr hon a droes allan yn llwyddianus; perchenog hon ydyw F. S. Percival, Ysw. Mae rhai chwarelydd eraill wedi eu hagor ers ychydig o flynyddoedd yn ol, sef Maen Offeren, a Cwt y Bugail.

Y mae llechau Ffestiniog yn leision o ran eu lliw, ac yn feddal a gwydn, a thrwy hyny yn hynod o weithgar, ac yn ymddangos yn hardd wedi eu trwsio, ac yn eu gwaith. Y mae eu rhagoroldeb wedi gwneyd cylch eu masnach yn helaeth, oblegid cludir miloedd o dunelli o honynt yn flynyddol i Loegr, Ysgotland, Iwerddon, Ffrainc, Germany, &c. &c.

Y swm a anfonwyd allan o'r holl chwarelau yn y flwyddyn 1851 ydoedd 45,835 o dunelli. Erbyn y flwyddyn 1869 yr ydym yn cael fod y swm yn 100,000 o dunelli. Rhifedi y gweithwyr yn holl chwarelydd Ffestiniog gyd a'u gilydd ydyw tua 3500.

Tynir y plygion o'r graig, dygir hwynt allan, a thrwsir hwynt ar y lan, gyda llawer mwy o fedrusrwydd nag y gwneid yn yr hen amser; pethau lled ddiweddar yn y chwarelydd, ydyw Peirianau, ond y maent yn lliosog iawn erbyn hyn; yr Agerbeiriant cyntaf fu ar waith yma yn chwarel y Cwmni Cymreig, yn 1844; a'r ail, yn chwarel y Rhiwbryfdir yn 1854; y dull a ddefnyddid i godi y cerig o'r chwarel, ac a ddefnyddir eto mewn rhai manau, ydyw y Dwfr Fantol, *Water Balance.* Oddeutu 1851 y defnyddiwyd y dull o lifio y cerig tuag at eu hollti, gan J. W. Greaves, Ysw., yna yn y Rhosydd, ac yn drydydd gan N. Mathew, Ysw. Yr olaf, a ddyfeisiodd Beiriant i drwsio y llechi gyntaf drwy eu tori yn bedair ongl (*square*). Dyfeisiodd yr un boneddwr hefyd Beiriant arall, i dori un pen iddynt mewn gwahanol ffurf, sef yn bengrwn, hirgrwn, &c., er gwneyd tô addurniadol. Defnyddir peirianau i drwsio llechi, gan J. W. Greaves, Ysw., o'i ddyfeisiad ef ei hun, defnyddir y rhai hyn drwy y rhan liosocaf o'r chwarelydd; yn nghyd a rhai o ddyfais Mr. G. Owen, Porthmadoc, &c. &c. Gweithir y peirianau hyn mewn rhai gweithydd gyda dwfr, ac yn y lleill gydag Ager.

Y mae yma gyfnewidiadau pwysig wedi cymeryd lle gyda golwg ar gyflwr moesol y gymydogaeth; wrth daflu ein golwg yn ol, yr ydym yn cael mai tywyll ac isel ydoedd lliaws o'r trigolion, un peth sydd yn profi hyn, ydyw y croesaw a'r derbyniad a roddwyd i Mari y Fantell Wen yn yr ardal hon. Daeth hon o Sir Fon i Sir Feirionydd, yn genad dros y Diafol, meddai y Parch. Robert Jones Rhoslan. Bu hon yn llwyddianus i ddenu lliaws o bobl ar ei hol am dymor; daeth yma yn 1780 pan oedd diwygiad bychan wedi dechreu, a chymerodd fantais oddiar hyny i enill canlynwyr. Wedi iddi dreulio o 10 i 12 mlynedd, daeth ei thwyll i'r golwg, a symudodd hithau i Lanfihangel y Traethau, lle y bu hi farw, ac yno y claddwyd hi.

Oddeutu 1775 dechreuodd pregethwyr o'r Bala, a manau eraill, ymweled a Ffestiniog yn lled fynych; sef William Evans, Fedw arian, Humphrey Edwards, Dafydd Edwards, &c. Bu y rhai hyn yn ddiwyd ac ymdrechgar, er cael llawer o anmharch. Pan oedd Wm. Evans yn pregethu un tro, ar groesffordd Tyn y Ffridd, yr oedd dynion yn ei luchio â thywyrch a baw, ac yn anog eraill i wneyd yr un modd; ac nid hwn ydoedd yr unig dro iddo gael ei erlid; cafodd amryw eraill eu trin yn gyffelyb; ond er hyn oll ni adawyd eu llafur heb ei fendithio a llwyddiant. Sefydlwyd yma Eglwys fechan yn 1775, adeiladwyd Capel bychan perthynol i'r Methodistiaid Calfinaidd yn 1784, a dyma y cyntaf yn mhlwyf Ffestiniog; gelwir y lle hyd heddyw, yr Hen Gapel, saif tua milldir o bentref Ffestiniog, ar yr hen ffordd i Benmachno. Dechreuodd y Parch. John Evans, T. Charles, a David Edward o'r Bala, yn nghydag Edward Ffoulkes, Dafydd Cadwaladr, a John Williams, Dolwyddelen, ymweled a'r gymydogaeth; crybwyllir fod yma ddiwygiad wedi tori allan yn y flwyddyn 1798, pryd yr ymunodd lliaws a chrefydd. Yn, neu oddeutu 1804 sefydlwyd Eglwys gan y Wesleyaid yn y pentref; un o'r pregethwyr cyntaf fu yn llafurio yn eu plith, ydoedd y Parch. Griffith Owen o Langybi, ymhen ychydig cymerasant dŷ, a gwnaethant eisteddleoedd ynddo, a gwasanaethodd hwnw fel math o gapel iddynt am rai blynyddoedd. Yn 1814 adeiladwyd y Capel Gwyn gan y Methodistiaid, y Gweinidogion a'u cynorthwyodd hwynt yn benaf i gael yr Addoldy yma, oeddynt y Parch. Thomas Charles, a D. Edwards o'r Bala, ymhen tua blwyddyn ar ol ei adeiladu, torodd diwygiad grymus allan, ac ymunodd lliaws a chrefydd. Yr ydoedd yn lled anghyfleus i drigolion y Blaenau er eu bod yn lliosog, byddent yn cael pregeth weithiau yn Pen y Bryn, pryd arall yn Cwmbowydd. Oddeutu 1817 daeth y Parch. David Roberts Bangor i bregethu, i dy William Hughes Talywaunydd, a dyma ddechreuad yr Annibynwyr yn Ffestiniog. Mae yn ddiau y ceir crybwylliad am ambell bregeth yn gynt, gan Dr. Lewis ac eraill; ond o'r amser a nodwyd y cynaliwyd moddion yn rheolaidd, ac y sefydlwyd Eglwys yn Maen offeren yn eu plith. Buont yn pregethu am beth amser yn nhy Robert Morris, Rhiwbryfdir; wedi hyny yn Cwmbowydd, a Maenofferen. Y gweinidogion a ddeuent yma fynychaf y pryd hyny, oeddynt y Parch. D. Roberts Bangor, Griffith, Llanrwst, Edward Davies, Trawsfynydd, a D. Griffiths Bethel. Yn 1818 adeiladwyd Capel Bethania, sef y cyntaf yn y Blaenau. Adeiladwyd Capel Bethesda yn 1826, gan y Methodistiaid, a Saron gan yr Annibynwyr yn y pentref. Yn 1839 adeiladwyd ysgoldy bychan, neu Gapel gan y Methodistiaid yn Tan y Grisiau, ond yn fuan bu raid cael capel mwy.

Adeiladwyd Capel Peniel, yn y pentref, yn 1839, a thua 1841 prynwyd yr Hen Gapel Gwyn, gan y

Digitized by Google

Wesleyaid. Adeiladwyd Bethsaida sef Capel yr Annibynwyr yn Tan y Grisiau, yn 1839. Rhy faith fyddai sylwi yn fanwl ar yr adgyweirio a'r ailadeiladu a gymerodd le mewn cysylltiad a'r Addoldai er eu dechreuad, ond rhoddwn restr o'r holl Gapelydd sydd yn y plwyf, perthynol i bob enwad crefyddol, a'r cyfnewidiad a gymerodd le mewn cysylltiad a hwynt yn y cyfnod diweddaf, yn nghyda'r Eglwysydd, er mwyn i'r darllenydd gael cip olwg ar fanteision crefyddol y plwyf.—

| | Flwyddyn. | Draul o Adeiladu. | Cymunwyr yn 1870. | Gwrandawyr, 1870. | Ysgolion Sabothol, 1871. |
|---|---|---|---|---|---|
| Eglwys St. Dewi, Blaenau. Newydd.......... | 1841 | ... | ... | ... | 181 |
| Eglwys St. Michael, yn y Pentref. Do....... | 1844-5 | ... | ... | ... | 125 |
| Ysgoldy Rhyd y Sarn. M. C.................... | 1859 | 120*p.* | ... | ... | 110 |
| Capel y Bedydwyr-Albdd. Tan y Grisiau. B.. | 1860 | 120 | ... | ... | ... |
| Peniel Ffestiniog, Oriel. M. C. ................ | 1860 | 350 | 367 | 850 | 369 |
| Salem, Rhiwbryfdir. A.............................. | 1861 | 600 | 100 | 200 | 120 |
| Bethania do. A. oriel.............................. | 1861 | 400 | 200 | 410 | 266 |
| Babell do. M. C.................................... | 1861 | 140 | ... | ... | 81 |
| Ysgoldy Teilia Mawr.................................. | | .. | ... | ... | 64 |
| Capel Gwyn, adgyweirio. W...................... | 1862 | 30 | 80 | 140 | 100 |
| Carmel Tan y grisiau. A.......................... | 1862 | 1500 | 200 | 400 | 200 |
| Bethel do. M. C. ...................................... | 1864 | 2500 | 264 | 721 | 471 |
| Tabernacl Blaenau. M.C............................ | 1864 | 3400 | 222 | 707 | 455 |
| Ebenezer. Four Crosses. W...................... | 1864 | 600 | 80 | 150 | 120 |
| Sion do. B.............................................. | 1864 | 600 | 70 | 100 | 80 |
| Tiberias, Cwmorthin. A........................... | 1866 | 100 | ... | ... | ... |
| Capel do. M. C. ...................................... | 1867 | 300 | ... | ... | 31 |
| Capel Rhiwbryfdir. M.C............................ | 1868 | 3000 | 300 | 728 | 448 |
| Tal y Waenydd........................................... | | ... | ... | ... | 41 |
| Jerusalem Four Crosses. A...................... | 1869 | 2000 | 180 | 400 | 200 |
| Bethel, Ffestiniog. A.............................. | 1869 | 1300 | 170 | 350 | 140 |
| Bethesda Blaenau. M. C........................... | 1870 | 2395 | 216 | 538 | 381 |
| Capel Soar, Glan y Pwll. B...................... | 1870 | 120 | 45 | 50 | 75 |
| Shiloh Ffestiniog. W.[1]............................ | 1871 | ... | ... | ... | ... |

Yn ychwanegol at Eglwys y Plwyf, sef St. Michael ac Eglwys St. David, y mae un arall yn cael ei hadeiladu yn y misoedd hyn, ar dir Tyddyn Gwyn. Y mae manteision addysg wedi ychwanegu llawer yn y 30 mlynedd diweddaf, drwy yr Ysgolion Sabbothol, a'r Ysgolion Dyddiol, a sefydlwyd yn ngwahanol ranau y plwyf. Ymddengys mai yn y pentref y dechreuwyd yr Ysgol Sabbothol gyntaf, oddeutu y flwyddyn 1794, nid ydoedd ei nifer pryd hyny ond o 15 i 20, a thri neu bedwar o Athrawon, a bu dau o'r rhai hyny yn dyfod yma am dymor lled faith o blwyf Maentwrog. Oddeutu 1809 sefydlwyd Ysgolion Sabbothol yn y Blaenau, ac yn Tan y grisiau. Fel yr oedd y boblogaeth yn cynnyddu, lliosogwyd yr ysgolion, drwy sefydlu rhai yn y manau mwyaf manteisiol yn yr ardal; erbyn hyn gellir rhifo yr ysgoleigion wrth y miloedd. Yr ysgol ddyddiol gyntaf a gynnaliwyd oddeutu 1806, yn Eglwys Ffestiniog, gan un o'r enw Hugh Davies. Tua'r flwyddyn 1809 cynnaliwyd un o Ysgolion symudol y Parch. T. Charles o'r Bala, yn yr Hen Gapel, gan un o'r enw Evan Edwards. Mae Ffestiniog yn ddyledus i raddau helaeth i ymdrechion Mr. Charles, am y wedd a welir arni heddyw.

Sefydlwyd ysgol ddyddiol yn y Blaenau yn 1817, cedwid hi y pryd hyny yn Ysgubor Tan y Manod, gan Ellis Thomas, ar ei ol ef gan Owen Jones, wedyn gan John Williams, a ddaeth yn Weinidog i Bethania. Cadwyd ysgol ddyddiol yn Nghapel Bethesda, gan Robert Jones, a dilynwyd ef gan Josuah Williams. Sefydlwyd ysgol yn y Capel Gwyn, oddeutu 1816, yr athraw cyntaf ydoedd un o'r enw Robert Humphreys, dilynwyd ef gan John Rowlands, ac yntau drachefn gan Thomas Hughes o Machynlleth. Yn 1829 adeiladwyd Ysgoldy ar ben yr Allt Goch islaw y pentref, mewn cysylltiad a'r Eglwys, y cyntaf a fu yn cadw yr ysgol hon ydoedd yr enwog John W. Thomas, *Arfonwyson*. Bu ef yn gweithio am beth amser yn chwarelydd y Diphwys, a Lord, ac ymadawodd am dymor i chwilio am ragor o addysg, a dychwelodd, ac wedi treulio tua dwy flynedd yn cadw ysgol yn y lle uchod, ymadawodd drachefn i'r un perwyl, ond nid i ddychwelyd mwy. Oddeutu 1840 sefydlwyd ysgol genedlaethol yn Llwyn y gell, cynnelid hi gan Mrs. Oakeley Tan y Bwlch, ac y mae yn cael ei chario yn mlaen eto ar draul W. E. Oakeley, Ysw., cynnrychiolydd presenol y teulu. Sefydlwyd Ysgol Frytanaidd yn Ysgoldy y Dinas, yn 1846; yr athraw cyntaf oedd Mr. D. Philips, yn mhen rhyw gymaint, symudwyd hi i Dol y gareg ddu. Sefydlwyd ysgolion Brytanaidd eraill yn y plwyf, sef un yn y pentref yn 1846, athraw cyntaf, Parch. R. Parry. Bethesda neu Pant yr yn 1867, ac yn Tan y Grisiau yn 1868. Sefydlwyd ysgol i Fabanod, *Infants' School*, yn Tan y Grisiau, a chynnelid hi gan Mrs. Holland.

Disgwylir cyfnod newydd eto yn y plwyf yma mewn cysylltiad ag addysg o dan lywodraeth y Bwrdd Addysg; penododd y llywodraeth mai pump o bersonau oedd i wneyd i fyny y Bwrdd, a'r personau a ddewiswyd ydynt,—Meistri Dd. Williams Glasdo, W. Williams, M.D., Bronhaul, E. P. Jones Diphwys, Wm. Rowlands, Votty & Bowydd Quarries, Daniel Williams Llwyn y gell, ynghyda Mr. G. S. Jones Dol y gareg ddu, yn Ysgrifenydd. Y maent yn gweithio yn egniol, ac wedi gwneyd llawer eisioes tuag at gael cyfundrefn o addysg ragorol yn y gymydogaeth boblogaidd yma.

Nis gallwn enwi rhestr hirfaith o enwogion wedi codi yn y plwyf yma, ond nid ydyw yn hollol amddifad o rai teilwng o sylw, yn ol yr hen Ddiareb, "Yn mhob gwlad y megir glew." Un o deulu

[1] Mae yr olaf yn Gapel helaeth a phrydferth ac yn addurn i'r pentref, ond y mae heb ei agor eto.

Digitized by Google

henafol ac anrhydeddus Pengwern yn Ffestiniog, ydoedd Dafydd ab Ieuan ab Einion, y milwr dewr a ymladdodd dros ei wlad, ac a fu am flynyddoedd yn geidwad Castell Harlech. Efe a amddiffynodd y lle yn wrol o blaid y Lancasteriaid yn erbyn Iorwerth IV. yr hwn y dywed Dafydd Nanmor am dano,—

"Y blaenaf o bobl Wynedd,
A dâl ym aur a medd;
Blaenaf o bawb yw Dafydd,
Blaenawr ar Gymru fawr fydd;
Blaenawr ar bawb olynol,
Bid ran o'r byd ar ei ol:
Yn ol Ifan gloyw-dan gwledd,
Ab Einion y lu Wynedd!!"

Yn y Plas Meini, Ffestiniog, y bu Huw Maurice byw am dymor. Nai ydoedd Huw Maurice i Owain Myfyr; aeth i Lundain at ei Ewythr, lle y daeth i gydnabyddiaeth a sylw amryw o'r Gwyneddigion. Priododd yno ferch Rowland Jones, Ysw., *Gwybedyn*, boneddwr cyfoethog, a brodor o Ddinas y Mawddwy. Yr oedd Huw yn dipyn o Fardd, a llenor gwych; pa fodd y daeth i Plas Meini, nis gallwn ddychymygu, os nad ydoedd yn un o'r teulu. Yr ydoedd Morris mewn cysylltiad a'r teulu, a Llwyd, sef yr un gwehelyth a'r Llwydiaid Cynfal, a Cwmbychan, &c. Y cynnrychiolydd presenol ydyw David Lloyd, Ysw., Machynlleth. Symudodd Huw Maurice i Lanrug yn Sir Gaernarfon, ac yno y terfynodd ei yrfa. Mab i Huw Maurice ydoedd y Parch. Pedr Maurice, D.D. Cymmrawd o'r Coleg newydd, Rhydychain, a Pheriglor Alton, yn Swydd Rhydychain.

William Griffith Oakeley, Ysw., o Blas Tan y Bwlch, ydoedd yn foneddwr haelfrydig, ac yn fardd Seisonig rhagorol, fel y dengys ei waith yn y Farwnad goffadwriaethol a gyfansoddodd ef ar farwolaeth ei gefnder, sef W. Oakeley, Ysw., o Glan William; ond ni chafodd yntau ond oes fer, oblegid bu yntau farw yn 1835 yn mhen y flwyddyn ar ol ei gefnder, a chladdwyd ef yn mynwent Ffestiniog.

Y diweddar William Williams, *Gwilym Twrog*, a dreuliodd weddill ei oes yn yr allt islaw y Cymerau; yr ydoedd Gwilym yn fardd gwych, ac y mae gryn lawer o'i waith ar gael yn y Gwladgarwr, Seren Gomer, &c. Yr oedd ef yn hynod o barod a rhwydd yn y cynganeddion. Druan o Gwilym! cyfarfu a'i ddiwedd drwy i lechfaen dreiglo, a'i daro yn ei ben; yr ydoedd ar y pryd wedi canu Cywydd ar ryw destun i Eisteddfod y Bala, yn 1836, a dywedir mai efe ydoedd y buddugol, yr oedd wedi arfaethu bod yno, ond ymddengys iddo farw ar y diwrnod y cynaliwyd yr Eisteddfod.

Un arall o enwogion Ffestiniog, ydoedd y diweddar William Williams, *Gwilym Ystradau*. Yr oedd ef yn ddyn boneddigaidd tu hwnt i'r cyffredin, yn gyfaill cywir, ac yn fardd da. Mae ei goffadwriaeth yn barchus gan bawb a'i hadwaenai.

Y Parch. Richard Jones o'r Bala, ydoedd enedigol o Dafarn y Trip, uwchlaw Tan y Bwlch, yn mhlwyf Ffestiniog, bu yn cadw ysgol yn Rhiwaedog ger y Bala, ac yn Nhrawsfynydd; yr oedd yn bregethwr enwog a chymeradwy gyda'r Methodistiaid Calfinaidd; ystyrid ef yn ddyn deallgar, ac o synwyr cryf, bu farw yn Ebrill 17, 1840 yn 55 oed.

Un arall o enwogion y plwyf yma, ydoedd y diweddar Dr. Wm. Vaughan Jones, Ysw.; ganwyd ef yn Glan y Gors, Blaenau Ffestiniog. Yr oedd yn Feddyg galluog a medrus, yn foneddigaidd, tyner a gofalus, gyda'r tlawd fel y cyfoethog; ond bu farw yn nghanol ei ddyddiau, a chladdwyd ef yn Mynwent Ffestiniog, a gosodwyd Cofadail ardderchog ar ei fedd, a'r llinellau canlynol yn gerfiedig arni,—

Cysegredig er Cof am
WILLIAM VAUGHAN JONES, M.R.C.S., L.S.A.,
o'r Pentref hwn, Meddyg.
A fu farw y 3dd dydd o Chwefror, 1864, yn
42ain mlwydd oed.

Oddiar fryniau Ffestiniog y mae golygfeydd ysblenydd am filldiroedd o gwmpas. Tybier ein bod yn esgyn i Ben y Manod Mawr ar ddiwrnod clir, wrth gyfeirio ein golygon tua'r dwyrain ogledd, canfyddir rhanau helaeth o Sir Ddinbych, a Moel y Famau yn Sir Fflint. I'r dwyrain gwelir Cadair Fronwen, a Chadair Ferwyn, a'r gadwyn sydd yn gwahanu rhwng Meirionydd a Sir Drefaldwyn. I gyfeiriad mwy deheuol gwelir lliaws o fynyddoedd, a dim ond mynyddoedd uchel-grib Meirionydd, sef yr Arenig Fawr, Aran Benllyn, Aran Mawddwy, Cadair Idris, &c. Yn nes atom, dyna wastadedd uchel Trawsfynydd, a chadwyn o fynyddoedd yn derfyn gorllewinol iddo, sef y Rhiniog Fach, a'r Rhiniog Fawr, a'r Graig Ddrwg, rhwng y rhai hyn y mae mynedfa hynod a elwir Drws Ardudwy.

I'r gorllewin y mae golygfeydd ysblenydd, dyna ddyffryn prydferth Ffestiniog a Maentwrog, y Traeth Bach, a'r Traeth Mawr, a'r Môrglawdd mawreddog a defnyddiol a wnaed yn 1800, gan W. A. Madoc, Ysw. Dyna Gastell henafol Harlech, yn sefyll yn dalgryf; a hen Gastell Cricaeth ar ei gyfer. Mae y golygfeydd prydferth yn ymeangu o'n blaen, dyna Eifionydd odidog, hen gartref y Beirdd, Lleyn, a draw yn y pellder, dacw Ynys Enlli, yr hon a fu yn noddfa i lawer o hen Saint Cymru ganrifoedd yn ol. Lle y mae y Môr yna ac ambell i Long yn lledu ei hwyliau arno, y safai gynt, Gantref y Gwaelod, sef gwlad isel, eang a ffrwythlon, a dybid iddi gael ei gorchuddio gan y môr, rhyw bryd tua dechreu y 6ed. ganrif.

Yn fwy i gyfeiriad gogleddol, daw lliaws o fynyddoedd uchel Arfon i'r golwg, a'r Wyddfa fawreddog yn ymddyrchafu uwchlaw y cyfan. O tanom, dyma blwyf Ffestiniog yn ei holl amrywiaeth, ei gymoedd, ei raiadrau, a'i lynau prydferth, mae miloedd o aneddau y chwarelwyr yn gorchuddio y rhan ogleddol; ceir golwg ardderchog hefyd ar y chwarelau mawrion, a chlywir trwst peirianau, a swn ergydion, yn chwilfriwio y creigiau, nes y mae eu swn yn adsain drwy y gymydogaeth, yr hyn sydd yn dwyn yn ffres i'n côf, linellau a gyfansoddodd yr anfarwol Eben Vardd, pan ar ymweliad a chwarelydd Ffestiniog amryw o flynyddoedd yn ol:

"O ben y fan e dybia un fod,—y mellt
Yn hollti'r holl waelod,
A therfysg heb byth ddarfod,
O ryw FAN DWFN AR FIN dod."

**FFILI**, Sant, yn y 6ed ganrif, ydoedd fab Cenydd ab Gildas y Coed Aur. Tybir mai ar ei enw ef y galwyd Rhosili, a Chaerffili, Morganwg.

**FFINAN**, neu Ffinian, ydoedd sant, esgob, ac athronydd enwog, tua chanol y 6ed ganrif. Hanai o deulu urddasol yn yr Iwerddon, a bu yn trigo am ysbaid gyd Dewi Sant yn Menyw. Dywedir mai efe a sylfaenodd Lanffinan yn Mon. Dywed ei Fuchedd

Digitized by Google

iddo o'i ieuenctyd gael ei ddwyn i fyny o dan ofal St. Colman; wedi hyny iddo gael ei gymeradwyo i'r esgob Nennion, gyda'r hwn y dysgodd efe reolau y bywyd Mynachaidd yn y Mynachdy Mawr, lle hefyd y gwnaeth efe luaws mawr o wyrthiau. Wedi hyny, aeth i Rufain, lle bu yn efrydu y wyddoniaeth gysegredig am saith mlynedd, ac yna i'r offeiriadaeth. Dywedir iddo farw yn ei esgobaeth yn Clonard, Meath, yn 552.

**FFLAM** AB NWYFRE, un o bendefigion Llys Arthur.

**FFLEWDWR** AB NAF, cymeriad hynod yn y rhamantau Cymreg.

**FFLEWDWR FFLAM,** neu FFLEWDWR WLEDIG, mab Godo, ydoedd un o farchogion Llys Arthur. (*Myf. Arch.* ii. 74.) Sonir am dano hefyd yn "Mabinogi Cilhwch ac Olwen."

**FFLEWYN**, SANT, yn y 6ed ganrif, ydoedd fab i Ithel Hael. Penodwyd ef, a'i frawd Gredifael, gan Pawl Hen, yn llywyddion ar y Ty Gwyn ar Daf. Ar ei enw ef y gelwir Llanfflewyn, Mon.

**FFLINT**, SWYDD, sydd wlad arforawl o Ogledd Cymru. Y mae y prif gyfangorph o honi, yn cael ei derfynu ar y dde, y de-orllewin, a'r gorllewin, gan Swydd Ddinbych; ar y gogledd gan for y Werydd; ar y gogledd-ddwyrain, gan for-gilfach yr afon Dyfrdwy; ac ar yr ochr ddwyreiniol, gan Swydd Seisonig Caerlleon; ond y mae y prif ran o gantref Maelor, yn gorwedd ar wahan oddiwrth y gweddill o'r Swydd, tua saith milltir yn y man nesaf, tu ar de-ddwyrain, ac yn cael ei ymylu ar y gogledd, gan Sir Gaerlleon; ar y dwyrain a'r de gan Amwythig, ac ar y gorllewin gan Sir Ddinbych. Y mae y prif gyfran yn hirgrwn, yn ymestyn o ogledd i orllewin, ac yn mesur o saith ar hugain, i ddeg ar hugain o filltiroedd; ac o chwech, i ddeuddeg a haner o led. Y mae y gyfran sydd ar wahan, tua naw milltir o bellder ar y cyfan, yn gorwedd ar geulan ddeheuol yr afon Dyfrdwy, tua deng milltir o hyd, a chwech a haner o led. Y mae yr holl Swydd yn mesur 184,905 o erwau.

Yn amser goresgyniad y parth hwn o Brydain gan y Rhufeiniaid, yr oedd Sir Fflint yn rhan o diriogaeth y Gordofigwys, oddigerth y gyfran sydd ar wahan, yn gorwedd ar yr ochr ddwyreiniol i'r Dyfrdwy, ac a feddienid gan y *Cornavii;* ac yn ol barn Pennant, y mae prif ran y cyfangorph o'r Swydd wedi cael ei enw Tegeingl, neu Tegangle, oddiwrth lwyth o bobl flaenorol, a elwid *Cangi*, y rhai oedd yn bugeilio eu praidd a'u da, mewn gwahanol borfeydd, o amrywiol fath, yn ol tymhorau y flwyddyn. Tu ag at brofi y tadogaeth hwn, cyfeiria ef at wastadedd yn mhlwyf Caerwys, a elwir "Maes-canhafod." Ond atolwg, ai nid yw Teg-gongl, yn fwy naturiol? Pa fodd bynag, galwai y Rhufeiniaid y dosparth hwn yn "*Tegania;*" a than eu llywodraeth hwy, yr oedd yn cynwys gorsaf *Varis*, yn Bodfari, ar geulanau y Clwyd, gerllaw Dinbych. Yr oedd *Banchorium, Bonium*, neu *Bovium*, yn sefyll yn Bangor-Is-coed, ar geulan ddeheuol y Ddyfrdwy; ac oddi wrth yr olion Rhufeinig a ddarganfyddwyd yn Nghaergwrle, ymddengys fod y lle hwnw hefyd yn werthyr cadarn, perthynol i'r gorchfygwyr hyn. Yr oedd y Sir hon yn cael ei chroesi gan gangen o'r heol Watling ogleddol, lle yr oedd y mynediad iddi yn agos i Gaerlleon, ac yn myned heibio gorsaf *Varis*, hyd Gaerhên, gerllaw Aberconwy. Wedi i'r Rhufeiniaid encilio ymaith gyda'u byddinoedd, a gadael y brodorion Brytanaidd i amddiffyn eu hunain, yn erbyn y barbariaid gogleddol; gorchfygwyd y rhai olaf, gan y Cristionogion Brytanaidd, yn Maes Garmon, gerllaw Rhuallt, ac nid yn mhell oddiwrth dref bresenol y Wyddgrug. Arweinid y fyddin Gymreig gan Garmon a Lupus, dau esgob a ddaethent yn genhadon o Lydaw; ac yn ol cyfarwyddyd y blaenaf, rhoddodd y milwyr floeddiadau uchel, treiddgar, o "Haleliwia," fel y tarawyd gwersyll y Pictiaid a'r Ysgotiaid â dychryn, a ffoisant, dan gwympo mewn lladdfa fawr; gelwir y gorchfygiad hwn gan haneswyr yn gyffredin, "Y fuddygoliaeth Haleliwia." Yn nechreuad y seithfed ganrif, arweiniodd Ethelfrith, Brenhin Northumbria, wedi cael y llaw uchaf ar rai o'r Brytaniaid gogleddol, ei fyddinoedd yn erbyn y Cymry, ac yn nechreuad brwydr fawr Caerlleon, yn yr hon yr oedd yn dra llwyddianus, efe a roddodd orchymyn i lofruddio y monachod perthynol i Athrofa Bangor-Iscoed, deuddeg cant mewn rhifedi, y rhai oeddynt wedi ymgynull i offrwm gweddiau dros eu cyd-wladwyr, o'r rhai ni ddiangodd ond deg a deugain. Wedi y frwydr, cyfeiriodd Ethelfrith ei gamrau tua Bangor, oedd yn sefyll ar ochr ddwyreiniol y Ddyfrdwy, yn y Sir hon, lle y llwyr ddinystriodd efe yr hen athrofa henafol ac ardderchog, gan losgi ei llyfrgell werthfawr yn lludw. Amcanodd y tywysog Sacsonaidd wedi hyny ddyfod yn mlaen i diriogaeth y Cymry, ond ataliwyd iddo groesi y Ddyfrdwy yn Bangor, gan Dywysog Powys, hyd nes y cafwyd adgyfnerthiad gan Cadfan, brenhin Gwynedd, Meredydd, brenhin y Deheubarth, a Bledrus, brenhin Cernyw. Wedi i'r tywysogion unedig gynull eu byddinoedd, gwnaeth Dunawd, abad y fonachlog a ddystrywiasid, araith mewn ffordd o anerchiad i'r fyddin, a chyn i'r frwydr ddechreu, efe a roddodd orchymyn i'r milwyr gusanu y ddaear oedd dan eu traed, mewn coffadwriaeth am gymundeb corph Crist, a chymeryd i fynu ddwfr a'u dwylaw o'r Ddyfrdwy, a'i yfed mewn cof am y gwaed cysegredig a dywalltwyd drostynt. Wedi ysprydoli eu teimladau drwy y weithred grefyddol hon, ymosododd y fyddin Frytanaidd ar eu gelynion gyda dewrder mawr, fel y gorchfygasant hwy yn llwyr, gyda cholled o dros ddeng mil o wyr; ac a orfodasant Ethelfrith, gyda gweddill ei fyddin, i ffoi i Northumbria; ac felly y dialwyd am ddinystr Bangor, yn ngolwg yr adfeiliau llosgedig! Darfu i Offa, llywydd galluog Mercia, wedi iddo, yn yr wythfed ganrif, yru y Cymry rhyngddynt a'r gorllewin, i'r mynyddoedd, dynu llinell derfyn eglur, gydag ochr orllewinol ei diriogaethau, yn cynwys ffos ddofn, a chlawdd uchel, yn cyrhaedd o lan y mor, gerllaw Prestatyn, yn y Sir hon, hyd at geulanau yr afon Wy; yr oedd yn cymeryd cyfeiriad trwy Sir Fflint, o'r gogledd-orllewin i'r de-ddwyrain, ac y mae yr olion gweledig yn y llwybr olaf, i'w canfod yn agos i Golden Grove, ac yn mlaen tu a'r Marian, yn mhlwyf Newmarket, a rhagddo tua rhedegfaes Treffynon, o dan ba le y mae yn colli, nes dyfod i'r golwg eilwaith yn Caetwn, gerllaw Treuddyn, ac yna yn mlaen hyd Sir Ddinbych. Barna Mr. Pennant fod Clawdd Offa yn terfynu yn ogleddol i'r Cae-twn, a bod yn debygol y golygai Offa y byddai bryniau Clwyd, a'r dyffryn dwfn wrth eu godreu dwyreiniol, yn ddigon o barhad i'w linell warchgloddiol; yr oedd ef wedi arwain ei fyddinoedd trwy y rhan fwyaf o Sir Fflint, ac yr oedd wedi dychymygu y byddai i'w ymddangosiad, a'i

Digitized by Google

orchymyn, gadw y Cymry rhag beiddio gorthrymu ar ei diriogaethau newyddion; ond cafodd y llywydd Merciaidd ymosodiad arno yn annysgwyliadwy, a'i orchfygu, yn ymyl y gofgolofn hon, yr oedd efe wedi ei chodi am ei allu; ymosododd wedi hyny, gyda bwriad o ddialedd, ar diriogaethau y Cymry; ond trwy arfer trefn ochelgar, ac ymgadw yn y coedwigoedd a'r mynyddoedd, gallasant sefyll yn ddiogel, ar yr ochr amddiffynol, a gwneud peth dinystr ar eu gelynion, yn awr ac eilwaith. Ond gan adael y dull hwn, penderfynasant anturio i frwydr agored, a chyfarfu y byddinoedd gwrthwynebus eu gilydd ar Forfa Rhuddlan; parhaodd y frwydr yn hir a thrychinebus, ond o'r diwedd, trodd y fuddygoliaeth o blaid y Sacsoniaid; gorchfygwyd y Cymry, gyda lladdfa fawr, a lladdwyd Caradog, blaenor eu llu. Ar yr achlysur annedwydd hwn, gorchymynodd y gorchfygwr, ar fod i'r gwyr a'r plant a gymerwyd yn garcharorion, gael eu llofruddio, ond ychydig o foddhad a gafodd yr estroniaid yn hyny, gan i'r rhan fwyaf o honynt ffoi drwy y morfeydd, i farw ar dywod y traeth, yn y llanw oedd yn dyfod i mewn. Yn uniongyrchol wedi rhoddi Caerlleon i fynu i Egbert o Wessecs, daeth yr oll o'r Sir hon dan ei lywodraeth, ac yn mlaen hyd odreu Eryri. Ar farwolaeth Rhodri Mawr, yn 877; daeth cantref Tegeingl, neu *Englefield*, fel ei gelwid gan y Saeson, yn gynwysedig, yn nosparth y Berfeddwlad, yn mhrenhiniaeth Gogledd Cymru; lle llywodraethol yr hon oedd yn Aberffraw yn Mon; tra yr oedd y rhanau de-ddwyreiniol o honi, yn cynwys Cwmydau Ystrad-Alun a Chaergwrle, ac yn ffurfio rhan o frenhiniaeth Powys, fel yr oedd Maelor Saesneg, ar yr ochr ddwyreiniol i'r Ddyfrdwy. Yn gynar yn nheyrnasiad Anarawd, yr hwn, ar farwolaeth ei dad Rhodri, a ddaeth yn llywydd Gwynedd, wedi i'r gweddill o Frytaniaid Strath Clyde, gael ymosod arnynt gan y Daniaid, y Sacsoniaid, a'r Scotiaid; ac wedi colli eu brenhin Cystenin mewn brwydr, hwy a erfyniasant ar Anarawd, am gael lloches yn ei diriogaethau ef; ac addawodd yntau ganiatau eu cais, ar yr amod iddynt fynu oddiar y Saeson, ran o diriogaeth oeddynt wedi ei gymeryd oddiar y Cymry cyntefig, yn y man yr oeddynt wedi cael goddefiad i gartrefu, a chynal eu hawl trwy rym arfau; darfu i'r Brytaniaid hyn yn fuan ddifeddianu y Saeson, o'r wlad rhwng afonydd Cynwy a'r Ddyfrdwy, o'r lle y buant am beth amser yn cadw meddiant tawel, nes ei oresgyn drachefn gan Eadred, Iarll Mercia; yr hwn, er hyny, a orchfygwyd gan Dywysog Gwynedd, yn agos i dref Aberconwy, ac a ymlidiwyd i'w wlad ei hun; yr oedd y Brytaniaid gogleddol wedi symud eu gwartheg a'u meddianau, ar ddyfodiad Eadred, i'r ochr orllewinol i Gonwy, ac wedi sefydlu eu hunain, fel gwladwriaeth wahanedig, a'i galw Ystrad Clwyd, o herwydd fod rhan o'r lle yn gorwedd ar geulanau yr afon Clwyd; y lle a unwyd wedi hyny yn heddychol â Gogledd Cymru. Yn y flwyddyn 1055, goresgynwyd y Sir hon gan fyddinoedd Harold, yr hwn a anfonasid gan Iorwerth y Cyffeswr, i gospi Gryffydd, Tywysog Gwynedd, am ei waith yn cynorthwyo Algar, Iarll deoledig Caerlleon, yn ei ymosodiadau ar y tiriogaethau Seisnig. Dioddefodd anffawd cyffelyb, yn 1063, ar yr hwn achlysur y daeth Harold gyda'r fath gyfrwysdra, fel y bu agos iddo gymeryd Gryffydd megis yn ddiarwybod, yn ei balas yn Rhuddlan; ni chafodd yr olaf ond prin ddigon o amser, y mynyd cyn i'r Saeson ddyfod at y porth, i brysuro i un o'i longau oedd yn barod i'w dderbyn yn y porthladd; wedi cynddeiriogi ar ol canfod fod y tywysog Cymreig wedi ffoi felly, llosgodd Harold y palas, a rhoddodd y gweddill o'r llongau yn y porthladd ar dân, yn Rhuddlan.

Gwedi y gorchfygiad Normanaidd, ymddangosai agos yr oll o'r Sir hon, fel yn perthyn i Swydd Caerlleon, ac a elwid *Englefield:* yr oedd yn ffurfio rhan o'r dosparth mawr, a elwid yn y cofnodau Croes Ati, yn gorwedd rhwng afon Dyfrdwy a dyffryn Clwyd; a llawer o leoedd sydd yn gynwysedig ynddynt, y rhai nad yw yn hawdd eu dynodi yn awr. Yr oedd y gyfran wahanedig o'r Sir, ac a elwid y pryd hwnw, Maelor Saesneg, yn amser yr arfesuriad Normanaidd, yn cynwys y cantref a elwir Dudestan, ond yn y *Statutum Walliæ*, a basiwyd yn y ddeuddegfed flwyddyn o deyrnasiad Iorwerth I., a gyhoeddwyd yn perthyn i Sir Fflint; ac yn nheyrnasiad Harri VIII., chwanegwyd terfyn de-ddwyreiniol y prif ran o'r Swydd ato, a ffurfiwyd y cyfan yn gantref presenol Maelor. Yn ychwanegol at Huw Lupus a'i olynwyr yn iarllaeth Caerlleon, yn nheyrnasiad William Rufus, dynodir Norman, a elwid Eustace de Cruer, yn mhlith meddianwyr tiroedd yn y Swydd hon, wedi talu gwarogaeth i'r llywydd hwnw, am ei diriogaethau yn y Wyddgrug, ac Estyn, y lleoedd, wedi hyny, gyda Phenar-lag, a ffurfiai ran o feddianau Robert de Monthault, uchel oruchwyliwr Caerlleon. Yn 1144, gwarchaewyd ar gastell y Wyddgrug, yr hwn a gymerwyd drwy ymosodiad, gan fyddinoedd Owain, tywysog Gwynedd. Cynullodd Harri II., yn 1157, fyddin gref o amryw barthau o Loegr, gyda bwriad i oresgyn Cymru; a chan gyfeirio trwy Gaerlleon, efe a ddaeth rhagddo i Sir Fflint, a gwersyllodd ar forfa Caer, ar derfyn y Ddyfrdwy. Yr oedd darpariadau y tywysog hwn i ymosod ar Gymru, mor eang, fel y gorfodogodd bob dau o'i weision milwraidd, i barotai un milwr i adgyfnerthu ei fyddin. Ond nid oedd Owain, tywysog Gwynedd yntau, yn ol am ei wroldeb i gyfarfod yr amgylchiad; daeth yn mlaen hyd ymylon ei derfynau, a gwersyllodd yn y Maes Glas, yn agos i Dreffynon, i ddisgwyl dynesiad y Saeson. Yr oedd Harri wedi gobeithio y byddai i Owain ryfygu brwydr, a danfonodd gorph o'i wyr meirch dewisedig, dan arweiniad ei brif farwniaid, gyda'r bwriad o ddenu y Cymry allan, neu eu hymlid o'u gorsaf. Tra yr oedd y blaid hon yn gweithio ei ffordd drwy le garw a choediog yn Nghoed Ewloe, gerllaw Pen-ar-lag, ymosododd Dafydd a Cynan, meibion Owain arnynt, gyda byddin oedd gerllaw yn llechu, a ddaethant allan o'r goedwig; yr oedd yr ymosodiad annysgwyliadwy, ac anhawsder teithio yn y lle, wedi taro y Saeson â dychryn, fel y ffoisant, gyda cholled fawr, i ymuno a phrif gorph y fyddin. Wedi arswydo gan y perygl, a chywilyddio dan y gwarth, gwasgarodd Harri ei wersyll, a ffoisant gyda glanau y Ddyfrdwy i dref y Fflint; gan obeithio llwyddo trwy gais arall, a gadael y Cymry ar y dde, a thori y cysylltiad rhyngddynt â chanol y wlad; ond wrth fyned drwy le cyfyng a hirfaith yn Consyllt, neu Nant y Fflint, cyfarfyddwyd hwy gan Owain. Goddefwyd i'r Saeson ddyfod can belled yn mlaen i'r fynedfa, ag y gwneid eu symudiad yn mlaen, neu eu henciliad yn ol, yn anhawdd, dan yr ymosodiad, pan y rhuthrodd y Cymry arnynt o'r coed, gan ymosod arnynt, gyda meini, a saethau, a phob arfau a feddent, fel y taflwyd y fyddin Saesnig i hollol ddyryswch, er eu

Digitized by Google

holl arfogaeth; bu raid i Harri ei hun ffoi, tra y lladdwyd Eustace Fitz-John, a Robert de Courcy, a nifer mawr o'r prif foneddion, yn y lle. Trodd ychydig o'r rhai oedd ar y blaen, ag a allasant ffoi, eu gwyneb yn union at brif gorph y fyddin, y rhai oeddynt erbyn hyn yn cyrhaedd y fynedfa i'r nant; pan y rhoddwyd allan gam-air am farwolaeth y brenhin; ac y dychrynodd Iarll Essex, prif fanerwr Lloegr, fel y gwaeddodd allan, "y mae y brenhin wedi ei ladd." Gwnaeth y Cymry ymosodiad ofnadwy arnynt; ond darfu iddynt hwythau ymgalonogi cilwaith, wedi deall y gwirionedd, nad oedd y brenhin wedi ei ladd; i'w sicrhau o'r hyn y bu raid iddo godi ei fiswrn, fel y gwelent ei wyneb, er ei adnabod; ac yn yr adgyffroad hwn, gyrasant y Cymry yn ol i'r coed. Gwedi y gwrthwynebiad hwn, ciliodd Owain i ddiogelfa yn agos i Lanelwy, ac a elwir eto, oddiwrth yr amgylchiad hwn, "Cil Owain;" ac ar ddynesiad Brenhin Lloegr, ciliodd Owain yn mhellach i ddiogelfa yn Bryn-y-pin, tua phum milltir yn ogleddol i Lanelwy. Wedi hyn, aeth Harri i Ruddlan, yn ddiwrthwynebiad, ac a gadarnhaodd y castell yno, ac yn y Maes Glas; ac yn y lle olaf, efe a adeiladodd dy i'w farwniaid milwrol, o drefniant newydd, a gwersyllfa ychwanegol yn Nghymru; ac i sicrhau ei fuddygoliaethau yn mhellach, efe a dorodd y coedwigoedd i lawr, ac a agorodd ffyrdd newyddion yn y cymydogaethau. Eto, yr oedd Owain yn fynych yn ymosod ar ei elynion yn annysgwyliadwy; ond o'r diwedd gorfu arno ddyfod i amodau, ac ymostwng i dalu gwarogaeth i frenhin Lloegr, a rhoddi i fynu y cestyll yn Nghymru a feddienid o'r blaen gan y Saeson.

Yn mhen ychydig o flynyddoedd wedi hyn, ymunodd holl dywysogion Cymry mewn cyngrair, am adfeddianu eu hannibyniaeth gyntefig; ac un o'u hymosodiadau cyntaf, a fu dan arweiniad Dafydd, mab Owain Gwynedd, ar ranau o'r Sir hon, lle y gwnaeth y cadfridog hwnw ddifrodau mawrion, gan gludo ymaith wartheg, a thrigolion Dyffryn Clwyd. Y brenhin Seisnig, yr hwn oedd yn absenol ar y pryd yn Normandy, ar ei ddychweliad yn 1165, a ddaeth rhagddo i'r Swydd hon, gyda byddin o wyr meirch oedd wedi ei chodi gyda bwriad i ddarostwng Rhys ab Gryffydd, Tywysog y Deheubarth; ac i amddiffyn castell Rhuddlan, yr hwn yr ofnai iddo gael ei warchae gan y Cymry; ond wedi iddynt hwy encilio, nid arhosodd y brenhin ond ychydig ddyddiau, i gadarnhau y wersyllfa; a dychwelodd yn ol i Loegr, i ddarparu ar gyfer ymosodiadau pellach. Yn 1166, cymerodd Tywysog Gwynedd gastell y Maes Glas, a dinystriodd ef. Yn 1210, gwnaeth Iarll Caerlleon ymgyrch i Ogledd Cymru; a darfu i dywysog y wlad hon, fel ad-daliad, wneyd ymgyrch ddistrywiol gyffelyb drwy diriogaethau yr iarll, gan ddwyn oddiyno ysbail fawr. Wedi cael ei gyffroi drwy hyn, cynullodd y brenhin John fyddin luosog yn Nghroesoswallt, ac wedi cael ei gefnogi gan amryw o'r penaethiaid Cymreig, daeth ei filwyr rhagddynt i Gaerlleon, gyda llawn fwriad i ymlid ymaith drigolion Gwynedd; cychwynodd y fyddin Seisnig, o Gaerlleon gyda glanau y Ddyfrdwy, a mor y Werydd i Ruddlan, ac oddi yno yn mlaen hyd at Eryri; ond cyn pen ychydig amser, wedi cyfarfod y byddinoedd Cymreig, bu raid iddynt wneyd enciliad, mewn gwarth. Bu Sir Fflint, amryw weithiau wedi hyn, yn faes i ymosodiadau ac enciliadau. Tua'r flwyddyn 1260, cymerwyd castell Dyserth oddiar y Saeson, a dinystriwyd ef gan Llewelyn, Tywsog Gwynedd; fel y gwnaed a chastell y Wyddgrug yn fuan wedi hyny, gan Gryffydd ab Gwenwynwyn. Yn 1277, pan y daeth Iorwerth I., gyda byddin gref i lwyr ddarostwng y dywysogaeth, efe a wersyllodd gyda ei fyddin ar forfa Caer, fel y crybwyllir dan yr erthygl "FFLINT." Wedi i Llewelyn tywysog Gwynedd, a'i frawd Dafydd ymheddychu, ymunasant mewn cyngrair i godi gwrthwynebiad i ormes y Saeson; a dechreuodd Dafydd trwy ymosod yn annysgwyliadwy ar gastell Pen-ar-lag, ar nos Sabbath dywyll ac ystormus yn 1282. Wedi yr ymgyrch lwyddianus hon, unodd y brodyr eu byddinoedd, a rhuthrasant ar gestyll Fflint, a Rhuddlan, yr unig amddiffynfeydd yn y dywysogaeth oedd y pryd hwnw yn meddiant y Saeson, ac a lwyddasant i gymeryd y cyntaf; ac ystyrid hyn gan y Cymry yn mhob man, fel arwydd am wrthryfel. Pa fodd bynag, daeth Iorwerth i Gaerlleon, gyda byddin gref; ac wedi aros am bythefnos yn y ddinas honno, i orphwyso ei fyddinoedd, dechreuodd ar ei ymosodiadau tua chanol Mehefin, 1282, drwy ruthro ar gastell Caergwrle, yr hwn oedd wedi bod er ys peth amser yn meddiant Dafydd, ond a roddodd i fynu o'r braidd yn ddioed i'r llywydd Seisnig, ac ar ei ddyfodiad yn nes yn mlaen, rhoddodd y tywysogion Cymreig i fynu y gwarchaead ar gastell Rhuddlan, ac enciliasant yn araf tu a'r Eryri. Drwy gymeryd gafael ar gyfleusdra manteisiol, gyrodd Llewelyn gyfran o'r fyddin Seisnig ar ffo, gan gymeryd pedair-ar-ddeg o'u banerau yn yr ymdrech, yn mha un y lladdwyd Arglwyddi Audley, a Clifford, ac amryw o foneddion eraill, a bu raid i'r brenhin ei hun, encilio i gastell Caergwrle am ddiogelwch, yr hwn yr oedd newydd ei enill. Yn nghanol mis Gorphenaf, yr ydym yn cael fod Iorwerth yn anfon ei orchymynion o Ruddlan; ac yn y Tachwedd canlynol, aeth yn mlaen i Aberconwy. Yn nheyrnasiad Harri III., wedi i John Le Scot, Iarll Caerlleon, farw heb fab, aeth yr iarllaeth honno, i'r hon y perthynai tiriogaeth Fflint, yn eiddo Simon de Montfort, trwy roddiad y brenhin, a chyd-etifeddesau John Le Scot a gawsant diroedd eraill mewn cyfnewid; ar farwolaeth Montfort yn 1265, unwyd yr iarllaeth â choron Lloegr. Yn rhai o'r teyrnasiadau dylynol, y mae mab hynaf y brenhin ar ei dderchafiad yn Dywysog Cymru, wedi derbyn hawl o iarllaeth Caerlleon, yn cynwys Sir Fflint; ac yn y rhoddiad hwn y mae y canlynol yn gynwysedig; "gyda yr iarllaeth, yr holl diroedd, sef cestyll Caerlleon, Beeston, Rhuddlan, Fflint, ac Estyn, ac hefyd maenorau Estyn, Hopedale, a Forsham, gyda chantref a thiroedd Englefield; gyda yr etifeddiaethau eraill, yn siroedd Caerlleon, Fflint, a manau eraill, yn perthyn i'r iarllaeth, a breintiau prif-eglwys Llanelwy yn Nghymru, gyda yr holl elw oddiwrth esgobaethau Caerlleon a Llanelwy, gyda yr holl fuddiant, mantais, braint, elw, enill, a chyfleusderau, gyda'r holl hawliau eraill a berthynent i'r gyfryw iarllaeth." Yn ol darpariad y *Statutum Walliæ*, yr oedd Fflint i fod ar wahan, mewn rhai brawdwriaethau, oddiwrth Gaerlleon, er nad oedd i gael ei chwbl ddadgysylltu oddiwrthi. Yn y weithred hon yr ydym yn cael y crybwylliad cyntaf am siryfion Fflint, ac o'r dyddiad hwn, yn yr ystyr briodol, yr ydym yn cael dechreuad Swydd neu Sir Fflint. Yn yr wrthryfel fawr dan Owain Glyndwr, yn nheyrnasiad Harri IV., darfu i nifer o wyr y

Digitized by Google

Sir hon, gymeryd i fynu arfau o blaid eu cydwladwr dewr, ond ar ei derfyniad, ni ymwelwyd â hwy mewn unrhyw ddialedd. Yn ysdod y rhyfel cartrefol yn yr ail canrif ar bymtheg, bu y wlad hon amryw weithiau, yn ddrychfa o gryn dywallt gwaed. Ymosodwyd ar gastell Pen-ar-lag gan wŷr y senedd, tua dechreuad y cythrwfl; ond yn 1643, ymosodwyd arno a chymerwyd ef gan blaid fechan o'r breiniolwyr, dan yr Is-fllwriad Marrow, wedi ei anfon o'r Iwerddon gan Dug Ormonde, yr hwn a laniasai yn agos i Mostyn. Yn y flwyddyn hon hefyd, gwarchaewyd ar y castell gan wyr y senedd, dan Syr William Brereton, a Syr Thomas Middleton, i'r rhai y rhoddwyd ef i fynu ar y diwedd.

Y mae prif ran y Swydd, yn arddangos arwynebedd o olygfa amrywiaethol iawn, er nad yw yn meddu ar y gwylltineb rhamantus sydd yn nodweddu rhai parthau o'r dywysogaeth, lle y mae y mynyddoedd yn uwch eu cribau. Y mae rhai o'i bryniau yn meddu llethrau serth, ond yn gyffredin, y maent yn disgyn yn raddol i ddyffrynoedd ffrwythlon, sydd yn cael eu dyfrhau gan ffrydiau iachusol. Ar lanau y Ddyfrdwy, y mae y wlad yn arddangos tiroedd cynnyrchiol at ŷd, a phorfa; yn lledu am o dair i bedair milltir. Tu draw i'r llain ffrwythlon hon, ar gyfer Llaneurgain, y rhed cadwyn o fynyddau cribog, a'u penau yn llymion, eto yn cynwys mwnau cyfoethog iawn; y mae y parth gogledd orllewinol yn wastadedd eang, manteisiol at gynnyrchion amaethyddol. Ar yr ochr ddwyreiniol i ddyffryn cyfoethog y Clwyd, y mae mynyddau uchel yn ymgodi, ac y mae rhai o honynt, megis Moel Arthur, Moel Fenlli, a Moel Fammau, yn weledig o bellder maith. Y mae y gadwyn hon yn dechreu yn Dyserth, ac yn ymestyn trwy blwyfau y Cwm, Tremeirchion, Bodfari, ac Ysgeifiog, ac yn mlaen hyd ddyffryn Nannerch, nes cyrhaedd i Sir Ddinbych. Nid oes dim arbenig i'w gofnodi mewn cysylltiad a chymeriad y cymydogaethau hyn, yn gwahaniaethu oddiwrth y cyffredinolrwydd o'r wlad. Yn y cymydogaethau mwnyddol, nid yw anturiaethau amaethyddiaeth yn cael dyfod nemawr i'r golwg; eto y mae amryw barthau o'r wlad mewn cyflwr uchel o ammaethiad. Y mae yr amrywiol fathau o rawn, mewn ceirch, haidd, a gwenith yn cael eu meithrin yma; y mae yr olaf yn hynod o ffrwythlon yn nosparth arforawl Prestatyn, a'r terfynau. Y mae parthau dwyreiniol y Sir yn cael eu neillduo at borfaoedd, lle y mae caws a'r ymenyn yn rhagorol, ac yn enwedig ar derfynau y Ddyfrdwy. Nid yw y wlad ychwaith yn ol am ei magwraeth o anifeiliaid, mewn meirch, gwartheg, a phraidd. Y mae nifer o goed a phlanwyddfeydd o fewn y terfynau, a rhai prenau o dyfiant ardderchog, y rhai a ganfyddir mewn cyflawnder tua Bodryddan, Mostyn, Dwning, a mannau eraill. Y mae cryn orchestion wedi eu gwneud yn y Sir hon drwy wasgu ar derfynau y mor, Cafwyd amryw weithredoedd seneddol i gefnogi yr amcan. Y mae ar derfynau Fflint, a Threffynon, bymtheg cant neu ddwy fil o erwau o dir, gerllaw ymarllwysiad y Ddyfrdwy, eto heb ei gau i mewn. Gwnaed y gorchestion penaf yn y ffordd hon tua morfa Saltney, dan weithred seneddol 1770, pan y diogelwyd dwy fil a dau cant o erwau o dir; yn Estyn, tair mil a phum cant yn 1791; yn y Wyddgrug, pedair mil yn 1792; yn Nghilcen, dwy fil a phedwar cant yn 1793; ac yn Ysgeifiog, Nannerch, a Rhydwen, tua thair mil a haner. Yn mhlwyf Llanasa, drwy weithred 1811, diogelwyd un cant ar bymtheg o erwau o dir da; deuddeng cant o'r hyn a ddirwasgwyd oddiar y mor, drwy godi gwarchglawdd gyda'r draul o 4000*p.*, gan y rhyddfeddianwyr, yr hyn sydd wedi cyfoethogi y terfynau yn fawr. Y mae cynnyrchion mwnyddol y wlad yn amrywiaethol a gwerthfawr, ac yn gynwysedig o wahanol feteloedd, ond yn arbenig mewn glo, plwm, a meini priodol at adeiladau:—

"Gwely Flint yw glo a phlwm,
A main celyd mewn cwlwm."

Bernir fod y swydd hon yn cynnyrchu mwy o blwm na holl barthau eraill y dywysogaeth yn nghyd; y mae yn cael ei gyfoethogi yn fawr drwy y gyfran o arian sydd ynddo; yn rhedeg ar gyfartaledd o ddeg wns, i un-ar-bymtheg, yn y dunell. Y mwnau mwyaf cynnyrchiol a gyfrifir tua Llaneurgain, Cilcen, a Wyddgrug, a Threffynon. Y mae gwaith y Dalar Goch, gerllaw Dyserth, yn enwog am ei oludoedd o blwm, a zinc. Y mae gweithiau Llyn y Pandy, yn agos i'r Wyddgrug yn eang. Cafwyd llawer o dunellau o blwm yn agos i olion hen doddai boreuol y Cymry, o fewn y terfynau. Y mae cerig calch o'r fath oreu yn cael eu cloddio mewn cyflawnder yn y cymydogaethau. Y mae y *Petroleum*, neu yr olew mwnyddol, i'w ganfod yn fynych rhwng haenau y galchen, a elwid gan y brodorion gwledig, "ymenyn y tylwyth teg." Cymerwyd cyfran eang o'r dosparthau mwnyddol i feddiant personol, oddiar y llywodraeth, yn amser Siarl I., gan Sir Richard Grosvenor, yr hwn a gafodd hawl ar yr holl fwnau yn nghantrefi Consyllt a Rhuddlan. Er fod mynydd eang Llaneurgain yn dir cyffredin, eto y mae y trysorau mwnyddol yn eiddo Ardalydd Westminster, yn ol y trefniant yn amser Siarl, fel olynydd Sir Richard. Y mae nifer mawr o boblogaeth y wlad yn cael eu cynhaliaeth mewn cysylltiad a'r gweithydd perthynol i'r mwnau. Y mae y melinau a'r gweithfeydd a weithir gan y ffrwd a red o ffynon Treffynon, yn lluosog; ac y mae gorchwylion a geir mewn gwaith pres, ac efydd, a drefnir yn ddalenau i wisgo y llongau, ac a allforir i wahanol barthau y byd, yn cyfoethogi y cymydogaethau hyny i raddau helaeth iawn. Bu yma weithydd Cotwm ar gynllun eang iawn, ac yn rhoddi bywioliaeth i nifer mawr o ddwylaw. Y mae gwaith llestri priddion yn rhoddi gwasanaeth i nifer mawr o'r boblogaeth, gerllaw Coed Ewloe, y rhai a anfonir i wahanol farchnadoedd y deyrnas, gyda rhwyddineb mawr ar y rheilffordd, neu ynte gyda y llongau, gan fod y porthladdoedd mor gyfleus.

Prif afonydd y Swydd hon ydynt, y Ddyfrdwy, y Clwyd, a'r Alun. Y mae y Ddyfrdwy yn dyfod i gyffyrddiad a'r wlad yn ei dylifiad at y gogledd, o derfynau dwyreiniol Sir Ddinbych; wedi gadael Caerlleon, y mae yn cyrhaedd prif ran y wlad, ac yn rhedeg drwy wastadedd morfa, ac yn ymarllwys i'r mor gerllaw Mostyn. Y mae y Clwyd yn gwneud ei mynediad i'r Sir yn agos i Bodfari, ac yn treiglo yn mlaen, gan gyfarfod â llifeiriant nerthol yr Elwy, o dan yr hen dref esgobol a gymer ei henw oddiwrthi, a chan barhau yn ei chyfeiriad gogleddol, heibio i Ruddlan, yn ymarllwys i'r eigion yn y Foryd. Y mae yr afon yn fordwyol can uched a Rhuddlan, ac yr oedd yno borthladd o bwys yn yr amser gynt; ond o lai defnyddioldeb yn awr, wedi croesi yr afon gan bont y Rheilffordd. Y mae y brif-ffordd wedi

Digitized by Google

colli yr enwogrwydd a feddai gynt, yn amser y teithio gyda y cerbydau. Y mae y wlad yn orlawn o olion hynafiaethol. Darganfyddwyd nifer o fathodau ac offerynau Rhufeinig yn ardaloedd Fflint, Caergwrle, Caerwys, a Threffynon. Ar y bryn a elwir y Gareg, gerllaw Whitford y mae adeilad crwn a dybir ei fod yn Oleudy Rhufeinig. Mewn maes gerllaw Caerwys, yn oedd maen, a cherfiad Lladin arno, a symudwyd i erddi Dwning. Yn mhlwyf Whitford, y mae cofgolofn o hynodrwydd mawr, wedi ei gerfio yn gelfyddgar, a elwir "Maen Achwynfan;" a cherllaw iddo y mae nifer o olion yr hen orseddau. Y mae y nifer fwyaf o'r gwrthddrychau wedi cael cyfeirio atynt yn yr erthyglau ar y gwahanol leoedd, fel na byddai eu hadgoffa yma yn ddim amgen na thra-mynychiad. Y mae o fewn y terfynau, adeiladau o gryn hynodrwydd, megis y *Cistercian abbey*, yn Basingwerk; ty y Monachod duon yn Rhuddlan; ac olion yr hen fonachlog yn Mangor Iscoed. Y mae yr adeilad ar Ffynon Treffynon yn hynod. Y mae gweddillion yr hen gestyll, yn Nghaergwrle, Dyserth, Ewloe, Fflint, Pen-ar-lag, a Rhuddlan, yn hawlio eu lle yn y rhestr. Y mae y palasau henafol a diweddar yn deilwng o'u cofnodi; megis Bodruddan, Golden Grove, Mostyn, Nercwys Hall, Pentre Hobyn, Plas Teg, a'r Rhuallt. Ac yn mysg y rhai diweddar, neu rai wedi eu hail-adeiladu, neu eu hadgyweirio, gellid cyfeirio at Bodelwyddan, Bronwylfa, Brynbella, Bryn y Pys; Cefn, Dwning, Emral, Gredington, Gwernhauled, Gyrn, Castell Helygain, Hanmer Hall, Hawarden Castle, Coed llai Pengwern, Talacre, a nifer eraill. Y mae y palasau hyn wedi eu hadeiladu o gerig-nadd y Sir hon, y rhai ydynt o'r fath oreu, o ran harddwch a pharhad. Y mae tuag ugain mil o erwau o'r tir wedi ei gymhwyso i gynnyrchu yd, a thros gan mil at borfa, a'r gweddill i'w ystyried o'r braidd fel tir diffrwyth, yn enwedig yn nghymydogaethau y mwnau. Y mae y Swydd yn cynwys tri ar hugain o blwyfydd, a rhanau o ddeuddeg eraill; ac yn cael ei rhanu i bump o gantrefi, sef Prestatyn, Rhuddlan, Cwnsyllt, Wyddgrug, a Maelor. Dywedir am Maelor Saesneg, a Maelor Gymraeg, ar y terfyn rhwng Cymru a Lloegr, ei fod yn cael ei ystyried bob amser yn ysdod y rhyfeloedd gynt, fel tir canolog, wedi ei neillduo at "*faelu*," rhwng y gwahanol bleidiau, mewn ciddo angenrheidiol er cynhaliaeth i'r byddinoedd, yn gystal ag i'r wlad. Y mae y Sir tuag at ddybenion Cofrestraeth, yn cymeryd i mewn un plwyf o Sir Ddinbych; ac yn rhoddi ymaith naw o blwyfydd, a chwech o leiniau eraill, i Ddinbych; un plwyf a threfgordd i Sir Gaerlleon; dau blwyf a dau gapeloriaeth i'r Amwythig. Y prif drefydd ydynt, Llanelwy, Fflint, Wyddgrug, Treffynon, Caergwrle, Caerwys, Overton, a Rhuddlan. Y mae y Swydd yn cael ei llywodraethu gan arlywydd, is-lywydd, a thua phump ar hugain o ynadon; ac y mae o fewn cylchdaith farnol Gogledd Cymru; a'r Dosparth Milwrol gogledd-orllewinol. Cynhelir y llysoedd barn, yn y Wyddgrug, ac y mae y carchar yn Fflint. Yr oedd nifer yr hedd-geidwaid yn 1862, yn bedwar dros fwrdeisdref Fflint, a phymtheg ar hugain am y gweddill o'r wlad. Nifer y troseddwyr a gymerwyd i fynu oeddynt, pedwar yn nhref Fflint, ac un ar ddeg a deugain yn y gweddill o'r wlad. Y mae y bwrdeisdrefi yn anfon un aelod i'r senedd, ac y mae y Sir yn anfon un. Yn 1868, yr oedd nifer yr etholwyr, yn ddwy fil, naw cant, a deunaw a phedwar ugain. Y mae y Sir oll, o fewn esgobaeth ac arch-ddeonaeth Llanelwy. Y mae Cymro yn esgob yma ar hyn o bryd, sef y Parch. Dr. Hughes, yr hwn a ddercha fwyd yma yn ddiweddar o berigloriaeth Llanymddyfri yn Sir Gaerfyrddin. Y mae gan y pedwar enwad ymneillduol gapeli ac eglwysi yn mhob parth o'r wlad, sef y Trefnyddion Calfinaidd, y Wesleyaid, yr Annibynwyr, a'r Bedyddwyr; ac y mae yma rai addoldai, a choleg yn perthyn i eglwys Rhufain. Yr oedd nifer y boblogaeth yn 1801, yn 39,469; yn 1821, yn 58,893; yn 1841, yn 66,919; ac yn 1861, yn 69,737. Nifer y tai annedd y pryd hwnw oedd 15,113; a thai gweigion 801. Un o'r gwrthddrychau hynotaf o fewn y terfynau, ydyw Ffynon Gwenfrewi, mewn cysylltiad a pha un, y mae llawer o ddychymygion a chwedlau ofergoelus, yn cael eu cynal hyd y dydd hwn. Wrth odreu bryn, ar yr hwn y saif tref, sydd yn cymeryd ei henw oddiwrth y ffynon, y mae y ffrwd grefaf yn y wlad yn cyfodi, ac yn bwrlymu i fynu chwech ugain tunell o ddwfr bob mynud: y mae ei nerth yn anwrthwynebol, ac y mae yn rhedeg i waered i gyfarfod arllwysiad y Ddyfrdwy i'r mor, mewn pellder o un filltir, a dau cant a phedair ar ddeg ar hugain o latheni, wedi troi olwynion un ar ddeg o felinau mawrion ar y ffordd. Yr oedd effeithiau iachusol y dwfr hwn, dan ddylanwad ofergoeledd yr amserau gynt, yn denu yma lawer ar bererindodau am iachad; ac y mae y chwedl ramantus am iachad gwyrthiol yr hen santes Gwenfrewi, ar draddodiad y werin hyd y pryd hwn. Y mae dwy o ffrydiau o gymeriad halenaidd, yn codi ar lanau yr Alun, ar dir Rhyd-din, gerllaw Caergwrle, o rinweddau iachusol iawn er gwellhau amryw anhwylderau. Yr oedd arferiad y cymydogaethau ar derfynau Rhuddlan, hyd o fewn amser sydd eto ar gof, i'r gweithwyr yn amser y cynhauaf, ymgynull yno i gyfarfod yr amaethwyr, ar fore Sabbath, i gyflogi am yr wythnos ganlynol; ac yr oedd y cyflogau a benodid yno, i reoli trefn y cyflogiad, drwy y cyfan o derfynau cantrefi Rhuddlan a Phrestatyn. Y mae yr arferiad erbyn hyn, wedi ei symud, o fore Sabbath i fore Llun; ac y mae y wlad, ar y cyfan, yn dra phrydferth yn ei moesgarwch a'i threfn.

**FFLINT**, sydd dref, capeloriaeth plwyfol, cyfran o ddosparth yn Undeb Treffynon, cwmwd Cwnsyllt, cantref Tegeingl, yn Swydd Fflint, Gogledd Cymru. Y mae y dref yn sefyll gerllaw Cyfyngfor y Ddyfrdwy ar gyfer Park-gate, ac ar reilffordd Caerlleon a Chaergybi, o fewn 12¼ milltir, gogledd orllewin, i Gaerlleon. Barna rhai hynafiaethwyr ei bod yn sefyll ar y lle a feddienid unwaith gan orsaf Rufeinig, neu o leiaf, yn agos i fan a fu yn amddiffynfa, mewn rhyw adeg foreuol; pa fodd bynag, y mae yn dyfod i sylw cyhoeddus mewn cofnodau hanesyddol, am y waith gyntaf, mewn cysylltiad â chastell y dechreuwyd ei adeiladu gan Harri II., ac a orphenwyd gan Iorwerth I.; dychymyga rhai iddi gael yr enw oddiwrth wneuthuriad gwydr callestraidd yn y lle; neu ynte oddiwrth graig ag sydd yn cynwys y defnydd hwnw mewn cyflawnder, yn y gymydogaeth. Y mae eraill yn barnu i'r Sir, a'r Dref, gymeryd eu henw ar ol y Castell, sef, "*Castellum super Fluentum*," h. y. "Y castell ger y lli." Canys yn yr hen amser nid oedd y rhan fwyaf o'r Sir hon, namyn Cantref, sef "Cantref Croes Ati," yn perthyn i Sir Gaerlleon, ac yn cyr-

Digitized by Google

haeddyd o Gaer, i Afon Glwyd.[1] Y mae yn rhoddi enw i'r Sir, ac yr oedd ar y cyntaf yn brif dref y Swydd, er fod y Wyddgrug wedi cymeryd ei lle yn awr, fel man cynhaliad y llysoedd gwladol; ond nid yw yn meddianu ar unrhyw ragoriaethau ar hyn o bryd. Y mae yn cael ei ffurfio gan mwyaf, o ddwy heol, a'r aneddau wedi eu hadeiladu yn afreolaidd; eto, y mae yn parhau i fod yn lle etholiad aelod seneddol, a chynhaliad yr is frawdlys, ac yn is-borthladd perthynol i Gaerlleon; ac y mae yn brif lythyrfa y gymydogaeth, a chanddi orsaf rheilffordd, treflys, eglwys, pump o gapeli Ymneillduol, ysgol genedlaethol, carchar, elusendy, a chastell hynafiaethol. Y mae y llys-dy yn adeilad diweddar, ar gynllun teg, ond heb fod yn gwbl orphenol. Adeiladwyd y carchar yn 1785, ac y mae yn cynwys un-ar-bymtheg o gelloedd, chwech o ystafellau, a chwech o gynteddau agored. Adeiladwyd yr eglwys yn 1848, ar y lle y safai yr hen adeilad flaenorol, ac y mae o gynlluniad priodol, a thwr hardd. Y mae y castell yn sefyll ar graig isel, yn cael golchi ei godreu gan yr afon Dyfrdwy; ac yr oedd ar y cyntaf yn cael ei gysylltu a'r dref drwy grog-bont. Barna amryw fod yr hen amddiffynfa gyntaf yma yn eang iawn, ond y mae yn lled anhawdd dyfalu pa un ai Rhufeinig, ai Brytanaidd ydoedd. Darganfyddwyd amryw fathodau Rhufeinaidd yma; a thybir fod y lle yn fath o wersyllfa diogelwch, yn gystal ag yn borthladd i allforio y mwnau a gloddid yn y cymydogaethau hyn. Barna Pennant fod y lle yn dal cysylltiad a'r man a ddynodir yn yr Arfesuriad Normanaidd, fel "*tenementum de Coleselt*," oedd yn ffurfio rhan o feddianau Robert de Rhuddlan, yr hwn a ddelid gan un Edwin, o dano, yr hwn oedd ddeiliad rhydd, gyda'r lle a grybwyllir yn mysg y rhoddion a enwir yn mreint-len Dafydd ab Llewelyn, a berthynent i abad-dy Basingwerk, dan y darnodiad, "*Capella de Colsul.*" Y mae Fflint a'r terfynau wedi bod yn wrthddrychau o hynodrwydd hanesyddol. Yn y rhaniad a wnaeth Rhodri Mawr, llywydd Cymru oll, o'i diriogaethau i'w dri mab, darparwyd, os byddai i unrhyw ymrafael godi rhwng tywysogion Gwynedd a Phowys, fod y pleidiau i ymgyfarfod yn Morfa Rhianedd, ar geulanau y Dyfrdwy, yn agos i'r lle y mae tref Fflint yn awr; lle yr oedd tywysog y Deheubarth i benderfynu y ddadl. Ranulph, Iarll Caerlleon, a oresgynodd Ogledd Cymru, yn 1150, ond efe a gyfarfyddwyd yn Cwnsyllt, neu *Coleshill*, ar ochr orllewinol y dref hon, gan Owain Gwynedd, tywysog Gogledd Cymru, yr hwn a orchfygodd ei fyddinoedd gyda lladdfa fawr, fel na ddiangodd ond ychydig yn fyw, sef y carcharorion, a rhai o'r blaenoriaid, y rhai a ffoisant, ac a achubasant eu hunain trwy gyflymder eu meirch. Ar oresgyniad Gwynedd gan Harri II., yn 1157, wedi i fyddin o'i wyr meirch gael eu gorchfygu yn Nghoed Ewloe, gerllaw Pen-ar-lag, daeth y penadur hwn yn mlaen gyda ei fyddin, ger glanau y Dyfrdwy, hyd i dref Fflint, ac ychydig rhagddo, hyd yn ymyl y fan lle y gorchfygasid Iarll Caerlleon, gan Owain Gwynedd; a derbyniodd yntau wrthdarawiad effeithiol gan alluoedd y tywysog hwn. Y mae Giraldus Cambrensis, yn ei hanes o'i ymdaith gyd ag Archesgob Baldwin trwy Gymru, yn crybwyll eu bod yn gorphwys un noswaith yn *Coleshulle*, neu "fryn y glo," a diau mai yr un lle ydoedd ag a nodai yr hynafiaethydd enwog, a grybwyllwyd uchod, fel tref Fflint. Y mae llawer o dybiau yn nghylch yr amser yr adeiladwyd y castell gyntaf, yr hwn sydd yn meddianu lle cyhoeddus iawn yn yr hanesion Cymreig, o'r drydedd ganrif ar ddeg hyd derfyniad y rhyfeloedd cartrefol. Y mae Camden, yr hwn a ddilynir gan Arglwydd Littelton, yn haeru ei fod wedi ei ddechreu gan Harri II., fel y crybwyllwyd eisoes, a'i orphen gan Iorwerth I. Tybia Leland mai yr olaf a'i sylfaenodd gyntaf, yn 1275, a hyny tra yr oedd efe yn gwersyllu ar forfa Caer, gan ei wneud yn fath o ddiogelfa, mewn cysylltiad â chastell Rhuddlan, ar gyfer y gwaethaf. Y mae yn debygol iawn i bob un o'r ddau dywysog hyn wneud defnydd o'r lle, ac i Iorwerth yn neillduol, ei helaethu a'i adgyweirio, yn amser ei lwyddiant, eto os tynu casgliad ar egwyddor tebygolrwydd a wneir, gydag olion y cynlluniau gwreiddiol, tebycach o lawer ydyw, fod yr hen ddiogelfa o ddechreuad Brytanaidd, fel un o leoedd detholedig yr hen gynfrodorion, mewn pwyll ac ystyriaeth, yr hyn a dynai sylw yr estroniaid atynt, er eu hadgyweirio, neu eu helaethu, yn ol galwad yr amseroedd.

Yr oedd trigolion Fflint, yn flaenorol i'r helaethiad ar y castell gan Iorwerth, wedi cael awdurdod i gyhoeddi eu tref yn yn lle marchnad, yn 1277. Rhoddwyd gorchymyn i warchod porth y castell yn 1280, y pryd ag y bernir y bu i'r lle gael ymosod arno am y tro cyntaf. Yn 1282, gwarchaewyd ar yr amddiffynfa hon gan fyddinoedd Llewelyn ab Gryffydd, Tywysog Gwynedd, a'i frawd Dafydd; a hi oedd yr unig wersyllfa heblaw Rhuddlan, y pryd hwnw yn meddiant y Saeson. Yn y flwyddyn ganlynol, gwnaeth Iorwerth y castell yn breswylfa iddo ei hun, a'r dref yn fwrdais rydd; gan awdurdodi y trigolion; trwy freintlen ddyddiedig ar yr wythfed o Fedi, i dori coed i lawr yn ngwigoedd Llaneurgain, Leadbrook, Celstyn, Wolfynton, Wepre, a Sutton, i wneud tanwydd i doddi eu metelau; ac i gymeryd hawl o'r borfa yn y coedwigoedd hyn. Rhoddodd Iorwerth orchymyn yn 1290, ar fod i'r gwaith yn nghestyll Fflint, Rhuddlan, a Chaerlleon, gael eu harolygu yn briodol, gan yr edrychai arnynt fel y fynedfa i'w diriogaeth newydd. Bu Iorwerth II., yn preswylio am beth amser yn y castell hwn, ac yma y croesawodd, gyda llawenydd mawr, ei hen gyfaill deoledig Piers Gaveston, ar ei laniad o Iwerddon yn Nghaernarfon. Ymddengys fod y castell a'r dref, tra yr oeddynt yn meddiant y Saeson, yn cael eu hystyried fel yn perthyn i Iarllaeth Caerlleon, gyda pha un yr oeddynt wedi eu rhoddi gan Iorwerth III., yn y seithfed flwyddyn o'i deyrnasiad, i'w fab Iorwerth, a elwid "Y Tywysog Du," i'r hwn y rhoddodd efe orchymyn, ddwy flynedd wedi hyny, i gymeryd cestyll Fflint a Rhuddlan i'w gadwraeth, a darparu lluniaeth, ac amddiffyniad i'r lle, fel y gwnelid yn nghestyll Beeston a Chaerlleon. Y mae castell Fflint, wedi cael ei resu yn y breintleni, sydd yn gosod mab hynaf pob brenhin yn Lloegr, yn Iarll Caerlleon, fel rhan o'u hawl, er pan y creid hwy yn dywysogion Cymru. Yn ol cofnodiad a wnaed yn y ddegfed a deugain Iorwerth III., ymddengys fod tref Fflint y pryd hwnw, yn dwyn cyllid i Ieirll Caerlleon, o 56*p*., ac o Cwnsyllt 4*p*. 7*s*. 10*c*. Yn 1385, cyflwynwyd y castell gan Richard II., gyda swydd prif ynad Caerlleon, i Robert de Vere, Iarll Rhydychain, ac wedi hyny yn 1399, i Percy, Iarll Northumberland, yr hwn, yn y flwyddyn ganlynol, ar ddychweliad y llywydd annedwydd hwn o'i genhadaeth yn Iwerddon, a'i hud-ddenodd

[1] *Y Gwyliedydd*, llyfr ii. t.d. 211.

Digitized by Google

i'r castell hwn, i'r dyben o'i gyflwyno i ddwylaw y bradwr Bolingbroke, yr hwn wedi hyny a drawsfeddiannodd yr orsedd dan y titl o Harri IV. Wedi ei lithio oddiwrth ei gyfeillion yr Aberconwy, arweiniodd Percy ef i gastell Fflint, dan awdurdod milwyr Bolingbroke, wedi eu cyfarfod ar y ffordd; derbyniwyd yr annedwydd Richard yma, ar y cyntaf, gyda phob arwyddion o barch gan ei wrthwynebydd a'i gyfeillion; y rhai, pa fodd bynag, erbyn dranoeth, a ddechreuasant ei sarhau, ac arweinwyd ef yn garcharor i Gaerlleon. Yn ysdod gwrthryfel y Cymry, dan Owain Glyndwr, yn nheyrnasiad Harri IV., darfu i'r llywydd hwnw warchod castell Fflint yn erbyn trigolion y dref, y rhai oeddynt wedi uno a'u cyd-wladwyr, ac a wnaethant bob ymdrech i gymeryd meddiant o hono. Ond darfu i'r gwarchodwyr wrthwynebu eu hymgais, a chadw meddiant yn y lle, hyd onid aeth y cynwrf drosodd; ar yr hyn y darfu i Harri, tywysog Cymru, lwyddo i gael oddiwrth ei dad, bardwn rhad i fwrdeisiaid Fflint, y rhai oeddynt wedi ymresu dan faner y gwrthryfelwyr. Yn fuan wedi dechreu y rhyfel cartrefol yn amser Siarl I., bu i'r castell gael ei adgyweirio a'i arwylio i'r brenhin, gan Sir Roger Mostyn, Barg., yr hwn oedd wedi codi byddin o bumtheg cant o wyr, a'u harfogi ar ei draul ei hun. Penodwyd Syr Roger yn llywydd y castell, yr hwn yr ymosodwyd arno yn 1643, yn egnïol gan fyddin y senedd, dan Syr William Brereton a Syr Thomas Middleton; gwnaeth y gwersyllwyr amddiffyniad gwrol a pharhaus, nes eu darostwng o eisiau cynaliaeth, i ymborthi ar gig eu meirch; ac wedi i hyn, a phob cymorth arall ddarfod, rhoddasant y lle i fynu ar delerau anrhydeddus. Cymerwyd y castell wedi hyny gan y breiniolwyr, dan arweiniad Syr William Vaughan, yn Medi 1645; ac adgyfnerthwyd y lle yn Tachwedd gan wersyllwyr Beeston; ond ni pharhaodd eu gallu i ddal i fynu yn hir eilwaith yn erbyn gwyr y senedd; canys cymerwyd y lle yn gwbl oll gan y Cadflaenor Mytton yn Awst, 1646, ac yn y flwyddyn ganlynol, darostyngwyd y lle trwy orchymyn y senedd.

Prif weithiau y dref ydynt, tawddwaith y plwm, ac i'r dyben hwn, y mae adeiladau helaeth wedi eu codi, gan George Roskill a'i Gyf. er 1812, lle y mae ffwrnais eang. Toddid tua chwe mil o dunelli o blwm yn flyneddol yma, o'r hyn y tynid allan tua deugain mil o wnsau o arian pur. Y mae yma weithydd eang mewn berwedyddion at ager beirianau; ac y mae gweithydd glo eang iawn yn y gymydogaeth; yn nghyda gwaith alcali mawr. Y mae yma farchnad wythnosol ar y Sadwrn; a Ffeiriau yn cael eu cynal ar y Mawrth cyntaf o Chwefror; 3ydd o Mai; 4ydd o Gorphenaf; ar 3ydd o Dachwedd. Y mae y dref yn cael ei llywodraethu, dan y weithred newydd, gan un maer, pedwar henafydd; a deuddeg o gynghorwyr; ac mewn undeb â Llanelwy, Caergwrle, Caerwys, Treffynon, Wyddgrug, Overton, a Rhuddlan, y mae yn dychwelyd aelod i'r senedd. Y mae terfynau y fwrdeisdref yn ymestyn dros gapeloriaeth Fflint, a threfgordd Consyllt-fawr. Yr oedd y boblogaeth yn 1851 yn 3296; ac yn 1861 yn 3428; gyda 768 o dai. Y mae y gapeloriaeth yn cynwys 1514 o erwau o dir, a 1125 dan ddwfr. Gwir werth y lle yw 8676*p.*, o'r hyn y mae 1015*p.*, mewn mwnau. Tua milltir oddiwrth y dref, safai gynt sail croes, o gryn hynodrwydd; y mae gweddillion yn aros yno eto; gelwir y lle, Croes Ati, a thybir y bu yno dref eang ryw bryd yn foreuol iawn. Nid oes nemmawr o hynodrwydd yn perthynu i'r lle ar hyn o bryd. Darganfyddwyd amryw deganau Rhufeinig yn y gymydogaeth; cafwyd yma fathodion perthynol i Nero, a Vespasian; mewn cyflwr o gadwraeth dda, gyda rhai arfau o gryn gywreindeb. Yn mysg y pethau hynotaf, gellid enwi un addurn gwerthfawr o aur, wedi ei weithio yn gelfyddgar o wyfyr blethedig, wedi ei chyfoethogi â chronellau o aur sylweddol; yr hwn a fernir ydoedd gyfran o gadwyndorch; gan na chafwyd ond rhan o honi; gyda nifer o fodrwyau, allweddau, a darnau o lampau, o wahanol gynlluniau. Saif y dref o fewn dwy filltir o bellder oddiwrth Bagillt; pump o Dreffynon; a chwech oddiwrth y Wyddgrug. Y mae y fywoliaeth yn berigloriaeth yn esgobaeth Llanelwy: Gwerth 311*p.*, yn Nhadogaeth esgob Llanelwy. Y mae yr isddosparthiad yn cynwys plwyfau Helygen a Phen-arlag; ac o eangder 18,145 o erwau; poblogaeth o 8079; ac aneddau yn rhifo 1806.

**FFLUR**, ferch Mygnach Gorr, rhian nodedig, a ladratawyd gan Mwrchan Leidr, brenin Gascony, gyda'r dyben o'i hanfon yn anrheg i Iwl Cæsar, yr hwn oedd ar y pryd yn dwyn yn mlaen ei ryfeloedd yn Gâl. Cynullodd Caswallon ab Beli, fyddin o driugain mil o wŷr, er ei hadenill; a'r ymgyrch hwnw, medd y *Trioedd*, a barodd i Cæsar ymosod ar Ynys Prydain. (*Myf. Arch.* ii. 10, 13, 17, 22, 60, 61, 73, 75.)

**FFORCH-AMMAN**, fel y dengys yr enw, a saif yn ymyl y fan y mae Amman Fach, ac Amman Fawr. yn uno a'u gilydd, yn Nghwm Amman, plwyf ABERDAR, DEHEUDIR CYMRU. Pan gynhyrfwyd anturiaethwyr arianog i chwilio am drysorau cuddiedig yn nghoffrau anian, i lawr yn naiargelloedd dyffryn Aberdar, tua'r flwyddyn 1848, methodd ysbryd anturiaeth fyned heibio Cwm Amman, heb gloddio yn ddwfn i chwilio am yr haenau glo, a mŵn haiarn sydd yn gorwedd dan wadnan y lle hwn.

Wedi pennodi ar y fan, suddwyd yn gyntaf, Lofa Cwm Amman, lle y mae dau bwll, un yn 708 o droedfeddi o ddyfnder, a'r llall yn 712 o droedfeddi; ac y mae y ddau bwll yn cael eu gweithio ar raddfa helaeth, o'r pryd hwnw hyd yn awr. Yn ganlynol i hyn, suddwyd pwll Fforch-Amman, gan James Brown a'i Gyf., a geilw y glowyr y lle wrth yr enw Pwll Brown hyd heddyw, er mai Elliot a'i Gyf., ydynt y perchenogion presenol.

Yn agos i Fforch-Amman, y mae glofeydd ereill, a elwir Glofa Kenway, neu Lofa y Bedwlwyn, Glofa Cwmneol, a Phwll Bevan. Yn nechreu mis Ionawr 1869, cymmerodd ffrwydriad losgnwyol le yn nglofa Fforch-Amman, pryd y lladdwyd tri, ac y niweidiwyd un-ar-ddeg yn dost. Gellir ffurfio barn am eangder y glofeydd hyn, oddiwrth yr ystadegau canlynol, y rhai sydd yn dangos nifer y tunnelli a godwyd o honynt mewn gwahanol flynyddau:—

| Blwyddiad. | 1868. | 1869. | 1870. | |
|---|---|---|---|---|
| Fforch-Amman,..... | 112,015 | 104,342 | 94,294 | tunnell. |
| Cwm-Amman,........ | 70,949 | 79,411 | 78,357 | „ |
| Cwmneol,............ | 72,090 | 62,672 | 62,954 | „ |
| Bedwlwyn,........... | 4,911 | 10,203 | 21,788 | „ |

Mae yn nghymydogaeth Fforch-Amman ugeiniau lawer o aneddau gweithwyr, ac addoldai gyda'r gwahanol enwadau crefyddol, Blwyddiad y rhai sydd fel y canlyn:—Moriah (A) 1855; Soar (T.C.) 1859—Ail adeiladwyd yn 1869; y Trefnyddion Hynafol, heb flwyddiad; Bedyddwyr 1870; Eglwys Haiarn 1869.



Digitized by Google

Mae yn y lle Ddarllenfa hefyd, lle yr ymgynnulla y dosbarth darllengar o'r gweithwyr at eu gilydd yn yr hwyr, i ddarllen y gwahanol Newyddiaduron, &c., ac y mae y sefydliad wedi bod o gryn fudd i lawer-oedd.

**FFRAID,** Santes, yr hon a elwir hefyd St. *Bridget* a St. *Bride*, yn ol *Bonedd y Saint* ydoedd ferch Cadwrthai neu Cadwthlach Wyddel, yr hwn hefyd a elwir Dwyppws ab Cefyth. Dywed y cofnodau Gwyddelig, iddi gael ei geni yn Fochard, yn swydd Louth, tua'r fl. 453, ac mai gordderchferch ydoedd i Dubtach neu Dubtachus, dyn o safle uchel yn y wlad hono. Wedi iddi dyfu i fyny, ni's gellid ei pherswadio mewn un modd i ymgymeryd a bywyd priodasol, eithr hi a dderbyniodd y gorchudd o law St. Mel, dysgybl a nai i St. Padrig. Yn fuan, hi a sefydlodd gymundeb Cristionogol o'r gwyryfon ieuainc a dderbyniasant y gorchudd ar yr un adeg a hi, yr hwn a gynyddodd i'r fath raddau, fel y gorfu iddi adeiladu amryw leiandai yn ngwahanol barthau yr Iwerddon.

Dywed Cressy, iddi yn y flwyddyn y lladdwyd Hengist, sef 488, ddyfod o'r Iwerddon i Brydain, gyda'r amcan o gael rhyw grair perthynol i'w noddwr anwyl ac anrhydeddus St. Padrig; a phan yn Mrydain, iddi dreulio rhai blyneddoedd yn ynys Bekery, yn agos i Ynys Afallon, pan y cysegrwyd Gweddi-dy yno i St. Mair Magdalen; iddi ddychwelyd oddiyno i'r Iwerddon, a chyn pen hir, huno yn yr Arglwydd, a chael ei chladdu yn Ninas Down; ond ei bod wedi gadael yn ynys Bekery, ei hysgrepan, ei chadwen, a'i chloch, yn nghyda gwisgoedd o'i gweuad ei hun, y rhai a ddangosid yno er coffadwriaeth o'i Sancteiddrwydd." Dywed yn mhellach "ei bod yn cael ei choffhau ar y cyntaf o Chwefror: ar ba ddydd yr ydym yn darllen yn *Merthyriaethau Rhufain*, St. Beda, ac Ado, y geiriau hyn, "Heddyw y clodforir Coffadwriaeth St. Bridget Gwyryf, yr hon, er tystiolaeth o'i gwyryfdod, wrth iddi gyffwrdd a Choed Allor, a'u trodd ar unwaith yn wyrdd.'" Bu farw yn ol Usher yn y flwyddyn 502, yn ol eraill, yn 518, a throsa eraill ei marwolaeth i 525. Ymholiad astrus fyddai, pa fodd y daeth y Santes estronol hon mor boblogaidd yn Nghymru; yn nesaf mewn poblogrwydd at Mair, Mihangel, a Dewi, saif St. Ffraid, ac nid oes dim llai na deunaw o eglwysi wedi eu cyflwyno i'w henw, ei nawdd, a'i hachles, sef Dyserth, swydd Fflint; Llansantffraid Glanconwy, a Llansantffraid Glyn Ceiriog, swydd Dinbych; Llansantffraid yn Mechain, swydd Drefaldwyn; Llansantffraid Glyndyfrdwy, swydd Feirionydd; St. Bride, swydd Benfro; Llansantffraid, swydd Aberteifi; Llansantffraid Cwmwd Deuddwr, a Llansantffraid yn Elfael, swydd Faesyfed; Llansantffraid, swydd Frycheiniog; Llansantffraid ar Lai, Llansantffraid ar Ogwy, a St. Bride, swydd Forganwg; Llansantffraid Gwentllwg, Llansantffraid Netherwent, St. Bride, ac Ysgynfraith, swydd Fynwy; heblaw Capel St. Ffraid, yr hwn sydd mewn adfeilion gerllaw Caergybi, ac Abad-dy St. Ffraid, sydd mewn adfeilion gerllaw Llanrhystyd, Ceredigion.

Ni pherthyn i ni yma olrhain y parch a delid iddi mewn parthau eraill o'r Ynysoedd Prydeinig, megys y ffaith bod yr *Hebrides* wedi cael eu henwi oddiwrthi, ac mai oddiwrthi hi y deilliodd y gair Saesneg *bridewell* am gerydd-dy, neu garchar, a'r gair *bride* am briodasferch; yr hyn sydd yn arwyddo nid yn unig bod St. Ffraid yn berson poblogaidd iawn, ond ei bod hefyd yn llanw amrywiol swyddau yn mhlith y Saeson, nid y ddystadlaf o ba rai oedd arolygu serch a phriodas, megys y gwnai Hymen yn mhlith y Groegiaid. Mae yn amlwg hefyd y priodolai y Cymry iddi fedrusrwydd meddygol, canys cawn "Gribau Sant Ffraid," "Llysiau Ffraid," &c. yn cael eu galw ar ei henw. Mae "Cowydd i Sant Ffraid" o waith Iorwerth Fynglwyd, wedi ei ddiogelu yn *History of Aberconwy*, gan Robert Williams, yn yr hwn yr adroddir ei hamrywiol wyrthiau rhyfeddol, ar dir a môr.

**FFRANCIS,** Benjamin, M.A., gweinidog enwog gyda'r Bedyddwyr ydoedd fab i Enoc Ffrancis, gweinidog y Bedyddwyr yn Castell Newydd Emlyn, Ganwyd ef yn Pencelli-fawr, ger Castell Newydd, yn 1734. Teimlodd argraffiadau crefyddol pan yn saith oed, a bedyddiwyd ef ar broffes o'i ffydd pan yn 15eg oed, gan Griffith Davies Abertawe, gyda'r hwn y bu yn aelod am rai blynyddoedd. Derbyniodd ei addysg tan Foskett ac Evans, yn Mrystau, lle hefyd y dechreuodd bregethu yn 1755. Yn 1756, cafodd alwad gan yr eglwys Saesneg yn Sudbury, a bu yno yn pregethu am rai misoedd, ac yna symudodd i Horsley, swydd Gaerloyw, lle y sefydlwyd ef yn y weinidogaeth yn 1758, ac y llafuriodd gyda llwyddiant mawr hyd ei farwolaeth, Rhagfyr 14, 1799. Nid oedd yr eglwys yn Horsley pan aeth efe yno, ond 66 o aelodau, a'r rhai hyny yn wasgaredig dros tua phymtheg o blwyfau; ond efe a fedyddiodd yn ystod ei weinidogaeth, tua 450 o bersonau, ac yr oedd yr eglwys ar ei farwolaeth, yn rhifo 262.

Ond nid oedd ei lafur yn Horsley ond rhan fechan o'i waith; treuliai yr wythnos yn gyffredin, gan gychwyn boreu dydd Llun a dychwelyd prydnawn dydd Gwener, i bregethu gair y bywyd, trwy y lleoedd mwyaf tywyll yn swyddi Caerloyw, Caerwrangon, a Wilts, a dywed ei Gofiant, iddo bregethu tua 4000 o weithiau, tu allan i'w bwlpud ei hun, 150 o ba rai a bregethodd efe yn Nghymru, a 14 yn y Gymanfa. Efe a gyhoeddodd amryw o lyfrau Cymreig a Saesnig, megys, 1, "Aleliwia, neu Hymnau i Addoliad Cyhoeddus," 1774; 2, Ail Ran o'r unrhyw, 1786;—am yr hwn y derbyniodd ddiolchgarwch y Gymanfa yn 1787; 3, "Marwnad ar Farwolaeth y Parch John Thomas, gynt o Faes y Dorglwyd," 1787; 4, "Cân am Fedydd, a achlysurwyd gan Draethawd y Parch. B. Evans dros Daenelliad Babanod," 5, "Iachawdwriaeth," 1793; 6, "De Ultimo Justices—neu Gân ar y Farn Ddiweddaf;" 7, "Cân ar Farwolaeth Mr. William Jones," 1799; 8, "Marwnad Harry John, o Benygarn;" 9. "Gweddill Pabyddiaeth;" 10. "The Conflagration; John the Dipper." 11, "The Oracle." Cyhoeddodd Farwnadau Saesnig hefyd i Whitfield, Day, Dr. Caleb Evans, Williams Aberteifi; Joshua Thomas, Llanllieni; T. Thomas, Aberduar; a Pierce o Birmingham, &c. &c.

Yr oedd Benjamin Ffrancis yn mhob ystyriaeth yn un o ragorolion ei oes, ac yn un o'r gweinidogion goreu a allai flaenori cymdeithas Gristionogol.

**FFRANCIS,** Enoc, tad y Benjamin Ffrancis uchod, ydoedd fab i Ffrancis David Ffrancis, ac a anwyd yn Pantyllaethdy ar lan afon Teifi yn 1688. Dengys Joshua Thomas fod y teulu hwn yn gyfrifol a lluosog yn y parthau hyny, a bod rhai o honynt yn aelodau yn Rhydwilym er y flwyddyn 1688. Dywed hefyd mai un o ddau efell oedd Enoc Ffrancis, ac iddo pan yn blentyn, gael ei achub o'r Teifi pan ar ddarfod am dano. Dechreuodd bregethu yn 19eg

Digitized by Google

oed, mewn lle a elwir Pengwaun, plwyf Llanllwni. Rhoddodd yr Arglwydd iddo ras a dawn annghyffredin, yr hyn a'i gwnaeth yn un o bregethwyr enwocaf ei oes. Nid yw Neal yn yr hanes a adawodd o weinidogion y Bedyddwyr yn Nghymru, yn 1715, yn crybwyll am Enoc Ffrancis a'i gydlafurwr, James James, er eu bod yn adnabyddus yn mhell ac agos. Ond yn 1718, pan dechreuodd gweinidogion Cymru gael ychydig gymorth o Drysorfa Llundain, ymddengys enwau y ddau, yn nghyda Thomas David, Rhosgoch.

Tua'r pryd hwn priododd Enoc Ffrancis ferch dduwiol a rhinweddol, o deulo cyfrifol Blaen Cwm Rymni, perthynol i Hengoed, ac aeth i fyw i Gapel Iago, ger Llanybydder, lle bu yn pregethu yn ei dy ei hun, ac yn y Felindref, ar holl barthau hyny am tua deng mlynedd. Erbyn hyny yr oedd corph yr eglwys yn cyfarfod yn y Castell Newydd, symudodd yntau i fyw ger llaw y dref, a symudwyd y gangen eglwys oedd yn cyfarfod yn ei dy ef, i dy Evan Saunders, Aberduar. Dyna ddechreuad yr eglwys yn Aberduar. Enoc Ffrancis oedd y gweinidog enwocaf yn mhlith Bedyddwyr Cymru yn ei ddydd; canys pan daeth y ddadl Arminaidd i mewn i'r enwad, tua'r flwyddyn 1729, efe oedd y prif ddyn i'w gwrthwynebu. Pregethodd yn Nghymanfa Llangloffan, 1729, oddiar Can. viii. 12, ac anogwyd ef i argraffu y bregeth, yr hyn a wnaeth, yn nghyda phregeth arall oddi ar Esaiah lv., wedi ei throi ar gân. Dyma yr unig bregeth Gymanfaol a argraffwyd yn yr oes hono. Efe oedd cymedrolwr y Gymanfa y flwyddyn ganlynol, yn Hengoed, pan y dywedir, gan mor gynhyrfus oedd y teimladau yn y ddadl Arminaidd, iddo gael digon o waith cadw trefn.

Tra yr oedd y ddadl yn amheithio yr eglwysi, yn enwedig Castellnewydd a Hengoed, cyhoeddodd Enoc Ffrancis lyfryn rhagorol, a elwir "Gair yn ei Bryd," &c., dyddiedig yn Pencelly, Ebrill 18, 1733, yn yr hwn y mae yn ymresymu yn gadarn ac efengylaidd ar y pynciau mewn dadl. Gostegodd yr ystorm yn raddol, trwy i'r rhai mwyaf cynhyrfus ymneillduo o'r cyfundeb. Yr oedd Enoc Ffrancis yn llafurus a llwyddianus anarferol, gartref ac oddi cartref, a'r eglwys yn ymehangu yn rhyfedd gan helaethu ei phebyll, a thori allan ar y dde a'r aswy, hyd oni roddodd angau derfyn ar ei lafur ef yn lled ddisymwth, Chwefror 4, 1739, gan adael chwech o blant bychain, yr ieuangaf o ba rai oedd Benjamin, ar ei ol. Yr oedd ei wraig wedi marw rai misoedd o'i flaen, ac wedi ei chladdu yn mynwent Cilfowyr. Yno gan hyny y claddwyd yntau, gan ei gludo ar elor, ar ysgwyddau am tuag ugain milldir o ffordd, a thrwy ddeg o blwyfydd; ond yr oedd cariad y wlad yn gymaint tuag ato, fel yr oedd ei angladd yn lluosog anarferol; gan hyny cyttunwyd cyn cychwyn, nad oedd neb i roi ei ysgwydd o dan yr elor, ond yn ei blwyf ei hun, a chadwyd y drefn hono, meddir, trwy rai plwyfau; ond torwyd trwyddi cyn diwedd y daith.

Mae careg hardd ar ei fedd, a'r argraff ganlynol arni:—

ENOC FFRANCIS,
Gweinidog Eglwys y Bedyddwyr yn y Castell-Newydd, a'i hamryw Ganghenau,
A orphenodd ei yrfa, trwy lawenydd iddo ei hun, ond tristwch i lawer, y 4ydd o Chwefr. 1739-40, yn 51 oed.
**"Enoc a rodiodd gyd a Duw" (Gen. v. 22.),**

MARY ei Wraig
hefyd a hunodd y 23n o Awst 1739, yn 49 oed.
**"Mair a ddewisodd y rhan dda, yr hon ni ddygir oddiarni" (Luc x. 42).**
A
NATHANIEL eu Mab:
a fu farw yn 1749, yn 18 oed.
**"Wele Israeliad yn wir yn yr hwn nid oes dwyll" (Ioan i. 47).**

# G.

**GABALFA**, treflan yn mhlwyf LLANDAF, Swydd FORGANWG, yn agos i'r afon Tâf, a rheilffordd a dyfr-ffos Dyffryn Tâf; 2 filldir i'r Gogledd Ddwyrain o Landâf. Gwerth ardrethol, 2657*p*. Poblogaeth, 259. Yr oedd y palas a elwir *Gabalva House*, yn perthyn gynt i dylwyth yr Herbertiaid; ac yn awr, perthyna i deulu o'r cyfenw Moggridge.

**GADIEL** AB ERIN, un o freninoedd Prydain cyn cred. Yn ei amser ef medd y *Trioedd*, yr arweiniodd Ur ab Erin Lwyddawg, dair mil a thriugain o wyr o Ynys Prydain i dir Groeg, y rhai ni ddychwelasant byth yn ol, eithr a drigasant yn nhir Galas ac Avena hyd heddyw, a myned yn Roegiaid a wnaethant. Yr ymfudiad hwn a elwir yn un o'r "Tair Cyforddwy a aethant o Ynys Prydain," a dilys ei bod yn cyfeirio at wladychiad gwyr Gâl yn Galatia. (*Myf. Arch.* ii. 9, 60, 76.)

**GAER** (Y), treflan yn mhlwyf Castell Caereinion, Swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU; 5 milldir i'r Gor. Dde Or. o'r Trallwng. Ei gwerth ardrethol a gyfrifir yn 2246*p*. Poblogaeth, 340.

**GAERWEN** (Y), pentref poblogaidd yn mhlwyf Llanfihangel Ysceifiog, yn Swydd FÔN, yn agos i reilffordd Caerlleon a Chaergybi, a rheilffordd Canolbarth Môn. Y mae yma addoldy helaeth a chyfleus gan y Trefnyddion Calfinaidd, dan yr enw Capel y Gaerwen, ac y mae amryw addoldai ymneillduol eraill yn y gymmydogaeth. Y mae Llythyr-swyddfa yn y pentref, dan Fangor.

**GAFLOGION**, cantref yn Swydd GAER YN ARFON, yn mhenrhyn Lleyn, rhwng cantref Dinlleyn, â chantref Cymmyd-maen. Y mae yn cynnwys saith o blwyfi, a rhan o un arall. Mesura yn erwau o dir, 17,038; ac yn ol Deiliadeb 1861, cynnwysai boblogaeth o 2241; ac o dai annedd, 512.

**GAFRAN** AB AEDDAN, tywysog yn y 5ed ganrif, a elwir yn un o'r "tri difancoll," am ei fyned ef a'i wŷr i'r mor ynghyrch Gwyddonau neu Gwerddonau Llion—cartref dedwyddwch, ac ni chlyw-wyd am danynt mwyach. (*Myf. Arch.* ii. 59, 70.)

**GAFRIW**, treflan yn mhlwyf Llanarth, Swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU; 4¼ milldir i'r De Dde Ddwyrain o Aberaeron. Poblogaeth, 198.

**GAIR** AB GEIRION, arglwydd Ceirionydd, efe a'i

Digitized by Google

deulu oedd un o'r "Tri Theulu Teyrnedd" a garcharwyd gan raith gwlad a chenedl yn ngharchar Oeth ac Annoeth. Y ddau eraill oedd Llyr Llediaith, a Mabon. (*Myf. Arch.* ii. 6, 12, 18.)

**GALES** (Y), trefgordd yn mhlwyf Llangynhafal, Swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU; 3¼ milldir i'r Gog. Og. Ddwyrain o Ruthin. Poblogaeth, 123.

**GALES** (Y), trefgordd yn mhlwyf Llangwyfan, Swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU; 5 milldir i'r Gogledd o Ruthin. Poblogaeth, 75.

**GALL** AB DISGYFEDDAWG, ydoedd dywysog ar Frythoniaid Deifr a Bryneich yn y 6ed ganrif. Cofnodir ef yn y *Trioedd* fel awdwr un o'r tair Fadgyflafan, sef lladd dau Ederyn Gwendolau ab Ceidiaw; y rhai yr ydoedd iau o aur am danynt, a dwy gelain o'r Cymry a ysynt beunydd ar eu ciniaw, a dwy ar eu cwynos. (*Myf. Arch.* ii. 4, 13, 77.)

**GALLGO**, SANT, yn y 6ed ganrif, ydoedd un o feibion Caw, a sylfaenydd Llanallgo, yn Mon. Coffheid ef Tach. 27.

**GALLGU RIEDDAWG**, tad Elian Geimiad, ydoedd benaeth yn y 6ed ganrif.

**GAM**, SYR DAFYDD, ydoedd fab Llewelyn ab Hywel o Frycheiniog. Trigai fynychaf yn y Peytin, plwyf Garthbrengy, daliai etifeddiaeth o anrhydedd yn Henffordd, ac yr oedd yn gyfaill mawr i Bolingbroke, iarll Henffordd, ac arglwydd Brycheiniog; a thra yn ei wasanaethu ef, a'i frenin, Harri o Fynwy, daeth yn enwog fel bradychwr ei wlad, trwy gynyg dirgel-lofruddio Owain Glyndwr, pan yn rhithio gwarogaeth iddo ar ei goroniad yn Machynllaeth, yn 1402. Am ei fradwriaeth, taflodd Owain ef i garchar, a chadwodd ef mewn diogelwch hyd oni phrynodd ei dad ef yn rhydd, yn 1412, ar yr amod nad oedd i ddwyn arfau yn erbyn Owain, na gwrthwynebu ei fesurau ef mwyach. Ond mor gynted ag y cafodd ei hun yn rhydd o afael Owain, ymosododd ar ei ymlynwyr, a bradychodd ei gynlluniau ef i'r brenin, am yr hyn y llosgodd Owain ei dŷ yntau i'r llawr. Yn mhen ychydig wedi hyn, efe a laddodd ei gâr Rhisiart Fawr, arglwydd Slwch, yn Aberhonddu, am yr hyn y gorfu iddo ffoi o'i wlad. Yn 1415, efe a gyfododd fintai o wyr yn Mrycheiniog, ac ymunodd a'r brenin yn ei ryfelgyrch i Ffrainc, lle yr ymenwogodd yn fawr yn mrwydr Agincourt. Wedi ei anfon i archwilio rhifedi y gelyn cyn dechreu y frwydr hono, dychwelodd gyda'r atebiad adnabyddus a ganlyn, "fod yno ddigon i'w lladd, digon i'w cymeryd yn garcharorion, a digon i ddianc ymaith." Er i Loegr yn y frwydr uchod enill y fuddugoliaeth ogoneddusaf ar lechres ei hanesyddiaeth, dywedir mai Dafydd Gam, Roger Fychan, ei fab-yn-nghyfraith, a Gwallter Llwyd, a fuont yn foddion i achub bywyd y brenin Harri yn y frwydr; ond wrth wneyd hyny collasant eu bywydau eu hunain, eithr y brenin wrth eu gweled yn trengu yn eu gwaed, a'u gwnaeth yn Farchogion.

Cydunir fod Dafydd Gam yn un o'r dynion mwyaf dewr, beiddgar, a rhyfygus. Y mae Syr Walter Raleigh yn ei osod o ran mawredd enaid, yn uwch na Mago, ac yn ei gymharu a Hanibal.

**GAMBOLD**, JOHN, M.A., ydoedd fab i William Gambold, periglor Puncheston, ger Hwllfforddd, lle ganwyd ef Ebrill 10, 1711. Yn 1726, derbyniwyd ef i Goleg Eglwys Crist, Rhydychain, lle daeth ar ol hyny yn gaplan, ac yr enillodd y radd o M.A. yn 1734. Tua 1739, derbyniodd fywioliaeth Stanton Harcourt, swydd Rhydychain, lle y parhaodd i chwilio i'r gwirionedd, a rhoddi lle i'w argyhoeddiadau hyd Hydref, 1742, pan y rhoddodd ei fywioliaeth eglwysig i fyny, ac yr ymunodd a'r Morafiaid. Dywedir bod ei ymgydnabyddiaeth a rhai o fyfyrwyr y Brifysgol, wedi gadael argraff ar ei olygiadau crefyddol, ac i hyny gael ei ddyfnhau gan bregethau Peter Boehler, y rhai a draddodai y gwr hwnw yn yr iaith Ladin yn Rhydychain, yn 1738, ac a gyfieithid gan John Gambold i iaith y bobl.

Wedi iddo roddi ei swydd eglwysig i fyny yn 1742, daeth i fyw i'w ardal enedigol; cadwai ysgol yn Hwlffordd, a phregethai yn achlysurol hyd Tachwedd 1744, pryd y dychwelodd i Lundain, ac yr ymsefydlodd yn weinidog ar eglwys o'r brodyr yn *Fetter Lane*. Yn 1754, cysegrwyd ef yn esgob Morafiaidd, mewn cymanfa daleithiol yn *Lindsay House, Chelsea*. Yn 1768, dychwelodd i ardal ei enedigaeth, a bu farw yn Hwlffordd, Medi 13, 1777.

Arolygodd argraffiad amryw o lyfrau, megys gweithiau Bacon, yn 1765, a History of Greenland. yn 1767, Testament Groeg yn 1742, a chyhoeddodd amryw o weithiau gwreiddiol, sef "*A Short Summary of Christian Doctrine*" (dienw); "*Maxims and Theological Ideas, collected out of several Dissertations and Discourses of Count Zinzendorf,*" 1747; *Discourses on the Second Article of the Creed,*" 1752; *Twenty-one Discourses or Dissertations upon the Augsburg Confession, translated from the High Dutch,*" 1753; "*The Martyrdom of Ignatius* (*tragedy*);" &c. &c.

> "What points of knowledge did he gain?
> What life was sacred all—and vain:
> Sacred how high, and vain how low?
> He knew not here, but died to know."

**GAMBOLD**, WILLIAM, tad John Gambold, a anwyd o rieni parchus yn nhref Aberteifi, Awst 10, 1672. Dygwyd ef i fyny yn ngholeg Exeter, Rhydychain, ac wedi gwasanaethu am ychydig flynyddau fel curad, derbyniodd berigloriaeth Puncheston a Llanychaer, Swydd Benfro, lle, trwy ei fuchedd ddichlynaidd, yr enillodd efe gymeriad uchel. Yn haner olaf ei oes derbyniodd ryw niwaid i'w fynwes, yr hyn a'i hanalluogodd i gyflawni ei ddyledswyddau eglwysig, felly cysegrodd ei amser dros y pymtheg mlynedd diweddaf o'i fywyd, i ysgrifenu Geiriadur Cymraeg a Saesneg, yr hwn yn anffodus a gyfarfu a'r un dynged ag eiddo Dr. Williams, o Drefriw,—safodd mewn llaw-ysgrifen o ddiffyg tanysgrifwyr. Ond yn mhen amser daeth y *copi* i ddwylaw John Walters, yr hwn a ddywedai, pe y cyhoeddasid ef, na buasai yn lleihau yr angen am ei Eiriadur ef. Cyhoeddodd Wm. Gambold yn 1727, "Ramadeg" Saesnig o'r Iaith Gymraeg; daeth ail-argraffiad o hono allan yn Nghaerfyrddin, yn 1817; a thrydydd, gyda llawer o ychwanegiadau, yn y Bala, yn 1833. Bu farw Medi 13, 1728. Gwel lythyr oddiwrtho at John ei fab, yn rhagymadrodd yr argraffiad cyntaf o Eiriadur Saesneg a Chymraeg Walters, 1794. Yr oedd iddo fab arall heblaw John yr esgob Morafaidd, a elwid Wm. Gambold, yn bregethwr lled enwog, ac yn un o dadau y Methodistiaid Calfinaidd.

**GANOL** (Y), treflan yn mhlwyf Llansawel, Swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU; 10 milldir i'r Gogledd o Landeilo Fawr. Poblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, 337.

**GARANAWG GLEWDDIGAR**, un o'r cymeriadau a grybwyllir yn y Mabinogion.

Digitized by Google

**GARN** (Y), trefgordd yn mhlwyf Llanfawr, Swydd FEIRIONYDD, GOGLEDD CYMRU; 1 filldir i'r Gog. Ddwyrain o'r Bala. Gwerth ardrethol, 864*p*. Poblogaeth, 161, yn ol Deiliadeb 1861.

**GARNANT** (Y), rhandir fwnawl ar derfyn De Ddwyreiniol Swydd GAERFYRDDIN, goris y Mynyddoedd Duon, gerllaw terfyniad cangen o reilffordd Llanelli a Glyn Tywi; 5¼ milldir i'r Dwyr. Og. Ddwyrain o Gyfunffordd (*Junction*), Pant y ffynnon; a 17½ milldir gyd a'r rheilffordd, i'r Gog. Ddwyr. wrth Ogledd, o Lanelli.

**GARN DOLBENMAEN** (Y), Gwel DOLBENMAEN; ac yn ychwanegol at y Sylwadau a wneir yno, gellir dywedyd, fod Dolbenmaen yn gorwedd ar yr afon Dwyfawr, goris y mynydd a elwir Llwyd Mawr, 2 filldir i'r De Or. o orsaf Brynkir, ar reilffordd Caer yn arfon, a'r Afon Wen; a 4½ milldir i'r Gogledd Orllewin o Dremadoc. Y mae Llythyrswyddfa yn y Garn Dolbenmaen, dan Gaer yn arfon. Cynnwysa plwyf Dolbenmaen, 2145 o erwau o dir; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 1032*p*. Poblogaeth, 387. Tai annedd, 89, yn 1861.

**GARN DDIFFAITH** (Y), lle, filldir a chwarter o Tal y Waen, a 4½ milldir o Bont y pool, yn Swydd FYNWY; lle y mae Llythyr-swyddfa dan Bont y pool.

**GARNEDD** (Y), trefgordd yn mhlwyf Gwaunis-caer, yn Swydd FFLINT, GOGLEDD CYMRU; 4¼ milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Ruddlan. Poblogaeth, 47.

**GARNEDD WEN** (Y), trefgordd yn mhlwyf Ysceifiog, Swydd FFLINT; 5½ milldir i'r Gor. Dde Or. o Fflint. Poblogaeth, 90.

**GARN FAWR** (Y), hen wersyll Prydeinaidd, yn agos i Trefin, Swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU.

**GARREG** (Y), ucheldir yn y parth gogleddorllewin o blwyf Rhydwen, yn Swydd FFLINT; 2½ milldir oddiwrth for-gainc y Dyfrdwy, a 3¼ milldir i'r Gogledd Orllewin o Dreffynnon. Y mae hen adeilad dra hynod ar ei ben uchaf, yr hwn debygid nad adeiledid cyn yr unfed ganrif ar bymtheg; er y dadleua rhai, mai Goleudy Rhufeinaidd ydoedd, a gyfodasid er cyfarwyddo yn mordwyaeth y Dyfrdwy.

**GARSION** (Y), pentref yn mhlwyf Machynlleth, Swydd DREFALDWYN, yn agos i dref Machynlleth. Poblogaeth, 143, yn ol Deiliadeb 1861.

**GARSWYLLT**, pentref yn mhlwyf Edeyrn, Swydd GAER YN ARFON; 2 filldir i'r Gorllewin o Nefyn. Poblogaeth, 42.

**GARTH** (Y), trefgordd yn mhlwyf Cegidfa, (*Guilsfield*), Swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU; 1 filldir i'r Gogledd Ogledd Orllewin o'r Trallwng. Gwerth ardrethol, 1921*p*. Poblogaeth, 252. Y mae amryw balasau pryd ferth o fewn y dref-gordd hon; ond y penaf o honynt, yw y palas ysplenydd a adeiladwyd gan y diweddar Barch. Richard Mytton, ar y draul o yn agos i gan mil o bunnau, ac a elwir *Garth House*.

**GARTH** (Y), gorsaf rheilffordd, yn mharth gogleddol Swydd FRYCHEINIOG, ar reilffordd Canolbarth Cymru; 6½ milldir i'r Gor. Dde Orllewin o Lanfair yn Muallt.

**GARTH** (Y), pentref yn mhlwyf Bangor, Swydd Gaer yn arfon, ar y borthfa, ffordd y croesir o Fangor i Ynys Fôn. Yr oedd y boblogaeth yn 1861 yn 268, a chynnydda yn gyflym.

**GARTH** (Y), lle o fewn 3½ i Riwabon, ar ffin ddwyreiniol Swydd DINBACH; a Llythyr swyddfa ynddo dan Riwabon.

**GARTH** (Y), rhandir yn mhlwyf Ystradgynlais, Swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU; 9 milldir i'r Gogledd Ogledd Ddwyrain o Gastell Nedd. Cynnwysir ynddo y pentrefydd canlynol, Gabillo, Gïedd, Dyfnant, a Bwllfa. Poblogaeth yn 1861, oedd 382.

**GARTH** (Y), sydd ran o blwyf Pentyrch, ger Gwaith Haiarn Pentyrch, dyffryn Taf, Swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU. Ffurfia'r Garth ran o Frig Deheuol Cawg Mwnawl Deheudir Cymru; lle mae'r creigiau yn goleddu tua 45 y cant: ac y mae yn lle rhagorol i efrydu Daiareg, am fod cymaint o'r creigiau wedi eu dynoethi yma wrth weithio y mwnau at Haiarnfa Pentyrch. Yn ymyl, mae Mynydd y Garth, 981 troedfedd o uchder, ar yr hwn medd traddodiad, yr arferid cyneu tan yn y nos yr oesau gynt, yn arwydd i drigolion Blaenau Morganwg, yn ardal Merthyr Tydfil, fod angen eu gwasanaeth milwrol yn erbyn y gelynion Normanaidd.

**GARTH** AC YSTRAD, trefgordd yn mhlwyf Llanddewi brefi, CEREDIGION, ar yr afon Teifi; 3¼ milldir i'r De Dde Orllewin o Dregaron. Mesura 853 o erwau o dir; a chyfrifir ei gwerth ardrethol yn 877*p*. Poblogaeth 80. Tai annedd, 12.

**GARTHBEIBIO**, plwyf yn y rhan uchaf o gantref MATHRAFAL, Swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU; ar y ffordd o'r Trallwng i Fachynlleth, Dolgelleu, &c. Y mae y pentref yn sefyll ar orynys, rhwng yr afon Twrch a'r Banw; 9 milldir i'r Gor. Og. Orllewin o Lanfair, a 9 milldir i'r Gogledd wrth Ddwyrain o orsaf rheilffordd Llanbrynmair. Cynnwysa y plwyf 7200 o erwau o dir; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 1087*p*. Yn ol Deiliadeb 1861, yr oedd nifer y boblogaeth yn 326; a'r Tai annedd, yn 65. Y Llythyr-swyddfa nesaf yw Llanerfyl, dan y Trallwng. Y mae arwyneb y plwyf, gan mwyaf yn fryniawg; ac y mae yma dirweddau hynod o darawiadol mewn rhai manau. Perigloriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn Arch-ddeoniaeth, ac esgobaeth Llanelwy; gwerth 140*p*.; a'r noddwr yw esgob Llanelwy. Y mae yr eglwys yn hen adeilad, ac wedi ei chyssegru i goffadwriaeth Sant Tydecho. Yn agos i'r eglwys y mae Ffynnon Tydecho, yr hon a wnaed yn ymdrochle oer; gan yr ystyrir ei dwfr yn dra rhinweddol i wellau y Cryd Cymmalau. Wrth adeiladu pont, a gwneuthur ffordd newydd, yn agos i'r pentref yn ddiweddar, darganfuwyd dau ysgrud dynol, a gwrn hefyd; ac yn wir y mae amledd y Carneddau a'r Cistfeini a ganfuwyd o bryd i bryd yn y gymmydogaeth hon, yn profi bod yma frwydrau gwaedlyd wedi eu hymladd, ar ryw adeg foreuol iawn.

**GARTHBRENGY**, neu GALLT-BRENGY, plwyf, mewn rhan yn nghantref MERTHYR CYNOG, ac mewn rhan yn nghantref PENCELLI, Swydd FRYCHEINIOG, DEHEUBARTH CYMRU; 3 milldir i'r Gogledd o dref Aberhonddu, a gorsaf y rheilffordd, ar y ffordd i Lanfair yn Muallt. Y Llythyrfa yw Aberhonddu. Cynnwysa 2001 o erwau o dir; a chyfrifir ei werth ardrethawl yn 678*p*. Poblogaeth, 162; nifer y Tai annedd, 35. Y mae yr arwyneb yn ymgyfodi yn serth oddiwrth yr afon Honddu. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 102*p*. Noddwr, Esgob Ty Ddewi. Y mae y llan, yr hon sydd gyflwynedig i Sant Dewi, yn gorwedd ar fryn, o'r tu cefn i'r hwn, ar y tu Gogleddol, yr ymgyfyd mynydd uwch; y mae yn hen adeilad, a thŵr ar ei phen gorllewinol, yn cynnwys pedair o glychau bychain.

Digitized by Google

Fe fernir mai brodor o'r plwyf hwn oedd Syr Dafydd Gam, a ymenwogodd mor ogoneddus yn mrwydr Agincourt; ac yma y treuliodd efe flyneddau boreuaf ei einioes, ar ettifeddiaeth a elwid Peytyn Gwyn; ond y palas oedd ar yr ettifeddiaeth, a losgwyd hyd lawr gan Owain Glyndwr, yn ystod ei rwysg, yr hwn a ystyriai Dafydd fel ei elyn personol.

**GARTH BWLCH**, trefgordd yn mhlwyf Llanwddyn, Swydd Drefaldwyn, Gogledd Cymru; ar lan yr afon Bechan, 8½ milldir i'r Gorllewin Dde Orllewin o Lanfyllin. Pob., 82.

**GARTHEINIOG**, trefgordd yn mhlwyf Mallwyd, Swydd Feirionydd, Gogledd Cymru; 2 filldir i'r Dehau o Ddinas Mawddwy, Gwerth ardrethol, 525*p*. Poblogaeth, 55.

**GARTHELY**, capeloriaeth yn mhlwyf Llanddewi-brefi, Ceredigion, Deheudir Cymru; yn agos i'r afon Aeron; 6½ milldir i'r Gorllewin Dde Orllewin o orsaf rheilffordd Tregaron, a 17½ milldir i'r Dehau o Aberystwyth. Llythyr-dref, Llanbedr, dan Gaerfyrddin. Cynnwysa 2475 o erwau o dir; a chyfrifir ei werth ardrethawl yn 561*p*. Poblogaeth, 296. Tai annedd, 60. Y fywioliaeth eglwysig sydd isberigloriaeth wastadol, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 60*p*., Noddwr, Periglor Llanddewi-brefi.

**GARTHEN** (Y), lle, ar derfyn De Ddwyreiniol Swydd Ddinbach; ar Glawdd Offa; 1½ milldir i'r Dehau o Riwabon. Y mae yma hen wersyll Prydeinaidd, yn cymeryd i fewn bedair erw o dir; ac y mae yn dra thebyg mai oddiwrth hyny y cafodd y lle ei alw "Y Gaerddin" ar y dechreu; ac yn y fan hon y gorchfygwyd byddin Seis'nig gan Owain Gyfeiliog, yn y flwyddyn 1161, er cof gorfoleddus am yr hyn y cyfansoddodd y tywysog, ei "Hirlas Owain."

**GARTH ERYR**, trefgordd yn mhlwyf Llanrhaiadr yn Mochnant, Swydd Ddinbach, Gogledd Cymru; 4½ milldir i'r Gogledd o Lanfyllin. Poblogaeth, 231.

**GARTHEWIN**, trefgordd yn mhlwyf Llanfairtalhaiarn, Swydd Ddinbach, Gogledd Cymru; ar yr afon Elwy; 4½ milldir i'r De Dde Orllewin o Abergeley. Gwerth ardrethol 1810*p*. Poblogaeth, 76. Garthewin Blas, ydyw hen gartref teulu cyfrifol y Wynniaid.

**GARTH GARMON**. Gwel Capel Garmon.

**GARTH GELYNEN FAWR**, a Garth gelynen Fechan, dwy drefgordd yn mhlwyf Pennant, Swydd Drefaldwyn; 8½ milldir i'r Gogledd Orllewin o Lanfyllin. Gwerth ardrethol, 1663*p*. Poblogaeth, 234, a 164.

**GARTH GELL**, trefgordd yn mhlwyf Llanfyllin, Swydd Drefaldwyn; yn agos i dref Llanfyllin. Poblogaeth, 53.

**GARTH GELLIN**, trefgordd yn mhlwyf y Bettws, Swydd Drefaldwyn; 4½ milldir i'r Gogledd o'r Dref Newydd. Poblogaeth, 89.

**GARTH GYFANNEDD**, trefgordd yn mhlwyf Llanrwst, Swydd Ddinbach; yn agos i dref Llanrwst. Poblogaeth, 190.

**GARTH GYNAN**, trefgordd yn mhlwyf Llanfair Dyffryn Clwyd, Swydd Dinbach; 3½ milldir i'r De Ddwyrain o Ruthin. Gwerth ardrethol, 2118*p*. Poblogaeth, 387.

**GARTH GYNFAWR**, trefgordd yn mhlwyf Dolgelley, Swydd Feirionydd; 2 filldir i'r De Orllewin o Ddolgelley. Gwerth ardrethawl, 3511*p*. Poblogaeth, 727.

**GARTH GYNYD**, treflan yn mhlwyf Gelli Gaer. Swydd Forganwg; yn agos i'r afon Rymni; 5½ milldir i'r Gogledd Ogledd Orllewin o Gaerffili. Gwerth ardrethawl, 617*p*. Poblogaeth, 125. Tai, 23.

**GARTHIAEN**, trefgordd yn mhlwyf Llandrillo yn Edeyrnion, Swydd Feirionydd; 5½ milldir i'r De Dde Orllewin o Gorwen. Gwerth ardrethawl, 427*p*. Poblogaeth, 187.

**GARTH ILLIN**, trefgordd yn mhlwyf Kerry, Swydd Drefaldwyn; 3½ milldir i'r Gorllewin Dde Orllewin o'r Dref Newydd. Poblogaeth, 25.

**GARTH MILL**, trefgordd yn mhlwyf Berriw. Swydd Drefaldwyn; ar lan yr afon Hafren; 3½ milldir i'r Gogledd Orllewin o Drefaldwyn. Y mae ynddi Lythyrfa dan yr Amwythig. Gwerth ardrethawl, 3988*p*. Poblogaeth, 148.

**GARTH UCHAF**, trefgordd yn mhlwyf Llanfihangel, Swydd Drefaldwyn; 5½ milldir i'r De Orllewin o Lanfyllin. Poblogaeth, 60.

**GARTHWYS HIR**, penaeth yn y 6ed ganrif, a grybwyllir yn y *Gododin*.

**GARTH Y NEN-FEDD**, trefgordd yn mhlwyf Llanelidan, Swydd Ddinbach; 5½ milldir i'r Dehau o Ruthin. Poblogaeth, 375.

**GARWEN**, un o dair cariadwraig Arthur, ydoedd ferch Henyn, tywysog Gwyr ac Ystrad Towy. (*Myf. Arch.* ii. 73.)

**GARWY**, mab Geraint ab Erbyn, yn y 6ed ganrif, a restrir gyda Gwalchmai ab Gwyar a Chadair eil Seithin, fel "tri Marchog Serchogion Llys Arthur." (*Myf. Arch.* ii. 74.)

**GARWYDD** neu Gawrwyd Caint, tad un o dair Gwenhwyfar Arthur, ydoedd benaeth yn y 5ed ganrif. (*Myf. Arch.* ii. 73.)

**GELLI** (Y), treflan yn mhlwyf y Faenor, Swydd Frycheiniog; 4½ milldir i'r Gogledd Orllewin o Merthyr Tydfil. Poblogaeth, 268.

**GELLI** (Y), treflan yn mhlwyf Llanarth, Ceredigion; 4½ milldir i'r De Dde Orllewin o Aberaeron. Poblogaeth, 251.

**GELLI** (Y), tref fechan, a phlwyf, yn nghantref Talgarth, Swydd Frycheiniog, Deheudir Cymru; a adwaenir yn fwy cyffredin dan ei henw Seis'nig, Hay. Y mae y dref yn sefyll ar lan yr afon Wŷ; ac ar reilffordd Aberhonddu a Henffordd, ar derfyn Swydd Henffordd, 20½ i'r Gorllewin o dref Henffordd. Y goresgynwyr Normanaidd a alwasant y lle *Haier*, gair yn eu hiaith hwy, cyfystyr a'r enw Cymreig, "Y Gelli," ac yn dynodi llanerch amgauedig.

Rhoddwyd y faenoriaeth gan Bernard Newmarch i Syr Phylip Walwyn; a thrachefn daeth i feddiant teulu de Breos; ac un o'r teulu yma, William de Breos, a adeiladodd gastell cryf yma, ac a gyfododd gaerau o amgylch y dref; a dywaid llen gwerin yr ardal, mai ei wraig Maud de St. Valeri, a adwaenir yn well yn mysg y werin Gymreig, dan yr enw "Moll Walbee," a'i cyfododd mewn un noswaith. trwy ei nerth aruthrol. Y mae amryw chwedlau anhygoel eraill yn cael eu hadrodd am orchestion y bendefiges hon, i'r hon y mae hanesyddiaeth gredadwy yn priodoli gwrolder, a gallu meddwl annghyffredin. Darfu i'r Brenin, Harri yr Ail, dori y castell yn gydwastad a'r llawr; ond fe'i hailadeiladwyd drachefn gan Humphrey Bohun, Iarll Henffordd.

Pan euog-farnwyd William de Breos, aeth arglwyddiaeth y Gelli yn ddirwy i'r goron, yn nghyda

Digitized by Google

meddiannau eraill y pendefig hwnw; ond, fe'u hadferwyd yn fuan i'w fab Giles, Esgob Henffordd, yr hwn a olynwyd yn ei ettifeddiaethau gan ei frawd ieuangach, Reinallt, yr hwn a brïodasai ferch i Llewelyn ab Iorwerth, ac yn nghyd a'i dad yn nghyfraith, a ymunodd yn nghyd-frad y barwniaid Seis'nig yn erbyn y Brenin John, yr hwn, wedi ei gythruddo yn ddirfawr trwy yr ymddygiad yma, a arweiniodd fyddin i'r rhan yma o'r cyffin-diroedd, yn y flwyddyn 1215, gan wneyd y wlad yn ddiffeithwch, ac anrheithio castell y Gelli. Llwyr ddymchwelwyd yramddiffynfa hon wedi hyny gan y Cymry; ond fe'i hadeiladwyd drachefn gan Harri y Trydydd, yn y flwyddyn 1231; yr hwn, gan nad oedd ganddo un gorchwyl arall ar ei law, a roddes y fyddin oedd dan ei lywyddiaeth bersonol ef ei hunan yn y Cyffindiroedd i ddwyn y gwaith yma yn mlaen. Yn y flwyddyn 1233, cymerwyd y castell hwn, a'r holl amddiffynfeydd eraill a berthynent i'r Saeson yn hen diriogaeth Brycheiniog, oddieithr castell Aberhonddu, gan Llewelyn ab Iorwerth, Tywysog Gwynedd. Yn y flwyddyn 1263, fe'i cymerwyd gan y Tywysog Edward, wedi hyny, Edward y Cyntaf; ond, gan ei fod ef ei hun, a'r Brenin ei dad, wedi ei gymeryd yn garcharor, y flwyddyn ganlynol, darfu i fyddinoedd unedig Llewelyn ab Gruffydd, a'r barwniaid Seis'nig, ei adfeddiannu, a'i roddi ar dân. Y mae cyflwr adfeiliedig ac anrheithiedig y lle hwn yn amser Harri VIII., pan ymwelodd Leland ag ef, yn cael ei brïodoli i'r rhuthr-gyrchoedd mynych a wnaeth Owain Glyndwr i'r Cyffin-diroedd: ac ymddengys oddiwrth hen ysgrif, dyddiedig yn Defynog, yn Medi, y flwyddyn 1403, fod llawer o drigolion yr arglwyddiaeth hon yn cael eu drwg-dybied o fod yn bleidgar i'r pennaeth Cymreig. Wedi marwolaeth y Duc Buckingham olaf o dylwyth y Staffordiaid, adferwyd castell y Gelli i'w fab, yr Arglwydd Stafford; ac wedi hyny, mewn rhyw ffordd afreolaidd, daeth yn eiddo i James Boyle, fel rhan o feddiannau priordy Henffordd, i'r hon ni buasai yn perthyn erioed; ac yn nheyrnasiad Iago y Cyntaf, daeth i feddiant Howell Gwynne o Drecastell, trwy ei briodas â Mary, wyres Boyle; a thybir fod y boneddwr hwn wedi adeiladu palas sydd yn sefyll eto, ar ran o hen orsaf y castell. Y mae y maenor-dy hwn yn orchuddiedig ag eiddew, ac yn ddiweddar yr oedd yn meddiant Syr J. Bailey.

Y mae y dref mewn sefyllfa ddymunol, ar lan ddeheuol yr afon Wŷ, yr hon sydd yma yn ffinio rhwng Swyddi Brycheiniog a Maesyfed; ond yn y fan islaw y dref, yn myned i Swydd Henffordd; ac fe ffinir y dref ar y tu dwyreiniol gan yr afonig Dulas, yr hon wedi ffurfio y ffin rhwng Swyddi Brycheiniog a Henffordd dros ryw bellder, sydd yn ymarllwys i'r Wŷ yn y fan hon. Y mae y dref yn gynnwysedig o un brif heol, ac amryw heolydd croesion. Neuadd y dref, a'r Farchnadle sydd yn adeilad bychan diweddar. Adeiladwyd yr eglwys yn y flwyddyn 1834, ar orsaf hen adeilad, ac y mae yn gynnwysedig o gorff eglwys, a changell, a thŵr. Y mae ynddi hen gymun-gib arian, ar yr hon y mae yn gerfiedig;—"*Our Ladie Paris of Haia;*" ystyr yr hyn yn ddiammeu ydyw, "Eglwys St. Mair, plwyf y Gelli." Y mae yr eglwys yn sefyll ar ychydig o godiad tir, gerllaw yr Wŷ, a chornant ddofn yn ysgaru rhyngddi a hen amddiffynfa. Y mae yma bump o addoldai Ymneillduol, ysgolion gwaddoledig, i ba rai y mae cyllidau bychain yn perthyn, elusendai, &c. Medda y dref lythyrswyddfa dan Henffordd, gorsaf rheilffordd, ariandy, a dau Westty dâ; cynhelir y llysoedd sirol yma, ac y mae yn fwrdeisdref, ac amryw ragorfreintiau yn perthyn iddi. Cynhelir marchnad wythnosol yma ar ddydd Iau; a ffeiriau ar y dydd Iau o flaen Dyddgwyl Fair y Canwyllau, y Dydd Llun o flaen y Pasg, yr 17eg o Fai, yr ail Dydd Llun o Fehefin, y 12fed o Awst, a'r 10fed o Hydref. Poblogaeth yn 1851, 1238; yn 1861, 1318. Tai, 285. Cynnwysa y plwyf 2602 o erwau o dir; a bernir ei werth ardrethol yn 7799*p.*; o'r rhai y mae 36*p.* mewn gwaith nwy. Poblogaeth y plwyf, 1998. Tai, 445. Y fywioliaeth eglwysig sydd Ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 140*p.*

Barnai Leland a Chamden fod yma dref, neu orsaf, gan y Rhufeiniaid; a dywaid yr ysgrifenydd cyntaf a enwyd, bod rhyw rai er's oesoedd yn ol wedi cael amryw ddarnau bathol yma, y rhai a alwai pobl y wlad yn arian yr Iuddewon; ond y mae lle cryf i gasglu, mai hen fathodion Rhufeinaidd oeddynt; a dywedir i ryw rai ddarganfod sylfeini adeiladau tra henafol yma er ys talm yn ol; ond, pa fodd bynag, y mae pob cyfryw olion wedi llwyr ddiflanu erbyn hyn.

**GELLI DAWEL** (Y), lle 8 milldir o Bont y pridd, yn Swydd FORGANWG, ac yn meddu Llythyrfa dan Bont y pridd.

**GELLI DDU**, cyd dreflan â Chynnull-mawr Llwyn swch, yn mhlwyf Llanddarog, yn nghantref ISCENNEN, Swydd GAERFYRDDIN; 6¼ milldir i'r Dwyrain Ddc Ddwyrain o dref Caerfyrddin. Y mae yn gorwedd ar lan ddeheuol, ac yn agos i darddell yr afonig Gwendraeth Fechan.

**GELLI DEG** (Y), treflan yn mhlwyf Merthyr Tydfil, Swydd FORGANWG; ar yr afon Taf, yn agos i Ferthyr Tydfil. Gwerth ardrethawl, 11,410*p.*; o ba rai y mae 2328*p.* mewn cloddfeydd, a 75*p.* mewn rheilffyrdd. Poblogaeth, 4798.

**GELLIGAER**, plwyf yn nghantref CAERFFILI, archddeoniaeth ac esgobaeth Llandâf, swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU. Ffinir y plwyf yn ddeheuol gan Llanfabon, yn orllewinol gan Ferthyr Tydfil, yn ddwyreiniol gan Bedwellty (Mynwy) ac yn ogleddol gan Llangynidr (Brycheiniog). Gwnaeth y Rhufeiniaid heol drwy ganol y plwyf hwn, a'i chyfeiriad yn ogleddol a deheuol, yr hon a alwent yn *Julius Frontinus:* ac mewn cyfnod diweddarach, gwellhawyd hi, a pharhaodd am oesau yn brif-ffordd o Gaerdydd i Aberhonddu; heibio Caerffili, Pentref Gelligaer, y Waun, a thrwy Gwm Taf Fechan, heibio Bwlch y Fan, &c. Yr unig heol y pryd hwnw o Ferthyr i Gaerdydd, ydoedd yr hon a elwir Heol Ferthyr, yn cychwyn yn ymyl yr Eglwys, i fyny dros dwyn-yr-odyn,—ychydig yn ddeheuol i'r fan y saif Gwaith Haiarn Dowlais, ac yn uno a'r brif-ffordd ar ben y mynydd.

Nid oes wybodaeth pa bryd yr adeiladwyd Eglwys Gelligaer gyntaf, ond gan ei bod wedi ei chyssegru i Cattwg, bernir yn gyffredin iddi gael ei sylfaenu gan Cattwg Ddoeth. Derbyniodd y lle yr enw Gelligaer, oddi wrth *Caer Castell,* gweddillion yr hon gaer sydd yn ymyl y pentref. Mae rhai yn ceisio profi mai y Rhufeiniaid a adeiladasant y Gaer hon, ond y ffaith yw, mai Iorwerth ab Owen, arglwydd Caerlleon-ar-Wysg, a'i hadeiladodd yn y flwyddyn 1140. Yr oedd y Iorwerth hwn yn briod ag Angharad, merch Uchtryd, Esgob Llandaf.

Digitized by Google

Rhyw ddwy filldir i'r gogledd o'r pentref, y mae gweddillion hen Gapel eglwysig, a elwir Capel Gwladys; a lle yn ymyl, a elwir Fforest Gwladys. Merch ydoedd y Gwladys hon i Brychan Brycheiniog, a dywedir am dani yn Monedd y Saint fel hyn:—"Gwladys ferch Brychan Brycheiniog, a gwraig Gwynlliw, ab Glywis, ab Tegid: mam Cattwg Sant o Gôr Garmon:"—5ed canrif. Am ei gwr y dywedir:—"Gwynlliw Filwr, arglwydd Gwynllwg yn Morganwg, ab Glywis, ab Tegid, ab Cadell Deyrnllwg:—5ed canrif. Efe a roddes ei dir i Dduw, a'i fab Cattwg, ac a aeth yn sant yn ei gôr ef." Mae yn amlwg oddi wrth hyn, mai Gwynlliw Filwr oedd perchen y rhan hon o'n gwlad yn y 5ed ganrif: a chan nad oes ond ychydig iawn o weddillion hen Gapel Gwladys ar gael yn awr, mae fel yn awgrymu fod yr hen gapel hwnw wedi ei adeiladu o flaen Eglwys Gelligaer; ac i Cattwg adeiladu yr eglwys ar etifeddiaeth ei dad, wrth weled hen gapel ei fam yn adfeilio. Mewn oes ddiweddarach, adeiladwyd capel eglwysig dan nawdd yr eglwys blwyfol, yr hwn a elwir Capel y Brithdir. Saif hwn fel meudwy ar ben mynydd uchel: ac er ei fod wedi dal rhuthriadau stormydd amryw ganrifoedd, etto y mae mewn cyflwr go dda; a chynnelir gwasanaeth ynddo gyda chysondeb. Mae mynwent fechan yn perthyn i'r capel hwn, ac ynddi amryw fedd-feini o ddyddiad diweddar. Mae y ddwy ywen a fuont gynt yn cysgodi ychydig ar y capel, wedi llwyr grino, yr hyn sydd brawf fod yr adeilad yn un hynafol.

Mewn cae yn ymyl y capel hwn, y mae careg a elwir *Maen Teyron*, ond yn yr *Ordnance Map*, gelwir y gareg yn Gistfaen. Dywedir yn "History of Merthyr," fod y cerfiad canlynol wedi bod arni:—

TEGERNACUS FILIUS MARII HIC JACIT.

Dywedir fod y Mar y cyfeirir atto yma yn fab i Gwladys, ac felly bod Teyron, neu Tegernacus yn ŵyr iddi, ac yr or-wyr i Brychan Brycheiniog. Barna rhai mai y Teyron hwn a roddodd ei enw i'r lle y saif adfeilion *Tintern Abbey* arno, ac mai enw cyntefig y lle oedd Dinteyron.

Nid oes ar y gareg lythyrenau yn bresenol, hynny yw, nid ydynt yn ddigon eglur i'w deall: a dywedir yn y *Siluriana*, mai nifer o lowyr Dowlais ddarfu anmharu y gareg, trwy friwio y llythyrenau â morthwylion.

Wedi y gorchfygiad Normanaidd, pan ranodd Syr Robert Fitzhamon swydd Forganwg rhwng ei gyd farchogion ac ereill, rhoddwyd y plwyf hwn, ac amryw blwyfi ereill, i Cedrych ab Gweithfoed, tywysog Ceredigion; am ei gynorthwy i orchfygu Rhys ab Tewdwr, ar Hirwaun Wrgan. Yn mhen ychydig amser ar ol y rhaniad hwn, sef yn y flwyddyn 1094, ymladdwyd brwydr waedlyd iawn yn y plwyf hwn, rhwng y Normaniaid â'r Cymry. Yn y flwyddyn hono, y cododd gwyr Morganwg arfau, dan arweiniad Syr Paine Turberville o'r Coytty, (un o'r Marchogion Normanaidd), i geisio taflu y iau Normanaidd oddi ar eu gwarau, ac adenill eu hannibyniaeth. Buont yn llwyddiannus hefyd mewn amryw frwydrau, fel y gorfu i Syr Robert Fitzhamon fwy nag unwaith, anfon am gynorthwy o Loegr. Ni hysbysir fod Paine Turberville yn mrwydr Gelligaer o gwbl, ac felly y mae y clod cyssylltiedig a hi yn perthyn i'r Cymry yn hollol. Mor bell ag y gellir casglu oddi wrth yr hanes, ymddengys i ddwy frwydr gael eu hymladd yn agos i'r un amser. Yr oedd R. Fitzhamon wedi anfon i Loegr am adgyfnerthion, ond yr oedd y rhai hynny heb gyrhaedd pan ddechreuodd y byddinoedd ymladd, pryd y darfu i'r Cymry ffugio ffoi o flaen eu gelynion, i fynyddoedd Brycheiniog, (ger "Rhyd Y Milwyr" mae'n debyg), ac yna troisant fel dewrion, a llwyr orchfygasant y fyddin ymosodol. Pan yn dychwelyd yn ol o'r frwydr hon dros yr heol y soniwyd am dani, cyfarfyddodd y Cymry a'r adgyfnerthion Normanaidd yn mhlwyf Gelligaer, lle y bu un o'r brwydrau ffyrnicaf, ac yr enillwyd un o'r buddugoliaethau gogoneddusaf gan wŷr Morganwg. Llywyddion y fyddin Normanaidd oeddynt Syr Robert Fitzhamon; Roger Montgomery, Iarll Amwythig ac Arundel; William Fitzeustace, Iarll Caerloyw; Arnold de Hercourt; Neale le Vicount; Walter Evereux, Iarll Sarum; a Hugh, Iarll Gourney. Llywyddion y fyddin Gymreig oeddynt Ednerth ab Cadwgan, a'i ddau fab, Gruffydd, ac Ifor. Yn y frwydr hon ennillodd y Cymry fuddugoliaeth mor drwyadl, fel y bu agos iddynt lwyr ddyfetha yr holl fyddin Normanaidd. Yn mhlith y lladdedigion, yr oedd yr holl lywyddion Normanaidd ond tri, sef Fitzhamon, Walter Evereux, a Hugh, Iarll Gourney: a bu y ddau olaf feirw yn fuan ar ol hŷn yn Ffrainge, o herwydd y clwyfau a dderbyniasent yn y frwydr hono. Rhoddodd y frwydr hon derfyn ar ormes Fitzhamon i raddau helaeth; ac o hynny allan yr oedd yn caniatau eu rhagorfreintiau cyntefig i'r Cymry, a dychwelodd eu tiroedd i lawer o honynt, i'w mwynhau fel cynt.

Mewn cyfnod diweddarach, cawn fod y teyrn anffodus hwnw, Charles I., yn myned trwy y lle hwn ar ol brwydr Naseby. Mewn hen ysgrif yn rhoddi hanes gwibdeithiau y brenin yr amser hwnw, ceir y cofnodion canlynol:—"Gorphenaf 20, 1645, Caerdydd, ciniawa y llywodraethwyr ar fy nhraul fy hun." Y mae hyn yn dangos fod llywodraethwyr Castell Caerdydd, i raddau yn annheyrngarol: a thranoeth, cawn iddo bennodi Syr H. Stradling, o Gastell St. Donatt's, yn llywodraethwr Castell Caerdydd, ac yna iddo aros yn y Castell am saith niwrnod. Y cofnod nesaf sydd fel hyn:—"Awst 5, ciniawa yn Glancaiach." Glancaiach sydd balasdy hynafol yn y plwyf hwn: ac a breswylid y pryd hwnw gan y Milwriad Prichard, yn myddin y brenin, ond a droes wedi hynny o blaid Cromwell; a gwnaed ef yn llywodraethwr Castell Caerdydd. Yr oedd teulu y Prichard hwn yn ddynion o fri a dylanwad: yr oedd Edward Prichard, Llancaiach, sef tad y Milwriad, yn Uchel Sirydd Morganwg yn 1599. Yr oedd mam y Milwriad Prichard, yn disgyn o du ei thad, o Ifor Bach, arglwydd Senghenydd; ac Ifor yn ŵyr i Cedrych ab Gweithfoed, yr hwn a gafodd yr arglwyddiaeth hon gan Fitzhamon.

Dywed traddodiad i Charles I., gysgu noson yn Llancaiach; ond mwy tebygol yw, iddo fyned rhag ei flaen i Aberhonddu, yr un diwrnod ag y ciniawodd gyda'r Milwriad; ac iddo o Aberhonddu, anfon llythyr at ei fab, y Tywysog Charles, yr hwn oedd yn Cornwall, i'w gynghori i ffoi o'r deyrnas i Ffrainge. Nid rhyw lawer o gyfnewidiadau sydd wedi cymmeryd lle yn y plwyf hwn o amser Charles I., hyd yr oes bresenol; ond y mae llawer iawn o gyfnewidiadau wedi cymmeryd lle yma yn ddiweddar: hynny yw, o fewn y ganrif bresenol. Yn nghwr deheuol y plwyf, yn ardal palas hynafol Glancaiach, y mae amryw byllau glo wedi eu suddo, y rhai a weithir gydag hwylusdod a llwyddiant.

Digitized by Google

Yn ngogleddbarth y plwyf hefyd, y mae llawer o gloddfeydd mŵn haiarn a glo, perthynol i weithfeydd mawrion Dowlais, a Rhymni: ond y mae rhanau canolbarthol y plwyf, er eu bod yn llwythog o fŵn a glo, heb gael ond o'r braidd ddechreu eu gweithio. Etto, mae yn eglur, y bydd y parthau hyn yn lleoedd pwysig mewn cyssylltiad a gweithfeydd glo ager mewn oesau dyfodol. Un anfantais neillduol yn nghyhysswllt a chanolbarth y plwyf hyd yn ddiweddar, oedd diffyg cledrffordd; ond er ys rhai blynyddau bellach, y mae Cledrffordd Aberhonddu a Chasnewydd, yn rhedeg trwy Gwm Bargoed Fach, yn y plwyf hwn, yr hyn sydd wedi bod yn achlysur agor amryw weithfeydd glo yn y cwm hwnw, yn nglyn a'r rhai y mae pentref mawr *Y Deri*, wedi cael ei adeiladu mewn ychydig flyneddau. Mae'n wir i bwll glo bychan gael ei gloddio yn y cwm tua deugain mlynedd yn ol, ond gan nad oedd ffordd i gludo y glo ymaith oddi eithr ar gefnau ceffylau a mulod, ni fu nemawr lwydd ar ei weithio, cyn ei ail gychwyn yn 1865, ar ol cael cledrffordd atto. Gelwir hwn *The Bargoed Colliery*,—dyfnder y pwll yw 35 llath. Y mae yn ymyl y gledrffordd, ac yn agos atto, 70 o ffyrnau at wneyd golosglo (coke), gan mai Glo Rhwym a weithir ynddo. Ychydig yn is yn y cwm, suddwyd pwll glo arall, a elwir Pwll y Deri, yn 1865, a pherthyn iddo 20 ffwrn. Saif pentref y Deri yn ymyl y pwll hwn, ac ychydig yn ddeheuol i'r pentref, cloddiwyd Pwll y Darren, yn 1868, yr hwn a berthyn i gwmni gwaith haiarn Rhymni. Cynnwysa pentref y Deri, tua 200 o aneddau, ysgoldy cenedlaethol, ac ysgoldy Brytanaidd, yn nghyda chapeli heirdd gan y Trefnyddion Calfinaidd, a'r Annibynwyr: adeiladwyd eiddo yr Annibynwyr yn 1867, ac eiddo y Trefnyddion yn 1868. Cynnelir gwasanaeth eglwysig hefyd yn yr ysgoldy Cenedlaethol, ac y mae capel gan y Bedyddwyr yn y Brithdir, yr hwn sydd gerllaw, oddi ar y flwyddyn 1859. Mae y lle hwn yn sicr o fyned ar gynnydd, nes dyfod yn bwysig iawn mewn blynyddau dyfodol. Mae yma orsaf ar gledrffordd Aberhonddu a'r Casnewydd, a elwir Y Darren.

Nid yw Cwm Bargoed Fawr, neu Bargoed Tâf, ond yn rhanol yn y plwyf hwn, gan mai afon y cwm hwn sydd yn gwahanu y plwyf oddi wrth blwyf Merthyr Tydfil. Ychydig mewn cymhariaeth o drysorau mwnol y cwm hwn sydd wedi eu gweithio: ond dechreuwyd gwneyd Cledrffordd drwy hwn yn haf 1871, a bernir y bydd i hono pan orphenir hi, fod yn foddion i achlysuro agor glofeydd mawrion yn y cwm hwn hefyd. Mae pedair lefel yn y Coly yn bresenol gan gwmni gwaith haiarn Dowlais; ac yn y lle, 26 o dai, heblaw pentref Cwmfelin, yr hwn sydd ychydig yn ddeheuol i'r gwaith.

Glo Rhwym a weithir yma yn bresenol, yr un fath ag yn Nghwm Bargoed, Rhymni, ond bernir y suddir pyllau dyfnion yma ar fyrder, i lawr at y gwythieni glo ager, ac yna bydd y lle hwn yn sicr o ddyfod yn fawr a phwysig. Mae capel bychan gan y Bedyddwyr yn Nghwmfelin, ger y Coly, er y flwyddyn 1834, ac y mae capel bychan wedi ei godi yn ddiweddar yn y lle, gan yr Annibynwyr. I'r dyben o ddangos pwysigrwydd masnachol y plwyf hwn, rhoddwn yma ystadegaeth y glo a godwyd ynddo yn 1870:—

| Enw'r Lofa. | Tunnelli. |
|---|---|
| Dowlais, ar Gomin Senghenydd, | 305,205 |
| Cwmni Rhymni ,, ,, | 10,946 |
| Craig Rhymni, | 6,224 |
| Tir Phil, | 168,719 |
| Pwll Powell Neu Tredegar, | 66,388 |
| Troedrhiw'r fuwch, | 16,386 |
| Brithdir Newydd, | 6,937 |
| Hen Brithdir, | 31,106 |
| Deri Newydd, | 19,552 |
| { Bargoed Colliery, | 48,682 |
| { Cwmllwydrew, | 21,360 |
| { Gelliargwellt, | 2,136 |
| { Penallta, | 2,758 |
| Lefel Penallta, | 10,300 |
| Llancaiach, | 46,654 |
| Tophill, | 16,403 |
| { Glanddu, | 10,018 |
| { Pentrepoeth, | 9,136 |
| Cefnllwynau, | 8,143 |
| New Place, | 20,360 |
| Rose Pit, | 15,762 |
| Glyngaer, | 2,421 |
| Glofa Gwladys, | 35,640 |
| Cilfach-fargoed, | 3,560 |
| Hengoed, | 2,283 |

Maint y plwyf yw 16,388 erw; a'i *Union Assessment valuation* yn 58.105*p*. Poblogaeth (1851), 3807; (1861), 5777; (1871), 9192.

**GELLI GALLU**, treflan yn mhlwyf Cenarth, Swydd Gaerfyrddin, yn agos i Gastell Newydd yn Emlyn. Poblogaeth, 121.

**GELLI GASSON**, trefgordd yn mhlwyf Llanfair Caereinion, Swydd Drefaldwyn, yn agos i dref Llanfair. Poblogaeth, 386.

**GELLI GYNNAN**, trefgordd yn mhlwyf Llanarmon yn Iâl, Swydd Dinbach; 4¼ milldir i'r De Ddwyrain o Ruthin. Poblogaeth, 52.

**GELLI LYFDY**, trefgordd yn mhlwyf Ysceifiog, Swydd Fflint; 3¼ milldir i'r De Dde Orllewin o Dreffynnon. Poblogaeth, 302.

**GELLYDY**, treflan yn mhlwyf Llanddarog, Swydd Gaerfyrddin; 6¼ milldir i'r Dwyrain Dde Ddwyrain o Gaerfyrddin.

**GENEU'R GLYN**, adrandir a chantref yn Swydd Aberteifi. Y mae yr Adrandir yn Rhandir Aberystwyth; ac yn cynnwys plwyf Llancynfelin, pum trefgordd o blwyf Llanfihangel Geneu'r Glyn, ac un o Elerch. Cynnwysa 32,290 o erwau o dir. Poblogaeth, 4638. Tai, 999. Y mae y cantref yn helaethach na'r Adrandir; ac yn cynnwys Aberystwyth; ac fe'i dosberthir yn ddwy ran, yr isaf, a'r uchaf. Erwau o dir, 31,313, a 45,761. Poblogaeth yn 1851, 5095, a 5555; yn 1861, 11,276. Tai, 2293.

**GEOFFREY** o Fynwy. Gwel Gruffydd ab Arthur.

**GEORGE** (St.) Gwel Llan Sant Sior.

**GEORGE'S** (St.) Plwyf yn cynnwys 1058 erw, yn nghantref Dinas Powis, Swydd Forganwg, Deheudir Cymru; tua 5 milldir i'r gorllewin o Gaerdydd, ar linell Cledrffordd Deheudir Cymru.

Hen enw y plwyf oedd Llanufelwyn: ond pa bryd, a phaham y newidiwyd yr enw i Sant Iorys, a St. George's, sydd anhawdd ei benderfynu. Ufelwyn ydoedd fab i Cennydd, sylfaenydd Llangenydd yn Ngwyr; a brawd Ffili, adeiladydd cyntaf Caerffili: a rhesir y tri yn mhlith seintiau'r 6fed canrif. Ffinir y plwyf ar y tu dwyreiniol gan Llansantffagan a Llanfihangel uwch Elai, ar y tu deheuol gan St. Nicholas, yn orllewinol gan Lanbedr-y-fro, ac yn ogleddol gan Lansantffraid uwch Elai. Pan

Digitized by Google

oresgynwyd Morganwg gan y Normaniaid, yn 1091, a phan ranodd Syr Robert Fitzhamon y sir rhwng ei gyd-farchogion, rhoddwyd y plwyf hwn a manau ereill, yn eiddo i Syr John le Fleming: yr hwn yn ol arferiad yr oes hono, a adeiladodd gastell yn y lle, yn breswylfa iddo ef a'i deulu, ac yn amddiffynfa i'w diriogaeth.

Daeth teulu Fleming i gryn fri ac urddas yn Morganwg, a pharhasant felly am oesau; ond nid oedd y teimladau goreu yn bodoli rhyngddynt a'r Cymry. Pan gododd Llywelyn Bren arfau yn erbyn Hugh le Despenser, Arglwydd Morganwg, yn 1315, am y sarhad a daflodd hwnw arno, un o brif gefnogwyr Despenser oedd Syr W. Fleming, Farchog, o'r lle hwn. Yn y gwrthryfel dan sylw, yr oedd gan Llywelyn Bren 10,000 o wyr Morganwg o'i blaid, a buont mor llwyddiannus yn eu hymosodiadau ar gestyll y Normaniaid, fel y drylliasant nifer luosog o honynt, megys Castell Aberbarri, Castell Tregogau, Castell Rhuthin, Castell Cenffig, Castell Gelli Garn, Castell Treflleming, &c. Ond er eu dewrder a'u llwyddiant, anfonodd y brenin Iorwerth II., ddigon o filwyr o Loegr i helpu y Normaniaid, a chymmerwyd Llywelyn Bren yn garcharor; a chondemniwyd ef i farw gan Syr W. Fleming, yr hwn oedd Uchel Sirydd Morganwg ar y pryd. Yn 1321, crogwyd Syr W. Fleming yn Nghaerdydd, am gondemnio Llywelyn Bren i farwolaeth, heb reswm digonol dros ei ymddygiad creulawn.

Adgyweiriwyd y castell ar ol ei ddryllio gan Llywelyn Bren, a bu yn meddiant y Flemings hyd deyrnasiad Harri IV., pan y daeth y castell a'r arglwyddiaeth berthynol iddo, yn eiddo Edmund Malefant, trwy briodas â merch ac etifeddes yr olaf o'r Flemings. Yn amser Harri VII., o ddiffyg etifedd yn llinach Malefant, aeth y castell a'r arglwyddiaeth yn eiddo John Butler, Ysw., o Gastell Dindryfan: ac ar farwolaeth Arnold, mab John Butler, aeth y meddiant yn eiddo un Walter Vaughan, Ysw., o Brodemard, yn Swydd Henffordd, yr hwn oedd fab i chwaer Arnold Butler. Dywed Leland ei fod yn meddiant teulu Malefant tua 40 mlynedd cyn yr amser y talodd ef ymweliad a'r lle (1530) a bod yr eiddo y pryd hwnw wedi ei uno ag eiddo y goron.

Saif y plwyf mewn ardal ffrwythlawn, yn Mro Morganwg; ac amaethir y tir gyda llwyddiant mawr. Mae yn yr eglwys amryw gofadeiladau hynafol, mewn arddull Gothig: ac yn yr ardal amryw geryg mawrion, yn sefyll yn syth allan o'r ddaiar; a bernir yn gyffredin mai olion Derwyddol ydynt.

Poblogaeth y plwyf yn 1861 oedd 213 Gwerth Ardrethol, 1830*p*.

**GERAINT** AB ELIDR, a olynodd Rhun ab Peredur i orsedd Prydain cyn cred. (*Myf. Arch.* ii. 164.)

**GERAINT** AB ERBIN, oedd benaeth dewr ar Frythoniaid Dyfnaint. Rhestrir ef gyda Gwenwynwyn ab Naf, a March ab Meirchiawn, fel "Tri Llyngesawg Ynys Prydain."—*Myf. Arch.* ii. 68. Efe a syrthiodd yn mrwydr Llongborth, a chanodd Llywarch Hen Farwnad iddo, yn yr hon y dywed:—

Pan aned Geraint oedd agored pyrth nef
Rhoddai Grist a arched
Pryd mirain Prydain ogoned
Moled pawb y rudd Eraint
Arglwydd molaf innau Eraint
Gelyn Sais, car i saint
* * * * * * *
Yn Llongborth y llas Geraint
Gwr dewr o goettir Dyfnaint
Wyntwy yn lladd gyda's lleddaint.

Rhestrir Geraint hefyd gyda'r Seintiau, a dywedir fod unwaith eglwys wedi ei chyflwyno iddo yn Nghaerffawydd (Hereford). Geraint yw arwr yr au Fabinogi yn nghasgliad y Foneddiges Charlotte Guest.

**GERAINT FARDD GLAS** O'R GADAIR, yn ol Iolo Morganwg ydoedd sylfaenydd Cadair Morganwg tua dechreu y 9fed ganrif. Mae "Englynion y Gorugau," yn nghydag amryw o ffraethebau yn aros ar ei enw. Dywedir hefyd fod Gramadeg Cymraeg o'i waith, yn nghadw mewn llawysgrif yn Nghastell Rhaglan, pan ddinystrwyd y lle hwnw yn rhyfeloedd y Weriniaeth. Proffesa Gramadeg Edeyrn Dafod Aur fod yn sylfaenedig ar eiddo y Bardd Glas. Tybiai y Dr. Pughe, mai yr un oedd y Bardd Glas ag *Asser Menevensis;* ond nid ymddengys fod un sail i'r dybiaeth.

**GERAINT FEDDW**, brenin Essyllwg, a restrir gyda Gwrtheyrn a Seithenyn, fel "Tri Charn Feddwon Ynys Prydain." (*Myf. Arch.* ii. 64.)

**GERAINT HIR**, fab Cymanon Hen, a restrir gydag Eithew a Choleddawg, fel "Tri Anhuol Farchogion Llys Arthur." (*Myf. Arch.* ii. 15, 74.)

**GERWYN**, neu BERWYN, yn ol rhai, ydoedd fab Brychan, tra dywed eraill mai mab Brynach Wyddel ydoedd, o Corth ferch Brychan. Yr oedd iddo dair chwaer, sef Mwynwen, Gwennan, a Gwenlliw, a gelwir y rhai hyny yn ferched Brychan mewn rhai ysgrifau. Dywedir iddo sylfaenu eglwys yn Nghernyw, a chael ei ladd yn Ynys Gerwyn.

**GETHIN**, ELLEN, ydoedd unig ferch boneddwr o'r enw—Fychan o Hergest neu Herast, yn Swydd Henffordd, a gwraig Thomas ab Rosser, o Dretower, ŵrwyr Syr Dafydd Gam. Enillodd y cyfenw Gethin, (erchyll), trwy weithred ddialeddol a gyflawnodd pan yn ferch ieuanc, o dan yr amgylchiadau canlynol:—Yr oedd hi a'i brawd, Dafydd, ar ol marwolaeth eu tad, yn byw gyda'u gilydd yn Hergest, tra yr oedd cangen arall o'r teulu, yn byw yn Nhalgarth, swydd Frycheiniog. Ymddengys bod rhyw hen anghydfod teuluaidd yn bodoli rhwng y ddau dŷ hyn, a hwnw o natur mor boethlyd, fel yr oedd yr awel leiaf yn ddigon i'w yru yn fflam ar unrhyw adeg. Yr oedd y ddau yn gangau o'r un boncyff, ac yn ymddangos yn gyfartal o ran safle, cyfoeth, ac urddas teuluaidd; a daeth yn bwnc o ymryson rhyngddynt, pa un oedd yr hynaf—y mwyaf anrhydeddus—y mwyaf enwog ar faes y gwaed a'r gwrolgampau—mewn gair, pa un o honynt oedd y mwyaf. Yr oedd y teimlad rhyngddynt wedi myned mor ddrwg, fel mai anfynych iawn yr ymwnelai y naill ddim a'r llall, o dan unrhyw amgylchiad.

Ar yr adeg dan sylw, yr oedd penaethiaid hynaf y ddau deulu wedi marw, a'u cynddrychiolwyr presenol oeddynt ddau ddyn ieuanc, Dafydd Fychan o Hergest, a Sion Hir o Talgarth. Digwyddodd y ddau hyn gyfarfod a'u gilydd ryw ddiwrnod yn Llinwent, ger Llanbistr, Swydd Faeshyfed, a hyny, mae yn debyg, mewn Gwindy, lle, yn mhoethder y gwin, yr adgyfododd yr hen ysbryd ag oedd wedi ei feithrin rhwng y ddau deulu ar hyd y blyneddoedd; ac yn llawn ffyrnigrwydd, rhuthrodd y ddau ddyn ieuanc

Digitized by Google

allan i benderfynu yr ymryson a'u cleddyfau; ond wedi ymladd yn greulawn am hir amser, syrthiodd Dafydd Fychan o dan gleddyf Sïon Hir, a bu farw yn y man. Pan gyrhaeddodd y newydd gwaedlyd glustiau Ellen, edrychai ar y gyflafan fel ymdrech gynllwynol i ddinystrio ei thŷ hi, o'r hwn nid oedd ond ei hunan mwych i amddiffyn ei anrhydedd, credai fod llef gwaed ei brawd yn gwaeddi arni o'r ddaear, am ei ddial ef ar y llawrudd, felly hi a dyngodd yn ddifrifol y dialeddai hi ar Sïon Hir, ac y mynai olchi ymaith yr ystaen hono oddiar ei theulu; a chysegrodd ei bodolaeth i gario allan ei dedfryd.

Yn mhen amser, hi a ddeallodd drwy yr ysbiwyr ag oedd ganddi yn gwylio ei symudiadau, fod Sion Hir yn myned i ymryson saethu targed ryw ddiwrnod, i Llanddewi, Maeshyfed; yr hwn nid yw yn neppell o Llinwent, lle y lladdwyd ei brawd. Mewn canlyniad, ymdrwsiodd mewn gwisg dyn, gyda chleddyf ar ei chlun, a chap a phluen ar ei phen, yn ol arddull yr amseroedd, a diwyg uchel fonedd. Ar ei ffordd yno yr oedd yn myned trwy Linwent, lle, ychydig amser yn ol, y mwydwyd y ddaear a gwaed ei brawd. Y fath ysbrydiaeth oedd yr olygfa hon yn roddi i'w natur ddiofrydawl!

Pan gyrhaeddodd y llecyn, cafodd y cwmni ar y maes saethu, yn llawn nwyfiant a llawenydd; ac wedi deall mai ei châr,—ei châr dedfrydol, oedd wedi ei gyhoeddi yn feistr y maes, gydag ymddangosiad o wag ymffrost, yn ol dull y gwroniaid ieuainc a'i hamgylchent, hi a heriodd yn eofn *y goreu ar y maes* i ymryson saethu a hi. Sïon Hir, gan ystyried hyny yn feiddiad iddo ef, a dderbyniodd yr her, ac yn foesgar iawn a gynygiodd i'r ymwelydd dieithr y cyfle cyntaf; hithau yr un mor foesgar a wrthododd y cynyg, gan ddethol ei harfau gyda gwyliadwriaeth. Sïon Hir a ymaflodd yn ei fwa, gosododd ei saeth, a chyda'i feistrolaeth arferol, planodd hi yn nghanol llygad y tarw. "Dyna" ebai Fychan o Talgarth, gan ymfalchïo yn ei orchest, "cura hona os galli di!"

"Mi ymdrechaf," oedd yr ateb byr a fwngialai rhwng ei danedd, a chan osod y saeth ar ganol y bwa, ac ymddangos yn anelu gyda gofal,—a phob llygad yn cyfeirio at y targed, trodd ei bwa at Sïon Hir, a chyda nerth llaw a chalon, planodd ei saeth yn ei fynwes, a chyn ei fod wedi cael y llawr, o'r braidd, na'i gyfeillion wedi deall beth oedd wedi cymeryd lle, yr oedd hi wedi cael cefn ei march, ac yn carlamu ymaith mewn buddugoliaeth.

O hyny allan adweinid hi wrth yr enw Ellen Gethin. Nid oedd rheithwyr yn y wlad y pryd hwnw, a gollfarnent Ellen am weithred fel yr uchod; ac ni byddai yn gyfiawn ei gosod ger bron rheithwyr yr oes bresenol.

Wedi hyny priododd Ellen Gethin, Thomas ab Rosser, ail fab Syr Rosser Fychan, o Tretower, Brycheiniog; a ganwyd iddynt dri mab, ac un ferch, Watkin, Risiart, Ales, a Rosser; felly daeth i mewn i Lwyth Syr Dafydd Gam, chwareuodd ei gwr a'i phlant eu rhan yn y Rhosgadau, a chafodd hi a hwythau, eu heneinio gan awen Lewis Glyn Cothi.

GIBSON, John, R.A., yr hwn a gydnabyddid y delwedydd enwocaf yn y byd, ydoedd Gymro o lanau Conwy. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1788, neu 1789, yn nhy capel y Bedyddwyr, Fforddlas, plwyf Llansant ffraid-glan-Conwy. Enw ei dad oedd William Gibson, ac enw morwynol ei fam oedd Jane Roberts. Ymddengys mai brodor o Fôn oedd William Gibson, a bod ei dad, Thomas Gibson, yn glochydd yn eglwys Llanidan. Ond daeth William Gibson yn Fedyddiwr. ac yn bregethwr cynorthwyol gyda'r enwad hwnw pan yn dechreu ymsefydlu yn nyffryn Conwy. Yr oedd efe ar y pryd, yn arddwr yn Modnod, plwyf Eglwys Bach; ac wedi iddo briodi, aeth ef a'i wraig i fyw i dy capel Fforddlas, ac yno y ganwyd John. Yn mhen ychydig wedi hyny, aeth rhyw oerfelgarwch, anesboniadwy yn awr, rhyngddo ef, neu ei wraig, a'r Bedyddwyr, ymadawsant o'r Fforddlas, ac aethant i fyw i blwyf Cyffin; (lle bu William Gibson am rai blynyddoedd yn gwasanaethu fel garddwr ac ystiward i'r Counsellor Samuel Price o Benarth;) ac fel effaith yr oerfelgarwch a nodwyd, aethant a'u mab i eglwys blwyfol Conwy i gael ei fedyddio. Dyma gofrestriad y bedydd:—"1790. The Rev. Mr. Hugh Williams baptiz'd John, son of William Gibson, of the parish of Gyffin, by Jane Roberts, his wife, June 19."

Yr oedd bedyddiad baban i bregethwr y Bedyddwyr yn beth mor hynod, fel y gadawodd argraff arosol ar gyfeillion y Fforddlas, a dyfnhawyd y cyfryw argraff gan enwogrwydd y bedyddiedig, ar ol iddo dyfu i fyny.

Yr ydym yn manylu ar y ffeithiau uchod, o herwydd bod camgymeriad wedi myned allan mai yn nhref Conwy y ganwyd John Gibson; eithr pan gyfodwyd y pwynt i'r *Herald Cymraeg*, yn 1866, cawd tystiolaethau chwech o hen bobl, ag oeddynt yn gydnabyddus bersonol a William Gibson, ac un o honynt yn aelod ac yn ddiacon yn y Fforddlas, yn yr adeg yr oedd William Gibson yn byw yno, i gadarnhau mai yn nhy capel y Fforddlas, y ganwyd John, a bod ei dad ar y pryd, yn bregethwr gyda y Bedyddwyr; yr hyn, bellach, sydd wedi gosod y ffaith tu hwnt i bob dadl.

Ymddengys mai yr hyn a roddodd fodolaeth i'r camgymeriad uchod, oedd geiriau John Gibson ei hun mewn llythyr a anfonodd efe at foneddiges Wyddelig, yn y flwyddyn 1861, yn yr hwn y dywed, "nad oedd efe na Sais, Ysgotyn, na Gwyddel; ond mai Conwy oedd ei le genedigol,—Cymru ei rieni,—a'i fod wedi ei eni yn agos i'r Castell." Ond wrth ystyried mai siarad ag estroniaid yr oedd, am ei genedl ac ardal ei enedigaeth, y mae yn amlwg nas gallasai, heb orfanylwch, wneyd yn well na dyweyd mai Cymry oedd ei rieni, ac mai yn Nghonwy y ganwyd ef; gan olygu wrth hyny, nid y dref, na'r plwyf, ond cymydogaeth Conwy, gan ystyried fod Conwy a'r Castell yn adnabyddus, ac yn ganol-bwynt gwlad.

Dywedir bod bywgraffiad John Gibson ar gael,—wedi ei ysgrifenu gan Mr. Hay, o enau Gibson ei hun; eithr bu y celfyddydwr a'r ysgrifenydd farw. cyn ei roddi allan i'r byd, ond gobeithir nad ydyw wedi ei golli.

Nid oes gan hyny ond darnau annghyfunol o'i hanes ar gael, na braidd ddim o hanes ei ieuenctyd, ond a ellir gasglu oddiwrth hanesyn a arferai efe adrodd yn fynych am dano ei hun, yr hwn hefyd a adroddodd efe i'w Mawrhydi Victoria, pan unwaith yn cymeryd delw o honi:—"Pan yr aethum gyntaf i wydd y frenhines," meddai, "prin yr ynganodd hi air wrthyf, ond eisteddodd i lawr yn ddystaw i mi gymeryd y cynllun o honi; ond o dipyn i beth, hi a dynodd ymgom a mi yn nghylch y ffug-chwedlau Groegaidd. Adroddais wrthi, ar ei dymuniad, am "Theseus yn lladd y lleidr," yr hon ddelw oeddwn yn gweithio arni cyn dyfod o Rufain, ac yn nghanol y chwedl, hi a chwarddodd yn galonog. Wedi hyny,

Digitized by Google

dywedais wrthi 'Madam, yn lleidr y'm ganwyd inau.' 'Yn lleidr! Mr. Gibson!' 'Ie, eich Mawrhydi. Pan oeddwn yn blentyn, aethum i shop, a lladratais afal, ac fel yr oeddwn yn myned ar hyd yr heol dan ei fwyta, daeth fy mam i'm cyfarfod, a gofynodd yn mha le y cefais yr afal, dywedais inau mai gan hen wraig y shop; yna hi am cymerodd yn fy ol yno, ac wedi darganfod y twyll aeth a mi adref, gan gadw perffaith ddystawrwydd nes daeth fy nhad oddiwrth ei orchwyl. Wedi iddo gael ei hysbysu o'r trosedd, efe am ceryddodd yn dost; yna darllenodd benod o'r Beibl, a gweddiodd droswyf. Gadawodd y cerydd argraff annileadwy ar fy meddwl, ac ni ladratais byth mwyach." "Wel, Mr. Gibson," meddai y frenhines, wedi gwrandaw yr hanesyn, "llawer o ddrwg a ddaeth o fwyta y ffrwyth gwaharddedig."

Dywed yr engraifft uchod lawer am uniondeb moesol, a chymeriad crefyddol, rhieni John Gibson, a phwy wyr pa mor ddyledus iddynt hwy yr oedd, am y cywirdeb hwnw ag oedd yn fath addurn i'w gymeriad ar hyd ei oes.

Tua'r flwyddyn 1800, ymadawodd William Gibson a'i deulu ag ardal Conwy, gan fwriadu ymfudo i America. Ond un noson yn Liverpool, pan ar gychwyn i'r fordaith, breuddwydiodd ei wraig ryw freuddwyd annymunol, yr hwn a esboniwyd ganddynt fel rhybudd am beidio anturio yn mhellach. Penderfynodd hyn eu tynged i drigo yn Liverpool, cymerasant dŷ yn *Garden Lane*, ac yno y magasant eu tri mab, John, Solomon, a Benjamin.

Ymddengys fod John wedi dangos tuedd at dynu lluniau cyn iddo ymadael o Gymru, a'i fod yn fynych i'w weled yn boddhau y duedd hono, trwy dynu llun gwyddau, a cheffylau, &c., gyda phin careg ar ysgriflech ei dad; ond wedi dyfod i Liverpool, cafodd faes newydd, a mwy cydweddol a'i chwaeth, yn ymagor o'i flaen; safai mewn rhyw edmygedd anrhaethadwy gyferbyn a'r darluniau cang ac addurnol a welai yn ffenestri masnachdai, wrth fyned a dyfod o'r ysgol, myfyriai arnynt gyda'r angherddoldeb serch hwnw ag sydd yn nodweddiadol o athrylith, ac argraffai eu delweddau ar ei feddwl, fel y gallai eu trosglwyddo ar bapyr ar ol myned adref.

Erbyn hyn yr oedd wedi dyfod i raddau o enwogrwydd yn mhlith ei gyd ysgolheigion, i ba rai yr arferai efe werthu ei frasluniau am ychydig geiniogau, a chydag un o ba rai y cafodd efe yr hyn a alwai ei *first commission*. Dymunai un o'i gyfoedion arno gopio iddo ddarlun *David*, o "Napoleon yn croesi yr Alpau," er addurno ei Feibl ag ef. Pa gymdeithasiad meddylddrychau a arweiniodd i ddewisiad y fath ddarlun i'r fath amcan a hwnw, y mae yn anmhosibl dyweyd; ond gorphenodd Gibson y gwaith, a derbyniodd chwe cheiniog yn dâl am dano, yr hyn a ymddangosai iddo ef yn ormod o lawer, a mynai wrthod ei dderbyn. Yr oedd erbyn hyn yn 14oed, a holl feddylfryd ei galon oedd bod yn arlunydd; ond ni feddai ei dad foddion i'w ddwyn i fyny i'r grefft hono, felly rhwymwyd ef gyda Mr. Southwell, Duke St., yn egwyddorwas o Wneuthurwr Dodrefn. Ond er iddo gael ei rwymo i ddysgu crefft ag oedd yn wrthwynebol i'w dueddiadau, eto ei dalent i ddelweddu, a amlygai ei hun yn y cyfan a wnelai, fel y synai ei gydweithwyr, a'i feistr at ei fedrusrwydd yn trin cŷn y cerfiwr, ac yn medru troi allan ddail, blodau, a ffrwythau, mor ffyddlon i natur a phe buasent wedi tyfu ar y coed.

Ymledodd ei glod yn fuan trwy y dref, ymgyrchai lluaws i'r gweithdy i weled cywreinrwydd yr egwyddorwas, ac yn eu plith Thomas Francis, *monumental sculptor*,—a gwr enwog yn ei gelfyddyd, yr hwn wedi deall mai awyddfryd calon Gibson oedd ymgyrhaedd at bethau uwch na cherfio addurniadau i ddodrefn, a dalodd 70*p*. i Mr. Southwell, am ei ollwng yn rhydd o'i ymrwymiad, ac a'i cymerodd i'w weithdy mynor, yn Brownlow Hill. Gyda pha fath yni y gweithiai efe ar y defnydd, ar ba un yr oedd ei enwogrwydd i gael ei adeiladu, efe a arferai yn fynych, yn ei flynyddoedd dylynol, ddysgrifio i'w gyfeillion gydag afiaith. Yr oedd y pryd hwn yn dechreu ymarfer i ddelweddu ar bapyr, feddylddrychau o'r Beibl, Milton, a phrif-feirdd Groeg, a Rhufain, y mae un nodedig o'r delweddau hyn, yn nghadw yn y *Royal Institution*, Liverpool; a daeth yn fuan yn alluog i'w delweddu mewn clai, a'u cerfio mewn mynor—gallu na welwyd ei gyffelyb o'r blaen yn ngweithdy ei feistr. Y mae yn debyg y buasai Gibson yn gorfod aros yn ngweithdy Mr. Francis, yn Liverpool, lle y buasai yn dyfod yn dra enwog yn ei gelfyddyd; ond buasai ei athrylith felly yn cael ei chyfyngu yn unig i addurno prif eglwysi a mynwentydd, yn lle cynyrchu y creadigaethau anfarwol, a pha rai y mae wedi synu y byd, oni buasai i law goethedig, a phryd hwnw, gyfoethog, Thomas Roscoe, yr Arianydd, awdwr "*Lorenzo de Medici, a Leo X.*," gymeryd gafael ynddo, a'i osod ar ben y ffordd i Rufain,—ac anfarwoldeb. Yr oedd gan Thomas Roscoe lyfrgell annghyffredin, yn nghyda chyfoeth mawr o weithiau celfyddyd, heb eu cyffelyb yn y deyrnas. Pan ganfu efe athrylith y llanc, ynghyd a'i benderfyniad i fyned rhagddo, efe a'i gwahoddodd i'w dŷ, agorodd ei lyfrgell iddo, a chyfeiriodd ef i ymgydnabyddu â phrif weithiau athrylith yr oesoedd. Gan Roscoe hefyd, cyflwynwyd ef i Mrs. Lawrence, a chanddi hithau drachefn, i'w brawd, General D'Aguilar, a'i chwaer Mrs. Robinson. Felly o gymdeithas y ceryg naddwyr, cafodd Gibson ei hun ar unwaith mewn cymdeithas oleuedig, ac uchel-ryw; ac yn hinsawdd gydweddol eu cyfeillgarwch, ymagorodd ei athrylith, ac fe allai mai dyma yr adeg y cafodd ei gyfeirio at y Gelfyddyd Roegaidd. Wedi sicrhau adnabyddiaeth a'r fath gymdeithas ragorol, gallasai aros yn Lloegr, a sicrhau iddo ei hun gell yn nheml anrhydedd, a chymellid ef gan lawer i ymsefydlu yn Llundain; ond Rhufain oedd breuddwyd ei ieuenctyd. Yr oedd llaw anweledig fel yn amneidio arno am fyned yn mlaen i'r Ddinas Dragywyddol, a breuddwyd gwirioneddol, yr hwn a roddwn yma yn ei eiriau ei hun, a roddodd yni newydd yn ei ddymuniad angerddol.—"Mi a freuddwydiais," meddai, "fy mod yn cael fy nghludo trwy yr awyr ar edyn eryr, ac yn teithio gyda chyflymdra mawr. Ar ol ymddyrchafu yn uchel iawn, gollyngwyd fi i lawr yn ddisymwth i ganol dinas, a'r dorf a ymgasglodd o'm hamgylch, a ddywedent fy mod yn Rhufain."

Er nad oedd y breuddwyd, yn ddiau, ond effaith ei awyddfryd mawr ef, eto yr oedd yn brophwydol yn ei holl fanylion. O hyny allan, ni phetrusai am eiliad; Rhufain oedd yn ei holl feddwl, a daeth ei gyfeillion goleuedig yn mlaen, a ffurfiasant cydrhyngddynt bwrs, yr hyn, yn nhymor ei lwyddiant, a fwriadasai Roscoe wneuthur ei hun; ac wedi cael amryw o lythyrau cymeradwyaeth, ac yn eu plith un oddiwrth General D'Aguilar at yr enwog Canova, efe a gychwynodd i Rufain, a chyrhaeddodd yno yn Hydref 1817.

Digitized by Google

Canova, wedi darllen ei lythyrau, ac edrych dros ei ddelweddau, a brophwydodd ei lwyddiant, ac a'i derbyniodd i'w *studio*, fel un o'i ddysgyblion. Gwahoddodd ef hefyd i'w ysgol nos, lle y cawsai gyfleustra i efrydu ei gelfyddyd oddiwrth fywyd. Daeth ef a'i feistr yn gyfeillion mawr yn fuan; ac un tro, dywedai Canova wrtho,—"Yr wyf yn gwybod nad aml y mae pwrs dyn ieuanc yn cael ei lenwi yn rhy dda; felly rhaid i chwi ganiatau imi gyflenwi eich diffygion." "Mi a ddiolchais iddo," meddai Gibson, "ond gwrthodais;—Do, mi a wrthodais, oblegyd yr oeddwn wedi penderfynu gwneyd y cwbl droswyf fy hun." Fel engraifft o'r diffyg gallu i werthfawrogi chwaeth a theimlad, sydd yn nodweddu llawer o'r segurwyr sydd o bob gwlad yn ymweled a *studios* Rhufain yn ystod y tymor, noda Gibson am nifer o Saeson, a ymwelent un diwrnod â'r ystafell lle yr oedd ef yn gweithio,—"Ni wyddent fy mod i yn gydwladwr iddynt; ond wedi fy ngwylio dros ryw hyd, ebe un o honynt. 'Y fath greadur annghelfydd yw hwn!' Ni wnaethum ond chwerthin," ychwanegai y celfyddydwr.

Dros ba hyd yr arosodd Gibson yn Efrydfa Canova, nid yw yn hysbys; ond yr oedd, ar anogaeth ei feistr, ac addewid am ei nawdd, wedi cymeryd ystafell ei hun, rywbryd cyn 1821, pan yr ymwelwyd ag ef un boreu gan Ddug Devonshire, tra yr oedd yn delweddu ei *group* o *Mars and Cupid;* boddhaodd y Dug mor fawr, fel y rhoddodd iddo archeb am dani. "Ond yr oedd ei bris mor isel," medd y cerfiwr, "fel na enillais gwpanaid o goffi oddiwrthi." Er hyny y gwaith hwn oedd sylfaen ei lwyddiant, ac yr oedd wedi dyfod yn lled enwog erbyn 1822, pan fu farw Canova, ei "feistr anrhydeddus," a'i "*Psyche borne away by the Zephyrs,*" wedi dyfod yn destyn edmygedd cyffredinol, yr hon sydd yn awr yn addurno palasau Syr George Beaumont, Tywysog Torlonia, ac Ymerawdwr Rwsia. Ond er ei enwogrwydd, "*Excelsior*" oedd ei arwyddair; ac ar ol marwolaeth ei athraw, ni thybiodd yn iselhad iddo fyned yn ddysgybl am dymor o dan Thorwaldsen —y Cerfiwr Daenaidd enwog. Yr oedd arddulliau y ddau athraw hyn—Canova a Thorwaldsen, bron yn gyferbyniol. Y tlws, y prydferth, a'r anwyl, sydd yn nodweddu arddull Canova; ond y mawreddog, yr ardderchog, a'r synfawr, arddull Thorwaldsen. Yn ystod bywyd y sculptor mawr hwn y tynodd Gibson ddelweddiad y gwaith yr oedd yn gynllunio pan rhoddodd angau atalfa ar ei law,—"Theseus yn lladd y lleidr." Yr oedd Thorwaldsen yn ei edmygu yn fawr, ac yn ei anog i'w weithio allan mewn mynor; ond yn ofer! Efe a barhaodd i wledda ar y meddylddrych, a breuddwydio uwch ei ben, hyd yn agos i'w fynydau olaf; ac fel pob athrylith mawr, gorphenodd ei yrfa cyn gorphen ei waith.

Ni chaniata gofod i olrhain ei orchestion yn Rhufain, na gwneyd nemawr o sylwadau arno fel Cerfluniwr; ond gallwn nodi, o'r flwyddyn 1826, pan fu farw Flaxman, y sculptor Prydeinig, mai John Gibson, a'i athraw, Thorwaldsen, a ystyrid y ddau flaenaf yn y byd; ac wedi marw Thorwaldsen yn 1844, mai John Gibson a safai o hyny hyd ei farwolaeth, yr uwchaf a feddai Prydain, a'r byd oll.

Yn 1844, ymwelodd a Lloegr, yr hon a adawsai efe saith mlynedd ar hugain yn ol, yn ddyn ieuanc, —dienw, ond yn ymofynydd pryderus am deml anrhydedd; a'i gydymaith ar y daith hon, oedd ei gyfaill mynwesol, Penry Williams, yr enwog *Landscape Painter*, o'r Deheudir.

Bu y ddau yn westwyr i Mrs. Huskisson, gweddw y gwleidyddwr enwog; a thrwyddi hi cafodd Gibson ei gyflwyno gan Syr Charles Eastlake, llywydd y *Royal Academy*, i'w Mawrhydi Victoria; ac anrhydeddwyd ef ganddi, ag archeb am ddelw o honi ei hun yn ei llawn faintioli. Bob boreu wedi hyny, gwelid ef yn myned i Gastell Windsor, i gymeryd ei gynlluniau; efe a ddelweddodd y pen a'r corph oddiwrth y bywyd, yn Windsor, gan adael y gweddill i gael eu moldio gan gelfyddydwyr israddol; yna efe a ddychwelodd i Rufain, lle y gweithiodd y ddelw odidog o'n grasusaf Frenhines, yr hon a saif yn awr yn mhen y prif risiau yn mhalas Buckingham,—yn ddarlun ffyddlawn o Frenhines Lloegr, ac yn gofgolofn o dalent gelfyddgar, a chwaeth ddyrchafedig ei deiliad anrhydeddus.

Yn 1847, efe a ymwelodd eilwaith a Lloegr, gyda'r amcan y tro hwnw o ddewis y lle i osod i fyny ddelw Huskisson yn Liverpool, yr hon sydd yn awr mewn tri o wahanol leoedd, yn addurno dinas y tywysogion masnachol.

Ar orpheniad yr hon, mewn *bronze*, a saif wrth y Custom House, gwnawd gwledd rwysgfawr yn Neuadd y Dref, i groesawi Gibson, pan yr oedd Syr Robert Peel, ac amryw eraill o benaethiaid a dysgedigion y deyrnas, yn bresenol; ac fe allai mai dyma'r fynyd ddedwyddaf yn mywyd ein cydwladwr, tra yn eistedd yn ymyl prif weinidog y Frenhines, ac yn cael amgylchu gan brif gyfoethogion y deyrnas, derbyniai yr anrhydedd ag oedd ddyledus i'w athrylith, yn y dref lle bu, pan yn fachgen, yn copio darluniau yn ffenestri y siopau.

O hyn allan, efe a ymweloedd a Lloegr bron yn flynyddol. Cafodd archeb gan ei Mawrhydi am ddelw arall o honi, ac un arall i'r genedl, yr hon a ystyrir yr oreu o'r Frenhines, ac a saif yn awr yn Neuadd Westminster.

Pan ymwelodd a Lloegr yn 1863, yr oedd cwmwl du wedi taflu ei gysgod dros y teulu breninol; er hyny y Frenhines, yn ol ei charedigrwydd arferol, a'i gwahoddodd ef i Osborne, a bu yno am rai diwrnodau, yn cael ei groesawi ganddi fel cyfaill neillduol; cymerodd ef drwy ei phalas, gan ddangos iddo yr holl drysorau yn y celfau cain ag oedd ganddi yn ei meddiant. Ar un o'r achlysuron hyn, Mrs. Bruce, gweinyddes ei Mawrhydi ar y pryd, a ofynodd i Gibson, yn mha flwyddyn yr aethai efe i Rufain. "O! Mrs. Bruce," oedd yr ateb, "gwelaf mai ceisio cael allan fy oedran i yr ydych, ac y mae hyny yn gyfrinach; y mae fy ngwallt yn britho, ond ni ddywedaf fy oed i neb, yn enwedig i foneddigesau— na wnaf, byth i foneddigesau!" Tynodd yr atebiad rywbeth mwy na gwên.

Yr oedd tawedogrwydd Gibson ar y pwynt hwn yn nodedig, ac yn ddigon adnabyddus yn mhlith ei gyfeillion, y rhai yn fynych a geisient daenu rhwyd o'i flaen, ond bob amser yn aflwyddianus.

Unwaith, ymwelodd cydwladyddes ag ef ar ol maith absenoldeb, pryd y sylwodd eu bod ill dau yn tynu yn hen. "Ni wn i ddim am Henaint nac Angau," atebai yntau. Ni wyddai am henaint, gan iddo weithio hyd y diwrnod olaf, ac wedi ymddadebru oddi wrth ergyd cyntaf y parlys, efe a edrychodd ar y clai o'i flaen, a dywedodd, "Yn awr yr wyf yn teimlo y gallwn i ddelweddu eto." Ac ni wyr am angau, oblegyd mae ei gynnyrchion yn anfarwol.

Digitized by Google

Ychydig o gelfyddydwyr yr oesau diweddaf a gawsant gymaint o anrhydedd yn eu bywyd a Gibson. Mwynhaodd gyfeillgarwch penau coronog, ac uchelwyr y byd gwareiddiedig. Napoleon III. a'i anrhegodd ef ag urdd *Chevalier of the Legion of Honour;* y Brenin Ludwig o Bavaria, a osododd ddelw o hono i fyny yn Glyptotheca Munich; Brenin Prwsia a'i anrhegodd ag urdd y *Full Merit;* Tywysog Cymru a'i anrhegodd â modrwy ddiamwnt yn cynwys ei ddarlun; a bu farw a *telegram* oddiwrth y Frenhines Victoria, yn ymofyn am ei iechyd, yn ei law. Hunodd yn Rhufain, Ionawr 27, 1866, tua 77 oed; a daearwyd ei weddillion yn y gladdfa Saesneg yn y ddinas hono.

Dywedai un a adwaenai Gibson yn dda, am dano,—"Yr wyf yn meddwl na fodolodd un dyn, wrtho ei hun, mewn cymdeithas, ac wrth ei waith, o feddwl mwy pur, diddichell, gwylaidd a dirodres, geirwir ac uniawn, ac ynddo symlrwydd plentyn, eto hollol annibynol a gwrol."

Fel prawfion o'r gosodiad uchod, nodwn engraifft neu ddwy,—Boneddiges Ysgotaidd a ofynai iddo unwaith, paham yr oeddynt hwy, y *sculptors*, yn gwneyd eu delwau bob amser yn noethion. "Madam, atebai yntau, "ein gogoniant ni yw efelychu creadigaeth harddaf Duw, yr hyn yw dyn; yn awr pe rhoddem ddillad am ein ffurfiau, efelychu y teiliwr a'r *milliner* y byddem. Nid wyf yn meddwl, Madam, y gall unrhyw un o feddwl pur, dderbyn syniadau anmhur wrth edrych ar y fath weithiau; ac mi a ystyriwn unrhyw foneddiges ieuanc, ïe, Madam, neu hen foneddiges, a edrycho ar y rhai hyn heb droi ymaith, lawer uwchlaw yr hon a gymero arni wrido. Am danaf fy hun, yr wyf yn edrych ar ddelw noeth brydferth, heb y teimlad lleiaf o anlladrwydd." Efe yw yr unig un yn yr oesoedd diweddaf, a anturiodd liwio ei ddelwau, er mwyn rhoddi iddynt agwedd o deimlad a gwresogrwydd cnawd. Saif ei Venus Liwiedig, yn ddigymar er dyddiau y *sculptors* Groegaidd. Ni ymddarostyngodd erioed i aberthu ei farn a'i chwaeth, er boddhau ei gefnogwyr.

Derbyniodd archeb am ddelw *Pandora*, gan Duke —— ar y telerau ei fod i gyfnewid rhyw nodweddau yn ol awgrymiadau y prynwr.

Gorphenodd Gibson y ddelw; ond pan welodd y duke, er ei syndod, nad oedd ei awgrymiadau ef wedi cael gweithredu arnynt, "Beth! Mr. Gibson," ebai ei Raslonrwydd, "yr ydych yn selog iawn dros eich barn eich hun." "Ydwyf, eich Graslonrwydd," oedd yr atebiad, "yr ydwyf mor ystyfnig a Chymro, oblegyd Cymro ydwyf, ac ni fedraf wneyd cyfnewidiadau." Gyda llaw, arddelwai Gibson ei hun yn Gymro, pa le bynag y byddai; a dywed Robert Herbert Williams (*Traethodydd, Ebrill,* 1866) ei fod ef wedi bod yn siarad yn Gymraeg ag ef yn y *Mechanics' Institution*, Liverpool, yn 1844; a'i fod yn siarad cystal Cymraeg a phe na buasai wedi bod yn byw awr erioed o fynyddoedd Arfon,—"Pan aethum i'r *Sculpture Gallery*, yr oedd efe yn syllu yn fyfyriol a phenodol ar un o'r cerfluniau, torais ar ei fyfyrdod trwy ofyn mewn llais eglur,—'Mr. Gibson, a allwch chwi siarad Cymraeg ar ol bod gymaint o flynyddau yn Rhufain?' 'Siarad Cymraeg!' meddai, 'Siarad Cymraeg! medraf yn dda ddigon. Ai Cymro ydych chwi?'" Pan ddeallodd mai ïe, ysgydwodd law yn wresog. "Cymraeg! meddai drachefn, 'ni chollais i mo iaith fy mam eto, er mai dyma y tro cyntaf i mi ei chlywed er pan ymadawais o Liverpool.'"

Mor bell ag y mae cymeriad uchel, ac athrylith anfarwol, yn myned, llewyrchodd John Gibson anrhydedd, nid yn unig ar ei wlad a'i genedl, ond hefyd ar y ddynoliaeth; trwy brofi fod modd i fachgen ieuanc, tlawd, weithio ei ffordd i fyny trwy bob anhawsderau, cael ei gydnabod, a'i werthfawrogi yn ei fywyd, gan ddosbarth uwchaf cymdeithas, a thori ei enw yn nheml anrhydedd dros byth.

Yn ei ewyllys, dyddiedig Mawrth 25, 1855, efe a adawodd i Penry Williams, 500*p.*; William Theed, 400*p.*; Benjamin Gibson, ei gefnder, 200*p.*; Mr. Dessoulavy, 100*p.*; Giuseppe Incoronata, 100*p.*; Giuseppe Bonomi, 200*p.*; Mrs. Anna Jameson, 200*p.*; Solomon, ei frawd, 100*p.*; gan ei fod cyn hyny wedi prynu iddo flwydd-dal o 100*p.* Gadawod ei lyfrau a'i bapyrau i Spence, ei ddysgybl; a'i gynlluniau, pa un bynag a'i wedi eu tynu ganddo ei hun, a'i gan eraill, i'r Royal Academy. Trwy *codicil*, dyddiedig Mai 26, 1865, gadawodd hefyd i'r Royal Academy ei holl weithiau anorphenedig mewn *gesso* a mynor, yn nghyda'r swm o 32,000*p.*, yn rhydd o doll, ar y telerau bod y Cyngor yn darparu gofod priodol i gynwys ei foldiau, &c. Yn ystod ei selni, ychwanegodd *codicil* arall at ei ewyllys, drwy yr hwn y gadawodd 200*p.* i bob un o'r ddwy gyfeilles a wasanaethent arno yn ei selni, Mrs. Spence, a Miss Lloyd, wrth un o ba rai y dywedai, gyda llais gwanaidd,—"Y mae yn rhywbeth cael bod yn sâl, i gael fy maethu genych chwi.;" 200*p.* i'w i Baini, ei hen weithiwr; a 200*p.* i'w hen was.

Y mae y rhestr ganlynol o'i weithiau, wedi ei hysgrifenu ganddo ef ei hun:—"Rhestr o'r Gweithiau a wnawd mewn Mynor, gan John Gibson, R.A., gan ddechreu gyda'r flwyddyn 1818.

DELWAU.

1. Group o Mars a Cupid, yn meddiant ei Raslonrwydd Duke Devonshire.
2. Delw o Paris, yn meddiant George Watson Taylor, Ysw.
3. Group o Psyche yn cael ei gario ymaith gan y Zephyrs, yn meddiant Syr George Beaumont.
4. Un arall, i'w Fawrhydi, Ymerawdwr Rwsia.
5. Un arall i Dywysog Torlonia, Rhufain.
6. Delw o'r Bugail yn Cysgu, yn meddiant Arglwydd G. Cavendish.
7. Un arall i'w Raslonrwydd Duke Northumberland.
8. Un arall i Mr. Lennox, New York, America.
9. Delw o Cupid, i Syr Watkin Williams Wynn, Gogledd Cymru.
10. Delw o Cupid yn tynu Saeth o'i Gawell i archolli Glöen byw, yn meddiant Arglwydd Selsey.
11. Un arall i Richard Yates, Ysw., Liverpool.
12. Un arall i R. Holford, Ysw., Llundain.
13. Delw o Cupid yn ymffugio yn Fugail, yn meddiant Syr J. Johnstone, Bart.
14. Un arall i Ymerawdwr Rwsia.
15. Un arall i Syr Robert Peel.
16. Un arall i —— Collingwood, Ysw.
17. Un arall i —— Appleton, Ysw., Boston, America.
18. Un arall i Lord Crewe.
19. Un arall i —— Alleson, Ysw., Liverpool.
20. Un arall i —— Farnham, Ysw., Philadelphia, America.
21. Delw o Nymph yn eistedd wrth y Bâdd, yn meddiant Arglwydd Yarborough.
22. Group o'r Heliwr a'i Gi, yn meddiant Henry Sandbach, Hafodun-nos, Gogledd Cymru.
23. Un arall i Arglwydd Yarborough.
24. Delw o Young Dancing Girl in Repose, i Count Schonburg, o Bavaria.
25. Group o Hylas and two Nymphs, i R. Vernon, Llundain.
26. Delw o Sappho, i Paterson Ellams, Liverpool.
27. Delw o Flora, yn meddiant Iarll Durham.
28. Un arall i Mr. Alleson, Liverpool.
29. Delw o Narcissus, yn meddiant Arglwydd Barington.

Digitized by Google

30. Un arall i Mr. Fort, Manchester.
31. Un arall i Mr. Errington.
32. Un arall yn anrheg i'r Royal Academy, Llundain.
33. Delw o Proserpine, i Mr. Ablet, Gogledd Cymru.
34. Un arall i Dwarkanath Fagon.
35. Delw o Venus, yn meddiant Mrs. Preston.
36. Un arall i Jos. Neeld.
37. Un arall i Marquis of Sligo.
38. Un arall i Mr. Uzielli, Llundain.
39. Delw o Amazon Archolledig, i Marquis of Westminster.
40. Delw o Aurora i Henry Sandbach, Hafodun-nos, Gogledd Cymru.
41. Un arall i D. Henry.
42. Delw o Pandora, i Lady Marianne Alford.
43. Un arall i Mr. Penn, Llundain.
44. Delw o Bacchus, i Arglwydd Londonderry."

Er fod y Rhestr uchod yn llaw ysgrif Gibson ei hun, nid yw yn gyflawn, gan nad yw yn cynwys ei ddelwau o Victoria, yn nghydag o amryw eraill; ei basso-relievos, yn cynwys "Crist yn gwahodd Plant Bychain," "The Hours leading the Horses of the Sun," "Phœthon driving the Chariot of Phœbus," a "Marwolaeth Mrs. Sandbach;" yn nghyd ag amryw o *busts.* A gellir nodi hefyd gerfddelw Stephenson sydd yn yr *Exchange*, Llundain. Ond ymddengys nad oedd efe am gydnabod yn Rhestr ei Weithiau, ond ei greadigaethau clasurawl; er hyny, mae y rhai a adawodd allan yn meddu digon o elfenau bywyd, i anfarwoli unrhyw gerf-luniwr.

**GILBERT**, mab Cadgyffraw, ydoedd benaeth yn y 6ed ganrif. Cofnodir ef yn y *Trioedd*, gyda Morfran ab Tegid a Gwgan Gleddyfrudd fel "Tri Ysgymydd Aerau Ynys Prydain." (*Myf. Arch.* ii. 6.)

**GILDAS**, mae cymaint o dywyllwch yn gorwedd ar wir hanes y person hwn ag sydd yn ymddangos mor fynych mewn hanesyddiaeth a chwedlau Cymreig, fel ag y mae yn hollol anobeithiol i neb feddwl ei chwalu. Cyfaddefa Stevenson yn ei ragymadrodd i'w argraffiad o waith Gildas yn y Lladin, ei "fod yn analluog i siarad gyda sicrwydd am ei rieni, ei wlad, ei enw, yr amser yr oedd yn byw, na'r gweithiau a gyfansoddodd:" ac y mae Giles yn cymeryd hyna yn ddigon o reswm dros beidio anturio dyweyd dim ar y pwnc. Dywed haneswyr diweddar fod rhagor nag un Gildas, y rhai a alwant yn Gildas Albanius, Gildas Sapiens, Gildas Badonicus, Gildas Historicus, Gildas Cambrius, Gildas Quartus, &c.; a myn rhai mai gwahanol enwau ydyw yr uchod ar *ddau* berson, y rhai a wahaniaetha Cressy wrth yr enwau, "Gildas yr hynaf a gyfenwir *Albanius*, a Gildas yr ieuangaf a gyfenwir *Sapiens*." Ond er hyny dywed bod y ddau yn gyfoeswyr, a phriodola yr un cymeriad iddynt; bod y ddau wedi marw yn y flwyddyn 581, ac yn cael eu coffâu yn y Merthyriaethau Saesneg a Galaidd ar yr un diwrnod. (*Church History*, xi. b. iii.; xii. x.)

Awgrymodd Dr. Owain Pughe, ac Iolo Morganwg, mai yr un oedd Gildas ag Aneurin Gwawdrudd. Eu rhesymau dros y dybiaeth oedd:—Bod Aneurin a Gildas yn cael eu cyfrif yn yr *Achau* yn mhlith meibion Caw o Brydyn, ac nad yw y ddau byth yn cael eu henwi yn yr un restr, oblegyd lle byddo Aneurin yn cael ei alw yn fab Caw, nid oes son am Gildas, a phan rifir Gildas yn mhlith meibion Caw, nid oes son am Aneurin; heblaw hyny, nad yw Gildas ond cyfieithad Saxonaidd o Aneurin, yr hyn oedd arferiad tra chyffredin yn y canoloesoedd; ac hefyd yr amrywiol ffyrdd yn mha rai yr ysgrifenir yr enwau—Gilda, Gildas y Coed Aur, Aur y Coed Aur, ac Aneurin y Coed Aur, ydynt enwau cyfystyr Hefyd, gelwir Cenydd, yn yr *Achau*, yn fab Gildas ab Caw, a gelwir Ufelwyn yn fab Cenydd ab Aneurin y Coed Aur. Y mae yn eglur gan hyny bod casglwyr yr Achau yn ystyried mai yr un person oeddynt; ond nid oes un cyfatebiaeth rhwng yr hanes a adroddir am y ddau, na'r cysgod lleiaf o debygolrwydd rhwng anianawd y gweithiau a briodolir iddynt, megys ag y cyfaddefa pob un a ddarlleno *Ododin* Aneurin, a "Gweithiau Gildas, a gyfenwir *Sapiens*." Hynyna am awdurdod yr *Achau*.

Tybia rhai mai gwaith y Gildas Cymreig ydyw yr *Historia* sydd yn ngwaith *Nennius*, yr hwn sydd *Gronicl* yn ymestyn o Adda hyd farwolaeth St. Patrig; ac nad yw y gwaith a elwir ar enw Gildas, ond cynyrch nwydau drwg rhyw Fynach Pabaidd, yr hwn a farnodd yn ddoeth i dadogi ei felldithion ar y Cymry i Gildas. Ond nid oes i'r ddamcaniaeth hon eto well sail na thebygoliaethau, yn nghyda'r ffaith bod yr *Historia* yn ngwaith *Nennius* yn cael ei phriodoli yn bur foreu i Gildas.

Buasai yn hawdd ini lanw amryw dudalenau yn ddifudd wrth grynhoi hyd yn oed sylwedd yr hanes a adrodda y Mynachod am Gildas; megys ei fod yn fab Caw, brenin Albania—iddo gael ei gysegru o'i ieuenctyd i lenyddiaeth—bod am saith mlynedd mewn ysgol yn Gal—dyfod oddi yno yn rhyfeddod y byd,—ymroddi i fywyd Mynachaidd o'r fath dostaf—cymeryd teithiau pregethwrol trwy holl Brydain—cyflawni gwyrthiau rif y gwlith—gwneyd i Arthur syrthio ar ei fai am ladd Hueil, ei frawd—bod yn athraw am flwyddyn yn ngholeg Cattwg—ymneillduo i Ynys Echni, i arwain bywyd meudwy—ffoi oddi yno rhag ofn morladron, a dyfod i Ynys Wydd-ddrain, lle yr ysgrifenodd efe ei hanesiaeth, "De Regibus Britanniæ," ac yn y diwedd y bu farw, ac y claddwyd ef yn yr hen Fynachlog. Ond yr anffawd yw, y mae y fath gyfrywiaeth rhwng bucheddau yr holl saint a ddaethant allan oddi tan ddwylaw Mynachod segur yr oesau tywyll, fel, ar ol darllen un o honynt, nad yw y gweddill, na difyr na doniol.

**GILWERN** (Y), gorsaf rheilffordd yn agos i'r ffin, rhwng Swydd Fynwy a Chymru; ar reilffordd y Merthyr, Tredegar, a'r Fenni; 4½ milldir i'r Gorllewin Dde Orllewin, o'r Fenni.

**GIRALDUS CAMBRENSIS**, yr hwn a elwir felly oddiwrth ei wlad frodorol, a anwyd yn nghastell Maenor Byr (Banorbeer) ger Dinbych y Pysgod, swydd Benfro, yn y flwyddyn 1146. Hanai o du ei dad o'r barwniaid Normanaidd, a ganlynasant y Gorchfygwr i'r wlad hon, ac o du ei fam, o bendefigion Deheubarth.

Un o'r penaethiaid Normanaidd a ymsefydlodd yn yr ardal hon, ac a adawodd i'w deulu enw a gymerasai efe oddi wrth Ynys Barri, ar dueddau Morganwg. William de Barri, pen y teulu hwn yn amser y brenin Stephan, ydoedd arglwydd Castell Maenor Byr, ac a ymgysylltodd trwy briodas ag un o'r teuluoedd hynotaf yn Nghymru. Yr oedd gan Rhys ab Tewdwr ferch o'r enw Nest, enwog am ei glendid, a rhinweddau eraill, yr hon a fu yn orddercwraig i Harri I., ac a ymddug iddo ei fab enwog, Robert, iarll Gloucester, ond wedi hyny hi a briododd Gerald de Windsor, castellwr Penfro. O'r briodas hon y deilliodd tylwyth enwog Fitz-gerald. Y William de Barri a enwyd uchod, a briododd Angharad, merch Gerald de Windsor a'r

Digitized by Google

dywysoges Nest, felly yr ymgymysgodd teuluoedd Barri, Fitzgerald, a thywysogion Deheubarth. Giraldus Cambrensis ydoedd fab ieuangaf William de Barri, ac Angharad; a galwyd ef yn ddiameu yn Gerald, ar enw ei daid, castellwr Penfro, ac adwaenir ef yn fynych dan yr enw GIRALDUS DE BARRI, ond Giraldus Cambrensis y galwai efe ei hun.

Yn ei hanes o "Orchfygiad Iwerddon" gan ei gefnderwyr, dywed bod uniad gwahanol deuluoedd mor enwog yn ei deulu ef, wedi enyn eiddigedd y brenin Harri yn eu herbyn; a safodd y cyfryw eiddigedd ar ei ffordd yntau i gael dyrchafiad i gadair St. Dewi ar hyd ei oes, er mai hyny ydoedd uchelgais ei fywyd. Bydd cadw y ffaith uchod mewn golwg, yn esboniad ar anffodion ei oes, ac yn agoriad i lawer brawddeg yn ei ysgrifeniadau.

Ymddengys oddiwrth ei dystiolaeth ei hun, fod ei dueddiadau crefyddol wedi ymagor yn foreu, yr hyn a arweiniodd ei dad i'w alw "ei esgob bach," a phenderfynu ei ddwyn i fyny i'r eglwys. Ymddiriedwyd ei addysg i ofal ei ewythr, David Fitzgerald, esgob Ty Ddewi, gyda'r hwn yr arosodd hyd nes oedd yn ugain oed, ac wedi cyfansoddi ei waith Lladin gwyryfol—"*Metrica Cosmographia*"—yr hwn sydd yn aros yn ei lawysgrif; a phan yn 23 oed, yn ol arfer yr oes, efe a symudodd i Paris, i orphen ei addysg, lle yr arosodd am dair blynedd, gan ymenwogi wrth draddodi darlithiau ar ieitheg a llenyddiaeth gyffredinol, a chael ei nodi allan gan ei athrawon, fel esiampl i'w gyd-ieuenctyd. Dychwelodd i Loegr yn 1172, a gwnawd ef yn ganon Henffordd, a pheriglor Chesterton, swydd Rhydychain; er hyny yn Nghymru y trigai, lle y cynhyrfwyd ei ysbryd wrth weled afreoleidd-dra a llygredigaethau esgobaeth Ty Ddewi.

Dygodd gŵyn yn eu herbyn ger bron archesgob Caergaint, yr hwn a'i penododd yn ddirprwywr, i ddiwygio y camdrefniadau eglwysig yn Nghymru. Wedi ei arfogi a'r awdurdod hon, efe a lwyddodd drwy esgymundod, a dysgyblaethau eraill, i ddwyn pethau i well agwedd, ond trwy hyny efe a wnaeth lawer o elynion. Trigai y pryd hwn yn Llanddew, ger Aberhonddu. Un o'r cymeriadau mwyaf gwarthus o anfoesol yn yr esgobaeth, oedd archddiacon Aberhonddu, yr hwn oedd yn byw, meddir, mewn anniweirdeb cyhoeddus; a chan ei fod yn gwrthod gwella ei fuchedd, diswyddwyd ef, ac fel rhyw gydnabyddiaeth am ei wasanaeth, penododd yr esgob, Giraldus yn ei le ef. Dygodd yr anrhydedd newydd hon iddo anhawsderau newyddion, wrth orchfygu pa rai, yn ol ei dystiolaeth ei hun, yr enillodd efe nerth ac enwogrwydd ychwanegol. Nodwn un engraifft, er dangos cyflwr yr amseroedd. Yr oedd eglwys Ceri, ar gyffiniau swydd Drefaldwyn i gael ei chysegru yn y flwyddyn 1176; hawliai Adam, esgob Llanelwy, yr anrhydedd o wneyd hyny, yr hyn hefyd a hawlid gan Giraldus, ar ran esgob Ty Ddewi. Wedi hir ymdaeru, cyfarfu y ddwy blaid yn mynwent Ceri, er profi eu hawl; ac am amser, yr oedd y cawodau o esgymundodau a melldithion a ollyngid o bob ochr, yn gadael yr ymrysonfa yn dra amheus. Ond o'r diwedd, Giraldus, wedi iddo gael meddiant o'r eglwys, a gymerodd afael yn y moddion a ddefnyddir mewn amgylchiadau cyffelyb, ac a sylweddolodd ei fygythion, trwy roddi tair tonc ar y clychau! Yr esgob a'i blaid, wedi eu taro a dychryn gan y swn cysegredig, a roddasant i fyny yr ymdrech, ac a ffoisant am eu heinioes, gan adael Giraldus mewn meddiant buddugoliaethus o'r maes. Yn mhen ychydig ar ol y fuddugoliaeth hon chwiban hon, bu farw ei ewythr, esgob Ty Ddewi, a dewisodd y Canonwyr Giraldus i fod yn olynydd iddo; eithr y brenin yn y geiriau canlynol a wrthododd gadarnhau ei benodiad:—"Nid doeth nac angenrheidiol ethol gwr mor onest ac ymroddgar i esgobaeth Ty Ddewi, gan y dichon i'r cyfryw ddewisiad droi yn niweidiol i brif esgobaeth Caergaint, ac hyd yn nod i goron Lloegr." Pan hysbyswyd i Giraldus eiriau y brenin, efe a ddywedd "bod y fath dystiolaeth yn fwy o anrhydedd iddo ef na'r esgobaeth oreu."

Yna Giraldus, yn flin ei ysbryd, a ddychwelodd i Paris, i ddilyn ei fyfyrdod mewn duwinyddiaeth a llenyddiaeth gain, neu yn ol ei eiriau ei hun,—"i adeiladu muriau y gyfraith eglwysig, ar sail llenyddiaeth a'r gwyddonau." Yn ol ei dystioliaeth ei hun, ymenwogodd yn fawr yn mhlith y Parisiaid ar gyfrif ei dalentau amryddawn, ond yn benaf, ar gyfrif ei hyawdledd; ac yn mhen tair blynedd, cynygiwyd iddo Gadair y Gyfraith Eglwysig yn y Brifysgol yno, yr hyn, pa fodd bynag a wrthododd; a hyny yn y gobaith, mae yn ddiau, bod Cadair Dewi yn ei ddisgwyl rywbryd yn ardal ei enedigaeth; canys y mae yn amlwg mai prif uchelgais ei fywyd oedd cyrhaedd esgobaeth Ty Ddewi.

Tu a'r flwyddyn 1179, efe a ddychwelodd i Lundain, lle y deallodd bod ei chwaer, a'i gwr, o herwydd rhyw annghydfod teuluaidd, ar y dibyn o gael eu hysgaru yn llys esgob Caerwynt. Cyrhaeddodd yno pan oedd yr ysgariad ar gael ei gyhoeddi, a rhoddodd ei bresenoldeb ef gyfeiriad newydd i'r gyngawsedd; oedodd yr esgob ei ddedfryd, a thrwy ymyriad deheuig Giraldus, daeth y pleidiau ymrysongar i heddwch a'u gilydd, a chawsant achos ar ol hyny, i fod yn wir ddiolchgar iddo am ei garedigrwydd.

Pan ddaeth i Gymru, cafodd esgobaeth Ty Ddewi mewn terfysg ac anrhefn arswydus, o herwydd bod y bobl wedi codi yn erbyn yr esgob, Peter de Leia,—Mynach o urdd Clugny, a llywydd Mynachdy Wenlock, swydd Amwythig; ond llwyddodd yr esgob i gael gan Giraldus i weinyddu yn ei le, ac i adferyd yr esgobaeth i drefn. Parhaodd i wasanaethu y swydd hon yn llwyddianus am dair neu bedair blynedd, pan yr ymadawodd mewn ffieiddiad o achos ymyriad diachos yr esgob ag amgylchiadau yr esgobaeth, trwy esgymuno, neu ddiswyddo, rhai o'r offeiriaid. Appeliodd yn ei erbyn at archesgob Caergaint, a llwyddodd i ddiddymu ei weithrediadau. Yn 1185, galwyd ef gan Harri II. i'w lŷs, yr hwn a'i penododd yn gapelwr iddo; ac yn y flwyddyn ganlynol, yn gydymaith i'w fab John i'r Iwerddon, i'r hwn y gwasanaethai fel ysgrifenydd a chyngorwr ymddiriedol. Tra yn aros yn Iwerddon, defnyddiodd y cyfleusdra i gasglu defnyddiau at ei ddau waith, ar hanesiaeth a pharthedigaeth y wlad hono; a phan gynygiwyd iddo yn olynol esgobaethau Ferns a Leighlin, ac archesgobaeth Cashel, efe a'u gwrthododd, o dan yr esgus ei fod yn analluog i gynnyrchu y diwygiadau angenrheidiol yn yr eglwys Wyddelig, a bod bywyd o dawelwch yn fwy cydweddol a'i dueddiadau. Ond er hyny, yn Ngrawys 1186, mewn cymanfa a alwyd gan archesgob Dublin, efe a draddododd araeth hallt ar fywyd anfoesol yr offeiriaid Gwyddelig; ac wedi hyny, dychwelodd i Gymru, lle y gorphenodd efe ei ddau waith llenyddol ar Iwerddon, y rhai, ar eu gorpheniad, a

Digitized by Google

ddarllenodd efe mewn tri diwrnod, gyda rhwysg a chymeradwyaeth mawr, ger bron prif ysgol Rhydychain, gan roddi gwledd fawreddog ar ddiwedd pob diwrnod;—y dydd cyntaf, i dlodion y ddinas; yr ail, i aelodau mwyaf urddasol y brif ysgol; ar trydydd, i'r holl aelodau israddol, y milwyr, a'r bwrdeiswyr. Yn fuan wedi hyn gwnaeth Harri, a'r archesgob, un o'r troion mwyaf cyfrwysgall yn eu hymwneyd a Chymru, a allid byth feddwl am dano. Yr oedd yn Nghymru deimlad cryf yn erbyn bod o dan lywodraeth grefyddol archesgob Caergaint; dadleuid henafiaeth yr esgobaeth Gymreig, a hawl y canonwyr i ethol eu hesgobion. Ond fel y gwelsom eisoes, yr oedd Harri wedi gwrthwynebu eu dewisiad o Giraldus, a hwythau wedi gorfod cymeryd Mynach Saesnig i eistedd yn nghadair Dewi; hwnw wedi gorfod ffoi am ei einioes rhag llid y bobl, a gorfod cael gwasanaeth Giraldus yn y diwedd, i ddwyn yr esgobaeth i drefn. Teimlai breninoedd Lloegr er dyddiau Harri I., neu yn gynt, mai y ffordd i ddarostwng Cymru o dan goron Lloegr, oedd trwy ddarostwng yr Eglwys Gymreig, o dan lywodraeth Caergaint; oblegyd yr oeddynt yn sicr o gymorth Rhufain i hyny, yr hon oedd, yn yr oes hono, braidd yn hollalluog. Gwyddid hefyd bod teimlad drwg iawn yn Nghymru tuag at yr archesgob, am ei fod yn gwthio iddynt esgobion estronol, ac yn gwrthod iddynt eu dewis-ddyn, Giraldus; ond yn y flwyddyn 1188, pan oedd Rhyfel y Groes yn cynhyrfu holl wledydd cred, a miloedd ar filoedd o ddewrion pob teyrnas yn ymrestru o dan y faner, i fyned allan i waredu y Bedd Sanctaidd o ddwylaw halogedig y Saraceniaid; gwelodd Harri a'r archesgob Baldwin, y buasai y pwnc hwnw yn debyg o gyfateb yn rhagorol i ysbryd brwdfrydig y Cymry crefyddol a rhyfelgar, ac y buasai ymweliad a'u gwlad ar y cyfryw achlysur, yn foddion effeithiol i roddi y ddolen olaf yn nghadwaen eu caethiwed; ac er mwyn rhoddi abwyd priodol ar y bach, penodwyd ar Giraldus i arwain yr archesgob Baldwin trwy Gymru, i bregethu y Rhyfel Sanctaidd, ac anog y trigolion i ymrestru o dan y faner. Yr oedd y cyfryw anrhydedd yn gweniaethu gormod i falchder Giraldus iddo allu gweled y ddichell; efe a gymerodd arwydd y groes arno ei hun, a defnyddiodd ei hyawdledd, yr hyn, yn ol ei adroddiad ef, a fu yn dra effeithiol, yn enwedig yn Aberteifi a Hwlffordd, i gael llawer o'i gydwladwyr i gymeryd arnynt arwydd y groes. Ac ymddengys oddi wrth y *Saracen's Head*, a welir mor fynych ar baisarfau hen deuluoedd Cymru, fod amryw o honynt wedi enill clod yn y Tir Sanctaidd, er na welir enw un Cymro, yn rhestr yr enwogion a gyhoeddwyd yn *Gierusalemme Liberato.*

Wedi i Giraldus orphen y daith bregethwrol hon, rhyddhawyd ef oddi wrth ei lw a gymerasai i fyned allan, gan Genadwr y Pab, ar y telerau ei fod i roddi pob cymorth yn ei allu i'r croesgadwyr Cymreig ag oeddynt yn cychwyn allan i'r rhyfelgyrch penboeth yn erbyn yr anffyddwyr. Ffrwyth gwerthfawrocaf y daith ryfedd hon, ydoedd yr *Itinerary*—llyfr tra dyddorol a ysgrifenodd Giraldus, er cof am dani, yr hwn, er ei holl ddiffygion, a ystyrir yn un o'r pethau gwerthfawrocaf yn llenyddiaeth Prydain. Yn 1189, yr archesgob Baldwin, fel math o gydnabyddiaeth i Giraldus am ei ffyddlondeb, a'i cyflwynodd ef i sylw Harri, fel un teilwng o ddyrchafiad eglwysig; ond yn unol a'i ragfarn blaenorol, gwrthododd y brenin hyny, ond efe a gynygiodd iddo swydd anrhydeddus yn yr osgordd ag oedd efe ar gymeryd i Ffrainc. Pan fu farw Harri, dychwelodd Giraldus i Loegr; derbyniwyd ef yn roesawgar gan Richard I., yr hwn, ar ei fynediad i Ryfel y Groes, a benododd Giraldus yn gyd raglaw a William de Longchamp, esgob Ely, i lywyddu amgylchiadau y deyrnas; ond ymddengys mai ymddiriedolaeth benaf Giraldus, oedd Cymru, a bu yn llwyddianus i atal gwrthryfel yn y Deheubarth, a chadw y dywysogaeth mewn heddwch, hyd ddychweliad y brenin yn 1194. Yn y cyfamser, gwrthododd yn olynol, esgobaethau Bangor a Llandaf, o dan yr esgus y byddai i'r cyfryw swyddau ymyraeth a'i efrydiaeth; ond y mae yn amlwg mai disgwyl yr ydoedd am uchelgais ei fywyd,—Cadair Dewi. Ar ol hyn, ymneillduodd i Lincoln, gyda'r broffes o efrydu duwinyddiaeth o dan gangellydd y lle hwnw, William de Monte, lle y treuliodd chwe blynedd, ac yr ysgrifenodd "Fywyd Geoffrey, Archesgob York," a'i "Gemma Ecclesiastica," yn nghyda rhai gweithiau eraill; ac yr enillodd enw mawr iddo ei hun, trwy ei haelioni i'r tlodion mewn adeg o brinder.

Yn 1198, bu farw esgob Ty Ddewi, a'r Cyngordy a benododd ar Giraldus i lanw ei le; a phan gymellwyd ef i ymgeisio am y swydd, gyda'r un ymddangosiad o anhunaniaeth, ag a arferai nodweddu ei ymddygiad pa bryd bynag y byddai y drws yn agoryd o'i flaen, efe a atebodd,—"Virum episcopalem peti, non petere, debere."—"Y dylai esgob gael ei geisio, ac nid ymgeisio." Pa fodd bynag, y flwyddyn ganlynol etholwyd ef yn unfrydol i'r anrhydedd, am yr hon y bu yn ymgeisio ar hyd ei oes; ond Hubert, archesgob Caergaint, a wrthododd gadarnhau y dewisiad. Yna apeliwyd at y brenin, yr hwn oedd ar y pryd yn Normandy; ond cyn i'r pedwar aelod o Gyngordy Ty Ddewi allu cyrhaedd yno, yr oedd Richard wedi marw, a John ar yr orsedd yn ei le. Trodd John gyda'r archesgob; ac felly collodd Giraldus yr anrhydedd a ymddangosai unwaith megys yn ei afael. Yn y siomedigaeth hon, penderfynodd ymgilio o'r cyhoedd, ac arwain bywyd o dawelwch ac unigrwydd; ac i'r amcan hwnw, dychwelodd i Gymru. Ond y mae yn hawddach i ddyn uchelgeisiol, wneyd addunedau, na'u cadw. Pan ddaeth i Gymru, cafodd y fath dderbyniad brwdfrydig gan ei gydwladwyr, fel y galwyd cymanfa yn ddioed yn Nhy Ddewi; lle yr etholwyd ef yn unfrydol am y drydedd waith, i'r esgobaeth wag. Erbyn hyn, yr oedd pob meddwl am fywyd meudwyaidd wedi ei adael; ac wedi derbyn ysbrydiaeth newydd yn y gymanfa, prysurodd i Rufain, i osod ei achos ger bron y Pab, Innocent III. Ond tra y bu efe yn parotoi i'r daith hono, trwy ymweled a'i gyfeillion yn Iwerddon, er sicrhau eu dylanwad yn Rhufain; ac a Mynachdy Ystradfflur, er diogelu ei lyfrau yno, efe a ddeallodd bod yr archesgob, a'r prif-farnwr wedi anfon *mandatum* i Dy Ddewi, am ethol Geoffrey de Henlawe, Prior Llanthony, i'r esgobaeth wag. Gwnelai hyn i bethau ymddangos yn yr agwedd fwyaf bygythiol; a'r unig obaith yn awr, oedd Rhufain. Ymddangosodd ger bron y Pab; ac wedi cyflwyno iddo adysgrif o'i weithiau, gyda'r frawddeg ymffrostgar,—"Præsentarent vobis *alii libras*, sed nos libros,—eraill a'ch anrhegasant a *phunoedd*, eithr myfi a *llyfrau;*" efe a dderbyniodd mewn cyfnewid, ganmoliaeth weniaethol y tad sanctaidd; ond cyn pen pedair blynedd, efe a gafodd weled bod *punoedd* yn cael llawer mwy o ddylanwad ar ei Sancteidd-



Digitized by Google

rwydd, na *llyfrau;* canys gofalodd yr archesgob a'i blaid, am gyrhaedd calon y Pab trwy ei logell;—callineb na fethodd erioed yn Rhufain; ac ar ol pedair blynedd o ddadleu yr achos, a thair taith i Giraldus i'r Ddinas Dragwyddol, cyhoeddodd y Pab ei ddedfryd yn erbyn ei etholiad, ac yn erbyn hawliau archesgobawl Ty-Ddewi. Wrth iddo frysio adref y waith hon i arolygu etholiad yr esgob, yn rhinwedd ei swydd o weinyddwr amgylchiadau yr esgobaeth wag, trwy ddichell John o Teignmouth, un o bleidwyr Hubert, efe a gymerwyd yn garcharor gan y Ffrancod; ond cafodd ei ryddid yn fuan, fel y gallodd fod yn brydlawn yn yr etholiad, yr hwn a gymerodd le yn Westminster, lle y gwrthwynebodd yn effeithiol benodiad tri o'r ymgeiswyr,—Abad St. Dogmael, ar gyfrif ei anwybodaeth; Abad Whitland, ar gyfrif ei fasdarddiaeth; ac un Reginald Foliot, ar gyfrif ei anlladrwydd. Ond terfynodd y gweithrediadau yn ffafr Geoffrey de Henlawe, yr hwn a benodasid bedair blynedd yn flaenorol.

Wedi yr holl siomedigaethau uchod, ymddiswyddodd Giraldus o archddiaconiaeth Brycheiniog, a phrebendiaeth Mathri, yn ffafr ei nai, Phylip de Barri, ac ymneillduodd i fywyd annghyoedd am y 17 mlynedd gweddill ei oes. Er hyny mynai ei gydwladwyr, ac yn eu plith benaethiaid Deheubarth, er gwaethaf archesgob a Phab, ei gydnabod yn esgob, a galwent ef, "Yr Esgob Etholedig;" yr hyn a fawr ddigllonodd y brenin John, yr hwn yn amryw o'i *mandatorum,* a'i cyhuddai o "weithredu yn agored yn erbyn coron ac urddas ei fawrhydi."

Yn ystod y neillduedd hwyrol hon, efe a ailysgrifenodd rai o'i weithiau, ac a gyfansoddodd eraill, megys ei *Ddysgrifiad Parthedegol o Gymru, a Hanes ei Fywyd ei hun.* Yn 1215, aeth cadair Dewi drachefn yn wag, a chynygiwyd hi iddo yn ddioed, a'r waith hon, meddir, trwy gymeradwyaeth y brenin; ond dywedir fod rhyw delerau dianrhydeddus mewn cysylltiad a'r cynygiad, y rhai nas gallasai efe ymostwng i'w derbyn; ac heb law hyny, y mae yn amlwg y gallai bod tân ei uchelgais, o dan ddylanwad ystormydd blynyddoedd, erbyn hyn wedi diffodd, fel nad oedd hyd yn nod gan esgobaeth Ty Ddewi, un swyn iddo mwyach. Ond pa ddelw bynag, efe a wrthsafodd y brofedigaeth, ac a barhaodd yn ei neillduedd hyd 1220, pryd y ffarweliodd am byth â'r byd twyllodrus hwn, ac efe yn 74 mlwydd oed. Claddwyd ef yn mhrif eglwys Ty-Ddewi.

Gadawodd ar ei ol luaws mawr o weithiau,—oll yn iaith llenyddiaeth yr oes hono, er mae yn amlwg, oddi wrth y ffaith ei fod yn cyfieithu i'w gydwladwyr anerchiadau yr archesgob Baldwin, ei fod yn hyddysg yn y Gymraeg. Dyma y rhestr o'i weithiau a dynodd ef ei hun, ond dywedir nad yw yn gyflawn:— 1. Chronographia et Cosmographia Metrica. 2. Topographia Hibernica. 3. Expugnatio Hiberniæ. 4. De Legendis Sanctorum. 5. Vita Sti. Davidis. 6. Vita Sti. Caradoci. 7. Vita Sti. Ethelberti. 8. Vita Sti. Remigii. 9. Vita Sti. Hugonis. 10. Liber de Promotionibus et Persecutionibus Ganfredi, Ebor. Abpi. 11. Symbolum Electorum. 12. Liber Invectionum. 13. Speculum Duorum Commonitorium et Consolatorium. 14. Gemma Ecclesiastica. 15. Itinerarium Cambriæ. 16. Cambria Topographia. 17. De Fidei Fructu, &c. 18. De Principis Instructione. 19. De Gestis Giraldi laboriosis.

Ymddengys iddo ysgrifenu hefyd Fywgraffiad Harri II., Gweithredoedd y Brenin John, Croniel Saesneg, Molawd Cymru, a Pharthedegaeth Cymru ar Gân, yn nghydag amryw eraill o lai nod. Cyhoeddwyd ei weithiau ar Iwerddon, gan Camden, yn Frankfort, 1602; a'i weithiau ar Gymru, gan Dr. Powell, yn 1585, a chan Wharton yn ei "Anglia Sacra," lle hefyd y ceir "De Gestis Giraldi." Y mae "Gemma Ecclesiastica" hefyd, wedi ei argraffu, ac feallai rai eraill; ond cedwir y gweddill, mewn llaw ysgrifau, yn yr Amgueddfa Brydeinig, a llyfrgelloedd cyhoeddus Rhydychain, a Chaergrawnt. Ond yr anrhydedd mwyaf i goffadwriaeth Giraldus, yw yr hyn a gyflwynodd Syr Richard Hoare iddo, trwy gyfieithu yr *Itinerarium Cambriæ* i'r Saesneg, mewn dwy gyfrol bedwar-plyg, a ddygwyd allan yn Llundain yn 1806, wedi eu hegluro â darluniau ardderchog, ac a nodiadau helaeth a dyddorol, yn nghyda Chofiant galluog o'r awdwr. Ac yn ddiweddar, cyhoeddwyd ei weithiau a'r Gymru a'r Iwerddon, mewn un gyfrol rad, gan Bohn, yn cynwys nodiadau gwerthfawr arnynt gan Wright. Yn mha gymeriad bynag yr edrychir ar Giraldus, ymddengys yn ddyn hynod mewn hanesyddiaeth. Yr oedd hygoeledd, hunanoldeb, ac uchelgais, wedi cydgyfarfod ynddo i raddau peryglus; yn ymwybodol o urddas ei waed, ac amryddoniaeth ei alluoedd, gosododd gadair Dewi yn nod ei ymgais; ac yn ei orawydd i'w meddianu, taflodd ymaith bedair esgobaeth, ac un archesgobaeth, fel plentyn anhydrin yn lluchio teganau, am na roddid iddo yr un a fynai.

Dilys ei fod yn wir ddysgedig mewn llenyddiaeth; ond yr oedd ei hygoeledd yn ddiderfyn, a'i ragfarn a'i ymffrost yn nodedig, hyd yn nod yn y 12fed ganrif. Y mae ei ddau waith ar Gymru yn cynwys cryn swm o wybodaeth arwynebol, am arferion a chyflwr y wlad ar y pryd; ond safant yn rhyfedd am eu chwedlau hygoelus, y dirmyg a daflai yr awdwr ar y rhyw fenywaidd, yn nghyda'r awydd a ddangosa i ddarostwng ei wlad o dan lywodraeth y Saeson. Ac eto, gwelsom rai wedi ysgrifenu, er y mae yn debyg heb ddarllen ei weithiau erioed, i'w ganmol am ei wladgarwch. Mae yn wir bod rhywbeth tebyg i wladgarwch yn ymddangos yn ei ymdrechiadau dros hawliau Ty Ddewi; eithr yr oedd gormod o gysylltiad rhwng hyny a hunanles, i deilyngu yr enw *gwladgarwch.* Ond wedi 'r cyfan, saif Giraldus yn uchel fel un o ysgrifenwyr galluocaf ei oes, yn yr hwn yr oedd gwybodaeth lenyddol helaeth, nwyd farddonol uchel, a darfelydd cyfoethog, wedi cyd gyfarfod fel ag i'w wneyd yn un o'r ysgrifenwyr mwyaf difyr ac adlonol a feddai Prydain yn y cyfnod hwnw.

**GLAN** (Is ac Uwch), dwy drefgordd yn mblwyf Rhydwen, Swydd Fflint; 3¼ milldir i'r Gogledd Orllewin o Dreffynnon. Poblogaeth. 470 ac 864.

**GLAN AFON FACH,** a Glan Afon Fawr, dwy drefgordd yn mhlwyf Llanrhaiadr yn Mochnant, Swydd Drefaldwyn; 4¼ milldir i'r Gogledd Ogledd Orllewin o Lanfyllin. Poblogaeth, 51 ac 86.

**GLANAWG,** mab Gwgan Gleddyfrudd, ab Caradawg Freichfras, ydoedd arglwydd Traeth Lafan. Gwel Helig.

**GLAN BRAN,** palas, ac ettifeddiaeth fawr yn Swydd Gaerfyrddin; 4¼ milldir i'r Gogledd Ogledd Ddwyrain o Lanymddyfri. Perthynai gynt i'r Gwynnes, ac fe'i pwrcaswyd gan Crawshay Bailey.

**GLAN BRYDAN,** lle 3¼ milldir o Landeilo Fawr, yn Swydd Gaerfyrddin. Y mae yma Lythyrfa dan Gaerfyrddin.

Digitized by Google

**GLAN CLWYD**, treflan yn mhlwyf Bodfari, Swydd DDINBACH; 3¼ milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Ruthin. Poblogaeth, 80.

**GLAN CONWY**, gorsaf ar reilffordd Llanrwst, gerllaw pentref Llansantffraid; 10 milldir i'r Gogledd o Lanrwst.

**GLAN DOFWY**, neu GLAN DYFI, gorsaf rheilffordd, ar reilffordd Aberystwyth, ac Arfordir Cymru, gerllaw yr afon Dyfi, neu Dofwy, yn agos i'r môr, 4¾ i'r De Orllewin o Machynlleth.

**GLAN DUAR**, pentref yn mhlwyf Llan y bythег, Swydd GAERFYRDDIN; 4¼ milldir i'r De Orllewin o Lanbedr.

**GLANDWR**, lle yn agos i'r ffin rhwng Swydd Benfro a Swydd Gaerfyrddin; 5 milldir i'r Gogledd Orllewin o Lanboidy. Medda Lythyrfa o dan St. Clears.

**GLANDYSSUL FAD**, treflan yn mhlwyf Llandyssul, Swydd ABERTEIFI; 7½ milldir i'r Dwyrain o Gastell Newydd yn Emlyn. Poblogaeth yn 1861, oedd 333.

**GLAN OGWEN**, capeloriaeth yn mhlwyf Llanllechyd, Swydd GAER YN ARFON; ar lan yr afon Ogwen, goris Carnedd Ddafydd; 6 milldir i'r De Dde Ddwyrain o ddinas Bangor. Fe'i gwnaed yn gapeloriaeth yn y flwyddyn 1858; a'i Llythyrfa yw Bethesda, dan Fangor. Poblogaeth, yn ol Deiliadeb 1861, 4264. Tai, 914. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Bangor. Gwerth 111*p.* Noddwr, Arglwydd Penrhyn.

**GLANRHYD**, gorsaf rheilffordd yn Swydd GAERFYRDDIN; ar reilffordd Glyn Towy; 4 milldir i'r Gogledd Ogledd Ddwyrain o Landeilo Fawr.

**GLAN TAWY**, treflan yn mhlwyf Abergwilli, Swydd GAERFYRDDIN; yn agos i dref Caerfyrddin. Poblogaeth, 399.

**GLAN WYSG**, palas Syr Joseph Bailey, yn Swydd FRYCHEINIOG, ar lan yr afon Wŷsg; 2 filldir i'r Gogledd Orllewin o Crughywel. Y mae y ty yn adeilad dda, wedi ei adeiladu yn yr arddull Duduraidd.

**GLAN Y LLYN**, palas i Syr W. W. Wynne, Barwnig, ar lan Llyn Tegid, gerllaw y Bala, Swydd FEIRIONYDD; 3¼ milldir i'r De Orllewin o'r Bala.

**GLAN Y NANT**, pentref yn mhlwyf Llangurig, Swydd DREFALDWYN; 3¼ milldir i'r Dehau o Lanidloes.

**GLAN YR AFON**, pentref yn nhrefgordd Picton, plwyf Llanasa, Swydd FFLINT; 5½ milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Ruddlan.

**GLASBURY**, pentref, trefgordd, a phlwyf, mewn rhan yn Swydd Frycheiniog, ac mewn rhan yn Swydd Faesyfed. Y mae y pentref yn sefyll ar lan yr afon Wŷ, ger rheilffordd Henffordd ac Aberhonddu, 4 milldir i'r De Orllewin o'r Gelli, ac y mae yn lle prydferth; yn meddu Llythyrfa dan Henffordd, a gorsaf rheilffordd. Y mae pont bren, hir ac uchel, yn cydio Swyddi Brycheiniog a Maesyfed yn y fan hon. Y mae y drefgordd yn cynnwys y pentref; a mesura 3400 o erwau o dir. Poblogaeth, 768. Tai, 162. Poblogaeth y rhan sydd yn Swydd Frycheiniog, 204. Tai, 48.—Y mae y plwyf yn cynwys hefyd dreflanau Pipton, Tregoed, a'r Felindre. Mesura 9216 o erwau o dir; a chyfrifir gwerth ardrethol y rhan sydd yn Swydd Frycheiniog, yn 2757*p.*, a'r rhan sydd yn Swydd Faesyfed, yn 4494*p.* Poblogaeth y cyfan yn nghyd, 1264. Tai annedd, 262. Poblogaeth y rhan sydd yn Swydd Frycheiniog, 700. Tai annedd, 148. Y mae y tir yn rhanedig rhwng ychydig nifer. *Glasbury House* a berthynai i Hughes, ac wedi hyny daeth yn anneddle Mrs. Papendick. Castell Maeslwch, a adeiladwyd yn 1829 ydyw palas Walter de Winton, Ysw.; ac y mae yn y sefyllfa harddaf o'i bath yn Nghymru, medd Mr. Gilpin. Tregoed, sydd adeilad o oes y Frenines Elizabeth, a pherthynai i deulu o'r cyfenw Watcin, ac yn ddiweddar daeth yn balas Is-Iarll Henffordd. Gwernyfed hefyd, sydd hen balas, o oes y Frenines Elizabeth. Bu yn perthyn i'r Cliffordiaid, a'r Williamsiaid, a chroesawyd y Brenin Charles y Cyntaf ynddo, yn y flwyddyn 1645. Yn ddiweddar daeth i feddiant y Milwriad Wood. Y mae yma hen orsaf filwraidd Brydeinaidd, a elwir "Y Gaer," ar fryn amlwg. Y fywioliaeth eglwysig sydd Ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi, gwerth 382*p.* Y mae yma gapelydd perthynol i'r Annibynwyr, y Bedyddwyr, a'r Trefnyddion Wesleyaidd.

**GLASCOED**, treflan yn mhlwyf Wŷsg, Swydd FYNWY, ar reilffordd Pont y pŵl a Mynwy; 3¾ milldir i'r Gorllewin o Usk. Cynnwysa 1733 o erwau o dir; a chyfrifir ei werth ardrethawl yn 1336*p.* Poblogaeth, 253. Tai, 46. Y mae yma addoldy gan y Bedyddwyr.

**GLASCOMB**, neu GLASGWM, plwyf yn undeb KINGTON, cantref COLWYN, swydd FAESYFED, DEHEUDIR CYMRU, 8 milldir i'r Dwyrain o Llanfair-Muallt, ar y ffordd yr elych i Kington. Cynnwysa drefgorddau unol Trewern a'r Vainor, ac yn ol Deiliadeb 1861, yr oedd ei boblogaeth yn 463. Y mae yn mesur 6984 o erwau, tua hanner y rhai sydd yn cael eu hammaethu, tra y mae yr hanner arall yn gyttir, ar yr hwn y megir llawer iawn o ddefaid. Dyfrheir ef ar y cyffiniau gorllewinol gan yr afonig Edw, neu Edwy, yr hon sydd yn dra enwog am ei brithyll. Y mae yr arwynebedd yn fryniog gan mwyaf, ac nid yw y tir yn doraethog iawn: ond y mae yn cael ei addurno âg amryw goedwigoedd prydferth, y rhai sydd yn gwrthgyferbynu yn ddymunol â'r mynyddoedd noethlwm a'u hamgylchant. Y mae y pentref yn sefyll mewn cwm bychan a thlws, ac ynddo y saif plâs Glasgwm, yr hon sydd annedd brydferth iawn. Y mae y ficeriaeth wedi cael ei huno â Colva a Rulen; yn cael ei threthu ar lyfr y frenines yn 13*p.* 6*s.* 8*c.*; ac yn nawddogaeth Esgob Ty Ddewi: ei gwerth yw 171*p.* y flwyddyn. Y mae yr eglwys wedi cael ei chyssegru i Dewi Sant, ac yn 100 troedfedd ei hyd, 50 o ba rai a gymmerir i fyny yn gangell; nid oes yr un clochdy yn perthyn iddi, ond y mae yn cynnwys dwy gloch. Wrth ei hadgyweirio dro yn ol, cafwyd o hyd i arch careg, yr hwn sydd yn awr o dan fwrdd y cymmun. Y mae ein cydwladwr Giraldus Cambrensis, yn son am gloch symudol ag oedd yn yr eglwys hon, a dywed fod rhinweddau gwyrthiol yn perthyn iddi: nid oes achos dywedyd nad yw y gyfryw gloch yma yn bresenol. Y mae capel yn y plwyf gan y Bedyddwyr. Yr oedd yma amryw elusenau wedi cael eu gadael i'r tlodion, ond yr unig rai ar gael yn awr, yw 40*p.* a adawwyd gan Mr. John Evans yn 1640; a 60*p.* gan Mr. David Davies yn 1777. Y mae yn mhlith olion hynafiaethol y plwyf, i'r rhai nid oes fawr sylw wedi cael ei dalu, y pethau canlynol:—pedwar maen hir ar y Brynbychan; a gweddillion hen gaerfa ar lân yr Edwy. Y mae yn Mlaenedwy ddwy o ffynnonau sulpheraidd rhinweddol iawn, ond nid oes nemawr gyrchu iddynt. Yn y flwyddyn 1806 gwelodd llanc o fugail, rywbeth

Digitized by Google

yn dysgleirio yn mhridd y wâdd, ar fryn, ychydig i'r gogledd o'r pentref, a chariodd ef gartref i'w feistr: gwelodd y meistr ei werth, ac aeth i'r fan i chwilio am ychwaneg o'r trysor: llwyddodd, canys daeth o hyd i amryw ddarnau o aur ac arian bathol, heb fod yn hen, a phwrcasodd dyddyn bychan â hwynt. Y mae trethoedd y plwyf tuag 800*p.* y flwyddyn.

**GLEWLWYD GAFAELFAWR**, un o'r tri wyr a ddiangasant o Gad Gamlan. Y ddau craill oeddynt Sandde Bryd Angel, a Morfran ab Tegid. (*Myf. Arch.* ii. 70.)

**GLOBWLL**, trefgordd yn mhlwyf LLANFYLLIN, Swydd DREFALDWYN, yn agos i Lanfyllin. Gwerth ardrethol, 2534*p.* Poblogaeth, 124.

**GLYDER FACH** (Y) a'r GLYDER FAWR, dau glogwyn yn mynyddoedd Eryri, Swydd GAER YN ARFON; 5 milldir i'r Dwyrain o Lanberis. Fe'u cydir gan fynyddres a elwir "Y Waen Oer." Y mae y naill yn 3000 o droedfeddi o uchder, a'r llall yn 3300.

**GLYN**, trefgordd yn mhlwyf LLANELLI, cantref CARNWALLON, swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, 4½ milldir i'r Gogledd Ogledd Orllewin o dref Llanelli, gyda phoblogaeth o 851 yn ol Deiliadeb 1861. Y mae yn gorwedd ar lethran gorllewinol Mynydd Sulien, ac y mae yr hen reilffordd, o weithiau glô y Mynydd Mawr i Lanelli, yn rhedeg drwyddi. Y mae yn y drefgordd hon gyflawnder o lô; a glowyr ydyw y rhan amlaf o'r trigolion.

**GLYN**, trefgordd yn mhlwyf LLANNON, cantref CARNWALLON, Swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, 12 milldir i'r De Ddwyrain wrth Dde, o dref Caerfyrddin: rhoddir cyfrif y boblogaeth gydag eiddo y plwyf. Y mae y drefgordd yn cael ei dyfrhau gan un o gangenau yr afon Gwendraeth-Fawr. Ammaethyddiaeth yw galwedigaeth gyffredinol y preswylwyr.

**GLYN**, trefgordd unol âg un Rhydodin (*Edwinsford*), yn mhlwyf LLANSAWEL, rhanbarth isaf cantref CAYO, Swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, 9 milldir i'r Gogledd o Llandilo-Fawr: rhoddir cyfrif y boblogaeth gydag eiddo y plwyf. Y mae yn gorwedd mewn dyffryn dymunol a choediog ar lân yr afon Cothi.

**GLYN**, trefgordd yn mhlwyf LLANGYNDEYRN, cantref CYDWELI, Swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, 4½ milldir i'r De Dde Ddwyrain o dref Caerfyrddin: y mae y boblogaeth yn cael ei chyfrif gydag eiddo y plwyf. Y mae cangen o'r Gwendraeth Fach yn rhedeg drwy y drefgordd hon; ac y mae yn bur debyg fod y palas a elwir yn awr *Glyn Abbey*, yn fonachlog yn y dyddiau gynt, er nad oes yma ddim olion o'r cyfryw i'w gweled yn bresenol.

**GLYN-AMAN**, neu GLYN-AMWYN, treflan yn mhlwyf LLANDEILO FAWR, yn rhanbarth uchaf cantref ISCENNEN, Swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, 9 milldir i'r De Ddwyrain o dref Landeilo-Fawr, gyda thrigolion o 250. Y mae yn gorwedd yn mhlith y Mynyddau Duon, ac y mae yr afon Aman yn rhedeg drwyddi, yr hon sydd yn bargodi yma rhwng siroedd Caerfyrddin a Morganwg, mewn un rhan o'i chwrs.

**GLYN BROCHAN**, trefgordd yn mhlwyf LLANGURIG, Swydd DREFALDWYN; 5½ milldir i'r De Orllewin o Lanidloes. Gwerth ardrethol, 1834*p.* Poblogaeth, 375.

**GLYN-CAE-RHUG**, trefgordd yn mhlwyf LLANWRIN, cantref MACHYNLLETH, Swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU, 2 filldir i'r Gogledd Ogledd Ddw. o dref Machynlleth: y mae cyfrif y boblogaeth yn cael ei ddychwelyd gydag eiddo Llanwrin. Y mae yma ddyffryn hynod o brydferth a rhamantus, drwy yr hwn y rheda yr afon Dulas, yr hon sydd yn llawn o amrywiaethau dymunol, rhwng glenydd coediog a mynyddig: weithiau yn rhydiau gwylltion, weithiau yn byllau llonydd dyfnddu, ac weithiau yn raiadrau syfrdanwyllt, yn llamu dros y creigiau. Y mae yma Ddulas arall, o gyfeiriad gwahanol, bron yn yml, yn ymarllwys gyda hi i'r Dyfi.

**GLYN COLLWYN**, capeloriaeth yn mhlwyf LLANFIGAN, cantref PENGELLI, Swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU, 10 milldir i'r De Dde Ddwyrain o Aberhonddu; gyda phoblogaeth o 342. Y mae y lle prydferth hwn yn gorwedd ar lân y Garfanell, yr hon sydd yn aberu yn yr Wysg, wrth Dalybont. Y mae y ficeriaeth wedi cael ei gwaddoli a 1000*p.* o rodd freninol, yn werth 80*p.* y flwyddyn, ac yn nawddogaeth Rheithor Llanfigan. Y mae yma hen garnedd, yr hon a agorwyd yn y ganrif hon, gan un a elwid Twm Bach, yr hwn a ddaeth yma o Ogledd Cymru, gyda'r gobaith o gael hyd i drysor. Yn ei ymchwiliad, cafodd o hyd i gistfaen fawr, yr hon oedd yn llawn o amryw hynafiaethau, ond ni chadwyd dim o honynt; canys yn ei siomiant o eisiau cael *coins*, gwerthodd Twm Bach yr oll a gafodd i ryw bererin o Iuddew.

**GLYN CONNON**, treflan yn mhlwyf LLANWONNO, Swydd FORGANWG; ar yr afon Taf, a cher camlas Caerdyf; 6 milldir i'r De wrth Orllewin o Ferthyr Tydfil. Y mae yn cynnwys pentrefi Home, a Hafod-ddreiniog, a rhan o Bont y Pridd. Gwerth ardrethol, 7084*p.*, o ba rai y mae 36*p.* mewn cloddfeydd, 900*p.* mewn mwn-gloddiau, a 25*p.* mewn gweithfeydd haiarn. Poblogaeth, 415.

**GLYN CORWG**, treflan a phlwyf yn Undeb NEDD, Swydd FORGANWG. Y mae y dreflan yn gorwedd ar lan yr afon Corwg, ychydig uwchlaw ei hymuniad a'r Afon; 4 milldir i'r De Ddwyrain o orsaf rheilffordd Resolven, ac 8 milldir i'r Dwyrain Ogledd Ddwyrain o NEDD. Mesura 8262 o erwau o dir; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 568*p.* Poblogaeth, 322. Tai, 48.—Y mae y plwyf hefyd yn cynnwys capeloriaeth Blaen Gwrach; a'i llythyr-dref yw Nêdd.—Erwau, 11,294. Gwerth ardrethol, 1394*p.* Poblogaeth, 602. Tai, 106. Y mae arwyneb y plwyf gan mwyaf yn fynyddig, a chynnwysa Garn Mosen, y tir uchaf yn y wlad. Cair glo a haiarn yma, ond nid mewn rhyw helaethrwydd mawr. Ficeriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn unedig â churadiaeth barhaol Blaen Gwrach, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth, 90*p.* Noddwr, N. V. E. Vaughan, Ysw.

**GLYNDYFRDWY**, capeloriaeth yn mhlwyf CORWEN, Swydd FEIRIONYDD, ar lan yr afon Dyfrdwy, a cher rheilffordd y Bala a Rhiwabon, 3¾ m. i'r Dwyrain o Gorwen. Y mae yma Lythyrfa dan Langollen, a gorsaf rheilffordd. Yr oedd yn rhan o ettifeddiaethau y gwron Owain Glyndwr, ac yr oedd un o'i brif lysoedd yma, am ba achos y rhoddid y cyfenw "Glyndyfrdwy," neu "Glyndwr" iddo. Y mae y fywioliaeth eglwysig wedi ei gwneyd yn Ficeriaeth yn ddiweddar, yn esgobaeth Llanelwy, ac yn nawddogaeth yr Esgob. Gwel CORWEN.

**GLYNFACH**, trefgordd yn mhlwyf LLANIGON, cantref TALGARTH, Swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU, tuag 8 milldir i'r De wrth Ddwyrain o'r Gelli, (*Hay*), gyda llai nâ 100 o drigolion. Y mae siroedd Brycheiniog, Henffordd, a Mynwy, yn cydgyfarfod

Digitized by Google

bron yn ymyl yma. Y mae yma gapel eglwysig, am yr hwn y bu hir ddadleu yn y Llys Eglwysig yn 1708. Yr oedd yn "ryfel y bargodion," a'r cwestiwn oedd, i bwy y perthynai Glynfach? Wedi pob ymchwiliadau tystebol, dyfarnwyd ei fod rhwng y tairfforch, yn perthyn i'r plwyf lle yr ydym wedi ei osod ynddo. Y mae y golygfeydd oddi amgylch yn ddymunol o brydferth, ac y mae y tir gan mwyaf yn bawrdir. Y mae y ficeriaeth wedi cael ei gwaddoli â 1000*p*. o rodd freninol, a 200*p*. o rodd Seneddol; ac y mae yn nawddogaeth Esgob Tŷ Ddewi.

**GLYN FECHAN**, trefgordd yn mhlwyf Llansantffraid Glyn Ceiriog, Swydd DDINBACH; ar lan yr afon Ceiriog, 3¼ milldir i'r De Dde Ddwyrain o Langollen. Poblogaeth, 518.

**GLYN GYNWYTH**, trefgordd yn mhlwyf LLANGURIG, Swydd DREFALDWYN, 5¼ milldir i'r De Orllewin o Lanidloes. Poblogaeth, 238.

**GLYN HAFREN**, treflan yn mhlwyf LLANIDLOES, Swydd DREFALDWYN; yn agos i Lanidloes.

**GLYN HAFREN UCH COED**, trefgordd yn mhlwyf LLANIDLOES, Swydd DREFALDWYN, 5¼ milldir i'r De Orllewin o Lanidloes. Poblogaeth, 228.

**GLYN HIR**, palas yn Swydd GAERFYRDDIN, ger yr afon Llwchwr, goris y Mynyddoedd Duon, 4¼ milldir i'r Deau o Landeilo Fawr. Perthyna i W. Du Buisson, Ysw. Y mae rhaiadr hardd ar y Llwchwr yn agos iddo.

**GLYNLLIFON**, palas Arglwydd Newborough. Yr oedd y lle hwn yn perthyn yn yr hen amser gynt i Cilmin Droeddu, henaif un o bymtheg llwyth Gwynedd. Y mae y palas, yr hwn sydd adeilad diweddar a hardd, yn gorwedd ar lan y Llifon, 5¼ milldir i'r De Dde Orllewin o dref Caer yn arfon.

**GLYN LLWCHWR**, sydd ranbarth o blwyf Llandeilo Talybont, Swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU. Yn y rhan hon o'r plwyf y saiff gweddillion y Castell Du, yr hwn yn ol pob tebyg a adeiladwyd yn fuan ar ol gorchfygu y parthau hyn o'r wlad gan y Normaniaid, dan arweiniad William de Londres, yn 1094.

Yn 1215, yr oedd Norman o'r enw Hugh de Myles yn byw yn y Castell, yr hwn fel ei gydwladwyr y pryd hwnw, oedd yn orthrymydd trwm ar y Cymry. Ond pan aeth y brenin John i ymryson o'r Marchogion Normanaidd yn nghylch y *Magna Charta*, rhoddodd hyny achlysur a mantais i'r Cymry geisio adenill eu meddiannau; a'r prif bersonau yn yr ysgogiad, oeddynt y tywysog Llywelyn ab Iorwerth yn Ngwynedd, a Rhys Fychan yn y Deheudir. Ymosododd Rhys ar Normaniaid Dyfed yn gyntaf, ac ar ol eu gorchfygu, daeth i'r ardal yma, ac a ymosododd ar y Castell hwn, gan ei lwyr ddinystrio ef, yn nghyda chestyll Llwchwr, Caergwyrosydd (*Oystermouth*) ac Abertawy.

**GLYNN**, treflan yn mhlwyf Defynog, Swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU, ar yr afon Tarill; 9 milldir i'r Gorllewin wrth Ddehau o Aberhonddu. Cynnwysa Gapeloriaeth Illtyd. Gwerth ardrethol, 1526*p*. Poblogaeth, 273. Tai, 49.

**GLYNN**, trefgordd yn mhlwyf Llangelynin, Swydd GAERYNARFON; 2 filldir i'r De Dde Orllewin o Gonwy.

**GLYNN**, treflan yn mhlwyf Llanfihangel Aberbythy, Swydd GAERFYRDDIN; 3¼ milldir i'r Gorllewin Dde Orllewin o Landeilo Fawr.

**GLYNN**, yn mhlwyfi Llanelli a Llanon, Swydd GAERFYRDDIN. Gwel GLYN.

**GLYN NEDD**, sydd un o'r dyffrynoedd prydferthaf yn y Dywysogaeth; a'i safle yn ngogledd orllewin swydd Forganwg, Deheudir Cymru. Derbyniodd ei enw oddi wrth afon Nedd, yr hon sydd yn rhedeg drwyddo; a chafodd yr afon yr enw Nedd, o herwydd ei ffurf droellog. Mesura y dyffryn ryw un-filldir-ar-bymtheg o hyd, o darddle yr afon wrth odre Ban Nedd yn Mrycheiniog, i'w haberiad yn Bay Abertawy, ger Llansawel; ac amrywia mewn lled, o hanner milldir i ddwy filldir. Cyd-gyferfydd amryw blwyfi yn y glyn hwn, neu yn hytrach y mae y glyn yn cynnwys rhanau o amryw blwyfi, megys:—Penderyn, Ystradfellte, Ystrad-dyfodwg, Glyncorrwg, Llanelltyd-nedd, Llangattwg-nedd, Castellnedd, a Llansawel. Cyd-gyfarfyddiad lluaws o fân afonydd yn ardal Pontnedd-fechan, sydd yn ffurfio corph yr afon Nedd briodol: a chan fod y mân afonydd a nodwyd, yn rhedeg trwy ardaloedd geirwon a chreigiog, y mae llawer o sylw yn cael ei dalu iddynt, ac ugeiniau o ddyeithriaid o wahanol barthau y deyrnas, yn ymweled o'r lle bob hâf, i gael golwg ar wylltineb yr ardal, o Bontnedd-fechan hyd Ystradfellte. Dyma ardal y cymoedd culion, dyfnion, y llethrau sythion ac ysgythrog, yr ogofau tywyllion, a'r Rhaiadrau trystfawr. Enwau y mân afonydd cyn uno a'u gilydd, ydynt y Llai, y Tregarth, y Pyrddin, yr Aerwy, y Felltwy, a'r Hepste. Ffurfia amryw o'r mân afonydd hyn raiadrau heirdd wrth hyf lamu dros greigiau uchel i'r dwfn islaw. Mae dau raiadr nodedig, yn cael ei ffurfio gan y Pyrddin, neu'r Purdden. Gelwir y cyntaf o honynt yn "*Scwd Einion Gam*," lle y naid yr afon dros ddibyn craig serth, 85 troedfedd o uchder; ac ar y gwaelod y mae y dwfr wrth ddisgyn wedi treulio y graig galch i ffurf padell, tuag 56 troedfedd tryfesur. Gelwir yr ail raiadr ar hon, yn "*Scwd Gwladys*," lle syrth yr afon dros graig 45 troedfedd o uchder. Gellir myned dan y ffrwd hon yn fynych heb wlychu ond ychydig. Yn ymyl y rhaiadr hwn, y mae Maen Chwyf, tua 15 tunnell o bwysau, ac yr oedd wedi ei osod mor gywir ar ei begwn, fel y gallasai plentyn ei siglo. Ond yn 1851, pan oedd Cledrffordd Dyffryn Nedd yn cael ei gwneyd, aeth amryw o'r gweithwyr,—Gwyddelod gan mwyaf, a throsolion gyda hwynt ar fore Sul, i symmud y gareg o'i lle, gan feddwl cael trysor dani; ac oddi ar hyny hyd yn awr, nis gellir ei siglo fel cynt.

Mae'r *Felltwy* yn ffurfio tri rhaiadr ar ei thaith drwy ei chwm cul a gwyllt, y rhai a elwir Glyngwyn Uchaf, Glyngwyn Canol, a Glyngwyn Isaf. Y canol yw y prydferthaf o lawer,—yno ymleda yr afon ar ben y graig, fel pe yn dychrynu rhag rhoddi llam drosti, ac yna mae yn ymollwng fel llen deneu wen, i'r dyfnder o 70 troedfedd.

Ar afon *Hepste* hefyd y mae dau raiadr, y rhai a elwir Cilhepste Uchaf ac Isaf.

Mae yr afon yn y blaenaf, yn disgyn dros graig serth 50 troedfedd o uchder, a chan fod y graig mor serth, mae yr afon yn ymdaflu allan, fel y gellir myned dani heb wlychu,—bu un Mr. Warner, yn cysgodi rhag cawod o wlaw, dan y rhaiadr hwn amryw flynyddau yn ol.

Math o lithrigfa (*rapids*) yw y cwymp arall ar yr afon hon, yn mesur tua 300 o droedfeddi, lle y rhed y dwfr yn chwyrnwyllt dros greigiau geirwon, gan ewynu a thrystio, fel pe wedi gwallgofi.

Rhwng pentref Ystradfellte a Phontneddfechan, ac yn agos i'r blaenaf, y mae y lle hynod hwnw a

Digitized by Google

elwir *Porth yr Ogof,* yr hon sydd ogof fawreddog, yn 43 troedfedd o uchder, ac 20 troedfedd o led yn y geneu; ond yn culhâu wrth fyned yn mlaen. Rhed yr afon Melltwy trwy yr ogof hon am tua 600 o latheni. Pan na fyddo llawer o ddwfr yn yr afon, gellir myned i mewn i'r ogof am gannoedd o latheni; ac wrth fyned yn mlaen, canfyddir dau dwll fel dwy ffumer, o'r ogof i'r arwyneb, trwy y graig galch galed. Desgrifir yr ogof hynod hon yn wych a barddonol, gan Nathan Dyfed, Merthyr, yn yr englynion canlynol:—

Afon Melltwy, ddofn, ymwylltawg,—a draidd
  Rhwng dwy drum serth-gribawg;
A magwyrydd amgaerawg,
Yn boer gwyn idd ei berw gawg.

Bwrlymia, lleibia y llif—ochr y graig
  Chwerw—grych daranllif;
Ei ffrau ruadau di rif,
A'i swn deil fel sain dylif.

Celawg wain yw'r clogwyni—a dynwyd
  Gan Dad anian drosti,—
A darparodd dir pori
Goruwch ei haig a'i rhoch hi.

Dros y cwm cul, dyrus, cau,—wele bont,
  Ddeil byth ar ei seiliau,—
Nis rhaid ofn i'w cholofnau,
Na'i meini hên ymwanhau.

Heblaw y rhaiadrau a'r Porth, y rhai ydynt hynodion naturiol teilwng o sylw, y mae yr afonydd hyn yn enwog iawn am eu brithyllod. Cyfeiria Mr. Hansard, yr hwn sydd wedi ysgrifenu llyfr ar "Bysgotta Brithyllod yn Nghymru," at yr afonydd hyn, fel rhai hynod am eu pysg.

Yn agos i Bontnedd-fechan, lle yr una y gwahanol afonydd a'u gilydd, y mae Craig anferth, a elwir *Craig y Ddinas*, lle y mae rhyfeddod arall, a elwir *Y Bwa Maen*, yr hwn sydd ddarn anferth o'r graig ar ffurf bwa, yn 90 troedfedd o uchder, a 70 troedfedd o led.

Mae Craig y Ddinas yn sefyll fel tywysoges falch yn mhen uchaf y Glyn, ac oddi ar ei choryn uchel, gellir cael golygfa ddorus ar yr holl ddyffryn oddi yno hyd Gastellnedd; ac y mae yn un o'r golygfeydd prydferthaf yn holl Ddeheudir Cymru. Ar bob tu i'r dyffryn, y mae cadwyn o fynyddau uchel, llechweddau y rhai ydynt hynod serth, yn enwedig y tu deheuol. Ar hyd ystlysau y mynyddau hyn y mae planigfeydd mawrion o goed, wedi eu gosod yn y modd mwyaf celfydd; y rhai ydynt yn addurno yr olygfa â phrydferthwch swynol. Ar wastad y glyn, y mae afon Nedd i'w gweled, fel cadwyn arian yn addurno bron y dyffryn; a Chledrffordd Merthyr ac Abertawy, yn cyd-redeg a hi, a Chamlas y glyn yn cyd-redeg a'r ddwy, nes ffurfio tair llinell arddunol. Yma ac acw, gwelir palasau gwychion, fel tlysau ceinion yn addurno y dyffryn, gydag ambell bentref ac amaethdy gwyngalchog, y rhai ydynt yn ychwanegu at harddwch yr olygfa.

Ychydig neu ddim o hanes y dyffryn hwn sydd yn y Brutiau Cymreig; ac ymddengys mai lle pur annghyfanedd oedd, hyd ar ol y Goresgyniad Normanaidd; yn enwedig parthau uchaf y glyn. Wedi hynny brithwyd ef â mân amaethdai, a llafuriwyd ei wastadedd a'i lechweddau gyda diwydrwydd: ac mewn oesoedd diweddarach, tynwyd i lawr luaws o'r mân amaethdai, planwyd coed ar y tyddynoedd perthynol iddynt, gan eu cyssylltu ag etifeddiaethau Aberpergwm, &c.

*Daiareg y Glyn.* Gan ei fod o fewn "Cawg Mwnawl Deheudir Cymru," mae hynny yn profi ar unwaith fod cyfoeth o lo a mŵn haiarn yn mherfeddion ei ddaiar. Mae y glo o ran ei natur yn tueddu at fod yn lo careg (*Anthracite*), ac felly nid yw y fath oraf at gynnyrchu ager. Enwau a thrwch y prif wythieni ydynt fel y canlyn:—Glo Resolfen, 2 droedfedd a 6 modfedd; Y Llathen, 3 troedfedd; Y 4 troedfedd; Y Deunaw troedfedd, 12 troedfedd; Y Pedair Cenryw, 4 troedfedd; Y Naw, 8 troedfedd; Glo'r Enoes, 3 troedfedd; Glo'r Garw 18 modfedd: y cwbl yn 38 o droedfeddi o drwch. Yn ychwanegol at y rhai hyn, y mae yma rai gwythieni ereill, y rhai gyda'u gilydd a wnant gyfanswm trwch glo y dyffryn, yn 45 troedfedd, neu 15 llath, a phob llathen cyfangorff, yn pwyso 18 canpwys, neu 13 tunnell o lo yn mhob llathen ysgwâr ar yr arwyneb. Yn mhob milldir ysgwâr, y mae 40, 268, 800 tunnell o lo; ac wrth ei godi yn ol 39,000 tunnell y flwyddyn, y mae yma ddigon i barhau am 1032 o flynyddau. Nid yw yn hysbys pa bryd y dechreuwyd cloddio am lo yn Nyffryn Nedd, ond y mae yn amlwg ei fod yn cael ei weithio yma, mor fore feallai ag un man yn Nghymru. Bu Leland yn teithio y parthau hyn tua'r flwyddyn 1530; ac yn hanes ei daith, y mae yn son fod gwaith glo yn agos i Gastellnedd y pryd hwnw.

Mewn cyfnod diweddarach, agorwyd lluaws o weithfeydd glo yn ngwahanol barthau y dyffryn, ac y mae rhai o honynt ar waith ar raddfa helaeth yn bresenol. Diamheu fod llygaid craff anturiaethwyr wedi gweled cyfoeth mwnawl y glyn, yn gynar yn y 18 ganrif, a phur debyg fod glo yn cael ei gloddio yma ar raddfa fechan, cyn trefnu cyfleustra i'w gludo ymaith ar raddfa helaeth. Yn 1791, Cafwyd Gweithred Seneddol, i wneyd Camlas o Felingryddan ger Castellnedd, i fyny hyd Abernant, yn 12 milldir o hyd; a dechreuwyd ar y gwaith yr un flwyddyn. Yn 1797, cafwyd ail Weithred Seneddol, i estyn y Camlas o Gastellnedd hyd *Giant's Grave*, yn ymyl Llansawel. Mae ar y Camlas hwn 19 o *Locks*, ac wrth gyfrif eu bod yn gostwng ar gyfartaledd 10 troedfedd yr un, mae yn amlwg nad yw Abernant ond 190 o droedfeddi yn uwch nag arwyneb y mor. Bu agoriad y Camlas hwn yn ddechreuad cyfnod newydd yn hanes gweithfeydd y dyffryn: ac o'r pryd hwnw hyd yn bresenol, y mae wedi bod yn bur fywiog a chynnyddol. Dengys y daflen ganlynol gyfnod dechreuad lluaws o'r gweithfeydd; ond cofied y darllenydd fod amryw o honynt wedi darfod er ys llawer o flynyddau.

| Enw. | Blwyddiad. | Nodion. |
|---|---|---|
| Aberpergwm, .......... | 1793 | Wedi darfod er... 1805 |
| Gwaith L. Thomas, | 1793 | „ „ „ ... 1827 |
| Gwaun marchog, ..... | 1791 | |
| Cwmgwrelych, ........ | 1798 | „ „ „ ... 1811 |
| Cwmgwrach,........... | 1814 | |
| Cwmclydach, .......... | 1837 | |
| Ynysarwaid, ........... | 1830 | |
| Pyllfa'r On, ............ | 1813 | |
| Glofa Ynysbyllog, ... | 1852 | |
| „ Llangattwg, ... | 1854 | |
| „ Glyn nedd,..... | 1861 | |

Heblaw y gweithfeydd glo, adeiladwyd yn y dyffryn hwn amryw weithfeydd haiarn. Y cyntaf o'r rhai hyn ydoedd Ffwrnes Melin Court, yr hon a adeilad-

Digitized by Google

wyd y tro cyntaf yn 1744; a'r ail waith yn 1788, gan Meistri John a Daniel Meyas. Yr oedd yn nglŷn a'r ffwrnes hon, ffwrnes goethi (*Refinery*). Yr oedd olwyn ddwfr 120 troedfedd o amgylchedd yn perthyn i'r weithfa, at weithio y meginau i chwythu y ffwrnes. Cludid y glo a'r mŵn at y ffwrnes hon ar gefnau ceffylau, o Benwaun Byrddin, Cwmgwrach, Cefnmawr, a Glyn Gwilym. Ni chafodd y perchenogion nemawr elw oddi wrth y gwaith, ac felly fe safodd yn 1808.

Adeiladwyd Y Ffwrnes Fach, yn 1787, a darfyddodd weithio yn 1808. Yn 1839, adeiladwyd ffwrnes i doddi mŵn haiarn o lo careg yn Nghwmgwrach, ond trodd yr anturiaeth allan yn fethiant.

Yn 1845, adeiladwyd dwy ffwrnes yn Abernant, ac un arall yn 1851; ond y mae y rhai hyny hefyd wedi sefyll, yn 1861. Y Gweithfeydd pwysicaf a mwyaf nodedig yn y dyffryn yn bresenol, ydynt Waith Alcan Aberdulas, yr hwn a ddechreuwyd yn 1744, a cherir ef yn mlaen yn bresenol ar raddfa helaeth. Glofa Dunraven, ger Gorsaf Glynnedd hefyd a gerir yn mlaen yn fywiog, ac ar raddfa fawr; ac y mae gwaith *Patent Fuel* mawr yn ei ymyl. Yn agos i Graig y Ddinas, y mae Melin Bylor helaeth, gan Meistri Curtis a Harvey. Dechreuwyd hi yn 1858.

Glofa Glyn Nedd, a ddechreuwyd yn 1860, ac a ddygir yn mlaen yn llwyddiannus. Newidiwyd ei enw yn 1871, yn *Rhondda Mountain Colliery*. Codir o lo yn ddyddiol yn y gwaith hwn, tua 160 tunell.

Codir tua 120 tunell y dydd o lo yn Nglofa Aberpergwm hefyd: a thua 70 tunell y dydd yn nglofa Waunmarchog.

Mae yn y dyffryn amryw balasau heirdd, ond y prif rai ydynt Aberpergwm, a'r Rheolau. Ymddengys fod Aberpergwm yn meddu cryn henafiaeth, ac nid yw yn hysbys pa bryd yr adeiladwyd ef. Olrheinia rhai awduron y teulu anrhydeddus sydd yn byw yn y palas hwn, yn ol i Iestyn ab Gwrgan, Tywysog olaf Morganwg.

Bernir fod Capel Aberpergwm, wedi ei adeiladu gyntaf yn y 6fed ganrif; ac y mae beddfeini yn Nghangell y Capel, sydd yn rhoddi sail i'r syniad fod y teulu yn disgyn o dywysogion Morganwg. Ar un y mae y cerfiad canlynol:—"Er Coffadwriaeth am Arglwyddi Glyn Nedd, a gladdwyd isod: Gwehelyth Rhys ab Iestyn, (1092) o ba rai, parth mam, y mae tylwyth Aberpergwm yn hanedig; ac am Rhys ab Sion, (1460), a Sion ab Rhys a gladdwyd yma, hanedigion Einion ab Collwyn, a'i wraig Nest, ach Iestyn, a fuont yn bendefigion Glyn Nedd trwy briodasfraint, parth etifeddes un o ddisgynyddion y Rhys uchod, mab Iestyn, Tywysog Gwent a Morganwg." Ar feddfaen arall, y mae:—"Beddfaen Gwyngaf, Blaen Baglan Afan, a gladdwyd yma dros oesoedd, hil Caradog ab Iestyn, Teyrn Arglwydd Nedd ac Afan, hanedigion y Gwelygordd a feddiannasant Aberpergwm, trwy briodas ag un o ddisgynyddion ail fab Syr Leision de Afan, (1218) ac etifeddes o deulu Einion ab Collwyn, a'i wraig Nest. Nef idd eu heneidiau; a bydded etto rad penllad cyssefin trwy deilyngdod ar eu hiliogaeth."

Fel yr awgrymwyd eisioes, bu llawer o gyfnewidiadau ar etifeddiaeth Aberpergwm mewn oesau diweddar. Cyn y flwyddyn 1826, yr oedd yn y gymmydogaeth gynnifer ag wyth ar ugain o fân amaethdai, enwau a sefyllfaoedd y rhai a welir ar yr *Ordnance Map*, megys y Dderi Fach, Llwyn Ffynon, Pantygwartheg, Llwyn Edward, Pyllfa'r On, Blaen Nant yr Ewig, Pantyffynon, &c.

Mae'r holl amaethdai hyn wedi eu tynu i lawr, yr olaf o honynt sef Pantygwartheg, oddi ar ddiwedd y flwyddyn 1828; a'r tyddynoedd perthynol iddynt wedi eu cyssylltu ag eiddo Aberpergwm, a llawer o honynt wedi eu troi yn blanigfeydd. Mae Williamsiaid Aberpergwm wedi bod yn ddiarebol am eu haelioni at achosion teilwng; ac yn neillduol felly fel noddwyr llenyddiaeth Gymreig. Casglodd a chyhoeddodd Miss Williams, gyfrol werthfawr o Alawon Cymreig, yr hyn sydd wedi gwneyd ei henw yn gyssegredig yn nghalonau cerddorion y genedl. Adeiladodd y diweddar W. Williams, Ysw., ysgoldy gwych ar ei draul ei hun, er addysgu plant yr ardal; ac yn ychwanegol at hyn, yr oedd y teulu yn dilladu plant yr ysgol hono. Bu y boneddwr haelionus a gwladgarol hwnw, yn teithio gwledydd estronol am 12 neu 15 mlynedd. Bu farw, Mawrth 19, 1855. Preswylir Aberpergwm yn awr (1872) gan Morgan Stewart Williams, Ysw.

*Y Rheolau* sydd balas ardderchog, mewn llanerch baradwysaidd, ar du gogleddol y glyn, tua 7 milldir o Gastellnedd; a phreswylir ef yn bresenol gan Mrs. Vaughan, gweddw y diweddar N. V. E. Vaughan, Ysw.

Cafodd y palas yr enw hwn, am ei fod wedi ei adeiladu lle y safai gynt amaethdy bychan o'r enw. Adeiladwyd y palas tua'r flwyddyn 1806: ond y mae llawer o ychwanegiadau a chyfnewidiadau wedi bod arno, oddi ar hyny hyd yn awr. Dywedir fod iddo 365 o ffenestri, sef ffenestr ar gyfer pob dydd yn y flwyddyn. Cychwynodd Mr. John Edwards, taid y diweddar N. V. E. Vaughan, Ysw.; ei fywyd mewn amgylchiadau digon cyffredin, yn saer wrth ei alwedigaeth. Efe mae yn debyg a ddyfeisiodd *Water Cart*, i wlychu heolydd y brif ddinas, yr hyn a'i dygodd i gryn sylw; fel y llwyddodd yn dda yn ei fasnach. Gan ei fod mewn amgylchiadau cysurus, rhoddodd ysgol dda i'w fab, gyda'r bwriad o'i godi yn gyfreithiwr, a phrynodd y "Rheolau" iddo i fyw ynddo. Priododd I. V. Edwards, Ysw., a merch Court Herbert, ger Castellnedd, ac ychwanegodd hyny at ei gyfoeth, fel y galluogwyd ef i adeiladu y palas, a gwneyd llawer o welliadau o gylch y lle. Priododd yr ail waith â boneddiges oludog iawn, a defnyddiodd y golud hwnw i brynu llawer o diroedd y gymmydogaeth, gan eu cyssylltu yn ettifeddiaeth eang. Yn 1829, gadawodd un Mr. Vaughan, o Lanlai, ran helaeth o'i eiddo tirol, yn ei ewyllys i Mr. Edwards, Rheolau, yr hyn a barodd iddo yntau ychwanegu yr enw Vaughan, at ei enw blaenorol.

Nid oedd un heol gyhoeddus trwy y glyn hwn, hyd y flwyddyn 1781, ond yn y flwyddyn hono, gwnaed heol lydan dda, o Langattog hyd Pont nedd-fechan: ac yn 1800, gwnaed cangen o honi, neu yn hytrach estynwyd hi i fyny hyd Hirwaun, i'w chyssylltu a'r ffordd sydd yn arwain trwy Ferthyr, Tredegar, &c., i Abergafenni. Wrth wneyd y ffordd hon yn 1800, yr adeiladwyd Pont Walby, gan un o'r enw Morgan Gibbon, a chafodd y bont yr enw hwn, am fod un o'r enw Mr. Whalby, wedi boddi yn yr afon wrth ymdrochi, yn agos i'r fan yr adeiladwyd y bont. Pont geryg oedd hon, o wneuthuriad cadarn: ond yn 1853, pan fu llifogydd echryslon yn y parthau hyn, niweidiwyd y bont gymmaint, fel y barnwyd yn oreu ei thynu i lawr, ac adeiladwyd pont haiarn yn ei

Digitized by Google

lle, yn 1854. Yr oedd yr heol a wnaed yn 1781, yn myned heibio Aberpergwm, a'r Rheolau, yn agos iawn iddynt: ond yn 1819, darfu i'r diweddar R. Williams, Ysw.; fyned i'r draul o wneyd gwely newydd i'r afon, gan ei throi 600 o latheni o'i hen wely; ac yn 1821, gwnaeth heol newydd, peth o honi yn hen wely yr afon, er ei phellhau oddi wrth y palas, a'i gwneyd yn unionach. Yn 1832 drachefn, gwnaed darn o heol newydd ar gyfer y Rheolau, yn lle yr un oedd yn myned heibio y palas. Gwnaed Cledrffordd trwy y dyffryn, o Gastellnedd hyd Hirwaun, rhwng 1848 a 1851; yr hon a agorwyd mis Medi, yn y flwyddyn olaf a nodwyd. Estynwyd hi wedi hyny i Ferthyr Tydfil, ac Abertawy, ac y mae masnach fawr yn cael ei gario yn mlaen arni. Mae arni dair gorsaf, o ben uchaf y dyffryn, i Gastellnedd, sef Gorsaf Glyn Nedd, Resolfen, ac Aberdulas.

Ymddengys fod crefydd yn fore iawn yn mharthau isaf y glyn, lle y mae dwy eglwys hynafol iawn, sef Llangattwg Nedd, a Llanilltyd Nedd. Bernir i'r flaenaf gael ei sylfaenu gan Cattwg Ddoeth, a'r olaf gan Illtyd Sant. Bernir hefyd fod Capel Aberpergwm, yn mharth uchaf plwyf Cattwg, wedi ei adeiladu yn y 6fed ganrif, a Chapel bychan Blaengwrach, yn amser y Frenhines Elizabeth. Ni fu ychwanegiad yn nifer yr eglwysi esgobol yn y dyffryn, hyd 1850, pryd yr adeiladwyd Eglwys Melin Court.

Dechreuodd yr Ymneillduwyr yn yr ardal, yn Blaengwrach (gwel Blaengwrach). Yr enwad nesaf o Ymneillduwyr i gychwyn achos yn y cwm, ar ol Presbyteriaid Blaengwrach, oedd y Trefnyddion Calfinaidd, mewn lle a elwir yr Ynysfach.

Adeiladwyd Capel bychan yma yn 1731, ar draul un Counsellor Morris, a bu y boneddwr hwnw farw cyn cyssegru y Capel yn gapel eglwysig; ac yn fuan daeth i feddiant y Methodistiaid, y rhai fuont yn addoli ynddo hyd 1821, pryd yr adeiladwyd y capel presenol, a elwir yr Ynysfach. Adeiladodd yr un Cyfundeb, gapel yn mhentref Pontnedd fechan, yn 1822. Mae gan yr Enwad hwn gapel yn mhentref Glyn Nedd hefyd.

Dechreuodd yr enwad Annibynol tua Melin Court, oddeutu y flwyddyn 1796; ond ni chodwyd capel am rai blynyddau ar ol hyn. Wedi i'r enwad gychwyn achos bychan yn uwch yn y glyn, a gweled fod yma lwyddiant, mynasant drwydded i bregethu mewn ty anedd. Aeth hwnw yn rhy fach, rhentasant y *Storehouse*, perthynol i berchenogion Camlas Glyn Nedd; ond yr oedd y nwyddau a gedwid yno yn gryn rwystr i gynnal yr achos yn y lle, ac felly cafodd y brodyr ganiatad i adeiladu llofft ar ben yr ystordy, a lle i fyned iddi o'r tu allan. Gosodwyd pulpid, seddau, a phob peth arall yn gyfleus ar y llofft hono, ac yno y bu yr enwad yn addoli, nes adeiladwyd Capel Glyn Nedd, yn 1839, ar ddarn o dir a roddwyd gan Mr. W. Williams, Aberpergwm, am 5*s.* y flwyddyn, am 999 o flynyddau: rhoddodd hefyd 50*p.* at adeiladu y capel. Mae gan yr enwad hwn yn bresenol, ddau gapel yn y dyffryn, sef yr un a nodwyd, a Chapel Melin Cwrt; a chynnelir ysgol Sabbathol, &c., yn Blaengwrach, a Phont Walby, dan nawdd eglwys Glyn Nedd.

Adeiladodd y Bedyddwyr gapel yn Glyn Nedd, yn 1846; a chorpholwyd eglwysi Ynysfach, ac Aberdulas, yn 1856. Mae gan y Wesleyaid hefyd eglwys yn Resolfen; ac felly mae yn amlwg fod Ymneillduaeth yn lled flodeuog yn y dyffryn hardd hwn. Nid yw y Glyn hwn wedi bod yn ol i lynoedd ereill, gyda golwg ar fagu enwogion ychwaith; yn mhlith y rhai a fagwyd yma, enwn yn mlaenaf, yr enwog fardd Dafydd Nicolas; Bardd teulu Aberpergwm. Yr oedd yn fardd, yn gerddor, yn feddyg, ac yn ddysgawdwr gwych. Efe a gyfansoddodd Yr Aderyn Pur, Fanny Blooming Fair, &c. Mae a ganlyn ar ei gofadail:—"Dafydd Nicolas, Bardd Aberpergwm, dros 50 mlynedd; a'r diweddaf feallai, o'r cyfryw yn Nghymru. Bu yn Athraw i'r anwybodus—yn Feddyg i'r Claf—ac yn Brydydd anianol trwy ei oes. Ganwyd ef 1693, bu farw 1769."

Rhys Morgan, Pencraig nedd hefyd, cydoesydd D. Nicolas, ydoedd fardd gwych; ac y mae llawer o'i waith ar gael.

Thomas Llewelyn, Glyn Eithinog, a eisteddai yn mhlith beirdd Cadair Morganwg yn 1560, pan oedd Meiryg Dafydd yn llywydd.

Yr oedd T. Ll. yn fardd gwych, fel y dengys yr englyn canlynol o'i waith:—

O'r pridd y daethum wr pruddaf,—prudd wyf,
  I'r pridd oer dychwelaf;
Prudd o feddwl, pridd fyddaf,
  Prudd o ddyn, i'r pridd ydd âf.

**GLYN RHYMNI**, neu Gwm Rhymni, sydd yn rhanol yn siroedd Morganwg a Mynwy, Deheudir Cymru: a thrwyddo y rhed afon Elyrch (Rhymney River), gan gadw ei henw o'i tharddiad i'r mor. Tardd yr afon mewn ardal wyllt, fynyddig, yn Mlaen Rhymni, ger lle a elwir Y Pyllau Duon, swydd Frycheiniog. Yn agos i darddle yr afon, y mae y lle hynod hwnw a elwir *Rhyd Y Milwyr;* lle y gwelir olion, tebyg i olion traed meirch, gwartheg, a defaid; ie, a thebyg i olion traed a dwylaw dynion, yn ddwfn yn y graig yn ngwely yr afon.

Ychydig yn ddeheuol i'r hynodle hwn, adeiladwyd tŷ ar graig, yn nghanol gwely yr afon, yr hwn a elwir "Y Ty llechau." Ar dywydd sych, nid oes un rhwystr i fyned a dyfod i, ac o'r ty hwn, am mai ychydig ddwfr sydd yn yr afon, ond ar ol ychydig wlaw, mae yr afon yn llifo ar bob tu iddo, fel na ellir myned iddo, na dyfod o hono, heb wlychu llawer. Beth oedd amcan adeiladu ty yn y fath le, sydd ddirgelwch.

Tua hanner milldir yn ddeheuol i'r Ty Llechau, croesir yr afon gan Bont Llechryd, yr hon a elwir hefyd Pont Rhymni. Mae ger y bont, bentref bychan, yn myned dan yr enw Llechryd, a'r briffordd sydd yn arwain o Ferthyr Tydfil i Abergafenni, yn myned drwyddo: a gelwir y lle gan y Saeson, "The Rhymney Inn," oddi wrth dafarn o'r enw yn y lle. Bu'r tafarn hwn yn lle pwysig gan deithwyr cyn cyfnod y Cledrffyrdd, oblegyd fod y *Mail Coach* yn sefyll yma, i gael newid y ceffylau, pan ar daith rhwng Abergafenni a Merthyr.

Ychydig yn ddeheuol yn y cwm, y saif gweddillion Hen Ffwrnes Uchaf Rhymni. Gwnaed llawer o haiarn yn yr hen ffwrnes hon, cyn adeiladu un ffwrnes arall yn y cwm: a chyn gwneyd ffordd haiarn, (Tramroad) i gyssylltu y lle a'r Casnewydd. Yr amser hwnw, (60 mlynedd yn ol) dygid yr haiarn a wneid yn yr hen ffwrnes mewn pedrolfen (waggon) dros y mynydd, i Ferthyr, i'w anfon i'r farchnad dros y Camlas weithiau, ond fynychaf at Forthwylfa Penydaren. Safodd yr hen ffwrnes hon tua'r flwyddyn 1844, gan fod ffwrnesi mwy, a gwell, wedi eu hadeiladu gan y perchenogion, tua 2 filldir yn ddeheuol iddi, a bod y forthwylfa, y melinau, &c., yn

Digitized by Google

ymyl y rhai newyddion. Mae gweddillion yr hen ffwrnes yn sefyll yn neheubarth swydd Frycheiniog, ac o fewn ychydig gannoedd o latheni iddi, y mae man yn nghanol yr afon, y gall dyn sefyll yn Siroedd Brycheiniog, Morganwg, a Mynwy, am fod y tair sir yn cydgyfarfod yno, mewn llai o le na throedfedd ysgwar.

Mae gwaith haiarn Rhymni wedi ei adeiladu ar bob tu i'r afon, ac felly mae rhan o hono yn Morganwg, a rhan yn Mynwy, ac yn cael ei gario yn mlaen ar raddfa helaeth. Gwel RHYMNI.

Ychydig yn ddeheuol i'r haiarnfa, y saif Pontlottyn, lle mae poblogaeth luosog. Enw diweddar yw hon ar y lle, er ei fod yn hen enw ar y bont sydd ar yr afon yn y fan hon. Hen enw y lle oedd Gomorah; ac y mae twr o dai gerllaw, a elwid Sodom: ond rai blynyddau yn ol, barnodd ynadon Merthyr ac ereill, mai gwell fuasai enwi yr ardal yn Bontlottyn.

Yn fwy deheuol yn y glyn, y saif Tir Phil, a New Tredegar, lle y mae gweithiau glo mawrion, gan berchenogion Gwaith Rhymni, ac etifeddion T. Powell, Ysw.; ac y mae yma boblogaeth gynnyddol. Yn 1871, codwyd o lo yn ngwaith Tir Phil, 9287 o dunelli, ac yn New Tredegar 55,101 o dunelli.

Tua 2 filldir yn îs yn y glyn, y mae Pont-aberbargoed, lle y derbynia y Rhymni Nant Bargoed Fach i'w mynwes. Mae yma ddwy orsaf cledrffyrdd, un ar linell Rhymni a Chaerdydd, a'r llall ar linell Aberhonddu a'r Casnewydd. Dwy filldir yn fwy deheuol, y mae Pont-aber-pengam, lle yr ymarllwysa nant Pengam i afon Rhymni: a thua 1½ milldir yn îs, y mae pont yn croesi y glyn, yr hon sydd yn 640 troedfedd o hyd, 130 troedfedd o uchder; ac iddi 16 o fwäau: dros yr hon y rhed cledr-ffordd Merthyr a Phontypŵl. Oddi yno i waered, mae y glyn yn ymeangu, a'r afon yn rhedeg trwy dir hyfryd a ffrwythlawn, heibio Ystradmynach, yn ddwyreiniol i Gaerffili, heibio Machen, Llanfihangel-fedw, St. Mellons, &c., ac yn ymarllwys i Hafren tua milldir i'r dwyrain o Gaerdydd.

**GLYN TAF**, sydd ddosparth eglwysig, yn mhlwyf Eglwyselian, swydd Forganwg, Deheudir Cymru. Saif hen eglwys Glyn Taf ar du dwyreiniol i afon Taf, tua milldir i'r deau o Bontypridd: mae wedi ei hadeiladu yn yr arddull Normanaidd, yn cynnwys corph, canghell, dwy festri, a thŵr yn cynnwys un gloch. Mae yr eglwys yn ddigon i gynnwys tua mil o bersonau. Ficeriaeth yw y fywoliaeth, yn werth 300*p.* y flwyddyn, yn rhodd Esgob Llandaf; a dyddia y coflyfr o'r flwyddyn 1834. Capel yn perthyn i'r eglwys hon, yw eglwys newydd Pontypridd. Gwel PONTYPRIDD.

**GLYN TAWE**, capeloriaeth yn mhlwyf DEFYNOG, swydd FRYCHEINIOG; 7½ milldir i'r gorllewin o dref Aberhonddu, yr hon yw ei llythyr-dref. Poblogaeth, 99. Tai, 20. Y fywioliaeth eglwysig sydd is-berigloriaeth barhaol, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 80*p.*

**GLYN TAY**, treflan yn mhlwyf Llandebie, Swydd GAERFYRDDIN; 4½ milldir i'r Dehau o Landeilo Fawr.

**GLYN-TRAIAN**, un o brif raniadau plwyf LLANGOLLEN, undeb CORWEN, rhanbarth Nanheudwy o gantref CASTELL-Y-WAEN (*Chirk*), swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU, gyda phoblogaeth o 975, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae yn ffurfio parth uchelaf plwyf arddunol Llangollen, ac yn gynnwysedig o fryniau igam-ogam, ymylon y rhai sydd yn cael eu cyffwrdd â hwynt gan ffrydiau tröellog y Dyfrdwy wyllt ffrydiog.

**GLYN-TREFNANT**, trefgordd yn mhlwyf TREFEGLWYS, rhandir uchaf cantref LLANIDLOES, swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU, 5 milldir o dref Llanidloes: rhoddir y boblogaeth gydag eiddo y plwyf. Yn y drefgordd hon y mae eglwys y plwyf. Y mae yma dri nant yn cydymgyfarfod, ac yn gwneuthur eu cartref yma, a dyna ystyr yr enw; os nad Glyn-tri-nant ydyw.

**GLYWYS** (CERNYW), sant a flodeuai yn y rhan gyntaf o'r chweched ganrif; yr oedd efe yn frawd i Cattwg, ac yn fab i Gwynlliw Filwr, ab Glywys ab Tegid, pendefig o Gwynllwg, yn Mynwy. Efe a seiliodd eglwys Coed Cernyw, yn y wlad hono. Ei daid Glywys ab Tegid, oedd yn sant hefyd, ac a roddes yr enw Glywyseg i ardal yn Mynwy, lle hefyd y seiliodd efe eglwys Machen.

**GOFILON**, capeloriaeth yn mhlwyf LLANWENARTH, Swydd FYNWY; ger rheilffordd y Fenni a'r Merthyr, 3 milldir i'r Gorllewin o'r Fenni. Y mae yma orsaf ar y rheilffordd, a llythyrfa dan y Fenni. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth yn esgobaeth Llandâf. Gwerth 274*p.* Noddwr, Periglor Llanwenarth.

**GOFOR**, SANT, sylfaenydd Llanofor, neu Llanofer, Mynwy, a goffheid Mai 9. (*Iolo MSS.*)

**GOGARTH**, neu GWYGARTH, gorynys Llandudno; o'r hon y cloddiwyd llawer iawn o efydd, o bryd i bryd. Ar y gwastadedd, yr ochr ddeheuol iddi, y mae adfeilion hen fynachdy mawr, a berthynai unwaith i Fonachlog Aberconwy; ac a fu wedi hyny yn hâf-balas esgobion Bangor. Y mae hen eglwys blwyfol Llandudno ar y bryn, yr ochr ogleddol iddo; a thybir ei bod wedi ei hadeiladu ar y cyntaf, yn y seithfed ganrif, trwy offerynoliaeth St. Tudno. Y mae llwybr wedi ei wneyd o amgylch y pentir creigiog hwn, yr hwn sydd agos yn chwe milldir o hyd, a gwneir defnydd mawr o hono gan ymwelwyr dyeithr yn yr hâf, er mwynhau y golygfeydd hyfryd, ac anadlu yr awyr iach, ar hyd-ddo.

**GOGINAN**, lle y mae mwngloddiau plwm mawrion, yn Swydd ABERTEIFI; 7½ milldir i'r Dwyrain wrth Ogledd o Aberystwyth. Y mae yma lythyrfa dan Aberystwyth.

**GOGOIAN**, trefgordd yn mhlwyf LLANDDEWI BREFI, Swydd ABERTEIFI; 4 milldir i'r De Orllewin o Dregaron. Mesura 707 o erwau o dir; a chyfrifir ei gwerth ardrethol yn 546*p.* Poblogaeth, 99. Tai annedd, 17.

**GOGYRFAN GAWR**, tad Gwenhwyfar, un o dair gwraig Arthur, ydoedd benaeth ar ran o Bowys yn y 6ed ganrif. "Caer Ogyrfan" y gelwid gynt "Old Oswestry," neu, hen dref Croesoswallt.

**GOITRE** (Y), neu Y GOETRE, treflan yn mhlwyf LLANNON, Swydd GAERFYRDDIN; 6½ milldir i'r Gogledd o Lanelli.

**GOITRE** (Y), treflan yn mhlwyf LLANARTH, CEREDIGION, 5½ milldir i'r De Dde Orllewin o Aberaeron. Poblogaeth, 240.

**GOITRE** (Y), plwyf yn Undeb Pont y pridd, Swydd FYNWY, ger dyfr-ffos Aberhonddu; a cher rheil-ffordd Henffordd a'r Cas Newydd, wrth orsaf Nant y deri; 5½ milldir i'r Dehau o Abergafenni. Llythyrfa, Nant y deri, dan Bont y pool. Mesura 3332 o erwau o dir; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 2824*p.* Poblogaeth, 668. Tai annedd, 143. Cyfodir llawer o gerrig calch, a cherrig adeiladu yn

Digitized by Google

y plwyf; a gwneir pridd-lechau yma. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth 227*p*. Noddwr, Iarll Abergafenni. Y mae yma addoldai perthynol i'r Bedyddwyr a'r Trefnyddion.

**GOITRE** (Y), trefgordd yn mhlwyf Ceri, Swydd Drefaldwyn, 2 filldir i'r Dwyrain Dde Ddwyrain o'r Dref Newydd. Poblogaeth, 96.

**GOLDCLIFF**, plwyf yn undeb y Cas' Newydd, Swydd Fynwy, ar lan culfor Bristol, 3 milldir i'r De Dde Orllewin o orsaf Llanwern; a 4½ milldir i'r De Ddwyrain o'r Cas' newydd. Y llythyrfa yw Whitson, dan y Cas' newydd, Mynwy. Mesura 14,262 o erwau; o ba rai y mae 12,065 yn orchuddiedig gan ddwfr. Gwerth ardrethol 5144*p*. Poblogaeth, 250. Tai, 55. Y tir gan mwyaf sydd ran o Wastadedd Caldicot, yr hwn a ddiffynir gan forgloddiau. Y mae bryn o galchgraig gelltaidd, tua 60 troedfedd o uchder, yn ymddyrchafu oddiar wely mawr o gloddem melyn, yn tori y gwastadedd ger glan y môr, a'i ymddangosiad yn ddysglaer dan dywyniad yr haul; a hyny a achlysurodd i'r lle gael ei alw "Goldcliff," neu "Eur-fryn." Sefydlwyd Prïordy Benedictaidd yma yn y flwyddyn 1113, gan Robert de Chandos; ac ar ddadgorfforiad y crefydddai, fe'i rhoddwyd i Goleg Eton; ond. nid oes dim o'i holion ar gael yn bresenol. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandâf. Gwerth 85*p*.; ac yn nawddogaeth Coleg Eton.

**GOLDEN GROVE**, neu "Y Gelli Aur," palas Iarll Cawdor, yn Sir Gaerfyrddin; ar lan yr afon Teifi, 2½ filldir i'r De Dde Orllewin o Landeilo Fawr. Y mae yn balas hardd iawn, ac mewn sefyllfa hynod o ddymunol, ar lethr bryn. Yr oedd gorsaf yr hen balas blaenorol mewn llanerch îs, lle y mae y gerddi yn bresenol. Yno y bu Jeremi Taylor yn llechu, ar ol marwolaeth Charles I.

**GOLDEN GROVE**, palas y Morganiaid, yn agos i New Market, yn Swydd Fflint, 4 milldir i'r Dwyrain Ogledd Ddwyrain o Ruddlan. Y mae yr ettifeddiaeth gylchynol, wedi bod yn perthyn i'r un teulu er cyn y goresgyniad Normanaidd.

**GOLDEN MILE**, cyttir, 3 milldir i'r De Ddwyrain wrth Ddwyrain o Ben y Bont ar Ogwr, Swydd Forganwg. Cafodd ei enw oddiwrth y ffaith mai dyma y llanerch ar ba un y talodd Iestyn ap Gwrgant swm o aur am wasanaeth Fitzhamon, yn 1091, yn ei gynnorthwyo yn erbyn Rhys ab Tewdwr.

**GOLEUDDYDD**, Santes, yn y 5ed ganrif, merch Brychan, a sefydlodd Llanhesgin yn Ngwent; ond ni wyddis pa le y safai. Yn ol rhai ysgrifau, yr un ydoedd a Nefydd.

**GOLFFTYN**, trefgordd yn mhlwyf Llaneurgain, Swydd Fflint, ar lan yr afon Dyfrdwy; 3½ milldir i'r Gogledd Orllewin o Ben-ar-halawg. Poblogaeth, 451. Tai, 108. Pysgodwyr a Glowyr yw y trigolion gan mwyaf.

**GOLON**, trefgordd yn mhlwyf Abbatty Cwm Hir, Swydd Faesyfed; 6½ milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Raiadr. Gwerth ardrethol, 2086*p*. Poblogaeth, 373. Tai annedd, 69.

**GOLYDDAN**, bardd Cadwallawn ab Cadfan, tywysog Gwynedd, yn ei flodau rhwng 560 a 630. Efe a laddodd Gadwaladr Fendigaid, yr ergyd hwnw oedd un o'r "tair engir balfawd;" am hyny lladdwyd yntau a bwyall, yr hyn oedd un o'r "tair anfad fwyellawd." (*Myf. Arch.* ii. 16, 22, 65.)

**GOODMAN**, Gabriel, D.D., deon Westminster yn amser Elizabeth, a anwyd yn Rhuthyn, yn 1528. Ail fab ydoedd i Edward Goodman, o'i wraig Sisely, ferch Edward Thelwall, Plasyward. Dywed y *Gwladgarwr*, vi. 257, mai Edward Goodman oedd y cyntaf i ddefnyddio y cyfenw Goodman, ac mai ei enw dechreuol oedd Edward ab Tomas ab Edward ab Siencyn Goch, o Landyrnog, yn Nyffryn Clwyd; ac mai y wlad a roddodd iddo y cyfenw anrhydeddus o Goodman, am ei weithredoedd haelionus. Derbyniodd Gabriel ei addysg yn ngholeg St. John, yn Nghaergrawnt, lle y graddiwyd ef yn M.A. Wedi gadael y coleg, aeth yn gaplan i Syr William Cecil, wedi hyny arglwydd Burleigh, yr hwn, ar goroniad Elizabeth, a wnaed yn un o'i chyfringyngor, ac yn 1561, yn Gangellydd Caergrawnt. Rhoddodd y dyrchafiadau hyn gyfle i arglwydd Burleigh i ddyrchafu ei gaplan; yn 1560, gwnaed ef yn prebendary, ac yn Medi 1561, yn ddeon, Westminster. Wedi cyrhaedd y swydd hon, a'r radd o D.D., ymddangosa fel un o'r prif ddynion yn sefydliad deddfau y Diwygiad Protestanaidd, ac Erthyglau ffydd Eglwys Loegr; a bu o fewn ychydig lawer gwaith, i gyrhaedd y fainc esgobawl.

Yn "Nghyfieithiad yr Esgobion" o'r Beibl Saesneg, a ymddangosodd yn 1568, gwaith y Deon Goodman oedd cyfieithiad yr epistol cyntaf at y Corinthiaid; ac y mae Dr. William Morgan, yn ei gyfieithiad o'r Beibl i'r Gymraeg, yn 1588, yn cydnabod ei rwymau i Dean Goodman, am gynorthwy pwysig.

Yn 1590, efe a osododd ei dref enedigol o dan rwymau parhaol iddo, trwy sefydlu *Wardenship* Rhuthyn, yr hon a waddolodd efe a degymau plwyfau Rhuthyn a Llanrhydd, pa rai a brynasai efe er swm mawr, gan y lleygwyr a'u dalient er amser Iorwerth VI.; ac efe hefyd a fu yn offeryn i sefydlu Ysgol Ramadegol Ruthyn, yn 1595, yn yr hon y bu lluaws mawr o'n henwogion yn derbyn addysg. Bu farw Mehefin 17, 1601, yn 73 oed, a chladdwyd ef yn Westminster Abbey. Ysgrifenwyd bywgraffiad dyddorol o'r Deon Goodman, a'r Esgob Goodman, ei nai, gan R. Newcome, Warden Ruthyn, yn 1825.

**GOODMAN**, Godfrey, D.D., mab i Godfrey, brawd ieuangaf y Deon Goodman, a anwyd yn Rhuthyn, Chwefror 28, 1582. Pan yn ddeg oed, anfonwyd ef i ysgol Westminster, o dan ddysgeidiaeth yr hynafiaethydd enwog, William Camden; o ba le, yn 1600, yr etholwyd ef yn ysgolor o Goleg y Drindod, Caergrawnt, ac yn mhen yspaid, yn gymmrawd o'r gymdeithas hono. Bu y parch mawr a delid i'w ewythr, yn nghyd a'i deilyngdod sylweddol ei hun, yn foddion i'w ddyrchafu yn gyflym yn yr eglwys. Yn 1605, rhoddodd yr esgob Morgan iddo wag-swyddau y rhan gyntaf o rectoriaeth Llansanan; a'r esgob Parry, olynydd Morgan, a roddodd iddo wag-swyddau yr ail ran, yn nghyda gwag-swyddau Llandysul, Ysgeifiog, a Llanarmon yn Ial. Noddid ef hefyd gan yr esgobion Lancelot Andrews, a Richard Vaughan, yn nghyd a'r archesgob Williams, trwy ddylanwad yr hwn y cafodd ei wneyd yn gaplan i'r frenhines, ac y derbyniodd ganddi rectoriaeth Stapleford Abbots, Essex, yn 1607, a chanoniaeth Windsor yn 1617, gyda pha rai y daliai efe rectoriaeth West Ildesley, swydd Berks. Yn 1620, gwnawd ef yn ddeon Rochester; ac yn 1624, yn esgob Caerloyw, gyda chaniatad i ddal ei ganoniaeth trwy gynddrychiolydd. Fel yna, esgynodd Godfrey Goodman yn hynod o gyflym; ond fe ddisgynodd yn gynt. Ychydig ar ol ei ddyrchafu yn esgob, traddododd

Digitized by Google

bregeth ger bron y llys, yn yr hon y cyhuddid ef o ddal syniadau Pabyddol. Yn 1640, gwrthododd lawnodi y canonau newyddion a gynygid gan yr archesgob Laud, am yr hyn y di swyddwyd, ac y carcharwyd ef am ychydig amser. Yn 1650, cyhoeddodd "Hanes ei Ddyoddefiadau," yn yr hwn y dywed, ddarfod iddo yn 1643 gael ei "yspeilio, ei anrheithio, ei orthrymu, a'i lwyr andwyo." O hyn allan, ymneillduodd i blwyf St. Margaret, Westminster, gan letya yn nhy Mrs. Sibilla Eglionby, a gwneuthur mynych ddefnydd o lyfrgell Syr Robert Cotton; a byddai yn encilio yn fynych i Gymru, lle y prynasai efe fferm o'r enw Ty Du, yn mhlwyf Llanberis. Yr oedd yn awr, fel y prawf ei ewyllys, yn aelod yn yr eglwys Babaidd. Bu farw Ionawr 19, 1655, a chladdwyd ef yn eglwys St. Margaret. Yr oedd yn awdwr amryw o lyfrau, megys "The Fall of Man; or the Corruption of Human Nature proved by Natural Reason," 1616; "Arguments and Animadversions on Dr. Hakewell's Apology," "The Court of King James the First," yr hwn a adawodd mewn llawysgrifen, ac a fwriadai yn atebiad i lyfr o'r un enw, gan Syr Anthony Weldon. Rhoddir cymeriad uchel iddo gan Lloyd, a Fuller:—"Dyn diniwaid ydoedd, diddrwg i bawb ond iddo ei hun, tosturiol wrth y tlawd, caredig i'w gymydogion, yn gallu cydymdeimlo ag Ymneillduwyr, ac yn erbyn drygu neb a farnent yn wahanol iddo ef."

**GOODWIG**, pentref yn mhlwyf LLANWNDA, Swydd BENFRO; 1¼ milldir i'r Gogledd Orllewin o Abergwaun. Y mae yma lythyrfa dan Hwlffordd. Glaniodd tua dwy fil o Ffrancod ger llaw y fan hon, yn y flwyddyn 1797, y rhai wedi yspeilio rhai o'r trigolion diniweid, a dychrynu y lleill, a gymerwyd yn garcharorion gan Iarll Cawdor.

**GOP** (Y), trefgordd yn mhlwyf NEW MARKET, Swydd FFLINT; 4¼ milldir i'r Dwyrain Ogledd Ddwyrain o Ruddlan. Rhoddir yr enw iddi oddiwrth y bryncyn celfyddydol anferth sydd oddiar New Market, a elwir "Gop ar leni." Poblogaeth, 208.

**GORED GOCH** (Y), ynysig, a ddefnyddir fel pysgodfa, yn nghanol culfor y Menai, rhwng Swydd Fôn a Swydd Gaer yn arfon, a rhwng Pont Menai a Phont Britannia; yn agos i Bwll Cerys.

**GORFYNIAWN**, mab Morfydd, a olynodd ei dad i orsedd Prydain cyn cred. (*Myf. Arch.* ii. 160.)

**GORFYNIAWN II.**, mab Elidyr, a olynodd ei dad i orsedd Prydain cyn cred. (*Myf. Arch.* ii. 164.)

**GORFYW**, SANT, nid oes ond ei enw ar gadw.

**GORONWY** AB BELYN, bardd, yn ei flodau tua diwedd y 15fed ganrif.

**GORONWY** AB ECHEL FORDDWYD TWLL, gyda Cadraith, a Fflewdyr Fflam, oeddynt "dri unben llys Arthur." (*Myf. Arch.* ii. 4, 13, 74.)

**GORONWY BEFR**, neu PEBYR, arglwydd Penllyn yn Meirion, tua diwedd y 5ed ganrif. Y mae yn un o gymeriadau *Math ab Mathonwy;* ac y mae ei deulu ef, gydag eiddo Gwrgi Peredur, ac Alan Forgan, yn ffurfio y "tri anniwair deulu." (*Myf. Arch.* ii. 8, 16, 70.)

**GORONWY DDU**, oedd fab Tudur ab Heilyn, o Fon; a bardd yn ei flodau rhwng 1320 a 1370. Y mae dau gywydd o'i eiddo yn y *Myf. Arch.*

**GORONWY FOEL**, bardd a flodeuai yn haner olaf yr 16eg ganrif.

**GORONWY GYRIOG**, bardd o Fon, a flodeuai o 1310 i 1360. Y mae dau ddarn o'i eiddo yn y *Myf. Arch.*

**GORPHWYSFA**, palas Iarll Lucan, ar lan afon Menai.

**GORPHWYSFA**, gwestdy mewn man uchel yn nghanol mynyddoedd Eryri, wrth droad y dwfr, ar y ffordd o Gaer yn arfon, trwy Lanberis, i'r Capel Curig; 12¾ milldir i'r De Ddwyrain o Gaer yn arfon.

**GORSEDD**, capeloriaeth yn mhlwyfi RHYDWEN ac YSCEIFIOG, Swydd FFLINT; 3 milldir i'r Gorllewin wrth Ddehau o Dreffynnon, a 4½ i'r Gorllewin o orsaf rheilffordd Bagillt. Fe'i gwnaed yn gapeloriaeth yn y flwyddyn 1853. Ei lythyrfa yw Treffynnon. Poblogaeth, 639. Tai annedd, 141. Poblogaeth y rhan a berthynai i Rydwen, 538. Tai annedd, 118. Ficeriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth, 300*p*. Noddwr, Esgob Llanelwy.

**GORSEDD MORGANWG**, y gelwir y trefniant hwnw ar Farddoniaeth, Cerddoriaeth, a Llenoriaeth Gymreig, a goleddid yn neillduol yn y Swydd honno, a'r Deheubarth yn gyffredinol, er yr oesau gynt. Addefir gan y cyhoedd yn mhob gwlad, fod y cymydogaethau hyn wedi bod yn dra boreuol a gwresog, yn meithriniaeth awen a thalent Cenedl y Cymry; a'u bod wedi cael nodded y barwniaid a'r pendefigion a fu yn llywodraethu yn eu terfynau, i'w holl anturiaethau addysgol; y rhai a estynasant eu haden amddiffynol dros amcanion yr Eisteddfod, o'u dyfodiad cyntaf i gyfaneddu yn eu plith. Ni wyddom am unrhyw gofnodiad, ag y gallwn gael gwell eglurhad ynddo am egwyddorion yr Orsedd hon, nag ysgrifau Iolo Morganwg, a'i fab, Taliesin; o ganlyniad, at "Gyfrinach y Beirdd" y cyfeiriwn am y dystiolaeth ofynol i'w dodi ger bron. Wrth gyfeirio at eu hysgrifeniadau, ni ellir amgen na chanfod eu brwdfrydedd di orphwys, dros bob peth perthynol i'r dosparth hwn, yn gystal a'u heiddigedd cilwgus, yn erbyn pob trefniant arall a ryfygo ymgysdadlu âg ef. Er mwyn cael golwg ar yr hyn sydd yn ei wahaniaethu oddiwrth bob un arall, ni a ddyfynwn rai o'u nodiadau i'w gosod ger bron;—"Gwedi ymadawiad y Rhufeiniaid o Ynys Prydain, yn nghylch O.C. 400, neu gynt fe allai, fe ymroddes y Prydeiniaid yn ebrwydd i drefnu gwladwriaeth, yn anymddibynol ar neb rhyw genedl arall. Yn y cyfnod canlynol, hyd 500 Oed Crist, bu galw ar atgof, hen a chyssefin drefn a gwybodau Beirdd Ynys Prydain; ag adferwyd Cadair wrth Gerdd yng Nghaerlleon ar Wysg, lle bu y ddau Ferddin, Taliesin, Mabon Sant, ag eraill yn Ben-athrawon: ag yno y trefnwyd, dan nawdd Arthur a'i Farchogion, gyda'r doethion dygynnull, Dosparth y Ford Gron; sef Dosparth ar gelfyddyd, a gwybodau, defodau, a breiniau, Beirdd, a Gwyr wrth Gerdd Dafod, a dodi gwellhad a chadw, lle gwelit achos, ar bob teilwng o'r hen, a gwahanred ar bob newydd a fernid yn gynnydd a mwyhad ar wybodau gwiwgais, parth doethineb ag achos Gwlad a Chenedl." Gair cysswyn y Gadair honn oedd "GWIR YN ERBYN Y BYD, YN ENW DUW AI DANGNEF." Ni a welwn yma ar y cyntaf, mai o fewn terfynau yr orsedd hon y dechreuwyd adferu y trefniant Barddol. Mynegir yn mhellach:—"Wedi marw Arthur yng nghad Gamlan, doded y Ford Gron yng nghadwraeth Urien Rheged, yng nghastell Aberllychwr; sef yno ei briflys ef; ag yno amcan deucan mlynedd; wedi hynny Caerwynt, a mwy na chan mlynedd; yn ol ar

Digitized by Google

adwedd idd ei phrif ansawdd, yng Nghaerlleon ar Wysg, dan bendefigaeth Iestyn ab Gwrgant, a'i dodes yn ei Gastell newydd ar Daf, ym Mrenhindref Caerdydd. Gwedi cwymp Arthur, aeth celfyddyd a gwybodaeth dann orchudd, herwydd difrod ac anrhaith rhyfeloedd gwaedlyd; heb braidd llenlewyrch yn tywynnu i ddeffroi ymgais. Tua dechreu y nawfed ganrif, ymddangosodd awenydd athrylithlawn, goleufyw,—Ceraint Fardd Glas o'r Gadair; yr hwnn a gododd Gadair adgywair wrth Gerdd, yn Llandaf, a'i gair cysswyn—DUW A PHOB DAIONI; a thyma ddechreu Cadair Morganwg, yn amrafael ar Gadair Beirdd Ynys Prydain, sef un Caerlleon ar Wysg, dann ddosparth y Ford Gron; er mai blynyddau ar ol hynny y galwyd hi yn Gadair Morganwg." Yn ol y dystiolaeth hon, gwelir mai yr un yw Gorsedd Morganwg, a chadair y Ford Gron, ond mai mewn amser diweddarach y deuwyd i'w galw wrth yr enw hwn. Y mae cryn fri a hynafiaeth yn cael eu cydnabod i Gadair Tir Iarll, fel ei gelwir. Dyma y cofnodiad a gawn am dani yn Ysgrifau Iolo. "Cadair Tir Iarll a ddechreuwyd gan Forgan, Arglwydd o Aberafan, yn lle un Arthur yng Nghaerlleon ar Wysg. Gwedi hynny y dodes Iarll y Clare diweddaf namyn un, fraint Ereidr iddi ym Mettws Llangynwyd, a Llangynwyd, a braint hafotta chwech mis o haf, o ddydd Calan mai hyd Galan gauaf, ag yna symud y Gadair o'i hansawdd yn Llanfihangel Afan, i Dir Iarll, lle a'i caid bob yn ail, yn Eglwys y Bettws ag un Llangynwyd, ag o hynny ei galw Cadair Tir Iarll; a llawer o Brydyddion a Chymreigyddion gorchestolion a fuant ym mraint y Gadair honn, lle nis gellid hynny ar neb o brydydd neu Gymreigydd nas cawsai y naill a'i eni neu ynte ei faccwyaeth ym mraint y Gadair honn, gan ymgadeiriaw ynddi. Cadair Tir Iarll a gedwir ym mraint Pendefigaeth Morganwg, ar bob un o'r Gwyliau Arbennigion yn warantedig o fraint, heb hawl, heb arynaig, dan osteg a rhybudd undydd a blwyddyn, parth ag at y trafod a gymmyger ger bron, ag nid rhydd gair yn ei herbyn, a nawdd Arglwydd y Bendefigaeth i bob Bardd a phrydydd, a elo dan drefn a defod ger ei bronn, hyd yny gaffer yn warantedig ar naw gwybodau a chelfyddydau Cerdd dafawd a'i pherthynasau, gan orddyfnaid Beirdd a Phrydyddion Cymry, a chynal yngolwg a chlyw Gwlad ac Arglwydd, ag yn wyneb haul a llygad goleuni, ag yn nawdd Duw a'i dangnef." Y mae hen gofion wedi eu cadw mewn ysgrifau yn mhellach, a gadarnhant y dystiolaeth am hynafiaeth ac awdurdod yr Orsedd hon, yn rhedeg yn yr ymadroddion canlynol:—"Ag o hynny ydd aethant Beirdd Tir Iarll yn glodgael o neb a gaed o Feirdd yng Nghymru:—Adnewyddwyd Breiniau 'r Gadair honn, yn wastad dann ammod ymchwilio am, a gloywi, gwybodau Barddoniaeth, gann amryw o Arglwyddi Morganwg, yn olynol, fel ag y bu hi dann nawdd anrhydeddus, dros oesoedd lawer." Dywedir fod son, mewn hen lyfrau casgledig ac ysgrifenedig gann Feirdd a Dysgedigion Cadeiriau Morganwg, a Thir Iarll, am Ddosparth Rhys Goch ap Rhiccart; dosparth Ieuan Fawr ap y Diwlith; rhai Trahaearn Brydydd Mawr, Edeyrn Dafod Aur, Gwilym Tew, Dafydd Ddu Athraw, Ieuan Llawdden, Ieuan Swrdwal, Einion Offeiriad, Lewys Morganwg, ag amryw eraill, hyd 1540; ac ychwanegir, "Beirdd Tir Iarll oeddynt i gyd; a gwelir gann hyny, i Feirdd y Gadair honn lynu, yn ffyddlawn a diwyd, o oes i oes, wrth yr ammod ymchwil a ddodid arnynt. Ar ol Lewys Morganwg, cododd Meurig Dafydd, o gylch 1540, Bardd eithaf cywirfarn a diwydbwyll; yn ei fawr awyddfryd dros bob gwybodaeth a chelfyddyd Barddoniaeth yn neillduol; efe a chwiliodd i maes, yn dra threiddgar, lyfrau yr holl awduron o'i flaen ef, ag a oeddynt i'w cael; yr ydym yn ddyledus iddo am Ddosparth cywir a chyflawn y Corfannau; ond y mae yn dywedyd iddo ei thynnu i maes o'r Gramadeg Cymraeg a wnaeth Syr Edward Stradling, o Gastell Sandunwyd, noddwr gwiwgof y Dr. Sion Dafydd Rhys. Y mae y nodiadau hyn a'r cyffelyb, sydd ar gael mewn cyflawnder mawr, yn rhoddi i ni ryw awgrym am ddechreuad, hynafiaeth, ac awdurdodaeth Gorsedd Morganwg. Nid oes neb diragfarn, na addefa fod Morganwg yn haeddol o ganmoliaeth uchel, am y modd y mae wedi bod yn ymgeleddgar i lenoriaeth Gymreig, am oesau lawer. Eto ar yr un pryd, ni allwn lai nag addef, ein bod yn methu canfod mai yno yn unig yr oedd yr "arch ar dystiolaeth," Farddol; a bod rhyw "Gyfrinion," wedi eu cadw, a'u cyflwyno, o oes i oes, hyd yr amser presenol, i'w holynwyr ar wahan; ac nad yw pawb eraill ond ymhonwyr di awdurdod, allan o derfynau y wir urddoliaeth. Amlyga yr hen Iolo deimladau anserchus iawn at bob peth cysylltiedig â dosparth Caerfyrddin, neu drefniant Dafydd ab Edmwnd, fel ei hadnabyddir yn gyffredin. Nid ydym yn deall pa fodd y bu i'r ychydig nifer o Feirdd Gwynedd, ag oeddynt yn bresenol yn Eisteddfod fawr Caerfyrddin, bedwar can mlynedd yn ol, gario y fath ddylanwad yno, os na bu iddynt gael eu cefnogi gan y nifer luosocaf o Feirdd y Deheubarth. Pa fodd bynag, Dosparth Dafydd ab Edmwnd a gymeradwywyd, ac a erys mewn awdurdod hyd y dydd hwn. Nid oes dim a wnelom ni â dadl y mesurau yma, ond efallai na byddai yn anmhriodol mynegi mewn gair, mai yr un a elwir Gorchan y Gyhydedd Hir," ydyw y goreu ag sydd yn arferol yn nosparth Morganwg, nad yw yn gynwysedig yn y "Pedwar mesur ar hugain Cerdd Dafod," yn yr hwn y mae geiriau diweddaf un ban o'r penill, yn cynghaneddu, â geiriau dechreuol y ban a ganlyn. Dodwn yma un penill, fel cynllun, ger bron:—

"Ystyriais y byd o'm gwybodus FEDDYLIAU;
EIDDILWCH llaweroedd, llu arall mewn POENAU;
NID PENNOD y llawen yw lliwio BWRIADAU;
A BRUDWAITH ystyrbwyll naws durbwynt DAMWEINIAU;
DYMUNAIS holl anian llawenydd i'm GENAU,
A GWINIAITH yr awen, a'i rhywiog WEADAU;
AG ADWYTH i'm mynwes, er mwyned ei CHWEDLAU:
OCH! ADLAIS bronn glaf, ag ni chwarddaf o'i cherddau."

**GOWER**, a elwir hefyd BROWYR, gorynys yn Swydd FORGANWG, yn gorwedd rhwng *bay* Abertawe, ag afon Bury; yn cyrhaedd tua 15 milldir i'r Gorllewin Dde Orllewin o linell ychydig o'r tu fewn i reilffordd Deheudir Cymru, i *Worms Head*, ac oddeutu 6½ milldir o led, at eu gilydd; y mae ei forlan yn igam ogam, a thra amrywiadol; yn yr hon y gwelir nodwedd agenog y galch-graig, a llawer o ogofeydd: ar yr ystlys Ddwyreiniol Dde Ddwyreiniol, y mae *Mumbles head, Longland bay, Caswell bay, Pwll du head, Oxwich bay, Oxwich point, Port Eynon bay*, a *Port Eynon point*. Ac ar yr ystlys

Digitized by Google

Orllewinol Ogledd Orllewinol, y mae pentir *White-ford*. Y mae golygfeydd dymunol i'w cael oddiar y lleindir hon; ac y mae yma rai olion henafiaethol dyddorol; megis y Gromlech ar Gefn y Bryn, a elwir "Maen Arthur." Fe'i goresgynwyd gan y Normaniaid, yn 1091-9; ac wedi y flwyddyn 1108, fe'i gwladychwyd gan Fflandrwysiaid, a gwyr o Wlad yr Haf, (*Somersetshire*,) y rhai a ddygwyd yno gyd a'r gobaith y buasent, trwy eu hymarferion diwyd a chynil, yn rhoddi terfyn ar y terfysgoedd parhaus a ffynent rhwng y Normaniaid a'r Cymry. Hiliogaeth yr ymsefydlwyr hyn ydyw y trigolion presenol, gan mwyaf; ac y maent yn cadw eu gwahaniaetholder, mewn iaith, gwisg, ac arferion. Yr oedd y Bardd Gower, a'r Esgob Gower, yn frodorion oddiyma. Rhenir Browyr yn ddau ddosparth,—y Dwyreiniol, yr hwn a gynnwys bedwar plwyf, a rhan o un arall; a'r Gorllewinol, a gynnwysa ddeuddeg plwyf, a rhan o un arall. Cynnwysa y rhan Ddwyreiniol 21,858 o erwau o dir; a'r rhan Orllewinol, 37,745. Poblogaeth, 4962 a 3354. Tai, 1028 a 736.

**GOWER ROAD**, gorsaf rheilffordd yn Swydd FORGANWG; ar reilffordd Deheudir Cymru, 3¼ milldir i'r Gorllewin Ogledd Orllewin o Abertawe. Y mae Pen lle'r gaer, palas J. D. Llewelyn, Ysw., o fewn 1¼ milldir i'r Gogledd.

**GOWER**, SYR ERASMUS, Barwnig, ydoedd fab hynaf Abel Gower, Ysw., o Glendower, swydd Benfro, o Lettitia, unig ferch Erasmus Gower, D.D. Gwel GOWER.

**GOWER**, HENRY, LL.D., esgob Ty Ddewi, ydoedd frodor o swydd Forganwg. Addysgwyd ef yn Ngholeg Merton, Rhydychain, gwnawd ef yn ganon Ty Ddewi yn 1314, yn archddiacon yn 1324, ac yn esgob yn 1328. Yr oedd hefyd yn ganghellydd Lloegr; ac efe a adeiladodd balas yr esgobion yn Nhy Ddewi, llawer o'r adeiladau yn Llanffe, maenorfa yn yr esgobaeth, yn nghyda Chastell Abertawe. Bu farw yn 1347, a chladdwyd ef yn nghapel St. John o fewn ei brif eglwys, mewn bedd a barotoisai efe iddo ei hun o dan y *roodloft*.—*Lel. Coll.; Willis' Sur. of St. David's.*

**GOWER**, JOHN, y bardd, a anwyd tua 1325, a bu farw tua 1409. Cyfrifa y Saeson ef yn rhestr y Beirdd Saesneg, ond ni wyddant ddim am ei achau. "Y traddodiad balch am dano yn nheulu Ardalydd Stafford, oedd, ac sydd yn parhau, mai un o Stitenham ydoedd," medd Todd, yn ei "Illustrations of Gower and Chaucer," "a phwy na ystyriai anrhydedd ei achau yn ymchwyddo, wrth gofrestru yn mysg eu henwogion y moesol Gower?" Ond dywed Lewis *Topo. Dict.* ei fod yn disgyn o Gruffydd de Gower, tywysog neu benaeth Cymreig o un o'r hen deuluoedd brenhinol, a sylfaenydd neu foncyff teulu y Gower, y rhai a fuont hynod mewn cyfoeth ac awdurdod tua diwedd y drydedd ganrif ar ddeg. Yr oedd John Gower, yn berthynas i Dr. Henry Gower, esgob Ty Ddewi. Dywed Williams' *Em. Welshmen* fod tudalen enwawl y "Confessio Amantis," argraffedig yn 1532, yn dyweyd yn bendant mai Cymro ydoedd. Y mae ei ddelw yn eglwys St. Mary Overies, a choronig o flodau am ei phen; yr hyn a arwydda ei fod yn farchog. Dengys ei ewyllys, ei fod yn fyw yn 1408; ac mae ei gymunroddion i eglwysi ac ysbyttai, ei waith yn gadael i'w wraig 100*l.*, yn nghyda'i holl eiddo gwerthfawr, a rhenti maenoriaethau Southwell, yn swydd Nottingham, a Multon, yn swydd Suffolk, yn profi ei fod yn dra chyfoethog. Yr oedd Chaucer ac yntau yn gryn gyfeillion unwaith, ond oerodd eu cyfeillgarwch cyn diwedd eu hoes. Dywed Gower ei hun ei fod yn ddall yn ei henaint. Gadawodd dri gwaith mawr ar ei ol;—"Speculum Meditantis,"—Cân yn y Ffrancaeg, yn traethu yn benaf ar edifeirwch pechadur; "Vox Clamantis" yn Lladin, yn traethu ar y gwrthryfel yn nheyrnasiad Richard II.; a "Confessio Amantis," yn Saesneg, ymddiddan-gerdd rhwng carwr a'i gyfaddefwr, yr hwn yw offeiriad Venus. Y mae ei weithiau yn dangos ei fod yn fwy dysgedig na barddonol.

**GRAIG** (Y), treflan yn mhlwyf Bassaleg, neu, Faesaleg, swydd FYNWY, ar lan dyffr-ffos y Crumlin; 3 milldir i'r Gorllewin wrth Ogledd o'r Cas'newydd. Gwerth ardrethol, 3260*p*. Poblogaeth, 684. Tai annedd, 130.

**GRAIG** (Y), trefgordd yn mhlwyf LLANDEGLEY, Swydd FAESYFED; 5¼ milldir i'r Gorllewin Ogledd Orllewin o Faesyfed. Y mae yn gorwedd goris Cefn-Craig, yr hon sydd yn 2163 troedfedd o uchder.

**GRAIG** (Y), trefgordd yn mhlwyf DYMEIRCHION, Swydd FFLINT; 3¼ milldir i'r Dwyrain Dde Ddwyrain o Lanelwy. Poblogaeth, 114.

**GRAIG** (Y), trefgordd yn mhlwyf NEWMARKET, Swydd FFLINT; 3½ milldir i'r Gorllewin Ogledd Orllewin o Dreffynnon. Poblogaeth, 505.

**GRAIG** (Y), trefgordd yn mhlwyf CERI, Swydd DREFALDWYN; 3¼ milldir i'r Dwyrain Dde Ddwyrain o'r Dref Newydd. Poblogaeth, 172.

**GRAIG** (Is ac UWCH), dwy drefgordd yn mhlwyf LLANDDWYWE, Swydd FEIRIONYDD; ar yr arfordir, 5¼ milldir i'r Gogledd Ogledd Orllewin o'r Abermaw. Mesura 9348 erwau, o ba rai y mae 340 dan ddwfr. Poblogaeth, 264 a 104. Tai, 48 ac 20.

**GRAIGWEN** (Y), rhan o blwyf LLANBEDR, Swydd FRYCHEINIOG; 2 filldir i'r De Ddwyrain o Grughywel. Poblogaeth, 140.

**GRAY**, THOMAS, ydoedd frodor o Dreforis, ger Abertawe. Glowr ydoedd yn moreu ei ddyddiau, ac fel lluaws o'i gyd weithwyr, yn dra annuwiol. Un diwrnod, efe a anfonwyd gan arolygwr y Gwaith, ar ryw neges drosto ef i Gastell Nedd. Yn y cyfamser, yr oedd ei gydweithwyr yn myned i waered i'r Pwll Glo, a thorodd y rhaff a'u gollyngent, fel y syrthiasant yn bendramwnwgl i'r pwll, a buant feirw oll yn y fan. Fel yr oedd ef ar y ffordd, yn dychwelyd o'i neges, canfu ddyn o'i gydnabod, yn cysgu yn ei feddwdod ar ochr y ffordd, ac efe a aeth ato, ac a'i deffrodd. Dywedai hwnw wrtho, "Pa beth, Twm Gray! a'i tydi sydd yma? yr oeddwn yn meddwl dy fod yn uffern er wyth o'r gloch y boreu; canys y mae dy gwmpeini wedi myned yno oll er y pryd hyny." Arweiniodd yr amgylchiad hynod hwn ef i ddechreu meddwl am ei ddiwedd; ac yn y canlyniad aeth i wrando pregethiad y gair, ac ymwasgodd âg ychydig ddysgyblion i Iesu Grist, a ymgynnullent i addoli yn y Mynydd Bach, ger Abertawe, lle wedi hyny, y bu y Parch. Lewis Rees yn gweinidogaethu. Gwelwyd yn lled fuan ei fod yn meddu doniau gweinidogaethol, ac annogwyd ef i bregethu; ac anfonwyd ef i athrofa y Fenni, er mwyn iddo gael addysg. Wedi iddo fod yno dros ryw yspaid, daeth y Parch. Daniel Rowlands o Langeitho, i bregethu mewn Llan yn y gymydogaeth; a chan fod cryn sôn am dano, cododd awydd yr efrydwyr i fyned i wrando arno, a chymellasant Gray i fyned gyda hwy, â'r hyn y cydsyniodd o'r

Digitized by Google

diwedd. Teimlodd argraffiadau ar ei feddwl yn y bregeth hono, dwysach nag a deimlasai erïoed o'r blaen, fel y bu am ddyddiau yn methu dilyn ei efrydiau rheolaidd; ond ymneillduai i'r maesydd i weddïo, a dwys erfyniai am i'r Arglwydd ei arwain i'r lle y byddai yn meddu cyfleusdra i glywed yr offeiriad hwnw: ond nid oedd yn gwybod y pryd hyny, pwy ydoedd, nac o ba le yr oedd yn dyfod. Pan oedd ei amser yn yr athrofa ar ddyfod i fynu, anfonodd pobl Llwyn y pïod at yr athraw, am iddo anfon iddynt ar brawf, wr ieuanc i fod yn fugail arnynt; ac yntau a anfonodd Thomas Gray attynt. Wedi dyfod o hono i'r gymmydogaeth ar brydnhawn Sadwrn, trefnid ef i lettya yn nhŷ un o'r dïaconiaid, yr hwn a ddywedai wrtho, ei fod ef i bregethu yno, am wyth o'r gloch boreu dranoeth, am eu bod hwy y pryd hyny, yn arfer myned ar y Sabbath pen mis i Langeitho, i wrando ar Mr. Daniel Rowlands. Cymerai Mr. Gray y cyfryw hysbysiad yn lled chwithig ar y pryd; eto, cydsyniodd a'u cais; ac wedi pregethu, aeth gyda hwy i wrando yr offeiriad; ac er ei fawr syndod, gwybu mai efe oedd yr offeiriad a glywsai efe yn pregethu gynt yn ymyl y Fenni, ac a wnaethai y fath effaith ar ei feddwl. Cydsyniodd â chais y cyfeillion yn Llwyn pïod ac Abermeurig, ac urddwyd ef yn lled fuan. Yma, daeth yn gyfaill mawr i Mr. Rowlands; a phregethai unwaith bob mis yn Llangeitho, pan fyddai Mr. Rowlands wedi pregethu yno yn y boreu, tra y bu y diweddaf yn fyw. Bu hyny yn foddion i ddwyn yr eglwysi uchod i fath o undeb â'r Trefnyddion Calfinaidd tra bu Mr. Gray yn fyw, ac wedi hyny i undeb cyflawn, a'r addoldai yn gwbl i'w meddiant. Yr oedd Mr. Gray yn weinidog parchus ac enwog yn ei ddydd, ac yn bregethwr lled ddoniol, poblog, a llwyddianus.

Heblaw gwasanaethu yr eglwysi blaenorol, efe a sefydlodd eglwysi yn y Cei Newydd, Llanarth, Ffos y ffin, a Llanddewi Aberarth, yn y rhai y parhaodd i weinidogaethu tra fu efe byw. Arferai bregethu yn addoldai y Trefnyddion, heblaw yn Llangeitho; ac arferai pregethwyr y Trefnyddion weinidogaethu yn ei addoldai yntau; er hyny cadwai yr eglwysi hyn at drefn yr Annibynwyr yn ngweinyddiad y cymun, a dysgyblaeth eglwysig, tra y bu efe yn gweinidogaethu iddynt; ac yr oedd rhai o honynt ar ol ei farwolaeth ef, yn dra anfoddlawn i newid eu trefn, ac ymostwng i awdurdod cymmanfa y Trefnyddion, yn eu dysgyblaeth, a dewisiad eu gweinidogion; ond ymostwng a fu raid iddynt.

Llafuriodd Mr. Gray yn y modd hyn am yn agos i haner can mlynedd; ac yn yr yspaid maith hwn, bu feirw y tô cyntaf o aelodau yr eglwysi oeddynt dan ei ofal, y rhai y gellid meddwl eu bod yn fwyaf gwrthwynebol i Drefnyddiaeth, fel, erbyn marwolaeth Mr. Gray, yn y flwyddyn 1810, nad oeddynt yn ystyried eu bod weithian yn perthyn i neb arall, gan fod pregethwyr y Trefnyddion mor fynych yn mhulpudau Mr. Gray, ag yr oedd yntau yn eu pulpudau hwy; yn unig honent eu dull gwreiddiol o gymuno, a dysgyblu. Wedi marwolaeth Mr. Gray, pa fodd bynag, cyttunasant yn un fryd, neu, gyd ag ond ychydig iawn o eithriadau, i ymuno yn llwyr a'r Methodistiaid; a chwanegwyd eglwysi Llwyn pïod, Abermeurig, a Ffos y ffin, at y Cyfundeb, ac felly y parhant yn esmwyth a thangnefeddus hyd y pryd hwn.

**GREDIFAEL** ab Ithel Hael, Sant, yn y 6ed ganrif, a benodwyd gyda'i frawd Fflewyn, yn arolygwyr Mynachdy Pawl Hen yn Nhy Gwyn ar Daf. Mae Llanfflewyn, a Phenmynydd, Mon, ar enwau y ddau frawd hyn; cedwid gwyl Gredifael ar y 13 o Dachwedd. Cadfael y gelwir ef yn yr Almanac.

**GREGORY,** Henry, un o ragorolion y ddaear, ydoedd weinidog y Bedyddwyr yn y Cwm, plwyf Llanddewi ystrodeni, swydd Faeshyfed, drwy gyfnod yr erlidigaeth ofnadwy o dan Charles, a Iago, sef o'r flwyddyn 1660 hyd 1700. Ymddengys iddo gael ei ddychwelyd at grefydd pan yn bur ieuanc, trwy weinidogaeth yr enwog Hugh Evans; ac iddo ddechreu pregethu cyn bod yn ugain oed; ac wedi marw ei weinidog, efe mwyach a gymerodd ei le ef yn y parth hwnw o'r wlad, gan fyw mewn tyddyn, a bugeilia yr eglwys luosog ag oedd yn ymgynull mewn aneddau, yn ngwahanol barthau Brycheiniog a Maeshyfed. Ni chrybwyllir am dano gan *Calamy*, na *Palmer*. Nid oedd wedi myned i mewn i un o'r eglwysi plwyfol, felly nis gallai gael ei gyfrif yn mhlith "y ddwy fil." Eto, yr oedd yn un o'r blaid hono, a chafod ei ran yn helaeth o'r ddryghin a ganlynodd. Ond efe a ddaliodd ei ffordd trwy yr holl erlidigaeth, a bu fyw i weled ei erlidwyr wedi eu diarfogi, a'r rhan fwyaf o honynt wedi eu cuddio yn y llwch; a hyny, mewn amryw engreifftiau, o dan law farnol Duw. Y mae yn rhaid cadw mewn cof yma, bod y budd o ddwyn i weithrediad gyfreithiau cigyddlydd Charles, a Iago, yn disgyn i ddwylaw yr erlidwyr. Er engraifft, o dan y *Conventicle Act*, 1664, yr hon a wnai bob pump a ddelid yn nghyd yn addoli Duw, yn agored i gael eu dirwyo y waith gyntaf i 5*p*. yr un, neu dri mis o garchar; yr ail waith i 10*p*. yr un, neu chwe' mis o garchar; a'r drydedd waith i 100*p*. yr un, neu saith mlynedd o alltudiad, yr oedd yr achos i'w benderfynu heb un prawf na rheithwyr,—dim ond llw y cyhuddwr, ac yr oedd hwnw i dderbyn un ran o dair o'r dirwy yn wobr am ei ysgeler-waith. O! amser ofnadwy ar eglwys Dduw!! Y rhai anwyl a diniwaid fel wyn bychain, yn cael eu hysglyfaethu gan fleiddiaid! Dywed Joshua Thomas, fod Henry Gregory wedi cael llawer o flinder a cholled trwy yr erlidwyr. Un tro hwy a gymerasant ei holl anifeiliaid ymaith oddieithr un fuwch, yr hon a adawsant iddo mewn math o dosturi gwawdiol, *i gael llaeth i'r plant*. Ond cyn pen ychydig ar ol hyny, pan oedd y gwr da oddi cartref, hwy a ddaethant drachefn, a chymerasant hono ymaith. "Tosturi y drygionus sydd greulawn," medd y Gwr Doeth; a diau i Henry Gregory gael teimlo y min oedd ar ddagr y rhai hyn. Pan ddychwelodd adref, a chael ei wraig bron wedi ei llethu gan ei theimladau, oblegyd colli o honi ei buwch olaf; efe a ddywedodd wrthi yn dyner,—"Paid a gofidio fy anwylyd, fe drefna Rhagluniaeth i ni ryw ffordd i gael buwch arall eto." Felly yr oedd efe yn ymdawelu i'r drefn, ac yn ymdrechu cysuro ei gymhares. Ond ymddangosai bod y nefoedd yn gwgu ar ei elynion, a daeth amryw o honynt i ddiwedd truenus. Darfu i ddau wr ag oedd yn codi ymaith ei wartheg un tro, eu gyru yn chwyrn ac awyddus trwy rŷd oedd mewn afon gerllaw y tŷ; ond yn mhen ychydig ar ol hyny, boddodd un o honynt yn y rhŷd hono, a daeth y llall i ddiwedd truenus fel Herod, a chan bryfaid yn ei ysu efe a drengodd. Un arall o'i erlidwyr a waeddai yn barhaus ar ei wely angau, "Nad oedd dim yn ei boeni yn gymaint ag iddo fod yn cynnorthwyo i gymeryd ymaith anifeiliaid a meddianau Henry

Digitized by Google

Gregory." Yr oedd rhyw farnedigaethau yn syrthio yn fynych ar yr erlidwyr yn y dyddiau hyny. Un cymydog cyfoethog i Henry Gregory, yr hwn, er ei fod yn llawn gelyniaeth, a ymgadwai yn ochelgar rhag rhoddi un cynorthwy yn yr erlidigaeth, pan gofynwyd iddo paham na roddai ryw gynorthwy yn y gwaith, a gododd ei ddwylaw gan ddywedyd, "Duw yn y blaen! ni chwrddaf fi a hwynt! A welwch chwi beth sydd yn dygwydd i'r rhai sydd yn eu herlid?" Bu farw y gwr da hwn yn 1700, yn 63 oed; ar ol treulio deugain mlynedd yn ngweinidogaeth y gair, a goroesi yr holl ystorm, o'r Adferiad hyd y Chwyldröad.

**GREID** AB ERI, un o farchogion llys Arthur.

**GREIDIOL GALOFYDD** AB ENFAEL ADRAN, gyda Gwgawn Gwron, a Trystan ab Trallwch, oeddynt "dri chyhoeddwr Ynys Prydain." (*Myf. Arch.* ii. 5, 15, 63.)

**GREIDIOL** AB DINGAD, enwog fel rhyfelwr a llyngesydd. Efe a yrodd y Coraniaid o Gymru. Mae "Englynion y Gorugau" yn moli ei wrhydri. (*Iolo MSS.* 342, 669.)

**GRESFORD**, pentref a threfgordd yn undeb Gwrecsham, Swydd DINBACH, GOGLEDD CYMRU; a phlwyf, oll yn yr unrhyw undeb, ond mewn rhan yn Swydd FFLINT. Y mae y pentref yn gorwedd gerllaw yr afon Alun, ar fin rheilffordd Caer a'r Mwythig, yn agos i Glawdd Watt; 3 milldir i'r Gogledd Ogledd Ddwyrain o Wrecsham. Y mae yn lle tra dymunol, ac y mae yma orsaf ar y rheil-ffordd, a llythyrfa dan Wrecsham; a chynhelir ffeiriau yma ar yr ail dydd Llun o Ebrill, yr olaf o Awst, a'r 1af o Ragfyr. Y mae y drefgordd yn cynnwys y pentref, a mesura 999 o erwau o dir. Gwerth ardrethol, 5768*p.* Poblogaeth, 658. Tai, 137. Heblaw trefgordd Gresford, cynnwysa y plwyf drefgorddau Llai, Burton, Allington, Gwersyllt, Erddig, Borrasriffre, ac Erlas, yn Swydd Ddinbach; ac arglwyddiaethau Merford a Hoseley, yn Swydd Fflint. Mesura yr holl blwyf 13,058 o erwau. Gwerth ardrethol, 47,111*p.*; o'r hyn y mae 13,705*p.*, mewn mŵngloddiau; a 614*p.* mewn rheil-ffyrdd. Poblogaeth yn 1851, 4161; yn 1861, 4417. Tai, 900. Llygriad yw enw y plwyf, o'i hen enw Cymreig, "Y Groes-ffordd," ar gyfrif ei sefyllfa yn agos i hên groes, o fewn haner milldir tu a'r dehau o'r eglwys bresenol, o'r hon y mae y paladr yn aros eto. Y mae dyffryn bychan Gresford yn un o'r rhai mwyaf dengar yn y dywysogaeth, yn yr hwn y mae amledd o wrthddrychau dymunol a dyddorol, a'r afon Alun yn ymdroelli drwy ei weirgloddiau, a'i fryniau wedi eu haddurno â choedwigoedd ffaethus, ac ar un o'r bryniau y saif yr eglwys, yr hon sydd yn adeilad hynod o hardd: ac y mae y planfeydd a'r pleser-diroedd cyssylltiedig a'r palasau heirdd ydynt yn wasgaredig trwy y glyn rhamantus yma, yn nghyd a phrydferthion naturiol ei dirwedd, yn ei wneyd yn mhob ystyr, yn un o'r llannerchau mwyaf difyr a dengar yn y parth yma o'r wlad. Mewn lle cysgodol yn y dyffryn, y mae Gresford Lodge, palas Mrs. Egerton, yr hwn a gynlluniwyd gan yr arch-adeiladydd enwog Syr Jeffrey Wyatville, ac fe'i cyfrifir yn un o'r adeiladau mwyaf perffaith a chwaethus, a gynlluniwyd gan yr archadeiladydd enwog hwnw. Yn y plwyf yma hefyd y mae Erddig, palas Simon Yorke, Ysw.; lle hynod yn ei gyssylltiad â Chofiannau "Brenin-Lwythau Cymru." Plas y Gwersyllt, anneddle M. Humble, Ysw., ar orsaf hen balas y Milwriad Robinson, yr hwn a ddaeth i enwogrwydd, fel pleidiwr di blygu y Brenin Charles, yn adeg y Rhyfel Cartrefol; a phan ddïenyddiwyd y Brenin, bu raid i'r Milwriad Robinson ffoi o'r wlad; ond ar adferiad Charles yr Ail, efe a ddychwelodd, a hyny dan ffawd well na'r rhan fwyaf o'i gymdeithion deoledig; gan fod un o gefnogwyr Cromwell, wedi ail adeiladu y palas tra fu Robinson mewn alltudiaeth; ond ar adferiad y freniniaeth efe a ddïangasai, ac felly y Milwriad a gafodd feddiant tawel o hono. Yn y flwyddyn 1738, llosgwyd yr adeilad hono hyd lawr, a'r un bresenol a gyfodwyd ar yr adfeilion.

Trefalyn, anneddle y Cadben Gryffydd, sydd hen balas a gyfodwyd yn nheyrnasiad y frenines Elisabeth; ac ar ei dal-wyneb y mae achen y frenines, yn nghyd a'r amseriad, 1576, A.R. (sef blwyddyn y teyrnasiad), 18. Fe'i hadeiladwyd gan dylwyth y Treforiaid, a disgynodd i'w berchenog presenol trwy brïodas cydaeres o'r teulu hwnw. Y ty hardd ar waelod y dyffryn, a welir o orsaf y rheilffordd, a fu ar un adeg yn drigle Eliot Warburton, awdwr y "*Crescent and the Cross.*" Awdwr arall, nid anenwog, Samuel Warren, yr hwn a ysgrifenodd y llyfr a elwir "*Ten Thousand a Year,*" a anwyd mewn ammaethdy o'r enw y "Rackery" yn y plwyf hwn, lle y dygwyddodd bod ei fam, pan ei ganwyd, ar ymweliad a châr iddi o'r enw Mr. Williams.

Y mae pren yw anferth yn mynwent Gresford, yn 26 troedfedd o gylch-fesur, a bernir ei fod yn 1400 mlwydd oed; ac y mae llawer iawn o gyrchu yma i'w weled.

Y mae eglwys Gresford yn wrthddrych sylw nodedig; y mae yn gyflwynedig i'r Holl Saint, a bernir ei bod wedi cael ei hadeiladu tu a'r un amser ag eglwys Wrecsham, er y rhaid fod yma adeilad gyssegredig, lawer o ganrifoedd cyn hyny. Rhoddwyd y tir ar yr hwn yr adeiladwyd yr eglwys, gan chwe mab Ithel; a'r Ithel hwnw oedd yn wyr i foneddiges a adwaenid fel ettifeddes Dyffryn Clwyd, ac a feddai ettifeddiaethau yn y plwyf hwn. Y mae beddau meibion Ithel yn yr eglwys a sylfaenwyd ganddynt. Chwythwyd rhan fawr o'r tŵr i lawr rai blyneddoedd yn ôl; ond fe'i hadgyweiriwyd yn ebrwydd gan y plwyfolion. Y mae delwau wyth o Farchogion y Deml ar ben y tŵr, ac un o Harri y Seithfed mewn delw-gell ar un ystlys. Y mae amryw gof-adeiladau yn yr eglwys hon, y rhai ydynt yn dra dyddorol, y naill ar gyfrif eu harddwch, a'r lleill ar gyfrif eu henafiaeth, a'u pwysigrwydd hanesyddol. Y mae un yn cael ei guddio mewn rhan gan eisteddle, ar yr ystlys ogleddol; careg lorweddol ydyw, wedi ei cherfio yn dra chywrain, a'r geiriau canlynol (yn Saesonaeg), o amgylch arfaes,—"Yma y gorwedd Gronw ap Iorwerth ap Dafydd, i enaid yr hwn y maddeuo Duw, 1320." Yr arflen, *three mullets on a bend*, a ddengys ei fod yn hanu o deulu yr Ithel-iaid. Ar y llawr, gerllaw y mur deheuol, y mae beddrod rhyfelwr, mewn llurig; ar ei arfaes y mae llew ar ei grychnaid, o amgylch pa un yr oedd y geiriau hyn gynt,—"*Hic jacet Madoc ap Llewelin ap Gruff*, A.D. 1331." Y Madoc hwn oedd fab annghyfreithlawn i Llewelyn ab Gryffydd, "ein Llyw olaf;" ac yn rhyfelwr enwog yn ei oes. Ei gydwladwyr, yn flin arnynt o herwydd y trethiadau trymion a ddodai brenin Lloegr arnynt, a gydnabuant Madoc yn dywysog Gwynedd; ac efe a ennillodd amryw fuddugoliaethau pwysig ar fyddinoedd arglwyddi y Cyffindiroedd. a byddinoedd y

Digitized by Google

Brenin; ond o'r diwedd, gorchfygwyd yntau, mewn brwydr waedlyd a ymladdwyd ar Gefn Digoll, ar ymyl Swydd y Mwythig: ac yn y mis Awst canlynol, syrthiodd Madoc i ddwylaw y Brenin. Dywaid rhai, iddo gael ei fradychu i ddwylaw y Tywysog Seis'nig, tra yn cysgu yn ei babell; ac efe a garcharwyd dros ryw yspaid yn y Tŵr yn Llundain; a chan na chlywir gair am dano mwyach, barna amryw iddo gael ei ryddhau mewn amser, a threulio gweddill ei flyneddoedd mewn annghyoeddusrwydd yn nghymmydogaeth Gresford; canys efe a ddarlunir fel perchenog Eyton, Erddlas, a Bersham. Yr oedd y ddau fedd-faen uchod yn muriau yr eglwys hyd ddechreuad y ganrif bresenol, pan eu dygwyd i oleuni.

Gelwir y capel sydd ar yr ochr ogleddol i fwrdd y cymmundeb, "Capel Madoc," am ei fod gynt yn perthyn i hen deulu o'r enw hwnw, y rhai a breswylient yn mhlas y Llai; a'r un ar y tu deheuol a adwaenir dan yr enw "Capel Trefor," ac y mae yma amryw gof-lechau murawl i'r Treforiaid o Blas Trefalun. Yr oedd y Treforiaid hyn yn hanu o'r un cŷff a Threforiaid Bryncinallt, a daethant i feddiant o ettifeddiaeth Trefalun, trwy i Richard, pedwerydd mab John Trefor, briodi âg aeres Siencyn Gryffydd o *Alyngton*, neu Drefalun. Y mae un o'r coflechau wedi ei chyfodi er cof am *John*, un o'r teulu yma, yr hwn a ddysgrifir yn lled-orwedd yn ei arfogaeth; a hysbysir y darllenydd mewn beddargraph Cymreig, ei fod ef wedi marw yn Llundain, a'i gladdu yma, gan ei fab Syr Richard. Oddiar yr hyn sydd gerfiedig ar goflechau eraill, deallwn fod y Syr Richard hwn wedi priodi Catharine Puleston o Emral, wedi enill clod fel rhyfelwr yn yr Iwerddon, ac wedi byw i weled ei orwyrion. Ar un gof-lech, fe'i dysgrifir ef a'i wraig ar eu gliniau; ac mewn un arall, darlunir ei wraig, a phum merch iddo, yn penlinio. Yn mysg y gwyddfeydd diweddar, yr harddaf ydyw yr un a gyfodwyd i goffadwriaeth y diweddar Mr. Williams o'r Gwersyllt, gan ei weddw, yr hon y personolir ei galar trwy ddarlun o fenywar ei gliniau. Y mae yma ddelw hynod hardd mewn mynor, i goffadwriaeth y diweddar William Egerton, Ysw. o'r *Gresford Lodge*.

Dywedir fod ffenestri arliwiedig yr eglwys hon, wedi dyfod ar y dechreu o Fonachlog y Maes Glas; a'r bedydd-faen cerfiedig ar y fynedfa i fewn, sydd grair o eglwys flaenorol. Cafodd yr eglwys hon ei hadgyweirio yn drwyadl yn y flwyddyn 1867, fel y mae mewn cyflwr rhagorol yn bresenol.

Mewn cofnodiad a gedwir yn un o'r coflyfrau plwyfol, fe'n hysbysir fod benyw o'r enw Amy Thomas, wedi dwyn ei phenyd yn yr eglwys, ar yr 22ain o Dachwedd 1778, yn mhresenoldeb y Wardeniaid eglwysig, a chlochydd y plwyf. Ni hysbysir pa beth oedd ei throsedd; efallai mai gollwng ei thafod yn rhŷ rydd a wnelsai, i drafod cymeriad personol rhai o'i chymmydogion.

Y fywioliaeth eglwysig yma sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth 714*p*. Noddwr, Esgob Llanelwy. Dywedir mai Capel Anwes i Gresford oedd yr Holt yn yr hen amserau. Yr oedd hen eglwys berthynol i'r Treforiaid, yn sefyll gynt yn agos i Drefalun; ond aeth yn adfeiliedig, ac fe'i tynwyd i lawr, lawer o flyneddoedd yn ol.

Yr eglwys yn Rossett a adeiladwyd tua dechreu y ganrif bresenol, ac fe'i gwaddolwyd gan y diweddar Mr. Townshend o Drefalun.

Yn mysg ficeriaid Gresford, bu pedwar, y rhai wedi hyny a gyrhaeddasant y fainc esgobol; sef William Hughes, D.D., brodor o Swydd Gaer-yn-arfon, yr hwn a ddyrchafwyd i fod yn Esgob Llanelwy, yn y flwyddyn 1573, ac a ddaliai fywioliaeth Gresford drwy ymddiried, a phymtheg o fywiolaethau eraill hefyd.—Hugh Bellot, a anwyd yn Moretone, yn Swydd Gaer, ac a gladdwyd yn Wrecsham: efe a fu yn Esgob Bangor yn 1583, ac a ddyrchafwyd i esgobaeth Caerlleon, yn y flwyddyn 1595.—Richard Parry, brodor o Ruthin, a ddyrchafwyd yn Esgob Llanelwy, yn y flwyddyn 1604.—Humphrey Lloyd, D.D., trydydd mab Dr. Richard Lloyd, ficar Rhiwabon, yr hwn a gyssegrwyd yn esgob Bangor, Tach. 16, 1673.

Y mae olion hen amddiffynfa Brydeinaidd ar fryn yn arglwyddiaeth Merford, a elwir "y Roft;" ond nid oes hyd y gwyddys, ddim cofion hanesyddol yn nglŷn a hi.

Yn y flwyddyn 1715, darfu i Margaret, gweddw Syr George Strode, o'r "Deml Fewnol" yn Llundain, gymmun-roddi 500*p*. mewn ymddiried i Esgob Llanelwy, ac eraill, er prynu tiroedd, cynnyrch y rhai oedd i gael ei ddefnyddio at ddilladu ac addysgu, tri o fechgyn, a thair o enethod tlodion o'r plwyf hwn; ac os caniattai y drysorfa, i'w breintebu i ddysgu rhyw alwedigaethau buddiol. O'rswm uchod, rhoddwyd pedwar cant a haner o bunnau allan i brynu tir yn y plwyf hwn, yn cynnyrchu ardreth o 18*p*. yn y flwyddyn. Dorothy Jeffreys o Acton hefyd, yn mhlwyf Wrecsham, yn y flwyddyn 1728, a roddes haner cant o bunnau i ymddiriedolwyr, at addysgu plant tlodion o'r plwyf hwn: ac yn y flwyddyn 1758, rhoddwyd y swm o 114*p*., a gynnyrchasid oddiwrth y gymmunrodd gyntaf, ac 86*p*. oddiwrth y ddiweddaf, yn gwneyd yn nghyd 200*p*., allan ar log, ar dyddyn a bwrcasai y plwyf; ac y mae yn awr yn cynnyrchu pum punt y cant o log. Yn y flwyddyn 1757, darfu i Mrs. Shakerley, o'r Gwersyllt Isaf, gymmun-roddi dau gant o bunnau i bwrcasu tir, gan gyfarwyddo bod y cynnyrch ardrethol oddiwrtho i gael ei ddefnyddio i ddilladu chwech o blant tlodion o'r plwyf hwn, a'u breintebu i hwsmonaeth a theuluyddiaeth; ond gan na wnaed cais am freintebu neb dros amryw flyneddoedd, y mae y swm wedi cynnyddu, fel y mae ei gynnyrch yn bresenol yn rhai ugeiniau o bunnau yn flyneddol. Mrs. Jane Shakerley yn y flwyddyn 1777, a gymmun-roddodd 100*p*., i'w defnyddio yr un modd a'r gymmunrodd flaenorol. Ac yn y flwyddyn 1748, darfu i Mrs. Anne Shakerley, a'r Bendefiges waddolawg Williams, chwaer i'r ddwy gymmwynaswraig flaenorol, gymmunroddi, bob un gan punt, gan gyfarwyddo bod i'w llog gael eu defnyddio i ddilladu tlodion oedranus o'r plwyf hwn; i'r hyn hefyd y cymhwysir y llog a ddeillia oddiwrth y cymmun-roddion eraill, pan na byddo blaen-dalion yn ofynol am freintebu plant tlodion, yn ol bwriad yr amryfal gymmun-roddwyr. Yn y flwyddyn 1595, darfu i Mr. John Davies o Lundain, gymmun-roddi 13*p*. 6*s*. 8*c*., i'w talu yn flyneddol o'i ettifeddiaeth yn Nhrefalun, i dlodion y plwyf hwn, yn mysg y rhai hefyd y cyfrenir cynnyrchion cymmun-roddion elusenawl eraill; fel y mae elusenau gwerthfawr wedi eu gadael o bryd i bryd, at wasanaeth tlodion y plwyf yma.

Y mae yr hen derfyn a elwir Clawdd Watt, yn rhedeg trwy y plwyf hwn, a gellir ei olrhain yn dra

Digitized by Google

amlwg ar hyd glan ddwyreiniol yr afon Alun, yn nghyfeiriad Caergwrle.

**GRESHOLM**, ynysig oddiallan i gantref RHOS, Swydd BENFRO; tuag ugain milldir i'r Gogledd Orllewin o Aberdaugleddyf. Y mae hon yn un o'r ynysoedd mwyaf, o linell o ynysoedd a chreigiau a ymestynant mewn cyfeiriad gorllewinol o ynys Skomar, ger Swydd Benfro, ac a derfyna yn y *Smalls*, ar yr hon y mae goleudy. Y mae Gresholm yn uchel, yn serth, ac agos yn gron, a dyma y tir cyntaf a welir yn gyffredin, wrth nesau at Aberdaugleddyf o'r Gorllewin.

**GRIFFITH**, GEORGE, D.D., esgob Llanelwy, a anwyd yn y Penrhyn, swydd Gaerynarfon, yn 1601. Wedi derbyn ei addysg yn Westminster, etholwyd ef yn fyfyriwr o eglwys Crist, Rhydychain, yn 1619. Yna penodwyd ef yn gaplan i Dr. John Owen, esgob Llanelwy, gan yr hwn y cafodd bersoniaeth Llanfechain, swydd Drefaldwyn, yr hon a gyfnewidiodd am Lanymynech; a phersoniaeth Llandrinio. Yn 1631, gwnawd ef yn ganon Llanelwy; ac yn 1635, enillodd y radd o D.D. Yn y chwyldroad o dan Cromwell, collodd y rhan fwyaf o'i feddianau. Tra yn trigo yn Llanymynech, o ba le y tybir iddo gael ei fwrw allan gan y "profwyr," ysgrifenodd, yn 1652, "*A Modest Answer to a Bold Challenge of an Itinerant Preacher, Vavasor Powell;*" ac wedi derbyn atebiad gan Vavasor Powell, ysgrifenodd un arall, —"*Animadversions on an Imperfect Relation in the Perfect Diurnall, containing a Narration of a Disputation between Dr. Griffith and Vavasor Powell, near New Chapel, in Montgomeryshire.*"

Ymgymerodd a chyfieithu y Llyfr Gweddi Cyffredin Newydd i'r Gymraeg, ond nis gwyddis beth a ddaeth o hono. Yn Nghymanfa y clerigwyr yn 1640, efe a gynygiodd gael argraffiad newydd o'r Beibl yn Gymraeg, ond ni chafwyd un argraffiad trwy offerynoliaeth eglwys Loegr hyd 1690; ond yn y cyfamser, cafwyd amryw trwy Walter Cradoc, Vavasor Powell, Stephen Hughes, T. Gouge, a David Jones. Yn 1660, urddwyd ef yn esgob Llanelwy; ond ar yr un pryd, parhaodd i ddal trwy gynddrychiolydd, ei fywiolaethau blaenorol, yn nghyda gwagswyddau Llanrhaiadr yn Mochnant. Cymerodd ran yn nghyfansoddiad Deddf yr Unffurfiad yn 1662; a thybir mai ei waith ef yw y Ffurf o Fedydd ar bobl mewn oed, a geir yn y Llyfr Gweddi Cyffredin. Bu farw Tachwedd, 1666, a chladdwyd ef yn nghor ei eglwys Gadeiriol.

**GRIFFITH**, MORGAN, yr hwn a elwid mewn gwawd "*Morgan y Gogrwr*" ydoedd bregethwr gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, yn haner cyntaf y ganrif ddiweddaf, ac a ddyoddefodd gryn lawer o wawd ac anmharch oblegyd ei grefydd. Brodor ydoedd o Leyn, a saer maen wrth ei gelfyddyd, ac wedi enill cryn enw fel Datgeiniad ar hyd yr ardaloedd hyny. Priododd ag Elizabeth, merch Richard o Benyllech, yn Lleyn, ac aeth i fyw i Bwlchyrhiw, lle yr arferai weithio gograu, ac y cafodd yr enw "*Morgan y Gogrwr.*" Ymddengys fod Morgan ar y pryd hwnw yn gymeriad nodedig yn y wlad, gan y cawn i glochydd Llanor gyfansoddi gwawd-gerdd ar Ymneillduaeth, a'i galw "*Interlude Morgan y Gogrwr,*" a hyny, fe ddichon, am y byddai *Morgan* yn arfer ei chwareu, neu am y byddai ei chysylltu ag enw *Morgan y Gogrwr*, yn debyg o sicrhau ei phoblogrwydd. Ond tra yn dilyn oferedd yr oes, ac er hyny yn arfer canu yn eglwys y plwyf ar y Sabbothau, daeth ei gyflwr fel pechadur i wasgu arno; ac wedi iddo gael trugaredd i'w enaid ei hun, dechreuodd wahodd ei gymydogion at y Gwaredwr. Ond nid hir y bu yn pregethu, cyn i erlidigaeth gyfodi yn ei erbyn; daliwyd ef tua'r flwyddyn 1745, pan yn dychwelyd o bregethu, o le yn agos i Sarn Folldyrn, a dygwyd ef yn garcharor i Bwllheli. Yr oedd ei briod wedi marw er's tua blwyddyn, a chanddo yntau fab a merch, un yn chwech, a'r llall yn wyth oed, ar ei hol. John Prichard, eu hewythr brawd eu mam, a gymerodd y rhai hyn i Bwllheli, mewn cewyll, ac yn eu dillad gwaelaf, gan ddisgwyl i'r ynadon, o dosturi atynt hwy, ollwng eu tad yn rhydd. Ond wedi i'r ynadon gael allan fod y plant yn medru darllen, hwy a droisant hyny yn dystiolaeth yn erbyn eu tad, gan ddywedyd, "Gwelwch fel yr oedd yn parotoi y rhai hyn i'r un gwaith ag ef ei hun!" Dedfrydasant Morgan Griffith, yn nghyda dau neu dri eraill, i gael eu carcharu mewn hen long, yn un o borthladdoedd Lloegr. Cymerwyd hwynt i'w tyngedle trwy Gaerynarfon, a Chonwy. Tra yn Nghaerynarfon, rhoddwyd ychydig o fwyd ger eu bronau; ond erbyn i Morgan Griffith orphen gofyn bendith arno, yr oedd wedi ei gymeryd ymaith; a phan ofynodd yr achos, yr atebiad oedd—"mai er ei ddysgu i wylio yn gystal a gweddio." Pan ddaethant i Gonwy, yr oedd yn ddiwrnod gwyl; a chan fod y gair ar led eu bod yn dyfod i'r dref, yr oedd llawer wedi dyfod yn nghyd i'w gweled. Gosodwyd hwynt i orphwys yn y carchar; a thra yn cydymddiddan mewn hunanymholiad, "Pa un a oedd eu crefydd ar seiliau digon cedyrn i allu dal yr erlidigaeth, ai nad oedd," deallasant fod tyrfa o bobl yn sefyll oddi allan, a safodd Morgan Griffith i fyny, a dywedodd, "O achos gobaith Israel y'm rhwymwyd i â'r gadwyn hon." Yna efe a'u rhybuddiodd a llawer o ymadroddion, i droi at Grist. Yr oedd dau wr ieuanc yn ei wrando, y rhai nid aeth ei eiriau byth o'u cof; ac yn mhen amser, dychwelwyd hwynt at yr Arglwydd, a buont yn golofnau dan ei achos yn ardal Conwy hyd eu bedd, ac mae eu teuluoedd felly hyd heddyw. Wedi eu bod yn ngharchar am amser, cafodd Morgan Griffith ac un o'i gyfeillion, ryddid i ddychwelyd adref. Ond yn hytrach na gwrando ar ddynion yn lle ar Dduw, hwy a bregethasant yn Rhoshirwaun y Sabboth canlynol; a'r canlyniad fu, iddynt gael eu cymeryd i fyny drachefn, a'u hanfon yn ol i'r hen long, o dan y cyhuddiad o aflonyddu y wlad, ac mai Morgan Griffith oedd y blaenor. Yna y swyddogion anystyriol a ffugiasant eu bod wedi cael gorchymyn gan y Llywodraeth, i osod Morgan Griffith ar ei brawf, ac os na buasai iddo ar amser penodedig ymwrthod a'i olygiadau crefyddol, ac addaw troi yn eglwyswr dystaw a llonydd, ei fod i gael ei saethu. Pan ddaeth yr amser i fyny, ei atebiad oedd, "Rhaid yw ufuddhau i Dduw yn fwy nag i ddynion, a'i fod ef yn barod, os rhaid oedd, i farw dros ei grefydd." Yna gosodwyd ef ar y naill ben i'r llong, a saethasant ato; ond wrth reswm ni niweidiwyd ef, gan nad oedd ganddynt ddim ond powdr, ac nad oedd y cyfan ond cellwairiaeth y swyddogion ystranceddrwg, y rhai a gymerent fantais ar y di amddiffyn, i gamddefnyddio y gyfraith, a chwareu merthyrdod. Ond er hyny yr oedd yr ymosodiad yr un peth iddo ef a phe buasai yn wirioneddol. Nid hir y bu ar ol hyn cyn cael ei ryddhau gan angau; a chafodd ei gyfeillion eu rhyddid, a hwy a adroddasant y modd y trinwyd Morgan Griffith.



Digitized by Google

**GRIFFITHS**, Ann, yr emynyddes enwog, ydoedd ferch i John a Jane Thomas, Dolwar Fechan, plwyf Llanfihangel yn Ngwynfa, swydd Drefaldwyn. Ganwyd hi yn nechreu y flwyddyn 1776. Eglwyswyr oedd ei rhieni, ac yn yr egwyddorion hyny y dygent eu plant i fyny. Yr oedd yn John Thomas, ei thad, ryw ychydig o'r ddawn farddonol, ac y mae yn aros ychydig englynion a phenillion o'i waith, yn nghydag ymgom farddonol rhyngddo ef a'i ferch, pan nad oedd hi ond lodes. Cafodd Ann ddigon o ysgol i allu darllen Saesneg, ysgrifenu, a rhifyddu, yr hyn oedd yn gryn gaffaeliad yn yr oes hono; ond dangosai duedd neillduol at wagedd yr oes, sef nosweithiau llawen, a dawnsio. Edrychai hefyd ar Ymneillduaeth gyda gwawd, a dywedai unwaith wrth weled rhywrai yn myned i Sasiwn y Bala,—"Dacw'r pererinion yn myned i Mecca!" Ond un tro, pan oedd wedi dyfod i Lanfyllin ar Sul Gwyl mabsant i ddawnsio, hi a arweiniwyd, rywfodd, i wrando ar Benjamin Jones, gweinidog yr Annibynwyr yn Pwllheli, yn pregethu yno; a bu y gair yn effeithiol i gyrhaedd ei chalon, dygwyd hi i'r goleuni ar fater ei henaid, a theimlai awydd mawr i ymuno a'r Annibynwyr. Eithr yr oedd rhagfarn ei rhieni, a phellder y ffordd, yn rhwystr iddi gario allan ei dymuniad; felly hi a gafodd ganiatad ei thad i gael myned i Lanfyllin, i ddysgu pwytho, gyda'r bwriad o gael cyfleustra i ymuno a phobl ei dewisiad. Ond cyn i hyny ddyfod o amgylch, aeth i Bont Robert, capel y Methodistiaid, i wrando pregeth, a gorphenwyd yno y gwaith a ddechreuwyd yn Llanfyllin, a gwnaeth ei chartref gyda'r Methodistiaid. Daeth yn fuan yn enwog am ei sêl a'i duwioldeb; a chan yr arferai holl Fethodistiaid y parthau hyny o Faldwyn fyned yn finteioedd i'r Bala ar Sabbothau cymundeb, am nad oedd eto weinidogion Ordeiniedig gan y Corph, gwelid merch y Ddolwar Fechan, er eiddiled a gwaned ei nerth, yn un o'r rhai blaenaf o'r "pererinion" hyn, a phob amser yn fywyd y fintai fechan a groesai dros y Berwyn i'r Bala, gan ddychwelyd yn ol, dan ailadrodd y bregeth, cydymddiddan, a chanu, nes y clywid y creigiau a'r bryniau cyfagos yn adseinio gorfoledd eu calon. Yr oedd teulu Dolwar Fechan mewn sefyllfa gysurus o ran pethau y byd, ac Ann oedd yn cadw tŷ ei thad, ar ol marwolaeth ei mam; ond yn ngwanwyn 1803, bu farw ei thad, yr hyn a gafodd effaith ddwys ar ei meddwl a'i hiechyd, am weddill ei hoes. Yn Hydref, 1804, hi a ymunodd mewn priodas gyda Thomas Griffiths, brawd i Evan Griffiths, Meifod, yr hwn oedd ddyn ieuanc parchus, ac o'r un naws grefyddol a hithau. Ond er mor hapus oedd y briodas hon, daeth i derfyn buan; yn mhen tua deng mis, hi a roddes enedigaeth i ferch, yr hon a fu farw yn bythefnos oed; ac yn mhen ychydig o wythnosau, dilynwyd hi gan ei mam. Bu farw Awst 12, 1805, yn 29 oed, a chladdwyd hi yn mynwent Llanfihangel yn Ngwynfa. Yn 1864, trwy dansgrifiadau cyhoeddus, gosodwyd cofgolofn anrhydeddus ar ei bedd, yr hon sydd wedi ei gweithio o wenithfaen goch Aberdeen, yn 15 troedfedd o uchder, ac yn werth 66*p*.

Y mae y modd yr achubwyd cynifer o'i Hemynau ag sydd ar gael, rhag syrthio i ebargofiant, yn un o'r pethau rhyfeddaf. Ymddengys na byddai yr awdures anymhongar yn ysgrifenu ond ychydig o'i Hemynau, nac, feallai, yn meddwl ond ychydig o honynt. Cyfansoddai hwynt ar yr aelwyd wrth nyddu, neu wrth fyned a dychwelyd o'r addoliad, ac weithiau tarawai ambell benill i lawr, a hyny yn gyffredin ar ryw bapyrach rhydd, a hawdd eu colli. Ond yn ffodus, yr oedd ganddi forwyn o'r enw Ruth, yr hon oedd ferch ieuanc grefyddol, ddeallus, a chanddi gôf da. A phan fyddai Ann Griffiths wedi cyfansoddi Emyn newydd, adroddai hi wrth Ruth, ac weithiau canent hi drosodd a throsodd gyda'u gilydd; ac felly trysorodd y forwyn yn ofalus, gynyrchion gwerthfawr ei meistres yn ei chof. Ymunodd Ruth mewn priodas gyda y Parch. John Hughes, Pont Robert, a hi a adroddodd yr Emynau wrth y Parch. Thomas Charles, o'r Bala, yr hwn ar unwaith a welodd eu gwerth hwynt, ac a ddymunodd ar John Hughes eu hysgrifenu yn fanwl, yn ol adroddiad ei wraig. Ysgrifenwyd rhyw nifer hefyd gan nai yr awdures, John Jones, Ysw., o Lanfyllin; a chyhoeddwyd hwynt oll yn y Bala, yn 1806, ac wedi hyny, yn gyflawnach, yn 1808, mewn casgliad o emynau tan yr enw "Hymnau o Fawl i Dduw ar Oen," ond heb eu gwahaniaethu oddiwrth emynau awdwyr eraill yn yr un casgliad. Daeth allan ddau argraffiad eraill o honynt; ac yn 1817, cyhoeddodd Hugh Jones (Erfyl) Caerlleon, emynau ei gwr, Thomas Griffiths, a'i heiddo hithau, yn un casgliad yn 1847, cyhoeddwyd hwynt, neu aralleiriad o honynt, drachefn yn Llanfyllin, dros y Parch. John Hughes Pont Robert, gyda rhai chwanegiadau, a chofiant byr o'r awdures; a thrachefn yn Aberystwyth yn 1854; ac yn Ninbych, tan olygiaeth Morris Davies, Bangor, yn 1865. Felly, mae yr wythfed argraffiad allan o Emynau Ann Griffiths; ac er nad ydynt ond 29 o nifer, yn cynwys 75 o benillion, nid oes un casgliad diweddar o emynau yn Nghymru, ag sydd yn meddu unrhyw deilyngdod, nad oes rhyw nifer o Emynau Ann Griffiths yn ei gyfoethogi. A diau y cenir rhai o honynt, megys,—

"Cofia Arglwydd dy ddyweddi
Llama ati fel yr hydd," &c.

a "Dyma babell y cyfarfod, &c.," yn mlaen oddi yma hyd foreu y farn.

**GRIFFITHS**, David, Nanhyfer, a anwyd yn y Felin Lan, ger Narberth, swydd Benfro, yn 1756. Rhoddes ei fryd o'i ieuenctyd ar fyned yn offeiriad, ac er ei barotoi i hyny, derbyniodd addysg glasurol yn Mhenfro. Pan yn ddeunaw oed, dewisodd Mr. Bowen Llwyngwair ef i fod yn athraw i'w deulu; ac yn dra buan ar ol hyny, efe a briododd ferch hynaf y boneddwr hwnw. Hydref 17, 1779, urddwyd ef gan Dr. Warren, esgob Ty Ddewi, ac ar Medi 3, 1780, derbyniodd gan yr un esgob ei gyflawn urddau. Yn 1783, daeth periglorіaeth Nanhyfer yn wag; a thrwy ddylanwad ei dad yn nghyfraith, cafodd David Griffiths ei benodi iddi. Daeth yntau yn fuan yn dra enwog fel pregethwr, gan droi yn nghymdeithas, a chael ei gyfrif yn un o blaid, Daniel Rowlands, Howel Harris, Williams Pantycelyn, &c. &c., y rhai oedd y pryd hwnw tu fewn i furiau yr eglwys sefydledig, yn ysgwyd yr hen gyfundrefn hyd ei sail. Er fod tros 40 milldir o Nanhyfer i Langeitho, eto byddai David Griffiths yno yn fynych ar Sabbothau cymundeb, yn cael gwledd i'w enaid, ac yn cynorthwyo Rowlands yn rhaniad yr elfenau i'r miloedd a ddeuent yn nghyd. Ac wedi i Rowlands gael ei droi allan o'r eglwys, glynodd offeiriad Nanhyfer wrtho fel cynt, a bu yn un o'i gynorthwywyr mwyaf galluog am flynyddoedd. Tra parhaodd y Methodistiaid i weithio o dan aden yr eglwys wladol, dyfod iddi i gymuno, a derbyn yr elfenau, yn unig o law ei

Digitized by Google

hoffeiriaid hi, parhaodd Griffiths Nanhyfer i'w noddi, ac ymgymysgu a hwynt; ond pan, yn 1811, y mynodd y bobl ymneillduo, ac urddo gwyr o'u plith eu hunain i weinyddu yr ordinhadau iddynt, efe a drodd ei gefn, ac ni rodiodd mwyach gyda'r Methodistiaid. Er hyny dywedir bod ei gydymdeimlad yn parhau gyda hwynt.

Yr oedd offeiriad Nanhyfer, o ran galluoedd a duwioldeb, yn sefyll yn un o'r rhai uwchaf yn Nghymru yn ei oes. Efe oedd un o'r pedwar a ddewiswyd gan Iarlles Huntingdon, ar gyfrif y teithi a nodwyd, i wasanaethu yn ei chapel yn Llundain, ar gylch blynyddol o dri mis; y tri eraill oeddynt Jones Llangan, Nathaniel Rowlands, a Thomas Charles. Efe hefyd oedd un o ymddiriedolwyr cymunrodd Madam Bevan, tuag at ddwyn yn mlaen ysgolion elusengar yn Nghymru. Bu farw yn Berry Hill, ger Trefdraeth, Medi 14, 1834, yn 78 oed, a chladdwyd ef yn eglwys Nanhyfer.

**GRIFFITHS, David**, Madagascar. Cymerai gyfrolau i adrodd hanes y dyn rhyfeddol hwn. Mab hynaf ydoedd i William ac Elizabeth Griffiths, Glanmeilwch, plwyf Llangadog, swydd Gaerfyrddin, lle y ganwyd ef Rhagfyr 20, 1792. Yn 1810, ymunodd ag eglwys Annibynol Gwynfe. Bu yn cadw ysgol yn Nghwmaman o Tachwedd 1811 hyd 1812, pryd yr aeth i'r ysgol at T. Jones, Ffald y brenin; ac yn Nhachwedd y flwyddyn hono, aeth i goleg Neuadd lwyd, lle yr arosodd hyd Mehefin 1814, pryd yr aeth at Dr. Lewis i Wrexham. Yn 1817, aeth i goleg Cenhadol Gosport, o tan ofal Dr. Bogue a'i fab. Yn Mehefin, 1820, cafodd ei benodi gan Gymdeithas Genhadol Llundain, i fyned allan i Madagascar, i gyd lafurio a D. Jones, yr hwn oedd yno er's dwy flynedd. Tua'r pryd hwn, ymunodd mewn priodas â Miss Griffiths Machynlleth, yr hon, fel yntau oedd yn llawn o ysbryd cenadol. Urddwyd ef yn Gwynfe, Gorphenaf 27, 1820; ac yn yr Hydref canlynol, cychwynodd ef a'i briod tua Madagascar. Wedi cwrdd a thymhestl enbyd ar dueddau Penrhyn Gobaith Da, glaniasant yn Mauritius, Ionawr, 1821, lle yr arosodd y Cenadwr dri mis, gan ei fod yn cael cyfleustra i ddysgu iaith y wlad yr oedd yn myned iddi.

Pan gyrhaeddodd yno, agorodd ysgol yn ddioed i ddysgu plant boneddwyr,—cymerai ef ofal y bechgyn, a'i briod y merched—pa rai a anfonai y brenin Radama iddynt. Yn mhen dwy flynedd rhoddodd y brenin iddo ddarn helaeth o dir i adeiladu aneddy, ysgoldy, a chapel,—lle y bu fyw, yn arolygu yr ysgol, a phregethu, tra y cafodd aros yn y wlad. Ar orchymyn y brenin, unwyd ysgolion y ddau genadwr, Jones a Griffiths, yn yr un ysgoldy, a byddai y naill yn ei harolygu yn niffyg y llall. Tua'r pryd hwn ffurfiasant orgraff yr iaith Falagaeg, ac yr oedd eu hymdrechion yn llwyddo mor gyflym, fel erbyn 1824, yr oedd ganddynt 2000 o blant o dan addysg. Yn 1827, cawsant argraff wasg i'r Ynys, a chyhoeddasant *Egwyddorydd, Llyfr Hymnau*, a *Llyfrau Ysgol* yn iaith y wlad; a dechreuasant argraffu Efengyl Luc.

Yn Gorph. 1828, bu farw y brenin Radama, yn 36oed, ac ynddo ef collodd y genadaeth noddwr cadarn. Ymdaenodd cwmwl bygythiol dros y wlad, safodd gwaith y genadaeth, ac ymadawodd D. Jones am Loegr, fel nad oedd mwyach ond David Griffiths a D. Johns yn aros yn genadon yn yr holl ynys. Ond yn 1830, torodd gwawr arnynt, dechreuodd y frenhines fod yn gefnogol, amlhaodd y dysgyblion, a chawsant lwyddiant anarferol. Yn 1831, dygasant allan yr holl Destament Newydd, yn nghyda llawer o'r Hen Destament, yn iaith y trigolion. Gyda diwedd y flwyddyn hono, dirwynodd i ben y deng mlynedd a ganiatasai Radama i'r Cenadon i fod yn yr ynys; ond wedi cryn lawer o ymdrech, cafodd Mr. Griffiths ganiatad i aros hyd ag y mynai; a bu llwyddiant mawr ar ei lafur, hyd 1835, pan dechreuodd erlidigaeth arswydus dori allan, trwy i'r frenhines gymeryd ei pherswadio gan ei chyngorwyr, nad oedd y Cenadon ond offerynau Lloegr wedi eu hanfon yn ddichellgar i'r wlad i ddysgu y bobl, ac ennill eu serch, er meddianu y deyrnas. Ar ddydd Sabboth Chwef. 22, cafodd y Cenadwr bregethu am y tro olaf; ac ar y Sabboth cyntaf yn Mawrth, cynaliwyd Cymanfa gyferbyn a'r Capel, pryd yr oedd tuag 8000 yn bresenol ac y rhoddwyd terfyn ar ymarferyd y grefydd Gristionogol yn ynys Madagascar! Gorchymynwyd casglu yr holl lyfrau Cristionogol—llanwyd ty David Griffiths a hwy, tra yr oedd y bobl, druain, yn wylo ar eu hol. Ymadawodd o'r Ynys yn Medi, 1835, a glaniodd yn Lloegr yn Chwefror, 1836. Wedi bod yma am ddwy flynedd, cafodd ganiatad i ddychwelyd yn ei ol am bum' mlynedd. Ond ni chaniatai y Gymdeithas iddo fyned yn ei ol fel Cenadwr, am hyny efe a aeth ar ei draul ei hun, fel masnachydd; er hyny Cenadwr oedd, ac nis gallasai dim ei luddias. Wedi iddo ddychwelyd yno, cafodd dderbyniad croesawus, hyd yn nod gan y frenhines; ond trwy ddylanwad ei phrif weinidog, gomeddodd iddo ryddid i ddysgu y bobl fel cynt. Ond er hyny yn mlaen yr elai y gwaith, er fod y Cristionogion yn cael eu hela fel petris y mynyddoedd. O'r diwedd cymerwyd ef i fyny fel teyrn-fradwr, gan iddo, mewn cysylltiad ag eraill, gynorthwyo rhai o'r Cristionogion i ddianc. Cyhuddwyd ef o ladrata deiliaid y frenhines, a chondemniwyd ef i gael tori ei ben. Ond gan mai Prydeiniwr ydoedd, newidiwyd y ddedfryd i 250 o ddoleri o ddirwy, ac yna ei fod i ymadael a'r wlad am byth. Ac felly, yn hen wr briglwyd, wedi gorfod edrych ar lafur ei oes yn myned yn ofer, ei argraffiad o'r Beibl yn cael ei losgi, ei blant ysbrydol yn cael eu llofruddio, y tŷ Cenadol yn myned yn ysbail i'r goron, a'r achos Cenadol, yr hwn a obeithiai weled yn iachawdwriaeth i Madagascar, wedi ei lwyr ddinystrio, ïe, felly, â dim ond ei einioes ganddo, y gorfu iddo ymadael a maes ei lafur. Wedi dyfod adref, cymerodd ofal eglwys fechan y Gelli, yr hon oedd bron a marw o ddiffyg achles, a'i haddoldy wedi ei gloi i fyny o dan ddyled. Achubodd hi o safn angau, adeiladodd yno Gapel newydd gwerth mil o bunau, teithiodd holl Brydain i gasglu ato, fel erbyn 1853, yr oedd y capel yn rhydd i'r eglwys, os nad iddo ef.

Yn ystod y cyfnod y bu yn y Gelli, cyflawnodd waith Cenadwr mewn llawer ystyr, sef trwy bregethu yn y pentrefi o amgylch, ffurfio eglwys yr Annibynwyr yn Kington, cyhoeddi "Hanes Madagascar" yn yr iaith Gymraeg, Gramadeg o'r Falagaeg, a dwyn allan gyfieithad diwygiedig o'r Beibl yn yr iaith hono. Tra yn darparu yr olaf, gorfu iddo roddi gofal eglwys y Gelli i fyny, a symud i Woodbridge, er mwyn bod yn ymyl Mr. Meller, golygydd cyffredinol y Feibl Gymdeithas. Arosodd yno o 1853 hyd 1858, a llafuriodd mor galed wrth gyfieithu a phregethu, nes yr anmharodd ei iechyd yn anadferadwy. Yn 1858, daeth i Machynlleth, lle y gorphenodd ei daug ddiweddaf, dri mis cyn ei farw. Tynodd ei oes

Digitized by Google

lafurfawr i ben Mawrth 21, 1863, yn 71oed, a chladdwyd ef yn Nghapel y Graig, ger Machynlleth.

Ei weithiau:—1, "Hanes Madagascar," yn Gymraeg; 2, "Hanes ei Merthyron," yn Saesneg; 3, "Gramadeg y Malagaeg;" 4, "Holwyddoreg," eto; 5, "Llyfr Hymnau," eto; 6, "Traethawd ar Dyngedfen," eto; 7, "Y Dyn tlawd cyfoethog, a'r Dyn cyfoethog tlawd," eto; 8, "Amryw fân draethodau," eto.

Ei gyfieithadau i'r Falagaeg:—1, "The Anxious Inquirer;" 2, "The Friend of Sinners;" 3, "Come to Jesus;" 4, "It is I;" 5, "Llyfryn ar yr adgyfodiad;" 6, "Ei ran, a rhan helaeth, o'r cyfieithad cyntaf o'r Beibl."

Diwygiodd gyfieithadau parod yn yr iaith hono:—1, "Taith y Pererin;" 2, "Chwech o Draethodau;" 3, "Yr holl Feibl."

Diwygiodd a helaethodd:—1, "Geirlyfr Saesneg a Malagaeg;" 2, "Geirlyfr Malagaeg a Saesneg;" 3, "Vocabulary Malagaeg a Saesneg;" a gadawodd amryw mewn llawysgrifau, megys "Peep of Day," "Line upon Line," &c. &c.

Dengys y rhestr uchod, yn nghyda'r braslin o hanes ei fywyd, mai *gweithiwr* di ail oedd David Griffiths; ac er bod ei fywyd yn ymddangos yn debyg i fethiant, fe welir yn nydd datguddiad pobpeth, bod llafur y Cymro hwn o swydd Gaerfyrddin, wedi bod o fendith anrhaethol i drueiniaid melynddu Madagascar.

**GRIFFITHS**, John, Caerynarfon, ydoedd un o weinidogion mwyaf galluog yr Annibynwyr yn niwedd y ganrif ddiweddaf. Ganwyd ef yn ardal Pencadair, swydd Gaerfyrddin, Mai 10, 1752. Ymunodd a'r eglwys Annibynol yn Mhencadair, pan yn dra ieuanc; a phan nad oedd ond 18 oed anfonwyd ef i goleg Caerfyrddin. Wedi bod yno am saith mlynedd, ymsefydlodd yn Llanfyllin, swydd Drefaldwyn; lle, yn 1781, yr ymunodd mewn priodas âg Agnes Meredith, o ger y Trallwm, yr hon a gladdodd efe yn 1797. Wedi bod yn llwyddianus am ddwy flynydd yn Llanfyllin, a chodi Capel yn y Trallwm a'r Sarnau, efe a symudodd i Gaerynarfon, ac yn mhen dwy flynedd drachefn, efe a symudodd i'r Fenni, swydd Fynwy, lle yr arosodd am ddeuddeng mlynedd; yna yn 1797, dychwelodd i Gaerynarfon, lle y gorphenodd ei oes. Bu ei weinidogaeth yn Nghaerynarfon yn godiad i'r Annibynwyr yn y wlad; efe a sefydlodd eglwysi yn Rhoslan, Bethel, a Saron. Yr oedd yn ddyn tal, nerthol, a boneddigaidd; ac yn bregethwr hyawdl ac efengylaidd.

Tra yn Nghaerynarfon, efe a ail briododd gydag un Mrs. Griffiths, gwraig weddw o ger Rhoslan; ac o'r briodas hon y ganwyd dau o weinidogion gwerthfawr gyda'r Annibynwyr, sef William Griffiths, Caergybi, a John Griffiths, Buckley.

Ar y 25ain o Fawrth, 1802, analluogwyd John Griffiths gan y parlys; ond yn mhen dwy flynedd, ymadferodd, a daeth yn alluog i bregethu fel cynt hyd y fl. 1817, pryd y goddiweddwyd ef gan oerfel trwm, yr hwn a derfynodd yn ei angau, Chwefror 13, 1818, pan yn 65 oed.

Efe a gyfieithodd i'r Gymraeg waith Dr. Doddridge ar "Ddechreuad a Chynydd Crefydd yn yr Enaid;" a chyhoeddodd hefyd gasgliad o Hymnau at wasanaeth yr Annibynwyr.

**GRIFFITHS**, Morgan, Hengoed, pregethwr tra phoblogaidd gyda'r Bedyddwyr, yn nechreuad y ganrif ddiweddaf, a anwyd yn Rhuddbac, ger Preselau, swydd Benfro, yn 1669. Ymddengys mai efe oedd y cyntaf o'r teulu a ymneillduodd; ond er gerwined yr hin o dan greulonderau Iago ii. efe a ymunodd ag eglwys Rhydgwilym yn amser ei sefydlydd, William Jones; ac ymddengys iddo ddechreu pregethu cyn marwolaeth y gwr da hwnw, yn 1700, gan y crybwyllir ei enw yn 1701 fel y gweinidog a fedyddiodd *Henry Morgan*,—tad teulu a ddaeth yn enwog wedi hyny yn mhlith y Bedyddwyr. Yn niwedd 1701, ymsefydlodd yn weinidog yn Hengoed,—un o eglwysi hynaf y Bedyddwyr yn Nghymru, lle y daeth yn enwog fel pregethwr cadarn yn yr ysgrythyrau, a dylanwadol ar y gwrandawyr. Trigai mewn ffarm o'r enw *Argoed*, yn y gymdogaeth; a llafuriai yn galed gyda'i eglwys fawr. Yn ol y cyfrif a anfonwyd i Dr. John Evans, Llundain, yn 1715, yr oedd canolrif y gwrandawyr o dan weinidogaeth Morgan Griffiths, yn Hengoed a Hendre, yn 1000; a'r cyfryw yn meddu y safleoedd canlynol mewn cymdeithas:—2 yn foneddwyr, 52 yn dirfeddianwyr, 17 yn grefftwyr, 115 yn dyddynwyr, a 210 yn llaw-weithwyr; gan y rhai yr oedd 54 o bleidleisiau dros swyddi Morganwg a Mynwy, a 130 dros y bwrdeisdrefi.

Efe a adeiladodd Gapel cyntaf Hengoed, yn 1710: ac yn 1718 cawn ei enw yn derbyn rhan o'i gynaliaeth o Drysorfa Llundain, yn mynegiad pa un y gelwir ef,—"Gwr enwog a defnyddiol, yn cael ei arddel yn fawr; gweinidog da i Iesu Grist, gwr ymdrechol iawn." Bu farw Mehefin 11, 1738, yn 69 oed, a chladdwyd ef yn mynwent Hengoed, lle mae careg yn dangos ei fedd.

**GRIFFITHS**, Morris, Mathri, ydoedd un o'r rhai a gafodd lawer o erlidigaeth wrth bregethu yr efengyl yn haner cyntaf y ganrif ddiweddaf. Brodor ydoedd o ardal Llangybi, swydd Gaerynarfon; ganwyd ef yn 1721. Yr oedd yn ewythr, brawd ei thad, i wraig Robert Jones, Rhoslan; a chyda'r Methodistiaid Calfinaidd y dechreuodd ei yrfa grefyddol. Efe oedd y cyntaf a bregethodd yn Llanrwst, yn 1750; deallodd yr erlidwyr ei fod yn dyfod, ac ymgynullasant ar y bont i'w ddysgwyl, gan benderfynu ymaflyd ynddo, a'i daflu i'r afon. Ond yn ffodus, daeth eu bwriad gwaedlyd yn adnabyddus i gyfeillion y pregethwr; acthant i'w gyfarfod, a dygasant ef drosodd mewn cwch, i ben arall y dref, ac oddi yno i dŷ y gwr yr oedd i bregethu ynddo y noson hono. Cynddeiriogodd yr erlidwyr at hyn, a chyda ei fod yn darllen ei destyn,—"Wele yr wyf fi yn mynegu i chwi newyddion da o lawenydd mawr, yr hwn a fydd i'r holl bobl; canys ganwyd i chwi heddyw Geidwad yn ninas Dafydd, yr hwn yw Crist yr Arglwydd," hwy a ymosodasant ar y tŷ, ac a ruthrasant i mewn "yn swn rhegfeydd eu gilydd;" ond gan mai ar y lloft yr oedd yn pregethu, a bod y dyrfa yn dŷn rhyngddynt hwy ag ef, methasant a myned yn mlaen; ac yn y cythrwfl, gwr y ty, wrth weled nas gallasai y pregethwr ddianc, a ddiffoddodd y canwyllau ac a gauodd arno mewn cist. Bu yr erlidwyr yno hyd haner nos yn chwilio am dano, ond nis cawsant ef.

Yn lled fuan ar ol hyn, ymunodd Morris Griffiths a'r Annibynwyr, a chafodd alwad i fod yn gydweinidog a Mr. Morris yn Nhrefgarn, Rhosycaerau, a Phencaer, swydd Benfro; ac yno, gan fyw yn Mathri, y llafuriodd efe yn ffyddlon a llwyddianus, hyd ddiwedd ei oes, Hydref 17, 1767.

**GRIFFRI**, esgob Ty Ddewi, o'r flwyddyn 1098

Digitized by Google

hyd ei farwolaeth yn y flwyddyn 1112. Pan ddaeth y gadair esgobol yn wâg, gosododd Brenin Lloegr Norfhaniad o'r enw *Barnard* ynddi, yn groes i ewyllys offeiriaid Cymru, y rhai a arferent yn wastadol ddewis eu hesgob eu hunain. Yr esgob Barnard yma a roddes yr awdurdod archesgobol, a fwynheid hyd yn hyn gan Menyw, neu Dŷ Ddewi, i esgobaeth Caergaint; ac efe a gam dreuliodd gyllidau yr eglwys yn ddirfawr, fel y dywaid y Brutiau Cymreig:—"Oed Crist 112, y daeth Syr Owain ab Cadwgan yn ol o Normandi gyd a'r Brenin, ac a ddaeth i Gymru, lle ydd ymofwyawdd y Brenin âg ef yn anrhydeddus. Yr un flwyddyn y bu farw Griffri, Escob Dewi, ac y gwnaeth y Brenin wr a elwid Berned, Norman, yn Escob yn ei le, heb na chennad na chyfarch ysgolheigion y Cymry; ac yna colles escob Dewi ei fraint, ac a'i dug escob Caint."

**GROESLON** (Y), gorsaf rheilffordd yn Swydd Gaer-yn-arfon, ar reil-ffordd Caer-yn-arfon a'r Afon Wen, gerllaw Pen y Groes.

**GRONANT**, trefgordd yn mhlwyf Llanasa, Swydd FFLINT, yn agos i lan y môr; 5¼ milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Ruddlan. Poblogaeth 421. Y mae yma addoldy hardd a chysurus gan y Trefnyddion Calfinaidd.

**GRONDRE**, treflan yn mhlwyf Cil y maenllwyd, Swydd BENFRO; 3¼ milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Narberth. Mesura 210 o erwau o dir; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 318*p*. Poblogaeth 35. Tai annedd, 7.

**GRONGAR** (BRYN), ar lan yr afon Towi, 3½ milldir i'r Gorllewin Dde Orllewin o Landeilo Fawr, Swydd GAERFYRDDIN; llanerch dra difyrus, ar yr hon y mae olion hen wersyll milwraidd, oddiwrth yr hyn debygid, y cafodd y bryn yr enw, "Gron-Gaer." Y mae hen ysbyddaden yn tyfu ar y bryn, dan gysgod yr hon, meddir, y cyfansoddodd *Dyer* ei bryddest, yr hon a gynnwysai y llinellau canlynol:—

"Grongar Hill invites my song,
Draw the landscape bright and strong;
Grongar, in whose mossy cells,
Sweetly musing, quiet dwells."

**GROSMONT**, pentref, a phlwyf yn Swydd FYNWY. Y mae y pentref yn sefyll yn agos i'r afon Monnow, a'r ffin a Swydd Henffordd, islaw Craig Hill, 2½ milldir i'r dehau o orsaf Pontrilas, a 10 milldir i'r Gogledd Orllewin wrth Ogledd o Dre Fynwy. Y mae ei hamgylchoedd yn dra difyrus. Yr ydoedd ar un adeg yn fwrdeis-dref, a thref farchnad, ac y mae eto mewn enw yn meddu llywodraeth fwrdeisiol. Y mae yma lythyrfa dan Henffordd, a chynhelir ffeiriau yma ar Ebrill 4, Awst 10, a Hydref 9; ac oddiwrthi y mae Duc Beaufort yn cael y teitl o Farwn. Ymddengys ei bod yn lle tra phwysig yn y cyn-amseroedd, a phrofir hyny trwy olion amryw ffyrdd o honi i wahanol gyfeiriadau, wedi eu palmantu yn gyffelyb i'r ffyrdd Rhufeinig. Yr ydoedd yma hen gastell, yr hwn ar un adeg ydoedd yn hoff breswylfa Duciaid Lancaster; ac y mae y gweddillion o hono, er nad ydynt yn dra ehang, yn ardebol a dyddorol. Bu Llewelyn yn gwarchae arno, ond y Brenin Harri III. a gyfododd y gwarchae. Cafodd pleidwyr Owain Glyndwr eu gorchfygu ar Craig Hill, ucheldir oddeutu milldir o gastell Grosmont, yn y flwyddyn 1405.

Y mae y plwyf yn cynnwys 6838 o erwau o dir; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 5957*p*. Poblogaeth, 743. Tai annedd, 140. Y mae Llan y plwyf yn adeilad fawr a hardd, yn arddull y trofiant Normanaidd, o ymddangosiad gyffelyb i eglwys gadeiriol, gan gynnwys corff-eglwys (*nave*), ystlys-gelloedd (*aisles*), croes-adail (*transept*), a changell (*chancel*); yn nghyda thŵr wyth-onglawg, oddi ar yr hwn yr ymddyrchaif pig-adail hardd. Y fywiolaeth eglwysig sydd beriglorïaeth, yn esgobaeth Llandâf; gwerth 118*p*. Noddwr, yr Arglwydd Ganghellydd.

Y mae hen feddfaen yn y fynwent, yn ymyl mur dwyreiniol y gangell, yr hwn y dywedir ei fod ar gorph Sion Cent; ac y mae Grosmont yn llawn chwedlau a thraddodiadau am dano; ond nid ei ddysgeidiaeth ddofn, a'i athrylith gref fel bardd, ydyw eu testun, ond ei ystranciau fel dewin; hen chwedlau dychymygol a bentyrwyd ar ei goffadwriaeth gan yr offeiriaid Pabaidd, er dîal ar ei ddynoethiad di arbed o'u llygredigaethau. Gwel CENT (SION).

Y mae yma bont dros yr afon Monnow, yn nghyfeiriad Kentchurch, a elwir hyd heddyw "Pont Sion Cent," ac y mae traddodiad yn dywedyd mai efe a barodd ei hadeiladu. Bu cyfieithiad Lladinaidd o'r Beibl ar femrwn, yr hwn y dywedid ei wneyd, neu, ei adysgrifenu ganddo ef, yn nghadw am oesoedd gan deulu y Scudamores, yn Kentchurch; ond y mae wedi ei golli, neu ei ddinystrio er ys talm bellach.

**GRUDDNEU**, un o dri meib Gleisiar o'r Gogledd, a Haernwedd Fradawg eu mam, y rhai a grybwyllir yn y Trioedd, fel rhai penderfynol na's gadawent faes y frwydr ond ar eu helorau:—"Tri glew unben Ynys Prydain, Gruddneu, Henpen, ac Aedenawg. Eu cynneddfau oedd, nad elynt o gâd, namyn ar eu helorau."

**GRWST**, sant, yn nechreu y 7fed ganrif, ydoedd fab Gwaith Hengaer ab Elffin ab Urien Rheged, o Euronwy, ferch Clydno Eiddin. Efe a sylfaenodd Llanrwst, swydd Dinbach, lle y coffheid ef Rhagfyr 1.

**GRWYNAU FAWR**, treflan yn mhlwyf a chantref TALGARTH, Swydd FRYCHEINIOG, DEHEUBARTH CYMRU; 6¾ milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Grughywel. Y mae y dreflan yma yn cymeryd ei henw oddiwrth yr afonig Grwynau Fawr, yr hon sydd yn tarddu yn ystlysau y Mynyddoedd Duon, ac wedi llifeirio trwy y dyffryn yma, yn ymarllwys i'r afon Wysg, yn agos i derfyn Swydd Fynwy. Y mae yn ffurfio y rhan dde ddwyreiniol o'r plwyf, ac yn cael ei ffinio ar y tu dwyreiniol gan ran o Swydd Henffordd. Y mae y boblogaeth yn hollol ammaethyddol.

**GRWYNAU FECHAN**, treflan yn mhlwyf a chantref TALGARTH, Swydd FRYCHEINIOG; 4¼ milldir i'r Gogledd Ogledd Ddwyrain o Grughywel, yn gorwedd yn un o lynoedd y Mynyddoedd Duon, trwy yr hwn y llifeiria yr afonig Grwynau Fechan, cyn ymuno o honi â'r Grwynau Fawr, tua dwy filldir oddiyma.

**GRYFFYDD** AB ADDA AB DAFYDD, bardd oedd yn ei flodau o 1360 hyd 1390. Y mae amryw o'i gyfansoddiadau yn nghadw mewn llaw ysgrifau; ac y mae Mabinogi, neu ffug chwedl ddyddorol, o'r enw "Breuddwyd Gryffydd ab Adda," wedi ei hargraffu yn y Greal. Efe a gafodd ei ladd yn Nolgelleu, a chyfansoddwyd Marwnad iddo, gan Dafydd ab Gwilym, yr hon sydd yn argraffedig gyd a'i Weithiau. Fel hyn y dywaid am dano;—

Digitized by Google

"Gryffydd, gerdd ber aderyn,
Fab Adda, difeia' dyn!
Pob dyn disalw a'i galwai
Pendefig, mirein-frig mai,
Ac organ, dra diddan draidd,
A gwawr eos garuaidd;
Gwenynen clod barodwir,
Gwanwyn tost, Gwenwynwyn dir;
Gryffydd ab Adda 'b Dafydd
Y'nghor Dolgelleu y'nghudd."

**GRYFFYDD** AB CYNAN, tywysog Gwynedd, ydoedd fab Cynan ab Iago ab Idwal, o Rhacwel, merch i Aeloedd, brenin Dublin. Yr oedd ei dad yn yr Iwerddon yn ffoadur, yno y ganwyd Gryffydd, ac y treuliodd foreu ei oes. Pan ddaeth i'w oed, cynullodd fyddin yn yr Iwerddon, a goresgynodd Ynys Mon; yna aeth yn mlaen dros y Fenai, gan fwriadu enill Eryri; ond gorchfygwyd ef gan Trahaiarn ar Fron yr erw, ger Castell Harlech, a gorfu iddo encilio i Fôn. Pa fodd bynag, yn 1079, efe a orchfygodd ei wrthymgeisydd, yr hwn a syrthiodd ar fynydd Carno, ac enillodd orsedd ei hynafiaid. Yn mhen ychydig ar ol hyny efe a fradychwyd gan Meirion Goch i grafangau Hugh Lupus, iarll Caer; yr hwn a'i cadwodd yn ddiogel am 12eg mlynedd. Ond o'r diwedd, achubwyd ef gan Cynfrig Hir, yr hwn a lwyddodd i dwyllo y ceidwaid, a chario ymaith ei dywysog a'i gadwynau, i'w wlad ei hun. Wedi cryn lawer o frwydrau, efe a adenillodd y cestyll a'r amddiffynfeydd a adeiladasai y Normaniaid yn y dywysogaeth; ond yn 1096, trwy fradwriaeth Owain ab Edwin, gorfu iddo o flaen byddinoedd ieirll Caer ac Amwythig, ffoi i'r Iwerddon; eithr yn 1098, efe a ddychwelodd, a gwnaeth heddwch a'r Saeson; yr hwn pa fodd bynag, ni pharhaodd yn hir, ac o hyny hyd ddiwedd ei oes, efe a lwyddodd i'w gwrthsefyll. Bu farw yn 1137, yn 82 oed, a chladdwyd ef yn eglwys Bangor, yr ochr ddê i'r allor. Bu iddo dri mab, a phum merch, o'i wraig Angharad, merch Owain ab Edwin, arglwydd Tegengl. Enwau y meibion oedd Owain, Cadwaladr, a Chadwallon; y blaenaf o ba rai oedd yr enwog Owain Gwynedd, a'r olaf a gafodd ei ladd cyn marwolaeth ei dad. Yr oedd Gryffydd ab Cynan yn gŷff un o bum Llwyth Breninol Cymru, i'r hwn y mae rhai o brif deuluoedd y Dywysogaeth yn olrhain eu disgyniad. Ei bais arfau oedd "Gules, three lioncels passant in pale barry argent, armed azure." Saif Gryffydd ab Cynan yn enwog, fel noddwr llenyddiaeth ei wlad. Wrth weled cymaint o anrhefn a chamwri yn mhlith y beirdd Cymreig, efe a wahoddodd wŷr medrus yn y cyfryw wyddorau drosodd o'r Iwerddon, a chynaliwyd Eisteddfod, o dan nawdd y tywysog yn Aberffraw, er mwyn dadleu a phenderfynu gwellianau. O hyny allan cynhelid Eisteddfod yn gyson bob tair blynedd, yn Llys Aberffraw, o dan nawdd y tywysog, heblaw y rhai a gynaliwyd o dan ei nawdd yn Nghaerwys, ac yn Nglyn Achlach yn Iwerddon. Parodd y diwygiad hwn i'r awen Gymreig ymhoywi yn fawr, a chafwyd cyfres o feirdd rhagorol, o hyny hyd ddiffoddiad annibyniaeth Cymru yn marwolaeth Llywelyn. Canodd Meilir ab Gwalchmai awdl odidogar farwolaeth Gryffydd, yr hon a gedwir yn y *Myf. Arch.*, yn yr ail gyfrol o'r hwn hefyd, y mae Bywgraffiad o hono wedi ei ysgrifenu yn Gymraeg, yr hwn a gyfieithwyd i'r Lladin gan Nicholas Robinson, esgob Bangor, ac a gedwir mewn LLSG. yn Llyfrgell Hengwrt.

**GRYFFYDD** AB DAFYDD AB GRONW, bardd a flodeuai rhwng 1450 a 1480.

**GRYFFYDD** AB DAFYDD AB HYWEL, bardd yn ei flodau rhwng 1480 a 1520.

**GRYFFYDD** AB DAFYDD AB TUDYR, bardd yn ei flodau rhwng 1290 a 1340.

**GRYFFYDD** AB DAFYDD FYCHAN, bardd yn ei flodau rhwng 1440 a 1470.

**GRYFFYDD** AB GORONWY GETHIN, bardd yn ei flodau rhwng 1380 a 1420.

**GRYFFYDD** AB GWEFLYN, bardd yn ei flodau tua dechreu y 15fed ganrif. Mae ei "Farwnad i Gronw ab Tudyr o Fon," yn nghyda rhai o'i Gywyddau eraill ar gael.

**GRYFFYDD** AB GWRGENAU, bardd yn ei flodau rhwng 1210 a 1260. Mae ei "Farwnad i Gryffydd ab Cynan," yn nghyda darn arall o'i waith yn y *Myf. Arch.*

**GRYFFYDD** AB HYWEL TUDYR, bardd yn ei flodau rhwng 1500 a 1560.

**GRYFFYDD** AB IEUAN AB LLYWELYN FYCHAN, bardd a gwr boneddig tiriog, yn trigo yn Llanerch, swydd Ddinbach, ac yn canu ar ei fwyd ei hun. Yr oedd efe yn un o'r boneddwyr a enwyd yn y Cyngor breninol i wneyd trefn a llywodraeth ar wyr wrth gerdd dafod a thant yn Eisteddfod Caerwys, yn 1523. Yr oedd yr Eisteddfod hono i gael ei chynal "dan brwyadwriaeth Harri yr VIIIfed, ger bron Richard ab Hywel ab Ifan Vaughan, Ysw.; drwy gydsyniad Syr William Gruffydd, Barg., Arglwydd-Ystafellydd Gwynedd; a chyngor Gruffydd ab Ifan ab Llewelyn Fychan, a'r Bardd-Cadeiriol Tudur Aled." Mae amryw o'i gyfansoddiadau barddonol ef ar gael, oddiwrth ba rai y mae yn amlwg ei fod yn moreu ei oes yn Babydd selog, ond iddo ar ol hyny ddyfod i'r goleuni, a throi i ddynoethi cyfeiliornadau y Babaeth.

**GRYFFYDD** AB IEUAN AB RHYS, bardd yn ei flodau rhwng 1560 a 1590.

**GRYFFYDD** AB LLYWELYN AB SEISYLLT, tywysog Gwynedd, a brenin Cymru oll o 1032 hyd 1064. Wedi i Llywelyn ab Seisyllt gael ei ladd gan feibion Edwin yn 1022, cadwyd meddiant o orsedd Gwynedd gan Iago ab Idwal hyd oni laddwyd ef gan Gryffydd ab Llywelyn, tuar flwyddyn 1032, neu yn ol y Brutiau yn 1037. Yna ymdeithiodd gyda llu mawr i'r Deheubarth, gyda'r bwriad o ddial gwaed ei dad ar Hywel ab Edwin; gorchfygodd y Saeson a'r Daniaid ger llaw Crossfordd, ar lan Hafren, dinystriodd Lanbadarnfawr, swydd Aberteifi, a derbyniodd ymostyngiad holl Ddeheubarth, gan fod Hywel ab Edwin, y tywysog, wedi gorfod ffoi mewn gwaradwydd. Ond Hywel, fodd bynag, a lwyddodd i gasglu byddin er adenill ei dywysogaeth; a chyda'r bwriad hwnw, efe a gychwynodd tua'r Gogledd, ond cyfarfu Gryffydd ag ef mewn brwydr waedlyd yn Mhencadair, swydd Gaerfyrddin, lle y collodd Hywel y maes drachefn, ac y syrthiodd ei wraig i ddwylaw ei orchfygwr, yr hwn gan droseddu pob deddfau anrhydedd a moesoldeb, a'i darostyngodd yn ordderchwraig iddo ei hun. Fel y gellir tybied, creulonodd hyn Hywel i eithafion, a chan ail gynull ei wyr, yn nghyda chynifer o'r Saeson a'r Daniaid ag a fedrai gael i'r maes, ymosododd arno drachefn; ond wedi brwydr waedlyd, gorchfygwyd ei fyddin, ac yntau ei hun a laddwyd. Felly Gryffydd, er mewn brwydrau parhaus, a deyrnasodd ar holl Gymru hyd y flwyddyn 1064, pryd y lladdwyd ef gan ei filwyr ei hun, ac yr anfonasant ei ben i Harold y Sais.

Digitized by Google

Yn mhlith digwyddiadau ei deyrnasiad cythryblus, cofnoda y *Brutiau* un amgylchiad a gynyrchodd hanesiaeth i'r oesau dilynol. Pan orchymynodd Macbeth, gormesdeyrn yr Alban, i Banquo gael ei lofruddio, diangodd Fleance, ei fab, i Ogledd Cymru, a chafodd dderbyniad croesawus i Lŷs Gryffydd ab Llywelyn, lle y bu yn aros am flynyddoedd mewn parch ac anwyldeb mawr. Ond y canlyniad fu iddo syrthio mewn serch a Nest, merch ei noddwr, a'i beichiogi; am yr hyn y rhoddodd y brenin yr Albanwr i farwolaeth, ac y traddododd ei ferch i ddwyn penyd. Pa fodd bynag, ganwyd mab o'r gyfathrach hon, a galwyd ef Walter; yr hwn ar ol tyfu i fyny, a laddodd ryw ddyn ieuanc a ddanodai iddo mai basdardd oedd, ac wedi hyny a ffodd i'r Alban, lle, yn mhen amser, y daeth i'r swydd o arglwydd *Steward* ar gyllid y llywodraeth. Oddiwrth y swydd hon cymerodd ef a'i ddisgynyddion yr enw Stuart; a thyma y cŷff o ba un y tarddodd y llinach frenhinol o'r enw hwnw yn yr Alban.

**GRYFFYDD** ab Llywelyn Fychan, bardd yn ei flodau tua 1480.

**GRYFFYDD** ab Llywelyn Llwyd, bardd yn ei flodau rhwng 1560 a 1590.

**GRYFFYDD** ab Meredydd ab Dafydd, bardd enwog o Fôn, a flodeuai rhwng 1310 a 1360. Mae 28ain o'i gyfansoddiadau barddonol yn y *Myf. Arch.*

**GRYFFYDD** ab Nicholas, o Ddinefwr, pendefig nodedig ei gyfoeth, ei fedrusrwydd, a'i ddylanwad, yn Neheudir Cymru, tua chanol y 15fed ganrif.

Yr oedd yn noddwr mawr i'r beirdd, y rhai a gadwasant mewn coffadwriaeth lawer o ddigwyddiadau dyddorol am dano. Tua diwedd ei oes, ymrafaeliodd a theulu Lancaster, cyhoeddodd y brenin ef yn herwr, ymunodd yntau a theulu York, a daeth ag 800 o wyr dewisol allan i frwydr Mortimer's Cross, yn yr hon, pan oedd goroian buddugoliaeth yn dyrchafu o blith yr Yorkiaid, y derbyniodd efe saeth farwol. Ei aer oedd ei fab hynaf, tad yr enwog Syr Rhys ab Thomas. Mae yn y *Cambrian Register* fywgraffiad dyddorol o hono ef a'i deulu, wedi ei ysgrifenu yn amser Iago I.; ac yn *Ngorchestion Beirdd Cymru* gywydd anerch iddo gan Gwilym ab Ieuan Hen, yn yr hwn y dywedir:—

"O driphwngc yr wyd Ruffydd
O'u blaen oll fal y bu Nudd;
O fonedd a dewredd da
Ac o urddas y gwirdda.
Tynaist, wyd yn Lytenont,
A chapten a phen a phont,
Ac arglwydd megys Gwrlais,
Ac ustus wyd ar gost Sais.
Saith gastell sy i'th gostiaw
A saith Lys y sy i'th law."

Yn nawdd a dawn Gryffydd ab Nicholas y cynaliwyd Eisteddfod fawr Caerfyrddin, 1451, pan sefydlwyd y 24 mesur gan Dafydd ab Edmwnd. Gwel Eisteddfod.

**GRYFFYDD** ab Rhydderch ab Iestyn, tywysog Deheubarth yn ystod yr 11eg ganrif. Lladdwyd ef ar y maes yn 1054.

**GRYFFYDD** ab Rhydderch Goch, bardd a flodeuai rhwng 1560 a 1600. Mae peth o'i waith ar gael mewn Llsg.

**GRYFFYDD** ab Rhys ab Gryffydd, a olynodd ei dad i dywysogaeth Deheubarth yn 1196. Bradychwyd ef gan ei frawd Maelgwyn i ddwylaw y Saeson; ond adfeddianodd ei dywysogaeth yn 1178. Bu farw yn 1202, a chladdwyd ef yn mynachlog Ystrad Fflur.

**GRYFFYDD** ab Rhys ab Tewdwr, tywysog Deheubarth yn nechreu y 12fed ganrif. Gan nad oedd ond baban pan fu farw ei dad, yn 1090, cymerwyd ef i'r Iwerddon er diogelwch. Yr oedd ei frodyr wedi cwympo yn nghadgyrch Iestyn a'r Normaniaid, felly nid oedd ond efe mwyach i ddal i fyny hawliau ac anrhydedd ei deulu. Pan yn 25 oed, daeth drosodd i Gymru; a thra yn aros gyda'i chwaer, Nest, yn nghastell Penfro, deallodd ei fod yn wrthddrych eiddigedd Harri I., am hyny efe a ffodd am nawdd i lys Gryffydd ab Cynan yn Ngwynedd. Yna y brenin a ddechreuodd anwesu Gryffydd ab Cynan, trwy ei wahodd i'w lys, a'i fawrhau; a thrwy anrhegion lawer, ac addewidion teg, cafodd ganddo addaw trosglwyddo Gryffydd ab Rhys i'w ddwylaw, naill a'i yn fyw neu yn farw. Pa fodd bynag, deallodd y tywysog ieuanc fod drwg yn cael ei ddarparu iddo, ac efe a ymnoddodd yn eglwys Aberdaron, a thrwy gymorth yr offeiriaid, ac eraill, cafodd long i'w gludo i'r Deheubarth, lle, er mwyn diogelwch ei fywyd, y gorfodwyd ef yn ddioed i ryfela yn erbyn y brenin; ac wedi amryw frwydrau, llwyddodd i yru allan y Saeson, y Normaniaid, a'r Ffleminiaid, o'r wlad; drylliodd gastell Arberth, gwnaeth ddifrod mawr yn Ystrad Tywi, llosgodd gastell a thref Caerfyrddin, enillodd gastell Gwŷr, a holl Geredigion, a pharhaodd o dan arfau hyd oni ymheddychodd a Harri yn 1121. Yn 1135, gwysiwyd ef gan y brenin Stephen, i ymddangos ger ei fron; eithr yn lle ufuddhau, efe a arfogodd ei wyr, ac a ymlidiodd yr estroniaid allan o Geredigion a Phenfro, pryd y lladdodd dros dair mil o'i elynion. Felly yr adenillodd efe ei dywysogaeth; yna gwnaeth wledd fawr yn Ystrad Tywi, er anrhydedd i'r dydd, yr hon a barhaodd am ddeugain diwrnod. Treuliodd y gweddill o'i oes fel tywysog doeth, gan feithrin heddwch, diwygio y cyfreithiau, a noddi awenyddion. Mynegir am ei farwolaeth fel hyn:—

"Oed Crist 1136, bu farw Gryffydd ab Rhys, y gwrolaf, a'r doethaf, a'r trugaroccaf, a'r haelionusaf, a'r cyfiawnaf, o'r holl Dywysogion; a mawr y bu'r galar o'i farw. A Rhys ei fab a gymerth ei le ef, a'i fam ef [Rhys] oedd Gwenllian, merch Gryffydd ab Cynan."

**GRYFFYDD** ab Tudyr ab Hywel, bardd yn ei flodau rhwng 1500 a 1540.

**GRYFFYDD** ab yr Ynad Coch, bardd Llywelyn ab Gryffydd. Blodeuai o 1260 i 1300. Yr oedd yn fab i ryw ynad urddasol, a wisgai y tuddedyn coch ar y frawdfainc. Efe oedd y galluocaf o'i gyfoeswyr. Ceir wyth o'i gyfansoddiadau yn y *Myf. Arch.*

**GRYFFYDD**, Edmwnd, D.D., esgob Bangor, oedd fab ieuangaf Gryffydd ab Sion Gryffydd, o Gefnamwlch, yn Swydd Gaer-yn-arfon, lle ei ganwyd yn y flwyddyn 1570. Efe a dderbyniodd ei addysg athrofaol yn ngholeg Brazennose, Rhydychain, o'r lle y symmudodd i goleg yr Iesu, yn yr hwn y graddiodd. Cymerodd ei radd o A. C. yn y flwyddyn 1592. Gwnaed ef yn Beriglor Llandwrog, yn esgobaeth Bangor, yn y flwyddyn 1599; ac yn y flwyddyn ganlynol, cafodd ganoniaeth yn yr eglwys gadeiriol hono; ac yn 1604, cafodd beriglorîaeth Llanbedrog. Efe a wnaed yn Ddeon Bangor yn y flwyddyn 1613, ac yn y flwyddyn 1633, efe a wnaed yn Esgob. Bu farw yn y flwyddyn 1637; a chladdwyd, ef yn ei eglwys gadeiriol ei hun.

Digitized by Google

**GRYFFYDD,** John, a anwyd yn Nghymru, ac a addysgwyd yn Rhydychain. Mynach ydoedd o urdd y Cistersiaid, yn mynachlog Hales Owen, yn Swydd Gaerwrangon. Dywedir ei fod yn wr duwiolfrydig, a thra dysgedig, a'i fod ar un adeg wedi amlygu tuedd gref at gael diwygiad yn yr eglwys; ond ei fod wedi ei gadarnhau yn y ffydd (babaidd) drachefn, er mawr lawenydd i'r Pabyddion, y rhai a'i cyfrifent yn bregethwr rhagorol, yn y Lladin a'r Saes'neg.

**GRYFFYDD,** Syr Llwyd, o Dregarnedd, Mon, a ddaw i'r golwg gyntaf ar ddalen hanesiaeth, yn dwyn y newydd i Iorwerth I. i Gastell Rhuddlan, o enedigaeth mab iddo yn Nghastell Caerynarfon; am yr hyn y brenin a'i gwnaeth yn Farchog; ond er i frenin Lloegr lwyddo am hir amser i'w dawelu o dan orthrwm yr amseroedd, methodd a diffodd ei wladgarwch, na gwywo ei annibyniaeth. Priodol y gesyd y bardd cenedlaethol ei gymeriad allan yn y geiriau hyn:—

"Mae '*Syr*' yn bur brydferth 'rwy'n diolch i Iorwerth,
Ond '*Llwyd*' oedd yr enw ddewisodd fy ngwraig;
A Chymro fel arfer yw Gryffydd Tregarnedd,
Ffyddlonach o'r haner i faner y *Ddraig*."

Wrth weled y gorthrwm parhaus a ddyoddefai ei gydwladwyr oddiar ddwylaw y swyddogion Saesnig, efe a dorodd allan mewn gwrthryfel ffyrnig tu a'r flwyddyn 1322, gan ddarostwng Gwynedd, a'r Cyffiniau, o dan ei awdurdod. Ond pa fodd bynag, daeth y Saeson yn llu mawr yn ei erbyn, gorchfygwyd ei fyddin, a chymerwyd yntau yn garcharor i Gastell Rhuddlan, lle y tybir iddo gael ei gadw hyd ei farwolaeth, gan na chlywir am dano mwyach. Cyfansoddodd Gwilym Ddu o Arfon, Gywydd Dyhuddiant iddo yn y carchar, yr hwn a gedwir yn y *Myf. Arch.*

**GRYFFYDD,** Maurice, oedd frodor o Gymru, ac wedi derbyn ei addysg yn Rhydychain. Mynach ydoedd o urdd y Brodyr duon. Yn y flwyddyn 1532, cafodd ei awdurdodi i ddarllen rhanau o'r gwasanaeth Eglwysig, a'r flwyddyn ganlynol cafodd ei raddio yn Wyryf yn y Gyfraith Eglwysig. Wedi hyny dyrchafwyd ef i fod yn Arch-ddiacon Rochester, ac yn y flwyddyn 1554, pennodwyd ef yn Esgob Rochester, a bu yn llywyddu yr esgobaeth hono hyd ei farwolaeth yn 1559.

**GRYFFYDD,** Piers, swyddog morawl enwog, yn nheyrnasiad y Frenines Elizabeth, oedd yn fab i Syr Rhys Gryffydd, o'r Penrhyn Mawr, yn Swydd Gaer-yn-arfon, yr hwn a olynodd ef yn yr ettifeddiaeth. Pan oedd arf-lynges yr Hispaen, yr hon a gyhoeddai y Pab yn anorchfygol, yn bygwth dinystrio Prydain, prynodd Piers Gryffydd long gref, ac wedi arlwyo iddo ei hun bob math o gad-ddarpariadau, efe a hwyliodd allan o borthladd Beaumaris, ar yr 20fed o Ebrill, 1588, a chyrhaeddodd Plymouth ar y 4ydd o Fai, lle y cafodd y derbyniad mwyaf anrhydeddus gan Syr Ffrancis Drake. Cyfranogodd yn yr anrhydedd o orchfygu yr Arf-lynges, ac yna ymunodd a Syr Ffrancis Drake, a Syr Walter Raleigh, yn eu gwahanol lynges-gyrchoedd yn erbyn yr Hispaeniaid, yn yr India Orllewinol. Ond, yn nheyrnasiad Iago y Cyntaf, dygid cwynion trymion yn ei erbyn gan lŷs-genhadwr Hispaen, y Count Gondamor, yr hwn erbyn hyny oedd yn meddu dylanwad mawr yn llŷs Prydain. Y pendefig hwnw a achwynai ar Piers Gryffydd, ei fod ef wedi parhau i anrheithio meddiannau Spaen yn y Gorllewin, ar ol cyhoeddiad heddwch rhwng y ddwy wlad; ac mor llym yr erlynid ef, trwy falais a chenfigen yr Hispaeniaid, fel y bu raid iddo werthu ei ettifeddiaeth er pwrcasu ei bardwn. Efe a gymerasai yn wraig, Margaret, ferch Syr Thomas Mostyn, o Fostyn, Marchog; o'r hon y bu iddo dri o feibion, William, Robert, a Rhŷs Gryffydd; y rhai a fuant feirw yn ieuainc eill tri; a phedair merch, sef Catharine, Jane, Dorothy, ac Ursula. Fel hyn darfu am y teulu yn y gangen wrrywaidd. Efe a gladdwyd yn Westminster Abbey.

**GRYFFYDD,** Walter, swyddog llyngesawl enwog, a anwyd yn mhalas ei deulu henafol yn Cae Rhun, ar lan yr afon Conwy, yn Swydd Gaer-yn-arfon. Efe a ddyrchafwyd i fod yn is-gadben yn y flwyddyn 1755, a gwasanaethodd yn y sefyllfa hono ar fwrdd y "*Royal George*," lluman-long arglwydd Anson. Yn y flwyddyn 1759, efe a bennodwyd yn gadben y Gibraltar, a pharhaodd yn yr un long hyd wedi terfyniad y rhyfel, gan barhau fel gwiblongwr heddychol hyd y flwyddyn 1766. Yn y flwyddyn 1771, cafodd orchymyn i hwylio am America, gan drosglwyddo adgyfnerthion i'r fyddin yno. Cyrhaeddodd New York yn mis Mai, a hynododd ei hun mewn amryw gadgyrchiadau pwysig. Efe a barhaodd i wasanaethu yn y "*Nonsuch*," y llong a roddasid dan ei lywyddiaeth yn y flwyddyn 1766; ac yr oedd yn bresenol yn y frwydr allan o Grenada. Wedi i'r llyngesydd Byron hwylio i Ewrob, a gadael yr is-lyngesydd Parker i fod yn brif lywydd ar orsaf yr India Orllewinol, y boneddwr hwnw a symudodd ei luman i'r "*Princess Royal*," yn y canlyniad i'r hyn yr olynwyd ef yn y "*Conqueror*" gan y Cadben Gryffydd. Ond ar y 18fed o Ragfyr dylynol, efe a laddwyd mewn brwydr â'r gad-lynges Ffrengig yn *Port-royal bay*. Y llyngesydd a'i crybwyllai yn anrhydeddus yn ei adroddiad swyddol o'r frwydr.—"Y llongau a ragflaenent y *Princess Royal* y pryd hwn, oeddynt y *Conqueror*, *Albion*, *Elizabeth*, *Vigilant*, a'r *Centurion*, ond yr oedd y *Conqueror* o flaen y lleill oll, ac yn nes i'r gwynt. Tua phump o'r gloch daeth y gad-long hon o fewn cyrhaedd yr is-lyngesydd Ffrengig, yr hwn a ddechreuodd danio ei gyflegrau. Yr oedd y tawelwch a'r dïysgogrwydd â pha un y derbyniai Cadben Gryffydd dân y tair cadlong a berthynent i'r gelyn, ar bob plyg-hwyliad, gan danio yn ôl, a gweithio ei lestr gyd a'r fath fanylrwydd a phe y buasai yn myned i mewn i Spithead, ac enill llawer ar bob hwyl-droad, yn rhoddi y pleser mwyaf i mi. Teimlais yn annrhaethadwy pan y clywais fod y Cadben Walter Gryffydd wedi cael ei ladd, gan yr ergydion olaf a daniwyd. Ni all y llynges golli gwell dyn, na gwell swyddog."

**GRYFFYDD GRYG,** bardd gorchestol o Fon, a adweinir yn benaf trwy ei ymryson barddonol a Dafydd ab Gwilym. Gwyddeles oedd ei fam, gesyd yr *Iolo MSS.* ei drigfan yn Mhenmynydd; ond dywed Angharad Llwyd mai brodor o Aberffraw ydoedd, a thybiwn bod y llinellau canlynol o un o'i gywyddau ymryson yn cadarnhau hyny:—

"Y mae saith o gymdeithion
Ym yn Aberffraw yn Mon,
Amlen rhoddiad profadwy
Am un i Ddafydd, a mwy."

Gwel Dafydd ab Gwilym.

Digitized by Google

**GRYFFYDD MAELOR**, tywysog Powys, ydoedd fab i Madog ab Meredydd ab Bleddyn ab Cynfyn. Efe oedd arglwydd y ddwy Faelor, a Mochnant is Rhaiadr. Mae hanes Cymru gan H. Llwyd, a Powel, yn rhoddi iddo y cymeriad uwchaf am gallineb a haelfrydedd. Bu farw tua 1189, a chladdwyd ef yn Meifod. Ei wraig oedd Angharad, ferch Owain Gwynedd, a gadawodd ar ei ol fab o'r enw Madog, yr hwn a'i holynodd ar y rhan hono o'i arglwyddiaeth a elwid Powys Fadog.

**GUILSFIELD**, a elwir hefyd CEGIDFA, plwyf, a phentref yn Undeb Llanfyllin, Swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU. Y mae y pentref yn gorwedd yn nghanol bryniau coediog, 2½ milldir i'r Gorllewin o orsaf rheilffordd Croesoswallt a'r Dref Newydd, a elwir *Pool Quay*, ac o'r afon Hafren; a 3 milldir i'r Gogledd Ogledd Orllewin o'r Trallwng. Y mae yn lle hynod o hardd, a medda lythyr-swyddfa dan y Trallwng. Cynnwysa y plwyf y trefgorddau canlynol, y Llan, Broniarth Uchaf, Broniarth Isaf, Burgedin, y Garth, Gwngrog Fechan, Hendre hen, Llannerchrochwell, Rhetescyn, Tir y Myneich, Trelydan, Trawsgoed, a'r Farchwel. Yn nhrefgordd y Llan y gorwedda y pentref; ac y mae amryw ranau o'r plwyf o fewn ffiniau bwrdeisdref y Trallwng. Mesura 14,835 o erwau o dir, a chyfrifir gwerth ardrethawl y plwyf yn 21,816*p.*, o ba rai y mae 264*p.* mewn gweithiau nwy. Poblogaeth yn 1851, 2397; yn 1861, 2634. Tai, 512. Y fywioliaeth eglwysig yma sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth 360*p.* Noddwr, Esgob Llanelwy. Y mae yr eglwys yn hen adeilad hardd, ac mewn cywair da; yr ydoedd unwaith yn perthyn i Fynachlog Ystrad Marchell. Y mae y fynwent wedi ei haddurno â deuddeg o goed yw hynod o hardd, y rhai yn ol hen ysgrif oedd yn meddiant y diweddar John Jones, Ysw., o'r *Crosswood*, a blanwyd yn nheyrnasiad William a Mary, ac ydynt oll o'r un oedran. Y mae cofrestr-lyfr y plwyf yn dechreu yn y flwyddyn 1573, ac y mae yr henaf yn y rhan yma o'r wlad. Y mae gan yr Annibynwyr a'r Trefnyddion Calfinaidd leoedd addoliad yn y plwyf hwn. Y mae amryw gymmun-roddion wedi eu gadael o bryd i bryd at wasanaeth tlodion o'r plwyf hwn, cynnyrch y rhai a renir yn benaf, mewn bara a dillad; yn mysg y penaf o'r cymmun-roddion crybwylledig, y mae y swm o 110*p.*, a adawyd gan Mr. John Davies, yn y flwyddyn 1731;—Pum punt yn y flwyddyn a adawyd gan Mr. William Jones, yn y flwyddyn 1735;—Dau cant o bunnau a adawyd gan Mr. Charles Christopher, yn y flwyddyn 1757;—a deg punt a phedwar ugain a adawyd gan Elizabeth Lloyd, yn y flwyddyn 1778.

Ar fryn uchel, a elwir "Y Gaerfa," neu, "Y Gaer Fawr," heb fod yn mhell oddiwrth y pentref, y mae olion hen wersyllfa Rufeinaidd; a thu hwnt iddo gellir olrhain ffordd Rufeinaidd am yn agos i filldir, ar y ffordd i Bont-yscowryd. Darganfuwyd amryw addurniadau aur yn agos i'r hen wersyllfa, ryw amser yn ol, y rhai y bernid eu bod yn Rhufeinaidd: yr oedd un o honynt ar ffurf baedd gwyllt, oddeutu dwy fodfedd o hyd, a modfedd o uchder, yr hwn, ond odid, a fuasai yn addurno helm swyddog Rhufeinaidd. Yr oedd hwn yn meddiant D. Mytton, Ysw., M.D.

**GUNGROG FAWR**, trefgordd yn mhlwyf y Trallwng, Swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU; ar lan yr afon Hafren, a Dyfr-ffos Ellesmere, yn agos i dref y Trallwng. Gwerth ardrethol, 7628*p.* Poblogaeth, 196.

**GUNGROG FECHAN**, trefgordd yn mhlwyf Cegidfa (*Guilsfield*), Swydd DREFALDWYN, gerllaw Gungrog Fawr. Y mae y drefgordd hon bron a chael ei hamgylchynu gan blwyf y Trallwng, ac am hyny y mae y drefgordd yn gorwedd o fewn ffiniau bwrdeisdref y Trallwng. Tybia yr Ysgrifenydd, mai gwir enw y lle yw "Gwaun y Grog," am fod yma groes wedi ei chyfodi yn y canol-oesoedd, mewn cyssylltiad a hen fynachlog Ystrad Farchell, yr hon oedd yn y plwyf hwn. Poblogaeth, 121.

**GUTTO'R GLYN**, oedd fardd Abad Glyn Egwestl, ger Llangollen, a bardd teulu Ieuan Fychan ab Ieuan Gethin, o Foeliwrch, yn Llansilin. Blodeuai o 1450 i 1480. Ymddengys mai Sion ab Risiart, Sion abad, oedd noddwr Gutto, yr hwn, yn ol Gutyn Owain, oedd arglwydd teirswydd, sef Ial, y Waun, a Maelor. Yr oedd lle da yn yr abatty yn ol darluniad Gutto:—

"Tri bwrdd a bair troi i'w borth,
Tair Siambr yn trwsio ymborth.
A'i law yntau fal Antwn,
A laif rhudd,—ei lyfr yw hwn,
I ladd saith,—lewaidd Sion!
Marwol bechodau mawrion.
Cynal y mae'r Card'nal cu
Cost y llys, castell Iesu.
Gwledd echdoe a doe'n ei dy
Gwledd can' annedd cyn hyny."

Ond er brased byd oedd yn y fynachlog, yr oedd yn well gan Gutto dreulio y gwyliau Nadolig yn Moeliwrch; a dywedai wrth Ieuan Fychan:—

"Nid micar a'n hysgar ni
Na brawd a wnae briodi;
Nid esgob enw dewisgair
Nid Pab, ond Mab Mair."

Treuliodd lawer o'i amser gyda Herbertiaid Caerdydd, a Rhaglan, a chanodd lawer i fonedigion Gwent a Deheubarth. Yr oedd yn babydd trwyadl, a syrthiodd i lawer o ymrysonau barddonol. Mae 90 o'i gyfansoddiadau ar gael mewn LLSG. (Gwel *Arch. Camb.* i. 1, 25.)

**GUTYN CYRIOG**, bardd a flodeuai o 1500 i 1530. Preswyliai yn Llanelian yn Mon.

**GUTYN MORGANWG**, bardd yn ei flodau rhwng 1560 a 1600.

**GWAEN Y FFYNNON**, trefgordd yn mhlwyf Llanarmon, Swydd DDINBACH; 5¼ milldir i'r Dwyrain Dde Ddwyrain o Ruthin. Poblogaeth, 171.

**GWAENYNOG**, trefgordd yn mhlwyf Llanfair Caer Einion, Swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU; 2 filldir o Lanfair. Gwerth ardrethol, 1964*p.* Poblogaeth, 168.

**GWAENYNOG**, hen balas, a fu am oesau yn gartrefle y Miltwniaid yn Swydd Ddinbach; o fewn tua 1½ milldir i dref Dinbach. Talodd y Dr. Johnson ymweliad i'r lle, gyda Mrs. Piozzi, pan oedd y Geiriadurwr enwog yn aros yn Nghymru; ac y mae coflech wedi ei chyfodi gerllaw y Palas, er cof am yr ymweliad. Y mae yr olaf o'r Miltwniaid wedi gadael yr hen drigle yn ddiweddar, a'r ettifeddiaeth wedi ei phrynu gan foneddwr Seis'nig.

**GWAENYNOG ISAF**, trefgordd yn mhlwyf Llangyniew, Swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU; 2 filldir i'r Gogledd Ddwyrain o Lanfair.

Digitized by Google

**GWAENYSCOR**, neu, yn hytrach, GWAEN IS CAER; plwyf yn Undeb TREFFYNNON, Swydd FFLINT, GOGLEDD CYMRU, 1½ milldir i'r De Ddwyrain o orsaf rheil-ffordd Prestatyn; a 3¾ milldir i'r Dwyrain wrth Ogledd o'r Rhyl. Cynnwysa drefgorddau Hwylbren, y Garnedd, a'r Llan; a'i Llythyrdref yw Prestatyn, dan y Rhyl. Mesura 794 erw o dir, a chyfrifir ei werth ardrethol yn 1159*p.* Poblogaeth 322, tai annedd 73, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae arwyneb y plwyf yn fryniawg, ac y mae helaethrwydd o fŵn plwm, a glô yn ei greigiau. Y mae y pentref yn gorwedd mewn sefyllfa ddifyr, wrth odreu esgair o fryniau, ar gribau y rhai y mae amrywiol garneddau gwyrddlas, y rhai y tybir eu bod wedi eu cyfodi ar feddau enwogion yn yr hen oesoedd boreuol. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorinaeth ryddhaol, yn arch-ddeoniaeth ac esgobaeth Llanelwy, trethedig yn llyfrau y frenines yn ol 9*p.* 8*s.* 1½*c.*; ac wedi ei gwaddoli a 200*p.*, o gedrodd freninol. Gwerth, 178*p.*—Noddwr, Esgob Llanelwy. Yr eglwys, yr hon sydd gyssegredig i St. Mair, sydd adeilad fechan, mewn sefyllfa ramantus, yn nghanol mynyddoedd dyrchafedig; ac y mae y cofrestr-lyfr henaf a pherffeithiaf yn y dywysogaeth, os nad yn y deyrnas, yn perthyn iddi; dechreua yn y flwyddyn 1538, pan roddwyd gorchymyn gyntaf i gadw coflyfrau plwyfol; y mae y cofrestriadau wedi eu gwneyd yn dra rheolaidd, ac y mae y cwbl mewn cadwraeth ragorol.

**GWAIR** AB GWESTYL, rhyfelwr yn y 6ed ganrif, gyda Cai ab Cynyr a Thrystan ab Tallwch, oedd y "tri thaleithiawg cad." (*Myf. Arch.* ii. 12.)

**GWAIR GWRHYD FAWR**, neu GWEIRWERYDD FAWR, gydag Eiddilig Cor, a Trystan ab Tallwch, oedd y "tri cyndynawg." (*Myf. Arch.* ii. 19, 99.)

**GWAITHFOED FAWR**, tywysog ar Bowys yn y 10fed ganrif, ydoedd fab Gwrhydyr ab Caradawg. Ei wraig oedd Morfydd ferch Ynyr Ddu, brenin Gwent. Mae amryw o brif deuluoedd Cymru wedi hanu o hono.

**GWAITHFOED FAWR**, tywysog Ceredigion ac arglwydd Cibwyr, oedd fab i Eunydd ab Cadifor ab Peredydd Peiswyrdd ab Encyn ab Eunydd, yr hwn a hanai o Gwyddno Garanhir. Efe gyda Morgan Mwynfawr, ac Elystan Glodrydd, oeddynt "dri hualogion teyrnedd Ynys Prydain." (*Myf. Arch.* ii. 64.)

Oesai yn yr 11eg ganrif. Ei blant oeddynt, Cadifor, arglwydd Ceredigion; Cynan Feiniad, arglwydd Tefana; Rhydderch, arglwydd Gwynfai; Aeddan, arglwydd Grismwnt; Gwyn, arglwydd Castell Gwyn; Bach, arglwydd Ysgynfraith; Ednowain, abad lleyg Llanbadarnfawr, yr hwn a westyodd Baldwyn a Giraldus yn 1184, ac a elwir gan yr olaf yn hen ddyn "wedi heneiddio mewn drygioni;" Cynddrych, arglwydd Senghenydd; Cynillin, arglwydd y Cwm; a Cristian, abades Tal y Llychau.

**GWALCHMAI**, pentref, yn nghapeloriaeth blwyfol Trewalchmai, yn Swydd FÔN, GOGLEDD CYMRU; 5¼ milldir i'r Gorllewin o Langefni. Medda Lythyrfa dan Langefni. Gwel TRE WALCHMAI.

**GWALCHMAI** AB GWYAR, penaeth yn y 6ed ganrif, ydoedd nai fab chwaer i Arthur, o Gwyar, ei hail wr. Gelwir ef yn y *Trioedd* yn un o'r "tri deifnogion Ynys Prydain," ac yn un o'r "tri marchogion aurdafodogion Llys Arthur." (*Myf. Arch.* ii. 3, 17, 19, 69, 74.) Daeth yn dra enwog yn y rhamantau, a Lladineiddiwyd ei enw i Walganus a Walweyn. Dywed William o Malmesbury, fod bedd Walwen wedi ei ddarganfod yn 1006, yn y Rhos, swydd Benfro, lle y saif *Walwyn Castle.* Lladdwyd ef yn nechreu y rhyfeloedd rhwng Arthur a Medrawd. (Gwel Guest's *Mabinogion*, i. 122.)

**GWALCHMAI** AB MEILYR, un o feirdd enwocaf y ddeuddegfed ganrif, a chwareuwr medrus ar y delyn, oedd yn frodor o Fôn. Dywedir ei fod wedi myned yn ngosgordd y brenin Rhisiart y Cyntaf i'r croes-gadau. Yr oedd yn ei flodau, o'r flwyddyn 1150, i'r flwyddyn 1190. Cafodd deuddeg o'i gyfansoddiadau barddonol eu hargraffu yn y Myvyrian Archaiology, ac y maent yn fawr eu bri ar gyfrif eu rhagoroldeb. Y mae ei bryddest i Owain Gwynedd, ar yr achlysur o frwydr Tal y Foel, wedi ei hargraffu, yn nghyd a Chyfieithiad Seis'nig o honi, yn y *Cambrian Register*, i. 407.

**GWALLAWG** AB LLENAWG, penaeth ar ran o Bowys, yn y 6ed ganrif. Yr oedd efe yn un o'r tri brenin gogleddol a ymunasant ag Urien Rheged i wrthwynebu olynwyr Ida. Cofnodir ei enw yn marwnad Urien Rheged, gan Llywarch Hen; ac yn mysg y caniadau a briodolir i Taliesin yn y *Myf. Arch.*, y mae tair wedi eu cyfansoddi i Wallawg. Yn y *Trioedd*, gelwir ef yn un or "tri phost cad," ac yn un o'r "tri aerfeddawg, Ynys Prydain." Dywed y Brutiau ei fod yn un o'r marchogion oedd yn bresenol yn nghoroniad Arthur, ac iddo gael ei ladd yn y frwydr ddiweddaf rhwng y penadur hwnw a'r Rhufeiniaid. Claddwyd ef, yn ol *Englynion y Beddau*, yn Carrog, Arfon:—

"Yg Carrawc bet Guallauc hir."

**GWARAFOG**, treflan yn mhlwyf LLAN LLEON FOEL, Swydd FRYCHEINIOG; 7 milldir i'r Gorllewin o Lanfair yn Muallt. Cynnwysa 66 o erwau o dir. Gwerth ardrethol, 347*p.* Poblogaeth, 62. Tai, 10.

**GWASTEDYN FAWR**, neu GWASTADEDD, trefgordd yn mhlwyf NANTMEL, cantref RHAIADR-AR-WY, swydd FAESYFED, DEHEUDIR CYMRU, 3 milldir i'r Dwyrain wrth Dde o Raiadr, gyda phoblogaeth o 449 yn ol Deiliadeb 1861. Y mae yn gorwedd rhwng yr Elain a'r Dulas, yn mharth gorllewinol y plwyf. Y mae ynddi fryn mawr, ar yr hwn y mae un o'r carneddau perffeithiaf yn y sir. Y mae coed y Dyffryn yn terfynu llechwedd gorllewinol y bryn hwn: ac y mae'r llanerch ar y dwyrain yn boblogaidd, ac yn cael ei hammaethu yn dda.

**GWAUN**, afonig ag sydd yn tarddu gerllaw mynyddoedd PRECELLY, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU. Y mae yn rhedeg drwy ddyffryn dymunol a rhamantus, yn yr hwn y mae anneddle prydferth y diweddar Mr. Fenton, hanesydd swydd Benfro, yn nghyd â phlasdai ereill, ac wedi treiglo ychydig filldiroedd, ymarllwysa i Fôr St. George yn Abergwaun.

**GWAWL**, ferch Coel Coedhebawg, a chwaer Elen, ydoedd dywysoges yn nechreu y 4edd ganrif. Hi oedd gwraig Edeyrn ab Padarn Beisrudd, a mam Cunedda Wledig. Cofnodir hi fel un o'r tair engraifft o'r deyrnedd Brydeinig yn disgyn trwy y llinach fenywaidd. (*Iolo MSS.* 527.)

**GWAWR**, un o ferched Brychan, gwraig Elidr Lydanwyn, a mam Llywarch Hen.

**GWAWRDDYDD**, neu GWENDDYDD, merch Brychan, gwraig Cadell Deyrnllwng, a mam Cyngen Sant. Claddwyd hi yn Nhywyn Meirionydd.

Digitized by Google

**GWEHELOG**, trefgordd yn mhlwyf BRYNBIGA (Usk), swydd FYNWY, 12 milldir i'r De Orllewin o Drefynwy, gyda phoblogaeth o 331, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae yn gorwedd yn nyffryn arddunol Wysg, yn yml yr hen ffordd Rufeinig ag oedd yn arwain i Gaerlleon-ar-Wysg, yr hon a elwid y *Via Julia.*

**GWEIRYDD** (WLEDIG), a elwir hefyd Adarweinidog; ac a elwir weithiau, Arviragus.

**GWEIRYDD** AB OWAIN, pendefig o Forganwg, a laddwyd yn y flwyddyn 873, pan yn ymladd yn mhlaid Rodri Mawr, yn erbyn y Saeson, yn Môn.

**GWEMPA**, treflan yn mhlwyf Llangyndeyrn, Swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU; ar yr afon Gwen-draeth Fechan, 5¼ milldir i'r De Dde Ddwyrain o Gaerfyrddin. Y mae y dreflan yma yn cymeryd i fynu y rhan ddeheuol o'r plwyf; ac y mae yma dir bras, dan ammaethiad rhagorol.

**GWEN**, ferch Cywryd ab Crydon, un o dair gwenrian Llys Arthur. Y ddwy eraill oedd Creirwy ac Arianrod. (*Myf. Arch.* ii. 16, 73.)

**GWEN**, santes, yn y 5ed ganrif, ydoedd ferch neu wyres i Brychan, gwraig Llyr Merini, a mam Caradawg Freichfras. Llofruddiwyd hi gan y Saeson paganaidd yn Nhalgarth, swydd Frycheiniog, lle sefydlwyd eglwys er coffhad am dani.

**GWEN** AB LLYWARCH, y dewraf o bedwar mab ar hugain Llywarch Hen, a laddwyd yn Rhyd Morlas, afonig yn tarddu yn mynydd Selattyn, ac yn arllwys i'r Geiriog. Fel hyn y dywed ei dad:—

"Oedd gwr vy mab oedd dysgywen hawl
Ac oedd nai i Urien
Ar ryd Vorlas y llas Gwên

Pedwar-meib arugaint a'm bu
Eurdorchawc tywysawc llu
Oedd Gwen goreu o naddu."

Cedwir ei enw yn y palas a saif ar lan y Forlas, yr hwn a elwir Prys Gwen.

**GWENAFWY**, santes, yn y 6ed ganrif, ydoedd ferch Caw.

**GWENASETH**, santes, yn y 6ed ganrif, ydoedd ferch Rhufon Rhufoniog ab Cunedda, a gwraig Pabo, Post Prydain.

**GWENDDOLEN**, yn ol y *Brutiau*, ydoedd ferch Corineus, a gwraig Locrinius, ail frenin Prydain. (*Myf. Arch.* ii. 118.)

**GWENDDOLEN** AB CEIDIO AB GARTHWYS, penaeth yn Ngogledd Prydain yn y 6ed ganrif. Lladdwyd ef yn mrwydr Arderydd, yn 577. Efe oedd un o'r "tri tharw cad," ei deulu oedd un o'r "tri theulu diwair," a'i *Dawlfwrdd* oedd un o'r "tri ar ddeg Brenin-dlysau Ynys Prydain." Eiddo Gwenddolen oedd y "ddau aderyn Llychwyn," efe oedd noddwr Myrddin Fardd; ac addysgwyd ef i'r ffydd yn Nghrist, yn nghyda'i ddau frawd, Cof, a Nudd, yn ngholeg Illtyd. (*Myf. Arch.* ii. 4, 7, 60, 70.)

**GWENDDWR**, plwyf yn undeb LLANFAIR-YN-MUALLT, cantref TALGARTH, swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU, 6 milldir i'r De wrth Ddwyrain o Lanfair. Y mae gwedi cael ei ranu i ddwy adran;—y Gogleddol a'r Deheuol, ac y mae yn cynnwys 528 o drigolion yn ol Deiliadeb 1861. Gorwedda ar lân yr afon Wy, yr hon sydd yn ei wahanu oddiwrth swydd Faesyfed. Y mae'r ficeriaeth wedi cael ei gwaddoli âg 800*p.* o rodd freninol, a 700*p.* o rodd seneddol, ac y mae yn werth 125*p.* Y mae yn esgobaeth Tŷ Ddewi; ac y mae'r eglwys, i'r hon y perthyna clochdy cadarn, wedi cael ei chyflwyno i Dyfrig Sant. Yn nheyrnasiad y Frenines Elizabeth, prynodd Syr David Williams y degwm rheithorol oddiwrth y goron, a rhoddodd ef yn ngofal ymddiriedolwyr at amcanion elusengar. Y mae capel yma gan y Bedyddwyr, ac y mae yn y plwyf ddwy o ysgolion dyddiol. Y mae yn mesur 8262 o erwau.

**GWENDDWYN**, merch Cyndrwyn, tywysog Powys, yn niwedd y 5ed ganrif. Yr oedd yn chwaer i Cynddylan.

**GWENDDYDD**. Gwel GWAWRDDYDD.

**GWENFAEN**, santes, yn y 6ed ganrif, ydoedd ferch Pawl Hen, o'r Ty Gwyn ar Daf. Sefydlodd eglwys Rhoscolyn, Mon, yr hon a elwid gynt Llanwenfaen, lle y cynelid ei gwyl Tachwedd 5.

**GWEN TEIRBRON**, santes, yn y 6ed ganrif, ydoedd ferch Emyr Llydaw, a mam Cadfan Sant.

**GWENFREWI**, santes, yn y 7fed ganrif, ydoedd ferch Thewith, o Wenlo, chwaer Beuno Sant. Am y chwedl o'i llofruddiad gan y tywysog Caradog, tarddiad ffynon Treffynon allan o'r llecyn lle disgynodd ei gwaed, olion yr hwn a welir yno hyd heddyw, &c. Gwel BEUNO a TREFFYNON. Mae yn dra thebyg nad yw y wyryf enwog hon, mwy na lluoedd eraill o'r seintiau Cymreig, yn ddim amgen na bôd dychymygol, wedi ei chreu gan grebwyll toreithiog rhyw hen fynach, er ateb dybenion ei swydd. Yr awdurdod hynaf dros y chwedl hygoelus, yw Robert, Prior Amwythig; yr hwn a ddywed i gorph "Wenfrewi" gael ei symud o Gwytherin, i fynachdy St. Pedr a Phaul, yn yr Amwythig, yn 1138, lle y sefydlwyd brawdoliaeth grefyddol er anrhydedd iddi. Nid oes un hanesydd, o Bede i Giraldus Cambrensis, yn crybwyll am dani; ac nid yw archwiliad y *Doomsday Book*, yr hwn sydd yn cynwys swydd Fflint, yn crybwyll am eglwys, capel, na ffynon Gwenfrewi; yr hyn sydd yn myned yn mhell i brofi, nad oes i enwogrwydd y santes, ddyddiad boreuach na'r Gorchfygiad Normanaidd, yr hwn a ddaeth a'r mynachod gyntaf i Gymru, ac a heigiodd y wlad â myrdd o chwedlau tebyg i ffynon Gwenfrewi. Mae gwyddoniaeth ddiweddar, wedi chwalu yr holl swyn oddiar y ffiloreg ryfedd hon, trwy ddangos nad yw y mwswgl peraroglus sydd yn tyfu ar hyd muriau y ffynon, yr hwn y bu y Pabyddion ar hyd yr oesoedd yn ei edmygu fel arogldarth, wedi ei adael yno gan sancteiddrwydd y santes, yn ddim amgen na'r llysieuyn, digon cyffredin, yr hwn a eilw Linnæus yn *Jungermannia asplenoides;* ac nad yw yr hyn a dybid yn ystaeniau gwaed Gwenfrewi ar y ceryg, yn ddim amgen na'r llysieuyn hwnw a eilw Linnæus yn *Byssus Jolithus*, a Smith yn *Lepraria Jolithus.*

**GWENFRON**, ferch Tudwal Tudclyd, gyda Tegwyl a Thegau Eurfron, oedd "tair diweirferch Ynys Prydain." (*Myf. Arch.* ii. 13, 73.)

**GWENFYL**, santes, yn y 5ed ganrif, ydoedd wyres Brychan. Hi a sefydlodd grefydd-dy a safai gynt yn Llanddewi Brefi, Ceredigion, lle y coffheid hi Tachwedd 1.

**GWENHWYFACH**, un o wragedd Arthur, yr hon a roddes un o'r "tair engir balfawd," trwy daro Gwenhwyfar, yr hyn a barodd Gâd Gamlan. Y ddwy balfawd eraill a roddwyd gan Matholwch a Golyddan. (*Myf. Arch.* ii. 65.)

**GWENHWYFAR**. Yn ol y *Brutiau*, bu tair gwraig i Arthur o'r enw hwn; y gyntaf oedd ferch

Digitized by Google

Gwythyr ab Greidiol o Ogledd Prydain, ac a ffoes ymaith gyda Melwas, yr hwn a ddaeth i'w chyfarfod mewn gwisg o ddail, pan oedd hi gyda'i gweinyddwyr, ar y cyntaf o Fai, yn casglu bedw er gwneyd dail-blethiadau i roesawi yr haf; yr ail oedd ferch Cawryd Ceint, neu yn ol rhai Llsg. Gwryd Gwent; a'r drydedd oedd ferch Gogyrfan Gawr, penaeth o Bowys, am yr hon y dywedai yr hen air:—

"Gwenhwyfar, ferch Gogyrfan Gawr;
Drwg yn fechan, gwaeth yn fawr."

Dywedir i Gwenhwyfach ddigio wrth Gwenhwyfar oblegyd dwy gneuen, a rhoddi iddi "engir balfawd" ar fôn ei chlust, yr hyn a beris Gad Gamlan. Pan godwyd ei hesgyrn hi, gyda'r eiddo Arthur, yn Ynys Wydd-ddrain, yn 1175, dywedir bod "Gwallt y frenhines i'r olwg, yn brydferth a melynliw." Gan ramantwyr y canol-oesoedd gelwir hi Guinever, Guenever, Guinevere, Geneura, Genievre, a Genevra. (Gwel *Myf. Arch.* ii. 65, 66, 73; *a Guest's Mabinogion*, i. 98.)

**GWENLAIS**, treflan yn mhlwyf Llandeilo Tal y bont, Swydd Forganwg; 4¼ milldir i'r Gogledd Ogledd Ddwyrain o Gastell Llwchwr. Gwerth ardrethol, 498*p*. Poblogaeth, 236.

**GWENLLIANT**, merch Gryffydd ab Cynan, a gwraig Gryffydd ab Rhys, tywysog Deheubarth yn nechreu y 12fed ganrif, a enwogodd ei hun yn hanesiaeth ei gwlad trwy ei dewrder, yn arwain ei lluoedd allan yn erbyn y Normaniaid, y rhai a laniasent ger Cydweli, yn absenoldeb ei gwr. Yr oedd Gryffydd ab Rhys erbyn y flwyddyn 1175, wedi llwyddo i adenill ei dywysogaeth i raddau helaeth, a theneuo y gwarchodluoedd Normanaidd, fel y gorfu ar Maurice de Londres, arglwydd Cydweli, anfon at ei frenin am adgyfnerthion. Deallodd Gryffydd ei symudiadau, a chan adael ei dywysogaeth o dan ofal ei wraig, Gwenllian, a'i dau fab, Maelgwyn a Morgan, efe a gymerodd Rhys, ei fab hynaf gydag ef. ac a brysurodd at ei dad yn nghyfraith i Wynedd, er derbyn adgyfnerthion o wŷr ac arfau i wrthsefyll lluoedd newyddion ei elynion, ac i orphen y gwaith a ddechreuasai efe mor effeithiol. Ond cyn iddo ddychwelyd, hysbyswyd Gwenllian bod y gelynion yn llu mawr wedi glanio; hithau, yn meddu ar ysbryd cyfartal a'r amgylchiad, ac yn gweled nad oedd eiliad i'w golli, a drefnodd ei lluoedd, gan ymarfogi yn ben arnynt, ac a wersyllodd wrth droed Mynydd y Gareg. Ond wedi brwydr waedlyd, gorchfygwyd ei byddin, syrthiodd Morgan, ei mab ieuangaf, wrth ei thraed, tra yn taflu yr ergydion ymaith er amddiffyn ei fam, a hithau a'i mab arall, a gymerwyd yn garcharorion. Ac wedi iddi unwaith syrthio i ddwylaw Maurice de Londres, efe yn lle ymddwyn tuag ati yn ol fel yr oedd ei gwaedoliaeth bendefigaidd, ei rhyw, a'i dewrder, yn hawlio; ac yn ol fel yr oedd ysbryd yr oes, a'r mawrfrydigrwydd marchogaidd yn mha un yr ymffrostiai y gwaed Normanaidd, yn honi, yn y modd mwyaf llwfr a barbaraidd, a orchymynodd dori ymaith ei phen! Ond bu "dial Gwenllian" cyn pen ychydig amser, yn foddion i fflamio dewrder Cymru, ac o dan nerthoedd unol Gryffydd, Owain Gwynedd, a Chadwaladr, dygodd ddifrod ofnadwy ar y Normaniaid.

**GWENLLWYFO**, santes, yn niwedd y 6ed ganrif, a roddodd ei henw i Lanwenllwyfo yn Mon.

**GWENO**, bodolaeth ddychymygol, yn tori cyffelyb ffigyr yn marddoniaeth Cymru ag y mae Venus yn dori yn y chwedlau Groegaidd.

**GWENOG**, santes, yn niwedd y 6ed ganrif, a roddes ei henw i Lanwenog, swydd Aberteifi, lle y coffheid hi Ionawr 3.

**GWENONWY**, ffurf arall o Gweno.

**GWENT**, hen diriogaeth, a gynnwysai Swyddi Morganwg, Mynwy, rhanau o Henffordd, Brycheiniog, a'r rhan o Swydd Gaerloyw, a elwir *Dean Forest*. Hon oedd hen deyrnas yr Essyllwyr.

**GWENT**, Richard, D.C.L., brodor o Ddeheudir Cymru, oedd aelod o goleg *All Souls*, Rhydychain, ac a dderbyniwyd yn wyryf yn y gyfraith ganonaidd yn 1518, ac wedi hyny a benodwyd yn llywydd yr ysgol hono. Yn 1522, derbyniodd yr urdd o D.C.L., a thua'r un amser penodwyd ef yn archddiacon Brycheiniog. Yn 1534, cafodd berigloriaeth St. Peter's Cheap, ac archddiaconiaeth Llundain. Ar y 12fed o Ebrill 1543 gwnawd ef yn archddiacon Huntingdon, ac yn brebendar Totenhall, yn mhrif eglwys St. Paul, eithr bu farw yn mhen ychydig fisoedd ar ol ei ddyrchafiad. Leland, yn ei "*Encomia illustrium et eruditorum virorum in Anglia*," a gyflwyna y dystiolaeth uwchaf i'w ddysg a'i alluoedd, gan ei alw, "*Richard Ventanus Juridicus*."

**GWENTHREW**, trefgordd yn mhlwyf Ceri, Swydd Drefaldwyn; 2 filldir i'r Dwyrain Dde Ddwyrain o'r Drefnewydd. Gwerth ardrethol, 3802*p*. Poblogaeth, 121.

**GWENWYNWYN** ab Naf, gyda Geraint ab Erbin, a March ab Meirchion, oedd "dri llyngesawg Ynys Prydain." (*Myf. Arch.* ii. 68.)

**GWENWYNWYN** ab Owain Cyfeiliog, a olynodd ei dad i dywysogaeth Powys Uchaf, yn 1197. Treuliodd oes annedwydd, rhwng arglwyddi y cyffiniau, a Llywelyn Fawr. Yn 1203, ymostyngodd i Llywelyn; ond gorfodwyd ef yn fuan i ddal ei dywysogaeth mewn gwarogaeth i frenin Lloegr. Yn 1211, ymunodd a'r brenin mewn ymosodiad ar Llywelyn; ond yn y flwyddyn ganlynol ymheddychodd a Llywelyn. Yn 1215, ymunodd drachefn a'r brenin, ac am hyny Llywelyn a anrheithiodd ei diroedd, ac a'i gorfododd i ffoi at iarll Caerlleon. Yr oedd yn ansefydlog fel dwfr. Gwaddolodd fynachdy Ystrad Marchell â darn o dir ar lan yr afon Fyrnwy yn 1200. Byddai weithiau yn cyfeillachu a'r awen, ac y mae peth o'i gyfansoddiadau ar gael.

**GWENWYS O BOWYS**, pen un o bum' costoglwyth Cymru.

**GWEREDROS**, neu yn hytrach, Gwaredros, a elwid felly fe ddichon, ar gyfrif y fuddugoliaeth a gafodd y Prydeiniaid ar fyddinoedd y Rhufeiniaid dan Ostorius, pan oedd efe eisoes, fel y dywaid *Tacitus*, wedi cyrhaedd o fewn taith diwrnod i Fôr Iwerddon. Trefgordd ydyw yn mhlwyf y Gyffin, Swydd Gaer yn arfon, yn agos i dref Conwy. Poblogaeth, 84.

**GWERFYL**, ferch Hywel Fychan, a elwir yn gyffredin Gwerfyl Mechain, oedd farddones enwog o 1460 i 1490. Mae peth o'i gwaith ar gael mewn Llsg.

**GWERFYL**, gwraig Dafydd Llwyd ab Llywelyn, o Fathafarn, yr hon pan welodd ei gwr yn petruso rhoddi atebiad i Iarll Richmwnd, pa un a fuasai efe yn enill brwydr Bosworth ac yn esgyn i'r orsedd fel Harri VII., a'i na fuasai, a roddodd iddo gyngor

Digitized by Google

heb ei ofyn, trwy ba un y daeth hi ac yntau i gymeryd eu safle yn hanesiaeth y genedl:—"Beth!" ebe hi, tydi yn fardd, ac yn frudiwr, ac yn brophwyd, ac eto yn methu ateb cwestiwn fel hwna! Dywed wrtho yn bendant y bydd iddo enill; ac os mai felly fydd, bydd dy enw di yn anrhydeddus; ond os fel arall, ni raid i ti byth ofni y daw ef yn ol yma, o ddwylaw Dic Gefngrwm, i dy gosbi di am fod yn gau brophwyd." Dyma roddodd fodolaeth i'r ddiareb,—"Cyngor gwraig heb ei ofyn."

**GWERFYL HAEL**, ferch Madog o Abertanad, a gwraig Rhys ab Dafydd ab Hywel, oedd foneddiges o enwogrwydd neillduol yn y 14eg ganrif. Ysgrifenodd Lewys Glyn Cothi farwnad ragorol iddi, yn yr hon y dywed y dylasai gael ei chanoneiddio; ac y mae hi yn un o'r rhai a dderbynia ei fawl yn y gân i "Foneddigesau Cymru." Ei phreswylfod oedd Llanyblodwell Hall, swydd Drefaldwyn. Yr oedd yn fam i amryw o blant o'i gwr cyntaf, y rhai, wedi ymgyfathrachu a phendefigion y wlad, a ddaethant yn sylfaenwyr amryw o deuluoedd mawrion. Yn mhlith pa rai y gellir enwi y Salisbriaid, o Rug, a Lleweni; Pugh, Mathafarn; Pryse, Gogerddan; a Syr Watkin William Wynne. Yr oedd hefyd ei disgynyddion o'i hail wr, yr un mor rhagorol, ac y maent yn parhau hyd y dydd heddyw. Y rhai hyn yw y Tanatiaid, o Abertanad; gyda pha rai yr ymgymysgodd y Godolphiniaid trwy briodas.

**GWERN**, rhagddawd Celtaidd, a ddefnyddir yn enwau lleoedd, ac yn arwyddo siglen, mignen, cors, neu le gwlyb.

**GWERNABWY**, mab Gwên ab Llywarch, a laddwyd yn Nghattraeth.

**GWERNAFIELD**, pentref, trefgordd, a chapeloriaeth, yn mhlwyf y WYDDGRUG, Swydd FFLINT. Y mae y pentref yn sefyll ddwy filldir i'r Gogledd o orsaf rheilffordd y Wyddgrug; a medda lythyrfa dan y Fflint. Cynwysa y drefgordd, dreflanau y Waenrwyddfyd, a Phant y Mŵn hefyd. Gwerth ardrethol, 2630*p.*; o'r hyn y mae 14*p.* mewn cloddfeydd cerig. Poblogaeth yn 1851, 1002; yn 1861, 836. Tai annedd, 202. Achlysurid y lleihad yn y boblogaeth, trwy attalfa ar weithio y mwngloddiau. Y mae y gapeloriaeth, yr hon a ffurfiwyd yn 1844, yn fwy na'r drefgordd, a chynwysa boblogaeth o 1243; a 293 o dai annedd. Y fywioliaeth eglwysig sydd guradiaeth barhaol, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth, 200*p.* Noddwr, Ficer y Wyddgrug.

**GWERNEIGRON**, trefgordd yn mhlwyf LLANELWY, Swydd FFLINT, yn agos i Ddinas Asaph Sant. Poblogaeth, 38.

**GWERNEN**, mab Clydno, bardd yn ei flodeu rhwng 1270 a 1320. Mae rhai Englynion o'i eiddo yn y *Myf. Arch.*

**GWERNERIM**, trefgordd yn mhlwyf LLANDDINAM, Swydd DREFALDWYN; ar yr afon Hafren; 5½ milldir i'r Gorllewin Dde Orllewin o'r Dref Newydd. Gwerth ardrethol, 1307*p.* Poblogaeth, 143.

**GWERN ESGOB**, trefgordd yn mhlwyf CERI, Swydd DREFALDWYN; 2 filldir i'r Dwyr. Dde Ddwyrain o'r Dref Newydd. Poblogaeth, 64.

**GWERNESNEY**, plwyf bychan yn swydd FYNWY, 2 filldir i'r Gogledd Ddwyrain o Brynbiga (*Usk*), gyda phoblogaeth o 57, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae y rectoriaeth yn werth 112*p.* y flwyddyn, ac y mae yn esgobaeth Llandâf. Y mae y plwyf yn mesur 543 o erwau.

**GWERNGLEFRYD**, trefgordd yn mhlwyf LLANELWY, Swydd FFLINT, yn agos i'r ddinas. Poblogaeth, 373.

**GWERN-HEIYRN**, trefgordd yn mhlwyf Cerig y Drudion, Swydd DDINBACH; 12 milldir i'r De Orllewin o Ruthin. Poblogaeth, 126.

**GWERN HOWEL**, a elwir hefyd, GWERNI HYWEL, rhandir anmhlwyfol yn nghantref IS ALED, Swydd DDINBACH; 2 filldir i'r Gorllewin Dde Orllewin o Bentre Foelas. Mesura 728 o erwau. Poblogaeth, 107. Tai annedd 21, yn ol Deiliadeb 1861. Dywaid rhai fod y lle hwn yn perthyn i blwyf Corwen, er ei fod ar wahan oddiwrtho, a thair milldir ar ddeg oddiwrth eglwys y plwyf hwnw.

**GWERNVALE**, palas yn agos i Grughywel, yn Swydd FRYCHEINIOG. Perthynai unwaith i Croxall, cyfieithydd Æsop; ac wedi hyny daeth yn eiddo y Gwyniaid.

**GWERN Y BWLCH**, trefgordd yn mhlwyf CEMMAES, Swydd DREFALDWYN; 6 milldir i'r De Dde Orllewin o Ddinas Mawddwy; a 7½ milldir i'r Dwyrain wrth Ogledd o Machynlleth. Cyfrifir ei gwerth ardrethol yn 2520*p.* Poblogaeth, 545. Tai annedd, 115. Trwy agorfa yn y mynyddoedd, cair golwg o bell ar Gadair Idris; a'r bwlch hwnw sydd yn rhoddi enw i'r drefgordd.

**GWERN Y GOF**, trefgordd yn mhlwyf CERI, Swydd DREFALDWYN; 3½ milldir i'r Dwyrain Dde Ddwyrain o'r Dref Newydd. Poblogaeth, 31.

**GWERN Y MYNYDD**, treflan yn nhrefgordd Broncoed, plwyf y WYDDGRUG, Swydd FFLINT. Y mae yma Gapel hardd gan y Trefnyddion Calfinaidd, ac un arall gan y Trefnyddion Wesleyaidd. Gorwedda y pentref ar fin y brif-ffordd o'r Wyddgrug i Ruthin, o fewn tua 1½ milldir i'r Wyddgrug.

**GWERSYLLT**, pentref, a threfgordd yn mhlwyf GRESFORD, Swydd DDINBACH, a chapeloriaeth hefyd, mewn rhan yn mhlwyf Wrecsham. Y mae y pentref yn sefyll ar lan yr afon Alun, a cherllaw rheilffordd Wrecsham a'r Wyddgrug; 2 filldir i'r Gogledd Ogledd Orllewin o Wrecsham. Y mae gorsaf ar y rheilffordd yma. Mesura y drefgordd hon 1654 o erwau o dir; a chyfrifir ei gwerth ardrethol yn 18,494*p.*, o'r hyn y mae 13,705*p.*, mewn mwngloddiau, a 395*p.* mewn rheilffyrdd. Poblogaeth. yn 1851, 1205; yn 1861, 1356. Tai annedd, 272. Y mae y gapeloriaeth, yr hon a ffurfiwyd yn y flwyddyn 1851, yn cynwys yr holl drefgordd, a rhan o blwyf Wrecsham. Y llythyrfa, Gresford, dan Wrecsham. Poblogaeth, 1593. Tai annedd, 314. Y fywioliaeth eglwysig sydd isberigloriaeth barhäol, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth, 135*p.* Noddwr, Ficer Gresford. Y mae gweithfeydd glô mawrion o fewn y drefgordd hon. Gwelir Clawdd Watt, yr hen ffin rhwng y Cymry a'r Saeson, yn dra eglur yn y drefgordd hon, yn dilyn glan ddwyreiniol yr afon Alun, nes gadael y plwyf, yn nghyfeiriad Caergwrle. Yn y palas a elwir Gwersyllt Uchaf, y cyfanneddai y Milwriad John Robinson, yr hwn a ymenwogodd yn rhyfel gartrefol yr ail ganrif ar bymtheg.

**GWERYDD** AB BROCHWEL, tywysog yn Morganwg, yn preswylio yn y Caerau, ger Caerdydd.

**GWERYDD** AB CADWN, sant yn y 5ed ganrif, a sylfaenodd Lanwerydd, Morganwg, a elwir yn awr St. Donat's.

**GWERYDD** AB RHYS GOCH, penaeth ar Talebolion, Mon, yn y 12fed ganrif. Trigai yn Cadegog, neu Gaerdegog, pentrefi ac amaethdai pa un a elwid ar

Digitized by Google

enwau ei feibion a'i wyrion yn amser y tywysogion Owain Gwynedd a Dafydd ab Owain. Yr oedd yn ben un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Ei arfbais oedd,—"argent on a bend sable, three lions' heads caboched of the first;" neu yn ol awduron eraill, "tri gwyneb llewpart."

**GWERYSTAN**, un o feibion Gwaithfoed Fawr, yn y 10fed ganrif. Ei dreftadaeth oedd rhan o Bowys.

**GWESPYR**, trefgordd yn mhlwyf LLANASA, Swydd FFLINT, ar lan yr afon Dyfrdwy; 5¼ milldir i'r Gogledd Orllewin o Dreffynnon. Poblogaeth, 488. Y mae yma gloddfeydd o gerrig nadd rhagorol, o'r rhai y cafwyd y defnyddiau i adeiladu Tolldy Liverpool.

**GWESTYDD**, trefgordd yn mhlwyf LLANLLWCH HAIARN, Swydd DREFALDWYN; 2 filldir i'r Gogledd Ddwyrain o'r Dref Newydd. Gwerth ardrethol, 3533*p*. Poblogaeth, 669.

**GWESYN**, defeidydd gosgordd Goronwy ab Ednywain, brenin Tegeingl a Rhufoniog; "a rhif y defaid oedd tan ei ofal oedd chwe' ugain mil, ac o tano dri chant o feibion eillion; ac o'i enw ef y gelwir Gwesyn ar fugail defaid."

**GWGAN** AB CLYDNO, bardd yn ei flodau rhwng 1370 a 1400.

**GWGAN** AB MORYDD, ab Llywarch Llwyd, tywysog Ceredigion, yr hwn yn 870, a foddwyd yn afon Llwchwr, yn Ngwyr, tra yn gyru y Daniaid o'r wlad.

**GWGAN BRYDYDD**, bardd a flodeuai o 1190 i 1240. Mae Englynion o'i waith i Llywelyn ab Iorwerth yn y *Myf. Arch.*

**GWGAN GLEDDYFRUDD**, gyda Madawg ab Rhun, a Gwion ab Cyndrwyn, oedd y tri "ysgymydd aerau." (*Myf. Arch.* ii. 6, 15, 20.)

**GWGAWN GWRON**, fab Peredur ab Elifer Gosgorddfawr, gyda Manawydan ab Llyr, a Llywarch Hen, oedd y "tri lleddf unben." (*Myf. Arch.* ii. 15, 64.)

**GWGAWN LAWGADARN**, gyda Gwrnerth Ergydlym, ac Eidiol Gadarn, oedd "tri gyrddion Ynys Prydain;" prif orchest ei gryfder ef oedd, "treiglo Maen Maenarch o'r glyn i ben y mynydd, ac nid oedd dim llai na thriugain ŷch a'i tynai."

**GWIAWN** AB CYNDRWYN, tywysog Powys, yn nghyda Gwgawn Gleddyfrudd a Madawg ab Rhun, a gofnodir yn y *Trioedd* fel y tri gwyliwr yn mrwydr Bangor, yn 607.

**GWIAWN BACH**, bardd, meddir, o Lanfair Caereinion, yr hwn oedd yn ei flodau tua 470. Cofnodir gwirair o'i eiddo yn Chwedlau y Doethion, sef,—"A glywaist ti ddywediad Gwiawn Bach, yr hwn a ddysgai gyfraith gyfiawn? Y mae pob ymarddelwad yn iawn, lle byddo cyfiawnder."

**GWIDRE**, treflan yn mhlwyf LLANDDAUSAINT, Swydd GAERFYRDDIN; 5½ milldir i'r De Ddwyrain o Langadoc. Poblogaeth, 187.

**GWILI** (Y), afon yn Swydd GAERFYRDDIN. Y mae yn cyfodi yn agos i'r ffin â Swydd Aberteifi; ac yn llifeirio tu a'r dehau, nes ymarllwys i'r Tywi, ger Abergwili, filldir a haner i'r Gogledd Ddwyrain o Gaerfyrddin.

**GWILYM** AB HYWEL, bardd a flodeuai, yn ol y *Cambrian Biography*, rhwng 1580 a 1620, ond yn ol Moses Williams, yn 1390.

**GWILYM** AB IEUAN HEN, bardd a flodeuai rhwng 1440 a 1480.

**GWILYM** AB SEFNYN, bardd a flodeuai rhwng 1430 a 1470.

**GWILYM GWYN**, oedd fardd yn ei flodau rhwng 1560, a 1600.

**GWILYM DDU** o ARFON, bardd a flodeuai rhwng 1280 a 1320. Y mae tri o'i gyfansoddiadau yn y *Myf. Arch.*

**GWILYM TEW.** Yr oedd dau fardd o'r enw hwn; y cyntaf oedd Gwilym Tew o Dir Iarll, yr hwn oedd fardd gorsedd Morganwg yn 1460, ac yn wyddfodol yn Eisteddfod Caerfyrddin yn 1441, lle cawd ef a Dafydd Nanmor yn oreuon eu hawen; a'r llall oedd William Moses, o Merthyr Tydvil, yr hwn a alwai ei hun yn Gwilym Tew, ac a gyhoeddodd gyfrol o farddoniaeth yn nechreu y ganrif bresenol.

**GWILLER**, cyd drefgordd a Threwern, yn mhlwyf LLANFIHANGEL NANT MELAN, o fewn terfynau rhyddfreiniau bwrdeisdref Maesyfed Newydd, Swydd FAESYFED; 2 filldir i'r De Orllewin o Faesyfed Newydd. Y mae llan y plwyf yn sefyll o fewn y drefgordd hon, yr hon sydd yn cymeryd i fynu ddyffryn bychan yn y rhan ddeheuol o'r ardal fynyddig a elwir Gwigfa Maesyfed, yn agos i darddiad y ffrwd a elwir Sommergild. Yma hefyd y mae y rhaiadr hynod, a elwir "Dwr torri ei wddf," yr hwn a ffurfir gan afonig a dardda yn yr ardal grybwylledig, ac wedi disgyniad, neu gwymp darbenawl o ddeg troedfedd a thriugain, y mae yn ymuno â'r afonig uchod. Y mae y rhan isaf o'r dref-gordd yn goediog, ac y mae yno Lyn, a elwir Llanillyn, tua thri chwarter milldir o gylch-fesur.

**GWINDY.** Gwel GWYNDY.

**GWINN**, ROBERT, brodor o Gymru, addysgwyd ef yn Rhydychain, lle y derbyniodd B.A. yn 1568. Bu wedi hyny yn ngholeg Douay, lle yr ymenwogodd mewn duwinyddiaeth. Ymsefydlodd yn Nghymru fel offeiriad lleygol, a dywedir iddo ysgrifenu amryw lyfrau crefyddol yn Gymraeg, ac iddo yn 1591, gyfieithu y *Christian Directory*, o waith Parsons. (Wood's *Athen. Oxon.*)

**GWLADUS**, merch neu wyres i Brychan Brycheiniog, gwraig Gwynlliw Filwr, a mam Cattwg Sant.

**GWLADUS DDU**, merch henaf Llywelyn ab Iorwerth, o Tangwystl, a briododd Reginald de Breos, arglwydd Brycheiniog ac Abergafenni, yr hwn, yn ol Theophilus Jones, a fu farw yn 1128, ac a gladdwyd yn Mhriordy Eglwys Aberhonddu.

Wedi bod am rai blynyddoedd yn weddw, hi a gymerodd yn ail ŵr, Ralph Mortimer, arglwydd Maelienydd, yn swydd Faeshyfed, ac o'r briodas hon y ganwyd Roger Mortimer, ac y rhedodd y gwaed Cymreig i orsedd Lloegr.

**GWLEDYR**, un o ferched Cyndrwyn, tywysog Powys.

**GWMLLWM**, trefgordd yn mhlwyf NANTGLYN, Swydd DINBACH; 4¼ milldir i'r De Orllewin o Ddinbach. Poblogaeth, 35.

**GWNNWS**, plwyf yn undeb TREGARON, rhanbarth uchaf cantref ILAR, swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU, 6 milldir i'r Gogledd o Dregaron, a 10 milldir i'r De Ddwyrain o Aberystwyth, gyda phoblogaeth o 1295, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae yn gorwedd ar lân yr Ystwyth, ar y ffordd o Aberystwyth i Dregaron, ac y mae wedi ei addurno â golygfeydd prydferth a rhamantus. Y mae'r ficeriaeth yn werth 106*p*. y flwyddyn, ac yn esgobaeth Tŷ Ddewi. Y mae yma ysgol Genedlaethol, ac y mae capel gan

Digitized by Google

y Trefnyddion Wesleyaidd yn y plwyf. Y mae'r plwyf yn mesur 17,959 o erwau.

**GWODLOYW**, neu GWYDDLON, sant yn y 6ed ganrif, ydoedd fab Glewys Cernyw ab Gwynlliw Filwr. Dywedir ei fod ar y dechreu yn athraw yn ngholeg Cattwg, ac wedi hyny yn esgob Llandaf. Ond dywed Rees's *Welsh Saints* y rhaid fod yr haeriad olaf yn ddisail, gan fod y "Guodloiu," sydd yn rhestr esgobion Llandaf yn byw tua 790, felly yn rhy ddiweddar i fod yn fab Glewys Cernyw.

**GWRAFOG**, neu GWAR HAFOG, treflan, yn benaf yn mhlwyf LLANLLEONFEL; ond mewn rhan yn mhlwyf LLANAFAN FECHAN, Swydd FRYCHEINIOG; 5 milldir i'r Gorllewin wrth Ddeau o Fuallt.

**GWRALDEG**, brenin Garthmadryn, a elwir yn awr Brycheiniog, o 220 hyd 270. O hono ef yr hanodd Brychan.

**GWRDDELW**, neu GWRDDYLY, sant yn y 6ed ganrif, ydoedd fab Caw y Coed Aur, a dywedir iddo sylfaenu eglwys yn Nghaer lleon-ar-wysg.

**GWRDDINAL** AB EBRI, un o'r cymeriadau sydd yn disglaerio yn y *Mabinogion*.

**GWRDDYLAD GAWR**, gyda Cystenyn a Morien, oedd tri thywysog estronol Prydain. (*Myf. Arch.* ii. 64.)

**GWREDOG**, capeloriaeth anmhlwyfol, yn y rhan hono o blwyf LLANTRISAINT, sydd o fewn cantref MENAI, Swydd Fôn. Y gapeloriaeth fechan hon, yr hon sydd gynnwysedig o ddau dyddyn, sydd yn sefyll o fewn tua 1¾ milldir i'r Gogledd Orllewin o orsaf rheilffordd Llannerchymedd; a 5½ milldir i'r De wrth Orllewin o Amlwch. Llythyrdref, Llannerchymedd, o dan Fangor. Erwau, 936. Poblogaeth, 42. Tai annedd, 5. Y fywioliaeth eglwysig sydd Ficeriaeth, gydiedig â Ficeriaeth Llannerchymedd, yn esgobaeth Bangor. Y capel, yr hwn sydd gyssegredig i'r Wyryf St. Mair, sydd fychan iawn a di addurn. Y mae un dyn tlawd o'r gapeloriaeth yma, yn etholadwy i'r elusendy a gyfodwyd gerllaw Beaumaris, yn y flwyddyn 1609, gan Mr. David Hughes.

**GWRFAI**, neu GWYRFAI, afon, yn Swydd GAERYNARFON, yn tarddu oddi tan y Wyddfa, ac yn llifeirio tu a'r gorllewin, i Gulfor y Menai yn agos i Lanfaglan.

**GWRFAN WALLT AFWYN**, un o wroniaid llys Arthur.

**GWRFELING**, un or gwroniaid a syrthiodd yn Nghattraeth.

**GWRFYW**, sant yn y 6ed ganrif, oedd fab Pasgen ab Urien Rheged. Dywedir fod iddo eglwys yn Mon, a chapel yn Bangor Uwch Gonwy.

**GWRGANT** AB IFOR, pendefig o Ddyfed, yn nechreu y 12fed ganrif, ydoedd fab Gwyn ab Collwyn.

**GWRGANT** AB ITHEL, tywysog Morganwg, o 994 hyd 1030. Canmolir ef am ei wladlywiaeth, a'i haelioni i'r tlawd.

**GWRGANT** AB RHYS AB IESTYN, pendefig yn Neheubarth Cymru, yn y 12fed ganrif, a ystyrid y bardd goreu yn ei oes. Lladdwyd ef gan Ifor ab Meirig, o Senghenydd, yn 1156, am yr hyn y lladdwyd Ifor, gan Morgan ab Owain. (*Myf. Arch.* ii. 567.)

**GWRGANT FARFDRWCH**, fab Beli ab Dyfnwal a olynodd ei dad i orsedd Prydain yn y 4edd ganrif cyn Cred. Bu yn rhyfela yn Norway a Denmarc, a rhoddes diroedd i'r Gwyddelod yn Iwerddon. (*Myf. Arch.* ii. 456.)

**GWRGI** AB ELIFER, a gofnodir yn y *Trioedd*, fel un o'r "tri gwyn dorllwyth," ac un o'r "tri anniwair deulu." Cofnodir dywediad o'i eiddo yn "Chwedlau y Doethion:"—

"Nid rhaid i Ddedwydd namyn ei eni."

**GWRGI GARLWYD**, gyda Medrawd ac Aeddan, oedd "tri charnfradwyr Ynys Prydain," am iddynt fod yn achos i drosglwyddo y freniniaeth i'r Saeson. Efe a ymunodd ag Edelffled, brenin y Saeson, chwaer yr hwn a briododd, ac yn llys yr hwn y cafodd efe flas ar gig dynion, fel nas bwytai efe amgen na chig dyn byth ar ol hyny. I'r dyben o foddhau y chwaeth hono, efe a ladratai ieuenctyd, gwryw a benyw, cenedl y Cymry, un o ba rai a laddai efe bob dydd, a dau ar ddydd Sadwrn, er hebgor lladd ar ddydd Sul; ond o'r diwedd lladdwyd yntau gan Diffedell. (*Myf. Arch.* ii. 9, 13, 65.)

**GWRGON**, ferch Brychan, gwraig Cadrod Calchfynydd, a oesai tua 430. Treisiwyd hi gan Tynwedd Vaglog. (*Myf. Arch.* ii. 44.)

**GWRHAFAL**, un o wroniaid Cattraeth, a enwir yn y *Gododin*.

**GWRHAI**, sant yn y 6ed ganrif, ydoedd fab Caw. Yr oedd yn aelod o gor Deiniol; ac efe a sylfaenodd eglwys Penystrywad, swydd Drefaldwyn.

**GWRHIR GWARTHEGFRAS**, un o wroniaid llys Arthur, a enwir yn y Mabinogion.

**GWRHIR GWASTAD IEITHOEDD**, un o gymeriadau y Mabinogion. (*Myf. Arch.* ii. 172.)

**GWRIAD**, brawd Rhodri Mawr, a laddwyd gydag ef gan y Saeson yn Mon, 873. (*Myf. Arch.* ii. 481.)

**GWRIAD** AB GWRIEN o Ogledd Prydain, ydoedd un o'r tri thywysog o darddiad estronol. Y ddau eraill oedd Cadafael Wyllt, ac Hyfaidd ab Bleiddig. Lladdwyd ef yn Nghattraeth. (*Myf. Arch.* ii. 17, 22, 62.)

**GWRIN** AB CYNDDILIG, sant yn y 6ed ganrif, a sylfaenodd Lanwrin, swydd Drefaldwyn.

**GWRMAEL** AB CADFRAWD AB CADFAN, sant, yn y 4edd ganrif.

**GWRNACH GAWR**, cymeriad enwog yn y rhamantau Cymreig.

**GWRNERTH**, sant yn y 6ed ganrif, ydoedd fab Llywelyn o'r Trallwm. Y mae ymgom grefyddol ar gân rhyngddo ef a'i dad, yn y *Myf. Arch.*, yr hon a briodolir i Tysilio.

**GWRNERTH ERGYDLYM**, un o'r "tri gyrddion," a "laddodd yr arth mwyaf a welwyd erioed, â saeth wellten." Y ddau eraill oedd Gwgan Law Gadarn, ac Eidiol Law Gadarn. (*Myf. Arch.* ii. 68.)

**GWRON** AB CYNFARCH, bardd yn y 6ed ganrif. Tri Chyntefigion Beirdd Ynys Prydain: Plenydd, Alawn, a Gwron; sef oeddynt y rhai hyny a ddychymygasant y breiniau a'r defodau y sydd ar feirdd a barddoniaeth. (*Myf. Arch.* ii. 67; *Iolo's MSS.* 669.)

**GWRTHEFYR**, a elwir gan Sieffre o Fynwy, *Wortiporius*, a olynodd Cynan Wledig i orsedd Prydain; gorchfygodd y Saeson, a theyrnasodd bedair blynedd mewn heddwch, pryd yr olynwyd yntau gan Maelgwyn Gwynedd.

**GWRTHEFYR FENDIGAID**, yr hwn a elwir *Vortimer* ydoedd fab Gwrtheyrn ab Gwrtheneu, yr hwn a ddygodd y Saeson trosodd i'r Ynys hon. Wedi diswyddiad ei dad am y fradwriaeth uchod. etholwyd ef yn frenin y Brytaniaid, ac efe, medd

Digitized by Google

Nennius, a ymladdodd yn wrol yn erbyn Hengist a Horsa, a'u cyngrairiaid Saxonaidd, bedair gwaith. Y waith gyntaf efe a ymlidiodd y gelyn i Ynys Danad, yr ail frwydr a ymladdwyd ar yr afon Derwent (Darwenyd, medd y *Brut*); y drydedd wrth y Rhyd, a elwir yn eu hiaith hwy, *Episford*, ond yn ein iaith ni *Sathenegabail*, lle y cwympodd Horsa a Chyndeyrn ab Gwrtheyrn; a'r bedwaredd frwydr a ymladdwyd ger llaw y maen (y Maen Mawr yn Suffolk, yn ol tyb Giles) ar lan y Mor Galaidd, lle y gorchfygwyd y Saxoniaid, ac y ffoisant i'w llongau. —*Nennius*, § 43, 44.

Ond dylid cofio mai Marc y Meudwy yw yr hynaf sydd yn crybwyll am Gwrthefyr, yn gystal ag am Cyndeyrn a Phascen, meibion Gwrtheyrn, ac nad yw Gildas na Bede yn son dim am danynt; yr hyn sydd yn ei gwneyd yn dra amheus a ydynt yn ddim amgen na chreadigaeth y Meudwy.

Dywed Sieffre o Fynwy, iddo wedi teyrnasiad blinderus o bedair blynedd, gael ei wenwyno trwy ddichell Alis Rhonwen. Daeth i gael ei alw yn Fendigaid, ac i gael ei gyfrif yn mhlith y Seintiau, am y parch, meddir, a dalai efe i grefyddwyr, a'i ofal i adgyweiro yr eglwysi. Yn y *Trioedd*, gelwir ef yn un o "dri menwedigion teyrnedd," neu freninoedd canonaidd, Ynys Prydain. (*Myf. Arch.* ii. 7, 9. 11, 66, 252.)

**GWRTHHELI**, neu Gartheli, sant yn niwedd y 6ed ganrif, a sylfaenodd Gapel Gartheli yn Llanddewi Brefi, Ceredigion.

**GWRTHEYRN** ab Gwrtheneu, yr hwn a elwir *Vortigern*, ac a ddifrir yn y modd mwyaf ofnadwy gan y *Brutiau*, am fod yn achos i ddwyn y Saxoniaid gyntaf i'r ynys hon, a etholwyd yn bendragon y Lloegrwys, yn nwyrein-barth Prydain, ar adeg o gyfyngder neillduol, tua'r flwyddyn 449. Yn ol y *Brutiau*, nid oedd ar y cyntaf ond penaeth ar ran o Ddeheubarth Cymru, a elwir Ergyng ac Euas, ac aelod o'r cyngor gwladwriaethol, lle yr ystyrid ei farn o gryn bwys. Ond pan fu farw Cystenyn Fendigaid, ac y gwnaed Constans yn olynydd iddo, penodwyd Gwrtheyrn yn gynghorydd i'r brenin ieuanc; yntau, yn lle cynghori, a lofruddiodd ei frenin, ac a gymerth feddiant o'r goron. Er mwyn diogelu ei orsedd rhag ei ddeiliaid cythruddedig, efe a wahoddodd drosodd Hengist a Horsa, yn nghyda haid o Saxoniaid, o Germani; y rhai a leolodd efe yn mharthau brasaf yr ynys. Yn fuan, efe a gymerth Rhonwen, ferch Hengist, yn ordderchwraig, gan ei gwaddoli ag iarllaeth Caint. Llwyddodd y Prydeiniaid i'w ddiorseddu, a gosodasant ei fab, Gwrthefyr, ar yr orsedd yn ei le; eithr gwenwynwyd hwnw gan Alis Rhonwen; ac felly ail feddianodd Gwrtheyrn ei orsedd, yr hon a gadwodd efe hyd oni ymosodwyd arno gan Emrys Wledig, pryd y gorfu iddo ffoi i Cambria, ac ymnoddi yn y dref a elwir Genoreu, yn ngwlad Hergin, ar afon Gania, yn mynydd Cloarius. Dywed Nennius ei fod yn euog o ymlosgach gyda'i ferch ei hun, a darbwyllo hono i dadogi ei phlentyn i Garmon Sant; ond i'r Sant ei argyhoeddi yn mhresenoldeb yr holl offeiriaid Prydeinig, ac iddo yntau, mewn canlyniad, ffoi i'r dalaeth a elwir Guenet (Gwynedd), ac iddo gael ei gyfarwyddo gan ei ddewiniaid i adeiladu dinas ar ben un o fynyddoedd Heremus (Eryri), lle y daeth efe i gyffyrddiad ag Emrys, "y bachgen heb dad," o dalaeth Glevesing, rhwng yr Wysg a'r Rumney, i'r hwn y cyflwynodd efe y ddinas hono, yn nghyda holl dalaethau gorllewinol Prydain. Wedi hyny, gan ei fod yn cael ei erlyn gan Garmon Sant a'i osgordd, er ceisio achub ei enaid, iddo ffoi i deyrnas Dimetæ, lle, ar afon Towy, yr adeiladodd efe gastell, yr hwn a enwodd Cair Guothergirn, neu Guorthegirn, yr hwn, ar ol i'r Sant weddio ac ymprydio am dridiau a thair-nos, a losgwyd yn ulw gan dân o'r nef; ac felly y dinystrwyd Gwrtheyrn, a'i wragedd! Eraill a ddywedant, medd Nennius, ar ol cael ei gasau gan holl bobl Prydain, a'i gyhuddo yn gyhoeddus gan y "sant," iddo ffoi yn adyn crwydredig o fan i fan, ac yn y diwedd farw o dor calon: tra y dywed eraill, mai y ddaear a agorodd ei safn, ac a'i llyncodd ef i fyny ar y nos y llosgwyd ei gastell, gan na welwyd unrhyw weddillion o hono ef, na neb oedd gydag ef, boreu dranoeth. Ac y mae traddodiad yn cyfeirio at Nant Gwrtheyrn, rhwng yr Eifl a'r mor, fel y fan lle y cymerodd hyny le. Dyna ddigon o'r chwedlau am dano.

Ymddengys yn dra thebyg bod Nennius, a Sieffre o Fynwy, wrth lunio eu Gwrtheyrn, wedi copio ac ystumio Gerontius yr haneswyr Rhufeinig, a rhoddi i ni gymysgfa chwedleuol o hanes y ddau, fel ag y mae yn dra anhawdd cael allan ond y peth nesaf i ddim o'r gwirionedd am y cymeriad hwn ag sydd yn tori y fath ffugyr mewn hanesiaeth Gymreig.

Os cymwysir beirniadaeth ato, rhaid tori ymaith y daflen achau a roddir iddo gan Nennius, yr hwn a'i geilw,—"Gwrtheyrn, ab Gwrtheneu, ab Gwyddawl, ab Gwyddolyn, ab Gloyw," gan nad ydynt oll, namyn Gwrtheyrn ei hun, ond ffug-fodau, o greadigaeth ddiweddarach na'r 7fed ganrif; oblegyd nid yw Gildas na Bede yn crybwyll dim am hynafiaid na hiliogaeth Gwrtheyrn.

Rhaid tori ymaith hefyd bob cysylltiad rhyngddo a Chymru; gan fod yn amlwg oddiwrth dystiolaethau unol y ddau hanesydd uchod, mai brenin yn mharthau *dwyreiniol* yr ynys ydoedd, ac mai y *Lloegrwys* oedd ei ddeiliaid. Dywedant i'r Saxoniaid "dirio yn gyntaf ar ochr ddwyreiniol yr ynys, trwy wahoddiad y brenin anffodus Gwrtheyrn, ac yno y planasant eu hewinedd llymion, dan yr esgus o ymladd o blaid yr ynys, ond ysywaeth! yn fwy gwirioneddol yn ei herbyn." Y ddau gadflaenor cyntaf, meddant, oedd Hengist a Horsa, yr olaf o ba rai a laddwyd mewn brwydr a'r Brytaniaid, ac a gladdwyd yn mharthau dwyreiniol Caint, lle mae cofadail iddo yn aros byth. Y casgliad gan hyny yw, bod Caint yn rhan, o leiaf, o deyrnas Gwrtheyrn, os nad yn cynwys yr oll o honi.

Am ei waith yn anfon am gymorth y Saxoniaid, mae yn amlwg iddo wneyd hyny trwy *gyngor* cyffredinol, ac nid o hono ei hun, er sicrhau ei orsedd, fel y dywed y *Brutiau*. Dywed Gildas, a Bede, i gyngor gael ei alw er penderfynu beth oedd oreu i'w wneyd yn ngwyneb ymosodiadau y gelynion, a'r haint a'r newyn oedd yn y wlad ar y pryd; ac i'r holl gynghorwyr, yn nghyda'r gormeswr balch Gwrtheyrn, selio dedfryd eu gwlad, trwy gyduno i anfon am gymorth y genedl Saxonaidd o'r tu hwnt i'r mor."

Ac nid yw y chwedl, i Gwrtheyrn roddi teyrnas Caint i Hengist yn anrheg am ei ferch, Alis Rhonwen, yn ddim amgen nag engraifft arall o grebwyll y rhamantwyr, a'u gallu i wisgo hanesiaeth a ffug; oblegyd y mae yn ddilys oddi wrth y Croniclau hynaf, mai trwy ymladd tair brwydr waedlyd, yr enillodd Hengist deyrnas fechan Caint; y gyntaf o ba rai a

ymladdwyd yn 455, yn yr hon y syrthiodd Horsa; yr ail yn 456, pryd y lladdwyd pedair mintai o'r Brytaniaid; a'r drydedd yn 457, pryd y syrthiodd 4000 o wyr, ac yr ymadawodd y Brytaniaid o Caint mewn dychryn mawr, ac y ffoisant i Lundain. (*Ethel. Chron. A.* 449–457; *Anglo-Sax. A.* 457.)

Nid oes wybodaeth pa bryd y bu farw Gwrtheyrn; nid oes son am dano ar ol brwydr 455, dichon gan hyny ei fod wedi marw cyn brwydr y flwyddyn ganlynol. Dilynwyd ef gan Emrys Wledig.

**GWRTHMWL WLEDIG**, tywysog y Brytaniaid Gogleddol, tua chanol y 6ed ganrif. Rhestrir ef gyd Maelgwyn Gwynedd, a Charadog Freichfras, fel tri "phen hynaif y lleithig llwyth." (*Myf. Arch.* ii. 8, 10, 16, 17, 20.)

**GWRTHRINA**, trefgordd yn mhlwyf Bryn-Eglwys, Swydd Ddinbach; 5¼ milldir i'r Gogledd Orllewin o Langollen.

**GWRTHWL**, sant yn y 7fed ganrif, a sylfaenodd Lanwrthwl, swydd Frycheiniog, a Maesllanwrthwl yn Nghaio, swydd Gaerfyrddin. Coffheid ef Mawrth 2.

**GWRWST**, a olynodd ei dad Rhiwallawn i orsedd Prydain, cyn Cred.

**GWRWST**, yr ail o'r enw, a olynodd Clydno ar orsedd Prydain, ac olynwyd yntau, gan Meiriawn.

**GWRYCH**, trefgordd yn mhlwyf ABERGELE, Sir DDINBACH, GOGLEDD CYMRU, milldir o dref Abergele, ar fin y môr: cyfrifir y boblogaeth gydag eiddo y plwyf. Y mae yma anneddle gastellog prydferth iawn, yr hwn a elwir Castell y Gwrŷch: y mae yn sefyll wrth droed bryn creigiog, ac mewn rhan ar y bryn: amgylchynir ef gan goed cysgodol, ac y mae dolydd breision rhyngddo a'r môr. Gerllaw yma hefyd y mae Craig Cefn-yr-Ogof.

**GWYALFAN**, un o wroniaid Cattraeth.

**GWYAR**, tad Gwalchmai, ydoedd benaeth yn ei flodau ddiwedd y 5ed ganrif.

**GWYDION** AB DON, neu GWDION AB DON, oedd fab i frenin Llychlyn, a elwid Don, neu Daronwy. Y Don hwnw a oresgynodd yr Iwerddon yn gyntaf; ac wedi hyny, efe a arweiniodd driugain mil o Wyddelod a Llychlynwyr i Wynedd, tua diwedd y drydedd, neu ddechreu y bedwaredd ganrif, a hiliogaeth y Don hwnw a gadwodd feddiant o Wynedd dros 129 o flyneddoedd, pan eu deolwyd o'r wlad yma gan Caswallon Law Hir, yr hwn a laddodd eu blaenor, Serigi Wyddel, a'i law ei hun, yn Llan y Gwyddyl, a elwir yn awr, Caergybi.

Ymddengys fod y Gwyddelod wedi cymeryd mantais ar wendid y Cymry pan oedd y Rhufeiniaid yn ymadael oddiyma, gan gymeryd y gwŷr ieuainc, cryfder y genedl yn eu byddinoedd, i ymladd eu brwydrau yn nês i galon yr Amherodraeth, a goresgyn gwahanol ranau o'r wlad, gan ymsefydlu ynddi dros rai oesoedd.

— "Tair Gormes Gwyddyl a fu yn Nghymru a Gwŷr; a chymaint ag un Teulu a'u gwaredawdd y Tair, nid amgen Teulu Cyneddaf Wledig. Cyntaf y bu yng Ngwŷr ym Morganwg, sef yno y daeth Ceian Wyddel, a'i feibion, ac ynnill y wlad, a'i goresgyn deunaw mlynedd ar hugain; a Chyneddaf Wledig, ac Urien fab Cynfarch a'u gorfyddawd; a'u lladd hyd ymhen y naw o honynt, a gyrru'r lleill i'r Môr. Yna rhodded Teyrnedd y wlad hono i Urien fab Cynfarch, a'i galw Rheged, am ei rhoddi gan wirfodd Cymry'r wlad hono, yn anreg iddaw; ac o hyny y gelwid ef Urien Rheged.

— *Ail*, Aflech Goronawc a ddug Arth Mathrin yn ormes, yna prïodi Marchell, ferch Tewdric, Brenin y wlad hono; ac o hyny ynnill bodd y Wlad, a'i chael yn gyfoeth ym mraint y brïodas; ac yno'r gwehelyth yn aros fyth yn un a'r Cymry.

— *Trydydd*, oedd Don (a Daronwy, medd eraill), Brenin Llychlyn, a ddaeth hyd yng Ngwerddon, ac ynnill Gwlad yno: a chwedi hyny efe a ddug hyd yng Ngwynedd drigain mil o'r Gwyddyl a'r Llychlynwys, ac yno gwarseddu, hyd yn mhen can mlynedd a naw ar hugain. Yna y daeth Caswallon Law Hir, ap Einion Yrth, ap Cynedda Wledig, i Fôn, ac a ddug y wlad oiarnynt, a lladd Serigi Wyddel yn y lle a elwir Llan y Gwyddyl, yn Môn. Ac eraill o feibion Cynedda Wledig a'u gwrthladdasant yng Ngwynedd, a'r Cantref, ac ym Mhowys, ac a aethant yn dywysogion yn y Gwledydd hyny. A Mab y Don hwnw oedd Gwydion, Brenin Môn ac Arfon; ac efe a ddysges wybodau llyfrogion gyntaf i Wyddelod Môn a'r Werddon; yna ydd aeth Môn a Gwerddon yn oreuglod am wybodau a Seiniau."—(*O law Iolo Morganwg.*[1])

Cofrestrir Gwydion ab Don yn un o'r Trïoedd, fel un o dri "Buelydd Gosgordd" Ynys Prydain; ac efe oedd yn porthi ac yn gwylied anifeiliaid Gwynedd Uch Conwy. Mewn un arall, gelwir ef, gyda Gwyn ab Nudd, ac Idris, yn dri "Gwyn Seryddion." Oddiwrtho ef y gelwir y Llwybr llaethog yn "Gaer Gwydion." Yn y Ffug chwedl a elwir "Mabinogi Math ab Mathonwy," dywedir fod Blodeu-wedd, gwraig ei nai, Llew Llawgyffes, wedi dïanc gyda Goronwy Befr, arglwydd Penllyn; a darlunir yr helynt y bu Gwydion ynddi er adferu ei nai i'w gyfoeth, a dïal ar Goronwy Befr, a Blodeuwedd am eu traha. Ffugiai y beirdd ei fod ef wedi teithio trwy y ffurfafen yn ei ymchwil am Flodeuwedd, gan adael llwybr o'i ôl, yr hwn a alwent yn Gaer Gwydion, neu, y Llwybr Llaethog. Pan y cafodd efe hyd i'r foneddiges anffyddlawn, dywedir iddo ei thraws-ffurfio yn Ddallhuan; hyny yw, ei dynoethi i'r fath raddau fel yr oedd arni gywilydd i neb ei gweled wrth oleu dydd.

Yr oedd cyrhaeddiadau Gwydion yn y gwyddonau a'r celfion y fath, fel y mae wedi cael lle uchel yn y ffughanesion Cymreig; ac y mae cyfeiriadau mynych yn cael eu gwneyd ato fel dewin, yn nghyfansoddiadau y beirdd Cymreig boreuol. Deallwn oddi wrth Englynion y Beddau, iddo gael ei gladdu yn Morfa Dinlle, Swydd Gaer yn Arfon; ac y mae yno ammaethdy a elwir hyd heddyw, "Bryn Gwydion."

**GWYDIR**, trefgordd yn mhlwyf ac undeb LLANRWST, cantref NANTCONWY, swydd GAERNARFON, GOGLEDD CYMRU, y tu draw i bont Llanrwst, gyda phoblogaeth o 400, yn ol Deiliadeb 1861. Y mae yn fryniog ac yn goedog hefyd, ac yn cynnwys y rhan fwyaf o Foel Siabod, un o gribau uchelaf cadwyn fynyddig Eryri. Mwnwyr yw y rhan amlaf o'r preswylwyr; ac y mae'r drefgordd yn perthyn yn gyfangwbl i un etifedd: mesura 7621 o erwau. Perthynai gynt i Howel Coytmor, ŵyr i Dafydd ap Gruffydd, brawd "Llewelyn y Llyw Olaf." Oddiwrth un o ddisgynyddion yr Howel uchod, prynwyd y lle gan deulu Wynn, yn meddiant pa un y bu am genedlaethau. Yr oedd y teulu anrhydeddus hwn yn hanu o Owain Gwynedd, a bu amryw o honynt yn ddynion enwog iawn. Yr oedd Syr John Wynn yn hynafiaethydd rhagorol, ac yn awdwr "History

[1] The Iolo MSS. p. 78.



Digitized by Google

of the Gwydir Family." Drwy briodas Mary, merch ac etifeddes Syr Richard Wynn, yn 1678, daeth Gwydir yn feddiant i Dduc Ancaster: drwy briodas Priscilla, Barwnes Willoughby d'Eresby, yr hon oedd chwaer hynaf Duc Ancaster, â Syr Peter Burrel, Barwnig, daeth yr ystâd yn eiddo i'r gŵr boneddig hwnw: crewyd ef yn Farwn Gwydir yn 1796: ar ei farwolaeth ef, yn 1820, disgynodd yr ystâd yn eiddo i'w fab hynaf, yr hwn a gyfenwai ei hunan yn Arglwydd Willoughby d'Eresby. Y mae'r diweddaf o'r Arglwyddi yma, newydd farw yn ddiblant, ac y mae Gwydir wedi myned yn feddiant i linell arall o'r teulu. Y mae y rhan fwyaf o blas presenol Gwydir, wedi cael ei adeiladu yn 1816: y mae yn sefyll yn un o'r manau mwyaf prydferth yn Nghymru; wedi cael ei adeiladu yn ardderchog; a'i ddodrefnu gyda'r godidawgrwydd urddasolaf. Gwel LLANRWST, WYNN, &c.

**GWYDNED**, un o wroniaid llys Arthur.

**GWYDNEU** AB LLWYDAU, cymeriad mewn Mabinogi.

**GWYDYR**, mab Cynfelyn, yn ol y Brutiau, a olynodd ei dad i Orsedd Prydain, ac a wrthododd dalu y deyrnged i'r Rhufeiniaid; yr hyn a ddygodd Claudius Cæsar gyda llu mawr i Brydain; a thra yr oedd Caer Peris o dan warchae, brad lofruddiwyd Gwydyr gan un Hamon. (*Myf. Arch.* ii. 187.)

**GWYDDELAN**, nawdd-sant Llanwyddelan, swydd Drefaldwyn, a Dolwyddelan, swydd Gaerynarfon. Coffheid ef Awst 22.

**GWYDDEL FYNYDD**, trefgordd yn mhlwyf y TOWYN, Swydd FEIRIONYDD. Gwerth ardrethol, 1774*p.*; o'r hyn y mae 13*p.* mewn pysgodfeydd. Poblogaeth, 497.

**GWYDDELW**, sant yn y 6ed ganrif, ydoedd fab Gwynllyw Filwr.

**GWYDDELWERN**, plwyf yn undeb CORWEN, cantref EDEYRNION, swydd FEIRIONYDD, GOGLEDD CYMRU, 2¼ i'r Gogledd o Gorwen, gyda phoblogaeth o 1541, yn ol Deiliadeb 1861. Tir uchel sydd yma gan mwyaf, ond y mae yn agos oll dàn driniaeth. Y mae prif-ffordd Llundain a Chaergybi yn myned drwyddo; yn nghyd âg amryw brif-ffyrdd ereill: y mae rheilffordd yn rhedeg drwyddo hefyd. Y mae mawn yn cael eu codi yma. Cynnelir ffeiriau blynyddol yma ar Ebrill 15, Awst 5, ac Hydref 18.

Ficeriaeth ryddhaol a didreth yw y fywioliaeth, wedi cael ei gwaddoli â 400*p.* o rodd Seneddol, ac yn nawddogaeth Esgob Llanelwy: y mae yn werth 130*p.*: y mae yr eglwys yn bur hynafol, ac wedi cael ei chyssegru i Beuno Sant. Y mae capeli yma gan y Bedyddwyr, y Trefnyddion Calfinaidd, a Wesleyaid, a'r Independiaid. Y mae ysgol yma mewn rhan yn rhad, gydag ysgolion ereill. Y mae'r elusenau yn 30*p.* y flwyddyn. Y mae gweddillion hen gaerfa Brydeinig ar fynydd: y mae gerllaw pentref Gwyddelwern, dwmpath gwneuthuredig, a elwir Tomen y Castell; ac y mae yma fryn a elwir Bryn y Saith Marchog, am i Owain Glyndwr gymmeryd yn garcharorion yma Reginald de Grey, a saith Marchog. Y mae y plwyf yn mesur 9127 o erwau. Un o feirdd y plwyf hwn, Edward Evans (*Iolo Gwyddelwern*), a anwyd yn 1786; bu farw yn 1853.

**GWYDDFARCH**, sant yn y 6ed ganrif, ydoedd fab i Amalarus, brenin Pwyl. Efe ydoedd un o seintiau Meifod, swydd Drefaldwyn, lle dangosir ei wely mewn craig, ar glogwyn cyfagos.

**GWYDDGRUG**, a GWYDDIL, dwy dreflan yn mhlwyf LLANFIHANGEL AR ARTH, Swydd GAERFYRDDIN, 9¼ milldir i'r Dwyrain o'r Castell Newydd yn Emlyn.

**GWYDDNEU**, un o wroniaid Cattraeth.

**GWYDDNO GARANHIR**, arglwydd Cantref y Gwaelod, yr hwn, meddir, a orlifwyd gan y mor yn y 5ed ganrif, ac a orchuddir yn awr gan donau Beisfor Aberteifi (*Cardigan Bay*). Dywedir mai mab ydoedd i Gorfyniawn ab Dyfnwal Hen, brenin Gwent, ac y gelwid ef hefyd Dewrarth Wledig; ac mai ei wraig oedd Ystradwen, merch Cadell, brenin Powys. Yn ol y darluniad a gawn o Gantref y Gwaelod, yr oedd yn llain wastad o dir, yn cyrhaedd o wddf yr afon Teifi, hyd Ynys Enlli, yn mesur 40 mill. o hyd, ac 20 mill. o led; ac yn cynwys un arbymtheg o ddinas-drefi yn oreuon ar holl ddinasoedd Cymru, amgen Caerlleon-ar-Wysg. Cedwid y mor allan gan wrthglawdd celfyddydol, yn yr hwn yr oedd amryw ddwfr-ddorau, er gollwng y dwfr oddiar y tir ar y trai, gofal pa rai oedd ar un Seithenyn ab Seithyn Seidi, yr hwn wedi hyny a elwid Seithenyn Feddw, trwy mai o wall meddwi, ar noson o wledd, yr esgeulusodd efe gau y dorau, ac y daeth y mor i mewn, a boddodd yr holl drigolion, oddieithr yr ychydig, ac yn eu plith Gwyddno Garanhir, a lwyddasant i ffoi i'r mynyddoedd. Yn y *Myf. Arch.*, ceir tri dernyn barddonol, o waith Gwyddno Garanhir, sef *Can Foesol*, *Cwynfan* o herwydd *Gorlifiad Cantref y Gwaelod*, ac *Ymryson Gwyddno a Gwyn ab Nudd*.

A oes rhyw gymaint o wirionedd yn osail i'r traddodiad uchod sydd bwnc anhawdd i'w benderfynu. Dywed Davies, yn *Myth. of the Druids*, mai yr un person ffugiol yw Gwyddno Garanhir, Tegid Foel, a Seithenyn Feddw; a haera llawer nad yw y cyfan a ddywedir am y gorlifiad ond ffûg. Er hyny, y mae amryw arwyddion bod y mor wedi enill llawer o dir yn y parthau uchod, ac yn mlaen oddi yno hyd wddf y Dyfrdwy. Y mae yr amrywiol Sarnau a welir yn ymestyn i'r mor, megys Sarn Badrig, Sarn Gynfelyn, Sarn y Bwch, Sarn Dewi, a Sarn Gadwgan, yn profi bod y mor rywbryd, wedi eangu ei wely ar gyffiniau Cymru, pa un bynag a'i yn raddol a'i ar unwaith y gwnaeth hyny. Edrychir hefyd ar y "Goedwig Danforawl" a ddarganfyddwyd yn Meisfor Aberteifi, tua'r flwyddyn 1832; yr hen furddyn a elwir "Eglwys y Rhiw," yn nhraeth Aberaeron: a "Llys Helyg," yn Nhraeth y Lafan, fel arwyddion sicr o'r gorlifiad crybwylledig. Ond dywedir bod hen gywydd ar gael, yn traethu yn bendant mai yn O.B. 3591 y cymerodd le.

Yn ol y *Trioedd*, Hafan Gwyddno Garanhir, yn Ngheredigion, oedd un o dri phrif borthladdoedd Ynys Prydain; yr oedd ganddo gored bysgota hefyd yn ngwddf yr afon Gonwy, a'i Fwys (cawell pysgota) ef, oedd un o dri thlws ar ddeg Ynys Prydain: "bwyd i ungwr a roid ynddi, a bwyd i ganwr a geid ynddi pan agorid."

**GWYDDON GANHEBON**, yn ol y *Trioedd*, "a wnaeth Gerdd Dafawd gyntaf o'r byd," a'i Fain ef, ar y rhai yr ysgrifenid holl gelfyddydau a gwybodaethau y byd, oedd un o dri phrif orchestwaith Ynys Prydain. (*Myf. Arch.* ii. 71.)

**GWYL**, merch Eudawd o Gaerworgorn, ydoedd un o dair gordderchwraig Arthur. (*Myf. Arch.* ii. 14, 73.)

**GWYLYGED**, un o'r gwroniaid a gwympwyd yn Cattraeth.

Digitized by Google

**GWYN**, sant yn y 6ed ganrif, ydoedd fab Cynyr Farfdrwch, ab Gwron, ab Cunedda. Yr oedd yn un o chwech o frodyr, pump o ba rai oedd yn Saint, sef Gwyn, Gwynno, Gwynnoro, Celynin, a Ceitho, y rhai oll a anwyd ar un genedigaeth. Dyma y pump sant, i ba rai y cyflwynwyd Llanpumsant, swydd Gaerfyrddin.

**GWYN** AB NUDD, gyd ag Idris Gawr, a Gwydion ab Don, oedd "tri gwyn serenyddion Ynys Prydain. Mewn rhamant Gymreig gosodir ef allan fel brenin y Tylwyth Teg, a phenaeth Gwlad Hud a Lledrith.

**GWYN**, NELL, gordderchwraig enwog Charles II., ydoedd Gymraes o Henffordd. Ganwyd hi mewn bwthyn isel yn Pipe-lane, yn ninas Henffordd. Dechreuodd ei gyrfa yn forwyn mewn tafarn, lle y dygodd ei harabedd a'i gallu dadganol hi i sylw. Yna aeth i wasanaeth gwerthydd ffrwythau, a thros hwnw, i werthu *oranges* i'r chwareudy; lle y tynodd sylw Lacy y chwareuydd, a Hart,—un o'r dynion harddaf, a chwareuydd goreu ei oes. O dan addysg y ddau hyn, dygwyd hi i'r *stage*, i'r hon yr oedd ganddi dalent naturiol; ac yn 1667, cawn hi wedi ei chofrestru gyda chwareuwyr y brenin, y rhai a chwareuent yn Drury-lane. Daeth Nell Gwyn yn fuan yn dra phoblogaidd, fel y teimlai Dryden yn falch o gael cyfansoddi *prologues* ac *epilogues* iddi hi yn benodol. Yn y flwyddyn gyntaf wedi iddi fyned i'r *stage*, hi a dynodd sylw arglwydd Buckhurst, yr hwn a'i cymerodd oddiar y *stage*, ac a ganiataodd iddi 100*p*. y flwyddyn. Ond pa fodd bynag, hi a ddychwelodd yn fuan, ac yn 1668, ymddangosodd yn nghymeriad Almahide, yn *Conquest of Granada*, gan Dryden, pan y syrthiodd y brenin mewn cariad a hi, ac y cymerodd hi adref yn ei gerbyd i swper. Yn fuan ar ol hyny, rhoddodd arglwydd Buckhurst hi i fyny am iarllaeth Dorset, yn nghyda blwydd-dal.

O hyny allan, adwaenid hi wrth yr enw "Madame Ellen," ac wedi iddi roi genedigaeth i'w phlentyn cyntaf,—James Beauclerk, cymerodd ei charwr breninol hi oddi ar y *stage*, a gwnaeth hi yn un o foneddigesau ystafell ddirgel y frenines, yn Whitehall. Dygodd Nell Gwyn amryw o deithi prin a dyeithr i lys Charles II. Er ei holl ffaeleddau, yr oedd yn feddianol ar *galon* a fedrai gyd ymdeimlo âg angen yn mhob man; ac ar natur, ag oedd fel ffynon, yn graddol ymloywi er gwaethaf pob llygredd. Dywed Mrs. Jameson, bod yn debyg na buasai cynllun y Chelsea Hospital byth yn cael ei orphen, o'r hyn leiaf yn nheyrnasiad Charles, oni buasai Nell Gwyn, yr hon ni adawai lonyddwch i'r brenin nes iddo ei ddwyn i orpheniad.

Hi a ddygodd i Charles ddau o blant, y rhai a enwodd efe yn Charles, a James Beauclerk. Bu James farw yn ieuanc yn Paris, ond daeth Charles yn gyff teulu urddasol ac enwog yn y deyrnas. Mae yr achlysur trwy ba un y llwyddodd i gael gan y brenin i arddel a theitlo ei mab hynaf, yn rhy gymeriadol i gael ei gadael allan.

Un diwrnod, ar ol i blant y duwcesau Cleveland, a Portsmouth, gael eu hanrhydeddu a theitlau, yr oedd y brenin yn yr ystafell gyda Nell Gwyn, a'i mab hynaf yn chwareu ar hyd y llawr; ac ebe hi wrtho mewn llais sarug,—"tyred yma y bastardd bychan!" Y brenin, yn arswydo wrth glywed y fath enw ar y plentyn, a'i ceryddodd; atebodd hithau "bod yn wir ddrwg ganddi, ond nad oedd ganddi un enw gwell i'w roi arno, druan bach!" Teimlodd y brenin yr ergyd, ac yn mhen ychydig ddyddiau, crewyd y boneddwr bychan dienw, yn barwn Heddington, ac iarll Burford, ac yn 1683, yn duwc St. Albans, yn gofrestrydd y cangell-lys, ac yn uchelhebogydd Lloegr.

Priododd duwc St. Albans Lady Diana Vere, unig ferch iarll diweddaf Rhydychain, a'r etifeddes fwyaf o ran safle a chyfoeth yn y tair teyrnas. Ganwyd iddynt wyth o feibion, o ba rai daeth arglwydd Vere Beauclerk yn enwog fel swyddog llyngesol. Wyr i Nell Gwyn oedd arglwydd James Beauclerk, yr hwn a fu farw yn esgob Henffordd, yn 1782; a gorwyr iddi oedd Toppam Beauclerk, cyfaill Dr. Johnson, ac un o enwogion Boswell.

Bu Nell Gwyn farw yn 1691, a thraddododd Dr. Tennison, y pryd hwnw ficer St. Martin, ac wedi hyny archesgob Caergaint, ei phregeth angladdol, yn yr hon yr ymhelaethai ar ei theithi haelfrydig, ei hedifeirwch gwirioneddol, a'i diwedd dedwydd.—Mrs. Jameson's *Beauties of the Court of King Charles the Second*.

**GWYNDAF HEN**, sant yn y 6ed ganrif, ydoedd fab Emyr Llydaw, Priododd Gwenonwy, ferch Meirig ab Tewdrig, o'r hon y cafodd Meugant Sant. Bu yn gyffeswr yn nghor Illtyd; ac yn llywydd coleg Dyfrig yn Nghaerlleon-ar-wysg. Ymneillduodd i Enlli yn ei henaint, ac yno y claddwyd ef. Ar ei enw ef mae Llanwnda, swydd Gaerynarfon, a Llanwnda, swydd Benfro.

**GWYNDY**, pentref yn mhlwyf Llandrygarn, MÔN; 3½ milldir i'r De Dde Orllewin o Lannerch-y-medd. Y mae yma Lythyrfa dan Fangor.

**GWYNEDD**, hen randir, a gyfrifir yn gyffredin yr unrhyw â Gogledd Cymru. Hon oedd gwlad y Gordofigwys, a'r Rhufeiniaid a'i galwent *Venedotia*.

**GWYNEDD**, JOHN, ysgrifenydd Pabaidd, yr hwn oedd frodor o Gymru, ac a roddes brofion boreu o alluoedd mawrion, a hoffder mawr at ddysgeidiaeth. Gan mai pobl mewn amgylchiadau isel oedd ei rieni, efe a'i cynhaliai ei hun yn Rhydychain, trwy anhawsder mawr ar y dechreu; ond o'r diwedd efe a gafodd noddwr, yr hwn a ddarganfu ei dalentau, ac a'i galluogodd i ddilyn ei efrydiau. Yn y flwyddyn 1531, ac efe eisoes yn offeiriad cyffredin, anrhydeddwyd ef â'r urdd o Athraw Cerddoriaeth, gan y brif ysgol, ar gyfrif ei hyddysgrwydd yn y wyddor gerddorol, a'i gyfansoddiadau ynddi. Ysgrifenodd amryw lyfrau hefyd ar y ddadl rhwng y Pabyddion a'r Diwygwyr Protestanaidd. Cyhoeddid rhai o'r Gweithiau hyn yn y blyneddoedd 1554, a 1557.

**GWYNEN**, santes, a'i dyddiad yn anhysbys. Ar ei henw hi y gelwir Llanwnen, swydd Aberteifi.

**GWYNFARDD BRYCHEINIOG**, bardd yn ei flodau o 1160 i 1220. Mae dau o'i gyfansoddiadau yn y *Myf. Arch.*

**GWYNFARDD DYFED**, bardd yn ei flodau yn yr 8fed ganrif. Mab iddo oedd Cuhelyn Fardd.

**GWYNFE**, capeloriaeth yn mhlwyf Llangadoc, Swydd GAERFYRDDIN; goris y Mynyddoedd Duon, ac yn agos i reilffordd Canolbarth Cymru, yn nghymmydogaeth Llangadoc. Llythyrfa, Llangadoc, dan Gaerfyrddin. Gwerth ardrethol, 3083*p*. Poblogaeth, 1354. Anneddau, 271. Y fywioliaeth eglwysig sydd guradiaeth barhaol, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 107*p*. Noddwr, Ficer Llangadoc Fawr.

**GWYNFIL**, trefgordd yn mhlwyf LLANDDEWI-BREFI, cantref PENARTH, swydd ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU, 3 milldir i'r De Orllewin o Dregaron,

Digitized by Google

gyda phoblogaeth o 386, yn ol Deiliadeb 1861. Yr oedd yma gapel gynt, wedi cael ei gyssegru i Gwynfil sant, ond y mae wedi dadfeilio. Y mae yma ychydig anneddau prydferth uwchben dyffryn Teifi.

**GWYNFRYN**, treflan yn mhlwyf LLANBEDR, Swydd FEIRIONYDD; 8½ milldir i'r Gogledd o'r Abermaw.

**GWYNGREGYN** (Y), afonig yn Swydd Gaer yn arfon, yn ymarllwys i Draeth y Lafan, ger Aber.

**GWYNGAD**, un o feibion Caw, a ryfelai o dan Arthur.

**GWYNGENEU**, sant yn y 6ed ganrif, ydoedd fab i Pawl Hen. Dywedir iddo sefydlu capel yn Nghaergybi, o'r hwn nid oes dim yn aros.

**GWYNHWYFAR**, Maer Cernyw, a Dyfnaint, a wasanaethai o dan Arthur.

**GWYNIO**, sant o ddyddiad anhysbys, ar enw yr hwn y gelwir Llanwynio, swydd Gaerfyrddin.

**GWYNIONYDD**, RHYS—bardd a flodeuai o 1540 i 1570.

**GWYNLLEU**, sant yn y 6ed ganrif, ydoedd fab Cyngor, ab Arthog, ab Cunedda Wledig; a thybir mai ar ei enw ef y galwyd Nantgwnlle, Ceredigion.

**GWYNLLYW FILWR**, sant, yn y 5ed ganrif, ydoedd fab Glewys ab Tegid, ab Cadell Deyrnllwg, ac arglwydd Gwentllwg, yn Mynwy. Y mae yn un o'r ychydig seintiau Cymreig sydd yn y Calendar Pabaidd, lle y gelwir ef "*St. Gundleus, a Welsh king, 5th Cent.*" Priododd Gwladus, wyres i Brychan, a chafodd o honi deulu lluosog, y rhai a ymroddasant i fywyd crefyddol. Ymddengys oddiwrth yr enw "Milwr," iddo hynodi ei hun gyda'r cleddyf yn moreu ei oes; ond iddo, fel y rhelyw o'r seintiau Cymreig, wedi methu gyda'r cleddyf, droi yn sant; "rhoddodd ei lywodraeth i fyny i'w fab Cattwg, ac adeiladodd eglwys, lle y treuliodd weddill ei oes yn dra chrefyddol." Yr eglwys uchod yw St. Woolos yn Nghaerlleon-ar-Wysg, lle y coffheid ef Mawrth 29. Dywedir mai oddiwrtho ef y derbyniodd gwlad Gwent ei henw.

**GWYNNIN**, sant yn y 6ed ganrif, ydoedd fab i Helyg ab Glanawg. Efe a roddodd ei enw i Llandegwynnin, yn Arfon. Coffheid ef Rhagfyr 31.

**GWYNNO**, sant, yn y 6ed ganrif. Gwel GWYN.

**GWYNNOG** AB GILDAS, sant yn y 6ed ganrif. Efe yw sant y Faenor, yn Mrycheiniog; Llanwynno, yn Morganwg; a Llanwnog, yn Maldwyn, lle, ar ffenestr y gangell, y mae ei lun yn ei wisgoedd offeiriadol, a chroes yn ei law; ac o dano y geiriau canlynol:—"*Sanctus Gwinocus, cujus animæ propitietur Deus, Amen.*" Gwaith y bedwaredd ganrif ar ddeg yw yr uchod, ac y mae yn arwydd o'r bri yn mha un y delid Gwynnog yn yr oes hono. Coffheid ef Hydref 26.

**GWYNNORO**, sant yn y 6ed ganrif. Gwel GWYN.

**GWYNODL**, sant yn y 6ed ganrif, ydoedd fab Seithenyn, a sant Llangwnodl, swydd Gaerynarfon.

**GWYNT** AB ERAINT, cymeriad yn y Mabinogion.

**GWYNWS**, sant yn y 5ed ganrif, ar enw yr hwn y mae Llanwynws, Ceredigion. Coffheid ef Rhagfyr 13.

**GWYRE** (Y), afonig yn Ngheredigion; yn ymarllwys i'r môr yn Llanrhystyd.

**GWYS**, gorsaf ar reil-ffordd *Swansea Vale*, DEHEUDIR CYMRU; 14½ milldir i'r Gogledd Ogledd Ddwyrain o Abertawe.

**GWYSANEY**, trefgordd yn mhlwyf y Wyddgrug, Swydd FFLINT; ar lan yr afon Alun, 2 filldir i'r Gogledd o'r Wyddgrug. Poblogaeth, 252. Tai annedd, 57. Yr oedd plas Gwysaney yn perthyn i Davies gynt; ac yn awr y mae yn perthyn i deulu o'r cyfenw Cooke. Dywaid traddodiad i'r gegin fod yn ystabl i feirch rhyfel gwŷr Cromwell, ar adeg derfysglyd y Rhyfel Gartrefol.

**GWYTHERIN**, pentref, a phlwyf, yn rhandir LLANRWST, Swydd DDINBACH. Y mae y pentref ar lan yr afon Elwy, goris mynydd Hiraethog, 5½ milldir i'r Dwyrain wrth Ddehau o Lanrwst. Yma y dywedir i Gwenfrewi encilio i dreulio gweddill ei dyddiau, ac y bu farw, ac ei claddwyd. Dywaid rhai mai ar farwolaeth Beuno. yr ymneillduodd Gwenfrewi i'r ardal fynyddig hon, gan ei rhoddi ei hun dan nawdd Elerius Sant, yr hwn oedd y pryd hyny yn byw mewn meudwyaeth yn y fan hon; ac wedi canfod fod yma leiandy dan arolygiad Theonia, hi a gymmerth y guddlen, ac wedi trigo yno rai blyneddau, hi a ddaeth yn abades, neu ben-lleian, ar farwolaeth Theonia. Y mae yr eglwys wedi ei chyssegru i Sant Gwytherin, yr hwn oedd yn oesi tua diwedd y chweched ganrif. Gellir barnu ei bod wedi ei hadeiladu ar y cyntaf mewn cyssylltiad â'r lleiandy crybwylledig, a dywedir fod gweddillion marwol Theonia, a Gwenfrewi, wedi eu claddu ynddi: ond symudwyd gweddillion Gwenfrewi, yn mhen pum can mlynedd wedi ei marw, i'r Amwythig; ac y mae y gist, yn yr hon eu cedwid, ar gael eto; a dangosir pedair o gerig yn y fynwent, y rhai, meddir, a nodant y llannerch lle yr oedd ei bedd. Yr oedd Capel gynt, a elwid Capel Gwenfrewi, yn nglyn a'r eglwys, ond nid oes faen ar faen o hono wedi ei adael erbyn hyn. Y mae y plwyf yn cynnwys 6117 o erwau o dir: a chyfrifir ei werth ardrethol yn 1311*p*. Poblogaeth, 438. Tai annedd, 91. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth, 132*p*. Noddwr, Esgob Llanelwy.

**GWYTHERIN**, sant yn y 6ed ganrif, ydoedd fab Dingad ab Nudd Hael, a sefydlydd eglwys Gwytherin, swydd Dinbych.

**GWYTHLA**, treflan yn mhlwyf Llanfihangel Nant mellan, Swydd FAESYFED; ar lan ffrwd o'r un enw. Ar y ffrwd hon, yn nghymmydogaeth y dreflan, y mae rhaiadr a elwir "Dwr torri ei wddwf;" ac y mae yn ymarllwys i'r afon Saeth, neu, yr *Arrow*, yn agos i Dref y clawdd," (*Kington.*)

**GWYTHOG GWYR**, un o ryfelwyr enwog y brenin Arthur, a grybwyllir yn y Mabinogion.

**GWYTHYR** AB GREIDIOL, rhyfelwr enwog dan y brenin Arthur, a thad un o'i wragedd, a elwid Gwenhwyfar. Crybwyllir ef yn Englynion Beddau Milwyr Prydain; ac y mae yn gymeriad hynod yn y Mabinogion hefyd.

**GYFEILLIN** (Y), lle 1½ milldir o Bont y Pridd, yn MORGANWG, yn nghyda llythyrfa dan Bont y Pridd.

**GYFFIN** (Y), pentref, a phlwyf yn agos i CONWY, yn Swydd GAER YN ARFON. Y mae y pentref ar lan yr afonig Gyffin, sydd yn ymarllwys i'r afon Conwy, ¾ milldir i'r De Orllewin o dref Conwy, a gorsaf y rheilffordd; ac o fewn trefgordd y Cymryd. Y mae y plwyf yn cynnwys trefgorddau Bodidda, Gwaredros, Llechan, Merchlyn, a'r Cymryd. Y llythyr-dref ydyw Conwy. Mesura y plwyf 3705 o erwau, o'r rhai y mae 150 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 2571*p*. Poblogaeth, 715; tai annedd, 143. O fewn y plwyf yma yr ymladdwyd y frwydr waedlyd yn y flwyddyn

Digitized by Google

880, rhwng Anarawd, tywysog Gwynedd, ag Eadred, Iarll Mersia, yn yr hon y gorchfygwyd y Saeson â lladdfa fawr; a galwyd y frwydr hono "Dïal Rhodri." Yma hefyd y sylfaenodd Llewelyn ab Iorwerth fynachlog, yr hon ar y cyntaf a elwid Mynachlog Caer Gyffin, ac wedi hyny, Mynachlog Aberconwy; a'r hon a symmudwyd gan Edward y Cyntaf i Faenan, pan adeiladai efe y castell, yn 1284. Y fywioliaeth eglwysig sydd reithoriaeth, yn esgobaeth Bangor, gwerth 115*p*. Noddwr, Esgob Bangor. Y mae gan y Trefnyddion Calfinaidd addoldy yn y plwyf.

**GYFFYLLIOG** (Y), plwyf, ac adrandir, yn rhandir RHUTHIN, yn Swydd DDINBACH. Gelwir y plwyf CYFEILIOG hefyd. Gweler dan y gair hwnw. Y mae o fewn 5 milldir i dref, a gorsaf rheilffordd Rhuthin; a chynnwysa drefgorddau Ffrithoedd, Trefor, Tre ganol, a Thre parc. Mesura 6652 o erwau o dir. Cyfrifir ei werth ardrethol yn 2076*p*. Poblogaeth, 564. Tai annedd, 114.

**GYNYR**, o Gaer Gawch, pendefig o randir yn Swydd Benfro, a elwid wedi hyny Pebidiog, neu Dewisland, yn yr hon y mae Dinas Dewi yn gorwedd. Ei wraig gyntaf oedd Mechell, ferch Brychan, o'r hon y bu iddo ferch, "Danadleven," yr hon a brïodwyd â Dwrdan, yr hwn a gyfreswyd yn mysg y saint. Ail wraig Gynyr oedd Anna, ferch Gwrthefyr Fendigaid, brenin Prydain, o'r hon y bu iddo fab a elwid Gistlianus, a dwy ferch, Non, mam Dewi Sant; a Gwen, mam Cybi Sant. Wedi i Gynyr gofleidio buchedd grefyddol, efe a roddes ei holl diroedd at gynal yr eglwys.

**GYRIOG**, GRUFFYDD—bardd a flodeuai o'r flwyddyn 1530, hyd y flwyddyn 1570. Y mae rhai o'i Gyfansoddiadau yn nghadw eto mewn llaw ysgrifau.

**GYRN** (Y), palas castellawg yn mhlwyf Llanasa, Swydd FFLINT, yn agos i enau mor-gaine y Dyfrdwy; 6 milldir i'r Gogledd Orllewin o Dreffynon. Perthynai gynt i dylwyth o'r cyfenw Douglas; ond yn awr y mae yn perthyn i E. Bates, Ysw.

**GYRN GOCH** (Y), mynydd-res yn Swydd Gaer yn arfon; 7 milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Nefyn. Y mae ei uchder yn 1723 troedfedd.

**GYSSULOG** (Y), trefgordd yn mhlwyf Llanfihangel Glyn Myfyr, Swydd DDINBACH; 6¼ milldir i'r Gogledd Orllewin o Gorwen. Poblogaeth, 41.

# H.

**HAER**, merch Gillyn ab y Blaidd Rhudd, o Eifionydd, benyw nodedig am ei harddwch, a fu yn brïod gyntaf â Chynfyn Hirdref, ac wedi hyny, â Bleddyn, tywysog Powys.

**HAFGAN**, cymeriad hynod yn y rhamantau Cymreig. Efe oedd brenin Annwn; a rhoddir arbenigrwydd neillduol iddo yn Mabinogi Pwyll Pendefig Dyfed.

**HAFOD** (YR), trefgordd yn mhlwyf Rhiwabon, Swydd Ddinbach; 3¼ milldir, i'r De Dde Ddwyrain o Wrecsam. Poblogaeth, 161.

**HAFOD DDREINIOG**, treflan yn mhlwyf Llanwonno, cantref MISCYN, Swydd FORGANWG; ar gangen Rhondda o reilffordd Glyn Tâf, rhwng yr afonydd Tâf a'r Rhondda; 5 milldir i'r Gogledd o Lantrisaint. Y mae yn cynwys pentref Hafod Ddreiniog, a rhan o Bont y pridd; ac y mae yma orsaf rheilffordd o'r enw "Yr Hafod." Cyfrifir ei gwerth ardrethol yn 19,057*p*., o'r hyn y mae 10,100*p*. mewn mwngloddiau; 200*p*. mewn Cloddfeydd cerrig; 65*p*. mewn gweithfeydd haiarn; a 300*p*. mewn gweithfeydd nwy. Poblogaeth, 1308.

**HAFOD GYNFAWR**, trefgordd yn mhlwyf Llangollen, Swydd DDINBACH, yn agos i dref Llangollen. Poblogaeth, 256.

**HAFOD UNNOS**, trefgordd yn mhlwyf Llangernyw, Swydd DDINBACH; 6¼ i'r Gogledd Ddwyrain o Lanrwst. Poblogaeth, 86. Yn y drefgordd hon y safai hen balas y Llwydiaid, cangen o wehelyth Hedd Molwynog: ond, o fewn oes yn ol, daeth i feddiant masnachwr cyfoethog o'r cyfenw Sandbach, yr hwn a adeiladodd balas ysplenydd yn lle yr hen balas; ac a barodd y fath welliant mewn ammaethyddiaeth yn y gymmydogaeth, fel y mae hen ffrithoedd noethion a diffrwyth, wedi eu gwneuthur yn faesydd mawrion a chynnyrchiol, ac yn goedwigoedd heirdd; yn wir y mae yn anhawdd gweled llannerch yn Nghymru, lle y mae celfyddyd wedi peri y fath wedd-newidiad ar wyneb y wlad oddieithr yr Hafod Uchtryd.

**HAFOD Y LLYN**, gorsaf ar Reil-ffordd Ffestiniog, Swydd FEIRIONYDD; 5 milldir i'r Dwyrain Ogledd Ddwyrain, o Borth madog.

**HAFOD Y MAIDD**, tref-gordd yn mhlwyf Cerrig y Drudion, Swydd DDINBACH; 13 milldir i'r De Ddwyrain o Lanrwst. Poblogaeth, 188.

**HAFOD Y PORTH**, treflan yn mhlwyf Margam, Swydd FORGANWG; 3 milldir i'r De Ddwyrain o Aberafon. Cynwysa bentref y Tai bach. Gwerth ardrethol, 11,387*p*. Poblogaeth, 2502. Yma y mae Gweithfeydd glô ac efydd y Tai bach.

**HAFREN**, yn ol y Brutiau Cymreig, oedd ferch Locrinus o Essyllt. Wedi i Locrinus gael ei orchfygu a'i ladd, gan ei wraig gyfreithlawn Gwenddoleu, er dïal ei cham, bwriwyd Hafren, a'i mam Essyllt, yn ol ei gorchymyn, i afon, lle eu boddwyd, a'r afon hono a alwyd yn y canlyniad ar ei henw, "Hafren," gan y Cymry; a chan y Saeson, *Severn*.

**HAFREN** (YR), afon fawr, yr hon a lifeiria trwy Siroedd Trefaldwyn, yr Amwythig, Caer Wrangon, Caerloyw, a Mynwy. Y mae yn tarddu o Lyn bychan ar ystlys Ddwyreiniol Plinlimon, a cher ffin Dde Orllewinol Swydd Drefaldwyn; ac wedi llifeirio yn ffrochwyllt i'r dwyrain dde ddwyrain hyd Lanidloes, lle y mae yn derbyn y Clywedog, y mae yn treiglo yn mlaen oddiyno mewn arafwch mawreddog, gan gyfeirio i'r gogledd ddwyrain, heibio y Dref Newydd, a chymmydogaeth Trefaldwyn, i'r Trallwng, gan dderbyn ar ei ffordd, ddyfroedd y Carno, a'r Rhiw; y mae yn dyfod yn fordwyol ger y Trallwng, ac yn myned rhagddi i'r gogledd ogledd orllewin, ger y ffin rhwng y Mwythig a Meverley; ac yno, y mae yn derbyn y Fyrnwy; oddiyno cyfeiria yn ddwyreiniol, a chan ffurfio amryw drofeydd pryd-

Digitized by Google

ferth, y mae yn myned heibio i Shrawardine a'r Mwythig, i Atcham; ac yno yn derbyn dyfroedd y Tern; oddiyno â rhagddi i'r dwyrain dde ddwyrain, heibio i'r Cressage a'r Ironbridge, i Coalport; yna cyfeiria yn ddeheuol hyd Bridgnorth; ac yno y mae yn derbyn dyfroedd y Worf; â rhagddi drachefn yn yr un cyfeiriad heibio i Bewdley, i Stourport, lle yr ymarllwysa yr afon Stour iddi; ac yma y mae oddeutu 150 o droedfeddi o led, ac yn fwy na 6 throedfedd o ddyfnder: a chan gyfeirio yn ddeheuol eto, â heibio i Holt, Worcester, ac Upton, i Tewkesbury; a derbynia ddyfroedd y Teme, filldir a haner islaw Worcester, a'r Avon uchaf yn Tewkesbury; ac oddiyno llifeiria mewn cyfeiriad de dde orllewinol, i Gaerloyw, lle y mae yn derbyn dyfroedd y Leadon, ac y mae y llanw yn dyfod i fynu iddi hyd yno. Oddiyno cyfeiria mewn trofeydd sarphaidd yn dde orllewinol, heibio i Minsterworth a Newnham, i Awre, a chan ymledu yn fawr yn Newnham, y mae yn dyfod yn forgaine gwirioneddol ger Awre. Oddiyno â rhagddi, yn for-gaine, o ¾ milldir, i 2½ milldir o led, mewn cyfeiriad de orllewinol, heibio i Berkeley ac Oldbury, i Aust, lle ei cyfyngir gan benrhyn creigiog ar ei hochr ddeheuol, ac yn y fan wedi hyny, y mae yr afon Wy yn ymarllwys iddi; ac oddiyno llifeiria rhagddi, gan ymledu yn gyflym, hyd arllwysiad yr Avon Isaf iddi, ar ffin Gwlad yr Haf; ac yna fe'i hadnabyddir dan yr enw "Sianel Bristol." Y mae ei holl hyd, tua 180 milldir.

**HALCHDIN**, trefgordd yn mhlwyf Hanmer, Swydd Fflint, 5½ milldir i'r Gogledd wrth Ddwyrain o Ellesmere. Mesura 2313 o erwau o dir; a chyfrifir ei gwerth ardrethol yn 3430*p*. Poblogaeth, 464. Tai, 90.

**HALL** (Yr), treflan yn mhlwyf St. Ismael, Swydd Gaerfyrddin, 3¼ milldir i'r Gorllewin wrth Ogledd o Cydweli. Poblogaeth, 93.

**HALL** (Yr), pentref yn mhlwyf Llangadog, Swydd Gaerfyrddin.

**HAMINIOG**, trefgordd yn mhlwyf Llanrhystyd, Swydd Aberteifi; ar lan y môr, 6½ milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Aberaeron. Y mae yn cynwys pentref Henbelin, a rhan o bentref Llanrhystyd. Poblogaeth, 895. Tai annedd, 198.

**HANMER**, pentref, trefgordd, a phlwyf, yn nghantref Maelor, Swydd Fflint. Y mae y pentref yn sefyll gerllaw y ffin a Sir y Mwythig, 3 milldir i'r Gogledd o orsaf y rheilffordd Bettisfield; a 5 milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Ellesmere; ac y mae yma lythyrfa dan "Whitchurch, Salop." Mesura y drefgordd 2247 o erwau o dir; a chyfrifir ei gwerth ardrethol yn 4738*p*. Poblogaeth, 491. Tai annedd, 91. Y mae y plwyf yn cynwys hefyd drefgorddau Bettisfield, Bronington, Halghton, Tybroughton, a Willington. Mesura 14,718 o erwau o dir; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 19,601*p*. Poblogaeth, 2519. Tai annedd, 504. Yn *Bettisfield Park*, yn y plwyf hwn, y preswylia Syr John Hanmer, Barwnig, yr aelod Seneddol dros Fwrdeisdrefi Swydd Fflint; ac yn *Gredington Hall*, y preswylia Arglwydd Kenyon.

Hen enw y plwyf yma oedd *Handmere*, a roddid iddo am fod y pentref yn gorwedd ar lan Llyn, (*mere*) mawr, yr hwn y dychymygid ei fod ar lun llaw. Dywedir fod y Llyn hwn yn gorchuddio 73 erw o dir; ac y mae sefyllfa y pentref, ac ymddangosiad y wlad o amgylch, yn hynod o brydferth. Ficeriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 397*p*. Noddwr, Syr John Hanmer, Barwnig. Yr eglwys, yr hon sydd gyssegredig i St. Chad, sydd yn adeilad eang a hardd, yn yr arddull ddiweddaraf o adeilyddiaeth Seis'nig, a thŵr ysgwar, canllawiog, uchel. Oddi wrth arflenau lluosog yr Hanmeriaid a addurnant yr adeilad, y mae lle i gasglu mai gan y teulu hwnw ei hadeiladwyd, yn nheyrnasiad Harri y Seithfed. Y mae y tu fewn yn gynnwysedig o Gorph eglwys, ystlysgelloedd, a changell, yn nghyda dau gapel y Ffeniaid a'r Hanmeriaid; nen yr eglwys sydd o dderw cerfiedig; ac y mae yr ystlysgell ogleddol, a chapel y Ffeniaid wedi eu panelu yn barthranau bychain cein-wych, a'u haddurno â choron-blethau heirdd o flodau, ffrwythau, a dail. Y mae nen capel Hanmer wedi ei wneyd o dderw cerfiedig tra destlus, a'r llawr wedi ei wisgo â pheithynau Sacsonaidd godidog: ac y mae cof-adeiladau amryw o'r teulu yn y capel hwn, yn mysg y rhai y mae yr eiddo Syr Thomas Hanmer, Barwnig, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1678, a'i ŵyr, Syr Thomas Hanmer, Llefarydd Ty y Cyffredin, yn nheyrnasiad y Frenines Anne. Y mae y boneddwr diweddaf hwn, yr hwn a fu farw yn 1746, yn dra adnabyddus hefyd, drwy ei argraffiad gorwych o Chwareuyddiaethau Shakespeare, yn nghyda nodiadau eglurhaol, yn chwe chyfrol, yr hwn a gyhoeddwyd gan Brif-ysgol Rhydychain, i'r hon y cyflwynasai efe yr ysgrif. Y mae cofiech furawl hardd yn nghangell yr eglwys, i Lloyd, Arglwydd Kenyon, Arglwydd Brif Farnwr Meine-lys y Pennadur, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1802. Arni, y mae delw o'i arglwyddiaeth, yn ei urdd-wisg, yn eistedd dan ortho cynnaliedig gan ddelwau wedi eu maengerfio yn gywrain, er cynnrychioli Ffydd, a Chyfiawnder. Yn yr ystlys-gell ogleddol, y mae cof-adail i Mary, gweddw yr Arglwydd Brif Farnwr, ar yr hwn y mae delw o Mair wrth draed y Gwaredwr, wedi ei cherf-lunio yn dra chywrain. Yn y fynwent, y mae beddrod Luke a Chatharine Lloyd, o'r Bryn, y rhai fuant yn cyd-gyfanneddu yn y rhwymau priodasol, dros yr yspaid maith o 68 mlynedd.

Yn y flwyddyn 1674, rhoddes Mrs. Catharine Eddowes o Halchdin, i Luke Lloyd, Ysw., ac eraill, ettifeddiaethau yn Sesswick, a Pickhill, yn Swydd Ddinbach, mewn ymddiriedaeth, at gynnal Ysgolfeistr, a bu cynnyrch y rhodd hon yn ddigon am oesoedd i roddi addysg rad i holl blant y plwyf. Yn y flwyddyn 1624, darfu i Syr John Hanmer, Barwnig, gymmunroddi degymau Bettisfield, at gynhaliaeth gwell i "bregethwr dysgedig, yn eglwys plwyf Hanmer." Yn 1730, rhoddes Syr Thomas Hanmer 40 punt i'r tlodion, yr hyn, yn nghyd ag amryw ddoniadau blaenorol, a wnelent y swm o 576*p*., y rhai a roddwyd allan i brynu tyddyn, yr hwn a droglwyddwyd i Ficar y plwyf, ac eraill, mewn ymddiriedaeth, i ranu yr ardreth blyneddol mewn dillad i dlodion y plwyf. Brodor o'r plwyf hwn oedd y Bardd enwog Dafydd ab Edmund. Ac yn Greddington, yn y plwyf hwn, y ganwyd ac y magwyd Lloyd, Arglwydd Kenyon, ac efe a gladdwyd yn meddrod ei henafiaid, yn Hanmer.

**HANMER**, Sir David, oedd fab, ac ettifedd i Phylip Hanmer, o Hanmer, yn Swydd Fflint. Fel yr oedd efe yn gyfarwydd yn y cyfreithiau, ac yn dueddol i'r Saeson, efe a wnaed yn un o farnwyr Meine-lys y Pennadur, ar y 26ain o Chwefror, 1383, yn nheyrnasiad Rhisiard yr Ail; ac yn y flwyddyn

Digitized by Google

1387, efe a urddwyd yn farchog. Efe a adawodd o'i wraig Anngharad, ddau fab, Gruffydd, a Siencyn; ac un ferch, Margaret, yr hon a briododd yr enwog "Owain Glyndwr," o'r hwn y bu iddi amryw feibion a merched. Y mab, Syr Jenkin Hanmer, yr hwn a olynodd ei dad yn y teitl, a'r ettifeddiaeth, a laddwyd yn mrwydr yr Amwythig, yn 1403.

**HANMER**, John, D.D., a hanai o hen deulu yr Hanmeriaid, o Hanmer, yn Swydd Fflint, a anwyd yn Pentre Pant, yn agos i Groesoswallt, yn 1574. Efe a gafodd ei ddysg athrofaol yn Ngholeg Oriel, Rhydychain; o'r lle yr etholwyd ef yn Gymmrawd o *All Saints* yn 1596, ac yn 1605, efe a ddewiswyd yn un o oruchwylwyr (*proctors*) y brif-ysgol. Wedi hyny, efe a ddaeth yn Rheithor Bingham, yn Swydd Nottingham, ac yn gorweinydd (*prebendary*) Caerwrangon, tua 1614, pan yr oedd efe hefyd yn gapelwr rheolaidd i'r Brenin Iago y Cyntaf. Ar farwolaeth Dr. Richard Parry, efe a gyssegrwyd yn Esgob Llanelwy, Chwef. 15, 1623, gyda rhyddid i gadw ei gorweinyddiaeth. Efe a fu farw yn Pentre Pant, Mehefin 23, 1629, yn 55 mlwydd oed, ac a gladdwyd dranoeth yn eglwys Selattyn.

**HANMER**, Meredith, D.D., oedd fab i Thomas Hanmer o Pentre Pant, yn mhlwyf Selattyn, yn agos i Groesoswallt, lle ei ganwyd yn y flwyddyn 1543. Efe a addysgwyd yn Rhydychain, lle y daeth yn gapelwr Coleg *Corpus Christi*, yn 1567, ac o'r lle y symmudodd i Lundain, ar ei gyflwyniad i Ficeriaeth St. Leonard, Shoreditch. Yn y flwyddyn 1582, efe a gymerth ei urdd-raddau mewn Duwinyddiaeth; ac yn 1583, efe a gyflwynwyd i ficeriaeth Islington, yr hon a roddes efe i fynu yn 1590. Yn mhen dwy neu dair blynedd wedi hyn, efe a roddes Shoreditch i fynu, ac a aeth i'r Iwerddon, lle y daeth yn drysorydd Eglwys Crist, yn Nulyn,—swydd a ddaliodd efe hyd ei farwolaeth yn 1604. Pa beth bynag oedd ei gyfeiliornadau, fe'i cyfrifid yn bregethwr galluog, yn ysgolor clasurol, ac yn dra chyfarwydd mewn hanesyddiaeth, wladol ac eglwysig. Heblaw rhyw draethodau yn erbyn y Jesuitiaid, efe a gyhoeddodd yn 1576, "Hanesion Eglwysig Henafol, y chwe chanrif gyntaf wedi Crist, a ysgrifenwyd ar y cyntaf gan Eusebius, Socrates, ac Evagrius," *folio;* fe'i hail argraphwyd yn 1585, at yr hwn argraphiad y chwanegwyd "Amseryddiaeth, &c." Cyhoeddwyd pummed argraphiad o'r Gwaith yn 1650. Efe a gyfieithodd hefyd, Fucheddau y Prophwydi, a'r Apostolion, &c., gan Dorotheus, esgob Tyrus; Dyddiadur Saint yr Iwerddon; a "Chronicl yr Iwerddon, yn ddwy ran;" y drydedd ran o ba un a gyhoeddwyd yn 1633. Efe a gyhoeddodd bregeth, a draddodwyd ar yr achlysur o Fedyddiad Twrciad, yn eglwys golegawl St. Catharine, 1586.

**HANMER**, Syr Thomas, Barwnig, gwladweinydd enwog, a anwyd yn *Bettisfield Park,* plwyf Hanmer, Swydd Fflint, yn y flwyddyn 1677. Efe a addysgwyd yn Westminster, a Choleg Eglwys Crist, Rhydychain. Ar farwolaeth ei ewythr, Syr John Hanmer, yn 1701, efe a ddaeth i feddiant o'r teitl, a'r ettifeddiaeth; a chan ei fod yn wr ieuanc hynod hardd ei berson, efe a enillodd serchiadau Duges waddolog Grafton, yr hon a briododd efe pan tua phen ei un mlwydd ar hugain oed. Yn mhen tua phedair blynedd wedi hyny, efe a etholwyd i gynnrychioli Swydd Suffolk, fel aelod o Dy y Cyffredin, lle y dygodd ei alluoedd rhagorol, a'i ymddygiad pwyllog, ef i sylw yn fuan; ac efe a ddaeth yn un o'r aelodau mwyaf ei ddylanwad yn y Tŷ. Yn y Senedd a gyfarfu yn Chwefror, 1714, efe a etholwyd yn unfryd yn Llefarydd y Tŷ, a thros lawer o flyneddoedd, efe a gymerth ran bwysig iawn mewn gwleidyddiaeth, a chyfrifid ef fel blaenor y blaid uchel-eglwysig. Yn y flwyddyn 1727, efe a enciliodd yn gyfan-gwbl o fuchedd gyhoeddus, gan ymroddi at arddwriaeth, a llenyddiaeth. Ac yn y flwyddyn 1744, ymddangosodd ei argraphiad ysplenydd o Shakespeare, yn 6 cyf. 4 pl. Bu farw, Mai 7, 1746. yn 69 mlwydd oed.

**HARDING DOWN**, ucheldir yn yr orynys a elwir Browyr, yn Swydd Forganwg. Y mae olion tra amlwg o hen wersyll milwraidd, ar yr ucheldir hwn.

**HARLECH**, hen dref adfeiliedig, yn mhlwyf Llandanwg, Swydd Feirionydd, tua haner milldir o lan y môr, yn agos i safn yr afon Artro, ger llaw llinell y rheil-ffordd o Aberdyfi a Dolgelleu i Dremadog; 10 milldir i'r Gogledd wrth Orllewin o'r Abermaw. Yr ydoedd gynt yn ben tref Swydd Feirionydd, ond nid yw yn bresenol namyn pentref, yn cynnwys tua 600 o drigolion; er hyny y mae yma westdy da, gorsaf rheil-ffordd, a llythyr-swyddfa dan Gaer yn arfon, eglwys, a thri o addoldai ymneillduol, ysgol waddoledig, a ffeiriau, y rhai a gynhelir Mawrth 4, ac Ebrill 19; Dydd Iau y Drindod, Mehefin 30, Awst 21, Medi 22, Tach. 10, a Rhag. 11. Y mae yr uchrodfa o'r tu ol i'r Gwestdy, a'r uchel-diroedd yn y gymmydogaeth, yn lleoedd o'r rhai y cair golygfeydd di gyffelyb ar fôr a mynydd, yn nghyda holl arfordir Lleyn. Barna rhai ysgrifenwyr, fod yma amddiffynfa gan y Rhufeiniaid, wedi ei chyfodi er amddiffyn yr agorfeydd i'r ddwy forgainc ar y tu gogleddol iddi, a elwid y Traeth Mawr, a'r Traeth Bàch; ac i gadw cymmundeb â'r forlan gyferbyniol; ond, yr unig sail i'r dybiaeth hon, yw y darganfyddiad o ychydig fathodynau Rhufeinaidd, ac eur-dorch, yn y gymmydogaeth. Y mae yn sicr fod yma hên amddiffynfa Brydeinaidd yn foreu, yn myned dan yr enw Tŵr Bronwen, oddiwrth Bronwen, ferch Bran ab Llŷr, fel y bernir; a'r hon wedi hyny a gafodd yr enw Caer Collwyn, am ei bod wedi bod yn drigle i Collwyn ab Tango, pen un o bymtheg llwyth Gwynedd, yn agos i ddiwedd y nawfed ganrif. Yr oedd hwn yn arglwydd Ardudwy, Arfon, a Lleyn, a'i drigle oedd tŵr petrual, yr hwn wedi hyny a ddaeth yn rhan o'r Castell diweddarach; ac y mae ychydig weddillion o hono yn aros eto. Y mae rhai o'r ysgrifenwyr Cymreig, yn dywedyd fod y castell wedi ei sylfaenu mor foreu a'r flwyddyn 530, gan Maelgwyn Gwynedd; ond yr adail bresenol a gyfodwyd gan Edward y Cyntaf, ar adfeilion yr un blaenorol, ac a alwyd "Arlech," oddiar ei sefyllfa ar graig, neu, "Harddlech," y graig dêg: fe'i gorphenwyd cyn y flwyddyn 1283; canys y pryd hyny, yr oedd Hugh de Wlonkeslow yn gwnstabl y castell, a gosgorddlu bychan dano, a chaniatteid iddo gan punt yn y flwyddyn; ond lleihawyd llawer ar y blwydd-dal yn fuan. Yn ystod rhyfel gythryblus Owain Glyndwr yn erbyn Harri IV., cymerodd y pennaeth dewr-wych hwnw feddiant o'r amddiffynfa hon, yn y flwyddyn 1404; ond, fe'i hadfeddianwyd gan y Saeson yn mhen tair blynedd. Yn y flwyddyn 1459, daeth yn nawddle Margaret o Anjou, breninea Harri y Chweched, yr hon a enciliodd i Coventry wedi brwydr anffodus Northampton, ac oddiyno i'r amddiffynfa hon, o'r lle, wedi arhosiad byr, yr ymadawodd i'r Alban, i gymeryd y maes unwaith drachefn

Digitized by Google

yn Ngogledd Lloegr. Ar esgyniad Edward y Pedwerydd i'r orsedd, daeth y pennadur hwnw yn feistr ar yr holl deyrnas yn fuan, oddieithr dwy neu dair o amddiffynfeydd cedyrn yn Northumberland, a chastell Harlech, yr hwn a gedwid gan Dafydd ab Ieuan ab Einion, gwr mawr a grymus o gorpholaeth, a hynod am ei ddewrder; ac un o gefnogwyr mwyaf dïanwadal Tŷ Lancaster. Yn y flwyddyn 1468, anfonodd y brenin Edward, Herbert Iarll Penfro, a byddin gref o wŷr, i geisio cymeryd meddiant o'r amddiffynfa hon; y rhai wedi cyfarfod âg anhawsderau dirfawr ar eu cad-ymdaith trwy wlad fryniog a garw, a warchaeasant ar y castell. Ymddiriedodd yr Iarll ddygiad y gwarchae yn mlaen i'w frawd, Syr Richard Herbert, marchog cyffelyb mewn gallu a dewrder i'r llywydd Cymreig, Dafydd ab Ieuan, yr hwn a wŷsid ganddo i roddi y castell i fynu; ond yr atteb a gafodd ydoedd, ei fod ef (Dafydd), wedi cadw castell yn Ffrainc cyhŷd, nes bod holl hen wragedd Cymru yn son am dano; ac yr amddiffynai efe y castell yma, hyd oni fyddai i holl hen wragedd Ffrainc wneuthur yr un peth. Syr Richard a ganfu fod y lle mor gadarn, a'r amddiffynwyr mor wrol, fel nad oedd un gobaith i'w gymeryd, ond trwy newynu y gwarchod-lu; ac am hyny efe a drefnodd ei fyddin i warchae arno mor ddyfal, fel na allai y gwarchlu gael dim ymborth i fewn; fel y bu raid i'r gwron Cymreig ei roddi i fynu o'r diwedd, neu aberthu bywyd ei holl wŷr trwy newyn; a derbyniwyd ei ymostyngiad ar ammodau anrhydeddus; ac ymrwymai Syr Richard eiriol gyd a'i bennadur am ddïogelwch i'w berson; ond yn hyn yr ydoedd yn aflwyddianus ar y cyntaf, hyd oni ddarfu iddo yn ëofn gynnyg ei fywyd ei hun, a bygwth ail roddi y gwron Cymreig yn ei amddiffynfa anorchfygol, gan hysbysu y Brenin ar yr un pryd, o'r anhawsder i'w chymeryd. Ymddengys trwy hen Ysgrif yn y *Cotton Library*, fod gwarchod-lu castell Harlech, yn gynnwysedig o bedwar ar hugain o wŷr, dan lywyddiaeth cwnstabl, cyflog yr hwn oedd yn haner can punt yn y flwyddyn.

Yn y flwyddyn 1624, gwnaed llawer o niweid i anifeiliaid, a meddiannau ammaethyddol eraill yn y gymmydogaeth hon, trwy ryw darthion drewsawrus dyeithriol, a gyfodai o'r môr; ac yr oedd yr esgob Gibson o'r farn, ei fod wedi cael ei achosi gan fraeniad haid o locustiaid, y rhai a ymwelsant a'r arfordiroedd cymmydogaethol hyn tu a'r pryd hwnw, ac a ddinystriwyd yn ddisymwth gan oerni yr hinsawdd. Yn ystod rhyfel gartrefol yr ail ganrif ar bymtheg, bu y castell hwn o bryd i bryd yn meddiant y naill blaid a'r llall. Syr Hugh Pennant a'i hamddiffynodd yn ddewr-wych dros y brenin, hyd oni chafodd ei adael gan ei wŷr, pan ei rhoddwyd i fynu i fyddin y Senedd: ac wedi hyny drachefn, fe'i meddianwyd gan y breninolwyr, oddiar y rhai ei cymerwyd o'r diwedd gan y Maeslywydd Mytton, yn mis Mawrth, 1647, pan oedd y gwarchod-lu yn gynnwysedig o wyth ar hugain o wŷr, dan lywyddiaeth y Cadben William Owen: dyma y castell olaf yn Nghymru, i ddal allan dros y brenin, fel yr ymddengys hefyd ei fod yn mysg yr olaf o'r rhai a amddiffynwyd dros dŷ Lancaster. Yr oedd yr ochr nesaf i'r môr yn cael ei amddiffyn yn ddigonol gan glogwyni y serth-allt; ond yr ochr nesaf i'r tir a ddiffynid gan ffos ddofn a llydan iawn, ac elid i'r prif borth dros grog-bont; ac fe'i hystlysid â dau dŵr uchel, ac a'i diffynid â thri phorth-gwlas; tra yr oedd yn nhyrau y rhagfuriau, dyllau i fwrw hylif boeth drwyddynt ar ben y gelyn, a thyredau bychain ar eu nen. Y mae yr amddiffynfa yn bedeir-ongl, tua 210 troedfedd bob ffordd, a thŵr crwn ar bob congl; y prif ystafelloedd ydynt dair uchder llofft dda, ar ystlys y fynedfa i'r cyntedd nesaf i fewn; y wledd-ystafell sydd ar yr ystlys gyferbyniol, yn gymhwys oddiar y serth-allt; ac y mae gweddillion capel ar y llaw ddehau i'r cyntedd. Yr ydoedd y wledd-neuadd yn 75 troedfedd o hyd, a deg ar hugain o led; ac fe'i goleuid gan bedair o ffenestri uchel, ar yr ystlys nesaf i'r môr.

Y tyrch aur a grybwyllwyd uchod, a gloddiwyd o ardd gerllaw y castell, yn y flwyddyn 1692, ac y maent yn awr yn meddiant Arglwydd Mostyn, yn mysg cronfa o henafiaethau gwerthfawr eraill: y mae oddeutu pedair troedfedd o hyd, yn gyfansoddedig o bedair o wiail, wedi eu cymhlethu yn hynod o hardd; y mae tua modfedd o gylch-fesur, a phwysa 8 owns. Gwelir rhai hen gof-feini Derwyddol yn y gymmydogaeth, yn mysg pa rai yr oedd tair o Gromlechau, cylchau Derwyddol, &c. Nid oedd y fan hon yn mhell oddiwrth yr hen ffordd Rufeinaidd i Domen y Mur; ac y mae yr amrywiol fathodion Rhufeinaidd, a chreiriau dyddorol eraill a gafwyd yn y gymmydogaeth o bryd i bryd, yn profi nad oedd y llanerch yn ddyeithr i'r genedl enwog hono.

Mewn un hen ysgrif, cawn y rhestr ganlynol o enwau y prif wroniaid oeddynt yn amddiffynwyr castell Harlech yn erbyn William, Iarll Penfro, a'i frawd Syr Rhisiard,—"Dafydd ab Ieuan ab Einion o Faes y Neuadd; Gruffydd Fychan ab Ieuan ab Einion; Siencyn ab Iorwerth ab Einion; Gruffydd ab Ieuan ab Einion; Tomos ab Ieuan ab Einion; John Hanmer; Dafydd ab Ieuan ab Owain o Bowys; Reinallt ab Gruffydd ab Bleddyn, o'r Tŵr, gerllaw y Wyddgrug; Morus ab Dafydd ab Sieffrai; Dafydd ab Einion ab Ieuan, Rymney; Hywel ab Morgan ab Ieuan Goch; Ednyfed ab Morgan; Sion Tudyr, Offeiriad; Gruffydd ab Ieuan ab Hywel Hynaf:—y rhai hyn oll a gyfrifid yn amddiffynwyr gwrolwych.—Y gwyr uchod oeddynt o du Harri VI., o Lancaster, yn erbyn Edward IV., o Gaerefrog." . . .

Gorfu i Dafydd Nanmor, y Bardd, adael ei wlad, a ffoi i Swydd Gaerfyrddin, am ochri gyd a'i gymmydog o Faes y neuadd, am yr hyn y canodd y Cywydd o'r hwn y cymerwyd y llinellau canlynol;—

"Gorfu ym gwewyr o fedd,
Gell y gwin golli Gwynedd;
Deuddeg oll da oedd y gwyr,
A fu arnaf yn farnwyr;
A dynion Edeyrnion deg,
Nid oeddynt yn y deuddeg.
A oes gwlad is gwiail onn,
Gadarnach nag Edeyrnion?
Ni thrig yn ei thiriogaeth,
Un gwys o honi yn gaeth;
Gwedi darfod ym rodiaw,
Gwledydd dro fy Dafydd draw;
Oed yw i mi hyd y mêdd,
Weled unwaith wlad Wynedd;
Od af fyth hyd ei wlad fo,
Er ei fwyn yr af yno:
Nid af i'r wlad, ni'm gadau',
Nag i'r tir mwy nag i'r tan;
Ni chaf oni's pâr Dafydd,
Led y nhroed o'r wlad yn rhydd;

Digitized by Google

Ni's gwn pe's cawn is Conwy,
O Wynedd, na'm hanedd mwy."

Cyfansoddwyd yr Englyn canlynol i Gastell Harlech, gan yr hen fardd, William Phylip;—

"Llŷs Bronwen glaerwen, lawn o glod—ollawl
A Chaer Collwyn hynod;
A Llŷs Llur eglur wiw-glod,
Ni all fyth un o'i well fod."

**HARMON** (St.), plwyf yn nghantref Rhaiadr, Swydd Faesyfed, 4 milldir i'r Gogledd Ogledd Ddwyrain o orsaf rheil-ffordd y Rhaiadr. Y mae yn cynnwys trefgorddau Cenarth, Clasc, a Rhiwwriad; a'i lythyrfa yw y Rhaiadr. Mesura 12,000 o erwau o dir; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 3207*p*. Poblogaeth, 902. Tai annedd, 152. Y mae yr eglwys, yr hon sydd gyssegredig i Sant Harmon, mewn sefyllfa ddifyrus, ar lan yr afon Wy, yr hon sydd yn ysgaru rhyngddo a phlwyf Cwm-toyddwr. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Tŷ Ddewi. Gwerth, 161*p*. Noddwr, esgob Tŷ Ddewi. Y mae lleoedd addoliad perthynol i'r Bedyddwyr, a'r Trefnyddion Calfinaidd, a Wesleyaidd, yn y plwyf; mewn cyssylltiad â pha rai, yn gystal ag â'r Eglwys Sefydledig, y mae Ysgolion Sabbathawl yn cael eu cynnal.

**HARPTON** (Isaf), trefgordd yn mhlwyf Maesyfed Hên, ond o fewn Swydd Henffordd, er ei fod ar derfyn Swydd Faesyfed; 2 filldir i'r Gogledd Orllewin o Kington. Mesura 900 erw o dir. Gwerth ardrethol, 773*p*. Poblogaeth, 85. Tai, 15.

**HARPTON** (Uchaf), trefgordd yn mhlwyfi Maesyfed Hên, Maesyfed Newydd, a Llanfihangel Nant Mellan, Swydd Faesyfed; yn agos i ffin Swydd Henffordd; 3½ milldir i'r Gogledd Orllewin o Dref y Clawdd (*Kington*). Gwerth ardrethol, 3212*p*. Poblogaeth, 186. Tai, 35. Hen enw Cymraeg y lle, yw Tref y Delyn.

**HARRI** ab Rhys ab Gwilym, bardd, oedd yn ei flodau tua 1530. Y mae amryw o'i gyfansoddiadau ar gael mewn llaw-ysgrifen.

**HARRI** y Garreg Lwyd, bardd, yr hwn a ysgrifenodd rhwng 1450 a 1490; yr oedd ef yn bresenol yn Ngorsedd Morganwg, yn y flwyddyn 1470.

**HARRI** (Cydweli), neu, "Meistr Harri," periglor Llandyfaelog. Yr oedd Harri yn fardd lled enwog yn ei ddydd. Yr oedd yn byw yn nghylch y blyneddoedd 1400 i 1430.

**HARRI DDU**, difeinydd a bardd, yr hwn a ysgrifenai rhwng 1560 ac 1600.

**HARRI HIR**, bardd, yr hwn a ysgrifenodd rhwng 1450 a 1480. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau yn nghadw mewn llaw ysgrifen.

**HARRIS**, Howel, yr ieuangaf o dri o frodyr, a ymenwogasant bob un yn eu gwahanol alwedigaethau, a anwyd yn Nhrefecca, yn mhlwyf Talgarth, Swydd Frycheiniog, Ionawr 23ain, 1714—yr un flwyddyn ag y ganed Whitfield, a'r flwyddyn ganlynol i'r hon y ganed Daniel Rowlands—y tri "diwygiwr," a thri o gawri a fu wyr enwog gynt. Hwynt-hwy, ynghydâ John Wesley, oeddynt brif offerynau un o'r diwygiadau crefyddol pwysicaf a fwynhaodd Prydain Fawr erïoed. Yr oedd tad Howel Harris yn dyddynwr cyfrifol yn Nhrefecca, ac efe a fwriadai ddwyn ei fab ieuangaf hwn i fynu i'r offeiriadaeth yn yr Eglwys Sefydledig; ac er ei barottoi i hyny, cafodd bob manteision addysg o fewn ei gyrhaedd. Ond, pan oedd efe yn ddeunaw mlwydd oed, bu farw ei dad, yr hyn a ddygodd gwmmwl ar ei rag-olygon; ac o dan yr amgylchiadau hyn, efe a agorodd ysgol i blant y gymmydogaeth. Nid oedd efe ond llanc gwyllt ac anystyriol y pryd hyn; ond wrth wrando cynghorion difrifol yr offeiriad yn eglwys Talgarth, wythnos cyn y Pasc, ac wrth dderbyn Swper yr Arglwydd ar Sul y Pasc, taflwyd saethau argyhoeddiadau i'w galon, a barasant drallod dirfawr i'w feddwl. Dyma y pryd y derbyniodd y wreichionen o dân nefol, a chwythwyd yn wenfflam angerddol dros holl Siroedd Cymru, ac a gynnyrchodd y Diwygiad a roddodd fod a ffurf i Gyfundeb y Methodistiaid, ac a fu yn foddion i adfywio crefydd yn mysg pob enwad yn y Dywysogaeth. Yn mhen ychydig ddyddiau, neu wythnosau, tawelodd ei feddwl terfysglyd i fesur helaeth; ond ail agorwyd ei archollion drachefn, trwy ddarllen traethawd Bryan Dupha, ar y Gorchymynion, a rhai llyfrau eraill, ac ymdrechodd yn egnïol eto i'w wellau ei hun, ond eto heb adnabod yr Arglwydd, na gwybod yn brofiadol am y ffynnon a agorwyd i bechod ac aflendid; ond un diwrnod, pan yn ceisio gweddïo, teimlodd ddymuniad cryf i'w roddi ei hun i'r Arglwydd fel yr oedd, a'i ddewis ef yn rhan dragywyddol. Ac ar y Sulgwyn, Mai 25ain, 1735, efe a aeth i gyfranogi o Swper yr Arglwydd, yn drwm-lwythog a blinderog ei ysbryd; ond ar yr achlysur yma cafodd ddatguddiad neillduol i'w feddwl o Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio, fel Iachawdwr holl ddigonol iddo ef; ac yn yr olwg arno, llanwyd ei enaid â llawenydd annrhaethadwy a gogoneddus, dan ddylanwad yr hyn y collodd bob chwant am barch a dyrchafiad bydol; ac ymddangosai y byd ysbrydol a phethau tragywyddol, yn wahanol iddo i ddim a brofasai efe o'r blaen; ac ni allai lai na dywedyd i eraill ar y ffordd wrth fyned adref, ei fod yn gwybod fod ei bechodau wedi eu maddeu. Yn y cyfamser, efe a ymroddodd lawer i ympryd a gweddi, rhag ofn colli y profiadau hyfryd hyn. Llyncwyd ei feddwl i fynu gan y pethau hyn, a theimlai duedd i ymneillduo o gymdeithas pawb: ac mewn cyfeiriad at yr adeg yma, dywedai, "Gwerthais yr hyn oll a feddwn a rhoddais i'r tlodion; ac yn mysg pethau eraill, y cyfryw ddillad ag a farnwn yn anweddus i Gristion. Gwelais mai peth ofnadwy oedd peidio cymeryd Duw ar ei air yn ol y gair hwnw, 'A phob un ar a adawo dai, &c., er mwyn fy enw i, a dderbyn y can cymaint, a bywyd tragywyddol a ettifedda efe.' Ar yr addewid hon, gorchymynais fy nghorph a'm henaid i'w ofal am byth." Y pryd hwn efe a ddechreuodd gynal addoliad teuluaidd yn nhy ei fam, ac arferai llawer o'r cymmydogion gyrchu yno i'w wrando; a llefarai yn ddifrifol wrthynt, am angeu, y farn, a thragywyddoldeb. Yr oedd tân Duw yn llosgi yn ei enaid, ac ni's gallai orphwys na dydd na nos, heb ymdrechu gwneuthur rhywbeth dros ei Dduw a'i Iachawdwr.

Ymddengys ei fod ef eto yn awyddus i fyned i'r weinidogaeth yn yr Eglwys Sefydledig; ac yn mis Tachwedd, 1735, trwy gymhorth cyfeillion, efe a aeth i Rydychain. Yr oedd ei hen gyfeillion yn gobeithio y buasai yno yn ymadael a'i wallgofrwydd crefyddol, fel ei galwent; ond yr oedd dwyster ei argyhoeddiad yn gyfryw, fel na's gallai ei feddwl ymlonyddu i fyned yn mlaen gyd a'i efrydiau, ac ni allai fwynhau, na goddef cymdeithas ei gyd efrydwyr anystyriol; felly, wedi aros yno un tymhor,

Digitized by Google

dychwelodd at ei gyfeillion anwyl yn Nghymru, heb un bwriad i fyned yn ol mwyach. Yr oedd hyn yn gryn aberth iddo ef hefyd: canys yr oedd ganddo olwg ar gael ei apwyntio yn ben athraw ar ysgol fawr, ac wedi cael addewidion am ddyrchafiad yn yr eglwys, a ddygai i mewn iddo yn flyneddol y swm o 140 o bunnau, ond iddo aros dros yr amser gofynol yn y brif ysgol. Wedi ei ddychwelyd o Rydychain, efe a ymroddodd i fyned o dŷ i dŷ yn ei blwyf cymmydogol, i gynghori pechaduriaid, a'u cyfarwyddo i wneyd derbyniad o'r Arglwydd Iesu, fel Ceidwad digonol i'r penaf o bechaduriaid; ac yn raddol gwnaeth yr un peth mewn plwyfau eraill yn y gymmydogaeth. Llithrodd yr arferiad yma, braidd yn ddiarwybod iddo ei hun,—ac yn ddïau yn ddi fwriad,—i ryw fath o bregethu; ac ymdyrai y bobl yn dorfeydd i'w gyfarfod yn y tai y byddai yn ymweled a hwy, fel y daeth y tai yn rhŷ gyfyng i'w cynnwys; ac yr oedd y fath ddylanwad yn dylyn ei ymadroddion, fel y gwaeddai llawer allan dan argyhoeddiad o druenusrwydd eu cyflwr, a gwelid effeithiau daionus yn dylyn ei lafur; a sefydlwyd addoliad teuluaidd mewn llawer o deuluoedd oeddynt o'r blaen yn ddi weddi, ac anystyriol: ond, yr oedd hyn yn fwy nag a allai y dïafol a'i deulu ei oddef; ac felly cyfodwyd gwrthwynebiad mawr iddo, trwy wawd, dirmyg, a bygythion; er hyny efe a aeth rhagddo yn lled ddirwystr hyd ddiwedd y flwyddyn 1736, pan, ar ddymuniad lleweroedd, y cododd efe ysgol yn Nhrefecca, yr hon yn fuan a symmudwyd i eglwys y plwyf, yr hyn a roddai gyfleusdra iddo i hyfforddi llawer o bobl ieuainc yn ffordd iachawdwriaeth. Yn niwedd yr un flwyddyn, dygwyddodd fod dyn yn myned trwy yr ardaloedd i ddysgu y bobl ieuainc i ganu Salmau; a chan fod cyrchu mawr ato gan yr ieuenctyd, gwelodd Harris fod yma gyfleusdra manteisiol i wneyd daioni, ac aeth gyd ag ef yn ei deithiau, a chan gynted ag y gorphenai y gwr hwnw â'i wersi, rhoddai yntau air o gynghor iddynt, yr hyn a ddylynwyd gan effeithiau daionus. Tu a'r amser yma y dechreuodd efe sefydlu y cymdeithasau neillduol, a elwir y "*Societies*," yn ol cynllun a welsai efe mewn llyfr o'r eiddo Dr. Woodward—y rhai sydd o hyny hyd yn awr wedi eu profi yn dra bendithiol i achos crefydd yn Nghymru.

O'r flwyddyn 1736 y dyddir dechreuad ei bregethu; ac yn nechreu yr haf yn y flwyddyn 1737, anfonodd rhyw foneddwr o Sir Faesyfed am dano i'w dŷ i bregethu, yr hyn a gynhyrfodd lawer o oreuon y wlad i ddyfod i'w wrando; a chafodd gymeradwyaeth nid bychan ganddynt. Hyd yn hyn yr oedd yn parhau i gadw yr ysgol; ond yn cynghori y nosweithiau, y Sabbothau, a'r Gwyliau; a'r sôn am ei ddoniau a'i ddylanwad a ymledai yn mhell ac yn agos, a chan fod ei awyddfryd am wneuthur daioni i'w gyd-ddynion fel tân angerddol yn ei fynwes, efe a elai dros derfynau ei blwyf, a'i Sir, i ba le bynag yr agorid drws iddo, er nad oedd wedi ei awdurdodi i bregethu, gan nac Esgob, na Chymmanfa, na neb arall ond yr Ysbryd a dderbyniodd oddi uchod. Ar y cyntaf, nid ydoedd yn ymwybodol ei fod yn gwneyd dim allan o'i le, a dymunai yn fawr ymgadw mewn heddwch â'r Eglwys Sefydledig, er ei fod yn myned ar ei gyfer ar draws ei rheolau. Diwedd y flwyddyn hono bwriwyd ef allan o fod yn athraw ysgol yn eglwys y plwyf; a'r offeiriad a ysgrifenai lythyrau, yn bygwth yr Esgob a chyfraith arno; ac amryw o offeiriaid a bregethent yn ei erbyn ef yn lle yn erbyn pechod, gan ei ddynodi fel twyllwr a gau brophwyd. Parodd hyny ofid mawr i'w feddwl, oblegid nad oedd dim pellach o'i fwriad ef na ffurfio sect newydd, neu draws ymwthio i'r weinidogaeth, er hyny ni's gallai ymattal yn hwy. Angenrhaid a osodwyd arno. Yr oedd edrych ar annuwioldeb y byd, a chysgadrwydd yr eglwysi o'i amgylch, yn tanio ei enaid yn fflam angerddol. Nid oedd yr amser hwnw yn arfer pregethu oddiwrth un testun neillduol; ond yn traddodi yr hyn a roddai yr Arglwydd iddo, i'r bobl; a hyny yn fynychaf, mewn ffordd daranllyd ac effeithiol iawn. Dygai ystorm ddychrynllyd o fellt a tharanau am ben y gwrandawyr, ac ysgydwai hwynt uwch ben uffern, nes y byddent yn gwelwi ac yn gwaeddi. Elai allan i'r rhedegfeydd, y ffeiriau, y gwylmabsantau, a chyfarfodydd llygredig y wlad, gan rybuddio y lluaws i ffoi rhag y llid a fydd. Esgynai yn ddyn mawr, cadarn, a golygus, i ben y clawdd, neu y twmpath; a dechreuai dywallt ffrydlif o hyawdledd byw ar ben y bobl, heb destyn na rhagymadrodd, fynychaf. Trwy ganol dwndwr a therfysg erlidwyr, a chawodydd o gerrig, tyweirch, a llaid, llefarai wrth dorfeydd mawrion, nes y byddent yn gwelwi gan ddychryn, a'u calonau yn pallu o'u mewn gan ofn damnedigaeth.

Yn y flwyddyn 1738, a'r flwyddyn ganlynol, daeth Harris i gydnabyddiaeth â Rowlands a Whitfield: a deallodd eu bod hwythau wedi derbyn yr unrhyw Ysbryd, yn llafurio yn yr un gwaith, ac yn cyfarfod a'r cyffelyb wrthwynebiadau. Rhoddai Whitfield y gymeradwyaeth uchaf i'w lafur, er ei fod yn ddi urddau, ac annogai ef yn y modd taeraf i fyned rhagddo yn ei lafur.

Yn y flwyddyn 1739, pan oedd ef yn pregethu yn agos i'r Cemmaes, Swydd Drefaldwyn, daeth marchog y Sir, offeiriad y plwyf, dau hedd-ynad, a hedd-geidwad gyda hwynt, gyd a'r bwriad o'i gymeryd i ddalfa, ac yn eu dylyn dorf o'r werin anwybodus a therfysglyd: ond wedi ei ddwrdio a'i faeddu, hwy a'i gollyngasant yn rhydd. Wedi hyn efe a aeth yn mlaen i Sir Feirionydd, a bu ei lafur yn dra bendithiol i rai yn y Sir hono, ar ei ymweliad cyntaf hwn â Gogledd Cymru. Ar ei ddychweliad, pregethodd yn Ninas Mawddwy, ac aeth yn mlaen i Fachynlleth, lle y ceisiodd bregethu; ond gorfu arno roddi heibio yn fuan, gan swn y dorf, yn bloeddio, yn tyngu a rhegu, a chan eu terfysg yn lluchio cerrig, neu y peth cyntaf y caent afael arno. Yn eu mysg, daeth rhyw gyfreithiwr ato, yn llawn cynddaredd ddigofus, gan ddefnyddio iaith uffernol i'r eithaf, a boneddwr arall, ac offeiriad y dref, yn amlygu yr un ysbryd, ac yn arfer y cyffelyb iaith, a flaenorent y werin derfysglyd. Efe a aeth i'w canol, heb ddysgwyl cael dyfod o'u plith yn fyw: ond yr Arglwydd a'i gwaredodd o'u dwylaw gwaedlyd. Ceisiodd rhyw un ei geffyl iddo, ac wedi iddo ei farchogaeth, a myned ymaith, sylwodd rhai o'r erlidwyr pa ffordd yr oedd yn myned, a thorasant gyfarfod iddo drachefn, gan luchio coed a cheryg ato; ond dïangodd o'u gafael heb dderbyn nemawr o niwed.

O Sir Drefaldwyn, efe a aeth trwy Siroedd y Deheudir i Gaerdydd, lle y cafodd ei loni yn fawr trwy gyfarfod a Whitfield, ar ei ddychweliad o'i fordaith gyntaf i'r Amerig. Ddiwedd mis Mawrth, 1739, efe a aeth i Gaerludd, ac wedi cael llawer o adeiladaeth, ac adnewyddiad i'w ysbryd yn nghymdeithas gwŷr da o gyffelyb feddwl iddo ei hunan yn

Digitized by Google

y brif ddinas, efe a ddychwelodd yn ol i Drefecca. Wedi hyny aeth trwy Sir Henffordd, gan bregethu i'r tyrfaoedd a ganfu wrth eu chwareuyddiaethau ar y ffordd, mewn Gwylmabsant. Cyfeiriodd ei ymadrodd yn hyf at offeiriad y plwyf, a dau hedd-ynad oeddynt yn bresenol; gan ofyn iddynt pa fodd y rhoddent gyfrif am eu goruchwyliaeth, gan eu bod fel hyn yn annog yn mlaen bob oferedd ac anfoesoldeb. Rhai o'r boneddigion a'i dirmygasant, gan waeddi, "Tynwch y bragaldiwr i lawr." Ond efe a ddiangodd y tro hwn hefyd heb ddim niwed. Efe a aeth oddiyno i bregethu i Abergafenni, a Phont y pŵl; ac yn y lle olaf, cymerwyd ef i fynu gan ynad yr heddwch, a gorfu arno roddi meichiau i atteb y brawdlys yn Mynwy, yn y mis Awst canlynol. Yn y cyfamser, bu yn ddiwyd iawn yn teithio a phregethu yn Nghaerodor, a Chaerbaddon, ac oddiyno trwy holl Siroedd y Deheudir. Erbyn ei ddyfod i Fynwy ar yr amser gosodedig, daeth amryw gyfeillion o Gaerludd, Caerloyw, &c., i ymddangos o'i blaid, ac wedi i'r barnwyr ymgynghori a'u gilydd, hwy a'i gollyngasant ef yn rhydd. O Drefynwy, efe a aeth yr ail waith y flwyddyn hono, drwy Siroedd y Deheudir.

Yn haf y flwyddyn 1740, cyfarfu a Mr. Seward, pregethwr teithiol, yn y Bont-faen, Sir Forganwg; a hwy a aethant gyd a'u gilydd i Gaerdydd, y Cas Newydd, Caerlleon ar Wysg, Bryn byga, a Thre Fynwy. Yn y Cas Newydd, ymosodwyd arnynt yn ffyrnig gan y werin derfysglyd, y rhai a rwygasant ddillad Mr. Harris am dano, ac a ddygasant ei ffug-wallt (*periwig*), gan ei adael yn ben noeth yn y gwlaw; ond efe a barhaodd i lefaru wrthynt hyd ag y cafodd hamdden; eithr y terfysgwyr a ymroisant i floeddio, a lluchio ceryg; a tharawyd ef yn ei dalcen, nes yr oedd ei waed yn llifo. Fel yr oeddynt yn pregethu yn ymyl y farchnadfa yn Nghaerlleon ar Wysg, cafodd Mr. Seward ergyd ar ei lygad, yr hyn a barodd iddo boen mawr am lawer o ddyddiau; ac yn y diwedd, collodd ddefnydd y llygad hwnw yn hollol: a'r un modd, cawsant anmharch lawer yn Nhrefynwy hefyd; ond fe'u nerthwyd yn rhyfedd yn nghanol pob terfysgoedd a rhyfeloedd. Oddiyno hwy a aethant i Colford, a Chaerloyw. Yr oeddynt yn y lle olaf ar y Sabbath, a Mr. Harris yn ol ei arfer pan gaffai gyfleusdra, a aeth i'r Eglwys (St. Nicholas), i gyfranogi o Swper yr Arglwydd. O Gaerloyw, efe a aeth tua Sir Faesyfed, lle y cymerwyd ef i fynu, pan yn pregethu mewn Gwylmabsant; ac efe a roddodd feichiau, i ymddangos yn y brawdlys tri-misol: ond ymddangosodd rhyw foneddwr o'i blaid, yr hwn a roddasai far-gyfreithiwr ar waith i ddadleu drosto, a'r canlyniad fu, iddo gael ei ryddhau. Bwriedid dwyn ei einioes y tro hwn, trwy ei fwrw i lawr bendramwnwgl oddiar risiau y Dadleudy; ond achubwyd ef gan un o brif Swyddogion y brawdlys. Wedi hyny efe a gafodd lonydd yn holl Siroedd y Deheudir, fel yr agorwyd drws helaeth o'i flaen, i lafurio yn ddirwystr.

Yn nechreu y flwyddyn 1741, efe a aeth i'r Gogledd drachefn; ac ar yr ymweliad hwn y cafodd efe yr anmharch mawr yn y Bala. Oddiyno, efe a aeth rhagddo i Sir Gaer yn arfon; a chyrhaeddodd i Bwllheli ar nos Sadwrn. Boreu Sabbath efe a ofynodd pa le yr oedd y pregethwr goreu i'w gael yn yr Eglwys yn y parthau hyny? Dywedwyd wrtho fod y Canghellwr yn pregethu o fewn dwy filldir neu dair oddi yno. Aeth yno, a chlywodd bregeth ryfedd am dano ei hun. Yr oedd y Canghellwr wedi cael hysbysiad ei fod ar fedr dyfod i Siroedd y Gogledd; ac wedi cymeryd achlysur ar hyny i rybuddio ei wrandawyr yn mlaenllaw rhag ei ddyfod i'r parthau hyny. Yn y lle cyntaf, dynododd ef allan fel cennad dros Satan, a gelyn Duw, a'r Eglwys, a holl ddynolryw. Darluniodd ef mewn amryw ystyriaethau yn *waeth* na'r diafol, yn un peth, am na's gall y diafol weithredu ond drwy offerynau. Galwodd ef yn weinidog dros y cythraul, yn dwyllwr, yn gau brophwyd, ac yn llawer gwaeth nag un anghenfil o heretic; ie, na'r diafol ei hunan. Dangosodd yn mhellach, ei bod yn ddyledswydd arnynt, o gariad at Dduw, eu heglwys, a'u gwlad, i gyd uno o lwyrfryd calon yn erbyn y cyfryw ddyn ofnadwy, yr hwn a ddinystriai, nid yn unig eu personau a'u meddiannau, ond hefyd eu heneidiau anfarwol yn oes oesoedd, &c. Nid oedd y Canghellwr na'i wrandawyr yn gwybod fod Mr. Harris yn bresenol. Wedi eu dyfod allan o'r eglwys, efe a aeth at y Gweinidog, i ymddiddan ag ef yn nghylch gosod i fynu ysgolion Cymreig yn y Sir hono, ac hefyd i achwyn ar ei bregeth. Y bobl a ddychymygasant yn fuan mai efe oedd y gwr y cyfeiriasai y Cangellwr ato, ac a gyfleasant eu hunain mewn trefn ar y ffordd, gyd a'r bwriad o gymeryd ei geffyl oddi arno, a'i luchio yntau â cheryg: ond, er iddynt daflu yn egnïol lawer o geryg ato, efe a ddiangodd heb lawer o niwed; a daeth yn ol i Ben morfa; ond tra yr oedd yn aros i gael myned trwy y traeth, yr erlidwyr a gyffroisant i'w erbyn, ac a'i hanmharchasant yn fawr; ond ni oddefwyd iddynt wneuthur nemawr niwed iddo; ac yn fuan efe a gafodd ddihangfa, ac aeth trosodd i'r Bermo, ac oddiyno i Fachynlleth, lle y bu mewn perygl am ei einioes drachefn. Bu yr wythnos hon y tymhor mwyaf peryglus iddo yn ei holl fywyd.

Y mae y diweddar Mr. Robert Jones o Ros y lan, yn dywedyd mai yn Nglasfryn Fawr y pregethodd Mr. Harris y tro cyntaf yn Sir Gaer yn arfon ar y daith hon. Nid oes genym hanes iddo gael cyfle i ddweyd dim dros Iesu Grist yn gyhoeddus, o'r Bala hyd oni chyrhaeddodd dŷ William Pritchard: a chyd a'i fod yn dechreu pregethu yno, daeth offeiriad y plwyf i'r lle, a haid o oferwyr gwamal yn fraich iddo; a'r offeiriad a ruthrodd yn mlaen at y pregethwr, yr hwn wrth weled terfysg yn dechreu, a roes heibio bregethu, ac a aeth ar ei liniau i weddïo; a'r offeiriad yntau, er mwyn lluddias i neb ei glywed, a roddodd ei law ar ei enau. Cyfododd Mr. Harris oddiar ei liniau, a dywedodd;—

"Pa beth?—a rwystrwch chwi ddyn i weddïo ar Dduw? Byddaf yn dŷst yn eich erbyn am hyn yn y farn."

"Byddaf fi yn dŷst yn dy erbyn di y burgyn budr," ebe'r offeiriad, "am fyned ar hyd y wlad i dwyllo y bobl."

Ar hyny, galwodd yn groch ar un o'i ffyddlon ganlynwyr i ddyfod yn mlaen. Ond sefyll draw yr ydoedd; ac wrth eu clywed yn son am y farn, efe a ddywedodd;—

"A glywch chwi, a glywch chwi ar y gwyr! Ni wn pa un ffolaf o honoch eich dau. Ni feiddia un o honoch ddweyd gair yno."

Ar hyn, troes gwr y ty yr offeiriad allan, a chauodd y drws ar ei ol. Cynnygiodd Mr. Harris bregethu eilwaith, wedi llonyddu y cythrwfl; ond ni chafodd nemawr o rwyddineb, am fod ei feddwl wedi cyffroi.

Digitized by Google

Y lle nesaf y pregethodd, ydoedd Ty'n Llanfihangel, gerllaw Rhyd y Clafdy. Trwy fod son ar hyd y wlad mai gwr a welsai weledigaeth ydoedd, yr oedd tyrfa fawr wedi ymgasglu i wrando arno,—gan y rhoddid coel fawr, a gwrandawiad astud i ddychymygion ffol, dan y rhith o weledigaethau. Yn mysg eraill, daeth yno foneddwr gelynol iawn, gan lawn fwriadu saethu y Pregethwr; ond gan na ddaeth y gwr dyeithr at ei amser yn fanwl, blinodd y gwr boneddig yn dysgwyl, ac aeth adref i'w giniaw. Prysurwyd ef i ffordd gan wanc ei gylla, a denwyd ef ymaith gan arogl danteithion, a gwnaed hyny yn achlysur gwaredigaeth i Harris, ac yn foddion iachawdwriaeth i bechaduriaid. Yn fuan wedi i'r boneddwr droi ei gefn, wele Harris yn y fan. Safodd wrth ochr y ty, a chafodd rwyddineb annghyffredin i lefaru. Disgynai ei eiriau fel tân ar gydwybodau ei wrandawyr. Cerddai grym Dwyfol gyd a'r ymadroddion, nes oedd dynion caledion a chryfion yn methu sefyll ar eu traed, ond syrthio mewn llewygfeydd ar y ddaear; ac wrth fyned i'w cartrefi, llefent ac wylent ar hyd y ffordd, fel pe buasai dydd Duw gerllaw.

Y dydd canlynol pregethodd yn y Tywyn, yn agos i Tydweiliog. Arddelwodd Duw yr oedfa hon hefyd mewn modd hynod; a chafodd llawer yno eu gwir ddychwelyd, y rhai a fuant wedi hyny yn addurn i'w proffes, ac yn ddefnyddiol yn eu hoes. Un o'r rhai a ddychwelwyd y pryd hyny, oedd John Gruffydd Ellis; am yr hwn y dywedir fod rhyw bethau yn ei weinidogaeth yn rhagori ar bawb o'i gyfoeswyr. Byddai awelon nerthol yn fynych yn dylyn ei bregethau. Sonir yn neillduol am bregeth o'r eiddo yn Nghymdeithasfa y Bala, ar Zech. xiii. 7, "Deffro, gleddyf, yn erbyn fy Mugail, &c.," dan yr hon y disgynodd rhyw dywalltiadau anarferol ar y gynnulleidfa, megis cwmmwl yn ymdori, a dywedir iddo yntau ei hun lesmeirio dan rym y tywalltiad.

Dan yr un bregeth o eiddo Mr. Harris y cafodd un o ferched y Tyddyn Mawr ei galw, yr hon wedi hyny a briododd Jenkin Morgan, yr Ysgol-feistr, yr hwn a fu o wasanaeth mawr i wir grefydd mewn amryw barthau o Wynedd, ar ddechreu y Diwygiad Methodistaidd. Yr oedd i'r ferch uchod dair o chwïorydd, y rhai a alwyd trwy yr efengyl cyn hir o amser ar ol eu chwaer; a bu y Tyddyn Mawr yn "lletty fforddolion," ac yn nawddle clŷd i lawer pererin lluddedig mewn adeg yr oedd awelon ffyrnig o erlidigaeth yn pwyso arnynt yn drwm.

Dwy waith ar ol hyn y pregethodd Mr. Harris yn ystod y daith hon yn Sir Gaer yn arfon—unwaith yn Rhydolion, ac unwaith yn Mhortinlleyn; a dychwelodd yn ol trwy Abermaw a Machynlleth.

Yr haf canlynol cafodd ei alw i Lundain, aeth trwy Gaerodor, ac yn Swydd Wilts, cyfarfu â Mr. Cennick, gwr duwiol, a phregethwr enwog, yn perthyn i'r Tabernacl, Llundain. Yn Swindon, tref farchnad yn y Sir hono, cafodd lawer iawn o anmharch; ond wedi cyrhaedd y brif ddinas, cafodd amgeledd a chysur yn nghyfeillach rhai o'r bobl dduwiolaf yn yr oes hono. Wedi aros rai misoedd yn y brif ddinas, efe a ddychwelodd trwy amryw o drefydd Lloegr i Gaerodor, ac oddiyno i Gymru, yn y flwyddyn 1742.

Yn y blyneddoedd canlynol, cymerodd cyfnewidiad mawr le yn ngweinidogaeth Mr. Harris; cyfeiriai ei bregethau yn fwy at y crefyddol, yn hytrach na'r byd llwyr ddyeithr i grefydd. Yr ydoedd Mr. Harris yn ŵr o dymher led boethlyd, a phan y cymerai ryw synied i fynu, efe a'i dylynai gyda llawer o fywiogrwydd; ac felly y bu tu a'r adeg yma, gyda golwg ar Dduwdod a marwolaeth Crist, yr hyn a arweiniodd i ddadl frwd, a barodd fwy o niwed nag o les i wir grefydd yn y wlad, gan achlysuro ymraniad rhwng Harris a Rowlands. Mor gynnar a'r flwyddyn 1745, dechreuodd oerfelgarwch fagu rhwng Harris a Rowlands. Dylid cofio eu bod hwy yn ddau brif gychwynwyr y Diwygiad, mewn dau barth gwahanol o'r wlad, a'r naill yn hollol annibynol ar y llall: ac er fod gweinidogaeth a llafur y ddau yn hynod o rymus a bendithiol, yr oedd eu cyssylltiad â'r weinidogaeth yn dra gwahanol. Yr ydoedd Rowlands wedi cael ei urddo yn rheolaidd i'r weinidogaeth, yn yr Eglwys Sefydledig, tra nad oedd Harris ond lleygwr, wedi ymaflyd yn y gwaith o hono ei hun,

———"Heb arddodiad
Dwylaw dynion o un rhyw,
Na chael cennad gan un Esgob."

Ond, yr oedd wedi teithio a dyoddef mwy na Rowlands, a maes ei lafur wedi bod yn llawer ehangach. Pan ddechreuodd Cyfundeb newydd ymffurfio, pan ddaeth achosion pwysig i gael eu barnu, a Chymmanfa i'w llywodraethu, nid oedd yn beth rhyfedd i ryw radd o deimlad eiddigus a drwg-dybus gael ei fagu rhwng dau yn y cyfryw sefyllfa. Ac yn chwanegol at hyn, dywedai Harris ei fod wedi derbyn datguddiad neillduol o fawredd a gogoniant person y Cyfryngwr; a dechreuai ddefnyddio geiriau mwy cryfion nag arfer, megys, "Duw yn dyoddef,"—"Duw yn marw," &c. Cyfododd rhai i'w wrthwynebu, gan gondemnio y defnyddiad o'r cyfryw froddegau, ac yn mysg y cyfryw, efallai mai y blaenaf, a'r galluocaf oedd Rowlands, yr hyn a barodd i Harris ffromi yn fawr. Yn yr ymryson yma, pleidiodd rhai Harris, a throdd eraill gyda Rowlands yn ei erbyn: a'r diwedd fu, mewn Cymmanfa yn Llanidloes, yn 1751, ymraniad hollol y ddwy blaid, ac enciliad Harris i Drefecca—i'r hwn le y cyfyngodd y rhan fwyaf o lafur gweddill ei oes.

Mehefin 18, 1744, priododd Mr. Harris âg Ann, merch John Williams, Ysw., o Scrin;—merch syml, dduwiol ydoedd, wedi ei galw trwy ras dan weinidogaeth Mr. Harris. Wedi treulio chwe blynedd ar hugain yn gysurus gyd a'u gilydd, hi a fu farw yn y flwyddyn 1770. Llafuriodd Mr. Harris yn galed, gan deithio yn ddyfal dros ddwy flynedd ar bymtheg trwy Gymru a Lloegr, a chyfarfod a gwrthwynebiadau cryfion, a dyoddef erlidigaethau llymion yn ddi rwynach: a thrwy y cyfan, efe a gynhaliwyd gan yr Arglwydd yn rhyfedd; ond, yn y canlyniad i'r ddadl a grybwyllwyd uchod, rhoddodd Harris i fynu deithio i raddau mawr, ac yn y flwyddyn 1752, dechreuodd gyfodi adeilad fawr yn Nhrefecca, i fod yn fath o nawdd-dy i Gristionogion erlidiedig. Mae yn debyg iddo gael y drych-feddwl am y cyfryw Sefydliad, oddiwrth adeilad gyffelyb a gyfodasid rai blyneddoedd cyn hyny, gan un Frank, yn Germany, ac wedi hyny, gan ei gyfaill Whitfield yn Georgia, America; a bwriadai ef hefyd i fod yn lle pregethu iddo ei hun am weddill ei oes. Yr oedd yr holl eglwysi yn gauedig yn ei erbyn ef, am na dderbyniasai urddau esgobol, er fod ei deulu yn mynychu yr eglwys yn gysson, ac yntau yn cymmuno ynddi hyd ddiwedd ei oes; ac yr oedd wedi treulio y ddwy flynedd ar bymtheg flaenorol o'i oes

Digitized by Google

i bregethu mewn annedd-dai, ysguboriau, a'r awyr agored. Dechreuodd ar yr anturiaeth bwysig heb un geiniog o arian ganddo ar ei gyfer, ond ymddiried yn gwbl yn Rhagluniaeth y nefoedd; a chredai fod yr un Ysbryd ag a'i cynhyrfodd i bregethu, yn ei gymhell hefyd i ymgymeryd â'r gorchwyl hwn.

Cwblhawyd yr adeilad yn 1753; ac yn y flwyddyn ganlynol, yr oedd teulu Trefecca yn gant o nifer, a'u holl ofal tymhorol ac ysbrydol, ar Howel Harris, yr hwn nad oedd eto onid deugain mlwydd oed. Ymwelai â hwynt dair gwaith yn y dydd, i bregethu, gweddïo, a chynghori; ac yr oedd ei lafur, a'i bryder yn annysgrifiadwy. Bu "y teulu" ar un adeg, yn rhifo cymaint a naw ugain; ac nid oedd ganddo yntau ddim at eu cynnal, ond ymddiried yn gwbl ar addewid Duw am fodd i'w cynnal; ac anfonid arian iddo wrth yr ugeiniau o bunnau, oddiwrth rai o bell ac agos, a llawer o honynt, na's gwyddai o ba le y deuent. Efe a ddywedai fod yr holl "deulu" yn rhai hynod o dduwiolfrydig, a bod y lle yn fath o baradwys ysbrydol.

Yn y flwyddyn 1760, pan yr oedd galwad am filwyr i amddiffyn y wlad rhag y perygl a fygythid oddiwrth y Ffrancod, perswadiwyd meddwl Harris fod yr Ysbryd oedd wedi ei anfon ef i bregethu, yn awr yn ei anfon i amddiffyn crefydd a rhyddid ei wlad, ac i aberthu ei fywyd, os byddai raid, yn yr achos: felly, efe a ymunodd â'r *militia*, gan ddwyn pedwar ar hugain o'i "deulu" o Drefecca gydag ef; a chynhaliai ddeuddeg o honynt ar ei draul ei hun. Rhoddwyd swydd llumanwr (*ensign*), iddo ar y cyntaf; ond wedi hyny, gwnaed ef yn gadben. Bu allan dair blynedd, gan deithio o dref i dref yn Lloegr; a defnyddio pob cyfleusdra a gai i bregethu yr efengyl i'r bobl. Yna, dychwelodd ef a'i wŷr i Drefecca. Yr oedd yr enwog Iarlles Huntingdon wedi ymgydnabod â Harris er's blyneddoedd bellach; ac yr oeddynt yn gyfeillion mawr. Daeth i fryd y bendefiges rasol hono, gyfodi athrofa i addysgu a chymhwyso gwŷr ieuainc i'r weinidogaeth; a phennodwyd ar gymmydogaeth Trefecca, fel y fangre fwyaf iachus a chyfleus at hyny; ac y mae yn ddïau ei bod yn arfaethu cael cynnorthwy pwysig gan Harris yn ei lywodraethiad. Yr ydoedd hen adeilad a elwid "Trefecca Isaf," o fewn lled cae neu ddau i adeilad newydd Harris. Bernir mai rhan o hen gastell ydoedd, a adeiladwyd gan Harri yr Ail, yn y flwyddyn 1176. Adgyweiriodd Harris hwn yn y blyneddoedd 1767–8, ac a'i gosododd dan ardreth i'r Iarlles. Agorwyd ef ar ddydd pen blwydd yr Iarlles, sef Awst 24ain, 1768, pan y pregethodd Whitfield oddiar Ex. xx. 24;—"Yn mhob man lle y rhoddwyf goffadwriaeth o'm henw, y deuaf attat, ac y'th fendithiaf." Y flwyddyn ganlynol, pan gadwyd cylchwyl gyntaf agoriad y coleg, yn mhen deunaw mlynedd wedi ymneillduad Harris oddiwrth ei frodyr, yr oedd yno luaws o weinidogion enwog wedi dyfod yn nghyd, yn mysg y rhai yr oedd Rowlands, Williams o Bant y Celyn, Howel Davies, Peter Williams, Wesley, ac amryw weinidogion eraill yn bresenol. Yr oedd hyn, yn gystal a llythyrau ereill sydd ar gael, yn profi fod y teimlad drwg rhwng Harris a Rowlands wedi ei symmud, a bod ysbryd Harris eto yn ymgylymu a'i frodyr Cymreig. Rhyw bedair blynedd y bu Harris byw ar ol hyn, ac efe a dreuliodd y blyneddoedd hyny mewn llafur di ball gyd a'i ofal mawr yn Nhrefecca. Efe a fu farw Gorph. 21, 1773, yn 60 mlwydd oed, a'i ysbryd mor wrol, a'i ffydd mor gref ag erïoed. Pan oedd ar huno yn yr Iesu, dywedai, "Bendigedig fyddo Duw, y mae fy ngwaith wedi darfod; ac yr ydwyf yn gwybod fy mod yn myned at fy anwyl Dduw a'm Tad, canys efe a gafodd fy nghalon,—ïe, fy holl galon."

Felly yr ymadawodd cychwynydd mawr Methodistiaeth Cymru; un o gewri cedyrn ein Hymneillduaeth; a'r pregethwr mwyaf gwrol, tanllyd, a hunanymwadol, a fagodd ein gwlad:—dyn a gyfodasid gan Dduw at y gorchwyl mawr a ddarparasai Rhaglun iaeth iddo. Fel yr oedd Ioan yn Judea, i'r Diwygiad Cristionogol, ac fel yr oedd Martin Luther yn yr Almaen, i'r Diwygiad Protestanaidd, yr oedd Howel Harris yn Nghymru, i'r Diwygiad Methodistaidd; ac amlygai wroldeb cyffelyb lawer tro, i'r hyn a ddangosai Luther pan ddywedai yr elai i Worms pe buasai yno gynnifer o gythreuliaid i'w wrthwynebu ag oedd yno o lechau ar benau tai y dref. Pan gyfarfyddai Harris â rhai o'i frodyr yn y weinidogaeth, yn ffoi am eu bywyd, wedi methu cynnal cyfarfodydd yn ol y cyhoeddiad, gan greulonedd di drugaredd eu herlidwyr, tröai hwynt yn eu hôl, elai o'u blaen i ganol terfysg yr erlidwyr, esgynai i ben y clawdd, a gwaeddai "Gweddiwn!" neu, "Gosteg yn enw Brenin y nefoedd!" a'i ddau ddwrn mawr yn estynedig, nes taro braw a mudandod ar ei elynion, a gwneyd iddynt gilio mewn ofn a chywilydd; neu ynte fyned o'r oedfa dan ochain, "Beth a wnaf fel y byddwyf gadwedig." Yn un o'i lythyrau at frawd a chyd-lafurwr, defnyddiai ymadroddion ydynt ddangoseg gywir o deithi ei feddwl eofn ac ymroddgar:—"Bydded i ddaear, uffern, pechod, a Satan, ymuno a'u gilydd; tydi ŵr Duw,—tydi, dywysog y Duw byw, estyn allan dy law, ac yn nerth y Goruchaf, nyni a awn trwy y dyfroedd, nyni a sathrwn ar ysgorpionau, nyni a fuddugoliaethwn yn y fflamau, nyni a orfoleddwn, ac a neidiwn dros bob mur,—nyni a awn i mewn ac a feddiannwn wlad yr addewid."

Y mae yn ddïau iddo wneyd rhai camsyniadau pwysig yn ei fywyd, ac i'r rhai hyny esgor ar flinderau dybryd iddo ef a'i frodyr, niweid i'r eglwysi, a chyfyngu ar ei ddefnyddioldeb yntau: ond camsyniadau oeddynt; ac nid oes y sail leiaf i gredu nad oedd ef yn berffaith gydwybodol a gonest yn mhob ysgogiad yr ymgymerodd âg ef.

Efe a gladdwyd yn eglwys Talgarth; a dangosir y teimlad dwys oedd ar yr amgylchiad yn ngeiriau yr enwog William Jay, yn ei bregeth yn nghappel Surrey, Llundain, Mawrth, 1835.—"Mynegwyd i mi gan wr oedd yn ei gladdedigaeth, ddarfod ei roddi yn y bedd heb y gwasanaeth arferol. Yr achos o hyny oedd, na allai y person ddarllen y gwasanaeth, o herwydd ei fod wedi ei lwyr orchfygu gan ei deimladau; estynodd y llyfr i arall, ond ni allai yntau fyned yn mlaen; estynwyd ef i'r trydydd, ond ni allai hwn ychwaith ei ddarllen; ac felly gosodwyd ei weddillion yn y ddaear heb y ffurf arferol, ond gyda dagrau ac ocheneidiau tyrfa fawr, yr hyn oedd yn llawer gwell." Gosodwyd y coffadwriaeth canlynol uwch ben ei fedd;—"Yn agos i fwrdd yr allor, y mae yn gorwedd y gweddillion o Howell Harris, Ysewier, a anwyd yn Nhrefecca, Ionawr 23, 1713–14, o.s. Yma, lle y mae ei gorph yn gorwedd, y cafodd ei argyhoeddi o bechod, ac y cafodd selio ei bardwn, â theimlad o rym gwerth-

Digitized by Google

fawr waed Crist yn y Cymun sanctaidd. Wedi profi gras ei hun, efe a ymroes i ddatgan i eraill yr hyn a wnaethai Duw i'w enaid. Efe oedd y pregethwr teithiol cyntaf a drodd allan heb urddau Eglwysig, yn yr adfywiad diweddar yn *Lloegr* a *Chymru.* Pregethodd yr Efengyl dros yspaid pedair blynedd ar bymtheg ar hugain, hyd oni chymerwyd ef i'w orphwysfa dragywyddol. Efe a dderbyniodd y rhai a geisiasant iachawdwriaeth i'w dŷ; wrth hyny y cododd teulu yn Nhrefecca, i ba rai y darfu iddo ffyddlawn weini hyd ei ddiwedd, fel dyfal weinidog Duw, ac aelod cywir o Eglwys Loegr. Ei ddiwedd oedd ddedwyddach na'i ddechreuad: gan edrych ar Iesu wedi ei groeshoelio, efe a orfoleddodd hyd y diwedd, fod angau wedi colli ei golyn; a hunodd yn yr Iesu yn Nhrefecca, Gorph. 21, 1773; ac yn awr yn gwynfydedig orphwyso oddiwrth ei lafur."

**HARRIS** (JOHN RYLAND), a gyfenwid "*Ieuan Ddu, o Lan Tawy,*" a aned yn Heol Ifan, Abertawe, Rhag. 20, 1802. Mab ydoedd i'r enwog a'r hybarch Joseph Harris, (Gomer,) Sylfaenydd a Golygydd *Seren Gomer.* Pan oedd rhwng naw a deng mlwydd oed, bwriadai ei dad ei ddanfon i ryw athrofa er dysgu yr Awduron clasurol; eithr efe a gymerodd hyfrydwch mawr yn y gelfyddyd o argraffu; a threuliai gryn lawer o'i amser yn Swyddfa Mr. D. Jenkins yn y dref hono. Gan ystyried y buasai yn ddigon ieuanc i fyned i'r athrofa wedi gorphen ei egwyddoriaeth fel argraffydd, yn nghyd a'r meddwl na wnelai celfyddyd ddim drwg iddo, pa beth bynag a fyddai gan Ragluniaeth ddoeth ar ei gyfer, ei dad a gydsyniodd a'i ddymuniad, a rhwymwyd ef dros saith mlynedd, pan yn ddeng mlwydd oed. Ond, yn mhen ychydig gyda thair blynedd, rhoddodd Mr. Jenkins ei alwedigaeth heibio, a rhyddhawyd yntau oddi wrth ei rwymedigaeth. Yn y canlyniad, penderfynodd ei dad osod argraff-wasg i fynu ar ei gyfrifoldeb ei hun; a chyhoeddwyd *Greal y Bedyddwyr,* a'r *Traethawd ar Ddiwedod Crist,* pan oedd "Ieuan" rhwng 13eg a 15eg mlwydd oed. Y fath oedd petrusder ei dad yn nghylch y Swyddfa, fel na cheisiodd unrhyw gyssodydd ond "Ieuan Bach," dros yn agos i bedair blynedd. Llafuriai ei dad, ac Ieuan, yn galed yn yr yspaid hwn,—Ieuan yn cyssodi y cwbl, a'i dad yn cadw ysgol y dydd, ac yn ysgrifenu, a darllen profleni yn yr hwyr. Prin y gellid meddwl bod nemawr gyssodydd wedi gwneyd cymaint o waith yn y cyfryw amser ag a wnaeth Ieuan Ddu, er ieuenged a thynered ydoedd; eto, ni chafodd well iechyd erioed na'r pryd hwnw, a rhai o'r blyneddoedd canlynol.

Efe ei hun a gyssododd *y Seren* i gyd, a phob llyfryn a argreffid yn y Swyddfa yn y blyneddoedd 1818, ac 1819; ac nid oedd efe namyn pymtheng mlwydd oed pan yn dechreu ar hyn. Ni bu manteision Ieuan i ddysgu y gelfyddyd o argraffu, ond canolig a phrinion, fel y gellid dywedyd am dano mai hunan-ddysgwr ydoedd braidd yn hollol: ond er ei holl anfanteision, efe a ddaeth yn gyssodydd cyflym, cywir, a chraffus. Pan oedd efe newydd adael ei 17eg mlwydd oed, cafodd ei dad gyssodydd arall i'r Swyddfa; ac o hyny allan, ymroddodd Ieuan i ddysgu yr ieithoedd clasurol, yn ol y byddai amser yn caniattau iddo, gan dreulio tua haner ei amser gyd a'r ieithoedd, a'r haner arall yn y Swyddfa. Bu gyda Mr. Jennings yn athrofa Hamsworth yn gyntaf, ac yna, gyd a'r Parch. D. Williams, (*Iwan*), y rhai oeddynt yn ysgolheigion dâ; a'r olaf yn cadw ysgol yn y dref. Pan aeth Mr. Williams yn rhy afiach, dychwelodd Ieuan drachefn at Mr. Jennings; ac yno yr arhosodd, nes y gorchfygwyd ei natur gan y darfodedigaeth. Rhoddai ei athrawon air da iawn iddo, fel un yn meddu cynneddfau galluog, a thymerau llednais a hyfwyn, a dysgwr rhagorol; a chyfrifid ef ganddynt yn hytrach fel câr neu gyfaill, nag fel efrydydd, neu ddysgybl. Daeth yn gryn feistr ar y Lladin yn fuan; a dechreuai ymhyfrydu yn y Groeg a'r Hebraeg, a thalai ychydig sylw yn achlysurol i'r Ffrancaeg, yr Eidalaeg, a'r Ellmynaeg. Edrychai ei dad ar ei gynnydd gyda hyfrydwch annrheithadwy, gan feddwl, pa un bynag ai byw ai marw a fyddai ef ei hun yn fuan, y byddai ei anwylaf Ieuan cyn hir, yn cael ei resu yn mysg prif ddysgedigion ei wlad.

Yr oedd gan "Ieuan Ddu" hyfrydwch dirfawr yn yr iaith Gymreig; ac amddiffynai hi yn bybyr yn ngwyneb pob gwarthruddwr, pan fyddai achos. Yr oedd efe mor gyfarwydd â'i geiriau dyfnion a dysgedig âg oedd â'r rhai mwyaf cynefin a sathredig. Deallai Weithiau mwyaf gorchestol y Beirdd Cymreig yn ogystal âg ymddyddanion cyffredin, heb achos troi ond anfynych iawn i un Geirlyfr. Medrai adrodd llawer o "Goll Gwynfa" Dr. W. O. Pughe, (cyfieithiedig o *Milton's Paradise Lost,*) ac egluro pob gair aneglur mor hyrwydd a phe yn esponio y geiriau mwyaf adnabyddus. Pan ar daith o Landyssul i Aberystwyth, yn y mis Mehefin diweddaf o'i fywyd, yn nghyfeillach yr hybarch Christmas Evans, cafodd ei ymddiddanion gyda golwg ar yr iaith Gymraeg, gymaint effaith ar feddwl Mr. Evans, fel yr addefai yr henafgwr parchus, fod arno chwant dysgu iaith "Coll Gwynfa" yn ei hen ddyddiau. Ei frwdfrydedd dros y Gymraeg, a'i cymellodd i ymdrechu sefydlu Cymdeithas Gymreigyddol yn Abertawe, cyn ei fod yn ddeunaw mlwydd oed: a llwyddodd i gael gan amryw foneddigion, offeiriaid, pregethwyr, a gwŷr cyfrifol eraill ymuno a hi: a William Fychan, Ysw., i ddyfod yn Noddwr iddi: ac yr oedd yn amlwg mai "Ieuan Ddu," oedd nid yn unig ei sylfaenydd, ond ei phrif attegydd hefyd. Gyda golwg ar "Ieuan Ddu" fel awdwr, efe a ysgrifenodd lawer yn y Gymraeg a'r Saesonaeg, ar wahanol destunau; a chyhoeddwyd amryw o'i ysgrifau. Y peth cyntaf a ysgrifenodd, pan oddeutu 11 neu 12 mlwydd oed, oedd llyfryn a elwir "Cymorth i Chwerthin," yr hwn oedd yn llawn ffraethineb, ac a gasglwyd ganddo o'r "Seren Gomer Wythnosol," ac o rai llyfrau Seis'nig. Efe a gyfansoddai gyda chyflymdra mawr, mewn rhyddiaith a barddoniaeth rydd. Ymddangosodd amryw o'i gyfansoddiadau o bryd i bryd yn "Seren Gomer." Efe oedd "Madog," yr hwn a gyfieithodd "Hanes ryfedd y Mynach Anllad," *Seren* 1818, tu dalen 187. Eglurodd yr arwyddair "*Ich Dien:*" a chyfieithodd "Hanes Emrys Ben-aur;" a gwnaeth Nodiadau ar "Hyawdledd Cymreig a Seis'nig;—*Seren* 1819, tu dal. 69, 99, a 260. Yn 1820, ymddangosodd ysgrifau o'i waith ar y gair "Twco"—"Gwŷr Ceintachlyd,"—y gair "Help," a "Diweirdeb Dwynwen," tu dalen 8, 230, 337, a 372, o'r *Seren.* Yn 1821, ar Doli Geiriau,"—ar y gair "Abertawe," tu dal. 235. Yn 1822, ymddangosodd ei ysgrifau ar yr "Ysgolion Cymreig"—"Adolygiad ar Araith G. Jones, Ysw.;" ar y Seiniau Cymreig *ch,* ac ll, ac "Ystyron enwau amryw leoedd," tu dal. 51, 147, 301, a 369. Yn 1823, ymddangosodd ei "Amddiffyniad o'i ysgrif ar y

Digitized by Google

gair Abertawy." "Gosod y Beibl ar ei gefn," &c. tu dal. 108, a 245. Heblaw y cyfansoddiadau uchod, efe a ysgrifenodd amryw bethau eraill, yn Gymraeg a Saesneg; cyfansoddodd amryw Emynau, o ba rai y mae dwy wedi eu cyhoeddi yn Nghasgliad ei dâd. Cyfieithodd hefyd ranau lled helaeth o *Milton's Paradise Regained*, o'r hwn yr argraffwyd rhai tu dalenau yn y *Cambro-Briton*, am Dachwedd, a Rhagfyr, 1821.

Y gwaith olaf a gyfansoddodd, ac a gyssododd efe ei hun, ydoedd "Grisiau Cerdd Arwest," neu Hyfforddiadau Cymreig i ddysgu canu tonau yn gywir wrth eu gweled; ac y mae yn ddiamheuol i'r Gwaith hwn fod o wasanaeth mawr i Gerddoriaeth yn mysg ein cenedl, pan oedd ei manteision yn llai o lawer nag ydynt erbyn hyn.

Y gwr ieuanc gobeithiol hwn, wedi dihoeni dros flwyddyn o'r darfodedigaeth, a fu farw y 4ydd o Ragfyr, 1823, ychydig ddyddiau cyn cyrhaedd ei un mlwydd ar hugain oed. Efe a gyrhaeddasai enwogrwydd dihafal yn ol ei oed, yn ystod fer ei oes; ac yn ei farwolaeth, siomwyd gobeithion canoedd lawer o'i gyd genedl, y rhai a ddysgwylient bethau mawrion oddiwrtho.

**HARRIS,** Joseph, athronydd hunan-addysgawl, a anwyd yn mhlwyf Talgarth, Swydd Frycheiniog, yn y flwyddyn 1702. Yr oedd yn frawd henaf i Howel Harris, am yr hwn y traethwyd mewn Erthygl flaenorol. Cyfanneddai eu tad ar dyddyn bychan o'r eiddo ei hunan; a dywedir bod Joseph wedi cael ei ddwyn i fynu yn ôf ar y dechreu, yn ei ardal enedigol, o'r lle y symudodd i Lundain, ac yno efe a weithiodd ei ffordd i sefyllfa o gyfrifoldeb mawr yn y bathdy Breninol. Ei swydd yno, oedd edrych am fod yr argraff yn berffaith ar y batholion, fel y delent o'r wasg, a'u bod o gyflawn bwysau. Parai ei gyrhaeddiadau gwyddonawl iddo gael ei barchu yn fawr gan brif ddysgedigion ei oes; ac efe a gyfansoddodd amryw draethodau seryddol a meintonyddol, ond ni ddodid ei enw namyn wrth un o'i weithiau, sef Traethawd ar dremofyddiaeth, yr hwn a argraffwyd wedi ei farwolaeth, yn 1775. Nid oedd hwn namyn rhan o waith llawer mwy yr hwn y bwriadai ei ysgrifenu, ac y mae mewn bri mawr eto. Ar ei gof-adail yn eglwys Talgarth, fe ddywedir "ei fod wedi dyfeisio amryw gelfi mesuronol, a bod ei alluoedd gwleidiadol yn dra adnabyddus i weinidogion y llywodraeth yn ei amser, y rhai ni fuant yn ol o wneyd defnydd o'r holl syniadau doeth a dysgedig y parai ei fawrfrydigrwydd. ei ddidwylledd, a'i wladgarwch iddo eu gwneyd yn hysbys iddynt." Efe a brïododd un o ferched ac etifeddesau Thomas Jones o Dredustan, Ysw. Bu farw yn y Tŵr, yn Llundain, Medi 26, 1764, yn ddwy flwydd a thriugain oed, ac yno ei claddwyd.

Pan oedd ysgrifenydd yr Erthygl hon ar ymweliad yn Nhrefecca, yn ngwanwyn y flwyddyn 1838, efe a ganfu yn mysg syppynau mawrion o Lythyrau tra dyddorol oeddynt yn nghadw yno y pryd hyny, lythyr yn llaw-ysgrifen Mr. Joseph Harris, at ei frawd Howel, yn yr hwn y cwynai fod ei frawd mor ffol ag ymgladdu mewn di nodedd yn mysg y Methodistiaid, tra y gallasai, trwy gymeryd cyfeiriad gwahanol, gyrhaedd enwogrwydd, anrhydedd, a chyfoeth, a'i gwnelsai yn gyd-stad âg uchelwyr penaf ei wlad: ond, erbyn hyn, gwelir mai y Methodist tlawd ac erlidiedig, sydd yn sefyll yn uchaf ar leehres enwogion Hanesyddiaeth.

Yr oedd Thomas Harris, yr ail frawd, yn enghraifft arall o lwyddiant mawr wedi dylyn diwydrwydd a gonestrwydd. Efe a ymsefydlodd yn Llundain fel dilledydd, lle trwy ei dymer hynaws, y daeth efe i sylw a ffafr rhyw ŵŷr dylanwadol, trwy ba rai y cafodd ei bennodi i gyflenwi y fyddin a dillad milwraidd, a thrwy hyny casglodd gyfoeth mawr, fel y galluogid ef i encilio i'w wlad enedigol, lle y prynodd efe etifeddiaethau Tregunter, Trefecca, a thiroedd eraill yn y gymmydogaeth, y rhai a ddygent i fewn tua mil o bunnau yn y flwyddyn. Bu yn Siryf Swydd Frycheiniog yn y flwyddyn 1768, a gadawodd ar ei ol enw uchel, fel dŷn gwir onest, cymmydog dâ, cyfaill cynes a ffyddlawn, a chymwynaswr haelionus i'r tlawd. Bu farw, Medi 23, 1782, yn 77 mlwydd oed.

**HARRIS,** Joseph ("Gomer"), Gweinidog y Bedyddwyr yn Abertawe, a anwyd yn mhlwyf Llantyddewi, ger Hwlffordd, yn y flwyddyn 1773. Ni wyddis ond ychydig am ei rïeni, heblaw eu bod o deimladau crefyddol, ac yn aelodau o'r Eglwys Sefydledig; eithr ei dâd William Harris, a ymunodd â chyfundeb y Bedyddwyr rai blyneddau cyn ei farwolaeth, a bu farw ar ddydd Nadolig, 1825. Joseph oedd y cyntaf anedig, a chan nad oedd ei rïeni yn meddu ar lawer o dda y byd hwn, ni's gallent ei gynnysgaeddu â nemawr o ddysg; a'r oll a fwynhaodd, oedd trwy yr Ysgolion cyffredin a gynhelid yn y wlad y pryd hyny: ond efe a hynodid o'i ieuenctyd gan ei awydd anniwalladwy am wybodaeth. Pob math o lyfrau y deuai o hyd iddynt, a ddarllenid ganddo gyda sylw manyl-graff; ac ni ellid rhoddi attalfa ar ei frwd-frydedd yn hyn. Dywedir y ceryddai ei dad ef weithiau, am ei ymlyniad di orphwys wrth ddarllen, ond yn hollol aneffeithiol. Ac y mae yn ddilys iddo y pryd hwnw osod i lawr sylfaen ei gymeriad am y dyfodol.

Pan oedd yn blentyn, arferai ei rïeni ei gymeryd gyda hwy i'r Eglwys Sefydledig; ac elai ar amserau i addoldai yr Ymneillduwyr. Pan oedd yn nghylch 18 mlwydd oed, cyrchai yn fynych i Langloffan, er ei fod yn trigianu amryw filldiroedd oddiyno; a dywedir y byddai gweinidogaeth y gair yn effeithio yn ddwys arno y pryd hyny; a'r effeithiau hyn a aeddfedasant yn raddol, nes ei ddwyn i benderfynu dylyn Crist.

Yn y flwyddyn 1793, efe a dderbyniwyd i gymmundeb yr eglwys yn Llangloffan, pan oedd yn 19 mlwydd oed, gan y Parch. H. Davies, gweinidog y lle; ac mor foddhaol oedd ei fuchedd yn ngolwg yr eglwys, fel y cafodd annogaeth i ddechreu pregethu yn fuan, sef yn y flwyddyn 1796, pan oedd efe yn 22 mlwydd oed. Wedi iddo fod yn arfer ei ddawn i bregethu am o gylch tair blynedd yn ei gymmydogaeth ei hun, gyda llawer o ddefnyddioldeb, cymeradwyaeth, a pharch cynnyddol, efe a gymerodd daith trwy rai o'r eglwysi o'r tu allan i gylch ei gydnabyddiaeth, a daeth i Abertawe am y tro cyntaf yn y flwyddyn 1799, y lle a fwriadasid iddo gan Ragluniaeth Duw i fod yn faes ei lafur, ac yn orphwysfa i'w lwch. Y pryd hwnw ffynai rhyw ymryson rhwng y Parch. Daniel Jones â'r eglwys yn yr Heol gefn, yr hyn yn fuan a derfynodd yn ymadawiad y Gweinidog, ac o ganlyniad, amddifadiad yr eglwys. Wedi cael llawer o foddlonrwydd yn nawn gweinidogaethol Mr. Harris, a lledneisrwydd ei ysbryd, rhoddasant wahoddiad taer iddo i ddychwelyd attynt wedi terfynu ei daith. Efe a gydsyniodd a'u cais, ac

Digitized by Google

wedi iddo fod yn pregethu yno am rai misoedd, cawsant foddlonrwydd mawr ynddo, fel gweithiwr difefl, yn iawn gyfranu gair y gwirionedd: ac ar ol ystyriaeth ddifrifol, penderfynodd yr eglwys yn unfrydol i roddi gwahoddiad iddo yn y modd taeraf a serchoccaf i gymeryd ei gofal yn yr Arglwydd. Erbyn hyn yr oedd yn gyfyng ar Mr. Harris o'r ddau tu; gan ei fod mor barchus yn ngolwg ei fam eglwys yn Llangloffan, mynai hono ei gadw ar bob cyfrif; tra ar yr un pryd yr oedd taerineb y cyfeillion yn Abertawe, o'r braidd yn anorchfygol, am y credent ei fod yn meddu y cymhwysderau angenrheidiol i fod yn ddefnyddiol yn eu mysg hwy: ac yn y modd hwn y bu am agos i ddwy flynedd yn methu dyfod i benderfyniad. Ond, o'r diwedd, taerineb y cyfeillion yn Abertawe a'i gorchfygodd, ac felly, efe a sefydlwyd yn fugail yr eglwys yn Abertawe, yn y flwyddyn 1801. Cawsai ei urddo i'r weinidogaeth y flwyddyn cyn hyny yn Llangloffan; ac ychydig cyn hyny yr ymbrïodasai â merch ieuanc o'r enw Martha, o gymmydogaeth Castell newydd Bach, yr hon a ddygasid i fynu yn grefyddol a pharchus, ac ydoedd yn aelod yn eglwys Llangloffan. Gan nad oedd efe wedi cael nemawr o fanteision addysg yn moreu ei oes, efe a deimlai yr anfantais o hyny yn fawr yn Abertawe, yn enwedig mewn cyssylltiad a'r iaith Saesonaeg: felly, wedi cael cydsyniad yr eglwys, efe a benderfynodd fyned i Athrofa y Bedyddwyr yn Nghaerodor, y pryd hwnw dan arolygiaeth yr hybarch Dr. Ryland. Amcanai ar y cyntaf aros yno flwyddyn; ond amgylchiadau eglwysig a theuluaidd, a barent na's gallai aros yno fwy na phedwar mis; a dyna yr holl addysg athrofaol a gafodd yr enwog *Gomer!* Ond er byred a fu tymhor ei arhosiad yn yr athrofa, gadawodd ddylanwad mawr ar ei fywyd yn y canlyniad, canys trwy lafur dyfal, cyrhaeddodd wybodaeth o elfenau cystrawen, a phriod-ddull yr iaith Saesonaeg, yr hyn, yn nghyd a'i ymlyniad canlynol wrth ei efrydiaeth, a'i galluogodd yn dra buan i bregethu yn yr iaith hono gyda derbyniad a pharch, yr hyn a wnaeth wedi hyny drwy gydol ei oes. Yr amgylchiad uchod a'i harweiniodd i adnabyddiaeth o amryw weinidogion y Bedyddwyr yn Lloegr, ac yn enwedig a'i dug i gyfeillgarwch neillduol a'r enwog Dr. Ryland, llywydd yr athrofa: ac fel prawf o'r parch a feddai i'r Doctor, efe a alwai ei anwyl "Ieuan Ddu," yn *John Ryland*, a'i ferch henaf, yn *Elisa Ryland.*

Wedi ymsefydlu o hono yn Abertawe, efe a ymroddodd i lafur dyfal a diflin yn y cyflawniad o'i swydd; a chafodd ei lafur mawr ei goroni â llwyddiant, yn nychweliad pechaduriaid, ac adeiladaeth y saint. Fel hyn y parhaodd Mr. Harris, gan gynnyddu yn ei boblogrwydd, ei barch, a'i ddefnyddioldeb, hyd y flwyddyn 1823, yr hon oedd yn flwyddyn orlawn o ddygwyddiadau tra phwysig eu canlyniadau iddo ef.

John Ryland Harris, (*Ieuan Ddu o Lan Tawy*) oedd unig, a chyntafanedig fab Mr. Harris, yn yr hwn y canfyddai ei rïeni bob rhagoriaethau dymunol, fel y cynnyddai mewn oedran, ac y dadblygai ei alluoedd deallawl: a'r canlyniad oedd, bod calon ei dad wedi ei gosod mor drylwyr arno, fel yr oedd ei fywyd megis wedi ei gyd gylymu â'r eiddo ei blentyn. Ond, mor ansicr yw einioes dyn! Cyn cyrhaedd ei 21 mlwydd oed, symudwyd John i fyd yr ysbrydoedd! Nid oes amheuaeth nad marwolaeth ei anwyl "Ieuan Ddu" fu yn achlysur o farwolaeth Mr. Harris. Er cadarned oedd ei gyfansoddiad, derbyniodd y fath ergyd, ag a'i dygodd i'r bedd yn fuan ar ei ôl; ac arddangosir teimlad ei galon friw yn darawiadol iawn yn y penill hwn:—

"Marw 'm John roes ystyr geiriau
Gwell na holl eirlyfrau'r llawr;
Gofid, galar, o ran ystyr,
Sy'n dra eglur i mi'n awr;
Calon glwyfus, chwerwedd enaid,
Dwys ochenaid, chwerw hynt;
Dagrau heilltion, coll cysuron,
Hiraeth calon—gwn beth ynt."

Ac wrth derfynu "Galar Tad ar ôl ei unig Fab," dywedai fel y canlyn;—

"Bellach Ieuan bach 'r wy'n tewi,
Rhag i'm meithni feichio'r wlad:
Tewi allaf, ond d'annghofio,
Llwyr annhossibl yw i'th dad:
Ti ge'st deimlo eithaf angau
'Chydig ddyddiau o'm blaen i;
Buan daw y wŷs i'm cyrchu
Ar dy ol o'r anial du."

Dywedai Mr. Harris fod ei iechyd mor gadarn, a'i ysbrydoedd mor fywiog ag erïoed, hyd un boreu Sabbath, pan y sylwai ar Ieuan Ddu yn eistedd yn ymyl ei fam, wedi gorfod ymadael â Chor y cantorion, o herwydd gwendid. Dyma y pryd yr aeth y saeth i'w galon. Gwedd wanaidd, welw, a chlafaidd, dymuniad ei lygad, a archollodd ei galon i'r byw: ac ni theimlodd ei hun mwyach fel cynt. Wedi hyn ei sirioldeb, ei weithgarwch, a'i gymdeithasgarwch a ymadawent, a thristyd, galar, a phoen, a'i meddiannent. Er ei fod yn meddu cyfansoddiad cadarn, ni's gallai ymgynnal dan y fath faich. Gwendid yn ei liniau, methiant yn ei lais, a dihoeniad mewnol, oeddynt gymdeithion anhyfryd ei alar. Cafwyd profion yn fuan fod y darfodedigaeth wedi gafaelu ynddo.—"Gorfu arno roddi i fynu ei hoff waith o bregethu yr efengyl; ac nid oedd ganddo bellach ond dysgwyl awr ei ymddattodiad. O herwydd y siomid yr eglwys yn addoldy yr Heolgefn ar ryw Sabbath yn Mawrth, 1825, yn ei dysgwyliad am frawd dyeithr, a'i bod yn Sabbath cymmundeb, ymdrechodd fyned am y tro diweddaf, i weinyddu idd ei bobl yr ordinhad, o'r hon y cyd gyfranogasent lawer gwaith o'r blaen, a hyny gyda chymaint o adeiladaeth ac hyfrydwch. Parodd ei ymddangosiad y tro hwn i'r gynnulleidfa benderfynu mai dyna y tro olaf am byth y gweinyddai eu hanwyl Harris iddynt: ac o hyny allan, edrychai Mr. Harris rhagddo am adeg ei ryddhad oddi wrth, ac oddi tan ei faich o gnawd. Ymddiriedasai ei enaid i ofal yr Iachawdwr grasol lawer blwyddyn a aethai heibio. Cawsai ras idd ei wasanaethu gyda ffyddlondeb, a theimlai yn ddi ofn i ymorphwys arno yn awr, yn amser cyfyngder a gwasgfa. Felly efe a aeth i waered i lyn tywyll marwolaeth, dan ofal gwarcheidiol yr hwn a aeth yn angeu i angeu, ac yn dranc i'r bedd." Ar y 10fed dydd o Awst, 1825, yn 52ain oed, bu farw Joseph Harris, er colled a galar dwys, i'w deulu, yr eglwys oedd dan ei ofal, cyfundeb y Bedyddwyr, ie, a Chenedl y Cymry yn gyffredinol. Claddwyd ef yn mynwent Eglwys Fair, Abertawe, yn ymyl ei fab *Ieuan;*—

Digitized by Google

"Aeth i lawr yn ei fawredd—e gariodd
Ei goron i'r diwedd;
Eurfur fo ar ei oerfedd,
Di ail fo ei adail fedd."

"Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig;" nid yn unig yn y nef, ond ar y ddaear; nid yn unig yn nghyfrif Iôn, ond yn nghyfrif dynion hefyd. Prawf o hyn a gafwyd yn y parch mawr a chyffredinol a dalwyd i goffadwriaeth yr anfarwol "*Gomer,*" gan ddynion o bob cyfenwad crefyddol, ac o bob graddau, mewn dysg, dawn, a meddiannau, drwy Gymru a Lloegr.

"Wedi arwain o honom y darllenydd at derfyniad gyrfa ddaearol gwrthddrych ein cofiant, ac wedi cauad o honom arno byrth tywyllion y bedd, adgyrchwn i gip-dremio ar ei lafur awdurol, drwy yr hyn y canfyddir dadblygiad ac ymeangiad graddol ei feddwl, ac y cyfarfyddir a phrawfion diymwad o effeithiau hynodion ymroddiad, hyd yn nod dan anfanteision lawer." Yr oedd cyflwr llenyddol y Dywysogaeth yn amser cyntaf Harris, yn gyfryw ag a roddent ddigon o gyfle tuag at ymdrechion awdurol. Prinder llyfrau sylweddol ar wahanol gangenau dysg, yn grefyddol, gwladol, neu gelfyddydol, a uchel alwai am ymdrechion awdurol gwŷr o alluoedd, ac a gynhyrfai ryw fath o ymegnïad yn mhawb a garent ac a ddymunent lwyddiant hen Walia. Yr oedd absenoldeb tuedd yn y werin at wir wybodaeth o unrhyw fath, yn peri na roddid nemawr o fri ar lyfrau, yr hyn a barai lwfrdra mawr yn y dosbarth llenyddol. Hefyd cybydd-dod, neu dlodi, neu y ddau yn nghyd, a effeithient yn andwyol i attal gwerthiad llyfrau; ac yn y canlyniad, anfynych y ceid dyn cyfiawn a gonest yn ddigon calonog i ddwyn ei waith drwy y wasg, wedi ei gyfansoddi. Dyna y fath oedd cyflwr y wlad yn nghyfnod boreu oes yr anfarwol Harris. Yn y flwyddyn 1796 ceir Mr. Harris yn dwyn "Pigion o Hymnau" drwy y wasg. Wedi hyny, yn 1802, daeth allan y rhan gyntaf o lyfr cyfieithedig o'r Saesonaeg, dan yr enw, "Yr Anghyffelyb Broffeswr yn Nghanol-ddydd ei Ddysgleirdeb." Yn 1804, cyhoeddodd ei "Fwyell Crist yn Nghoed Annghrist." Attebiad oedd hwn i lyfryn a gyhoeddasid gan Mr. Josiah Rhŷs, o'r Gelligron, gweinidog Undodaidd; ac nid ydoedd namyn sylwadau rhagbarotoawl i'r hwn a gyhoeddodd yn 1816, dan yr enw "Traethawd ar brïodol Dduwdod ein Harglwydd Iesu Grist, yn nghyd ag attebion i holl wrthddadleuon y Sosiniaid," yn Saesonaeg; a'r flwyddyn ganlynol, yn y Gymraeg. Ystyrid y Traethawd hwn ar y pryd, y goreu a ymddangosodd erïoed, yn Gymraeg neu Saesonaeg, ar yr ochr Drindodaidd i'r ddadl bwysig hon. Derbyniodd y llyfryn bychan hwn gymeradwyaeth a chanmoliaeth gyffredinol yr Enwadau Trindodaidd yn mhob man. Annghofient eu mân, a'u di bwys wahaniaethau, gan ystyried yr Awdwr megys "Gweinidog da i Iesu Grist,"—megys un wedi ei osod i amddiffyn ffydd yr Efengyl. Yn mysg ei gefnogwyr penaf yr oedd Dr. Burgess, Esgob Ty Ddewi, Ficer Abertawe, ac Eglwyswyr enwog eraill. Trwy ei ymdrechion, efe a lwyddodd i gael nifer o foneddigion a chyfeillion eraill i ymuno ag ef i gyhoeddi Newyddiadur yn y Gymraeg, y cyntaf o'r fath yn yr iaith Gymreig; felly dydd Sadwrn, Ionawr 1, 1814, y daeth allan y rhifyn cyntaf o "*Seren Gomer,* neu Hysbysydd Wythnosol Cyffredinol dros holl Dywysogaeth Cymru." Mr. Harris ei hun oedd y Golygydd. Ond, er dyngarwch a haelioni y boneddigion a gychwynasant y Seren, yn nghyd ag athrylith a doniau y Golygydd clod-wiw, bu anffyddlondeb, neu ddifrawder y genedl, yn gyfryw ag i luddias y gorchwyl; a chyn diwedd y flwyddyn 1815, bu raid rhoddi terfyn ar y Seren Wythnosol, a'r perchenogion wedi cael colled cyd rhyngddynt yn yr anturiaeth, o fwy na mil o bunnau. Yn nechreu y flwyddyn ganlynol, cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o Gyhoeddiad Enwadol, dan yr enw "Greal y Bedyddwyr," dan olygiad Mr. Harris; ond trodd hwn yn fethiant eto. Er hyny, efe a wnaeth un cynygiad drachefn at sefydlu Cyhoeddiad rhydd i'r Cymry fel y cyfryw; ac ar Ionawr 1, 1818, cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o'r "Seren Gomer, neu Gyfrwng Gwybodaeth Gyffredinol i Gymru." Ymroddai yn awr o ddifrif at olygiaeth y *Seren,* nes cyrhaedd o honi sefydlogrwydd a derbyniad, a dyfod yn un o'r breintiau gwerthfawrocaf a roddwyd erïoed i Gymru. Ysgrifenai Harris gryn lawer o'r Seren ei hun,—efe ydoedd "Llywelyn," "Iorwerth," "Gwrth-ddiffynwr," "Gedeon," &c. Dylid cofio hefyd bod yr holl ohebiaethau di enw yn y *Seren,* hyd y flwyddyn 1825, yn eiddo iddo ef mewn rhyw ddull. Golygodd a dygodd allan argraffiad hardd o'r Beibl Dwyieithawg. Cyfansoddodd lawer o Emynau, a chyhoeddodd lyfr Hymnau, yr hwn sydd ddigon adnabyddus yn nghynnulleidfaoedd y Bedyddwyr trwy y Dywysogaeth, ac mewn bri mawr gan dduwiolion lawer o Enwadau eraill. Ond, y rhyfeddaf o gynnyrchion ei ysgrifell, yw "Cofiant Ieuan Ddu, a Galar Tad ar ol ei unig Fab."

"Efe a wasanaethodd ei genedlaeth mewn modd rhagorol, cododd ynddynt ymofyniad am wybodaeth gyffredinol, dysgodd iaith eu hen deidiau iddynt, ac ymlidiodd o'u plith y bwbachod a'u brawychent ddydd a nos. Bydd enw "Gomer" yn gydoesol a llawer sydd eto heb eu geni."

Y mae "Gweithiau Awdurol" y Parch. Joseph Harris, gyda Chofiant o hono, wedi eu cyhoeddi yn un gyfrol hardd, gan y diweddar Barch. Dafydd Rhŷs Stephen, ei fab yn nghyfraith.

**HARROLDSTON** (Ddwyreiniol), sydd blwyf yn nosparth Hwlffordd, yn swydd Benfro, ar derfyn yr afon Cleddy, un filltir ar ochr dde-ddwyreiniol tref a rheilffordd Hwlffordd. Y Llythyrfa yw Hwlffordd. Cynwysa 1150 o erwau. Gwir werth, 2050*p.* Poblogaeth, 281. Tai, 59. Yma yr oedd preswylfa y teuluoedd Harrold a Perrot gynt, yr hwn sydd yn awr yn adfeiliau. Fern Hill yw y brif drigfan yn y lle. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Tŷ Ddewi; gwerth, 56*p.* Noddydd, James Higgon, Ysw.

**HARROLDSTON** (Orllewinol), sydd blwyf yn nosparth Hwlffordd, yn Sir Benfro, gerllaw porthladd St. Bride; 5½ milltir ar ochr orllewinol tref a rheilffordd Hwlffordd. Y Llythyrfa yw Hwlffordd. Cynwysa 1718 o erwau. Gwir feddianau, gwerth 1011*p.* Poblogaeth, 149. Tai, 28. Y mae y meddianau yn cael eu hawlio rhwng ychydig nifer. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Tŷ Ddewi; gwerth 123*p.*: yn nawddogaeth Coleg Penfro, Rhydychain. Nid yw yr eglwys mewn cyflwr da, ar hyn o bryd.

**HARTSHEATH**, sydd drefgordd yn mhlwyf Wyddgrug, yn Sir Fflint, ar lan yr afon Alun, tair milltir ar ochr Dde-ddwyreiniol Wyddgrug. Y



Digitized by Google

mae y gwir feddiant yn werth 1456*p.*: o'r hyn y mae 300*p.* yn y mŵnau. Poblogaeth, 188. Tai, 29.

**HASGUARD,** sydd blwyf yn nosparth Hwlffordd, yn Sir Benfro; tua 4½ milltir, ar ochr Orllewin-ogledd-orllewin Aberdaugleddau; a 6 m. ar Orll. wrth Dde, rheilffordd Johnston. Y Llythyrfa yw Herbrandston, dan Aberdaugleddau. Erwau 1475. Gwir werth meddianol, 1582*p.* Poblogaeth, 125. Tai, 23. Y prif balasdy ydyw *Hasguard House.* Y mae yma amryw leoedd yn rhoddi golygfa ardderchog ar y terfynau. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth 106*p.*, yn nhadogaeth yr Arglwydd Ganghellydd.

**HAWARDEN,** neu *Pen-ar-lâg*, llygriad o Pen ar halawg, sydd bentref, trefgordd, a phlwyf yn nghwmwd Merffordd, ac yn gyfran o ddosparth *Great Broughton*, yn swydd Fflint. Y mae y pentref yn sefyll ar godiad tir, gerllaw yr afon Dyfrdwy, tua dwy filltir ar yr ochr dde wrth orllewin i orsaf rheilffordd Queen's Ferry; a 2¼ m. gog.-orll. wrth orll. o orsaf rheilffordd Broughton, a 6½ gorll. wrth dde. o Gaerlleon Gawr. Adwaenid y lle gan yr hen Frytaniaid wrth yr enw Pen-y-Llwch; ac yn y *Doomsday*, wrth y dynodiad "Haordin." Cedwir yr is-lysoedd gwladol yma; ac y mae i'r lle Lythyrfa dan Gaerlleon, a dau West-dy. Y mae yma farchnad wythnosol yn cael ei chynal ar ddyddiau Sadwrn; a ffeiriau ar yr 28n o Ebrill, a'r 22n o Hydref. Y mae y drefgordd yn cynwys 248 o erwau. Gwerth ardrethol, 5144*p.* Poblogaeth, 652. Anneddau, 143. Y mae y plwyf yn cynwys hefyd drefgorddau Broughton, Bretton, Sealand Manor a Rake, Mancott, tref Ewloe, Ewloe Wood, Aston, Moor, Broadlane, Pentre-robbin, Baamel, Saltney, a Shotton, ac yn ymestyn hyd arllwysfa y Ddyfrdwy. Erwau 17,695, o'r hyn y mae 535 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 38,557*p.*, o'r hyn y mae 961*p.* mewn mwnau; 6*p.* mewn cloddfeydd; a 2600*p.* mewn rheilffyrdd. Yr oedd y boblogaeth yn 1851 yn 6203; a chynyddodd erbyn 1861, i 7044. Tai, 1435. Yn oedd y cynnydd yn y boblogaeth i'w briodoli, gan mwyaf, i adfeddianiad y morfa yn nhrefgordd Sealand, a dechreuad a helaethiad y gweithydd glo a haiarn, melinau yd, rhaffau gwyfyr, canwyllau, a gwrtaith, yn nhrefgordd Saltney. Yr oedd y faenoriaeth yn perthyn i Edwin, brenhin Northumbria; a chyflwynwyd ef wedi hyny i Huw Lupus, y Montaltos, y Montacutes; a'r Stanleys; a phrynwyd ef, yn amser y Werinlywodraeth, gan Serjeant Glynne, cyfaill i Cromwell; ac y mae yn awr yn meddiant disgynydd i'r prynwr hwnw, sef Syr Stephen R. Glynne, Bar. Yr oedd yma hen gastell er cyn amser y Goresgyniad, fel gwerthyrfa gadarn brenhinoedd Mercia; rhoddwyd ef i fynu yn 1265, gan Simon de Montford, i Llewelyn; ac ail-adeiladwyd ef gan y Goron; ymosodwyd arno yn 1282, gan Dafydd, brawd Llewelyn; a chymerwyd ef yn 1645 gan filwyr y senedd, dan General Mytton, pan y darostyngwyd ef i'w gyflwr presenol; ac y mae yn awr yn cael ei gynnrychioli gan y carchar a'r muriau adfeiliedeg, o ba le y ceir golygfa ardderchog ar y Dyffryn-Breiniol oll. Y mae palasdy Sir S. R. Glynne yn adeilad diweddar, a godwyd yn 1752, ac a helaethwyd yn 1809, ac y mae yn sefyll yn nghanol parc eang a ffrwythlon. Y mae yma etifeddiaeth eang yn perthyn i'r Prifweinidog, y Gwir Anrhydeddus William E. Gladstone. Yr oedd gan yr hen Gymry wersyllfa yn Truman's Hill, a golygfa fawreddig a geid yno. Y mae gweithfaoedd yn cael eu dwyn yn mlaen yma mewn llestri-priddion, clai tân, fferyllai, a phethau eraill. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, unedig â chapeloriaethau H. St. John, Buckley, Sealand, a Broughton, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 2844*p.*; ac yn nawddogaeth Syr S. R. Glynne, Bar. Ail-adeiladwyd yr eglwys yn 1860; wedi ei dinystro gan dân yn 1857, ar y draul o 5490*p.*; yn ol cynllun addurnol y bedwaredd ganrif ar ddeg; ac yn cynwys corff eglwys, cangell, adenydd, a thŵr. Y mae yma ddwy eglwys chwanegol, ac amryw gapeli ymneillduol; gydag ysgol wedi ei gwaddoli âg ugain punt yn y flwyddyn; ac elusenau o 40*p.*, gyda thlodty. Yr oedd yr Henadur Boydell, a'r Foneddiges Hamilton, yr enw cysylltedig âg Arglwydd Nelson, yn frodorion oddiyma. Yr oedd trigolion Hawarden gynt, yn cael eu dynodi mewn dirmyg, wrth yr enw "Harden Jews," o blegid traddodiad oedd yn y lle, am ddinystrio delw o'r Forwyn Fair yn 946. Y mae yr isddosparth yn cynwys hefyd, bedwar o blwyfau eraill, rhanau o ddau eraill, gyda therfynau plwyfol yn rhagor. Erwau, 31,015. Poblogaeth, 9528. Tai, 1910.

**HAWYSTL,** ydoedd santes a flodeuai yn y bumed ganrif. Yr oedd hi yn un o ferched Brychan Brycheiniog, a hi a sefydlodd eglwys Llanhawystyl, neu Awst, yn Sir Gaerloew.

**HAY.** Gwel GELLI (Y).

**HAYSCASTLE,** sydd blwyf yn nghantref Dewisland, yn swydd Benfro, Deheubarth Cymru, 7½ milltir; Gog.-orll.-wrth Ogledd, o Hwlffordd. Y mae y plwyf hwn, agos i gyd dan wrteithiad, a'r tir yn dra chynnyrchiol. Y mae yn ffurfio prebenduriaeth yn mhrif eglwys Ty Ddewi, mewn cysylltiad â Brawdy. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth wahanedig, wedi ei huno â Brawdy, yn archddeonaeth ac esgobaeth Ty Ddewi. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Mair; ac y mae capel cynorthwyol bychan yn mhentref y Ford yn y plwyf hwn. Y mae gan yr Independiaid a'r Methodistiaid leoedd o addoliad yma. Yr oedd yma amryw olion hynafiaethol gynt, ag sydd erbyn hyn wedi myned o'r golwg diwylliad dan law a diwygiad.

**HEDD MOLWYNOG,** neu HYDD MOLWYNOG, neu HYDD AB OLWYNOG, oedd fab Greddf ab Tygynnydd ab Llawr ab Llawfrodedd Farchawg. Pendefig o Isdulas, yn Swydd Ddinbach oedd efe, a phen un o bymtheg llwyth Gwynedd, oddiwrth yr hwn y mae llawer o deuluoedd cyfrifol yn olrhain eu haniad. Yr oedd yn cyfanneddu yn yr Henllys, yn mhlwyf Llanfairtalhaiarn, lle y mae dyfr-ffos fawr yn dynodi gorsaf ei balas, a maes, lle y derbyniai y tlodion ei elusenau, yn cael ei alw hyd heddyw, "Maes y bendithion." Yr oedd efe yn Oruchwyliwr i Dafydd ab Owain, tywysog Gwynedd, o 1170, hyd 1195. ac efe a gynnorthwyai y tywysog hwnw yn ei gadgyrchiad dinystriol trwy Loegr, hyd furiau Coventry. Ei diroedd a'i arglwyddiaethau oeddynt Llanfair Talhaiarn, Dyffryn Elwy, a Nanhaled, yn Swydd Ddinbach, y rhai a ranwyd rhwng ei dri mab, Meuter, Gwillonon, a Gwrgi; ac y mae eu heppil yn mwynhau rhanau o honynt hyd heddyw.

**HEFIN,** fab Gwyndaf Hên, o Lydaw, sant oedd yn ei flodau yn y chweched ganrif. Ysgrifenir ei enw yn amrywiol, megys Hefnin, Henyn, Henwyn, Hywyn, a Henwin. Bu ar y cyntaf yn aelod o Gor Illtyd, ac wedi hyny yn Esgob Enlli.

**HEIDDYN HIR,** ydoedd fardd a flodeuai tua chanol y chweched ganrif, ond nid oes dim o'i waith

Digitized by Google

ar gael yn awr. Y mae efe, a Llywarch Hen, a Lleminig, yn cael eu cofnodi yn y Trioedd, fel y tri bardd oeddynt yn "drwyddedawg hanfodawg," neu yn rhydd ymwelwyr yn llys Arthur.

**HEILYN**, Hywel, ydoedd fardd a ysgrifenai ei gyfansoddiadau rhwng y blyneddoedd 1470 a 1500. Y mae rhai o'i weithoedd wedi eu cadw mewn ysgrifen.

**HEILYN DDU**, ydoedd fardd a gyfansoddai ac a ysgrifenai rhwng y blynyddoedd 1440 a 1470.

**HEILYN FARDD**, ydoedd awenydd a flodeuai rhwng 1350 a 1390. Nid oes ond ychydig o'i hanes na'i waith ar gael yn awr.

**HEILYN GOCH BRYDYDD** ydoedd fardd nad oes ond ychydig o'i waith na'i hanes ar gof a chadw. Blodeuai o 1380 i 1420.

**HEILYN YSTEILFFORCH**, o Forganwg, ydoedd benaeth un o'r pump llwyth gwerinol yn Nghymru; y lleill oeddynt Gwenwys, Blaidd Rhudd, Adda Fras, ac Alo.

**HEINYN**, ydoedd fardd Maelgwn Gwynedd, yr hwn a flodeuai rhwng y blynyddau 520 a 560. Y mae un o'i gyfansoddiadau, sef ei brophwydoliaeth, mewn cyfarchiad at Maelgwn, wedi ei argraphu yn y "Myvyrian Archaiology;" ac y mae y sylw canlynol am dano, yn "chwedlau y Doethion;"—

"A glywaist ti chwedl Heinyn,
Fardd o Fangor Llanfeithin,
Gwrawl ni fydd disgethrin?"

**HELEDD**, ydoedd un o ferched Cyndrwyn, Tywysog parth o Bowys, yr hon a flodeuai yn y chweched ganrif. Yr oedd hi yn farddones, ac y mae un o'i dywediadau wedi ei gadw yn "Englynion y Doethion:"—

"A glywaist ti chwedl Heledd,
Ferch Cyndrwyn, fawr ei rheufedd,
Ni ellir llwydd o Falchedd?"

ac y mae dywediad arall o'i heiddo yn "Englynion y clywed," yn rhedeg bron yn yr un ffordd addysgiadol a'r llall.

**HELIG FOEL**, ydoedd fab Glanawg ab Gwgan Gleddyf-rhudd, ab Caradawg Freichfras, ab Llyr Merini, ab Einion Urdd, ab Cunedda Wledig. Efe oedd arglwydd ar randir helaeth o iseldiroedd o du y gogledd i Sir Gaernarfon, a elwir Tyno Helig, pa un a orchuddiwyd gan y mor yn y seithfed ganrif. Y mae Traeth y Lafan, rhwng Arfon a Mon, yn rhan o'r diriogaeth honno o eiddo Helig Foel, ac yn cyrhaedd hyd Benmaen mawr; a thua haner y ffordd i'r lle hwn, y mae y morwyr hyd heddyw yn nodi sefyllfan llys Helig; muriau yr hwn y tybiant eu bod yn eu gweled ar dywydd tawel, yn ngwaelod y mor. Ar ol colli ei feddianau, darfu iddo ef a'i feibion ymroddi i fywyd crefyddol, a daethant yn enwog yn mysg y seintiau Cymreig. Enwau ei feibion oeddynt Gwynnin, Celynin, Rhychwyn, Aelgyfarch, Brothen, Boda, Gwyar, Euryn y Coed Helig, Bodfaen, Bedwas, Brenda, a Peris; a darfu i'r rhan luosocaf o honynt sylfaenu eglwysi mewn gwahanol ranau o Gymru. Yr oedd sylw amryw yn y gymydogaeth wedi ei dynu at yr hanes hynod hon, ys ychydig o flyneddau yn ol; yn mhlith eraill, C. R. Hall, Ysw., y pryd hwnw o Liverpool, yn awr o Tan y bryn, yn Llanrhos. Yr oedd wedi gwneud amryw sylwadau naturiol iawn, o bryd i bryd, ar sefyllfa afon Gonwy, a thybiai yn gryf, mai yn nghyfeiriad Llandrillo yr oedd ei gwely cyntefig. Daeth yn fuan i glywed am yr hanesion traddodiadol am orlifiad Traeth y Lafan, a glanau y mor, o'r afon Dyfrdwy hyd at Ynys Fôn. Hysbyswyd ef am Lys Helig, a Pharthleni Lewis Morris, cyn hir; a chlywodd fod adfeiliau y Llys yn weledig ar y distyll, ddwy waith yn y flwyddyn, sef yn misoedd Mawrth ac Awst, Wedi cael hysbysrwydd am yr holl amgylchiadau, amlygodd ei awydd o wneud ymchwiliad i wirionedd y Traddodiadau, i rai cyfeillion; a sicrhaodd wasanaeth Mr. Huw Roberts o Landudno, a'i fâb, gyda eu bâd; a gwahoddodd y Parch. T. F. Fergie, periglor Warrington, a'r Parch. R. Parry, Llandudno, i uno yn yr ymchwiliad, y rhai yr oedd yn dda ganddynt gydsynio. Cychwynasant ar y fordaith, tuag un o'r gloch prydnhawn, ar y 18fed o Awst 1864. Yr oedd y Badwr yn gwybod rhywbeth am y sefyllfa; ac yr oedd gan y Cyfeillion gopi o Barthlenni Llewelyn Ddu gyda hwy, yn y rhai y dynodid y llecyn y safai palas Helig. Daethant i gyferbyniad â Thrwyn-yr-Wylfa, Dwygyfylchi, erbyn tua thri o'r gloch prydnhawn, wedi rhwyfo o Landudno tua phedair milltir, ac o fewn tua dwy filltir i'r lan yn Dwygyfylchi. Wedi ymdroi ychydig, gan edrych yn mhob cyfeiriad, canfyddwyd yr arwyddion yn fuan: yr oedd y llanw erbyn hyn yn y man isaf, a'r gwmon oedd wedi tyfu ar y mur yn amlwg; a phen ambell gareg yn noeth yn y golwg. Yma, tynodd pob un o'r cyfeillion ddarlun o'r muriau, er mwyn eu cymharu wedi cyrhaedd y lan. Yr oedd gan Mr. Hall linyn mesur, a chafodd fur y wyneb, tua 100 llath; a'r onglau eraill mewn maintioli cymhariaethol; a'r cyfan yn dangos y Twr crwn, fel rhan o'r palas; y cyntedd; yr ardd, y rhai a ddarluniwyd oll. Y mae rhai o'r cerig a dynwyd o'r mur yn Bryn Llewelyn, Llandudno yn awr. Felly daeth yr hanes, oedd o'r blaen mewn tybiau a thraddodiadau, erbyn hyn yn ffaith brofedig. Derbyniodd Mr. Hall erfyniad oddiwrth "Gymdeithas Ddaearegol Liverpool," ar iddo ddarllen erthygl, yn un o'i chyfarfodydd cyhoeddus, ar amgylchiadau y dar ganfyddiad gwerthfawr hwn, yr hyn a wnaeth ar y 13eg o Ragfyr 1864. Cyhoeddodd Draethodyn, ar ddymuniad y Gymdeithas uchod, yn cynwys darluniad cywir o Forfa Rhianedd, yn nghyda'r cyfnewidiadau tebygol a gymerasant le yn y terfynau, er yr amser gynt, o bryd i bryd. Y mae un man arall yn y mor yma, a elwir yn narluniau Lewis Morris, Bryn Conwy, ag y dylid ei archwilio eto yr un modd. Ni byddai y fordaith yn anhawdd ei chwblhau ar dywydd teg, canys dychwelodd y cyfeillion uchod i Landudno erbyn tuag wyth o'r gloch yn yr hwyr, yn ddiogel. Y mae y lle hwn o fewn tua milltir a haner i Lys Helig.

**HELYGEN**, sydd bentref a phlwyf, yn nghwmwd Cynsyllt, cantref Tegeingl, yn nosparth Treffynon, swydd Flint. Saif dan fynydd Helygen, 2¼ milltir ar ochr dde-orllewin gorsaf rheilffordd Fflint, a 3½ ar ochr dde-ddwyreiniol Treffynon; dan ba le y mae iddo Lythyrfa. Y mae y plwyf yn cynwys trefgorddau Hendre-Fagillt, Lugan-y-Llan, a Lugan-y-Waun. Erwau, 3140. Gwerth ardrethol, 5282*p.*; o'r hyn y mae 1897*p.* mewn mwnau, a 30*p.* mewn cloddfeydd. Poblogaeth, 1344. Tai 320. Y mae lleihad wedi cymeryd lle yn y boblogaeth yn ddiweddar, o herwydd rhoddiad i fynu rai o'r gweithfeydd plwm. Rhenir y meddianau rhwng ychydig nifer. *Halkin*

Digitized by Google

*Castle* sydd balas yn perthyn i'r Ardalydd Westminster, a adeiladwyd yn 1827. Y mae golygfa ardderchog dros y wlad i'w gael oddiar fynydd Helygen: y mae hen wersyllfa Frytanaidd ar y pen deheuol o hono; ac y mae uchder y lle tua 1020 o droedfeddi. Y mae y creigiau yn orlawn o adnoddau mwnyddol, yn cynwys plwm, glo, calamine, cerig calch, a chlai llestri. Y mae y fywioliaeth yn berigloriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 312*p.*; ac yn nawddogaeth esgob Llandâf. Y mae yr eglwys mewn cyflwr gweddol. Y mae ficeriaeth Rhes-y-cae ar wahan. Y mae yma addoldai gan y Methodistiaid a'r Annibynwyr.

**HENBELIN**, sydd bentref yn nhrefgordd Haminiog, yn mhlwyf Llanrhystyd, yn swydd Aberteifi, gerllaw y traeth, 6½ milltir yn ogledd-ddwyreiniol i Aberaeron.

**HENBEN**, neu HENBRIEN, ydoedd benaeth enwog, a gofnodir yn y Trioedd, fel un o'r tri gwroniaid, y rhai yr oedd yn arwydd-air ganddynt, nad encilient o ryfel, ond ar eu helorau. Y ddau eraill oeddynt ei frodyr, Aedenawg, a Gruddneu. Yr oeddynt yn feibion i Gleissiar o'r Gogledd, a'u mam oedd Haernwedd Fradawg.

**HENBLAS**, sydd balas henafol, fel y mae ei enw yn awgrymu, o gryn enwogrwydd, yn mhlwyf Llangristiolus yn Mon. Yma y preswyliai Dr. Robert Morgan, yr hwn a ddifuddiwyd o'i holl fywioliaethau eglwysig yn amser y gwrthryfel. Bu amryw wyr o ddysgeidiaeth ac enwogrwydd yn cyfaneddu yn y palas hwn. Yr oedd Dafydd Llwyd yn fardd rhagorol, a flodeuai tua dechreu yr ail canrif ar bymtheg, ac yn feddianydd y lle hwn. Dywedir ei fod yn goleddwr gwresog i lenoriaeth ei wlad, ac yn fedrus mewn chwech o ieithoedd heblaw iaith ei fam. Gorwyr iddo ef ydoedd y Dr. William Lloyd, esgob Llanelwy, yr hwn a restrir yn gyffredin fel un o enwogion Mon; genedigol o'r lle hwn. Yr oedd ef yn un o'r saith esgob, a anfonwyd yn garcharorion i Dŵr Llundain, gan Iago yr ail, o blegid ei ymlyniad diwyro wrth, a'i amddiffyniad galluog i, egwyddorion Protestaniaeth. Y mae ei fywgraphwyr yn ei osod allan fel un hynod am ei gysondeb, ei ddysgeidiaeth, a'i ffyddlondeb i sefyll at ei egwyddorion. Dywedai yr Esgob Wilkins am dano, mewn cyfeiriad at ei wybodaeth ysgrythyrol, ei fod "fel mynegai yn rhodio yn fyw." Y mae yr hen annedd yma yn cael ei hynodi fel un o brif breswylfeydd boneddion y wlad.

**HENDRE**, sydd drefgordd yn mhlwyf Nantglyn, yn sir Ddinbych, yn sefyll 4¼ ar ochr dde-orllewinol tref Dinbych. Y mae yn cynwys pentref y Waen. Poblogaeth 176.

**HENDRE**, sydd bentref yn mhlwyf Coyty, yn sir FORGANWG, un filltir ogledd-ddwyreiniol o Bont-y-fon.

**HENDRE-BIFFA**, sydd drefgordd, yn mhlwyf Wyddgrug, yn swydd FFLINT, gerllaw Wyddgrug. Gwir feddiant 1022*p.*, o'r hyn y mae 10*p.* mewn cloddfeydd. Poblogaeth 320. Anneddau 66.

**HENDRE-DEANI**, sydd bentref yn mhlwyf eglwys Ilan, yn swydd FORGANWG, un filltir yn ddwyreiniol i Gaerffili. Poblogaeth 555. Tai 115. Y mae nifer o'r trigolion, yn cael eu cynaliaeth yn y gweithydd glo a haiarn.

**HENDRE-DRAW**, sydd bentref yn nosparth Cylch-Bychan, yn mhlwyf Ty-Ddewi, yn swydd BENFRO; gerllaw Ty-Ddewi.

**HENDRE FIGILLT**, neu, HENDRE FUGEILLT, tref-gordd yn mhlwyf Helygen, Swydd FFLINT, GOGLEDD CYMRU; 4 milldir i'r Dehau o Dreffynon; a 2 filldir i'r De Orllewin o Fflint. Gwerth ardrethol, 1058*p.*, o'r hyn y mae 40*p.* mewn mwngloddiau, ac 20*p.* mewn cloddfeydd ceryg. Y mae y rhan fwyaf o breswylwyr yr ardal hon yn cael eu bywioliaeth trwy weithio yn y mwngloddiau plwm. Poblogaeth, 548.

**HENDRE FORFUDD**, trefgordd yn mhlwyf Corwen, Swydd FEIRIONYDD, GOGLEDD CYMRU; yn agos i dref Corwen. Gwerth ardrethol, 982*p.*

**HENDRE GYDA** (ISAF ac UCHAF), dwy drefgordd yn mhlwyf Abergeley, Swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU; yn agos i dref Abergeley. Poblogaeth, 122, a 154.

**HENDRE HEN**, trefgordd yn mhlwyf Cegidfa (*Guilsfield*), Swydd DREFALDWYN, GOGLEDD CYMRU; 2 filldir i'r Gogledd o'r Trallwng. Gwerth ardrethol, 1947*p.* Poblogaeth, 28.

**HENDRE WYDD**, trefgordd yn mhlwyf Llangynhafal, Swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU: 3¼ milldir i'r Gogledd Ogledd Ddwyrain o Ruthin. Poblogaeth, 229.

**HEN-EGLWYS**, sydd blwyf yn nghantref Malltraeth, yn nosparth a swydd FÔN, GOGLEDD CYMRU; yn sefyll ar derfyn afon Cefni, o fewn tair milltir yn orllewinol i orsaf rheilffordd Llangefni, a phedair a haner yn ogleddol oddiwrth Bodorgan; yn Llythyrfa Llangefni. Cynhwysa 2062 o erwau o dir; 1726 o'r hyn, sydd dan ammaethiad, ac agos i 200 yn dir cyffredin. Poblogaeth 510; tai 114; gwerth ardrethol 2101*p.* Y mae y fywoliaeth yn berigloriaeth, mewn cysylltiad â churadaeth barhaol Trewalchmai, yn esgobaeth Bangor. Y mae yr eglwys wedi ei chysegru i St. Llwydian: ac wedi cael ei hail adeiladu yn 1845. Bernir fod y Bedyddfaen yn henafol iawn. Nid yw y tiroedd yn y plwyf yn cael eu hystyried ond cyffredin a diffrwyth, i raddau mawr. Saif y lle tua haner y ffordd rhwng Bangor a Chaergybi, ar y brif-ffordd. Yma y mae y gwesty a adwaenir wrth yr enw "*Mona Inn*," ag sydd wedi bod gynt yn hyrwyddol i deithwyr. Y mae yma leoedd o addoliad gan yr Annibynwyr, a'r Trefnyddion Calfinaidd, a Wesleyol. Gadawodd y Parch. Huw Huws gymunrodd tu ag at wyddori un bachgen tlawd o'r plwyf, a dybenion eraill. Gadawodd William Bold, yn 1688, dir er lles blynyddol y tlodion yma, i'w gyfranu mewn rhoddion parhaol.

**HEN-FACHAU**, trefgordd yn mhlwyf Llanrhaiadr yn Mochnant, Swydd DDINBACH, GOGLEDD CYMRU; ar lan yr afon Tanad; 5½ milldir i'r Gogledd Ogledd Orllewin o Lanfyllin. Poblogaeth, 201.

**HEN-FYNWY**, plwyf yn undeb Aberaeron, Cwmwd Anhunoc, y rhan isaf o Gantref ILAR, sir ABERTEIFI, DEHEUDIR CYMRU. Saif bedair-milldir-arddeg i'r Gogledd orllewin o Lanbedr. Cynnwysa oddeutu mil o drigolion. Saif rhan o dref Aberaeron o fewn cyffiniau y plwyf hwn. Derbynia y plwyf gryn hynodrwydd, oddiwrth y traddodiad, ddarfod i Dewi, nawddsant y Cymry, fod yma yn derbyn ei fagwraeth am amryw flynyddau. Derbynia y traddodiad yma beth grym oddiwrth y ffaith fod yma ffynnon, yn cael ei galw hyd heddyw ar enw y Sant. Er boddloni chwilfrydedd a chywreingarwch, ymwel llawer o ddieithriaid â "Ffynnon Dewi." Mynega traddodiad arall, mai yma y bwriadwyd, ar y cyntaf,

Digitized by Google

i Eglwys Gadeiriol Esgobaeth Ty Ddewi gael ei hadeiladu. Sut bynag, os coleddwyd bwriad felly o gwbl, ni chariwyd ef i weithrediad, canys Eglwysdy lled gyffredin a diaddurn sydd yma, yr hwn a saif mewn mynwent nodedig o helaeth. Curadiaeth barhaol, yn nawdd a rhodd Deon a Glwysgor Ty Ddewi, ydyw y fywiolaeth. Gwaddolwyd yr Eglwys â rhodd Freninol o wyth gant, a rhodd seneddol o fil o bunnau. Allan o gynnyrch y symiau hyn, tala y Deon a'r Glwysgor wyth bunt yn flynyddol i'r periglor; ac o'r degwm rhoddant iddo 101*p.* Swm holl ddegwm y plwyf, ydyw 190*p.*; a gwelir oddiwrth hyn fod y noddwyr urddasol yn derbyn budd lled dda oddiwrth gyllid plwyf mor fychan. Y mae yma addoldai cyfleus gan wahanol enwadau Ymneillduol, yn mha rai, yn ychwanegol at bregethu yr Efengyl, y cynnelir Ysgolion Sabbothol blodeuog. Saif y plwyf ar lan bas-for Aberteifi, a gwahenir ef oddiwrth blwyf Llanddewi-Aberarth gan redlif nerthol yr afon Aeron. El tollffordd Aberystwyth ac Aberteifi trwy Henfynwy; ac y mae'r gymydogaeth yn un dra hyfryd, ar gyfrif y golygfeydd dymunol a geir yma ar y morlan, o un tu, a'r bryniau a'r gelltydd amrywiol ar y llaw arall. Cynnwysa y plwyf tua dwy fil o erwau o dir, lled amrywiol o ran ei natur. Ceir peth o hono yn wlyb a diffrwyth, tra y cynnyrcha y gweddill rawn, a phorfa ragorol. Derbynia y trigolion gryn fanteision o herwydd agosrwydd y lle at borthladd cynnyddol ac ymdrochle blodeuog Aberaeron.

Mesura y plwyf hwn 2261 erw, o ba rai y mae 120 erw dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 1732*p.* Poblogaeth, 1067. Tai annedd, 254. Y mae un adroddiad yn dywedyd mai ficeriaeth yw y fywioliaeth eglwysig hon, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 115*p.* Noddwr, Esgob Ty Ddewi.

**HENGIL**, treflan yn mhlwyf Abergwili, Swydd Gaerfyrddin, Deheudir Cymru; 2 filldir i'r Gogledd Ddwyrain o dref Caerfyrddin. Poblogaeth, 279.

**HENGOED**, capeloriaeth yn mhlwyfi Selattyn, a'r Drewen, Swydd yr Amwythig, yn agos i orsaf Gobowen, ar reilffordd Caer a'r Amwythig; 2½ milldir i'r Gogledd o Groesoswallt. Gwnaed y lle yn gapeloriaeth yn 1854, ac y mae iddi lythyrfa dan Groesoswallt. Gwerth ardrethol, 4546*p.* Poblogaeth, 672. Tai, 146. Y fywiolaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth, 61*p.* Noddwr, y Parch. A. R. Lloyd.

**HENGOED**, trefgordd yn mhlwyf Gladestry, Swydd Faesyfed, Deheudir Cymru; 5½ milldir i'r Dehau o Faesyfed.

**HENGOED**, pentref yn mhlwyf ac undeb Llanelli, cantref Carnwallon, sir Gaerfyrddin. Saif ddwy filldir i'r gogledd o Lanelli, a chynnwysa rhwng mil a haner, a dwy fil o drigolion, y mwyafrif o ba rai ydynt lafurwyr yn y gweithfeydd glo a haiarn gerllaw. Cymer y lle ei enw oddiwrth y coedwigoedd tewfrigog a hynafol a enhuddent y fro yn yr oesoedd a fu. Y mae'r gledrffordd gul rhwng Llanelli a'r Mynydd Mawr, yn myned trwy y pentref.

**HENGOED**, pentref yn mhlwyf Gelligaer, undeb Merthyr Tydfil, cantref Caerphili, sir Forganwg. Saif oddeutu deng milldir i'r de-ddwyrain o Ferthyr Tydfil. Ffurfia y rhan ddwyreiniol o blwyf eang Gelligaer; a chynnwysa boblogaeth o rhwng chwech a saith gant. Fel yr awgryma yr enw, enhuddid y lle gan goed yn yr amser gynt. Gwahenir ef oddiwrth sir Fynwy gan afon Rhymni, dros yr hon y mae dwy bont wedi eu gwneyd er cyfleusdra i'r trigolion. Y mae llawer o dai prydferth wedi eu hadeiladu o bobtu glanau yr afon, yn mha rai y preswylia pobl o sefyllfa gymdeithasol uchel.

**HENGWRT**, palas yn gorwedd wrth droed Aran Fawddwy, yn Swydd Feirionydd; 5 milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Ddolgellau. Bu y palas hwn yn perthyn i hen deulu y Fychaniaid dros oesoedd lawer; ac yr oedd yn enwog hyd yn ddiweddar, am y casgliad cyfoethog o law-ysgrifau Cymreig, a wnelsid gan yr Henafiaethwr llafurus, R. Fychan, Ysw.

**HENGYNWYDD**, trefgordd yn mhlwyf Llandinam, Swydd Drefaldwyn; 5½ milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Lanidloes. Gwerth ardrethol, 1334*p.* Poblogaeth, 225.

**HEN GYNWYDD FACH**, trefgordd yn mhlwyf Llanidloes, Swydd Drefaldwyn, Gogledd Cymru; yn agos i dref Llanidloes.

**HENLLAN**, plwyf bychan prydferth ar lan yr afon Teifi, yn Nghwmwd Gwynionydd, cantref Syrwen, neu Droed-yr-Aur, ac undeb Castell-newydd-Emlyn, sir Aberteifi. Saif oddeutu tair milldir a haner i'r dwyrain o Gastell-newydd-Emlyn, ar y doll-ffordd i Gaerfyrddin; a chynnwysa o gylch cant a haner o drigolion. Maint y plwyf ydyw oddeutu 270 o erwau, o ba rai yr oedd, hyd yn ddiweddar, 35 erw yn agored, ac heb eu gosod o dan ddiwylliad. Ceir yma bont hynafol a thra chywrain, ac iddi dri bŵa a cholofnau addurnol, yn croesi y Deifi. Y mae'r golygfeydd ar yr afon yn dra phrydferth yma, gan y lleinwir canol gwely y llif yn fynych gan greigiau mawrion, y rhai a ffurfiant fân raiadrau cyffrous. Y glanau a addurnir gan berllanoedd prydferth a phersawrus. Rhwng pob peth, cyfrifir Henllan yn un o'r lleoedd hyfrytaf yn Nyffryn Teifi. Esgob Tyddewi ydyw arglwydd y faenor, pa un sydd yn cynnwys yr oll o blwyfydd Bangor a Henllan, rhan o blwyf Llandyfrïog, a dwy fferm yn Llandysilio-gogo. Cynnelir y maenorlysoedd yn Nhre'rbedr, Henllan. Swm y degwm ydyw 25*p.* 18*s.*, gyda saith bunt a ddeilliai fel ardreth pedair erw o dir Eglwysig. Cysylltir y fywioliaeth â rectoriaeth plwyf Bangor. Eglwys fechan a diaddurn ydyw yr eiddo Henllan, ond y mae ei safle yn dra phrydferth. Medda y Methodistiaid Calfinaidd gapel yn y plwyf.

**HENLLAN**, plwyf yn Nghwmwd Cymmeirch, cantref Isaled, sir Ddinbych. Saif pentref Henllan tua dwy filldir i'r Gogledd-ddwyrain o dref Dinbych, ac y mae rhan o hono o fewn terfynau y fwrdeisdref. Medda trigolion y rhan hono hawl i bleidleisio yn etholiad aelod Seneddol dros fwrdeisdrefi cyfunol y sir, yn gystal ag yn newisiad tref-gynghorwyr Dinbych. Yn ychwanegol at Eglwys y plwyf, ceir yma addoldai gan y Methodistiaid Calfinaidd, yr Annibynwyr, a'r Wesleyaid; ac megys agos yn mhob parth o'r Dywysogaeth, Ymneillduwyr ydyw y mwyafrif mawr o'r trigolion. Geilw Pope Nicholas (o.c. 1291) yr Eglwys blwyfol fel "capel perthynol i Eglwys Gadeiriol Llanelwy," a desgrifir y fywioliaeth fel curadiaeth barhaus, o dan nawdd yr Esgob. "Cronicl y Brenhinoedd" a'i geilw yn Ficeriaeth, gwerth ugain punt y flwyddyn, yn nheyrnasiad Elizabeth. Yn yr argraffiad o "*Lewis's Topographical Dictionary*" cyhoeddwyd 1849, hysbysir mai "curadiaeth barhaus ydyw, o werth 165*p.* y flwyddyn, ac yn rhoddiad Deon Llanelwy." Yr oedd y capel cyntefig yn adeilad hynafol, ac yn

Digitized by Google

llawn dyddordeb i'r hanesydd, ar gyfrif y lluaws coffeini a gynnwysai. Yn mhlith ereill, ceid cofebau am benau cenedl y Myddeltoniaid, y Llwydiaid, o Ashton; Ffowciaid, Erifiatt; y Salusburiaid, a'r Jonesiaid, o Alltfaenan; y Dafisiaid, o'r Llannerch, Gruffyddiaid, y Garn, &c. Chwalwyd y capel, yr hwn oedd yn gysegredig i Sant Sadwrn, yn y flwyddyn 1806, ac adeiladwyd yn ei le yr eglwysdy presennol, pa un a ddesgrifir gan y Parch. John Williams (yn ei "Records of Denbigh") fel teml anolygus a diaddurn. Cadwyd rhai o'r cofficini gwerthfawr y cyfeiriwyd atynt; ac yn mhlith ereill, gellir gweled cofebau Huw Peake (o.c. 1601); Agnes Peake (o.c. 1618); Gwilym Vychan, o'r Groes (1661), &c., yn addurno yr Eglwys newydd. Dengys hyn fod mynwent Henllan yn gladdfa i luaws o enwogion Cymru; ond gan y ceir bywgraffiadau i rai o honynt mewn erthyglau a ddygant eu gwahanol enwau mewn rhanau ereill o'r gwaith hwn, afraid fyddai manylu ac ail adrodd eu hanes yma. Heblaw i luaws o enwogion hynafol breswylio yn y plwyf, ac i lawer o honynt ddewis ei fynwent dawel fel mangre eu beddrod, gall Henllan ymffrostio hefyd ei fod yn fagwrfa amryw o Gymry enwog yr oes hon, megys y Dr. Evan Pierce, maer Dinbych am y pum' mlynedd diweddaf, &c. Adeiladwyd dau Eglwysdy ereill, y rhai sydd adeiladau heirdd a golygus, o fewn cyffiniau y plwyf, dro yn ol. Saif un o'r rhai hyn yn Nhrefnant, a'r llall mewn lle a elwir Bylchau. O fewn y flwyddyn 1829, adeiladwyd yma Ysgoldy Cenedlaethol cyfleus i addysgu bechgyn a genethod, i ba un y perthyn gwaddol o dair punt a deg swllt yn y flwyddyn.

Bu unwaith o fewn cyffiniau y plwyf, sef yn nhreflan Barrister Uchaf, gerllaw y terfyn rhwng Henllan a Dinbych, briordy perthynol i Urdd y Carmeliaid Gwynion. Barna rhai i'r priordy gael ei adeiladu gan John Salisbury, o Leweni, tua dechreu y flwyddyn o fewn yr hon y bu efe marw, sef 1289; ond haneswyr ereill a ddywedant, mai John Sunimore a'i hadeiladodd, oddeutu y flwyddyn 1399. Ond gogwydda y tebygrwydd hanesyddol cryfaf o blaid y dybiaeth, mai John Salisbury oedd ei adeiladydd, canys cawn mai yno y cyrchai y Salisburiaid i gyflawni eu defosiynau crefyddol trwy gydol y ddau ganrif dilynol i sylfaeniad y priordy. Yma hefyd y claddwyd tô ar ol tô o'r hen deulu enwog. Dadwaddolwyd y sefydliad gan Harri yr Wythfed, yr hwn a gyflwynodd y cyfoeth perthynol iddo, i Richard Andrews, a William L'Isle. Daeth llawer cyfnewidiad dros yr hen adeilad cysegredig o dro i dro; ond yr hynotaf o'r cwbl, yw tynged derfynol ei furiau yn cael eu troi yn fragdy!

Y mae plwyf Henllan yn un tra eang ei derfynau. Mesura bymtheng milldir o hyd, ac mewn rhai manau dros saith milldir o led, er mai cyfartaledd ei drawsfesur ydyw pedair milldir. Ymestyna o Lanelwy, yn y Gogledd-ddwyrain, hyd at darddiad yr afon Aled, ger Llanrwst, yn y de-orllewin. Y mae golygfeydd ei arwynebedd yn dlws a dymunol. Addurnir ef gan gyflawnder o goed a phalasau boneddigion. Oddiar ei uchfanau ceir golwg fanteisiol ar geinion amrywiol y wlad oddiamgylch; ac nid rhyfedd i luaws o feirdd enwog yr oesoedd a fu, yn gystal a'r eiddo yr oes hon, gael deffroad Awen pan yn gwylltchwareu ar lethrau mynydd Hiraethog, a glanau swynol yr Aled. Perthynai i'r plwyf unwaith, arwynebedd tra eang o dir agored (*common land*). Yn y flwyddyn 1802, cafwyd deddf Seneddol er awdurdodi amgauad dros chwe' mil o erwau o'r tir hwn, pa un a safai, yn benaf, ar ochrau mynydd Hiraethog. Ceir mwnau o wahanol fathau, yn nghyda chyflawnder o galchgraig werthfawr, mewn rhai parthau o'r plwyf.

Perthyna i Henllan luaws o elusenau lled werthfawr; ond y mae o leiaf gynnyrch pump o gyfroddion haelionus boneddigion yr oesau gynt wedi myned ar ddifancoll, er budd i ryw rai na fwriadwyd iddynt eu llogellu. Yma, fel mewn llawer man arall, ceir ddarfod i'r rhai ddylasent fod yn warcheidwaid dyfalaf hawliau y tlawd, droi yn ysbeilwyr y gweddwon, a bradychwyr yr amddifaid. Bydd gan offeiriaid—a wardeiniaid yr oes ddiweddaf lawer i'w ateb i Ynad ynadon, o herwydd eu gweithredoedd anfad yn nghlyn âg elusenau a chyfroddion plwyfol. Yr elusenau sydd yn awr ar gael yn mhlwyf Henllan, ydyw ardreth y Berthen Gron, tyddyn yn mhlwyf Llanfwrog, a brynwyd tua'r flwyddyn 1721, am y swm o 190*p*. Gadewsid can'punt o'r swm hwnw i dlodion Henllan naw mlynedd yn flaenorol, o dan lythyrcymun boneddigeso'r enw Mrs. Slater. Cafwyd ugain punt ereill trwy haelioni Gwilym Fychan, a gwnawd y gweddill o arian y pwrcas i fyny, o drysorfa gyffredin y plwyf. Ychwanegwyd ychydig at faint gwreiddiol y tyddyn, o dan ddarpariadau "Deddf Amgauad tiroedd cyffredin yn Mhlwyf Llanfwrog." Mesura yn awr ugain erw, a chynnyrcha ardreth blynyddol o 31*p*. Allan o'r ardreth, rhanir 6*p*. 15*s*. yn flynyddol, rhwng chwech o hen wŷr, a chwech o hen wragedd tlodion, yn unol âg ewyllys Mrs. Slater; ond nis gwyddom pa fodd y defnyddir y gweddill o 24*p*. 5*s*. Ar un adeg, derbyniodd y plwyf ddau gant o bunnau am goed a dorwyd ar y tyddyn. Yn y flwyddyn 1782, gadawodd yr Arglwyddes Shelburne 182*p*. i'r plwyf. Erbyn y flwyddyn 1814, yr oedd y swm yma wedi chwyddo i bedwar cant a haner o bunnau, pa rai a wariwyd i adeiladu deg o fwthynod, yn cynnwys tair-ar-hugain o ystafelloedd, yn mha rai y trigianna cynnifer o dlodion. Adeiladwyd y rhai hyn ar ddernyn o dir agored yn y pentref; ac yr oedd ar y cyntaf ysgoldy elusenol yn y canol, ond ar gwblhad yr Ysgoldy cenedlaethol, trowyd yr ysgoldy hefyd yn anneddau. Tardda amryw fân symiau o ffynnonellau elusenol ereill, pa rai a renir i'r tlodion ar Ddydd Gwyl Sant Tomos. Yn mhlith y rhai hyn, y mae dwy bunt a dderbynir fel ardreth annedd-dy a brynwyd gydag arian a adawyd gan un Thomas Williams, yn y flwyddyn 1730. Ceir 1*p*. 15*s*. hefyd oddiwrth chwarel a ddaeth i feddiant y plwyf trwy ddarpariadau Deddf Amgauad tiroedd agored Henllan, a basiwyd yn y flwyddyn 1802.

Er bod y plwyf hwn, fel y sylwyd eisoes, yn gyfoethog ar gyfrif amledd ei balasau henafol, eto diau mai y mwyaf dyddorol o'r cwbl ydyw Lleweni, gan mai dyma y lle fu am amser maith yn brif breswyl y Tywysog anffodus Dafydd, brawd Llywelyn ein Llyw Olaf. Yr agosaf at Lleweni mewn dyddordeb, ydyw y Foxhall, preswylfod yr henafiaethydd Wmffra Llwyd. Dyma lle y bu efe fyw a marw, yn fawr ei barch gan ei gyd ardalwyr, a'i enw yn glodfawr yn llên ei wlad. Claddwyd ei weddillion yn mynwent yr Eglwys Wen, lle yr adeiladwyd iddo gofeb, yn cynnwys cerflun o hono ef ei hun, mewn gwisg Yspaenaidd, ac yn penlinio ar allor.

Gwaenynog, yn mhlwyf Henllan, oedd un o hoff gyrchleoedd yr ysgolhaig enwog Dr. Samuel John-

Digitized by Google

son, ac y mae yno gof-adail hardd wedi ei chyfodi, er anrhydedd i'w goffadwriaeth. Poblogaeth y plwyf, yn ol cyfrifiad 1861, ydyw 2607.

**HENLLAN-AMGOED**; plwyf yn undeb Narberth, cwmmwd Wyddigyda, o fewn y Cantref Mawr, neu Gantref y Derllys, sir GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU. Saif bum' milldir i'r gogledd-ollewin o Narberth, a saith milldir i'r gorllewin ogledd-orllewin o Sant Clear's, ar yr hen ffordd o Lanyboedy i Narberth. Rheda yr afon Tâf trwy y plwyf, yr hwn sydd tua thair milldir o hyd, a dwy o led; a'r tir yma sydd o dan ddiwylliad rhagorol. Sefydlodd yr Annibynwyr gangen o achos crefyddol yma yn foreu, ac y mae cyflawnder o gapelydd yn y cymydogaethau cylchynol. Yr Eglwys Blwyfol sydd wedi ei chysegru i Dewi Sant. Y mae y rectoriaeth yn rhodd tirfeddiannwyr y plwyf, ac yn werth, gyda chapelwriaeth Eglwys Fair a Churig, tua chan'punt. Yn "Nghronicl y Brenhinoedd" prisir y fywioliaeth yn werth 6*p.* 10*s.* 5*c.* Mewn maes a elwir Cefn Farchen, gwelir cof-faen Rhufeinaidd, ar ba un y mae y geiriau canlynol wedi eu cerfio mewn dull lled drwsgl ac annillyn:—"*Casi Menvendanii filii Bar-cunii.*" Ceir yn y gymydogaeth hefyd luaws o olion Rhufeinaidd, a Brythonaidd, o henafiaeth mawr. Yn mynwent fechan, dawel y plwyf hwn, y claddwyd y Parchedig Nathaniel Rowlands, mab yr enwog Daniel Rowlands, o Langeitho. Er nad mor enwog a'i dad, yr oedd y Parch. Nathaniel Rowlands yn bregethwr da, a Christion diargyhoedd. Gwasanaethai fel caplan i'r Duc Gordon, a'r Arglwyddes Huntington, yr hon fu noddwraig haelionus i luaws o'r hen efengylwyr Cymreig yn nyddiau eu cyni a'u hadfyd. Erwau, 1033. Gwerth ardrethol, 865*p.* Poblogaeth, 177. Tai annedd, 35.

**HENLLIS**, plwyf yn Swydd FYNWY, ar lan yr afon Wŷsg, yn agos i gamlas y Crumlin, a rheilffordd y Dyffrynoedd Gorllewinol; 3½ milldir i'r Gogledd Orllewin o'r Casnewydd. Mesura 2622, o erwau o dir; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 1647*p.* Poblogaeth 238. Tai annedd 50. Ficeriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn esgobaeth Llandaf; gwerth 40*p.* Noddwr, Ficer Bassaleg.

**HENLLYS**; treflan yn mhlwyf Llanfihangel-genau'r-glyn, undeb Aberystwyth, a chantref GENAU'R-GLYN. Saif saith milldir i'r Gogledd-ddwyrain-Ogledd o Aberystwyth, a chynnwysa 483 o breswylwyr; a 90 o dai annedd. Erwau o dir, 5144, o ba rai y mae 1605, yn orchuddiedig gan ddwfr: a chyfrifir ei werth ardrethol y 1647*p.* Poblogaeth, 483. Tai annedd, 90.

**HENLLYS**, tref-ddegwm yn mhlwyf yr Aberffraw, Swydd FON.

**HENLLYS**, palas yn agos i'r Beaumaris, yn MON; lle y mae gwely Owain Tudur, a henafiaethau dyddorol eraill yn nghadw.

**HENRY**, PARCH. MATTHEW, ydoedd fab i'r enwog Phylip Henry. Ganwyd ef yn y Dderwen Lydan, neu *Broad Oak*, yn nhref-ddegwm Is-y-coed, yn swydd Fflint, Gogledd Cymru, Hydref 18, 1662. Bydd adgofion parhaol am y flwyddyn hon, o blegid ynddi, ar y 24n o Awst, y trowyd allan o Eglwys Loegr, ychwaneg na dwy fil o weinidogion cydwybodol, am na chydffurfient a'r sefydliad gwladol o grefydd. Yr oedd tad Matthew Henry yn un o'r rhai hyny. Ganwyd y gwr enwog hwn dan amgylchiadau galarus; yr oedd ei rieni wedi cael eu troi allan o Worthenbury, ac yr oeddynt wedi dyfod i'r Dderwen-lydan, yn nghylch pythefnos cyn ei enedigaeth, a'r terfysg o symud, dan y fath erlidigaeth a ddygodd Mrs. Henry dan wewyr cynamserol. Ganwyd ef ar ddydd Sadwrn; ac am nad oedd yn debyg o fyw, cyflwynwyd ef i'r Arglwydd y Sabbath canlynol trwy fedydd. Tra yn blentyn, nid ydoedd ond egwan, ac nid oedd yn debyg o fyw yn hir; eto arbedwyd ef, a chryfhaodd. Dangosodd yn fuan ei fod yn meddianu ar alluoedd meddylgar eang. Dywedir ei fod yn gallu darllen ei Fibl, a gwneyd nodiadau arno, pan nad oedd ond tair blwydd oed. Cafodd fanteision dysg a gwybodaeth yn nhŷ ei dad; ac yr oedd mor ddiwyd gyda ei lyfrau, fel y gorfyddai i'w fam ei alw yn fynych o'i ystafell, a'i anog i fyned allan i rodio, rhag iddo niweidio ei iechyd. Dywedai mewn llythyr at ei dad, yr hwn oedd ar y pryd yn Llundain, "Bob dydd er pan yr ymadawsoch, yr wyf wedi dysgu fy ngwers, sef tu dalen o Ladin, a dwy adnod yn y Testament Groeg, ac yr wyf yn hyderu fy mod wedi dysgu y cwbl yn dda." Dyma fel y gwelwn fod Rhagluniaeth yn ei barotoi at y gwaith mawr oedd ganddo o'i flaen. Cafodd afiechyd dwys wedi hyn, yr hyn a fu yn gryn bryder i'w rieni; ond gwellhaodd. Yr oedd gweddw y Parch. Sachariah Thomas, y pryd hwn yn y Dderwen-lydan. Dywedodd Mr. Henry wrthi, wedi iddo ddychwelyd adref, ei fod wedi cyflwyno ei blentyn i'r Arglwydd; atebodd hithau, "Yr wyf yn credu i'r Arglwydd ei roddi yn ol i chwi." Dywedai Mrs. Savage, merch henaf Mr. Henry, yr hon oedd yn clywed yr ymddiddan, yn mhen blynyddoedd ar ol hyny, "Er nad oeddwn y pryd hwnw ond wyth mlwydd oed, gwnaeth yr amgylchiad argraph ddofn iawn ar fy meddwl am ei fywyd, ei fod megis wedi ei estyn yn wyrthiol, ac yr oedd hyny yn ei wneyd yn anwylach genyf." Dechreuodd argraphiadau crefyddol ar ei feddwl yn foreu iawn. Yr oedd pob arwyddion fod ei feddwl yn cael ei dueddu a'i gymhwyso at y weinidogaeth, o blegid yr hoffder mawr oedd ganddo at weinidogion, a'r dalent oedd ganddo i ddynwared ac adrodd pregethau. Y rhai mwyaf crefyddol, oedd ei brif gyfeillion. Byddai rhai yn ofni ei fod yn myned yn mlaen yn rhŷ gyflym, ac y diweddai megis ffrwyth anaeddfed; ond ni fynai ei dad ei atal, o blegid ei fod yn credu ei fod yn ofni Duw. Arferai ysgrifenu y pregethau a glywai. Gadawodd ar ei ol gyfrolau, yn cynwys pennau pregethau a glywsai gan eraill. Yr oedd yn dilyn cyngor a gawsai gan un Mr. Porter, un o gyfeillion ei dâd, i "ddal y gwenith pur bob amser, a gadael i'r ûs fyned gyda'r gwynt." Pan yr oedd tua deunaw oed cafodd ei roddi dan ofal y duwinydd dysgedig, Thomas Doolittle, yr hwn oedd y pryd hwnw yn cadw athrofa yn Islington, Llundain. Aeth yno gyda chûr a chyfaill anwyl iawn oedd ganddo, Robert Bosier, gwr ieuangc oedd wedi bod gyda Phylip Henry am ryw ysbaid yn derbyn addysg. Mewn llythyr at ei chwiorydd o Lundain, dywedai, "Na anghofiwch fi yn eich meddyliau a'ch gweddiau." Bu farw Mr. Bosier yn fuan, er ei fawr ofid; ond daeth yn adnabyddus ag un Mr. Samuel Bury, o'r Amwythig, ac yr oedd hwnw yn gwerthfawrogi y gyfeillach gymaint âg yntau. Yr oedd cyfeillach yr efrydwyr mwyaf crefyddol yn serchus iawn ganddo. Wedi gadael yr athrofa, a dychwelyd i'r Dderwen-lydan, darbwyllwyd ef gan ryw rai i fyned i Neuadd Grey, i astudio y gyfraith, ond yr oedd ef yn hollol allan o'i elfen yno. Yn amser yr erlidig-

Digitized by Google

aeth hwn, ni feddai yr ymneillduwyr athrofaau. Nid oedd ond gwneud y goreu o'r amgylchiadau mewn ysgolion cyffredin. Pan yn y brif ddinas, yr oedd wedi gwneud pob ymdrech i ddysgu ieithoedd diweddar Ewrob, yn gystal a'r rhai clasurol. Elai i wrando Dr. Stillingfleet a Dr. Tillotson; ac un Mr. Glassock, yr hwn a hyfforddai yr ieuaingc, ac a fu yn gymorth mawr iddo. Pan yn 24 oed, dychwelodd i Gymru, i wlad ei enedigaeth, ac yn yr un flwyddyn, dechreuodd bregethu, yn nhy ei dad, a manau eraill; a chredai pawb a'i clywai, mai dyn Duw ydoedd. Gwahoddodd cyfaill ef i bregethu yn ei dŷ yn sir Gaerlleon; cydsyniodd yntau, a'i destyn oedd, "Ond y mae yn Nuw ogoniant mwy ofnadwy." Disgynodd ei eiriau fel tân ar glustiau y gwrandawyr: Dychwelwyd llawer at yr Arglwydd. Cafodd gymhelliad yn fuan i fyned i bregethu i dy un Mr. Henthorn, yn nhref Caerlleon Gawr. Y bregeth hon a fu yn foddion dechreuad yr eglwys ag y bu yn weinidog iddi am flyneddoedd. Urddwyd ef yn ddirgelaidd, Medi 9, 1687. Yr oedd difrifoldeb a dwysder yn hynodi ei holl ymarweddiad. Ymbriododd yn y flwyddyn hon, âg un a ddisgwylid a fyddai yn gysur mawr iddo; ond collodd hi yn fuan trwy afiechyd y frech wen. Ymgyflwynai yn hollol i'w waith; pregethai dair gwaith bob Sabbath; elai i'r pentrefydd o amgylch Caerlleon, bob adeg a gaffai, lle y pregethai gyda llwyddiant mawr. Cynhaliai gyfarfodydd bob Sadwrn gyda dynion ieuaingc ei eglwys, er eu hyfforddi a'u hadeiladu. Pregethai weithiau bob nos, drwy yr wythnos. Yr oedd yn gwneud cyfiawnder â myfyrio ei bregethau bob amser. Yr oedd hyn yn ychwanegu at ei wybodaeth a'i brofiad, ac yn ei barotoi i fod yn dywysog esbonwyr y byd. Yr oedd fel pe buasai yn gallu cymeryd golygiad ar yr holl Fibl drwyddo yn ei weinidogaeth. Yr oedd yn ysgrifenu ei bregethau yn rheolaidd, gan mwyaf. Yr oedd ei eglwys a'i gynulleidfa ar gynnydd parhaus, fel y daeth Ymneillduaeth yn gryf a pharchus yn y dref a'r gymydogaeth. Yn mhen rhyw ysdod o amser, priododd yr ail waith. Yr oedd y wraig hon o deulu cyfrifol iawn; a buant yn ddedwydd iawn, gyda thylwyth lluosog. Ar ol marwolaeth yr enwog Dr. Bates, anfonodd yr eglwys yn Hackney, gymhelliad taer iawn i Mr. Henry fyned yno i'w bugeilio. Nacaodd gydsynio a'r alwad gyntaf; ond y fath oedd taerni yr eglwys honno, fel yr anfonasant ail alwad iddo, eithr efe a nacaodd drachefn, am nas gallasai ymadael â phobl ei ofal yn Nghaerlleon Gawr. Yn mhen deng mlynedd ar ol hyny, cafodd y drydedd alwad o eglwys Hackney. Ar ol dwys ystyried y mater y waith hon, penderfynodd gydsynio a'u cais. Gadawodd ei resymau am ymadael ar ei ol mewn ysgrifen. Un o'r pethau yn ddiau a drodd y fantol, oedd cael gwell cyfleusdra i edrych dros y wasg, a diwygio y gwallau yn nygiad allan ei Esboniad. Bu yn Nghaerlleon am bum mlynedd ar hugain. Pan aeth yno, nid oedd ond ychydig o bersonau yn cyfarfod i addoli mewn ty annedd; ond gadawodd yno eglwys o fwy na thri chant a haner o aelodau, a thua mil o wrandawyr; heb son am eglwysi newyddion, a blannodd yn y wlad o amgylch. Cychwynodd ei weinidogaeth yn Llundain, trwy esbonio y benod gyntaf o Genesis yn y bore, a'r benod gyntaf o Matthew yn y prydnhawn. Yr oedd megis yn dechreu ei weinidogaeth o newydd, ac yn llawn awydd am draethu holl gyngor Duw, ac nid rhan o hono, i'w eglwys, a'i gynulleidfa. Ymddengys fod ei wasanaeth yn gynwysedig mewn darllen, canu, gweddio, esbonio, ac yna pregethu. Yr oedd yn awyddus i oleuo y gynulleidfa yn rhyw ran o air yr Arglwydd yn mhob gwasanaeth. Yr oedd galwadau ar Mr. Henry i bob math o gyfarfodydd, yn, ac o ddeutu Llundain, mor lluosog, fel y gwaelodd ei iechyd, ac y pallodd ei nerth. Dymunai rhai arno ymatal rhag gormod llafur, ond apeliai eraill am ei gymhorth, fel nad allasai ymatal. Pan yn ymadael â Chaerlleon, addawodd dalu ymweliad blyneddol a'r bobl. Pan yn dychwelyd o'i ymweliad yn 1714, cymerwyd ef yn glaf yn ddisymwth yn Nantwich. Ymadawodd a'r fuchedd hon, drwy ergyd o'r parlys dranoeth. Bu yn weithiwr difefl. Cafodd fyw i weled ei Esboniad anghydmarol wedi ei argraphu can belled a Llyfr yr Actau. Pwy a all ddywedyd pa sawl argraphiad sydd o hono yn Saesoneg? ac onid yw yn llawenydd i ni fod ei waith wedi ei gyhoeddi yn iaith gysefin y wlad lle y ganwyd ac y magwyd ef?

**HENRY**, Phylip, gynt o Worthenbury, wedi hyny, a gyfaneddai yn y Dderwen Lydan, yn Swydd Fflint. Ganwyd ef, Awst 24, 1631, yn y Neuadd-wen, yn yr Orllewin-Fynachlys, Caerludd. Yr oedd ei dad, Mr. John Henry, yn fab i Mr. Henry Williams, Briton Ferry, ger Castellnedd, ac yn gydymaith cyfrinachol i Iarll Penfro; yr hwn, pan yn arglwydd ystafellydd, a'i dyrchafodd i wasanaeth y brenhin; a chafodd yr anrhydedd o fyw a marw yn wr llŷs. Ganwyd ei fab yn y llŷs; ac yn fynych. byddai yn cyd-chwareu a'r Tywysog Siarl, a Dug Caerefrog, y rhai oeddynt yn gyfoedion iddo, ac felly yr oedd yn obeithiol y cawsai dderchafiad mewn amser dyfodol. Derbyniodd Mr. Henry ei addysg boreuol yn ysgol y Fynachlog Orllewinol, dan arolygiad y Dr. Busby; yr hwn, o herwydd ei gynnydd mewn dysgeidiaeth, a'i ymddygiad teilwng, a'i hoffai yn fawr. Mewn canlyniad i'w deilyngdod. gyda dylanwad Iarll Penfro, yn 1645, cafodd ei dderbyn yn un o ysgolheigion y brenhin; ac yr oedd yn flaenaf ar y rhestr, o'r rhai a etholwyd ar y pryd. Yn mhlith eraill, cafodd ei benodi, gan ei athraw, Dr. Busby, i gasglu yn nghyd, ddefnyddiau at y Gramadeg Groeg rhagorol, a gyhoeddwyd ganddo. Yn Mai 1647, penodwyd ef, gyda phedwar eraill o'i gydysgolheigion, i fyned i Goleg Crist, yn Rhydychain; a chafodd ei anrhydeddu a'r ail le yn eu plith. Yn y Rhagfyr canlynol, derbyniwyd ef yn gyffredin-iad o'r Coleg, a sefydlwyd Mr. Underwood yn athraw iddo. Llwyr ymroddodd yntau at ei efrydiaeth, fel y cafodd ei dderbyn yn fyfyriwr, yn y Mawrth canlynol, gan Dr. Hammond, yr hwn ydoedd yn is-ddeon ar y pryd. Mewn ymweliad, trwy awdurdod y senedd, a'r brif-ysgol, pan roddwyd y gofyniad canlynol i'w ateb mewn ysgrifen, gan yr ysgolheigion, "A ymostyngwch chwi i awdurdod y senedd, yn yr ymweliad presenol?" Ateb Mr. Henry oedd, "Yr wyf yn ymostwng can belled ag y gallwyf, yn gyson â chydwybod dda, a'm llw o ffyddlondeb i'r brenhin." Cymeradwywyd yr atebiad, a chafodd yntau gadw ei le fel myfyriwr. Cynnyddodd yn rhagorol mewn dysgeidiaeth; ac yn yr amser arferol, cafodd ei raddio; a derbyniodd ganmoliaeth mawr am amryw o'i gyflawniadau colegawl. Traddododd Mr. Henry ei bregeth gyntaf, Ionawr, 1653, yn South Henesey, swydd Rhydychain. Ysgrifenodd boneddiges y Barnwr Puleston, o Emerald, ger Worthenbury, sir Fflint, at Mr. Palmer, o Eglwys Crist, yn Rhyd-

Digitized by Google

ychain, i ofyn iddo gymeradwyo rhyw wr duwiol i arolygu addysgiaeth ei meibion, a phregethu yn Sabbathol yn Worthenbury. Nododd Mr. Palmer wrthddrych y sylwadau presenol, yr hwn a foddlonai i fyned yno ar brawf, am haner blwyddyn. Felly fu, ac wedi treulio yr amser penodedig yno, dychwelodd i Rydychain. Yn fuan wedi hyny, derbyniodd gymhelliad taer oddiwrth y Barnwr Puleston, a holl blwyfolion Worthenbury, i ddyfod yno i sefydlu; â'r hyn y cydsyniodd. Wedi myned yno i drigo, cadwodd ei le fel myfyriwr yn y brif-ysgol dros ddwy neu dair blynedd; a dosparthodd yr elw deilliedig oddiwrth ei sefyllfa, rhwng myfyrwyr tlodion. Sefydlodd y Barnwr Puleston 100*p*. yn y flwyddyn yn rhydd, o gyflog iddo, a chafodd ei urddo yn Prees, Medi 16, 1657. Wedi cael ei sefydlu yn y dull crybwylledig, ymroddodd Mr. Henry a'i holl egni i enill eneidiau o gyfeiliorni eu ffordd at yr Arglwydd. Heblaw pregethu, yr oedd yn ddiwyd iawn gyda'r gwaith o esbonio yr Ysgrythyrau, ac egwyddori pobl ei ofal, yn neillduol ieuengctid, yn egwyddorion sylfaenol y grefydd Gristionogol. Sefydlodd ddarlithiau misol, a chyfarfodydd cyfrinachol ar bethau crefyddol, yn eu plith. Yr oedd yn hynod o ymdrechgar i ymweled a'r cleifion, a'u haddysgu yn y pethau a berthynent i'w heddwch, yn gystal a gweddio gyda hwynt. Ystyriai angladdau yn amgylchiadau tra manteisiol i argraphu syniadau priodol am sefyllfa ddyfodol ar feddyliau dynion; ac am hyny, arferai bregethu ynddynt yn wastadol. Yr oedd o fywyd dichlynaidd a difrycheulyd; parhaodd yn ffyddlon yn ei swydd dros yr wyth mlynedd y bu yn mysg y bobl yno, a chyfranai y ddegfed o'i feddianau, i gynorthwyo yr anghenus, ac i addysgu y tlodion. Wedi hyn, dechreuodd y rhod droi, ac ar ol marwolaeth y Barnwr Puleston, a'i foneddiges dduwiol, ymddygodd teulu Emerald yn angharedig iawn ato; ac er iddo gael amryw gynygion i symud i leoedd gwell, nid oedd yn gweled yn briodol i adael Worthenbury ar bob newidiad tywydd; na bod ychydig o groesau, yn rheswm digonol dros iddo ymadael â chylch ei lafur a'i ddefnyddioldeb. Yn y dyddiau hyn, y prif bwnc yn nadleuaeth y cyhoedd oedd, "Cydffurfiaeth." Rhoddodd Mr. Henry ystyriaeth ddifrifol i'r pwnc, ac ymdrechodd yn mhob modd, i gyrhaedd gwybodaeth o lwybr ei ddyledswydd yn ngoleuni y gwirionedd, gyda golwg ar y pwnc. Yn mhlith pethau eraill, darllenodd, myfyriodd, ac ymddiddanodd lawer â gwyr galluog, ar bob ochr i'r ddadl, ac yn mysg eraill, a'r esgob Fell. Un tro y pryd hwn, dygwyddodd iddo fod yn Nghaerlleon Gawr, mewn cynnadledd â deon a changellydd yr esgobaeth hono, ar y mater. Y prif reswm a arferent hwy i'w ddarbwyllo i gydffurfiad oedd, "y byddai iddo golli ei fywiolaeth, a phob gobaith am ddyrchafiad eglwysig, drwy beidio." Ychwanegasant, gan ddywedyd, "Nid ydych chwi ond gwr ieuangc, ac a ydych chwi yn ddoethach na'r brenhin a'r esgobion?" Mewn canlyniad i hyn, ysgrifenodd Mr. Henry yr ymadrodd canlynol yn ei ddyddlyfr:—"Caniataed Duw na byddo i mi byth ymgynghori â chig a gwaed ar y fath bethau."

Cafodd ei wysio fwy nac unwaith, i ymddangos yn mrawdlys Fflint, am wrthod darllen Llyfr y Weddi Gyffredin, cyn bod cyfraith cydffurfiaeth wedi cymeryd gweithredol le; ac nid heb gryn drafferth y daeth yn rhydd. Ataliwyd oddiwrtho ei dâl blynyddol, gan deulu Emerald; ac ar y dydd 1af o Dachwedd, 1661, cafodd ei rwystro i weinidogaethu yn nghapel Worthenbury, mewn canlyniad i ddadl rhwng Puleston a Dr. Bridgmann, y periglor, yn nghylch y degwm; yr hon a derfynwyd rhyngddynt, trwy gyfryngdod Syr T. Hanmer, ar yr ammod, na byddai i Mr. Henry mwyach, gael pregethu yn y capel. Yr hyn oedd yn gofidio meddwl Mr. Henry fwyaf yn yr amgylchiad hwn, oedd iddo, trwyddo, gael ei amddifadu o gyfleusdra i fod yn ddefnyddiol i eneidiau y plwyfolion. Pregethodd yn achlysurol, wedi hyny mewn amryw leoedd yn y gymydogaeth, hyd nes i Ddydd Gwyl Bartholomew, 1662, ei atal ef rhag gweinidogaethu yn un o'r Eglwysi Gwladol. heb arwyddo cydsyniad hollol, a'r oll o Lyfr y Weddi Gyffredin, y tro cyntaf wedi hyny, y cyfarfu Mr. Henry a'i hen athraw Dr. Busby, gofynodd y Dr. iddo, "Atolwg, fachgen, pa beth a'th wnaeth di yn anghydffurfiwr?" i'r hyn yr atebodd, "Yn wir, syr, chwychwi a'm gwnaethoch, trwy ddysgu i mi y pethau a'm hataliasant rhag cydymffurfio." Yn 1667, symudodd Mr. Henry a'i deulu o Worthenbury i'r Eglwys-Wen. I'r dyben o ddwyn ei dystiolaeth i bwysigrwydd addoliad cyhoeddus, am nad oedd ganddo gyfleusdra mwy cydunol a'i farn, arferai yn gyson ar y Sabbath, fyned i'r Eglwys Wladol yn y boreu i addoli, ac yn yr hwyr, ddysgu ei deulu ac ychydig o'i gymydogion yn ffordd yr Arglwydd yn ei dy ei hun. Yno hefyd y gweinyddodd efe swper yr Arglwydd gyntaf wedi gadael yr Eglwys Wladol. Yn y flwyddyn ganlynol, symudodd ef a'i deulu i'r Dderwen Lydan, lle yr oedd ganddo etifeddiaeth. Perchid ef yn fawr gan ei holl gymydogion, a bu yn ddefnyddiol iawn yn eu plith, mewn llawer modd. Erlidiwyd a dirwywyd ef, am y gwasanaeth crefyddol a arferai efe yn anghyhoedd. Mai 1688, cafodd Mr. Henry ei benodi yn un o ynadon y sir, ond gwrthododd weithredu fel y cyfryw; fel y gallai barhau yn llwyrach yn ngwasanaeth crefydd; yr hyn a wnaeth gyda ffyddlondeb hyd ddiwedd ei oes. Bu farw Mehefin 24, 1696, yn 66 mlwydd oed. Pregethodd Mr. Talents, o'r Amwythig yn ei angladd, oddiwrth Rhuf. viii. 23.

**HENRY**, Thomas, ydoedd fferyllydd enwog, a anwyd yn Wrexham, yn 1734, lle y cynhaliai ei dad ysgol gyfrifol. Cafodd ei addysgiaeth yn Ysgol Ramadegol Wrexham, a bwriedid ei anfon i Rydychain, i'w barotoi at urddau eglwysig, ond fel yr oedd yr adeg i gychwyn yn nesau, ofnai ei rieni, y rhai yr oedd ganddynt deulu lluosog, y byddai y draul uwchlaw eu moddion, a rhoddwyd y bwriad hwnw i fynu. Gosodwyd ef yn wyddorwas gydâg un Mr. Jones, yn ei dref enedigol, yn yr alwedigaeth uchod, ond gorphenodd ei ddygiad i fynu yn y gelfyddyd, yn Knutsford, yn Sir Gaerlleon. Wedi gorphen ei egwyddoriaeth, daeth yn gynorthwywr yn yr alwedigaeth, mewn sefydliad yn Rhydychain; lle y cafodd gyfleusdra i wrando ar ddarlithiau ar Ddifyniaeth, yn y rhai y cymerai yr enwog John Hunter ran, fel arddangoswr. Yn y flwyddyn 1759, dechreuodd ar ei orchwylion yn yr alwedigaeth hon, drosto ei hun yn Knutsford, a phriododd yn fuan, wedi hyn. Ar derfyn pum mlynedd drachefn, symudodd i Manceinion, lle y parhaodd am agos i haner canrif, i weinyddu mewn pethau meddygol i'r nifer fwyaf o'r cyfoethogion yn y dref a'r gymydogaeth. Fel athronydd fferyllol yr ymenwogodd fwyaf. Yn 1771, efe a gyflwynodd i sylw y *Royal College of Physicians*, yn Llundain, welliant yn narpariad "Magnesia Alba,"

Digitized by Google

yr hwn a gyhoeddodd yn mhen y ddwy flynedd wedi hyny, gyda thraethodau ar byneiau eraill, mewn cyfrol gyflwynedig i'w gyfaill Dr. Perceval. Nid oedd darpariad "magnesia," hyd y pryd hwnw, yn cael ei arfer, ond mewn cysylltiad âg olrheiniadau athronyddol. Henry oedd y cyntaf i wneud prawf ar ddaear bur, fel moddion meddygol, ac argymhell yr arferiad o hono, ac egluro i'r byd, ei elfenau hanfodol mewn fferylliaeth. Etholwyd ef yn gymrawd o'r "Gymdeithas Freiniol, yn 1775, ac yn y flwyddyn ganlynol efe a gyfieithodd *Historical View of the Progress of Pneumatic Chemistry*, gan Lavoisier, gyda nodiadau o'i eiddo ei hun. Wedi hyny efe a gyfieithodd gyfres o gofiannau, a gyflwynwyd gan yr awdwr uchod i Gymdeithas y Gwyddorau yn Paris, y rhai a ystyrid yn werthfawr iawn. Cyhoeddwyd y canlyniad o olrheiniadau Henry, i'r byd, trwy weithiau ei gyfeillion, y Drd. Priestley a Perceval. Y mwyaf pwysig o'r rhai hyn, ydoedd rhyw brawfiadau ar awyr sefydlog, trwy y rhai yr ymdrechodd i arddangos, er fod yr awyr hwn, ar wahan, yn niweidiol i dyfiant planhigion, eto pan yn gymysgedig, i raddau penodol âg awyr cyffredin, ei fod yn gynorthwyol i'w tyfiant a'u ffrwythlondeb. Ei ddarganfyddiad nesaf, ydoedd, y ffordd i gadw dwfr ar fordeithiau, drwy gymhwysiad calch; ac anerchodd y Llyngell-lys mewn traethawd ar y pwnc, yn egluro egwyddorion ei brawfiadau. Tua'r amser hwn, ffurfiwyd cymdeithas athronyddol yn Manceinion, ac etholwyd Mr. Henry yn 1781 i fod yn un o'r ysgrifenyddion, ac yn fuan codwyd ef yn llywydd. Cyflwynodd amryw draethodau iddi, y rhai a godasant ei enw yn uchel, fel fferyllydd. Yn 1783, dechreuodd gyfres o ddarlithiau ar egwyddorion cyffredinol fferylliaeth, ac ar y celfau o gannu, lliwio, ac argraphu cottwm. Parhaodd yn ei ymdrechiadau hyd ddiwedd ei dymor. Bu farw Mehefin 18, 1816. Yr oedd o gymeriad dichlyn, ac wedi enill cymeradwyaeth mawr, ac y mae ei ysgrifau mewn bri yn ngolwg awdurdodau y gangen o wyddoriaeth a arddelwai.

**HENRY DWN**, ydoedd fardd, o gryn enwogrwydd yn ei ddydd. Blodeuai rhwng y blynyddoedd 1550 a 1580.

**HENRY'S MOAT**, plwyf yn rhan-barth Hwlffordd, Swydd Benfro; ar yr afon Cleddeu Ddwyreiniol, goris mynydd Preseley; 5½ milldir i'r Gogledd wrth Ddwyrain o orsaf y rheilffordd a elwir *Clarbeston Road;* ac 11 milldir i'r Gogledd Ddwyrain wrth Ogledd o Hwlffordd. Llythyrfa, Hwlffordd. Mesura 3166 o erwau o dir. Gwerth ardrethol, 1419*p.* Poblogaeth, 287. Tai annedd, 60. Y mae yma hen domen, a elwir "Castell Hendref," yn gylchynedig gan ddyfr-ffos; a'r enw hwnw wedi ei lygru gan y Saeson a ymsefydlasant yn y rhan hon o'r dywysogaeth, a arweiniodd i'r enw presenol ar y plwyf. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi, gwerth 185*p.* Noddwr, W. H. Scourfield, Ysw. Y mae y llan wedi ei chyssegru i St. Bernard.

**HENYN**, Tywysog Gwyr ac Ystrad Tywi, tua diwedd y bumed ganrif. Yr ydoedd yn dad i Garwen, un o ordderchadon y brenin Arthur.

**HEOL WERMOD**, treflan yn mhlwyf Merthyr Tydfil, Swydd Forganwg. Gwerth ardrethol, 99,859*p.*, o'r hyn y mae 10,752*p.* mewn mwngloddiau, 61,595*p.* mewn Gweithydd Haiarn, 422*p.* mewn rheilffyrdd, a 1400*p.* mewn Gweithydd Nwy.

**HEPSTE** (Yr), afonig yn Swydd Frycheiniog, yr hon sydd yn tarddu ar ystlys Ddeheuol Bannau Brycheiniog, ac wedi rhedfa o tua 9 milldir i'r De Dde Orllewin, y mae yn ymarllwys i'r Fellte, 2¾ milldir i'r Dehau o Ystrad-Fellte. Y mae amryw raiadrau lled fawreddawg arni yn ystod ei rhedfa fer.

**HEPSY** (Yr), afon yn Swydd Frycheiniog, sydd yn ymarllwys i'r afon Nedd, yn agos i Penderyn.

**HERBERT**, Edward; sef arglwydd Herbert o Cherbury, ydoedd fab i Richard Herbert, Ysw., yr hwn ydoedd foneddwr o deulu henafol, ac o feddianau eang iawn, prif breswylfod yr hwn oedd castell Trefaldwyn. Ganwyd Edward yn 1581, â phan yr oedd yn naw mlwydd oed, efe a ddodwyd dan ofal Edward Thelwall, Ysw., Plas y Ward, Sir Ddinbych, i'r dyben o ddysgu y Gymraeg, a ieithoedd eraill, hen a diweddar, yn y rhai yr oedd y boneddwr hwnw yn dra chyfarwydd; ond ataliwyd ef rhag mwynhau y manteision hyny, drwy afiechyd, yr hyn a barhaodd dros ysdod y naw mis y bu yno. Pan oedd yn bedair-ar ddeg oed, aeth i Brif-athrofa Rhydychain, ac yno y gosododd i lawr sylfaen ei ddysgeidiaeth eang. Pan oedd yn yr oedran boreuol o ddwy-arbymtheg, priododd â merch William Herbert, o St. Gillians, o'r hon y cafodd amryw blant. Ar dderchafiad Iago I., codwyd ef yn Farchog Caerbaddon, a hynododd ei hun yn llys y Penadur hwnw, am ei fedrusrwydd a'i ddysgeidiaeth. Yn 1610, o herwydd ei hoffder at anturiaethau, ymunodd a'r cynorthwywyr Seisonig, oedd yn gwasanaethu yn yr Iseldiroedd, lle yr enwogodd ei hun yn fuan, am ei benderfyniad gwrol a rhyfygus. Yn 1616, anfonwyd Syr Edward yn llysgenhadwr i Ffraingc, lle y darfu i'w annibyniaeth cofn, wrth ateb sylw chwyddedig y Ceidwad De Luynes, fod yn sarhad i Benadur Ffraingc; ac yn unol â dymuniad y gwr hwnw, cafodd ei alw yn ol. Pa fodd bynag, cymeradwywyd ei ymddygiad gan y brenhin Iago, yr hwn a'i hanfonodd drachefn, ar negeswriaeth gyffelyb i Paris, ar ol marwolaeth De Luynes. Yma y cyhoeddodd ei waith cyntaf, yr hwn a alwai "*Tractatus de Veritate, prout distinguitur a Revelatione, a Verisimili, a Possibili, et a Falso,*" *4to, Paris*, 1624. Yn y flwyddyn ganlynol, dychwelodd i Loegr, a chrewyd ef yn farwnig yn Iwerddon; ac yn 1631, efe a dderbyniodd anrhydedd arglwyddiaeth, yn Lloegr, dan yr enw arglwydd Herbert, o Cherbury. Yn 1633, efe a gyhoeddodd argraphiad newydd helaethach o'i "*Tractatus;*" ac ymddangosodd un arall yn 1645, gyda y traethawd, "*De Religione Gentilium, Erromque apud eos Causis.*" Ar doriad allan yr helyntion gwladwriaethol yn nheyrnasiad Siarl I., cymerodd arglwydd Herbert, ar y cyntaf, ochr y Senedd, ond yr hon a adawodd wedi hyny, er gwneud aberth mawr o'i fanteision a'i elw. Bu farw yn 1648, ac olynwyd ef gan ei fab Richard. Cyhoeddwyd dau o'i weithiau, wedi ei farwolaeth, sef "*Expeditio Buckinghami Ducis in Ream Insulam,*" a "Buchedd a Theyrnasiad Harri VIII., gyda chyflwyniad i Siarl I. Yr oedd y gwaith hwn yn ei dderchafu i radd uchel fel hanesydd, tra yr oedd ei weithiau eraill, yn ei brofi yn ysgolhaig trwyadl, a meddyliwr gwreiddiol. Arosodd ei Fywgraphiad, a ysgrifenwyd ganddo ef ei hun, mewn llaw-ysgrifen hyd 1764, pan y cyhoeddwyd ef gan Horace Walpole, ac y mae wedi cael ei adargraphu amryw weithiau wedi hyny.

**HERBERT**, George, M.A., ydoedd bumed brawd

Digitized by Google

arglwydd Herbert o Cherbury, ac a anwyd yn nghastell Trefaldwyn, yn 1593. Wedi cael ei addysgiaeth gartref, dan gyfarwyddyd mam dra rhagorol, hyd ddeuddeg oed, efe a anfonwyd i ysgol Westminster; a phan yr oedd yn bymtheg oed, ac yna yn ysgolor y brenhin, etholwyd ef i goleg y Drindod, yn Nghaergrawnt tua 1608. Daeth yn gymrawd yn ei goleg yn 1615, ac etholwyd ef i swydd areithiwr cyhoeddus yn 1619, yr hon swydd oedd y pryd hwnw mewn llawer mwy o fri nag y mae yn awr; yn yr hon y parhaodd am wyth mlynedd. Yn ysdod yr amser hwnw, dysgodd yr ieithoedd, Eidalaeg, Hispaenaeg, a Ffrancaeg, hyd berffeithrwydd mawr, gyda y disgwyliad o gael ei benodi yn ysgrifenydd y wladwriaeth, fel y bu gyda y rhai a fu yn ei ragflaenori, sef Syr Robert Naunton, a Syr Francis Nethersole, ac yr oedd efe yn cael ei fawr edmygu gan y brenhin, yn llys yr hwn y byddai yn fynych, yn gystal ag yn mhlith y prif foneddion. Wedi cael ei siomi yn ei ddisgwyliadau, drwy farwolaeth Iago I., efe a drodd ei sylw at dduwinyddiaeth, o'r hyn y buasai yn efrydydd diwyd o'r blaen, ac efe a gymerodd urddau. Yn 1626, dyrchafwyd ef i brebenduriaeth yn mhrif eglwys Lincoln; ac yn 1630, efe a ymbriododd, a derbyniodd berigloriaeth Bemerton, gerllaw Salisbury, lle y cyflawnai ei ddyledswyddau gyda chymeradwyaeth uchel. Bu farw yn 1632. Y mae ei waith barddonol rhagorol yn dra adnabyddus. Y maent o'r un cymeriad a'r eiddo Donne, Quarles, a Herrick. Ei bryddestau, a elwir, "*The Temple;*" "Sacred Poems and Private Ejaculations," a argraphwyd yn Llundain, 1635; a'i brif waith rhyddieithol yw, "*The Priest to the Temple,*" yr hwn sydd yn dreithiad rhagorol ar y fuchedd sydd yn gweddu i offeiriad mewn gwlad. Ysgrifenodd hefyd gyfieithiad o Cornaro ar Gymedrolder, gyda rhai caniadau Lladin. Y mae anrhydedd wedi ei dalu iddo ef a'i waith gan Dr. Donne, ac arglwydd Bacon. Cyhoeddwyd ei Gofiant gan Izaac Walton.

**HERBERT**, William, Iarll Penfro, ydoedd gymeriad o enwogrwydd yn nheyrnasiad Iorwerth IV. Efe ydoedd fab hynaf Syr William ab Thomas, o Gastell Rhaglan, yn sir Fynwy, a Gwladys, merch Syr Dafydd Gam. Fel yr oedd yn bleidiwr diysgog i deulu Caerefrog, efe a ymladdodd mewn amryw frwydrau yn erbyn tylwyth Lancaster, a chan gynted ag y derchafwyd Iorwerth i'r goron, fel gwobr am ei ffyddlondeb a'i wroldeb, gwnaed ef yn un o'r Cynghor; ac yn Mai 1461, derbyniodd y fraint o fod yn brif ynad Deheubarth Cymru, gydag arolygiaeth cwmydau siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi, gyda'r swydd o brif goedwigydd yn y Siroedd hyny, dros ei oes. Yn Medi, yr un flwyddyn, ac yna yn dwyn y titl o Syr William Herbert, Marchog, efe a gafodd y fraint o fod yn oruchwyliwr castell ac arglwyddiaeth Brycheiniog, gyda holl gestyll Humphry, dug Buckingham, yn y Deheudir. Ac mewn cydnabyddiaeth bellach o'i fawr wasanaeth yn y Senedd, a ddechreuodd yn Westminster, Tachwedd 4ydd, o'r un flwyddyn, gwnaed ef yn un o arglwyddi y deyrnas; ac yn Mai, yr wythfed flwyddyn o deyrnasiad Iorwerth IV., dyrchafwyd ef yn Iarll Penfro, wedi derbyn rhoddion gwerthfawr oddiwrth y brenhin, y rhai a ddynodir yn fanwl yn Collin's Peerage. Yn y flwyddyn ganlynol, 1469, anfonwyd ef, fel arweinydd 18,000 o filwyr Cymreig, i ddarostwng gwrthryfel y Lancasteriaid yn y Gogledd, ac wedi cyfarfod ei wrthwynebwyr yn Danesmore gerllaw Banbury, gorchfygwyd ef yn hollol, a chymerwyd ef a'i frawd yn garcharorion, a dienyddiwyd y ddau, trwy orchymyn dug Clarence, ac iarll Warwick.

**HERBRANDSTON**, pentref, a phlwyf yn nghantref Rhos, Swydd Benfro, Deheudir Cymru. Y mae y pentref yn sefyll yn agos i borthladd Aberdau gleddeu (*Milford Haven*), 3 milldir i'r Gorllewin wrth Ogledd o orsaf rheilffordd *Milford;* ac y mae yma Lythyrfa dan *Milford*. Cynhelir ffeiriau yma, ar Awst 12, a Dydd hen Wyl Fihangel. Cynnwysa y plwyf 1424 o erwau o dir, a 565 o ddwfr. Gwerth ardrethol, 2095*p*. Poblogaeth, 257. Tai annedd, 53. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 218*p*. Noddwr, yr Arglwydd Gangellwr.—Dywedir i'r plwyf gael ei enw oddiwrth un o'r ymsefydlwyr Normanaidd, neu Fflandrwysaidd, o'r enw Herbrand, yr hwn a ddewisodd ei drigle yn y fan hon yn fuan ar ol y Goresgyniad.

**HERNIN**, treflan yn mhlwyf Llanegwad, Swydd Gaerfyrddin, 6½ milldir i'r Gorllewin o Landeilo Fawr. Gwerth ardrethol, 1835*p*. Poblogaeth, 500.

**HERWALLT**, neu Herewald, un a etholwyd i fod yn esgob Llandaf ar farwolaeth yr esgob Joseph, er na chafodd ei gyssegru i'r swydd dros amryw flyneddoedd wedi hyny; o'r diwedd, yn y flwyddyn 1059, efe a gyssegrwyd gan Stigand, archesgob Caergaint. Efe a fu yn llywyddu ei esgobaeth dros wyth mlynedd a deugain, a bu farw wedi cyrhaedd yr oedran patriarchaidd o gan mlwydd, yn y flwyddyn 1103.

**HESB ALUN**, rhan o'r afon Alun, yn agos i Gilcain, yn Swydd Fflint. Y mae yr afon yn dyblygu ar ei rhawd yn ddisymwth, ac yn llifeirio tan y ddaear am oddeutu haner milldir.

**HEYLIN**, Rowland, ydoedd frodor o Sir Drefaldwyn; ac efe ydoedd gynrychiolydd teulu henafol Heylin, o Bentreheilyn, yn mhlwyf Llandysilio. Mabwysiadodd y teulu hwn yr enw Heilyn neu Heylin, oddiar eu bod yn y swydd o ddwyn y meiliau, i dywysogion Powys. Ymsefydlodd Rowland Heylin yn Llundain, a daeth yn henadur a sirydd yn y ddinas. Y mae ei enw yn cael ei anrhydeddu gyda gwir deilyngdod yn Nghymru, o herwydd ei haelfrydedd yn nghyhoeddiad yr argraphiad cyntaf o blyg mawr, o'r Bibl Cymraeg, a ymddangosodd yn 1630, ac efe a ddygodd y rhan fwyaf o'r draul ei hun. Efe hefyd a gyhoeddodd yr "Arferiad o Dduwioldeb," yn y Gymraeg, yn nghyd a Geiriadur at wasanaeth ei gydwladwyr. Bu farw yn 1634, heb adael mab ar ei ol, ac aeth ei etifeddiaethau, drwy briodas un o'i ferched, i deulu o'r enw Congreve. Yr oedd yn ewythr i'r Dr. Peter Heylin yr hanesydd, yr hwn a fu farw yn 1662.

**HEYOP**, plwyf a threfgordd yn nghantref Tref y Clawdd (*Knighton*), Swydd Faesyfed, Deheudir Cymru; 3½ milldir i'r Gorllewin Ogledd Orllewin o orsaf rheilffordd Knighton. Y mae y plwyf yn gorwedd ar lan yr afon Teme, ar y ffin a Swydd y Mwythig; a'i lythyrfa ydyw Tref y Clawdd. Mesura 1180 o erwau o dir; a chyfrifir ei werth ardrethol, yn nghyd a'r Cnwc glas, yn 2139*p*. Poblogaeth, 283. Tai annedd, 45. Perigloriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 118*p*. Noddwr, Esgob Ty Ddewi. Rhenir y plwyf hwn yn ddwy ran; y ddwyreiniol a wna i fynu ran o fwrdeisdref y Cnwc glas, y gweddill o'r hon sydd yn mhlwyf Bugeildy, a'r rhan orllewinol

Digitized by Google

o drefgordd Cwm Heyop, y gweddill o'r hwn sydd yn mhlwyf Llangunllo. Y mae arwyneb y plwyf yn donweddawl, a'r gweryd yn fras a chynnyrchiol, gan ffurfio porfeldir a gweirglodd-dir dâ yn y glynoedd, a thir âr rhagorol ar lethrau y bryniau. Fe'i dyfrheir gan afonig sydd yn cymeryd ei henw oddiwrth y plwyf. Poblogaeth y rhan hono o'r drefgordd sydd yn mhlwyf Llangunllo, yw 152. Tai annedd, 20. Poblogaeth y rhan sydd yn mwrdeisdref Knuckles, 208. Tai annedd, 34. Y mae yr eglwys yn gyssegredig i goffadwriaeth Dewi Sant. Y mae 3*p.* 16*s.* yn y flwyddyn o elusen yn perthyn i'r plwyf, yr hwn a renir mewn dognau wythnosol o fara, i'r tlodion a fynychant yr eglwys.

**HIGHLIGHT**, rhandir anmhlwyfol yn rhanbarth CAERDYDD, Swydd FORGANWG, DEHEUDIR CYMRU; 7½ milldir i'r De Orllewin o Gaerdydd. Mesura 390 o erwau; a chyfrifir ei werth ardrethol yn 221*p.* Poblogaeth, 15. Tai annedd, 2.

**HILARY** (ST.), plwyf yn nghantref PONT-FÔN, Swydd FORGANWG; 2 filldir i'r De Ddwyrain o orsaf rheilffordd Pont-fôn, a 5¾ milldir i'r Deau wrth Orllewin o Lantrisant. Llythyr-dref, Pont-fôn, (*Cowbridge*). Mesura 1200 o erwau o dir, a chyfrifir ei werth ardrethol yn 1741*p.* Poblogaeth, 139. Tai annedd, 29. Y mae y pentref yn gorwedd mewn sefyllfa ddifyrus, ar ychydig o godiad tir, yn Mro Morganwg, a chair golygfa ardderchog o hono ar y rhanau deheuol o'r wlad, ar gulfor Caerodor, yn dryfrith o longau o bob math, a bryniau Gwlad yr Hâf, &c. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llandaf, wedi ei gwaddoli â 200*p.* o ddyroddiad personol, a mil o bunau o ged-rodd Freninol, ac yn nawddogaeth Deon a Glwysgor Llandaf. Mewn gweirglodd deg, tua milldir o'r pentref a elwid ar y cyntaf *Beau Prês,* ac yn awr "Bewper," y safai un o lysoedd Sitsyllt, o'r hwn yr hana teulu y Ceciliaid, Ardalyddion Salisbury ac Exeter. Ar orsaf yr hen lŷs, yr hwn oedd yn un o'r rhai hynaf yn y dywysogaeth, adeiladwyd un arall, o'r hwn y mae rhai adfeilion hynod yn aros, y rhai a deilyngant sylw neillduol ar gyfrif rhai o'r addurniadau oeddynt ar brif dal-wyneb yr adeilad, y rhai a gyfrifir yn mysg yr enghreifftiau boreuaf o ddygiad yr arddull Groegaidd o adeiladaeth i fewn i'r wlad hon. Fe'u hadeiladwyd yn y flwyddyn 1600, ar draul Richard Bassett, Ysw. Y maent yn gynwysedig o dri esgynlawr o golofnau; yr isaf o ba rai sydd o'r arddull Doricaidd, yr ail o'r Tuscanaidd, a'r uchaf o'r Corinthaidd; ac yr oedd yr holl gerfiadaeth wedi ei wneyd yn y modd perffeithiaf, ac uwchben y fynedfa i fewn, yr oedd arfebau y teulu wedi ei gerfio yn gelfydd, ac arysgrif goffadwriaethol mewn prif lythyrenau Rhufeinaidd. Yr addurniadau hyn a ychwanegwyd oddiar gynllun gan Saer maen a elwid "Twrch," teulu yr hwn a fuasent dros lawer o genedlaethau yn berchenogion y cloddfeydd cerrig nâdd yn y gymmydogaeth. Y gwr uchod a adawsai ei gartref o achos rhyw ymrafaelion teuluaidd, ac a ymwelsai â'r Eidal, a manau ereill ar y cyfandir, lle y gwellasai ei hunan yn ddirfawr mewn saerniaeth, a maen-gerfiadaeth; ac ar ei ddychweliad i'w fro enedigol, efe a amlygodd y fath dalent yn y dernyn celfyddydol hwn, yr hwn sydd yn tynu sylw ac edmygedd teithwyr hyd heddyw, fel y daeth i sylw amryw o fonedd y wlad.

**HILLYN**, bardd enwog, a flodeuai rhwng 1280, a 1330. Y mae dau Gyfansoddiad barddonol o'i eiddo, wedi eu hargraffu yn y *Myfyrian Archaiology.*

**HIR**, treflan yn mhlwyf Llanarth, CEREDIGION; 4½ milldir i'r De Dde Orllewin o Aberaeron. Poblogaeth, 270.

**HIRAEL**, sydd bentref ar derfyn Bangor, yn Sir Gaernarfon; trwy y cynnydd mewn adeiladu sydd wedi cymeryd lle yno yn ddiweddar, y mae erbyn hyn, wedi dyfod i gysylltiad a'r ddinas; a rhifir y boblogaeth tua 1140. Yma y mae allforiad y llechi o Bethesda, o Borthladd Bangor.

**HIRAETHOG**, GRYFFYDD, ydoedd fardd o gryn enwogrwydd, a flodeuai yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Yr oedd yn enedigol o Sir Ddinbych, ac yn cyfaneddu ar derfyn y mynydd oddiwrth yr hwn y cymerai ei enw barddol. Ysgrifenodd ei ganiadau rhwng 1520 a 1550. Yr oedd yn un o ysgolorion Tydur Aled; ac efe ei hun ydoedd hyfforddwr y beirdd, William Lleyn, Simwnt Fychan, William Cynwal, a Sion Tydyr, yn rheolau gwarantedig Cerdd Dafod. Claddwyd ef yn nghangell eglwys Llangollen. Y mae llawer o'i gyfansoddiadau wedi eu cadw mewn ysgrifen. Y mae enw a llinell gyntaf pob cyfansoddiad o'i eiddo wedi eu cyfleu yn y Greal; at y rhai y gellid ychwanegu llawer, sef y rhai a ddarganfyddwyd wedi hyny. Efe hefyd a ysgrifenodd Hanesiaeth o Frydain oll, gyda gwledydd ereill.

**HIRAETHOG** (MYNYDD), sydd yn ffurfio cyfran eang o fryniau sir Ddinbych. Y mae tua phum milltir ar hugain o hyd, ac o bump i bymtheg o led. Y mae amryw lynau arno, lle y cychwyna amryw o'r ffrydiau sydd yn dyfrhau y wlad; nid yw ond lled ddiffrwyth ar y cyfan, ac wedi ei orchuddio â grug; er fod yn ei gesail ambell ddyffryn bychan prydferth, megis Pentre-llyn-cymer, ac ereill.

**HIRNANT**, plwyf yn rhan-barth uchaf cantref LLANFYLLIN, Swydd DREFALDWYN, 6½ milldir i'r Gorllewin Ogledd Orllewin o Lanfyllin, ar lan afonig brydferth o'r un enw. Y mae yn cynnwys treflanau Cwmmwr, y Fedw, a'r Llan; a'i lythyrfa yw Llanfyllin, dan Groesoswallt. Erwau, 4000. Gwerth ardrethol, 1376*p.* Poblogaeth, 295. Tai annedd, 56. Y fywioliaeth eglwysig sydd berigloriaeth, yn esgobaeth Llanelwy. Gwerth, 135*p.* Noddwr, Esgob Llanelwy. Torir llawer o fawn o fewn y plwyf, yn danwydd i'r trigolion; a gwnaed cais aflwyddiannus yn y flwyddyn 1830, i agor gwaith plwm, ar fryn uchel yn nhrefgordd Cwmmwr, rhwng y pentref a phlwyf Llangynog, yn yr hwn y mae gweithfeydd plwm llwyddiannus, ar yr ystlys ogleddol i'r un bryn.

Y mae Llan y plwyf hwn wedi ei chyssegru i goffadwriaeth St. Illog; ac heb fod yn mhell o'r eglwys, y mae ffynon, a elwir "Ffynon Illog," i'r hon y priodolid rhinweddau meddygol gynt; ond y mae yn dra amheus a fu y cyfryw briodolderau meddygol yn perthyn iddi erioed. Y mae tomen neu garn, ar fryn uchel o'r enw "Carnedd Illog," yr hon a gyfodid, fel y tybid, ar weddillion hen nawdd-sant y plwyf. Ac ar fryn arall, yn ochr dde ddwyreiniol y plwyf, yn agos i'r lle y ffinia ar blwyf Llanrhaiadr, y mae amglawdd mawr, tua phedwar can llath o hyd, a elwir "Clawdd Mawr," adfeilion yr hwn ydynt dra eglur; ac oddeutu dwy filldir oddiwrth hwn, ar fryn cyferbyniol, ar gwr gogleddol y plwyf, yn ymylu ar blwyf Pennant, y mae hen orsaf filwraidd arall, olion yr hon nid ydynt mor eglur.

Digitized by Google

**HIRNIN**, cyd-dreflan âg Egwad, yn y rhan hono o blwyf LLANEGWAD sydd yn y rhanbarth uchaf o gantref CATHINOG, Swydd GAERFYRDDIN; 7½ milldir i'r Dwyrain Ogledd Ddwyrain o dref Caerfyrddin. Y mae yn gorwedd ar lan aswy yr afon Cothi, yn agos i'w hymuniad a'r afon Towi, lle ei croesir gan bont ar y brif-ffordd rhwng Caerfyrddin a Llanymddyfri. Y mae llech-gloddfa yn y dreflan hon.

**HIRWAUN**, sydd bentref poblogaidd, lle mae gwaith haiarn, ac amryw lofeydd, a gorsaf ar gledrffordd Merthyr ac Abertawy. Saif y pentref yn nghwr gogleddol plwyf Aberdâr, swydd Forganwg, a'r Gwaith Haiarn y tu arall i afon Cynon, yn mhlwyf Penderyn, sir Frycheiniog. Derbyniodd y pentref ei enw, oddi wrth Hirwaun Wrgan, sef y Waun a roddwyd gan Gwrgan Tywysog Morganwg, yn dir pori i amaethwyr y sir. Nid oedd yma bentref o gwbl cyn y flwyddyn 1666. Yn y flwyddyn a nodwyd, adeiladodd Sais o'r enw Maybury, ffwrnes fechan at wneuthur haiarn, yn mhlwyf Penderyn, yr hon a chwythid â dwy fegin gan ddynion; a dywed traddodiad mai y swm o haiarn a wnaent ynddi yn wythnosol, oedd *un dunnell!* Aeth oes y ffwrnes hono heibio heb i nemawr lwydd ei choroni: a bu amryw yn aflwyddianus ar ol Maybury, yn eu cais i wneyd haiarn yn y lle, nes i Mr. Anthony Bacon wneyd ei ymddangosiad yn yr ardal, tua'r flwyddyn 1763, yr hwn a gychwynodd gyfnod newydd yn hanes y fasnach haiarn, nid ar Hirwaun yn unig, ond trwy y deyrnas. Cychwynodd hwn waith haiarn ar Hirwaun, a dau ereill yn mhlwyf Merthyr Tydfil; ond ni fu ei arosiad yn hir yn y naill na'r llall o'r lleoedd hyn. Yn fuan wedi dechreu y ganrif bresenol, yr oedd Ffwrnes Hirwaun yn meddiant un o'r enw Overton, yr hwn er ei ymdrech, a fethodd yn ei amgylchiadau; safodd y gwaith, a gwywodd y lle am rai blynyddau. Tu a'r flwyddyn 1820, neu ychydig cyn hyny, ail gychwynwyd y gwaith gan Wm. Crawshay, Ysw., yr hyn a roddodd fywyd newydd i'r lle. Helaethodd Mr. Crawshay y gwaith hefyd, nes yr oedd ganddo bedair ffwrnes yn gweithio gyda chyssondeb: a thra y dygwyd y gwaith yn mlaen ganddo ef, a'i fab ar ei ol, cynnyddodd y pentref yn gyflym, ac aeth pethau yn mlaen gyda llwyddiant a bywiogrwydd.

Yn mhen ychydig amser ar ol i Mr. Crawshay gychwyn y gwaith, dechreuodd y gwahanol enwadau Crefyddol adeiladu Capeli yn y pentref, er cyfleustra i gyd-addoli. Yn 1823, adeiladwyd yma ddau gapel, un gan yr Annibynwyr, a'r llall gan y Trefnyddion Calfinaidd. Yn 1824, adeiladodd y Wesleyaid gapel yn y lle; ac yn 1825 adeiladwyd capel gan y Bedyddwyr. Ail adeiladwyd Nebo, capel yr Annibynwyr yn 1836, ond aeth yn rhy fach drachefn, fel y bu rhaid ei dyny i lawr a'i drydydd adeiladu ar raddfa eangach yn 1856. Cafodd Bethel (T. C.), ei ail adeiladu yn 1838, a'r drydedd waith yn 1856.

Mae Ramoth hefyd, capel y Bedyddwyr, wedi ei adeiladu yr ail waith er 1840; a'r drydedd waith er y flwyddyn 1867. Adeiladodd y Wesleyaid Cymreig gapel newydd yma hefyd, ac y mae yr hen gapel gan y gangen Seisnig. Mae yma gapel ac eglwys Seisnig gan yr Annibynwyr hefyd; ac Eglwys Yr Holl Saint, yn perthyn i'r sefydliad gwladol: fel nad yw y lle mewn diffyg am freintiau crefyddol.

Tua'r flwyddyn 1858, crogodd cwmmwl du uwch ben y lle, gwywodd masnach, a safodd y gwaith haiarn yn hollol, yr hyn a ddygodd wasgfa a chaledi ar gannoedd o'r trigolion. Yn nechreu 1864, cafodd y gwaith ei drosglwyddo yn eiddo i Meistri Cullinder a Hinde, ond ni fu nemawr lewyrch arno gan y rhai hyn. Tua'r flwyddyn 1867, cymmerwyd at y gwaith gan Handel Cashern a'i Gyf, a bu yn gweithio am ychydig dan reolaeth y blaenaf: ac ar ol colli miloedd lawer o bunnoedd yn yr anturiaeth, gorfu arnynt hwythau adael y lle, a safodd y gwaith. Yn 1871, cymmerwyd at y gwaith gan foneddwyr a alwant eu hunain *Aberdare & Rhondda Co.*, ac ar ol treulio llawer o arian mewn adgyweirio, cychwynwyd y gwaith yn 1872: a gobeithio y try allan yn llwyddiant mawr i'r perchenogion, ac y gwelir y lle etto yn fuan mewn cymmaint bri ag y bu erioed.

**HITRWM** (TALARIANT), un o'r gwroniaid yn y Mabinogion.

**HODGESTON**, plwyf yn nghantref CASTELL MARTIN, Swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU, milldir i'r De Ddwyrain o orsaf rheilffordd Lamphey, a 3 milldir i'r Dwyrain Dde Ddwyrain o dref Penfro. Y llythyrfa yw Lamphey, dan Benfro. Mesura 709 o erwau o dir. Gwerth ardrethol, 741*p.* Poblogaeth, yn 1851, 78; yn 1861, 43. Tai annedd, 9. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglor iaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi; gwerth 105*p.* Noddwr, R. E. Arden, Ysw. Y mae rhai awdwyr yn dal allan y dybiaeth o fod y plwyf hwn wedi bod yn orsaf hen sefydliad crefyddol; ond nid oes yr olion lleiaf o'r cyfryw yn ganfyddadwy yn bresenol, na chymaint a hanes draddodiadol am dano ar lafar gwlad. Y mae y dybiaeth yn gorwedd yn benaf, os nad yn hollol, ar dystiolaeth hen weithred sydd ar gael eto, yn yr hon y mae un John Stackpool yn ei alw ei hun yn "*Capellanus;*" ac yn ei dyddio o "Oggeston;" ond yr hyn sydd fwyaf tebyg yw, fod yr ysgrifenydd yn Gaplan i'r Palas Esgobawl yn Lamphey, tua haner milldir oddiyma, ac yn dal periglor iaeth y plwyf hwn ar yr un pryd. Y mae yr eglwys yn adeilad hardd, yn yr arddull Seis'nig Foreuol. Yr oedd Dr. Thomas Young, gynt Esgob Ty Ddewi, ac wedi hyny Archesgob Caerefrog, yn frodor o'r plwyf hwn.

**HOEWGI**, tad Graidd, yr hwn a laddwyd yn mrwydr Cattraeth, a grybwyllir gan Aneurin yn y Gododin.

**HOELWERMWD**, treflan yn mhlwyf Merthyr Tydfil, Swydd FORGANWG. Yr enw priodol yw HEOL WERMOD. Gwerth ardrethol, 99,859*p.*, o'r hyn y mae 10,752*p.* mewn mwn-gloddiau, 61,595*p.* mewn Gweithfeydd haiarn, 422*p.* mewn rheilffyrdd, a 1400*p.* mewn gweithydd nwy. Gwel MERTHYR TYDFIL.

**HOLLAND**, Huw, ydoedd fab i Robert Holland, Ysw., o Ddinbych, lle y ganwyd ef. Cafodd ei addysgiaeth yn ysgol Westminster, pan yr oedd Camden yn athraw yno, o'r lle yr etholwyd ef i Goleg Trinity yn Nghaergrawnt, yn 1589, ac efe a ddaeth yn gymrawd o hono. Efe a ymdeithiodd wedi hyny ar led, a thra yr ydoedd yn Rhufain, siaradai yn lled anghymeradwy am y frenhines Elizabeth. Aeth wedi hyny i Gaersalem, ac ymwelodd â Chaer-cystenyn, lle y galwyd ef i gyfrif gan Sir Thomas Glover, y cenhadwr Seisnig, ac efe a garcharwyd am beth amser o blegid rhyddid ei ymadroddion. Wedi ei ddychweliad i Loegr, efe a dreuliodd rai blyneddau yn Rhydychain, er mwyn cael mantais i ddefnyddio y llyfrgell gyhoeddus yno; wedi cael ei siomi am y derchafiad, y dywedid fod ei ddysgeidiaeth yn ei deilyngu. Yr oedd yn cael ei ystyried, nid yn unig yn fardd Seisnig da, ond

Digitized by Google

hefyd yn awenydd rhagorol yn y Lladin, ac yn ol barn amryw, yn teilyngu cael ei resu gyda Spencer, Sidney, a phrif feirdd yr oes hono yn Lloegr. Ei weithydd oeddynt, *Verses in Description of the Cities of Europe;* 2, *Chronicle of Queen Elizabeth's Reign;* 3, *Life of William Camden, Clarencreux King of Arms,* y rhai a adawodd mewn ysgrifen. Efe a gyhoeddodd hefyd, yn Llundain, yn 1625, "*A Cypress Garland for the sacred head of the late Sovereign K. James, a poem.* Bu farw yn Westminster, Gorphenaf 23, 1633, a chladdwyd ef yn yr abad-dy.

**HOLLAND ARMS**, sydd orsaf ar reilffordd Canolbarth Mon, rhwng y Gaerwen a Llangefni, ar fin Cors Degai.

**HOLT**, sydd dref fechan, trefgordd, a phlwyf; ac is-ddosparth yn nosparth Gwrecsam, yn swydd DDINBYCH. Y mae y dref yn sefyll gerllaw afon Dyfrdwy, ar derfyn sir Gaerlleon, 4 milltir dwy.-de-ddwy. o orsaf rheilffordd Rossett, 5½ gog.-ddwy. o Wrecsam. Y mae yn arddangos, gyda'r terfynau olygfa brydferth iawn; yma yr oedd *Castrum Legionis* y Rhufeiniaid, a Chastell Lleon y Cymry. Adwaenir y lle yn y cofnodau cyfreithiol fel y "Lyons;" cafodd ei gwarchod gan gyfran o'r fyddin Rufeinig o Gaerlleon, ac yr oedd yn amddiffynfa gadarn yn amser Iorwerth I. Yr oedd er amser boreuol iawn, yn cael ei hystyried fel rhan o dir Powys; a bu am ganrifoedd yn lle o ymrysonau cenedlaethol; cafodd freinlen yn 1410, ac y mae er hyny, yn cael ei llywodraethu gan faer, dau geidwad, a threngholydd. Y mae yn uno â Dinbych, Rhuthin, a Wrecsam, i anfon un aelod i'r senedd. Ymddengys yn awr yn adfeiliedig, ac heb nemawr o arwyddion ei gwychder gynt. Y mae yn cael ei huno â sir Gaerlleon gan hen bont, o ddeg o fwaau meini, yn Farndon; ac y mae yma Lythyrfa dan Wrecsam, hen groes marchnad, eglwys, capel ymneillduol, ac ysgol rad. Yr oedd y castell yn sefyll ar geulan y Ddyfrdwy, wedi ei adeiladu gan Iarll Warren; cyflwynwyd ef wedi hyny i'r teulu Fitzalan; yna Beauchamp, yna Stanley, yna Arundel, yna Mowbray, ac yna i'r Goron; arwyliwyd ef wedyn, yn 1643, dros Siarl I.; a chymerwyd a darostyngwyd ef, yn 1645, gan filwyr y Senedd; cafodd ei ddiogelu eilwaith, gyda thyrod ar yr onglau, ac â gategion; gyda ffos ddofn ar ochr y tir; o'r rhai nid oes ond ychydig o olion yn aros hyd yn awr. Y mae yr eglwys yn henafol, mewn cyflwr gweddol dda, gyda thŵr. Darganfyddwyd bathodau, a gweddillion Rhufeinig eraill yma. Y mae y dref a'r drefgordd wedi eu cytterfynu. Erwau, 2763. Gwir feddianau, 4898*p.* Poblogaeth, 1008. Tai, 219. Y mae y plwyf yn cynwys hefyd drefgorddau Dutton-Diffeth, Dutton-Cacae, Dutton-y-Bran, Ridley, a Sutton. Erwau, 6158. Gwir eiddo, 10,138*p.* Poblogaeth, 1490. Tai, 322. Y mae y meddianau wedi eu dosparthu rhwng nifer mawr. Y mae ffrwythydd gerddi yn cael eu cynnyrchu yn helaeth yma. Y mae y fywioliaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy; gwerth 101*p.*; ac yn nhadogaeth Deon, a Glwysgor Winchester. Y mae yr is-ddosparthiad yn cynwys hefyd blwyf arall o Ddinbych, a dau blwyf, a llain eglwysig yn Fflint; a rhan o lain gyffelyb, a rhan o blwyf yn sir Gaerlleon. Erwau, 20,969. Poblogaeth, 4452. Anneddau, 953.

**HOPE**. Gwel CAERGWRLE.

**HOPE**, trefgordd yn mhlwyf Buttington, Swydd DREFALDWYN; 2 filldir i'r Gogledd Ddwyrain o'r Trallwng.

**HOPE OWEN**, trefgordd yn mhlwyf yr Hope, neu Estyn, Swydd FFLINT, GOGLEDD CYMRU. Gwerth ardrethol, 2284*p.*

**HOPKIN**, DAFYDD, o'r Coedty, yn sir Forganwg, ydoedd fardd, a flodeuai rhwng y blynyddoedd 1700 a 1730.

**HOPKIN**, LEWIS, ydoedd fardd o gryn enwogrwydd yn sir Forganwg; yr hwn a fu farw yn 1770, tua deg a thri-ugain oed.

**HOPKIN**, WILLIAM, ydoedd fardd o urdd Gorsedd Morganwg, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1780.

**HOPKINS**, WILLIAM, a anwyd yn Nhrefynwy, yn y flwyddyn 1706. Efe a addysgwyd yn ysgol rad ei dref enedigol, o'r lle ei hanfonwyd i Goleg yr Holl Saint, Rhydychain, yn y flwyddyn 1724. Efe a raddiwyd yn Wyryf o'r Celfyddydau, yn y flwyddyn 1728; ac yn yr un flwyddyn efe a urddwyd yn ddiacon; ac wedi iddo gael curadiaeth Waldron yn Sussex, efe a ordeiniwyd yn offeiriad, yn y flwyddyn 1730. Y flwyddyn ganlynol efe a bennodwyd yn is-beriglor Buxted a Cuckfield, yn Sussex; a hefyd yn is-athraw yr ysgol yn y lle olaf; ac yn fuan wedi hyny, cyflwynwyd ficeriaeth Bolney, yn yr un gymmydogaeth iddo. Yn 1758, efe a etholwyd yn athraw yr Ysgol Rammadegol yn Cuckfield, ac yn 1763, efe a adolygodd ac a gyhoeddodd y llyfr a elwir "*The Liturgy of the Church of England, in its ordinary service, reduced nearer the Standard of Scripture.*" Yn y flwyddyn 1772, efe a gyhoeddodd ddau draethawd a elwir, "*Queries recommended to the Consideration of the Public, with regard to the Thirty-nine Articles;*"—a "Llythyr at y Parch. Josiah Tucker, deon Caerloyw, wedi ei achlysuro gan ei Esgusawd dros Eglwys bresenol Lloegr," &c. Y gwaith olaf a anfonodd ef i'r wasg, "Exodus. Cyfieithiad diwygiedig, yn nghyda Nodiadau beirniadol ac eglurhaol. 1784, 4 plyg." Efe a gafodd lawer o gymhorth yn nghyflawniad y gwaith hwn, oddiwrth Gyd-gymhariad Dr. Kennicot, a'r Pumllyfr Samaritanaidd; ac y mae y Nodiadau, y rhai ydynt dra buddiol, yn ychwanegiad gwerthfawr at yr ystôr a feddid o feirniadaeth Feiblaidd. Bu y gwr dysgedig hwn farw yn y flwyddyn 1786, pan yn bedwar ugain mlwydd oed.

**HOSELEY**, treflan yn arglwyddiaeth Merford a Hoseley, plwyf Gresford, Swydd FFLINT; 4 milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Wrecsham. *Hoseley Hall* oedd preswylfod y Maeslywydd Webber.

**HOWEL**, HOWEL, *Trehill*, oedd weinidog gyda y Trefnyddion Calfinaidd yn Sir Forganwg. Ganwyd ef yn 1750. Urddwyd ef yn yr Eglwys Sefydledig yn 1782; a bu yn gwasanaethu ynddi, gan ddal cysylltiad hefyd a'r Trefnyddion, hyd y flwyddyn 1818. Yn y flwyddyn honno, ymadawodd yn hollol a'r Eglwys, a chymerodd ei ryddid i lafurio, yn ei ffordd ei hun, gyda y Trefnyddion, lle y parhaodd hyd ei farwolaeth. Yr oedd yn enwog am ei dduwioldeb, ac y mae ei goffadwriaeth yn fendigedig. Bu farw Ionawr 19, 1842, yn 92 mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent Soar, ger Pont y pwl, lle y traddododd y Parch. W. Evans, Ton yr efail bregeth angladdol ar yr achlysur.

**HOWEL**, JAMES, oedd awdwr dysgedig ac ysgrifenydd galluog. Cafodd ei eni yn 1594, yn Cefn-y-bryn, plwyf Llangamarch, Sir Frycheiniog, yn yr

Digitized by Google

hwn blwyf y bu ei dad yn is-beriglor, o'r flwyddyn 1576 hyd 1631; pryd y cyflwynwyd iddo fywiolaeth Abernant a Chynwil Elfed, yn sir Gaerfyrddin. Derbyniodd ei addysgiaeth arweiniol, yn yr Ysgol Rydd yn Henffordd, o'r hon yr aeth i Goleg yr Iesu yn Rhydychain, yn y flwyddyn 1610. Pan yr oedd yn aros yn y brif-ysgol, bu yn ddyfal iawn yn ei efrydiaeth. Yn y flwyddyn 1613, derbyniodd yr urdd-radd o B.A. Gadawodd Loegr yn 1619, a bu yn ymdeithio drwy Holland, Fflanders, Ffrainge, Ysbaen, a'r Eidal. Gan ei fod yn ddyn o feddwl bywiog a nerthol, cyrhaeddodd wybodaeth helaeth, a chydnabyddiaeth eang a'r ieithoedd diweddar, yr hyn nad oedd yn beth cyffredin y pryd hwnw. Yn 1622, anfonwyd ef i'r Ysbaen, er ymdrechu i adenill llong, oedd yn llawn o drysorau gwerthfawr, ond wedi myned dan attafaeliad gan raglaw Sardinia; ac yn fuan wedi dychwelyd, cafodd ei benodi yn ysgrifenydd i Scrope, Iarll Sunderland, trwy ddylanwad yr hwn y dewiswyd ef, yn y flwyddyn 1626, yn aelod dros Richmond. Yn flaenorol i hyn, yr oedd wedi cael ei ethol yn gymrawd o Goleg yr Iesu, yn 1623. Yn 1630, aeth yn ysgrifenydd gyda Robert, Iarll Leicester, yr hwn oedd wedi cael ei benodi yn negesydd y Llywodraeth Brydeinig i lys Denmarc; ac yno y dangosodd ei alluoedd areithyddol, mewn anerchiadau yn Lladin, o flaen brenhin Denmarc. Trwy y ffafrau a gafodd yn Copenhagen, galluogwyd ef i sicrhau breintiau neillduol i gwmpeini Eastland, y rhai yr oedd pob cais am danynt wedi bod hyd hyny yn ofer. Ar ol hyny, penodwyd ef yn un o ysgrifenyddion y Cyngor; ond gan ei fod yn dra gwastraffus yn ei dreuliau, cafodd ei garcharu yn y *Fleet*, am ddyled; lle y defnyddiodd ei oriau hamddenol, i gyfansoddi llawer o'i weithiau awdurol. Y mae Wood yn rhifo rhwng 50 a 60, o gyfansoddiadau awdurol o'i waith; un o'r rhai mwyaf cyhoeddus yw ei *Dodona's Grove*, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1639, a chafodd y fath dderbyniad, fel yr aeth drwy amryw argraphiadau. Gellid nodi hefyd ei *Epistolæ Hoelianæ*, yr hwn a argraphwyd amryw droion. Yr ysgrifell oedd ei brif gynhaliad, hyd oni adferwyd Siarl II., gan yr hwn y dyrchafwyd ef yn brifhanesydd brenhinol Lloegr, yr hon swydd a fwynhaodd hyd ei farwolaeth, yr hyn a fu yn 1666. Claddwyd ef yn y *Temple Church;* lle y codwyd cofadail iddo, ond a symudwyd ymaith yn adgyweiriad yr adail yn 1683.

**HOWEL,** JOHN, neu *Ioan Glan dyfroedd*, ydoedd fardd enwog, a anwyd mewn lle a elwir chwarel Llwyn-piod, yn mhlwyf Abergwili, sir Gaerfyrddin, yn 1774, lle y cafodd ychydig o ddysgeidiaeth yn more ei oes. Pan yn ieuangc, cafodd ei osod yn wyddorwas, i ddysgu y gelfyddyd o wehyddiaeth, yr hon a ddilynodd am rai blyneddau; ond fel yr oedd o feddwl gweithgar, nid oedd dull unffurf y gelfyddyd yn cyd-daro a'i chwaeth; a chan ei fod yn meddu tuedd gref at gerddoriaeth, ymrwymodd i fod yn un o'r chwareuwyr yn seindorf milwyr Sir Gaerfyrddin; a dangosodd y fath athrylith, fel y derchafwyd ef yn brif-arweinydd y côr. Rhoddai y swydd hon iddo lawer o oriau hamddenol, y rhai a dreuliai gyda dyfalwch mawr, mewn ymestyniad at ddysgeidiaeth a gwybodaeth gyffredinol. Talai sylw mawr i rifyddiaeth, a barddoniaeth Gymraeg. Aeth gyda'r fyddin i'r Iwerddon, a pharhaodd yn ei gwasanaeth hyd derfyn y rhyfel. Wedi hyny, efe a ymgymerodd a'r gorchwyl o fod yn athraw yn yr ysgol Genedlaethol, yn Llanymddyfri, i'r hon alwedigaeth yr oedd wedi ei gymhwyso ei hun, trwy ei lafur diorphwys. Yma y parhaodd i breswylio, ac yma y cyfansoddodd ei farddoniaeth, ac yr ymenwogodd mewn amryw Eisteddfodau. Yn 1824, cyhoeddodd ei farddoniaeth, mewn llyfr a alwai, "Blodau Dyfed," yn cynwys detholion o'i gyfansoddiadau barddonol, gyda phigion o weithiau amryw feirdd o'r ddeunawfed, a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yr oedd yn gerddor o'r radd uwchaf, ac yn athraw rhagorol mewn caniadaeth eglwysig. Yr oedd wedi teithio mewn amryw wledydd, a gwneud y defnydd goreu o bob mantais a gaffai, i gyfoethogi ei feddwl. Bu farw yn Llanymddyfri yn 1830, yn 56 mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent Llandingad, lle y mae beddfaen wedi ei godi ar ei lwch.

**HOWEL,** MORGAN. Gweinidog yr Annibynwyr yn rhanau uchaf Swydd Aberteifi, sef Llwynrhys, Abermeurig, Llwynpïod, Ciliau Aeron, Cilgwyn, &c. Ymddengys fod gan ei gyfoeswyr gryn feddwl o hono, ac nid llai oedd yr olwg oedd ganddo yntau arno ei hun. Ymddengys ei fod yn dra hoff o rigymu, er nad oedd yn feddiannol ar wybodaeth am reolau barddoniaeth; ond gwyddai ddigon i enill clod iddo ei hun gan ei ffolach. Yr ydoedd yn elyn ffyrnig i grefydd, pan yn wr ieuanc; a chyfansoddodd ryw fath o englyn yn ogan ar Walter Cradoc, yr hwn oedd fel y canlyn;—

"Dyma fyd, trwm ofid i'w drin—nid pregeth
Ond brogiach heb wreiddyn,
Gan ryw Garadoc o grwydryn,
Cenadwr diawl, swyn hudawl ddyn."

Y mae yr hanes hynod a ganlyn yn cael ei hadrodd am y modd yr argyhoeddwyd Morgan Howel, ac y gwnaed y gelyn hwn yn gyfaill. Dygwyddodd fod Mr. Cradoc ar ei daith i bregethu yn Swydd Aberteifi, mewn rhyw dy annedd yn y wlad hono, ac erbyn adeg dechreu yr addoliad, yr oedd yno fwy na llon'd y ty, wedi eu "swyno" i wrando, am hyny gorfuwyd y pregethwr i fyned o'r tu allan i'r drws, i bregethu. Ar y pryd, yr oedd Morgan Howel, a rhai o'i gymdeithion, yn chwareu y bêl droed yn y cae ar gyfer y Pregethwr. Deallodd un o'r Chwareuwyr fod Morgan yn amcanu taro y bêl at ben y Pregethwr, ac er ei attal, cododd ei sawdl,—disgynodd i'r llawr, yssigodd ei lin, a bu raid iddo aros yno yn yr agwedd hono, i wrando y bregeth; a phregeth i'w chofio iddo ydoedd. Glynodd saethau Duw yn ei feddwl, dwysbigwyd ef yn ei galon, a daeth yn ddysgybl i Grist, ac yn ganlynwr dyfal i Cradoc. Agorodd ei dŷ i weision Crist; ac yr oedd yn un o'r deuddeg a ymffurfiodd yn eglwys gyntaf yn Sir Aberteifi. Bu yn Gristion gloyw, ac yn bregethwr defnyddiol a llwyddianus, dros y gweddill o'i oes. Newidiodd ei farn am Cradoc; ac o ganlyniad, newidiodd ei gân i'r ffurf ganlynol; ac er nad yw ei gyfansoddiad yn amlygu llawer o gelfyddyd, nid allwn lai na hoffi yr ysbryd a amlygir ynddo;—

"Gan Cradog gwr enwog, câr in'—cawn bregeth
Nid brogiach heb wreiddyn;
Y gair gwir, tyst cywir yw'r testyn,
Cenadwr Duw, hynod ddyn."

Wedi terfynu y bregeth, dan yr hon y cafodd Mr. Howel dröedigaeth, efe a alwodd am y Parch. Walter Cradoc i weini cyfarwyddyd a chysur i'w ysbryd trallodedig; ac ar ol hyny, efe a'i harddelwodd ar

Digitized by Google

hyd a lled y wlad, trwy ei ganlyn yn ddyfal i'w wrando, a derbyniodd ef megys cenad Duw i'w dŷ; ac ymunodd â'r eglwys gynnulleidfaol oedd yn Sir Aberteifi y pryd hyny, o dan ofal gweinidogaethol Mr. Rees Howell o Lanbedr, yn Chwefror, 1654; ac yn lled fuan wedi hyny, efe a ddechreuodd arfer ei ddawn i bregethu. Yn y flwyddyn 1692, yr oedd David Jones a David Edwards yn weinidogion yr eglwysi yn Llwyn rhys a'r Cilgwyn; a Morgan Howel a David John Rees, yn gynnorthwywyr iddynt. Dywedir fod Morgan Howel yn bregethwr doniol a defnyddiol iawn, er na sefydlwyd ef fel gweinidog ar un eglwys neillduol.

**HOWELLS**, Morgan, Cas newydd. Priodol iawn yw gofyniad yr athrylithfardd *Islwyn*, yn nechreu y penill canlynol:—

"Morgan Howel! Pwy yn Nghymru
Na chlybu am yr enw? Pwy
Yn yr enw na chydnebydd
Ddyn o riniau, fwy na mwy?
Ymherawdwr y gymmanfa,
Un uwch o'i ysgwydd nâ'r holl lu,
Darfu ei isloerawl yrfa,
Huna yn y fynwent ddu!"

Un o gymmeriadau hynotaf Cymru fel pregethwr oedd Morgan Howells, un a gerfiodd ei enw â chŷn athrylith, mewn llythyrenau annileadwy ar larpau calon ei wlad. Ganwyd ef mis Mai, 1794, mewn amaethdy bychan o'r enw *Breach*, plwyf St. Nicholas, swydd Forganwg. Safai yr amaethdy bychan hwnw, tua thri chwarter milldir i'r gorllewin o bentref St. Nicholas, a thua milldir i'r dwyrain o bentref Tresimwn (*Bonvillston*): ac o fewn ychydig i balas gwych ac hynafol y Cottrell. Mae hen dy y *Breach* wedi ei dynu i lawr er ys blynyddau lawer, a phlanigfa o goed prydferth yn tyfu ar y man y safai. Yr oedd rhieni gwrthddrych ein hysgrif yn lled gysurus o ran eu hamgylchiadau bydol, a'i dad yn aelod crefyddol yn nghapel y Trefnyddion Calfinaidd, Trehil. Er hynny ni chafodd Morgan ryw lawer o fanteision addysg. Dechreuodd ei yrfa addysgol gydag un Margaret Lewis, Tresimwn; ac yna symmudwyd ef i ysgol pentref St. Nicholas, yr hon a gedwid yn ymyl yr Eglwys, gan yr Offeiriad. Preswylid Palas Cottrell y pryd hwnw gan y Milwriad Lascells, sef mab y Cadfridog Lascells. Yr oedd y Milwriad yn briod â chwaer Syr Charles Morgan, Parc Tredegar, ger y Casnewydd. Yr oedd y milwriad yn gyfeillgar iawn a rhieni Morgan,—efe a ysgrifenodd ewyllys Morgan Howells yr hynaf; ac efe hefyd oedd Cymmyn-weinydd (*Executor*) yr ewyllys hono. Bu farw tad ein harwr, Mawrth 12, 1807: ac yn ol yr ewyllys, gwerthwyd yr holl eiddo, gan osod yr arian mewn *funds*, a'r llog i'w ranu yn gyfartal rhwng Morgan, a'i fam, a'i chwaer. Cymmerodd y Milwriad, Morgan dan ei neillduol nodded y pryd hwnw, gan ei gymmeryd atto, ac i fyw yn y palas gydag ef.

Yn 1810, gan fod y milwriad yn symmud i fyw i Lundain, ac mai i Barc Tredegar y buasai ei ymweliadau â Chymru o hyny allan, efe a osododd Morgan yn freint-was o saer yn y Casnewydd, er mantais iddo ei weled pan ymwelai â Chymru. Yn fuan wedi symmud i'r Casnewydd, dechreuodd fynychu *Hope Chapel* i wrando pregethau y Parch. John Rees, lle yr argyhoeddwyd ef o'i sefyllfa druenus fel pechadur, ac y derbyniwyd ef yn aelod eglwysig. Ymddengys fod y teulu y bu mor anffodus a chael ei osod yn aelod o hono yno, nid yn unig yn annghrefyddol, ond yn elynion i grefydd: ac mor fuan ag y gwelwyd cyfnewidiad yn muchedd Morgan, a'i fod yn cyfenwi ei hun yn Gristion, yr oedd y teulu, yn enwedig y wraig, a'i holl egni yn ei erlid, ei wawdio, ac yn gosod pob rhwystr a allai ar ei ffordd. Nid oedd ganddo yntau yr un berthynas yn y lle,—ei noddydd yn mhell oddi wrtho, ac felly teimlai y gerwindeb yn fwy. Yn y cyfwng hwnw, cyfryngodd Rhagluniaeth, daeth dyryswch i amgylchiadau y teulu lle yr arosai,—rhyddawyd ef o'i rwymau, a chafodd ei osod yn freintwas Dodrefnydd (*Cabinet-maker*), mewn teulu caredig, lle y bu yn aros am amryw flyneddau. Nid ymddengys iddo ragori fel saer, na dodrefnydd; oblegyd tuedd ei feddwl a'i galon at orchwyl pwysicach, i'r hwn y meddai ar bob cymhwysder; ond nerth corphorol.

Yn 1815, pan yn 21 oed, cymhellwyd ef gan rai o aelodau yr eglwys y perthynai iddi, i ddechreu pregethu: ac yr oedd cymhellydd taer yn ei fynwes ef ei hun, yn ei anog at y gwaith. Pregethodd y waith gyntaf mewn ystafell a ardrethwyd i gynnal yr achos Cymreig yn y Casnewydd, ar y geiriau,— "I hyn yr ymddangosodd Mab Duw, fel y dattodai weithredoedd diafol." Nid oedd amheuaeth yn meddyliau hyd yn nod yr Hen Bobl, nad oedd y *tinc* i'w glywed yn amlwg yn ei bregeth gyntaf. Yr oedd pregethwyr Methodistaidd yn anaml iawn yn sir Fynwy y pryd hwnw, ac felly nid oedd *rhaid* cyfyngu cylch ei weinidogaeth o fewn y Dosbarth am ddwy flynedd: ond wedi iddo bregethu yn ei gartref am ychydig amser, agorwyd drws y Sir o led y pen iddo, ac aeth son am dano yn fuan iawn, fel Pregethwr hynod. Cyn pen y ddwy flynedd wedi iddo ddechreu pregethu, cafodd *ryddid* i fyned am wythnos neu bythefnos i Sir Frycheiniog i bregethu, ar gais yr eglwysi yno. Gellid meddwl yn fynych wrth sylwi ar y gochelgarwch a ddangosir wrth eangu y cylch, mai dynion peryglus iawn yw pregethwyr ieuainge; ac nad yw yn ddyogel eu gollwng yn rhydd, i gyflawni y gorchymyn "Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur."

Cafodd Morgan Howells alwad i fyned ar daith trwy sir Frycheiniog yn fuan drachefn; ac er nad oedd yn llawn 23 oed, yr oedd y miloedd yn ymdyru ar ei ol i'w wrando.

Yr oedd ei fam a'i chwaer wedi dyfod i'r Casnewydd atto erbyn hyn; a thrwy ryw gymhelliad neu gilydd, penderfynodd anfon at y Milwriad i ofyn am yr arian o'r *funds*, iddo ef gael agor *shop*. Anfonwyd yr arian, tua 400*p.*, ac agorwyd y *shop*,—y cwbl wedi ei brynu âg arian parod, a gallesid dysgwyl llwyddiant: ond priododd ei chwaer yn fuan, ac aeth i fyw i Gaerodor;—yr oedd ei fam yn rhy afiach i ofalu am y nwyddau, ac nid oedd mwy o gymhwysder ynddo ef i fod yn fasnachwr, nag oedd i fod yn saer. Yn y cyfwng hwn, cyflogodd ferch i ofalu am y siop, yr hon yn ol pob tebyg, oedd mor annghymwys i'r swydd ag yntau. Darllen, myfyrio, a gweddio, oedd ei holl waith ef gartref, a phregethu oddi cartref. Yr oedd y cymmydogion yn gweled y fasnach yn gwywo, ac ambell un mor garedig a dweyd wrth Mr. Howells, ond nid oedd waeth dweyd wrtho na pheidio, nid oedd yn amgyffred masnach fydol o gwbl. Yn y diwedd aeth yr "Hwch drwy'r Shop,"— galwodd trafeiliwr am arian,— nid oedd y *shopwr* gartref,—yr oedd y *pregethwr* wrth ei

Digitized by Google

waith yn sir Gaerloyw. Gyrwyd cyfaill i chwilio am dano yn union, ac ar ol hir chwilio, cafwyd ef yn Rodborough, gyda'r Parch. J. Rees, yr hwn a'i derbyniodd yn aelod yn y Casnewydd. Cychwynodd y ddau yn ol yn union, sef Mr. Howells, a W. Lewis, yr hwn a aethai i chwilio am dano. Erbyn cyrhaedd Casgwent, yr oedd yn 10 o'r gloch y nos, ac arian y ddau wedi darfod, agos yn llwyr, ac aeth yr ychydig geiniogau oedd ganddynt i dalu am fyned a cheffyl y pregethwr drwy'r doll-glwyd. Yr oedd dwy glwyd ganddynt i fyned drwyddynt drachefn, a hwythau heb ddim arian i dalu. Pan ddaethant at y flaenaf, yr oedd y ceidwad yn cysgu yn rhy drwm iddynt ei ddeffro, ac felly gweithiasant eu ffordd trwy y berth, gan arwain y ceffyl yr un ffordd. Pan ddaethant at yr ail, rhoddodd Howells ei wlaw-len i'r clwydgeidwad, hyd nes yr anfonai yr arian. Cyn cyrhaedd adref, yr oedd ei ofid wedi ei lethu, fel y gorfu iddo droi tua thri o'r gloch y bore, i dŷ gwr a adwaenai; a bu yno yn glaf am bythefnos, cyn gallu myned i'r Casnewydd i gyfarfod a'i ofynwyr. Pan ddaeth i'r dref, mor fuan ag y gwelodd un o'r gofynwyr, tynodd ei oriawr o'i logell, gan ddweyd—"*Here is my watch, Sir, take this to begin; every jot of what I am possessed of, shall go to pay the debt.*" Gwerthwyd y cwbl a feddai, ac yn mhlith pethau ereill, ei lyfrau, am y rhai y gofidiai fwyaf; ond llwyddwyd i gael rhai o honynt yn ol iddo. Er iddo fethu fel yma yn ei fasnach, nid oedd neb yn amheu ei onestrwydd: a chadarnha yr hanesyn canlynol hyny, tuhwnt i bob dadl. Wedi trefnu'y matterion dyryslyd a nodwyd, ac yntau yn rhydd o afael ei ofynwyr, daeth yn ddamweiniol o hyd i *ffrwyn a Chyfrwy* heb eu gwerthu. Ni chollodd amser cyn eu cymmeryd i Bristol, i'w ofynwr trymaf, gan eu cario ar ei gefn, ac wedi cyrhaedd yno, dywedodd wrth y boneddwr:—"*I found this saddle and bridle, which were not named in the schedule, and I brought them to you, on account of the balance of my debt.*" Wrth weled ei onestrwydd, gwrthododd y boneddwr yr offer, a gorfu ar Morgan eu cario yn ol drachefn. Dygwyddodd y gofidiau hyn yn 1822, a bu yntau heb bregethu am tua hanner blwyddyn. Yn mis Awst 1824, ordeiniwyd ef yn Weinidog, yn Nghymmanfa Llangeitho. Yn mhen tua blwyddyn ar ol hyny, claddwyd ei fam. Yn Medi 1827, priododd ag un o aelodau eglwys Casnewydd, o'r enw Miss Lewis; a chawsant chwech o blant.

Yn 1829, adeiladodd eglwys Casnewydd gapel, yn werth 1920*p.*: ond yn fuan iawn daethant i deimlo fod casglu y llog, heb son am glirio y ddyled, yn fwy nas gallent ei wneyd, ac nid oedd neb yn teimlo y baich yn fwy na Morgan Howells. Pan oedd gofid agos a'i lethu o barth y ddyled, dygwyddodd i'r Cadben E. Lloyd, o Gaergybi ddyfod i'r Casnewydd; a dechreuodd Morgan adrodd ei gŵyn wrtho, gan ddweyd nas gwyddai beth i'w wneyd. "Morgan anwyl (ebe'r Cadben) dewch i'r Gogledd i gasglu, a chewch ddigon o arian acew." "A gawn i genad?" ebe yntau, gan ddechreu sirioli. "Cewch, cewch," meddai Lloyd, "mi fynaf fi weled hyny." Cafodd genaf i fyned i gasglu i'r Gogledd, a'r Deheudir hefyd, a ffwrdd yr aeth, a gwnaeth gasgliad gwerth son am dano. Mae yr adroddiadau am y daith gasglyddol hon yn ddyddorol i'r pen. Pan yn appelio at y cynnulleidfaoedd am help at dalu dyled y capel, dangosai ei gorph eiddil, ei ddwylaw teneuon, ac yna gwasgai ei ben â'i ddwy law, gan lefain ei fod yn ofni y buasai achos Iesu Grist yn cael ei osod yn y *Jail* am ddyled. Yr oedd hyn yn cael y fath ddylanwad ar y bobl o bob oed a sefyllfa, fel nad oedd perygl i neb o honynt fyned ag arian adref o'r cyfarfod yn eu llogellau. Yr oedd un gwr yn Sir Gaernarfon, yn cynghori ei wraig i beidio myned a llawer o arian gyda hi i'r cyfarfod, onide, y buasai y "Gwr Dyeithr" yn myned a'r cwbl. "Nid oes berygl," ebe hithau, "oblegyd cyfrenais yr oll oedd ar fy elw yn y casgliad neithiwr yn Llangefni." Dywedai un gwr hefyd, wrth gychwyn i gyfarfod Llangefni, nad oedd ddyben yn y byd iddo fyned a llawer o arian yn ei logell, am ei fod yn gwybod y buasai'r pregethwr o *Newport*, yn ei yspeilio o'r cwbl; a phenderfynodd gymmeryd 10s gydag ef, gan gyfrif hyny yn rhodd dda. Pa fodd bynag, wedi clywed y pregethwr yn adrodd amgylchiadau yr achos, aeth y dyn adref o'r cyfarfod, gan ddweyd wrth ei wraig. "Mwyn dyn estynwch *Sovereign*, i mi gael ei roddi i Mr. Howells, oblegyd nis gallaf oddef i'r fath bregethwr duwiol fod mewn *trwbl* gyda dyled ei gapel." Pan oedd yn Nghaergybi yn casglu, yr oedd y morwyr a'r cadbeniaid yn cyfranu yn helaeth iawn, a rhoddodd y Parch. W. Roberts, y swm a fwriadai gyfranu; ac aeth gyda Mr. Howells i Gapel Ty'n-y-maen; ond yn benderfynol na roddai geiniog yn ychwaneg: ond wrth wrando ar ei daerineb, llithrodd y llaw i'r llogell, braidd yn ddiarwybod i Mr. Roberts, ac allan a'r pedwar swllt olaf oedd yno, ac i'r casgliad a hwy. Gellir barnu i raddau am y dylanwad oedd yn cyd fyned a'i appeliadau at y tyrfaoedd, pan ddywedwn fod y plant bach, ar hyd a lled y wlad, yn gwaghau eu blychau cynnilo (*Money Boxes*) er rhoi'r cynnwys i'r pregethwr tlawd o *Newport;* gweision a morwynion hefyd mewn llawer man, yn codi cyfran o'u cyflogau ar eu meistriaid cyn pen y tymhor, er cyfranu yn y casgliad at glirio dyled Capel Casnewydd; a rhai yn myned mor bell a gwerthu eu heiddo, er mwyn cael arian i helpu y pregethwr! Ar y daith hono, casglodd yn y Gogledd, y swm o 700*p.*, ac yn y Deheudir 600*p.*, y cwbl yn 1300*p.*

Safai ar ei ben ei hun fel pregethwr, nid oedd yn debyg i neb, na neb yn debyg iddo yntau, fel mai priodol iawn y dywed *Hiraethog* am dano, yn y llinellau canlynol:—

"Gwr oedd o feddwl gwreiddiol—a doniau
Danieut yn rhyfeddol;
Athraw o ddull dyeithriol,
Un o'i ryw ni cheir o'i ol"

Defnyddiai ymadroddion a chymhariaethau na feiddiai neb arall eu harferyd. Un tro pan yn pregethu gartref, dywedai—"Mae'r capel hwn yn *jail*, y *seats* yw'r *condemned cells*, a chwithau yw'r carcharorion." Wrth son unwaith am y Pechod Gwreiddiol, dywedai fod ganddo ef Saith *Volume* gartref, yn traethu ar y pwngc,—"dwy *Volume Folio* fawr—y fi a'r wraig, a phump *Volume Quarto,* sef y pump plentyn." Pan oedd trigolion y dref mewn cynhwrf etholiadol, wedi ymbleidio, a rhai yn gwaeddi "*Blue for ever,*" a'r blaid arall yn bloeddio "*Red for ever,*" dywedir iddo yntau fyned allan i'w canol, a llefain "*Rhad Ras for ever,*" a'i holl egni. Ei ymadroddion yn fynych wrth bregethu, oeddynt yn dylanwadu fel tân mewn gwellt, yn enwedig pan ddylifai ymadroddion fel y canlyn o'i enau—"Nid ofnwn pe symmudai y ddaiar, a phe treiglid y mynyddoedd i ganol y mor.

—*Gogoniant!* Pe yr elai yr hen fyd yma yn *Wreck* y foru nesaf, fi safwn ar Graig yr Oesoedd,—pe llosgai y ddaiar yn ulw yn awr, mi ddawnsiwn ar ei llwch—*Gogoniant!* Cyfammod fy hedd ni syfl. O Diolch! fe saif Cyfammod Duw, pan fo mynyddau'r byd yn ymollwng—mynwch y bywyd i ddiogelwch—llechwch yn Nhwr Cadarn Calfaria, cyn daw'r waedd hanner nos, hi ddaw yn *wreck* ofnadwy yn fuan." Pan yn pregethu mewn Cymanfaoedd, lle byddai miloedd yn nghyd, yr oedd yn sicr o gael sylw manwl, a gwrandawiad astud. Dyma ddarlun Hiraethog o hono mewn cymmanfa:—

"'E ro'i fywyd mewn tyrfaoedd,—Dyn Duw
Dynai dân o'r nefoedd,
Ei wedd a'i lais, treiddiol oedd,
Yn eu lle, crynai lluoedd.

Gyda'i lef pan godai'i law—deneu fach,
Dyna fyrdd yn ddystaw:
Dagrau geir yn llifeiriaw,
Rhedai lif fel ffrwd o wlaw."

Dyma rai o'i frawddegau yn Nghymmanfa Aberystwyth yn 1846:—"Mae Duw yn rhoi cyfoeth i'r annuwiol yn ei anfoddlonrwydd—yn rhoi Twrci i Mahomet fel asgwrn i gi. Fe aeth y Gwr goludog o lawnder i dlodi tragwyddol, o wely o *down* i wely o dân. Mae rhai dynion yn y byd hwn yn ymdrechu casglu cyfoeth i'w plant, fel pe byddai Duw i fod yn *fankrupt* yr oes nesaf. Mae rhai dynion a gormod o *sails* i'w llestri, a rhy fach o *falast*. Mae'r bobl yn gwneyd trugareddau Duw yn *shutters*, i gau Duw allan, yn lle yn ffenestri i wel'd Duw trwyddynt,—yn *steps* i fyn'd i lawr i uffern, yn lle dringo at Dduw. Maent yn *loado cannons* Rhagluniaeth, i saethu yn ol at Dduw.—*If God's mercies are not loadstones to draw thy soul to Christ, they will be millstones to sink thee to hell.*"

Am amryw o flyneddau olaf ei oes, yr oedd yn cael ei flino yn fawr gan gyfeiliornadau y byd, yn enwedig Pabyddiaeth, Puseyaeth, a Finneyaeth. Yr oedd yn gwylio ysgogiadau Eglwys Rhufain gyda'r manylrwydd mwyaf, nid yn y wlad hon yn unig, ond ar y Cyfandir, a thros y byd yn gyffredinol: ac yn cymharu yr ysgogiadau hyny a'r darluniad a roddir o'r Bwystfil yn Llyfr y Datguddiad. Pan ar daith yn sir Gaerfyrddin unwaith, galwodd i weled John Evans, Llwynffortun, yr hwn oedd gymmeriad hynod iawn fel efe ei hun; a'r hwn oedd ar y pryd yn anhwylus, yn ei wely. Wedi myned i'r tŷ, cyfeiriwyd ef i ystafell y claf (pruddglwyf oedd y clefyd), a gyda ei fod yn yr ystafell, tarawodd ei droed yn drwm yn erbyn y llawr, gan godi ei freichiau i fyny, a bloeddio, "Rhyw fyd ofnadwy yw hwn, mae'r Pab o Rufain, a Dr. Pusey, a'r Cythraul, yn *drivo'r* bobl wrth y miloedd i uffern, a Mr. Evans yn y gwely,—dewch i lawr y dyn, os na wnewch *chi* godi, fe ddaw'r Pab o Rufain yma i'ch *rouso chi*, dewch i lawr y dyn, '*newch chi?*" Gyda hyn yr oedd Mr. Evans yn dechreu galw ar y wraig i ddod a'r *slippers* iddo, ac i lawr y daeth.

Pan ymwelodd ag ef drachefn, gofalodd Evans fod ar lawr, ac wedi cyfarch eu gilydd, gofynodd gwr y tŷ, pa newyddion oedd, i'r hyn yr atebodd Howells. "Mae'r Pab yn debyg o golli ei orsedd wladol, ac yna fe gyll ei lywodraeth Eglwysig yn fuan, dyna'r pryd y bydd Mr. Evans a minau ar gefnau ein ceffylau." Pan glywodd fod y Pab wedi gorfod ffoi o Rufain yn 1848, yr oedd ei lawenydd a'i orfoledd yn aflywodraethus, nid oedd ond Gogoniant! ac Haleluia! i'w gael o'i eneu braidd. Pe buasai byw yn awr, buasai wrth ei fodd i raddau pell yn ddiamheu, wrth feddwl fod y Pab *wedi* colli ei lywodraeth wladol, a bod argraffdy gan y Feibl Gymdeithas, yn nghanol dinas Rhufain.

Darllenwyd darlithiau Dr. Pusey, ac eiddo Mr. Finney, yn fanwl ganddo: ac mor bell ag oedd cylch ei weinidogaeth yn cyrhaedd, manteisiodd ar bob cyfleustra a allai, i ddynoethi y cyfeiliornadau a gynnwysent. Gwyliwr ffyddlon a chraffus ar dŵr yr eglwys oedd Morgan Howells; ac mor fuan ag y buasai yn canfod perygl, nid oedd yn esgeuluso rhybuddio'r wlad: a bendith fawr i Gymru fuasai cael ychwaneg o rai tebyg iddo. Claddodd ei wraig gyntaf yn 1841, a phriododd yr ail yn 1843: o'r hon y cafodd bedwar o blant; ac y mae dau o honynt yn fyw yn awr. Mae ei fab wedi dechreu pregethu gyda'r un enwad a'i dad; ac yn parotoi ar gyfer addysg athrofaol. Symmudodd Mr. Howells o'r Casnewydd i Dredegar, lle y treuliodd flyneddoedd olaf ei oes, a'r lle y bu farw, ar ddydd Sul, Mawrth 21, 1852, yn 57 mlwydd, a 10 mis oed: wedi bod yn pregethu 37 o flyneddau. Claddwyd ef yn Nghendl; ac yr oedd tuag *Wyth Mil* o bobl yn ei angladd, yr hyn sydd brawf ei fod yn un a berchid yn fawr gan bob gradd a sefyllfa o bobl yn mhlith y gwahanol enwadau crefyddol. Gorphenwn ein hysgrif âg englynion yr anfarwol Eben Fardd, ar achlysur marwolaeth Mr. Howells:—

Mawrygwn hefyd Morgan Howell,—Dyn
A Duw yn ei arddel;
Dyn awchwyd â dawn uchel,
Dyn a min, yn dwyn mêl.

Bwriai lawer i bêrlewyg—â nwyf
Ei nefol ddychymyg,
Hidlydd mwyn hyawdledd myg,
Heb yntho un Dawn Benthyg.

Mel gawodau, ac aml lygeidyn—gan
Ogoniant yn eu dilyn
Oedd nodau doniau y dyn,
Câr didwyll pob credadyn.

Efengylai ef yn ngwaeledd—y cnawd,
Nes cnydio tangnefedd;
Llun salw oedd, yn llawn sylwedd,
Un doeth fu,—*ond aeth i'w fedd!*

**HOWEL,** Thomas, D.D., ydoedd fab henaf y Parch. Thomas Howel, is-beriglor Llangamarch, sir Frycheiniog. Derbyniwyd ef i Goleg yr Iesu, yn Rhydychain, yn 1604, o'r hon y daeth yn ysgolor, ac wedi hyny yn gymrawd. Wedi iddo dderbyn ei urdd-raddiadau yn y celfyddydau, derbyniodd ei urdd eglwysig, a daeth yn bregethwr tra phoblogaidd. Dywedai *Fuller*, fod ei bregethau yn debyg i ddyfroedd Siloam, yn cerdded yn araf, yn llifeirio yn esmwyth; fel yr oedd ei athrawiaeth yn enill calonau ei wrandawyr. Wedi iddo gael ei neillduo yn gapelydd i'r brenhin, derbyniodd reithoriaeth West Horsley, yn Surrey, a St. Stephen's Wallbrook, yn Llundain; ac yn 1636, derbyniodd fywioliaeth Windsor; y pryd hwn wedi cael ei urdd-raddio yn D.D. Dywed rhai iddo gael ei amddifadu o'i fywoliaeth eglwysig gan y Puritaniaid; ond dywed Wood, yn ei *Athen. Oxon.*, ei fod yn cael ei gyfrif yn

Digitized by Google

bregethwr Puritanaidd. Pa fodd bynag, cafodd ei benodi yn esgob Caerodor gan Siarl I., yn y flwyddyn 1644; a chysegrwyd ef i'r swydd hono yn Rhydychain, gan yr Archesgob Usher, esgob yr Iwerddon, ac esgobion eraill. Wedi hyny, yn ol fel y dywed Walker, yn ei "*Sufferings of the Clergy,*" cafodd ei erlid mewn modd barbaraidd gan y gwrthryfelwyr. Cymerwyd ymaith y plwm oedd yn toi ei balas, pan oedd ei briod mewn gwewyr esgor; a throwyd ei balas yn fragdy, a bygythiwyd, fel y dywedir, gosod peiriant darllaw, yn yr eglwys gadeiriol, yn y lle yr oedd yr allor yn sefyll; yr hyn, fel y dywed un hanesydd, a'i gofidiodd mor fawr, fel y bu yn achos o'i farwolaeth, yn 1646. Claddwyd ef yn yr eglwys gadeiriol, yn Nghaerodor, a chymerodd y dinaswyr ofal am ei blant, y rhai oeddynt un ar ddeg o nifer.

**HOWELLS**, William, gweinidog capel esgobawl *Long Acre*, Llundain, a anwyd yn Llwyn helyg, ger Pontfaen, Swydd Forganwg, yn mis Medi, 1778. Efe oedd yr ieuangaf o ddeuddeg o blant i Mr. Samuel Howells, yr hwn oedd yn ammaethwr parchus. Ymddengys iddo gael ei ddwyn dan argyhoeddiad am ei gyflwr ysbrydol, pan ydoedd yn dra ieuanc; a phan nad oedd ond plentyn, amlygai lawer o dynerwch cydwybod; a byddai colli ei le mewn unrhyw beth, yn enwedig halogi y Sabbath, yn cael ei ddylyn â noswaith ddi gwsg. Anfonwyd ef i'r ysgol yn ieuanc, a chyd dystiolaeth ei athrawon, a'i gyd-ysgolorion ydoedd, ei fod o dueddfryd hynaws a charedig, yn hawdd ganddo gymeryd ei ddysgu, yn ddiwyd a dyfal; a'i fod wedi cynnyddu mewn dysgeidiaeth gymaint ag a allesid ei ddysgwyl gyda hyny o fanteision a gafodd; ac felly rhoddai flaenbrawf y pryd hyny o'r rhinweddau a'i hynodent mewn blyneddau aeddfettach; yn enwedig ei ymlyniad wrth y gwirionedd, yn wrth-gyferbyniol i bob math o gyfeiliornadau:—ni ddywedai byth gelwydd, ac ni chelai y gwir er ei gadw ei hun rhag cael ei gosbi. Pan oedd yn 14eg mlwydd oed, dodwyd ef gyda chyfreithiwr i gael ei addysgu yn y gyfraith; ond ar ol prawf byr, dychwelodd adref, ac ar ei ddeisyfiad taer ei hunan, rhoddwyd y bwriad hwnw i fynu. Yr oedd ganddo gasineb at yr alwedigaeth o'r blaen, a mwy dewisol oedd ganddo efrydiaeth o natur arall; a chryfhawyd y teimlad crybwylledig, trwy ganfod o hono rywbeth yn ngweithrediadau swyddol rhyw bersonau, a barasai boen i'w feddwl tyner ac uniawn. Pan oedd tua 15eg mlwydd oed, rhoddwyd ef mewn ysgol dan ofal y Parch. John Walters, hen offeiriad y Bontfaen, gyd a'r hwn yr arhosodd tua phedair blynedd; ac ar ei farwolaeth, efe a gyfansoddodd farwnad, yr hon a argraffwyd mewn Newyddiadur, cyhoeddedig yn Nghaerloyw, trwy yr hon yr enillodd efe sylw y Golygydd, yr enwog Mr. Raikes, i'r hwn y priodolir sefydliad cyntaf yr Ysgol Sabbathawl; ac yn y canlyniad, cynnygiodd y gwr da hwnw ei noddi a'i gynnorthwyo, os y tueddid ef i ysgrifenu dim i'r wasg; ond, yr oedd efe wedi ei arfaethu gan Dduw i bethau uwch, a gwell. Yr oedd y Farwnad grybwylledig, yn cynwys prawf diamheuol fod Mr. Howells yn meddu ar ysbryd a chymhwysderau barddonol o radd uchel; a daeth hyny i'r golwg yn eglurach, debygid, mewn galareb a gyfansoddodd efe ar farwolaeth y Parch. D. Jones o Lan-gan. Ar ol marwolaeth Mr. Walters, efe a fu am beth amser dan ofal Dr. Williams, athraw Ysgol Ramadegol Pontfaen. Yr oedd ei dalentau, a'i gyrhaeddiadau erbyn hyn wedi ennill iddo barch a chymeradwyaeth gyffredinol yn mysg y radd uchaf o gymdeithas, tra yr oedd ei rinweddau, ei serchawgrwydd, a'i barodrwydd i wneyd unrhyw gymwynas a allai, wedi ei wneyd yn barchus a hoffus yn ngolwg pob graddau yn y gymydogaeth. Er nad oedd ei adnabyddiaeth o wirioneddau athrawiaethol yr efengyl ond anmherffaith y pryd hyn, yr ydoedd yn dra dichlynaidd ei fuchedd, a thyner ei gydwybod.

Yn mis Ebrill, 1800, efe a aeth i brif-ysgol Rhydychain; ac nid hir y bu yno, cyn i'r Arglwydd weled yn dda ei gystuddio ag afiechyd, trwy yr hyn ei hanalluogid i ddylyn ei efrydiaeth yn y Brif Ysgol fel y buasai dymunol; ac efe a ymadawodd o Rydychain yn wael ei iechyd, yn y flwyddyn 1803, a'i ddysgwyliadau wedi eu dyrysu, a'i ysbryd yn glwyfus: ond, er fod y pethau hyny yn ymddangos i'w erbyn, yr oeddynt oll yn cydweithio er daioni iddo yn yr ystyr uchaf; ac er mor dywell a phoenus oedd yr oruchwyliaeth, ni fuasai ef y dyn ydoedd hebddi. Tra yn y cyflwr di gysur a nodwyd yn Rhydychain, efe a aeth gyd ag un o'i gyd efrydwyr i addoldy y Bedyddwyr, lle y pregethai Mr. Hinton; a bu gweinidogaeth y gwr hwnw yn dra bendithiol iddo. Parhaodd i fyned i wrando arno, ac ymwelodd âg ef yn bersonol; a bu ei gyfeillach yn foddion i'w adeiladu yn ffydd yr efengyl.

Wedi iddo ymadael o Rydychain, a dychwelyd i Lwynhelyg, daeth i gydnabyddiaeth am y waith gyntaf a'r Parch. D. Jones o Lan-gan, yr hwn oedd yn offeiriad plwyf yn agos i'r Bontfaen; a'r gwr hwnw a ganfu yn fuan, fod ei gyfaill ieuanc yn feddiannol ar dalentau gwerthfawr, ac yn debyg o fod yn dra defnyddiol yn ngwasanaeth yr efengyl.

Cafodd Mr. Howells ei ordeinio yn ddiacon yn mis Mehefin, 1804, gan esgob Llandâf, yr hwn oedd wr o dueddfryd tra hynaws, a rhydd yn ei olygiadau. Gwnaed ymdrech i ragfarnu meddwl ei arglwyddiaeth yn erbyn Mr. Howells; a chyfeiriai holiadau yr esgob at bynciau, ar ba rai y dysgwyliasai gael cyfleusdra i ddysgu Mr. Howells yn fanylach; ond cafodd y gwr ieuanc yn fwy parod a galluog nag y dysgwyliasai, nid yn unig i amddiffyn ei gyfundrefn ei hun, ond hefyd i wrthwynebu yr eiddo ei arglwyddiaeth. Dygid yr arholiad yn mlaen gan yr esgob mewn ysbryd tra hynaws; ac wedi cael ei foddhau trwy ffraethder a rhyddid Mr. Howells, yn gystal a'i fedrusrwydd, efe a derfynodd yr arholiad, trwy ddywedyd mewn dull rhydd a chyfeillgar, eu bod bron wedi newid lle a'u gilydd; canys yn lle ei chwilio ef, yr oedd ef ei hunan wedi cael ei brofi. Bu Mr. Howells yn gurad i Mr. Jones Llan-gan am oddeutu chwe blynedd; ac ar farwolaeth y gwr hwnw yn 1811, efe a aeth i Lundain. Yr oedd efe wedi coledd gobaith y cawsai ei bennodi yn beriglor Llan-gan; ond yn hyny cafodd ei siomi; a chafodd y praidd a gawsai eu harwain mewn tawelwch a thangnefedd i'r porfeydd gwelltog, gerllaw y dyfroedd tawel, eu gwasgaru ar hyd y mynyddoedd, fel rhai nad oedd arnynt fugail.

Wedi ei ysgaru oddiwrth ei gynnulleidfa hoff, teimlai Mr. Howells fel pe y buasai wedi ei wahanu ar unwaith oddiwrth ei artref; ymddangosai fel pe wedi colli prif rwymyn ei undeb â Chymru; ac wedi dwys ystyriaeth, a gweddi daer am arweiniad yr Arglwydd, gadawodd ei gyfeillion galarus yn Morganwg, yn Hydref y flwyddyn 1811, i fyned i Lundain, ac ni ddychwelodd adref ond unwaith, sef ar ol absenoldeb o tua blwyddyn a haner.

Digitized by Google

Yn fuan ar ol mynediad Mr. Howells i Lundain, pennodwyd ef yn gurad i un Mr. Goode, a pharhaodd i gyd-lafurio a'r gwr hwnw, hyd farwolaeth yr olaf yn Ebrill, 1816. Yr oedd Mr. Goode yn ddyn rhagorol, ac o feddwl gwrol a thra annibynol, fel y prawf y ffaith ganlynol;—yn fuan wedi i Mr. Howells ddyfod yn gurad iddo, derbyniodd Mr. Goode lythyr oddiwrth esgob Llundain, yn ymholi pwy, a pha beth a allai fod ei gurad newydd; gan ychwanegu, fod boneddwr a aethai ryw ddiwrnod i St. Anns, gan ddysgwyl cyfarfod â rhyw beth annghyffredin, wedi cael mwy na'i ddysgwyliad yn ymddygiad afresymol y curad oedd yn gwasanaethu. Atebodd Mr. Goode, trwy ddweyd wrth yr esgob fod Mr. Howells yn frodor o Gymru; a'i fod ef (Mr. Goode), wedi derbyn gyd ag ef bob credebau oeddynt angenrheidiol; ac nad allai efe gael dim bai ynddo ef, oddieithr fod ganddo, hwyrach, ormod o dân Cymreig i ddygymmod â chalonau Seis'nig oerion. Bu Mr. Howells am beth amser yn Llundain, cyn dyfod i enwogrwydd fel pregethwr; ac yr oedd ei ddull o ddarllen a gweddïo yn peri argraff annymunol ar y dechreu, gan fod llediaith Gymreig gref arno; ond cymerodd boen i astudio yr iaith Saesonaeg, fel y daeth yn fuan yn alluog i'w llefaru mor rwydd a pherffaith, fel nad oedd yn bossibl i neb ragori arno mewn cywirdeb a phwys-leisiad. Byddai Mr. Goode yn pregethu yn gyson cyhyd ag y bu yn alluog; ond am y flwyddyn olaf o'i oes, ni allai wneyd, oblegid afiechyd, ac yn y canlyniad, yr oedd gweinidogaeth y pwlpud yn gwbl ar Mr. Howells, i'r hwn yr oedd cael pregethu yn gyson eto, fel y buasai yn arfer yn Nghymru, fel cyffyrddiad swynol, yr hwn a adfywiodd ei holl alluoedd, ac a ennynodd ei zel yn adnewyddol. Yr oedd ei bregethau y pryd hyn yn hynod o wresog, dwys, ac adeiladol; a phan ddychwelodd Mr. Goode adref, wedi ei ymweliad â glan y môr, lle ni chawsai ddim llesâd, a myned foreu Sabbath i'r eglwys, efe a gafodd fod yno gynnulleidfa fwy lluosog o lawer nag a fyddai yn arfer gwrando arno ef; ond, yn lle bod hyny yn creu eiddigedd yn mynwes y gwr da, datganai ei ddïolchgarwch i Dduw, am fod ei le wedi cael ei lanw mor dda, a thystiai y boddhad mawr a gawsai ef ei hun wrth wrando Mr. Howells, gan ddywedyd, "Yr oedd meddyliau yn y bregeth yna, y rhoddaswn unrhyw beth pe y gallaswn eu cofio."

Pan fu farw Mr. Goode, gwnaeth cyfeillion Mr. Howells ymdrech i sicrhau ei le iddo ef; ond methasant yn eu hymdrech, a'r cwbl a adawyd iddo oedd llithwriaeth nos Sabbath yn eglwys St. Anholin, am yr hyn yr oedd i dderbyn 18*p.* yn y flwyddyn. Ar ol hyny cafodd ei ddewis i lithwriaeth mewn plwyf arall, ond gwrthododd y periglor adael iddo gael y pwlpud, ac o ganlyniad, nid oedd y gosodiad yn werth dim iddo. Yr ydoedd wedi bod yn dra isel arno cyn hyn, oblegyd o'r braidd yr oedd y gyflog a dderbyniai fel curad i Mr. Goode, yn ddigon er diwallu ei angenion cyffredin; îe, bu am ryw yspaid ar ol myned i Lundain, yn dyoddef eisiau! Mae yn wir fod yn mysg y rhai a gawsent lesâd ysbrydol trwy ei weinidogaeth, rai a fuasent yn rhanu eu tamaid olaf âg ef, pe y buasent yn gwybod; ond ni chwynai ef wrth neb: efe a fedrai ddadleu cwyn rhai eraill, ond ni's gallai ddadleu ei gwyn ei hun; ac yr oedd ei duedd haelfrydig tu hwnt i ddysgrifiad. Yn y flwyddyn 1817, efe a gymerodd brydles Capel Esgobol *Long Acre,* ac felly symudwyd ef uwchlaw bod mewn angen; eto, yr oedd mor bell ag erîoed o fod yn gyfoethog. Bu dros ei oes yn ddyn tlawd; nid oedd neb o'r braidd yn deall pa fath oedd ei amgylchiadau am hir amser, a phan ddaethant yn adnabyddus o'r diwedd, ac y cydsyniodd y gynnulleidfa yn gyffredinol i godi ardreth ar yr eisteddleoedd, fel y gallasid gobeithio y derbyniai am ei lafur yr hyn a'i cyfodai uwchlaw ofn angen, efe a symudwyd gan angau! Pan y cymerodd brydles capel *Long Acre*, rhoddodd i fynu y llithwriaeth oedd ganddo, ac ymosododd ar ei orchwylion gyd a'i gynnulleidfa newydd yn dra egnïol. Yn lled araf y casglodd efe gynnulleidfa; ac er i gynnulleidfa luosog a pharchus ymsefydlu yno o'r diwedd, eto ni ellid ei ystyried yn bregethwr poblogaidd; ac un achos o hyny yn ddïau, oedd ei wrthwynebrwydd mawr i bob math o gyfeiliornad: efe a bregethai yr hyn a farnai yn gydwybodol oedd yn wirionedd, heb ofalu am ryngu bodd dynion; gan gofio yn wastadol, mai i'w Arglwydd yr oedd ef yn sefyll, neu yn syrthio. Efallai fod ei ddull nodedig yn tynu rhai i'w wrando; ond ymddengys fod rhan fawr o'i gynnulleidfa yn cael eu denu gan gariad at y gwirionedd, a'r dull goleu ac effeithiol yn mha un y byddai efe yn trin pethau mawrion teyrnas Dduw. Bu ei bregethau o wasanaeth mawr i efrydwyr duwinyddiaeth; ac addefai amryw o'r gweinidogion mwyaf enwog a defnyddiol, eu rhwymedigaeth iddo ef, am symud amheuon o'u meddyliau, a rhoddi golygiadau mwy cyflawn a thrylwyr iddynt, ar y gwirionedd yn ei holl gyssondeb.

Cyfrifid bod ei weinidogaeth wedi bod yn foddion i gychwyn diwygiad cyffredinol mewn pregethu yn y Brif ddinas, ac i symud llawer o'r rhagfarn a goleddid yn erbyn rhai gwirioneddau athrawiaethol: naill ai am yr edrychid arnynt ar wahan oddiwrth eraill a pha rai y maent yn anwahanol gyssylltiedig, neu ynte mewn rhyw oleu gau, yn hytrach nag fel eu gosodir allan yn symlrwydd yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Yr ydoedd yn arferiad cysson gan Mr. Howells i weddio heb lyfr o flaen, ac ar ol y bregeth: a byddai ei weddïau yn fynych yn annghyffredin o brydferth, gwresog, a sylweddol; ond rhagorai yn fynych mewn gweddïau teuluaidd, pan y tywalltai ei holl enaid allan, ac yr arferai wneyd sylwadau eglurhaol ar y rhanau o'r Ysgrythyrau a ddarllenid ganddo; a gwnai hyn ar brydiau mewn modd tra effeithiol. Fel hyn, yr oedd ar ryw achlysur, yn esponio Psalm cxxxix., yn nheulu rhyw wr boneddig, ac mor hynod oeddynt y drychfeddyliau a ddylifent dros ei wefusau am drugaredd Duw yn ei holl weithredoedd a'i ffyrdd, fel yr oedd pawb oeddynt yn bresenol, yn rhïeni, plant, a gwasanaethyddion, yn foddfa o ddagrau. Yr ydoedd yn haelionus hyd at fod yn feius; ni's gallai oddef gweled neb mewn angen, ac attal oddiwrtho y cymhorth ag yr oedd ei amgylchiadau yn ei ofyn; ni osodai ddim gwerth ar arian, ond fel yr oeddynt yn wasanaethgar i geisio yr hyn oedd yn angenrheidiol, i dalu gofynion, a chynnorthwyo y tlawd rhinweddol. Er ei fod wrth natur, o ysbryd uchel, a thymer boethlyd, yr oedd gras Duw wedi ei ddysgu i fod yn ddyn gostyngedig, hunanymwadol, a thra maddeugar.

Boreu Sabbath, 18fed o Dachwedd 1832, efe a hunodd yn yr Iesu, yn 55 mlwydd oed; a chladdwyd ei ran farwol y dydd Sadwrn canlynol, yn Eglwys y Drindod, Islington. Parodd ei farwolaeth alar mawr i laweroedd yn y brif ddinas, a thrwy y deyrnas oll, y fath na's gwelir ond anfynych. Gosod-

Digitized by Google

wyd cofleeh iddo i fynu yn Eglwys y Drindod, ar draul ychydig bersonau, ar yr hon y mae y llinellau canlynol yn gerfiedig;—"Er coffadwriaeth am y Parch. William Howells, brodor o Lwynhelyg, sir Forganwg; a gweinidog am 17eg mlynedd yn y capel esgobawl yn Long Acre, gweddillion yr hwn a gladdwyd yn y ddaear-gell islaw," &c.

**HUAIL,** un o feibion Caw, yr hwn a hynododd ei hun yn rhyfeloedd Arthur; am yr hyn y mae yn cael ei resu gyda Cai, a Trystan, fel un o'r "tri taleithiog'câd," neu benogion coronog y brwydrau. Yn ol rhai awdurdodau hanesyddol, yr oedd yn aelod o Goleg Catwg, yr hyn yw y rheswm dros ei resu yn mysg y Seintiau Cymreig. Dywedir iddo sylfaenu eglwys yn ardal Euas, yr hon sydd yn awr yn rhan o Swydd Henffordd. Y mae crybwylliad am dano hefyd yn *Englynion y Clywed,*—"A glywaist ti pa beth a ganwyd gan Huail mab Caw, dywediadau yr hwn oeddynt gyfiawn?—Yn fynych y mae melldith yn disgyn o'r fynwes."

Y mae hanes arall yn ei ddarlunio yn un o nodwedd drygionus, ac yn dywedyd iddo gael ei roddi i farwolaeth waradwyddus trwy orchymyn Arthur, yr hwn a barodd dori ei ben ymaith, yn Rhuthin, ar garreg sydd i'w gweled yn awr yn un o heolydd y dref, ac a alwyd wedi hyny "Maen Huail."

**HUANDAW,** porthor Arthur, yr hwn a grybwyllir yn y Mabinogion.

**HUARWAR,** mab Aflawn, un o oruchwylwyr Arthur yn y Mabinogion.

**HUBBERSTON,** pentref a phlwyf yn nghymmydogaeth Hwlffordd, Swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU. Y mae y pentref yn gorwedd ar gilfach o Hafan Aberdaugleddyf, milldir i'r Gorllewin o dref Aberdaugleddyf. Yn mhen pellaf y gilfach hono y mae gweddillion hen briordy Pil, yr hwn a sefydlwyd yn y flwyddyn 1200, gan Adam de Rupe, i fonachod o urdd Tyrone. Yn amser dadgorphoriad y Monachdai, fe'i cyfrifid yn werth 67*p.* 15*s.* y flwyddyn, ac fe'i rhoddwyd gan Harri yr Wythfed, i Roger, a Thomas Barlow. Nid oes ond ychydig weddillion o'r hen adeilad yn aros, syrthiodd bwa y porth oedd yn arwain i'r ardd, yn y flwyddyn 1826. Y mae teulu o'r cyfenw Roche yn byw yn *Butterhill,* hafdy perthynol i'r priordy hwn gynt; ac y mae y teulu yma yn hanu o de Rupe, y Sylfaenydd. Y mae Hubberston wedi dyfod yn lle lled bwysig, am fod llawer o ŷd, cerrig calch, a glo. yn cael eu hallforio yma; a gwneir llawer o gychod yn y lle, ac y mae yma arsyllfa hefyd.

Y mae y plwyf mewn rhan o fewn bwrdeisdref Aberdaugleddyf, a chynnwysa 1270 erw o dir, a 610 o ddwfr. Y llythyrfa yw Aberdaugleddyf. Gwerth ardrethol, 3963*p.*; o'r rhai y mae 235*p.* mewn gweithiau nwy. Poblogaeth yn 1851, 1040; yn 1861, 1270. Tai 242. Periglorïaeth yw y fywioliaeth eglwysig, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 130*p.* Noddwr, yr Arglwydd Ganghellydd.

**HUET,** THOMAS, ydoedd un o gyfieithwyr y Testament Newydd i'r Gymraeg, yr hwn a argraphwyd gan William Salesbury, yn y flwyddyn 1567. Y gyfran a gwblhawyd gan Huet, oedd Llyfr y Datguddiad, wrth yr hwn y mae llythyrenau cyntaf ei enw, sef T. H.; C. M., y ddwy lythyren olaf yn golygu *Cantor Meneviæ.* Yr oedd efe yn flaengeiniad, neu brif gantor Ty-Ddewi, o'r flwyddyn 1562 hyd 1588, ac offeiriad Cefnllys, yn sir Frycheiniog, a Diserth yn sir Faesyfed. Bu farw Awst 19, 1591, a chladdwyd ef yn eglwys Llanafan, Brycheiniog. Y mae yr amrywiol enwau sydd yn llanw yr hanes, mewn cysylltiad â chyfieithiad yr Ysgrythyrau i'r iaith Gymraeg, yn ddyddorol iawn yn ngolwg yr holl genedl; ac er nad yw yr enw hwn yn gyffredin iawn yn y dywysogaeth, y mae ei goffadwriaeth, fel gwin Libanus mewn melusder, ar deimlad pob Cymro hyd y dydd hwn. Y mae cysylltiad enwau Cymreig â ffurfiad a sefydliad y Bibl Gymdeithas, sef Charles o'r Bala, Hughes o Battersea, ac eraill, yn cylymu serch y genedl â'r ysgrythyrau, a'u lledaeniad drwy yr holl fyd, mewn modd arbenig iawn.

**HU GADARN,** ydoedd berson clodfawr, fel patriarch y Cymry, yr hwn a'u sefydlodd gyntaf mewn gwladwriaeth wareiddiedig; dysgodd amaethyddiaeth iddynt, yn nghyd a chelfyddydau defnyddiol eraill, ac arweiniodd hwy i Orllewin Ewrob. Am hyn, ymddengys iddo gael ei or-anrhydeddu, yn neillduol yn Gaul, lle y cafwyd darlun cywrain o hono mewn careg, yn y flwyddyn 1711; ar yr hon yr oedd yn gerfiedig, HESUS, yn yr hwn y darlunir ef ar y weithred o dorri pren i lawr, fel arwyddlun mai efe oedd y cyntaf a'u dysgodd yn y gwaith o drin y ddaear. Y mae darlun o hono wedi cael ei osod yn y "*Memoirs of the French Academy of Inscriptions,*" ac yn "*Roberts' Sketch of the Early History of the Cymry.*" Y mae y sylwadau canlynol am dano yn y Trioedd. Gelwir ef yn un o "dri phost cenedl y Cymry," gan mai efe a'u dygodd gyntaf i Brydain, o wlad yr Haf; lle a elwid Deffrobani; y man y mae Caer-Cystenyn yn sefyll. Y mae rhai yn adnabod Deffrobani, wrth y lle a elwir yn awr, Crimea, yr hen Taurica, neu Tauris Chersonesus, yr hwn le y mae Taliesin yn ei alw "Ynys Deffrobani," ac yn arwyddo yr Haf-wlad, yr hyn sydd wedi ei ddiogelu yn y gair Taurica. Ond pa le bynag a olygir wrth Deffrobani, y mae yn ffaith iddynt ddyfod o hyd i olion henafiaethol Cymreig yno, yn y rhyfel diweddaf yn y Crimea, a bod y Cymry wedi bod yn trigianu yno, ryw dymor maith yn ol. Daethant dros y Mor Tawch i Ynys Brydain, ac i Lydaw, lle yr arosasant. Y ddau eraill oedd Prydain, a Dyfnwal Moelmud. Y bobl hyn, y rhai a arweiniwyd gan Hu, a elwir mewn Triad arall yn dri o'r "llwyth caruaidd," neu "Ciwdawd addwyn," am na chymerai efe, na'i ganlynwyr, dir trwy ryfel a gormes, ond trwy gyfiawnder a heddwch. Y "llwythau caruaidd" eraill, oeddynt y Lloegriaid gwreiddiol, y rhai a ddaethant o Gwasgwyn, a'r Brythoniaid o Lydaw, yn Gaul. Mewn Triad arall, y mae Hu yn cael ei gysylltu â Phrydain, a Rhitta, dan y cymeriad o dri "gwrthrym ardwy," neu nerthoedd gwrthwynebol i ormes, o blegid dygodd ei ganlynwyr o Deffrobani, lle ag oedd mewn rhyfel a galanas parhaus. Mewn Triad arall, y mae yn cael ei alw yn un o'r tri "cyfarwysawg," neu roddwyr y fendith, am mai efe oedd y cyntaf a ddysgodd y Cymry i aredig y tir. (Y mae Tlws gobrwyol Cymreigyddion Llundain, yn cynwys darlun yn cyfateb i'r cyfryw syniad.) Y ddau eraill oeddynt Coll, ac Illtyd. Mewn un arall, y mae yn cael ei uno â Tydain, a Dyfnwal, dan yr enw y "tri chyfnodydd," neu brif grefftwyr, am ei fod wedi dwyn y Cymry dan gyngrair cyfamodol. Mewn un arall y mae yn cael ei alw yn un o'r "tri deifnogion cerdd a cheudawd," neu ddidwyllwyr cyfansoddiad a chaniadaeth. Mewn Triad arall y mae yn myned dan yr enw un o dri "prif orchestwaith Ynys Prydain,"

Digitized by Google

yn tynu yr afangc allan o Lyn Llion, neu y dyfroedd crynhoawl, y rhai oeddynt y pryd hwn wedi peidio gorchuddio y ddaear, gan ychain banog Hu Gadarn. Y ddau craill oeddynt Nefydd, a Gwyddon. Y mae yn amlwg fod yr amgylchiad olaf a nodwyd, yn dwyn cysylltiad traddodiadol a'r diluw; ac y mae y dysgedig Davies, yn ei *Celtic Researches*, wedi casglu pob sylw y daeth o hyd iddo yn mherthynas i Hu Gadarn, yn hen gofnodau y Cymry, yn mha rai y mae efe yn cael ei gydnabod gyda Noa; tra y mae beirdd Cymreig y canol oesau, yn cymhwyso yr enw at y Bod Goruchaf.

**HUGARFAEL**, un o feibion Cyndrwyn, tywysog rhan o Bowys, yr hwn oedd yn ei flodau yn gynnar yn y chweched ganrif.

**HUWS**, Dafydd, Ysw., o Woodrising, yn Norfolk, ydoedd frodor o Fon, wedi ei eni, mewn bwthyn sydd erbyn hyn yn adfeiliau, ar dir Glan-y-gors, yn mhlwyf Llantrisant, o fewn tair milltir i Lanerchymedd. Gadawodd y wlad, pan yn ieuangc, ac yn fachgen tlawd. Ychydig o hanesion argraphedig ac ysgrifenedig, sydd ar gael am dano, ond y mae llawer iawn o draddodiadau yn ei gylch, yn aros ar len gwerin, drwy Ynys Fôn. Dywedir iddo adael ei wlad ar y cyntaf, fel gyriedydd gwartheg, a gwas i borthmon cyfrifol, heb fod yn neppell oddiwrth ei gartref. Tybir mai i Lundain yr aethai gyntaf, a hyny ar adeg ag yr oedd pla arswydus yn rhwygo teuluoedd yn y brif ddinas. Bernir i Dafydd Huws gael ei gymeryd yn glaf, yn fuan wedi ei fynediad yno, ac iddo gael y llycheden yn chwerw iawn, ond iddo wellhau yn fuan, a dyfod felly yn alluog i fod yn wasanaethgar iawn i deuluoedd cyfoethogion, oedd dan y pla, ac yn canfod yn anhawdd iawn cael neb yn ddigon gwrol i'w hymgeleddu; ond fod gwrthddrych ein cofiant wedi dyfod i ddeall y gallai weini yn yr amgylchiadau mwyaf gerwinol, yn hollol ddiberygl iddo ei hun. Yr oedd ei dymer hynaws hefyd yn ei wneud yn wrthddrych o serch yn mhob lle yr elai iddo. Dan yr amgylchiadau hyn, efe a grynhôdd swm anghyffredin o arian, fel yr oedd wedi ymgodi yn fuan, fel boneddwr cefnog o bethau y byd hwn. Barna rhai iddo anturio i fasnach lwyddianus, a thrwy hyny, ychwanegu at ei feddiannau yn barod, drysorau mawrion iawn. Ond nid oes unrhyw dystiolaeth sicr ar gael am dano fel masnachwr. Efe a gododd ac a waddolodd yr Ysgol Rad sydd ar ei enw, yn y flwyddyn 1603; a'r Elusendai sydd gerllaw y Beaumaris, yn y flwyddyn 1613. Y mae pwysigrwydd ei Lythyr Cymun, fel ysgrif genedlaethol, yn gyhoeddus iawn; a'r darpariadau sydd yn ei Ewyllys ddiweddaf, o gryn ddyddordeb i'r cyhoedd, yn enwedig tu a Mon, ac Arfon; ac o blegid hyny, gyda'r ystyriaeth nad yw o fewn cyrhaedd darlleniad y cyhoedd, bernir y byddai dodi rhwydd gyfieithiad o honi yn briodol yma.

"Ewyllys Dafydd Huws, Ysw., Seilydd Ysgol Beaumaris, 1609. Yn enw Duw, Amen, 30 Rhagfyr, 1609, Myfi, Dafydd Huws, o Woodrising, Norfolk, Bon., mewn perffaith feddiant o'm côf a'm hiechyd (diolch i'r Hollalluog Dduw), ydwyf yma yn gwneud fy Ewyllys a'm Testament diweddaf, yn y drefn a'r ffurf ganlynol, (hyny yw) yr wyf yn rhoddi ac yn gorchymyn fy enaid i ddwylaw yr Hollalluog Dduw, gan erchi arno yn haeddiant a chyfryngdod ei Fab, Iesu Grist, yr hwn a'm prynodd a'i werthfawr waed, ei dderbyn i'w drugaredd, a'm corph i gael ei gladdu yn eglwys Woodrising, os myna Duw i mi ymadael a'r byd, yn swydd Norfolk, (yn agos i fedd fy nai, William Prichard, yn rhodfa ganol yr eglwys), neu ynte y lle y dygwyddo i mi farw, yn ol cyfarwyddyd fy ysgutorion. Ac mewn perthynas i fy eiddo bydol, fy Ewyllys sydd fel y canlyn:—Yn gyntaf, yn gymaint a bod Ty wedi ei adeiladu yn ddiweddar ar fy nhraul i, a darn o dir wedi ei brynu genyf, oddiwrth un Richard Thickens, o dref Beaumaris, yn swydd Fon, yn agos i Ffos-y-castell yno; Fy Ewyllys ydyw, ar fod hwnw dros byth, yn unol a'm bwriad wrth ei adeiladu, i'w adael yn Ysgoldy Gramadegol, ac i barhau felly, o bryd i bryd dros byth; tu ag at ddodrefnu y cyfryw, gyda Meinciau a Seddau i'r dosparthau, a phob peth angenrheidiol, gyda pharhad y cyfryw mewn adgyweiriad priodol, ac er ei Gwaddoli â chynyrch digonol er ei chynaliaeth, i ysgolorion cymwys a galluog, fel y mynegir yma eto; i gymeryd arnynt y draul o ymgeleddu plant, yn lle yr Athraw a'r Is-athraw, yn yr ysgol grybwylledig, yr ydwyf fi, drwy fy Ewyllys a'm Testament diweddaf hwn, yn cyflwyno, rhoddi, a chymuno i fy Nghyfeillion serchus, y Gwir Barchedig Dad yn Nuw, Esgob Bangor; Maer Beaumaris am y pryd; Sir Richard Bulkeley, Marchog, o Beaumaris; William Jones, o Castellmarch yn sir Gaernarfon, Ysw.; William Bold, yr ieuengaf, o dref Caernarfon, Ysw.; Pierce Lloyd, o Gwaredog, yn Mon, Ysw.; Rowland White, o Beaumaris, yn yr un sir, Bon.; Huw Wood o Tal-y-llyn, yn yr un Sir, Ysw.; Rowland ap Henri Wyn, o Penmon, yn y Sir ddywededig, a William Lewis, o'r Chwaen, Ysw., fy holl Diroedd. Ffermydd, Meddianau, a Hawliau blynyddol, o bob math, yn Mon, iddynt hwy, eu Hetifeddion, ysgutterion, a Chymun-weinyddwyr dros byth, i'r dyben a'r bwriad, o fod yr holl elw a ddeillia oddiwrthynt, i gael eu defnyddio a'u cyflwyno, fel y datgenir yma, (hyny yw), fod i athraw yr ysgol yno, gael yn flynyddol, fel cyflog, ddeugain Marc yn y flwyddyn, o arian cyfreithlon Lloegr, i gael eu talu yn chwarterol, mewn symau cyfartal, ar y pedair Gwyl arferol yn y flwyddyn; a bod yr Is-athraw i gael ugain Marc yn y flwyddyn; i gael eu talu yn chwarterol, ar y Gwyliau crybwylledig, yn ol y drefn a fynegwyd. Penawd; fy amcan a'm meddwl ydyw, fod i'm Hymddiriedolwyr, i'r rhai y mae y trosglwyddiad wedi ei wneuthur, fel y crybwyllwyd, fod yn Hawl-ddeiliaid, yn unol a'r hyder a'r ymddiried a fynegwyd uchod, a bod wedi marwolaeth fy nywededig Hawl-ddeiliaid (fel y byddo yn aros, o leiaf chwech, yn fyw o'r Personau a'r Hawl-ddeiliaid dywededig), i gyflwyno yr holl eiddo sydd i'w prynu, fel y mynegwyd uchod at eu gwasanaeth eu hunain, ac eraill fyddo yn bersonau cymwys i gael eu henwi ganddynt hwy, neu y rhan fwyaf o honynt, a'u holl Etifeddion, i'r amcan a'r bwriad crybwylledig; a'm bwriad a'm meddwl ydyw, fod i'm Hymddiriedolwyr crybwylledig, o bryd i bryd, gymeryd gofal na byddo llai na chwech ar y pryd yn fyw ar unwaith, yn yr Hawl-ddeiliadaeth, i'r dyben crybwylledig; a bod iddynt hefyd o bryd i bryd, yr un modd, ddarparu, pan y byddo farw Esgob Bangor, neu fod iddo gael ei symud, fod i'r Hawl-ddeiliadaeth gael ei hadnewyddu, fel y byddo i olynydd yr Esgob dywededig, yn ol y drefn naturiol, gael ei wneud yn Ymddiriedolwr, i'r dyben a'r bwriad a fynegwyd. Penawd; fy mwriad a'm meddwl ydyw, fod Enwi, Ethol, Gosod, neu Ddadswyddo, yr Athraw, a'r Is-athraw, o ran hawl, o bryd i bryd, i

Digitized by Google

fod gan yr Esgob crybwylledig, gyda'r gweddill o'r Ymddiriedolwyr, am yr amser presenol, yn ol y drefn grybwylledig, a'r rhan fwyaf o honynt dros byth, ond fel y byddo y llais yn gydradd, fod yr ochr y byddo yr Esgob ynddi, i gael yr hawl o enwi ac ethol y dywededig Athraw, ac Is-athraw, a'r naill neu y llall o honynt, drwy lais ychwanegol o leiaf. Penawd; fy meddwl a'm bwriad ydyw, ar fod yr Athraw yn ddyn sengl, heb briodi, ac yn Athraw y Celfyddydau, o leiaf, yn un o golegau Rhydychain, cymwys, galluog, a phriodol, at addysgu, yn y lle crybwylledig, yr ysgolorion a fyddo yno o bryd i bryd; a bod yr Is-athraw, yn un modd yn ddyn, sengl, heb briodi, ac yn Wyryf y Celfyddydau, o'r unrhyw Brif-athrofa; neu o leiaf, ei fod yn ddyn, y gwyddir ei fod yn alluog a chymwys i'r lle crybwylledig. A bod pob etholiad a phenodiad o unrhyw ddyn, i fod yn Athraw, neu Is-athraw, a fyddo yn briod, i fod yn ofer a di-effaith: ac yn mhellach, os bydd i naill ai yr Athraw, ai yr Is-athraw briodi, wedi iddynt gael eu penodi i'r swydd o Addysgu, fy mwriad a'm meddwl ydyw, fod iddo ef, neu hwy, gael eu symud; ac os na bydd i fy Hawl-ddeiliaid dywededig, o fewn chwe mis wedi y Dadswyddiad, Angau, neu derfyniad; absenoldeb neu ymadawiad, y naill neu y llall, yr Athraw, neu yr Is-athraw, osod un arall, neu osod un anghymwys, fel y mynegwyd uchod; fod i Esgobion Llanelwy, a Chaerlleon, am y pryd, neu un o honynt, am yr amser hwnw, yn unig, drwy ei Ysgrifen a'i sel ef, neu hwy, osod i mewn Athraw, neu Is-athraw, fel y dygwyddo i'r achos fod, ond bob amser heb fod yn briod, ac o Brif-ysgol Rhydychain, gyda'r cymwysderau crybwylledig; yn niffyg hyny, bod i'r Hawl-ddeiliaid wneud Etholiad newydd, yn unol a'r drefn grybwylledig, ac nid mewn un modd arall. Penawd; fy mwriad a'm meddwl ydyw, a'r fod i'm Hawl-ddeiliaid o bryd i bryd, yn unol a'm bwriad a'm meddwl crybwylledig, neu y nifer mwyaf o honynt, ac Esgob Bangor i fod yn un o honynt, o bryd i bryd, i fod mewn awdurdod i sefydlu, a gosod i lawr Drefniadau, a Rheolau, er llywodraethiad gwell ar yr ysgol, yr Athraw, a'r Is-athraw, a golchiad yr ysgolorion crybwylledig, a bod iddynt wellhau, diwygio, newid, a diddymu, fel y gwelont hwy, neu y mwyafrif o honynt yn oreu, gyda chyngor a chaniatad yr Esgob dywededig, fel y barnont yn briodol; a'm Hewyllys ydyw fod, i'r Rheolau hyny gael eu cadw a'u parchu. Penawd; fy Ewyllys a'm meddwl ydyw, fod unwaith yn y flwyddyn, ar Ddydd Iau yn wythnos y Pasg dros byth, i'r Hawl-ddeiliaid crybwylledig am y pryd, neu gynnifer ag y byddo yn gyfleus iddynt, gyfarfod yn flynyddol, mewn rhyw le cyfleus yn nhref Beaumaris, i gael ei benodi gan Esgob Bangor am y pryd, neu yn ei absenoldeb ef, gan Faer tref Beaumaris, a chael eu Pryd cyfleus mewn un Ciniaw, yno i gael ei ddarparu ar draul arian-gweddill yr Ardrethion o'r meddianau ag a fwriedir eu prynu, fel y crybwyllwyd, ag yno i ystyried pob peth perthynol i'r amgylchiadau angenrheidiol i gynhaliaeth a iawn-lywodraethiad yr ysgol grybwylledig mewn trefn dda, ac adgyweiriad yr ysgol, a Thy yr ysgol, a chyflwr yr Athraw, a'r Is-athraw dywededig, ac er iawn-drefniad yr Elw, a'r Cyllid oddiwrth y Meddianau dywededig, i'r dybenion a fynegwyd; a'm Hewyllys i ydyw, ar Ddydd Iau yn wythnos y Pasg dros byth, fod i Bregethwr gael ei benodi gan Esgob Bangor ar y pryd, neu yn ei absenoldeb gan yr Hawl-ddeiliaid, neu bedwar o honynt, i bregethu un bregeth yn nhref Beaumaris, ac i gael o ddwylaw fy Hawl-ddeiliaid am ei lafur, (os gellir cael ysgolor, wedi ei ddwyn i fynu yn yr ysgol grybwylledig) Ugain Swllt o arian cyfreithlon Lloegr, ac os na bydd ef wedi ei ddwyn i fynu yn yr ysgol hon, Tri swllt ar ddeg a Phedair Ceiniog; a bod i'r bregeth hon, gael ei pharhau ar y cyfryw Ddydd, o bryd i bryd dros byth: Penawd; fy mwriad a'm meddwl ydyw, os bydd arian gweddill, wedi talu y gofynion, a'r adgyweiriad wedi ei wneud, a chostau eraill mewn ffordd gyfreithiol wedi eu talu (os dygwydd hyny) fod y gweddill i gael eu defnyddio at ddybenion da a duwiol, ac yn neillduol er cynorthwyo rhyw un neu ddau o'r ysgolorion tlotaf, tu ag at deithio a pharotoi eu hunain at y Brif-athrofa, neu unrhyw Gelfyddyd neu alwedigaeth, at yr hyn y byddont fwyaf cymhwys a thueddol; a darparu yn wastadol, a'm hamcan ydyw, na byddo yr un Hawl-ddeiliadaeth i gael ei wneuthyr drwy fy Ewyllys a'm Testament olaf hwn, yn erbyn cyfreithiau y Deyrnas, neu i unrhyw wrthweithred gael ei chyflawni, wedi fy oes, drwy yr hyn y byddo i'r eiddo a gyflwynaf, gael eu troi at unrhyw ddybenion gwahanol i'r hyn a fynegir yma, yn fy Ewyllys a'm Testament diweddaf. Penawd; fy mwriad a'm dyben yw, ar fod i'm Hawl-ddeiliaid, adeiladu Elusendy yn Llanerchymedd, yn swydd Fon, yn agos i'r Eglwys yno, cymhwys i gyfleu unrhyw bersonau analluog, (hyny yw), i gynwys mewn hyd, wyth o ystafelloedd, ar wahan, yn y sylfaen, dan y to, a chynnifer uchod, ar wahan, drwy ganolfuriau, gyda drysau a simfaau yn perthyn i bob ystafell, a bod i'r cyfryw gael eu gwaddoli yn barhaus, gyda thiroedd wedi eu prynu, o werth Deg punt ar hugain cyflawn yn y flwyddyn, o arian cyfreithlon Lloegr, wrth y flwyddyn, mewn cymeriad parhaus, ac i barhau, fel y crybwyllwyd mewn Hawl-ddeiliadaeth, gan fy Hawl-ddeiliaid, i'w defnyddio ganddynt hwy a'u Hetifeddion, i'r bwriad a'r dyben, ar fod i'r holl elw a ddelo oddiwrth y cyfryw, i gael eu defnyddio yn gwbl oll yn adeiladaeth yr Elusendy crybwylledig, a'r rhoddion i'r Bobl dlodion, a ddarlunir yma yn ol llaw; (hyny yw) Bod i'm Hawl-ddeiliaid crybwylledig, neu y mwyafrif o honynt, o bryd i bryd dros byth, osod yn y gwahanol ystafelloedd a grybwyllwyd, yn ol eu cyfarwyddyd, gan ymwrthod â phob ffafr, derbyn wyneb, a pherthynas, a phleidgarwch, wyth o hen bersonau tlodion, o gymeriad gonest, a'r cyfryw ag a fyddo yn byw yn ofn Duw, heb eu llychwino gan unrhyw drosedd cyhoeddus, a darparu i bob un ei ystafell ei hun ar wahan, a'r un uwch ben, dros ei oes, gyda deg swllt a deugain o arian cyfreithlon Lloegr, i bob un o'r personau tlodion, i gael eu talu trwy ddwylaw fy Hawl-ddeiliaid crybwylledig, trwy orchymyn yn eu plith eu hunain dros byth, yn y drefn ganlynol, (hyny yw), i bob un o'r dynion tlodion, ar wyl St. Thomas yr Apostol, deuddeg swllt a chwecheiniog; ac felly ar Ddydd Iau o flaen y Pasg, Prydnhawn Sulgwyn, a Gwyl Mihangel, felly dros byth; ac hefyd ar wyl St. Thomas yr Apostol crybwylledig, i bob un o'r dynion tlodion gael Chwe llath o Wlanen wen dda, i wneud gynau iddynt, uwchlaw a thros ben y cyflog o Ddeg swllt a deugain, dros byth; a'r gweddill fyddo yn aros wedi gwneud yr adgyweiriad gofynol, i'w rhanu i dlodion plwyf Llantrisant, yn ngwyl y Pasg, yn flynyddol; wedi gwneud y cyfrifon i fynu, lle yr ymddangoso fwyaf o angen dros byth.

Digitized by Google

Penawd; fy Ewyllys a'm meddwl ydyw, fod y tlodion hyny a osoder yn yr Elusendy, o bryd i bryd dros byth, i gael eu hethol yn y drefn a'r ffurf ganlynol (hyny yw), allan o blwyf Llantrisant, lle ym ganwyd, tri; o blwyf Rhodogeidio, dau; o blwyf Llechgynfarwy, dau; ac o blwyf Gwredog, un; a darparu yn wastadol, a'm Hewyllys a'm meddwl ydyw, fod i'r tlodion hyny a etholer ac a osoder felly yn yr Elusendy, i ymarfer eu hunain yn dduwiolfrydig yn ngwasanaeth Duw; ac os wedi hyny, y daw cyhuddiad yn erbyn neb a fyddo wedi ei osod felly yn yr Elusendy, at fy Hawl-ddeiliaid, neu rai o honynt, o'u bod wedi ymroddi i feddw-dod, mynychu y dafarn, neu arfer tyngu, neu regu, neu beidio ymorol am ei lety mewn pryd, neu esgeuluso bod yn yr eglwys yn drefnus ar y Sabbathau, ac adegan eraill a benoder at wasanaeth Dwyfol, neu fod yn euog o unrhyw droseddau gwarthus eraill, yna fy Ewyllys ydyw, ac yr wyf yn gofyn hyny yn benodol, fod rhybydd yn cael ei roddi am y trosedd cyntaf, gan fy Hawl-ddeiliaid, neu rai o honynt, y bydd raid i'r troseddwr wellhau ei fuchedd, ac os na bydd iddo ddiwygio, yna ar yr ail rybudd a'r cerydd, os parha mewn cyndynrwydd gwirfoddol, fy Ewyllys yw, ar fod i'r cyfryw ag a fyddo yn troseddu felly, gael ei ddifreintio am un flwyddyn gyfan, a'i arian i gael eu rhanu rhwng y tlodion, yn ol cyfarwyddyd y cyfryw Hawl-ddeiliaid, neu rai o honynt o leiaf; ac os bydd i'r troseddwr syrthio drachefn i'r un amryfusedd, gan ddirmygu y cyfryw rybudd, a'r ail gerydd, fel y crybwyllwyd, yna, fy Ewyllys a'm meddwl ydyw, os delir yr un o'r tlodion crybwylledig am y drydedd waith yn euog, gall un o'm Hymddiriedolwyr, neu bedwar o honynt, ar wybodaeth berffaith a phrawf o'r cyfryw drosedd, esgymuno a diarddel y cyfryw, a'i droi allan o'r ty, a chymeryd ei daliad oddiwrtho, ac ethol un arall, allan o un o'r plwyfydd crybwylledig yn ei le, a'i osod yn y ty, a chyflwyno y taliad iddo, fel pe na buasai ef wedi ei ethol erioed. Penawd; yr ydwyf yn rhoddi ac yn cyflwyno i'm cyfaill da, George Pagrave, yr hynaf, o Thurston, yn swydd Norfolk, Bon., 20*p.*, ac i Alexander Duke, o Woodrising, uchod, 15*p.* o arian cyfreithlon Lloegr, heblaw, y costau gofynol i brofi fy Ewyllys a'm Testament diweddaf hwn, a phob treuliau eraill o bob math. Penawd; fy mwriad a'm meddwl ydyw, ar fod i'r holl weddill o'm heiddo, amodrwymau, tir, a meddianau o bob math, na nodwyd mo honynt o'r blaen, ag a gyflwynwyd i'r dybenion uchod, i gael eu rhoddi i'm dywededig Ymddiriedolwyr i'm Hysgol; i'r dyben a'r amcan hwn, o fod i'm Hawl-ddeiliaid brynu tir gyda'r cyfryw, cyn belled ag y cyrhaeddo eu gwerth, a'r tiroedd hyny i aros mewn ymddiriedolaeth barhaol, fel y mynegwyd, i'r ysgol, i'r dyben o fod i'm Hawl-ddeiliaid ddarparu mewn rhyw goleg yn Rhydychain, gynnifer o ysgoloriaethau, ag y cyrhaeddo y swm hwnw iddo, yn ol cyfarwyddyd fy nywededig Hawl-ddeiliaid; ac yr ydwyf yn penodi ac yn gwneuthyr fy nghyfeillion ymddiriedol a chariadus, Mr. George Pagrave, yr Hynaf, a'r crybwylledig Alexander Duke, yn ysguttorion fy Ewyllys a'm Testament diweddaf hwn, mewn tystiolaeth o'r hyn, yr ydwyf yma yn dodi fy Llaw a'm Sel, y dydd a'r flwyddyn a grybwyllwyd uchod. Seliwyd ac Arwyddnodwyd yn mhresenoldeb Michael George, William George, Robert Jones, Robert Waters."

Ol-Ewyllys ar Lafar, i'w chysylltu âg Ewyllys a Thestament diweddaf Dafydd Huws, o Woodrising, yn Swydd Norfolk.

"Cof. Fod y dywededig Dafydd Huws, ar yr 11eg o Chwefror, y dydd cyn ei farwolaeth, wedi Cymunroddi amryw symau i'w gyfeillion, yn y drefn a'r ffurf ganlynol, neu i'r dyben hwn, (hyny yw) ei fod wedi rhoddi a chyflwyno i'w gyfaill caredig a serchus William Jones, o Lincoln's Inn, Ysw., y swm o 30*p.*, i'w talu iddo ef yn uniongyrchol wedi ei farwolaeth gan ei ysguttorion, i'r dyben o fod iddo drwy ei gyngor a'i gyfarwyddyd, gynorthwyo ei ysguttorion, i gyflawni darpariadau yr Ewyllys hon yn ol y gyfraith, ac yn gymhorth iddynt yn nhaliad y Cymun-roddion eraill, crybwylledig yn yr Ewyllys. Penawd; rhoddodd i Martha Huws, merch Mr. Owen Huws, o Wimberg, 30*p.* tuag at ei gwaddol priodas: Rhoddodd i'w nai, John Prichard, 30*p.*, i'w talu iddo yn mhen y flwyddyn wedi ei farwolaeth. Penawd: rhoddodd i bob un o frodyr, a chwiorydd y dywededig John Prichard, a fyddo fyw yn mhen y flwyddyn wedi ei farwolaeth, 10*p.* Trefnodd fod i roddion yr Ol-ewyllys hon ar lafar, i gael eu talu o'r eiddo a gyflwynwyd i'w Hawl-ddeiliaid, yn ol bwriadau ei Ewyllys a'i Destament diweddaf, y rhai a enwir yn ei Ewyllys mewn ysgrifen, heb ddim yn taro yn erbyn gair nac ymadrodd o honi."

*Ardrethion yr Ysgol Rad a'r Elusendy, a wnaed y dydd cyntaf hwn o Fawrth, am yr holl Flwyddyn:—*

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ardrethion yn 1783. | | | | Dyffryn Mymbyr, . . . | £44 | 0 | 0 |
| Dyffryn, | £60 | 0 | 0 | Bodfeddau, . . . . . | 10 | 0 | 0 |
| | 30 | 0 | 0 | Tyddyn yn y Chwaen, . | 10 | 0 | 0 |
| | | | | Tyddyn Mrs. Jane White, | 3 | 0 | 0 |
| | | | | Eto, Mr. William Owen, . | 3 | 0 | 4 |
| | | | | Huw C. Owen, Cowper, . | 23 | 0 | 0 |
| | 21 | 0 | 0 | Maurice Lloyd, . . . . | 12 | 0 | 0 |
| | | | | John C. Robert, . . . | 6 | 0 | 0 |
| | | | | Gwraig Owen C. Robert, | 1 | 0 | 0 |
| | | | | David John David, . . | 7 | 16 | 6 |
| | | | | Costau Blynyddol, . . | 119 | 19 | 10 |
| | 162 | 10 | 0 | Athraw ac Is-athraw, . . | 50 | 0 | 0 |
| | | | | Tlodion yr Elusendy, . . | 31 | 0 | 4 |
| | | | | Offeiriad a'r Ceidwad, . | 4 | 0 | 0 |
| | | | | | 85 | 0 | 4 |
| Rhoddion, a Threuliau Ychwanegol, yr Ysgol a'r Elusendy, . . . . . . . . . . . . . | | | | | 34 | 19 | 6 |

**Marrett's Direction; Blackstone's Opi.; D. Hughes' Will, Bp. Rowlands' Deed.**

Gwelir oddiwrth yr Ewyllys uchod, fod cryn gyfnewid wedi ei wneud ar ei darpariadau, yn adeiladaeth yr elusendy, yr hwn a benodid i fod yn Llannerchymedd. Dywedir mai dylanwad Syr Richard Bulkeley, Esgob Bangor, a Maer Beaumaris, fu yr achos o hyn. Y mae Goruchwylwyr y sefydliadau Addysgol gwaddoledig, dan y llywodraeth, yn cynyg gwneud cyfnewidiadau pwysig eto yn mhellach, ar yr Ysgol rad; ond teimla pobl Mon yn lled anfoddog i'w difeddianu o'u hawl wreiddiol ynddi.

Y mae yr hanesyn canlynol, sydd ar lafar gwlad hyd y dydd hwn, yn deilwng o le yma, wrth derfynu. Wedi i Mr. Huws fod yn absenol o'i wlad am lawer o flynyddoedd, a chyrhaedd i oedran teg, dychwelodd ar ymweliad i'w hen gartref. Bore Sabbath aeth rhag ei flaen, ac eisteddodd yn ymyl rhaff y gloch yn eglwys Llantrisant, lle yr arferai eistedd pan yr oedd gartref yn fachgen tlawd, a thynai weithiau yn rhaff y gloch, fel yr arferai gynt. Cynhygiwyd lle

Digitized by Google

i'r boneddwr yn un o'r eisteddleoedd, ond ni symudai ef o'i hen le, fel yr arferai cynt. Ar ol y gwasanaeth, cyfarchai yr hen glochydd ef, wedi ei ammeu er ys meityn:—"Pa beth, dywed, a'i Dafydd Huws, Glangors wyt ti?" Ie oedd yr atebiad, "a gwelaf mai yr hen Owain Prisiart y clochydd ydych chwithau!" Rhyfedd fu yr ymgomio rhyngddynt mewn canlyniad, fel y gellir yn hawdd ddyfalu!

**HUWS**, Griffith, oedd weinidog yr Annibynwyr, yn y Groes-wen, Morganwg. Ganwyd ef yn Mhen y waen, ger Cwmifor, plwyf Llandilo, Sir Gaerfyrddin, lle y treuliodd amryw o flynyddau cyntaf ei oes. Collodd ei dad pan oedd yn ieuangc, ac felly disgynodd y gofal pwysig o'i fagu ar ei fam. Er na chafodd ond ychydig o ddysgeidiaeth yn ei ieuengctid, eto yr oedd ganddo hyfrydwch mawr mewn darllen, a dangosai hyny trwy gymeryd rhyw lyfr yn ei law bob adeg a gaffai. Gan ystyried fod segurdod yn arwain i ddrygioni, ac angen iddo gael rhyw alwedigaeth er enill ei fywioliaeth wrthi, rhoddwyd ef i ddysgu celfyddyd; dan ofal Evan Rhydderch, gwr enwog mewn crefydd, yr hwn a breswyliai yn Llansadwrn; cylchwr ydoedd wrth ei alwedigaeth. Cyfeiriai yn mhen blynyddoedd ar ol hyn, yn fynych mewn cyfeillach, at y fantais a gawsai trwy ei alwedigaeth, i weled ardderchawgrwydd cyfamod Duw, yr hwn a dry "yn gylch" o amgylch ei bobl. Yr oedd rhagluniaeth yn ei barotoi at ei waith drwy y gwersi dysyml hyn. Er fod Evan Rhydderch yn broffeswr crefydd er ys blynyddau, eto, o herwydd prinder manteision pan oedd efe yn ieuangc, nid oedd wedi dysgu darllen; er hyny, cadwai addoliad teuluaidd yn rheolaidd. Gan fod ei egwyddorwas yn ddarllenydd da, efe fyddai yn darllen. Erchid iddo weithiau ddarllen Salm neu benod fer; darllenai yntau benod faith, y tro hwnw. Yr oedd o duedd lawen. Cyn ymadael ag ardal Cwmifor, arferai fyned gyda'i fam i'r lle hwnw i wrando, a theimlai yn ddwys dan weinidogaeth y gair. Wedi i Ragluniaeth ei symud i Lansadwrn, i deulu y gwr parchus a enwyd, arferai fyned gydag ef i Grugybar, i wrando y Parch. Isaac Price yn pregethu mewn tai annedd, ar y Sabbathau. Pan oedd unwaith yn pregethu yn nhy Mr. Jones, Glyntowy, cafodd ei feddwl ei gyffroi i ystyried achos tragwyddol ei enaid, ac ymwasgodd yn fuan i'r gyfeillach grefyddol yn Ngrugybar, lle yr oedd ei feistr yn aelod. Yr oedd yn awr tua phymtheg mlwydd oed. Aeth i'r gyfeillach grefyddol am y tro cyntaf, pan oedd addoliad yn nhy Mrs. Jones, Godre'r mynydd. Sylwai Mrs. Jones ei weled yn aros wrth y drws allan, ac aeth ac arweiniodd ef i mewn, a dywedai wrth y bobl am ofyn iddo beth yr oedd yn ei geisio. Coffaodd lawer gwaith wedi hyny am garedigrwydd y wraig. Yr oedd ei hoffder erbyn hyn, yn fwy nag erioed am lyfrau a darllen. Sylwai Mrs. Jones ar arwyddion darllen wrth y tan heb ganwyll, ar ei lygaid, canys ni allai ei fam roddi canwyllau iddo. Deallwyd yn fuan fod ganddo ddawn ymadrodd rhwydd; a chrybwyllodd rhai o'r cyfeillion am ei alluoedd wrth y gweinidog, Mr. Price. Yntau, mewn modd caredig a thadol, a'i cymerodd gydag ef i Lanwrtyd am fis, fel y caffai gyfle i ffurfio barn am dano. Cafodd foddlonrwydd mawr ynddo, ac anogodd ef i ddechreu pregethu. Y tro cyntaf y daeth Mr. Price i Grugybar wedi hyny, yr oedd i bregethu hwyr y Sabbath hwnw, yn nhy Mr. Lloyd, Pistyll Gwyn, tyddynwr cyfrifol yn y gymydogaeth, a phenderfynodd roddi ei gyfaill ieuangc, yr hwn oedd yn awr tuag ugain oed, i bregethu ychydig gydâg ef. Prin yr oedd Mr. Lloyd yn foddlon i un mor ieuangc ymaflyd yn y gwaith. Caniatawyd o'r diwedd. Ei destyn oedd Exod. xvi. 15, "Manna yw." Wrth fyned dros y modd yr oedd y manna yn cael ei barotoi i fod yn ymborth blasus, daeth at ddioddefiadau y Gwaredwr, bara y bywyd; ac yr oedd mor effeithiol, nes llwyr enill Mr. Lloyd yn fuan. Yr oedd Mr. Price yn bregethwr bywiog iawn, a chynheuodd gwres ei bregethau y tân oedd yn mynwes Gryffydd. Tua'r amser hwn symudodd i aros gydâg ewythr iddo, oedd yn byw yn Nyffryn Cendrych, yn agos i Langadog. Tra y bu yno, cyrchai i Gwynfe i wrando. Dywed rhai mai yno yr oedd pan ddechreuodd bregethu. Yn mhen ychydig, aeth gyda rhai cyfeillion o Grugybar i gymanfa a gynelid yn y Neuadd-lwyd. Y gweinidogion cynulledig yno, ar ol cael ei hanes, a roddasant anogaeth gref iddo ymroddi i bregethu, ac felly fu. Yn 1797, dygwyddodd fod yn ardal Crugybar, pan gyrhaeddodd y newydd yno fod y Ffrancod wedi tirio yn Abergwaen, ac yr oedd Mrs. Jones Godre'r mynydd yn yr oedfa. Methai Mr. Huws gael hwyl briodol i ddwyn y cyfarfod yn mlaen; wedi iddo ymdrechu llawer, ond eto yn ei theimlo yn lled galed, cynhyrfwyd yspryd Mrs. Jones, a thorodd allan i ganu:—

> "Duw, os wyt am ddybenu 'r byd,
> Cyflawna 'n gynta 'th air i gyd," &c.

Gyda hyny taniwyd mynwesau rhai eraill, a bu yn wledd gyffredinol yno. Pan yn 22 oed, cafodd ei wahodd i ymweled a'r Groes wen, ac efe a gydsyniodd, ac aeth yno, lle yr arhosodd hyd derfyn ei oes. Daeth Mr. Rees Davies, Saron, heibio i'r lle; a chan ei fod yn gydnabyddus â Mr. Huws, ac yn barchus iawn o hono, cynghorodd yr eglwys i anfon am dano i ymweled a'r ardal. Daeth yno, ac enillodd serch pawb, galwyd ef yn weinidog, ac urddwyd ef yn 1797. Bendithiwyd yr eglwys â phedwar o ddiwygiadau grymus yn ei amser ef. Yn 1830, adeiladwyd yr addoldy hardd, eang, presenol. Parhaodd yn y weinidogaeth yno am dros 42 o flynyddoedd. Cyn hir wedi ei lafur, gwaelodd ei iechyd, a bu farw, dan boenau mawrion, Gorphenaf 30, 1839. yn 64 mlwydd oed. Dydd Gwener canlynol, wedi i dyrfa luosog ymgynull, pregethodd y Parch. D. Davies, New Inn, wrth y ty lle y preswyliai. Wedi i'r dyrfa gyrhaedd y capel, pregethodd y Parch. Isaac Harris, Morfa, yn ol dymuniad y trancedig; a dylynwyd ef gan y Parch. W. Jones, Penybont. Dangosodd yr eglwys barch mawr i'w goffadwriaeth, drwy godi beddfaen hardd ar ei lwch, a thalu holl draul y claddedigaeth,—tua deugain punt. Dywedai y Parch. D. Jones, Aber, am dano:—"Planhigyn oedd a ddechreuodd dyfu fel myrtwydd yn y pant, ond cododd yn dal gyda'r cedrwydd uchaf yn Libanus Duw." Wedi ei ddwyn i ystyriaeth o'i berygl fel pechadur, bu dros amser mewn cyfyngder mawr o ran ei yspryd; ond wedi iddo gael cymhwysiad o feddyginiaeth aberth Crist, mwynhaodd heddwch â Duw yn ei fynwes. Galwyd ef i'r Groes wen, i'w dysgu a'u diddanu; gofalent am y ddysgyblaeth, gan mwyaf, eu hunain. Yn nechreuad ei weinidogaeth, ymroddodd i ddarllen a dysgu: ymdrechodd ddydd a nos i ddysgu ieithoedd; meistrolodd yr Omeraeg a'r Saesoneg; ac yr oedd wedi treiddio yn rhyfedd i'r Lladin, y Roeg, a'r Hebraeg. Dywed-

Digitized by Google

odd y Parch. J. Lewis, Caerdydd, "y mae Huws o'r Groes-wen yn medru Hebraeg cystal a ninau." Yn ei ymddangosiad personol yr oedd yn foneddigaidd, a'i wisgiad yn hardd a gweddus. Pregethai yn achlysurol mewn gwahanol fanau, megis Rhydri, Caerphili, Nant garw, Llanfabon, y Gollen Ffrengig, a Chwm yr Aber. Byddai yr aelodau o'r gwahanol fanau hyn yn cyrchu yn fynych i'r Groes wen ar y Sabbathau, ac y mae graddau o'r un yspryd i'w weled yno hyd heddyw. Yr oedd ganddo ddylanwad anarferol ar y dorf a anerchai yn wastadol. Ni chymerai y blaen mewn cynadleddau, ond yr oedd ei gyngor yn werthfawr ar bob amgylchiad. Yr oedd yn dangnefeddwr mewn pob achos o anghydfod; ac yr oedd trwy ei bwyll a'i ddoethineb, yn llwyddianus iawn i gael y pleidiau ymrysongar i heddwch a'u gilydd. Cafodd alwad oddiwrth yr eglwys Annibynol Gymreig yn Guilford Street, Llundain, i sefydlu yn eu plith; ond ni welai efe reswm digonol dros ymadael a'r Groes-wen, gan ei fod yn llwyddianus a dedwydd yno. Yr oedd Mr. Huws yn wr cyflawn iawn yn mhob cyfeillach yr elai iddi; ac yr oedd mor dyner, fel na fynai ddolurio teimladau neb. Y mae ei enw yn uchel yn ngofion a chymeradwyaeth yr holl wlad, hyd y dydd hwn.

**HUWS**, Hcw, Ysw., neu y *Bardd Coch*, a anwyd yn y flwyddyn 1722. Yr oedd yn byw ar ei etifeddiaeth dreftadol ei hun, yn Llwydiarth Esgob, neu yn hytrach yn y Ty-mawr, yr hwn sydd yn gyfagos i'r lle blaenaf, gerllaw Llanerchymedd, yn Mon. Nid ymddengys iddo fwynhau unrhyw fanteision neillduol mewn dysgeidiaeth yn more ei oes, ond fel yr oedd efe yn feddianol ar alluoedd naturiol rhagorol, ac yr oedd i fesur mawr yn hunan-addysgydd. Trwy ei ddiwydrwydd a'i ddyfalwch, daeth yn ysgolor Cymreig da, ac ysgrifodd lawer o Ganiadau yn Gymraeg, a rhai yn Saesoneg. yr oedd yn un o Dri Beirdd Mon, a gysylltid gyda Goronwy Owain, a Llewelyn Ddu. Cyhoeddwyd eu Cyfansoddiadau yn y "Diddanwch Teuluaidd." Y mae cyfansoddiadau eraill o'i waith, wedi eu hargraphu, yn y "Blodeugerdd," ac amryw eraill yn y "Diddanwch i'w feddianydd." Cyfieithodd i'r Gymraeg, ddau lyfr, a elwir "Deial Ahaz, wedi ei ysprydoli," a "Deddfau Moesoldeb naturiol." Yr hyn a'i hynododd fwyaf, fel Hynafiaethydd, llenor, a bardd, ydoedd y Casgliad gwerthfawr, o'i waith ei hun, ac eraill, a adawodd mewn llawysgrifen. Y mae yn lled alarus edrych ar yr hen lyfr, yn ei gyflwr adfeiliedig presenol. Y mae ei ddalenau yn rhyddion, a'r cyddilyniad wedi colli, a gwaeth na hyny, y mae nifer o'r darnau hynotaf o hono wedi cael eu cymeryd ymaith. Dyma y mynegiad sydd ar ei ddalen enwawl:—"Hwn a elwir, LLYFR MELYN TYFRYDOG," *neu y "Gell Gymysg;"* Hwn a gynwys amryw bethau Diddanol a Barddonol; sef Achau y Brenhinol Deulu Anrhydeddus o Wynedd, a pha deuluoedd sydd yn deilliaw o'r Pymtheg Llwyth: Hanesion yr Hen Feirdd, o gwmpas y Chweched Ganrif, sef Gwalchmai ab Meilir, a'i fab Einion," &c. Y mae yr hen Lyfr yn werthfawr, ac yn cynwys Achyddiaeth nifer mawr o deuluoedd y wlad, ac ychydig yn Arfon. Y mae ynddo amryw gofnodau, am hawliau etifeddiaethol, a tharddiad eu breintiau. Bu yr hen lyfr mewn llysoedd gwladol droiau, yn penderfynu dadleuon pwysig. Y mae rhai darnau gwerthfawr o hono, ar goll yn awr:—Nid yw Ewyllys Dafydd Huws, seilydd yr ysgol Rad, a'r Elusendy, yno yn awr. Y mae y Gân, ar yr achlysur o erfyniad Syr Nicolas Bayley o'r Plas newydd am ei bleidlais Seneddol ar goll; yr oedd hon yn un o'r darluniadau mwyaf tarawiadol o'i waith; yr oedd bob yn ail penill, yn Saesoneg a Chymraeg; y seneddwr yn Sais, a'r hen amaethwr yn Gymro; fel hyn y dechreuai:—

"Syr Nicolas:—"Ho, Hugo Hughes, draw near,
Thou art an old Free-holder,
I beg thy vote to be with me,
I long to be thy Member,"

ac y mae yr atebiad gan yr hen fardd, yn ymesgusodol, gan fod ei duedd yn ochri i bleidio Mr. Meurig o Fodorgan:—

"Ni yfaf ddim yr' wan,
Mae'r galon wan yn drwstan,
'Mam yn nghyfraith aeth o'r byd,
Y wraig o Ryd-yr-arian," &c.

Bu Mr. Huws farw Ebrill 6, 1776, yn 83 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn mynwent eglwys Caergybi. Y mae beddfaen di addurn ar ei lwch, o fewn ychydig gamrau i bared yr eglwys, gyda cherfiad mewn llythyrenau mân. Cynhygiodd Eisteddfod Llanerchymedd wobr am y bedd-argraph goreu iddo, tua dwy flynedd yn ol, a chyhoeddwyd y penillion canlynol gan Llanerchydd, yn oreu:—

"Wele gof-adail, a'i sail ar sylwedd,
Yn goffadwriaeth, gaiff fod o orwedd
Yma wr enwog, o dra-mawr rinwedd,
Llenor ei adeg, a'i holl anrhydedd;
Arch Mon, yn Llanerchymedd,—mewn delw
Weled ei enw yn glod i Wynedd.

Llyfr y Bardd Coch, llafûr beirdd, ac achau,
Yn gyfan ydynt yn ei gofnodau;
Hanes daleithol mewn tystiolaethau
Geidw am ddynion, gyda meddianau;
Yn wresog mwynha'r oesau,—y wledd,
Sy yn hyawdledd ei dlysion odlau."

**HUGHES**, Hugh, a adnabyddid yn mysg llenorion, dan y ffug-enw "Tegai," a anwyd mewn pentref bychan, o'r enw Cilgeraint, yn mhlwyf Llandegai, Swydd Gaer yn arfon, o rieni isel eu hamgylchiadau, ond uchel eu cymeriad, am gywirdeb, diwydrwydd, a gonestrwydd. Yr oedd ei dad a'i fam hefyd yn aelodau ffyddlawn gyd a'r Annibynwyr mewn lle a elwir Cororion, ac yr oedd ei dad yn ddiacon ffyddlawn a gweithgar. Cafodd Mr. Hughes fanteision yr Ysgol Sabbothol yn Nghororion i ddechreu; ond collodd yr Annibynwyr eu haddoldy bychan yno, ac er mwyn cyfleusdra aeth y bachgen Hugh, i ysgol y Wesleyaid, yr hon oedd yn Mhentref Tre'r garth, gerllaw ei gartref presenol; ac yno y glynodd, yno y dechreuodd grefydda; ac yno, pan oedd y capel yn eiddo y Diwygwyr Wesleyaidd, y dechreuodd bregethu. Annogid ef yn daer gan ei gyfeillion i fyned i'r weinidogaeth, ond gomeddai gydsynio a'u cais, am ei fod yn barnu y gallasai fod yn fwy defnyddiol trwy gadw ysgol nos, a llafurio gyd a'r Ysgol Sabbothol, &c. Yn mhen rhyw yspaid, ymunodd y Diwygwyr â'r Gynnadledd, a'r pryd hyny yr ymunodd yntau â'r Annibynwyr, am nad oedd yn cymeradwyo trefn y Gynnadledd. Gan ei fod yn dra adnabyddus fel dyn ieuanc galluog o bregethwr, a llenor, derbyniodd amryw alwadau yn fuan, i gymeryd gofal eglwysi yn mysg yr Annibynwyr; ond

Digitized by Google

gan ei fod yn dal tyddyn, lle y tybiai y gallai ddwyn ei blant i fynu yn gysurus, a bod o wasanaeth i eglwysi tlodion yr amgylchoedd hyny, gomeddodd dderbyn yr un alwad i'r weinidogaeth. Ond, pan gymerodd y perchenog ran o'r tyddyn lle yr oedd yn byw, yn blanigfa iddo ei hun, derbyniodd yntau alwad oddiwrth eglwysi Rhos y lan, Tabor, a Llanystumdwy, ar yr ammod y gellid cael ychydig dir i'w lafurio, er cynnorthwyo y gyflog a addawid iddo. Cafwyd tyddyn, a sefydlwyd yntau yn weinidog i'r cynnulleidfaoedd uchod. Yn y flwyddyn 1849, cafodd alwad oddi wrth yr eglwys Gymreig a gyfarfyddai yn Jackson Street, Manceinion; ac er mwyn cael gwell manteision addysg i'w blant, cydsyniodd i fyned yno i weinidogaethu; ac ar ei ymadawiad, cafodd dysteb werthfawr o lyfrau oddi wrth eglwysi Rhos y lan, &c. Ni fwynhaodd ef na'i wraig iechyd da yn Manceinion, ac am hyny, yn mhen tua dwy flynedd a haner, rhoddodd rybudd i'r eglwys, ei fod yn bwriadu dychwelyd i Gymru. Yr oedd yr eglwys yn *Jackson Street,* wedi dyblu ei rhifedi er pan ddaethai yno; a chynygiasant godiad yn ei gyflog os arhosai yn eu mysg; ond efe a ofnai gydsynio, am ei fod yn deall na allai cyfansoddiad oedd wedi ymgynnefino âg ammaethyddiaeth, oddef y dref afiach, felly efe a ddychwelodd i Gymru, ac aeth i fyw i dyddyn o'r enw Pant Ifan, Llanrug, Swydd Gaer yn arfon: ac wedi bod yno am ychydig amser, derbyniodd alwad o'r eglwysi agosaf i'r lle yr urddasid ef ar y cyntaf, sef o'r Capel helyg, y Chwilog, ac Abererch, lle y treuliodd ei amser yn gysurus; ond ni bu mor lwyddiannus ag yn y lleoedd eraill: eto gwelodd ychydig gynnydd yn nifer yr aelodau yn y tri chapel hyn, a llawer o leihad yn y dyledion; ond, daeth perchenog y tyddyn a elwir Capel helyg, y lle oedd efe yn ei ddal, i fyw yno ei hun; a'r canlyniad fu, i Mr. Hughes fyned i dref Pwllheli. Yn y lle hwn, prynodd swyddfa argraffu, ac wedi peth amser, rhoddodd yr eglwysi i fynu, ac ymgymerodd â chyhoeddi a golygu "Yr Arweinydd," newyddiadur ceiniog, a chyhoeddi llyfrau o'i waith ei hun.

Yn y flwyddyn 1859, derbyniodd alwad o eglwys fechan yn Aberdâr, o'r enw Bethel; a bu yn hynod o ddedwydd a llwyddianus yn y lle hwn. Yn fuan wedi ei ddyfodiad yno, adeiladwyd yno addoldy eang a chyfleus, ac ymaflodd yntau yn ei waith gyda nerth a dylanwad anarferol; a chyn pen dwy flynedd, yr oedd y dyrnaid bach y dechreuodd Mr. Hughes lafurio yn eu mysg, yn rhifo, rhwng aelodau a gwrandawyr, o saith i wyth cant, a'r Ysgol Sabbothol yn rhifo dros ddau cant.

Yn mis Hydref, 1863, cafodd ei daro gan ergyd o'r parlys, yr hyn a effeithiodd i raddau ar un ochr iddo, ac ar ei lais. Bu amryw wythnosau yn methu pregethu; ond, pan yr adferwyd ef i'r fath raddau ag i allu gwneyd hyny, ymosododd i astudio a phregethu lawn cymaint ag erioed. Cynghorid ef gan ei feddygon, a chan ei gyfeillion lluosog, i gymeryd mwy o ymarferiad corfforol, a pheidio astudio mor galed, am y byddai hyny yn niweidiol i'w iechyd: ond yn lle gwrando ar neb, ymroddai i'r gwaith, fel pe buasai ganddo ryw ddogn bendant o waith i'w wneuthur erbyn rhyw ddiwrnod pennodol. Ar nos Sabbath, y 4ydd o Ragfyr, 1864, fel yr oedd yn pregethu yn ei gapel ei hun, yr hwn oedd yn orlawn o wrandawyr astud, oddiar y geiriau, "Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd," pan yn ngwres ei bwnc, ymattaliodd yn ddisymwth, ac ymaflodd yn mhaladr y goleunwy, gan ddywedyd, "Cofiwch fy nhestun; ni's gallaf fyned yn mlaen ddim yn mhellach," ac ymollyngodd i freichiau ei ddiaconiaid, dan yr ail ergyd o'r parlys, heb allu dweyd yr un gair mwyach i glyw ei gyddynion yn y fuchedd hon. Cludwyd ef i'w dŷ, lle y gorweddodd mewn cyflwr anymwybodol hyd y dydd Iau canlynol, pan fu farw, yn y 59ain flwydd o'i oedran.

Yn mysg y llyfrau a gyfansoddodd, gellir nodi y rhai canlynol:—1. "Y Gramadeg Athronyddol," o'r hwn y cafodd yr Awdwr y pleser o ddiwygio y pedwerydd argraffiad, ychydig cyn ei farwolaeth.

2. "Y Gramadeg Barddoniaeth."

3. "Yr Ysgrifell Gymreig;" tri argraffiad.

4. "Agoriad Gwybodaeth," llyfr ar gyfansoddi, ac areithio.

5. "Llyfr ar Resymeg."

6. "Gramadeg Cymraeg."

7. "Adolygiad ar Draithawd E. Cole ar Benarglwyddiaeth, yn nghyd a Thraithawd ar Lywodraeth Foesol."

8. "Bwrdd y Bardd;" yn nghyda lluaws o Draithodau eraill, na's goddef ein terfynau i ni eu nodi.

Yr ydoedd yn Fardd galluog a chelfyddgar, a bu yn fuddugol mewn lluaws mawr o Eisteddfodau; ac yr oedd yn dra enwog fel Adolygydd a Beirniad.

**HUWS, James,** neu fel yr adwaenid ef yn fwyaf cyffredinol, *Iago Trichrug,* ydoedd weinidog o enwogrwydd cyhoeddus gyda y Trefnyddion Calfinaidd yn Llundain. Ganwyd ef yn 1779, mewn lle a elwir Neuadd Ddu, yn mhlwyf Ciliau Aeron, wrth droed mynydd Trichrug, (oddiwrth yr hwn y cymerai ei enw barddol), yn sir Aberteifi. Treuliodd ei flynyddau boreuol fel amaethwr. Pan oedd yn un ar hugain oed, aeth i Lundain, lle y gwnaeth ei gartref am y gweddill o'i oes. Gweithiodd yn ngorsaf llynges y llywodraeth, yn Deptford, hyd nes yr oedd yn bump a deugain oed. Pan yr aeth i Lundain, yn 1800, yn oedd yn aelod gyda y Trefnyddion Calfinaidd; ond crwydrodd am beth amser oddiar lwybr dyledswydd, trwy ddylanwad llithiadau, eto dychwelodd i'w le, tra yr oedd y Parch. John Elias yn Gweinyddu yno yn 1806. Yn mhen tua phedair blynedd wedi hyny, dechreuodd bregethu gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Yn y flwyddyn 1816, neillduwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth, yn y Gymdeithasfa a gynaliwyd yn Llangeitho. Bu yn gweinyddu yn ei swydd am wyth mlynedd ar hugain, sef hyd ddydd ei farwolaeth, Tachwedd 2, 1844, yn 65 oed; a chladdwyd ef yn Bunhill Fields. Yr oedd yn dduwinydd rhagorol, ac yn bregethwr da. Y mae ei enw yn sefyll yn uchel fel ysgrifenydd ac awdwr, yr hyn a welir yn eglur drwy gyfeiriad at ei Esboniad ar y Testament Newydd, ac ar y rhan fwyaf o'r Hen. Yr oedd wedi tynu ei ddefnyddiau, gan mwyaf, o waith Pool, Scott, Guise, Doddridge, Henry, ac eraill. Dechreuodd yr Esboniad ar y Testament Newydd yn 1829, a gorphenodd ef yn 1835, mewn dwy gyfrol deuddeg-plyg, yr hwn a argraphwyd yn y Wyddgrug. Cyhoeddwyd ail-argraphiad wythplyg o hono yn Nhreffynon yn 1845. Yr oedd Mr. Huws yn fardd rhagorol. Ysgrifenodd amryw ddarnau gwir deilwng. Fel cynllun o ddull ei ddawn, cyfeirir weithiau at y penillion sydd yn dechreu gyda'r un canlynol, o Garol Nadolig o'i eiddo:—

Digitized by Google

"Dewch Gymry caredig ar blygain Nadolig,
Arbenig, nodedig yw'r dydd,
I ganu gogoniant, pur felus, pêr foliant
Am bryniant, da lwyddiant diludd.
Dewch gwelwch yn faban, di bechod ddyn bychan,
Santeiddlan, war anian, wir Oen;
I feudy rhyw fydol, rhwng cyrnau'r da corniol
Y daeth, mae'n resynol y son."

Y mae rhediad ei benillion yn gynghaneddol, mewn dull tebyg i arferiad Edward Jones, Maes-y-plwm. Yr oedd yn dra chymeradwy yn ngolwg y genedl fel pregethwr, llenor, a bardd. Y mae ei gyfieithiad o "Gray's Bard," ac o "Blair's Grave," yn dra rhagorol. Yr oedd yn Ohebydd mynych yn Seren Gomer. Bu llawer dadl ddyddorol rhyngddo a'r Dr. Wm. Owen Puw, yn y cyhoeddiad hwnw, ac yr oedd y ddau yn gyfeillion serchus a hoff o'u gilydd. Yr oedd o egwyddorion rhydd, a thymer garedig, a chydweithredai â phawb oedd yn "caru ein Harglwydd Iesu Grist mewn purdeb." Teimlid cryn golled yn y brif ddinas ar ei ol, gan faint ei ddefnyddioldeb cyffredinol yn mysg yr enwad yr oedd yn dal perthynas âg ef.

HUWS, John, Pont-Robert, oedd weinidog gyda y Trefnyddion Calfinaidd yn sir Drefaldwyn. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1775. Ymunodd â chrefydd yn ieuangc. Pan yr oedd tua dwy-ar-hugain oed, cafodd anogaeth i ddechreu pregethu, yr hyn a wnaeth, er boddlonrwydd cyffredinol yn 1800. Nid oedd gan yr enwad y pryd hwnw yn sir Drefaldwyn ond wyth o gapeli, a'r rhai hyny yn lled fychain, a disylw; ond yr oedd yno bymtheg a thri-ugain yn y flwyddyn y bu ef farw, heblaw y rhai sydd yn y rhanau Seisnig o'r wlad; ac ail-adeiladwyd yn ei amser ef, wyth o'r rhai hyny. Teithiodd lawer trwy Ogledd a Deheubarth Cymru i bregethu yr efengyl, yn gystal â threfydd Lloegr, lle yr oedd addoldai gan yr enwad. Parhaodd yn ffyddlon yn y weinidogaeth dros dair blynedd ar ddeg a deugain. Ysgrifenodd lawer yn ei ddydd, a chyhoeddwyd nifer o'i gyfansoddiadau. Yn y flwyddyn 1830, cyhoeddodd Gofiant y Parch. Owen Jones, o'r Gelli, sir Drefaldwyn, gyda marwnad darawiadol ar ei ol. Yn 1841, cyhoeddodd Fywgraphiad y Parch. Evan Griffiths, Meifod, yn nghyd a galarnad am dano; a Chofiant am Thomas Griffiths, brawd henaf y Parch. E. Griffiths, Meifod, a Mrs. Griffiths ei fam. Ac yn yr un flwyddyn cyhoeddodd Gofiant am y Parch. William Jones, Dolyfonddu. Yn 1842, cyhoeddodd Gofiannau y Parchedigion, Abraham Jones, Aberrhaiadr, a John Price, Tref-eglwys, gweinidogion perthynol i'r un enwad, gyda marwnadau ar eu hol. Ysgrifenodd nifer o bregethau, a thraethodau eraill i'r "Drysorfa," yn ei ddydd. Bu farw yn mis Medi, 1854, pan yn 79 mlwydd oed; felly mewn oedran teg, a'i yspryd mewn cwbl aeddfedrwydd ar gyfer y datodiad. Claddwyd ef yn mynwent addoldy y Bont, pryd y pregethwyd ar yr achlysur gan y Parch. D. Morgan, Trallwm; ac yr anerchwyd y dorf ar lan y bedd, gan y Parch. D. Morgan, gweinidog yr Annibynwyr yn Llanfyllin. Yr oedd wedi ei gynnysgaeddu â synhwyrau cryfion, a meddyliau treiddgar. Yr oedd yn dduwinydd galluog. Yr oedd yn Galfiniad lled uchel, ac yn dra gwresog yn ei bleidgarwch i'w olygiadau. Yr oedd ei ffyddlondeb yn siampl i'r wlad, yr oedd achos crefydd y peth nesaf at ei galon o ddim. Yr oedd yn gydwybodol a chyson yn ei holl ymarferiadau.

HUWS, John, ydoedd weinidog gyda'r Wesleyaid, yn Aberhonddu. Yr oedd yn un o deulu lluosog. Ganwyd ef yn y dref uchod, Mai 18, 1776. Enw ei dad oedd William Huws, yr hwn a fu mewn masnach gyfrifol yn y dref grybwylledig, am agos i haner canrif. Yr oedd o dueddfryd bywiog a chymdeithasgar o'i febyd; ac ystyrid ef yn wr ieuangc gobeithiol iawn. Pan yn un-ar-ddeg oed, anfonwyd ef i'r Ysgol Ramadegol yn Aberhonddu, yr hon oedd y pryd hwnw dan ofal athrawol y Parch. David Griffiths, yr hwn a fu yno am tua phum mlynedd ar hugain. Lleiandy oedd y Coleg hwnw ar y cyntaf. Bu yn lle o gryn enwogrwydd, ac yno y cafodd Dr. Coke, ac amryw ysgolheigion eraill, eu haddysg athrofaol. Yr oedd yr athraw yn bleidiol iawn i lafur yr ysgolorion, yr hyn a barodd i Huws ieuangc wneud cryn gynydd yn ei wybodaeth o'r ieithoedd gwreiddiol, yn gynar iawn; a dywedir ei fod yn dra chyfarwydd yn y Testament Groeg, pan yn bymtheg mlwydd oed. Tua diwedd y flwyddyn 1789, pan nad oedd dros dair-ar-ddeg oed, yr oedd dan deimladau dwysion, yn mherthynas i'w gyflwr ysprydol; trwy yr ystyriaeth o bwysigrwydd pethau y byd tragwyddol. Achlysurwyd hyn trwy ddyfodiad y Dr. Coke i'w dref enedigol. Pregethai y Dr. ar "Ddwyfol oleuni," ac wedi hyny, traddododd un o'i bregethau hynod, oddiar y geiriau, "Ethiopia a estyn ei dwylaw yn brysur at Dduw." Cyn hyn yr oedd wedi bod yn dueddol iawn at wag chwareuon. Ond yn awr, gwnaed argraph annileadwy ar ei feddwl, yr hyn a'i diddyfnodd yn hollol oddiwrth ei dueddiadau ysgafn cynt. Trwy ymddiddan a'r ysgolfeistr, cloff, canys. "Sion Gloff," y gelwid ef, duwioldeb yr hwn a gydnabyddid gan bawb, arweinid meddwl Mr. Huws at y Gwaredwr. Bu darllen, "Dechreuad a chynnydd crefydd yn yr enaid," o waith Dr. Doddridge, yn adeiladol iawn iddo hefyd. Fel y pererin, yn narluniad Bunyan, teimlai ei faich yn drwm, ond cafodd gwbl ymwared. Gan ei fod yn awyddus i gymeryd gafael yn mhob cyfleusdra i wrando pregethiad y gair, efe a gyrchai i addoldy yr Arglwyddes Huntingdon, Capel Ystrywad, yr hwn yn awr a berthyn i'r Methodistiaid Calfinaidd; ac hefyd i addoldy y Wesleyaid. Yn y flwyddyn 1790, yr oedd yn gwrando ar y Parch. John M'Kersey yn pregethu, yr hwn oedd ar y pryd yn sefydlog yn nghylchdaith Penfro, ac ymddengys iddo gael y fath olwg benderfynol ar drefn cadwedigaeth, nes bod yn barod i ddywedyd, "Cymodwyd fi â Duw." Daeth yn aelod rheolaidd gyda y Wesleyaid. Yr oedd y Gynadledd i gael ei chynal y pryd hwn yn Nghaerodor, a daeth John Wesley drwy Aberhonddu, a phregethodd yn neuadd y dref, ac yn nghapel Wattwn, a chafodd y pregethau argraph ddwfn ar ei feddwl. Parhaodd yn ei lafur addysgol. Mynai ei gyfeillion iddo ymbarotai at urddau yn yr eglwys Esgobaethol. Meddyliai ei dad y gallasai gael derbyniad iddo i Ysgol St. Paul, Llundain; ac efallai i Rydychain; ond tueddai yn fwy at gyfundeb y Wesleyaid. Cynhygid iddo fyned am beth amser at ei ewythr, y Parch. J. Thomas, Caerlléon; ond teimlai fod yn rhaid iddo ymateb cydwybod ddirwystr, serch croesi golygiadau ei berthynasau a'i gyfeillion. Wedi treulio ychydig amser yn Nghaerlleon, dychwelodd i Aberhonddu, gan roddi i fynu bob meddwl am fyned i'r Eglwys Sefydledig. Dechreuodd bregethu yn gynorthwyol; a buan yr anogwyd ef i gyflwyno ei achos i sylw y Gynadledd, gyda golwg ar y

Digitized by Google

weinidogaeth. Cafodd dderbyniad; a neillduwyd ef i gylchdaith Caerdydd. Yr oedd hyn yn 1796, pan yr oedd tu ag ugain mlwydd oed. Mis Awst canlynol, symudwyd ef i Hwlffordd; ac yn mhen blwyddyn drachefn, i Gaerdydd yn ei ol. Ei bedwerydd sefydliad, oedd yn Trallwm, ac yr oedd y gylchdaith hon yn cynwys rhanau helaeth o siroedd Trefaldwyn, a Maesyfed. Tra yr oedd yn y gylchdaith hon, treuliodd rai wythnosau yn nghylch-daith Amwythig, pryd y cafodd gyfleusdra i ymweled â Madeley, a chyfeillachu a Mr. Fletcher. Yn Awst, 1800, cynhygiodd Dr. Coke am genhadaeth i Ogledd Cymru, a phenodwyd Owen Davies, a John Huws, fel Cenhadau rheolaidd. Mewn perthynas i hyn, dywedai, "Mi a ufuddheais i'r penderfyniad mewn ofn a dychryn." Awst yr 20fed, gadawodd Aberhonddu, a'r Sadwrn canlynol cyrhaeddodd Wrecsam. Y mae y Cofnodau yn dangos ei fod wedi bod yn dra llafurus a llwyddianus. Yn y flwyddyn 1817, penodwyd ef i gylchdaith Newcastle-under-Lyne. Yma y cyfansoddodd ac y cyhoeddodd ei waith rhagorol, a elwir *Horæ Britannicæ*, yr hwn a fawr ganmolid gan Dr. Burgess, esgob Ty-Ddewi, ag sydd wedi enill iddo enw a gradd dda drwy yr holl dywysogaeth, hyd y dydd hwn. Ei weithiau argraphedig eraill ydynt:—1. Natur a dyben Rheolau Cyffredinol Cymdeithas y Trefnyddion Wesleyaidd. 2. Llyfr Hymnau. 3. Athrawiaeth Rhaglunaeth Ddwyfol; a dwy bregeth. 4. Prynedigaeth Gyffredinol, neu Grist wedi marw dros bawb. 5. Pregeth ar Ephesiaid v. 14. 6. Essay on the Welsh Language. 7. A Plea for Religious Liberty. 8. Theological Essay and Discourses on Public Worship. 9. The Book of the Chronicles of the Methodi, and their Sojourning in the Land of Cambria. Dechreuodd ysgrifenu Nodiadau ar y Bibl; y rhai ni orphenwyd. Derbyniodd lawer o obrwyon gan Gymdeithas y Cymrodorion, am ei weithiau rhagorol. Cafodd y wobr yn Eisteddfod Powys 1824, am ei draethawd ar, "Sefydliad a Thaeniad Cristionogaeth yn mhlith y Cymry, gan dri theulu llafurus Bran ab Llyr, Cunedda Wledig, a Brychan Brycheiniog." Bu yn llafurus iawn yn ysdod ei dymor, ysgrifenodd luaws mawr o ohebiaethau, a nodiadau ar wahanol bynciau. Bu farw Mai 15, 1843, pan yr oedd agos yn 67 oed. Hynodid ef am ei hynawsedd, ei haelfrydedd, a'i gywirdeb. Dichon mai fel awdwr yr *Horæ Britannicæ*, yr adwaenir ef amlaf, a phenaf oll, drwy bob parth o Gymru.

**HUWS**, John, o Aberystwyth, ydoedd archddiacon Ceredigion. Ganwyd ef mewn lle o'r enw Llwyn-glas, yn mhlwyf Llanfihangel-genau'r-glyn, tu ag wyth milltir o Aberystwyth, yn y flwyddyn 1787. Yr oedd tueddiad ei feddwl at y Weinidogaeth yn foreuol iawn, fel na allai gymodi ei feddwl â'r un alwedigaeth arall. Dechreuai gyfansoddi pregethau, a'u hadrodd wrtho ei hun, yn y maesydd, pan yn ieuangc iawn. Danfonwyd ef i'r Ysgol Ramadegol yn Ystrad-meurig, lle yr ymenwogodd yn fuan yn ei ymdrech am wybodaeth, a'i efrydiaeth glasurol ddiorphwys. Ychydig o flynyddoedd cyn ei urddo i'r weinidogaeth, aeth i Lundain, i ymgymeryd â swydd athraw mewn ysgol luosog yn Putney. Yn mhen blynyddau wedi hyny, edrychai yn ol ar y flwyddyn a haner a dreuliasai yno, o werth neillduol iddo, er diwyllio ei feddwl. Daeth yn fuan wedi hyn dan argyhoeddiad dwys o'i gyflwr fel pechadur, a bu llais hyfryd rhad ras am faddeuant yn rhinwedd aberth y Gwaredwr, o werth anmhrisiadwy yn ei olwg, a thrwy hyny, dygid ei feddwl i ymgyflwyniad llwyr i'r weinidogaeth Gristionogol. Urddwyd ef yn ddiacon ac yn offeiriad gan esgob Llanelwy, yn 1811. Ei guradiaeth gyntaf oedd yn Llandrillo, yn agos i Gonwy, yn sir Gaernarfon. Yma ymroddodd a'i holl allu i gyflawni gwaith y cysegr. Yr oedd yn eithriad i'w frodyr offeiriadol yn gyffredin, yn nwysder efengylaidd ei egwyddorion, ei deimlad, a'i bregethau. Cyhoeddodd gyfrol o bregethau yn Gymraeg, y rhai a gawsant gylchdaeniad eang. Yn 1817, gadawodd Gymru, gan gymeryd curadiaeth Foleshill, yn agos i Coventry, a bu' ddefnyddiol iawn yn y weinidogaeth yno. Cyhoeddodd, tra y bu yno, "Yr Appeliad paganaidd," a'r ddull o gynnadledd rhwng gweinidog a'i wrandawyr. Yn 1822, bu farw ficer y plwyf, ac anfonodd y plwyfolion anerchiad at y cangellydd Eldon, tadogydd y fywioliaeth, am ei gael i'r beriglóriaeth, ond ni wrandawyd ar eu cais. Symudodd i Deddington, yn sir Rhydychain; a bu yn weithgar a llwyddianus yno. Er fod y dref tua dwy filltir ar bymtheg o Rydychain, cyrchai amryw o'r efrydwyr yno i'w wrando; yn mhlith y rhai y gwelwyd John Henry Newman, yr hwn wedi hyny, a ddaeth i enwogrwydd yn mysg y Tractariaid. Tra yr oedd yma, teithiodd lawer i wasanaethu y Bibl Gymdeithas Frytanaidd a Thramor; a bu yn gynorthwywr gwerthfawr i'r Gymdeithas hyd ddiwedd ei oes. Talwyd y deyrnged ganlynol o barch i'w goffadwriaeth, gan y diweddar Dr. Phylips, goruchwyliwr y Gymdeithas: —"Drwg genyf fod eich Cymdeithas wedi cael y fath golled yn ddiweddar. Dechreuodd yr Archddiacon Huws ei lafur yn fore gyda'r gwaith hwn. Yr oedd ei holl fywyd yn gysegredig i'r gwaith, pan yn Deddington; wedi cael perigloriaeth Aberystwyth; a ficeriaeth Llanbadarnfawr; a phrebendariaeth Brycheiniog; ac archddiaconiaeth Ceredigion, bu yr holl ddyrchafiadau, iddo ef fel cymhelliad i ffyddlondeb ychwanegol. Pregethu yr efengyl ydoedd bwyd a diod y gweinidog rhagorol hwn." Ar farwolaeth y diweddar Barch. W. Howells, Long Acre, Llundain, gwnaed pob ymdrech i ddarbwyllo Mr. Hughes, i fod yn ganlyniedydd iddo; ond gwrthododd y cynyg, gan ei fod mor hoff o'r Cymry, ac yn neillduol o'i gynulleidfa ei hun yn Aberystwyth. Meddai Mr. Huws ar lawer o'r tân awenyddol; dangosai ei awen weithiau ei gwyneb hawddgar; cyfansoddodd lawer o Emynau rhagorol, y rhai a genid yn fynych gan ei gynulleidfaoedd. Yr oedd ei gyfansoddiad corphorol yn dra chadarn, a gallai fyned trwy lawer o waith caled gyda sirioldeb. Cyhoeddodd amryw gyfrolau o bregethau, yn Gymraeg, a Saesoneg. Yr oedd yn ysgolhaig da, yn dduwinydd trwyadl, yn Gristion gloew, ac yn weinidog ffyddlon; ac wedi gorphen ei holl lafurwaith, aeth i mewn i lawenydd ei Arglwydd."

**HUGHES**, John, *Liverpool*, ydoedd un o'r gweinidogion mwyaf poblogaidd a defnyddiol, yn mlith y Trefnyddion Calfinaidd. Yr oedd yn ysgolhaig da, yn bregethwr hyawdl, yn llenor gwych, ac yn Gristion trwyadl. Brodor ydoedd o Adwy'r-Clawdd, gerllaw Gwrecsam. Yr oedd er yn blentyn o ddeall craff, o ddawn barod, ac o dueddiad crefyddol. Yr oedd ganddo amcan naturiol at gerddoriaeth, a meithrinai y wyddor yn foreu. Cyrchid ef pan yn herlod deuddeg oed, i amryw fanau yn yr ardaloedd cymydogaethol, i gynorthwyo ac addysgu mewn

Digitized by Google

canu mawl, yn yr hyn yr oedd efe yn dra medrus yn y dyddiau hyny. Dechreuodd bregethu pan yn ddwy-ar-bymtheg oed; a bu o'r pryd hwnw hyd ddiwedd ei oes, yn dra ffyddlon yn ngwinllau ei Arglwydd. Yr oedd o ymddangosiad hardd, a dengar, o gyfansoddiad cadarn, a llais treiddgar a soniarus. Ymddangosai ar facs y Gymdeithasfa yn ieuangc, pan yr oedd yn cael ei gylchynu gan yr hynafgwyr. Yr oedd ei deithiau pregethwrol yn adnewyddiad i'r eglwysi ar bob pryd. Bu yn cadw ysgol barchus yn Ngwrecsam, pan nad oedd yr un athrofa gan y Methodistiaid fel Enwad, ac yno y derbyniodd amryw o'u gweinidogion elfenau cyntaf eu haddysgiaeth. Bu yn gweinyddu yn amryw o'r areithfaau Seisnig, yn mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth; megis *Spa Fields* yn Llundain, a manau eraill. Cafodd gymhelliadau i ymsefydlu yn Lloegr, ond glynu gyda ei gydwladwyr a wnaeth hyd ddiwedd ei oes. Efe a dreuliodd y ddwy flynedd ar hugain diweddaf o'i dymor yn Liverpool. Bu yn dra defnyddiol yno; ac yn yr ysdod hwn yr ymenwogodd yn benaf fel awdwr. Bu yn weithgar iawn fel gweinidog yn mysg yr aelodau a berthynent i'r Enwad, ac i eraill. Yr oedd yn hawddgar o dymher, ac yr oedd ei gyfeillach yn serchus ac adeiladol bob amser; a theimlid y golled am dano yn effeithiol i'r byw, ar ei ymadawiad, i orphwys oddiwrth ei lafur. Yr oedd yn cael ei gydnabod fel un o'r prif arweinwyr yn nghynghorau Cymdeithasfaol yr Enwad, yn gystal ag yn y cynnadleddau cyhoeddus, a'r gadair ymadrodd, ar y maes. Torodd yn mlaen, yn rhyddfrydedd ei olygiadau ar athrawiaeth yr efengyl, a dioddefodd ychydig dros ei syniadau, y rhai a enillasant dderbyniad yn raddol gan bob dosparth drwy y wlad. Bu yn un o gedyrn yr argraphwasg Gymreig. Y mae ei weithoedd yn gymeradwy iawn gan y Cyhoedd. Gellid cyfeirio at ei "Cydymaith i'r Ysgrythyr," "Holwyddoreg ar Hanesiaeth yr Ysgrythyr," "Drych Prophwydoliaeth," &c., ond efallai mai y gwaith a'i cododd i uchder ei orsaf ydoedd, "Methodistiaeth Cymru," yr hwn a werthfawrogir gan y Cyhoedd yn gyffredinol, ond yn enwedig, yn mysg yr Enwad ag y mae yn traethu am dano yn benaf oll. Y mae ei erthyglau yn y Traethodydd yn wir werthfawr, yn nghraffder y sylwadau, a chywirdeb yr iaith. Terfynodd ei yrfa yn nghanol ei ddefnyddioldeb, a theimlir galar mewn adgofion dros amser maith. Bu farw Awst 8, 1860, yn Abergele, yn 64 mlwydd oed. Yr oedd llewyrch cymdeithas a'i Dduw arno ef yn ei oriau olaf. Dywedai fod ei obaith yn ddiysgog yn mhethau yr efengyl, a'i fod yn gallu ymorphwys yn dawel ar addewid Duw yn Nghrist. Symudwyd ei gorph i'w gladdu yn Liverpool, lle y dywedir fod dros dair mil o bobl wedi ymgynull i'w hebrwng i dŷ ei hir gartref. Dywedir fod yno dros bedwar ugain o weinidogion a phregethwyr, rhwng pob Enwad, yr hyn a ddengys pa mor ddyfned yr oedd yn serch y rhai crefyddol o bob gradd, ac Enwad.

**HUWS**, Joseph, oedd weinidog y Bedyddwyr yn Battersea, Llundain. Yr oedd y gwr enwog hwn o waedoliaeth Gymreig, er y dichon mai yn Llundain y cafodd ei eni, yr hyn a fu ar y dydd cyntaf o Ionawr, 1769. Arweiniodd ei serch boreuol ef at y Bibl, rai i'w ystyried fel Cristion o'r groth; ac nid anfynych y clywid y sylw yn cael ei wneud, "Bydd ef yn weinidog." Pan yr oedd yn ddeng mlwydd oed, dodwyd ef dan ofal y Parch. W. Smalley, gweinidog Presbyteraidd yn Darwen, sir Lancaster; o'r lle, yn mhen dwy flynedd, y symudwyd ef i'r ysgol rad yn Rivington, yn yr un sir. Yn 1784, dychwelodd i Lundain, lle y derbyniwyd ef yn aelod o eglwys y Bedyddwyr. O herwydd ei fod yn teimlo tuedd at y weinidogaeth, trwy ddylanwad y Dr. Stennett a chyfeillion eraill, derbyniwyd ef yn fyfyriwr i goleg y Bedyddwyr yn Nghaerodor, dan arolygiaeth y Dr. Caleb Evans. Yn 1787, wedi gorphen ei amser yn Nghaerodor, trwy gynhorthwy trysorfa Mr. Ward, aeth i goleg yn Aberdeen; ac ar ol bod yno dri thymor, graddiwyd ef yn A. C. yn mis Mawrth, 1790. Treuliodd un tymor wedi hyny yn athrofa Edinburgh. Yn 1791, dewiswyd ef i'r swydd o athraw ieithyddol yn ngholeg y Bedyddwyr. Ac yn y flwyddyn 1792, am o ddeutu tair blynedd, bu yn cynnorthwyo y Dr. Evans, a'r Dr. Ryland, yn y weinidogaeth yn Broad Mead, Caerodor. Y mae yr enw Joseph Huws yn meddu hawl i sylw neillduol:—derbyniodd alwad i fod yn weinidog y Bedyddwyr yn Battersea, a chydsyniodd yn 1796; efe oedd Ysgrifenydd cyntaf Cymdeithas y Biblau Frytanaidd a Thramor, ac un o'i phrif sylfaenwyr, yn gystal a Chymdeithas y Traethodau Crefyddol. Yr oedd yn awyddus i wneuthur daioni tra y bu yn Aberdeen, ac efe a sefydlodd ysgol Sabbathol yn y lle. Ac yn Battersea, mewn cydweithrediad a'r Parch. J. Bowden, gweinidog yr Annibynwyr yn Tooting, cynlluniodd Gymdeithas Genhadol Surrey, er efengyleiddio y pentrefydd yn y sir honno. Ymunai Mr. Huws â phawb a fyddai yn ymdrechu i ledaenu teyrnas Crist. Nid oedd efe o nifer y rhai culion, cyfyng hyny, na unant â neb mewn dim, ond eu plaid fechan eu hunain. Byddai yn arfer cyd-bregethu, cyd-weddio, cyd-ganu, cyd-gymuno, a chydweithredu â phawb, a fyddai yn ymdrechu dwyn achos y Gwaredwr yn mlaen yn y byd. Achub eneidiau oedd ei bwnc. Yr oedd o feddwl rhy eang a phenderfynol i gymeryd ei rwymo â rheffynau plaid. Barnai, a gweithredai yn hollol annibynol. Arferai fyned i gyfarfodydd Cymdeithas Genhadol Llundain. Yr oedd efe yn bresenol yn Nghapel Surrey, Mai 8, 1799, pan gynhygiodd y Parch. George Burder ei gynllun, er cael Cymdeithas i ledaenu Traethodau crefyddol. Yr oedd yn bresenol hefyd yn y pwyllgor gohiriedig, bore dranoeth, yn St. Paul's Coffee-house, St. Paul's Churchyard, lle hefyd yr offrymodd y weddi gyntaf am gyfarwyddyd dwyfol yn yr achos. A phan gyfarfuant drachefn yn yr un lle, a'r Parch. Rowland Hill yn y gadair, ffurfiwyd y Gymdeithas, a phenodwyd Mr. Huws yn Ysgrifenydd iddi. Parhaodd yn Ysgrifenydd i'r Gymdeithas honno tra y bu byw. Y mae ei Fywgraphiad, a ysgrifenwyd gan Dr. Leifchild, yn rhoddi hanes teg am ei lafur a'i ffyddlondeb. Bu farw Hydref 12, 1833, gan adael tystiolaeth ar ei ol, o'i ymgyflwyniad llwyr i wasanaeth ei Arglwydd, mewn defnyddioldeb mawr.

**HUGHES**, Joseph, a adwaenid wrth ei enw barddol, *Carn Ingli*, ydoedd beriglor Meltham, yn Sir Gaerefrog. Ganwyd ef Ebrill 3, 1803, mewn ammaethdy a elwir Parcau, ar ael orllewinol mynydd Carn Ingli, yn mhlwyf Trefdraeth, sir Benfro. Yr oedd ei rieni yn bobl barchus, yn byw ar eu hetifeddiaeth eu hunain. Joseph ydoedd yr unig fab, ac yr oedd iddo un chwaer. Can gynted ag y daeth i oedran priodol, anfonwyd ef i'r ysgol a gedwid yn Nhrefdraeth, gan un Mrs. Mathews. Pan yr oedd

Digitized by Google

yn bum mlwydd oed, symudwyd ef i ysgol yn Hwlffordd, yr hon a gedwid gan un Mr. Philips. Arosodd yno am amryw flynyddoedd, lle y daeth i wybodaeth dra helaeth o'r Saesonaeg, yn gystal â gwahanol ganghenau gwybodaeth a ddysgid yn y dyddiau hyny. Yn 1816, pan oedd tua thair-ar-ddeg oed, danfonwyd ef i Ysgol Ramadegol Caerfyrddin, dan ofal y Parch. Mr. Hancock. Yno y dechreuodd astudio Lladin. Amrywiol o'r gwyr ieuaingc a addysgid yno, a ddaethant mewn amser dyfodol, y rhai mwyaf poblogaidd a defnyddiol yn y dywysogaeth. Ni arhosodd yno nemawr dros flwyddyn. Yn 1818, aeth i Ysgol Ramadegol Aberteifi, lle yr ymroddodd yn egniol i astudio Groeg a Lladin, a buan y cyfodwyd ef i'r rhestr uchaf, dan addysgiaeth alluog y diweddar Barch. W. W. Thomas, periglor (diweddar) y Ddinas, yn Sir Benfro; yr hwn ydoedd y prif athraw ar y pryd. Bu yr amser hwn yn alluog i enill rhai o "arian-dlysau" yr esgob, y rhai a gyflwynid yn amser holiadau y Pasg. Tra y bu yn aros yno, pan yr oedd tua dwy-ar-bymtheg oed, bu dan argraphiadau crefyddol tra dwys. Y pryd hwn y troid ei feddwl at y weinidogaeth yn yr Eglwys Sefydledig, yn yr hon yr oedd wedi ei ddwyn i fynu yn aelod. Pan gafodd Mr. Thomas ei benodi yn 1824, yn brif athraw Ysgol Ramadegol Ystradmeurig, i'r hwn le y symudodd ar unwaith, aeth amryw o'i ysgolorion yn Aberteifi gydag ef, ac yn eu mysg, "Carn Ingli." Yno bu yn dra dyfal yn ymarfer â holl ordinhadau crefyddol yr Eglwys, ac yno yr ysgrifenodd ei Awdl anerchiadol i Mr. Thomas, yr hon a ymddangosodd yn Seren Gomer, yn 1826. Tra yr oedd yno hefyd, yr ysgrifenodd allan o hen ysgrif yn yr ysgol, gryn nifer o awdlau yr hen feirdd, yn llaw-ysgrifen Ieuan Brydydd Hir. Gweithiodd ei hunan i fynu yno i'r safle o ail Ysgolor yn y dosparth cyntaf. Ysgrifena un o'i gyd ysgolorion am dano fel hyn. "Yr oedd yn cael ei ystyried y pryd hwnw yn wr ieuangc o wybodaeth helaeth mewn cangenau cyffredinol; cydnabyddid ef fel gwr ieuangc o athrylith, ac yn dra adnabyddus o ddirgeledigaethau duwinyddiaeth. Yr oedd yn dra diwyd yn ei astudiaeth o dduwinyddiaeth, yn gystal â phob ymarferiad er ffurfio y gweinidog dyfodol. Gwelid ei egwyddorion crefyddol trwy ei ddiwydrwydd, gyda'r cyfarfodydd a gynelid yn Brynarth dan reolaeth y periglor, enw pa un hefyd oedd Hughes. Nid oedd iddo elyn, ond cerid ef gan bawb. Ei nodweddiad moesol ydoedd ragorol, a theilwng i'w efelychu. Ni byddai yr anghysondeb lleiaf yn ei gymeriad ar unrhyw achlysur. Ymddangosai bob amser o ochr yr Arglwydd, ac ni chywilyddiai un amser i gydnabod ei Athraw Dwyfol." Yn 1826, derbyniodd ariandlws oddiwrth Gymdeithas Cymrodorion Llundain, am Draethawd ar "Galondid." Yn 1827, aeth i Goleg Dewi Sant, Llanbedr, yn yr hwn le, trwy ei dueddfryd caredig a chymdeithasgar, daeth i barch a bri yn mysg y myfyrwyr; yno y gorphenodd ei efrydiaeth glasurol a duwinyddol, er ei barotoi ei hun i'r weinidogaeth. Yn yr amser hwn, parhaodd i feithrin ei duedd at farddoniaeth Gymreig, canys yn 1826–27, ysgrifenodd "Gerdd Arwraidd ddiodl ar yr Haf." Cyhoeddwyd rhai pigion o honi yn y "Cerddi Arwrol" am 1827. Yr arwyddnod a osodai wrthi, oedd Vertumnus. Yn 1828, cyhoeddodd Awdl ddiodl ar y "Daran," yr hon a argraphwyd yn yr un gwaith, dan yr enw Boanerges. Awst 11, 1828, cafodd ei urddo yn ddiacon gan Esgob Ty-Ddewi; ac ar y 9fed o Awst, 1829, yn offeiriad gan yr un esgob. Yn Llanfihangel Penbedw, Sir Benfro, y bu yn gurad gyntaf; nid yn bell o'i hen gartref. Yn 1830, gadawodd wlad ei enedigaeth, ac ymsefudlodd yn neau orllewin Sir Gaerefrog, lle y penodwyd ef i berigloriaeth cyntaf eglwys newydd Lockwood, yn mhlwyf Almondbury, yn agos i Huddersfield, yr hon oedd y pryd hwnw yn barod i gael ei chysegru. Yn 1836, symudodd i Lynlleifiad, gan gymeryd curadaeth Eglwys St. Judas, dan y Parch. Huw M'Neil, y periglor, lle y bu am tua blwyddyn. Bu yn wasanaethgar iawn i'r Cymry yno ar y pryd. Mewn cyfarfodydd yn Llynlleifiad, a Mancenion, bu yn gyhoeddus iawn fel gwrthwynebydd i'r amcan o uno esgobaethau Bangor a Llanelwy. Tu a'r amser hwn, derbyniodd ariandlws, am yr ail oreu o gyfieithiad Emyn Genhadol Esgob Heber i'r Gymraeg. Efe oedd y goreu ar gyfieithiad o'r "Llinellau ar Farwolaeth Syr John Moore." Yn Awst, 1837, priododd â Catherine, trydedd merch William Laycock, Ysw., o Appleton, gerllaw Caerefrog. Yn yr un flwyddyn, cafodd ei benodi i berigloriaeth Meltham, yr hon sydd gapeloriaeth yn mhlwyf Almondbury, i ba un y symudodd ar unwaith, a lle y bu yn llafurus, yn llwyddianus, a dedwydd iawn. Chwefror 8, 1841, ganwyd ei ferch, a alwai yn "Jane Gwenhwyfar." Bu yn Meltham am bum mlynedd ar hugain. Efe oedd bardd y Gymdeithas Offeiriadol Gymreig yn swydd Caerefrog. Yr oedd yn un o brif gynorthwywyr yr Eisteddfodau yn Nghymru. Yr oedd yn bresenol yn Eisteddfod Beaumaris, Aberffraw, Rhuddlan, Tremadog, y Fenni, a Llangollen; a thraddododd areithiau tra chymeradwy yn amryw o honynt. Ysgrifenodd amryw Ganiadau, Cyfieithiadau, a Thraethodau, ar wahanol bynciau, o bryd i bryd, gyda phriodoldeb teilwng o'i enw a'i alluoedd, y rhai ni ellir eu cofrestru oll yma. Bu farw yn mis Tachwedd, 1863. Cynhygiwyd gwobr am yr Alargan oreu ar ei ol. Yr oedd Dewi o Ddyfed, Llallawg, ag yntau, yn gyfeillion mynwesol iawn. Bwriada rhai o'i gyfeillion gasglu ei farddoniaeth, i'w chyhoeddi mewn cyfrol gyflawn.

**HUWS**, Robert, neu Robin Ddu yr Ail, o Fon, ydoedd fardd, a beirniad rhagorol. Ganwyd ef yn Mhenmynydd, Mon, yn 1744. Gan iddo dderbyn addysg dda yn more ei oes, bu am ryw gymaint o amser yn cadw ysgol ddyddiol yn Amlwch; o'r lle y symudodd i sir Amwythig, ac oddiyno drachefn i Lundain, lle yr arhosodd am ugain mlynedd, fel ysgrifenydd i ddadleuwr cyffredinol yn y Temple. Yn ysdod ei arosiad yn Llundain, cyfansoddodd amryw Ganeuon, ac argraphwyd hwynt yn y "Dewisol Ganiadau." Yr oedd efe hefyd yn un o sylfaenwyr Cymdeithas y Gwyneddigion, ac yr oedd yn aelod o honi. Ond gan fod ei iechyd yn gwaelu, efe a ddychwelodd i'w fro enedigol, ac ymsefydlodd yn Nghaernarfon, lle y bu farw o'r darfodedigaeth, Chwefror 27, 1785, a chladdwyd ef yn mynwent Hen-eglwys, Mon. Darfu i Gymdeithas y Gwyneddigion godi cofadail er anrhydedd i'w enw, yn eglwys Llanbeblig, a cherfiwyd darlun o hono yn ysdod ei fywyd. Y mae ei goffadwriaeth eto yn barchus iawn yn ei wlad enedigol.

**HUWS**, Robert, o Neuadd y blawd, Llanddeusant, Mon, ydoedd fardd poblogaidd. Nid oes hanes pa bryd y ganwyd ef, na pha bryd y bu farw. Efe ydoedd awdwr y "Gell Gymreig." Buasai yn

Digitized by Google

ddymunol pe buasai Casglydd ei waith wedi ein hanrhegu a'i Fywgraphiad. Cyfansoddodd gryn lawer o farddoniaeth; ac er nad ydynt yn perthyn, efallai i'r dosparth cyntaf o gynnyrchion yr awen, eto y maent yn gymeradwy yn ngolwg y cyhoedd. Yr oedd yn feddianol ar ddawn ffraeth a pharod, ond yr oedd ei waith yn fynych yn anorphenedig. Bernir mai ei nod oedd cyfansoddi i'r werin, ac yn yr ystyr hwnw nid oedd yn ymgais am foddhau y beirniad craff a dillyn. Y mae ei drioedd yn ddarluniadau tarawiadol iawn o amrywiol gymeriadau, fel y gellir gweled oddiwrth yr ychydig engreifftiau canlynol:—

"Tri pheth anhawdd eu trechu;
Mewn dwned mawr sy'n denu;
Chwant y baban at y fron,
Bydd hwn at hon yn tynu.

Chwant cybydd dan ei enw,
Am olud ac am elw,
Chwant meddwyn at y ddiod gref,
A'i gariad ef at gwrw.

Tri pheth sydd brin ryfeddol;
Tosturi'r anystyriol,
A llafur waith y diog ddyn,
Nid cymwys i un eu canmol.

Duwioldeb y dyn meddw,
Hynod mor brin yw hwnw,
Trwst mawr am grefydd heb ei grym,
Fel taran, a dim ond twrw."

Defnyddiodd ei awen i geryddu y Monwysion am amryw arferion annheilwng, megis myned a'r cwn gyda hwy i'r addoliad ar y Sabbath, a'r cyffelyb. Yr oedd yn gwybod cryn raddau am y mesurau cynganeddol, canys y mae rhai cywyddau, ac englynion o'i waith, ar wahanol destynau, eto ar gael.

**HUGHES**, Rowland, gweinidog enwog yn Nghyfundeb y Trefnyddion Wesleyaidd, a anwyd yn y Bala, Swydd Feirionydd, Mawrth 6, 1811. Ond er ei eni yn y Bala, yn Nolgelleu y cafodd ei ddwyn i fynu; canys ei rieni a symudasant i fyw i'r dref hono, pan nad oedd ef namyn pedair blwydd oed; felly, yn Nolgelleu y derbyniodd ef ei addysg foreuol, y cafodd ei ddychwelyd at Dduw, ac y dechreuodd ar y gwaith o bregethu, ac oddiyno y cychwynodd ef allan, gan fyned ar ymdaith tu a'r Deheudir, i ddechreu ar ei weinidogaeth.

Ymddengys fod argraffiadau crefyddol cryfion, dyfnion, ac effeithiol iawn, wedi eu gwneyd ar ei feddwl pan yn ieuanc, wrth wrando yn addoldy y Trefnyddion Calfinaidd, lle yr arferai ef a'i rieni wrando y gair yn y blyneddoedd hyny: ond pan oedd efe tua phedair ar ddeg oed, efe a rwymwyd yn freint-was gyd ag un o'r enw John Jones, yr hwn oedd yn Wesleyad zelog a goleuedig, ac yn flaenor ffyddlawn a gweithgar yn yr eglwys, gan yr hwn yr oedd dau neu dri o restrau pwysig dan ei ofal neillduol ei hun; ac y mae yn debyg i'r gwr hwn, oedd mor selog ac ymroddgar ei ysbryd, gael dylanwad mawr ar farn ac ymddygiad y gwâs. Yn ngwanwyn y flwyddyn 1827, yr ymunodd Mr. Rowland Hughes a'r eglwys yn mysg y Trefnyddion Wesleyaidd yn Nolgelleu; ac yn y flwyddyn 1829, efe a gymhellwyd i ddechreu pregethu, pan nad oedd eto namyn bachgen ieuanc, islaw deunaw mlwydd oed: a thua dechreu y flwyddyn 1830, efe a alwyd i gynnorthwyo y Parchedigion Edward Anwyl, ac Evan Edwards, ar gylchdaith bwysig Merthyr Tydfil.

Pennodwyd Mr. Hughes yn nechreuad ei weinidogaeth, i gylch-daith lafurus Caer yn arfon; treuliodd ddwy flynedd yn y gylch-daith hono, dan arolygiaeth Mr. David Evans, y Cyntaf, ei dad yn nghyfraith wedi hyny. Yn 1834 efe a bennodwyd i Gylch-daith Beaumaris, lle y bu drachefn am ddwy flynedd eraill, dan arolygiaeth yr un gwr. Ar derfyn yr ail flwyddyn yn Môn, cyrhaeddodd yn ol rheol y Cyfundeb, derfyn ei dymhor prawf. Cynhelid Cynnadledd 1836 yn Birmingham, dan lywyddiaeth y Parch. Jabez Bunting, D.D.; ac yn y Gynnadledd hono, pennodwyd y Parch. Rowland Hughes i Gylchdaith Gymreig Liverpool. Erbyn Cynadledd 1838, yr oedd Mr. Hughes wedi ymbriodi âg Elizabeth, merch henaf y Parch. D. Evans, ei Arolygwr cyntaf, ac felly symudwyd ef o Liverpool i gylch-daith Treffynnon; ac yn llafurio ynddi y flwyddyn hono, yr oedd D. Williams, R. Bonner, William Rowlands (Gwilym Lleyn), a Rowland Hughes. Tra yn llafurio yn y Gylch-daith hon y parottodd efe y Cyfansoddiadau canlynol i'r wasg, y rhai oeddynt gyfieithiadau o'r Saes'neg;—"Pregeth Gan mlwyddol y Parch. T. Jackson;"—"Cyfarchiad caredig i rai newydd ddychwelyd;"—a "Chofnodau Mawr y Gynnadledd Wesleyaidd." Yn y flwyddyn 1843, adsefydlwyd Mr. Hughes yn Nghylch-daith Gymreig Liverpool, fel cyd lafurwr a'r Parch. R. Bonner; a'r tro hwn, treuliodd yno dair blynedd. Yn 1846, pennodwyd ef i Fangor; ac yn yr adeg yma yr ymgymerodd efe â'r gorchwyl canmoladwy, o ddarparu cyfieithiad newydd o "Nodiadau Eglurhaol y Parch. J. Wesley, A.C., ar y Testament Newydd." Wedi treulio tair blynedd yn Mangor, cafodd ei symud drachefn i'r Deheudir, canys yn Nghynnadledd 1849, pennodwyd ef i Gylch-daith Merthyr Tydfil. Wedi hyn, bu yn Nghylchdeithiau Crughywel, Manceinion, a'r drydedd waith i Liverpool. Yn y flwyddyn 1860, efe a symudodd i Gylchdaith Dinbach, lle, ar ol blwyddyn o lafur, ac o gystudd, y gorphenodd mor gynar ei yrfa, ei lafur, a'i ofid.

Nid oes genym ddim yn neillduol i'w gofnodi am dano yn ystod y naw mlynedd hyn, heblaw dywedyd iddo eu treulio oll mewn llafur dybryd iawn, yn teithio, yn pregethu, ac yn darlithio ar "Ragluniaeth Ddwyfol,"—"Y Dylif a Daeareg," a rhai testunau eraill. Er fod Mr. Hughes yn ddyn lled gorffol, ac y gallasai rhai nad oeddynt yn dra chydnabyddus ag ef, feddwl ei fod yn gryf, yr oedd efe yn mhell o fod felly mewn gwirionedd; ac yn nechreuad ei fywyd cyhoeddus, yr ydoedd yn dra llesg, ond, trwy ofal cyson, daliodd yn rhyfedd am flyneddoedd lawer; ond dechreuodd ei iechyd ballu o'r diwedd. Cafodd ysgydwad trwm i'w gyfansoddiad yn ystod ei dymhor gwasanaeth diweddaf yn Liverpool; a bu am wythnosau lawer yn dra chystuddiol, ac yn hollol annghyfartal i'w waith rheolaidd; ond, gwelläodd yn lled dda drachefn, dros amser. Er hyny yn lled fuan wedi ei ddyfodiad i Ddinbach, cafodd ail ymweliad gan ei anhwyldeb tost, a bwriwyd ef i lawr yn hollol am yspaid. Er hyny, pan wenodd yr haf arno, dechreuodd adfywio eto, er fod yn eglur fod ei hen elyn yno o hyd; a thua chanol y mis Tachwedd dylynol, torodd allan gyda mwy o angerddolder nag erioed; ac ar ddydd Nadolig, 1861, bu y dyn da, a'r gweinidog ffyddlawn hwn i Grist, farw, yn yr unfed flwydd ar ddeg a deugain o'i oedran, ac yn y nawfed ar hugain o'i weinidogaeth.

Digitized by Google

HUWS, STEPHEN, Meidrym, yn sir Gaerfyrddin, a anwyd yn nhref Caerfyrddin, tua y flwyddyn 1622. Ychydig o gofnodau sydd ar gael am dano yn ei ddyddiau boreuol, o ran ei addysgiaeth, ei ddychweliad, na'i weinidogaeth. Dywedir iddo ddyfod i beriglorïaeth Meidrym yn 1645; a bernir oddiwrth ei Gân, a gyhoeddwyd yn "Nghanwyll y Cymry," iddo fod hefyd yn gwasanaethu yn mhlwyf Merthyr, yn yr un sir, am beth amser. Ymddengys oddiwrth yr hanes o'i fod yn cael ei oddef i bregethu yn achlysurol yn yr eglwysi plwyfol wedi yr adferiad, ei fod wedi cael urddau gan esgob. Ni chyfyngodd ei lafur i'w blwyfau ei hun, ond teithiai drwy wahanol barthau y sir, i bregethu yr efengyl. Ceir yn nghofnodau rhai o'r eglwysi Anghydffurfiol henaf yn y sir, fod ganddo amryw gymdeithasau, neu eglwysi bychain, dan ei ofal mewn gwahanol leoedd pellenig o'i gartref yn y wlad, mor foreu a 1650. Yn y flwyddyn 1662, cafodd ei fwrw allan o'i fywioliaeth. Cyn hir wedi hyny, priododd wraig dduwiol o dref Abertawe, ac efe a barhaodd i deithio drwy y sir, fel o'r blaen, i ddyfrhau yr eglwysi yr oedd efe wedi eu planu yno, yn gystal ag i blanu rhai newyddion. Mor fawr oedd ei lafur a'i lwyddiant yno, fel y gelwid ef, "Apostol sir Gaerfyrddin." Yr hen eglwysi yn Llanedi, Capel Isaac, Pencadair, Pant-teg, Caerfyrddin, Llan-y-bri, Henllan, a Threlech, oeddynt oll wedi eu casglu ganddo ef; a'r nifer fwyaf o honynt wedi eu ffurfio yn eglwysi gwahanol yn ei amser ef; ac y mae y mwyafrif o eglwysi Cynulleidfaol y sir honno, y rhai ydynt yn bresenol yn cynwys yr hen ffurfiadau gwreiddiol hyny. Y mae un neu ddwy o'r eglwysi Cynulleidfaol yn sir Aberteifi, yn olrhain eu dechreuad i'w lafur ef. O berthynas i'w dalentau gweinidogaethol, dywedir ei fod yn bregethwr eglur, trefnus, a deniadol iawn; ac y safai yn gyffredin ar bethau pwysicaf crefydd. Yr oedd yn llawn teimlad ei hun, ac yn wastad yn cyflwyno yr hyn a deimlai i fynwesau eraill. Yr oedd ei gysondeb, a'i ddifrifoldeb, yn enill serch a sylw boneddion y wlad, yn gystal a'r rhai mwyaf gwledig. Pregethai yn gyffredin ddwywaith ar y Sabbath, gan deithio cryn ffordd o'r naill le i'r llall. Dynoethai druenusrwydd anwybodaeth, a darluniai werth gwybodaeth, yn effeithiol iawn. Bu yn offerynol i ddychwelyd llawer o gyfeiliorni eu ffordd. Anogai rieni i iawn-hyfforddi eu plant yn wastadol, a bu yn fendith i lawer o deuluoedd. Yr oedd yn dadol ac anogaethol iawn i bregethwyr ieuaingc ei oes. Dywedir iddo lwyddo i gael llawer, deugain neu haner-can mlwydd oed, i ddysgu darllen. Fel yr oedd ganddo y fath nifer o eglwysi dan ei ofal, yr oedd yn cael digon o le i fagu a meithrin doniau y pregethwyr ieuaingc. Yr oedd y gweinidogion oedd yn codi y pryd hwnw, dan rwymau mawr iddo ef, a'i gyfaill Samuel Jones, Bryn llywarch. Tra yr oedd y naill yn eu gwneud yn ysgolheigion, yr oedd y llall yn eu gwneud yn bregethwyr; y rhai a ddaethant yn golofnau Ymneillduaeth Gymreig, wedi symudiad ymaith y gweinidogion a drowyd o'u heglwysi. Cafodd deuddeg o wyr ieuaingc, y rhai, gan mwyaf, oedd wedi eu dwyn i fynu dan ei ofal ef, eu hurddo y flwyddyn y bu ef farw. Bu yn ddefnyddiol, nid yn unig yn ei waith yn pregethu yr efengyl, ond hefyd trwy gyhoeddi amryw lyfrau yn yr iaith Gymraeg, yn enwedig yn ei waith yn ymdrechu i ddwyn allan argraphiad o'r Bibl, yn llyfr wyth-plyg, yn iaith ei gydwladwyr. Ystyrir hyn fel gorchestwaith, canys dyma y tro cyntaf i'r Cymry gael y Bibl yn llyfr am bris cyrhaeddadwy i'r cyffredin. I'r dyben o ddwyn y gwaith o amgylch, arferodd ei ddylanwad gyda dynion cyfoethog, dysgedig, a haelionus yn Lloegr, i fod yn gynnorthwy iddo yn y gwaith; a thrwy hyny, enillodd eu sylw at achos y Cymry, fel y buont yn bleidiol iddynt mewn llawer modd wedi hyny. Wedi iddo ddyfod yn gydnabyddus a'r gwr haelionus hwnw, Mr. Gouge, o Lundain, buont yn cyd-weithio yn ymdrechgar, er dwyn allan amryw lyfrau drwy y wasg, a'u dosparthu drwy y wlad. Gosodasant i fynu amryw ysgolion trwy wahanol drefydd y Dywysogaeth, er dysgu dynion i ddarllen gair Duw, dysgu rhifyddaeth, &c., a chawsant gydweithrediad amryw eraill. Dywedir fod rhwng tri a phedwar cant o'r ysgolion hyn, wedi eu sefydlu yn ngwahanol drefydd Cymru yn 1675, a bod dwy fil o blant tlodion yn derbyn addysg ynddynt. Dygai Mr. Huws ei hun y draul o ddysgu tua chant o honynt. Yr anffawd fwyaf oedd, fod y Saesneg yn cael ei dysgu yn yr ysgolion hyn, yr hyn oedd yn rhwystr mawr tu ag at gyrhaedd yr amcan mewn golwg, trwy nad oedd plant y Cymry yn cael eu dysgu i ddarllen y Bibl yn eu hiaith eu hunain. Prynodd y Meistri Huws a Gouge, gynnifer o Fiblau a Thestamentau a allent gael yn Gymraeg, a rhanasant hwy am bris isel, a llawer o honynt am ddim, i'r tlodion na fedrent eu darllen; a chanoedd lawer o lyfrau eraill, megis "Holl Ddyledswydd Dyn," yr hwn a gyfieithasant i'r Gymraeg. Dywedir mai trwy eu dylanwad hwy y sefydlwyd y Gymdeithas er taenu gwybodaeth Gristionogol gyntaf yn Llundain, a hyny er lles i'r Cymry, yr hon sydd yn parhau hyd heddyw. Yr oedd llawer o'r dynion mwyaf dysgedig a haelfrydig yn sefydlu y Gymdeithas hon, a dygid ei gorchwylion yn mlaen dan olygiad Dr. John Tillotson, yr hwn a fu wedi hyny yn Archesgob Caergaint, yr hwn ydoedd fab i hen Anghydffurfiwr gwresog. Llwyddodd y ddau, mewn cysylltiad a'r Gymdeithas uchod, i gael argraphiad o wyth mil o gopiau o'r Bibl yn Gymraeg, yn gyfrol wythplyg; mil o ba rai a roddwyd i dlodion yn rhad, ar saith mil gweddill, am bris isel. Gwelir yma berthynas y Gymdeithas hon â Chymru, fel Cymdeithas y Biblau Brytanaidd a Thramor: angen Cymru, a gwasanaeth Cymry, ydoedd achos a moddion eu dechreuad. Cyhoeddodd Mr. Huws "Ganwyll y Cymry" yn gyfan, gyda rhagymadrodd iddo o'i waith ei hun; "Ymarfer o Dduwioldeb," "Galwad i'r Annychweledig," ac "Yn awr neu byth," o waith Alleine, yn Gymraeg, a gwerthodd ganoedd o honynt am iselbris, a rhoddodd lawer i'r tlodion am ddim. Er holl ymdrech y gwyr hyn, er gwneuthur daioni, ni ellir celu y gwirionedd, o'u bod wedi cael eu cashau, a'u herlid gan yr uchel-eglwyswyr. Dodwyd Mr. Huws yn ngharchar am ei waith, a'i lafurus gariad. Eu duwioldeb oedd achos y casineb, a'u defnyddioldeb oedd achos eu herlidigaeth. Bernir fod ei garchariad yn Nghaerfyrddin, wedi bod yn niwaid i'w iechyd. Teimlad o barch y cyhoedd tu ag ato, a fu gwir achos ei ryddhad, o blegid yr oedd yn wr o ddylanwad mawr yn y sir. Bu farw mewn tangnefedd yn 1688, yn 65 mlwydd oed. Claddwyd ef yn Eglwys Ieuan, Abertawe. Fel pregethwr, ymddengys mai ei brif nodweddau oedd, eglurdeb, difrifoldeb, a chymhwysdra. Llefarai wrth eraill yr hyn a deimlai ei hun. Y ffordd a gymerai i ymddwyn tu ag at yr Eglwys Sefydledig, oedd ymatal



Digitized by Google

heb ddweyd dim am dani, fel y gwelir oddiwrth y llinellau canlynol o'i eiddo yn ei Ragymadrodd i "Ganwyll y Cymry;"

"Rwyf yn traethu ei hathrawiaeth,
Er na hoffwyf mo'i dysgyblaeth;
Ond nid wy'n cyhoeddi hyny,
Lle rwy'n arfer o bregethu."

Dywedir am dano yn y "Gwyliedydd," Cyhoeddiad Eglwysig:—"Wedi bod yn offerynol i gyhoeddi mwy nag ugain o lyfrau Cymraeg, bu farw yn 1687. Yr oedd yn hynod am ddiwydrwydd a grym ei lafur, ac yn anwyl gan bawb. Digiodd amryw o'i frodyr wrtho, am ei fod yn dangos gormod o barch i'r offeiriaid, ac yn pregethu yn yr eglwysi plwyfol. Diamheu i foneddigeiddrwydd Mr. Huws fod o wasanaeth mawr i ymneillduaeth yn yr adeg gythryblus honno." Gweinyddai i'r eglwys a gyferfydd yn awr yn Llanedi. Tebygol iddo aros am ryw gymaint o amser yn eu mysg wedi ei fwrw o'i fywioliaeth yn Meidrym, cyn ymsefydlu yn Abertawe. Bu ei lafur yn dra bendithiol yn Nghapel Isaac, yn Mhencadair, yn Nghaerfyrddin, yn Llanybri, yn Llanstephan, yn Henllan, a Thre-lech, a manau eraill. O ran ei ymddygiad, yr oedd yn hynaws a di-dramgwydd, ac yr oedd ei weinidogaeth yn dra phoblogaidd. Gwna'i ei hun yn ddefnyddiol iawn drwy ei ymddiddanion â dynion, a'u hadgoffa am yr hyn a wrandawsent; gan ymdrechu dwyn y cyfan adref at y profiad. Mynych yr amlygai ddymuniad cryf am i'r Arglwydd gadw ei synhwyrau rhag dyrysu yn wyneb angau, fel na byddai i ddim annheilwng o grefydd ddyferu dros ei wefusau yn yr amgylchiad cyfyng hwnw; ac aml y dywedai ar weddi," Arglwydd, cofia ni yn nherfyniad ein bywyd, ac na fydded i ti ein gadael i ni ein hunain, i'th ddianrhydeddu yn ein mynydau olaf." Wedi trefnu ei dy, cyngori am drefn y weinidogaeth ar ei ol, a chyflwyno ei deulu i ofal Duw, hunodd yn yr Iesu.

**HUGHES**, Thomas, oedd weinidog gyd a'r Trefnyddion Calfinaidd yn Liverpool. Ganwyd ef yn y Bala, yn y flwyddyn 1758. Cafodd radd o fanteision addysg mewn elfenau darllen, ysgrifenu, a rhifo, a dygwyd ef i fynu yn saer coed. Teimlodd ryw fesur o argraffiadau crefyddol ar ei feddwl yn ei ieuenctyd, ond ni buont yn barhaus; ac ymollyngodd yntau i ddylyn difyrwch ac arferion ynfyd ei gyfoedion, er iddo gael ei gadw rhag rhyw eithafion gwrthun y rhedai eraill iddynt; ond ddechreu y flwyddyn 1782, pan oedd efe yn bedair blwydd ar hugain oed, tra yr ydoedd yn gwrando pregethu yn achlysurol, dwysciddiwyd yr argraffiadau crefyddol ar ei feddwl, a pharhasant i ddylanwadu arno, fel na's gallai ymysgwyd oddi wrthynt, na chael ymwared oddi wrth y baich oedd yn awr ar ei lethu; ond, wrth wrando ar y Parch. Daniel Rowlands o Langeitho, yn pregethu ar Ioan iii. 16, dattodwyd ei rwymau, ac fel pererin Bunyan wrth y groes, collodd yntau ei faich trwm; ac yn fuan ymunodd â'r Trefnyddion Calfinaidd yn y Bala, gyd a'r rhai y bu, hyd oni symudodd i Liverpool i fyw, yn y flwyddyn 1787, pan oedd tua naw mlwydd ar hugain oed: ac er nad oedd yn bwriadu aros yno pan aeth gyntaf i'r lle, ond tra y byddai yn ei berffeithio ei hunan yn ei grefft, yno yr arhosodd dros weddill ei oes.

Yn y flwyddyn 1789, efe a ddechreuodd bregethu; ac yn y flwyddyn 1816, efe a ddewiswyd gan gorph yr eglwys yn y dref, i gael ei ordeinio i weini yr ordinhadau sacramentaidd.

Er nad oedd Thomas Hughes wedi cael addysg athrofäol, yr oedd yn feddianol ar wybodaeth Dduwinyddol helaeth, a manol; a rhagorai yn mhell ar y cyffredin, o ran treiddgarwch ei olygiadau, lledneisrwydd a gwastadrwydd ei dymher, a chadernid ei benderfyniad. Llafuriai lawer er adeiladu yr eglwys; a gwerthfawrogai yr eglwys ei weinidogaeth yn fwy na'r gwrandawyr yn gyffredin. Yr ydoedd o ysbryd cyfeillgar, a rhŷdd; ac yn awyddus iawn i dori allan i leoedd anniwylliedig, ac esgeulusedig, i bregethu; ac felly bu o fendith fawr i lawer o'i gyd-genedl yn y dref estronol hono.

**HUGHES**, William, D.D., esgob Llanelwy, oedd fab i Hugh ab Cynric, o Gwenllian, ferch John Fychan ap John ap Gryffydd ab Owain Pygott; ac efe a anwyd yn Swydd Gaer yn arfon. Efe a addysgwyd, mewn rhan yn Rhydychain, o'r lle y symudodd wedi hyny i Goleg Crist yn Nghaergrawnt, lle y graddiodd efe yn y celfyddydau; ac o'r lle y cymerodd urddau eglwysig. Yn fuan wedi hyny, efe a bennodwyd yn gapelwr i'r Dug o Norfolk, yr hwn a ddylynodd ef i Rydychain yn 1568, lle ei corphorwyd yn B.D. fel yr oedd yn sefyll yn Nghaergrawnt. Yn y flwyddyn 1570, efe a raddiwyd yn D.D. yn yr un brif ysgol. Cafodd berigloriaeth Llysfaen yn 1567, ac yn 1573, efe a gyssegrwyd yn esgob Llanelwy. Ar ei ddyrchafiad i'r gadair esgobol, gan ei fod yn flaenorol wedi cael Arch-ddiaconiaeth Llanelwy, cafodd ganiattad Archesgob Caergaint i gadw yr Arch-ddiaconiaeth, yn nghyda glwys-fuddiannau eraill, gwerth 150*p*, yn y flwyddyn, fel gwag-swyddau, yn nghyd a'r esgobaeth. Y mae Strype yn rhoddi adroddiad athrist o'i gybydd-dod, gan sicrhau ei fod, mewn canlyniad i'r rhydd-fraint a nodwyd uchod, yn dal un ar bymtheg o fywioliaethau eglwysig, o ba rai yr oedd saith yn berigloriaethau, a naw, yn fywioliaethau heb waith, neu segur-swyddau.

Yn ei ewyllys diweddaf, gwnaeth gymmunroddion tu ag at sefydlu Ysgôl rad yn Llanelwy; ond, yn gymaint a'u bod yn cael eu rhoddi ar ammodau neillduol, ac na chyflawnwyd y cyfryw ammodau, ni ddaeth y cymmun-roddion hyny i weithrediad.

Efe a fu farw yn mis Hydref, 1600, a chladdwyd ef yn nghafell eglwys Llanelwy, heb gof-ysgrifen na chof-adail am dano. Ei ferch ieuangaf, a'i ettifeddes, Anne, a briododd â Thomas, mab ieuangaf Syr Thomas Mostyn; a thrwy y briodas hono y mae Mostyniaid y Rhyd, yn olrhain eu hachau.

**HUWS**, William, o Ddinas Mawddwy, sir Feirionydd, oedd weinidog perthynol i'r Annibynwyr, yn y lle uchod. Ganwyd ef yn Rhoegill-bach, yn mhlwyf Llanystymdwy, sir Gaernarfon, yn mis Mai, 1761. Yr oedd yn gloff o groth ei fam; ac yn fuan ar ol ei eni, aeth ei rieni at y Parch. Mr. Thomas, y gweinidog ag oedd y pryd hwnw yn Mhwllheli, i ofyn ei gyngor, pa un a allai meddygon wneud dim tu ag at unioni ei droed, a'r atebiad oedd, fod iddynt ei adael fel yr oedd, ag y gallai yr Arglwydd ei lwyddo yn gystal ag yr un o'u plant. Derbyniwyd ef yn aelod yn lled ieuangc, yn Mhwllheli, gan y Parch. Rees Harris. Wrth sylwi ar ymddygiad doeth a duwiol Mr. Huws, ei gynydd mewn gwybodaeth, a'i ddawn mewn gweddi, anogwyd ef i bregethu. Traddododd ei bregeth gyntaf yn y Capel newydd, yn Lleyn, oddiwrth Actau iii. 19. Wedi dechreu ar

Digitized by Google

ei lafur cyhoeddus, treuliodd ychydig amser yn yr ysgol oedd dan ofal y Parch. A. Tibbott, yn Llanuwchllyn, lle y dysgodd y Saesonaeg, ac y cyrhaeddodd wybodaeth gyffredinol. Yn 1788, symudodd i Fangor, i lafurio yn fwy sefydlog. Bu yn ymdrechgar iawn yno, ac yn y cymydogaethau. Cyfarfu â llawer o rwystrau yno: pan y gyrwyd ef a'i gyfeillion allan o un ystafell, cymerodd un arall; ond yn fuan, gyrwyd ef allan o honno hefyd. Yn y cyfamser, clywodd fod tir ar werth o fewn tua milltir i'r dref, eithr ni fynai ei berchenog ei werthu i Weinidog Ymneillduol. Pan oedd dywyllaf arno, cynhesodd calon un Dafydd Owen, Crydd, at achos yr Arglwydd, a chafwyd tir ganddo i adeiladu capel. Yn 1789, cafodd ei ordeinio mewn lle bychan, gerllaw Bangor, o'r enw Cae-gwigin. Bernir fod y diweddar, B. Jones, Pwllheli; Lloyd o Ddinbych; Abraham Tibbott, a'r Dr. Lewis, yn cynorthwyo ar yr achlysur. Er lleied a gwaeled oedd y lle, daeth gwraig fonheddig dduwiol yn ei cherbyd yno, yr hyn a barodd syndod a siarad mawr drwy y gymydogaeth, a'r sylw oedd, fod yn rhaid fod rhyw bwysigrwydd yn perthyn i'r bobl hyn, pan y deuai Mrs. Edwards, Nanhoron, i'w gwrando. Tra yr oedd yn aros yn Mangor, cyfarfu â thro hynod yn Llanrwst. Cafodd ei atal i bregethu i dyrfa luosog ac astud, oedd wedi ymgynull i wrando arno. Pan yn dychwel o daith unwaith, disgynodd yn y New Inn, Llanrwst, a daeth un Robert Owen ato, ac a fu yn daer am iddo gadw oedfa, dan y neuadd, a chydsyniodd yntau. Yn fuan wedi iddo ddechreu, daeth dau Hedd-ynad yno, a safent o hirbell dan hylldremu ar y pregethwr; ac yn union wedi iddynt ymadael, anfonasant ddau swyddog i'w ddal. Ar ol ei ddwyn o flaen yr ynadon, a'i gyhuddo, yn ol geiriad y gwysiad, o bregethu gau-athrawiaeth. Gofynodd Mr. Huws mewn modd addfwyn a gostyngedig, "Pa au-athrawiaeth a draddodais?" Ond ni allent nodi dim. Dywedent, "Mae y werin yn ymdyru i wrando arnoch chwi, ond pe byddai y gwr eglwysig goreu, yn pregethu yn yr eglwys, ni cha'i neb i wrando arno." Rhoddwyd deg punt o ddirwy ar Mr. Huws, ac am nad oedd ganddo ddim y pryd hwnw i dalu, cafodd ei gadw fel carcharor dan ofal yr heddgeidwaid, nes ydoedd yn mhell yn y nos. Y mae yn briodol sylwi yma, mai efe oedd y diweddaf yn Nghymru a garcharwyd am bregethu yr efengyl. Deallodd yr ynadon, fod hawl ganddynt, os na fyddai gan y pregethwr ddim i dalu, y gallent godi y ddirwy oddiar ei wrandawyr, a gofynasant i Mr. Jones, o'r *Union*, "Pwy oedd yn gwrando ar y gwr yn pregethu?" "Wyrda," eb efe, "gyda'ch cenad, nis gwn i yn y byd; yr oeddwn i o hyd yn dal fy llygad ar y gwr da yma, rhag ofn ei golli yn y dyrfa, am eich bod chwi wedi fy anfon i'w ddal, a dyfod ag ef ger eich bron! Nis gwn i yn y byd pwy arall oedd yn y lle." Dywedodd un arall, fod Evan Puw, siopwr yn y lle. "Gosodwyd arno ef i dalu y deg punt. Cynnygiodd Mr. R. Jones, barcer, feichnio drosto; ond Mr. Richard Roberts o Felin y coed, a estynodd yn mlaen arian y ddirwy. Pan ddychwelodd adref, yr oedd yn llawen gan ei deulu ei weled, a mawr oedd syndod pawb drwy yr ardal glywed fod William Huws gywir wedi cael ei ddirwyo am bregethu efengyl Crist. Dranoeth wedi ei ddychweliad adref, cyn dydd, yr oedd hen wr yn galw wrth ei ffenestr, gan ofyn, A oedd ef yn iach? pan atebodd, Ydwyf, O mae'n dda genyf glywed. A gostiodd i chwi dalu arian? Do. Catto pob dyn rhag y drwg! am ba beth? Nis gwn i, nid wyf yn gwybod i mi wneud dim drwg y pryd hwnw. Na ddo, na ddo, na ddo, ddim. A ddarfu i chwi dalu? Talodd un arall drosof, i aros i mi gael arian. A fynwch chwi fenthyg arian genyf fi? Diolch yn fawr i chwi am eich caredigrwydd yn cynyg. Rhoddodd ddeg punt iddo. Edward Williams, Pen-howard, Bangor, ydoedd y gwr! Sefydlodd yr achos Annibynol yn Mangor. Llafuriodd yno hyd 1797, pan y derbyniodd alwad i lafurio yn Dinas Mawddwy, i'r lle y symudodd, ac yno y parhaodd hyd ddiwedd ei oes. Adeiladwyd y capel yno yn 1794. Yn y flwyddyn 1805, adeiladwyd capel yn y Foel, yn mhlwyf Garthbeibio, mewn cysylltiad ag eglwys Dinas. Yn 1819, adeiladwyd capel Sammah, yn mhlwyf Cemaes; ac yn 1821, Bethsaida, yn Mhen-rhiw-cil, gerllaw Llidiart Croes y Barwn, lle y llofruddiwyd Lewis Owain, Ysw., hendaid yr enwog Dr. Owen. Yn 1821, adeiladwyd Bethesda yn Llan-y-mawddwy; talwyd yr holl draul o adeiladu y capeli hyn, cyn ei farwolaeth. Parhaodd yn llafurus yma am dros ddeng mlynedd ar hugain. Bu adfywiad ar yr achos yn 1805, fel yr ychwanegwyd nifer at y frawdoliaeth yno. Yn Mai, 1811, cafodd brofedigaeth lem, drwy golli ei fab John, gan i geffyl oedd wrth fen, wylltio, ac iddo yntau gael codwm, a fu yn angeu iddo cyn pen ychydig ddyddiau. Teithiodd lawer gwaith trwy Ogledd a Deheudir, i bregethu yr efengyl, a bu ei weinidogaeth yn fendithiol yn mhob man. Yr oedd yn dra chyfarwydd yn yr ysgrythyrau. Er ei fod yn gryf o gorph, ar ddychweliad o daith o sir Gaernarfon, tra yn cyrchu dros Fwlch-y-groes, effeithiodd oerder yr hin ar ei iechyd, a gwanhaodd ei natur yn raddol. Bu farw y dydd olaf o Ragfyr, 1826. Claddwyd ei weddillion marwol, y dydd Mercher canlynol, yn y capel, dan fwrdd y cymundeb. Yr oedd lluaws mawr wedi ymgynull ar ddydd ei angladd, i ddangos eu parch i'w goffadwriaeth. Ei briod ydoedd Margaret, merch Ellis, ac Ann Roberts, o Tyn y ddol, gerllaw y Bala. Mab iddynt hwy ydyw y Parch. Ellis Hughes o Penmain, a merch iddynt ydyw gwraig y Parch. H. Morgan, o Sammah. Bu Mr. Hughes, yn dra gweithgar a llwyddianus yn ei dymor, yn ngwinllan ei Arglwydd.

**HUWS, William Gray**, ydoedd ficer Mathri, yn sir Benfro. Ganwyd ef yn y Sych-pant, plwyf Nantcwnlle, sir Aberteifi, Awst 5, 1792. Yr oedd yn fab i'r Parch. John Huws, Llanddeiniol, a Nantcwnlle. William ydoedd yr ail fab. Bu gartref yn gweithio ar y tyddyn, nes yr oedd tua dwy-arbymtheg oed; ar y cyfryw amser ag yr oedd y Parch. Richard Richards, a elwid wedi hyny, "Richards o Gaerwys," yn cadw ysgol yn Nghapel Betws, ger Llangeitho. Rhoddwyd ef dan ei ofal i ddysgu gramadeg, &c. Yn fuan wedi hyny, aeth i'r ysgol ramadegol yn Llanbedr Pontstephan, yr hon oedd y pryd hwnw, dan ofal y Parch. Eliezer Williams, ficer y plwyf, a mab i'r Parch. a'r enwog Peter Williams. Treuliodd yno tua phum mlynedd, lle y dywedir fod gweddeidd-dra ei ymddygiad yn gyfryw ag a enillodd barch ei athraw a'r cyffredin. Dywedir yr arferai ddarllen rhanau helaeth o Air Duw, tra y bu yn yr ysgol. Nid oedd yn gyflym yn ei dderbyniad o addysg, ond yr oedd yn fanwl a sicr yn mhob peth a ddysgai, fel y daeth yn ysgol-

Digitized by Google

haig clasurol yn raddol, er fod yr oedran yn mha un y dechreuodd ar ei addysgiaeth glasurol wedi myned yn mhell. Wedi gorphen ei amser yn Llanbedr, dechreuodd edrych allan am le yn y weinidogaeth, a chlywodd fod eisiau curad ar yr hen batriarch, Mr. Puw, periglor Trefdraeth, yn sir Benfro. Cymerodd ei daith tuag yno; wedi cyrhaedd yno, rhoddodd Mr. Puw ef i ddarllen a gweddio yn y teulu, a hoffodd ef yn fawr. Cafodd ei ordeinio gan Esgob Burgess ar Drefdraeth, yn 1815; gwasanaethodd yno, a Threwyddel, fel curad, am saith mlynedd. Yn eglwys Cilcenin, sir Aberteifii, y traddododd ei bregeth gyntaf, i dorf luosog, a dywedir i'r dyrfa dori allan mewn sain cân a moliant, dan ei weinidogaeth nerthol. Dywedir i ryw ddaroganwr oedd yn gwrando, brophwydo nad oedd Mr. Huws i fod yn hir-hoedlog, ac felly y bu; naw mlynedd wedi hyny y bu ef byw. Yn Ebrill, 1819, rhoddodd Esgob Burgess ficeriaeth Llandyssul, yn sir Aberteifi iddo. Nid aeth yno i breswylio, ond parhaodd i wasanaethu Trefdraeth, fel curad, dros ddwy, neu dair blynedd. Pan yn ficer Llandyssul, rhoddodd hawl-fraint i wr ieuangc o'r enw Enoch James, yr hwn a gafodd y ficeriaeth, wedi iddo ef ei rhoddi i fynu, yn 1822, a'r hwn a'i gwasanaethodd yn ffyddlon am lawer o flynyddoedd. Yn Ngorphenaf yr un flwyddyn, rhoddodd yr esgob ficeriaeth Mathri i Mr. Huws, ac ar yr un pryd, gwnaeth ef yn ddeon gwladol. Y pryd hwn, derbyniodd lythyr oddiwrth yr esgob, yr hwn a gadwai yn ei logell tra y bu ef byw. Pan y byddai yn myned o gartref i bregethu, byddai hwnw yn ei galonogi yn fawr. Ymadawodd â Threfdraeth ar ei benodiad i Mathri. Cymerodd dy yn Wodig, ger Abergwaen, gan fwriadu priodi boneddiges gyfoethog a duwiol; ond nid felly yr oedd trefniad Rhagluniaeth, canys dadfeiliodd ei iechyd yn fuan. Arferai roddi y penill canlynol allan i'w ganu yn fynych, gyda dwysder:—

"O, paid â mi, gad i'm gryfhau,
Cyn darfod dyddiau 'mywyd,
A gwna â mi sydd bron yn medd,
Drugaredd a syberwyd."

Pan deimlodd nad allai wneud dim yn ychwaneg, aeth at ei hen gyfaill, Mr. Jones, Llandudoch, a dywedodd wrth fyned i'r ty, "Mr. Jones, yr ydwyf yn dyfod yma i farw, yn yr un gwely ag y cysgais am y waith gyntaf erioed yn sir Benfro;" a gorphenodd ei yrfa yno, Mawrth 17, 1824. Bu farw mewn ffydd, am yr hyn y dywedai ar ei wely angau ei fod yn beth anhawdd. Cludwyd ei gorph oddiyno mewn elor-gerbyd i Nantcwnlle, lle y dodwyd ef yn meddrod ei dadau. Nid yn aml y bu yr un gweinidog a hoffid yn fwy gan ei gynulleidfa, nac y galerid mwy ar ei ol. Dywedai y Parch. D. Gryffydd, Nefern, yn ei areithfa, yn fuan ar ol hyny, "Y mae angau yn tori i lawr ein brodyr enwocaf a ffyddlonaf; pa ddyben galaru gormod, byddwn byw am ronyn eto, er ei waethaf, er mwyn gwneuthur rhywbeth dros deyrnas Emanuel." Mynegir am dano yn myned i gyfarfod gweddi i dy hen wraig glaf yn Trefdraeth, ac efe a ddechreuodd drwy ddarllen penod, a'i hesbonio yn fyr. Anogodd ddau i fyned i weddi, yr hyn a wnaethant, eto disgwylid wrth Mr. Huws. Rhoddodd allan benill i'w ganu, "Am graig i adeiladu, &c.," a thra yr oedd yn gweddio, torodd allan yn orfoledd drwy y lle. Yr oedd tuedd argyhoeddiadol yn ei bregethau, ac yr oedd yn wastadol yn arddangos arwyddion o ddwysder ei genadwri. Yr oedd yn sefyll yn gyhoeddus iawn fel diwygiwr yn yr Eglwys Sefydledig y pryd hwnw. Yr oedd ei ddawn ymadrodd yn fanteisiol i boblogrwydd ei weinidogaeth, ac yr oedd ei ddifrifoldeb, a'i yspryd gweddi, yn elfenau eglur ei lwyddiant mawr. Yr oedd yn mhlwyf Llandyssul, lawer o Ariaid, ac Undodiaid; siaradent lawer am foesoldeb a gweithredoedd da. Yr oedd yn pregethu un Sabbath yn y llan, ac ugeiniau o'r rhai hyny yn ei wrando. Traddododd bregeth nerthol, ar y geiriau, "Os gwyddoch y pethau hyn, gwyn eich byd os gwnewch hwynt." Gosododd allan yr angenrheidrwydd o grefydd ymarferol, a bywyd duwiol. Yr oedd un o brif ddynion yr Undodiaid yno yn gwrando, mab i'r hwn oedd ar y pryd yn yr athrofa, yn parotoi ar gyfer bod yn bregethwr Undodaidd. Dywedai ei dad y prydnhawn hwnw, mai yr unig daledigaeth a ddymunai efe oddiwrth ei fab cyn ei farw, fyddai cael pregeth mor ddestlus a chywrain ag oedd gan Mr. Huws y bore hwnw. Pregethai mewn angladdau yn fynych, a hyny gyda difrifoldeb mor fawr, fel y dychwelwyd llawer at yr Arglwydd ar lawer pryd. Dywedai un o hen bobl Rowlands Llangeitho am dano, wedi bod yn ei wrando unwaith, "Yn ddiau, y mae holl ddoniau Rowlands. John Hughes, a Thomas Gray, o'r Sychbant, wedi cydgyfarfod yn y gwr ieuangc hwn."

**HUMPHREYS**, Humphrey, D.D., oedd esgob enwog, ac yn fab henaf, ac ettifedd Richard Humphreys, Ysw., Penrhyn Deudraeth, yn Swydd Feirionydd, lle y ganwyd ef, Tachwedd 24ain, 1648, o Margaret, merch Robert Wynn, Ysw., o'r Gessail Gyfarch, yn Swydd Gaer yn arfon. Dodwyd ef am beth amser yn Ysgol Ramadegol Croesoswallt, o dan ofal ei ewythr, Humphrey Wynn, M.A., yr hwn oedd yn athraw, a ficer y plwyf: ac ar farwolaeth ei ewythr, symudwyd ef i ysgol Bangor. Yn y flwyddyn 1665, cafodd dderbyniad i Goleg yr Iesu, yn Rhydychain, lle y dewiswyd ef yn ysgolor yn 1670. ac efe wedi graddio yn B.A. yn yr Hydref blaenorol.

Urddwyd ef yn ddiacon ac offeiriad yn Mangor, yn mis Tachwedd, 1670; ac ar yr un dydd cafodd ei gyflwyno i berigloriaeth Llanfrothen, yn yr esgobaeth hono. Mehefin 12fed, 1672, graddiwyd ef yn M.A., ac yn mis Awst yr un flwyddyn, etholwyd ef yn gymmrawd o Goleg yr Iesu. Yn mis Tachwedd, cafodd berigloriaeth Trawsfynydd, a'r flwyddyn ganlynol, pennodwyd ef yn gapelydd teuluaidd i'r Dr. Humphrey Lloyd, esgob Bangor. Rhagfyr yr 16eg, 1680, ac efe y pryd hyny wedi ei raddio yn B.D., ei wneyd yn gymmrawd o Goleg yr Iesu, ac yn ganon Bangor, gwnaed ef yn Ddeon yr eglwys gadeiriol hono. Cafodd ei raddio yn D.D. yn y flwyddyn 1682, ac yn y flwyddyn 1689, cyssegrwyd ef yn esgob Bangor, a throsglwyddwyd ef oddiyno i esgobaeth Henffordd yn y flwyddyn 1701, lle y bu farw Tachwedd 20fed, 1712, yn 64ain mlwydd oed, a chladdwyd ef yno, yn agos i allor yr eglwys gadeiriol. Bu drwy ei oes yn wr o nodweddiad rhagorol, ac yn ei flynyddoedd diweddaf, yn un rhyfeddol mewn duwioldeb. Yr oedd yr Esgob Humphreys yn hynafiaethydd Cymreig galluog, ac ysgrifenodd fywgraphiadau i rai o enwogion Cymru, fel ychwanegiad at y rhai cynwysedig yn Woods *Athenæ Oxonienses*, y rhai a osodwyd i mewn yn yr argraphiad diweddaraf o'r gwaith hwnw, ac yn y gyfrol gyntaf

Digitized by Google

o'r *Cambrian Register*, am y flwyddyn 1795, lle y mae nodiadau bywgraffyddol am dano ef wedi cael eu dodi i mewn.

**HUMPHREYS**, Richard, oedd un o weinidogion y Trefnyddion Calfinaidd, yn sir Feirionydd, Ganwyd ef yn y flwyddyn 1791. Tueddwyd ef at grefydd pan yn ieuangc; nid oedd yn teimlo ar y cyntaf unrhyw duedd i bregethu, ond cymhellwyd ef i hyny gan flaenoriaid yr eglwys yr oedd yn aelod o honi ar y pryd, yn y Dyffryn, oddiar eu hadnabyddiaeth o'i gymhwysder at waith pwysig y weinidogaeth. Bu am lawer o flynyddau ar ol dechreu pregethu, yn dra chartrefol fel pregethwr; ond yr oedd efe yn ei ardal, ac yn yr holl fanau yr arferai fyned iddynt, yn myned rhagddo yn barhaus mewn cymeradwyaeth a dylanwad, fel gwr cyhoeddus. Yn y flwyddyn 1833, cafodd ei urddo i gyflawn waith y weinidogaeth, yna efe a ymrhyddhaodd yn gwbl oddiwrth drafferthion masnach, yr hyn oedd ganddo o'r blaen yn chwanegol at ei dyddyn tir, ac ymroddodd at wasanaeth crefydd yn gyffredinol yn mysg y Trefnyddion Calfinaidd, ac yn neillduol yn sir Feirionydd, lle y cyfrifid ef, yn enwedig ar ol marwolaeth y Parch. Richard Jones o'r Wern, yn un o'r prif arweinwyr. Edrychid arno yn fuan fel un o'r "colofnau" yn y Cymdeithasfaoedd chwarterol, a pharhaodd yn ei ddefnyddioldeb a'i barch, hyd derfyn ei lafur-waith. Yr oedd efe yn athronydd naturiol craffus, ac yr oedd argraff o'r cyfryw, yn gystal ag o'r amaethwr Cymroaidd, yn rhoi rhyw wreiddioldeb mawr ar ei ymddiddanion cyfeillgar, ynghyd ag ar ei weinidogaeth. Er ei fod yn nodedig am ei ffraethder parod, nid oedd dim yn isel, ac anheilwng yn ei bregethau; yr oedd ei synwyr da, ei wybodaeth gyffredinol, yn gystal a'i ddeall yn yr ysgrythyr, yn wasanaethgar iawn iddo, fel pregethwr yn y pulpud, ac fel bugail yn yr eglwysi. Yr oedd fel "gweithiwr difefl, yn iawn gyfranu gair y gwirionedd." Byddai yn wastad yn rhodio ar "hyd llwybrau barn." Dangosai fod dyn fel pechadur yn ddiesgus, a Christ yn ei aberth yn ddibrinder, a'r Ysbryd Glân yn ei ras santeiddhaol yn benarglwyddiaethol, a chrefydd yn yr oll a geisia yn wasanaeth rhesymol, yn gystal ag yn gyfundrefn ddwyfol. Yr oedd ei wendid a'i nychdod wedi ei analluogi i weinidogaethu er ys hir amser, na gwneyd dim yn gyhoeddus; ac ar y 15ed o Chwefror, 1863, bu farw yn ei dy yn Ngwern Iago, ger Penal, sir Feirionydd, pan yn 72 mlwydd oed. Yr oedd yn hollol dawel ei feddwl yn ei holl gystudd.. Yr oedd yn gallu sicrhau fod ei enaid yn gorwedd mewn tagnefedd ar drefn fawr yr efengyl. Parodd y newydd ei fod wedi marw, chwithdod a phryder i filoedd o fynwesau. Yr oedd y cofion hoff am dano, fel gwladwr, fel cyfaill, fel Cristion, ac fel gweinidog yr efengyl, yn dwfnhau yr hiraeth, wrth feddwl na cheid "gweled ei wyneb ef mwy."

Claddwyd ei ran farwol wrth gapel y Dyffryn, pan weinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. L. Edwards, M.A., Bala; a'r Parch. Edward Price, Llanwyddelen; a'r Parch. Rees Jones.

**HUTTON**, Adam, LL.D., oedd yn esgob dysgedig, yr hwn a anwyd yn Caer Forioc, yn Nhir Dewi, yn sir Benfro, o hen deulu cyfoethog. Ar gyfrif ei ddysgeidiaeth, dyrchafwyd ef i'r gadair esgobawl yn Nhy Ddewi, yn y flwyddyn 1361, a chafodd ei arosod yn ganghellydd Lloegr, Ionawr 11eg, 1377, yn nheyrnasiad Risiart II. yr hon swydd a ddaliodd hyd y flwyddyn 1379. Pan yn llywyddu ar yr esgobaeth, aeth i'r draul o adeiladu coleg St. Mair, gerllaw eglwys gadeiriol Ty Ddewi, a gwaddolodd hwnw a chan punt yn flynyddol, gan neillduo saith cymrawd, a thŷ i bob un, y rhai oeddynt yn rhwymedig o fod yn wastadol ar y gwyliau a'r Sabbathau yn yr eglwys gadeiriol. Efe hefyd a ysgrifenodd y *Statuta Ecclesiae Menevensis*, yr hwn waith cywrain sydd hyd eto ar gael yn mysg cof-ysgrifau eglwys gadeiriol Ty Ddewi; ac y mae adysgrif o hono yn mysg y Llawysgrifau Harleaidd yn yr Amgueddfa Brydeinig. Bu farw Chwef. 13eg, 1388.

**HUW** ab Dafydd, o Euas, bardd tra enwog, ac yn byw rhwng y blyneddoedd 1480, a 1520, y mae cryn lawer o'i ganiadau ar gael mewn llawysgrifau.

**HUW** ab Gwilym, neu Huw Goch Brydydd, yr hwn oedd yn byw yn yr unfed ganrif a'r bumtheg, o'r flwyddyn 1550, hyd 1600.

**HUW** ab Rhisiart ab Dafydd, yr hwn oedd ar binacl uchaf ei fawredd, fel bardd a hynafiaethydd, rhwng y blyneddoedd 1600, a 1630.

**HUW ARWYSTLI.** Dywedir am dano mewn llawer o'r hen gof-ysgrifau Cymreig, ei fod yn fardd enwog. Wrth ddarllen ysgrifeniadau Sion Philip, ymddengys ei fod yn byw yn agos i'r Bermo, yn sir Feirionydd, yn y flwyddyn 1550.

**HUW BANGOR.** Bardd enwog yn ei ddydd, ac yn enedigol o Fangor, yn sir Gaernarfon, ac yn byw rhwng y blynyddoedd 1560, a 1600.

**HUW CAE LLWYD.** Yr oedd y bardd awengar hwn yn un oedd yn perthyn i urdd gorsedd Morganwg, yn y flwyddyn 1470.

**HUW CEIRIOG**, un o feirdd enwog yn niwedd yr unfed ganrif ar bumtheg, a dechreu y ddwyfed ganrif ar bumtheg.

**HUW CONWY**, bardd enwog, yn byw rhwng y blynyddoedd 1550, a 1580.

**HUW DAFYDD**, neu Dafi, bardd oedd yn byw tua 1570 a 1600.

**HUW IEUAN ROBERT.** Nid oes o fewn ein cyraedd nemawr o hanes y bardd hwn, rhagor na'i fod yn byw rhwng y blynyddoedd 1600 a 1630.

**HUW LLEYN**, bardd enwog, ac yn byw tua 1540 a 1580.

**HUW LLIFION**, hwn hefyd oedd yn un o feirdd y bumthegfed ganrif. Nid ydym wedi clywed fod nemawr, os dim o'i weithiau barddonol, wedi cyraedd i'n dyddiau ni. Bu farw tua 1600.

**HUW UFUDD**, bardd a fu yn enwog yn ei ddydd, ac ar binacl ei anrhydedd rhwng 1570, a 1600.

**HUXLEY**, John, Caernarfon, pregethwr ydoedd gyda'r Trefnyddion Calfinaidd. Ganwyd ef yn Liverpool, yn 1770. Yr oedd yn Sais trwyadl, ac ni fedrai air o Gymraeg hyd oni ddaeth i fyw i ardal Caernarfon, yr hyn a gymerodd le pan oedd yn fachgen ieuangc. Bu yn pregethu tua deugain mlynedd. Yr oedd iddo gymeriad uchel fel dyn call a synwyrol, ac o chwaeth goethedig. Cawsai ddysgeidiaeth helaeth yn moreu ei oes, a pharhaodd i fod yn ddarllenwr mawr hyd y diwedd. Teimlai ei hun gartref mewn hanesyddiaeth, pa un bynag a'i gwladol a'i eglwysig, ac nid aml y cyfarfyddid a neb yn mysg y Cymru, yn fwy cyfarwydd nag ef yn hyn. Yr oedd yn bregethwr neillduol o felus. Yn Llanrug y dechreuodd efe bregethu; yno y pregethai ef amlaf, ac yno yr oedd ei wrandawyr luosocaf. Nid aeth efe fawr oddi cartref erioed ar gyhoeddiadau i siroedd eraill, oddieithr unwaith, a hyny pan oedd efe tua

Digitized by Google

chanol oed. Ni byddai un amser yn pregethu yn faith, ond fel dyn call, yn lled fyr, ac yn hynod o ddifyrus i'w wrando. Yr oedd ganddo lais peraidd, ac ymddangosiad boneddigaidd, a chan ei fod yn wr call, ac yn meddu ar ystôr helaeth o faterion, yr oedd yn gallu sicrhau astudrwydd yn ei wrandawyr. Bu yn fyddlawn iawn gyda'r ysgol Sabbathol, ac yn mhob moddion cartrefol ereill. Nid oedd yn ddarostyngedig i dymerau cyfnewidiol gymaint a llawer un, ond yn bwyllog, a phenderfynol; hawdd oedd ei ennill trwy diriondeb, ond anhawdd oedd ei blygu trwy orthrech. Yr oedd yn cael ei fawr barchu fel dyn, ac fel dinesydd. Bu farw mewn tagnefedd, Gorphenaf 8fed, 1846, yn 76 mlwydd oed, a chladdwyd ef wrth eglwys Llanbeblig.

**HWFA** AB CYNDDELW, Arglwydd Llys Llifon, yn Môn, a phen y cyntaf o bymtheg llwyth Gwynedd, ydoedd bendefig yn cyd oesi âg Owain Gwynedd, sef o'r flwyddyn 1137, hyd 1169, a dywaid rhai Haneswyr, ei fod ef yn oruchwyliwr i'r tywysog hwnw. Yr oedd Hwfa yn fab i Cynddelw ab Cwnnws, ab Cillin, ab Maelog Ddu, ab Greddf, ab Cwnws Du, ab Cillin Ynad; ac yn yr enw yma y mae yn ymuno â llinach Gweirydd ab Rhys Goch. Yr oedd penau y pymtheg llwyth yn cael eu galw yn bymtheg pendefig Gwynedd, am eu bod yn dal eu tiroedd ar yr ammod o dalu gwasanaeth barwnaidd, gan fod yn rhwym i ryw weinyddiadau neillduol ar eu tywysogion, heblaw eu rhwymedigaethau cyffredinol fel deiliaid. Swydd ettifeddol Hwfa, ydoedd dal coronig y tywysog, a'i dodi ar ei ben, pan fyddai esgob Bangor yn ei eneinio; a pherthynai y swydd urddasol hon i'w ettifeddion ar ei ôl ef. Yr ydoedd Hwfa yn cyfanneddu yn Presaddfed, ac yn dal ei ettifeddiaeth, yn ol *Rowland's Mona Antiqua*, ar yr ammod o roddi ei bresenoldeb ar goroniad y tywysog, a chynnal i fynu ystlys ddehau y gortho uwch ben y tywysog ar yr achlysur hwnw. Y mae yr arglwyddiaethau eraill a berthynent iddo yn cael eu henwi yn Nherfynaeth Gogledd Cymru, ac fe'u rhanwyd rhwng ei bum mab, Methusalem, Cyfnerth, Ieuan, Iorwerth, a Blettrws. Y mae amryw o foneddion Mon yn dal eu tiroedd trwy haniad uniongyrchol oddiwrtho ef.

**HWLFFORDD** (*Haverfordwest*), sydd dref farchnadol, bwrdeisdref Seneddol a threfol, prif dref sir, ac yn sir ynddi ei hun, yn nghantref Rhôs, deoniaeth Dau-gleddau, esgobaeth Ty Ddewi, swydd BENFRO, DEHEUDIR CYMRU, 8 milldir i'r Gogledd o Aber-dau-gleddau, 67 i'r Gorllewin o Abertawy, a 276 o Lundain, ger cledrffordd y Great Western. Saif y dref ar lethr serth, ar lan afon Cleddau, yr hon sydd fordwyol i longau yn cario 150 tunnell, i fyny hyd at bont y dref. Pan orlifodd y mor ranau helaeth o *Flanders*, yn 1105, tiriodd cannoedd, os nad miloedd, o'r *Flemings* yn y wlad hon, i geisio nodded Harri I. Yn gymaint a bod lluaws o'u cydwladwyr wedi cynnorthwyo Gwilym y Gorchfygwr i oresgyn Lloegr, cymmerodd Harri hwy dan ei nawdd, a rhoddodd ran helaeth o Northumbria yn wladychfa iddynt. Yn fuan ar ol eu sefydliad yno, yr oedd pethau yn edrych yn bur anffafriol i frenin Lloegr, o gyfeiriad Deheudir Cymru, gan fod y Tywysog Gruffydd, mab Rhys ab Tewdwr, yn ffafr y genedl Gymreig, ac argoelion amlwg ei fod a'i fryd ar yru y Normaniaid i gyd o'r Deheubarth. Yn ngwyneb hyn, rhoddodd Harri I. drefedigaeth newydd i'r Flemings, gan eu hanfon o Northumbria i "Loegr Fach, tu hwnt i Gymru." Daethant i Gymru yn 1108, gan ymsefydlu yn nghantref Castell Martin, ac arglwyddiaeth Rhôs, sir Benfro, a Bro Gwŷr, yn Morganwg, gan uno a'r Normaniaid yn eu holl ymosodiadau ar y Cymry; ac yn eu tro, yr oeddynt hwythau yn cael cyd-ddioddef â'r Normaniaid, dan ymosodiadau y byddinoedd Cymreig. Gwnaeth yr adran oedd yn arglwyddiaeth Rhôs, dref Hwlffordd yn brif ddinas y rhan hono o'r wlad. Adeiladwyd mur uchel a thrwchus o amgylch y dref, ac iddo bedwar porth: ac adeiladodd Gilbert de Clare, Iarll cyntaf Penfro, Gastell mawr a chadarn yn y dref, yn amddiffynfa iddi; a phreswyliai yr Iarll yn y castell yn fynych. Yn amser y brenin Stephen, daeth llu mawr o'r *Flemings* i Loegr drachefn; ac yn 1155, gyrodd Harri II. hwy o Loegr i Gymru, at eu brodyr. O'r flwyddyn 1113 hyd 1221, bu yr estroniaid hyny o Flanders, yn cynorthwyo y Normaniaid, agos yn eu holl ymosodiadau ar y Cymry, yn siroedd Aberteifi, Penfro, Caerfyrddin, a Morganwg. Yn y flwyddyn olaf a nodwyd, ymosododd y tywysog Llywelyn ab Iorwerth ar dref a chastell Hwlfordd,—llosgodd y dref hyd lawr, ond achubwyd y castell trwy ymdrech yr amddiffynwyr. Bu y castell yn gadarn am oesoedd wedi amser y Tywysog Llywelyn; a dywed rhai haneswyr, i'r dref barhau yn gaerog hyd amser Charles I. Yn amser Owen Glyndwr (1410), bu y dref a'r Castell yn warchaëedig gan y Cymry, yn cael eu cynorthwyo gan fyddin o Ffrangcod: ac amddiffynid y castell gan fyddin y brenin, dan lywyddiaeth Iarll Arundel. Pan ymosodwyd ar y lle gan fyddin Cromwell, arweinydd y fyddin amddiffynol, a llywydd y castell, oedd Syr John Stepney; yn cael ei helpu gan Syr Richard Phillips Castell Picton; ond dinystriwyd y lle mor llwyr gan y Cromweliaid, fel na wnaed trefn ar ail adeiladu, nac adgyweirio y castell drachefn; ond yn unig defnyddio rhai o'i gelloedd yn garchardy y sir. Llywydd cyntaf y castell, oedd Richard Fitz Tancred, ac arglwydd cyntaf y dref, oedd Robert de Hwlffordd, yr hwn a adeiladodd Briordy i Ganoniaid Duon, ychydig y tua allan i'r dref, mewn llanerch ddymunol; ond nid oes nemawr o'r gweddillion yn aros. Pan dorwyd y crefydd-dai Pabyddol gan Harri VIII., tua'r flwyddyn 1541, rhoddwyd y Priordy hwn i Roger, a Thomas Barlow. Yr oedd crefydd-dy perthynol i'r Mynachod Duon yn Heol y Bont hefyd, yn y dref, yr hwn wedi hyny a fu yn dafarn, a elwid y *Black Horse*.

Mae rhyw hynodrwydd neillduol yn nglyn a hanes Hwlfordd er yn fore iawn, ac felly y mae yn parhau. Bu Barwniaeth Hwlffordd am amryw ganrifoedd, yn cael ei chynrychioli â *gem* yn Nghoron Lloegr. Ymddengys mai Robert de Hwlffordd a roddodd y Freinlen gyntaf i'r dref, a'r Priordy; a chadarnhawyd hono gan Iorwerth III. Pan oedd swydd Benfro yn Iarllaeth frenhinol (*Palatinate*) cafodd hawl gan y Goron i bennodi arglwydd-raglaw iddi ei hun; yr hyn sydd fraint na chafodd un dref arall yn holl deyrnas Prydain Fawr ei gyffelyb. Yn y seithfed flwyddyn o deyrnasiad Iago I., rhoddodd y brenin hwnw freinlen newydd i'r dref, yr hon sydd yn pennodi iddi y breintiau canlynol:—1. Fod tref Hwlffordd i'w hystyried yn sir ar ei phen ei hun, yn annibynol ar bob sir arall. 2. Ei bod yn dref rydd. 3. Ei bod i ddewis ei Maer, Siryddion, *bailiffs*, a swyddogion ereill. 4. Bod ei llywodraethwyr yn gynwysedig o 24 o gynghorwyr, 15 o honynt i fod

Digitized by Google

yn henaduriaid, a'r gweddill i'w henwi yn frodyr. 5. Fod y maer i weinyddu swydd trengholydd (*coroner*); arglwydd y faenor, ac ysgrifenydd y farchnad. Yn ol trefniad breinlen ddiweddarach, llywodraethir y dref yn bresenol gan faer, pedwar henadur, deuddeg cynghorwr, (tri o'r cyfryw a ant allan o swydd yn flynyddol), sirydd, a chynorthwywr gwarcheidwaid (*Assistant Overseer*). Y maer yw'r trengholydd tra yn ei swydd, ac efe, a'i flaenafiaid yn y swydd fel maer, ydynt ynadon heddwch y dref: a'r sirydd yw arglwydd y faenor, yr hwn a gynnalia ei lys (*court leet*) ar ddydd Gwyl Mihangel. Mewn undeb ag Arberth ac Abergwaun, enfyn y dref hon un aelod i'w chynrychioli yn y senedd.

Mae yn y dref a'r gymydogaeth amryw Eglwysi henafol, a gwerth sylw, y rhai ydynt a ganlyn—1. Eglwys St. Thomas, (yr Eglwys blwyfol) yr hon a saif ar dwyn uchel yn Heol y Farchnad. Barna rhai i'r eglwys hon gael ei hadeiladu y tro cyntaf, yn 1225, oddi wrth y cofnod canlynol yn Eglwys Gadeiriol Ty Ddewi:—"*Novum opus majoris ecclesiae Sti. Thomae Haverfordiae.*" Ond mwy tebygol o lawer yw, mai at y Priordy y cyfeiria y cofnod hwn, oblegyd cyssegrwyd y priordy i Sant Mair, a Sant Thomas: etto, mae yn amlwg wrth sylwi ar furiau clochdy henafol yr Eglwys hon, ei bod can hyned a'r priordy. Yn 1855, adeiladwyd yr eglwys hon i gyd yn newydd, oddieithr y clochdwr. Cynnwysa gorph, cangell, porth, a thŵr, gydag un gloch. Dyddia'r coflyfr o'r flwyddyn 1710. Perigloriaeth yw'r fywoliaeth, gwerth 300*p*. y flwyddyn, yn nawddogaeth yr arglwydd Ganghellydd.

2. Eglwys Fair (*St. Mary's Church*). Bernir i hon gael ei hadeiladu yn y 12fed ganrif. Mae mewn arddull Normanaidd, ac yn cynwys corph, canghell, rhodfa ogleddol, a thwr yn cynnwys 8 cloch, gyda phorth wedi ei ychwanegu yn ddiweddar. Mae hon yn ymddangos fel Eglwys Gadeiriol, gyda murganllaw (*parapet*) o amgylch ei nen. Yr oedd iddi gynt dwr pigfain uchel iawn, ond cafodd ei anafu gymmaint gan storm, fel y barnwyd yn ddoeth ei dynu i lawr yn y ganrif o'r blaen. Mae nenfwd corph yr eglwys wedi ei weithio â choed derw, yn ddarnau ysgwar, ac wedi ei addurno a cherfiadau gwychion ar ffurf dail, blodeu, &c., yr un fath a nenfwd Eglwys gadeiriol Ty Ddewi. Gwahanir y rhodfa (*aisle*) oddi wrth gorph yr eglwys, gan rês o golofnau mawrion, oddi ar y rhai y trŷ muriau bwâog addurnol iawn. Gwahenir y ganghell a'r eglwys gan fur bwâog (*arch*) gwych, o gryn uchder: ac y mae nenfwd y ganghell wedi ei weithio â derw diaddurn. Yr oedd gynt wyth sedd neillduol yn ol yr hen arddull, ar bob tu i'r fynedfa i mewn, ac yr oedd y rhai ar y tu gogleddol, yn aros yn 1812, tra yr oedd y rhai ar y tu deheuol wedi eu newid. Yn 1844, gwnaed y cwbl o'r seddau, &c., o'r newydd. Mae yn y ganghell, amryw golofnau coffadwriaethol; tri o'r cyfryw, ar lafnau pres, a delw fynor hardd yn gôffâd am Syr John Philipps, Barwnig, o Gastell Picton. Yma y claddwyd Syr John Pryse o *Newton Hall*, sir Drefaldwyn. Mae yma gerfiad cywrain hefyd yn cynrychioli yr "Angel Michael, a'r Ddraig." Dyddia'r coflyfr o'r flwyddyn 1678. Perigloriaeth yw y fywioliaeth, gwerth 130*p*., wedi bod yn rhoddiad y gorpholiaeth drefol, ond yn bresenol yn rhodd Y Parch. James Henry Alexander Philipps, A.C., yr hwn yw y periglor. Bernir y gall 900 o bobl gyd-eistedd yn yr Eglwys hon.

3. *Eglwys Sant Martin.* Bernir i hon gynt fod yn perthyn i'r castell mewn modd neillduol. Dywed Mr. George Nicholson, yr hanesydd, wrth ddysgrifio yr Eglwys hon yn 1810, fod Canghell a chorff yr eglwys yn uchel iawn; a bod y naill yn cael ei gwahanu oddi wrth y llall gan fwa mawreddog, yn cyrhaedd hyd y tô: a bod amryw o'r ffenestri wedi eu cau i fyny â muriau. Parhâodd hon yn ei hen arddull Normanaidd hyd y flwyddyn 1869, pan y tynwyd yr hen adeilad i lawr, ac yn 1870, gorphenwyd ei hadeiladu o'r newydd, mewn arddull Gothig. Cynnwysa gorph, canghell, rhodfa ddeheuol, gyda thŵr uchel pigfain, o geryg calch, ac ynddo un gloch. Ficeriaeth yw y fywioliaeth, gwerth 323*p*.

4. Eglwys *St. David*, Pendergast. Gellir yn briodol ystyried Pendergast a'r dref yn un bellach, gan fod y dref wedi ei helaethu yn ddiweddar, i'r cyfeiriad hwnw, nes y mae *St. David's* yn un a'r dref. Yr oedd yr hen Eglwys a safai yma hyd yn ddiweddar, yn gwisgo olion henafol iawn; ac y mae yr hen glochdy yn aros, i ddangos i'r oes hon, a'r oesau dyfodol yn ddiau, arddull yr oes yn yr hon y cafodd ei adeiladu. Cynnwysa y tŵr ddwy gloch; ac yn nghangell yr hen Eglwys yr oedd rhai llafnau mynor, er cof am deulu Castell Picton; un o honynt am wraig Syr John Philips, yr hwn a wisgodd y teitl gyntaf. Yn 1868, ail adeiladwyd yr eglwys i gyd ond y clochdy, ar y draul o 2000*p*.: ac y mae yn awr yn addurn i'r lle, yn ddigon i gynnwys 320 o bersonau. Adeiladwyd persondy hefyd yn 1870, yn werth 1500*p*. yn ol yr un arddull a'r eglwys; a'r cwbl trwy danysgrifiadau. Perigloriaeth yw y fywioliaeth, gwerth 221*p*. y flwyddyn, yn rhodd y Goron.

Cafodd y lle hwn, neu y rhan yma o'r lle, yr enw Pendergast, oddiwrth deulu o'r enw, a adeiladasant balas yma, yn fuan wedi y gorchfygiad Normanaidd. Maurice de Pendergast, yr olaf o'r teulu a feddiannai y lle, a aeth i'r Iwerddon, yn myddin Iarll Strongbow, ac yna daeth y lle yn eiddo teulu o'r enw Joyce, wedi hyny aeth i deulu o'r enw Cadarne, ac yn ganlynol yn eiddo y Stepneys, cangen henaf yr hwn deulu a ddyrchafwyd i'r teitl o Farwniaid, yn 1621. George Stepney, o'r teulu hwn, ydoedd fab i Syr Thomas Stepney, Farchog; ac a anwyd yn 1663. Derbyniodd ei addysg yn Westminster a Chaergrawnt, ac yn yr olaf derbyniodd urdd A.C. yn 1689. Trwy ei lafur a'i dalent, daeth George Stepney i sylw prif gynghoriaid y deyrnas, a phan alwyd Johnstoun yn ol o Brandenburg, i'w ddyrchafu yn Ysgrifenydd Cartrefol Scotland, yn 1692; anfonwyd Stepney yn llysgenadydd yn ei le. Yn 1694, anfonwyd ef yn negesydd i benderfynu materion pwysig rhwng y wlad hon a brenin Saxony. Yn 1696, bu ar neges yn llysoedd Menty a Cologne, gyda Chymanfa Frankfort: ac yn 1698, aeth yr ail waith i Brandenburg. Yn 1699, anfonwyd ef i lŷs Poland, ar negeseuon pwysig iawn. Yn 1701, anfonwyd ef ar neges bwysig iawn drachefn i Ffraingc: ac yn ei holl negeseuon, bu yn hynod lwyddiannus i gyrhaedd yr amcanion yr anfonwyd ef o'u plegyd. Bu farw yn Chelsea yn 1707, a chladdwyd ef yn Abbatty Westminster, gyda phrif enwogion Prydain.

Hen adfeilion arall o fri ac enwogrwydd, ychydig allan o'r dref ydyw Haroldstone, a fu yn breswylfa i deulu o'r enw Perrotts, am 300 o flynyddau. Yma y ganwyd Syr John Perrott, yr hwn a wnaed yn

Digitized by Google

farchog o urdd Caer Baddon (*Knight of the Bath*) gan Iorwerth VI.

Yn nheyrnasiad Mari, yr oedd yn un o'r llyswyr; ac yn nheyrnasiad Elizabeth, gwnaed ef yn arglwydd raglaw Iwerddon; ond ni ddygodd y swydd aruchel hon ond gofid iddo. Yn 1588, galwyd ef yn ol; ac yn 1592 dygwyd lluaws o gyhuddiadau yn ei erbyn yn Westminster, cyhoeddwyd ef yn euog,—taflwyd ef i garchar *Y Tŵr*, lle y bu farw cyn dydd y dienyddiad.

Mae yn y dref amryw adeiladau cyhoeddus o gryn deilyngdod, megys Neuadd Y Sir, yn yr hon y cynnelir y Brawdlysoedd yn y Gwanwyn a'r Hydref; ac yn y neuadd hon y cynnelir y llys sirol hefyd yn fisol: ac yn y lys-ystafell fynychaf, y cynnelir cyfarfodydd cyhoeddus, megys Darlithiau, Cyngherddau, &c. Mae yr adeilad hon o arddull Ionaidd, yn High Street, ac yn addurn i'r dref.

Y Ty Marchnad, sydd adeilad eang, yn Heol-y-farchnad; ac a adeiladwyd gan y gorpholiaeth yn 1825; y mae wedi ei drefnu yn dra chyfleus i brynwyr a gwerthwyr. Cynnelir y marchnadoedd ddyddiau Mawrth a Sadwrn. Mae yma farchnad ŷd, a marchnad pysgod hefyd, y rhai a ddiwellir yn dda. Cynnelir ffeiriau yn y dref, Chwef. 12, Mawrth 19, Ebrill 9, Mai 14, Mehefin 11 (ffair y Gwlân), Gor. 9, Awst 13, Medi 6, a'r 17, Hyd. 5 (ffair gyflogi), Hyd. 22, Tach. 12, a Rhag. 10.

Y *Carchar-dy*. Bu carchardy y dref yn yr oesau gynt, yn ymyl mur mynwent Eglwys Fair; a symmudwyd ef drachefn i'r Hen Gastell; ond ychydig amser yn ol, adeiladwyd Carchardy newydd yn ymyl y castell. Mae yr adeilad newydd hwn o ymddangosiad gwŷch, wedi ei godi o dywodfaen Cymru, gydag addurnwaith o geryg nadd Caerbaddon.

*Athrofa y Bedyddwyr*, a sefydlwyd yma yn 1839; a dygir y sefydliad yn mlaen yn dra llwyddiannus. Llywydd, ac athraw Duwinyddol y sefydliad yn bresenol, yw y Parch. Thomas Davies, D.D. Yr athraw Ieithyddol, y Parch. G. H. Rouse, M.A. Ll.B. Addysgir yma 21 o efrydwyr.

Y *Sefydliad Gwyddonol, a Llenyddol;* a sefydlwyd yn 1847; ac y mae rhif yr aelodau yn bresenol yn 120. Diwallir ystafell y sefydliad yn dda â newyddyron, cylchgronau, &c., ac y mae yn perthyn i'r lle amgueddfa, yn cynnwys Casgliad ardderchog o adar heirdd, amrywiaeth o sylweddau Daiaregol, &c.

*Tlotty 'r Undeb*, sydd adeilad gwych arall. Sefydlwyd yma lyfrfa, mor fore a'r flwyddyn 1750, i danysgrifwyr yn unig, tal 1*p.* 1*s.* y flwyddyn; ac y mae yn cael ei chario yn mlaen yn barhaus; a chynnwysa gasgliad o lyfrau rhagorol.

Mae dros yr afon, ddwy bont i fyned i'r dref. Yr oedd yma gynt, bont symmudol, (*drawbridge*); ond yn ddiweddar adeiladwyd pont geryg yn ei lle; ac y mae toll o ddimai ar bob person i'w dalu am fyned drosti; a chodir tal cyfartal am fyned a cherbydau drosti. Y mae yr hen bont yn rhydd i bawb. Croesir yr afon hefyd gan bont haiarn, perthynol i gwmni cledrffordd y *Great Western;* ac y mae wedi ei gwneyd yn y fath fodd, fel y gellir symmud rhan o honi, er rhoddi lle i longau basio, heb dyny yr hwylbreni i lawr.

Mae Melin Bapur fawr hefyd yn ymyl y dref, lle y cedwir llawer o weithwyr. Cyhoeddir yn y dref, dri Newyddiadur wythnosol, sef—1. "*The Haverfordwest and Milford Haven Telegraph*," pris 2*g.*, bob Mercher. 2. "*The County Herald*," pris 2*g.*, bob Gwener. 3. "*Potter's Newspaper*," pris 1*c.*, bob Gwener. Goleuir y dref â nwy; a diwallir hi a digon o ddwfr peraidd ac iachus, gan Ddwfr Weithfa.

Perthyna y lleoedd canlynol, i Undeb Tlodion Hwlffordd:—Ambleston, Brawdy, Boulston, Camrose, St. Bride's, Castlebythe, Cathedral Close, Ty Ddewi, Dale, Ty Ddewi, St. Dogwell's, St. Edrin's, Granston, Harroldston West, Hasguard, Haycastle, Henry's Moat, Herbanstone, Hubberston, St. Ishmael, St. Issel's Harroldston, Johnston, Jordanston, Lambston, Llangwm, St. Lawrence, Letterston, Llandelog, Llanhowell, Llanryan, Llanllawer, Llanrythan, Llanstinan, Llanfair-nant-y-Gof, Llanwnda, Llanychaer, Maenorowen, Marloes, St. Martin, St. Mary, Mathry, Morvil, Newcastle, Little Nolton, St. Nicholas, Pontfaen, Pendergast, Puncheston, Robeston West, Roch, Rudbaxton, Spittal, Steynton, Talbenny, St. Thomas, Trefgarn, Uzmaston, Walton East, Walton West, Walwyn's Castle, Whitchurch, Wiston. Yr unrhyw leoedd sydd yn perthyn i gylch y llys sirol hefyd.

Amcan gyfrif ardrethol yr Undeb yw 173,483*p.* Gwerth trethadwy, 150,494*p.* Mae lluaws o elusenau cymmun-roddol yn perthyn i'r dref, y rhai ydynt o bwys, ac y dylid gofalu eu bod ar gof a chadw; ac felly rhoddwn res o honynt yma:—Syr John Perrot, Marchog, o Harroldstone, ger Hwlffordd, mewn gweithred dyddiedig 20 Medi, 1580, yr 22 o deyrnasiad Elizabeth, a roddes lawer o gyfoeth at wellâu tref Hwlffordd. Y mae ardreth flynyddol o 288*p.* yn deilliaw oddi wrth y rhodd hon yn awr, ac ymddiriedolwyr yn eu trafod. Mewn ewyllys dyddiedig Gor. 22, 1607, sef y 4ydd flwyddyn o deyrnasiad Iago I., rhoddes William Vawer gyfoeth i'w ranu yn wythnosol i dlodion, anafusion, a bwrdeisiaid analluog Hwlffordd. Mewn gweithred a wnaed Tach 22, 1613, rhoddodd Thomas Lloyd, Ysw., Kilkyffyth, swydd Benfro (Uchel Sirydd y flwyddyn hono), ddigon o eiddo at sylfaenu, ac adeiladu Ysgol Ramadegol yn Hwlffordd. Mae gwerth yr eiddo hyn yn awr yn 106*p.* y flwyddyn. Yn ei ewyllys, dyddiedig Mehefin 10, 1654, rhoddodd John Mulward, Ysw., o'r lle hwn, diroedd ag oedd ganddo yn Bordesly, swydd Warwick, fel y canlyn:—un rhan o dair at gynnal yr Ysgol Ramadegol; rhan arall at gynnal ysgolhaig yn ngholeg Brasenose, Rhydychain, sef un wedi myned yno o Ysgol Hwlffordd, neu o Ysgol Birmingham; a'r rhan olaf i athraw Ysgol Birmingham. Mae yr elw oddi wrth yr ewyllys hon yn 96*p.* yn flynyddol. Mae yr Ysgoldy presenol o adeiladiad diweddar, ac yn cynnwys tua 70 o ysgolheigion. Mewn ewyllys dyddiedig Awst 2, 1684, rhoddodd Mrs. Mary Tasker, ardreth ffarm Dudwell, yn mhlwyf Camrose, at addysgu a chynnal plant tlodion y lle. Mae ardreth y ffarm yn 210*p.* y flwyddyn; ac y mae 70 o blant yn cael eu dilladu a'u haddysgu ar draul y rhodd hon, yn ysgoldy Dew-Street, yr hwn a berthyn i'r sefydliad. Mae yn y dref ddau Ysgoldy Brytanaidd hefyd.

Mae gan yr Annibynwyr ddau gapel yn y lle, sef y Tabernacl, ac Albany. Mae gan y Bedyddwyr dri; un Cymraeg, ac un Seisnig yn Pendergast, a Chapel Bethesda. Trefnyddion Calfinaidd, un Capel —Ebenezer. Wesleyaid Seisnig, un Capel. Morafiaid, un Capel. Sylfaenydd achos y Morafiaid yn y lle, oedd y Parch. John Gambold, genedigol o'r sir hon, yn 1711; derbyniodd ei addysg yn Rhydychain,

Digitized by Google

urddwyd ef yn 1733. Yn 1737, daeth i gyfarfyddiad a Peter Bochler, Cenadwr Morafaidd, o'r Cyfandir, ar ei daith i America. Yn 1739, cadarnhawyd ef yn yr egwyddorion Morafiaidd trwy ymddiddan a Count Zinzendorff. Pregethodd yn Rhydychain yn 1741, a chyhoeddwyd ei bregeth trwy orchymyn yr isganghellydd. Yn 1742, ymadawodd a'r Eglwys sefydledig; ac am 12 mlynedd bu yn llafurio gyda'r Morafiaid yn Germany, Llundain, a Hwlffordd. Gwnaed ef yn esgob gan yr enwad, a threuliai y rhan fwyaf o'i amser yn Llundain, o 1754 hyd 1768. Bu farw yn Hwlffordd yn 1771. Yr oedd yn awdwr amryw lyfrau; ac yn eu plith, priodolir iddo ef, neu i'w fab, awduriaeth Gramadeg Cymraeg a gyhoeddwyd yn 1727: a dywed Malkin mai ganddo ef y prynodd y Parch. John Walters, Llandoche'r, Bontfaen, y Geiriadur Mawr sydd ar enw yr olaf: cymmerodd y pryniad le tua'r flwyddyn 1768.

Arwynebedd tref Hwlffordd yw 850 erw: ond y mae'r fwrdeisdref Seneddol yn llawer mwy, gan ei bod yn cynnwys plwyfi St. Thomas, St. Mary, St. Martin, Furzy Park a Portfield, Pendergast, ac Uzmaston. Yn 1801, cynnwysai'r dref 613 o dai, a 2880 o drigolion. Poblogaeth yn 1851, oedd 6580; yn 1861, 7019; ac yn 1871, 6622.

**HYCHAN**, oedd yn sant enwog, ac yn byw yn y bumed ganrif. Yr oedd efe yn fab, neu wyr, i Brychan Brycheiniog; ac efe a sylfaenodd eglwys Llanychan, yn Nyffryn Clwyd, yn Sir Ddinbach.

**HYFAIDD HIR**, mab Bleiddan, neu Bleiddig Sant, yr hwn a ddaeth gyda Garmon i Brydain tua'r flwyddyn 420. Cofresir ef yn y Trioedd fel un o'r "tri eilldeyrn," y rhai a godwyd i benaduriaeth a llywodraeth, am, neu yn herwydd eu dewrder arwraidd. Hyfaidd yn Morganwg, Cadafael yn Ngwynedd, a Gwriad, neu Gwrgai, yn y Gogledd.

**HYLL ALBANE**, oedd yn feddyg enwog, ac yn enedigol o Gymru. Derbyniodd ran o'i ddysgeidiaeth yn Rhydychain, a chafodd ei symud oddiyno i rhyw brifysgol dramor, lle y derbyniodd ei radd o M.D., a bu yn enwog iawn yn nghyflawniad ei gelfyddyd yn Llundain, nid yn unig yn y rhan egwyddorol, ond hefyd yn y rhan ymarferol o honi; a pherchid ef yn fawr gan holl ddysgedigion ei oes ef. Arferai un o'i gydoeswyr ei alw yn "*Medicus nobilissimus atque optimus, et in omni literarum genere maxime versatus*," a dywed wrthym iddo ysgrifenu llawer o bethau ar Galen, y meddyg Groegaidd enwog, y rhai a argraffwyd. Nid oes o fewn ein cyraedd yn awr yr un hanes ychwanegol am y gwr enwog a dysgedig hwn, ond yn unig iddo farw yn y flwyddyn 1559, ac iddo gael ei gladdu yn eglwys St. Alban, yn Heol y Coed, Llundain, yn yr hwn blwyf yr oedd wedi byw mewn parch mawr am lawer o flynyddoedd, a pherchid ef fel un o'r prif blwyfolion. (*Fuller's Worthies.*)

**HYSSINGTON**, trefgordd yn swydd Drefaldwyn, a phlwyf hefyd, mewn rhan yn swydd yr Amwythig. Y mae y drefgordd yn gorwedd ar ffin sir y Mwythig; 6 milldir i'r Dwyrain Dde Ddwyrain o Drefaldwyn. Mesura 1832 o erwau o dir. Gwerth ardrethol, 1609*p*. Poblogaeth, 284. Tai, 58. Ficeriaeth yw y fywioliaeth eglwysig, wedi ei huno â pherigloriaeth Snead, yn esgobaeth. Henffordd, gwerth 248*p*. Noddwr, y Parch. R. E. Owen. Y mae yr eglwys yn sefyll o fewn ffiniau castell adfeiliedig.

**HYWEL** ab Dafydd, yr hwn a elwid Hywel ab Dafydd ab Llywelyn ab Madog, un o feirdd y rhan olaf o'r unfed ganrif ar bumtheg, a dechreu y ddwyfed ganrif ar bumtheg.

**HYWEL** ab Dafydd ab Ieuan ab Rhys, M.A., yr hwn oedd yn fardd ac hanesydd enwog o Aberdare, yn sir Forganwg; yr hwn oedd yn byw rhwng y blynyddoedd 1450 a 1480. Yr oedd efe yn Ngorsedd Morganwg, yn y flwyddyn 1460. Y mae llawer o'i ganiadau ar gael mewn llawysgrifau, ac un Cywydd ar "Cynog Sant," wedi cael ei argraphu yn nghasgliad "Iolo Morganwg," o'r Llawysgrifau Cymreig, tudalen 302.

Ysgrifenodd hefyd "Hanes o Brydain oll," yn y Lladinaeg; a "Thair Tywysogaeth Cymru," yn y Gymraeg. Ystyrid eu holl weithiau awdurol yn werthfawr, ac wedi cael eu hysgrifenu yn dda. (*Jones' Welsh Bards.*)

**HYWEL** ab Dafydd Llwyd. Dywedir fod Hywel yn fardd o'r radd oreu, ac y mae rhai o'i Ganiadau ar gael mewn llawysgrifau. Yr oedd yn byw rhwng y blynyddoedd 1560, a 1600.

**HYWEL** ab Edwin, neu fel y gelwid ef yn gyffredin, Hywel ab Edwin ab Einion ab Owain ab Hywel Dda, oedd foneddwr, teulu yr hwn a farnwyd ymaith am rai blynyddoedd o olyniaeth feddianol tywysogaeth Deheudir Cymru. Yr hanesiaeth gyntaf am dano, sydd gydag eiddo ei frawd Meredydd, fel un wedi uno mewn cydfradwriaeth, trwy yr hon y cafodd Llywelyn ab Sitsyllt, tywysog Gogledd Cymru ei ladd, yn y flwyddyn 1021. Yn gymaint ag na lwyddasant i enill penaduriaeth Gogledd Cymru, gorfodwyd hwy i fod yn dawel am rai blyneddoedd, ond yn y flwyddyn 1031, trwy iddynt gyflogi Albaniaid Gwyddelig, darfu iddynt orchfygu a lladd Rhydderch ab Iestyn, yr hwn oedd wedi trawsfeddianu tywysogaeth Deheubarth Cymru, ac yn eu henwau unol, dygasant yn mlaen y Llywodraeth. Yn 1032 lladdwyd Meredydd trwy fradwriaeth, a drefnwyd gan neiaint Llywelyn ab Sitsyllt, a gyrwyd Hywel yn ffoadur. Yn y flwyddyn 1037 gwnaeth gynyg i adfeddianu ei arglwyddiaethau a'i lywodraethau, ond llwyr orchfygwyd ef gan Gruffydd ab Llywelyn, yn Pencadair, sir Gaerfyrddin, lle y mae olion hen wrthgloddiau cadluoedd rhyfelgar i'w gweled hyd heddyw, ar fferm y Banc, a manau ereill yn y gymydogaeth; ac yn y flwyddyn ganlynol, yn mrwydr Llanbadarn, gorchfygwyd ef eilwaith; a syrthiodd ei wraig, yr hon oedd yn ddynes degweddol iawn, yn ysglyfaeth i'r gorchfygwr. Trwy gynorthwy y Daniaid, yn y flwyddyn 1043, gwnaeth Hywel ymosodiad arall yn erbyn Gruffydd, ond ni lwyddodd, ac mewn ail frwydr lladdwyd ef gan y tywysog Gruffydd, yn agos i Abertywi, yn sir Gaerfyrddin.—*Gwel Brut y Tywysogion.*

**HYWEL** ab Einion, bardd ag oedd yn byw rhwng y blynyddoedd 1570, a 1600.

**HYWEL** ab Einion Llygliw, bardd enwog, yr hwn oedd yn ngwychder ei enwogrwydd rhwng y blynyddoedd 1360, a 1390. Y mae un o'i gyfansoddiadau ar gael, sef awdl o'i eiddo, i "Myfanwy Fechan o Dinas Bran," wedi cael ei hargraphu yn y *Myfyrian Archaiology*, cyf. i. tudal. 513, o'r hon y mae cyfieithiad wedi cael ei argraphu yn *Pennant's Tours in Wales.*

**HYWEL** ab Emyr Llydaw, yr hwn hefyd a elwir Hywel Faig, a Hywel Fanog, tywysog enwog, yr hwn oedd yn byw yn gynar yn y chweched ganrif. Cofresir ef yn y Trioedd, gyda Morgan

Digitized by Google

Mwynfawr, a Medrawd, fel y tri "Marchawg breninawl," yn llys Arthur, y rhai oeddynt yn ddiorthrech mewn brwydr, etto yn hynod am eu moesau addfwyn, a'u hymadroddion tyner, fel na allai neb nacau iddynt yr hyn a geisient. Claddwyd ef yn Llanilltyd Fawr, yn Morganwg. (*Iolo MSS. tudal.* 535.)

HYWEL AB IEUAF, neu HYWEL DDRWG, tywysog yn Ngogledd Cymru, yr hwn a ddifeddianodd Iago ei ewythr o'i lywodraeth, yn y flwyddyn 978, ac argymerodd a'r llywodraeth ei hun, er fod ei dad yn fyw ar y pryd. Yn y flwyddyn 980, efe a draws-ruthrodd, ac a anrheithiodd Ddeheudir Cymru, trwy gynorthwy llu mawr o'r Saeson; ac yn y flwyddyn ganlynol, gwnaeth ail ryfelgyrch, pryd y gorchfygwyd y Saeson ac y lladdwyd nifer fawr. Yn y flwyddyn 984, darfu i Hywel drawsfeddianu Lloegr, lle y lladdwyd ef mewn brwydr, pan yn ymladd yn wrol a'i elynion; ond gadawodd ar ei ol yn ngolygiadau ei gydwladwyr, nodweddiad o ormeswr annhosturiol a chreulawn.

HYWEL AB LLYWELYN AB MEREDITH. Un o feirdd dechreu yr unfed ganrif ar bumtheg, cyfansoddiadau yr hwn ydynt ar gael mewn llawysgrifau.

HYWEL AB MORGAN MAWR, tywysog enwog ar Forganwg, yr hwn a flodeuai rhwng y blynyddoedd 1030, a 1043. Yr oedd yn byw mewn amseroedd enbyd, pan oedd Cymru yn cael ei hanrheithio gan elynion estronol, ac ymbleidiaeth cartrefol. Ymrodd i ddyledswyddau gwleidyddol yn ieuanc, canys efe ydoedd prif gynghorwr Gwrgant, y doethaf a'r mwyaf poblogaidd o dywysogion Morganwg. Ar farwolaeth Gwrgant yn y flwyddyn 1030, yr etifedd naturiol oedd ei fab Iestyn, ond lleied oedd ei barch yn y wlad oherwydd ei afradlonedd a'i anfadrwydd, fel y taflwyd ef o'r neilldu, ac y dewiswyd ei gâr Hywel yn ei le, trwy bleidlais unfrydol yr holl wlad. Llywodraethodd Hywel yn dra llwyddiannus hyd y flwyddyn 1043, pan y bu efe farw yn 130 mlwydd oed. *Brut y Tywysogion* a ddywed am dano: "Y gwr doethaf o Dywysawg yng Nghymru oedd efe, a goreu ei gariad gyda phawb o'i genedl, ac efe a garai heddwch a phob cyfiawnder; ac yn ei le y doded Iestyn ab Gwrgant, a gwaethaf oedd efe a welwyd erioed o Dywysawg yng Nghymru, ac ni charai efe na heddwch na chyfiawnder, ac ni wnathodd erioed nas dygai ormes a chribddail ar ei wlad a'i genedl, achaws hyny ni chafas ei cyfnerthai, lle caid a fai yn ei erbyn, o ddoeth a deddfawl." Myn Woodward a haneswyr ereill mai yr un oedd yr Hywel hwn a Hywel ab Edwyn, gan fod hanes y ddau yn gymmhledig yn yr hen groniclau. Hwnw a ddygodd yr Ysgodogion Gwyddelig, neu y Gwyddyl Fichtiaid, i Ddeheubarth Cymru, y rhai, ar ol lladd Rhydderch ab Iestyn, a adferasant Dywysogaeth y Deheubarth i Hywel, a'i frawd Meredydd. Ni chafodd fwynhau yr anrhydedd yn hir mewn heddwch, canys cyn pen y flwyddyn, cyhoeddwyd rhyfel yn ei erbyn gan Iestyn ab Gwrgant, a'r elyniaeth hon rhwng y ddau, y mae'n debyg, sydd wedi arwain llawer i gasglu mai hwn oedd Hywel ab Morgan Mawr. Yn y rhyfel dywededig, amcan Iestyn oedd gosod i fyny hawliau ei wyrion, feibion Rhydderch ei fab, eithr trechwyd ef gan Hywel, yr hwn yntau, yn ei dro, a orfodwyd gan Gruffudd ab Llewelyn, ac a ffodd at Iago ab Idwal, Tywysog Gwynedd. Ni effeithiodd hyn, pa fodd bynag, i dori ei galon, eithr ar ol adffurfio ei fyddin, anturiodd i'r gâd drachefn, a chymerodd ei wraig gydag ef i faes y gwaed, modd y gallai hi fod yn llygad-dyst o'i fuddugoliaeth. Ond trodd ei ddysgwyliadau yn siomedigaeth, canys pan glybu Gruffudd am y rhyfelgyrch hwn, efe a brysurodd gyda'i fyddin o Wynedd, ac a gyfarfu â Hywel yn Mhencadair, sir Gaerfyrddin. Bu yn frwydr dost rhyngddynt, a gorfu ar Hywel ffoi drachefn. Y flwyddyn ddilynol, sef 1037, ymladdwyd brwydr arall yn Llanbadarn, gyda chanlyniadau trychinebus i Hywel, canys cymerwyd ei wraig oddiarno, a chadwodd Gruffudd hi yn ordderch iddo ei hun. Cynddeiriogodd hyn Hywel, yr hwn, yn mhen dwy flynedd, a wnaeth drydydd rhuthr-gyrch i'r Deheubarth, yn cael ei gynnorthwyo gan fintai o Ddaniaid, eithr ni thyciodd y cais hwn ddim yn erbyn ei hen orchfygwr. Y canlyniad ydoedd, i Hywel ymostwng i gyflawni budrwaith bradwr, a'r flwyddyn ddilynol, cafodd gan feibion Rhydderch ab Iestyn, gudd-lofruddio cant a haner o bleidwyr ffyddlonaf Gruffudd. Ond buan y daeth dialedd ar ei warthaf, canys cyn diwedd yr un flwyddyn, cyfarfyddodd â'i angeu oddiar ddwylaw Gruffudd, ar ol ymladd caled, yn Abertywi. Gwelir fod cryn wahaniaeth yn nodweddion y ddau Hywel, ond gallai fod eu hymwneud eill dau âg Iestyn, wedi peri i rai haneswyr waethygu y tryblith, trwy briodoli gweithredoedd y naill mewn rhai lleoedd i'r llall. Boed a fyno am hyny, gall y darllenydd gymeryd ei ddewis, ac un a'i priodoli dau gymeriad mor wahanol i'r un person, neu ynte eu cadw ar wahân.

HYWEL AB OWAIN GWYNEDD, oedd yn dywysog yn Ngogledd Cymru, ac yn fardd enwog yn ei ddydd, ac y mae wyth o'i gyfansoddiadau wedi eu cyfleu yn yr *Hynafiaethau Cymreig.* Yr oedd Hywel yn ordderchfab i Owain Gwynedd, o Pyfog, etifeddes i foneddwr yn yr Iwerddon. Ar farwolaeth ei dad yn y flwyddyn 1169, gan fod y mab hynaf wedi ei osod o'r neilldu o herwydd anaf oedd ar ei wyneb, esgynodd Hywel i'r orsedd, o'r hon y cadwodd feddiant anymddibynol am yn agos i ddwy flynedd, pryd yr aeth i'r Iwerddon i hawlio meddianau Pyfog ei fam. Yn y cyfamser cymerodd Dafydd ei frawd feddiant o'r llywodraeth; ac wedi casglu llu mawr, dysgwyliodd am ddychweliad ei frawd Hywel o'r Iwerddon, a gorchfygodd ef mewn brwydr. Bernir mai yn agos i Benrhos, gerllaw Caergybi, y bu y frwydr hon. Clwyfwyd Hywel yn ei ochr, a dychwelodd i'r Iwerddon, lle y bu farw o'r clwyfau a gafodd, yn y flwyddyn 1171; a rhoddodd ei holl gyfoeth yn y wlad hono i Rhirid ei frawd, yr hwn a aethai gydag ef yno. Fel y nodasom, y mae rhai o'i ganiadau wedi eu dyogelu yn y *Myvyrian Archaiology,* yn cynwys caniadau ar gariad, a rhyfel; ac y mae cyfieithiad o un o honynt a elwir "Y Dewis," wedi cael ei argraphu yn y *Cambrian Register,* cyf. i. tudal. 412.

HYWEL AB RHYS, neu HYWEL Y BWR BACH. Preswyliai ef yn Llangeiriog, a blodeuai yn y bedwaredd ganrif ar ddeg, canys yr ydym yn cael ei fod yn eistedd ar orsedd Morganwg yn y flwyddyn 1330. Enillodd enw iddo ei hun hefyd fel bardd, ac y mae peth o'i waith etto ar gael. Dywed rhai mai oddiwrtho ef y derbyniodd Crughywel ei henw, am ei fod yn berchen tiroedd yn y gymydogaeth; ond fe elwid hen amddiffynfa yn y lle, dan yr enw hwnw, oesoedd cyn geni yr Hywel hwn.

HYWEL AB RHYS AB ARTHFAEL. Ychydig a wyddis am yr Hywel hwn, heblaw ei fod yn dy-

Digitized by Google

wysog ar Forganwg pan ydoedd Heinydd ab Bledri yn teyrnasu yn Nyfed. Safai ei feddiannau mewn rhan yn Morganwg, ac mewn rhan yn Mynwy, ac oherwydd difrodiadau parhaus Ethelred a'r Mersiaid, ymunodd Hywel âg amryw bendefigion ereill i ymofyn nawdd Alfred, brenin Lloegr, modd y caffent fwynhau yr amddiffyn a'r diogelwch oedd i'w gael dan ei lywodraeth ef. Aeth i Rufain yn y flwyddyn 894, ond efe a fu farw yn mhen tridiau ar ol cyrhaedd yno, o boethder yr hin, yn 124 mlwydd oed.

**HYWEL** ab Sitsyllt. Milwr dewr, yn perthyn i deulu dewr, canys yr ydoedd yn frawd i Llywelyn ab Seisyllt, yr hwn yn yr unfed ganrif ar ddeg, a deyrnasai ar Gymru oll. Pan ddaeth Eulaff i anrheithio Mynwy a Dyfed yn y flwyddyn 1021, Hywel oedd pendragon y fyddin a anfonwyd gan Llywelyn ei frawd i waredu y wlad odditan iau yr estron ysbeilgar. Yn y frwydr a ddilynodd, collodd Hywel ei fywyd.

**HYWEL** ab Syr Matthew, a osodir allan fel arwyddfardd enwog, am yr hwn y tystiolaetha hen ysgriflyfr, "Hywel ab Matthew a 'sgrifenodd am holl Brydain, a'i holl lyfrau oedd i'w gweled gan Lewis Dwnn, ac ereill, a theg a chyfarwydd oeddynt, medd efe." Blodeuai rhwng 1530 a 1560.

**HYWEL**, Harri. Bardd arall, na wyddis nemawr am dano, amgen na'i fod yn blodeuo rhwng 1620 a 1630.—Gwel *Geirlyfr Bywgraffiadol*, &c.

**HYWEL**, Thomas Dafydd, Bardd oedd ef a flodeuai yn nechreu yr eilfed-ganrif-ar-bymtheg. Bernir iddo farw tua'r flwyddyn 1630.

**HYWEL DDA**, neu Hywel ab Cadell ab Rhodri Mawr, a anwyd yn agos i derfyn y 9fed ganrif. Saif ei enw byth yn uchel mewn hanesiaeth, fel tywysog galluog a llwyddiannus, a'r enwocaf o ddeddfroddwyr cenedl y Cymry ar ol Dyfnwal Moelmud. Olynodd ei dad Cadell, fel Tywysog Llywodraethol y Deheubarth a Phowys, yn y flwyddyn 907; ac ar farwolaeth ei ewythr Anarawd, Tywysog Gwynedd, tua'r flwyddyn 913, efe a ddaeth yn unbenaeth Cymru oll mewn effaith, gan iddo gael ei bennodi yn warcheidwad i'w gefndryd, sef y Tywysogion, Idwal Foel, ac Elis, meibion Anarawd. Bu farw y Tywysog Elis yn lled ieuanc, ac yn y flwyddyn 940, aeth Idwal Foel hefyd i ffordd yr holl ddaear. Am yr wyth mlynedd dilynol, sef hyd ei farwolaeth yn 948, llywodraethodd Hywel mewn enw, yn ogystal ag mewn gweithred, fel Brenin holl Gymru. Dywed rhai haneswyr, mai yn y flwyddyn 916 y bu farw Anarawd, ond gogwydda y tebygrwydd cryfaf o blaid y gosodiad, mai tair blynedd yn flaenorol y cymerodd y dygwyddiad hwnw le, sef yn 913. Pa fodd bynag, y mae'n amlwg ddarfod i Hywel Dda fod yn llywodraethwr Powys a'r Deheubarth, am un a deugain o flyneddoedd, ac yn rheolwr ymarferol Cymru benbaladr, am y deuddeng-mlynedd-ar hugain olaf o'i oes. Trwy gydol ei deyrnasiad ef, mwynhaodd y wlad heddwch didor, a llwyddiant diattal. Ei ddeiliaid ni wrthryfelasant i'w erbyn, ac ni ymosodwyd ar ei diriogaethau gan elyn estronol. Saif cyfnod mor faith o undeb mewnol, a heddwch oddiwrth ymosodiadau allanol, fel eithriad hynod yn hanes helbulus ein cenedl; a dilys fod y fath ffawd dda, i'w phriodoli braidd yn gwbl, i fedr a doethineb Hywel. Rhoddodd y tawelwch yma gyfleusdra i'r Tywysog a'i gynghorwyr, ystyried angenrheidiau deddfwrol y wlad; a phenderfynwyd ad-drefnu y cyfreithiau, ac ychwanegu atynt ddarpariadau angenrheidiol er cyfarfod galwadau parhaus sefyllfa gyfnewidiol y deiliaid. Y cam cyntaf tuag at gwblhau y bwriad hwn, medd Caradog o Lancarfan, oedd i Hywel wneyd taith i Rufain, yn y flwyddyn 926, gan gymeryd gydag ef Martin, Esgob Mynwy; Morday, Esgob Bangor; Marchlwys, Esgob Teilaw; a Blegwryd ap Owain, canghellydd dysgedig Llandaf, a brawd Morgan, Brenin Morganwg. Dyben y pererindod hwn, oedd ymchwil i ansawdd y cyfreithiau a osodasai Ymherodron Rhufain mewn grym yn Ynys Brydain, yn ystod eu harglwyddiaeth hwy arni, yn nghydag astudio hefyd ddeddfau henafol a diweddar gwledydd ereill, fel y'u hesbonid gan ddoethion Rhufain ar y pryd. Gwyddai Hywel, fod dysgeidiaeth a doethineb deddfwrol y Rhufeiniaid, yn hafal i'w henwogrwydd milwrol yn y cyfnod Caisaraidd; a dengys ei awydd i ddefnyddio ffrwythau goreu profiad gwleidyddol hen oresgynwyr ei wlad, fod y Tywysog Cymreig hwn, yn ddyn eang-galon a rhydd oddiwrth bob culni a rhagfarn. Wedi derbyn pob hysbysrwydd a chynghor da ar a allesid gael gan ddoethion Rhufain, Hywel a'i ganlynwyr a ddychwelasant i Gymru; ac yn ddiymaros y Tywysog a wysiodd ato holl benau llwythau y wlad, yn nghyda phob gwr doeth a dysgedig, o blith yr offeiriaid, a'r lleygion, i gynnadledd, neu uchel-lys eisteddfodol, yn y Ty Gwyn ar Daf, yn nhalaeth Dyfed. Desgrifir y gynnadledd bwysig hon, fel yn gynnwysedig o chwe' chynnrychiolydd allan o bob cwmmwd, sef pedwar o foneddigion lleygol, a dau offeiriad. Yn hyn, ymdebygai cynghorfa ddeddfwrol y Cymry yn y ddegfed ganrif, i'r Senedd gynnrychioladol a raddol dyfodd yn mhen canrifoedd drachefn, allan o freinleni breninoedd Lloegr, mewn canlyniad i alwadau parhaus y bobl am eangiad eu rhyddid, a'u hawlfreintiau dinasol. Adeg cynulliad deddfroddwyr Hywel, oedd y Grawys, "yr hwn amser a dreuliasant mewn ympryd a gweddi, fel na byddai i neb ar a ddaethai yno, wneuthur dim a fai annuwiol ar y cyfryw amser." Wedi hyn, y Tywysog a etholodd o'r cynghorwyr, "ddeuddeg o'r henuriaid mwyaf cyfarwydd a phwyllus; ac efe a ychwanegodd at eu nifer, un Blegwryd, neu Blegewryd (sef yr un person ag a'i dilynasai ef a'r tri esgob i Rufain), archddiacon Llandaf, yr hwn oedd anghydmarol mewn dysg, ac yn dra chyfarwydd mewn cyfreithiau gwladol ac eglwysig." Y deuddeg gŵyr etholedig hyn oeddynt "Morgeneu Ynad; Cyfnerth, ei fab; Gronwy, fab Moriddig, Gwiben Hen o Iscennin; Gwrnerth Llwyd, ei fab; Meddwon ail Cerrisg; Gwgan Dyfed; Bledrws fab Bleiddyd; Gwynfaer; Gweiri fab Cyfiawn; Rhewydd Ynad; Iddig Ynad, o Lantafwyn, bioedd y ty y gwnaethpwyd y gyfraith ynddo." Y doethion a enwyd a chwiliasant yn ddyfal yr oll o gyfreithiau henafol cenedl y Cymry, yn nghyda'r rhai a ddygasid gan Hywel a'r esgobion o Rufain; ond yn y diwedd, cawsant fod hen ddeddfau Dyfnwal Moelmud yn rhagori arnynt oll; ac o ganlyniad, y rhai hyny a gymerasant fel cynseiliau i adeiladu arnynt y Rheithlyfr diwygedig. Rhwng ymchwiliad Blegwryd a'r deuddeg cynghorwyr, ac ymgynghoriad dilynol yr holl gynnrychiolwyr, cawn ddarfod i Seneddwyr Hywel Dda, fod am ysbaid pedair blynedd yn cyflawni eu gwaith pwysig; canys yn y flwyddyn 930 y galluogwyd y Tywysog i gychwyn ar ei ail daith i Rufain, er gosod y deddfau gerbron y Pab, a gŵyr doethion yno, i'r perwyl o sicrhau eu bod "mewn cyduniad â chyfraith Duw, a chyfreithiau

Digitized by Google

amrywiol wledydd a llywodraethau Cred." Dilynid ef y waith hon gan esgobion ei deyrnas, a thri-ar-ddeg o wŷr dysgedig ereill. Ymddengys ddarfod i'r awdurdodau Rhufeinig gymeradwyo ffrwyth ymgynghoriad y deddfwyr Cymreig; ac wedi hyny dychwelodd Hywel Dda i Gymru, gan brysuro i gyhoeddi y cyfreithiau newyddion mewn dull swyddogol a dyladwy, ar ol yn gyntaf eu hail-osod i ystyriaeth y Gynghorfa. Gwnaed tair cyfysgrif o honynt, y rhai a gedwid yn y tri llys taleithol, sef yn Aberffraw, Mathrafal, a Dinefwr. Yn ychwanegol at ddodi wrthynt seliau cydsyniol y Pab, a Hywel ei hun, y Tywysog, er mwyn rhoddi ynddynt y grym a'r awdurdod mwyaf, a gyhoeddodd felldith y Goruchaf, y gynnadledd a'u ffurfiodd, a'r holl genedl Frytanaidd, ar y neb a'u troseddai, neu a'u gweinyddai yn anghyfiawn. Rhenir y cyfreithiau hyn ag ydynt, weithian, wedi enill y fath enwogrwydd a dyddordeb hanesyddol, yn dri dosbarth, sef, 1. Yn dwyn perthynas a Defodau a Swyddogion y Llys; 2. Cyfreithiau y wlad; 3. Cosbedigaeth troseddau, a rheoliad prisoedd amryw nwyddau masnachol. Y mae cyfysgrifau cywir o honynt ar gael eto, yn yr Amgueddfa Brydeinig, a manau ereill. Yn yr iaith Lladin yr argraffwyd hwy gyntaf, yn nghyd a chyfieithad sef gan Dr. Wotton, a'r Cymro trylen, Moses Williams, yn y flwyddyn 1730. Ceir argraffiad Cymreig o honynt yn y *Myvyrian Archaeology*, ac fe'u cyhoeddwyd hefyd gan Brwyaduraeth y Cofnodau, (*Record Commission*), yn 1841, pryd y golygwyd y cyfieithiad Seisnig, &c., gan Aneurin Owen, Ysw., Tan y Gyrt, Dinbych, mab y Doethawr W. O. Puw. Y mae argraffiadau ereill o honynt yn y Saesonaeg, y Ffrancaeg, a'r Ellmynaeg. Cyhoeddwyd nodiadau manwl arnynt yn y flwyddyn 1823, gan W. Probert. Yn 1832, y gosodwyd hwynt gerbron dysgedigion y Cyfandir, gan Gabriel Peignot, trwy gyfrwng y *Tableau de Mœurs*, cyhoeddedig yn Paris. Cydnabyddir yn gyffredin, eu bod yn ennghreifftiau nodedig o ddoethineb a dysgeidiaeth ddeddfwrol, pan ystyrir tywyllwch a hurtrwydd anffrwythlon yr oes yn mha un eu gwnaed. Cynnwysant egwyddorion goleuedig, a darpariadau mwyaf anhebgorol llywodraeth dda. Gwir fod ynddynt lawer o bethau a ymddangosant yn blentynaidd erbyn hyn, megys y darpariadau er rheoli cyflogau y beirdd, crythwyr, gwahanol raddau o ddysgyblion cerdd, &c.; ond yr oedd y pethau hyn oll yn mhlith anhebgorion deddfwrol y ddegfed ganrif. Y mae doethineb Hywel a'i gynghorwyr, yn brawf digonol nad oedd cenedl y Cymry yn amddifad o bwyllusrwydd a barn ymgynghoriadol, pan gaffent hamdden gan y gelynion nerthol a lluosog a wnaethant y fath ymgyrchoedd barbaraidd a mynych, i geisio ysgubo ein hynafiaid dewrion oddiar wyneb y ddaear, a diddymu ein henw oddiar lechres y cenedloedd. Bellach, y mae doethion Lloegr a'r Cyfandir, yn ddigon cyfiawn i alw Hywel Dda wrth yr enw, "Justinian Cymreig," ac i'w osod yn gyfartal a'i gydoeswr Alffred Fawr, mewn gallu a doethineb. Amlyga amryw ysgrifenwyr, raddau o syndod, o herwydd fod Hywel yn ddigon hygoelus i fyned i ofyn caniatad y Pab, i ddiwygio deddfau ei deyrnas; a thrachefn i erchi ar ei "Sancteiddrwydd" i gadarnhau y cyfreithiau diwygedig. Amgylchiadau yr oes sydd yn cyfrif am y gwendid ymddangosiadol hwn eto. Yr oedd Pabyddiaeth wedi llygad-dynu y genedl i raddau helaeth; ac o ganlyniad, yr oedd yn ofynol i'r Tywysog gwladol, geisio cymhorth dylanwad yr awdurdodau Eglwysig, er grymuso hawl ei ddeddfau i ufudd-dod y bobl. Dyma yn ddiau oedd y rheswm dros wneuthur yr ail bererin-dod i Rufain; canys ni phriodola yr un hanesydd credadwy, lawer o ofergoeliaeth a gwaseidd-dra ysbrydol i Hywel Dda, yr hwn oedd Gristion goleuedig, dichlyn, a diargyhoedd. Yr oedd i'r deddfroddwr enwog bedwar o etifeddion, sef Owain, Rhun, Rhodri, ac Edwyn, y rhai oll a syrthiasant yn ebyrth i'r terfysgoedd gwaedlyd a ddilynasant deyrnasiad heddychol a chlodfawr eu tad. Er na fu gyrfa Hywel Dda mor ramantus ag eiddo llawer o Dywysogion glewion Cymru, eto adlewyrcha ei enw gymaint, os nad mwy, o glod parhaol i'w genedl, a neb o enwogion Cymreig y canol-oesau.

**HYWEL DDU.** Blodeuai y bardd hwn rhwng 1540 a 1570, ond nid oes nemawr ddim o'i hanes, na'i waith, ar gof a chadw.

**HYWEL EURDREM.** Ceir ychydig o gynnyrchion y bardd hwn, yn aros mewn ysgriflyfrau henafol. Blodeuai rhwng 1540 a 1570; ond gan fod yn cydoesi âg ef lawer o awenyddion ac arwyddfeirdd rhagorach, syrthiodd ei enw i raddau o ddinodedd.

**HYWEL FEDDYG,** neu Hywel ab Rhys ab Llywelyn ab Phylip, Feddyg, a hanai o deulu enwog Meddygon Myddfai. Preswyliai yn Nghilgwryd, Tir Gwyr, Morganwg. Cyfansoddodd lyfr ar physygwriaeth, yr hwn a gafwyd yn meddiant John Jones, Myddfai, sef y diweddaf o eppil y Meddygon clodfawr, tua'r flwyddyn 1743. Cafodd y Dr. William Bonar gyfysgrif o'r llyfr hwn; a bu yr hen ymchwiliwr Cymroaidd dihafal, Iolo Morganwg, wrth y gorchwyl o adysgrifio yr un gwaith, yn ystod y flwyddyn gyntaf o'r ganrif bresennol.

**HYWEL FOEL** AB GRIFFRI AB PWYLL GWYDDEL. Blodeuai y bardd hwn yn Amser Llywelyn ein Llyw Olaf; a chyfansoddodd ddau gywydd, cyflwynedig i Owain Goch ab Gruffydd, pan oedd y Tywysog anffodus hwnw yn garcharor gan ei frawd (Llywelyn), am yr ysbaid maith o 23ain o flyneddau, yn Nghastell Padarn, Llanberis.

**HYWEL FYCHAN** oedd Dywysog a gyfranogodd yn ei ddydd, o ŵg, a gwenau ffawd. Yr oedd efe yn frawd ieuengach i Cynan Tindaethwy, Tywysog Gwynedd; a cheisiodd gan y brawd hwnw neillduo iddo Ynys Mon fel etifeddiaeth, neu gynnysgaeth dreftadol. Cynan a wrthododd gydsynio â'r fath gais, yr hyn a arweiniodd i gâd ac ymgyrch rhwng y ddau frawd. Yn y flwyddyn 810, cynnullodd Hywel nifer digonol o wyr, i orchfygu Cynan; ac o'r amser hwnw, efe a fu yn dal meddiant o'r Ynys, am o leiaf chwe' blynedd. Yn y flwyddyn 814, bu brwydro caled rhyngddynt drachefn, pryd y lladdwyd nifer mawr o ddilynwyr y ddau. Wedi amryw ornestau gwaedlyd, casglodd Cynan ddigon o nerth i orchfygu yr ymhonwr; a gorfu i Hywel ffoi i ymofyn nawdd yn Ynys Manaw. Ond fel pe buasai wedi ei eni i lywodraethu, efe a lwyddodd yn fuan i'w wneyd ei hun yn Arglwydd yr Ynys hono, a pharhaodd i ymarfer awdurdod teyrn arni, hyd ei farwolaeth.

**HYWEL GETHIN.** Dyma fardd oedd yn enwog iawn yn ei ddydd, sef rhwng 1570 a 1600. Heblaw ei fod yn fardd, yr oedd yn dra chyfarwydd mewn achyddiaeth. Preswyliai yn Nglynnog Fawr, yn Arfon, ac ymddangosodd Cywydd o'i eiddo yn y *Brython*, am 1860, gyda nodiadau, gan Eben Fardd. Nid oes unrhyw olion o hono ef na'i deulu yn

Digitized by Google

bresennol yn Nghlynnog, oddieithr fod yr hen draddodiad am "Bin Gatto Gethin." Heblaw y Cywydd a ymddangosodd yn y Cyhoeddiad a enwyd, y mae rhai o gyfansoddiadau yr hen fardd awenyddol hwn i'w cael mewn ysgriflyfrau.

**HYWEL HIR.** Un arall o deulu y beirdd, ond ychydig sydd rhwng ei enw ag ebargofiant. Blodeuai rhwng y blynyddoedd 1600 a 1640.

**HYWEL Y FWYALL** (Syr), oedd un o ryfelwyr glewion y bedwaredd-ganrif-ar ddeg. Dywed Pennant, mai ei dad ydoedd Gruffydd ab Hywel ab Meredydd, tra casgla Williams, mai mab ydoedd i Einion ab Gruffydd ab Hywel. Cytunir ei fod yn hanu o wehelyth Collwyn ab Tangno, ac mai Eifionydd oedd mangre ei enedigaeth. Crybwyllir am frawd iddo, o'r enw Einion, yr hwn a breswyliai Dyddyn Einion, yn Nhreflys, ac a briododd Nest, ferch G. ab Adda. Meddai Syr Hywel, enwogrwydd mawr fel milwr dewr, a Chadlywydd medrus yn myddin Edward y Tywysog Du. Dywedir iddo gymeryd brenin Ffrainc yn garcharor, ac wrth wneyd hyny, dori ymaith ben march y teyrn anffodus hwnw, âg ergyd ei fwyall, yn mrwydr fythgofiadwy Poitiers, yr hon a ymladdwyd tua'r flwyddyn 1356. Mewn canlyniad i hyn, efe a dderbyniodd ganiatad ei deyrn i wisgo pais-arfau breninol Ffrainc, a darlun o'r fwyall enwog ynddynt. Priodola rhai haneswyr yr anrhydedd o gymeryd brenin Ffrainc yn garcharor i wron arall; ond pwy bynag sydd gywir ar y pen hwnw, sicr yw, ddarfod i Hywel enill iddo ei hun enwogrwydd arbenig yn y frwydr a nodwyd, canys y Tywysog Du a brysurodd i osod arno urdd marchog, ar faes y gad. Gwnaed ef hefyd yn Geidwad cestyll Caerlleon Gawr, a Chricieth, yn nghydag amryw swyddi enillgar ereill, a gorchymynodd y Tywysog Du, fod i saig werthfawr o fwyd gael ei gosod yn ddyddiol gerbron y fwyall, gyda pha un y cyflawnasai y fath wrhydri milwrol. Penodwyd wyth o warcheidwaid i arolygu gweinyddiad y saig hon, y rhai a elwid yn farchogion y Brenin. Derbynient gyflog o wyth geiniog y dydd bob un, allan o'r drysorfa Freninol; a pharhasant yn eu swyddi, hyd deyrnasiad y Frenines Elizabeth. Wedi marwolaeth Syr Hywel, arferid rhanu offrwm y fwyall rhwng y tlodion, fel iawn dros ddyhuddiad ei enaid. Mangre ei feddrod sydd anhysbys, er y tybir mai yn Nghricieth ei claddwyd. Hynod mor ansicr ydyw hanesiaeth yn nghylch gorphwysfa y rhan fwyaf o enwogion Cymru. Meddai y Marchog dewr ddau fab, sef Meredydd ab Hywel, o'r Gesail Gyfarch, yn Eifionydd; a Dafydd ab Hywel, o'r Henblas, ger Llanrwst. Canodd y beirdd lawer o gerddi clod i Syr Hywel y Fwyall, ond diau mai yr awen enwocaf a gyffrowyd i'w anrhydeddu, oedd yr eiddo Iolo Goch. Gwnaeth Iolo iddo Gywydd tra rhagorol.

**HYWEL Y PEDOLAU** (Syr). Ceir bagad o draddodiadau rhamantus yn nghylch gorchestion arwrol yr Hywel hwn. Gelwid ef "Hywel y Pedolau," am y dywedid y gallai, oherwydd ei ddirfawr nerth corfforol, uniawni pedol ceffyl â'i ddwylaw moelion. O herwydd yr un rheswm, meddir, efe a wisgai lun pedol ar ei arfbais. Yr oedd efe yn fab i Gryffydd ab Iorwerth, ac felly yn hanu o Hwfa ab Cynddelw, cyff un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Ei fam ef, sef Gwenlliant, ferch Ririd Flaidd, a ddewiswyd gan Iorwerth y Cyntaf yn fammaeth i'r Tywysog Iorwerth yr Ail. Yn naturiol ddigon, daeth Hywel i fod yn dra chyfeillgar gyda'r tywysog a sugnasai yr un bronnau ag ef, a derbyniodd ganddo urdd Marchog. Hona traddodiad, i Syr Hywel gael ei gladdu yn Eglwys Sant Pedr, Caerfyrddin; a chadarnheir hyny i raddau, gan y ffaith fod yno feddrod wedi ei ddarganfod flyneddau yn ol, ac arno ddarlun rhyfelwr, yn y weithred o uniawnu pedol gyda nerth noeth ei ddwylaw. Sut bynag, y mae'n amlwg fod Syr Hywel yn wr o enwogrwydd mawr ar gyfrif ei nerth, yn gystal ag fel milwr dewr yn myddin ei frenin.

**HYWEL YSTORDYN** oedd fardd y mae cryn ansicrwydd yn nghylch amser ei enedigaeth, a'i farwolaeth. Ceir dernyn a'i waith i "Eurych" wedi ei argraffu yn y *Myvyrian Archæology*. Ei awen oedd o nodwedd tra drigifol, a chellweirus. Dywed rhai iddo flodeuo rhwng 1330 a 1360. Edward Llwyd a esyd ei amseriad yn 1380; ond sicrha Moses Williams, mai tua chanrif yn ddiweddarach, sef yn 1450, y blagurodd. Gorchwyl anhawdd fyddai penderfynu rhwng awdurdodau mor enwog.

**HYWGI** ab Gwynlliw Filwr, a thad Beuno, oedd Sant a flodeuodd yn y chweched ganrif. Rhai haneswyr a'i galwant wrth yr enw "Bugi," a honant mai brawd ydoedd i Gwynlliw, a mab i Glywio ab Tegid ab Cadell. Treuliodd y gyfran olaf o'i oes yn Ngholeg Cattwg, Llangarfan, i'r hwn sefydliad y rhoddodd ei holl diroedd yn waddol.

# I.

**IAGO**, yn ol y brutiau Cymreig, a olynodd Seissyllt ar orsedd Prydain, yn yr wythfed ganrif cyn Crist. Yr ydoedd yn nai i Gorwst.

**IAGO** ab Beli ab Rhun. Y Tywysog hwn a ddilynodd ei dad, trwy esgyn i orsedd Gwynedd, yn y flwyddyn 599. Byr fu tymmor ei deyrnasiad, canys yn y flwyddyn 603, efe a lofruddiwyd mewn modd ysgeler, gan Cadafael Wyllt; a'r weithred hon a gofnodir yn y Trioedd, fel "un o dri anfad fwyellawd Ynys Brydain." Tybir mai yr Iago yma oedd y cyntaf i sefydlu a gwaddoli deoniaeth yn Mangor Deiniol.

**IAGO** ab Dewi. Hysbysa y "Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru" mai yn y flwyddyn 1668 y ganwyd y bardd, y cyfieithwr, a'r henafiaethydd clodfawr hwn; ond amlwg yw, nas gall yr hysbysiad yma fod yn gywir, canys cofnodir yn Llyfr Eglwys Pant teg, iddo farw o fewn y flwyddyn 1722, yn 74 mlwydd oed. Ymddengys mai mangre ei enedigaeth oedd Llanllawddog, sir Gaerfyrddin. Symudodd oddiyno pan yn lled ieuanc, i Bencader; ac oddi yno drachefn, efe a aeth i drigiannu yn mhlwyf Llanllawddog, lle y tariodd hyd derfyn ei yrfa. Yr hanesydd Gwilym Teilo, a faentumia iddo

Digitized by Google

glywed, mai yn Llandyssul y ganwyd Iago; ond nid yw y profion dros hyny ddigonol i warantu y dybiaeth. Ei enw bedydd ydoedd James Davies, ond yn ol dull cenedl y Cymry, efe a alwodd ei hun Iago ab Dewi. Ymddengys ei fod yn llenor nodedig o lafurus, canys efe oedd y cyntaf i gyfieithu *Taith y Pererin* i Gymraeg. Cyfieithodd hefyd amryw lyfrau pwysig ereill, heblaw casglu swm mawr o farddoniaeth, a chwedlau annysgrifenedig oddiar lafar gwlad, er eu diogelu rhag difancoll. Ceir rhestr faith o'r cyfansoddiadau hyn, yn gystal ag o gynnyrchion gwreiddiol y casglydd, yn y bedwaredd gyfrol o'r *Brython.* Cydnebydd Iolo Morganwg, mai i Iago ab Dewi yr oedd efe yn ddyledus am "Chwedl Rhitta Gawr," yr hon sydd argraffedig yn yr *Iolo MSS.* Dywed ysgrifenydd y Geirlyfr Bywgraffiadol, mai efe oedd cyhoeddwr y *Flores Poetarum Britannicarum*, sef Blodeuog Waith y Beirdd Brytanaidd, o gasgliad y Dr. John Dafydd Rhys; ond rhaid fod hyn eto yn gamgymeriad, canys y mae yr argraffiad cyntaf o'r llyfr hwnw yn awr ger ein bron, ac arno hysbysiad, mai "Dafydd Lewis, Llanllawddog, a'i cyhoeddai." Arwydda Dafydd Lewis y rhagymadrodd, neu y Llythyr at y Darllenydd, o "Lanllawddog, Gor. 10, 1710." Dengys hyn, mai anmhosibl fuasai i James Davies (Iago ab Dewi) fod yn gyhoeddwr y llyfr; ond y mae yn debyg ddigon mai efe a olygodd yr argraffiad, dros ei gymydog Dafydd Lewis; canys trigiannai y ddau yn Llanllawddog ar y pryd. Cyhoeddwyd amryw o ganeuon gwreiddiol y bardd, gan y diweddar Peter Evans, Caernarfon, yn ei *Awenydd;* a cheir amryw gynnyrchion barddol ereill o'r eiddo, yn ngwahanol Gyfnodolion Cymreig yr oes a fu. Y mae yn amlwg ei fod yn ddyn o olygiadau eang a Rhyddfrydig ar bynciau gwladwriaethol, canys canodd englynion a dyrïau ffraeth yn erbyn treth y goleuni, a beichiau ereill oeddynt yn llethu mwynderau a chysuron y bobl ar y pryd. Felly, cynniweiriai ysbryd yr hen fardd Cymreig am laccâd neu ddrylliad gefynau masnachol Prydain, gant a haner o flyneddau cyn geni Richard Cobden. Efe oedd prif olygydd gwasg Gymreig Sion Rhydderch, o'r Amwythig; a thybia rhai ei fod yn ewythr i'r dyn hwnnw a fu yn gymwynasydd mor ragorol i'w genedl. Yn meddiant Gwilym Teilo y mae llyfr trwchus o gyfansoddiadau gwreiddiol a chasgledig, yn llawysgrif Iago ab Dewi. Gresyn na chyhoeddid y fath lyfrau, yr hyn fyddai foddion effeithiol i argyhoeddi estroniaid, mai cyfeiliornus a disail yw eu mynych haeriadau, yn nghylch tlodi llenyddol Cenedl y Cymry.

**IAGO** AB IDWAL AB MEURIG. Ar farwolaeth Llywelyn ab Sitsyllt, yr Iago hwn a honodd mai efe oedd etifedd Gorsedd Gwynedd, ac a lywodraethodd o'r flwyddyn 1021 hyd 1031, pryd ei lladdwyd mewn brwydr, gan Gruffydd ab Llywelyn.

**IAGO** AB IDWAL FOEL. Y Tywysog hwn a gydetifeddodd Orsedd Gwynedd gyd a'i frawd Ieuaf, ar farwolaeth eu hewythr, Hywel Dda. Fel y gwelir oddiwrth hanes bywyd y deddfroddwr Hywel, Idwal Foel, ac Elis ei frawd, oeddynt etifeddion Gorsedd Gwynedd ar farwolaeth eu tad Anarawd, tra yr etifeddodd Hywel orsedd Dyfed, yn hawl ei dad Cadell, a thrachefn yr eiddo Powys, fel carenydd agosaf ei ewythr Merfyn. Barnai Iago ac Ieuaf, nad ymddygasai y deddfroddwr doeth yn hollol gyfiawn tuag eu tad Idwal, yn ystod ei warchodaeth arnynt hwy a'u hewythr Elis; ac am hyny, hwy a benderfynasant ddial y camwri ar ei etifeddion. I gyrhaedd yr amcan hwn, arweiniasant fyddin gref i Bowys, a'r Deheubarth, gan hawlio teyrnedd holl Gymru, fel etifeddion llinach hynaf Cunedda. Fel hyn, cythrudd rhyfel, yr tarddu oddiar eiddigedd teuluaidd, a ddinystriodd y llwyddiant a flagurasai mor nodedig yn Nghymru, ystod deugain mlynedd teyrnasiad tangnefeddus Hywel Dda. Ar fynydd Carno, yn Maldwyn, y cyfarfu Iago ac Ieuaf, luoedd y Deheubarth, o dan arweiniad meibion Hywel; ac wedi brwydr boeth a gwaedlyd, y Gwyneddwyr a orfuasant, canys yn ol y *Myvyrian Archæology*, enillasant "gyflawn fuddugoliaeth," yr hyn a'u calonogodd i fyned yn mlaen hyd i sir Benfro, yr hon a lwyr anrheithiasant. Y trychineb hwn wa symbylodd wroldeb y Deheuwyr, y rhai a ymfyddinasant yn lluoedd mawrion, gan oresgyn Gwynedd, mor belled a'r afon Conwy. Pa fodd bynag, yma cyfarfyddwyd y goresgynwyr, gan wŷr Mon, a'r Eryri, ac ar ddyffryn Llanrwst, bu brwydr ofnadwy, yr hon a derfynodd yn ffafr y rhai olaf; a'r Deheuwyr a orfodwyd i ffoi ar encil annhrefnus. Ymlidiwyd hwy yn ddiattal gan Iago ac Ieuaf, y rhai a enillasant y fath lwyddiant terfynol, fel y cydnabyddwyd hwy yn freninoedd Cymru oll. Y ddau dywysog beiddgar, medd yr hanesydd, a benfeddwyd gan lwyddiant mor hynod, fel y gwrthodasant dalu y deyrnged arferedig, i Edgar, Brenin Lloegr. Yr arddangosiad herfeiddiol hwn o annibyniaeth Cymroaidd, a enynodd ddigllonedd Edgar, yr hwn a arweiniodd fyddin gref i anrheithio Cymru, gan osod ar y tywysogion ystyfnig, ddirwy dra iachus, yn lle y deyrnged arianol. Rhwymodd hwy i ddwyn iddo ef yn flyneddol benau tri chant o fleiddiaid, gan dybio yn ddiau nas gallasent gyflawni y warogaeth, a thrwy hyny y rhoddid iddo ef ail esgus i ymosod arnynt. Ond y Cymry a lwyddasant i gael y nifer gofynol o fleiddiaid, am bedair blynedd olynol, yr hyn a fu yn foddion i lwyrddifetha y fath fwystfilod o'r wlad. Wele un enghraifft hynod o fendith yn deilliaw o ormes estronol. Wedi ymheddychu âg Edgar, nid hir y bu Iago ac Ieuaf heb ymgiprys â'u gilydd; canys yn y flwyddyn 967, cawn ddarfod i Iago garcharu ei frawd, a chyflawni y weithred farbaraidd o dynu ymaith ei lygaid. Yn y cyflwr truenus hwnw y bu farw Ieuaf; ond yn 972 daeth awr gofwy y creulonddyn anaturiol Iago, canys ei nai, Hywel ab Ieuaf, a ymfyddinodd i'w erbyn, a'i gorchfygodd, ac a'i hymlidiodd o'r wlad. Wedi alltudiaeth o dair blynedd, Edgar a ymbiliodd ar ran Iago gyd a'i nai, ac adferwyd iddo ei deyrnas a'i urddau, hyd y flwyddyn 978, pryd yr alltudiwyd ef yn derfynol, ac ni chlybuwyd am dano mwyach yn ngwlad ei enedigaeth.

**IANCYN** AB EINION, neu Iancyn Fynglwyd, prydydd lled ddi nod, a flagurodd tua chanol yr unfed-ganrif-ar bymtheg.

**IANCYN BRYDYDD.** Blodeuai ef rhwng 1480 a 1520. Nid oes nemawr o'i waith ar gael; ond priodola haneswyr anghyfarwydd iddo weithiau awenydd arall, a anwyd yn mhen canrif wedi ei farwolaeth ef.

**IDIO WYLLT.** Rhyfelwr glew yn niwedd y bedwaredd-ganrif-ar-ddeg. Ei fam ydoedd Nest, ferch Tewdwr Mawr, Penaeth Brycheiniog; a'i dad oedd Sutric ab Alured Glinfawr ab Sutric, Brenin Dublin, a Desmond. Gwelir fod gwaed breninol y Gwyddyl, a gwaed Tywysogaidd y Cymry, yn cydredeg trwy wythienau Idio. Efe a etifeddodd Ar-

Digitized by Google

glwyddiaeth Desmond. Yn y flwyddyn 1090, efe a glybu am drais Bernard Newmarch, y Normaniad, ar diriogaethau ei ewythr, frawd ei fam, sef Rhys ab Tewdwr, a'i natur Gymreig a'i cyffrodd i brysuro drosodd o'r Iwerddon, gyda byddin o wŷr arfog, i gynnorthwyo Rhys, am yr hyn wasanaeth y derbyniodd arglwyddiaeth Llywel, yn Mrycheiniog. Ceir hyd heddyw deuluoedd uchelwaed yn y parth hwnw, a honant olrheiniad eu hachau i Idio, gan iddo briodi Elin, merch Drym Penog ab Maenarch, arglwydd cantref Selyf.

**IDLOES**, sylfaenydd a gwaddolwr Eglwys Llanidloes, yn y seithfed ganrif. Cedwid ei Wylmabsant Medi y chweched. Yr *Iolo MSS.* a briodolant iddo awduriaeth y ddiareb "Goreu cynnydd, cadw moes." Ei dad ydoedd Gwyddnabi ab Llawfrodedd Farfog Coch.

**IDRIS GAWR.** "Tri gwyn serenyddion Ynys Brydain, nid amgen Gwydion ab Don, Gwyn ab Nudd, ac Idris Gawr," medd y *Trioedd.* Bu rhamantwyr Cymreig ar eu heithaf yn brudio chwedlau rhyfeddol am Idris Gawr; a phe cawsid ei hanes, yn ddiosgedig oddiwrth bob donioldeb dychymygol, diau y perthynai i'r hen ser-ddewin nerthol a chyfrwys, lawer o hynodrwydd. Tystia y *Trioedd* ei fod ef, Gwydion, a Gwyn ab Nudd, "gan faint eu gwybodau," mor alluog fel "y darogenynt a chwenychid ei wybod hyd yn nydd brawd." Gelwir yr uchaf o fynyddoedd Meirion ar ei enw, sef Cader Idris. Crib y mynydd yma, medd traddodiad, oedd ei arsyllfa seryddol, "lle y mynych ymneillduai i efrydu cylchdeithiau y llu wybrenol, a dysgu ganddynt dynged a damwain dyn." Ceir personau hyd y dydd heddyw, a gredant mai y dewin hwn a gerfiodd yr eisteddle ar ffurf cadair, a welir ar ben y mynydd. Wrth odreu Cadair Idris, y mae "Llyn y Tri Graienyn," ar lan pa un y mae tair careg anferth, ag y dywed yr un chwedlau i Idris eu taflu o'i esgid pan yn cychwyn dringo y mynydd. Anhawdd cael galluoedd credawl digon cryfion, i gredu y buasai dewin mor gyfrwysgall, yn ddigon ynfyd i oddef "tri graienyn" mor anghyfleus yn ei esgidiau. Arweiniodd y chwedlau aneirif yn nghylch y person hwn, a'i "Gadair" gyfareddol, i gyflawniad llawer o benwendid cellweirus. Er esiampl, credwyd am oesau, y byddai i bwy bynag eisteddai yn y gadair am noson, gael ei drawsffurfio yn fardd, yn wallgofddyn, neu yn gelain farwol erbyn y boreu! Llawer un wedi bod yno, a chael ei drwytho gan y gwlith, neu y barug, a brysurai, ar ei ddeffroad, i geisio gwneyd pennill, ac o fethu, a ymwallgofai yn llythyrenol, gan nerth ei ofergoel.

**IDWAL** AB MEURIG, tywysog enwog, a esgynodd Orsedd Gwynedd, yn y flwyddyn 993, wedi bod yn ffoadur am amryw flyneddau blaenorol, yn llys Ithel, Tywysog llywodraethol Morganwg. Ar ei esgyniad, cafodd dalaeth Gwynedd mewn tryblith dilywodraeth, ond trwy ei ddoethineb, a'i alluoedd dysglaer, efe a lwyddodd i adfer trefn a dosbarth yn mhlith ei ddeiliaid. Ond er cystal ei ewyllys, a rhagored ei allu, byr fu y seibiant a gafodd i lywodraethu ei ddeiliaid mewn tangnefedd. Cyn terfyn y flwyddyn o fewn yr hon ei coronwyd, Meredydd ab Owain, Tywysog y Deheudir, a arweiniodd lu mawr i'w erbyn, ac yn Llangwm, sir Ddinbych, cyfarfu y ddau bendragon, ac wedi brwydr boeth, Idwal a lwyr orchfygodd ei ymosodydd, gan ei orfodi i ffoi yn ol i'r Deheu. Eithr dechreuad gofidiau oedd hyn oll, canys yn y flwyddyn ddilynol, Swayn ab Harrold, a arweiniodd lu mawr o'r Daniaid duon i ymosod ar Wynedd. Yn Mhenmynydd, Mon, cyfarfyddwyd y goresgynwyr hyn gan y Cymry, o dan arweiniad Idwal; ac mewn brwydr o'r fath ffyrnicaf, cwympodd y Tywysog Cymreig, er gofid a galar cyffredinol i'w ddeiliaid helbulus. Iago, plentyn ieuanc, oedd yr unig etifedd a adawodd ar ei ol.

**IDWAL** AB OWAIN. *Brut y Breninoedd* a ddywed mai hwn oedd Frenin Prydain oll, tua phum' canrif cyn Crist, ac mai doeth a gochelgar fu ei deyrnasiad. Ei ragflaenydd oedd Einion ab Arthal.

**IDWAL FOEL** AB ANARAWD. Fel y gwelir oddiwrth hanes Hywel Dda, y tywysog hwn, yn nghyd a'i frawd Elis, a etifeddodd orsedd Gwynedd ar farwolaeth Anarawd, ac o dan warchodaeth Hywel, yn y flwyddyn 913. Cafodd ei boeni gan gadgyrchoedd olynol y Gwyddelod, ac Athelstan, Brenin Lloegr, i Ynys Mon. Llwyddodd y diweddaf i osod Idwal o dan deyrnged iddo ef, ond ar farwolaeth y brenin hwnw, adenillodd y Tywysog Cymreig ei annibyniaeth. Priododd gyd a'i gyfnither, merch Merfyn, Tywysog Powys, o'r hon y bu iddo chwe' mab. Lladdwyd ef yn y flwyddyn 944, mewn brwydr gyda'r Saeson, a'r Daniaid.

**IDWAL IWRCH** AB CADWALADR FENDIGAID. Cadwaladr oedd y diweddaf o Freninoedd y Brutaniaid, canys wedi ei farwolaeth ef, ni alwyd hwy yn Freninoedd Prydain mwyach, eithr Breninoedd Cymru. Pan oedd Idwal eto yn fachgen, tua'r flwyddyn 703, Cadwaladr a ymddiosgodd a'i orsedd a'i goron, er mwyn ymgymeryd â bywyd crefyddol, a'i fab a osodwyd o dan warcheidiaeth ei garenydd Alan, brenin Llydaw. Ifor, mab yr Alan hwn, a ddaeth i Frydain, gyda llu mawr, gan orchfygu cyfran fawr o'r lluoedd Saesonaidd, ac ymsefydlu yn frenin ar ran o'r hen Frutaniaid. Rhoddwyd breniniaeth Gwynedd i Idwal, a theyrnasodd hyd ei farwolaeth, ac olynwyd ef gan ei fab, Rhodri Moelwynog.

**IDWALLON** AB OWAIN. Bu farw y Tywysog clodfawr hwn yn y flwyddyn 975. Canmolir ef fel dyn heddychol, a gwladweinydd doeth, a'i haelfrydedd oedd ddiarebol yn mhlith ei gydoeswyr. Yr oedd efe yn frawd i Morgan Mawr, Brenin Morganwg. Y mae dywediad o'i eiddo "ar gof a chadw" yn mhlith "Chwedlau y Doethion;"—

> "A glywaist ti chwedl Idwallon,
> Hen wr llwyd ar bwys ei ffon,
> —'Ag Annoeth nag ymryson.'"

**IDDEW** AB CAWRDAF AB CARADAWG FREICHFRAS, oedd Sant yn y chweched ganrif.

**IDDON** AB NER. Y penaeth hwn a arweiniodd gâd yn erbyn y Tywysog dewrwych Maelgwyn Gwynedd, a chofnodir brwydr a gymerodd le rhyngddynt ar lan yr Hafren, fel un o ddygwyddiadau pwysig y chweched ganrif. Gelwir y frwydr hon gan y *Trioedd,* yn un o "dri budr Hafren," gan i'r afon gael ei rhuddo â gwaed y lladdedigion. Maelgwyn Gwynedd a fu drechaf, canys Iddon ab Ner a gwympwyd yn gelain ar y maes.

**IDDON** AB YNYR GWENT, oedd un o wrthwynebwyr cadarnaf y Sacsoniaid. Rhoddodd waddoliadau cyfoethog i Esgobaeth Llandaf, fel cydnabyddiaeth am y cyfryngiad Dwyfol ar ei ran, pryd yr enillodd fuddugoliaeth fawr ar ei wrthwynebwyr. Y *Liber Landavensis* a gynnwysa weithredoedd, yn mha rai y trosglwyddai diroedd, yn Llandeilo Cresseney,

Digitized by Google

Llanarth, a Llandeilo Porth-halawg, yn etifeddiaethau rhydd i'r Eglwys a nodwyd. Efe, a Cheidio, a Chynheiddon ei frodyr, a arweddasant fywyd tra chrefyddol tua therfyn eu hoes, a chyfrifir hwy yn rhestr y Saint Cymreig.

**IESTYN** AB CADFAN, ab Cynan, ab Eudaf, ab Caradawg, ab Bran Fendigaid, sant oedd yn ei flodau yn y bedwaredd ganrif. Yr oedd efe yn frawd i Cadfrawd.

**IESTYN** AB GERAINT AB ERBIN. Y sant hwn a flodeuodd yn y chweched ganrif, ac a sefydlodd yr eglwysi a ddygant ei enw yn Lleyn, ac Ynys Mon. Ceir darlun o hono yn yr ail gyfrol o'r *Archæologia Cambrensis*, wedi ei gymeryd oddiwrth gerflun sydd eto ar gael yn Eglwys Llaniestyn, Mon; yr hon a gafodd yr anrhydedd o dderbyn gweddillion ei nawddsant. Llawer o arian gafodd offeiriaid y plwyf hwn, yn ystod yr oesoedd tywyll, gan bererinion a gyrchent yno, i dalu gwarogaeth i goffadwriaeth Iestyn.

**IESTYN** AB GWRGANT. Dyma enw a fydd byth o dan waradwydd, ac a etifedda ddygasedd pob Cymro, tra cedwir mewn côf hanesiaeth helbulus y ddegfed ganrif. Iestyn ab Gwrgant oedd un o'r carnfradwyr mwyaf ysgeler a ymgyngreiriodd â'r estroniaid Normanaidd, i anrheithio a gorthrymu gwlad ei enedigaeth. Gresyn oedd i dywysog mor deilwng a Gwrgant ab Ithel ab Morgan Mawr, gael mab ac etifedd bradwrus fel yr Iestyn hwn. O dan lywodraeth Gwrgant, mwynhasai Tir Morganwg lwyddiant, a hawddfyd. Pan y bu efe marw, y bobl, yn ymwybodol o rusedd drygionus cymeriad y mab, a benderfynasant na chaffai Iestyn esgyn yr orsedd, ac yn unfryd unllais, hwy a ddeisyfasant ar Howel ab Morgan, sef brawd Gwrgant, eu llywodraethu. Howel a gydsyniodd â'r cais hwn, a rheolodd y wlad gyda doethineb mawr, hyd ei farwolaeth yn y flwyddyn 1043, ac efe y pryd hwnw wedi cyrhaedd yr oedran anghyffredin, o gant a deg-a-thriugain mlwydd. Iestyn a wnaeth lawer ymgais i gyfodi gwrthryfel yn erbyn ei ewythr, ond efe a fu aflwyddiannus. Pa fodd bynag, ar farwolaeth Howel, cafodd y carnfradwr esgyn i'r Orsedd, heb wrthwyneb na rhwystr. Llywodraethodd am yspaid mewn modd heddychol; ond fel yr heneiddiai, aeth yn analluog i ffrwyno ei dymher fradwrus. Yn y flwyddyn 1088, ymunodd âg Einion ab Collwyn, o Ddyfed, i wrthryfela yn erbyn Rhys ab Tewdwr, tywysog yr holl Ddeheubarth. Cawsant amryw anfoddogion cyfoethog i'w cynnorthwyo gydag arian a dylanwad; ond Rhys a orchfygodd eu holl ymosodiadau. Wedi methu cario allan ei gynlluniau bradwrus ei hun, Iestyn a anfonodd i ofyn cynnorthwy y Normaniaid, o Loegr, i orchfygu y pendragon dewr Rhys ab Tewdwr. Llawen oedd gan y gwaedgwn hyny gael esgus i ymosod ar Gymru, annibyniaeth yr hon oedd bob amser yn nôd eu heiddigedd. Ymunodd deuddeg o'r pennaethiaid Normanaidd a nodwyd, gyda Robert Fitzhamon, i arwain byddin gref i Forganwg. Y rhai hyn, gyda galluoedd Iestyn ac Einion, a ymosodasant ar diriogaethau Rhys; ond y glewddyn hwnw, er yn 90 mlwydd oed ar y pryd, a'u cyfarfyddodd mewn câd ar Hirwaun Wrgant, Brycheiniog. Yno bu ymladd ffyrnig. Rhys a ddaliai i fyny luman y Ddraig Goch â'i law ei hun; a'r Cymry a ymladdent gyda holl bybyrwch eu trâs, dros ryddid a breiniau eu gwlad. Symbylid hwy i ymdrech dauddyblyg gan wrhydri eu hen Dywysog, a chyfaredd chwyfiad y Ddraig. Ond rhif luosocach y Normaniaid, a'u cyngreiriaid bradwrus, a drodd fantol buddugoliaeth yn erbyn y Cymry. Lladdwyd Rhys ab Tewdwr cyn terfyn y dydd, a'i fyddin a "orchfygwyd, ac a wasgarwyd gyda gwyll y nos." Iestyn ac Einion a dalasant i'r llengoedd estronol deyrnged fawr am gyflawni y galanastra hwn; a chychwynodd Fitzhamon a'i wyr yn ol i'w gwlad, yn llawen a boddhaus. Ond nid maith fu tymmor llawenydd y ddau fradwr Cymreig a fuasent yn offerynol i ddwyn y fath farn ar eu gwlad. Ni oddefai cyfiawnder i'r fath ysgelerder ddianc yn ddi gosp. Iestyn ac Einion a gwerylasant â'u gilydd; a menyw, sef Nest, merch Iestyn ei hun, fu asgwrn y gynen a ddygodd arnynt ddialedd a thrybini haeddiannol. Ymddengys mai un o delerau eu cyd-fradwriaeth oedd, fod i Einion gael Nest yn wraig, a'i briodas gyda'r Dywysoges hono i fod yn fath ar ddathliad rhwysgfawr o gwymp Rhys ab Tewdwr. Ond wedi cyrhaedd ei amcan ei hun, Iestyn a wrthododd gyflawni ei ran ef o'r ammod, ac a attaliodd y briodas yn y modd mwyaf pendant; gan ddirmygu holl eirchion taerion ei gydfradwr siomedig. Hyn a gythruddodd ysbryd bâs Einion, yr hwn a brysurodd ar ol y Normaniaid, gan erfyn arnynt i ddychwel a dial ei lid ef ar Iestyn. Cafodd hwy ar yr arfordir, yn y weithred o fyned i'w llongau; a chan eu bod wedi gweled brasder tir Morganwg, a Gwent, hawdd fu eu perswadio i ddychwel a thario yn y wlad. Cymaint fu dychryn Iestyn, weled y trychineb annysgwyliadwy hwn yn disgyn arno, fel y ffodd megys llwfrddyn, heb gymaint a chynnyg gwrthwynebu ei ddiweddar gyngreiriaid. Aeth i ymofyn nawdd yn Abbatty Ynys Afallon, oddiyno aeth i Gaerbaddon, a therfynodd ei oes yn Mynachdy Llangenys, yn Ngwent. Terfyniad priodol i'w yrfa ysgeler ef oedd y farwolaeth ddirmygus a ddaeth i'w ran, heb gyfaill i gydymdeimlo, na chydwladwr i dosturio wrtho. Llawen fu gan y Normaniaid gartrefu yn y wlad, a dywedir fod yn Ngwent a Morganwg, rai o'u disgynyddion mor ddiweddar a dechreu y ddeunawfed ganrif; ond y maent, weithian, wedi llwyr ymgolli yn y Genedl Gymroaidd.

**IEUAF**, ydoedd ail fab Idwal Foel, a bu yn dywysog Gogledd Cymru, mewn cydweithrediad a'i frawd Iago, o'r flwyddyn 948. Wedi cyd lywodraethiad am ugain mlynedd, cadwyd Ieuaf mewn carchar, gan ei frawd Iago, a difeddianwyd ef o'i olwg. Bu farw yn y carchar yn 985; ond gorfododd ei fab Hywel, Iago i adael ei orsedd.

**IEUAN** AB GRUFFYDD LEIAF, oedd fardd lled adnabyddus yn nechreu yr unfed ganrif ar bymtheg. Dywed "Beddau y Beirdd," iddo gael ei gladdu yn Llandrillo. Ceir peth o'i waith mewn llawysgrif yn Llyfrgell yr Amgueddfa Brydeinig.

**IEUAN** AB HOWEL AB LLYWELYN FYCHAN. Bardd oedd yntau, a mwynhaodd gryn fri yn ystod y deugain mlynedd cyntaf o'r unfed ganrif ar bymtheg.

**IEUAN** AB HUW CAE LLWYD. Blagurodd y bardd hwn yn haner olaf y bymthegfed ganrif. Y mae ychydig o'i waith ar gael.

**IEUAN** AB HWLCYN. Ni wyddys fod dim o waith y bardd hwn ar gael. Cofnodir i'w farwolaeth gymeryd lle, tua'r flwyddyn 1560.

**IEUAN** AB HYWEL SWRDWAL, oedd fardd a hanesydd o fri yn yr haner olaf o'r bymthegfed ganrif. Cyfansoddodd dri llyfr ar hanesiaeth tair talaeth Cymru, o amser Cadwaladr hyd Harri y Chweched.

Digitized by Google

**IEUAN** ab Ifan Trefor. Rhwng 1520 a 1560 y blodeuodd y bardd hwn. Ychydig, os dim, sydd o'i waith ar gael.

**IEUAN** ab Llywelyn ab Mali. Enw y bardd n hwyn unig sydd ar gael. Fel yr eiddo llawer ereill, aeth yr oll o'i gyfansoddiadau ar goll yn nrheigliad ffwdanus yr oesoedd. Bu farw tua'r flwyddyn 1580.

**IEUAN** ab Llywelyn Fychan. Yr oedd ef yn fardd o enwogrwydd mawr, ac yn ddyn tra chyfrifol tua diwedd y bymthegfed ganrif. Preswyliai yn y Llanerch, sir Ddinbych; a bu ei ddisgynyddion yn benau cenedl teuluoedd urddasol yn y sir hono, am oesoedd dilynol. Cofnodir i'w farwolaeth ddygwydd o fewn y flwyddyn 1490. Ei fab, Gruffydd ab Ieuan, a etifeddodd dalent yn ogystal ag etifeddiaeth ei dad, ac a wnaeth iddo ei hun enw da fel awenydd coeth a grymus.

**IEUAN** ab Madog ab Dafydd. Y mae gwaith y bardd hwn yn nghadw mewn ysgrifen. Bu farw tua diwedd y bymthegfed ganrif.

**IEUAN** ab Rhydderch ab Ieuan. Bardd enwog, a flodeuodd yn nechreu y bymthegfed ganrif. Bernir mai mab ydoedd i Rhydderch, fab Ieuan Llwyd, A.C., o Lyn Aeron, sir Aberteifi. Ceir rhai o'i gyfansoddiadau yn argraffedig yn yr *Iolo MSS.*

**IEUAN** ab Rhydderch ab Llewelyn. Tybir i'r bardd hwn farw mewn oedran ieuanc, tua'r flwyddyn 1540, ac iddo gael mangre beddrod, yn mynwent Llanuwchllyn.

**IEUAN** ab Rhys Morrus. Bardd lled ddi nod, rhwng 1580, a 1620.

**IEUAN** ab Tudur Penllyn. Bardd o gryn nod rhwng 1460, a 1490.

**IEUAN BEDO GWYN.** Un arall o blant Barddas, a flodeuai rywbryd rhwng 1530, a 1570. Yr oedd yn disgyn o un o ganghenau ieuengaf gwehelyth Gruffydd ab Cynan, Tywysog Gwynedd. Trigai ar ei etifeddiaeth yn Llanfaircaereinion, a thybir mai yr un lle ydoedd a'r Llyssyn presennol.

**IEUAN BRYDYDD HIR,** neu y Parch. Evan Evans, ydoedd wr a wnaeth iddo ei hun enw anrhydeddus ymysg beirdd a hynafiaethwyr Cymru. Ganwyd ef yn Cynhawdref, yn mhlwyf Lledrod, swydd Aberteifi, yn y flwyddyn 1730. Addysgwyd ef yn ysgol enwog Ystradmeurig, lle yn ddiammeu y gwnaed argraffiadau annileadwy ar ei feddwl ieuanc, gan yr athraw, Edward Richard. Ychydig a wyddis am ei hanes tra yn yr ysgol hon, ond gellir casglu ei fod yn efrydydd diwyd a manylgraff. Tua dechreu y flwyddyn 1751, pan yn fab un mlwydd ar hugain oed, efe a adawodd Ystradmeurig am Rydychain. Dywedir yn hanes bywyd y Parch. Eliezer Williams, mai aelod o Goleg yr Iesu ydoedd y Prydydd Hir, ond dywed awdurdodau ereill mai ar lyfrau Coleg Merton y gosododd efe ei enw. Fel y cyffredin o feibion athrylith, ni adawyd iddo ef lawer o dda y byd hwn, eithr gwybu beth oedd dioddef caledi, a gradd o eisieu. Prin oedd moddion ei gynnhaliaeth yn y Brifysgol, ond yn hytrach na rhoddi i fyny ei efrydiaethau, efe a benderfynodd gyflwyno ei etifeddiaeth fechan yn Ngeredigion, i'w frawd ieuanc, yn gyfwerth am ychydig arian i'w gynnal ei hun yn y brifysgol. Efe a adawodd Rydychain ag enw uchel iddo fel ysgolhaig, ond yr oedd cyflwr yr Eglwys yn Nghymru y pryd hwnw mor adfydus, fel nad oedd ond gobaith gwan am ddyrchafiad i wr o dalent, heb fod ganddo ryw gyssylltiad, neu ddylanwad gydag uchelwyr gwladol, neu eglwysig. Er hyny, yr oedd y bardd wedi rhoddi ei fryd ar y weinidogaeth, ac i wr oedd a'i dueddfryd at lenyddiaeth, nid oedd y pryd hwnw unrhyw alwedigaeth arall a allai roddi iddo yr hamdden angenrheidiol, i ddiwyllio a boddio ei chwaeth. Pe cawsai efe chware teg a chefnogaeth y pryd hwnw, pan oedd ei athrylith megis yn ymagor, gallasai fod yn un o'r dynion mwyaf defnyddiol a fagodd Cymru erioed, ond yn lle hyny, ei dynged yn Eglwys ei dadau, oedd esgeulusdra a dinodedd. Yn anffodus, yr oedd yn byw mewn oes pan na phrisid gallu meddyliol, a dysgeidiaeth, fel cymmwysderau i ddal swyddi cyssegredig; a phan yr arferai urddasolion teitlog, adnabod eu brodyr yn ol y cnawd. Y canlyniad fu, ddarfod i'r bardd ieuangc gyfranogi o'u dibrisdod, nes yn y diwedd y gyrwyd ef i ddibrisio ei hun. Wedi ymgymmeryd o hono âg urddau eglwysig, llafuriodd yn galed fel curad tlawd, ac am ychydig gydnabyddiaeth, mewn amrywiol leoedd. Fel curad hefyd y gwasanaethodd yn Nhywyn Meirionydd, Llanberis, Llanystumdwy, Llanllechid, a Llanfair-talhaiarn. Gwyddis ei fod yn gurad y lle olaf, yn y flwyddyn 1763, canys efe oedd yn gweinyddu yn mhriodas Twm o'r Nant, yr hon a gymmerodd le y flwyddyn hono yn Llanfair. Dengys y ffaith o'i ddewisiad gan Twm, i gyflawni y seremoni briodasol, fod y Prydydd Hir yr adeg hono, yn wr o gryn bwysigrwydd yn y wlad. Yn wir, yr ydym yn cael Goronwy Owen, mewn llythyr at Mr. W. Morris, ag y bernir ei fod wedi ei ysgrifenu mor foreu a'r flwyddyn 1754, yn gwneud y sylw a ganlyn, yn ei ddull tarawiadol ei hun:—"Gwychach genyf fi na dim, yr anrhydedd a wnaed i mi o'm dewis yn aelod anwiw o Gymdeithas y Cymmrodorion. Oni chaf rent, fe allai y caf fod naill ai'n Gadeirfardd neu'n Gyff Clêr i'r Gymdeithas. Nid oes arnaf faint yn y byd o eisiau swmbwl, pe cawn lonyddwch ac amser. Yr achlod i Ieuan Brydydd Hir, &c., na chaid gweled rhyw faint o'i waith yntau; dyna'r swmbwl goreu a'm gyrrai ymlaen." Nid "llonfardd Mon" oedd yr unig wr o nod a goleddai feddyliau uchel am y Prydydd Hir, yr hwn erbyn hyn oedd yn gydnabyddus â phrif ddysgedigion y wlad. Cadwai i fyny ohebiaeth barhaus â rhai o feirdd a llenorion penaf yr oes, ac yn enwedig â'r ysgolheigaidd Esgob Percy a Mr. Lewis Morris, noddwr cyffredin yr awenyddion anghenus. Yr oedd erbyn hyn, wedi ymroddi bron yn gyfangwbl i astudio hanes a llenyddiaeth ei wlad, ac yn ei ymchwiliadau henafiaethol, efe â ymwelodd â gwahanol barthau o'r Dywysogaeth; ac â phob lle y tybiai y gallai ddod o hyd i hen ysgriflyfrau Cymreig. Ni estynid iddo y gefnogaeth a'r cydweithrediad hwnw, ag yr oedd ganddo le i'w ddisgwyl oddiwrth ei uwchafiaid, ond ni thyciai dim i'w luddias i fyned ymlaen, gyda'i hoffwaith o adysgrifenu llenyddiaeth anghofiedig yr oesau a fu; a gellir ffurfio rhyw ddrychfeddwl am ei ddyfalwch a'i ddiwydrwydd, pan ddywedir ei fod wedi gadael ar ei ol, pan fu farw, oddeutu cant o gyfrolau, o wahanol faintioli. Bu unwaith yn derbyn blwydd-daliadau bychain oddiwrth Syr Watkin W. Wynn, a Dr. Warren, Esgob Bangor, er ei gynnorthwyo i fyned ymlaen gyda'i waith; ond byrhoedlog a fu eu haelioni, a thynasant eu cyfraniadau yn ol. Yn y flwyddyn 1764, efe a gyhoeddodd gyfrol pedwarplyg fechan, o Hen Farddoniaeth y Cymry, gyda chyfeithiadau Lladinaidd, a rhagymadrodd dysgedig, yn dwyn y penawd *"Dissertatio de Bardis."* Y llyfr hwn a



Digitized by Google

sefydlodd ei enwogrwydd fel hynafiaethydd a beirniad o'r dosbarth blaenaf, ac a roddodd i'r bardd Seisnig Gray, ddefnyddiau rhai o'i gyfansoddiadau mwyaf gorchestol. Pryddest Seisnig, *The Love of our Country*, yr hon a argraffwyd yn y flwyddyn 1772, oedd y gwaith pwysig nesaf a gyhoeddodd, ond anfonai liaws o'i ddarnau barddonol i'r "*Geirgrawn Cymraeg*," y cylchgrawn cyntaf yn yr iaith. Ceir llawer a'i gyfansoddiadau yn y "*Dyddanwch Teuluaidd*" hefyd, ynghyda chyfieithiadau o odlau Horace ac Anacreon, ac engraifftiau o weithiau y prif awduron Cymreig. Nid oedd ei efrydiaethau barddonol a henafiaethol, yn attal iddo dalu sylw i dduwinyddiaeth, canys yn y flwyddyn 1776 efe a gyhoeddodd ddwy gyfrol o bregethau, y rhai a gyfieithasai i'r Gymraeg o weithiau Tillotson, ac ereill. Yr ydoedd wedi parottoi argraffiad o'r hen *Ddammegion* Cymreig, a phe dygasid ef allan, buasai wedi gwneud i'r *Dammegion* y gymmwynas a wnaeth llyfr rhagorol yr Arglwyddes Charlotte Guest, i'r *Mabinogion*. Ond erbyn hyn yr oedd y bardd wedi syrthio i arferion o anghymmedroldeb, ac wedi colli nawdd y rhai a fuont yn ei gynnorthwyo i gynnysgaeddu y byd â chynnyrchion ei athrylith. Teg addef hefyd fod yr afreoleidd-dra hwn yn muchedd y bardd, i raddau yn cyfiawnhau gwaith yr Eglwys yn gomedd ei ddyrchafu, er bod ei hurddasolion hi, ysgatfydd, yn gyfrifol am ei yru i dir digalondid a hunanddibrisdod. Fel hyn yr ysgrifena un hynafiaethydd hybarch ar y pen hwn:—"Gwedi myned rhan fawr o'i fywyd heibio yn y cyfryw erlyniadau, [sef copïo hen ysgriflyfrau llychlyd], heb fod yn alluog i gaffael y dyrchafiad lleiaf yn yr Eglwys, ei wroldeb a enciliodd oddiwrtho, ac i ymlid ymaith ei ofidiau, efe a syrthiodd i'r arferiad o ddiotta, yr hyn ar amserau a barai arwyddion o annhrefn yn ei synhwyrau, ac a gauodd allan bob tebygrwydd iddo ennill unrhyw gyfeillion newyddion, yn lle y rhai hyny a ddylasent wobrwyo ei deilyngdod." Y mae y Parch. St. George Armstrong Williams, yn hanes bywyd ei dad, y Parch. Eliezer Williams, yn adrodd yr hanesyn a ganlyn, am Ieuan Brydydd Hir:—"Un prydnawn dydd Sadwrn, pan oedd fy nhad yn ei fyfyrgell, yn Mongewell, canfu ryw ddyn tàl, lled chwithig yr olwg arno, â chod ar ei gefn, yn myned heibio y ffenestr. Wrth grymedd neillduol ei wàr, ynghyda thrysgledd ei gerddediad, tybiodd ei fod rywbeth yn debyg i'w hen gyfaill, Ieuan Brydydd Hir. Ar y gair, dyna gnoc ac y drws, ac ymholi am Mr. Williams. Aeth fy nhad i'r drws, gan yr ystyriai y gwas fod y gwr dieithr yn rhy wael ei wisg i gael ei alw i mewn i'r parlwr. Ac mewn gwirionedd, nid ydoedd efe neb amgen na'r henafiaethydd mawr ei hunan, yn teithio, meddai efe, i edrych am guradiaeth. Yr oedd yn dda gan fy nhad ei weled, a rhoddes iddo y croesaw hyny sydd mor naturiol i'r hen Frythoniaid ei roi i'w gilydd pan ymgyfarfyddont mewn gwlad estronol. Bore drannoeth cynnygiodd Mr. Evans ei gynnorthwy yn yr Eglwys, a chymerodd ran yn y gwasanaeth. Ar ol y gwasanaeth, gwahoddwyd fy nhad a'i gyfaill gan y Dr. Barrington i giniaw; ac mor hyfryd oedd gan yr esgob gymdeithas Mr. Evans, fel y ceisiodd ganddo giniawa gydag ef drannoeth hefyd. Yr oedd y Barnwr Barrington, ac (yr wyf yn coelio) y Llyngesydd Barrington, yn mhlith y cymdeithion gwahoddedig. Trodd yr ymddiddan ynghylch henafiaethau, a llenoriaeth yr hen oesoedd. Daeth Mr. Evans, ar ol ychydig wydreidiau o win, yn siaradus a dyddan iawn, a gwrandewid arno gyda llawer o hyfrydwch. Fy nhad, yn gwybod yn dda ddigon am duedd anffodus ei gyfaill, a gododd i fyned ymaith; gwnaeth y Barnwr Barrington yr un peth, gan geisio ar fy nhad aros ychydig bach, gan eu bod oll yn cael eu swyno gan ymddiddanion Mr. Evans; a gofynai, ar yr un pryd, beth a allai hanes y fath ddyn fod, a bod yn rhaid iddynt hwy gael ychwaneg o'i gymdeithas. Yr oedd cerbyd y gwr bonheddig weithian wrth y drws, yn barod i gymmeryd rhai o'r cymdeithion ymaith, a hwy a ymadawsant. Cyfarfuant, modd bynag, unwaith neu ddwy wedi hyny, a daeth Mr. Evans yn hoffach, hoffach, gan ei gyfeillion newyddion. Mewn gwirionedd, nid oedd ond ychydig iawn o bynciau â'r rhai nad oedd ef yn gynnefin, ac yn y rhai nas gallai ei feddwl grymus ymaflyd yn rhwydd ac yn llwyddiannus. Y bore a ddaeth, pryd yr oedd Mr. Evans i ymadael. Edrychai yn isel ac yn athrist; ac ar ol boreufwyd, gofynodd ganiattad i dalu diolch, yr hyn a wnaeth yn y modd mwyaf dwys a difrifol. Yna, gan annerch fy nhad, â'i ddwylaw yn mhleth, a'i lygaid yn llawn o ddagrau, dywedodd, 'Coeliwch fi, Syr, nis gwn pa bryd, pa le, na pha fodd i gael y pryd arall o ymborth.' Gadawodd y ty ar ffrwst, ar ei ffordd i Lundain, i chwilio am guradiaeth, ac nis gwelodd fy nhad ef byth mwyach." Adroddir hanesyn arall am dano, ag sydd yn dangos ei frwdfrydedd dros yr hyn a ystyriai ef yn rhagorol mewn barddoniaeth. Dywedir y byddai efe yn fynych yn adrodd ac yn ail-adrodd, y llinellau canlynol o waith Hen Ficer Llanymddyfri:—

"Sonied marsiand am farsianda,
Sonied morwr am yr India,
A sonied cybydd am ei gist,
Ond sonied Cristion byth am Grist."

Ar ol eu hadrodd, cauai ei ddyrnau, a llefai yn ei ddull ei hunan:—"Dyna i chwi farddoniaeth, syr; nis gallwch ddangos i mi bedair llinell ynghyd mor ddiaddurn, ac eto mor farddonol, yn holl Pindar, nac yn wir gan neb o'ch beirdd, hyd yn nod yn yr awduron Groegaidd yr ymffrostiwch ynddynt." Ychydig all gydolygu âg ef o barth i deilyngdod y pedair llinell uchod, er fod pawb yn cydnabod ei farn aeddfed mewn barddoniaeth. Ychydig flynyddoedd cyn marwolaeth y bardd, yr oedd Paul Panton, Ysw., Plasgwyn, Môn, wedi neillduo iddo flwydd-dâl o 20*p*. tra fyddai byw, ar yr ammod y caffai yntau ei ysgriflyfrau ar ei farwolaeth. Hyny a fu, a throsglwyddwyd yr holl ysgriflyfrau, tros gant o gyfrolau o gwbl, i feddiant teulu y Plasgwyn, ac yno y maent hyd y dydd hwn, heb unrhyw ymdrech yn cael ei wneud i'w dwyn i oleuni dydd. Dywedir am Ieuan Brydydd Hir, ei fod yn ddyn hynaws, haelfrydig, ac yn meddu ar liaws o deithi rhagorol yn ei gymeriad; o ran ei berson, yr oedd yn dal a heinif, ac o bryd tywyll. Treuliodd flyneddoedd olaf ei oes lafurfawr, gyda'i frawd yn Cynhawdref, man ei enedigaeth, ac yno y bu efe farw, yn mis Awst, 1789, yn 59 mlwydd oed, eithr ni bydd marw ei enw "Tra mor, tra Brython."

**IEUAN BRYDYDD HIR** YR HENAF. Bardd o Feirion yr hwn oedd yn ei flodeu rhwng 1440, a 1470. Ni pherthyn iddo ef anfarwoldeb ei gyfenw o Geredigion; ond yr oedd yntau yn awenwr enwog yn ei ddydd, a cheir lliaws o'i gyfansoddiadau mewn ysgriflyfrau. Yn y *Brython* am 1859, ceir Cywydd

o'i eiddo "yn dangos fal y buasai'r Prydydd yn ifanc, yn fawr ei nerth, a'i nwyf, a'i chwareu; ac yr aethai yn hen, yn glwyfus, ac yn fethiant." Y mae hwn yn Gywydd rhagorol, ac ymddengys fod cryn deilyngdod llenyddol yn ei gynnyrchion ereill.

**IEUAN CLYWEDOG**, oedd yn fardd enwog rhwng y blyneddoedd 1410, a 1450; ac efe a lywyddai yn Ngorsedd Morganwg, yn y flwyddyn 1430.

**IEUAN DELYNOR.** Bardd a flodeuai yn y rhan gyntaf o'r unfed ganrif ar bymtheg. Ceir lliaws a'i gyfansoddiadau mewn ysgriflyfrau.

**IEUAN DEULWYN.** Canai y bardd hwn etto yn y canol-oesoedd, ac aeth ei waith yn aberth i'r tân mawr yn Wynnstay.

**IEUAN DRWCH Y DARAN.** Blodeuai y bardd hwn rhwng 1370, a 1400, ac ymddengys ei fod yn cymmeryd arno fod yn dipyn o brophwyd, canys ceir "prophwydoliaeth" o'i eiddo yn y *Myvyrian Archaiology*.

**IEUAN DYFI** ydoedd un arall o brydyddion y bymthegfed ganrif.

**IEUAN DDU** AB DAFYDD AB OWAIN. Er fod hwn yn wr o gryn fri yn ei ddydd, y mae ei hanes yn amdoedig gan gryn dywyllwch. Yr enw a roddir iddo gan Mr. Moses Williams, ydyw Ieuan Dafydd Ddu, *alias* Ieuan Dafydd ab Owain, Ysw., o Frycheiniog. Yn ol y *Cambrian Biography*, yn Aberdâr y preswyliai; ond dywed Lewis, yn ei Eiriadur Parthedegol, mai y Dyffryn ydoedd ei breswylfod, ac i'r lle fod yn meddiant ei ddisgynyddion, sef y Jonesiaid, hyd y flwyddyn 1748, pryd y gwerthwyd yr holl eiddo i William Bruce, Ysw. Ymddengys ei fod yn fardd rhagorol, ac ysgrifenodd lawer rhwng y blynyddoedd 1440, a 1480. Yr oedd hefyd yn noddwr i feirdd ei oes, a cheir traddodiadau am ei weithredoedd haelionus, yn cael eu hadrodd hyd heddyw yn nghymmydogaeth ei breswylfod. Pa fodd bynag, nid oes braidd ddim o'i waith ar gof a chadw, oddieithr ychydig mewn ysgriflyfrau.

**IEUAN DDU Y BILWG.** Bardd enwog, ond rhyfedd ei ffordd, yr hwn a flodeuai yn niwedd y bymthegfed, a dechreu yr unfed ganrif ar bymtheg. Yr oedd yn un o feirdd Gorsedd Morganwg, o dan addysg Iorwerth Fynglwyd, yn 1500. Mae Cywydd o'i waith yn yr *Iolo MSS.* i ofyn y Greal i Abad Glyn Nedd; a Chywydd y "Gown Coch" o'i eiddo, yn *Ngorchestion Beirdd Cymru.*

**IEUAN FEUDWY.** Un arall o'r beirdd oedd yn blodeuo rhwng 1550, a 1580.

**IEUAN FYCHAN.** Weithiau gelwir ef Ieuan Fychan ab Ieuan ab Adda, ac yr oedd yn ei flodeu rhwng 1540, a 1570.

**IEUAN GETHIN** AB IEUAN AB LLEISION ydoedd fardd enwog rhwng 1400, a 1450, a brodor o Gethinog, sir Gaerfyrddin. Yr oedd yn ddisgybl i Ieuan Tew yn ngorsedd Morganwg, yn y flwyddyn 1420; a chawn ei fod yn fardd gorseddog yn y flwyddyn 1430. Yr oedd iddo safle anrhydeddus ymysg ei frodyr, canys yr ydoedd yn ail yn Eisteddfod Fawr Caerfyrddin, yn y flwyddyn 1451, a chymerodd ran arbenig yn y gwrthwynebiad i reolau newyddion Dafydd ab Edmwnt. Ceir llawer o'i gyfansoddiadau mewn ysgriflyfrau, a rhai yn gyhoeddedig. Yr oedd yn gyfaill i Owain Glyndwr, ac ymunodd â'r fyddin Gymreig i anrheithio Morganwg. Pan orchfygwyd Owain Glyndwr, ffodd Ieuan i'r Gogledd, a chafodd noddfa gyda hen gyd-filwr yn Môn, a hyny ar adeg pan ydoedd y brenin Harri yn lladd ac yn ymlid y neb a ddrwgdybid o bleidio y gwron Cymreig. Ymhen amser, pa fodd bynag, dyhuddwyd llid y brenin, a chaniatawyd i'r ffoadur ddychwelyd adref, ar yr ammod fod iddo dalu dirwy o gant o wartheg, a dau gant o ddefaid.

**IEUAN GRUFFYDD LEIAF.** Un arall o feirdd yr ysgriflyfrau. Yr oedd yn byw rhwng 1540, a 1570.

**IEUAN GWYNIONYDD**, bardd rhwng 1530, a 1560.

**IEUAN GYFANEDD**, bardd a flodeuai rhwng 1570 a 1600.

**IEUAN HEN**, cydoeswr â Dafydd ab Gwilym, ac awdwr amryw ddarnau mewn ysgriflyfrau. Yr oedd yn byw rhwng 1350, a 1380, a chafodd yn aurhydedd o lywyddu yn ngorsedd Morganwg, yn y flwyddyn 1370.

**IEUAN ILAR.** Bardd oedd yn ei flodeu rhwng 1560, a 1590.

**IEUAN LLAFAR** ydoedd fardd rhwng 1570, a 1600.

**IEUAN LLWYD** AB GWILYM, awdwr Cywydd, yn cynnwys crynodeb o'r traddodiad am Teilo Sant, a ymddangosodd yn yr *Iolo MSS.* Blodeuai rhwng 1420, a 1450.

**IEUAN LLWYD** AB Y GARGAM, bardd rhwng 1370, a 1400. Ceir darn o'i waith yn y Llyfr Coch o Hergest.

**IEUAN LLWYD BRYDYDD**, yr hwn a gladdwyd yn Llanuwchllyn, ger y Bala, ydoedd fardd yn ei flodeu rhwng 1460, a 1490.

**IEUAN MON.** Bardd yn ei flodeu rhwng 1370, a 1400.

**IEUAN TEW.** Efe ydoedd llywydd gorsedd Morganwg, yn 1420, ac yr oedd yn ei flodeu rhwng 1400, a 1440. Gelwir ef weithiau, Ieuan Tew Hen, neu Ieuan Tew Hynaf. Preswyliai yn Arwystli, swydd Trefaldwyn, yr oedd efe yn llywyddu Gorsedd Morganwg, yn 1420. Ceir llawer o'i waith mewn ysgriflyfrau, a pheth yn argraffedig.

**IEUAN TEW IEUANC** ydoedd fardd enwog o Gydweli, yn sir Gaerfyrddin, rhwng 1560, a 1590. Ceir llawer o'i farddoniaeth mewn ysgriflyfrau. Graddiwyd ef yn "Ddisgybl Disgyblaidd" yn Eisteddfod Caerwys yn 1568.

**IEUANOL** AB EIGION ydoedd gymeriad y crybwyllir am dano yn y Mabinogion, ond na wyddir nemawr am dano.

**IFAN** O GARNO, SYR, ydoedd dduwinydd a bardd a flodeuai o 1540, hyd 1580. Y mae rhai cyfansoddiadau o'i eiddo, wedi eu cadw mewn ysgrifen hyd yr amser presenol.

**IFOR** AB ALAN, ydoedd dywysog Llydaw, a anfonwyd gan ei dad i Frydain ar ddiorseddiad Cadwaladr, yn 683, i gynal y rhyfel yn mlaen yn erbyn y Sacsoniaid. Ond er gwneud ymegniadau parhaus am ysdod wyth mlynedd ar hugain, methodd a chyrhaedd llwyddiant sefydlog. O'r amser hwnw, cafodd y Sacsoniaid lywodraeth Lloegr, ac ni elwid y genedl wreiddiol mwy yn Frytaniaid, ond Cymry (*Myr. Arch.* ii. 338). Y mae llawer o anghysondeb yn y Brutiau; gan ei fod yn cael ei alw mewn rhai adysgrifau yn fab Cadwaladr; a phriodolir hanes Ina, brenhin Wessecs, i Ifor.

**IFOR** AB CADIFOR, a elwir Ifor Bach, ydoedd foneddwr o Forganwg. Yn 1110, efe a ymladdodd yn wrol yn erbyn y Normaniaid, y rhai a fynent ddwyn cyfreithiau Lloegr i'r rhan hono o Gymru;

Digitized by Google

ac efe a gymerodd gastell Caerdydd, a'i feddianydd, Robert, mab ordderch Harri I., gyda'i wraig Mabli, merch Robert Fitzhammon, y rhai a gadwodd mewn carchar, hyd nes y cafodd ef, a brenhin Lloegr, i dyngu na byddai iddynt mwy aflonyddu ar gyfreithiau, a breintiau Cymru.

**IFOR** AB TUDWAL, ydoedd sant, ac esgob, a flodeuai yn y bumed ganrif. Ei fam ydoedd Nefydd, merch Brychan Brycheiniog.

**IFOR HAEL**, ydoedd arglwydd Maesaleg, y Wenallt, a Gwern-y-gleppa. Yr oedd yn ail fab i Llewelyn ab Ifor ab Llewelyn ab Bledri; (yr hwn a ddaethai o Dyfed i Forganwg yn amser Iestyn ab Gwrgant), ab Cadifor ab Gwyn ab Collwyn. Ei fam ydoedd Angharad, merch Syr Morgan ab Meredydd ab Gryffydd ab Meredydd Gethin, mab Rhys ab Tewdwr, tywysog Deheubarth Cymru. Bu Ifor Hael farw heb blant, a daeth ei etifeddiaeth i'w nai, Llewelyn, mab Morgan ab Llewelyn, arglwydd Tredegar, a disgynyddion oddiwrtho ef mewn llinell uniongyrchol, ydyw Morganiaid Tredegar, yn meddiant y rhai yr erys yr hen etifeddiaeth yn gyflawn, hyd y dydd hwn. Ond nid hynodrwydd henafol, nac eangder etifeddiaethol, sydd yn gwneud yr enw Ifor mor anrhydeddus, ac mor deuluaidd yn Nghymru, ond yn hytrach, ei ddyfodiad yn noddydd haelfrydig i'r bardd Dafydd ab Gwilym. Bu fyw o tua 1310 hyd 1370. Cyfansoddwyd marwnad ar ei ol, gan Dafydd ab Gwilym.

**ILAR**, ydoedd sant a flodeuai yn nechreu y chweched ganrif. Gelwir ef weithiau, Ilar Bysgotwr; ac efe a ddilynodd St. Cadfan, i ddyfod i'r Ynys hon. Efe a sylfaenodd eglwys Llanilar, yn sir Aberteifi, a Llanilar, neu St. Hilary, yn Morganwg.

**ILID**, neu IULITTA, ydoedd santes, oedd yn byw yn y seithfed ganrif. Hi ydoedd mam Curig, neu Cyrique, sant o Tarsus, yn Cilicia, ag a ferthyrwyd yn ei fabandod, yr un pryd a'i fam. Y mae eglwysi Llanilid a Churig, yn Morganwg, a "Capel Curig a'i fam Iulita, yn sir Gaernarfon, wedi eu cysegru iddynt yn nghyd. Y mae eglwys Llanilid yn Mrycheiniog hefyd, wedi ei chyflwyno i Iulitta. Dydd gwyl Iuliet a Curig, ydyw Mehefin 16.

**ILID**, ydoedd sant, yr hwn y dywedir iddo ddyfod i Frydain gyda Bran ab Llyr, tua y flwyddyn 70, gyd âg Arwystli Hen, Cyndaf, a Mawan, ag oedd yn un o bregethwyr cyntaf yr efengyl yn y wlad hon. Gelwir Ilid a Chyndaf, yn wyr o Israel, yr hyn a olyga eu bod yn Iuddewon dychweledig. Dywedir i Ilid argyhoeddi lluaws o'r Cymru, a'u dwyn i'r ffydd Gristionogol. Y mae dywediad o'i eiddo wedi ei gadw hydd heddyw yn "Chwedlau y Doethion:"—

"A glywaist ti chwedl Ilid
Sant, o'r Israel ei hendid?
Trech Duw na drwg ddarogan."

**ILSTON**, neu Llanelltyd, sydd blwyf yn nosparth Abertawy, yn Morganwg; ar yr afon Pill Penarth, 6½ milltir De Orllewin o orsaf rheilffordd Abertawy. Llythyrfa yn Abertawy. Erwau, 2879. Gwerth ardrethol, 1422*p*. Poblogaeth, 295. Y mae y tiroedd yn cael eu rhanu rhwng ychydig nifer. Darganfyddwyd bathiaint perthynol i Nero yma, yn 1825. Y mae y fywioliaeth yn beriglorïaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 200*p*. Noddwr, yr Arglwydd Gangellydd. Y mae yr eglwys mewn cyflwr da yma.

**ILLOG**, ydoedd sant a flodeuai yn y seithfed ganrif. Efe a sylfaenodd eglwys Hirnant yn Nhrefaldwyn, lle y mae ei ddydd gwyl yn cael ei gynal Awst yr wythfed.

**ILLTYD FARCHOG**, neu Iltutus y Marchog, ydoedd fab Bicanys, o chwaer i Emyr Llydaw, ac a ymenwogodd am ei orchestion milwraidd yn moreu ei oes. Daeth gyda Garmon o Lydaw, ei wlad enedigol, a bu yn llys Arthur, ond dywedir iddo gymeryd ei ddarbwyllo gan Catwg Ddoeth, i ymwrthod a'r byd, a chyflwyno ei hun i fywyd crefyddol. Gosodwyd ef gan Garmon, yn benaeth ar athrofa Cor Tewdws, yn Nghaerworgorn, yn Ngwent, yr hon, ar y cyntaf a sefydlwyd gan yr ymerawdwr Tewdws, neu Theodosius, ond oedd erbyn hyn wedi ei dinystro gan y paganiaid Gwyddelig, y rhai a ddygasant Padrig gyda hwy i'w gwlad; ac efe a fu yn eu haddysu yn Iwerddon. Ar yr adferiad, gelwid hi Cor Illtyd, Bangor Illtyd, ac yn awr, Llanilltyd Fawr, neu Lantwit Major; ac amser ei benodiad, ydyw B. A. 520. Yr oedd yr athrofa hon mor enwog, fel yr oedd efrydwyr yn cyrchu iddi o bob gwlad Gristionogol; yn mhlith y rhai yr oedd meibion y boneddion, a'r tywysogion tramor, gyda lluaws eraill, yr rhifo ar un adeg, dros ddwy fil o fyfyrwyr. Tu ag at letya y nifer hwn, yr oedd yno dros bedwar cant o dai annedd, a saith o neuaddau mawrion. Nid ymddengys fod unrhyw oedran neillduol wedi ei benodi, yn yr hwn yr oedd yr aelodau i gael eu derbyn i'r sefydliad; o blegid, heblaw yr ieuaingc oedd yno, yn oedd yno nifer o henafgwyr, yn treulio gweddill eu tymor mewn ymarferiadau crefyddol. Yr oedd cylch yr addysg a arferid gan St. Illtyd, yn cynwys, nid yn unig lenoriaeth gysegredig, a chenhedlig, fel y mae yn ofynol at y weinidogaeth; ond hefyd, y celfyddydau perthynol i amaethyddiaeth, a galwedigaethau eraill. Dros lawer o genedlaethau, bu hon yn athrofa at wasanaeth Brydain oll, â'r hon yr ymwelid gan benaethiaid yr holl wledydd yn achlysurol; a pharhaodd felly hyd oni throsglwyddwyd ei gwaddol i fonachlog Tewkesbury. gan Robert Fitzhamon, tua diwedd yr unfed ganrif ar ddeg, yr adeg ag y darfu i Brif athrofaau Lloegr gymeryd y flaenoriaeth, ac y syrthiodd yr eiddo Illtyd i dir anghof. Heblaw Llanilltyd fawr, darfu iddo sylfaenu amryw o eglwysi eraill yn Nghymru, sef un yn Mhenbre, sir Gaerfyrddin; Ilston a Newcastle, yn Morganwg; a Llantrisant yn yr un sir, mewn cydweithrediad â St. Tyfodog, a St. Gwynno. Mae Ecton yn cofresu Illtyd, fel noddwr seintiau Llanharri, a Llantryddid, yn Morganwg, yn gystal â rhai Llanhileth, yn Mynwy, a Llantwyd, yn sir Benfro. Hefyd, cysegrwyd y capeli canlynol ar ei enw, sef Llanilltyd Faerdre, o dan Lantrisant, ac Illtyd, yn agos i Gastell-nedd, yn Morganwg; Capel Illtyd yn Defynog, sir Frycheiniog; a Llanelltyd, yn agos i Ddolgellau, yn sir Feirionydd. Perchid enw Illtyd yn mysg y Cymry, am y gwelliannau mawr a wnaeth yn y drefn o aredig y tir. Cyn ei amser ef, arferent arddu neu droi y tir â cheibiau, a'r aradr arsang. Yn herwydd hyn, y mae ef wedi cael ei resu gyda Hu, a Choll, i ffurfio Triawd, o'r rhai oedd wedi bendithio y Cymry. Yn ol Cressy, cynelid gwyl iddo ar Chwefror 7. Nid oes genym wybodaeth sicr pa bryd y bu farw. Dywed Dr. Puw, yn y "Cambrian Biography," iddo farw yn 480. Y mae traddodiad am dano, yn cadarnhau iddo gael ei gladdu yn agos i'r capel sydd ar ei enw, yn sir Frycheiniog, am mai yno y mae y lle a elwir, "Bedd Gwyl Illtyd," ac am ei bod yn arferiad i wylio yno, o flaen dydd gwyl Illtyd. Yn mynwent eglwys Llan-

Digitized by Google

illtyd Fawr, y mae careg fawr i'w gweled yn awr, ac arni dri math o gerfwaith; un o ba rai sydd yn arwyddocau mai hi yw croes Iltutus, a Samson; un arall yn dywedyd mai Samson a gododd y groes, dros ei enaid; a'r trydydd yn dywedyd mai un o'r enw Samuel oedd y cerfiedydd. Y mae hanes bywyd St. Illtyd, Abad, ar gael yn mysg y Llaw-ysgrifau Cottonaidd.

**INDEG**, ydoedd ferch Afarwy Hir, o Maelienydd, yr hon oedd fenyw brydferth ac enwog, yn byw yn y chweched ganrif. Cofrestrir hi yn y Trioedd gyda Gwyl, a Garwen, fel un o dair prif-weinyddesau y brenhin Arthur. Crybwyllir am dani yn Mabinogi Cilhwch, ac Olwen; a gwnai y beirdd gyfeiriadau mynych ati.

**IOAN** ab Ioan, Gelligrug, sir Fynwy, oedd enedigol o blwyf Llanithel. Pan yn ieuangc, yr oedd yn dra anystyriol. Yn amser y rhyfel cartrefol, ymunodd â byddin y senedd, a gwasanaethodd mewn amryw o'r brwydrau gwaedlyd a gymerasant le yn y cyfnod terfysglyd hwnw. Pan yr oedd ar ei deithiau milwrol yn Cent, neu Essecs, aeth i wrando hen weinidog patriarchaidd, yr hwn a arferai bregethu yn ei dy ei hun, i bawb a ddeuent i wrando. Nid oedd ei wrandawyr yn lluosog. Wedi y bregeth, gofynodd Ioan iddo, pa fodd yr oedd yn pregethu i nifer mor fychan; ac atebai yntau, gan sylwi ar eiriau Habacuc, "O herwydd y gareg a lefa o'r mur, a'r trawst a'i hetyb o'r gwaith coed." Cafodd y bregeth effaith mor neillduol ar feddwl y milwr, nes iddo benderfynu cyflwyno gweddill ei oes, i filwrio dan faner y Gwaredwr. Yn 1646, daeth gyda'r fyddin, dan lywyddiaeth Syr Thomas Fairfax, i sir Fynwy; ac wedi cyrhaedd Castell Rhaglan, Awst 16, dychwelodd i Gelligrug; ac yn ddioed, dechreuodd bregethu yr efengyl i drigolion mynyddoedd Mynwy. Sefydlodd eglwys yn ei dŷ ei hun, a phregethai yn aml ei hunan, ac anogai eraill i ddyfod yno hefyd. Wedi sefydlu dirprwywyr i geisio gweinidogion i Gymru, penodwyd Ioan ab Ioan i ymweled a'r eglwysi, ac i bregethu Crist i'r trigolion. Dywedir mai dyn bychan o gorpholaeth ydoedd, a chanddo farf Buritanaidd, o edrychiad sobr a difrifol. Yr oedd yn wr duwiol a heddychol; bu yn llafurus a llwyddianus iawn yn ngwinllan ei Arglwydd. Ar farwolaeth brawd iddo, daeth yn berchen ar dyddyn yn mhlwyf Llanithel, a symudodd yno i fyw, lle y gorphenodd ei yrfa ddefnyddiol, mewn oedran teg; wedi gwasanaethu ei gydwladwyr yn ffyddlon yn yr efengyl, dros lawer o flynyddoedd; ac y mae ei enw yn barchus, a'i goffadwriaeth yn anwyl, yn y plwyf a'r gymydogaeth hyd y dydd hwn. Y mae rhai o'i deulu yn aelodau yn eglwys Ebenezer, Pont y pwl, yn awr.

**IOCYN DDU** ab Ithael Grach, oedd un o feirdd enwog y bedwaredd ganrif ar ddeg. Bu farw o ddeutu y flwyddyn 1390. Y mae ei gyfansoddiadau ar gael mewn ysgrifen.

**IOLO GOCH**, oedd un o'r beirdd enwocaf yn Ngwynedd, yn ei ddydd; ac yn enedigol o sir Ddinbych. Dywedir mai ei enw priodol oedd Edward Llwyd. Yr oedd Iolo yn arglwydd Llechryd, ac yn byw yn Nghoed Pantwn, yn mhlwyf Llanefydd. Yr oedd ei fam, yn ol fel y dywed Gryffydd Hiraethog, yn ardalyddes Lincoln. Gan ei fod ef a'i deulu yn feddianol ar gyfoeth mawr, cafodd Iolo yfed yn helaeth o ffynonau dysgeidiaeth, a chymerodd y radd o M.A. yn un o'r prif ysgolion. Y mae y Pantoniaid, o'r Plasgwyn yn Mon, yn disgyn oddiwrtho. Yn amser gwrthryfel Owen Glyndyfrdwy, darfu i Iolo wneud defnydd mawr o'i awen, er cyffroi yspryd ei gyd-wladwyr, yn erbyn y Saeson. Yn 1402, ymddangosodd seren wib fawr, ac yr oedd hyny ar doriad allan y gwrthryfel; a chyfansoddodd yntau Gywydd, gan gymeryd ymddangosiad y seren fel arwydd goruwch-naturiol o fuddygoliaeth. Y mae gan Parry, yn ei "Welsh Melodies," ddarlun tarawiadol iawn o Owain a'i filwyr, a Iolo Goch yn sefyll ar y bryn gerllaw, wedi rhoddi ei delyn ar lawr, ac yn cyfeirio sylw y fyddin at y seren, nes tanio eu penderfyniad i ymladd; ac y mae Mrs. Hemans wedi darlunio yr olygfa mewn nifer o benillion cyffrous iawn, yn dechreu yn debyg i hyn:—

"Welsoch chwi'r seren dân,
A gwenau'r nef ar arfau glân,
  Yn t'wynu oddi fry?
Mewn llewyrch ar y darian-ddraig,
Wna'i chalon gadarn fel y graig,
  Pan gyfarfyddo'r llu?—
Darllened holl ormeswyr byd,
  Ddialedd yn y fflam;
Ond caned beirdd eu mawl, yn nghyd
  A'r awel nerthol am
Y diogelwch arnom ddyd
  Enw Glyndwr, rhag cam, &c."

Pan yr oedd wedi cyrhaedd gwth o oedran, bu am ryw gymaint o amser yn byw gydâg Owain yn ei balas yn Sycharth. Rhaid ei fod wedi cyrhaedd oedran teg, o blegid, ceir yn mysg ei ganiadau, farwnad ar farwolaeth Tydur ab Gronw, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 1315; ac yr oedd ymddangosiad y seren yn ddiweddarach na hyny. Y mae dros haner cant o'i ganeuon, ar gael yn awr, mewn llawysgrifau. Ysgrifenodd hefyd hanes tair tywysogaeth Cymru. Bernir iddo farw tua y flwyddyn 1420.

**IONAS ATHRAW**, neu Ionas o Fynwy, oedd fardd a duwinydd, yn byw tua diwedd y ddegfed ganrif.

**IORWERTH** ab Bleddyn, tywysog Powys, oedd un o feibion Bleddyn ab Cynfyn. Yn 1101, unodd â Robert, Iarll Amwythig, ac Arnwlph, Iarll Penfro, mewn cyd-fradwriaeth yn erbyn Harri, brenhin Lloegr; ond enillwyd ef gan y brenhin o'i du, yr hwn a werthfawrogai ei wasanaeth yn fawr. Ond wedi hyny, efe a ymddygodd tu ag ato yn enllibus ac anmharchus, ac yn y diwedd, a'i bwriodd i garchar, lle y bu mewn caethiwed am lawer o flynyddoedd; ond cafodd ei ryddhau yn 1109, ac adferwyd iddo ei feddianau, ar yr amod iddo dalu dirwy o dri chant o bunau mewn arian. Ond nid hir y bu wedi hyny heb gael ei lofruddio, mewn modd bradwrus gan Llywarch ab Trahaearn. *Myf. Arch.* ii. 539.

**IORWERTH** ab y Gyriog, oedd un o feirdd Mon, yr hwn oedd yn byw rhwng y blynyddoedd 1360 a 1400. Y mae dwy o'i ganeuon wedi cael eu hargraphu yn y *Myf. Arch.*

**IORWERTH BELI**, ydoedd fardd a flodeuai rhwng 1330 a 1380. Y mae un Gân o'i eiddo, yn gyflwynedig i esgob Bangor, wedi cael ei hargraphu yn y *Myf. Arch.*

**IORWERTH DRWYNDWN**, ydoedd fab henaf Owain Gwynedd, tywysog Gogledd Cymru. Ar farwolaeth ei dad, yn 1169, taflwyd ef o'r neilldu fel tywysog, trwy unol lais y bobl, o herwydd yr

Digitized by Google

**anaf** oedd ar ei wyneb; yntau a ymfoddlonodd yn dawel i farn y wlad; a chymerodd Dafydd ei frawd yr orsedd yn ei le. Yn 1176, ffodd am noddfa rhag ei frawd, at Owain ab Caradog, i Gaerlleon ar Wysg; ond dychwelodd yn fuan, gan ei fod wedi derbyn addewid, yr adferid iddo ei diroedd. Er bod yn ddefnydd cynhaliaeth iddo, yr oedd y rhan honno o etifeddiaeth ei dad, sef cantrefi Nantconwy, yn Sir Gaernarfon, ac Ardudwy, yn Meirionydd, wedi cael eu rhoddi iddo. Er hyn oll, gorfu iddo ffoi am noddfa rhag digllonedd Dafydd ei frawd, i Pennant Melangell, yn Meirionydd; yr hon oedd yn ddiogelfa dawel; ac yn ol y traddodiad, nid pell o'r fan honno y cafodd ei ladd, mewn lle a elwir "Bwlch Croes Iorwerth." Y mae i'w chanfod yn y fynwent hyd heddyw, gareg gerfiedig, ar yr hon y mae llun dyn arfog, yn dwyn tarian, gyda'r geiriau *Hic Jacet Edwart.* Adferwyd ei arglwyddiaeth yn Ngogledd Cymru, i'w fab, Llewelyn ab Iorwerth, mam yr hwn oedd Margred, merch Madog ab Meredydd, tywysog Powys.

**IORWERTH HEN**, oedd un o feirdd y bymthegfed ganrif, ac yn ol y "Cambrian Biography," yr oedd yn byw rhwng y blyneddoedd 1460, a 1500. Y mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael mewn ysgrifen.

**IORWERTH HIRFLAWDD**, oedd fab Tegonwy ab Teon ab Gwrney Da ei Freuddwyd, o linach Beli Mawr, boneddwr a flodeuai tua chanol y bumed ganrif. Priododd âg Arianwen, merch Brychan.

**IORWERTH FYCHAN** AB IORWERTH AB RHODPERT, ydoedd fardd enwog o'r Deheudir, a flodeuai rhwng 1310 a 1360. Y mae dwy o'i ganiadau wedi eu hargraphu yn y *Myf. Arch.*

**IORWERTH FYNGLWYD**, oedd fardd enwog, ac un o ddysgyblion Gorsedd Morganwg, yn 1460; a llywyddai arni yn y flwyddyn 1500. Mae rhai o'i gyfansoddiadau ar gael mewn ysgrifen, yn mhlith pa rai y mae Cywydd St. Ffraid, yr hwn a argraphwyd yn "Hanes Aberconwy," gan Williams; argraphiad Dinbych, 1835.

**IRFON**, ydyw yr enw ar un o afronydd Brycheiniog. Y mae hi yn codi yn Bryn-garw, ac yn rhedeg am ugain milltir yn ddwyreiniol, gan ymarllwys i'r Wy, gerllaw Buallt. Y mae y golygfeydd yma yn rhamantus, ac y mae y dyfroedd yn orlawn o bysg, yn mhob man.

**IRON** AB DON, ydoedd gymeriad y crybwyllir am dano yn y Mabinogion, na wyddir nemawr am dano.

**ISAF**, cantref yn Ngogledd Ddwyrain Swydd Gaerynarfon; gan gynwys plwyf Caerhun, a phedwar o blwyfi eraill, a rhan o un arall; yn mesur 29,372 o erwau; ac yn cynwys poblogaeth o 4998. Tai annedd, 1044.

**ISALED**, cantref yn y rhan Orllewinol o Swydd Ddinbach, gan gynwys plwyf Cerrig y Druidion, ac wyth o blwyfi eraill, yn nghyda rhanau o bum plwyf arall. Mesura 113,427 o erwau o dir. Poblogaeth, 11,822. Tai, 2501.

**ISALLT**, trefgordd yn mhlwyf Llysfaen, Swydd GAER YN ARFON; 4¼ milldir i'r Gorllewin o Abergele. Poblogaeth, 129.

**ISAN**, ydoedd sant a flodeuai yn y chweched ganrif. Yr oedd yn aelod o goleg Illtyd, ac efe a sylfaenodd eglwysi, Llanisan, neu Llanishen yn Morganwg, a Llanishen yn Mynwy.

**ISA PEN** AC UCHA PEN, dwy drefgordd yn mhlwyf Dwygyfylchi, Swydd Gaer yn arfon; 2 filldir i'r Gorllewin o Gonwy. Poblogaeth, 76, a 363.

**ISA'R AFON**, trefgordd yn mhlwyf Caerhun, Swydd GAER YN ARFON; 4¼ milldir i'r Dehau o Gonwy. Poblogaeth, 368.

**ISCENNEN**, cantref yn y parth De Ddwyreiniol o Swydd GAERFYRDDIN, yn cynnwys plwyf y Bettws, pedwar o blwyfi eraill, a rhan o un arall. Erwau, 38,706. Poblogaeth, 8163. Tai, 1739.

**ISCIR**, neu YSCIR, afon yn swydd Frycheiniog, yn tarddu ar ben De Orllewinol Mynydd Eppynt; ac yn llifeirio i'r de dde ddwyrain am tua deuddeng milldir, gan ymarllwys i'r Wysg ger Aberyscir.

**IS-CLYDACH**, sydd afonig a ymarllwysa i afon Tawe, yn Morganwg, gerllaw capelaeth Clydach.

**IS-CLYDACH**, treflan yn mhlwyf Llywel, cantref DEFYNOC, Swydd FRYCHEINIOG, DEHEUDIR CYMRU; 1½ milldir i'r dwyrain o Drecastell. Y mae yr afon Clydach yn ffinio y dreflan hon ar y gorllewin, a'r afon Wŷsg, ar y dehau, lle ei croesir ar y ffordd o Aberhonddu i Drecastell. Y mae y dyffryn trwy yr hwn y llifeiria y Clydach yn cyflwyno i'r sylw olygfeydd amrywiol a hyfryd, ac fe'i haddurnir ef, yn gystal â glanau yr Wŷsg, âg amryw balasdai heirdd, a phlanigfeydd difyrus. Yn y dreflan hon y mae capel "Rhyd y Briw," a gyfodwyd ar y cyntaf, fel y tybir, at wasanaeth teulu y Penriaid o Lwyn cyntefin, ac a gynhelid wedi hyny trwy gyfraniadau preswylwyr y gymmydogaeth, y rhai a gyfranent ddeugain swllt yn y flwyddyn, tuag at gyflog clerigwr. Y mae y fywioliaeth yn guradiaeth barhaol, neu Ficeriaeth yn bresenol, yn arch-ddeoniaeth Aberhonddu, ac esgobaeth Ty Ddewi, wedi ei gwadd-oli ag 800*p.* o gedrodd freninol, ac yn nawddogaeth Ficer Llywel. Yn gymaint a bod un o'r darnau tir a brynasid â'r gwaddoliad uchod, yn Swydd Forganwg, yn meddu gwelyau gwerthfawr o lô, yr hwn a ddarganfuwyd wedi y pryniad, y mae yr is beriglor-iaeth yn ragorach na Llywel. Gwel RHYD Y BRIW.

**ISCOED**, treflan yn mhlwyf St. Ismael, Swydd GAERFYRDDIN; 8 milldir i'r De Dde Orllewin o dref Caerfyrddin. Poblogaeth, 49.

**ISCOED**, cyd dreflan â Chilmarch, yn mhlwyf Llandyfeiliog, cantref CYDWELI, Swydd GAERFYRDDIN; 6 milldir i'r De wrth Ddwyrain o dref Caerfyrddin. Yr oedd ffordd Rufeinaidd, a elwid *Julias Way*, yn myned drwy y dreflan hon, o Gaerfyrddin i Gydweli.

**ISCOED**, cyd dreflan â Gwilly yn mhlwyf Llanedi, cantref CARNWALLON, Swydd GAERFYRDDIN; 13¼ milldir i'r Gogledd Ogledd Orllewin o Abertawe. Y mae y brif-ffordd o Bont ar ddulas yn myned drwy y dreflan hon, ar esgair o dir lled uchel, o'r hon y ceir golygfeydd swynol ar y dde a'r aswy.

**ISCOED**, trefgordd yn mhlwyf Malpas, Swydd FFLINT, ar ffiniau Swyddi Caer a'r Amwythig; 3 milldir i'r Gorllewin o'r Eglwys Wen. Erwau, 2607. Gwerth ardrethol, 4014. Poblogaeth, 435. Tai, 89. Plas Iscoed ydyw y drigfa benaf. Y mae glò yn cael ei godi yma; ac y mae ffynhonau heilltion yn nghymydogaeth y Dderwen Lydan, a'r Ffrwd Wich, yr hon sydd yn ymarllwys i'r Dyfrdwy ger Worthenbury, ac yn ffinio y drefgordd ar y tu Gogleddol, tra y mae y gweddill o'r plwyf yn Swydd Gaerlleon. Yn y Dderwen Lydan y ganwyd yr enwog Matthew Henry.

**ISCOED**, trefgordd yn mhlwyf Penegoes, cantref MACHYNLLETH, Swydd DREFALDWYN; 2 filldir i'r

Digitized by Google

Dwyrain Ogledd Ddwyrain o dref Machynlleth. Y mae y dreflan yma yn cynwys amryw anneddau tlysion iawn, ac yn eu mysg, Dôlgïog, ar lan aswy y Dyfi, hen encilfa y bardd enwog Llywarch Hên, lle y lliniarai goffa ei anffodion, â swyn ei delyn.

**IS-DULAS**, cantref yn mharth Gogledd Orllewin Swydd DDINBACH; yn cynwys plwyf Abergele, chwech o blwyfi eraill, a rhanau o bump yn ychwanegol. Erwau, 66,088. Poblogaeth, 13,376. Tai annedd, 2944.

**ISGORFAI**, neu ISGWYRFAI, cantref yn mharth Gogledd Orllewin Swydd GAER YN ARFON; yn cynnwys plwyf Bettws Garmon, chwech o blwyfi eraill, a rhan o seithfed. Erwau, 66,031. Poblogaeth yn 1851, 20,657; yn 1861, 22,744. Tai annedd, 4620.

**IS LLAWR COED**, treflan yn mhlwyf Bedwellty, Swydd FYNWY; 7½ milldir i'r Gorllewin o Bont y pool. Gwerth ardrethol, 10,754*p.*; o'r hyn y mae 2239*p.* mewn mwngloddiau, a 31*p.* mewn cloddfeydd cerryg. Poblogaeth yn 1851, 2639; yn 1861, 2962. Tai annedd, 584. Y mae yma weithydd glo a haiarn.

**ISMAEL**, sant, yr hwn oedd yn ei flodau yn y chweched ganrif. Yr ydoedd yn esgob cynnorthwyol yn esgobaeth Ty Ddewi. Mab ydoedd i Budig, brodor o Lydaw, yr hwn wedi gorfod gadael ei wlad enedigol, a ymsefydlodd yn Nyfed, neu Swydd Benfro, ac a brïododd Arianwedd, ferch Enlleu, a chwaer Teilo, o'r hon y cafodd ddau fab, Ismael, a Tyfei, y rhai a gyssegrwyd eu dau gan eu mam, i wasanaeth crefydd. Ismael a sylfaenodd eglwysi Sant Ismael yn agos i Cydweli, yn Swydd Gaerfyrddin, a Chamros, Usmaston, Rosemarket, Sant Ismael, a Haroldston Ddwyreiniol, yn Swydd Benfro. Tyfei, ei frawd, a laddwyd yn ddamweiniol pan yn blentyn, gan un o'r enw Tyrtue, ac yn y canlyniad, fe'i cyfenwir "y merthyr;" er bod yn anhawdd deall pa fodd y gellid cyfrif dynladdiad, yn farwolaeth er tystiolaeth i ffydd y dyoddefydd. Efe a gladdwyd yn Penaly, Swydd Benfro; ac efe yw nawddsant Lamphey, neu, yn ol *Giraldus Cambrensis*, "Llantefei," ac yn ol Browne Willis, "Llantiffi," yn y wlad hono. Gelwir eglwys yn agos i Landeilo Fawr, yn Llandyfei-sant; ac oddiwrth ei berthynas â Theilo, yr hwn a gladdwyd yn y plwyf nesaf, gellid casglu mai i goffadwriaeth "St. Tyfei" yr oedd y llan hon yn gyssegredig, ac nid i'r eiddo Dewi Sant, fel y barna rhai.

**ISMAEL** (ST.), plwyf, yn Swydd GAERFYRDDIN, DEHEUDIR CYMRU, ar lan yr afon Towi, ger basfor Caerfyrddin, a rheilffordd Deheudir Cymru; 8½ milldir i'r De Dde Orllewin o dref Caerfyrddin. Cynwysa dreflanau Broadlai, Hall, Iscoed, Llansaint, Treforis, ac Ystrad; a'r ymdrochle a elwir *Ferryside;* gerllaw pa un y mae gorsaf ar y rheilffordd, ac yn yr hwn y mae llythyrfa dan Cydweli.—Erwau, 8081, o ba rai, y mae 4435 dan ddwfr. Gwerth ardrethol, 4683*p.* Poblogaeth, yn 1851, 968; yn 1861, 1211. Tai annedd, 245. Achlysurwyd y cynnydd yn y boblogaeth, trwy ychwanegiad yn mhreswylwyr glan y môr, a'r manteision i gyrchu yma trwy agoriad y rheilffordd. Y mae llawer o'r trigolion yma yn ennill eu bywioliaeth trwy gasglu y cregyn heirdd, o'r rhai y ceir helaethrwydd mewn amrywiaeth mawr yma. Yma y mae y palas ysplenydd a gyfodwyd gan Syr William Mansell, Barwnig, ac a werthwyd gan ei fab i'r Maes-lywydd, Syr Thomas Picton, G.C.B., yr hwn wedi enwogi ei hun yn ddirfawr yn y rhyfel â Ffrainc, a gwympodd yn farwol yn mrwydr fyth-gofus Waterloo.

Y mae pentref St. Ismael yn gorwedd ar lanau yr afon fordwyol, y Towi; ac y mae y gymmydogaeth yn enwog am gynnyrchu haidd o'r fath oreu.

Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth ryddhaol, yn arch-ddeoniaeth Caerfyrddin, ac esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth, 187*p.* Noddwr, yr Arglwydd Ganghellydd. Y mae yr eglwys wedi ei hadeiladu ar graig, yn agos i lan y môr, a'r tonau yn ymguro o fewn deg llath ar hugain i'w sylfaen. Y mae capel anwes o fewn terfynau y plwyf, a elwir "Capel Llansaint," wedi ei adeiladu ar fryn tra dyrchafedig, ac y mae ei dŵr uchel yn nod tra adnabyddus i'r morwyr, pan fyddont yn nesau tu a'r lan. Ar dyddyn o'r enw Pen yr allt, y mae hen fagwyrydd wedi eu gorchuddio âg eiddew, ac y mae traddodiad yn ein hysbysu, fod yma fonachlog yn yr oesoedd gynt; ond ni's meddwn unrhyw hanes ddilys er cadarnhau y traddodiad.

**ISMAEL** (ST.), pentref, a phlwyf yn nghantref RHOS, Swydd BENFRO. Y mae y pentref yn gorwedd ar fin *Milford Haven;* 5½ milldir i'r Gorllewin o *Milford*, ac y mae ynddo lythyrfa dan *Milford.* Y mae y plwyf yn cynnwys 3007 o erwau o dir, a 1160 o ddwfr. Gwerth ardrethol, 3847*p.* Poblogaeth, 469. Tai annedd, 92. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn arch-ddeoniaeth ac esgobaeth Ty Ddewi; gwerth, 90*p.* Noddwr, yr Arglwydd Ganghellydd. Y mae y degwm wedi ei ranu yn dair cyfran gyfartal; un wedi ei roddi i gorfforiaeth bwrdeisdref Tewksbury, un arall i barson y plwyf hwnw, a'r drydedd ran i Ficer St. Ismael. Y mae sefyllfa yr eglwys yn rhamantus, mewn glyn dwfn a neillduedig, a ddyfrheir gan forgainc fechan, yr hon a ymarllwysa i longborth *Milford*, ychydig o'r tu isaf iddi. Oddiar yr eglwys y mae tyddyn a elwir "Y Myneich," yr hwn y bernir ei fod unwaith yn dwyn rhyw berthynas a phrïordy Hubberston. Y mae tomen, neu garnedd hynod yma, ond ni wyddys dim o'i hanes. Fe ddywedir mai y plwyf hwn oedd encilfa olaf Caradoc o Lancarfan, hanesydd enwog Cymru, yr hwn a dreuliodd flyneddoedd olaf einioes mewn neillduaeth yn y fan hon, ac wedi ei farw, a gladdwyd gyda rhwysg mawr, yn eglwys gadeiriol Ty Ddewi.

**IS MORLAIS**, treflan yn mhlwyf Llanon, cantref CARNWALLON, Swydd GAERFYRDDIN; 14 milldir i'r De Ddwyrain o dref Caerfyrddin. Y mae afonig o'r enw Morlais yn cyfodi yma, ac wedi myned trwy Langennech, y mae yn ymgolli yn yr afon Llwchwr. Y mae eglwys plwyf Llanon, a'r pentref, yn gorwedd o fewn ffiniau y dreflan hon.

**IS MYNYDD**, trefgordd yn mhlwyf Llanaber, Swydd FEIRIONYDD, yn agos i Lanaber. Poblogaeth, 354.

**IS MYNYDD**, trefgordd yn mhlwyf Llan y cil, Swydd FEIRIONYDD, yn agos i'r Bala. Cynnwysa dreflanau y Llidiardau, a'r Rhyd uchaf. Gwerth ardrethol, 1593*p.* Poblogaeth, 548.

**ISSEL** (ST.), plwyf yn nghantref NARBERTH, Swydd BENFRO; 3½ milldir i'r Gogledd o Ddinbych y pysgod, lle sydd erbyn hyn wedi dyfod yn ymdrochle o gryn fri. Mesura y plwyf 3740 erw o dir, a 90 o ddwfr. Gwerth ardrethol, 9549*p.*; o'r hyn y mae 4743*p.* mewn mwngloddiau. Poblogaeth, yn 1851, 1784; ac yn 1861, 2022. Tai annedd, 403. Yr achlysur o gynnydd y boblogaeth

Digitized by Google

ydoedd y gyrchfa i'r lle fel ymdrochle, agoriad gwaith glô, a sefydliad gwaith haiarn yn y lle. Y mae arwyneb y plwyf hwn yn dra amrywiol, gan fod yma fryniau serth a disymwth, a nentydd dyfnion, mewn rhai manau wedi eu gwisgo â gwigfeydd tlysion, ac mewn manau eraill, o ymddangosiad noethlwm, a diffrwyth, o herwydd y gweithfeydd glô yn eu cymmydogaeth.

Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn archddeoniaeth ac esgobaeth Ty Ddewi; ac yn werth 114*p.*, ac yn rhoddiad Glwysgor Ty Ddewi. Nid yw yr eglwys ond bechan, ac y mae iddi dŵr ysgwar, uchel. Y mae yma ysgol, wedi ei gwaddoli a 15*p.*, yn y flwyddyn.

**IS Y COED**, capeloriaeth plwyfol, yn mhlwyf yr Holt, cantref Bromfield, Swydd Ddinbach; yn agos i'r afon Dyfrdwy, 3 milldir i'r De Ddc Orllewin o'r Holt, a 4¾ i'r Dwyrain o orsaf rheilffordd Wrecsham. Y mae yn cynnwys trefgorddau Dutton Ddiffaith, Dutton Cacca, Dutton y Bran, Ridley, a Sutton; a'i Llythyrfa yw Holt, dan Wrecsham. Erwau, 3595. Gwerth ardrethol, 5245*p.* Poblogaeth, 482. Tai annedd, 103. Y fywioliaeth eglwysig sydd ficeriaeth, yn esgobaeth Llanelwy, gwerth 79*p.* Noddwyr, Deon a Glwysgor *Westminster*, yn ol rhai awdurdodau; *Winchester*, medd eraill.

**IS Y FFORDD**, trefgordd yn mhlwyf Llysfaen, Swydd Gaer yn arfon; 4½ milldir i'r Gorllewin o Abergele. Poblogaeth, 105.

**IS Y GARREG**, trefgordd yn mhlwyf, a chantref Machynlleth, Swydd Drefaldwyn, ar lan yr afon Dyfi; 4 milldir i'r Gogledd Ddwyrain o Fachynlleth. Gwerth ardrethol, 1705*p.*, o'r hyn y mae 20*p.* mewn pysgodfeydd. Poblogaeth, 402. Tai annedd, 93. O'r drefgordd hon cair amryw olygfeydd dymunol ar afon a dyffryn y Dyfi, o Gemmaes, hyd onid ymgyll yn machwy Ceredigion, (*Cardigan Bay*); ond mewn rhanau eraill, cair mynyddoedd uchel, a llechweddau noethion a diffrwyth, yn enwedig yn y rhan sydd yn ymylu ar Swydd Aberteifi. Bu yma ychydig o weithio llechgloddfeydd, a mwngloddiau plwm. Y mae amryw balasau prydferth yn wasgaredig dros y rhanau isaf o'r drefgordd hon, a ymyla ar yr afon Dyfi ar y tu gogleddol, ac ar yr afon Llyfnant ar y tu gorllewinol.

**IS Y GRAIG**, treflan yn mhlwyf Llanddwywau, cantref Ardudwy, Swydd Feirionydd; 4 milldir i'r Gogledd wrth Orllewin o'r Abermaw. Fe'i ffinir ar y tu gorllewinol gan fachwy Ceredigion. Y mae traethell nodedig, a elwir Sarn Badrig, yn ymestyn o'r arfordir hwn mewn cyfeiriad de orllewinol, un filldir ar hugain i'r *bay*, o'r hon y bydd tua naw milldir yn sŷch ar drai; ac mewn amryw fanau nid yw yn cael ei gorchuddio â mwy na haner gwrhyd o ddwfr ar y llanw; ond, y mae tri o fylchau ynddo trwy ba rai y gellir hwylio llestri. Y mae rhai wedi dadleu mai gwaith celfyddydol ydyw, a'i fod gynt yn rhan o for-glawdd Cantre'r Gwaelod, yr hwn, yn ol traddodiadau y wlad, a orlifwyd tua diwedd y bummed ganrif.

**ITHEL** ab Hywel, tywysog a ganlynodd Meirig ei frawd, fel brenin Gwent a Morganwg, yn y flwyddyn 843. Wedi iddo gasglu byddin gref, yn yr un flwyddyn ag yr esgynodd i'r freniniaeth, er cynorthwyo Rhodri, brenin y Gogledd-barth, ymosodwyd arno mewn modd bradwrus a dichellgar ar y ffordd, gan wyr Brycheiniog, pryd y lladdwyd ef, ac oddiwrth hyn y daeth y ddihareb, "Bradwyr Brycheiniog."

**ITHEL** ab Morgan Mawr, brenin Morganwg, yr hwn a fu farw yn y flwyddyn 994; a dilynwyd ef ar yr orsedd gan Gwrgant ei fab.

**ITHEL DDU**, oedd yn fardd o sir Fon, yr hwn oedd yn byw rhwng y blyneddoedd 1380, a 1421. Cyfansoddwyd ei farwnad gan Iolo Goch, yr hon sydd ar gael yn mysg ei gyfansoddiadau.

**ITHEL FELYN** o Ial, mab Llywelyn Aurdorchog, boneddwr ag oedd yn byw tua chanol y ddeuddegfed ganrif. Yr oedd yn meddu helaethder mawr o dir yn siroedd Dinbych, Callestr, a'r Amwythig: ac y mae amryw o deuluoedd yn olrhain eu hachau oddiwrtho. Yr oedd ei etifeddiaethau yn gynwysedig o Llys y Cel, Gallt Gymhebyr, Bod anwydog, a Coedrwg yn Iâl; Nantclwyd, a Garth Neuadd, yn Nyffryn Clwyd; Llwyn Egryn, Gwernaffield, Cil Rhedynen, a Hendref Isaf, yn Ystrad Alun; Caer Allwg, Hendref Figill, Pentref Hyfaidd, a Chastell Meirchion, yn Tegengl; a'r drydedd o arglwyddiaeth Whittington, a rhan o arglwyddiaeth Croesoswallt, a Glyndwrdu. Priododd ag Elen merch Gruffydd ab Cynan, a'i feibion ef oeddynt Hwfa, a Llewelyn.

**ITHEL HAEL** o Lydaw, tywysog o Armorica, yr hwn oedd yn byw yn y rhan flaenaf o'r chweched ganrif. Efe oedd tad Baglan, Fflewyn, Gredifel, Tanwg, Twrog, Tegai, Trillo, a Llechid, y seintiau a ddaethant drosodd gyda Chadfan i Brydain.

**ITHON** (Yr), afon yn Swydd Faesyfed, Deheudir Cymru. Y mae yn tarddu yn agos i'r ffin rhwng Swydd Faesyfed a Swydd Drefaldwyn, ac yn llifeirio yn ddeheuol dros 30 milldir i'r Wy, ger Pont Ithon, 4½ milldir i'r Gogledd Ogledd Orllewin o Lanfair yn Muallt.

**ITTON**, plwyf yn nghantref Caldicott, Swydd Fynwy; 3 milldir i'r Gorllewin Ogledd Orllewin o *Chepstow*. Y mae yn cynnwys maenol Howick, a'i lythyr-dref ydyw Chepstow. Erwau, 1738. Gwerth ardrethol, 2106*p.* Poblogaeth, 196. Tai annedd, 34. Y fywioliaeth eglwysig sydd beriglorïaeth, yn esgobaeth Llandaf. Gwerth, 153*p.* Noddwr, W. Curr, Ysw.

# J.

**JAMES**, David, Capel Sion, yn sir Aberteifi, a anwyd mewn ffermdy, a elwir Ceunant, tua naw milltir yn dde-ddwyreiniol o Aberystwyth, yn 1780. Wedi iddo gyrhaedd i oedran priodol, rhoddwyd ef dan addysg gôf, i'w ddwyn i fynu yn y gelfyddyd honno. Wedi gorphen ei egwyddoriaeth, ac ymarfer ychydig a'r gwaith yn ei wlad enedigol, daeth i'w fryd fyned i Lundain. Wedi edrych o amgylch, ac ymddifyru ychydig ar olygfeydd y brif ddinas, yr oedd raid ymholi am waith; a chafodd dderbyniad

Digitized by Google

yn ngweithfa lyngesol y llywodraeth, yn Deptford, lle y gweithiai dros amryw flyneddau fel gôf. Pan yn 22 oed, ymunodd mewn priodas âg un Winefred Jones, yr hon oedd enedigol o Bont-rhyd-fendigaid. Pan yr oedd yn 24 oed, daeth yn Gristion penderfynol, ac ymunodd fel aelod gyda'r Annibynwyr. Galwyd ef yn fuan i wasanaethu swydd diacon. Daeth cyn hir yn bregethwr, ac yn weinidog gyda yr enwad crybwylledig, a bu yn llafurio yn ngwaith y cysegr am dair blynedd ar hugain. Tua yr amser hwn, teimlai fod ei iechyd yn gwanhau, a dychwelodd ef a'i wraig, a dwy ferch, i'w bro enedigol, gan adael pedwar mab ar ol. Trwy y symudiad hwn, aeth oddiwrth yr Annibynwyr at y Trefnyddion Calfinaidd, gyda pha rai y treuliodd weddill ei oes, mewn llafur, ffyddlondeb, a llwyddiant mawr. Yr oedd ei holl ymddygiadau yn brawf ei fod yn Gristion cywir, ac "Israeliad yn wir;" a mwynhai gysuron crefydd yn helaeth yn ei ddyddiau olaf. Gallasai bregethu yn rhwydd iawn yn y ddwy iaith, er nad oedd yn hynod o boblogaidd. Byddai ganddo ddefnyddiau teilwng o sylw bob amser. Yr oedd yn ddefnyddiol iawn yn y cyfarfodydd eglwysig. Ceryddai yn llym am bechod, cynhaliai y gwan ei feddwl, a chysurai y galarus. Dywedai y gwir yn ddi-dderbyn wyneb, wrth y cyfoethog fel y tlawd. Tua diwedd y flwyddyn 1858, teimlai ei natur yn dadfeilio, yr anadl yn byrhau, a'r peswch yn ei flino; eto parhâi i bregethu. Nid oedd tywydd a'i hatal-iai, nac anhawsderau a'i llwfrhâi; ond parhaodd i wanhau, fel nad allai yn 1859, ond gweini yn unig yn y moddion a gynhelid yn yr addoldy oedd gerllaw ei annedd. Yr oedd ei gynghorion, a'i weddiau, yn brofion eglur ei fod mewn cymdeithas agos a'r Gwaredwr. Pan yr ymwelai cyfeillion âg ef, yr amser yr oedd yn analluog i fyned allan o'i dy, tystiai mai y Bibl oedd ei unig gysur. Pan y gofynid iddo air am ei brofiad, ei atebiad ydoedd, "Cyfamod tragwyddol a wnaeth efe â mi, &c." Bu farw Chwefror 14, 1860; claddwyd ef y Sadwrn canlynol, gerllaw Capel Sion. Yr oedd yn 80 mlwydd oed, ac wedi bod yn pregethu am haner canrif.

**JAMES**, James, ydoedd weinidog, gyda y Bedyddwyr yn Rhydwilym, sir Benfro. Y mae yn debyg mai brodor o ardal Llandysul oedd; ac mai yn sir Gaerfyrddin y ganwyd ef. Dywedir iddo fod yn byw yn Llandyssul, a'i fod o deulu da allan. Yr oedd iddo frawd hŷn nag ef, o'r enw John, yn pregethu gyda y Presbyteriaid. Nid oes genym hanes pa bryd y derbyniwyd James yn aelod eglwysig, na pha bryd y dechreuodd ei weinidogaeth. Dywedir iddo dderbyn rhai yn aelodau yn Llwyndwr. Yn mhlith yr enwau yn 1680, y mae Mr. James James, ar lyfr yr eglwys, yn henuriad, yn byw yn Llandyssul; felly y mae yn debygol ei fod wedi ei urddo y pryd hwnw. Dywedir iddo ddioddef cryn erlidigaeth yn achos ei grefydd. Ar ddydd ymostyngiad cyhoeddus aeth i gyfarfod gweddi yn Llandyssul, sir Aberteifi, lle y traddododd ychydig eiriau fel agoriad i'r cyfarfod; mewn canlyniad i hyn, dygodd achwynwr gyhuddiad yn ei erbyn, am bregethu mewn cyfarfod, a lle o'r fath. Cafodd Mr. James, a'r gwr yn nhy yr hwn y cynhelid yr addoliad, eu dirwyo i'r swm o ddeugain punt. Yr olaf, gan nad allai gael arian i dalu y ddirwy, a gafodd ei orfodi i roddi ei anifeiliaid i fyny; ond yn fuan, cafodd fenthyg yr arian, a thalodd y ddirwy, ac felly dychwelwyd ei anifeiliaid iddo yn ol. Yna y gwr a golledid, a ddygodd gwyn yn erbyn yr achwynwr, am gymeryd ei arian oddi arno yn annheilwng. Cafodd yr achos ei brofi yn llys tri-misol Llanbedr, a throdd y ddedryd o blaid yr erlidiedig. Pan welodd cyfreithiwr yr achwynwr fod yr amgylchiad wedi troi yn ei erbyn, efe a darawodd y bwrdd mewn cynddaredd mawr, ac a ddywedodd, gan ddal allan ei fraich, "Cyhyd ag y byddo y fraich hon yn gysylltiedig wrth fy nghorph, mi a fyddaf yn erbyn y sect hon." Cyn iddo braidd orphen llefaru, teimlai ryw boen yn y fraich honno, yr hyn a gynnyddodd o ddydd i ddydd, hyd oni phydrodd, ac y syrthiodd ymaith. Bu y creadur truenus farw cyn hir, mewn poenau dirfawr. Nid oes genym hanes am garchariad Mr. James, ond cafodd ei ran o'r erlidigaeth chwerw. Dywedir iddo farw yn 1734, dros 80 mlwydd oed, wedi bod dros 60 mlynedd yn y weinidogaeth.

**JAMES**, Syr William, *Barg.*, oedd swyddog cyhoeddus, a ddaeth i enwogrwydd trwy ei ymdrechion a'i ddiwydrwydd personol. Yr oedd yn fab i felinydd, a chafodd ei eni yn melin Bolton Hill, sir Benfro, yn 1721. Pan yn ddeuddeng mlwydd oed, cafodd yr hyn a ddymunai ei galon, sef myned yn forwr. Trwy ei fyfyriaeth astud yn ei alwedigaeth, cafodd yn raddol ei dderchafn i sefyllfaoedd o gyfrifoldeb, fel y cawn ef, pan yn ugain oed, yn isgadben yr "Indiaman." Yn 1749, cafodd ei benodi i lywyddu llong newydd, a elwid "Y Guardian," yr hon oedd wedi cael ei hadgyweirio fel llong rhyfel, yn yr hon yr hwyliodd tu a'r dwyrain. Yn 1758, cafodd ei benodi yn gad-lywydd yn ngalluoedd morawl Cwmni yr India Ddwyreiniol, ar fwrdd y "Protector," yr hon a gludai 44 o ynau. Yn 1756, llwyddodd i lwyr ddinystro galluoedd y morleidr Angris, a chymeryd ei nawddleoedd cryfion yn Severndroog, a Gheriah; llywyddid y milwyr tir ar y pryd, gan Arglwydd Clive. Yn 1759, dychwelodd Syr William i Loegr, ac anrhegwyd ef gan y Cwmni â chleddyf eurgarn hardd, fel arwydd o'u parch iddo am ei orchestion dewr. Yn fuan ar ol hyn, cafodd ei ddewis yn Gyfarwyddwr i Gwmni yr India Ddwyreiniol, a bu yn aelod o'r trefniant parchus hwnw am dros ugain mlynedd. Bu am bymtheng mlynedd yn nghorfforaeth y "Trinity House," yn llywydd clafdy Greenwich, ac yn aelod Seneddol dros West Looe. Gwnaed ef yn Farwnig, Gorphenaf 25, 1778. Efe a gynlluniodd ddadymchweliad Pondicherry yn amser y rhyfel Americanaidd, a chafodd anrheg ardderchog oddiwrth y Cwmni Indiaidd am hyny, fel tysteb o'u hedmygedd o'i fedr yn y gorchwyl hwnw. Bu farw Rhagfyr 16, 1783, yn 62 mlwydd oed. Dywedir am dano gan un oedd wedi cael digon o gyfleusdra i farnu, trwy fod yn gydnabyddus âg ef am tua deng mlynedd ar hugain, ei fod yn ddyn hollol benderfynol ac ymarferol, ac heb neb braidd yn gyfartal iddo. Fel swyddog yr oedd yn wrol, gochelgar, a doeth; a phob amser yn amyneddgar yn wyneb anhawsderau, a'i feddwl ar waith yn wastadol.

**JEFFRESTON**, sydd bentref a phlwyf yn nosparth Narberth, yn sir Benfro. Y mae yn sefyll o fewn pum milltir yn ogleddol o orsaf rheilffordd Manorbier, chwe milltir yn dde-dde-orllewinol o Narberth. Y mae y plwyf yn cynwys 2343 o erwau. Y Llythyrfa yw Cresselly, dan Benfro. Gwerth ardrethol, 2580*p.*, o'r hyn y mae 320*p.* mewn mwnau. Poblogaeth, 634. Tai, 138. Y mae y meddiant yn cael ei ranu a'i adranu rhwng amryw. Y mae

Digitized by Google

glo yn cael ei godi yma. Y mae y fywiolaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty Ddewi. Gwerth 134*p.*, ac yn nawddogaeth Capelydd Ty Ddewi.

**JEFFREYS**, Arglwydd George, oedd y chweched mab i John Jeffreys, Ysw., o Acton yn agos i Wrecsam, yn sir Ddinbych, lle y ganwyd ef yn 1648. Pan yn ieuangc, anfonwyd ef i'r ysgol rydd yn Amwythig, o'r lle yr aeth i St. Paul, ac oddiyno i Westminster, oedd y pryd hwnw dan ofal y Dr. Busby. Aeth i'r "Lower Temple," Mai 19, 1663, a phan yr oedd yn ddeunaw mlwydd oed, dwy flynedd cyn iddo gael ei alw i'r llysoedd barn, ymddangosodd fel dadleuydd yn mrawdlysoedd Kingston, pan nad oedd ond ychydig o ddadleuwyr yn wyddfodol, o herwydd y pla; ac o'r pryd hwnw, parhaodd yn yr ymarferiaeth ddadleuol yn y llysoedd barn. Y mae yn amlwg ei fod yn feddianol ar dalentau naturiol anghyffredin, o herwydd cafodd ei godi i fod yn gofiadur yn Nghofiaduraeth Llundain pan nad oedd ond deng mlwydd ar hugain oed. Yr oedd ei ddylanwad yn y ddinas, a'i barodrwydd i ddwyn yn mlaen unrhyw fesurau, heb encilio na chadw draw, yn llawer er ei ddwyn i sylw y llys, a gwnaed ef yn gyfreithiwr i Ddug Caerefrog. Gwnaed ef gyntaf yn farnwr Cymreig, ac yn y flwyddyn 1680, cafodd ei wneud yn farchog, ac yn brif ynad Caerlleon, ac yn 1681, cafodd ei ddyrchafu yn farwnig. Yn 1683, codwyd ef yn Arglwydd Prif farnwr y "King's Bench;" ac ar adferiad Siarl II., dyrchafwyd ef i'r bendefigaeth, dan yr enw o Farwn Wem. Ar ol gorchfygu Dug Mynwy, gosodwyd Jeffreys ar ddirprwyaeth arbenigol, i brofi ei ymlynwyr, a bu ei barodrwydd i gario yn mlaen i eithafoedd gyfarwyddiadau gwaedlyd y brenhin yn foddion i osod allan ei enw mewn cymeriad tra echryslawn. Yn Hydref, 1685, gwnaed ef yn Arglwydd Gangellydd, a daliodd y swydd honno hyd ddyfodiad y Tywysog Orange i'r orsedd, y pryd, o herwydd yr ymwybyddiaeth oedd yn ei feddu, o'r creulondeb ag yr oedd wedi ei arfer, ac mor wrthun yr oedd yn ngolwg y bobl, fel y gwnaeth gynnygiad ar ffoi ymaith mewn ffordd guddiedig; ond gan iddo gael ei adnabod, bwriwyd ef i'r Twr, dan y cyhuddiad o uchel-fradwriaeth, a bu farw yno, Ebrill 19, 1689. Cydnabyddir ei fod yn gyfreithiwr galluog; a chydnabyddai Roger North, fod prif farnwr Lloegr, pan na fyddai o dan gyffroad rhyw bwnc gwleidyddol, neu ddiod feddwol, y barnwr mwyaf anrhydeddus a eisteddodd erioed mewn llys barn; a dywedai Arglwydd Campbell, fod ei benderfyniadau terfynol fel Canghellydd, yn glod iddo. Gyrodd ei hun o'r diwedd drwy anghymedroldeb, yn wallgof. Nid oedd ond deugain mlwydd oed pan y bu farw, a dylynwyd ef yn ei deitl a'i etifeddiaethau, gan ei fab, Arglwydd John Jeffreys, yr hwn a fu farw yn ddi etifedd yn 1703, pryd y diflanodd yr arglwyddiaeth o'r teulu.

**JENKINS**, Dafydd, ydoedd gyfreithiwr enwog, a anwyd yn Hensol, yn mhlwyf Pendeulwyn, yn sir Forganwg, tu ar flwyddyn 1582. Yn 1597, gwnaed ef yn is-fyfyriwr yn Neuadd St. Edmund, yn Rhydychain; pan yr oedd llawer o Gymry yn efrydwyr yno. Wedi iddo gymeryd yr urdd-radd o B.A., aeth i mewn i "Gray's Inn," lle y bu yn myfyrio y gyfraith; a phan yr oedd yn ddadleuydd cyfreithiol, elai lluaws ato am ei gyngor. Yn 1625, cafodd ei ddewis yn haf ddarllenydd, ond gwrthododd y fraint. Ar ol hyn gwnaed ef yn un o farnwyr Deheudir Cymru, a pharhaodd yn y swydd honno hyd doriad allan y gwrthryfel, pryd y darfu iddo fwrw amryw bersonau i garchar, neu eu collfarnu i farw, fel rhai euog o deyrnfradwriaeth, trwy godi arfau yn erbyn y brenhin. O'r diwedd cafodd ei gymeryd yn garcharor yn Hwlffordd, pan fu i'r dref honno gael ei chymeryd trwy ruthr di rybydd gan filwyr y Senedd, Rhagfyr 18, 1645, pan yr hyrddiwyd ef i Lundain, a chafodd ei fwrw yn garcharor i'r Twr. Dygwyd ef wedi hyny i frawdle y Cangell-lys, pryd y darfu iddo amheu awdurdod y llys hwnw, am fod sel y llys wedi ei ffugio, ac o ganlyniad, fod y dirprwywyr wedi cael eu gosod yn groes i'r gyfraith. Ar hyn, cafodd ei drosglwyddo i Newgate, dan y cyhuddiad o fradwriaeth, a chafodd ei ddwyn o flaen Ty y Cyffredin; ond yn gymaint a'i fod yn gwadu eu hawdurdod, a gwrthod ymostwng i benlinio, dirwywyd ef i fil o bunau am ei ddiystyrwch, a throwyd ef yn ol i'r carchar, o'r lle y cafodd ar ol hyny, ei symud i gastell Wallingford. Tu a'r amser hwn, ymdrechai a'i holl egni i osod y fyddin a'r Senedd mewn anghydfod a'u gilydd, er dwyn yn mlaen achos y brenhin; ond ni bu hyny o un lles iddo, ac ni lwyddodd yn ei amcan. Yn 1650, gwnaed deddf er ei osod ar ei brawf yn Uchel Lys Cyfiawnder, lle na ddisgwyliai ddim ond ei gollfarnu, a phenderfynai farw a'r Bibl dan un fraich, a'r "Magna Charta," o'r hwn yr oedd yn amddiffynydd, dan y fraich arall. Modd bynag, diangodd a'i fywyd ganddo, ac anfonwyd ef i gastell Windsor, lle y bu hyd Ionawr, 1656, pryd y cafodd ei ryddhau, a bu yn byw am ryw ysdod yn Rhydychain. Ar ol yr adferiad, disgwylid gan bawb, y gwneid ef yn un o farnwyr Neuadd Westminster; yr hyn a fuasai yn debyg o gymeryd lle, pe buasai efe yn foddlon i roddi arian i'r Cangellydd oedd yn y swydd y pryd hwnw. Ond dirmygai y Cymro gonest y fath weithred, ar ol ei ddioddefiadau. Yna efe a ymneillduodd i'w etifeddiaeth yn Morganwg, yr hon oedd y pryd hwnw wedi ei hadferu iddo, er ei fod flyneddau cyn hyny wedi ei ymddifadu o honi. Dywed Wood am dano, ei fod yn ddyn o "alluoedd mawrion yn ei alwedigaeth, a bod ei gynghorion yn cael eu defnyddio yn aml, gan Syr John Banks, a William Noy, yn eu swydd gyfreithiol. Yr oedd hefyd yn bleidiwr mawr i freiniau y goron; yn golofn gadarn i'r gyfraith; ac yn unig awdwr o hawliau y brenhin, cyfreithiau Lloegr, a rhyddid y bobl, pan fyddent yn cael eu sarnu dan draed, gan ddynion aflonydd a dibris." Dygodd amryw lyfrau bychain allan drwy y wasg, tri ar ddeg o ba rai a adargraphwyd yn un gyfrol ddeuddegplyg yn 1648; a thrachefn yn 1681 a 1683, o dan yr enw "Gweithiau y Barnwr Jenkins." Bu farw yn Mhontfaen, Morganwg, Rhagfyr 6, 1648, yn 82 mlwydd oed, a chladdwyd ef y tu gorllewinol i'r eglwys yno.

**JENKINS**, Dr. Jenkin, oedd athraw athrofa Caerfyrddin, a gweinidog Heol Awst yn y dref honno. Nid oes ond ychydig o hanes dyddiau boreuol y gwr hwn ar gael. Tebygol yw, mai efe oedd y Jenkin Jenkins, a urddwyd yn Llanuwchlyn, sir Feirionydd, yn y flwyddyn 1747, yn ol dyddlyfr y Parch. P. Puw, Llwynpiod; ac iddo symud oddiyno i Lanfyllin, ac ar waith y Parch. E. Davies yn ymadael ag athrofa Caerfyrddin yn 1758, dewiswyd Dr. Jenkins o Lanfyllin, i fod yn athraw clasurol ar ei ol; ac ar farwolaeth Mr. S. Thomas, ei gyd-athraw, yn 1766, Dr. Jenkins oedd yr unig athraw, a gweinidog yn Heol Awst. Ond pan wrthododd gymeryd un i'w gynorthwyo yn yr athrofa, anfodd-

Digitized by Google

lonodd ei gyfeillion tu ag ato, a symudodd yntau i Lundain, yn y flwyddyn 1775, lle y gorphenodd efe ei dymor daearol mewn byr amser wedi hyny. Dywedir am dano, ei fod yn ysgolhaig rhagorol, a'i fod yn teilyngu canmoliaeth uchel fel y cyfryw; ond am ei egwyddorion a'i ymddygiadau gweinidogaethol, nid oedd yn teilyngu dim. Yr oedd yn Ariad proffesedig, os nad oedd rywbeth yn mhellach. Aeth allan o'r athrofa yn ei amser ef a'i gyd-athraw, ag oedd o'r un farn ag yntau, o'r flwyddyn 1759 hyd 1779, nifer mawr o wyr ieuaingc, ag oeddynt yn ysgolheigion ardderchog; ond ni sefydlodd dros bedwar neu bump o honynt oll, fel gweinidogion ar eglwysi Cymreig uniongred. Sefydlodd y mwyafrif o honynt yn Lloegr, fel gweinidogion Ariaidd, ac aeth rhai at alwedigaethau bydol. Dywedir i anfoesoldeb gynnyddu yn mysg yr efrydwyr i raddau mawr yn yr amser hwnw. Yr enwog David Davies o Gastellhowel, a gwynai ei fod wedi colli y rhan fwyaf o'i argraphiadau difrifol yn ysdod ei amser yn yr athrofa. Dywedai un hen wr yn Llanfyllin, wrth y diweddar Barch. D. Morgan, fod ei dad, a'i daid, yn pregethu i'r eglwys yno, a bod yr achos yn dra blodeuog a llewyrchus yn Llanfyllin, cyn dyfodiad Dr. Jenkins yno; ond trwy ei weinidogaeth ddi-Grist, a'i ymddygiadau ysgafn, iddo ef a'i ganlynwyr nesaf ato, fod y peth nesaf at gau drws yr addoldy i fynu, gan nad oedd neb yn dyfod iddo. Yr amser hwn, pan yr oedd y fath wyriad yn marn a golygiadau athrawon athrofa Caerfyrddin yn nghylch athrawiaethau yr efengyl, ymneillduodd yr Annibynwyr oddi wrthi, a gosodasant athrofa i fynu yn y Fenni, o dan olygiad un Mr. Jardine, yr hwn oedd yn weinidog yn y dref honno.

**JENKINS**, John, Rhydgwilym, ydoedd weinidog hynod gyda'r Bedyddwyr yn yr amser erlidigaethus o dan Charles II. ac Iago II. Efe ydyw y 7fed yn rhestr gweinidogion Rhydgwilym. Ganwyd ef yn mhlwyf Cilmaenllwyd, swydd Gaerfyrddin, yn 1656. Dywedir ei fod cyn ei ddychweliad yn wr tra gwyllt, gan ddilyn chwareuaethau a champau yr oes; ond i ras Duw wneyd ynddo y fath gyfnewidiad, nes daeth yn hynod am ei bwyll a'i ddichlynder, ac i enill parch a chymeriad anghyffredin yn mysg y rhai a fuasent dystion o'i afreolaeth gynt. Bedyddiwyd ef yn y flwyddyn 1677, pan yn 21ain oed; ac ymaelododd yn Rhydgwilym, yr hon eglwys, oedd ar y pryd hwnw, a'i haelodau yn wasgaredig dros 38 o blwyfau. Dechreuodd bregethu yn fuan, a daeth yn egniol iawn yn ngwaith ei Arglwydd, gartref ac oddi cartref; a chafodd ei ran yn helaeth o'r amseroedd blinion, y rhai a derfynasant mewn sefydliad rhyddid cydwybod trwy gyfraith, yn 1689.

Gyda bod ystorm erlidigaeth y llywodraeth yn myned heibio, dechreuodd yr Annghydffurfwyr ag erlid eu gilydd. Cyfododd dadl ffyrnig ar fedydd, rhwng yr Annibynwyr a'r Bedyddwyr, yn swydd Benfro; ac ar ol llawer o ddadleu, penderfynwyd bod i'r ddwy blaid bregethu ar y pwnc, mewn lle a elwir Penylan; pregethodd John Thomas gweinidog yr Annibynwyr, ar fedydd plant, a John Jenkins Rhydgwilym, ar fedydd y crediniol. Cymerodd hyn le yn 1692, deugain mlynedd yn gywir ar ol y ddadl fedydd a gymerasai le yn eglwys blwyfol Abergafeni; a'r canlyniad fu i'r Annibynwyr ddymuno ar Samuel Jones, Brynllywarch, i ddyfod allan i amddiffyn bedydd plant; ond gan iddo ef wrthod, neidiodd ei ddysgybl, James Owen, Croeswallt, i'r adwy, a chyhoeddodd lyfryn, yn 1693, dan yr enw "*Bedydd Plant o'r Nef;*" yr hwn a atebwyd gan B. Keach, mewn llyfryn o'r enw "*Goleuni wedi tori allan yn Nghymru.*"

Efe oedd un o weinidogion cyntaf y Bedyddwyr a dderbyniodd gynorthwy o Drysorfa Llundain. Cymerodd hyny le yn 1718. Bu farw Gorph. 3, 1733, yn 77 oed, a chladdwyd ef yn mynwent Rhydgwilym, lle mae maen a choffa ar ei fedd.

Gadawodd gyfrol o'i bregethau a'i fyfyrdodau, y rhai a ysgrifenasai efe yn amser yr erlidigaeth, ar ei ol mewn llawysgrifen, o dan ofal un William Herbert, yr hwn a roddodd i'r llyfr yr enw Saesneg—"*A Golden Grove in a Stormy Day; or Saints' Cordial in Persecuting Times.*" Mab iddo ef oedd Evan Jenkins, Gwrecsam.

**JENKINS**, John, M.A., ydoedd ficer Ceri, yn sir Drefaldwyn, a anwyd mewn lle a elwir Cilbronau, gerllaw Aberteifi. Yr oedd yn hynaf o bump o frodyr. Dechreuodd ei addysgiaeth yn Nghaerfyrddin. Pan oedd ychydig dros ddeunaw oed, aeth i Goleg yr Iesu, yn Rhydychain. Wedi hyny symudodd i Goleg Merton. Wedi cymeryd ei raddio yn y celfyddydau, a chael urddiad eglwysig, gwnaed ef yn gaplan ar fwrdd y "Thesus," yn y llynges freiniol. A chan fod rhyfel chwyldroadol Ffraingc y pryd hwnw yn ei danbeidrwydd mwyaf, sefydlwyd ef dros amryw flynyddau yn hinsawdd ddifaol yr India Orllewinol, lle byddai y dwymyn felen ar dymhorau yn gwneuthyr galanasdra arswydus yn mysg morwyr y llynges. Yn yr amgylchiadau hyny, er mwyn cynal ei feddwl i fynu, rhag suddo yn wyneb y golygfeydd galarus, byddai yn difyru ei hun, drwy ganu a chwareu rhai o hen ganiadau ei wlad ar y crwth. Ond er iddo felly ddiangc o afaelion yr heintiau, teimlai effaith yr hinsawdd boeth yn tueddu i'w nychu. Ar ol dychwelyd i Loegr, bu am ryw ysdod yn gweinyddu curadiaeth Ynys Wyth, ac hefyd fel cenhadwr neu gaplan St. John, Newfoundland. Eithr fel yr oedd ei ymddygiadau teilwng, tra y bu gyda'r llynges, wedi enill iddo barch a hoffder ei lyngesydd, arglwydd Radstock, bu y pendefig hwnw yn foddion i'w ddwyn i sylw Dr. Burgess, esgob Ty-Ddewi, ac yn fuan rhoddodd yr esgob iddo un o'r bywiolaethau goreu oedd dan ei awdurdod, sef ficeriaeth Ceri, yn sir Drefaldwyn, yr hon a ddaethai yn rhydd trwy farwolaeth y Parch. Joseph Carless. Adgyweiriwyd y ficerdy trwy ddylanwad Mr. Jenkins. Daeth yno yn haf 1808, a mynodd weled yr holl adeiladau mewn trefn. Priododd ag un oedd yn ymgeledd gymhwys iddo, merch i'r diweddar Barch. Edward Jones, Aberrhiw. Ni bu cysylltiad mwy dedwydd am a barhaodd, yr hyn na bu yn hir. Enillodd iddo ei hun radd dda yn ngolwg yr holl wlad; ac nid hir y bu heb gael ei benodi yn un o hedd-ynadon y sir. Yr oedd efe hefyd yn un o gor-beriglioriaid Caerefrog ac Aberhonddu, ac yn gaplan i'r Dug Clarence, a deon gwladol Maelienydd. Y mae y darluniad canlynol o hono, a gyhoeddwyd wedi ei farwolaeth, yn deilwng o le yn y talfyriad yma:—"Yn y gwahanol ganghenau o'i ddyledswyddau, yn holl gylchoedd cymdeithasol ei fywyd, bu yn hynod o gymeradwy. Fel priod a thad, mab a brawd, yr oedd ei ymddygiad yn gyson mewn caredigrwydd. Gwrandawai gwyn y tlawd, ac ymddygai yn dirion tu ag ato. Gan fod ei holl galon yn ei swydd weinidogaethol, yr oedd yn ffyddlon a di-ball yn ei gyflawniadau; a byddai

Digitized by Google

ei ymweliadau mewn achos o afiechyd neu henaint, yn barod ac adeiladol. Yr oedd wedi ei enwogi ei hun am ei ymdrechion llenyddol. Yr oedd yn addfwyn yn ei foesau, yn hynaws yn ei ymddygiadau, yn ddiysgog yn ei amcanion, ac yn ffyddlon i'w addewidion. Byddai ei dy yn agored bob amser i dderbyn cyfeillion, a'i galon mor agored i'w croesawu. Yr oedd yn ynad cywir a chyfarwydd, yn weinidog ffyddlon a chydwybodol. Yr oedd y teimlad galarus ar ei ol, yn ddwfn a chyffredinol." Yn ei dy ef, yn y flwyddyn 1817, y cynlluniwyd modd i adfywio yr eisteddfodau yn Nghymru, a meithrin talentau naturiol y genedl. Tua dyddiau y Nadolig, byddai Mr. Jenkins yn agor ei ystafelloedd i groesawu ei gyfeillion llenyddol a barddonol, ar gynllun boneddion yr hen amser gynt. Yn 1821, cynaliwyd un o'r gwyliau hyn o Ionawr 8fed hyd y 12fed, lle y gwelid meithrinwyr barddoniaeth, cerddoriaeth, a llenoriaeth y genedl, mewn cynadleddau adeiladol a difyrus, gyda y bwriad o dderchafu cymeriad eu gwlad a'u cenedl, ac yn cynnyrchu gweithrediadau, na anghofir mo honynt ar fyrder yn y Dywysogaeth. Tua mis Tachwedd, 1829, fel y mae yn alarus coffa, goddiweddwyd ef gan anhwyldeb blin, yr hwn a gynnyddodd mor drwm, fel y diflanodd dan ei arteithiau ar yr 20 o'r mis hwnw, er galar i'w holl adnabyddwyr. Yr oedd plwyfolion Ceri yn teimlo eu hunain fel amddifaid; ac ar ddydd ei angladd, dangosasant hyny, yn Ymneillduwyr ac Eglwyswyr yr un modd. Yr oedd y cynulliad yn yr eglwys y Sabbath wedi ei gynhebrwng, yr arddangosiad arbenig o hiraeth a galar. Traddodwyd pregeth dra phriodol i'r amgylchiad, gan y Parch. G. A. Evans. Yr oedd y cantorion medrus ar y "Vital Spark," a'u teimladau yn rhy ddrylliedig, i gael y telynau i'w hwyl! Y mae enw Ifor Ceri, fel per-arogl drwy holl Gymru ben-baladr hyd y dydd hwn!

**JENKINS**, Joseph, D.D., ydoedd fab i Evan Jenkins, gweinidog y Bedyddwyr yn Ngwrecsam, ac wyr i John Jenkins, Rhydgwilym. Ganwyd ef yn Ngwrecsam yn 1743. Derbyniodd elfenau ei ddysgeidiaeth o dan Dr. Walker yn Llundain; a phan yn ddeunaw oed derbyniwyd ef i Goleg y Brenin, Aberdeen, yn un o ddau ysgolor Dr. Ward, Llundain; lle y cyrhaeddodd y radd o A.C. yn 1765. Dywedir ei fod ar ei ddyfodiad o'r athrofa, yn hynod o anmhenderfynol yn ei syniadau crefyddol, ond pa fodd bynag, gyda'r Bedyddwyr y bwriodd ei goelbren, a bu bwriad unwaith ei gael yn athraw i athrofa Caerodor; ond yn Ngwrecsam yr ymsefydlodd efe, lle yr ordeiniwyd ef yn 1778.

Wedi bod yno yn llwyddianus am ugain mlynedd, efe a symudodd i Walworth, ger Llundain, Ebrill 19, 1798. Yr oedd erbyn hyn wedi cael ei raddio yn D.D., ac wedi dyfod yn awdwr amryw lyfrau galluog a darllenadwy; yn mysg pa rai, nodwn y "*Discourses on Select Passages of Scripture History;*" "*A Defence of the Baptists against the Aspersions and Misrepresentations of Mr. Peter Edwards;*" "*The Love of the Brethren,*" &c.; "Pregeth ar yr achlysur o chwythiad arswydus Powdr-gwn yn Nghaerlleon Gawr," yr hon a gyfieithwyd i'r Gymraeg gan Benjamin Evans o Lanuwchllyn. A gadawodd ar ei ol mewn llawysgrifen, ddigon o bregethau i wneyd dwy neu dair cyfrol. Bu farw Chwefror 21, 1819, yn 76 oed.

**JENKINS**, Syr Leoline, a anwyd yn mhlwyf Llantrisaint, yn sir Forganwg. Mab ydoedd i Jenkin Llewelyn, rhydd-ddeiliad parchus, ac a addysgwyd mewn ysgol Ramadegol yn Mhontfaen, o'r lle y symudwyd ef i Rydychain, yn un ar bymtheg oed, ac a dderbyniwyd yn aelod o ysgol yr Iesu, yn 1641. Ar doriad allan y gwrthryfel, cymerodd arfau, gyd ag eraill o'r myfyrwyr, ar ochr y brenhin. Ymneillduodd wedi hyny i Forganwg, lle y gweinyddai fel athraw i fab Syr John Aubrey, yn Llantryddyd, lle yr oedd noddfa y pryd hwnw i freiniolwyr erlidiedig; ac yma efe a gafodd gyfeillgarwch amryw gymeriadau o enwogrwydd, yn mhlith y rhai yr oedd y Dr. Frewyn, archesgob Caerefrog, a Dr. Sheldon, a ddaeth wedi hyny yn archesgob Caergaint. Wedi cael ei orfodogi i adael y deyrnas, efe a ymdeithiodd dros dair blynedd, gydag amryw efrydwyr, trwy Ffraingc, yr Almaen, a Holland, drwy yr hyn y daeth i adnabyddaeth helaeth o ieithoedd y parthau hyny. Ar yr adferiad, dychwelodd i athrofa yr Iesu, ac efe a etholwyd i ysgoloriaeth, ac yn fuan wedi hyny, ar waith y Dr. Mansell yn rhoddi ei swydd i fynu, dewiswyd ef yn unfrydol i fod yn brif athraw yno, ac yr oedd yn ddiweddar wedi cymeryd yr urddradd o D.C.L. Ar doriad allan y rhyfel â'r "Isellmyn," yn 1664, penodwyd ef yn gynorthwywr i Dr. Exton, barnwr y filwriaeth, o herwydd ei wybodaeth drwyadl o'r gyfraith wladol, a morwrol; ac ar farwolaeth Dr. Exton, efe a benodwyd yn unig farnwr, yn mha swydd y mae ei gynghorion a'i benderfyniadau mewn bri mawr hyd y dydd hwn. Yn 1668, yn unol a dymuniad neillduol y brenhin Siarl II., efe a benodwyd gan archesgob Caergaint, i olynu Dr. Meurig, fel prif ynad yn llys breintiol Caergaint. Yn y flwyddyn ganlynol, cafodd ei dderchafu yn farchog, fel cydnabyddiaeth o'i fedr mewn negeswriaeth yn llys Ffraingc, er adfeddianu eiddo oedd yn perthyn i Henrietta Maria, y frenhines, gwraig Siarl I., yr hwn y cymerid meddiant o hono, ar ei marwolaeth hi, gan ei nai, Louis XIV. Ei benodiad nesaf ydoedd, i fod yn un o'r goruchwylwyr dros Loegr, i gytuno a'r rhai a awdurdodwyd o'r Alban, i ystyried rhyw gynnygion er uno y ddwy deyrnas. Etholwyd ef i gynrychioli Hythe yn y Senedd, un o'r Pum Porthladd, yn 1671, ac yn 1673, wedi rhoddi i fynu ei swydd yn athrofa yr Iesu, efe a benodwyd i weinyddu mewn cyngrair yn Cologne, fel llys genhadwr, gyd âg eraill, i gytuno ar delerau heddwch, ond wedi gwneud amryw geisiadau aflwyddianus i'w sicrhau, dychwelodd i Loegr yn y flwyddyn ganlynol. Yn Rhagfyr 1674, penodwyd ef yn un o gyfryngwyr cytundeb yn Nimeguen, mewn cydweithrediad â Syr William Temple. O Nimeguen, efe a benodwyd yn llys genhadwr i Hague, ac wedi aros yno am ychydig amser, y dychwelodd i Nimeguen, ac y llwyddodd yn y diwedd i derfynu yr holl ddadleuon yn foddhaol. Yn 1679, dychwelodd i Loegr, ac etholwyd ef yn un o gynnrychiolwyr y brif athrofa yn Rhydychain. Yn 1680, efe a dyngwyd i mewn yn un o'r cyfrin-gyngor, ac a benodwyd yn ysgrifenydd y llywodraeth. Daliodd y swydd bwysig honno am bedair blynedd, a hyny ar amser o anhawsderau mawrion, pan y galwodd sefyllfa anmharus ei iechyd ef, i roddi ei swydd i fynu. Wedi ei ethol drachefn yn aelod dros y brif athrofa yn Rhydychain, efe a dyngwyd yn un o'r cyfrin-gyngor, ar ddyfodiad Iago II., i'r goron. Gwaelodd ei iechyd drachefn, a bu farw Medi 1, 1685, a chladdwyd ef yn nghapel Coleg yr Iesu, lle y mae bedd-argraff Lladin, o gyfansoddiad ei gyfaill Dr. Fell, esgob Rhydychain, ar ei

Digitized by Google

fedd, yn mynegi am ei ragoriaethau a'i ddyrchafiadau parhaus, ac yn terfynu gydag ymadrodd, bron yn ei osod allan fel ail-sylfaenydd Coleg yr Iesu. Ni bu yn briod, a chyflwynwyd ei holl etifeddiaethau at ddybenion haelfrydig; ond cyflwynodd y rhan fwyaf, i fyned ar ei farwolaeth, at yr athrofa, yr hon a addurnodd. Casglwyd a chyhoeddwyd ei holl lythyrau, yn ddwy gyfrol yn 1724, dan yr enwad o'i "Weithiau," gan W. Wynne, Ysw., yr hwn a'i rhagflaenai a bywgraphiad o hono.

**JESSOP**, Constantine, ydoedd ysgrifenydd dadleuol nerthol; mab i John Jessop, clerigwr o sir Benfro. Yn y flwyddyn 1624, aeth i Goleg yr Iesu, yn Rhydychain; y pryd hwnw yn ddwy ar hugain oed; symudodd oddi yno i Goleg y Drindod, yn Dulyn, lle y derbyniodd y graddiad o B.A. Dychwelodd i Rydychain yn 1631, a derbyniodd y radd o M.A. yn y flwyddyn ddylynol; yr oedd y pryd hwnw mewn urddau eglwysig. Pan dderchafwyd yr Henaduriaid i anrhydedd y llywodraeth, yn 1641, unodd a'r blaid honno, a chymerodd y llw cyfamodol. Wedi gwneud hyn, dylynodd y Parch. Dr. Owen yn ngweinidogaeth Coggeshall, yn Essecs, a symudodd oddiyno i Winbourne Minster, sir Dorset, lle y bu yn gynnorthwy i'r dirprwywyr, yn 1645, er troi allan y gweinidogion a'r ysgolfeistriaid anwybodus a gwarthus oeddynt mewn gwasanaeth.

**JOHN** (St.) gerllaw Abertawe, sydd blwyf yn nosparth Abertawe, sir Forganwg; yn gyfagos i orsaf Rheilffordd Abertawe, ac o fewn terfynau de orllewinol bwrdeisdref Abertawe. Llythyrfa, Abertawe. Erwau, 431. Gwerth ardrethol 4287*p.* Poblogaeth yn 1851, 1215; yn 1861, 2738. Tai, 538. Yr oedd y faenoriaeth yn perthyn i Farchogion *St. John*. Claremount ydyw palas Syr John A. Morris, Barg. Y mae y rhan fwyaf o'r plwyf yn cael ei gymeryd i fynu gan y gwaith efydd, a glo, gyda y tai perthynol iddynt. Y mae y fywiolaeth yn ficeriaeth, yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth 100*p.*, ac yn nhadogaeth H. H. Vivian, Ysw. Nid yw yr eglwys ond bechan, wedi ei chodi ar y lle yr oedd capel Marchogion St. Ioan.

**JOHN** (St.), neu St. Ioan yr Efengylydd, ydyw yr enw ar eglwys Aberhonddu. Yr oedd ar y cyntaf, yn eglwys priordy y "Benedictine," a ail-adeiladwyd ac a helaethwyd yn y drydedd ganrif ar ddeg, ac a gyfnewidiwyd mewn graddau mawr wedi hyny. Gwel Aberhonddu, neu Brycheiniog.

**JOHNES**, Thomas, ydoedd ddisgynydd o deulu henafol yn sir Aberteifi. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1748. Derbyniodd ei ddysgeidiaeth yn Eton, a Choleg yr Iesu yn Rhydychain, lle y derbyniodd yr urdd-radd o M.A. Gan ei fod yn berchenog ar etifeddiaeth yr Hafod, yr hon a ddaeth iddo mewn cyflwr diffaeth, cyflwynodd ei amser a'i gyfoeth i'w hammaethu. Cyn y flwyddyn 1783, pan ddechreuodd adeiladu ei balas, yr oedd y ffyrdd yn y fath sefyllfa, fel yr oedd yn anhawdd eu tramwy, ac ansawdd gwrteithiad yn isel iawn. Yn fuan iawn newidiodd wedd yr aneddau ar ei etifeddiaeth. Tynodd i lawr yr hen fythynod, a chododd aneddau cysurus yn eu lle. Rhoddodd y werin mewn gwaith i blanu coed ar lechweddau y mynyddoedd diffrwyth, fel yr oedd yr holl derfynau fel creadigaeth newydd. I'r dyben o wellhau trefn amaethyddol y lle, dygodd nifer o amaethwyr medrus drosodd o'r Alban, a manau eraill; a ffurfiodd gymdeithas amaethyddol, gan roddi gwobrwyon i'r gweithwyr, a phrynu eu cynnyrchion amaethyddol. Argraphodd draethodau bychain rhagorol, er dwyn ei amcanion o amgylch; Enw un llyfr oedd, "A Cardiganshire Landlord's Advice to his Tenants," neu, "Cyfarwyddyd tir-feddianydd yn Ngheredigion i'w ddeiliaid." Pan yr oedd fel hyn yn defnyddio ei dalentau a'i gyfoeth er lleshau y wlad, syrthiodd ei balas ardderchog, yr Hafod, yr hwn oedd wedi ei addurno yn y modd goreu, a'i gyfoethogi a'r dodrefn, a'r llyfrgell gwerthfawrocaf, yn aberth i'r elfen dân! Bu hyn, Mawrth 13, 1807, a chyfrifid y golled tua 70,000*p.* Er y trychineb ofnadwy hwn, nid hir y bu heb adeiladu ac addurno y lle drachefn. Yr oedd Mr. Johnes hefyd, yn egniol iawn yn y gwaith o ddiwyllio llenyddiaeth. Dygodd allan argraphiad hardd o "Groniclau Froissart," yn bedair cyfrol unplyg; "Teithiau La Broigntoin," yn gyfrol pedwar plyg; "Croniclau Monstrellet," yn bedair cyfrol, ac eiddo Joinville, yn ddwy gyfrol bedwar plyg; y rhai a gyfieithodd oll ei hun o'r Ffrancaeg; ac argraphwyd y tri olaf yn ei wasg ef ei hun yn yr Hafod. Yn ystod ei flyneddau olaf bu yn ddiwyd a llafurus iawn yn ei welliannau cyffredinol, yn enwedig mewn gwneuthyr ffyrdd a phontydd at wasanaeth y wlad. Cafodd ei ethol yn aelod seneddol dros fwrdeisdref Aberteifi; ac wedi hyny dros sir Faesyfed. Bu hefyd yn Brofiadur (*Auditor*), i Gymru; ac yn ben-catrawd ar filwyr sir Gaerfyrddin; ac yn arglwydd Raglaw Ceredigion. Bu farw Ebrill 23, 1816, yn 67 mlwydd oed.

**JOHNSTON**, sydd blwyf yn nosparth Hwlffordd, yn sir Benfro, ger y rheilffordd a elwir y "South Wales," 4¾ milltir, de orllewin, o Hwlffordd. Y mae gorsaf yn perthyn i'r lle ar y rheilffordd, a llythyrfa dan Hwlffordd. Erwau, 1293. Gwerth ardrethol, 1026*p.*; o'r hyn y mae 100*p.* mewn mŵnau, a 60*p.* mewn cloddfeydd. Poblogaeth, 275. Tai, 66. Yr oedd Johnston Hall, gynt yn breswylfod Arglwydd Kensington, ond y mae yn awr yn feddiant i'r Parch. James Morgan. Y mae y fywiolaeth yn berigloriaeth, unedig â ficeriaeth Steynton, yn esgobaeth Ty-Ddewi; gwerth 322*p.*, ac yn nhadogaeth yr arglwydd Gangellydd. Y mae yr eglwys yn adeilad henafol.

**JOHNSTOWN**, sydd aden o dref Caerfyrddin, gyda Llythyrfa dan y dref honno.

**JONES**, Abraham, Aber-rhaiadr, oedd fab i John Jones, amaethwr cyfrifol, oedd yn byw mewn tyddyn a elwir Llechwedd, yn mhlwyf Tref eglwys, yn sir Drefaldwyn. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1775. Yr oedd yn ei ddyddiau boreuol, fel llawer o ieuengctid eraill, yn lled anystyriol a gwageddus. Yr oedd yn hoff o wag arferion ei gyfoedion, pan y gallai fwynhau hyny yn absenoldeb ei rieni; er yr ymgadwai rhag ymollwng i arferion gwarthus iawn. Cafodd ei ddwyn i fynu yn wrandawr y gair, ond ni chafwyd arwyddion fod y gwirionedd a wrandawai yn effeithio nemawr arno, hyd nes y daeth tuag un ar hugain oed. Yn ngauaf 1796, daeth y gweinidog tanllyd, Robert Roberts o Glynog, sir Gaernarfon, i bregethu yn y gymydogaeth, ac aeth yntau i wrando; a chafodd y bregeth honno effaith tra dwys ar ei feddwl, ac mewn canlyniad, ymwrthododd yn gwbl oll a'i hen gyfeillion, ac ymwasgodd at ddysgyblion y Gwaredwr oedd yn ymgynull i addoli yn y gymydogaeth, ac ymunodd a'r Trefnyddion Calfinaidd. Gan ei fod yn wr ieuangc parchus, ac o wybodaeth helaeth, bywyd dichlynaidd, a dawn barod, neill-

Digitized by Google

duwyd ef i flaenori yn yr eglwys, yn 1798, pan nad oedd ond dwy flwydd oed mewn proffes. Yn ngwanwyn 1802, oddiar ystyriaeth o gyflwr y byd, teimlai duedd i gynghori pechaduriaid, a theimlai y geiriau hyny yn ddwys ar ei feddwl, "Yna y rhai oedd yn ofni yr Arglwydd, a lefarasant bob un wrth ei gymydog; a'r Arglwydd a wrandawodd ac a glybu," &c. Yn ngrym y geiriau hyn, gyd ag anogaeth ei gyfeillion, dechreuodd bregethu gyda gwylder mawr, a'i destyn cyntaf oedd y geiriau a grybwyllwyd, ac yr oedd yr effeithiau yn anogaethol iddo fyned rhagddo yn fwy cyhoeddus. Yn Ionawr, 1807, symudodd i fyw i Lanfyllin, trwy briodi â gweddw, yr hon oedd yn wraig grefyddol, o'r enw Mrs. Jane Jones, ac mewn masnach yn y dref. Yn mhen rhyw ysbaid, wedi myned yno i fyw, pan yr oedd yn dychwelyd o'i daith Sabbathol, ar ddydd Llun y Pasg, o fewn llai na milltir i'r dref, gwelai dorf o bobl wedi ymgasglu i edrych ar ychwareu a elwid "Interlude," er na welsai y fath beth o'r blaen; dim ond yn unig clywed am dano. Pa fodd bynag, wedi dyfod i'r lle, anturiodd i'w rhybyddio am eu hynfydrwydd a'u hannuwioldeb, a bu y traddodiad gyda y fath nerth a dylanwad, fel y chwalodd y cyfan, ac yr ymwasgarodd y dorf a'r chwareuwyr. Wrth eu gweled yn dychwel mor fuan, gofynodd rhai yn y dref iddynt, pa fodd y daethent yn ol mor fuan; ac atebodd un o honynt, "Yr Abraham Jones yna a ddyrysodd y chwareuyddiaeth." Gofynwyd drachefn, "Pa fodd y gallodd ef eu dyrysu?" A'r atebiad oedd, "O, ni chlywsoch chwi erioed fel yr oedd o yn gweddio." Erbyn iddo gyrhaedd adref, teimlai ei hun yn lled glaf, gan yr effeithiau. Yn Nghymdeithasfa y Bala, Mehefin, 1823, neillduwyd ef i gyflawn waith y weinidogaeth. Yr oedd ei atebion wrth ei urddo, yn ysgrythyrol, goleu, cedyrn, byrion, a hynod o gynnwysfawr, ac yn foddhaol gan bawb. Yn 1830, symudodd i fyw i dyddyn o'r eiddo ei hun, a elwir Aber-rhaiadr, yr hwn sydd o fewn milltir i Lanrhaiadr-yn-Mochnant, lle yr arhosodd nes gorphen ei daith, a'i lafur. Yn 1830, aeth ar ddymuniad y Gymdeithasfa, i Lundain, i weinyddu i gynulleidfa o'r Cymry yn "Jewin Crescent;" a bu ei weinidogaeth yno yn dra defnyddiol. Yr oedd hyd yn hyn wedi mwynhau iechyd da; ond yn y gauaf, ar ol ei ddychweliad o Lundain, bu yn glaf iawn, ac agos i angau, yn ei olwg ei hun, ac eraill. Yn 1840, yr oedd ansawdd ei iechyd eto yn gwanhau, ond er hyny yr oedd yn gallu myned o amgylch, a phregethu, a bu yn pregethu dair gwaith y Sabbath blaenorol i'w ddatodiad. Bu farw Mai 10, 1840. Dydd Gwener canlynol, ymgynhullodd torf luosog i hebrwng ei gorph i orphwys yn mynwent Llanfyllin. Teithiodd lawer i bregethu yr efengyl, trwy Ogledd a Deheubarth Cymru, a threfydd Lloegr. Bu amryw weithiau yn cyd-ymdaith a'r Parch. John Elias, o Fon, yr hwn oedd yn dra hoff o hono; a choffhaodd am dano yn Nghymdeithasfa Dinbych, Mehefin, 1840, yn y geiriau canlynol:—"Cyd-deithiais lawer a'r brawd Abraham Jones, buom gyda ein gilydd amryw weithiau yn y Deheudir, ac yr wyf yn tystio na welais yr un pum mynud arno erioed, yn anweddus i Gristion. Yr oedd yn hynod am ei weddeidddra yn mhob lle yr elai. Lletyem weithiau yn nhy boneddwr, a phryd arall mewn ty isel a thlawd; ond yr oedd ef yr un mor weddaidd yn y ddau. Ni welais un achos i ddywedyd wrtho yn un man, na chyda dim, ei fod ef wedi colli ei le."

**JONES,** Basset, a anwyd o deulu cyfrifol yn sir Forganwg. Daeth yn aelod o Goleg yr Iesu yn Rhydychain, yn y flwyddyn 1634. Wedi hyny ymdeithiodd lawer ar y Cyfandir, ac astudiodd physygwriaeth a fferylliaeth; yna dychwelodd wedi bod yn y gwledydd hyny am rai blyneddau, ac argraphodd yn Rhydychain, yn llyfr wythplyg, ei *Lapis chemicus philosophorum examini subjectus.*" Ei waith dylynol oedd, "*Hermælogium*," neu draethawd ar Hybwylledd, y gelfyddyd o ymadroddi, fel adchwanegiad i ramadeg Lily. Y mae y llyfr hwn yn cael ei gymeradwyo i'r darllenydd fel llyfr rhesymiadol, gan Will. Du Gard, athraw yn ysgol y "Merchant Tailors."

**JONES,** Daniel, Llandegai, yn sir Gaernarfon, ydoedd weinidog perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd. Ganwyd ef yn 1780. Yr oedd ei dad yn byw yn y Maesmawr. Yr oedd yn un o bleidwyr crefydd, fel y gellir gweled wrth ei waith yn rhoddi haner gini am gael caniatad i Thomas Hughes, Mochdref, bregethu yn mhentref Llanllechid. Yr oedd yr enwad uchod yn arfer pregethu yn nhy hen gynghorwr o'r enw John Williams, ac unodd Daniel a'r frawdoliaeth yno, pan yr oedd tu ag un ar bymtheg oed. Dechreuodd bregethu yn 1800, pan oedd yn ugain oed, a pharhaodd yn ffyddlon hyd ei farwolaeth. Neillduwyd ef i'r weinidogaeth yn y Bala, yn 1823. Nid oedd odid bregethwr yn Nghymru yn fwy adnabyddus na Daniel Jones. Teithiodd lawer trwy bob rhan o Gymru, am tua haner canrif. Yr oedd ei weinidogaeth o duedd daranllyd, a bygythiol iawn. Cyfeiriai lawer o'i rybuddion at yr ieuaingc, ac yr oedd hynodrwydd ei genadwri, a'i ddull, yn tynu gwrandawiad lluosog iawn pa le bynag yr elai. Yr oedd yn gwisgo syll-wydrau, a gwedd welw, ddifrifol, ei law ar ei glust, ei wddf yn lleisio yn gaeth, eto ei ddawn ymadrodd yn ddedwydd, ac yr oedd felly yn dra effeithiol yn ei anerchiadau, nes y byddai yr anystyriol yn gwywo dan nerth ei sylwadau, am gosp yr annuwiol, y farn, a thragwyddoldeb; a bu yn offerynol i droi nifer mawr o'r rhai mwyaf dibris, o gyfeiliorni eu ffordd. Bu yn myned unwaith bob wythnos, am flwyddyn gyfan, dros fynydd uchel, i bregethu, wedi llafur ei ddiwrnod gwaith, ac yn ol adref cyn cysgu. Nid oedd ond meddyliwr bychan, ac nid oedd ei bregethau yn cynwys llawer, eto yr oedd bywyd a nerth yn ei ymadroddion. Gwanhaodd ei iechyd yn gyflym, a thynodd i ben y daith yn fuan wedi i'w gryfder gael ei anmharu. Yr oedd yn hiraethlon iawn am gymdeithas ei frodyr yn amser ei waeledd, a chafodd gyfnerthiad i fyned i'w cyfeillach y nos Fercher olaf cyn ei farwolaeth. Meddyliodd y pryd hwnw ei fod yn cael graddau o adferiad iechyd, ond ni pharhaodd y gobaith hwn ond ychydig, ac efe a hunodd yn yr Iesu, Mawrth 16, 1852. Claddwyd ef yn mynwent Llanbeblig, eglwys y plwyf y mae tref Caernarfon ynddo. Ymgynullodd tyrfa fawr i'w angladd, ac yn eu plith, gwelid nifer o weinidogion pob enwad, o bell ac agos. Traddodwyd pregethau ar yr achlysur yn hwyr y dydd, yn addoldy y Trefnyddion yn Nghaernarfon, gan y Parch. R. Owen, Rhos-tryfan; a chan y Parch. D. Jones, Caernarfon y Sabbath canlynol; ac hefyd gan y Parch. J. Phillips, Bangor. Yr oedd Daniel Jones wedi cyrhaedd yr oedran o 71 mlwydd.

**JONES,** Daniel, ydoedd weinidog y Bedyddwyr yn Nghaerffili, sir Forganwg. Ganwyd ef mewn amaethdy a elwid Hendy Solomon, yn mhlwyf Aber-

Digitized by Google

ystruth, sir Fynwy. Ni wyddir ond ychydig am hanes dechreuad ei fywyd crefyddol. Yr oedd yn arfer myned i'r ysgol Sabbathol, pan yn ieuangc. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig yn Hermon, Nantyglo, tua 1829, gan y Parch. J. Lewis, Llanwenarth. Yr oedd ganddo gof anarferol o nerthol, ac adroddai ranau helaeth o'r ysgrythyrau gyda chywirdeb mawr. Wrth weled ei gynnydd mewn gwybodaeth, ei fedr mewn ymresymu, a'i ddawn mewn gweddi, rhoddodd yr eglwys anogaeth iddo ddechreu pregethu, ac yn 1835, cydsyniodd a'u cais, gyda meddwl gostyngedig a gwylaidd, a rhoddai y fath foddlonrwydd, fel y dywedai rhai o'r hen frodyr yn Nantyglo, "Dyma bregethwr o anfoniad Duw." Gweithiai ei ffordd yn mlaen trwy lafur caled yn ei orchwylion bydol, a phregethu y Sabbathau yn fynych i'r un gynulleidfa. Bu ei deulu ei hun yn lled wrthwynebus iddo ar y dechreu; ni chaniataent iddo ganwyll at ddarllen y nos, wedi ei lafur yn y dydd. O'r diwedd, er mwyn cael ymadael a'r gwrthwynebiad hwn, gadawodd dy ei dad, ac aeth i letya i dy y Parch. Thomas Bowen. Yr oedd yn pregethu yn fynych yr amser hwn yn yr eglwysi cymydogaethol, sef Blaenau Gwent, Salem, Blaenafon, Llanwenarth, &c. Yr oedd amryw bethau yn ei wneud yn boblogaidd, megis ei fychandra corphorol, ei olwg ieuengaidd, ei agwedd ddifrifol, gwres ei bynciau, ei lais soniarus, a'i ddawn doddiadol. Yr oedd cariad Duw, ac angau Calfaria, yn mhlith ei brif bynciau. Yn 1837, aeth ar daith, gyda y Parch. J. Jones, Merthyr, yr hyn a ail-enynai ei ddawn. Ar farwolaeth ei unig frawd, yr hwn oedd hŷn nag ef, daeth yn etifedd Hendy Solomon, a grybwyllwyd am dano yn barod. Yn mis Awst yr un flwyddyn, aeth i'r Coleg yn Mhont y pwl, a buan yr enillodd serch ei gyd-efrydwyr, a pharch ei athraw yno. Yn 1840, ar ei ymadawiad a'r coleg, derbyniodd alwad oddiwrth eglwys Llanddewi. Cydsyniodd a'r alwad, a dechreuodd ar ei lafur yno, Mai 31. Urddwyd ef, Mehefin 20, 1841. Byddai yn pregethu yno yn y ddwy iaith, a bu yn llwyddianus iawn. Yn 1843, priododd â Mary Lewis, merch Mr. Lewis, Ffawydden; a buont yn gysurus, tra parhaodd yr undeb. Yn fuan wedi hyn, symudodd i gymeryd gofal Soar, Henllys, ger Casnewydd. Ni bu yn llwyddianus yno; ac yn 1847, symudodd i Gaerffili, a chymerodd ofal yr eglwys yn Ton y felin, ond ni fu ei arosiad yno ond tair blynedd. Ychydig fisoedd cyn ei farwolaeth, cyfarfyddodd â phrofedigaeth drom, sef marwolaeth ei ddau blentyn yn yr un wythnos. Ymostyngai dan y dyrnod, a dywedai, "Mi a wn mai fy Nhad sydd wrth y llyw." Ar yr 11eg o Fehefin, cafodd yntau deimlo dyrnod angau, yn 35 mlwydd oed. Claddwyd ef yn mynwent Ton y felin, Caerffili. Yr oedd Mr. Jones yn meddu galluoedd meddyliol cryfion, ac o synwyr cyffredin eang. Yr oedd yn un ag oedd yn llanw ei holl gylchoedd yn gymeradwy, fel dyn, fel Cristion, fel priod, fel tad, fel pregethwr, ac fel cymydog.

**JONES**, David, periglor, neu yn hytrach, ficer Llanfair Dyffryn Clwyd, yn sir Ddinbych, oedd fardd enwog, a chasglydd diwyd o hen ysgrifau Cymreig, yn gystal ag fel gweinidog. Dywedir ei fod yn byw rhwng y blyneddau 1560, a 1590. Y mae ei gyfieithiad o un o odlau Taliesin i'r Lladin, wedi ei argraphu yn *Bardic Museum*, Jones, Bardd y Brenhin. Y mae llawer o'i gyfansoddiadau barddonol wedi eu cadw mewn llawysgrif.

**JONES**, David, a anwyd yn Cwm-gogerddan, yn mhlwyf Caio, sir Gaerfyrddin, yn y flwyddyn 1710; lle y parhaodd i gyfaneddu hyd amser ei ail briodas, pan y symudodd i Hafod-dafolog, yn mhlwyf Llanwrda, yn yr un sir. Cafodd gyda ei ail wraig saith o ferched; bu yr olaf o honynt farw yn 1848, mewn oedran teg. Yn ychwanegol at amaethu ei dyddyn, arferai David Jones fasnachu mewn gwartheg, drwy yr hyn y dywedir iddo gasglu cyfoeth mawr. Bernir iddo farw tua 1777, yn 67 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn Mynwent capel yr Annibynwyr, yn Crug-y-bar. Y gwaith drwy ba un y mae ei enw wedi dyfod yn fwyaf hysbys yn Nghymru, ydyw ei gyfieithiad o Salmau ac Emynau Dr. Watts. Cyhoeddwyd ei argraphiad cyntaf o'i gyfieithiad o'r Salmau, yn 1753; a dilynodd ei gyfieithiad o'r Emynau, mewn ychydig flyneddoedd wedi hyny. Efe hefyd ydoedd Golygydd casgliad o Emynau, yn dair rhan, gyda'r teitl canlynol, "Difyrwch i'r Pererinion, o fawl i'r Oen, yn cynwys Hymnau ar wahanol destynau o'r Ysgrythyr Lan." Efe hefyd ydoedd Casglydd ac Awdwr amryw ganiadau a geir ar wahan, mewn amryw gasgliadau o farddoniaeth Gymraeg. Dywedir nad yw cyfansoddiadau *gwreiddiol* Dafydd Jones, y rhan fwyaf o ba rai sydd mewn emynau ar bynciau crefyddol, yn arddangos nemawr o ragoriaethau. Y mae y syniadau yn dda, ond y maent yn ddiffygiol o'r tân, a'r arddunedd, yn gystal a'r dillynder ag sydd yn ofynol mewn gwir farddoniaeth. Yr oedd yn rhagori mwy fel cyfieithydd, nac fel cyfansoddwr gwreiddiol. Y mae yn ddiau fod ei gyfieithiad o Watts, ar y cyfan, yn dra dedwydd, ac y mae ambell ddernyn o'i eiddo, yn rhagori ar y gwreiddiol. Gellid cyfeirio at ei gyfieithiad o'r chweched emyn a thriugain, yn ail lyfr Watts, fel engraifft o gyfieithiad tra llwyddianus.

**JONES**, Dafydd, Llangan, oedd offeiriad o enwogrwydd uwchlaw y cyffredin yn yr Eglwys Sefydledig. Ganwyd ef yn mhlwyf Llanllwni, yn sir Gaerfyrddin yn 1735. Hynodir y flwyddyn hon yn Nghymru, fel yr adeg yn mha un y torodd gwawr y diwygiad allan, ag y bu gan Mr. Jones, mewn amser dyfodol, y fath law yn ei gynal a'i gryfhau. Cafodd ei ddwyn i fynu yn athrofa Caerfyrddin; ac aeth oddiyno i weinidogaethu yn Llanafan fawr, yn sir Frycheiniog. Symudodd oddiyno i Leyn, sir Gaernarfon, lle y bu am ryw ysbaid, yn gurad. Yn 1760, yr oedd yn gweinyddu Trefethin a Chaldicot, sir Fynwy. Ystyrid ef o'r dechreu yn bregethwr enillgar, ond nid oedd wedi gwybod nemawr am grefydd brofiadol hyd yr amser yr oedd yn y lleoedd olaf a nodwyd. Dywedir mai darllen gwaith Flavel a fu yn foddion ei ddychweliad. Gwelid y cyfnewidiad yn ei weinidogaeth, yn gystal ag yn ei fuchedd, a dygodd hyny arno ŵg y periglor. Rhaid oedd, yr amser hwnw, fel y tybir, iddo fod yn ddyn annuwiol, os mynai foddhau ei uwchafion. Cyn hir, symudodd i blwyf arall, yn agos i Gaerodor, ac eilwaith i le arall yn sir Wilts. Ond yr oedd gwrthwynebiad iddo yn mhob man lle yr elai, o blegid ei fywyd dichlyn, a'i weinidogaeth efengylaidd. Yr oedd erbyn hyn yn 33 oed. Tra y bu yn sir Wilts, daeth i gydnabyddiaeth â Iarlles Huntingdon, yr hon a sylwai ar wŷr o gymeriad Mr. Jones; a bu hyny o wasanaeth iddo wedi hyny, ac yn hyfrydwch iddi hithau. Yr oedd boneddiges o'r enw yr Arglwyddes Charlotte Edwin, yn meddu etifeddiaeth eang yn Morganwg, ac yn llaw hon yr oedd nawddogaeth persondod Llangan,

Digitized by Google

ac yr oedd yn adnabyddus â Iarlles Huntingdon; ac felly y daeth Mr. Jones i berigloriaeth Llangan, yn 1768. Yr oedd golwg isel ar grefydd yno ar ei ddyfodiad i'r lle, fel yr oedd drwy yr holl dywysogaeth tua chan mlynedd yn ol. Yr oedd cynal gwylmabsantau, chwareuon, ymladdau, a halogi y Sabbath, yn beth cyffredin; ac athrawon y bobl fel "cwn mudion," fel y canai Sianco Sion am danynt:—

"Offeiriad ffol annuwiol,
Siwd achub hwn y bobol,
Sy'n methu cadw dydd o saith
Heb ddilyn gwaith y diafol."

Rhaid fod dyfodiad gwr o ysbryd a thalentau Mr. Jones, i ardal o'r fath agwedd, fel bywyd o feirw. Bu colled Trefethin, yn enill i Langan. Nid hir y bu y plwyf a'r cymydogaethau heb deimlo grym ei weinidogaeth. Yr oedd tân byw yn ei fynwes, yn rhoddi effeithioldeb yn ei bregethau. Dechreuodd yr eglwys lenwi, a'r bobl ddeffroi. Cynnullai lluaws yno i wrando o'r holl amgylchoedd, y rhai a ddeffroisid eisoes i raddau dan weinidogaeth Howell Harris, a'i gyd-lafurwyr. Dywedir na bu Mr. Jones mor llwyddianus yn nychweliad ei blwyfolion ei hun, ag y bu mewn manau eraill. Pregethai yn achlysurol yn mhob math o le, heb esgeuluso yr ysgubor, yr heol, yr annedd, neu lechwedd mynydd, pan y caffai gyfleusdra i gyhoeddi y Gwaredwr. Ceid ef weithiau yn ymddangos fel eglwyswr urddedig, a phryd arall fel gweinidog haner-eglwysaidd Iarlles Huntingdon; achub pechaduriaid oedd ei bwnc, ac nid glynu wrth unrhyw ffurf. Os oedd yn glerigwr afreolaidd, yr oedd yn efengylwr cywir; ac os oedd yn eglwyswr annghyson, yr oedd yn Gristion gloew. Byddai cynnulliadau lluosog y pryd hwnw gan oferwyr, yn y rhai y cyflawnid pob math o anfoesau. Yr oedd cyfarfod o'r fath unwaith yn Llanbedr, yn agos i Langan, ar fynydd yno, a olygid fel prif wylmabsant y gymydogaeth, ac yr oedd nifer mawr wedi ymgasglu,—gan mwyaf o ieuengetid, i yfed, meddwi, dawnsio, ac ymladd. Yr oedd enaid Mr. Jones yn cael ei ofidio o herwydd y cyfarfod hwn ar y Sabbath. Penderfynodd wneud cais i atal ei rwysg, nid trwy lymder y gyfraith, ond trwy fwynder yr efengyl. Aeth yno i'r canol, a llwyddodd, nid yn unig i'w ddyrysu, ond hefyd i'w chwalu yn llwyr, ac am byth. Parhaodd i fyned i'r lle hwnw i bregethu ar y cyfryw Sabbath, am ddeng mlynedd ar hugain. Yr oedd ganddo gymhwysderau neillduol o briodol i gyfarfod y fath amgylchiadau. Dygwyddodd iddo unwaith, fyned at nifer o ddynion oedd wedi ymgynull i ymladd ceiliogod; cyfarchodd hwy yn serchus, gan ddywedyd, "Y mae genyf newyddion da ryfeddol i chwi, bobl fach, os byddwch mor fwyn a gwrando; cewch fyned yn mlaen a'ch gwaith wedy'n, os byddwch yn dewis;" a'r floedd oddiwrthynt oll, oedd, "Caiff y boneddwr wneud fel y mynno." Yntau a ymddadleuodd â hwy mor fwynaidd, ac a gyhoeddodd Geidwad iddynt mor serchog, a chyda'r fath nerth a difrifoldeb, fel y gollyngwyd y ceiliogod yn rhydd, ac y deffrowyd eu cydwybod, ac y rhoddasant i fynu yr amcan yn gwbl oll. Teithiodd Mr. Jones lawer trwy Ddeau a Gogledd Cymru, Gogledd Lloegr, a'r Brif-ddinas. Trwy ei adnabyddiaeth â Iarlles Huntingdon, bu yn efengylu yn fynych yn mysg y Saeson, yn y gwahanol gapeli a berthynent iddi, gyda derbyniad mawr. Byddai ganddo gapel yn cael ei godi yn rhyw fan neu gilydd yn fynych, a llwyddai yn gyffredin i gael cymhorth at y draul yn Lloegr. Gan ei fod yn gweinidogaethu mewn amser ag yr oedd rhagfarn yn gryf yn erbyn y Trefnyddion Calfinaidd, a chan yr anturiai bregethu, ar deithiau, yn mhob man y ca'i ddrws agored, nid rhyfedd iddo gael gwrthwynebiadau. Nid cymaint o faeddu a fu arno ef, ag a fu ar lawer eraill, gyda rhai eithradau. Yr oedd ei agwedd foneddigaidd, ei lais tyner, a'i anerchiad serchus, yn lladd llawer ar yr erlidigaeth a godid i'w erbyn. Cafodd y prif ymosodiad yn ei erbyn, oddiwrth y dosparth ag y gallesid dysgwyl a fuasai yn gymhorth iddo. Bu un boneddwr yn ei blwyf, yn elyn chwerw iddo, a dangosai ei ddygasedd dan yr esgus, fod adeilad yr eglwys yn cael ei niweidio gan y lluaws oedd yn dyfod yno. Achwynwyd arno wrth yr esgob, ei fod yn pregethu heb un llyfr, ond gwyddai yr esgob yn dda am deilyngdod Mr. Jones, fel y gollyngai yr achwynion ymaith yn ddi sylw; ond o'r diwedd, tybiodd fod yn rhaid iddo ei alw i gyfrif am ei ymddygiad. "Mr. Jones" ebe esgob Barrington wrtho, "Y mae yn ddrwg genyf ddywedyd fod achwyniadau wedi dyfod ataf yn eich erbyn; dywedir eich bod yn pregethu mewn lleoedd anghysegredig." Na ddo, erioed, fy Arglwydd, ebe yntau, "pan roddes Mab Duw ei droed ar y ddaear, cysegrodd bob modfedd o honi; heb hyny yr wyf yn ofni na wnaethai unrhyw gysegriad o eiddo eich arglwyddiaeth, ddaioni yn y byd." Y canlyniad fu i Mr. Jones gael myned rhagddo fel o'r blaen. Pan symudwyd Dr. Barrington oddiyno, ac i Dr. Watson ddyfod yn ei le; ail-ymosodwyd arno, trwy ddwyn yr hen gyhuddiadau yn ei erbyn at yr esgob newydd. Ar achlysur o ymweliad, cafodd yr esgob gyfle i ymddiddau âg ef yn y Bontfaen, pan ddywedodd wrtho, y byddai raid iddo ymgadw o fewn terfynau ei blwyf, o leiaf nes y cai le i gredu fod ei holl blwyfolion wedi eu dychwel at Dduw. Atebodd Mr. Jones ef yn ostyngedig a mwynaidd, na allai lai na chydsynio a'r galwadau taerion a anfonid ato o fanau lle yr oedd y bobl yn marw o eisiau gwybodaeth, a'r offeiriaid yn esgeuluso eu dyledswydd; "os felly," meddai yr esgob, "rhaid i mi ddefnyddio moddion i'ch atal." "Hyny a ellwch, fy arglwydd," ebe yntau, "ond ni allaf fi newid fy mhenderfyniad." Rhyfeddai yr esgob at ei wroldeb, a gofynai iddo. "A oes genych chwi deulu, Mr. Jones?" Oes, fy arglwydd, ebe y periglor, y mae genyf wraig, a thri o blant. "Wel," ebe yr esgob, wedi lliniaru yn ei wedd a'i lais, "Peidiwch a myned i blwyfau P. a Ff,—mae offeiriaid y plwyfau hyny yn chwerw iawn atoch." "Hyny a wnaf, fy arglwydd," ebe yntau. Boddlonwyd yr esgob, a chadwodd yntau ei air. Cafodd lonyddwch i fyned rhagddo, mewn canlyniad i'r fuddygoliaeth hon a enillasai. Yr oedd pertrwydd ymadrodd yn naturiol iddo, ac enillai wrandawiad astud. Yr oedd ei ddawn a'i bwnc, yn wastadol yn cyd-daro, "Efengylwr Llangan," y gelwid ef. Am dano ef y canodd bardd Pant y celyn y geiriau canlynol, sydd yn deilwng o'u hawdwr:—

"Tawdd y ceryg a'i ireidd-dra,
A thrwy rym efengyl fwyn
Gwna i'r derw mwyaf caled
Blygu'n ystwyth, fel y brwyn."

Pregethai unwaith yn agos i Ruthin, ar y testyn, "Ni lefarodd dyn erioed fel hwn." Daethai yno ddyhirod lawer i aflonyddu. Gwaeddodd un o

Digitized by Google

honynt, wedi gwrando ychydig arno, "Wel ni, lefarodd dyn erioed fel tithau," ac enillodd dawelwch i fyned rhagddo. Yn 1794, symudodd o Langan i Manorowen, ger Abergwaen, yn sir Benfro, lle yr arosodd hyd ddydd ei farwolaeth, yn 1810, yn 75 mlwydd oed. Yr oedd Mr. Jones yn wrthwynebus iawn i neillduad gweinidogion yn nghyfundeb y Trefnyddion Calfinaidd, ac ymadawodd o'r byd, cyn i'r cyfnewidiad hwnw ddechreu cymeryd lle yn mhlith yr enwad.

**JONES**, DAVID, Pontypool, gweinidog enwog gyda'r Bedyddwyr, ac un o bregethwyr mwyaf gwrciddiol a phoblogaidd ei oes, a anwyd yn Nghwmaman, swydd Gaerfyrddin, yn 1741. Daeth drosodd i weithio ei gelfyddyd i swydd Fynwy, lle y cafodd ei argyhoeddi o dan weinidogaeth Howell Harris. Bedyddiwyd ef gan Miles Harry, yn Mhenygarn; yr hwn, wedi gweled fod doniau gweinidogaethol ynddo, a'i cymerodd ef ato i'r athrofa, a gadwai efe er dysgu pregethwyr ieuainc, yn Nhrosnant. Tua'r flwyddyn 1773, ordeiniwyd David Jones yn gydweinidog a'i athraw; a bu yno yn dra llwyddianus am tua deng mlynedd, pryd yr ymunodd mewn priodas â Mrs. Hannah Jones, o'r Ddolgoch, ger Castell newydd-Emlyn, ac y cymerodd ofal eglwys y Graig, yn y dref hono, lle y gorphenodd ei daith yn orfoleddus, Ionawr 24, 1792, yn 51 mlwydd oed. Claddwyd ef yn ymyl Dafydd Morris, pregethwr enwog gyda'r Methodistiaid, yn mynwent Troedyraur, swydd Aberteifi. Yr oedd y ddau yn gyfeillion neillduol er's blyneddoedd, treuliasant ddiwedd eu hoes yn gymydogion agos,—un yn y Ddolgoch, a'r llall yn y Twrgwyn, buont farw o fewn ychydig fisoedd i'w gilydd, a hunant ochr yn ochr.

Dywedai Christmas Evans, bod David Jones yn un o bregethwyr mwyaf doniol a phoblogaidd ei oes, ac iddo fod yn un o'r offerynau mwyaf cyffrous i ddihuno eglwysi y Bedyddwyr o'u cysgadrwydd, a chario yn mlaen y diwygiad cyffredin, a dorodd allan yn ei ddyddiau ef. Cafodd gryn lawer o wrthwynebiad ar ei gychwyniad cyntaf, gan yr hen weinidogion, o herwydd ei ddull newydd a deffrous o lefaru; ond cyn hir, daeth y rhai mwyaf cyfrifol o honynt yn benaf cyfeillion iddo. Yr oedd ei gymeriad moesol uwchlaw amheuaeth; ystyriai pawb ef yn wr Duw, ac y mae ei goffadwriaeth yn fendigedig. Yr oedd yn dueddol i gymeryd testynau troellog a damegol, megys pum' merch Salphaad,—Mala, Noa, Hogla, Milca, a Thirsa; ac oddiwrth y pum enw hyny, tynai bethau perthynol i gyflwr dyn, a threfn yr iachawdwriaeth.

Pregethai ar destynau fel y rhai acw, "Holl ddefaid Cedar a ymgasglant atat ti, a hyrddod Nebaioth a'th wasanaethant;" "Pa fodd y'th osodaf yn mysg y plant?" &c. &c.; a gosodai allan yn ogoneddus, ras Duw yn galw dynion at Grist. "Mae yn brin yn fynych," meddai, "ar bobl Dduw yn y byd hwn; megys y mae mewn *Inn*, neu lety cyffredin, lle mae y gwyr dieithr fydd yno yn cael swper dda, a chael trigo yn y parlwr, pan mae plant y tŷ yn y gegin, ac yn cael dim ond gweddill y gwŷr dieithr; ond boreu dranoeth, gwelir y gwahaniaeth, bydd raid i'r dieithriaid dalu yr ysgrif-ddyled am bob tamaid cyn cychwyn allan, ond nid oes un ysgrif i ddyfod yn erbyn y plant—mae y plant yn rhyddion. Bydd raid i chwi, annuwiolion, dalu am eich byd da, ond y mae yr ychydig sydd gan y cyfiawn, yn eiddo iddo ef trwy undeb a Christ."

Teithiai trwy siroedd Cymru gyda nerth a dylanwad annghyffredin, yr oedd ei bregethau yn gafael yn y bobl, a bu yn foddion i ddeffroi lluoedd o gwsg pechod, mewn amryw barthau o Gymru.

Yr oedd ei ddawn o rywogaeth tra hynod, ni feddyliai ac ni ddywedai ddim fel dynion yn gyffredin. Yr oedd rhywbeth yn ei ddawn yn tebygoli i eiddo Rowlands o Langeitho. Ei ymadroddion byrion a chywraint, oeddynt fel hoelion wedi eu blaenllymu, a'u trochi mewn olew. Yr oedd yn un o'r rhai mwyaf ei ffraethineb (*wit*) a feddai ei oes. Yr oedd mor graffus a threiddiol ei amgyffrediad, fel y bwriai amcan lled gywir am egwyddor dyn ar yr olwg gyntaf arno. Yr oedd hefyd yn hynod o barod a medrus i gau safn dyn coegfalch a hunandybus. Daeth unwaith broffeswr i'w wrando, ac ar ddiwedd yr oedfa, aeth ato yn hunandybus, gan ddywedyd, "Ches i ddim bendith ar ol teithio mor bell i'ch gwrando." "Felly," ebe'r pregethwr; "a ddarfu i chwi weddio am fendith?" "Do, o do," ebe yntau. "Wel, felly mae yn rhaid mai nid gweddi y ffydd oedd hi, onite buasai Duw yn sicr o'i gwrando," oedd yr atebiad. Erbyn hyny yr oedd y genau hwnw wedi ei gau.

O ran agwedd ei gorph, yr oedd tua chwe troedfedd o uchder, gyda gwddf byr, gwar lydan, dew, gwallt crych, llygaid bywiog a threiddgar, edrychiad hyf a gwrol, a llais cryf, yn tueddu at y garw, ond eto yn soniarus, ac yr oedd rhyw harddwch ar bob gair a lefarai, yn fwy na chyffredin. Yr oedd ei ddoniau mewn cyfeillach yn annghymarol o ran ffraethineb. Teithiodd lawer, yn enwedig yn Neheudir Cymru, a bu amryw droion yn y Gogledd, a'i lafur dan fendith.

Pan yn marw, "Ffarwel i ti Hana," ebe fe wrth ei wraig, gan gau ei lygaid ei hun; "yr wyf yn gweled gwaelod yr Iorddonen yn eglur, ac mae y llechau yn yr arch wedi eu cadw ar fy rhan gan Iesu, megys pe na phechaswn erioed." Cafodd fwy na'r cyffredin o wedd wyneb ei Arglwydd wrth groesi afon angau.—*Christmas Evans yn "Seren Gomer" am Tachwedd* 1813.

Argraffwyd *Cofiant* rhagorol iddo yn *Ngreal y Bedyddwyr*, am *Ionawr* 1830, o'r hwn nis gallwn ddyfynu ond yn unig y ffaith, mai efe, mewn undeb a Peter Williams, a gyhoeddodd Feibl John Canne yn Nghymru. Argraffwyd 4000 o honynt, yn y flwyddyn 1790, a gwerthid hwynt am 5*s*. yr un.

Cyfansoddwyd *Marwnadau* ar ei ol, gan David Saunders, Merthyr; Joseph James, Beula; a Morgan John Rhys, yr hwn oedd ar y pryd yn genadwr yn Paris, Ffrainc. Ni a ddyfynwn ychydig benillion o eiddo Morgan John Rhys, y rhai sydd yn dra dysgrifiadol o'r gwrthddrych, ac yn nodweddiadol o angen yr oes:—

"Fe rybyddiodd y trigolion,
  Teithiodd Gymru fro a bryn,
I roi cysur i'r fforddolion—
  Miloedd heddyw dystiant hyn:
Nid arbedai grefydd glaiar,
  Gwae'r rhagrithwyr safai o'i flaen;
Ac ni fedrai'r tyrchod daear
  Oddef grym ei nefol dan.

"Dawn a dyfodd yn ei winllan,
  Rhedodd iddo fel ffrwd gref,
Ac ni wiw i'w frodyr cydgam
  Droedio'r llwybr droediodd ef;



Digitized by Google

Nid benthyca gwisg gwr arall,
Na dynwared neb rhyw ddyn
Wnaiff pregethwr—er ei gymhell,
Gwell 'ddo wisgo 'i gôb ei hun.

"Nid pysgota dyfroedd lleidiog
Credo *Athanasius* draw,
Na'r *Nicean* sydd mor enwog
Gyda gwyr y grefydd law:
Cyffes ffydd, er cystal fyddo,
Rhanu'r eglwys wnaiff yn ddwy;
Y mae'r undeb oll yn gryno
Ar y groes mewn marwol glwy!

"Gyda Williams, gyfaill anwyl,
Ffrynd i'r Cymry er's talm—
Jones ymdrechodd roddi canwyll
Yn eu llaw i bwyntio'r balm:
Beiblau Canne sydd dyst i'w herbyn,
Os gwrthodant wrando'r gwir;
Nid oes meddyg i'r rhai cyndyn,
Sy'n pechu 'n erbyn goleu clir.

"Gymru, mae dy blant yn wylo,
O waith colli ffyddlon dad;
Dê a Gogledd lle bu 'n teithio
I bregethu i chwi 'n rhad;
O Bont y pool fe dorodd allan,
Fel rhyw seren ddysglaer gref;
Gyda'i Hary[1] anwyl fwynlan,
'Nawr mae 'n canu yn y Nef."

**JONES**, Dafydd, o Drefriw, yn sir Gaernarfon, ydoedd fardd a ysgrifenodd ei gyfansoddiadau rhwng y blynyddoedd 1750, a 1780. Argraphwr ydoedd wrth ei gelfyddyd, ac un o'r rhai cyntaf yn y gwaith hwnw yn y Dywysogaeth. Cafodd ei anrhegu â rhestr o lythyrenau argraphu gan yr hynafiaethydd enwog, Lewis Morys, Ysw. Cyhoeddodd Gasgliad o Farddoniaeth Gymraeg, gan amrywiol awdwyr, mewn cyfrol a elwid, "Blodeugerdd Cymru." Gelwid y casgliad cyntaf a gyhoeddodd, "Diddanwch Teuluaidd," o waith Beirdd Mon; a'r llall ydoedd "Dewisol Ganiadau." Cynhullodd hefyd nifer o hen ysgrifau Cymreig, y rhai a brynwyd wedi hyny oddiwrth ei feibion, gan y Parch. H. D. Gryffydd, o Gaer Rhun, ger Conwy, a defnyddiwyd hwy gan y boneddwr hwnw i gyfoethogi y "Myvyrian Archaiology." Prynwyd rhai eraill o'i eiddo gan Mr. Pennant, ac y maent yn awr yn cael eu cadw yn yr Amgueddfa Brydeinig, wedi eu rhoddi i'r sefydliad hwnw, gan David Pennant, Ysw., yn y flwyddyn 1835.

**JONES**, Dafydd, oedd ddadleuwr yn y gyfraith, a anwyd yn Llanymddyfri, yn 1765, lle yr oedd ei dad yn amaethwr cyfrifol, ar ei dyddyn ei hun. Gan y bwriedid iddo fod yn y weinidogaeth yn mhlith yr Ymneillduwyr, gosodwyd ef yn yr ysgol ragbarotoawl yn Pencadair, yn sir Gaerfyrddin, ac wedi hyny yn y Fenni. Yn 1783, aeth i athrofa yr Ymneillduwyr yn Homerton, ac yn fuan drachefn, i goleg newydd Hackney, lle yr arhosodd am wyth neu naw mlynedd, ar y cyntaf fel myfyriwr, ac wedi hyny fel athraw. Pan symudodd oddi yno, cymerodd ofal eglwys Undodaidd yn Birmingham, ac wedi aros yno am flwyddyn, neu ddwy, penderfynodd newid ei alwedigaeth, a myned yn ddadleuwr o'r gyfraith; ac felly yn 1794, gosododd ei enw i mewn yn y "Lincoln's Inn," a daeth yn aelod o goleg Caius, Caergrawnt. Wedi cwblhau yr amser penodedig, ymarferodd fel dadleuwr o'r gyfraith yn Llundain, ac ar gylchdeithiau Rhydychain, a Chaerfyrddin, am lawer o flyneddoedd. Bu farw yn 1816. Yr oedd yn awdwr amryw o lyfrau, y rhai a argraphwyd heb ei enw priodol wrthynt. Cyfansoddodd y rhai canlynol o dan yr enwau, "Yr Amaethwr Cymreig;" "Meddylddrychau ar y Terfysg yn Birmingham;" "Sylwadau ar draethodyn, o'r enw 'Ad-feddyliau, ar y Terfysg yn Birmingham' yn 1791;" "Llythyrau at Esgob Ty-Ddewi;" "Amddiffyniad yr Amaethwr Cymreig o'i Lythyr;" "Rhesymau dros Undodiaeth." Nid yw hanes terfyniad ei fywyd, na'i gladdedigaeth, yn gyhoeddus.

**JONES**, David, Treffynon, a anwyd yn Nghoed-y-ddol, plwyf Llanuwchllyn, sir Feirionydd, yn mis Hydref, 1770. Bu ei fam farw, pan yr oedd ef yn blentyn, a symudodd y teulu yn fuan ar ol hyny i'r Bala. Wedi gwasanaethu ei amser yno fel gwyddorwas gyda saer-llestri, sefydlodd yn Llanuwchllyn, lle y dylynodd ei alwedigaeth am ryw ysbaid, a pherchid ef yn fawr gan ei gydnabod. Pan yr oedd tua deunaw oed, bu i bregeth ddifrifol gan y Parch. W. Thomas o'r Bala, effeithio yn ddwys a pharhaol ar ei feddwl. Bu am beth amser, yn ofnus ac anobeithiol am ei gyflwr; cafodd raddau o waredigaeth cyn hir, a thrwy anogaeth cyfeillion, ymunodd a'r eglwys Gynulleidfaol yn y Bala yn 1790. Bu dan argraph o iselder yspryd, ac anobaith am drugaredd wedi hyn, cyn belled a bod dan brofedigaeth i adael y gymdeithas eglwysig, a chefnu ar bob moddion crefyddol. Achlysurwyd y dychrynfeydd hyn, gan ryw sylwadau a welsai, neu a glywsai, am y pechod yn erbyn yr Yspryd Glan. Effeithiodd y teimladau hyn i niweidio ei iechyd. Wedi bod yn ymboeni dan y trallodion hyn ar ei feddwl, am gryn bedair blynedd, cyfeiriwyd ef at addewidion grasol Duw yn ei air, a gwelodd mai bywyd o ryfel ac ymdrech ydyw bywyd y Cristion; cafodd yntau hefyd y fath olwg ar drugaredd Duw, yn aberth y Gwaredwr, nes cael buddygoliaeth ar bob ofn ac amheuon, drwy orphwys yn gwbl oll ar ei haeddiant. Daeth gwylder ei yspryd, a gwresogrwydd ei dduwioldeb, yn raddol i'r fath eglurdeb, fel yr anogai ei gyfeillion, mewn cysylltiad a'r diweddar Barch. Dr. George Lewis, ef i droi ei feddwl at y weinidogaeth; ac wedi hir ystyried y pwnc, gyda gweddiau am arweiniad y nef, cydsyniodd a'u cais, a thraddododd ei bregeth gyntaf yn y Bala, Chwefror 9, 1796; ac felly y parhaodd i bregethu yr efengyl mewn canlyniad, hyd derfyn ei oes. Yn Mai, 1797, gwnaed cyfyniad drosto am dderbyniad i Athrofa Gogledd Cymru; ac yn Medi dylynol, dechreuodd ar ei efrydiaeth barotoawl yn Athrofa Gwrecsam, oedd y pryd hwnw dan ofal y Parch. Jenkin Lewis. Dyma y darluniad a roddai ef o'i deimladau ar y pryd:—"Yr wyf yn cael drwy brofiad, mai ffyrdd duwioldeb yw ffyrdd gwybodaeth, yn gystal a ffyrdd tangnefedd. Nis gall esgeuluso crefydd fod yn fuddiol er meithriniad addysg, ac nid ydys yn hwyluso y ffordd i gyraedd gwybodaeth, wrth anghofio Duw. Nid wyf byth yn ddedwydd yn yr areithfa, heb barotoi yn flaenorol at ei dyledswyddau pwysig, trwy fyfyrdod a gweddi. Y mae yspryd drylliog cystuddiedig, yn gwneud dyledswyddau y cysegr yn addysgiadol a hyfryd. Byddaf yn meddwl mai gwell cymwyso gwahanol ranau pregeth, wrth fyned yn mlaen, tra byddo y sylwadau yn aros ar gof y gwrandawyr, nag aros i geisio cymwyso y cyfan ar y diwedd.—Pa daeraf y gweddiaf, goreu oll y myfyriaf. Bu'm yn ddi-

[1] Miles Harry.

Digitized by Google

weddar yn ymweled âg anwyl gares gystuddiedig, yr hon a dywalltodd lawer o ddagrau, agos bob dydd, er ys deuddeng mis, am nad oedd wedi cysegru amser ei hieuengctid yn ddigon cyflawn i'r Arglwydd," &c. Dyma gyfle i weled tueddiad ei feddwl, a duwiolfrydedd ei ddyhewyd. Yn mis Ebrill, 1801, cafodd alwad i weinidogaethu yn Eglwys Gynulleidfaol Treffynon. Derbyniodd alwadau o amrywiol fanau eraill, ond trwy ymgynghoriad â chyfeillion, tueddwyd ef at y lle uchod. Cofiodd a choffaodd yn fynych, am y sabbath a dreuliasai yn Ninbych, gyda'r diweddar dduwinydd enwog, Doctor Williams, ychydig ddyddiau wedi marwolaeth y Parch. Daniel Lloyd; ac am un arall, gyda y diweddar Barch. W. Evans, yn Mhont-y-gogledd; ac yn neillduol am un arall, gyda ei hybarch athraw, Jenkin Lewis, yn Nhreffynon; a thro arall gyda'i serchus gyfaill, John Whitridge, o Groesoswallt. Gadawodd yr athrofa Mai 2, 1801, ac ar yr Ebenezer a godai y pryd hwnw, ysgrifenodd, "Y mae arnaf heddyw ddeng mil o rwymau, i fendigo yr Arglwydd, am y breintiau gwerthfawr a roddwyd i un mor annheilwng." Dechreuodd ei weinidogaeth sefydlog yn Nhreffynon, y Sabbath olaf yn Mai, 1801. Ar yr achlysur o'i urddiad, Gorphenaf 15, 1802, cydweithredai Dr. Lewis, Llanuwchllyn; J. Lewis, Wrecsam; B. Jones, Pwllheli; W. Brown, Wrecsam; J. Wilson, Northwich; D. Davies, Trallwm; a T. Jones, Newmarket. Yn 1810, cyhoeddodd Mr. Jones, Gasgliad o Emynau, yr hwn sydd eto yn adnabyddus i lawer yn Nghymru. Yr oedd cynydd crefydd yn mhob man yn llawenydd mawr i feddwl y gwr da hwn; a chafodd yr anrhydedd o ffurfio amryw gynulleidfaoedd yn yr ardal. Codwyd ganddo bedwar o addoldai yn y gymydogaeth; yn Bagillt, 1803; Rhes-y-cae, 1804; Heol-mostyn, 1826; ac yn Pen-pyllau, 1829. Bu yn ysgrifenydd i Gangen sir Fflint o Gymdeithas y Biblau; ac i Undeb cynulleidfaol sir Fflint a Dinbych. Bu yn gynorthwywr gweithgar i'r Gymdeithas Genhadol, fel y gwelir yn adroddiadau y Dysgedydd. Bu yn wasanaethgar iawn i'r achos Cymreig yn Manceinion, pan yr oedd yn gyfyng ar yr eglwys yn Gartside Street, ac yr ymwelodd ef, gyda Mr. Roberts, Dinbych, a'r dref honno, i'w cynorthwyo. Y mae hyn yn ein harwain at derfyniad disyfyd ei einioes. Pregethodd yno dair gwaith ar y Sabbath olaf y bu fyw. Yr oedd cynnulliad llawn yn y gyfeillach y nos Fawrth ganlynol; pan y sylwai, y gallai na welent eu gilydd mwy; y gallai fod i rai o honynt hwy, neu ef ei hun, gael symudiad i fyd arall. Bore Iau, dydd ei farwolaeth, Awst 25, 1831, cychwynodd ef, â Mr. Roberts, Dinbych, i Liverpool, a chyrhaeddasant yno erbyn yr hwyr, ac wedi cytuno yn mha le, ac ar ba amser dranoeth, i gyfarfod, ymadawsant. Aeth Mr. Jones rhagddo tua thy ei gyfaill Mr. Gregson, ond wrth groesi y masnachdy, syrthiodd trwy lawr-ddrws, ac er pob cymhorth meddygol, bu farw yn mhen tua thair awr! Bu hyn yn achos o gyffro a theimlad dwys drwy yr holl dref. Dygwyd y corph i Dreffynon, ar y Sadwrn canlynol. Y mae yn haws dychymygu, na darlunio y teimladau yno. Gweinyddwyd yn yr angladd gan y Parch[n]. Williams, Wern; Roberts, Dinbych; Breese, Lerpwl; a Waterfield, o Wrecsam. Ar y Sabbath canlynol, pregethodd y Parch[n]. Thorp, o Gaerlleon, yn Saesoneg; a Williams o'r Wern, yn Gymraeg, ar yr achlysur galarus. Geiriau olaf Mr. Jones oeddynt, "Gwn fy mod yn gymeradwy."

**JONES**, Edmund, a anwyd yn mhlwyf Aberystruth, sir Fynwy, Ebrill 1af, 1702, o rieni isel eu hamgylchiadau bydol, ond yn enwog mewn duwioldeb, y rhai a ymdrechasant i feithrin eu mab yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd, a chawsant yr hyfrydwch o weled eu hanwyl blentyn yn cael ei wneud yn gyfranog o ras Duw, pan yn ieuangc iawn. Wedi cael trugaredd i'w enaid ei hun, yr oedd yn awyddus i gyhoeddi y newyddion da o iachawdwriaeth i ereill; a phan oedd yn nghylch dwy ar hugain oed, dechreuodd bregethu yr efengyl yn ei fro enedigol; a bendithiwyd ei lafur, er ffurfio eglwys fechan yno ag sydd yn aros hyd heddyw; mewn undeb a'r hon ystyriai ei hun, ac i'r hon y byddai yn myned i bregethu yn achlysurol, tra parhaodd ei oes. Yn mis Gorphenaf, 1740, arweiniwyd ef gan ragluniaeth Duw i gymydogaeth Pontypool, yn nghylch wyth milldir o'i le genedigol, i fod yn weinidog sefydlog i gynulleidfa o Ymneillduwyr, a gasglwyd drwy ei weinidogaeth. Galwodd y ty cwrdd, Ebenezer, oblegid y cynorthwy hynod a gafodd trwy ragluniaeth yr Arglwydd, i'w adeiladu; yma y parhaodd i lafurio fel gweithiwr difefl hyd derfyn ei fywyd. Yn agos i'r ty cwrdd yr oedd ei drigfa isel, wrth droed mynydd uchel, yn cael ei gylchynu yn gwbl gan goed. Yr oedd sefyllfa y lle, ac ymddangosiad hybarchaidd ei breswylydd, yn tueddu i arwain meddyliau yr ymwelwr achlysurol yn ol i'r oesoedd boreuol, pan nad oedd dim ond symledd a duwiolder yn dynodi gweinidogion Iesu Grist. Yma megys o'r neilldu oddiwrth y byd, y treuliai ef ei amser mewn myfyrdod a chyfeillach a'i Dduw. Mawr oedd ei awydd i gyraedd, ac nid bychan oedd ei gynydd mewn, gwybodaeth ddefnyddiol. Nid oedd nemawr o ganghenau gwybodaeth nad oedd wedi sylwi arnynt gyda gradd o fanylrwydd. Mewn hanesyddiaeth eglwysig, a'r pethau a berthyn yn neillduol i waith y weinidogaeth, yr oedd yn dra hyddysg. Er ei fod yn mhell oddiwrth fod yn gyfoethog, yr oedd ganddo gasgliad go helaeth o waith awduron yn ei lyfrgell; nid oedd prin un o'i lyfrau heb nodiadau ar ymyl y ddalen yn ei lawysgrifen ei hun, yn cyfeirio at y pethau mwyaf pwysig. Pawb a ymwelent ag ef a fyddent yn sicr o'i gael, naill ai gyda'i lyfrau, neu gyda'i Dduw. Ni fu neb erioed dedwyddach mewn priod nag ef. Yr oedd Mrs. Jones yn wraig o dduwioldeb mawr, a chyneddfau cryfion. Yn yr oes apostolaidd, pan nad oedd tlodi yn waradwydd, buasai yn cael ei chyfrif yn Gristion o'r enwogrwydd mwyaf. Priodwyd hwy yn ieuainc, a chynyddai eu serch at eu gilydd gyda'u blyneddoedd. Buont yn byw yn hir yn y stad briodasol, yn cysuro ac yn cadarnhau eu gilydd yn llwybrau Duw, ac yn cyd-adeiladu eu hunain yn eu santeiddiolaf ffydd. Nis dichon geiriau ddarlunio yr hyn a deimlodd efe wrth ei cholli. Er iddi farw yn nghylch ugain mlynedd o'i flaen, prin byth y siaradai am dani heb wylo. Llawenhai yn fawr wrth feddwl ei chyfarfod yn y nefoedd. Dywedai, na fynai er haner nefoedd, fod heb ei chyfarfod yno. Wrth sylwi ar ddedwyddwch y stad briodasol yn y par dedwydd hwn, penderfynodd yr enwog a'r diweddar Mr. Whitfield newid ei gyflwr. Ond ni chafodd Mr. Whitfield yr un Mrs. Jones yn gyfeilles bywyd. Ymdrechai Mrs. Jones i gysuro a chalonogi ei phriod yn ei waith pwysig. Mae y siampl ganlynol yn haeddu gael eu chofio; ar ryw dro dygwyddodd fod pregethwr dyeithr poblogaidd i ddyfod i bregethu yn agos i dy cwrdd Mr. Jones, ac aeth ei wrandawyr

Digitized by Google

heb hysbysu eu bwriadau iddo ef, ar ol y dyn dyeithr. Mr. Jones a'i wraig a aethant i'r capel fel arferol. Amser dechreu y cyfarfod wedi dyfod, a neb yn dyfod i wrando, gorlenwodd ei feddwl a mil o deimladau gofidus. O'r diwedd, â chalon drom dywedodd, "Pa beth a wnawn?" Atebodd hithau yn dra siriol, "Mae llwybr dyledswydd yn eglur, yr ydym o fewn cylch yr addewid, awn yn mlaen gan hyny i addoli Duw." Yn ganlynol aethant drwy waith yr addoliad yn rheolaidd, trwy ganu, gweddio a phregethu, a dywedai Mr. Jones, na fwynhaodd erioed fwy o bresenoldeb yr Arglwydd mewn oedfa, ac nid rhyfedd, am fod ei holl wrandawyr yn gweddio drosto. Yr oedd pob dyn duwiol a'i hadwaenai yn ei barchu yn fawr. Yn mhlith ei gyfeillion mynwesol, cyfrifai yr enwog Fam hono yn Israel, y ddiweddar Arglwyddes Huntingdon. Pan y deuai i Gymru, arferai yr hen Brophwyd duwiol, (canys dyma yr enw a roddid arno,) dreulio rhyw gymaint o amser gyda hi yn yr Athrofa, yn Nhrefeca. Yr oedd y myfyrwyr yn hoffi ei gyfeillach yn fawr. Byddai yn llefaru un waith neu ddwy yn y dydd yn gyffredin, tra arosai yno. Ei brif amcan yn mhob lle, oedd taenu ar led berarogl Iesu Grist; ymdrechai wneuthur daioni i bawb a fyddai yn y gyfeillach. Yr oedd yn byw ei hun yn agos i borth y nefoedd, ac amcanai yn wastadol dwyn ei holl gyfeillion yno hefyd. Yr oedd dull effeithiol iawn ganddo i gyfeillachu a'r ieuenctyd: mor ddengar y moddion a arferai i enill eu heneidiau at Dduw! Yn fynych, pan yn rhodio mewn gardd, ymaflai mewn blodeuyn, darluniai ei natur, gan ei gydmaru a ieuenctyd, mor hardd ac eto mor wywedig, yna dangosai yr anghenrheidrwydd o ddwyfol ras i addurno a harddu yr enaid; ac yn y modd yma ymdrechai i'w harwain hwynt oddiwrth y creadur at y Creawdwr. Ar brydiau, gwelid ef yn wylo uwch ben llygredd dynolryw, ac yn arfer y moddion mwyaf effeithiol i'w dwyn i ystyried pwys pethau tragwyddol. Yr oedd ysgrifenydd y cofiant yma yn bresenol, pan yr anerchodd bendefiges ieuangc yn y modd canlynol;—"Ah! fy anwyl blentyn, y fath weithiwr yw Duw! y fath agwedd hardd y mae wedi roddi i chwi! O mor gymwys i'r ffurf hardd yma gael ei threulio yn ei wasanaeth! Ond, O!'r fath golled pe byddai y corff hardd hwn yn myned i uffern! Pa fodd y gorfoleddai y cythreuliaid?" Yna efe a wylodd yn hidl. Mordyner, mor ddengar oedd ei ymddiddanion gyda'i gyfeillion ieuainc, fel ag yr oedd yn cael ei garu yn fawr ganddynt. Yn wir yr oedd ei holl ymarweddiad mor hawddgar, siriol, a duwiol, fel ag yr oedd yn mhob lle yn rhoddi ennghraifft eglur iawn, o brydferthwch santeiddrwydd. Nid arhosai nemawr mewn un teulu, oni chai gyfle i wneuthur rhyw beth dros ei Dduw. Dywedai, "Mae yn bryd i mi fyned ymaith, nis gallaf wneud dim daioni yma, a phaham yr arosaf pan nas gallaf wneuthur dim lles?" Yn nhai ei gyfeillion, esboniai yr ysgrythyrau, foreu a hwyr; a phan fyddai amgylchiadau yn caniatau, hoff oedd ganddo santeiddio y bwyd trwy air Duw a gweddi, sef trwy esbonio rhyw rhan o air Duw, dros haner awr ar ol ciniaw, a therfynu trwy weddi fer. Cymaint oedd ei ymroddiad i Dduw a'i waith, fel nad oedd ganddo flas ar ddim ond pethau santaidd. Yr oedd nid yn unig yn addysgwr doeth, ond hefyd yn weddiwr gwresog. Llaweroedd a gawsant fudd trwy ei weddïau. Mynych y cafodd nerth gyda Duw, fel Israel gynt, a gorchfygodd. Gweinidog ieuanc yr hwn oedd i bregethu yn ei gapel, a alwodd arno yr hwyr o'r blaen, ac a'i cafodd yn eistedd wrth y tân, mewn dwys fyfyrdod. Ebe Mr. Jones wrtho, "Yr ydych i bregethu i ni y fory, ac yr wyf wedi bod yn gweddio gyda llawer o ddagrau am fendith ar eich llafur." Edrychodd y gwr ieuanc ar y llawr lle yr oedd wedi bod ar ei liniau, yr hwn oedd wedi ei wlychu a'i ddagrau; ac yr oedd y rhyddid a gafodd yn ei waith dranoeth, yn dangos mai "llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn." Un noswaith methodd a chysgu gan ofn bod rhyw gyfynder wedi dygwydd i ryw weinidog cymydogaethol, a chododd o'i wely i weddio drosto. Ar ol ymdrechu llawer ar ei ran, dychwelodd yn ol i'w wely. Ysgrifenodd yr hanes at wraig y gweinidog, canys yr oedd ef ei hun oddicartref. Pan ddaeth adref, dangoswyd y llythyr iddo, yr hwn a gyfaddefodd ei fod y noswaith hono mewn perygl mawr, ac iddo gael ei waredu mewn modd annysgwyliadwy. Nid oedd ef yn ymyraeth fawr a phethau y byd. Yr oedd ei enaid yn rhy nefol i gymeryd ei rhan yn y byd hwn. Nid oedd yr hyn ag oedd yn dderbyn yn rheolaidd, yn fawr, neu ddim mwy na deg punt yn y flwyddyn. Ond yr oedd ganddo gyfeillion a gyfranent yn achlysurol tuag at ei gynaliaeth. Fel nad oedd ganddo ond ychydig i ymddibynu arno, nid rhyfedd ei fod yn fynych mewn angen am gysuron; ac weithiau am anghenrheidiau y bywyd hwn. Gan ei fod mor dlawd, rhyfedda ein darllenwyr glywed ei fod yn haelionus. Ond mae yn wir nad oedd neb yn cydymdeimlo mwy âg, a neu yn barotach i gyfranu i, rai mewn cyfyngder nag ef. Pan sefydlodd yn Mhontypool, a gweled fod Duw yn bendithio ei lafur, bod yn rhaid cael ty cwrdd, a nemawr o'i gymydogion yn alluog i gyfranu fawr tuag at ei adeiladu, er na feddai y pryd hyny ond deugain punt, rhoddodd o hyny ddeg punt ar hugain tuag at adeiladu y ty cwrdd, gan gadw ond deg punt iddo ei hun. Yr oedd ei wraig o'r un ysbryd haelionus ag yntau. Un tro yr oedd ef yn ymweled a chyfaill, pan yr oedd yn isel arno am arian. Ei gyfaill a roddodd iddo ryw gymaint o arian i brynu brŵg, fel y gallai ef a'i deulu gael ychydig o ddiod erbyn y gauaf. Wrth ddychwelyd adref, yr oedd ei ffordd yn ei arwain drwy bentref lle yr oedd llawer o deuluoedd tlodion iawn, a rhai o honynt yn gleifion. Aeth ef i ymweled a'r teuluoedd hyn, a rhanodd rhyngddynt yr holl arian a dderbyniasai gan ei gyfaill. Pan ddaeth adref, adroddodd wrth ei wraig yr hyn a wnaethai; a hithau yn siriol iawn, a ddywedodd iddo wneuthur yn dda, gan ddangos iddo y tu ol i'r drws, gymaint o frag ag a allasid brynu am yr arian hyny, wedi cael ei anfon iddynt fel anrheg gan ryw gymydog haelionus. Ar dro arall, fel ag yr oedd ef yn dychwelyd adref dros y mynyddau, wedi bod yn pregethu yr efengyl, cyfarfu a dyn tlawd yn mron yn noeth, ac ar drengu gan oerfel. Ni feddai ef ddim arian i roddi iddo; ond tynodd ei grys, yn nghyd a chymaint o ddillad ag a allai eu hepgor, ac a'u rhoddodd iddo, ac wedi ei ddwys gynghori yn nghylch achos ei enaid, a'i orchymyn i Dduw mewn gweddi, aeth yn mlaen ar ei daith. Pan ddaeth i'w dŷ, brawychodd Mrs. Jones ei weled yn yr ystum hon, a gofynodd yn fuan pa beth oedd yr achos? Adroddai yntau yn dawel pa fodd y bu. "Gwnaethoch yn dda f'anwylyd," ebe hi, "mae genych chwi ddillad ereill i'w gwisgo. Mor ddiolchgar y dylem ni fod nad ydym yn yr un amgylchiad a'r dyn truenus hwnw." Ond â'r un

Digitized by Google

mesur ag y mesurodd ef i ereill, yr adfesurwyd iddo yntau. Er ei fod yn mron heb ddim, yr oedd yn meddu pob peth. Er bod weithiau mewn cyfyng gyngor ni fu erioed mewn anobaith. Bob amser pan fyddai angen arno, byddai Duw yn ei ragluniaeth yn darparu ymwared iddo. Cymaint oedd ei sel yn achos Duw, fel pan yn bedwar ugain oed, teithiodd yn agos i bedwar can milldir yn Ngogledd Cymru, gan bregethu ddwy waith yn y dydd. Pan ddywedwyd wrtho am berygl y daith, i un mor oedranus ag ef, attebodd "Ni fyddaf farw eto—na fyddaf, eithr byddaf fyw, i lafurio dros yr Arglwydd rai blyneddau yn hwy." Parhaodd i lafurio yn ngwaith yr Arglwydd hyd o fewn y flwyddyn i derfyn ei oes, pan ddaeth ceiliog y rhedyn yn faich, ac amser ei ymddatodiad yn eglur a agoshaodd. Nid rhyfedd fod y fath ddyn yn llawenychu yn fawr mewn gobaith gogoniant Duw. Pan ofynwyd iddo, a oedd yn ofni marw? atebodd megis mewn syndod, "Myfi yn ofni marw! Nac wyf, mi wn ormod am Grist i ofni marw. Mae yn wir fod angeu yn ddychrynllyd ond nid wyf yn ei ofni." Ac aeth trwy lyn cysgod angeu yn y flwyddyn 1794, yn 92 mlwydd oed. Yn mysg cyfeillion mwyaf mynwesol Arglwyddes Huntingdon, rhaid cyfrif y gwas hwnw i Dduw, y Parch. Edmund Jones, gweinidog capel Ebenezer, yn agos i Bontypool, yn mhlwyf Trefethin, Deheudir Cymru. Bu y gwr anrhydeddus hwn fyw yn agos i gan mlynedd, yn was fyddlon i Dduw, ac yn wrthddrych sylw neillduol y nefoedd. Yr oedd yn cynal gohebiaeth cyson a'r Arglwyddes Huntingdon, a phob amser yr ymwelai hi â Chymru, treuliai ryw gymaint o amser gyda a'i harglwyddiaeth. Boddheid yr arglwyddes yn fawr gan ei ymweliadau a Threfeca; ac ar ol un o'r tymhorau adfywiol hyn, ysgrifena fel y canlyn at un o'i chyfeillion: "Mae yr Hen Brophwyd anwyl a daionus wedi ein gadael! O y fath Sant ydyw! mor ymroddgar! mor fywiog! mor weithgar, a phob amser yn sychedu am gymundeb a Thad y goleuni. Diau i'w anerchiadau cynhyrfus i'r myfyrwyr, a'i weddiau taerion am eu llwydd, adael bendith ar eu hol."

**JONES**, Edward, D.D., esgob Llanelwy, a anwyd yn Llwyn y rhyd, yn Forden, ger Trefaldwyn. Efe a addysgwyd yn Ngholeg Westminster, betholwyd i goleg y Drindod, Caergrawnt; ac efe a etholwyd yn Gymmrawd o'i goleg yn y flwyddyn 1667. Efe a wnaed yn feistr Coleg Kilkenny, a deon Lismore, yn Iwerddon, a chafodd ei ddyrchafu yn esgob Cloyne, o'r lle ei symmudwyd yn 1692, i esgobaeth Llanelwy. Tu a'r flwyddyn 1699, cafodd yr esgob Jones ei ddifuddio dros chwe mis, gan archesgob Caergaint, am Simoniaeth, i'r hyn ei harweiniwyd, meddir, trwy fod angenion teulu lluosog yn gwasgu arno. Efe a fu farw, Mai 10fed, 1703, yn Westminster, ac a gladdwyd yn eglwys blwyfol St. Margaret.

**JONES**, Edward, Bardd y brenhin, a anwyd mewn amaethdy, o'r enw Henblas, yn mhlwyf Llandderfel, sir Feirionydd, yn 1752. Yr oedd ei dad yn feddianol ar athrylith gerddorol uwchlaw y cyffredin, o blegid, nid yn unig, gallai chwareu ar offerynau cerdd, ond yr oedd wedi gwneud llawer o honynt ei hun. Dysgodd ddau o'i feibion, Edward, a Thomas, i chwareu y Delyn Gymreig; mab arall i chwareu yr organ dannau; a mab arall i chwareu y crwth, ac yntau ei hun yn chwareu yr organ. Aeth Edward i Lundain tua 1774, o dan nawdd amryw bersonau urddasol perthynol i'r Dywysogaeth. Dywedir ei fod yn dra meistrolgar ar y delyn. Derbyniodd gefnogaeth fawr yn Llundain, a bu yn athraw cerddorol i amryw foneddigesau o fri. Cafodd ei benodi yn Fardd i Dywysog Cymru, yn 1783, ond swydd o anrhydedd, heb elw ydoedd. Yn 1784, dygodd allan drwy yr argraphwasg, gyfrol un plyg, a elwid ganddo, "Gweddillion Cerddorol a Barddonol o'r Beirdd Cymreig;" o'r hwn y gwnaed argraphiad newydd, gydag ychwanegiadau gwerthfawr, yn 1794. Y mae y pedwerydd argraphiad, ger ein bron yn awr. Geilw ef, "Gweddillion Cerddorol a Phrydyddol y Beirdd Cymreig; wedi eu cadw drwy Draddodiad a Llawysgrifau awdurol, o amser boreuol iawn, heb eu cyhoeddi o'r blaen; yn cynwys Caniadau Cenedlaethol, ac Alawon Cymru, wedi eu cyfaddasu, gydag Amrywion, at y Delyn, y Berdoneg, y Crwth, a'r Chwibanogl; gyda Detholiad o Benillion, Englynion, a Phrydferthion Awenyddol, Penillion Darluniadol, a Chaneuon Bugeiliol, gyda Chyfieithiad i'r Saesonaeg. Hefyd Hanes y Beirdd a'r Derwyddon, o'r amser boreuaf; gyda Hanes eu Cerddoriaeth, a'u Barddoniaeth; at yr hyn y rhag-ddodwyd Traethiad ar Offerynau Cerdd yr Hen Frytaniaid." Gwelir fod y darnodiad ar y ddalen enwawl yn faith, ond dichon y buasai yn anhawdd rhoddi awgrymiad am ansawdd y gwaith mewn cylch llai; canys y mae yn gasgliad helaeth iawn ar y wybodaeth hon, ac o wir deilyngdod. Y mae yn dair Cyfrol, neu yn hytrach, pedair, ond fod yr olaf yn anorphenedig. Y mae wedi ei addurno â darluniad o'r Bardd, yn ol dychymyg Gray; y Delyn Gymreig a'r offerynau eraill; y Telynor dall yn chwareu ei delyn, a'r teulu, fel datgeiniaid yn ei gylchynu; ac y mae yr olaf, yn olygfa ar Gastell Harlech, &c. Y mae y cyfrolau oll yn cynwys casgliad helaeth o'r hen Donau Cymreig, gyda nodiadau helaeth a tharawiadol ar eu hawdwyr, ac amgylchiadau eu cyfansoddiad. Yn y flwyddyn 1802, argraphodd gyfrol arall, a alwai, "Amgueddfa Farddol o Lenoriaeth Gyntefig Prydain." Bu yn ymdrechgar iawn i gasglu llyfrau, a yr oedd yn anhawdd eu cael; ond darfu i'w analluogrwydd i ddylyn ei fyfyriaeth hoff, a'i wylder, ei atal i wneud ei gyfyngder yn hysbys i'w berthynasau, fel y bu gorfod arno werthu nifer o honynt yn ddirgelaidd. Wedi i'w sefyllfa ddyfod yn hysbys, gosodwyd ei achos ger bron y Gymdeithas Gerddorol Freiniol, a chafodd sylw buan. Penodwyd blwydd-dal o ddeg punt ar hugain, o'r braidd yn ddiarwybod iddo. Pa fodd bynag, ni bu fyw i'w mwynhau, o blegid bu farw yn Marylebone Ebrill 18, 1824, yn 74 mlwydd oed. Gadawodd lawer o lyfrau ag oeddynt yn brin iawn, ar ei ol; a llawer o gerddoriaeth, y rhai a werthwyd yn gyhoeddus, yn mis Chwefror, 1825, a chafwyd tua 500 o bunau am danynt; ac yr oedd efe ei hun yn flaenorol, wedi gwerthu gwerth tua 300 punt o lyfrau, a darluniau. Y mae y llyfrau o'i eiddo ei hun, a argraphodd, yn brawf o'i alluoedd, y rhai oeddynt yn ffrwyth llafur ac ymchwiliadau dros ysbaid deugain mlynedd, a byddant yn foddion i gludo ei enw yn anrhydeddus i'r cenedlaethau eto a ddaw.

**JONES**, Edward, oedd yr unig fab a fu byw i John, a Margaret Jones, o Dal y Waun, Llanrhaiadr-yn Nghimmeirch, Swydd Dinbach. Efe a anwyd ar y 10fed o fis Mawrth, 1761. Nid oedd ei rieni yn aelodau eglwysig gyd ag unrhyw enwad, er yr arferent fyned weithiau i eglwys y plwyf. Prin yr

Digitized by Google

oedd gwrthddrych ein cofiant yn ddeng mlwydd oed, pan amddifadwyd ef o dad tyner a gofalus, wedi afiechyd maith; a'r hwn yn ystod ei afiechyd, a arferai anfon ei fab yn ofalus i eglwys y plwyf, ac i'r cyfarfodydd crefyddol a gynhelid gan y Trefnyddion Calfinaidd yn y gymmydogaeth; ac ar ei ddychweliad, galwai am dano, a holai ef yn fanol am y testun, ac am brif benau y bregeth. Fel hyn, cludai y mab y pregethau adref i'w dad cystuddiol, a'r tad, trwy ei gynghorion difrifol, a ddwyseiddiai yr argraffiadau ar feddwl y mab. Nid yw yn annhebyg na ddarfu i'r bachgen bychan, deng mlwydd oed, fod yn offeryn bendithiol i wasgar pelydron claer ar amgylchoedd pyrth marwolaeth i'w dad; ac na wnaeth y claf nychlyd, fwy ar ei wely angeu er deffro ystyriaethau difrifol y plentyn, nag a wnaethai erioed cyn hyny. Yr oedfa gyntaf y cofiai Edward Jones ei fod ynddi, a gynhelid mewn pobdy yn nhref Dinbach, lle yr oedd dau o hen bregethwyr nerthol y Trefnyddion Calfinaidd yn pregethu. Yr oedd yr olaf o'r ddau yn meddu doniau dysgrifiadol grymus, ac efe a ddarluniai y farn mor fywiog a tharawiadol, nes yr oedd y gwrandawr ieuanc yn ofni fod dydd y farn wedi gwawrio. Ryw ychydig cyn marw, rhoddai y tad orchymyn caeth i'w fam, ar iddi fod yn ofalus i fyned a'r bachgen bychan gyda hi i foddion gras; ac wedi claddu John Jones, gwelid y weddw, a'i phlentyn yn ei llaw, yn ymlwybro yn gyson i dy gweddi. Hoff waith mebyd Edward Jones, oedd dysgu barddoniaeth, a'i ddatganu. Pan oedd efe rhwng chwech a saith mlwydd oed, cymerai ei dad ef gyd ag ef i'r maesydd, i yru yr ychain; a phan y byddent yn tynu yn dda, neu yn ddrwg, gwnelai y gyrwr bychan bennillion o glod, neu anghlod iddynt, yn ol eu gwahanol haeddiannau: a phe y buasai yr ŷch dïog yn meddu rhyw synied am werth cymeriad ac enw dâ, buasai arno lawer mwy o ofn pennillion goganllyd Edward Jones, na blaen y swmbwl; ond, y mae yn debyg mai y swmbwl ydoedd y mwyaf dylanwadol i gyflymu symudiadau yr eidion. Gan iddo golli ei dad mor ieuanc, ni chafodd lawer o fanteision dysg; eto cafodd ei roddi am ryw dymhor byr mewn ysgol a gedwid gan un Mr. Lloyd, gweinidog yr Annibynwyr, yn eu haddoldy yn Ninbach: ond wedi i'w feddwl grymus a bywiog gael agoriad cil y drws, i gael cip drem ar drysorau gwerthfawr dysgeidiaeth, nid oedd yn hawdd ei attal i gael cyfran led helaeth o honynt; ac felly efe a fu yn dra diwyd i gasglu gwybodaeth trwy bob cyfrwng cyraeddadwy iddo. Wedi dyfod o hono i fwy o aeddfedrwydd oedran a barn, efe a arferai gyrchu yn fynych i wrando y Trefnyddion Calfinaidd, a braidd bob tro yr elai, dylanwadai y pregethau yn ddifrifol ar ei feddwl; ond byddai ei gymdeithion yn gwawdio ei leithdra a'i dynerwch, nes peri iddo gywilyddio weithiau ei fod mor feddal a chaniattau i wirioneddau yr efengyl effeithio dim ar ei feddwl. Pan oedd tua dwy flwydd ar hugain oed, dygwyddodd ddarllen Hanes John Bunyan, yr hyn a barodd derfysg, ac ystorm ofnadwy yn ei feddwl; a phan oedd efe yn y dymhestl hon, yr oedd ef, a chyfaill iddo wedi penderfynu myned i'r ysgol i Gaerlleon; ond pan ddaeth yr amser, petrusai Edward, rhag y byddai iddo, wrth fyned i geisio goleuo y deall, fyned yn fwy caled, a chauedig ei galon. Bu am yspaid yn cloffi rhwng dau feddwl gyda golwg ar yr ysgol; ond o'r diwedd, penderfynodd fyned; a'r hyn a ofnasai a ddaeth arno—iachaodd ei deimladau, ac ymadawodd ei argraffiadau crefyddol bron yn hollol; ac efe a gyfeiriai yn alarus yn ei hen ddyddiau yn aml, at yr amgylchiad yma.

Pan yn 24ain mlwydd oed, efe a ymbriododd a Jane Pierce, o blwyf Llanrhaiadr; a phreswyliai ef a'i wraig ieuanc mewn lle a elwid "Bryn y gwynt;" ond ni pharhaodd yr undeb priodasol hwn, namyn dros naw mlynedd; ac o'r briodas hon, efe a gafodd bedwar o blant, tri o ba rai a gawsant fyw i ddylyn eu tad i'r dystaw fedd.

Yn fuan ar ol priodi, daeth clefyd trwm i'r teulu, a bu Edward Jones ei hun yn glaf, yn agos i angeu; ac yn yr amgylchiad difrifol hwnw, cofiodd yr argyhoeddiadau a fygasai, a theimlai mor fawr oddiwrth drueni ei gyflwr, nes ydoedd ar gael ei lethu gan anobaith. Eto, yr hwn sydd yn ymhyfrydu mewn trugaredd, a arbedodd ei fywyd, a theimlai yntau ei fod wedi ei waredu bron yn wyrthiol. Ar ol ei adferiad, aeth yn isel iawn ei feddwl drachefn, gan ofni ei fod wedi pechu yn erbyn yr Ysbryd Glan; a thra yr ydoedd yn y cyflwr hwn, ymwelodd amryw gyfeillion crefyddol âg ef, un o ba rai a'i cymhellodd yn daer i fyned gyd ag ef i'r gyfeillach eglwysig. Ond y cymhelliad yma a'i dychrynai yn ddirfawr, a dywedai, nad oedd ef yn gymhwys i fyned i'r fath le,—nad oedd un addewid yn yr holl Feibl iddo ef; nad oedd dim yno ond y bygythion yn perthyn iddo ef. Y noson hono, ymaflodd yn y Beibl, a gosododd ef ar ei liniau, gan adael iddo ymagor lle y dygwyddai, a'r adnod y disgynodd ei lygaid gyntaf arni, oedd Rhuf. vii. 20.—"Ac os ydwyf fi yn gwneuthur y peth nid wyf yn ei ewyllwysio, nid myfi mwyach sydd yn ei wneuthur, ond y pechod sydd yn trigo ynof fi." Trwy y geiriau yna, adferwyd tawelwch i'w feddwl terfysglyd; ac yn fuan, efe a ymunodd âg eglwys fechan, berthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd, a arferai ymgyfarfod mewn ty annedd yn yr ardal hono. Cymerodd hyn le ar nos Fawrth y Pasg, 1787. Yr oedd ei wraig ar y cyntaf yn dra gwrthwynebol iddo i ymuno â phobl yr Arglwydd, ond daeth yn gymhorth mawr iddo yn fuan wedi hyny, yn hyn, fel mewn pethau eraill.

Yn mhen rhyw gymaint o amser ar ol claddu ei wraig gyntaf, efe a briododd yr ail waith, ferch John Roberts, Ty mawr, Green, Dinbach; a bu iddynt dri ar ddeg o blant, y nifer fwyaf o ba rai a fuant feirw yn eu mabandod. Oddeutu y flwyddyn 1801, efe a symudodd i fyw i Maes y Plwm. Yn y blyneddoedd hyn cadwai ysgol weithiau, a phryd arall treuliai ranau o'i amser yn y *Custom House*, yn Llynlleifiad.

Wedi marw Mr. Lloyd, cymellwyd Edward Jones i gadw ysgol yn addoldy yr Annibynwyr, yn Ninbach, â'r hyn y cydsyniodd; ond nid yw yn ymddangos iddo fod yno am dymhor maith; canys yn y flwyddyn 1805, canfyddwn iddo fyned i Gaerlleon, i arolygu yr argraffiad Cymreig o Feibl y Parch. Samuel Clarke, lle yr arhosodd am flwyddyn; ac yn ystod y tymhor hwnw y cyfansoddodd efe yr Englynion canlynol am dano ei hun;—

"Yn Mryn y Gwynt, gynt bu'r gwr,—yn oesi
Yn isel fel ffarmwr;
Di les oedd i'w deulu'n siwr,
Nes cododd yn ddysgawdwr.

Aeth hefyd ar hyd y rhaff—i Loegr
I olygu argraff;
Bu yno 'n wr cryno craff,
'N barbro'n Nghaerlleon hir-braff."

Digitized by Google

Wedi dychwelyd, etholwyd ef yn flaenor, neu ddiacon yr eglwys y perthynai iddi, a chyhyd ag y bu yn yr ardal, parhaodd yn arweinydd ffyddlawn iddi. Yn mhen rhai blyneddau, symudodd o Faes y plwm i Lyn y Pandy, ac oddiyno drachefn i Gilcain, lle yr arhosodd am y gweddill o'i oes.

Cyn ei ddychweliad at grefydd, gwnelai ambell bennill gwageddol lled ddigrifol; ond, gan iddo ddyfod dan oruchwyliaeth grefyddol pan yn lled ieuanc, cafodd ei attal rhag rhoddi gwasanaeth ei awen yn helaeth i wagedd a llygredd. Yr oedd cryn gyfeillgarwch yn ffynu rhyngddo ef a "Thwm o'r Nant," ac yr oedd llawer o debygolrwydd yn neillduolion eu hawen, ond bod un yn cadw gwell dysgyblaeth ar ei awen na'r llall. Pa beth a fuasai Edward Jones, fel bardd ar y mesurau caethion, nid yw yn hawdd barnu, gan iddo gael ei annog gan ei gyfeillion crefyddol i'w gadael o'r neilldu, a chyfansoddi ar fesurau mwy darllenadwy a dealladwy i'r werin; â'r hyn y cydsyniodd; fel mai ychydig mewn cydmariaeth a gyfansoddodd efe ar y mesurau caethion. Cyhoeddwyd amryw ddarnau o'i Gyfansoddiadau o bryd i bryd, yn llyfrau bychain, ac yn y Misolion; ond wedi ei farwolaeth, dygwyd casgliad lled gyflawn o'i Weithiau allan, mewn un cyflyfr hardd, dan yr enw "Caniadau Maes y plwm," o wasg Mr. P. M. Evans, Treffynnon. Prif nodweddion ei gyfansoddiadau, yw cynghanedd, duwiolfrydedd, a melusder. Y mae ei Emynau yn fwy cynganeddol o lawer na'r eiddo Williams Pant y celyn; ond, y mae hyny yn fwy o anfantais nag o fantais iddynt ddyfod yn hoff bennillion y cyssegr; ond er hyny, y mae rhywbeth yn nghaniadau Edward Jones a'u gwna yn anfarwol.

Dyn heinyf, ysgafn-droed, bywiog, a llawen oedd efe, o ran ei dymher, a'i ffurf allanol, yr hyn a'i gwnelai yn fanteisiol iddo i fod yn gydymaith difyr, yn gyfaill serchog, yn brïod dyddan, ac yn dad siriol. Dyna y fath ddyn y buasem yn dyfalu ei fod oddiar yr olwg allanol arno, ac erbyn dyfod i adnabyddiaeth gyflawnach o hono, felly y cawsom ei fod. Mab iddo ef oedd y diweddar Barch. John Jones, gynt o Ruthin, ac wedi hyny o'r Runcorn; a mab arall iddo oedd y Parch. Daniel Jones, diweddar Genhadwr i Fryniau Cassia, yn yr India Ddwyreiniol.

**JONES**, Parch. Edward, Bathafarn, ydoedd un o dadau yr achos Wesleyaidd yn Nghymru. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1777 yn Mhalas Bathafarn, gerllaw Rhuthyn. Ychydig o ysgolion uwchraddol oedd yn Nghymru y pryd hwnw, ac un o'r rhai goreu ydoedd Ysgol Rammadegol Rhuthyn, ac yn hon y derbyniodd y bachgen o Fathafarn ei addysg foreuol. Yr oedd y rhieni yn amaethwyr cyfrifol, ond yn hytrach na dilyn yr alwedigaeth amaethyddol, y mab a aeth, ac efe eto yn ieuanc, i Fanchester i drin cottwm. Yr oedd ei addysg gyflawn yn dra manteisiol iddo lwyddo yn yr alwedigaeth a ddewisasai, ac yr oedd ei ymddygiad bucheddol yn enill iddo air da gan bawb. Troai yn benaf y pryd hwn yn mysg y Saeson, ac ymunodd âg Eglwys y Wesleyaid Seisnig yn Oldham Street. Ar ol hyn, bu farw ei frawd, ac nid oedd ei iechyd yntau yn nodedig o gryf. Ar gais taer ei rieni, efe a ddychwelodd adref yn 1799, a'i enaid yn llawn tân dros lwyddiant yr achos Wesleyaidd. O herwydd nad oedd Wesleyaid y pryd hwnw wedi sefydlu achos yn ei dref enedigol, galwodd y gwr ieuanc ar ei ffordd adref, yn Nghaerlleon, a chafodd gan un o'r gweinidogion yno, addaw dyfod i Ruthyn i bregethu. Cafodd y gwr ieuanc ei hun, pa fodd bynag, ei alw i bregethu yn mhen enyd; a dechreuodd ar y gwaith, gan gymaint oedd ei aidd, cyn bod yn feistr trwyadl ar yr iaith Gymraeg. Ond yr oedd yn ymboeni yn feunyddiol trwy ymarferiad parhaus o fawl a gweddi, ac ni bu yn hir cyn anturio ar bregethu. Efe ydoedd un o'r rhai cyntaf, os nad y cyntaf o bawb, i gyhoeddi egwyddorion John Wesley yn Nyffryn Clwyd. Derbyniwyd ef i'r weinidogaeth yn y flwyddyn 1802, a chydlafuriodd yn ddyfal â'r ddau genadwr a anfonasid i Gymru gan y gynnadledd Wesleyaidd, ddwy flynedd cyn hyny. Yr oedd y doethineb a'r penderfyniad mwyaf yn angenrheidiol i wrthweithio y rhagfarn a goleddid yn erbyn y newydd-ddyfodiaid; ac ni wynebodd neb erioed erlidigaeth yn fwy eofn a ffyddiog na Mr. Jones. Elai allan i'r prif-ffyrdd a'r caeau i gyhoeddi ei genadwri bwysig; yr oedd dygn anwybodaeth y bobl yn ei danio, a dallbleidiaeth yn ei symbylu. Llwyddodd i ffurfio diadellau bychain mewn gwahanol barthau o'r wlad, ac o ddiffyg capelau addas, cyfarfyddent mewn ysguboriau, ac anedd-dai. Yr oedd duwioldeb diamheuol Mr. Jones, yn enill serch hyd yn nod ei wrthwynebwyr—canys nid oedd iddo elynion, a buan y daeth yn un o brif golofnau y cyfundeb Wesleyaidd yn Nghymru. Nis gellir ei restru yn y dosbarth blaenaf fel pregethwr, ac ymadroddwr, canys yr oedd ynddo rai diffygion pwysig fel y cyfryw; ond yr oedd ei ffydd-ddisigl yn dŵr o gadernid iddo, a byddai ei gynghor a'i esiampl bob amser yn cyfnerthu brodyr gweiniaid. Wedi dwyn yr achos i sefyllfa weddol gysurus, ymegniodd drachefn i ddarparu addoldai cyfleus a chyfaddas, ac yn hyn yr oedd ei zel a'i ymroddiad yn gyfryw, fel ag i'w arwain i beryglu ei amgylchiadau tymmorol ei hun, nes peri cryn raddau o bryder i'w gyfeillion. Aeth yn ymddiriedolwr i luaws o addoldai newyddion, ac er iddo fyned ddwywaith ar daith trwy Gymru, a chasglu amryw gannoedd o bunnau at y draul o'u hadeiladu, bu raid iddo ddioddef colledion trymion wedi'r cyfan. Pa wedd bynag, ni thyciai dim i beri iddo laesu dwylaw gyda'r gwaith, a daliodd i ymegnio yr un mor galed; ac ar ol ei symudiad at y Saeson, yn y flwyddyn 1816, parhaodd yn ei ddefnyddioldeb hyd ddiwedd ei oes. Bu yn weinidog ffyddlon i Grist am 35 mlynedd, ac ymadawodd â'r fuchedd hon yn Leek, swydd Stafford, ar y 25ain o Awst, 1837, yn y driugeinfed flwyddyn o'i oedran.

**JONES**, Evan, adnabyddus yn gyffredin wrth yr enw Ieuan Gwynedd, a anwyd Medi 5, 1820, mewn lle a elwir Bryntynoriad, yn mhlwyf Dolgellau, yn sir Feirionydd. Efe oedd yr ieuengaf o bump o blant; a chan fod ei dad a'i fam yn grefyddol, efe a gafodd y fantais o'i ddwyn i fynu yn mhen y ffordd. Yr oedd ei fam yn wraig o alluoedd anghyffredin, a phob amser âg addysg grefyddol ei phlant yn agos at ei chalon. Yn foreu iawn rhoddodd amlygiadau o'i dalentau cryfion, o blegid, pan yr oedd tua naw mlwydd oed, yr oedd wedi meistroli pob llyfr oedd yn nhy ei dad, yn nghyd â llawer o draethodau duwinyddol, a fenthyciasai o fanau eraill. Arferai y pryd hwnw ddarllen cynnyrchion y beirdd yn dra awyddus; ac yr oedd hefyd yn gyfarwydd iawn â chynhwysiad yr holl gyfnodolion, a gyhoeddid y pryd hwnw, yn y dywysogaeth; a chafodd yr hyfrydwch o weled Emyn o'i gyfansoddiad ei hun, yn argraphedig yn un o honynt, pan oedd yn un ar ddeg oed.

Digitized by Google

Cefnogai ei fam y duedd oedd ynddo at ddarllen yn fawr. Nid oedd ei dad mor ffafriol at y diwylliant hwn. Cafodd cyn hir, ei resu yn mhlith prif feirdd a llenorion ei wlad, ac yn uwch drachefn, fel gweinidog yr efengyl. Derbyniwyd ef yn aelod eglwysig gyda yr Annibynwyr yn y Brithdir, pan oedd tua 15 mlwydd oed, gan y Parch. C. Jones, Dolgellau. Pan yr oedd tua 17 oed, ymadawodd a'i gartref am y tro cyntaf, er myned i gadw ysgol i Lanwddyn, sir Drefaldwyn, lle y dechreuodd bregethu. Ar ei fynediad i'r gymydogaeth honno, lletyai mewn man gwledig, ac er mor ieuangc oedd, caniatawyd iddo gadw addoliad teuluaidd yno hwyr a boreu. Aeth oddiyno cyn hir i ysgol barotoawl Marton, yn sir Amwythig, yn hon a gedwid gan y Parch. John Jones. Yn 1841, derbyniwyd ef i goleg Aberhonddu; ac ar derfyn ei dymor yno, yn 1845, sefydlodd fel gweinidog yn Nhredegar, sir Fynwy, a phriododd yr un flwyddyn. Gwanhaodd iechyd ei briod yn fuan, a dechreuodd ei drallodion yntau amlhau. Yn 1846, ganwyd plentyn iddynt, a bu Mrs. Jones farw yn yr amgylchiad, a'r plentyn hefyd, a hwy a gladdwyd yn yr un bedd. Tra yr oedd y wraig yn glaf mewn un gwely, ac yntau yn glaf mewn gwely arall, y cyfansoddodd ei Draethawd buddygol ar "Ddrygedd Yfed Cymedrol." Yn fuan ar ol hyn, efe a gyhoeddodd draethawd ar "Ymneillduaeth a Moesoldeb Cymru;" yr hwn ydoedd amddiffyniad tra galluog o gymeriad a chrefydd y Dywysogaeth, yn wyneb yr enllib a gyhoeddwyd gan y llywodraeth yn y "Llyfrau Gleision," fel eu gelwid. Gan ei fod yn teimlo ei iechyd yn gwanhau, tybiodd yn briodol roddi i fynu ei weinidogaeth yn Nhredegar, ac ymgymeryd â golygiaeth Newyddiadur Seisnig, a elwid y "Principality." Ychydig o amser y parhaodd ei gysylltiad a'r newyddiadur hwnw; ac efe a aeth i Lundain, er bod yn un o olygwyr y "Standard of Freedom." Yr amser hwn, priododd yr ail waith, â Miss Lewis, merch y Parch. Mr. Lewis, Tredwstan, yr hon a fu yn ymgeledd gymwys iddo hyd ddiwedd ei oes. Tra yr oedd mewn gafael a'r olygiaeth hon, yn ddisymwth torodd llestr gwaed iddo, ac mewn ymostyngiad i gyngor y meddygon, symudodd, dan amgylchiadau o wendid peryglus, i Gaerdydd, lle yr arhosodd hyd ei farwolaeth. Dygwyd ei gorph mewn elor-feirch i'w gladdu yn mynwent y Groes-wen, Morganwg; a chyfodwyd ar ei fedd, gofadail hardd, ar yr hon y mae y llinellau canlynol o waith Gwilym Hiraethog, yn gerfiedig:—

"Y golofn yma gyhoedda haeddiant
Ieuan Gwynedd, i'w wlad fu'n ogoniant;
Haul oedd i'w genedl—miloedd a gwynant—
Ai'n nos o'i golli—tewi nis gallant—
Llanwodd swydd llenydd a sant;—sai ei weithiau
Ef i'r ol-oesau, yn ddirfawr lesiant."

Gwnaed y draul o godi y golofn i fynu mewn tansgrifiadau ceiniog, o bob sir yn Nghymru. Yr oedd ei lafur, yn ysdod y ddwy flynedd a haner olaf o'i dymor, yn ddirfawr. Yr oedd ganddo ddau gyhoeddiad misol, ac un tri-misol i'w golygu, a nifer o erthyglau Saesonig i'w cyfansoddi; gyda nifer mawr o draethodau a barddoniaeth, a droisant allan yn fuddygol yn y prif eisteddfodau. Yr oedd ganddo law yn mhob cyffroad cenedlaethol o duedd dda. Dywedodd air effeithiol iawn mewn llythyr wrth gyfaill yn y teimlad o'i lesgedd corphorol, "Pe buaswn i yn fyw, yn lle bod fel hyn yn fy medd, ni chawsai y rhwysg hwn fyned yn mlaen, heb ataliad." Y mae hyn yn dangos pa mor ymroddgar oedd ei yspryd. Pa fodd bynag, gwanhaodd yn raddol, a hunodd yn yr angau, yn ei ddeuddegfed flwydd ar hugain oed. Yr oedd y galar a deimlid ar ei ol yn gyffredinol. Cyhoeddwyd ei weithiau barddonol, gyda rhai detholion o draethodau rhyddieithol, yn ddiweddar, mewn cyfrol hardd, gan Mr. R. O. Rees, Dolgellau. Bydd ei enw yn seinio yn ddymunol ar glust a theimlad trwy y dywysogaeth, hyd i'r oesau a ddeuant. Bydd yr amddiffyniad a wnaeth i gymeriad ei genedl yn chwerw ar fynwes pob gormeswr a ddarlleno ei ysgrifau miniog, yn erbyn y cam-ddarluniadau a'r ymosodiadau annheg a wnaed ar ein cyd-genedl. Enillodd iddo ei hun enw anfarwol yn yr ymdrech honno. Yr oedd ei babell allanol yn rhy egwan i'w feddwl cawraidd, a machludodd ei haul ar haner dydd! Yr oedd "Arglwydd Llanofer," a "Gwenynen Gwent," yn mysg ei edmygwyr, yn gystal â nifer mawr o lenorion a gwleidyddwyr yn y mysg y Saeson, a'r Cymry. Bydd ei gyfansoddiadau yn golofnau i gynal i fynu ei enw i'r oesau a ddel, a bydd yr "Adolygydd," ar "Gymraes," yn hoff-lyfrau y genedl, tra y llefarir yr iaith, ac yr olrheinir ei thrysorau.

**JONES, Griffith**, o Landdowror, a anwyd yn Nghil rhedyn, yn Swydd Gaerfyrddin, o rieni parchus, yn y flwyddyn 1683. Efe a gollodd ei dad pan ydoedd yn ieuanc; ond gan ei fod yn amlygu tuedd gref at dderbyn addysg, efe a ddodwyd dan athraw galluog yn ysgol ramadegol Caerfyrddin, lle y cynnyddodd efe mewn dysgeidiaeth yn fuan. Efe a ordeiniwyd yn ddiacon gan yr esgob Bull, yn y flwyddyn 1708, ac yn y flwyddyn ganlynol, cafodd ei gwbl urddo. Yn y flwyddyn 1711, cyflwynwyd bywioliaeth Llandeilo Abercowyn iddo; ac yn y flwyddyn 1716, efe a benodwyd i ficeriaeth Llanddowror, gan Syr John Phylips o Picton, Barwnig, yr hwn a'i detholodd yn ddi gymhelliad, ar gyfrif ei ddysgeidiaeth a'i dduwioldeb yn unig. Wedi hyny, priododd Mr. Jones chwaer i Syr John. Efe a arferai hefyd wasanaethu Llanllwch, yn agos i Gaerfyrddin, yn achlysurol; lle yr ydoedd boneddiges o'r enw Bridget Vaughan, a briododd wedi hyny âg un o'r enw Arthur Bevan, Ysw., o Lacharn, yn un o'i gynnulleidfa, haelioni Cristionogol yr hon sydd wedi gwneyd ei henw mor anrhydeddus yn mysg y Cymry. Enwogrwydd Mr. Jones, fel clerigwr llafurus, a'i dug dan sylw y Gymdeithas er Lledaeniad yr Efengyl mewn gwledydd Tramor, a Chyfarwyddwyr y Gymdeithas hono a'i cyfrifent yn meddu cymhwysderau neillduol i fod yn genhadwr i'r India. Efe a gydsyniodd a'u cynnygiad, ac a ymbarottodd i'r anturiaeth, ond yn ffodus, cyfododd rhyw attalfa, ac felly cadwyd ei lafur at wasanaeth ei gyd-wladwyr tlodion a thywyll. Yn y flwyddyn 1730, efe a gychwynodd ei ysgolion cylchynol yn Nghymru, y rhai a fuant o fendith annrhaethol i filoedd; ac yn ol ei adroddiad, a argraffwyd ganddo am eu cyflwr, dros bedair blynedd ar hugain, o 1737 hyd 1760, yr oedd nifer yr ysgolion yn ystod y cyfnod yma yn 3185, ac o ysgolorion, 150,213. Nid oeddynt yn gyfyngedig i blant yn unig, ond cyrchid iddynt gan lawer o oedolion, y rhai a holwyddorid yn rheolaidd, ac i'r rhai yr eglurid yr Ysgrythyrau. Parhawyd i ddwyn yr Ysgolion hyn yn mlaen gan Mrs. Bevan, wedi marwolaeth Mr. Jones, tra y bu hi byw, dros oddeutu ugain mlynedd; a hi a adawodd y swm

Digitized by Google

haelionus o ddeng mil o bunau at eu cynnaliaeth. Yr oedd efe yn bregethwr dwys a galluog, a byddai ei eglwysi yn fynych yn rhŷ gyfyng i gynnwys y torfeydd lluosog a gyrchent i wrando arno; yn enwedig ar Sabbathau y Sacrament.

Efe a fu farw yn nhy Mrs. Bevan, Ebrill 8, 1761, yn 78 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn eglwys Llanddowror, lle y buasai yn llafurio dros bum mlynedd a deugain; a chyfodwyd cof-adail iddo gan Mrs. Bevan. Fel yr oedd Mr. Jones yn llwyr ymroddgar i geisio gwellau cyflwr ysbrydol ei gydwladwyr, efe a fu yn offerynol i gael dau argraffiad o'r Beibl Cymraeg o'r wasg, y rhai a ymddangosasant, y naill yn y flwyddyn 1746, a'r llall yn y flwyddyn 1752; ac yr oedd ef ei hun yn awdwr y gweithiau canlynol, yn Gymraeg a Saesonaeg; 1. "Esboniad ar Gatechism yr Eglwys, &c.; yn cynnwys corff cryno o Dduwinyddiaeth."—2. "Galwad at orseddfainc y gras."—3. "Ffurf o weddïau."—4. "Hyfforddwr at orsedd-fainc y gras."—5. "Cyngor Rhad."—6. "Annogaeth i foliannu Duw."—7. "Llythyr ar y ddyledswydd o egwyddori yr anwybodus."—8. "Casgliad o Ganiadau y Parch. R. Pritchard," &c. &c. Efe a ysgrifenai bob amser yn ysgrythyrol, difrifol, a serchog, fel un am wneuthur llesïad i eneidiau dynion. Dangosai bob amser wybodaeth eang o'r hyn y traethai am dano, ac amlygai ei feddwl mewn ymadroddion addas, ac iaith bur ac ardderchog; ac yn y cwbl, ymddengys yn dduwinydd da, o wybodaeth a doniau helaeth, a chariad gwresog at achos yr Efengyl.

Ond, yn lle croesawi ymdrechiadau canmoladwy Mr. Jones, a rhoddi cefnogaeth deilwng iddo, yr oedd yr holl esgobion Cymreig, ac urddasolion eraill yr Eglwys, gyd ag eithriad o ychydig offeiriaid israddol, yn edrychwyr dïofal ar ei lafur, neu yn wrthwynebwyr maleisus iddo. Mewn ychwanegiad at ei erlyniad maith yn Llŷs yr Esgob, darfu, hyd yn nod i Esgob, gyflogi offeiriad Eglwys Gymun, ger Llanddowror, o'r enw John Evans, i'w enllibio mewn llyfryn o'r mwyaf bustlaidd a ddaeth allan erïoed o argraff-wasg Brydeinaidd. Cyhoeddwyd y llyfryn hwn yn y flwyddyn 1752, dan yr enw "Hanes yr Ysgolion Elusengar Cymreig, a chodiad a chynnydd Trefnyddiaeth yn Nghymru trwyddynt hwy yn gwbl; dan arolygiaeth Griffith Jones, offeiriad Llanddowror, yn Swydd Gaerfyrddin; mewn byr hanes o fywyd yr offeiriad hwnw, fel *Offeiriad.*"—Yn mysg cyhuddiadau eraill a ddygid i'w erbyn yn y Llyfryn gwael hwn, y mae a ganlyn:—1. Fod ei rïeni yn Annghydffurfwyr, ac nad oedd ef ei hun erïoed yn wir gymmodlawn a'r Eglwys Sefydledig, ei deddfau, canonau, homiliau, a'i hoffeiriaid.—2. Ei fod wedi cael ei ddwyn i fynu i'r alwedigaeth o wneuthurwr phïolau coed; a'i fod wedi ymarfer â'r alwedigaeth hono, er ei ddifyrwch, yn Llanddowror, er pan wnaed ef yn offeiriad yno.—3. Ei fod wedi gwasgaru 24,000 o gopïau o Gatechism Matthew Henry yn Gymraeg, yn ei ysgolion, o'r flwyddyn 1730 i 1738; a'i fod bob amser yn cadw amryw gopïau o Esboniad Henry ar y Beibl, ar werth; yr hwn a gymeradwyai i Ymgeiswyr am urddau sanctaidd, er ei fod yn waith Henaduriad.—4. Ei fod wedi cydnabod gyd a'r Annibynwyr a'r Bedyddwyr, fod gan bob dyn gystal hawl i ddewis ei weinidog, ag oedd ganddo i ddewis ei gyfreithiwr, neu ei feddyg.—5. Ei fod wedi treulio peth amser pan yn offeiriad Llanddowror, i fyfyrio Hebraeg dan Mr. Parrot, Athraw y Coleg Henadurol yn Nghaerfyrddin.—6. Fod naw o bob deg o'i gymunwyr yn Llanddowror, yn Ymneillduwyr, y rhai nad aent i unrhyw eglwys blwyfol ond ei eglwys ef.—7. Ei fod yn dirgel gyfrinachu â'r Trefnyddion, a bod holl athrawon ei ysgolion, naill a'i Trefnyddion, neu Annibynwyr.—8. Ei fod yn cydsynio â'i ddysgybl, Howell Harris, fod llawer o wyn gwerthfawr Crist yn mysg y gwahanol Enwadau.—9. Ei fod yn ei Esboniad o Gatechism yr Eglwys, wedi esbonio i ffwrdd yr athrawiaeth werthfawr o ail-enedigaeth fedyddiol, gan haeru na wnai bedydd, na dim arall wneyd un yn Gristion, heb ffydd gadwedigol yn Nghrist.—10. Ei fod ef a'i gyfeilles, (Madam Bevan, mae yn debyg,) wedi myned i draul a thrafferth fawr i osod i lawr bob Gwylmabsaint, chwareuyddiaethau, &c.; a bod hyny yn peri nid ychydig o leihad a'r hynawsedd a chariad Cristionogol, a chymmydogaeth dda, i'r hyn y gweinyddent yn helaeth, gydag ond ychydig, neu ddim canlyniadau drwg.

Darlunir Mr. Jones yn y llyfryn dan sylw, yn yr iaith fwyaf ffiaidd ac anfoesgar,—fel rhagrithiwr, gormeswr creulawn, celwyddwr, &c.; a'i ganlynwyr fel lladron, dïogwyr, godinebwyr, a phenboethiaid anwybodus. Dyna y fath driniaeth a gafodd y gwr duwiol hwnw oddiwrth frawd o offeiriad, yn cael ei gefnogi gan esgob, a llawer, os nad y mwyaf-rif o'r offeiriaid Cymreig. Ond, y canlyniad a fu, i'r Annghydffurfwyr ddyfod yn mlaen i fedi ffrwyth llafur efengylaidd, a chynlluniau addysgawl, offeiriad duwiol a llafurus Llanddowror. Pe buasai corff yr offeiriaid wedi dyfod yn mlaen yn galonawg i gefnogi Mr. Jones, nid yw yn debyg y buasai nemawr rym na dylanwad gan Ymneillduaeth yn Nghymru heddyw. Yr oedd ef yn wr rhydd, a thra di ragfarn o ran ei ysbryd; ac felly yn mhell o amcanu cyfyngu crefydd i'w eglwys ei hun; ond dywedai gyd a'r parodrwydd a'r didwylledd mwyaf, yn ngeiriau yr Apostol,—"Gras a chariad fyddo gyda phawb sydd yn caru yr Arglwydd Iesu Grist mewn gwirionedd."

Cadwai y fath drefn ragorol yn mhob peth a berthynai i'w deulu, fel y teimlai pob dyn duwiol yn fraint anrhaethol gael bod yn rhyw-beth yn ei wasanaeth, er mwyn y cyfleusdra o ymuno yn ngwasanaeth crefyddol y teulu.

Pan oedd yn pregethu unwaith yn Llanllwch, ger Caerfyrddin, y daeth efe gyntaf i gydnabyddiaeth a Bridget Vaughan, y Derllys; yr hon wedi hyny a elwid Madam Bevan, o Lacharn; ac enillwyd hi trwy ei weinidogaeth, pan yn pregethu yn y lle uchod, i roddi ei hunan yn gyntaf i'r Arglwydd, ac i'w bobl a'i wasanaeth, yn ol ei ewyllys ef.

Un tro arall, pan yn pregethu yn Llanddewibrefi, yr oedd ei boblogrwydd wedi dwyn tyrfa fawr i'w wrando fel arfer; yr oedd yno lawer o Langeitho, ac yn eu plith y Parch. Daniel Rowlands, is beriglor y plwyf hwnw, yr hwn a deimlodd y gair yn gwneuthur rhyw argraffiadau ar ei feddwl y pryd hwnw, na wybuasai am danynt erïoed o'r blaen. Suddodd i afael pryder ac ofn am ei gyflwr, nes oedd ar benderfynu na cheisiai bregethu mwyach, ac ofnai na's gwnelsai namyn ei dwyllo ei hun a'i wrandawyr hyd y pryd hyny. Wrth ddychwelyd adref, yn nghymdeithas lluaws o'i gymmydogion, a'i blwyfolion, y rhai a ganmolent y bregeth yn fawr, gan adrodd y lles a gawsent drwy y weinidogaeth, yr oedd ei feddwl yntau yn cael ei suddo yn ddyfnach

Digitized by Google

gan ofn na fuasai ei bregethu ef o les i neb erioed; yn y cyfamser, daeth un o'r cyfeillion yn mlaen, a chan roddi ei law ar ei ysgwydd, dywedai, fod arno ef rwymau i ddiolch am offeiriad bach Llangeitho; oblegid mai trwyddo ef y cawsai efe lesad ysbrydol, os cawsai y fath beth erioed; ac nad oedd efe wedi cael dim neillduol drwy bregeth ficer Llanddowror y dydd hwnw. Cyfododd hyn ryw faint ar ei ysbryd, a siriolodd ei feddwl, fel y dywedodd, "Pwy a wyr na wna yr Arglwydd ryw ddefnydd o honof finnau, greadur gwael?"

Nid oes neb yn alluog i ddywedyd gymaint o ddaioni a fu Mr. Jones yn offerynol i'w wneyd i genedl y Cymry, trwy ei hunan-ymwadiad a'i ymdrech ei hun, a haelioni rhai eraill, a dynwyd allan ganddo yn ei fywyd. Ac efe a adawodd dros saith mil o bunau yn nwylaw Madam Bevan, cyn ei farwolaeth, i'w defnyddio at ddwyn yn mlaen yr ysgolion a sefydlasai efe; a'r foneddiges hono a roddes ei lyfrau a'i feddiannau at yr achos daionus. Ar ol gwasanaethu ei genedl yn ol ewyllys Duw gyda chymaint o ffyddlondeb, a mwy o lwyddiant na neb o'i gyd oeswyr, efe a hunodd yn yr Arglwydd, yn nhŷ Madam Bevan, yn Lacharn, Ebrill 8, 1761, yn 77 mlwydd oed; a chladdwyd ef yn Llanddowror.

**JONES**, Hugh, LL.B., Esgob Llandaf. Ganed ef yn y flywyddyn 1508. Derbyniodd ei addysg golegawl yn Rhydychain, lle y derbyniodd yr urddradd o LL.B., yn y flwyddyn 1541. Derbyniodd ei holl ddyrchafiadau eglwysig yn ei wlad enedigol —Cymru; a gwnaed ef yn gorweinydd Llandaf. Ac yn nheyrnasiad y frenines Mari, yn y flwyddyn 1556, derbyniodd berigloriaeth Banwell yn Ngwlad yr Haf. Yn y flwyddyn 1567, cafodd ei gysegru i esgobaeth Llandaf, ac fel y sylwa Godwin, efe oedd y Cymro cyntaf a benodwyd i'r esgobaeth hono er ys tri chant o flyneddau cyn hyny. Bu farw Tachwedd, 1574, yn 66 mlwydd oed; a chladdwyd ef yn eglwys Matharn, Sir Fynwy.

**JONES**, Hugh, o Langwm yn sir Dinbych, ydoedd fardd chwareuyddol enwog, a fu byw rhwng y blyneddoedd 1740, a 1780. Yn y flwyddyn 1759, agraphodd gasgliad o farddoniaeth, o waith gwahanol feirdd, yn mysg y rhai y mae llawer o'i gyfansoddiadau ei hun. Gelwid y llyfr, "Dewisol Ganiadau yr Oes hon." Y mae tri argraphiad o hono wedi cael eu dwyn trwy y wasg. Yn y flwyddyn 1763, argraphodd gyfrol arall, yn cynwys cyfansoddiadau barddonol o waith Goronwy Owen, Lewis Morris, ac ereill o feirdd Mon; a galwodd y gyfrol, "Dyddanwch Teuluaidd." Ysgrifenwyd hefyd amrywiol o wawdgerddi gan Huw Jones, y rhai a elwid chwareu-gerddi; ac yr oeddynt yn boblogaidd iawn yn Nghymru yn ystod y ganrif ddiweddaf. Un o'r rhai hyny a elwid, "Chwareu-gerdd Newydd," ar ddull ymddiddan rhwng Protestant a Neillduwr." Argraphwyd hon yn y flywyddyn 1783. Bu Hugh Jones farw yn nghymydogaeth Llangwm, a chladdwyd ef yno gyda'i deidiau.

**JONES**, Inigo, a anwyd yn Llanrwst yn y flwyddyn 1572. Pan yn ieuanc iawn, amlygodd feddiant o alluoedd cryfion a dyfeisgar, ac o chwaeth goethedig, mewn cynllunio adeiladau o amrywiaeth dullwedd a maintioli. Nid ymddengys fod ei rieni wedi eu bendithio a chyfoeth mawr; ac yn yr amser hwnw nid llawer o foneddigion y wlad a noddent ac a gynnorthwyent ddynion o athrylith; eto yr oedd ambell un o fawrion y tir yn coleddu efrydwyr ymroddgar, ac yn estyn cynorthwy iddynt er perffeithio eu diwylliant. Un o'r cyfryw oedd Iarll Penfro, yr hwn a ddygodd ei draul i ymdeithio drwy yr Eidal, a gwledydd ereill ar gyfandir Ewrob, i'r dyben iddo gael gweled ceinion clodfawr y gwledydd hyny. Ac wedi iddo gyrhaeddyd enwogrwydd yn y gelfyddyd o adeiladu, dywedir i'r un pendefig wneuthur defnydd o'i fedrusrwydd, i adeiladu ei balas ardderchog yn Wilton, gerllaw Salisbury. Felly hefyd ar ddymuniad Syr Richard Wynn, o Wydir, defnyddiwyd ei gelfyddydwaith i adeiladu y bont gampus ger Llanrwst, dros yr afon Conwy, a chapel Gwydir, yn eglwys y dref hono. Ni fedrasom hyd yma weled un o'i fywgraffwyr yn datgan yn bendant mai Cymro ydoedd. Y mae traddodiad yn nofio ar lên gwerin, mai brodor o Benmachno oedd ei dad, ac mai merch i dyddynwr bychan, oedd yn byw yn Ty Isaf, Rhiwddolion, yn mhlwyf Bettws y Coed, oedd ei fam; a'n bod yn gwasanaethu teulu Gwydir; ac felly iddo gael ei addysg i ddechreu, dan nawdd Syr John Wynne. Eto y maent yn tystiolaethu mae ei enw ar y cyntaf oedd Ynyr, o'r hon y mae prawf yn aros hyd heddyw ar ochr y bont gampus a nodwyd, yr hon a adeiladodd efe, lle mae yr enw "Ynyr" wedi ei gerfio ar un o'r meini; ac y mae yn hysbys fod yr enw hwnw yn arferedig yn mysg y Cymry gynt, megis "Ynyr Gwent," &c. Dywedir mai pan ydoedd yn ymdeithio yn yr Eidal y trawsffurfiodd ei enw i Inigo, neu *Ignatius*, er mwyn iddo fod yn hawddach ei seinio gan drigolion y wlad hono. Ei gynydd a ddaeth yn fuan yn hysbys i Iarll Penfro, fel y crybwyllwyd, yr hwn a'i cynysgaeddodd â moddion i fyned i weled gwledydd tramor, er mwyn eangu ei ddrychfeddyliau yn y gelfyddyd. Ond pan gyrhaeddodd i Rufain, meddianwyd ef yn ddisymwth gan y fath syndod boddhaol wrth weled godidawgrwydd yr adeiladau yn y ddinas henafol hono, fel y llyncwyd ei athrylith flaenorol gan yr un newydd o bensaerniaeth, yr hon o hyny allan, a fu ei hoff gelfyddyd. Wedi hyn ymwelodd â Venice, lle y boddhawyd ef yn ddirfawr gan adeiladau yr hyglod Palladio, o ba rai y cymerodd ddarluniau manwl i'w dwyn gydag ef i Loegr, er ei gyfarwyddyd mewn amser dyfodol. Felly ei arhosiad yn y ddinas hono a fu dros ysbaid lled faith; ac mor gyflym oedd ei gynnydd, fel yr ymdaenodd ei glod hyd yn mhell; ac yn mysg manau eraill, cyrhaeddodd Denmarc, ac i glustiau Christian IV., brenin y wlad hono, yr hwn yn ebrwydd a anfonodd am dano, ac a'i gwnaeth yn adeiladydd i'w fawrhydi. Ond pa orchestion a gyflawnodd yn y sefyllfa hono nid yw yn hysbys. Modd bynag, preswyliodd yno hyd y flwyddyn 1606, pan ddaeth y brenin hwnw drosodd i Loegr, am fod ei chwaer Ann wedi priodi â Iago I., brenin Prydain, a chaniataodd i Mr. Jones ddyfod drosodd gydag ef, a'r frenines a'i gwnaeth ef yn adeiladydd iddi hithau; ac wedi hyny cafodd y cyffelyb swyddogaeth dan y tywysog Penry, lle y cyflawnodd ei ddyledswyddau mewn dull mor foddhaol, fel y darfu i'r brenin ei hun addaw iddo y swydd o arolygydd cyffredinol adeiladau ei fawrhydi can gynted ag y deuai y sefyllfa hono yn wag. I aros hyn, cymerodd daith drachefn i'r Cyfandir, ac ymwelodd eilwaith a'r Eidal, lle yr arosodd rai blyneddau er mwyn helaethu ei wybodaeth yn ei gelfyddyd. Ar ei ddychweliad adref, cafodd y swydd addawedig, ac yn fuan dechreuodd roddi enghreifftiau ysblenydd o'i fedrusrwydd, i'r hwn berwyl yr oedd

Digitized by Google

teyrnasiad rhwysgfawr Iago I. yn rhoddi iddo amledd o gyfleusderau. Yn fuan wedi hyn, gwelid ef yn brysur gyda'r gorchwyl o gynllunio y palas breninol yn White Hall, yr hwn a ddechreuwyd yn ol ei gyfarwyddiadau ef, yn y flywyddyn 1619, ac a orphenwyd yn mhen dwy flynedd, drwy y draul o 17,000*p.*; ond rhwystrwyd cwblhad cyflawn o gynllun amcanedig Mr. Jones, trwy y terfysgoedd annedwydd a ddygwyddodd yn y deyrnas yn fuan wedi hyn. Modd bynag, yr hyn a orphenwyd oedd yn dra dillynaidd, fel y mae yr olwg arno yn tystiolaethu hyd heddyw. Yn y flwyddyn 1618, rhoddwyd allan orchymyn breninol i'r Arglwydd Ganghellydd, Ieirll Arundel, Penfro, Caerwrangon, ac ereill, i sylfaenu ac unffurfio *Lincoln's Inn Fields*, yn ol y dull a'r cyfarwyddiadau gan Inigo Jones; ac yntau a gynlluniodd yr unrhyw mewn dull tra hynod, yn betryal, o'r un hyd a lled ag un o byramidiau yr Aifft. Yn fuan ar ol hyn, rhoddwyd iddo orchwyl tra anmhriodol i'w athrylith. Y brenin Iago a osododd arno i chwilio allan ddyben, ac amser sylfaeniad y deml henafiaethol, gweddillion rhyfeddol yr hon sydd i'w gweled ar wastadedd Caercaradog, yn sir Wilts, ac a elwir Stonehenge. Ymosododd ar y gorchwyl a'i holl egni; ac wedi iddo trwy ddirfawr draul a thrafferth, fesur hyd a lled y lle, a manol chwilio y sylfeini, gan gymharu y gwahanol ansoddau â chyffelyb weddillion henafiaethol a welsai mewn manau eraill, hysbysodd ei farn mai teml Rufeinig ydoedd hon, wedi ei chysegru i Boelus, yr henaf o Dduwiau y paganiaid, wedi ei hadeiladu rywbryd rhwng amser Agricola, a theyrnasiad Cystenyn Fawr! Er mai y traddodiad cyffredin yw, mai un o hen demlau Derwyddon y Cymru oedd y Deml hon; eto y penderfyniad crybwylledig, pan gyflwynwyd ef gan Jones i'w feistr breninol, yn y flwyddyn hono (1620), a gymeradwywyd y mae'n debygol; canys dywedir i'w fawrhydi yn ebrwydd ar ol hyn, benodi Inigo Jones yn un o'r dirprwywyr, i adgyweirio Eglwys St. Paul, yn Llundain; er na ddechreuwyd y gorchwyl hwnw hyd y flwyddyn 1633. Ei hanes o Stonehenge a argraffwyd wedi hyny, ac y mae y llyfr ar gael hyd heddyw, ond nid llawer o gymeradwyaeth a gafodd, am fod golygiadau yr awdwr mor groes i'r syniadau cyffredin mewn perthynas i'r lle. Yn y flwyddyn 1623 rhoddwyd ef ar waith i ddarparu capel yn Somerset House, i'r dywysoges Yspaenaidd, yr hon a amcenid yn ddyweddi i'r tywysog Charles. Ac ar ol marwolaeth Iago I., yr hyn a ddygwyddodd yn y flwyddyn 1625, cadwyd Inigo yn eu swyddau, dan y brenin ar frenines nesaf. Yn mis Mehefin, 1633, penderfynwyd iddo ddechreu ar y gorchwyl crybwylledig, o adgyweirio Eglwys St. Paul; y garreg gyntaf o'r hwn waith a osodwyd gan yr esgob Laud, a Jones a osododd y bedwaredd garreg. Er mai gwir ddosbarth celfyddydol Inigo Jones ydoedd adeiladwaith, eto nid oedd ei athrylith mewn darluniaeth wedi diffoddi. Cafodd achlysuron mynych i amlygu ei fedrusrwydd yn y ffordd hon, wrth dynu y darlunleni a ddefnyddid yn y chwareuyddiaethau crybwylledig, yn mhalas y brenin Iago, yr hwn ddosbarth a ymddiriedid yn wastad iddo ef, fel yr oedd cyfansoddiad yr areithiau a'r caniadau yn cael eu hymddiried i'r bardd breninol, Ben Jonson. Yn y gwahanol orchwylion hyn, cytunai y darluniedydd a'r bardd yn lled dda am ryw hyd; ond yn y flwyddyn 1614 torodd allan ryw ymrafael rhyngddynt, yr hyn a ddeilliodd, fel y bernir, oddiar genfigen Jonson wrth weled darluniau Jones yn cael cymaint o ganmoliaeth. Aeth y bardd yn mlaen yn ei ddrygnaws, gan warthruddo y darluniedydd yn ei ganiadau i'r fath raddau, nes o'r diwedd y gorfuwyd ei attal trwy awdurdod y llys. Y mae eu duchangerddi i Jones i'w gweled hyd heddyw yn argraffedig yn mysg rhanau ereill o'i waith. Yn y cyfamser, yr oedd Jones yn cynyddu yn gyflym, mewn clod ac mewn golud, a hyny yn neillduol trwy y gefnogaeth ydoedd yn ei gael o'r llys breninol. Eto fe leihawyd y cyfryw yn ddirfawr yn ystod y gwrthryfel cartrefol; ac megis yr oedd efe wedi cydgyfranogi â'i feistr coronog yn ei lwyddiant, felly hefyd y gorfu iddo gydgyfranogi ag ef yn ei aflwyddiant. Ar ymgynulliad y Senedd yn y flwyddyn 1640, gwysiwyd ef ger bron Ty yr Arglwyddi, dan ryw gyhuddiad o ychydig bwys; a'i amddiffyniad a fu o draul fawr iddo. Yn amser awdurdod Cromwell, dirwywyd ef yn y swm o 545*p.* am bleidio y brenin. Ar ol marwolaeth Charles I., cadwyd Jones yn yr un sefyllfa dan Charles II., ond nid oedd y sefyllfa ddim amgen nag enw o swydd, dan frenin oedd mor ansicr ar ei orsedd. Ac nid hir y bu yr adeiladydd byw ar ol hyn; canys terfyniad annaturiol oes ei feistr haelionus o'r blaen, ynghyd ag amryw groes-ragluniaethau a gyfarfyddodd yn ei helyntion ei hun, a fu yn foddion i brysuro terfyn ei oes yntau; yr hyn a gymerodd le Mehefin 21, 1652, ac efe yn nghylch 80 mlwydd oed. Nid oedd cyrhaeddiadau Inigo Jones yn cael eu cyfyngu o fewn cylch y celfyddydau o ddarlunyddiaeth ac adeiladyddiaeth yn unig; yr oedd efe yn gyfarwydd hefyd mewn Groeg, a Lladin, ac yn fesurydd cyflawn, a chanddo archwaeth dda at farddoniaeth; y mae rhai o'i ganiadau ar gael mewn argraff hyd heddyw. Eto mewn adeiladwaith y dysgleiriodd yn benaf, a'i orchestion yn y gelfyddyd hono a oloesant ei goffadwriaeth. O'i flaen ef nid oedd y gelfyddyd hon ond megis yn ei mabandod yn Mrydain; ond efe a'i dygodd i ragoroldeb neillduol, yn enwedig y dull Italaidd o honi. Dywedir mae ei ddwy brif orchest ydoedd y gwledd-dy yn Whitehall, ac Eglwys St. Paul yn Covent Garden, Lundain. Heblaw y rhai hyn, canmolir y petryal newydd yn Ngholeg St. Ioan, yn Rhydychain; Capel y Frenines yn St. James', Capel Lincoln Inn; un neu ddau o'r tai yn Lincoln's Inn Fields, palas Gunnersbury, gerllaw Brentford; Coleshill, yn Berkshire; Cobham Hall yn Nghent; y Grange, yn Hampshire; Llys y Frenines, yn Greenwich; ac yn enwedig gwyneb palas Iarll Penfro, yn Wilton, &c., &c. Efe hefyd a gynlluniodd Ambresbury, yn Wiltshire, yr hwn gynllun a ddygwyd i ben wedi hyny, gan ei ddysgybl Mr. Webb: Mr. Jones hefyd a ysgrifenodd nodiadau rhagorol ar Draethawd ar Bensaerniaeth, o waith Palladio, adeiladau pa un fel y crybwyllwyd, a fuasai yn foddion i gynhyrfu athrylith Inigo at y gelfyddyd hon.

**JONES,** Jenkin, yr hwn, o herwydd iddo fod yn myddin y Werin lywodraeth, a elwid yn gyffredin *Captain* Jenkin Jones, ydoedd wr boneddig tiriawg, a phregethwr tra llafurus, yn swyddi Brycheiniog, Caerfyrddin, Morganwg, &c., tua chanol yr 17eg ganrif. Yr oedd efe yn cyd lafurio a Walter Cradoc, a Fafasor Powell. Nid oes ond ychydig ffeithiau o hanes ei fywyd ar gael. Yn ol Dr. Rees, mab ydoedd i John Jones, neu John ab John Hywel o Tymawr, plwyf Llanddethy, swydd Frycheiniog. Bu farw ei dad yn 1646, ac yr oedd ei fab hynaf yn

Digitized by Google

sirydd Brycheiniog, yn 1658. Yr oedd yn briod ag un o'r Mansells, o Gower, yn Morganwg, gyda'r hon y tybir iddo dderbyn etifeddiaeth yn ardal Llangatwg (*Caloston*), ger Castell-nedd. Dywed Calamy iddo dderbyn ei addysg yn Rhydychain, a'i fod yn bregethwr cyn i'r Rhyfel Cartrefol dori allan. Os felly, digon tebyg iddo dderbyn ordeiniad esgobawl; er na hysbysir hyny. "Ar doriad allan y rhyfel cartrefol, gwelid ef gyda chleddyf yn un llaw, a Beibl yn y llall. Cyfododd fintai o feirchfilwyr, yn rhifo, yn ol Walker, chwech ugain, o blith ei berthynasau, ei wasanaethwyr, a'i deiantiaid; gan eu gwisgo, eu bwydo, a'u harfogi, yn gyfangwbl ar ei draul ei hun. Llywyddai y fintai hono ei hunan, a medrodd lwyddo trwyddi, i gadw pleidwyr y brenin yn Mrycheiniog, (er nad oeddynt yn ddibwys mewn nifer, dylanwad, a chyfoeth,) mewn perffaith ddarostyngiad; neu o'r hyn lleiaf, efe a'u rhwystrodd i weinyddu un cymorth effeithiol i'r achos Breninol"—*Jones' History of Breconshire*, vol. ii. p. 525.

Dengys yr uchod bod Captain Jenkin Jones yn ddyn pwysig mewn ystyr wladol.

Dywedir mai efe a Fafasor Powell, oedd y prif offerynau i gael y Weithred Seneddol yn 1649, er lledaenu yr Efengyl yn Nghymru, ac y mae ef yn un o weinidogion yr Efengyl a enwir yn y Weithred hono, fel *profwyr* a *chymeradwywyr*.

Dywed Walker iddo, o dan y gyfryw weithred, yn 1656, gael ei benodi yn weinidog ei blwyf genedigol, yn lle un Richard Williams, B.D., yr hwn a droisid allan o herwydd ei ddiffyg cymwysder. Dywedir iddo hefyd fod yn weinidog plwyfol Merthyr Tydvil, a Llangatwg; o'r olaf o ba rai, yn ol Calamy, y cafodd efe ei ddystewi o dan Ddeddf Cydymffurfiaeth, yn 1662. A oedd efe yn weinidog yn y tri lle uchod ar unwaith, ai ynte yn olynol, sydd yn anmhenderfynol; ond os mai yn 1656 y cafodd ei benodi yn weinidog Llanddetty, dichon ei fod yn weinidog Merthyr Tydfil cyn hyny. Ond dywed Calamy iddo gymeryd poen lawer mewn amryw siroedd, ac iddo hefyd fod yn ngharchar am ryw ysbaid o amser. Beth a ddaeth o hono wedi hyny, a pha bryd y bu farw, sydd anhysbys.

Mae y Bedyddwyr ar hyd y blyneddoedd yn arfer hawlio Jenkin Jones fel un o honynt hwy, ond gwada Dr. Rees eu hawl iddo, am nad ydynt, meddai ef, yn dwyn dim amgen na haeriad noeth i brofi ei fod yn un o honynt. Geilw Calamy ef yn Wrth fedyddiwr (*Catabaptist*); a chrybwylla Walker am "un Jenkin Jones Ailfedyddiwr ffyrnig (*Violent Anabaptist*), yn dal bywioliaeth Merthyr Tydvil ar ol troad allan y gweinidog;" ond tybia Dr. Rees mai rhyw Jenkin John, neu John Jenkin, oedd hwnw, er nad yw yn cynyg un math o brawf i gyfiawnhau ei dybiaeth.

Ymddengys mai yr unig allwedd i'r dyryswch, yw adnabyddiaeth o'r ffaith bod yn Nghymru, yn nyddiau Jenkin Jones, ddau fath o Fedyddwyr, sef y rhai a arferent gymundeb *rhydd*, neu agored, a'r rhai a arferent gymundeb *caeth*. Yr oedd y rhai cyntaf yn dal allan ordeiniad henuriaid, canu Salmau ac Emynau yn yr addoliad cyhoeddus, gosodiad dwylaw ar y bedyddiedig, ac eneiniad y cleifion ag olew; ac ni chyfyngent eu cymundeb i'r rhai a gydolygent a hwy am yr ordinhad o Fedydd. Yr oedd y rhai eraill yn corpholi eu heglwysi ar yr egwyddor o gymundeb caeth, ac ni dderbynient i aelodaeth ond yn unig y rhai a fyddent wedi eu bedyddio trwy drochiad. Sylfaenydd y dosbarth hwn oedd John Myles o Ilston, a dyma y dosbarth a ymffurfiasant yn gymanfa yn 1650. Ond perthyn i'r dosbarth cyntaf yr oedd Jenkin Jones, fel y gwelir yn ddiamheuol oddiwrth y tystysgrifau canlynol, y cyntaf o ba rai sydd lythyr a ysgrifenwyd gan John Myles, Ilston, at yr eglwys yn y Gelli, yr hwn a gyhoeddwyd yn Seren Cymru, am Mawrth 29, 1872:—

"PRECIOUS BRETHREN,—Uppon serious and deliberate consideracon of your letter, my heart was filled with a mixture of zeale, joy, and sorrow; with sorrow because my deerely beloved Jenkin Jones (whose fayth, diligence, and morall obedience hath made him eminent) should now prove instrumental to hinder the obedience of many, and soe consiquently to oppose the Kingdome of Xt; and after that he had don soe much in laying a good foundacon, should now goe about to build Hay and Stuble thereon, and (oh! sad newes), to question an ordinance o soe unquestionable an institution, and yet in a disorderly and unwarrantable maner will now breake bread with y[e] congregacon: which practise (though deare soule itt may not be his designe) may serve to unite them more strongly in one body to withstand the wayes of Xt. Oh how cleerely do I see Satan's subtility!"

Dyddiad y llythyr uchod yw "29 of the 11 mo. —49 [1649]; ac mae ei achlysur yn amlwg, sef bod Jenkin Jones wedi tramgwyddo ei frodyr yn y Gelli, trwy fyned i dori bara i ryw gynulleidfa nad oeddynt Fedyddwyr. Mae yn rhaid felly, bod Jenkin Jones yn Fedyddiwr ei hunan, ond ei fod, fel Bedyddwyr Maeshyfed, Brycheiniog, a'r parthau hyny yn gyffredin y pryd hwnw, yn arfer cymundeb rhydd, ac yn derbyn at fwrdd yr Arglwydd, nid yn unig Fabanfedyddwyr duwiol, ond fe allai rai nad oeddynt wedi derbyn, nac yn credu yn, un math o Fedydd o gwbl, yr hyn, yn marn John Myles a'i gyfeillion, oedd yn taflu amheuaeth ar yr ordinhad, ac yn cadarnhau yr anufudd i wrthsefyll ffyrdd Crist.

Eto, yn "y rhestr o'r eglwysi cynulledig yn Nghymru" a anfonodd Henry Maurice, gweinidog Llanigon, at Edward Terril, henadur eglwys Broadmead, Caerodor, yn 1675, ac a gyhoeddwyd yn y "Broadmead Records," gan Hansard Knolly's Society, cawn y crybwylliad canlynol am Jenkin Jones, yn hanes eglwysi Swydd Gaerfyrddin:—"Y mae hefyd eglwys arall, cyfansoddedig o Fedyddwyr gan mwyaf, ond dros gymundeb rhydd, yn cyfarfod yn Llanfairybryn, ger Llanddyfri, yn y swydd hon. Galwyd hwynt ar y cyntaf trwy weinidogaeth Mr. Jenkin Jones, a chynullwyd hwynt fel rhan o'r eglwys yn Llanigon, Swydd Frycheiniog."

Mae y ffeithiau uchod, gan hyny, yn gosod enwadaeth Jenkin Jones tuhwnt i bob dadl; ac ymddengys mai efe fu y prif offeryn i sefydlu Ymneillduaeth mewn llawer o barthau yn swyddi Brycheiniog, Mynwy, Morganwg, a Chaerfyrddin; ac iddo gael ei ran yn helaeth o erlidigaethau ei oes. Ar adferiad y brenin, ymosodwyd ar Jenkin Jones yn ddioed, anrheithiwyd ei holl feddianau, ac aeth llawer o honynt drosodd i ddwylaw un Edward Hughes, cyfreithiwr, o Aberhonddu. Cofnodir iddo unwaith pan yn myned i bregethu i le a elwir Gelligrug, plwyf Aberystruth, swydd Fynwy, gael ei gyfarfod gan hen filwr, o'r enw John James Watkin, gyda'r bwriad o'i lofruddio. Pan welodd efe yr adyn, efe a'i cyfarchodd yn foneddigaidd fel milwr,

Digitized by Google

gan dynu ymaith ei hat a myned heibio. Cafodd y cyfryw ymddygiad dynol, a boneddigaidd, yn nghyda harddwch neillduol ei berson, y fath ddylanwad ar yr adyn, nes ei ddiarfogi yn llwyr. Aeth ar ol y pregethwr i'r cyfarfod, a bu y bregeth yn foddion i'w argyhoeddi, fel y daeth yn Gristion rhagorol o hyny hyd ei farwolaeth.—*Jones's Hist. of Aberystruth.*

Yr hanes diweddaf sydd genym am y dyn da hwn, yw yr hyn a gynwysir mewn llythyr oddiwrth Thomas Gwyn, un o aelodau ei eglwys, at Henry Jessey, dyddiedig Mehefin 29, 1660. Yn yr hwn y cawn i Jenkin Jones, ac amryw o'i gynulleidfa, sef ei gynulleidfa yn Llanfairybryn, mae yn debyg, gael eu carcharu yr haf hwnw am fis, yn Nghaerfyrddin:—

"Dygasant eu tystiolaeth mor llawn, a'u dyoddefiadau mor amyneddgar, a llawen, fel ag y mae genym lawer o achos i fendithio yr Arglwydd am ei drugaredd tuag atynt. Yr oedd ei hymddiddanion y fath, fel ag y gwnaethant i'r rhai a daflent gerig atynt, ac a'u gwawdient, pan y dyfod yno, i ymadael a hwynt mewn dagrau, gan gyfaddef eu bod yn dyoddef am wneuthur daioni, a'u hystyried yn ddedwydd yn hyny."—*Jessey's The Lord's Loud Call to England*, tud. 14.

**JONES**, John, a anwyd yn mhlwyf Llanfyrnach, Sir Frycheiniog, yn y flwyddyn 1575. Pan yn 16 oed, anfonwyd ef i ysgol y *Merchant Tailor* yn Llundain; ac oddiyno aeth i goleg St. Ioan, Rhydychain, o'r hwn yr etholwyd ef yn ysgolor. Yma y daeth yn gyfeillgar iawn, ac yn gydymaith i William Laud, wedi hyny archesgob Caergaint. Gwnaed ef yn gymrawd o'r coleg, ac ymroddodd i astudio y gyfraith wladol; yn yr hyn y cynyddodd yn rhyfeddol. Ond yn gymaint a'i fod yn tueddu at y grefydd Babaidd, gadawodd ei wlad ac aeth drosodd i'r Ysbaen, lle y gwnaed ef yn fynach o urdd St. Benedict, yn Compostella, a chymerodd yr enw *Leander de Sancto Martino*, ac yn y diwedd cafodd yr urddradd o D.D. Wedi hyny aeth i Dunay, lle y daliodd y swydd o ddysgawdwr dwyfyddiaeth, a Hebraeg, yn Ngholeg St. Vedastus am lawer o flyneddoedd. Wedi hyny gwnaed ef yn fynach o Goleg Benedictine Gregory yno; bwriadwyd iddo fod yn abad o Gismar yn yr Almaen. Yr oedd hefyd yn ficer cyffredinol o'r Benedictiaid Seisnig o'r gynulleidfa Ysbaenaidd oedd yn aros yn Ysbaen. Bu ddwywaith yn llywydd y Benedictiaid yn Lloegr, ac yn fynach enwol yr eglwys Babaidd yn Nghaergaint. Dywed Wood am dano, ei fod yn berson o hyawdledd rhyfeddol; yn hyddysg iawn yn y gwyddorau, a'r celfau; yn anwyl gan bawb a'i hadwaenai; ac ni ddirmygid ef gan neb ond yr Ieswyddion, a'r Puritaniaid Ychydig amser cyn ei farwolaeth, gwahoddwyd ef gan Laud i ddychwelyd i Loegr, er cael ymddiddan ar bwnc pwysig ag y dadleuid yn ei gylch; a chyhuddai Prynne yr archesgob, o fod trwy ei gyfryngwriaeth, yn ymdrechu cymodi Eglwys Loegr ag Eglwys Rhufain. Bu farw yn Lloegr Rhagfyr 17th, 1636; a chladdwyd ef yn nghapel y Capuchiniaid, yn agos i'r Somerset House, ar y Strand. Yr unig lyfrau o'i eiddo a ddygwyd trwy y wasg, oedd dau draethawd Lladin, ar Dduwinyddiaeth; un yn fath o Elrlyfr; a'r llall yn dangos Cysondeb, ac Unoliaeth yr Ysgrythyrau. Gadawodd mewn ysgrifen, Esboniad ar y Beibl, yn chwech cyfrol fawr.

**JONES**, John, o'r Gelli Lyfdy, yn mhlwyf Ysgeifiog, swydd Fflint, oedd yn gyfreithiwr yn Llys y Cyffindiroedd. Efe a adawodd mewn ysgrifau ar ei ol, amryw fan gofion tra dyddorol am y Llys hwnw, y rhai a gasglasai efe er dynoethi ysgelerderau annghyfiawn a threïsiol y Llys hwnw, o'r hwn yr ymneillduasai ef ei hunan yn gynnar, am ei fod yn rhŷ onest i weithredu ynddo. Y mae efe yn enwog fel cynnullwr llenyddiaeth Gymreig o'r fath fwyaf diflino. Efe a barhaodd i adysgrifio hen ysgrifau Cymreig, am yr yspaid maith o ddeugain mlynedd, fel yr ymddengys oddiwrth rai o'i gyflyfrau, y rhai ydynt dan amseriadau gwahanol, o 1590, hyd 1630. Ei lafur yn y wedd yma, a lanwai dros haner cant o gyflyfrau mawrion; ac mewn canlyniad i gyttundeb a wnelsid rhyngddo ef a'r henafiaethwr enwog Robert Fychan, y byddai i'r gorfucheddwr dderbyn o ffrwyth llafur y llall, fe'u trosglwyddwyd i lyfrgell yr Hengwrt.

**JONES**, John, oedd yn fab i foneddwr mewn amgylchiadau bydol rhesymol o dda. Ei dad Thomas ab John, neu Jones, oedd o Faes y Garnedd, yn agos i'r Bwlch Gwyllt, a elwir Drws Ardudwy, yn Meirionydd; ac yr oedd Ellen ei fam, yn un o ferched Robert Wynn ab Iefan, Ysw., o Taltreuddyn, yn yr un gymydogaeth. Dywedir mewn hen lyfr, sydd yn awr yn brin iawn, ac yn cynwys hanes o brawf y breninleiddiaid, iddo ef gael ei anfon i Lundain, er ei osod mewn masnach; ond cafodd ei osod yn was i foneddwr, gyda yr hwn y bu yn gwasanaethu am lawer o flyneddoedd. Ar ddechreu y rhyfel cartrefol, unodd ag ochr y senedd, a chafodd ei benodi yn gadpen ar y milwyr traed, a chafodd yn fuan drachefn, ei benodi yn filwriad. Darfu i'w alluoedd bywiog ei ddwyn yn fuan i serch a pharch Cromwell, ac ymgynghorai ag ef yn fynych, ar achosion pwysig. Bu yn cynrychioli Meirionydd, y sir ei ganwyd ynddi. mewn dau eisteddiad seneddol; a chafodd ei benodi yn un o ddirprwywyr y Senedd, i lywodraethu yr Iwerddon. Dywedir iddo gyflawni y swydd hon gyda gormail a chamrwysg mawr, gan erlid pawb a fyddai yn groes i'w egwyddorion ef, a chan racanu i fynu hen gyfreithiau yn mherthynas i ddarllaw cwrw, a diodydd, gan fod yn bla i bob tŷ yn Dublin a fyddai yn gwerthu cwrw, ac ni oddefai i neb fwynhau gwaith cyffredin a cyhoeddusawl, os eu gwelid yn myned i ddioty; fel yr oedd myned i ddioty, neu eglwys reolaidd, yn ddrygau mor gyfartal beryglus, a chospawl. Ar ol gadael yr Iwerddon, priododd a chwaer Cromwell, sef Jane, gweddw Roger Whitstone, Ysw., a phenodwyd ef gan yr Amddiffynwr, yn aelod o Dy yr Arglwyddi. Ar ddychweliad Siarl II. cafodd y Milwriad Jones ei osod ar brawf, am y rhan a gymerodd yn nghondemniad ei fawrhydi; a chafodd ei ddedfrydu i ddioddef marwolaeth, Hydref 17eg, 1660.

**JONES**, John, LL.D., neu, fel yr adnabyddir ei enw oreu, Dr. John Jones, o Bentyrch, Morganwg, oedd wr o amryfal ddoniau. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1655, a phan yn ddwy flwydd ar bymtheg oed, cafodd ei dderbyn i Goleg Iesu, Rhydychain, lle y gwnaeth gynnydd rhagorol mewn pob cangen o ddysgeidiaeth. Enillodd yno ysgoloriaeth werthfawr, ac wedi efrydu am yspaid pedair blynedd, efe a gafodd gymmrodoriaeth yn un o'r colegau. Wedi rhagori mewn clasuriaeth, a gwybodaeth gyffredinol, efe a ymroddodd i efrydu y gyfraith; ac yn y flwyddyn 1677, cafodd ei raddio yn Ddoethawr, sef LL.D. Ymddengys iddo hefyd astudio physygiaeth, canys cawn ef yn gwasanaethu fel meddyg am beth amser,

Digitized by Google

yn Mwrdeisdref Freninol Windsor. Ond gan mai uchel-swyddi yr Eglwys oeddynt y galwedigaethau brasaf ar y pryd, cofnodir i'w feddwl yntau raddol ogwyddo at y Llan; a chymaint fu ei lwyddiant offeiriadol, fel y pennodwyd ef yn Ddeon Llandaf tua'r flwyddyn 1691. Ei athrylith ffrwythlon, a'i gyrhaeddiadau godidog fel ysgolhaig, a wnelai yn anmhosibl iddo gyfyngu ei hun yn gwbl at ei ddyledswyddau Eglwysig; a chawn ef yn anturio i faesydd eang llenyddiaeth a chelfyddyd. Dyfeisiodd un o'r pethau tebycaf a welwyd eto i'r hunansymudydd parhaus, (*perpetual motion*), sef awrlais, a weithid gan chwythiad megin hunan-weithredol. Cyfansoddodd draethodau dysgedig ar amryw byncian, ac yn eu plith, un Lladinaidd ar "*Intermittent Fevers*," ac un Seisnig ar "Hanesiaeth Naturiol sir Rhydychain." Bu farw oddeutu y nawfed flwyddyn o'r ddeunawfed ganrif.

**JONES**, John, Duwinydd o gryn enwogrwydd, yr hwn a gyffrodd ddadl yn nghylch ffurf-wasanaeth yr Eglwys Sefydledig, a anwyd yn y flwyddyn 1700; a bernir mai brodor o Swydd Gaerfyrddin ydoedd. Efe a gafodd ei dderbyn i Goleg Caerwrangon, yn Rhydychain, lle y derbyniodd ei urdd-radd o B. A., tua 1721; ac yn 1726, efe a ordeiniwyd yn offeiriad. Yn 1741, efe a gyflwynwyd i ficeriaeth Alconbury, yn Swydd Huntingdon, yr hon a roddes efe i fynu yn 1751, am beriglorìaeth Bolnhurst, yn Swydd Bedford. Yn 1755, yr oedd efe yn ficer Hitchin, ac yn 1759, efe a ddaeth yn is-beriglor i'r Dr. Young, yn Welwyn, a pharhaodd yno hyd farwolaeth y bardd enwog hwnw, yn 1765. Cafodd Mr. Jones ei ladd trwy syrthio oddiar ei farch; ac wedi ei farwolaeth, aeth y rhan fwyaf o'i ysgrifeniadau i ddwylaw Thomas Dawson, M.D., ac oddiyno i lyfrgell yr Ymneillduwyr yn Redcross Street.

**JONES**, John, Glan-y-Gors, neu, fel y galwai ef ei hun fynychaf, "Jack Glan-y-Gors," oedd fardd doniol a gwir athrylithgar, yn y gangen duchanol a goganaidd. Ganwyd ef yn un o'r llanerchau mwyaf ffrwythlon a fedd ein gwlad, fel cynnyrchfa awenyddion, sef wrth odreu mynydd Hiraethog. Bydd Cymru byth yn ddyledus i'r fro hon, am rai o addurniadau penaf ei hawen, cewri cadarnaf ei phwlpud, ac amddiffynwyr mwyaf effeithiol ei rhyddid gwladol a chrefyddol. Enw cartref John Jones, oedd Glan-y-Gors, tyddyndy yn mhlwyf Cerrig-y-Druidion, lle y'i ganwyd oddeutu y flwyddyn 1763. Tybir iddo dreulio bynyddoedd boreuaf ei oes, fel llafurwr ar y tyddyn, ond buan y blinodd ar y bywyd undonog a digyffro hwnnw, ac aeth ar hynt i Loegr, fel gyrwr gwartheg. Yn ngwlad y Sais, efe a welodd lawer tro ar fyd. Bu yn gwasanaethu fel cynnorthwywr mewn gwahanol siopau, &c., hyd nes yr ymsefydlodd yn derfynol fel tafarnwr, yn y King's Head, Ludgate Hill, Llundain. Amrywiaeth diderfyn bywyd yn y Brif-ddinas, a roddodd iddo fantais neillduol i sylwi ar wahanol gymeriadau ac agweddau dynoliaeth. Efrydu a darlunio y cymeriad dynol oedd prif dueddfryd ei feddwl, a'i awen finiog. Prin y rhagorodd Charles Dickens arno mewn gallu i adnabod a fflangellu tueddfryd bâs, a choegni gwirionffol dynion o bob gradd. Ond y peth mwyaf atgas yn ngholwg Glan-y-Gors, oedd yr hyn a warthnododd am byth, wrth yr enw "Dic-Sion-Dafyddiaeth," sef yr ynfydrwydd ysgymun hwnnw, a demtia rai Cymry penweiniaid, i wadu eu hiaith, eu gwlad, a'u cenedl. Bydd ei ganeuon ffrewyllog megys drain yn ystlysau y dosbarth diwerth a nodwyd, dros byth. Yn y dyddiau presennol, gwneir ymgais canmoladwy gan Mr. Osborne Morgan, A.S., a gwladgarwyr ereill, i gario allan un egwyddor a argymhellwyd gan y bardd er ys mwy na haner canrif yn ol. Gwnaeth ef ddarlun tarawiadol o'r gwrthuni rhyfedd a nodwedda lysoedd cyfreithiol Cymru. Pe gallai y barnwyr Seisnig, a anfonir i wneyd gwatwareg (*parody*) ar weinyddiad cyfiawnder yn ein gwlad, ddeall cân y "Sessiwn yn Nghymru," credwn mai prin y cydsynient mwyach, i sefyll yn gyff clêr i'r Awen Gymreig. Gwasanaeth pwysig arall a gyflawnodd Bardd Glan-y-Gors, oedd gwarthnodi bywyd meddw a thrythyll, rhai offeiriad yn yr oes hono. Dichon na fedd y Gymraeg dychangerdd mor finiog a'i un i'r "Offeiriad o Sir Aberteifi." Gweithia watwareg i'w heithaf-bwynt, pan y desgrifia yr offeiriad parchedig yn dychwel o angladd, gan farchog yn ngwrthwyneb, a thybio wrth fethu canfod pen y ceffyl, mai gwyrth a gyflawnesid ar ei ran, pryd y cyfarchodd ei wraig:—

> "— gwel di y gwrthiau wnaeth 'r Arglwydd â myfi—
> Mae 'ngheffyl i'n fyw, a'i ben wedi ei dori!"

Oddiwrth draethawd a gyhoeddodd yn y flwyddyn 1799, ar y testyn "Seren tan Gwmwl," tybiodd swyddogion y Llywodraeth Brydeinig, fod John Jones yn cydymdeimlo i raddau peryglus âg egwyddorion y Chwyldroad Ffrengig oedd newydd ddymchwel prif orsedd y Bourboniaid ar y pryd. Bygythiwyd ei erlyn fel teyrnfradwr; ac er mwyn gochel hyny, ffodd y bardd i'w wlad enedigol, a bu yn ymguddio am beth amser, oddeutu cymydogaeth y Bala. Yn mhen yspaid, tawelodd yr ystorm, a dychwelodd yntau at ei fasnach yn Llundain. Oddeutu yr un adeg, efe a dynodd arno ei hun ŵg llawer o'i gydwladwyr Cymreig, trwy ysgrifenu cyfres o lythyrau i'r *Geirgrawn*. Ofnid fod sawyr anffyddol, neu atheistaidd ar y llythyrau hyny; a chan fod John Jones yn aelod enwog o Gymdeithas Gymreigyddol Llundain, cymhellwyd y Gymdeithas hono i'w ddiarddel fel dyn peryglus. Pan ddaeth y pwnc o dan sylw, gwadodd y bardd y cyhuddiad mewn modd pwyllog a phenderfynol, yr hyn a fu yn foddion i adfer ymddiried pobl uniongred yn y Gymdeithas. Er hyn, y mae amryw brofion lled gedyrn, fod John Jones yn gogwyddo at gyfeiliornadau crefyddol Iolo Morganwg. Sut bynag, yr oedd efe yn caru ei wlad, a sefydliadau henafol ei genedl, mewn modd diffuant. Cadwai ei westy mewn modd parchus, a rhoddai ymborth a lletty, nawdd ac amddiffyn, i Gymry dieithr a thlodion, bob amser ar eu cyrhaeddiad i'r Brifddinas. Bu offerynol i sefydlu llawer o'i gydgenedl mewn galwedigaethau parchus ac enillgar yn Llundain, a gresyn na feddiannid ychwaneg o Gymry dylanwadol yr oes hon, gan gyffelyb ysbryd cymwynasgar. Bu farw Bardd Glan-y-Gors, ar yr 31ain o Fedi, 1821, ac efe yn 58 mlwydd oed.

**JONES**, John R., o Ramoth, sylfaenydd plaid fechan o grefyddwyr, a elwir Bedyddwyr Albanaidd, yn Nghymru, a anwyd yn Brynmelyn, plwyf Llanuwchllyn, yn Meirion, Hydref 13, 1765. Dygwyd ef i fyny o dan addysg yr Annibynwyr; ond yn y flwyddyn 1788, ymunodd a'r Bedyddwyr. Bedyddiwyd ef gan Henry Davis, henaf, o Langloffan, mewn afon gerllaw Trawsfynydd. Dechreuodd bregethu yn fuan, ac urddwyd ef i'r weinidogaeth, Tachwedd 4, 1789; a chymerodd o dan ei ofal amryw o

Digitized by Google

fân eglwysi yn swydd Feirionydd, sef Llanuwchllyn, Trawsfynydd, Dolgellau, Harlech, Ramoth, &c. Dywedai Christmas Evans am dano, ac nid oedd neb a'i hadwaenai yn well, nac yn fwy tebyg o wneyd cyfiawnder a'i ddarlun:—"John Jones, o ran agwedd ei gorff, oedd dal,—tua chwech throedfedd o hyd, neu drosodd, yn crymu ychydig yn ei wddf o'r tu gwegil; yn ddyn teneu, gwisgi; coesau a thraed heirdd; yn gringoch o ran lliw ei wallt, a hwnw yn grych, ac yn cael ei godi ar ei dalcen. Yr oedd ei dalcen yn uchel, a'i lygaid yn graffus, a'i lais yn gryf ac yn uchelseiniol, ond yn tueddu i'r sych a'r cras, ac nid i'r meddal. O ran tymer ei feddwl, yr oedd yn feistrolgar, ac ni allasai ddyoddef ei wrthwynebu; un cydradd, chwaethach uwch nag ef, ni chafai fyw yn agos iddo. Yr oedd fel Caesar ar y pen hwn, gwell ganddo fod yn benadur mewn *pentref*, na bod yn ail yn *Rhufain* ei hun. Fel pregethwr, cyn iddo wasgu ei hun, yr oedd o duedd boblogaidd yn ei ddawn; ac hefyd, er ei waethaf, yr oedd mawredd ac awdurdod yn ei leferydd, ag oedd yn ei osod allan a'i brofi yn ddyn o alluoedd gweddol. Y dyn doniol hwn, a yrwyd trwy ei dymer feistrolgar, i ganlyn y fath fesurau ag a fuant mor niweidiol i achos y Bedyddwyr yn y Gogledd! Yr wyf yn synu fod dyn ag oedd yn Gymreigiwr da, ac yn deall Saesneg yn dda, ac yn medru Lladin, Groeg, a Hebraeg, fel ag i allu eu darllen, a gwneyd defnydd o Eiriaduron, ac wedi darllen llawer ar dduwinyddiaeth, eto wedi myned i roddi cymaint o bwys ar Sandemaniaeth, fel nad oedd arwyddion o ailenedigaeth,—bywyd ffydd ar Fab Duw,—cymeriad moesol,—doniau efengylaidd, a defnyddioldeb i ddychwelyd pechaduriaid at Grist, o ddim gwerth na sylw yn ei olwg ef, heb gadw y cusan santaidd, golchi traed, &c. Ac ni chaffai neb eraill ond pleidwyr selog y pethau hyn, ddrws el bulpid ef yn agored. Ni thynai ei hat pan y clywai rai o'r dynion mwyaf llwyddianus yn nychweliad eneidiau at Grist yn pregethu, neu yn gwneyd rhyw wasanaeth neu ddyledswydd grefyddol."—*Cofiant Christmas Evans.*

Tua'r flwyddyn 1793 y daeth llifeiriant Sandemaniaeth i mewn i feddwl John R. Jones, trwy ddarllen llyfrau Sandeman, a Glass, yn nghyda rhai o weithiau McLean; a thrwyddo ef ymdaenodd fel diluw dros achos y Bedyddwyr yn y Gogledd. Nid oedd yr achos y pryd hwnw ond ieuanc, a'r pregethwyr oll, ond anmhrofiadol; er engraifft nid oedd John R. Jones, ei hun, ond llencyn 28 oed, a Christmas Evans, ond 27; eto hwy a gyfrifid yn benaf yn mysg Bedyddwyr y Gogledd, tra yr oedd 13 eg o weinidogion eraill, ac 8th o bregethwyr cynorthwyol, yn edrych atynt hwy fel arweinwyr; ac nid oedd y Gymanfa ond tair blwydd oed, a'r eglwysi a'i cyfansoddent, ond tua 9 o nifer, ar oll, oddieithr y Glyn, a'r Cefnbychan, yn gynyrch y Genadiaeth a ddechreuwyd yn 1776, ac wedi byw yn hollol ar ddoniau teithiol; felly nid oeddynt wedi cael fawr o amser na chyfleustra i sicrhau eu hunain yn y ffydd, a gwreiddio yn ngwybodaeth y gwirionedd.

Yn Nghymanfa y Garn, yn 1795, y gwnaeth John R. Jones ei olygiadau Sandemanaidd yn gyhoeddus o'r areithfa; a dywedir bod Christmas Evans yno yn amrantu ar bob un a welai yn *sylwi* ac yn *synu*, gan ddyweyd yn ddigon uchel iddynt ei glywed,—"Y gwir mae yn ei ddyweyd bob gair." Canlynwyd John R. Jones fel diwygiwr, gan Christmas Evans am rai blyneddoedd; ac ymddengys oddiwrth ei lythyrau, a welir yn ei *Gofiant* gan D. Rhys Stephen, ei fod yn y dechreu wedi suddo yn îs i'r gors Sandemanaidd nag oedd John R. Jones ei hun. Ond o'r diwedd, cyraeddodd Christmas Evans y terfyn, yr hwn nis gallasai fyned drosto. Efe a brofodd effeithiau gwenwynol y gyfundrefn newydd ar ei galon ei hun,—yn oeri ei gariad, ac yn diffodd ei ysbryd gweddi, a chan ganfod ei bod yn cario yr un dylanwad ar bawb a'i derbyniai, efe a ffodd oddiwrthi mewn dychryn, fel oddiwrth drobwll sugndynol, a bu yr amgylchiad yn fendith iddo ar hyd ei oes. Ond aeth John R. Jones yn mlaen yn ei rwysg, diarddelodd ei hun oddi wrth Fedyddwyr Cymru, mewn cyfarfod mawr a gynaliwyd yn Ramoth, a threuliodd weddill ei oes, i sefydlu a meithrin yr egwyddorion Sandemanaidd yn Ngogledd Cymru. Yr oedd yn gerddor da, ac yn emynwr chwaethus; cyhoeddodd lyfr *Hymnau* at wasanaeth ei blaid, ac y mae amryw o'i dônau yn cael eu harferyd yn nghynnulleidfaoedd y dywysogaeth. Bu farw Mehefin 27, 1822, yn 57 oed. Ymddangosodd bywgraffiad ohono yn y *New Evangelical Magazine*, am 1823, ac yn *Seren Gomer*, am yr un flwyddyn; a chyfansoddodd ei hen gyfaill, Robert ab Gwilym Ddu, awdl farwnad orchestol er coffadwriaeth iddo, yr hon a welir yn *Ngardd Eifion.*

**JONES**, John, LL.D., oedd yn fab i dyddynwr oedd yn byw mewn lle a elwir y Wernfelen, yn agos i Lanymddyfri, yn sir Gaerfyrddin, ac yno y ganwyd y Dr. Jones. Gan ei fod yn awyddus iawn am lyfrau pan yn ieuanc, penderfynodd ei dad roddi iddo yr addysg oreu a allasai. Pan yn bedair blwydd ar ddeg oed, anfonwyd ef i ysgol ramadegol coleg Aberhonddu, lle yr arosodd hyd farwolaeth ei dad, yn y flwyddyn 1783, pryd y gorfu iddo ddychwelyd adref. Yn y flwyddyn 1786 derbyniwyd ef yn fyfyriwr i goleg Newydd yr Ymneillduwyr yn Hackney, lle yr arosodd am chwe mlynedd. Yn y flwyddyn 1792 penodwyd ef yn athraw clasurol a rhifyddol yn athrofa Gynulleidfaol Abertawe, yn yr hon swydd y bu am dair blynedd. Pan yn ymadael ag Abertawe ymsefydlodd yn Plymouth Dock, fel gweinidog y gynulleidfa Undodaidd yn y lle hwnw, ac yn y flwyddyn 1797 symudodd i Halifax, yn sir Gaerefrog, i gyflawni ei swydd weinidogaethol yno. Arosodd yn Halifax am gymaint a thair blynedd, gan gadw ysgol i blant ieuainc, gyda chyflawni ei waith gweinidogaethol. Yn y flwyddyn 1800, symudodd o Halifax i Lundain, lle yr arosodd hyd ddydd ei farwolaeth. Pan yn aros yn y brif ddinas, pregethai yn achlysurol i'w frodyr, ond ni chymerodd ofal gweinidogaethol unrhyw gynulleidfa; treuliai yn mron ei holl amser mewn llafur llenyddol, a dysgu y *classics*, yn yr hyn yr oedd yn uchel ei gymeriad. Bu farw Ionawr 10fed, 1827. Tua'r flwyddyn 1827 derbyniodd yr urddradd o LL.D. gan brif ysgol Aberdeen; ac o fewn blwyddyn neu ddwy cyn iddo farw, etholwyd ef yn aelod o'r R.S.L. Yr oedd yn awdwr y llyfrau canlynol yn yr iaith Seisnig:—1. Dadhuddiad o Ddygwyddion Hynod, yn ddwy gyfrol; argraffwyd yn 1800. 2. Dadansoddiad Dosranol o Lythyr Paul at y Rhufeiniaid, yn 1801. 3. Gramadeg o'r Iaith Roeg, yn 1804. 5. Adchwiliadau Eglwysig, yn 1812. 6. Atddodiad i'r un yn 1813. 7. Geirlyfr Lladin a Seisneg yn 1813. 8. Gramadeg Lladin, yn 1813. 9. Cyfieithiad Newydd o'r tair pennod gyntaf yn Genesis, yn 1819. 10. Cyfres o Ffeithiau Pwysig, yn 1820. 11. Gwrth-

Digitized by Google

ateb i ddau lyfr Deistaidd, yn nghylch 1822. 12. Geiriadur Groeg a Seisnig, 1823. 13. Ateb i Feirniadaeth Pseudo, yn nghylch 1824. 14. Tri o lythyrau ar 1 Ioan v. 7, yn 1825. 15. *Analogiæ Latinæ*, sef ei Eirlyfr Lladin wedi ei ddiwygio, 1825. 16. Geiriadur Groeg a Saesonaeg, yn 1825. 17. *Etymologiæ Græca*, sef ei Ramadeg Groeg wedi ei adlunio, yn 1826. 18. Eglurhad o'r Fannod Roegaidd yn 1826. 19. Dynoethiad o'r Gyfundrefn Hamiltonaidd o ddysgu ieithoedd, yn 1826. Wrth y gyfres flaenorol, gwelwn fod y Dr. Jones wedi bod yn llafurus iawn ar faes llenyddiaeth, ac felly yn ddiau, gellir ei resu yn mysg prif enwogion Cymru.

JONES, JOHN, Liverpool, ydoedd weinidog gyda y Trefnyddion Calfinaidd. Ganwyd ef yn 1791. Ymunodd a'r achos crefyddol yn ieuangc, a dechreuodd bregethu pan yn bedair blwydd ar hugain oed. Bu yn weithgar a llafurus iawn gyda yr achos crefyddol yn y dref uchod am amser maith; ac er iddo ar un adeg gefnu ar y Trefnyddion, ac ymuno a'r Annibynwyr, dychwelodd yn ol drachefn, a chafodd dderbyniad tra serchus i fynwes ei hen frodyr yn ol. Dywedir fod ei weinidogaeth yn myned yn fwy cymeradwy beunydd, fel yr oedd yn heneiddio. Yr oedd ef o feddwl gwrol, a sylwadau craff. Yr oedd ei bregethau bob amser yn sylweddol, a theilwng o wrandawiad. Teimlwyd colled am ei weinidogaeth mewn llawer man, ac yn enwedig yn mysg y cyfeillion Seisonig, ar ororau Sir Fflint. Yr oedd yn pregethu ar y Sabbath, Ionawr 7fed, 1855, yn Ngwrecsam, ac ar y pryd hwnw yn mwynhau ei iechyd arferol; ond bore dranoeth hunodd yn yr angau. Ei destyn y bore Sabbath oedd "Amser fy ymddatodiad a nesaodd!" Yr oedd hyn fel rhagfynegiad diarwybod. Prysurai y bore Llun am y gerbydres at Lerpwl, ac wedi cyrhaedd yno, cyn teithio milltir o ffordd, bu farw yn y cerbyd; ac felly, yn ol darluniad y Parch. W. Rees, "croesodd yr Iorddonen heb gymaint a gwlychu ei draed." Claddwyd ef y Llun canlynol, yn y Necropolis, Low Hill, Lerpwl; a dangoswyd y parch mwyaf i'w goffadwriaeth, a theimladau ei deulu ar yr amgylchiad galarus. Anerchwyd y gynulleidfa gan y Parch. William Rees; a gweddiodd y Parch. J. Jones, o Wrecsam, wrth y bedd; a thraddodwyd anerchiad gan y Parch. Henry Rees. Yr oedd ar y pryd y bu farw, yn 65 mlwydd oed, ac wedi treulio deuddeng mlynedd a deugain o'r tymor hwnw yn Liverpool.

JONES, JOHN (*Tegid*), offeiriad Nanhyfer, sir Benfro, ydoedd ail fab i Henry, a Catrin Jones, ac a anwyd yn y Bala, sir Feirionydd, ar y 10fed o Chwefror, 1792. Danfonwyd ef i amryw ysgolion pan yn bur ieuanc, ond nid rhyw-lawer o gynydd a wnaeth mewn dysg, oddigerth mewn rhifyddiaeth, nes iddo fyned yn 1812, i ysgol y Parch. David Peters, gweinidog yr Annibynwyr, ac athraw yr athrofa yn Nghaerfyrddin, lle y dechreuodd ddysgu Lladin a Groeg. Y flwyddyn ganlynol symudwyd ef i ysgol y Parch. Thomas Price, yn yr un dref. Bu yno ddeunaw mis, ac yna dychwelodd i'r Bala. Wedi bod mewn amryw ysgolion, derbyniwyd ef yn aelod o Goleg Iesu, Rhydychain, ar y 13eg o Rhagfyr, 1814. Penaeth y coleg y pryd hwnw ydoedd y Dr. Dafydd Hughes, gwr genedigol o Lanrwst. Bu ef yn noddwr i Tegid oblegid ei wybodaeth o'r Gymraeg, a'i gariad at yr iaith hono, a'i hynafiaethau. Yn ystod ei arosiad yn y brif ysgol, y dechreuodd ei gydnabod a'i gyfeillach a Daniel Ddu o Geredigion; a pharhaodd cyfeillgarwch rhyngddynt hyd farwolaeth y bardd doniol hwnw, oddietbr tipyn o anghydfod lled chwerw a fu rhyngddynt unwaith, yn nghylch llythyraeth yr iaith Gymraeg. Yn y ddadl hon, trodd y Bardd Du yn erbyn ei gyfaill Tegid, ac o blaid ei wrthwynebwr, y Parch. William Bruce Knight; ond nid hir y buont cyn adnewyddu yr hen gyfeillach gynt. Wedi treulio yr amser arferol yn y brif ysgol, cafodd ei restru yn yr ail ddosbarth mewn meidroniaeth, yn nhymor Mihangel, 1818, a chymerodd radd Mebydd yn y Celfyddydau. Yn y flwyddyn ganlynol, anrhegwyd ef a chaplaniaeth Eglwys Crist, gan y Dr. Hall, deon y lle yr amser hwnw; ac urddwyd ef gan Dr. Legg, Esgob Rhydychain, yn ddiacon, ar Sul y Drindod, 1819, ac yn offeiriad ar y 13eg o Ragfyr, yn yr un flwyddyn. Yn yr haf canlynol, amcanai fyned i'r India Ddwyreiniol, yn athraw yn ngholeg newydd Calcutta. Pan ddeallodd Daniel Ddu am ei fwriad, cyfansoddodd benillion "Gwlad fy Nghenedigaeth," er mwyn ei ddenu i aros yn ngwlad ei dadau. Rhoddodd hyn derfyn ar ei amcan i fyned i'r India, ac aros a wnaeth yn Rhydychain. Yn mis Tachwedd 1823, pennodwyd ef yn Flaengeiniad Eglwys Crist, ac yn gurad parhaus St. Thomas, yn yr un ddinas, lle y llafuriodd dros ddeunaw mlynedd. Yn ystod yr holl amser hyn, yr oedd calon Tegid yn Nghymru, a mawr oedd ei awydd am gael ymsefydlu yn rhywle rhwng ei mynyddoedd. O'r diwedd cafodd, ei ddymuniad i gryn raddau. Llwyddodd Arglwyddes Llanofer i gael gan yr Arglwydd Ganghellwr Cottenham, roddi iddo bersonoliaeth Nefern, neu Nanhyfer, yn agos i Drefdraeth, yn sir Benfro, a daeth i feddiant o honi ar y 27ain o Awst, 1841. Yn 1848 gwnaeth yr Esgob Thirlwal ef yn Brebendur yn Eglwys Gadeiriol Ty Ddewi; a dyna y dyrchafiad olaf a gafodd Ioan Tegid. Bu farw o'r dyfrglwyf, yn Mhersondy Nanhyfer, ar ddydd Sul, yr ail o Fai, 1852, yn yr 61ain flwyddyn o'i oedran. Afraid yn hyn o gofnod, son dim am ei ragoriaeth fel bardd, gan fod casgliad o'i waith barddonol bellach wedi ymddangos o flaen y cyhoedd. Ysgrifenodd dwysged i'r gwahanol gylchgronau Cymreig, y *Seren Gomer*, a'r *Haul*, ac yr ydym yn meddwl fod y gofres ganlynol yn cynwys y cwbl o'r llyfrau a'r llyfrynau a gyhoeddwyd ganddo:—1. Traethawd ar Gadwedigaeth yr Iaith Gymraeg, 8 plyg, Caerfyrddin (cylch 1820). 2. Traethawd ar iawn-lythreniad y Iaith Gymraeg, Rhydychain, 1830. 3. A Defence of the Reformed System of Welsh Orthography, Llundain, 1829. 4. A Reply to the Rev. W. B. Knight's Remarks on Welsh Orthography, Llundain, 1831. 5. The Book of the Prophet Isaiah, translated from the Hebrew Text of Van der Hooght, Rhydychain, 1830, ail argraphiad, Rhydychain, 1842. Cyfieithodd "Esaiah," hefyd i'r Iaith Gymraeg, ond y mae y gwaith hwnw yn aros hyd yn hyn mewn llawysgrifen. 6. Gwaith Lewis Glyn Cothi, Rhydychain, 1837. Yr oedd Gwallter Mechain yn gyd-olygydd ag ef ar y gwaith hwn. Blaenir y farddoniaeth a "*Historical Sketch of the Wars between the Rival Roses*," o ysgrifell Tegid. 7. Cyfieithiad o "adroddiadau Dirprwyaduron Ymholiad i Gyflwr Addysg yn Nghymru," Llundain, 1848. Yr Adroddiad ar siroedd Brycheiniog, Aberteifi, a Maesyfed, yn unig a Gymreigiwyd gan Tegid. 8. Gwaith Barddonol Tegid; ynghyd a bywgraphiad o'r Awdwr gan y Parch. Henry Roberts, M.A. (nai fab chwaer i Tegid); Llanymddyfri 1859.

Digitized by Google

I'r Bywgraphiad hwn yr ydym yn ddyledus am y rhan fwyaf o'r crybwyllion blaenorol. Yn y flwyddyn 1828, cyhoeddwyd dan ei olygiad ef, yn ngwasg prif ysgol Rhydychain, argraffiad newydd o'r Testament Cymraeg; a chan i Tegid wneud peth cyfnewidiad yn y llythyraeth, codwyd yr wbwb fawr yn ei erbyn, yn benaf gan y Parch. John Roberts, periglor Tremeirchion, yn esgobaeth Llanelwy, a'r Parch. W. Bruce Knight, y pryd hyny Canghellwr Llandaf, ac wedi hyny deon yr esgobaeth hono; a'r canlyniad fu cyfarsengu yr argraphiad hwnw, rhag o ddiffyg digon o lythyrenau dyblyg, y buasai yn andwyo cyflwr gwerin Cymru. Yr oedd Mr. Jones yn ffugebrydd (*ventriloquist*), rhagorol o dda; medrai gario yn mlaen gydymddiddan ffugiol yn y fath fodd ag i beri i'r neb nad oedd yn gwybod, feddwl yn sicr fod dau ddyn yn ymgomio a'u gilydd, a byddai ar adegau, yn achosi cryn fesur o ddigrifwch; ac nid peth i'w ddirmygu yw tipyn o ddifyrwch diniwed ar yr aelwyd gynes, ar ddechreu nosau gauaf oer a thymestlog. Clywsom adrodd am dano ddydd ar ol yr eisteddfod, os nad ydym yn cam-gofio, yn y Fenni, pan oedd efe, ynghyd ag amryw o'r Beirdd yn nhy rhyw siopwr yn y dref, yr hwn oedd eisiau clywed eu holl gyfrinach, yr hyn nad oedd y cyfeillion yn foddlon. Aml y ffugiai Mr. Jones lais rhyw un yn y siop, yn gwaeddi weithiau am bwys o siwgr, a phryd arall am bwys o sebon, nes o'r diwedd i'r siopwr gredu mai yr ysbryd drwg oedd yno yn ei boenydio. Cafodd un o'r beirdd afael yn y cwpan a'r mwstard oedd wedi ei baratoi erbyn ciniaw, ac arllwysodd ef i logell cot y siopwr, a thaflai Mr. Jones ei lais i'r cyfryw logell. "Yn eich llogell y mae yn awr," ebe un o honynt hwy wrtho. Ar hyn gosodai y siopwr ei law yn ei logell, gan feddwl ei ddal, ond tynai hi allan yn fuan, gan ddyweyd, "Y mae wedi bod ynddi mi welaf." Hwyrach nad allan o le fyddai crybwyll, mai dyn lled fychan, gwawrddu, cyffredin yr olwg arno, ydoedd Tegid, heb nag urddas na mawredd o un math i'w ganfod yn ei gylch. Yr oedd dau ddarlun paentiedig pur gywir o hono, i'w gweled yn mhersondy Nanhyfer, pan yr oedd y bardd yn beriglor yno; a gresyn na buasai Mr. Roberts yn mynu cerfio un o honynt i'w osod yn y "Gwaith Barddonol." Fel cyfaill, nid hawdd oedd cael un mwy dyddan a difyrus yn unrhyw le; yr oedd pob peth ynddo, mor naturiol a diymffrost, ni byddai dim gwag-ogoniant yn cael lle yn ei ymddiddanion. Ni wnai ar unrhyw gyfrif fradychu cyfaill. Byddai bob amser yn dangos pob parch i'w gyfeillion, pa un bynag ai Ymneillduwyr ai Eglwyswyr a fyddent, nid oedd hyny yn un rhwystr iddo ef gyfeillachu a hwynt, lle bynag y cyfarfyddai a hwynt, a dangosai iddynt bob caredigrwydd yn ei dŷ; yr oedd ei ddrws bob amser yn agored iddynt, a hoffai yn fawr eu gweled yn galw heibio. Yr oedd ef yn wladgarwr gwresog, ac yn bleidiwr calonog i'r gwahanol gymdeithasau, gwladol, moesol a chrefyddol, oeddynt yn bodoli yn ei ddyddiau ef. Cymerodd ran yn dra boreu yn ei oes, o blaid Cymdeithas y Cymreigyddion. Yr oedd yn meddu ar wybodaeth helaeth am hen genedl y Cymry. Yr oedd wedi myfyrio i henafiaethau y genedl, ac yn eu hoffi. Yr oedd yn caru Cymru, Cymro, a Chymraeg. Yr oedd yn awyddus ac ymdrechgar iawn i wneuthur daioni i'w genedl. Yr oedd Mr. Jones yn fardd celfyddgar, medrus. Croesawai y beirdd bob amser, ac yr oedd yn hoffi yn fawr fod yn eu cyfeillach, a byddai rhai o honynt yn talu ymweliad ag ef yn aml; rhai er mwyn talu eu parchedigaeth iddo; eraill er mwyn ymgynghori ag ef; a llawer hefyd a gyrchent atto, er mwyn cyfranogi o'i lettygarwch a'i haelioni. Gyda golwg arno fel pregethwr, nid oes genym lawer i'w ddyweyd, am na chawsom erioed yr hyfrydwch o'i glywed; ond wrth yr hanes am dano, yr oedd ei gyfansoddiadau yn dda a threfnus, ond nid oedd ei ddawn ymadroddol mor boblogaidd a'i ragflaenydd, y Parch. D. Griffiths. Yr oedd gan ei esgob, y Gwir Barchedig Connop Thirlwall, D.D., feddwl uchel am dano o ran ei alluoedd, o herwydd pan ddeuwyd o hyd i arch y duwiol a'r anfarwol Esgob Richard Davies, yn nghangell Eglwys Abergwili, a'i enw ef yn gerfiedig arni, wrth agor ei fedd yn ddamweiniol, cyfododd yr esgob wyddfaen coffadwriaethol ardderchog, o farmor gwynlliw drudfawr, ac a'i gosododd ar fur y ganghell uwch ben bedd yr hen esgob; ac ar osodiad y gwyddfaen i fyny, anfonodd yr Esgob Thirlwall am y Parch. J. Jones, (*Tegid*), i draddodi darlith, neu bregeth, ar yr achlysur, yn Eglwys Abergwili, Hydref 17, 1848. Ei destun oedd 2 Bren. xxiii. 17, 18. Cyhoeddwyd y bregeth hon gan Wm. Rees, Llanymddyfri. Y mae arwyddion cryn lafur, a gwybodaeth hanesyddol, ac ysgrythyrol ynddi. Yr oedd yn ddyn gwir ddysgedig, ac yn wir nid oedd fodd iddo beidio a bod felly, oblegid efe a gafodd bob mantais i hyny drwy ei oes. Yn oedd yn feddianol ar dymer addfwyn a charuaidd, ac yn hynod o ddeniadol yn ei ymddiddanion, ac oblegid hyny, byddai yn cael ei hoffi yn gyffredinol. Yr oedd yn dra gostyngedig a difalch, cyfeillachai â'r tlotaf yn llawn mor rhydd a siriol ac y gwnai â'r cyfoethog. Byddai rhai yn ei feio yn fawr am hyny, am na buasai yn ymddwyn yn fwy urddasol ac anrhydeddus; ond yn hyn yr oedd yn tebygu i'r Blaenor mawr, yr hwn a edrychai ar yr hen wraig a'i dwy hatling gyda'r un cyfrif ac y gwnai ar y gwr mawr a'i filoedd punau; ni ddaliai wyneb i neb, a gwyn fyd pe llenwid ein byd ni a dynion o'r fath ysbryd isel a gostyngedig. Yr hyn oedd fwyaf annymunol yn Tegid yn ein barn ni, oedd ei aflerwch gyda y trewlwch. Byddai yn dra esgeulus pan yn cyfranogi o hwn, nes y byddai ei wisg yn cael rhan o hono yn gystal a'i ffroenau. Ond pa le y ceir neb nad oes ynddo ryw anmherffeithrwydd? Y mae heddyw wedi dianc ar bob rhyw boen a gofid, ac wedi myned fel yr hyderus obeithiwn, i'r wlad lle nad oes yr un anmherffeithrwydd, o unrhyw natur na gradd, yn anffurfio y preswylwyr dedwydd.

**JONES**, Parch. John, *Talysarn*. Mewn eisteddfod boblogaidd a gynnaliwyd gerllaw Llanllyfni yn ddiweddar, dywedodd areithiwr pwyllog a gofalus fel y canlyn:—"Pe gofynid i mi pwy oedd meddyliwr Cymreig mwyaf y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg, dywedwn yn ddibetrus, mai John Jones, Talysarn." Nid Methodist, ond llenor Cymreig heb fod mewn cysylltiad âg unrhyw enwad Ymneillduol, a lefarodd fel yna. Pa un bynag a ystyrir y fath ddywediad yn eithafol ai peidio, y mae ysgrifenydd yr erthygl hon hefyd o'r farn, nas gall y pwlpud Cymreig ymffrostio mewn meddyliwr mwy na John Jones. Tywysog yn Israel ydoedd efe mewn gwirionedd. Y mae cyfrol drwchus o'i bregethau yn awr ger ein bron, ac wedi ei darllen yn bwyllog fwy nag unwaith, ein barn ydyw, nas gwelsom ni erioed gyfrol Gymreig o'r un maintioli, yn cynnwys cymaint o feddyliau eang, nerthol, gwreiddiol, ac aw-

grymiadol. Fel ymddangosiad allanol ei berson, yr oedd meddwl John Jones yn gadarn, mawreddog, a thywysogaidd. Nid oedd raid iddo ef ymostwng i loffa, benthyca, nac efelychu; a'r canlyniad yw, fod newydd-deb dymunol ar ei holl feddyl-ddrychau. Pe yr edrychid ar ei bregethau ar wahan i'r rhagoriaethau penaf, sef yr ysbryd crefyddol, a'r naws sanctaidd, a pha rai y maent wedi eu trwytho, hwy a ddalient gydmariaeth ffafriol, fel cynnyrch athrylith noeth, â dim sydd wedi ei ysgrifenu hyd yma yn yr iaith Gymraeg. Fel y cynnydda dysg, ac yr eanga dealltwriaeth darllenwyr Cymreig, bydd y fath gynnyrchion yn sicr o ddyfod i fwy o fri a phoblogrwydd. Wrth eu hadolygu, dywedodd un ysgrifenydd:—

"Hen ddywediad yn mhlith athronwyr ydyw, fod gan bob peth ei gyfnod euraidd, neu, mewn geiriau ereill, fod adeg neillduol pryd y ceir pob celfyddyd a galwedigaeth, wedi cyrhaedd graddau o ddadblygiad a pherffeithrwydd helaethach nag ar unrhyw amser arall. Oes euraidd duwinyddiaeth Seisnig, y gelwid yr eilfed-ganrif-ar-bymtheg; a gellid yn briodol nodi y cyfnod rhwng cyfodiad Rowlands, Llangeitho, a marwolaeth Henry Rees, fel oes euraidd yr efengylwyr Cymreig. Y mae cynnwysiad y gyfrol hon, yn arddangosiad teg o gyfoeth meddyliol y dynion fuont offerynol i ddeffro cenedl y Cymry o'i thrueni moesol, a'i chysgadrwydd crefyddol yn ystod y cyfnod yma. Y mae'n debyg nad oes ond ychydig a ddadleuant nad John Elias oedd yr *areithiwr* mwyaf a sangodd bwlpud Cymreig erioed; a chredwn nad oes ond nifer bychan iawn o Fethodistiaid, o leiaf, nad addefant yn rhwydd, mai John Jones, Talysarn, oedd y meddyliwr mwyaf o enwogion y 'cyfnod euraidd.' Cyfarfyddai ynddo ef holl ansoddau meddyliwr o radd uchel. Yr oedd efe wrth natur yn athronydd ymarferol craff, ac yn fardd o'r fath fwyaf tanbaid a rhamantus. Gallai olrhain y pethau mwyaf dyrus gyda deheurwydd a hwylusdod, a hyny yn berffaith annibynol. Nid benthyciwr, neu efelychydd ydoedd. Yr oedd ffrwythlonrwydd naturiol ei feddwl yn gyfryw, fel nas gallasai gael hamdden i fenthyca oddiar ereill; ac megys yr oedd ei feddyl-ddrychau yn hollol wreiddiol, felly hefyd yr oedd yr iaith â pha un eu gwisgai yn briodddull neillduol iddo ei hun. Pan ystyriwn feiddgarwch ei feddwl, a thanbeidrwydd nodedig ei natur, synir ni yn fawr gan yr aeddfedrwydd a'r dillynder dymunol sydd yn nodweddu ei gyfansoddiadau. Methasom a chanfod cymaint ag un esiampl o feiddgarwch yn tori dros derfynau gosodedig gweddusrwydd, ac yn ymddangos fel rhyfyg di reol, yr hyn, ysywaeth, sydd yn nodweddu gweithiau dynion o feddylfryd barddonol yn rhy fynych."

Anhawdd fuasai rhoddi canmoliaeth uwch na'r uchod i unrhyw gynnyrch llenyddol. Cyffelyb yr ysgrifena y Parch. Griffith Parry, yn ei ragymadrodd, fel Golygydd gweithiau John Jones, ond dewisasom ddyfynu yr uchod, am y gwyddom i'r sylwadau gael eu hysgrifenu gan un na chydsynia â golygiadau duwinyddol ac Ymneillduol Mr. John Jones.

Ganwyd y dyn mawr hwn ar y dydd cyntaf o Fawrth, 1796, mewn tyddyndy o'r enw Tanycastell, yn mhlwyf Dolyddelen, sir Gaernarfon. Sion Jones y gelwid ei dad; ac er nad oedd ef ond amaethwr cyffredin, eto gallai olrhain ei achau mewn llinell unionsyth a di dor, o Hedd Molwynog, cyff a phen cenedl un o Bymtheg Llwyth Gwynedd. Y Sion Jones hwn a briododd Elen uch Risiard, yr hon hefyd a hanai o wehelyth uchel-waed Einion Efell, arglwydd Cynllaeth. Fel hyn, fe welir fod llonaid gwythieni John Jones, a'i frodyr enwog, o waed goreu pendefigaeth hynafol ac anrhydeddus Gwynedd; a diau genym, pe cawsai Hedd Molwynog, neu Einion, olwg ar "Bregethwr y Bobl," neu ei frawd Dafydd, na buasai gywilydd ganddynt arddel eu disgynyddion yn y bedwaredd-ganrif ar bymtheg. Gwrthddrych ein herthygl oedd yr henaf o naw o blant Sion ac Elen Jones, o Danycastell. Yr oedd iddo dri o frodyr, sef Richard, William, a Dafydd; a phump o chwiorydd, sef Margaret, Catherine, Mary, Gwen, a Jane. Bu farw Richard yn lled ieuanc; ac erbyn hyn y mae yr ieuengaf o'r brodyr, sef y pregethwr swynol, a'r bardd clodfawr David Jones, Caernarfon, a Threborth, wedi ymadael o'r fuchedd hon, er ys rhai blyneddau. Y Parch. William Jones, un o brif addurniadau pwlpud Methodistaidd America, yw yr unig un sydd eto yn fyw. Tra yr ydym yn ysgrifenu, y mae y boneddwr hybarch hwn ar ymweliad â gwlad ei enedigaeth, ac newydd fod yn pregethu mewn Sassiwn a gynnaliwyd yn Amlwch. Bu farw tad y tylwyth enwog o Ddolyddelen, pan oedd yr henaf o'r plant sef, John Jones, yn lled ieuanc; ond gan fod y fam yn un o ragorolion y ddaear, cafodd y teulu lluosog o feibion a merched, eu magu yn barchus, a'u cyfarwyddo yn ofalus, yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Priododd un o'r chwiorydd yn lled ieuanc, gydag amaethwr cyfrifol o Langernyw, a thybiodd John Jones mai doeth oedd iddo ef fyned i wasanaethu atynt hwy, mewn trefn i ysgafnhau baich tyddyn Tanycastell. Tra yma, ymddengys i gymdeithas lygredig ieuenctyd y fro, ei lithro am ysbaid oddiar y llwybr cul; ond er i'w afael mewn crefydd lacio i'r fath raddau, hyd nes colli o hono ei aelodaeth gyda'r Methodistiaid, eto ni cheir lle i gasglu, ddarfod iddo gael ei demtio i gyflawni pechodau ysgeler. Yr oedd dysgeidiaeth iachus yr Ysgrythyr, ac addysg ac esiamplau aelwyd grefyddol Tanycastell, wedi lefeinio ei feddwl i'r fath raddau, fel nas gallai weled nemawr hyfrydwch yn ffyrdd pechod. Torodd diwygiad grymus allan yn y wlad ar y pryd, a phan yn ddwy-ar-hugain oed, cawn John Jones, o dan argyhoeddiad dwfn, yn dychwel o ddifrif, at y grefydd a wasanaethodd mor effeithiol a difrifol o hyny hyd ddiwedd ei oes. Oddeutu yr adeg yma, efe a ymadawodd o dŷ ei chwaer, gan fyned i weithio mewn cloddfa lechau yn Llanrhychwyn, ger Llanrwst. Mewn erthygl fer, ond nodedig o gryno a dyddorol, yn y llyfr a elwir "Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru," adrodda y Parch. T. Roberts (Scorpion) chwedl ddyddorol iawn am ddygwyddiad a gyfarfyddodd â "Phregethwr y Bobl" tra yn y gloddfa hon. Rhydd Mr. Roberts y geiriau fel y clywodd hwy o enau Mr. Jones ei hun, fel y canlyn:—"Yr oeddwn y pryd hwnw yn llencyn cadarn iawn o gorff, a chryn amheuaeth yn meddyliau fy nghydweithwyr beth mewn gwirionedd oedd fy nghryfder. Er mwyn cael boddlonrwydd ar y mater, daethant i'r penderfyniad o gruglwytho berfa un olwyn, gan ei dodi ar fy llwybr wrth ddychwelyd o'm ciniaw, ac un neu ddau o honynt yn sefyll gerllaw gyda golwg gwrynebdrist, tra yr oedd y criw direidus ereill, yn gwylio ar y domen â ni. Dywedai y ddau wynebdrist, eu bod wedi gorlwytho y ferfa, fel nas gallasai yr un o honynt ei symud, a herient finnau i dreio fy llaw. Minnau dipyn yn eiddigus dros fy enwogrwydd fel

Digitized by Google

dyn cryf, a afaelais yn mreichiau y ferfa, nes y torodd y ddwy yn y bôn. Deliais hwy i fyny yn fuddugoliaethus, a gofynais:—'Pa'm na chedwch chi dacle digon cryfion yn y fan yma?" Ymddengys fod amryw ddynion ieuainc, o chwaeth lenyddol a darllengar, yn cydweithio â Mr. Jones yn chwarel Llanrhychwyn, canys cawn ddarfod i rai o honynt ymuno âg ef i ffurfio cydnabyddiaeth âg Ieuan Glan Geirionydd, yr hwn a drigai ar y pryd gyda'i rieni, yn Nhanycelyn, Trefriw. Yr oedd Ieuan wedi derbyn addysg dda; a chafodd yr anrhydedd o gyfranu elfenau gwybodaeth i'r dyn oedd i fod cyn pen nemawr o amser yn un o brif addurniadau pwlpud ei wlad. Parhaodd y cyfeillgarwch a ffurfiwyd fel hyn, rhwng y bardd awenyddol a'r pregethwr mawr, yn ddidor hyd nes eu gwahanwyd gan angau.

Wedi dychwelyd o John Jones at grefydd, dadblygodd ei gynneddfau godidog gyda chyflymdra, a gwelai y bobl graffaf, fod ynddo gymhwysderau i gyflawni gwaith mwy gogoneddus na hollti llechi. Taer gymhellwyd ef i ddechreu pregethu, ond ei natur wylaidd a barai iddo betruso, ac ofni. Bernir mai damwain a'i cyfarfyddodd yn y chwarel, a fu yn foddion i dori y ddadl yn ei feddwl. Tra yr oedd efe yn sefyll ar yr *incline* un diwrnod, torodd tidau y gwageni, fel y bu agos i'r cwbl gael eu gollwng arno, a'i falurio yn y fan. Ond er iddo, trwy hunan feddiant, a chyflymdra, allu diogelu ei fywyd, eto derbyniodd niwed pwysig i'w asenau. Yr hen frodyr crefyddol a ddywedent fod y dygwyddiad hwn yn rhybudd iddo o herwydd ei gyndynrwydd i ymroi i wasanaethu crefydd; ac felly llwyddwyd i gael ganddo ddechreu pregethu, oddeutu y flwyddyn 1820. Mewn anneddy o'r enw "Y Garnedd" y traddododd ei bregeth gyntaf, ar y testyn "Os plant, etifeddion hefyd," &c. Y pryd hyn, nis gwyddai nemawr am gynnwysiad unrhyw lyfr, oddigerth y Beibl; ond yr oedd cynnwysiad y Gyfrol Sanctaidd agos oll wedi ei drysori yn ei gof eang, fel yr oedd efe yn gadarn yn yr Ysgrythyrau. Buan yr ymledodd ei glodydd dros yr holl wlad, a daeth galwadau lluosog am ei wasanaeth o bob parth. Wedi iddo ymweled â Llundain, Lerpwl, a threfydd pwysicaf y Dywysogaeth, ceisiodd arweinwyr y Cyfundeb Methodistaidd ganddo fyned i'r athrofa; ond ni chredai John Jones fod efrydu ieithoedd meirwon, yn gynnorthwy i wneyd dyn yn efengylydd, a'i ateb pendant ydoedd:—"Na, na, tra byddaf fi yn hogi fy nghryman, fe aiff y cynhauaf heibio." Yr oedd efe yn efrydydd o ddosbarth uwch na'r sawl y rhaid iddynt wrth gynnorthwy Plato, Homer, a Virgil, er eu dysgu i feddwl a dirnad athroniaeth. Fel y dywedodd Dewi Arfon:—

Clogwyni coleg Anian—wnaeth ryfedd
Athrofa i Ioan;
A'i yn null gwron allan—
Mawr ŵr Duw, rhoes Gymru ar dân!

Do yn sicr, fe feiddiodd John Jones fyned i athrofa natur ei hun, gan fyfyrio a deall mawrion bethau Duw yn ei waith. Meddai ef lygad i weled anian, calon i'w theimlo, a glewder a feiddiai gydfyned â hi, gan gynniwair i'w dirgelion mwyaf cyfrin. Pa les wnelai dysgeidiaeth ffurfiol ac arwynebol colegau tlodion daear i ddyn fel hyn? Gwagedd a gorthrymder ysbryd fuasai gweled gwir fab anian yn colli ei amser yn y fath leoedd. Nid oedd raid iddo ef wrth addysg golegol hyd yn nod er ei gynnysgaeddu â moesau cymdeithasol, canys yr oedd Mr. Jones yn ysgolhaig a boneddwr fel y daeth o law natur. Yr oedd ei foneddigrwydd ef o nodwedd uwch na dim a allasai moeseg (*etiquette*) gyffredin ddysgu iddo, gan fod ei ymddygiad bob amser yn llawn o'r urddas naturiol hwnw, na ddichon ffurf a rheol ei ddysgu.

Yn nghymdeithasfa y Bala, 1829, ac efe ar y pryd yn 33 mlwydd oed, cafodd ei ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth. Erbyn hyn, yr oedd wedi symud o Ddolyddelen i Lanllyfni, lle y priododd gyda boneddiges a fu iddo yn gydymaith deilwng ar hyd ei oes. Hi a ofalai am y fasnach a'r amgylchiadau tymhorol, gan adael iddo ef ymroddi yn gwbl at y gwaith mawr, i gyflawni yr hwn yr oedd wedi ei alw mor amlwg, a'i ddonio mor ryfeddol. Ganwyd iddo luaws o blant, amryw o ba rai sydd eto yn fyw, ac mewn sefyllfaoedd nodedig o barchus a chyfrifol. Bu un o honynt, sef Mrs. Williams, priod J. Williams, Ysw., Glanbeuno, ger Caerynarfon, boneddiges nodedig o rinweddol ac elusengar, farw yn ddiweddar. Ei fab hynaf, sef John Lloyd Jones, Ysw., o balas Baladeulyn, Nantlle, sydd foneddwr talentog, gwladgarol, a haelionus. Mab arall iddo, ydyw Thomas Lloyd Jones, Ysw., yr hwn a gyhoeddodd y gyfrol o'i bregethau y cyfeiriwyd ati ar y dechreu. Y Parch. David Lloyd Jones, A.C., sydd fel ei dad, wedi ymroddi i waith y weinidogaeth. Cysur mawr yw gweled y meibion hyn oll yn dilyn llwybrau crefyddol eu tad teilwng.

Wedi ei ordeinio i gyflawn waith y weinidogaeth, cymerodd Mr. Jones ei le yn naturiol fel un o brif gewri y pwlpud Cymreig. Cymaint oedd y galwadau am ei wasanaeth, fel y byddai ar daith agos yn wastadol, i ryw barth o'r wlad, ac ni ystyrid yr un Sassiwn yn iawn, heb bresennoldeb "Pregethwr y Bobl." Da y cofiwn am yr adegau pan y byddai efe ar deithiau trwy Ynys Mon. Y bobl a gyrchent ar ei ol wrth y miloedd, o'r naill gapel i'r llall, a sylwedd ei bregethau, fyddent destynau myfyrdod ac ymddyddan ar yr aelwydydd, ac yn y cyfarfodydd eglwysig am wythnosau dilynol. Parhaodd ei ddoniau llachar yn eu holl danbeidrwydd a'u dylanwad, hyd derfyn ei oes. Ni chyfododd ei ragorach fel traddodwr, na'i hafal fel meddyliwr; a phan, ar ddydd Sul, yr 17eg o Awst, 1857, y rhoddodd angau derfyn ar ei lafur, teimlai pawb fod tywysog y pulpud Cymreig wedi cwympo. Ymledodd y newydd am ei farwolaeth gyda chyflymdra mawr i bob parth, a'r wlad a lanwyd gan alar am y dyn ag yr oedd ei fywyd yn addurn i'w grefydd, a'i bregethau a'i athrylith yn glod i'w genedl, ac yn ogoniant i Dduw, yr hwn a'i gwnaeth.

Er fod wrth ein llaw ddigonedd o ddefnyddiau i ysgrifenu cyfrol faith, ar hanes bywyd y Parch. John Jones, eto anmhosibl fyddai ymgais at roddi manylion, mewn erthygl o fewn y terfynau a ganiateir i ni yma. Gadawn y pethau hyny, gan hyderu y caiff ei fywgraffydd galluog — y Parch. Owen Thomas—egwyl yn fuan i gwlhau y gwaith ag y mae y fath ddysgwyliad am dano. Ond nis gallwn derfynu y nodiadau brysiog hyn, heb gynnyg rhai sylwadau pellach, ar deithi meddwl a edmygwn mor fawr, a chymeriad yr hoffem allu ei efelychu yn well. Er mwyn bod mor fyr a chryno ag y gellir, nodwn y pethau y dymunem sylwi arnynt, o un i un:—

1. *Ei dueddfryd naturiol at bregethu, a myfyrio.*—Fel Rowland Hill, ac ereill o gedyrn y pwlpud,

Digitized by Google

cawn fod pregethu yn fath o ail natur i John Jones. Ymgais at hyn oedd ei brif hyfrydwch yn nyddiau diniwed mabandod. Yn ngwylltineb rhamantus bro fynyddig Dolyddelen, cyn cyrhaedd o hono ei ddeuddeng mlwydd oed, cawn ef yn mynych ddringo un o'r llechweddau, yn esgyn i ben y bryncyn, gan bregethu i'r meini, a'r prysglwyni. Bryd arall, cymerai y defaid a'r wyn pranclyd yn gynnulleidfa; a thrachefn, ceid ef yn cyfateb darluniad tarawiadol Glan Alun:—

"Mewn tawel feudy, anerch gyda blas,
Y gwartheg blithion, a'r diniwed loi," &c.

Hysbysa y Parch. Owen Jones, iddo unwaith draddodi pregeth i gynnulleidfa ryfeddach na'r cwbl. Y beudy oedd y capel y waith hon; ond hwyaid oedd y gynnulleidfa! Llefarai y bachgen bochgoch uwchben y llu asgellog gyda brwdfrydedd mawr, ac wrth weled y pregethwr yn taflu ei law yn ol a blaen, cyfodai y "gwrandawyr" eu pigau i fyny, gan ddysgwyl tamaid o'r llaw; ac yr oedd y fath sylw astud yn peri iddo yntau ddirfawr foddhad. O'r diwedd, pallodd amynedd y gynnulleidfa, wrth weled nad oedd cymaint a briwsionyn yn disgyn o'r llaw, a thorasant allan i fynegi eu hanghymeradwyaeth mewn dull mor drystiog ac aflafar, nes boddi llais y pregethwr yn y sŵn. Yntau a ddywedodd wrthynt:—"O fy mhobl bach i, y mae hi yn rhy fuan i chwi ddechreu canu eto—nid yw y bregeth ddim wedi darfod, ac yr ydym ni yn arfer gweddio cyn canu." Ar brydiau, efe a geisiai gynnulleidfa ychydig fwy rhesymol na'r rhai a nodwyd. Casglai nifer o blant y fro, esgynai yntau i ben maen, neu glogwyn, a thyna lle byddai efelychiad doniol iawn o faes y Sassiwn. Dengys y pethau hyn oglyd boreuol meddwl y bachgen, a bod awydd i bregethu wedi ei osod megys greddf yn ei natur mor ebrwydd ag y gadawodd y crŷd. Dechreuodd y dueddfryd at fyfyrio hefyd ymddadblygu yr un mor foreuol. Hoffai ymneillduo gyda'i Feibl i dawelwch anian; ac arhosai am oriau mewn unigedd, i ddarllen gwirionedd datguddiedig, a syllu bob yn ail ar ryfeddodau gwaith Awdwr mawr y Datguddiad hwnw, fel ei gwelid ar ddalenau breision llyfr natur.

*Tynerwch ei Natur.*—Yr oedd John Jones yn un o'r dynion addfwynaf a welwyd erioed. Meddai galon lawn o haelfrydedd pur, a chydymdeimlad diffuant; ac y mae y pethau hyn mor angenrheidiol i wneyd pregethwr mawr, ag ydynt i wneyd dinesydd da, a chymydog cymwynasgar. Pe meddai dyn holl hyawdledd Castellan, a meddylgarwch Mill, eto nis gallai bregethu yn effeithiol, heb i'w ddawn a'i athrylith fod wedi eu cyd dymmeru â charedigrwydd a thynerwch mawrfrydig. Rhaid i'r neb a fyno ddylanwadu ar deimladau pobl ereill, feddu yn gyntaf deimlad dwfn a thyner ei hun. Llenwid gwyneb prydferth, uchelfryd Mr. Jones, gan ddelw caredigrwydd; a hynod mor effeithiol—mor angerddol bryderus—yr ymddangosai pan fyddai ei holl natur wedi ei chyffroi wrth ddesgrifio trueni dyn colledig. Tystiai prudd-dremiad yr ael, ac ysgogiadau y delwedd-fryd, fod y Pregethwr Mawr yn teimlo ing enaid o herwydd cyndynrwydd dinystriol dyn i ymostwng, a derbyn telerau achubiaeth. Nis gallwn fyth anghofio ei ymddangosiad pryderus ac annogaethol, pan yn traddodi ei bregeth ardderchog ar "Hunan-amddiffyniad Duw;" a buasem foddlawn talu i gelfyddyd unrhyw bris, pe gallasai ein cynnysgaeddu â darlun cywir o hono tra yn terfynu gyda'r geiriau canlynol:—

"O annuwiol! pa fodd, wedi bod yn duo cymeriad Duw am flyneddoedd, yr wyt ti yn meddwl sefyll yn ei wyneb? Pa fodd yr wyt ti yn meddwl sefyll ger ei fron yn y dydd y bydd y daioni a'r ffyddlondeb a wedaist, yn ymddangos o flaen dy wyneb yn eu llawn ogoniant yn mherson Mab Duw, ac yn mherffaith ddedwyddwch y myrdd a gredasant ynddo, ac yn nghyflawniad perffaith ei holl Air i'w bobl, a'i fuddugoliaeth ar ei holl elynion? Bydd y cwbl a wedaist mor ddigywilydd, wedi ei brofi yn ngwydd pawb! Bydd y Barnwr yn cyfeirio y testyn i'th wyneb, yn ngŵydd yr holl frawdle—'Pa anwiredd a gefaist ynof? Tystiolaetha yn awr! A welir yma heddyw ryw addewid heb ei chyflawni?—rhyw fygythiad heb ei gwblhau? A oes yma ryw edifeiriol heb faddeuant?—rhyw gredadyn wedi ei golli? A welir yma heddyw rywun wedi gadael tai a thiroedd, gwraig a phlant, er mwyn fy enw I, heb dderbyn y can' cymaint? A welir yma rywun heddyw heb y wisg, yn cael dyfod i mewn?—rhyw annuwiol yn sefyll?—rhyw euog heb ei gosbi? Tystiolaetha yn awr!—Pa anwiredd a gefaist ynof fi?' Brysia, gan hyny, enaid anwyl! i alw dy eiriau yn ol mewn edifeirwch. Cais faddeuant y Duw a gamgyhuddaist mor hir; derbyn ei dystiolaeth fawr am ei Fab yn yr efengyl; a thrwy hyny, ti gai selio mai geirwir yw Duw. Amen."

Fel yna yr ymresymai ac yr ymbiliai "Pregethwr y Bobl" gyda phechaduriaid cyndyn; ac ofer fyddai i ni geisio desgrifio yr effaith a ddilynai. Byddai ei lais clir, cyfoethog, a melodaidd, yn cyfnewid i wahanol nodau, yn ol galwad yr ymadroddion, nes trydar trwy gynnulleidfa y capel mawr, neu faes y Sassiwn, fel cyfaredd.

*Eangder a Gwreiddioldeb ei Feddwl.*—Yr oedd yn amlwg i bawb a wrandawai, neu a gaffai gyfleusdra i ymddyddan â Mr. Jones, fod cwrs ei ddarlleniad yn dra eang; ond er hyny, ni welid, ac ni theimlid namyn y gwreiddioldeb mwyaf yn ei holl sylwadau a'i feddylddrychau. Dygai ffurf nerthol, nodwedd Gymreigaidd, a newydd-deb diamheuol pob peth a ddywedai, dystiolaeth ddiwrthdro, nas gwyddai ef sut i fasnachu mewn nwyddau ail llaw. Pan gyfeiriai at drefniadau a chyfrinion rhyfedd natur, byddai mor gywrain a Newton, neu Herschell; ond nid eu meddyliau na'u hymadroddion hwy a ddefnyddiai. Oddiwrth bob ffaith sefydledig o eiddo athroniaeth, efe a gyfodai awgrymiadau, ac a ddysgai wersi, na chlybuasid yn flaenorol. Yr oedd ei feistrolaeth ar iaith hefyd yn gyfryw, fel y gallai wisgo ei feddylddrychau gyda grym dihafal. Y mae a ganlyn, a ddyfynir gan y Parch. Griffith Parry, yn esiampl ragorol o'i allu fel ymresymwr, a'r modd y gallai awgrymu meddyliau mawrion, mewn ychydig eiriau:—

"Ni ddichon neb ond Duw gyflawni gorchestwaith mawr heb ymarferiad blaenorol. Creodd Duw bob peth o ddim, heb erioed ymarfer â chreu o'r blaen. Dyma y cynnyg cyntaf iddo; ni bu erioed yn *treio* ei law i wneuthur dim—gweithiodd yn berffaith y waith gyntaf! Ond rhaid i ddyn, ddysgu gwneyd pethau mawr, trwy gynnydd graddol o ddechreuad bychan."

Gallem ychwanegu ugeiniau o esiamplau cyffelyb oddiar ein cof, ac allan o'r gyfrol gyhoeddedig o bregethau Mr. Jones. Ond rhaid ymattal. Dywed-

Digitized by Google

asom ddigon i brofi ein gosodiad, fod John Jones, Talysarn, yn un, os nad y mwyaf oll, o feddylwyr y pwlpud Cymreig. Ac yr oedd nerth ei gorff, melodedd a chyflawnder ei lais, a godidowgrwydd ei gymeriad hefyd, yn cyfateb i gyfoethogrwydd anhysbydd ei feddwl. Gwnaeth natur a gras arno waith mor ragorol, fel yr oedd yn gyfuniad trylwyr o'r elfenau angenrheidiol i gyfansoddi pregethwr mawr. Bydded i Dywysogaeth fechan Cymru gael ei breintio â llawer o gyffelyb ddoniau, ac yna ni fydd perygl i'r Pwlpud Cymreig golli ei ddylanwad ar feddyliau y bobl, a phrysur ymlidir anffyddiaeth a llygredigaeth o derfynau ein gwlad.

**JONES**, Michael, athraw coleg yr Annibynwyr yn y Bala, ydoedd fab i Daniel a Mary Jones o'r Aifft, ger Neuaddlwyd, swydd Aberteifi, lle y ganwyd ef yn 1785. Yr oedd ei dad yn aelod gyda'r Wesleyaid, a'i fam gyda'r Methodistiaid Calfinaidd; ond ymunodd ef a'r Annibynwyr yn y Neuaddlwyd, Medi, 1807. Gwelodd Dr. Philips yn fuan fod ynddo elfenau pregethwr, ac anogodd ef i ddechreu. Bu yn yr ysgol am yspaid gyda Davies Castellhywel; ac yn 1810, derbyniwyd ef i goleg yr enwad yn Ngwrecsham, lle y bu am ddwy flynedd o dan addysg Dr. Jenkin Lewis, a dwy arall o dan y Dr. George Lewis, Llanuwchllyn. Yna dewiswyd ef yn olynydd i'w athraw yn Llanuwchllyn, Hydref 10, 1814. Nid oedd fodd i'r eglwys a'r gweinidog gyd-dynu yn hir; oblegyd nid oedd yr hen eglwys hon eto, ond *henaduriaethol*, ac yr oedd yn dra eiddigeddus dros burdeb yr athrawiaeth; felly gwnaed allan yn fuan bod y Gweinidog yn dal heresiau, a'r canlyniad fu i'r eglwys ymranu, a myned i ymgyfreithio am y capel, yr hyn a derfynodd mewn buddugoliaeth i'r blaid henaduriaethol, a bwriwyd y Gweinidog a'r blaid arall allan o'r capel.

Pan symudwyd y coleg Annibynol o'r Drefnewydd i Aberhonddu, barnwyd bod eisiau coleg hefyd yn y Gogledd, a phenderfynwyd mai Llanuwchllyn oedd ei le, a Michael Jones oedd ei athraw. Dyma ddechreuad coleg yr Annibynwyr yn y Bala, a mab i Michael Jones, ydyw M.D. Jones, ei lywydd presenol. Yr oedd Michael Jones yn hynod am ei nertholrwydd cymeriad, a'i wybodaeth gyffredinol, yn enwedig yn y celfyddydau. Bu farw Hydref 27, 1853, yn 68 oed.

**JONES**, Morgan, Ilston. Yr oedd dau bregethwr o'r enw hwn yn perthyn i eglwys Ilston, ger Abertawy, tua chanol yr 17eg ganrif. Daeth y ddau yn weinidogion plwyfol, o dan y weithred seneddol er lledaenu yr Efengyl yn Nghymru, 1649. Gwasanaethai un eglwys Laleston, ger Pen y bont arogwy, a'r llall eglwys Llanmadog, yn Gower. Tybir bod y naill yn frodor o swydd Forganwg, a'r llall o le a elwir Alltfawr, plwyf Llanon, swydd Gaerfyrddin. Mae Walker yn crybwyll am Morgan Jones, Laleston, yn un o'r rhai a gawsant eu rhoddi i mewn yn yr eglwys; ond nid yw Calamy yn ei enwi yn mhlith y rhai a fwriwyd allan; felly golygir ei fod wedi marw cyn dydd du Bartholomew. Ond y mae y ddau yn crybwyll am Morgan Jones Llanmadog. Dywed Calamy, iddo gael ei ddystewi yn Llanmadog, a geilw ef yn "aradwr gonest." Mae yn dda ei fod ef yn cydnabod ei *onestrwydd*, gan mai Bedyddiwr ydoedd; ac am fod yn *aradwr*, nid yw hyny ond dirmyg bychan arno. Geilw Walker ef,—"*un Jones*, creadur anwybodus" ond tybia Joshua Thomas a Dr. Richards, ei fod yn wr tra dysgedig; a dywed Dr. Morgan Jones, ei hen ddisgynydd, bod traddodiad yn y teulu, bod un o'i hynafiaid yn ysgolhaig mawr, yn deall yr Hebraeg, os nad ieithoedd dwyreiniol eraill, a bod llawer o'i lyfrau yn Hebraeg, a Groeg, &c., wedi bod yn hir yn meddiant y teulu; ac mai enw y gwr hwnw oedd Morgan John, neu John Morgan. Nid oes wybodaeth pa beth a ddaeth o Morgan Jones ar ol ei fwrw allan; ond dywedir i'w fab, John Morgan, yr hwn, yn ol Dr. Richards, oedd hefyd yn bregethwr, ac yn byw yn yr Alltfawr, treftadaeth y teulu, ddyoddef llawer yn amser yr erlidigaeth, cymaint felly, fel y collodd efe feddiant o'r Alltfawr, a gorfu iddo ef a'i olynwyr, dalu rhent am dani i'r ysbeilwyr.

Gellir edrych ar Morgan Jones, neu John, yn ol fel y cyfenwai efe ei hun, yn dad un o'r *llwythau pregethwrol* ag sydd wedi blaguro yn mhlith y Bedyddwyr yn Nghymru. Y mae *Llwyth Glan Gwy, Llwyth Glan Teifi, a Llwyth Glan Dyfrdwy*, yn adnabyddus fel y cyfryw, ac yn dra *enwog* mewn hanesiaeth eglwysig, a gellir ychwanegu atynt, *Lwyth Glan Llwchwr*, cyff pa un ydoedd Morgan John; mab i Morgan John ydoedd John Morgan; mab i John Morgan ydoedd Morgan John, Abertawe; mab i Morgan John Abertawe, ydoedd Griffith Jones, Hengoed; mab i Griffith Jones ydoedd Dr. Morgan Jones, *Hammersmith*, &c.

Ymddengys mai Morgan, a John, oedd enwau y teulu hwn am oesau, yn ol ffordd gyffredin y Cymry,—os Morgan John fyddai y tad, gelwid y mab, John Morgan, &c.; ond torwyd ar yr hen drefn hono wrth enwi Mab Morgan John Abertawe, oblegyd galwyd ef ar ol enw tad ei fam yn Griffith John, ac yn mhen ysbaid yn Griffith Jones.

**JONES**, Morgan, Abertawe, ydoedd fab i John Morgan, ac wyr i'r Morgan Jones uchod. Ganwyd ef yn yr Alltfawr, yn 1662, sef y flwyddyn a erys yn fythgofiadwy yn hanes crefydd yn Mrydain. Dygwyd ef i fyny yn nghanol ystorm erlidigaeth, heb weled braidd ddim ond blinder o herwydd crefydd am y saith mlynedd ar hugain cyntaf o'i fywyd. Ond er bod crefydd ar y pryd yn y cyflwr mwyaf isel a dirmygedig ag y bu erioed yn Mrydain, efe a'i cofleidiodd pan yn ei ieuenctyd, gan gysegru ei oes i bregethu yr egwyddorion y dyoddefasai ei dad a'i daid gymaint o'u herwydd. Efe a briododd ferch i un Griffith Griffiths, gwr o deulu cyfrifol yn swydd Gaerfyrddin. Yr oedd hi yn ferch hynod dduwiol, ond yr oedd ei theulu mor elynol i'r Bedyddwyr, ac mor groes iddi briodi Morgan Jones, fel y darfu iddynt ei llwyr ddietifeddu; ac er iddi, ar ei gwely angau, ddymuno arnynt am beidio atal oddiwrth ei phriod, a'i phlant bychain, yr hyn oedd yn eiddo iddi hi trwy gyfiawn hawl, bu ei llais yn gwbl aneffeithiol i symud eu penderfyniad. Dengys yr engraifft uchod, gyda pha adgasrwydd yr edrychid ar yr Annghydffurfwyr yn yr oes hono. Rhwng yr erlidigaethau difaol, a gwaith ei deulu yn nghyfraith yn dietifeddu ei wraig, bu yn gyfyng iawn mewn ystyr fydol ar y gwr da hwn ar lawer adeg. Adrodda Joshua Thomas yr hanes canlynol am dano, yr hwn a adroddwyd wrtho ef gan un Griffith Davies, yn 1776:—"Yr oedd ar Mr. M. J. dair punt i ryw ddyn, yr hwn oedd yn bygwth ei roddi yn ngharchar, neu roddi cyfraith arno, oni thalai efe ar y cyfryw ddydd; cyfyng iawn ydoedd ar y gwr da, heb wybod pa le i gael yr arian, a'r dydd wedi dyfod. Yr wyf yn meddwl ei fod yn byw yn Abertawe y pryd hwnw,

Digitized by Google

ond beth bynag yr oedd yn y dref ar y dydd hwnw. Efe a aeth i ryw ystafell y tu cefn i'r tŷ, i weddio am waredigaeth, fel na chai yr Efengyl ei hanmharchu trwyddo ef, &c. Yr oedd pobl y tŷ yn barnu ei fod wedi myned i weddio ar ryw achos. Tra yr oedd ar weddi, galwodd un wrth y drws, a gofynodd am Mr. Jones. Atebwyd, nad oedd efe yno yn bresenol, ond eu bod yn ei ddysgwyl ar fyr. Dywedodd yntau, fod Mr. Beavan am ei weled ar frys. Pan ddaeth Mr. Jones i'r tŷ o weddi, dywedwyd wrtho, bod Mr. Sylvanus Beavan wedi anfon am dano. *Quaker* oedd Mr. Beavan, a siopwr mawr yn y dref. Aeth Mr. Jones ato, a phan welodd y gwr ef, ebe fe wrtho i'r pwrpas hwn, 'A ddaethost ti Morgan John? Yr wyf wedi cael gorchymyn gan ffrynd Pycard, o *Barnstaple*, i dalu i ti, a Lewis Thomas, bob o ddwy bunt. Mi roddaf fi y pedair i ti, os gofali di am dalu i Lewis Thomas. Felly efe a'u rhoddodd iddo, ac efe a dalodd ei dair punt dyled yn y dydd, a phan gwelodd efe Mr. Lewis Thomas, efe a ddywedodd wrtho y cyfan, ac fel y darfu iddo wneyd yn eön ar bunt o'i arian ef. Gorfoleddu a diolch a wnaethant eill dau. Mi a ysgrifenais hyn o enau Mr. Griffith Davies, yr hwn a dystiodd mai gwir ydoedd.

"Er fod Mr. Morgan Jones mor addfwyn a llariaidd, a hunanymwadol a phwyllog, eto yr oedd yn barod ryfedd i ateb pan byddai achos. Mi a gefais yr hanes ganlynol gan ei ŵyr. Digwyddodd iddo alw mewn tŷ yn Abertawe, lle yr oedd dau wr mewn dadl am grefydd, un o honynt wedi troi yn Babydd, a'r llall o Eglwys Loegr; pan welsant ef, bu rhyngddynt ymddiddan i'r pwrpas hyn:—*Eglwyswr.*—'O fy nghymydog! ni bu yn well genyf eich gweled erioed.' Mr. Jones.—'Pa ham? Beth yw yr achos o hyny?' Eglwyswr.—'Mae fy nghymydog yma wedi troi yn *Bapist* yn ddiweddar, ac y mae o'r wyneb i ddyweyd mai Eglwys Rufain yw y wir fam Eglwys, ac nad yw Eglwys Loegr ond bastardes i Eglwys Rufain.' Mr. Jones.—'Ho, rhyngoch chwi bo'r ddadl, gan nad wyf fi o un o'r ddwy Eglwys, nid oes achos genyf fi i ddyweyd dim rhyngoch.' *Pabist.*—'Rheswm da, am nad oes genych ddim i'w ddweyd.' Mr. Jones.—'Fe allai hyny; ond atolwg beth sydd genych chwi i'w ddywedyd?' *Papist.*—'Beth? Yr wyf yn dyweyd mai Eglwys Rufain yw y wir fam Eglwys apostolaidd, ac mai bastardiaid yr Eglwys hono yw Eglwys Loegr, a chwithau ffanaticiaid oll.' Mr. Jones.—'Gan bwys, fy nghymydog, nac ymffrostiwch ormod, os bastardiaid y plant oll, rhaid bod y fam yn butain.' Ar y gair hwn syrthiodd ysbryd y *Papist*, a chododd ysbryd yr Eglwyswr; a darfu yr ymryson, mae yn debyg." —*Joshua Thomas, yn Hanes y Bedyddwyr.*

Yr oedd amryw o weinidogion yn eglwys Abertawe ar y pryd hwnw, sef y Lewis Thomas, y crybwyllir am dano uchod, Robert Morgan, Dr. Philip James, John Morgan, Robert Morgan, a Morgan Jones. Bu Morgan Jones farw yn 1723, yn 61 oed.

**JONES,** Owen (*Owain Myfyr*), casglwr a chyhoeddwr y *Myfyrian Archaiolog of Wales*, a anwyd mewn ffermdy o'r enw Tyddyn Tudur, yn mhlwyf Llanfihangel-glyn-myfyr, swydd Dinbych, yn 1741. Disgynai o deulu henafol a pharchus. Aeth i Lundain yn dra ieuanc, lle y rhwymwyd ef yn egwyddorwas gyda y Meistri Kidney a Putt, *Furriers*, yn Thames Street. Yn mhen ysbaid, aeth yn gyfranog a hwynt yn y fasnach, ac yna efe a'u holynodd; a pharhaodd i ddwyn y fasnach yn mlaen yn llwyddianus hyd ei farwolaeth; ond ni pharodd ei ofalon masnachol iddo annghofio ei wlad, a'i llenyddiaeth, eithr efe a ddefnyddiodd ei lwyddiant bydol, er gosod edmygwyr llenyddiaeth Gymreig o dan rwymau oesol iddo, trwy arbed rhag difancoll luaws mawr o hen ysgrifeniadau gwerthfawr, ag oedd yn braenu yn y llwch, ac yn cael eu hysu gan bryfaid. Yn 1772, efe a sefydlodd Gymdeithas y Gwyneddigion yn Llundain, yr hon a fu o wasanaeth mawr i lenyddiaeth Cymru mewn llawer ystyr. Yn 1789, efe a gyhoeddodd, ar ei draul ei hun, gyfrol drwchus, yn cynwys 592 o dudalenau, o farddoniaeth Dafydd ab Gwilym, gyda Rhagymadrodd helaeth gan Dr. Owen Pughe; a thua'r un adeg, efe a gyhoeddodd argraffiad newydd o "*Ddyhewyd y Cristion,*" er lles ysbrydol ei gydgenedl. Yn 1805, efe a ddechreuodd gyhoeddi Cylchgrawn Cymreig yn Llundain, o'r enw y *Greal,* yn cynwys lluaws o hen ysgrifau Cymreig, ac erthyclau gwreiddiol; ond ni chyhoeddwyd ond un gyfrol o hono, yr hon sydd erbyn hyn yn lled anhawdd ei chael. Ond y gofgolofn ardderchocaf o'i wladgarwch, yw y "*Myfyrian Archaiology of Wales,*" yr hwn a gyhoeddodd efe ar ei draul ei hun, mewn tair cyfrol wythblyg, yn 1801–1807. Yr oedd Dr. Owen Pughe, ac Iolo Morganwg, yn cynorthwyo Owain Myfyr yn ngolygiad y gwaith mawr hwn, ond yr oedd y cwbl ar ei draul ef; a dywedir bod y cyhoeddiad yn unig, wedi costio iddo dros fil o bunau. Mae y drysorfa werthfawr hon yn cynwys holl ysgrifau pwysicaf y genedl, o'r 5ed hyd ddiwedd y 13eg ganrif. Ond ni ymfoddlonodd ein gwladgarwr ar y casgliad anmhrisiadwy hwn, ond efe a barodd hefyd gasglu, adysgrifenu, a dosbarthu, yr holl lawysgrifau Cymreig, o'r lle y terfyna yr "*Archaiology* hyd amser y frenhines Elizabeth; yr hyn a gostiodd iddo dros dair mil o bunau. Gadawodd yr ysgrifau hyn ar ei ol i'w wraig, gan yr hon y prynwyd hwynt i'w cadw yn yr Amgueddfa Brydeinig, lle y gorweddant yn farw hyd heddyw. Y maent yn cynwys 47 cyfrol o Brydyddiaeth, yn cynwys tuag 16,000 o dudalenau; a 53 cyfrol o Ryddiaith, yn cynwys tua 15,300 o dudalenau. Wedi treulio oes ddefnyddiol i'w wlad, ac i'r byd, efe a fu farw yn ei dy ei hun, yn Thames Street, Medi 29, 1814, yn 73 oed, gan adael gweddw, a thri o blant ar ei ol, un o ba rai, sef ei unig fab, yw Owen Jones, yr adeiladydd enwog.—Gwel *Cambro-Briton*, i. 21; *Cambrian Register*, vol. iii.

**JONES,** Owen, "Manoethwy," a anwyd Meh. 4, 1838, mewn tyddyn-dy o'r enw Tan y ffordd, yn mhlwyf Llangian, yn Lleyn; brawd ydoedd i "Myrddin Fardd," o'r hwn yr ydoedd yn dra hoff, am eu bod mor dra thebyg i'w gilydd o ran chwaeth, a hoffder o lenoriaeth Gymreig. Yr ydoedd Owen Jones yn hanu o gyndadau uchelwaed, ond drwy dreigl amser, yr oedd y teulu wedi eu darostwng, fel nad oedd ei riaint namyn pobl o sefyllfa isel yn y byd, eto yn feddiannol ar gymeriad difrycheulyd, trwy yr hyn eu gwnelid yn barchus yn mysg eu cydnabod. Efe a ddysgid yn gyntaf gan ei rieni; ac yr oedd yn medru darllen yn rhwydd, pan nad oedd namyn pedair blwydd oed; a phan yn chwe mlwydd, anfonid ef i'r Ysgol Wladwriaethol yn y Foel Gron, lle y dangosai yn fuan fod gogwydd penaf ei athrylith at fesuroniaeth; ac mewn ychydig flynyddoedd, efe a ddaeth yn dra chyfarwydd ar y wyddor gynnwysfawr hono. Yn ystod ei arhosiad yn yr Ysgol hono, efe a goleddodd gryn lawer ar gerddoriaeth, yn ei gwahanol gangenau, a gwelid yn

Digitized by Google

fuan, ei fod yn feddiannol ar alluoedd cerddorol cryfion; er hyny, ni chymerodd ei lwyr lithio gan y gelfyddyd swynol hono. Pan oedd efe tua phymtheng mlwydd oed, efe a anfonwyd i Goleg Athrawol Gogledd Cymru, lle yr arhosodd am dair blynedd, ac yr ennillodd amryw wobrwyon trwy ei lafur dyfal, a'i gynnydd cyflym mewn dysgeidiaeth; ac o'r diwedd, efe a bennodwyd yn athraw Ysgol Wladwriaethol Llanfair Caereinion; a thra fu yn y lle hwn, tueddwyd ei feddwl yn lled grŷf, i ymchwilio i henafiaethau ei wlad a'i genedl; a chyd a'r amcan yma, efe a lafuriai gyd a'r dyfalwch a'r diwydrwydd mwyaf, nes dyfod yn llenor dyfnddysg, ac yn henafiaethwr cyfarwydd, fel y gwelir yn ei Gyfansoddiadau lluosog, a gyhoeddwyd yn y *Brython*, yr *Haul*, *Golud yr Oes*, a'r *Cymro*, dan y ffug-enwau CIAN, LLEYNWYSON, MALDWYN, MANOETHWY, MIHANGEL, MYFYR, O, *O* WEN, PEDROG, &c. Ac heblaw hyny, efe a ysgrifenai lawer i'r Cyfnodolion Seis'nig hefyd. Ac erbyn hyn, yr oedd efe nid yn unig yn feistr ar y Cymraeg a'r Saesonaeg; ond, meddai wybodaeth eang o'r Lladinaeg hefyd. Yn ystod ei arhosiad yn Llanfair, enillodd iddo ei hunan gymeriad uchel, fel athraw hynaws, a ffyddlawn; ac fel cyfaill dianwadal, a diffuant: canys yr oedd yn feddiannol ar gymaint o deithi cyfeillgarwch ag a'i galluogai i wneuthur pob cymdeithas lle y byddai ynddi, yn ddifyr, nid yn unig yn mysg y Cyfundeb crefyddol y perthynai efe iddo, ond eraill hefyd, y rhai a wahaniaethent oddiwrtho ef yn eu golygiadau crefyddol; yr hyn, yn nghyd a'r symlrwydd Cristionogol, a'r caredigrwydd calon a addurnent ei nodweddiad, a enillodd iddo gylch tra chang o gyfeillion yn ystod ei oes fer; a llwyddodd i "gadw cariad" â hwy, yn ddi fwlch hyd y diwedd.

Wedi bod o hono bum mlynedd yn Llanfair, tueddwyd ei feddwl i fyned i Goleg yr Iesu, yn Rhydychain, gyd a'r bwriad o ymbarottoi i gymeryd urddau gweinidogaethol yn yr Eglwys Sefydledig: ond, wedi gwneyd y ffordd i hyny yn agored o'i flaen, fe'i darbwyllwyd gan ryw resymau, i fyned am ysbaid blwyddyn o amser i'r Bryn Tanad, yn mhlwyf Llanerfyl, i fod yn athraw i'r boneddwr ieuanc H. W. Kyffin, Ysw., lle y cafodd fantais i adysgrifenu llawer iawn o hen ysgrif-lyfrau Cymreig gwerthfawr, y rhai yr oedd y gwyfyn wedi haner eu hyssu gan eu henaint; ac felly efe a gafodd gyfleusdra rhagorol, o'r hwn y gwnaeth y defnydd mwyaf dïesgeulus, i ehangu ei wybodaeth henafiaethol. Pan oedd ar ben ei bedair blwydd ar hugain oed, efe a symudodd i'r brif ddinas, lle y treuliodd y tair blynedd gweddill o'i einioes, mewn parch mawr gan bawb a'i hadwaenai; ac mor ymdrechgar oedd efe i chwanegu ei wybodaeth yno eto, fel y treuliai ei awr giniaw yn gyffredin yn yr Amgueddfa Frytanaidd, yn chwilio i'r hen ysgriflyfrau Cymreig ydynt yn nghadw yno, ac yn eu hadysgrifiaw.

Y mae yn dra thebyg i lafur diball ein cyfaill ieuanc yn awyr anmhur y brif ddinas, ddechreu anmharu ei gyfansoddiad cyn diwedd y flwyddyn gyntaf o'i arhosiad yno: eto, ni ddychymygai fod ei anhwyldeb o natur beryglus; ond arhosodd yn hir yno, gan barhau i ddylyn ei lafur caled, mewn nychdod difäol, hyd fis Ionawr, 1866, pan y dychwelodd i gymmydogaeth Llanfair, gan hyderu y buasai mwynhau ychydig wythnosau o awyr iach "Gwlad y Bryniau," yn foddion effeithiol er adferiad ei iechyd, ac y cawsai ddychwelyd yn ol i'r brif ddinas, wedi adnewyddu ei nerth: ond, er gofid dwys i'w gyfeillion lluosog, bu farw cyn pen tair wythnos, sef ar y 7fed o Chwefror, 1866, yn 27ain mlwydd oed; ac ar y 10fed o'r un mis, efe a gladdwyd yn mynwent Llanfair Caereinion.

**JONES**, PETER, a adwaenid yn gyffredinol wrth yr enw *Pedr Fardd*, a anwyd yn y flwyddyn 1775. Y mae ei gyfansoddïadau barddonol a rhyddieithiol yn dra adnabyddus i lenorion Cymru. Dywedai un hen awdwr parchus a dysgedig, mai ei Gatecism Ysgrythyrol, oedd y dernyn cywreiniaf a welodd erioed yn y Gymraeg. Cyfansoddodd lawer o Emynau, a genir gyda blas a chymeradwyaeth. Fel cynllun o'i ddawn a'i yspryd, gellid cyfeirio at yr Emyn adnabyddus sydd yn dechreu fel hyn:—

> "Mae'r iachawdwriaeth rad
> Yn ddigon i bob rhai;
> Agorwyd ffynon er glanhad
> Pob pechod cas a bai,"

ac yn terfynu gyda'r pennill synhwyrlawn a tharawiadol a ganlyn:—

> "Dan bwys euogrwydd du,
> Edrychaf tu a'r groes,
> Lle llifodd gwaed fy Mhriod cu,
> Anfeidrol iawn a roes."

Y mae y gyfrol o'i waith barddonol, a eilw "Mel Awen," wedi ei haddurno â darluniad o'i berson, a'r llinellau canlynol dano,

> "Rhedeg wnai gofer hydardd
> 'Mel Awen,' o ben y bardd,"

wedi cael croesawiad cynes gan bob enwad o grefydd yn Nghymru, yn gystal a'r cyhoedd yn gyffredinol. Y mae ei Awdl ar Iob, yn ddernyn gwir deilwng; a gellid nodi amryw eraill a ddaliant ail, a thrydydd darlleniad, heb golli dim o'u nerth. Yr oedd wedi enill iddo ei hun enw, fel Cristion o gymeriad dichlyn, ac fel swyddwr eglwysig yn y Pall-mall, Lerpwl, am dymor maith. Yr oedd yn dduwinydd cadarn yn yr Ysgrythyrau. Ystyrid ef yn wr o ddefnyddioldeb mawr mewn amryw gylchoedd yn ei ddydd a'i dymor; ac erys ei goffadwriaeth yn anwyl gan luaws hyd y dydd hwn. Bu farw Ionawr 26, 1845, pan yr oedd yn agos i ddeng mlwydd a thriugain oed. Ni allwn ymatal heb ychwanegu y llinellau canlynol, o anerchiad Robert ab Gwilym Ddu iddo, wrth derfynu:—

> "Pedr Fardd, pa awdwr fu
> Mwy anwyl i emynu?
> Sai ei glod ansigladwy;
> Bro Gwynedd, ni fedd ei fwy.
> Bri ar feib Eryri fydd,
> Ef anwyd yn Eifionydd.
> Dyn anwyl dan eneiniad,
> Yn ol dull ei anwyl dad.
> Canllaw beirdd, canwyll o'i ben
> I filoedd, ei 'Fel Awen.'"

**JONES**, RICE, mab henaf John Jones, Ysw., o'r Blaenau, yn Swydd Feirionydd, lle ei ganwyd yn y flwyddyn 1713. Efe a dderbyniodd ei addysg ar y dechreu yn ysgol Dolgelleu; o'r lle ei hanfonwyd i'r Amwythig, i orphen ei addysg. Bwriedid unwaith ei ddwyn i fynu yn gyfreithiwr; ond gan i'w dad farw pan nad oedd efe namyn 18 mlwydd oed, fe'i rhyddhawyd ef oddiwrth yr angenrheidrwydd i

Digitized by Google

ddylyn yr alwedigaeth hono, at yr hon nid oedd ganddo unrhyw dueddiad, ac efe a gyfanneddodd dros ei holl oes faith yn ei le genedigol, y Blaenau. Yr ydoedd yn un o feirdd mwyaf awenyddol y ganrif ddiweddaf. Yn y flwyddyn 1770, efe a gyhoeddodd mewn cyflyfr 4 plyg, gasgliad o farddoniaeth Gymreig, o wahanol oesau, a fuasai o'r blaen mewn hen ysgrif-lyfrau yn unig, dan yr enw, "Gorchestion Beirdd Cymru;" a chyhoeddwyd cyflyfr o'i farddoniaeth ef ei hunan, gan ei ŵyr, yn y flwyddyn 1818. Bu Rice Jones farw, Chwef. 14, 1801, yn ei wythfed flwydd a phedwar ugain; a chladdwyd ef yn eglwys Llanfachreth.

JONES, Richard, ydoedd fab John Puw, o Henllan, yn sir Ddinbych, lle y ganwyd ef yn y flwyddyn 1603. Aeth i goleg yr Iesu yn Rhydychain, yn 1621, ac a gymerodd ei raddau yn y celfyddydau, yn y brif-athrofa honno. Yn 1655, cyhoeddodd yn ei iaith naturiol, waith yn cynwys crynhoad cyflawn, mewn cylch bychan, o holl lyfrau a phenodau y Bibl. Gelwir hwn "Gemma Cambricum, seu Mnemonica Biblorum;" Perl y Cymro, neu Gofiadur y Bibl, 12 plyg. Y mae gyda rhagddodiad o lythyr byr, mewn ffordd o gymeradwyaeth, gan James Howell. Bu Richard Jones farw yn Iwerddon, ond ni wyddir yn sicr yn mha flwyddyn.

JONES, Richard, o'r Bala, ydoedd weinidog perthynol i'r Trefnyddion Calfinaidd. Ganwyd ef mewn ty a elwid Tafarn-y-trip, yn mhlwyf Ffestiniog, sir Feirionydd. Asiedydd oedd ei dad, wrth ei alwedigaeth, a chanddo deulu lluosog. Yn haf 1790, anfonodd Mr. Charles o'r Bala, wr crefyddol o'r gymydogaeth, i gadw ysgol rad Gymreig, yr hon a gedwid mewn ty, lled wael yr olwg arno, a elwid Tynyfedwen, yn mhlwyf Maentwrog; ac anfonodd ei rieni ef yno. Yr oedd y pryd hwnw rhwng pump a chwe mlwydd oed; ond er ieuenged oedd, ac er lleied o amser y bu yno, dysgodd ddarllen yn rhwydd. Cyn hir wedi hyn, rhoddodd ei rieni ef mewn ysgol Saesoneg, yn eglwys plwyf Maentwrog, a gedwid gan un Ellis Williams; a dysgodd yno ychydig mewn darllen, ysgrifenu, a rhifyddu. Bu wedi hyny yn gwneud rhyw wasanaeth tua phalas Tan y bwlch, ac yn cael tamaid, a dim ond hyny, am ei waith. Calanmai, 1796, dodwyd ef yn wyddorwas yn nghrefft gwniedydd dillad, canys barnai ei dad ef yn rhy egwan o gorph at waith saer coed. Tuag 1805, aeth i'r gymdeithas eglwysig yn y Bala. Yn fuan wedi hyn, aeth i gadw ysgol yn Trerhiwaedog, a bu yno am flwyddyn; ac yn Medi, 1810, aeth i gadw ysgol gerllaw i'r Parc, yn agos i'r Bala, a bu yno am tua phedair blynedd; a bu yn weithgar iawn gyda'r ysgol Sabbathol yn yr ysbaid hwnw. Tuag 1814, symudodd i Drawsfynydd i gadw ysgol, a'r pryd hwnw y dechreuodd feddwl am bregethu. Sabbath, Mawrth 19, yn nghapel Cwm-prysor, y safodd ar risiau y pwlpud, a darllenodd Salm, a gwnaeth nodiadau arni; a'r un modd yn nghapel Trawsfynydd yn yr hwyr, a dyna y dechreuad. Yn nghymdeithasfa Pwllheli 1819, penodwyd iddo fyned i Lundain, i bregethu i'r Cymry; ac aeth yno drachefn yn 1829. Ymwelodd a threfi Lerpwl a Mancenion, a theithiodd lawer trwy Ddeheubarth a Gogledd Cymru, ond yn benaf yn Meirionydd. Yn Ebrill 1840, aeth i gymanfa Aberystwyth; ond cymerwyd ef yn glaf ar y daith honno, a dychwelodd adref trwy gryn boen, a bu yn llesg felly am tua pymthegnos; a gwanhaodd yn raddol. Bu farw yn mis Ebrill, yn 55 mlwydd oed. Yr oedd yn bert ac arabedd yn ei ymadroddion, yn naturiol. Yr oedd unwaith yn gwrando ar bregethwr, yr hwn a drystiai gryn lawer, gan waeddi, "Gwrandewch," yn lled fynych: gwaeddai yntau o'r diwedd, "Ar ba beth?" "Yr wyf fi yn gwrando, pe ba'i rywbeth yn dyfod." Ryw bryd ar un amgylchiad, deuai i dy cyfaill, lle yr oedd cryn lawer o gig moch yn crogi dan y llofft, a tharawai yntau ei ben yn un o'r darnau a gyrhaeddai yn lled isel; Pan gwynai ef o blegid hyny, dywedai y cyfaill, "Rhaid dysgu gostyngeiddrwydd, Richard Jones," Gwir, ebe yntau, ond y mae yn arw o beth, os rhaid ymostwng i foch! Yr oedd ei bynciau yn bwysig, a'i olygiadau yn gywir yn wastadol. Rhodiai ganol llwybr barn yn gyffredin. Yr oedd yn ymdrechgar a diwyd yn nghyflawniad ei swydd yn ei holl ranau pwysig. Boddlonodd ar ddull cynil iawn o fyw, er mwyn gallu cyflawni ei ddyledswyddau yn mhob modd. Ychydig iawn a dderbyniodd oddiwrth ei lafur gweinidogaethol, ond ni lwfrhai er y cwbl. Yr oedd yn hynod am gyflawnder ei ddefnyddiau yn yr areithfa; yr oedd yn gryno a threfnus yn ei bregethau; traethai ar ei destyn heb grwydro yn wasgarog ar dde nac aswy; ac yr oedd ei holl sylwadau, o duedd ymarferol dda, ac yn cydredeg âg amcan y testyn a ddetholai. Yr oedd o ddylanwad mawr fel llywydd yn yr eglwys gartref, yn gystal a'r cyfarfodydd misol allan o gartref, a meddai ddoethineb a chraffder tu ag at feithrin teimladau da, a chydweithrediad esmwyth, ar bob achlysur; ac felly, wedi ei ymadawiad, y teimlid colled ar ei ol.

JONES, Richard, a adwaenir yn gyffredin wrth yr enw "Cymro Gwyllt," ydoedd fab i John a Margaret Prichard, o'r Coedcaedu, plwyf Llanystumdwy, yn ardal Bryn engan, sir Gaernarfon. Yr oedd ei dad yn amaethwr cyfrifol; a rhoddwyd Richard, ei unig fab, dan addysgiaeth y Parch. Evan Richardson, Caernarfon, yr hwn a gadwai ysgol yn y gymydogaeth. Yr oedd ei efrydiaeth yn cynwys Saesneg, Lladin, a Groeg. Ac er nad oedd yr amser a gafodd i'w dreulio yn yr ysgol ond byr, eto gwnaeth y defnydd goreu o hono. Yr oedd yn meddu hoffder naturiol at farddoniaeth. Bu pan yn ieuangc, yn darllen cywydd o'i eiddo, yn eisteddfod y Wern, Penmorfa. Nid udganodd ddim o'i flaen mewn dim a wnelai. Ymunodd â chrefydd yn foreu. Bore y diwrnod yr aeth am y tro cyntaf i'r gyfeillach grefyddol, elai gyda'r gwas i chwilio am ddefaid oedd wedi crwydro, a dychwelasant adref tua dwy awr o amser cyn y cyfarfod; heb grybwyll am ei fwriad; a threfnodd i'r gwas orphen ei orchwylion eraill yn brydlon. Mynegodd o'r diwedd ei benderfyniad i'r gwas, a dywedai hwnw wrtho, ar ol dychwelyd, fod yn rhaid iddo gadw dyledswydd deuluaidd y noswaith honno, ac felly fu; a mawr oedd syndod y rhan o'r teulu oedd heb wybod iddo fod yn y gyfeillach, wrth ei glywed. Yn 1794, dechreuodd bregethu. Ychydig a wyddir am ei deimladau ar y pryd, ond clywyd ef yn dywedyd, ei fod yn myned un Sabbath, ychydig cyn hyny, gyda blaenor o'r ardal, i Ysgoldy Pencaenewydd, i wrando pregeth; ond gan na ddaeth y pregethwr yno, anogwyd ef i ddechreu y cyfarfod, ac i ddweyd ychydig oddiar y benod a ddarllenai; yr hyn a wnaeth, ac aeth yn helaethach na'i fwriad; a pha beth a glywai yr wythnos ganlynol, ond iddo fod yn pregethu; yr hyn a'i dychrynai yn fawr. Ond gwrolwyd ei feddwl i ymgymeryd a'r gwaith;

Digitized by Google

er yr ofnai yn fawr na wnelai yr hyn a ddywedai ddim lles. Un tro yr oedd wedi myned ar y Sabbath i bregethu yn Lleyn; ac yr oedd yn pregethu, yn ol ei farn ei hun, yn hynod dywyll ac anfuddiol i'r gwrandawyr. Dychwelai adref nos Sabbath ar ol y bregeth, gan benderfynu na phregethai mwyach. Yr wythnos ganlynol, aeth i'r cyfarfod misol, nid ar fedr rhoddi cyhoeddiad i neb; ac ni thybiodd y gofynai neb am gyhoeddiad ganddo. Ond cafodd le i gredu yno, nad oedd pethau gan waethed a'i ofnau, a phenderfynai fod yn fwy ymroddol rhag llaw. Dangosodd yn fuan, mai ei amcan oedd pregethu y gair. Nid oedd yn hyawdl iawn, ond nid oedd ganddo air heb ei eisiau. Yr oedd y cwbl a draddodai yn sylweddol, ac fel aur wedi ei buro seithwaith. Yr oedd y rhan fwyaf deallgar o'i wrandawyr, yn sicr o gael eu boddhau. Yr oedd ei ymddygiadau boneddigaidd, a'i gyngor pwyllog, yn rhoddi boddlonrwydd ar bob amgylchiad. Llafuriai yn ddiwyd ac ymdrechgar yn yr ardal lle yr oedd yn byw; ac elai o amgylch gan wneuthur daioni. Ionawr 28, 1805, priododd â Frances, merch Gryffydd Poole, o Egryn, sir Feirionydd, o'r hon y bu iddo ddau fab, a thair merch. Dywedir iddo weled trallodion, a mwynhau cysuron, yn y sefyllfa hon; ac y cyfarfyddai ei drallodion gyd âg ymostyngiad, a'i gysuron gyda phwyll a diolchgarwch. Symudodd o'r Coedcaudu i Lwynimpiau, yn mhlwyf Clynog, yn yr un sir. Dros yr ysbaid byr y bu yno, ni bu pall ar ei ddiwydrwydd gyda chrefydd. Yn fuan, symudodd oddi yno i'r Wern, Llanfrothen, sir Feirionydd. Erbyn hyn, yr oedd ei feibion wedi dyfod i oedran cymwys i gymeryd gofal y rhan fwyaf o'i achosion bydol, a thrwy hyny, cafodd yntau ei holl amser o'r bron, i lafurio yn ngwaith y cysegr. Ei dy ef oedd cartref yr achos crefyddol, cyhyd ag y bu yn aros yn y Wern. Yr oedd Mr. Jones yn hysbys i'r cyhoedd erbyn hyn, fel awdwr. Cyfansoddodd ddau Holwyddoreg, er ychwanegu gwybodaeth yr ieuaingc yn mhrif bynciau crefydd; y cyntaf i rai yn dechreu dysgu darllen, a'r llall, i ddosparth uwch. Ymddangosodd amryw o'i draethodau yn y cyfnodolion Cymreig. Cyhoeddodd nodiadau ar Chwyldroad Ffraingc, yn "Seren Gomer" wythnosol, yn y rhai y pleidiai ryddid crefyddol, fel yr ofnai rhai ei fod yn rhedeg i eithafion. Cydnabyddai oruchel lywodraeth yr Arglwydd, a bod ei frenhiniaeth yn cyrhaedd dros bob peth, a rhoddai ddyrnod nerthol ar ben anffyddiaeth, yn ei holl agweddau. Arddangosai feddyliau dyrchafedig, a chwaeth goethus yn yr erthyglau hyn. Y mae ei sylwadau ar y "Mammon anghyfiawn," "Gallu ac anallu dyn," "Offrymu," yn gystal ag amryw ysgrifau eraill o'i eiddo, yn dangos ymchwiliad trwyadl. Y mae amryw draethodau yn y "Drysorfa" o'i eiddo, yn werthfawr iawn; gellid cyfeirio at, "Pob gwlad yn ol ei harfer," fel un o'i ragorion; y mae yno yn dangos ei fedr fel ysgrifenydd yn eglur iawn; Dywedodd John Elias am hwnw, "na ddaeth ei well o bin Cymro erioed." Y mae ei "Rybydd i bregethwyr a gwrandawyr yr efengyl," yn dra rhagorol, ac yn arddangos y priodoldeb o fod i bob dyn dynu allan ei syniadau crefyddol o Air Duw, ac nid o osodiadau plaid. Yr oedd hefyd wedi ysgrifenu rhanau helaeth o'r llyfr a hysbyswyd ganddo, ar "Gyfryngdod Crist," yr hwn a adawyd yn anorphenedig. Cyfansoddodd hefyd lyfr Emynau, yr hwn a argraphwyd. Ysgrifenodd "Eglurhad ar y Bibl," hyd ganol llyfr y Salmau; yr hwn sydd ar gynllun newydd. Y mae y crybwylliadau hyn yn dangos fod ei lafur llenyddol yn fawr iawn, yn yr amrywiol ganghenau yr ysgrifenodd arnynt. Yr oedd yn gymedrol yn ei olygiadau, ac felly yn yr yspryd a ddangosai mewn achosion o ddadl neu gerydd. Dangosodd hyn mewn cynadleddau ar lawer amgylchiad. Un tro yn y Deheudir, mewn cyfarfod neillduol, pan y cwynid o blegid diffyg cariad brawdol, y rhoddai derfyn ar yr achwyn, pan y dywedai, yr adwaenai y lleoedd y cyfeirid atynt er ys pymtheng mlynedd ar hugain, ac y gwyddai ef fod yno dunell o gariad yn awr, am bob wns oedd yno y pryd hwnw; a galwai sylw at gynnydd yr achos yn y lle, nes troi y cyfan yn destyn llawenydd mawr. Tra yr oedd yn gydwybodol fel gwrthwynebydd i bob pechod a chyfeiliornad, yr oedd yn wastadol yn bwyllog, yn dyner, yn oddefgar, ac o duedd i adgyweirio mewn yspryd addfwynder. O ran ei ymddangosiad personol, yr oedd Mr. Jones yn dal, syth, hoew, a glandeg; nid yn gorphorol iawn, ond yn lluniaidd. Dechreuodd ei iechyd wannychu yn ngwanwyn, 1832, a llesgâi yn wywedig at yr haf canlynol. Aeth ar daith y pryd hwnw i sir Drefaldwyn, i bregethu; ac effeithiodd y llafur er niwaid i'w iechyd. Ac felly y bu mewn canlyniad i daith i'r Deheudir, ar ol hyny, pan y dychwelodd yn llawer gwaeth. Ond er hyn oll, ymroddai i fyfyrio, ac ysgrifenu, a hyny hyd yn hwyr o'r nos. Ni wyddir yn iawn, a orphenodd ef "Ddrych y Dadleuwr," yr hwn a ddechreuai ymddangos yn rhifynau. Erbyn tua mis Ionawr, 1833, yr oedd wedi myned mor egwan, fel mai prin y gallai ddyfod i lawr i gynal addoliad teuluaidd. Teimlai un noswaith tua y pryd hwn, fath o anwyd yn rhedeg drosto fel cryd. Aeth un o'i feibion ato, ar ol i'r teulu swperu, a gwelodd nad oedd ef yn gymwys i ddyfod o'i wely, ac aeth i lawr, a darllenodd mor ddystaw fel na chlywai ei dad, rhag cyffroi ei feddwl; ond gwybu ef fod yr adeg i hyny wedi dod, ac aeth i lawr, a gweddiodd. Ni adawodd y cryndod ef y noswaith honno, ac ofnodd y teulu y gwaethaf. Bore dydd Mawrth, Chwefror 26, hunodd yn yr angau, yn 60 mlwydd oed.

**JONES**, Richard Robert, yr hwn a elwid yn gyffredin, *Dic Aberdaron*, un o gymeriadau mwyaf arnwythus yr oes ddiweddaf, a anwyd mewn lle a elwir Cae'r Eos, yn mhlwyf Aberdaron, swydd Gaerynarfon, Gorphenaf, 1780. Mab ydoedd i Robert Jones, neu Robert Sion Edward, tyddynwr bychan, a Saer Coed. Yr oedd yn un o dri o feibion, yr henaf o ba rai, John, ydoedd ddyn crefyddol parchus,—aelod gyda'r Bedyddwyr, ac ynddo gryn duedd at brydyddu. Dangosodd Richard er yn ieuanc, duedd gref i ymwneyd a llyfrau; ac er na chafodd ddim ysgol reolaidd erioed, efe a ddysgodd Ladin pan yn 15 oed, trwy gymorth rhyw fachgen a fedrai ychydig. Pan yn 19 oed, cafodd afael mewn Gramadeg Groeg, a dysgodd yr iaith hono; a phan yn 20 oed, dysgodd yr iaith Hebraeg, trwy dalfyriad o Ramadeg Buxtorf. Nid oedd fodd i'w gael i ymaflyd mewn unrhyw orchwyl, na gwneyd dim ond trin llyfrau, yr hyn ni ddygai unrhyw elw iddo, ac na roddai fawr o gysur i'w dad i weithio yn galed er ei gadw ef yn segur. Parai hyny i'w gartref fod yn fuan yn lled annedwydd; ac o'r diwedd, efe a ymadawodd, ac aeth i grwydro ar hyd y wlad, gan gario ei lyfrau yn ei logellau, yr hyn a barai iddo gael ei alw yn "Lyfrfa Symudol," ac yn "*Welsh*

Digitized by Google

*Jew,*" oblegyd ei farf hirllaes, a'i hoffder o'r Hebraeg. Ar ei dro daeth i Bangor, lle y gwnaed sylw o hono gan yr Esgob Cleaver. Wedi hyny, cafodd dderbyniad croesawus gan John Williams, Treffos, Mon, gyda'r hwn y bu am tua haner blwyddyn, yn dysgu Groeg. Ymadawodd oddiyno yn hollol sydyn, a dirybudd, oherwydd, meddai ef, rhyw gamdriniaeth a gawsai gan y gweision; ac aeth drosodd i Liverpool, lle y gwnaed sylw mawr o hono gan yr enwog Thomas Roscoe, noddwr cyntaf John Gibson. Cymerwyd lletty iddo yn y dref, ar draul y boneddwr hwnw, ac eraill, fel y gallai ddilyn a fynai ar ei duedd ieithyddol. Ond blinodd yn fuan ar y lle hwn, fel ar bob lle arall, a dymunai ddychwelyd tuag adref. Rhoddodd ei noddwr iddo *5p.* i'r daith; ac felly daeth adref, ac arian a llyfrau gwerthfawr ganddo. Y pryd hwn, ymunodd ef â John ei frawd, i gyfieithu gwaith Archibald M'Lean, ar "Gomisiwn Crist i'w Apostolion," i'r Gymraeg, yr hwn wedi hyny a gyhoeddwyd yn Nghaerynarfon, o dan olygiad Edmund Francis. Wedi aros ychydig gyda Benjamin Jones, gweinidog yr Annibynwyr yn Mhwllheli, efe a ddychwelodd i Liverpool; ond gan fod anffawd masnachol erbyn hyny wedi cyfarfod a Mr. Roscoe, nid oedd yno yr un noddwr iddo bellach, a bu mor galed arno y tro hwn, fel y gorfu iddo werthu ei lyfrau anwylaf, ac hyd yn nod ei Feibl Hebraeg, gyda Nodiadau, er cynal ei hun. Yr oedd hyn yn 1807. Gofidiai gymaint oblegyd yr anffawd hon o golli ei Feibl, fel y penderfynodd fyned i Lundain i chwilio am un arall, yn nghyda chyfarwyddyd yn y Syriaeg a'r Galdeaeg. Teithiodd yno bob cam, gyda phecyn bychan ar ei gefn, ffon hir, o amgylch yr hon yr oedd map o'r daith, yn ei law, a'r gweddill o'i lyfrau wedi eu gwthio i'w wahanol logellau. Er na lwyddodd yn ei wahanol amcanion yn Llundain, daeth i gydnabyddiaeth yno a Dr. Collyer, yr hwn a'i hanrhegodd a Thestament Groeg; yna gadawodd y Brif ddinas yn siomedig, a phrysurodd i Dover, lle y cafodd waith i symud lludw yn Llongweithfa y Brenin, am y cyflog o *2s. 4c.* yn y dydd, yn nghyda'i foreufwyd, a chist i gadw ei lyfrau. Yr oedd llong fawr Roegaidd yn Dover ar y pryd, a thrwy ymgydnabyddu a'r dwylaw, daeth i allu siarad yr iaith Roeg ddiweddar. Gallodd lwyddo hefyd trwy gynildeb, i hebgor digon o arian i dalu i Rabbi Nathan, y dysgawdwr Hebreig enwog, am ryw nifer o wersi ganddo yn yr iaith hono. Bu yma am dair blynedd; a dywedir mai dyma y tymor dedwyddaf a dreuliodd yn ei fywyd. Ond yn 1810, gadawodd Dover am Lundain, lle yr aeth mor galed arno, nes y gorfu iddo werthu ei holl lyfrau; ond trwy gymorth Cymdeithas y Cymrodorion, gallodd ddychwelyd yn ol i Gymru. Pan yn Mangor y waith hon, daeth i adnabyddiaeth ag R. Davies, ac S. Price, y rhai a gymerasant ato, gan feddwl y gellid gwneyd argraffydd o hono; ond yn gwbl ofer. Nid oedd fodd i ddysgyblu ei ddwylaw na'i feddwl at unrhyw orchwyl o gwbl, ac nid oedd dim i'w wneyd iddo, ond ei adael fel yr asyn gwyllt, i ddilyn ei duedd naturiol ei hun. Ar ol hyn, cawn ef yn ei ol yn Liverpool, yn llettya gyda Gwyddelod, ac yn cael ei ysbeilio ganddynt o Ramadeg Caldaeg P. Martin, yn nghyd ag amryw lyfrau gwerthfawr eraill.

Tua'r adeg hon, dechreuodd ysgrifenu gwreiddiau yr iaith Roeg, gan Caspar a Seidelius, gan eu troi i'r Lladin a'r Seisneg; ond lladratawyd y gwaith hwn oddiarno, pan oedd yn y llythyren *Chi.* Ar ol hyn cawn ef yn Magillt, swydd Fflint, yn cael ei gynal gan rai o'i edmygwyr, ac yn dechreu ysgrifenu "Cydymaith yr Ysgolor," gan Alexander Rowley, yn Hebraeg, Groeg, a Seisneg; ond pan oedd wedi cyraedd y llythyren *Nun,* dechreuodd ymddifyru trwy wneyd nadau aflafar mewn rhyw gorn hwrdd, er mawr aflonyddwch, a dychryn i drigolion yr ardal. Gan y gwelid fod ynddo ryw chwaeth at gerddoriaeth, anrhegwyd ef a *French Horn,* ar yr hwn y dysgodd chwareu rhai alawon, yn enwedig alawon aflafar yr Iuddewon. Tua 1821, dechreuodd ar brif orchwyl ei oes, sef cyfansoddi Gramadeg Cymraeg, Groeg, a Hebraeg; ond pan wedi ei orphen, hudodd rhyw adyn ef oddi arno, trwy addaw ei gyhoeddi, ond ni welwyd ef byth. Er y siomedigaeth hon, aeth yn mlaen gyda'i efrydiaeth, a dechreuodd gyfansoddi Geirlyfr Groeg a Saesneg, gyda geir-restr yn yr Hebraeg a'r Saesneg, a thraethawd byr ar Gerddoriaeth, ac Aceniad yr Hebraeg. Costiodd hwn iddo ddeng mlynedd o lafur; ac aeth ag ef i Eisteddfod Beaumaris, yn Awst, 1832, gan ddysgwyl cael cefnogaeth i'w gyhoeddi, ond cafodd ei siomi. Wedi hyn, cawn ef eto yn Liverpool, wedi rhedeg i ddyled ei lettywr, yr hwn a gymerodd ei holl lyfrau, a'i offerynau cerddorol oddi arno, ac yntau megys dyn wedi colli pob llywodraeth arno ei hun, ac yn ol ei arfer pan yn y twymynau hyny, yn melldithio ac yn cablu yn mhob iaith, nes oedd yn ddychryn i bawb o'i amgylch; ond trwy ei gymwynaswr, John Copner Williams, Dinbych, llwyddodd i'w badferyd heb eu niweidio. Yn 1843, yr oedd ei iechyd yn gwaelu yn fawr; daeth drosodd o Liverpool i Lanelwy ar y 10fed o Hydref, lle y derbyniodd diriondeb mawr gan yr Esgob, ac offeiriaid yr ardal. Bu farw Rhagfyr 18, 1843, yn 65 oed. Dygwyd traul ei gladdedigaeth gan foneddwyr y gymydogaeth; ac yn y flwyddyn 1858, codwyd gwyddfa ar ei fedd, trwy danysgrifiadau cyhoeddus.

Nid yw y braslinelliad uchod o amgylchiadau ei fywyd, yn rhoi ond meddylddrych gwanaidd o Dic Aberdaron, yr hwn yn nghanol byd prysur, a dynoliaeth uchelgeisiol, ni feddyliai am ddim ond am ei gâth, ei delyn, ei gorn hwrdd, ei *delescope,* a'i Ramadegau. Yr oedd yn ddyn hollol gyfyngedig i un meddylddrych, dilynai hwnw gyda'r un gwanc ag y dilyna y llyfr-bryf ei reddf; a hyny, hyd ag y gwyddys, yn berffaith ddi ymffrost a di uchelgais. Y cwestiwn gan hyny yw, pa mor bell y medrodd dyn digymorth felly, dreiddio i wreiddiau a dirgelion y gwahanol ieithoedd. Fel ag y nodwyd eisioes, nid oes dim o'i lafur wedi dyfod i'r cyhoedd, beth bynag a ddaeth o'i Ramadeg tair ieithawg, ac o'i Eirlyfr Groeg a Seisneg, nid oes gan y cyhoedd gymaint ag un engraifft o'i alluoedd ieithyddol, oddieithr yn unig yr hyn sydd yn nofio mewn traddodiad.

**JONES,** Samuel, Offeiriad, yr hwn a elwir hefyd Samuel Jones, A.C. Brynllywarch, ydoedd un o brif ddynion ei oes yn Nghymru. Dengys yr "*Eminent Welshmen,*" bod Williams yn gwbl anadnabyddus a hanes y gwr enwog hwn, ac felly hefyd y mae "Geiriadur Bywgraffyddol" Aberdar, gan nad yw yr un o honynt yn dywedyd dim am dano, ond iddo flodeuo o 1680 i 1720, ei fod yn offeiriad wrth ei alwedigaeth, ac iddo lywyddu yn Ngorsedd Morganwg yn 1700. Ymddengys mai yr achos o'r amryfusedd, yw diffyg sylwi mai yr un person yw yr hwn sydd yn dysglaerio dan yr enw Samuel Jones

Digitized by Google

Offeiriad, yn mhlith Beirdd Morganwg, a Samuel Jones, Brynllywarch, mewn hanesiaeth Eglwysig. Ganwyd ef yn agos i Gastell y Waun, swydd Dinbych, yn y flwyddyn 1628. Enw ei dad oedd John Roberts, a chymerodd yntau, yn ol arferiad gyffredin yr oes hono, enw ei dad yn gyfenw. Symudodd ei dad ar ol hyny, i fyw i Gorwen, swydd Feirionydd. Derbyniwyd Samuel yn aelod o goleg *All Souls*, Rhydychain, ar yr 11eg o Mawrth, 1647; ond wedi hyny, efe a symudodd i Goleg Iesu, lle gwnaethpwyd ef yn gymrawd, ac athraw. Derbyniodd urddiad presbyteraidd i offeiriadaeth Taunton, yn Ngwlad yr Haf, a symudodd oddiyno i fywioliaeth Llangynwyd, ger Penybont-ar-ogwy, swydd Forganwg; o'r hwn le y bwriwyd ef allan yn un o'r Ddwy Fil, yn 1662. Ei wraig gyntaf oedd Mary, merch Rhys Pywel, Ysw., o'r Maesteg, yn mhlwyf Llangynwyd, gyda'r hon, mae yn debyg, y derbyniodd efe Brynllywarch, ffermdy golygus yn y plwyf, fel cynysgaeth; ac yno y trigodd efe, o amser ei briodas hyd ei farwolaeth. Ganwyd iddo 14 o blant; ond bu y rhan fwyaf o honynt feirw yn eu mabandod, ac ar enedigaeth y 14eg, bu farw y fam hefyd, Gorphenaf 23, 1676, yn 38 oed. Mae y beddargraff canlynol, yr hwn yn ddiau a gyfansoddodd ei phriod galarus, i'w weled ar gareg ei bedd yn mynwent Llangynwyd hyd y dydd hwn:—

"A loving wife, and mother dear,
Asleep in Christ, is lodged here:
Reader, repent, thy minutes fly,
Redeem thy time, and learn to die;
Now make thy peace in Christ alone,
Slight not the counsel of a stone."

Priododd Samuel Jones eilwaith, yn Awst, 1677, gyda gwraig weddw o'r enw Mary Dafydd, o Lanidan, Pontfaen; ond ni bu iddo blant o'r briodas hon. Maria, ei ferch henaf, a ymbriododd yn Abertawe, Awst 15, 1687, gyda David Jones, o blwyf Llangollen, yr hwn oedd fab i amaethwr, ac yn "hen ddysgybl" i'w thad, ac a fu yn weinidog eglwys yr Annibynwyr yn yr Amwythig hyd ei farwolaeth yn 1718. Joshua, ei fab, a fu yn weinidog ar eglwys Ymneillduol yn Manchester, am lawer o flynyddoedd.

Rhoddir y cymeriad uwchaf i Samuel Jones gan ei gydoeswyr; dywed Calamy, ei fod yn athronydd mawr, yn feistr o'r Lladin a'r Groeg, ac yn lled wybodus o'r ieithoedd dwyreiniol; yn ddadleuwr da, yn bregethwr buddiol, ac yn Gristion rhagorol, yn addfwyn, gostyngedig, caruaidd, a heddychol; hyfryd yn ei gyfeillach, a doeth iawn yn ei ymddygiad.

Yr oedd y fath deithi a'r uchod yn rhwym o'i wneyd yn ddyn gwerthfawr yn ngolwg yr awdurdodau eglwysig, fel nad oedd dim yn ormod ganddynt i'w wneyd, er ei enill i gydymffurfio. Ond yr oedd ei ddeall mor oleuedig, a'i gydwybodolrwydd mor nerthol, fel yr oedd pob ymgais yn methu ei syflyd. Yn un pen i'r glorian yr oedd urddas a dyrchafiad eglwysig; yn y pen arall, yr oedd cydwybod dda, tlodi, dirmyg, ac erlidigaeth: ond ebai ef:—

"Cydwybod dda'r nod gan Dduw Ner—o chaf
A chyfiawn foddlonder;
Ni raid golud diriaid gweler,
Iawn yw'r ymswyn unrhyw amser,
Duw i ddoeth yw'r cyfoeth, cofier,—
Ynddo rhodia 'n ddewr ei hyder."

Ac ar Ddydd Bartholomeus, Awst 24, 1662, efe a wrandawodd ar lais ei gydwybod, ac a ymadawodd a'r eglwys blwyfol am byth; yna efe a gadwodd ysgol yn ei dŷ ei hun, er cymwyso dynion ieuainc i waith y weinidogaeth. Hon, meddir, oedd yr athrofa gyntaf a fu gan yr Ymneillduwyr yn Nghymru. Dywed Calamy, ei fod yn ddyn o gallineb mor annghyffredin yn ei ymddygiad, nes yr enillodd efe y fath barch yn mhlith boneddigion, fel yr anfonai llawer o honynt eu meibion ato i dderbyn addysg. Treuliodd Arglwydd Mansel lawer o flyneddoedd yn ei deulu ef; a daeth rhai o'i ddysgyblion yn ysgolheigion rhagorol, ac yn ddynion gwir ddefnyddiol. Bu yn ddyoddefwr mawr am ei annghydffurfiad, a chafodd ei garcharu amryw weithiau. Dyoddefodd lawer hefyd gan glefyd y gareg, anhwylder cyffredin myfyrwyr caled yn yr oes hono, yr hyn a'i blinai yn angherddol, yn gyffredin bob pythefnos, dros amryw o'i flyneddau diweddaf. Byddai llymder ei boen yn dwyn dagrau, chwys, a griddfanau oddiwrtho, yn fynych pan byddai yn pregethu, ond daliodd gyda'r gwaith, yn amyneddgar a diwyd hyd y diwedd.

Yn y flwyddyn 1665, cymellwyd ef yn galed gan Dr. Lloyd, esgob Llandaf, a Dr. Francis Davies, yr archddiacon, i dderbyn rhyw fywioliaeth a gynygient hwy iddo. Yntau, mewn atebiad, a ysgrifenodd atynt y gofyniadau canlynol, y rhai y dymunai iddynt eu hateb cyn y gallai efe dderbyn eu cynyg caredig, a'r rhai, oblegyd eu bod y cyflead goreu y gwyddom am dano o anhawsderau a dadleuon y Ddwy Fil, a ddyfynwn yn gyflawn, ac hefyd mor llythyrenol ag mae yn ddichonadwy i briod-ddulliau y naill iaith gael eu trosglwyddo i'r llall:—

"*Am yr Ardystiad yn y Weithred*—(About the Declaration in the Act).

"1. Pa un a oes unrhyw lyfr, heblaw yr hwn a ysgrifenwyd gan yr Ysbryd anffaeledig, o ran sylwedd a thraethiad, a fedr yn gyfiawn hawlio *addefiad diffuant* y deall, a *chydsyniad* yr ewyllys, i'r oll a phob peth a gynwysir ynddo? Pa un a ydyw barnau annghytunol llawer o ddynion cydwybodol a dysgedig yn nghylch y llyfrau neillduol a grybwyllir yn yr ardystiad, a'u rhesymau hyfion (yn flaenorol ac yn ddiweddar) drosto ac yn ei erbyn, yn dystiolaeth eglur fod o leiaf rhyw sail i betrusder, i ddynion o rasusau a doniau israddol, o berthynas i'r pwyntiau dadleuol, i'r rhai y gofynir ein haddefiad diffuant?

"2. Ai nid yw yn rhagrith damniol mewn dyn, i arddelwi ei *addefiad diffuant* i'r oll a phob peth a gynwysir yn y llyfrau hyn, neu unrhyw lyfrau eraill, os bydd ynddynt ryw osodiadau yn ymddangos iddo ef yn amheus?

"3. Ai nid yw y Llyfr Gweddi, &c., yn cynwys rhai gosodiadau ag ydynt ynddynt eu hunain mor amheus, fel o leiaf y rhwystrant yr addefiad a ofynir; megys yr erthycl *Filioq.*, yn Nghredo Athanasius, yr hon sydd yn cau allan yr eglwysi Groegaidd o'r posiblwydd o iachawdwriaeth? Mae yr adran sydd yn y *rubric* ar ddiwedd Bedydd Cyhoeddus, mewn perthynas i iachawdwriaeth ddiamheuol yr holl fabanod bedyddiedig, sydd yn marw cyn pechod gweithredol; a'r gwir a diogel obaith o iachawdwriaeth pob person a gleddir, gan y Llyfr Gweddi, yn ymddangos yn gwrthddywedyd cyfieithiad y Psalmau, megys Psa. cv. 28. Cymarer Psalmau y Llyfr Gweddi â'r Beibl.

Digitized by Google

"*Gofyniadau yn nghylch y Defodau a arddodir.*

"1. Ai nid yw pob ffurfiau sefydledig o ddyfais dyn mewn addoliad Dwyfol, yn cael eu gwahardd gan rwymedigaeth gynwysfawr yr Ail Orchymyn, a chan fygythion llymion am ychwanegu, cyfnewid, neu dynu oddiwrth yr addoliad Dwyfol, gan adael i ddyn yn unig iawn lywodraethiad yr amgylchiadau naturiol sydd yn dwyn perthynas a gweddusrwydd a threfn, yr hyn sydd yn perthyn yn gyffredin i wasanaeth gwladol a chrefyddol, ac yn dilyn eu natur fel ag y maent yn *weithredoedd*, ac nid fel gweithredoedd crefyddol?

"2. Ai nid yw y defodau a ordeinir gan ddyn i ddysgu, trwy ystyr neillduol a roddir idynt, yn dyfod yn berffaith grefyddol, a thrwy gael eu cysylltu fel amodau angenrheidiol i wasanaeth Duw, yn dyfod yn rhan o'r addoliad hwnw. Nid wyf yn golygu o addoliad moesol, ond o addoliad sefydledig, defodawl, neu addoliad damweiniol, megys yr oedd y tabernacl, y deml, yr allor, y gwyliau, yr offeiriaid, a'r gwisgoedd offeiriadol o dan y gyfraith, yn ran o'r gwasanaeth Lefiticaidd?

"3. Gan mai adeilad corph Crist yw yr amcan proffesedig yn yr arddodiadau hyn, (oblegyd i'r cyfryw, rhaid i drefn, gweddusrwydd, a chydffurfiaeth, fod yn ddarostyngedig), onid yw yn anfri ar ddoethineb, gofal, a ffyddlondeb ein Gwaredwr bendigedig, Brenin mawr ei Eglwys, i unrhyw foddion gael ei ddefnyddio gyda defodaeth grefyddol i'r amcan hwnw, i'r hwn, yn y gyfraith sanctaidd a adawodd efe ini, y gwnaeth efe ei hun ddarpariaeth ddigonol? Ac onid yw canlyniadau galarus y cynygion hyny, y rhai a wnawd hyd yn nod gan ddynion doeth yn ngwahanol gyfnodau yr eglwys, er cyraedd y cyfryw amcan, trwy eu sefydliadau eu hunain, yn dangos diffyg addasrwydd ac effeithiolrwydd y dyfeisiau hyny i gyraedd eu hamcanion? Mae Duw yn rhoi addewid a bendith ar ei sefydliadau ei hun; ond nis gallwn ni roi y naill na'r llall ar yr eiddom ni.

"4. Ar ol ymostwng i'r defodau presenol, a allai dyn yn gydwybodol betruso defnyddio unrhyw ddefodau eraill o eiddo Eglwys Rufain, (pe y gelwid am hyny), gan y cydnabyddir mai yr un sail ac amcan sydd gan yr oll; a bod llawer o honynt hwy yn ymddangos yn llai tramgwyddus, oblegyd nad ydynt wedi eu camarferyd mor wrthun, a rhai o'r eiddom ni y cydsyniwyd arnynt eisioes?

"*Gofyniadau yn nghylch Ail-ordeiniad.*

"1. Pa un a ddylai dyn, yr hwn, trwy dynerwch Dwyfol, a fyddo wedi cael rhyw dystiolaeth gysurus yn ei galon ei hun, a rhai seliadau o'i weinidogaeth ar galonau rhai eraill, ei fod yn weinidog gwirioneddol, er y dystadlaf, i Grist, wneyd rhywbeth a fyddo yn cael ei ddeall yn wadiad o'i weinidogaeth?

"2. Pa un a ydyw yn gydweddol ag anrhydedd Crist, ac urddas ei Ordinhadau, ac yn garedig at eneidiau dynion, i weinidog, a fyddo yn ymwybodol o'i alwad fewnol ac allanol, i fyned i brynu ei ryddid i ymarfer ei weinidogaeth mewn un cyfnod, trwy ddirymu, hyd ag y mae ynddo, ei weithredoedd gweinidogaethol mewn cyfnod arall; a thrwy hyny rwydo cydwybodau y dynion, ag oeddynt wrthddrychau y cyfryw weinidogaeth?

"3. Ai nid arferiad newydd, yn tueddu er dianrhydedd yr Efengyl, a'i gweinidogaeth yn gyffredin, yw ymwrthod ag ordeiniad a gyfrifid yn safadwy a chyfreithlawn, trwy ymarferiad y rhan fwyaf, ac, fel yr wyf yn tybied, yn marn yr holl eglwysi Protestanaidd, yn neillduol Eglwys Loegr, fel ag y tystiwyd gan yr Archesgob Bancroft yn sefydliad Esgob Ysgotaidd, yr hwn oedd weinidog wedi ei Ordeinio yn unig gan y Bresbyteriaith?

"*Gofyniadau yn nghylch Tramgwydd.*

"1. Oni ddylai y gorchymynion gwaharddol y rhai sydd yn rhwymo *ad semper* (yn wastadol), ac yn gwahardd tramgwydd, natur anfad yr hwn yw enaid-lofruddiaeth; y gwae ofnadwy a gyhoeddir yn erbyn yr hwn a dramgwyddo un, a hwnw hefyd yr un lleiaf; yn nghyda gofal tadawl, a thynerwch yr apostol yn yr achos, wneyd pob Cristion gwirioneddol yn dra gochelgar a gwyliadurus ar y pen hwn?

"2. Pa un a all gorchymyn yr heddynad ddiogelu y gydwybod rhag euogrwydd, mewn gweithred ag y gwyddir yn flaenorol a brofa yn dramgwyddus, ac yn achos o bechod i lawer, *ex conditione operis?*

"3. Pa un a ydyw dirmyg y weinidogaeth, a gweinidogion yr Efengyl, y gwawd a deflir ar eu personau, eu swydd, a'u galwedigaeth; yr annghrefyddoldeb, y penrhyddid, a'r didduwiaeth, a welir yn y genedlaeth bechadurus hon, yn cael ei fodolaeth, o leiaf ryw gymorth, allan o'r gwreiddyn hwn—tramgwydd gweinidogaethol—ie o'r rhywogaeth hon hefyd o dramgwydd, ag yr ymchwilir iddi yn bresenol?

"4. Wrth ganfod nad yw y drwg lleiaf o bechod, ddim i gael ei wneyd trwy wybodaeth er gochelyd y drwg mwyaf o ddyoddef, neu er cyraedd y daioni mwyaf trwy hyny, os bydd i weinidog ymwthio yn erbyn ei oleuni yn yr oll, neu rai o'r pethau hyn, neu bethau cyffelyb, oni fyddai yn gyfiawn i Dduw ddinystrio ei holl ymdrechion, a'i ddilyn yntau gyda dychrynfeydd cydwybod i'w fedd? Trwy engraifftiau amlwg, tufewn i brofiad diweddar, y mae hyn yn ymddangos bron yn ddiamheuol."

Nid yw yn hysbys pa un a ddarfu i'r esgob a'r archddiacon gynyg ateb y gofyniadau uchod; ond os gwnaethant, ni allodd eu hatebiad dawelu cydwybod dyner Samuel Jones, oblegyd efe a fu byw a marw heb dderbyn eu cynyg.

Pan adnewyddwyd y *Conventicle Act* yn 1669, ac y galwyd am gyfrifon o'r cyfarfodydd dirgel, ac annghyfreithlawn, a gedwid yn mhob esgobaeth, ymddangosodd y nodiad canlynol yn rhestr *conventicles* Morganwg:—"*Bettws.*—Yn nhy Rees Powell, yr hwn yn y gwrthryfel diweddar ydoedd sirydd ac ynad heddwch. Dysgawdwr, Mr. Samuel Jones, A.C. a ordeiniwyd gan y Presbyteriaid."

Dengys yr uchod, bod Samuel Jones, a'i dad yn nghyfraith, yn parhau i addoli Duw yn ol y ffordd a elwid yn heresi, a bod yr erlidwyr wedi gosod eu llygaid arnynt.

Yn "Nhrysorfa Grefyddol Gwent a Morganwg" am 1838, cawn i Samuel Jones gael ei garcharu amryw weithiau oblegyd ei annghydffurfiaeth, yn ystod llywodraeth Dr. Francis Davies, esgob Llandaf (1667–74).

Un diwrnod yn amser y cynauaf, tra yr oedd yn eistedd ar hen geubren gerllaw i'r tŷ, daeth dau ddyn ato, gan ofyn a'i Brynllywarch oedd y tŷ hwnw atebodd yntau yn gadarnhaol. Yna gofynasant, "A yw Mr. Jones yn nhre?" "Fe fydd yn gymwys," ebai yntau, ewch i mewn." Gwyddai mai dau

Digitized by Google

swyddog oeddynt, yn dyfod i'w ddal, ond ni chynygiodd ddianc, eithr aeth i mewn ar eu lled-ol, a dywedodd,—"Y fi yw Mr. Jones, beth yw eich neges chwi yma?" Cafodd ei olwg orchymynol ac urddasol y fath ddylanwad ar y swyddogion, nes am enyd y methent yngan gair. O'r diwedd dywedodd un o honynt dan grynu, bod ganddynt *warrant* i'w ddwyn ef o flaen yr Ynad Twrbil, i Ewenny, am bregethu o'r tu allan i'r eglwys.

Er bod y pellder o Brynllywarch i Ewenny tua deng milldir, dewisodd y gwr da ei cherdded bob cam, yn hytrach na pheri annghyfleustra i gymydog iddo, i'r hwn yr oedd efe wedi rhoi benthyg ei geffylau y diwrnod hwnw, i gario gwair. Pan gyrhaeddodd Ewenny, arweiniwyd ef i'r gegin, lle yr eisteddodd i ddysgwyl yr ynad, yr hwn, pan ddaeth i mewn a'i weled yn eistedd, a ofynodd iddo mewn llais ffromllyd a digofus, pa ham y beiddiai efe eistedd yn ei dy ef?

Cododd yr hen wr parchedig ar ei draed, ac ebe fe, "Syr, nid oeddwn yn meddwl y buasai yn dramgwydd i foneddwr, i weled dyn blinedig a anfonodd efe am dano, yn eistedd yn ei gegin ef; ond," ebe fe, gan osod ei ddwylaw ar ei liniau, "fe saif y gliniau egwan hyn ryw foreu, pan y bydd gliniau rhai yn methu eu cynal." "A wyddoch chwi," ebe'r ynad digofus, a phwy yr ych chwi yn siarad? Mae genyf fi awdurdod i'ch anfon chwi i'r carchar." "Nid heb ganiatad fy Nhad Nefol," ebe'r hen bregethwr, yn dawel. Ar y gair hwn, yr ynad cynhyrfus a ysgrifenodd y *commitment*, ac a'i hanfonodd, o dan ofal dau swyddog, i garchar Pontfaen. Ond pan wrth y Filldir Aur, ar y ffordd tua'r carchar, dyna ddyn ar gefn ceffyl yn carlamu ar eu hol, a chyda'i fod yn eu goddiweddyd, yn gorchymyn i'r swyddogion ollwng y pregethwr yn rhydd yn ddioed, oblegyd bod yr hen ynad ar golli ei synwyrau yn ei barlwr! Felly cafodd y gwr da ddychwelyd at ei deulu y noson hono.

Er ei ddiysgogrwydd fel annghydffurfiwr, yr oedd yn cael ei barchu yn fawr, hyd yn nod gan yr offeiriaid hyny a fedrent gydnabod ei werth ef. Dr. Robert South, mewn llythyr ato, dyddiedig Mawrth 12, 1688, a ddywed, yn mhlith pethau eraill, "Pe buasech chwi yn rhydd, fel ag yr ydwyf fi, buaswn yn dymuno arnoch ddyfod i gyd fyw a mi, oblegyd nid wyf yn gwybod am neb ond y chwi eich hun ac un arall, yr hwn hefyd sydd yn awr yn mhell, a llawer o rai bychain o'i amgylch, y rhai, o ran dysgeidiaeth a serch, a allasech ddedwyddoli fy mywyd, a chynorthwyo fy myfyrdodau."

Yr oedd hefyd mewn parch mawr gan Feirdd a Llenorion Morganwg. Cawn ei enw yn mhlith Beirdd yr Orsedd yn 1680, pan oedd Dafydd o'r Nant, yn gadeirfardd; ac yn 1700, y cadeirfardd oedd "Samuel Jones, Offeiriad." Efe hefyd a enwir yn ddiweddaf yn rhestr Beirdd Eisteddfod fawr y Bewpyr, yn 1681, pryd y cytunwyd ar y Dosbarth mesurau a elwir *Cyfrinach y Beirdd*, a chyfarfyddir a'i waith ef yn fynych, yn cael ei ddefnyddio i egluro y cyfryw fesurau. Dyfynwn un engraifft:—

"Ti sydd ryfelwr lladdwr llu,
  Yn gyru fel gwynt gerwin;
A deifiwr hyll yn difa'r hedd,
  A gorwedd mewn gwaed gwerin;
Er maint dy fost, awr dost sy'n dod
  I'th orfod gwn i'th yrfa;
Tra thost yw'r hawl i'r sawl y sydd
  Heb ffydd y dydd diwedda.

Gwir ffydd y sydd yn cynnu serch;
  Ie gwir-serch mewn glew gwarsyth;
I'w droi 'n ei gais o'i drais rhy drwch
  I'r fflwch dawelwch dilyth;
Bydd wâr, bydd hawddgar, a llawn hedd,
  Yn unwedd er mwyn olnyn;
Gelynaidd wg llawn drwg a'i drais,
  O ddiawl, na chais ei ddilyn."

Ychydig cyn ei farw, taenwyd y chwedl ei fod wedi edifarhau am ei annghydffurfiaeth; yr hon a drowyd yn ol trwy lythyr galluog ganddo ef ei hun, yr hwn a welir yn "History of Nonconformity in Wales" gan Dr. Rees. Bu farw Medi 10, 1679, yn 70 oed, a chladdwyd ef yn mynwent Llangynwyd.

**JONES**, Samuel, D.D., gweinidog eglwys y Bedyddwyr yn Lower Dublin, ger Philadelphia, America. Mab ydoedd i Thomas Jones, Penyfal, Morganwg, yr hwn, gyda'i deulu, a ymfudodd i America, yn 1737, ac a ymsefydlodd yn weinidog ar eglwys Tulpehokon, Pennsylfania, lle bu yn llafurio yn llwyddianus hyd ei farwolaeth, yn 1788. Ganwyd Samuel Jones, mewn lle a elwir Cefnygelli, plwyf Bettws, ger Penybont-ar-ogwy, Ionawr 14, 1735. Felly yr oedd tua dwy flwydd oed, pan aeth dros y mor. Derbyniodd ei addysg yn ngholeg Philadelphia, lle, yn 1762, y cyraeddodd ei B.A., ac wedi hyny ei M.A. Yn 1763, sefydlwyd ef yn weinidog eglwys y Bedyddwyr yn Penypec, pryd y pregethodd Morgan Edwards, M.A., Hanesydd y Bedyddwyr yn America. Yn mhen talm o amser, graddiwyd ef yn D.D., gan golegau Ynys Rhode, a Philadelphia. Yr oedd yn bregethwr enwog, ac yn meddu safle bwysig yn y wlad. Cyhoeddwyd rhai pethau o'i waith, megys "Pregeth ar y Cyfamodau, a draddododd efe o flaen senedd Philadelphia;" "Traethawd ar Ddysgyblaeth;" a "Chasgliad o Hymnau." Bu farw Chwefror 7, 1814, yn 79 oed.

**JONES**, Theophilus, hanesydd Brycheiniog, ydoedd fab i Hugh Jones, ficer olynol Llangammarch, Llywel, a Brycheiniog. Ganwyd ef, Hydref 18, 1758. Treuliodd ran fawr o'i ieuenctyd gyda'i daid, Theophilus Evans, awdwr "Drych y Prif Oesoedd." Bwriadai ei rieni ei ddwyn i fyny yn gyfreithiwr; rhoddasant iddo addysg i'r perwyl hwnw, yn ysgol Aberhonddu, ac wedi iddo ddyfod i oedran, rhwymasant ef gyda chyfreithiwr enwog yn y dref hono; ac wedi iddo dderbyn y cymwysderau angenrheidiol, gweithredodd fel cyfreithiwr yn y dref hono am lawer o flyneddoedd. Pan ddaeth y swydd o gof-restrydd i archddeoniaeth Aberhonddu yn wag, penodwyd ef iddi, a llanwodd hi hyd ei farwolaeth. Rhoddai y swydd hon fantais iddo i gasglu llawer o wybodaeth am hanesiaeth blwyfol y sir, yr hyn a barodd iddo ymgymeryd ag ysgrifenu "Hanes Brycheiniog." Pan ddechreuodd ar y gwaith hwnw, canfu y priodoldeb iddo roddi ei alwedigaeth gyfreithiol i fyny, ac ymroddi yn gyfangwbl at orchest fawr ei fywyd. Teithiodd yn fanwl trwy bob parth o'r sir, gan ymgydnabyddu a hanesiaeth naturiol, a hynafiaethau, pob lle a phlwyf. Cyhoeddodd y gyfrol gyntaf o'i "*History of Breconshire*" yn Aberhonddu, yn 1805; a'r ail yn 1809. Dyma yr oll o'i weithiau llenyddol, gyda'r eithriad o ddwy ohebiaeth i gylchgrawn yn y dywysogaeth, a dau lythyr i'r *Cambrian Register*. Bwriadai ysgrifenu hefyd Hanes Maeshyfed, ond atal-

Digitized by Google

iwyd ef gan afiechyd. Ei waith olaf oedd Cyfieithu "Gweledigaethau y Bardd Cwsg," i'r Saesneg. Bu farw Ionawr 15, 1812, yn 54 oed, a chladdwyd ef yn eglwys Llangammarch.

**JONES,** SYR THOMAS, gweinidog Llanfair Dyffryn Clwyd, yn ol Moses Williams, oedd fardd a flodeuai rhwng 1580, a 1620. Y mae rhai o'i Gyfansoddiadau Barddonol ar gael mewn llaw-ysgrifen. Yn ol y *Cambrian Biography*, gweinidog Llanfair, yn Swydd Fynwy, oedd efe, ac yr ydoedd yn wyddfodol yn yr Eisteddfod Farddonol a gynhelid yn Llandaf, yn y flwyddyn 1588.

**JONES,** THOMAS (*Twm Sion Catti*), ydyw un o'r cymeriadau mwyaf anhawdd i draethu yn gywir am dano. Dywed traddodiad, mai mab ordderch ydoedd i Syr John Wynn, o Wydir, o forwynig o'r enw Catti Jones, yr hon, er dirgelu ei chywilydd, a anfonwyd ymaith o Wydir i fynyddoedd Arfon, lle y rhoddodd enedigaeth i fab; yn blentyn llwyn a pherth, yr hwn a alwyd ar enw ei fam, yn *Twm Sion Catti*. Yna iddi hi ac yntau fyned yn eu blaen i Geredigion, lle y daeth y bachgen, yn mhen amser, yn enwog fel cnaf direidus, a lleidr penffordd, a phriodolir iddo luaws mawr o ystranciau cyffelyb i'r eiddo Robin Hood, a Dick Turpin. O'r diwedd, trwy un o'i ystranciau cyfrwysgall, llwyddodd i briodi aeres gyfoethog ger Tregaron, trwy yr hyn y daeth i gyfoeth a moddion; yna efe a drodd ddalen newydd, gan ymroddi i fywyd dichlynaidd, a daeth i safle mor anrhydededdus, fel y penodwyd ef yn ynad heddwch, ac y gelwid ef "Thomas Jones, Ysw. o Dregaron."

Ysgrifenodd T. J. Llewelyn Prichard, lyfr rhamantus o'i hanes, tua 1810, tan y teitl "*The Adventures and Vagaries of Twm Sion Catti,*" yr hwn wedi hyny a gyfaddaswyd at wasanaeth y Chwareudy.

Mae yn hawddach dirmygu y traddodiad uchod, nac egluro ei sylfaen; canys y mae yn gyffredin ryw sylfaen i bob traddodiad, a fyddo wedi ei argraffu fel hwn ar len gwerin mewn amryw barthau o'r dywysogaeth. Mae y traddodiad am enedigaeth Twm Sion Catti yn ddigon adnabyddus yn mhlwyf Llanllechid, yn Arfon, ac mae "Ogof Twm Sion Catti" yn cael ei dangos yn Rhandirmwyn, ger Tregaron, hyd y dydd heddyw.

Ond pa fodd bynag, o ganol chwedlau gwylltion ac anhygoel, mae y dystiolaeth ganlynol iddo, o eiddo ei gydoeswr dysgedig, Dr. John David Rhys, yn ymddangos yn dra dyddorol a gwerthfawr:—"Pwy bynag a ymarddelwo yn Arwydd-Fardd, rhaid iddo fod yn gwybod achau Breninoedd a Thywysogion, a bod yn gyfarwydd yn ngweithiau tri Phrif Fardd Ynys Prydain; nid amgen, Merddin ab Morfryn, Merddin Emrys, a Thaliesin Ben Beirdd. Ac yn y Wyddor o Herodraeth, o barth gwybodaeth fanwl am wir ddisgynyddion, pais arfau, urddau, a gorchestion pendefigion ac uchelwyr Cymru, y mwyaf enwog, perffaith, a chywrain, (a hyny yn ddiamau) y bernir Thomas Jones, neu Moethau, o Borth y-ffynon, yn ymyl Tref Garon. A phan ddarpho am dano, ef a fydd ddigon petrus y ddamwain allu o hono yr hawc adu yn ei ol un cymhar iddo: na chwaith neb ryw achwr a ddichon, o ran bod mor gyphredin ag ef ynn yr wybodaeth honn, wneuthur cymaint a phwyso parth ac ato."—*Linguæ Cymrææ Institutiones Accuratæ*, tud. 303.

Yr unig gasgliad o'i eiddo sydd ar gael, yw Chwech ugain a chwech o Drioedd Ynys Prydain, y rhai sydd yn argraffedig yn y *Myf. Arch.* Tybir ei fod yn blodeuo rhwng 1590, a 1620.

**JONES,** THOMAS, D.C.L., ydoedd fab i Edward Jones o Nanteos, swydd Aberteifi, lle y ganwyd ef 1618. Derbyniodd ei addysg yn ngholeg Merton, Rhydychain, lle y graddiwyd ef yn A.C. Yn 1637, aeth gyda George, mab ac etifedd Syr Nathan Brent, drosodd i Fraine, a'r Ital, ond dychwelodd yn aflwyddianus gyda golwg ar ei ymddiriedaeth, ac ymostyngodd i'r ymwelwyr a benododd y Senedd, Awst 6, 1649. Wedi hyn, ymroddodd i efrydu y gyfraith wladol, ac yn 1659, graddiwyd ef yn D.C.L. Y flwyddyn ganlynol cyhoeddodd ei "Oratio habita Auditorio Juridico," &c., yn nghyd a dau draethawd eraill, y rhai a brofant ei fod yn ysgolor Hebreaidd a Groegaidd rhagorol. Trigai yn Llundain, gan ddilyn ei alwedigaeth yn *Doctors' Commons*, lle y bu farw o'r pla yn 1665.

**JONES,** THOMAS, A.C., Llandyrnog, ydoedd fab i John Williams o Groesoswallt. Wedi derbyn elfenau ei addysg yn ei dref enedigol, derbyniwyd ef i Goleg Iesu, Rhydychain, ar doriad allan y gwrthryfel yn erbyn Charles I. Yr oedd yn werinwr selog, a gwnawd ef yn gymrawd o'r Brifysgol gan ymwelwyr y Senedd, yn 1646. Y flwyddyn ganlynol, enillodd ei A.C.; ac yn 1652, ysgrifenodd fywgraffiad Lladin o Edward Simson, yn rag arweiniad i argraffiad newydd o "*Chronicon Catholicum*" y gwr hwnw; ac yn 1654, dywedir iddo gael urddiad esgobawl. Yn 1655, cafodd ei benodi, o dan y gyfraith er lledaeniad yr Efengyl yn Nghymru, i rectoriaeth Castell Caereinion, yn lle Rhys Wynn; ac efe a ymberffeithiodd yn yr iaith Gymraeg, er gallu gweinyddu ei swydd yn ddyladwy. Ond cyn hir, gallodd Rhys Wynn adfer ei rectoriaeth, trwy iddo ddigwydd darganfod ei hawl-ysgrif o'r lle. Yna bu Thomas Jones yn ngwasanaeth arglwydd lywydd, a Chyngor Cymru, yn nghastell Ludlow, a thrachefn yn gaplan teuluol a morwrol i James, Dug Caerefrog, yn mha swydd y parhaodd hyd 1666, pan y diswyddwyd ef ar gais Dr. Morley, esgob Winchester, yr hwn a dramgwyddasai efe trwy ryw eiriau anmharchus. Ar hyny, efe a ymneillduodd i'w rectoriaeth yn Llandyrnog, yr hon a ddelid *in commendam* gan esgob Bangor, gyda'r hwn yn fuan y daeth efe yn annghariadus. Yn 1670 Dr. Morley a ddug gwyn a chyngaws cyfreithiol yn ei erbyn, yn llys y frenin fainc am ddyweyd ei fod yn noddi Pabyddiaeth, yr hyn a brofwyd i'w erbyn gan esgob Bangor, a dau o'i gaplaniaid. Dirwywyd ef i 300*p*. Defnyddiwyd rhan o'r dirwy i adgyweirio eglwys Bangor, a'r gweddill at ddybenion elusengar. Tua'r un amser diswyddwyd ef gan esgob Bangor, a bu hyny yn ddinystr i'w amgylchiadau. Ychydig cyn y Frad Babyddol, cyhoeddodd lyfr tan yr enw, "*Of the Heart, and its right Sovereign, and Rome no Mother-church to England;*" ac yn 1682, cyhoeddodd un arall, "*Elymas the Sorcerer; or a Memorial towards the Discovery of the bottom of this Popish Plot,*" yr hwn a fuasai yn sicr o'i ddwyn o dan gosbedigaeth drachefn, oni buasai i angau yn brydlawn ei ryddhau o afael ei erlynwyr. Bu farw yn Totteridge, swydd Hertford, yn 1682.

**JONES,** THOMAS, offeiriad Creaton, yn sir Northampton, a anwyd Ebrill 2, 1752, mewn ammaethdy bychan yn agos i'r Hafod, yn sir Aberteifi, tua 12 milldir o Aberystwyth. Pan yn dair ar ddeg oed anfonwyd ef i'r ysgol i Ystradmeurig, lle oedd tuag

Digitized by Google

wyth milldir o dŷ ei dad, ac yn gylchynedig gan fynyddoedd Ceredigion. Arhosodd yn yr ysgol yno hyd oni urddwyd ef, yr hyn a gymerodd le yn mhen tua naw mlynedd. Yn fuan wedi iddo fyned i Ystrad meurig, daeth y Parch. Daniel Rowlands o Langeitho, i bregethu i Bont rhyd fendigaid—pentref o fewn tua thair milldir i Ystrad meurig; ac aeth yntau i wrando arno, a thynwyd ei sylw mewn modd annghyffredin gan ddull hynod y pregethwr; ond nid yn gymaint gan ei bregethau. Tra fu byw, efe a goleddai y parch mwyaf i Mr. Rowlands, darlun o'r hwn oedd yn grogedig yn ei ystafell, a dywedai yr arferai edrych yn fynych arno, pan yn cyfansoddi ei bregethau, neu ei ysgrifeniadau eraill; ac y byddai y cof am dano, yn tueddu i ddyrchafu ei feddwl, a bywiogi ei deimladau. Yr is-berigloriaeth ar ba un yr urddwyd ef, ydoedd Eglwys Fach, a Llangynfelin, rhwng Aberystwyth a Machynlleth. Cymerodd ei urddiad le yn mis Medi, 1774, pan ydoedd yn ddwy flwydd ar hugain oed, a bu yn gwasanaethu y lleoedd hyny am bum mlynedd.

Nid ydym yn gwybod pa ham y gadawodd Mr. Jones yr Is-berigloriaeth hon, na pha ham yr ymofynodd efe am un yn Lloegr; ond gallwn gasglu nad oedd efe, mwy nag offeiriaid duwiol a gweithgar eraill oedd yn Nghymru y pryd hyny, yn cael ond cynhaliaeth wael am ei wasanaeth. Dywedai yn ei hen ddyddiau, ei fod yn diolch i Dduw na wybu ond ychydig am ofalon y bywyd hwn.—"Fe'm hurddwyd i yn gurad yn Nghymru," meddai, "am ugain punt y flwyddyn." Gofynwyd iddo, ai hyny oedd ei holl gyflog? A'i atteb oedd, "Ie, ac yr oeddwn i yn byw yn dda ar hyny. Yr oeddwn yn rhoddi chwe phunt am fy mwrdd a'm lletty; chwe phunt am ddillad; tair punt am borfa i'm ceffyl ar y mynyddoedd; a phunt mewn elusenau." Nid oedd yr adroddydd yn cofio pa beth a wnelai a'r pedair punt gweddill. Ni wna ond prin grybwyll am ei symudiad i Loegr yn y geiriau canlynol:—"Ar y 29ain o Awst, yn y flwyddyn 1779, symudais i Leintwardine, yn Sir Henffordd." Ni bu yn y lle hwn ond hyd Ragfyr, 1780, pan y gwnaed cynnygiad iddo o is-berigloriaeth Longnor, yn Sir Amwythig, ficer yr hwn blwyf oedd mewn gwth o oedran. Derbyniodd y lle yn rhwydd, gan ddywedyd, "Y mae yr Arglwydd yn parottoi, ac yn agor drws newydd ar fy nghyfer, pan y mae un yn cau yn fy erbyn." Er na bu arhosiad Mr. Jones ond byr yn Longnor, gellir golygu yr adeg yma y cyfnod mwyaf pwysig yn ei oes; gan mai dyma y pryd, yn ol pob arwyddion, y symudwyd ef o farwolaeth i fywyd. Ar y 15ed o Orphenaf, 1781, cafodd guradiaeth Croesoswallt, plwyf, a gynnwysai y pryd hyny rhwng chwech a saith mil o drigolion, ac ydoedd wedi cael ei esgeuluso yn fawr er's oesau, ac felly yn hynod mewn annuwioldeb. Parodd gweinidogaeth efengylaidd Mr. Jones dramgwydd i lawer yma, yn enwedig i amryw gyfreithwyr, ac i oddeutu deg o offeiriaid, y rhai oeddynt yn byw yn y dref, a chanddynt eglwysi yn y wlad, y rhai a wasanaethent ar foreu Sabbath yn unig, ac yn gyffredin a elent i eglwys y dref yn y prydnhawn. Y penaf o'i wrthwynebwyr oedd un Mr. J. Jones, yr hwn oedd yn ddeon gwladol (*rural dean*):—Yr oedd hwn wedi ffyrnigo cymaint ato, fel y cymhwysodd ei ffon atto un diwrnod. Ac o'r diwedd, rhoddodd ei beriglor rybudd i Jones i ymadael, o herwydd fod ei bregethau yn gyru y plwyfolion yn ben-ben a'u gilydd; ac felly ddechreu y flwyddyn 1782, efe a symudodd i Loppington, yn agos i Wem. Yr oedd sefyllfa crefydd yn dra thebyg yn y fan hon eto, i'r hyn ydoedd yn Nghroesoswallt; ond bu gweinidogaeth Mr. Jones o fendith yma hefyd. Yn mhen tair blynedd bu y ficer farw, a bu agos iddo yntau gael y plwyf; ond, fel y sylwa ei fywgraphydd, "ymadael oedd raid iddo, a dyfod yn is-beriglor enwog Creaton, enw a gofir pan y bydd llawer ficer, periglor, ac esgob, wedi cael eu hannghofio." Pan orfu iddo ymadael o Loppington, ysgrifenodd at y Parch. Mr. Riland, Birmingham, yr hwn a'i gwahoddodd i ddyfod i'w gynnorthwyo ef. Cynhaliwyd Cyfarfod offeiriadol yn Birmingham yn fuan wedi iddo fyned yno, yn yr hwn yr oedd Mr. Simeon, Caergrawnt, a Mr. Romaine, o Lundain. Yr oedd eisiau is-beriglor yn Creaton ar y pryd; a gofynodd Mr. Simeon i Mr. Jones, a elai efe yno, yr hyn hefyd a gefnogwyd gan Mr. Romaine. Felly, efe a aeth i Creaton ar y 10fed o Fedi, 1785, lle y bu yn gweinidogaethu hyd y flwyddyn 1833, pan y rhoddodd y lle i fynu. Bu yno yn y sefyllfa o is-beriglor am ddwy flynedd a deugain, a'r pump olaf yn beriglor y plwyf. Bu ei weinidogaeth yn hynod o fendithiol yn Creaton, yn ystod yr holl amser y bu yno; ac yn neillduol felly, pan ydoedd fel seren unigol yn nghanol gwlad dywell ac annuwiol. Cymerodd diwygiadau grymus le yn y plwyf, a deuai llawer o'r plwyfydd cyfagos yno i'r gwasanaeth. Dywedir y byddai pobl o bymtheg o wahanol blwyfydd, ac weithiau o ugain, yn ymgynnull yn ei eglwys ar y Sabbath. Yn mhen amser, cymerodd diwygiadau le mewn pump neu chwech o blwyfydd o amgylch. Sefydlwyd Ysgol Sabbothawl ganddo yn Creaton, yn y flwyddyn 1789, yr hon oedd y gyntaf a sefydlwyd yn Sir Northampton, a bu o fendith fawr i'r ardal. Am yr ugain mlynedd cyntaf, elai iddi yn gyson bob Sabbath, a mwynhai y llafur cystal ag un ran o wasanaeth y dydd.

Yn y flwyddyn 1789, cafodd gynnyg ar fywioliaeth eglwysig yn Sir Ddinbach; a chan faint ei hoffder o Gymru, a'r Cymry, buasai yn dda ganddo dderbyn y cynnygiad: ond pan aeth efe i ymgynghori ar yr achos gyda Mr. Newton, a Mr. Robinson, y gwŷr da hyny a wrthwynebent yr amcan yn gryf, gan eu bod yn barnu ei fod ef mewn rhan o winllan yr Arglwydd, lle yr oedd mawr angen gweithiwr o'i fath ef. Byddai prif enwogion yr Eglwys Sefydledig yn Lloegr, yn ymweled a Creaton y pryd hyn, ac yn pregethu yno, megys Newton, Scott, Romaine, Venn, Robinson, ac eraill. Yn un o'i Lythyrau at y diweddar Barch. Thomas Charles, o'r Bala, yn y flwyddyn 1798, dywaid Mr. Jones;—"Yr wythnos nesaf yr ydym i gynal ein cyfarfod blyneddol yn Creaton; y Meistri Robinson, Harvey, Hall, a Gilbee sydd i bregethu. Dysgwylir nifer o weinidogion eraill hefyd i fod yn bresenol. Bydd genym fwy o gerbydau na chwi yn y Bala; ond ni wna y rhai hyn ein cynnorthwyo i esgyn i'r cymmylau. Y mae genych chwi rywbeth yn mysg mynyddau Cymru, na's gallaf ei ganfod mewn un man arall. Caniattaed Duw i mi gael byw i weled gogoniant mawr yn yr eglwysi yn Lloegr hefyd. Y mae ar y cyfan, lawer o arwyddion boddhaol, yn nghanol y tywyllwch."

Yn y flwyddyn 1810, cafodd is-berigloriaeth Spratton, yn ychwanegol at Creaton, a gwasanaethodd yno am ddeunaw mlynedd; ac o herwydd nad oedd

Digitized by Google

ond milldir a haner rhwng y ddau le, byddai yr un gwrandawyr yn fynych yn y ddau. Un gwasanaeth a gynhelid ganddo ar y Sabbath, yn y naill a'r llall. Nid oedd defnyddioldeb y gwr da ac enwog hwn, yn cael ei gyfyngu i'r pulpud yn unig, ac i ymweled a'r plwyfolion yn eu tai, er ei fod yn un o'r rhai ffyddlonaf yn hyny; ond ysgrifenodd amryw Lyfrau a Thraethodau hefyd. Y llyfrau Cymraeg a gyhoeddodd, oeddynt gyfieithiadau gan mwyaf, fel y gwelir wrth y rhestr ganlynol;—1. "Rhodd i'ch Cymmydog," gan Syr Richard Hill.—2. "Gorphwysfa y Saint,"gan Richard Baxter.—3. "Deuddeg Pregeth ar Lyfr y Caniadau," gan W. Romaine.—4. "Y Byd Cristionogol wedi ei ddad-orchuddio," gan Berridge.—5. "Pregeth ar farwolaeth Thornton," gan T. Scott.—6. "Traethawd ar fedydd Babanod," o'i gyfansoddiad ei hunan. Cyhoeddwyd hwn tu a'r flwyddyn 1799, ac achlysurodd ddadl rhwng y Parch. Christmas Evans âg ef.—7. "Cyfaill Pechadur," yr hwn a gyfieithwyd ganddo tu a'r flwyddyn 1834, pan 83 mlwydd oed. Nifer y Cyfansoddiadau a gyhoeddodd yn yr iaith Saesonaeg oeddynt 17; un o ba rai, sef y "*Scripture Directory*," a gyrhaeddodd ei *ddeg* o argraphiadau.—Ei brif waith ydyw "*Jonah's Portrait*," yr hwn a gyrhaeddodd i *wyth* o argraphiadau. Dau eraill, "Immanuel," a "The Prodigal's Pilgrimage," *pedwar* o argraphiadau. Y llyfr diweddaf a gyhoeddodd, ydoedd un yn erbyn "Heresi Rhydychain," pan yn 89 mlwydd oed. Bu ganddo law arbenig gyd a'r Parch. Thomas Charles, yn arwain i ffurfiad y Gymdeithas Feiblaidd Frutanaidd a Thramor.

Yn y flwyddyn 1836, o herwydd fod y teulu yr oedd Mr. Jones yn aros gyda hwynt er pan ddaethai i Creaton, yn ymadael oddiyno, aeth gyda hwynt i Spratton, lle y diweddodd ei ddyddiau. Nid oedd ei afiechyd olaf ond byr, yn ol ei ddymuniad. Cymerwyd ef yn glaf ddydd Gwener, y 3ydd o Ionawr, 1845, a pharhaodd yn dawel a llonydd hyd y dydd Mawrth canlynol, pan ehedodd ei enaid ymaith i'r orphwysfa dragywyddol, pan o fewn tri mis i gyrhaedd pen ei 93 mlwydd oed: a chladdwyd ei weddillion marwol y dydd Sadwrn canlynol, yn mynwent Spratton, mewn llannerch a ddewisasai ef ei hunan yn ei fywyd.

**JONES**, Thomas, Caerwys; neu fel yr adnabyddid ef oreu, "Thomas Jones o Ddinbych," ydoedd un o weinidogion enwocaf y pwlpud Cymreig. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1756, yn Mhen uchaf, Caerwys, sir Fflint, amaethdy ei rieni, a threftadaeth berthynol i'r teulu. Trwy fod ei rieni yn meddu ar dipyn o foddion, rhoddwyd i'r bachgen ysgol dda, a dangosodd yn ieuanc, dalent neillduol at ddysgu, canys tra rhagorai mewn gwybodaeth ar ei holl gyfoedion. Yr oedd ei dad a'i fam yn canfod ei athrylith, a phenderfynasant ei ddwyn i fyny i offeiriadaeth Eglwys Loegr. Ond pan ydoedd oddeutu saith mlwydd oed, bu farw ei fam. Priododd ei dad eilchwyl, a dywedir fod y lysfam yn dirionach wrth y plentyn na'i dad, a bod ynddi led ogwydd i wrando ar y Methodistiaid, y rhai oeddynt ar y pryd hwnw yn cynhyrfu yr holl wlad. Effeithiodd hyn ar y bachgen, yr hwn a deimlodd rai argraffiadau crefyddol yn moreu ei oes, er iddynt wisgo ymaith drachefn bron yn llwyr. Adroddir iddo gael amryw waredigaethau hynod ar yr adeg hon o'i oes. Dywedir ei fod, bedair gwaith yn ymyl cael ei frathu gan nadrodd; bu unwaith mewn perygl o gael ei ladd, trwy i drawst mewn adeilad syrthio yn ei ymyl; a phryd arall trwy ddringo i ben clochdy, a myned yn ben-ysgafn, eithr digwyddodd iddo, pa fodd bynag, ogwyddo un ffordd, ac nid y llall, onide codwm angeuol a fuasai y canlyniad. Dro arall, mynegir am dano ef, ac un o'i gyd-ieuenctyd yn ymwthio i fwthyn a godasid gan ryw chwareuwyr yn y dref, er mwyn gweled y campau, heb dalu am fyned i mewn. Oni buasai iddynt gael eu codi gan rai o'u cydnabod o'r fan yr ymwthiasent yn llechwraidd iddo, llethasid y ddau i farwolaeth, gan ddarfod i'r trawstiau gilio, neu dori, ac i'r bwthyn a'r rhai a eisteddent ynddo, syrthio yn bendramwnwgl; fel y diangodd y ddau fachgenyn heb eu lladd. Ond yr oedd Thomas ieuanc, er ei holl ddireidi, yn gwneyd cynnydd cyflym yn ei efrydiaeth, a phan yn gadael ysgol Treffynnon tua diwedd y flwyddyn 1771, ystyrid ef yn lled hyddysg yn yr ieithoedd Seisnig, Groeg, a Lladin. Ei fwriad ydoedd myned i Rydychain, i ymbarotoi gogyfer â'r offeiriadaeth. Eithr pan ydoedd ar fedr rhoddi y bwriad hwn mewn gweithrediad, dygwyddodd amgylchiad a barodd gyfnewidiad yn ei gynlluniau, ac a effeithiodd ar holl gwrs ei fywyd dyfodol. Yr oedd yn barod yn dechreu coleddu graddau o gydymdeimlad â'r Methodistiaid, a gellir priodoli llawer o hyn yn ddiau i ddylanwad ei fam-yn-nghyfraith, er fod pregeth a glywsai gan Robert Llwyd, Plas-ashpool, wedi gadael argraff ar ei feddwl cyn hyn. Pa fodd bynag, oddeutu yr adeg hon, daeth gwr i ymofyn â thad Thomas Jones am gael ty dan ardreth i bregethu ynddo yn Nghaerwys, a llwyddodd y mab i gael gan ei dad gydsynio â'r cais. Aeth y bachgenyn ieuanc gyda'r gwr i wrando pregeth ar y pryd, â'r pregethwr ydoedd Robert Evans, Llanrwst. Effeithiwyd cymaint ar feddwl y dyn ieuanc o Benucha, gan y bregeth ddysyml hon, fel y tueddwyd ef i fyned i'r un man dranoeth drachefn, i wrando ar Edward Parry, Bryn-bugad. O dipyn i beth, efe a aeth yn hoffach o'r enwad newydd, nes i'r cyfnewidiad yn ei ddull a'i agwedd dynu sylw ei dad, yr hwn a'i cymhellai i fyned am dymmor yn hwy i'r ysgol. Ond erbyn hyn, ni thyciai y drychfeddwl o fyned yn offeiriad, ac efe a fwriodd ei goelbren yn gyfangwbl gyda'r Methodistiaid, i'r rhai yr ydoedd efe yn gaffaeliad anmhrisiadwy.

Ond er iddo restru ei hun yn ffurfiol fel aelod o Gyfundeb y Trefnyddion Calfinaidd, blinwyd Mr. Jones drachefn am ysbaid maith gan amheuon o barth i lwybr ei ddyledswydd. Taer gymhellwyd ef gan ei frodyr i ymgymeryd â'r swydd o bregethwr, ond ofnai ef fod sefyllfa ei iechyd, ac afrwydd-deb ei ymadrodd yn rhwystr anorfod ar ei ffordd, heblaw ei fod yn gweled gwir angen gweinidogaeth efengylaidd yn yr Eglwys Sefydledig. Yn wir, yr oedd lluaws o'i frodyr ef ei hunan, mewn cyffelyb benbleth, ac annogid ef gan amryw o'i gyd-weinidogion, i dderbyn urddau gan Esgob. Ymgynhorodd â'i frodyr yn y Gymdeithasfa Chwarterol, a chymhelliad o'r un natur a gafodd ef yno. Parhau yn y benbleth yr ydoedd, hyd nes cael o hono y breuddwyd rhyfedd a ganlyn, yr hwn a fu yn foddion i dawelu ei feddwl, ac i'w arwain i'r penderfyniad i aros gyda'r Methodistiaid:—"Gwelwn fy hun," meddai Mr. Jones, "yn eistedd mewn ty gydag amryw ereill; clywn guro wrth y drws; a phan agorwyd y drws, daeth i mewn farch gwelwlas; ac ar ei ol ei farchogwr hefyd, a gŵn yn ei law; a daeth yn ebrwydd hyd attaf fi, ac annelodd â'i ddryll at fy nwyfron. Ar hyn deffroais

Digitized by Google

yn frawychus; ond cyn hir mi a hunais ychydig drachefn; yna gwelwn fy hun yn yr un ty ag o'r blaen; daeth attaf wr a chanddo ddau *bistol*, un yn mhob llaw. ac a'u hanelodd attaf ar unwaith, yr hyn a'm deffrodd mewn braw eilwaith. Meddyliais yn ebrwydd (fel ag yr wyf yn meddwl hyd heddyw), er mor ddisylwedd yw llawer o freuddwydion, fod rhyw beth o law yr Arglwydd yn y rhai hyn, a syrthiais i'w deongli. Oddiwrth y cyntaf, dechreuais feddwl, (wrth gofio am y march gwelwlas yn Dad. vi. 8) fod angeu, neu ddwys fygythiad o hono, yn agos attaf; oddiwrth y llall (heblaw cadarnhad i'r cyntaf), meddyliais y gallwn fod yn cael fy rhybuddio am ddwy brofedigaeth oedd yn, neu ar ymosod arnaf. Pa fodd bynag, fel hyn y bu: o r noswaith hono dechreuodd afiechyd fagu ynof; y mae heb fy ngadael hyd yn hyn, ac nid oes argoel y symudir ef y tu yma i'r bedd." Fel hyn y traetha un awdwr ar y pen yma:—"Yr oedd Mr. Jones oddi cartref ar y pryd, a hyny ar yr achos oedd mewn bwriad ganddo, sef ymuno âg Eglwys Loegr. Y noson hono cafodd oerfel tybygid, a effeithiodd arno i ryw raddau tra fu byw. 'Aethwn,' meddai, 'i'r gwely yn oer a rhynllyd; a chan ei fod yn ysgafn o ddillad, a'r hin yn oer hefyd, ni chynnesais yn dda ar hyd y nos.' Wedi bod dan deimladau poenus am ddyddiau, ei afiechyd hefyd yn cynnyddu, ac yn ben ar y cwbl, yn amddifad o fwynhad o Dduw, disgynodd i drallod meddwl annirnadwy. Wedi profi arteithiau uffern ei hun, yn ol ei ddychymyg, ac yn methu a sefyll ar ei draed yn hwy, ymlusgodd i'r ystafell, a syrthiodd ar y gwely. O'r diwedd daeth i'w feddwl, ysgatfydd, mai gwg yr Arglwydd oedd hyn arno oblegid ei fwriad; ac ymroddodd yn y fan i'w roddi heibio am byth, ac yn ebrwydd llonyddodd yr ystorm, fel pe buasai y *Jonah* wedi ei fwrw o'r llong. Yn y flwyddyn 1783, dechreuodd bregethu. Eto nid oedd yn gallu ymroddi i'r gwaith ond yn brin, a chyda chryn ofal a gwyliadwriaeth, oherwydd gwendid ei iechyd. Dioddefodd lawer yn ystod yr ugain mlynedd cyntaf o'i weinidogaeth oddiwrth ddolur y Garreg; aml waith y bu ei arteithiau yn annioddefol, a'i fywyd mewn enbydrwydd. Dwywaith y bu dan ddwylaw y llawfeddygon, a thynwyd oddiwrtho gerryg o faintioli mawrion; eto, cynnaliwyd ei ysbryd, ac arbedwyd ei fywyd." Gwelir fod Mr. Jones wedi profi yn helaeth o ddyfroedd Marah, a chyfarfyddodd â phrofedigaethau llymion hefyd yn ei gyssylltiadau teuluaidd. Yn 1795 efe a briododd Miss E. Jones, o'r Wyddgrug, a symudodd yno i breswylio. Dwy flynedd y parhaodd y briodas, canys bu Mrs. Jones farw o'r darfodedigaeth yn 1797. Priododd ei ail wraig, Miss Maysmor, o Lanelidan, yn 1804, a symudodd ei breswylfod i Ruthyn. Bu hithau farw Awst 14, 1805; ac yn Hydref, 1806, efe a briododd y drydedd wraig, sef Miss M. Lloyd, o Lanrwst, yr hon a fu dyner a serchog tuag atto weddill ei ddyddiau, ac a'i goroesodd dros ugain mlynedd.

Daeth Mr. Jones i fyw i Ddinbych yn y flwyddyn 1809, ac yno y cartrefodd efe mwyach, hyd ddydd ei farwolaeth, oddigerth dwy flynedd a dreuliodd yn Syrior. Yr ydoedd weithian wedi cyrhaedd safle uchel yn mysg gweinidogion ei enwad, a mawr berchid ef am ei ddysgeidiaeth, ei bwyll, a'i farn addfed. Gosodir ef allan fel pregethwr tra sylweddol, eglur, a buddiol. Nid amcanodd erioed at gywreinrwydd mewn cyfansoddi, na dull tarawiadol mewn traethu; eto, yr oedd yn ei bregethau yr hyn a borthai y meddwl â gwybodaeth ac â deall, er na ogleisiai gywreinrwydd a mympwy. Gwerthfawrogid ei ddoniau gymmaint, fel y caniatawyd iddo y fraint, yn y flwyddyn 1811, o fod yn un o'r wyth cyntaf a ordeiniwyd i gyflawn waith y weinidogaeth, gan y Methodistiaid yn y Gogledd. Yn wir, dywedir ddarfod iddo ef, cyn i'r Gymdeithasfa benderfynu yn ffurfiol ar ymwahaniad oddiwrth Eglwys Loegr, gymeryd ei ryddid i fedyddio plant amryw bersonau, a deimlent anewyllysgarwch i gydymffurfio â defodau y llan. Nid anturiasai yntau, ysgatfydd, wneuthur hyn, oni bai ei fod ar delerau hynod gyfeillgar â phenaethiad y Cyfundeb, yn enwedig â Mr. Charles, yr hwn ydoedd bron o'r un oedran âg ef, a dywedir am y ddau, ddarfod iddynt ddyfod i sylw y cyfundeb oddeutu yr un amser, iddynt fod ar y maes yn yr un tymmor, a'u symud eill dau o'r byd hwn, o fewn ychydig flyneddoedd i'w gilydd. Cydymgynghorasant lawer â'u gilydd ynghylch helyntion y "Drysorfa" am beth amser ar ei chychwyniad. Yn wir, llafur llenyddol Mr. Jones, ac nid yn gymaint ei safle bregethwrol, sydd yn ein cyfiawnhau ni am roddi cymmaint o le i'w goffadwriaeth yn y gwaith hwn. Tra yr ydoedd efe fel pregethwr yn un o enwogion ei enwad, yr ydoedd fel awdwr yn gymwynasgar i'w genedl, ac yn un o'r ychydig hyny ag y bydd eu llafur yn dwyn ffrwyth toreithiog tra peru y Gymraeg. Efe a achubodd flaen y cyfddydd i gynnysgaeddu gwerin anwybodus ei oes âg ymborth iachus a chyfnerthol. Dechreuodd yn foreu ar y gwaith o droi i'r Gymraeg lyfr anmhrisiadwy yr hen Gurnall, "Y Cristion yn ei Gyflawn Arfogaeth," ac a lwyddodd i'w gwblhau a'i gyhoeddi, yn ngwyneb rhwystrau a ystyriasid gan ddyn cyffredin yn anorfod. Ychydig seibiant a gafodd efe oddiwrth orchwylion llenyddol ar ol hyn, canys ar ddyfodiad y cenadon Wesleyaidd i Gymru, cawn Mr. Jones yn taflu ei holl enaid i'r dadleuon chwerwon yn nghylch teilyngdod cymariaethol yr athrawiaethau Calfinaidd ac Arminaidd. Parodd traethodyn o'i eiddo, yn dwyn yr enw "Y Drych Athrawiaethol," gyffro anarferol trwy Gymry benbaladr, a thynodd allan atebiad llym oddiwrth y Parch. Owen Davies. Nid oes a fynom ni ddim â theilyngdod achos Mr. Jones, nac â'i resymau, ond addefwn yn rhwydd megys y gwneir gan bob plaid, er ei fod wedi ysgrifenu amryw ymadroddion nas gellir eu hamddiffyn ar dir cariad Cristionogol, fod y ddadl hon yn brawf ei fod yn feddiannol ar fedrusrwydd a thalentau anghyffredin. Y gwaith nesaf a gafwyd ganddo, oedd "Catecism mwyaf Eglwys Loegr," yr hwn a gyhoeddodd o'i argraffwasg ei hun, yn y flwyddyn 1808. Ond y gwaith sydd wedi gosod bri bythol ar enw Mr. Jones, ydyw ei "Hanes y Merthyron," yr unig lyfr a fedd yr iaith o ddim gwerth ar y pwnc, ac un o'r rhai cywiraf a chyflawnaf a geir mewn unrhyw iaith. Cymerodd iddo amryw flyneddoedd i gasglu a threfnu y defnyddiau, a chwblhaodd ef yn Awst, 1813. Y mae y gwaith yn nodedig o rydd oddiwrth y rhagfarn a'r annilysrwydd sydd yn rhy fynych yn nodweddu llyfrau o'r un natur, heblaw fod ei arddull goeth a Chymreigaidd, yn gosod arno werth arbenig. Argyfrif y nodweddion hyn, darllenir ef yn Nghymru hyd heddyw; ac nid yw yn debyg y cyll ei boblogrwydd am dymmor maith. Ni ddyhysbyddwyd galluoedd Mr. Jones gan y gorchwyl llafurfawr hwn, eithr parhaodd i gyfansoddi yn



Digitized by Google

ddiymbaid, nid yn unig mewn rhyddiaith, ond mewn barddoniaeth hefyd, ac y mae rhai o'i emynau melusber ar gof a chadw hyd heddyw, er na chafodd y llyfr emynau a gyhoeddodd yn 1814 dderbyniad cyffredinol iawn. Ystyrid ef yn feistr trwyadl ar y cynghaneddion, a chyfansoddodd awdl-farwnad i Sior III. gogyfer âg Eisteddfod Gwrecsam, yn 1820, yr hon a safai yn uchel yn y gystadleuaeth, ac a argraffwyd. Ei lyfrau cyhoeddedig ereill ydynt, "Cofiant am Mr. Charles o'r Bala, pregeth a draddodwyd o flaen Cymdeithas Genhadol Llundain," ac "Ymddyddanion ar Brynedigaeth." Cymerai ddyddordeb arbenig yn amgylchiadau cyhoeddus ei ddydd, a meddai y gwroldeb i areithio ac ysgrifenu tros Ryddfreiniad y Pabyddion, er iddo trwy hyny dynu arno ei hun ŵg ac anfoddlonrwydd lluaws o'i frodyr crefyddol. Gwnaeth ei hun mor ddefnyddiol yn mhob cylch, fel mai cenedl, ac nid enwad oedd yn galaru oherwydd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le Mehefin 16, 1820, a chladdwyd ef yn mynwent yr Eglwys Wen, ger Dinbych, yn ngŵydd torf wylofus o dair mil o gyfeillion.

**JONES**, Parch. Thomas, Llanpumsaint, a anwyd yn Escair, yn mhlwyf Llanpumsaint, sir Gaerfyrddin, yn y flwyddyn 1761. Ymunodd â'r Methodistiaid Calfinaidd yn ieuanc, a bu yn bregethwr derbyniol gyda'r Cyfundeb hwnw am lawer o flynyddoedd. Ond adnabyddir ef yn benaf, fel esboniwr campus ar wahanol ranau o'r Ysgrythyr, yn cynnwys Pum' Llyfr Moses, Llyfr Job, Caniad Solomon, a'r Epistol at yr Hebreaid. Yr oedd yr esboniadau hyn yn boblogaidd iawn yn ei ddydd, ac nid ydynt wedi myned o arferiad yn hollol eto. Bu yr awdwr farw yn Nghaerfyrddin, ar yr 17eg o Ionawr, 1831, a chladdwyd ef gerllaw addoldy y Methodistiaid Calfinaidd, yn y dref hono.

**JONES**, Thomas, paentiwr, ydoedd fab ieuangaf i foneddwr tirawl, ger Aberedwy, swydd Faesyfed. Dygwyd ef i fyny ar draul ewythr iddo, tuag at yr offeiriadaeth, ac i'r perwyl hwnw aeth trwy ddwy flynedd o addysg yn ngholeg Iesu, Rhydychain. Ar derfyn y tymor hwnw, sef yn 1762, bu ei ewythr farw yn ddi ewyllys, ac heb ddarparu ar ei gyfer, yr hyn a barodd iddo yntau ymadael a'r coleg heb dderbyn graddau. Yna, gan fod ynddo dueddiad cryf at baentyddiaeth, efe a ymrwymodd yn ddysgybl i'r enwog Richard Wilson, gyda'r hwn y daeth yn anwylyd neillduol. Yn 1776, aeth i Rufain, ac oddiyno i Naples, lle yr ymbriododd a boneddiges Germanaidd. Yna dychwelodd i Lundain, gan ddilyn ei gelfyddyd gyda llwyddiant mawr. Ar farwolaeth ei frawd, daeth i feddiant o'r etifeddiaeth deuluaidd; symudodd yno i fyw, ac yno y bu farw Mai, 1803.

**JONES**, Thomas, neu y "Bardd Cloff," yr hwn a elwid felly o herwydd damwain a gyfarfyddodd pan yn blentyn. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1768, yn mhlwyf Llandysilio, sir Ddinbych. Aeth i Lundain yn ddeuddeg oed, a chafodd le yn nghyfrifdy Mr. Matthew Davies, yr hwn oedd yn dwyn yn mlaen fusnes mawr iawn, mewn addurniadau milwraidd, yn *Longacre*. O herwydd ei fod yn hoff o ddarllen, ac yn enwedig o ddarllen barddoniaeth, neillduodd gyfran helaeth o'i amser i ddiwyllio yr awen, a buan y daeth efe yn fardd da. Nis gellir ei osod, pa fodd bynag, yn rhestr flaenaf y beirdd Cymreig, ond perchid ef yn benaf oblegid ei chwaeth glasurol, ei haelioni, a'i elusengarwch, a'i safle gymdeithasol anrhydeddus. Yn y flwyddyn 1789, etholwyd ef yn aelod o Gymdeithas Gwyneddigion Llundain, ac efe ydoedd ysgrifenydd y Gymdeithas yn ei dyddiau goreu, pan y mynychid hi gan Owen Jones, Dr. Owen Puw, ac ysgolheigion Cymreig ereill. Dygai gyfathrach agos yn mlaen â'r boneddigion hyn, canys yr oedd efe yn cyd-daro â hwynt yn ei chwaeth a'i dueddfryd. Tua'r adeg hon, efe a ymroddodd yn fwy nag erioed i goleddu yr awen, ac yn y flwyddyn 1802 cyfansoddodd awdl ar "Ddydd Gwyl Dewi." Y flwyddyn ddilynol, dyrchafwyd ef gan Mr. Davies, i'r swydd uchaf yn ei fasnachdy, a daeth i gyfran o'r berchenogaeth yn y flwyddyn 1813. Dengys hyn ei fod yn wr o allu ac ymddiried, ac nad oedd yn gadael i'r ddawn farddonol, fel y dygwydd yn rhy aml, lesteirio ei egni fel dyn, a masnachwr. Yn y flwyddyn 1820, cawn ef yn cymeryd rhan arbenig yn ffurfiad y *Metropolitan Cambrian Institution*, neu fath o adgyfodiad o hen Gymdeithas y Cymmrodorion, yr hon a sylfaenasid yn y flwyddyn 1750. Efe a bennodwyd yn drysorydd i'r gymdeithas newydd, ac enillodd y tlws aur am yr anerchiad barddonol goreu yn Gymraeg, ar ei ffurfiad. Yn 1821, llanwodd y swydd o lywydd y Gwyneddigion am y trydydd tro, ac yn nghiniaw y jubili, anrhegwyd ef â thlws arian y Gymdeithas, er cof am yr achlysur. Yn nghanol ei holl brysurdeb, gallodd fforddio amser i dalu sylw i ymdrechfeydd llenyddol yr hen wlad, ac enillodd luaws o wobrau yn yr amrywiol Eisteddfodau a gynnelid yn Nghymru. Bu yn preswylio bron yn ddidor am ysbaid o bum'-mlynedd-a-deugain yn rhif 90, *Longacre*, Llundain, ac yno y bu efe farw, mewn parch dirfawr, ar y 18fed o Chwefror, 1828, yn driugain mlwydd oed. Cynnygiodd y Cymmrodorion eu tlws arian am y farwnad oreu ar ei ol, a'r buddugwr oedd Robert Dafis, (Bardd Nantglyn). Er nas gellir rhestru y Bardd Cloff yn uchel fel awenwr, deil ei enw mewn cof yn hir, fel un o noddwyr athrylith Gymreig, ail i Lewis Morris ei hunan.

**JONES**, Thomas, o Rhydwilym, o ran gras, dawn a gwybodaeth, ydoedd un o brif ddynion y Bedyddwyr yn Nghymru yn ei oes. Hanai o "deulu y Ddolhir" yn Nglynceiriog,—teulu ag oedd bedair neu bum' oes yn ol, yn dra enwog am eu rhempau a'u campau yn ngorchestion chwareuol yr ardal, yn enwedig am eu hathrylith mewn cerddoriaeth, tafod a thant; ond teulu a ddaeth wedi hyny, trwy ras Duw, yn un o'r rhai mwyaf ffrwythlawn yn Nghymru, am gynnyrchu gweinidogion y Testament Newydd. Y gyntaf a gafodd y fraint o broffesu crefydd o'r teulu hwn, oedd Mary Maurice, fel y gelwid hi yn y dyddiau hyny, ond Mary Edwards yn ol cyfenw ei gwr. Dywedir mai hi oedd yr ail i gael ei bedyddio o Glyn ceiriog, ac mor greulawn y bu ei gwr wrthi am wneyd y fath beth i waradwyddo y teulu, fel yr ymaflodd yn ei braich a'i ddwylaw, gan ei tharo a'i holl nerth yn ymyl y bwrdd, nes iddo dori yr asgwrn; ac yna trodd hi allan o'i dŷ gydag esgyrn drylliedig, i fod yn wrthddrych gwawd a dirmyg y gymydogaeth. Ond daliodd Mary at ei chrefydd trwy bobpeth, ac er na chafodd y fraint o weled ei gwr yn dyfod i broffesu crefydd, (eithr daeth yn ddigon tirion wrthi hi yn mhell cyn ei farw,) eto hi a gafodd yr hyfrydwch o weled pob un o'i phlant yn dilyn yr Arglwydd yn y bedydd. Edward Jones, ei mab henaf, a ddaeth yn ddiacon a phregethwr cynorthwyol yn eglwys Glynceiriog, ac yn wr nodedig am

Digitized by Google

ei dduwioldeb. Maurice Jones, mab arall iddi, a fu yn weinidog llwyddianus yn Merthyr Tydvil, am lawer o flyneddoedd. Elizabeth ei merch, a briododd John Hughes, gweinidog cyntaf Glynceiriog; Catherine, merch arall iddi, ydoedd nain John Hughes, Llangollen, pregethwr enwog gyda'r Trefnyddion Calfinaidd; wyrion iddi, oedd Thomas Jones o Rhydwilym; Maurice Jones gynt o Lanrwst, pregethwr gyda'r Wesleyaid; John Edwards, gynt o Ruthyn; a Maurice Jones o Lanllieni; ac orwyrion iddi ydoedd Edward Williams o Aberystwyth; Ebenezer Edwards o Cincinnati, America; ac Edward Evans o Ddowlais, yr hwn sydd eto yn fyw, yn nghydag amryw weinidogion eraill, nad ydym yn gwybod eu henwau. Ychydig a feddyliai yr hen John Edwards o Ddolhir, pan yn tori esgyrn ei wraig am warthruddo y teulu, trwy gymeryd ei bedyddio, y cyfodai y fath lu o enwogion o'i hepil hi, a fyddent o'r fath anrhydedd annileadwy i'r teulu, ac o'r fath fendith i'r byd.

Ond i ddychwelyd at Thomas Jones: mab ydoedd ef i'r Edward Jones uchod, ac Elizabeth Jeffreys, ei wraig. Ganwyd ef yn Llangollen, yn 1769. Dygwyd ef i fyny yn Wehydd, fel ei dad. Dysgodd ddarllen yn dra ieuanc; ac yn y flwyddyn 1789, pan oedd yn 20 oed, bedyddiwyd ef, yn nghyd a Thomas Tudur, gan Jenkin Davies Cefnbychan, yn afon Dyfrdwy, wrth Cil yn medw, ychydig uwchlaw Llangollen. Gan nad oedd eglwys gan y Bedyddwyr yn Llangollen y pryd hwnw, ymaelododd yn Glynceiriog. Yn nghorph y flwyddyn hono, neu ddechreu y ganlynol, anogwyd ef, a dyn ieuanc arall o'r enw John Edwards, i ddechreu pregethu; yr hyn a wnaethant gyda diwydrwydd a dylanwad mawr, gan fod yn offerynol i ychwanegu llawer at yr eglwys, a phlanu amryw gangenau mewn lleoedd newyddion, er dyoddef cryn lawer o wawd a doluriau wrth wneyd hyny. Gorphenaf 2, 1794, ordeiniwyd y ddau i waith y weinidogaeth yn eu mham eglwys, pryd y pregethodd Morgan John Rhys, a John R. Jones, Ramoth. Yn mhen tua blwyddyn, dechreuodd yr ystorm Sandemanaidd wneyd cyffro ofnadwy trwy eglwysi y Bedyddwyr yn y Gogledd; ond heb fyned i olrhain yr helyntion annedwydd hyny, digon yw dyweyd i'w gyd-weinidog, a braidd holl weinidogion y Gogledd, gael eu chwythu ymaith am yspaid gan yr ystorm hono, oddi eithr Thomas Jones; safodd ef fel y graig, goroesodd y dymestl, a chafodd y pleser o weled nifer o'r gweinidogion oeddynt wedi eu chwythu ymaith, yn dychwelyd yn ol; megys Christmas Evans, John Prichard, Pwllheli; Evan Evans, y Garn; Wm. Roberts, Cefnbychan, &c.; ac y mae ei enw i lawr yn pregethu yn y Gymanfa gyntaf ar ol yr adferiad, yr hon a gadwyd yn Llangefni, yn 1802, yn yr hon y dywedir iddo gael cyfle, wrth dynu i lawr bregeth Edmund Francis, i roi dyrnod farwol i Sandemaniaeth yn Ynys Fon, a bod Christmas Evans wrth ei wrando yn dyweyd, "Wyddoch chwi beth, morfil o ddyn yw Thomas Jones!"

Yn 1807, efe a briododd Ann, merch William Richards, o Fathry, swydd Benfro, o'r hon y cafodd bump o blant. Yn 1808, efe a dderbyniodd alwad hen eglwys Rhydwilym, yn yr un swydd, i fod yn olynydd i Gabriel Rees, yr hyn a fu yn golled anadferadwy i eglwysi y Gogledd; ac am yr hyn y dywedodd John Elias, pan daeth y newydd i'w glustiau, "Wele ganwyll y Gogledd wedi ei symud." Ond bu colled y Gogledd yn enill i'r Deheubarth, bu llwyddiant mawr ar ei weinidogaeth yn swydd Benfro, gyda'r Cymru a'r Saeson, a chafodd dros bymtheg cant eu bedyddio yn Rhydwilym a'i changhenau, yn nhymor ei weinidogaeth, ac yn eu plith ei blant ei hun i gyd.

Yr oedd yn un o bregethwyr cymanfaol enwocaf ei oes; ae am bwyll a threfnusrwydd yn ngweithrediadau pwyllgorol yr enwad, nid oedd yn ail i'r un o'i frodyr. Wedi oes faith o ddefnyddioldeb yn ngwinllan ei Arglwydd, efe a hunodd Hydref 15, 1850, yn 81 oed; a chladdwyd ef yn mynwent Rhydwilym, lle mae maen bardd yn nodi ei fedd.

**JONES**, Thomas Lloyd.—Adwaenir y bardd godidog hwn yn well, wrth yr enw llenyddol "Gwenffrwd." Ei goffa a saif byth yn glodfawr fel un o "dri phrif awenyddion ieuainc y bedwaredd ganrif ar bymtheg." Mawr yw ymffrost ein cymydogion y Saeson, o herwydd i'w cenedl gynnyrchu un Kirke White, ond gall ein cenedl fechan ni, ymffrostio mewn tri o fechgyn ieuainc, ag oeddynt yn llawn hafal iddo o ran cyflawnder dawn a dyhewyd awenyddol. Y tri hyn yw Gwenffrwd, Ieuan Ddu, a Golyddan; a bu y tri farw, yr un modd a Kirke White, yn y cyfwng peryglus, rhwng yr un a'r pumpar-hugain mlwydd oed. Anhawdd fyddai cyfrif pa nifer o flodau persawrus a changhenau mwyaf tirfion athrylith a gwympwyd i'r bedd yn yr oedran tyner a nodwyd. Ymddengys mai y cyfnod hwn, rhwng un, a phump-ar-hugain oed, ydyw pwynt gwan y bywyd dynol, gan mor fynych y cawn angeu yn tori trwyddo, ac yn ysbeilio cymdeithas o'i haddurniadau penaf.

Ganwyd Thomas Lloyd Jones, (Gwenffrwd), o fewn y flwyddyn 1810, yn Nhreffynnon, sir Fflint. Gan nad oedd ei drâs a'i rieni, ond pobl gyffredin eu hamgylchiadau, ni chymerwyd nemawr ofal am roddi iddo addysg briodol, ond, yn ol arfer yr oes, anfonwyd ef pan yn dra ieuanc, i geisio enill cynnaliaeth trwy lafur ei ddwylaw. Yr oedd ar y pryd felin gotwm yn y Maesglas, ger Treffynnon; ac fel llafurwr yn y felin hono, y dechreuodd Gwenffrwd ei yrfa flinderus. Ni thybiodd neb fod yn y bachgen unrhyw gymhwysder at alwedigaeth uwch, a digon tebyg na thybiodd yntau ei hun hyny ychwaith, pan ddechreuodd ymchwil mor ddyfal am wybodaeth, ac ymgais mor bybyr am ddoethineb. Wedi llafur caled y dydd, nis gwelid ef yn ymdroi i chwareu yn ddibwrpas, yn ol arfer plant o gyffelyb oedran. Cymmaint oedd ei awydd angerddol am wybodaeth, fel mai prynu, benthyca, a darllen llyfrau, a chylchgronau, oedd yn dwyn ei holl fryd. Erbyn cyrhaedd ei ddeunaw mlwydd oed, yr oedd wedi gwneyd cynnydd digonol mewn gwybodaeth fydol, a medr ysgrifenyddol, i ymgymeryd â'r swydd o glerc i gyfreithiwr o'r enw Mr. Thomas Jones, Treffynnon, yn ngwasanaeth yr hwn yr arhosodd am rai blyneddau. Dyma yr adeg y daeth ei enw yn hysbys fel bardd. Enillodd wobr bwysig yn Eisteddfod Newmarket, am ei bryddest odidog ar "Longddrylliad," a chyfranai lawer o fân gyfansoddiadau i'r gwahanol gylchgronau. Teimlwyd yn fuan fod ei farddoniaeth yn meddu rhyw swyn a newydd-deb, dyeithr a dymunol, ac yn berffaith lan oddiwrth y cyffredinedd efelychiadol a dihoenllyd oedd yn bygwth andwyo barddoniaeth yr oes hono. Yn y flwyddyn 1830, efe a symudodd o Dreffynnon, gan iddo ymgyflogi â chyfreithiwr o'r enw Mr. Jones, Dinbych. Yn mhen oddeutu blwyddyn wedi ei sefydliad yn y dref

Digitized by Google

olaf, cafodd ei gydwladwyr brawf nodedig o ddiwydrwydd, yni, a choethder chwaeth y bardd ieuanc, trwy iddo gyhoeddi "Ceinion Awen y Cymry, sef detholiad o waith y beirdd godidocaf, hen a diweddar, gyda chyfieithion o Ganiadau Seisnig, a phryddestau Cysefin." Nid ymddangosodd yn ein hiaith, yn flaenorol na thrachefn, esiampl ragorach o aeddfedrwydd barn, a choethder chwaeth, nag a arddangosodd Gwenffrwd, yn netholiad y "Ceinion" hyn. Y mae yn syndod fod dyn mor ieuanc, wedi darllen cymaint, canys cynnwysa ei Gasgliad, ddarnau o waith agos bob bardd clodfawr, o Taliesin, ac Aneurin Gwawdrydd, hyd Eben Vardd, a Chaledfryn. Ond gellir dyweyd nad oes yn y llyfr bethau rhagorach na'r ychydig gyfieithiadau a chynnyrchion gwreiddiol, o eiddo y detholydd ei hun. Cymaint ydyw rhagoriaeth y rhagymadrodd a ysgrifenodd i'r llyfr, fel y dywedodd un llenor profiadol, mai yr "unig fai ellid ddwyn i'w erbyn, oedd ei fyrdra." Bu ymddangosiad y "Ceinion" yn foddion i ddwyn "Gwenffrwd" i sylw, ac enill iddo gyfeilgarwch dynion mwyaf cyhoeddus y cyfnod, megys y Dr. Puw, yr Archddiacon Benyon, ac ereill. Un o destynau Eisteddfod Freninol Beaumaris, 1832, oedd Marwnad i'r Parch. John Jenkins, (Ifor Ceri). Gwenffrwd oedd enillydd yr ariandlws; a chafodd yr anrhydedd uchel o dderbyn ei wobr o law y Dywysoges Victoria, yn awr Brenhines Prydain Fawr. Fel y mwyafrif o wir feibion athrylith, cawn mai adfydus iawn fu tynged dymmorol ein bardd ieuanc. Er pob ymgais, methodd a chael galwedigaeth gydweddol â'i chwaeth, a chymesur â'i deilyngdod â'i alluoedd, yn ngwlad ei enedigaeth. O herwydd hyn, efe a symudodd i Lerpwl, lle y bu yn gwasanaethu am beth amser, mewn swyddfa marsiandwr. Fel y gallesid dysgwyl, nid oedd ffurfioldeb sychllyd lle felly drachefn, yn gydfynedol â chwaeth a thueddfryd dyn o gynneddfau mor awenyddol; ac o herwydd hyn, cawn ef, ar ddechreu y flwyddyn 1834, yn croesi y Werydd, i dir America. Yn Spring Hill, o fewn ychydig filldiroedd i Mobile, efe a ymsefydlodd fel ysgolfeistr, lle y cychwynodd yrfa nodedig o lwyddiannus, gan enill poblogrwydd mawr fel bardd, boneddwr, a swyddog. Ond byr fu yr amser a gafodd i fwynhau ei lwyddiant â'i ragolygon dysglaer, canys cyn pen wyth mis wedi ei laniad yn Myd eang y Gorllewin, torwyd ef i lawr mewn modd sydyn gan angeu, trwy weinidogaeth greulawn y dwymyn felen, (*yellow fever*). Ar yr unfed-dydd-ar-bymtheg o Awst, 1834, bu farw Gwenffrwd dalentog, yn yr oedran cynnar o bedair-blwydd-ar-hugain; ac fel y sylwa Mr. Isaac Foulkes, golygydd y *Geiradur Bywgraffiadol o Enwogion Cymru*, "claddwyd ef yn mynwent Mobile, a chyflawnwyd yn llythyrenol ei ddymuniad athrist yn Nghân y Bardd:—

"'Na cherfiwch un linell i adrodd fy hynt.'"

Ofnir i'r awenydd tyner dderbyn cryn lawer o gamwri ac esgeuldra yn ystod ei glefyd diweddaf, o herwydd sefyllfa anfoddhaol gwareiddiad Americanaidd ar y pryd. Methwyd a chael meddyg ato hyd nes yr oedd llymdoster y clefyd wedi dinystrio yr elfen fywydol i'r fath raddau, fel nad oedd obaith am ei hadferiad. Ychydig oriau cyn ei farw, clybu y Cymro enwog a chalon-gynes, Dr. Alexander Jones, am ei sefyllfa druenus a diamddiffyn; ac er nad oedd erioed wedi gweled y bardd, eto efe a brysurodd at erchwyn ei wely; ond yr oedd yn rhy ddiweddar i neb allu gwneyd dim amgen nag esmwytho ychydig ar lithriad olaf yr awenydd ieuanc i lawr glyn cysgod angau. Ysgrifenodd Dr. Jones gofnod teimladwy o'r amgylchiad pruddaidd, i'r *Drych a'r Gwyliedydd* am Ebrill, 1855, yn mha un y dywed, i feddygon y lle, naill ai o herwydd ymddangosiad tlawd y bardd, neu ynte o herwydd amledd galwadau ereill, ac addewidion blaenorol, beidio ymweled âg ef, hyd nes yr ydoedd yn rhy ddiweddar. Dywed Mr. Jones yn mhellach, ei fod yntau ei hun ar y pryd mewn amgylchiadau cyfyng; ond er y cwbl, pan glybu fod cydwladwr yn y fath berygl, efe a benderfynodd gyflogi gwasanaeth march, o'i brinder, a phrysurodd trwy drymder tywyllwch y nos, at erchwyn gwely y bardd. Terfynai y meddyg dyngarol ei nodiadau tyner yn y geiriau canlynol:—"Yr oedd efe ar y pryd, wedi colli arno ei hun—ei synwyrau gwerthfawr wedi canu yn iach i'r corff, ac yntau wedi pellhau gormod oddiwrth fyd o amser, a chyrhaedd yn rhy agos i fyd yr ysbrydoedd, fel nad oedd yr un sail i obeithio yr adferid ef byth mwy. Yn mhen ychydig oriau wedi i mi gyrhaedd y lle, bu farw! Teimlwn yn ofidus a galarus iawn o herwydd ei farwolaeth, er nad oeddwn yr amser hwnw, yn gydnabyddus o'i wir gymeriad. Yr oedd noswaith ei farwolaeth yn un brudd-dywell a chaddugol—y ffurfafen wedi ei gordoi â chymylau duon—y gwynt tymhestlog yn rhuo o begwn i begwn, yr hylif trydanol yn ymsaethu rhwng daear a nen, a'r taranau yn cynhyrfu holl anian, tra yr oedd edmygedd difrifddwys yr olygfa yn mwyhau, wrth edrych ar gorff amdoedig y bardd Cymreig yn gorwedd ar ei hyd mewn ystafell agored!"

Dyna hanes trymllyd mynydau diweddaf yr athrylithgar Gwenffrwd. Er marw yn anterth ei lwyddiant llenyddol, pan oedd enwogrwydd yn prysuro i'w anrhegu â'i llawryfon a'i garlantau gwerthfawrocaf, a gyrfa o lwyddiant a llawnder daearol yn ymagor o'i flaen, eto mewn gwlad estronol a di gyfeillion y cafodd fedd; ond y mae yn gysur meddwl i'r Cymro calon dyner Dr. Jones, gyrhaedd mewn pryd i gau yr amrantau tyner hyny o dan ba rai y pelydrai yr athrylith danbaid ag y bydd ei ffrwyth byth yn wrthddrychau edmygedd tra y pareblir Cymraeg yn Eryri. Yn ystod yr wyth mis y bu yn America, efe a gyfansoddodd lawer o farddoniaeth Seisnig, i wahanol gyhoeddiadau y wlad hono; ac wrth gofnodi ei farwolaeth, tala y *Mobile Advertiser* y deyrnged uchaf i'w alluoedd rhyfeddol. Ystyrir ei gyfansoddiad diweddaf, sef *The Mocking Bird*, yr hon a ysgrifenodd yn y fynwent lle y gorwedd ei weddillion, yn un o'r darnau mwyaf tarawiadol a phoblogaidd yn yr iaith Seisnig. Tangnefedd i lwch y Cymro ieuanc athrylithfawr hwn, tra yn huno yn mhriddell gwlad estronol.

**JONES**, Syr William, ydoedd gyfreithiwr enwog; yr oedd yn fab hynaf ac etifedd William Jones, Ysw., o Castellmarch, yn sir Gaernarfon, lle y ganwyd ef, yn 1566. Ei fam ydoedd Margaret, merch Hwmphrai Wynn ab Meredydd, Ysw., o Cesailgyfarch. Y mae Wood wedi cam ddywedyd wrth fynegi ei fod wedi cael ei addysgiaeth yn ysgol rad Beaumaris, yn ol tystiolaeth Williams, yn ei "Eminent Welshmen;" o blegid yr oedd ef yn gyfreithiwr enwog, pan yr oedd yr ysgol honno yn cael ei chodi, yn 1603; a thrwy ei gyngor ef yr ymgymerodd y syl-

Digitized by Google

faenydd a'r amcan haelfrydig, ac yr oedd Syr William Jones yn un o ymddiriedolwyr cyntaf yr ysgol, drwy benodiad y sylfaenydd ei hun. Pan yr oedd ef yn bedair-ar-ddeg oed, dodwyd ef yn St. Edmund's Hall yn Rhydychain, lle y parhaodd am bum mlynedd, ond heb gymeryd yr un urdd-radd; efe a symudodd wedi hyny i Lundain, lle y derbyniwyd ef i Lincoln's Inn, ond cyn iddo ddyfod i gyfaneddu yno, treuliodd ddwy flynedd yn Furnival's Inn, yn ol trefniadau yr amser hwnw. Wedi bod yn ddadleuwr o enwogrwydd am rai blyneddau, daeth yn ddarllenydd Lent yn Lincoln's Inn, yn 1616; daeth yn "Sergeant-at-law," yn y flwyddyn ddylynol; ac yn farchog, er ei gymhwyso i fod yn Brif Farnwr Iwerddon, yr hon swydd a ddaliodd efe am dair blynedd, ac yna a'i gadawodd yn ol ei ddewisiad ei hun. Yn 1622, gwnaed ef yn un o farnwyr y "Common Pleas," ac yn 1625, symudwyd ef i'r King's Bench, lle yr arosodd hyd ei farwolaeth. Pan yr oedd yn un ar hugain oed, priododd â Margaret, merch henaf Gryffydd John Gryffydd, Ysw., o Cefn amwlch; teulu enwog o'i wlad ei hun, a bu fyw yn hir ar ei hol; ac efe a briododd wedi hyny â Catherine, gweddw Dr. Hovenden, llywydd coleg All Saints, Rhydychain. Gadawodd deulu lluosog ar ei ol o'r wraig gyntaf, ond y mae y llinach mewn meibion, wedi darfod, a'r etifeddiaeth wedi disgyn i'r rhyw fenywaidd. Dylid coffa, i Charles Jones, ei ail fab, fod yn ddarllenydd Lent, yn Lincoln's Inn, yn 1640, pan y cafodd dalu iddo yr anrhydedd hwn, o fod ei dad, yr hwn oedd y pryd hwnw yn farnwr, yn dadleu ei achos. Ysgrifenodd a chynullodd Syr William Jones adroddiadau yn cynwys yr achosion o'r hynodrwydd mwyaf, a ddygwyddasant yn y "Common Pleas," neu yn y "King's Bench," yn ysdod yr amser y bu efe yn farnwr yn y llysoedd hyny. Cyhoeddwyd y rhai hyn mewn cyfrol unplyg yn Llundain, yn 1675.

**JONES**, William, sylfaenydd y Bedyddwyr yn ngorllewin-barth Cymru, ydoedd un o gewri enwocaf yr 17eg ganrif. Nid oes dim o'i hanes boreuol yn adnabyddus; ond dywedir mai Presbyteriad ydoedd yn nechreu ei fywyd crefyddol, ac fel y cyfryw, cafodd ei osod i mewn yn weinidog eglwys blwyfol Cilmaenllwyd, swydd Gaerfyrddin, yn 1655, o dan y Weithred er lledaeniad yr Efengyl yn Nghymru, a chafodd ei fwrw allan yn un o'r "Ddwy Fil," yn 1662. Dywed Calamy, i William Jones gael ei droi allan o le a eilw efe *Llangellbithen*, swydd Gaerfyrddin; ond nid oes lle o'r enw hwnw mewn bod. Peth cyffredin iawn yw i'r Saeson gam enwi lleoedd yn Nghymru. Ond mae yn ddiau mai o eglwys Cilmaenllwyd, ar derfyn gorllewinol swydd Gaerfyrddin, y bwriwyd ef allan; ac yn y gymydogaeth hono y treuliodd efe ei oes. Wedi iddo gael ei droi allan, pregethai yn mhob man ag y cai wrandawyr, a hyny ar hyd y nos, ac yn y lleoedd mwyaf dirgel; ond o'r diwedd, daliwyd ef, a chafodd ei daflu at y llu mawr, oedd, oblegyd eu crefydd, eisioes yn dihoeni yn nghastell Caerfyrddin. Cafodd ei gadw yn y carchar am tua thair blynedd; ac yn y cyfamser, trwy ryw foddion anhysbys yn bresenol, efe a gafodd ei lwyr argyhoeddi mai bedydd y crediniol trwy drochiad, oedd bedydd yr Efengyl. Cadwodd ei argyhoeddiad iddo ei hun, hyd oni ddaeth amser ei ryddhad; yna, gan bod eglwys y Bedyddwyr yn Nyffryn Olchon, ar gyffiniau swydd Henffordd, yn cael ei hystyried yr eglwys fwyaf rheolaidd yn Nghymru, aeth i fyny yno, er ymateb cydwybod dda tuag at Dduw, a bedyddiwyd ef gan y Gweinidog.

Wedi dychwelyd, efe a hysbysodd ei gyfeillion crefyddol o'r hyn a wnaethai, yn nghyda'r rhesymau a'i hanogasent i hyny; ac o fewn tair wythnos, efe a gafodd yr hyfrydwch o fedyddio un ar ddeg o'i gyfeillion, y cyntaf o ba rai oedd Griffith Howell, Rushacre, yr hwn yn ei ewyllys a roddodd "Ardd Gladdu" Trefangor, yn feddiant tragwyddol i'r Bedyddwyr, am yr hon y cymerodd y cyngaws cyfreithiol nodedig le ar achlysur claddedigaeth David Griffiths, Accrington.

Yn ol Llyfr Eglwys Rhydwilym, cymerodd y bedydd uchod le yn mhlwyf Narberth, swydd Benfro, ar y 4ydd, a'r 25ain, o Mehefin, 1667; a nodir hefyd bod yr un ar ddeg a fedyddiwyd, yn dyfod o naw o wahanol blwyfi. Ar y 15fed o Orphenaf yn yr un flwyddyn, efe a fedyddiodd wyth eraill, yn swydd Aberteifi; ac yn mhen ychydig fisoedd, efe a fedyddiodd, ar ddwy waith, ddeg yn ychwaneg. Erbyn hyn yr oedd y dysgyblion yn ddeg ar hugain, ac ar y 12fed o Mai, 1668, corpholwyd hwynt, yn nghyda dwy chwaer o Gilfowyr, y rhai oeddynt wedi eu bedyddio yn flaenorol, yn eglwys o Fedyddwyr Neillduol, trwy weddi ac arddodiad dwylaw, gan William Prichard, a Thomas Watkins, henuriad a diacon, ag oeddynt wedi cael eu hanfon yno i'r perwyl hwnw, gan yr eglwys yn y Fenni, Olchon, a'r Gelli.

Dywedai Henry Maurice yn 1675, bod yr eglwys hon yn cyfarfod mewn lle a elwir Llanfair, ar gyffiniau swydd Benfro, weithiau yn swydd Aberteifi, ac weithiau yn agos i Narberth. Cynyddodd yr eglwys yn ddirfawr, er gwaethaf yr erlidigaethau, fel erbyn iddi ddyfod allan o'r cystudd mawr, yn 1689, yr oedd yn rhifo 113 o aelodau, a'r rhai hyny yn wasgaredig dros agos i ddeugain o blwyfi; 59 yn swydd Benfro, 35 yn swydd Gaerfyrddin, a 19 yn swydd Aberteifi. Yn mhlith y rhai hyn yr oedd 11 yn weinidogion; rhai o honynt wedi llafurio am amser hir, a dyoddef llawer, ac eraill newydd ddechreu: eu henwau oedd William Jones, Griffith Howell, George Jones, James James, Thomas David Rees, Thomas Griffiths, Evan David, John Jenkins, Richard Williams, John David, a Samuel Jones; y rhai oeddynt oll yn weinidogion o nôd, a threuliasant yn dda hyd y diwedd.

Gelwid yr eglwys hon yn y dyddiau hyny, Y College, a hyny, mae yn debyg, am ei fod yn cynnyrchu y fath lu o weinidogion; oblegyd nid ydym yn gwybod bod yno unrhyw fath o sefydliad athrofaol wedi bod erioed. Yn mhen amser, ymwasgarodd yr eglwys dros swyddi Caerfyrddin, Penfro, ac Aberteifi, gan estyn ei rhaffau, a sicrhau ei hoelion; ond yn y flwyddyn 1701, ymsefydlodd y fam eglwys mewn tŷ cyfarfod a adeiladodd John Evans, o Lwyndwr, ar ei dir ei hun, ac ar ei draul ei hun, yr hwn a alwyd yn Rhydwilym, ar enw y Rhyd yn yr afon sydd yn rhedeg heibio. Dyma yr ail dŷ cwrdd yn Nghymru, yn mhlith y Bedyddwyr, a'r unig un a adeiladodd un gwr ar ei draul ei hun. Ymddengys oddiwrth Lyfr Eglwys Rhydwilym, mai yn Eglwysfair yr oedd William Jones yn byw, ac mai enw ei wraig oedd Catherine, yr hon a fedyddiodd efe yn un o saith, ar y 5ed dydd o Ebrill, 1668. Yr oedd William Jones yn un o chwech dros Gymru, yn bresenol yn Nghymanfa, Llundain, yr hon a gynaliwyd, Medi, 1689, pryd y tynwyd allan Gyffes

Digitized by Google

Ffydd y Bedyddwyr, yn nghyda rhestr o eglwysi a gweinidogion yr enwad, yn Lloegr a Chymru, y rhai sydd i'w gweled yn llawn yn y *Baptist Register, Supplement*, vol. iv.

Mae ei enw hefyd fel gweinidog yr eglwys yn swydd Benfro, i'w weled yn y *Narrative of the General Assembly in London*, 1692; ond nid oes genym grybwylliad am dano ar ol hyny. Tybir iddo orphen ei lafur tua'r flwyddyn 1700.

Dywedir ei fod yn wr hardd, o ymddygiad boneddigaidd, o dymer addfwyn, caredig, ac enillgar iawn, heb ewyllysio tramgwyddo neb, os gallai beidio a gadw cydwybod rydd. Er yn naturiol o duedd laith a phryderus, eto pan ddechreuodd yr erlidigaethau arno, trodd allan yn lew, calonog, a hyf. Mynai y mawrion iddo gydymffurfio ag Eglwys Loegr, gan addaw iddo unwaith fywioliaeth gwerth saith ugain punt yn y flwyddyn, yr hyn oedd yn swm mawr yn Nghymru yn yr amser hwnw; ond efe a ddewisodd gadw cydwybod dda tuag at Dduw, er myned o hono trwy lawer o galedi, erlidigaethau a charcharau, am wneyd hyny. Ond er ei annghydffurfiaeth, yr oedd mewn parch mawr gan oreugwyr y wlad, fel y dengys yr engraifft ganlynol. Pan oedd unwaith wedi cael ei gymeryd yn swydd Benfro, ac yn cael ei ddwyn i garchar Hwlffordd, yr oedd cynnifer o foneddigion y dref a'r ardal yn ei adnabod, yn ei barchu, ac yn ei wahodd i'w tai, fel y mawr waradwyddwyd ei erlidwyr. Bu yno mewn dalfa dros ryw amser. Cyn dyfod i'r carchar, yr oedd wedi addaw bod yn pregethu mewn rhyw fan ar ddiwrnod penodol; a chan y tybiai nad oedd y bobl yn gwybod am ei garchariad, ac y byddent, felly, yn ei ddysgwyl yno, cafodd genad gan rai o foneddigion Hwlffordd, i fyned at ei gyhoeddiad, y rhai a wystlasant eu gair dros ei ddychweliad, a rhoddodd un o honynt iddo fenthyg ei gôt fawr, ei fotasau, ei yspardynau, a'i geffyl. Pan ddaeth i'r cwrdd, rhyfeddai y gwrandawyr ei weled yn y fath wisgiad; a phan ddeallasant yr amgylchiadau, llanwyd hwynt o lawenydd, a thristwch. Wedi gorphen yr addoliad, efe a ddychwelodd i'r carchar, yn ol ei addewid. Dengys hyn ddull y gwr, a'i ymarweddiad. Dylai ei enw, fel apostol y Bedyddwyr yn nwyrainbarth Cymru, fod yn beraidd am oesau i ddyfod.

**JONES,** William, oedd un o'r Gweinidogion a drowyd allan o'r Eglwys Sefydledig, sef allan o blwyf Dinbach, am na buasai yn ufuddhau i Ddeddf yr Unffurfiad, yn y flwyddyn 1662. Yr oedd y gwr da hwn yn enedigol o swydd Feirionydd, ac wedi bod yn gweinidogaethu am dymhor fel Capelwr yn Nghastell Dinbach; ond wedi cael ei ddewis ar ol hyny yn weinidog y plwyf. Ar ol ei fwrw allan o'r eglwys, efe a barhaodd i bregethu yn y dref, a'r wlad o amgylch, a hyny yn lled annghyoedd, rhag syrthio i ddwylaw y Swyddogion gwladol. Bu yn llafurio felly yn y gymmydogaeth hono hyd oni ddaeth "Deddf y pum milldir" i rym, pan ymneillduodd i'r Plas Teg, yn agos i'r Wyddgrug, at foneddwr crefyddol o'r enw Mr. Trefor, yr hwn a'i derbyniodd yn roesawus, ac a fu yn noddwr iddo tra fu byw; ac yn ei ewyllys, gadawodd ugain punt yn y flwyddyn iddo at ei gynhaliaeth. Wedi marwolaeth Mr. Trefor, symudodd Mr. Jones i'r Hope, neu Estyn, yn agos i Gaergwrle, lle y mae yn debyg y terfynodd ei oes, mewn oedran teg, tu a'r flwyddyn 1676. Yr oedd Mr. Jones yn wr o ymarweddiad hynod o dduwiol, yn efengylaidd ei olygiadau, yn bregethwr o ddoniau melus a hyfryd, ac yn ymdrechgar a ffyddlawn i wneyd daioni i'w gyd-ddynion, can belled ag y goddefid iddo yn yr amseroedd blinion hyny. Dywedir iddo oddef tri mis o garchariad unwaith, am ddarllen gair Duw, a gweddïo, mewn teulu parchus, ar gais gwr y tŷ. Yr ydoedd yn annghydffurfiwr cydwybodol; oblegid, pan gynnygiwyd bywioliaeth eglwysig iddo, ar yr ammod iddo gydymffurfio, a phan ei hannogid i hyny gan ei gyfeillion a'i briod, efe a ddywedai, "Gofala yr Arglwydd am fy ngwraig a'm plant; ond ni ddaw neb o honoch chwi i sefyll drosof fi yn y farn." Traddodwyd ei bregeth angladdol gan y Dr. Maurice o Abergeley, yr hwn er ei fod yn gydymffurfiwr ei hunan, a roddai ganmoliaeth fawr iddo.

**JONES,** William, ydoedd athronydd enwog, a anwyd yn mhlwyf Llanfihangel Tre'r-beirdd, yn Mon, tu a'r flwyddyn 1680. Ei dad, John George, ydoedd amaethwr bychan, ac a roddodd i'w fab yr addysg oreu a allasai ei sefyllfa ganiatau; yn cynwys darllen, ysgrifenu, rhifyddiaeth, a gramadeg Lladin. Fel yr oedd ganddo chwaeth anghyffredin at wyddoniaeth, trwy ymdrechion dyfal, a galluoedd meddwl cryf, efe a gyflawnodd ddiffygion ei addysgiaeth yn rhagorol, ac a osododd i lawr seiliau ei lwyddiant a'i enwogrwydd yn ol llaw. Dechreuodd ei lafur fel addysgwr gwyddoniaeth, ar fwrdd cadlong, ag yma y cafodd gyfeillach âg Arglwydd Anson. Yn ei eilfed flwyddyn ar hugain, efe a gyhoeddodd ei "New Compendium of the whole Art of Navigation," wyth plyg, yr hwn a dderbyniwyd gyda chymeradwyaeth mawr. Yr oedd ef yn bresenol pan gymerwyd Vigo, yn yr un flwyddyn; ac wedi dychweliad y llynges i Loegr, efe a ymsefydlodd yn ddioed fel addysgwr gwyddoniaeth yn Llundain. Yn 1706, efe a gyhoeddodd ei "Synopsis Palmariorum Matheseos, or New Introduction to the Mathematics," yn cynwys crynodeb eglur a defnyddiol o'r holl wyddorau gwyddonawl; yr hyn a brofa yn ddiamheuol ei fedrusrwydd yn yr efrydiaeth ddyrus hon. Ardderchawgrwydd ei nodwedd personol, a'i foesgarwch llednais a boddhaol, a sicrhai ymlyniad llawer o gyfeillion dylanwadol wrtho. Yn mhlith y rhai a'i hanrhydeddent ef a'u parch, yr oedd yr enwog Arglwydd Hardwicke, i'r hwn y bu yn gydymaith trwy ei gylch, pan yn brif ynad, a'r hwn ar ol hyny, a'i penododd ef i'r swydd o gofiadur heddwch. Efe hefyd a gafodd gyfeillach âg Arglwydd Parker, wedi hyny llywydd y gymdeithas freiniol; ac yn mhlith enwogion eraill mewn gwyddor a llenyddiaeth, gellid crybwyll Syr Isaac Newton, Halley, Mead, a Dr. Johnson, fel cyfeillion mynwesol i Mr. Jones. Ymddygai Syr Isaac Newton tu ag ato gyda pharch ac ymddiried neillduol; a phan syrthiodd i'w law, yn mysg rhyw bapyrau o eiddo Collins, draethodyn o waith Newton, dan yr enw, "Analysis per Quantitatum Series, Fluxiones, ac Differencias," &c.; gyda chydsyniad a chymorth y gwr mawr hwnw, efe a'i gweithiodd allan i'r byd, mewn cysylltiad a darnau eraill ar bynciau dadansoddol, yn bedwar plyg,—1711. Etholwyd ef yn aelod o'r Gymdeithas freiniol, ac wedi hyny yn rhaglywydd arni. Wedi i arglwydd Macclesfield ymddeol o gastell Sherbourne, bu Mr. Jones yn aros gydag ef, yn byw megis aelod o'r teulu, ac yn ei addysgu yn y gwyddorau. Tra yr oedd yn y safle hon, fe ddaeth i'w ran, trwy ddylanwad ei arglwyddiaeth, lawer o fanteision. Yma hefyd yr ymbriododd yn dra

Digitized by Google

ffodus; a thrwy y cysylltiad hwnw, cafodd ddau o blant; yr ieuengaf o honynt oedd Syr William Jones, yr ysgolor dwyreiniol enwog. Ni bu fyw ond tair blynedd wedi genedigaeth y mab hwn; bu farw o anhwyldeb y galon, Gorphenaf, 1749. Dywedir fod ganddo y llyfrgell wyddonol benaf yn y deyrnas, yr hon, yn ol ei ewyllys, a aeth yn eiddo Iarll Macclesfield.

**JONES**, William Ellis, a adwaenid yn gyffredin wrth yr enw *Gwilym Cawrdaf*, ydoedd fardd o alluoedd uwchlaw y cyffredin. Ganwyd ef yn mhlwyf Abererch, yn sir Gaernarfon. Argraphydd ydoedd wrth ei gelfyddyd, ond yr oedd wedi astudio darluniadaeth yn helaeth iawn, a bu ar daith unwaith gyda boneddwr yn Ffrainge, fel bras-linellydd. Enillodd y Gadair Farddol yn Eisteddfod Aberhonddu, yn 1822; ac y mae ei weithiau barddonol wedi eu cyhoeddi mewn cyfrol ar wahan. Bu farw yn Nghaerfyrddin, Mawrth 28, 1848, yn 52 mlwydd oed, a chladdwyd ef yn mynwent St. Pedr. Ystyrir ei ddarluniadau barddonol o Hiraeth Cymro am ei wlad, yn waith gorchestol, llawn teimlad ac awenydd arddunol, ag sydd mewn bri mawr gan ddarllenwyr o bob gradd.

**JOSEPH**, ydoedd esgob yn Llandaf, yr hwn a ymenwogodd fel diwygiwr pob camwri oedd o fewn terfynau ei esgobaeth. Cysegrwyd ef i'w swydd, Hydref 1, 1022. Yn 1030, efe a roddodd allan orchymyn ar fod pob math o orchwylion bydol ar y sabbathau a'r dyddiau gwyl gael eu hatal; a chyfarwyddodd yn offeiriaid i ddysgu darllen yr ysgrythyrau i'r bobl, heb dâl na gwobr, gan eu gwahardd rhag pob gwag ddadleuon. Y mae yr hanesydd, Caradog o Lancarfan, yr hwn a'i geilw yn esgob hynod o ddoeth, duwiol, a dysgedig, yn dynodi ei farwolaeth yn 1043, tra y mae Goodwin yn dywedyd iddo farw yn Augusta, pan yr ydoedd ar daith i Rufain, yn y flwyddyn 1046.

# K.

**KEBBY**, sydd afonig yn Sir Fynwy; yn ymarllwys i'r Wysg, gerllaw Abergafeni. Y mae yn debyg mai Cybi oedd y sillebiad gwreiddiol arni.

**KELSTERTON**, neu Celstyn, sydd drefgordd yn mhlwyf Llaneurgain, yn sir Fflint; tair milltir a chwarter yn ddeheuol o Fflint. Poblogaeth, 107. Tai, 22.

**KENRICK**, Edward, oedd weinidog perthynol i'r Annibynwyr, yn sir Feirionydd. Ar ol marwolaeth Mr. John Owen, yn 1700, Mr. Kenrick, yr hwn oedd wedi priodi un o'i chwiorydd, ac oedd hefyd wedi cael etifeddiaeth Bronclydwr, fel gwaddol ei wraig, a gymerodd ofal gweinidogaethol y cynulleidfaoedd hyny yn sir Feirionydd, ag yr oedd ei dad-yn-nghyfraith, y Parch. Huw Owen wedi gasglu yn Bronclydwr, Dolgellau, Bala, &c., Urddwyd ef Awst 17eg, 1702, gan Mr. James Owen, Matthew Henry, ac eraill. Er fod Mr. Kenrick yn ddyn da iawn, nid yw yn ymddangos iddo fod yn weinidog mor llwyddianus a chymeradwy a'i ragflaenwyr ardderchog; pa fodd bynag, rai blyneddau cyn ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le yn 1742, wedi bod ddeugain mlynedd yn y weinidogaeth, cafodd yr hyfrydwch o weled yr achos yn adfywio, a llawer yn cael eu hychwanegu at yr eglwysi; yn benaf trwy weinidogaeth Mri. Lewis Rees, a J. Morgan, yn nghyd a diwygwyr eraill o Ddeheudir Cymru.

**KENYON**, Lloyd (Arglwydd), ydoedd ail fab Lloyd Kenyon, Ysw. Ganwyd ef yn Gredington, yn swydd Fflint, ar y pumed o Hydref, 1732. Yr oedd ei dad yn byw yn annibynol, fel boneddwr o'r wlad, ac yr oedd yn ynad yn ei gartref genedigol. Pan yr oedd yn ieuangc, anfonwyd ef i ysgol ramadegol Ruthin, lle yr arosodd hyd nes yr oedd yn bymtheg oed, pan y rhwymwyd ef yn wyddorwas gyda Mr. Tomkinson, cyfreithwr enwog o Nantwich, lle yr arhosodd am rai blyneddau. Ar farwolaeth ei frawd henaf, penderfynwyd ar iddo astudio ar gyfer bod yn far-gyfreithiwr, ac yn 1754, cymerodd ei le yn y *Temple*, a daeth yn aelod o *Lincoln's Inn.* Galwyd ef i'r bar yn 1761, ond o herwydd na feddai gysylltiadau proffesol, a'i fod o gymeriad rhy anrhydeddus ac annibynol i ymostwng i arfer dichellion isel, bu am flyneddau cyn dyfod i sylw ac ymarferiad. Eto efe a barhaodd i lafurio yn ddi orphwys, gan ymddangos yn fynych yn llysoedd y gyfraith gyffredin, ac yn llys uniondeb; ond yn yr olaf yn benaf. Yr oedd ei fedrusrwydd yn y naill lys a'r llall, nid yn unig yn helaeth, ond yn gywir hefyd, fel yr oedd yn raddol wedi enill iddo ei hun yr enw o fod yn gyfreithiwr cadarn, ac yn ddiogel yn ei alluoedd i dynu allan weithredoedd a chyflwyniadau. Yn 1773, priododd a'i gyfnither Mary, trydedd ferch George Kenyon, Ysw., o Peel, yn Lancashire; ac yn y cyfamser, enillodd sylw Thurlow, a ddaeth wedi hyny yn Arglwydd Gangellydd. Yn 1780, efe a hynododd ei hun drwy ei amddiffyniad o Arglwydd George Gordon, ac yn 1782, dyrchafwyd ef i swydd cyfreithiwr cyffredinol, ac yn brif ynad Caerlleon-Gawr. Bu ddwywaith yn Gyfreithiwr Cyffredinol; y tro cyntaf, pan adawai y swydd, ar enciliad Iarll Shelburne, a Mr. Pitt, yn 1782, ar wrthdarawiad arglwydd North, a Mr. Fox. Gwnaed ei ail benodiad ar ddychweliad Mr. Pitt i'w swydd fel prif weinidog yn 1783, ond ni chadwodd mor swydd ond am amser byr, o blegid fod ei iechyd wedi teimlo oddiwrth bwys ei lafur cyfreithiol, a seneddol. Yn 1784, penodwyd ef yn *Master of the Rolls*, a chrewyd ef yn farwnig; ond yr oedd elw y swyddi uchel hyn, yn llawer llai na'r hyn a gollodd wrth roddi i fynu ei ymarferiad fel dadleuwr. Yn Mai, 1788, efe a olynodd arglwydd Mansfield, fel prif-farnwr yn y *King's Bench*, a dyrchafwyd ef i'r bendefigaeth dan y titl o Arglwydd Kenyon, barwn Gredington. Efe a benodwyd yn un o'r Cyngor i gynorthwyo y frenhines Charlotte, i ofalu am berson y brenhin, ac yn 1796, efe a wnaed yn "*Custos Rotulorum*," ac arglwydd raglaw ei wlad enedigol. Parhaodd i arfer ei ddyledswyddau fel barnwr, a chymeryd rhan yn mhrif bynciau gwleidyddol y dyddiau hyny, gan bleidleisio yn wastadol gyda y Toriaid o hyny hyd ei farwolaeth, yr hyn a gymerodd le ar yr ail o

Digitized by Google

Ebrill, 1802, yn ei ddegfed flwyddyn a thriugain oed. Claddwyd ef yn meddrod y teulu yn Hanmer, yn swydd Fflint, a dywed y cerfiad ar ei fedd-adail yn ddigon priodol, "iddo adael ar ei ol enw, at yr hwn yr edrycha ei deulu i fynu gyda serch a balchedd gonest, a'r hyn a adgofia ei wlad gyda diolchgarwch ac edmygedd, cyhyd ag y parhaont i fawrygu egwyddorion mawrion ac unedig, crefydd, cyfraith, a threfn gymdeithasol."

**KINNERTON**, sydd drefgordd, mewn cysylltiad â Salford a Badland, yn mhlwyf Hen Faesyfed, sir Faesyfed, 3¼ milltir yn ogledd-ddwyreiniol o Faesyfed. Gwerth ardrethol, 2554*p*. Poblogaeth, 193. Tai, 46. Y mae yn ffurfio capeloriaeth, gysylltedig â ficeriaeth Hen Faesyfed, yn esgobaeth Henffordd.

**KINNERTON** (Uwchaf), sydd drefgordd yn mhlwyf Doddleston, yn sir Fflint, ar derfyn Caerlleon, 4 milltir de orllewin wrth orll. o Gaerlleon. Y mae yn cynwys Pentrefi Kinnerton Bridge, Kinnerton Green, Waters Green, a Babylon. Erwau, 1817. Gwerth ardrethol, 2674*p*. Poblogaeth, 411. Tai, 87. Y prif balas yma ydyw Kinnerton Bridge Hall; ar ymylon ffrwd ag sydd yn gwahanu Lloegr oddiwrth Gymru.

**KNELSTON**, neu Knolleston, sydd blwyf yn nosparth Abertawe, sir Forganwg, yn agos i'r mordraeth, yn ngorynys Gower, 14 milltir gogledd de ogledd o orsaf rheilffordd Abertawe. Llythyrfa, yn Abertawe. Y mae y fywiolaeth yn ficeriaeth yn esgobaeth Ty Ddewi. Erwau, 537. Gwerth ardrethol, 502*p*. Poblogaeth, 113. Tai, 23. Nid yw gwerth y fywioliaeth wedi ei gyhoeddi. Noddwyr, Deon a Chapelydd Ty-Ddewi. Y mae yr eglwys yn adfeiliau ar hyn o bryd.

**KNIGHTON**, sydd dref fechan, plwyf, ad-ddosparth, dosparth, a chantref, yn sir Faesyfed. Y mae y dref yn sefyll ar Glawdd Offa, yr afon Teme, a rheilffordd Canolbarth Cymru, ar derfyn Amwythig, 10 milltir gogledd ogledd ddwyrain o Faesyfed. Gelwid y dref gynt, Tref y Clawdd, yn arwyddo, y y dref ar y clawdd: yr oedd iddi gastell y pryd hwnw, er nad oes dim o'i olion yn awr ar gael; y mae yma hen balas, a feddienid unwaith gan y teulu "Bridge;" ac y mae yma hen balas arall o amser Iago I.; y mae y dref yn sefyll ar godiad tir, ar ochr ddeheuol y Teme, ac yn cynwys dwy heol dda, yn croesi eu gilydd mewn onglau cyson; yn llethrol ar bob ochr, ac yn arddangos adeiladaeth dda a threfnus. Y mae yma islysoedd gwladol, a lle pleidleisio; a phrif Lythyrfa, gorsaf rheilffordd, ariandy, gwestdy, eglwys, ysgol gyhoeddus, elusendy, gweithdy, a gwaddol o 5*p*. Y mae yma farchnad wythnosol ar ddyddiau Iau; a ffeiriau yn cael eu cynal ar Iau o flaen y Pasg, Mai 17, Hydref 2, Iau diweddaf yn Hydref, a'r Iau cyn y deuddegfed o Tachwedd; ac y mae yma ychydig o weithydd mewn gwlan. Y mae y dref yn cael ei llywodraethu gan lywydd, bwrdeisiaid, a hedd geidwaid; ac y mae yn uno â Maesyfed newydd, Cefnllys, Cnwc-glas, Presteigne, a Rhaiadr, yn anfoniad aelod i'r senedd. Y mae ei mesuriad tua milltir ysgwar, a'r cyfan o fewn plwyf Knighton. Poblogaeth yn 1851, 1388, ac yn 1861, 1665. Tai, 293. Y mae olion cadwyn o amddiffynfeydd, ar linell ffos Offa, am filltiroedd uwchlaw ac islaw y dref; ac y mae gweddillion hynod i'w canfod yn Nghaer-Caradog, tu thair milltir ar y gogledd, ac yn Coxwall Knoll, tua phum milltir i'r dwyrain. Y mae y plwyf yn cynwys 2461 o erwau. Gwerth ardrethol, 3955*p*., o'r hyn y mae 30*p*. mewn gwaith nwy. Poblogaeth yn 1851, 1566; ac yn 1861, 1853*p*. Tai, 326. Tybir fod y cynydd yn y boblogaeth wedi codi drwy ffurfiad y rheilffyrdd. Perthyna y faenoriaeth i'r Goron. Y mae y fywoliaeth yn ficeriaeth yn esgobaeth Henffordd. Gwerth 155*p*., ac yn nawddogaeth Iarll Powys.

**KYFFIN**, Morris, ydoedd ail fab i Richard Kyffin, Ysw., Glasgoed, plwyf Llansilin, sir Ddinbych, lle yr ymsefydlodd y teulu dros amryw genedlaethau. Yn more ei oes efe a gyfieithodd yr "Andria of Terence," i'r Saisoneg; ac yn 1595, efe a gyhoeddodd ei gyfieithiad Cymreig o "Bishop Jewell's Apologia Ecclesiæ Anglicanæ;" y mae y gwaith hwn yn nodedig o ran purdeb a cheinder ei ieithwedd, ac ystyrir ef gan yr ysgolheigion goreu, megis cynllun perffaith i ysgrifenwyr Cymreig. Adgyhoeddwyd ef drachefn yn 1671, gan Charles Edwards, Rhydycroesau; ac wedi hyny yn 1808, gan y Parch. T. Charles, Bala. Yr oedd Mr. Kyffin hefyd yn fardd rhagorol; ac y mae amryw ddarnau o'i waith ar gael hyd heddyw. Ymddengys oddiwrth y rhagymadrodd i un o'i weithiau, fod ganddo fwriad i gyhoeddi cyfieithiad newydd Cymreig o'r Salmau ar Gân, ond yr hyn ni chyflawnwyd mo hono. Ni ellir yn awr sicrhau amser ei enedigaeth na'i farwolaeth.

TERFYN Y GYFROL GYNTAF.

GLASGOW: W. G. BLACKIE AND CO., PRINTERS, VILLAFIELD.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

89115478141
b89115478141a